Gopre Hall



# Y BEIBL CYSSEGR-LAN. SEF YR HEN DESTAMENT, A'R NEWYDD.

2. *Timoth.* 3. 14, 15.

Eithr aros di yn y pethau a ddyſcaiſt, ac a ymddyriedwyd i ti, gan wybod gan bwy y dyſcaiſt.
Ac i ti er yn fachgen wybod yr ſcrythur lân, yr hon ſydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth, trwy'r ffydd yr hon ſydd yng-Hriſt Ieſu.

*Imprinted at London by the Deputies of*
CHRISTOPHER BARKER,
Printer to the Queenes moſt excellent Maieſtie.

1588.

NATIONAL LIBRARY
OF WALES.
Col.....................
Acc. No. Col 16,832
Sh. No...................
Cat....................

# ILLVSTRISSIMAE, POTENTISSIMAE, SERENISSIMÆQVE PRINCIPI ELIZABETHAE, Dei gratia, Angliæ, Galliæ, & Hiberniæ Reginæ, fidei veræ, & Apoſtolicæ Propugnat.

*&c. Gratiam, & benedictionem in Domino ſempiternam.*

QVANTVM Deo optimo maximo Maieſtas veſtra debeat (Auguſtiſſima princeps) vt opes, potentiam, & admirabilem ingenij ac naturæ dotem taceam: nō ſolū gratia, qua apud plurimos pollet rariſsima, & eruditio, qua præ cæteris ornatur varia, & pax, qua præ vicinis fruitur alma, eiúſque nunquam ſatis admiranda protectio, qua & hoſtes nuper fugauit atroces, & multa ac magna pericula ſemper euaſit fæliciſsimè: verum etiam cū primis eximia illa pietas toto orbe celebrata, qua ipſe V. M. imbuit, & ornauit, nec non veræ religionis & propagandæ, & propugnandæ ſtudium propenſiſsimū quo ſemper flagraſtis, clariſsime atteſtantur. Nam (vt & gentes alias, & reliqua præclarè à vobis geſta, iam præteream) quàm piam curam veſtrorum Brytannorum habuit V. M. hoc vnum (quod ſacroſancti Dei verbi inſtrumenta vtraque, vetus ſcilicet & nouum) vnà cum illo libro, qui precum publicarum formam, & ſacramentorum adminiſtrandorum rationem præſcribit, in Britannicum ſermonem verti non modò benignè permiſerit, ſed ſummorum inclytiſsimi huius regni comitiorum authoritate ſolicitè ſanxiuerit) ſemper conteſtari valet. Quod idem noſtram ignauiam & ſegnitiem ſimul prodit, quod nec tam graui neceſsitate moueri, nec tam commoda lege cogi potuerimus, quin tam diu res tanti (quà maioris eſſe momenti nihil vnquam potuerit) intacta penè remanſerit. Nam illam liturgiam cum nouo Teſtamento duntaxat reuerendus ille pater Richardus piæ memoriæ Meneuenſis Epiſcopus (auxiliante Gulielmo Saleſburio, de noſtra Eccleſia viro optimè merito) annis abhinc viginti Brytannicè interpretatus eſt. Qua re quantum noſtratibus profuerit, facilè dici non poteſt. Nam præterquàm quod vulgus noſtrum quæ Brytannicè atque Anglicè ſcripta tunc erant inuicem comparantes, Anglici ſermonis nuper euaſerunt peritiores. Ad veritatem præterea tùm docendam, tùm diſcendam iſto labore conduxit plurimùm. Tum enim vix vnus & alter Brytannicè concionari valebant, quòd verba quibus Brytannicè explicanda erant quæ in Scripturis ſacris ſacra tractantur myſteria, vel Letheis quaſi aquis deleta prorſus euanuerant, vel deſuetudinis quodam quaſi cinere obducta atque ſepulta iacuerant, vt nec docentes quæ vellent ſatis apertè explicare, nec audientes quæ explicabantur ſatis fæliciter intelligere valerent. Scripturarum præterea quæ eſſent teſtimonia, quæve earundem explicationes, Scripturis minùs aſſueti dijudicare nequibant: adeò vt quum ad conciones conuolarent auidi, & ijſdem intereſſent ſeduli, incerti tamen, dubijque diſcedebant plerique, acſi theſaurum inueniſſent amplum, quem effodere non poterant, aut epulis interfuiſſent lautis, quibus veſci non daretur. Iam verò D.O.M. benignitate eximia, veſtráque cura egregia, & Præſulum ſolicitudine peruigili, huiúſque Interpretis labore & induſtria effectum eſt, vt & concionatores longè plures paratioréſque, & auditores magis dociles habeamus. Quæ vtraque vt pijs ſunt cordi: ita adhuc eorum voto neutrum vel mediocriter reſpondet. Quùm enim prius illud inſtrumentum alterius occultata prædictio, adumbrata figura, & indubius teſtis noſtratibus hactenus deſideretur. Quot (proh dolor) exempla latent? quot promiſsiones deliteſcunt? quot conſolationes occultantur? quot denique monitionibus, exhortationibus, dehortationibus, veritatíſque teſtimonijs inuitus caret populus noſter, quos V. M. regit, curat, & amat: quorum æterna ſalus Satanæ ſoli, eiúſque ſatellitibus inuiſa hactenus periclitata eſt plurimùm, quum viuat quiſque per fidem, fides verò ſit ex auditu, auditus etiam per verbum Dei, quod hucuſque ſermone peregrino deliteſcens noſtratibus parùm inſonuit. Quum igitur reliquarum Scripturarum interpretationem in linguam Brytannicam tam vtilem, imò tam neceſſariam eſſe viderem, (etſi & propriæ imbecillitatis, & ipſius rei magnitudinis, & quorundam ingeniorum κακοηθείας recordatio me diu deterruerit) piorum precibus acquieſcens, vt hoc opus grauiſsimum, moleſtiſsimum, nec non ingratiſsimum multis aggrederer, memet exorari paſſus ſum. Quod cùm vix aggreſſus eſſem, & rei difficultate, & impenſarum magnitudine preſſus, in limine (quod aiunt) ſuccubuiſſem, & ſolum Pentateuchum ad prelum perduxiſſem, niſi Reuerendiſsimus in Chriſto pater, Cantuarienſis Archiepiſcopus, literarum Mecænas optimus, veritatis propugnator acerrimus, & ordinis ac decori prudentiſsimus obſeruator (qui ex quo Brytannis ſub veſtra Maieſtate tam prudentiſsimè quàm iuſtiſsimè præfuit, noſtratium tum obedientiam tum acumen animaduertens, animo benigno eos poſteà proſequu-

*Iohannes Whitgift.*

tu

tus eſt: ſicuti & illi eius laudem ſemper decantant) vt progrederer effeciſſet, & adiuuiſſet, liberalitate, auctoritate, & conſilio. Cuius ad exemplum alij boni viri opem mihi maximam tulerunt. Quorum hortatu, induſtria, atque labore motus, fultus, & adiutus ſæpè, quum non modò vetus inſtrumentum totum interpretatus ſim, ſed nouum etiam inemendata quadam ſcribendi ratione (qua plurimùm ſcatebat) repurgauerim, cui eadem dicare fas, atque conſentaneum ſit, dubius hæſito. Quum vel meæ ipſius indignitatis ſummæ recordor, vel V. M. ſplendorem eximium intueor, vel ipſius Dei (cuius vices gerit) numen quoddam in eadem ſplendens animaduerto, ad tam ſacrum accedere fulgorem reformido. Contrà verò, rei ipſius dignitas (quæ ſuo quaſi iure veſtram tutelam vendicat) nouas mihi vires auget. Deinde, cùm alterum inſtrumentum Brytannicè impreſſum, tam æquo, benigno, & regio animo ſuſcipere dignabamini, huic alium venari patronum, & imprudentiæ, & iniuriæ, & ingratitudinis eſſe iudico. Sic etiam quæ inter ſe tantoperè cohęrent atque conueniunt, ſeiungenda non eſſe, quin quæ reuera eadem ſunt, eâdem quoque in Bibliotheca eorum reponantur exemplaria cenſeo. Quod idem vt veſtra cenſeat M. ſupplex rogo, & obteſtor, nec non ſummis precibus contendo animo benigno conatibus meis vt adſpiret, quippe qui veſtrarum legum authoritate nituntur, veſtri populi ſaluti inſeruiunt, & veſtri Dei gloriam ſpectant, quos etiam veſtri tum pro veritate tum in Brytannos ſtudij, monumentum perpetuum: Nec non Brytannorum erga V. M. amoris propenſiſsimi teſſeram fore confido. Siqui conſenſus retinendi gratia, noſtrates vt Anglicum ſermonem ediſcant adigendos eſſe potiùs, quàm Scripturas in noſtrum ſermonem vertendas eſſe volunt: dum vnitati ſtudent, ne veritati obſint cautiores eſſe velim, & dum concordiam promouent, ne religionem amoueant, magis eſſe ſolicitos opto. Quamuis enim eiuſdem inſulæ incolas eiuſdem ſermonis & loquelæ eſſe magnopere optandum ſit: æquè tamen perpendendum eſt, iſtud vt perficiatur tantum temporis & negotij peti, vt intereà Dei populum miſerima illius verbi fame interire, velle, aut pati nimis ſit ſæuum atque crudele. Deinde non dubium eſt, quin religionis quàm ſermonis ad vnitatem plus valeat ſimilitudo & conſenſus. Vnitatem præterea pietati, vtilitatem religioni, & externam quandam inter homines concordiam eximiæ illi paci quam Dei verbum humanis animis imprimit præferre, non ſatis pium eſt. Poſtremò, quàm non ſapiunt, ſi verbi diuini in materna lingua habendi prohibitionem, aliena vt ediſcatur quicquam mouere opinantur? Religio enim niſi vulgari lingua edoceatur, ignota latitabit. Eius verò rei quam quis ignorat, vſum, dulcedinem & pretium etiam neſcit, nec eius acquirendæ gratiâ quicquam laboris ſubibit. Quamobrem roganda eſt V. M.

vt

vt nullius rationis ſpecie impediatur (nec impedietur ſat ſcio)quin quos cœpit beare beneficijs,augere velit, quos vno inſtrumento ditauit,altero dignetur,quibus vnum veritatis vber præbuit, alterum concedat,& quod efficere ſtuduit,perficere conetur : nempe vt omnis veſter populus mirabilia Dei ſuo ſermone audiat,& omnis lingua laudet Deum. Cæleſtis ille pater, qui & imbecillitatem humanam,& fœmineum ſexum,& virgineam indolem tam heroicis virtutibus in V. M. ornaſſe dignoſcitur,vt & miſeris ſolamen, & hoſtibus terror, & mundi Phœnix eadem hactenus extiterit, propitius concedat,cæleſti ſpiritu ita regatur,diuinis donis adornetur, & alis Altiſsimi protegatur inpoſterum : vt longæua mater in Iſrael, pia Eccleſiæ nutrix, & ab hoſtibus ſemper tuta vitiorum hoſtis eadem permaneat, ad D. O. M. ſempiternam gloriam, cui omne imperium, honos, & laus in omne æuum. Amen.

*Sereniſſimæ Veſtræ Maieſtati*
*omni reuerentia*
*ſubditiſſimus,*

GVLIELMVS MORGANVS

# Nomina eorum qui præ cæteris hoc opus promouere conati ſunt.

*REuerendi patres Aſaphenſis & Bangorienſis epiſcopi libros quos petij mutuò conceſſere, & iſtud opus examinare perpendere, atq; approbare dignati ſunt.*

*Gabriel Goodman Weſtmonaſterienſis Decanus, vir re & nomine valde bonus, omniq; pietati deditiſſimus, quæ interpretatus fueram relegenti ita mihi adfuit aſſiduus, vt & labore & conſilio me plurimum adiuuerit, ſuorum librorum plurimos mihi dedit, reliquorum liberum conceſſit vſum: Atq; totum annum dum ſub prælo liber iſte erat (collegis humaniſſime aſſentientibus) hoſpitio me accepit, quam humanitatem a reuerendiſſimo Archiepiſcopo de quo prius in ipſa epiſtola memini benigniſſimè oblatam, vt repudiarem coegit Thameſis fluuius, illius domũ a prelo diuidens atq; ſeiungens.*

Sic opem tulerunt non contemnendam.

*Dauid Powelus ſacræ Theologiæ doctor.*
*Edmundus Priceus Archidiaconus Meirion.*
*Richardus Vachanus hoſpitij diui Iohannis quod eſt Literurthæ præfectus.*

# Henwau, a threfn llyfrau'r hen Deſtament, a'r newydd: a rhifedi pennodau pob llyfr, a'r ddalen lle y cair eu dechreu hwynt.

| | *Pennod.* | *Dalen.* | | *Pen.* | *Dalen.* | | *Pen.* | *Dalen.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Geneſis. | 50 | 1 | 2. Cronicl. | 36 | 176 | Daniel. | 12 | 327 |
| Exodus. | 40 | 23 | 1. Eſdras. | 10 | 191 | Oſea. | 14 | 334 |
| Lefiticus. | 27 | 41 | 2. Eſd. neu Nehẽ. | 13 | 195 | Ioel. | 3 | 337 |
| Numeri. | 36 | 54 | Eſther. | 10 | 202 | Amos. | 9 | 338 |
| Deuteronomium. | 34 | 72 | Iob. | 42 | 205 | Abdias. | 1 | 340 |
| Ioſuah. | 24 | 87 | Pſalmau. | 150 | 228 | Ionas. | 4 | 340 |
| Barn-wyr | 21 | 98 | Diharebion. | 31 | 246 | Micheas. | 7 | 341 |
| Ruth | 4 | 109 | Pregethwr. | 12 | 255 | Nahum. | 3 | 343 |
| 1. Samuel. | 31 | 111 | Caniadau Salomõ | 8 | 259 | Habacuc. | 3 | 344 |
| 2. Samuel. | 24 | 125 | Eſay. | 66 | 261 | Sophonia. | 3 | 345 |
| 1. Brenhinoedd. | 22 | 137 | Ieremi. | 52 | 281 | Aggeus. | 2 | 346 |
| 2. Brenhinoedd. | 25 | 151 | Galarnad Ieremi. | 5 | 304 | Zachari. | 14 | 346 |
| 1. Cronicl. | 29 | 164 | Ezeciel. | 48 | 305 | Malachi. | 4 | 350 |

## Y llyfrau Apocryphaidd.

| | *Pennod.* | *Dalen* | | *Pen.* | *Dalen.* | | *Pen.* | *Dalen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. Eſdras. | 9 | 352 | Doethineb. | 19 | 383 | Hyſtori Bel a'r ddraig. | 1 | 412 |
| 4. Eſdras. | 16 | 359 | Eccleſiaſticus. | 51 | 389 | 1. Machabæaid. | 16 | 413 |
| Tobias. | 14 | 370 | Baruch. | 6 | 406 | 2. Machabæaid. | 15 | 426 |
| Iudith. | 16 | 374 | Can y tri llangc. | 1 | 410 | | | |
| Y darn arall o yſr Eſther. | 6 | 381 | Hyſtori Suſanna. | 1 | 411 | | | |

## Llyfrau y Teſtament newydd.

| | *Pen.* | *Dalen.* | | *Pen.* | *Dalen.* | | *Pen.* | *Dalen.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mathew. | 28 | 440 | Epheſiaid. | 6 | 525 | Iaco. | 5 | 541 |
| Marc. | 16 | 454 | Philippiaid. | 4 | 527 | 1. Petr. | 5 | 542 |
| Luc. | 24 | 464 | Coloſſiaid. | 4 | 529 | 2. Petr. | 3 | 544 |
| Ioan. | 21 | 479 | 1. Theſſaloniaid. | 5 | 530 | 1. Ioan. | 5 | 545 |
| Gweithredoedd yr Apoſtolion. | 28 | 492 | 2. Theſſaloniaid. | 3 | 532 | 2. Ioan. | 1 | 547 |
| | | | Timotheus. | 6 | 532 | 3. Ioan. | 1 | 547 |
| At y Rhufeiniaid. | 16 | 507 | Timotheus. | 4 | 534 | Iud. | 1 | 547 |
| 1. Corinthiaid. | 16 | 514 | Titus. | 3 | 535 | Gweledigaeth Ioan. | 22 | 548 |
| 2. Corinthiaid. | 13 | 519 | Philemon. | 1 | 536 | | | |
| Galathiaid. | 6 | 523 | Hebræaid | 13 | 536 | | | |

## ¶ Ionawr ſydd iddo xxxj. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i.Llith. | ii.Llith. | i.Llith. | ii.Llith. |
| 1 | A | Enwaediad. | Gen.17. | Rhufe.ii. | Deut.x. | Coloſ.ii. |
| 2 | b | | Gen.i. | Mat.i. | Gen.ii. | Rhufe.i. |
| 3 | c | | iii | ii | iiii | ii |
| 4 | d | | v | iii | vi | iii |
| 5 | e | | vii | iiii | viii | iiii |
| 6 | f | Yſtwyll. | Eſai.lx. | Luk.iii. | Eſai.xlix. | John.2. |
| 7 | g | | Gen.ix. | Mat.v. | Gen.xii. | Rhufe.v. |
| 8 | A | Lucian. | xiii | vi | xiiii | vi |
| 9 | b | | xv | vii | xvi | vii |
| 10 | c | | xvii | viii | xviii | viii |
| 11 | d | | xix | ix | xx | ix |
| 12 | e | Sol in Aqua | xxi | x | xxii | x |
| 13 | f | Hyllarie. | xxiii | xi | xxiiii | xi |
| 14 | g | | xxv | xii | xxvi | xii |
| 15 | A | | xxvii | xiii | xxviii | xiii |
| 16 | b | | xxix | xiiii | xxx | xiiii |
| 17 | c | | xxxi | xv | xxxii | xv |
| 18 | d | Priſca. | xxxiii | xvi | xxxiiii | xvi |
| 19 | e | | xxxv | xvii | xxxvii | i.Cor.i. |
| 20 | f | Fabian. | xxxviii | xviii | xxxix | ii |
| 21 | g | Agnes. | xl | xix | xli | iii |
| 22 | A | Vincent. | xlii | xx | xliii | iiii |
| 23 | b | | xliiii | xxi | xlv | v |
| 24 | c | | xlvi | xxii | xlvii | vi |
| 25 | d | Troad ſ.Pa | doeth.v. | Act.xxii. | doeth.vi. | Act.xxvi. |
| 26 | e | | Ge.xlviii | Mat.xxiii | Gen.xlix. | i.Cor.vii. |
| 27 | f | | l | xxiiii | Exod.i. | viii |
| 28 | g | | Exod.ii. | xxv | iii | ix |
| 29 | A | | iiii | xxvi | v | x |
| 30 | b | | vii | xxvii | viii | xi |
| 1 | c | | ix | xxviii | x | xii |

## ¶ Chwefrol ſydd iddo xxviii. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i.Llith. | ii Llith. | i.Llith. | ii.Llith. |
| 2 | d | Vmpryt. | Exod.xi. | Marke. | Exod xii | i Co:.xi |
| 3 | e | Purific.Mar. | doeth.ix. | ii | doeth.xi | xiiii |
| 4 | f | Blaſii. | Exo.xiii. | iii | Exo.xiiii | xv |
| 5 | g | | xv | iiii | xvi | xvi |
| 6 | A | Agathe. | xvii | v | xv:ii | ii.Cor.i. |
| 7 | b | | xix | vi | xx | ii |
| 8 | c | | xxi | vii | xxii | iii |
| 9 | d | | xxiii | viii | xxiiii | iiii |
| 10 | e | | xxxii | ix | xxxiii | v |
| 11 | f | | xxxiiii | x | Leiſt.18 | vi |
| 12 | g | Sol.in Piſcib. | Lefit.xix | xi | xx | vii |
| 13 | A | | xxvi | xii | Num.xi. | viii |
| 14 | b | | Num.xii | xiii | xiii | ix |
| 15 | c | Valentine. | xiiii | xii i | xvi | x |
| 16 | d | | xvii | xv | xx | xi |
| 17 | e | | xxi | xvi | xx:i | xii |
| 18 | f | | xxiii | Luk.di.i. | xxiiii | xiii |
| 19 | g | | xxv | di.i. | xxvii | Galat.i |
| 20 | A | | xxx | ii | xxxi | ii |
| 21 | b | | xxxii | iii | xxxv | iii |
| 22 | c | | xxxvi | iiii | Deut.i. | iiii |
| 23 | d | | Dent.ii. | v | iii | v |
| 24 | e | Vmpryt. | iiii | vi | v | vi |
| 25 | f | S.Mathias. | doet.xix. | vii | Eccleſ.i. | Epheſ. |
| 26 | g | | Deut.vi | viii | Deut.vii | ii |
| 27 | A | | viii | ix | ix | iii |
| 28 | b | | x | x | xi | iiii |
| 29 | c | | xii | xi | xv | v |

## ¶ Mawrth ſydd iddo xxxi. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i.Llith. | ii.Llith. | i.Llith. | ii.Llith. |
| 30 | d | Dafid | Deut.xvi | Luke.xii. | Deut.17. | Eph.vi |
| 1 | e | Cedde. | xviii | xiii | xix | Phil.i. |
| 2 | f | | xx | xiiii | xxi | ii |
| 3 | g | | xxii | xv | xxiiii | iii |
| 4 | A | | xxv | xvi | xxvi | iiii |
| 5 | b | | xxvii | xvii | xxviii | Coloſ.i. |
| 6 | c | Perpetue. | xxix | xviii | xxx | ii |
| 7 | d | | xxxi | xix | xxxii | iii |
| 8 | e | | xxxiii | xx | xxxiiii | iiii |
| 9 | f | | Joſue.i. | xxi | Joſu.ii. | i.Theſ.i. |
| 10 | g | Equinoctium. | iii | xxii | iiii | ii |
| 11 | A | Gregorie. | v | xxiii | vi | iii |
| 12 | b | Sol in Ariete | vii | xxiiii | vii i | iiii |
| 13 | c | | ix | John.i. | x | v |
| 14 | d | | xxiii | ii | xxiiii | ii.Theſ.i. |
| 15 | e | | Barn.i. | iii | Barn.ii. | ii |
| 16 | f | | iii | iiii | iiii | iii |
| 17 | g | Edwarde. | v | v | vi | i.Tim.i. |
| 18 | A | | vii | vi | viii | ii.iii. |
| 19 | b | | ix | vii | x | iiii |
| 20 | c | Benedict. | xi | viii | xii | v |
| 21 | d | | xiii | ix | xiiii | vi |
| 22 | e | | xv | x | xvi | 2.Tim.i |
| 23 | f | Vmpryt. | xvii | xi | xviii | ii |
| 24 | g | Cenad.Mair. | Eccle.ii. | xii | Eccle.iii. | iii |
| 25 | A | | Barn.xix | xiii | Barn.xx. | iiii |
| 26 | h | | xxi | xiiii | Ruth.i. | Titus.i. |
| 27 | c | | Ruth.ii. | xv | iii | ii.iii. |
| 28 | d | | iiii | xvi | i.Sam.i. | Phile.i. |
| 29 | e | | i.Sam.ii. | xvii | iii | Hebre.i. |
| 20 | f | | iiii | xviii | v | ii |

## ¶ Ebrill ſydd iddo xxx. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i.Llith. | ii.Llith. | i.Llith. | ii.Llith. |
| 1 | g | | i.Sā.vi. | Joh.xix. | i.Sā.vii | Heb.iii. |
| 2 | A | | viii | xx | ix | iiii |
| 3 | b | Richarde. | x | xxi | xi | v |
| 4 | c | Ambroſe. | xii | Act.i. | xiii | vi |
| 5 | d | | xiiii | ii | xv | vii |
| 6 | e | | xvi | iii | xvii | viii |
| 7 | f | | xviii | iiii | xix | ix |
| 8 | g | | xx | v | xxi | x |
| 9 | A | | xxii | vi | xxiii | xi |
| 10 | b | | xxiiii | vii | xxv | xii |
| 11 | c | | xxvi | viii | xxvii | xiii |
| 12 | d | Sol in Tau. | xxviii | ix | xxix | Jacob.i. |
| 13 | e | | xxx | x | xxxi | ii |
| 14 | f | | ii.Sā.i. | xi | 2.Sā.2. | iii |
| 15 | g | | iii | xii | iiii | iiii |
| 16 | A | | v | xiii | vi | v |
| 17 | b | | vii | xiiii | viii | i.Pet.i. |
| 18 | c | | ix | xv | x | ii |
| 19 | d | Alphege. | xi | xvi | xii | iii |
| 20 | e | | xiii | xvii | xiiii | iiii |
| 21 | f | | xv | xviii | xvi | v |
| 22 | g | | xvii | xix | xviii | ii.Pet.i |
| 23 | A | S.George. | xix | xx | xx | ii |
| 24 | b | | xxi | xxi | xxii | iii |
| 25 | c | Mar.Efang. | Preg.iiii. | xxii | Preg.v. | i.Joh. |
| 26 | d | | ii.Sā.23 | xxiii | 2.Sā.24 | ii |
| 27 | e | | 1.Brē.1. | xxiiii | 1.Brē.2. | iii |
| 28 | f | | iii | xxv | iiii | iiii |
| 29 | g | | v | xxvi | vi | v |
| 30 | A | | vii | xxvii | viii | 2.3.J |

## ¶ Mai ſydd iddo xxxi. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *i.Llith.* | *ii.Llith.* | *i.Llith.* | *ii.Llith.* |
| 1 | b | Phil.& Iacob. | Preg.vii | Act.viii. | Preg.ix. | Iudas.i |
| 2 | c | | 1.bren.ix. | xxviii | 1.bren.x. | Rhuf.i. |
| 3 | d | **Caffel ygro.** | xi | Mat.i. | xii | ii |
| 4 | e | | xiii | ii | xiiii | iii |
| 5 | f | | xv | iii | xvi | iiii |
| 6 | g | Iohn port. | xvii | iiii | xviii | v |
| 7 | A | | xix | v | xx | vi |
| 8 | b | | xxi | vi | xxii | vii |
| 9 | c | | 2.bren.1. | vii | 2.bren.2. | viii |
| 10 | d | | iii | viii | iiii | ix |
| 11 | e | | v | ix | vi | x |
| 12 | f | Sol in Gem. | vii | x | viii | xi |
| 13 | g | | ix | xi | x | xii |
| 14 | A | | xi | xii | xii | xiii |
| 15 | b | | xiii | xiii | xiiii | xiiii |
| 16 | c | | xv | xiiii | xvi | xv |
| 17 | d | | xvii | xv | xviii | xvi |
| 18 | e | | xix | xvi | xx | i.Cor.i. |
| 19 | f | **Dunstan.** | xxi | xvii | xxii | ii |
| 20 | g | | xxiii | xviii | xxiiii | iii |
| 21 | A | | xxv | xix | i.Esd.i. | iiii |
| 22 | b | | i.Esd.iii. | xx | iiii | v |
| 23 | c | | v | xxi | vi | vi |
| 24 | d | | vii | xxii | ix | vii |
| 25 | e | | ii.Esd.i. | xxiii | ii.Esd.ii. | viii |
| 26 | f | **Augustin.** | iiii | xxiiii | v | ix |
| 27 | g | | vi | xxv | viii | x |
| 28 | A | | ix | xxvi | x | xi |
| 29 | b | | xiii | xxvii | Hester.i | xii |
| 30 | c | | Hest.ii. | xxviii | iii | xiii |
| 31 | d | | iiii | Mark.i. | v | xiiii |

## ¶ Mehefin ſydd iddo xxx. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *i.Llith.* | *ii.Llith.* | *i.Llith.* | *ii.Llith.* |
| 1 | e | | Hest.vi. | Mark.ii. | Hest.vii. | i.Cor.xv |
| 2 | f | | viii | iii | ix | xvi |
| 3 | g | **Nichomed.** | Iob.i. | iiii | Iob.ii. | ii.Cor.i. |
| 4 | A | | iii | v | iiii | ii |
| 5 | b | **Bonifac.** | v | vi | vi | iii |
| 6 | c | | vii. | vii | viii | iiii |
| 7 | d | | ix | viii | x | v |
| 8 | e | | xi | ix | xii | vi |
| 9 | f | | xiii | x | xiiii | vii |
| 10 | g | | xv | xi | xvi | viii |
| 11 | A | **Barnab.Ap.** | Eccle.x. | Acta.xiiii. | Eccle.xii. | Act.xv. |
| 12 | b | Sol in Gan. | Io.17.18 | Mark.xii | Iob.xix. | ii.Cor.ix. |
| 13 | c | Solſtitium æſti. | xx | xiii | xxi | x |
| 14 | d | | xxii | xiiii | xxiii | xi |
| 15 | e | | 24.25. | xv | 26.27. | xii |
| 16 | f | | xxviii | xvi | xxix | xiii |
| 17 | g | | xxx | Luc.i. | xxxi | Galat.i. |
| 18 | A | | xxxii | ii | xxxiii | ii |
| 19 | b | | xxxiiii | iii | xxxv | iii |
| 20 | c | **Edward** | xxxvi | iiii | xxxvii | iiii |
| 21 | d | | xxxviii | v | xxxix | v |
| 22 | e | | xl | vi | xli | vi |
| 23 | f | **Vmpryt.** | xlii | vii | Dihar.i. | Ephe.i. |
| 24 | g | Ioan Fedyd. | Mal.iii. | Mat.iii. | Mal.iiii | Mat.14. |
| 25 | A | | Dihar.ii. | Luk.viii. | Dihar.iii | Ephe.ii. |
| 26 | b | | iiii | ix | v | iii |
| 27 | c | | vi | x | vii | iiii |
| 28 | d | **Vmpryt.** | viii | xi | ix | v |
| 29 | e | S.Pet.Apoſt. | Eccle.xv. | Act.iii. | Eccl.xix. | Act.iiii. |
| 30 | f | | Dihar.x. | Luke.xii. | Dihar.xi. | Ephe.vi. |

## ¶ Gorphenhaf ſydd iddo xxxi. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *i.Llith.* | *ii.Lltih.* | *i.Llith.* | *ii.Llith.* |
| 1 | g | **Gofwy Ma.** | Dihar.xii. | Luke.xiii. | Dih.xiii. | Phil.i. |
| 2 | A | | xiiii | xiiii | xv | ii |
| 3 | b | **Martin.** | xvi | xv | xvii | iii |
| 4 | c | | xviii | xvi | xix | iiii |
| 5 | d | | xx | xvii | xxi | Coloſſ.i. |
| 6 | e | | xxii | xviii | xxiii | ii |
| 7 | f | | xxiiii | xix | xxv | iii |
| 8 | g | | xxvi | xx | xxvii | iiii |
| 9 | A | | xxviii | xxi | xxix | i.Theſ.i. |
| 10 | b | | xxxi | xxii | Preget.i. | ii |
| 11 | c | | Preget.ii | xxiii | iii | iii |
| 12 | d | Sol in Leo. | iiii | xxiiii | v | iiii |
| 13 | e | | vi | Iohn.i. | vii | v |
| 14 | f | | viii | ii | ix | ii.Theſ.i. |
| 15 | g | **Swithun** | x | iii | xi | ii |
| 16 | A | | xii | iiii | Iere.i. | iii |
| 17 | b | | Iere.ii. | v | iii | i.Tim.i. |
| 18 | c | | iiii | vi | v | ii.iii. |
| 19 | d | | vi | vii | vii | iiii |
| 20 | e | **Margaret** | viii | viii | ix | v |
| 21 | f | | x | ix | xi | vi |
| 22 | g | **Magdalen.** | xii | x | xiii | ii.Tim.i. |
| 23 | A | | xiiii | xi | xv | ii |
| 24 | b | **Vmpryt.** | xvi | xii | xvii | iii |
| 25 | c | Iaco.Apoſtol. | Eccle.xxi | xiii | Eccle.23 | iiii |
| 26 | d | **Ann.** | Iere.18. | xiiii | Iere.xix. | Titus.i. |
| 27 | e | | xx | xv | xxi | ii.iii. |
| 28 | f | | xxii | xvi | xxiii | Phile.i. |
| 29 | g | | xxiiii | xvii | xxv | Hebre.i. |
| 30 | A | | xxvi | xviii | xxvii | ii |
| 31 | b | Garmon | xxviii | xix | xxix | iii |

## ¶ Awſt ſydd iddo xxxj. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *i.Llith.* | *ii.Llith.* | *i.Llith.* | *ii.Llith.* |
| 1 | c | | Iere.xxx. | Iohn.xx. | Iere.xxxi. | Hebr.iiii. |
| 2 | d | | xxxii | xxi | xxxiii | v |
| 3 | e | | xxxiiii | Actau.i. | xxxv | vi |
| 4 | f | | xxxvi | ii | xxxvii | vii |
| 5 | g | | xxxviii | iii | xxxix | viii |
| 6 | A | **Ymrithiat** | xl | iiii | xli | ix |
| 7 | b | **Enw yr** | xlii | v | xliii | x |
| 8 | c | **Iesu.** | xliiii | vi | xlv.xlvi. | xi |
| 9 | d | | xlvii | vii | xlviii | xii |
| 10 | e | **Laures.** | xlix | viii | l | xiii |
| 11 | f | | li | ix | lii | Iacob.i |
| 12 | g | Sol in virgin. | Galar.i. | x | Galar.ii. | ii |
| 13 | A | | iii | xi | iiii | iii |
| 14 | b | | v | xii | Ezech.ii. | iiii |
| 15 | c | | Ezec.iii. | xiii | vi | v |
| 16 | d | | vii | xiiii | xiii | i.Pet.i. |
| 17 | e | | xiiii | xv | xviii | ii |
| 18 | f | | xxxiii | xvi | xxxiiii | iii |
| 19 | g | | Dan.i. | xvii | Dan.ii. | iiii |
| 20 | A | | iii | xviii | iiii | v |
| 21 | b | | v | xix | vi | ii.Pet.i. |
| 22 | c | | vii | xx | viii | ii |
| 23 | d | **Vmpryt.** | ix | xxi | x | iii |
| 24 | e | Bartho.Apo. | Eccle.xxv | xxii | Eccle.29 | i.Iohn.i |
| 25 | f | | Dani.xi. | xxiii | Dan.xii. | ii |
| 26 | g | | xiii | xxiiii | xiiii | iii |
| 27 | A | | Oſee.i. | xxv | Oſee.2.3 | iiii |
| 28 | b | **Augustin.** | iiii | xxvi | v.vi. | v |
| 29 | c | **Lladd pen** | vii | xxvii | viii | 2.3.Ioh. |
| 30 | d | **Ioan.** | ix | xxviii | x | Iude.i. |
| 31 | e | | xi | Mat.i. | xii | Rhuf.i. |

¶ Mis Medi ſydd iddo xxx. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi | | Prydnawn weddi | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i. Llith. | ii. Llith. | i. Llith. | ii. Llith |
| 1 | f | Gilin. | Ose.xiij. | Mat.ij. | Ose.14. | Rom.ii. |
| 2 | g | | Joel i. | iii | Joel ii. | iii |
| 3 | A | | iii | iiii | Amos i. | iiii |
| 4 | b | | Amos ii. | v | iii | v |
| 5 | c | Dyddiau yr | iiii | vi | v | vi |
| 6 | d | ci ter. | vi | vii | vii | vii |
| 7 | e | Gene. Eliz. | viii | viii | ix | viii |
| 8 | f | Geni Mair | Abdi.i. | ix | Jonas i. | ix |
| 9 | g | | Jon.2.3. | x | iiii | x |
| 10 | A | | Mich.i. | xi | Mich.ii. | xi |
| 11 | b | | iii | xii | iiii | xii |
| 12 | c | Sol in Libra. | v | xiii | vi | xiii |
| 13 | d | | vii | xiiii | Naum.i | xiiii |
| 14 | e | derch. y groes | Naū.ii. | xv | iii | xv |
| 15 | f | Aequinoctium | Abac.i. | xvi | Abac.ii. | xvi |
| 16 | g | Autumnale. | iii | xvii | Soph.i. | i.Cor.i. |
| 17 | A | Lambert. | Soph.2. | xviii | iii | ii |
| 18 | b | | Agge.i. | xix | Agge ii. | iii |
| 19 | c | | Zacha.i. | xx | Zac.2.3. | iiii |
| 20 | d | Vmpryt. | iiii.v. | xxi | vi | v |
| 21 | e | S. Mathew. | Eccle.35 | xxii | Eccle.38 | vi |
| 22 | f | | Zach.7. | xxiii | Zac.viii. | vii |
| 23 | g | | ix | xxiiii | x | viii |
| 24 | A | | xi | xxv | xii | ix |
| 25 | b | | xiii | xxvi | xiiii | x |
| 26 | c | Ciprian. | Mala.i. | xxvii | Mal.ii. | xi |
| 27 | d | | iii | xxviii | iiii | xii |
| 28 | e | | Tobi.i. | Mark.i. | Tobi.ii. | xiii |
| 29 | f | S. Mihangel. | Eccl.39. | ii | Eccl.44 | xiiii |
| 30 | g | Hierom. | Tob.iii. | iii | Tob.iiii. | xv |

¶ Hydref ſydd iddo xxxi, o ddyddiau,

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i. Llith. | ii. Llith. | i. Llith. | ii. Llith. |
| 1 | A | Remig | Tobi.v. | Mark 4. | Tobi.vj. | 1.Cor.16 |
| 2 | b | | vii | v | viii | 2.Cor.1 |
| 3 | c | | ix | vi | x | ii |
| 4 | d | | xi | vii | xii | iii |
| 5 | e | | xiii | viii | ciiii | iiii |
| 6 | f | S.ffydd. | Judit.j. | ix | Judit.ij. | v |
| 7 | g | | iii | x | iiii | vi |
| 8 | A | | v | xi | vi | vii |
| 9 | b | Dennis | vii | xii | viii | viii |
| 10 | c | | ix | xiii | x | ix |
| 11 | d | | xi | xiiii | xii | x |
| 12 | e | Sol in Scorp. | xiii | xv | xiiii | xi |
| 13 | f | Edward. | xv | xvi | xvi | xii |
| 14 | g | | Doeth.j. | Luk.vi.j. | Doeth.ii. | xiii |
| 15 | A | | iii | vi.i. | iiii | Gala.1. |
| 16 | b | | v | ii | vi | ii |
| 17 | c | Etheldred | vii | iii | viii | iii |
| 18 | d | Luc. Efang. | Eccle.li. | iiii | Job.j. | iiii |
| 19 | e | | Doeth.ix | v | Doeth.x. | v |
| 20 | f | | xi | vi | xii | vi |
| 21 | g | | xiii | vii | xiiii | Ephe.1. |
| 22 | A | | xv | viii | xvi | ii |
| 23 | b | | xvii | ix | xviii | iii |
| 24 | c | | xix | x | Eccle.1. | iiii |
| 25 | d | Chrispin. | Eccle.ii. | xi | iii | v |
| 26 | e | | iiii | xii | v | vi |
| 27 | f | Vmpryt. | vi | xiii | vii | Phil.1 |
| 28 | g | Simon ac Iud | Iob.24.25 | xiiii | Job.42. | ii |
| 29 | A | | Eccle.8. | xv | Eccl.9. | iii |
| 30 | b | | x | xvi | xi | iiii |
| 31 | c | Vmpryt. | xii | xvii | xiii | Colos.1. |

¶ Tachwedd ſydd iddo xxx. o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i. Llith. | ii. Llith. | i. Llith. | ii. Llith. |
| 1 | d | Holl Saint. | Doeth 3 | He.xi.xii. | Doeth.v | Gwel.xix |
| 2 | e | | Eccle.14 | Lu.xviii. | Eccle.xv | Colos.ii. |
| 3 | f | | xvi | xix | xvii | iii |
| 4 | g | | xviii | xx | xix | iiii |
| 5 | A | | xx | xxi | xxi | i. Thes.i. |
| 6 | b | Leonard. | xxii | xxii | xxiii | ii |
| 7 | c | | xxiiii | xxiii | xxv | iii |
| 8 | d | | xxvii | xxiiii | xxviii | iiii |
| 9 | e | | xxix | Joan i. | xxx | v |
| 10 | f | | xxxi | ii | xxxii | ii.Thes.j. |
| 11 | g | S.Marthin. | xxxiii | iii | xxxiiii | ii |
| 12 | A | Sol in Sagit | xxxv | iiii | xxxvi | iii |
| 13 | b | Brisius. | xxxvii | v | xxxviii | i.Tim.j. |
| 14 | c | | xxxix | vi | xl | ii. iii |
| 15 | d | Mechell. | xli | vii | xlii | iiii |
| 16 | e | | xliii | viii | xliiii | v |
| 17 | f | Dechre teyrn. | xlv | ix | xlvi | vi |
| 18 | g | Elizabeth. | xlvii | x | xlviii | ii.Tim.j. |
| 19 | A | | xlix | xi | l | ii |
| 20 | b | | li | xii | Baruc.i. | iii |
| 21 | c | Cicelt. | Baruc.2 | xiii | iii | iiii |
| 22 | d | Clement. | iiii | xiiii | v | Titus j. |
| 23 | e | | vi | xv | Esai.j. | ii. iii |
| 24 | f | | Esa.ii. | xvi | iii | Phile.j. |
| 25 | g | Katherin. | iiii | xvii | v | Hebr.j. |
| 26 | A | | vi | xviii | vii | ii |
| 27 | b | | viii | xix | ix | iii |
| 28 | c | | x | xx | xi | iiii |
| 29 | d | Vmpryt. | xii | xxi | xiii | v |
| 30 | e | Andreas Apo. | Dihar.xx. | Act.i. | Diha.xxi | vi |

¶ Rhagfyr ſyd i iddo xxxi, o ddyddiau.

| | | | Boreu weddi. | | Prydnawn weddi. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | i. Llith. | ii. Llith. | i. Llith. | ii. Llith. |
| 1 | f | Grwst. | Esai.14. | Act. ii. | Esa.xv. | Heb.vii. |
| 2 | g | | xvi | iii | xvii | viii |
| 3 | A | | xviii | iiii | xix | ix |
| 4 | b | | xx. xxi. | v | xxii | x |
| 5 | c | | xxiii | vi | xxiiii | xi |
| 6 | d | Nicholas. | xxv | vi.vii. | xxvi | xii |
| 7 | e | | xxvii | vi.vii. | xxviii | xiii |
| 8 | f | Ymddwyn | xxix | viii | xxx | Jace.j. |
| 9 | g | Mair. | xxxi | ix | xxxii | ii |
| 10 | A | | xxxiii | x | xxxiiii | iii |
| 11 | b | | xxxv | xi | xxxvi | iiii |
| 12 | c | Sol in Capri. | xxxvii | xii | xxxviii | v |
| 13 | d | Luci. | xxxix | xiii | xl | i.Pet.j. |
| 14 | e | | xli | xiiii | xlii | ii |
| 15 | f | | xliii | xv | xliiii | iii |
| 16 | g | O ſapienc. | xlv | xvi | xlvi | iiii |
| 17 | A | | xlvii | xvii | xlviii | v |
| 18 | b | | xlix | xviii | l | ii.Pet.j. |
| 19 | c | | li | xix | lii | ii |
| 20 | d | Vmpryt. | liii | xx | liiii | iii |
| 21 | e | Thom. Apost. | Dihar.23. | xxi | Dihar.24. | i.Joan.j. |
| 22 | f | | Esai.lv. | xxii | Esa.lvi. | ii |
| 23 | g | | lvii | xxiii | lviii | iii |
| 24 | A | Vmpryt. | lix | xxiiii | lx | iiii |
| 25 | b | Natal. Crist. | Esa.ix. | Luke ii. | Esa.vii. | Tit.iii. |
| 26 | c | S. Stephan. | Dihar.28. | Act.6.7. | Preg. 4. | Act. vii. |
| 27 | d | S. Ioan. | Preg.v. | Gwele.1 | Preg.6. | Gwe. 22 |
| 28 | e | S. Gwirionici | Jere.31. | Act.xxv. | Wisdo.1. | i.Joã. v. |
| 29 | f | | Esai.lxi. | xxvi | Esa.62. | ii. Joan. |
| 30 | g | | lxiii | xxvii | lxiiii | iii. Joan. |
| 31 | A | Silvester. | lxv | xxviii | lxvi | Jude. |

# Pennodau neullduol neu priod ivv darllen yn llithieu cyntaf ar Foreuol a'Phrydnhawnol weddi, ar y Sulieu trwy'r holl Flwyddyn, a rhai o'r ail Llithau.

| Sulieu yr Asfent. | Plygain | Goſper. |
|---|---|---|
| Y cyntaf | Eſai.i. | Eſai.ii |
| i | v | xxiiii |
| ii | xxv | xxvi |
| iii. | xxx | xxxii |
| Sulen gwedy Natalic Chriſt | | |
| Y cyntaf | xxxvii | Eſai.xxxviii. |
| i | xli | xliii |
| Suleu gwedi'r Ystwyll. | | |
| Y cyntaf. | Eſai,xliiii. | Eſai.xlvi |
| i | li | liii |
| ii | lv | lvi |
| iii | lvii | lviii |
| v | lix | lxiiii |
| Setuageſ, | Geneſ.i. | Geneſ.ii |
| Seageſ. | iii | vi |
| Qinquage. | ix | xii |
| Grawys Sul cyntaf. | Geneſ.xix. | Geneſ.xxii |
| i | xxvii | xxxiiii |
| ii | xxxix | xlii |
| iii | xliii | xlv |
| v | Exod.iii | Exod.ii |
| vi | ix | x |
| De Paſc. | | |
| i.llith | Exod.xii | Exod,xiiii |
| ii.llith | Ruſe.vi | Actau.ii. |

Sulieu gwedi y Paſc.

| | Plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| Y cyntaf | Numer.xvi. | Numer.xxii. |
| ii | xxiii | xxv. |
| iii | Deut,iiii | Deut.v. |
| iiii | vi | vii |
| v | viii | ix |
| Y Sul gwedi yr Derchafel. | Deut.xii. | Deut.xiii |
| Y Sul gwyn, | | |
| i.Llith. | Deut.xvi | Doethineb.i |
| ii.Llith. | Actau.x. Yna yr agorod Petr ei enau. | Actau.xix Hyd. Gwedi cyflawin hyn. |
| Sul yDrindod. | | |
| i.Llith. | Gene.xviii | Joſue.i. |
| ii.Llith. | Mat.iii | |

Sulieu gwedi y Drintod.

| | Plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| Y cyntaf. | Joſua.x. | Joſua.xxiii. |
| ii | Barn.iiii | Barn.v. |
| iii | i.Sam.ii | i.Sam.iii. |
| iiii | xii | xiii |
| v | xv | xvi |
| vi | ii.Sam.xii | ii.Sam.xxi |
| vii | xxii | xxiiii |
| viii | i.Bren.xiii. | i.Bren.xvii |
| ix | xviii | xix |
| x | xxi | xxii |
| xi | ii.Bren.v. | ii.Bren.ix |
| xii | x | xviii |
| xiii | xix | xxiii |
| xiiii | Jerem.v | Jerem.xxii. |
| xv | xxxv | xxxvi |
| xvi | Ezech.ii | Ezech.xiiii |
| xvii | xvi | xviii |
| xviii | xx | xxiiii |
| xix | Daniel.iii | Daniel.vi |
| xx | Joel.ii | Miche.vi |
| xxi | Abac.ii | Dihareb.i. |
| xxii | Dihareb.ii. | iii |
| xxiii | xi | xii |
| xxiiii | xiii | xiiii |
| xxv | xv | xvi |
| xxvi | xvii | xix |

## Llithiau priod neu neullduol i bob ddydd gwyl.

| | plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| S.Andreas. | Dihareb.xx. | Dihareb.xxi |
| S.Thomas Ap. | Dihar.xxiii | xxiiii |
| Natalic Chriſt. | | |
| i.Llith. | Eſai.ix. | Eſa.7.a'r Arglwydd yr a chwanegodd. |
| ii.Llith. | Luc.ii. Hyd. Ac i ddynion ewyllys da. | Tit.iii.iiii.wedi i ddaioni duw. |
| S.Stephan. | | Pregeth.iiii. |
| i.Llith. | Dihareb.xxviii. | Actau.vii.Ac wedi cyflawni daugain mlynedd hyd, ac efe yn gyflawn o'r Yſpryd glain. |
| ii.Llit.h | Actau.6.& 7. Stephan yn llawn F ffyd nerth.Hyd. Ac wedi cyflawni daugain. | |
| S.Joan | | |
| i.Llith. | Eccleſ.v. | Eccleſ.vi. |
| ii.Llith. | Gweled.i. | Gweled.xxii. |
| Gwirionaid. | Jere.xxxi.Hyd. clywais Epraim | Doeth.i. |
| Dydd yr Enwaediad. | | |
| i.Llith. | Geneſ.xvii. | Deut.x. Ac yr awrhon Iſrae' |
| ii.Llith. | Rhuſe.ii. | Coloſ.ii. |

| Yſtwyll. | Plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| i.Llith. | Eſay.xl. | Eſay.xlix. |
| ii.Llith. | Luc.iii. Hyd. Mab (fel y tybid) i Joſeph. | Ioan.ii. Hyd. Gwedi hynny efe aeth i waered. |
| Troad S. Paul. | | |
| i.Llith. | Doeth.v. | Doeth.vi. |
| ii.Llith. | Actau.xxii. | Actau.xxvi. |
| Puredigaeth Mair forwyn. | Doeth.ix. | Doeth.xii. |
| S. Mathias. | Doeth.xix. | Eccleſ.i. |
| Cenaduriaeth Mair forwyn. | Eccleſ.ii. | Eccleſ.iii. |
| Dydd Mercher cyn y Paſc. | Oſee.xiii. | Oſee.xiiii. |
| Dydd Iau cyn y Paſc. | Daniel.ix. | Ierem.xxxi. |
| Gwener y groglith. | Gen.xxii. | Eſay.liii. |
| Nos Paſc. | Zach.ix. | Exod.xiii. |
| Dydd Llun Paſc. | | |
| i.Llith. | Exod.xvi | Exod.xvii. |
| ii.Llith. | Math.xxviii | Actau.iii. |
| Dydd Mawrth Paſc. | | |
| i.Llith. | Exod.xx. | Exod.xxxiii |
| ii.Llith. | Luc.xxiiii. Hyd. Ac wele ddau o honynt. | i.Cor.xv. |
| S. Marc. | Eccle.iiii. | Eccle.v. |
| Philip ac Iaco | Eccle.vii. | Eccle.ix. |
| Dydd y Derchafel. | Deut.xii. | ii.Bren.ii. |
| Dydd Llun y Sul gwyn. | | |
| i.Llith. | Geneſ.xi. Hyd. Dymma genedlaethau Sem. | Num.xi. Yna y dywedodd yr Arglwydd. Hyd. A Moſes a aeth i'r gwerſyll. |
| ii.Llith. | i.Cor.xii. | |
| Dydd Mawrth y Sul gwyn. | i.Sam.xix Felly Dafydd a ffodd. &c. | Deut.xxx. |
| S. Barnabas. | | |
| i.Llith. | Eccle.x. | Eccle.xii. |
| ii.Llith. | Actau.xiiii. | Actau.xv. Hyd. Gwedi nifer o ddyddiau. |

| | Plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| S. Ioan fedyddwr. | | |
| i.Llith. | Malach.iii. | Malach.iiii. |
| ii.Llith. | Math.xiii. | Math.xiiii. Hyd. A phan glybu yr Ieſu. |
| S. Petr. | | |
| i.Llith. | Eccleſ.xv. | Eccle.xix |
| ii.Llith. | Actau.iii | Actau.iiii. |
| S. Iaco. | Eccleſ.xxi. | Eccle.xxiii |
| S. Bartholomeus. | xxv. | xxix |
| S. Mathew. | xxxv | xxxviii |
| S. Mihangel. | xxxix | xliiii |
| S. Luc. | li | Iob.i |
| S. Simon ac Iudas. | Iob.xxiiii.xxv | Iob.xlii |
| Holl Saint. | | |
| i.Llith. | Doeth.3.Hyd. canys dedwydd yw 'r ammhlantadwy. | Doeth.v. Hyd. Efe a gymmer ei eiddigedd. |
| ii.Llith. | Heb.xi.xii. Saint trwy Ffydd a oreſcynnaſāt. Hyd Os goddefwch. | Gwele.xix. Hyd. Ac mi welais Angel yn ſefyll. |

## Pſalmau priod ar ryw ddyddiau.

| | Plygain. | Goſper. |
|---|---|---|
| Die Natalic. | xix<br>xlv<br>lxxxv | lxxxix<br>Cx<br>Cxxxii |
| Dydd Paſc. | ii<br>lvii<br>Cxi | Cxiii<br>Cxiiii<br>Cxviii |
| Dydd Derchafel, | viii<br>xv<br>xxi | xxiiii<br>lxviii<br>Cviii |
| Sul gwyn. | xlv<br>lxvi | Ciiii<br>Cxlv |

Gwir yw, a mynych y gwelwyd (y Cymro anwyl) na pherffeithir vn gwaith ar vnwaith Na ryfedda dithe os diangodd beiau yn y mawr, a'r anhawdd, a'r poenus waith o Gymraegiad y Beibl: megis y diangodd y dau cymmaint mewn Beiblaú eraill clodfawr a chan-moledig. Ac yn y Teſtament newydd i hwn y mae mwy o amryfyſedd nag yn y rhan arall oll. Pa fôdd a pha ham y digwyddodd hynny, ti a gei wybod (trwy Dduw) ar fyrder, pan brintier y Teſtament hwnnw yn llai ei feiau, a'i faint, a'i bris. Os canfyddi di feiau eraill, er mwyn duw, a'r wlâd, a'th enaid hyſpyſa hwynt i'r cyfiaithydd, fel y gallo y printiad neſaf fôd cyn búred ac y mae efe (megis y dylit tithe fôd) yn ewyllyſio, ac yn ceiſio ei wneuthur. Y rhifedi cyntaf ſydd yn dangos y bennod: a'r ail, y wers lle y mae yr bai. D: ar ei phen ei hun, yn lle darllen.

GENESIS. 16.7. *wrth ffynnon yn ffordd Sur:* darllen: *wrth ffynnon y dyfroedd yn yr anialwch, ſef wrth y ffynnon yn ffordd Sur.* 31.30. *Am dy dad.* d. *Am dy dy dad &c.* 33.2. *y ddwy law-forwyn:* d. *y llaw-forwynion.* 34.12. *Neu roddiad,* d. *Arhoddiad.* 37.9. *Wele yr haul a'r lleuad:* d. *wele breuddwydiais freuddwyd etto, ac wele yr haul &c.* 41.57. *holl wledydd yr Aipht:* d. *yr holl wledydd i'r Aipht.*

EXOD. 10.24. *Am Moſes ac Aaron:* d. *Am Moſes.* 16.16. *yn y gwerſyll:* d. *yn ei werſyll.* 38.31. *A morteiſiau y cynteddfa:* d. *a morteiſiau y cynteddfa oamgylch, a morteiſiau drws y cynteddfa: a holl &c.* 39.18. *Mewn dau foglyn:* d. *yn y ddau foglyn:* yn yr vn wers: *o'r tublaen:* d. *o'i thu blaen.&c.*

LEVIT. 6.17. *o'r aberth tros bechod:* d. *yr aberth tros bechod &c.* 25.50. *o' flwyddyn y Iubili:* d. *o'r flwyddyn y gwerthwyd ef, hyd flwyddyn y Iubili &c.*

NVM. 4.34. *Cynnulleidfa meibiō Cehath.* d. *y gynnulleidfa, feibion Cehath &c.* 31.5. *a rhoddaſant:* d. *a rhoddwyd, &c.*

DEVTERONOM. 4.12. *A chwithau nid oeddych:* d. *A chwithau oeddych yn clywed llais y geiriau, ac nid oeddych yn gweled &c.* 12.11. *ei ddewis iddo i beri,* d. *ei ddewis, i beri &c.*

IOSVAH. 13.11. *a holl Iacſon:* d. *a holl Baſan &c.* 30. *wers: tri vgain nhinas:* d. *a holl drefi Iair y rhai oeddynt yn Baſan, (ſef) tri vgain nhinas.* 14.9. *dy Dduw:* d. *fy Nuw.* 22.7. *yr Argwydd:* d. *Moſes &c.* 24.15. *ir Iorddonen:* d. *i'r afon.*

BARNVVYR. 3.8. *a waſanaethant,* d. *a waſanaethaſant &c.* 4.11. *Waſtadedd;* d. *waſtadedd. Yn Cedes:* d. *yn ymyl Cedes.* 18.24. *y duwiau:* d. *fy nuwiau &c.* 19.5. *dos ymaith:* d. *ewch ymaith.*

2. SAMVEL. 15.27. *a'th ddau fab gyd a thi,* d. *a'ch dau fab gyd â chwi &c* 24.2. *a chyfrif:* d. *a chyfrifwch &c.*

1. BRENHINOEDD. 16.21. *y bobl.* d. *pobl Iſrael.* 23. *wers: ar hugain:* d. *ar ddêc ar hugain.*

2. BRENH. 6.11. *Pwy o honoch:* d. *pwy o honom ni &c.* 10.9. *byddwch gyfiawn.* d. *cyfiawn ydych chwi, &c.*

1. CRON. 7.21. *Gad.* d. *Gath.*

2. CRON. 24.5. *ty ein Duw ni: darl. ty eich Duw &c.* 28.23. *fyng-hynnorthwyo,* d. *eu cynnorthwyo hwynt:* yn yr vn wers [*etto*] *d.* [*inneſ.*] 34.6. *yn yr anghyfannedd leoedd:* d. *yn eu hanghyfannedd leoedd &c.* 34.28. *i'r bedd.* d. *ith fedd &c.* 35.9. *a thry-chant.* d. *a phum-cant &c.*

IOB. 14.21. *a gyfoethogi:* d. *a gyfoethogir &c.*

PSALM. 18.12. *Cwmylau:* d. *ei gwmylau. Pſal.* 32.11. [illegible] d. *gorfoleddwch. Pſal.* 53.6. *Oh na roddit:* d. *oh na roddid. Pſal.* 76.3. *y ſaethau, y bwa:* d. *ſaethau y bwa: Pſal.* 79.12. *Tâl i'm:* d. *Tâl i'n &c. y gabledd:* d. *eu cabledd. Pſal.* 86.2. *o Dduw:* d. *o fy Nuw. Pſal.* 119.153 *dy air di: d. dy gyfraith di.*

DIHAREB. 7.5. *y fenyw:* d. *yr eſtrones,* 11.21. *euog.* d. *dieuog.*

PREGETHVVR. 7.26. *a welais.* d. *a gefais. Gwraig.* d. *y wraig.*

ESAY. 25.9. *y dywedi:* d. *y dywedir.* 34.7. *o'i gwaed hwynt:* d. *gan waed.* 36.18. *a'ch gwared chwi:* d. *a'n gwared ni:* 40.24. *ei foncyph:* d. *eu bon-cyph.* 45.2. *o'i flaen ef:* d. *o'th flaen di.* 50.8. *ſafant:* d. *ſafwn &c.*

IEREMI. 22.26. *nith anwyd:* d. *ni'ch ganwyd. Y byddi farw:* d. *y byddwch feirw.* 27.16. *y prophwydi:* d. *eich prophwydi. Yn eu hôl bellach:* d. *yn eu hol o Fabilon bellach,* 34.21. *ei elynion:* d. *eu gelynion.* 41.1. *o frenhinawl hâd:* d. *o'r brenhinawl hâd.* 49.14. *cennad ym myſc:* d. *cennad wedi ei anfon ym myſc.*

EZECIEL. 3.16. *attat:* d. *attaf.* 8.1. *Iſrael.* d. *Iuda.* 11.8. *a ddaw:* d. *a ddygaf.* 12.12. *fel yr elont allan:* d. *fel y dygont allan.* 14.8. *ei bobl: d. fy-mhobl.* 16.55. *ai Sodoma,* d. *Sodoma ai.* 32.27. *mewn arfau:* d. *yn eu harfau.* 36.19. *a chwelais: d. a chwalwyd.* 47.3. *dehau:* d. *dwyrain.* 12. *wers. a'i afalau:* d. *a'i ddail.*

DANIEL. 6.14. *yn ei achub:* d. *yn ceiſio ei achub.* 9.19 *y ddinas hon:* d. *dy ddinas.* 10.4. *ar ddêc:* d. *ar hugain.*

AMOS. 2.6. *am i chwi:* d. *am iddynt.* 12. *wers. i'ch:* d. *i'r.*

MICEAS. 3.11. *a'r prophwydi:* d. *a'i phrophwydi.* 5.6. *a'r cleddyf noeth:* d. *a'i chleddyfau,* 6.1. *ar y mynyddoedd:* d. *a'r mynyddoedd.*

SOPHONI. 1.13. *o'r gwîn:* d. *eu gwîn.*

ZACHARI 2.9. *neu iw deiliaid eu hun: tynner ymmaith hynny.* 5.4. *a dyngo:* d. *a dyngo yn gelwyddoc. &c. a dreulia ei goed:* d. *ac a'i difa ef a'i goed.*

## APOCRYPHA.

3. ESDRAS 1.38. *Ioachaz.* d. *Ioachim.* 5.11. *a dêc.* d. *a deuddec.* 4. *Eſdras* 3.6. *dy ddwylo dy;* d. *dy ddeheu-lwdi.* 8.9. *a geidw:* d. *a ad-dhyru.* 8.10. *gorchymynnaſe,* d. *gorchymynnaiſt.* 11.39. *yr holl fyd;* d. *fy myd.*

ECCLESIASTICVS. 2.18. *a garant:* d. *a ofnant,* 9.8. *Na thro dy olwg at:* d. *tro dy olwg oddi-wrth.* 31.15. *a wnaeth:* d. *a wnaed.* 34.6. *arni hi:* d. *arnynt.* 35.21. *lwynau,* d. *teyrn-wielyn.* 22. *wers: eu haeddedigaethau:* d. *ei weithredoedd.* 45.4. *ffydd:* d *ffyddlondeb.*

BARVC. 2.17. *a'i cyrph:* d. *o'i cyrph.*

BEL. *ar ddraic,* 10. *i'r brenin: d. o frenin.* 11. *os amgen byddet Daniel yn gelwyddog yn ein herbyn ni:* d. *ni Ddaniel yr hwn a ddywedodd gelwydd arnom.* Gweddi Manaſſes *brenin Iuda; gwers,* 10. *i lawer mewn rhwym:* d. *mewn llawer rhwym &c.*

1. MACHAB. 1.62. *Ar vnfed:* d. *ar pumed &c.* gwers 67. *yn Ieruſalem:* d. *yn erbyn Iſrael.* 2.23. *yn eu gwydd hwynt:* d. *yng wydd pawb.* 3.38. *a chyfeillion,* d. *o gyfeillion.* gwers 56. *efe a ddywedodd:* d. *hwy a ddywedaſant.* 4.18. *ddiorafyn:* d. *ddiogel.* gwers 40. *a weddiaſant:* d. *a waeddaſant.* 5.30. *ystolion:* d. *yſtolion.* 6.52. *yn eu herbyn:* d. *yn erbyn eu hoffer &c.* 7.7. *credadwy:* d. *credadwy gennyt:* 9.1. *gyd ag ef:* d. *gyd a hwynt.* gwers. 39. *cynnulleidfa:* d. *cynhwrf.* 10.79. *gant;* d. *ſil.* 11.3. *Ptolomeus:* d. *Ptolomais* 12.10. *Rhag eich myned yn ddieithr i ni:* d. *Rhag ein myned yn ddieithr i chwi.* gwers 22. *gwnaethoch:* d. *gwnewch.* 13.20. *yn Adora:* d. *i Adora.* 15.13. *ddeuddeng-mil:* d. *ddeuddec myrddiwn.*

2. MACHAB. 1.7. *Am y blinder:* d. *yn y blinder.* 2.4. *y pebyll:* d. *y babell.* gwers 5. *darllen. Ac Ieremias wedi dyfod yno a gafodd ogof &c.* 3.26. *yn ffrewyllu y rhai oeddynt yn ſefyll o bobtu:* d. *yn ei ffrewyllu yn ddibaid a chan daro llawer gwialennod arno.* 5.21. *a phedwar vgain;* d. *ac wyth gant.* 6.3. *ond llywodraeth y dyn hwn:* d. *ond y llywodraeth ddrygionus hon &c.* gwers. 30. *fyng waredu fyhun:* d. *gael fyngwaredu.* yno *ar hyd fyng-horph.* d. *ar hyd fyng-horph yn doſt &c.* 7.10. *ei freichiau:* d. *ei ddwylo.* gwers, 25. *ei mab:* d. *y llangc.* 10.30. *erbyn ei ganol:* d. *yn y canol* 11.27. *y cenhedloedd:* d. *y genedl.* 12.14. *y rhain am eu bod:* d. *y rhai oeddynt o'fewn, am eu bod &c.* 13.19. *i Gethſura:* d. *i Bethſura.* 14.4. *a blodeun,* d. *phalm-wydden.* 14.7. *yr offeiriadaeth:* d. *yr arch offeiriadaeth.* 14.37. *a ddygwyd at Nicanor* d. *a gyhuddwyd i Nicanor.* 15.12. *A'r breuddwyd:* d. *a breuddwyd* 15.32. *a dwylo:* d. *a llaw.* 15.35. *wrth yr allore &c:* d. *ar y twr, fel y bydde yn arwydd hyſpys eglur &c.*

MATH. *Pennod* 5.44. *wrthych chwi,* d. *wrthych chwi, cerwch eich gelynion, bendithiwch &c.* 8.2. *a aeth:* d. *a ddaeth.* 10.30. *eich holl wallt:* d. *holl wallt eich pennau.* 14.8. *dyſcu:* d. *rhacddyſcu.* 15. yn yr argument *a phedair:* d. *a ſaith.* 16.10. *ſaith mil:* d. *pedair mil.* 17.14. *ei ddyfod:* d. *eu dyfod hwy.* yno: *ac a ofynnodd:* d. *atto, ac a oſtyngodd iddo &c.* 23.20. *i'r hyn:* d. *iddi, ac i'r hyn oll ſydd arni.* 26.56. *'r ſcrythurau a'r prophwydi:* d. *ſcrythurau y prophwydi.* 28.10. *y delant:* d. *yr elont.*

MARC. 1.24. *O Sanct:* d. [*ſef*] *Sanct.* 8.23. *ei law:* d. *ei ddwy-law.* 9.14 *o'i ogylch:* d. *o'u gogylch.* 10.21. *i'm dilyn:* d. *dilyn fi* 13.23. *dywedais:* d. *rhaddywedais.* 14.54. *oedd yn ei ddilyn:* d. *a'i dilynodd.* gwers. 64. *gabledd:* d. *y gabledd* gwers: 44. *cyn gynted:* d. *euſys:* yn niwedd 44. *euſys:* d. *erys meityn.*

LVC. 2.15. *a ddangoſodd:* d. *a ddarfu yr hwn a ddangoſodd.* 6.4 *ac a'i rhoddes:* d. *ac a'i bwyttaodd, ac a'i rhoddes.* 8.35. *yr hwn a wnaelſid yn iach:* d. *yr hyn a wnelſid.* 13.34. *nis mynnit ti:* d. *nis mynnych chwi.* 15.12. *A'r hynaf:* d. *A'r ieuangaf.* 20.1. *pennaethiaid:* d. *henuriaid.* gwers 31. *a fuant feirw,* tynner ymmaith hynny. 21.30. *y cynhaiaf:* d. *yr haf.*

IOAN. 7.1. *i Galilea* d. *yn Galilea.* gwers 23. *dorri y Sabboth:* d. *dorri cyfraith Moſes.* 14.9 *adnabuoch.* d. *adnabuoſt.* 19.23. *i bob milwr:* d. *i bob milwr ran.* 20.19. *yr oedd y dyſcyblion wedi ymgaſclu yng-hyd, a'r dryſau yn gaead:* d. *a'r dryſau yn gaead lle yr oedd y dyſcyblion wedi ymgaſclu ynghyd &c.* gwers 29. *weled:* d. *fyng-weled.*

ACTAV. 1.18. *gobrwy:* d. *â gobrwy.* 9.6. *a ddywedodd, cyfot:* d. [*a ddywedodd*] *wrtho, cyfot,* gwers. 31. *radio yn:* d. *radio yn ofn,* 11.22. *pethau:* d. *pethau* [*hyn*]. 13.10. *ffydd:* d. *ffordd.* gwers. 31. [illegible] *o hobl:* d. *i'n hobl.* gwers 44. *y daeth:* d. *y daeth yng-hyd &c.* 47. *o honaw:* d. *o honot.* 15.6. *i edrych;* d. *yng-hyd i edrych.* gwers. 41. *eglwys:* d. *eglwyſau.* 16.13. *yr afon:* d. *afon.* yno: *gyd â rhai gwragedd:* d. [*ac*] *y llefaraſom wrth y gwragedd &c.* gwers. 34. *a lawenychodd yn Nuw:* d. *a lawenychodd.* 19.26. *onid tros:* d. *onid agos tros.* 22.4. *ffordd y fuchedd hon:* d. *y ffordd hon.* 24.7. *a ddaeth rhyngom ni ac ef:* d. *a ddaeth arnom.*

RHVFEIN. 3.5. *canmyl:* d. *ni a genmyl.* gwers. 20. *gan weithredoedd y cnawd:* d. *gan weithredoedd y ddeddf.* 4.9. darllen fel hyn [*A ddaeth*] *y dedwyddwch hyn ar yr enwaediad, ynte ar y dienwaediad hefyd? &c.* gwers 23. *i gyfrif.* d. *gyfrif.* 6.9. *a gyfodwyd:* d. *a gyfodwyd o feirw* 11.14. *os* d. *ar.* 15.15. *yn hyfach,* d. *yn hyfach o ran,* gwers 16. *cenhedloedd:* d. *y cenhedloedd.* & 24. *yn gyntaf,* d. *yn gyntaf o ran* 16.16. *eglwys:* d. *eglwyſi.*

1. CORINTH. 2.14. *ni wyr beth ydynt:* d. *ni all* [*eu*] *gwybod.* 4.5. *y galon:* d. *y calonnau.* gwers. 6. *ymchwytho:* d. *ymchwyddoch.* 5.11. *odinebwr, ac yn feddw:* d. *odineb-wr neu gybydd.* 7.12. *llall:* d. *llaill.* 12.13. *i fod:* d. *i yfed.* 15.6. *y mae rhai,* d. *y mae llawer.*

2. COR. 3.6. *weinidogion,* d. *weinidogion cymmwys.* 4.11. *y rhai ydym,* d. *y rhai ydym yn fyw.* 12.12. *fawr ddioddefgarwch,* d. *bob dioddefgarwch.*

EPHES. 4.19. *yn odieth i wneuthur &c.* d. *i wneuthur pob aflendid yn vn-chwant.* 5.1. *byddwn,* d. *byddwch.* 6.22. *fyng-hyſtwr:* d. *ein cyſtwr.*

PHILIP. 2.7. *i ddynion,* d. *i ddynion, a'i gael yn ei ddull fel dyn.*

COLOS. 2.9. *cyflawnder,* d. *holl gyflawnder.*

1. TIM. 1.13. *mewn annwybod:* d. *o blegid mewn annwybod.*

TIT. 3.15. *y rhai a'n carant,* d. *annerch y rhai a'n carant.*

HEBR. 5.9. *a vfyddhânt,* d. *a vfyddhant iddo.* 13.11. *i'r cyſſegr,* d. *eu gwaed i'r cyſſegr.*

IACOB. 2.21. *Onid trwy ffydd?* d *Onid trwy weithredoedd? &c.*

1. PET. 2.9. darllen fel hyn: *Eithr chwychwi rhyw etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenhedlaeth ſanctaidd, pobl ſydd &c.* gwers 11. *yn erbyn y cnawd.* d. *yn erbyn yr enaid.* 4.15. *neu drwy ddrwg weithredwr,* d. *neu ddrwg-weithredwr*

3. IOAN. 3. wers. *dy frodyr,* d. *y brodyr &c.* 6. *eglwyſi:* d. *eglwys.*

IVD. gwers 5. d. fel hyn: *Gan hynny yr ydwyf yn dwyn ar gof i chwi, yn gymaint, &c.*

GWELEDIG. 10.2. *oedd yn:* d. *oedd ganddo yn &c.* pen 14.19. *win-wydd gwin-llan &c.* d. *win-llan y ddaiar, ac a'i bwriodd i gerwyn &c.*

# LLyfr cyntaf Moſes yr hwn a elwir GENESIS.

## PENNOD I.

Creadwriaeth y nêf, a'r ddaiar, 2 Y goleuni a'r tywyllwch, 8 Y ffurfafen, 16 Y pyſc, yr adar, a'r anifeiliaid, 26 A dyn. 29 LLynniaeth dyn ac anifail.

Pſal. 33.6. Pſal. 136.5. Eccle.18.1. Act. 14.15. Act. 17.24. YN y dechreuad y * creawdd Duw y nefoedd a'r ddaiar.

2 Y ddaiar oedd afluniaidd, a gwâg, a thywyllwch [ydoedd] ar wyneb y dyfnder, ac yſpryd Duw yn ymſymmud ar wyneb y dyfroedd.

Ebr. 11.3. 3 Yna Duw a ddywedodd, * bydded goleuni, a goleuni a fû.

4 Yna Duw a welodd y goleuni mai dâ [oedd,] a Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch.

5 A Duw a alwodd y goleuni yn ddydd, a'r tywyllwch a alwodd efe yn nôs: a'r hwyr a fû, a'r borau a fû, y dydd cyntaf.

Pſal.136.5. Ierem.10.12. Ierem.51.15. 6 Duw hefyd a ddywedodd * bydded ffurfafen yng-hanol y dyfroedd, a bydded hi yn gwahanu rhwng dyfroedd a dyfroedd.

7 Yna Duw a wnaeth y ffurfafen, ac a wahanodd rhwng y dyfroedd y rhai [oeddynt] oddi tann y ffurfafen, a'r dyfroedd y rhai [oeddynt] *oddi ar y ffurfafen: ac felly y bu.

Pſal.148.4. 8 A'r ffurfafen a alwodd Duw yn nefoedd: felly yr hwyr a fû, a'r borau a fû, 'r ail dydd.

Pſal.33.7, 9 Duw hefyd a ddywedodd, * caſcler y dyfroedd oddi tann y nefoedd i'r vn lle, ac ymddangoſed y ſych-dîr: ac felly y bû.

10 A'r ſych-dîr a alwodd Duw yn ddaiar, chaſcliad y dyfroedd, a alwodd efe yn foroedd: a Duw a welodd mai dâ oedd.

11 A Duw a ddywedodd egîned y ddaiar egin [ſef] llyſſiau yn hadu hâd, a phrennau ffrwyth-lawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth, y rhai [y mae] eu hâd ynddynt ar y ddaiar: ac felly y bû.

12 A'r ddaiar a ddûg egin [ſef] llyſſiau yn hadu hâd wrth eu rhywogaeth, a phrennau yn dwyn ffrwyth y rhai [y mae] eu hâd ynddynt wrth eu rhywogaeth: a Duw a welodd mai da oedd.

13 Felly yr hwyr a fu, a'r borau a fu, y trydydd dydd.

Pſal.136.7. Deut.4.19. 14 Duw hefyd a ddywedodd, * bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd i wahanu rhwng y dydd â'r nôs: a byddant yn arwyddion, ac yn dymmorau, ac yn ddyddiau, a blynyddoedd.

15 A byddant yn oleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i oleuo ar y ddaiar: ac felly y bu.

16 Oblegit Duw a wnaeth y ddau oleuad mawrion, y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nôs, a'r ſêr [hefyd.]

17 Ac yn ffurfafen y nefoedd y rhoddes Duw hwynt, i oleuo ar y ddaiar:

Ierem.31.35. 18 Ac * i lywodraethu y dydd a'r nôs, ac i wahanu rhwng y goleuni a'r tywyllwch: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

19 Felly yr hwyr a fu, a'r borau a fu, y pedwerydd dydd.

20 Duw hefyd a ddywedodd, heigied y dyfroedd ymluſciaid byw, ac eheded ehediaid ar y ddaiar, ar wyneb ffurfafen y nefoedd.

21 A Duw a greawdd y mor-feirch mawrion, a phôb ymluſciad byw y rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phôb ehediad aſcellog yn ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

22 Yna Duw ai bendigodd hwynt, gan ddywedyd: ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y dyfroedd yn y môroedd a lluoſoged yr ehediaid ar y ddaiar.

23 A'r hwyr a fû, ar' borau a fû, y pummed dydd.

24 Duw hefyd a ddywedodd, dyged y ddaiar [bôb] peth byw wrth ei rywogaeth, yr anifail, a'r ymluſciad, a bwyſt-fil y ddaiar wrth ei rywogaeth: ac felly y bu.

25 Felly y gwnaeth Duw fwyſt-fil y ddaiar, wrth ei rywogaeth, a'r anifail wrth ei rywogaeth, a phôb ymluſciad y ddaiar wrth ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

1. MACHAB. 1.62. *Arwaſed*: d. *ar pwnc* &c. gwers 67. *yn [illegible]*: d. *yn erbyn Iſrael*. 2.23. *yn eu gwydd* [illegible]: d. *y gwyr, d[illegible]*. 3.38. *a chyfeillion*, d. *o gyfeillion*. gwers 56. *efe a ddywedodd*: d. *hwy a ddywedaſant*. 4.18. [illegible] gwers. 40. *a redd [illegible]*: d. *a redd ſant*. 5.30. *y [illegible]*: d. *yſcolion*. 6.52. *yn eu herbyn*: d. *yn [illegible]* &c. 7.7. [illegible]: d. *credadwy gennyt*: 9.1. *gyd ag ef*: d. *gyd a hwynt*. gwers. 39. *cynnulleidfa*: d. [illegible] 79. *gant*: d. [illegible] 11.3. *Ptolomeus*: d. *Ptolomais* 12.10. *Rhag eich bwyd yn [illegible]*: d. *Rhag ein myned* [illegible] gwers 22. *gwnaethoch*: d. *gwnewch*. 13.20. *yn Adora*: d. *a Adora*. 15.13. *ddeuddeng-mil*: d. [illegible]

2. M[illegible] 1.[illegible] *yn y blinder*: d. *yn y blinder*. 2.4. *y pebyll*: d. *y babell*. gwers 5. darllen. *Ac Ieremias wedi dyfod yno a gafodd ogof* &c. [illegible] 26. *yn ffrewyllu y rhai oeddynt yn ſefyll o bobtu* [illegible] d. *yn eu ffrewyllu yn ddibaid a chan daro llawer* [illegible] 5.2[illegible] *a phedwar ugain*: d. *ac wyth gant*. 6.2. *ond llywodraeth y dyn hwn*: d. *ond y llywodraeth* [illegible] gwers. 30. [illegible]: d. *gael ſyngwarc* [illegible] *yno ar hyd ſyng-horph*. d. *ar hyd ſyng-horph* [illegible] 7.1[illegible] gwers [illegible] 10.3[illegible] *ei ganol*: d. *yn y canol* 11.27. *y* [illegible] d. [illegible] 12.1[illegible]: d. *y rhai oeddynt o'ſeren, am eu bod* &c. 13.19. *i Gethſura*: d. *i Bethſura*. 14.4. *y blodeuyn*, d. *palm-wydden*. 14.7. *yr offeiriadaeth*: d. *yr arch offeiriadaeth*. 14.37. *a ddygwyd at Nicanor* [illegible] *ymddwyd*: *Nicanor*. 15.12. *A'r breuddwyd*: d. *a breuddwyd* 15.32. *a dwylo*: d. *a llaw*. 15.35. *wrth* [illegible] 37. *wr, fel y [illegible] yn ar [illegible] eglur* &c.

MATH. *Pennod* 5.44. *wrth ych chwi*, d. *wrth ych chwi cerwch eich gelynion, bendithiwch* &c. 8.2. *a aeth*: d. *a ddaeth*. 10.30. *eich holl wallt*: d. *holl wallt eich pennau*. 14.8. *dyſcu*: d. *rhaccddyſcu*. 15. yn yr argument *a phedair*: d. *a ſaith*. 16.10. *ſaith mil*: d. *pedair mil* 17.14 *eu dyfod*: d. *eu dyfod hwy*. *yno at* [illegible]: d. *atto ac a oſtyngodd iddo* &c. 23.20. *i'r hyn*: d. [illegible], *ac i'r hyn oll ſydd arni*. 26.56. *'r ſcrythurau a'r prophwydi*: d. *ſcrythurau y prophwydi*. 28.10. *y delant*: d. *yr elont*.

MARC. [illegible] *O Saul*: d. *[Ieſu] Sant*. 8.23. *ei law*: d. *ei ddwy-law*. 9.14 *o'i ogylch*: d. *o'u gogylch*. 10.21. *i'm dilyn*: d. [illegible] 14.23. *dywedus*: d. *rhaddywedus*. 14.54. *oedd yn ei ddilyn*: d. *a'i dilynodd*. gwers. 64. *gabledd*: d. *y gabledd*. gwers 44. [illegible] *ynted*: d. *eusys*: yn niwedd 44. *eusys*: d. *crys me tyn*.

LVC. 2.15. *a ddangoſodd*: d. *a ddarfu yr hwn a ddangoſodd*. 6.4 *ac a'i rhoddes*: d. *ac a'i bwyttaodd, ac a'i rhoddes*. 8.3[illegible] *yr hwn a wacſiadyn iach*: d. *yr hwn a iachaſid*. 13.34. *nis mynnit ti*: d. *nis mynnych chwi*. 15.12. *A'r hynaf*: d. *A'r ieuangaf*. 20.1. *pennaeth iud*: d. *hauriad*. gwers 31. *a fuant feirw*, *ſynnen* yn amaith hynny. 21.30. *y cynhaiaf*: d. *yr haf*.

IOAN. [illegible] *Galilea* d. *yn Galilea*. gwers 23. *dorri y Sabboth*: d. *dorri cyfraith Moſes*. 14.9 *adnabuoch*. d. *adnabuoſt*. 19.23. *i bob milwr*: d. *i bob milwr ran*. 20.19. *yr oedd y diſcyblion wedi ymgaſclu yng-hyd a'r dryſau yn gaead*: d. *a'r dryſau yn gaead lle yr oedd y diſcyblion wedi ymgaſclu ynghyd* &c. gwers 29. *weled*: d. *ſyng-weled*.

ACTAV. 1.18. *gobrwy* [illegible]. 9.6. *a ddywedodd, cyfot*: d. *[a ddywedodd] wrtho, cyfot*, gwers. 31. *radio yn*: d. *radio yn* [illegible] 11.[illegible] 2. [illegible] 13.10. [illegible] gwers 31. [illegible] gwers 14. *y doeth*: d. *y da* [illegible] 47. *o honaw*: d. *o honot*. 15.6. *i edrych*; d. *yng-hyd i edrych*. gwers. 41. *eglwys*: d. *eglwyſi*. 16.1[illegible] d. [illegible] *gyd a'r rhai gwragedd*: d. *[ac] y llefaraſom wrth y gwragedd* &c. gwers. 34. *a lawenychodd* [illegible] d. [illegible] 19.26. *onid tros*: d. *oni agos tros*. 22.4. *ffordd y fuchedd hon*: d. *y ffordd hon*. 24.7. [illegible] d. [illegible] *arnom*.

RHVFEIN. 3.5. [illegible] d. [illegible] *gennyl*. gwers. 20. *gan weithredoedd y cnawd*: d. *gan weithredoedd y ddeddf*. 4.9. darllen fel hyn; *A'r [illegible] dwyd hwch hyn ar yr enwaediad, ynte ar y dienwaediad hefyd?* &c. gwers 23. *i gyfrif*. d. *gyfrif*. 6.9. *a gyfododd*: d. *a gyfodwyd o feirw* 11.14. *os* d. *ar*. 15.15. *yn hyfach*, d. *yn hyfach o ran*, gwers 16. *cenhedloedd*: d. *y cenhedloedd*. d. &c. 24. *yn gyntaf*. d. *yn gyntaf o ran* 16.16. *eglwys*: d. *eglwyſi*.

1. CORINTH. [illegible] 4 *ni [illegible] dynt*: d. *ni all [eu] gwybod*. 4.5. *y galon*: d. *y calonnau*. gwers. 6. *ymchwythoch*: d. *ymchwyddoch*. 5.1[illegible] *wr [illegible]*: d. *o'i mei-wr neu gybydd*. 7.12. *llall*: d. *llaill*. 12.13. *i fod*: d. *i yfed*. 15.6. *y mae rhai*, d. *y [illegible]*.

2. COR. [illegible] 6. [illegible], d. *weni logion cymmwys*. 4.11. *y rhai y'dym*, d. *y rhai y'dym yn fyw*. 12.12. *fawr ddioddefgarwch*, d. *ymhob dioddefgarwch*.

[illegible] 4.19. *yn ol eu [illegible] i wneuthur* &c. d. *i wneuthur pob aflendid yn vn-chwant*. 5.1. *byddwn*, d. *byddwch*. 6.22. *ſyng-[illegible]*: d. *mewn cryſwr*.

PHILIP. 2.7. *i ddynion*, d. *i ddynion, a'i gael yn ei ddull fel dyn*.

COLOS. 2.9. *cyſlawnder*, d. *holl gyſlawnder*.

1. TIM. 1.13 *mewn annwybod*: d. *o blegid mewn annwybod*.

TIT. 3.15. *y rhai a'n carant*, d. *annerch y rhai a'n carant*.

HEBR. 5.9. *a vfyddhant*, d. *a vfyddhant iddo*. 13.11. *i'r cyſſegr*, d. *eu gwaed i'r cyſſegr*.

IACOB. 2.21. *Oni trwy ffydd?* d. *Onid trwy weithredoedd?* &c.

1. PET. 2.9. darllen fel hyn: *Eithr chwi chwi yw rhyw etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenhedlaeth ſanctaidd, pobl ſyddu* &c. gwers 11. *yn erbyn y cnawd* d. *yn erbyn yr enaid*. 4.15. *neu drwy ddrwg weithredwr*, d. *neu ddrwg-weithredwr*

3. IOAN. 3. wers. *y frodyr*, d. *y brodyr* &c. 6. *eglwyſi*: d. *eglwys*.

IVD. gwers 5. d. fel hyn: *Gan hynny yr ydwyf yn dwyn ar gof i chwi, yn gymaint* &c.

GWELEDIG. 10.2. *oedd yn*: d. *oedd ganddo yn* &c. pen 14.19. *win-wydd gwin-llan* &c. d. *win-llan y ddaiar, ac a'i bwriodd i gerwyn* &c.

# LLyfr cyntaf Moſes yr hwn a elwir GENESIS.

## PENNOD I.

Creadwriaeth y nêf, a'r ddaiar, 2 Y goleuni a'r tywyllwch, 8 Y ffurfafen, 16 Y pyſc, yr adar, a'r anifeiliaid, 26 A dyn. 29 LLynniaeth dyn ac anifail.

Pſal. 33.6. Pſal. 136.5. Eccle.18.1. Act.14.15. Act.17.24. YN y dechꝛeuad y * creawdd Duw y nefoedd a'r ddaiar.

2 Y ddaiar oedd afluniaidd, a gwâg, a thywyllwch [ydoedd] ar wyneb y dyfnder, ac yſpꝛyd Duw yn ymſymmud ar wyneb y dyfroedd.

Ebr.11.3. 3 Yna Duw a ddywedodd, * bydded goleuni, a goleuni a fû.

4 Yna Duw a welodd y goleuni mai dá [oedd,] a Duw a wahanodd rhwng y goleuni a'r tywyllwch.

5 A Duw a alwodd y goleuni yn ddydd, a'r tywyllwch a alwodd efe yn nôs: a'r hwyꝛ a fû, a'r borau a fû, y dydd cyntaf.

Pſal.136.5. Ierem.10.12. Ierem.51.15. 6 Duw hefyd a ddywedodd*bydded ffurfafen yng-hanol y dyfroedd, a bydded hi yn gwahanu rhwng dyfroedd a dyfroedd.

7 Yna Duw a wnaeth y ffurfafen, ac a wahanodd rhwng y dyfroedd y rhai [oeddynt] oddi tann y ffurfafen, a'r dyfroedd y rhai [oeddynt] *oddi ar y ffurfafen: ac felly y bu. Pſal.148.4.

8 A'r ffurfafen a alwodd Duw yn nefoedd: felly yꝛ hwyꝛ a fû, a'r boꝛau a fû, 'r ail dydd.

Pſal.33.7. 9 Duw hefyd a ddywedodd, * caſcler y dyfroedd oddi tann y nefoedd i'r un lle, ac ymddangoſed y ſych-dîr: ac felly y bû.

10 A'r ſych-dîr a alwodd Duw yn ddaiar, chaſcliad y dyfroedd, a alwodd efe yn foꝛoedd: a Duw a welodd mai dâ oedd.

11 A Duw a ddywedodd egined y ddaiar egin [ſef] llyſſiau yn hadu hâd, a phꝛennau ffrwyth-lawn yn dwyn ffrwyth, wꝛth eu rhywogaeth, y rhai [y mae] eu hâd ynddynt ar y ddaiar: ac felly y bû.

12 A'r ddaiar a ddûg egin [ſef] llyſſiau yn hadu hâd wꝛth en rhywogaeth, a phꝛennau yn dwyn ffrwyth y rhai [y mae] eu hâd ynddynt wꝛth eu rhywogaeth: a Duw a welodd mai da oedd.

13 Felly yꝛ hwyꝛ a fu, a'r borau a fu, y trydydd dydd.

Pſal.136.7. Deut.4.19. 14 Duw hefyd a ddywedodd, * bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd i wahanu rhwng y dydd a'r nôs: a byddant yn arwyddion, ac yn dymmoꝛau, ac yn ddyddiau, a blynyddoedd.

15 A byddant yn oleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i oleuo ar y ddaiar: ac felly y bu.

16 Oblegit Duw a wnaeth y ddau oleuad mawrion, y goleuad mwyaf i lywodꝛaethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodꝛaethu y nôs, a'r ſêr [hefyd.]

17 Ac yn ffurfafen y nefoedd y rhoddes Duw hwynt, i oleuo ar y ddaiar:

Ierem.31.35. 18 Ac * i lywodꝛaethu y dydd a'r nôs, ac i wahanu rhwng y goleuni a'r tywyllwch: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

19 Felly yꝛ hwyꝛ a fu, a'r borau a fu, y pedwerydd dydd.

20 Duw hefyd a ddywedodd, heigied y dyfroedd ymlusciaid byw, ac eheded ehediaid ar y ddaiar, at wyneb ffurfafen y nefoedd.

21 A Duw a greawdd y moꝛ-feirch mawꝛion, a phôb ymlusciad byw y rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phôb ehediad aſcellog yn ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

22 Yna Duw ai bendigodd hwynt, gan ddywedyd: ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwwch y dyfroedd yn y môꝛoedd a lluoſoged yꝛ ehediaid ar y ddaiar.

23 A'r hwyꝛ a fû, ar' boꝛau a fû, y pummed dydd.

24 Duw hefyd a ddywedodd, dyged y ddaiar [bôb] peth byw wꝛth ei rywogaeth, yꝛ anifail, a'r ymlusciad, a bwyſt-fil y ddaiar wꝛth ei rywogaeth: ac felly y bu.

25 Felly y gwnaeth Duw fwyſt-fil y ddaiar, wꝛth ei rywogaeth, a'r anifail wꝛth ei rywogaeth, a phôb ymlusciad y ddaiar wꝛth ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai dâ oedd.

Gene.5.1. Gene.9.6. 1.Cor.11.7. Coloſ.3.10. *Eccleſ.17.1.

26 Duw hefyd a ddywedodd * gwnawn ddŷn ar ein delw ni, wrth ein llûn ein hunain, ac * arglwyddiaethant ar bŷſc y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaiar, ac ar bôb ymluſciad yr hwn a ymluſco ar y ddaiar.

Doeth.2.23. Mat.19.4.

27 Felly Duw a greawdd y dŷn ar * ei lûn ei hun, ar lûn Duw y creawdd efe ef: yn wryw, ac yn fenyw y creawdd efe hwynt.

28 Duw hefyd ai bendigodd hwynt, a Duw a ddywedodd wrthynt, ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwwch y ddaiar, a darostyngwch hi, ac arglwyddiaethwch ar byſc y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar bôb bwyſt-fil yr hwn a ſymmudo ar y ddaiar.

29 A Duw a ddywedodd wele mi a roddais i chwi bôb llyſſieun yn hadu hâd yr hwn [ſydd] ar wyneb yr holl ddaiar: a phôb prenn yr hwn [y mae] ynddo ffrwyth prenn yn hadu hâd, * a fydd yn fwyd i chwi.

Geneſ 9.3. Eccleſ.39.21.

30 Hefyd i bôb bwyſt-fil y ddaiar, ac i bôb ehediad y nefoedd, ac i bôb [peth] yn ſymmudo ar y ddaiar yr hwn [y mae] einioes ynddo, [y bydd] pob llyſſieun gwyrdd yn fwyd: ac felly y bû.

Mar.7.37.

31 A * gwelodd Duw yr hyn oll a'r a wnaethe, ac wele da iawn ydoedd: felly yr hwyr a fû, ar borau a fu, y chweched dydd.

### PEN. II.

Duw yn peidio oddi wrth ei waith ar y ſeithfed dydd yr hwn a gyſſegrir. 15 Duw yn goſod dyn yn yr ardd. 22 Creadwriaeth gwraig 24 ordinhad priodas.

Exod.20.11. Exod.31.17. Hebre.4.4.

1 FElly y * gorphennwyd y nefoedd a'r ddaiar, ai holl lu hwynt.

2 Ac ar y ſeithfed dydd y gorphennodd Duw ei waith yr hwn a wnaethe efe, ac a orphywyſodd ar y ſeithfed dydd oddi wrth ei holl waith, yr hwn a wnaethe efe.

3 A Duw a fendigodd y ſeithfedd dydd, ac ai ſancteiddiodd ef: o blegit ynddo y gorphywyſaſe oddi wrth ei holl waith, yr hwn a greaſe Duw iw wneuthur.

4 Dymma genhedlaethau y nefoedd, a'r ddaiar, pan greuwyd hwynt yn y dydd y gwnaeth yr Arglwydd Dduw ddaiar, a nefoedd:

5 A phôb planhigin y maes cyn ei fôd yn y ddaiar, a phôb llyſſieun y maes cyn tarddu allan: o blegit ni pharaſe yr Arglwyd Dduw lawio ar y ddaiar, ac nid [ydoedd] dŷn i lafurio y ddaiar.

6 Onid tarth a eſcynnodd o'r ddaiar, ac a ddyfrhaodd holl wyneb y ddaiar.

7 A'r Arglwydd Dduw a luniaſe y dŷn o bridd y daiar, ac a anadlaſe yn ei ffroenau ef anadl einioes, felly yr aeth y dŷn yn enaid byw.

8 Hefyd yr Arglwydd Dduw a blannodd ardd yn Eden o' du y dwyrain, ac a oſododd yno y dŷn, yr hwn a luniaſe efe.

9 A gwnaeth yr Arglwydd Dduw, i bôb prenn dymunol i'r golwg, a daionus yn fwyd, ac i brenn y bywyd yng-hanol yr ardd, ac i brenn gwybodaeth dâ a drwg, dyfu allan o'r ddaiar.

10 Ac afon a aeth allan o Eden i ddyfrhâu yr ardd, ac oddi yno hi a rannwyd, ac a aeth yn bedwar pen.

11 Henw y cyntaf [yw] Piſon, yr hon ſydd yn amgylchu holl wlâd Hafila lle [y mae] yr aur.

12 Ac aur y wlâd honno ſydd dda: yno [y mae] Bdeliwm, a'r maen Onix.

13 A henw yr ail afon [yw] Gihon, honno ſydd yn amgylchu holl wlad Ethiop.

14 A henw y drydedd afon [yw] Hidecel, honno ſydd yn myned o du yr dwyrain i Aſſyria: a'r bedwaredd afon yw Euphrates.

15 A'r Arglwydd Dduw a gymmerodd y dŷn, ac ai goſododd ef yng-ardd Eden, iw llafurio, ac iw chadw hi.

16 A'r Arglwydd Dduw a orchymynnodd i'r dŷn, gan ddywedyd: o holl brennau yr ardd gan fwytta y bwyttei.

17 Ond o brenn gwybodaeth dà a drwg, na fwytta o honaw: o blegit yn y dydd y bwytteich ti o honaw, gan farw y byddi farw.

18 Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedaſe, nit dâ fod y dŷn ei hunan, gwnaf ymgeledd cymmwys iddo.

19 A'r Arglwyd Dduw a luniodd o'r ddaiar holl fwyſt-filod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac ai dygodd at y dyn i weled pa henw a rodde efe iddynt hwy: a pha fodd bynnac yr henwodd y dŷn bôb peth byw, hynny [fu] ei henw ef.

20 Y dŷn yntef a henwodd henwau ar yr holl anifeiliaid ac ar [holl] ehediaid y nefoedd, ac ar holl fwyſt-filod y maes: ond ni chafodd efe i Adda ymgeledd cymmwys iddo.

21 Yr Arglwydd Dduw am hynny a wnaeth i drymgwſc ſyrthio ar y dŷn, fel y cyſcodd, ac efe a gymmerodd vn oi aſſennau ef, ac a gaeodd gîg yn ei lle hi.

22 A'r Arglwydd Dduw a wnaeth yr aſſen yr hon a gymmeraſe efe o'r dŷn yn wraig, ac ai dug at y dŷn.

23 A'r dŷn a ddywedodd, hon weithian [ſydd] aſcwrn o'm heſcyrn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, o blegit o ŵr y cymmerwyd hi.

Mat.19.5. Mar.10.7. 2.Cor.6.10. Epheſ.5.31.

24 O herwydd hyn * yr ymedu gŵr ai dâd, ac ai fam, ac y glŷn wrth ei wraig, ac hwy a fyddant yn vn cnawd.

25 Ac yr oeddynt ill dau yn noethion, Adda ai wraig: ac nid oedd arnynt gywilydd.

### PEN. III.

1. Y ſarph yn hudo y wraig. 6 hithe yn denu ei gwr i bechu 8 y gwr a'r wraig yn ymguddio rhag Duw. 14 Coſpedigaeth ar bob vn o'r tri. 15 Addewid o Griſt. 19 Bod dyn yn bridd. 22 Bwriad dyn allan o baradwys.

Doeth.2.24.

A'R * ſarph oedd gyfrwyſach na holl fwyſtfilod y maes, y rhai a wnaethe yr Arglwydd Dduw, a hi a ddywedodd wrth y wraig, ai diau ddywedyd o Dduw na chaech chwi fwytta o holl brennau 'r ardd ?:

2 A'r wraig a ddywedodd wrth y ſarph, o ffrwyth prennau 'r ardd y cawn ni fwytta.

3 Ond am ffrwyth y prenn yr hwn [ſydd] yng-hanol yr ardd, Duw a ddywedodd, na fwyttewch o honaw ac na chyffyrddwch ag ef, rhac eich marw.

4 Yna y ſarph a ddywedodd wrth y wraig : ni byddwch feirw ddim.

5 Ond gwybod y mae Duw, mai yn y dydd y bwyttaoch chwi, o honaw ef, yr agorir eich llygaid, ac y byddwch megis duwiau yn gwybod dâ a drwg.

6 Pan welodd y wraig mai dâ oedd [ffrwyth] y prenn yn fwyd, ac mai têg mewn golwg ydoedd, ai fod efe yn brenn dymunol i beri deall, yna hi a gymmerth oi ffrwyth ef, ac a fwyttaodd, ac a roddes iw gŵr hefyd gyd a hi, ac efe a fwyttaodd.

7 Yna eu llygaid hwynt ill dau a agorwyd, a gwybuant mai noethion [oeddynt] hwy, a gwnîaſant ddail y ffiguſ-bren, a gwnaethant arffedogau iddynt.

8 Pan glywſant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd, gyd ag awel y dydd, yna yr ymguddiodd Adda ai wraig, o olwg yr Arglwydd Dduw, ym myſc prennau 'r ardd.

9 A'r Arglwydd Dduw a alwodd ar y dŷn, ac a ddywedodd wrtho, pa le [yr ydwyt] ti ?:

10 Yntef a ddywedodd, dy lais a glywais yn yr ardd, ac mi a ofnais, oblegit noeth [oeddwn] i am hynny yr ymguddiais.

11 Yna y dywedodd [Duw :] pwy a fynegodd i ti mai noeth [oeddyt] ti ?: ai o'r prenn yr hwn y gorchymynnaſwn i ti na fwytteit o honaw, y bwyteaiſt ?:

12 Ac Adda a ddywedodd : y wraig yr hon a roddaiſt gyd â mi, hi a roddodd i mi o'r prenn, a mi a fwytteais.

14 Yr Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y wraig, pa ham y gwnaethoſt ti hyn ?: a'r wraig a ddywedodd : y ſarph a'm twyllodd, a bwytta a wneuthum.

14 Yna 'r Arglwydd Dduw a ddywedodd wrth y ſarph : am wneuthur o honot hyn, melldigediccach [wyt] ti na'r holl anifeiliaid, ac na holl fwyſt-filod y maes : ar dy dorr y cerddi, a phridd a fwyttei holl ddyddiau dy enioes.

15 Gelyniaeth hefyd a oſodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd ti, ai hâd hithe : efe a yſſiga dy benn di, a thithe a yſſigi ei ſodl ef.

16 Wrth y wraig y dywedodd, gan amlhau yr amlhaf dy boenau di, a'th feichiogi, mewn poen y dygi blant, a'th ddymuniad [fydd] at dy ŵr, ac efe a feiſtrola arnat ti.

17 Hefyd wrth Adda y dywedodd, am wrando o honot ar lais dy wraig, a bwytta o'r prenn am yr hwn y gorchymynnaſwn i ti gan ddywedyd, na fwytta o honaw : melldigedic [fydd] y ddaiar o'th achos di, a thrwy lafur y bwyttei o honi holl ddyddiau dy enioes.

18 Drain hefyd, ac yſgall a ddŵg hi i ti : a llyſſiau y maes, a fwyttei di.

19 Trwy chwŷs dy wyneb y bwyttei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaiar, o blegit o honi i'th gymmerwyt, canys pridd [wyt] ti, ac i'r pridd y dychweli.

20 A'r dŷn a alwodd henw ei wraig Efa : o blegit hi oedd fam pob [dŷn] byw.

21 A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i Adda, ac iw wraig ef beiſiau crwyn, ac ai gwiſcodd am danynt.

22 Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, wele y dŷn ſydd megis vn o honom ni yn gwybod dâ a drwg, weithian gan hynny, [edrychwn] rhac iddo eſtyn ei law, a chymmeryd hefyd o brenn y bywyd, a bwytta, a byw yn dragwyddol.

23 Am hynny yr Arglwydd Dduw ai hanfonodd ef allan o ardd Eden, i lafurio y ddaiar, yr hon y cymmeraſyd ef o honi.

24 Felly efe a yrrodd allan y dŷn, ac a oſododd o'r tu dwyrain i ardd Eden y Cerubiaid, a llafn y cleddyf yſcwydedic, i gadw ffordd prenn y bywyd.

## PEN. IIII.

1 Ganedigaeth Cain ac Abel. 3 Ai hoffrwm. 8 LLaddiad Abel. 11 Coſpedigaeth Cain. 13 Ai annobaith. 17 Hiliogaeth Cain. 23 Cyſſur Lamech. 25 Ganedigaeth Seth, ac adnewyddiad gwir grefydd.

WEdi hyn, Adda a adnabu Efa ei wraig, a hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar Gain, ac a ddywedodd : cefais ŵr gan yr Arglwydd.

2 A hi a eſcorodd eil-waith ar ei frawd ef Abel, ac Abel oedd fugail defaid, ond Cain oedd yn llafurio y ddaiar.

3 A bu wedi talm o ddyddiau, i Gain ddwyn o ffrwyth y ddaiar offrwm i'r Arglwydd.

4 Ac Abel yntef a ddûg o flaen-ffrwyth ei ddefaid ef, ac oi braſter hwynt : a'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm.

5 Ond nid edrychodd efe ar Gain, nac ar ei offrwm ef, am hynny y dicllonodd Cain yn ddirfawr, fel y ſyrthiodd ei wyneb-pryd ef.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Cain, pa ham y llidiaiſt ?: a pha ham y ſyrthiodd dy wyneb-pryd ?:

7 Os yn ddâ y gwnei, oni chei oruchafieth ?: ac oni wnei yn ddâ, pechod a orwedd wrth y drws : attat ti hefyd [y mae] ei ddymuniad ef, a thi a feiſtroli arno ef.

8 Yna Cain a ddywedodd wrth Abel ei frawd, ac fel yr oeddynt hwy yn y maes, * Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac ai lladdodd ef.

Doeth.10.3.
Mat.23.35.
1.Ioan.3.12.

9 Yna yr Arglwydd a ddywedodd wrth Gain, mae Abel dy frawd ti ?: yntef a ddywedodd ni's gwnn, ai ceidwad fy mrawd [ydwyf] fi ?:

10 Yna y dywedodd [Duw,] beth a wnaethoſt, llef gwaed dy frawd ſydd yn gweiddi arnaf fi o'r ddaiar.

11 Ac yr awrhon melldigedic wyt ti o'r

ddaiar, yr hon a agorodd ei ſafn i dderbyn gwaed dy frawd o'th law.

12 Pan lafuriech y ddaiar ni chwanega hi roddi ei ffrwythit, gwibiad, a chyrwydrad fyddi ar y ddaiar.

13 Yna y dywedodd Cain wrth yr Arglwydd mwy [yw] fy anwiredd nac y gellir ei fadde.

14 Wele gyrraiſt fi heddyw oddi ar wyneb y ddaiar, ac oth ŵydd di i'm cuddîr: gwibiad hefyd a chyrwydrad fyddaf ar y ddaiar [a] phwy bynnac a'm caffo a'm lladd.

15 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho, am hynny y dielir yn ſaith ddyblyg [ar] bwy bynnac a laddo Gain, a'r Arglwydd a oſododd nôd ar Gain, rhac i neb a'r ai caffe ei ladd.

16 Yna Cain aeth allan o ŵydd yr Arglwydd, ac a drigodd yn nhîr Nod, o'r tu dwyrain i Eden.

17 Cain hefyd a adnabu ei wraig, a hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar Henoch, yna'r ydoedd efe yn adeiladu dinas, ac efe a alwodd henw y ddinas yn ol henw ei fâb ef Henoch.

18 Ac i Henoch y ganwyd Irad, ac Irad a genhelodd Mehuiael, ac Mehuiael a genhedlodd Methuſael, a Methuſael a genhedlodd Lamech.

19 A Lamech a gymmerodd iddo ddwy wragedd: henw y gyntaf [oedd] Ada, a henw'r ail Sila.

20 Ac Ada a eſcorodd ar Iabel, hwn ydoedd dâd [pob] preſſwylydd pabell, a [pherchen] anifail.

21 A henw ei frawd ef oedd Iubal, ac efe oedd dâd pob teimlydd telyn ac organ.

22 Sila hithe a eſcorodd ar Thubalcain, gweithydd pob celfydd-waith prês a haiarn: a chwaer Thubalcain [ydoedd] Noema.

23 A Lamech a ddywedodd wrth ei wragedd, Ada a Sila, gwragedd Lamech clywch fy llais, gwrandewch fy lleferydd, canys mi a leddais ŵr i'm harcholl, a llange i'm clais.

24 Os Cain a ddielir ſeith-waith yna Lamech ſaith ddeng-waith, a ſeith-waith.

25 Ac Adda a adnabu ei wraig trachefn, a hi a eſcorodd ar fab, ac hi a alwodd ei enw ef Seth: o herwydd Duw [eb hi] a oſododd i mi hâd arall, yn lle Abel, am ladd o Gain ef.

26 I'r Seth hwn hefyd y ganwyd mâb, ac efe a alwodd ei enw ef Enos: yna y decreuwyd galw ar enw'r Arglwydd.

## PEN. V.

Hanes Adda. 6 Ai hiliogaeth hyd ddwfr diluw.

Gene.1.26. DYmma lyfr cenhedlaethau Adda, yn y dydd y creawdd Duw ddŷn: * a'r lûn Duw y gwnaeth efe ef.

2 Yn wryw, ac yn fanyw y creawdd efe hwynt, ac ai bendithiodd hwynt, ac a alwodd eu henw hwynt dŷn ar y dydd y creuwyd hwynt.

3 Ac Adda a fu fyw ddeng-mhlynedd ar hugain a chant ac a genhedlodd [fâb] ar ei lun, ai ddelw ei hun, ac a alwodd ei enw ef Seth.

4 A dyddiau Adda wedi iddo genhedlu Seth oeddynt wythgan mlhynedd, ac efe a genhedlodd feibion a merched.

5 Felly holl ddyddiau Adda y rhai y bu efe fyw, oeddynt naw can mlhynedd, a deng-mlhynedd ar hugain, ac efe a fu farw.

6 Seth hefyd a fu fyw bum-mlhynedd, a chan mhlynedd, ac a genhedlodd Enos.

7 A Seth a fu fyw wedi iddo genhedlu Enos ſaith mlynedd ac wyth gan mlhynedd, ac a genhedloed feibion a merched.

8 Felly holl ddyddiau Seth oeddynt ddeu-ddeng mhlynedd, a naw-can mhlynedd, ac efe a fu farw.

9 Ac Enos a fu fyw, ddeng mlhynedd a phedwar vgain, ac a genhedlodd Cenan.

10 Ac Enos a fu fyw wedi iddo genhedlu Cenan bymtheng mlhynedd, ac wyth gan mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

11 Felly holl ddyddiau Enos oeddynt bum mlhynedd, a naw-can mlhynedd, ac efe a fu farw.

12 Cenan hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd a thrugain, ac a genhedlodd Mahalaleel.

13 A bu Cenan fyw wedi iddo genhedlu Mahalaleel ddeugain mlhynedd, ac wyth gan mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

14 Felly holl ddyddiau Cenan oeddynt ddeng mlhynedd, a naw can mlhynedd, ac efe a fu farw.

15 A Mahalaleel a fu fyw bum mlhynedd, a thrugain mlhynedd, ac a genhedlodd Iered.

16 A Mahalaleel a fu fyw, wedi iddo genhedlu Iered, ddeng mlhynedd ar hugain, ac wyth gan mlhynedd, ac a genhedlodd feibion, a merched.

17 Felly holl ddyddiau Mahalaleel oddynt, bymtheng mlhynedd, a phedwar vgain ac wyth gan mlhynedd, ac efe a fu farw.

18 Ac Iered a fu fyw ddwy flynedd a thrûgain, a chan mlhynedd ac a genhedlodd Henoc.

19 Yna Iered a fu fyw wedi iddo genhedlu Henoch wyth gan-mlhynedd, ac a genhedlodd feibion, a merched.

20 Felly holl ddyddiau Iered oeddynt ddwy flynedd, a thrugain, a naw can mlhynedd, ac efe a fu farw.

21 *Henoc hefyd a fu fyw bum mlhynedd a thrugain, ac a genhenlodd Methuſelah. Eccleſ.44.15. Ebr.11.5.

22 A Henoc, a rodiodd gyd a Duw wedi iddo genhedlu Methuſelah dry-chant o flynyddoedd, ac a genhedlodd feibion, a merched.

23 Felly holl ddyddiau Henoc oeddynt bum mlhynedd a thrugain, a thrychant o flynyddoedd.

24 Ie rhodiodd Henoc gyd a Duw, ac ni [welwyd] efe: canys Duw ai cymmerodd ef.

25 Methuſelah hefyd a fu fyw ſaith mlynedd a phedwar vgain, a chant, ac a genhedlodd Lamec.

26 Methuſelah a fu fyw wedi iddo genhedlu Lamec, dwy flynedd, a phedwar vgain a ſaith gan mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

27 Felly holl ddyddiau Methuſelah oeddynt, naw mlynedd a thrugain, a naw can mlhynedd, ac efe a fu farw.

28 Lamec hefyd a fu fyw ddwy flynedd a phedwar vgain a chan mlhynedd, ac a genhedlodd fâb,

29 Ac a alwoddei enw ef Noah, gan ddywedyd hwn a'n cyſura ni, am ein gwaith, a llafur ein dwylo, o herwydd y ddaiar yr hon a felldigodd yr Arglwydd.

30 Yna Lamec a fu fyw wedi iddo genhedlu Noah, bymtheng mlhynedd, a phedwar vgain, a phum-can mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

31 Felly holl ddyddiau Lamec oeddynt, ddwy flynedd, ar bymthec, a thrugain, a ſaith gan mlhynedd, ac efe a fu farw.

32 A Noah ydoedd fab pum can mlwydd pan genhedlodd Noah, Sem, Cam, ac Japheth.

## PEN. VI.

Achos dwfr diluw. 8 Hanes Noah. 14 Gwnevthuriad yr Arch.

YNa y bû pan ddechreuodd dynion amlhau ar wyneb y ddaiar, a geni merched iddynt,

2 Weled o feibion Duw ferched dynion mai teg[oeddynt]hwy, a hwynt a gymmeraſant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewiſaſant.

3 Yna y dywedodd yr Alglwydd nid ymryſona fy yſpryd i a dŷn yn dragywydd, oblegit mai cnawd yw efe: ai ddyddiau fyddant vgain mlhynedd, a chant.

4 Cawri oeddynt ar y ddaiar y dyddiau hynny: ac wedi hynny hefyd, pan ddaeth meibion Duw at ferched dynion, a phlanta [o'r rhai hynny]iddynt: dymma y cedyrn y rhai[a fuant] wŷr enwoc gynt.

Gen.8.21. Mat.15.19. 5 A'r Alglydd a *welodd mai aml oedd drygioni dŷn ar y ddaiar, â [bod] holl fwriad, meddyl-fryd ei galon yn vnic yn ddrygionus bôb amſer.

6 Yna yr edifarhaodd ar yr Arglwydd wneuthur o hanaw efe ddyn ar y ddaiar, ac efe a ymofidiodd yn ei galon.

7 A'r Alglwydd a ddywedodd, deleaf ddŷn yr hwn a greais oddi ar wyneb y ddaiar, o ddŷn, hyd anifail, hyd yr ymluſciad, ac hyd ehediad y nefoedd: canys y mae yn edifar gennif eu gwneuthur hwynt.

8 Ond Noah a gafodd ffafor yng-olwg yr Arglwydd.

9 Dymma genhedlaethau Noah, Noah [oedd]ŵr cyfiawn, perffaith yn ei oes: gyd a Duw y rhodiodd Noah.

10 A Noah a genhedlodd dri o feibion, Sem, Cam ac Japheth.

11 A'r ddaiar a lygreaſyd ger bron Duw, llanwaſyd y ddaiar hefyd a thrawſedd.

12 Yna yr edrychodd Duw ar y ddaiar, ac wele hi a lygreaſyd, canys pôb cnawd a lygreaſe ei lwybr ar y ddaiar.

13 A Duw a ddywedodd wrth Noah, diwedd pôb cnawd a ddaeth ger fy mron: o blegit llanwyd y ddaiar a thrawſedd oi herwydd hwynt: ac wele myfi ai difethaf hwynt gyd ar ddaiar.

14 Gwna di it Arch o goed Gopher, yn gellau y gwnei'r Arch, a phŷga hi oddi fewn, ac oddi allan a phŷg.

15 Fel hyn y gwnei hi, try chant cufydd [fydd] hŷd yr Arch, dec cufydd a deûgain ei llêd, a dec cufydd ar hugain ei huchter.

16 Gwna Feneſtr i'r Arch, a gorphenn[hi] yn gufydd oddi arnodd: a goſot ddrws yr Arch yn ei hyſtlys: o dri[vchder]y gwnei di hi.

17 O herwydd wele fi yn dwyn dyfroedd diluw ar y ddaiar, i ddifetha pob cnawd, yr hwn [y mae]anadl enioes ynddo, oddi tann y nefoedd: yr hyn oll[ſydd]ar y ddaiar a drenga.

18 Ond a thi y cadarnhaf fyng-hyfammod, o blegit i'r Arch yr ei di, a'th feibion, a'th wraig, a gwragedd dy feibion gyd a thi.

19 Ac o bôb [peth] byw, o bôb cnawd, y dygi ddau o bôb[rhyw]i'r arch iw cadw [hwynt] yn fyw gyd a thi, gwryw, a banyw fyddant.

20 O'r ehediaid wrth eu rhywogaeth, ac o'r anifailiaid wrth eu rhywogaeth, o bôb ymluſciad y ddaiar wrth ei rywogaeth, dau o bôb [rhywogaeth]a ddeuant attat iw cadw yn fyw.

21 A chymmer di it, o bôb bwyd yr hwn a fwytteir, a chaſcl attat, a bydded yn ymborth iti, ac iddynt hwythau.

22 *Felly y gwnaeth Noah, yn ol yr hyn oll Hebr.11.7. a orchymynnaſe Duw iddo, felly y gwnaeth efe.

## PEN. VII.

1 Mynediad Noah ai eiddo i'r Arch 17 y diluw yn dyfod, ac yn difetha y rhann arall o'r byd.

YNa y dywedodd yr Arglwydd wrth Noah, dôs di, a'th holl dŷ i'r Arch: canys tydi a *welais i yn gyfiawn yn yr oes hon, ger fy 2.pet,2.5. mron i.

2 O bôb anifail glân y cymmeri gyd a thi bôb yn ſaith, y gwryw, ai fanyw, a dau o'r anifailiaid y rhai nid ydynt lân, y gwryw, ai fanyw:

3 O ehediaid y nefoedd hefyd, bôb yn ſaith, yn wryw ac yn fenyw, i gadw hâd yn fyw, ar wyneb yr holl ddaiar.

4 O blegit wedi ſaith niwrnod etto, mi a lawiaf ar y ddaiar ddeugain nhiwrnod, a deugain nhôs: ac mi a ddeleaf oddi ar wyneb y ddaiar bôb peth byw a'r a wneuthum i.

5 A Noah a wnaeth yn ol yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd iddo. Mat,24.37. Luke 17.26.

6 Noah hefyd [ydoedd] fâb chwe chan 1.Pet.3.20. mlwydd, pan fu y diluw ddyfroedd ar y ddaiar.

7 Yna y daeth Noah, ai feibion, ai wraig, a gwragedd ei feibion gyd ag ef i'r Arch rhac y dwfr diluw.

8 O'r anifeiliaid glân, ac o'r anifeiliaid y rhai nid [oeddynt] lân, o'r ehediaid hefyd, ac o'r hyn oll a ymluſce ar y ddaiar,

9 Y daethant at Noah i'r Arch bôb yn ddau, yn wryw, ac yn fanyw, fel y gorchymynnaſe Duw i Noah.

10 Ac wedi ſaith niwrnod y dwfr diluw a ddaeth ar y ddaiar.

11 Yn y chwe chanfed flwyddyn o fywyd Noah, yn yr ail mîs, ar yr ail dydd ar bymthec o'r mîs, ar y dydd hwnnw y rwygwyd holl ffynhonnau y dyfnder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd.

12 Ar glaw fu ar y ddaiar ddeugain nhiwrnod, a deugain nhos.

13 O fewn corph y dydd hwnnw y daeth Noah, a Sem, a Cham a Japheth, meibion Noah, a gwraig Noah, a thair gwragedd ei feibion ef gyd a hwynt i'r Arch.

14 Hwynt, a phôb bwyſt-fil wrth ei rywogaeth, a phôb anifail wrth ei rywogaeth, a phôb ymluſciad a ymluſce ar y ddaiar wrth ei rywogaeth, a phôb ehediad wrth ei rywogaeth, [ſef] pôb rhyw aderyn.

15 A daethant at Noah i'r Arch bôb yn ddau, o bôb cnawd yr hwn [yr oedd] ynddo anadl enioes.

16 A'r rhai a ddaethant, yn wryw, a banyw y daethant o bôb cnawd, fel y gorchymynnaſe Duw iddo, yna 'r Arglwydd a gaeodd arno ef.

17 A'r diluw fu ddeugain nhiwrnod ar y ddaiar, a'r dyfroedd a amlhauſant, fel y dygaſant yr Arch, ac y codwyd hi oddi ar y ddaiar.

18 A'r dyfroedd a ymgryfhaſant, ac a amlhauſant yn ddirfawr ar y ddaiar, a'r Arch a rodiodd ar hyd wyneb y dyfroedd.

19 A'r dyfroedd a ymgryfhaſant yn ddirfawr iawn ar y ddaiar, a gorchguddiwyd yr holl fynyddoedd vchel y rhai oeddynt tann yr holl nefoedd.

20 Pymthec cufydd yr ymgryfhaodd y dyfroedd, tuac i fynu wedi gorchguddio y mynyddoedd.

Eccleſ.39.28. 21 *Yna y bu farw pôb cnawd yr hwn a ymluſce ar y ddaiar, yn ehediaid, ac yn anifeiliaid ac yn fwyſt-filod, ac yn bôb [rhyw] ymluſciad a ymluſce ar y ddaiar, a phôb dŷn [hefyd.]

22 Yr hyn oll [yr oedd] ffûn anadl enioes yn ei ffroenau: o'r hyn oll [ydoedd] ar y ſych-dir a fuant feirw.

23 Ac efe a ddeleodd bôb ſylwedd byw 'a'r a [oedd] ar wyneb y ddaiar, yn ddŷn, yn anifail, yn ymluſciaid, ac yn ehediaid o'r nefoedd, ie delewyd hwynt o'r ddaiar: a Noah a'r rhai [oedynt] gyd ag ef yn yr Arch yn vnic a adawyd yn fyw.

24 A'r dyfroedd a ymgryfhaſant ar y ddaiar, ddeng nhiwrnod a deugain, a chant.

## PEN. VIII.

Y dyfroedd yn treio. 7 Noah yn anfon allan y gig-fran ar golommen. 16 Mynediad Noah allan o'r Arch, 20 ai aberth.

YNa Duw a goffaodd Noah, a phôb bwyſt-fil a phôb anifail, y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn yr Arch: a gwnaeth Duw i wynt dramwyo ar y ddaiar, a'r dyfroedd a lonyddaſant.

2 Caewyd hefyd ffynhonnau y dyfnder a ffenestri y nefoedd: a lluddiwyd y glaw o'r nefoedd.

3 A'r dyfroedd a ddychwelaſant oddi ar y ddaiar gan fyned a dychwelyd: ac ym mhen deng nhiwrnod a deugain a chant y dyfroedd a dreiaſent.

4 Ac yn y ſeithfed mîs, ar yr ail dydd ar bymthec o'r mîs, y gorphywyſodd yr Arch ar fynyddoedd Armenia.

5 A'r dyfroedd fuant yn myned, ac yn treio hyd y decfed mîs, yn y decfed [mîs] ar y [dydd] cyntaf o'r mîs y gwelwyd pēnau y mynyddoedd

6 Ac ym mhen deugain nhiwrnod yr agorodd Noah ffenestr yr Arch yr hon a wnaethe efe

7 Ac efe a anfonodd allan gig-frân, a hi aeth, gan fyned allan a dychwelyd: hyd oni ſychodd y dyfroedd oddi ar y ddaiar.

8 Yna 'r anfonodd efe y golommen oddi wrtho, i weled a yſcafnhauſe y dyfroedd oddi ar wyneb y ddaiar.

9 Ac ni chafodd y golommen orphywyſfa i wadn ei throed, am hynny hi a ddychwelodd atto ef i'r Arch, am [fod] y dyfroedd ar wyneb yr holl-dîr: ac efe a eſtynnodd ei law, ac ai cymmerodd hi, ac ai derbyniodd hi atto i'r Arch.

10 Ac efe a ddiſgwiliodd etto ſaith niwrnod eraill, yna yr anfonodd efe eil-waith y golommen o'r Arch.

11 A'r golommen a ddaeth atto ef ar brydnawn, ac wele ddeilen oliwydden yn ei gylfin hi, wedi ei thynnu: yna y gwybu Noah yſcafnhau y dyfroedd oddi ar y tir.

12 Ac efe a ddiſgwiliodd etto ſaith niwrnod eraill, ac a anfonodd y golommen, ac ni ddychwelodd hi ail-waith atto ef mwy.

13 Ac yn yr vnfed flwyddyn a chwe chant, yn y [mîs cyntaf, ar y [dydd] cyntaf o'r mîs, y darfu i'r dyfroedd ſychu oddi ar y tîr: A Noah a ſymmudodd gaead yr Arch, ac a edrychodd, ac wele wyneb y ddaiar a ſychaſe.

14 Ac yn yr ail mîs, ar y ſeithfed dydd ar hugain o'r mîs, y ddaiar a ſychaſe.

15 Yna y llefarodd Duw wrth Noah gan ddywedyd:

16 Dos allan o'r Arch, ti, a'th wraig, a'th feibion, a gwragedd dy feibion, gyd a thi.

17 Pôb bwyſt-fil yr hwn [ſydd] gyd a thi, o bôb cnawd, yn adar, ac yn anifeiliaid, ac yn bôb [rhyw] ymluſciad yn ymluſco ar y ddaiar, a ddygi allan gyd a thi: * heigiant hwythau yn y ddaiar, a ffrwythant ac amlhânt ar y ddaiar. Gen.1.22. Gene.9.1.

18 Yna Noah a aeth allan ai feibion, ai wraig, a gwragedd ei feibion gyd ag ef.

19 Pôb bwyſt-fil, pôb pryf, a phôb ehediad, pôb ymluſciad ar y ddaiar, wrth eu rhywogaethau a daethant allan o'r Arch.

20 A Noah a adeiladodd allor i'r Arglwydd, ac a gymmerodd o bôb anifail glân, ac o bôb ehediad glân, ac a offrymmodd boeth offrymmau ar yr allor.

21 Yna'r aroglodd yr Arglwydd arogl eſmwyth, a dywedodd yr Arglwydd yn ei galon ni chwanegaf felldithio y ddaiar mwy er mwyn dŷn: er [bôd] brŷd calon dŷn yn ddrwg oi ieuenctid: ac ni chwanegaf mwy ladd pôb [peth] byw, fel y gwneuthum.

22 Pryd hâu, a chynhaiaf, ac oerni, a gwrês, a hâf a gaiaf, a dydd, a nôs ni pheidiant mwy holl ddyddiau y ddaiar.

## P E N. IX.

Duw yn bendithio Noah ai feibion 3 yn caniatâu bwyta cîg. 4 Ac yn gwahardd gwaed. 9 Duw yn addo na ddifethir y byd mwy trwy ddwfr. 12 Yr enfys yn wyſtl o hynny. 21 Meddwdod Noah. 22 Cam yn amherchi ei dâd, 25 ei dâd yn ei felldigo yntef 29 oedran a marwolaeth Noah.

Duw hefyd a fendithiodd Noah, ai feibion: ac a ddywedodd wrthynt, ffrwythwch, a lluoſogwch a llenwch y ddaiar.

2 Eich ofn hefyd,'ach arſwyd fydd ar holl fwyſtfilod y ddaiar, ac ar holl ehêdiaid y nefoedd, a'r hyn oll a ſathr y ddaiar, ac ar holl byſcod y môr: yn eich llaw chwi y rhoddwyd hwynt.

3 Pôb ymſymmudydd yr hwn ſydd fyw, fydd i chwi yn fwyd: fel y gwyrdd lyſieun y rhoddais i chwi bôb dim.

Gene.1.29. Leſit.17.14. 4 *Er hynny na fwyttewch gîg yng-hyd ai enioes [ſef] ei waed.

5 Canis yn ddiau gwaed eich enioes chwithaw hefyd a ofynnaf fi, o law pôb bwyſt-fil y gofynnaf ef, ac o law dŷn, o law pôb brawd iddo, y gofynnaf enioes dŷn.

Mat.26.52. gwel.13.10. 6 A *dywalldo waed dŷn, drwy ddŷn y tyweldir ei waed yntef, o herwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddŷn.

7 Ond ffrwythwch, ac amlhewch, heigiwch ar y ddaiar, a lluoſogwch ynddi.

8 Duw a lefarodd wrth Noah, ac wrth ei feibion gyd ag ef: gan ddywedyd,

9 Wele fi hefyd yn cadarnhau fyng-hyfammod a chwi, ac a'ch hâd chwi ar eich ol chwi.

10 Ac a phôb peth byw 'r hwn [ſydd] gyd a chwi, a'r ehediaid, a'r anifeiliaid, ac a phôb bwyſt-fil y tîr gŷd a chwi, o'r rhai oll ydynt yn myned allan o'r Arch: drwy holl fwyſt-filod y ddaiar.

Eſai.54.9. 11 Ac *mi a gadarnhaf fyng-hyfammod a chwi, fel na thorrir ymmaith bôb cnawd mwy gan y dwfr diluw, ac na bydd diluw mwy i ddifetha y ddaiar.

12 A Duw a ddywedodd, dymma arwydd y cyfammod yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi rhyngofi a chwi, ac a phôb peth byw yr hwn [ſydd] gyd a chwi, tros oeſoedd tragywyddol.

13 Fy mŵa a roddais yn y cwmmwl, ac efe a fydd yn arwydd cyfammod rhyngofi a'r ddaiar.

Eccle.43.12. 14 A bydd pan *godwyf gwmwl ar y ddaiar, ac ymddangos o'r bŵa yn y cwmwl,

15 Y cofiaf fyng-hyfammod yr hwn [ſydd] rhyngofi a chwi, ac a phôb peth byw o bôb cnawd: ac ni bydd y dyfroedd yn ddiluw mwy, i ddifetha pôb cnawd.

16 A'r bŵa a fydd yn y cwmwl, ac mi a edrychaf arno ef i gofio cyfammod tragywyddol, rhwng Duw a phôb peth byw, o bôb cnawd yr hwn [ſydd] ar y ddaiar.

17 A Duw a ddywedodd wrth Noah, dymma arwydd y cyfammod yr hwn a gadarnheais rhyngofi, a phôb cnawd: yr hwn ſydd ar y ddaiar.

18 A meibion Noah y rhai a ddaethant allan o'r Arch oeddynt Sem, Cam, ac Japheth: a Cham hwnnw [oedd] dâd Canaan.

19 Y tri hyn [oeddynt] feibion Noah: ac o'r rhai hyn yr eppiliodd yr holl ddaiar.

20 A Noah a ddechreuodd [fod] yn llafurwr, ac a blannodd win-llan.

21 Ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd, ac a ymnoethodd yng-hanol ei babell.

22 Yna Cam tâd Canaan a welodd noethni ei dâd, ac a fynegodd iw ddau frodyr allan.

23 Yna y cymmerodd Sem, ac Japheth, ddilledyn ac ai goſodaſant ar eu hyſcwyddau ill dau, ac a gerddaſant yn-wyſc eu cefn, ac a orchguddiaſant noethni eu tâd: ai hwynebau yn ol, fel na welent noethni eu tâd.

24 Yna y deffroawdd Noah oi wîn, ac a wybu beth a wnaethe ei fab ieuangaf iddo.

25 Ac efe a ddywedodd, melldigêdic [fyddo] Canaan, gwâs gweiſion iw frodyr fydd.

26 Ac efe a ddywedodd, bendigêdic yw Arglwydd Dduw Sem, a Chanaan fydd wâs iddynt.

27 Duw a helaetha ar Japheth, ac efe a breſwylia ym mhebyll Sem: a Chanaan fydd wâs iddynt hwy.

28 A Noah fu fyw wedi yr diluw, dry-chan mlhynedd, a deng mlhynedd a deugain.

29 Felly holl ddyddiau Noah oeddynt, naw can mlhynedd, a deng mlhynedd a deugain ac efe a fu farw.

## P E N. X.

Cynnydd rhywogaeth dyn allan o Noah ai feibion. 10 Dechreuad dinaſoedd, gwledydd, a chenhedlaethau wedi dwfr diluw.

AC dymma genhedlaethau meibion Noah, Sem, Cam, ac Japheth, ganwyd hefyd meibion i'r rhai hyn wedi 'r diluw.

2 Meibion Japheth [oedynt] Gomer, a Magoc, a Madai, ac Jafan, a Thubal, a Meſech a Thiras.

3 Meibion Gomer hefyd: Aſcenas, a Riphath, a Thogarma.

4 A meibion Jafan, Eliſa, a Tharſis, Cittim a Dodanim.

5 O'r rhai hyn y rhannwyd ynyſoedd y cenhedloedd yn eu gwledydd pawb wrth ei iaith ei hun trwy eu teuluoedd, yn eu cenhedloedd.

6 A meibion Cam [oeddynt] Cus, a Mizraim a Phut, a Chanaan.

7 A meibion Cus: Seba, ac Hafilah a Sabthah, a Raamah, a Sabthecah: a meibion Raamah [oeddynt] Saba, a Dedan.

8 Cus hefyd a genhedlodd Nimrodd, efe a

ddechreuodd fod yn gadarn ar y ddaiar.
9 Efe oedd heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd:
„ am hynny y dywedir, fel Nimrod gadarn
„ o helwriaeth ger bron yr Arglwydd.
„ 10 A dechreuad ei frenhiniaeth ef ydoedd
„ Babel, ac Erech, ac Acad, a Chalneh yng-wlad
„ Sinar.
„ 11 O'r wlâd honno yr aeth Aſſur allan, ac
„ a adailadodd Ninife, a dinas Rehoboth, a Chalah.
„ 12 A Reſen rhwng Ninife, a Chalah, honno
„ [ſydd] ddinas fawr.
„ 13 Mizraim hefyd a genhedlodd Ludim,
„ ac Anamim, a Lehabim, a Nephthuim.
„ 14 Pathruſim hefyd, a Chaſſuhim, a'r Capthoriaid
„ y rhai y daeth y Philiſtiaid allan o honynt.
„ 15 Canaan hefyd a genhedlodd Sidon ei
„ gyntafanedic, a Heth.
„ 16 A'r Iebuſiad a'r Amoriad, a'r Gergaſiad
„ 17 A'r Heſiad a'r Arciad a'r Siniad.
„ 18 A'r Arfadiad a'r Semariad a'r Hamathiad:
„ ac wedi hynny yr ymwaſcarodd teuluoedd,
„ y Canaaneaid.
„ 19 Terfyn y Canaaneaid oedd hefyd o Sidon
„ ffordd yr elych i Gerar hyd Azah: a ffordd
„ yr elych i Sodoma, a Gomorra, ac Adama, a
„ Seboiim hyd Leſa.
„ 20 Dymma feibion Cam, yn ol eu teuluoedd,
„ wrth eu hiaithoedd yn eu gwledydd [ac]
„ yn eu cenhedloedd.
„ 21 I Sem hefyd y ganwyd plant, yntef
„ oedd dâd holl feibion Heber [a] brawd Iapheth
„ yr hwn oedd hynaf.
1.Cron.1.17. 22 Meibion * Sem [oeddynt,] Elam, ac
„ Aſſur, ac Arphaxad, a Lud, ac Aram.
„ 23 A meibion Aram, Us, a Hul, a Gether,
„ a Mas.
„ 24 Ac Arphaxad a genhedlodd Selah, a
„ Selah, a genhedlodd Heber.
„ 25 Ac i Heber y ganwyd dau o feibion, henw
„ un [oedd] ‖ Peleg: o herwydd yn ei ddyddiau ef
„ y rhannwyd y ddaiar, a henw ei frawd Iactan.
„ 26 Ac Iactan a genhedlodd Almadad, a
„ Saleph, a Hazarmafeth, ac Ierah.
„ 27 Hadoram hefyd, ac Uſal, a Dicla.
„ 28 Obal hefyd, ac Abimael, a Seba.
„ 29 Ophir hefyd, a Hafilah, ac Iobab, yr holl
„ rai hyn [oeddynt] feibion Iactan.
„ 30 A i preſſwylfa, oedd o Meſa ffordd yr elych
„ i Sapher mynydd y dwyrain.
„ 31 Dymma feibion Sem, wrth eu teuluoedd,
„ yn ol eu hiaithoedd, yn eu gwledydd, trwy
„ eu cenhedloedd.
„ 32 Dymma deuluoedd meibion Noah, wrth
„ eu cenhedlaethau yn ol eu cenhedloedd, ac o'r
„ rhai hyn yr ymrannodd y cenhedloedd ar y ddaiar
„ wedi y diluw.

## PEN. XI.

Adailadaeth twr Babel. 7 Cymmyſciad yr ieithoedd.
10 Hiliogaeth Sem, hyd Abraham.

A'r holl dîr ydoedd o un-iaith, ac o un ymadrodd.
2 Ac wrth fudo o honynt o'r dwyrain, y cawſant
waſtadedd yn nhir Sinar, ac yno y trigâſant.
3 Ac a ddywedaſant bôb un wrth ei gilydd,
deuwch gwnawn briddfeini, a lloſgwn yn
boeth, felly 'r ydoedd ganddynt briddfeini yn lle
cerrig, a chlai oedd ganddynt yn lle calch.
4 A dywedaſant, moeſwch adailadwn i ni
ddinas, a thŵr, ai nenn hyd y nefoedd, a gwnawn
i ni enw rhac ein gwaſcaru rhyd wyneb yr holl
ddaiar.
5 Yna y deſcynnodd yr Arglwydd i weled y
ddinas, a'r tŵr, y rhai a adailiade meibion dynion.
6 A dywedodd yr Arglwydd, wele bobl yn
un, ac un iaith iddynt oll, ac dymma eu dechreuad
hwynt ar weithio: ac yr a wrhon nid oes rwyſtr
arnynt am ddim oll ar a amcanaſât ei wneuthur.
7 Deuwch deſcynnwn, a chymmyſcwn yno
eu hiaith hwynt fel na ddeallo un iaith ei gilydd
8 Felly yr Arglwydd ai gwaſcarodd hwynt
oddi yno rhyd wyneb yr holl ddaiar, a pheidiaſant
ac adailadu y ddinas.
9 Am hynny y gelwir ei henw hi Babel, o
blegit yno y cymmyſcodd yr Arglwydd iaith yr
holl ddaiar, ac oddi yno y gwaſcarodd yr Arglwydd
hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaiar.
10 Dymma genhedlaethau Sem, Sem ”
[ydoedd] fâb can-mlwydd, ac a genhedlodd Arphaxad ”
ddwy flynedd wedi'r diluw. ”
11 A Sem a fu fyw wedi iddo genhedlu ”
Arphaxad bump can mlhynedd, ac a genhedlodd ”
feibion, a merched. ”
12 Arphaxad hefyd a fu fyw bymtheng ”
mlhynedd, a'r hugain, ac a genhedlodd Selah. ”
13 Ac Arphaxad a fu fyw gwedi iddo genhedlu ”
Selah dair o flynyddoedd, a phedwar ”
can mlhynedd: ac a genhedlodd feibion, a merched. ”
”
14 Selah hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd ”
ar hugain, ac a genhedlodd Heber. ”
15 A Selah a fu fyw wedi iddo genhedlu ”
Heber dair o flynyddoedd a phedwar can mlhynedd: ”
ac a genhedlodd feibion, a merched. ”
16 Heber hefyd a fu fyw bedair blynedd ar ”
ddêc ar hugain, ac a genhedlodd Peleg. ”
17 A Heber a fu fyw wedi iddo genhedlu Peleg, ”
ddeng mlhynedd ar hugain, a phedwar can ”
mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched. ”
18 *Peleg hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd 1.Cron.1.19.
ar hugain, ac a genhedlodd Reu, ”
19 A Pheleg a fu fyw gwedi iddo genhedlu ”
Reu, naw o flynyddoedd, a deucan mlhynedd, ac ”
a genhedlodd feibion, a merched. ”
20 Reu hefyd a fu fyw ddeu-ddeng mlhynedd ”
ar hugain, ac a genhedlodd Serug. ”
21 A Reu a fu fyw wedi iddo genhedlu Serug, ”
ſaith o flynyddoedd a dau can mlhynedd, ac ”
a genhedlodd feibion a merched. ”

Serug

“ 22 Serug hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd
“ ar hugain, ac a genhedlodd Nachor.
“ 23 Serug a fu fyw wedi iddo genhedlu
“ Nachor, ddau can mlhynedd ac a genhedlodd
“ feibion, a merched.
“ 24 Nachor hefyd a fu fyw naw mlynedd ar
“ hugain, ac a genhedlodd Tarah.
“ 25 A Nachor fu fyw wedi iddo genhedlu
“ Tarah onid un flwyddyn chwech ugain mlhy-
“ nedd, ac a genhedlodd feibion, a merched.
“ 26 Tarah *hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd
1.Cron.1.26. “ a thrugain, ac a genhelodd Abram, Nachor, a
Ioſua.24.2. “ Haran.

27 Ac dymma genhedlaethau Tarah: Tarah a genhedlodd Abram, Nachor, a Haran, a Haran a genhedlodd Lot.

28 A Haran fu farw o flaen Tarah ei dâd, yngwlad ei anedigaeth, o fewn Ur y Caldeaid.

29 Yna y cymmerodd Abram, a Nachor iddynt wragedd, henw gwraig Abram [oedd] Sarai: a henw gwraig Nachor Milcha merch Haran tâd Milcha, a thâd Iiſcha.

30 A Sarai oedd amhlantadwy heb plentyn iddi.

31 A Thara a gymmerodd Abram ei fâb, a Lot fâb Haran, mâb ei fâb, a Sarai ei waudd ef, gwraig Abram ei fâb ef, a hwynt a aethant allan yng-hyd o * Ur y Caldeaid, gan fyned tua thir Canaan, ac a ddaethant hyd yn Haran, ac a drigaſant yno. Ioſua.24.2. Nehe.9.7. Act.7.4.

32 A dyddiau Tarah oeddynt bump o flynyddoedd, a deucan mlhynedd, a bu farw Tarah yn Haran.

## PEN. XII.

Mynediad Abram, a Lot i wlâd Canaan. 10 Ac oddi yno i'r Aipht. 13 Abram yn peri iw wraig ddywedyd mai ei chwaer ef ydoedd hi. 17 Coſpedigaeth Pharao am chwenychu Sarai.

Act.7.3. A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, * dos di o'th wlad, ac oddi wrth dy genedl, ac o dŷ dy dâd, i'r wlad yr hon a ddangoſwyf i ti.

2 A mi a'th wnaf yn genhedlaeth fawr ac a'th fendithiaf, mawrygaf hefyd dy enw, a thi a fyddi yn fendith.

3 Bendithiaf hefyd dy fendith-wyr, a'th felldith-wyr a felldigaf, a holl deuluoedd y ddaiar a fendithir ynot ti.

4 Yna 'r aeth Abram, fel y llefaraſe 'r Arglwydd wrtho ef, a Lot aeth gyd ag ef: ac Abram [oedd] fâb pymtheng-mlwydd a thrugain pan aeth efe allan o Haran.

5 Ac Abram a gymmerodd Sarai ei wraig, a Lot mab ei frawd, ai holl olud hwynt, yr hyn a feddent: a'r dynion y rhai a gawſent yn Haran: ac aethant allan gan fyned i wlâd Canaan, ac a ddaethant i wlâd Canaan.

6 Ac Abram a dramwyodd drwy 'r tîr hyd y lle [a elwir] Sichem, hyd waſtadedd Moreh: a'r Canaaneaid [oedd] yno yn y wlâd.

7 A'r Arglwydd a ymddangoſodd i Abram, ac a ddywedodd: i'th hâd ti y rhoddaf y tîr hwn: yntef a adailadodd yno allor i'r Arglwydd, yr hwn a ymddangoſaſe iddo.

8 Ac efe a dynnodd o ddi yno i'r mynydd, o du dwyrain Bethel, ac a eſtynnodd ei babell [gan adel] Bethel, tu a'r gorllewyn, a Hai tu a'r dwyrain: ac a adailadodd yno allor i'r Arglwydd, ac a alwodd ar enw 'r Arglwydd.

9 Yna y cychwnnodd Abraham gan fyned, a chychwyn tua 'r dehau.

10 Ac yr oedd newyn yn y tîr, ac Abram aeth i wared i'r Aipht, i ymdeithio yno, am drymhau o'r newyn yn y wlâd.

11 A phan ddaeth efe yn agos i'r Aipht, yna y dywedodd efe wrth Sarai ei wraig, wele yn awr gwn mai gwraig lân yr olwg [wyt] ti.

12 A phan welo 'r Aiphtiaid dy di, yna y dywedant: dymma ei wraig ef, a hwynt a'm lladdant fi, a thi a adawant yn fyw..

13 Dywet ti attolwg, [mai] fy chwaer [wyt] ti, fel y bydder dâ wrthif er dy fwyn di, ac y byddwyf fyw o'th blegit ti.

14 A phan ddaeth Abram i'r Aipht, yna yr Aiphtiaid a welſant y wraig, mai glân odieth [oedd] hi.

15 A thywyſogion Pharao ai gwelſant hi, ac ai canmolaſant hi wrth Pharao, a'r wraig a gymmerwyd i dŷ Pharao.

16 Ac efe a fu dda wrth Abram er ei mwyn hi fel yr oedd ganddo ef ddefaid, a gwarthec, ac aſſynnau, a gweiſion, a morwynion, ac aſſynnod, a chamêlod.

17 Yna yr Arglwydd a darawodd Pharao, ai dŷ, a phlagau mawrion, o achos Sarai gwraig Abram.

18 A Pharao a alwodd am Abram, ac a ddywedodd: pa ham y gwnaethoſt ti hyn i mi? pa ham na fynegaiſt i mi, mai dy wraig [oedd] hi?

19 Pa ham y dywedaiſt fy chwaer [yw] hi? fel y cymmerwn hi yn wraig i mi: ond yr awr hon wele dy wraig, cymmer [hi,] a dos ymmaith:

20 A Pharao a roddes orchymmyn [iw] ddynion oi blegit ef: a hwynt ai gollyngaſant ef, ai wraig a'r hyn oedd eiddo ef.

## PEN. XIII.

Mynediad Abram o'r Aipht. 8 Abram, a Lot yn ymado. 14 Duw yn addo gwlad Canaan i Abram eilwaith. 18 Abram yn gwneuthur allor i Dduw.

AC Abram aeth i fynu o'r Aipht, efe ai wraig, a'r hyn oll [oedd] eiddo: a Lot gyd ag ef tu a'r dehau. Gene.36.7.

2 Ac * Abram [oedd] gyfoethog iawn o anifeiliaid, [ac] o arian, ac o aur.

3 Ac efe a aeth yn ei deithoedd, o'r dehau hyd Bethel, hyd y lle yr hwn y buaſe ei babell ef ynddo yn y dechreuad, rhwng Bethel, a Hai.

4 I lê * 'r allor yr hon a wnaethe efe yno o'r cyntaf, a llê y galwaſe Abram a'r enw yr Arglwydd. Gene.36.25.

5 Ac i Lot hefyd yr hwn aethe gyd ag Abram, yr oedd defaid, a gwarthec, a phebyll.

6 A'r wlâd nid oedd ddigon helaeth iddynt i drigo yng-hyd am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth, fel nad allent drigo yng-hyd.

7 Cynnen hefyd oedd rhwng bugelydd anifeiliaid Abram, a bugelydd anifeiliaid Lot: y Canaaneaid hefyd, a'r Phereziaid oeddynt yna yn trigo yn y wlâd.

8 Yna Abram a ddywedodd wrth Lot, na fydded cynnen attolwg rhyngo fi a thi, na rhwng fy mugeiliaid i, a'th fugeiliaid ti, oherwydd dynion [ydym] ni [ſydd] frodyr.

9 Onid yw yr holl dîr o'th flaen di? ymnailltua attolwg oddi wrthif, os ar y llaw aſſwy y [troi] minne a droaf ar y ddehau: ac os ar y llaw ddehau, minne [a droaf] ar yr aſſwy.

10 Yna y cyfododd Lot ei olŵg, ac a welodd holl waſtadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy [ydoedd] oll, fel gardd yr Arglwydd, fel tîr yr Aipht, ffordd yr elech di i Soar cyn difetha o'r Arglwydd Sodoma a Gomorra.

11 A Lot a ddewiſodd iddo ef waſtadedd yr Iorddonen, a Lot a fudodd o'r Dwyrain, felly yr ymnailltuaſant bôb vn oddi wrth ei gilydd.

12 Abram a drigodd yn nhir Canaan, a Lot a drigodd yn-ninaſoedd y gwaſtadedd, ac a lueſtodd hyd Sodoma.

13 A dynion Sodoma [oeddynt] ddrygionus, ac yn pechu yn erbyn yr Arglwydd yn ddirfawr.

14 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, wedi ymnailltuo o Lot oddi wrtho ef, cyfot dy lygaid, ac edrych o'r lle yr hwn yr ydwyt ynddo tu a'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, a'r gorllewyn.

Geneſ.12.7.
gen.15.7.
gen.26.24.
deut 34.4.

15 Canys * yr holl dir yr hwn a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th hâd bŷth.

16 Goſodaf hefyd dy hâd ti fel llŵch y ddaiar, megis os dichon gŵr rifo llŵch y ddaiar, yna y rhifir dy hâd dithe.

17 Cyfot rhodia drwy yr wlâd, ar ei hŷd, ac ar ei llêd, canys i ti y rhoddaf hi.

18 Ac Abram a ſymmudodd [ei] lueſt, ac a ddaeth, ac a drigodd yng-waſtadedd Mamre, yr hwn [ſydd] yn Hebron, ac a adailadodd yno allor i'r Arglwydd.

## PEN. XIIII.

Codorlaomer ac eraill yn rhyfela yn erbyn Sodoma. 12 Ac yn dala Lot. 14 Abram yn achub Lot. 18 Melchiſedec yn cyfarfod, ac yn bendithio Abram. 22 Abram yn gwrthod golud y Sodomiaid.

ABu yn nyddiau Amraphel brenin Sinar, Arioch brenin Elaſar, Codorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhenloedd,

2 Wneuthur o honynt ryfel a Bera brenin Sodoma, ac a Birſa brenin Gomorra, [a] Sinab brenin Adma, ac [a] Semeber brenin Seboim, ac [a] brenin Bela honno [yw] Soar.

3 Y rhai hyn oll a ymgyfarfuant yn nyffryn Sidim: hwnnw yw yr môr heli.

4 Deuddeng mlhynedd y gwaſanaethaſent Codorlaomer, a'r drydedd flwyddyn ar ddec y gwrthryfelaſant.

5 A'r bedwaredd flwyddyn ar ddec y daeth Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a darawſant y Raphiaid, yn Aſtarothcarnaim, a'r Zuſiaid yn Ham, a'r Emiaid yng-waſtadedd Ciriathaim.

6 A'r Horriaid yn eu mynydd Seir, hyd waſtadedd Paran, yr hwn [ſydd] wrth yr anialwch.

7 Yna y dychwelaſant, ac y daethant i Enmiſpat, honno [yw] Cades, ac a darawſant holl wlâd yr Amaleciaid, a'r Amoriaid hefyd, y rhai oeddynt yn trigo yn Hazezonthamar.

8 Allan hefyd yr aeth brenin Sodoma, a brenin Gomorra, a brenin Adma, a brenin Seboim, a brenin Bela honno [yw] Soar: ac yn nyffryn Sidim y lluniaethaſant ryfel a hwynt,

9 A Chodorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhedloedd, ac Amraphel brenin Sinar, ac Arioch brenin Elaſar, pedwar o frenhinoedd yn erbyn y pump.

10 A dyffryn Sidim [oedd] lawn o byllau clai, a brenhinoedd Sodoma, a Gomorra, a ffoaſant ac a ſyrthiaſant yno: a'r lleill a ffoaſant i'r mynydd.

11 Yna y cymmeraſant holl gyfoeth Sodoma a Gomorra, ai holl lynniaeth hwynt, ac a aethant ymmaith.

12 Cymmeraſant hefyd Lot [nai] fab brawd [i] Abram, ai gyfoeth, ac a aethant ymmaith, o herwydd yn Sodoma yr ydoedd ef yn trigo.

13 Yna y daeth vn a ddianghaſe: ac a fynegodd i Abram yr Hebread, ac efe yn trigo yng-waſtadedd Mamre'r Amoread brawd Eſcol, a brawd Aner, a'r rhai hynny [oeddynt] mewn cyngrair ag Abram.

14 Pan glybu Abram gaeth-gludo ei gâr yna efe a arfogodd oi hyfforddus [weiſion] y rhai a aneſydd yn ei dŷ ef ddau naw, a thrychant, ac a ymlidiodd hyd Dan.

15 Yna yr ymrannodd efe yn eu herbyn hwynt liw nôs, efe ai weiſion, ac ai tarawodd hwynt ac ai hymlidiodd hwynt hyd Hoba, yr hon [ſydd] o'r tu aſſwy i Ddamaſcus.

16 Ac efe a ddûg trachefn yr holl gyfoeth, ai gâr Lot hefyd ai gyfoeth a ddug ef trachefn, a'r gwragedd hefyd, a'r bobl.

17 Yna brenin Sodoma a aeth allan iw gyfarfod ef, i ddyffryn Safeh hwnnw yw *dyffryn y brenin, wedi ei ddychwelyd o daro Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef.

2.Sam.18

18 * Melchiſedec hefyd brenin Salem, a ddûg allan fara, a gwin, ac efe [oedd] offeiriad i Dduw goruchaf,

19 Ac ai bendithiodd ef, ac a ddywedodd: bendigêdic fyddo Abram gan Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd, a daiar.

20 A bendigêdic fyddo Duw goruchaf yr hwn a roddes dy elynion yn dy law: *ac [Abram] a roddes iddo ddegwm a bôb dim.

Hebr.7.4.

21 Dywedodd hefyd brenin Sodoma wrth Abram, dôd ti i mi y dynion, a chymmer i ti y cyfoeth.

22 Ac Abram a ddywedodd wrth frenin Sodoma, derchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw goruchaf, meddiãnydd nefoedd a daiar,

23 Na chymmerwn o edef hyd garreu eſcid, nac o'r hynn oll [ſydd] eiddo ti rhac dywedyd o honot, myfi a gyfoethogais Abram.

24 Ond yn unic yr hyn a fwyttaodd y llangciau, a rhann y gwyr y rhai a aethant gyd a mi, Aner, Eſcol, a Mamre: cymmerant hwy eu rhann.

## P E N. XV.

Duw yn amddeffynniad, ac yn wobr i Abram.4. Addo Iſaac.6.ffydd Abram yn ei gyfiawnhau.Duw yn addo gwlâd Canaan i Abram. 13. Caethiwed Iſrael yn yr Aipht,ai ryddhâd.

Numb.12.6.

WEdi y pethau hynn y daeth gair yr Arglwydd at Abram, *mewn gweledigaeth gan ddywedyd: nac ofna Abram, my fi [ydwyf] dy darian, dy wobr [ſydd] fawr iawn.

2 Yna y dywedodd Abram, Arglwydd Dduw bêth a roddi di i mi? gan fy mod yn myned yn ddiblant, ar' mâb y gadewir iddo fy nhŷ yw Eleazar o Ddamaſcus.

3 Abram hefyd a ddywedodd wele ni roddaiſt i mi hâd, ac wele fyng-haethwas fydd fy etifedd.

4 Ac wele air yr Arglwydd atto ef gan ddywedyd: nid hwn fydd dy etifedd, onid un a ddaw allan o'th gorph di fydd dy etifedd.

5 Yna efe ai dug ef allan, ac a ddywedodd, golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ſêr o gelli di eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd * felly y bydd dy hâd ti.

Rhuf.4.18.

6 Yntef a * gredodd yn yr Arglwydd, a * chyfrifwyd hynny iddo yn gyfiawnder.

Rhuf.4.3.
James 2.23.
Galat.3.6.

7 Ac efe a ddywedodd wrtho, myfi [ydwyf] yr Arglwydd yr hwn ath ddygais di allan o Ur y Caldeaid i roddi i ti y wlad hon iw hetifeddu.

Gen.11.28.

8 Yntef a ddywedodd, Arglwydd Dduw trwy ba bêth y câf wybod yr etifeddaf hi?

9 Ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a thurtur, a chyw colommen.

10 Ac efe a gymmerth iddo y'rhai hyn oll, ac ai holltodd hwynt ar hyd [eu] canol, ac a roddodd bôb rhann ar gyfer ei gilydd, ond ni holltodd efe yr adar.

11 Pan ddeſcynnne yr adar ar y burgynnod yna Abram ai gwylltie hwynt.

12 A phan oedd yr haul ar fachludo y ſyrthiodd trym-gwſc ar Abram: ac wele ddychryn, [a] thywyllni mawr yn ſyrthio arno ef.

13 Ac efe a ddywedodd wrth Abram, * gan wybod gwybydd di y bydd dy hâd yn ddieithr mewn gwlad nid [yw] eiddynt, ac ai gwaſanaethant hwynt, a hwyntau ai cyſtuddiant bedwar-can mlhynedd.

t.7.6.

14 A'r genhedlaeth hefyd yr hon a wasanaethant, a farna fi, ac wedi hynny y deuant allan a chyfoeth mawr,

15 A thi a ddeui at dy dadau mewn heddwch: ti a gleddir mewn henaint teg.

16 Ac [yn] y bedwaredd oes y dychwelant ymma am na chyflawnwyd hyd yn hynn anwiredd yr Amoriaid.

17 A phan fachludodd yr haul yr oedd tywyllwch, ac wele ffwrn yn mygu, a phentewyn tân yn tramwyo rhwng y darnau hynny.

18 Yn y dydd hwnnw * y gwnaeth yr Arglwydd gyfammod ag Abram gan ddywedyd: i'th hâd ti y rhoddais y wlad hon, * o afon yr Aipht hyd yr afon fawr [ſef] afon Euphrates.

Gene.12.7.
Gen.13.15.
1.Brenh.4 21.
2.Chron.9.26.

19 Y Ceniaid, ar' Ceneziaid, ar' Cadmoniaid.

20 Yr Hethiaid hefyd, ar' Phereziaid, ar' Raphiaid.

21 Yr Amoriaid hefyd, ar' Canaaneaid, ar' Girgaſiaid, ar' Iebuſiaid.

## P E N. XVI.

Sarai yn rhoddi Agar ei morwyn i Abram. 4. honno yn beichiogi ac yn diyſtyru ei meiſtres. 6. Ac yn ffoi oddi wrth ei meiſtres rhac ei blined wrthi. 7. Yr angel yn ei chyſſuro. 11. Enw, a chynneddfau ei mâb. 13. Ai gwêddi,

SArai hefyd gwraig Abram ni phlantaſe iddo, ac yr ydoedd iddi forwyn o Aiphtes ai henw Agar.

2 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram, wele yn awr, yr Arglwydd a lluddiodd i mi blanta: Dos attolwg at fy llaw forwyn, fe alle * y ceir i mi blant o honi hi, ac Abram a wrandawodd ar lais Sarai.

3 Yna y cymmerodd Sarai gwraig Abram ei morwyn Agar yr Aiphtes, ym mhen deng-mlhynedd wedi trigo o Abram yn nhir Canaã, a hi ai rhoddes i Abram ei gŵr yn wraig iddo.

4 Ac efe a aeth at Agar, a hi a feichiogodd: a phan welodd hithe feichiogi o honi, ei meiſtres oedd wael yn ei golwg hi.

5 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram yr ydwyfi yn cael cam gennit ti: mi a roddais fy morwyn i'th fonwes, a hithe a welodd feichiogi o honi, a gwael ydwyf yn ei golwg hi, barned yr Arglwydd rhyngof fi, a thi.

6 Ac Abram a ddywedodd wrth Sarai, wele dy forwyn yn dy law di, gwna iddi yr hyn a fyddo da yn dy olwg dy hun: yna Sarai ai cyſtuddiodd hi a hithe a ffoawdd rhacddi.

7 Ac angel yr Arglwydd ai cafodd hi wrth ffynnon yn ffordd Sur.

8 Ac efe a ddywedodd, Agar, morwyn Sarai, o ba le y daethoſt? ac i ba le yr ei di? a hi a ddywedodd ffoi yr ydwyfi o wyneb fy meiſtres Sarai.

9 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrthi,

ddechreuodd fod yn gadarn ar y ddaiar.
,, 9 Efe oedd heliwr cadarn ger bron yr Ar-
glwydd: am hynny y dywedir, fel Nimrod ga-
,, darn o helwriaeth ger bron yr Arglwydd.
,, 10 A dechreuad ei frenhiniaeth ef ydoedd
,, Babel, ac Erech, ac Acad, a Chalneh yng-wlad
,, Sinar.
,, 11 O'r wlâd honno yr aeth Aſſur allan, ac
,, a adailadodd Niniſe, a dinas Rehoboth, a Cha-
,, lah.
,, 12 A Reſen rhwng Niniſe, a Chalah, honno
,, [ſydd] ddinas fawr.
,, 13 Mizraim hefyd a genhedlodd Ludim,
,, ac Anamim, a Lehabim, a Nephthuim.
,, 14 Pathruſim hefyd, a Chaſſuhim, a'r Cap-
,, thoriaid y rhai y daeth y Philiſtiaid allan o ho-
,, nynt.
,, 15 Canaan hefyd a genhedlodd Sidon ei
,, gyntafanedic, a Heth.
,, 16 A'r Iebuſiad a'r Amoriad, a'r Gergaſiad
,, 17 A'r Heſiad a'r Arciad a'r Siniad.
,, 18 A'r Arſadiad a'r Semariad a'r Hamath-
,, iad: ac wedi hynny yr ymwaſcarodd teuluoedd,
,, y Canaaneaid.
,, 19 Terfyn y Canaaneaid oedd hefyd o Si-
,, don ffordd yr elych i Gerar hyd Azah: a ffordd
,, yr elych i Sodoma, a Gomorra, ac Adama, a
,, Seboim hyd Leſa.
,, 20 Dymma feibion Cam, yn ol eu teulu-
,, oedd, wrth eu hiaithoedd yn eu gwledydd [ac]
,, yn eu cenhedloedd.
,, 21 I Sem hefyd y ganwyd plant, yntef
,, oedd dâd holl feibion Heber [a] brawd Iapheth
,, yr hwn oedd hynaf.
1.Cron.1.17. 22 Meibion * Sem [oeddynt,] Elam, ac
,, Aſſur, ac Arphaxad, a Lud, ac Aram.
,, 23 A meibion Aram, Us, a Hul, a Gether,
,, a Mas.
,, 24 Ac Arphaxad a genhedlodd Selah, a
,, Selah, a genhedlodd Heber.
,, 25 Ac i Heber y ganwyd dau o feibion, henw
,, un [oedd] ‖ Peleg: o herwydd yn ei ddyddiau ef
,, y rhannwyd y ddaiar, a henw ei frawd Iactan.
,, 26 Ac Iactan a genhedlodd Almadad, a
,, Saleph, a Hazarmaſeth, ac Ierah.
,, 27 Hadoram hefyd, ac uſàl, a Dicla.
,, 28 Obal hefyd, ac Abimael, a Seba.
,, 29 Ophir hefyd, a Hafilah, ac Iobab, yr holl
,, rai hyn [oeddynt] feibion Iactan.
,, 30 A'i preſſwylfa, oedd o Meſa ffordd yr e-
,, lych i Sapher mynydd y dwyrain.
,, 31 Dymma feibion Sem, wrth eu teuluo-
,, edd, yn ol eu hiaithoedd, yn eu gwledydd, trwy
,, eu cenhedloedd.
,, 32 Dymma deuluoedd meibion Noah, wrth
,, eu cenhedlaethau yn ol eu cenhedloedd, ac o'r
,, rhai hyn yr ymrannodd y cenhedloedd ar y ddai-
,, ar wedi y diluw.

## PEN. XI.

Adailadaeth twr Babel. 7 Cymmyſciad yr ieithoedd.
10 Hiliogaeth Sem, hyd Abraham.

A'r holl dir ydoedd o un-iaith, ac o un ymad-
rodd.
2 Ac wrth fudo o honynt o'r dwyrain, y caw-
ſant waſtadedd yn nhir Sinar, ac yno y trigâ-
ſant.
3 Ac a ddywedaſant bôb un wrth ei gilydd,
deuwch gwnawn briddfeini, a lloſgwn yn
boeth, felly 'r ydoedd ganddynt briddfeini yn lle
cerric, a chlai oedd ganddynt yn lle calch.
4 A dywedaſant, moeſwch adailadwn i ni
ddinas, a thŵr, a'i nenn hyd y nefoedd, a gwnawn
i ni enw rhac ein gwaſcaru rhyd wyneb yr holl
ddaiar.
5 Yna y deſcynnodd yr Arglwydd i weled y
ddinas, a'r tŵr, y rhai a adailiade meibion dy-
nion.
6 A dywedodd yr Arglwydd, wele bobl yn
un, ac un iaith iddynt oll, ac dymma eu dechreuad
hwynt ar weithio: ac yr awrhon nid oes rhwyſtr
arnynt am ddim oll ar a amcanaſāt ei wneuthur.
7 Deuwch deſcynnwn, a chymmyſcwn yno
eu hiaith hwynt fel na ddeallo un iaith ei gilydd
8 Felly yr Arglwydd ai gwaſcarodd hwynt
oddi yno rhyd wyneb yr holl ddaiar, a pheidia-
ſant ac adailadu y ddinas.
9 Am hynny y gelwir ei henw hi Babel, o
blegit yno y cymmyſcodd yr Arglwydd iaith yr
holl ddaiar, ac oddi yno y gwaſcarodd yr Ar-
glwydd hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaiar.
10 Dymma genhedlaethau Sem, Sem ,,
[ydoedd] fâb can-mlwydd, ac a genhedlodd Ar- ,,
phaxad ddwy flynedd wedi 'r diluw. ,,
11 A Sem a fu fyw wedi iddo genhedlu ,,
Arphaxad bump can mlhynedd, ac a genhedlodd ,,
feibion, a merched. ,,
12 Arphaxad hefyd a fu fyw bymtheng ,,
mlhynedd, a'r hugain, ac a genhedlodd Selah. ,,
13 Ac Arphaxad a fu fyw gwedi iddo gen- ,,
hedlu Selah dair o flynyddoedd, a phedwar ,,
can mlhynedd: ac a genhedlodd feibion, a mer- ,,
ched. ,,
14 Selah hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd ,,
ar hugain, ac a genhedlodd Heber. ,,
15 A Selah a fu fyw wedi iddo genhedlu ,,
Heber dair o flynyddoedd a phedwar can mlhy- ,,
nedd: ac a genhedlodd feibion, a merched. ,,
16 Heber hefyd a fu fyw bedair blynedd ar ,,
ddêc ar hugain, ac a genhedlodd Peleg. ,,
17 A Heber a fu fyw wedi iddo genhedlu Pe- ,,
leg, ddeng mlhynedd ar hugain, a phedwar can ,,
mlhynedd, ac a genhedlodd feibion a merched. ,,
18 * Peleg hefyd a fu ſyw ddeng mlhynedd 1.Cron.1.19.
ar hugain, ac a genhedlodd Reu, ,,
19 A Pheleg a fu fyw gwedi iddo genhedlu ,,
Reu, naw o flynyddoedd, a deucan mlhynedd, ac ,,
a genhedlodd feibion, a merched. ,,
20 Reu hefyd a fu fyw ddeu-ddeng mlhy- ,,
nedd ar hugain, ac a genhedlodd Serug. ,,
21 A Reu a fu fyw wedi iddo genhedlu Se- ,,
rug, ſaith o flynyddoedd a dau can mlhynedd, ac ,,
a genhedlodd feibion a merched. ,,

« 22 Serug hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd
« ar hugain, ac a genhedlodd Nachor.
« 23 Serug a fu fyw wedi iddo genhedlu
« Nachor, ddau can mlhynedd ac a genhedlodd
« feibion, a merched.
« 24 Nachor hefyd a fu fyw naw mlynedd ar
« hugain, ac a genhedlodd Tarah.
« 25 A Nachor fu fyw wedi iddo genhedlu
« Tarah onid un flwyddyn chwech ugain mlhy-
« nedd, ac a genhedlodd feibion, a merched.
« 26 Tarah *hefyd a fu fyw ddeng mlhynedd
1.Cron.1.26. « a thrugain, ac a genhelodd Abram, Nachor, a
Ioſua.24.2. « Haran.

27 Ac dymma genhedlaethau Tarah: Tarah a genhedlodd Abram, Nachor, a Haran, a Haran a genhedlodd Lot.

28 A Haran fu farw ó flaen Tarah ei dâd, yngwlad ei anedigaeth, o fewn Ur y Caldeaid.

29 Yna y cymmerodd Abram, a Nachor iddynt wragedd, henw gwraig Abram [oedd] Sarai: a henw gwraig Nachor Milcha merch Haran tâd Milcha, a thâd Jiſcha.

30 A Sarai oedd amhlantadwy heb plentyn iddi.

31 A Thara a gymmerodd Abram ei fâb, a Lot fâb Haran, mâb ei fâb, a Sarai ei waudd ef, gwraig Abram ei fâb ef, a hwynt a aethant allan yng-hyd o * Ur y Caldeaid, gan fyned tua thir Canaan, ac a ddaethant hyd yn Haran, ac a drigaſant yno. Ioſua.24.2. Nehe.9.7. Act.7.4.

32 A dyddiau Tarah oeddynt bump o flynyddoedd, a deucan mlhynedd, a bu farw Tarah yn Haran.

## PEN. XII.

Mynediad Abram, a Lot i wlâd Canaan. 10 Ac oddi yno i'r Aipht. 13 Abram yn peri iw wraig ddywedyd mai ei chwaer ef ydoedd hi. 17 Coſpedigaeth Pharao am chwenychu Sarai.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, * dos di o'th wlad, ac oddi wrth dy genedl, ac o dŷ dy dâd, i'r wlad yr hon a ddangoſwyf i ti. Act.7.3.

2 A mi a'th wnaf yn genhedlaeth fawr ac a'th fendithiaf, mawrygaf hefyd dy enw, a thi a fyddi yn fendith.

3 Bendithiaf hefyd dy fendith-wyr, a'th felldith-wyr a felldigaf, a holl deuluoedd y ddaiar a fendithir ynot ti.

4 Yna 'r aeth Abram, fel y lleſaraſe 'r Arglwydd wrtho ef, a Lot aeth gyd ag ef: ac Abram [oedd] fâb pymtheng-mlwydd a thrugain pan aeth efe allan o Haran.

5 Ac Abram a gymmerodd Sarai ei wraig, a Lot mab ei frawd, ai holl olud hwynt, yr hyn a feddent: a'r dynion y rhai a gawſent yn Haran: ac aethant allan gan fyned i wlâd Canaan, ac a ddaethant i wlâd Canaan.

6 Ac Abram a dramwyodd drwy 'r tîr hyd y lle [a elwir] Sichem, hyd waſtadedd Moreh: a'r Canaanead [oedd] yno yn y wlâd.

7 A'r Arglwwydd a ymddangoſodd i Abram, ac a ddywedodd: i'th hâd ti y rhoddaf y tîr hwn: yntef a adailadodd yno allor i'r Arglwydd, yr hwn a ymddangoſaſe iddo.

8 Ac efe a dynnodd o ddi yno i'r mynydd, o du dwyrain Bethel, ac a eſtynnodd ei babell [gan adel] Bethel, tu a'r gorllewyn, a Hai tu a'r dwyrain: ac a adailadodd yno allor i'r Arglwydd, ac a alwodd ar enw 'r Arglwydd.

9 Yna y cychwnnodd Abraham gan fyned, a chychwyn tua 'r dehau.

10 Ac yr oedd newyn yn y tîr, ac Abram aeth i wared i'r Aipht, i ymdeithio yno, am drymhau o'r newyn yn y wlâd.

11 A phan ddaeth efe yn agos i'r Aipht, yna y dywedodd efe wrth Sarai ei wraig, wele yn awr gwn mai gwraig lân yr olwg [wyt] ti.

12 A phan welo 'r Aiphtiaid dy di, yna y dywedant: dymma ei wraig ef, a hwynt a'm lladdant fi, a thi a adawant yn fyw.

13 Dywet ti attolwg, [mai] fy chwaer [wyt] ti, fel y bydder dâ wrthif er dy fwyn di, ac y byddwyf fyw o'th blegit ti.

14 A phan ddaeth Abram i'r Aipht, yna yr Aiphtiaid a welſant y wraig, mai glân odieth [oedd] hi.

15 A chywyſogion Pharao ai gwelſant hi, ac ai canmolaſant hi wrth Pharao, a'r wraig a gymmerwyd i dŷ Pharao.

16 Ac efe a fu dda wrth Abram er ei mwyn hi fel yr oedd ganddo ef ddefaid, a gwarthec, ac aſſynnau, a gweiſion, a morwynion, ac aſſynnod, a chamêlod.

17 Yna yr Arglwydd a darawodd Pharao, ai dŷ, a phlagau mawrion, o achos Sarai gwraig Abram.

18 A Pharao a alwodd am Abram, ac a ddywedodd: pa ham y gwnaethoſt ti hyn i mi? pa ham na fynegaiſt i mi, mai dy wraig [oedd] hi?

19 Pa ham y dywedaiſt fy chwaer [yw] hi? fel y cymmerwn hi yn wraig i mi: ond yr awr hon wele dy wraig, cymmer [hi,] a dos ymmaith:

20 A Pharao a roddes orchymmyn [iw] ddynion oi blegit ef: a hwynt ai gollyngaſant ef, ai wraig a'r hyn oedd eiddo ef.

## PEN. XIII.

Mynediad Abram o'r Aipht. 8 Abram, a Lot yn ymado. 14 Duw yn addo gwlad Canaan i Abram cilwaith. 18 Abram yn gwneuthur allor i Dduw.

AC Abram aeth i fynu o'r Aipht, efe ai wraig, a'r hyn oll [oedd] eiddo: a Lot gyd ag ef tu a'r dehau. Gene.36.7.

2 Ac * Abram [oedd] gyfoaethog iawn o anifeiliaid, [ac] o arian, ac o aur.

3 Ac efe a aeth yn ei deithoedd, o'r dehau hyd Bethel, hyd y lle yr hwn y buaſe ei babell ef ynddo yn y dechreuad, rhwng Bethel, a Hai.

4 I lê * 'r allor yr hon a wnaethe efe yno o'r cyntaf, a llê y galwaſe Abram a'r enw yr Arglwydd. Gen:.36.25.

5 Ac i Lot hefyd yr hwn aethe gyd ag Abram, yr oedd defaid, a gwarthec, a phebyll.

6 A'r wlâd nid oedd ddigon helaeth iddynt i drigo yng-hyd am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth, fel nad allent drigo yng-hyd.

7 Cynnen hefyd oedd rhwng bugelydd anifeiliaid Abram, a bugelydd anifeiliaid Lot: y Canaaneaid hefyd, a'r Phereziaid oeddynt yna yn trigo yn y wlâd.

8 Yna Abram a ddywedodd wrth Lot, na fydded cynnen attolwg rhyngo fi a thi, na rhwng fy mugeiliaid i, a'th fugeiliaid ti, oherwydd dynion [ydym] ni [ſydd] frodyr.

9 Onid yw yr holl dir o'th flaen di? ymnailltua attolwg oddi wrthif, os ar y llaw aſſwy y [troi] minne a droaf ar y ddehau: ac os ar y llaw ddehau, minne [a droaf] ar yr aſſwy.

10 Yna y cyfododd Lot ei olẃg, ac a welodd holl waſtadedd yr Jorddonen, mai dyfradwy [ydoedd] oll, fel gardd yr Arglwydd, fel tir yr Aiphe, ffordd yr elech di i Soar cyn difetha o'r Arglwydd Sodoma a Gomorra.

11 A Lot a ddewiſodd iddo ef waſtadedd yr Jorddonen, a Lot a fudodd o'r Dwyrain, felly yr ymnailltuaſant bôb un oddi wrth ei gilydd.

12 Abram a drigodd yn nhir Canaan, a Lot a drigodd yn-ninaſoedd y gwaſtadedd, ac a lueſtodd hyd Sodoma.

13 A dynion Sodoma [oeddynt] ddrygionus, ac yn pechu yn erbyn yr Arglwydd yn ddirfawr.

14 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, wedi ymnailltuo o Lot oddi wrtho ef, cyfot dy lygaid, ac edrych o'r lle yr hwn yr ydwyt ynddo tu a'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, a'r gorllewyn.

15 Canys* yr holl dir yr hwn a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th hâd bŷth.

Geneſ.12.7.
gen.15.7.
gen.26.24.
deut 34.4.

16 Goſodaf hefyd dy hâd ti fel llẃch y ddaiar, megis os dichon gẃr rifo llẃch y ddaiar, yna y rhifir dy hâd dithe.

17 Cyfot rhodia drwy yr wlâd, ar ei hŷd, ac ar ei llêd, canys i ti y rhoddaf hi.

18 Ac Abram a ſymmudodd [ei] lueſt, ac a ddaeth, ac a drigodd yng-ŵaſtadedd Mamre, yr hwn [ſydd] yn Hebron, ac a adailadodd yno allor i'r Arglwydd.

## PEN. XIIII.

Codorlaomer ac eraill yn rhyfela yn erbyn Sodoma. 12 Ac yn dala Lot. 14 Abram yn achub Lot. 18 Melchiſedec yn cyfarfod, ac yn bendithio Abram. 22 Abram yn gwrthod golud y Sodomiaid.

ABu yn nyddiau Amraphel brenin Sinar, Arioch brenin Elaſar, Codorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhenloedd,

2 Wneuthur o honynt ryfel a Bera brenin Sodoma, ac a Birſa brenin Gomorra, [a] Sinab brenin Adma, ac [a] Semeber brenin Seboim, ac [a] brenin Bela honno [yw] Soar.

3 Y rhai hyn oll a ymgyfarfuant yn nyffryn Sidim: hwnnw yw yr môr heli.

4 Deuddeng mlhynedd y gwaſanaethaſent Codorlaomer, a'r drydedd flwyddyn ar ddec y gwrthryfelaſant.

5 A'r bedwaredd flwyddyn ar ddec y daeth Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a darawſant y Raphiaid, yn Aſtarothcarnaim, a'r Zuſiaid yn Ham, a'r Emiaid yng-waſtadedd Ciriathaim.

6 A'r Horriaid yn eu mynydd Seir, hyd waſtadedd Paran, yr hwn [ſydd] wrth yr anialwch.

7 Yna y dychwelaſant, ac y daethant i Enmiſpat, honno [yw] Cades, ac a darawſant holl wlâd yr Amaleciaid, a'r Amoriaid hefyd, y rhai oeddynt yn trigo yn Hazezonthamar.

8 Allan hefyd yr aeth brenin Sodoma, a brenin Gomorra, a brenin Adma, a brenin Seboim, a brenin Bela honno [yw] Soar: ac yn nyffryn Sidim y lluniaethaſant ryfel a hwynt,

9 A Chodorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhedloedd, ac Amraphel brenin Sinar, ac Arioch brenin Elaſar, pedwar o frenhinoedd yn erbyn y pump.

10 A dyffryn Sidim [oedd] lawn o byllau clai, a brenhinoedd Sodoma, a Gomorra, a ffoaſant ac a ſyrthiaſant yno: a'r lleill a ffoaſant i'r mynydd.

11 Yna y cymmeraſant holl gyfoeth Sodoma a Gomorra, ai holl lynniaeth hwynt, ac a aethant ymmaith.

12 Cymmeraſant hefyd Lot [nai] fab brawd [i] Abram, ai gyfoeth, ac a aethant ymmaith, o herwydd yn Sodoma yr ydoedd ef yn trigo.

13 Yna y daeth un a ddianghaſe: ac a fynegodd i Abram yr Hebread, ac efe yn trigo yng-waſtadedd Mamre'r Amoread brawd Eſcol, a brawd Aner, a'r rhai hynny [oeddynt] mewn cyngrair ag Abram.

14 Pan glybu Abram gaeth-gludo ei gâr yna efe a arfogodd oi hyfforddus [weiſion] y rhai a aneſyd yn ei dŷ ef ddau naw, a thrychant, ac a ymlidiodd hyd Dan.

15 Yna yr ymrannodd efe yn eu herbyn hwynt liw nôs, efe ai weiſion, ac ai tarawodd hwynt ac ai hymlidiodd hwynt hyd Hoba, yr hon [ſydd] o'r tu aſſwy i Ddamaſcus.

16 Ac efe a ddûg trachefn yr holl gyfoeth, ai gâr Lot hefyd ai gyfoeth a ddug ef trachefn, a'r gwragedd hefyd, a'r bobl.

17 Yna brenin Sodoma a aeth allan iw gyfarfod ef, i ddyffryn Safeh hwnnw yw *dyffryn y brenin, wedi ei ddychwelyd o daro Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef.

2.Sam.18

18 * Melchiſedec hefyd brenin Salem, a ddûg allan fara, a gwin, ac efe [oedd] offeiriad i Dduw goruchaf,

19 Ac ai bendithiodd ef, ac a ddywedodd: bendigêdic fyddo Abram gan Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd, a daiar.

20 A bendigêdic fyddo Duw goruchaf yr hwn a roddes dy elynion yn dy law: * ac [Abram] a roddes iddo ddegwm a bôb dim. Hebr.7.4.

21 Dywedodd hefyd brenin Sodoma wrth Abram, dôd ti i mi y dynion, a chymmer i ti y cyfoeth.

22 Ac Abram a ddywedodd wrth frenin Sodoma, derchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw goruchaf, meddiãnydd nefoedd a daiar,

23 Na chymmerwn o edef hyd garreu eſcid, nac or' hynn oll [ſydd] eiddo ti rhac dywedyd o honot, myfi a gyfoethogais Abram.

24 Ond yn vnic yr hyn a fwyttaodd y llangciau, a rhann y gwyr y rhai a aethant gyd a mi, Aner, Eſcol, a Mamre: cymmerant hwy eu rhann.

## PEN. XV.

Duw yn amddeffynniad, ac yn wobr i Abram. 4. Addo Iſaac. 6. ffydd Abram yn ei gyfiawnhau. Duw yn addo gwlâd Canaan i Abram. 13. Caethiwed Iſrael yn yr Aipht, ai ryddhâd.

Numb.12.6. WEdi y pethau hynn y daeth gair yr Arglwydd at Abram, * mewn gweledigaeth gan ddywedyd: nac ofna Abram, myfi [ydwyf] dy darian, dy wobr [ſydd] fawr iawn.

2 Yna y dywedodd Abram, Arglwydd Dduw bêth a roddi di i mi? gan fy mod yn myned yn ddiblant, ar' mâb y gadewir iddo fy nhŷ yw Eleazar o Ddamaſcus.

3 Abram hefyd a ddywedodd wele ni roddaiſt i mi hâd, ac wele fyng-haethwas fydd fy etifedd.

4 Ac wele air yr Arglwydd atto ef gan ddywedyd: nid hwn fydd dy etifedd, onid vn a ddaw allan o'th gorph di fydd dy etifedd.

5 Yna efe ai dug ef allan, ac a ddywedodd, golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ſêr o gelli di eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd * felly y bydd dy hâd ti. Rhuf.4.18.

Rhuf.4.3. 6 Yntef a * gredodd yn yr Arglwydd, a * chyfrifwyd hynny iddo yn gyfiawnder. Iames 2.23. Galat.3.6.

7 Ac efe a ddywedodd wrtho, myfi [ydwyf] yr Arglwydd yr hwn ath ddygais di allan o Ur y Caldeaid i roddi i ti y wlad hon iw hetifeddu. Gen.11.28.

8 Yntef a ddywedodd, Arglwydd Dduw trwy ba bêth y câf wybod yr etifeddaf hi?

9 Ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a thurtur, a chiw colommen.

10 Ac efe a gymmerth iddo y'rhai hyn oll, ac ai holltodd hwynt ar hyd [eu] canol, ac a roddodd bôb rhann ar gyfer ei gilydd, ond ni holltodd efe yr adar.

11 Pan ddeſcynnne yr adar ar y burgynnod yna Abram ai gwylltie hwynt.

12 A phan oedd yr haul ar fachludo y ſyrthiodd trym-gwſc ar Abram: ac wele ddychryn, [a] thywyllni mawr yn ſyrthio arno ef.

13 Ac efe a ddywedodd wrth Abram, * gan wybod gwybydd di y bydd dy hâd yn ddieithr A.7.6. mewn gwlad nid [yw] eiddynt, ac ai gwaſanaethant hwynt, a hwyntau ai cyſtuddiant bedwar-can mlhynedd.

14 A'r genhedlaeth hefyd yr hon a waſanaethant, a farnaf fi, ac wedi hynny y deuant allan a chyfoeth mawr,

15 A thi a ddeui at dy dadau mewn heddwch: ti a gleddir mewn henaint teg.

16 Ac [yn] y bedwaredd oes y ddychwelant ymma am na chyflawnwyd hyd yn hynn anwiredd yr Amoriaid.

17 A phan fachludodd yr haul yr oedd tywyllwch, ac wele ffwrn yn mygu, a phentewyn tân yn tramwyo rhwng y darnau hynny.

18 Yn y dydd hwnnw * y gwnaeth yr Arglwydd gyfammod ag Abram gan ddywedydd: i'th hâd ti y rhoddais y wlad hon, * o afon yr Aipht hyd yr afon fawr [ſef] afon Euphrates. Gene.12.7. Gen.13.15. 1.Brenh.4 21. 2.Chron.9.26.

19 Y Ceniaid, ar' Ceneziaid, ar' Cadmoniaid.

20 Yr Hethiaid hefyd, ar' Phereziaid, ar' Raphiaid.

21 Yr Amoriaid hefyd, ar' Canaaneaid, ar' Girgaſiaid, ar' Jebuſiaid.

## PEN. XVI.

Sarai yn rhoddi Agar ei morwyn i Abram. 4. honno yn beichiogi ac yn diyſtyru ei meiſtres. 6. Ac yn ffoi oddi wrth ei meiſtres rhac ei blined wrthi. 7. Yr angel yn ei chyſſuro. 11. Enw, a chynneddfau ei mâb. 13. Ai gwêddi,

SArai hefyd gwraig Abram ni phlantaſe iddo, ac yr ydoedd iddi forwyn o Aiphtes ai henw Agar.

2 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram, wele yn awr, yr Arglwydd a lluddiodd i mi blanta: Dos attolwg at fy llaw forwyn, fe alle * y ceir i mi blant o honi hi, ac Abram a wrandawodd ar lais Sarai.

3 Yna y cymmerodd Sarai gwraig Abram ei morwyn Agar yr Aiphtes, ym mhen dengmlhynedd wedi trigo o Abram yn nhir Canaã, a hi ai rhoddes i Abram ei gŵr yn wraig iddo.

4 Ac efe a aeth at Agar, a hi a feichiogodd: a phan welodd hithe feichiogi o honi, ei meiſtres oedd wael yn ei golwg hi.

5 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram yr ydwyfi yn cael cam gennit ti: mi a roddais fy morwyn i'th fonwes, a hithe a welodd feichiogi o honi, a gwael ydwyf yn ei golwg hi, barned yr Arglwydd rhyngof fi, a thi.

6 Ac Abram a ddywedodd wrth Sarai, wele dy forwyn yn dy law di, gwna iddi yr hyn a fyddo da yn dy olwg dy hun: yna Sarai ai cyſtuddiodd hi a hithe a ffoawdd rhacddi.

7 Ac angel yr Arglwyd ai cafodd hi wrth ffynnon yn ffordd Sur.

8 Ac efe a ddywedodd, Agar, morwyn Sarai, o ba le y daethoſt? ac i ba le yr ei di? a hi a ddywedodd ffoi yr ydwyfi o wyneb fy meiſtres Sarai.

9 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrthi,

5 Ac i Lot hefyd yr hwn aethe gyd ag Abram, yr oedd defaid, a gwarthec, a phebyll.

6 A'r wlâd nid oedd ddigon helaeth iddynt i drigo yng-hyd am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth, fel nad allent drigo yng-hyd.

7 Cynnen hefyd oedd rhwng bugelydd anifeiliaid Abram, a bugelydd anifeiliaid Lot: y Canaaneaid hefyd, a'r Phereziaid oeddynt yna yn trigo yn y wlâd.

8 Yna Abram a ddywedodd wrth Lot, na fydded cynnen attolwg rhyngo fi a thi, na rhwng fy mugeiliaid i, a'th fugeiliaid ti, oherwydd dynion [ydym] ni [ſydd] frodyr.

9 Onid yw yr holl dir o'th flaen di: ymnailltua attolwg oddi wrthif, os ar y llaw aſſwy y [troi] minne a droaf ar y ddehau: ac os ar y llaw ddehau, minne [a droaf] ar yr aſſwy.

10 Yna y cyfododd Lot ei olẁg, ac a welodd holl waſtadedd yr Iorddonen, mai dyfradwy [ydoedd] oll, fel gardd yr Arglwydd, fel tir yr Aipht, ffordd yr elech di i Soar cyn difetha o'r Arglwydd Sodoma a Gomorra.

11 A Lot a ddewiſodd iddo ef waſtadedd yr Iorddonen, a Lot a fudodd o'r Dwyrain, felly yr ymmailltuaſant bôb un oddi wrth ei gilydd.

12 Abram a drigodd yn nhir Canaan, a Lot a drigodd yn-ninaſoedd y gwaſtadedd, ac a lueſtodd hyd Sodoma.

13 A dynion Sodoma [oeddynt] ddrygionus, ac yn pechu yn erbyn yr Arglwydd yn ddirfawr.

14 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, wedi ymmailltuo o Lot oddi wrtho ef, cyfot dy lygaid, ac edrych o'r lle yr hwn yr ydwyt ynddo tu a'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, a'r gorllewyn.

Geneſ.12.7. gen.15.7. gen.26.24. deut 34.4. 15 Canys* yr holl dir yr hwn a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th hâd bŷth.

16 Goſodaf hefyd dy hâd ti fel llŵch y ddaiar, megis os dichon gŵr rifo llŵch y ddaiar, yna y rhifir dy hâd dithe.

17 Cyfot rhodia drwy yr wlâd, ar ei hŷd, ac ar ei llêd, canys i ti y rhoddaf hi.

18 Ac Abram a ſymmudodd [ei] lueſt, ac a ddaeth, ac a drigodd yng-waſtadedd Mamre, yr hwn [ſydd] yn Hebron, ac a adailadodd yno allor i'r Arglwydd.

## P E N. XIIII.

Codorlaomer ac eraill yn rhyfela yn erbyn Sodoma. 12 Ac yn dala Lot. 14 Abram yn achub Lot. 18 Melchiſedec yn cyfarfod, ac yn bendithio Abram. 22 Abram yn gwrthod golud y Sodomiaid.

ABu yn nyddiau Amraphel brenin Sinar, Arioch brenin Elaſar, Codorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhenloedd,

2 Wneuthur o honynt ryfel a Bera brenin Sodoma, ac a Birſa brenin Gomorra, [a] Sinab brenin Adma, ac [a] Semeber brenin Seboim, ac [a] brenin Bela honno [yw] Soar.

3 Y rhai hyn oll a ymgyfarfuant yn nyffryn Sidim: hwnnw yw yr môr heli.

4 Deuddeng mlhynedd y gwaſanaethaſent Codorlaomer, a'r drydedd flwyddyn ar ddec y gwrthryfelaſant.

5 A'r bedwaredd flwyddyn ar ddec y daeth Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a darawſant y Raphiaid, yn Aſtarothcarnaim, a'r Zuſiaid yn Ham, a'r Emiaid yng-waſtadedd Ciriathaim.

6 A'r Horriaid yn eu mynydd Seir, hyd waſtadedd Paran, yr hwn [ſydd] wrth yr anialwch.

7 Yna y dychwelaſant, ac y daethant i En-miſpat, honno [yw] Cades, ac a darawſant holl wlâd yr Amaleciaid, a'r Amoriaid hefyd, y rhai oeddynt yn trigo yn Hazezonthamar.

8 Allan hefyd yr aeth brenin Sodoma, a brenin Gomorra, a brenin Adma, a brenin Seboim, a brenin Bela honno [yw] Soar: ac yn nyffryn Sidim y lluniaethaſant ryfel a hwynt,

9 A Chodorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenhedloedd, ac Amraphel brenin Sinar, ac Arioch brenin Elaſar, pedwar o frenhinoedd yn erbyn y pump.

10 A dyffryn Sidim [oedd] lawn o byllau clai, a brenhinoedd Sodoma, a Gomorra, a ffoaſant ac a ſyrthiaſant yno: a'r lleill a ffoaſant i'r mynydd.

11 Yna y cymmeraſant holl gyfoeth Sodoma a Gomorra, ai holl lynniaeth hwynt, ac a aethant ymmaith.

12 Cymmeraſant hefyd Lot [nai] fab brawd [i] Abram, ai gyfoeth, ac a aethant ymmaith, o herwydd yn Sodoma yr ydoedd ef yn trigo.

13 Yna y daeth un a ddianghaſe: ac a fynegodd i Abram yr Hebread, ac efe yn trigo yng-waſtadedd Mamre'r Amoread brawd Eſcol, a brawd Aner, a'r rhai hynny [oeddynt] mewn cyngrair ag Abram.

14 Pan glybu Abram gaeth-gludo ei gâr yna efe a arfogodd oi hyfforddus [weiſion] y rhai a aneſyd yn ei dŷ ef ddau naw, a thrychant, ac a ymlidiodd hyd Dan.

15 Yna yr ymrannodd efe yn eu herbyn hwynt liw nôs, efe ai weiſion, ac ai tarawodd hwynt ac ai hymlidiodd hwynt hyd Hoba, yr hon [ſydd] o'r tu aſſwy i Ddamaſcus.

16 Ac efe a ddûg trachefn yr holl gyfoeth, ai gâr Lot hefyd ai gyfoeth a ddug ef trachefn, a'r gwragedd hefyd, a'r bobl.

17 Yna brenin Sodoma a aeth allan iw gyfarfod ef, i ddyffryn Safeh hwnnw yw *dyffryn y brenin, wedi ei ddychwelyd o daro Codorlaomer, a'r brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef. 2.Sam.18

18 * Melchiſedec hefyd brenin Salem, a ddûg allan fara, a gwin, ac efe [oedd] offeiriad i Dduw goruchaf,

19 Ac ai bendithiodd ef, ac a ddyywedodd: bendigêdic fyddo Abram gan Dduw goruchaf, meddiannydd nefoedd, a daiar.

Hebr.7.4. 20 A bendigêdic fyddo Duw goruchaf yr hwn a roddes dy elynion yn dy law: *ac [Abram] a roddes iddo ddegwm a bôb dim.

21 Dywedodd hefyd brenin Sodoma wrth Abram, dôd ti i mi y dynion, a chymmer i ti y cyfoeth.

22 Ac Abram a ddywedodd wrth frenin Sodoma, derchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw goruchaf, meddiãnydd nefoedd a daiar,

23 Na chymmerwn o edef hyd garreu eſcid, nac o'r hynn oll [ſydd] eiddo ti rhac dywedyd o honot, myfi a gyfoethogais Abram.

24 Ond yn unic yr hyn a fwyttaodd y llangciau, a rhann y gwyr y rhai a aethant gyd a mi, Aner, Eſcol, a Mamre: cymmerant hwy eu rhann.

### P E N. XV.

Duw yn amddeffynniad, ac yn wobr i Abram.4. Addo Iſaac.6.ffydd Abram yn ei gyfiawnhau.Duw yn addo gwlâd Canaan i Abram. 13. Caethiwed Iſrael yn yr Aipht,ai ryddhâd.

Numb.12.6. WEdi y pethau hynn y daeth gair yr Arglwydd at Abram, *mewn gweledigaeth gan ddywedyd: nac ofna Abram, myfi [ydwyf] dy darian, dy wobr [ſydd] fawr iawn.

2 Yna y dywedodd Abram, Arglwydd Dduw bêth a roddi di i mi? gan fy mod yn myned yn ddiblant, ar' mâb y gadewir iddo fy nhŷ yw Eleazar o Ddamaſcus.

3 Abram hefyd a ddywedodd wele ni roddaiſt i mi hâd, ac wele fyng-haethwas fydd fy etifedd.

4 Ac wele air yr Arglwydd atto ef gan ddywedyd: nid hwn fydd dy etifedd, onid un a ddaw allan o'th gorph di fydd dy etifedd.

5 Yna efe ai dug ef allan, ac a ddywedodd, golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ſêr o gelli di eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd *felly y bydd dy hâd ti. Rhuf.4.18.

Rhuf.4.3. 6 Yntef a *gredodd yn yr Arglwydd, a *chyfrifwyd hynny iddo yn gyfiawnder.

James 2.23. Galat.3.6. Gen.11.28. 7 Ac efe a ddywedodd wrtho, myfi [ydwyf] yr Arglwydd yr hwn ath ddygais di allan o Ur y Caldeaid i roddi i ti y wlad hon iw hetifeddu.

8 Yntef a ddywedodd, Arglwydd Dduw trwy ba bêth y câf wybod yr etifeddaf hi?

9 Ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a thurtur, a chiw colommen.

10 Ac efe a gymmerth iddo y'rhai hyn oll, ac ai holltodd hwynt ar hyd[eu]canol, ac a roddodd bôb rhann ar gyfer ei gilydd, ond ni holltodd efe yr adar.

11 Pan ddeſcynnne yr adar ar y burgynnod yna Abram ai gwylltie hwynt.

12 A phan oedd yr haul ar fachludo y ſyrthiodd trym-gwſc ar Abram: ac wele ddychryn, [a] thywyllni mawr yn ſyrthio arno ef.

A.7.6. 13 Ac efe a ddywedodd wrth Abram, *gan wybod gwybydd di y bydd dy hâd yn ddieithr mewn gwlad nid [yw] eiddynt, ac ai gwaſanaethant hwynt, a hwyntau ai cyſtuddiant bedwar-can mlhynedd.

14 A'r genhedlaeth hefyd yr hon a waſanaethant, a farnaf fi, ac wedi hynny y deuant allan a chyfoeth mawr,

15 A thi a ddeui at dy dadau mewn heddwch: ti a gleddir mewn henaint teg.

16 Ac[yn]y bedwaredd oes y ddychwelant ymma am na chyflawnwyd hyd yn hynn anwiredd yr Amoriaid.

17 A phan fachludodd yr haul yr oedd tywyllwch, ac wele ffwrn yn mygu, a phentewyn tân yn tramwyo rhwng y darnau hynny.

Gene.12.7. Gen.13.15. 1.Brenh.4 21. 2.Chron.9.26. 18 Yn y dydd hwnnw *y gwnaeth yr Arglwydd gyfammod ag Abram gan ddywedydd: i'th hâd ti y rhoddais y wlad hon, *o afon yr Aipht hyd yr afon fawr [ſef] afon Euphrates.

19 Y Ceniaid, ar' Ceneziaid, ar' Cadmoniaid.

20 Yr Hethiaid hefyd, ar' Phereziaid, ar' Raphiaid.

21 Yr Amoriaid hefyd, ar' Canaaneaid, ar' Girgaſiaid, ar' Iebuſiaid.

### P E N. XVI.

Sarai yn rhoddi Agar ei morwyn i Abram. 4. honno yn beichiogi ac yn diyſtyru ei meiſtres. 6. Ac yn ffoi oddi wrth ei meiſtres rhac ei blined wrthi. 7. Yr angel yn ei chyſſuro. 11. Enw, a chynneddfau ei máb. 13. Ai gwêddi,

SArai hefyd gwraig Abram ni phlantaſe iddo, ac yr ydoedd iddi forwyn o Aiphtes ai henw Agar.

2 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram, wele yn awr, yr Arglwydd a lluddiodd i mi blanta: Dos attolwg at fy llaw forwyn, fe alle *y ceir i mi blant o honi hi, ac Abram a wrandawodd ar lais Sarai.

3 Yna y cymmerodd Sarai gwraig Abram ei morwyn Agar yr Aiphtes, ym mhen deng-mlhynedd wedi trigo o Abram yn nhir Canaã, a hi ai rhoddes i Abram ei gŵr yn wraig iddo.

4 Ac efe a aeth at Agar, a hi a feichiogodd: a phan welodd hithe feichiogi o honi, ei meiſtres oedd wael yn ei golwg hi.

5 Yna y dywedodd Sarai wrth Abram yr ydwyf fi yn cael cam gennit ti: mi a roddais fy morwyn i'th fonwes, a hithe a welodd feichiogi o honi, a gwael ydwyf yn ei golwg hi, barned yr Arglwydd rhyngof fi, a thi.

6 Ac Abram a ddywedodd wrth Sarai, wele dy forwyn yn dy law di, gwna iddi yr hyn a fyddo da yn dy olwg dy hun: yna Sarai ai cyſtuddiodd hi a hithe a ffoawdd rhacddi.

7 Ac angel yr Arglwyd ai cafodd hi wrth ffynnon yn ffordd Sur.

8 Ac efe a ddywedodd, Agar, morwyn Sarai, o ba le y daethoſt? ac i ba le yr ei di? a hi a ddywedodd ffoi yr ydwyf fi o wyneb fy meiſtres Sarai.

9 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wr-

thi, dychwel at dy feiſtres, ac ymddaroſtwng tann ei dwylo hi.

10 Angel yr Arglwydd a ddywedodd hefyd wrthi hi: gan amlhau yr amlhaf dy hâd ti, fel na rifir ef o luoſogrwydd.

11 Dywedodd hefyd angel yr Arglwydd wrthi hi, wele di yn feichiog, a thi a eſcori ar fâb, ac a elwi ei enw ef Iſmael: canys yr Arglwydd a glybu dy gyſtudd di.

12 Ac efe a fydd ddŷn gwyllt, ai law ar bawb, a llaw pawb arno yntef, ac yn trigo ger bron ei holl frodyr.

13 A hi a alwodd enw'r Arglwydd yr hwn oedd yn llefaru wrthi, ti ô Dduw wyt yn edrych arnafi: canys dywedodd oni edrychais ymma hefyd ar ol yr hwn ſydd yn edrych arnaf?

14 Am hynny y galwyd y ffynnon, *ffynnon Laha Roi: wele rhwng Cades a Bared [y mae hi.] Geneſ. 24. 62.

15 Ac Agar a ymddug fâb i Abram: ac Abram a alwodd enw ei fâb, yr hwn a ymddugaſe Agar, Iſmael.

16 Ac Abram [oedd] fâb pedwar vgain mlwydd a chwech o flynyddoedd, pan ymddug Agar Iſmael i Abram.

## PEN. XVII.

Abram a elwir Abraham. 8 Addewid arall i Abram ar dir Canaan. 12 Goſſod enwaediad. 15 Sarai a elwir Sara. 16 Duw yn addo Iſaac. 23 Abraham yn ei enwaedu ei hun, ac Iſmael, ai holl deulu.

PAN oedd Abram onid vn mlwydd cant, yna'r ymddãgoſodd yr Arglwydd i Abram, ac a ddywedodd wrtho: myfi [ydwyf] Dduw hôll alluog, rhodia ger fy mrõ i, a bydd berffaith.

2 Ac mi a roddaf fyng-hyfammod rhyngof a thi, ac ath amlhâf di yn aml iawn.

3 Yna y ſyrthiodd Abram ar ei wyneb, a llefarodd Duw wrtho ef gan ddywedyd.

4 Myfi wele [a wnaf] fyng-hyfammod a thi, a thi a fyddi yn dâd llaweroedd o genhedloedd.

5 Ath henw ni elwir mwy Abram, onid dy enw fydd Abraham, canys yn dâd llaweroedd o genhedloed i'th roddais.

6 Ac mi a'th wnaf yn ffrwythlon iawn, ac a'th roddaf di yn genhedloedd, a brenhinoedd a ddeuant allan o honot ti.

7 Cadarnhaf hefyd fyng-hyfammod rhyngof a thi, ac a'th hâd ar dy ôl di trwy eu hoeſoedd *yn gyfammod tragywyddawl, i fod yn Dduw i ti, ac ith hâd ar dy ôl di. Geneſ. 12. 14.

8 Ac mi a roddaf i ti, ac i'th hâd ar dy ôl di, wlâd dy ymdaith ſef holl wlâd Canaan yn etifeddiaeth dragwyddawl, ac mi a fyddaf Dduw iddynt.

9 A Duw a ddywedodd wrth Abram, cadw dithe fyng-hyfammod, ti, a'th had ar dy ôl trwy eu hoeſoedd.

10 Dymma fyng-hyfammod yr hwn a gedwch rhyngof fi, a chwi, a'th hâd, ar dy ôl di: *enwaeder pôb gwryw o honoch chwi. Act.7,8.

11 Enwaedwch gan hynny gnawd eich dienwaediad: fel y byddo yn * arwydd cyfammod rhyngof fi, a chwithau. Rhu.4.11.

12 Pôb gwryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir i chwi trwy eich oeſoedd: yr hwn a aner yn tŷ, ac a brynner am arian gan neb dieithr yr hwn nid yw o'th hâd ti.

13 Gan enwaedu enwaeder yr hwn a aner yn dy dŷ di, ac a brynner am dy arian di, fel y byddo fyng-hyfammod yn eich cnawd chwi, yn gyfammod tragywyddawl.

14 A'r gwryw dienwaededic yr hwn ni enwaeder cnawd ei ddienwaediad, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o fyſc ei bobl: [oblegit] efe a dorrodd fyng-hyfammod.

15 Duw hefyd a ddywedodd wrth Abraham, Sarai dy wraig ni elwi ei henw Sarai, onid Sara [fydd] ei henw hi.

16 Bendithiaf hi hefyd, a rhoddaf i ti fâb o honi, ie bendithiaf hi fel y byddo yn gẽhedloedd, brenhinoedd pobloedd fyddant o honi hi.

17 Ac Abrahau a ſyrthiodd ar ei wyneb, ac a chwarddodd, ac a ddywedodd yn ei galon, a blentir i fâb can mlwydd? ac a blanta Sara yn ferch ddeng mlwydd, a phedwar vgain?

18 Ac Abraham a ddywedodd wrth Dduw ôh na bydde fyw Iſmael ger dy fron di,

19 A Duw a ddywedodd, Sara dy wraig a ymddŵg i ti fâb yn ddiau, a thi a elwi ei enw ef Iſaac: ac mi a gadarnhaf fyng-hyfammod ag ef, yn gyfammod tragywyddawl iw had ef ar ei ol ef.

20 Am Iſmael hefyd ith wrandewais, wele mi ai bendithiais ef ac mi ai ffrwythlonaf ef, ac ai lluoſogaf yn aml iawn: deuddec tywyſog a gynhedla efe, ac mi ai rhoddaf ef yn genehedlaeth fawr.

21 Am cyfammod a gadarnhaf ag Iſaac yr hwn a * ymddŵg Sara i ti y pryd hwn y flwyddyn neſſaf. Geneſ. 18.

22 Yna y peidiodd a llafaru wrtho, a Duw a aeth i fynu oddi wrth Abraham.

23 Ac Abraham a gymmerodd Iſmael ei fâb, a'r rhai oll a aneſyd yn ei dŷ ef, a'r rhai oll a brynnaſe efe ai arian: pôb gwryw o ddyniõ tŷ Abraham, ac efe a enwaedodd gnawd eu dienwaediad hwynt, o fewn corph y dydd hwnnw, fel y llefaraſe Duw wrtho ef.

24 Ac Abraham [oedd] fâb onid vn mlwydd cant, pan enwaedwyd cnawd ei ddienwaediad ef.

25 Ac Iſmael ei fâb ef yn fâb tair blwydd ar ddec pan enwaedwyd cnawd ei ddienwaediad ef.

26 O fewn corph y dydd hwnnw'r enwaedwyd Abraham, ac Iſmael ei fâb.

27 A holl ddynion ei dŷ ef y rhai a aneſyd yn tŷ, ac a brynneſyd ag arian gan neb dieithr a enwaedwyd gŷd ag ef.

PEN.

## PEN. XVIII.

Abraham yn derbyn tri angel iw dy. 10. Addewid o Iſaac.12. Sara'n ammeu'r addewid.18. Addewid o Griſt.21. Duw'yn rhybuddio Abraham am ddiniſtr Sodoma.23. Ac Abraham yn eiriol troſtynt.

AR Arglwydd a ymddangoſodd iddo ef yng-waſtadedd Mamre: ac efe yn eiſtedd [wrth] ddrŵs y babell, yng-wrês y dydd.

2 Ac efe a gododd ei lygaid, ac a edrychodd, ar wele dry-ŵyr yn ſefyll ger ei fron, pan welodd, yna efe a redodd iw cyfarfod hwynt, ac a ymgrymmodd tua ar ddaiar.

3 Ac efe a ddywedodd fy arglwydd, os cefais yn awr ffafor yn dy olwg di, na ddos heibio oddi wrth dy wâs.

4 Cymmerer attolwg ychydic ddwfr, a golchwch eich traed, a gorphwyſſwch dann y prenn hwnn,

5 Ac mi a ddygaf dammed o fara fel y cryfhaoch eich calon, wedi hynny y cewch ſymed ymmaith, o herwydd i hynny y daethoch heb law eich gwâs: a hwynt a ddywedaſant, gwna felly fel y dywedaiſt:

6 Ac Abraham a fryſſiodd i'r babell at Sara, ac a ddywedodd, paratoa di ar frŷs dair phioled o flawd peillied, telina a gwna yn deiſſēnau.

7 Ac Abraham a rêdodd at y gwarthec, ac a gymmerodd lô tŷner, a dâ, ac ai rhoddodd at y llangc, yr hwn a fryſſiodd iw baratoi ef.

8 Ac efe a gymmerodd ymenyn, a llaeth, a'r llò yr hwn a baratoaſe efe, ac a roddes oi blaen hwynt, ac efe a ſafodd gyd a hwynt tann y prēn, a hwynt a fwytawſant.

9 Yna y dywedaſant wrtho ef, mae Sara dy wraig? ac efe a ddywedodd wele [hi] yn y Babell.

Geneſ. 17. 19.
Geneſ. 21. 2.
Rhuf. 9. 9.

10 Ac [vn] a ddywedodd, *gan ddychwelyd y dychwelaf attat yng-hylch amſer bywiolaeth, ac wele fab i Sara dy wraig, a Sara oedd yn clywed [wrth] ddrws y babell, a hwnnw [oedd] oi ôl ef.

11 Abraham hefyd, a Sara [oeddynt] hên, wedi myned mewn oedran [a] pheidiaſe fod i Sara yn ôl arfer gwraged.

1. Pet. 3. 6.

12 Am hynny y chwarddodd Sara rhyngddi a hi ei hun, gā ddywedyd: ai gwedi fy heneiddio y bydd i mi drythyllwch * a'm harglwydd yn hên [hefyd?]

13 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Abraham, pa ham y chwarddodd Sara fel hynn, gan ddywedydd, a blantaf inne yn wir, wedi fy heneiddio?

14 A fydd dim yn anhawdd i'r Arglwydd? ar yr amſer nodedic y dychwelaf attat, yng-hylch amſer bywiolaeth, a mâb [fydd] i Sara.

15 A Sara a wadodd gan ddywedyd: ni chwerddais, o herwydd hi a ofnodd: yntef a ddywedodd nid [gwir,] oblegit ti a chwerddaiſt.

16 A'r gwŷr a godaſāt oddi yno, ac a edrychaſant tua Sodoma, ac Abraham a aeth gyd a hwynt, iw hanfon hwynt.

17 A'r Arglwydd a ddywedodd, a gelaf fi oddi wrth Abraham yr hyn a wnaf fi?

18 Canys Abraham gan fod a fydd yn gēhedlaeth fawr, a chref, * ac ynddo ef y bendithir holl genhedloedd y ddaiar.

Geneſ. 12. 2.
Geneſ. 22. 17.

19 Am i mi ei adnabod ef [ni chelaf,] fel y gorchymynno efe iw feibion, ac iw dylwyth ar ei ôl ef gadw o honynt ffordd yr Arglwydd gan wneuthur cyfawnder, a barn, fel y dygo'r Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am danaw.

20 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, am [fod] gwaedd Sodoma, a Gomorra yn ddirfawr, ai pechod hwynt yn drwm iawn,

21 Deſcynnaf yn awr, ac edrychaf, ai yn ôl ei gwaedd yr hon a ddaeth attafi, y gwnaethāt yn hollawl, ac onide, mynnaf wybod.

22 A [dau] or gwŷr a droeſant oddi yno, ac a aethant tua Sodoma, ac Abraham yn ſefyll etto ger bron yr Arglwydd.

23 Abraham hefyd a neſaodd, ac a ddywedodd, a ddifethi di y cyfyawn hefyd yng-hyd a'r annuwiol?

24 Ond odid y mae dec a deugain o rai cyfiawn yn y ddinas, a ddifethi di [hwynt] hefyd, ac ni arbedi y lle er mwyn y dec a deugain cyfiawn y rhai [ydynt] oi mewn hi?

25 Na byddo i ti wneuthur y cyfryw beth, gan ladd y cyfiawn gyd a'r annuwiol, fel y byddo y cyfiawn megis yr annuwiol: na byddo [hynny] i ti, oni wna barnudd yr holl dir farn?

26 Yna y dywedodd yr Arglwydd os câf fi yn Sodoma ddeg a deugain yn gyfiawn ofewn y ddinas, yna y maddeuaf i'r holl fangre honno er eu mwyn hwynt.

27 Ac Abraham a attebodd, ac a ddywedodd, wele yn awr y dechreuais lefaru wrth fy Arglwydd, a mi yn llwch ac yn lludw.

28 Ond odid bydd pump yn eiſieu o'r dec a deugain cyfiawn a ddifethi di'r holl ddinas er pumb? yntef a ddywedodd na ddifethaf os câf yno bump a deugain.

29 Chwanegodd hefyd lefaru wrtho ef etto, a dywedodd: ond odid ceir yno ddeugain, yntef a ddywedodd nis gwnaf er mwyn y deugain.

30 Yna y dywedodd na ddigied fy Arglwydd atolwg os llefaraf, ceir yno onid odid ddêc ar hugain: yntef a ddywedodd nis gwnaf os caf yno ddêc ar hugain.

31 Yna y dywedodd efe wele yn awr y chwenychwn lefaru wrth fy Arglwydd, ond odid ceir yno vgain: yntef a ddywedodd nis difethaf er mwyn vgain.

32 Yna y dywedodd efe, na ddigied fy Arglwydd atolwg, a llefaraf y waith hon yn vnic, ond odid ceir yno ddêc: yntef a ddywedodd nis difethaf er mwyn y dêc.

33 Yna'r aeth yr Arglwydd ymmaith pan ddarfu iddo lefaru wrth Abraham, ac Abraham a ddychwelodd iw le ei hun.

## PEN. XIX.

Lot yn derbyn angylion iw dy. 4 Anaturiol bechod y Sodomiaid. 10 Yr angylion yn achub Lot. 24 Diniſtr Sodoma. 26 Coſp gwraig Lot. 31 Merched Lot yn meddwi eu tad iw ddwyn ef i ymloſgach a hwynt.

YNA y ddau angel a ddaethant i Sodoma yn yr hwyr, a Lot yn eiſtedd ym-mhorth Sodoma a phā welodd Lot, efe a gyfododd iw cyfarfod hwynt ac a ymgrymmodd [ai] wyneb tua yr ddaiar.

Geneſ.18.4. 2 Ac efe a ddywedodd wele yn awr fy arglwyddi, troiwch atolwg i dŷ eich gwâs, lletteuwch hefyd a * golchwch eich traed, yna codwch yn foreu ac ewch i'ch taith: hwynt a ddywedaſant na [wnawn] o herwydd nyni a allwn letteu yn yr heol.

3 Ac efe a fu daer iawn arnynt hwy, yna y troeſant atto, ac y daethant iw dŷ ef, ac efe a wnaeth iddynt wledd, ac a bobodd fara croiw, a hwynt a fwyttaſant.

4 Yna cyn gorwedd o honynt, gwyr y ddinas, [ſef] gwyr Sodoma, hên ac ieuangc, a amgylchaſant o amgylch y tŷ [ſef] yr holl bobl o eithaf [y ddinas.]

5 Ac a alwaſant ar Lot, ac a ddywedaſant wrtho, mae y gwyr y rhai a ddaethant attat ti heno ? dŵg di hwynt allan attom ni, fel yr adwaenom hwynt.

6 Yna y daeth Lot attynt hwy allan i'r drws, ac a gaeodd y ddôr ar ei ôl.

7 Ac a ddywedodd atolwg fy-mrodyr na wnewch ddrwg.

8 Wele yn awr [y mae] dwy ferched geniſi, y rhai nid adnabuant ŵr: dygaf hwynt allan attoch chwi yn awr, a gwnewch iddynt fel y gweloch yn ddâ, yn unic na wnewch ddim i'r gwyr hyn, o herwydd er mwyn hynny y daethant dan gyſcod fyng-hronglwyd mau ſi.

2.Pet.2.7. 9 Yna y dywedaſant, neſſa hwnt: dywedaſant hefyd, efe a ddaeth i ymdaith yn unic, ac yn awr ai gan farnu y barna efe ? yn awr nyni á wnawn fwy o niwed i ti, nac iddynt hwy. felly y buant daer iawn * ar y gwr [ſef] ar Lot, a hwy a neſſaſant i dorri y ddôr.

10 Yna y gwŷr a eſtynnaſant eu llaw, ac a ddygaſant Lot attynt hwy i'r tŷ, ac a gaeaſant y ddôr.

Doeth.19.16. 11 *Tarawſant hefyd y dynion y rhai [oeddynt wrth] ddrws y tŷ a dallineb, o fychan i fawr, fel y blinaſant yn ceiſio y drws.

12 A'r gwyr a ddywedaſant wrth Lot, pwy ſydd gennit ti yma etto, [dy] ddawō, ath feibiō, ath ferched, a'r hyn ôll [ſydd] i ti yn y ddinas a ddŷgi di allan o'r fangre hon.

Geneſ.18.20. 13 O blegit yr ydym ni ar ddiniſtrio y lle hwn * am fod eu gwaedd hwynt yn fawr ger bron yr Arglwydd: a'r Arglwydd a'n hanfonodd ni iw ddiniſtrio ef.

14 Yna yr aeth Lot allan ac a lefarodd wrth ei ddawon y rhai oeddynt yn priodi ei ferched ef, ac a ddywedodd: cyfodwch deuwch allan o'r fann yma: o herwydd y mae r' Arglwydd yn difetha y ddinas: ac yng-olwg ei ddawon yr ydoedd efe fel [un] yn cellweir.

15 Ac ar godiad y wawr yr angylion a fuant daer ar Lot, gan ddywedyd: cyfod ti cymmer dy wraig, a'th ddwy ferched, y rhai ydynt iw cael, rhac dy ddifetha di yn anwiredd y ddinas hon.

16 Yntef a oedd hwyr-frydic, yna y * gwyr a ymafelaſant yn ei law ef, ac yn llaw ei wraig, ac yn llaw ei ferched, am doſturio o'r Arglwydd wrtho ef: ac ai dugaſant ef allan, ac ai goſſodaſant o'r tu allan i'r ddinas. Doeth.10.6.

17 Ac wedi eu dwyn hwynt allan, efe a ddywedod diangc am dy enioes, nac edrych ar dy ôl, ac na ſâf yn yr holl waſtadedd, diangc i'r mynydd rhac dy ddifetha.

18 Yna y dywedodd Lot, nid [felly] atolwg fy arglwyddi.

19 Wele yn awr y cafodd dy wás ffafor yn dy olŵg, a mawrheaiſt dy drugaredd yr hon a wnaethoſt a mi gan gadw fy enioes yn fyw: ac ni allaf ſi ddiangc i'r mynydd rhac i'r drwg fyng-oddiweddyd, a marw o honof.

20 Wele yn awr y ddinas hon yn agos i ffoi iddi, a bechan yw, atolwg gad ti i mi ddiangc yno: (onid bechan yw hi ?) a byw fydd fy enaid.

21 Yntef a ddywedodd wrtho, wele mi a ganniadheais dy ddymuniad hefyd am y pêth hyn, fel na ddiniſtriwyf y ddinas [am] yr hon y dywedaiſt.

22 Bryſſia, diangc di yno, o herwydd ni allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yno: am hynny y galwodd efe enw y ddinas Zoar.

23 Cyfodaſe yr haul a'r y ddaiar, pan ddaeth Lot i Zoar.

24 Yna r' Arglwydd a * lawiodd ar Sodoma a Gomorra frwmſtan, a thân oddi wrth yr Arglwydd o'r nefoedd. Deut.29.23. Iſai.13.19. Ier.50.40. Ezec.16.49. Oze.11.8. Amos.4.11. Luc.17.29.

25 Felly y diniſtriodd efe y dinaſoedd hynny, a'r holl waſtadedd, a holl drigolion y dinaſoedd, a chnwd y ddaiar.

26 Yna ei wraig ef a edrychod drach ei chefn oi du ôl ef, a hi a aeth yn golofn halen.

27 Ac Abraham a gododd yn foreu i'r lle yr hwn y ſafaſe efe ynddo ger bron yr Arglwydd.

28 Ac efe a edrychod tua Sodoma, a Gomorra, a thua hôll dir y gwaſtadedd, yna y gwelodd, ac wele cyfododd mwg y tir fel mwg ôdyn.

29 A phan ddifethodd Duw ddinaſoedd y gwaſtadedd, yna y cofiodd Duw am Abraham, ac a yrrodd Lot o ganol y diniſtr pan ddiniſtriodd efe y dinaſoedd yr hai yr oedd Lot yn trigo ynddynt.

30 A Lot a eſcynnod o Zoar, ac a drigodd yn „
y mynydd ai ddwy ferched gyd ag ef, o herwydd „
efe a ofnodd drigo yn Zoar, ac a drigodd mewn „
ogof, efe ai ddwy ferched. „

31 Yna y dywedodd yr hynaf wrth yr ieu- „
angaf, ein tad ni [ſydd] hên, a gŵr nid oes yn y „
wlad i ddyfod attom ni, wrth ddefod yr holl dir. „

“ 32 Tyret rhoddwn i'n tâd wîn iw yfed, fel
“ y gorweddom gyd ag ef ac y cadwom hâd yn
“ fyw o'n tâd.
“ 33 Felly hwynt a roddaſant wîn iw tâd i y-
“ fed y noſon honno, a'r hynaf a ddaeth ac a orw-
“ eddodd gyd ai thâd, ac ni wybu efe pan orwedd-
“ odd hi, na phan gyfododd hi.
“ 34 A thrannoeth y dywedodd yr hynaf wrth
“ yr ieuangaf, wele gorweddais neithwyr gyd
“ a'm tâd, rhoddwn wîn iddo ef iw yfed heno he-
“ fyd, a dos di, a gorwedd gyd ag ef, fel y cadwom
“ yn fyw hâd o'n tâd.
“ 35 Felly hwynt a roddaſant wîn iw tâd i y-
“ fed y noſon honno hefyd, a'r ieuangaf a gododd,
“ ac a orweddodd gyd ag ef, ac ni wybu efe pan or-
“ weddodd hi, na phan gyfododd hi.
“ 36 Felly dwy ferched Lot a feichiogwyd
“ oi tâd eu hun.
“ 37 A'r hynaf a eſcorodd ar fab, ac a alwodd
“ ei enw ef Moab: efe yw tâd y Moabiaid hyd
“ heddyw.
“ 38 A'r ieuangaf hefyd a eſcorodd hithe ar
“ fab, ac a alwodd ei enw efe Bennammi: ef yw
“ tad meibion Ammon hyd heddyw.

## PEN. XX.

Abraham yn gwladychu yng-wlad Gerar. 2 Abimelec yn dwyn ei wraig ef. 3 Duw yn bygwth Abimelec. 9 Abimelec yn beio ar Abraham. 11 Atteb Abrahã. 14 Rhoddiad gwraig Abraham adref. 17 Duw yn iachau ty Abimelec trwy weddi Abraham.

AC Abraham a gychwynnodd oddi yno i dir y dehau, ac a gyfanneddodd rhwng Cades a Sur, ac a ymdeithiodd yn Gerar.

2 A dywedodd Abraham am Sara ei wraig, fy chwaer yw hi: ac Abimelec brenin Gerar a anfonodd, ac a ddug Sara.

3 Yna y daeth Duw at Abimelec noſwaith mewn breuddwyd, ac a ddywedodd wrtho: wele di yn farw am y wraig yr hon a gymmeraiſt, a hi yn berchen gŵr.

4 Ond Abimelec ni neſſaſe atti hi, ac efe a ddywedodd fy Arglwydd, a leddi di y genedl gyfiawn hefyd?

5 Oni ddywedodd efe wrthif fi, fy chwaer yw hi: a hithe hefyd ei hun a ddywedodd fy mrawd yw efe: ym mherffeithrwydd fyng-halõ, ac yng-lendid fy nwylo y gwneuthum hyn.

6 Yna y dywedodd Duw wrtho ef mewn breuddwyd, minne hefyd a wn mai ym mherffeithrwydd dy galon y gwnaethoſt hyn, a mi a'th attaliais rhac pechu i'm herbyn: am hynny ni'th adewais i gyffwrdd a hi.

7 Yn awr gan hynny dot ti y wraig trachefn i'r gŵr, o herwydd prophwyd yw efe, a phan weddio efe troſot, byddi fyw: ond oni roddi trachefn, gwybydd mai gan farw y byddi farw, ti a'r rhai oll ydynt eiddoti.

8 Yna y cododd Abimelec yn foreu, ac a alwodd am ei holl weiſion, ac a draethodd yr holl bethau hyn wrthynt hwy, a'r gwyr a ofnaſant yn ddirfawr.

9 Galwodd Abimelec hefyd am Abraham, a dywedodd wrtho, beth a wnaethoſt i mi? a pheth a bechais i'th erbyn, pan ddygit bechod [mor] fawr arnafi, ac ar fy nheyrnas? gwnaethoſt a mi weithredoedd y rhai ni ddyleſyd eu gwneuthur.

10 Abimelec hefyd a ddywedodd wrth Abraham, beth a welaiſt, pan wnaethoſt y peth hynn?

11 A dywedodd Abraham am i ddywedyd o honofi yn ddiau nid [oes] ofn Duw yn y lle hwn: a hwynt a'm lladdant o achos fyng-wraig.

12 A hefyd yn wîr fy chwaer [yw] hi, merch fy nhâd, ond nid merch fy mam: ac y mae hi yn wraig i mi.

13 Ond pan barodd Duw i mi gyrwydro o dŷ fy-nhad, yna y dywedais wrthi hi, dymma dy garedigrwydd yr hwn a wnei a mi ym-mhôb lle yr hwn y delom ni iddo, *dywet am danaf fi, fy mrawd yw efe. Geneſ.12.13.

14 Yna y cymmerodd Abimelec ddefaid, a gwarthec, a gweiſion, a morwynion, ac ai rhoddes i Abraham: rhoddes hefyd iddo ef Sara ei wraig trachefn.

15 A dywedodd Abimelec, wele fyng-wlad ger dy fron di, trig lle y byddo da yn dy olwg.

16 Ac wrth Sara y dywedodd, wele rhoddais i'th frawd fîl o [ddarnau] arian: wele efe yn orchudd llygaid it, yn erbyn y rhai oll [ydynt] gyd a thi, a phawb [arall] ac felly hi a geryddwyd.

17 Yna Abraham a weddiodd a'r Duw, a Duw a iachaodd Abimelec, ai wraig, ai forwynion, felly y plantent.

18 O herwydd yr Arglwydd gan gaeu, a gaeaſe ar bob croth yn nhŷ Abimelec o achos Sara gwraig Abraham.

## PEN. XXI.

2 Ganedigaeth Iſaac, ai enwaediad. 9 Bwriad Agar o dy Abraham am i Iſmael watwar Iſaac. 17 Yr angel yn cyſſuro Agar. 22 Cyngrair rhwng Abraham, ac Abimelec.

A'r Arglwydd a ymwelodd a Sara fel y dywedaſe, a gwnaeth yr Arglwydd i Sara *fel y llefaraſe. Geneſ.17.19.

2 O herwydd Sara a *feichiogodd, ac a ymddug i Abraham fab yn ei henaint, ar yr amſer nodedic yr hwn a ddywedaſe Duw wrtho ef. Geneſ.18.10. Act.7.8. Gal.4 23. Hebr.11.11.

3 Ac Abraham a alwodd henw ei fab (yr hwn a aneſyd iddo, (yr hwn a ymddugaſe Sara iddo ef) Iſaac.

4 Ac Abraham a enwaedodd Iſaac ei fâb yn wyth niwrnod oed: * fel y gorchymynaſe Duw iddo ef. Geneſ.17.12.

5 Ac Abraham [oedd] fab can mlwydd pan anwyd iddo ef Iſaac ei fâb.

6 Yna y dywedodd Sara: gwnaeth Duw i mi chwerthyn, pob un a glywo a chwardd gyd a mi.

7 Hi a ddywedodd hefyd, pwy a ddywedaſe i Abraham y rhoddaſe Sara ſugyn i blant? canys mi a eſcorais fab yn ei henaint ef.

8 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a ddiddyf-

nwyd, ac Abraham a wnaeth wledd fawr ar y dydd y diddyfnwyd Jſaac,

9 A Sara a welodd fâb Agar yr Aiphtes, yr hwn a ymddugaſe hi i Abrahã yn gwattwar

10 A hi a ddywedodd wrth Abraham, gyrr ymmaith y gaeth forwyn hon ai mâb, o herwydd ni chaiff mâb y gaethes hon gyd etifeddu a'm mab mau fi Jſaac.

11 A'r peth hyn fû ddrwg iawn gan Abraham er mwyn ei fâb.

12 Yna Duw a ddywedodd wrth Abraham na fydded ddrwg yn dy olwg am y llangc, nac am dy gaeth forwyn, yr hyn oll a ddywedo Sara wrthit, gwrando ar ei llais: o herwydd yn Jſaac y gelwir i ti hâd.

13 Ac am fab y forwyn gaeth hefyd goſſodaf ef yn genhedlaeth, o herwydd dy hâd ti ydyw ef.

14 Yna y cododd Abraham yn foreu, ac a gymmerodd fara, a choſtreled o ddwfr, ac ai rhoddes at Agar, gan oſſod ar ei hyſcwydd hi [hynny] a'r bachgen hefyd, ac efe ai gollyngodd hi ymmaith, a hi a aeth, ac a gyrwydrodd yn anialwch Beerſebah.

15 Pan ddarfu y dwfr yn y goſtrel, yna hi a fwriodd y bachgen tan vn o'r gwŷdd.

16 A hi a aeth, ac a eiſteddodd ei hunan yn bell ar gyfer, megis ergyd bŵa, canys dywedaſe ni allafi edrych ar y bachgẽ yn marw: felly hi a eiſteddodd ar[ei]gyfer, ac a dderchafodd ei llef, ac a ŵylodd.

17 Yna Duw a wrãdawodd ar lais y llangc, ac angel Duw a alwodd ar Agar o'r nefoedd, ac a ddywedodd wrthi, beth [a ddarfu] i ti Agar? nac ofna, o herwydd Duw a wrandawodd ar lais y llangc o'r lle y mai efe.

18 Cyfot, cymmer y llangc, ac ymafel ynddo a'th law, o blegit myfi ai goſſodaf ef yn genhedlaeth fawr.

19 Yna Duw a agorodd ei llygaid hi, a hi a ganfu bydew dwfr, ac hi aeth ac a lanwodd y goſtrel[o'r]dwfr, ac a ddiododd y llangc.

20 Ac yr oedd Duw gyd a'r llangc, ac efe a gynnyddodd, ac a drigodd yn yr anialwch, ac oedd berchen bwa.

21 Ac yn anialwch Paran y trigodd efe, ai fam a gymmerodd iddo wraig o wlad yr Aipht.

22 Ac yn yr amſer hwnnw Abimelec a Phicol tywyſog ei lu ef a ymddiddanaſãt ag Abraham gan ddywedyd: Duw [ſydd] gyd a thi yn yr hyn oll yr ydwyt yn ei wneuthur.

23 Yn awr gan hynny, twng wrthif fi i Dduw, na fyddi anffyddlon i mi, nac i'm mâb, nac i'm hwyr, yn ol y drugaredd yr hon a wneuthum a thi, y gwnei di a minne, ac a'm gwlad yr hon yr ymdeithiaiſt ynddi.

24 Ac braham a ddywedodd mi a dyngaf.

25 Yna Abraham a geryddodd Abimelec, o achos y pydew dwfr yr hwn a ddygaſe gweiſion Abimelec trwy drais.

26 Ac Abimelec a ddywedodd, nis gwybum i pwy a wnaeth y peth hyn: tithe hefyd ni fynegaiſt i mi, a minne ni chlywais [hynny] hyd heddyw.

27 Yna y cymmerodd Abraham ddefaid, a gwarthec, ac ai rhoddes i Abimilec, ac a wnaethant gyngrair ill dau.

28 Ac Abraham a oſododd ſaith o heſpinod [o'r]praidd ar y naill du.

29 Yna y dywedodd Abimelec wrth Abraham, beth [a wna] y ſaith heſpin hynn y rhai a oſodaiſt wrthynt eu hunain:

30 Ac yntef a ddywedodd, fel y cymmerech di y ſaith heſpin o'm law, i fod yn deſtiolaeth mai myfi a gloddiais y pydew hwn.

31 Am hynny efe a alwodd henw y lle hwnnw Beer-ſebah: o blegit yno y tyngaſant ill dau.

32 Felly y gwnaethant gyngrair yn Beer-ſebah: a chyfododd Abimilec, a Phicol tywyſog ei lu ef, ac a ddychwelaſãt i dîr y Philiſtiaid.

33 Ac yntef a blannodd goed yn Beer-ſebah, ac a alwodd yno ar enw yr Arglwydd Dduw tragywyddol.

34 Ac Abraham a ymdeithiodd ddyddiau lawer yn nhir y Philiſtiaid.

## PEN. XXII.

1 Duw yn profi ffydd Abraham, drwy orchymmyn iddo aberthu ei fab. . Ac Abraham yn dangos ei ffydd ai vfydd-dod, 20 Hiliogaeth Nachor.

AC wedi y petheu hyn y bu i Dduw * brofi Abraham, a dywedyd wrtho, Abraham: yntef a ddywedodd wele fi. Heb.11.17.

2 Yna y dywedodd [Duw] cymmer yr awran dy fâb yr hwn a hoffaiſt ſef dy vnic Jſaac, a dos rhagot i dîr Moriah, ac offrymma ef yno yn boeth offrwm ar vn o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthit.

3 Yna Abraham a foreu gododd, ac a gyfrwyodd ei aſſyn, ac a gymmerodd ei ddau langc gyd ag ef, ac Jſaac ei fâb, ac a holltodd goed y poeth offrwm, ac a gyfododd, ac a aeth i'r lle yr hwn a ddywedaſe Duw wrtho ef.

4 Ac ar y trydydd dydd y derchafodd Abraham ei lygaid, ac efe a wele y lle o hir-bell,

5 Ac Abraham a ddywedodd wrth ei langciau arhoſwch chwi ymma gyd a'r aſſyn, a mi a'r llangc a awn hyd accw, ac a addolwn, ac a ddychwelwn attoch.

6 Yna y cymmerth Abraham goed y poeth offrwm, ac ai goſododd ar Jſaac ei fâb, ac a gymmerodd y tân a'r gyllell yn ei law ei hun, ac a aethant ill dau yng-hyd.

7 Yna y llefarodd Jſaac wrth Abraham ei dâd, ac a ddywedodd fy nhâd: yntef a ddywedodd wele fi fy mab: yna ebr ef wele dân a choed, ond mae oen y poeth affrwm?

8 Ac Abraham a ddywedodd, Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth affrwm, felly 'r aethant ill dau yng-hyd,

9 Ac a ddaethant i'r lle 'r hwn a ddywedaſe Duw wrtho ef, ac yno 'r adailadodd Abraham allor, ac a oſododd y coed mewn trefn ac a

rwymodd

am.2.21. rwymodd Iſaac ei fab,ac * ai goſododd ef ar yr allor ar vchaf y coed.

10 Yna Abraham a eſtynnodd ei law ac a gymmerodd y gyllell i ladd ei fâb.

11 Ac angel yr Arglwydd a alwodd arno ef o'r nefoedd, ac a ddywedodd, Abraham, Abraham: yntef a ddywedodd weli fi.

12 Ac efe a ddywedodd nac eſtyn di dy law ar y llangc, ac na wna ddim iddo, o herwydd gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad atteliaiſt dy vnic fab oddi wrthif i.

13 Yna y derchafodd Abraham ei lygaid,ac a edrychodd, ac wele hwrdd yn[ei] ol,[ef]wedi ei ddal erbyn ei gyrn mewn drysni:ac Abraham a aeth ac a gymmerth yr hwrdd, ac ai hoffrymmodd yn boeth offrwm yn lle ei fâb.

14 Ac Abraham a alwodd henw y lle hwnnw,'r Arglwydd a wêl, am hynny y dywedir heddyw yn y mynydd y gwelir yr Arglwydd.

15 Ac angel yr Arglwydd a alwodd ar Abraham yr ail waith o'r nefoedd:

16 Ac a ddywedodd i mi fy hun y tyngais medd yr Arglwydd, o herwydd gwneuthur o honot y peth hyn, ac nad attaliaiſt dy vnic fâb,

17 Mai gan fendithio i'th fendithiaf, a chan amlhau 'r amlhaf dy hâd, fel ſêr y nefoedd, ac fel y tywod yr hwn[ſydd] ar lann y môr: a'th hâd a feddianna borth ei elynion.

Gene.12.3. Gen.18.18. Eccl.44.25. act.3.25. gal.3.8. 18 Ac *yn dy hâd ti y bendithir holl genhedloedd y ddaiar: o achos gwrando o honot ar fy llais i.

19 Yna Abraham a ddychwelodd at ei langciau, a hwy a godaſant, ac a aethant yng-hyd i Beer-ſebah, ac Abraham a drigodd yn Beer-ſebah.

20 Darfu hefyd wedi y pethau hyn fynegu i Abraham gan ddywedyd: wele dûg Milcha hithe hefyd blant i Nachor dy frawd.

21 Hus ei gyntaf-anedic, a Buz ei frawd yntef, Camuel hefyd tâd Aram.

22 A Cheſed,a Hazo,a Phildas,ac Idlaph, a Bethuel:

23 Bethuel hefyd a genhedlodd Rebecca,yr wyth hyn a blantodd Milcha i Nachor frawd Abraham.

24 Ei ordderch-wraig hefyd,ai henw Reumah a eſcorodd hithe hefyd Tebah, a Gaham, a Thahas,a Mahacha.

## PEN. XXIII.

1 Marwolaeth Sara. 4 Abraham yn prynu iddi feddrod. 19 Claddedigaeth Sara.

AC oes Sara ydoedd gan-mlhynedd a ſaith-mlhynedd ar hugain [dymma] flynyddoedd oes Sara.

2 A Sara a fu farw yng-haer Arbah,honno[yw]Hebron yn nhîr Canaan, ac Abraham aeth i alaru am Sara, ac i wylofain[am deni] hi.

3 Yna y cyfododd Abraham i fynu oddi gêr bron ei[gorph]marw ac a lefarodd wrth feibion Heth gan-ddywedyd:

4 Dieithr ac alltud ydwyf fi gyd a chwi, rhoddwch i mi etifeddiaeth beddrod gyd a chwi, fel y claddwyf fy marw o'm gwydd.

5 A meibion Heth a attebaſant Abraham gan ddywedyd wrtho.

6 Clyw ni fy arglwydd, tywyſog Duw [wyt] ti,yn ein plith: cladd dy farw yn [dy] ddewis o'n beddau ni: ni twyſtr neb o honom ni ei fedd i ti, i gladdu dy farw.

7 Yna y cyfododd Abraham, ac a ymgrymmodd i bobl y tîr [ſef] i feibion Heth,

8 Ac a ymddiddanodd a hwynt gan ddywedyd: os yw eich ewyllys ac gladdu fy marw o'm gŵydd, gwrandewch fi, ac eiriolwch troſof fi ar Ephron fab Zohar:

9 Ar roddi o honaw ef i mi yr ogof Machpelah, yr hon [ſydd] eiddo ef, ac [ſydd] yng-hwrr ei faes, er ei llawn[werth] o arian rhodded hi i mi yn etifeddiaeth beddrod yn eich plith chwi.

10 Ac Ephron oedd yn aros ym-myſc meibion Heth: yna Ephron yr Hethiad a attebodd Abraham, lle y clywodd holl feibion Heth: yng-wydd pawb a ddeuent i borth ei ddinas ef, gan ddywedyd:

11 Nage fy arglwydd clyw fi, rhoddais y maes i ti, a'r ogof yr hon[ſydd]ynddo, i ti y rhoddais hi, yng-wydd meibion fy mhobl y rhoddais hi i ti: cladd di dy farw.

12 Yna Abraham a ymgrymmodd o flaen pobl y tîr.

13 Ac efe a lefarodd wrth Ephron lle y clybu pobl y tîr, gan ddywedyd: etto os tydi [yw ef] ô na'm gwrandewit fi: rhoddaf werth y maes, cymmer gennif ac mi a gladdaf fy marw yno.

14 Yna Ephron a attebodd Abraham, gan ddywedyd wrtho.

15 Gwrando fi fy arglwydd, y tîr [a dâl] bedwar cant ſicl o arian, beth yw hynny rhyngof fi a thithe: am hynny cladd dy farw.

16 Felly Abraham a wrandawodd ar Ephron, a phwyſodd Abraham i Ephron yr arian y rhai a ddywedaſe efe lle y clybu meibion Heth: pedwar-cant ſicl o arian cymmeradwy ym mhlith marchnad-wyr.

17 Felly y ſiccrhawyd maes Ephron yr hwn [oedd] ym-Machpelah, yr hon [oedd] o flaen Mamre, y maes a'r ogof yr hon[oedd]ynddo, a phôb pren yr hwn [oedd] yn y maes, ac yn ei holl derfynau o amgylch,

18 Yn feddiant i Abraham, yng-olwg meibion Heth gyd a phawb a ddelynt i borth ei ddinas ef.

19 Ac wedi hynny Abraham a gladdodd Sara ei wraig, yn ogof maes Machpelah ar gyfer Mamre, honno[yw]Hebron yn nhir Canaan.

20 Felly y ſiccrhawyd y maes, a'r ogof yr

hon oedd ynddo, i Abraham yn etifeddiaeth beddrod oddi wrth feibion Heth.

## PEN. XXIIII.

3 Abraham yn peri iw wâs dyngu y ceiſie wraig i Iſaac o genedl Abraham. 12 Gweddi y gwâs, a'r arwydd llwyddiant a gafodd efe. 33 Ei ddiwydrwydd ef i wneuthur ewyllys ei feiſtr. 50 Atteb cenedl Rebecca. 58 Cydtundeb Rebecca i fyned at Iſaac 67 Iſaac yn priodi Rebecca.

AC Abraham oedd hên, wedi myned yn oedrannus, a'r Arglwydd a fendithiase Abraham ym mhob dim.

Gene.47.29. 2 A dywedodd Abraham wrth ei wâs hynaf [yn] ei dŷ, yr hwn oedd yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r [a oedd] ganddo: *goſot yn awr dy law tann fy morddwyd.

3 Fel y parwyf it dyngu i Arglwydd Dduw y nefoedd a Duw y ddaiar, na chymmerech wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid y rhai 'r ydwyf yn trigo yn eu myſc.

4 Ond i'm gwlad fy hun yr ei, at fyng-henedl fy hun yr ei di, ac a gymmeri wraig i'm mab Iſaac.

5 A'r gwâs a ddywedodd wrtho ef, onid odid ni fynn y wraig ddyfod ar fy ôl i i'r wlad hon, gan ddychwelyd a ddychwelaf dy fab di i'r tîr yr hwn y daethoſt allan o honaw?

*6* Yna y dywedodd Abraham wrtho, gwilia arnat rhac i ti ddychwelyd fy mâb mau-fi yno.

Gene 15.7. gene.13.15. gene.15.18. gene.26.4. 7 Arglwydd Dduw y nefoedd yr hwn a'm cymmerodd i o dŷ fy nhâd, ac o wlad fynghenedl, yr hwn hefyd a ymddiddanodd a mi, ac a dyngodd wrthif gan ddywedyd: *îth hâd ti y rhoddaf y tîr hwnn, efe a enfyn ei angel o'th flaen di, fel y cymmerech wraig i'm mâb oddi yno.

8 Ac os y wraig ni fynn ddyfod ar dy ol di, yna glân fyddi oddi wrth y llw hwn: yn vnic na ddychwel di fy mab i yno.

9 A'r gwâs a oſododd ei law tann forddwyd Abraham ei feiſtr, ac a dyngodd iddo am y pêth hynn.

10 A chymmerodd y gwâs ddec camel, o gamelod ei arglwydd, ac a aeth ymmaith: canys holl dda ei arglwydd [oedd] tann ei law ef: ac efe a gododd ac a aeth i Meſopotamia i ddinas Nachor.

11 Ac efe a wnaeth i'r camelod orwedd or tu allan i'r ddinas, wrth bydew dwfr ar bryd nawn, vng-hylch yr amſer y bydde [merched] yn dyfod allan i dynnu dwfr.

12 Ac efe a ddywedodd ô Arglwydd Dduw fy meiſtr Abraham, gwna [i lwyddiant] ddigwyddo o'm blaen i heddyw: a gwna di drugaredd a'm meiſtr Abraham.

13 Wele ſi yn ſefyll wrth y ffynnon ddwfr, a merched gwyr y ddinas yn dyfod allan i dynnu dwfr.

14 Bydded mai'r llangces yr hon y dywedwyf wrthi gogwydda attolwg dy ſtên, fel yr yfwyf: os dywed hi ŷf, a mi a ddiodaf dy gamelod di hefyd, honno a ddarperaiſt i'th wâs Iſaac: ac wrth hynn y caf wybod wneuthur o honot ti drugaredd a'm meiſtr.

15 A bu hynn: cynn darfod iddo lefaru, wele Rebecca yn dyfod allan, (yr honn a aneſyd i Bethuel fab Milcha, gwraig Nachor, brawd Abraham) ai ſtên ar ei hyſcwydd.

16 A'r llangces [oedd] dêg odieth yr olwg, yn forwyn, ac heb i wr ei hadnabod, a hi aeth i wared i'r ffynnon, ac a llanwodd ei ſtên, ac a ddaeth i fynu.

17 A'r gwâs a redodd iw chyfarfod, ac a ddywedodd: attolwg gad i mi yfed ychydic ddwfr o'th ſtên.

18 A hi a ddywedodd ŷf fy meiſtr, a hi a fryſſiodd, ac a ddeſcynnodd ei ſtên ar ei llaw, ac ai diododd ef.

19 Pan ddarfu iddi ei ddiodi ef, hi a ddywedodd: tynnaf hefyd i'th gamelod hyd oni ddarffo iddynt yfed.

20 Yna hi a fryſſiodd, ac a dywalltodd ei ſtên i'r cafn, ac a redodd eil-waith i'r pydew i dynnu, ac a dynnodd iw holl gamelod ef.

21 Felly y gŵr a ſynnodd oi phlegit hi, gan dewi, i wybod a lwyddase'r Arglydd ei daith ef, ai nat do.

22 A bu pan ddarfu i'r camelod yfed, gymmeryd o'r gŵr gluſt-dlws aur, yn hanner ſicl ei phwys: a dwy fraichled aur iw dwylo hi, yn ddêc [ſicl] eu pwys.

23 Ac efe a ddywedodd, merch pwy [ydwyt] ti? mynega i mi attolwg: a oes lle i mi i letteu [yn] nhŷ dy dâd?

24 A hi a ddywedodd wrtho, myſi [ydwyf] ferch i Bethuel fâb Milcha yr hwn a ymddug hi i Nachor.

25 Ac hi a ddywedodd wrtho ef [y mae] gwellt ac ebran ddigon gennym ni, a lle i letteu.

*26* Yna y gŵr, a ymgrymmodd ac a addolodd yr Arglwydd,

27 Ac a ddywedodd, bendigêdic fyddo Arglwydd Dduw fy meiſtr Abraham, yr hwn ni adawodd fy meiſtr heb ei drugaredd, ai ffyddlondeb, yr [ydwyf] ſi ar y ffordd: dug yr Arglwydd ſi [i] dŷ brodyr fy meiſtr.

28 A'r llangces a redodd, ac a fynegodd yn nhŷ ei mam fel [y buaſe] y petheu hynn.

*29* Ac i Rebecca'r [oedd] brawd, ai enw Laban: a Laban a redodd at y gŵr allan i'r ffynnon.

30 A phan welodd efe y gluſt-dlws, ar breichledau am ddwylo ei chwaer, a phan glywodd efe eiriau Rebecca ei chwaer yn dywedyd: fel hyn y dywedodd y gŵr wrthiſi, yna efe a aeth at y gŵr, ac wele efe yn ſefyll gyd ar camelod wrth y ffynnon.

31 Ac efe a ddywedodd, tyret ti i mewn fendigêdic yr Arglwydd, paham y ſeſi di allan? mi a baratoais y tŷ, a llê i'r camelod.

32 Yna y daeth y gŵr i'r tŷ, ac yntef a ryddhaodd y camelod, ac a roddodd wellt ac ebran i'r camelod, a dwfr i olchi ei draed ef, a thraed y dynion y rhai oeddynt gyd ag ef.

33 Yna y goſodwyd [bwyd] oi flaen ef i fwytta, ac efe a ddywedodd ni fwyttâf hyd oni thraethwyf fy negeſau: yna y dywedwyd traetha.

34 Ac efe a ddywedodd gwâs Abraham [ydwyf] fi.

35 A'r Arglwydd a fendithiodd fy meiſtr yn ddirfawr, ac efe a gynnyddodd, canys rhoddodd iddo ddefaid, a gwarthec, ac arian, ac aur, a gweiſion, a morwynion, a chamelod, ac aſſynod.

36 Sara hefyd gwraig fy meiſtr a ymddug fab i'm meiſtr, wedi ei heneiddio hi, ac efe a roddodd i hwnnw yr hyn oll [oedd] ganddo.

37 A'm meiſtr a'm tyngodd i, gan ddywedyd: na chymmer wraig i'm mab i, o ferched y Canaaneaid, y rhai'r ydwyf yn trigo yn eu tîr.

38 Ond ti a ei i dŷ fy nhâd, ac at fy nhŷlwyth, fel y cymmerech wraig i'm mâb.

39 Yna y dywedais wrth fy meiſtr, onid odid ni ddaw'r wraig ar fy ôl:

40 Yna y dywedodd efe wrthif, yr Arglwydd yr hwn y rhodiais ger ei fron, a enfyn ei angel gyd a thi, ac a lwydda dy daith di: fel y cymmerech wraig i'm mab i o'm tylwyth fy hun, ac o dŷ fy nhâd.

41 Yna y byddi rydd oddi wrth fy melldith, os ti a ddaw at fy nhŷlwyth: canys oni roddant i ti, yna y byddi rydd oddi wrth fy melldith.

42 A heddyw y daethum at y ffynnon, ac a ddywedais, Arglwydd Dduw fy meiſtr Abraham, os ti ſydd yr awran yn llwyddo fy-nhaith, yr hon yr wyf fi yn myned arni.

Gene.24.13.

43 Wele fi * yn ſefyll wrth y ffynnon ddwfr, a'r forwyn yr hon a ddelo allan i dynnu, ac y dywedwyf wrthi: dod ti i mi attolwg ychydic ddwfr iw yfed oth ſtên:

44 Ac a ddywedo wrthif inne, ŷf di, a thynnaf hefyd i'th gamelod, bydded honno y wraig yr hon a ddarparodd yr Arglwydd i fab fy meiſtr.

45 Cyn darfod i mi ddywedyd yn fyng-halon, wele Rebecca yn dyfod allan, ai ſtên ar ei hyſcwydd, a hi aeth i wared i'r ffynnon, ac a dynnodd: yna dywedais wrthi dioda fi attolwg.

46 Hithe a fryſſiodd, ac a ddeſcynnodd ei ſtên oddi arni, ac a ddywedodd ŷf, a mi a ddyfrhaf dy gamelod hefyd: felly'r yfais, a hi a ddyfrhaodd y camelod.

47 A mi a ofynnais iddi, ac a ddywedais, merch pwy [ydwyt] ti? hithe a ddywedodd merch Bethuel mab Nachor, yr hwn a ymddug Milcha iddo ef. Yna y goſſodais y gluſtdlŵs, wrth ei hwyneb, a'r breichledau am ei dwylo hi.

48 Ac a ben-ŵyrais, ac a ymgrymmais i'r Arglwydd ac a fendithiais Arglwydd Dduw fy meiſtr Abraham, yr hwn a'm harweinodd ar hyd yr iawn ffordd, i gymmeryd merch brawd fy meiſtr iw fâb.

49 Ac yn awr od ydych chwi yn gwneuthur trugaredd, a ffyddlondeb a'm meiſtr, mynegwch i mi, ac onid e, mynegwch i mi, fel y troiwyf ar y llaw ddehau neu ar y llaw aſſwy.

50 Yna'r attebodd Laban, a Bethuel, ac a ddywedaſant: oddi wrth yr Arglwydd y daeth y peth hyn, ni allwn ddywedyd wrthit ddrwg, na dâ.

51 Wele Rebecca o'th flaen, cymmer, a dôs, a bydded wraig i fab dy feiſtr, fel y llefarodd yr Arglwydd.

52 A phan glybu gwâs Abraham eu geiriau hwynt, yna efe a ymgrymmodd hyd lawr i'r Arglwydd,

53 A thynnodd y gwas allan dlŷſau arian a thlyſau aur, a gwiſcoedd, ac ai rhoddodd i Rebecca, rhoddodd hefyd [bethau] gwerthfawr iw brawd hi, ac iw mam.

54 Yna y bwyttaſant, ac yr yfaſant, efe, a'r dynion y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a letteuaſant, a chodaſant yn foreu, ac efe a ddywedodd gollyngwch fi at fy meiſtr.

55 Yna y dywedodd ei brawd, ai mam, triged y llangces gyd a ni ddeng-nhiwrnod o'r lleiaf, wedi hynny hi a gaiff fyned.

56 Yntef a ddywedodd wrthynt, na rwyſtrwch fi gan i'r Arglwydd lwyddo fy nhaith, gollyngwch fi, fel yr elwyf at fy meiſtr.

57 Yna y dywedaſant galwnn ar y llangces, a gofynnwn iddi hi.

58 Felly y galwaſant ar Rebecca, a dywedaſant wrthi: a ei di gyd a'r gŵr hwn? a hi a ddywedodd af.

59 Yna y gollyngaſant Rebecca ei chwaer, ai mammaeth, a gwâs Abraham, ai ddynion:

60 Ac a fendithiaſant Rebecca, ac a ddywedaſant wrthi: ein chwaer, bydd di fîl fyrddiwn: ac etifedded dy hâd borth ei gaſeion.

61 Yna y cododd Rebecca ai llangceſſau, ac a farchogaſant ar gamelod, ac aethant ar ôl y gŵr, a'r gwas a gymmerodd Rebecca, ac a aeth ymmaith.

62 Ac Iſaac oedd yn dyfod o ffordd * pydew, Laharoi ac efe yn trigo yn nhîr y dehau.

Gene.16.14.
gene.25,11.

63 Yna y daeth Iſaac allan i fyfyrio yn y maes ym mîn yr hwyr, ac a dderchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele gamelod yn dyfod.

64 Rebecca hefyd a dderchafodd ei llygaid, ac wele Iſaac, ac hi a ddeſcynnodd oddiar y camel.

65 A hi a ddywedodd wrth y gwâs pwy [yw]'r gwr hwn ſydd yn rhodio yn y maes i'n cyfarfod ni? a'r gwâs a ddywedodd fy meiſtr [yw] efe: a hi a gymmerth foled, ac a ymwiſcodd.

66 A'r gwâs a fynegodd i Iſaac yr hyn oll a wnaethe efe.

67 Yna Iſaac ai dûg hi i mewn i babell Sara ei fam, ac efe a gymmerth Rebecca i fod yn wraig iddo, ac ai hoffôdd hi, ac Iſaac a ymgyſſurodd ar ol ei fam.

## PEN. XXV.

1 Abraham yn priodi Cetura, ac yn ennill plant lawer o honi. 5 Abraham yn rhoddi ei holl dda i Iſaac, ac yn marw. 12 Hiliogaeth Iſmael. 21 Rebecca yn beichiogi ac yn eſcor Eſau, ac Iacob. 30 Eſau yn gwerthu braint ei anedigaeth er ychydic gawl.

AC Abraham a gymmerodd eil-waith wraig, ai henw Cetura.

2 A hi a eſcorodd iddo ef, Zimran, ac Iocſan, a Medan, a Midian, ac Ieſbac, a Suah.

1.Cron.1.32. 3 A * Iocſan a genhedlodd Seba, a Dedan: a meibion Dedan oeddynt, Aſſurim, a Letuſim, a Leummim.

4 A meibion Midian, [oeddynt,] Ephah, ac Epher, a Hanoch, ac Abida, ac Eldaah, yr holl rai hynn [oeddynt] feibion Cetura.

5 Ac Abraham a roddodd yr hynn oll [oedd] ganddo i Iſaac.

6 Ac i feibion y gordderch-wragedd y rhai [oeddynt] i Abraham y rhoddodd Abraham roddion, ac efe ai hanfonodd hwynt oddi wrth Iſaac ei fâb, tu a'r dwyrain, i dîr y dwyrain, ac efe etto yn fyw.

7 Ac dymma ddyddiau blynyddoedd einioes Abraham y rhai y bu ef fyw: can-mlhynedd, a phymtheng mlhynedd, a thrugain.

8 Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw, mewn oed têg, yn hên, ac yn ddigonawl [o ddyddiau,] ac efe a gaſclwyd at ei bobl.

9 Yna Iſaac, ac Iſmael ei feibion ai claddaſant ef yn ogof Machpelah ym maes Ephron fab Zohar yr Hethiad, yr hwn [ſydd] ar gyfer Mamre.

10 Y maes yr hwn a brynaſe Abraham gan feibion Heth: yno y claddwyd Abraham, a Sara ei wraig.

11 Ac wedi marw Abraham, darfu hefyd i Dduw fendithio Iſaac ei fâb ef: ac Iſaac a
Gene.16.14. drigodd wrth * ffynnon Laharoi.

Gene.24.62. 12 Ac dymma genhedlaethau Iſmael fab Abraham, yr hwn a ymddugaſe Agar yr Aiphtes morwyn Sara i Abraham.

1.Cron.1.29. 13 Ac dymma henwau * meibion Iſmael, erbyn eu henwau: trwy eu cenhedlaethau: Nabaioth cyntaf-anedic Iſmael, yna Cedar, ac Adbeel, a Mibſam,

14 Miſma hefyd, a Dumah, a Maſſa.

15 Hadar, a Thema, Ietur, Naphis, a Chedmah.

16 Dymma hwynt meibion Iſmael, ac dymma eu henwau hwynt wrth eu trefydd, ac wrth eu ceſtill: yn ddeuddec o dywyſogion ar eu pobl.

17 Ac dymma flynyddoedd einioes Iſmael, can-mlwydd, a dwy ar bymthec ar hugain o flynyddoedd: yna y trengodd, ac y bu farw, ac y caſclwyd ef at ei bobl.

18 Preſſwyliaſant hefyd o Hafilah hyd Sur, yr hon [ſydd] ar gyfer yr Aipht, ffordd yr ei di i Aſſyria: ac o flaen ei holl frodyr y cyfanneddodd efe.

19 Ac dymma genedlaethau Iſaac fab Abraham, Abraham a genhedlodd Iſaac.

20 Ac Iſaac oedd fab deugain mlwydd, pan gymmerodd efe Rebecca ferch Bethuel y Syriad, o Meſopotamia, chwaer Laban y Syriad yn wraig iddo.

21 Ac Iſaac a weddiodd ar yr Arglwydd dros ei wraig am ei bod hi 'n amhlantadwy a'r Arglwydd a wrandawodd arno ef, a Rebecca ei wraig a feichiogodd.

22 A'r meibion a ymguraſant yn ei chroth hi, yna y dywedodd hi, os felly, beth [a wnaf] fi fel hyn? ac hi a aeth i ymofyn a'r Arglwydd.

23 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthi hi, dwy genhedlaeth [ydynt] yn dy grôth di, a dau [fath ar] bobl a wahenir o'th fru di, a'r naill fydd cryfach na'r llall, * a'r hynaf a waſanaetha 'r ie- Rhuſ.9.12.
uangaf.

24 A phan gyflawnodd ei dyddiau hi i eſcor, yna wele gefeillion [oeddynt] yn ei chrôth hi.

25 A'r cyntaf a ddaeth allan yn gôch oll, fell cochl flewoc, a galwaſant ei enw ef Eſau.

26 Ac wedi hynny y * daeth ei frawd ef Oſea.12.3.
allan, ai law yn ymaflyd yn ſodl Eſau: a gal- Matth.1.2.
wyd ei enw ef Iacob. Ac Iſaac oedd fab trugein mlwydd pan anwyd hwynt.

27 A'r llangciau a gynnyddaſant, ac Eſau oedd wr yn medru hela [a] gwr gwyllt, ac Iacob, [oedd] wr perffaith yn cyfanneddu mewn pebyll.

28 Iſaac hefyd oedd hôff ganddo Eſau, o herwydd helwriaeth [fydde] yn ei ſafn ef: a Rebecca a hoffe Iacob.

29 Ac Iacob a ferwodd gawl: yna Eſau a ddaeth o'r maes, ac efe yn ddeffygiol.

30 A dywedodd Eſau wrth Iacob, gad ti i mi yſed attolwg o'r [cawl] côch ymma: o herwydd deffygiol [wyf] fi: am hynny y galwyd ei enw ef Edom.

31 Yna y dywedodd Iacob, gwerth di heddyw i mi dy anedîgaeth-fraint,

32 A dywedodd Eſau wele fi yn myned i farw, ac i ba beth [y cadwaf] y ganedigaeth-fraint hwn i mi?

33 A dywedodd Iacob twng i mi heddyw, ac efe a dyngodd iddo, ac felly y gwerthodd efe ei anedigaeth fraint i Iacob.

Hebr.12.16. 34 Ac * Iacob a roddes i Eſau fara a chawl ffacbys, ac efe a fwyttaodd, ac a yfodd, ac a gododd ac a aeth ymmaith: felly y diyſtyrodd Eſau ei anedigaeth-fraint.

## PEN. XXVI.

Duw yn ymgeleddu Iſaac yn amſer newyn 3, Ac yn addo iddo wlâd Canaan, a'r fendith yng-Hriſt 7, Iſaac yn galw ei wraig yn chwaer 12, llwyddiant Iſaac 15 Y Philiſtiaid yn lleſtr dwfr i Iſaac, ac yn ei yrru o'r wlâd 24, Duw 'n cyſſuro Iſaac 26, Abimelec yn gwneuthur cyngrair ag Iſaac 34. Gwragedd Eſau.

YNa y bu newyn yn y tir, heb law y newyn cyntaf yr hwn a fuaſe yn nyddiau Abraham: Ac Iſaac aeth at Abimelec brenin y Philiſtiaid i Gerar.

2 Canys yr Arglwydd a ymddangoſaſe iddo ef, ac a ddywedaſe, na ddos i wared i'r Aipht, aros yn y wlâd yr hon a ddywedwyf wrthyt.

3 Ymdeithia yn y wlâd honn, a mi a fyddaf gyd a thi, ac 'ach fendithiaf: o herwydd i ti ac 'ith hâd y rhoddaf yr holl wledydd hynn, ac mi a gyflawnaf fy llw 'r hwn a dyngais wrth Abraham dy dâd ti.

Gen.22.17. 4 Ac*mi a amlhaf dy hâd ti fel ſêr y nefoedd, a rhoddaf 'ith hâd ti 'r holl wledydd hynn: a holl genhedlaethau y ddaiar a fendithir yn dy hâd ti,

5 Am wrando o Abraham ar fy llais i, a chadw fyng-hadwriaethau, fyng-orchymynnion, fy neddfau, a'm cyfreithiau.

6 Felly y trigodd Iſaac yn Gerar.

7 A gwŷr y lle hwnnw a ymofynnaſant am ei wraig ef, ac efe a ddywedodd, fy chwaer [yw] hi canys ofnodd ddywedyd fyng-wraig [yw] rhac [eb ef] i ddynion y lle hwnnw fy lladd am Rebecca: canys hi [ydoedd] dêg yr olwg.

8 Yna y bu gwedi ei fod yno ddyddiau lawer, i Abimelec brenin y Philiſtiaid edrych trwy 'r ffeneſtr, a chanfod, ac wele Iſaac yn chware a Rebecca ei wraig.

9 Yna Abimelec a alwodd ar Iſaac, ac a ddywedodd, wele, yn ddiau dy wraig [yw] hi: a pha ham y dywedaiſt fy chwaer [yw] hi? yna y dywedodd Iſaac wrtho, dywedais [hynn] rhac fy lladd oi phlegit.

10 A dywedodd Abimelec, pa ham y gwnaethoſt hynn a ni? braidd na orweddodd vn o'r bobl gyd a'th wraig di, felly y dygaſyt arnom ni bechod.

11 Yna y gorchymynnodd Abimelec i'r holl bobl, gan ddywedyd: yr hwn a gyffyrddo a'r gŵr hwn neu ai wraig a leddir yn farw.

12 Ac Iſaac a hauodd yn y tîr hwnnw, ac a gafodd yn y flwyddyn hōno y can-cymmaint: felly y bendithiaſe y'r Arglwyd ef.

13 A'r gŵr a gynnyddodd, ac aeth gan fyned a chyfu, hyd onid aeth yn fawr odieth.

14 Ac yr oedd ganddo ef gyfoeth o ddefaid a chyfoeth o warthec, a gweiſion lawer: a'r Philiſtiaid a genfigennaſant wrtho ef.

15 A'r holl bydewau y rhai a gloddiaſe gweiſion ei dâd ef yn nyddiau Abradam ei dâd ef, y Philiſtiaid ai caeaſant, ac ai llanwaſant a phridd.

16 Ac Abimelec a ddywedodd wrth Iſaac, dos oddi wrthym-ni, canys ti a aethoſt yn gryfach o lawer na nyni.

17 Ac Iſaac aeth oddi yno, ac a werſyllodd yn-nyffrynn Gerar, ac a breſſwyliodd yno.

18 Ac Iſaac a ddychwelodd, ac a gloddiodd y pydewau dwfr, y rhai a gloddiaſent yn nyddiau Abraham ei dâd ef, ac a gaeaſe y Philiſtiaid wedi marw Abraham: ac a henwodd henwau arnynt, yn ol yr henwau y rhai a henwaſe ei dâd ef arnynt hwy.

19 Gweiſion Iſaac a gloddiaſant hefyd yn y dyffryn, ac a gawſant yno ffynnon o ddwfr rhedegoc.

20 Yna bugeiliaid Gerar a ymryſonnaſant a bugeiliaid Iſaac gan ddywedyd: y dwfr [ſydd] eiddom ni, yna efe a alwodd henw y pydew Eſec: o herwydd ymgenhennu o honynt ag ef.

21 Cloddiaſant hefyd bydew arall, ac ymryſonaſant am hwnnw: ac efe a alwodd ei enw ef Sitnah.

22 Ac efe a fudodd oddi yno, ac a gloddiodd bydew arall, ac nid ymryſonaſant am hwnnw, ac efe a alwodd ei enw ef Rehoboth: ac a ddywedodd, canys yn awr yr ehangodd yr Arglwydd arnom fel y ffrwythom yn y tîr.

23 Ac efe a aeth i fynu oddi yno i Beerſebah,

24 A'r Arglwydd a ymddangoſodd iddo y noſon honno, ac a ddywedodd, myfi [ydyw] Duw Abraham dy dâd, nac ofna, canys byddaf gyd a thi, ac mi a'th fendithiaf, ac a luoſogaf dy hâd er mwyn Abraham fyng-wâs.

25 Ac efe a adailadodd yno allor, ac a alwodd ar enw 'r Arglwydd, ac yno y goſododd efe ei babell, a gweiſion Iſaac a gloddiaſant yno bydew.

26 Yna y daeth Abimelec atto ef o Gerar; ac Ahuzah ei gyfell, a Phicol tywyſog ei lû.

27 Ac Iſaac a ddywedodd wrthynt, pa ham y daethoch chwi attaf fi? gan i chwi fyng-haſau, a'm hanfon oddi wrthych?

28 Yna y dywedaſant gan weled ni a welſom mai 'r Arglwydd ſydd gyd a thi, a dywedaſom, bydded yn awr gyngrair rhyngom ni [ſef] rhyngom ni a thi: a ni a wnawn gyfāmod a thi.

29 Na wnei i ni ddrwg, megis ni chyffyrddaſom a thi, a megis, y gwnaethom ddaioni yn vnic a thi, ac a'th anfonaſom mewn heddwch, ti yn awr [wyt] fendigedic yr Arglwydd.

30 Ac efe a wnaeth iddynt wledd, a hwynt a fwyttaſant, ac a yfaſant.

31 Yna y codaſant yn forau, a hwynt a dyngaſant bôb vn iw gilydd, ac Iſaac ai gollyngodd hwynt a hwy a aethant oddi wrtho ef mewn heddwch.

32 Y dydd hwnnw y darfu i weiſion Iſaac ddyfod a mynegu iddo ef o achos y pydew yr hwn a gloddiaſent, a dywedaſant wrtho, caw-

ſom ddwfr.

33 Ac efe ai galwodd ef Sebah, am hynny henw y ddinas [yw] Beerſebah hyd y dydd hwn.

34 Ac yr oedd Eſau yn fâb deugein-mlwydd, ac efe a gymmerodd yn wraig, Iudith ferch Beeri'r Hethiad, a Baſemah ferch Elon yr Hethiad.

35 Ac hwynt oeddynt chwerwder yſpryd i Iſaac, ac i Rebecca.

## PEN. XXVII.

Iſaac yn gofyn ſaig o helwriaeth Eſau, gan addaw ei fendith iddo 5, Iacob trwy gyngor ei fam yn achub blaen Eſau am y fendith 30, Eſau yn-dyfod, a thrwy ymbil mawr yn caffel yr ail fendith. 41 Eſau yn caſâu, ac yn bygwth einioes Iacob. 42 Rebecca yn anfon Iacob i Meſopotamia.

ABu wedi heneiddio o Iſaac, a thywyllu ei lygaid fel na wele, alw o honaw ef Eſau ei fâb hynaf, a dywedyd wrtho, fy mâb: yntef a ddywedodd wrtho ef, wele fi.

2 Ac efe a ddywedodd wele mi a heneiddiais yn awr, nid adwen ddydd fy marwolaeth.

3 Ac yn awr cymmer attolwg dy offer, dy gawell ſaethau, a'th fwa, a dos allan i'r maes, a hela i mi helfa.

4 A gwna i mi ddanteithion or fath a garaf, a dŵg [hwynt] attafi, fel y bwytawyf, er mwyn dy fendithio o'm henaid cyn fy marw.

5 A Rebecca a glybu pan ddywedodd Iſaac wrth Eſau ei fâb: ac Eſau aeth i'r maes i hela helfa iw dwyn.

6 Yna Rebecca a lefarodd wrth Iacob ei mâb, gan ddywedyd: wele clywais dy dâd yn llefaru wrth Eſau dy frawd gan-ddywedyd.

7 Dŵg i mi helfa, a gwna di i mi ddanteithion: fel y bwyttawyf, ac i'th fendithiwyf, ger bron yr Arglwydd o flaen fy marw.

8 Ond yn awr fy mâb gwrando ar fy llais i, am yr hynn a orchymynnaf i ti.

9 Dos yn awr i'r praidd, a chymmer oddi yno ddau fynn gafr da, a mi ai harlwyaf hwynt yn ddanteithion i'th dâd, fel y câr efe.

10 A thi ai dygi [hwynt] i'th dâd, fel y bwyttao megis i'th fendithio o flaen ei farw.

11 Yna y dywedodd Iacob wrth Rebecca ei fam, wele Eſau fy mrawd yn ŵr blewoc, a minne yn ŵr llyfn.

12 Fy nhad ond odid a'm teimla, yna y byddaf yn ei olwg ef fel twyll-wr: felly y dygaf arnaf felldith, ac nid bendith.

13 Ai fam a ddywedodd wrtho ef, arnafi [y byddo] dy felldith fy mâb, yn unic gwrando ar fy llais, dôs, a dŵg i mi.

14 Ac efe a aeth, ac a gymmerth [y mynnod] ac ai dygodd at ei fam: ai fam a wnaeth ddanteithion fel y care ei dâd.

15 Rebecca hefyd a gymmerodd hoff wiſcoed Eſau ei mab hynaf, y rhai [oeddynt] gyd a hi yn tŷ, ac a wiſcodd Iacob ei mab ieuangaf.

16 Gwiſcodd hi hefyd grwyn y mynnod geifr am ei ddwylo ef, ac am lyfndra ei wddf ef.

17 Ac a roddes y danteithion, a'r bara y rhai a arlwyaſe hi yn llaw Iacob ei mab.

18 Ac efe a ddaeth at ei dâd, ac a ddywedodd, fy-nhâd, yntef a ddywedodd, wele fi, pwy ydwyt ti fy mâb?

19 Yna y dywedodd Iacob wrth ei dâd, myfi [ydwyf] Eſau dy gyntaf-anedic, gwneuthym fel y dywedaiſt wrthif: cyfot yn awr, eiſtedd, a bwytta o'm helfa, fel i'm bendithio dy enaid.

20 Ac Iſaac a addywedodd wrth ei fâb, pa fodd fy mab y cefaiſt mor fuan a hynn? Yntef a ddywedodd, am i'r Arglwydd dy Dduw beri [iddo] ddigwyddo o'm blaen.

21 Yna y dywedodd Iſaac wrth Iacob, tyret yn nes yn awr fel i'th deimlwyf fy mâb: ai ty di [yw] fy mâb Eſau, ai nade.

22 Yna y neſſaodd Iacob at Iſaac ei dâd, yntef ai teimlodd, ac a ddywedodd, y llais, [yw] llais Iacob, a'r dwylo, dwylo Eſau [ydynt.]

23 Ac nid adnabu efe ef, am fod ei ddwylo, fel dwylo ei frawd Eſau, yn flewoc: am hynny efe ai bendithiodd ef.

24 Dywedodd hefyd, ai ti [ſydd] ymma fy mâb Eſau? yntef a ddywedodd myfi.

25 Ac efe a ddywedodd dŵg di attafi fel y bwyttawyf o helfa fy mâb megis i'th fendithio fy enaid: yna y dûg atto ef ac efe a fwyttâodd, dûg iddo ef win hefyd ac efe a yfodd.

26 Yna y dywedodd Iſaac ei dâd wrtho ef tyret ti yn nês yn awr fel i'th guſſanwyf fy mâb.

27 Yna y daeth efe yn nês, ac yntef ai cuſſanodd ef, ac a ſawyrodd aroglau ei wiſcoedd ef, ac ai bendithiodd ef, ac a ddywedodd wele aroglau fy mâb, fel arogl maes yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd.

28 A * rhodded Duw i ti o wlith y nefoedd, ac o fraſter y ddaiar, ac amldra o ŷd a gwin. Heb.11.20.

29 Gwaſanaethed pobloedd dy di, ac ymgrymmed cenhedloedd i ti, bydd di feiſtr ar dy frodyr, ac ymgrymmed meibion dy fam i ti: melldigedic [fyddo] a'th felldithio, a bendigedic, a'th fendithio.

30 A phan ddarfu i Iſaac fendithio Iacob, ac i Iacob yn brinn fyned allan o ŵydd Iſaac ei dâd, yna Eſau ei frawd a ddaeth oi hela.

31 Ac yntef hefyd a wnaeth ddanteithion ac a ddûg at ei dâd, ac a ddywedodd wrth ei dâd: cyfoded fy nhâd, a bwyttaed o helfa ei fab, fel im bendithio dy enaid.

32 Ac Iſaac ei dad a ddywedodd wrtho ef, pwy [ydwyt] ti? yntef a ddywedodd myfi [ydwyf] dy fab cyntaf-anedic di Eſau.

33 Yna Iſaac a ddychrynnodd a dychryn mawr iawn, ac a ddywedodd: pwy yn awr [ydyw] efe yr hwn a heliodd helfa, ac a ddûc i mi? a mi a fwyttais o'r cwbl cyn dy ddyfodd, ac ai bendithiais ef, bendigedic hefyd fydd ef.

34 Pan glybu Eſau eiriau ei dâd, efe a wae-

ddodd a gwaedd fawr a chwerw iawn, ac a ddywedodd wrth ei dâd, bendithia di fynne, ie finne, fy nhâd.

35 Ac efe a ddywedodd dy frawd a ddaeth mewn twyll, ac a ddûg dy fendith.

36 Dywedodd yntef, ond iawn y gelwir ei enw ef Iacob, canys efe a'm diſodlodd i ddwy waith bellach: ddûg efe fyng anedigaeth-fraint, ac wele yn awr efe a ddygodd fy mendith: dywedodd hefyd, oni chedwaiſt gyd a thi fendith i minne?

37 Ac Iſaac a attebodd, ac a dywedodd wrth Eſau, wele mi ai goſſodais ef yn feiſtr i ti, a rhoddais ei holl frodyr yn weiſion iddo ef, ag ŷd, a gwin y cynheliais ef: a pheth a wnaf i tithe fy mab weithian?

38 Ac Eſau a ddywedodd wrth ei dâd, ai vn fendith a oedd gennit fy nhâd? bendithia finne, finne hefyd fy nhâd: felly Eſau a dderchafodd ei lef ac a ŵylodd.

39 Yna'r attebodd Iſaac ei dâd, ac a ddywedodd wrtho, wele ym mraſter y ddaiar y bydd dy breſwylfod, ac ym myſc gwlith y nefoedd oddi vchod.

40 Wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw, a'th frawd a waſanaethi, onid bydd [amſer] pan feiſtrolech di, ac y torrech ei iau ef oddi am dy wddf.

41 Ac Eſau a gaſaodd Iacob am y fendith [a]'r hon y bendithiaſe ei dâd ef, ac Eſau a
Abd.1.10. ddywedodd yn ei galon, *neſau y mae dyddiau galar fy nhâd, yna y lladdaf Iacob fy mrawd.

42 A mynegwyd i Rebecca eiriau Eſau ei mâb hynaf, hithe a anfonodd, ac a alwodd am Iacob ei mâb ieuangaf, ac a ddywedodd wrtho ef: wele Eſau dy frawd a ymgyſſura ynot ti trwy dy ladd.

43 Ond yn awr fy mab gwrando ar fy llais, cyfot ti, ffô rhagot at Laban fy mrawd i Haran.

44 Ac aros gyd ag ef ychydic ddyddiau, hyd oni chilio llid dy frawd:

45 Hyd oni chilio digofaint dy frawd oddi wrthit, ac anghofio o honaw ef yr hyn a wnaethoſt iddo, yna'r anfonaf ac i'th gymmeraf oddi yno: pa ham y byddwn yn ymddifad o honoch ill dau [mewn] vn dydd?

46 Dywedodd Rebecca hefyd wrth Iſaac,
Geneſ.26.35. *blinais ar fy einioes o herwydd merched Heth: os cymmer Iacob wraig o ferched Heth, i ba beth y [chwennychwn] fy einioes?

## PEN. XXVIII.

Iſaac yn gwahardd i Iacob briodi vn o'r Canaaneaid. 6 Eſau yn cymmeryd y drydedd wraig o blith yr Iſmaeliaid. 12 Iacob yn gweled yſcâl yn cyredd i'r nef. 13 Duw yn addo i Iacob wlâd Canaan, a'r fendith yng-Hriſt. 20 Adduned Iacob.

YNa y galwodd Iſaac ar Iacob, ac ai bendithiodd ef, efe a orchymynnodd iddo hefyd, ac a ddywedodd wrtho, na chymmer di wraig o ferched Canaan.

Oze.12.12.
Geneſ.24.10. 2 Cyfod *dos i Meſopotamia i dŷ Bethuel tâd dy fam, a chymmer it wraig oddi yno o ferched Laban brawd dy fam.

3 A Duw holl alluog a'th fendithio, ac a'th ffrwythlono, ac a'th luoſogo, fel y byddech di yn gynnulleidfa pobloedd,

4 Ac a roddo i ti fendith Abraham, i ti ac i'th hâd gyd a thi, i etifeddu o honot ti dir dy ymdaith, yr hwn a roddodd Duw i Abraham.

5 Felly Iſaac a anfonodd Iacob, ac efe a aeth i Meſopotamia at Laban ſâb Bethuel y Syriad brawd Rebecca, mam Iacob ac Eſau.

6 Pan welodd Eſau fendithio o Iſaac Iacob, ai anfon ef i Meſopotamia i gymmeryd iddo ef wraig oddi yno, a gorchymyn iddo wrth ei fendithio gan ddywedyd: na chymmer wraig o ferched Canaan,

7 A gwrando o Iacob ar ei dad, ac ar ei fam, ai fyned i Meſopotamia:

8 Yna y gwelodd Eſau mai drwg oedd ferched Canaan yng-olwg Iſaac ei dad ef.

9 Ac Eſau a aeth at Iſmael, ac a gymmerodd Mahalath merch Iſmael mab Abraham, chwaer Nabaioth yn wraig iddo at ei wraged [eraill.]

10 Ac Iacob a aeth allan o Beer-ſeba ac a aeth tua Haran.

11 Ac a ddaeth drwy ddamwain i fangre, ac a letteuodd yno: oblegit machludo'r haul, ac efe a gymmerth o gerric y lle hwnnw, ac a oſſododd tann ei benn, ac a gyſcodd yn y fan honno.

12 Yna y breuddwydiodd, ac wele yſcal yn ſefyll ar y ddaiar, ai phenn yn cyrhaeddyd i'r nefoedd: ac wele angylion Duw yn dringo, ac yn deſcyn ar hyd ddi. Geneſ.35.1.

13 Ac *wele yr Arglwydd yn ſefyll arni hi, Geneſ.48.3.
ac efe a ddywedodd my fi [ydwyf] Arglwydd Dduw Abraham dy dâd, a Duw Iſaac, i ti ac i'th hâd y rhoddaf y tir yr hwn yr ydwyt ti yn gorwedd arno. Deut.12.20.

14 A'th hâd ti fydd fel llŵch y ddaiar, *a thi a dorri allan i'r gorllewyn, ac i'r dwyrein, ac Geneſ.18.18.
i'r gogledd, ac i'r dehau: a *holl deuluoedd y Geneſ.22.18.
ddaiar a fendithir ynot ti, ſef yn dy hâd di. Geneceſ.26.4.

15 Ac wele mi [a fyddaf] gyd a thi, ac a'th gadwaf pa le bynnac yr elech, ac a'th ddygaf trachefn i'r wlad honn: o herwydd ni'th adawaf hyd oni wnelwyf yr hyn a leferais wrthit.

16 Yna y deffroawdd Iacob oi gwſc, ac a ddywedodd diau fod Duw yn y lle hwn, ac nis gwyddwn.

17 Ac efe a ofnodd, ac a ddywedodd, mor ofnadwy yw yr lle hwn? nid [oes] ymma onid tŷ i Dduw, ac dymma borth y nefoedd,

18 Ac Iacob a gyfododd yn foreu, ac a gymmerth y garrec yr hon a oſſodaſe efe tann ei benn, ac ai goſododd hi yn ei ſefyll, ac a dywalltodd olew ar ei phenn:

19 Ac efe a alwodd henw y lle hwnnw Bethel, ond er hynny Luz [fuaſe] henw y ddinas o'r cyntaf.

20 Yna yr addunodd Iacob adduned gan

ddywedyd: os Duw fydd gyd a'm fi, ac am ceidw yn y ffordd ymma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdded, a rhoddi i mi fara iw fwytta, a dillad i wiſco:

21 A dychwelyd o honof mewn heddwch i dŷ fy nhâd: yna y bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi.

22 A'r garrec ymma yr hon a oſodais yn ei ſefyll a fydd yn dŷ Duw, ac o'r hyn oll a roddech i mi, gan ddegymmu mi ai degymmaf ef iti.

## PEN. XXIX.

Iacob yn dyfod at Laban, yn cyfarfod a Rahel, ac yn ymgaredigo a hi. 13 Laban yn myned i gyfarfod Iacob ac yn ei ddwyn ef iw dy. 18 Iacob yn gwaſanaethu Laban ſaith mlynedd er cael Rahel. 22. Laban trwy dwyll yn rhoddi Lea at Iacob yn lle Rahel. 27 Iacob yn gwaſanaethu ſaith mlynedd eraill ac yn caffel Rahel. 31 ffrwythlondeb Lea.

AC Jacob a gymmerth ei draed, ac a aeth i wlâd meibion y dwyrein.

2 Ac efe a edrychodd ac wele bydew yn y maes, ac wele dair diadell o ddefaid yn gorwedd wrtho: o herwydd o'r pydew hwnnw y dyfrhaent y diadelloedd, a charrec fawr [oedd] ar eneu y pydew.

3 Ac yno y cesclyd yr holl ddiadelloedd, a hwynt a dreiglent y garrec oddi ar eneu y pydew, ac a ddwfrhaent y praidd: yna y rhoddent y garrec trachefn ar eneu y pydew yn ei lle.

4 Yna y dywedodd Jacob wrthynt, fy mrodyr o bale'r [ydych] chwi? a hwynt a ddywedaſant yr ydym ni o Haran.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt, a adwaenoch chwi Laban fab Nachor? a hwynt a ddywedaſant, adwaenom.

6 Yntef a ddywedodd wrthynt hwy a [oes] llwyddiant iddo ef? a hwynt a ddywedaſant [oes] llwyddiant. Ac wele Rahel ei ferch ef yn dyfod gyd a'r praidd,

7 Yna y dywedodd efe wele etto y dydd yn gynnar, nid [yw] bryd caſglu yr anifeiliaid, dyfrhewch y praidd, ac ewch, [a] bugeiliwch.

8 A hwynt a ddywedaſant ni allwn, hyd oni chaſcler yr holl ddiadelloedd, a threiglo o honynt y garrec oddi ar wyneb y pydew, yna y dwfrhaŵn ni y praidd.

9 Tra yr ydoedd efe etto yn llefaru wrthynt, y daeth Rahel hefyd gyd a'r praidd yr hwn [oedd] eiddo ei thâd hi, oblegit hi oedd yn bugeilio.

10 A phan welodd Jacob Rahel ferch Laban brawd ei fam, a phraidd Laban brawd ei fam yna y neſſaodd Jacob, ac a dreiglodd y garrec oddi ar eneu y pydew, ac a ddwfrhaodd braidd Laban brawd ei fam.

11 Yna y cuſſanodd Jacob Rahel, ac a dderchafodd ei lef, ac a wylodd.

12 A mynegodd Jacob i Rahel, mai carwr ei thad oedd efe: ac mai mab Rebecca oedd efe: a hithe a redodd, ac a fynegodd iw thâd.

13 A phan glybu Laban hanes Jacob mab ei chwaer, yna efe a redodd iw gyfarfod ef, ac ai cofleidiodd ef, ac ai cuſſanodd, ac ai dug ef iw dŷ: yna y mynegodd efe i Laban yr holl eiriau hyn.

14 A dywedodd Laban wrtho ef, yn ddiau fy aſgwrn, a'm cnawd ydwyt ti, ac efe a drigodd gyd ag ef fîs llawn.

15 Yna y dywedodd Laban wrth Jacob, ai o herwydd mai fyng-harwr wyt ti i'm gwaſanaethi yn rhad? mynega di i mi beth [fydd] dy gyflog?

16 Ac i Laban [yr oedd] dwy ferched, a henw yr hynaf [oedd] Lea, ac enw yr ieuangaf Rahel.

17 A llygaid Lea [oeddynt] weiniaid ond Rahel oedd dég [ei] phryd, a glan-deg yr olwg.

18 Ac Jacob a hoffodd Rahel ac a ddywedodd, mi a'th waſanaethaf di ſaith mlynedd am Rahel dy ferch ieuangaf.

19 Yna y dywedodd Laban, gwell yw ei rhoddi hi i ti, nai rhoddi hi i ŵr arall: aros gyd a mi.

20 Felly Jacob a waſanaethodd am Rahel ſaith mlynedd, ac yr oeddynt yn ei olwg ef fel ychydic ddyddiau: am fod yn hoff ganddo efe y hi.

21 Yna y dywedodd Jacob wrth Laban moes fyng-wraig, (canys cyflawn wyd fy nyddiau) fel yr elwyf atti hi.

22 A Laban a gaſclodd holl ddynion y fann honno, ac a wnaeth wledd.

23 Ond bu yn yr hwyr iddo gymmeryd Lea ei ferch, ai dwyn hi atto ef, ac yntef a aeth atti hi.

24 A Laban a rodd iddi Zilphah ei forwyn, yn forwyn i Lea ei ferch.

25 A bu y boreu, wele mai Lea [oedd] hi, yna y dywedodd efe wrth Laban, pa ham y gwnaethoſt hyn i mi? onid am Rahel i'th waſanaethais? a pha ham i'm twyllaiſt?

26 A dywedodd Laban ni wneir felly yn y lle hwnn: gan roddi yr ieuangaf o flaen yr hynaf.

27 Cyflawna di yr wythnos honn, yna y rhoddwn i ti honn hefyd, am dy waſanaeth yr hwn a waſanaethi gyd a mi etto ſaith mlynedd eraill.

28 Ac Jacob a wnaeth felly, ac a gyflawnodd yr wyth nos honno, yna efe a roddodd Rahel ei ferch yn wraig iddo.

29 Laban hefyd a roddodd i Rahel ei ferch, Bilha ei forwyn, yn forwyn iddi hi.

30 Ac efe a aeth hefyd at Rahel, ac a hoffodd Rahel yn fwy na Lea, ac a waſanaethodd gyd ag ef etto ſaith mlynedd eraill.

31 Pan welodd yr Arglwydd, mai câs oedd Lea, yna efe a agorodd ei chroth hi, a Rahel [oedd] amhlantadwy.

32 A Lea a feichiogodd, ac a eſcorodd ar fâb

ac a alwodd ei enw ef Ruben, o herwydd hi a ddywedodd, diau edrych o'r Arglwydd ar fynghyſtudd, canys yn awr fyng-wr a'm hoffa fi.

33 A hi a feichiogodd eilwaith, ac a eſcorodd ar fâb, ac a ddywedodd: am glywed o'r Arglwydd mai câs [ydwyf] fi, am hynny y rhoddodd efe i mi hwn hefyd: a hi a alwodd ei enw ef Simeon.

34 A hi a feichiogodd trachefn, ac a eſcorodd ar fâb, ac a ddywedodd: fyng-wr weithian a lŷn yn awr wrthifi, canys plentais iddo drî mâb. Am hynny galwyd ei enw ef Lefi.

35 A hi a feichiogodd trachefn, ac a eſcorodd ar fâb, ac a ddywedodd: weithian y moliannaf yr Arglwydd: am hynny y galwodd ei *enw ef Juda, ac hi a beidiodd a phlanta. Math.1.2.

## PEN. XXX.

4 Rachel a Lea heb allu planta eu hunain yn rhoddi eu llaw-forwynion iw gwr, a'r rhai hynny yn planta. 15 Lea yn rhoddi i Rachel fandragorau am gael Iacob i gyſcu gyd a hi. 27 Duw yn cyfoethogi Laban er mwyn Iacob. 31 Cyflog Iacob. 43 Ai gyfoeth.

“ PAN welodd Rahel na phlantaſe hithe i Jacob
“ : yna Rahel a genfigennodd wrth ei
“ chwaer, ac a ddywedodd wrth Jacob, moes
“ feibion i mi, ac onide mi [a fyddaf] farw.
“ 2 Yna 'r enynnodd llid Jacob wrth Rahel,
“ ac efe a ddywedodd: ai myfi [ſydd] yn lle Duw ⁖
“ yr hwn a attaliodd ffrwyth [dy] grôth oddi
“ wrthit ti.
“ 3 Yna y dywedodd hithe', wele fy llaw-forwyn
“ Bilha, dôs i mewn atti hi, 'r hon a blanta
“ ar fyng-liniau fi, fel y caffer plant i minne hefyd
“ o honi hi.
“ 4 Felly hi a roddes ei llaw-forwyn Bilha
“ iddo ef yn wraig, ac Jacob aeth i mewn atti.
“ 5 A Bilha a feichiogodd, ac a ymddûg fâb
“ i Jacob.
“ 6 Yna Rahel a ddywedodd Duw am barnodd
“ fi, ac a wrandawodd hefyd ar fy llais, ac a
“ roddodd i mi fâb: am hynny hi a alwodd ei enw
“ ef Dan.
“ 7 Hefyd Bilha llaw-forwyn Rahel eilwaith
“ a feichiogodd, ac a ymddûg yr ail mâb i Jacob.
“ 8 Yna Rahel a ddywedodd ymdrechais ymdrechiadau
“ tra gorchestol a'm chwaer, [a]
“ gorchfygais hefyd: A hi a alwodd ei enw ef
“ Nepthali.
“ 9 Yna Lea a welodd beidio o honi a phlanta,
“ ac a gymmerth ei llaw-forwyn Zilpha, ac ai
“ rhoddes hi yn wraig i Jacob.
“ 10 Felly Zilpha llaw-forwyn Lea a
“ ymddûg fâb i Jacob.
“ 11 Yna Lea a ddywedodd tyrfa a ddaeth:
“ a hi a alwodd ei enw ef Gad.
“ 12 Hefyd Zilpha llaw-forwyn Lea a ymddûg
“ yr ail mâb i Jacob.
“ 13 Yna Lea a ddywedodd yr ydwyf yn ddedwydd
“ o blegit merched a'm cymmerant yn
“ ddedwydd, a hi a alwodd ei enw ef Aſer.

14 Ruben hefyd a aeth yn nyddiau cynhaiaf ”
gwenith, ac a gafodd Fandragorau yn y maês, ”
ac ai dug hwynt at Lea ei fam ef: yna Rahel a ”
ddywedodd wrth Lea, dyro atolwg i mi o Fandragorau ”
dy fâb. ”
15 Hithe a attebodd iddi, ai bychan [yw] ”
dwyn o honot fyng-wr ⁖: ond dwyn a fynnit hefyd ”
Fandragorau fy mâb ⁖: A Rahel a ddywedodd, ”
cyſced gan hynny gyd a thi heno a'm Fandragorau ”
dy fâb. ”
16 Yna Jacob a ddaeth o'r maês yn yr ”
hwyr, a Lea a aeth allan iw gyfarfod ef, ac a ”
ddywedodd, attaf fi y deui, o blegit gan brynu ”
i'th brynais a'm Fandragorau fy mâb: ac efe a ”
gyſcodd gyd a hi y nos honno. ”
17 A Duw a wrandawodd ar Lea, a hi a ”
feichiogodd, ac a ymddûg y pummed mâb i Jacob. ”
18 Yna Lea a ddywedodd, rhodd Duw ”
fyng-obr [im,] o herwydd rhoddi o honofi fy ”
llaw-forwyn i'm gŵr: a hi a alwodd ei enw ef ”
Jſacar. ”
19 Lea hefyd a feichiogodd etto, ac a ymddûg ”
y chweched mâb i Jacob. ”
20 Yna Lea a ddywedodd, cynhyſcaeddodd ”
Duw fy fi a chynhyſcaeth dda: fyng-ŵr a drig ”
weithian gyd a mi, o blegit chwech o feibion a ”
ymddygais iddo ef, a hi a alwodd ei enw ef Zabulon. ”
21 Ac wedi hynny hi a eſcorodd ar ferch, ”
ac a alwodd ei henw hi Dina. ”

22 Yna y cofiodd Duw Rahel, a Duw a wrandawodd arni, ac a agorodd ei chrôth hi.

23 A hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar fâb, ac a ddywedodd: Duw a ddeleodd fyng-warthrudd.

24 A hi a alwodd ei enw ef Joſeph, ganddywedyd: yr Arglwydd a ddyru yn ychwaneg i mi fâb arall.

25 A phan ymddugaſe Rahel Joſeph, yna Jacob a ddywedaſe wrth Laban: gollwng fi ymmaith fel yr elwyf i'm brô, ac i'm gwlad fy hun.

26 Dyro fyng-wragedd i mi, a'm plant, y rhai y gwaſanaethais amdanynt gyd a thi, fel yr elwyf ymmaith: o blegit ty di a wyddoſt fyng-waſanaeth, yr hwn a wneuthum i ti.

27 A Laban a ddywedodd wrtho, ôs cefais ffafor yn dy olwg [na ſyfl:] da y gwn i'r Arglwydd fy mendithio i, o'th blegit ti.

28 Hefyd efe a ddywedodd, dogna dy gyflog arnaf a mi ai rhoddaf.

29 Yntef a ddywedodd wrtho, ti a wyddoſt pa ddelw y gwaſanaethais dy di: a pha fodd y bu dy añifeiliaid ti gyd a'm fi.

30 O blegit ychydic [oedd] yr hyn ydoedd gennit ti cyn fy [nyfod] i, ond yn lluoſſogrwydd y cynnyddodd [hynny:] o herwydd yr Arglwydd a'th fendithiodd di trwy fyng-waith i: bellach gan hynny pa bryd y darparaf [ddim] hefyd i'm tŷ fy hun ⁖.

31 Yna y dywedodd yntef, pa beth a roddaf iti ? ac Jacob a attebodd, ni roddi i mi ddim, os gwnei i mi y peth hyn, dychwelaf, bugeiliaf [a] chadwaf dy braidd di.

32 Tramwyaf trwy dy holl braidd di heddyw, gan naillduo oddi yno bôb llwdn mân-frith, a mawr-frith, a phôb llwdn coch-ddu ymmhlith y defaid, y mawr-frith hefyd a'r mãfrith ymmhlith y geifr, a[hynny]a fydd fyng hyflog.

33 A'm cyfiawnder fy hun a destiolaetha gyd a mi o hyn allan ger dy fron di pan ddelych at fyng-obr i: yr hyn oll ni [byddo] fân-frith, neu fawr-frith ymmhlith y geifr, neu goch-ddu ymmhlith y defaid, lladrad [a fydd] hwnnw gyd a'm fi.

34 Yna y dywedodd Laban, wele: ô na bydde [felly] a'r ôl dy air di.

35 Ac yn y dydd hwnnw y naillduodd efe y bychod traed-frithion, a mawr-frithon, a'r holl eifr mân-frithion, a mawr-frithion, yr hyn oll yr [oedd] gwynn arno, a phôb coch-ddu ymmhlith y defaid, ac ai rhoddes tann law ei feibion ei hun.

36 Ac a oſododd daith tri diwrnod rhyngddo ei hun or Jacob: felly Jacob a borthodd yr rhann arall o braidd Laban.

37 Yna Jacob a gymmerth iddo ei hun wiail o boplyſwydd a chyll, a ffawydd, ac a ddiriſclodd ynddynt ddiriſcliadau gwynnion, gan ddatguddio y gwynning yr hwn [ydoedd] yn y gwiail,

38 Ac a oſododd y gwiail y rhai a ddiriſclaſe efe yn y nentydd, o fewn y cafnau dyfroedd, lle y deue y praidd i yfed, ar gyfer y praidd fel y cyfebrent pan ddelent hwy i yfed.

39 Felly y praidd a gyfebraſant wrth y gwiail, a'r praidd a hiliodd [rai] traed-frithion, a mân-frithion, a mawr frithion.

40 Yna Jacob a ddidolodd yr ŵyn, ac a oſſododd wynebau y praidd, at y traed-frithion, ac at, bôb cochddu ymmhlith praidd Laban: ac a oſſododd ddiadellau iddo ei hun a'r nailltu, ac nid gyd a phraidd Laban y goſododd hwynt.

41 A Phôb [amſer] y cyfebre y defaid cryfaf, Jacob a oſode y gwiail o flaen y praidd yn y nentydd, i gael o honynt gyfebru wrth y gwiail.

42 Ond pan gyfebre y praidd yn ddiweddar ni oſode efe [ddim:] felly y diweddaraf oeddynt eiddo Laban, a'r cryfaf eiddo Jacob.

43 A'r gŵr a gynnyddodd yn dra rhagorol: ac yr ydoedd iddo ef braidd helaeth, a morwynion, a gweiſion, a chamelod, ac Aſſynnod.

## PEN. XXXI.

Plant Laban yn grwgnach yn erbyn Iacob. 3 Duw yn gorchymyn iddo ddychwelyd iw wlad. 5 Efe yn mynegu ei helynt iw wragedd priod. 13 Gofal Duw tros Iacob. 19 Rahel yn lledratta delwau ei thad. 23 Laban yn canlyn ar ol Iacob. 44 Y cyſammod rhwng Laban ac Iacob.

AC efe a glybu eiriau meibion Laban yn dywedyd: Jacob a ddûg yr hyn oll [oedd]'in tâd ni, ac o'r hyn [ydoedd]'in tâd ni y gwnaeth efe yr holl anrhydedd hyn.

2 Hefyd Jacob a welodd wyneb-pryd Laban, ac wele nid [ydoedd] tu ag attaw ef megis cynt.

3 A'r Arglwydd a ddywedaſe wrth Jacob, dychwel i wlad dy dadau, ac at dy genhedl dy hun, ac mi a fyddaf gyd a thi.

4 Yna Jacob a anfonodd, ac a alwodd Rahel, a Lea i'r maes, at ei braidd.

5 Ac a ddywedodd wrthynt, myfi a welaf wyneb-pryd eich tâd chwi, mai nad fel cynt [y mae] efe tu ag attafi: a Duw fy nhâd a fu gyd a'm fi.

6 A chwi a wyddoch mai a'm holl allu y gwaſanaethais gyd a'ch tâd.

7 Onid eich tâd a anghywirodd a'm fi, ac a newidiodd fyng-hyflog i ddeng-waith: ond nis goddefodd Duw iddo wneuthur i mi ddrwg.

8 Os fel hyn y dywede: y man-frithion a fydd dy gyflog di, yna yr holl braidd a heppilient fân frithion: ond os fel hyn y dywede: y traed-frithion a fydd dy gyflog di, yna 'r holl braidd a heppilient [rai] traed-frithion.

9 Felly Duw a ddûg anifeiliaid eich tâd chwi, ac ai rhoddes i mi.

10 Bu hefyd yn amſer cyfebru o'r praidd, dderchafu o honof fy llygaid, ac mewn breuddwyd y gwelais,' ac wele yr hyrddod (y rhai oeddynt yn llammu y praidd) yn draed-frithion, ac yn fân frithion, ac yn fawr frithion.

11 Yna y dywedodd angel Duw wrthif mewn breuddwyd, Jacob: minne a attebais, wele fi.

12 Yntef a ddywedodd, derchafa weithian dy lygaid, a gwêl di yr holl hyrddod y rhai ydynt yn llammu y praidd yn draed-frithion, yn fân-frithion, ac yn fawr-frithion, o blegit gwelais yr hyn oll y mae Laban yn ei wneuthur i ti.

13 Myfi [yw] y Duw o Bethel, *lle 'r enneniaiſt golofn [ac] lle 'r addunaiſt adduned i mi, cyfot ti bellach dos allan o'r wlad hon, dychwel i wlad dy genhedl dy hun. Geneſ.28.18.

14 Yna 'r attebodd Rahel a Lea, ac a ddywedaſant wrtho, a [oes] etto i ni rann, neu etifeddiaeth yn nhŷ ein tâd.

15 Onid yn eſtroneſau y cyfrifodd efe nyni ? o blegit efe a'n gwerthodd, a chan dreulio a dreuliodd hefyd ein harian ni.

16 Canys yr holl olud yr hwn a ddûg Duw oddi a'r ein tâd ni, nyni a'n meibion ai piau: bellach yr awr hon gwna di yr hyn oll a ddywedodd Duw wrthit.

17 Yna Jacob a gyfododd, ac a oſſododd ei feibion, ai wraged, ar y camelod.

18 Ac a ddûg ymmaith ei holl anifeiliaid, ai holl gyfoeth yr hwn a enillaſe, [ſef] ei anifeiliaid meddiãnol, y rhai a enillaſe efe ym Meſopotamia, i fyned at Iſaac ei dâd, i wlâd Canaan.

19 Laban hefyd a aethe i gneifio ei ddefaid, a Rahel a ledrattaodd y delwau y rhai [oeddynt]

ddynt]gan ei thâd hi.

20 Felly Iacob a aeth yn lledradaidd oddi wrth y Syriad, canys ni fynegodd iddo mai ffoî yr oedd efe.

21 Felly y ffôdd efe a'r hyn oll [oedd] ganddo, ac a gyfododd, ac a aeth drwy'r afon, ac a gyfeiriodd[ac]fynydd Gilead.

22 A mynegwyd i Laban, ar y trydydd dydd, mai ffôi a wnaethe Iacob.

23 Yna y cymerth efe ei frodyr gyd ag ef, ac a erlidiodd ar ei ol ef daith ſaith niwrnod, ac ai goddiweddodd ef ym mynydd Gilead.

24 Onid Duw a ddaethe at Laban y Syriad liw nôs mewn breuddwyd, ac a ddywedaſe wrtho, ymgadw arnat, rhag yngen o honot wrth Iacob na da na drwg.

25 Yna Laban a oddiweddodd Iacob, ac Iacob a oſododd ei babell yn y mynydd: Laban hefyd a werſyllodd yng hyd ai frodyr ym mynydd Gilead.

26 Yna Laban a ddywedodd wrth Iacob, pa beth a wnaethoſt? oblegit ti a aethoſt yn lledradaidd oddi wrthif i, a chludaiſt fy merched, fel caethglud cleddyf.

27 Am ba beth y ffoaiſt yn ddirgel, ac y lledratteaiſt oddi wrthi fi, ac ni fynegaiſt i mi, fel yr hebryngaſwn dydi a llawenydd, ac a chaniadau, a thympan, ac a thelyn?

28 Hefyd ni adewaiſt i mi guſanu fy meibion, a'm merched, gwnaethoſt yr awran yn ffôl.

29 Mi a allwn wneuthur i chwi ddrwg: ond Duw eich tâd chwi a lefarodd wrthif neithwyr gan ddywedyd, ymgadw arnat rhac yngen wrth Iacob, na da, na drwg.

30 Weithian gan hynny, gan fyned yr aethoſt ymmaith, o blegit gan hiraethu yr hiraethaiſt am dy dâd, [Ond] pa ham y lledratteaiſt fy nuwiau i?

31 Yna Iacob a attebodd, ac a ddywedodd wrth Laban, am ofni o honof: o blegit meddyliais rhac dwyn o honot dy ferched oddi wrthyf.

32 Gyd a'r hwn y ceffych dy dduwiau na chaffed fyw ger bron ein brodyr, mynn di wybod pa beth[o'r eiddoti ſydd]gyd a'm fi, a chymmer i ti: ac nis gwydde Iacob mai Rahel ai lledrattaſe hwynt.

33 Laban gan hynny a aeth i mewn i babell Iacob, ac i babell Lea, ac i babell y ddwy lawforwyn, ac ni chafodd hwynt: yna yr aeth allan o babell Lea, ac y daeth i babell Rahel.

34 A Rahel a gymeraſe y delwau, ac ai goſodaſe hwynt yn ſadell y camel, ac a eiſteddodd arnynt, a Laban a deimlodd yr holl babell ac nis cafodd[hwynt.]

35 O blegit dywedaſe hi wrth ei thâd, na ddigied fy arglwydd, am nas gallaf gyfodi ger dy fron di, canys arfer gwragedd a[ddigwyddodd]i mi, yna y chwiliodd efe, ac ni chafodd y delwau.

36 Yna Iacob a ddigiodd, ac a ymryſonodd a Laban: o blegit Iacob a attebodd ac a ddywedodd wrth Laban, pa beth[yw] fyng-hamwedd i? pa beth[yw] fy mhechod? gan erlid o honot ar fy ôl?

37 Canys teimlaiſt fy holl ddodrefn i, pa beth a gefaiſt o holl ddodrefn dy dŷ di? goſot [ef]ymma ger bron fy mrodyr i a'th frodyr dithe, fel y barnant rhyngom ni ein dau.

38 My fi bellach [a fum] vgain mlhynedd gyd a thi, dy ddefaid a'th eifr ni erthylaſant, ac ni fwytteais hyrddod dy braidd.

39 Ni ddygum ſclyfaeth attat ti, my fi ai gwnawn ef yn dda, o'm llaw i y gofynnit hynny: yr hyn a ledrateid y dydd, a'r hyn a ledrateid y nos, [a fynnit hefyd.]

40 Bûm[lle]i'm treuliodd gwrês trwy yr dydd, a rhew trwy yr nôs: a'm cwſc a gilie o'm llygaid.

41 Bellach[y cerddodd] i mi vgain mlhynedd yn dy dŷ di, pedair blynedd ar ddec y gwaſanaethais di am dy ddwy ferched, a chwe blynedd am dy braidd, a thi a newidaiſt fyng-hyflog ddec o weithiau.

42 Oni buaſe [fod] Duw fy nhâd, Duw Abraham, ac arſwyd Iſaac gyd a'm fi, diau yr awr hon y gollyngaſit fi ymmaith yn waglaw: onid Duw a welodd fyng-hyſtydd a llafur fy nwylaw, ac a'th geryddodd [di] neithwyr.

43 Yna Laban a attebodd, ac a ddywedodd, wrth Iacob, y merched [hyn ydynt] fy merched mau fi, a'r meibion [hyn ynt] fy meibion mau fi, a'r praidd [yw] fy mhraidd mau fi: a'r hyn oll a weli eiddo fi oedd, ond heddyw pa beth a wnaf i'm merched hyn fy hun? ac i'w meibion hwynt, y rhai a eſcoraſant.

44 Tyret gan hynny yn awr, gwnawn gyfammod mi a thi, a bydded yn deſtiolaeth rhyngofi, a thithe.

45 Yna Iacob a gymmerth garrec ac ai cododd hi yn golofn.

46 Hefyd Iacob a ddywedodd wrth ei frodyr, ceſclwch gerric, a hwynt a gymmeraſant gerric, ac a wnaethant garnedd, ac a fwyttaſant yno ar y garnedd.

47 A Laban ai galwodd hi Iegar Sahadutha: ac Iacob ai galwodd hi Gilead.

48 O blegit Laban a ddywedaſe: y garnedd hon a fydd dyſt rhwngofi a thithe heddyw: am hynny y galwodd [Iacob] ei henw hi Gilead.

49 A Miſpah hefyd, o blegit efe a ddywedaſe, edryched yr Arglwydd rhwngofi a thithe, pan fôm ni bob vn o olwg ei gilydd.

50 Os gorthrymmi di fy merched, neu os cymmeri wragedd heb law fy merched i: nid [oes vn] gŵr gyd a ni, edrych, Duw [ſydd] dŷſt rhyngofi a thithe.

51 Dywedodd hefyd Laban wrth Iacob: wele y garnedd hon, ac wele y golofn yr hon a oſodais rhyngofi a thi.

52 Tŷſt [a fydd] y garnedd hon, a thŷſt [a fydd y golofn na ddeuafi tros y garnedd hon attat ti, ac na ddoi dithe tros y garnedd hon, neu'r golofn hon attafi, er niwed.

53 Duw Abraham, a Duw Nachor a farno rhyngom ni([ſef]Duw eu tadau hwynt) felly y tyngodd Iacob i ofn ei dâd Iſaac.

54 Hefyd Iacob a aberthodd aberth yn y mynydd, ac a alwodd ar ei frodyr i fwytta bara, a hwynt a fwyttaſant fara, ac a drigaſant tros nôs yn y mynydd.

55 A Laban a gyfododd yn foreu, ac a gusanodd ei feibion, ai ferched ef, ac ai bendithiodd hwynt: felly Laban a aeth ymmaith, ac a ddychwelodd iw frô ei hun.

## PEN. XXXII.

1 Duw yn cyſſuro Iacob trwy ei angylion. 6 Eſau a phedwar cant o wyr yn dyfod i gyfarfod Iacob. 10 Iacob yn gweddio ar Dduw gan gyfadde ei anheilyngdod ei hun. 13 Efe yn anſon anrhegion at Eſau. 24 Efe yn ymaflyd cwymp a'r angel. 28 A'r angel yn ei henwi ef Iſrael.

YNa Iacob a gerddodd iw daith yntef: ac angylion Duw a gyfarfuant ag ef.

2 Ac Iacob a ddywedodd pan welodd hwynt: dymma werſyll Duw, ac a alwodd henw y lle hwnnw Mahanaim.

3 Ac Iacob a anfonodd gennadau oi flaen at ei frawd Eſau, i wlad Seir[i]faes Edom.

4 Ac a orchymynnodd iddynt gan ddywedyd: fel hyn y dywedwch wrth fy arglwydd[ſef] wrth Eſau, fel hyn y dywed dy wâs di Iacob: gyd a Laban yr ymdeithiais, ac y trigais hyd yn hyn.

5 Ac y mae i mi eidionnau, ac aſſynnod, defaid a gweiſion, a morwynion, ac anfon a wnethum i fynegu i'm harglwydd, i gael ffafr yn dy olwg.

6 A'r cennadau a ddychwelaſant at Iacob gan ddywedyd, daethom at dy frawd[ſef]at Eſau yr hwn hefyd [ſydd] yn dyfod i'th gyfarfod ti, a phedwar cant o wŷr gyd ag ef.

7 Yna Iacob a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arnaw, ac a rannodd y bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, a'r defaid, a'r eidionnau, a'r camelod yn ddwy fintai.

8 Ac a ddywedodd, os daw Eſau at y naill fintai, a tharo honno, yna y fintai arall a fydd yn ddiangol.

9 Yna y dywedodd Iacob, ô Duw fy-nhâd Abrahã, a Duw fy-nhâd Iſaac, ô Arglwydd, yr hwn a ddywedaiſt wrthif, dichwel i'th wlâd, ac at dy genhedl dy hun, ac mi a wnaf ddaioni i ti.

10 Ni ryglyddais ddim o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirionedd, yr hyn a wnaethoſt a'th wâs di: o blegit a'm ffonn y daethym tros yr Iorddonen hon, ond yn awr 'r ydwif yn ddwy fintai.

11 Achub fi atolwg o law fy mrawd, o law Eſau, o blegit yr ydwyfi yn ei ofni ef, rhac dyfod o honaw, a'm taro fi,[a'r]fam gyd a'r plant.

12 O blegit ty di a ddywedaiſt, gwnaf ddaioni i ti yn ddiau: a'th hâd ti a oſodaf fel tywod y môr, yr hwn o amlder ni rifir.

13 Ac yno y trigodd efe y noſon honno: ac o'r hyn a ddaeth iw law ef y cymmerth efe anrheg iw frawd Eſau,

14 Dau cant o eifr, ac ugain o fychod, deu cant o ddefaid, ac ugain o hyrddod:

15 Dêc ar hugain o gamelod blithion ai llydnod, deugain o warthec, a dêc o deirw, ugain o aſſynnod, a dec o ebolion.

16 Felly efe a roddes yn llaw ei weiſion, bôb gyrr o'r nailltu, ac a ddywedodd wrth ei weiſion: ewch troſodd o'm blaen i, a goſodwch gyfrwng rhwng pob gyrr ai gilydd.

17 Ac efe a orchymynnodd i'r blaenaf gan ddywedyd: os Eſau fy mrawd a'th gyferfydd di, ac a ymofyn a thy di gan ddywedyd: I bwy [y perthyni] di? ac i ba le 'r ei? ac eiddo pwy [yw] y rhai hyn o'th flaen di?

18 Yna y dywedi, anrheg dy wâs Iacob yw honn, wedi ei hanfon i'm harglwydd Eſau: ac wele yntef hefyd ar ein hol ni.

19 Felly y gorchymynnodd hefyd i'r ail, ac i'r trydydd, ac i'r rhaï oll oeddynt yn canlyn y gyrroedd, gan ddywedyd: yn y modd hwn y dywedwch wrth Eſau, pan gyfarfyddoch ag ef.

20 A dywedwch hefyd, wele dy wâs Iacob ar ein hol ni o blegit (eb ef) bodlonaf ei wyneb ef a'r anrheg yr hon [ſydd] yn myned o'm blaen: ac wedi hynny edrychaf yn ei wyneb ef, onid antur efe a dderbin fy wyneb inne.

21 Felly yr anrheg a aeth oi flaen ef, ac efe a drigodd y noſon honno yn y gwerſyll.

22 Ac efe a gyfododd y noſon hõno, ac a gymmerth ei ddwy wragedd, ai ddwy law-forwyn, ai un mâb ar ddêc, ac a aeth tros rŷd Iabboc.

23 Ac ai cymmerth hwynt, ac ai troſglwyddodd trwy 'r afon: felly efe a droſglwyddodd yr hyn[oedd]ganddo.

24 Ac Iacob a adawyd ei hunan, yna yr ymdrechodd gŵr ag ef, nes codi 'r wawr.

25 A phan welodd na bydde yn drech nac ef: yna y cyffyrddodd efe ag afal ei glun ef, fel y llaeſſodd afal clun Iacob, wrth ymdrechu o honaw ag ef.

26 A'r [Angel] a ddywedodd, gollwng fi ymmaith, o blegit y wawr a gyfododd: yntef a attebodd*nith ollyngaf oni'm bendithi fi. Oſe.12.4.

27 Hefyd [yr angel] a ddywedodd wrtho, beth[yw]dy henw di? ac efe a attebodd Iacob. Geneſ.35.10.

28 Yntef a ddywedodd,*mwyach ni elwir dy henw di Iacob, ond Iſrael: o blegit ymdrechaiſt gyd a Duw fel tywyſog, felly [yr ymdrechi] gyda dynion a thi a orchfugi.

29 Yna Iacob a ymofynnodd, ac a ddywedodd mynega attolwg dy henw, ac yntef a attebodd, i ba beth y gofynni hyn am fy henw i? ac yno efe ai bendithiodd ef.

30 Ac Iacob a alwodd henw y fann Peniel: o blegit gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a diangodd fy enioes.

31 A'r haul a gyfodaſe arno fel yr oedd yn myned trwy Peniel, ac efe [oedd] yn gloff oi glûn.

32 Am hynny meibion Iſrael ni fwytânt y gewyn a giliodd yr hwn [ſydd] o fewn afal y glun hyd y dydd hwn, o blegit cyffwrdd ag afal clun Iacob ar y gewyn a giliodd.

## PEN. XXXIII.

4 Eſau ac Iacob yn cyfarfod, ac yn cymmodi ai gilydd. 11 Eſau yn derbyn anrhegion Iacob. 19 Iacob yn prynu dryll o dir. 20 Ac yn cyfodi allor.

AC Iacob a dderchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele Eſau yn dyfod a phedwar cant o wŷr: ac efe a rannodd y plant at Lea, at Rahel, ac at y ddwy law-forwyn.

2 Ac ym mlaen, y goſododd efe y ddwy law-forwyn, ai plant hwynt: a Lea, ai phlant hithe yn ol [y rhai hynny:] yno Rahel a Ioſeph yn olaf.

3 Ac yntef a gerddodd oi blaen hwynt, ac a ymoſtyngodd i lawr ſeith-waith, oni ddaeth efe hyd at ei frawd.

4 Yna Eſau a redodd iw gyfarfod ef, ac ai coſleidiodd ef, ac a ſyrthiodd ar ei wddf ef, ac ai cuſſanodd ef, a hwynt a wylaſant.

5 Ac a dderchafodd ei lygaid ac a ganfu y gwragedd, a'r plant, ac a ddywedodd, pwy yw y rhai hyn gennyt ti? yntef a ddywedodd y plant y rhai a roddes Duw i'th wâs di.

6 Felly y llaw-forwynion a ddyneſſaſant, hwynt-hwy, ai plant, ac a ymgrymmaſant.

7 Yna y neſſaodd Lea, ai phlant hithe, ac a ymgrymmaſant, ac wedi hynny y neſſaodd Ioſeph a Rahel, ac a ymgrymmaſant.

8 Yna [Eſau] a ddywedodd, pa beth [yw] gennyt yr holl fintai accw yr hon a gyfarfûm i? yntef a ddywedodd [anfonais hwynt] i gael ffafor yng-olwg fy arglwydd.

9 Ac Eſau a ddywedodd y mae gennifi ddigon fy mrawd: bydded i ti yr hyn [ſydd] gennyt.

10 Ond Iacob a ddywedodd nage attolwg os cefais ffafor yn dy olwg: ond cymmer fy anrheg o'm llaw fi, gan weled o honof dy wyneb di, fel gweled wyneb Duw, a'th fod yn fodlon i mi.

11 Cymmer attolwg fy anrheg, yr hon a ddygpwyd i ti: o blegit Duw ai roddes i mi, ac am fod gennifi bôb peth: felly efe a fu daer arno ef, ac yntef a gymmerodd:

12 Ac a ddywedodd cychwynnwn ac awn, a mi a âf o'th flaen di.

13 Yntef a ddywedodd wrtho, fy arglwydd a ŵyr mai tyner [yw] y plant, a [bod] y praidd a'r gwarthec blithion gŷd a'm fi: os gyrryr hwynt un diwrnod yn rhy chwyrn, yna marw a wna yr holl braidd.

14 Aed attolwg fy arglwydd o flaen ei wâs, a minne a ddeuaf yn araf gyd a'r anifeiliaid y rhai [ydynt] o'm blaen i, a chyd ar plant, hyd oni ddelwyf at fy arglwydd i Seir.

15 Yna Eſau a ddywedodd, gadawaf yn awr gyd a thi [rai] o'r bobl y rhai [ydynt] gennifi: yntef a atebodd, I ba beth [y gwnei] hynny? cafwyf ffafor yng-olwg fy arglwydd.

16 Felly Eſau y dydd hwnnw a ddychwelodd ar hyd ei ffordd ei hun i Seir.

17 Ac Iacob a gerddodd i Succoth, ac a adailadodd iddo dŷ, ac a wnaeth fythod iw anifeiliaid: am hynny efe a alwodd henw y lle Succoth.

18 Hefyd Iacob a ddaeth yn llwyddiannus i ddinas Sichem, yr hon [ſydd] yng-wlad Canaan, (pan ddaeth efe o Meſopotamia,) ac a werſſyllodd o flaen y ddinas.

19 Ac a brynodd rann o'r maes yr hwn yr eſtynnaſe ei babell yndo, o law meibion Hemor,gâd Sichem, am gant darn o arian.

20 Ac a oſſododd yno allor, ac ai henwodd [allor] cadarn Dduw 'r Iſrael.

## PEN. XXXIIII.

2 Sichem mab Hemor yn treiſio Dina. 8 Hemor yn ei gofyn hi yn briod i Sichem. 22 Enwaediad y Sicemiaid wrth ddymuniad meibion Iacob, a thrwy eiriol Hemor. 25 Simeon a Lefi yn dial am aniweirdeb Sichem. 28 Iacob yn ceryddu ei feibion am eu gwaith yn dial.

YNa Dina merch Lea, yr hon a ymddugaſe hi i Iacob, a aeth allan i weled merched y wlâd.

2 Yna Sichem mab Hemor yr Hefiad tywyſog y wlad [honno] ai canfu hi, ac ai cymmerth hi, ac a orweddodd gyd a hi, ac ai treiſiodd.

3 Ai feddwl ef a lŷnodd wrth Dina ferch Iacob: ie efe a hoffodd y llangces, ac a ddywedodd wrth [fodd] calon y llangces.

4 Sichem hefyd a lefarodd wrth Hemor ei dâd gan ddywedyd: cymmer y llangces hon yn wraig i mi.

5 Yna Iacob a glybu [i Sichem] halogi Dina ei ferch, ai feibion ef oeddynt gyd ai hanifeiliaid yn y maes: am hynny Iacob a dawodd aſôn hyd oni ddaethant hwy [adref]

6 A Hemor tâd Sichem a aeth allan at Iacob, i ymddiddan ag ef.

7 Yna meibion Iacob a ddaethant o'r maes, ac wedi clywed o honynt, ymofidiaſant, a digiaſant yn ddirfawr, o blegit gwneuthur [o Sichem] ffolineb yn Iſrael, gan orwedd gyd a merch Iacob, canys ni ddyleyſſyd gwneuthur felly.

8 A Hemor a ymddiddanodd a hwynt gan ddywedyd, glynu a wnaeth meddwl Sichem fy mâb i wrth eich merch chwi: rhoddwch hi attolwg yn wraig iddo ef.

9 Ac ymgyfathrechwch a ni, rhoddwch eich merched chwi i ni, a chymmerwch ein merched ni i chwithau.

10 Felly y preſſwyliwch gyd a ni, a'r wlad fydd o'ch blaen chwi, trigwch a ñegeſeuwch yndi, a byddwch feddiannol o honi.

11 Sichem hefyd a ddywedodd wrth ei thâd, ac wrth ei brodyr hi, cafwyf ffafor yn eich golwg, a'r hyn a ddywedoch wrthif a roddaf.

12 Goſodwch arnaf fi ddirfawr gynhyſcaeth, neu roddiad, ac mi a roddaf fel y dywedoch wr-

thiſ: rhoddwch chwithau y llangces i mi yn wraig.

13 Yna meibion Iacob a attebaſant Sichem, a Hemor ei dâd ef, ac a ymddiddanaſant yn dwyllodrus, o herwydd iddo ef halogi Dina eu chwaer hwynt.

14 Ac a ddywedaſant wrthynt hwy, ni allwn wneuthur y peth hyn, gan roddi ein chwaer ni i ŵr dienwaededic, o blegit gwarthrudd [yw] hynny i ni.

15 Ond yn hyn y cytunwn a chwi, os byddwch fel nyni, gan enwaedu pôb gwryw i chwi.

16 Yna y rhoddwn ein merched ni i chwi, ac y cymmerwn eich merched chwithau i ninnau, a chyd trigwn a chwi, a byddwn yn vn bobl.

17 Ond oni wrandewch arnom ni i gael o honoch eich enwaedu, yna y cymmerwn ein merch, ac a awn ymmaith.

18 Ai geiriau hwynt oeddynt dda yng-olwg Hemor, ac yng-olwg Sichem mâb Hemor.

19 Ac nid oedodd y llangc wnaethur y peth o blegit efe a roddaſe ſerch ar ferch Iacob: ac yr oedd efe yn anrhydedduſach na holl dŷ ei dâd ef.

20 Yna Hemor, a Sichem ei fab ef a aethant at borth eu dinas hwynt, ac a lefaraſant wrth eu dinaſyddion hwynt, gan ddywedyd:

21 Y gwŷr hynn heddychol [ynt] hwy gyd a ni, ac a drigant yn y wlad [hon,] ac a wnant eu negeſau [ynddi:] ac wele [y mae] y wlâd yn ehang o leoedd ger eu bron hwynt: cymmerwn eu merched hwynt i ni yn wragedd, a rhoddwn ein merched ninnau iddynt hwy.

22 Ond yn hyn y cytuna y dynion a ni, i drigo gyd a ni, gan fod yn vn bobl, trwy enwaedu pôb gwryw i ni, fel y maent hwy yn enwaededic.

23 Eu hanifeiliaid hwynt, ai cyfoeth hwynt, ai holl yſcrubliaid hwynt onid eiddo ni [fyddant] hwy ∵ yn vnic cytunwn a hwynt, fel y trigant gyd a ni.

24 Yna ar Hemor, ac ar Sichem ei fab ef y gwrandawodd pawb a'r a oeddynt yn dyfod allan o borth ei ddinas ef: ac enwaedwyd pôb gwryw [ſef] y rhai oll a'r a oeddynt yn dyfod allan o borth ei ddinas ef.

25 A bu ar y trydydd dydd pan oeddynt hwy yn ddolurus, gymmeryd o ddau o feibion Iacob Simeon, a Lefi, brodyr Dina, bôb vn ei gleddyf, ac a ddaethant yn erbyn y ddinas yn hyderus, ac a laddaſant bôb gwryw.

Gene.49.6. 26 *Lladdaſant hefyd Hemor, a Sichem ei fâb ef, a mîn y cleddyf: a chymmeraſant Dina o dŷ Sichem, ac aethant allan.

27 Meibion Iacob a ddaethant ar y lladdedigion, ac a yſpeiliaſant y ddinas, am halogi o honynt eu chwaer hwynt.

28 Cymmeraſant eu defaid hwynt, ai gwarthec, ai haſſynnod hwynt, a'r hyn [oedd] yn y ddinas, a'r hyn [oedd] yn y maes.

29 Caeth-gludaſant hefyd, ac yſpeiliaſant eu holl gyfoeth hwynt, ai holl blant hwynt, ai gwragedd hwynt, a'r hyn oll [oedd] yn y tai.

30 Yna Iacob a ddywedodd wrth Simeon, ac wrth Lefi, trallodaſoch fi gan beri i mi fod yn ffiaidd gan breſſwylwyr y wlâd, gan y Canaaneaid, a'r Phereziaid, a minne ag ychydic o wŷr: ymgaſclant gan hynny yn fy erbyn, a tharawant fi, felly y difethir fi, mi, a'm tŷlwyth.

31 Hwythau a attebaſant, ai megis puttain y gwnae efe ein chwaer ni ∵

## PEN. XXXV.

1 Iacob yn myned i Bethel wrth orchymmyn Duw i adailadu allor. 2 Efe yn puro tylwyth ei dy. 5 Duw 'n gwneuthur i elynion Iacob ei ofni. 8 Debora mammaeth Rebecca 'n marw. 12 Addo gwlad Canaan. 18 Rahel yn marw ar anedigaeth dyn bach. 23 Meibion Iacob. 27 Iacob yn dyfod at ei dâd Iſaac. 29 Oes, a marwolaeth Iſaac.

YNa y dywedodd Duw wrth Iacob, cyfod, eſcyn i Bethel, a thrîg yno, a gwna yno allor i Dduw, yr hwn a ymddangoſodd i ti *pan ffoaiſt o wydd Eſau dy frawd. Gene.28.'4.

2 Yna Iacob a ddywedodd wrth ei deulu, ac wrth y rhai oll [oeddynt] gyd ag ef: bwriwch ymmaith y duwiau dieithr, y rhai [ynt] yn eich plith chwi, ac ymlânhewch, a newidiwch eich gwiſcoedd.

3 O blegit cyfodwn, ac eſcynnwn i Bethel, ac yno y gwnaf allor i Dduw, yr hwn a'm gwrandawodd yn nŷdd fyng-hyſtudd, ac a fu gyd a'm fi yn y ffordd, yr hon a gerddais.

4 Yna y rhoddaſant at Iacob yr holl dduwiau dieithr y rhai [oeddynt] yn eu llaw hwynt, a'r cluſt-dlyſau, y rhai [oeddynt] yn eu cluſtiau hwynt: ac Iacob ai cuddiodd hwynt, tann y dderwen, yr hon [oedd] yn ymmyl Sichem.

5 Felly y cychwnnaſant, ac ofn Duw [oedd] ar y dinaſoedd, y rhai [oeddynt] oi hamgylch hwynt, ac nid erlidiaſant ar ol meibion Iacob.

6 Ac Iacob a ddaeth i Luz, yng-wlad Canaan, hon [yw] Bethel, efe ai holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef:

7 Ac a adailadodd yno allor, ac a henwodd y *lle El-bethel: o blegit yno yr ymddangoſaſſe Duw iddo ef, pan ffoaſe efe o wydd ei frawd. Gene.28.19.

8 A marw a wnaeth Debora mammaeth Rebecca, a hi a gladdwyd iſlaw Bethel dann y dderwen: am hynny y galwyd henw honno Alhon-bachuth.

9 Hefyd Duw a ymddangoſodd eilwaith i Iacob pan ddaeth efe o Meſopotamia ac ai bendithiodd ef.

10 A Duw a ddywedodd wrtho, dy henw di [yw] Iacob, ni *elwir dy henw di Iacob mwy, onid Iſrael a fydd dy henw di: galwodd gan hynny ei enw ef Iſrael. Gene.32.28.

11 Hefyd Duw a ddywedodd wrtho, myfi [wyf] Dduw holl alluog, cynnydda, ac amlhâ:

cenedl, a chynnulleidfa cenhedloedd a fydd o honot ti, a brenhinnoedd a ddeuant allan 'oth lwynau di,

12 A'r wlâd yr hon a roddais i Abraham, ac i Iſaac, a roddaf i ti, ac i'th hâd ti ar dy ôl di y rhoddaf y wlâd[honno.]

13 Yna 'r eſcynnodd Duw oddi wrthaw ef yn y fan lle y lleſaraſe efe wrtho ef.

14 Ac Iacob a oſododd golofn i ſefyll yn y fann lle 'r ymddiddanaſe efe ag ef, [ſef] colofn faen, ac a daenellodd arni ddiod offrwm, ac a dywalltodd olew arni.

15 Felly Iacob a alwodd henw y fann lle 'r ymddiddanodd Duw ag ef: Bethel.

16 Yna 'r aethant ymmaith o Bethel, ac yr oedd etto megis milltir o dîr i ddyfod i Ephrath: yno 'r eſcorodd Rahel, a bu galed[arni hi]wrth eſcor.

17 A darfu pan oedd yn galed [arni] wrth eſcor o honi, i'r fŷdwraig ddywedyd wrthi hi, nac ofna: o blegit llymma hefyd i ti fáb,

18 Darfu hefyd wrth fyned oi henaid hi allan, (o blegit marw a wnaeth hi) yna iddi hi alw ei enw ef Benoni: ond ei dâd ai henwodd ef Ben-iamin.

19 Felly Rahel a fu farw, ac a gladdwyd yn y ffordd i Ephrath: hon[yw] Bethlehem.

20 Ac Iacob a oſododd golofn i ſefyll ar ei bedd hi, honno[yw] colofn bedd Rahel hyd heddyw.

21 Yna Iſrael a gerddodd, ac a eſtynnodd ei babell o'r tu hwnt i Migdal-eder.

22 A phan ydoedd Iſrael yn trigo yn y wlâd honno, yna Ruben a aeth, ac a orweddodd *gyd a Bilha gordderchwraig ei dâd ef, a chlybu Iſrael[hynny:] yna meibion Iacob oeddynt ddeu-ddec. Gene.49.5.

23 Meibion Lea, Ruben cyntafanedic Iacob, a Simeon, a Lefi, ac Iuda, ac Iſacar, a Zabulon.

24 Meibion Rahel, Ioſeph, a Beniamin.

25 A meibion Bilha llaw-forwyn Rahel: Dan, a Nephthali.

26 A meibion Zilpha llaw-forwyn Lea: Gad, ac Aſer. Dymma feibion Iacob, y rhai a anwyd iddo ym-Meſopotamia.

27 Yna Iacob a ddaeth at Iſaac ei dâd ef i Mamre i gaer Arba, hon[yw] Hebron, lle'r ymdeithiaſe Abraham, ac Iſaac.

28 A dyddiau Iſaac[oeddynt]gan-mlwydd, a phedwar ugain mlwydd.

29 Yna Iſaac a drengodd, ac a fu farw, ac a gaſclwyd at ei bobl yn hên, ac yn gyflawn o oedran, ai feibion Eſau ac Iacob ai claddaſant ef.

## PEN. XXXVI.

2 Gwragedd Eſau. 7 Cyfoeth Iacob, ac Eſau. 9 Hiliogaeth Eſau. 24 Caffacliad mulod.

AC dymma genedlaethau Eſau: efe yw Edom.

2 Eſau a gymmerth ei wragedd o ferched Canaan: Ada merch Elon yr Hethiad, ac Aholibama merch Ana, merch Sibeon yr Hefiad.

3 Baſemath hefyd merch Iſmael, chwaer Nebaioth.

4 Ac * Ada a ymddug Eliphas i Eſau, a Baſemath a eſcorodd ar Rehuel. 1.Cron.1.35.

5 Aholibama hefyd a eſcorodd ar Iehus, ac Ialam, a Chorah: dymma feibion Eſau, y rhai a anwyd iddo yng-wlad Canaan.

6 Ond Eſau a gymmeraſe ei wragedd, 'ai feibion, ai ferched, a holl ddynion ei dŷ, ai anifeiliaid, ai holl yſcrubliaid, ai holl gyfoeth ef yr hyn a gaſglaſe efe yng-wlad Canaan, ac a aeth ymmaith i wlad [Seir] cyn dyfod ei frawd Iacob.

7 O blegit eu cyfoeth hwynt oedd fwy, nac y gellynt gyd trigo: ac nis galle gwlâd eu hymdaith eu cynnwys hwynt gan eu hanifeiliaid.

8 Felly y * trigodd Eſau ym mynydd Seir: Eſau[yw]Edom. Ioſua.24.4.

9 Ac dymma genedlaethau Eſau tâd yr Edomiaid ym mynydd Seir.

10 Dymma henwau meibion Eſau: * Eliphas mâb Ada gwraig Eſau: Rehuel mâb Baſemath gwraig Eſau. 1.Cron.1.35.

11 A meibion Eliphas oeddynt Theman, Omar, Sepho, a Gatham, a Chenaz,

12 A Thimna oedd orderch-wraig i Eliphas mab Eſau, ac a eſcorodd Amelec i Eliphas, dymma feibion Ada gwraig Eſau.

13 Ac dymma feibion Rehuel: Nahath, a Serah, Samma, a Mizza, y rhai hyn oeddynt feibion Baſemath gwraig Eſau.

14 Hefyd y rhai hyn oeddynt feibion Aholibama merch Ana, merch Sibeon gwraig Eſau: canys hi a ymddug i Eſau, Iehus, ac Ialam, a Chorah.

15 Dymma ddûgiaid meibion Eſau: meibion Eliphas cyntafanedic Eſau, duwc Theman, duwc Omar, duwc Sepho, duwc Cenaz.

16 Duwc Corah, duwc Gatham, duwc Amelec: dymma ddûgiaid Eliphas yng-wlad Edom: dymma feibion Ada.

17 Ac dymma feibion Rehuel mab Eſau, duwc Nahath, duwc Serah, duwc Samma, duwc Mizza: dymma ddugiaid Rehuel yng-wlad Edom: dymma feibion Baſemath gwraig Eſau.

18 Dymma hefyd feibion Aholibama gwraig Eſau, duwc Iehus, duwc Ialam, duwc Corah: dymma ddugiaid Aholibama merch Ana gwraig Eſau.

19 Dymma feibion Eſau, ac dymma eu dûgiaid hwynt: efe[yw]Edom.

20 Dymma feibion Seir yr Horiad, cyfanneddwyr y wlad [honno:] Lotan, a Sobal, a Sibeon, ac Ana.

21 A Diſon, ac Eſer, a Diſan: dymma ddugiaid yr Horiaid meibion Seir yng-wlad Edom.

22 A meibion Lotan oeddynt Hori, a Hemam: a chwaer Lotan [oedd] Thimna.

23 Ac dymma feibion Sobal: Alfan, a Manahath, ac Ebal, Sepho, ac Onam.

24 Ac dymma feibion Sibeon: ſef, Aia, ac Ana: hwn yw Ana 'r hwn a gafodd y mulod yn yr anialwch wrth borthi o honaw aſynnod Sibeon ei dâd.

25 Ac dymma feibion Ana: Diſon, ac Aholibama merch Ana.

26 Dymma hefyd feibion Diſon: Hemdan, ac Eſban, a Jethran, a Cheran.

27 Dymma feibion Eſer, Bilhan, a Saafan, ac Acan.

28 Dymma feibion Diſan: Us, ac Aran.

29 Dymma ddugiaid yr Horiaid: Duwc Lotan duwc Sobal, duwc Sibeon, duwc Ana.

30 Duwc Diſon, duwc Eſer, duwc Diſan: dymma ddugiaid yr Horiaid, wrth eu dugiaethau yng-wlâd Seir.

31 Dymma hefyd y brenhinoedd y rhai a deyrnaſaſant yng-wlad Edom cyn teyrnaſu brenin ar feibion Iſrael.

32 Yn gyntaf y teyrnaſodd yn Edom Bela mab Beor: a henw ei ddinas ef [oedd] Dinhebah.

33 Yna Bela a fu farw: a Jobab mab Serah o Boſra a deyrnaſodd yn ei le ef.

34 Jobab hefyd a fu farw: a Huſam o wlâd Temani, a deyrnaſodd yn ei le ef.

35 A bu Huſan farw: yna Hadad mab Bedad yr hwn a darawodd y Midian ym maes Moab, a deyrnaſodd yn ei le ef: a henw ei ddinas ef [ydoedd] Afith.

36 Marw hefyd a wnaeth Hadad, a Samlah o Maſrecah a deyrnaſodd yn ei le ef.

37 A phan fu Samlah farw: Saul o Rehoboth [wrth] yr afon, a deyrnaſodd yn ei le ef.

38 A phan fu Saul farw, Baalhanan mab Achbor a deyrnaſodd yn ei le ef.

39 A phan fu Baalhanan mab Achbor farw: Hadar a deyrnaſodd yn ei le ef, a henw ei ddinas ef [oedd] Pau: A henw ei wraig Mehetabel, merch Matred, merch Mezahab.

40 Dymma gan hynny henwau dûgiaid Eſau ynol eu teuluoedd hwynt, yn eu trig-leoedd hwynt, erbyn eu henwau hwynt: duwc Timna, duwc Alfah, duwc Jetheth.

41 Duwc Aholibama, duwc Ela, duwc Pinon.

42 Duwc Cenaz, duwc Theman, duwc Mibſar.

43 Dnwc Magdiel, duwc Iran: dymma ddugiaid Edom, yn ol eu preſſwylfeudd yng-wlad eu perchennogaeth hwynt: dymma Eſau tâd yr Edomiaid.

## PEN. XXXVII.

2 Ioſeph yn achwyn ar ei frodyr wrth ei dâd. 5 Efe yn breuddwydio, ai frodyr yn ei gaſau. 28 Ac yn ei werthu ef i'r Iſmaeliaid. 34 Galar Iacob am Ioſeph.

A Thrigodd Jacob yng-wlâd ymddaith ei dâd ſef yng-wlâd Canaan.

2 Dymma genhedlaethau Jacob: Joſeph yn fab dwy flwydd ar bymthec oedd fugail gyd ai frodyr ar y praidd: ac efe oedd yn llangc gyd a meibion Bilha, a chyd a meibion Zilpha gwragedd ei dâd ef: yna Joſeph a ddygodd eu drwg enllib hwynt at eu tâd hwynt.

3 Ac Iſrael oedd hoffach ganddo Joſeph nai holl feibion, o blegit efe ai cawſe ef yn ei henaint: ac efe a wnaeth ſiacced fraith iddo ef.

4 Pan welodd ei frodyr, fod eu tâd yn ei garu ef yn fwy nai holl frodyr: yna hwy ai caſaſant ef, ac ni fedrent ymddiddan [ag] ef yn heddychol.

5 Ac Joſeph a freuddwydiodd freuddwyd, ac ai mynegodd iw frodyr: am hynny y caſaſant ef etto yn ychwaneg.

6 O blegit dywedaſe wrthynt, gwrandewch atolwg y breuddwyd hwn, yr hwn a freuddwydiais.

7 Ac wele rhwymo yſgubau 'r oeddem ni yng-hanol y maes, ac wele fy yſcub mau fi a gyfododd, ac a ſafodd hefyd, ac wele eich yſcubau chwi a ddaethant o amgylch ac a ymgrymmaſant i'm hyſgub mau fi.

8 Yna ei frodyr a ddywedaſant wrtho ef, ai gan deyrnaſu y teyrneſi arnom ni? ai gan arglwyddiaethu 'r arglwyddieithi arnom ni? etto am hynny y chawnegaſant ei gaſau ef, o blegit ei freuddwydion, ac o blegit ei eiriau ef.

9 Hefyd efe a freuddwydiodd etto freuddwyd arall, ac ai mynegodd iw frodyr, ac a ddywedodd: wele yr haul, a'r lleuad, ac un ar ddec o ſêr yn ymgrymmu i mi.

10 Ac efe ai mynegodd iw dâd, ac iw frodyr, ai dâd a feiodd arno ef, ac a ddywedodd wrtho ef pa freuddwyd yw hwn, yr hwn a freuddwydiaiſt? ai gan ddyfod y deuwn ni, mi a'th fam a'th frodyr, i ymgrymmu i lawr i ti?

11 Ai frodyr a genfigennaſant wrtho ef, ond ei dâd a gadwodd y peth [mewn côf:]

12 Yna ei frodyr ef a aethant i fugeilio praidd eu tâd yn Sichem.

13 Ac Iſrael a ddywedodd wrth Joſeph, onid [yw] dy frodyr yn bugeilio yn Sichem? tyret, a mi a'th anfonaf attynt: yntef a ddywedodd wrtho ef, wele fi.

14 Yna y dywedodd ei [dâd] wrtho ef, dos weithian, edrych [pa] lwyddiant [ſydd] i'th frodyr, a [pha] lwyddiant [ſydd] ir praidd, a dŵg eilchwael air [i] mi: felly efe ai hanfonodd ef o lynn Hebron, ac efe a ddaeth i Sichem.

15 Yna y cyfarfu gŵr ag ef: ac wele efe yn cyrwydro yn y maes, a'r gŵr a ymofynnodd [ag] ef, gan ddywedyd, pa beth yr ydwyt yn ei geiſio?

16 Yntef a ddywedodd ceiſio fy-mrodyr yr ydwyf fi: mynega atolwg i mi pa le y maent hwy yn bugeilio?

17 A'r gŵr a ddywedodd cychwnnaſant oddi
ymma, o blegit clywais hwynt yn dywedyd,
awn i Dothan: yna Ioſeph a aeth a'r ôl ei frodyr,
ac ai cafodd hwynt o fewn Dothan.
18 Hwythau ai canfuant ef o bell, a chyn ei
ddyneſſu attynt hwy 'r ymfwriadaſant hefyd
[yn] ei [erbyn] ef, iw ladd ef.
19 A dywedaſant bôb vn ŵrth ei gilydd, wele
accw y breuddwyd-wr yn dyfod.
20 Deuwch gan hynny yn awr, a lladdwn
ef, a thaflwn ef yn vn o'r pydewau, a dywedwn,
Gen.42.22. bwyſt-fil drwg ai bwyttaodd ef: yna y cawn weled
beth fydd ei freuddwydion ef.
21 A * Ruben a glybu, ac ai hachubodd ef,
oi llaw hwynt, ac a ddywedodd, na laddwn ef yn
farw.
22 Ruben a ddywedodd hefyd wrthynt, na
thywelltwch waed: bwriwch ef i'r pydew
hwn, yr hwn [ſydd] yn yr anialwch, ac nac eſtynnwch
law arno ef: fel yr achube ef oi llaw
hwynt iw ddwyn eil-waith at ei dâd.
23 A phan ddaeth Ioſeph at ei frodyr, yna
y gwnaethant i Ioſeph ddioſc ei ſiacced [ſef] y
ſiacced fraith 'r hon [ydoedd] a'm dano ef.
24 Yna y cymmeraſant ef, a thaflaſant ef
i'r pydew, a'r pydew [oedd] wâg hêb ddwfr
ynddo.
25 Yna 'r eiſteddaſant i fwytta bwyd, ac a
dderchafaſāt eu llygaid, ac a edrychaſant: ac wele
fintai o Iſmaeliaid yn dyfod o Gilead yn myned
i wared i'r Aipht, ai camelod yn dwyn llyſſiau,
a balm, a myrr.
26 Yna y dywedodd Iuda wrth ei frodyr, pa
leſaad [a fydd,] ôs lladdwn ein brawd, a chêlu
ei waed ef?
27 Deuwch a gwerthwn ef i'r Iſmaeliaid,
ac na fydded ein llaw ni arno ef: o blegit ein
Doeth.10.13. pſal.105.17. brawd ni a'n cnawd ni ydyw efe: ai frodyr a gytunaſant.
28 A phan ddaeth * y marchnad-wyr o Midian
heibio, y tynnaſant, ac y cyfodaſant Ioſeph
i fynu o'r pydew, ac a werthaſant Ioſeph i'r Iſmaeliaid,
er vgain darn o arian: hwyntau a
ddygaſant Ioſeph i'r Aipht.
29 Wedi hynny Ruben a ddaeth eil-waith
i'r pydew, ac wele nid [ydoedd] Ioſeph yn y
pydew: ac yntef a rwygodd ei ddillad.
30 Ac a ddychwelodd at ei frodyr, ac a ddywedodd,
y llangc nid [ydyw] accw: a minne i
ba le 'r âf fi?
31 Yna hwy a gymmeraſant ſiacced Ioſeph,
ac a laddaſant lwdn gafr, ac a drochaſant y ſiacced
yn y gwaed.
32 Ac a anfonaſant y ſiacced fraith, ac ai
dugaſant at eu tâd hwynt, ac a ddywedaſant,
honn a gawſom, mynn ŵybod weithian ai ſiacced
Geneſ.44.28. dy fâb [yw] hi, ai nad e.
33 Yntef ai hadnabu hi, ac a ddywedodd, ſiacced
fy mab [yw hi] * bwyſt-fil drwg ai
bwyttaodd ef: gan larpio y llarpiwyd Ioſeph.
34 Ac Iacob a rwygodd ei ddillad, ac a oſododd
ſach-len am̃ ei lwynau, ac a alarodd am ei
fâb ddyddiau lawer.
35 Ai holl feibion, ai holl ferched a godaſant
iw gyſſuro ef, ond efe a wrthododd gymmeryd
cyſſur, ac a ddywedodd: yn ddiau deſcynnaf
yn alarus at fy mâb i'r beddrod, ai dâd a
wylodd [am dano] ef.
36 A'r Madiniaid ai gwerthaſant ef i'r
Aipht i Putiphar tywyſog Pharao, [a'r] diſtain.

## PEN. XXXVIII.

2 Iuda yn priodi. 7 Drygioni Er, ac Onan, a dialedd ,,
Duw arnynt hwy. 18 Iuda yn gorwedd gyd ,,
a Thamar. 24 Ac yn barnu Thamar iw lloſci ,,
am Odineb. 29 39 Ganedigaeth Phares, a ,,
Zarah. ,,

AC yn y cyfamſer hwnnw, y darfu i Iuda ,,
ddeſcyn oddi wrth ei frodyr, a throi at ŵr o ,,
Adulam, ai henw Hirah. ,,
2 Ac yna y canfu Iuda ferch gŵr o Ganaan, ,,
ai enw ef [oedd] Sua, ac ai cymmerodd hi, ,,
ac a aeth atti hi. ,,1.Cron.2.3.
3 A hi a feichiogodd, ac a eſcorodd a'r fâb, ac ,,
efe a alwodd ei * enw ef Er. ,,
4 A hi a feichiogodd eil-waith, ac a eſcorodd ,,
ar fâb, a hi a alwodd ei enw ef Onan. ,,
5 A thrachefn hi a eſcorodd ar fâb, ac a alwodd ,,
ei enw ef Selah: Ac yn Cezib yr oedd ,,
[Iuda] pan eſcorodd hi ar hwn. ,,
6 Yna Iuda a gymmerth wraig i Er ei ,,Num.26.19.
gyntaf-anedic: ai henw hi [oedd] Thamar. ,,
7 Ac * yr oedd Er cyntaf-anedic Iuda yn ,,
ddrygionus yng-olwg yr Arglwydd, am hynny ,,
y lladdodd yr Arglwydd ef. ,,
8 Yna Iuda a ddywedodd wrth Onan dôs ,,
at wraig dy frawd, a gwna iddi rann cyfathrach-wr, ,,
a chyfot hâd i'th frawd. ,,
9 Felly Onan a wybu nad iddo ei hun y ,,
bydde'r hâd: gan hynny pan ele efe at wraig ei ,,
frawd, yna y colle efe ei [hâd] ar y llawr, rhac ,,
rhoddi o honaw hâd iw frawd. ,,
10 A drygionus oedd yr hyn a wnaethe efe ,,
yng-olwg yr Arglwydd: am hynny efe ai lladdodd ,,
yntef. ,,
11 Yna Iuda a ddywedodd wrth Thamar ,,
ei waudd ef, trig yn weddw [yn] nhŷ dy dâd, ,,
hyd oni chynnyddo fy mâb Selah: oblegit efe ,,
a feddyliaſe rhac lladd hwnnw hefyd, fel ei frodyr ,,
ef: felly Thamar a aeth, ac a drigodd [yn] ,,
nhŷ ei thâd. ,,
12 Ac wedi llawer o ddyddiau, marw a ,,
wnaeth merch Sua gwraig Iuda, yna Iuda a ,,
gymmerth gyſſur, ac a aeth i fynu i Thimnath, ,,
at gneif-wyr ei ddefaid, ef ai gymydog Hirah yr ,,
Adulamiad. ,,
13 Mynegwyd hefyd i Thamar, gan ddywedyd: ,,
wele dy chwegrwn yn myned i fynu i ,,
Thimnath, i gneifio ei ddefaid. ,,
14 Hithe a ddioſcodd ddillad ei gweddwdod ,,
oddi am deni, ac a orchguddiodd [ei hwyneb] ,,
a moled, ac a ymwiſcodd, ac a eiſteddodd yn ,,
nrws Enaim yr hwn [ſydd] ar y ffordd i ,,
Thimnath:

“ Thimnath: o blegit gweled yr oedd hi fyned o
“ Selah yn fawr, ac na roddaſid hi yn wraig iddo
“ ef.
“ 15 Felly Iuda ai canfu hi, ac a dybiodd [ei
“ bod] hi yn buttain, o blegit gorchguddio o honi
“ ei hwyneb.
“ 16 Ac efe a droawdd atti hi i'r ffordd, ac a
“ ddywedodd, tyret atolwg, gad imi ddyfod attat:
“ o blegit nid oedd efe yn gwybod mai ei waudd
“ ef [ydoedd] hi: hithe a ddywedodd, beth a roddi
“ i mi, ôs cei ddyfod attaf?
“ 17 Yntef a ddywedodd, mi a hebryngaf fynn
“ gafr o [blith] y praidd: hithe a ddywedodd
“ [bodlawn] ôs rhoddi wyſtl hyd oni hebryngech.
“ 18 Yntef a ddywedodd, beth [fydd] y
“ gwyſtl yr hwn a roddaf i ti? hithe a ddywedodd
“ dy ſêl, a'th gochl, a'th ffonn, yr hon [ſydd] yn
“ dy law di: ac efe ai rhoddes iddi, ac a aeth atti, a
“ hi a feichiogodd o honaw ef.
“ 19 Yna y cyfododd hi ac a aeth ymmaith, ac
“ a ddioſcodd ei moled oddi amdeni, ac a wiſcodd
“ ddillad ei gweddwdod.
“ 20 Ac Iuda a hebryngodd fynn gafr yn
“ llaw'r Adulamiad ei gymydog ef, i gymmeryd
“ y gwyſtl o law y wraig: ond ni chafod [hwnnw]
“ hi.
“ 21 Ac efe a ymofynnodd a gwŷr y frô
“ honno gan ddywedyd: pa le [y mae] y buttain
“ honno yr [hon ydoedd] yn Enaim wrth y ffordd?
“ hwythau a ddywedaſant ni bu yma [un] buttain.
“ 22 Yna efe a ddychwelodd at Iuda, ac a ddywedodd,
“ ni chefais hi, a gwŷr y frô honno hefyd
“ a ddywedaſant ni bu yma [un] buttain.
“ 23 Ac Iuda a ddywedodd, cymmered iddi
“ hi, rhac ein bod ni yn watworgerdd: wele, mi a
“ hebryngais y mynn hwn, a thithe ni chefaiſt hi.
“ 24 Ac ynghylch pen tri mîs y mynegwyd
“ i Iuda, gan ddywedyd: Thamar dy waudd di a
“ butteiniodd, ac wele hi a feichiogodd hefyd
“ mewn godineb: yna y dywedodd Iuda dygwch
“ hi allan, a lloſcer hi.
“ 25 Yna hi (pan ddygwyd hi allan) a anfonodd
“ at ei chwegrwn, gan ddywedyd: o'r gŵr
“ yr hwn ſydd eiddaw y rhai hyn yr ydwyfi yn
“ feichiog: hefyd hi a ddywedodd, adnebydd attolwg
“ eiddo pwy [yw] yr ſêl, a'r gochl, a'r
“ ffonn ymma.
“ 26 Yna Iuda a adnabu [y pethau hynnŷ,]
“ ac a ddywedodd: cyfiawnach yw hi na'm fi, o
“ herwydd na roddais hi i'm mâb Selah: ac ni
“ bu iddo ef a wnaeth a hi mwy.
“ 27 Ac yn amſer ei heſcoredigaeth hi, wele
“ efeillion yn ei chroth hi.
“ 28 Bu hefyd pan eſcorodd hi, i [un] roddi
“ [allan ei] law: a'r fyd-wraig ai cymmerth ac a
“ rwymodd a'm ei law ef [edef] gôch gan ddywedyd:
“ hwn a ddaeth yn gyntaf allan.
“ 29 A phan dynnodd efe ei law yn ei hôl, yna
“ wele ei frawd ef a ddaeth allan, a hithe a ddywedodd,
“ pa ham y rhwygaiſt arnat rwygiad? a'm
hynny y galwyd ei * enw ef Phares. „ 1.Cron.2.4.
30 Ac wedi hynny ei frawd ef a ddaeth allan, „ Mat.1.3.
yr hwn [yr oedd yr edef] gôch a'm ei law: a „
galwyd ei enw ef Zarah. „

## PEN. XXXIX.

1 Gwerthu Ioſeph i Putiphar. 2 Gwraig Putiphar yn ei demptio ef. 13 Ac yn achwyn arno ef. 20 Ei garchar ef. 21 Ymgeledd Duw iddo ef.

FElly Ioſeph a ddygwyd i wared i'r Aipht, a Phutiphar yr Aipht-wr tywyſog Pharao [ai] ddiſtain ai prynnodd ef o law'r Iſmaeliaid, y rhai ai dygaſent ef ei wared yno.

2 Ac yr oedd yr Arglwydd gyd ag Ioſeph, ac efe oedd ŵr llwyddiannus: tra fu efe yn nhŷ ei feiſtr yr Aiphtiad.

3 Ai feiſtr ef a welodd mai yr Arglwydd [oedd] gyd ag ef, a [bod] yr Arglwydd yn llwyddo yn ei law ef yr hyn oll a wnele efe.

4 Felly Ioſeph a gafodd ffafor yn ei olwg ef, ac ai gwaſanaethodd ef, yntef ai gwnaeth ef yn ben-golygwr ar ei dŷ ef, ac a roddes [yr hyn] oll oedd eiddo dan ei law ef.

5 Ac er pan wnaethe efe ef yn ben-golygwr ar ei dŷ, ac ar yr hyn oll [oedd] eiddo ef, darfu 'ir Arglwydd fendithio tŷ 'r Aiphtiad er mwyn Ioſeph: ac yr oedd bendith yr Arglwydd ar yr hyn oll oedd eiddo ef yn y tŷ, ac yn y maes.

6 Am hynny y gadawodd efe yr hyn oll [oedd] ganddo tan law Ioſeph, ac nid adwaene ddim ar [a oedd] gyd ag ef, oddi eithr y bwyd yr hwn yr oedd efe yn ei fwytta: Ioſeph hefyd oedd dêg o brŷd, a glân yr olwg.

7 A darfu wedi y petheu hynny i wraig ei feiſtr efdderchafu ei golwg ar Ioſeph, a dywedyd: gorwedd gyd am fi.

8 Yntef a wrthododd, ac a ddywedodd wrth wraig ei feiſtr, wele fy meiſtr nid edwyn pa beth [ſydd] gyd a'm fi yn y tŷ: rhoddes hefyd yr hyn oll [ſydd] eiddo ef, tan fy llaw i.

9 Nid oes [neb] fwy yn y tŷ hwn na myfi, ac ni waharddodd efe ddim rhagof, onid ty di, o blegit ei wraig ef [wyt] ti: pa fodd gan hynny y gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?

10 Ac fel yr oedd hi yn dywedyd wrth Ioſeph beunŷdd, ac yntef heb wrando arni hi, i orwedd yn ei hymyl hi, gan fod gyd a hi.

11 Yna yng-hylch y cyfamſer hwnnw y bu i Ioſeph ddyfod 'ir tŷ i wneuthur ei orchwyl: ac nid [oedd] yr un o ddynion y tŷ yno yn tŷ.

12 Hithe ai daliodd ef erbyn ei wiſc, gan ddywedyd, gorwedd gyd a mi: yntef a adawodd ei wiſc yn ei llaw hi, ac a ffoawdd, ac a aeth allan.

13 A phan welodd hi adel o honaw ef ei wiſc yn ei llaw hi, a ffoi o honaw allan.

14 Yna hi a alwodd ar ddynion ei thŷ, ac a draethodd wrthynt gan ddywedyd: gwelwch, efe a ddûg i ni Hebrewr 'in gwradwyddo: daeth attafi i orwedd gyd a myfi, minne a wae-

ddais a llef vchel.

15 A phan glywodd efe dderchafu o honofi fy llef, a gweiddi: yno efe a ffoawdd, ac a aeth allan, ac adawodd ei wiſc yn fy ymmyl i.

16 A hi a oſododd ei wiſc ef yn ei hymmyl, hyd oni ddaeth ei feiſtr ef adref.

17 Yna hi a lefarodd wrtho yn y modd hyn, gan-ddywedyd: yr Hebre was, yr hwn a ddugaiſt i ni a ddaeth attaf i'm gwaradwyddo.

18 Ond pan dderchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wiſc yn fy ymmyl, ac a ffoawdd allan.

19 A phan glybu ei feiſtr ef eiriau ei wraig yrhai a lefaraſe hi wrtho ef, gan-ddywedyd, yn y modd hwn y gwnaeth dy wâs di i mi: yna yr enynnodd ei lid ef.

20 Yna meiſtr Ioſeph ai cymmerth ef, ac ai rhoddes ef *yn y carchar-dŷ, lle yr oedd carcharorion y brenin yn rhwym. Ac yno y bu efe yn y carchar-dŷ. Pſal.105.18.

21 Ond yr Arglwydd oedd gyd a Ioſeph, ac a ddangoſodd iddo ef drugaredd, ac a roddes ffafor iddo ef yngolwg pennaeth y carchar-dŷ.

22 A phennaeth y carchar-dŷ, a roddes tan law Ioſeph yr holl garcharorion, y rhai [oeddynt] yn y carchardŷ, ac efe oedd yn gwneuthur yr hyn oll a fuaſent hwy yn ei wneuthur yno.

23 Nid [oedd] pennaeth y carchar-dy yn edrych am ddim oll [a'r a oedd] tann ei law ef, am [fod] yr Arglwydd gyd ag ef: a'r hyn a wnai efe yr Arglwydd ai llwydde.

## P E N. XL.

3 Pharao yn carcharu ei ben-trulliad ai ben-pobydd. 8 O Dduw y daw deongliad breuddwydion. 19 Ioſeph yn deonglio breuddwyd y ddau garcharor. 23 Aniolchgarwch y pen-trulliad tu ag at Ioſeph.

A Darfu wedi y petheu hynny i drulliad brenin yr Aipht, a'r pobydd bechu yn erbyn eu harglwydd hwynt, brenin yr Aipht.

2 A Pharao a lidiodd wrth ei ddau bennaeth [ſef] wrth y pen-trulliad, a'r pen-pobydd.

3 Ac ai rhoddes hwynt mewn dalfa, yn nhŷ y diſtain [ſef] yn y carchar-dŷ, lle'r oedd Ioſeph yn rhwym.

4 A'r diſtain a wnaeth Ioſeph yn olygwr arnynt hwy: yna efe ai gwaſanaethodd hwynt, a buant hwy mewn dalfa ddyddiau [lawer.]

5 Yna breuddwydiaſant freuddwyd ill dau, pob vn ei freuddwyd ei hun yn yr vn nôs [a] phob vn ar ol deongliad ei freuddwyd ei hun, y trulliad a'r pobydd, y rhai [oeddynt] eiddo brenin yr Aipht, ac yn rhwym yn y carchardŷ.

6 A'r borau y daeth Ioſeph attynt, ac a edrychodd arnynt, ac wele hwynt yn athriſt.

7 Ac efe a ymofynnodd a phennaethiaid Pharao, 'rhai [oeddynt] gyd ag ef mewn dalfa [yn] nhŷ ei feiſtr ef gan-ddywedyd: pa ham [y mae] eich wynebau yn ddrwg heddyw?

8 Yna y dywedaſant wrtho, breuddwydiaſom freuddwyd, ac nid [oes] ai deonglo ef: yna Ioſeph a ddywedodd wrthynt, onid i Dduw [y perthyn] dehōgli: mynegwch adolwyn i mi.

9 Yna y pen-trulliad a fynegodd ei freuddwyd ef i Ioſeph, ac a ddywedodd wrtho: yn fy mreuddwydd [yr oeddwn,] ac wele winwŷdden o'm blaen.

10 Ac yn y win-wŷdden [yr oedd] tair caingc, ac [yr ydoedd] hi megis yn blaendarddu: ei blodeun a dorraſſe allan, ei gwryſc hi oeddynt addfed [eu] grawn-win.

11 Hefyd [yr oedd] cwppan Pharao yn fy llaw, a chymmerais y grawn-wîn, a gweſcais hwynt i gwppan Pharao, a rhoddais y cwppan yn llaw Pharao.

12 Yna Ioſeph a ddywedodd wrtho ef, dymma ei ddeongliad ef: tri diwrnod yw y tair caingc.

13 O fewn tri diwrnod etto Pharao a dderchafa dy ben di, ac a'th rŷdd di eilwaith yn dy ſwydd, a rhoddi gwppan Pharao yn ei law ef fel y buoſt arferol yn y cyntaf pan oeddyt drulliad iddo.

14 Etto cofia fi gyd a thi, pan fo daioni i ti, a gwna attolwg a mi drugaredd a choffa fi wrth Pharao, a dwg fi allan o'r tŷ hwn.

15 O blegit yn lledrad i'm lladrattawyd o wlâd yr Hebreaid, ac ymma hefyd ni wneuthum ddim, fel y goſodent fi yng-harchar.

16 Pan welodd y pen-pobydd mai daioni a ddeonglaſe efe, yna y dywedodd wrth Ioſeph, minne hefyd [oeddwn] yn fy mreuddwyd, ac wele dri chawell rhwyd-dylloc ar fy mhen.

17 Ac yn y cawell vchaf [yr oedd] peth o bôb bwyd Pharao o waith pobydd: ar ehediaid yn eu bwytta hwynt o'r cawell oddi ar fy mhen.

18 Yna Ioſeph a attebodd, ac a ddywedodd, dymma ei ddeongliad ef: tri diwrnod yw y tri chawell.

19 O fewn tri diwrnod etto y cymmer Pharao dy benn di oddi arnat, ac a'th groga di ar brenn, a'r ehediaid a fwyttant dy gnawd ti oddi am danat.

20 Ac ar y trydydd dydd, yr oedd dydd ganedigaeth Pharao, yna efe a wnaeth wledd, iw holl weiſion, ac efe a dderchafodd ben y pen-trulliad, a phen y pen-pobydd ym myſc ei weiſion ef.

21 Ac a oſododd y pen-trulliad eilwaith yn ei ſwydd, ac yntef a roddes y cwppan i law Pharao.

22 A'r pen-pobydd a grogodd efe, fel y dehongliaſe Ioſeph iddynt hwy.

23 Ond y pen-trulliad ni chofiodd Ioſeph eithr anghofiodd ef.

## P E N. X L I.

26 Dehongliad breuddwyd Pharao. 40 Ioſeph yn lywyawdur ar yr holl Aipht. 50 Ganedigaeth dauſab Ioſeph, Manaſſes, ac Ephraim. 54 Y newyn yn dechreu ar hyd yr holl wledydd.

YNa ym mhen dwy flynedd lawn y bu i Pharao freuddwydio: ac wele efe yn ſefyll wrth yr afon.

2 Ac wele yn eſcyn o'r afon ſaith [o] wartheg têg yr olwg, a thewon o gîg, ac mewn gwyrglodd-dir y poraſent.

3 Wele hefyd ſaith o wartheg eraill yn eſcyn ar eu hol hwynt o'r afon yn ddrwg yr olwg, ac yn gulion o gîg: a ſafaſant yn ymyl y gwartheg [cyntaf] ar lann yr afon.

4 A'r gwartheg drwg yr olwg a chulion o gîg a fwyttaſant y gwartheg têg yr olwg, a breiſion: yna y y dihunodd Pharao.

5 Efe a gyſcodd hefyd, ac a freuddwydiodd eil-waith: ac wele ſaith o dwyſennau yn tyfu ar vn gorſen, o [dwyſennau] breiſcion a dâ.

6 Wele hefyd ſaith o dwyſennau teneuon, ac wedi eu deifio gan wynt y dwyrein, yn tarddu allan ar eu hol hwynt.

7 A'r twyſennau teneuon a lyngcaſant y ſaith dwyſen fraiſc, a llawn: yna y deffroawdd Pharao, ac wele breuddwyd [oedd.]

8 Ac yn forēu y darfu iw yſpryd gynhyrfu, yna efe a anfonodd, ac a alwodd am holl ddewiniaid yr Aipht, ai holl ddoethion hi: a Pharao a fynegodd iddynt hwy ei freuddwydion: ond nid [oedd] ai deongle hwynt i Pharao.

9 Yna y llefarodd y pen-trulliad wrth Pharao, gan ddywedyd: yr wyf fi yn coffio fy meiau heddyw.

10 Llidio a wnaethe Pharao wrth ei weſion, ac efe a'm rhoddes mewn carchar [yn] nhŷ y diſtain, myfi a'r pen-pobydd.

11 Yna y breuddwydiaſom freuddwyd yn yr vn nos, mi ag ef: breuddwydiaſom bob vn ar ol deongliad ei freuddwyd ei hun.

12 Ac [yr oedd] yno gyd a nyni langc o Hebread, gwâs i'r diſtain, pan fynegaſom [ein breuddwydion] iddo ef, yntef a ddeonglodd *i ni ein breuddwydion, yn ol breuddwyd pôb vn, y deongliodd efe.

Geneſ 40.5.
Pſal.105 20.

13 A darfu fel y deonglodd i ni felly y bu: rhoddwyd fi eilwaith i'm ſwydd, ac yntef a grogwyd.

14 Pharao gan hynny a anfonodd, ac a alwodd am Joſeph: hwytheu ar redec ai cyrchaſant ef, o'r carchar: yntef a eilliodd [ei walle,] ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth at Pharao.

15 A Pharao a ddywedodd wrth Joſeph, breuddwydiais freuddwyd, ac nid [oes] ai deonglo ef: ond myfi a glywais ddywedyd am danat ti, y gwrandewi freuddwyd iw ddeonglu.

16 Yna Joſeph a attebodd Pharao gan ddywedyd: Duw nid myfi a ettyb lwyddiant i Pharao.

17 Pharao gan hynny a ddywedodd wrth Joſeph: wele fi yn fy mreuddwyd yn ſefyll ar fin yr afon.

18 Ac wele 'n eſcyn o'r afon ſaith o wartheg tewon o gîg, a theg yr olwg, ac mewn gwyrglodd-dir y poraſent.

19 Wele hefyd ſaith o wartheg eraill yn eſcyn ar eu hôl hwynt, culion, a thra drwg yr olwg, ac yn druain o gîg: ni welais rai cynddrwg a hwynt yn holl dir yr Aipht.

20 A'r gwartheg culion, a drwg a fwyttaſant y ſaith muwch tewon cyntaf.

21 Er eu myned iw boliau, ni wyddyd iddynt fyned iw boliau, canys yr olwg arnynt oedd ddrwg megis yn y dechreuad: yna mi a ddeffroais,

22 Gwelais hefyd yn fy mreuddwyd, ac wele ſaith dwyſen llawn, a thêg yn cyfodi o'r vn gorſen.

23 Ac wele ſaith dwyſen teneuon, meinion, wedi eu deifio [gan] ddwyrain-wynt yn tyfu ar eu hol hwynt.

24 Yna y twyſennau teneuon, a lyngcaſant y ſaith dwyſen dêg: a dywedais [hyn] wrth y dewiniaid, ond nid oedd ai deongle i mi.

25 Yna y dywedodd Joſeph wrth Pharao, breuddwyd Pharao ſydd vn, yr hyn y mae Duw yn ei wneuthur a fynegodd efe i Pharao.

26 Y ſaith o wartheg têg ſaith mlynedd [ydynt] hwy: a'r ſaith dwyſen têg, ſaith mlynedd [ydynt] hwy, vn breuddwyd yw hyn.

27 Hefyd y ſaith muwch culion a drwg y rhai [oeddynt] yn eſcyn ar eu hol hwynt, ſaith mlynedd [ydynt] hwy: a'r ſaith dwyſen gwag gwedi eu deifio [gen] y dwyrain wynt, a fyddant ſaith mlynedd o newyn.

28 Hwn yw y peth yr hwn a ddywedais i wrth Pharao: yr hyn a wna Duw efe ai dangoſodd i Pharao.

29 Wele ſaith mlynedd yn dyfod: o amldra mawr trwy holl wlad yr Aipht.

30 Ond ar eu hol hwynt y cyfyd ſaith mlynedd o newyn, fel yr anghofir yr holl amlder trwy wlad yr Aipht: a newyn a ddifetha y wlâd.

31 Ac ni wybyddir [oddi wrth] yr amldra cyntaf trwy y wlâd, o herwydd y newyn hwnnw yr hwn [a fydd] wedi hynny: o blegit trwm iawn [fydd] ef.

32 Hefyd am ddyblu y breuddwyd i Pharao ddwywaith, [hynny a fu] o blegit ſiccrhau y peth gan Dduw, a bod Duw yn bryſſio iw wneuthur.

33 Weithian gan hynny edryched Pharao [am] wr deallgar a doeth, a goſoded ef yn ſwyddog ar wlâd yr Aipht.

34 Gwnaed Pharao hyn, ſef goſoded olygwyr ar y wlâd a chymmered bummed ran [cnwd] gwlad yr Aipht tros ſaith mlynedd yr amldra.

35 Yna caſglant holl ymborth y blynyddoedd daionus hynny y rhai ydynt ar ddyfod: ſef caſclant ŷd dan law Pharao, a chadwant [ymborth] mewn dinaſoedd.

36 A bydded yr ymborth yng-hadw i'r wlâd tros ſaith mlynedd y newyn, y rhai fyddant yng-wlad yr Aipht, fel na ddifether y wlâd gan y newyn.

37 A'r peth oedd dda yng-olwg Pharao ac yng-olwg ei holl weiſion.

38 Yna y dywedodd Pharao wrth ei weiſion, a gaem ni ŵr fel hwn, yr hwn [y mae] yſpryd Duw yndo.

39 Dywedodd Pharao hefyd wrth Ioſeph, wedi gwneuthur o Dduw i ti wybod hyn oll, nid deallgar, na doeth neb wrthit ti.

Pſal.105.21. 1.Macha.2.53. Act.7.10.

40 Ty di a* oruwchwili fy nhŷ fi, ac ar dy fin y cuſana fy mhobl oll: [yn] y deyrn-gader yn vnic y byddaf fwy na thy di.

41 Yna y dywedodd Pharao wrth Ioſeph, edrych, rhoddais di [yn ſwyddog] ar holl wlad yr Aipht.

42 A thynnod Pharao ei fodrwy oddi ar ei law, ac ai rhoddes hi ar law Ioſeph, ac ai gwiſcodd ef mewn gwiſcoedd ſidan ac a oſododd gadwyn aur 'am ei wddf ef.

43 Ac a wnaeth iddo ef farchogeth yn yr ail cerbyd yr hwn [oedd] iddo ef ei hun: a llefwyd oi flaen ef Abrec: felly y goſodwyd ef ar holl wlad yr Aipht.

44 Dywedodd Pharao hefyd wrth Ioſeph my fi [y dwyf] Pharao: ac hebot ti ni chyfyd gŵr ei law, nai droed trwy holl wlad yr Aipht.

45 A Pharao a alwodd henw Ioſeph Zaphnath Paaneah, ac a roddes iddo Aſnath merch Potiperah offeiriad On yn wraig: yna yr aeth Ioſeph allan dros wlad yr Aipht.

46 Ac Ioſeph [ydoedd] fâb deng-mlwydd ar hugain pan ſafodd ef ger bron Pharao brenin yr Aipht: ac Ioſeph aeth allan o wydd Pharao, ac a dramwyodd drwy holl wlad 'r Aipht.

47 A'r ddaiar a gnydiodd, tros ſaith mlyned yr amldra, yn ddyrneidiau.

48 Yntef a gaſclodd holl ymborth y ſaith mlynedd y rhai a fuant yng-wlad yr Aipht, ac a roddes ymborth mewn dinaſoedd: ymborth maes y ddinas yr hwn [fyddei] oi hamgylch, a roddes ef oi mewn.

49 Felly Ioſeph a gynnullodd ŷd fel tywod y môr, yn dra lluoſoc, hyd oni pheidiodd ai rifo, o blegit [yr ydoedd] heb rifedi.

50 Ond cyn dyfod [vn] flwyddyn o newyn y* ganwyd i Ioſeph ddau fâb, y rhai a ymddûg Aſnath merch Potiperah offeiriad On iddo ef.

Gen.46.20 & 48.5.

51 Ac Ioſeph a alwodd henw y cyntafanedic Manaſſes: oblegit [eb efe] Duw a wnaeth i mi anghofio fy llafur oll, a thylwyth fy-nhad oll.

52 Ac efe a alwodd henw 'r ail Ephraim, oblegit [eb efe] Duw 'am ffrwythlonodd i yng-wlad fyng-orthrymder.

53 Yna y darfu ſaith mlynedd yr amldra, y rhai a fuant yng-wlad yr Aipht.

54 A'r ſaith mlynedd newynoc, a ddechreuaſant ddyfod fel y dywedaſe Ioſeph: ac yr oedd newyn yn yr holl wledydd: ond yn holl wlad yr Aipht yr ydoedd bara.

55 Felly y newynodd holl wlad yr Aipht: 'ar bobl a waeddodd ar Pharao, am fara: a Pharao a ddywedodd wrth yr holl Aiphtiaid, ewch at Ioſeph: yr hyn a ddywedo efe wrthych gwnewch.

36 Y newyn hefyd ydoedd, ar holl wyneb y ddaiar: Ioſeph gan hynny a agorodd yr holl [leoedd] yr hai['r ydoedd ŷd] ynddynt, ac a werthodd 'ir Aiphtiaid: o blegit gorfuaſe y newyn yng-wlad yr Aipht.

57 A'm hynny ydaeth holl wledydd yr Aipht at Ioſeph i brynnu: o herwydd gorfuaſe y newyn yn yr holl wledydd.

## PEN. XLII.

Brodyr Ioſeph yn dyfod 'ir Aipht i brynnu yd. 7 Ioſeph yn eu hadnabod, ac yn eu holi hwynt. 24 yn rhoddi Simeon yng-harchar. 25 yn peri rhoi arian pob vn o honynt yn ei ſachau hwynt. 26 Hwythau yn cychwyn adref at eu tad i gyrchu Beniamin.

PAN welod Iacob fod ŷd yn yr Aipht, yna y dywedodd Iacob wrth ei feibion, pa ham yr edrychwch ar ei gilydd?

2 Dywedodd hefyd, wele clywais fod ŷd yn yr Aipht, ewch i wared yno, a phrynnwch i ni oddi yno, fel y bôm fyw, ac na byddom feirw.

3 Yna* dêc o frodyr Ioſeph a aethant i wared i brynnu ŷd 'or Aipht.

Act.7.12. Gen.37.5.

4 Ond ni ollynge Iacob Beniamin brawd Ioſeph gyd ai frodyr: o blegit eb efe, [ofni'r ydwyf] rhac digwyddo angau iddo ef.

5 Felly meibion Iſrael a ddaethant i brynnu ymmlhith y rhai oeddynt yn dyfod: o blegit yr ydoedd y newyn trwy wlad Canaan.

6 Ac Ioſeph yr hwn oedd lywydd ar y wlad oedd ei hun yn gwerthu i holl bobl y wlâd: felly brodyr Ioſeph a ddaethant, ac a ymgrymmaſant i lawr iddo ef [ar eu] hwynebau.

7 Yna Ioſeph a ganfu ei frodyr, ac ai hadnabu hwynt, ac a ymddieithrodd iddynt hwy, ac a ymddiddanodd a hwynt yn galed, ac a ddywedodd wrthynt hwy, o ba le y daethoch? hwythau a attebaſant, o wlâd Canaan i brynnu llyniaeth.

8 Ac Ioſeph oedd yn adnabod ei frodyr, ond nid oeddynt hwy yn ei adnabod ef.

9 Ioſeph wrth hynny a gofiodd * ei freuddwydion, yr hai a freuddwydiaſe ef 'am danynt hwy, ac a ddywedodd wrthynt: ſpiwyr [ydych] chwi, i edrych noethder y wlâd y daethoch.

10 Hwythau a ddywedaſant wrtho ef, nage fy arglwydd: onid dy weiſion a ddaethant i brynnu llyniaeth.

11 Nyni oll [ydym] feibion vn gŵr, inion [ydym] ni: nid yw dy weiſion di ſpiwyr.

12 Yntef a ddywedodd wrthynt hwy, nage onid i edrych noethder y wlâd y daethoch.

13 Hwythau a ddywedaſant, dy weiſion di [a fuant] ddeuddeng mhrodyr: ny ni [ydym] feibion vn gŵr yng-wlâd Canaan: ac wele [y mae] yr ieuangaf heddyw gyd a'n tâd ni, a'r llall nid yw [fyw.]

14 Yna Ioſeph a ddywedodd wrthynt, dymma yr hynn a adroddais wrthych, gan ddywedyd: ſpiwir [ydych] chwi.

15 Wrth hyn 'ich profir: einioes Pharao

[a goller]os ewch allan oddi ymma,onid drwy ddyfod 'och brawd ieuangaf ymma.

16 Hebryngwch vn o honoch,i gyrchu eich brawd, a rhwymer chwitheu, fel y profer eich geiriau chwi,a[oes] gwirionedd ynoch: o blegit onid [oes] (myn enioes Pharao) ſpiwŷr yn ddiau [ydych] chwi.

17 Felly efe ai rhoddodd hwynt yng-harchar dridiau.

18 Ac yn y trydydd dydd y dywedodd Ioſeph wrthynt, gwnewch hyn fel y byddôchfyw, ofni Duw 'r wyf fi.

19 Os inion [ydych] chwi, rhwymer vn brawd i chwi yn eich carchardŷ: ac ewch chwitheu,dygwch ŷd [rhac] newyn 'ich tylwyth.

Gen.45.5. 20 A*dygwch eich brawd ieuangaf attaf fi, fel y cywirer eich geiriau chwi, ac na byddoch feirw: hwythau a wnaethant felly.

21 Ac a ddywedaſant bôb vn wrth ei gilydd diau bechu o honom yn erbyn ein brawd: o blegit gweled a wnaethom gyfyngdra ei galon ef, pan ymbiliodd efe arni, ac nis gwrandawſom ef: 'am hynny y daeth y cyfyngdra hwn arnõ ni.

Gen.37.21. 22 Yna Ruben ai hattebôdd hwynt gan ddywedyd,oni ddywedais wrthych gan ddywedyd: na phechwch yn erbyn yr herlod, ac ni wrandawech, wele am hynny ynte y gofynnir ei waed ef.

23 Ac nis gwyddynt hwy fod Ioſeph yn clywed: 'am [fod] y cyfiaithudd rhyngddynt.

24 Yntef a ddychwelodd oddi wrthynt, ac a wylodd,ac a ddaeth eilchwel attynt,ac a leſarodd wrthynt hwy, ac a gymmerth oi myſc hwynt Simeon, ac ai rhwymodd ef o flaen eu llygaid hwynt.

25 Ioſeph hefyd a orchymynnodd lenwi o honynt eu ſachau hwynt o ŷd, a rhoddi trachefn arian pôb vn [o honynt] hwy yn ei ſach ef, a rhoddi bwyd iddynt iw fwytta ar y ffordd, ac felly y gwnaeth iddynt hwy.

26 Hwythau a gyfodaſant eu hŷd ar eu haſſynod hwynt, ac a aethant oddi yno.

27 Ac vn a agorodd ei ſach ar fedr rhoddi ebran iw aſſyn yn y llettŷ ac a ganfu ei arian, canys wele hwynt yng-enau ei ffettan.

28 Ac a ddywedodd wrth ei frodyr rhoddwyd adref fy arian, ac wele [hwynt] hefyd yn fy ffettan: yna y digalonnaſant hwynt, ac a ddychrynnaſant gan ddywedyd bawb wrth ei gilydd: pa ham y gwnaeth Duw ini hyn?

29 Felly y daethant at Iacob eu tâd hwynt, i wlâd Canaan, ac a fynegaſant iddo ef eu holl ddamweiniau hwynt, gan ddywedydd.

30 Dywedodd y gŵr [yr hwn oedd] arglwydd y wlâd wrthym ni yn galed:ac a'n rhoddodd ni fel ſpiwyr y wlâd.

31 Minnau a ddywedaſom wrtho ef [yr ydym] ni yn inion: nid ſpiwyr ydym.

32 Deuddec o frodyr [oeddem] ni,meibion ein tâd ni: vn nid yw [fyw,] ac [y mae] yr ieuangaf heddyw gyd a'n tâd ni yng-wlâd Canaan.

33 Yna y dywedodd y gŵr [yr hwn] oedd arglwydd y wlâd wrthym ni: wrth hyn y caf wybôd mai inion [ydych] chwi, gedwch gyd a mi fi vn o'ch brodyr chwi, a chymerwch [lyniaeth i dorri] newyn eich teuluoedd,ac ewch ymmaith.

34 A dygwch eich brawd ieuangaf attaf fi fel y gwybyddwyf nad ſpiwyr [ydych] chwi,onid [eich bod] chwi 'n inion: [yna] y rhoddaf eich brawd i chwi, a chewch farchnatta trwy 'r wlâd.

35 Fel yr oeddynt hwy yn tywallt eu ſachau hwynt: yna wele godeu arian pôb vn yn ei ſâch: a phan welſant eu codeidiau arian, hwynt ai tâd a ofnaſant.

36 Yna Iacob eu tâd hwynt a ddywedodd wrthynt hwy, diblantaſoch fi: Ioſeph nid yw [fyw,] a Simeõ yntef nid [yw fyw] a Bẽiamin a ddygech ymmaith, yn fy erbyn y mae hyn oll.

37 Yna y dywedodd Ruben wrth ei dâd, gan ddywedyd: ei ladd fy nau fâb i, oni ddygaf ef trachefn attat ti: dyro ef yn fy llaw i, a mi ai dygaf ef attat ti eilwaith.

38 Yntef a ddywedodd,nid aiff fy mâb i waered gyd a chwy, o blegit bu farw ei frawd, ac yntef a adawyd ei hunan: pe digwydde iddo ef farwolaeth ar y ffordd, yr hon yr ewch rhyd-ddi, yna chwi a barech im pen-wynni ddeſcyn 'ir bedd mewn gofid.

## PEN. XLIII.

13 Iacob yn gollwng Beniamin gyd ai frodyr. 23 Simeon yn myned allan oi garchar. 30 Ioſeph yn tynnu 'or nailldu ac yn wylo. 32 brodyr Ioſeph yn câffel gwledd fawr ganddo ef.

AR newyn [oedd] drwm yn y wlâd.

2 Felly y bu pan orphennaſant fwytta 'r ŷd yr hwn a ddygaſent 'or Aipht ddywedyd oi tâd wrthynt hwy,ewch eilwaith prynnwch i ni ychydic lyniaeth.

3 Yna Iuda a attebodd,gan ddywedyd,gan rybuddio y rhybuddiodd y gŵr nyni, gan ddywedyd: *nac edrychwch [yn] fy wyneb hêb eich brawd gyd a chwi. Geneſ.42.20.

4 Os wyt ti yn anfon ein brawd gyd a ni,ni a awn i waered,ac a brynnwn i ti lyniaeth.

5 Ond os ti nid anfoni, nid awn i waered,o blegit y gŵr a ddywedodd wrthym ni, *nac edrychwch [yn] fy wyneb heb eich brawd gyd a chwi. Geneſ.42.20.

6 Yna Iſrael a ddywedodd, pa ham y drygaſoch fi,gan fynegu 'ir gŵr [fod] i chwi etto frawd.

7 Hwythau a attebaſant,gan ymofyn yr ymofynnodd y gŵr am danom ni, ac am ein cenhedlaeth ni gan ddywedyd: ai byw eich tâd chwi etto? a oes frawd i chwi? ninne a ddywedaſom wrtho ef,ar ol y geiriau hynny: a allem ni gan wybôd, wybôd y dywede efe? dygwch eich brawd i waered.

8 Iuda a ddywedodd hefyd wrth ei dad Iſrael

ſrael, gollwng y bachgen gŷd a ni, ninneu a gyfodwn, ac a awn ymmaith, fel y byddom byw, ac na byddom feirw: yn gyſtal nyni, a thithe, a'n plant ni.

9 Myfi a feichniaf[am dano]ef, o'm llaw i y gofynni ef,* onis dygaf ef attat ti, ai oſod ef ger dy fron di, yna y byddaf euog i'th erbyn byth.

Geneſ.44.32.

10 Canys pe na buſſem hwyrfrydic daethem eilchwael ymma ddwy waith bellach.

11 Yna Iſrael eu tâd hwynt a ddywedodd wrthynt, Os felly, gwnewch hyn: cymmerwch o ffrwythau canmoladwy y wlad yn eich lleſtri a dygwch yn anrheg i'r gŵr, ychydic balm, ac ychydic fêl, llyſſiau, a myrh, cnau, ac almonau.

12 Cymerwch hefyd ddau cymmeint o arian gyd a chwi, a dygwch eilwaith gyd a chwi yr arian, y rhai a roddwyd trachefn yng-enau eich ſachau chwi: onid odid amryfuſedd[fu]hynny.

13 Hefyd cymmerwch eich brawd, a chyfodwch ewch eilwaith at y gŵr.

14 A Duw oll alluog a roddo i chwi drugaredd ger bron y gŵr, fel y gollyngo i chwi eich brawd arall, a Beniamin: minne fel i'm diblantwyd a ddiblentir.

15 Felly y gwyr a gymmeraſant yr anrheg honno, a chymmeraſant arian yn ddwbl yn eu llaw hwynt, a Beniamin[hefyd]a chyfodaſant, ac aethant i wared i'r Aipht, a ſafaſant, ger bron Ioſeph.

16 Yna Ioſeph a ganfu Beniamin gyd a hwynt, ac a ddywedodd wrth yr hwn [oedd olygwr]ar ei dŷ ef, dwg y gwyr i'r tŷ a lladd laddfa, ac arlwya: o blegit y gwyr a gânt fwytta gyd a'm fi ar hanner dydd.

17 A'r gŵr a wnaeth fel y dywedodd Ioſeph: o blegit y gŵr a ddûg y dynion i dŷ Ioſeph.

18 A'r dynion a ofnaſant, pan ddycpwyd hwynt i dŷ Ioſeph, ac a ddywedaſant, o blegit yr arian (yr hai a roddwyd eilwaith yn êin ſachau ni yn y dechreuad) y dycpwyd nyni i mewn: i ymdreiglo arnom ni ac i ruthro inni, ac i'n cymmeryd ni yn gaethion, a'n haſſynod hefyd.

19 Yna y neſaſant at y gŵr 'r hwn[oedd olygwr] ar dŷ Ioſeph, ac a lefaraſant wrtho, wrth ddrws y tŷ.

Geneſ.43.3.

20 Ac a ddywedaſant [gwrando] arnaf fy arglwydd, gan ddeſcyn y deſcynnaſom yn y dechreuad, i brynnu llyniaeth.

21 A bu pan ddaethom i'r llettŷ, ac agoryd ein ſachau, yna wele arian pob vn ym mîn ei ſach ef: ein harian ni[meddaf]yn ei bwys, ond ni ai dygaſom elwaith yn ein llaw.

22 Dygaſom hefyd arian arall i wared yn ein llaw, i brynnu llyniaeth: nis gwyddom pwy a oſododd ein harian ni yn ein ffettanau.

23 Yntef a ddywedodd heddwch iwch: nac ofnwch, eich Duw chwi, a Duw eich tâd chwi, a roddes i chwi dreſor yn eich ſachau: daeth eich arian chwi attaf fi, ac efe a ddûg Simeon allan attynt hwy.

24 Felly y gŵr a ddûg y dynion i dŷ Ioſeph, ac a roddes ddwfr fel y golchent eu traed, ac a roddes ebran iw haſſynod hwynt.

25 Hwythau a ddarparaſant eu hanrheg, erbyn dyfod Ioſeph ar hanner dydd: o blegit clywſent mai yno y bwyttaent fwyd.

26 Pan ddaeth Ioſeph i'r tŷ, hwythau a ddygaſant iddo ef yr anrheg yr hon[oedd]ganddynt i'r tŷ, ac a ymgrymmaſant iddo ef hyd lawr.

27 Yntef a ofynnodd iddynt am eu hiechyd hwynt, ac a ddywedodd, ai iach yr hen-wr eich tâd chwi, 'r hwn y ſonniaſoch [am danaw?] ai byw ef etto?

28 Hwythau a ddywedaſant iach yw dy wâs, ein tâd ni, byw [yw] efe etto: yna yr ymgrymmaſant, ac yr ymoſtyngaſant.

29 Yntef a dderchafodd ei lygaid, ac a ganfu ei frawd Beniamin, mâb ei fam ei hun, ac a ddywedodd: ai dymma eich brawd iangaf chwi am yr hwn y dywedaſoch wrthif fi? yna y dywedodd, Duw a roddo grâs i ti fy mâb.

30 Ar hynny Ioſeph a fryſſiodd (o blegit cynheſſaſe ei ymyſcaroedd ef tu ag at ei frawd) ac a geiſſiodd [le] i wylo, ac a aeth i mewn i'r ſtafell, ac a wylodd yno.

31 Gwedi hynny[efe]a olchodd ei wyneb, ac a ddaeth allan, ac ai ymattaliodd ei hun, ac a ddywedodd goſodwch fwyd.

32 Hwythau a oſodaſant[fwyd]iddo ef wrtho ei hun, ac iddynt hwy wrthynt eu hun ac i'r Aiphtiaid y rhai oeddynt yn bwyta gyd ag ef wrthynt eu hunain: o blegit ni alle 'r Aiphtiaid fwytta bwyd gyd a'r Hebreaid, o herwydd ffieidd-dra oedd hynny gan yr Aiphtiaid.

33 Yna 'r eiſteddaſant ger ei fron ef, y cyntafanedic, yn ol ei gyntafanedigaeth: a'r ieuangaf ar ol ei ieuenctyd ef, a rhyfeddodd y gwŷr bob vn wrth ei gilydd.

34 Yntef a gymmerodd ſeigiau oddi ger ei fron ei hun iddynt hwy, a mwy ydoedd ſaig Beniamin o bum rhan nai ſeigiau hwynt oll: felly 'r yfaſant, ac y gwleddaſant gyd ag ef.

## PEN. XLIIII.

2 Ioſeph yn peri goſod cwppan arian yn ſach Beniamin.
15 Efe yn eu ceryddu hwynt am eu lladrad. 33 Iuda 'n ei gynnig ei hun yn wâs i Ioſeph, yn lle Beniamin.

YNa y gorchymynnodd i'r hwn [oedd olygwr]ar ei dŷ ef gan ddywedyd: llanw ſachau y gwyr o fwyd, cymmaint ac a allant ddwyn, a goſod arian pob vn yng-enau ei ſach.

2 A goſot fyng-hwppan fy hun[ſef]y cwppan arian yng-enau ſach yr ieuangaf, gyd ag arian ei ŷd ef: yntef a wnaeth ar ôl gair Ioſeph yr hwn a ddywedaſe efe.

3 Y borau a oleuodd, ar gwyr a ollyngwyd ymmaith, hwynt, ai haſſynnod.

4 Hwythau a aethant allan o'r ddinas [ac] nid aethent nepell, pan ddywedodd Ioſeph wrth yr hwn [oedd olygwr] ar ei dŷ ef: cyfot [a]dilyn ar ol y gwyr, fel y goddiweddech hwynt a dywet wrthynt, pa ham y talaſoch ddrwg am dda?

5 Onid dymma [y cwppan] yr hwn yr yfe fy arglwydd ynddo, a chan brophwydo y prophwyde ef wrtho: drwg y gwnaethoch yr hyn a wnaethoch.

6 Yntef ai goddiweddodd hwynt, ac a ddywedodd y geiriau hynny wrthynt hwy.

7 Yrhai a ddywedaſant wrtho yntef, pa ham y dywed fy arglwydd y cyfryw eiriau: na ado Duw i'th weiſion di wneuthur y cyfryw beth.

8 Wele dygaſom attat ti ailwaith o wlâd Canaan yr arian yr hwn a gawſom yng-enau ein ſachau: pa fodd gan hynny y ladrattaem arian, neu aur o dŷ dy arglwydd di:

9 Yr hwn o'th weiſion di y ceffir [y cwppan] gyd ag ef, bydded hwnnw farw: a ninnau hefyd a fyddwn weiſion i'm harglwydd.

10 Yntef a ddywedodd felly [y bydd] hyn yn awr fel y dywedaſoch chwi: yr hwn y ceffir [y cwppan] gyd ag ef a fydd was i mi, a chwithau a fyddwch ddiangol.

11 Hwythau a fryſiaſant, ac a ddeſcynnaſant bob vn ei ſach i lawr, ac a agoraſant bawb ei ffettan.

12 Yntef a chwiliodd: ar yr hynaf y dechreuodd, ac ar yr ieuangaf y diweddodd, a'r cwppan a gafwyd yn ſach Beniamin.

13 Yna y rhwygaſant eu dillad, ac a bynniaſant pawb ar ei aſſyn ac a ddychwelaſant i'r ddinas.

14 Ac Juda a ddaeth ai frodyr i dŷ Joſeph, ac efe etto yno: ac a ſyrthiaſāt i lawr ger ei fron ef.

15 Yna y dywedodd Joſeph wrthynt pa waith [yw] hwn yr hwn a wnaethoch: oni wyddech, mai gan brophwydo y prophwyde gwr yr hwn [a fydde] fel myfi:

16 Yna y dywedodd Juda pa beth a ddywedwn wrth fy arglwydd: pa beth a lefarwn: pa fodd yr ymgyfiawnhawn: cafodd Duw anwiredd dy weiſion: wele ni yn weiſion i'm harglwydd, ie nyni a'r hwn y cafwyd y cwppan yn ei law ef hefyd.

17 Yntef a ddywedodd na ado [Duw] i mi wneuthur hyn: y gŵr yr hwn y cafwyd y cwppan yn ei law, efe fydd wâs i mi: ewch chwithau i fynu mewn heddwch at eich tâd.

18 Yna 'r aeth Juda atto ef, ac a ddywedodd [gwrando] arnaf fy arglwydd, caffed attolwg dy wâs ddywedyd gair yng-hluſtiau fy arglwydd, ac nac enynned dy lid wrth dy wâs, o herwydd yr ydwyt ti megis Pharao.

19 Fy arglwydd a ymmofynnodd ai weiſion gan ddywedyd: a oes i chwi dâd neu frawd.

20 Ninnau a ddywedaſom wrth fy arglwydd, y mae i ni dâd yn hen-wr, a phlentyn ei henaint ef [ſydd] ieuangc, ai frawd fu farw, felly y gadawyd ef ei hunan oi fam ef: ai dâd ai hoffa ef.

21 Tithe a ddywedaiſt wrth dy weiſion dygwch ef i wared attaf fi fel y goſodwyf fy llygaid arno ef.

22 Yna y dywedaſom wrth fy arglwydd, y llangc ni ddichon ymadel ai dâd: o blegit os ymedu ef ai dâd marw fydd efe.

23 Tithe a ddywedaiſt wrth dy weiſion, *oni ddaw eich brawd ieuangaf i wared gyd a chwi, nac edrychwch [yn] fy wyneb mwy.

Geneſ.43.3.

24 Bu hefyd wedi ein myned ni i fynu at dy was fy nhâd inne, pan fynegaſom iddo ef eiriau fy arglwydd,

25 A dywedyd o'n tâd ewch eilwaith, prynnwch i'm ychydic lyniaeth,

26 Ddywedyd o honom ninne, nis gallwn fyned i wared: os bydd ein brawd ieuangaf gyd a ni, ny ni a awn i wared: o blegit ni allwn edrych [yn] wyneb y gŵr, a'n brawd ieuangaf heb ei [fod] gyd a ni.

27 Yna y dywedodd dy wâs fy nhad, wrthym ni: chwi a wyddoch mai dau a blantodd fyng-wraig i mi:

28 Ac vn a aeth allan oddi wrthif fi, minneu a ddywedais * yn ddiau gan larpio y llarpiwyd ef, ac nis gwelais ef hyd yn hyn.

Gen.37.33.

29 Os cymmerwch hefyd hwn ymmaith o'm golwg, a digwyddo marwolaeth iddo ef, yna y gwnewch i'm penllwydni ddeſcyn mewn goſid i fedd.

30 Bellach gan hynny pan ddelwyf at dy was fy nhâd, oni [bydd] y llangc gyd a mi (gan fod ei hoedl ef yng-lŷn wrth ei hoedl yntef.)

31 Yna pan welo ef na [ddaeth] y llangc, marw fydd efe: a'th weiſion a barant i benwynnedd dy was di ein tâd ni ddeſcyn mewn goſid i fedd.

32 Ar*feichniaeth y cafodd dy was y llangc oddi wrth fy nhâd gan ddywedyd: Onis dygaf ef attat ti, yna byddaf euog yn erbyn fy nhâd bŷth.

Gene.43.9.

33 Gan hynny weithian attolwg arhôſed dŷ wâs am y llangc, yn wâs i'm harglwydd, ac aed y llangc i fynu gyd ai frodyr.

34 O blegit pa fodd yr âf i fynu at fy nhâd, a'r llangc heb [fod] gyd a mi: rhac i mi weled y goſid yr hwn a gaiff fy nhad.

## PEN. XLV.

1 Ioſeph yn ymhyſpyſſu iw frodyr ac yn mynegu 'r achos y trefnaſe Duw ef i'r Aipht. 18 Pharao 'n gorchymyn i Ioſeph anfon am ei dâd. 24 Ioſeph yn erchi iw frodyr fod yn gytun. 27 Iacob yn ymlawenychu.

YNa Joſeph ni allodd ymmattall ger bron y rhai oll oeddynt yn ſefyll gyd ag ef: am hynny y llefodd, perwch allan bawb oddi wrthif, yna nid arhoſodd neb gyd ag ef, pan ymgydnabu Joſeph ai frodyr.

2 Ac efe a roddes ei lef mewn wylofain, fel y clybu 'r Aiphtiaid, ac y clybu tŷ Pharao.

3 Yna Joſeph a ddywedodd wrth ei frodyr, myfi [yw] Joſeph, ai byw fy nhâd etto: yna ei frodyr ni fedrent ei atteb ef, oblegit brawychaſent ger ei fron ef,

4 Joſeph hefyd a ddywedodd wrth ei frodyr, dyneſwch attolwg attafi, hwythau a ddyneſaſant: yntef a ddywedodd, *myfi [yw] Joſeph

Act.7.13.

eich brawd chwi, yr hwn a werthaſoch i'r Aipht.

5 Weithian gan hynny na thriſtewch, ac na ddigiwch wrthych eich hunain, a'm werthu o honoch fyfi ymma, o blegit i achub enioes yr hebryngodd Duw fyfi o'ch blaen chwi.

6 O blegit dymma ddwy flynedd o'r newyn o fewn y wlâd, ac [fe a fydd] etto bum mlhynedd, y rhai [fyddant] heb arddiad, na mediad.

Gene.50.20. 7 Am hynny yr *hebryngodd Duw fi o'ch blaen chwi i oſod i chwi hiliogaeth yn y wlâd, ac i beri bywyd i chwi, trwy ddirfawr ymwared.

8 Ac yr awr hon nid chwi a'm hebryngodd i ymma, onid Duw, ac efe a'm goſododd i yn dâd i Pharao, ac yn feiſtr ar ei holl dŷ ef, ac yn llywydd ar holl wlâd yr Aipht.

99 Bryſſiwch, ac ewch i fynu at fy nhâd, a dywedwch wrtho, fel hyn y dywed dy fâb Ioſeph, Duw a'm goſododd yn arglwydd ar yr holl Aipht: tyret i wared attaf, nâc oeda.

10 A chei drigo yng-wlâd Goſen, a bod yn agos attafi, ti a'th feibion, a meibion dy feibion, a'th ddefaid, a'th warthec, a'r hyn oll [ſydd] gennit.

11 Ac yno i'th borthaf, (o blegit pum mlhynedd o newyn [a fyddant] etto) rhac dy farw o eiſieu: ti a'th deulu, a'r hyn oll [ſydd] gennit.

12 Ac wele eich llygaid chwi, a llygaid fy mrawd Beniamin yn gweled, mai fyng-enau i [ſydd] yn ymadrodd wrthych.

13 Mynegwch hefyd i'm tâd, fy holl anrhydedd i yn yr Aipht, a'r hyn oll a welſoch: bryſſiwch hefyd, a dygwch fy nhâd i wared ymma.

14 Yna y ſyrthiodd ar wddf ei frawd Beniamin, ac a wylodd: Beniamin hefyd a wylodd ar ei wddf yntef.

15 Ac efe a guſſanodd ei holl frodyr, ac a wylodd wrthynt, ac yn ol hynny ei frodyr a chwedleuaſant ag ef.

16 A'r gair a ddaeth i dŷ Pharao, gan ddywedyd: brodyr Ioſeph a ddaethant, a da oedd [hyn] yng-olwg Pharao, ac yng-olwg ei holl weiſion.

17 A Pharao a ddywedodd wrth Ioſeph, dywet wrth dy frodyr, gwnewch hyn, llwythwch eich yſcrubliaid, a cherddwch, [ac] ewch i wlâd Canaan.

18 Yna cymmerwch eich tâd, a'ch teuluoedd chwi, a deuwch attaf fi: a rhoddaf i chwi ddaioni gwlad yr Aipht, a chewch fwytta braſter y wlad.

19 Fel yr ydwyf yn gorchymyni i ti, gwnewch hyn, cymmerwch i chwi o wlâd yr Aipht gerbydau i'ch plant, ac i'ch gwragedd: a chymmerwch eich tâd, a deuwch.

20 Ac nac arbeded eich llygad chwi [ddim] dodrefn: o blegit dâ holl wlâd yr Aipht fydd eiddo chwi.

21 A meibion Iſrael a wnaethant felly, a rhoddodd Ioſeph iddynt hwy gerbydau yn ol gorchymyn Pharao, a rhodd iddynt fwyd ar hyd y ffordd.

22 I bôb vn o honynt oll y rhoddes bâr o ddillad, ond i Beniamin y rhoddes dry chant [o ddarnau] arian, a phum pâr o ddillad.

23 Hefyd iw dâd yr anfonodd fel hyn: dêc o aſſynod yn cludo [llwythau] o dda'r Aipht a dêc o aſſynod yn dwyn ŷd, bara, a bwyd iw dâd ar hyd y ffordd.

24 Yna y gollyngodd ymmaith ei frodyr, y rhai a aethant ymmaith: dywedaſe hefyd wrthynt hwy, nac ymryſonwch ar y ffordd.

25 Felly 'r aethant i fynu o'r Aipht, ac a ddaethant [i] wlad Canaan, at eu tâd Iacob.

26 Ac a fynegaſant iddo ef gan ddywedyd: y mae Ioſeph etto 'n fyw, ac yn ddiau y mae yn llywodraethu ar holl wlad yr Aipht: yna y lleſcaodd ei galon yntef, o blegit nid oedd yn credu iddynt hwy.

27 Traethaſant hefyd iddo ef holl eiriau Ioſeph, y rhai o ddywedaſe efe wrthynt hwy: a phā gāfu efe y cerbydau, 'rhai a anfonaſe Ioſeph iw ddwyn ef, yna y bywiogodd yſpryd Iacob eu tâd hwynt.

28 Yna y dywedodd Iſrael, digon [ydyw bôd] Ioſeph fy mâb etto 'n fyw: âf fel y gwelwyf ef cyn fy marw.

## PEN. XLVI.

1 Mynediad Iacob i'r Aipht. 8 Pa hiliogaeth oedd iddo 'r amſer hwnnw. 29 Ioſeph yn cyfarfod ai dâd.

YNa y cychwnnodd Iſrael, a'r hyn oll oedd ganddo, ac a ddaeth i Beerſeba, ac a aberthodd ebyrth i Dduw ei dâd Iſaac.

2 Yna y llefarodd Duw wrth Iſrael mewn gweledigaethau nôs, ac a ddywedodd, Iacob, Iacob: yntef a ddywedodd wele fi.

3 Yna y dywedodd, myfi [ydwyf] Dduw [ſef] Duw dy dâd, nac ofna rhac myned i wared i'r Aipht, canys goſodaf di yno yn genhedlaeth fawr.

4 Myfi âf i wared gyd a thi i'r Aipht, a myfi gan ddwyn i fynu, ath ddygaf di i fynu: Ioſeph hefyd a eſyd ei law ar dy lygaid.

5 Yna y cyfododd Iacob o Beerſeba, a meibion Iſrael a ddugaſant Iacob eu tâd, ai plant, ai gwragedd, yn y cerbydau y rhai a anfonaſe Pharao iw ddwyn ef.

6 Cymmeraſant hefyd eu hanifeiliaid, ai golud yr hyn a gaſglaſent yn nhîr Canaan, ac a ddaethant tua'r Aipht, *Iacob, ai holl hiliogaeth gyd ag ef. Ioſu.24.4. pſal.105.23. eſay.52.4.

7 Ei feibion, a meibion ei feibion gyd ag ef, ei ferched, a merched ei feibion, ai holl hâd a ddug efe gyd ag ef i'r Aipht.

8 Ac dymma henwau meibion Iſrael, y rhai a ddaethant i'r Aipht, Iacob, ai feibion, *cynfab Iacob [oedd] Ruben. Exod.1.1

9 A meibion Ruben, Hanoch, a Phalu, Heſron hefyd, a Charmi. num.26.5. 1.cron.5.1.

10 A meibion Simeon * Iemuel, ac Iamin, ac Ohad, ac Iachin, a Sohar, a Saul mâb y Canaanæes. Exod.6.15. 1.cron.4.24

1.Cron.6.1. 11 Meibion Lefi hefyd,*Gerſon,Cehath a
” Merari.
1.Cron.2.3. ” 12 A meibion Iuda *Er,ac Onan,a Selah,
” Phares hefyd, a Zarah,a buaſe farw Er ac Onan
” yn nhir Canaan. A meibion Phares oeddynt
” Heſron,a Hamul.
1.Cron.7.1. ” 13 Meibion Iſachar hefyd : * Thola, a
” Phuah, ac Iob,a Simron.
” 14 A meibion Zabulon,Sered,ac Elon, ac
” Iahelel.
” 15 Dymma feibion Lea y rhai a blantodd
” hi i Iacob ym Meſopotamia, a Dina ei ferch :
” ei feibion, ai ferched, [oeddynt] oll dri dŷn ar
” ddéc ar hugain.
” 16 A meibion Gad : Siphion, ac Haggi,
” Suni, ac Eſbon,Eri,ac Arodi,ac Areli.
1.Cro.7.30 ” 17 A meibion Aſer * Iimnah, ac Iiſuah, ac
” Iiſui,a Beriah,a Serah eu chwaer hwynt. A
” meibion Beriah : Heber,a Malchiel.
” 18 Dymma feibion Zilpha yr hon a rodd
” Laban i Lea ei ferch, a hi a blantodd y rhai hyn
” i Iacob[ſef]un dŷn ar bymthec.
” 19 Meibion Rahel,gwraig Iacob[oeddynt]
” Ioſeph a Beniamin.
” 20 Ac i Ioſeph y ganwyd yn nhîr yr Aipht
Gen.41.50 ” * Manaſſes,ac Ephraim, y rhai a blantodd Aſnath
” merch Potiperah offeiriad On.
1.Cron.7.6. & 8.1. ” 21 A meibion Beniamin : *Bela,a Becher,
” ac Aſbel,Gera,a Naaman, Ehi, a Ros, Muppim
” a Huppim,ac Ard,
” 22 Dymma feibion Rahel y rhai a blantodd
” hi i Iacob,yn bedwar dyn ar ddéc oll :
” 23 A meibion Dan[oedd]Huſim.
” 24 A meibion Nephthali : Iahſeel, a Guni,
” ac Ieſer,a Sillem.
” 25 Dymma feibion Bilha yr hon a rodd Laban
” i Rahel ei ferch : a hi a blantodd yrhai hyn
” i Iacob yn ſaith nŷn oll.
Exod.1.5. ” 26 Yr *holl ddynion y rhai a ddaethant gyd
Deut.10.22. ” ag Iacob i'r Aipht yn dyfod allan oi yſtlys ef
” heblaw gwragedd meibion Iacob[oeddynt] oll
” chwe dyn a thrugain.
” 27 A meibion Ioſeph y rhai a anwyd iddo
” ef yn yr Aipht[oeddynt]ddau ddyn: yr holl ddynion
” y rhai a ddaethant i'r Aipht o dŷ Iacob
” [oeddynt]ddec a thrugain.
” 28 Ac efe a anfonodd Iuda oi flaen at Ioſeph
i fynegu cyn ei ddyfodiad ef i Goſen : yna
y daethant i dîr Goſen.

29 Ac Ioſeph a ddarparodd ei gerbyd,ac a aeth i fynu i gyfarfod ag Iſrael ei dâd i Goſen. Yna efe a ymddangoſodd iddo : ac a ſyrthiodd, ar ei wddf, ac wylodd ar ei wddf ef ennyd.

30 Yna y dywedodd Iſrael wrth Ioſeph, byddaf farw bellach,wedi i'm weled dy wyneb, gan dy fod ti yn fyw etto.

31 A dywedodd Ioſeph wrth ei frodyr, ac wrth deulu ei dâd,mi a âf i fynu, ac a fynegaf i Pharao,ac a ddywedaf wrtho,fy mrodyr,a theulu fy-nhad, yrhai [oeddynt]yn nhir Canaan, a ddaethant attaf fi.

32 A dynion yn bugeilio defaid ydynt, canys perchennogion anifeiliaid yddynt, a ddugaſant[ymma]eu praidd, ai gwarthec, a'r hyn oll [oedd]ganddynt.

33 A bydded os geilw Pharao am danoch, a dywedyd,beth[yw]eich gwaith ?

34 Yna ddywedyd o honoch : dy weiſion fuant drin-wyr anifeiliaid , o'n hieuengctyd hyd yr awr hon : ie nyni a'n tadau hefyd : er mwyn cael o honoch drigo yn nhir Goſen. Canys ffieid-ddra'r Aiphtiaid[yw]pôb bugail praidd.

## PEN. XLVII.

Ioſeph yn dangos i Pharao ddyfod ei dad Iacob. 7 Iacob yn dyfod o flaen Pharao,yn dywedyd iddo ei oedran ac yn cael tír Goſen. 12. Ioſeph yn cael i Pharao,holl arian,anifeiliaid,a thiroedd yr Aiphtiaid am yd. 22 Hachoni Pharao iw offeiriaid. 29 Gofal Iacob am ei gladdedigaeth.

YNa y daeth Ioſeph, ac a fynegodd i Pharao, ac a ddywedodd : fy nhâd a'm brodyr,ai defaid, ai gwarthec,a'r hyn oll [oedd] ganddynt, a ddaethant o dîr Canaan, ac wele hwynt yn nhîr Goſen.

2 Ac efe a gymmerth ran oi frodyr [ſef] pum dŷn:ac ai goſododd hwynt o flaen Pharao.

3 Yna y dywedodd Pharao wrth ei frodyr ef, beth[yw] eich gwaith ? hwythau a ddywedaſant wrth Pharao : bugeilio defaid y mae dy weiſion,ie nyni a'n tadau hefyd.

4 Dywedaſant hefyd wrth Pharao, i ymdaith yn y tîr hwn y daethom, am nad[oes] borfa i'r defaid y rhai [ydynt] gan dy weiſion, canys trwm[yw]'r newyn yngwlad Canaan: ac yr awrhon attolwg caed dy weiſion drigo yn nhîr Goſen.

5 Yna y llefarodd Pharao wrth Ioſeph gan ddywedyd : dy dâd a'th frodyr, a ddaethant attat.

6 Tîr yr Aipht ſydd o'th flaen cyflea dy dâd a'th frodyr o fewn [rhan] oref y wlâd : trigant yn-nhîr Goſen, ac os gwyddoſt fod yn eu myſc wyr grymmus,goſod hwynt yn fugeiliaid ar yr hyn[ſydd]gennif i.

7 Yna y dûg Ioſeph Iacob ei dâd,ac ai goſododd ger bron Pharao,ac Iacob a fendithiodd Pharao :

8 Yna y dywedodd Pharao wrth Iacob, yng-hylch pa ſeint[yw] dyddiau blynyddoedd dy enioes ?

9 Ac Iacob a ddywedodd wrth Pharao,dyddiau blynyddoedd * fy ymdaith [ydynt] ddêc, ar hugain,a chan mhlynedd: ychydic,a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy enioes,ac ni chyrheudaſant ddyddiau blynyddoedd enioes fy nhadau : yn nyddiau eu hymdaith hwynt. Heb.11.9.13

10 Yna y bendithiodd Iacob Pharao, ac a ddaeth allan o ŵydd Pharao.

11 Ac Ioſeph a gyfleodd ei dâd,ai frodyr,ac a roddes iddynt etifeddiaeth yng-wlad yr Aipht yng-hwrr goref y wlâd yn-nhîr * Rameſes,fel y gorchymynnaſe Pharao. Exod.1.11.

12 Bwydodd Ioſeph hefyd ei dâd,ai frodyr,

a holl dŷ lwyth ei dâd, a bara fel [bwydo] ymmhen plentyn.

13 Ac nid oedd[bara]yn yr holl wlâd,canys y newyn oedd drwm iawn, fel yr oedd gwlad yr Aipht, a gwlad Canaan, yn dyddfu gan y newyn.

14 Caſclaſe Ioſeph hefyd yr holl arian, yr hyn a gawſyd yn-nhîr yr Aipht, ac yn-nhîr Canaan, am yr ymborth yr hwn a brynnaſent hwy, a dugaſe Ioſeph yr arian i dŷ Pharao.

15 Pan ddarfu yr arian o dir yr Aipht, ac o dir Canaan, yna'r holl Aiphtiaid a ddaethant at Ioſeph gan ddywedyd: moes i ni fara,canys pam y byddwn ni feirw ger dy fron?: o herwydd darfu yr arian.

16 Yna y dywedodd Ioſeph moeſwch eich anifeiliaid,a rhoddaf i chwi am eich anifeiliaid, os darfu'r arian.

17 Felly y dygaſant eu hanifeiliaid at Ioſeph,a roddes Ioſeph iddynt fara, am y meirch, ac am y cyfoeth defaid, ac am y cyfoeth gwarthec,ac am yr aſſynnod:ac ai cynhaliodd hwynt a bara, am eu holl anifeiliaid tros y flwyddyn honno.

18 A phan ddarfu y flwyddyn honno y daethant atto ef, yr ail flwyddyn, ac a ddywedaſant wrtho: ni chelwn oddi wrth ein harglwydd er darfod yr arian, a [myned ein]yſcrubiliaid a'n hanifeiliaid at fy arglwydd: ni adawyd [i ni] ger bron fy arglwydd,onid ein cyrph, a'n tîr.

19 Paham, y byddwn feirw o flaen dy lygaid?[cymmer]nyni a'n tîr,pryn ni a'n tîr am fara, ac nyni a'n tîr a fyddwn gaethion i Pharao, dod tithe i ni hâd fel y byddom fyw, ac na fyddom feirw, ac nad anghyfanedder ein tîr ni.

20 Felly y cymmerth Ioſeph holl dîr yr Aipht i Pharao, canys yr Aiphtiaid a werthaſant bôb un ei faes, o blegit y newyn a orchfygaſe arnynt: felly yr aeth y tîr i Pharao.

21 Y bobl hefyd a yrodd efe i ddinaſoedd, o'r naill gwrr i derfyn yr Aipht hyd ei chwrr [arall.]

22 Yn unic tîr yr offeiriaid ni phrynnodd efe, canys rhan[oedd]i'r offeiriaid oddi wrth Pharao, ai rhan yr hon a roddaſe Pharao iddynt a fwyttaſant hwy, am hynny ni werthaſant hwy eu tîr.

23 Dywedodd Ioſeph hefyd wrth y bobl, wele prynnais chwi heddyw, a'ch tîr i Pharao: wele i chwi hâd,heuwch chwithau y tîr.

24 A bydded i chwi roddi i Pharao y bummed ran o'r cnŵd,a bydded y pedair rhan i chwi, yn hâd i'r maes,ac yn ymborth i chwi,ac i'r rhai [ydynt]yn eich tai chwi,ac yn fwyd i'ch plant.

25 Yna y dywedaſant, cedwaiſt ni yn fyw, gâd i ni gael ffafor yng-olwg fy arglwydd, a byddwn weiſion i Pharao:

26 A goſododd Ioſeph hynny yn ddeddf hyd heddyw, ar dîr yr Aipht, am y bummed ran i Pharao onid tîr yr offeiriaid yn unic, nid oedd i Pharao.

27 Trigodd Iſrael hefyd yng-wlad yr Aipht o fewn tîr Goſen, ac ettifeddaſant ynddi,cynneddaſant hefyd,ac amlhauſant yn ddirfawr.

28 Iacob hefyd fu fyw yn nhîr yr Aipht, ddwy flynedd ar bymthec, felly'r oedd dyddiau Iacob, [ſef] blynyddoedd ei einioes ef,ſaith mlhynedd, a deugain,a chan mlhynedd.

29 Yna dyddiau Iſrael a neſaſant i farw, ac efe a alwodd am ei fab[ſef] am Ioſeph, ac a ddywedodd wrtho, attolwg o chefais ffafor yn dy olwg, *goſot ti yr awr hon dy law tann fy morddwyd, a gwna a mi drugaredd, a gwirionedb, attolwg na chleddech di fi yn yr Aipht. Gene.24.

30 Pan hunwyf gyd a'm tadau, yna dŵg fi o'r Aipht, a chladd fi yn eu beddrod hwynt, yntef a ddywedodd, mi a wnaf yn ol dy air.

31 Yna efe a ddywedodd twng wrthif, ac efe a dyngodd wrtho.Yna Iſrael a ymgrymmodd tua phen y gwely.

## PEN. XLVIII.

Ioſeph yn myned ai ddau fab i ymweled ai dâd yn ei glefyd. 3 Iacob yn adrodd i Ioſeph addewidion Duw. 5 Yn cymmeryd ei ddau fab ef yn eiddo ei hun. 14 Yn rhoddi y rhagor-fraint i'r ieuangaf. 21 Ac yn darogan eu dychweliad hwynt i dîr Canaan.

ABu wedi y petheu hyn, ddywedyd wrth Ioſeph, wele y mae dy dâd yn glâf: ac efe a gymmerth ei ddau fâb gyd ag ef, Manaſſes, ac Ephraim.

2 Yna y mynegodd [un] i Iacob,ac a ddywedodd,wele dy fâb Ioſeph yn dyfod attat, ac Iſrael a ymgryfhaodd, ac a eiſteddodd yn [ei] wely.

3 A dywedodd Iacob wrth Ioſeph,*Duw hollalluawg a ymddangoſodd i mi yn Luz, ofewn tîr Canaan, ac a'm bendithiodd: Gene.28.3

4 Dywedodd hefyd wrthif, wele fi yn peri it gynnyddu, amlhaf di hefyd, a rhoddaf di yn dyrfa o bobloedd, a rhoddaf y tîr hwn i'th hâd ti, ar dy ol di, yn etifeddiaeth dragywydd.

5 Ac yr awrhon dy ddau fâb * y rhai a anwyd i ti yn nhîr yr Aipht, cyn fy nyfod attat i'r Aipht eiddo fi [fyddant] hwy, Ephraim, a Manaſſes fyddant eiddo fi fel Ruben, a Simeon. Gene 41.50.

6 A'th blant y rhai a genhedlaiſt ar eu hôl hwynt fyddant eiddo ti dy hun, a'r enw eu brodyr y gelwir hwynt yn eu hettifeddiaeth.

7 A phan * ddaethym i o Meſopotamia, bu Rahel farw gyd a mi yn nhîr Canaan, ar y ffordd. pan [oedd] etto filldir o dîr hyd Ephrata:a chleddais hi ar ffordd Ephrata,honno[yw] Beth-lehem. Gen.35.19.

8 Yna y gwelodd Iſrael feibion Ioſeph, ac a ddywedodd pwy[yw]'rhai hyn?

9 Ac Ioſeph a ddywedodd wrth ei dâd,dymma fy meibiō mau fi y rhai a rodd Duw i mi ymma yntef a ddywedodd dŵg hwynt attolwg attafi

fel y bendithiwyf hwynt.

10 Llygaid Iſrael oeddynt hefyd drymmion gan henaint, [fel] na alle efe weled: pan ddygodd hwynt atto ef, yntef ai cuſanodd hwynt, ac ai coſleidiodd.

11 Dywedodd Iſrael hefyd wrth Ioſeph, ni feddyliais weled dy wyneb, etto wele parodd Duw i'm weled dy hâd hefyd.

12 Yna Ioſeph ai tynnodd hwynt allan oddiwrth ei liniau ef, ac a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb.

13 Cymmerodd Ioſeph hefyd hwynt ill dau Ephraim yn ei law ddehau o du aſſwy Iſrael, a Manaſſes yn ei law aſſwy o du dehau Iſrael: ac ai neſaodd atto ef.

14 Yna Iſrael a eſtynnodd ac a oſododd ei law ddehau ar benn Ephraim, (a hwn oedd yr ieuangaf) ai law aſſwy ar benn Manaſſes: deallaſe dan ei ddwylo mai Manaſſes [oedd] y cynfab.

15 Yna y bendithiodd efe Ioſeph ac a ddywedodd, Duw yr hwn y rhodiodd fy nhadau Abraham, ac Iſaac, ger ei fron: Duw yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf hyd y dydd hwn,

16 Yr angel yr hwn a'm gwaredodd fi o bôb drwg, a fendithio y llangciau, fy enw hefyd, ac enw fy nhadau, Abraham, ac Iſaac a alwer arnynt, heigiant hefyd yn lliaws, yng-hanol y wlâd.

17 Pan welodd Ioſeph oſod oi dâd ei law ddehau ar ben Ephraim, yna y bu anfodlon ganddo, ac efe a ddaliodd law ei dâd, iw ſymmud hi oddi ar benn Ephraim, ar ben Manaſſes.

18 Dywedodd Ioſeph hefyd wrth ei dâd, nid felly fy nhâd, canys dymma y cynfab: goſot dy law ddehau ar ei ben ef.

19 Ai dâd a ommeddodd, ac a ddywedodd, mi a wn, fy mab, mi a wn, bydd hwn hefyd yn bobl, a mawrheir hwn hefyd: ond er hynny ei frawd iangaf fydd mwy nac ef: ai hâd ef fydd genhedlaeth gyflawn.

20 Ac efe ai bendithiodd hwynt yn y dydd hwnnw, gan ddywedyd: ynot ti y bendithia Iſrael gan ddywedyd: goſſoded Duw di fel Ephraim, ac fel Manaſſes: ac efe a oſſododd Ephraim o flaen Manaſſes.

21 Dywedodd Iſrael hefyd wrth Ioſeph, wele fi yn marw, a bydd Duw gyd a chwi, ac efe a'ch dychwel chwi i dir eich tadau.

22 Ac mi a roddais i ti vn rhan goruwch dy frodyr, yr hon a ddygais o law 'r Amoriaid a'm cleddyf, ac a'm bŵa.

## PEN. XLIX.

Iacob yn bendithio ei feibion: ac yn Prophwydo am bôb vn o honynt. 29 yn dangos y llê y cleddyd ef. 33 Ac yn marw.

YNa y galwodd Iacob ar ei feibion, ac a ddywedodd: ymgeſglwch, fel y mynegwyf i chwi 'r hyn a ddamweinio i chwi yn y dyddiau diweddaf.

2 Ymgeſclwch, a chlywch meibion Iacob: ie gwrandewch ar Iſrael eich tâd.

3 Ruben fyng-hynfab, ti [oeddit] fyngrymm, a dechreuad fy nerth, rhagoriaeth braint, a rhagoriaeth cryfder.

4 Yſcafnder [oeddit] fel dwfr, ni ragori di, canys dringaiſt welau dy dâd: yna yr halogaiſt [hwynt,] fyng-wely a ddringodd efe.

5 Simeon, a Lefi [fuant] frodyr, offer trais [oedd] eu hanneddau.

6 Na ddeled fy enaid iw cyfrinach hwynt, fyngogoniant na ûna ai cynnulleidfa hwynt, canys yn eu dîg y lladdaſant ŵr, ac oi gwir fodd y diwreiddiaſant gaer.

7 Melldigedic fydd eu dîg, canys tôſt [oedd,] ai llîd, canys caled [fu,] rhannaf hwynt yn Iacob, a gwaſcaraf hwynt yn Iſrael.

8 Tithe Iuda, dy frodyr a'th glodforant di, dy law [fydd] yng-wart dy elynion, meibion dy dâd a ymgrymmant i ti.

9 Cenew llew [wyt] Iuda, o'r ſclyfaeth y daethoſt i fynu fy mâb: ymgrymmodd, gorweddodd fel llew, ac fel hên lew, pwy ai cyfyd ef?

10 Nid ymedu teyrn-wialen o Iuda, na deddf-wr oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddêl Silo: ac iddo ef [y bydd] vfydd-dod pobloedd.

11 Efe a rwym ei ebol wrth y winwydden, a llwdn ei aſſyn wrth y bêr win-wydden: golchodd ei wiſc mewn gwîn, ai ddillad yng-waed y grawn-wîn.

12 Côch [fydd] ei lygaid gan wîn, a gwyn [fydd] ei ddannedd gan laeth.

13 Zabulon a breſſwylia ym-mhorthloedd y môr, ac efe a fydd yn borthfa llongau, ai yſtlys fydd hyd Sidon.

14 Iſſacar yn aſſyn aſcyrnoc, a orwedd rhwng dau bwnn.

15 Ac a wel lonyddwch mai da yw, a'r ddaiar mai hyfryd: efe a ogwydda ei yſgwydd i gludo, ac a fydd yn gaeth tann deyrnged.

16 Dan a farn ei bobl fel vn o lwythau Iſrael.

17 Dan fydd farph ar y ffordd, a neidr ar y llwybr, yn brathu ſodlau y march, fel y ſyrthio ei farchog yn ôl.

18 Am dy iachadwriaeth di y diſglwliaf Arglwydd,

19 Gad, llu ai anrheithia, ac yntef a anrheitha o'r diwedd.

20 Am Aſſer bras [fydd] ei fwyd ef, ac efe a rydd ddainteithion brenhinol.

21 Nephthalim [fydd] ewig, wedi ei gollwng yn rhoddi geiriau têg.

22 Ioſeph [fydd] gangen yn cynnyddu, cangen yn cynnyddu wrth ffynnon ceingciau yn cerdded ar hyd mûr.

23 A'r ſaethyddion fuant chwerw wrtho ef, ac a ſaethaſant, ac ai caſauaſant ef.

24 Er hynny arhôdd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylo a gryfhaſant: o ddwylo [Duw] crŷf Iacob: oddi yno y [mae] bugail, [a] maen Iſrael.

25 Oddi wrth Dduw dy dâd, canys ef 'ath

gynnorthwyodd di,'ar holl alluoc, canys ef 'ath fendithiodd, a bendithion y nefoedd oddi vchod, a bendithion y dyfnder yn gorwedd iſſod, a bendithion y bronnau 'ar grôth.

26 Rhagorodd bendithion dy dâb fendithion fy rhieni hyd derfyn brynniau tragywyddoldeb: byddant ar ben Ioſeph, ac ar gorun yr hwn a nailltuwyd oddi wrth ei frodyr.

27 Beniamin a ſclyfaetha [fel] blaidd, y boreu y bwyttu 'r ſclyfaeth, ac ar bryd nawn y rhan yr yſpail.

28 Dymma ddeuddec llwyth Iſrael oll, ac dymma 'r hyn a lefarodd eu tâd wrthynt, felly y bendithiodd efe hwynt: pôb vn ŷn ol ei fendith y bendithiodd efe hwynt.

29 Yna y gorchymynnodd efe iddynt, ac a ddywedodd wrthynt, myfi a geſclir at fy mhobl, cleddwch fi gyd 'am tadau, yn yr ogof yr hon [ſydd] ym maes Ephron yr Hethiad.

30 Yn yr ogof yr hon [ſydd] ym maes Machpela, yr hon [ſydd] ar gyfer Mamre, yng-wlâd Canaan, yr hon a brynnodd Abraham gyd 'ar maes gan Ephron yr Hethiad, yn etifeddiaeth beddrod.

31 Yno y claddaſant Abraham a Sara ei wraig, yno y claddaſant Iſaac a Rebecca ei wraig, ac yno y cleddais i Lea.

32 Meddiant y maes ar ogof yr hon [ſydd] ynddo [a gaed] gan feibion Heth.

33 Pan orphennodd Iacob orchymyn iw feibion, efe a dynnodd ei draedd 'ir gwely, ac a fu farw a chaſglwyd ef at ei bôbl.

## PEN. L.

Arwyl Iacob ai gladdedigaeth. 19 Ioſeph yn madde iw frodyr. 23 yn cael gweled ei wyrion. 25 Ac yn marw.

YNA y ſyrthiodd Ioſeph ar wyneb ei dâd, ac a wylodd arno ef, ac ai cuſanodd ef.

2 Gorchymynnodd Ioſeph hefyd iw weiſion y meddygon bêrarogli ei dâd ef: felly y meddygon a bêraroglaſant Iſrael.

3 Pan gyflawnyd iddo ddeugain nhiwrnod, canys felly y cyflawnir dyddiau y pêr arogliad, yno 'r Aiphtiaid ai harwylaſant ef ddengnhiwrnod a thrugain.

4 Pan aeth dyddiau ei arwyl ef heibio, yna y llefarodd Ioſeph wrth deulu Pharao gan ddywedyd: ôs cefais yr awr hon ffafor yn eich golwg, lleferwch wrth Pharao attolwg gan ddywedyd.

Gen.47.29. 5 Fy nhâd * 'am tyngodd gan ddywedyd, wele fi yn marw, yn fy mêdd yr hwn a gloddiais 'im yng-wlad Canaan, yno 'im cleddi: ac yr awr hon caffwyf fyned i fynu attolwg, fel y claddwyf fy nhâd, yna mi a ddychwelaf.

6 A ddywedodd Pharao, dôs i fynu, a chladd dy dâd fel 'ith dyngodd.

7 Yna 'r aeth Ioſeph i fynu i gladdu ei dâd, a holl weiſion Pharao [ſef] henuriaid ei dŷ ef, a holl henuriaid gwlâd yr Aipht a aethant i fynu gyd ag ef.

8 Felly holl dŷ Ioſeph, ai frodyr, a thŷ ei dâd: eu plant yn vnic, ai defaid, ai gwarthec a adawſant yn-nhir Goſen.

9 Ac aeth i fynu gyd ag ef gerbydau a gwyr meirch hefyd, fel yr oedd llu mawr iawn.

10 A hwy a ddaethant hyd lawr dyrnu Atad, yr hwn oedd ar gyfer yr Iorddonen: ac a alaraſant yno alar mawr, a thrwm odieth, canys gwnaeth alar drôs ei dâd ſaith niwrnod.

11 Pan welodd y Canaaneaid, y rhai oeddynt yn preſſwylio y wlâd, y galar yn llawr dyrnu Atad: yna y ddywedaſant dymma alar trwm gan yr Aiphtiaid 'am hynny y galwaſant ei henw, Abel Miſraim, yr hwn [ſydd] ar gyfer yr Iorddonen.

12 Felly ei feibion a wnaethant iddo, megis y gorchymynnaſe efe iddynt.

13 Canys 'ei feibion ai dugaſant ef i wlâd Canaã, ac ai claddaſant ef yn ogof maes Machpela, * yr hon a brynnaſe Abraham gyd 'ar maes, yn etifeddiaeth beddrod, gan Ephron yr Hethiad, ar gyfer Mamre. Gen.23.16.

14 Yna y dychwelodd Ioſeph 'ir Aipht, efe, ai frodyr, 'ar rhai oll a aethant i fynu gyd ag ef i gladdu ei dâd, wedi iddo gladdu ei dâd.

15 Pan welodd brodyr Ioſeph farw oi tâd, yna y dywedaſant: Ioſeph ond odid 'an caſſâ ni, a chan dalu a dâl i ni 'r holl ddrwg yr hwn a dalaſom ni iddo ef.

16 A'm hynny 'r anfonaſant at Ioſeph i ddywedyd: dy dad a orchymynnodd o flaen ei farw gan ddywedyd:

17 Fel hyn y dywedwch wrth Ioſeph: attolwg madde 'r awr hon gamwedd dy frodyr, ai pechod hwynt: canys talaſant it ddrwg, ond yr awr hon madde attolwg gamwedd gweiſion Duw dy dâd: ac wylodd Ioſeph pan lefaraſant wrtho.

18 Ai frodyr a ddaethant hefyd, ac a ſyrthiaſant ger ei fron ef, ac a ddywedaſant wele ni 'n weiſion i ti.

19 A dywedodd Ioſeph wrthynt * nac ofnwch, canys, a [ydwyf] i yn lle Duw?: Gen.45.5.

20 Pan amcanaſoch ddrwg i'm herbyn, Duw ai amcanodd i ddaioni, er mwyn peri fel [y gwelir] heddyw cadw 'n fyw bobl lawer.

21 Am hynny nac ofnwch yr awr hon, myfi a'ch chynhaliaf chwi a'ch plant: ac efe ai cyſſurodd hwynt, ac a lefarodd wrth [fodd] eu calon.

22 Felly y trigodd Ioſeph yn yr Aipht, efe a theulu ei dâd, a bu Ioſeph fyw gan mlhynedd a dêg.

23 Gwelodd Ioſeph hefyd o Ephraim orwyrion, maethwyd hefyd feibion Machir fâb Manaſſes ar liniau Ioſeph.

24 A dywedodd Ioſeph wrth ei frodyr, myfi ſydd yn marw, a * Duw gan ymweled a ymwel a chwi, ac 'ach dwc chwi i fynu 'or wlâd hon 'ir wlâd yr hon trwy lŵ a addawodd efe i Abraham i Iſaac, ac i Iacob. Heb.11.22.

25 A

Exod.13.19. 25 A * thyngodd Ioſeph feibion Iſrael gan ddywedyd: Duw gan eich gofwyo 'ach gofwya chwi: dygwch chwithau fy eſcyrn i fynu oddi ymma.

26 Ac Ioſeph a fu farw yn fâb deng-mlwydd a chant: a hwy ai pêraroglaſant ef ac fe a oſodwyd mewn arch yn yr Aipht.

# Ail llyfr Moſes yr hwn a elwir Exodus.

## PENNOD. I.

1 Teulu Iacob yn yr Aipht. 8 Pharao newydd yn eu gorthrymmu hwynt. 15 y byd-wragedd yn arbed meibion yr Hebræeſau. 20 Duw yn ymgeleddu y byd-wragedd.

Dymma henwau meibion Iſrael y rhai a ddaethant i'r Aipht: gyd ag Iacob y daethant bôb vn ai deulu.

2 Ruben, Simeon, Lefi, ac Iuda.

3 Iſachar, Zabulon, a Beniamin.

4 Dan a Nepthali, Gad, ac Aſer.

5 A'r holl eneidiau a ddaethent allan o gorph Iacob oeddynt * ddeng-henaid a thri vgain: ac Ioſeph oedd yn yr Aipht. Gen.46.18. Deut.10.22.

6 Ac Ioſeph a fu farw, ai holl frodyr, 'ar holl oes honno.

7 A * meibion Iſrael a hiliaſant ac a gynnyddaſant, amlhauſant hefyd, a chryfhauſant yn ddirfawr odieth: a'r wlâd a lawnwyd o honynt hwy. Act.7.17.

8 Yna y cyfododd brenin newydd yn yr Aipht: yr hwn nid adnabuſe mo Ioſeph.

9 Ac efe a ddywedodd wrth ei bôbl: wele bobl meibion Iſrael yn amlach ac yn gryfach na nyni.

10 Deuwch, gwnawn yn gall iw herbyn: rhac amlhau o honynt, a phan ddigwyddo rhyfel ymgydio o honynt a'n caſeion, a rhyfela i'n herbyn a myned i fynu o'r wlâd.

11 Am hynny y goſodaſant feiſtred gwaith iw gorthrymmu ai clûd hwynt: a [phobl Iſrael] a adailadaſant i Pharao ddinaſoedd treſſorau [ſef] Pithom a Raamſes.

12 Ond fel y gorthrymment hwynt, felly 'r amlhaent, ac y cynnyddent: a chyfyng oedd arnynt o herwydd meibion Iſrael.

13 A'r Aiphtiaid a * gaethiwaſant feibion Iſrael yn dôſt.

14 A gwnaethant eu henioes hwynt yn chwerw drwy y gwaſanaeth caled mewn clai, ac mewn priddfain, ac ym mhob gwaſanaeth yn y maes: gyd ai holl waſanaeth yr hyn a ofynnaſant ganddynt yn dôſt.

15 A brenin yr Aipht a lefarodd wrth fyd-wragedd yr Hebræeſau: o ba rai henw vn [oedd] Siphra, a henw 'r ail Puah.

16 Ac efe a ddywedodd, pan fyddoch fyd-wragedd i'r Hebræeſau, a gweled o honoch eu heſcoredd-le: os mab fydd lleddwch ef, ond os merch bydded hi fyw.

17 Er hynny y byd-wragedd a ofnaſant Dduw, ac ni wnaethant yn ol yr hyn a ddywedaſe brenin yr Aipht wrthynt: eithr cadwaſant y bechgyn yn fyw.

18 A'm hynny brenin yr Aipht a alwodd am y byd-wragedd, ac a ddywedodd wrthynt, pa ham y gwnaethoch y peth hyn? ac y cadwaſoch y bechgyn yn fyw?

19 A'r byd-wragedd a ddywedaſant wrth Pharao nad [oedd] yr Hebræeſau fel yr Aiphtieſau: onid eu bôd hwynt yn fywioc, ac yr eſcorent cynn dyfod byd-wraig attynt.

20 A'm hynny y bu Duw dda wrth y byd-wragedd: 'ar bobl a amlhaodd, ac a aeth yn gryf iawn.

21 Ac o herwydd i'r byd-wragedd ofni Duw: yntef a wnaeth deuluoedd iddynt hwythau.

22 A Pharao a orchymynnodd iw holl bobl gan ddywedyd: pôb mâb a'r a enir bwriwch ef i'r afon, ond cedwch yn fyw bôb merch.

## PEN. II.

Geni Moſes ai fwrw i'r heſc. 5 Merch Pharao yn ei godi ai gadw. 12 Moſes yn lladd yr Aipht-ddyn. 15 yn ffoi, yn cael gwaſanaeth, ac yn priodi. 23 Marwolaeth Pharao, a gweddi Iſrael.

YNA * gŵr o dŷ Lefi aeth: ac a briododd ferch Lefi.

2 A'r wraig a feichiogodd, ac a eſcorodd ar fâb: a phan welodd hi mai têg ydoedd efe, yna * hi ai cuddiodd ef dri mis. Act.7.20. Heb.11.23.

3 A phan na alle hi ei guddio ef yn hwy, yna y cymmerodd gawell iddo ef o laſrwyn, ac a ddwbiodd hwnnw a chlai ac a phŷg: ac a oſododd y bachgen ynddo, ac ai rhoddodd ym myſc yr heſc 'ar fin yr afon.

4 Ai chwaer ef a ſafodd o bell: i gael gwybod beth a wneid iddo.

5 Yna merch Pharao a ddaeth i wared i'r afon i ymolchi,(ai llangceſau oeddynt yn rhodio ger llaw 'r afon:) a hi a ganfu y cawell ynghanol yr heſc ac a anfonodd ei llaw-forwyn iw gyrchu.

6 Wedi iddi ei agoryd a chanfod y bachgen, ac wele y plentyn yn wylo: yna hi a doſturiodd wrtho ac a ddywedodd,[vn] o blant yr Hebreaid [yw] hwn.

7 Yna ei chwaer ef a ddywedodd wrth ferch Pharao, a âſi i alw attat famhaeth-wraig o'r Hebræeſau, fel y mago hi y bachgen it?

8 A merch Pharao a ddywedodd wrthi, dôs: a'r llangces a aeth ac a alwodd fam y bachgen.

9 A dywedodd merch Pharao wrth honno dẃg ymmaith y bachgen hwnn, a maga ef i mi, a minne a roddaf dy gyflog: yna 'r wraig a gymmerodd y bachgen ac ai magodd.

10 Pan aeth y bachgen yn fawr, yna hi ai dug ef i ferch Pharao, ac efe a fu iddi yn lle mab: a hi a alwodd ei enw ef Moſes, o herwydd (ebr hi) o'r dwfr y tynnais ef.

11 A bu yn y dyddiau hynny pan aethe Moſes yn fawr, fyned o honaw allan at ei frodyr, ac edrych ar eu llwythau hwynt: a *gweled Aiphtwr yn taro Hebræ-wr[vn] o'i frodyr.

Act.7.24.

12 Ac efe a edrychodd ymma, ac accw, a phan welodd nad [oedd yno] neb: yna efe a laddodd yr Aiphtiad, ac ai cuddiodd yn y tyfod.

13 Ac efe a ddaeth allan yr ail dydd, ac wele ddau Hebræ-wr yn ymryſon: ac efe a ddywedodd wrth yr hwn oedd ar gam, pa ham y tarewi dy gyfaill?

14 A dywedodd yntef, pwy a'th oſododd di yn bennaeth-wr, ac yn frawd-wr arnom ni? ai meddwl yr wyti fy lladd i megis y lleddaiſt yr Aiphtiad? yna Moſes a ofnodd, ac a ddywedodd, diau y gwyddir y peth hyn.

15 Pan glubu Pharao y peth hyn, yna efe a geiſiodd ladd Moſes: ond Moſes a ffoawdd rhac Pharao, ac a arhoſodd yn-nhîr Madian, ac a eiſteddodd wrth bydew.

16 Ac i offeiriad Madian yr ydoedd ſaith merched: a'r [rhai hynny] a ddaethant, ac a dynnaſant [ddwfr,] ac a lanwaſant y caſnau i ddyfrhau defaid eu tâd.

17 Ond y bugeiliaid a ddaethant ac ai gyraſant ymmaith: yna y cododd Moſes, ac ai hachubodd hwynt, ac a ddyfrhaodd eu praidd hwynt.

18 Yna y daethant at Raguel eu tad: ac efe a ddywedodd, pa ham y daethoch heddyw cyn gynted?

19 A hwynt a ddywedaſant, Aiphtwr a'n hachubodd ni o law y bugeiliaid: a chan dynnu a dynnodd ddwfr hefyd, ac a ddyfrhaodd y praidd.

20 Yna efe a ddywedodd wrth ei ferched, pa le [y mae] efe? pa ham y gollyngaſoch ymmaith y gŵr? gelwch arno, a bwytaed fara.

21 A bu Moſes fodlon i drigo gyd a'r gwr: ac yntef a roddodd Sephora ei ferch i Moſes.

22 A hi a eſcorodd ar fab, ac efe a alwodd *ei enw Gerſhom: o herwydd dieithr (ebr ef) a fum mi mewn gwlad ddieithr.

Pen.18.4.

23 Ac o fewn y dyddiau hynny (y *rhai [oeddynt] llawer) y bu farw brenin yr Aipht, a meibion Iſrael a vcheneidiaſant rhac y caethiwed, ac a waeddaſant: ai gwaedd hwynt rhac y caethiwed a dderchafodd at Dduw.

Act.7.30.

24 Yna Duw a glybu eu huchenaid hwynt: a Duw a gofiodd ei gyfammod ag Abraham, ag Iſaac, ac ag Iacob.

25 A Duw a edrychodd ar feibion Iſrael: Duw hefyd a gydnabu[a hwynt.]

## PEN. III.

1 Moſes yn bugeilio defaid ei chwegrwn. 2 Duw yn ymddiddan a Moſes allan o'r berth. 10 Ac yn ei yrru yn waredydd i Iſrael.

PAn oedd Moſes yn bugeilio defaid Iethro ei chwegrwn offeiriad Madian: yna efe a yrodd y praidd o'r tu cefn i'r anialwch, ac a ddaeth i fynydd Duw[ſef] mynydd Horeb.

2 Yna angel yr Arglwydd a ymddangoſodd iddo mewn fflam dân o ganol y berth: ac efe a edrychodd ac wele y berth yn lloſci yn dân, a'r berth heb ei difa.

3 A dywedodd Moſes mi a giliaf yn awr ac a edrychaf ar y weledigaeth fawr hon: pa ham na lyſc y berth.

4 Pan welodd yr Arglwydd mai cilio yr oedd efe i edrych: yna Duw a alwodd arno o ganol y berth ac a ddywedodd Moſes, Moſes: a dywedodd yntef wele fi.

5 Ac efe a ddywedodd na neſſâ ymma, dioſc dy eſcidiau oddi am dy draed, o herwydd y lle 'r hwn yr wyti yn ſefyll arno ſydd ddaiar ſanctaidd.

6 Ac efe a ddywedodd *myfi[yw] Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Iſaac a Duw Iacob: yna Moſes a guddiodd ei wyneb, o blegit ofni'r ydoedd rhac edrych ar Dduw.

Matth.22.32.
Act.7.32.

7 A dywedodd yr Arglwydd, gan weled y gwelais gyſtudd fy mhobl y rhai [ydynt] yn yr Aipht: ai gwaedd rhac eu gorthrymwyr a glywais, canys adwen eu doluriau.

8 Am hynny y deſcynnais iw gwaredu hwynt o law 'r Aiphtiaid, ac iw dwyn o'r wlad honno, i wlad dda, a helaeth, i wlad yn llifeirio o laeth a mêl: i lê y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Phereziaid yr Hefiaid hefyd a'r Iebuſiaid.

9 Ac yn awr wele waedd meibion Iſrael a ddaeth attafi: a hefyd mi a welais y gorthrymder a'r hwn y gorthrymmodd yr Aiphtiaid hwynt.

10 Tyret gan hynny yn awr a mi a'th anfonaf at Pharao: fel y dygech allan o'r Aipht fy mhobl, meibion Iſrael.

11 Yna y dywedodd Moſes wrth Dduw, pwy ydwyfi fel yr awn i at Pharao? ac y dygwn feibion Iſrael allan o'r Aipht?

12 Dywedodd yntef diau y byddaf gyd a thi: a hyn a fydd arwydd it mai myfi a'th anfonodd: wedi it ddwyn fy mhobl allan o'r Aipht, chwi a waſanaethwch Dduw ar y mynydd hwn.

13 Yna y dywedodd Moſes wrth Dduw, wele [pan] ddelwyf fi at feibion Iſrael a dywedyd wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd attoch: os dywedant wrthif beth [yw] ei enw ef? beth a ddywedafi wrthynt?

14 Yna Duw a ddywedodd wrth Moſes Ydwyf yr hwn ydwyf: dywedodd hefyd fel hyn yr adroddi wrth feibion Iſrael Ydwyf a'm hanfonodd attoch.

15 A Duw a ddywedodd trachefn wrth Moſes fel hyn y dywedi wrth feibion Iſrael, Arglwydd Dduw eich tadau, Duw Abraham, Duw Iſaac, a Duw Iacob a'm hanfonodd attoch: dymma fy enw byth, a dymma fyng-hoffadwriaeth yn oes oeſoedd.

16 Dos a chynnull henuriaid Iſrael, a dywet wrthynt, Arglwydd Dduw eich tadau [ſef] Duw Abraham, Iſaac, ac Iacob a ymddangoſodd i mi, gan ddywedyd: gan ymweled yr ymwelais a chwi, ac a'r hynn a wnaed i chwi yn yr Aipht.

17 A dywedais mi a'ch dygaf chwi o adfyd yr Aipht i wlad y Canaaneaid, yr Hethiaid, yr Amoriaid, y Phereziaid yr Hefiaid hefyd a'r Iebuſiaid: i wlad yn llifeirio o laeth a mêl.

18 Felly y gwrandawant ar dy lais: ac y deui di a henuriaid Iſrael at frenin yr Aipht ac y dywedwch wrtho, Arglwydd Dduw yr Hebræaid a gyfarfu a ni, gan hynny yn awr gad i ni fyned attolwg daith tri diwrnod yn yr anialwch fel yr aberthom i'r Arglwydd ein Duw.

19 A mi a wn na edu brenin yr Aipht i chwi fyned: onid mewn llaw gadrn.

20 Am hynny mi a eſtynnaf fy llaw, ac a darawaf yr Aipht a'm holl ryfeddodau y rhai a wnaf yn ei chanol: ac wedi hynny efe a'ch gollwng chwi ymmaith.

21 A rhoddaf hawddgarwch i'r bobl hynn yng-olwg yr Aiphtiaid: a bydd pan eloch nad eloch yn wâglaw.

22 Canys [pob] gwraig a gais gan ei chymydoges, a chan yr hon fyddo yn cyttal a hi ddodrefn arian, a dodrefn aur, a gwiſcoedd: a chwi ai goſodwch [hwynt] am eich meibion, ac am eich merched, ac a yſpeiliwch yr Aiphtiaid.

## PEN. IIII.

Moſes yn cael gan Dduw wialen a droe yn ſarph, ac a ddatroe. 6 Llaw Moſes yn gwahanglwyfo. 10 Moſes yn ymeſcuſodi a Duw yn digio, ac yn rhoddi Aaron yn araith-wr iddo. 19 Moſes yn myned tua 'r Aipht. 24 Pericl ar Moſes nes i Saphora enwaedu ar ei mab. 27 Ac Aaron yn cyfarfod Moſes.

YNa Moſes a attebodd, ac a ddywedodd, etto wele ni chredant i mi ac ni wrandawant ar fy llais: onid dywedant nid ymddangoſodd yr Arglwydd i ti.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho beth ſydd yn dy law: dywedodd yntef gwialen.

3 Yna y dywedodd [yr Arglwydd] tafl hi ar y ddaiar, ac efe ai taflodd hi ar y ddaiar: a hi aeth yn ſarph, a Moſes a giliodd rhacddi.

4 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moſes, eſtyn dy law ac ymafel yn ei lloſcwrn: ac efe a eſtynnodd ei law ac a ymaflodd ynddi, a hi aeth yn wialen yn ei law ef.

5 [Gwna hyn] fel y credant ymddangos i ti o Arglwydd Dduw eu tadau: Duw Abraham, Duw Iſaac, a Duw Iacob.

6 A dywedodd yr Arglwydd wrtho drachefn, dod ti yn awr dy law yn dy fonwes, ac efe a roddodd ei law yn ei fonwes: a [phan] dynnodd ef y hi allan, yna wele ei law ef yn wahanglwyfol fel yr eira.

7 Ac efe a ddywedodd dod eil-waith dy law yn dy fonwes, ac efe a roddodd eil-waith ei law yn ei fonwes: ac ai tynnodd hi allan oi fonwes, ac wele hi a droaſe fel ei gnawd [arall] ef.

8 A bydd oni chredant i ti, ac oni wrandawant ar lais yr arwydd cyntaf: etto y credant i lais yr ail arwydd.

9 Ac oni chredant hefyd i'r ddau arwydd hyn, ac oni wrandawant ar dy lais, yna cymmer o ddwfr yr afon a thywallt ar y ſych-dir: felly y bydd y dyfroedd y rhai a gymmerech o'r afon yn waed ar y tîr ſych.

10 A dywedodd Moſes wrth yr Arglwydd [yſtyr] wrthifi Arglwydd, ni [bum] wr ymadroddus vn amſer, na chwaith er pan leferaiſt wrth dy wâs: eithr ſafn-drwm a thafod-trwm ydwyf.

11 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho, pwy a oſododd enau i ddŷn? neu pwy a ordeiniodd fudan, neu fyddar, neu weledydd, neu ddall? ond myfi'r Arglwydd?

12 Am hynny dôs yn awr: a mi a * fyddaf gyd a'th enau, ac a ddyſcaf i ti yr hyn a ddywedech.

Math. 10. 19.
Math. 12. 13.

13 Dywedodd yntef [yſtyr] wrthifi Arglwydd, a danfon attolwg gyd a [yr hwn] a ddanfonech.

14 Yna'r enynnodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn Moſes, ac y dywedodd, ond dy frawd [yw] Aaron y Lefiad? mi a wn y llefara efe yn groiw: ac wele efe yn dyfod allan i'th gyfarfod, a phan i'th welo efe a lawenycha yn ei galon.

15 Llefara dithe wrtho ef, a goſot y geiriau hynn yn ei enau: a minne a fyddaf gyd a'th enau di, a chyd ai enau yntef, a dyſcaf i chwi'r hynn a wneloch.

16 A llefared yntef droſot ti wrth y bobl: ac felly y bydd efe yn lle ſafn i ti, a thithe a fyddi yn lle Duw iddo yntef.

17 Cymmer hefyd y wialen hon yn dy law: yr hon y gwnei wrthiau a hi.

18 Yna Moſes aeth ac a ddychwelodd at

Iethro

Jethro ei chwegrwn, ac a ddywedodd wrtho, gad i mi fyned attolwg a dychwelyd at fy mrodyr y rhai [ydynt] yn yr Aipht, a gweled a ydynt etto yn fyw: a dywedodd Jethro wrth Moſes dos mewn heddwch.

19 (Canys dywedaſe'r Arglwydd wrth Moſes ym Madian, dôs dychwel 'ir Aipht: o herwydd bu feirw yr holl wyr y rhai oeddynt yn ceiſio dy enioes.)

20 Yna Moſes a gymmerth ei wraig, ai feibion, ac ai rhoddodd hwynt i farchogeth ar aſſyn, ac a ddychwelodd tua gwlad yr Aipht: cymmerodd Moſes hefyd wialen Duw yn ei law.

21 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, pan elech i ddychwelyd 'ir Aipht, gwel it wneuthur yr holl ryfeddodau y rhai a roddais yn dy law ger bron Pharao: ond mi a galedaf ei galon ef, fel na ollyngo ymmaith fy bobl.

22 Yna dywet wrth Pharao: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, fy mâb maufi, [ſef] fyng-hyntaf-anedic [yw] Iſrael.

23 Am hynny y dywedais wrthit, gollwng fy mab fel 'im gwaſanaetho, ond os gwrthodi ei ollwng ef: wele mi a laddaf dy fâb di [ſef] dy gyntaf-anedic.

24 A bu ar y ffordd yn y llettŷ: gyfarfod o'r Arglwydd ag ef, a cheiſio ei lâdd ef.

25 Ond Sephora a gymmerth [gyllell] lem, ac a dorrodd ddienwaediad ei mâb, ac ai bwriodd i gyffwrdd ai draed ef: ac a ddywedodd, diau dy [fod] yn briod gwaedlyd i mi.

26 A ['r Arglwydd] a beidiodd ag ef: (hi a ddywedaſe yna priod gwaedlyd, o blegit yr enwaediad.)

27 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron, dôs i gyfarfod a Moſes tua'r anialwch: ac efe aeth ac a gyfarfu ag ef ym mynydd Duw, ac ai cuſanodd ef.

28 A Moſes a fynegodd i Aaron holl eiriau 'r Arglwydd yr hwn ai hanfonaſe ef: 'ar holl arwyddion y rhai a orchymynnaſe efe iddo.

29 Yna'r aeth Moſes, ac Aaron: ac a gynnullaſant holl henuriàid meibion Iſrael.

30 Ac Aaron a draethodd yr holl eiriau y rhai a lefaraſe'r Arglwydd wrth Moſes: ac a wnaeth yr arwyddion yng-olwg y bobl.

31 A chredodd y bobl: a phan glywſant ymweled o'r Arglwydd a meibion Iſrael, ac iddo weled eu gorthrymder, yna hwynt a ymgrymmaſant, ac a addolaſant.

## PEN. V.

1 Moſes ac Aaron yn dywedyd eu cennadwriaeth wrth Pharao. 6 Pharao yn gorthrymmu 'r bobl waeth waeth. 20 Y bobl yn digio wrth Moſes ac Aaron.

AC wedi hynny Moſes ac Aaron a ddaethant, ac a ddywedaſant wrth Pharao: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, gollwng ymmaith fy mhobl fel y cadwant wyl i mi yn yr anialwch.

2 A dywedodd Pharao, pwy [yw]'r Arglwydd fel y gwrandawn i ar ei lais, i ollwng Iſrael ymmaith? yr Arglwdd nid adwen, ac Iſrael ni ollyngaf.

3 A dywedaſant hwythau, Duw'r Hebræaid a gyfarfu a ni: gad i ni fyned attolwg daith tri diau yn yr anialwch fel yr aberthom 'ir Arglwydd ein Duw rhac iddo ein rhuthro a haint neu a chleddyf.

4 Yna y dywedodd brenin yr Aipht wrthynt, Moſes ac Aaron pa ham y perwch i'r bobl beidio ai gwaith? ewch at eich clud.

5 Pharao hefyd a ddywedodd, wele pobl lawer [ſydd] yn awr yn y wlad: a pharaſoch iddynt beidio ai llwythau.

6 A'm hynny y gorchymynnodd Pharao y dydd hwnnw: i'r rhai oeddynt feiſtred gwaith ar y bobl ai goruchwil-wyr, gan ddywedyd.

7 Na roddwch mwyach wellt i'r bobl i wneuthur pridd-feini megis o'r blaen: elont eu hun a chaſclant wellt iddynt.

8 Er hynny rhifedi y pridd-feini y rhai yr oeddynt hwy yn ei wneuthur o'r blaen a roddwch arnynt, na leihewch o hynny: canys ſegur ydynt, am hynny y maent yn gweiddi gan ddywedydd, gad i ni fyned ac aberthu i'n Duw.

9 Trymhaer y gwaith ar y gwŷr, a gweithiant ynddo: fel nad edrychant am eiriau ofer.

10 Yna meiſtred gwaith y bobl, ai goruchwil-wyr a aethant allan, ac a lefaraſant wrth y bobl gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Pharao, ni roddaf wellt i chwi.

11 Ewch chwi a chymmerwch iwch wellt o'r lle y caffoch: er hynny ni leihair dim o'ch gwaſanaeth.

12 A'r bobl a ymwaſcarodd trwy holl wlad yr Aipht, i gaſclu ſofl yn lle gwellt.

13 A'r meiſtred gwaith oeddynt yn pryſſuro gan ddywedydd: gorphennwch eich gwaith, dogn dydd yn ei ddydd, megis pan oedd gwellt.

14 A churwyd goruchwil-wyr meibion Iſrael y rhai a oſodaſe meiſtred gwaith Pharao arnynt gan ddywedyd: pa ham na orphennaſoch eich taſc ar wneuthur pridd-feini ddoe a heddyw: megis cyn hynny?

15 Yna goruchwil-wyr meibion Iſrael a ddaethant, ac a lefaſant ar Pharao gan ddywedyd: pa ham y gwnei fel hyn i'th weiſion?

16 Gwellt ni roddir 'ich weiſion, a gwnewch bridd-feini i ni meddant: ac wele dy weiſion a gurwyd a'th bobl di ſydd ar y bai.

17 Ac efe a ddywedodd ſegur ſegur ydych: am hynny 'r ydych chwi yn dywedyd, gad i ni fyned [fel] yr aberthom i'r Arglwydd.

18 Am hynny ewch yn awr, gweithiwch ac ni roddir gwellt i chwi: etto chwi a roddwch yr [un] cyfrif o'r pridd-feini.

19 A goruchwil-wyr meibion Iſrael ai gwelent eu hun mewn [lle] drwg pan ddywedyd: na leihewch [ddim] o'ch pridd-feini dogn dydd yn ei ddydd.

20 A chyfarfuant a Moſes a Aaron yn ſefyll

ar eu ffordd hwynt: pan ddaethant allan oddi wrth Pharao.

21 A dywedaſant wrthynt, edryched yr Arglwydd a barned arnoch chwi: y rhai a baraſoch i'n ſawyr ddrewi ger bron Pharao, a cher bron ei weiſion, gan roddi cleddyf yn eu llaw hwynt i'n llâdd ni.

22 Yna y dychwelodd Moſes at yr Arglwydd ac y dywedodd: ô Arglwydd pa ham y drygaiſt y bobl hynn? i ba beth i'm hanfonaiſt?

23 Canys er pan ddaethum at Pharao i lefaru yn dy enw di, efe a ddrygodd y bobl hynn: a chan waredu ni waredaiſt dy bobl.

## PEN. VI.

1 Duw yn ſicrhau ei addewid a'm waredu Iſrael. 11 Ac yn danfon Moſes ac Aaron at Pharao eilwaith.
14 Hiliogaeth Ruben, Simeon, a Lefi, lle y dangoſir achau Moſes ac Aaron.

YNa y dywedodd 'r Arglwydd wrth Moſes, y nawr y cei weled beth a wnaf i Pharao: canys trwy law gadarn y gollwng efe hwynt, a thrwy law gadarn y gyrr efe hwynt oi wlâd.

2 Duw hefyd a lefarodd wrth Moſes: ac a ddywedodd wrtho, myfi [ydwyf] Jehofa,

3 A mi a ymddangoſais i Abraham, i Iſaac, ac i Jacob yn Dduw Hollalluoc: onid [yn] fy enw Jehofa ni bum hyſpys iddynt.

4 Hefyd mi a ſicrheais fyng-hyfammod a hwynt a'm roddi iddynt wlâd y Canaaneaid: ſef gwlâd eu hymdaith yr hon yr ymdeithiaſant ynddi.

5 A mi a glywais hefyd vchenaid meibion Iſrael y rhai y mae'r Aiphtiaid yn eu caethiwo: a chofiais fyng-hyfammod.

6 A'm hynny dywet wrth feibion Iſrael, myfi [ydwyf] Jehofa, ac myfi a'ch dygaf chwi allan oddi tann lwythau yr Aiphtiaid, ac a'ch rhydd-hâf oi caethiwed hwynt: ac a'ch gwaredaf a braich eſtynnedic, ac mewn barnedigaethau mawrion.

7 Hefyd mi a'ch cymmeraf yn bobl i mi, ac a fyddaf yn Dduw i chwi: a chewch wybod mai myfi [yw] 'r Arglwydd eich Duw yr hwn ſydd yn eich dwyn chwi allan oddi tann lwythau 'r Aiphtiaid.

8 A mi a'ch dygaf chwi i'r wlâd, yr hon a dyngais ar ei rhoddi i Abraham, i Iſaac, ac i Jacob: ac ai rhoddâf i chwi yn etifeddiaeth, myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

9 A Moſes a lefarodd felly wrth feibion Iſrael: ond ni wrandawſant ar Moſes, gan gyfyngdra yſpryd, a chan y gaethiwed galed.

10 Yna'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

11 Dòs dywet wrth Pharao brenin yr Aipht, am iddo ollwng meibion Iſrael oi wlâd.

12 A Moſes a lefarodd ger bron yr Arglwydd gan ddywedydd: wele meibion Iſrael ni wrandawſant arnafi, a pha fodd i'm gwrandawe Pharao, a minne yn ddienwaededic o wefuſaw.

13 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes, ac Aaron, ac a roddodd orchymyn gyd a hwynt at feibion Iſrael, ac at Pharao brenin yr Aipht: yng-hylch dwyn meibion Iſrael allan o wlâd yr Aipht.

14 Dymma eu penn cenedl hwynt: meibion
Ruben y cyntaf-anedic i Iſrael, [oeddynt] »
Henoch a Phalu, Heſron, a Charmi, dymma »
deuluoedd Ruben. »

15 A meibion Simeon [oeddynt] Jemu- »
el, ac Jamin Ohad ac Jachin, Sohar hefyd a »
Saul mâb y Ganaanites: dymma deuluoedd »
Simeon. »

16 Dymma hefyd henwau meibion Lefi yn »
ol eu cenhedlaethau, Gerſon, Cehath hefyd a »
Merari: a blynyddoedd oes Lefi [oeddynt] »
gant, ac onid tair blynedd deugain. »

17 Meibion Gerſon [oeddynt] Libni, a »
Simi yn ol eu teuluoedd. »

18 A meibion Cehath [oeddynt] Amram, »
ac Iſhar, Hebron hefyd ac Uzziel: a blynyddo- »
odd oes Cehath [oeddynt] dair ar ddec ar hu- »
gain, a chan mlynedd. »

19 Meibion Merari [oeddynt] Mehali a »
Muſi: dymma deuluoedd Lefi yn ol eu cenhed- »
laethau. »

20 Ac Amram a gymmerodd Jochebed eu »
fodryb o du ei dâd yn wraig iddo, a hi a ymddûg »
iddo Aaron a Moſes: a blynyddoedd oes Am- »
ram [oeddynt] onid tair deugain a chan mly- »
nedd. »

21 A meibion Iſchar [oeddynt:] Corah, a »
Nepheg, a Sichri. »

22 A meibion Uzziel [oeddynt]: Miſael, »
ac Elzaphan, a Zithri. »

23 Ac Aaron a gymmerodd Elizebah merch »
Aminadab chwaer * Nahaſon yn wraig iddo: » Num.2.3.
a hi a ymddûg iddo Nadâb, ac Abihu, Eleazar »
ac Ithamar. »

24 Meibion Corah hefyd [oedynt] Aſſir, »
ac Elcanah, ac Abiaſaph: dymma deuluoedd y »
Corahiaid. »

25 Ac Eleazar mâb Aaron a gymmerodd »
yn wraig iddo [vn] o ferched Puttiel, a hi a ym- »
ddûc iddo ef Phinees: dymma bennau cenedl y »
Lefiaid, yn ol eu teuluoedd. » Num.25.7.

26 Dymma Aaron a Moſes: y rhai y dy- »
wedodd yr Arglwydd wrthynt, dygwch feibion Iſrael allan o wlâd yr Aipht, yn ol eu lluoedd.

27 Dymma Moſes ac Aaron y rhai a lefaraſāt wrth Pharao brenin yr Aipht, am ddwyn meibion Iſrael allan o'r Aipht.

28 A bu ar y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes yn nhir yr Aipht,

29 Yna lefaru o'r Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd myfi [yw]'r Arglwydd: dywet wrth Pharao brenin yr Aipht yr hyn oll yr ydwyfi yn ei ddywedyd wrthit.

30 A dywedodd Moſes ger bron yr Arglwydd: wele fi yn ddienwaededic o wefuſau, a pha fodd y gwrendu Pharao arnaf?

## PEN. VII.

Duw yn danfon Moſes, ac Aaron at Pharao. 10 Moſes yn troi ei wialen yn ſarph: a hudolion Pharao yn gwneuthur y cyffelib. 19 Moſes yn troi y dwfr yn waed a'r ſwyn-wyr yn gwneuthur yr vn modd.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes, gwel mi a'th roddais yn Dduw i Pharao: ac Aaron dy frawd fydd dy brophwyd.

2 Ti a leferi yr hyn oll a orchymynnwyf it: ac Aaron dy frawd a lefara wrth Pharao ar iddo ollwng meibion Iſrael ymmaith oi wlad.

3 A minne a galedaf galon Pharao: ac a amlhaf fyng-wrthiau a'm rhyfeddodau yng-wlad yr Aipht.

4 Ond ni wrendu Pharao arnoch, yna y rhoddaf fy llaw ar yr Aipht: ac y dygaf allan fy lluoedd, ſef fy mhobl meibion Iſrael o wlad yr Aipht, mewn barnedigaethau mawrion.

5 A'r Aiphtiaid a gaant wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, pan eſtynnwyf fy llaw ar yr Aipht: a dwyn meibion Iſrael allan oi myſc hwynt.

6 A gwnaeth Moſes ac Aaron fel y gorchymynnodd yr Arglwydd iddynt [ie] felly y gwnaethant.

7 A Moſes [ydoedd] fab pedwar vgain mlwydd, ac Aaron yn fab tair blwydd a phedwar vgain, pan lefaraſant wrth Pharao.

8 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes, ac wrth Aaron, gan ddywedyd:

9 Os llefara Pharao wrthich gan ddywedyd, moeſwch [weled] gennich wrthiau: yna y dywedi wrth Aaron, cymmer dy wialen, a bwrw [hi] ger bron Pharao [fel] y byddo yn ſarph.

10 Yna y daeth Moſes ac Aaron at Pharao, a gwnaethant felly, megis y gorchymynnaſe'r Arglwydd: canys Aaron a fwriodd ei wialen ger bron Pharao, a cher bron ei weiſion, a hi aeth yn ſarph.

11 A Pharao hefyd a alwodd am y doethion, a'r hudolion: a hwyntau hefyd [ſef] ſwyn-wyr yr Aipht a wnaethant felly drwy eu ſwynion.

12 Canys bwriaſant bob vn ei wialen, ac aethant yn ſeirph: ond gwialen Aaron a lyngcodd eu gwiail hwynt.

13 Er hynny calon Pharao a galedodd fel na wrandawe arnynt hwy: megis y llefaraſe yr Arglwydd.

14 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes caledodd calon Pharao: gwrthododd ollwng ymmaith y bobl.

15 Dos at Pharao yn foreu, wele efe a ddaw allan i'r dwfr, ſaf dithe gyferbyn ag ef, ar lann yr afon: a chymmer yn dy law y wialen yr hon a drôdd yn ſarph.

16 A dywet wrtho, Arglwydd Dduw yr Hebræaid a'm anfonodd attat, i ddywedyd, gollwng ymmaith fy mhobl fel i'm gwaſanaethant yn yr anialwch: ac wele ni wrandewaiſt hyd yn hyn.

17 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wrth hyn y cei wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd: wele myfi a'r wialen yr hon [ſydd] yn fy llaw a darawaf y dyfroedd y rhai [ydynt] yn yr afon, fel y troir hwynt yn waed.

18 A'r pyſc y rhai [ydynt] yn yr afon a fyddant feirw, a'r afon a ddrewa: a bydd blin gan yr Aiphtiaid yfed dyfroedd o'r afon.

19 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moſes, dywet wrth Aaron, cymmer dy wialen, ac eſtyn dy law ar ddyfroedd yr Aipht, ar eu ffrydau, ar eu hafonydd, ac ar eu camleſydd, ac ar eu holl lynau, fel y byddont yn waed: a bydd gwaed drwy holl wlad yr Aipht, ac yn eu [lleſtri] coed, a cherrig hefyd.

20 Felly Moſes ac Aaron a wnaethant fel y gorchymynnaſe'r Arglwydd, ac efe a * gododd ei wialen ac a darawodd y dyfroedd y rhai [oeddynt] yn yr afon yng-wydd Pharao, ac yng-wydd ei weiſion: a'r holl ddyfroedd y rhai [oeddynt] yn yr afon a droiwyd yn waed.

Exod.17.5.

21 A'r pyſc y rhai oeddynt yn yr afon a fuant feirw, a'r afon a ddrewodd fel na alle yr Aiphtiaid yfed dwfr o'r afon: a gwaed oedd trwy holl wlad yr Aipht.

22 A ſwyn-wyr yr Aipht a wnaethant y cyffelyb drwy eu ſwynion: a chaledodd calon Pharao, ac ni wrandawodd arnynt megis y llefaraſe'r Arglwydd.

23 Canys troes Pharao a daeth iw dŷ, ac ni oſododd hynn at ei galon.

24 A'r holl Aiphtiaid a gloddiaſant oddi amgylch yr afon am ddwfr iw yfed: canys ni allent yfed o ddwfr yr afon.

25 Felly y cyflawnwyd ſaith o ddyddiau: wedi i'r Arglwydd daro'r afon.

## PEN. VIII.

6 Plâ o lyffaint ar Pharao. 8 Yntef yn ceiſio gwared o honynt. 13 Ac er cael heb fod yn well. 16 Y blâ o lau. 20 A'r blâ o amryw ormeſſiaid. 25 Pharao yn ceiſio eu gwared. 31 Ac er cael heb wellhau.

A Dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, dos at Pharao: a dywet wrtho, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, gollwng ymmaith fy mhobl fel i'm gwaſanaethant.

2 Ac os gwrthodi di [eu] gollwng: wele mi a darawaf dy holl frô di a llyffaint.

3 A [phob] afon a heigia o lyffaint, y rhai a ddringant, ac a ddeuant i'th dŷ, ac i ſtafell dy orweddle, ac ar dy wely: ac i dŷ dy weiſion, ac ar dy bobl, ac i'th ffyrnau, ac ar dy fwyd gweddill.

4 A'r llyffaint a ddringant arnat ti, ac ar dy bobl, ac ar dy holl weiſion.

5 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moſes, dywet wrth Aaron, eſtyn dy law gyd a'th wialen ar y ffrydoedd, ar yr afonydd, ac ar y camleſydd: a gwna i lyffaint ddyfod i fynu ar hyd tîr yr Aipht.

6 Ac Aaron a eſtynnodd ei law ar ddyfroedd yr Aipht: a'r llyffaint a ddaethant i fynu

ac a orchguddiaſant dir yr Aipht.

7 A'r ſwyn-wyr a wnaethant yr vn modd drwy eu ſwynion:ac a ddugaſant i fynu lyffaint ar wlad yr Aipht.

8 Yna Pharao a alwodd am Moſes, ac Aaron ac a ddywedodd, gweddiwch ar yr Arglwydd ar iddo ef dynnu y llyffaint oddi wrthifi ac oddi wrth fy mhobl : a mi a ollyngaf ymmaith y bobl fel yr aberthant i'r Arglwydd.

9 A Moſes a ddywedodd wrth Pharao, cymmer ogoniant gennifi, pa amſer y gweddiaf troſot,a thros dy weiſion, a thros dy bobl, am ddifa y llyffaint oddi wrthit, ac o'th dai : ai gadel yn vnic yn yr afon'?

10 Ac efe a ddywedodd y foru : a dywedodd yntef yn ol dy air [y bydd,] fel y gwypech nad [oes neb]fel yr Arglwydd ein Duw ni.

11 A'r llyffaint a ymadawant a thi, ac a'th dai,ac a'th weiſion, ac a'th bobl : yn vnic yn yr afon y gadewir hwynt.

12 Yna Moſes ac Aaron a aethant allan oddi wrth Pharao : a Moſes a lefodd ar yr Arglwydd o achos y llyffaint y rhai a oſodaſe efe ar Pharao.

13 A'r Arglwydd a wnaeth yn ol gair Moſes: a'r llyffaint a fuant feirw o'r tai, o'r cynteddau,ac o'r meuſydd.

14 A chaſclaſant hwynt yn bentyrrau : fel y drewodd y wlad.

15 Pan welodd Pharao fod ſeibiant[iddo,] yna y caledodd ei galon, ac ni wrandawodd arnynt : megis y llefaraſe'r Arglwydd.

16 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, dywet wrth Aaron, eſtyn dy wialen, a tharo lwch y ddaiar : fel y byddo yn llau trwy holl wlad yr Aipht.

17 Ac felly y gwnaethant, canys Aaron a eſtynnodd ei law gyd ai wialen, ac a darawodd lwch y ddaiar,a bu lau ar ddyn,ac ar anifail:holl lwch y tîr oedd yn llau drwy holl wlad 'r Aipht.

18 A'r ſwynwyr a geiſiaſant wneuthur yr vn modd drwy eu ſwynion[ſef]dwyn llau allan,ond ni allaſant : felly y bu y llau ar ddŷn, ac ar anifail.

19 Yna y ſwyn-wyr a ddywedaſant wrth Pharao, bŷs Duw[yw]hyn : etto caledaſe calon Pharao fel na wrandawe arnynt, megis y llefaraſe 'r Arglwydd.

20 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes cyfot yn foreu, a ſaf ger bron Pharao, wele efe a ddaw allan i'r dwfr : yna dywet wrtho, fel hynn y dywedodd yr Arglwydd, gollwng ymmaith fy mhobl fel i'm gwaſanaethant.

21 Oherwydd os ti ni ollyngi fy mhobl wele fi yn gollwng arnat ti, ac ar dy weiſion, ac ar dy bobl, ac i'th dai gymmyſc-bla:a thai'r Aiphtiaid a lawnir o'r gymmyſc-bla, a'r ddaiar hefyd yr hon[y delont]hwynt arni.

22 A'r dydd hwnnw y naillduafi wlad Goſen yr hon y mae fy mhobl yn aros ynddi, fel na byddo y gymmyſc-bla yno : fel y gwypech mai myfi'r Arglwydd [ydwyf] yng-hanol y wlad.

23 A mi a oſodaf[arwydd]ymwared rhwng fy mhobl maufi a'th bobl di : y foru y bydd yr arwydd hwn.

24 A'r Arglwydd a wnaeth felly , *canys daeth cymmyſc-bla drom i dŷ Pharao, ac i dai ei weiſion : ac i holl wlad yr Aipht[fel] y llygrwyd y ddaiar gan y gymmyſc-bla. Dœth.16.9.

25 Yna Pharao a alwodd am Moſes, ac Aaron : at a ddywedodd, ewch, aberthwch i'ch Duw yn y wlad[hon.]

26 A dywedodd Moſes nid cymmwys gwneuthur felly, o blegit nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw beth ffiaid gan yr Aiphtiaid : wele os aberthwn ffieidd-beth yr Aiphtiaid yng-wydd eu llygaid hwynt, oni labyddiant hwy ni'?

27 Taith tri diau 'r awn i'r anialwch : ac nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw, megis y dywedodd efe wrthym ni.

28 A dywedodd Pharao,mi a'ch gollyngaf chwi fel yr aberthoch i'r Arglwydd eich Duw yn yr anialwch,ond nac ewch ym mhell:gweddiwch troſof.

29 A dywedodd Moſes, wele myfi a âf allan oddi wrth it, ac a weddiaf ar yr Arglwydd ar gilio y gymmyſc-bla oddi wrth Pharao ac oddi wrth ei weiſion, ac oddi wrth ei bobl y foru : ond na thwylled Pharao mwyach heb ollwng ymmaith y bobl i aberthu i'r Arglwydd.

30 Felly Moſes aeth allan oddi wrth Pharao : ac a weddiodd ar yr Arglwydd.

31 A gwnaeth yr Arglwydd yn ôl gair Moſes, a'r gymmyſc-bla a giliodd oddi wrth Pharao, oddi wrth ei weiſion, ac oddi wrth ei bobl : ni adawyd vn.

32 Er hynny Pharao a galedodd ei galon y waith honno hefyd : ac ni ollyngodd ymmaith y bobl.

## PEN. IX.

Haint anifeiliaid. 8 Cornwydydd a chenllyſc. 27 Pharao yn cydnabod ei fai. 33 Y taranau a'r cellair yn peidio drwy weddi Moſes.

YNa y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, dos at Pharao : a llefara wrtho ef, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw yr Hebræaid, gollwng ymmaith fy mhobl fel i'm gwaſanaethant.

2 O blegit os gwrthodi di [eu] gollwng ymmaith : ac attal o honot hwynt etto,

3 Wele llaw 'r Arglwydd fydd ar dy anifeiliaid, y rhai [ydynt] yn y maes, ar feirch, ar aſſynnod,ar gamelod, ar y gwarthec, ac ar y defaid : [y daw]haint drom iawn.

4 A'r Arglwydd a naillduа rhwng anifeiliaid Iſrael, ac anifeiliaid yr Aiphtiaid : fel na byddo marw dim o gwbl[ar ſydd]eiddo meibion Iſrael.

5 A goſododd yr Arglwydd amſer nodedic

gan ddywedyd: y foru y gwna 'r Arglwydd y peth hyn yn y wlad[hon.]

6 A'r Arglwydd a wnaeth y peth hyn dranoeth, canys bu feirw holl anifeiliaid yr Aiphtiaid: ond o anifeiliaid meibion Iſrael, ni bu farw vn.

7 A Pharao a anfonodd, ac wele ni buaſe farw cymmaint ac vn o anifeiliaid Iſrael: er hynny caledodd calon Pharao, ac ni ollyngodd y bobl.

8 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac wrth Aaron, cymmerwch iwch loned eich llaw o ludw ffwrn: a thaned Moſes ef tua 'r nefoedd yng-ŵydd Pharao.

9 Ac efe fydd yn llwch ar holl dîr yr Aipht: ac a fydd ar ddyn ac ar anifail yn gornwyd llinoroc trwy holl wlad yr Aipht.

10 Yna y cymmeraſant ludw 'r ffwrn, ac a ſafaſant ger bron Pharao, a Moſes ai tanodd tua 'r nefoedd: ac efe aeth yn gornwyd chwyſigennoc ar ddŷn ac ar anifail.

11 A'r ſwyn-wyr ni allent ſefyll ger bron Moſes gan y cornwyd: o blegit yr oedd y cornwyd ar y ſwynwyr, ac ar yr holl Aiphtiaid.

12 Er hynny 'r Arglwydd a galedaſe galon Pharao fel na wrandawe arnynt: megis y *llefaraſe yr Arglwydd wrth Moſes.

Pen.4,21.

13 Yna 'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes, cyfot yn foreu, a ſaf ger bron Pharao: a dywet wrtho, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw 'r Hebræaid, gollwng fy mhobl i'm gwaſanaethu.

14 Canys y waith hon yr anfonaf fy holl blagau ar dy galon, ac ar dy weiſion, ac ar dy bobl: fel y gwyppech nad oes fyng-hyffelyb yn yr holl dîr.

15 O herwydd yn awr mi a eſtynnaf fy llaw, ac a'th darawaf di, a'th bobl a haint y nodau: a thi a ddiniſtrir o'r tîr.

16 Ac yn ddiau *er mwyn hynn i'th gyfodais di i ddangos it fy nerth: ac i fynegu fy enw drwy 'r holl dîr.

Rhuf.9.17.

17 Tithe ydwyt yn ymdderchafu ar fy mhobl: etto heb eu gollwng hwynt ymmaith.

18 Wele mi a lawiaf yng-hylch yr amſer yma y foru genllyſc trymmion iawn: y rhai ni bu eu mâth yn yr Aipht o'r dydd y ſylfaenwyd hi hyd yr awr hon.

19 Anfon gan hynny yn awr, caſcl dy anifeiliaid, a phôb dim ar y ſydd it yn y maes: pôb dŷn, ac anifail yr hwn a gaffer yn y maes, ac nis caſcler i dŷ, y deſcyn y cenllyſc arnynt, ac a fyddant feirw.

20 Yr hwn a ofnodd air yr Arglwydd o weiſion Pharao a yrrodd ei weiſion, ai anifeiliaid i dai.

21 A'r hwn nid yſtyriodd air yr Arglwydd: a adawodd ei weiſion, ai anifeiliaid yn y maes.

22 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes, eſtyn dy law tua 'r nefoedd, fel y byddo cenllyſc yn holl wlad yr Aipht: ar ddŷn ac ar anifail, ac ar holl lyſſiau y maes o fewn tîr yr Aipht.

23 Yna Moſes a eſtynnodd ei wialen tua 'r nefoedd, a'r Arglwydd a roddodd daranau a chenllyſc, ac aeth tân ar hyd y ddaiar, a chafododd yr Arglwydd genllyſc ar dîr yr Aipht.

24 Felly 'r ydoedd cenllyſc, a thân yn ymgymmeryd yng-hanol y cenllyſc yn drwm iawn yr hwn ni bu ei fath yn holl wlad yr Aipht, er pan ydoedd yn genhedlaeth.

25 A'r cenllyſc a gurodd drwy holl wlad yr Aipht gwbl ar[oedd]yn y maes, yn ddyn, ac yn anifail: y cenllyſc hefyd a gurodd holl lyſſieu y maes, ac a ddrylliodd holl goed y maes.

26 Yn vnic yng-wlad Goſen yr hon yr ydoedd meibion Iſrael ynddi: nid oedd cenllyſc.

27 A Pharao a anfonodd, ac a alwodd ar Moſes, ac Aaron, a dywedodd wrthynt, pechais y waith hon: yr Arglwydd ſydd gyfiawn, a minne a'm pobl yn annuwiol,

28 Gweddiwch ar yr Arglwydd, (canys digon[yw hynn]na byddo taranau Duw na chenllyſc, ac mi a'ch gollyngaf, ac ni arhoſwch mwy.

29 A dywedodd Moſes wrtho, pan elwyf allan o'r ddinas, mi a ledaf fy nwylaw at yr Arglwydd: [a'r]taranau a beidiant, a'r cenllyſc ni bydd mwy, fel y gwyppech mai 'r Arglwydd piau yr ddaiar.

30 Ond mi a wn nad ydwyt ti etto na'th weiſion yn ofni wyneb yr Arglwydd Dduw.

31 A'r llîn a'r haidd a gurwyd: canys yr haidd[oedd]wedi hedeg, a'r llîn wedi hadu.

32 Ond y gwenith a'r rhŷg ni churwyd: o herwydd diweddar[oeddynt]hwy.

33 Yna Moſes a aeth oddi wrth Pharao allan o'r ddinas, ac a ledodd ei ddwylo at yr Arglwydd: a'r taranau a'r cenllyſc a beidiaſant, ac ni ddefnynnodd glaw ar y ddaiar.

34 Pan welodd Pharao beidio o'r glaw, a'r cenllyſc, a'r taranau, yna efe a chwanegodd bechu: canys caledodd ei galon ef ai weiſion.

35 Ie caledodd calon Pharao fel na ollynge efe feibion Iſrael ymmaith: megis y llefaraſe 'r Arglwydd trwy law Moſes.

## PEN. X.

Cyndynrwydd Pharao. 4 Y locuſtiaid. 16 Cyffes Pharao. 19 Gweddi Moſes. 21 Tywyllwch anferthol.

A Dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, dos at Pharao: o herwydd mi a * galedais ei galon ef, a chalon ei weiſion, fel y goſodwn fy arwyddion hyn yn ei fyſc ef.

2 Ac fel y mynegit wrth dy fab, a mab dy fab, yr hynn a wneuthum yn yr Aipht, a'm harwyddion y rhai a oſodais yn eu plith hwynt: ac y gwyppoch mai myfi[ydwyf]yr Arglwydd.

Exod.4 21.

3 A daeth Moſes ac Aaron at Pharao, a dywedaſant wrtho, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw 'r Hebræaid, pa hyd y gwrthodi ymoſtwng ger fy mron? gollwng ymmaith fy mhobl fel i'm gwaſanaethant.

4 O herwydd os ti a wrthodi ollwng fy mhobl: wele y foru y dygaf locuſtiaid i'th frô,

5 Y rhai a orchuddiant wyneb y ddaiar, fel

na allo[vn]weled y ddaiar: ac hwy a yſſant y gweddill yr hwn a adawyd i chwi yn ddiangol gan y cenllyſc, difaant hefyd bôb pren a ſyddo yn blaguro iwch yn y maes.

6 Llanwant hefyd dy dai di, a thai dy holl weiſion, a thai'r holl Aiphtiaid, y cyfryw ni welodd dy dadau, na thadau dy dadau, er y dydd y buont ar y ddaiar hyd y dydd hwn: yna efe a drôdd, ac a aeth allan oddi wrth Pharao.

7 A gweſion Pharao a ddywedaſant wrtho, pa hyd y bydd hwn yn fagl i ni? gollwng ymmaith y gwŷr, fel y gwaſanaethant yr Arglwydd eu Duw: oni wyddoſti etto ddifetha'r Aipht?

8 A dychwelwyd Moſes ac Aaron at Pharao, ac efe a ddywedodd wrthynt, ewch gwaſanaethwch yr Arglwydd eich Duw: pa rai ſy'n myned?

9 A Moſes a ddywedodd, a'n llangciau, ac a'n henafgwyr yr awn ni: a'n meibion hefyd, ac a'n merched, a'n defaid, ac a'n gwarthec yr awn ni o blegit rhaid i ni gadw gŵyl i'r Arglwydd.

10 Ac efe a dywedodd wrthynt, yr vn modd y byddo'r Arglwydd gyd a chwi, ac y gollyngaf chwi a'ch plant: gwelwch mai ar ddrwg y mae eich brŷd.

11 Nid felly, ewch ynawr y gwŷr, a gwaſanaethwch yr Arglwydd, canys hynn yr oeddych yn ei geiſio: felly hwynt a wthiwyd o wydd Pharao.

12 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, eſtyn dy law ar wlad yr Aipht am locuſtiaid fel y deuant ar dir yr Aipht: ac y bwytaant holl lyſſieu y ddaiar[ſef]cwbl ar a adawodd y cenllyſc.

13 Felly Moſes a eſtynnodd ei wialen ar dir yr Aipht, a'r Arglwydd a ddug ddwyreinwynt ar y tîr yr holl ddiwrnod hwnnw, a'r holl nos honno: a[phan] ddaeth y borau gwynt y dwyrain a ddug locuſtiaid.

14 A'r locuſtiaid a ddaethant ar holl wlad yr Aipht, ac a arhoſaſant ym mhob ardal i'r Aipht: yn drwm iawn, ni bu y fath locuſtiaid oi blaen hwynt, ac ar eu hol ni bydd y cyffelyb.

15 Canys toaſant wyneb yr holl dir, a thywyllodd y wlad, a hwynt a yſſaſant holl lyſſiau y ddaiar, a holl ffrwythau y coed, yr hyn a weddillaſe y cenllyſc: ac ni adawyd dim gwyrddleſni ar goed, nac ar lyſſieu y maes ofewn holl wlad yr Aipht.

16 Am hynny Pharao a alwodd am Moſes, ac Aaron ar frŷs, ac a ddywedodd: pechais yn erbyn yr Arglwydd eich Duw, ac yn eich erbyn chwithau.

17 Ac yn awr maddeu di attolwg fy mhechod y waith hon yn vnic, a gweddiwch ar yr Arglwydd eich Duw: ar iddo dynnu oddi wrthif yn vnic y farwolaeth hon.

18 A[Moſes]a aeth allan oddi wrth Pharao: ac a weddiodd ar yr Arglwydd.

19 A'r Arglwydd a drodd wynt gorllewyn crŷf iawn, ac efe a gododd ymmaith y locuſtiaid, ac ai bwriodd hwynt i'r môr coch: ni adawyd vn locuſt o fewn holl derfynau'r Aipht.

20 Er hynny caledodd yr Arglwydd galon Pharao: fel na ollynge efe feibion Iſrael ymmaith.

21 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, eſtynn dy law tua'r nefoedd fel y byddo tywyllwch ar dîr yr Aipht: ac y [gellir] teimlo y tywyllwch.

22 Felly Moſes a eſtynnodd ei law, tua'r nefoedd: * a bu dywyllwch niwloc drwy holl wlad yr Aipht dri diwrnod. Doeth.17.2.

23 Ni wele neb ei gilydd, ac ni chododd neb oi le dri diwrnod: ond * yr ydoedd goleuni i holl feibion Iſrael yn eu trigfannau. Doeth.18.1.

24 Yna y'galwodd Pharao am Moſes ac Aaron, ac a ddywedodd, ewch gwaſanaethwch yr Arglwydd, ar hoed eich defaid a'ch gwarthec yn vnic: aed eich plant hefyd gyd a chwi.

25 A dywedodd Moſes, ti a roddi hefyd yn ein dwylo ebyrth a phoeth offrymmau: fel yr aberthom i'r Arglwydd ein Duw.

26 Am hynny'r aiff ein hanifeiliaid hefyd gyd a ni, ni adewir ewin, o blegit o honynt y cymmerwn i waſanaethu'r Arglwydd ein Duw: canys ni wyddom a pha beth y gwaſanaethom yr Arglwydd, hyd oni ddelom yno.

27 Ond yr Arglwydd a galedodd galon Pharao: fel nad oedd efe fodlon iw gollwng hwynt.

28 A dywedodd Pharao wrtho, dos oddi wrthif: gwilia arnat rhac gweled fy wyneb mwy, o blegit y dydd y gwelech fy wyneb y byddi farw.

29 A dywedodd Moſes inion y dywedaiſt: ni welaf dy wyneb mwy.

## PEN. XI.

Yr Arglwydd yn peri i'r Hebræaid fenthygio tlyſau gan yr Aiphtiaid. 5 Marwolaeth y cyntaf-anedic.

A'R Arglwydd a ddywedaſe wrth Moſes, vn blâ etto a ddygaf ar Pharao, ac ar yr Aiphtiaid, wedi hynny efe a'ch gollwng chwi ymmaith oddi ymma: pan ollyngo efe yn gwbl, gan wthio efe a'ch gwythia chwi oddi ymma.

2 Dywet yn awr lle y clywo'r bobl: am geiſio o honynt bôb gŵr gan ei gymydog, a phob gwraig gan ei chymydoges ddodrefn arian, a dodrefn aur. Exod.3.22.

3 A'r Arglwydd a roddodd i'r bobl ffafor yng-olwg yr Aiphtiaid: ac[yr ydoedd]* Moſes yn wr mawr iawn yng-wlad yr Aipht yng-olwg gweiſion Pharao, ac yng-olwg y bobl.) Heb.11.28.

4 Moſes hefyd a ddywedodd, fel hynn y llefarodd yr Arglwydd: yng-hylch hanner nos yr afi allan i ganol yr Aipht.

5 A phôb cyntaf-anedic yng-wlad yr Aipht a fydd marw, o gyntaf-anedic Pharao yr hwn ſydd yn eiſtedd ar ei deyrn-gader ef, hyd gyntaf-enedic y waſanaeth ferch yr hon [ſydd] ar ol y felin: a phôb cyntafanedic o anifail.

6 Yna y bydd gweiddi mawr drwy holl

wlad yr Aipht: yr hwn ni bu ei fath, ac ni bydd mwyach ei gyffelyb.

7 Ond ym myſc meibion Iſrael ni ſymmud cî ei dafod ar ddŷn nac anifail: fel y gwypoch mai 'r Arglwydd a naillтuodd rhwng yr Aiphtiaid ac Iſrael.

8 A'th holl weiſion hynn a ddeuant i wared attafi, ac a ymgrymmant i mi gã ddywedyd, dos allan, a'r holl bobl y rhai [ydynt] ar dy ol, ac wedi hynny 'r afi allan: felly efe a aeth allan oddi wrth Pharao mewn digllonedd llidioc.

9 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, ni wrendu Pharao arnoch: fel yr amlhaer fy rhyfeddodau yng-wlad yr Aipht.

10 Felly Moſes ac Aaron a wnaethant yr holl ryfeddodau hyn ger bron Pharao: a'r Arglwydd a galedodd galon Pharao, fel na ollynge efe feibion Iſrael allan o'i wlad.

## PEN. XII.

1 Bwyta yr oen Paſc. 26 Bod ar dadau a mammau ddangos iw plant ddirgelwch y ſacrament hwn. 29 Lladdedigaeth y cyntaf-anedic. 35 Yr Iddewon yn yſpeilio yr Aiphtiaid. 37 Ac yn myned o'r Aipht. 43 Y chwaneg o athrawiaeth am yr oen Paſc.

YR Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moſes, ac wrth Aaron yn nhîr yr Aipht, gan ddywedyd:

2 Y mîs hwn [fydd] i chwi yn ddechreuad y miſoedd: cyntaf [fydd] i chwi o fiſoedd y flwyddyn.

3 Lleferwch wrth holl gynnulleidfa Iſrael gan ddywedyd, ar y decfed [dydd] o'r mîs hwn: cymmerant iddynt bôb vn oen, yn ol teulu [eu] tadau, [ſef] oen dros bôb teulu.

4 Os llai fydd y teulu nac y gallo fwytta yr oen, yna cymmered efe hefyd ei gymydog neſſaf iw dŷ, wrth y rhifedi o ddynion: pôb vn yn ol ei fwytta a gyfrifwch at yr oen.

5 Bydded yr oen gennych yn berffaith-gwbl, yn wrryw, [ac] yn llwdn blwydd: o'r defaid neu o'r geifr y cymmerwch [ef.]

6 A bydded yng-hadw gennych hyd y pedwerydd dydd ar ddec o'r mîs hwn: yna lladded holl dyrfa cynnulleidfa Iſrael ef, yn y cyfnos.

7 A chymmerant o'r gwaed, a rhoddant ar y ddau yſtlyſ-boſt ac ar gappan y drws: yn y tai, y rhai y bwyttaant ef ynddynt.

8 A'r cîg a fwytânt y nôs honno: wedi ei roſtio [wrth] dân, a bara croiw gyd a [dail] ſurion y bwyttaant ef.

9 Na fwytewch o honaw yn amrwd, nac yn ferwedic wedi ei ferwi mewn dwfr: eithr wedi ei roſtio [wrth] tân, ei ben gyd ai draed, ai berfedd [a fwytewch.]

10 Ac na weddillwch [ddim] o honaw hyd y boreu: ond yr hyn fydd yng-weddill o honaw erbyn y boreu, lloſcwch yn tân.

11 Ac fel hyn y bwytewch ef, wedi ymwregyſu eich lwynau, a'ch eſcidiau am eich traed, a'ch ffynn yn eich dwylo: a bwytewch ef ar ffrwſt, [canys] Paſc i'r Arglwydd [ydyw] efe.

12 O herwydd mi a dramwyaf drwy wlad yr Aipht y nos honno, ac a darawaf bôb cyntaf-anedic o fewn tîr yr Aipht, yn ddŷn, ac yn anifail: a mi a wnaf farn yn erbyn holl dduwiau 'r Aipht, myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

13 A'r gwaed fydd i chwi yn arwydd ar eich tai lle [ybyddoch] chwi: pan welwyf y gwaed yna 'r af heibio i chwi: felly ni bydd plâ diniſtriol yn eich myſc chwi pan darawyf dîr yr Aipht.

14 A'r dydd hwn fydd yn goffadwriaeth iwch, a chwi ai cedwch ef yn ŵyl arbennic i'r Arglwydd: yn eich oeſoedd y cedwch ef yn ŵyl drwy ddeddf dragywyddol.

15 Saith niwrnod y bwytewch fara croiw, y dydd cyntaf y gwnéwch na byddo ſur-does o fewn eich tai: o herwydd pwy bynnac o fwyttu fara lefeinllyd o'r dydd cyntaf hyd y ſeithfed dydd, yr enaid hwnnw a dorrir ymmaith oddi wrth Iſrael.

16 Ar y dydd cyntaf hefyd [y bydd] i chwi gymanfa ſanctaidd, a chymanfa ſanctaidd ar y ſeithfed dydd: dim gwaith ni wneir ynddynt, onid yr hyn a fwyttu pôb dŷn yn vnic a geir ei arlwyo i chwi.

17 Cedwch hefyd [ŵyl] y bara croiw, o herwydd o fewn corph y dydd hwn y dygaf eich lluoedd chwi allan o wlad yr Aipht: am hynny cedwch y dydd hwn yn eich oeſoedd; drwy ddeddf dragywyddol.

18 Yn y [mîs] cyntaf ar y pedwerydd dydd ar ddec o'r mîs y bwytewch fara croiw yn y cyfnos: hyd yr vnfed dydd ar hugain o'r mîs yn yr hwyr.

19 Na chaffer ſurdoes yn eich tai ſaith niwrnod: canys pwy bynnac a fwyttu fara lefeinllyd, yr enaid hwnnw o dorrir ymmaith o gynnulleidfa Iſrael, yn gyſtal y dieithr a'r priodor.

20 Na fwytewch ddim lefeinllyd: bwytewch fara croiw yn eich holl gyfanneddau.

21 A galwodd Moſes am holl henuriaid Iſrael, ac a ddywedodd wrthynt: tynnwch a chymmerwch i chwi oen drwy eich teuluoedd a lleddwch yr [oen] Paſc.

22 A chymmerwch duſſw o yſſop, a throchwch yn y gwaed yr hwn [a fyddo] mewn cawg, a rhoddwch ar gappan y drws, ac ar y ddau yſtlyſboſt o'r gwaed yr hwn [fyddo] yn y cawg: ac nac ewch chwithau allan neb o ddrws ei dŷ hyd y borau. Hebr.11.28.

23 O herwydd yr Arglwydd a baſſia i daro 'r Aipht, a phan welo efe y gwaed ar gappan y drws, ac ar y ddau yſtlyſboſt: yna 'r Arglwydd a baſſia heb law 'r drws, ac ni âd i'r diniſtrudd ddyfod i'ch tai chwi i ddiniſtrio.

24 Am hynny cedwch y peth hynn: yn ddeddf i ti, ac i'th feibion yn dragywydd.

25 A phan ddeloch i'r wlad yr hon a rydd yr Arglwydd i chwi megis y dywedodd: yna cedwch y gwaſanaeth hwn,

26 A *phan ddywedo eich meibion wrthich: pa waſanaeth [yw] hwn gennych? Iosu.4.6.

27 Yna y dywedwch, aberth Paſc yw ef ir Ar-

glwydd yr hwn a baſſiodd heb law tai meibion Iſrael yn yr Aipht pan darawodd efe yr Aipht, ac yr achubodd efe ein tai ni: yna yr ymgrymmodd y bobl, ac yr addolaſant.

28 A meibion Iſrael a aethant, ac a wnaethant: megis y gorchymynnaſe 'r Arglwydd wrth Moſes, ac Aaron, felly y gwnaethant.

Exod.11.4.
doeth.18.5.

29 Ac *ar hanner nos y tarawodd yr Arglwydd bôb cyntafanedic yng-wlad yr Aipht, o gyntafanedic Pharao 'r hwn a eiſtedde ar ei frenhin-faingc ef, *hyd gyntafanedic y gaethes yr hon[oedd]yn y carchar-dŷ: a phôb cyntafanedic i anifail.

30 Yna Pharao a gyfododd liw nos, efe ai holl weiſion, a'r holl Aiphtiaid, ac yr oedd gweiddi mawr yn yr Aipht: o blegit nid[oedd] dŷ ar nad[ydoedd]un marw ynddo.

31 Ac efe a alwodd ar Moſes, ac Aaron liw nos, ac a ddywedodd, codwch, ewch allan o fysc fy mhobl, chwi a meibion Iſrael hefyd: ewch a gwaſanaethwch yr Arglwydd fel y dywedaſoch.

32 Cymmerwch eich defaid, a'ch gwarthec hefyd fel y dywedaſoch, ac ewch ymmaith: a bendithiwch finne.

33 A'r Aiphtiaid a fuant dairion ar y bobl gan eu gyrru a'r ffrwſt allan o'r wlad: o blegit dywedaſant [dynion] meirw ydym oll.

34 Am hynny y cymmerodd y bobl eu toes cynn ei lefeinio: ai toes oedd wedi rwymo yn eu dillad ar eu hyſcwyddau.

Exod.3.22.
exod.11.2.
ioſua.24.6.

35 A meibion Iſrael a wnaethant yn ol gair Moſes: ac a geiſiaſent * gan yr Aiphtiaid dlyſau arian, a thlyſau aur, a gwiſcoedd.

36 A'r Arglwydd a roddaſe i'r bobl hawddgarwch yng-olwg yr Aiphtiaid fel yr echwynaſant iddynt: felly 'r yſpeiliaſant yr Aiphtiaid.

Num.33.3.

37 Yna * meibion Iſrael a aethant o Rameſes i Succoth: yng-hylch chwe chant mil o wŷr traed heb law plant.

38 A phobl gymmyſc lawer aethant i fynu hefyd gyd a hwynt: defaid hefyd a gwarthec[a] chyfoeth trwm iawn.

39 A hwynt a bobaſant y toes yr hwn a ddygaſent allan o'r Aipht yn deiſſennau croiw, o herwydd nad [oedd ganddynt]ſur-does: canys gwthiaſid hwynt o'r Aipht, fel nad allaſant aros, ac ni pharatoeſent iddynt eu hun lynniaeth

40 A phreſſwyliad meibion Iſrael tra y trigaſant yn yr Aipht: [oedd]ddeng mlhynedd ar hugain a phedwar can mlhynedd.

41 Ac ym mhen y deng-mlhynedd ar hugain a phedwar can mlhynedd: ie o fewn corph y dydd hwnnw, yr aeth holl luoedd yr Arglwydd allan o wlad yr Aipht.

42 Nos yw hon iw chadw i'r Arglwydd pan ddygwyd hwynt allan o wlad yr Aipht: nos yr Arglwydd yw hon i holl feibion Iſrael iw chadw drwy eu hoeſoedd.

43 Yr Arglwydd hefyd o ddywedodd wrth Moſes, ac Aaron dymma ddeddf y Paſc: na fwytaed neb dieithr o honaw.

44 Ond pôb gwaſanaethwr wedi ei brynu am arian: pan enwaedech ef, yna a fwyta o honaw.

45 Yr eſtron a'r gwas cyflog ni chaiff fwyta o honaw.

Num.9.12.
ioan.19.36.

46 Mewn un tŷ y bwyteuir efe, na ddwg [ddim] o'r cîg allan o'r tŷ: ac na thorrwch aſcwrn ynddo ef.

47 Holl gynnulleidfa Iſrael a wnant hynny.

48 A phan arhoſo dieithr gyd a thi, a cheiſio cadw Paſc i'r Arglwydd, enwaeder ei holl yrſiaid ef, ac yna neſaed i wneuthur hynny, a bydded megis yr hwn a aned yn y wlad: ond na fwytaed neb dienwaededic o honaw.

49 Yr un gyfraith fydd i'r priodor, ac i'r dieithr a arhoſo yn eich mysc.

50 Yna holl feibion Iſrael a wnaethant fel y gorchymynnaſe 'r Arglwydd wrth Moſes ac Aaron: felly y gwnaethant.

51 Ac o fewn corph y dydd hwnnw: y dug yr Arglwydd feibion Iſrael o wlad yr Aipht yn ol eu lluoedd.

## PEN. XIII.

1 Cyſſegru y cyntafanedic i Dduw. 14 Bôd yn rhaid dyſcu i'r plant beth yr oedd hynny yn ei arwyddocau 17 Duw yn arwein y bobl i'r ffordd bellaf. 19 Moſes yn dwyn eſcyrn Ioſeph gyd ag ef. 21 y goloſn niwl a'r goloſn dân.

LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

Exod.22.29.
exod.37.12.
lefit.27.26.
num.3.13.
luc.2.23.

2 *Cyſſegra i mi bôb cyntafanedic [ſef] beth bynnac a agoro grôth[yn gyntaf]ym mysc meibion Iſrael o ddyn ac anifail: [canys]eiddo fi[yw]efe.

3 Yna y dywedodd Moſes wrth y bobl cofiwch y dydd hwn [ar]yr hwn y daethoch allan o'r Aipht o dŷ y caethiwed, o blegit trwy law gadarn y dug yr Arglwydd chwi oddi yno: am hynny na fwytaer bara lefeinllyd.

4 Heddyw yr ydych chwi yn myned allan: ar y mis Abib.

5 A phan ddygo yr Arglwyed di i wlad y Canaaneaid, a'r Hethiaid, ar Amoriaid, yr Hefiaid hefyd a'r Iebuſiaid yr hon a dyngodd efe, wrth dy dadau y rhodde efe i ti [ſef] gwlad yn llifeirio o laeth a mêl: yna y gwnei y gwaſanaeth ymma ar y mîs hwn.

6 Saith niwrnod y bwytei fara croiw: ac ar y ſeithfed dydd[bydded]gŵyl i'r Arglwydd.

7 Bara croiw a fwyteir ſaith niwrnod: ac na weler bara lefeinllyd gyd a thi ac na weler gennit ſurdoes yn dy holl frô.

8 A mynega i'th fab y dydd hwnnw gan ddywedyd: o herwydd yr hyn a wnaeth yr Arglwydd i mi pan ddaethum allan o'r Aipht[y gwneir hyn.]

9 A bydded it yn arwydd ar dy law, ac yn goffadwriaeth rhwng dy lygaid, fel y byddo cyfraith yr Arglwydd yn dy enau: o herwydd a llaw gadarn y dug yr Arglwydd dydi allan o'r Aipht.

10 A'm hynny cadw y ddeddf hon yn ei hamſer nodedic: o flwyddyn i flwyddyn.

11 A phan ddygo 'r Arglwydd di i wlâd y Canaaneaid megis y tyngodd efe wrthit, ac wrth dy dadau: ai rhoddi i ti,

Exod.22.29.
Exod.34.19.
Ezec.44.30.

12 Yna y *nailltui bôb cyntaf-anedic [o ddyn] i'r Arglwydd: ac [o] bôb cyntaf-anedic yr anifeiliaid y rhai fyddant eiddo ti dôd y gwrywaid i'r Arglwydd.

13 A phôb cyntafanedic i aſſyn a ryddheui di ag oen, ac oni ryddheui di [ef,] yna torfynygla ef, a phôb dŷn cyntaf-anedic o'th feibion a brynni di hefyd.

14 A phan ofynno dy fâb yn ol hyn gan ddywedyd, beth [yw] hyn? yna dywet wrtho a llaw gadarn y dug yr Arglwydd ni allan o'r Aipht o dŷ y caethiwed.

15 Canys pan oedd anhawdd gan Pharao ein gollwng ni y lladdodd yr Arglwydd bôb cyntaf-anedic yng-wlâd yr Aipht, o gyntaf-anedic dŷn, hyd gyntaf-anedic anifail: a'm hynny 'r ydwyf yn aberthu i'r Arglwydd bôb gwryw cyntaf-anedic, ond pôb cyntaf-anedic o'm meibion a brynnaf.

16 A bydded hynny yn arwydd ar dy law, ac yn ractalau rhwng dy lygaid: mai a llaw gadarn y dug yr Arglwydd ni allan o'r Aipht.

17 A phan ollyngodd Pharao y bôbl ni arweiniodd yr Arglwydd hwynt drwy wlâd y Philiſtiaid er ei bôd hi yn nes: o blegit dywedodd Duw [edrychwn] rhac i'r bôbl edifarhau pan welant ryfel, a dychwelyd o honynt i'r Aipht.

18 Ond Duw a arweiniodd y bôbl o amgylch trwy anialwch ẏ môr côch: yn arfogion yr a'eth meibion Iſrael allan a wlâd yr Aipht.

Gen.50.25.
Ioſ.24.32.

19 A Moſes a gymmerodd eſcyrn Ioſeph gyd ag ef: o herwydd efe a wnelſe i feibion Iſrael dyngu gan ddywedyd: Duw *a ymwel a chwi yn ddiau, dygwch chwithau fy eſcyrn oddi ymma gyd a chwi.

20 Yna'r aethant o Sucoth: ac a werſſyllaſant yn Etham yng-hwrr yr anialwch.

Num.14.14.
Deut.1.33.
Pſal.78.14.
1.Cor.10.1.

21 A'r* Arglwydd oedd yn myned oi blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl iw harwein ar y ffordd, a'r nos mewn colofn o dân i oleuo iddynt: fel y gallent fyned ddydd a nos.

Nehem 9.19.

22 Ni *ſyflodd efe y golofn niwl y dydd, na'r golofn dân y nôs, o flaen y bôbl.

## PEN. XIIII.

Duw yn dangos pa lê oref i'r bobl werſſyllu. 4 Pharao yn erlid Iſrael. 10 Iſrael yn tuchan rhac ofn.
21 y mor yn ſychu i ollwng plant Iſrael trwyddo.
24 Ac yn boddi yr Aiphtiaid.

A'R Arglwydd a leſarodd wrth Moſes gan ddywedyd.

Num.33.7.

2 Dywet wrth feibion Iſrael a'm ddychwelyd a gwerſſyllu o honynt o flaen * Pihahiroth rhwng Migdol a'r môr: o flaen Baal-Sephon, ar ei chyfer y gwerſſyllwch wrth y môr.

3 Canys dywed Pharao am feibion Iſrael rhwyſtrwyd hwynt yn y tîr: [a] chaeodd yr anialwch arnynt.

4 A mi a galedaf galon Pharao fel yr ymlidio ar eu hol hwynt, felly i'm gogoneddir i o herwydd Pharao, ai holl fyddin, a'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi [ydwyf] Arglwydd: ac felly y gwnaethant.

5 Pan fynegwyd i frenin yr Aipht ffoi o'r bôbl: yna y trôdd calon Pharao ai weiſion yn erbyn y bôbl, a dywedaſant beth yw hyn a wnaethom, pan ollyngaſom Iſrael o'n gwaſanaethu?

6 Ac efe a daclodd ei gerbyd ac a gymmerodd ei bôbl gyd ag ef.

7 A chymmerodd chwe chant o ddewis gerbydau, a holl gerbydau yr'Aipht a chaptenniaid a'r bôb vn o honynt.

8 Canys yr Arglwydd a galedaſe galon Pharao brenin yr Aipht, ac efe a ymlidiodd a'r ol meibion Iſrael: ond yr oedd meibion Iſrael yn myned allan a llaw vchel.

Ioſu.24.6.
1.Macab.4.9.

9 A'r * Aiphtiaid a ymlidiaſant a'r eu hôl hwynt [ſef] holl feirch, [a] cherbydau Pharao ai wŷr meirch, ai fyddyn, ac ai goddiweddaſant yn gwerſſyllu wrth y môr: ger llaw Pihahiroth o flaen Baal-ſephon.

10 Pan neſſaodd Pharao: yna meibion Iſrael a godaſant eu golwg, ac wele yr Aiphtiaid yn dyfod a'r eu hol, a meibion Iſrael a ofnaſant yn ddirfawr, ac a waeddaſant hefyd a'r yr Arglwydd.

11 A dywedaſant wrth Moſes, ai a'm nâd oedd beddau yn yr Aipht y dygaiſt ni i farw yn yr anialwch? pa ham y gwnaethoſt fel hyn a ni, gan ein dwyn allan o'r Aipht?

12 Ond dymma y peth yr hwnn a leſaraſom wrthit yn yr Aipht? gan ddywedyd, paid a ni, fel y gwaſanaethom yr Aiphtiaid: canys gwell fuaſe i ni waſanaethu 'r Aiphtiaid na marw yn yr anialwch.

13 Yna y ddywedodd Moſes wrth y bôbl nac ofnwch, ſefwch ac edrychwch a'r iechydwriaeth yr Arglwydd yr hwn a wnaiff efe i chwi heddyw: o blegit yr Aiphtiaid y rhai a welſoch chwi heddyw ni chewch eu gweled byth ond hynny.

14 Yr Arglwydd a ymladd troſoch: a'm hynny tewch a ſôn.

15 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes, pa ham y gweiddi arnaf? dywet wrth feibion Iſrael a'm gerdded o honynt rhacddynt.

16 A chyfot tithe dy wialen ac eſtyn dy law a'r y môr a hollt ef: ac aed meibion Iſrael trwy ganol y môr a'r dîr ſych.

17 Wele fi, ie myfi a galedaf galon yr Aiphtiaid fel y deuant a'r eu hol hwynt: a mi a ogoneddir o herwydd Pharao, ac o herwydd ei holl fyddin ef, o herwydd ei gerbydau ef, ac o herwydd ei farchogion.

18 Yna'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi yw'r Arglwydd: pan i'm gogoneddir o her-

wydd Pharao, o herwydd ei gerbydau, ac o herwydd ei farchogion.

19 Ac angel Duw yr hwn oedd yn myned o flaen byddin Iſrael a ſymmudodd, ac a aeth oi hôl hwynt: a'r golofn niwl aeth ymmaith oi tu blaen hwynt, ac a ſafodd oi hôl hwynt.

20 Ac efe a ddaeth rhwng byddin yr Aiphtiaid a byddin Iſrael, ac yr ydoedd yn niwl, ac yn dywyllwch [i'r Aiphtiaid,] ac yn goleuo y nôs [i Iſrael:] ac ni neſſaodd y naill at y llall ar hyd y nôs.

21 A Moſes a eſtynnodd ei law ar y môr, a'r Arglwydd a yrrodd y môr [yn ei ol] trwy ddwyrein-wynt cryf ar hyd y nôs, ac a oſododd y môr yn ſychdir: a holltwyd y dyfroedd.

Ioſu.4.23.
Pſal.14.3.
1.Cor.10.1.
Hebr.11.29.

22 Yna * meibion Iſrael a aethant trwy ganol y môr a'r dir ſych: a'r dyfroedd [oeddynt] yn fûr iddynt o'r tu dehau ac o'r tu aſſwy.

23 A'r Aiphtiaid a erlidiaſant, ac a ddaethant a'r eu hol hwynt, [ſef] holl feirch Pharao ai gerbydau, ai farchogion i ganol y môr.

24 Ac ar y wiliadwriaeth foreuol, yr Arglwydd a edrychodd ar fyddin yr Aiphtiaid o'r golofn dân a niwl: ac a derfyſcodd fyddin yr Aiphtiaid.

35 Canys efe a dynnodd ymmaith olwynion ei gerbydau ef, ac ai dûg ef yn drwm: fel y dywedodd yr Aiphtiaid ni a ffoiwn oddi wrth Iſrael, o blegit yr Arglwydd ſydd yn ymladd troſtynt hwy yn erbin yr Aiphtiaid.

26 Yna 'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes eſtyn dy law ar y môr: fel y dychwelo y dyfroedd ar yr Aiphtiaid, ar eu cerbydau, ac ar eu marchogion.

27 A Moſes a eſtynnodd ei law ar y môr, 'a dychwelodd y môr cyn y borau iw nerth, a'r Aiphtiaid a ffoaſant yn ei erbyn ef: a'r Arglwydd a ymchwelodd yr Aiphtiaid yng-hanol y môr.

28 Felly y dyfroedd a ddychwelaſant, ac a orchguddiaſant gerbydau, a marchogion, a holl fyddin Pharao, y rhai a ddaethent ar eu hol hwynt i'r môr: ni adawyd o honynt gymmeint ag un.

29 Ond meibion Iſrael a gerddaſant ar dir ſych trwy ganol y môr: a'r dyfroedd [oeddynt] yn fûr iddynt, ar y llaw ddehau, ac ar y llaw aſſwy.

30 Felly'r Arglwydd a achubodd Iſrael y dydd hwnnw o law 'r Aiphtiaid: a gwelodd Iſrael yr Aiphtiaid yn feirw ar fin y môr.

31 A gwelodd Iſrael y grymmuſter mawr yr hwn a wnaeth yr Arglwydd yn erbyn yr Aiphtiaid, a'r bôbl a ofnaſant yr Arglwydd, ac a gredaſant i'r Arglwydd ac iw wâs ef Moſes.

## PEN. XV.

Iſrael yn moliannu Duw am y fuddugoliaeth. 23 Chwerw ddyfroedd Marah. 27 ffynhonnau Elim.

Deut.10.20.

YNA y * cânodd Moſes a meibion Iſrael y gân hon i'r Arglwydd, ac a lefaraſant gan ddywedyd: canaf i'r Arglwydd canys gwnaeth yn rhagorol iawn, taflodd y march, ai farchog i'r môr.

2 Fy nerth a'm cân [yw] 'r Arglwydd, ac y mae efe yn iechydwriaeth i mi: dymma fy Nuw, efe a ogoneddafi, [dymma] Dduw fynhad, a mi ai derchafaf ef.

3 Yr Arglwydd [ſydd] ryfel-wr: yr Arglwydd [yw] ei enw.

4 Efe a daflodd gerbydau Pharao ai fyddin yn y môr: ai gaptenniaid dewiſol a foddwyd yn y môr côch.

5 Y dyfnderau ai toaſant hwynt: deſcynnaſant i'r gwaelod fel carrec.

6 Dy ddeheu-law Arglwydd ſydd ardderchoc o nerth: a'th ddeheu-law Arglwydd y dryllį y gelyn.

7 Yn amldra dy ardderchawgrwydd y tynnaiſt i lawr y rhai a gyfodaſant i'th erbyn: dy ddigofaint a anfonaiſt [allan,] ac efe ai hyſſodd hwynt fel ſofl.

8 Drwy chwythad dy ffroenau y caſglwyd y dyfroedd, y ffrydau a ſafaſant fel pen-twr: y dyfnderau a geulaſant yng-hanol y môr.

9 Y gelyn a ddywedodd mi a erlidiaf, mi a ddaliaf, mi a rannaf yr yſpail: caf fyng-wynfyd arnynt, tynnaf fyng-hleddyf, fy llaw ai goreſcyn hwynt.

10 Ti a chwythaiſt a'th wynt, y môr ai tôawdd hwynt: ſoddaſant fel plwm yn y dyfroedd cryfion.

11 Pwy [ſydd] debyg i ti ô Arglwydd ymmhlith y duwiau? pwy fel tydi yn rhagorawl mewn ſancteiddrwydd? yn ofnadwy o foliant, yn gwneuthur rhyfeddodau?

12 Eſtynnaiſt dy ddeheulaw, llyngcodd y ddaiar hwynt.

13 Arweiniaiſt yn dy drugaredd y bôbl y rhai a waredaiſt: yn dy nerth y tywyſaiſt [hwynt] i anneddle dy ſancteiddrwydd.

14 Y bobloedd a glywant [ac] a ofnant: dolur a ddeil breſſwyl-wyr Paleſtina.

15 Yna y ſynna ar ddugiaid Edom [a] hyrddod Moab, ofn ai deil hwynt: holl breſſwyl-wyr Canaan a leſmeiriant.

Deut.2.25.
Ioſu.2.9.

16 Ofn * ac arſwyd a ſyrth arnynt, gan fawredd dy fraich y tawant fel carrec: nes myned trwodd o'th bôbl di Arglwydd, nes myned o'r bôbl y rhai a ennillaiſt di trwodd.

17 Ti ai dygi hwynt i mewn, ac ai plenni hwynt ym mynydd dy etifeddiaeth, y lle a wnaethoſt ô Arglwydd yn anneddle it: y cyſſegr Arglwydd a ddarparodd dy ddwylaw.

18 Yr Arglwydd a deyrnaſa byth, ac yn dragywydd.

19 O herwydd meirch Pharao ai gerbydau, ai farchogion a ddaethant i'r môr, a'r Arglwydd a ddychwelodd ddyfroedd y môr arnynt: ond meibion Iſrael aethant a'r dir ſych drwy ganol y môr.

20 A Miriam y brophwydes chwaer Aaron a gymmerodd dympan yn ei llaw: a'r

holl fenwyaid a aethant allan ar ei hol a thympanau, ac a phibellau.

21 A dywedodd Miriam wrthynt: cenwch i'r Arglwydd, canys gwnaeth yn ardderchog, bwriodd y march a'r marchog i'r môr.

22 Yna Moſes a ddug Iſrael oddi wrth y môr coch, ac aethant allan i anialwch Sur: a hwynt a gerddaſant dri diwrnod yn yr anialwch ac ni chawſant ddwfr.

23 Pan ddaethant i Marah ni allent yfed dyfroedd Mara, am eu bod yn chwerwon: o herwydd hynny y gelwir ei henw hi Marah.

24 Yna'r bobl aduchanaſant yn erbyn Moſes gan ddywedyd, beth a yfwn?

25 Ac efe a waeddodd ar yr Arglwydd, a'r Arglwydd a ddangoſodd iddo ef brenn, ac efe a fwriodd [hwnnw] i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiaſant: yno efe a oſododd iddo ddeddf, a chyfraith, ac efe ai profodd ef yno.

26 Ac a addywedodd, os gan wrando y gwrandewi di ar lais yr Arglwydd dy Dduw, ac os gwnei di yr hyn a fyddo inion yn ei olwg ef, a rhoddi cluſt iw orchymynnion ef, a chadw ei holl ddeddfau ef: ni roddaf arnat un o'r clefydau y rhai a roddais ar yr Aiphtiaid, o herwydd myfi [ydwyf] yr Arglwydd dy iachawdur.

Num.33.9. 27 A daethant * i Elim, ac yno 'r oedd deuddec ffynnon o ddwfr, a dec palm-wydden, a thrigain: a hwynt a werſyllaſant yno wrth y dyfroedd.

## PEN. XVI.

Iſrael yn dyfod i anialwch Sin. 3 Ac yn tuchan amfwyd. 13 Ac yn cael ſoſl-ieir a Manna. 16 Y modd a'r meſur i gael y Manna. 32 Cadw peth o'r Manna er coffadwriaeth.

YNa y ſymmudaſant o Elim, a hollgynnulleidfa meibion Iſrael a ddaethant i anialwch Sin yr hwn [ſydd] rhwng Elim a Sinai: ar y pymthecfed dydd o'r ail mîs wedi iddynt fyned allan o wlad yr Aipht.

2 A holl gynnulleidfa meibion Iſrael, a duchanaſant yn erbyn Moſes, ac yn erbyn Aaron yn yr anialwch.

3 Canys meibion Iſrael a ddywedaſant wrthynt, ô na buaſem feirw tann law 'r Arglwydd yng-wlad yr Aipht, pan oeddem yn eiſtedd wrth y crochanau cig ac yn bwyta bara ddigon: ond chwi a'n dygaſoch ni allan i'r anialwch hwn i ladd yr holl dyrfa hon a newyn.

4 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, wele mi a lawiaf arnoch fara o'r nefoedd: a'r bobl a ânt allan, ac a gaſclant ddogn dydd yn ei ddydd, fel y gallwyf eu profi, a rodiant yn fyng-hyfraith ai nas [gwnant.]

5 Ond ar y chweched dydd y darparant yr hynn a ddygant i mewn: a [hynny] fydd dau cymmeint i'r hynn a gaſclant beunydd.

6 Yna y dywedodd Moſes ac Aaron wrth holl feibion Iſrael: yn yr hwyr y cewch wybod mai'r Arglwydd a'ch dug chwi allan o wlad yr Aipht.

7 Y borau hefyd y cewch weled gogoniant yr Arglwydd, am iddo glywed eich tuchan chwi yn erbyn yr Arglwydd: o herwydd beth [a allem] ni pan duchanaſoch i'n herbyn?

8 Moſes hefyd a ddywedodd, yn yr hwyr y rhydd yr Arglwydd i chwi gîg iw fwyta, a'r borau fara ddigon, am glywed o'r Arglwydd eich tuchan chwi 'r hwn a wnaethoch yn ei erbyn ef: o herwydd beth [allem] ni? nid yn ein herbyn ni [yr oedd] eich tuchan, onid yn erbyn yr Arglwydd.

9 A Moſes a ddywedodd wrth Aaron, dywed wrth holl gynnulleidfa meibion Iſrael deuwch yn nes ger bron yr Arglwydd: o herwydd efe a glywodd eich tuchan chwi.

10 Ac fel yr oedd Aaron yn llefaru wrth holl gynnulleidfa meibion Iſrael, yna 'r edrychaſant tua 'r anialwch: ac wele gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd mewn niwl.

11 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd,

12 *Clywais duchan meibion Iſrael, llefara wrthynt gan ddywedyd, yn y cyfnos y cewch fwyta cîg, a'r borau i'ch diwellir o fara: cewch hefyd wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi. Exod.12.27. Preg.45.4.

13 Felly yn yr hwyr y*ſoſl-ieir a ddaethant ac a orchguddiaſant y werſyllfa: a'r boreu yr oedd caenen o wlith o amgylch y gwerſyll. Num.11.7. Pſal.78.24. Doeth. 16.20.

14 A phan gododd y gaenen wlith: yna wele ar hyd wyneb yr anialwch dippynnau crynnion cyn faned a'r llwyd-rew ar y ddaiar.

15 Pan welodd meibion Iſrael [hynny] yna y dywedaſant bob un wrth ei gilydd Manna [yw] ef, canys ni wyddent beth [ydoedd] eſe: a dywedodd Moſes wrthynt, * hwn yw y bara 'r hwn a roddodd yr Arglwydd i chwi iw fwyta. Ioan.6.31. 1.Cor.10.3.

16 Hynn yw 'r peth a orchymynnodd yr Arglwydd, ceſclwch o honaw bob un yn ol ei fwyta: Gomer i bob un yn ol rhifedi eich eneidiau, cymmerwch bob un i'r rhai fyddant yn y gwerſyll.

17 A meibion Iſrael a wnaethant felly: ac a gaſclaſant, rhai lawer, a rhai ychydig.

18 Pan * feſuraſant wrth y Gomer, yna nid oedd gweddill i'r hwn a gaſclaſe lawer, ac nid oedd eiſieu ar yr hwn a gaſclaſe ychydig: caſclaſant bob un yn ol ei fwyta.

19 Yna y dywedodd Moſes wrthynt: na weddilled neb ddim o honaw hyd y borau.

20 Er hynny ni wrandawſant ar Moſes onid gado a wnaeth rhai o honaw hyd y borau, ac efe a fagodd bryfed ac a ddrewodd: am hynny Moſes a ddigiodd wrthynt.

21 A hwynt ai caſclaſant ef bob borau, pob un yn ol ei fwytta: pan wreſoge yr haul efe a doddE.

22 Ac ar y chweched dydd y caſclent ddau cymmeint o'r bara, dau Omer i un: a holl benaethiaid y gynnulleidfa a ddaethant, ac a fynegaſant wrth Moſes.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, hynn yw 'r peth a lefarodd yr Arglwydd, y foru [y mae] gorphywyſſa Sabboth ſanctaidd i'r Arglwydd: pobwch [heddyw] yr hyn a boboch, a berwch yr hyn a ferwoch, a goſodwch mewn cadwraeth hyd y borau yr holl weddill.

24 A hwynt ai cadwaſant hyd y borau fel y gorchymynnaſe Moſes: er hynny ni ddrewodd, ac nid oedd pryf ynddo.

25 Yna y dywedodd Moſes bwytewch hwn heddyw, o blegit Sabboth [yw] heddyw i'r Arglwydd: ni chewch hwn yn y maes heddyw.

26 Chwe diwrnodd y caſglwch chwi ef: a'r ſeithfed dydd [ſydd] Sabboth, ni bydd efe ar hwnnw.

27 Etto [rhai] o'r bobl aethant allan ar y ſeithfed dydd i gaſclu, ond ni chawſant ddim.

28 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes: pa hyd y gwrthodwch gadw fyng-orchymynnion a'm cyfreithiau?

29 Gwelwch mai 'r Arglwydd a roddodd i chwi Sabboth, am hynny efe a roddodd i chwi y chweched dydd fara dros ddau ddydd: arhowch bawb gartref, nac aed vn oi le y ſeithfed dydd.

30 Felly y bobl a orphywyſaſant y ſeithfed dydd.

31 A thŷ Iſrael a alwaſant ei henw ef Manna: ac efe oedd fel hâd Coriander, yn wynn, ai flâs fel afrllad o fêl.

32 A Moſes a ddywedodd dymma y peth a orchymynnodd yr Arglwydd, llanw Homer o honaw iw gadw drwy eich oeſoedd: fel y gwelant y bara a'r hwn y porthais chwi yn yr anialwch, pan i'ch dygais chwi allan o wlad yr Aipht.

33 A Moſes a ddywedodd wrth Aaron, cymmer *vn crochan a dod ynddo loned Gomer [o'r] Manna: a goſot ef ger bron yr Arglwydd yng-hadw drwy eich oeſoedd. Heb.9.4.

34 Megis y gorchymynnodd yr Arglwydd i Moſes: felly y goſododd Aaron ef i gadw ger bron y deſtiolaeth.

35 A meibion Iſrael a fwytawſant y Manna *ddeugain mlynedd nes eu dyfod i dir cyfanneddol: y Manna a fwytawſant nes eu dyfod i g'wrr gwlad Canaan. Ioſu.5.12. Neh.9.15.

36 A'r Gomer ydoedd ddecfed rann Epha.

## PEN. XVII.

1 Dyfodiad Iſrael i Raphidim. 2 Ai tuchan am ddwfr. 4 Moſes yn gweddio. 6 Ac yn cael dwfr. 8 Amalec yn ymladd ag Iſrael. 10 Ioſua yn myned yn ei erbyn ac yn cael y maes trwy weddi Moſes. 14 Duw yn addo difetha Amalec.

A Holl gynnulleidfa meibion Iſrael a aethant ar eu taith o anialwch Sin wrth orchymyn yr Arglwydd: ac a werſyllaſant yn Raphidim lle nid oedd dwfr i'r bobl i yfed.

2 Am hynny y bobl a ymgynhennaſant a Moſes, ac a ddywedaſant, rhoddwch i ni ddwfr i yfed: a dywedodd Moſes wrthynt pa ham yr ymgynhennwch a mi? pa ham y temptiwch yr Arglwydd?

3 A'r bobl a ſychedodd yno am ddwfr, a thuchanodd y bobl yn erbyn Moſes: ac a ddywedaſant, pa ham y peraiſt i ni ddyfod i fynu o'r Aipht fel hyn i'n lladd ni, a'n plant, a'n hanifeiliaid a ſyched?

4 A Moſes a lefodd ar yr Arglwydd gan ddywedyd, beth a wnaf i'r bobl hyn? [aros] etto y chydic a hwynt a'm llabyddiant.

5 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, dos o flaen y bobl a chymmer gyd a thi o henuriaid Iſrael: cymmer hefyd dy wialen yn dy law yr hon y *tarewaiſt yr afon a hi, a cherdda. Exod.7.20.

6 Wele *mi a ſafaf o'th flaen ar y graic yn Horeb, taro dithe y graig a daw dwfr allan o honi, fel y gallo y bobl yfed: A Moſes a wnaeth felly yng-olwg henuriaid Iſrael. Doeth.11.4. Num.20.9. Pſal.105.41. 1.Cor.10.4.

7 Ac efe a alwodd henw y lle Maſſah a Meribah: o achos cynnen meibion Iſrael, ac am iddynt demtio yr Arglwydd gan ddywedyd, a ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai nid [yw?]

8 *Yna y daeth Amalec: ac a ymladdodd ag Iſrael yn Raphidim. Deut.25.17. Doeth.11.3.

9 A dywedodd Moſes wrth Ioſua, dewis i ni wŷr, a dos allan a rhyfela yn erbyn Amalec: y foru mi a ſafaſ ar benn y brynn a g'wialen Duw yn fy llaw.

10 Felly Ioſua a wnaeth fel y dywedodd Moſes wrtho am ryfela yn erbyn Amalec: a Moſes, Aaron, a Hur a aethant i fynu i benn y brynn.

11 A phan gode Moſes ei law y bydde Iſrael yn drechaf: a phan adawe ef ei law yn llonydd Amalec a fydde drechaf.

12 A dwylaw Moſes oeddynt drymnion, am hynny y cymmeraſant faen, ac ai goſodaſant tano ef, ac efe a eiſteddodd arnaw: ac Aaron a Hur a attegaſant tann ei ddwylaw ef, vn ar y nailltu a'r llall ar y tu arall, felly y bu ei ddwylaw ef ſythion nes machludo haul.

13 Ac Ioſua a wanhâodd Amalec ai bobl a min y cleddyf.

14 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes ſcrifenna hynn mewn llyfr yn goffadwriaeth a mynega i Ioſua: *canys gan ddeleu y deleaf goffadwriaeth Amalec oddi tann y nefoedd. Num.24 20. 1.Sam.15.3.

15 A Moſes a adailadodd allor: ac a alwodd ei henw hi, yr Arglwydd [yw] fy maner.

16 Canys efe a ddywedodd fod llaw ar orſedd-faingc yr Arglwydd [ac y bydd] i'r Arglwydd ryfel yn erbyn Amalec o genhedlaeth i genhedlaeth.

## PEN. XVIII.

Iethro yn dwyn gwraig a phlant Moſes atto. 8 Moſes yn dangos i Iethro ei chwegrwn ymwared Iſrael. 10 Iethro yn moliannu ac yn aberthu i Dduw Iſrael. 19 Moſes yn ol cyngor Iethro yn goſod ſwyddogion tanaw.

PAN glywodd *Iethro offeiriad Midian chwegrwn Moſes yr hyn oll a wnaethe Exod.2.16.

Duw i Moſes, ac i Iſrael ei bôbl: a dwyn o'r Arglwydd Iſrael allan o'r Aipht,

2 Yna y cymmerodd Iethro chwegrwn Moſes Sephora gwraig Moſes: (wedi ei hebrwng hi [atto.)]

3 Ai dau fâb hi: o ba rai henw vn [oedd] Gerſhom o blegit efe a ddywedaſe dieithr ydwyf mewn gwlâd eſtronol.

4 Ac enw y llall [oedd] Eliezer: o herwydd Duw fy nhâd [oedd] yn gynnorthwy i mi [ebr efe] ac a'm hachubodd rhac cleddyf Pharao.

5 A daeth Iethro chwegrwn Moſes, at Moſes, at feibion, ai wraig i'r anialwch, lle'r ydoedd efe yn gwerſſyllu [ger llaw] mynydd Duw.

6 Ac efe a ddywedodd wrth Moſes, myfi Iethro dy chwegrwn ſydd yn dyfod attat: a'th wraig, ac ai dau fâb gyd a hi.

7 Yna 'r aeth Moſes allan i gyfarfod ai chwegrwn, ac a ymgrymmodd, ac ai cuſſanodd, a chyfarchaſant bôb vn iw gilydd: a daethant i'r babell.

8 Yna Moſes a fynegodd iw chwegrwn yr hyn oll a wnaethe 'r Arglwydd i Pharao, ac i'r Aiphtiaid er mwyn Iſrael: a'r holl flinder yr hyn a gawſent a'r y ffordd, ac achub o'r Arglwydd hwynt.

9 A llawenychodd Iethro o herwydd yr holl ddaioni a'r a wnaethe 'r Arglwydd i Iſrael: [ac] a'm ei waredu ef o law 'r Aiphtiaid.

10 A dywedodd Iethro, bendigedic [fyddo] yr Arglwydd yr hwn a'ch gwaredodd o law 'r Aiphtiaid, ac o law Pharao: yr hwn [hefyd] a waredodd y bôbl oddi tann law 'r Aiphtiaid.

11 Yn awr y gwn mai mwy ydyw 'r Arglwydd na'r holl Dduwiau: * o blegit yn y peth yr oeddynt falch o honaw [yr aeth efe] arnynt.

Rxod.1.10.& 16.22.
Exod.5.7.
Exod.14.18.

12 Yna Iethro chwegrwn Moſes a gymmerodd boeth offrwm, ac ebyrth i Dduw: a daeth Aaron a holl henuriaid Iſrael i fwyta bara gyd a chwegrwn Moſes gerbron Duw.

13 A Moſes a eiſteddodd drannoeth i farnu y bôbl: a ſafodd y bôbl gyd a Moſes o'r borau hyd yr hwyr.

12 A phan welodd chwegrwn Moſes yr hyn oll a'r a ydoedd efe yn ei wneuthur i'r bôbl: yna efe a ddywedodd, pa beth [yw] hyn yr ydwyt ti yn ei wneuthur i'r bôbl? pa ham yr eiſteddi dy hun, ac y ſaif yr holl bôbl gyd a thi o'r borau hyd yr hwyr?

15 A dywedodd Moſes wrth ei chwegrwn: am i'r bóbl ddyfod attafi ymgynghori a Duw.

16 Pan fyddo iddynt achos attafi y deuant, a myfi ydwyf yn barnu rhwng pawb ai gilydd: ac yn yſbyſſu deddfau Duw ai gyfreithiau.

17 A dywedodd chwegrwn Moſes wrtho: nit da y peth yr hwn yr ydwyt ti yn ei wneuthur.

18 Llwyr ddeffygi di, a'r bôbl ymma hefyd y rhai ydynt gyd a thi: canys rhy-drwm yw y peth i ti, ni elli di ei wneuthur ef dy hun.

19 Gwrando ar fy llais yn awr, mi a'th gynghoraf â bydd Duw gyd a thi: bydd di dros y bôbl ger bron Duw, a dwg di eu hachoſion at Dduw.

20 Dyſc hefyd iddynt y deddfau a'r cyfraithiau: ac hyſbyſa iddynt y ffordd a rodiant ynddi, a'r gweithredoedd y rhai a wnant.

21 Ac edrych dithe allan o'r holl bobl am wŷr nerthol yn ofni Duw, gwŷr geirwir yn caſſau cybydd-dod: a goſot [y rhai hyn] arnynt hwy, yn bennaethiaid ar filoedd, yn bennaethiaid ar gantoedd, ac yn bennaethiaid ar ddegau a deugain, ac yn bennaethiaid a'r ddegau.

22 A barnant hwy y bôbl bôb amſer, ond dygant bôb peth mawr attat ti, a barnant eu hun bôb peth bychan: felly yſcafnhâ di [y baich] oddi arnat dy hun, a chyd dygant hwythau a thi.

23 Os y peth hwn a wnei ai orchymyn o Dduw i ti, yna ti a elli barhau: a'r holl bobl hyn a ddeuant iw lle yn llwyddiannus.

24 A Moſes a wrandawodd ar lais ei chwegrwn: ac a wnaeth yr hyn oll a ddywedodd efe.

25 Canys Moſes a ddewiſodd wŷr grymmus allan o holl Iſrael, ac ai rhoddodd hwynt yn bennaethiaid ar y bobl: yn bennaethiaid ar filoedd, yn bennaethiaid ar gantoedd, yn bennaethiaid ar ddegau a deugain, ac yn bennaethiaid ar ddegau.

26 A hwynt a farnaſant y bobl bob amſer: y peth caled a ddygent at Moſes, a phob peth bychan a farnent hwy.

27 Wedi hynny Moſes a ollyngodd ymmaith ei chwegrwn: ac efe aeth adref iw wlâd.

## PEN. XIX.

Dyſodiad Iſrael i fynydd Sinai. 5 Rhagoriaeth Iſrael. 8 y bobl yn addo vfydd-dod i Dduw. 10 Duw yn erchi ſancteiddio y bobl: ac yn gwahardd iddynt gyffwrdd a'r mynydd. 14 y bobl yn ymſancteiddio. 16 Duw yn ymddangos mewn taranau, a mellt.

YN y trydydd mîs wedi dyfod meibion Iſrael allan o wlâd yr Aipht: y dydd hwnnw y daethant i anialwch Sinai.

2 Canys hwy a aethant o Raphidim, ac a ddaethant i anialwch Sinai, gwerſſyllaſant hefyd yn yr anialwch: ſef yno y gwerſſyllodd Iſraell ar gyfer y mynydd.

3 A Moſes aeth i fynu at Dduw: a'r Arglwydd a alwodd arno ef o'r mynydd, gan ddywedyd, fel hyn y dywedi wrth dŷ Iacob, ac y mynegi wrth feibion Iſrael.

4 Chwi a welſoch yr hyn a wneuthum i'r Aiphtiaid: modd y codais chwi ar adenydd eryrod, ac i'ch dygais chwi attafi.

5 Yn awr gan hynny os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fyng-hyfammod: byddwch yn dlws cuach gennifi na'r holl bobloedd, canys eiddo fi yr holl fyd.

6 A chwi a fyddwch i mi yn frenhiniaeth o offeiriaid, ac yn genhenlaeth ſanctaidd: dymma y geiriau y rhai a leſeri di wꝛth feibion Iſrael.

7 Yna y daeth Moſes, ac a alwodd am henuriaid y bobl: ac a oſododd ger eu bꝛonnau hwynt, yꝛ holl eiriau hyn, y rhai a oꝛchymynnaſe 'r Arglwydd iddo.

8 A'r holl bobl a gyd attebaſant, ac a ddywedaſant, nyni a wnawn yꝛ hyn oll a leſarodd yꝛ Arglwydd: a Moſes a ddug trachefn eiriau 'r bobl at yꝛ Arglwydd.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wꝛth Moſes, wele mi a ddeuaf attat mewn niwl tew, fel y clywo y bobl pan ymddiddanwyf a thi, ac fel y credant it byth: a Moſes a fynegaſe eiriau 'r bobl i'r Arglwydd.

10 Yꝛ Arglwydd hefyd a ddywedodd wꝛth Moſes, dos at y bobl a ſancteiddia hwynt heddyw ac y foꝛu: a golchant eu dillad.

11 Fel y byddant barod erbyn y trydydd dydd: o herwydd y trydydd dydd y deſcyn yꝛ Arglwyd yngolwg yꝛ holl bobl, ar fynydd Sinai.

12 A goſot derfyn i'r bobl o amgylch gan ddywedyd, gwiliwch arnoch rhac myned i fynu i'r mynydd, neu gyffwꝛdd ai gwꝛr ef: pwy bynnac a gyffyꝛddo a'r mynydd a leddir yn farw.

13 Na chyffyꝛdded llaw ag ef, 'onid gan labyddio llabyddier ef, neu gan ſaethu ſaether ef: pa vn bynnac ai dyn ai anifail na chaed fyw, pan gano 'r vdcoꝛn yn hir-llaes, deuant i'r mynydd.

14 Yna Moſes a ddeſcynnodd o'ꝛ mynydd at y bobl: ac a ſancteiddiodd y bobl, a hwynt a olchaſant eu dillad.

15 Ac efe a ddywedodd wꝛth y bobl, byddwch barod erbyn y trydydd dydd: nac ewch yn agos at wꝛaig.

16 A'r trydydd dydd ar y boꝛeuddydd yꝛ oedd taranau, a mellt, a niwl trwm ar y mynydd, a llais, yꝛ vdcoꝛn ydoedd gryf iawn: fel y dychrynnodd yꝛ holl bobl y rhai [oeddynt] yn y gwerſyll.

17 A Moſes a ddug y bobl allan o'ꝛ gwerſyll i gyfarfod a Duw: a hwynt a ſafaſant yng-odꝛe y mynydd.

18 A mynydd Sinai a fygodd ei gyd, o herwydd deſcyn o'ꝛ Arglwydd arno mewn tân: ai fwg a dderchafodd fel mwg ffwꝛn, a'r holl fynydd a grynnodd yn ddirfawꝛ.

19 Pan ydoedd llais yꝛ vdcoꝛn yn myned, ac yn cryfhau yn odieth: Moſes a leſarodd, a Duw a attebodd mewn llais.

20 A'r Arglwydd a ddeſcynnodd ar fynydd Sinai, ar benn y mynydd: a galwodd yꝛ Arglwydd a'r Moſes i benn y mynydd, ac aeth Moſes i fynu.

21 Yna y dywedodd yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes dos i wared teſtiolaetha i'r bobl: rhac iddynt ruthꝛo at yꝛ Arglwyd i weled, a chwympo llawer o honynt.

22 Ac ymſancteiddied yꝛ offeiriaid hefyd, y rhai a neſſânt at yꝛ Arglwydd: rhac i'r Arglwydd ruthꝛo arnynt.

23 A dywedodd Moſes wꝛth yꝛ Arglwydd, ni ddichon y bobl ddyfod i fynu i fynydd Sinai: o blegit ti a deſtiolaethaiſt wꝛthym gan ddywedyd, terfyna y mynydd, a ſancteiddia ef.

24 A'r Arglwydd a ddywedodd wꝛtho, dos cerdda i wared, a thyꝛec ti i fynu ac Aaron gyd a thi: ond na ruthꝛed yꝛ offeiriaid a'r bobl i ddyfod i fynu at yꝛ Arglwydd, rhac iddo yntef ruthꝛo arnynt hwy.

25 Yna 'r aeth Moſes i wared at y bobl, ac a ddywedodd wꝛthynt.

## P E N. XX.

Dec gorchymyn Duw. 18 Duw yn ymddangos mewn mellt i beri ei ofni. 23 Duw yn gwahardd delwau. 24 portreiad yr allor.

A Duw a leſarodd yꝛ holl eiriau hyn gan ddywedyd,

2 Myfi [ydwyf] yꝛ Arglwydd dy Dduw: yꝛ hwn a'th ddygais di allan o wlad yꝛ Aipht, o dŷ y caethiwed.

3 Na fydded it dduwiau eraill ger fy mrõ i.

4 Na wna it ddelw gerfiedic, na llun dim a'r [y ſydd] yn y nefoedd oddi vchod, nac a'r y [ſydd] yn y ddaiar oddi iſod: nac a'r [y ſydd] yn y dwfr oddi tann y ddaiar.

5 Nac ymgrymma iddynt, ac na waſanaetha hwynt: o blegit myfi yꝛ Arglwydd dy Dduw [ydwyf] Dduw eiddigus, yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd [genhedlaeth] o'ꝛ rhai a'm caſânt.

6 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd: o'ꝛ rhai a'm carant, ac a gadwant fyng-oꝛchymynnion.

7 Na chymmer enw yꝛ Arglwyd dy Dduw yn ofer: canys nid dieuog gan yꝛ Arglwydd yꝛ hwn a gymmero ei enw ef yn ofer.

8 Coſia y dydd Sabboth iw ſancteiddio ef.

9 Chwe diwꝛnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith.

10 Onid y ſeithfed dydd [yw] Sabboth yꝛ Arglwydd dy Dduw: na wna [ynddo] ddim gwaith, tydi na'th fab, na'th ferch, na'th wâſanaethwꝛ nath waſanaeth-ferch, na'th anifail, na'th ddieithꝛ-ddyn yꝛ hwn a fyddo o fewn dy byꝛth.

11 O herwydd [mewn] chwe diwꝛnod y gwnaeth yꝛ Arglwydd y nefoedd, ar ddaiar, y môꝛ, a'r hyn oll [ſydd] ynddynt, ac a oꝛphywyſodd y ſeithfed dydd: am hynny y bendithiodd yꝛ Arglwydd y dydd Sabboth, ac ai ſancteiddiodd ef.

12 Anrhydedda dy dad a'th fam: fel yꝛ eſtynno dy ddyddiau ar y ddaiar yꝛ hon y mae yꝛ Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

13 Na ladd.

14 Na wna odineb.

15 Na ledꝛatta.

16 Na ddwg gamm deſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

17 Na chwennych dŷ dy gymydog: na chwennych wraig dy gymydog, nai waſanaeth-wr, nai waſanaeth ferch, nai ŷch nai aſſyn, na dim ar[ſydd]eiddo dy gymydog.

18 A'r holl bobl a welſant y taranau, a'r mellt, a ſain yr udcorn, a'r mynydd yn mygu: pan welodd y bobl yna y ciliaſant, a ſafaſant o hîr-bell.

19 A dywedaſant wrth Moſes, lleſara di wrthym ni, ac nyni a wrandawn: ond na leſared Duw wrthym, rhac i ni farw.

20 Yna y dywedodd Moſes wrth y bobl, nac ofnwch o herwydd ich profi chwi y daeth Duw: ac i fod ei ofn ef ger eich bronnau, fel na phechech.

21 A ſafodd y bobl o hirbell: a neſſaodd Moſes i'r cwmmwl lle[yr ydoedd]Duw.

22 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes, fel hyn y dywedi wrth feibion Iſrael: chwi a welſoch mai o'r nefoedd y lleferais wrthich.

23 Na wnewch [Dduw arall] gyd a mi na wnewch i chwi dduwiau arian, na duwiau aur.

Exod.27.8. 24 Gwna di i mi*allor bridd, ac abertha arni dy boeth offrymmau, a'th ebyrth hedd, dy ddefaid, a'th eidionnau: yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf attat, ac i'th fendithiaf.

Deut.27.5.
Ioſu.8.31.
25 Ond os gwnei i mi allor gerric*na nâdd y rhai hynny: pan gottech dy forthwyl arni ti ai halogaiſt.

26 Ac na ddos i fynu ar hyd griſſiau i'm hallor: fel nad amlyger dy noethni wrthi hi.

## PEN. XXI.

Cyfreithiau am weiſion caethion. 12 Am lofryddiaeth. 15 Am daro tad neu fam. 17 Am gablu tad neu fam. 18 Am daro cymmydog. 20 Am daro caeth-was. 22 Am beri i wraig feichiog niwed. 26 Am anaf caeth-was. 28 Am eidion a ruthro neu a ſyrthio mewn pwll.

Dymma y barnedigaethau y rhai a oſodi ger eu bron hwynt.

2 Os prynni wâs o Hebræad, gwaſanaethed chwe blynedd: a'r ſeithfed y caiff yn rhâd fyned ymmaith yn rhydd.

3 Os ar ei benn ei hun y daeth, ar ei benn ei hun y caiff fyned allan: os perchen gwraig fydd efe, aed ei wraig allan gyd ag ef.

4 Os ei feiſtr a rydd wraig iddo, a hi yn planta iddo feibion, neu ferched: bydded y wraig ai phlant iw meiſtr, ac aed efe allan ar ei benn ei hun.

5 Ac os y gwâs gan ddywedyd a ddywed, hoff gennifi fy meiſtr, fyng-wraig a'm plant: nid afi allan yn rhydd.

6 Yna dyged ei feiſtr ef at y ſwyddogion a dyged ef at y ddôr, neu at yr orſyn: a thylled ei feiſtr ei gluſt ef a mynawyd, a gwaſanaethed ef byth.

7 Ac os gwerth gŵr ei ferch yn forwyn gaeth: ni chaiff hi fyned allan fel yr el y gweiſion allan.

8 Os heb ryglyddu bodd yng-olwg ei meiſtr y bydd fel na chymmero efe hi yn ddyweddi, yna gadawed ei hadbrynnu hi: ni bydd rhydd iddo ei gwerthu hi i bobl ddieithr, wedi iddo ef ei thwyllo hi.

9 Ond os iw fab y dyweddia efe hi: gwnaed iddi yn ol deddf y merched.

10 Ac os arall a brioda efe: na wnaed yn llai ei hymborth, ei dillad, nai hiawn.

11 Ac os y trî hynny nis gwna efe iddi: yna aed hi allan yn rhad heb arian.

12 Rhodder i farwolaeth y * neb a darawo wr fel y byddo marw. Lefit.24.17.

13 Ond yr hwn ni chynllwynodd [y dŷn] onid rhoddi o Dduw achlyſur iw law, mi a oſſodaf it fann lle y caffo ffoi.

14 A phan wnelo vn yn drahaus ai gymydog gan ei ladd ef trwy dwyll: cymmer ef i farwolaeth oddi wrth fy allor.

15 Rhodder i farwolaeth yr hwn a darawo ei dad, neu ei fam.

16 Rhodder i farwolaeth yr hwn a ledradhao ddŷn, ac ai gwertho, os ceir arno.

17 Rhodder i farwolaeth yr hwn a felldithio ei dad neu ei fam.

18 A phan ymryſſono dynion a tharo o'r naill y llall a charrec, neu a dwrn: ac efe heb farw, onid gorfod iddo orwedd,

19 Os cyfyd efe a rhodio allan wrth ei ffonn yna y tarawydd a fydd yn ddihawl: yn vnic rhodded ei golled am ei waith, a chan feddiginiaethu meddiginiaethed ef.

20 Ac os tery vn ei waſanaeth-wr, neu ei waſanaeth-ferch a gwialen fel y byddo farw tann ei law ef: gan ddial dialer arno.

21 Ond os erys ddiwrnod neu ddau ddiwrnod, na ddialer arno, canys [gwerth] ei arian ei hun ydoedd efe.

22 Ac os ymrafaelia dynion, a tharo o honynt wraig feichiog fel yr el ei beichiogi oddi wrthi, ac heb fod marwolaeth: gan ddirwyo dirwyer ef fel y goſodo perchen y wraig arno, a rhodded [hynny] trwy farn-wŷr.

23 Ac os marwolaeth fydd: rhodder enioes am enioes.

24 Llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed.

25 Lloſc am loſc, archoll am archoll, a chlais am glais.

26 Os tery vn lygad ei waſanaeth-wr, neu ei waſanaeth-ferch fel y llygro ef: gollynged ef yn rhydd am ei lygad.

27 Ac os tyr efe ddant ei waſanaeth-wr, neu ddant ei waſanaeth-ferch: gollynged ef yn rhydd am ei ddant.

27 Ac os ŷch a gornia ŵr, neu wraig fel y byddo farw: gan labyddio llabyddier yr ŷch, ac na fwytaer ei gîg ef, ac aed perchen yr ŷch yn rhydd.

29 Ond os yr ŷch oedd yn cornio o'r blaen, a [hynny] yn hyſpys iw berchennog, ac efe heb

ei gadw, ond lladd o honaw ŵr neu wraig: yr ŷch a labyddir, ai berchennog a roddir i farwolaeth.

30 Os iawn a roddir arnaw, rhodded werth am ei einioes, yn ol yr hyn oll a oſſodir arno.

31 Os mab neu ferch a gornia efe: gwneler iddo yn ol y gyfraith hon.

32 Ond os gwaſanaeth-wr, neu waſanaethferch a gornia 'r ŷch: rhodder iw berchennog ddec ſicl ar hugain o arian, a llabyddier yr ŷch. Geneſ.23.15.

33 Ac os egyr gŵr bydew, neu os cloddia vn bydew, ac heb gaeu arno: a ſyrthio yno ŷch neu aſſyn,

34 Perchen y pydew a dâl[am dano,]arian a dâl efe iw berchennog, a'r [anifail] marw a fydd eiddo yntef.

35 Ac os ŷch gŵr a deru ŷch ei gymydog fel y byddo efe farw: yna gwerthant yr ŷch byw, a rhannant ei werth ef, a'r [ŷch] marw a rannant hefyd.

36 Neu os dangoſwyd mai ŷch hwylioc ydoedd efe o'r blaen, ai berchennog heb ei gadw ef: gan dalu taled ŷch am ŷch, a bydded y marw eiddo ef.

## PEN. XXII.

Cyfreithiau am ledrat. 5 Am ſarhaed. 7 Am beth a rodder at vn iw gadw. 13 Am echwyn, benthyg, a llôg. 15 Am halogi merch. 17 Am raib. 19 Am gau-dduwiaeth. 20 Am ddieithraid, gweddwon, ac ymddifaid. 24 Am Vſuriaeth. 25 Am wyſtl. 27 Am barch ſwyddogion. 28 Am ddegwm.

OS lledratta vn ŷch, neu ddafad ai ladd neu ei werthu, taled bum ŷch am ŷch, a phedair dafad, am ddafad.

2 Os ceir lleidr yn torri tŷ, ai daro fel y byddo farw, na[thynner] gwaed am dano.

3 Os bydd haul wedi codi arno [tynner] gwaed am dano: cwbl daled [y lleidr,] oni bydd ganddo [beth i dalu] gwerther ef am ei ledrat.

4 Os gan gael y ceir yn ei law ef y lledrat yn fyw o eidion neu aſſyn, neu ddafad, taled yn ddwbl.

5 Os pawr vn faes, neu win-llan, ac anfon ei anifail i bori maes vn arall, taled o'r hyn goref yn ei faes, ac o'r hyn goref yn ei winllan.

6 Os tân a dyrr allan, ac a gaiff afel ar ddrain, fel y difaer dâs o ŷd, neu ŷd ar ei droed neu faes: cwbl daled yr hwn a gynneuodd y tân.

7 Os rhydd vn iw gymydog arian, neu ddodrefn i gadw, ai ledratta o dŷ 'r gŵr, os y lleidr a geir taled yn ddwbl.

8 Os y lleidr ni cheir, duger perchennog y tŷ at y ſwyddogion [i dyngu,] a eſtynnodd efe ei law ar dda ei gymydog.

9 Am bob ſarhaed, am eidion, am aſſyn, am ddafad, am ddilledyn, [ac] am bob peth a gollo 'r hwn y dywedo [vn mai] hwnnw yw efe: deued achos y ddau ger bron y ſwyddogion, a'r hwn y barno y ſwyddogion yn ei erbyn taled iw gymydog yn ddwbl.

10 Os rhydd vn aſſyn, neu eidion, neu ddafad, neu vn anifail at ei gymydog i gadw, a marw o honaw, neu ei friwo, neu ei ddwyn o anfodd heb neb yn gweled:

11 Bydded llŵ 'r Arglwydd rhyngddynt ill dau, a eſtynnodd [y ceidwad] ei law ar dda ei gymydog: a chymmered ei berchennog [hynny]ac na wnaed [y llall] iawn,

12 * Os gan ledratta y lledratteuir ef oddi wrtho gwnaed iawn iw berchennog, os gan yſclyfaethu yr yſclyfaethir ef, dyged ef yn deſtiolaeth, [ac] na thaled am yr hwn a yſclyfaethwyd. Geneſ.31.39.

13 Ond os benthygia vn gan ei gymydog [ddim]ai friwo, neu ei farw, heb [fod] ei berchennog gyd ag ef: gan dalu taled.

14 Os ei berchennoc [fydd] gyd ac ef: na wnaed iawn: os llôg [yw] efe, am ei * lôg y daeth. Deut.22.28.

15 Ac os huda vn forwyn yr hon ni ddyweddiwyd, a gorwedd gyd a hi: gan gyneſcaeddu cynheſcaedded hi'n wraig iddo ei hun.

16 Os ei thad a wrthyd ei rhoddi hi iddo, taled arian yn ol gwaddol morwynion.

17 Na chaffed rheibies fyw.

18 Llwyr rodder i farwolaeth bôb vn a orweddo gyd ag anifail.

19 * Lladder yn farw a abertho i dduwiau, onid i'r Arglwydd yn vnic. Deut 13.13. 1.Mac.2.24.

20 * Na orthrymma, ac na flina y dieithr, canys dieithraid fuoch yn nhir yr Aipht. Lefit.19.33.

21 Na orthrymmwch vn weddw, nac ymddifad,

22 * Os gwnewch iddo ddim blinder(canys os gwaedda ddim arnaf, mi a lwyr wrandawaf ei waedd ef.) Zac.7.10.

23 Fy nigofaint a ennyn, a mi a'ch lladdaf a'r cleddyf, a bydd eich gwragedd yn weddwon, a'ch plant yn ymddifaid.

24 Os echwyni arian i'm pobl y rhai [ydynt] gyd a thi: na fydd fel occrwr iddynt, na ddod ei vſuriaeth arnynt.

25 * Os cymmeri ddilledyn dy gymydog ar wyſtl, dyro ef adref iddo erbyn machludo haul. Lefit.25.37. Deut.23.19. Pſal.15.5.

26 O herwydd hynny yn vnic [ſydd] iw roddi arno ef, hwnnw yw ei ddilledyn am ei groen ef: mewn pa beth y gorwedd? a bydd os gwaedda efe arnaf im wrando, canys trugarog ydwyf.

27 Na * chabla ſwyddogion, ac na felldithia bennaeth dy bobl. Act.23.5.

28 Nac oeda [dalu] dy ffrwythau ſychion, a gwlybion, dod ti i mi * y cyntaf-anedic o'th feibion. Exod.13.2.

29 Felly y gwnei am dy eidion [ac] am dy ddafad, ſaith niwrnod y bydd gyd ai fam, a'r wythfed dydd y rhoddi ef i mi.

30 A byddwch yn ddynion ſanctaidd i mi,

ac na ſwyttewch gig wedi yſclyfaethu yn y maes, teflwch ef i'r ci.

## P E N. XXIII.

2 Ni ddylem ddilyn y blaid drechaf. 8 Na derbyn anrhegion. 10 Gorphywyſſa tir a dynion. 13 Na choffaer y gau-dduwiau. 14 Y tair gwyl arbennic. 20 Angel yr Arglwydd yn arwain y bobl. 24 Beth a ddylid i wneuthur i ddelwau. 25 Duw yn addo llwyddiant i blant Iſrael os ofnent ef.

NA chyfot enllib, na ddod ti dy law gyd a'r anuwiol i fod yn dŷſt anwir.

2 Na ddilyn y rhai amlaf i wneuthur drwg, ac nac atteb mewn ymrafael gan bwyſſo yn ol llaweroedd[a]chan wyro.

3 Na pharcha y tlawd y chwaith yn ei ymrafael.

Mat.5.44. 4 Os cyfarfyddi ag eidion dy elyn, neu ai aſſyn yn myned ar gyfergoll, dychwel ef adref iddo.

5 Os gweli aſſyn yr hwn a'th gaſſaa di yn gorwedd dann ei phwn: paid a gadel iddi, gan gynnorthwyo cynnorthwya gyd ag ef.

6 Na wyra farn dy dlawd yn ei ymrafael.

7 Ymgadw ym mhell oddi wrth ffalſter, na ladd y chwaith na'r gwirion, na'r cyfiawn, canys ni chyfiawnhafi 'r anuwiol.

Deut.16.19. Preg.16.20.32 8 Na *dderbyn wobr, canys gwobr a ddalla y rhai ſydd yn gweled, ac a wyra eiriau y cyfiawn.

9 Na orthrymma y dieithr, chwi a wyddoch galon y dieithr: o herwydd chwi a fuoch ddieithraid yn nhîr yr Aipht.

Leuit.21.3. Leuit.26.43. Deut.15.1. 10 *Chwe blynedd yr heui dy dîr, ac y caſgli ei ffrwyth.

11 A'r ſeithfed paid ag ef, a gad ef yn llonydd fel y caffo tlodion dy bobl fwytta, a bwyttaed bwyſt-fil y maes eu gweddill hwynt: felly y gwnei am dy win-llan[ac]am dy oliwydden.

Exod.20.8. deut.5.12. 12 *Chwe diwrnod y gwnei dy waith, ac ar y ſeithfed dydd y gorphywyſi: fel y caffo dy ŷch a'th aſſyn lonyddwch, ac y cymmero mâb dy forwyn gaeth a'r dieithr ddŷn ei anadl atto.

13 Ac ymgedwch ym mhôb peth a ddywedais wrthich, na choffewch enw duwiau eraill, na clywer[hynny]o'th enau.

14 Tair gwaith yn y flwyddyn y cedwi ŵyl i mi.

15 Gŵyl y bara croiw a gedwi, ſaith niwrnod y bwyttei fara croiw, fel y gorchymynnais it: ar yr amſer goſſodedic o fîs Abib, canys ynddo y daethoſt allan o'r Aipht, ac nac ymddangoſed[neb]ger fy-mron yn waglaw.

16 A gŵyl cynhaiaf blaen-ffrwyth dy lafur yr hwn a heuaiſt yn y maes, a gŵyl y cynnull yn niwedd y flwyddyn, pan gynhullech dy lafur o'r maes.

17 Tair gwaith yn y flwyddyn yr ymddengys dy holl yrſiaid ger bron yr Arglwydd Ior.

18 Nac abertha waed fy aberth ar fara lefeinllyd: ac nac arhoed braſder fy aberth dros nôs hyd y borau.

19 Dŵg i dŷ 'r Arglwydd dy Dduw y cyntaf o flaen-ffrwyth dy dîr: na ferwa fynn yn llaeth ei fam.

20 Wele fi yn anfon angel o'th flaen i'th gadw ar y ffordd: ac i'th arwain i'r man yr hwn a baratoais.

21 Gwilia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef, na chyffroa ef: canys ni ddioddef efe eich anwiredd o blegit[y mae]fy enw ynddo ef.

22 Os gan wrando y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur cwbl a lefarwyf, mi a fyddaf elyn i'th elynion, ac a wrthwyneba dy wrthwynebwyr

23 O herwydd fy angel a aiff o'th flaen di, ac a'th ddŵg di at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Phereziaid, a'r Canaaneaid, yr Hefiaid, a'r Iebuſiaid: a mi ai difethaf hwynt.

24 Nac ymgrymma iw duwiau hwynt, ac na waſanaetha hwynt, ac na wna yn ôl eu gweithredoedd hwynt, onid tynn hwynt i lawr, a dryllia eu delwau hwynt.

25 A chwi a waſanaethwch yr Arglwydd eich Duw, ac efe a fendithia dy fara, a'th ddwfr, a mi a dynnaf ymmaith[bob]clefyd o'th fyſc.

26 Ni *bydd yn dy dîr di a gollo ei beichiogi, nac un ni allo blanta, mi a gyflawnaf rifedi dy ddyddiau. Deut.7.15.

27 Mi a anfonaf fy arſwyd o'th flaen, ac a laddaf yr holl bobl y rhai y deui attynt, ac a roddaf wegil dy holl elynion tuag attat.

28 A mi a anfonaf gaccwn o'th flaen, a hwynt a yrrant yr Hefiaid, a'r Canaaneaid, a'r Hethiaid allan o'th flaen di.

29 Ni yrraf hwynt oddi wrthit mewn un flwyddyn: rhac bôd y wlâd yn ddiffaethwch ac i fwyſt-filod y maes fyned yn amlach na thi.

30 O feſur ychydic, ac ychydic, y gyrraf hwynt allan o'th flaen di, nes iti gynnyddu, ac ettifeddu y tîr.

31 A goſſodaf dy derfyn o'r môr côch, hyd fôr y Philiſtiaid, ac o'r diffaethwch hyd yr afon: canys mi a roddaf yn eich meddiant breſſwylwyr y tîr, a thi ai gyrri hwynt allan o'th flaen di.

32 Na *wna ammod a hwynt, nac ai duwiau. Exod.34.15 deut.7.2.

33 Na âd iddynt drigo yn dy wlâd, rhac iddynt beri it bechu im herbyn: canys os gwaſanaethi di eu duwiau hwynt, diau y bydd[hynny] yn dramgwydd i ti.

## P E N. XXIIII.

1 Gorchymyn ar ddyfod o Moſes i'r mynydd. 4 Moſes yn ſcrifennu y gyfraith mewn llyfr. 9 Moſes yn myned i'r mynydd trachefn. 18 Ac yn aros yno ddeugain nhiwrnod.

AC efe a ddywedodd wrth Moſes tyret i fynu at yr Arglwydd, ti ac Aaron, Nadab, ac Abihu, a'r dec a thrugain o henuriaid Iſrael: ac addolwch o hir-bell.

2 Ac aed Moſes ei hun at yr Arglwydd, ac na ddeuant hwynt, ac nac aed y bobl i fynu gyd ag ef.

3 Yna y daeth Moſes, ac a fynegodd i'r bobl holl eiriau 'r Arglwydd, a'r holl farnedigaethau: ac attebodd yr holl bobl yn vn air, ac a ddywedaſant, * ni a wnawn yr holl eiriau y rhai a lefarodd yr Arglwydd. Exod.19.8.

4 A Moſes a ſcrifennodd holl eiriau 'r Arglwydd, ac a gododd yn forau, ac a * adailadodd allor iſlaw y mynydd, a deuddéc colofn, yn ol deuddéc llwyth Iſrael: exod.20.24.

5 Ac efe a anfonodd langciau meibion Iſrael a hwynt a offrymmaſant boeth offrymmau, ac a aberthaſant fuſtych yn ebyrth hedd i'r Arglwydd.

6 A chymmerodd Moſes hanner y gwaed, ac ai goſſododd mewn caugiau, a'r hanner [arall] i'r gwaed a daenellodd efe ar yr allor.

7 Ac efe a gymmerth lyfr y cyfammod, ac ai darllenodd lle y clywe y bobl, a dywedaſant ni a wnawn, ac a wrandawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd.

8 A chymmerodd Moſes y gwaed, ac ai taenellodd ar y bobl, ac a ddywedodd * wele waed y cyfammod yr hwn a wnaeth yr Arglwydd a chwi, yn ol yr holl eiriau hyn. Hebr 9 20.

9 Yna'r aeth Moſes i fynu, ac Aaron, Nadab ac Abihu, a déc a thrugain o henuriaid Iſrael.

10 A gwelſant Dduw Iſrael, a thann ei draed ef megis gwaith o faen Saphir, ac fel corph y nefoedd o ddiſcleirder.

11 Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Iſrael, onid gwelſant Dduw, a bwyttaſant, ac yfaſant.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes tyret attaf i'r mynydd a bydd yno, ac mi a roddaf it lechau cerric, a'r gyfraith a'r gorchymyn y rhai a ſcrifennais iw dyſcu hwynt.

13 A chododd Moſes, ac Ioſua ei weinidog, ac aeth Moſes i fynu i fynydd Duw.

14 Ac wrth yr henuriaid y dywedodd, arhoſwch am danom ynma, hyd oni ddelom attoch trachefn: ac wele Aaron, a Hur gyd a chwi, pwy bynnac [a fyddo] ag achos iddo deued attynt hwy.

15 A Moſes aeth i'r mynydd, a niwl a orchguddiodd y mynydd.

16 A gogoniant yr Arglwydd a arhôdd ar fynydd Sinai, a niwl ai gorchguddiodd chwe diwrnod, ac efe a alwodd am Moſes y ſeithfed dydd o ganol y niwl.

17 A'r golwg ar ogouiant yr Arglwydd [ydoedd] fel tân yn difa ar ben y mynydd yngolwg meibion Iſrael.

18 A daeth Moſes i ganol y niwl ac aeth i'r mynydd: a bu Moſes yn y mynydd * ddeugain nhiwrnod, a deugain nhos. Exod.34.28. deut.9.9.

## PEN. XXV.

1 Duw yn goſyn gan ei bobl offrymmau ewyllyſgar i wneuthur y babell. 10 Arch y deſtiolaeth. 17 Y drugareddfa. 23 Y bwrdd a'r lleſtri. 31 A'r canhwyllbren.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan-ddywedyd:

2 Dywet wrth feibion Iſrael, am ddwyn o honynt i mi offrwm: * gan bôb gwr ewyllyſgar ei galon y cymmerwch fy offrwm: Exod.35.5.

3 Dymma 'r offrwm yr hwn a gymmerwch ganddynt: aur, ac arian, a phrês.

4 A Sidan glâs, a phorphor ac ſcarlat, a ſidan gwyn a [blew] geifr.

5 A chrwyn hyrddod yn gochion, a chrwyn daiar-foch, a choed Sittim.

6 Olew i'r goleuui, llyſeuau i olew 'r ennaint, ac i'r arogl-darth llyſſeuoc.

7 Y meini Onix, a meini iw goſſod * yn yr Ephod, ac * yn y ddwyfronec. Exod.28.4. Exod.28.15.

8 A gwnant i mi gyſſegr fel y gallwyf drigo yn eu myſc hwynt.

9 Yn ol holl waith y tabernacl, a gwaith ei holl ddodrefn y rhai 'r ydwyf yn eu dangos it, felly y gwnewch.

10 A gwnant Arch * o goed Sittim, o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei lléd, a chufydd a hanner ei huchder. Exod.37.1.

11 A gorcura hi ag aur coeth o fewn, ac oddi allan y gorcuri hi: a gwna arni goron o aur o amgylch.

12 Bwrw iddi hefyd bedair modrwy aur, a dod ar ei phedair congl: dwy fodrwy ar vn yſtlys iddi, a dwy fodrwy ar yr yſtlys arall iddi.

13 A gwna droſſolion o goed Sittim, a gorcura hwynt ag aur.

14 A goſſot y troſſolion trwy y modrwyau, gan yſtlys yr Arch, i ddwyn yr Arch arnynt.

15 Ym modrwyau 'r Arch y bydd y troſſolion, ua ſymmuder hwynt oddi wrthi.

16 A dod yn yr Arch, y deſtiolaeth yr hon a roddaf it.

17 A gwna drugareddfa o aur coeth, o ddau gufydd a hanner ei hyd, a chufydd a hanner ei llêd.

18 A gwna ddau Gerub o aur, o gyfan-waith morthwyl y gwnei hwynt, yn nau gwrr y drugareddfa,

19 Un Cerub a wnei yn y naill gwrr, a'r Cerub arall yn y cwrr arall i'r drugareddfa, ar ei dau gwrr hi y gwnewch y Cerubiaid.

20 A bydded y Cerubiaid yn lledu [eu] hadenydd i fynu gan orchguddio ai hadenydd tros y drugareddfa, ai hwynebau bôb vn at ei gilydd, tua'r drugareddfa y bydd wynebau y Cerubiaid.

21 A dod ti y drugareddfa i fynu ar yr Arch, ac yn yr Arch dod y deſtiolaeth yr hon a roddaf i ti.

22 A mi a deſtiolaethaf it yno, ac a lefaraf wrthit oddiar y drugareddfa, oddi rhwng y ddau Gerub y rhai a fyddant ar Arch y deſtiolaeth yr holl bethau y rhai a orchymynnwyf wrthit i feibion Iſrael.

23 A * gwna di fwrdd o goed Sittim, o ddau gufydd ei hŷd, a chufydd, ei lèd, a chufydd a hanner ei vchter. Exod.37.10.

24 A gorcura ef ag aur coeth, a gwna iddo

goron o aur o amgylch.

25 A gwna iddo gylch[o lêd] llaw o amgylch, a gwna goron aur ar ei wregys o amgylch.

26 A gwna iddo bedair modrwy o aûr, a dod y modrwyau wrth y pedair congl y rhai a [fyddant]ar ei bedwar troed.

27 Ar gyfer y cylch y bydd y modrwyau yn lleoedd i'r troſſolion i ddwyn y bwrdd.

28 A gwna y troſſolion o goed Sittim, a goreura hwynt ag aur, fel y dyger y bwrdd arnynt.

29 A gwna ei ddyſglau ef, ai gwppanau, ai gafnau, ai phiolau y rhai y tywelltir a hwynt: o aur coeth y gwnei hwynt.

30 A dod ar y bwrdd y bara goſod ger bron fy-wyneb yn oeſtadol.

Exo.37.17 31 *Gwna hefyd ganhwyll-bren: o aur pûr yn gyfan-waith y gwneir y canhwyll-bren: ei baladr, ei geingciau, ei bedill, ei gnappiau, ai flodau a fyddant o honaw ei hûn.

32 A[bydd] chwe chaingc yn dyfod allan oi yſtlyſau, tair caingc o'r canhwyll-bren o vn tu, a thair caingc o'r canhwyll-bren o'r tu arall.

33 Tair padell o waith almon, cnap a blodeun ar vn gaingc, a thair padell o waith almon, cnap a blodeun ar gaingc arall: felly ar y chwe chaingc [a fyddo] 'n dyfod allan o'r canhwyll-bren.

34 Ac yn y canhwyll-bren y bydd pedair padell ar waith almon, ai gnappiau, ai flodau.

35 A bydd cnap tan ddwy gaingc o honaw, a chnap tan ddwy gaingc o honaw, a chnap tan ddwy gaingc o honaw: yn ol y chwe chaingc a ddeuant o'r canhwyll-bren.

36 Eu cnappiau, ai ceingciau a fyddant o honaw ef: oll yn aur coeth o vn cyfan-waith morthwyl.

37 A thi a wnei ei ſaith luſern ef, ac a godi ei luſernau ef fel y goleuo efe ar gyfer ei wyneb.

38 A[bydded]ei efeiliau, ai gafnau o aur coeth.

39 O dalent o aur coeth y gwnei ef, a'r holl leſtri hynn.

Heb.8.9. heb. 7.44. 40 Ond *gwel wneuthur yn ôl eu portreiad hwynt yr hwn a ddangoſwyd it yn y mynydd.

## PEN. XXVI.

1 Llûn y babell. 31 Y llenn. 33 Llê 'r Arch: 34
Lle y drugareddfa, a'r bwrdd, a'r canhwyll-bren. 36
Y llen ar ddrws y babell.

Y Tabernacl hefyd a wnei di o ddêc llenn o ſidan gwyn cyfrodedd, ac o ſidan glâs, a phorphor, ac ſcarlat yn Gerubiaid o gywreinwaith y gwnei hwynt.

2 Hŷd vn llenn[fydd] wyth gufydd ar hûgain, a llêd vn llenn [fydd] pedwar cufydd, yr vn meſur a fydd i'r holl lenni.

3 Pum llenn a fyddant yng-lŷn bôb vn wrth ei gilydd, a phum llenn[eraill] a fyddant yng-lŷn wrth ei gilydd.

4 A gwna ddolennau o ſidan glâs ar ymyl vn llenn, ar y cwrr yn y cydiad, ac felly y gwnei ar ymyl y llenn eithaf, yn yr ail cydiad.

5 Dêc dolen a deugain, a wnei di i vn llenn, a dêc dolen a deugain a wnei ar gwrr y llenn yr hon [a fyddo] yn yr ail cydiad: y dolennau a dderbyniant bôb vn ei gilydd.

6 Gwna hefyd ddêc derbyniad a deugain o aur, a chydia a'r derbyniadau y llenni bôb vn wrth ei gilydd, fel y byddo yn vn tabernacl.

7 A gwna lenni o[flew] geifr[i fod]yn babell-len ar y tabernacl, yn vn llenn ar ddêc y gwnei hwynt.

8 Hŷd vn llenn[fydd]dêc cufydd ar hugain, a llêd vn llen[fydd]pedwar cufydd, a'r vn meſur[fydd] i'r vn llen ar ddêc.

9 A chydia bum llenn wrthynt eu hun, a chwe llenn wrthynt eu hun, a dybla y chweched lenn ar gyfer wyneb y babell-len.

10 A gwna ddêc dolen a deugain ar ymyl y naill lenn ar y cwrr yn y cydiad[cyntaf], a dêc dolen a deugain ar ymyl y llenn[arall]yn yr ail cydiad.

11 A gwna ddêc derbynniad a deugain o brês, a dôd y derbynniadau yn y dolennau, a chyplymma y babell-len fel y byddo yn vn.

12 A'r gweddill a fyddo tros benn o lenn y babell-len [ſef] yr hanner llenn weddill a adewir ar du cefn y tabernacl

13 Fel[y byddo] o'r gweddill gufydd o'r naill dû, a chufydd o'r tu arall, o hŷd y babell-len: bydded y gweddill dros ddau yſtlys y tabernacl o bob-tu iw orchguddio.

14 A gwna dô i'r babell-len o grwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion, a thô o grwyn daiar-foch yn vchaf.

15 A gwna ſtyllod o goed Sittim i'r tabernacl yn eu ſefyll.

16 O ddêc cufydd o hŷd[yn]yr ſtyllen, ac o gufydd a hanner cufydd o lêd mewn pôb ſtyllen.

17 [Bydded]dau dŷno i vn bwrdd, wedi goſod fel ffynn yſcal, pôb vn ar gyfer ei gylydd: felly y gwnei am holl fyrddau y tabernacl.

18 A gwna ſtyllod i'r tabernacl, vgain ſtyllen o'r tu dehau, tu a'r dehau.

19 A gwna ddeugain mortais arian tann yr vgain ſtyllen, dwy fortais tann vn ſtyllen iw dau dŷno, a dwy fortais tan ſtyllen arall iw dau dŷno.

20 A[gwna] i ail yſtlys y tabernacl, o du 'r gogledd vgain ſtyllen.

21 A deugain mortais o arian[o feſur] dwy fortais tann bôb ſtyllen,

22 Hefyd i yſtlys y tabernacl o du 'r gorllewin y gwnei chwech ſtyllen.

23 A dwy ſtyllen a wnei i gonglau y tabernacl rhwng y ddau yſtlys.

24 A byddant wedi eu cyſſylldu oddi tanodd, byddant hefyd wedi eu cyd gydio oddi arnodd wrth vn fodrwy: felly y bydd iddynt ill dau, ŷn y ddwy gongl y byddant.

25 A byddant yn wyth ſtyllen, ai morteiſiau arian yn vn mortais ar bymthec, dwy fortais dann vn ſtyllen, a dwy fortais tann ſtyllen arall.

26 Gwna hefyd farrau o goed Sittim, pump i ſtyllod vn yſtlys i'r tabernacl.

27 A phum barr i ſtyllod ail yſtlys y tabernacl, a phum barr i yſtlys y tabernacl o du'r gorllewin.

28 A'r barr canol[fydd[yng-hanol yr ſtyllod, yn barrio o gwrr i gwrr.

29 Goreura hefyd ag aur yr ſtyllod, a gwna eu modrwyau o aur, i oſod y barrau drwyddynt, goreura y barrau hefyd ag aur.

30 A *chyfot y tabernacl wrth ei bortreiad, yr hwn a ddangoſwyd it yn y mynydd.

31 A gwna wahan-len o ſidan glâs, porphor ac ſcarlat, ac o ſidan gwyn cyfrodedd yn[llawn] Cerubiaid o waith cywrcint y gwnei hi.

32 A dod hi ar bedair colofn o[goed]Sittim wedi eu goreuro ag aur, ai pennau o aur, ar bedair mortais arian.

33 A dod y wahan-len wrth y derbynniadau, fel y gellech ddwyn yno o fewn y wahan-lenn Arch y deſtiolaeth, a'r wahan-lenn a wna wahan i chwi rhwng y cyſſegr, a'r cyſſegr ſancteiddiolaf.

34 Dod hefyd y drugareddfa ar Arch y deſtiolaeth yn y cyſſegr ſancteiddiolaf.

35 A goſot y bwrdd o'r tu allan i'r wahanlenn, a'r canhwyll-bren gyferbyn a'r bwrdd, ar y tu dehau i'r tabernacl: a dod y bwrdd ar du y gogledd,

36 A gwna gaead-lenn i ddrws y babell, o ſidan glâs porphor ac ſcarlat, ac o ſidan gwyn cyfrodedd o wniad-waith.

37 A gwna i'r gaead-len bum colofn,[o goed]Sittim, a goreura hwynt ag aur, ai pennau o aur, a bwrw iddynt bump mortais brês.

## PEN. XXVII.

1 Allor y poeth offrwm. 9 Cynteddfa y tabernacl. 20 Goleuni gwaſtadol yn y babell.

GWna hefyd allor o goed Sittim o bump cufydd o hŷd, a phump cufydd o lèd, yn bedair-ongl y bydd yr allor, ai huchder o dri chufydd.

2 A gwna ei chyrn ar ei phedair congl, o honi ei hun y bydd ei chyrn, a gwiſc hi a phrês.

3 Gwna hefyd iddi grochanau i dderbyn ei lludw, ai rhawiau, ai chawgiau, ai chig wennau, ai thuſſerau: ei holl leſtri a wnei o brês.

4 A gwna iddi alch o brês, ar waith rhwyd, a gwna ar yr rhwyd bedair modrwy o brês wrth ei phedair congl.

5 A dod hi dann amgylchiad yr allor oddi tannodd, fel y byddo y rhwyd hyd hanner yr allor.

6 A gwna drosolion i'r allor[ſef]troſolion o goed Sittim, a gwiſc hwynt a phrês.

7 A dod ei throſſolion trwy y modrwyau, a bydded y troſſolion ar ddau yſtlys yr allor pan ddyger hi.

8 Gwna hi ag yſtyllod yn gau: fel y dangoſodd[yr Arglwydd] i ti yn y mynydd, felly y gwnant.

9 A gwna gynteddfa y tabernacl ar y tu dehau tua'r dehau: troelloc lenni y cynteddfa fyddant ſidan gwyn cyfrodedd, o gan cufydd o hŷd yn vn yſtlys.

10 Ai hugain colofn, ai hugain mortais[fyddant]o brês: pennau y colofnau, ai cylchau [fyddant]o arian.

11 Felly o du'r gogledd [y bydd] ar hŷd, lenni troelloc, o gant[cufydd]o hŷd, ai hugain colofn/gyd ai hugain mortais o brês: a phennau y colofnau, ai cylchau o arian.

12 A llêd y cynteddfa tua'r gorllewin [a gaiff]droelloc lenni o ddêc cufydd a deugain: eu colofnau[fyddant]ddêc, ai morteiſiau yn ddêc.

13 A lled y cynteddfa tua'r dwyrain o godiad haul [a fydd]dêc cufydd, a deugain.

14 Y troelloc lenni o'r[naill]du[a fyddant] bymthec cufydd, eu colofnau yn dair, ai morteiſiau yn dair.

15 Ac i'r ail tu[y bydd] pymthec troelloc lenn, eu tair colofn ai tair mortais.

16 Ac i borth y cynteddfa[y gwneir] caead lenn o vgein cufydd o ſidan glâs, porphor, ac ſcarlat, ac o ſidan gwyn cyfrodedd o wniad-waith: eu pedair colofn, ai pedair mortais.

17 Holl golofnau y cynteddfa o amgylch a gylchir ag arian, ai pennau yn arian, ai morteiſiau yn brês.

18 Hŷd y cynteddfa [fydd] cant cufydd, ai lêd dec a deugain o bôb tu: a phump cufydd o vchter [fydd y troelloc lenni] o ſidan gwyn cyfrodedd, ai morteiſiau prês.

19 Holl leſtri y tabernacl yn eu holl waſanaeth, ai holl hoelion hefyd, a holl hoelion y cynteddfa fyddant o brês.

20 A gorchymyn dithe i feibion Iſrael ddwyn o honynt attat bûr olew'r olhwydden coethedic yn oleuni, i beri i'r luſernau ennyn yn oeſtad.

21 Ym mhabell y cyfarfod o'r tu allan i'r wahanlenn yr hon[a fydd]o flaen y deſtiolaeth y trefna Aaron, ai feibion hwnnw o'r hwyr hyd y borau, ger bron yr Arglwydd yn ddeddf dragwyddol trwy eu hoeſoedd gan feibion Iſrael.

## PEN. XXVIII.

Gwiſc Aaron, ai feibion.

A Chymmer di Aaron dy frawd attat, ai feibion gyd ag ef o blith meibion Iſrael i offeiriadu i mi: [ſef] Aaron, Nadab, ac Abihu, Eleazar, ac Ithamar meibion Aaron.

2 Gwna hefyd wiſcoedd ſanctaidd i Aaron dy frawd: er gogoniant, a harddwch.

3 A dywet wrth yr holl rai doeth o galon, y rhai a lenwais i ag yſpryd doethineb: am wneuthur

thur o honynt ddillad Aaron iw ſancteiddio ef i offeiriadu i mi.

4 Ac dymma y gwiſcoedd y rhai a wnant, dwyfronec, ac Ephod, mantell hefyd, a phais o waith edef a nodwydd, meitr a gwregys: felly y gwnant wiſcoedd ſanctaidd i Aaron dy frawd, ac iw feibion i offeiriadu i mi.

5 Cymmerant gan hynny aur, a ſidan glâs, a phorphor: ac ſcarlat, a ſidan gwynn.

6 A gwnant yr Ephod o aur, ſidan glas, a phorphor: ac ſcarlat a ſidan gwynn cyfrodedd o waith cywraint.

7 Dwy yſcwydd fydd iddi wedi eu cydio wrth ei dau gwrr, fel y cydier hi yng-hyd.

8 A gwregys ei Ephod ef yr hwn fydd arno fydd o honi hi, yn un waith a hi: o aur, ſidan glâs, a phorphor, ſcarlat hefyd, a ſidan gwynn cyfrodedd.

9 Cymmer hefyd ddau faen Onix: a nadd ynddynt enwau meibion Jſrael.

10 Chwech o henwau ar y maen cyntaf: a'r chwe henw arall ar yr ail maen yn ol eu ganedigaeth.

11 Ar waith ſaer maen [gwerthfawr,] fel naddu ſêl y neddi di y ddau faen yn ol henwau meibion Jſrael: gwna hwynt a boglynnau o aur oi hamgylch.

12 A goſot y ddau faen ar yſgwyddau yr Ephod yn feini coffadwriaeth i feibion Jſrael: canys Aaron a ddwg eu henwau hwynt ger bron yr Arglwydd ar ei ddwy yſcwydd yn goffadwriaeth.

13 Gwna hefyd foglynnau aur.

14 A dwy gadwyn gyd-terfynol o aur coeth, o bleth-waith y gwnei hwynt: a dod y cadwynau plethedic wrth y boglynnau.

15 Gwna hefyd ddwyfronec barnedigaeth o waith cywraint, ar waith yr Ephod y gwnei hi: o aur, ſidan glas, a phorphor, ac ſcarlat, a ſidan gwyn cyfrodedd y gwnei hi.

16 Pedair ongl fydd hi [a] dau ddyblyg: yn rhychwant ei hŷd, ac yn rhychwant ei llêd.

17 Llawna hi yn llawn o feini [ſef] pedair rhês o feini: rhês o Sardius, a Thophas, a Smaragdus fydd y rhês gyntaf.

18 A'r ail rhês [fydd] Rubi, Saphir, ac Adamant.

19 A'r drydedd rhês [fydd] Lyncur, ac Achat, ac Amethyſt.

20 Y bedwaredd rhês [fydd] Turcas, ac Onix, ac Jaſpis: byddant wedi eu gwiſco mewn aur yn eu lleoedd.

21 A'r meini fyddant yn ol henwau meibion Jſrael, yn ddeuddec yn ol eu henwau hwynt: o naddiad ſêl, bob un wrth ei henw y byddant i'r deuddec llwyth.

22 A gwna ar y ddwyfronec gadwynau cyd-terfynol yn bleth waith o aur coeth.

23 Gwna hefyd ar y ddwyfronec ddwy fodrwy o aur, a dod y ddwy fodrwy wrth ddau gwrr y ddwyfronec.

24 A dod y ddwy (gadwyn) blethedic, o aur trwy y ddwy fodrwy ar gyrrau y ddwyfronnec.

25 A dod ddau pen y ddwy gadwyn wrth y ddau foglyn: a dod ar yſcwyddau yr Ephod o'r tu blaen.

26 Gwna hefyd ddwy fodrwy o aur a goſot hwynt wrth ddau gwrr y ddwyfronnec: o'r tu mewn ar yr ymmyl yr hwn [ſydd] ar yſtlys yr Ephod.

27 A gwna ddwy fodrwy o aur, a dod hwynt ar ddau yſtlys yr Ephod oddi tanodd: oi thu blaen ar gyfer ei chydiad oddi ar wregys yr Ephod.

28 A'r ddwyfronnec a rwymant ai modrwyau wrth fodrwyau 'r Ephod a llinin o ſidan glâs, i fod ar wregys yr Ephod: fell na ddatoder y ddwyfronnec oddi wrth yr Ephod.

29 A dyged Aaron yn nwyfronnec y farnedigaeth henwau meibion Jſrael ar ei galon, pan ddelo i'r cyſſegr: yn goffadwriaeth ger bron yr Arglwydd yn oeſtadol.

30 A dod ar ddwyfronnec y farnedigaeth yr Urim a Thummim i fod ar galon Aaron pan ddelo ger bron yr Arglwydd: ac Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Jſraell ar ei galon, ger bron yr Arglwydd yn oeſtadol.

31 Gwna hefyd fantell yr Ephod oll o ſidan glâs.

32 A bydded twll ei benn ef yn ei chanol: bydded eirionyn iw choler o amgylch o wauad-waith, megis coler lluric fydd iddi rhac rhwygo.

33 A gwna ar ei godre hi [luniau] pomgranadau o ſidan glâs, a phophor, ac ſcarlat ar ei godrau o amgylch: a chlychau o aur rhyngddynt o amgylch.

Pregeth.45.10.

34 *Clôch aur, a phom-granad [a] chlôch aur a phom-granad ar odre y fantell o amgylch.

35 A hi a fydd am Aaron wrth weini: fel y clywer ei ſwn ef pan ddelo i'r cyſſegr, ger bron yr Arglwydd, a phan elo allan, fel na byddo farw.

36 Gwna hefyd ddalen o aur coeth: a nadd di arni fel naddiadau ſêl, Sancteiddrwydd i'r Arglwydd.

37 A goſot hi wrth linin o ſidan glâs, a bydded ar y meitr: o'r tu blaen i'r meitr y bydd.

38 A hi a fydd ar dalcen Aaron fel y dygo Aaron anwiredd yr offrymmau y rhai a gyſſegro meibion Jſrael oi holl ſanctaidd offrymmau hwynt, ac yn oeſtad y bydd ar dalcen Aaron i [beri] iddynt ffafor ger bron yr Arglwyd.

39 Gweithia ag edef a nodwydd bais o ſidan gwynn: a gwna feitr o ſidan gwyn, a gwregys o wniad-waith.

40 J feibion Aaron hefyd y gwnei beiſiau, a gwna iddynt wregyſau: gwna hefyd iddynt gappanau er gogoniant a harddwch.

41 A gwiſc hwynt am Aaron dy frawd ai feibion gyd ag ef: ac eneinia hwynt, cyſſegra hw-

ynt hefyd, a ſancteiddia hwynt i offeiriadu i mi.

Leuit.6.10. 42 Gwna hefyd iddynt lawdrau lliain i guddio eu cnawd noeth: o'r lwynau hyd y morddwydydd y byddant.

43 A byddant am Aaron, ac am ei feibion pan ddelont i babell y cyfarfod, neu pan ddelont at yr Allor i weini yn y cyſſegr, fel na ddygont anwiredd a marw: [hynn fydd] ddeddf dragywyddol iddo ef, ac iw hâd ar ei ol ef.

## PEN. XXIX.

Y modd y cyſſegryd offeiriaid Lefi. 38 yr aberth gwaſtadol.

DYmma hefyd y peth yr hwn a wnei di iddynt hwy wrth eu cyſſegru, i offeiriadu i Leuit.9.2. mi: *cymmer vn buſtach ieuangc, a dau hwrdd perffeith-gwbl.

2 A bara croiw, a theiſennau croiw wedi eu cymmyſcu ag olew, ac afrllad croiw wedi eu hiro ag olew: o beillied gwenith y gwnei hwynt.

3 A dod hwynt mewn vn cawell, a dwg yn y cawell hwynt gyda'r buſtach a'r ddau hwrdd.

4 Dwg hefyd Aaron ai feibion i ddrws pabell y cyfarfod: a golch hwynt a dwfr.

5 A chymmer y gwiſcoedd a gwiſc am Aaron y bais, a mantell yr Ephod, a'r Ephod hefyd, a'r ddwyfronnec: a gwregyſſa [hynny] a gwregys yr Ephod.

Exod.28.36. 6 A goſot y meitr ar ei benn ef, a dod y *goron gyſſegredic ar y meitr.

Exod.30.23. 7 Yna y cymmeri *olew'r eneiniad, ac y tywellti ar ei benn ef: ac yr enneini ef.

8 A dwg ei feibion ef: a gwiſc beiſiau am danynt.

9 A gwregyſa hwynt a gwregyſau, [ſef] Aaron ai feibion, a gwiſc hwynt a chappiau Exod.28.41. fel y byddo yr offeiriadaeth iddynt yn ddeddf dragywyddol: felly y cyſſegri Aaron ai feibion.

Leuit.1.4. 10 A phar di ddwyn y buſtach ger bronn pabell y cyfarfod: a *rhodded Aaron ai feibion eu dwylo ar benn y buſtach.

11 Yna lladd y buſtach ger bron yr Arglwydd: [wrth] ddrws pabell y cyfarfod.

12 A chymmer o waed y buſtach, a dod ar gyrn yr allor a'th fŷs: a thywallt yr holl waed [arall] wrth droed yr allor.

Leuit.3.3. 13 *Cymmer hefyd yr holl 'wêr a fydd yn gorchguddio y perfedd, a'r rhwyden [a fyddo] ar yr afi, a'r ddwy aren, a'r gwêr yr hwn [a fyddo] arnynt: a lloſc ar yr allor.

14 Ond cîg y buſtach ai groen, ai fiſwel, a loſci mewn tân, o'r tu allan i'r gwerſſyll: aberth tros bechod yw.

15 Cymmer hefyd vn hwrdd: a goſoded Aaron ai feibion eu dwylo ar benn yr hwrdd.

16 Wedi y lleddech yr hwrdd: cymmer ei waed ef a thaenella ar yr allor o amgylch.

17 A darnia yr hwrdd yn ddarnau: a golch ei berfedd, ai draed, a dod hwynt yng-hyd ai ddarnau, ac ai benn.

18 Felly y lloſci yr hwrdd ar yr allor, poeth offrwm i'r Arglwydd yw: arogl eſmwyth [ac] aberth tanllyd i'r Arglwydd yw.

19 A chymmer yr ail hwrdd: a rhodded Aaron ai feibion eu dwylo ar benn yr hwrdd.

20 Yna lladd yr hwrdd, a chymmer oi waed, a dod ar flaen cluſt ddehau Aaron, ac ar flaen cluſt ddehau ei feibion, ac ar fawd eu llaw ddehau hwynt, ac ar fawd eu troed dehau hwynt: a thaenella y gwaed [arall] ar yr allor o amgylch.

21 A chymmer o'r gwaed yr hwn fyddo ar yr allor, ac olew'r eneiniad, a thaenella ar Aaron, ac ar ei wiſcoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wiſcoedd ei feibion gyd ag ef: felly ſanctaidd fydd efe ai wiſcoedd, ei feibion hefyd, a gwiſcoedd ei feibion gyd ag ef.

22 Cymmer hefyd o'r hwrdd *y gwêr, a'r Leuit 8.25. gloren, a'r gwêr yr hwn ſydd yn gorchguddio y perfedd, a rhwyden yr afi, a'r ddwy aren a'r gwêr yr hwn [ſydd] arnynt, a'r yſcwyddoc ddehau: canys hwrdd cyſſegriad yw.

23 Ac vn dorth o fara, ac vn deiſen o fara olewedic, ac vn afrlladen o gawell y bara croiw yr hwn [ſydd] ger bron yr Arglwydd.

24 A dod y cwbl ar ddwylo Aaron, ac ar ddwylo ei feibion: a chwhwfana hwynt yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd.

25 A chymmer hwynt ganddynt, a lloſc ar yr allor yn boeth offrwm: yn arogl eſmwyth ger bron yr Arglwydd, aberth tanllyd i'r Arglwydd yw.

26 Cymmer hefyd barwyden hwrdd y cyſſegriad yr hwn [fyddo] tros Aaron, a chyhwfana ef yn offrwn cwhwfan ger bron yr Arglwydd: ac i ti y bydd yn rhann.

27 A ſancteiddia barwyden yr offrwm cwhwfan, ac yſcwyddoc yr offrwm derchafel yr hwn a gwhwfanwyd, a'r hwn a dderchafwyd, o hwrdd y cyſſegriad, o'r hwn [a fyddo] tros Aaron, ac o'r hwn [a fyddo] tros ei feibion.

28 Ac i Aaron ai feibion y bydd yn ddeddf dragywyddol oddi wrth feibion Iſrael: canys offrwm derchafel yw, ac offrwm derchafel a fydd oddi wrth feibion Iſrael, oi haberthau hedd [ſef] eu hoffrwm derchafel i'r Arglwydd.

29 A'r dillad ſanctaidd y rhai a [wneir] i Aaron a fyddant iw feibion ar ei ol ef: iw heneinio ynddynt, ac iw cyſſegru.

30 Yr hwn oi feibion ef a fyddo offeiriad yn ei le ef, ai gwiſc hwynt ſaith niwrnod: pan ddelo i babell y cyfarfod i weini yn y cyſſegr.

31 A chymmer hwrdd y cyſſegriad, a berw ei gîg ef yn y lle ſanctaidd.

Lefit.8.31. Matt.12.4. 32 A bwytaed Aaron ai feibion gîg yr hwrdd, * a'r bara yr hwn [ſydd] yn y cawell: [wrth] ddrws pabell y cyfarfod.

33 Felly hwynt a fwytânt y pethau hyn [ſef] y rhai y gwnaed iawn a hwynt wrth eu cyſſegru hwynt ai ſancteiddio: ond y dieithr ni chaiff eu bwytta, canys cyſſegredic ydynt.

34 Ac os gweddillir o gîg y cyſſegriad, neu o'r bara hyd y boreu: yna ti a loſci y gweddill a thân, ni cheir ei fwytta o blegit cyſſegredic yw.

35 A gwna i Aaron, ac iw feibion yr vn modd, yn ol yr hyn oll a orchymynnais it: ſaith niwrnod y cyſſegri hwynt.

36 A phob dydd yr aberthi fuſtach yn aberth tros bechod, er iawn: a glanhâ'r Allor pan wnelech iawn arni, ac eneinia hi iw chyſſegru.

37 Saith niwrnod y gwnei iawn ar yr allor, ac y ſancteiddi hi: felly yr allor fydd ſancteiddbeth cyſſegredic, pob peth a gyffyrddo a'r allor a ſancteiddir.

38 A dymma yr hyn a offrymmi ar yr allor: dau oen flwyddiaid bob dydd yn oeſtadol.

39 Yr oen cyntaf a offrymmi di y borau: a'r ail oen a offrymmi di yn y cyfnos.

40 A chyd a'r oen cyntaf decfed rann [Epha] o beillied wedi ei gymmyſcu trwy bedwaredd rann Hinn o olew coethedic, a phedwaredd rann Hinn o wîn yn ddiod offrwm.

41 A'r ail oen a offrymmi di yn y cyfnos: ti a wnei iddo yr vn modd, ac i fwyd offrwm, ac i ddiod offrwm y borau, i fod yn arogl eſmwyth [ac] yn aberth tanllyd i'r Arglwydd:

42 Yn boeth offrwm gwaſtadol drwy eich oeſoedd [wrth] ddrws pabell y cyfarfod ger bronn yr Arglwydd: lle y cyfarfyddaf a chwi i lefaru wrthit yno.

43 Ac yn y lle hwnnw y cyfarfyddaf a meibion Iſrael: ar [lle] a ſancteiddir drwy fyngogoniant mau fi.

44 A mi a ſancteiddiaf babell y cyfarfod a'r allor: ac Aaron ai feibion a ſancteiddiaf i offeiriadu i mi.

Lefit. 26.12. 2.Cor. 6.16. 45 A * mi a breſſwyliaf ym myſc meibion Iſrael: ac a fyddaf yn Dduw iddynt.

46 Yna y caant wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu Duw hwynt, yr hwn ai dygais hwynt allan o dir yr Aipht fel y trigwn yn eu plith hwynt: myfi [yw] yr Arglwydd eu Duw hwynt.

## PEN. XXX.

Allor yr arogl-darth. 12 Treth y babell. 18 Y noe, neu yr golch-leſtr prês. 23 Yr olew ſanctaidd. 35 Defnydd yr arogl-darth.

GWna hefyd allor (i arogl-darthu arogl-darth:) o goed Sittim y gwnei di hi.

2 Pedairongl fydd hi, yn gufydd ei hŷd, ac yn gufydd ei llêd, a dau gufydd ei huchter: ei chyrn [fyddant] o honi ei hun.

3 A goreura hi ag aur coeth, ai chaead ai hyſtlyſau o amgylch, ai chyrn: gwna hefyd iddi goron o aur o amgylch.

4 A gwna iddi ddwy fodrwy aur oddi tann ei choron wrth ei dwy gongl: ar ei dau yſtlys y gwnei [hwynt] fel y byddant i wiſco am droſolion iw dwyn hi arnynt.

5 A'r troſolion a wnei di o goed Sittim: a goreura hwynt ag aur.

6 A goſot hi o flaen y llenn yr hon [ſydd] wrth Arch y deſtiolaeth: o flaen y drugareddfa, yr hon [ſydd] ar y deſtiolaeth lle y cyfarfyddaf a thi.

7 Ac arogl-darthed Aaron arni arogl-darth llyſſeuoc bob boreu, pan daclo efe y luſernau, yr arogl-dartha efe.

8 Arogl-darthed Aaron hefyd yn y cyfnos, pan oſotto y luſernau i fynu: [i fod] yn arogl-darth gwaſtadol ger bron yr Arglwydd drwy eich oeſoedd.

9 Nac offrymmwch arni arogl-darth dieithr, na phoeth offrwm, na bwyd offrwm: ac na thywelltwch ddiod offrwm arni.

10 A gwnaed Aaron iawn ar ei chyrn vnwaith yn y flwyddyn a gwaed pech a berth yr iawn, vnwaith yn y flwyddyn y gwna efe iawn arni drwy eich oeſoedd: ſancteidd-beth cyſſegredic i'r Arglwydd [yw] hi.

11 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd. Num.1.2.

12 Pan rifech feibion Iſrael dan eu rhifedi yna rhoddant bob vn iawn am ei enioes i'r Arglwydd pan rifer hwynt: fel na byddo plâ yn eu plith pan rifer hwynt.

13 Hynn a ddyru pob vn a elo tann rîf, hanner ſicl, yn ol y ſicl ſanctaidd: * vgain Gerah [yw] yr ſicl, hanner ſicl [fydd] yn offrwm derchafel i'r Arglwydd. Lefit. 27.25. Num.3.47. Ezec.45.12.

14 Pob vn a elo tann rîf o fab vgain mlwydd ac vchod, a rydd offrwm derchafel i'r Arglwydd.

15 Na rodded y cyfoaethog fwy, ac na rodded y tlawd lai na hanner ſicl: i roddi offrwm derchafel i'r Arglwydd, i wneuthur iawn tros eich enioes.

16 A chymmer yr arian iawn gan feibion Iſrael, a dod ti hwynt i waſanaeth pabell y cyfarfod: fel y byddant yn goffadwriaeth i feibion Iſrael ger bron yr Arglwydd i fod yn iawn am eich enioes.

17 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

18 Gwna noe brês, ai throed o brês i olchi: a dod hi rhwng pabell y cyfarfod a'r allor, a dod ynddi ddwfr.

19 A golched Aaron ai feibion o honi eu dwylo ai traed.

20 Pan ddelont i babell y cyfarfod, ymolchant a dwfr, fel na byddont feirw: neu pan ddelont wrth yr allor i weini gan arogldarthu aberth tanllyd i'r Arglwydd.

21 Golchant ei dwylo ai traed fel na byddont

“ ont feirw: a byddet [hynny] iddynt yn ddeddf dragywyddol,
“ iddo ef, ac iw hâd, drwy eu hoeſoedd.
“ 22 Yr Arglwydd hefyd a leſarodd wrth Moſes
“ gan ddywedyd,
“ 23 Cymmer it ddewis lyſſiau, o'r Myrr pur
“ [pwys] pum cant [ſicl] a hanner hynny o'r Cinamon
“ pur [ſef pwys] deu cant, a dec a deugain
“ [o ſiclau:] ac o'r Calamus peraidd [pwys] deucant
“ a dec a deugain [o ſiclau.]
“ 24 Ac o'r Caſſia [pwys] pum cant [o ſiclau]
“ yn ol y ſicl ſanctaidd: a Hinn o olew oliwyddẽ.
“ 25 A gwna ef yn olew eneiniad ſanctaidd
“ yn eli cymmyſcadwy o waith yr apothecari:
“ olew eneiniad ſanctaidd fydd efe.
“ 26 Yna eneinia ag ef babell y cyfarfod: ac
Lefit.8.10. “ Arch y deſtiolaeth.
“ 27 Y bwrdd hefyd ai holl leſtri, a'r canhwyllbren
“ ai holl leſtri: ac allor yr arogl-darth.
“ 28 Ac allor y poeth offrwm ai holl leſtri, a'r
“ noe ai throed.
“ 29 A chyſſegra hwynt fel y byddant yn ſanctaidd
“ bethau cyſſegredic: pob peth a gyffyrddo
“ a hwynt a ſancteiddir.
“ 30 Eneinia hefyd Aaron ai feibion: a ſancteiddia
“ hwynt i offeiriadu i mi.
“ * 31 A llefara wrth feibion Iſrael gan ddywedyd:
“ olew eneiniad ſanctaidd a fydd hwn i
“ mi trwy eich oeſoedd.
“ 32 Nac îrer ef ar gnawd dyn, ac ar ei waith
“ ef na wnewch ei fath: ſanctaidd yw, bydded ſanctaidd
“ gennych.
“ 33 Pwy bynnac a gymmyſco ei fâth, a'r
“ hwn a roddo o honaw ef ar [ddŷn] dieithr: a dorrir
“ ymmaith oddi wrth ei bobl.
“ 34 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth
“ Moſes cymmer it lyſſiau [ſef] blodau Myrr,
“ Onycha, a Galbanum, y llyſſiau [hynn,] a
“ Thus pur: yr un feint o bob un.
“ 35 A gwna' ef yn arogl-darth arogl-ber o
“ waith yr apothecari: yn gymmyſcedic, yn bur,
“ ac yn ſanctaidd.
“ 36 Gan fâlu mâla ef, a dod o honaw ef ger
“ bron [Arch] y deſtiolaeth o fewn pabell y cyfarfod,
“ lle y cyfarfyddaf a thi: ſanctaidd-beth cyſſegredic
“ fydd efe i chwi.
“ 37 A'r arogl-darth yr hwn a wnelech na
“ wnewch i chwi eich hunain ei fath ef: bydded
“ gennit yn gyſſegredic i'r Arglwydd.
“ 38 Pwy bynnac a wnel ei fath ef i arogldarthu
“ o honaw: a dorrir ymmaith oddi wrth
ei bobl.

## PEN. XXXI.

Duw yn rhoddi i Beſalel, ac i Aholiab athrylith i ddychymmygu pob cywrein-waith i'r babell. 13 Y pethau y rhai y mae y Sabboth yn eu harwyddocau. 18 Duw ai fys yr hwn yw ei yſpryd yn ſcrifennu dwy lech.

A'R Arglwydd a leſarodd wrth Moſes gan ddywedyd.

2 Gwel, mi a elwais wrth [ei] enw ar Beſalel fab Uri, fab Hur o lwyth Iuda.

3 Ac ai llawnais ef ag yſpryd Duw: mewn doethineb, ac mewn deall, mewn gwybodaeth hefyd, ac ym mhob gwaith.

4 I ddychymmygu cywreinrwydd i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn prês.

5 Ac mewn cyfarwyddyd i [oſod] meini, ac mewn ſaerniaeth prenn i weithio ym mhob gwaith.

6 Ac wele mi a roddais gyd ag ef Aholiab fab Achiſamah o lwyth Dan: ac yng-halon pob doeth o galon y rhoddais ddoethineb i wneuthur yr hyn oll a orchymynnais wrthit.

7 Sef pabell y cyfarfod, ac Arch y deſtiolaeth, a'r drugareddfa yr hon [fydd] arni: a holl leſtri y babell.

8 A'r bwrdd ai leſtri, a'r canhwyll-bren pur, ai holl leſtri: ac allor yr arogl-darth.

9 Ac allor y poeth offrwm, ai holl leſtri: a'r noe ai throed.

10 A gwiſcoedd y weinidogaeth: a'r gwiſcoedd ſanctaidd i Aaron yr offeiriad, a gwiſcoedd ei feibion ef i offeiriadu [ynddynt.]

11 Ac olew yr eneiniad, a'r arogl-darth llyſſeuoc i'r cyſſegr a wnant yn ol yr hyn oll a orchymynnais wrthit.

12 A'r Arglwydd a leſarodd wrth Moſes gan ddywedyd.

13 Llefara di hefyd wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd, er hynny cedwch fy Sabboth: canys arwydd yw rhyngofi a chwithau drwy eich oeſoedd, i wybod mai myfi yr Arglwydd [ydwyf] eich ſancteiddudd.

14 Am* hynny cedwch y Sabboth, o blegit ſanctaidd yw i chwi: llwyr rodder i farwolaeth yr hwn ai halogo ef: o herwydd pwy bynnac a wnelo waith arno, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o blith ei bobl. Exod.20.8. Ezec.20.12.

15 Chwe diwrnod y gwneir gwaith, ac ar y ſeithfed dydd [y mae] Sabboth gorphwyſdra ſanctaidd i'r Arglwydd: pwy bynnac a wnelo waith y ſeithfed dydd llwyr rodder ef i farwolaeth.

16 Am hynny cadwed meibion Iſrael y Sabboth: gan orphywyſo [arno] drwy eu hoeſoedd yn gyfammod tragywyddol.

17 Rhyngofi a meibion Iſrael y mae yn arwydd tragywyddol, *mai mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaiar, ac [mai] ar y ſeithfed dydd y peidiodd ac y gorphwyſodd efe, Geneſ.1.31. Geneſ.2.2. Exod.20.11.

18 Ac efe a roddodd i Moſes wedi iddo leſara wrtho ym mynydd Sinai *ddwy lêch y deſtiolaeth: [ſef] llechau o gerric wedi eu ſcrifennu a bŷs Duw. Deut.9.19.

## PEN. XXXII.

1 Y llô aur. 11 Moſes ym ymbil a Duw ac yn gweddio tros y bobl. 15 Yn dyfod i wared o'r mynydd a'r llechau yn ei law. 19 Yn ei ddig yn torri y llechau, ac yn dryllio y llô ac yn rhoddi ſenn iw frawd. 27 Moſes yn peri i'r Lefiaid ladd y delw-addol-wyr. 30 Yntef yn ceryddu y bobl, yn dychwelyd i'r mynydd, ac yn attolwg i dynnu ei hun o lyfr y bywyd, er cael maddeuaint i'r bobl.

PAn welodd y bobl fod Moſes yn oedi dyfod i wared o'r mynydd: yna yr ymgaſglodd y

bobl

y bobl at Aaron ac y dywedaſant wrtho, cyfot gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen ni, canys y Moſes hwn y gwr a'n dûg ni i fynu o wlad yr Aipht ni wyddom beth a [ddarfu] iddo.

2 Yna y dywedodd Aaron wrthynt, tynnwch y cluſt-dlyſau o aur, y rhai [ydynt] wrth gluſtiau eich gwragedd, a'ch meibion, a'ch merched, a dygwch [hwynt] attafi.

3 Yna yr holl bobl a dynnaſant y cluſt-dlyſau aur, y rhai [oeddynt] wrth eu gluſtiau: ac ai dugaſant at Aaron.

4 Ac efe ai cymmerodd oi dwylo, ac ai lluniodd mewn mold, ac ai gwnaeth yn llô tawdd: a Pſal.106.19. hwy a ddywedaſant, *dymma dy dduwiau di Iſrael y rhai a'th ddugaſant di i fynu o wlad yr Aipht.

5 A phan welodd Aaron [hynny] efe a adailadodd allor ger ei fron ef: ac Aaron a gyhoeddodd, ac a ddywedodd, [y mae] gwyl i'r Arglwydd y foru.

6 Felly hwynt a godaſant yn forau drannoeth, ac a offrymmaſant boeth-offrwm, ac a ddugaſant aberthau hedd: a'r a.Cor.10.7. *bobl a eiſteddaſant i fwytta, ac i yfed, ac a godaſant i fynu i chware.

7 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes: cerdda, dos i wared, canys ymlygrodd dy bobl y rhai a ddygaiſt i fynu o dir yr Aipht.

8 Buan y ciliaſant o'r ffordd yr hon a orchymynnais iddynt; 1.Bren.12.28. *gwnaethant iddynt lô Exod.33.3. tawdd: ac addolaſant ef, ac aberthaſant iddo, Deut.9.13. dywedaſant hefyd, dymma dy dduwiau di Iſrael y rhai a'th ddugaſant i fynu o wlad yr Aipht.

9 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moſes: gwelais y bobl hynn, ac wele pobl war-galed ydynt.

10 A'm hynny yn awr gad i'm lonydd fel yr ennynno fy llid yn eu herbyn ac y difethwyf hwynt: ond mi a'th wnaf di yn genhedlaeth fawr.

11 A *Moſes a ymbiliodd ger bron yr Ar- Pſol.106.23. glwydd ei Dduw: ac a ddywedodd pa ham Arglwydd yr ennynna dy ddigofaint yn erbyn dy bobl yr rhai a ddugaiſt i fynu o wlad yr Aipht drwy nerth mawr, a llaw gadarn?

12 Pa ham y caiff yr Aiphtiaid lefaru gan Num.14.13. ddywedyd, mewn malis y dygodd hwynt allan iw lladd hwynt yn y mynyddoedd, ac iw difetha oddi ar wyneb y ddaiar: trô oddi wrth angerdd dy ddigofaint, a bydded edifar gennit y drwg [a amcenaiſt] i'th bobl.

13 Cofia Abraham, Iſaac, ac Iſrael dy weiſion y rhai y tyngaiſt wrthynt i ti dy hun, ac y dywedaiſt wrthynt, mi a *amlhaf eich hâd Geneſ.12.7. chwi fel ſêr y nefoedd: a'r holl wlad ymma yr Ceneſ.15.7. hon a ddywedais a roddaf i'ch hâd chwi, a hw- Geneſ.48.16. ynt ai hetifeddant byth.

14 Yna yr edifarhaodd gan yr Arglwydd: am y drwg yr hwn a ddywedaſe efe y gwnai iw bobl.

15 A Moſes a drôdd ac a ddaeth i wared o'r mynydd a dwy lêch y deſtiolaeth yn ei law: y llechau a ſcrifennaſid oi dau tu, hwynt a ſcrifenneſid o bob tu.

16 A'r llechau hynny [oeddynt] o waith Duw: yr ſcrifen hefyd [oedd] ſcrifen Duw yn ſcrifennedic ar y llechau.

17 Pan glywodd Ioſua ſwn y bobl yn bloeddio: yna efe a ddywedodd wrth Moſes, [y mae] ſwn rhyfel yn y gwerſſyll.

18 Yntef a ddywedodd nid ſwn yn arwyddoccau goruchafiaeth, ac nid ſwn yn arwyddoccau lleſcder: [ond] ſwn canu a glywaf fi.

19 Yna yr ennynnodd digofaint Moſes ac y taflodd efe y llechau oi law, ac ai torrodd hwynt iſ-law y mynydd: wedi dyfod o honaw ef yn agos ac y gwerſſyll, a gweled y llô a'r dawnſiau.

20 Ac efe a gymmerodd y llô yr hwn a wnaethent, ac ai lloſcodd a thân, ac ai malodd yn llwch: ac ai tanodd ar wyneb y dwfr, ac ai rhoddes iw yfed i feibion Iſrael.

21 A dywedodd Moſes wrth Aaron, beth a wnaeth y bobl hyn it: pan ddygaiſt arnynt bechod [mor] fawr?

22 Yna y dywedodd Aaron, nac ennynned digofaint fy arglwydd: ti a adwaenoſt y bobl mai ar ddrwg y maent.

23 Pan ddywedaſant wrthif gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen: canys y Moſes hwn y gwr a'n dûg ni i fynu o wlad yr Aipht ni wyddom beth a [ddarfu] iddo.

24 Yna y dywedais wrthynt, i'r neb [y mae] aur tynnwch ef: a hwynt ai rhoddaſant i mi, a mi ai bwriais yn tân, a daeth y llô hwn allan.

25 Moſes gan hynny a welodd fod y bobl yn noeth: canys Aaron ai noethaſe hwynt yn wradwydd ym myſc eu gelynnion.

26 A'm hynny y ſafodd Moſes ym mhorth y gwerſſyll, ac a ddywedodd, y neb [ſydd] eiddo yr Arglwydd [deued] attafi, a holl feibion Lefi a ymgaſclaſant atto ef.

27 Yna efe a ddywedodd wrthynt, fel hynn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, goſodwch bob vn ei gleddyf ar ei glun: ac ewch, cynniwerwch o borth i borth drwy y gwerſſyll, a lleddwch bob vn ei frawd, a phob vn ei gyfell, a phob vn ei gymydog.

28 Felly meibion Lefi a wnaethant yn ol gair Moſes: a chwympodd o'r bobl y dydd hwnnw dair mil o wŷr.

29 Canys dywedaſe Moſes, cyſſegrwch eich llaw heddyw i'r Arglwydd, pob vn ar ei fab, ac ar ei frawd: fel y rhodder heddyw i chwi fendith.

30 A thrannoeth y dywedodd Moſes wrth y bobl, chwi a bechaſoch bechod mawr: ac yn awr mi a âf i fynu at yr Arglwydd, ond odid mi a wnaf iawn am eich pechod.

31 Yna Moſes a ddychwelodd at yr Arglwydd, ac a ddywedodd: yn awr y pechod y bobl hynn bechod mawr, ac a wnaethant iddynt dduwiau o aur.

32 Ac yn awr y naill ai maddeu di iddynt

eu pechod: neu os amgen crafa di fi o'th lyfr yr hwn a ſcrifennaiſt.

33 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes: pwy bynnac a bechodd i'm herbyn hwnnw a grafaf o'm llyfr.

34 Am hynny dôs yn awr, arwein y bobl i'r [lle] yr hwn a ddywedais wrthit, wele fy angel aiff o'th flaen di: a'r dydd yr ymwelwyf yr ymwelaf a hwynt am eu pechod.

35 Felly y tarawodd yr Arglwydd y bobl: am yr hynn a wnaethent i'r llo yr hwn a wnelſe Aaron.

## PEN. XXXIII.

1 Duw yn addo ei angel i gyfarwyddo Iſrael. 3 A'r bobl am i Dduw neccau fyned ei hun gyd a hwynt yn alaethu. 11 Moſes yn ymddiddan a Duw wyneb yn wyneb: ac yn ymbil am iddo fyned ei hun gyd a'r bobl. 17 Ac yn cael ei wrando. 18 Moſes yn ymbil am gael gweled gogoniant Duw ac heb gael gweled onid peth o honaw.

YNA y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, cerdda, dos i fynu oddi ymma, ti a'r bobl y rhai a ddygaiſt i fynu o wlad yr Aipht: i'r wlad [am] yr honn y tyngais wrth Abraham, Iſaac, ac Iacob gan ddywedyd, *i'th hâd di y rhoddaf hi.

Geneſ.12.7.

2 A mi *a anfonaf angel o'th flaen di: ac a yrraf allan y Canaaneaid, yr Amoriaid, a'r Hethiaid, y Phereziaid yr Hefiaid, a'r Iubuſiaid,

Exod.23.27.
Ioſ.24.11.
Deut.7.21.
Exod.32.9.

3 I wlad yn llifeirio o laeth a mêl: o herwydd nid afi i fynu yn dy blith, o blegit *pobl war-galed wyt, rhac i mi dy ddifa ar y ffordd.

Deut.9.13.

4 Pan glywodd y bobl y drwg chwedl hwn galaru a wnaethant: ac ni oſododd neb ei hardd-wiſc am dano.

5 O blegit yr Arglwydd a ddywedaſe wrth Moſes, dywet wrth feibion Iſrael popl war-galed [ydych] chwi, yn ddiſymmwth y deuaf i fynu yn dy blith ac i'th ddifethaf: am hynny yn awr dioſc dy hardd-wiſc oddi am danat fel y gwypwyf beth a wnelwyf it.

6 Felly meibion Iſrael a ddioſcaſant eu hardd-wiſc [ennyd] oddi wrth fynydd Horeb.

7 Yna Moſes a gymmerodd y babell, ac ai heſtynnodd o'r tu allan i'r gwerſſyll ym mhell oddi wrth y gwerſſyll, ac ai galwodd papell y cyfarfod: fel y bydde i bawb ar a geiſie yr Arglwydd fyned allan i babell y cyfarfod yr hon [ydoedd] allan o'r gwerſſyll.

8 Pan aeth Moſes i'r babell, yr holl bobl a godaſant, ac a ſafaſant bob un [ar] ddrws ei babell: ac a edrychaſant ar ol Moſes nes ei ddyfod i'r babell.

9 A phan aeth Moſes i'r babell y deſcynnodd colofn o niwl, ac a ſafodd [wrth] ddrws y babell: a'r [Arglwydd] a lefarodd wrth Moſes.

10 Pan welodd yr holl bobl y golofn niwl yn ſefyll [wrth] ddrws y babell: yna y cododd yr holl bobl, ac a addolaſant bob un [wrth] ddrws ei babell.

11 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes wyneb yn wyneb, fel y llefare gŵr wrth ei gyfaill: yna efe a ddychwelodd i'r gwerſſyll, ond y llangc [ſef] Ioſua mab Nun ei wenidog ef ni ſyfliodd o'r babell.

12 A Moſes a ddywedodd wrth yr Arglwydd gwel, ti a ddywedi wrthif dwg y bobl ymma i fynu, ac ni ddangoſaiſt i mi yr hwn a anfoni gyd a mi: a thi a ddywedaiſt mi a'th adwen wrth [dy] enw, a chefaiſt hefyd ffafor yn fyng-olwg.

13 Yn awr gan hynny o chefais ffafor yn dy olwg di, yſpyſſa i mi dy ffordd attolwg fel i'ch adwaenwyf, ac fel y caffwyf ffafor yn dy olwg: gwel hefyd mai dy bobl di [yw] y genhedlaeth hon.

14 Yntef a ddywedodd: fy wyneb a gaiff fyned [gyd a thi] a rhoddaf orphywyſdra it.

15 Yna efe a ddywedodd wrtho: onid aiff dy wyneb, [gyd a ni,] nac arwein ni i fynu oddi ymma.

16 Pa fodd y gwyddir yn awr gael o honoſt ffafor yn dy olwg, mi a'th bobl: onid drwy fyned o honot ti gyd a ni? felly myfi a'th bobl a ragorwn ar yr holl bobl y rhai [ydynt] ar wyneb y ddaiar.

17 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moſes gwnaf hefyd y peth hynn yr hwn a leferaiſt: o blegit ti a gefaiſt ffafor yn fyng-olwg, a mi a'th adwen wrth [dy] enw.

18 Yntef a ddywedodd: dangos i mi attolwg dy ogoniant.

19 Ac efe a ddywedodd gwnaf i'm holl ddaioni fyned heb law dy wyneb, a chyhoeddaf Iehofa wrth [ei] enw o'th flaen di: ac mi *a drugarhaf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd, ac a doſturiaf wrth yr hwn y toſturiwyf.

Rhuf.9.15.

20 Ac efe a ddywedodd ni elli edrych ar fy wyneb: canys ni'm gwel dŷn fi a byw.

21 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, wele fann yn agos attafi: lle y cei ſefyll ar y graig.

22 A thra yr elo fyng-ogoniant heibio mi a'th oſodaf o fewn ogof y graig: a mi a'th orchguddiaf a'm llaw nes i mi fyned heibio.

23 Yna y tynnaf ymmaith fy llaw, a'm tu ol a gei di weled: ond ni welir fy wyneb.

## PEN. XXXIIII.

1 Duw yn peri i Moſes wneuthur llechau newydd. 6 Enwau Duw. 9 Moſes yn ymbil ar fyned o Dduw gyd a'r bobl. 11 Duw yn addo iddynt wlad Canaan: ac yn eu rhybyddio rhac gau-dduwiaeth y bobl hynny. 18 Am wyl y bara croiw. 19 y cyntafanedic. 21 y Sabboth. 22 Gwyl yr wythnoſau a gwyl y pebyll. 26 y blaen ffrwythau. 28 ympryd Moſes. 29 diſcleirdeb ei wyneb ef. 33 A'r llenn tros ei wyneb.

A Dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, nâdd it ddwy o lechau cerrig fel y rhai cyntaf: a mi a ſcrifennaf ar y llechau y geiriau y rhai oeddynt ar y llechau cyntaf y rhai a dorraiſt.

2 A bydd barod erbyn y borau: a thyret i fyny yn forau i fynydd Sinai, a ſaf i mi yno ar benn y mynydd.

3 Ond na ddeued neb i fynu gyd a thi, ac na weler neb ar yr holl fynydd: na phored hefyd na dafad, nac eidion, ar gyfer y mynydd hwn.

4 Yna Moſes a naddodd ddwy o lechau cerrig, o fâth y rhai cyntaf, ac a gyfododd yn forau, ac a aeth i fynydd Sinai fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd iddo ef: ac a gymmerodd yn ei law y ddwy lech garreg.

5 A'r Arglwydd a ddeſcynnodd mewn niwl, ac a ſafodd gyd ag ef yno: ac a gyhoeddodd Iehofa erbyn [ei] henw.

6 Canys yr Arglwydd aeth heb law ei wyneb ef, ac a lefodd Iehofa, Iehofa y Duw trugarog, a graſ-lawn, hwyr frydic i ddig, ac aml o drugaredd, a gwirionedd.

Deut.5.9.
Ier.32.18.

7 Yr hwn ſydd yn cadw trugaredd i filoedd gan faddeu anwiredd, camwedd, a phechod: ac heb gifrif [yr anwir] yn gyfiawn, yr hwn *a ymwel ag anwiredd y tadau ar y plant, ac ar blãt y plãt hyd y drydedd, a'r bedwaredd [oes,]

8 Yna Moſes a fryſiodd: ac a ymgrymmodd tuayr llawr, ac a addolodd,

9 Ac a ddywedodd os cefais yn awr ffafor yn dy olwg ô Arglwydd, eled yr Arglwydd attolwg yn ein plith ni: er [bod] y rhai hyn yn bobl war-galed, er hynny ti a faddeui ein hanwiredd, a'n pechod, ac a'n etifeddi ni.

Deut.5.2.

10 Yntef a ddywedodd *wele fi yn gwneuthur cyfammod yng-ŵydd dy holl bobl, gwnaf ryfeddodau y rhai ni wnaed yn yr holl dîr, nac yn yr holl genhedloedd: a'r holl bobl y rhai yr wyt ti yn eu myſc a gânt weled waith yr Arglwydd, mai ofnadwy [yw] yr hyn a wnaf a thi.

11 Cadw yr hyn a orchymynnais it heddyw: wele mi a yrraf allan o'th flaen di yr Amoriaid, a'r Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Phereziaid, yr Hefiaid hefyd a'r Iebuſiaid.

Deut.7.12.

12 A *chadw arnat rhac gwneuthur cyfammod a phreſſwyl-wyr y wlad yr hon yr ei di iddi: rhac eu bod yn fagl yn dy blith.

13 Eithr derniwch eu hallorau hwynt, drylliwch eu delwau hwynt: a thorrwch i lawr eu llwynau hwynt.

Exod.20.5.
Exod.23.32.
Deut.7.2.

14 Canys ni chei ymgrymmu i dduw dieithr o blegit yr Arglwydd *eiddigus [yw] ei enw: Duw eiddigus [yw] efe.

15 [Gwilia] rhac it wneuthur cyfammod a phreſſwyl-wyr y tîr: ac iddynt butteinio ar ol eu duwiau, ac aberthu iw duwian, a'th alw di, ac i tithe fwytta oi haberth.

1.Bren.11.2.
1.Cor.8.10.

16 A chymmeryd o honot oi *merched i'th feibion: a phutteinio oi merched ar ol eu duwiau hwynt.

17 Na wna it dduwiau tawdd.

Exod.13.4.
& 22.29.
Ezec.44.30.

18 Cadw ŵyl y bara croiw, ſaith niwrnod y bwytei fara croiw fel y gorchymynnais it, yn yr amſer goſodedic ar y mîs Abib: o blegit ym *mis Abib y daethoſt allan o'r Aipht.

19 Eiddo fi yw pob cyn-fab, a phob cyntafanedic o'th anifeiliaid, yn eidionnau, ac yn ddefaid a gyfrifir [i mi.]

20 Ond y cyntaf-anedic i aſſyn a brynni di ag oen, ac oni phrŷnni torr ei wddf: pryn hefyd bob cyntaf-anedic o'th feibion, ac nac ymddangoſed [neb] ger fy mron yn wag-law.

21 Chwe diwrnodd y gweithi, ac ar y ſeithfed dydd y gorphywyſi: [yn gyſtal] yn yr amſer i aredic, ac yn y cynhaiaf y gorphywyſi.

Exod.23.16.

22 Cadw *it hefyd ŵyl yr wythnoſau [ar] ddechreu y cynhaiaf gwenith: a gŵyl y cynnull [ar] ddiwedd y flwyddyn.

23 Tair gwaith yn y flwyddyn: yr ymddengys dy holl wrywaid ger bron yr Arglwydd Iôr, Duw Iſrael.

24 Canys mi a yrraf y cenhedloedd allan o'th flaen di, ac a helaethaf dy frô di: ac ni chwennych neb dy dîr di pan elech i fynu i ymddangos ger bron yr Arglwydd dy Dduw, dair gwaith yn y flwyddyn.

21 Nac offrymma waed fy aberth gyd a bara lefeinllyd: ac nac arhoed aberth gŵyl y Paſc tros nos hyd y borau.

Exod.14.21.

26 Dŵg y goref o flaen-ffrwyth dy dir, i dŷ yr Arglwydd dy Dduw: *na ferwa fynn yn llaeth ei fam.

Exod.24.18.
Deut.14.21.

27 Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moſes, ſcrifenna it y geiriau hynn: o blegit *wrth deſtiolaeth y geiriau hynn y gwneuthum gyfammod a thi, ac ag Iſrael.

Deut.4.13.

28 Felly efe a fu yno gyd a'r Arglwydd ddeugain nhiwrnod, a deugain nhos heb fwytta bara, ac heb yfed dwfr: tra y ſcrifennodd efe ar y llechau *eiriau y cyfammod [ſef] y dec gair.

29 A phan ddaeth Moſes i wared o fynydd Sinai, a dwy lech y deſtiolaeth yn llaw Moſes, pan ddaeth efe i wared o'r mynydd: ni wydde Moſes i groen ei wyneb ddiſgleirio, wrth lefaru o honaw ag ef.

2.Cor.3.7.

30 Yna Aaron a holl feibion Iſrael a edrychaſant ar Moſes, ac wele groen ei wyneb ef yn diſcleirio: *ac ofnaſant neſſau atto.

31 A Moſes a alwodd arnynt, ac Aaron a holl bennaethiaid y gynnulleidfa, a ddychwelaſant atto: a Moſes a lefarodd wrthynt hwy.

32 Ac wedi hynny y neſſaodd holl feibion Iſrael: ac efe a orchymynnodd iddynt yr hynn oll a lefaraſe yr Arglwydd ym mynydd Sinai.

2.Cor.3.13.

33 Pan ddarfu i Moſes lefaru wrthynt: yna efe *a roddes lenn gudd ar ei wyneb.

34 A phan ddele Moſes ger bron yr Arglwydd i lefaru wrtho, efe a dynne ymmaith y llenn gudd nes ei ddyfod allan: a phan ddele efe allan y llefare wrth feibion Iſrael yr hynn a orchymynnid iddo.

35 A meibion Iſrael a welſant wyneb Moſes, [ſef] bod croen wyneb Moſes yn diſcleirio:

cleirio: am hynny Moſes a roddodd trachefn y llenn gudd ar ei wyneb hyd oni ddele i leſaru wrth Dduw.

## PEN. XXXV.

1 Y Sabboth. 4 Duw yn gofyn offrwm gan ei bobl. 21 Y bobl yn offrwm yn ewyllyſcar. 30 Moſes yn henwi Beſalel, ac Aholiab i weithio y babell.

CAſclodd Moſes hefyd holl gynnulleidfa meibion Iſrael, a dywedodd wrthynt: dymma y pethau y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd eu gwneuthur.

Exod.20.8. 2 Chwe *diwrnod y gwneir gwaith, ar y ſeithfed dydd y bydd i chwi Sabboth ſanctaidd [ſef] gorphywyſdra i'r Arglwydd: llwyr rodder i farwolaeth pwy bynnac a wnelo waith arno.

3 Na chynneuwch dân yn eich holl anneddau ar y dydd Sabboth.

4 A Moſes a leſarodd wrth holl gynnulleidfa meibion Iſrael gan ddywedyd: dymma y peth yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd gan ddywedyd.

“ 5 Cymmerwch o'ch plith offrwm derchafel
Exod.25.2. “ i'r Arglwydd, pob *ewyllyſcar ei galon dyged
“ hyn yn offrwm derchafel i'r Arglwydd: [ſef]
“ aur ac arian, a phrês:
“ 6 A ſidan glâs, a phorphor, ac ſcarlat, a ſidan
“ gwynn, a [blew] geifr.
“ 7 A chrwyn hyrddod wedi eu lliwio yn gochion,
“ a chrwyn daiar-foch, a choed Sittim.
“ 8 Ac olew i'r goleuni: a llyſſiau i olew yr
“ ennaint, ac i'r arogl-darth llyſſeuoc.
“ 9 A meini Onix, a menni iw goſod yn yr
“ Ephod, ac yn y ddwyfronnec.
Exod.28.3. “ 10 A *phob celfydd o feddwl yn eich plith:
“ deuant a gweithiant yr hyn oll a orchymynnodd
“ yr Arglwydd.
Exod.26.31. “ 11 Y tabernacl, ei babell-lenn, ai dô: ei dderbynniadau
“ ai ſtyllod, ei farrau ei goloſnau ai
“ forteiſiau.
“ 12 Yr Arch, ai throſſolion, y drugareddfa,
“ a'r wahan-len yr hon [ai] gorchguddia.
“ 13 Y bwrdd, ai droſſolion, ai holl leſtri: a'r
“ bara goſod.
“ 14 A chanhwyll-bren y goleuni, ai leſtri, ai
“ luſernau: ac olew y goleuni.
“ 15 Ac allor yr arogl-darth, ai throſſolion, ac
“ olew yr eneiniad, a'r arogl-darth llyſſeuoc, a
“ chaead-lenn drws y tabernacl.
“ 16 Allor y poeth-offrwm a'r alch prês, yr
“ hwn [oedd] iddi, ei throſſolion ai holl leſtri: y
“ noe ai throed.
“ 17 Troelloc lenni y cynteddfa, ei goloſnau
“ ai forteiſiau: caead-lenn porth y cynteddfa.
“ 18 Hoelion y taberncal, a hoelion y cynteddfa
“ ai rhaffau hwynt.
“ 19 A gwiſcoedd y wenidogaeth i weini yn
“ y cyſſegr: [a] ſanctaidd wiſcoedd Aaron yr offeiriad,
“ a gwiſcoedd ei feibion ef i offeiriadu
“ [ynddynt:]
“ 20 Yna holl gynnulleidfa meibion Iſrael aethant allan oddi ger bron Moſes. ”

21 A phob vn yr hwn y dug ei galon ef: ſef pob vn yr hwn y gwnaeth ei yſpryd ef yn ewyllyſcar, a ddaethant [ac] a ddugaſant offrwm derchafel i'r Arglwydd, tu ac at waith pabell y cyfarfod, a thu ac at ei holl waſanaeth hi, a thu ac at y gwiſcoedd ſanctaidd.

22 A daethant yn wŷr, ac yn wragedd: pob vn ewyllyſcar ei galon a ddugaſant fachau, a chluſt-dlyſau, a modrwyau, a chadwynau eu gyd yn dlyſau o aur, a phob gwr yr hwn a offrymmodd offrwm cwhwfan [a offrymmodd] aur i'r Arglwydd.

23 A phob vn yr hwn y caed gyd ag ef ſidan glâs, neu borphor, neu ſcarlat, neu ſidan gwynn, neu [flew] geifr, neu grwyn hyrddod wedi lliwio yn gochion, neu grwyn daiar-foch ai dugaſant.

24 Pwy bynnac a offrymmodd offrwm derchafel o arian, neu brês, a ddugaſant offrwm derchafel i'r Arglwydd: a phob vn, yr hwn y caed gyd ag ef goed Sittim i ddim o waith y gwaſanaeth ai dugaſant.

25 A phob gwraig gelfydd a nyddodd ai llaw ei hun: ac a ddugaſant edafedd, ſidan glâs, a phorphor, ac ſcarlat, a ſidan gwynn.

26 A'r holl wragedd y rhai y derchafodd eu calonnau hwynt mewn cyfarwyddyd, a nyddaſant [flew] geifr.

27 A'r pennaethiaid a ddugaſant feini Onix, a meini iw goſod ar yr Ephod, ac ar y ddwyfronnec.

28 A llyſſiau, ac olew i'r goleuni, ac *i olew yr ennaint, ac i'r arogl-darth llyſſeuoc. Pen.30.23.

29 Holl blant Iſrael yn wŷr ac yn wragedd, y rhai a glywent ar eu calon offrymmu tu ac at yr holl waith yr hwn a orchymynnaſe yr Arglwydd drwy law Moſes ei wneuthur, a ddugaſant i'r Arglwydd offrwm ewyllyſcar.

30 Yna y dywedodd Moſes wrth feibion Iſrael gwelwch, galwodd *yr Arglwydd yn enwedic: Beſalcel fab Uri, fab Hur o lwyth Iuda.

31 Ac ai llawnodd ef ag yſpryd Duw: mewn cyfarwyddyd mewn deall, ac mewn gwybodaeth, ac mewn pob gwaith.

32 I ddychymygu cywreinrwydd: i weithio mewn aur, ac mewn arian, ac mewn prês.

33 Ac mewn cyfarwyddyd i oſod meini, ac mewn ſaernieth prenn: i weithio ym mhob gwaith cywraint.

34 Ac efe a roddodd yn ei galon ef ddyſcu [eraill:] efe, ac Aholiab mab Achiſamech o lwyth Dan.

35 Llawnodd hwynt a doethineb calon i wneuthur pob gwaith ſaer a *chywreinwaith, a gwaith edef a nodwydd, mewn ſidan glâs, ac mewn porphor, ac mewn ſcarlat, ac mewn ſidan gwynn, ac i wau: gan wneuthur pob gwaith a dychymygu cywreinrwydd. Exod.26.1.

## PEN. XXXVI.

Dechreu gwaith y babell. 3 Haelioni y bobl i'r gwaith hwn. 28 Y llenni. 19 Tô y babell. 20 Yſtyllod y babell. 31 Y barrau.

YNa y gweithiodd Beſaleel ac Aholiab, a phôb gŵr celfydd y rhai y rhoddaſe yr Arglwydd gyfarwyddyd a deall ynddynt i fedru gwneuthur holl waith gwaſanaeth y cyſſegr: yn ôl yr hynn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd.

2 Canys Moſes a alwaſe am Beſaleel ac Aholiab, ac am bôb gŵr celfydd yr hwn y rhoddaſe yr Arglwydd gyfarwyddyd iddo, pôb vn yr hwn y dug ei galon ei hun ef i neſſau at y gwaith iw weithio ef.

3 A chymmeraſant oddi ger bron Moſes yr holl offrwm derchafel, yr hwn a ddygaſe meibion Iſrael i waith gwaſanaeth y cyſſegr iw weithio ef: a hwynt a ddugaſant atto ef ychwaneg o offrwm gwir-fodd bôb borau.

4 Felly yr holl rai celfydd a'r a oeddynt yn gweithio holl waith y cyſſegr a ddaethant bôb vn oddi wrth ei waith yr hwn yr oeddynt yn ei wneuthur.

5 A llefaraſant wrth Moſes gan ddywedyd y mae yr bobl yn dwyn mwy nac ſydd ddigon: er gwaſanaethu i'r gwaith yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd ei wneuthur.

6 Yna Moſes a orchymynnodd, a hwynt a baraſant gyhoeddi yn y gwerſſyll gan ddywedyd, na wnaed na gwr na gwraig waith mwy tu ac at offrwm derchafel y cyſſegr: felly y gwaharddwyd y bobl rhac dwyn [mwy.]

7 Canys yr ydoedd digon o ddefnydd i'r holl
“ waith, er gwneuthur hynny, ac ychwaneg.
“ 8 A'r holl rai celfydd o'r rhai oeddynt yn
“ gweithio gwaith y tabernacl, a wnaethant ddec
“ llenn o ſidan gwynn cyfrodedd, o ſidan glâs, a
“ phorphor, ac ſcarlat [yn llawn] Cerubiaid, o
“ waith cywraint y gwnaethant hwynt.
“ 9 Hŷd pôb llenn [oedd] wyth gufydd ar hugain,
“ a llêd pôb llen [oedd] bedwar cufydd: yr
“ vn feſur [oedd] i'r holl lenni.
“ 10 Ac efe a gydiodd bum llenn wrth eu gylydd:
“ ac a gydiodd y pum llenn [eraill] wrth eu
“ gilydd.
“ 11 Ac efe a wnaeth ddolennau o ſidan glâs
“ ar ymyl y llenn gyntaf, ar [ei] chwr eithaf yn
“ y cydiad: felly y gwnaeth efe ar ymyl y llenn
“ eithaf yn yr ail cydiad.
“ 12 Dec dolen a deugain a wnaeth efe ar vn
“ llenn, a dec dolen a deugain a wnaeth efe yn y
“ cwr eithaf i'r llen yr hon [ydoedd] yn yr ail cydiad:
“ y dolennau oeddynt yn dal y naill [lenn]
“ wrth y llall.
“ 13 Ac efe a wnaeth ddec a deugain o dderbynniadau
“ aur: ac a gydiodd y naill lenn wrth y
“ llall a'r derbynniadau, fel y bydde [hynny] yn vn
“ tabernacl.
“ 14 Efe a wnaeth hefyd lenni [o flew] geifr
“ [i fod] yn babell-len ar y tabernacl: yn vn llenn
“ ar ddec y gwnaeth efe hwynt.

15 Hŷd vn llen oedd ddec cufydd ar hugain, ”
a llêd vn llenn [oedd] bedwar cufydd: a'r vn feſur ”
oedd i'r vn llenn ar ddec. ”
16 Ac efe a gydiodd bum llenn wrthynt eu ”
hunain: a chwe llenn wrthynt eu hunain. ”
17 Efe a wnaeth hefyd ddec dolen a deugain ”
ar ymyl y llenn eithaf yn y cydiad: a dec dolen ”
a deugain a wnaeth efe ar ymyl llenn yr ail ”
cydiad. ”
18 Ac efe a wnaeth ddec a deugain o dderbynniadau ”
prês: i gydio y babell-lenn i fod yn vn. ”
19 Ac efe a wnaeth dô i'r babell-lenn o grwyn ”
hyrddod wedi eu lliwio yn gochion: a thô o ”
grwyn daiar-foch yn vchaf. ”
20 Ac efe a wnaeth ſtyllod i'r tabernacl o ”
goed Sittim yn eu ſefyll. ”
21 Dec cufydd [oedd] hŷd yr ſtyllenn: a ”
chufydd a hanner cufydd lled pôb ſtyllen. ”
22 Dau dyno [oedd] i'r vn ſtyllenn wedi goſod ”
fel ffynn yſcal y naill ar gyfer y llall: felly ”
y gwnaeth efe i holl ſtyllod y tabernacl. ”
23 Ac efe a wnaeth ſtyllod y tabernacl: yn ”
vgain ſtyllen i'r tu dehau tua'r dehau. ”
24 A deugain mortais arian a wnaeth efe ”
dann yr vgain ſtyllen: dwy fortais dann vn ſtyllen ”
iw dau dyno, a dwy fortais dann ſtyllen arall ”
iw dau dyno. ”
25 Ac i ail yſtlys y tabernacl o du y gogledd ”
: efe a wnaeth vgain ſtyllen. ”
26 A i deugain mhortais o arian: dwy fortais ”
tann vn ſtyllen, a dwy fortais tann ſtyllen ”
arall. ”
27 Ac i du gorllewyn y tabernacl y gwnaeth ”
efe chwech ſtyllen. ”
28 A dwy ſtyllen a wnaeth efe yng-honglau Exod.26.24.
y tabernacl i'r ddau yſtlys. ”
29 Ac yr oeddynt * wedi eu cydio oddi tanodd, ”
ac yr oeddynt hefyd wedi eu cydio oddi arnodd ”
wrth vn fodrwy: felly y gwnaeth iddynt ”
ill dwy yn y ddwy gongl. ”
30 Ac yr oedd wyth ſtyllen ai morteiſiau yn ”
vn ar bymthec o forteiſiau arian: ſef dwy fortais Exo.25.27.31
tann bôb ſtyllen. exod.30.4.
31 Ac efe a wnaeth farrau o goed Sittim: ”
pump i ſtyllod vn yſtlys i'r tabernacl. ”
32 A phum barr i ſtyllod ail yſtlys y tabernacl, ”
a phum barr i ſtyllod y tabernacl i'r yſtlys ”
o du yr gorllewyn. ”
33 Ac efe a wnaeth y barr canol i farrio yng-hanol ”
yr ſtyllod o gwr i gwr. ”
34 Ac efe a oreurodd y ſtyllod ag aur, ac a ”
wnaeth eu modrwyau hwynt o aur i fyned am ”
y barrau: ac a oreurodd y barrau ag aur. ”
35 Ac efe a wnaeth wahan-lenn o ſidan glâs, ”
a phorphor a ſcarlat, a ſidan gwynn cyfrodedd: ”
o waith cywraint y gwnaeth efe hi [yn llawn] ”
Cerubiaid. ”
36 Ac efe a wnaeth iddi bedair colofn [o ”
goed] Sittim, ac ai goreurodd hwynt ag aur, ai ”
pennau [oeddynt] aur: ac efe a fwriodd iddynt ”
bedair mortais o arian. ”

37 Ac efe a wnaeth gaead-len i ddrws y tabernacl o ſidan glâs, a phorphor, ac ſcarlat, a ſidan gwynn cyfrodedd: o waith edef a nodwydd.

38 Ai phump coloſn, ai pennau, ac a oreurodd eu pennau hwynt, ai cylchau ag aur: ai pum mortais [oeddynt] o brês.

## PEN. XXXVII.

1 Gwneuthur Arch y deſtiolaeth. 6 Y drugareddfa. 10 Y bwrdd. 17 Y canhwyll-bren. 25 Ac allor yr arogl-darth.

A Beſaleel a wnaeth yr Arch, o goed Sittim: o ddau gufydd a hanner ei hŷd a chufydd a hanner ei llêd, a chufydd a hanner ei huchter.

2 Ac ai goreurodd ag aur pur o fewn ac oddi allan: ac a wnaeth iddi goron o aur o amgylch.

3 Ac efe a fwriodd iddi bedair modrwy o aur ar ei phedair congl: ſef dwy fodrwy ar y naill yſtlys, a dwy fodrwy ar ei hyſtlys arall.

4 Efe a wnaeth hefyd droſolion o goed Sittim: ac ai goreurodd hwynt ag aur.

5 Ac a oſododd y troſolion drwy y modrwyau ar yſtlyſau yr Arch: i ddwyn yr Arch.

Exod.25.17. 6 Ac efe a *wnaeth drugareddfa o aur coeth: o ddau gufydd a hanner ei hŷd, a chufydd a hanner ei llêd.

7 Ac efe a wnaeth ddau Gerub aur: o vn dryll cyfan y gwnaeth efe hwynt ar ddau gwrr y drugareddfa.

8 Vn Cerub ar y naill gwrr, a Cherub arall ar y cwrr arall: o'r drugareddfa y gwnaeth efe y Cerubiaid ar ei dau gwrr.

9 A'r Cerubiaid oeddynt gan ledu adenydd tuac i fynu yn gorchguddio ai hadenydd 'y drugareddfa, ai hwynebau oeddynt bôb vn at ei gilydd: wynebau y Cerubiaid [oeddynt] tu ac at y drugareddfa.

10 Ac efe a wnaeth fwrdd o goed Sittim: dau gufydd ei hŷd, a chufydd ei lêd, a chufydd a hanner ei vchter.

11 Ac ai goreurodd ef ag aur pûr: ac a wnaeth iddo goron o aur o amgylch.

12 Gwnaeth hefyd iddo gylch o amgylch o lêd llaw: ac a wnaeth goron o aur ar ei gylch o amgylch.

13 Ac efe a fwriodd iddo bedair modrwy o aur: ac a roddodd y modrwyau wrth ei bedair congl, y rhai [oeddynt,] yn bedwar troed iddo.

14 Ar gyfer y cylch yr oedd y modrwyau: i fyned am y barrau i ddwyn y bwrdd.

15 Ac efe a wnaeth droſolion o goed Sittim, ac ai goreurodd hwynt ag aur i ddwyn y bwrdd.

16 Efe a wnaeth hefyd y lleſtri y rhai [fydde] ar y bwrdd, ei ddyſclau ef ai llwyau, ai phiolau, ai gafnau y rhai y tywalltyd a hwynt: o aur pûr.

17 Ac efe a wnaeth ganhwyll-bren o aur coeth: o vn dryll cyfan y gwnaeth efe y canhwyll-bren, ei balader, ei geingciau, ei bedill, ei gnapiau, ai flodau oeddynt o honaw ei hun.

18 A chwech o geingciau yn myned allan oi yſtlyſau: tair caingc canhwyll-bren o vn yſtlys, a thair caingc canhwyll-bren o'r ail yſtlys.

19 Tair padell ar waith almon, cnap a blodeun [oedd] ar vn gaingc, a thair padell o waith almon, cnap a blodeun ar gaingc arall: yr vn modd [ yr oedd ] ar y chwe chaingc y rhai oeddynt yn dyfod allan o'r canhwyll-bren.

20 Ac ar y canhwyll-bren yr [oedd] pedair padell: o waith almon, ei gnappiau ai flodau.

21 A chnap tan ddwy gaingc o honaw, a chnap tann ddwy gaingc o honaw, a chnap tan ddwy gaingc o honaw: yn ol y chwe chaingc y rhai a oeddynt yn dyfod allan o honaw.

22 Eu cnapiau hwynt, ai ceingciau hwynt oeddynt o honaw ef: y cwbl o honaw [ydoedd] *vn dryll cyfan o aur coeth. Exod.25.31.

23 Ac efe a wnaeth ei ſaith luſern ef: ai efeiliau, ai gafnau o aur pur. Exod.25.39.

24 O *dalent o aur coeth y gwnaeth efe hwnnw: ai holl leſtri. Exod.30.34.

25 Gwnaeth hefyd *allor yr arogl-darth o goed Sittim: o gufydd ei hŷd, a chufydd ei llêd yn bedair ongl, ac o ddau gufydd ei huchter, ei chyrn oeddynt o honi ei hun.

26 Ac efe ai goreurodd hi ag aur coeth, ei chaead, ai hyſtlyſau o amgylch ai chyrn: ac efe a wnaeth iddi goron aur o amgylch.

27 Ac efe a wnaeth iddi ddwy fodrwy o aur wrth ei dwy gongl, ar ei dau yſtlys, oddi tann ei choron: i fyned am droſolion iw dwyn arnynt.

28 Ac efe a wnaeth droſolion o goed Sittim: ac ai goreurodd hwynt ag aur. Exod.30.35.

29 Ac efe a wnaeth *olew yr enneiniad ſanctaidd, a'r arogl-darth llyſſeuoc pur o waith yr apothecari.

## PEN. XXXVIII.

Gwneuthuriad allor y poeth offrwm. 8 Y noe bres. 9 Y cynteddfa. 24 cyfrif o'r hyn a offrymmodd y bobl. Exod.27.1.

AC efe a wnaeth allor y poeth offrwm o *goed Sittim: o bump cufydd ei hŷd, a phump cufydd ei llêd, yn bedair ongl, ac yn dri chufydd ei huchter.

2 Gwnaeth hefyd ei chyrn hi ar ei phedair congl, ei chyrn hi oeddynt o honi ei hun: ac efe ai gwiſcodd hi a phrês. Exod.27.3.

3 Efe a wnaeth hefyd holl leſtri yr allor, y crochanau, a'r rhawiau, a'r cawgiau, a'r cigweiniau a'r thuſſerau, ei holl leſtri hi a wnaeth efe o brês.

4 Ac efe a wnaeth i'r allor, alch prês ar waith rhwyd: dann ei chwmpas oddi tannodd hyd ei hanner hi.

4 Ac efe'a fwriodd bedair modrwy i bedwar cwrr yr alch prês: i fyned am droſolion.

6 Ac efe a wnaeth droſolion o goed Sittim: ac ai gwiſcodd hwynt a phrês.

7 Ac efe a dynnodd y troſolion drwy y modrwyau ar yſtlyſau yr allor iw dwyn hi arnynt:

“ yn gau y gwnaeth efe hi ag pyſtyllod.
“ 8 Ac efe a wnaeth noe brês, ai throed o brês
“ o ddrychau y lluoedd[gwragedd,] y rhai a ymgaſcient
“ [at]ddrws pabell y cyfarfod.
“ 9 Ac efe a wnaeth y cynteddfa ar yr yſtlys
“ dehau,tu a'r dehau: llenni troelloc y cynteddfa
“ [oeddynt] ſidan gwynn cyfrodedd o gant cufydd.
“ 10 Ai hugain colofn, ac ai hugain mortais
“ o brês: a phennau y colofnau ai cylchau o
“ arian.
“ 11 Ac ar du yr gogledd[y troelloc lenni oeddynt]
“ gant cufydd,eu hugain colofn,ai hugain
“ mortais o brês:a phennau y colofnau ai cylchau
“ o arian.
“ 12 Ac o du yr gorllewyn llenni troelloc o
“ ddec cufydd a deugain: eu dec colofn, ai dec
“ mortais, a phennau y colofnau, ai cylchau o
“ arian.
“ 13 Ac o du yr dwyrain lle y cyfyd haul [yr
“ oedd troelloc lenni]o ddec cufydd a deugain.
“ 14 Llenni troelloc o bymthec cufydd[a wnaeth
“ efe]o'r[naill] du: eu tair colofn,ai tair
“ mortais.
“ 15 Ac[efe a wnaeth]ar yr ail yſtlys o ddeutu
“ drws y porth lenni troelloc o bymthec cufydd,
“ eu tair colofn,ai tair mortais.
“ 16 Holl lenni troelloc y cynteddfa o amgylch
“ [a wnaeth efe]o ſidan gwynn cyfrodedd.
“ 17 Ond morteiſiau y colofnau[oeddynt] o
“ brês,a phennau y colofnau,ai cylchau o arian: a
“ gwiſc eu pennau o arian,a holl golofnau y cynteddfa
“ oeddynt wedi eu cylchu ag arian.
“ 18 A chaead-lenn drws y cynteddfa[ydoedd]
“ ar waith edef a nodwydd,o ſidan glâs,a porphor
“ ac ſcarlat,a ſidan gwynn cyfrodedd:ac yn vgain
“ cufydd o hŷd,ai huchter,ai llêd yn bump cufydd
“ ar gyfer llenni troelloc y cynteddfa.
“ 19 Eu pedair colofn hefyd, ai pedair mortais
“ [oeddynt]o brês: ai pennau o arian, gwiſc
“ eu pennau hefyd ai cylchau[oeddynt]arian.
Exo.27.19 “ 20 A*holl hoelion y tabernacl,a'r cynteddfa
“ oddi amgylch[oeddynt]brês.
“ 21 Dymma gyfrif[perthynaſau] y tabernacl
“ [ſef] tabernacl y deſtiolaeth,y rhai a gyfrifwyd
“ wrth orchymyn Moſes: [i] waſanaeth y
“ Lefiaid drwy law Ithamar fab Aaron yr offeiriad.
“ 22 Beſaleel mab Vri mab Hur o lwyth Juda,
“ a wnaeth yr hyn oll a orchymynnodd yr Arglwydd
“ wrth Moſes.
“ 23 A chyd ag ef yr ydoedd Aholiab mab Achiſamech
“ o lwyth Dan ſaer cywraint,a gwniedydd
“ mewn ſidan glâs, ac mewn porphor, ac
“ mewn ſcarlat,ac mewn ſidan gwynn.
“ 24 Yr holl aur a weithiwyd yn y gwaith
“ [ſef] yn holl waith y cyſſegr, ydoedd aur yr
“ offrwm cwhwfan[ſef] naw talent ar hugain,a
“ ſeithgant ſicl,a dec ar hugain yn ôl ſicl y cyſſegr
“ 25 Ac arian y rhai a gyfrifwyd o'r gynnulleidfa
* [oeddynt] gant talent, a mil a ſeithgant

a phymthec ſicl a thrugain yn ôl y ſicl ſanctaidd. ”
26 Hanner ſicl am bôb pen, [ſef]hanner ſicl ”
yn ôl y ſicl ſanctaidd am bôb vn a ele heibio dan ”
rif o fab vgein-mlwydd ac vchod[ſef] am chwe ”
chant mil a thair mil,a phum-cant,a dec a deugain. ”
27 Ac yr oedd cant talent o arian i fwrw ”
morteiſiau y cyſſegr a morteiſiau y wahan-len: ”
cant mortais o'r cant talent,talent i bôb mortais. ”
28 Ac o'r mîl,a ſeith-gant,a phymthec[ſicl] ”
a thrugain y gwnaeth efe bennau y colofnau: ac ”
y gwiſcodd eu pennau, ac y cylchodd hwynt. ”
29 A phrês yr offrwm cwhwfan[oedd]ddec ”
talent a thrugain: a dwy fil a phedwar cant o ”
ſiclau. ”
30 Ac efe a wnaeth o hynny forteiſiau drws ”
pabell y cyfarfod a'r allor brês, a'r alch pres yr ” Exo.27.19.
hwn oedd ynddi: a holl leſtri yr allor. ”
31 A morteiſiau y cynteddfa: a holl hoelion ”
y tabernacl,a holl hoelion y cynteddfa o amgylch. ”

## PEN. XXXIX.

1 Gwiſc Aaron. 2 Yr Ephod. 8 Y ddwyfronnec. 22 Y fantell. 30 Y goron ſanctaidd. 31 Vfydd-dod y bobl.

AC o ſidan glâs,a phorphor,ac ſcarlat y gwnaethant ”
wiſcoedd gwenidogaeth i weini ”
yn y cyſſegr: gwnaethant y gwiſcoedd ſanctaidd ”
y rhai[oeddynt]i Aaron fel y gorchymmynnaſe ”
yr Arglwydd wrth Moſes. ”
2 Felly y gwnaethant yr Ephod o aur, ſidan ”
glâs, a phorphor,ac ſcarlat a ſidan gwynn ”
cyfrodedd. ”
3 A gyrraſant yr aur yn ddalennau, ac ai ”
torraſant yn edafedd i weithio ym myſc y ſidan ”
glâs, ac ym myſc y porphor, ac ym myſc y ſcarlat, ”
ac ym myſc y ſidan gwynn: yn waith cywraint. ”
4 Yſcwyddau a wnaethant iddi yn cydio: ”
wrth ei dau gwrr y cydiwyd hi. ”
5 A chywrein-waith ei gwregys yr hwn ”
oedd arni[ydoedd]o honi ei hun yn vn waith ”
a hi o aur, ſidan glâs, a phorphor ac ſcarlat, a ”
ſidan gwynn cyſrodedd: megis y gorchymynnaſe ”
yr Arglwydd wrth Moſes. ”
6 A hwynt a weithiaſant feini Onix wedi ”
eu naddu a naddiadau ſêl, yn ol henwau meibion ”
Iſrael. ”
7 A goſododd hwynt ar yſcwyddau yr Ephod ” Exo.28.12.
* yn feini coffadwriaeth i feibion Iſrael: ”
megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth ”
Moſes. ”
8 Efe a wnaeth hefyd y ddwyfronnec o waith ”
cywraint,ar waith yr Ephod: o aur, ſidan ”
glâs, porphor hefyd ac ſcarlat, a ſidan gwynn ”
cyfrodedd. ”
9 Scwar ydoedd, yn ddau ddyblyg y gwnaethant ”
y ddwy-fronnec: o rychwant ei hŷd, ”
a rhychwant ei llêd, yn ddau ddyblyg. ”
10 A llawnaſant hi a phedair rhês o feini: ”

“ rhês o Sardius], Tophas, a Smaragdus [y-
“ doedd] y rhês gyntaf.
“ 11 A'r ail rhes [oedd] Rubi, Saphyr, ac A-
“ damant.
“ 12 A'r drydedd rhês [ydoedd] Lincur, Achat
“ ac Amethiſt.
“ 13 A'r bedwaredd rhês ydoedd Turcas O-
“ nix ac Iaſpis: wedi eu hamgylchu mewn bo-
“ glynnau aur yn eu lleoedd.
“ 14 A'r meini [oeddynt] yn ol henwau mei-
“ bion Iſrael yn ddeu-ddec yn ol eu henwau hwy-
“ nt: pôb un wrth ei henw [oeddynt] o naddiadau
“ ſel i'r dauddec llwyth.
“ 15 A hwynt a wnaethant ar y ddwyfronnec
“ gadwynau cydterfynol yn bleth-waith o aur
“ pûr.
“ 16 A gwnaethant ddau foglyn aur a dwy
“ fodrwy o aur, ac a roddaſant y ddwy fodrwy ar
“ ddau gwrr y ddwyfronnec.
“ 17 A rhoddaſant y ddwy gadwyn o aur trwy
“ y ddwy fodrwy, ar gyrrau y ddwyfronnec.
“ 18 A deu-penn y ddwy gadwyn a roddaſant
“ mewn dau foglyn: ac ai goſodaſant ar yſgwy-
“ ddau yr Ephod o'r tu blaen.
“ 19 Gwnaethant hefyd ddwy fodrwy o aur,
“ ac ai goſodaſant ar ddau gwrr y ddwyfronnec:
“ o'r tu mewn ar yr ymyl yr hwn ſydd ar yſtlys yr
“ Ephod.
“ 20 A hwynt a wnaethant ddwy fodrwy aur
“ ac ai goſodaſant ar ddau yſtlys yr Ephod oddi
“ tanodd oi thu blaen, ar gyfer ei chydiad, oddi ar
“ wregys yr Ephod.
“ 21 Codaſant hefyd y ddwyfronnec erbyn ei
“ modrwyau at fodrwyau yr Ephod a llinin o ſi-
“ dan glâs i fod ar wregys yr Ephod, fel na dda-
“ todid y ddwyfronnec oddi wrth yr Ephod: me-
“ gis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Mo-
“ ſes.
“ 22 Ac efe a wnaeth fantell yr Ephod ei gyd
“ o ſidan glâs yn wauad-waith.
“ 23 A thwll penn y fantell [oedd] yn ei cha-
“ nol, fel twll pen lluric wedi gwrymmio ei cho-
“ ler o amgylch rhac ei rhwygo.
“ 24 A gwnaethant ar odrau y fantell [lun]
“ Pomgranadau, o ſidan glâs, porphor ac ſcarlat
“ a ſidan gwyn cyfrodedd.
Exod.28.33. “ 25 Gwnaethant hefyd * glychau o aur pur,
“ ac a roddaſant y clychau rhwng y pomgrana-
“ dau, ar odrau y fantell o amgylch ym myſc y
“ pomgranadau.
“ 26 Clôch a phom-granad, a chlôch a phom-
“ granad, ar odrau y fantell o amgylch i weini
“ [ynddynt,] megis y gorchymynnaſe yr Ar-
“ glwydd wrth Moſes.
“ 27 A hwynt a wnaethant beiſiau o ſidan
“ gwynn yn wauad-waith i Aaron ac iw feibion.
“ 28 A meitr o ſidan gwynn, a chappiau
Exod.28.42. “ hardd o ſidan gwynn: a llawdrau caeroc o ſidan
“ gwynn cyfrodedd.
“ 29 A gwregys o ſidan gwynn cyfrodedd, ac
“ o ſidan glâs, porphor, a ſcarlat ar waith edef a
nodwydd: fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd ”
wrth Moſes, ”
30 Gwnaethant hefyd dalaith y goron ſanc- ”
taidd o aur pûr, ac a ſcrifennaſant arni ſcrifen ”
fel naddiad ſel: Sancteiddrwydd i'r Ar- ” Exod.28.36.
glwydd. ”
31 A rhoddaſant wrthi linin o ſidan glâs, ”
iw oſod i fynu ar y meitr: fel y gorchymynnaſe ”
yr Arglwydd wrth Moſes. ”
32 Felly y gorphennwyd holl waith y taber- ”
nacl [ſef] pabell y cyfarfod: a meibion Iſrael a ”
wnaethant yn ol yr hynn oll a orchymynnaſe yr ”
Arglwydd wrth Moſes, felly y gwnaethant. ”
33 Dugaſant hefyd y tabernacl at Moſes, ”
y babell ai holl ddodrefn: ei derbynniadau, ei ”
ſtyllod, ei barrau, ai cholofnau ai morteiſiau. ”
34 A'r tô o grwyn hyrddod wedi eu lliwio ”
yn gochion, a'r tô o grwyn daiar-foch: a'r llenn ”
wahan yr hon oedd yn gorchguddio. ”
35 Arch y deſtiolaeth, ai throſolion, a'r dru- ”
gareddfa. ”
36 Y bwrdd hefyd ai holl leſtri, a'r bara go- ”
ſod. ”
37 Y canhwyll-bren pur ai luſernau [ſef] ”
luſernau iw taclu, ai holl leſtri, ac olew y goleu- ”
ni. ”
38 A'r allor aur, ac olew yr eneiniad, a'r aro- ”
gl-darth llyſſeuoc: a chaead-lenn drws y babell. ”
39 Yr allor brês, a'r alch prês yr hwn [oedd] ”
iddi, ei throſolion ai holl leſtri: a'r noe ai ”
throed. ”
40 Llenni troelloc y cynteddfa, ei golofnau ”
ai forteiſiau, a chaead lenn porth y cynteddfa, ei ”
raffau ai hoelion: a holl ddodrefn gwaſanaeth y ”
tabernacl, ſef pabell y cyfarfod. ”
41 Gwiſcoedd y wenidogaeth i weini yn y ”
cyſſegr: ſef ſanctaidd wiſcoedd Aaron yr offei- ”
riad, a gwiſcoedd ei feibion ef i offeiriadu. ”
42 Yn ol yr hynn oll a orchymynnaſe yr Ar- ”
glwydd wrth Moſes: felly y gwnaeth meibion ”
Iſrael yr holl waith. ”
43 A Moſes a edrychodd ar yr holl waith, ac ”
wele hwynt ai gwnaethant megis y gorchy- ”
mynnaſe yr Arglwydd, felly y gwnaethent: y- ”
na Moſes ai bendithiodd hwynt. ”

## PEN. XL.

Codiad y tabernacl. 34 Niwl yn deſcyn ar y babell i arwyddocau preſennoldeb Duw.

YNa yr Arglwydd a leſarodd wrth Moſes ”
gan ddywedyd. ”
2 Yn y mîs cyntaf ar [ydydd] cyntaf o'r mîs ”
y cyfodi y tabernacl [ſef] pabell y cyfarfod. ”
3 A goſot yno Arch y deſtiolaeth: a gorch- ”
guddia yr Arch a'r wahan-lenn. ”
4 Dwg i mewn hefyd y bwrdd a threfna ef ”
yn drefnus: dwg i mewn hefyd y canhwyll-bren ”
a goleua di ei luſernau ef. ”
5 Goſot hefyd allor aur yr arogl-darth ger ”
bron Arch y deſtiolaeth: a goſot gaead-len drws ”
y tabernacl. ”

“ 6 Dod hefyd allor y poeth offrwm ar gyfer
Exod.26.35. “ drws y tabernacl,[ſef] pabell y cyfarfod.
“ 7 Dod hefyd y noe rhwng pabell y cyfarfod
“ a'r allor, a dod ynddi ddwfr.
“ 8 A goſot hefyd y cynteddfa oddi amgylch,
“ a dod gaead-lenn[ar] borth y cynteddfa.
“ 9 A chymmer olew yr enneiniad, ac enneinia
“ y tabernacl, a'r hynn oll[ſydd]ynddo, a chyſſegra
“ ef ai holl leſtri: fel y byddo gyſſegredic.
“ 10 Enneinia hefyd allor y poeth offrwm, a
“ chyſſegra yr allor ai holl leſtri: a'r allor fydd
“ ſancteidd-beth cyſſegredic.
“ 11 Enneinia y noe ai throed, a ſancteiddia
“ hi.
“ 12 A phâr i Aaron ac iw feibion ddyfod i
“ ddrws pabell y cyfarfod: a golch hwynt a dwfr.
“ 13 A gwiſc am Aaron y gwiſcoedd ſantaidd:
“ ac enneinia ef, a ſancteiddia ef i offeiriadu
“ i mi.
“ .14 Dŵg hefyd ei feibion ef, a gwiſc hwynt
“ a pheiſiau.
“ 15 Ac enneinia hwynt megis yr enneiniaiſt
“ eu tad hwynt i offeiriadu i mi: fel y byddo eu
“ henneiniad iddynt yn offeiriadaeth dragywyddol
“ drwy eu hoeſoedd.
“ 16 Felly Moſes a wnaeth yn ol yr hynn oll
“ a orchymynnodd yr Arglwydd iddo: felly y
“ gwnaeth efe.
“ 17 Felly * yn y mîs cyntaf o'r ail flwyddyn,
Num.7.1. “ ar[y dydd] cyntaf o'r mis y codwyd y tabernacl.
“ 18 Canys Moſes a gododd y tabernacl, ac
“ a roddodd ei forteiſiau, ac a oſododd ei ſtyllod
“ ac a roddes ei farrau: ac a gododd ei goloſnau.
“ 19 Ac a ledodd y babell-lenn a'r y tabernacl
“ ac a oſododd dô y babell-lenn arni oddi arnodd
“ fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.
“ 20 Cymmerodd hefyd a rhoddodd y deſtiolaeth
“ yn yr Arch, a goſododd y troſolion wrth
“ yr Arch: ac a roddodd y drugareddfa i fynu ar
“ yr Arch.

Exod 35.12. 21 Ac efe a ddûg yr Arch i'r tabernacl, ac a oſododd y wahan-len orchudd, i orchguddio Arch y deſtiolaeth: megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

22 Ac efe a roddodd y bwrdd o fewn pabell y cyfarfod ar yſtlys y tabernacl, o du yr gogledd: o'r tu allan i'r wahan-lenn.

23 Ac efe a drefnodd yn drefnus arno ef y bara ger bron yr Arglwydd: fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

24 Ac efe a oſododd y canhwyll-bren o fewn pabell y cyfarfod ar gyfer y bwrdd ar yſtlys y tabernacl, o du yr dehau.

25 Ac efe a oleuodd y luſernan ger bron yr Arglwydd: fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

26 Efe hefyd a oſododd yr allor aur ym mhabell y cyfarfod: o flaen y wahan-lenn.

27 Ac a arogl-darthodd arni arogl-darth lyſſeuoc megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

28 Ac efe a oſododd gaead-lenn [ar] ddrws y tabernacl.

29 Ac efe a oſododd allor y poeth offrwm [wrth] ddrws y tabernacl [ſef] pabell y cyfarfod: ac a offrymmodd arni boeth offrwm a bwyd offrwm, fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd.

30 Efe a oſododd y noe hefyd rhwng pabell y cyfarfod a'r allor: ac a roddodd yno ddwfr i ymolchi.

31 A Moſes ac Aaron ai feibion a olchaſant yno eu dwylo, ai traed.

32 Pan ddelent i babell y cyfarfod a phan neſſaent at yr allor yr ymolchent: fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

33 Ac efe a gododd y cynteddfa o amgylch y tabernacl, a'r allor, ac a roddodd gaead-lenn[ar] borth y cynteddfa: felly y gorphennodd Moſes y gwaith.

34 Yna y niwl a orchguddiodd babell y cyfarfod: a gogoniant yr Arglwydd a lawnodd y tabernacl.

35 Ac ni alle Moſes fyned i babell y cyfarfod, am i'r niwl aros arni: ac i ogoniant yr Arglwydd lenwi y tabernacl.

36 A phan gyfode y niwl oddi ar y tabernacl, y cychwynne meibion Iſrael iw holl deithiau.

37 Ac oni chyfode y niwl: yna ni chychwynne meibion Iſrael hyd y dydd y cyfode.

38 Canys niwl yr Arglwydd [ydoedd] ar y tabernacl, y dydd, a thân ydoedd yno y nos: yng-olwg holl dŷ Iſrael yn eu holl deithiau hwynt.

# Trydydd llyfr Moſes yr hwn a elwir Leuiticus.

## PENNOD. I.

1 Trefn y poeth offrymmau 3 o eidionnau. 10 o ddefaid, neu eifr. 14 ac o âdar.

YNA yr Arglwydd a alwodd ar Moſes, ac a lefarodd wrtho o babell y cyfarfod: gã ddywedyd.

2 Llefara wrth feibion Iſrael a dywet wrthynt: pan ddygo dŷn o honoch offrwm i'r Arglwydd: o anifail [ſef] o'r eidionnau neu o'r praidd, yr offrymmwch eich offrwm.

3 Os poeth offrwm o eidion [fydd] ei offrwm ef, offrymed ef yn wryw perffaith-gwbl, a dyged ef wrth ei ewyllys ei hun i ddrws pabell y cyfarfod, ger bron yr Arglwydd.

4 A goſoded ei law ar benn y poeth offrwm, fel y cymmeret ef yn gymeradwy ganddo, i wneuthur iawn troſto.

5 *Lladded hefyd yr eidion ger bron yr Arglwydd, a dyged meibion Aaron yr offeiriaid y gwaed, a thaenellant y gwaed o amgylch ar yr allor, yr hon [ſydd wrth] ddrws pabell y cyfarfod. Leuit.9.12.

6 Yna blinged y poeth offrwm, a dryllied ef yn ddrylliau.

7 A goſoded meibion Aaron yr offeiriad dân ar yr allor, a goſſodant goed ar y tân.

8 A goſſoded meibiõ Aarõ yr offeiriaid y drylliau yng-hyd a'r pẽn, a'r gwêr ar y coed y rhai [a fyddant] ar y tân yr hwn [ſydd] ar yr allor.

9 Onid ei berfedd, ai draed, a ŷlch efe mewn dwfr, a'r offeiriad a lŷſc y cwbl ar yr allor, yn boeth offrwm, yn aberth tanllyd, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

10 Ac os o'r praidd [ſef] o'r defaid, ne o'r geifr, [yr offrymma efe] boeth offrwm, offrymmed hwnnw yn wryw perffaith-gwbl.

11 A lladded ef ger bron yr Arglwydd o du'r gogledd i'r allor, a thaenelled meibion Aaron yr offeiriaid ei waed ef ar yr allor o amgylch.

12 A thorred ef yn ddrylliau gyd ai ben ai wêr, a goſſoded yr offeiriad hwynt ar y coed, y rhai [a fyddant] ar y tân, yr hwn [ſydd] ar yr allor.

13 Onid golched y perfedd, a'r traed mewn dwfr: a dyged yr offeiriad y cwbl, a lloſged ar yr allor, hwn ſydd boeth offrwm yn aberth tanllyd, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

14 Ac os poeth offrwm o adêryn [fydd] ei offrwm ef i'r Arglwydd: yna dyged ei offrwm o durturau, neu o gywion colomennod.

15 A dyged yr offeiriad ef wrth yr allor, a thorred ei bẽn ef rhwng ei fŷs ai fawd, a lloſged ar yr allor: a gwaſger ei waed ef ar yſtlys yr allor.

16 A thynned ymmaith ei grombil ef yng-hyd ai blu, a bwried hwynt ger llaw yr allor, o du'r dwyrain i'r lle [y byddo] y lludw.

17 Holled ef hefyd rhwng ei adenydd [etto] na wahaned: a lloſged yr offeiriad ef ar yr allor, ar y coed y rhai [fyddant] ar y tân: dymma boeth offrwm yn aberth tanllyd, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

## PEN. II.

Trefn y bwyd offrwm, ai bobiad.

PAN offrymmo dŷn fwyd offrwm i'r Arglwydd, bydded ei offrwm ef beillied: a thywallted olew arno, a rhodded thus arno.

2 Yna *dyged ef at feibion Aaron yr offeiriaid a chymmered o ddi yno loned ei law oi beillied ac oi olew, yng-hyd ai hôll thus, a lloſged yr offeiriad ei goffadwriaeth ar yr allor, yn aberth tanllyd o arogl eſmwyth i'r Arglwydd. Leuit.6.15.

3 A [bydded] gweddill y bwyd offrwm i Aaron ac iw feibion, yn ſanctaidd-beth cyſſegredic o danllyd aberth yr Arglwydd.

4 Hefyd pan offrymmech fwyd offrwm, wedi ei bobi [mewn] ffwrn, [bod] deiſſennau peillied croiw, wedi eu cymmyſcu trwy olew, ac afrllad croiw wedi eu hîro ag *olew.

5 Ond os bwyd offrwm ar radell [fydd] dy offrwm di, bydded beillied wedi ei gymmyſcu yn groiw mewn olew. Leuit 6.21.

6 Torr ef yn dammeidiau, a thywallt arno olew, bwyd offrwm yw hwn.

7 Ac os bwyd offrwm padell [fydd] dy offrwm, gweithier beillied trwy olew.

8 A dwg i'r Arglwydd y bwyd offrwm, yr hwn a wneir o'r rhai hyn, ſef dwg ef at yr offeiriad a dyged yntef ef at yr allor.

9 A choded yr offeiriad ei goffadwriaeth o'r bwyd offrwm, a lloſged ar yr allor, yn danllyd aberth, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

10 A [bydded] i Aaron ac iw feibion weddill y bwyd offrwm, yn ſancteidd-beth, cyſſegredic o dânllyd aberth yr Arglwydd.

11 Na wneler yn lefeinllyd ddim bwyd offrwm yr hwnn a offrymmoch i'r Arglwydd: canys am bob ſur-does, a phob mêl na loſgwch o honaw aberth tanllyd i'r Arglwyd.

12 Offrymmwch y rhai hynny i'r Arglwydd yn offrwm blaen-ffrwyth, ond nac ânt ar yr allor [i fod] yn arogl eſmwyth.

13 Dy holl fwyd offrwm hefyd a hellt *di a halẽ, ac na phalled halẽ cyfammod dy Dduw o fod ar dy fwyd offrwm: offrymma halen ar bob offrwm it. Math.5.13. Marc.9.50. Luc.14.34.

14 Ac os offrymmi i'r Arglwydd fwyd offrwm y ffrwythau cyntaf: twyſennau wedi eu

craſſu yn tân[ſef] yr hyn a gurir allan o'r dwyſen îr-lawn a offrymmi di, yn fwyd offrwm dy ffrwythau cyntaf.

15 A dod olew arno, a goſſot thus arno, bwyd offrwm[yw]hynn.

16 A lloſged yr offeiriad ei goffodwriaeth oi ŷd wedi ei guro allan, ac oi olew yng-hyd ai holl thus yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

## PEN. III.

1 Cyfraith am aberth hedd o eidionnau. 6 Defaid. 7 Wun. 12 A geifr.

AC os aberth hedd[fydd]ei offrwm ef, pan offrymmo efe eidion, offrymmed ef gerbron yr Arglwydd yn berffaith-gwbl pwy vn bynnac ai yn wryw ai yn fenyw.

2 A rhodded ei law ar benn ei offrwm a lladded ef[wrth] ddrws pabell y cyfarfod, a thaenelled meibion Aaron yr offeiriaid y gwaed ar yr allor o amgylch.

3 Ac offrymmed o'r aberth hedd aberth tanllyd i'r Arglwydd: [ſef] y weren fol, a'r * holl wêr yr hwn[a fydd]ar y perfedd, Exod.29.22.

4 A'r ddwy aren, a'r gwêr[a fydd]arnynt, yr hwn[fydd] ar y perfedd, a'r rhwyden hefyd [a fydd] ar yr afu a dynn efe ymmaith yng-hyd a'r arennau.

5 A lloſged meibion Aaron hynny ar yr allor, yng-hyd ar offrwm poeth yr hwn[fydd]ar y coed, y rhai [fyddant] ar y tân, yn aberth tanllyd, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

6 Ac os o'r praidd [y bydd]yr hyn a offrymmo efe yn hedd aberth i'r Arglwydd, offrymmed ef yn wryw neu yn fenyw perffaithgwbl.

7 Os oen a offrymma efe yn ei offrwm, yna dyged ef ger bron yr Arglwydd.

8 A goſoded ei law ar benn ei offrwm, a lladded ef o flaen pabell y cyfarfod, a thaenelled meibion Aaron ei waed ef ar yr allor oddi amgylch.

9 Ac offrymmed o'r aberth hedd yn aberth tanllyd i'r Arglwydd ei weren, a'r gloren ei gyd, torred hi ymmaith wrth aſgwrn y cefn yng-hyd a'r weren fol, a'r holl wêr yr hwn [fydd]ar y perfedd.

10 A'r ddwy aren, a'r gwêr yr hwn [a fydd] arnynt, yr hwn[fydd]ar y perfedd, a'r rhwyden ar yr afu, yng-hyd a'r arennau a dynn efe ymmaith.

11 A lloſged yr offeiriad hynn ar yr allor, [fel]bwyd aberth tanllyd yr Arglwydd.

12 Felly os gafr[fydd]ei offrwm ef, dyged hi ger bron yr Arglwydd:

13 A goſoded ei law ar ei phen, a lladded hi o flaen pabell y cyfarfod, a thaenelled meibion Aaron ei gwaed hi ar yr allor o amgylch.

14 Ac offrymmed o hynny ei offrwm o aberth tanllyd i'r Arglwydd, ſef y weren fol, a'r holl wêr yr hwn[fydd]ar y perfedd.

15 A'r ddwy âren a'r gwêr yr hwn [fydd] arnynt, yr hwn[fydd]ar y perfedd a'r rhwyden ar yr afu, yng-hyd ar arennau a dynn efe ymmaith.

16 A lloſged yr offeiriad hwynt ar yr allor, yr holl wêr[fydd]i'r Arglwydd yn fwyd aberth tanllyd o arogl eſmwyth.

17 Deddf dragwyddawl drwy eich oeſoedd yn eich holl anneddau[yw]na fwyttaoch ddim gwêr na dim * gwaed. Geneſ.9.4.

## PEN. IIII.

Aberthau tros bechod a wnele 'r offeiriad. 13 Neu'r holl gynnulleidfa. 22 Neu y pennaeth mewn anwybod.

LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Jſrael gan ddywedyd, pan becho dyn mewn anwybod yn erbyn yr vn o orchymynnion yr Arglwydd a gwneuthur yn erbyn vn o honynt, y pethau ni ddylyd eu gwneuthur.

3 Os offeiriad eneiniog a becha i ddwyn y bobl yn euog, offrymmed tros ei bechod yr hwn a wnaeth, fuſtach ieuangc perffaith-gwbl yn aberth dros bechod i'r Arglwydd.

4 A dyged y buſtach i ddrws pabell y cyfarfod ger bron yr Arglwydd, a goſoded ei law ar ben y buſtach a lladded y buſtach ger bron yr Arglwydd.

5 A * chymmered yr offeiriad eneiniog o waed y buſtach, a dyged ef i babell y cyfarfod. Leſit.9.18.

6 A throched yr offeiriad ei fŷs yn y gwaed, a thaenelled o'r gwaed ar du wyneb gwahanlen y cyſſegr, ger bron yr Arglwydd ſeithwaith.

7 A goſoded yr offeiriad [beth] o'r gwaed ger bron yr Arglwydd ar gyrn allor yr arogldarth llyſſieuoc, yr hon[ſydd]ym mhabell y cyfarfod: a thywallded holl waed [arall] y buſtach wrth droed allor y poeth offrwm yr hon [ſydd wrth] ddrws pabell y cyfarfod.

8 A thynned holl wêr buſtach yr aberth dros bechod o honaw, ſef y weren fol, ar holl wêr yr hwn[fydd]ar y perfedd.

9 A'r ddwy aren ar gwêr yr hwn[fydd]arnynt yr hwn[fydd]ar y perfedd, a'r rhwyden ar 'r afu a dynn efe ymmaith yng-hyd a'r arennau,

10 Megis y tynnodd o ŷch yr aberth hedd: A lloſged yr offeiriad hwynt ar allor y poeth offrwm.

11 Ond croen y buſtach, ai holl gîg yng-hyd ai benn, ai draed, ai botten, ai fiſwel, Exod.29.14.

12 A'r holl fuſtach hefyd a ddwg efe allan i'r tu hwnt i'r gwerſyll i le glân wrth dywallt lê y lludw, ac ai llyſc ar goed yn tân: wrth dywalltlê y lludw y lloſcir ef.

13 Ac os holl gynnulleidfa Jſrael a becha mewn anwybod, a'r peth yn guddiedic o olwg y dyrfa, a gwneuthur o honynt yn erbyn yr vn o orchmynion yr Arglwydd, ddim o'r hyn ni ddylid moi gwneuthur, a myned yn euog.

14 Pan wypir y pechod yr hwn y pechaſant ynddo, yna offrymmed y dyrfa fuſtach ieuanc yn aberth dros bechod, a dygant ef, o flaen

pabell y cyfarfod.

15 A goſoded henuriaid y gynnulleidfa eu dwylo ar ben y buſtach ger bron yr Arglwydd, a lladdant y buſtach rng-wydd yr Arglwydd.

16 A dyged yr offeiriad eneiniog o waed y buſtach i babell y cyfarfod.

17 A throched yr effeiriad ei fŷs yn y gwaed a thaenelled ar du wyneb y wahan-len ger bron yr Arglwydd ſeith-waith.

18 A goſoded o'r gwaed ar gyrn yr allor yr hon [ſydd] ger bron yr Arglwydd [ſef] yr hon [ſydd] ym mhabell y cyfarfod, a thywallted yr holl waed [arall] wrth waelod allor y poeth offrwm yr hon ſydd wrth ddrws pabell y cyfarfod.

19 A thynned ei holl wêr allan o honaw, a lloſged ar yr allor.

20 A gwnaed i'r buſtach hwn megis y gwnaeth i fuſtach y pech aberth, felly gwnaed iddo, a'r offeiriad a wna iawn troſtynt, ac fe a faddeuir iddynt.

21 Yna dyged y buſtach allan i'r tu hwnt i'r gwerſyll, a lloſged ef fel y lloſcodd y buſtach cyntaf, dymma aberth dros bechod y dyrfa.

22 Os pecha pennaeth a gwneuthur trwy amryfuſedd yn erbyn yr vn o holl orchymynion yr Arglwydd ei Dduw, ddim or hynn ni ddylid eu gwneuthur, a bod yn euog.

23 Os amlyga ei fai iddo yr hwn a wnaeth, dyged ei offrwm o lwdn gafr gwryw perffaith-gwbl.

24 A goſoded ei law ar benn y llwdn, a lladded ef ger bron yr Arglwydd yn y lle y lleddir y poeth offrwm: dymma aberth tros bechod.

25 A chymmered yr offeiriad o waed yr aberth tros bechod ar ei fŷs, a goſſoded ar gyrn allor y poeth offrwm a thywallted ei waed ef wrth waelod allor y poeth offrwm.

26 A lloſged ei holl wêr ar yr allor fel gwêr yr aberth hedd, a gwnaed yr offeiriad iawn droſto am ei bechod, a maddeuir iddo.

27 Ac os pecha neb o bobl y wlad mewn anwybod, gan wneuthur yn erbyn yr vn o orchymynion yr Arglwydd ddim o'r [pethau] y rhai ni ddylid eu gwneuthur a bod yn euog.

28 Os ei bechod yr hwn a bechodd a amlyga iddo: yna dyged ei offrwm o lwdn gafr fenyw berffaith-gwbl dros ei bechod yr hwn a bechodd efe.

Lefit 3.13.

29 A *goſoded ei law ar benn yr aberth dros bechod, a lladded yr aberth tros bechod yn lladd-fan y poeth offrwm.

30 A chymmered yr offeiriad oi gwaed hi ar ei fys a rhodded ar gyrn allor y poeth offrwm, a thywallted ei holl waed hi wrth waelod 'r allor.

31 A thynned ei holl wêr hi, fel y tynnir y gwêr oddi ar yr aberth hedd, a lloſged yr offeiriad [ef] ar yr allor: yn arogl eſmwyth i'r Arglwydd, a gwnaed yr offeiriad iawn troſto a maddeuir iddo.

32 Ac os dwg efe ei offrwm tros bechod [o] oen, dyged hi'n fenyw berffaith-gwbl.

33 A goſoded ei law ar benn yr aberth dros bechod, a lladded hi tros bechod yn y lle y lleddir y poeth offrwm.

34 A chymmered yr offeiriad ar ei fŷs o waed yr aberth tros bechod, a goſoded ar gyrn allor y poeth offrwm, a thywallted ei holl waed hi wrth waelod yr allor.

35 A thynned ei * holl wêr hi, fel y tynnir gwêr oen yr aberth hedd, a lloſged yr offeiriad hwynt ar yr allor gyd ag aberth tanllyd yr Arglwydd, a gwnaed yr offeiriad iawn troſto am ei bechod yr hwn a bechodd, a maddeuir iddo.

Lefit.3.9.

## PEN. V.

Am glywed tyngu. 2 Am gyffwrdd a pheth aflan. 4 Am dyngu yn ddiarod. 15 Am ſarhaed ar beth cyſſygredic.

OS pecha dyn a chlywed llais llw, ac yntef yn dŷſt naill ai'n gweled ai'n gwybod, oni fynega, yna efe a ddwg ei anwiredd.

2 Os dyn a gyffwrdd wrth ddim aflan, pwy bynac ai wrth furgyn bwyſtfil aflan, ai wrth furgyn anifail aflan, ai wrth furgyn ymluſgiad aflan, er [bod y peth] yn guddiedic oddi wrtho ef aflan, ac euog yw efe.

3 Neu pan gyffyrddo ag aflendid dŷn pa aflendid bynnac iddo yr hwn y bydd efe aflan oi blegit: a'r [peth] yn guddiedig rhagddo, pan gaffo wybod euog yw.

4 Neu [os] dŷn a dwng, gan draethu a'r gwefuſau ar wneuthur drwg, neu wneuthur da am yr hyn oll a draetho dyn drwy lw, a'r [peth] yn guddiedic rhagddo, pan gaffo efe wybod: euog yw o vn o hyn.

5 A phan fyddo efe euog o vn o hyn: yna cyffeſſed yr hyn y pechodd ynddo.

6 A dyged i'r Arglwydd ei offrwm dros gamwedd am ei bechod yr hwn a bechodd: [ſef] benyw or praidd, dafad neu lwdn gafr yn aberth tros bechod, a gwnaed 'r offeiriad iawn troſto am ei bechod.

7 Ond os ei law ni chyrredd werth oen, dyged i'r Arglwydd yn iawn am ei gamwedd yr hwn a bechodd, *ddwy durtur neu ddau gyw colomen, y naill yn aberth tros bechod, ar llall yn boeth offrwm.

Lefit.12.8.
Luc.2.24.

8 A dyged hwynt at yr offeiriad ac offrymmed efe yr hwn [ſydd] tros bechod yn gyntaf, a rhwng ei fys ai fawd torred ei benn wrth ei wegil, ond na thorred ef ymmaith.

9 A thaenelled o waed yr aberth tros bechod ar yſtlys yr allor, a gwaſcer y rhan arall o'r gwaed wrth waelod yr allor, dymma aberth tros bechod:

10 A'r ail a wna efe yn offrwm poeth yn ol y ddefod: a'r offeiriad a wna iawn droſto am ei bechod yr hwn a bechodd, a maddeuir iddo.

11 Ac os ei law ni ddaw i ddwy durtur neu i ddau gyw colomen: yna dyged yr hwn a bechodd ei offrwm [ſef] o ddecfed ran Epha o beilliedd yn aberth tros bechod: na oſoded olew ynddo, ac na rodded thus arno: canys aberth tros bechod yw efe.

12 A dyged hynny at yr offeiriad, a chymme-

red

rced yr offeiriad o honaw loned ei law yn goffadwriaeth: a lloſged ar yr allor, ar aberth tanllyd yr Arglwydd: dymma aberth tros bechod.

13 Felly gwnaed yr offeiriad iawn droſto ef ag vn o hynn am ei bechod yr hwn a bechodd efe, a maddeuir iddo, a bydded i'r offeiriad [ran] megis [o'r] bwyd offrwm.

14 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

15 Os gwna dŷn gamwedd a phechu drwy amryfuſedd, mewn [dim] o'r pethau a gyſſegrwyd i'r arglwydd: yna dyged i'r Arglwydd yn aberth dros ei gamwedd, hwrdd perffaith-gwbl o'r praidd yn dy bris di [ſef dau] o ſiclau arian, yn ol ſicl y cyſſegr, yn aberth tros gamwedd.

16 Yna taled yr hyn y pechodd [ynddo] o'r peth cyſſegredic, a rhodded ei bummed ran yn chwanec atto, a rhodded ef at yr offeiriad, a gwnaed yr offeiriad iawn troſto a hwrdd yr offrwm tros gamwedd: a maddeuir iddo.

Lefit.4.2.

17 Ac os pecha enaid, *a gwneuthur [yn erbyn] yr vn o holl orchymynnion yr Arglwydd, [ddim o'r] hynn ni ddylid eu gwneuthur, er na wydde, etto euog fydd, ai anwiredd a ddwg.

18 Yna dyged hwrdd perffaith-gwbl o'r praidd, yn dy bris di, at yr offeiriad yn offrwm tros gamwedd, a gwnaed yr offeiriad iawn troſto am ei amryfuſedd yr hwn a gamgymerodd efe ac yntef heb wybod, a maddeuir iddo.

19 Aberth tros gamwedd [yw] hynn: mawr gamwedd a wnaeth yn erbyn yr Arglwydd.

## PEN. VI.

Aberthau am feiau a wneler trwy wybod. 9 Trefn y poeth offrymmau. 14 Trefn y bwyd offrwm. 20 Aberth Aaron ai feibion. 25 Trefn offrwm tros bechod.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

2 Os pecha dŷn a gwneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd, a gwadu wrth ei gymydog yr hyn a rodded atto iw gadw, neu am 'r hyn y rhoddes efe ei law am dano, neu am yr hynn drwy drawſter a ddygodd efe, neu y bydd yn ei gam attal oddi ar ei gymydog:

3 Neu os cafodd beth gwedi ei golli, ai wadu, a thyngu mewn anudon, am ba vn bynac o'r holl bethau a wnelo dŷn gan bechu ynddynt.

4 Yna am iddo bechu a bod yn euog, bydded iddo roddi yn ei ol y trais yr hwn a dreiſiodd efe, neu 'r camattaliaeth yr hwn a gamattaliodd, neu 'r peth yr hwn a adawyd i gadw gyd ag ef, neu 'r peth wedi ei golli yr hwn a gafodd efe.

5 Neu beth bynnac y tyngodd efe anudon am dano, taled hynny yn erbyn ei benn, a chwaneged ei bummed ran atto: a'r dydd yr offrymmo dros gamwedd rodded ef i'r nêb ai piau.

6 A dyged i'r Arglwydd yn offrwm dros gãwedd hwrdd perffaith-gwbl o'r praidd, yn dy bris di, yn offrwm dros gãwedd, at yr offeiriad.

7 A gwnaed yr offeiriad iawn troſto ger bron yr Arglwydd, a maddeuir iddo, am ba beth bynnac a wnaeth, i fod yn euog o honaw.

8 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd.

9 Gorchymyn i Aaron, ac iw feibion gan ddywedydd, dymma gyfraith y poeth offrwm [bydded] y poeth offrwm hwn ar yr aelwyd [yr hon ſydd] ar yr allor, ar hŷd y nos, hyd y borau, a chynneuer tân yr allor arni,

10 Gwiſced yr offeiriad hefyd ei lieinwiſc am dano, a gwiſced lawdrau lliain am ei gnawd, a choded y lludw lle'r yſſodd tân y poeth aberth ar yr allor, a goſſoded ef ger llaw'r allor.

11 A dioſced ei wiſcoedd, a gwiſced ddillad eraill, a dyged allan y lludw i'r tu hwnt i'r gwerſſyll, i le glân.

12 A chynneuer y tân [ſydd] ar yr allor arni, na ddiffodded: onid lloſged yr offeiriad goed arni, o forau i forau: a threfned y poeth offrwm arni, a lloſced wêr yr aberth hedd arni.

13 Cynneuer y tân bob amſer ar yr allor, na ddiffodded ef.

14 Dymma hefyd gyfraith y bwyd offrwm, dyged meibion Aaron ef ger bron yr Arglwydd o flaen yr allor.

Lefit.2.2.
Num.15.3.

15 A choded o honaw yn ei law o beillied y bwyd offrwm, ac oi olew, a'r holl thus yr hwn [fydd] ar y bwyd offrwm, * a lloſced ei goffadwriaeth ef ar yr allor, yn arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

16 A'r gweddill o honaw a fwytu Aaron ai feibion, yn groyw y bwyteuir ef: yn y lle ſanctaidd o fewn cynteddfa pabell y cyfarfod y bwytânt ef.

17 Na phóber ef trwy lefen: rhoddais ef yn rhan iddynt o'm haberthau tanllyd: ſancteiddbeth cyſſegredic yw hynn, megis o'r aberth tros bechod, a'r aberth tros gamwedd.

18 Pob gwryw o blant Aaron a fwytânt hynn [trwy] ddeddf dragywyddol yn eich oeſoedd o aberthau tanllyd yr Arglwydd: pob dim oll a gyffyrddo a hwynt cyſſygredic fydd.

19 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

20 Dymma offrwm Aaron, ai feibion, yr hwnn a offrymmant i'r Arglwydd, ſef decfed ran Epha o beillied bwyd offrwm bob amſer ar y dydd yr eneinir ef: ei hanner y borau, ai hanner brydnawn.

Lefit.2.5.

21 Gwneler ef *trwy olew ar y radell, [yna] y dygi ef i mewn: wedi ei graſſu, ac offrymma ddrylliau y bwyd offrwm wedi ei graſſu, yn arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

22 A'r offeiriad ai feibion ef yr hwn a eneinir yn ei le ef, gwnaed hynn [drwy] ddeddf dragywyddol, lloſcer y cwbl i'r Arglwydd.

23 A phob bwyd offrwm offeiriad bydded wedi ei loſci oll, na fwytaer ef.

24 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd.

25 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion gan ddywedyd, dymma gyfraith yr aberth tros

bechod, yn y lle y lleddir y poeth offrwm, y lleddir yr aberth tros bechod, ger bron yr Arglwydd ſanctaidd-beth cyſſegredic [yw] efe.

26 Yr offeiriad yr hwn ai hoffrymmo tros bechod, ai bwytu, yn y lle ſanctaidd y bwyteir ef, yng-hynteddfa pabell y cyfarfod.

27 Beth bynnac a gyffyrddo ai gig ef a fydd cyſſygredic, a phan daenello oi waed ef ar ddilledyn, golch yn y lle ſanctaidd yr hynn y taenello [y gwaed] arno.

28 A *thorrer y lleſtr pridd yr hwn y berwir ef ynddo, ond os mewn lleſtr prés y berwir ef, ſcwrier, a golcher ef mewn dwfr. Leuit 15.12.

29 Bwytaed pob gwryw ym myſc yr offeiriaid ef, ſanctaidd-beth cyſſegredic [yw] efe.

30 Ac na fwytaed vn offrwm tros bechod yr hwn y dygir oi waed i babell y cyfarfod, i wneuthur iawn yn y lle ſanctaidd, [ond] lloſger mewn tân.

## PEN. VII.

1 Deddf yr offrwm tros gamwedd a phechod. 11 deddf yr offrwm hedd. 23 gwahardd bwyta y gwêr a'r gwaed.

DYmma hefyd gyfraith yr offrwm dros gãwedd, ſãcteidd-beth cyſſegredic [yw] efe.

2 Yn y man lle y lladdant y poeth offrwm, y lladdant yr aberth tros gamwedd, ai waed a daenella efe ar yr allor o amgylch.

3 Ai holl wêr a offrymma efe allan o honaw, y gloren hefyd a'r wêren fol.

4 A'r ddwy aren a'r gwêr yr hwn [fydd] arnynt yr hwn [fydd] yng-hylch y perfedd, a'r rhwyden ar yr afu, yng-hyd a'r arennau a dynn efe ymmaith.

5 A lloſged yr offeiriad hwynt ar yr allor yn aberth tanllyd i'r Arglwydd: aberth tros gamwedd [yw] hwn.

6 Pob gwryw ym myſc yr offeiriaid ai bwytu: yn y lle ſanctaidd y bwyteuir ef, ſancteidd-beth cyſſegredic [yw] efe.

7 Fel [y bydd] yr aberth tros bechod felly [y bydd] yr aberth tros gamwedd, vn gyfraith [fydd] iddynt: yr offeiriad yr hwn a wna iawn ag ef, ai piau.

8 A'r offeiriad yr hwn a offrymmo boeth offrwm neb piau groen y poeth offrwm yr hwn a offrymmodd efe.

9 A phób bwyd offrwm yr hwn a graſſer mewn ffwrn, ac hyn oll a wneler mewn padell, neu ar radell, fydd eiddo 'r offeiriad yr hwn ai hoffrymmo.

10 A phob bwyd offrwm wedi ei grymmyſcu trwy olew, neu yn ſych a fydd i holl feibion Aaron bob vn fel ei gilydd.

11 Dymma hefyd gyfraith yr aberth hêdd, yr hwn a offrymma, efe i'r Arglwydd.

12 Os yn lle diolch yr offrymma efe hynn, offrymmed yn lle aberth diolch deiſſennau croiw, wedi eu cymmyſcu drwy olew, ac afrllad croiw, wedi eu hîro ag olew, a pheillied wedi ei graſſu 'n deiſſennau wedi eu cymmyſcu ag olew.

13 Heb law y teiſſennau offrymmed fara lefeinllyd [yn] ei offrwm, am ei hedd aberth o ddiolch.

14 Ac offrymmed o hyn vn [dorth] o bob offrwm yn offrwm derchafel i'r Arglwydd: [a] bydded [hwnnw] eiddo 'r offeiriad yr hwn a daenello waed yr ebyrth hedd.

15 A chîg ei hedd aberth o ddiolch a fwyteuir y dydd yr offrymmir ef: na adawer o honaw hyd y borau [ddim.]

16 Ond os adduned neu rodd trwy fodd a fydd aberth ei offrwm ef, y dydd yr offrymmo efe ei aberth, bwytaer ef: a thrannoeth bwytaer yr hyn fyddo yn weddill o honaw.

17 Ond yr hyn a fyddo o gîg yr aberth yn weddill y trydydd dydd, lloſcer yn tân.

18 Ac os gan fwyta y bwyteuir [dim] o gîg ei aberth hedd ef o fewn y trydydd dydd, ni byddir bodlon i'r hwn ai hoffrymmo ef, [ac] nis cyfrifir iddo, ffieidd-beth fydd: a'r dŷn a fwytu o honaw a ddwg ei anwiredd.

19 Ar cîg a gyffyrddo a dim aflan, ni fwyteuir, mewn tân y lloſgir ef: a'r cîg [arall] pôb glân a fwytu o honaw.

20 A'r dŷn yr hwn a fwytu o gig yr hedd aberth, yr hwn [a berthyn] i'r Arglwyd, ai aflẽdid arno, torrir ymmaith y dŷn hwnnw o fyſc ei bobl

21 Ac os dyn a gyffwrddo a dim aflan, [ſef] ag aflendid dŷn, neu ag anifail aflan, neu ag vn ffieidd-beth aflan, a bwytta o gîg yr hedd aberth, yr hwn [a berthyn] i'r Arglwydd: yna y torrir ymmaith y dyn hwnnw o fyſc ei bobl.

22 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd.

23 Llefara wrth feibiõ Iſrael, gan ddywedyd: na fwytewch ddi gwêr cidiõ, neu ddafad, neu afr Leuit.3.17.

24 Etto gwêr burgyn, neu wêr yſclyfaeth a ellir ei weithio mewn pob gwaith: ond gan fwytta na fwyttewch [ef].

25 O herwydd pwy bynnac a fwyttu o wêr yr anifail, o'r hwn yr offrymmir aberth tanllyd i'r Arglwydd: torrir ymmaith yr enaid a fwyttu o fyſc ei bobl.

26 Na fwyttewch y chwaith *ddim gwaed o fewn eich cyfanneddau, o'r eiddo aderyn nac o'r eiddo anifail. Gen.9.4.

27 Pob enaid a fwyttu ddim gwaed, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o fyſc ei bobl.

28 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd.

29 Llefara wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd y neb a offrymmo ei aberth hedd i'r Arglwydd, dyged ei rodd oi aberth hedd i'r Arglwydd.

30 Ei ddwylo a ddygant ebyrth tanllyd i'r Arglwydd dyged hynn, y gwêr yng-hyd a'r barwyden: y barwyden [fydd] iw *chyhwfan yn offrwm cwhwfan gar bron yr Arglwydd. Exod.29.24.

31 A lloſged yr offeiriad y gwêr, ar yr allor, a bydded y barwyden i Aaron ac iw feibion.

32 Rhoddwch hefyd y balfais ddehau yn offrwm derchafael i'r offeiriad o'ch ebyrth hedd chwi.

33 A'r hwn o feibion Aaron a offrymmo waed yr ebyrth hedd, a'r gwêr, bydded iddo ef yr

yſcwyddoc ddehau yn rhan.

34 O herwydd parwyden y cwhwfan, ac yſcwyddoc y derchafael a gymmerais i gan feibion Iſrael oi hebyꝛth hedd hwynt ac ai rhoddais hwynt i Aaron yꝛ offeiriad, ac iw feibion yn ddeddf dꝛagywyddol oddi wꝛth feibion Iſrael.

35 Hyn yw [bꝛaint] eneiniad Aaron, ac eneiniad ei feibion o ebyꝛth tanllyd yꝛ Arglwydd, o'ꝛ dydd y neſſaodd efe hwynt i offeiriadu i'r Arglwydd,

36 Yꝛ hwn a oꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd roddi iddynt y dydd yꝛ eneiniodd efe hwynt allan o feibion Iſrael, [dꝛwy] ddeddf dꝛagywyddol dꝛwy eu hoeſoedd.

37 Dymma gyfraith y poeth offrwm, y bwyd offrwm, a'r aberth tros bechod, a'r aberth tros gamwedd, a'r *cyſſegriadau, a'r aberth hedd,

38 Yꝛ hon a oꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes ym mynydd Sinai, yn y dydd y goꝛchymynnodd efe i feibion Iſrael offrymmu eu hoffrymmau i'r Arglwydd, yn anialwch Sinai.

## PEN. VIII.

Eneiniad Aaron ai feibion.

YNa y llefarodd yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes, gan ddywedyd:

Exo.28.2. 2 Cymmer *Aarō ai feibiō gyd ag ef, a'r gwiſcoedd, ac olew 'r eneiniad, a buſtach 'r aberth tros bechod, a dau hwꝛdd, a chawell y bara croiw.

3 A chaſgl di yꝛ holl gynnulleidfa i ddꝛws pabell y cyfarfod.

4 A gwnaeth Moſes fel y goꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd iddo: a chaſglodd y gynnulleidfa i ddꝛws pabell y cyfarfod.

5 A dywedodd Moſes wꝛth y gynnulleidfa dymma y peth yꝛ hwn a oꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd ei wneuthur.

6 Yna y parodd Moſes i Aaron, ac iw feibion neſſau: ac efe ai golchodd hwynt mewn dwfr:

7 Ac efe a roddes am dano ef y bais, ac ai gwꝛegyſſodd ef a gwꝛegys, ac a wiſcodd y fantell am dano, ac a roddes yꝛ Ephod am dano, ac ai gwꝛegyſſodd a gwꝛegys yꝛ ephod, ac a gaeodd am dano ag ef.

8 Ac a oſododd y ddwyfronnec am dano, ac a roddes yꝛ Vrim a Thummim wꝛth y ddwyfronnec.

9 Ac efe a oſododd y meitr ar ei benn ef, ac a oſododd ar y meitr ar gyfer ei wyneb ef dalaeth aur y goꝛon ſanctaidd, fel y goꝛchymynnaſe yꝛ Arglwydd i Moſes.

10 A Moſes a gymmerodd olew 'r eneiniad Exod.30.26. ac a *irodd y tabernacl, a'r hynn oll a'r [a ydoedd] ynddo: ac ai cyſſegrodd hwynt.

11 Ac a daenellodd o honaw ar yꝛ alloꝛ ſaith waith, ac a irodd yꝛ alloꝛ, ai holl leſtri, ar noe hefyd, ai thꝛoed iw cyſſegru.

12 Ac efe a dywalltodd o olew 'r eneiniad ar benn Aaron, ac ai henneiniodd ef, iw gyſſegru.

13 Yna y parodd Moſes i feibion Aaron neſſau, a gwiſco peiſiau am danynt, a gwꝛegyſſodd hwynt a gwꝛegys, ac a oſododd gappiau am eu pennau fel y goꝛchymynnaſe 'r Arglwydd wꝛth Moſes.

14 Yna y dug efe fuſtach yꝛ aberth tros bechod: ac Aaron ai feibion a roddaſant eu dwylo ar benn buſtach yꝛ aberth tros bechod.

15 A Moſes [ai] lladdodd, ac a gymmerth o'ꝛ gwaed, ac ai rhoddes ar gyꝛn yꝛ alloꝛ o amgylch ai fys: ac a burodd yꝛ alloꝛ, ac a dywalltodd y gwaed wꝛth waelod yꝛ alloꝛ, ac ai cyſſegrodd hi i wneuthur iawn arni.

16 Efe hefyd a gymmerodd 'r holl wêr, 'r hwn [oedd] ar y perfedd, a rhwyden yꝛ afi, a'r ddwy aren, ai gwêr, a Moſes ai lloſcodd ar yꝛ alloꝛ.

17 A'r buſtach, ai groen, ai gig ai fiſwel a loſcodd efe mewn tân o'ꝛ tu allan i'r gwerſyll: fel y goꝛchymynnaſe yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes.

18 Yna y neſſaodd efe hwꝛdd y poeth offrwm, ac Aaron ai feibion a oſodaſant eu dwylo ar benn yꝛ hwꝛdd.

19 A Moſes [ai] lladdodd, ac a daenellod y gwaed ar yꝛ alloꝛ o amgylch.

29 Ac efe a doꝛrodd yꝛ hwꝛdd yn ddarnau a lloſcodd Moſes y penn, y darnau, a'r gwêr.

21 Ond y perfedd a'r traed a olchodd efe mewn dwfr, a lloſcodd Moſes yꝛ hwꝛdd oll ar yꝛ alloꝛ: poeth offrwm [yw] hwn, i [fod] yn arogl eſmwyth, aberth tanllyd yw i'r Arglwydd: fel y goꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd i Moſes.

22 Yna y neſſaodd efe yꝛ *ail hwꝛdd, ſef hwꝛdd Exod.29.19. y cyſſegriadau: ac Aaron ai feibion a oſodaſant eu dwylo ar benn yꝛ hwꝛdd.

22 A Moſes ai lladdodd ac a gymmerodd oi waed, ac ai rhoddes ar gwꝛr cluſt ddehau Aaron, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei dꝛoed dehau.

24 Moſes hefyd a neſſaodd feibion Aaron ac a roddes o'ꝛ gwaed, ar gwꝛr eu cluſt ddehau ac ar fawd eu llaw ddehau, ac ar fawd eu troed dehau: a thaenellodd Moſes y gwaed ar yꝛ alloꝛ oddi amgylch.

25 Ac efe a gymmerodd hefyd *y gwêr, a'r Exod.29.22. gloꝛen a'r holl wêr yꝛ hwn [oedd] ar y perfedd, a rhwyden yꝛ afi, a'r ddwy aren, ai bꝛaſter hwynt a'r yſcwyddoc ddehau.

26 A chymmerodd o gawell y bara croiw yꝛ hwn [oedd] ger bꝛon yꝛ Arglwydd, vn deiſſen groiw, ac vn deiſſen o fara olewedic, ac vn afrlladen, ac ai goſododd ar y gwêr, ac ar yꝛ yſcwyddoc ddehau:

27 Ac a roddes y cwbl ar gledꝛau dwylo Aaron, ac ar gledꝛau dwylo eu feibion, ac ai cwhwfanodd hwynt yn offrwm cwhwfan ger bꝛon yꝛ Arglwydd.

28 Yna y cymmerth Moſes hwynt oddi ar gledꝛau eu dwylo hwynt, ac ai lloſgodd ar yꝛ alloꝛ yn offrwm poeth: dymma gyſſegriadau o arogl eſmwyth, dymma aberth tanllyd i'r Arglwydd.

29 Cymmerodd Moſes y *barwyden hefyd, Exod.29.26. ac ai cwhwfanodd yn offrwm cwhwfan ger bꝛon yꝛ Arglwydd: rhan Moſes o hwꝛdd y cyſſegriadau oedd hi, fel y goꝛchymynnaſe yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes.

30 A chymmerodd Moſes o olew 'r eneiniad ac o'ꝛ gwaed 'r hwn [oedd] ar 'r alloꝛ, ac a daene-

llodd ar Aaron [ac] ar ei wiſcoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wiſcoedd ei feibion yng-hyd ag ef: ac efe a gyſſegrodd Aaron, ai wiſgoedd, ai feibion hefyd, a gwiſcoedd ei feibiō yng-hyd ag ef.

31 A dywedodd Moſes wrth Aaron, ac wrth ei feibion, berwch y cig [wrth] ddrws pabell y cyfarfod, ac *yno bwyttewch ef, a'r bara hefyd yr hwn [ſydd] yng-hawell y cyſſegriadau, megis y gorchymynnais gan ddywedyd, Aaron ai feibion ai bwyttu ef. Exod.29.32.

32 A'r gweddill o'r cig, ac o'r bara a loſgwch mewn tân.

33 Ac nac ewch ſaith niwrnod allan o ddrws pabell y cyfarfod, hyd y dydd y cyflawner dyddiau eich cyſſegriadau: o herwydd ſaith niwrnod y bydd efe yn eich cyſſegru chwi.

34 Megis y gwnaeth efe heddyw: y gorchymynnodd yr Arglwydd wneuthur, i wneuthur iawn droſoch.

35 Ac arhoſwch, [wrth] ddrws pabell y cyfarfod ſaith niwrnod ddydd a nos, a chedwch wiliadwriaeth yr Arglwydd, fel na byddoch feirw: canys fel hyn i'm gorchymynnwyd.

36 A gwnaeth Aaron ai feibion yr holl bethau y rhai a orchymynnodd 'r Arglwydd trwy law Moſes.

## PEN. IX.

Aaron yn dechreu offrymmu. 22 Ac yn bendithio y bobl. 23 Gogoniant Duw yn ymddangos.

YNa y bu ar yr wythfed dydd i Moſes alw am Aaron ac am ei feibion, ac am henuriaid Iſrael.

2 Ac efe a ddywedodd wrth Aaron, cymmer it lô ieuangc yn aberth tros bechod, a hwrdd yn boeth offrwm o rai perffaith-gwbl, a dwg [hwynt] ger bron yr Arglwydd.

3 Llefara hefyd wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd: cymmerwch lwdn gafr gwryw, yn aberth tros bechod, a llô, ac oen blwyddiaid perffaith-gwbl yn boeth offrwm.

4 Ac eidion, a hwrdd yn aberth hedd, i aberthu ger bron yr Arglwydd: a bwyd offrwm wedi ei gymmyſcu trwy olew: o herwydd heddyw yr ymddengys yr Arglwydd i chwi.

5 A dugaſant yr hyn a orchymynnodd Moſes ger bron pabell y cyfarfod: a'r holl gynnulleidfa a ddaethant ac a ſafaſant ger bron yr Arglwydd.

6 A dywedodd Moſes gwnewch y peth hynn, yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd: ac ymddengys gogoniant yr Arglwydd i chwi.

7 Dywedodd Moſes hefyd wrth Aaron, dos at yr allor ac abertha dy aberth tros bechod, a'th boeth offrwm a gwna iawn *droſot dy hun, a thros y bobl, ac abertha offrwm y bobl, a gwna iawn droſtynt, fel y gorchymynodd 'r Arglwydd Heb.7.27.

8 Yna y neſſaodd Aaron at yr allor, ac a laddodd lô yr aberth tros bechod, yr hwn [oedd] troſto ef ei hun.

9 A meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe a wlychodd ei fŷs yn y gwaed, ac ai goſododd ar gyrn yr allor, ac a dywalltodd y gwaed [arall] wrth waelod yr allor.

10 Ond efe a loſgodd ar yr allor o'r aberth tros bechod y gwêr a'r arennau, a rhwyden yr afu, fel y gorchymynaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

11 A'r cîg, a'r croen a loſgodd efe mewn tân: o'r tu allan i'r gwerſyll.

12 Ac efe *a laddodd y poeth offrwm, a meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe ai taenellodd ar yr allor o amgylch. Leuit.1.5.

13 A dugaſant y poeth offrwm atto 'n ddarnau ai ben hefyd: ac efe ai lloſgodd hwynt ar 'r allor.

14 Ac efe a olchodd y perfedd a'r traed, ac ai lloſgodd hwynt yng-hyd a'r offrwm poeth ar 'r allor.

15 Hefyd efe a ddug offrwm y bobl, ac a gymmerodd fwch yr aberth tros bechod yr hwn [oedd] tros y bobl, ac ai lladdodd, ac ai hoffrymmodd tros bechod, fel y cyntaf.

16 Ac efe a ddug y poeth offrwm, ac ai hoffrymmodd yn ol y ddefod.

17 Felly efe a ddug y bwyd offrwm ac a lanwodd ei law o honaw, ac [ai] lloſgodd ar yr allor heb law poeth offrwm y boreu.

18 Ac efe a laddodd ŷch a hwrdd yr aberth hedd, yr hwn [oedd] tros y bobl: a meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe ai taenellodd ef ar yr allor o amgylch.

19 [Cymmeraſant] hefyd o'r ŷch y gwêr: ac o'r hwrdd y gloren, ar wêren fol, a'r arennau, a rhwyden yr afu.

20 A goſodaſant y gwêr ar y parwydennau, ac efe a loſgodd y gwêr ar yr allor.

21 Y parwydennau hefyd, a'r yſcwyddoc ddehau a gwhwfanodd Aaron yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd fel y gorchymynnodd Moſes.

22 A chododd Aaron ei law ar y bobl, ac ai bendithiodd, ac a ddaeth i wared o wneuthur yr aberth tros bechod, a'r poeth offrwm, a'r aberth hedd.

23 Yna y daeth Moſes ac Aaron i babell y cyfarfod, ac aethant allan, ac a fendithiaſant y bobl, a gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd i'r holl bobl.

24 Ac *aeth tân allan oddi ger bron yr Arglwydd, ac a yſodd y poeth offrwm, a'r gwêr ar yr allor: a gwelodd yr holl bobl, a gwaeddaſant a chwympaſant ar eu hwynebau, 2.Cron.7.1. 2.Mac.2.10.

## PEN. X.

1 Pechod Nadab ac Abihu, ai marwolaeth. 9 Gwahardd gwin i'r offeiriaid. 12 Rhan yr offeiriaid o'r aberthau.

YNa Nadab, ac Abihu meibion Aaron a gymmeraſant bob vn ei thuſſer, ac a roddaſant dân ynddynt, ac a oſodaſant arogl-darth ar hynny ac a offrymmaſant ger brō yr Arglwydd dân dieithr, yr hwn ni orchymynnaſe efe iddynt. Exo 30.9.

2 A daeth tân allan oddi ger bron yr Arglwydd, ac ai difaodd hwynt: a buant feirw ger bron yr Arglwydd.

3 A dywedodd Moſes wrth Aaron, dyna 'r hyn a leſarodd yr Arglwydd gan ddywedyd, mi

a

a ſancteiddir yn y rhai a neſſânt attaf, a cherbron yr holl bobl i'm gogoneddir: A thewi a wnaeth Aaron.

4 Yna y galwodd Moſes am Miſael, ac Elſaphan meibion Oziel ewythr Aaron frawd ei dad, a dywedodd wrthynt, dewch yn nês, dygwch eich brodyr oddi ger bron y cyſſegr i'r tu allan i'r gwerſſyll.

5 A neſſau a wnaethant ai dwyn hwynt yn eu peiſiau i'r tu allan i'r gwerſſyll fel y llefaraſe Moſes.

6 A dywedodd Moſes wrth Aaron, ac wrth Eleazar, ac wrth Ithamar ei feibion, na ddioſgwch oddi am eich pennau, ac na rwygwch eich gwiſcoedd, rhac iwch feirw a ſorri o honaw ef wrth yr holl gynulleidfa: ond ŵyled eich brodyr chwi holl dŷ Iſrael, am y lloſciad, yr hwn a loſgodd yr Arglwydd.

7 Ac nac ewch allan o ddrws pabell y cyfarfod, rhac iwch farw, o herwydd [bod] olew eniniad yr Arglwydd arnoch chwi: A gwnaethant fel y llefarodd Moſes.

8 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Aaron, gan ddywedyd:

9 Gwîn a diod gadarn nac ŷf di, na'th feibion gyd a thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod, fel na byddoch feirw: deddf dragywyddol drwy eich cenhedlaethau [fydd hynn]

10 A [hynny] er gwahanu rhwng cyſſegredic a digyſſegredic, a rhwng aflan a glán:

11 Ac i ddyſcu i feibion Iſrael yr holl ddeddfau y rhai a lefarodd yr Arglwydd wrthynt, drwy law Moſes.

12 A llefarodd Moſes wrth Aaron, ac wrth Eleazar ac wrth Ithamar, y rhan arall oi feibion ef, cymmerwch y bwyd offrwm yr hwn ſydd yng-weddill o ebyrth tanllyd yr Arglwydd, a bwyttewch yn groiw ger llaw'r allor: o herwydd ſancteidd-beth cyſſegredic yw.

13 A bwyttewch ef yn y lle ſanctaidd o herwydd dy ran di, a rhan dy feibion di o ebyrth tanllyd yr Arglwydd yw hynn: canys fel hynn i'm gorchymynnwyd.

14 Parwyden yr offrwm cwhwfan, hefyd ac yſgwyddoc yr offrwm derchafel a fwyttewch mewn lle glân: ty di, a'th feibion, a'th ferched, yng-hyd a thi: o herwydd hwynt a roddwyd yn rhan i ti, ac yn rhan i'th feibion di o ebyrth hedd meibion Iſrael.

15 Yſcwyddoc yr offrwm derchafel, a pharwyden yr offrwm cwhwfan a ddygant yng-hyd ac ebyrth tanllyd o'r gwer, i gwhwfan offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd, a byddet i ti, ac i'th blant gyda thi yn rhan dragywyddol: fel y gorchymynnodd yr Arglwydd.

16 A Moſes a geiſiodd yn ddyfal fwch yr aberth tros bechod, ac wele ef wedi ei loſci, ac efe a ddigiodd wrth Eleazar, ac wrth Ithamar y rhan arall o feibion Aaron gan ddywedyd.

17 Pa ham na fwyttawſoch yr aberth tros bechod yn y lle ſanctaidd: o herwydd ſancteidd-beth cyſſegredic [yw] efe, ac efe, ai rhóddodd i chwi, i ddwyn anwiredd y gynulleidfa gan wneuthur iawn troſtynt ger bron yr Arglwydd

18 Wele ni ddygwyd ei waed ef i fewn y cyſſegr: ei fwytta a ddylaſech yn y cyſſegr, fel y gorchymynnais.

19 A dywedodd Aaron wrth Moſes, wele heddyw yr offrymmaſant eu haberth tros bechod, ai poeth offrwm ger bron yr Arglwydd: ac fel hyn y digwyddodd i mi, am hynny os bwyttawn aberth tros bechod heddyw, a fydde hynny dda yng-olwg yr Arglwydd?

20 Yna y gwrandawodd Moſes, ac y bu fodlon.

## PEN. XI.

Yr anifeiliaid, y pyſcod, a'r Adar ſy lân neu aflan.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes ac Aaron, gan ddywedyd wrthynt:

2 Lleferwch wrth feibion Iſrael gan ddywedyd, dymma y bwyſt-fil yr hwn a fwyttewch o bòb anifail yr hwn [ſydd] ar y ddaiar.

Gene.7.9.
deut.14.13
act.10.14.

3 Pôb anifail yn cnoi ei gîl, a hollto'r ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, hwnnw a fwyttewch.

4 Ond hynn ni fwyttewch o'r rhai a gnoant eu cîl, ac o'r rhai a holltant yr ewin, [ſef] y Camel er ei fod yn cnoi [ei] gîl, am nad yw yn hollti'r ewin, aflan, [ſydd] efe i chwi.

5 A'r gwningen am ei bod yn cnoi [ei] chîl, ac heb fforchogi'r ewin, aflan yw i chwi.

6 A'r yſcyfarnog am ei bod yn cnoi [ei] chîl, ac heb fforchogi'r ewin, aflan yw i chwi.

7 A'r llwdn hŵch am ei fod yn hollti'r ewin ac yn fforchogi fforchedd yr ewin, ac yntef heb gnoi [ei] gîl: aflan yw efe i chwi.

8 Na fwyttewch oi cîg hwynt, ac na chyffyrddwch ai burgyn hwynt: aflan ydynt i chwi.

9 Hynn a fwyttewch o bôb dim, a'r ſydd yn y dyfroedd: pôb peth yr hwn [y mae] iddo aſcell, a chenn, yn y dyfroedd, yn y moroedd ac yn yr afonydd, y rhai hynny a fwyttewch.

10 A phôb dim nid [oes] iddo aſcell, a chenn yn y moroedd, ac yn yr afonydd: o bôb dim a ymluſco yn y dyfroedd, ac o bôb peth byw y rhai [fyddant] yn y dyfroedd byddant ffiaidd gennych.

11 Byddant ffiaidd gennych: na fwyttewch oi cîg hwynt, a ffeiddiwch eu burgyn hwynt.

12 Yr hynn oll yn y dyfroedd ni [byddo] eſcyll a chenn iddo: ffieidd-beth yw i chwi.

13 A'r rhai hyn a ffieiddiwch chwi o'r adar, na fwyttewch [hwynt] ffieidd-dra ydynt: ſef yr Eryr a'r wydd-walch, a'r for-wennol.

14 A'r fwltur, a'r barcyd, yn ei ryw.

15 Pôb cig-fran yn ei rhyw.

16 A chyw'r eſtris, a'r frân nos, a'r gôg, a'r gwalch yn ei rhyw.

17 Ac aderyn y corph, a'r fulfrã, a'r ddylluan.

18 A'r gocfran, a'r pelican, a'r biogen.

19 A'r ciconia, a'r crŷr yn ei rhyw, a'r gorn-chwigl, a'r ſtlym.

20 Pôb chediad a ymluſco [ac] a gerddo ar bedwar-troed ffieidd-dra yw efe i chwi.

21 Ond hynn a fwyttewch o bôb chediad a ymluſco, ac a gerddo ar bedwar[troed] yr hwn ni byddo garrau iddo oddi ar ei draed i neidio wrthynt ar hyd y ddaiar.

22 O'r rhai hynny, y rhai hynn a fwyttewch: yr Arb yn ei ryw, a'r Selam yn ei ryw, a'r Hargol yn ei ryw, a'r Hagab yn ei ryw.

23 A phôb chediad[arall] a ymluſco yr hwn [y mae] pedwar troed iddo, ffieidd-dra yw efe i chwi.

24 Ac yn y rhai hynn y byddwch aflan: pwy bynnac a gyffyrddo ai burgyn hwynt a fydd aflan hyd yr hwyr.

25 A phwy bynnac a ddygo eu burgyn hwynt, golched ei ddillad, ac aflan fydd hyd yr hwyr

26 Am bôb anifail ſydd yn hollti 'r ewin, ac heb ei hollti trwodd, ac heb gnoi ei gîl, aflan yw y rhai hynny i chwi, aflan fydd yr hynn oll a gyffyrddo a hwynt.

27 Pôb un hefyd a gerddo ar ei balfau, o bôb bwyſt-fil a gerddo ar bedwar [troed] aflan ydynt i chwi, pôb dim a gyffyrddo ai burgyn a fydd aflan hyd yr hwyr.

Leſit.5.2. 28 A'r hwn a ddygo eu burgyn hwynt gol*ched ei ddillad, a bydded aflan hyd yr hwyr: aflan yw y rhai hynn i chwi.

29 A hynn ſydd aflan i chwi o'r ymluſciaid a ymluſco ar y ddaiar: y wengci, a'r llygoden, a'r llyffant yn ei ryw.

30 A'r draenog, a'r lyſard, a'r ſtelio, a'r falfoden, a'r wâdd.

Y rhai hynn ydynt aflan i chwi o bôb ymluſciaid: pôb dim a gyffyrddo a hwynt pan fyddant feirw a fydd aflan oi plegit hyd yr hwyr.

32 A phôb dim y cwympo [un] o honynt wedi ei marw arno a fydd aflan, pôb offeryn, o bôb lleſtr pren, neu wiſc, neu groen, neu ſâch, y rhai y gwnelir dim gwaith ynddynt, rhodder ef mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr, yna bydded lân.

33 A phôb lleſtr pridd yr hwn y ſyrthio [un] o'r rhai hynn iw fewn, aflan fydd yr hyn oll [fydd] oi fewn, a thorrwch yntef.

34 Aflan fydd pôb bwyd a fwytteir, a'r hwn y dêl dwfr[aflan]arno: ac aflan fydd pôb diod yr hon a yſir mewn lleſtr[aflan.]

35 Aflan fydd pôb dim yr hwn y cwympo [dim]oi burgyn arno, y ffwrn a'r badella dorrir, aflan ydynt, ac aflan fyddant i chwi.

36 Etto glân fydd y ffynnon, a'r pydew[a'r] llynn: ond yr hynn a gyffyrddo ai burgyn a fydd aflan.

37 Ac os ſyrth [dim] oi burgyn hwynt ar ddim hâd hauedic, yr hwn a heuir glân yw efe.

38 Ond os rhoddir dwfr ar yr hâd, a ſyrthio dim oi burgyn hwynt arno ef: aflan fydd efe i chwi.

39 Ac os bydd marw un anifail yr hwn ſydd i chwi yn fwyd, yr hwn a gyffyrddo ai furgyn ef a fydd aflan hyd yr hwyr.

40 A'r hwn a fwyttu ei furgyn ef, golched ei ddillad, a bydded aflan hyd yr hwyr: a'r hwn a ddygo ei furgyn ef, golched ei ddillad, a bydded aflan hyd hwyr.

41 A phôb ymluſciad a ymluſco ar y ddaiar, ffieidd-dra yw: na fwyttaer ef.

42 Pôb un a gerddo ar ei dorr, a phôb un a gerddo, ar bedwar[troed]hyd yn oed pôb aml ei draed o bôb ymluſciad a ymluſco ar y ddaiar, na fwyttewch hwynt, canys ffieidd-dra ydynt.

43 Na wnewch eich eneidiau yn ffiaidd o blegit un ymluſciad a ymluſco, ac na fyddwch aflan oi plegit, canys aflan fyddech oi herwydd.

44 O herwydd myfi yw 'r Arglwydd eich Duw chwi, ymſancteiddiwch a byddwch ſanctaidd, o herwydd ſanctaidd[ydwyf]fi: ac nac aflanhewch eich eneidiau wrth un ymluſciad, a ymluſco ar y ddaiar.

45 Canys myfi[yw] 'r Arglwydd yr hwn a'ch dug chwi o dir yr Aipht, i fod yn Dduw i chwi, byddwch chwithau ſanctaidd, canys ſanctaidd [ydwyf]fi.

46 Dymma gyfraith yr anifail, a'r chediad a phôb peth byw, yr hwn ſydd yn ymluſco yn y dyfroedd, ac am bôb peth ſydd yn croppian ar y ddaiar.

47 I wneuthur gwahan rhwng yr aflan a'r glân, a rhwng yr anifail a fwytteir, a'r anifail yr hwn nis bwytteir.

## PEN. XII.

Puredigaeth gwraig yn ol eſcor.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Llefara wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd, os gwraig a feichioga ac a eſcor ar wryw, yna bydded aflan ſaith niwrnod: fel dyddiau gwahaniaeth ei myſ-glwyf y bydd hi aflan.

3 A'r *wythfed dydd yr enwaedir ar gnawd ei ddienwaediad ef. Gene.17.12. luc.2.21. ioan.7.22.

4 A thri diwrnod ar ddec ar hugain yr erys yng-waed ei phuredigaeth: na chyffyrdded a dim ſanctaidd, ac na ddeued i'r cyſſegr nes cyflawni dyddiau ei phuredigaeth.

5 Ond os ar fenyw yr eſcor hi, yna y bydd hi aflan bythefnos, megis [yn] ei miſglwyf a chwe diwrnod a thrugain yr erys ar waed ei phuredigaeth.

6 A phan gyflawner dyddiau ei phuredigaeth ar fâb neu ferch, dyged oen blwydd yn offrwm poeth, a chyw colomen, neu durtur, yn aberth tros bechod, at yr offeiriad i ddrws pabell y cyfarfod:

7 Ac offrymmed efe hynny ger bron yr Arglwydd, a gwnaed iawn droſti: a hi a lanheuir oddi wrth gerddediad ei gwaed: dymma gyfraith yr hon a eſcor ar wryw neu ar fenyw.

8 Ac os ei llaw ni chaiff werth oen, yna cymmered *ddwy durtur neu ddau gyw colomen, y naill yn offrwm poeth a'r llall yn aberth tros bechod: a gwnaed yr offeiriad iawn troſti, a glan fydd, luc.2.24.

## PEN. XIII.

Bod i'r offeiriad farnu gwahan-glwyf dyn. 47 a dillad.

“ LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes
“ ac Aaron, gan ddywedyd:
“ 2 Dŷn(pan fyddo yng-hroen ei gnawd,chŵ-
“ ydd neu grammen,neu ddiſclaerder,a bod yng-
Luc.17.15. “ hroen ei * gnawd ef megis anafod y clwyf gwa-
“ hanol,)a ddygir at Aaron yr offeiriad, neu at vn
“ oi feibion ef yr offeiriaid.
“ 3 Pan welo yr offeiriad yr anafod yng-hroen
“ y cnawd: os y blewyn yn yr anafod fydd wedi
“ troi yn wynn a gwelediad yr anafod yn ddyf-
“ nach na chroen ei gnawd ef, anafod gwahan-
“ glwyf yw hwnnw: a'r offeiriad ai hedrych ac ai
“ barn yn aflan.
“ 4 Ond os diſgleirdeb gwynn fydd efe yng-
“ hroen ei gnawd ef,ac heb fod yn îs ei welediad
“ na'r croen,a'r blewyn heb droi yn wynn: yna
“ caeed yr offeiriad ar yr[anafodus]ſaith niwrnod
“ 5 A'r ſeithfed dydd edryched yr offeiriad ef,
“ ac os ſefyll y bydd yr anafod yn ei olwg ef, heb
“ ledu o'r anafod yn y croen, yna caeed yr offeiri-
“ ad arno ſaith niwrnod eil-waith.
“ 6 Ac edryched yr offeiriad ef yr ail ſeithfed
“ dydd,ac os bydd yr anafod yn crychu, heb ledu
“ o'r anafod yn y croen,yna barned yr offeiriad ef
“ yn lân: crammen yw honno, yna golched ei
“ wiſcoedd a glân fydd.
“ 7 Ac os y grammen gan ledu a leda yn y
“ croen,wedi i'r offeiriad ei weled,ai farnu yn lân:
“ yna dangoſer ef eilwaith i'r offeiriad.
“ 8 Ac edryched yr offeiriad, ac os lledodd y
“ grammen yn y croen,yna barned yr offeiriad ef
“ yn aflan: gwahan-glwyf yw hwnnw.
“ 9 Pan fyddo ar ddyn anafod gwahan-glwyf,
“ yna dyger ef at yr offeiriad.
“ 10 Ac edryched yr offeiriad,yna os chŵydd
“ gwynn[a fydd]yn y croen, a hwnnw wedi troi
“ y blewyn yn wynn,a dim cîg byw yn y chŵydd.
“ 11 Hên wahan-glwyf yw hwnnw,yng-hro-
“ en ei gnawd ef,a barned yr offeiriad ef yn aflan:
“ na chaeed arno o herwydd y mae efe yn aflan:
“ 12 Ond os y gwahan-glwyf gan darddu a
“ dardda yn y croen, a gorchguddio o'r gwahan-
“ glwyf holl groen yr anafodus, oi ben hyd ei dra-
“ ed: pa le bynnac yr edrycho 'r offeiriad.
“ 13 Yna edryched yr offeiriad ac os y gwa-
“ han-glwyf fydd yn cuddio ei holl gnawd ef, yna
“ barned or offeiriad yr anafodus yn lân, [os]
“ trôdd yn wynn ei gyd,glân yw.
“ 14 A'r dydd y gwelir ynddo gîg byw,aflã fydd
“ 15 Yna edryched yr offeiriad ar y cîg byw,
“ a barned ef yn aflan,aflan yw'r cîg byw hwnnw,
“ gwahan-glwyf yw.
“ 16 Neu os dychwel y cîg byw a throi'n
“ wynn: yna deued at yr offeiriad.
“ 17 Ac edryched yr offeiriad arno,ac os trôdd
“ yr anafod yn wynn, yna barned yr offeiriad yr
“ anafod yn lân,glân yw efe.
“ 18 A chnawd hefyd(o bydd ynddo gornwyd
“ yn ei groen,ai iachau,
“ 19 A bod yn lle y cornwyd chŵydd gwŷnn
“ neu ddiſclaerder gwynn-goch) a ddangoſir i'r
“ offeiriad.

20 Ac edryched yr offeiriad, ac os gwelir ef ”
yn îs na'r croen,a'r blewyn wedi troi yn wynn, ”
yna barned yr offeiriad ef yn aflan gwahan-gl- ”
wyf yw efe yn tarddu yn y cornwyd. ”
21 Ond os yr offeiriad ai hedrych,ac wele ni ”
bydd ynddo flewyn gwynn ac ni bydd îs na'r ”
croen,ond wedi duo: yna caeed yr offeiriad arno ”
ſaith niwrnod. ”
22 Ac os gan ledu y lleda yn y croen, yna ”
barned yr offeiriad ef yn aflan,anafod yw efe. ”
23 Ond os y diſclaerder a ſaif yn ei lê heb ”
ymledu craith cornwyd yw efe, a barned yr ”
offeiriad ef yn lân. ”
24 Os cnawd fydd a lloſciad tân ar ei groen, ”
a bod cîg byw y lloſciad yn ddiſclaerder gwyn- ”
goch neu wynn. ”
25 Yna edryched yr offeiriad ef, ac os y ble- ”
wyn yn y diſclaerdeb fydd wedi troi yn wyn, ac ”
yn îs iw weled na'r croen, gwahan-glwyf yw ”
hwnnw yn tarddu yn y lloſciad, a barned yr ”
offeiriad ef yn aflan,anafod gwahan-glwyf yw ”
hunnw. ”
26 Ond os yr offeiriad ai hedrych,ac wele ni ”
bydd blewyn gwyn yn y diſclaerder, ac ni bydd ”
îs na'r croen ond ei fod wedi crychu: yna caeed ”
yr offeiriad arno ſaith niwrnod. ”
27 Ac edryched yr offeiriad ef y ſaithfed dydd ”
os gan ledu y ledodd yn y croen, yna barned yr ”
offeiriad ef yn aflan,anafod gwahan-glwyf yw ”
hwnnw. ”
28 Ac os y diſcleirdeb a ſaif yn ei lê, heb ledu ”
yn y croen, ac efe yn crychu hefyd, chŵydd y ”
lloſciad yw efe: barned yr offeiriad ef yn lân: ”
canys craith y lloſgiad yw hwnnw. ”
29 Pann fyddo gwr neu wraig a'r anafod ar- ”
no mewn pen neu farf. ”
30 Yna edryched yr offeiriad yr anafod,ac os îs ”
y gwelir na'r croẽ,a blewyn melyn main ynddo ”
yna barned yr offeiriad ef yn aflã, y ddufrech yw ”
hwnnw,gwahan-glwyf pen neu farf yw efe. ”
31 Ac os yr offeiriad a edrych ar anafod y ”
ddufrech,ac wele nid îs i weled na'r croen a heb ”
flewyn du ynddo,yna caeed yr offeiriaid ar ana- ”
fod y ddu-frech ſaith niwrnod. ”
32 Ac edryched yr offeiriad ar yr anafod y ”
ſeithfed dydd,ac os y ddufrech ni bydd wedi lle- ”
du,ac ni bydd blewyn melyn yndi, ac heb fod ”
îs gweled y ddu-frech na'r croen: ”
33 Yna ymeillied, ac nac eillied [y ſan y ”
byddo ] y ddufrech , a chaeed yr offeiriad ar ”
[berchen]y ddu-frech ſaith niwrnod eilwaith. ”
34 A'r ſeithfed dydd edryched yr offeiriad ar ”
y ddu-frech,ac os y ddufrech ni ledodd yn y cro- ”
en,ac ni bydd îs ei gweled na'r croen,yna barned ”
yr offeiriad ef yn lân,a golched ei ddillad,a glân ”
fydd. ”
35 Ond os y ddu-frech gan ledu a leda yn ”
y croen wedi ei farnu ef yn lân, ”
36 Yna edryched yr offeiriad ef, ac os lle- ”
dodd y ddufrech yn y croen,na chwilied yr offei- ”
riad am y blewyn melyn: y mae efe yn aflan. ”
37 Ond os ſefyll y bydd y ddufrech yn ei o- ”

llodd ar Aaron [ac] ar ei wiſcoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wiſcoedd ei feibion yng-hyd ag ef: ac efe a gyſſegrodd Aaron, ai wiſgoedd, ai feibion hefyd, a gwiſcoedd ei feibion yng-hyd ag ef.

31 A dywedodd Moſes wrth Aaron, ac wrth ei feibion, berwch y cig [wrth] ddrws pabell y cyfarfod, ac *yno bwytewch ef, a'r bara hefyd yr hwn [ſydd] yng-hawell y cyſſegriadau, megis y gorchymynnais gan ddywedyd, Aaron ai feibion ai bwyttu ef.

32 A'r gweddill o'r cig, ac o'r bara a loſgwch mewn tân.

33 Ac nac ewch ſaith niwrnod allan o ddrws pabell y cyfarfod, hyd y dydd y cyflawner dyddiau eich cyſſegriadau: o herwydd ſaith niwrnod y bydd efe yn eich cyſſegru chwi.

34 Megis y gwnaeth efe heddyw: y gorchymynnodd yr Arglwydd wneuthur, i wneuthur iawn droſſoch.

35 Ac arhoſwch, [wrth] ddrws pabell y cyfarfod ſaith niwrnod ddydd a nos, a chedwch wiliadwriaeth yr Arglwydd, fel na byddoch feirw: canys fel hyn i'm gorchymynnwyd.

36 A gwnaeth Aaron ai feibion yr holl bethau y rhai a orchymynnodd 'r Arglwydd trwy law Moſes.

## PEN. IX.

Aaron yn dechreu offrymmu. 22 Ac yn bendithio y bobl. 23 Gogoniant Duw yn ymddangos.

YNa y bu ar yr wythfed dydd i Moſes alw am Aaron ac am ei feibion, ac am henuriaid Iſrael.

2 Ac efe a ddywedodd wrth Aaron, cymmer it lô ieuangc yn aberth tros bechod, a hwrdd yn boeth offrwm o rai perffaith-gwbl, a dwg [hwynt] ger bron yr Arglwydd.

3 Lleſara hefyd wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd: cymmerwch lwdn gafr gwryw, yn aberth tros bechod, a llô, ac oen blwyddiaid perffaith-gwbl yn boeth offrwm.

4 Ac eidion, a hwrdd yn aberth hedd, i aberthu ger bron yr Arglwydd: a bwyd offrwm wedi ei gymmyſcu trwy olew: o herwydd heddyw yr ymddengys yr Arglwydd i chwi.

5 A dugaſant yr hyn a orchymynnodd Moſes ger bron pabell y cyfarfod: a'r holl gynnulleidfa a ddaethant ac a ſafaſant ger bron yr Arglwydd.

6 A dywedodd Moſes gwnewch y peth hynn, yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd: ac ymddengys gogoniant yr Arglwydd i chwi.

7 Dywedodd Moſes hefyd wrth Aaron, dos at yr allor ac abertha dy aberth tros bechod, a'th boeth offrwm a gwna iawn *droſot dy hun, a thros y bobl, ac abertha offrwm y bobl, a gwna iawn droſtynt, fel y gorchymynnodd 'r Arglwydd

Hebr.7.27.

8 Yna y neſſaodd Aaron at yr allor, ac a laddodd lô yr aberth tros bechod, yr hwn [oedd] troſto ef ei hun.

9 A meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe a wlychodd ei fŷs yn y gwaed, ac ai goſododd ar gyrn yr allor, ac a dywalltodd y gwaed [arall] wrth waelod yr allor.

10 Ond efe a loſgodd ar yr allor o'r aberth tros bechod y gwêr a'r arennau, a rhwyden yr afu, fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

11 A'r cîg, a'r croen a loſgodd efe mewn tân: o'r tu allan i'r gwerſyll.

12 Ac efe *a laddodd y poeth offrwm, a meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe ai taenellodd ar yr allor o amgylch.

Leuit.1.5.

13 A dugaſant y poeth offrwm atto 'n ddarnau ai ben hefyd: ac efe ai lloſgodd hwynt ar 'r allor.

14 Ac efe a olchodd y perfedd a'r traed, ac ai lloſgodd hwynt yng-hyd a'r offrwm poeth ar 'r allor.

15 Hefyd efe a ddug offrwm y bobl, ac a gymmerodd fwch yr aberth tros bechod yr hwn [oedd] tros y bobl, ac ai lladdodd, ac ai hoffrymmodd tros bechod, fel y cyntaf.

16 Ac efe a ddug y poeth offrwm, ac ai hoffrymmodd yn ol y ddefod.

17 Felly efe a ddug y bwyd offrwm ac a lanwodd ei law o honaw, ac [ai] lloſgodd ar yr allor heb law poeth offrwm y boreu.

18 Ac efe a laddodd ŷch a hwrdd yr aberth hedd, yr hwn [oedd] tros y bobl: a meibion Aaron a ddugaſant y gwaed atto, ac efe ai taenellodd ef ar yr allor o amgylch.

19 [Cymmeraſant] hefyd o'r ŷch y gwêr: ac o'r hwrdd y gloren, ar wêren fol, a'r arennau, a rhwyden yr afu.

20 A goſodaſant y gwêr ar y parwydennau, ac efe a loſgodd y gwêr ar yr allor.

21 Y parwydennau hefyd, a'r yſcwyddoc ddehau a gwhwfanodd Aaron yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd fel y gorchymynnodd Moſes.

22 A chododd Aaron ei law ar y bobl, ac ai bendithiodd, ac a ddaeth i wared o wneuthur yr aberth tros bechod, a'r poeth offrwm, a'r aberth hedd.

23 Yna y daeth Moſes ac Aaron i babell y cyfarfod, ac aethant allan, ac a fendithiaſant y bobl, a gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd i'r holl bobl.

24 Ac *aeth tân allan oddi ger bron yr Arglwydd, ac a yſodd y poeth offrwm, a'r gwêr ar yr allor: a gwelodd yr holl bobl, a gwaeddaſant a chwympaſant ar eu hwynebau,

2.Cron.7.1.
2.Mac.2.10.

## PEN. X.

1 Pechod Nadab ac Abihu, ai marwolaeth. 9 Gwahardd gwin i'r offeiriaid. 12 Rhan yr offeiriaid o'r aberthau.

YNa Nadab, ac Abihu meibion Aaron a gymmeraſant bob vn ei thuſſer, ac a roddaſant dân ynddynt, ac a oſodaſant arogl-darth ar hynny ac a offrymmaſant ger brô yr Arglwydd dân dieithr, yr hwn ni orchymynnaſe efe iddynt.

Exo 30.9.

2 A daeth tân allan oddi ger bron yr Arglwydd, ac ai difaodd hwynt: a buant feirw ger bron yr Arglwydd.

3 A dywedodd Moſes wrth Aaron, dyna 'r hyn a leſarodd yr Arglwydd gan ddywedyd, mi

a

“ a ſancteiddir yn y rhai a neſſânt attaf, a cherbron
“ yr holl bobl i'm gogoneddir: A thewi a wnaeth
“ Aaron.
“ 4 Yna y galwodd Moſes am Miſael, ac El-
“ ſaphan meibion Oziel ewythr Aaron frawd ei
“ dad, a dywedodd wrthynt, dewch yn nês, dy-
“ gwch eich brodyr oddi ger bron y cyſſegr i'r tu
“ allan i'r gwerſſyll.
“ 5 A neſſau a wnaethant, ai dwyn hwynt yn
“ eu peiſiau i'r tu allan i'r gwerſſyll fel y llefaraſe
“ Moſes.
“ 6 A dywedodd Moſes wrth Aaron, ac wrth
“ Eleazar, ac wrth Ithamar ei feibion, na ddioſ-
“ gwch oddi am eich pennau, ac na rwygwch eich
“ gwiſcoedd, rhac iwch feirw a ſorri o honaw ef
“ wrth yr holl gynulleidfa: ond ŵyled eich bro-
“ dyr chwi holl dŷ Iſrael, am y lloſciad, yr hwn a
“ loſgodd yr Arglwydd.
“ 7 Ac nac ewch allan o ddrws pabell y cyfar-
“ fod, rhac iwch farw, o herwydd [bod] olew eni-
“ niad yr Arglwydd arnoch chwi: A gwnae-
“ thant fel y llefarodd Moſes.
“ 8 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Aa-
“ ron, gan ddywedyd:
“ 9 Gwîn a diod gadarn nac ŷf di, na'th feibi-
“ on gyd a thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod, fel
“ na byddoch feirw: deddf dragywyddol drwy
“ eich cenhedlaethau [fydd hynn]
“ 10 A [hynny] er gwahanu rhwng cyſſegre-
“ dic a digyſſegredic, a rhwng aflan a glân:
“ 11 Ac i ddyſcu i feibion Iſrael yr holl ddedd-
“ fau y rhai a lefarodd yr Arglwydd wrthynt,
“ drwy law Moſes.
“ 12 A llefarodd Moſes wrth Aaron, ac wrth
“ Eleazar ac wrth Ithamar, y rhan arall oi fei-
“ bion ef, cymmerwch y bwyd offrwm yr hwn
“ ſydd yng-weddill o ebyrth tanllyd yr Arglw-
“ ydd, a bwyttewch yn groiw ger llaw 'r allor: o
“ herwydd ſancteidd-beth cyſſegredic yw.
“ 13 A bwyttewch ef yn y lle ſanctaidd o her-
“ wydd dy ran di, a rhan dy feibion di o ebyrth
“ tanllyd yr Arglwydd yw hynn: canys fel hynn
“ i'm gorchymynnwyd.
“ 14 Parwyden yr offrwm cwhwfan, hefyd
“ ac yſgwyddoc yr offrwm derchafel a fwytte-
“ wch mewn lle glân: ty di, a'th feibion, a'th fer-
“ ched, yng-hyd a thi: o herwydd hwynt a rodd-
“ wyd yn rhan i ti, ac yn rhan i'th feibion di o e-
“ byrth hedd meibion Iſrael.
“ 15 Yſcwyddoc yr offrwm derchafel, a pha-
“ rwyden yr offrwm cwhwfan a ddygant yng-
“ hyd ac ebyrth tanllyd o'r gwer, i gwhwfan off-
“ rwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd, a byddet
“ i ti, ac i'th blant gyda thi yn rhan dragywyddol:
“ fel y gorchymynnodd yr Arglwydd.
“ 16 A Moſes a geiſiodd yn ddyfal fwch yr a-
“ berth tros bechod, ac wele ef wedi ei loſci, ac efe
“ addigiodd wrth Eleazar, ac wrth Ithamar y
“ rhan arall o feibion Aaron gan ddywedyd.
“ 17 Pa ham na fwyttawſoch yr aberth tros
“ bechod yn y lle ſanctaidd: o herwydd ſancteidd-

beth cyſſegredic [yw] efe, ac efe, ai rhoddodd i ”
chwi, i ddwyn anwiredd y gynulleidfa gan ”
wneuthur iawn troſtynt ger bron yr Arglwydd ”
18 Wele ni ddygwyd ei waed ef i fewn y ”
cyſſegr: ei fwytta a ddylaſech yn y cyſſegr, fel y ”
gorchymynnais. ”
19 A dywedodd Aaron wrth Moſes, wele ”
heddyw yr offrymmaſant eu haberth tros bech- ”
od, ai poeth offrwm ger bron yr Arglwydd: ac ”
fel hyn y digwyddodd i mi, am hynny os bw- ”
yttawn aberth tros bechod heddyw, a fydde hyn- ”
ny dda yng-olwg yr Arglwydd? ”
20 Yna y gwrandawodd Moſes, ac y bu ”
fodlon. ”

## PEN. XI.

Yr anifeiliaid, y pyſcod, a'r Adar ſy lân neu aflan. ”

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes ac ”
Aaron, gan ddywedyd wrthynt: ”
2 Lleferwch wrth feibion Iſrael gan ddy- ” Gene.7.9.
wedyd, dymma y bwyſt-fil yr hwn a fwyttewch ” deut.14.13
o bôb anifail yr hwn [ſydd] ar y ddaiar. ” act.10.14.
3 Pôb anifail yn cnoi ei gîl, a hollto'r ewin, ”
ac a fforchogo hollt yr ewinedd, hwnnw a fwy- ”
ttewch. ”
4 Ond hynn ni fwyttewch o'r rhai a gnoant ”
eu cîl, ac o'r rhai a hollant yr ewin, [ſef] y Ca- ”
mel er ei fod yn cnoi [ei] gîl, am nad yw yn holl- ”
ti'r ewin, aflan, [ſydd] efe i chwi. ”
5 A'r gwningen am ei bod yn cnoi [ei] chîl, ”
ac heb fforchogi'r ewin, aflan yw i chwi. ”
6 A'r yſcyfarnog am ei bod yn cnoi [ei] chîl, ”
ac heb fforchogi'r ewin, aflan yw i chwi. ”
7 A'r llwdn hŵch am ei fod yn hollti'r ”
ewin ac yn fforchogi fforchedd yr ewin, ac yntef ”
heb gnoi [ei] gîl: aflan yw efe i chwi. ”
8 Na fwyttewch oi cîg hwynt, ac na chy- ”
ffyrddwch ai burgyn hwynt: aflan ydynt i chwi. ”
9 Hynn a fwyttewch o bôb dim, a'r ſydd yn ”
y dyfroedd: pôb peth yr hwn [y mae] iddo aſcell, ”
a chenn, yn y dyfroedd, yn y moroedd ac yn yr a- ”
fonydd, y rhai hynny a fwyttewch. ”
10 A phôb dim nid [oes] iddo aſcell, a chenn ”
yn y moroedd, ac yn yr afonydd: o bôb dim a ym- ”
luſco yn y dyfroedd, ac o bôb peth byw y rhai [fy- ”
ddant] yn y dyfroedd byddant ffiaidd gennych. ”
11 Byddant ffiaidd gennych: na fwyttewch ”
oi cîg hwynt, a ffeiddiwch eu burgyn hwynt. ”
12 Yr hynn oll yn y dyfroedd ni [byddo] eſ- ”
cyll a chenn iddo: ffieidd-beth yw i chwi. ”
13 A'r rhai hyn a ffieiddiwch chwi o'r adar, ”
na fwyttewch [hwynt] ffieidd-dra ydynt: ſef yr ”
Eryr a'r wydd-walch, a'r for-wennol. ”
14 A'r fwltur, a'r barcud, yn ei ryw. ”
15 Pôb cig-fran yn ei rhyw. ”
16 A chyw'r eſtris, a'r frân nos, a'r gôg, a'r ”
gwalch yn ei rhyw. ”
17 Ac aderyn y corph, a'r fulfrã, a'r ddylluan. ”
18 A'r gocfran, a'r pelican, a'r biogen. ”
19 A'r ciconia, a'r crŷr yn ei rhyw, a'r ”
gorn-chwigl, a'r ſtlym. ”
20 Pôb ehediad a ymluſco [ac] a gerddo ar ”
bedwar-troed ffieidd-dra yw efe i chwi. ”

21 Ond hynn a fwyttewch o bôb chediad a ymluſco, ac a gerddo ar bedwar [troed] yr hwn ni bydd garrau iddo oddi ar ei draed i neidio wrthynt ar hyd y ddaiar.

22 O'r rhai hynny, y rhai hynn a fwyttewch: yr Arb yn ei ryw, a'r Selam yn ei ryw, a'r Hargol yn ei ryw, a'r Hagab yn ei ryw.

23 A phôb chediad [arall] a ymluſco yr hwn [y mae] pedwar troed iddo, ffieidd-dra yw efe i chwi.

24 Ac yn y rhai hynn y byddwch aflan: pwy bynnac a gyffyrddo ai burgyn hwynt a fydd aflan hyd yr hwyr.

25 A phwy bynnac a ddygo eu burgyn hwynt, golched ei ddillad, ac aflan fydd hyd yr hwyr.

26 Am bôb anifail ſydd yn hollti 'r ewin, ac heb ei hollti trwodd, ac heb gnoi ei gîl, aflan yw y rhai hynny i chwi, aflan fydd yr hynn oll a gyffyrddo a hwynt.

27 Pôb un hefyd a gerddo ar ei balfau, o bôb bwyſt-fil a gerddo ar bedwar [troed] aflan ydynt i chwi, pôb dim a gyffyrddo ai burgyn a fydd aflan hyd yr hwyr.

28 A'r hwn a ddygo eu burgyn hwynt golched ei ddillad, a bydded aflan hyd yr hwyr: aflan yw y rhai hynn i chwi.

Leui.5.2.

29 A hynn ſydd aflan i chwi o'r ymluſciaid a ymluſco ar y ddaiar: y wengci, a'r llygoden, a'r llyffant yn ei ryw.

30 A'r draenog, a'r lyſard, a'r ſtelio, a'r falfoden, a'r wâdd.

Y rhai hynn ydynt aflan i chwi o bôb ymluſciaid: pôb dim a gyffyrddo a hwynt pan fyddant feirw a fydd aflan oi plegit hyd yr hwyr.

32 A phôb dim y cwympo [un] o honynt wedi ei marw arno a fydd aflan, pôb offeryn, o bôb lleſtr pren, neu wiſc, neu groen, neu ſâch, y rhai y gwnelir dim gwaith ynddynt, rhodder ef mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr, yna bydded lân.

33 A phôb lleſtr pridd yr hwn y ſyrthio [un] o'r rhai hynn iw fewn, aflan fydd yr hyan oll [fydd] oi fewn, a thorrwch yntef.

34 Aflan fydd pôb bwyd a fwytteir, a'r hwn y dêl dwfr [aflan] arno: ac aflan fydd pôb diod yr hon a yfir mewn lleſtr [aflan.]

35 Aflan fydd pôb dim yr hwn y cwympo [dim] oi burgyn arno, y ffwrn a'r badella dorrir, aflan ydynt, ac aflan fyddant i chwi.

36 Etto glân fydd y ffynnon, a'r pydew [a'r] llynn: ond yr hynn a gyffyrddo ai burgyn a fydd aflan.

37 Ac os ſyrth [dim] oi burgyn hwynt ar ddim hâd hauedic, yr hwn a heuir glân yw efe.

38 Ond os rhoddir dwfr ar yr hâd, a ſyrthio dim oi burgyn hwynt arno ef: aflan fydd efe i chwi.

39 Ac os bydd marw un anifail yr hwn ſydd i chwi yn fwyd, yr hwn a gyffyrddo ai furgyn ef a fydd aflan hyd yr hwyr.

40 A'r hwn a fwyttu ei furgyn ef, golched ei ddillad, a bydded aflan hyd yr hwyr: a'r hwn a ddygo ei furgyn ef, golched ei ddillad, a bydded aflan hyd hwyr.

41 A phôb ymluſciad a ymluſco ar y ddaiar, ffieidd-dra yw: na fwyttaer ef.

42 Pôb un a gerddo ar ei dorr, a phôb un a gerddo, ar bedwar [troed] hyd yn oed pôb aml ei draed o bôb ymluſciad a ymluſco ar y ddaiar, na fwyttewch hwynt, canys ffieidd-dra ydynt.

43 Na wnewch eich eneidiau yn ffiaidd o blegit un ymluſciad a ymluſco, ac na fyddwch aflan oi plegit, canys aflan fyddech oi herwydd.

44 O herwydd myfi yw 'r Arglwydd eich Duw chwi, ymſancteiddiwch a byddwch ſanctaidd, o herwydd ſanctaidd [ydwyf] fi: ac nac aflanhewch eich eneidiau wrth un ymluſciad, a ymluſco ar y ddaiar.

45 Canys myfi [yw] 'r Arglwydd yr hwn a'ch dug chwi o dir yr Aipht, i fod yn Dduw i chwi, byddwch chwithau ſanctaidd, canys ſanctaidd [ydwyf] fi.

46 Dymma gyfraith yr anifail, a'r chediad a phôb peth byw, yr hwn ſydd yn ymluſco yn y dyfroedd, ac am bôb peth ſydd yn croppian ar y ddaiar.

47 I wneuthur gwahan rhwng yr aflan a'r glân, a rhwng yr anifail a fwytteir, a'r anifail yr hwn nis bwytteir.

## PEN. XII.

Puredigaeth gwraig yn ol eſcor.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Llefara wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd, os gwraig a feichioga ac a eſcor ar wryw, yna bydded aflan ſaith niwrnod: fel dyddiau gwahaniaeth ei myſ-glwyf y bydd hi aflan.

3 A'r *wythfed dydd yr enwaedir ar gnawd ei ddienwaediad ef.

Gene.17.12. luc.2.21. ioan.7.22.

4 A thri diwrnod ar ddec ar hugain yr erys yng-waed ei phuredigaeth: na chyffyrdded a dim ſanctaidd, ac na ddeued i'r cyſſegr nes cyflawni dyddiau ei phuredigaeth.

5 Ond os ar fenyw yr eſcor hi, yna y bydd hi aflan bythefnos, megis [yn] ei miſglwyf a chwe diwrnod a thrugain yr erys ar waed ei phuredigaeth.

6 A phan gyflawner dyddiau ei phuredigaeth ar fâb neu ferch, dyged oen blwydd yn offrwm poeth, a chyw colomen, neu durtur, yn aberth tros bechod, at yr offeiriad i ddrws pabell y cyfarfod:

7 Ac offrymmed efe hynny ger bron yr Arglwydd, a gwnaed iawn droſti: a hi a lanheuir oddi wrth gerddediad ei gwaed: dymma gyfraith yr hon a eſcor ar wryw neu ar fenyw.

8 Ac os ei llaw ni chaiff werth oen, yna cymmered *ddwy durtur neu ddau gyw colomen, y naill yn offrwm poeth a'r llall yn aberth tros bechod: a gwnaed yr offeiriad iawn troſti, a glan fydd,

luc.2.24.

## PEN. XIII.

Bod i'r offeiriad farnu gwahan-glwyf dyn. 47 a dillad.

Llefarodd

Lleſarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes ac Aaron, gan ddywedyd:

Luc.17.15. 2 Dŷn (pan fyddo yng-hroen ei gnawd, chŵydd neu grammen, neu ddiſclaerder, a bod yng-hroen ei * gnawd ef megis anafod y clwyf gwahanol,) a ddygir at Aaron yr offeiriad, neu at vn oi feibion ef yr offeiriaid.

3 Pan welo yr offeiriad yr anafod yng-hroen y cnawd: os y blewyn yn yr anafod fydd wedi troi yn wynn a gwelediad yr anafod yn ddyfnach na chroen ei gnawd ef, anafod gwahan-glwyf yw hwnnw: a'r offeiriad ai hedrych ac ai barn yn aflan.

4 Ond os diſgleirdeb gwynn fydd efe yng-hroen ei gnawd ef, ac heb fod yn îs ei welediad na'r croen, a'r blewyn heb droi yn wynn: yna caeed yr offeiriad ar yr [anafodus] ſaith niwrnod

5 A'r ſeithfed dydd edrychded yr offeiriad ef, ac os ſefyll y bydd yr anafod yn ei olwg ef, heb ledu o'r anafod yn y croen, yna caeed yr offeiriad arno ſaith niwrnod eil-waith.

6 Ac edrychded yr offeiriad ef yr ail ſeithfed dydd, ac os bydd yr anafod yn crychu, heb ledu o'r anafod yn y croen, yna barned yr offeiriad ef yn lân: crammen yw honno, yna golched ei wiſcoedd a glân fydd.

7 Ac os y grammen gan ledu a leda yn y croen, wedi i'r offeiriad ei weled, ai farnu yn lân: yna dangoſer ef eilwaith i'r offeiriad.

8 Ac edrychded yr offeiriad, ac os lledodd y grammen yn y croen, yna barned yr offeiriad ef yn aflan: gwahan-glwyf yw hwnnw.

9 Pan fyddo ar ddyn anafod gwahan-glwyf, yna dyger ef at yr offeiriad.

10 Ac edrychded yr offeiriad, yna os chŵydd gwynn [a fydd] yn y croen, a hwnnw wedi troi y blewyn yn wynn, a dim cîg byw yn y chŵydd.

11 Hên wahan-glwyf yw hwnnw, yng-hroen ei gnawd ef, a barned yr offeiriad ef yn aflan: na chaeed arno o herwydd y mae efe yn aflan:

12 Ond os y gwahan-glwyf gan darddu a dardda yn y croen, a gorchguddio o'r gwahan-glwyf holl groen yr anafodus, oi ben hyd ei draed: pa le bynnac yr edrycho 'r offeiriad.

13 Yna edrychded yr offeiriad ac os y gwahan-glwyf fydd yn cuddio ei holl gnawd ef, yna barned or offeiriad yr anafodus yn lân, [os] trôdd yn wynn ei gyd, glân yw.

14 A'r dydd y gwelir ynddo gîg byw, aflã fydd

15 Yna edrychded yr offeiriad ar y cîg byw, a barned ef yn aflan, aflan yw 'r cîg byw hwnnw, gwahan-glwyf yw.

16 Neu os dychwel y cîg byw a throi 'n wynn: yna deued at yr offeiriad.

17 Ac edrychded yr offeiriad arno, ac os trôdd yr anafod yn wynn, yna barned yr offeiriad yr anafod yn lân, glân yw efe.

18 A chnawd hefyd (o bydd ynddo gornwyd yn ei groen, ai iachau,

19 A bod yn lle y cornwyd chŵydd gwŷnn neu ddiſclaerder gwynn-goch) a ddangoſir i'r offeiriad.

20 Ac edrychded yr offeiriad, ac os gwelir ef yn îs na'r croen, a'r blewyn wedi troi yn wynn, yna barned yr offeiriad ef yn aflan gwahan-glwyf yw efe yn tarddu yn y cornwyd.

21 Ond os yr offeiriad ai hedrych, ac wele ni bydd ynddo flewyn gwynn ac ni bydd is na'r croen, ond wedi duo: yna caeed yr offeiriad arno ſaith niwrnod.

22 Ac os gan ledu y lleda yn y croen, yna barned yr offeiriad ef yn aflan, anafod yw efe.

23 Ond os y diſclaerder a ſaif yn ei lê heb ymledu craith cornwyd yw efe, a barned yr offeiriad ef yn lân.

24 Os cnawd fydd a lloſciad tân ar ei groen, a bod cîg byw y lloſciad yn ddiſclaerder gwyn-goch neu wynn.

25 Yna edrychded yr offeiriad ef, ac os y blewyn yn y diſclaerdeb fydd wedi troi yn wyn, ac yn îs iw weled na'r croen, gwahan-glwyf yw hwnnw yn tarddu yn y lloſciad, a barned yr offeiriad ef yn aflan, anafod gwahan-glwyf yw hunnw.

26 Ond os yr offeiriad ai hedrych, ac wele ni bydd blewyn gwyn yn y diſclaerder, ac ni bydd îs na'r croen ond ei fod wedi crychu: yna caeed yr offeiriad arno ſaith niwrnod.

27 Ac edrychded yr offeiriad ef y ſaithfed dydd os gan ledu y ledodd yn y croen, yna barned yr offeiriad ef yn aflan, anafod gwahan-glwyf yw hwnnw.

28 Ac os y diſcleirdeb a ſaif yn ei lê, heb ledu yn y croen, ac efe yn crychu hefyd, chŵydd y loſciad yw efe: barned yr offeiriad ef yn lân: canys craith y lloſgiad yw hwnnw.

29 Pann fyddo gwr neu wraig a'r anafod arno mewn pen neu farf.

30 Yna edrychded yr offeiriad yr anafod, ac os îs y gwelir na'r croẽ, a blewyn melyn main ynddo yna barned yr offeiriad ef yn aflã, y ddufrech yw hwnnw, gwahan-glwyf pen neu farf yw efe.

31 Ac os yr offeiriad a edrych ar anafod y ddufrech, ac wele nid îs i weled na'r croen a heb flewyn du ynddo, yna caeed yr offeiriaid ar anafod y ddu-frech ſaith niwrnod.

32 Ac edrychded yr offeiriad ar yr anafod y ſeithfed dydd, ac os y ddufrech ni bydd wedi lledu, ac ni bydd blewyn melyn ynddi, ac heb fod îs gweled y ddu-frech na'r croen:

33 Yna ymeillied, ac nac eillied [y fan y byddo] y ddufrech, a chaeed yr offeiriad ar [berchen] y ddu-frech ſaith niwrnod eilwaith.

34 A'r ſeithfed dydd edrychded yr offeiriad ar y ddu-frech, ac os y ddufrech ni ledodd yn y croen, ac ni bydd îs ei gweled na'r croen, yna barned yr offeiriad ef yn lân, a golched ei ddillad, a glân fydd.

35 Ond os y ddu-frech gan ledu a leda yn y croen wedi ei farnu ef yn lân,

36 Yna edrychded yr offeiriad ef, ac os lledodd y ddufrech yn y croen, na chwilied yr offeiriad am y blewyn melyn: y mae efe yn aflan.

37 Ond os ſefyll y bydd y ddufrech yn ei o-

« lwg ef, a blewyn du yn tyfu trwyddi, aeth y
« ddu-frech yn iach,glân yw hwnnw,a barned yr
« offeiriad ef yn lân.
« 38 A phan fyddo yng-hroen cnawd gŵr neu
« wraig lawer o ddiſclaer fannau gwynnion:
« 39 Yna edryched yr offeiriad ac os bydd ynghroen
« eu cnawd hwynt ddiſcleiriadau gwynnion
« wedi eu crychu,brychni yw hynny,yn tarddu
« yn y croen : glân yw efe.
« 40 A gŵr pan foelo ei ben, moel fydd,[etto]
« glân fydd efe.
« 41 Ac os o du ei wyneb y moela ei benn ef,
« efe a fydd tál-foel[etto]glân fydd efe.
« 42 Ond pan fyddo anafod gwyn-goch yn y
« pen-foeledd , neu yn y tâl-foeledd , gwahan-glwyf
« yw efe yn tarddu yn ei ben-foeledd,neu
« yn ei dâl-foeledd ef.
« 43 Ac edrychêd yr offeiriad ef, ac os bydd
« chŵydd yr anafod yn wyn-goch yn ei ben-foeledd
« neu yn ei dâl-foeledd ef, fel lliw gwahan-glwyf
« croen cnawd,
« 44 Gŵr gwahan-glwyfus yw hwnnw,
« aflan yw: a'r offeiriad ai barna ef yn llwyr aflan:
« yn ei ben[y mae] ei anafod.
« 45 A'r gwahan-glwyfus yr hwn y byddo'r
« anafod arno,bydded ei wiſcoedd ef yn agored,a
« bydded ei ben ef yn noeth a rhodded gaead ar ei
« enau a llefed : aflan,aflan,

Num.5.2.
4.bren.15.5.

« 46 Yr holl ddyddiau y rhai y byddo'r anafod
« arno, bernir ef yn aflan , aflan yw efe, triged ei
« hunan,bydded ei drigfa o'r tu allan i'r gwerſyll
« 47 Ac os dilledyn fydd a phla gwahanglwyf
« ynddo,o ddilledyn gwlân, neu o ddilledyn llîn.
« 48 Pwy vn bynnac ai yn yr yſtof,ai yn yr anwê
« o lîn , neu o wlân, neu mewn croen, neu
« mewn dim a wnaed o groen :
« 49 Os gwyrdd-las,neu gôch fydd yr anafod
« yn y dilledyn,neu yn y croen, neu yr yſtof, neu
« yn yr anwê,neu mewn vn offeryn croen, anafod
« y gwahan-glwyf yw efe : a dangoſer ef i'r offeiriad.
« 50 Ac edrychêd yr offeiriad yr anafod,a chaeed
« ar yr anafod ſaith niwrnod.
« 51 A'r ſeithfed dydd edrychêd yr anafod, os
« yr anafod a ledodd yn y dilledyn,pa vn bynac ai
« mewn yſtof,ai mewn anwê,ai mewn croen i ba
« waith bynnac y gweithir y croen , gwahan-glwyf
« yſſol[ac]anafod aflan yw.
« 52 A lloſced y dilledyn neu'r yſtof,neu'r anwê,
« o wlân, neu o lîn, neu bôb offeryn croen,
« yr hwn y byddo anafod ynddo,canys gwahan-glwyf
« yſſol yw efe,lloſger mewn tân.
« 53 Ac os edrych yr offeiriad, ac wele ni ledodd
« yr anafod mewn dilledyn,neu mewn yſtof,
« neu mewn anwê,neu mewn vn offeryn croen :
« 54 Yna gorchymynned yr offeiriad iddynt
« olchi yr hyn y byddo'r anafod ynddo , a chaeed
« arno ſaith niwrnod eil-waith.
« 55 Ac edrychêd yr offeiriad yr anafod wedi
« ei olchi: os yr anafod ni thrôdd ei liw,er na ledodd
yr anafod,efe a fydd aflan : lloſcer ef mewn tân,
ffrettiad yw efe yn ei lwmder yn y tu wyneb, »
neu yn ei lwmder yn y tu gwrthwyneb. »
56 Ac os edrych yr offeiriad, ac wele'r anafod »
wedi crychu yn ôl ei olchi ef, yno torred ef »
allan o'r dilledyn,neu o'r croen,neu o'r yſtof neu »
o'r anwê. »
57 Ond os gwelir mwy yn y dilledyn, neu »
yn yr yſtof,neu yn yr anwê, neu mewn vn offeryn »
croen, tarddu y mae efe, lloſger yr hwn[y »
mae]yr anafod ynddo mewn tân. »
58 A'r dilledyn,neu'r yſtof,neu'r anwe,neu »
pa offeryn bynnac o groen,y rhai a olcher, ac yr »
ymadawo yr anafod a hwynt,a olchir eilwaith, »
a glân fydd efe. »
59 Dymma gyfraith anafod gwahanglwyf »
dilledyn gwlân,neu lîn,neu yſtof,neu anwê,neu »
pa offeryn croen bynnac iw farnu'n lân,neu iw »
farnu'n aflan. »

## PEN. XIIII. »

Puredigaeth y dyn. 34 ar ty gwahan-glwyfus. »

Llefarawdd yr Arglwydd hefyd wrth Moses, »
gan ddywedyd. »
2 Dymma gyfraith y gwahan-glwyfus,y »
dydd y glanheuir ef: yna dyger ef at yr offeiriad. »

Leſit.13.2.
Luc.17.14.

3 A'r offeiriad a ddaw allan, i'r tu allan ir »
gwerſyll,ac edrychêd yr offeiriad,ac os anafod »
y gwahan-glwyf a iachaodd ar y gwahan-glwyfus: »
4 Yna gorchymynned yr offeiriad i'r hwn a »
lanheuir gymmeryd dau aderyn y tô byw [a] »
glân,a choed Cedr,ac yſcarlat,ac Yſſob. »
5 A gorchymyned yr offeiriad ladd y naill aderyn »
y tô,mewn llestr prîdd ar ddwfr rhedegoc »
6 A chymmered efe yr aderyn byw,a'r coed »
Cedr,a'r ſcarlat,a'r Yſſob,a throched hwynt,a'r »
aderyn byw hefyd,yng-waed yr aderyn a laddwyd »
ar y dwfr rhedegoc, »
7 A thaenelled ſeithwaith ar yr hwn a lanheuir »
o ddi wrth y gwahan-glwyf,a barned ef yn »
lân,yna gollynged yr aderyn byw ar hyd wyneb »
y maes. »
8 A golched yr hwn a lanheuir ei ddillad, ac »
eillied ei holl flew,ac ymolched mewn dwfr, a »
glân fydd : a deued wedi hynny i'r gwerſyll,a »
thriged o'r tu allan iw babell ſaith niwrnod. »
9 Ar ſeithfed dydd bydded iddo eillio ei holl »
flew,ſef ei ben,ai farf,ac æliau ei lygaid,îe eillied »
ei holl flew,a golched ei ddillad, a golched ei »
gnawd mewn dwfr,a glân fydd. »
10 A'r wythfed dydd cymmered ddau hesbwrn »
perffaith-gwbl ac vn hesbin flwydd berffaith-gwbl, »
a thair decfed ran[Epha]o beillied yn »
fwyd offrwm wedi ei gymmyſcu trwy olew,ac »
vn Log o olew. »
11 A goſsoded yr offeiriad yr hwn a lanhâo, »
y gwr a lanheuir,a hwynt hefyd ger bron yr Arglwydd »
[wrth] ddrws pabell y cyfarfod. »
21 Achymmered yr offeiriad vn hesbwrn,ac »
offrymmed ef yn aberth tros gamwedd,a'r Log »
o olew hefyd, a chwhwfaned hwynt yn offrwm »
cwhwfan ger bron yr Arglwydd. »

13 Alladded efe yr heſbwrn, yn y llê y lladder y pech aberth, a'r poeth offrwm, [ſef] yn y lle ſanctaidd: o herwydd yr aberth tros gamwedd ſydd eiddo'r offeiriad, yn gyſtal a'r pech aberth, ſancteidd-beth cyſſegredic yw efe.

14 A chymmered yr offeiriad o waed yr aberth dros gamwedd, a rhodded ar gwrr cluſt ddehau yr hwn a lanheuir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau ef.

15 A chymmered yr offeiriad o Log yr olew, a thywallted ar gledr ei law aſſwy ei hun.

16 A gwlyched yr offeiriad ei fŷs dehau yn yr olew, yr hwn [fydd] ar gledr ei law aſſwy, a thaenelled o'r olew ai fŷs, ſeith-waith ger bron yr Arglwydd.

17 Ac o weddill yr olew yr hwn [fydd] ar gledr ei law y rydd yr offeiriad ar gwrr cluſt ddehau yr hwn a lanheuir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed hehau, ar waed yr offrwm tros gamwedd.

18 A'r rhan arall o'r olew yr hwn [fydd] ar gledr llaw'r offeiriad, a rydd efe ar ben yr hwn a lanheuir, agwnaed yr offeiriad iawn troſto ger bron yr Arglwydd.

19 Je gwnaed yr offeiriad aberth tros bechod, a gwnaed iawn tros yr hwn a lanheuir oddi wrth ei aflendid, ac wedi hynny lladded y poeth offrwm.

20 Ac aberthed yr offeiriad y poeth offrwm a'r bwyd offrwm ar yr allor: a gwnaed yr offeiriad iawn troſto, a glân fydd.

21 Ond os tlawd fydd, ai law heb gyrheuddyd [hyn,] yna cymmered un heſbwrn, yn aberth tros gamwedd o offrwm cwhwfan, i wneuthur iawn troſto, ac un decfed ran [Epha] a beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm, a Log o olew,

22 A dwy durtur, neu ddau gyw colomen y rhai a gyrhaeddo ei law: a bydded un yn bech aberth, a'r llall yn boeth offrwm.

23 A dyged hwynt yr wythfed dydd (at yr offeiriad) iw lanhau wrth ddrws pabell y cyfarfod: ger bron yr Arglwydd.

24 A chymmered yr offeiriad heſbwrn yr offrwm tros gamwedd, a'r Log olew, a chwhwfaned yr offeiriad hwynt yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd.

25 Alladded heſbwrn yr offrwm tros gamwedd, a chymmered yr offeiriad o waed yr offrwm tros gamwedd, a rhodded ar gwrr cluſt ddehau yr hwn a lanheuir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau.

26 A thywallted yr offeiriad yr olew, ar gledr ei law aſſwy ei hun.

27 Ac ai fŷs dehau taenelled yr offeiriad o'r olew yr hwn [fydd] ar gledr ei law aſſwy, ſeith-waith ger bron yr Arglwydd.

28 A rhodded yr offeiriad o'r olew yr hwn [a fydd] ar gledr ei law, ar gwrr cluſt ddehau 'r hwn a lanheuir, ac ar fawd ei law ddehau, ac ar fawd ei droed dehau, ar y man [y byddo] gwaed yr offrwm tros gamwedd.

29 A'r rhan arall o'r olew yr hwn [fydd] ar gledr llaw'r offeiriad, a rydd efe ar ben yr hwn a lanheuir, i wneuthur iawn troſto ger bron yr Arglwydd.

30 Yna offrymmed un o'r turturau, neu o'r cywion colomennod [ſef] o'r rhai a gyrhaeddo ei law ef.

31 Y rhai [meddaf] a gyrhaeddo ei law ef, un yn bech aberth ac un yn boeth offrwm yng-hyd a'r bwyd offrwm, a gwnaed yr offeiriad iawn tros yr hwn a lanheuir, ger bron yr Arglwydd.

32 Dymma gyfraith yr un [y byddo] anafod y gwahan-glwyf arno, yr hwn ni chyredd ei law wrth ei lanhau [gael amgen.]

33 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes ac Aaron, gan ddywedyd.

34 Pan ddeloch i dîr Canaan, yr hwn yr ydwyf yn ei roddi i chwi yn feddiant, os rhoddaf anafod gwahan-glwyf ar dŷ [o fewn] tir eich meddiant.

35 Yna deued yr hwn biau y tŷ, a dangoſed i'r offeiriad gan ddywedyd gwelaf megis anafod yn tŷ.

36 A gorchymynned yr offeiriad iddynt arloeſi y tŷ cyn dyfod yr offeiriad i weled yr anafod, fel na halogir yr hyn oll a [fyddo] yn tŷ, ac wedi hynny deued yr offeiriad i edrych y tŷ.

37 Ac edryched yr anafod: ac os yr anafod [fydd] ym mharwydydd y tŷ yn agennau gwyrdd-leiſion, neu gochion, a'r olwg arnynt yn îs na'r pared.

38 Yna aed yr offeiriad allan o'r tŷ, i ddrws y tŷ, a chaeed y tŷ ſaith niwrnod.

39 A'r ſeithfed dydd deued yr offeiriad trachefn, ac edryched, ac os lledodd yr anafod ym mharwydydd y tŷ,

40 Yna gorchymynned yr offeiriad iddynt, dynnu y cerric y rhai [y byddo]'r anafod arnynt, a bwriant hwynt, o'r tu allan i'r dinas i lê aflan.

41 A phared efe grafu y tŷ oi fewn o amgylch, a thywalldant y llwch yr hwn a grafant, o'r tu allan i'r dinas i lê aflan.

42 A chymmerant gerric eraill, a goſſodant yn lle y cerric hynny, a chymmered bridd arall a phridded y tŷ.

43 Ond os daw'r anafod trachefn, a tharddu yn tŷ, wedi tynnu y cerric, ac wedi crafu y tŷ, ac wedi priddo.

44 Yna doed yr offeiriad, ac edryched, ac os lledodd yr anafod yn y tŷ, gwahan-glwyf yſſol yw hwnw yn tŷ: aflan yw efe.

45 Yna tynned i lawr y tŷ yng-hyd ai gerric, ai goed, a holl bridd y tŷ: a bwried i'r tu allan i'r dinas i lê aflan.

46 A'r hwn a ddêl i'r tŷ, yr holl ddyddiau [y rhai] y parodd efe ei gaeu, efe a fydd aflan hyd yr hwyr.

47 A'r hwn a gyſco yn y tŷ, golched ei ddillad:

llad: felly yr hwn a fwyttu yn tŷ golched ei ddillad.

48 Ac os yr offeiriad gan ddyfod a ddaw, ac a edrych, ac wele ni ledodd yr anafod yn tŷ, wedi priddo y tŷ, yna barned yr offeiriad y tŷ yn lân, o herwydd iachau 'r anafod.

Heb.9.19. 49 A chymmered i buro y tŷ ddau aderyn y tô, a choed Cedr, ac ſcarlat, ac Yſob.

50 A lladded y naill aderyn mewn lleſtr pridd, ar ddwfr rhedegoc.

51 A chymmered y coed Cedr, a'r Yſob, a'r ſcarlat, a'r aderyn byw, a throched hwynt yng-waed yr aderyn a laddwyd ar y dwfr rhedegoc, a thaenelled ar y tŷ ſeith-waith.

52 A phured y tŷ a gwaed yr aderyn, ac a'r dwfr rhedegoc, ac a'r aderyn byw, ac a'r coed Cedr, ac a'r Yſob, ac a'r ſcarlat.

53 A gollynged yr aderyn byw, i'r tu allan i'r ddinas ar hŷd wyneb y maes, a gwnaed iawn tros y tŷ, a glân fydd.

54 Dymma gyfraith am bob anafod y clwyf gwahanol, ac am y ddu-frech.

55 Ac am wahan-glwyf gwiſc, a thŷ.

56 Ac am chŵydd, a chrammẽ, a diſcleirdeb.

57 I ddyſcu pa ddydd y bydd [vn] aflan, a pha ddydd y bydd [vn] glân, dymma gyfraith y gwahan-glwyf.

## PEN. XV.

Aflendid meibion, a merched, ai puredigaeth.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac Aaron, gan ddywedyd,

2 Lleferwch wrth feibion Iſrael, a dywedwch wrthynt: pob vn pan fyddo ei ddiferlif yn rhedeg oi gnawd a fydd aflan.

3 A hyn fydd ei aflendid yn ei ddiferlif: os ei gnawd ef a ddifera ei ddiferlif, neu ymattal oi gnawd ef ar ei ddiferlif, ei aflendid ef [yw] hynn.

4 Pob gwelŷ yr hwn y gorweddo ynddo vn diferllyd a fydd aflan, ac aflan fydd pob offeryn yr hwn yr eiſteddo efe arno.

5 A'r nêb a gyffyrddo ai wely ef, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

6 A'r hwn a eiſteddo ar yr offeryn, yr hwn yr eiſteddo y diferllyd arno, golched ei ddillad ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

7 A'r hwn a gyffyrddo a chnawd y diferllyd, golched ei ddillad ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

8 A phan boero y diferllyd ar vn glân, golched [hwnnw] ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

9 Ac aflan fydd pob cyfrwy 'r hwn y marchogo y diferllyd ynddo.

10 A phwy bynnac a gyffyrddo a dim a fydd tano, bydded aflan hyd yr hwyr: a'r hwn ai dygco hwynt, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

11 A phwy bynnac y cyffyrddo y diferllyd ag ef heb olchi ei ddwylo mewn dwfr, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

12 A'r * lleſtr pridd yr hwn y cyffyrddo y diferllyd ag ef, a ddryllir: a phob lleſtr pren a olchir mewn dwfr. Lef.6.28.

13 A phan lanheuir y diferllyd oddi wrth ei ddiferlif, yna cyfrifed iddo ſaith niwrnod iw lanhau, a golched ei ddillad, a golched ei gnawd mewn dwfr rhedegoc, a glân fydd.

14 A'r wythfed dydd cymmered iddo ddwy durtur, neu ddau gyw colomen, a deued ger bron yr Arglwydd i ddrws pabell y cyfarfod, a rhodded hwynt i'r offeiriad.

15 Ac offrymmed yr offeiriad hwynt, vn yn bech aberth, ar llall yn boeth offrwm: gwnaed 'r offeiriad iawn troſto ef am ei ddiferlif ger bron yr Arglwydd.

16 Ac os gŵr y daw o honaw ddeſcyniad hâd, yna golched ei holl gnawd mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

17 A phob dilledyn, a phob croen, yr hwn y byddo deſcyniad hâd arno a olchir mewn dwfr, ac a fydd aflan hyd yr hwyr.

18 Pan [fyddo] gwraig yr hon y cyſgo gŵr [mewn] deſcynniad hâd gyd a hi: yna ymolchant mewn dwfr, a byddant aflan hyd yr hwyr [ill-dau.]

19 A phan fyddo gwraig a diferlif arni, a bod ei diferlif yn ei chnawd yn waed, bydded ſaith niwrnod yn ei gwahaniaeth, a'r hyn oll a gyffyrddo a hi, bydded aflan hyd yr hwyr.

20 A'r hyn oll y gorweddo hi arno, yn ei gwahãiaeth, a'r hyn oll yr eiſteddo hi arno a fydd aflã.

21 A phwy bynnac a gyffyrddo ai gwely hi, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

22 A phwy bynnac a gyffyrddo ag vn offeryn, a'r a eiſteddo hi arno, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

23 Ac os ar y gwely [y bydd] efe, neu ar yr offeryn yr hwn y byddo hi yn eiſtedd arno, wrth gyffwrdd ag ef, hyd yr hwyr y bydd efe aflan.

24 Ond os gŵr gan gyſcu a gwſc gyda hi fel y byddo oi miſglwyf hi arno ef, yna aflã fydd efe ſaith niwrnod, ac aflan fydd pob gwely yr hwn y gorwedd efe arno. Lefit.18.19.

25 A phan fyddo diferlif ei gwaed yn rhedeg ar wraig lawer o ddyddiau allan o amſer ei hanhwyl, neu pan redo diferlif arni ar ol ei hãhwyl, bydded holl ddyddiau diferlif ei haflendid hi megis dyddiau ei hanhwyl, aflan fydd hi.

26 Pôb gwely 'r hwn y gorweddo hi arno holl ddyddiau ei diferlif fydd iddi fel gwely ei miſglwyf, a phôb dodrefnyn yr hwn yr eiſteddo hi arno, fydd aflã, megis aflẽdid ei miſglwyf hi.

27 A phwy bynnac a gyffyrddo a hwynt, aflan fydd, yna golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr.

28 Ac os glanheuir hi oi diferlif, yna cyfrifed iddi ſaith niwrnod, ac wedi hyny, glân fydd.

29 A'r wythfed dydd cymmered iddi ddwy dur-

“ tur, neu ddau gyw colomen, a dyged hwynt at
“ yr offeiriad, i ddrws pabell y cyfarfod.
“ 30 Ac offrymmed yr offeiriad vn yn bech aberth
“ a'r llall yn boeth offrwm, a gwnaed yr offeiriad
“ iawn troſti, am ddiferlif ei haſlendid
“ ger bron yr Arglwydd.
“ 31 Felly neilltuwch feibion Iſrael oddi wrth
“ eu haſlendid fel na byddant feirw yn eu haſlendid
“ : pan halogant fy mhabell yr hon [ſydd] yn
“ eu myſc,
“ 32 Dymma gyfraith yr hwn y bydd y diferlif
“ arno, a'r hwn y daw oddi wrtho ddeſcyniad
“ hâd fel y byddo aflan oi herwydd :
“ 33 A'r glâf oi miſ-glwyf, a'r neb y byddo y
“ diferlif arno, o wryw, ac o fenyw, ac i'r gwr
“ yr hwn a orweddo yng-hyd a'r hon a fyddo
“ aflan.

## “ PEN. XVI.

“ Y modd y daw Aaron ir cyſſegr. 8 Yr afr ddiangol.
“ 14 Puredigaeth y cyſſegr. 29 Gwyl y puredigaeth.

“ LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes,
“ wedi marwolaeth dau fâb Aaron, (pan offrymmaſant
“ ger bron yr Arglwydd yna y buant
“ feirw.)
“ 2 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes,
“ llefara wrth Aaron dy frawd, am na ddelo bôb
“ amſer i'r cyſſegr o fewn y wahan-len ger bron
“ y drugareddfa yr hon [ſydd] ar yr Arch, fel na
“ byddo efe farw : o herwydd ymddangoſaf ar y
1.Bren.8.10. “ drugareddfa * mewn niwl.
” 3 A hyn y daw Aaron i'r cyſſegr, a buſtach
“ ieuangc yn bech aberth, ac a hwrdd yn boeth
“ offrwm.
“ 4 Gwiſced bais liain ſanctaidd, a bydded
“ llawdrau lliain am ei gnawd, a gwregyſer ef a
“ gwregys lliain, a gwiſced gap lliain, gwiſcoedd
“ ſanctaidd [yw] y rhai hyn : golched yntef
“ ei gnawd mewn dwfr, pan wiſco hwynt.
“ 5 A chymmered gan gynulleidfa meibion
“ Iſrael ddau fwch geifr yn bech aberth, ac vn
“ hwrdd yn boeth offrwm.
“ 6 Ac offrymmed Aaron fuſtach y pech aberth
Heb.9.7. “ yr hwn [ſydd] * droſto ei hun, a gwnaed
“ iawn troſto ei hun a thros ei dŷ.
“ 7 A chymmered y ddau fwch a goſſoded hwynt
“ ger bron yr Arglwydd, [wrth] ddrws pabell
“ y cyfarfod :
“ 8 A rhodded Aaron goel-brennau ar y ddau
“ fwch, vn coel-bren tros yr Arglwydd, a coel-bren
“ arâll tros yr afr ddiangol.
“ 9 A neſſaed Aaron y bwch yr hwn y ſyrthio
“ coel-bren yr Arglwydd arno, ac offrymmed ef
“ yn bech aberth.
“ 10 A'r bwch yr hwn y ſyrthio arno goel-bren
“ yr afr ddiangol, a roddir i ſefyll yn fyw ger
“ bron yr Arglwydd i wneuthur iawn ag ef, [ac]
“ iw ollwng i'r anialwch yn afr ddiangol.
“ 11 A neſſaed Aaron fuſtach y pech aberth yr
“ hwn [ſydd] droſto ei hun, a gwnaed iawn droſto
“ ei hun, a thros ei dŷ : a lladded fuſtach y pech aberth
“ yr hwn [ſydd] troſto ei hun.

12 A chymmered lóned thuſſer o farwor tanllyd ”
oddi ar yr allor, oddi ger bron yr Arglwydd, ”
a lloned ei ddwylo o arogl-darth llyſſeuoc ”
mân, a dyged o fewn y wahan-len. ”
13 A rhodded yr arogl-darth ar y tân, ger ”
bron yr Arglwydd, fel y cuddio mŵg yr arogl-darth ”
y drugareddfa, yr hon [ſydd] ar y deſtiolaeth, ”
ac na byddo efe farw. ”
14 A chymmered o waed y buſtach a*thaenelled ” Heb.10.13.
ai fŷs, ar du wyneb y drugareddfa tu a'r ” Lefit.4.6.
dwyrain : a ſeithwaith y taenella efe o'r gwaed ”
ai fŷs o flaen y drugareddfa. ”
15 Yna lladded fwch y pech aberth, yr hwn ”
[ſydd] tros y bobl, a dyged ei waed ef o fewn y ”
wahan-len, a gwnaed [ai] waed ef megis ac y ”
gwnaeth i waed y buſtach, a thaenelled ef ar y ”
drugareddfa, ac o flaen y drugareddfa. ”
16 A phured y cyſſegr oddi wrth aflendid ”
meibion Iſrael, ac oddi wrth eu hanwireddau ”
yn eu holl bechodau : a gwnaed yr vn modd i ”
babell y cyfarfod, yr hon ſydd yn aros gyda hwynt ”
ym myſc ei haſlendid hwynt. ”
17 Ac na fydded vn dŷn *ym-mhabell y cyfarfod, ” Luc.1.10.
pan ddelo efe [i mewn] i wneuthur iawn ”
yn y cyſſegr hyd oni ddelo efe allan, a gwneuthur ”
o honaw ef iawn troſto ei hun, a thros ei dŷ, ”
a thros holl dyrfa Iſrael. ”
18 Ac aed efe allan at yr allor yr hon [ſydd] ”
ger bron yr Arglwydd a gwnaed iawn arni, a ”
chymmered o waed y buſtach, ac o waed y bwch ”
a rhodded ar gyrn yr allor oddi amgylch. ”
19 A thaenelled arni o'r gwaed ſeith-waith ”
ai fŷs, a glanhaed hi, a ſancteiddied hi, oddi wrth ”
aflendid meibion Iſrael. ”
20 Pan ddarffo iddo buro y cyſſegr, a phabell ”
y cyfarfod, a'r allor, yna neſſaed y bwch ”
byw. ”
21 A goſoded Aaron ei ddwylaw ar ben y ”
bwch byw, a chyffeſſed arno holl anwiredd meibion ”
Iſrael, ai holl gamweddau hwynt, yn eu ”
holl bechodau, a rhodded hwynt ar ben y bwch, ”
ac anfoned [ef] yn llaw gŵr cymmwys i'r ”
anialwch. ”
22 Canys dwg y bwch eu holl anwiredd ”
hwynt arno ef i dir nailldueth am hynny hebrynged ”
efe y bwch i'r anialwch. ”
23 Yna deued Aaron i babell y cyfarfod a ”
dioſced y gwiſcoedd lliain, y rhai a wiſcodd efe ”
wrth ddyfod i'r cyſſegr, a gadawed hwynt yno. ”
24 A golched ei gnawd mewn dwfr, yn y ”
lle ſanctaidd a gwiſced ei ddillad ei hun, ac aed ”
allan, ac offrymmed ei boeth offrwm ei hun, a ”
phoeth offrwm y bobl, a gwnaed iawn troſto ei ”
hun, a thros y bobl. ”
25 A lloſged wêr y pech aberth ar yr allor. ”
26 A golched yr hwn a anfonodd y bwch ”
[i fod] yn afr ddiangol ei ddillad, ac golched ei ”
gnawd mewn dwfr, ac yna deued i'r gwerſyll. ”
27 A buſtach y pech aberth, a bwch y pech aberth ”
y rhai y dygir eu gwaed i wneuthur iawn ” Lefit.6.3.
yn y cyſſegr, a ddwg [vn] i'r tu allan i'r gwerſyll, ” Heb.13.11

Lefit.6.30. Heb.13.11 ſyll, *ac a loſgant eu crwyn hwynt, ai cnawd hwynt, ai biſwel hwynt mewn tân.

28 A golched yr hwn ai lloſco hwynt ei ddillad, golched hefyd ei gnawd mewn dwfr, ac wedi hynny deued i'r gwerſſyll.

29 A bydded [hyn] yn ddeddf dragywyddol i chwi, y ſeithfed mis, ar y decfed [dydd] o'r mis y cyſtuddiwch eich eneidiau, a dim gwaith nis gwnewch, y priodor ar dieithr yr hwn ſyddo yn ymdaith yn eich plith.

30 O herwydd y dydd hwnnw y gwna [yr offeiriad] iawn droſſoch, i'ch glanhau o'ch holl bechodau, [fel] y byddoch lân ger bron yr Arglwydd.

31 Sabboth gorffwyſtra yw hwn i chwi, yna chyſtuddiwch eich eneidiau, deddf dragywyddol [yw hyn.]

32 A'r offeiriad yr hwn a eneinio efe, a'r hwn a gyſſegro efe i offeiriadu yn lle ei dâd, a wna'r iawn, ac a wiſc y gwiſcoedd lliain [ſef] y gwiſcoedd ſanctaidd,

33 A bura y cyſſegr ſanctaidd, felly y pura efe babell y cyfarfod, a'r allor, ac y gwna iawn tros yr offeiriaid, a thros holl bobl y dyrfa.

34 A bydded hyn yn ddeddf dragywyddol i chwi am wneuthur iawn tros feibion Iſrael am eu pechodau oll * un waith yn y flwyddyn.
Exod.30.10. Ac efe a wnaeth megis y gorchymynnodd yr
Heb.9.10. Arglwydd wrth Moſes.

## PEN. XVII.

Gorchymyn dwyn pob aberth i ddrws y babel. 7 Gwahardd offrymmu i gythreuliaid. 10 Gwahardd bwytta gwaed. 15 A'r peth a fydd farw o honaw ei hun, a'r peth a ladd pryf.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Iſrael, a dywet wrthynt, dymma y peth yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd, gan ddywedyd:

3 Pob un o dŷ Iſrael yr hwn a laddo ŷch, neu heſbwrn, neu afr, o fewn y gwerſſyll, neu 'r hwn a laddo allan o'r gwerſſyll:

4 Ac heb ei ddwyn i ddrws pabell y cyfarfod, i offrymmu offrwm i'r Arglwydd, o flaen tabernacl yr Arglwydd, gwaed a fwrir yn erbyn y gŵr hwnw, gwaed a dywalltodd efe, a thorrir y gŵr hwnnw ymmaith o blith ei bobl.

5 O herwydd yr hwn beth, dyged meibion Iſrael eu haberthau y rhai y maent yn eu haberthu ar wyneb y maes, îe dygant hwynt i'r Arglwydd i ddrws pabell y cyfarfod, at yr offeiriad yr aberthant hwynt yn aberthau hedd i'r Arglwydd.

Exod.29.18. 6 A thaenelled yr offeiriad y gwaed ar all-
Lefit.4.31. or yr Arglwydd [wrth] ddrws pabell y cyfarfod, a lloſced y gwêr *yn arogl eſwyth i'r Arglwydd.

7 Ac nac aberthant eu haberthau mwy i gythreuliaid y rhai y buant yn putteinio ar eu hol: deddf dragywyddol fydd hyn iddynt, yn eu cenedlaethau.

8 Dywet gan hynny wrthynt, pwy bynnac o dŷ Iſrael, ac o'r dieithriaid (y rhai a ymdeithiant yn eich myſc) a offrymmo boeth offrwm, neu aberth [arall,]

9 Ac nis dwg ef i ddrws pabell y cyfarfod, iw offrymmu i'r Arglwydd, y torrir y gŵr hwnnw oddi wrth ei bobl.

10 A phwy bynnac o dŷ Iſrael ac o'r dieithr a ymdeithio yn eich myſc a fwytty ddim gwaed, rhoddaf fy wyneb yn erbyn yr enaid a fwytty y gwaed, a thorraf ef ymmaith o fyſc ei bobl.

11 O herwydd enioes y cnawd ſydd yn y gwaed a mi ai rhoddais i chwi ar yr allor, i wneuthur iawn tros eich eneidiau: o herwydd y gwaed hwn a wna iawn tros enaid.

12 Am hynny y dywedais wrth feibion Iſrael, na fwyttaed un enaid o honoch waed, a'r dieithr a ymdeithio yn eich myſc na fwyttaed waed.

13 A phwy bynnac o feibion Iſrael, neu o'r dieithr yr hwn a ymdeithio yn eu myſc a helio helfa o fwyſt-fil, neu o aderyn yr hwn a fwytteir, tywallted ymmaith ei waed ef, a chuddied ef a llwch.

14 O herwydd enioes pôb cnawd yw ei waed, yn lle ei enioes y mae efe, am hynny y
dywedais wrth feibion Iſrael, * na fwyttewch Geneſ.9.4.
waed un cnawd, o herwydd enioes pôb cnawd Lefit.3.17.
yw ei waed: pwy bynnac ai bwytty a dorrir ymmaith.

15 A phôb dyn a'r a fwytty furgyn neu ſclyfaeth, o briodor neu o ddieithr-ddyn, golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr, a bydded aflan hyd yr hwyr: yna glân fydd.

16 Ond os efe nis gylch [hwynt,] ac ni ylch ei gnawd: yna y dwg efe ei anwiredd.

## PEN. XVIII.

Gwahardd dilyn yr Aiphtiaid a'r Canaaneiaid. 6 Am briodi o fewn carenydd, neu gyfathrach. 19 Neu fyned at ferch yn ei miſ-glwyf. 20 Neu wneuthur godineb. 21 Neu gau-dduwiaeth. 22 Neu bechod y Sodomiaid.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Llefara wrth feibion Iſrael a dywet wrthynt, myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw.

3 Na wnewch yn ôl gweithred gwlâd yr Aipht, yr hon y trigaſoch ynddi: ac na wnewch yn ôl gweithred gwlâd Canaan yr hon yr ydwyf yn eich dwyn chwi iddi, ac na rodiwch yn eu deddfau hwynt.

4 Fy marnedigaethau myfi a wnewch, a'm deddfau a gedwch, gan rodio ynddynt: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw.

5 Ie cedwch fy neddfau am barnedigaethau, Ezec.20.11.
a'r * dyn yr hwn ai cadwo a fydd byw ynddynt: Rhuf.10.5.
myfi [ydwyf] yr Arglwydd. Gal.3.12.

6 Na neſſaed nêb at gyfneſſaf ei gnawd, i ddinoethi noethni: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

“ 7 Noethni dy dâd, a noethni dy fam, * na
Ezec.22.10. “ ddinoetha: dy fam yw hi na ddinoetha ei noethni
“ 8 * Na ddinoetha noethni gwraig dy dâd:
Lefit.20.11. “ noethni dy dâd [yw] hynny.
“ 9 [Am] noethni dy chwaer, merch dy dâd,
“ neu ferch dy fam, yr hon a anwyd gartref,
Ezec.22.11. “ neu a anwyd allan: * na ddinoetha ei noethni
“ hwynt.
“ 10 [Am] noethni merch dy fâb, neu ferch dy
“ ferch, na ddinoetha ei noethni hwynt, canys dy
“ noethni di [ydynt.]
“ 11 [Am] noethni merch gwraig dy dâd,
“ plentyn dy dâd, dy chwaer dithe yw hi, na ddino-
“ etha ei noethni hi.
Lefit.20.19. “ 12 * Na ddinoetha noethni chwaer dy dâd,
“ cyfneſſaf dy dâd [yw] hi.
“ 13 Na ddinoetha noethni chwaer dy fam,
“ canys cyfneſſaf dy fam [yw] hi.
“ 14 * Na noetha noethni brawd dy dâd, ſef
Lefit.20.20. “ na neſſa at ei wraig ef, dy fodryb [yw] hi.
“ 15 * Na noetha noethni dy waudd, gwraig
Ezec.22.11. Lefit.20.12. “ dy fâb yw hi, na noetha ei noethni hi.
Lefit.20.21. “ 16 * Na ddinoetha noethni gwraig dy
Mat.14.4. “ frawd, noethni dy frawd [yw] hynny.
“ 17 Na noetha noethni gwraig, ai merch, na
“ chymmer ferch ei mâb hi neu ferch ei merch hi, i
“ noethi ei noethni hi, ei chyfneſſaf hi yw y rhai
“ hyn, ſcelerder yw hyn.
“ 18 Hefyd na chymmer wraig yng-hyd ai
“ chwaer, iw chyſtuddio [hi] gan noethi noethni
“ honno: yng-hyd a hithe yn ei byw hi.
Ezec.22.10. “ 19 Ac * na neſſâ at wraig yn naillduaeth ei
“ haflendid, i noethi ei noethni hi.
“ 20 Ac * na ddod dy gydorweddiad i hadu
Lefit.15.24. Lefit.20.18. “ gyd a wraig dy gymydog, i fod yn aflân oi phle-
“ git.
Lefit.20.2. “ 21 Ac * na ddod o'th hâd i fyned trwy [dân]
“ i Moloch, ac na haloga enw dy Dduw: myfi
“ [ydwyf] yr Arglwydd.
“ 22 Ac * na orwedd gyd a gwryw, fel gor-
Leuit.20.13. “ wedd gyd a benyw, ffieiddra [yw] hynny.
Rhuf.1.26. “ 23 Ac * na ddod dy orweddiad yng-hyd ag
72. “ vn anifail, i fod yn aflân gyd ag ef: ac na ſafed
“ gwraig o flaen vn anifail i orwedd tano, cy-
Lefit.20.15. “ myſcedd [yw] hyny.
Deut.27.21. “ 24 Nac ymhalogwch yn yr holl bethau
“ hyn, canys yn hyn oll yr halogwyd y cenhedlo-
“ edd y rhai yr ydwyf yn eu gyrru allan o'ch bla-
“ en chwi.
“ 25 A'r wlâd a halogwyd, am hynny yr yd-
“ wyf yn ymweled ai hanwiredd yn ei herbyn, fel
“ y chwdo y wlâd ei thrigolion.
“ 26 Ond * cedwch chwi fy-neddfau, a'm bar-
Lefit.20.22. “ nedigaethau mau fi, ac na wnewch ddim o'r holl
“ ffiaid bethau hyn, y priodor, na'r dieithr-ddyn yr
“ hwn ſydd vn ymdaith yn eich myſc.
“ 27 O herwydd yr holl ffiaid bethau hyn a
“ wnaeth gwŷr y wlâd, yr hon [ſydd] o'ch blaen,
“ a'r wlâd a halogwyd.
“ 28 Fel na chwdo y wlâd chwithau, pan ha-
“ logoch hi, megis y chwda hi y genedl yr hon
[ſydd] o'ch blaen. ”
29 Canys pwy bynnac a wnel ddim o'r holl ”
ffiaidd bethau hyn, torrir yr eneidiau ai gwnelo ”
o blith eu pobl. ”
30 Am hynny cedwch fy-neddf mau fi, heb ”
wneuthur [yr vn] o'r deddfau ffiaidd y rhai a ”
wnaed o'ch blaen chwi, ac nac ymhalogwch yn- ”
ddynt: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw ”
chwi. ”

## PEN. XIX.

Adroddiad Cyfreithiau a gynhwyſir yn y dêc gorchymyn. ”

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, ”
gan ddywedyd: ”
2 Llefara wrth holl gynulleidfa meibion I- ”
ſrael, a dywet wrthynt: * byddwch ſanctaidd ” Lefit.11.44.
canys ſanctaidd [ydwyf] fi yr Arglwydd eich ” Lefit.20.7.
Duw chwi. ” 1.Pet.1.16.
3 Ofnwch bôb * vn ei fam, ai dâd, a * ched- ” Exod.20.12.
wch fy Sabbothau: yr Arglwydd eich Duw ”
[ydwyf] fi. ”
4 Na throiwch at eulynnod, ac na wnewch i ”
chwi dduwiau tawdd, yr Arglwydd eich Duw ”
[ydwyf] fi. ”
5 A phan aberthoch hedd aberth i'r Arglwyd ”
yn ôl eich ewyllys eich hun yr aberthwch hynny ”
6 Ar y dydd yr offrymmoch, neu drannoeth ”
y bwytteir ef, * a lloſger mewn tân yr hyn a we- ” Lefit.7.16.
ddillir hyd y trydydd dydd. ”
7 Ond os gan fwytta y bwytteir ef o fewn ”
y trydydd dydd, ffiaid fydd efe, ni byddir bodlon ”
iddo. ”
8 A'r hwn ai bwyttu a ddwg ei anwiredd, ”
am iddo halogi cyſſegredic [beth] yr Arglwyd, ”
a'r enaid hwnnw a dorrir ymmaith oddi wrth ei ”
bobl. ”
9 A phan gynhaiafoch gynhaiaf ei'ch tîr, * ” Lefit.23.22.
na feda yn llwyr gwrr dy faes, ac na chynnull ”
loffa dy gynhaiaf. ”
10 Na loffa hefyd dy winllan, ac na chynnull ”
rawn gweddill dy winllan, gâd hwynt i'r ”
tlawd ac i'r dieithr, yr Arglwydd eich Duw ”
chwi [ydwyf] fi. ”
11 Na * ladratewch, ac na ddywedwch gel- ” Exod.20.15
wydd, ac na thwyllwch bôb vn ei gymydog. ” Epheſ.4.28
12 Ac * na thyngwch i'm enw mau fi yn a- ” Zach.8.16.
nudon, [na] haloga enw dy Dduw: yr Arglw- ” Exod.20.7. Deut.5.11.
ydd [ydwyf] fi. ” Mat.5.34.
13 Na * thrawſ-attal, ac na cham ddwg oddi ” Deut.24.14.
ar dy gymydog, na thriged cyflog y gweithwr ” Tob.4.15.
gyd a thi hyd y boreu. ”
14 Na * chabla y byddar, ac na ddod dram- ” Deut.18.27.
gwydd o flaen y dall: ond ofna dy Dduw: yr Ar- ”
glwydd [ydwyf] fi. ”
15 Na * wnewch gam mewn barn, na dder- ” Exod.23.3.
byn wyneb y tlawd, ac na pharcha wyneb y ca- ” Deut.1.17.
darn: barna dy gymydog mewn cyfiawnder. ” Deut.16.19. Iam.2.2.
16 Ac na rodia yn ethrodwr yn myſc dy ” Diarc.23.23.
bobl, * na ſaf yn erbyn gwaed dy gymydog: yr ” 1.Timo.5.13
Arglwydd [ydwyf] fi. ”
17 Na * chaſâ dy frawd yn dy galon, ” 1.Ioan.2.11.

Mat.5.46. Mat.18.15. Eccl.19.10. Rhuf.13.8. Rhuf.12.7. Gal.5.14. Iam.2.8.

gan * geryddu cerydda dy gymydog, ac na ddioddef bechod ynddo.

18 Na ddiala, ac na chadw lîd i feibion dy bobl, ond* câr dy gymydog megis ti dy hun: yr Arglwydd [ydwyf] fi.

19 Cedwch fy neddfau, na wna i'th anifeiliaid gydio o amryw rywiogaeth, ac na hau dy faes ag amryw had, ac nac aed am danat *ddilledyn cymmyſc o amryw ddefnydd.

Deut.22.11.

20 A phan fyddo i ŵr a wnelo a benyw, a hithe yn forwyn gaeth wedi ei dyweddio i ŵr ac heb ei rhyddhau ddim, neu heb roddi rhydddid iddi, bydded [iddynt] gurfa, ac na ladder hwynt, am nad oedd hi rydd.

dyged

21 A [illegible] efe yn aberth tros ei gamwedd i'r Arglwydd i ddrws pabell y cyfarfod hwrdd dros gamwedd.

22 A gwnaed yr offeiriad iawn troſto a'r hwrdd tros gamwedd, ger bron yr Arglwydd am ei bechod yr hwn a bechodd, a maddeuir iddo am ei bechod yr hwn a wnaeth efe.

23 A phan ddeloch i'r tîr, a phlannu o honoch bôb pren ymborth, yna torrwch ymmaith ei aſlendid ef, ſef ei ffrwyth ef: tair blynedd y bydd efe aſlan i chwi: na fwyttaer efe.

24 A'r bedwaredd flwyddyn y bydd ei holl ffrwyth yn ſancteiddrwydd moliant i'r Arglwydd.

25 A'r bummed flwyddyn y bwyttewch ei ffrwyth fel y chwanego efe ei gnwd i chwi: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw.

26 Na fwyttewch o'r gwaed, nac ofer-goeliwch, ac nac arferwch hudoliaeth.

Lefit.21.5.

27 Na* thalgrynnwch odrau eich pen, ac na thorr gwrr dy farf.

Deut.14.1.

28 Ac na roddwch* rwygiad yn eich cnawd am un marw, ac na roddwch brint nôd arnoch: yr Arglwydd [ydwyf] fi.

29 Na haloga dy ferch gan beri iddi butteinio, rhac putteinio y tîr, a llenwi y wlâd o ſcelerder.

30 Cedwch fy Sabbothau, a pherchwch fyng-hyſſegr: yr Arglwydd [ydwyf] fi.

Lefit.20.6. Deut.18.10. 1.Sam.28.9.

31 Nac edrychwch am ddewiniaid, ac nac ymgynghorwch a'r brud-wyr, i ymhalogi oi plegit: yr Arglwydd eich Duw [ydwyf] fi.

32 Cyfod ger bron penwynni, a pharcha wyneb henuriad, ac ofna dy Dduw: yr Arglwydd [ydwyf] fi.

33 A phan ymdeithio dieithrddyn yng-hyd a thi yn eich gwlâd: na flinwch ef.

34 Bydded y dieithr i chwi yr hwn a ymdeithio yn eich plith, fel yr un a hanffod o honoch, a châr ef fel ti dy hun: o herwydd dieithraid fuoch yng-wlad 'r Aipht, yr Arglwydd eich Duw [ydwyf] fi.

35 Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys nac ar feſſur.

Diarch.11.1. Dihar.16.11. Diarch.20.10.

36 Bydded i wch* gloriannau cyfiawn, gerric cyfiawn, Epha gyfiawn, a Hin gyfiawn: yr Arglwydd eich Duw [ydwyf] fi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht.

37 Cedwch chwithau fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt: yr Arglwydd [ydwyf] fi.

## PEN. XX.

Cyfraith yn erbyn yrhai a roddant eu plant i Moloch. 6 neu a ymgynghorant a dewiniaid. 19 am inſeſt neu loſc-ach. 27 cosbedigaeth y dewiniaid.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

Lefit.18.21.

2 Dywet hefyd wrth feibion Iſrael, pob un o feibion Iſrael, neu o'r dieithr, a ymdeithio yn Iſrael yr hwn a * roddo oi hâd i Moloch a leddir yn farw, pobl y tîr ai llabyddiant ef a cherric.

3 A mi a roddaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw, ac ai torraf o fyſc ei bobl: am iddo roddi oi hâd i Moloch, i aſlanhau fyng-hyſſegr, ac i halogi fy enw ſanctaidd.

4 Ac os pobl y wlâd gan guddio a guddiant eu llygaid oddi wrth y dyn hwnnw (pan roddo efe ei hâd i Moloch) rhac ei ladd ef.

5 Yna y goſodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw ac yn erbyn ei dylwyth, a thorraf ymmaith ef, a phawb a ddilynant ei butteindra ef, gan butteinio yn ol Moloch, o fyſc eu pobl.

6 A'r dŷn yr hwn a edrycho am ddewiniaid, ac am frud-wŷr, gan butteinio ar eu hol hwynt, rhoddaf fy wyneb yn erbyn y dŷn hwnnw hefyd, a thorraf ef ymmaith o fyſc ei bobl.

Lefit.11.44. 1.Peter 1.16.

7 Ymſancteiddiwch chwithau,* a byddwch ſanctaidd canys myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

8 Cedwch hefyd fy-neddfau, a gwnewch hwynt, myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich ſancteiddudd.

Exod.21.17. Diarch.20.20. Mat.15.4. Ecclus.3.2.

9 Os bydd neb a ddirmygo ei dâd neu ei fam lladder efe yn farw: ei dâd neu ei fam a ddirmygodd efe, ei waed [fydd] arno ei hun.

Deut.22.22.

10 A'r gŵr yr hwn a odinebo gyd a gwraig gŵr [arall] ſef yr hwn a odinebo gyd a gwraig ei gymydog lladder yn farw y godinebwr a'r odineb-wraig.

Lefit.18.8.

11 A'r gŵr yr hwn a orweddo gyd a gwraig ei dâd, * a noethodd noethni ei dâd, llatder yn feirw hwynt ill dau, eu gwaed [fydd] arnynt eu hunain.

Lefit.18.15.

12 Am y gŵr yr hwn a orweddo yng-hyd ai waudd lladder yn feirw hwynt ill dau, cymyſcedd a wnaethant, eu gwaed [fydd] arnynt eu hunain.

Lefit.18.22.

13 A'm y gŵr yr hwn a orweddo gyd a gwr, fel gorwedd gyd a gwraig, ffieidd-dra a wnaethant ill dau, lladder hwynt yn feirw, eu gwaed [fydd] arnynt eu hunain.

14 A'm y gŵr a gymmero wraig, ai mam, ſcelerder [yw] hynny: lloſcant ef a hwynteu yn tân, ac na fydded ſcelerder yn eich myſc.

Lefit.18.23. Deut.27.21. 15*A lladder yn farw y gŵr yr hwn a ymgydio ag anifail, lladdant hefyd yr anifail.

16 A'r wraig yr hon a êl at un anifail i orwedd tano, lladd di y wraig a'r anifail hefyd, lladder hwynt yn feirw: eu gwaed [fydd] arnynt eu hunain.

17 A'r gŵr yr hwn a gymmero ei chwaer, merch ei dâd, neu ferch ei fam, ac efe yn gweled ei noethni hi, a hithe'n gweled ei noethni yntef, gwradwydd [yw] hynny, torrer hwythau ymmaith yng-olwg meibion eu pobl: noethni ei chwaer a noethodd efe, efe a ddwg ei anwiredd.

Lefit.18.19. 18 A'r*gŵr yr hwn a orweddo gyd a gwraig glâf oi miſglwyf, ac a noetha ei noethni hi, ei diferlif hi a ddadcuddiodd efe, a hithe a ddadcuddiodd ddiferlif ei gwaed ei hun: am hynny torrer hwynt ill dau o fyſc eu pobl.

19 Ac na noetha noethni chwaer dy fam, neu chwaer dy dad, o herwydd ei gyfneſſaf ei hun y mae [y cyfryw] yn ei noethi: dygant eu hanwiredd.

20 A'r gŵr a orweddo gyd a gwraig ei ewythr frawd ei dâd, a noetha noethni ei ewythr eu pechod a ddygant, byddant feirw yn ddiblant.

21 A'r gŵr yr hwn a gymmero wraig ei frawd (yſcariaeth [yw] hynny) a noethodd noethni ei frawd, diblant fyddant.

22 Am hynny cedwch fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau, a gwnewch hwynt, fel na chwdo y wlâd chwi yr hon yr ydwyf yn eich dwyn iddi i breſſwylo ynddi.

Lefit.18.28. 23 Ac na rodiwch yn neddfau y genedl yr hon yr ydwyf yn ei bwrw allan o'ch blaen chwi, o herwydd yr holl bethau hynn a wnaethant, *am hynny y ffieiddiais hwynt.

Deut.9.5. 24 Ac wrthych y dywedais, chwi a etifeddwch eu tir hwynt, mi ai rhoddaf i chwi iw etifeddu: gwlâd yn llifeirio o laeth a mêl: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi yr hwn a'ch neillduais chwi oddi wrth y bobloedd.

Lefit.11.2. Deut.14.4. 25 *Roddwch chwithau wahaniaeth rhwng yr anifail glân a'r aflân, a rhwng yr aderyn aflân a'r glân, ac na wnewch eich eneidiau yn ffiaidd, o herwydd anifail, neu o herwydd aderyn, neu o herwydd dim oll a ſathro 'r ddaiar, yr hwn a neillduais i chwi iw gyfrif yn aflân.

26 Byddwch chwithau ſanctaidd i mi: o herwydd myfi 'r Arglwydd [ydwyf] ſanctaidd, ac a'ch neillduais chwi oddi wrth y bobloedd i fod yn eiddo fi.

Deut.18.10. 1.Sam.28.9. 27 Yn ŵr neu yn wraig os bydd ynddynt *yſpryd dewiniaeth neu frud hwynt a leddir yn farw, a cherric y llabyddiant hwynt, eu gwaed [fydd] arnynt eu hunain.

## PEN. XXI.

Cyfraith am yr offeiriaid.

A Dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, llefara wrth yr offeiriaid meibion Aaron, a dywet wrthynt: nac ymhaloged [neb] wrth un marw ym myſc ei bobl:

2 Ond wrth ei gyfneſaf agos iddo: wrth ei fam, wrth ei dâd, ac wrth ei fâb, ac wrth ei ferch, ac wrth ei frawd.

3 Ac wrth ei chwaer o forwyn agos iddo, yr hon ni fu eiddo gŵr: wrth honno yr ymhaloga efe.

4 Nac ymhaloged [wrth] bennaeth ym myſc ei bobl, iw aflanhau ei hun.

Lefit. 19.27. 5 Na*wnânt foelni ar eu pennau, ac nac eilliant gyrrau eu barfau, ac na rwygant rwygiad ar ei cnawd.

6 Sanctaidd fyddant iw Duw, ac na halogant enw ei Duw: o herwydd offrymmu y maent ebyrth tanllydd 'r Arglwydd bara eu Duw, am hynny byddant ſanctaidd.

1.Tim. 3.11. 7 Na*chymmerant buttain-wraig neu un halogedic yn wraig, ac na chymmerant wraig wedi yſcar oddi wrth ei gŵr, o herwydd ſanctaidd yw efe iw Dduw.

8 A chyfrif di ef yn ſanctaidd, o herwydd bara dy Dduw di y mae efe yn ei offrymmu, bydded ſanctaid it, o herwydd ſanctaidd [ydwyf] fi 'r Arglwydd eich ſancteiddudd.

9 A phan ddechreuo merch un offeiriad butteinio, halogi ei thâd y mae, lloſger hi mewn tân.

10 A'r offeiriad mwyaf oi frodyr, yr hwn y tywalldwyd olew 'r eneiniad ar ei ben, ac a gyſſegrodd ei law i wiſco y gwiſcoedd, na ddioſced oddi am ei ben, ac na rwyged ei ddillad.

11 Ac na ddeued at gorph un marw, nac ymhaloged wrth ei dâd, nac wrth ei fam.

12 Ac nac aed allan o'r cyſſegr fel na halogo gyſſegr ei Dduw, am [fod] coron olew eneiniad ei Dduw arno ef: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

13 A chymmered efe wraig yn ei morwyndod.

14 Na phrioded efe y rhai hynn [ſef] gwraig weddw, na gwraig wedi yſcar, na phuttain halogedic: onid cymmered forwyn oi bobl ei hun yn wraig.

15 Ac na haloged ei hâd ym myſc ei bobl: canys myfi [ydwyf] yr Arglwydd ei ſancteiddudd ef.

16 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

17 Llefara wrth Aaron gan ddywedyd: na neſſaed un o'th hâd di drwy eu hoeſoedd yr hwn y byddo anaf arno, i offrymmu bara ei Dduw ef.

2.Samu. 5.8. 18 Canys*ni chaiff un gŵr yr hwn y byddo anaf arno neſſau: y gŵr dall, neu yr cloff, neu 'r rhyfyr, neu rhy hîr [ei aelod.]

19 Neu 'r gŵr yr hwn y byddo iddo droed twnn, neu law donn.

20 Neu a fyddo yn gefn-grwm, neu a magl, neu byſſen ar ei lygad, neu 'n grachlyd, neu yn glafrllyd, neu yn hittrwm.

21 Na neſſaed un gŵr o hâd Aaron yr offeiriad

riad yr hwn y byddo anaf arno i offrymmu ebyrth tanllyd yr Arglwydd: anaf ſydd arno, na neſſaed i offrymmu bara ei Dduw ef.

22 Bara ei Dduw ef o'r [pethau] ſanctaidd cyſſegredic, ac o'r [pethau] cyſſegredic a gaiff efe ei fwytta.

23 Etto na ddeued at y wahan-lenn, ac na neſſaed at yr allor, am [fod] anaf arno, ac na haloged fyng-hyſſegr: canys myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu ſancteiddudd hwynt.

24 A llefarodd Moſes [hynny] wrth Aaron, ac wrth ei feibion, ac wrth holl feibion Iſrael.

## PEN. XXII.

Pwy ni chaent fwytta o'r offrymmau, pa fodd, pa beth, a pha amſer, yr offrymmyd.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion, am iddynt ymneillduo oddi wrth bethau cyſſegredic meibion Iſrael, ac na halogant fy enw ſanctaidd, yn y pethau y rhai y maent hwy yn eu cyſſegru i mi: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

3 Dywet wrthynt, pwy bynnac o'ch holl hiliogaeth trwy eich oeſoedd a neſſao at y pethau cyſſegredic y rhai a gyſſegro meibion Iſrael i'r Arglwydd ai aflendid arno, torrir ymmaith yr enaid hwnnw oddi ger fy mron: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

Lefit.15.8. 4 *Na fwyttaed nêb o hiliogaeth Aaron o'r pethau cyſſegredic, ac ynte yn wahan-glwyfus neu yn ddiferllyd, hyd oni lanhaer ef: a'r hwn a gyffyrddo wrth ddim wedi ei halogi wrth vn marw, neu wrth yr hwn yr êl oddi wrtho ddeſcynniad hâd,

5 Neu 'r vn a gyffyrddo ag vn ymluſciad yr hwn yr ymhalogo efe wrtho, neu wrth ddyn yr hwn yr ymhaloga efe wrtho, yn ei holl aflendid.

6 A'r dyn yr hwn a gyffyrddo ag ef a fydd aflan hyd yr hwyr, ac na fwyttaed o'r pethau cyſſegredic, oddieithr iddo olchi ei gnawd mewn dwfr.

7 A phan fachludo 'r haul glân fydd, ac wedi hynny bwyttaed o'r pethau cyſſegredic, canys ei fwyd ef [yw] hwn.

Exod.22.31. Ezec.44.31. 8 Ac * na fwyttaed o anifail wedi marw ei hun, neu wedi ei ſclyfaethu, i fod yn aflan oi blegit: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

9 Ond cadwant fy neddf i, ac na ddygant bechod [bôb vn] arno ei hun, i farw oi blegit pan halogant hi: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu ſancteiddudd hwynt.

10 Ac na fwytaed vn dieithr-ddyn beth cyſſegredic: alltud yr offeiriad, a'r gwas cyflog ni chaiff fwyta y peth cyſſegredic.

11 Ond pan brynno 'r offeiriad ddŷn yn werth ei arian, hwnnw a gaiff fwyta o honaw a'r hwn a âner [yn] ei dŷ ef: y rhai hynn a gânt fwyta oi fara ef.

12 A merch yr offeiriad pan fyddo hi eiddo gŵr dieithr ni chaiff hi fwyta o offrwm cyſſegredic.

13 Ond merch yr offeiriad os gweddw fydd hi, neu wedi yſcar ac heb blant iddi, ac wedi dychwelyd i dŷ ei thâd a gaiff fwyta o fara ei thâd, *megis [yn] ei hieuenctyd, ac ni chaiff neb dieithr fwyta o honaw. Lefit.11.14.

14 A phan fwytu vn beth cyſſegredic mewn anwybod, yna chwaneged ei bummed rann atto, a rhodded y peth cyſſegredic i'r offeiriad.

15 Felly na halogant gyſſegredic [roddion] meibion Iſrael y rhai a offrymmant i'r Arglwydd.

16 Ac na wnant iddynt ddwyn coſp camwedd gan fwytta o honynt eu cyſſegredic bethau hwynt: o herwydd myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu ſancteiddudd.

17 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

18 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion ac wrth holl feibion Iſrael, a dywet wrthynt, pwy bynnac o dŷ Iſrael ac o ddieithr yn Iſrael yr hwn a offrymmo ei offrwm yn ôl ei holl addunedau, ac yn ol ei holl roddion gwir-fodd y rhai a offrymant i'r Arglwydd yn boeth offrwm:

19 Offrymmwch wrth eich ewyllys eich hun vn gwryw perffaith-gwbl o'r eidionnau, o'r defaid, neu o'r geifr,

20 Nac offrymmwch ddim yr hwn [y byddo] anaf arno, o herwydd ni bydd efe yn gymeradwy troſoch.

21 A * phan offrymmo gŵr aberth hedd i'r Arglwydd gan naillduo adduned, neu rodd ewyllyſgar o'r eidionnau, neu o'r praidd, bydded berffaith-gwbl fel y byddo gymeradwy: na fydded vn anaf arno. Deut.15.21.

22 Y dall neu y briwedic, neu yr anafus, neu y dafadennoc, neu yr crachlyd, neu 'r clafrllyd, nac offrymmwch hwynt i'r Arglwydd, ac na roddwch aberth tanllyd o honynt ar allor yr Arglwydd.

23 A'r eidion, neu 'r ddafad a fyddo wedi eſtyn neu gwttogi [y gewyn iddo,] gellwch ei offrymmu yn offrwm gwir-fodd, ond tros adduned ni bydd cymeradwy. Lefit.21.18.

24 Nac offrymmwch ychwaith i'r Arglwydd vn wedi llethu, ne yſſigo, nêu wedi tynnu 'n rhydd, neu dorri ymmaith [ei eirin,] ac na wnewch yn eich tîr [y fath beth.]

25 Ac nac offrymmwch o law vn dieithr fwyd eich Duw o'r holl bethau hynn: canys y mae eu llygrédigaeth ynddynt, anaf [ſydd] arnynt, ni byddant gymeradwy troſoch.

26 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

27 Pan aner eidion, neu ddafad, neu afr, bydded ſaith niwrnod tann ei fam, a'r wythfed dydd, ac o hynny allan y bydd cymeradwy yn offrwm o aberth tanllyd i'r Arglwydd.

28 Ac * am fuwch neu ddafad, na leddwch hi Deut.22.6.

ai llwdn, yn yr un dydd.

29 A phan aberthoch aberth diolch i'r Arglwydd offrymmwch wrth eich ewyllys eich hunain.

Lefit.7.15. 30 Y dydd hwn y bwytteir ef, na weddillwch o honaw hyd y borau: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

31 Cedwch chwithau fyng-orchymynnion a gwnewch hwynt: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

32 Ac na halogwch fy enw ſanctaidd, ond ſancteiddier fi ym myſc meibion Iſrael, myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich ſancteiddudd,

33 Yr hwn a'ch dygais chwi allan o dîr yr Aipht i fod yn Dduw i chwi, myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

## PEN. XXIII.

Gwyliau y Sabboth, 5 Y Paſc, 6 Y barâ croiw, 10 Y ffrwythau cyntaf, 16 Y Sul-gwynn. 24 Yr vd-cyrn, 34 a'r Pebyll.

LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd

2 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt, gŵyliau'r Arglwydd y rhai a gyhoeddwch yn gymmanfeudd ſanctaidd, [ydynt] fyng-ŵyliau hynn.

3 Chwe diwrnod y gwneir gwaith, a'r ſeithfed dydd y bydd Sabboth gorphywyſ-dra [ſef] cymmanfa ſanctaidd, dim gwaith nis gwnewch Sabboth [yw] efe i'r Arglwydd, yn eich holl drig-fannau. Exod.20.9.

4 Dymma ŵyliau'r Arglwydd, y cymmanfeudd ſanctaidd y rhai a gyhoeddwch yn eu tymmor.

5 O fewn y mîs cyntaf ar y pedwerydd [dydd] ar ddec o'r mîs yn y cyfnos [y bydd] Paſc yr Arglwydd.

Exod.12.15. Num.28.17. 6 A'r pymthecfed dydd o'r mîs hwnnw y bydd gŵyl y bara croiw i'r Arglwydd, ſaith niwrnod y bwyttewch fara croiw.

7 Ar y dydd cyntaf y bydd iwch gymmanfa ſanctaidd, dim caeth-waith ni chewch wneuthur.

8 Ond offrymmwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd ſaith niwrnod, ar y ſeithfed dydd [bydded] cymmanfa ſanctaidd, na wnewch ddim caeth-waith.

9 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd: llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt,

10 Pan ddeloch i'r tîr yr hwn a roddaf i chwi, a medi o honoch ei gynhaiaf, yna dygwch yſcub blaen-ffrwyth eich cynhaiaf at yr offeiriad.

11 Cwhwfaned yntef, yr yſcub ger bron yr Arglwydd i'ch gwneuthur yn gymmeradwy, trannoeth wedi yr Sabboth y cwhwfana'r offeiriad hi.

12 Ac offrymmwch ar y dydd y cwhwfaner yr yſcub oen blwydd perffaith-gwbl yn boeth offrwm i'r Arglwydd.

13 Ai fwyd offrwm [o] ddwy ddecfed rann [Epha] o beillied wedi ei gymmyſcu mewn olew yn aberth tanllyd i'r Arglwydd, yn arogl eſmwyth: ai ddiod offrwm o bedwerydd rann Hin o wîn.

14 Bara hefyd nac ŷd wedi ei graſſu na thwyſennau îr, ni chewch fwyta hyd gorph y dydd hwnnw nes dwyn o honoch offrwm eich Duw, deddf dragywyddol drwy eich cenedlaethau yn eich holl drig-fannau [fydd hynn]

15 A chyfrifwch i chwi o drannoeth wedi'r Sabboth, o'r dydd y dygoch yſcub y cwhwfan ſaith Sabboth cyflawn fyddant.

16 Hyd trannoeth wedi y ſeithfed Sabboth y cyfrifwch ddeng-nhiwrnod a deugain, ac offrymmwch fwyd offrwm newydd i'r Arglwydd

17 A dygwch o'ch trig-fannau ddwy dorth gwhwfan, dwy ddecfed rann [Epha] o beillied fyddant, yn lefeinllyd y pobir hwynt) yn flaen-ffrwyth i'r Arglwydd.

18 Ac offrymmwch gyd a'r bara ſaith oen blwyddiaid perffaith-gwbl, ac un buſtach ieuangc, a dau hwrdd, poeth offrwm i'r Arglwydd fyddant hwynt, ai bwyd offrwm ai diod offrwm [ac] aberth tanllyd o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

19 Yna offrymmwch un bwch geifr yn bech aberth, a dau oen blwyddiaid yn aberth hedd.

20 A chwhwfaned yr offeiriad hwynt yng-hyd a bara y blaen-ffrwyth, yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd yng-hyd ar ddau oen: cyſſegredic i'r Arglwydd [ac] eiddo yr offeiriad fyddant.

21 A chyhoeddwch, o fewn corph y dydd hwnnw y bydd cymanfa ſanctaidd i chwi, dim caeth-waith nis gwnewch: deddf dragwyddol yn eich holl drig-fannau drwy eich cenhedlaethau [fydd hynn.]

22 A phan fedoch gynhaiaf eich tîr, na lwyrfeda gwrr dy faes, ac na loffa dy gynhaiaf, gâd hwynt i'r tlawd a'r dieithr: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi. Lefit.19.9. deut.24.19.

23 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſe, gan ddywedyd:

24 Llefara wrth feibion Iſrael gan ddywedyd: ar y ſeithfed mîs, ar y [dydd] cyntaf o'r mîs y bydd i chwi Sabboth, yn goffadwriaeth caniad udcyrn, [a] chymmanfa ſanctaidd.

25 Dim caeth-waith nis gwnewch, ond offrymmwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd.

26 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

27 Ond y decfed [dydd] o'r ſeithfed mîs hwn, dydd cymmod yw efe, cymmanfa ſanctaidd fydd i chwi, yna cyſtuddiwch eich eneidiau, ac offrymmwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd. Lefit.16.30. Num.29.7.

28 Ac na wnewch ddim caeth-waith o fewn corph y dydd hwnnw, o herwydd dydd cymmod yw efe, i wneuthur iawn troſoch ger bron yr Arglwydd eich Duw.

29 Canys pôb enaid yr hwn ni chyſtuddier o fewn corph y dydd hwn a dorrir ymmaith o ddi

wrth ei bobl.

30 A phob enaid a wnelo ddim gwaith o fewn corph y dydd hwn, difethaf yr enaid hwnnw hefyd o fyſc ei bobl.

31 Na wnewch ddim gwaith: deddf dragywyddol drwy eich cenhedlaethau yn eich holl drig-fannau[yw hynn.]

32 Sabboth gorphywyſdra[yw]efe i chwi, cyſtuddiwch chwithau eich eneidiau ar y nawfed[dydd] o'r mîs yn yr hwyr, o hwyr i hwyr y cedwch eich Sabboth.

33 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

34 Llefara wrth feibion Iſrael gan ddywedyd, ar y pymthecfed dydd o'r ſeithfed mis hwn, y bydd gŵyl y pebyll ſaith niwrnod i'r Arglwydd. Num.29.12. ioan.7.2.

35 Ar y dydd cyntaf [y bydd] cymmanfa ſanctaidd: dim caeth-waith nis gwnewch.

36 Saith niwrnod yr offrymmwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd, ar yr wythfed dydd y bydd cymmanfa ſanctaidd i chwi: yna offrymmwch ebyrth tanllyd i'r Arglwydd, vchel-ŵyl yw hi, na wnewch ddim caeth-waith.

37 Dymma wyliau 'r Arglwydd y rhai a gyhoeddwch yn gymmanfeudd ſanctaidd i offrymmau i'r Arglwydd ebyrth tanllyd, offrwm poeth, bwyd offrwm, aberth, a diod offrwm, dogn[pob]dydd yn ei ddydd.

38 Heb law Sabbothau 'r Arglwydd ac heb law ich rhoddion chwi, ac heb law eich holl addunedau, ac heb law eich holl offrymmau gwirfodd y rhai a rhoddochi i'r Arglwydd.

39 Etto ar y pymthecfed dydd o'r ſeithfed mîs, pan gynhulloch ffrwyth eich tîr cedwch ŵyl yr Arglwydd ſaith niwrnod, [bydded] gorphywyſdra ar y dydd cyntaf, a gorphywyſdra ar yr wythfed dydd.

40 A'r dŷdd cyntaf cymmerwch i chwi ffrwyth pren prydferth, canghennau palmwydd a brîg pren caead-frig, a helig afon, ac ym lawenhewch ger bron yr Arglwydd eich Duw ſaith niwrnod.

41 A chedwch hon yn ŵyl i'r Arglwydd ſaith niwrnod yn y flwyddyn, deddf dragywyddol yn eich cenhedlaethau [yw]mai ar y ſeithfed mîs y cedwch hi yn ŵyl.

42 Mewn bythod yr arhoſwch ſaith niwrnod, pôb priodor yn Iſrael a drigant mewn bythod.

43 Fel y gwyppo eich cenhedlaethau chwi mai mewn bythod y perais i feibion Iſrael drigo pan ddygais hwynt allan o dir yr Aipht: myfi [ydwyf]yr Arglwydd eich Duw.

44 A thraethodd Moſes ŵyliau 'r Arglwydd wrth feibion Iſrael.

## PEN. XXIIII.

1 Olew y luſernau. 10 Coſpedigaeth y cabludd. 17 Cyfraith y cyffelyb.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Gorchymyn i feibion Iſrael ddwyn attat olew oliwydden pur coethedic yn oleuni, i beri i'r luſernau gynneu bôb amſêr. Exod.27.20.

3 O'r tu allan i wahan-len y deſtiolaeth ym mhabell y cyfarfod y trefna Aaron ef o hwyr hyd forau ger bron yr Arglwydd bôb amſer, deddf dragywyddol drwy eich cenhedlaethau [yw hynn.]

4 Ar y canhwyllbren pûr y trefna efe y luſernau ger bron yr Arglwydd bôb amſêr. Exod.25.31.

5 A chymmer beilliad a phoba ef yn ddeuddec teiſſen: dwy ddecfed ran[Epha] fydd pôb teiſſen.

6 A goſot hwynt yn ddwy rês, chwech [yn] y rhês, ar y bwrdd pur ger bron yr Arglwydd. Rxod.25.30.

7 A dod ti thus pur ar y rhesau, fel y byddo yn fara coffadwriaeth,[ac]yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

8 Ar bôb dydd Sabboth y trefna efe hynn ger bron yr Arglwydd bôb amſêr, yn gyfammod tragywyddol oddi wrth feibion Iſrael.

9 A bydd eiddo Aaron ai feibion, hwynt ai bwyttu yn y lle ſanctaidd, canys ſancteidd-beth cyſſegredic yw iddo ef o ebyrth tanllyd yr Arglwydd[drwy]ddeddf dragywyddol. Exod,29.33. leſit.8.31. mat.12.4.

10 A mab gwraig o Iſrael, a hwnn yn fab gŵr o'r Aipht, a aeth allan ym myſc meibion Iſrael, a mab yr Iſraelites, a gŵr o Iſrael a ymgynhennaſant yn y gwerſyll.

11 A mab y wraig o Iſrael a felldithiodd enw[yr Arglwydd,]ac a gablodd: yna y dygaſant ef at Moſes, ac enw ei fam oedd Selomith merch Dibri o lwyth Dan.

12 A goſodaſant ef yng-harchar nes hyſbyſu iddynt o enau 'r Arglwydd[beth a wnaent.] Num.15.34.

13 Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

14 Dug y cabludd i'r tu allan i'r gwerſyll, a rhodded pawb ai clywſant ef eu dwylo ar ei benn ef, a llabyddied yr holl gynnulleidfa ef. Deut.13.9. deut.17.7.

15 A llefara wrth feibion Iſrael, gan ddywedyd: pôb vn pann gablo ei Dduw a ddwg ei bechod.

16 A lladder yn farw yr hwnn a felldithio enw 'r Arglwydd, yr holl gynnulleidfa gan labyddio ai llabyddiant ef: lladder yn gyſtal y dieithr a'r priodor, pan gablo efe enw['r Arglwydd.]

17 A phan laddo neb ddŷn, lladder yntef yn farw. Exod.21.12.

18 A'r hwn a laddo anifail, taled efe vn byw am dano.

19 A phan roddo vn anaf ar ei gymydog, fel y gwnaeth gwneler iddo.

20 Torriad am dorriad, llygad am lygad, dant am dant, megis y rhoddes anaf ar ddŷn, felly rhodder arno yntef. Exod.21.24. deut.19.21. mat.5.38.

21 A'r hwn a laddo anifail ai tâl, a laddo ddŷn a leddir.

22 Bydded vn farn i chwi bydded i'r dieithr Exod.12.49.

“ fel i'r priodor, myſi[ydwyf] yr Arglwydd eich
“ Duw.
“ 23 Yna y mynegodd Moſes[hyn] i feibion
“ Iſrael, a hwynt a ddugaſant ẏ cabludd i'r tu
“ allan i'r gwerſyll, ac ai llabyddiaſant ef a cherric,
“ felly meibion Iſrael a wnaethant megis y
“ gorchymynodd yr Arglwydd wrth Moſes.
“
“
### “ PEN. XXV.
“ Sabboth y ſeithfed flwyddyn. 8 Y Iubili yn y ddecfed
“ flwyddyn a deugain. 14 Gwerthiad a gollyngdod
“ tiroedd, tai, a dynion.
“ LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes
“ ym mynydd Sinai, gan ddywedyd:
“ 2 Llefara wrth feibion Iſrael a dywet wrthynt,
“ pan ddeloch i'r tîr yr hwn a roddaf i chwi,
“ yna gorphywyſed y tîr [bydded] Sabboth i'r
“ Arglwydd.
Exod.23.10. “ 3 Chwe blynedd yr heui dy faes, a chwe
“ blynedd y torri dy winllan ac y cescli ei chnwd,
“ 4 Ac ar y ſeithfed flwyddyn y bydd Sabboth
“ gorphywyſfa i'r tîr; [ſef] Sabboth yr
“ Arglwydd: na haua dy faes, ac na thorr dy winllan.
“
“ 5 Na chynhaiaſa yr hynn a dyfo o honaw ei
“ hun, ac na chynnull dy rawnwin gwahanedic,
“ bydded yn flwyddyn orphywyſfa i'r tîr.
“ 6 Ond bydded[ffrwyth] Sabboth y tîr yn
“ ymborthi chwi,[ſef] i ti, ac i'th waſanaethwr, ac
“ i'th waſanaeth ferch, ac i'th wenidog cyflog, ac
“ i'th alltud yr hwn a ymdeithio gyd a thi.
“ 7 Ith anifail hefyd, ac i'th fwyſt-fil, yr hwn
“ [fydd] yn dy dîr y bydd ei holl gnwd yn ymborth.
“
“ 8 Cyfrif hefyd it ſaith Sabboth o flynyddoedd,
“ [ſef] ſaith mlynedd ſaith waith, dyddiau y
“ ſaith Sabboth o flynyddoedd fyddant i ti yn
“ naw mlynedd a deugain.
“ 9 A phar gann it udcorn y Iubili ar y ſeithfed
“ mîs ar y decfed dydd o'r mis, ar ddydd y
“ cymmod cenwch yr udcorn trwy eich holl wlâd
“ 10. A ſancteiddiwch y ddecfed flwyddyn a
“ deugain, a chyhoeddwch rydd-did yn y wlâd iw
“ holl drigolion, Iubili fydd hi i chwi, a dychwelwch
“ bôb un yw etifeddiaeth, ie dychwelwch bôb
“ un at ei deulu.
“ 11 Y ddecfed flwyddyn a deugain honno
“ fydd Iubili i chwi, na heuwch, ac na fedwch ei
“ chnwd a ddyfo o honaw ei hun: ac na chynhullwch
“ ei gwinllanoedd gwahanedic hi,
“ 12 Am ei bod yn Iubili bydded ſanctaidd i
chwi, o'r maes y bwyttewch ei ffrwyth hi.

13 O fewn y flwyddyn Iubili hon y dychwelwch bôb un iw etifeddiaeth.

14 Pan werthech ddim i'th gymydog neu brynnu ar law dy gymydog, na orthrynnwch bawb ei gilydd.

15 Prynn gan dy gymydog yn ôl rhifedi y blynyddoedd ar ôl y Iubili: a gwerthed efe i tithê yn ôl rhifedi blynyddoedd y cnydau.

16 Yn ôl amldra y blynyddoedd y chwanegi ei brîs, ac yn ôl anamldra y blynyddoedd y lleihei di ei brîs: o herwydd rhifedi y cnydau y mae efe yn ei werthu it.

17 Ac na orthrymmwch bôb un ei gymydog, ond ofna dy Dduw, canys myſi[ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

18 Gwnewch chwithau fy-neddfau, a chedwch fy-marnedigaethau, a gwnewch hwynt, a chewch drigo yn y tîr yn ddiogel.

19 Y tîr hefyd a rydd ei ffrwyth, a chewch fwytta digon, a chewch drigo ynddo yn ddiogel.

20 A hefyd os dywedwch beth a fwyttawn y ſeithfed flwyddyn: wele ni chawn hau, ac ni chawn gynnull ein cnwd.

21 Myſi a archaf fy mendith arnoch y chweched flwyddyn, a hi a ddwg ei ffrwyth [i waſanaethu] dros dair blynedd.

22 A'r wythfed flwyddyn yr heuwch, ond bwyttewch o'r hên gnwd: yr hên a fwyttewch hyd y nawfed flwyddyn, nes dyfod ei chnwd hi.

23 A'r tîr ni cheir ei werthu yn llwyr, canys eiddof fi[yw] y tîr, o herwydd dieithraid, ac alltudion ydych gyd a mi.

24 Ac yn holl dîr eich etifeddiaeth rhoddwch ollyngdod i'r tîr.

25 Os tloda dy frawd a gwerthu [dim] oi etifeddiaeth, a dyfod ei gâr neſſaf iddo, [yna] efe a gaiff ollwng yr hynn a werthodd ei frawd.

26 Ond os gŵr ni bydd gollyngŵdd iddo, a chyrhaeddyd oi law ef ei hun gael digon iw ollyngdod.

27 Yna cyfrifed flynyddoedd ei werthiad, a rhodded drachefn yr hynn fyddo tros ben i'r gŵr yr hwn y gwerthodd ef iddo, felly aed eilwaith iw etifeddiaeth.

28 Ac os ei law ni chaiff ddigon i dalu iddo, yna bydded yr hynn a werthodd efe yn llaw yr hwn ai prynnodd hyd flwyddyn y Iubili, ac aed [y prynnwr] allan yn y Iubili, a deued[y gwerthwr] drachefn iw etifeddiaeth.

29 A phan wertho gŵr dŷ anedd[o fewn] dinas gaeroc, yna bydded ei ollyngdod hyd [ben] blwyddyn gyflawn wedi ei werthu, [tros] flwyddyn y bydd rhydd ei ollwng ef.

30 Ac oni ollyngir nes cyflawni iddo flwyddyn gyfan, yna ſicerhaer y tŷ 'r hwn fydd yn y ddinas gaeroc yn llwyr i'r neb ai prynnodd[ac] iw hiliogaeth, nid aiff allan yn y Iubili.

31 Ond tai trefi y rhai nid oes caeroedd o amgylch iddynt a gyfrifir fel maes o dîr: bid gollyngdod iddynt, ac aed [y prynnwr] allan yn y Iubili.

32 Ond dinaſoedd y Lefiaid a thai dinaſoedd eu hetifeddiaeth hwynt, bid i'r Lefiaid eu gollwng bôb amſer.

33 A[bydded] yr hwn ai gollwng[un] o'r Lefiaid, ac aed [y prynnwr] allan o'r tŷ a werthwyd a dinas ei etifeddiaeth ef yn y Iubili: canys tai danaſoedd y Lefiaid ydynt eu hetifeddiaeth hwynt ym myſc meibion Iſrael.

34 Ac ni cheir gwerthu maes pentrefol eu

dinaſoedd hwynt: canys etifeddiaeth dragywyddol yw efe iddynt.

35 A phan dlodo dy frawd gyd a thi, a llithro ei law, yna cynnorthwya ef: fel y byddo byw gyd a thi, [megis] y dieithr-ddyn, a'r alltud.

36 Na chymmer ganddo occreth, na llóg: ond ofna dy Dduw, a gad ith frawd fyw gyd a thi.

Exod.22.25.
deut.23.19.
pſal.15.5.
dihar.28.8.
ezeciel.18.8.

37 Na ddod dy arian iddo mewn vſuriaeth, ac na ddod dy fwyd iddo ar lôg.

38 Myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht, i roddi iwch dîr Canaan, [ac] i fod yn Dduw i chwi.

39 A phan dlodo dy frawd gyda thi ai werthu ef it: na wna iddo waſanaethu yn gaeth.

Deut.15.12.
ierem.34.14.

40 Bydded gyd a thi fel gwenidog cyflog: fel alltud, hyd flwyddyn y Iubili y caiff waſanaethu gyda thi.

41 Yna aed oddi wrthit ti efe ai blant gyd ag ef, a dychweled at ei dylwyth ac aed drachefn i etifeddiaeth ei dadau.

42 Canys fyng-weiſion i ydynt, y rhai a ddygais allan o dîr yr Aipht, na werther hwynt yn gaeth-werthiad.

43 Na feiſtrola arno ef yn galed, ond ofna dy Dduw.

Ephes.6.9.
col.4.1.

44 A [chymmer] dy waſanaeth-wr, a'th waſanaeth-ferch y rhai fyddant itti, o fyſc y cenedloedd y rhai [ydynt] o'ch amgylch: o honynt y prynnwch waſanaeth-wr a gwaſanaeth ferch.

45 A hefyd o blant yr alltudion y rhai a ymdeithiant gyd a chwi, prynnwch o'r rhai hyn, ac oi tylwyth y rhai [ŷnt] gyda chwi, y rhai a genhedlaſant hwynt yn eich tir chwi: byddant hwy i chwi yn etifeddiaeth.

46 Ac etifeddwch hwynt i'ch plant ar eich ôl iw meddiannu [hwynt] yn etifeddiaeth: gwnewch iddynt eich gwaſanaethu byth: ond am eich brodyr meibion Iſrael, pôb vn am ei frawd, na feſtrola yn galed arno.

47 A phan gyrhaeddo llaw dŷn dieithr neu alltud [gyfoeth] gyd a thi, ac i'ch frawd dlodi gyd a thi, ai werthu ei hun i'r dieithr yr hwn fydd yn trigo gyd a thi, neu i vn o hiliogaeth ty-lwyth y dieithr-ddyn,

48 Wedi ei werthu ceir ei ollwng yn rhydd: vn oi frodyr a gaiff ei ollwng yn rhydd.

49 Naill ai ei ewythr frawd ei dâd, ai mab ei ewythr ai gollwng ef yn rhydd, neu [vn] o gyfneſſaf ei gnawd ef oi dylwyth ei hun ai gollwng ef yn rhydd, neu ei law a gyrredd ei waredu ei hun.

50 A chyfrifed ai brynnwr o flwyddyn y Iubili: a bydded arian ei werthiad ef fel rhifedi y blynyddoedd, megis dyddiau gwenidog cyflog y bydd efe gyd ag ef.

51 Os llawer [fydd] o flynyddoedd yn ol, taled ei ollyngdod o arian ei brynedigaeth yn ôl hynny.

52 Ac os ychydic flynyddoedd fydd yn ol hyd flwyddyn y Iubili pan gyfrifo ag ef, taled ei ollyngdod yn ôl ei flynyddoedd.

53 Megis gwâs cyflog y bydd efe gyd ag ef [o] flwyddyn i flwyddyn, ac na feiſtroled arno yn galed yn dy olwg di.

54 Ac os efe ni ollyngir o fewn [y blynyddoedd] hynn, yna aed allan flwyddyn y Iubili efe ai blant gyd ag ef.

55 Canys gweiſion i mi [yw] meibion Iſrael, fyng-weiſion ydynt y rhai a ddygais o dir yr Aipht. Myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

## PEN. XXVI.

Y fendith a gaffo y rhai a gadwant orchymynion Duw
14 Ar felldith a ddaw i'r rhai nis cadwant.

Exod.20.4.
deut.5.8.
pſal.97.7.

NA wnewch eulynnod iwch, ac na chodwch i chwi ddelw gerfiedic na cholofn, ac na roddwch ddelw faen yn eich tir i ymgrymmu iddi, canys myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

2 Fy Sabbothau mau fi a gedwch, a'm cyſſegr mau fi a berchwch: myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

3 Os yn fy neddfau mau fi y rhodiwch, a'm gorchymynnion mau fi a gedwch, ai gwneuthur hwynt,

Deut.28.1.

4 Yna mi roddaf eich cafodau yn eu hamſer, a rhydd y ddaiar ei chynnyrch, a choed y maes a rydd eu ffrwyth.

5 A'ch dyrnu a gyrredd hyd gynhaiaf y grawn-win, a chynhaiaf y grawn-win a gyrredd hyd amſer hau, a'ch bara a fwyttewch yn ddigonol, ac yn eich tir y trigwch yn ddiogel.

Iob.11.19.

6 Rhoddaf heddwch hefyd yn y tîr, a gorweddwch hefyd heb ddychrynnudd, a gwnaf i'r bwyſt-fil niweidiol ddarfod o'r tîr: ac nid aiff cleddyf drwy eich tîr.

7 Eich gelynion hefyd a erlidiwch, a ſyrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

8 A phump o honoch a erlidiant gant, a chant o honoch a erlidiant fyrddiwn, a'ch gelynion a ſyrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

Ioſua.23.10.

9 A mi a edrychaf am danoch, ac a'ch gwnaf chwi yn ffrwythlawn, ac a'ch amlhaf chwi, ac a gadarnhaf fyng-hyfammod a chwi.

10 A'r hên henaidd a fwyttewch, ie yr hên a fwriwch chwi allan o achos y newydd.

11 Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich mysc, ac ni ffieiddia fy enaid chwi.

Ezec.37.26.
1.cor.6.16.

12 Ac mi a rodiaf yn eich plîth, a byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi.

13 Myfi [yw] 'r Arglwydd eich Duw 'r hwn a'ch dygais chwi allan o dîr yr Aipht, rhac eich bod yn weiſion iddynt, a thorrais rwymau eich iau, a gwneuthum iwch rodio yn syth ion.

14 Ond os chwi ni wrandewch arnaf, ac ni wnewch yr holl orchymynnion hynn.

15 Os fy neddfau hefyd a ddirmygwch, ac

os eich enaid a ffieiddĩa fy marnedigaethau, heb wneuthur fy holl orchymynnion, gan dorri o honoch fyng-hyfammod.

16 Minne hefyd a wnaf hyn i chwi, goſodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, darfodigaeth, a'r crŷd poeth, y rhai a wnânt i'r llygaid ballu, ac a ofidiant eich eneidiau, a heuwch eich hâd yn ofer, canys eich gelynion ai bwyttu.

17 Ac a roddaf fy wyneb i'ch erbyn, fel y ſyrthiwch o flaen eich gelynion: a'ch caſeion a feiſtrolant arnoch: *ffoiwch hefyd pan na byddo neb yn eich erlid.

Dihare.28.1.

18 Ac os er hyn ni wrandewch arnaf, yna y chwanega eich coſpi chwi ſaith mwy am eich pechodau.

19 Canys torraf falchder eich nerth chwi, a rhoddaf eich nefoedd chwi fel haiarn, a'ch tîr chwi fel prês.

20 A'ch cryfdwr a dderfydd yn ofer, canys eich tîr ny rydd ei gynnyrch, a choed y tîr ni roddant eu ffrwyth.

21 Ac os rhodiwch yng-wrthwyneb imi ac ni fynnwch wrando arnaf fi, yna chwanegaf bla ſaith mwy arnoch yn ol eich pechodau.

22 Ac anfonaf fwyſt-fil y maes yn eich erbyn ac efe a'ch gwna chwi yn ddiblant, ac a ddifetha eich anifeiliaid, ac a'ch lleihâ chwi, a'ch ffyrdd a wneir yn anialwch.

23 Ac os wrth hyn ni chymmerwch ddyſc gennif, ond rhodio yn y gwrthwyneb i mi:

24 Yna * y rhodiafi hefyd mewn gwrthwyneb i chwithau, a mi a'ch maeddaf chwi hefyd ſaith mwy am eich pechodau.

2 Bren.22.27.
Pſal.18.26.

25 A dygaf arnoch gleddyf yr hwn a ddial fyng-hyfammod, a chwi a ymgeſclwch i'ch dinaſoedd, yna yr anfonaf haint i'ch myſc, a chwi a roddir yn llaw y gelyn.

26 Pan dorrwyf ffonn eich bara, yna dec o wragedd a bobant eich bara mewn un ffwrn, ac a ddygant eich bara adref dan bwys, a chwi a fwyttewch, ac nis digonir chwi.

27 Ac os er hyn ni wrandewch arnaf, ond rhodio yn fy erbyn.

28 Rhodiaf yn eich erbyn chwithau hefyd, mewn llîd, a mi a'ch coſpaf chwi etto ſaith mwy am eich pechodau.

29 A chwi a fwyttewch gnawd eich meibion, a chnawd eich merched a fwyttewch.

30 * Eich uchelfeudd hefyd a ddifwynaf, ac a dorraf eich delwau, ac a roddaf eich celaneddau chwi yng-hyd a chelaneddau eich eulynnod chwi, a'm henaid a'ch ffieiddia chwi.

2.Cron.34.7.

31 A rhoddaf eich dinaſoedd yn anghyfannedd, ac a ddiniſtriaf eich cyſſegroedd, ac ni aroglaf eich arogl eſmwyth.

32 A mi a ddiniſtriaf eich tîr, fel y byddo aruthr gan eich gelynion y rhai a drigant ynddo oi herwydd.

33 Chwithau a waſcaraf ym-myſc y cenhedloedd, a gwnaf dynnu cleddyf ar eich ôl, a'ch tîr fydd diffaithwch, a'ch dinaſoedd hefyd fyddant anghyfanned.

34 Yna y bodlonir y ddaiar am ei Sabbothau, yr holl ddyddiau y byddo yn diffaithwch: a chwithau a fyddwch yn nhîr eich gelynion, yna y gorphywys y tîr, ac y bodlonir am ei Sabbothau.

35 Yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaithwch y gorphywys, o herwydd ni orphywyſodd ar eich Sabbothau chwi, pan oeddech yn trigo ynddo.

36 A'r hyn a weddillir o honoch, dygaf feddalwch ar eu calonnau yn nhîr eu gelynion, a thrwſt deilen yn yſcwyd ai herlid hwynt: a ffoant fel ffoi rhac cleddyf, a ſyrthiant hefyd heb neb yn [eu] herlid.

Lefif.25.2.

37 A thrippiant bob un wrth ei gilydd megis o flaen cleddyf, ac heb neb yn eu herlid, ac ni ellwch ſefyll o flaen eich gelynion.

38 Difethir chwi hefyd ym-myſc y cenhedloedd, a thîr eich gelynnion a'ch bwyttu.

39 A'r rhai a weddillir o honoch a doddant yn eu hanwireddau yn nhîr eich gelynnion, ac yn anwireddau eu tadau gyd a hwynt y toddant.

40 Yna y cyffeſant eu hanwiredd ac anwiredd eu tadau yng-hyd ai camwedd yr hwn a wnaethant i'm herbyn, a hefyd y modd y rhodiaſant yn y gwrthwyneb i mi.

41 Ac y rhodiais yn eu gwrthwyneb hwyntau, ac y dygais hwynt i dir eu gelynion: os yno 'r ymoſtwng eu calon ddienwaededic, ai bod yn fodlon am eu coſpedigaeth.

42 Minne a gofiaf fyng-hyfammod ag Iacob, a'm cyfammod hefyd ag Iſaac, a'm cyfammod hefyd ag Abraham a gofiaf, a meddyliaf am y tîr.

43 A'r tîr a adewir hebddynt, ac a fodlonir am ei Sabbothau tra fyddo yn ddiffaethwch hebddynt, a hwyntau a fodlonir am eu coſpedigaeth o achos ac o herwydd dirmygu o honynt fy-marnedigaethau, a ffieiddio oi henaid fy-neddfau.

44 A hyn hefyd, *ni ddirmygaf hwynt pan fyddant yn nhîr eu gelynnion, ac ni ffieiddiaf hwynt iw difetha, gan dorri fyng-hyfamod a hwynt, o herwydd myfi [ydyw]'r Arglwydd eu Duw hwynt..

Deut.4.31.
Ierem.11.29.

45 Ond cofiaf erddynt gyfammod y rhai cyntaf, y rhai a ddygais allan o dir yr Aipht yng olwg y cenhedloedd, i fod iddynt yn Dduw, myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

46 Dymma y deddfau, a'r barnedigaethau a'r cyfreithiau y rhai a rodd yr Arglwydd rhyngddo ei hun a meibion Iſrael ym-mynydd Sinai drwy law Moſes.

## PEN. XXVII.

Cyfraith addunedau, degymmau, a phethau wedi rhoddi eu ddiofryd, ſef wedi i'r perchennoc addo i'r Arglwydd trwy adduned na ſwynhac hwynt byth ond eu gadel i waſanaeth y cyſſegr.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

« 2 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wr-
« thynt, pan addunedo neb ddynion i'r Arglwyd
« yn dy bris di.
« 3 Yna bydded dy brîs am wryw o fab vgain
« mlwydd hyd fab trûgain mlwydd, îe bydded dy
« brîs ddec ſicl a deugain o arian yn ol ſicl y cyſ-
« ſegr.
« 4 Ac os benyw fydd hi, bydded dy brîs ddec
« ſicl ar hugain.
« 5 Ac o fab can mlwydd hefyd hyd fab vgain
« mlwydd bydded dy brîs am wryw vgain ſicl, ac
« am fenyw ddec ſicl.
« 6 A bydded hefyd di brîs am wryw o fab mi-
« ſyriad hyd fab pum mlwydd, bum ſicl o arian:
« ac am fenyw dy brîs [fydd] tri ſicl o arian.
« 7 Ond o fab trûgein mlwydd ac vchod os
« gwryw [fydd] bydded dy brîs bymthec ſicl, ac
« am fenyw ddec ſicl.
« 8 Ond os tlodach fydd efe na'th bris di, yna
« ſafed ger bron yr offeiriad, a phriſſied yr offeiri-
« ad ef yn ol yr hyn a gyrhaeddo llaw 'r addune-
« dudd, [felly] y priſſia 'r offeiriad ef.
« 9 Ond os anifail yr hwn yr offrymmir o ho-
« naw offrwm i'r Arglwydd [fydd ei adduned:]
« yr hyn oll a roddir o honaw i'r Arglwydd ſainc-
« taidd fydd.
« 10 Na rodded vn arall am dano, ac na ne-
« widied ef, y da am y drwg, neu 'r drwg am y da,
« ac os gan newidio y newidia anifail am anifail,
« bydded hwnnw, a bydded ei gyfnewid hefyd yn
« ſanctaidd.
« 11 Ac os [adduneda efe] vn anifail aflan yr
« hwn ni ddylent offrymmu o honaw offrwm i'r
« Arglwydd, yna rhodded yr anifail i ſefyll ger
« bron yr Arglwydd.
« 12 A phriſſied yr offeiriad ef, os da os drwg
« [fydd] fel y priſſio 'r offeiriad [ef] it, felly y
« bydd.
« 13 Ac os efe gan ryddhau ai rhyddha, yno
« rhodded at dy brîs di ei bummed rann yn chwa-
« neg.
« 14 A phan ſancteiddio gŵr ei dŷ yn ſanc-
« taidd i'r Arglwydd, yna 'r offeiriad ai pryſſia yn
« dda neu yn ddrwg, megis y priſſio 'r offeiriad
« ef, felly y ſaif.
« 15 Ac os y ſancteiddudd a ollwng ei dŷ yn
« rhydd, yna rhodded bummed ran arian dŷ brîs
« yn chwanec atto, a bydded eiddo ef [y tŷ.]
« 16 Ac os o faes ei etifeddiaeth y ſancteiddia
« gŵr i'r Arglwydd, yna bydded dy bris yn ol ei
« hauad, hauad Homer o haidd [fydd] er dec ſicl a
« deugain o arian.
« 17 Os o flwyddyn y Iubili y ſancteiddia efe
« ei faes, ſafed yn dy brîs di.
« 18 Ond os wedi y Iubili y ſancteiddia efe
« ei faes, yna dogned yr offeiriad yr arian iddo yn
ol y blynyddoedd y rhai fyddant yn ol hyd flwy- »
ddyn y Iubili, a lleihaer ar dy brîs di. »
19 Ac os yr hwn ai ſancteiddiodd gan ry- »
ddhâu a ryddhâ y maes, yna rhodded bummed »
ran arian dy brîs di yn chwanec atto, a bydded »
iddo ef. »
20 Ac onis gollwng y maes yn rhydd, ond »
gwerthu y maes i ŵr arall, ni cheir ei ollwng »
byth. »
21 A'r maes fydd pann elo efe allan yn y Iu- »
bili yn gyſſygredic i'r Arglwydd fel maes dio- »
fryd: a bydded ei etifeddiaeth i'r offeiriad. »
22 Ac os ei dîr prynu yr hwn ni [bydd] o »
dîr ei etifeddiaeth, a ſâcteiddia efe i'r Arglwydd. »
23 Yna cyfrifed yr offeiriad iddo ddogn dy »
brîs di hyd flwyddyn y Iubili, a rhodded yntef »
dy brîs di yn gyſſegredic i'r Arglwydd y dydd »
hwnnw. »
24 Y maes a aiff yn ei ol flwyddyn y Iubi- »
li, i'r hwn y prynnaſſeu efe ef ganddo, yr hwn [o- »
edd] eiddo etifeddiaeth y tîr. » Exod.30 13.
25 A phob prîs it fydd wrth * ſicl y cyſſegr, » Num.3.47.
vgain Gerah fydd y ſicl. Ezec 45.12.
26 * Ond y cyntaf-anedic o anifail yr hwn a » Exod.13.2.
enir yn gyntaf i'r Arglwydd na chyſſegred neb » Exod.22.29.
ef, pa vn bynnac ai eidion, ai dafad [fydd,] eiddo » Num.3.13.
'r Arglwydd [yw] efe. »
27 Ond os [ei adduned ef fydd] o anifail a- »
flan, yna rhyddhaed ef yn dy brîs di, a rhodded ei »
bummed ran yn y chwanec atto, ac onis rhydd- »
ha yna gwerther ef yn dy brîs di. »
28 Ond pob diofryd-beth yr hwn a ddiofry- »
do vn i'r Arglwydd o'r hyn oll [a fyddo] eiddo »
ef, o ddŷn neu o anifail, neu o faes ei etifeddia- »
eth, ni werthir ac ni waredir: pob diofryd-beth » Num.18.14.
ſydd ſancteidd-beth cyſſygredic i'r Arglwydd. »
29 Ni cheir gollwng yn rhydd vn [anifail] »
diofrydoc yr hwn a ddiofryder gan ddŷn, lladder »
yn farw. »
30 A holl ddegwm y tîr o hâd y tîr, [ac] o- »
ffrwyth y coed yr Arglwydd ai piau, cyſſegre- »
dic i'r Arglwydd [yw.] »
31 Ac os gŵr gân ollwng a ollwng yn »
rhydd [beth] oi ddegwm, rhodded ei bummed »
rann yn y chwaneg atto. »
32 A phôb degwm eidion, neu ddafad yr hyn »
oll a elo dan y wialen fydd ddecfed gyſſegredic »
i'r Arglwydd. »
33 Nac edryched ai da, ai drwg [fydd efe] ac »
na newidied ef, ond os gan newidio y newidia »
efe hwnnw, bydded hwnnw, a bydded ei gyfne- »
wid ef hefyd yn gyſſegredic, ni ellir ei ollwng »
yn rhydd. »
34 Dymma y gorchymynnion y rhai a or- »
chymynnodd yr Arglwyd wrth Moses i feibi- »
on Iſrael ym-mynydd Sinai. »

# Pedvverydd llyfr Moſes

## yr hwn a elwir Numeri.

### PENNOD. I.

1 Byddino plant Iſrael. 49 Bod yn rhaid i lwyth Lefi weini yn y babell.

YR Arglwydd a lefarodd wrth Moſes yn anialwch Sinai, ym mhabell y cyfarfod, ar y [dydd] cyntaf o'r ail mis, yn yr ail flwyddyn wedi eu myned hwynt allan o dîr yr Aipht gan ddywedyd.

Exod.30.12. Num.26.64.

2 * Cymmerwch nifer holl gynulleidfa meibion Iſrael, yn ol eu teuluoedd wrth dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, pob gwryw wrth eu pennau.

3 O fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a allo fyned i ryfel yn Iſrael: ti ac Aaron ai cyfrifwch hwynt yn ol eu lluoedd.

4 A bydded gyd a chwi ŵr o bob llwyth, y gwr pennaf o dŷ ei dadau fydd hwnnw.

5 A dymma henwau y gwŷr y rhai a ſafant gyd a chwi: o [lwyth] Ruben Elizar mab Zedeur.

6 O [lwyth] Simeon, Selumiel mab Suri Sadai.

7 O [lwyth] Iuda Naheſſon mab Aminadab.

8 O [lwyth] Iſſachar Nathaniel mab Zuar.

9 O [lwyth] Zabulon, Eliab mab Helon.

10 O feibion Ioſeph [dros lwyth] Ephraim, Eliſama mab Ammihud: tros [lwyth] Manaſſes, Gamaliel mab Pedazur.

11 O [lwyth] Beniamin, Abidan mab Gedeon.

12 O [lwyth] Dan, Ahiezer mab Ammi Sadi.

13 O [lwyth] Aſer, Pagiel mab Ocran.

14 O [lwyth] Gad, Eliaſaph mab Duel.

15 O [lwyth] Nepthali Ahira mab Enan.

16 Dymma rai enwoc y gynulleidfa, capteniaid llwythau eu tadau, pennacthiaid miloedd Iſrael [oeddynt] hwy.

17 A chymmerodd Moſes ac Aarō, y gwŷr hyn y rhai a yſpyſſaſyd wrth [eu] henwau.

18 A chaſclaſant yr holl gynulleidfa ar y [dydd] cyntaf or' ail mis, a rhoddaſant eu hachau: drwy eu teuluoedd yn ol tŷ eu tadau tann rif eu henwau o fab vgain mlwydd ac vchod erbyn eu pennau.

19 Megis y gorchymynnodd yr Arglwydd i Moſes, felly y rhifodd efe hwynt yn anialwch Sinai.

20 Felly meibion Ruben cyntafanedic Iſrael oeddynt [wedi rhifo, ſef] eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif eu henwau, erbyn eu pennau, pob gwryw o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn ar a alle fyned i ryfel.

21 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Ruben [oeddynt] chwech a deugain mil a phump cant.

22 O feibion Simcon [y rhifwyd] eu cenedl eu hun, oi teuluedd eu hun, o dŷ eu tadan eu hun, ei rifedigion [oeddynt] dan rif [eu] henwau erbyn eu pennan pob gwryw o fab vgain mlwydd ac vchod [ſef] pob vn ar a alle fyned i ryfel.

23 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Simeon [oeddynt] onid vn mil tri vgain mil, a thrychant.

24 O feibion Gad, eu cenedl eu hun oi teuluoedd eu hun, o dy eu tadau eu hun, dann rif [eu] henwau, pob vn a alle fyned i ryfel o fab vgain mlwydd ac vchod [a rifwyd.]

25 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Gad [oeddynt] bump a deugain mil, a chwe chant, a dec a deugain.

26 O feibion Iuda, eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau o fab vgain mlwydd ac vchod, pawb a'r a oeddynt yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

27 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Iuda [oeddynt] bedwar ar ddec a thri vgain mil, a chwe chant.

28 O feibion Iſſachar, eu cenedl eu hun oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dann rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a oedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

29 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Iſſachar [oeddynt] bedwar ar ddec a deugain o filoedd a phedwar cant.

30 O feibion Zabulon, eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a ryfwyd.]

31 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Zabulon [oeddynt] ddwy fil ar bymthêc a deugain, a phedwar cant.

32 O feibion Ioſeph [ſef] o feibion Ephraim eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

33 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Ephraim [oeddynt] ddeugain mil, a phum cant.

34 [Ac]

dinaſoedd hwynt: canys etifeddiaeth dragywyddol yw efe iddynt.

35 A phan dlodo dy frawd gyd a thi, a llithro ei law, yna cynnorthwya ef: fel y byddo byw gyd a thi, [megis] y dieithr-ddyn, a'r alltud.

36 Na chymmer ganddo occreth, na llóg: ond ofna dy Dduw, a gad ith frawd fyw gyd a thi.

Exod.22.25. deut.23.19. pſal.15.5. dihar.28.8. ezeciel.18.8.

37 Na ddod dy arian iddo mewn uſuriaeth, ac na ddod dy fwyd iddo ar lòg.

38 Myfi[ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht, i roddi iwch dir Canaan, [ac] i fod yn Dduw i chwi.

39 A phan dlodo dy frawd gyda thi ai werthu ef it: na wna iddo waſanaethu yn gaeth.

Deut.15.12. ierem.34.14.

40 Bydded gyd a thi fel gwenidog cyflog: fel alltud, hyd flwyddyn y Iubili y caiff waſanaethu gyda thi.

41 Yna aed oddi wrthit ti efe ai blant gyd ag ef, a dychweled at ei dylwyth ac aed drachefn i etifeddiaeth ei dadau.

42 Canys fyng-weiſion i ydynt, y rhai a ddygais allan o dîr yr Aipht, na werther hwynt yn gaeth-werthiad.

43 Na feiſtrola arno ef yn galed, ond ofna dy Dduw.

Ephes.6.9. col.4.1.

44 A [chymmer] dy waſanaeth-wr, a'th waſanaeth-ferch y rhai fyddant itti, o fyſc y cenedloedd y rhai[ydynt]o'ch amgylch: o honynt y prynnwch waſanaeth-wr a gwaſanaeth ferch.

45 A hefyd o blant yr alltudion y rhai a ymdeithiant gyd a chwi, prynnwch o'r rhai hyn, ac oi tylwyth y rhai[ŷnt]gyda chwi, y rhai a genhedlaſant hwynt yn eich tîr chwi: byddant hwy i chwi yn etifeddiaeth.

46 Ac etifeddwch hwynt i'ch plant ar eich òl iw meddiannu[hwynt]yn etifeddiaeth: gwnewch iddynt eich gwaſanaethu byth: ond am eich brodyr meibion Iſrael, pôb un am ei frawd, na feſtrola yn galed arno.

47 A phan gyrhaeddo llaw dŷn dieithr neu alltud [gyfoeth] gyd a thi, ac i'ch frawd dlodi gyd a thi, ai werthu ei hun i'r dieithr yr hwn fydd yn trigo gyd a thi, neu i un o hiliogaeth ty-lwyth y dieithr-ddyn,

48 Wedi ei werthu ceir ei ollwng yn rhydd: un oi frodyr a gaiff ei ollwng yn rhydd.

49 Naill ai ei ewythr frawd ei dâd, ai mab ei ewythr ai gollwng ef yn rhydd, neu [un] o gyfneſſaf ei gnawd ef oi dylwyth ei hun ai gollwng ef yn rhydd, neu ei law a gyrredd ei warcdu ei hun.

50 A chyfrifed ai brynnwr o flwyddyn y Iubili: a bydded arian ei werthiad ef fel rhifedi y blynyddoedd, megis dyddiau gwenidog cyflog y bydd efe gyd ag ef.

51 Os llawer[fydd] o flynyddoedd yn ol, taled ei ollyngdod o arian ei brynedigaeth yn ôl hynny.

52 Ac os ychydic flynyddoedd fydd yn ol hyd flwyddyn y Iubili pan gyfrifo ag ef, taled ei ollyngdod yn ôl ei flynyddoedd.

53, Megis gwâs cyflog y bydd efe gyd ag ef [o]flwyddyn i flwyddyn, ac na feiſtroled arno yn galed yn dy olwg di.

54 Ac os efe ni ollyngir o fewn[y blynyddoedd]hynn, yna aed allan flwyddyn y Iubili efe ai blant gyd ag ef.

55 Canys gweiſion i mi [yw] meibion Iſrael, fyng-weiſion ydynt y rhai a ddygais o dir yr Aipht. Myfi[ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

## PEN. XXVI.

Y fendith a gaffo y rhai a gadwant orchymynion Duw
14 Ar felldith a ddaw i'r rhai nis cadwant.

Exod.20.4. deut.5.8. pſal.97.7.

NA wnewch eulynnod iwch, ac na chodwch i chwi ddelw gerfiedic na cholofn, ac na roddwch ddelw faen yn eich tîr i ymgrymmu iddi, canys myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

2 Fy Sabbothau maufi a gedwch, a'm cyſſegr maufi a berchwch: myfi[ydwyf] yr Arglwydd.

Deut.28.1.

3 Os yn fy neddfau maufi y rhodiwch, a'm gorchymynnion maufi a gedwch, ai gwneuthur hwynt.

4 Yna mi roddaf eich cafodau yn eu hamſer, a rhydd y ddaiar ei chynnyrch, a choed y maes a rydd eu ffrwyth.

5 A'ch dyrnu a gyrredd hyd gynhaiaf y grawn-win, a chynhaiaf y grawn-win a gyrredd hyd amſêr hau, a'ch bara a fwytewch yn ddigonol, ac yn eich tîr y trigwch yn ddiogel.

Iob.11.19.

6 Rhoddaf heddwch hefyd yn y tîr, a gorweddwch hefyd heb ddychrynnudd, a gwnaf i'r bwyſt-fil niweidiol ddarfod o'r tîr: ac nid aiff cleddyf drwy eich tîr.

7 Eich gelynion hefyd a erlidiwch, a ſyrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

Ioſua.23.10.

8 A phump o honoch a erlidiant gant, a chant o honoch a erlidiant fyrddiwn, a'ch gelynion a ſyrthiant o'ch blaen ar y cleddyf.

9 A mi a edrychaf am danoch, ac a'ch gwnaf chwi yn ffrwythlawn, ac a'ch amlhaf chwi, ac a gadarnhaf fyng-hyfammod a chwi.

10 A'r hên henaidd a fwytewch, îe yr hên a fwriwch chwi allan o achos y newydd.

Ezec.37.26. 1.cor.6.16.

11 Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich myſc, ac ni ffieiddia fy enaid chwi.

12 Ac mi a rodiaf yn eich plîth, a byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi.

13 Myfi[yw]'r Arglwydd eich Duw'r hwn a'ch dygais chwi allan o dîr yr Aipht, rhac eich bod yn weiſion iddynt, a thorrais rwymau eich iau, a gwneuthum iwch rodio yn ſythion.

14 Ond os chwi ni wrandewch arnaf, ac ni wnewch yr holl orchymynnion hynn.

15 Os fy neddfau hefyd a ddirmygwch, ac

os eich enaid a ffieiddia fy marnedigaethau, heb wneuthur fy holl orchymynnion, gan dorri o honoch fyng-hyfammod.

16 Minne hefyd a wnaf hyn i chwi, goſodaf yn oruchaf arnoch ddychryn, darfodigaeth, a'r crŷd poeth, y rhai a wnânt i'r llygaid ballu, ac a ofidiant eich eneidiau, a heuwch eich hâd yn ofer, canys eich gelynion ai bwyttu.

17 Ac a roddaf fy wyneb i'ch erbyn, fel y ſyrthiwch o flaen eich gelynion: a'ch caſeion a feiſtrolant arnoch: *ffoiwch hefyd pan na byddo neb yn eich erlid.

Dihare.28.1.

18 Ac os er hyn ni wrandewch arnaf, yna y chwanega eich coſpi chwi ſaith mwy am eich pechodau.

19 Canys torraf falchder eich nerth chwi, a rhoddaf eich nefoedd chwi fel haiarn, a'ch tîr chwi fel prês.

20 A'ch cryfdwr a dderfydd yn ofer, canys eich tîr ny rydd ei gynnyrch, a choed y tîr ni roddant eu ffrwyth.

21 Ac os rhodiwch yng-wrthwyneb imi ac ni fynnwch wrando arnaf fi, yna chwanegaf bla ſaith mwy arnoch yn ol eich pechodau.

22 Ac anfonaf fwyſt-fil y maes yn eich erbyn ac efe a'ch gwna chwi yn ddiblant, ac a ddifetha eich anifeiliaid, ac a'ch lleihâ chwi, a'ch ffyrdd a wneir yn anialwch.

23 Ac os wrth hyn ni chymmerwch ddyſc gennif, ond rhodio yn y gwrthwyneb i mi:

24 Yna *y rhodiafi hefyd mewn gwrthwyneb i chwithau, a mi a'ch maeddaf chwi hefyd ſaith mwy am eich pechodau.

2 Bren.22.27.
Pſal.18.26.

25 A dygaf arnoch gleddyf yr hwn a ddial fyng-hyfammod, a chwi a ymgeſclwch i'ch dinaſoedd, yna yr anfonaf haint i'ch myſc, a chwi a roddir yn llaw y gelyn.

26 Pan dorrwyf ffonn eich bara, yna dec o wragedd a bobant eich bara mewn un ffwrn, ac a ddygant eich bara adref dan bwys, a chwi a fwyttewch, ac nis digonir chwi.

27 Ac os er hyn ni wrandewch arnaf, ond rhodio yn fy erbyn.

28 Rhodiaf yn eich erbyn chwithau hefyd, mewn llîd, a mi a'ch coſpaf chwi etto ſaith mwy am eich pechodau.

29 A chwi a fwyttewch gnawd eich meibion, a chnawd eich merched a fwyttewch.

30 *Eich uchelfeudd hefyd a ddifwynaf, ac a dorraf eich delwau, ac a roddaf eich celaneddau chwi yng-hyd a chelaneddau eich eulynnod chwi, a'm henaid a'ch ffieiddia chwi.

2.Cron.34.7.

31 A rhoddaf eich dinaſoedd yn anghyfannedd, ac a ddiniſtriaf eich cyſſegroedd, ac ni aroglaf eich arogl eſmwyth.

32 A mi a ddiniſtriaf eich tîr, fel y byddo aruthr gan eich gelynion y rhai a drigant ynddo oi herwydd.

33 Chwithau a waſcaraf ym-myſc y cenhedloedd, a gwnaf dynnu cleddyf ar eich ôl, a'ch tîr fydd diffaithwch, a'ch dinaſoedd hefyd fyddant anghyfanned.

34 Yna y bodlonir y ddaiar am ei Sabbothau, yr holl ddyddiau y byddo yn diffaithwch: a chwithau a fyddwch yn nhîr eich gelynion, yna y gorphywys y tîr, ac y bodlonir am ei Sabbothau.

35 Yr holl ddyddiau y byddo yn ddiffaithwch y gorphywys, o herwydd ni orphywyſodd ar eich Sabbothau chwi, pan oeddech yn trigo ynddo.

36 A'r hyn a weddillir o honoch, dygaf feddalwch ar eu calonnau yn nhîr eu gelynion, a thrwſt deilen yn yſcwyd ai herlid hwynt: a ffoant fel ffoi rhac cleddyf, a ſyrthiant hefyd heb neb yn [eu] herlid.

Leſiſ.25.3.

37 A thrippiant bob un wrth ei gilydd megis o flaen cleddyf, ac heb neb yn eu herlid, ac ni ellwch ſefyll o flaen eich gelynion.

38 Difethir chwi hefyd ym-myſc y cenhedloedd, a thîr eich gelynnion a'ch bwyttu.

39 A'r rhai a weddillir o honoch a doddant yn eu hanwireddau yn nhîr eich gelynnion, ac yn anwireddau eu tadau gyd a hwynt y toddant.

40 Yna y cyffeſant eu hanwiredd ac anwiredd eu tadau yng-hyd ai camwedd yr hwn a wnaethant i'm herbyn, a hefyd y modd y rhodiaſant yn y gwrthwyneb i mi.

41 Ac y rhodiais yn eu gwrthwyneb hwyntau, ac y dygais hwynt i dir eu gelynion: os yno 'r ymoſtwng eu calon ddienwaededic, ai bod yn fodlon am eu coſpedigaeth.

42 Minne a gofiaf fyng-hyfammod ag Iacob, a'm cyfammod hefyd ag Iſaac, a'm cyfammod hefyd ag Abraham a gofiaf, a meddyliaf am y tîr.

43 A'r tîr a adewir hebddynt, ac a fodlonir am ei Sabbothau tra fyddo yn ddiffaethwch hebddynt, a hwyntau a fodlonir am eu coſpedigaeth o achos ac o herwydd dirmygu o honynt fy-marnedigaethau, a ffieiddio oi henaid fy-neddfau.

44 A hyn hefyd, *ni ddirmygaf hwynt pan fyddant yn nhîr eu gelynnion, ac ni ffieiddiaf hwynt iw difetha, gan dorri fyng-hyfamod a hwynt, o herwydd myfi [ydyw]'r Arglwydd eu Duw hwynt..

Deut.4.31.
Ierem.11.29.

45 Ond cofiaf erddynt gyfammod y rhai cyntaf, y rhai a ddygais allan o dir yr Aipht yng olwg y cenhedloedd, i fod iddynt yn Dduw, myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

46 Dymma y deddfau, a'r barnedigaethau a'r cyfreithiau y rhai a rodd yr Arglwydd rhyngddo ei hun a meibion Iſrael ym-mynydd Sinai drwy law Moſes.

## PEN. XXVII.

Cyfraith addunedau, degymmau, a phethau wedi rhoddi eu ddiofryd, ſef wedi i'r perchennoc addo i'r Arglwydd trwy adduned na ſwynhac hwynt byth ond eu gadel i waſanaeth y cyſſegr.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

« 2 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wr=
« thynt, pan addunedo neb ddynion i'r Arglwydd
« yn dy brîs di.
« 3 Yna bydded dy brîs am wryw o fab vgain
« mlwydd hyd fab trûgain mlwydd, ie bydded dy
« brîs ddec ſicl a deugain o arian yn ol ſicl y cyſ-
« ſegr.
« 4 Ac os benyw fydd hi, bydded dy brîs ddec
« ſicl ar hugain.
« 5 Ac o fab can mlwydd hefyd hyd fab vgain
« mlwydd bydded dy brîs am wryw vgain ſicl, ac
« am fenyw ddec ſicl.
« 6 A bydded hefyd di brîs am wryw o fab mi-
« ſyriad hyd fab pum mlwydd, bum ſicl o arian:
« ac am fenyw dy brîs [fydd] tri ſicl o arian.
« 7 Ond o fab trûgein mlwydd ac uchod os
« gwryw [fydd] bydded dy brîs bymthec ſicl, ac
« am fenyw ddec ſicl.
« 8 Ond os tlodach fydd efe na'th brîs di, yna
« ſafed ger bron yr offeiriad, a phriſſied yr offeiri-
« ad ef yn ol yr hyn a gyrhaeddo llaw 'r addune=
« dudd, [felly] y priſſia 'r offeiriad ef.
« 9 Ond os anifail yr hwn yr offrymmir o ho=
« naw offrwm i'r Arglwydd [fydd ei adduned:]
« yr hyn oll a roddir o honaw i'r Arglwydd ſainc=
« taidd fydd.
« 10 Na rodded vn arall am dano, ac na ne=
« widied ef, y da am y drwg, neu 'r drwg am y da,
« ac os gan newidio y newidia anifail am anifail,
« bydded hwnnw, a bydded ei gyfnewid hefyd yn
« ſanctaidd.
« 11 Ac os [adduneda efe] vn anifail aflan yr
« hwn ni ddylent offrymmu o honaw offrwm i'r
« Arglwydd, yna rhodded yr anifail i ſefyll ger
« bron yr Arglwydd.
« 12 A phriſſied yr offeiriad ef, os da os drwg
« [fydd] fel y priſſio 'r offeiriad [ef] it, felly y
« bydd.
« 13 Ac os efe gan ryddhau ai rhyddha, yno
« rhodded at dy brîs di ei bummed rann yn chwa-
« neg.
« 14 A phan ſancteiddio gŵr ei dŷ yn ſanc=
« taidd i'r Arglwydd, yna 'r offeiriad ai pryſſia yn
« dda neu yn ddrwg, megis y priſſio 'r offeiriad
« ef, felly y ſaif.
« 15 Ac os y ſancteiddudd a ollwng ei dŷ yn
« rhydd, yna rhodded bummed ran arian dŷ brîs
« yn chwanec atto, a bydded eiddo ef [y tŷ.]
« 16 Ac os o faes ei etifeddiaeth y ſancteiddia
« gŵr i'r Arglwydd, yna bydded dy brîs yn ol ei
« hauad, hauad Homer o haidd [fydd] er dec ſicl a
« deugain o arian.
« 17 Os o flwyddyn y Iubili y ſancteiddia efe
« ei faes, ſafed yn dy brîs di.
« 18 Ond os wedi y Iubili y ſancteiddia efe
« ei faes, yna dogned yr offeiriad yr arian iddo yn

ol y blynyddoedd y rhai fyddant yn ol hyd flwy= »
ddyn y Iubili, a lleihaer ar dy brîs di. »
19 Ac os yr hwn ai ſancteiddiodd gan ry= »
ddhâu a ryddhâ y maes, yna rhodded bummed »
ran arian dy brîs di yn chwanec atto, a bydded »
iddo ef. »
20 Ac onis gollwng y maes yn rhydd, ond »
gwerthu y maes i ŵr arall, ni cheir ei ollwng »
byth. »
21 A'r maes fydd pann elo efe allan yn y Iu- »
bili yn gyſſygredic i'r Arglwydd fel maes dio= »
fryd: a bydded ei etifeddiaeth i'r offeiriad. »
22 Ac os ei dir prynn yr hwn ni [bydd] o »
dir ei etifeddiaeth, a ſâcteiddia efe i'r Arglwydd. »
23 Yna cyfrifed yr offeiriad iddo ddogn dy »
brîs di hyd flwyddyn y Iubili, a rhodded yntef »
dy brîs di yn gyſſegredic i'r Arglwydd y dydd »
hwnnw. »
24 Y maes a aiff yn ei ol flwyddyn y Iubi- »
li, i'r hwn y prynnaſſeu efe ef ganddo, yr hwn [o- »
edd] eiddo etifeddiaeth y tîr. » Exod.30 13.
25 A phob prîs it fydd wrth * ſicl y cyſſegr, » Num.3.47.
vgain Gerah fydd y ſicl. » Ezec 45.12.
26 * Ond y cyntaf-anedic o anifail yr hwn a » Exod.13.2.
enir yn gyntaf i'r Arglwydd na chyſſegred neb » Exod.22.29.
ef, pa vn bynnac ai eidion, ai dafad [fydd,] eiddo » Num.3.13.
'r Arglwydd [yw] efe. »
27 Ond os [ei adduned ef fydd] o anifail a- »
flan, yna rhyddhaed ef yn dy brîs di, a rhodded ei »
bummed ran yn y chwanec atto, ac onis rhydd- »
ha yna gwerther ef yn dy brîs di. »
28 Ond pob diofryd-beth yr hwn a ddiofry- »
do vn i'r Arglwydd o'r hyn oll [a fyddo] eiddo »
ef, o ddŷn neu o anifail, neu o faes ei etifeddia= »
eth, ni werthir ac ni waredir: pob diofryd-beth » Num.18.14.
fydd ſancteidd-beth cyſſygredic i'r Arglwydd. »
29 Ni cheir gollwng yn rhydd vn [anifail] »
diofrydoc yr hwn a ddiofryder gan ddŷn, lladder »
yn farw. »
30 A holl ddegwm y tîr o hâd y tîr, [ac] o= »
ffrwyth y coed yr Arglwydd ai piau, cyſſegre- »
dic i'r Arglwydd [yw.] »
31 Ac os gŵr gân ollwng a ollwng yn »
rhydd [beth] oi ddegwm, rhodded ei bummed »
rann yn y chwaneg atto. »
32 A phôb degwm eidion, neu ddafad yr hyn »
oll a elo dan y wialen fydd ddecfed gyſſegredic »
i'r Arglwydd. »
33 Nac edryched ai da, ai drwg [fydd efe] ac »
na newidied ef, ond os gan newidio y newidia »
efe hwnnw, bydded hwnnw, a bydded ei gyfne= »
wid ef hefyd yn gyſſegredic, ni ellir ei ollwng »
yn rhydd. »
34 Dymma y gorchymynnion y rhai a or= »
chymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes i feibi= »
on Iſrael ym-mynydd Sinai. »

# Pedvverydd llyfr Moſes

## yr hwn a elwir Numeri.

### PENNOD. I.

1 Byddino plant Iſrael. 49 Bod yn rhaid i lwyth Lefi weini yn y babell.

YR Arglwydd a lefarodd wrth Moſes yn anialwch Sinai, ym mhabell y cyfarfod, ar y [dydd] cyntaf o'r ail mis, yn yr ail flwyddyn wedi eu myned hwynt allan o dîr yr Aipht gan ddywedyd.

Exod.30.12.
Num.26.64.

2 * Cymmerwch nifer holl gynnulleidfa meibion Iſrael, yn ol eu teuluoedd wrth dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, pob gwrryw wrth eu pennau.

3 O fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a allo fyned i ryfel yn Iſrael: ti ac Aaron ai cyfrifwch hwynt yn ol eu lluoedd.

4 A bydded gyd a chwi ŵr o bob llwyth, y gŵr pennaf o dŷ ei dadau fydd hwnnw.

5 A dymma henwau y gwŷr y rhai a ſafant gyd a chwi: o [llwyth] Ruben Elizar mab Zedeur.

6 O [llwyth] Simeon, Selumiel mab Suri Sadai.

7 O [llwyth] Iuda Naheſſon mab Aminadab.

8 O [llwyth] Iſſachar Nathaniel mab Zuar.

9 O [llwyth] Zabulon, Eliab mab Helon.

10 O feibion Ioſeph [dros llwyth] Ephraim, Eliſama mab Ammihud: tros [llwyth] Manaſſes, Gamaliel mab Pedazur.

11 O [llwyth] Beniamin, Abidan mab Gedeon.

12 O [llwyth] Dan, Ahiezer mab Ammi Sadi.

13 O [llwyth] Aſer, Pagiel mab Ocran.

14 O [llwyth] Gad, Eliaſaph mab Duel.

15 O [llwyth] Nepthali Ahira mab Enan.

16 Dymma rai enwoc y gynnulleidfa, capteniaid llwythau eu tadau, pennacthiaid miloedd Iſrael [oeddynt] hwy.

17 A chymmerodd Moſes ac Aarō, y gwŷr hyn y rhai a yſpyſſaſyd wrth [eu] henwau.

18 A chaſclaſant yr holl gynnulleidfa ar y [dydd] cyntaf o'r' ail mis, a rhoddaſant eu hachau: drwy eu teuluoedd yn ol tŷ eu tadau tann rif eu henwau o fab vgain mlwydd ac vchod erbyn eu pennau.

19 Megis y gorchymynnodd yr Arglwydd i Moſes, felly y rhifodd efe hwynt yn anialwch Sinai.

20 Felly meibion Ruben cyntafanedic Iſrael oeddynt [wedi rhifo, ſef] eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif eu henwau, erbyn eu pennau, pob gwrryw o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn ar a alle fyned i ryfel.

21 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Ruben [oeddynt] chwech a deugain mil a phump cant.

22 O feibion Simeon [y rhifwyd] eu cenedl eu hun, oi teuluedd eu hun, o dŷ eu tadan eu hun, ei rifedigion [oeddynt] dan rif [eu] henwau erbyn eu pennan pob gwrryw o fab vgain mlwydd ac vchod [ſef] pob vn ar a alle fyned i ryfel.

23 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Simeon [oeddynt] onid vn mil tri vgain mil, a thrychant.

24 O feibion Gad, eu cenedl eu hun oi teuluoedd eu hun, o dy eu tadau eu hun, dann rif [eu] henwau, pob vn a alle fyned i ryfel o fab vgain mlwydd ac vchod [a rifwyd.]

25 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Gad [oeddynt] bump a deugain mil, a chwe chant, a dec a deugain.

26 O feibion Iuda, eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau o fab vgain mlwydd ac vchod, pawb a'r a oeddynt yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

27 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Iuda [oeddynt] bedwar ar ddec a thri vgain mil, a chwe chant.

28 O feibion Iſſachar, eu cenedl eu hun oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dann rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a oedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

29 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Iſſachar [oeddynt] bedwar ar ddec a deugain o filoedd a phedwar cant.

30 O feibion Zabulon, eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a ryfwyd.]

31 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Zabulon [oeddynt] ddwy fil ar bymthêc a deugain, a phedwar cant.

32 O feibion Ioſeph [ſef] o feibion Ephraim eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

33 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Ephraim [oeddynt] ddeugain mil, a phum cant.

34 [Ac] o feibion Manaſſes eu cenedl eu hun ei teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

35 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Manaſſes [oeddynt] ddeuddeng mil ar hugain, a dau cant.

36 O feibion Beniamin eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

37 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Beniamin [oeddynt] bymtheng mil ar hugain a phedwar cant.

38 O feibion Dan eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

39 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Dan, oeddynt ddwy a thrugain o filoedd, a ſaith cant.

40 O feibion Aſer eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn ar a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

41 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Aſer [oeddynt] vn mil a deugain, a phum cant.

42 [O] feibion Nephtali eu cenedl eu hun, oi teuluoedd eu hun, o dŷ eu tadau eu hun, dan rif [eu] henwau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel [a rifwyd.]

43 Eu rhifedigion hwynt o lwyth Nepthali [oeddynt] dair mil ar ddec a deugain, a phedwar cant.

44 Dymma y rhifedigion, y rhai a rifodd Moſes, ac Aaron, a chapteniaid Iſrael: [ſef] y deuddeng-wr [y rhai] oeddynt bob vn dros dŷ eu tadau.

45 Felly yr ydoedd holl rhifedigion meibion Iſrael, wrth dŷ eu tadau, o fab vgain mlwydd ac vchod, pob vn ar a ydoedd yn gallu myned i ryfel yn Iſrael.

Exod. 12.37. Num. 11.21.

46 * A'r holl rifedigion oeddynt chwe chant mil, a thair mil, a phum cant, a dec a deugain.

47 Ond y Lefiaid drwy [holl] lwythau eu tadau ni rifwyd yn eu myſc hwynt.

48 Canys llefaraſe yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd.

49 Etto na chyfrif lwyth Lefi, ac na chymmer eu nifer hwynt ym myſc meibion Iſrael.

50 Ond dod ti i'r Lefiaid awdurdod ar babell y deſtiolaeth, ac ar ei holl ddodrefn, ac ar yr hyn oll a [berthyn] iddi: hwynt a ddygant y babell, ai holl ddodrefn, ac ai gwaſanaethant, ac a werſſyllant o amgylch i'r babell.

51 A phan ſymmudo y babell, y Lefiaid ai tynn hi i lawr: a phan arhoſo y babell, y Lefiaid ai cyfyd hi: lladder y dieithr a ddelo yn agos.

52 A gwerſſylled meibion Iſrael, bob vn yn ei werſſyll ei hun, a phob vn wrth ei luman ei hun, drwy eu lluoedd.

53 A'r Lefiaid a werſſyllant o amgylch pabell y deſtiolaeth, fel na byddo ſorriant yn erbyn cynnulleidfa meibion Iſrael: a chadwed y Lefiaid wiliadwriaeth pabell y deſtiolaeth.

54 A meibion Iſrael a wnaethant yn ol yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes, felly y gwnaethant.

## PEN. II.

Lle gwerſſyll pob vn o'r deuddec llwyth: eu capteniaid ai rhifedi, a pha wedd y ſymmudent.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes, ac wrth Aaron gan ddywedyd.

2 Meibion Iſrael a werſſyllant bob vn wrth ei luman ei hun, dan arwyddion tŷ ei tadau, o amgylch pabell y cyfarfod y gwerſſyllant o hir-bell.

3 A'r rhai a werſſyllant tu ar dwyrain, oddi wrth godiad haul, [fyddant gwŷr] lluman gwerſſyll Iuda yn ol eu lluoedd: a chapten meibion Iuda [fydd] Naheſſon mab Aminadab.

4 Ai lu ef, ai rhai rhifedic hwynt [fyddant] bedair mil ar ddec a thrugain, a chwe chant.

5 A llwyth Iſſachar a werſſyllant yn neſſaf atto ef: a chapten meibion Iſſachar, [fydd] Nathaniel mab Zuar.

6 Ai lu, ai rifedigion [fyddant] bedair mil ar ddeca deugain, a phedwar cant.

7 [Yna] llwyth Zabulon, ac Eliab mab Helon [fydd] capten meibion Zabulon.

8 Ai lu, ai rifedigion [fyddant] ddwy fil ar bymthec a deugain, a phedwar cant.

9 Holl rifedigion gwerſſyll Iuda [fyddant] yn ol eu lluoedd yn gan mil a phedwar vgain mil, a chwe mil, a phedwar cant: yn flaenaf y ſymmudant.

10 Lluman gwerſſyll Ruben [fydd] tua'r dehau yn ol eu lloedd: a chapten meibion Ruben [fydd] Elizur mab Sedeur.

11 Ai lu ef, ai rifedigion [fyddant] chwe mil a deugain, a phum cant.

12 A'r rhai a werſſyllant yn neſſaf atto ef [fydd] llwyth Simeon, a chapten meibion Simeon [fydd] Selumiel mab Suri Sadai.

13 Ai lu ef, ai rhifedigion [fydd] onid vn mil trugain a thry-chant.

14 Yna llwyth Gad: a chpaten meibion Gad [fydd] Eliaſaph mab Reuel.

15 Ai lu ef, ai rhifedigion hwynt [fyddant] bum mil a deugain a chwe-chant, a dec a deugain.

16 Holl rifedigion gwerſſyll Ruben [fyddant] gan mil, ac vn ar ddec a deugain o filoedd, a phedwar cant, a dec a deugain yn ol eu lluoedd ac yn ail y ſymmudant.

17 A phabell y cyfarfod a ſymmud yng-hanol y gwerſſylloedd, [gyd a] gwerſſyll y Lefiaid:

aid: fel y gwerſſyllant, felly y ſymmudant, pôb vn yn ei le, wrth eu llumannau.

18 Lluman gwerſſyll Ephraim[fydd]tua'r gorllewyn, yn ol eu lluoedd, a chapten meibion Ephraim[fydd]Eliſama mab Ammihud.

19 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] ddeugain mil, a phump cant.

20 Ac yn neſſaf atto ef llwyth Manaſſes, a chapten meibion Manaſſes fydd Gamaliel mab Pedazur.

21 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] ddeuddeng-mil ar hugain, a dau cant.

22 Yna llwyth Beniamin: a chapten meibion Beniamin [fydd] Abidan mab Gedeon.

23 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] bymtheng-mil ar hûgain, a phedwar cant.

24 Holl rifedigion gwerſſyll Ephraim[fyddant] yn ol eu lluoedd gan mil, ac wyth mil, a chant: ac a ſymmudant yn drydydd.

25 Lluman gwerſſyll Dan [fydd] tua'r gogledd yn ol eu lluoedd, a chapten meibion Dan [fydd] Ahieſer mab Ammi Sadai.

26 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] ddwy fil a thrugain, a ſaith gant.

27 A'r rhai a werſſyllant yn neſſaf atto ef [fydd] llwyth Aſer: a chapten meibion Aſer [fydd] Pagiel mab Ocran.

28 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] vn mil a deugain, a phum cant.

29 Yna llwyth Nephthali: a chapten meibion Nephthali [fydd] Ahira mab Enan.

30 Ai lu ef, ai rhifedigion [fyddant] dair mil ar ddec a deugain, a phedwar cant.

31 Holl rifedigion gwerſſyll Dan [fyddant] gan mil, ac onid tair mil tri vgain mil, a chwe chant, yn olaf y ſymmudant, wrth eu llumannau.

32 Dymma rifedigion meibion Iſrael, wrth dŷ eu tadau: holl rifedigion y gwerſſylloedd yn ôl eu lluoedd [oeddynt] chwe chan mil, a'thair mil, a phum cant, a dec a deugain.

33 Ond y Lefiaid ni chyfrifwyd ym myſc meibion Iſrael, megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

34 A meibion Iſrael a wnaethant, yn ol yr hyn oll a orchymynnaſe'r Arglwydd wrth Moſes: felly y gwerſſyllaſant wrth eu llumannau, ac felly y ſymmudaſant, pob vn yn ei deuluoedd, yn ol tŷ eu tadau.

## PEN. III.

Rhif, lle, a ſwyddau y Lefiaid: y rhai a ddewiſodd yr Arglwydd i waſanaethu yn ei babell ef, yn lle y cyntaf-anedic, neu y cynfab.

AC dymma genhedlaethau Aarō, a Moſes: ar y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes ym mynydd Sinai.

Exod.6.23. 2 Dymma henwau meibion Aaron, y *cyntaf-anedic [oedd] Nadab, yna Abihu, Eleazar, ac Ithamar.

Lefit.8.2. Edod.28.1. 3 Dymma henwau * meibion Aaron yr offeiriaid eneiniog y rhai a gyſſegrodd efe i offeiriadu.

4 A *marw a wnaeth Nadab, ac Abihu ger bron yr Arglwydd, pan offrymmaſant * dân dieithr ger bron yr Arglwydd yn anialwch Sinai: a meibion nid oedd iddynt, am hynny yr offeiriadodd Eleazar ac Ithamar yng-wydd Aaron eu tâd. Leuit.10.1. Num.26.61. 1.Cron.24.2 Lefit.10.1.

5 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd.

6 Neſſâ di lwyth* Lefi, a gwna iddo ſefyll ger bron Aaron yr offeiriad, fel y gwaſanaethant ef. Num.18.2.

7 A gwnant waſanaeth drosto ef, a gwaſanaeth dros yr holl gynnulleidfa, o flaen pabell y cyfarfod, gan waſanaethu gwaſanaeth y tabernacl.

8 A chadwant holl ddodrefn pabell y cyfarfod, a [gwnant] waſanaeth dros feibion Iſrael, gan waſanaethu gwaſanaeth y tabernacl.

9 A thi a roddi y *Lefiaid i Aaron, ac iw feibion, y rhai ydynt wedi eu rhoddi yn rhodd iddo ef o feibion Iſrael. Num.8.16.

10 Ac vrdda di Aaron ai feibion i gadw eu hoffeiriadaeth: a'r dieithr-ddyn a ddelo yn agos a roddir i farw.

11 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd.

12 Wele mi a gymmerais y * Lefiaid o blith meibion Iſrael yn lle pob cyntaf-anedic [ſef pob cyntaf] agoryd croth o feibion Iſrael: a'r Lefiaid fyddant eiddo fi. Exod.13.2. Num.8.14. Exod.34.19.

13 Canys eiddo fi pob cyntafanedic er y dydd y tarewais y cyntafanedic yn nhîr yr Aipht, cyſſegrais i'm fy hun bob cyntafanedic yn Iſrael o ddyn ac anifail: eddo fi ydynt, myfi [ydwyf] yr Arglwydd. Lefit.27.26. Luc.2.23.

14 Yr Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moſes yn anialwch Sinai gan ddywedyd.

15 Cyfrif feibion Lefi yn ôl tŷ eu tadau, drwy eu teuluoedd, cyfrif hwynt pob gwrryw o fab miſyriad ac vchod.

16 A Moſes ai cyfrifodd hwynt wrth air yr Arglwydd, fel y gorchymynnaſid iddo.

17 A'r rhai hyn oeddynt feibion *Lefi wrth eu henwau, Gerſon, Cehath hefyd, a Merari. Geneſ.46.11 Exod.6.16.

18 Ac dymma henwau meibion Gerſon yn ol eu teuluoedd: Libni a Semei. Num.26.57. 1.Cron.6.1. 1.Cron.23.

19 A meibion Cehath, yn ôl eu teuluoedd: Amram, Ieſaar, Hebron, ac Oziel.

20 A meibion Merari yn ôl eu teuluoedd, Maheli, a Muſi: dymma hwynt teuluoedd Lefi wrth dŷ eu tadau.

21 O Gerſon [y daeth] ty-lwyth y Libniaid, a thy-lwyth y Simiaid: dymma hwynt teuluoedd y Gerſoniaid.

22 Eu rhifedigion hwynt dan rif pob gwrryw o fâb miſyriad, ac vchod, eu rhifedigion [meddaf oeddynt] ſaith mil a phump cant.

23 Teuluoedd y Gerſoniaid a werſſyllant ar y tu ôl i'r tabernacl tua'r gorllewyn.

24 A phennaeth tŷ tâd y Gerſoniaid [fydd]

Eliazaph mab Lael.

25 Gorchwyliaeth meibion Gerſon ym mhabell y cyfarfod [fydd] y tabernacl, a'r babell-lenn, ei tô [hefyd,] a chaead-len drws pabell y cyfarfod.

26 A throelloc lenni y cynteddfa, a chaead-len drws y cynteddfa yr hwn [ſydd] yng-hylch y tabernacl, a'r allor o amgylch, ai rhaffau iw holl waſanaeth.

27 Ac o Gehath [y daeth] ty-lwyth yr Amramiaid, a thy-lwyth y Jeſariaid, a thy-lwyth yr Hebroniaid, a thy-lwyth yr Dzeliaid: dymma hwynt ty-lwyth y Cehathiaid.

28 O rif pob gwryw o fab miſyriad ac uchod, wyth mil a chwe chant [oeddynt] yn gorchwylio y cyſſegr.

29 Teuluoedd meibion Cehath a werſſyllant ar yſtlys dehau i'r tabernacl.

30 A phennaeth y tŷ pennaf o dy-lwyth y Cehathiaid [fydd] Eliſaphan mab Dziel.

31 Ai gorchwyliaeth hwynt [fydd] yr Arch, a'r bwrdd, a'r canhwyllbren, a'r allorau, a lleſtri y cyſſegr, y rhai y gwaſanaethant a hwynt, a'r gaead-len, ai holl waſanaeth.

32 A chapten a'r bennaethiaid y Lefiaid [fydd] Eleazar mab Aaron yr offeiriad: awdurdod a'r wenidogion y cyſſegr [fydd iddo ef].

33 O Merari [y daeth] ty-lwyth y Maheliaid, a thy-lwyth y Muſiaid: dymma hwynt ty-lwyth Merari.

34 Ai rhifedigion hwynt, o gyfrif pob gwryw o fab miſyriad ac uchod, [oeddynt] chwe mil a deu cant.

35 A phennaeth y tŷ pennaf o dy-lwyth Merari [fydd] Zuriel mab Abihael: ar yſtlys y tabernacl y gwerſſyllant tua 'r gogledd.

36 A gorchwyliaeth meibion Merari [fydd] yſtyllod y tabernacl, ai drosſolion, ai golofnau, ai forteiſian, ai holl offer, ai holl waſanaeth.

37 A cholofnau y cynteddfa o amgylch, ai morteiſiau, ai hoelion, ai rhaffau.

38 A'r rhai a werſſyllant o flaen y tabernacl, tua 'r dwyrain o flaen pabell y cyfarfod oddi wrth godiad haul [fydd] Moſes ac Aaron, ai feibion y rhai a gadwant orchwyliaeth y cyſſegr, a gorchwyliaeth meibiō Jſrael: a'r dieithr a ddelo yn agos a roddir i farwolaeth.

39 Holl rifedigion y Lefiaid y rhai a rifodd Moſes ac Aaron wrth eu teuluoedd yn ol gair yr Arglwydd, [ſef] pob gwryw o fab miſyriad ac uchod [oeddynt] ddwy fil ar hugain.

40 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes cyfrif bob cyntaf-anedic gwryw o feibion Jſrael, o fab miſyriad ac uchod, a chymmer rifedi eu henwau hwynt.

Num.8.14. 41 A chymmer * y Lefiaid i mi (myfi [ydwyf] yr Arglwydd) yn lle pob cyntaf-anedic o feibion Jſrael: ac anifeiliaid y Lefiaid yn lle pob cyntaf-anedic o anifeiliaid meibion Jſrael.

42 A Moſes a rifodd megis y gorchymynnodd yr Arglwydd iddo bob cyntaf-anedic o feibion Jſrael.

43 A'r rhai cyntafanedic oll, o rai gwryw dan rif [en] henwau, o fab miſyriad ac uchod oeddynt dwy eu rhifedigion, yn ddwy fil ar hugain, a dau cant, a thri ar ddec a thrugain.

44 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd.

45 Cymmer y Lefiaid yn lle pob cyntafanedic o feibion Jſrael: ac anifeiliaid y Lefiaid, yn lle eu hanifeiliaid hwynt: a bydded y Lefiaid i mi: myfi ydwyf yr Arglwydd.

46 Ac [am] y tri ar ddec a thrugain a'r ddau cant gwaredic (y rhai ydynt dros ben y Lefiaid) o gyntaf-anedic meibion Jſrael,

Exod.30.13.
Lefit.27.25.
Num.18.16.

47 Cymmer hefyd bum ſicl * am bob penn, o ſicl y cyſſegr y cymmeri, ugain Gerah [fydd] y ſicl.

48 A dod ti yr arian i Aaron, ac iw feibion [am] y rhai gwaredic a fyddant yn chwaneg arnynt.

49 A chymmerodd Moſes arian y gwaredigaeth gan y rhai oeddynt yn chwaneg ar y rhai a waredaſid am y Lefiaid.

50 Gan gyntafanedic meibion Jſrael y cymmerodd efe yr arian: pump a thrugain a thry chânt, a mil o ſiclau y cyſſegr.

51 A Moſes a roddodd arian y gwaredigion i Aaron ac iw feibion, yn ôl gair yr Arglwyd megis y gorchymynnaſe 'r Arglwydd i Moſes.

## PEN. IIII.

Swyddau y Lefiaid o ddec ar hugain hyd ddec a deugain o oed.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes, ac wrth Aaron gan ddywedyd.

2 Cymmer nifer meibion Cehath, o blith meibion Lefi, drwy eu teuluoedd, yn ol tŷ eu tadau.

3 O fab deng mlwydd ar hugain ac uchod hyd fab deng mlwydd a deugain, pob un a elo mewn ſwydd i wneuthur gwaſanaeth, ym mhabell y cyfarfod.

4 Dymma wenidogaeth meibion Cehath, ym mhabell y cyfarfod: [cludo y pethau] ſancteiddcyſſegredic.

5 Yna deued Aaron, ai feibion, pan gychwynno y gwerſſyll, a thynnant i lawr y wahan-lenn orchudd, a gorchguddiant a hi Arch y deſtioliaeth.

Exod.25.15. 6 A * goſodant ar hynny dô o groen daiarfoch, a thanant yn uchaf wiſc o ſidan glâs ei gyd a goſodant ei throſſolion [wrthi.]

7 Ac ar fwrdd * [y bara] goſod y tanant wiſc o ſidan glâs, a goſſodant ar hynny y dyſclau a'r cwppanau, a'r phiolau, a'r caſnau tywallt, a bydded bara arno bob amſer.

8 A thanant arnynt wiſc o ſcarlat, a gorchguddiant hwnnw a gorchudd o groen daiarfoch, a goſſodant ei droſſolion [wrtho.]

9 Cymmerant hefyd wiſc o ſidan glâs a

gorch-

Exod. 25.30. gorchguddiant *ganhwyll-bren y goleuni, ai
Exod.25.31. lusernau,*ai efeilian, ai gafnau, a holl leſtri yr
Exod.25.38. olew,y rhai y gwaſanaethant ef a hwynt.

10 A goſodant ef, ai holl ddodrefn mewn gorchudd o groen daiar-foch,a goſodant [ef]ar droſſol.

11 A thanant wiſc o ſidan glâs ar yr allor aur, a gorchguddiant hi a gorchudd o groen daiar-foch,a goſodant ei throſſolion[wrthi.]

12 Cymmerant hefyd holl ddodrefn y gwaſanaeth, y rhai y gwaſanaethant a hwynt yn y cyſſegr, a rhoddant mewn gwiſc o ſidan glâs, a gorchguddiant hwynt mewn gorchudd o groen daiar-foch, a goſodant ar droſſol.

13 A thynnant allan ludw'r allor,a thanant arni wiſc borphor.

14 A rhoddant arni ei holl leſtri, y rhai y gwaſanaethant hi ant,hwy [ſef] y pedill tân, y cigweiniau,y rhawiau hefyd a'r cawgiau,[ie] holl leſtri yr allor : a thanant arni orchudd o groen daiar-foch, a goſodant ei throſſolion wrthi.

15 Pan ddarffo i Aaron ac iw feibion orchguddio y cyſſegr, a holl ddodrefn y cyſſegr, pan gwchwnno y gwerſſyll : wedi hynny deued meibion Cehath, iw dwyn [hwynt :] ond na chyffyrddant a'r hyn a fyddo cyſſegredic, rhac iddynt farw : dymma glud meibion Cehath, ym mhabell y cyfarfod.

16 A gorchwyliaeth Eleazer mab Aaron yr
Exod.30.34. offeiriad [fydd] olew y goleuni, * a'r arogl-
darth llyſſeuoc, a'r bwyd offrwm gwaſtadol,
Exod.30.23. ac * olew yr eneiniad[a]gorchwyliaeth yr holl
dabernacl a'r hyn oll[fydd]ynddo, yn y cyſſegr
ai holl ddodrefn.

17 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac Aaron gan ddywedyd:

18 Na thorrwch ymmaith lwyth tylwyth y Cehathiaid o blith y Lefiaid:

19 Ond hyn a wnewch iddynt, fel y byddant fyw, ac na fyddant feirw : pan neſſânt at y ſanctaidd bethau cyſſegredic, Aaron ai feibion a ddeuant ac ai goſodant hwynt bob vn ar ei waſanaeth,ac at ei glud.

20 Ond na ddeuant i edrych ar orchguddio yr hynn ſydd gyſſegredic i farw o honynt.

21 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

22 Cymmer nifer meibion Gerſon hefyd yn ôl tŷ eu tadau,trwy eu teuluoedd.

23 O fab deng-mlwydd ar hugain ac vchod, hyd fab deng-mlwydd a deugain y rhifi hwynt: pob vn a ddel i ddwyn ſwydd,gan waſanaethu gwaſanaeth ym mhabell y cyfarfod.

24 Dymma wenidogaeth tylwyth y Gerſoniaid,o waſanaeth ac o glud.

25 Sefdwyn o honynt lennau y tabernacl a phabell y cyfarfod, ei len dô ef, ar tô [o grwyn]daiar-foch, yr hwn [fydd] yn vchaf arno, a chudd-lenn drws pabell y cyfarfod.

26 A throelloc lennau y cynteddfa,a chaeadlen drws porth y cynteddfa yr hwn [ſydd] ynghylch y tabernacl a'r allor o amgylch ai rhaffau, a holl offer eu gwaſanaeth hwynt, a'r hyn oll a wnaed iddynt, fel y gwaſanaethant.

27 Wrth orchymmyn Aaron ai feibion y bydd holl waſanaeth meibion y Gerſoniaid, yn eu holl glud ac yn eu holl waſanaeth : a ddodwch attynt eu holl glud iw cadw.

28 Dymma waſanaeth tylwyth meibion y Gerſoniaid ym mhabell y cyfarfod, ac ar law Ithamar mab Aaron yr offeiriad [y bydd]eu llywodraethu hwynt.

29 [Yna] meibion Merari : drwy eu teuluoedd,wrth dŷ eu tadau y cyfrifi hwynt :

30 O fab deng-mlwydd ar hugain ac vchod hyd fab deng-mlwydd a deugain,y rhifi hwynt: pob vn a ddêle i ddwyn ſwydd i waſanaethu gwaſanaeth pabell y cyfarfod.

31 Ac dymma orchwyliaeth eu clud hwynt
yn eu holl waſanaeth ym mhabell y cyfarfod:
[ſef] *yſtyllod y tabernacl,ai farrau, ai golof- Exod.26.15.
nau,ai forteiſiau.

32 A cholofnau y cynteddfa oddi amgylch ai morteiſiau, ai hoelion, ai rhaffau yng-hyd ai holl offer, ac ynghyd ai holl waſanaeth:rhifwch hefyd y dodrefn erbyn eu henwau y rhai a orchwyliant[ac]a gludant hwy.

33 Dymma waſanaeth tylwyth meibion Merari yn eu holl wenidogaeth, ym mhabell y cyfarfod, dan law Ithamar fab Aaron yr offeiriad.

34 A rhifodd Moſes,ac Aaron,a phennaethiaid cynnulleidfa meibion Cehath drwy eu teuluoedd, ac yn ôl tŷ eu tadau:

35 O fab deng-mlwydd ar hugaiu ac vchod, ac hyd fab deng-mlwydd a deugain, [ſef] pob vn a ddele mewn ſwydd i waſanaethu ym mhabell y cyfarfod.

36 Ai rhifedigion drwy eu teuluoedd oeddynt ddwy fil,ſaith cant,a dec a deugain.

37 Dymma rifedigion tylwyth y Cehathiaid [ſef] pob gwaſanaethudd ym mhabell y cyfarfod : y rhai a rifodd Moſes ac Aaron wrth orchymyn yr Arglwydd drwy law Moſes.

38 Rhifedigion meibion Gerſon hefyd drwy eu teuluoedd, ac yn ol tŷ eu tadau[oeddynt,]

39 O fab deng-mlwydd ar hugain ac vchod, ac hyd fab deng-mlwydd a deugain, [ſef] pob vn a ddele mewn ſwydd i waſanaeth ym mhabell y cyfarfod.

40 Ai rhifedigion hwynt drwy eu teuluoedd ac yn ôl tŷ eu tadau oeddynt ddwy fil,a chwechant, a dec ar hugain.

41 Dymma rifedigion tylwyth meibion Gerſon [ſef] pob gwaſanaethudd ym mhabell y cyfarfod, y rhai a rifodd Moſes ac Aaron wrth orchymyn yr Arglwydd.

42 A rhifedigion tylwyth meibion Merari, drwy eu teuluoedd,ac yn ôl tŷ eu tadau [oeddynt,]

43 O fab deng-mlwydd ar hugain ac vchod, ac hyd fab deng-mlwydd a deugain, [ſef] pob vn a ddelo mewn ſwydd i waſanaethu ym mhabell y cyfarfod.

44 Ai rhifedigion hwynt drwy eu teuluoedd oeddynt, dair mil, a dau cant.

45 Dymma rifedigion tylwyth meibion Merari y rhai a rifodd Moſes ac Aaron wrth orchymyn yr Arglwydd drwy law Moſes.

46 Yr holl rifedigion y rhai a rifodd Moſes ac Aaron, a phennaethiaid Iſrael o'r Lefiaid drwy eu teuluoedd ac yn ôl tŷ eu tadau [oeddynt,]

47 O fab deng-mlwydd ar hugain ac vchod, ac hyd fab deng-mlwydd a deugain [ſef] pob vn a ddele i wneuthur gwaith gwaſanaeth, neu waith clud ym mhabel y cyfarfod.

48 Ai rhifedigion oeddynt wyth mil, pump cant, a phedwar vgain.

49 Wrth orchymyn yr Arglwydd trwy law Moſes, y rhifodd efe hwynt, pob vn wrth ei waſanaeth, ac wrth ei glud: ai rhifedigion [oeddynt] y rhai a orchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

## PEN. V.

Yr aflan ni chaiff aros yn y gwerſſyll. *6* Rhaid yw cydnabod a phob camwedd, a gwneuthur iawn am dano. 12 Cyfraith eiddigedd.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

*Lefit.13.3.* 2 Gorchymyn i feibion Iſrael * anfon o honynt o'r gwerſſyll bob gwahan-glwyfus, a *Lefit.15 2.* * phob vn y byddo diferlif arno, a phob vn * a *Lefit.21.1.* halogir wrth y marw.

3 Yn wryw, ac yn fenyw yr anfonwch [hwynt,] allan o'r lluest yr anfonwch hwynt; fel na halogant eu gwerſſylloedd hwynt, y rhai yr ydwyf fi yn preſſwylio yn eu plith.

4 A meibion Iſrael a wnaethant felly, ac ai hanfonaſant hwynt i'r tu allan i'r gwerſſyll: megis y llefaraſe yr Arglwydd wrth Moſes felly y gwnaeth meibion Iſrael.

5 A llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

*Lefit.6.3.* 6 Llefara wrth feibion Iſrael,* os gŵr neu wraig a wna [vn] o holl bechodau dynol gan wneuthur camwedd yn erbyn yr Arglwydd: a bod o'r enaid hwnnw yn euog.

7 Yna cyffeſſant eu pechod, yr hwn a wnaethant, a rhodded yn ei ôl yr hyn a fyddo efe euog *Lefit.6.5.* o honaw * erbyn ei ben, a chwaneged ei bummed ran atto, a rhodded i'r hwn y gwnaeth efe y ſarhaed iddo.

8 Ac oni bydd i'r gŵr gyfneſaf i dalu [am] y ſarhaed iddo, [yr iawn am] y ſarhaed yr hwn a delir i'r Arglwydd [fydd] eiddo yr offeiriad: heb law hwrdd yr iawn yr hwn y gwna efe iawn ag ef troſto.

9 A phob offrwm derchafel, o holl ſanctaidd [bethau] meibion Iſrael, y rhai a offrymmant at yr offeiriad fydd eiddo ef.

10 A ſancteiddo gŵr, eiddo ef fyddant, yr hyn a roddo neb i'r offeiriad, eiddo ef fydd.

11 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

12 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt, pob gŵr pan ŵyro ei wraig ef a gwneuthur ſarhaed iddo.

13 A bod i ŵr a wnelo a hi, a bod yn guddiedic o olwg ei gŵr hi, ac yn gyfrinachol ei halogi hi, ac heb dŷſt yn ei herbyn, a hithe heb ei dal [ar ei gweithred.]

14 A dyfod gwŷn eiddigedd arno, ac eiddigeddu o honaw wrth ei wraig, a hithe wedi ei halogi: neu ddyfod o yſpryd eiddigedd arno, ac eiddigeddu o honaw wrth ei wraig, a hithe heb ei halogi.

15 Yna dyged y gŵr ei wraig at yr offeiriad, a dyged ei hoffrwm gyd a hi, decfed ran Epha o flawd haidd: na chywallted olew arno, ac na rodded thus arno: canys offrwm eiddigedd yw efe, offrwm côf yn coffau anwiredd.

16 Yna neſſaed yr offeiriad hi, a phared iddi ſefyll ger bron yr Arglwydd.

17 A chymmered yr offeiriad ddŵfr ſanctaidd mewn lleſtr pridd, a chymmered yr offeiriad o'r llwch 'r hwn fydd ar lawr y tabernacl, a rhodded yn y dwfr.

18 A phared yr offeiriad i'r wraig ſefyll ger bron yr Arglwydd, a dioſced oddi am ben y wraig, a rhodded ar gledr ei llaw offrwm y coffa, offrwm eiddigedd [ yw ] efe: ac yn llaw yr offeiriad y bydd y dwfr chwerw melldigedic.

19 A thynged yr offeiriad hi, a dyweded wrth y wraig, oni orweddodd gŵr gyd a thi, ac oni ŵyraiſt i aflendid [ gyd ag arall ] yn lle dy ŵr, bydd di ddiniwed oddi wrth y dwfr chwerw melldigedic hwn.

20 Ond os gwyraiſt ti oddi wrth dy ŵr, ac os halogwyd ti, a chydio o neb a thi, heb law dy ŵr dy hun:

21 (Yna tyngheded yr offeiriad y wraig a llw y felldith, a dyweded yr offeiriad wrth y wraig) rhodded yr Arglwydd dydi yn felldith ac yn llw ym myſc y bobl, gan roddi, o'r Arglwydd dy forddwyd yn bwdr, ach groth yn chwyddedic.

22 Ac aed y dwfr melldigedic hwn i'th goluddion, i chwŷddo dy groth, ac i bydru dy forddwyd: a dyweded y wraig. Amên, Amên.

23 Ac ſcrifenned yr offeiriad y melldithion hyn mewn llyfr, a golched [hwynt] ymmaith a dwfr chwerw.

25 A phared i'r wraig yfed o'r dŵfr chwerw melldigedic, ac aed y dwfr chwerw melldigedic i'w mewn.

25 A chymmered yr offeiriad o law y wraig fwyd offrwm yr eiddigedd, a chwhwfaned y bwyd offrwm ger bron yr Arglwydd, ac offrym-

med ef ar yr allor.

26 A chymmered yr offeiriad o'r blwydd offrwm loned ei law yn goffadwriaeth, a lloſced ar yr allor, ac wedi [hynny] pared i'r wraig yfed y dwfr.

27 A phan baro efe iddi yfed y dwfr, bydd, os hi a halogwyd, ac a wnaeth ſarhaed yn erbyn ei gŵr, yr aiff y dwfr melldigedic yn chwerw ynddi ac a chwydda ei chroth, ac a bydra ei morddwyd, a'r wraig a fydd yn felldith ym myſc ei phobl.

28 Ond os y wraig ni halogwyd eithr glân yw, yna hi a fydd diangol, ac a blanta.

29 Dymma gyfraith eiddigedd pan wyro gwraig [at arall] yn lle ei gŵr ac ymhalogi.

30 Neu os daw ar ŵr wŷn eiddigedd, a dal o honaw eiddigedd wrth ei wraig, yna goſoded y wraig i ſefyll ger bron yr Arglwydd: a gwnaed yr offeiriad iddi yn ôl y gyfraith hon.

31 A'r gŵr fydd diniwed o'r anwiredd, a'r wraig a ddwg ei hanwiredd ei hun.

## PEN. VI.

Cyfraith y Nazareaid. 24 Bendithiad y bobl.

LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt, pan ymnailltuo gŵr neu wraig i addo adduned Nazaread, gan ymnailltuo i'r Arglwydd.

3 Ymnailltued oddi wrth wîn a diod gref, nac yfed efe finegr gwîn, na finegr diod gref: nac yfed ychwaith ddim ſugn grawn-win, ac na fwyttaed rawn-win irion, na ſychion.

4 Holl ddyddiau ei Nazareaeth ni chaiff fwytta o ddim oll a wneir o winwydden y gwîn, o'r dingcod hyd y bilionen.

5 Holl ddyddiau adduned ei Nazareaeth, ni chaiff ellyn fyned ar ei ben, nes cyflawni y dyddiau y rhai yr ymnailltuodd i'r Arglwydd, ſanctaidd fydd, gadawed i gydynnau gwallt ei benn dyfu.

6 Holl ddyddiau ei ymnailltuaeth i'r Arglwydd na ddeued at gorph marw.

7 Nac ymhaloged wrth ei dâd, neu wrth ei fam, wrth ei frawd, neu wrth ei chwaer pan fyddant feirw: am [fod] Nazareaeth ei Dduw ef ar ei benn.

8 Holl ddyddiau ei Nazareaeth ſanctaidd fydd efe i'r Arglwydd.

9 Ond os y marw a fydd marw wrtho ef yn ddiſymmwth ddiatreg, a hologi penn ei Nazareaeth: yna eillied ei benn ar ddydd ei buredigaeth, ar y ſaithfed dydd yr eillia efe ef.

10 Ac ar yr wythfed dydd y dwg ddwy durtur, neu ddau gyw colomen at yr offeiriad i ddrws pabell y cyſarfod.

11 A pharatoed yr offeiriad vn yn bech aberth, ac vn yn boeth offrwm, a gwnaed iawn droſto, am yr hyn a becho wrth y marw: a ſancteiddied ei benn ef y dydd hwnnw.

12 A nailltued i'r Arglwydd ddyddiau ei Nazareaeth, a dyged oen blwydd yn gamwedd offrwm: ac aed y dyddiau cyntaf yn ofer, am halogi ei Nazareaeth ef.

13 Ac dymma gyfraith y Nazaread: pan gyflawno dyddiau ei Nazareaeth dyged hyn i ddrws pabell y cyſarfod.

14 Sef dyged yn offrwm droſto i'r Arglwydd vn hesbwrn blwydd, perffaeth gwbl yn boeth offrwm, ac vn hespin flwydd berffaith gwbl yn bech-aberth, ac vn hwrdd perffaith gwbl yn aberth hedd.

15 Cawelled o fara croiw hefyd [ſef] *teiſennau peilliaid wedi eu telino drwy olew, ac afrllad croiw, wedi eu hiro ag olew, ai bwyd offrwm, ai diod offrwm hwynt. Lefit.2.5.

16 A dyged yr offeiriad [hwynt] ger bron yr Arglwydd, ac offrymmed ei bech aberth ai boeth offrwm ef.

17 Offrymmed hefyd yr hwrdd yn aberth hedd i'r Arglwydd, yng-hyd a'r cawelled bara croiw, ac offrymmed yr offeiriad ei fwyd offrwm ai ddiod offrwm.

18 Ac *eillied y Nazaread [wrth] ddrws pabell y cyſarfod ben ei Nazareaeth, a chymmered flew penn ei Nazareaeth, a rhodded ar y tân, yr hwn [fydd] tann yr aberth hedd. Act.18.18. Act.21.24.

19 Cymmered yr offeiriad hefyd balfais o'r hwrdd wedi ei berwi, ac vn deiſſen groiw o'r cawell, ac vn afrlladen groiw, a rhodded ar gledr dwylo y Nazaread, wedi eillo o honaw ei Nazareaeth.

20 A *chwhwfaned yr offeiriad hwynt, yn offrwm cwhwfan ger bron yr Arglwydd: ſanctaidd yw hyn i'r offeiriad, heb law parwyden y cwhwfan a phalfais y derchafel: ac wedi [hyn] y caiff y Nazaread yfed gwîn. Exod.29.27.

21 Dymma gyfraith y Nazaread, yr hwn a addunedodd ei offrwm i'r Arglwydd, am ei Nazareaeth, heb law yr hyn a gyrhaeddo ei law ef, fel [y byddo] ei adduned yr hon a addunedo, felly gwnaed, heb law cyfraith ei Nazareaeth.

22 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, gan ddywedyd:

23 Llefara wrth Aaron ac wrth ei feibion gan ddywedyd: fel hyn y bendithiwch feibion Iſrael [gan] ddywedyd wrthynt.

24 Bendithied yr Arglwydd di, a chadwed di

25 [A] llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a thrugarhaed wrthit.

26 Derchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a goſoded it dangnefdyf,

27 Felly y goſodant fy enw ym myſc meibion Iſrael, a mi ai bendithiaf hwynt.

## PEN. VII.

Offrwm pób vn o'r deuddec capten tros ei lwyth. 89 Duw yn llefaru wrth Moſes o'r drugareddfa.

AC ar y dydd y gorphennod Moſes godi y tabernacl yr eneiniodd, ac y ſancteiddiodd ef, ai holl ddodrefn, yr allor hefyd ai holl ddodrefn, [ie]* yna yr eneiniodd ac y ſancteiddiodd efe hwynt. Exod.40.18.

2 Ac yr offrymmodd capteniaid Iſrael,

pennaethiaid tŷ eu tadau (dymma gapteniaid y llwythau, dymma y rhai a oſodwyd ar y rhifedigion.)

3 Ai hoffrwm a ddygaſant hwy ger bꝛon yꝛ Arglwydd, [ſef] chwech o fenni diddos, a deuddec o ŷchen: menn dꝛos [bôb] dau gapten, ac ŷch dꝛos [bôb] vn: a cher bꝛon y tabernacl y dygaſant hwynt.

4 A llefarodd yꝛ Arglwydd hefyd wꝛth Moſes gan ddywedyd:

5 Cymmer ganddynt, a byddant i waſanaethu gwaſanaeth pabell y cyfarfod: a dod ti hwynt at y Lefiaid, [at] bôb vn yn ôl ei waſanaeth.

6 A chymmerodd Moſes y menni, a'r ŷchen, ac ai rhoddodd hwynt at y Lefiaid.

7 Dwy fenn a phedwar ŷch a roddes efe at feibion Gerſon, yn ôl eu gwaſanaeth hwynt.

8 A phedair menn ac wyth ŷchen a roddodd efe at feibion Merari, yn ol eu gwaſanaeth hwynt, trwy law Ithamar fab Aaron yꝛ offeiriad.

9 Ond i feibion Cehath ni rodd efe [ddim] am [fod] gwaſanaeth y cyſſegr arnynt, ar eu hyſcwyddau y dygent [hwynnw.]

10 A'r capteniaid a offrymmaſant [at] gyſſegriad yꝛ alloꝛ, ar y dydd yꝛ eneiniwyd hi, a cher bꝛon yꝛ alloꝛ y dug y capteniaid eu rhoddion.

11 A dywedodd yꝛ Arglwydd wꝛth Moſes, vn capten ar ddiwꝛnod, ac arall ar ddiwꝛnod [arall] a offrymmant eu hoffrymmau at gyſſegriad yꝛ alloꝛ.

12 Ac ar y dydd cyntaf yꝛ ydoedd yn offrymmu ei offrwm Naheſſon mab Aminadab tros lwyth Iuda.

13 Ai offrwm ef [ydoedd] vn ddyſcl arian, o ddec ar hugain a chant o [ſiclau] ei phwys, vn phiol arian o ddec ſicl a thꝛugain yn ol ſicl y cyſſegr, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew * yn fwyd offrwm.

Lefit.2.1.

14 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

15 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd, vn oen blwydd yn offrwm poeth.

16 Un bwch geifr yn bech aberth.

17 Ac yn aberth hedd, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum bwch, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Naheſſon fab Aminadab.

18 Ac ar yꝛ ail dydd yꝛ offrymmodd Nathaniel mab Zuar capten [llwyth] Iſſachar.

19 Efe a offrymmodd ei offrwm [ſef] vn ddyſcl arian, o ddec ar hugain a chant [o ſiclau] ei phwys, vn phiol arian, o ddec ſicl a thꝛugain yn ol y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

20 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

21 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd, vn oen blwydd, yn offrwm poeth.

22 Un bwch geifr yn bech aberth.

23 Ac yn aberth hedd, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Nathaniel fâb Zuar.

24 Ar y trydydd dydd [yꝛ offrymmodd] Eliab mab Helon, capten meibion Zabulon.

25 Ei offrwm ef ydoedd vn ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant [o ſiclau] ei phwys, vn phiol arian, o ddec ſicl a thꝛugain, yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

26 Un thuſſur aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

27 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd, vn oen blwydd yn offrwm poeth.

28 Un bwch geifr yn bech aberth.

29 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum bwch, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Eliab mab Helon.

30 Ar y pedwerydd dydd [yꝛ offrymmodd] Elizur mab Zedeur capten meibion Reuben.

31 Ei offrwm ef [ydoedd] vn ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant [o ſiclau] ei phwys, vn phiol arian o ddec ſicl a thꝛugain yn ol y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

32 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

33 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd vn oen blwydd yn offrwm poeth.

34 Un bwch geifr yn bech aberth.

35 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Elizur mab Zedeur.

36 Ar y pũmed dydd [yꝛ offrymmodd] Selumiel mab Suri Sadi, capten meibiō Simeō.

37 Ei offrwm ef [ydoedd] vn ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant [o ſiclau] ei phwys, vn phiol arian o ddec ſicl a thꝛugain yn ol y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

38 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

39 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd, vn oen blwydd yn offrwm poeth.

40 Un bwch geifr yn bech aberth.

41 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum bwch, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Selumiel mab Suri Sadi.

42 Ar y chweched dydd [yꝛ offrymmodd] Eliaſaph mab Duel, capten meibion Gad.

43 Ei offrwm ef [ydoedd] vn ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant [o ſiclau] ei phwys, vn phiol arian o ddec ſicl a thꝛugain yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

44 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

45 Un buſtach ieuangc, vn hwꝛdd, vn oen blwydd yn offrwm poeth.

46 Un bwch geifr yn bech aberth.

47 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwꝛdd, pum bwch, pum heſbwꝛn blwyddiaid: dymma offrwm Eliaſaph mab Duel.

48 Ar y ſeithfed dydd[yr offrymmodd]Eliſama mab Ammihud capten meibiõ Ephraim.

49 Ei offrwm ef[ydoedd]un ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant[o ſiclau]ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

50 Un thuſſer aur, o ddec[ſicl] yn llawn arogl-darth.

51 Un buſtach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth.

52 Un bwch geifr yn bech aberth.

53 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Eliſama mab Ammihud.

54 Ar yr wythfed dydd [yr offrymmodd] Gamaliel mab Pedazur capten meibion Manaſſes.

55 Ei offrwm ef[ydoedd]un ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant[o ſiclau] ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain yn ol y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

56 Un thuſſer aur o ddec[ſicl] yn llawn arogl-darth.

57 Un buſtach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth.

58 Un bwch geifr yn bech aberth.

59 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Gamaliel mab Pedazur.

60 Ar y nawfed dydd[yr offrymmodd]Abidan mab Gedeon capten meibion Beniamin.

61 Ei offrwm ef [ydoedd]un ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant [o ſiclau ]ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain, yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

62 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

63 Un buſtach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth.

64 Un bwch geifr yn bech aberth.

65 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Abidan mab Gedeon.

66 Ar y decfed dydd [yr offrymmodd] Ahiezer mab Ammi Sadai capten meibion Dan.

67 Ei offrwm ef [ydoedd]un ddyſcl arian, o ddec ar hugain a chant[ o ſiclau] ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

68 Un thuſſer aur o ddec[ ſicl ]yn llawn arogl-darth.

69 Un buſtach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth.

70 Un bwch geifr yn bech aberth.

71 Ac yn aberth hedd dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Ahiezer mab Ammi Sadai.

72 Ar yr unfed dydd ar ddec[yr offrymmodd] Pagiel mab Ocran capten meibion Aſer.

73 Ei offrwm ef [ydoedd] un ddyſcl arian o ddec ar hugain a chant[o ſiclau]ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain, yn ol y ſicl ſanctaidd, yn llawn o beillied ill dwyoedd wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

74 Un thuſſer aur o ddec [ſicl ]yn llawn arogl-darth.

75 Un buſtach ieuangc, un hwrdd, un oen blwydd yn offrwm poeth.

76 Un bwch geifr yn bech aberth.

77 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Pagiel mab Ocran.

78 Ar y ddeuddecfed dydd[yr offrymmodd] Ahiram mab Enan, capten meibiõ Nephthali.

79 Ei offrwm ef [ydoedd]un ddyſcl arian, o ddec ar hugain a chant[o ſiclau]ei phwys, un phiol arian o ddec ſicl a thrugain yn ôl y ſicl ſanctaidd, yn llawn ill dwyoedd o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew yn fwyd offrwm.

80 Un thuſſer aur o ddec [ſicl] yn llawn arogl-darth.

81 Un buſtach ieuangc, un hwrdd un oen blwydd yn offrwm poeth.

82 Un bwch geifr yn bech aberth.

83 Ac yn hedd aberth, dau ŷch, pum hwrdd, pum bwch, pum heſbwrn blwyddiaid: dymma offrwm Ahiram mab Enan.

84 Dymma[a ddaeth at]gyſſegriad yr allor, gan dywyſſogion Iſrael ar y dydd yr eneiniwyd hi: deuddec dyſcl arian, deuddec phiol arian, deuddec thuſſer aur.

85 Dec ar hugain a chant [o ſiclau ] arian [ydoedd]pôb dyſcl, a dec a thrugain pôb phiol, holl arian y lleſtri [oedd] ddwy fil a phedwar chant[o ſiclau]yn ol y ſicl ſanctaidd.

86 Y thuſſerau aur [oeddynt]ddeuddec, yn llawn arogl-darth o ddec[ſicl]bôb thuſſer yn ol y ſicl ſanctaidd: holl aur y thuſſerau [ydoedd] chwech ugain[ſicl.]

87 Holl eidionnau yr offrwm poeth [oeddynt,] ddeuddec buſtach, deuddec o hyrddod, deuddec o ŵyn blwyddiaid, a i bwyd offrwm: a deuddec o fychod geifr yn offrwm tros bechod.

88 A holl eidionnau yr aberth hedd [oeddynt] bedwar ar hugain o fuſtych, trugain o hyrddod, trugain o fychod, trugain o heſbyrniaid, dymma gyſſegriad yr allor wedi ei henneinio.

89 Ac fel yr oedd Moſes yn myned i babell y cyfarfod i lefaru wrth Duw: yna efe a glywe lais yn llefaru wrtho oddi ar y drugareddfa, yr hon[oedd]ar Arch y deſtiolaeth, oddi * rhwng y ddau Gerub, ac efe a ddywedodd wrtho.

Exod.25.22.

## P E N. VIII.

Trefn y luſernau. 4 Gwaith y canhwyll-bren. 6 Puredigaeth y Lefiaid. 24 Ar ba oedran y caent ddechreu a diweddu eu gwaſanaeth.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Llefara wrth Aaron a dywet wrtho, pan roddech i fynu y luſernau, llewyrched y ſaith luſern *ar gyfer wyneb y canhwyll-bren.

Exod.25.37. 3 Ac felly y gwnaeth Aaron, ar gyfer wyneb y canhwyll-bren y goleuodd efe ei luſernau ef megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes.

Exod.25.18. 4 Dymma waith y canhwyll-bren, *cyfan-waith o aur[fydd] hyd ei balader[ie] hyd ei flodau cyfan-waith fydd, yn ol y dull a ddangoſodd yr Arglwydd i Moſes felly y gweithia efe y canhwyll-bren.

5 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

6 Cymmer y Lefiaid o fyſc meibion Iſrael a phura hwynt.

7 Ac fel hyn y gwnei iddynt iw pûro: taenella arnynt ddwfr puredigaeth, a gwnant i'r ellyn fyned tros eu holl gnawd hwynt, a golchant eu gwiſcoedd ac ymlanhânt.

8 Yna cymmerant fuſtach ieuangc, ai fwyd offrwm o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew, a'r ail buſtach ieuangc a gymmeri di yn aberth tros bechod.

9 A phâr i'r Lefiaid ddyfod o flaen pabell y cyfarfod, a chynnull holl gynulleidfa meibion Iſrael.

10 Yna pâr i'r Lefiaid ddyfod ger bron yr Arglwydd, a goſoded meibion Iſrael eu dwylo ar y Lefiaid,

11 Ac offrymmed Aaron y Lefiaid ger bron yr Arglwydd, yn offrwm o feibion Iſrael, a byddant hwy i waſanaethu gwaſanaeth yr Arglwydd.

12 A goſoded y Lefiaid eu dwylo ar ben y buſtych: a pharatoa vn yn bech aberth, a'r llall yn offrwm poeth i'r Arglwydd i wneuthur iawn tros y Lefiaid.

13 Yna goſod y Lefiaid ger bron Aaron, a cher bron ei feibion, ac offrwm di hwynt yn offrwm i'r Arglwydd.

14 A nailltua y Lefiaid o blith meibion Iſrael, a * bydded y Lefiaid eiddofi. Num.3.41.

15 Wedi hynny deued y Lefiaid i waſanaethu pabell y cyfarfod: a phûra di hwynt, ac offrymma hwynt yn offrwm.

Num.3.9. 16 Canys hwynt a roddwyd yn rhodd *i mi o blith meibion Iſrael: yn lle agorydd pôb crôth[ſef]pôb cyntafanedic o feibion Iſrael) y cymmerais hwynt i mi.

Exod.13.1. Luc.2.23. 17 *Canys i mi[y daeth] pôb cyntafanedic ym mhlith meibion Iſrael, o ddyn ac o anifail: er y dydd y tarewais bôb cyntafanedic yng-wlad yr Aipht y ſancteiddiais hwynt i mi fy hûn.

18 A chymmerais y Lefiaid yn lle pôb cyntafanedic o feibion Iſrael.

19 A rhoddais y Lefiaid yn rhodd i Aaron, ac iw feibion o blith meibion Iſrael, i waſanaethu gwaſanaeth meibion Iſrael ym mhabell y cyfarfod, ac i wneuthur iawn tros feibion Iſrael, fel na byddo plâ ar feibion Iſrael, wrth ddyfod o feibion Iſrael i'r cyſſegr.

20 Yna y gwnaeth Moſes ac Aaron a holl gynnulleidfa meibion Iſrael i'r Lefiaid yn ol yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes am y Lefiaid: felly y gwnaeth meibion Iſrael iddynt.

21 A'r Lefiaid a ymburaſant, ac a olchaſant eu dillad: ac Aaron ai hoffrymmodd hwynt yn offrwm ger bron yr Arglwydd: a gwnaeth Aaron iawn troſtynt iw glanhau.

22 Wedi hynny y Lefiaid a ddaethant i waſanaethu gwaſanaeth ym mhabell y cyfarfod, ger bron Aaron ai feibion: megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes am y Lefiaid, felly y gwnaeth efe iddynt.

23 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

24 Dymma yr hynn [a wneir] i'r Lefiaid: o fab pum mlwydd ar hugain ac vchod y deuant i filwrio milwriaeth yng-waſanaeth pabell y cyfarfod.

25 Ac o fab deng-mlwydd a deugain y caiff vn ddychwelyd yn ei ol o filwriaeth y gwaſanaeth fel na waſanaetho mwy.

26 Ond gwaſanaethed gyd ai frodyr ym mhabell y cyfarfod, i orchwylio: ac na waſanaethed y gwaſanaeth: fel hyn y gwnei i'r Lefiaid yn eu gorchwyliaeth.

## PEN. IX.

Cadwriaeth gwyl y Paſc. 15 Cwmwl y cyfarwydd-dab. Yr hwn tra ſafe ar y tabernacl ni ſyfle yr Iſraeliaid oi hun man: a thra fydde oddi arno ni thorrent ar eu cerdded.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes yn anialwch Sinai, yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwynt allan o dir yr Aipht, ar y mîs cyntaf gan ddywedyd:

2 *Cadwed meibion Iſrael y Paſc hefyd yn ei dymmor.

3 Ar y pedwerydd dydd ar ddec or mîs hwn, *yn y cyfnos y cedwch ef yn ei dymmor: yn ôl ei holl ddeddfau, ac yn ôl ei holl ddefodau y cedwch ef. Exod.12.2. Lefit.23.5. Num.28.16. Deut.16.2.

4 Felly y llefarodd Moſes wrth feibion Iſrael am gadw y Paſc.

5 A chadwaſant y Paſc, ar y [mîs] cyntaf, ar y pedwerydd dydd ar ddec o'r mîs yn y cyfnos yn anialwch Sanai: yn ol yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes, felly y gwnaeth meibion Iſrael.

6 Ac yr oedd dynion y rhai oeddynt wedi eu halogi wrth gelain dyn, ac ni allent gadw y *Paſc ar y dydd hwnnw, yna y ddaethant ger bron Moſes a cher bron Aaron, ar y dydd hwnnw.

7 A'r dynion hynny a ddywedaſant wrtho nyni [ydym] wedi ein halogi wrth gorph dyn marw: pa ham i'n gwaherddir rhag offrymmu

offrwm i'r Arglwydd yn ei dymmor, ym myſc meibion Iſrael?

8 A dywedodd Moſes wrthynt, ſefwch a mi a wrandawaf beth a orchymynno yr Arglwydd o'ch plegit.

9 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes gan ddywedyd:

10 Llefara wrth feibion Iſrael gan ddywedyd pan fyddo neb wedi ei halogi gan gorph marw, neu [neb] o honoch neu o'ch cenhedlaethau mewn ffordd bell, etto cadwed Baſc i'r Arglwydd.

11 Ar y pedwerydd dydd ar ddec o'r ail mîs yn y cyfnos y cadwant ef: yng-hyd a bara croiw, a dail chwerwon y bwyttânt ef.

Exod.12.46.
Ioan.19.36.
12 Na weddillant [ddim] o honaw hyd y boreu, ac* na thorrant aſcwrn ynddo: yn ôl holl ddeddf y Paſc y cadwant ef.

13 A'r gŵr yr hwn a fyddo glân, ac heb fod mewn taith, ac a oedo gadw'r Paſc, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o fyſc ei bobl, am na offrymmodd offrwm yr Arglwydd yn ei dymmor, ei bechod a ddwg y gŵr hwnnw.

Exod.12.49.
Num.15.15.
14 A phan ymdeithio dieithr gyd a chwi cadwed hefyd Baſc yr Arglwydd, fel [y byddo] deddf y Paſc ai ddefod, felly y ceidw: yr *un deddf fydd i chwi, ſef i'r dieithr ac i'r un fydd ai anedigaeth o'r wlâd.

Exod.40.34.
Exod.13.21.
15 Ac ar y dydd * y codwyd y tabernacl cwmwl a gaeodd am y tabernacl tros babell y deſtiolaeth, ac yr ydoedd ar y tabernacl fel tân o hwyr hyd forau.

16 Felly yr ydoedd yn waſtadol: y cwmwl agaie am dano y dydd, ond y nos lliw tân [ydoedd.]

17 Ac fel y cyfode y cwmwl oddi ar y babell, felly wedi hynny y cychwynne meibion Iſrael: ac yn y lle yr hwn yr arhoſe y cwmwl ynddo, yno y gwerſylle meibion Iſrael.

1.Cor.10.1.
18 Wrth amnaid yr Arglwyd y cychwynne meibion Iſrael, ac wrth amnaid yr Arglwydd y gwerſyllent: yr holl ddyddiau * yr arhoſe y cwmwl ar y tabernacl y gwerſyllent hwy.

19 A phan drige y cwmwl yn hir ar y tabernacl lawer o ddyddiau, yna meibion Iſrael a gadwent wiliadwriaeth yr Arglwydd, ac ni chychwynnent.

20 Ac os bydde y cwmwl ychydic o ddyddiau ar y tabernacl wrth amnaid yr Arglwydd y gwerſyllent, ac wrth amnaid yr Arglwydd y cychwynnent.

21 Hefyd os bydde y cwmwl o hwyr hyd forau, a chyfodi o'r cwmwl y borau, hwythau a ſymmudent: pa un bynnac ai dydd ai nos [fydde] pan gyfode y cwmwl yna y cychwynnent.

Exod.40.34.
22 *Os deu-ddydd, os mîs, os blwyddyn [fydde] tra y trige y cwmwl ar y tabernacl gan aros arno, meibion Iſrael a werſyllent, ac ni chychwynnent, ond pan gode efe y cychwynnent.

23 Wrth air yr Arglwydd y gwerſyllent, ac wrth air yr Arglwydd y cychwynnent, [felly] y cadwent wiliadwriaeth yr Arglwydd, yn ol gair yr Arglwydd trwy law Moſes.

## PEN. X.

Yr vd-cyrn arian. 11 Yr Iſraeliaid yn ymado a'mynydd Sinai. 30 Hobab yn gwrthod myned gyd a Moſes.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Gwna it ddau vd-corn arian: yn gyfanwaith y gwnei hwynt, a byddant it i alw y gynnulleidfa yng-hyd, ac i beri i'r gwerſylloedd gychwyn.

3 Pan gânant a hwynt, yr ymgaſcl yr holl gynnulleidfa attat wrth ddrws pabell y cyfarfod.

4 Ond os ag un y cânant yna y tywyſogion [ſef] pennaethiaid miloedd Iſrael a ymgaſclant attat ti.

5 Pan ganant hwy alarwm [y waith gyntaf] yna y gwerſylloedd y rhai a werſyllant tua'r dwyrain, a gychwynnant.

6 Os canant alarwm [yr ail waith] yna y gwerſylloedd y rhai a werſyllant, tua'r dehau a gychwynnant, alarwm a gânant hwy wrth eu cychwyn.

7 Ac wrth alw yng-hyd y gynnulleidfa cênwch yr vdcyrn, ond na chenwch alarwm.

8 A meibion Aaron yr offeiriad a gânant ar yr vdcyrn, a byddant i chwi yn ddeddf dragywyddol trwy eich cenhedlaethau.

9 Hefyd pan eloch i ryfel yn eich gwlâd, yn erbyn y gorthrymmwr a'ch gorthrymmo chwi, cênwch alarwm mewn vdcyrn: yna y coffeir chwi ger bron yr Arglwydd eich duw, ac yr achubir chwi rhac eich gelynion.

10 Ar ddydd eich llawenydd hefyd, ac ar eich gwyliau goſodedic, ac ar ddechrau eich miſoedd y cênwch ar yr vdcyrn vwch ben eich offrymmau poeth, a'ch aberthau hedd: a byddant i chwi yn goffadwriaeth ger bron eich Duw: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw.

11 A bu yn yr ail flwyddyn ar yr ail mîs ar yr vgeinfed [dydd] o'r mis gyfodi o'r cwmwl oddi ar dabernacl y deſtiolaeth.

12 A meibion Iſrael a gychwynnaſant iw taith o anialwch Sinai, a'r cwmwl a arhoſodd yn anialwch Pharan.

13 Felly y cychwynnaſant y waith gyntaf wrth air yr Arglwydd trwy law Moſes.

Num.2.3.
Num.1.7.
14 Ac yn * gyntaf y cychwynnodd lluman gwerſyll meibion Iuda yn ol eu lluoedd: ac ar ei lu ef [yr ydoedd] * Naheſſon mab Amminadab.

15 Ac ar lu llwyth meibion Iſſachar, Nathaniel mab Zuar.

16 Ac ar lu llwyth meibion Zabulon, Eliab mab Helon.

17 Yna y tynnwyd i lawr y tabernacl, a meibion Iſrael, a meibion Merari a gychwynnaſant gan ddwyn y tabernacl.

18 Yna y cychwynnodd lluman gwerſyll

“
“ Ruben yn eu lluoedd, ac [yr ydoedd] ar ei lu ef
“ Elizur mab Sedeur.
“ 19 Ac ar lu llwyth meibion Simeon, Se-
“ lumiel mab Suri Sadai.
“ 20 Ac ar lû llwyth meibion Gad, Eliaſaph
“ mab Duel.
“ 21 A'r Cehathiaid a gychwnnaſant gan
“ ddwyn * y cyſſegr [a'r lleill] a godent y taber- Num.4.4.
“ nacl tra fyddent hwy yn dyfod.
“ 22 Yna lluman gwerſſyll meibion E-
“ phraim a gychwnnodd yn ol eu lluoedd, ac
“ [yr oedd] ar ei lû ef Eliſamah mab Ammihud.
“ 23 Ac ar lû llwyth meibion Manaſſes, Ga-
“ maliel mab Pedazur.
“ 24 Ac ar lû llwyth meibion Beniamin, A-
“ bidan mab Gedeon.
“ 25 Yna lluman gwerſſyll meibion Dan
“ yn olaf o'r holl werſſylloedd a gychwnnodd yn
“ ol ei lluoedd, ac [yr ydoedd] ar ei lu ef Ahieſer
“ mab Ammi Sadi.
“ 26 Ac ar lû llwyth meibion Aſer, Pagiel
“ mab Ocran.
“ 27 Ac ar lû llwyth meibion Nephthali, A-
“ hiram mab Enan.
“ 28 Dymma gychwnniadau meibion Iſra-
“ el yn ol eu lluoedd, fel y cychwnnaſant.
“ 29 A dywedodd Moſes wrth Hobab mab
“ Reguel y Madianiad, chwegrwn Moſes: my-
“ ned yr ydym i'r lle yr hwn a ddywedodd yr Ar-
“ glwydd, rhoddaf hwnnw i chwi, tyret gyd a ni,
“ a gwnawn ddaioni it: canys llefarodd yr Ar-
“ glwydd ddaioni am Iſrael.
“ 30 Dywedodd yntef wrtho nid âf ddim, o-
“ nid i'm glwâd fy hun, ac at fyng-henedl fy hun
“ yr âf.
“ 31 Yna y dywedodd [Moſes,] na âd ni at-
“ tolwg: canys am it adnabod ein gwerſſyllfa-
“ oedd yn yr anialwch yr ydwyt i ni yn lle lly-
“ gaid.
“ 32 A phan ddelech gyd a ni, a dyfod o'r daio-
“ ni hwnnw, yr hwn a wna yr Arglwydd i ni,
“ gwnawn ninnau ddaioni i tithe.
“ 33 A chychwnnaſant oddi wrth fynydd yr
“ Arglwydd daith tri diwrnod, ac Arch cyfam-
“ mod yr Arglwydd a gychwnnodd daith tri di-
“ wrnod oi blaen hwynt i chwilio am orphywyſ-
“ fa iddynt.
“ 34 A chwmwl yr Arglwydd [oedd] arnynt
“ beunydd, wrth eu cychwyn o'r gwerſſyll.
“ 35 A hefyd pan gychwnne yr Arch Moſes
“ a ddywede: * cyfot Arglwydd, a gwaſcarer dy Pſal.68.1.
“ elynion, a ffoed dy gaſeion o'th flaen.
“ 36 A phan orphywyſe hi y dywede efe: dych-
“ wel Arglwydd [at] fyrddiwn miloedd Iſrael.
“

## PEN. XI.

*Y bobl yn tuchan. 4 yn blyſſio cig. 6 ac yn alaru ar y Manna. 11 cwyn Moſes. 16 yr Arglwydd yn rhoddi dêc a thrugain yn ſwyddogion tann Moſes. 31 Duw yn anfon ſofl-iair. 33 coſpedigaeth ar flyſ-wyr y cig.*

A'R bobl fel tuchanwŷr oeddynt flin yng-hluſtiau yr Arglwydd, a chlywodd yr Arglwydd hyn, ai ddig a ennynnodd, a thân yr Arglwydd a gynneuodd yn eu myſc hwynt, ac a yſſodd gwrr y gwerſſyll.

2 Yna y llefodd y bobl ar Moſes, a gweddiodd Moſes ar yr Arglwydd, a diffoddodd y tân.

3 Ac a alwodd henw y lle hwnnw Taberah: am gynneu o dân yr Arglwydd yn eu myſc.

4 A'r * dorf yr hon [ydoedd] yn eu myſc a flyſſiaſant yn ddirfawr, a meibion Iſrael hefyd a ddychwelaſant, a ŵylaſant, ac a ddywedaſant, pwy a'n portha ni a chig? Exod.12.38.

5 Cof yw gennym y pyſcod y rhai a fwyttawſom yn yr Aipht yn rhad, y cucumerau, ar pompionau, a'r cennyn, a'r winiwn, a'r garllec.

6 Ond yr awr hon y mae ein heneidiau ni yn gwywo, heb ddim ond Manna yn ein golwg.

7 A'r Manna hwnnw oedd * fel hâd coriander, ai liw fel lliw Bdeliwm. Exod.16.31. Pſal.78.24. Ioan.6.31.

8 Y bobl a aethant o amgylch ac [ai] caſclaſant, ac [ai] malâſant mewn melinau, neu ai curaſant a gyrdd, ac [ai] berwaſant mewn peiriau ac [ai] gwnaethant yn deiſſennau: ai flâs ydoedd fel blâs [bara] o olew îr.

9 A phan ddiſcynne y gwlith y nôs ar y gwerſſyll, diſcynne y Manna gyd ag ef.

10 A chlybu Moſes y bobl yn wylo trwy eu tylwythau, pob vn yn nrws ei babell: ac ennynnodd dig yr Arglwydd yn fawr, a drwg oedd gan Moſes.

11 Dywedodd Moſes hefyd wrth yr Arglwydd, pa ham y drygaiſt dy wâs? a pha ham na chawn ffafr yn dy olwg wrth roddi baich yr holl bobl hyn arnaf?

12 Ai myfi a feichiogais ar yr holl bobl hyn? ai myfi ai heſcorais, pan ddywedech wrthif, dwg hwynt yn dy fynwes (megis y dwg tad-maeth y plentyn ſugno) i'r tîr yr hwn a addewaiſt trwy lŵ i'n tadau?

13 O ba le [y bydde] i mi gîg iw roddi i'r holl bobl hynn? canys ŵylo y maent wrthif gan ddywedyd: dod i ni gîg iw fwytta.

14 Ni allaf fi fy hunan arwain yr holl bobl hynn, canys rhy-drwm ydynt i mi.

15 Ac os felly y gwnei i mi attolwg gan ladd lladd fi, os cefais ffafor yn dy olwg di: fel na welwyf fy nrwg-fyd.

16 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, caſcl i mi ddeng wr a thrugain o henuriaid Iſrael, y rhai a wyddoſt eu bod yn hênuriaid y bobl, ac yn ſwyddogion iddynt, a chymmer hwynt i babell y cyfarfod, a ſafant yno gyd a thi.

17 Canys deſcynnaf a llefaraf wrthit yno, ac mi a attaliaf o'r yſpryt yr hwn ſydd arnat, ac ai goſodaf arnynt hwy, felly y dygant gyd a thi faich y bobl, fel na ddygech di yn vnic.

18 Am hynny dywet wrth y bobl ymſainc-

teiddiwch erbyn y foru, a chewch fwytta cîg: canys wylaſoch yng-hluſtiau yr Arglwydd gan ddywedyd: pwy a ddyru i ni gîg iw fwytta? canys [yr ydoedd] yn dda arnom yn yr Aipht: am hynny y rhydd yr Arglwydd i chwi gîg, a bwyttewch.

19 Nid vn dydd y bwyttewch, ac nid dau, ac nid pump o ddyddiau, ac nid dec diwrnod ac nid vgain diwrnod.

20 [Ond] hyd fis o ddyddiau, hyd oni ddel allan o'ch ffroenau, ai fod yn ffieidd-beth i chwi, am i chwi ddirmygu yr Arglwydd yr hwn [ſydd] yn eich plith, ac wylo o honoch yn ei wydd ef, gan ddywedyd: pa ham y daethom ymma o'r Aipht?

21 A dywedodd Moſes chwe chant mil o wŷr traed [yw] y bobl y rhai yr ydwyf fi yn eu plith: a thi a ddywedi rhoddaf gîg iddynt iw fwytta fis o ddyddiau.

22 Ai defaid a gwartheg a leddir iddynt, fel y byddo digon iddynt? ai holl byſc y môr a gesclir iddynt fel y byddo digon iddynt?

23 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, * ai llaw yr Arglwydd a gwttogwyd? yr awr hon y cei di weled a ddigwydd fyng-air it, ai na [ddigwydd.]

Eſai.50.2.
Eſai.59.1.

24 A Moſes a aeth allan, ac a draethodd eiriau yr Arglwydd wrth y bobl, ac a gaſclodd ddeng wr a thrugain o henuriaid y bobl, ac ai goſododd hwynt o amgylch y babell.

25 Yna y deſcynnodd yr Arglwydd mewn cwmwl, ac a lefarodd wrtho, ac a attaliodd or yſpryt yr hwn [oedd] arno, ac ai rhoddes i'r dec henafgwyr a thrugain, a thra y gorphywyſe yr yſpryt arnynt y prophwydent, a chwaneg ni wnaent.

26 A dau o'r gwŷr a drigaſent yn y gwerſſyll (henw vn [ydoedd] Eldad a henw y llall Medad) a gorphywyſodd yr yſpryt arnynt hwy am eu bod hwynt o'r rhai a ſcrifennaſid, ond nid aethant ir babell, etto prophwydaſant yn y gwerſſyll.

27 A rhedodd llangc a mynegodd i Moſes ac a ddywedodd, y mae Eldad a Medad yn prophwydo yn y gwerſſyll.

28 Ac Ioſuah mab Nun gwenidog Moſes oi ieuenctyd a attebodd ac a ddywedodd, Moſes fy arglwydd gwahardd hwynt.

29 Yna y dywedodd Moſes wrtho, ai cenfigennu yr ydwyt ti troſſofi? ô na bydde holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi trwy roddi o'r Arglwydd ei yſpryt arnynt.

30 A Moſes a aeth i'r gwerſſyll, efe a henuriaid Iſrael.

31 Ac fe aeth gwynt oddi wrth yr Arglwydd, ac * a dynnodd ſofl-iair oddi wrth y môr, ac ai tanodd wrth y gwerſſyll, megis taith diwrnod ar y naill du, a thaith diwrnod ar y tu arall o amgylch y gwerſſyll, a [hynny] yng-hylch dau gufydd ar wyneb y ddaiar,

Exod.16.13.
Pſal.78.26.

32 Yna y cododd y bobl y dydd hwnnw oll, a'r nos oll, a'r holl ddydd drannoeth, ac a gaſclaſant y ſofl-iair: yr hwn a gaſclodd leiaf a gaſclodd ddêc Homer: a chan danu y tanaſant o honynt o amgylch y gwerſſyll.

33 Y cîg [ydoedd] etto rhwng eu dannedd hwynt heb ei gnoi pan enynnodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn y bobl, * a'r Arglwydd a darawodd y bobl a phlâ mawr iawn.

Pſal.78.31.

34 Am hynny galwodd [y bobl] henw y lle hwnnw Beddau y blŷs: am iddynt gladdu yno y bobl a flyſſiaſent.

35 O Feddau y blŷs yr aeth y bobl i Haſeroth: ac a arhoſaſant yn Haſeroth.

## PEN. XII.

Aaron a Miriam yn beio ar Moſes. 10 Coſpedigaeth Miriam ai rhydd-dab.

Llefarodd Miriam hefyd ac Aaron yn erbyn Moſes, o achos y wraig o Aethiop, yr hon a gymmeraſe efe: canys efe a gymmeraſe Aethiopes yn wraig [iddo.]

2 A dywedaſant, ai yn vnic trwy Moſes y llefarodd yr Arglwydd? oni lefarodd trwom ninnau hefyd? a'r Arglwydd a glybu [hynny.]

3 A'r gwr Moſes [ydoedd] larieiddiaf o'r holl ddyniō y rhai [oeddynt] ar wyneb y ddaiar.

4 A dywedodd yr Arglwydd yn ddiſymmwth wrth Moſes, ac wrth Aaron, ac wrth Miriam, deuwch allan eich trioedd i babell y cyfarfod, felly hwynt a aethant allan ill trioedd.

5 Yna y deſcynnodd yr Arglwydd mewn colofn o niwl, ac a ſafodd [wrth] ddrws y babell ac a alwodd am Aaron a Miriam, ac aethant allan ill dau.

6 Ac efe a ddywedodd, gwrandewch yr awr hon fyng-eiriau, os bydd prophwyd yr Arglwydd yn eich myſc mewn gweledigaeth yr ym hyſbyſſaf iddo, [neu] mewn breuddwyd y llefaraf wrtho.

7 Nid felly [y mae] fyng-was Moſes ffyddlon yw efe yn fy holl dŷ.

8 * Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho [mewn] gweledigaeth, nid mewn dammegion, onid caiff edrych a'r wedd yr Arglwydd: pa ham gan hynny nad ofnech ddywedyd yn erbyn fyng-wâs [ſef] yn erbyn Moſes?

Exodd.33.11.

9 Digofaint yr Arglwydd a enynnodd yn eu herbyn hwynt, ac efe a aeth ymmaith.

10 A'r niwl a ymadawodd oddi ar y babell ac wele Miriam [y ddoedd] wahan-glwyfus, [yn diſcleirio] fel eira: ac edrychodd Aaron ar Miriam, ac wele hi yn wahan-glwyfus.

11 Yna y dywedodd Aaron wrth Moſes [yſtyria] wrthif fy arglwydd attolwg na oſot ti yn ein herbyn y pechod yr hwn yn ynfyd a wnaethom, [a thrwy] yr hwn y pechaſom.

12 Na fydded hi attolwg fel vn marw yr hwn y bydd hanner ei gnawd wedi ei ddifa, pan ddel allan o groth ei mam.

13 Yna Moſes a waeddodd ar yr Arglwydd gan ddywedyd: ô Duw attolwg meddiginiaetha hi'r awr hon.

14 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, os ei thâd a boere boeri yn ei hwyneb, oni chywilyddie hi ſaith niwrnod? * caier arni ſaith niwrnod o'r tu allan i'r gwerſſyll, ac wedi [hynny] derbynnier hi. Leuit.13.46.

15 A chaewyd ar Miriam o'r tû allan i'r gwerſſyll ſaith niwrnod, a'r bobl ni chychwynnodd, hyd oni ddaeth Miriam yng-hyd a hwynt.

16 Ac wedi hynny y cychwynnodd y bobl o Hazeroth, ac a werſſyllaſant yn anialwch Pharan. Num.33.18.

## PEN. XIII.

Gwyr yn myned i ſpio gwlâd Canaan. 24 Ac yn dwyn o ffrwyth y wlad gyd a hwynt. 28 Rhai o honynt yn peri i'r bobl arſwydo myned rhagddynt i wlâd Canaan. 31 Caleb yn gwrthwynebu y rhai hynny.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Anfon it wŷr i edrych tir Canaan yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi i feibion Iſrael: gŵr tros bob vn o lwythau eu tadau a anfonwch: pob vn yn bennaeth yn eu myſc hwynt.

3 Yna Moſes ai hanfonodd hwynt o anialwch Pharan wrth orchymmyn yr Arglwydd, pennaethiaid meibion Iſrael [oedd] y gwŷr hynny oll.

4 Dymma eu henwau hwynt: tros lwyth Ruben Sammua mab Zacur.

5 Tros lwyth Simeon, Saphat mab Hori.

6 Tros lwyth Iuda, Caleb mab Iephun.

7 Tros lwyth Iſſachar, Igal mab Ioſeph.

8 Tros lwyth Ephraim, Oſea mab Nun.

9 Tros lwyth Bẽiamin, Palti mab Raphu.

10 Tros lwyth Zabulon, Gadiel mab Sodi.

11 O lwyth Ioſeph, tros lwyth Manaſſes, Gadi mab Suſi.

12 Tros lwyth Dan, Amiel mab Gemali.

13 Tros lwyth Aſer, Sehur mab Michael.

14 Tros lwyth Nephthali, Nahabi mab Vaphſi.

15 Tros lwyth Gad, Guel mab Machi.

16 Dymma henwau y gwŷr y rhai a anfonodd Moſes i edrych anſodd y wlâd: a Moſes a henwodd Oſea fab Nun, Ioſuah.

17 A Moſes ai hanfonodd hwynt i edrych anſodd gwlad Canaan, ac a ddywedodd wrthynt, ewch ymma tua'r dehau, a dringwch i'r mynydd.

18 Ac edrychwch y wlad beth yw hi, a'r bobl ſydd yn trigo ynddi, ai cryf, ai gwan, ai llawer [ydynt.]

19 A pheth [yw] y tir yr hwn y maent yn trigo ynddo, ai da, ai drwg, ac ym mha ddinaſoedd y maent yn preſſwylio, ai mewn gwerſſylloedd ai mewn caerau.

20 A pha dir ai brâs yw efe, ai cûl, a oes goed ynddo ai nad [oes,] ymgryfhewch a chymmerwch o ffrwyth y tir: a'r dyddiau [oeddynt] ddyddiau blaen-ffrwyth grawn-win.

21 A hwyntau a aethant, ac a chwiliaſant y tîr o anialwch Sin hyd Rehab, ffordd y deuir i Hemath.

22 Canys aethant i fynu i'r dehau, a daethant hyd Hebron ac yna [yr oedd] Ahiman, Seſai, a Thalmai, mebion Anac: a Hebron a adailadaſid ſaith mlynedd o flaen Zoan yn yr Aipht. Deut.1.24.

23 A daethant hyd * ddyffryn Eſcol, a thorraſant oddi yno gangen, ac vn wryſcen o rawnwîn, ac ai dugaſant ar drosſol rhwng dau, [dugaſãt rai] o'r pomgranadau hefyd, ac o'r ffigus.

24 A'r lle hwnnw a alwaſant dyffryn Eſcol, o achos y wryſcen rawn-win yr hon a dorrodd meibion Iſrael oddi yno.

25 A dychwelaſant o chwilio y wlâd yn ôl deugain nhiwrnod.

26 Yna myned a wnaethant, a dyfod at Moſes ac at Aaron, ac at holl gynnulleidfa meibion Iſrael i Cades yn anialwch Pharan: a dugaſant yn eu hol air iddynt, ac i'r holl gynnulleidfa, ac a ddangoſaſant iddynt ffrwyth y tîr.

27 A mynegaſant iddo a dywedaſant: daethom i'r tîr lle i'r anfonaiſt ni: * a llifeirio y y mae o laeth a mêl: ac fel dymma ei ffrwyth ef. Exod.33.3.

28 Ond [y mae] y bobl y rhai ſydd yn trigo yn y tir yn gryf: a'r dinaſoedd yn gaeroc, [ac] yn fawrion iawn, a gwelſom yno hefyd feibion Anac.

29 Yr Amaleciaid ſydd yn trigo yn nhîr y dehau, a'r Hethiaid, a'r Iebuſiaid, a'r Amoriaid yn gwladychu yn y mynydd-dir: a'r Canaaneaid yn preſſwylio wrth y môr, a cher llaw yr Iorddonen.

30 Yna y goſtegodd Caleb y bobl ger bron Moſes, ac a ddywedodd: gan fyned awn i fynu, a goreſcynnwn hi, canys gan orchfygu y gorchfygwn hi.

31 Ond y gwŷr y rhai a aethent i fynu gyd ag ef a ddywedaſant, ni allwn fyned i fynu, yn erbyn y bobl [accw,] canys cryfach ydynt na nyni.

32 A rhoddaſant allan anglod y tîr yr hwn a chwiliaſent wrth feibion Iſrael gan ddywedyd: y tîr yr hwn yr aethom troſto iw chwilio, tîr yn difa ei breſſwylwyr yw efe: a'r holl bobl y rhai a welſom ynddo [ydynt] wŷr corphol:

33 Ac yno y gwelſom feibion Anac y cawri [y rhai a ddaethant] o'r cawri, ac yr oeddem yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn, ac felly yr oeddem yn eu golwg hwyntau.

## PEN. XIIII.

Y bobl yn tuchan yn erbyn Duw. 6 Caleb ac Ioſuah yn eu diddanu hwynt. 12 A'r bobl yn amcanu eu llabyddio hwythau. 37 Yr ſpiwyr eraill yn meirw. 40 Rhai o'r bobl yn myned allan o'r llu heb gyngor yr Arglwydd a laddwyd gan Amalec.

YNa yr holl gynnulleidfa a dderchafodd ac a roddodd ei llef, a'r bobl a wylaſant ar hyd y nôs honno.

2 A holl feibion Iſrael a duchanaſant yn erbyn Moſes, ac yn erbyn Aaron, a'r holl gynnulleidfa, a ddywedaſant wrthynt, ô na buaſem feirw yn nhir yr Aipht, neu ô na buaſem feirw yn y diffaethwch hwn.

3 A pha ham y mae'r Arglwidd yn ein dwyn ni i'r tir hwn i gwympo ar y cleddyf? ein

gwraged a'n plant fyddant yn yſpail: onid gwell i ni ddychwelyd i'r Aipht?

4 A dywedaſant bob vn wrth ei gilydd, goſodwn ben[arnom,] a dychwelwn i'r Aipht.

5 Yna y ſyrthiodd Moſes ac Aaron a'r eu hwynebau ger, bron holl gynnulleidfa tyrfa meibion Iſrael.

Eccle.46.9. 1.Mac.2.56. 6 *Ioſuah hefyd mab Nun a Chaleb mab Iephun [dau] o ſpiwyr y tîr a rwygaſant eu dillad.

7 Ac a ddywedaſant wrth holl dorf meibion Iſrael, gan ddywedyd: y tîr yr hwn yr aethom troſto iw chwilio [ſydd] dîr da odieth.

8 Os yr Arglwydd fydd bodlon i ni, yna efe a'n dwg ni i'r tir hwn, ac ai rhydd i ni [ſef] y tîr yr hwn ſydd yn llifeirio o laeth a mêl.

9 Yn vnic na wrthryfelwch yn erbyn yr Arglwydd, ac nac ofnwch bobl y tîr, canys ein bwyd ni ydynt: ciliodd eu hamddeffyn oddi wrthynt, a'r Arglwydd[ſydd]gyd a ni, nac ofnwch hwynt.

10 Yna yr holl dorf a amcanaſant eu llabyddio hwynt a meini, a gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd yn mhabell y cyfarfod i holl feibion Iſrael.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, pa hŷd y dirmyga y bobl ymma fyfi? a pha hŷd ni chredant i mi? am yr holl arwyddion, y rhai a wneuthum yn eu plith.

12 Tarawaf hwynt a haint, a goreſcynnaf hwynt, a gwnaf di yn genhedlaeth fwy, a chryfach na hwynt.

13 Yna y dywedodd Moſes wrth yr Arglwydd, Exod.32.12. *fellly yr Aiphtiaid a glywent (canys oi myſc hwynt y dygaiſt y bobl ymma i fynu yn dy nerth.)

14 A [rhai] a ddywedant i breſſwylwyr y tîr hwn: (canys clywſant mai tydi Arglwydd ſydd ym myſc y bobl ymma, ac mai ti Arglwydd ſyd yn ymddangos [iddynt] wyneb yn wyneb, a bod dy niwl di yn aros arnynt, Exod.13.21. *a'th fod ti yn myned oi blaen hwynt mewn colofn niwl y dydd, ac mewn colofn dân y nôs.)

15 Pan leddech y bobl ymma fel vn gŵr, yna y dywed y cenhedloedd y rhai a glywſant ſôn am danat gan ddywedyd:

Deut.9.28. 16 O eiſſie * gallu o'r Arglwydd ddwyn y bobl ymma i'r tîr, yr hwn trwy lŵ a addawſe efe iddynt, am hynny y lladdodd efe hwynt yn y diffaethwch.

17 Yr awr hon gan hynny mawrhaer attolwg nerth yr Arglwydd, fel y lleferaiſt gan ddywedyd.

Exod.34.6. pſal.103.8. 18 Yr Arglwydd [ſydd] * hwyrfrydic i ddig, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd a chamwedd, a chan gyfiawnhau ni chyfiawnha Deut.5.9. Exod.20.5.& 34.7. Iere.22.18. efe [yr anuwiol]* ymweled y mae ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd ar bedwaredd [genhedlaeth.]

19 Madde attolwg anwiredd y bobl ymma, yn ôl dy fawr drugaredd megis y maddeuaiſt i'r bobl hynn o'r Aipht hyd ymma.

20 Yna y dywedodd yr Arglwydd, maddeuais yn ôl dy air.

21 Er hynny byw wyfi, a'r holl dîr a lenwir o ogoniant yr Arglwydd.

22 Canys yr holl ddynion y rhai a welſant fyng-ogoniant am harwyddion y rhai a wneuthum yn yr Aipht, ac yn y diffaethwch, ac a'm temptiaſant fi y ddeng-waith hyn, ac ni wrandawſant ar fy llais.

23 Ni welant y tîr yr hwn trwy lw a addewais iw tadau hwynt, ſef y rhai oll am dirmygaſant nis gwelant ef.

24 Ond fyng was * Caleb am fod yſpryt arall gyd ag ef, ac iddo fyng-hyflawn ddilyn, dygaf ef i'r tîr yr hwn y daeth iddo, ai hâd ai hetifedda ef. Ioſua 14.8.

25 Ond y mae yr Amaleciaid a'r Cananeaid yn trigo yn y dyffryn: y foru dychwelwch ac ewch i'r diffaethwch [ar hyd] ffordd y môr coch.

26 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, ac wrth Aaron gan ddywedyd.

27 *Pa hŷd [y gwrandawaf] ar y gynnulleidfa ddrygionus hon, yr hon ſydd yn tuchan i'm herbyn? [ſef] y gwrandawaf duchan meibion Iſrael y rhai ydynt yn tuchan i'm herbyn? Pſal.106.26.

28 Dywet wrthynt *[nid] byw fi medd yr Arglwydd onid fel y llefaraſoch yn fyng-hluſtiau felly y gwnaf i chwi. Num.32.10.

29 *Yn y diffaethwch hwn y cwymp eich celaneddau, a'ch holl rifedigion drwy eich holl rif, y rhai a duchanaſoch yn fy erbyn.

30 Ni ddeuwch chwi i'r tîr yr hwn y codais fy llaw, am wneuthur i chwi breſſwylio ynddo, ond Caleb mab Iephun, ac Ioſuah mab Nun.

31 Ond * eich plant chwi y rhai y dywedaſoch y byddent yn yſpail, hwynt a ddygaf [i'r wlâd,] a chânt adnabod y tîr yr hwn a ddirmygaſoch. Deut.1.39.

32 A'ch celaneddau chwi a gwympant yn y diffaethwch hwn.

33 A'ch meibion chwi fyddant fugeiliaid yn y diffaethwch ddeugain mlynedd, ac a ddygant [goſp] eich puttein-dra chwi nes darfod eich celaneddau chwi yn y diffaethwch.

34 Yn ôl rhifedi y dyddiau y chwiliaſoch y tîr, [ſef] deugain niwrnod, pob diwrnod am flwyddyn y dygwch eich anwireddau, [ſef] deugain mlhynedd: a chewch adnabod fyn-nhorgair maufi.

35 Myfi yr Arglwydd a lefarais, diau y gwnaf hyn i'r holl gynulleidfa ddrygionus ymma, y rhai ydynt wedi ymgynnull i'm herbyn i: yn y ddiffaethwch hwn y darfyddant ac yno y byddant feirw.

36 A'r dynion y rhai a anfonodd Moſes i chwilio y tîr, ac a wnaethant i'r holl dorf duchan yn ei erbyn ef, pan ddychwelaſant gan

rodd allan anair am y tîr.

Heb.3.10. .Cor.10.10. 37 Y dynion [meddaf] y rhai a roddaſant allan anair drwg i'r tîr a *fyddant feirw o'r plâ ger bron yr Arglwydd.

38 Ond Ioſuah mab Nun, a Chaleb mab Iephun a fyddant fyw o'r gwŷr hyn, y rhai a aethant i chwilio y tîr.

39 A Moſes a lefarodd yr holl eiriau hyn wrth holl feibion Iſrael: a'r bobl fuant driſt odieth.

Deut.1.41. 40 A *chodaſant yn foreu i fyned i ben y mynydd gan ddywedyd, wele ni, ac ni a awn i fynu i'r lle [am] yr hwn y dywedodd yr Arglwydd: canys ni a bechaſom.

41 A dywedodd Moſes, pa ham yr ydych fel hyn yn troſſeddu gair yr Arglwydd: a hyn ni lwydda.

42 Nac ewch i fynu: canys nid [yw] yr Arglwydd yn eich plith: rhac eich taro o flaen eich gelynion.

43 Canys yr Amaleciaid a'r Canaaneaid [ydynt] yno o'ch blaen chwi, a chwi a ſyrthiwch ar y cleddyf: canys am i chwi ddychwelyd oddi ar ôl yr Arglwydd, ni bydd yr Arglwydd gyd a chwi.

44 Etto ymegniaſant i fyned i ben y mynydd: ond Arch cyfammod yr Arglwydd a Moſes ni ſymudaſant o ganol y gwerſyll.

Deut.1.44. 45 Yna y deſcynnodd yr Amaleciaid ar Canaaneaid y rhai oeddynt yn preſſwylio yn y mynydd hwnnw, ac ai tarawſant,* ac ai coethaſant hyd Horma.

## PEN. XV.

Trefn y rhoddion a roddyd yng-hyd a'r aberthau. 24 am bechod a wneler heb wybod, 30 neu trwy ryfyg. 32 coſp yr hwn a gaſclodd friwydd ar y Sabboth. 38 Gweltiau y gorchymynnion.

A'R Arglwydd a lefarodd wrth Moſes
“ gan ddywedyd:
“ 2 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt:
“ *pan ddeloch i dîr eich preſſwylfa, yr hwn
Lefit.23.10. “ yr ydwyf fi yn ei roddi i chwi,
“ 3 Ac offrymmu o honoch aberth tanllyd i'r
“ Arglwydd [o] offrwm poeth, neu aberth [arall,]
“ gan * neilltuo adduned, naill ai yn eich offrwm
Leuit.22.21. “ gwirfodd, ai ar eich gwyliau goſodedic,
“ gan wneuthur * arogl eſmwyth i'r Arglwydd
Exod.29.18. “ o'r eidionnau, neu o'r praidd:
“ 4 Yna * offrymmed yr hwn a offrymmo ei
Leuit.2.1. “ rodd i'r Arglwydd o beillied ddecfed ran Epha,
“ wedi ei gymmyſcu trwy bedwaredd ran Hin o
“ olew yn fwyd offrwm.
“ 5 Ac offrwm di gyd a'r offrwm poeth, neu aberth
“ [arall] bedwaredd ran Hin o wîn am bob
“ oen yn ddiod offrwm.
“ 6 A thi a offrymmi yn fwyd offrwm gyd a
“ hwrdd o beillied ddwy ddecfed rā [Epha,] wedi
“ ei gymmyſcu trwy drydedd ran Hin o olew.
“ 7 A thrydedd ran Hin o wîn yn ddiod offrwm:
“ [felly] yr offrymmu arogl eſmwyth i'r
“ Arglwydd.
“ 8 A phan ddarperech lô buwch yn offrwm
poeth, neu aberth [arall,] gan nailltuo adduned, ”
neu [aberth] hedd i'r Arglwydd: ”
9 Yna offrymmed yn fwyd offrwm gyd a ”
llo y fuwch o beillied dair decfed ran [Epha,] ”
wedi ei gymmyſcu trwy haner Hin o olew. ”
10 Ac offrwm haner Hin o wîn yn ddiod offrwm ”
[dymma] aberth tanllyd, o arogl eſmwyth ”
i'r Arglwydd. ”
11 Felly y gwneir am bob ŷch, neu am bob ”
hwrdd, neu am oen, neu am fynn. ”
12 Yn ol y rhifedi yr hwn a ddarparoch, ”
felly y darperwch i [bob] un yn ol eu rhifedi. ”
13 Pob priodor a wna y pethau hyn felly, ”
wrth offrymmu aberth tanllyd o arogl eſmwyth ”
i'r Arglwydd. ”
14 A phan ymdeithio dieithr-ddyn, neu yr ”
hwn [ſydd] yn eich plith, drwy eich cenhedlaethau, ”
a darparu aberth tanllyd o arogl eſmwyth ”
i'r Arglwydd, fel y gwnewch chwi, felly gwnaed ”
yntef. ”
15 O dyrfa, yr * un ddeddf [fydd] i chwi, ac ”
i'r ymdaithydd dieithr: deddf dragywyddol ” Exod.12.49.
[yw] drwy eich cenhedlaethau, [mai] megis ” Num.9.14.
chwi, felly y bydd y dieithr ger bron yr Arglwydd. ”
16 Un gyfraith, ac un ddefod fydd i chwi ac ”
i'r ymdeithydd a ymdeithio gyd a chwi. ”
17 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes ”
hefyd gan ddywedyd. ”
18 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt ”
: pan ddeloch i'r tîr yr hwn yr ydwyf yn ”
eich dwyn chwi iddo. ”
19 Yna pan fwytaoch o fara y tîr, y derchefwch ”
offrwm derchafel i'r Arglwydd. ”
20 O flaenion eich toes yr offrymmwch deiſſen ”
yn offrwm derchafel: fel offrwm derchafel ”
y llawr dyrnu, felly y derchefwch hithe. ”
21 O ddechreu eich toes y * rhoddwch i'r ”
Arglwydd offrwm derchafel drwy eich cenhedlaethau. ” Leuit.23.14
22 A phan * eloch tros y ffordd, ac na wneloch ”
yr holl orchymynion hyn, y rhai a lefarodd ” Leuit.4.2.
yr Arglwydd wrth Moſes. ”
23 Sef yr hyn oll a orchymynnodd yr Arglwydd ”
i chwi trwy law Moſes, o'r dydd y gorchymynnodd ”
yr Arglwydd, ac o hynny allan ”
trwy eich cenhedlaethau: ”
24 Yna bydded, * os allan o olwg y gynnulleidfa ”
y gwnaed [dim] trwy anwybod, i'r holl Leuit.4.13.
gynnulleidfa ddarparu un buſtach ieuangc yn offrwm poeth, i [fod] yn arogl eſmwyth i'r Arglwydd, ai fwyd offrwm, ai ddiod offrwm wrth y ddefod, ac un bwch geifr yn bech aberth.

25 A gwnaed yr offeiriad iawn tros holl gynnulleidfa meibiō Iſrael, a maddeuir iddynt: canys anwybodaeth yw: a dygant eu hoffrymmau yn aberth tanllyd i'r Arglwydd, ai pech aberth ger bron yr Arglwydd am eu anhwybodaeth.

26 A maddeuir i holl gynnulleidfa meibion Iſrael ac i'r dieithr a ymdeithio yn eu myſc: canys

nys[digwyddodd] i'r holl bobl trwy anwybod.

Leuit.4.27. 27 Ond *os vn dyn a becha trwy amryfuſedd, yna offrymmed afr flwydd dros bechod.

28 A gwnaed yr offeiriad iawn ger bron yr Arglwydd tros y dyn amryfuſol, pan becho trwy amryfuſedd, gan wneuthur iawn troſto fel y maddeuir iddo.

29 Yr hwn a aned o feibion Iſrael, a'r dieithr a ymdeithio yn eu myſc, vn gyfraith fydd i chwi am wneuthur[pechod] trwy amryfuſedd.

30 Ond y dyn a wnel bechod trwy rhyfyg o brioddor, neu o ddieithr, cablu'r Arglwydd y mae, torrer ymmaith y dyn hwnnw o fyſc ei bobl.

31 O herwydd mai gair yr Arglwydd a ddiyſtyrodd efe, ai orchymyn a dorrodd efe, llwyr dorrer ymmaith y dyn hwnnw, ei anwiredd [ſydd] yndo.

32 Fel yr ydoedd meibion Iſrael yn y diffaethwch, cawſant ŵr yn cynnyttа ar y dydd Sabboth.

33 A'r rhai a'i cawſant ef, ai dugaſant ef [ſef] y cynnyttwr at Moſes, ac at Aaron, ac at yr holl gynnulleidfa.

Leuit.24.12. 34 A goſodaſant ef mewn *dal-fa, am nad oedd hyſbys beth a wneid iddo.

35 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, lladder y gŵr yn farw, llabyddied yr holl gynnulleidfa ef a meini, o'r tu allan i'r gwerſyll.

36 A'r holl gynnulleidfa ai dugaſant ef i'r tu allan ir gwerſyll, ac ai llabyddiaſant ef a meini, fel y bu efe farw, megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes.

37 A llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes gan ddywedyd:

Deut.22.12. Matth.23.5. 38 Llefara wrth feibion Iſrael, a dywet wrthynt, *am wneuthur iddynt eddi ar odre eu dillad, drwy eu cenhedlaethau, a rhoddant bleth o ſidan glâs ar eddi y godre.

39 A byddet pan edrychoch chwi ar yr eddi, yna goſio o honoch holl orchymynnion yr Arglwydd, ai gwneuthur hwynt: ac na chwiliwch yn ôl eich calonnau eich hunain, nac yn ôl eich llygaid eich hunain, y rhai yr ydych yn puttteinio ar eu hôl.

40 Fel y coſioch, ac y gwneloch fy holl orchymynnion mau fi, ac y byddoch yn ſanctaidd i'ch Duw.

41 Myfi ydwyf yr Arglwydd eich Duw chwi, yr hwn a'ch dygais chwi allan o dîr yr Aipht i fod i chwi yn Dduw: myfi[ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

## PEN. XVI.

Gwrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram, ai coſpedigaeth. 37 Beth a wnaed ai thuſſerau hwynt. 41 Tuchan y bobl ai coſpedigaeth.

Num.27.3. Ecclеſ.45.18. Iud.16. YNa[meddwl] a gymmerodd *Corah mab Iſaar, mab Cehath, mab Lefi, a Dathan ac Abiram meibion Eliab, ac On mab Peleth mab Ruben.

2 A chodaſant o flaen Moſes, ynghyd a dau cant, a dec a deugain o wŷr[eraill]o feibion Iſrael: pennaethiaid y gynnulleidfa, *pendefigion y gymmanfa, gwŷr enwoc.

Num.26.9.

3 Ac ymgaſclaſant yn erbyn Moſes, ac Aaron, a dywedaſant wrthynt: digon i chwi[hyn] canys yr holl gynnulleidfa[ſydd] ſanctaidd bob vn o honynt, ac y [mae]'r Arglwydd yn eu myſc: pa ham yr ymgodwch goruwch cynnulleidfa yr Arglwydd?

4 A phan glybu Moſes, efe a ſyrthiodd ar ei wyneb.

5 A llefarodd wrth Corah, ac wrth ei holl gynnulleidfa ef, gan ddywedyd, y borеu y dengys yr Arglwydd yr hwn [ſydd] eiddo ef, a'r ſanctaidd, a'r [hwn] a ddyly neſſau atto ef: canys yr hwn a ddewiſodd efe a neſſa efe atto.

6 Hyn a wnewch, cymmerwch i chwi[ſef] Corah ai holl gynnulleidfa thuſſerau.

7 A rhoddwch ynddynt dân, a goſodwch arnynt arogl-darth y foru ger bron yr Arglwydd: yna bydd i'r gŵr hwnnw fod yn ſanctaidd yr hwn a ddewiſo 'r Arglwydd: digon i chwi [hyn] meibion Lefi.

8 A dywedodd Moſes wrth Corah, gwrandewch atolwg meibion Lefi.

9 Ai bychan gennych naillduo o Dduw Iſrael chwi oddi wrth gynnulleidfa Iſrael: gan eich neſſau chwi atto ei hun, i waſanaethu gwaſanaeth tabernacl yr Arglwydd, ac i ſefyll ger bron y gynnulleidfa iw gwaſanaethu hwynt.

10 Canys efe a'th neſſaodd di, a'th holl frodyr di meibion Lefi gyd a thi: ac a geiſiwch chwi yr offeiriadaeth hefyd?

11 Am hynny ydwyt ti, a'th holl gynnulleidfa yn ymgynnull yn erbyn yr Arglwydd: ond Aarō beth[yw]efe i chwi i duchan yn ei erbyn?

12 A Moſes a anfonodd i alw am Dathan, ac Abiram meibion Eliab: hwythau a ddywedaſant ni ddeuwn ni i fynu.

13 Ai bychan[yw] dwyn o honot ti ni i fynu o dîr yn llifeirio o laeth, a mêl, i'n lladd ni yn y diffaethwch: oddieithr hefyd arglwyddiaethu o honot yn dost arnom ni?

14 Etto ni ddygaiſt ni i dîr yn llifeirio o laeth a mêl, ac ni roddaiſt i ni feddiant [mewn] maes, na gwin-llan: a dynni di lygaid y gwŷr hyn? ni ddeuwn ni i fynu ddim.

Gene.4.4.5. 15 Yna y digiodd Moſes yn ddirfawr, ac y dywedodd wrth yr Arglwydd, *nac edrych ar eu bwyd offrwm hwynt: ni chymmerais vn aſſyn ganddynt, ac ni ddrygais vn o honynt.

16 A dywedodd Moſes wrth Corah, bydd di a'th holl gynnulleidfa ger bron 'r Arglwydd: ti a hwynt, ac Aaron[hefyd]y foru.

17 A chymmerwch hefyd bob vn ei thuſſer, a rhoddwch arnynt arogl-darth, a dyged pob vn ei thuſſer ger bron yr Arglwydd,[ſef]dau cant, a dec a deugain o thuſſerau: [dwg]dithe hefyd, ac Aaron bob vn ei thuſſer.

18 A chymmeraſant bob vn ei thuſſer, a rhoddaſant dân ynddynt, a goſodaſant arogl-darth arnynt, a ſafaſant [wrth] ddrws pabell y cyfarfod

farfod yng-hyd a Moſes ac Aaron.

19 Yna Corah a gaſclodd yr holl gynnulleidfa yn eu herbyn hwynt i ddrws pabell y cyfarfod: a gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd i'r holl gynnulleidfa.

20 Yna y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac wrth Aaron gan ddywedyd:

21 Ymnaillduwch o fyſc y gynnulleidfa hon, a mi ai difaf hwynt ar vnwaith.

22 Yna y ſyrthiaſant ar eu hwynebau, ac a ddywedaſant, o Dduw, Duw yr yſprydion, [Duw] pob cnawd, vn dyn a bechodd, ac a ddigi di wrth yr holl gynnulleidfa?

23 Yna y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

24 Llefara wrth y gynnulleidfa, gan ddywedyd, ewch o amgylch pabell Corah, Dathan, ac Abiram.

25 Yna y cyfododd Moſes ac a aeth tu ac at Dathan, ac Abiram: a henuriaid Iſrael a aethant ar ei ôl ef.

26 Ac efe a lefarodd wrth y gynnulleidfa gan ddywedyd, ciliwch attolwg oddi wrth bebyll y dyniõ drygionus hyn, ac na chyffyrddwch a dim a'r [ſydd] eiddynt, rhag eich difetha yn eu holl bechodau hwynt.

27 Yna yr aethant oddi wrth babell Corah, Dathan, ac Abiram o amgylch: a Dathan ac Abiram, eu gwragedd hefyd, ai meibiõ, ai plant, a ddaethant allan gan ſefyll [wrth] ddrws eu pebyll.

28 A dywedodd Moſes, wrth hyn y cewch wybod mai yr Arglwydd a'm hanfonodd i wneuthur yr holl weithredoedd hyn, [ac] nad o'm meddwl fy hun [y gwneuthum] ddim.

29 Os bydd y rhai hyn feirw fel y bydd marw pob dŷn, ac [os] ymwelir a hwynt ag ymweliad pôb dŷn nid yr Arglwydd a'm hãfonodd i.

30 Ond os yr Arglwydd a wna ryfeddod fel yr agoro y ddaiar ei ſafn ai llyngcu hwynt, a'r hyn oll [ſydd] eiddynt fel y deſcynnant yn fyw i vffern, yna y cewch wybod ddirmygu o'r gwŷr hyn yr Arglwydd.

31 A bu wrth orphen o honaw lefaru yr holl eiriau hyn, hollti o'r ddaiar yr hon [oedd] tanynt.

Deut.11.6. Pſal.106.17.

32 Agorodd y ddaiar hefyd ei ſafn, a llyngcodd hwynt, ai tai hefyd, a'r holl ddynion y rhai [oeddynt] gan Corah, a'r holl gyfoeth.

33 Felly hwynt a'r rhai oll a'r o [oeddynt] gyd a hwynt a ddeſcynnaſant yn fyw i vffern: a'r ddaiar a gaeodd arnynt: a chollaſant o blith y gynnulleidfa.

34 Yna holl Iſrael y rhai [oeddynt] oi hamgylch hwynt, a ffoaſant wrth eu llef hwynt: canys dywedaſant, [ciliwn] rhag i'r ddaiar ein llyngcu ninnau.

35 Tân hefyd aeth allan oddi wrth yr Arglwydd, ac a ddifaodd y dau cant, a'r dec a deugain o wŷr, y rhai oeddynt yn offrymmu yr arogl-darth.

36 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd,

37 Dywet wrth Eleazar fab Aaron yr offeiriad, am godi o honaw ef y thuſſerau o fyſc y lloſc, a gwaſcaru y tân oddi yno allan, canys ſanctaidd ydynt.

38 Sef thuſſerau y rhai hyn a bechaſant yn erbyn eu heneidiau eu hun: a gweithier hwynt yn ddalennau llydeu [i fod] yn gaead i'r allor: canys offrymmaſant hwy ger bron yr Arglwydd, am hynny ſanctaidd ydynt, a byddant yn arwydd i feibion Iſrael.

39 A chymmerodd Eleazar yr offeiriad thuſſerau prês y rhai a offrymmaſe y [gwŷr] a loſcaſid, ac eſtynnwyd hwynt yn gaead i'r allor.

40 Yn goffadwriaeth i feibion Iſrael, fel na neſſae gwr dieithr (yr hwn ni bydde o hâd Aaron) i loſci arogl-darth ger bron yr Arglwydd, ac na bydde fel Corah ai gynnulleidfa, megis y llefaraſe yr Arglwydd trwy law Moſes wrtho ef.

41 A holl gynnulleidfa meibion Iſrael a duchanaſant drannoeth yn erbyn Moſes, ac yn erbyn Aaron gan ddywedyd: chwi a laddaſoch bobl yr Arglwydd.

42 A bu pan gynhullodd y bobl yn erbyn Moſes ac Aaron, edrych o honynt ar babell y cyfarfod, ac wele toaſe y niwl hi, ac ymddangoſodd gogoniant yr Arglwydd.

43 Yna y daeth Moſes ac Aaron o flaen pabell y cyfarfod.

44 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes, gan ddywedyd,

45 Ciliwch o blith y gynnulleidfa hon, a mi ai difâf hwynt yn ddiſymmwth: yna y ſyrthiaſant ar eu hwynebau.

46 Dywedodd Moſes hefyd wrth Aaron cymmer thuſſer, a dod dân oddi ar yr allor ynddi, a goſot arogl-darth [arni,] a dos yn fuan at y gynnulleidfa, a gwna iawn troſtynt: canys digofaint aeth allan oddi ger bron r' Arglwydd, dechreuodd y blâ.

47 A chymmerodd Aaron megis y llefarodd Moſes, ac a redodd i ganol y gynnulleidfa, ac wele dechreuaſe y blâ ar y bobl, ac efe a rodd arogl-darth, ac a wnaeth iawn tros y bobl.

48 Ac efe a ſafodd rhwng y meirw ar byw, felly yr attaliwyd y blâ.

49 A'r rhai a fuant feirw o'r blâ oeddynt bedair mil ar ddec, a ſaith gant, heb law y rhai a fuant feirw yn achos Corah.

50 A dychwelodd Aaron at Moſes i ddrws pabell y cyfarfod: a'r blâ a attaliwyd.

## PEN. XVII.

Gwialen Aaron yn blaguro, blodeuo, ac yn ffrwytho i ſicrhau ei alwedigaeth ef.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd.

2 Llefara wrth feibion Iſrael, a chymmer ganddynt wialen, am bob tŷ tad [ſef] gan bob vn oi pennaethiaid, tros dŷ eu tadau, deuddec gwialen: ſcrifenna henw pob vn ar ei wialen.

3 Ac ſcrifenna henw Aaron ar wialen Lefi: canys vn wialen[ fydd ]dros[bôb] pennaeth tŷ eu tadau.

4 A gâd hwynt ym mhabell y cyfarfod, ger bron y deſtiolaeth * lle y cyfarfyddaf a chwi. Exod.25.22.

5 A gwialen y gŵr a ddewiſwyf a flodeua: a gwnaf i furmur meibion Iſrael y rhai y maent yn murmurio i'ch erbyn beidio a mi.

6 Felly y llefarodd Moſes wrth feibion Iſrael, ai holl bennaethiaid a roddaſant atto wialen tros bôb pennaeth yn ol tŷ eu tadau,[ ſef ] deuddec gwialen: a gwialen Aaron[ oedd ]ynghanol eu gwiail hwynt.

7 A Moſes a adawodd y gwiail ger bron yr Arglwydd ym mhabell y deſtiolaeth.

8 A thrannoeth y daeth Moſes i babell y deſtiolaeth: ac wele gwialen Aaron a flaguraſe tros dŷ Lefi, îe bwriaſe flagur, a blodeuaſe, ac a addfedaſe almonau.

9 Yna y dug Moſes allan yr holl wiail oddi ger bron yr Arglwydd, at holl feibion Iſrael: hwythau a edrychaſant, ac a gymmeraſant bôb vn ei wialen ei hun.

10 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, * dod wialen Aaron drachefn ger bron y deſtiolaeth iw chadw yn arwydd i'r meibion gwrthryfelgar: fel y gwnelech iw tuchan hwynt beidio a mi, ac na byddant feirw. Heb.9.4.

11 A gwnaeth Moſes, fel y gorchymynnodd yr Arglwydd iddo, felly y gwnaeth efe.

12 Yna meibion Iſrael a lefaraſant wrth Moſes gan ddywedyd, wele ni yn trengu, darfu am danom, darfu am danom ni oll.

13 Bydd farw pôb vn gan neſſau a neſſao i dabernacl yr Arglwydd: a orphennwn ni drengu?

## PEN. XVIII.

Duw yn dangos i'r offeiriaid, ac i'r Lefiaid eu ſwyddau a pha beth a gaent i fyw arno. 26 ac yn gorchymyn iddynt dalu decfed eu degwm.

“ A Dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron, ty-
“ di a'th feibion a thŷlwyth dy dâd gyd a thi
“ a ddygwch anwiredd y cyſſegr: a thi a'th feibi-
“ on gyd a thi a ddygwch anwiredd eich offeiria-
“ daeth.

“ 2 A dwg hefyd gyd a thi dy frodyr[ o ]llwyth
“ Lefi,[ ſef ]llwyth dy dâd, i lynu wrthit ti, ac i'th
“ waſanaethu: tithe a'th feibion gyd a thi [a wa-
“ ſanaethwch]ger bron pabell y deſtiolaeth.

“ 3 A hwy a orchwyliant droſot ti yng-orch-
“ wyliaeth yr holl babell, ond na ddeuant yn agos
“ at ddodrefn y cyſſegr, nac at yr allor, rhac eu
“ marw hwynt a chwithau hefyd.

“ 4 Ond hwy a lynant wrthit, ac a orchwyli-
“ ant babell y cyfarfod yn holl waſanaeth y ba-
“ bell: ac na ddeued dieithr yn agos attoch.

“ 5 Eithr cedwch chwi orchwyliaeth y cyſſegr,
“ a gorchwyliaeth yr allor fel na byddo digofaint
“ mwy yn erbyn meibion Iſrael.

Num.3.13. “ 6 Ac wele mi a * gymmerais dy frodyr di y
“ Lefiaid o fysc meibion Iſrael y rhai a roddwyd
“ i'r Arglwydd megis yn rhodd o'r eiddo chwi, i
waſanaethu gwaſanaeth pabell y cyfarfod. ”

7 Tithe a'th feibion gyd a thi a gedwch eich ”
offeiriadaeth, ac a waſanaethwch yng-hylch pôb ”
peth [a berthyn] i'r allor, ac o fewn y llen wa- ”
han: yn waſanaeth rhodd y rhoddais eich offei- ”
riadaeth chwi, a'r dieithr yr hwn a ddelo yn a- ”
gos a leddir. ”

8 A llefarodd yr Arglwydd wrth Aaron, ”
wele mi a roddais i ti hefyd orchwyliaeth fy off- ”
rymmau derchafel, o holl [ bethau ] ſanctaidd ”
meibion Iſrael: rhoddais hwynt i ti, o herwydd ”
yr eneiniad, ac i'th feibion yn ddeddf dragywy- ”
ddol. ”

9 Hyn fydd i ti o'r ſancteidd-beth cyſſegre- ”
dic [yr hwn a gedwir allan] o'r tân: [ſef ]eu ”
holl offrymmau, y rhai a dalant i mi yn eu holl ”
fwyd offrwm, ac yn eu holl aberthau tros be- ”
chod, ac yn eu holl aberthau tros gamwedd ”
ſancteidd-beth cyſſegredic[yw]hyn i ti, ac i'th ”
feibion. ”

10 O fewn y cyſſegr ſancteiddiolaf y bwyt- ”
tei ef, pôb gwryw ai bwytta ef: cyſſegredic fydd ”
efe i ti. ”

11 Hyn hefyd[fydd]i ti, offrwm derchafel ”
eu rhoddion hwynt, yng-hyd a holl offrymmau ”
cwhwfan meibion Iſrael, i ti y rhoddais hwynt, ”
ac i'th feibion, ac i'th ferched gyd a thi yn ddeddf ”
dragywyddol: pob vn glân yn dy dŷ a gaiff ei ”
fwytta. ”

12 Holl fraſter olew, a holl fraſter gwîn ac ”
ŷd [ ſef ] eu blaen-ffrwyth hwynt, yr hwn a ”
roddant i'r Arglwydd a roddais i ti. ”

13 Blaen-ffrwyth pôb dim yr hwn [fydd] ”
yn eu tîr hwynt, yr hwn a ddygant i'r Arglwydd ”
fydd eiddo ti: pôb vn glân yn dy dŷ ai bwytty. ”

14 Pôb diofryd-beth yn Iſrael fydd eiddo ti. ”

15 * Pôb agorydd croth o bôb cnawd yr hwn ” Leuit.27.21.
a offrymmir i'r Arglwydd o ddyn, ac o anifail ” exod.13.2.
fydd eiddo ti, ond gan brynu y pryni bôb cyn- ” leuit.27.26.
tafanedic i ddyn, a phryn y cyntafanedic i'r ani- ” num.3.13.
fail aflan. ” luc.2.13.

16 A phâr brynu y rhai a bryner o honynt ” Num.3.47.
o fab miſyriad yn dy brîs di,[ſef ]pump ſicl o a- ”
rian wrth ſicl y cyſſegr: vgain Gerah [yw] ”
hynny. ”

17 Ond na phryn y cyntafanedic o eidion, ”
neu gyntafanedic dafad, new gyntafanedic ga- ”
fr, ſanctaidd ydynt: eu gwaed a daenelli ar yr ”
allor, ai gwêr a loſci yn aberth tanllyd o arogl ”
eſmwyth i'r Arglwydd, ”

18 Ond eu cîg fydd eiddo ti, fel parwyden ”
y cwhwfan, ac * fel yr yſgwyddoc ddehau y ” Exod.29.26.
bydd efe eiddo ti. ” leuit.7.32.

19 Holl offrymmau derchafel [ y pethau] ”
ſanctaidd y rhai a dderchafa meibion Iſrael i'r ”
Arglwydd a roddais i ti, ac i'th feibion, ac i'th ”
ferched gyd a thi yn ddeddf dragywyddol: cy- ”
fammod halen tragywyddol fydd hyn ger bron ”
yr Arglwydd i ti, ac i'th hâd gyd a thi. ”

20 A dywedodd yr Arglwydd wrth Aaron, ”
na fydded i ti etifeddiaeth yn eu tîr hwynt, ac na- ”

Deut.10.9. deut.18.2. Ioſua.13.14 ezec.44.28.

fydded it ran yn eu myſc hwynt : * myfi [ydwyf] dy ran di a'th etifeddiaeth ym myſc meibion Iſrael.

21 Ac wele mi a roddais i feibion Lefi bôb degwm yn Iſrael yn etifeddiaeth am eu gwaſanaeth, yr hwn y maent yn ei waſanaethu, ſef gwaſanaeth pabell y cyfarfod.

22 Ac na ddeued meibion Iſrael mwyach i babell y cyfarfod, gan ddwyn pechod i farw.

23 Ond gwaſanaethed y Lefiaid eu hunain waſanaeth pabell y cyfarfod, a dygant hwynt eu hanwiredd eu hun, deddf dragywyddol [fydd hyn] drwy eich oeſoedd, nad etifeddant hwy etifeddiaeth ym myſc meibion Iſrael.

24 Canys degwm meibion Iſrael yr hwn a dderchafant yn offrwm derchafel i'r Arglwydd a roddais i'r Lefiaid yn etifeddiaeth: am hynny dywedais wrthynt nad etifeddent etifeddiaeth ym myſc meibion Iſrael.

25 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

26 Llefara hefyd wrth y Lefiaid a dywet wrthynt, pan gymmeroch gan feibion Iſrael y degwm yr hwn a roddais i chwi yn etifeddiaeth oddi wrthynt, yna derchefwch o hynny offrwm derchafel i'r Arglwydd [ſef] degwm o'r degwm.

27 A chyfrifir i chwi eich offrwm derchafel fel yr ŷd o'r yſcubor, ac fel cyflawndra o'r gwîn-wryf.

28 Felly y derchefwch chwithau hefyd offrwm derchafel yr Arglwydd o'ch holl ddegymmau y rhai a gymmeroch gan feibion Iſrael, a rhoddwch o hynny dderchafel offrwm yr Arglwydd i Aaron yr offeiriad.

29 O'ch holl roddion derchefwch bôb offrwm derchafel yr Arglwydd [ſef] oi holl fraſder ef [offrymmwch] ei ran ſainctaidd o honaw ef.

30 A dywet wrthynt, pan dderchafoch chwi ei fraſter allan o honaw cyfrifir i'r Lefiaid fel toreth yr yſcubor, a thoreth y gwin-wryf.

31 A bwyttewch ef ym mhob lle, chwi a'ch ty-lwyth: canys gwobr yw efe i chwi am eich gwaſanaeth ym mhabell y cyfarfod.

32 Ac ni ddygwch bechod oi herwydd pan dderchafoch ei fraſter o honaw: na halogwch chwithau bethau ſanctaidd meibion Iſrael, fel na byddoch feirw.

## PEN. XIX.

Am y fuwch goch, a dwfr y nailltuaeth. 14 Am vn a fyddo marw mewn pabell. 16 Ac am gyffwrdd a pheth aflan.

LLefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes, ac wrth Aaron, gan ddywedyd:

2 Dymma ddeddf y gyfraith yr hon a orchymynnodd yr Arglwydd gan ddywedyd: llefara wrth feibion Iſrael am ddwyn o honynt attat anner gôch berffaith-gwbl yr hon ni byddo anaf arni, ac nid aeth iau arni.

3 A rhoddwch hi at Eleazar yr offeiriad, a phared efe ei dwyn hi o'r * tu allan i'r gwerſyll, a lladded [vn] hi ger ei fron ef.

Heb.13.11.

4 A chymmered Eleazar yr offeiriad [beth] oi gwaed hi * ar ei fŷs, a thaenelled oi gwaed hi, ar gyfer wyneb pabell y cyfarfod ſaith waith.

Heb.9.13.

5 A lloſced [vn] yr anner yn ei olwg ef, ei chroen * ai chîg, ai gwaed yng-hyd ai biſwel a lyſc efe.

Exod.29.14 leuit.4.11.

6 A chymmered yr offeiriad bren Cedr, ac Yſſop, ac ſcarlat, a bwried i ganol lloſcfa yr anner.

7 A golched yr offeiriad ei wiſcoedd, troched hefyd ei gnawd mewn dwfr, ac wedi hynny deued i'r gwerſyll, ac aflan fydd yr offeiriad hyd yr hwyr.

8 Felly golched yr hwn ai lloſco hi ei ddillad mewn dwfr, a golched hefyd ei gnawd mewn dwfr, ac aflan fydd hyd yr hwyr.

9 A chaſcled vn glân ludw 'r anner, a gadawed o'r tu allan i'r gwerſyll mewn lle glân: a bydded gan gynnulleidfa meibion Iſrael yng-hadw yn * ddwfr nailltuaeth: pech-aberth yw.

Num.8.7. num.5.17.

10 Yna golched yr hwn a gaſclo ludw yr anner ei ddillad, aflan fydd hyd yr hwyr, a bydded hyn i feibion Iſrael ac i'r dieithr a ymdeithio yn eu myſc hwynt yn ddeddf dragywyddol.

11 A gyffyrddo a marw [ſef] wrth vn gelain dŷn, aflan fydd ſaith niwrnod.

12 Ymlanhaed trwy [y dwfr] hwnnw y trydydd dydd, a'r ſeithfed dydd glân fydd: ac os y trydydd dydd nid ymlanha efe, yna ni bydd efe lân y ſaithfed dydd.

13 Pôb vn a gyffyrddo ag vn marw [ſef] wrth gelain dŷn yr hwn fyddo wedi marw, ac nid ymlanhâ, efe fydd vn yn halogi tabernacl yr Arglwydd: a thorrir ymmaith yr enaid hwnnw oddi wrth Iſrael, am na thaenellodd ddwfr nailltuaeth arno, aflan fydd efe, ei aflendid [fydd] ynddo etto.

14 Dymma gyfraith dyn pan fyddo marw mewn pabell, pôb vn a ddelo i'r babell, a phôb vn a [fyddo] yn y babell fydd aflan ſaith niwrnod.

15 A phôb lleſtr agored yr hwn ni byddo cadach wedi ei rwymo droſto aflan [yw] efe.

16 Pôb vn hefyd a gyffyrddo ar wyneb y maes wrth vn wedi ei ladd a chleddyf, neu wrth vn marw, neu wrth aſcwrn dŷn, neu wrth fedd, a fydd yn aflan ſaith niwrnod.

17 Am hynny cymmerant tros yr aflan o ludw lloſc yr offrwm tros bechod, a rhodded atto ddwfr rhedegoc mewn lleſtr.

18 A chymmered Yſſop a golched vn dihalogedic [ef] mewn dwfr, a thaenelled ar y babell, ac ar yr holl leſtri, ac ar yr holl ddynion y rhai a fyddant yno, ac ar yr hwn a gyffyrddodd wrth aſcwrn, neu wrth vn wedi ei ladd, neu wrth vn wedi marw, neu wrth fedd.

19 A thaenelled y glân ar yr aflan y trydydd dydd, a'r ſeithfed dydd, ac ymlanhaed efe y ſeithfed dydd, yna golched ei ddillad, ac ymolched mewn dwfr a glân fydd yn yr hwyr.

20 Ond y gŵr yr hwn a halogir, ac nid ymlanhâ, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o fysc y gynnulleidfa: canys efe a halogodd gyſſegr yr Arglwydd, ni thaenellwyd arno ddwfr y nailltuaeth, aflan[yw]efe.

21 A bydd iddynt yn ddeddf dragywyddol, y golch yr hwn a daenello ddwfr y nailltuaeth ei ddillad: ac y bydd yr hwn a gyffyrddo a dwfr y nailltuaeth aflan hyd yr hwyr.

22 A'r hyn oll a gyffyrddo 'r aflan ag ef fydd aflan: a'r dyn a gyffyrddo[a hynny] fydd aflan hyd yr hwyr.

## PEN. XX.

Miriam yn marw. 2 Y bobl yn tuchan am ddwfr. 6 Moſes ac Aaron yn cael dwfr iddynt o'r graig. 12 Coſpedigaeth Moſes ac Aaron am eu petruſedd. 14 Edom yn neccau Iſrael o ffordd trwy ei wlâd. 23 marwolaeth Aaron, a dewiſſiad Eleazar yn ei le ef.

Num.33.36.

A Meibion Iſrael[ſef]yr holl gynnulleidfa a ddaethant i * anialwch Zin yn y mîs cyntaf, ac arhôdd y bobl yn Cades, yno hefyd y bu farw Miriam, ac yno y claddwyd hi.

2 Ac nid oedd dwfr i'r gynnulleidfa, yna yr ymgaſclaſant yn erbyn Moſes ac Aaron.

Num.11.23.

3 Ac ymgynhennodd y bobl a Moſes, a llefaraſant gan ddywedyd: ô na buaſem feirw *pan fu feirw ein brodyr ger bron yr Arglwydd.

4 Pa ham y dugaſoch gynnulleidfa 'r Arglwydd i'r anialwch hwn? i farw a honom ni ac o'n hanifeiliaid ynddo?

5 A pha ham y dugaſoch ni i fynu o'r Aipht? i'n dwyn ni i'r lle drwg ymma? lle heb hâd na ffiguſ-bren, na gwinwydden, na phomgranadbren, ac heb ddwfr i yfed.

6 Yna y daeth Moſes ac Aaron oddi ger bron y gynnulleidfa i ddrws pabell y cyfarfod, ac a ſyrthiaſant ar eu hwynebau, a gogoniant yr Arglwydd a ymddangoſodd iddynt.

7 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes hefyd gan ddywedyd,

Exod.17.6.

8 Cymmer *y wialen a chaſcl y gynnulleidfa: ti ac Aaron dy frawd, ac yn eu gwydd hwynt lleferwch wrth y graig, a hi a rydd ei dwfr a thynn dithe iddynt ddwfr o'r graig, a dioda y gynnulleidfa ai hanifeiliaid.

9 Yna Moſes a gymmerodd y wialen, oddi ger bron yr Arglwydd megis y gorchymynnaſe efe iddo.

10 Yna Moſes ac Aaron a gynnullaſant y dyrfa o flaen y graig: a dywedodd [Moſes] wrthynt: gwrandewch yn awr chwi wrthryfel-wyr, ai o'r graig honn y tynnwn i chwi ddwfr?

Pſal.78.15.

11 A *chododd Moſes ei law, a tharawodd y graig ddwy-waith ai wialen: a daeth dwfr lawer allan, a'r gynuulleidfa a yfodd, ai hanifeiliaid.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac wrth Aaron, am na chredaſoch i mi, i'm ſancteiddio yng-ŵydd meibion Iſrael, am hynny ni ddygwch y dyrfa hon i'r tîr yr hwn a roddais iddynt.

13 Dymma ddyfroedd y gynnen, lle yr ymgynnhennodd meibion Iſrael a'r Arglwydd, ac y ſancteiddiwyd ef ynddynt.

Baruc.11.17

14 *Yna yr anfonodd Moſes gennadau o Cades at frenin Edom: fel hyn y dywed Iſrael dy frawd, ti a wyddoſt yr holl flinder a gawſom ni.

15 Pa wedd yr aeth ein tadau i wared i'r Aipht, ac yr arhoſaſom yn yr Aipht lawer o ddyddiau, ac y drygodd yr Aiphtiaid ni, a'n tadau.

16 A ni a waeddaſom ar yr Arglwydd, ac efe a a glybu ein llef ni, ac a anfonodd angel, ac a'n dug ni allan o'r Aipht: ac wele ni yn Cades dinas[ar] gwrr dy ardal di.

17 Attolwg gad i ni fyned trwy dy dîr, nid awn trwy faes, na gwin-llan, ac nid yfwn ddwfr [un] ffynnon: ffordd y brenin a gerddwn, ni throiwn ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy, nes i ni fyned trwy dy frô.

18 A dywedodd Edom wrtho, na thyret heibio i mi rhac im ddyfod a'r cleddyf i'th gyfarfod.

19 Yna meibion Iſrael a ddywedaſant wrtho, rhyd y briffordd yr awn i fynu: ac os myfi neu fy anifeiliaid a yfwn o'th ddwfr di, rhoddaf ei werth ef, yn unic ar fy nhraed yr âf trwodd yn ddi niwed.

20 Yntef a ddywedodd ni chei fyned trwodd: a daeth Edom allan i gyfarfod ag ef, a phobl lawer, ac a llaw gref.

21 Felly Edom a neccaodd roddi ffordd i Iſrael trwy ei frô, yna Iſrael a drodd oddi wrtho.

Num. 33.37

22 A meibion Iſrael [ſef] yr holl gynnulleidfa a gychwnnaſant *o Cades, ac a ddaethant i fynydd Hor.

23 A'r Arglwydd a lefar[illegible] wrth Moſes ac Aaron ym mynydd Hor, ar derfyn tîr Edom gan ddywedyd,

24 Aaron a geſclir at ei bobl, ac ni ddaw i'r tîr yr hwn a roddais i feibion Iſrael, am i chwi anufyddhau i'm gair wrth ddwfr y gynnen.

Num.33.38.
deut.32.50.

25 Cymmer Aaron ac Eleazar ei fab, a dwg hwynt i fynydd Hor.

26 A dioſc ei wiſcoedd oddi am Aaron, a gwiſc hwynt am Eleazar ei fab ef: canys Aaron a geſclir, ac a fydd farw yno.

27 A gwnaeth Moſes megis y gorchymynnodd yr Arglwydd, ac aethant i fynydd Hor, yng-wydd yr holl gynuulleidfa.

28 A dioſcodd Moſes oddi am Aaron ei wiſcoedd, ac ai gwiſcodd hwynt am Eleazer ei fab, * a bu farw Aaron yno ymmhen y mynydd: a deſcynnodd Moſes ac Eleazer o'r mynydd. Deut.10.6. deut.32.50.

29 A'r holl gynnulleidfa a welſant farw Aaron, a holl dŷ Iſrael a wylaſant am Aaron ddeng-nhiwrnod ar hugain.

## PEN. XXI.

Iſrael yn gorchfygu Arad. 6 Seirph tanllyd. 10 Iſrael yn cerdded rhagddo. 24 ac yn gorchfygu Sehon, ac Og.

Num.33.40. A Brenin * Arad y Cananead preſſwylydd y dehau a glybu fod Iſrael yn dyfod [rhyd] ffordd yr ſpiwyr, ac a ryfelodd yn erbyn Iſrael, ac a gaeth-gludodd gaeth-glud oddi arno.

2 Yna yr addunodd Iſrael adduned i'r Arglwydd, ac a ddywedodd: os gan roi y rhoddi y bobl ymma yn fy llaw, yna mi a ddifrodaf eu dinaſoedd hwynt.

3 A gwrandawodd yr Arglwydd ar lais Iſrael, ac a roddodd y Cananeaid [yn ei law] ef, ac efe ai difrododd hwynt, ai dinaſoedd, ac a alwodd henw y lle [hwnnw] Horma.

4 A chychwnnaſant o fynydd Hor, [rhyd] ffordd y môr coch, i amgylchu tîr Edom: a chyfyng ydoedd ar enaid y bobl, o herwydd y ffordd.

5 Yna y llefarodd y bobl yn erbyn Duw, ac yn erbyn Moſes [gan ddywedyd:] pa ham y dugaſoch ni o'r Aipht i feirw yn yr anialwch ∵ canys nid [oes] na bara na dwfr ∵ * a ffiaidd yw gan ein henaid y bara gwael [hwn.] Num.11.6.

6 Yna * yr anfonodd yr Arglwydd ym myſc y bobl ſeirph tanllyd, a hwynt a frathaſant y bobl, a bu feirw o Iſrael bobl lawer. Doeth 16.1. 1.cor.10.9.

7 A daeth y bobl at Moſes, a dywedaſant, pechaſom, canys llefaraſom yn erbyn yr Arglwydd, ac yn dy erbyn dithe, gweddia ar yr Arglwydd ar yrru o honaw ef y ſeirph oddi wrthym: a gweddiodd Moſes tros y bobl.

8 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, gwna it [ſarph] danllyd a goſod ar dawl: a phawb a frather, ac a edrycho ar honno ſydd byw.

9 Felly y * gwnaeth Moſes ſarph brês, ac ai goſododd hi ar dawl: yna os brathe ſarph wr ac edrych o honaw ef ar y ſarph brês, byw fydde. 4.Bren.18.4. ioan.3.14.

10 A meibion Iſrael * a gychwnnaſant [oddi yno,] ac a werſſyllaſant yn Oboth. Num.33.43.

11 A chychwnnaſant o Oboth, a gwerſſyllaſant yng-harneddau Abarim, yn yr anialwch yr hwn [oedd] ar gyfer Moab o [du] codiad haul.

12 Cychwnnaſant oddi yno, a gwerſſyllaſant wrth afon Zared.

13 Cychwnnaſant oddi yno, a gwerſſyllaſant wrth ryd Arnon, yr hon [ſydd] yn yr anialwch yn dyfod allan o ardal yr Amoriaid: canys Arnon [oedd] derfyn Moab, rhwng Moab a'r Amoriaid.

14 Am hynny y dywedir yn llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd, y peth a wnaeth efe yn y môr coch, ac yn afonydd Arnon.

15 Ac [wrth] raiader yr afonydd, hwn a dreigla i breſwylfa Ar, ac a bwyſſa at derfyn Moab.

16 Ac oddi yno ['r aethant] i Beer, honno [yw] 'r ffynnon lle y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, caſcl y bobl yng-hyd fel y rhoddwyf iddynt ddwfr.

17 Yna y cânodd Iſrael y gân hon: cyfod ffynnon, cenwch iddi.

18 Ffynnon a gloddiodd tywyſogion [ac] a gloddiodd pennaethiaid y bobl yng-hyd a'r deddfwr ai ffynn: ac o'r anialwch [yr aethant] i Mathana.

19 Ac o Mathana i Nahaliel, ac o Nahaliel i Bamoth,

20 Ac o Bamoth [yn] y dyffryn, yr hwn [ſydd] yng-wlad Moab, i ben y bryn, yr hwn ſydd yn edrych tua yr diffaethwch.

21 Yna yr anfonodd Iſrael gennadau at Sehon brenin yr Amoriaid, gan ddywedyd:

22 Gâd ti i mi fyned trwy dy dir ni throiwn i faes, na gwinllan, nid yfwn ddwfr [un] ffynnon, ar hyd ffordd y brenin y cerddwn, hyd onid elom trwy dy fro. Baru.11.19.

23 Ac ni rodd * Sehon i Iſrael ffordd trwy ei wlad, onid caſclodd Sehon ei holl bobl, ac a aeth allan yn erbyn Iſrael tua'r anialwch: ac efe a ddaeth i Iaza, ac a ymladdodd yn erbyn Iſrael. Deut.29.7. ioſua.12.2.

24 A * tharawodd Iſrael ef a mîn y cleddyf, ac a oreſcynnodd ei dir ef, o Arnon hyd Iabboc, hyd at feibion Ammon: canys cadarn [oedd] terfyn meibion Ammon. Pſal.135.11. amos.2.9.

25 A chymmerodd Iſraell yr holl ddinaſoedd hynny, a thrigodd Iſrael yn holl ddinaſoedd yr Amoriaid, yn Heſpon, ac yn ei holl bentrefydd.

26 Canys dinas Sehon brenhin yr Amoriaid ydoedd Heſpon, ac yntef a ryfelaſe yn erbyn brenin Moab yr hwn a fuaſe o'r blaen, ac a ddug ei dir ef oddi arno hyd Arnon.

27 Am hynny y diarheb-wyr a ddywedant, deuwch i Heſpon, adailader, a chadarnhaer dinas Sehon.

28 Canys tân aeth allan o Heſpon [a] fflam o dref Sehon: bwyttaodd Ar [ym] Moab, [a] pherchennogion Bamoth Arnon.

29 Gwae di Moab, darfu am danat pobl Cemos, rhodd ei feibion diangol, ai ferched mewn caethiwed i Sehon brenin yr Amoriaid.

30 Pan ſaethaſom hwynt darfu am Heſpon hyd Dibon, ac anrheithiaſom hyd Nopha yr hon [ſydd] hyd Mediba.

31 A thrigodd Iſrael yn nhîr yr Amoriaid.

32 Yna yr anfonodd Moſes i chwilio Ia-

zer, a gorchfygaſant ei phen-trefydd hi, ac a oreſcynnaſant yr Amoraid y rhai [oeddynt] yno.

Deut.3.1. deut.29.7. 33 *Troeſant hefyd ac aethant i fynu hyd ffordd Baſan, ac Og brenin Baſan a ddaeth allan yn eu herbyn hwynt i ryfel hyd Edrai, efe ai holl bobl.

34 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, nac ofna ef, canys yn dy law di y rhoddaf ef, ai holl bobl, ai dîr, a gwnei iddo ef megis y gwnaethoſt i Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn [oedd] yn trigo yn Heſpon.

35 Am hynny y tarawſant ef, ai feibion, ai holl bobl, fel na adawyd iddo ef weddill, a goreſcynnaſant ei dîr ef.

## PEN. XXII.

Balac yn cyrchu Balaam i felldithio Iſrael. 9 Duw yn gwahardd i Balaam fyned iw melldithio hwynt. 22 yr angel yn ſefyll ar ffordd Balaam, a'r aſſyn yn llefaru.

A Meibion Iſrael a gychwynnaſant, ac a werſſyllaſant yn rhoſſydd Moab, am yr Iorddonen a Iericho.

2 A gwelodd Balac mab Ziphor, yr hyn oll a wnaethe Iſrael i'r Amoriaid.

3 Ac ofnodd Moab rhac y bobl yn fawr, canys llawer oedd, ie ymofidiodd Moab rhac meibion Iſrael.

4 Yna y dywedodd Moab wrth henuriaid Madian, y gynnulleidfa hon yn awr a lyfant ein holl amgylchoedd, fel y llyfa ych ddail y maes: a Balac mab Ziphor [oedd] brenin ar Moab yn yr amſer hwnnw.

Ioſua 24.2. Deut.23.5. 2.pet.2.15. 5 Ac efe a anfonodd gennadau at *Balam fab Peor, i Pethor (yr hon [ſydd] wrth afon tîr meibion ei bobl) iw gyrchu ef gan ddywedyd: wele popl a ddaeth allan o'r Aipht, wele y maent yn cuddio wyneb y tîr, ac y maent yn aros ar fyng-hyfer i.

6 Yr awran gan hynny tyret attolwg melldithia i mi y bobl ymma, canys cryfach ydynt na mi: etto ond odid gallwn daro arnynt, a gyrrwn hwynt o'r tir: canys gwn mae bendigedic [fydd] yr hwn a fendithiech, a melldigedic [fydd] yr hwn a felldithiech.

7 Yna henuriaid Moab, ac henuriaid Madian a aethant [a gwobr] dewiniaeth yn eu dwylo, daethant hefyd at Balaam a thraethaſant iddo eiriau Balac.

8 A dywedodd yntef wrthynt, lleteuwch ymma heno, a rhoddaf i chwi atteb megis y llefaro yr Arglwydd wrthif: a thywyſogion Moab a arhoſaſant gyd a Balaam.

9 Yna y daeth Duw at Balaam ac a ddywedodd pwy [yw] y dynion hyn [ſydd] gyd a thi?

10 A dywedodd Balaam wrth Dduw, Balac mab Ziphor brenin Moab a ddanfonodd attaf [gan ddywedyd.]

11 Wele bobl wedi dyfod allan o'r Aipht, ac yn gorchguddio wyneb y tîr: yr awran tyret rhega hwynt i mi, felly ond odid y gallaf ryfela a hwynt, ai gyrru allan.

12 A dywedodd Duw wrth Balaam, na ddos gyd a hwynt, na felldithia y bobl canys bendigedic ydynt.

13 Yna y cododd Balaam y boreu ac a ddywedodd wrth dywyſogion Balac: ewch i'ch gwlad, o blegit yr Arglwydd a neccaodd adel i mi fyned gyd a chwi.

14 A thywyſogion Moab a godaſant, ac a ddaethant at Balac, ac a ddywedaſant: neccaodd Balaam ddyfod gyd a ni.

15 Yna Balac a anfonodd eilwaith fwy o dywyſogion anrhydeddusach na'r rhai hyn.

16 A daethant at Balaam ac a ddywedaſant wrtho, fel hyn y dywed Balac mab Ziphor, attolwg na luddier di rhac dyfod attaf.

17 Canys gan anrhydeddu i'th anrhydeddaf yn fawr, a'r hyn oll a ddywedech wrthif a wnaf: tyret tithe attolwg, rhega i mi y bobl hyn.

18 Yna yr attebodd Balaam ac a ddywedodd wrth weiſion Balac, *pe rhodde Balac i mi arian ac aur lonnd ei dŷ, ni allwn fyned tros air yr Arglwydd fy Nuw i wneuthur [dim] bychan neu fawr. Num.24.13.

19 Ond attolwg yn awr arhoſwch chwithau ymma y nôs hon, fel y caffwyf wybod beth a ddywedo yr Arglwydd wrthif yn chwaneg.

20 A daeth Duw at Balaam [liw] nôs a dywedodd wrtho, os i'th gyrchu di y daeth y dynion hyn, cyfot dos gyd a hwynt: ac er hynny y peth a lefarwyf wrthit, hynny a wnei di.

21 Yna y cododd Balaam yn forau, ac a gyfrwyodd ei aſſyn, ac a aeth gyd a thywyſogion Moab.

22 Yna dig Duw a ennynnodd am iddo ef fyned, ac angel 'r Arglwydd a ſafodd ar y ffordd iw wrthwynebu ef, ac efe yn marchogaeth ar ei aſſyn, ai ddau langc gyd ag ef.

23 A'r aſſyn a welodd angel yr Arglwydd yn ſefyll ar y ffordd, ai gleddyf yn noeth yn ei law, a chiliodd yr aſſyn o'r ffordd, ac aeth i'r maes, a tharawodd Balaam yr aſſyn iw throi i'r ffordd.

24 Yna angel yr Arglwydd a ſafodd ar lwybr y gwinllanoedd [a] chae o'r ddau tu.

25 Pan welodd yr aſſyn angel yr Arglwydd yna hi a ymwaſcodd at y pared, ac a waſcodd droed Balaam wrth y pared, ac efe ai tarawodd hi eil-waith.

26 Ac aeth angel yr Arglwydd ym mhellach, ac a ſafodd mewn lle cyfyng, lle nid [oedd] ffordd i gilio tua'r tu dehau, na'r tu aſſwy.

27 A gwelodd yr aſſyn angel yr Arglwydd ac a orweddodd tan Balaam, yna'r ennynnodd dîg Balaam, fel y tarawodd efe yr aſſyn a ffonn.

28 Ac *agorodd yr Arglwydd ſafn yr aſſyn, a hi a ddywedodd wrth Balaam, beth a wneuthum it pan darewaiſt fi y tair gwaith hyn? 2.Pet.2.16.

29 A dywedodd Balaam wrth yr aſſyn, am it fy ſiommi, ô na bydde gleddyf yn fy llaw, canys

nys yn awr i'th laddwn.

30 Yna y dywedodd yr aſſyn wrth Balaam, onid myfi [yw] dy aſſyn, ar yr hon y marchogaiſt er pan [ydwyf eiddo] ti, hyd y dydd hwn? gan arfer a arferais i wneuthur it fel hyn? ac efe a ddywedodd, na ddo.

31 A'r Arglwydd a agorodd lygaid Balaam, ac efe a welodd angel yr Arglwydd, yn ſefyll ar y ffordd, ai gleddyf noeth yn ei law: yna efe a ogwyddodd ei ben, ac a ymgrymmodd ar ei wyneb.

32 A dywedodd angel yr Arglwydd wrtho, pa ham y tarewaiſt dy aſſyn y tair gwaith hyn? wele mi a ddeuthum allan yn wrthwynebydd [i ti:] canys cyfeiliornus yw y ffordd hon yn fyng-olwg.

33 A'r aſſyn a'm gwelodd, ac a giliodd rhagof y tair gwaith hyn, oni buaſe iddi gilio rhagof, diau yn awr y lladdaſwn di, a gadawſwn yn fyw y hi.

34 Yna y dywedodd Balaam wrth angel yr Arglwydd, pechais am na wyddwn mai ti oedd yn ſefyll ar y ffordd yn fy erbyn: ac yr awran os drwg [yw] yn dy olwg, dychwelaf adref.

35 A dywedodd angel yr Arglwydd wrth Balaam, dos gyd a'r dynion, a'r gair a lefarwyf wrthit, hynny yn vnic a leferi: felly Balaam a aeth gyd a thywyſogion Balac.

36 A chlybu Balac ddyfod Balaam, ac efe a aeth iw gyfarfod ef i ddinas Moab: yr hon [ſydd] ar ardal Arnon, yr hon [ſydd] ar gwrr y terfyn.

37 A dywedodd Balac wrth Balaam: onid gan anfon yr anfonais attat i'th gyrchu? pa ham na ddeuit ti attaf? oni allwn dy wneuthur di yn anrhydeddus?

Num.23.12.

38 A dywedodd Balaam wrth Balac, wele mi a ddeuthum attat, gan *allu a allafi lefaru dim yr awran? y gair a oſodo Duw yn fyng-enau hwnnw a lefaraf.

39 Ac aeth Balaam gyd a Balac, ac a ddaethant i gaer Huzoth.

40 A lladdodd Balac warthec, a defaid, ac a anfonodd [ran] i Balaam, ac i'r tywyſogion y rhai [oeddynt] gyd ag ef.

41 Ar boreu Balac a gymmerodd Balaam ac aeth ag ef i fynu i vchelfeudd Baal: fel y gwele oddi yno [gwrr] eithaf y bobl.

## PEN. XXIII.

Balaam yn peri i Balaac adailadu allorau, ac wedi hynny yn bendithio Iſrael.

A Dywedodd Balaam wrth Balac, adailada i mi ymma ſaith allor, a darpara i mi ymma ſaith o fuſtych, a ſaith o hyrddod.

2 A gwnaeth Balac megis ac y dywedodd Balaam: ac offrymmodd Balac, a Balaam fuſtach a hwrdd a'r [bob] allor.

3 A dywedodd Balaam wrth Balac, ſaf di wrth dy boeth offrwm, myfi a âf [o ddi ymma:] onid odid daw yr Arglwydd i'm cyfarfod, a mynegaf it pa air a ddangoſo efe i mi, ac efe a aeth yn vwch.

4 A chyfarfu Duw a Balaam, a dywedodd [Balaam] wrtho: darperais ſaith allor, ac aberthais fuſtach, a hwrdd ar [bob] allor.

5 A goſododd yr Arglwydd air yng-enau Balaam, ac a ddywedodd, dychwel at Balac, a dywet fel hyn.

6 Ac efe a ddychwelodd atto, ac wele efe a holl dywyſogion Moab yn ſefyll wrth ei boeth offrwm.

7 Ac efe a gymmerodd ei ddāmeg, ac a ddywedodd, o Siria y cyrchodd Balac brenin Moab myfi, o fynyddoedd y dwyrain [gan ddywedyd:] tyret melldithia i mi Iacob, tyret a ffieiddia Iſrael.

8 Pa ham y rhegaf [yr hwn] ni regodd Duw? a pha ham y ffieiddiaf yr hwn ni ffieiddiodd yr Arglwydd?

9 Canys o ben y creigiau y gwelaf ef, ac o'r brynnau yr edrychaf arno ef: wele bobl yn preſwylio eu hun, ac heb eu cyfrif yng-hyd a'r cenhedloedd.

10 Pwy a rif lwch Iacob, a rhifedi pedwaredd ran Iſrael? marw a wnelwyf o farwolaeth y rhai inion, a bydded fy niwedd fel yntef.

11 A dywedodd Balac wrth Balaam, beth a wnaethoſt i mi? i regu fyng-elynion i'th gymmerais, ac wele gan fendithio ti [aſ] bendithiaiſt.

12 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, onid yr hyn a oſododd yr Arglwydd yn fyng-enau, hynny a lefarafyn waſtadol.

13 A dywedodd Balac wrtho ef, tyret attolwg gyd amfi i le arall, lle y gwelech hwynt, oddi yno y cei weled eu cwrr hwynt yn vnic, ac ni chei eu gweled hwynt eu gyd: rhêga dithe hwynt i mi oddi yno.

14 Ac efe ai cymmerodd ef i faes amlwg, i ben brynn, ac a adailadodd ſaith allor, ac a offrymmodd fuſtach, a hwrdd ar [bob] allor.

15 Ac a ddywedodd wrth Balac, ſaf ymma wrth dy boeth offrwm, a mi a âf accw i gyfarfod [a'r Arglwydd.]

16 A chyfarfu yr Arglwydd a Balaam, ac a a oſododd air yn ei enau ef, ac a ddywedodd: dychwel at Balac, a dywet fel hyn.

17 Ac efe a ddaeth atto, ac wele efe yn ſefyll wrth ei boeth offrwm, a thywyſogion Moab gyd ag ef: a dywedodd Balac wrtho, beth a ddywedodd yr Arglwydd?

18 Yna y cymmerodd efe ei ddammeg, ac a ddywedodd: cyfot Balac a gwrando, mab Zippor cluſtymwrando a mi.

19 Nid dyn [yw] Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau, a ddywed efe, ac nis cyflawna?

20 Wele cymmerais arnaf fendithio: canys

nys bendithiodd efe, ac ni throafi [oddi ar] hynny.

21 Ni wêl efe anwiredd yn Iacob, ac ni wêl drawſedd yn Iſrael: yr Arglwydd ei Dduw [ſydd] gyd ag ef, ac [y mae] udcorn-floedd brenin yn eu myſc hwynt.

22 Duw ai dug hwynt allan o'r Aipht, nerth unicorn [ſydd] iddo.

23 Canys nid [oes] ofer-goel yn Iacob, na dewiniaeth yn Iſrael: y pryd [hynn] y dywedir am Iacob, ac am Iſrael, beth a wnaeth Duw?

24 Wele pobl a gyfyd fel hên lew, ac fel llew ieuangc yr ymgyfyd, ni orwedd nes bwytta yr ſclyfaeth, ac yfed gwaed y lladdedigion.

25 A dywedodd Balac wrth Balaam, gan regu na rega ef mwy, gan fendithio na fendithia ef ychwaith.

26 Yna yr attebodd Balaam ac a ddywedodd wrth Balac, oni fynegais it gan ddywedyd? yr hyn oll a lefara yr Arglwydd hynny a wnaf.

27 A dywedodd Balac wrth Balaam, tyret attolwg mi a'th gymmeraf i le arall: ond odid bodlon fydd gan Dduw i ti ei regu ef i mi oddi yno.

28 A Balac a gymmerodd Balaam i ben Peor, yr hwn a welir tua'r diffaethwch.

29 A dywedodd Balaam wrth Balac, adailada i mi yma ſaith allor, a darpara i mi yma ſaith buſtach, a ſaith hwrdd.

30 A gwnaeth Balac megis y dywedodd Balaam, ac offrymmodd fuſtach, a hwrdd ar [bob] allor.

## PEN. XXIIII.

Prophwydoliaeth Balaam am frenhiniaeth Iſrael, a dyfodiad Criſt, a deſtruwiad yr Amaleciaid a'r Ceneaid.

PAn welodd Balaam mai da oedd yng-olwg yr Arglwydd fendithio Iſrael: yna * nid aeth efe megis o'r blaen i gyrchu dewiniaeth: onid cododd ei wyneb tua'r anialwch. Num.23.3. &15.

2 A chododd Balaam ei lygaid, ac wele Iſrael yn preſſwylio yn ôl ei lwythau: a daeth yſpryt Duw arno ef.

3 *Yna y cymmerodd efe ei ddammeg ac a ddywedodd, Balaam mab Peor a ddywed, a'r gŵr llygad gaead a ddywed. Num.23.7.

4 Gwrandawydd geiriau Duw a ddywed, 'r hwn a wel weledigaeth 'r Holl alluoc, yr hwn a ſyrthiodd, ac a agorwyd [ei] lygaid.

5 Mor hyfryd yw dy bebyll di ô Iacob, dy gyfanneddau di Iſrael.

6 Ymeſtynnant fel dyffrynnoedd, ac fel gerddi wrth afon, fel Aloe-wydd a blannodd yr Arglwydd, fel y Cedr-wydd wrth ddyfroedd.

7 Difera efe ddwfr oi ſtenau, ai hàd [fydd] mewn dyfroedd lawer, ai frenin a dderchefir yn uwch nac Agag, ai frenhiniaeth a ymgyfyd.

8 Duw ai dug ef allan o'r Aipht: nerth unicorn [ſydd] iddo, bwyttu efe y cẽhedloedd y rhai ai gorthrymmant ef, ac a ddryllia eu heſgyrn, ac ai ſaethau y gwana efe [hwynt.]

9 Efe a * grymma [ac] a orwedd fel llew ieuangc, ac fel llew hên: pwy ai cyfyd ef? bendigedic [fydd] dy fendith-wŷr, a melldigedic dy felldith-wŷr. Geneſ.49.9.

10 Yna yr enynnodd dig Balac wrth Balaam, ac a waſcodd ei ddwylo, dywedodd Balac hefyd wrth Balaam, i regu fyng-elynion i'th gyrchais, ac wele ti gan fendithio a fendithiaiſt y tair gwaith hyn.

11 Am hynny yn awr ffô di adref i'th fangre dy hun: dywedais gan anrhydeddu i'th anrhydeddwn, ac wele attaliodd yr Arglwydd di oddi wrth anrhydedd.

12 Yna y dywedodd Balaam wrth Balac, oni lefarais wrth dy gennadau y rhai a anfonaiſt attaf gan ddywedyd?

13 Pe rhodde Balac i mi arian, ac aur lonned ei dŷ ni allwn droſſeddu gair yr Arglwydd i wneuthur da, neu ddrwg o'm meddwl fy hun: yr hyn a lefaro yr Arglwydd hynny a lefaraf fi.

14 Ond yr awran wele fi yn myned at fy mhobl: tyret mi a'th gynghoraf [am] yr hyn a ŵna y bobl hyn i'th bobl di yn y dyddiau dyweddaf.

15 Ac efe a gymmerth ei ddammeg, ac a ddywedodd: Balaam mab Peor a ddywed, a'r gwr llygad gaead a ddywed.

16 Dywet gwrandawydd geiriau Duw, gwybodydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gweledigaeth yr Holl alluoc: yr hwn a ſyrthiodd ac yr agorwyd ei lygaid.

17 Gwelaf ef, ac nid yr awran: canfyddaf ef, ond nid o agos: aiff ſeren o Iacob, a chyfyd teyrn-wialen o Iſrael: a dryllia gyrrau Moab ac a ddiniſtria holl feibion Seth.

18 Yna Edom a oreſcynnir, Seir hefyd a oreſcynnir [gan] ei elynion: ac Iſrael a wna rymmuſter.

19 Ac arglwyddiaetha [un] o Iacob, ac a ddiniſtria y gweddill o'r ddinas.

20 Yna efe a edrychodd ar Amalec, a chymmerodd ei ddammeg a diwedodd: dechreu cenhedloedd [yw] *Amalec, ai ddiwedd a dderfydd am dano byth. Exod.17.10, 1.Sam.15.3.

21 Edrychodd hefyd ar y Cenead, a chymmerodd ei ddammeg, a dywedodd, cadarn [yw] dy annedd, goſot ti dy nŷth yn y graig.

22 Er hynny bydd [rhai] i bori y Cenead, hyd oni i'th gaethiwo Aſſur.

23 Ac efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd, o'ch pwy fydd byw pan oſodo Duw hyn?

24 Llongau hefyd o draeth Cittim a orthrymmant Aſſur, ac a orthrymmant Eber, ac yntef a dderfydd am dano byth.

25 A chododd Balaam, ac aeth, ac a ddychwelodd adref, a Balac aeth hefyd iw ffordd yntef.

## PEN. XXV.

Iſrael yn godinebu gyd a merched Moab. 7 Phinees yn liadd lladd Cosbi a Zamri 17 Duw yn gorchymyn lladd y Madianiaid.

Num.33.49. A Thrigodd Iſrael * yn Sittim, a dechreuodd y bobl odinebu gyd a merched Moab.

2 A galwaſant ar y bobl i aberthau eu duwiau hwynt, a bwyttaodd y bobl, ac addolaſant eu duwiau hwynt.

3 Ac ymgefeillodd Iſrael a Baal Peor, yna yr ennynnodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn Iſrael.

4 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes * cymmer holl bennaethiaid y bobl, a chroga hwynt i'r Arglwydd ar gyfer yr haul, fel y dychwelo llîd digofaint yr Arglwydd oddi wrth Iſrael. Deut.4.3. Joſu 22.17.

5 A dywedodd Moſes wrth farn-wyr Iſrael, lleddwch bob vn ei ddynion y rhai a ymgyfeillaſant a Baal Peor.

6 Ac wele ŵr o feibion Iſrael a ddaeth ac a ddygodd Madianites at ei frodyr, yng-olwg Moſes, ac yng-olwg holl gynnulleidfa meibion Iſrael: a hwynt yn ŵylo [wrth] ddrws pabell y cyfarfod.

Pſal.106.30. 1.Mac.2.54. Eccleſ.45.23. 7 A gwelodd *Phinees mab Eleazar, mab Aaron yr offeiriad, ac a gododd o ganol y gynnulleidfa, ac a gymmerodd waiw-ffon yn ei law.

8 Ac a aeth ar ol y gŵr [o] Iſrael i'r lluest ac ai gwanodd hwynt ill dau, ſef y gŵr o Iſrael a'r wraig trwy ei cheudod: ac a attalwyd y pla oddi wrth feibion Iſrael.

9 A bu feirw o'r blâ bedair mil a'r hugain.

10 Yna y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

11 Phinees mab Eleazar, mab Aaron, yr offeiriad, o drôdd fy nigter oddi wrth feibion Iſrael, pan eiddigeddodd efe drosofi yn eu myſc fel na ddifethais feibion Iſrael yn fy eiddigedd.

12 Am hynny dywet, wele fi yn rhoddi iddo fyng-hyfammod o heddwch.

13 A bydd iddo ef, ac iw hâd ar ei ôl ef ammod o offeiriadaeth dragywyddol, am iddo eiddigeddu tros ei Dduw, a gwneuthur iawn tros feibion Iſrael.

14 A henw y gŵr o Iſrael yr hwn a laddwyd [ſef] yr hwn a laddwyd gyd a'r Fadianites [oedd] Zimri mab Salu pennaeth tŷ [ei] dâd o [lwyth] Simeon.

15 A henw y wraig o Madian a laddwyd [oedd] Cozbi merch Zur: pen cenhedlaeth ym Madian oedd hwn.

16 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd.

Num.31.2. 17 * Blîna y Madianiaid, a lleddwch hwynt.

18 Canys blîn ydynt arnoch trwy eu dichellion, y rhai a ddychymmygaſant i'ch erbyn yn achos Peor, ac yn achos Cozbi merch tywyſog Madian eu chwaer hwynt, yr hon a laddwyd yn nydd y blâ, o achos Peor.

## PEN. XXVI. »

Rhifedi meibion Iſrael. »
»
A Bu wedi y blâ lefaru o'r Arglwydd wrth »
Moſes, ac wrth Eleazar fab Aaron yr offeiriad »
gan ddywedyd: »
2 Cymmerwch nifer holl gynnulleidfa meibion »
Iſrael, o fab vgain mlwydd, ac vchod [ſef] »
pob vn a allo fyned i ryfel yn Iſrael, yn ol tŷ eu »
tadau. »
3 Felly y llefarodd Moſes ac Eleazar yr offeiriad »
wrthynt yn rhoſydd Moab, am yr Iorddonen »
ag Iericho, gan ddywedyd: »
4 [Rhifwch y bobl] o fab vgain mlwydd ac »
vchod, * megis y gorchymynnodd yr Arglwydd » Num.1.3.
wrth Moſes, a meibion Iſrael y rhai a »
ddaethant allan o dir yr Aipht. »
5 Ruben [oedd] *gyntafanedic Iſrael [dymma] » Geneſ.46.8.
feibion Ruben, [daeth o] Hanoch tylwyth » Exod. 6.14.
yr Hanochiaid: o Phalu tylwyth y Phaliaid. » 1.Cron. 5.1.
6 O Heſron tylwyth yr Heſroniaid o »
Charmi tylwyth y Carmiaid. »
7 Dymma dylwyth y Rubeniaid, ai rhifedigion »
oeddynt dair mil a deugain, ſaith gant, a »
dec ar hugain. »
8 A meibion Phalu [oedd] Eliab. »
9 A meibion Eliab Nemuel, Dathan, ac Abiram: »
dymma y Dathan ac Abiram, rhai enwoc »
y gynnulleidfa, y rhai a * ymgynhennaſant » Num.16.2.
yn erbyn Moſes, ac yn erbyn Aaron, ynghynnulleidfa »
Corah: pan ymgynhennaſant yn »
erbyn yr Arglwydd. »
10 Ac agorodd y ddaiar ei ſafn, ac ai llyngcodd »
hwynt, a Chorah hefyd: pan fu farw y gynnulleidfa, »
pan ddifaodd y tân ddeng-ŵr a deugain, »
a dau cant, y rhai aethant yn arwydd. »
11 Ond meibion Corah ni buant feirw. »
12 [Dymma] feibion Simeon wrth eu tylwythau, »
[daeth] o Nemuel tylwyth y Nemueliaid: »
o Iamin tylwyth y Iaminiaid, o Iacin »
tylwyth y Iaciniaid. »
13 O Zarech tylwyth y Zarechiaid, o Saul »
tylwyth y Sauliaid. »
14 Dymma dylwyth y Simoniaid, dwy »
fil a'r hugain a dau cant. »
15 [Dymma] feibion Gad wrth eu tylwythau, »
[daeth] o Zephon tylwyth y Zephoniaid, o »
Haggi tylwyth yr Haggiaid, o Suni tylwyth y »
Suniaid. »
16 O Ozni tylwyth yr Ozniaid, o Eri tylwyth »
yr Eriaid. »
17 O Arod tylwyth yr Arodiaid, o Ariel tylwyth »
yr Arieliaid. »
18 Dymma deuluoedd meibion Gad dan »
eu rhif, deugain mil, a phump cant. »
19 Meibion Iuda [oeddynt] *Er, ac Onan, » Geneſ.38.7.
a bu farw Er ac Onan yn nhîr Canaan. » & 10.
20 A meibion Iuda oeddynt wrth eu teuluoedd »
[y rhai hyn,] o Selah tylwyth y Selaniaid, »
o Pharez tylwyth y Phareziaid: o Zerach »
tylwyth y Zerachiaid. »

Gen.46.12. 21 A meibion * Phares oeddynt, o Heſron tylwyth yr Heſroniaid: o Hamul tylwyth yr Hamuliaid.

22 Dymma dylwyth Iuda dan eu rhif: onid pedair mil pedwar vgain mil a phump cant.

23 Meibion Iſſachar wrth eu tylwythau [oeddynt] o Tolah tylwyth y Tolaniaid; o Puah tylwyth y Puaniaid.

24 O Iaſub tylwyth y Iaſubiaid, o Smiron tylwyth y Smironiaid.

25 Dymma deuluoedd Iſſachar dann eu rhif, pedwar mil a thrugain mil a thry-chant.

26 Meibion Zabulon wrth eu teuluoedd [oeddynt:] o Sered tylwyth y Seradiaid: o Elon tylwyth yr Eloniaid: o Iahaliel tylwyth y Iahaleliaid.

27 Dymma deuluoedd y Zabuloniaid dann eu rhif, tri vgain mîl, a phump cant.

28 Meibion Ioſeph wrth eu teuluoedd [oeddynt] Manaſſes ac Ephraim.

Ioſua 17.1. 29 Meibion Manaſſes [oeddynt:] o * Machir tylwyth y Machiriaid: a Machir a genhedlodd Gilead: o Gilead [y mae] tylwyth y Gileadiaid.

30 Dymma feibion Gilead [o] Hiezer, tylwyth yr Hiezeriaid: o Helec tylwyth yr Heleciaid.

31 Ac [o] Aſriel tylwyth y Aſrieliaid: ac [o] Sechem tylwyth y Sechemiaid.

32 Ac [o] Simid tylwyth y Simidiaid: ac [o] Hepher tylwyth yr Hepheriaid.

Num 27.1. 33 A * Zalphaad mab Hepher nid oedd iddo feibion, onid merched a henwau merched Zalphaad [oedd,] Mahela, Noe, Hagla, Milcha a Thirza.

34 Dymma dylwyth Manaſſes, ai rhifedigion [oeddynt] ddeuddeng mîl a deugain, a ſaith gant.

35 Dymma feibion Ephraim, wrth eu teuluoedd, o Suthela tylwyth y Sutheliaid: o Becher tylwyth y Becheriaid: o Thahen tylwyth y Thaheniaid.

36 Ac dymma feibion Suthelah, o Eran tylwyth yr Eraniaid.

37 Dymma dylwyth meibion Ephraim trwy eu rhifedigion deuddeng mil ar hugain a phum cant: dymma feibion Ioſeph wrth eu teuluoedd.

38 Meibion Beniamin wrth eu teuluoedd [oeddynt,] o Bela tylwyth y Belaniaid: o Aſbel tylwyth yr Aſbeliaid: o Ahiram tylwyth yr Ahiramiaid.

39 O Sephupham tylwyth y Sephuphamiaid: o Hupham tylwyth yr Huphamiaid.

40 A meibion Bela oeddynt Ared, a Naaman: [o Ared yr ydoedd] tylwyth yr Arediaid: o Naaman tylwyth y Naamaniaid.

41 Dymma feibion Beniamin yn ol eu teuluoedd: dann eu rhif [oeddynt] bum mil a deugain a chwe chant.

42 Dymma feibion Dan yn ol eu teuluoedd o Suham tylwyth y Suhamiaid: dymma dylwyth Dan yn ol eu teuluoedd.

43 A holl dylwyth yr Suhamiaid [oeddynt] trwy eu rhifedigion, bedwar mil a thrugain, a phedwar cant.

44 Meibion Aſer wrth eu teuluoedd [oeddynt] o Iemna tylwyth y Iemnaid: o Iſai tylwyth yr Iſaiaid: o Beriah tylwyth y Beriaid.

45 O feibion Beriah [yr oedd] o Cheber tylwyth y Cheberiaid: o Malcel tylwyth y Malceliaid.

45 Ac enw merch Aſer [ydoedd] Sarah.

47 Dymma deuluoedd meibion Aſer drwy eu rhifedigion, tair mîl ar ddec a deugain, a phedwar cant.

48 Meibion Nephthali wrth eu teuluoedd [oeddynt] o Iaheziel tylwyth yr Iahezeliaid: o Guni tylwyth y Guniaid.

49 O Iezer tylwyth y Iezeriaid: o Sellem tylwyth y Sellemiaid.

50 Dymma dylwyth Nephthali yn ol eu teuluoedd dann eu rhif, pum mil a deugain, a phedwar cant.

51 Dymma rifedigion meibion Iſrael, chwe chan mîl, a mîl, ſaith gant a dec ar hugain.

52 Yna y llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

53 I'r rhai hyn y rhennir y tir yn etifeddiaeth, yn ol rhifedi yr henwau.

54 I'r * aml [ei dylwyth] chwanega ei etifeddiaeth, ac i'r anaml prinhâ ei etifeddiaeth: rhodder [i] bob vn ei etifeddiaeth yn ol ei rifedigion. Num.33.54.

55 Etto * wrth goelbren y rhennir y tîr, wrth henwau llwythau eu tadau 'r etifeddant. Ioſua 11.23.

56 Wrth farn y coel-bren y rhennir ei etifeddiaeth, rhwng aml ac anaml [ei dylwyth.]

57 *Ac dymma rifedigion y Lefiaid wrth eu teuluoedd, o Gerſon tylwyth y Gerſoniaid: o Cehath tylwyth y Cehathiaid: o Merari tylwyth y Merariaid. Exod.6.16.

58 Dymma dylwyth Lefi, tylwyth y Libniaid, tylwyth yr Hebroniaid tylwyth y Maheliaid, tylwyth y Muſiaid, tylwyth y Coraſiaid: Cehath hefyd a genhedlodd Amram.

59 A henw gwraig Amram [oedd] Iochebed * merch Lefi: yr hon a aned i Lefi yn yr Aipht, a hi a ddug i Amram Aaron, a Moſes, a Miriam eu chwaer hwynt. Exod.2.2. Exod.6.20.

60 A ganed i Aaron Nadab ac Abihu, Eleazar, ac Ithamar.

61 A bu farw Nadab ac Abihu, pan offrymmaſant dân dieithr ger bron yr Arglwydd.

62 Ai rhifedigion oeddynt dair mil ar hugain [ſef] pob gwryw o fab miſyriad ac vchod, canys ni chyfrifyd hwynt ym myſc meibion Iſrael, am na roddwyd iddynt etifeddiaeth ym mlhith meibion Iſrael. Leuit.10.2. Num.3.4. 1.Cron.24.2.

63 Dymma rifedigion Moſes ac Eleazar

“ yr offeiriad, y rhai a rifaſant feibion Iſrael yn
“ rhoſydd Moab am yr Iorddonen ag Iericho.
“ 64 Ac yn y rhai hyn nid oedd vn o rifedigion
“ Moſes ac Aaron yr offeiriad, y rhai a rifaſant
“ feibion Iſrael yn anialwch Sinai.
“ 65 Canys dywedaſe yr Arglwydd am danynt,
Num.14 28. “ * gan farw y byddant feirw yn yr anialwch:
1.Cor.10.4. “ ac ni adawſyd o honynt vn, ond Caleb
“ mab Iephun: a Ioſuah mab Nun.

## PEN. XXVII.

Merched Zalphaad yn cael tir eu tad. 12 Moſes yn cael gweled tir Canaan. 18 Ioſuah yn cael ſwydd Moſes.

Num.16.33. Num.36.11. Ioſua 17.3. YNA y daeth merched * Zalphaad, mab Hepher, mab Gilead, mab Machir, mab Manaſſes, o dylwyth Manaſſes mab Ioſeph: (ac dymma henwau eu ferched ef, Mahola Noa, Hagla Milcha a Thirza.)

2 Ac a ſafaſant ger bron Moſes, a cher bron Eleazar yr offeiriad, a cher bron y pennaethiaid a'r holl gynnulleidfa [wrth] ddrws pabell y cyfarfod, gan ddywedyd,

3 Ein tad a fu farw yn yr anialwch, ac nid oedd efe ym myſc y gynnulleidfa a godaſant yn erbyn yr Arglwydd * yng-hynnulleidfa Corah, onid yn ei bechod ei hun y bu farw, ac nid oedd meibion iddo. Num.16.1.

4 Paham y tynnir ymmaith henw ein tâd o fyſc ei dylwyth am nad oes iddo fab? dod i ni etifeddiaeth ym myſc brodyr ein tâd ni.

5 A dug Moſes eu hawl hwynt ger bron yr Arglwydd.

6 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

7 Y mae merched Zalphaad yn dywedyd yn inion, gan roddi dyro iddynt feddiant etifeddiaeth ym myſc brodyr eu tâd: dyro iddynt etifeddiaeth eu tâd.

8 Llefarodd hefyd wrth feibion Iſrael gan ddywedyd, pan fyddo marw vn ac heb fab iddo, troſſwch ei etifeddiaeth ef iw ferch.

9 Ac oni [bydd] merch iddo, rhoddwch ei etifeddiaeth ef iw frodyr.

10 Ac oni [bydd] brodyr iddo, yna rhoddwch ei etifeddiaeth ef i frodyr ei dad.

11 Ac oni [bydd] brodyr iw dâd, yna rhoddwch ei etifeddiaeth ef iw gâr neſſaf iddo oi dylwyth, ac etifedded [hwnnw] hi: a bydded [hyn] i feibion Iſrael yn ddeddf farnedic megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, * dring i'r mynydd Abarim hwn, ac edrych ar y tir yr hwn a roddais i feibion Iſrael. Deut.32.49.

13 Ac wedi it edrych arno, * tithe a geſclir at dy bobl, fel y caſclwyd Aaron dy frawd. Num.20.24.

14 Megis yn anialwch Zin wrth gynnen y gynnulleidfa y * gwrthwynebaſoch fyng-air am fy ſancteiddio wrth y dwfr yn eu golwg hwynt: * dymma ddwfr cynnen Cades [yn] anialwch Zin. Num.20.12. Exod.17.7.

15 A llefarodd Moſes wrth yr Arglwydd, gan ddywedyd:

16 Arglwydd Dduw yſprydion pob cnawd, goſod vn ar y gynnulleidfa.

17 Yr hwn a elo allan oi blaen hwynt, ac a ddelo i mewn oi blaen hwynt, a'r hwn ai dygo hwynt allan, ac ai dygo hwynt i mewn: fel na byddo cynnulleifa yr Arglwydd fel defaid y rhai ni [byddo] bugail arnynt. 2.Cron.2.10.

18 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes cymmer attat Ioſuah fab Nun, gŵr yr hwn [y mae] yſpryd ynddo, a goſod dy law arno.

19 A dod ti ef i ſefyll ger bron Eleazar yr offeiriad a cher bron yr holl gynnulleidfa, a dôd orchymyn iddo ef yn eu gŵydd hwynt.

20 A dod o'th ogoniant di arno ef, fel y gwrandawo holl gynnulleidfa meibion Iſrael [arno.]

21 A ſafed ger bron Eleazar yr offeiriad, ac ymgynghored ag ef am farn yr * Urim ger bron yr Arglwydd: wrth ei air ef yr ânt allan, ac wrth ei air ef y deuant i mewn, efe a holl feibion Iſrael gyd ag ef, a'r holl gynnulleidfa. Exod.28.30.

22 A gwnaeth Moſes megis y gorchymynnodd yr Arglwydd iddo, ac a gymmerodd Ioſuah, ac a barodd iddo ſefyll ger brõ Eleazar yr offeiriad, a cher bron yr holl gynnulleidfa.

23 Ac efe a oſododd ei ddwylaw arno, ac a rodd orchymynnion iddo, megis y llefaraſe yr Arglwydd trwy law Moſes.

## PEN. XXVIII.

Amryw offrymmau, ac aberthau, ac amryw amſeroedd.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ”
ddywedyd: ”
2 Gorchymyn i feibion Iſrael, a dywet wrthynt, ”
gwiliwch am offrymmu i mi fy offrwm, ”
a'm bara i'm hebyrth tanllyd o arogl eſmwyth ”
yn ei dymmor. ”
3 A dywet wrthynt * dymma 'r aberth tanllyd ” Exod.29 38.
yr hwn a offrymmwch i'r Arglwydd: dau ”
oen flwyddiaid berffaith-gwbl yn y dydd, yn boeth ”
offrwm gwaſtadol. ”
4 Un oen a offrymmi di y boreu, a'r ail oen ”
a offrymmi di yn y cyfnos. ”
5 A decfed ran Epha o beillied yn * fwyd ” Exod.29.40.
offrwm wedi ei gymmyſcu trwy bedwaredd ” Lefit.2.1.
ran Hin o olew coethedic. ”
6 [Dymma] y poeth offrwm gwaſtadol a ”
wnaed ym mynydd Sinai, yn arogl eſmwyth ”
o aberth tanllyd i'r Arglwydd. ”
7 Ai ddiod offrwm [fydd] bedwaredd ran ”
Hin gyd a phob oen: tywallt dywalltiad diod ”
gref i'r Arglwydd yn y cyſſegr. ”
8 Yr ail oen a offrymmi yn y cyfnos: megis ”
bwyd offrwm y boreu, ai ddiod offrwm, yr offrymmi ”
aberth tanllyd o arogl eſmwyth i'r Arglwydd. ”
9 Ac ar y dydd Sabboth, dau oen blwyddiaid ”
perffaith-gwbl, a dwy ddecfed ran [Epha] o ”
beillied yn fwyd offrwm wedi ei gymmyſcu ”
trwy olew, ai ddiod offrwm. ”
10 Poeth offrwm y Sabboth [fydd] ar ei ”

Sabboth, heb law y poeth offrwm gwaſtadol ai ddiod offrwm.

11 Ac ar ddechreu eich miſſoedd yr offrymmwch yn boeth offrwm i'r Arglwydd ddau o fuſtych ieuaingc, ac vn hwrdd, [a] ſaith oen blwyddiaid perffaith-gwbl.

11 A thair decfed ran [Epha] o beillied yn fwyd offrwm wedi ei gymmyſcu drwy olew gyd a phob buſtach, a dwy ddecfed ran [Epha] o beillied yn fwyd offrwm wedi ei gymmyſcu trwy olew gyd a phob hwrdd.

13 A phob yn ddecfed ran [Epha] o beillied yn fwyd offrwm wedi ei gymmyſcu drwy olew gyd a phob oen: yn offrwm poeth o arogl eſmwyth yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

14 Ai diod offrwm fydd hanner Hin gyd a buſtach, a thrydedd ran Hin gyd a hwrdd, a phedwaredd ran Hin gyd ag oen, dyma wîn poeth offrwm, mis yn ei fis, trwy fiſoedd y flwyddyn.

15 Ac vn bwch geifr [ſydd] yn bech aberth i'r Arglwydd, heb law y gwaſtadol boeth offrwm, yr offrymmir ef ai ddiod offrwm.

Exod.12.18.
Exod.23.15.
Lefit.23.5.

16 Ac yn y mis cyntaf * ar y pedwerydd dydd ar ddec o'r mîs [y bydd] Paſc yr Arglwydd.

17 Ac ar y pymthecfed dydd o'r mîs hwn [y bydd] yr ŵyl: ſaith niwrnod y bwytteir bara croiw.

Lefit.23.7.

18 Ar * y dydd cyntaf [y bydd] cymanfa ſanctaidd, na wnewch ddim caeth-waith.

19 Ond offrymmwch yn aberth tanllyd [ac] yn boeth offrwm i'r Arglwydd ddau o fuſtych ieuaingc, ac vn hwrdd, a ſaith oen blwyddiaid; byddant gennych yn berffaith-gwbl.

20 Eu bwyd offrwm hefyd o beillied wedi ei gymmyſcu drwy olew, [ſef] tair decfed rân [Epha] gyd a buſtach, a dwy ddecfed ran gyd a hwrdd a offrymmwch chwi.

21 Bob yn ddecfed ran yr offrymmwch gyd a phob oen, o'r ſaith oen.

22 Ac vn bwch yn bech aberth, i wneuthur iawn droſoch.

23 Heb law poeth offrwm y boreu, yr hwn [ſydd] boeth offrwm gwaſtadol, yr offrymmwch hyn.

24 Fel hyn yr offrymmwch ar [bob] dydd o'r ſaith niwrnod fwyd aberth tanllyd o arogl eſmwyth i'r Arglwydd: heb law y poeth offrwm gwaſtadol yr offrymmir ef ai ddiod offrwm.

25 Ac ar y ſaithfed dydd, cymanfa ſanctaidd fydd i chwi, dim caeth-waith nis gwnewch.

26 Ac ar ddydd eich blaen-ffrwythau, pan offrymmoch fwyd offrwm newydd i'r Arglwydd, wedi eich wythnoſau, cymanfa ſanctaidd fydd i chwi, dim caeth-waith nis gwnewch.

27 Ond offrymmwch ddau fuſtach ieuaingc vn hwrdd, a ſaith oen blwyddiaid, yn boeth offrwm, o arogl eſmwyth i'r Arglwydd.

28 A [bydded] eu bwyd offrwm o beillied wedi ei gymmyſcu drwy olew: tair decfed ran [Epha] gyd a phob buſtach, dwy ddecfed ran gyd a phob hwrdd.

29 Bob yn ddecfed ran gyd a phob oen, o'r ſaith oen.

30 Un bwch geifr i wneuthur iawn troſoch.

31 Heb law y poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, yr offrymmwch [hyn:] byddant gennych yn berffaith-gwbl yng-hyd ai diod offrwm.

## PEN. XXIX.

Offrymmau'r wyth niwrnod cyntaf o'r ſeithfed mîs.

Lefit.23.24.

AC yn y ſeithfed mis, ar y [dydd] cyntaf o'r mis y bydd i chwi gymanfa ſanctaidd, dim caeth-waith nis gwnewch: dydd i ganu vdcyrn fydd efe i chwi.

2 Ond offrymmwch offrwm poeth yn arogl eſmwyth i'r Arglwydd: vn buſtach ieuangc, vn hwrdd, ſaith o ŵyn blwyddiaid perffaith-gwbl.

3 Ai bwyd offrwm o beillied wedi ei gymmyſcu drwy olew, tair decfed ran gyd a'r buſtach, a dwy ddecfed ran gyd a'r hwrdd.

4 Ac vn ddecfed ran gyd a phob oen, o'r ſaith oen.

5 Ac vn bwch geifr yn bech aberth i wneuthur iawn troſoch.

6 Heb law poeth offrwm y mis, ai fwyd offrwm, a'r poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, ai diod offrwm hwynt, wrth eu defod hwynt yn arogl eſmwyth [ac] yn aberth tanllyd i'r Arglwydd.

7 Ac ar y decfed [dydd] o'r ſeithfed mis hwn cymāfa ſanctaidd fydd i chwi: yna cyſtuddiwch eich eneidiau, dim gwaith nis gwnewch.

8 Ond offrymmwch yn boeth offrwm i'r Arglwydd o arogl eſmwyth vn buſtach ieuangc vn hwrdd, ſaith oen blwyddiaid, byddant berffaith-gwbl gennych.

9 Ai bwyd offrwm o beillied wedi ei gymmyſcu trwy olew, [ſef] tair decfed ran gyd a buſtach, a dwy ddecfed ran gyd a phob hwrdd.

10 Bob yn ddecfed ran, gyd a phob oen o'r ſaith oen.

11 Un bwch geifr yn bech aberth, heb law pech aberth yr iawn, a'r poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, ai diod offrwm.

12 Ac ar y pymthecfed dydd o'r ſeithfed mis cymanfa ſanctaidd fydd i chwi, dim caeth-waith nis gwnewch, eithr cedwch ŵyl i'r Arglwydd ſaith niwrnod.

13 Ond offrymmwch yn offrwm poeth, yn aberth tanllyd o arogl eſmwyth i'r Arglwydd, dri ar ddec o fuſtych ieuaingc, dau hwrdd pedwar ar ddec o ŵyn blwyddiaid, byddant berffaith-gwbl.

14 Ai bwyd offrwm o beillied wedi ei gymmyſcu drwy olew, [ſef] tair decfed ran gyd a phob buſtach, o'r tri buſtach ar ddec: dwy ddecfed ran gyd a phob hwrdd o'r ddau hwrdd.

15 A phob yn ddecfed ran gyd a phob oen, o'r pedwar oen ar ddec.

16 Ac vn bwch geifr yn bech aberth, heb law y poeth offrwm gwaſtadol, ei fwyd offrwm,

“ ai ddiod offrwm.
“ 17 Ac ar yr ail dydd deuddeng mhuſtach ieu-
“ aingc, dau hwrdd, pedwar ar ddec o ŵyn blw-
“ yddiaid perffaith-gwbl.
“ 18 Ai bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd a'r
“ buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn, yn ol
“ eu rhifedi, wrth y ddefod.
“ 19 Ac vn bwch geifr yn bech aberth, heb law
“ y poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, ai
“ ddiod offrwm.
“ 20 Ac ar y trydydd dydd [yr offrymmwch]
“ vn buſtach ar ddec, dau hwrdd, pedwar ar ddec o
“ ŵyn blwyddiaid perffaith-gwbl.
“ 21 Ai bwyd offrwm, ai diod offrwm gyd a'r
“ buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn, yn ôl
“ eu rhifedi wrth y ddefod.
“ 22 Ac vn bwch geifr yn bech aberth, heb law
“ y poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, ai
“ ddiod offrwm.
“ 23 Ac ar y pedwerydd dydd deng-mhuſtach,
“ dau hwrdd, pedwar ar ddec o ŵyn blwyddiaid
“ perffaith-gwbl.
“ 24 Eu bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd
“ a'r buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn yn ôl
“ eu rhifedi, wrth y ddefod.
“ 25 Ac vn bwch geifr yn bech aberth, heb law
“ y poeth offrwm gwaſtadol, ei fwyd offrwm, ai
“ ddiod offrwm.
“ 26 Ac ar y pummed dydd naw buſtach, dau
“ hwrdd, pedwar ar ddec o ŵyn blwyddiaid per-
“ ffaith-gwbl.
“ 27 Ai bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd a'r
“ buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn yn ôl
“ eu rhifedi, wrth y ddefod.
“ 28 Ac vn bwch yn bech aberth, heb law y
“ poeth offrwm gwaſtadol, ai fwyd offrwm, ai
“ ddiod offrwm.
“ 29 Ac ar y chweched dydd, wyth o fuſtych,
“ dau hwrdd, pedwar ar ddec o ŵyn blwyddiaid
“ perffaith-gwbl.
“ 30 Ai bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd a'r
“ buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn yn ôl
“ eu rhifedi, wrth y ddefod.
“ 31 Ac vn bwch yn bech aberth, heb law y
“ poeth offrwm gwaſtadol, ei fwyd offrwm, ai
“ ddiod offrwm.
“ 32 Ac ar y ſeithfed dydd ſaith o fuſtych, dau
“ hwrdd, pedwar ar ddec o ŵyn blwyddiaid per-
“ ffaith-gwbl.
“ 33 Ai bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd a'r
“ buſtych, gyd a'r hyrddod, a chyd a'r ŵyn yn ol eu
“ rhifedi, wrth eu defod.
“ 34 Ac vn bwch yn bech aberth, heb law y
“ poeth offrwm gwaſtadol, ei fwyd offrwm ai
“ ddiod offrwm.
“ 35 Ar *yr wythfed dydd vchel-ŵyl fydd i
Lefit.23.36. “ chwi, dim caeth-waith nis gwnewch.
“ 36 Ond offrymmwch yn offrwm poeth
“ [ac] yn aberth tanllyd, o arogl eſmwyth i'r Ar-
“ glwydd, vn buſtach, vn hwrdd, ſaith o ŵyn blw-
“ yddiaid perffaith-gwbl.
37 Eu bwyd offrwm, ai diod offrwm, gyd a'r ”
buſtach, a chyd a'r hwrdd, a chyd a'r ŵyn yn ôl ”
eu rhifedi wrth y ddefod. ”
38 Ac vn bwch yn bech aberth, heb law y ”
poeth offrwm gwaſtadol, ei fwyd offrwm, ai ”
ddiod offrwm. ”
39 Hyn a wnewch i'r Arglwydd ar eich ”
gwyliau, heb law eich addunedau, a'ch offrym- ”
mau gwirfodd, gyd a'ch offrymmau poeth, ”
a'ch offrymmau bwyd, a'ch offrymmau diod, ”
a'ch offrymmau hedd. ”
40 A dywedodd Moſes wrth feibion Iſrael, ”
yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd ”
wrth Moſes. ”

## PEN. XXX.

Pa addunedau fydd rhaid eu cadw, a pha rai a ellir eu torri.

A Llefarodd Moſes wrth bennaethiaid llwythau meibion Iſrael, gan ddywedyd: dymma y peth yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd.

2 Pan addunedo gŵr adduned i'r Arglwydd, neu dyngu llw gan rwymo rhwymedigaeth ar ei enaid ei hun, na haloged ei air, gwnaed yn ôl yr hyn oll a ddêl allan oi enau.

3 A phan addunedo benyw adduned i'r Arglwydd, a rhwymo rhwymedigaeth yn nhŷ ei thâd, yn ei hieuenctyd.

4 A chlywed oi thâd ei hadduned, ai rhwymedigaeth, yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid, a thewi oi thâd wrthi: yna ſafed ei holl addunedau, a phob rhwymedigaeth, yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid a ſaif.

5 Ond os ei thad a bâr iddi dorri ar y dydd y clywo efe ei holl addunedau, ai rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaid ni ſaif [vn:] a'madde'r Arglwydd iddi, o achos mai ei thâd a barodd iddi dorri.

6 Ac os hi gan fod a fydd eiddo gŵr, ai haddunedau arni, neu draethiad ei gwefuſau yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid,

7 A chlywed oi gŵr, a thewi wrthi y dydd y clywo, yna ſafed ei haddunedau: ai rhwymedigaethau y rhai a rwymodd hi ar ei henaid a ſafant.

8 Ond, os ei gŵr, ar y dydd y clywo a bâr iddi dorri, ac a ddiddymma ei hadduned, yr hwn [fydd] arni, a chraethiad ei gwefuſau'r hwn a rwymodd hi ar ei henaid: yna'r Arglwydd a fadde iddi.

9 Ond adduned y weddw, a'r yſcaredic, yr hyn oll a rwymo hi ar ei henaid a ſaif arni.

10 Ond os [yn] nhŷ ei gŵr yr addunedodd, neu y rhwymodd hi rwymedigaeth ar ei henaid trwy lw:

11 A chlywed oi gŵr, a thewi wrthi heb peri iddi dorri, yna ſafed ei holl addunedau, a phob rhwym yr hwn a rwymodd hi ar ei henaid a ſaif.

12 Ond os ei gŵr gan ddiddymmu ai diddymma hwynt y dydd y clywo, ni ſaif dim a ddaeth allan oi gwefuſau, oi haddunedau, ac o

rwymedigaeth ei henaid, ei gŵr ai diddymmodd hwynt, ar Arglwydd a fadde iddi.

13 Pôb adduned a phôb rhwymedigaeth llw, am gyſtuddio 'r enaid, ei gŵr ai cadarnha, ai gŵr ai diddymma.

14 Ac os ei gŵr gan dewi a dau wrthi, o ddydd i ddydd, yna y cadarnhaodd efe ei holl addunedau, neu ei holl rwymedigaethau y rhai [oeddynt] arni, cadarnhaodd hwynt, pan dawodd wrthi y dydd y clybu efe [hwynt.]

15 Ac os efe gan ddiddymmu ai diddymma hwynt wedi iddo glywed: yna efe a ddwg ei hanwiredd hi.

16 Dymma y deddfau y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes, rhwng gŵr ai wraig, a rhwng tâd ai ferch, yn ei hieuenctyd [yn] nhŷ ei thâd.

## PEN. XXXI.

Lladdiad y Madianiaid, ai hyſpail. 49 Y rhan o'r yſpail a offrymmwyd i'r Arglwydd.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

2 Dial di tros feibion Iſrael ar y Madianiaid, wedi [hynny] ti a geſclir at dy bobl.

3 A llefarodd Moſes wrth y bobl gan ddywedyd: tynnwch o honoch wŷr i'r rhyfel, a byddant yn erbyn Madian, i roddi dial yr Arglwydd ar Madian.

4 Mil dros bôb llwyth, o holl lwythau Iſrael a anfonwch i'r rhyfel.

5 A rhoddaſant o filoedd Iſrael fil o [bôb] llwyth [ſef] deuddeng mil, o rai wedi eu tynnu [i'r] rhyfel.

6 Ac anfonodd Moſes hwynt i'r rhyfel, mil o [bôb] llwyth: hwynt a Phinees mab Eleazar yr offeiriad [a anfonodd efe] i'r rhyfel, a dodrefn y cyſſegr, ac vdcyrn yr vdgân yn ei law.

7 Yna y rhyfelaſant yn erbyn Madian, megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes, ac a laddaſant bôb gwryw.

8 Brenhinoedd Madian hefyd, gyd ai lladdedigion [eraill] *ſef Efi, a Recem, a Zur, a Hur, a Reba, pum brenin Madian, Balaam hefyd mab Beor a laddaſant hwy a'r cleddyf. Ioſua.13.21.

9 Meibion Iſrael a ddaliaſant hefyd yn garcharorion wragedd Madian, ai plant, ac a yſpeiliaſant eu holl anifeiliaid hwynt, ai holl dda hwynt, ai holl olud hwynt.

10 Eu holl ddinaſoedd hefyd drwy eu trigfannau, ai holl dŷrau a loſcaſant a thân.

11 A chymmeraſant yr holl yſpail, a'r holl gaffaeliad o ddyn, ac o anifail.

12 Ac a ddugaſant at Moſes, ac at Eleazar yr offeiriad, ac at gynnulleidfa meibion Iſrael, y carcharoriō, a'r caffaeliad, a'r yſpail, wrth y gwerſſyll, i roſydd Moab, y rhai [ydynt] am yr Iorddonen ag Iericho.

13 Yna Moſes ac Eleazar yr offeiriad, a holl bennaduriaid y gynnulleidfa a aethant iw cyfarfod hwynt o'r tu allan i'r gwerſſyll.

14 A digiodd Moſes wrth ſwyddogion y fyddin, capteniaid y miloedd, a chapteniaid y cantoedd, y rhai a ddaethāt o filwriaeth y rhyfel.

15 A dywedodd Moſes wrthynt, a adawſoch chwi bôb benyw yn fyw?

16 Wele *hwynt trwy air Balaam fuant i roddi ar feibion Iſrael gamwedd yn erbyn yr Arglwydd, yn achos Peor, a bu pla yng-hynnulleidfa yr Arglwydd. Num.25.2. 2 pet 2.15.

17 Am hynny *lleddwch yn awr bôb gwryw o blentyn, a lleddwch bôb benyw a fu iddi a wnaeth a gŵr. Baruc.21.11.

18 A phôb plentyn o'r benywaid y rhai ni bu iddynt a wnaethāt a gŵr, cedwch yn fyw i chwi.

19 Ac arhoſwch chwithau o'r tu allan i'r gwerſſyll ſaith niwrnod, pôb vn a laddodd ddyn, a *phôb vn a gyffyrddodd wrth laddedig, ymlanhewch y trydydd dydd a'r ſeithfed dydd, chwi a'ch carcharorion. Num.19.11.

20 Pôb gwiſc hefyd, a phôb dodrefnyn croen, a phôb gwaith o [flew] geifr, a phôb llestr pren a lanhewch chwi.

21 A dywedodd Eleazar yr offeiriad wrth y rhyfelwŷr y rhai a aethent i'r rhyfel: dymma ddeddf y gyfraith yr hon a orchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes.

21 Yn vnic yr aur, a'r arian, a'r prês, a'r haiarn, a'r plwm.

23 [A] phôb dim yr hwn a ddaw i'r tân, a dynnwch drwy 'r tân a glân fydd: ac etto efe a lanheuir *mewn dwfr naillduaeth, a'r hyn oll ni ddaw i'r tân tynnwch drwy 'r dwfr [yn vnic.] Num.19.9.

24 Yna golchwch eich gwiſcoedd ar y ſeithfed dydd, a glân fyddwch, ac wedi hynny deuwch i'r gwerſſyll.

25 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

26 Cymmer nifer yr yſpail a gaed o ddyn ac o anifail, ti ac Eleazar yr offeiriad, a phennau cenedl y gynnulleidfa.

27 A rhan di y caffaeliad rhwng y rhyfelwŷr, y rhai a aethant i'r filwriaeth, a'r holl gynnulleidfa.

28 A chyfot deyrnged i'r Arglwydd gan y rhyfelwyr y rhai a aethant allan i'r filwriaeth: vn o [bôb] pum cant o'r dynion, ac o'r eidionnau ac o'r aſſynnod, ac o'r defaid.

29 Cymmerwch [hyn] oi hanner hwynt, a dyro at Eleazar yr offeiriad yn dderchafel offrwm yr Arglwydd.

30 Ac o hanner meibion Iſrael y cymmeri vn rhan, o [bôb] dec a deugain o'r dynion o'r eidionnau, o'r aſſynnod, ac o'r defaid, [ac] o bôb anifail: a dot ti hwynt i'r Lefiaid y rhai ydynt yn gorchwylio tabernacl yr Arglwydd.

31 A gwnaeth Moſes ac Eleazar yr offeiriad megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes.

32 A'r caffaeliad ſef gweddill yr yſpail yr hon a yſpeiliaſe pobl y filwriaeth oedd, chwe chant mîl, a phymthec a thrugain o filoedd o ddefaid.

33 A deuddec a thrugain mil o eidionnau.

34 Ac vn mil a thrugain o aſſynnod.

35 A phôb enaid dyn, o fenywod, y rhai ni buaſe iddynt a wnaethent a gŵr[ oeddynt] ddeuddeng mil enaid ar hugain.

36 A'r hanner[ſef]rhan y rhai a aethent i'r rhyfel oedd o rifedi defaid drychant mil, a dwy ar bymthec ar hugain o filoedd, a phum cant.

37 A theyrnged yr Arglwydd o'r defaid oedd chwechant, a phumthec a thrugain.

38 A'r eidionnau[oeddynt]vn mîl ar bymthec ar hugain, ai teyrngedi'r Arglwydd[oedd] deuddec a thrugain.

39 A'r aſſynnod[oeddynt]ddeng mîl ar hugain, a phum cant, ai teyrnged i'r Arglwydd [oedd]vn a thrugain.

40 A'r dynion[oeddynt]vn mil ar bymthec, ai teyrnged i'r Arglwydd [oedd]ddeuddec enaid ar hugain.

41 A Moſés a rodd deyrnged offrwm derchafel yr Arglwydd at Eleazar yr offairiad: megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

42 Ac o rann meibion Iſrael, yr hon a rannaſe Moſes oddi wrth y mil-wyr,

43 Sefrhan y gynnulleidfa o'r defaid oedd, drychant mil, a dwyar bymthec ar hugain o filoedd, a phum cant.

44 Ac[o'r]eidionnau vn mîl ar bymthec ar hugain.

45 Ac[o'r] aſſynnod deng mîl ar hugain, a phum cant.

46 Ac[o'r]dynion vn mîl ar bymthec.

47 A chymmerodd Moſes o hanner meibion Iſrael vn rhann o[bôb]dec a deugain o'r dynion, ac o'r anifeiliaid, ac ai rhoddes hwynt i'r Lefiaid y rhai oeddynt yn gorchwylio tabernacl yr Arglwydd : megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

48 Yna y ſwyddogion y rhai[oeddynt] ar filoedd y filwriaeth a ddaethant at Moſes [ſef] capteniaid y miloedd, a chapteniaid y cantoedd.

49 A dywedaſant wrth Moſes, dy weiſion a gymmeraſant nifer y gwŷr o ryfel, y rhai[a roddaiſt]dan ein dwylo ni, ac nid oes ŵr yn eiſie o honom.

50 Am hynny yr offrymmwn offrwm i'r Arglwydd, pôb vn yr hyn a gaffo yn offeryn aur, yn fraichled, yn gadwyn, yn fodrwy, yn gluſtdlws, ac yn arffedog, i wneuthur iawn tros ein heneidiau ger bron yr Arglwydd.

51 A chymmerodd Moſes ac Eleazar yr offeiriad yr aur ganddynt, yn ddodrefn gweithgar oll.

52 Ac yr ydoedd holl aur yr offrwm derchafel, yr hwn a dderchafaſant i'r Arglwydd oddi wrth gapteniaid y miloedd, ac oddi wrth gapteniaid y cantoedd, yn vn mîl ar bymthec, ſaith gant, a dec a deugain o ſiclau.

53 Yſpeiliaſe y gwŷr o ryfel, bôb vn iddo ei hun.

54 A chymmerodd Moſes, ac Eleazar yr offeiriad yr aur gan gapteniaid y miloedd, a'r cantoedd, ac ai dugaſant i babell y cyfarfod, yn goffadwriaeth dros feibion Iſrael, ger bron yr Arglwydd.

## P E N. XXXII.

Tylwyth Ruben a Gad a ofynnaſant y tîr a ydoedd y tu hwnt i'r Iorddonen, ac ai cawſant tan ammod iddynt hwy, ac i hanner llwyth Manaſſes.

AC yr ydoedd anifeiliaid lawer i feibion Ruben, a llawer iawn i feibion Gad: a gwelſant dîr Iazer, a * thîr Gilead, ac wele y lle yn Gene.31.47.
lle[da]i anifeiliaid.

2 Yna meibion Gad, a meibion Ruben a ddaethant, ac a ddywedaſant wrth Moſes, ac wrth Eleazar yr offeiriad, ac wrth holl bennaduriaid y gynnulleidfa, gan ddywedyd:

3 Ataroth, a Dibon, ac Iazer, a Nemrah, a Heſbon, ac Elealeh, a Sabam, a Nebo, a Beon.

4 [Sef] y tîr yr hwn a darawodd yr Arglwydd o flaen cynnulleidfa Iſrael, tîr i anifeiliaid yw efe, ac[y mae] i'th weiſion anifeiliaid.

5 A dywedaſant os cawſom ffafor yn dy olwg, rhodder y tîr hwn i'th weiſion yn etifeddiaeth: na phâr i ni fyned trwy'r Iorddonen.

6 A dywedodd Moſes wrth feibion Gad, ac wrth feibion Ruben, ai eich brodyr a ânt i'r rhyfel, a chwithau a arhoſwch ymma?

7 A pha ham y digalonnwch feibion Iſrael rhac myned troſſodd i'r tîr yr hwn a rodd yr Arglwydd iddynt?

8 Felly y gwnaeth eich tadau, pan anfonais hwynt o Cades Barnea i edrych y tîr.

9 Canys aethant i fynu hyd * ddyffryn Eſ- Num.13.24.
col, a gwelſant y tîr a digalonnaſant feibion Iſrael rhac myned i'r tîr yr hwn a roddaſe yr Arglwydd iddynt.

10 Ac ennynnodd digllonedd yr Arglwydd y dydd hwnnw, ac efe a dyngodd gan ddywedyd.

11 Nid vyw fi os *y dynion a ddaethant i fy- Num.14.28.
nu o'r Aipht, o fab vgain mlwydd ac vchod, a welant y tîr yr hwn a addewais trwy lŵ i Abraham, Iſaac, ac 'i Iacob, am na chyflawnaſant [wneuthur] ar fy ôl i.

12 Ond Caleb mab Iephun y Ceneziad, a Ioſuah mab Nun, canys cyflawnaſant[wneuthur] ar ôl yr Arglwydd.

13 Ac ennynnodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn Iſrael, a gwnaeth iddynt gyrwydro yn yr anialwch ddeugain mlhynedd, nes darfod yr holl oes yr hon a wnaethe y drygioni yng-olwg yr Arglwydd.

14 Ac wele chwi a godaſoch yn lle eich tadau yn gynnyrch dynion pechadurus, i chwanegu ar ddi gllonedd ſorriant yr Arglwydd wrth Iſrael.

15 Os dychwelwch oddi ar ei ôl ef yna efe a âd y bobl etto yn yr anialwch, a chwi a ddiniſtriwch yr holl bobl hyn.

16 Yna y daethant atto, ac y dywedaſant, corlannau defaid a adailadwn ni ymma i'n hanifeiliaid, a dinaſoedd i'n plant.

17 A nyni a ymarfogwn yn fuan o flaen meibion Iſrael, hyd oni ddygom hwynt iw lle eu

hun: a'n plant a arhoſant yn y dinaſoedd caeroc rhac trigolion y tîr.

18 Ni ddychwelwn ni i'n tai, nes i feibion Iſrael feddianu bôb vn ei etifeddiaeth.

19 Heſyd ni etifeddwn gyd a hwynt o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ac oddi yno allan: am ddyfod ein etifeddiaeth i ni o'r tu ymma i'r Iorddonen tua'r dwyrain.

20 A *dywedodd Moſes wrthynt, os gwnewch y peth hyn, os ymarfogwch i'r rhyfel o flaen yr Arglwydd:

21 Os aiff pôb vn o honoch dros yr Iorddonen yn arfog o flaen yr Arglwydd, nes iddo oreſcynnu ei elynion oi flaen:

22 A daroſtwng y wlad o flaen yr Arglwydd, yna wedi hynny y cewch ddychwelyd, ac y byddwch ryddion oddi wrth yr Arglwydd, ac oddiwrth Iſrael: yna y bydd y tîr hwn yn etifeddiaeth i chwi o flaen yr Arglwydd.

23 Ond os chwi ni wnewch fel hyn, wele pechu yr ydych yn erbyn yr Arglwydd, a gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi.

24 A dailedwch i chwi ddinaſoedd i'ch plant, a chorlannau i'ch defaid, a gwnewch yr hyn a ddaeth allan o'ch genau.

25 A llefarodd meibion Gad, a meibion Ruben wrth Moſes gan ddywedyd: dy weiſion a wnant megis y mae fy arglwydd yn gorchymyn.

26 Ein plant, ein gwragedd, ein hanifeiliaid, a'n holl ſcrubliaid fyddant ymma yn ninaſoedd Gilead.

Ioſua.4.12. 27 A'th *weiſion a ânt troſſodd o flaen yr Arglwydd i'r rhyfel, pôb vn yn arfog i'r filwriaeth, megis y mae fy arglwydd yn llefaru.

28 A gorchymynnodd Moſes i Eleazar yr offeiriad, ac i Ioſuah fab Nun, ac i bennau cenedl llwythau meibion Iſrael oi plegit hwynt.

29 A dywedodd Moſes wrthynt, os meibion Gad, a meibion Ruben a ânt dros yr Iorddonen gyd a chwi, pôb vn yn arfog i'r rhyfel o flaen yr Arglwydd, yna pan ddaroſtynger y wlâd o'ch blaen rhoddwch iddynt wlâd Gilead yn etifeddiaeth.

30 Ac onid ânt droſſodd gyda chwi yn arfogion, yna cymmerant eu etifeddiaeth yn eich myſc chwi yng-wlâd Canaan.

31 Yna meibion Gad, a meibion Ruben a attebaſant, gan ddywedyd: fel y llefarodd yr Arglwydd wrth dy weiſion felly y gwnawn ni.

32 Nyni a awn troſſodd i dîr Canaan yn arfogion o flaen yr Arglwydd, fel [y byddo] meddiant ein etifeddiaeth o'r tu ymma i'r Iorddonen genym ni.

Deut.3.12.
ioſua.13.3.
ioſua.22.4.

33 A *rhodd Moſes iddynt [ſef] i feibion Gad, ac i feibion Ruben, ac i hanner llwyth Maanaſſes mab Ioſeph frenhiniaeth Sehon brenin yr Amoriaid, a brenhiniaeth Og brenin Baſan, y wlâd ai dinaſoedd ar hyd y terfynau, [ſef] dinaſoedd y wlad oddi amgylch.

34 A meibion Gad a adailadaſant Dibon, ac Ataroth, ac Aroer.

35 Ac Atroth, Sophon, a Iaazer, a Iogbea.

36 Bethnimra hefyd, a Betharan, dinaſoedd caeroc, a chorlannau defaid.

37 A meibiō Ruben a adailadaſant Heſbon, Eleale a Chiriathaim:

38 Nebo hefyd a Balmeon wedi troi [eu] henwau, a Sibamah: ac a henwaſant henwau y dinaſoedd y rhai a adailadaſant.

Gene.50.23. 39 Yna *meibion Machir mab Manaſſes a aethant i Gilead, ac ai henillaſant hi, ac a oreſcynnaſant yr Amoriaid y rhai [oeddynt] yn oddi.

40 A rhodd Moſes Gilead i Machir fab Manaſſes, ac efe a drigodd ynddi.

Deut.3.14. 41 Ac *aeth Iair mab Manaſſes, ac a ennillodd eu trefydd hwynt, ac ai galwodd hwynt trefydd Iair.

42 Ac aeth Nobah, ac a ennillodd Cenath, ai phentrefydd: ac ai galwodd ar ei enw ei hun Nobah.

## PEN. XXXIII.

1 Teithiau'r Iſraeliaid. 51 Duw yn gorchymyn iddynt ddiniſtrio y Canaaneaid ai heulynnod.

DYmma deithiau meibion Iſrael y rhai a ddaethant allan o dîr yr Aipht yn eu lluyedd dan law Moſes ac Aaron.

2 A Moſes a ſcrifennodd eu dyfodiad hwynt allan yn eu teithiau, wrth archedigaeth yr Arglwydd: ac dymma eu teithiau hwynt yn eu dyfodiad allan.

Exod.12.37. 3 Sef cychwnnaſant *o Rameſes, o fewn y mis cyntaf, ar y pymthecfed dydd o'r mis cyntaf: trannoeth wedi'r Paſc yr aeth meibion Iſrael allan a llaw vchel yng-olwg yr Aiphtiaid oll.

4 Yna yr Aiphtiaid oeddynt yn claddu pôb cyntafanedic, y rhai a laddaſe yr Arglwydd yn eu myſc, a gwnaethe yr Arglwydd farn yn erbyn eu duwiau hwynt hefyd.

5 A meibion Iſrael a gychwnnaſant o Rameſes, ac a werſſyllaſant yn Succoth.

Exod.13.20. 6 A chychwnnaſant o *Succoth, a gwerſſyllaſant yn Etham yr hon [ſydd] yng-hwrr yr anialwch.

7 A chychwnnaſant o Etham, a throeſant i Pi-Hahiroth, yr hon [ſydd] o flaen Baal Sephon, ac a werſſyllaſant o flaen Migdal.

Exod.15.22. 8 A chychwnnaſant o Pi-Hahiroth, ac aethant *trwy ganol y môr i'r anialwch, a cherddaſant daith tri diwrnod yn anialwch Etham, a gwerſſyllaſant yn Marah.

Exod.15.27. 9 A chychwnnaſant o Marah, a daethant i Elim, ac yn Elim [yr ydoedd] deuddec o ffynhonnau dwfr, a dec a thrugain o balm-wŷdd: a gwerſſyllaſant yno.

10 A chychwnnaſant o Elim, a gwerſſyllaſant wrth y môr côch.

Exod.16.1. 11 A chychwnnaſant oddi wrth y môr côch, a gwerſſyllaſant yn *anialwch Zin.

12 Ac o anialwch Zin y chychwnnaſant, ac y gwerſſyllaſant yn Daphca.

13 A chychwnnaſant o Daphca, a gwerſſyllaſant yn Alus.

Exod.17.1. 14 A chychwnnaſant o Alus, a gwerſſyllaſant yn * Raphidim, ac yno nid oedd dwfr i'r bobl iw yfed.

Exod..9.1. 15 A chychwnnaſant o Raphidim, a gwerſſyllaſant yn * anialwch Sinai.

Num.11.34. 16 A chychwnnaſant o anialwch Sinai, a gwerſſyllaſant ym * Meddau y blŷs.

Num.11.35. 17 A chychwnnaſant o Feddau yr blŷs, a gwerſſyllaſant yn * Hazeroth.

18 A chychwnnaſant o Hazeroth, a gwerſſyllaſant yn Rithma.

19 A chychwnnaſant o Rithma, a gwerſſyllaſant yn Rimon Phares.

20 A chychwnnaſant o Rimon Phares, a gwerſſyllaſant yn Libna,

21 A chychwnnaſant o Libna, a gwerſſyllaſant yn Riſſa.

22 A chychwnnaſant o Riſſa, a gwerſſyllaſant vn Cehelatha.

23 A chychwnnaſant o Cehelatha, a gwerſſyllaſant ym mynydd Sepher.

24 A chychwnnaſant o fynydd Sepher, a gwerſſyllaſant yn Harada.

25 A chychwnnaſant o Harada, a gwerſſyllaſant yn Maceloth.

26 A chychwnnaſant o Maceloth, a gwerſyllaſant yn Thahath.

27 A chychwnnaſant o Thahath, a gwerſyllaſant yn Tharath.

28 A chychwnnaſant o Tharath, a gwerſſyllaſant yn Mithca.

29 A chychwnnaſant o Mithca, a a gwerſſyllaſant yn Haſmonah.

30 A chychwnnaſant o Haſmonah, a gwerſſyllaſant yn Moſeroth.

31 A chychwnnaſant o Moſeroth, a gwerſſyllaſant yn Bene Iaacan.

32 A chychwnnaſant o Bene Iaacan, a gwerſſyllaſant yn Horgadgad.

33 A chychwnnaſant o Horgadgad, a gwerſſyllaſant yn Iethebatha.

34 A chychwnnaſant o Iethebatha, a gwerſſyllaſant yn Abrona.

35 A chychwnnaſant o Abrona, a gwerſſyllaſant yn Ezeon Gaber.

Num.20.1. 36 A chychwnnaſant o Ezeon Gaber, a gwerſſyllaſant yn * anialwch Zin, hwnnw yw Cades

37 A chychwnnaſant o Cades, a gwerſſyllaſant ym-mynydd Hor, yng-hwrr tir Edom.

Num.20.25 deut.32.50. 38 Ac * Aaron yr offeiriad a aeth i fynydd Hor, wrth archedigaeth yr Arglwydd, ac a fu farw yno yn y ddeugainfed flwyddyn wedi myned meibion Iſrael allan o dîr yr Aipht, yn y pummed mis, ar y [dydd] cyntaf o'r mis.

39 Ac Aaron [ydoedd] fab tair blwydd ar hugain a chant pan fu farw ym mynydd Hor.

Num.21.1. 40 A brenin * Arad y Canaanead, ac efe yn trigo yn y dehau yn nhîr Canaan a glybu o ddyfodiad meibion Iſrael.

41 A chychwnnaſant o * fynydd Hor, a gwerſſyllaſant yn Zalmona. Num.21.4.

42 A chychwnnaſant o Zalmona, a gwerſſyllaſant vn Phunon.

43 A chychwnnaſant o Phunon, a gwerſſyllaſant yn * Oboth. Num.21 10.

44 A chychwnnaſant o Oboth, a gwerſſyllaſant yn Iim Abarim, ar derfyn Moab.

45 A chychwnnaſant o Iim Abarim, a gwerſſyllaſant yn Dibon Gad.

46 A chychwnnaſant o Dibon Gad, a gwerſſyllaſant yn Almon Diblathaim.

47 A chychwnnaſant o Almon Diblathaim a gwerſſyllaſant ym mynyddoedd Abarim o flaen Nebo.

48 A chychwnnaſant o fynyddoedd Abarim, a gwerſſyllaſant yn rhoſſydd Moab am yr Iorddonen ag Iericho.

49 A gwerſſyllaſant wrth yr Iorddonen o Beth Ieſimoth hyd waſtadedd * Sittim yn rhoſſydd Moab. Num.25.1.

50 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, yn rhoſſydd Moab am yr Iorddonen ag Iericho, gan ddywedyd:

51 Llefara wrth feibion Iſrael a dywet wrthynt, gan eich bod chwi yn * myned tros yr Iorddonen i dîr Canaan: Deut.7.2. Ioſua.11.11.

52 Goreſcynnwch chwithau holl drigolion y tîr o'ch blaen, a diniſtriwch eu holl luniau hwynt, diniſtriwch hefyd eu holl ddelwau tawdd, a difwynwch hefyd eu holl uchelfeudd hwynt.

53 Ie goreſcynnwch y tîr, a thrigwch yndo: canys rhodais y tîr i chwi iw oreſcyn.

54 Rhennwch hefyd y tîr yn etifeddiaeth trwy eich teuluoedd wrth goelbren, * i'r [teulu] aml chwanegwch ei etifeddiaeth, ac i'r anaml prinhewch ei etifeddiaeth, bydd eiddo [pôb vn y man] lle yr el y coelbren allan iddo: yn ol llwythau eich tadau yr etifeddwch. Num.26.54.

55 Ac oni oreſcynnwch breſwylwyr y tîr o'ch blaen, yna y bydd y rhai a * weddillwch o honynt yn * gethri yn eich llygaid, ac yn ddrain yn eich yſtlyſſau, a blinant chwi yn y tîr yr hwn y trigwch yndo. Deut.7.10. Ioſua.23.1. Barn.2.3.

56 A bydd [mai] megis yr amcenais wneuthur iddynt hwy y gwnaf i chwi.

## PEN. XXXIIII.

Terfynau gwlâd Canaan, ai doſparth-wyr.

A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, gan ddywedyd:

2 Gorchymyn i feibion Iſrael a dywet wrthynt: pan ddeloch chwi i dîr Canaan, dymma y tîr a ſyrth i chwi yn etifeddiaeth, [ſef] gwlâd Canaan tan ei therfynau.

3 Yna bydded i chwi y tu * dehau o anialwch Zin ger llaw Edom: a therfyn y dehau fydd i chwi, o gwrr y môr heli, tua'r dwyrain.

4 A'r terfyn a amgylchyna i chwi o'r dehau i riw Acrabim, ac a aiff troſſodd i Zin: ai fynediad allan fydd o'r dehau i Cades Barnea, ac aiff allan i faeſ-dref Adar, a throſſodd i Azmon,

5 Ac

«
« 5 A'r terfyn a amgylchyna o Azmon i afon
« yr Aipht, ai fynnediad ef allan a fydd tua 'r
« gorllewyn.
« 6 A therfyn y gorllewyn fydd y môr mawr i
« chwi, ſef y terfyn hwn fydd i chwi yn derfyn gorllewyn.
« 
« 7 A hwn fydd terfyn y gogledd i chwi o'r
« môr mawr y terfynwch i chwi fynydd Hor.
« 8 O fynydd Hor y terfynwch nes dyfod i
« Hamath, a diwedd y terfyn fydd Zedadah.
« 9 A'r terfyn a aiff allan tua Ziphron, ai ddiwedd
« ef fydd * Hazar Enan, hwn fydd terfyn y
« gogledd i chwi.
« 10 A therfynwch i chwi yn derfyn y dwyrain,
« o Hazar Enan i Sepham.
« 11 Ac aed y terfyn i wared o Sepham i Ribla,
« ar du dwyrain Ain, yna deſcynned y terfyn,
« ac aed hyd eſtlys môr Cinnereth tua 'r dwyrain.
« 12 Ac aiff y terfyn i wared tua 'r Iorddonen;
« ai ddiwedd fydd y mor heli: dymma y tir fydd i
« chwi dan ei derfynau oddi amgylch.
« 13 A gorchymynnodd Moſes i feibion Iſrael
« gan ddywedyd: dymma y tîr yr hwn a
« rennwch yn etifeddiaethau wrth goel-bren, yr
« hwn y gorchymynnodd yr Arglwydd ei roddi
« i'r naw llwyth, ac i'r hanner llwyth.

Num.32,33.
Ioſua.14.2.

« 14 Canys cymmeraſe *llwyth meibion Ruben
« yn ôl tŷ eu tadau, a llwyth meibion Gad yn
« ôl tŷ eu tadau, a hanner llwyth Manaſſes: cymmeraſant
« [meddaf] eu hetifeddiaeth.
« 15 Dau lwyth a hanner llwyth a gymmeraſant
« eu hetifeddiaeth am yr Iorddonen ag Iericho,
« tua a'r dwyrain oddi wrth godiad [haul.]
« 16 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrth Moſes
« gan ddywedyd:
« 17 Dymma henwau y gwŷr y rhai a rannant
« y tîr yn etifeddiaethau i chwi, Eleazar yr
« offeiriad, ac Ioſuah mab Nun.
« 18 Ac un pennaeth o bob llwyth a gymmerwch
« i rannu y tîr yn etifeddiaethau.
« 19 Ac fel dymma henwau y gwŷr: tros
« llwyth Iuda, Caleb mab Iephun.
« 20 A thros llwyth meibion Simeon, Semuel
« mab Ammihud.
« 21 Tros llwyth Beniamin, Elidad mab Ciſlon.
« 
« 22 A Bucci mab Iogli yn bennaeth tros
« llwyth meibion Dan.
« 23 O feibion Ioſeph, Haniel mab Ephod
« yn bennaeth tros llwyth meibion Manaſſes.
« 24 Cemuel hefyd mab Siphtan yn bennaeth
« tros llwyth meibion Ephraim.
« 25 A Eliſaphan mab Pharnach, yn bennaeth
« tros llwyth meibion Zabulon.
« 26 Paltiel hefyd mab Aſan, yn bennaeth
« tros llwyth meibion Iſſachar.
« 27 Ac Ahihud mab Salomi, yn bennaeth
« tros llwyth meibion Aſer.
« 28 Ac yn bennaeth tros llwyth meibion
« Nephthali, Pedael mab Ammihud.
« 29 Dymma y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd iddynt rannu etifeddiaethau i feibion Iſrael yn nhîr Canaan.

## PEN. XXXV.

Yr Arglwydd yn gorchymyn rhoi trefi a thîr i'r Lefiaid: 6 a bod rhai o'r trefi hynny yn noddfâu, ac yn dangos beth a wneir i'r llawrudiog, ſef yr hwn a laddo ddyn: a pha deſtiolaeth a gymmeryr iw erbyn.

A Llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes, yn rhoſſydd Moab, am yr Iorddonen ag Iericho gan ddywedyd:

2 Gorchymyn i feibion Iſrael * roddi o honynt i'r Lefiaid o etifeddiaeth eu meddiant ddinaſoedd i drigo: rhoddwch hefyd i'r Lefiaid faes pentrefol wrth y dinaſoedd oi hamgylch.

3 A'r dinaſoedd fyddant iddynt i drigo [ynddynt,] ai pentrefol feuſydd fyddant iw hanifeiliaid, ac iw cyfoeth, ac iw holl fwyſt-filod.

4 A meuſydd pentrefol y dinaſoedd y rhai a roddwch i'r Lefiaid [a gyrhaeddant] o fur y ddinas tu ac allan, fil o gufyddau o amgylch.

5 A meſurwch o'r tu allan i'r ddinas, odd'r dwyrain yn ddwy fil o gufyddau, a thu 'r dehau yn ddwy fil o gufyddau, a thu 'r gorllewyn yn ddwy fil o gufyddau, a thu 'r gogledd yn ddwy fil o gufyddau: a'r ddinas [fydd] yn y canol, hyn fydd iddynt yn feuſydd pentrefol y dinaſoedd.

Deut.4.41.
Ioſua 20.2.
Exod.21.13.
Deut 19.2.

6 Ac o'r dinaſoedd y rhai a roddwch i'r Lefiaid, [bydded] *chwech yn ddinaſoedd noddfa, y rhai a roddwch fel y gallo y llawruddiog ffoi yno: a rhoddwch ddwy ddinas a deugain attynt hwy.

7 Yr holl ddinaſoedd y rhai a roddwch i'r Lefiaid [fyddant] wyth ddinas a deugain, hwynt ai pentrefol feuſydd.

8 A'r dinaſſoedd y rhai a roddwch [fyddant] o feddiant meibion Iſrael, oddi ar yr aml [ei ddinaſoedd] y rhoddwch yn aml, ac oddi ar y prin y rhoddwch yn brin, pob un yn ôl ei etifeddiaeth, yr hon a etifeddant a rydd i'r Lefiaid oi ddinaſoedd.

9 A llefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gan ddywedyd:

10 Llefara wrth feibion Iſrael a dywet wrthynt, pan eloch tros yr Iorddonen, i dir Canaan,

11 Yna goſodwch i chwi ddinaſoedd: dinaſoedd noddfa fyddant i chwi, ac yno y ffy y llawruddiog yr hwn a laddo ddyn mewn amryfuſedd.

12 A'r dinaſoedd fyddant i chwi yn noddfa rhac y dialudd: fel na ladder y llawruddiog hyd oni ſafo ger bron y gynnulleidfa mewn barn.

13 Ac [o'r] dinaſoedd y rhai a roddwch, chwech fyddant i chwi yn ddinaſoedd noddfa.

14 Tair dinas a roddwch o'r tu ymma i'r Iorddonen, a thair dinas a roddwch yn nhir Canaan: dinaſoedd noddfa fyddant hwy.

15 I feibion Iſrael, ac i'r dieithr, ac i'r alltudd [yr hwn a fyddo] yn eich myſc, y bydd y chwe dinas hyn yn noddfa: fel y gallo pob un a laddo ddyn mewn amryfuſedd ffoi yno.

Exod.21.14.

16 Ac *os ag offeryn haiarn y tarawodd ef

fel y bu farw, llawruddiog yw efe: ladder y llawruddiog yn farw.

17 Ac os a charrec law yr hon y bydde efe farw oi phlegit, y tarawodd ef, ai farw, llawruddiog yw efe lladder y llawruddiog yn farw.

18 Neu os efe ai tarawodd ef a llaw-ffon yr hon y bydde efe farw oi phlegit, ai farw, llawruddiog yw efe, lladder y llawruddiog yn farw.

19 Dialudd y gwaed a ladd y llawruddiog pan gyfarfyddo ag ef, lladded ef.

Deut.19.11.

20 Ac os * mewn câs y gwthia efe ef, neu y teifl atto mewn bwriad, fel y byddo efe farw.

21 Neu ei daro ef ai law mewn gelynaſtra fel y byddo farw, ladder yn farw yr hwn ai tarawodd, llofrudd yw hwnnw: dialudd y gwaed a ladd y llofrudd pan gyfarfyddo ag ef.

Exod.21.13.

22 Ond * os yn ddiſymmwth heb gâs y gwthia efe, neu y teifl atto vn offeryn yn ddifwriad:

23 Neu [ei daro ef] a charrec yr hon y bydde efe farw oi phlegit heb weled: a pheri iddi ſyrthio arno, fel y byddo farw, ac efe heb ddwyn câs iddo, ac heb geiſio niwed iddo ef:

24 Yna barned y gynnulleidfa rhwng y tarawudd, a dialudd y gwaed, yn ôl y barnedigaethau hyn.

25 Ac achubed y gynnulleidfa y llofrudd, o law dialudd y gwaed, a throed y gynnulleidfa ef i ddinas ei noddfa yr hon y ffodd efe iddi: a thriged yntef ynddi hyd farwolaeth yr arch-offeiriad, yr hwn a eneiniwyd ag olew cyſſegredic.

26 Ac os y llofrudd gan fyned a aiff allan o derfyn dinas ei noddfa, yr hon y ffodd efe iddi:

27 Ai gael o ddialudd y gwaed oddi allan i ddinas ei noddfa, a lladd o ddialudd y gwaed y llofrudd, na [rodder hawl] gwaed yn ei erbyn:

28 Canys o fewn dinas ei noddfa y trig hyd farwolaeth yr arch-offeiriad, ac wedi marwolaeth yr arch-offeiriad, dychweled y llofrudd i dîr ei etifeddiaeth.

29 A hyn fydd i chwi yn ddeddf farnedic drwy eich cenedlaethau, yn eich holl drigfannau.

Deut.17.6.
Deut.19.15.
Math.18.16.
2.Cor.13.1.

30 Pwy bynnac a laddo ddyn, wrth a* ddywedo tyſtion y lladd efe y llofrudd: ac vn tŷſt ni chaiff deſtiolaethu yn erbyn dŷn i farw o honaw.

31 Hefyd na chymmerwch iawn am einioes y llofrudd, yr hwn ſydd euog i farw, ond lladder ef yn farw.

32 Ac na chymmerwch iawn gan yr hwn a ffodd i ddinas ei noddfa, er cael dychwelyd i drigo yn y tîr, hyd farwolaeth yr offeiriad.

33 Fel na halogoch y tîr yr hwn [y byddoch] chwi ynddo, canys y gwaed hwn a haloga y tîr, a thros y tîr ni wneir iawn am y gwaed a dywelltir arno, ond a gwaed yr hwn ai tywalltodd.

34 Am hynny nac aſlanhâ y tîr yr hwn yr ydych yn trigo ynddo, yr hwn yr ydwyfi yn preſſwylio yn ei ganol: canys myfi'r Arglwydd ydwyf yn preſſwylio yng-hanol meibion Iſrael.

## PEN. XXXVI.

Bod yn rhaid i ferched Zalphaad, ac i bob aeres arall briodi rhai oi llwythau eu hun.

PEnnau cenedl tylwyth meibiō Gilead, mab Machir, mab Manaſſes o dylwyth meibion Ioſeph a ddaethant hefyd, ac a lefaraſant ger bron Moſes, a cher bron y pennaduriaid [ſef] pennau cenedl meibion Iſrael.

Num.27.7.
Iosua 17.3.

2 Ac a ddywedaſant: * yr Arglwydd a orchymynnodd i'm harglwydd, roddi y tîr yn etifeddiaeth i feibion Iſrael wrth goel-bren: a'm harglwydd a orchymynnwyd gā yr Arglwydd roddi etifeddiaeth Zalphaad ein brawd iw ferched.

3 Os hwynt a fyddant wragedd i rai o feibion llwythau meibion Iſrael, yna y tynnir ymmaith eu hetifeddiaeth hwynt oddi wrth etifeddiaeth ein tad ni, ac ai chwanegir at etifeddiaeth y llwyth y rhai y byddant hwy eiddynt, a phrinheuir ar randir ein etifeddiaeth ni.

4 A phan fyddo y Iubili i feibion Iſrael, yna y chwanegir eu hettifeddiaeth hwynt, ac etifeddiaeth llwyth y rhai y byddant hwy eiddynt: a thorrir eu hetifeddiaeth hwynt, oddi wrth etifeddiaeth llwyth ein tâd ni.

5 A gorchymynnodd Moſes i feibion Iſrael yn ôl gair yr Arglwydd, gan ddywedyd: y mae llwyth meibion Ioſeph yn dywedyd yn inion.

6 Dymma y gair yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd am ferched Zalphaad, gan ddywedyd: byddant yn wragedd i'r [rhai] y byddo da yn eu golwg eu hun, ond i rai o dylwyth llwyth eu tâd eu hun y byddant yn wragedd.

7 Fel na threiglo etifeddiaeth meibion Iſrael, o lwyth i lwyth, ond glynu o feibion Iſrael bob vn yn etifeddiaeth llwyth ei dadau ei hun.

8 A phob merch yn etifeddu etifeddiaeth o lwythau meibion Iſrael a fydd wraig i vn o dylwyth llwyth ei thâd ei hun: fel yr etifeddo meibion Iſrael bob vn etifeddiaeth ei dadau ei hun.

9 Ac na threigled etifeddiaeth o lwyth i lwyth arall, canys llwythau meibion Iſrael a lynant bob vn yn ei etifeddiaeth ei hun.

10 Megis y gorchymynnodd yr Arglwydd wrth Moſes, felly y gwnaeth merched Zalphaad.

11 Canys Mahelah, Thirza, Hagla, Milcha, a Noa merched Zalpaad fuant yn wragedd i feibion eu hewythr.

12 [I wŷr] o dylwyth Manaſſes fab Ioſeph y buant yn wragedd: a bu eu hetiſeddiaeth wrth lwyth tylwyth eu tâd.

13 Dymma y gorchymynnion, a'r barnedigaethau, y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd i feibion Iſrael trwy law Moſes, yn rhoſſydd Moab, am yr Iorddonen ag Iericho.

# Pummed llyfr Moſes yr hwn a elwir Deuteronomium.

## PENNOD. I.

2 Byrr adfynegiad o'r pethau a wnaethid o'r blaen o Horeb hyd Cadesbarnea. 13 Moſes yn goſod cydlywodraethwyr ag ef ei hun, ar y bobl. 16 Barn gyfiawn. 22 Yr yſpiwyr. 32 Moſes yn yſtwrdio y bobl o achos eu hangrhedyniaeth. 44 Ennill o'r Amoriaid y maes oddi ar yr Iſraeliaid, am iddynt ymladd yng-wrthwyneb i orchymyn yr Arglwydd.

Dymma y geiriau y rhai a ddywedodd Moſes wrth holl Iſrael, ar tu hwnt i'r Iorddonen yn yr anialwch, ar y rhos gyferbyn a'r môr côch: rhwng Pharan a Thophel, a Laban, a Haſeroth, a Dizahab.

2 [Taith] un diwrnod ar ddec[ſydd] o Horeb, ffordd [yr eir] i'r mynydd Seir, hyd Cadeſbarnea.

3 A darfu yn y ddeugeinfed flwyddyn, yn yr unfed mîs ar ddec, ar y [dydd] cyntaf o'r mis i Moſes lefaru wrth feibion Iſrael yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd iddo [ei ddywedyd] wrthynt.

Num.21.26.

4 Wedi iddo ladd * Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Heſbon, ac Og brenin Baſan yr hwn oedd yn trigo yn Aſtaroth, o fewn Edrai.

5 Tu hwnt i'r Iorddonen yng-wlâd Moab y dechreuodd Moſes egluro y gyfraith hon gan-ddywedyd:

6 Yr Arglwydd ein Duw a lefarodd wrthum ni yn Horeb, gan ddywedyd: digon i chwi drigo [hyd yn hyn] yn y mynydd hwn,

7 Dychwelwch, a chychwnnwch rhagoch ac ewch i fynydd yr Amoriaid, ac iw holl gyfagos [leoedd:] i'r rhos, i'r mynydd, ac i'r gwaſtadedd, ac i'r dehau, ac i borthladd y môr, i dîr y y Canaaneaid, ac i Lybanus, hyd yr afon fawr [ſef] afon Euphrates.

Geneſ.15.18.
Geneſ.17.7.

8 Wele rhoddais y wlâd o'ch blaen chwi: ewch i mewn, * a goreſcynnwch y wlâd yr hon a dyngodd yr Arglwydd i'ch tadau chwi: i Abraham, ac i Iſaac, ac i Iacob ar [ei] rhoddi iddynt, ac iw hâd ar eu hôl hwynt.

Exod.18.19.

9 A mi a ymadroddais wrthych * yr amſer hwnnw gan ddywedyd: ni allaf fy hun eich cynnal chwi.

10 Yr Arglwydd eich Duw a'ch lluoſogodd chwi: ac wele chwi heddyw fel ſêr y nefoedd o luoſogrwydd.

11 Arglwydd Dduw eich tadau a'ch cynnyddo yn fil lluoſogach nac ydych, ac a'ch bendithio fel y llefarodd efe wrthych.

12 Pa wedd y dygwn fy hun eich blinder, a'ch baich, a'ch ymryſon chwi?

13 Moeſwch i wch wŷr doethion, a deallus, a rhai cyfarwydd trwy eich llwythau, fel y goſodwyf hwynt yn bennau arnoch chwi.

14 Yna 'r attebaſoch fi, ac y dywedaſoch, da yw gwneuthur y peth yr hwn a ddywedaiſt.

15 Cymmerais gan hynny bennau eich llwythaû chwi, [ſef] gwŷr doethion, a rhai cyfarwydd, ac ai rhoddais hwynt yn bennau arnoch, [ſef] yn gapteniaid ar filoedd, ac yn gapteniaid ar gantoedd, ac yn gapteniaid ar ddegau a deugain, ac yn gapteniaid ar ddegau, ac yn ſwyddogion ar eich llwythau chwi.

Ioan.7.24.

16 A'r amſer hwnnw y gorchymynnaiſ i'ch barnwŷr chwi gan ddywedyd: gwrandewch [ddadleuon] rhwng eich brodyr, a * bernwch gyfiawnder rhwng gŵr ai frawd, ac ai eſtron hefyd.

Lefit.19.15.
Deut.16 19.
1.Sam.17.7.
Diahar. 24.23
Iam.2.2.

17 Na chydnabyddwch wynebau mewn barn, * gwrandewch ar y lleiaf, yn gyſtal ac ar y mwyaf: nac ofnwch rhac neb, o blegit y farn ſydd eiddo Duw: a'r pêth yr hwn a fydd rhy galed i chwi a ddygwch attafi, a mi ai gwrandawaf.

18 Gorchymynnais i chwi hefyd yr amſer hwnnw yr holl bethau y rhai [a ddylech] eu gwneuthur.

19 Yna y mudaſom o Horeb, ac a gerddaſom yr holl anialwch mawr, ac ofnadwy hwnnw, yr hwn a welſoch ffordd [yr eir i] fynydd yr Amoriaid, fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd ein Duw i ni, ac a ddaethom hyd Cadeſbarnea.

20 A dywedais wrthych, daethoch hyd fynydd yr Amoriaid yr hwn y mae 'r Arglwydd ein Duw ar roddi i ni.

21 Wele 'r Arglwydd dy Dduw a roddes y wlâd o'th flaen, dos i fynu [a] goreſcyn, fel y llefarodd Arglwydd Dduw dy dadau wrthit; nac ofna, ac na lwfrhâ.

Num.13.1.

22 Yna chwi oll a ddaethoch attaf, ac * a ddywedaſoch, anfonwn wŷr o'n blaen ni, fel y

chwiliant hwy y wlâd i ni, ac yr adroddant beth i ni am y ffordd yr hon yr awn i fynu rhyd-ddi, ac am y dinaſoedd y rhai y deuwn i mewn iddynt.

23 A'r peth oedd dda yn fyng-olwg, cymmerais gan hynny ddeuddeng-wr o honoch, un gŵr o[bob]llwyth.

Num.13.24. 24 *Felly y troeſant ac yr aethant i fynu i'r mynydd, ac y daethant hyd ddyffryn Eſcol, ac ai chwiliaſant ef.

25 Ac a gymmeraſant o ffrwyth y tîr yn eu llaw, ac ai dugaſant i wared attom ni, ac a ddugaſant air i ni trachefn, ac a ddywedaſant da [yw] 'r wlâd yr hon y mae 'r Arglwydd ein Duw yn ei rhoddi i ni.

26 Er hynny ni fynnech fyned i fynu: ond gair yr Arglwydd eich Duw a anufyddhauſoch chwi.

27 Grwgnachaſoch hefyd yn eich pebyll, a dywedaſoch, am gaſau o'r Arglwydd nyni y dug efe ni allã o dir yr Aipht i'n rhoddi yn llaw 'r Amoriaid, i'n difetha.

28 I ba le 'r awn i fynu? ein brodyr a'n digalonnaſant ni gan ddywedyd: pobl fwy, a hwy na nyni, dinaſoedd mawrion, a chaerog hyd y nefoedd, a *meibion yr Anaciaid hefyd a welſom ni yno. Num.13.29.

29 Yna y dywedais wrthych, nac arſwydwch, ac nac ofnwch rhac ddynt hwy.

30 Yr Arglwydd eich Duw 'r hwn ſydd yn myned o'ch blaen, efe a ymladd troſoch yn ôl [yr hyn] oll a wnaeth [efe] i chwi yn yr Aipht o flaen eich llygaid.

31 Ac yn yr anialwch fel y gwelaiſt [lle] i'ch ddug yr Arglwydd dy Dduw, fel y dwg gŵr ei fab ei hun, yn yr holl ffordd yr hon a gerddaſoch, nes eich dyfod hyd y man ymma.

32 Etto er y chwedl hwn, ni chredech chwi yn yr Arglwydd eich Duw.

Exod.13.21. 33 *Yr hwn a oedd yn myned o'ch blaen chwi ar hŷd y ffordd i chwilio iwch [am] le i werſyllu o honoch: y nôs mewn tân i beri i chwi ganfod ar hŷd y ffordd yr hon yr aech arni: a'r dydd mewn cwmwl.

34 A chlybu 'r Arglwydd lais eich geiriau, ac a ddigiodd, ac a dyngodd gan ddywedyd:

Num.14.13. 35 Os * un o'r dynion hyn, y genhedlaeth ddrwg hon, a wêl y wlâd dda 'r hon y tyngais, ar ei rhoddi i'ch tadau chwi [na choelier fi.]

36 O ddieithr Caleb mab Iephun, efe ai gwêl hi, * ac iddo ef y rhoddaf y wlâd yr hon y ſangodd efe ynddi, ac i'w feibion ef, o achos cyflawni o honaw [wneuthur] ar ôl yr Arglwydd. Ioſua.14.6.

Num.20.12. 37 * Wrthif finne hefyd y digiodd yr Arglwydd o'ch plegit chwi gan ddywedyd: tithe hefyd ni chei fyned i mewn yno. Num 27.14. Deut.3 26.

Deut.4.21. 38 Ioſuah mab Nun yr hwn ſydd yn ſefyll ger dy fron di, efe a aiff i mewn yno: cadarnhâ di ef, canys efe ai rhan hi'n etifeddiaeth i Iſrael. Deut.34.4.

Num.14.31. 39 *Eich plant hefyd y rhai y dywedaſoch y byddent yn yſpail, a'ch meibion chwi y rhai nid adwaenant heddyw dda, na drwg: y rhai hyn a âant i mewn yno, ac i'r rhai hynny y rhoddaf hi, a hwynt ai gorescynnant hi.

40 Troiwch chwithau rhagoch, a chychwynnwch i'r anialwch ar hŷd ffordd y môr côch.

41 Yna yr attebaſoch, a dywedaſoch wrthif, pechaſom yn erbyn yr Arglwydd, nyni a awn i fynu, ac a ymladdwn ar ôl yr hyn oll a orchymynnodd yr Arglwydd ein Duw i ni: a gwiſcaſoch bob un ei arfau rhyfel, ac a ymroeſoch i fyned i'r mynydd.

42 A dywedodd yr Arglwydd wrthif: dywet wrthynt nac ewch i fynu, ac na ryfelwch o blegit nad ydwyf yn eich myſc chwi, rhac eich cwympo o flaen eich gelynnion.

43 Felly y dywedais wrthych, ond ni wrandawſoch eithr anufyddhauſoch air yr Arglwydd, rhyfygaſoch hefyd ac aethoch i fynu i'r mynydd.

44 Yna y daeth allan yr Amoriaid y rhai [oeddynt] yn trigo yn y mynydd hwnnw i'ch cyfarfod chwi ac a'ch ymlidiaſant fel y gwnai gwenyn, ac a'ch difethaſant chwi o Seir hyd Horma.

45 Yna y dychwelaſoch ac yr wylaſoch ger bron yr Arglwydd, ond ni wrandawodd yr Arglwydd ar eich llef, ac ni roddes gluſt i chwi.

46 Ac arhoſaſoch yn Cades ddyddiau lawer, megis y dyddiau yr arhoſaſech [o'r blaen.]

## PEN. II.

1 Iſrael a waherddir i ymladd ar Edomiaid, 9 Moabiaid a'r Ammoniaid, ac ſydd yn gorchfygu Sehon brenin Heſbon.

YNa y troeſom ac y cychwynnaſom i'r anialwch [ar hŷd] ffordd y môr côch fel y dywedaſe yr Arglwydd wrthif: ac a amgylchaſom fynydd Seir ddyddiau lawer.

2 Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrthif gan ddywedyd: Digon i chwi amgylchu y mynydd hwn [hyd yn hyn] ymchwelwch rhagoch tua 'r gogledd.

4 A gorchymyn i'r holl bobl gan-ddywedyd: chwy chwi ydych ar drammwy trwy derfynau eich brodyr, meibion Eſau, y rhai ydynt yn trigo yn Seir, a hwyntau a ofnant rhagoch, ond ymgedwch yn ddyfal.

5 Na chyffroiwch hwynt o herwydd ni roddaf i chwi oi tir hwynt gymmeint a lled gwadn troed: *canys yn etifeddiaeth i Eſau y rhoddais fynydd Seir. Geneſ.3

6 Prynwch fwyd ganddynt am arian, fel y bwyttaoch: a phrynwch hefyd ddwfr ganddynt am arian, fel yr yfoch.

7 Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithiodd di yn holl waith dy law, gwybu dy gerdded yn yr anialwch mawr hwn: y deugain mlhynedd hyn [y bu] yr Arglwydd dy Dduw gyd a thi, [ac] ni bu arnat eiſie dim.

8 Yna y tramwyaſom oddi wrth ein brodyr meibion Eſau y rhai ydynt yn trigo yn Seir, o ffordd y rhôs, o Elath, ac o Ezion-gaber, ac a ddychwelaſom fel y tramwyem ar hŷd ffordd anialwch Moab.

9 Yna yr Arglwydd a ddywedodd wrthif, na orthrymma Moab, ac nac ymgynnull i ryfel yn eu herbyn hwynt, o blegit ni roddaf it feddiant oi dîr ef: o herwydd i feibion Lot, y rhoddais Ar yn etifeddiaeth.

10 Yr Emiaid o'r blaen a gyfaneddaſant ynddi: pobl fawr, ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid.

11 Yn gawri y cymmerwyd hwynt hefyd, fel yr Anaciaid, a'r Moabiaid ai galwaſant hwynt yn Emiaid.

12 Yr Horiaid hefyd a breſſwyliaſant yn Seir o'r blaen, a meibion Eſau ai goreſcynnaſant, ac ai difethaſant oi blaen, a thrigaſant yn eu lle hwynt, fel y gwnaeth Iſrael i wlâd ei etifeddiaeth yntef, yr hon a roddes yr Arglwydd iddynt.

13 [Yna y dywedais] cyfodwch yn awr, a thramwywch rhagoch tros afon * Zared: Num.2.12. ac nyni a aethom tros afon Zared.

14 A'r dyddiau [yn] y rhai y cerddaſom o Cadeſbarnea, hyd pan ddaethom tros afon Zared [oeddynt] onid dwy flwyddyn deugain, nes darfod holl genhedlaeth y gwŷr o ryfel o ganol y gwerſyllau, fel y tyngaſe 'r Arglwydd wrthynt.

15 Canys llaw 'r Arglwydd ydoedd hefyd yn eu herbyn hwynt iw torri hwynt o ganol y gwerſyll hyd oni ddarfuont.

16 A bu wedi darfod yr holl ryfel-wŷr, gan eu marw o blith y bobl,

17 Yna leſaru o'r Arglwydd wrthif gan ddywedyd:

18 Ty di heddyw wyt ar fyned trwy derfynau Moab, ſef [trwy] Ar.

19 Pan ddelech di gyferbyn a meibion Ammon, na orthrymma hwynt, ac nac ymgynnull yn eu herbyn hwynt, o blegit ni roddaf feddiant o dîr meibion Ammon i ti, canys rhoddais ef yn etifeddiaeth i feibion Lot.

20 Yn wlâd cawri hefyd y cyfrifwyd hi, cawri a breſſwyliaſant ynddi o'r blaen: a'r Ammoniaid ai galwent hwynt Zamzumiaid.

eneſ.36.8. 21 Pobl fawr, ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid, a'r Arglwydd ai difethodd hwynt, oi blaen hwy, a hwynt ai goreſcynnaſant, ac a drigaſant yn eu lle hwynt.

22 Fel y gwnaeth i feibion Eſau y rhai ydynt yn trigo yn Seir, pan ddifethodd efe yr Horiaid oi blaen, fel y goreſcynnaſant hwynt, ac y trigaſant yn eu lle hwynt hyd y dydd hwn.

23 Felly [am] yr Aſiaid y rhai oeddynt yn trigo yn Hazarim, hyd Azza, y Caphthoriaid y rhai a ddaethant allan o Caphthor ai difethaſant hwynt, ac a drigaſant yn eu lle hwynt.

24 Cyfodwch, cychwynnwch, ac ewch tros afon Arnon: wele rhoddais yn dy law di Sehon brenin Heſbon yr Amoriad, ai wlâd ef, dechreu oreſcyn, ai gyffroi ef i ryfel.

25 Y dydd hwn y dechreuaf roddi dy arſwyd, a'th ofn di ar y bobloedd tann yr holl nefoedd, y rhai a glywant dy henw di a ddychrynant, ac a leſcaant rhagot ti.

26 Yna 'r anfonais gennadau o anialwch Cademoth at Sehon brenin Heſbon [a] geiriau heddwch, gan ddywedyd:

27 * Gâd i mi fyned trwy dy wlâd ti, ar hŷd y briffordd y cerddaf, ni chiliaf i'r tu dehau, nac i'r tu aſſwy. Num.21.22.

28 Gwerth fwyd am arian i mi, fel y bwytawyf, a dyro ddwfr am arian i mi fel yr yfwyf, ar fy nrhaed yn unic y trammwyaf,

29 (Fel y gwnaeth meibiõ Eſau i mi, y rhai ydynt yn trigo yn Seir, a'r Moabiaid y rhai ydynt yn trigo yn Ar) hyd onid elwyf tros yr Iorddonen i'r wlad yr hon y mae yr Arglwydd ein Duw yn ei rhoddi i ni.

30 Ond ni fynne Sehon brenin Heſbon ein gollwng heb ei law, o blegit yr Arglwydd dy Dduw a galedaſe ei yſpryd ef, ac a gadarnhauſe ei galon ef, er mwyn ei roddi ef yn dy law di, megis heddyw [y gwelir.]

31 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, wele dechreuais roddi Sehon, ai wlâd ef o'th flaen di, dechreu di gan oreſcyn oreſcynnu ei wlâd ef.

32 *Yna Sehon a ddaeth allan i'n cyfarfod Num.21.23. ni, efe ai holl bobl i ryfel [yn] Iaſa.

33 Ond yr Arglwydd ein Duw, ai rhoddes ef o'n blaen, fel y tarawſom ef, ai feibion, ai holl bobl ef.

34 Ac a ennillaſom ei holl ddinaſoedd ef yr amſer hwnnw, ac a ddifrodaſom bob dinas, yn wŷr, yn wragedd, yn blant, [ac] ni adawſom weddill.

35 Ond ſclyfaethaſom yr anifeiliaid i ni, ac yſpail y dinaſoedd y rhai a ennillaſom.

36 O Aroer, yr hon [ſydd] ar fin afon Arnon, a'r ddinas yr hon [ſydd] ar yr afon, ac hyd at Gilead, ni bu ddinas a'r a ddiangodd rhagom: yr Arglwydd ein Duw a roddes y cwbl o'n blaen ni.

37 Er hynny ni ddaethoſti dîr meibion Ammon, [ſef] holl lann afon Iabboc, nac i ddinaſoedd y mynydd, nac i'r holl [leoedd] y rhai a orchymynnaſe yr Arglwydd ein Duw [na ddelem iddynt.

## PEN. III.

Hanes Og brenin Baſan. 13 Pwy a gafodd ei dîr ef, a tharn ba ammod. 21 Moſes yn cynghori Ioſuah i flaenori y bobl i wlad Canaan, yr hon ni chai efe ei hun onid ei gweled.

YNA y troeſom, ac yr eſcynnaſom [ar hyd] ffordd Baſan, ac * Og brenin Baſan a Num.21.33. Deut.29.7. ddaeth allan i'n cyfarfod ni, efe ai holl bobl i ryfel i Edrai.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, nac of-

na ef, o blegit yn dy law di y rhoddaf ef, ai holl bobl, ai wlâd ef: a thi a wnei iddo fel y gwnaethoſt i *Sehon frenin yr Amoriaid yr hwn oedd yn trigo yn Heſbon.

Num.21.24.

3 Felly yr Arglwydd ein Duw a roddes hefyd yn ein llaw ni *Og frenin Baſan, ai holl bobl ef, fel y tarawſom ef, nes [ein bod] heb adel iddo weddill.

Num.21.33.

4 Ac a ennillaſom ei holl ddinaſoedd ef yr amſer hwnnw [fel] nad oedd dinas yr hon nis dugaſom oddi arnynt: tri-vgain dinas [ſef] holl wlâd Argob, brenhiniaeth Og o fewn Baſan.

5 Yr holl ddinaſoedd hyn [oeddynt] gedyrn o fûroedd vchel, pŷrth, a barrau, heb law dinaſoedd heb furoedd lawer iawn.

6 A difrodaſom hwynt fel y gwnaethom i Sehon frenin Heſbon, gan ddifrodi o bob dinas y gwŷr, y gwragedd, a'r plant.

7 Ond yr holl anifeiliaid ac yſpail y dinaſoedd a ſclyfaethâſom i ni ein hunain.

8 Felly y cymmeraſom yr amſer hwnnw o law dau frenin yr Amoriaid y wlâd yr hon [ſydd] o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o afon Arnon hyd fynydd Hermon.

9 Y Sidoniaid a alwant Hermon yn Sirion, a'r Amoriaid ai galwant ef Senir.

10 Holl ddinaſoedd y gwaſtad, a holl Gilead, a holl Baſan hyd Selca, ac Edrai, dinaſoedd brenhiniaeth Og o fewn Baſan.

11 O blegit Og brenin Baſan yn vnic a adawſid o weddill y cawri: wele ei wely ef [oedd] wely haiarn, onid [yw] hwnnw yn Rebath meibion Ammon? naw cufydd [oedd] ei hŷd ef, a phedwar cufydd [oedd] ei lêd ef, wrth gufydd gŵr.

12 A'r wlâd hon a oreſcynnaſom ni yr amſer hwnnw, o Aroer yr hon [ſydd] wrth afon Arnon, a hanner mynydd Gilead, *ai ddinaſoedd ef a roddais i'r Rubeniaid ac i'r Gadiaid:

Num.32.33.

13 A'r gweddill o Gilead, a holl Baſan, [ſef] brenhiniaeth Og a rhoddais i hanner llwyth Manaſſes: [ſef] holl wlâd Argob, trwy holl Baſan, hon a elwid gwlad y cawri.

14 Iair mab Manaſſes a gymmerth holl wlâd Argob, hyd frô Geſſuri, a Macati: ac ai galwodd hwynt ſef Baſan ar ei henw ei hun, trefydd Iair hyd y dydd hwn.

15 Ac i Machir y rhoddais i Gilead.

16 Ond i'r Rubeniaid, ac i'r Gadiaid, y rhoddais o Gilead hyd afon Arnon, hanner yr afon a'r terfyn: ac hyd yr afon Iabboc [ſef] terfyn meibion Ammon.

17 Hefyd y rhôs, a'r Iorddonen, a'r terfyn o Cinereth hyd fôr y rhôs [ſef] y môr heli, dann fronnydd y brynn tu a'r dwyrain.

Num.32.21.

18 * Gorchymynnais gan hynny i chwi 'r amſer hwnnw gan ddywedyd, yr Arglwydd eich Duw a roddes i chwi y wlâd hon iw goreſcyn: ewch troſodd yn arfog o flaen eich brodyr meibion Iſrael, pob rhai pybur [o honoch.]

19 Yn vnic eich gwraged, a'ch plant, a'ch anifeiliaid, (gwn fod llawer o anifeiliaid i chwi) a drigant yn eich dinaſoedd y rhai a roddais i chwi.

20 Hyd pan baro 'r Arglwydd i'ch brodyr orphywyſo fel chwithau: a goreſcyn o honynt hwy hefyd y wlâd yr hon y mae 'r Arglwydd eich Duw ar roddi iddynt tros yr Iorddonen: * yna dychwelwch bob vn iw etifeddiaeth yr hon a roddais i chwi.

Ioſua 22.4.

21 * Gorchymynnais hefyd i Ioſuah yr amſer hwnnw gan ddywedyd, dy lygaid ti a welſant yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd eich Duw i'r ddau frenin hyn: felly y gwna 'r Arglwydd i'r holl deyrnaſoedd, y rhai 'r ydwyt ti yn myned troſodd attynt.

Num.27.18.

22 Nac ofnwch hwynt, o blegit yr Arglwydd eich Duw [yw] efe, yr hwn a ymladd troſoch chwi.

23 Ac erfynniais ar yr Arglwydd yr amſer hwnnw, gan ddywedyd.

24 O Arglwydd Dduw, ty di a ddechreuaiſt ddangos i'th wâs dy fawredd, a'th law gadarn: o blegit pa Dduw [ſydd] yn y nefoedd, neu yn y ddaiar, yr hwn a weithreda yn ôl dy weithredoedd, a'th nerthoedd di?

25 Gad i mi fyned troſodd attolwg, a gweled y wlâd dda, yr hon [ſydd] tros yr Iorddonen, a'r mynydd da hwnnw, a Libanus.

26 Ond yr Arglwydd a ddigiaſe wrthif o'ch plegit chwi, ac ni wrandawodd arnaf, ond dywedyd a wnaeth yr Arglwydd wrthif, digon [yw hynny] i ti, na chwanega leſaru wrthif mwy am y peth hyn.

27 Dos i fynu i ben y brynn, a derchafa dy lygaid tu a'r gorllewyn, a'r gogled, a'r dehau, a'r dwyrain, ac edrych a'th lygaid, o blegit ni chei di fyned tros yr Iorddonen hon.

28 Gorchymyn hefyd i Ioſuah, a nertha, a chadarnhâ ef, o blegit efe a aiff troſodd o flaen y bobl ymma, ac efe a ran iddynt yn etifeddiaeth y wlâd, yr hon a weli di.

29 Felly aros a wnaethom yn y dyffryn, gyferbyn a Beth peor.

## PEN. IIII.

1 Moſes yn annog i gadw gorchymynnion Duw. 2 Na rodder at air Duw, ac na thynner oddi wrtho ddim. 3 Beth a ddaeth o galyn Baal peor. 6 Doethineb pobl Dduw. 9 Rhaid iw dyſcu gorchymynnion Duw i'n plant. 15 Na wneler vn ddelw o ddim iw haddoli. 24 Duw 'n dân yſſol. 26 Bugythion yn erbyn y rhai a ymwrthodant a gorchymynnion Duw. 31 Duw 'n drugarog. 37 Am garu o Dduw y tadau efe a ddewiſodd eu heppil hwynt. 43 Dinaſoedd y noddfa.

BEllach gan hynny ô Iſrael gwrando ar y deddfau, ac ar y barnedigaethau, y rhai'r [ydwyf] yn dyſcu i chwi iw gwneuthur, fel y byddoch byw, ac yr eloch, ac y goreſcynnoch y wlâd yr hon y mae Arglwydd Dduw eich tadau 'n ei rhoddi i chwi.

2 Na chwanegwch at y gair yr hwn yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihewch [ddim] o honaw ef, gan gadw gorchymynnion yr Arglwydd eich Duw y rhai ['r wyfi] yn eu gorchymyn i chwi.

3 Eich llygaid chwi a oeddynt yn gweled yr hyn a wnaeth yr Arglwydd am Baal-Peor, o blegit pob gŵr yr hwn a aeth ar ôl Baal-Peor, yr Arglwydd dy Dduw a'i difethodd ef, o'ch blith di.

4 Ond chwi y rhai oeddych yn glynu wrth yr Arglwydd eich Duw, byw ydych heddyw oll.

5 Wele dyſcais i chwi ddeddfau, a barnedigaethau, fel y gorchymynnodd yr Arglwydd fy Nuw i mi: i wneuthur [o honoch] felly, yng-hanol y wlâd yr hon [yr ydych] chi ar fyned i mewn iddi iw goreſcyn.

6 Cedwch gan hynny, a gwnewch [hwynt] o blegit hyn [yw] eich doethineb, a'ch deall chwi, yng-olwg y bobloedd, y rhai a glywant yr holl ddeddfau hyn, ac a ddywedant, yn ddiau pobl ddoeth, a deallus [yw] y genedl fawr hon.

7 O blegit pa genedl [mor] fawr, yr hon [y mae] duwiau iddi yn neſſau atti, fel yr Arglwydd ein Duw ni, ym mhob [dim] a'r y galwom arno?

8 A pha genedl [mor] fawr, yr hon y mae] iddi ddeddfau, a barnedigaethau cyfiawn, megis yr holl gyfraith hon, yr hon yr ydwyfi yn ei rhoddi heddyw ger eich bron chwi?

9 Ond gochel arnat, a chadw dy enaid yn ddyfal, rhac anghofio o honot y pethau y rhai a welodd dy lygaid, a chilio o honynt allan o'th galon di, holl ddyddiau dy enioes: ond yſpyſſa hwynt i'th feibion, ac i feibion dy feibion.

10 [Sef] y dydd yr hwn y ſefaiſt ger bron yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb, pan ddywedodd yr Arglwydd wrthif, cynnull i mi y bobl, fel y gwnelwyf iddynt glywed fyng-eiriau y rhai a ddyſcant i'm hofni fi, 'r holl ddyddiau y rhai y byddant fyw ar y ddaiar, ac y dyſcant [hwynt] iw meibion.

Exod.19.18. 11 Yna y neſſaſoch, ac *y ſafaſoch dan y mynydd, a'r mynydd oedd yn lloſci gan dân, hyd entrych awyr, yn dywyllwch, a niwl, a chwmwl.

12 A'r Arglwydd a lefarodd wrthych o ganol y tân, [a] chwithau nid oeddych yn gweled llûn [dim] heb law llais.

13 Yna efe a fynegodd i chwi ei gyfammod yr hwn a orchymynnodd i chwi iw wneuthur, [ſef] y deng-hair, ac ai ſcrifennodd hwynt, ar ddwy lech faen.

14 A'r Arglwydd a orchymynnodd i mi 'r amſer hwnnw ddyſcu i chwi ddeddfau, a barnedigaethau i wneuthur o honoch hwynt yn y wlâd, yr hon yr ydych chi yn myned iddi iw goreſcyn.

15 Gwiliwch gan hynny yn ddyfal ar eich eneidiau, o blegit ni welſoch ddim llûn yn y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrthych yn Horeb o ganol y tân.

16 Rhac ymlygru o honoch, a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedic, cyffelybrwydd un ddelw, llûn gwryw, neu fenyw.

17 Llûn un anifail yr hwn [ſydd] ar y ddaiar, llûn un aderyn aſcelloc yr hwn a eheda yn yr awyr.

18 Llûn un ymluſciad ar y ddaiar, llûn un pyſcodyn a'r y [ſydd] yn y dyfroedd tann y ddaiar.

19 Hefyd rhac derchafu o honot dy lygaid tu a'r nefoedd, a gweled yr haul, a'r lleuad, a'r ſêr [ſef] holl lu y nefoedd, a'th yrru di i ymgrymmu iddynt, a gwaſanaethu o honot hwynt, y rhai o rannodd yr Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd dann y nefoedd.

20 Ond yr Arglwydd a'ch cymmerodd chwi, ac a'ch dug chwi allan o'r pair haiarn, o'r Aipht, i fod iddo yn bobl, [ac] yn etifeddiaeth fel [y gwelir] y dydd hwn.

21 A'r Arglwydd a ddigiodd wrthif am eich geiriau chwi, ac a dyngodd nad awn i tros yr Iorddonen, ac na chawn fyned i mewn i'r wlâd dda, yr hon y mae'r Arglwydd dy Dduw ar roddi i ti yn etifeddiaeth.

22 O blegit byddaf farw yn y wlâd hon, nid âf i tros yr Iorddonen: ond chwychwi ydych yn myned troſodd, ac a oreſcynnwch y wlâd ddâ honno.

23 Ymgedwch arnoch rhac anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a ammododd efe a chwi, a gwneuthur o honoch i chwi ddelw gerfiedic, llûn dim oll a waharddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

24 O blegit yr Arglwydd dy Dduw *ſydd dân yſſol, [a] Duw eiddigus. Hebre.12.29.

25 Pan genhedlech feibion, ac ŵyrion, ac heneiddio o honoch yn y wlâd, ac ymlygru o honoch, a gwneuthur o honoch ddelw gerfiedic, llûn dim fel y gwneloch ddryganiaeth yng-olwg yr Arglwydd dy Dduw iw ddigio ef,

26 Galw 'r ydwyf yn dyſtion yn eich erbyn chwi, heddyw y nefoedd a'r ddaiar, gan ddarfod y derfydd am danoch yn fuan oddi ar y tir, yr hwn yr ydych yn myned tros yr Iorddonen iddo iw oreſcyn, nid eſtynnwch ddyddiau ynddo, canys gan ddifetha ei'ch difethir.

27 A'r Arglwydd a'ch gwaſcara chwi ym mhlith y bobloedd, a chwi a adewir yn ddynion anaml ym-myſc y cenhedloedd, y rhai y dwg yr Arglwydd chwi attynt.

28 Ac yno y gwaſanaethwch dduwiau [o] waith dwylo dŷn, [ſef] pren, a maen, y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni fwyttânt, ac ni aroglant.

29 Pan geiſiech oddi yno yr Arglwydd dy Dduw, yna y cei, os ceiſi ef a'th holl galon, ac a'th holl enaid.

30 Pan gyfyngo arnat, a digwyddo 'r holl

bethau hyn i ti yn y dyddiau diweddaf, a dychwelyd o honot at yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando o honot ar ei lais ef:

31 (O herwydd yr Arglwydd dy Dduw [ſydd] Dduw trugarog) ni edu efe di, ac ni'th ddifetha, ac nid anghofia gyfammod dy dadau di, 'r hwn a dyngodd efe wrthynt.

32 Canys ymofyn yn awr, am y dyddiau cyntaf y rhai a fuant o'th flaen di, o'r dydd y creawdd Duw ddyn ar y ddaiar, ac o'r [naill] gwr i'r nefoedd, hyd y cwr [arall] i'r nefoedd, a fu megis y mawr-beth hwn: neu a glybuwyd ei gyffelyb ef:

33 A glybu pobl lais Duw yn llefaru o ganol y tân, fel y clywaiſt ti, a byw o honynt:

34 A brofodd [un] Duw ddyfod i gymmeryd iddo genedl o ganol cenedl: mewn profedigaethau, mewn arwyddion, ac mewn rhyfeddodau, mewn rhyfel, mewn llaw gadarn, mewn braich eſtynnedic, ac mewn ofn mawr: fel yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd eich Duw i chwi yn yr Aipht yng-wydd dy lygaid:

35 Gwnaethbwyt i ti weled [hynny] i wybod mai yr Arglwydd ſydd Dduw, [ac] nad oes neb arall ond efe.

36 O'r nefoedd y parodd i ti glywed ei lais, i'th hyfforddi di, ac ar y ddaiar y parodd i ti weled ei dân mawr, a thi a glywaiſt o ganol y tân ei eiriau ef.

37 Ac o achos iddo garu dy dadau di, am hynny y dewiſodd eu hâd hwynt, ar eu hôl, ac a'th ddug di oi flaen ai fawr allu allan o'r Aipht.

38 I oreſcyn cenhedloedd mwy, a chryfach na thi, o'th flaen di, i'th ddwyn i mewn, i roddi i ti eu gwlâd hwynt yn etifeddiaeth, fel heddyw.

39 Gwybydd gan hynny heddyw, a choſia yn dy galon, mai 'r Arglwydd ſydd Dduw yn y nefoedd oddi arnodd, ac ar y ddaiar oddi tanodd, [ac] nid neb arall.

40 Cadw dithe ei ddeddfau ef, ai orchymynnion y rhai [yr ydwyf] yn eu gorchymyn iti heddyw, fel y byddo yn ddâ i ti, ac i'th feibion ar dy ôl di, fel yr eſtynnech ddyddiau ar y ddaiar, yr hon y mae 'r Arglwydd dy Dduw 'n ei rhoddi i ti byth.

41 Yna Moſes, a naillduodd dair dinas, ar tu hwnt i'r Iorddonen, tuâ chodiad haul.

42 I ffoi o'r llofrudd yno yr hwn a ladde ei gymydog yn amryfus, ac efe heb ei gaſau o'r blaen: fel y galle ffoi i un o'r dinaſoedd hynny, a byw.

43 [Sef] Bezer yn yr anialwch, yng-gwaſtad-tir y Rubeniaid, a Ramoth yn Gilead y Gadiaid, a Golan o fewn Baſan y Manaſſiaid. Ioſua.20.8.

44 Felly dymma y gyfraith yr hon a oſododd Moſes o flaen meibion Iſrael.

45 Dymma y teſtiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, a leſarodd Moſes wrth feibion Iſrael pan ddaethant allan o'r Aipht.

46 Tu hwnt i'r Iorddonen yn y dyffryn ar gyfer Beth-Peor yng-wlâd Sehon brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd yn trigo yn Heſbon, *yr hwn a darawſe Moſes, a meibion Iſrael, pan ddaethent o'r Aipht. Num.21.24. Deut.1.4.

47 Ac a oreſcynnaſent ei wlâd ef, a gwlâd *Og brenin Baſan, dau o frenhinoedd yr Amoriaid y rhai [oeddynt] tu hwnt i'r Iorddonen tua chodiad haul. Num.21.33. Deut.3.3.

48 O Aroer yr hon [oedd] ar lann afon Arnon hyd fynydd Sion, hwn yw Hermon.

49 A'r holl rôs tu hwnt i'r Iorddonen tua'r dwyrain, ac hyd at fôr y rhôs *dan fronnydd y brynn. Deut.3.17.

## PEN. V.

5 Moſes yn gennad rhwng Duw a'r bobl. 6 Ail fynegu y dec gorchymyn. 23 Ofn y bobl wrth wrando gair Duw. 29 Yr Arglwydd yn ewyllyſio ofni o'r bobl ef. 32 Rhaid yw na phwyſer, nac ar y tu dehau, nac ar y tu aſſwy oddi wrth orchymynnion Duw.

YNa Moſes a alwodd holl Iſrael, ac a ddywedodd wrthynt, clyw ô Iſrael y deddfau, a'r barnedigaethau y rhai yr ydwyf yn eu llefaru lle y chlywoch heddyw: fel y byddo i chwi eu dyſcu, a chadw ar eu gwneuthur.

2 *Yr Arglwydd ein Dduw a wnaeth gyfammod a ni yn Horeb.

3 Nid a'n tadau ni y gwnaeth yr Arglwydd y cyfammod hwn, ond a nyni: nyni [yw] y rhai hynny yn fyw bob un yma heddyw.

4 Wyneb yn wyneb y llefarodd yr Arglwydd a chwi yn y mynydd, o ganol y tân,

5 (Myfi oeddwn yr amſer hwnnw yn ſefyll rhwng yr Arglwydd a chwi, i fynegu i chwi air yr Arglwydd: canys ofni a wnaethoch rhac y tân, ac nid eſcynnech i'r mynydd) gan ddywedyd:

6 *Yr Arglwydd dy Dduw [ydwyf] fi, yr hwn a'th ddûg allan o dîr yr Aipht, o dŷ y caethiwed. Exodus 19 2.

7 Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mrõ i. Lefit.26.1.

8 Na wna it ddelw gerfiedic [na] llun dim a'r y [ſydd] yn y nefoedd oddi uchod, nac a'r [y ſydd] yn y ddaiar oddi iſod, nac a'r [y ſydd] yn y dyfroedd oddi tann y ddaiar. Pſal.97.7.

9 Nac ymgrymma iddynt, ac na waſanaetha hwynt, o *blegit myfi 'r Arglwydd dy Dduw [ydwyf] Dduw eiddigus, yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd, a'r bedwaredd [genhedlaeth] o'r hai a'm caſaant. Exod.34.7. Ierem.32.18.

10 Ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd, o'r rhai am carant, ac a gadwant fyng-orchymynnion.

11 Na chymmer enw 'r Arglwydd dy Dduw yn ofer, canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei enw ef yn ofer.

12 Cadw y dydd Sabboth gan ei ſancteiddio ef, fel y gorchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw it.

13 Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith:

14 Ond y ſeithfed dydd [yw] Sabboth yr Arglwydd dy Dduw, na wna [ynddo] ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th

wâs, na'th forwyn, na'th ŷch, na'th aſſyn, nac yr vn o'th anifeiliaid, na'th ddieithr-ddyn, yr hwn [ſyddo] o fewn dy byrth: fel y gorphywyſo dy wâs, a'th forwyn, fel ti dy hun.

15 O blegit coſta mai gwâs a fuoſt ti yngwlâd yr Aipht, a'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddi yno a llaw gadarn, ac a braich eſtynnedic, am hynny y gorchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Sabboth.

16 Anrhydedda dy dâd, a'th fam, fel y gorchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw i ti: fel yr eſtynner dy ddyddiau, ac fel y byddo yn dda i ti ar y ddaiar, yr hon y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

Matth.5.21. 17 *Na ladd.

Luc.18.20. 18 *Ac na wna o dineb.

Rhuf.13.9. 19 *Ac na ledratta.

20 Ac na ddwg gam deſtiolaeth yn erbyn dy gymydog,

Ruf.7.7. 21 Ac *na chwennych wraig dy gymydog, ac na chwennych dŷ dy gymydog, nai faes ef, nai wâs, nai forwyn, nai ŷch ef, nai aſſyn ef, na dim a'r [y ſydd] eiddo dy gymydog.

22 Y geiriau hyn a lefarodd yr Arglwydd wrth eich holl gynnulleidfa, yn y mynydd o ganol y tân, y cwmmwl a'r tywyllwch [a] llais vchel, ac ni chwanegodd [ddim,] ond ſcrifennodd hwynt ar ddwy lêch o gerric, ac ai rhoddes attaf i.

23 A darfu wedi clywed o honoch y llais o ganol y tywyllwch, a'r mynydd yn lloſci gan dân: yna neſaſoch attaf, [ſef] holl bennaethiaid eich llwythau, a'ch henuriaid chwi,

24 Ac a ddywedaſoch, wele'r Arglwydd ein
Duw a ddangoſodd i ni ei ogoniant, ai fawredd,
Deut.4.33. * ai lais ef a glywſom ni o ganol y tân: heddyw
Exod.20.19. y gwelſom lefaru o Dduw wrth ddŷn, * a byw
o honaw.

25 Weithian gan hynny pa ham y byddwn feirw: o blegit y tân mawr hwn a'n difâ ni: canys os ni a chwanegwn glywed llais yr Arglwydd ein Duw mwyach marw a wnawn.

26 O blegit pa gnawd oll [ſydd,] yr hwn a glybu lais y Duw byw yn llefaru o ganol y tân fel nyni, ac a fu fyw:

27 Neſſa di a chlyw'r hyn oll a ddywed yr Arglwydd ein Duw, a llefara di wrthym ni yr hyn oll a lefaro'r Arglwydd ein Duw wrthit ti: *ac nyni a wrandawn, ac a wnawn [hynny.]

28 Yna'r Arglwydd a glybu lais eich geiriau chwi, pan lefaraſoch wrthif, a dywedodd yr Arglwydd wrthif, clywais lais geiriau y bobl hyn, y rhai a lefaraſant wrthit, da y dywedaſant yr hyn oll a ddywedaſant.

29 Oh na bydde hyn o galon ganddynt i'm hofni ſi, ac i gadw fy holl orchymynnion i, bôb amſer, fel y bydde dâ iddynt, ac iw meibion hwynt yn dragywyddol.

30 Dos, dywet wrthynt, dychwelwch i'ch pebyll.

31 Ond ſaf di ymma gyda'm ſi, ac mi a ddywedaf wrthit yr holl orchymynnion, a'r deddfau, a'r barnedigaethau a ddyſci di iddynt, ac a wnant hwythau, yn y wlâd yr hon yr wyfi ar roddi iddynt, iw goreſcyn.

32 Edrychwch gan hynny am wneuthur, fel y gorchymynnodd yr Arglwydd eich Duw i chwi: na chiliwch i'r tu dehau, nac i'r tu aſſwy.

33 Cerddwch yn yr holl ffordd, yr hon a orchymynnodd yr Arglwydd eich Duw i chwi, fel y byddoch fyw, ac y byddo yn ddâ i chwi, ac yr eſtynnoch ddyddiau yn y wlâd, yr hon a oreſcynnwch.

## PEN. VI.

1 Cyngor i ofni Duw, ac i gadw ei orchymynnion. 7 Ac i ddyſcu i'n plant wneuthur yr vn modd. 13 I enw Duw y mae tyngu. 16 Na themptier yr Arglwydd Dduw. 25 Ein cyfiawnder ni o'r gyfraith.

AC dymma y gorchymyn, y deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd eich Duw ddyſcu i chwi [eu] gwneuthur yn y wlâd, yr hon yr ydych yn myned iddi iw goreſcyn,

2 Fel yr ofnech yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw ei holl ddeddfau, ai orchymynnion ef, y rhai yr wyfi yn eu gorchymyn i ti: ti, a'th fab, a mab dy fab, holl dyddiau dy einioes, fel yr eſtynner dy ddyddiau.

3 Clyw gan hynny ô Iſrael, ac edrych am eu gwneuthur [hwynt,] fel y byddo yn ddaionus i ti, ac fel y cynnyddoch yn ddirfawr, (fel yr addawodd Arglwydd Dduw dy dadau i ti) mewn gwlâd yn llifeirio o laeth, a mêl.

4 Clyw ô Iſrael yr Arglwydd ein Duw ni, [ſydd] vn Arglwydd.

5 * Câr di gan hynny 'r Arglwydd dy Marth.22.37,
Dudw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th marc.12.29.
holl nerth. luc.10.27.

6 A bydded * y geiriau hyn, y rhai 'r ydwyf Deut.11.18.
yn eu gorchymyn i ti heddyw, yn dy galon.

7 Ac hyſpyſſa hwynt i'th blãt, a chrybwylla am danynt pan eiſteddech yn dy dŷ, a phan gerddech a'r y ffordd, a phan orweddech [i lawr,] a phan gyfodech [i fynu.]

8 A rhwym hwynt yn arwydd a'r dy law, a byddant yn rhactalau rhwng dy lygaid.

9 Scrifenna hwynt hefyd, a'r bŷſt dy dŷ, ac yn dy byrth.

10 Ac fe a dderfydd pan i'th ddygo'r Arglwydd dy Dduw i'r wlâd (yr hon y tyngodd efe wrth dy dadau di, wrth Abraham, wrth Iſaac, ac wrth Iacob, ar ei rhoddi i ti) [i] ddinaſoedd mawrion, a thêg y rhai nid adailedaiſt,

11 A thai llawnion o bôb daioni, y rhai nis llenwaiſt, a phydewau cloddiedic, y rhai nis cloddiaiſt, [i] winllannoedd, ac olewydd-lannau y rhai nis plannaiſt, yna y bwytteci ac i'th ddigonir:

12 Cadw arnat, rhac anghofio o honot yr Arglwydd, yr hwn a'th ddûg allan o wlâd yr Aipht o dŷ y caethiwed.

13 Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a waſanaethi, ac iw enw ef y tyngi.

14 Na cherddwch ar òl duwiau dieithr, o dduwiau y bobloedd, y rhai [ydynt] o'ch amgylchoedd chwi,

15 (O blegit Duw eiddigus [yw] 'r Arglwydd dy Dduw yn dy fyſc di) rhac i lid yr Arglwydd dy Dduw ennyn yn dy erbyn, a'th ddifetha di, oddi ar wyneb y ddaiar.

16 Na themptiwch yr Arglwydd eich Duw, fel y temptiaſoch [ef] ym Maſſa.

17 Gan gadw cedwch orchymynion yr Arglwydd eich Duw ai deſtiolaethau ef, ai ddeddfau ef, y rhai a orchymynnodd efe i ti.

18 A gwna 'r hyn [ſydd] inion, a daionus yng-olwg yr Arglwydd, fel y byddo da i ti, a myned o honot i mewn, a goreſcyn y wlâd dda, 'r hon trwy lŵ a addawodd yr Arglwydd i'th dadau di.

19 Gan yrru ymmaith dy holl elynion o'th flaen, fel y llefarodd yr Arglwydd.

20 Pan ofynno dy fab i ti wedi hyn, gan ddywedyd, beth [yw] y teſtiolaethau, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd ein Duw i chwi:

21 Yna dywet wrth dy fab, buom weiſion i Pharao yn yr Aipht: a'r Arglwydd a'n dûg ni allan o'r Aipht, mewn llaw gadarn.

22 Rhoddes yr Arglwydd hefyd arwyddion, a rhyfeddodau mawrion, a niweidiol yn yr Aipht, ar Pharao, ai holl dŷ ef, yn ein golwg ni.

23 Ac a'n dûg ni allan oddi yno, fel y dyge efe nyni i mewn, i roddi i ni y wlâd yr hon trwy lŵ, a addawſe efe i'n tadau ni.

24 Yr Arglwydd gan hynny a orchymynnodd i ni wneuthur yr holl ddeddfau hyn, gan ofni'r Arglwydd ein Duw er daioni i ni'r holl ddyddiau, fel y cadwe efe nyni yn fyw, megis y dydd hwn.

25 A chyfiawnder a ſydd i ni os ymgadwn i wneuthur y gorchymmyn hwn oll o flaen yr Arglwydd ein Duw, fel y gorchymynnodd efe i ni.

## P E N. VII.

1 Gwahardd gwneuthur cyfammod a'r cenhedloedd. 8 Pa ham y dewiſodd Duw Iſrael o flaen eraill. 19 Cyſſur i Iſrael i ryfela. 25 A chyngor i ochel gau dduwiaeth.

PAn i'th ddygo yr Arglwydd dy Dduw, i mewn i'r wlâd, yr hon [yr ydwyt] ti yn myned iddi iw goreſcyn: a gyrru ymmaith o honaw ef genhedloedd lawer o'th flaen di, yr Hethiaid, a'r Gergeziaid, a'r Amoriaid, a'r Canaaneaid, a'r Phereziaid, a'r Hefiaid, a'r Iebuſiaid, ſaith o genhedlaethau lluoſſogach, a chryfach, na thi: Deut.31.8.

2 A rhoddi o'r Arglwydd dy Dduw hwynt o'th flaen di, a tharo o honot ti hwynt: gan ddifrodi difroda di hwynt, *na wna gyfammod a hwynt, ac na thrugarha wrthynt. Exod.23.32. exod.34.12.

3 Nac ymgyfathracha y chwaith a hwynt, na ddod dy ferch iw fab ef, ac na chymmer ei ferch ef i'th fab dithe.

4 Canys efe a dynn dy fab di oddi ar fy ôl i, felly y gwaſanaethent dduwiau dieithr, ac yr ennynne llîd yr Arglwydd i'ch erbyn chwi, ac a'th ddifethe di yn ebrwydd.

5 Ond fel hyn y gwnewch iddynt, diniſtriwch eu hallorau, a thorrwch eu colofnau hwynt, cwympwch hefyd eu llwynau, a lloſgwch eu delwau cerfiedic hwynt yn y tân.

6 Canys * pobl ſanctaidd [ydwyt] ti i'r Arglwydd dy Dduw: yr Arglwydd dy Dduw a'th ddewiſodd di i fod yn bobl vnic iddo ei hun, o'r holl bobloedd y rhai [ydynt] ar wyneb y ddaiar. Deut.14.2. deut.26.18. exod.19.5. 1.pet.2.9.

7 Nid am eich bôd yn lluoſogach na'r holl bobloedd yr ymfodlonodd yr Arglwydd ynoch chwi, ac eich dewiſodd: o herwydd chwi oeddech anamlaf o'r holl bobloedd:

8 Ond o gariad yr Arglwydd arnoch chwi, ac er mwyn cadw o honaw ef y llw 'r hwn a dyngodd efe wrth eich tadau, y dûg yr Arglwydd chwi allan a llaw gadarn, ac a'ch gwaredodd o dŷ y caethiwed, o law Pharao brenin yr Aipht.

9 Gwybydd gan hynny mai 'r Arglwydd dy Dduw, ſydd Dduw, [ſef] y Duw ffyddlon yn cadw y cyfammod, a'r drugaredd, i'r rhai ai carant ef, ac a gadwant ei orchymynnion, hyd fîl o genaedlaethau.

10 Ac yn talu'r pwyth iw gaſeion ef, [pôb vn] yn ei wyneb, gan ei ddifetha ef, nid oeda efe iw gâs, yn ei wyneb y tâl efe iddo ef.

11 Cadw gan hynny y gorchymyn, a'r deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai yr ydwyfi yn gorchymyn i ti heddyw eu gwneuthur.

12 A bydd, o achos gwrando o honoch chwi y barnedigaethau hyn, ai cadw, ai gwneuthur hwynt, am hynny y ceidw yr Arglwydd dy Dduw a thi y cyfammod, a'r drugaredd, y rhai a addawodd efe trwy lŵ i'th dadau di:

13 Ac a'th gâr, ac a'th fendithia, ac a'th amlha di, ac a fendiga ffrwyth dy frû, a ffrwyth dy dîr di, dy ŷd, a'th wîn, a'th olew, [a] mwyniant dy warthec, a chorlannau dy ddefaid yn y tîr, yr hwn y tyngodd efe wrth dy dadau, ar ei roddi i ti. Exod.23.26.

14 Bendigediccaf fyddi o'r holl bobloedd, *ni bydd yn dy blith di vn gwryw, nac vn fenyw yn anffrwythlon: nac ym mhlith dy anifeiliaid di.

15 Hefyd yr Arglwydd a dynn oddi wrthit ti bôb gwendid, ac ni eſyd arnat ti'r vn o glefydau drwg yr * Aipht, y rhai a adwaenoſt: ond ar dy holl gaſeion di y rhydd efe hwynt. Exod.9.14.

16 Difetha gan hynny 'r holl bobloedd, y

rhai

Exod.23.33.

rhai y mae 'r Arglwydd dy Dduw a'r roddi i ti, nac arbeded dy lygad ti hwynt, ac na waſanaetha eu duwiau hwynt, o *blegit magl i ti a ſydde hynny.

17 Os dywedi yn dy galon, lluoſogach yw y cenhedloedd hyn na myfi, pa ddelw y gallaf eu goreſcyn hwynt?

18 Nac ofna rhacddynt, gan gofio cofia yr hyn a wnaeth yr Arglwydd dy Dduw i Pharao, ac i'r holl Aipht.

Deut.29.3. exod.15.25. exod.16.4.

19 Y *profedigaethau mawrion, y rhai a welodd dy lygaid, a'r arwyddion, a'r rhyfeddodau, a'r llaw gadarn, ar braich eſtynnedic, a pha rai i'th ddûg yr Arglwydd dy Dduw allan: felly y gwna 'r Arglwydd dy Dduw i'r holl bobloedd y rhai yr wyt ti yn ofni rhacddynt.

Exod.23.28. ioſua.24.12.

20 A'r *Arglwydd dy Dduw hefyd a ddenfyn gaccwn yn eu plith hwynt, hyd oni ddarfyddo am y rhai gweddill, a'r rhai a ymguddiant rhagot ti.

21 Nac ofna rhacddynt, o blegit yr Arglwydd dy Dduw [ſydd] Dduw mawr, ac ofnadwy, yn dy ganol di.

22 A'r Arglwydd dy Dduw a yrr ymmaith y cenhedloedd hynny o'th flaen di, [bôb] ychydic, [ac] ychydic: ni elli eu difetha hwynt yn gyflym, rhac myned o fwyſt-filod y maes yn amlach na thi.

23 Ond yr Arglwydd dy Dduw, ai rhydd hwynt o'th flaen di, ac ai cyſtuddia hwynt, a chyſtudd dirfawr, nes eu difetha hwynt.

24 Ac a rydd eu brenhinoedd hwynt yn dy law di, fel y byddo it ddifetha eu henw hwynt oddi tan y nefoedd, ni ſaif gŵr yn dy wyneb di, nes difetha o honot ti hwynt.

Ioſua.7.1. 2.maca.12.40.

25 Lloſc ddelwau cerfiedic eu duwiau hwynt yn y tân, na *chwennych arian, ne aur [yr hwn ſydd] arnynt, iw cymmeryd i ti, rhac dy faglu ag ef: o blegit ffiaidd-dra 'r Arglwydd dy Dduw [yw.]

Leſit.27.21. num.21.3.

26 Na ddŵg gan hynny ffiaidd-dra i'th dŷ, fel y byddech eſcymmyn-beth megis yntef: gan ddirmygu dirmyga ef, a chan ffieiddio ffieiddia ef: o blegit *eſcymmyn-beth [yw] efe.

## PEN. VIII.

2 Duw yn profi beth oedd yng-halon yr Iſraeliaid gan eu daroſtwng hwynt. 3 Dyn yn byw wrth air Duw. 5 Duw yn maethdrino 'r Iſraeliaid, fel gwr ei fâb. 7 Gwlâd yr addewid pa fâth ſydd arni. 10 Bod yn ddiolchgar i Dduw am ei roddion ſydd raid. 18 Trwy Dduw y daw cyfoeth. 19 Anghofio Duw ai roddion a bâr fethiant.

EDrychwch am wneuthur pôb gorchymyn, yr hwn yr wyfi yn ei orchymyn it heddyw, fel y byddoch fyw, ac y cynnyddoch, ac yr eloch i mewn, ac y goreſcynnoch y wlâd, yr hon a addawodd yr Arglwydd wrth eich tadau trwy lŵ.

2 A chofia 'r holl ffordd, [yn] yr hon yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di y deugain mlhynedd hyn trwy 'r anialwch er mwyn dy gyſtuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn [oedd] yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynnion ef, ai nas [cedwit.]

Matth.4.4.

3 Am hynny i'th ddaroſtyngodd, ac i'th newynodd di, ond efe a'th fwydodd a'r Manna yr hwn nis adwaenit, ac nis adwaine dy dadau, fel y gwnae efe it ŵybod *nad wrth fara yn unic y bydd fyw dŷn, ond wrth bôb [gair] a'r ſydd yn dyfod allan o enau 'r Arglwydd, y bydd fyw dŷn.

4 Dy ddillad ni heneiddiodd oddi am danat, a'th droed ni chwyddodd y deugain mlhynedd hyn.

5 Cydnebydd gan hynny yn dy galon, [fod] yr Arglwydd dy Dduw yn dy hyddyſcu di, fel y dyſc gŵr ei fâb ei hun.

6 A chadw orchymynnion yr Arglwydd y Dduw, gan rodio yn ei ffyrdd ai ofni ef.

7 Am fod yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddwyn i mewn i wlâd dda, gwlâd afonydd, a dyfroedd, ffynhonnau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y gwaſtad, ac yn y mynydd.

8 Gwlâd gwenith, a haidd, a gwinwydd, a ffiguſ-wydd, a phomgranad-wydd, gwlâd olew oliwydden, a mêl.

9 Gwlâd yr hon ni fwyttei fara ynddi mewn prinder, [ac] ni bydd eiſie dim arnat ynddi: gwlâd yr hon [y mae] ei cherric hi yn haiarn, ac oi mynyddoedd y cloddi brês.

10 Pan fwyttêch, a'th ddigoni: yna y bendithi 'r Arglwydd dy Dduw, am y wlâd dda yr hon a roddes efe i ti.

11 Cadw arnat rhac anghofio o honot yr Arglwydd dy Dduw heb gadw ei orchymynnion, ai farnedigaethau, ai ddeddfau ef, y rhai 'r ydwyfi yn eu gorchymyn it heddyw.

12 Rhac it fwytta, a'th ddigoni, ac adailadu tai têg, a thrigo ynddynt,

13 A lluoſſogi o'th warthec, a'th ddefaid di, ac amlhau o arian, ac aur gennit, a chwanegu o'r hyn oll [y ſydd] i ti:

14 A derchafu o'th galon, ac anghofio o honot yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddûg allan o wlâd yr Aipht o dŷ y caethiwed.

Num.20.11.

15 Yr hwn a'th dywyſodd di trwy 'r anialwch mawr, ac ofnadwy [lle 'r ydoedd] ſeirph lloſcadwy, ac ſcorpionau, a ſyched lle nid [oedd] dwfr: yr *hwn a dynnodd i ti ddwfr allan o'r graig galleſtr.

Evod.16.15.

16 Yr hwn a'th fwydodd yn yr anialwch a Mãna, yr hwn nis adwaene dy dadau, er dy ddaroſtwng, ac er dy brofi di, i wneuthur daioni i ti, yn dy ddiwedd di.

17 [Rhac] dywedyd o honot hefyd yn dy galon, fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn.

18 Ond cofia yr Arglwydd dy Dduw, o blegit efe yw yr hwn ſydd yn rhoddi nerth i ti, i beri cyfoeth, fel y cadarnhâe efe

ei gyfammod yr hwn a dyngodd efe wrth dy dadau, fel y dydd hwn.

19 Ac os gan anghofio 'r anghofi 'r Arglwydd dy Dduw, a dilyn duwiau dieithr, ai gwaſanaethu hwynt, ac ymgrymmu iddynt : * yr ydwyfi yn teſtiolaethu yn eich erbyn chwi heddyw, gan ddifetha eich difethir. Deut.4 26.

20 Fel y cenhedloedd y rhai y mae 'r Arglwydd ar eu difetha o'ch blaen chwi : felly y difethir chwithau, am na wrandawſoch ar lais yr Arglwydd eich Duw.

## PEN. IX.

Moſes ſydd yn dangos nad er eu cyfiawnder, ai hauddedigaeth eu hun y gwnaeth Duw ddaioni i Iſrael.

GWrando Iſrael ti ſydd yn myned heddyw tros yr Iorddonen, gan fyned i oreſcyn cenhedloedd mwy, a chryfach na thi, dinaſoedd [hefyd] mawrion, a chaeroc hyd y nefoedd.

2 Pobl fawr, ac vchel, meibion Anac y rhai a adnabuoſt, ac y *clywaiſt ti [ddywedyd am danynt,] pwy a ſaif o flaen meibion Anac? Num. 13.29.

3 Gwybydd gan hynny heddyw, mai 'r Arglwydd dy Dduw ſydd yn myned troſſodd o'th flaen di yn dân yſſol, efe ai difetha hwynt, ac efe ai daroſtwng hwynt o'th flaen di : fel y goreſcynnech hwynt, ac y difethech hwynt yn fuan, megis y llefarodd yr Arglwydd wrthit.

4 Na ddywet yn dy galon, pan yrro 'r Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di, gan ddywedyd : am fyng-hyfiawnder y dygodd yr Arglwydd fi i oreſcyn y tîr hwn : canys am annuwioldeb y cenhedloedd hyn y gyrodd yr Arglwydd hwynt allan o'th flaen di.

5 Nid am dy gyfiawnder di, nac am iniondeb dy galon y daethoſt i oreſcyn eu tîr hwynt, onid am annuwioldeb y cenhedloedd hyn y bwriodd yr Arglwydd dy Dduw hwynt allan o'th flaen di: ac er cyflawni y gair yr hwn a dyngodd yr Arglwydd wrth dy dadau di [ſef] wrth Abraham, wrth Iſaac, ac wrth Iacob.

6 Gwybydd dithe, nad am dy gyfiawnder dy hun, y rhoddes yr Arglwydd it y tîr daionus hwn iw oreſcyn : canys pobl war-galed ydych.

7 Meddwl [ac] na anghofia pa fodd y digiaiſt yr Arglwydd dy Dduw yn yr anialwch, o'r dydd y daethoſt allan o dîr yr Aipht, hyd eich dyfod i'r lle hwn : gwrthryfelu y buoch a'r Arglwydd.

8 Yn Horeb hefyd y digiaſoch yr Arglwydd, ac ymddigiodd yr Arglwydd wrthych i'ch difetha.

9 Pan ddringais i'r mynydd i gymmeryd y llechau meini, [ſef] llechau y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd a chwi : *yna 'r arhoais yn y mynydd ddeugain nhiwrnod, a deugain nhôs, bara ni fwytteais, a dŵfr nid yfais. Exod.24.18. exod.34.28.

10 A *rhoddes yr Arglwydd attaf y ddwy lech faen, wedi eu ſcrifenni a bŷs Duw, ac arnynt [yr oedd] yn ôl yr holl eiriau, y rhai a lefarodd yr Arglwydd wrthych yn y mynydd, o ganol y tân, ar ddydd y gynnulleidfa. Exod.31.18.

11 A bu ym mhen y deugain nhiwrnod, a'r deugain nhos, roddi o'r Arglwydd attaf y ddwy lech faen : [ſef] llechau y cyfammod.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrthif * cyfot, dôs oddi ymma i wared yn fuan, canys ymlygrodd dy bobl y rhai a ddygaiſt allan o'r Aipht : ciliaſant yn ebrwydd o'r ffordd, yr hon a orchymynnais iddynt, gwnaethant iddynt eu hun ddelw dawdd. Exod.32.7.

13 A llefarodd yr Arglwydd wrthif gan ddywedyd : gwelais y bobl hyn, ac wele pobl war-galed ydynt.

14 Paid a mi, a mi ai deſtruwiaf hwynt, ac a ddelea eu henw hwynt oddi tann y nefoedd, ac a'th wnaf di yn genedl gyfrach, ac amlach na hwynt.

15 Ac mi a ddychwelais, ac a ddaethym i wared o'r mynydd, a'r mynydd ydoedd yn lloſci gan dán, a dwy lêch y cyfammod yn fy-nwy law.

16 Edrychais hefyd, ac wele pechaſech yn erbyn yr Arglwydd eich Duw, gwnelſech iwch lo tawdd, ciliaſech yn fuan o'r ffordd yr hon a orchymynnaſe yr Arglwydd i chwi.

17 Yna 'r ymaflais yn y ddwy lêch, ac ai teflais hwynt o'm dwy law : ac ai torrais hwynt o flaen eich llygaid chwi.

18 A ſyrthiais ger bron yr Arglwydd, fel y waith gyntaf ddeugain nhiwrnod, a deugain nhos, ni fwytteis fara, ac nid yfais ddwfr, am eich holl bechodau chwi, y rhai a bechaſech gan wneuthur drygioni yng-olwg yr Arglwydd iw ddigio ef.

19 Canys ofnais rhac y ſorriant, a'r dig drwy y rhai y digiodd yr Arglwydd wrthych i'ch diniſtrio chwi : etto gwrandawodd yr Arglwydd arnaf y waith honno hefyd.

20 Wrth Aaron hefyd y digiodd yr Arglwydd yn fawr, iw ddifetha ef, a mi a ciriolais hefyd tros Aaron y waith honno.

21 Eich pechod chwi hefyd yr hwn a wnaethoch, ſef y llo a gymmerais, ac'ai lloſcais yn tân, coethais ef hefyd, gan eu falurio yn dda, nes i falu yn llwch : a bwriais ei lwch i'r afon, yr hon oedd yn deſcyn o'r mynydd.

22 * O fewn Taberah hefyd, ac o fewn Maſſa, ac o fewn Beddau y blŷs yr oeddych yn digio 'r Arglwydd. Num.11.3. exod.17.7. num.11.34.

23 A phan anfonodd yr Arglwydd chwi o Cades Barnea, gan ddywedyd : ewch i fynu a goreſcynnwch y tîr, yr hwn a roddais i chwi, yna yr anufyddhaſoch air yr Arglwydd eich Duw: ni chredaſoch hefyd iddo, ac ni wrandawſoch ar ei lais ef.

24 Gwrthnyſſic fuoch wrth yr Arglwydd, er y dydd yr adnabum chwi.

25 Ac mi a ſyrthiais ger bron yr Arglwydd y deugain nhiwrnod ar deugain nhôs, fel y ſyrthiaſwn o'r blaen, am ddywedyd o'r Arglwydd am eich difetha chwi.

26 Ac

26 Eiriolais hefyd ar yr Arglwydd, a dywedais: Arglwydd Dduw na ddifetha dy bobl, a'th etifeddiaeth yr hon a waredaiſt yn dy fawredd, yr hwn a ddygaiſt allã o'r Aipht mewn llaw gref.

27 Meddwl am dy weiſion, am Abraham, am Iſaac, ac am Iacob, nac edrych ar galedrwydd y bobl hyn, nac ar eu drygioni, nac ar eu pechod:

28 Rhac dywedyd o'r wlâd yr hon y dygaiſt ni allan o honi,* o eiſie gallu o'r Arglwyd eu dwyn hwynt i'r tir yr hwn a addawſe efe iddynt, ac oi gâs arnynt y dug efe hwynt allan iw lladd yn yr anialwch. Num.14.16.

29 Etto dy bobl, a'th etifeddiaeth [ydynt] hwy y rhai a ddygaiſt allan yn dy fawr nerth, ac yn dy eſtynnedic fraich.

## PEN. X.

Duw yn ail roddi llechau y ddeddf. 5 Moſes yn eu goſod hwynt yn yr Arch. 8 Swydd a rhan y Lefiaid. 12 Moſes trwy amryw reſymmau yn annog y bobl i ofni Duw, ai vfyddhau.

YR amſer hwnnw, y dywedodd yr Arglwyd wrthif: * nadd it ddwy lech faen fel [y rhai] cyntaf, a chyret i ſynu attaf i'r mynydd, a gwna it Arch bren. Exod.34.1.

2 A mi a ſcrifennaf ar y llechau, y geiriau y rhai oeddynt ar y llechau cyntaf y rhai a dorraiſt: a goſot tithe hwynt yn yr Arch.

3 Yna gwneuthum Arch o goed Sittim, ac a neddais ddwy lêch faen, fel y rhai cyntaf: ac a euthum i ſynu i'r mynydd, a'r ddwy lêch yn fy llaw.

4 Ac efe a ſcrifennodd ar y llechau, fel y ſcrifen gyntaf, y deng-air y rhai a lefarodd yr Arglwydd wrthych yn y mynydd, o ganol y tân yn nydd y gynnulleidfa: a rhoddes yr Arglwydd hwynt attaf.

5 Yna y dychwelais, ac y deuthum i wared o'r mynydd, ac mi a oſodais y llechau yn yr Arch, yr hon a wnaethwn: ac yno y buant megis y gorchymynnodd yr Arglwydd i mi.

6 A meibion Iſrael a gychwnnaſant o Beeroth meibiõ Iacan i Moſera, yno y bu farw Aaron, ac efe a gladdwyd yno: ac Eleazar ei fab a offeiriadodd yn ei le ef.

7 Oddi yno y cychwnnaſant i Gudgodah: ac o Gudgodah i Iethebach, tir [llawn o] afonydd dyfroedd.

8 Yr amſer hwnnw, y naillduodd yr Arglwydd lwyth Lefi i ddwyn Arch cyfammod yr Arglwydd, i ſefyll ger bron yr Arglwydd, iw waſanaethu ef, ac i fendigo yn ei enw ef, hyd y dydd hwn.

9 Am hynny ni bydd rhan i Lefi, nac etifeddiaeth gyd ai frodyr: yr Arglwydd yw ei etifeddiaeth ef, megis y dywedodd yr Arglwydd dy Dduw wrtho ef.

10 Ac mi a arhoais yn y mynydd ddeugain nhiwrnod, a deugain nhos fel y dyddiau cyntaf: a gwrandawodd yr Arglwydd arnaf y waith hon hefyd, ni ewyllyſſiodd yr Arglwydd dy ddifetha di.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrthif, cyfot, dôs i gychwyn o flaen y bobl, fel y delant, ac y goreſcynnant y tir, yr hwn a dyngais wrth eu tadau am ei roddi iddynt.

12 Ac yr awr hon Iſrael beth y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei ofyn gennyt: onid ofni'r Arglwydd dy Dduw, gan rodio yn ei holl ffyrdd, a charu ei garu ef, a rhan waſanaethu'r Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid:

13 Gan gadw gorchymynnion yr Arglwydd, ai ddeddfau, y rhai a orchymynnais iti y dydd hwn, er budd iti.

14 Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd [ydynt] eiddo'r Arglwydd dy Dduw: y ddaiar [hefyd] a'r hyn oll [ſydd] ynddi.

15 [Etto] ar dy dadau di yn vnic y rhoddes yr Arglwydd ei ſerch gan eu hoffi hwynt, ac efe a wnaeth ddewis oi hâd hwynt ar eu hôl hwynt, [ſef] o honoch chwi, o blith yr holl bobloedd, megis heddyw [y gwelir.]

16 * Enwaedwch chwithau ddienwaediad eich calon, ac na chaledwch eich gwarr mwyach. Ierem.4.4.

17 Canys yr Arglwydd eich Duw chwi, yw Duw y duwiau, ac Arglwydd yr arglwyddi, y Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy,'r * hwn ni dderbyn wyneb, ac ni chymmer wobr. 2.Cron.19.7. Iob.34.19. Rhuf.2.11.

18 Yr hwn a farna'r ymddifad, a'r weddw, ac y ſydd yn hoffi y dieithr, gan roddi iddo fwyd a dillad.

19 Hoffwch chwithau y dieithr, canys dieithraid fuoch yn nhîr yr Aipht.

20 Yr * Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a waſanaethi, wrtho ef hefyd y glyni, ac iw enw ef y tyngi. Deut.6.13. Math.4.10.

21 Efe yw dy fawl, ac efe yw dy Dduw,'r hwn a wnaeth it y mawrion, a'r ofnadwy [bethau] hyn, y rhai a welodd dy lygaid.

22 Dy dadau a aethant i wared i'r Aipht,* yn ddec enaid a thrugain, yr awr hon yr Arglwydd dy Dduw a'th oſododd di * fel ſer y nefoedd o luoſſogrwydd. Geneſ.46.27. Exod.1.5. Geneſ.15.5.

## PEN. XI.

Annog i garu Duw. 18 i ſyſyrrio ar ei air ef: ac i ddyſcu hwnnw iw plant. 26 gwobr y rhai a wnant, neu y rhai ni wnant hyn.

CAr dithe'r Arglwydd dy Dduw, a chadw ei gadwriaeth ef, ai ddeddfau, ai farnedigaethau, ai orchymynnion byth.

2 A chydnabyddwch heddyw nad gan eich plant (y rhai nid adnabuant, ac ni welſant) y mae athrawiaeth yr Arglwydd eich Duw chwi, ei fawredd, ei law gref, ai fraich eſtynnedic,

3 Ei arwyddion hefyd, ai weithredoedd, y rhai a wnaeth efe yng-hanol yr Aipht, i Pharao brenin yr Aipht, ac iw holl dîr,

4 A'r hyn a wnaeth efe i lu'r Aipht, iw feirch ef, ac iw gerbydau: y modd y gwnaeth efe i ddy-

froedd y môr côch lenwi tros eu hwynebau hwynt, pan oeddynt yn ymlid ar eich ôl, ac y difethodd yr Arglwydd hwynt hyd y dydd hwn,

5 A'r hyn a wnaeth efe i chwi yn yr anialwch nes eich dyfod i'r lle hwn:

6 A'r hyn a wnaeth efe i Ddathan, ac i Abiram, meibion Eliab, mab Ruben: y modd yr agorodd y ddaiar ei ſafn, ac ai llyngcodd hwynt, ai tai, ai pebyll, a'r holl olud 'r hwn [ydoedd] gãddynt ym myſc holl Iſrael.

7 Eithr eich llygaid chwi oeddynt yn gweled holl fawrion weithredoedd yr Arglwydd, y rhai a wnaeth efe.

8 Cedwch chwithau bob gorchymyn yr hwn yr ydwyfi yn ei orchymyn heddyw, fel y cryfhaoch, ac yr eloch, ac y goreſcynnoch y tîr yr hwn yr ydych yn myned troſodd iddo iw oreſcyn.

9 Ac fel yr eſtynnoch ddyddiau ar y ddaiar yr hon a dyngodd yr Arglwydd i'ch tadau, ar ei rhoddi iddynt, ac iw hâd, [ſef] tîr yn llifeirio o laeth a mêl.

10 O herwydd y tîr yr hwn yr wyt yn myned iddo iw oreſcyn, nid fel tîr yr Aipht y mae efe yr hwn y daethoch allan o honaw, lle'r heuaiſt dy hâd, ac y dwfrheaiſt a'th droed, fel gardd lyſiau.

11 Ond y tir yr hwn yr ydych yn myned troſodd iddo iw oreſcyn, [ſydd] fynydd-dir, a dyffryn-dir [ac] a ŷf ddwfr o law y nefoedd.

12 Tîr [yw efe] yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu, llygaid yr Arglwydd dy Dduw [ydynt] bob amſer arno, o ddechreuad y flwyddyn, hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd.

13 A bydd os gan wrando y gwrandewch ar fyng-orchymynnion y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i chwi heddyw, gan garû 'r Arglwydd eich Duw, a chan ei waſanaethu a'ch holl galon, ac a'ch holl enaid:

14 Yna y rhoddaf law i'ch tir yn ei amſer, [ſef] y cynnar-law, a'r diweddar-law, fel y caſclech dy ŷd, a'th wîn, a'th olew.

15 A rhoddaf wellt-glâs yn dy faes i'ch anifeiliaid, fel y bwytteich, ac i'ch ddigoner.

16 Gwiliwch arnoch rhac twyllo eich calon, a chilio o honoch, a gwaſanaethu duwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt,

17 Ac enynnu digllonedd yr Arglwydd i'ch erbyn, a chaeuo honaw ef y nefoedd, fel na byddo glaw, ac na roddo y ddaiar ei chnŵd, a'ch difetha yn fuan o'r tîr daionus, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei roddi i chwi.

18 Am hynny goſodwch fyng-eiriau hyn * yn eich calon, ac yn eich meddwl, a rhwymwch hwynt * yn arwydd ar eich dwylo, a byddant yn rhactalau, rhwng eich llygaid. Deut.6.6. Deut.6.8.

19 A dyſcwch hwynt i'ch plant, gan grybwyll am danynt, pan eiſteddech yn dy dŷ, a phan rodiech ar y ffordd, pan orweddech hefyd, a phan godech.

20 Ac ſcrifenna hwynt ar bŷſt dy dŷ, ac ar dy byrth:

21 Fel yr amlhao eich dyddiau chwi, a dyddiau eich plant chwi ar y ddaiar, yr hō a dyngodd yr Arglwydd wrth eich tadau am ei rhoddi [hi] iddynt, fel dyddiau y nefoedd ar y ddaiar.

22 Canys os gan gadw y cedwch yr holl orchymynnion hyn, y rhai yr ydwyfi yn eu gorchymyn i chwi iw gwneuthur, gan garu yr Arglwydd eich Duw, gan rodio yn ei holl ffyrdd ef, a chan lynu wrtho ef:

23 Yna y goreſcyn yr Arglwydd yr holl genhedloedd hyn, o'ch blaen chwi, a chwi a oreſcynnwch genhedloedd mwy a chryfach na chwi.

24 Pob * man a'r y ſathro gwadn eich troed chwi arno fydd eiddo chwi, o'r anialwch a Lybanus [ac] o'r afon [ſef] afon Euphrates, hyd y môr olaf y bydd eich terfyn chwi. Ioſua 1.3.

25 Ni ſaif gŵr yn eich wyneb, eich arſwyd a'ch ofn a rydd yr Arglwydd eich Duw ar wyneb yr holl dîr, yr hwn y ſathroch arno: megis ac y llefarodd wrthych.

26 Wele rhoddi 'r ydwyfi o'ch blaen chwi heddyw, fendith, a melldith.

27 *Bendith, os gwrandewch ar orchymynnion yr Arglwydd eich Duw, y rhai 'r ydwyfi yn [eu] gorchymyn i chwi heddyw: Deut.28.2. deut.30.1.

28 A melldith, oni wrandewch ar orchymynnion yr Arglwydd eich Duw: ond cilio o honoch o'r ffordd yr hon yr ydwyfi yn ei gorchymyn i chwi heddyw: gan fyned ar ôl Duwiau dieithr, y rhai nid adnabuoch.

29 Bydded gan hynny pan ddygo 'r Arglwydd dy Dduw di i'r tîr yr hwn yr ydwyt yn myned iddo iw oreſcyn, roddi o honot y * fendith ar fynydd Garizim, a'r felldith ar fynydd Ebal. Deut.27.13. Ioſua 8.33.

30 Onid [yw] y rhai hyn or tu hwynt i'r Iorddonen, tua 'r lle y machluda haul yn nhir y Canaanead, yr hwn ſydd yn trigo yn y rhôs, ar gyfer Gilgal, ger llaw llwyn Morah?

31 Canys myned yr ydych tros yr Iorddonen, i fyned i oreſcyn y tir yr hwn y mae yr Arglwydd eich Duw yn ei roddi i chwi: a chwi ai goreſcynnwch ac a breſſwyliwch ynddo.

32 Gwiliwch chwithau am * wneuthur yr holl ddeddfau a'r barnedigaethau y rhai 'r ydwyfi yn eu rhoddi o'ch blaen chwi heddyw. Deut.5.32.

## PEN. XII.

Gorchymyn diniſtrio pob lle 'r hwn y buaſe delw-addoliad, neu gau-dduwiaeth ynddo. 5 Bod i ni addoli Duw yn y lle a'r modd y gorchymynno Duw. 19 Bod yn rhaid ymgeleddu y Lefiaid. 20 Beth a ellir ei fwyta gartref. 23 Gwahardd gwaed. 31 offrymmiad plant. 32 parch a digonoldeb gair Duw.

Dymma y deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai a wiliwch am [eu] gwneuthur, (yn y tîr yr hwn a rydd Arglwydd Dduw dy dadau i ti iw oreſcyn,) yr holl ddyddiau y rhai y byddoch fyw ar y ddaiar.

2 *Gan ddiniſtrio diniſtriwch yr holl fannau, y rhai y gwaſanaethodd y cenhedloedd (y rhai Deut.7.5.

rhai yr ydych chwi yn eu goreſcyn) eu duwiau ynddynt, ar y mynyddoedd uchel, ac ar y brynnau, a thann bob pren gwyrdd-las.

Barn.2.2. 3 *Dryllîwch hefyd eu halloꝛau hwynt, a thorrwch eu colofnau hwynt, lloſcwch hefyd eu llwynau hwynt a thân: a thorrwch gerfiedic ddelwau eu duwiau hwynt, a diniſtriwch eu hennwau hwynt o'r lle hwnnw.

4 Na wnewch felly i'r Arglwydd eich Duw.

1.Bren.8.29. 5 Ond y lle (yr * hwn a ddewiſo 'r Arglwydd eich Duw chwi o'ch holl lwythau chwi, i
2.Cron.6.5.
2.Cron.7.12. oſod ei enw yno [ac] i fod yn drigfa iddo) a geiſiwch, ac yno y deuwch.

6 A dygwch yno eich poeth offrymmau, a'ch aberthau, a'ch degymmau, ac offrwm derchafel eich llaw, eich addunedau hefyd, a'ch offrymmau gwirfodd, a chyntaf-anedic eich gwarthec, a'ch defaid.

7 A bwyttewch yno ger bron yr Arglwydd eich Duw, a llawenhewch ym mhob dim yr estynnoch eich llaw arno, chwchwi a'ch teuluoedd y rhai y bendithiodd yr Arglwydd dy Dduw di [a hwynt.]

8 Na wnewch yn ôl yr hyn oll yr ydym ni yn ei wneuthur ymma heddyw, pob un yr hyn [ſydd] inion yn ei olwg ei hun.

9 Canys ni ddaethoch hyd yn hyn i'r orphywyſfa, ac i'r etifeddiaeth yr hon y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi it.

10 Ond chwi a ewch tros yr Jorddonen, ac a drigwch yn y tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd eich Duw yn ei roddi yn etifeddiaeth i chwi, ac efe a rydd lonydd i chwi oddi wrth eich holl elynnion o amgylch, fel y preſſwylioch yn ddiogel.

11 Pan fyddo lle wedi i'r Arglwydd eich Duw ei ddewis iddo i beri iw enw aros ynddo, yno y dygwch yr hyn oll yr ydwyf fi yn ei orchymyn i chwi: [ſef] eich poeth offrymmau, a'ch aberthau, eich degymmau, a derchafel offrwm eich llaw, a'ch holl ddewis addunedau y rhai a addunedoch i'r Arglwydd.

12 A llawenhewch ger bron yr Arglwydd eich Duw, chwi, a'ch meibion, a'ch merched a'ch gweiſion, a'ch morwynion, a'r Lefiad yr hwn [fydd] yn eich pyrth chwi: canys * nid [oes]
Deut.10.9. iddo ran, nac etifeddiaeth gyd a chwi.

13 Gwilia arnat rhac poeth offrymmu o honot dy boeth offrymmau ym mhob lle ar a welech:

14 Ond yn y lle yr hwn a ddewiſo yr Arglwydd o fewn un [o'th] lwythau di: yno y poeth offrymmi dy boeth offrymmau, ac y gwnei yr hyn oll yr ydwyt ti yn ei orchymyn i ti.

15 Er hynny ti a gei ladd, a bwytta cîg, yn ôl holl ddymuniant dy galon, yn ôl bendith yr Arglwydd dy dduw yr hon a rydd efe i ti, yn dy holl byrth: yr aflan, a'r glan a fwyttu o honaw megis o'r iwrch, a'r carw.

16 Ond na fwyttewch y gwaed, ar y ddaiar y tywelltwch ef fel dwfr.

17 Ni elli fwytta o fewn dy byrth ddecfed dy ŷd, na'th win, na'th olew, na chyntaf-anedic dy warthec, na'th ddefaid, na'th holl addunedau y rhai a addunech: na'th offrymmau gwirfodd, na derchafel offrwm dy law.

18 Ond o flaen yr Arglwydd dy Dduw y bwyttei hyn, yn y lle yr hwn a ddewiſo yr Arglwydd dy Dduw, ti, a'th fab, a'th ferch, a'th wâs, a'th forwyn, a'r Lefiad yr hwn [fydd] yn dy byrth di: a llawenycha ger bron yr Arglwydd dy Dduw yn yr hyn oll yr eſtynnech dy law arno.

19 *Gwilia arnat rhac gwrthod y Lefiad Eccleſ.7.31.
tra fyddech byw ar dy ddaiar.

20 Pan helaetho 'r Arglwydd dy Dduw dy
derfyn di *megis y dywedodd wrthit, os dywedi Gen.28.14.
bwyttaf gîg: pan ddymuno dy galon fwytta cîg, Deut.19.8.
yn ôl holl ddymuniad dy galon y bwyttei gîg.

21 Os y lle 'r hwn a ddewiſodd yr Arglwydd dy Dduw i roddi ei enw ynddo fydd pell oddi wrthit, yna lladd o'th warthec, ac o'th ddefaid y rhai a roddodd yr Arglwydd it, megis y gorchymynnais i ti: a bwytta o fewn dy byrth wrth holl ddymuniad dy galon.

22 Etto fel y bwytteir yr iwrch, a'r carw, felly y bwyttei ef, yr aflan, a'r glan ai bwyttu yng-hyd.

23 Yn unic ymgryfhâ rhac bwytta y gwaed, canys y gwaed yw yr einioes: ac ni chei fwytta yr einioes yng-hyd a'r cîg.

24 Na fwytta ef: ar y ddaiar y tywellti ef fel dwfr.

25 Na fwytta ef, fel y byddo daioni i ti ac i'th feibion ar dy ôl: pan wnelech yr inion yng-olwg yr Arglwydd.

26 Etto cymmer dy gyſſegredic [bethau] y rhai ydynt genit, a'th addunedau, a thyrret i'r lle, 'r hwn a ddewiſo 'r Arglwydd.

27 Ac offrymma dy boeth offrwm ([ſef] y cîg a'r gwaed) ar allor yr Arglwydd dy Dduw, a gwaed dy aberthau a dywelltir wrth allor yr Arglwydd dy Dduw: a'r cîg a fwyttei di.

28 Cadw a gwrando yr holl eiriau hyn y rhai 'r ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti: fel y byddo daioni it, ac i'th feibion ar dy ôl byth, pan wnelech y daioni, a'r iniondeb yng-olwg yr Arglwydd dy Dduw.

29 Pan ddiniſtrio yr Arglwydd dy Dduw, y cenhedloedd, y rhai yr wyt i yn myned attynt iw goreſcyn o'th flaen, ai goreſcyn o honot, a phreſſwylio yn eu tîr hwynt.

30 Gwilia arnat rhac ymfaglu o honot ar eu hol hwynt, wedi eu diniſtrio hwynt o'th flaen di: a rhac ymorol am eu duwiau hwynt, gan ddywedyd: pa fodd y gwaſanaethodd y cenhedloedd hyn eu duwiau, myfi a wnaf felly hefyd?

31 Na wna di felly i'r Arglwydd dy Dduw, canys pob ffieidd-dra yr hwn oedd gâs gan yr Arglwydd a wnaethant iw duwiau: canys eu meibion hefyd, ai merched a loſcaſant yn tân iw duwiau.

32 Pob gair yr hwn yr wyfi yn ei orchymyn i chwi,edrychwch am wneuthur hynny*na chwanega atto,ac na thyn oddi wrtho.

Deut.4.2.
Ioſua.1.7
Dihar.30.6.
Gwel.22.18.

## PEN. XIII.

Gau brophwydi ſy raid eu gochelyd,ai coſpi.

PAn godo yn dy fyſc di brophwyd,nen freuddwydudd breuddwyd(a rhoddi it arwydd neu ryfeddod,

2 A dyfod yr arwydd neu 'r rhyfeddod yr hwn a lefarodd efe wrthit) gan ddywedyd: awn ar ôl duwiau dieithr (y rhai nid adwaenoſt) a gwaſanaethwn hwynt.

3 Na wrando ar eiriau y prophwyd hwnnw,neu ar y breddwydudd breuddwyd hwnnw, canys 'r Arglwydd eich Duw ſydd yn eich profi chwi, i wybod a ydych yn caru yr Arglwydd eich Duw a'ch holl galon, ac a'ch holl enaid.

4 Ar ôl yr Arglwydd eich Duw yr ewch, ac ef a ofnawch,ei orchymynnion ef hefyd a gedwch, ac ar ei lais ef y gwrandewch: ef hefyd a waſanaethwch,ac wrtho ef y glynwch.

5 A'r prophwyd hwnnw, neu yr breuddwydudd breuddwyd hwnnw, a roddir i farwolaeth, canys llefarodd i'ch gwrthdroi yn erbyn yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a'ch dug chwi allan o dir yr Aipht, ac a'ch gwaredodd chwi o dŷ y caethiwed, i'th wthio o'r ffordd, yr hon i'th orchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw di i rodio ynddi: felly y tynni ymmaith y drygioni o'th fyſc.

6 Os dy frawd, mab dy fam, neu dy fab dy hun, neu dy ferch, neu dy wraig annwyl, neu dy gyfell yr hwn [ſydd] fel dy enaid dy hun a'th annog yn ddirgel gan ddywedyd: awn,a gwaſanaethwn dduwiau dieithr, y rhai nid adwaenoſt di, na'th dadau:

7 [Sef rhai] o dduwiau y bobl y rhai [ydynt]o'ch amgylch chwi, yn agos attat, neu ymmhell oddi wrthit: o [vn] cwrr y tîr,hyd gwrr [arall]y tir.

8 Na fydd fodlon iddo, ac na wrando arno, ac nac arbeded dy lygad ef,ac nac eiriach[ef,]ac na chela arno.

Deut.17.7. 9 Ond gan ladd lladd ef, bydded dy *law di arno ef yn gyntaf iw roddi iw farwolaeth: a llaw yr holl bobl wedi hynny.

10 A llabyddia ef a meini fel y byddo efe farw,canys ceiſiodd dy wthio di oddi wrth yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o dir yr Aipht,o dŷ y caethiwed.

Deut.17.13. 11 A*holl Iſrael a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur y fath beth drygionus a hyn yn dy blith.

12 Pan glywech am vn o'th ddinaſoedd, y rhai y mae'r Arglwydd dy Dduw yn eu roddi it i drigo ynddynt,gan ddywedyd:

13 Aeth dynion, meibion y Fall allan o'th blith,a gyraſant drigolion eu dinas gan ddywedyd: awn, gwaſanaethwn dduwiau dieithr, y rhai nid adnabuoch.

14 Yna ymofyn,a chwilia,a chais yn dda:ac os[mewn]gwirionedd y peth ſydd ſiccr wneuthur y ffieidd-dra hyn yn dy fyſc:

15 Gan daro, taro drigolion y ddinas honno a mîn y cleddyf,difroda hi,a'r rhai oll[a fyddant]ynddi,ai hanifeiliaid hefyd,a min y cleddyf.

16 Ai holl yſpail hi a geſcli i ganol ei heol hi, ac a loſci y ddinas ai holl yſpail hi yn gwbl i'r Arglwydd dy Dduw a thân: felly bydded yn garnedd byth,nac adailader hi mwy.

17 Ac*na lyned wrth dy law di ddim o'r diofrydbeth fel y dychwelo 'r Arglwydd oddi wrth angerdd ei ddig, ac y rhoddo it drugaredd, ac y toſturio wrthit,ac i'th amlhao megis y tyngodd wrth dy dadau. Deut.7.26.

18 Tra y gwrandewech ar lais yr Arglwydd dy Dduw,gan gadw ei holl orchymynnion ef,y rhai'r wyfi yn [eu] gorchymyn i ti heddyw: gan wneuthur yr hyn ſydd inion yng-olwg yr Arglwydd dy Dduw.

## PEN. XIIII.

Gwahardd y mae i Iſrael dorri vn nôd yn eu cnawd tros y meirw. 4 Pa gîg a geir ei fwytta. 23 Pa le y bwytteir y pethau cyſſegredic. 27 Am y Lefiaid,ac am ddegwm.

PLant ydych chwi i'r Arglwydd eich Duw, * nac ymnodwch, ac na oſodwch foelni rhwng eich llygaid dros[vn]marw. Lefit.19.28.

2 Canys*pobl ſanctaidd [ydwyt] ti i'r Arglwydd dy Dduw,a'r Arglwydd a'th ddewiſodd di i fod yn bobl vnic iddo ef: o'r holl bobloedd y rhai[ydynt]ar wyneb y ddaiar. Deut.7.6. Deut.26.18.

3 Na fwytta ddim ffiaidd.

4 Dymma yr anifeiliaid y rhai a fwyttewch: eidion,llwdn dafad,a llwdn gafr.

5 Y carw, a'r iwrch, a'r carw gwyllt, a'r bwch gwyllt a'r vnicorn a'r ŷch gwyllt, a'r afr wyllt.

6 A phob anifail, yn hollti yr ewin , ac yn fforchogi hollt y ddwy ewin,[ac]yn cnoi cil ym mysc yr anifeiliaid, hwnnw a fwyttewch.

7 Ond hyn ni fwyttewch o'r rhai a gnoant y cil,ac a holldant yr ewin yn fforchog: y camel a'r ſcyfarnog, a'r gwningen, er bod y rhai hyn yn cnoi eu cîl, am nad ydynt yn fforchogi yr ewin,aflan ydynt i chwi.

8 Yr hŵch hefyd er ei bod yn fforchogi yr ewin,ac heb[gnoi]cil, aflan yw i chwi: na fwyttewch oi cig hwynt, ac na chyffyrddwch ai byrgyn hwynt.

9 *Hyn a fwyttewch o'r hyn oll [ſydd]yn y dyfroedd: yr hyn oll [ſydd]iddo aſcell, a chenn, a fwyttewch. Lefit.11.9.

10 A'r hyn oll nid[oes]iddo aſcell,a chenn, ni fwyttewch: aflan yw i chwi.

11 Pob aderyn glan a fwyttewch.

12 Ac dymma y rhai ni fwyttewch o honynt yr eryr,a'r wydd-walch,a'r for-wennol.

13 A'r bod, a'r barcut,a'r fwltur yn ei ryw.

14 A phob cîg-fran yn ei rhyw.

15 A chiw 'r eſtris, a'r fran nôs, a'r gôg, a'r hebog yn ei ryw.

16 Aderyn y corph, a'r ddylluan, a'r gogfran,

17 A'r pelican, a'r biogen, a'r ful-fran.

18 A'r Ciconia, a'r grŷr yn ei ryw, a'r gornchwigl,* a'r ſtlym.

Leuit.11.19. 19 A phob ymluſciad aſcelloc ſydd aflan i chwi: na fwytaer ef.

20 Bwyttewch bob ehediad glân.

21 Na fwyttewch ddim burgin, dod ef i'r dieithr yr hwn [fydd] yn dy byrth: a bwyttaed ef, neu gwerth di [ef] i'r dieithr, canys popl ſanctaidd [ydwyt] i'r Arglwydd dy Dduw:* na ferwa fynn yn llaeth ei fam. Exod.23.19.

exod.34.26. 22 Gan ddegymmu degymma hol gynnyrch dy hâd, [ſef] ffrwyth dy faes bob blwyddyn.

23 A bwytta ger bron yr Arglwydd dy Dduw (yn y lle 'r hwn a ddewiſo efe i drigo oi enw ef ynddo) ddegwm dy ŷd, dy wîn, a'th olew, a chyntafanedic dy warthec, a'th ddefaid, fel y dyſcech ofni 'r Arglwydd dy Dduw 'r holl ddyddiau.

24 A phan fyddo y ffordd ry-hîr i ti, fel nad ellech ei ddwyn ef, am fod y lle ym mhell oddi wrthit, 'r hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw i oſod ei enw ynddo, pan i'th fendithio yr Arglwydd dy Dduw.

25 Yna dod [ei werth] yn arian, a rhwym yr arian yn dy law, a dos i'r lle 'r hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw,

26 A dôd yr arian am yr hyn oll a chwenycho dy galon: am warthec, neu am ddefaid, neu am wîn, neu am ddiod gref, neu am yr hyn oll a ddymuno dy galon: a bwytta yno ger bron yr Arglwydd dy Dduw, a llawenycha di, a'th deulu.

27 A'r Lefiad yr hwn [fyddo] yn dy byrth na wrthod ef: am nad [oes] iddo [na] rhan, nac etifeddiaeth gyd a thi.

28 Ym mhen tair blynedd y dygi allan holl ddegwm dy gnwd y flwyddyn honno: a gâd yn dy byrth.

29 Fel y dêl y Lefiad am nad oes iddo ran, nac etifeddiaeth gyd a thi, a'r dieithr, a'r ymddifad a'r weddw y rhai [ydynt] yn dy byrth di, ac y bwyttânt, ac y digoner hwynt: fel i'th fendithio 'r Arglwydd dy Dduw di ym mhob gwaith yr hwn a wnelech a'th law.

## PEN. XV.

Blwyddyn y gollyngdod. 5 Duw yn bendithio y rhai a gadwant ei orchymynnion. 7 Cymmorth i'r tlawd. 12 Rhyddhâd gweiſion. 19 Yr Arglwydd piau y cyntaf-anedic.

YM-mhen ſaith mlynedd gwna ollyngdod.

2 Ac dymma wedd y gollyngdod: gollynged pob perchẽnog iw gymydog yn rhydd ei echwyn yr hyn a echwynodd, na fynned [hynny] trachefn gan ei gymydog, neu ei frawd, canys cyhoeddwyd rhydd-did yr Arglwydd.

3 Ti a elli fynnu trachefn gan y dieithr [dy echwyn:] ond gollynged dy law yn rhydd yr hyn ſydd i ti gyd a'th frawd.

4 Megis na byddo o honot ti gardottyn, canys yr Arglwydd gan fendithio a'th fendithia di yn y tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti yn etifeddiaeth iw oreſcyn.

5 Yn unic os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw [a] gwneuthur yr holl orchymynnion ymma y rhai yr ydwyfi yn eu gorchymyn i ti heddyw.

6 Canys yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithia megis ac y llefarodd wrthit, fel * y benthygiech i genhedloedd lawer, ac na fenthygiech di [ganddynt,] ti hefyd a arglwyddiaethi ar genhedloedd lawer, ac nid arglwyddiaethant hwy arnat ti.

7 Os bydd yn dy fyſc di un o'th frodyr yn dlawd o fewn un o'th byrth, yn dy dir yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it: na chaleda dy galon, ac na chaea dy law oddi wrth dy frawd tlawd.

8 Ond gan agoryd * agor dy law iddo, a chan fenthygio benthygia ddigon [iw] angen ef, [ſef] yr hyn fydd eiſieu arno. Math.5.42. Luc.6.34

9 Gwilia arnat rhac bod yn dy galon ddim anuwiol i ddywedyd, agos yw y ſeithfed flwyddyn [ſef] blwyddyn y gollyngdod, a bod dy lygad yn ddrwg yn erbyn dy frawd tlawd, rhac rhoddi iddo, a llefain o honaw ef ar yr Arglwydd rhagot, a bod pechod yn dy erbyn.

10 Gan roddi dod iddo, ac na fydded drwg gan dy galon pan roddech iddo: canys o achos y peth hyn i'th fendithia 'r Arglwydd dy Dduw dy di yn dy holl waith, ac yn yr hyn oll yr eſtynnech dy law arno.

11 Canys ni * dderfydd tlawd o ganol y tîr, am hynny 'r ydwyfi yn gorchymyn i ti gan ddywedyd: gan agoryd agor dy law i'th frawd, i'th anghenus, ac i'th dlawd yn dy dîr. Mat.26.11.

12 * Pan werther dy frawd yn Hebread neu yn Hebræes i ti, a'th waſanaethu chwe blynedd, y ſeithfed flwyddyn gollwng ef yn rhydd oddi wrthit. Exod.21.2. Ierem.34.14.

13 A phan ollyngech ef yn rhydd oddi wrthit, na ollwng ef yn wâg.

14 Gan lwytho llwytha ef o'th braidd, ac o'th yſcubor, ac o'th wryf: o'r hyn i'th fendithio 'r Arglwydd dy Dduw dod iddo.

15 A chofia mai gwâs fuoſt yn nhîr yr Aipht, a'th waredu o'r Arglwydd dy Dduw: am hynny 'r ydwyf yn gorchymyn y peth hyn [i] ti heddyw

16 Ond os dywed wrthit nid âf allan oddi wrthit, am iddo dy hoffi di, a'th dŷ, o herwydd bod yn dda arno ef gyd a thi:

17 Yna * cymmer fynawyd, a dod trwy ei gluſt ef ac yn y ddôr, a bydded yn wâs i ti * bŷth, felly hefyd y gwnei i'th forwyn. Exod.16.6.

18 Na fydded trwm gennit ei ollwng ef yn rhydd oddi wrthit, canys gwaſanaethodd di werth dau gyflog gwenidog y chwe blynnedd: a'r Arglwydd dy Dduw a'th fendithia yn yr hyn oll a wnelech.

19 Pob cyntaf-anedic yr hwn a ênir o'th warthec, neu o'th ddefaid yn wryw a gyſſegri di i'r Arglwydd dy Dduw: na weithia a chyntaf-anedic dy ychen, ac na chneifia gyntaf-ane-

dic dy ddefaid.

20 Ger bron yr Arglwydd dy Dduw y bwyttei ef bob blwyddyn, yn y lle 'r hwn a ddewiſo yr Arglwydd, ti a'th deulu.

Leuit.22.24. Deut.17.1. Preg.35.14. 21 Ond * os bydd anaf arno, [os] cloff, neu ddall fydd, [neu] rhyw ddrwg anaf [arall,] na abertha ef i'r Arglwydd dy Dduw.

22 O fewn dy byrth y bwyttei ef, yr aflân a'r glân yng-hyd [ai bwyttu,] megis yr iwrch, ac megis y carw.

23 Etto na fwytta ei waed ef, tywallt hwnnw ar y ddaiar fel dwfr.

## PEN. XVI.

1 Gwyliau y Paſc, 9 y ſulgwyn, 13 A'r pebyll. 18 Am ſwyddogion. 21 gwahardd gaudduwiaeth.

Exod.13.4. Cadw y * mis Abib, a gwna Baſc i'r Arglwydd dy Dduw: canys o fewn y mîs Abib i'th ddug yr Arglwydd dy Dduw o'r Aipht ar hŷd nôs.

Deut.12.5. 2 Abertha dithe yn Baſc i'r Arglwydd dy Dduw ddefaid, a gwarthec yn y * lle 'r hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw i drigo oi enw ef yno.

“ 3 Na fwytta ſur-does gyd ag ef, ſaith niwr-
“ nod y bwytteigyd ag ef fara croiw, [ſef] bara
“ cyſtudd: canys ar ffrwſt y daethoſt allan o dir
“ yr Aipht, fel y cofiech ddydd dy ddyfodiad allan
“ o dîr yr Aipht holl ddyddiau dy einioes.
“ 4 Ac na weler genit ſur-does yn dy holl der-
“ fynau ſaith niwrnod, ac nac arhoed tros nôs
“ [ddim] o'r cîg yr hwn a aberthech yn yr hwyr,
“ ar y dydd cyntaf hyd y boreu.
“ 5 [Hefyd] ni elli aberthu y Paſc o fewn yr
“ un o'th byrth, y rhai y mae 'r Arglwydd dy
“ Dduw yn eu rhoddi it:
“ 6 Onid yn y lle 'r hwn a ddewiſo 'r Arglw-
“ ydd dy Dduw i drigo oi enw ef ynddo 'r aberthi
“ y Paſc yn yr hwyr, ar fachludiad yr haul, y pryd
“ y daethoſt allan o'r Aipht.
“ 7 Yna y rhoſti ac y bwyttei yn y lle 'r hwn a
“ ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw, a'r boreu y
“ dychweli, ac yr ei i'th babellau.
“ 8 Chwe diwrnod y bwyttei fara croiw, ac
“ ar y ſeithfed dydd [y mae] uchel-ŵyl i'r Ar-
“ glwydd dy Dduw ni chei wneuthur gwaith.
“ 9 Cyfrifit ſaith wythnos, pan ddechreuo y
“ crymmā ar yr ŷd y dechreui rifo ſaith wythnos.
“ 10 Yna y cedwi ŵyl yr wythnoſau i'r Ar-
“ glwydd dy Dduw, a'th offrwm gwirfodd 'r
“ hwn a roddi, megis i'th fendithio yr Arglwydd
“ dy Dduw.
“ 11 A llawenycha ger bron yr Arglwydd dy
“ Dduw, ti a'th fab, a'th ferch, a'th wâs, a'th for-
“ wyn, a'r Lefiad yr hwn [fydd] o fewn dy byrth:
“ a'r dieithr a'r ymddifad, a'r weddw, y rhai [fy-
Leuit.23.34. “ ddant] yn dy fyſc: yn y lle 'r hwn a ddewiſo yr
“ Arglwydd dy Dduw i drigo oi enw ef ynddo.
“ 12 Cofia hefyd mai gwâs fuoſt yn yr Aipht,
“ a chadw, a gwna y deddfau hyn.
“ 13 Cadw it ŵyl y pebyll ſaith niwrnod, we-
“ di it gaſclu dy ŷd a'th win.
“ 14 A llawenycha yn dy ŵyl, ti, a'th fab, a'th
ferch, a'th wâs, a'th forwyn, a'r Lefiad, a'r diei- ”
thr, a'r ymddifad, a'r weddw y rhai [fyddant] o ”
fewn dy byrth. ”
15 Saith niwrnod y cedwi ŵyl i'r Argl- ”
wydd dy Dduw, yn y lle 'r hwn a ddewiſo yr ” Exod.23.14.
Arglwydd: canys yr Arglwydd dy Dduw a'th ” Exod.34.23.
fendithia yn dy holl gnwd, ac yn holl waith dy ”
ddwylo, am hynny bydd dithe lawen. ”
16 * Tair gwaith yn y flwyddyn yr ym- ”
ddengys pob gwryw [o] honot o flaen yr Ar- ”
glwydd dy Dduw yn y lle 'r hwn a ddewiſo e- ”
fe, [ſef] ar ŵyl y bara croiw, ac ar ŵyl yr wythnoſau, ac ar ŵyl y pebyll: ond nac ymddangoſed neb o flaen yr Arglwydd yn wâglaw.

17 Pob un yn ôl rhodd ei law, yn ôl bendith yr Arglwydd dy Dduw 'r hon a rydd efe iti.

18 Dôd it farn-wŷr, a blaenorion yn dy holl byrth y rhai y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi it trwy dy lwythau: a barnant hwy y bobl, [a] barn gyfiawn.

19 Na ŵyra farn, [ac] na chydnebydd wynebau, na dderbyn wobr y chwaith: canys gwobr a ddalla lygaid y doethion, ac a ŵyra eiriau y cyfiawn.

20 Cyfiawnder, cyfiawnder a ddilyni, fel y byddech fyw, ac yr etifeddech y tir yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it.

21 Na phlanna it lwyn [o] neb ryw goed ger llaw allor yr Arglwydd dy Dduw yr hon a wnei it.

22 Ac na chyfot it golofn, hyn ſydd gâs gan yr Arglwydd dy Dduw.

## PEN. XVII.

Ni cheir aberthu peth anafus. 2 Coſpedigaeth y gau-addoludd. 8 Pwy a gaiff farnu amrafaelion caled. 12 Coſpedigaeth yr anufydd. 14 Dewis brenin: ai ſwydd.

NAC abertha i'r Arglwydd dy Dduw ŷch, neu ddafad yr hwn y bydd arno anaf [neu] ddim gwrthuni: canys caſ-beth yr Arglwydd dy Dduw [yw] hynny.

2 Pan gaffer yn dy blith di o fewn un o'th byrth y rhai y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi it ŵr neu wraig yr hwn a wnel drygioni yng-olwg 'r Arglwydd dy Dduw, gan droſeddu ei gyfammod ef,

3 Ac a aiff, ac a waſanaetha dduwiau dieithr, ac a ymgrymma iddynt, ſef i'r haul, neu i'r lleuad, neu i holl lu y nefoedd, yr hyn ni orchymynnais.

4 Pan ddangoſer i ti, a chlywed o honot, yna cais yn dda, ac os [mewn] gwirionedd y peth ſydd ſiccr wneuthur y ffiaidd-dra hyn yn Iſrael

5 Yna dwg allan y gŵr hwnnw, neu 'r wraig honno (y rhai a wnaethant y peth drygionus hyn) i'th byrth, ſef y gŵr neu'r wraig: a llabyddia hwynt a meini fel y byddant feirw. Num.35.30.

deut.19.15. Mat.18.16. 2.Cor.13.1. 6 * Wrth deſtiolaeth dau o dyſtion, neu dri o dyſtion, y rhoddir i farwolaeth yr hwn a fyddo marw, na rodder i farwolaeth wrth deſtiolaeth un tŷſt.

7 Llaw y tyſtion a fydd arno yn gyntaf iw farwolaethu ef, a llaw'r holl bobl wedi hynny:

a thi a dynni ymmaith y drygionus o'th blith.

8 Os bydd peth mewn barn yn guddiedic oddi wrthit, rhwng gwaed a gwaed, rhwng hawl a hawl, neu rhwng plâ a phlâ, [mewn] pethau amrafaelus o fewn dy byrth: yna cyfot, a dos i fynu i'r llê yr hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw.

9 A dos at y Lefiadaidd offeiriaid, neu at y barn-ŵr yr hwn ſydd yn y dyddiau hynny: ac ymofyn, a hwy a ddangoſant i ti reol y gyfraith.

10 A gwna ar ôl rheol y gair yr hwn a ddangoſant i ti o'r lle hwnnw, yr hwn a ddewiſo yr Arglwydd: ac edrych am wneuthur yn ôl yr hyn oll a ddyſcant i ti.

11 Ar ôl rheol y gyfraith yr hon a ddyſcant it, ac yn ôl y farn yr hon a ddywedant i ti y gwnei: na chilia o'r peth yr hwn a ddangoſant i ti, i'r tu dehau, nac i'r tu aſſwy.

12 A'r gŵr yr hwn a wnêl mewn rhyfyg, heb wrando ar yr offeiriad yr hwn ſydd yn ſefyll yno i waſanaethu yr Arglwydd dy Dduw, neu ar y barn-ŵr: yna rhodder i farwolaeth y gŵr hwnnw, a thynn ymmaith y drygioni o Iſrael.

13 A'r holl bobl a glywant, ac a ofnant: ac ni ryfygant mwy.

14 Pan ddelech i'r tîr yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw 'n ei roddi i ti, ai oreſcyn, a thrigo ynddo: os dywedi goſodaf arnaf frenin megis yr holl genhedloedd y rhai [ydynt] o'm hamgylch:

15 Gan oſod, goſot arnat yn frenin yr hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw: o blith dy frodyr y goſodi arnat frenin, ni elli roddi arnat ŵr dieithr, yr hwn nid yw frawd i ti.

16 Yn unic nac amlhaed iddo feirch', ac na ddychweled efe y bobl i'r Aipht i amlhau meirch gan i'r Arglwydd ddywedyd wrthych, na chwanegwch ddychwelyd ar hŷd y ffordd honno mwy.

17 Ac nac amlhaed iddo wragedd, ac na ŵyred ei galon: ac nac amlhaed arian, ac aur iddo lawer.

18 Eithr pan eiſteddo ar deyrngader ei frenhiniaeth yna ſcrifenned iddo goppi y gyfraith hon mewn llyfr o flaen yr offeiriaid Lefiadaidd:

19 A bydded gyd ag ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd: fel y dyſco ofni yr Arglwydd ei Dduw, a chadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn, ai gwneuthur hwynt:

20 Heb dderchafu ei galon uwch-law ei frodyr, ac heb gilio oddi wrth y gorchymyn i'r tu dehau, nac i'r tu aſſwy: fel yr eſtynno ddyddiau yn ei frẽhiniaeth, efe ai feibiõ yng-hanol Iſrael.

## PEN. XVIII.

1 Rhan y Lefiaid. 9 Bod yn rhaid gochelyd ffiaidd arfer y Canaaneaid. 15 Duw yn addo prophwyd iddynt. 20 Y modd y coſpir ac yr adwaenir y gau-brophwyd.

Num.18.20.
Deut.10.9.
1.Cor.9.13.

NI bydd i'r offeiriaid Lefiadaidd [ſef] i holl lwyth Lefi ran *nac etifeddiaeth yng-hyd ag Iſrael: ebyrth tanllyd yr Arglwydd ai etifeddiaeth ef a fwyttânt hwy.

2 Am hynny etifeddiaeth ni bydd iddynt ym mhlith eu brodyr: yr Arglwydd yw eu hetifeddiaeth, megis ac y dywedodd efe wrthynt.

3 A hyn ſydd defod yr offeiriaid oddi wrth y bobl [ſef] oddi wrth y rhai a aberthant aberth [pwy yn bynnac] ai eidion, ai dafad, rhodded i'r offeiriad * yr yſcwyddoc, a'r ddwyên, ar botten. Num.18.18.

4 Blaen-ffrwyth dy ŷd, dy wîn a'th olew, a blaen-ffrwyth cnaif dy ddefaid a roddi iddo ef.

5 Canys dewiſodd yr Arglwydd dy Dduw ef o'th holl lwythau i ſefyll [ac] i waſanaethu yn enw 'r Arglwydd, efe ai feibiõ yn dragywydd.

6 A Phan ddelo Lefiad o un o'th byrth di yn holl Iſrael lle y byddo efe yn ymdaith, a dyfod yn ôl holl ddymuniad ei galon, i'r lle 'r hwn a ddewiſo yr Arglwydd.

7 Yna gwaſanaethed efe yn enw 'r Arglwydd ei Dduw, megis ei holl frodyr y Lefiaid y rhai ydynt yn ſefyll yno ger bron yr Arglwydd.

8 Rhan am ran a fwyttânt: heb-law 'r hyn a werthe efe oddi wrth [ei] dadau.

9 Pan elech di i'r tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it, na ddyſc wneuthur yn ôl ffieidd-dra y cenhedloedd hynny.

10 Na chaffer ynot a wnelo iw fab, neu iw ferch, fyned drwy 'r tân [neu] arferu dewiniaeth, planedydd na daroganwr, na hudol:

11 Na *ſwyn-wr ſwynion, nac a geiſio [wybodaeth gan] gonſuriwr, neu frydiwr, nac a ymofynno a'r meirw. Lefit.20.27. 1.Sam.28.7.

12 O herwydd ffiedd-dra [gan] yr Arglwydd [yw] pawb a'r a wnelo hyn: ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn eu goreſcyn hwynt o'th flaen di.

13 Bydd berffaith gyd a'r Arglwydd dy Dduw.

14 Canys y cenhedloedd hyn, y rhai 'r ydwyt ti yn eu goreſcyn a wrandawant ar blanedyddion, ac ar ddewiniaid: am danat ti, nid felly y canhiatâodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

15 *Yr Arglwydd dy Dduw a gyfyd i ti o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun brophwyd megis fynne: arno ef y gwrandewch. Act.7.37.

16 Yn ôl yr hyn oll a geiſiaiſt gan yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb yn nydd y gymmanfa gan ddywedyd: * ni allaf wrando ddim y chwaneg ar lais yr Arglwydd fy Nuw, ac ni allaf weled y tân mawr hwn mwyach rhac fy marw. Exod.20.19.

17 A dywedodd yr Arglwydd wrthif, da y dywedaſant.

18 * Codaf brophwyd iddynt o fyſc eu brodyr fel tithe, a rhoddaf fyng-eiriau yn ei enau ef: fel y llefaro efe wrthynt yr hyn oll a orchymynnwyf iddo. Ioſua.1.45. Act.3.21.

19 A phwy bynnac ni wrandawo ar fyng-eiriau y rhai a lefaro efe yn fy enw, myfi [ai] gofynnaf ganddo.

20 Y prophwyd hefyd, yr hwn a ryfyga lefaru yn fy enw air, yr hwn ni orchymynnais iddo lefaru, neu 'r hwn a lefaro yn enw duwiau dieithr: rhodder y prophwyd hwnnw i farwolaeth.

21 Ac os dywedi yn dy galon, pa fodd yr adwaenō y gair, yr hwn ni lefarodd yr Arglwydd?

22 Yr hyn a lefaro y prophwyd hwnnw yn enw'r Arglwydd a'r gair heb fod, ac heb ddyfod, hwnnw yw'r gair yr hwn ni lefarodd yr Arglwydd: y prophwyd ai llefarodd mewn rhyfyg, nac ofna ef.

## PEN. XIX.

Duw ſy yn gorchymyn goſod trefydd i fod yn nawdd-feudd. 14 Yn gwahardd ſymmud terfyn. 15 Ac yn rhoddi cyfraith am deſtiolaeth.

Deut.12.29. PAn *dorro'r Arglwydd dy Dduw y cenhedloedd ymmaith y rhai y mae'r Arglwydd dy Dduw yn rhoddi eu tir i ti: ai goreſcyn o honot ti, a phreſſwylio yn eu dinaſoedd, ac yn eu tai,

Exod.21.13. Num.35.9. Ioſ.20.2. 2 *Naillduа it dair dinas yng-hanol dy dir, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it iw oreſcyn.

3 Paratoa y ffordd i ti, a thraiâna derfyn dy dîr yr hwn a rydd yr Arglwydd dy Dduw yn etifeddiaeth it: fel y byddo i bob llofrudd ffoi yno.

4 Dymma gyfraith y llofrudd yr hwn a ffŷ yno i fyw: yr hwn a darawo ei gymydog heb wybod, ac yntef heb ei gaſau ef or blaen,

5 Yr hwn a êlo gyd ai gymydog i'r coed, i gymmynu prennau, ac a eſtynno ei law ar fwyall i dorri y pren, a ſyrthio yr haiarn o'r menubr, a chyrhauddyd ei gymydog fel y byddo farw: efe a gaiff ffoi i vn o'r dinaſoedd hyn, fel y byddo byw.

Num.35.12. 6 *Rhac i ddialudd y gwaed ddilyn ar ôl y llofrudd pan ddigio ei galon, ai oddiweddyd am fod y ffordd yn hir, ai daro ef yn farw, er na bydde yndo ef haeddedigaeth marwolaeth, am nad oedd efe yn llidiog wrtho ef o'r blaen.

7 Am hynny'r ydwyf yn gorchymyn i ti gan ddywedyd: tair dinas a naillduûi di i ti.

8 A phan helaetho'r Arglwydd dy Dduw dy derfyn, fel y tyngodd wrth dy dadau, a rhoddi i ti yr holl dîr yr hwn a addawodd ei roddi wrth dy dadau,

Ioſu.20.7. 9 Pan gedwech y gorchymyn hwn oll gan wneuthur yr hyn yr ydwyf fi yn ei orchymyn it heddyw: gan garu yr Arglwydd dy Dduw a rhodio yn ei ffyrdd ef yr holl ddyddiau: * yna y chwanegi i ti dair dinas hefyd at y tair hyn.

10 Fel na ollynger gwaed gwirion o fewn dy dir, yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it yn etifeddiaeth: ac na byddo gwaed i'th erbyn.

11 Ond pan fyddo gŵr yn câſau ei gymydog, ac yn cynllwyn iddo a chodi yn ei erbyn, ai ddieneidio fel y byddo farw, a ffoi i vn o'r dinaſoedd hyn:

12 Yna anfoned henuriaid ei ddinas ef, a chymmerant ef oddi yno, a rhoddant ef yn llaw dialudd y gwaed, fel y byddo farw.

13 Nac arbeded dy lygaid ef, ond tynn ymmaith [affaith] gwaed gwirion o Iſrael, fel y byddo daioni it.

14 Na ſymmut derfyn dy gymydog, yr hwn a derfynodd y rhai a fuant o'r blaen: o fewn dy etifeddiaeth yr hon a feddienni yn y tir yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti iw oreſcyn.

Deut.17.6. Matt.18.16. Ioan.8.17. 2.Cor.13.1. Hebr.10.28. 15 Na choded * vn tŷſt yn erbyn neb, am ddim anwiredd, neu ddim pechod, o'r holl bechodau y rhai a becho efe: wrth deſtiolaeth dau o dyſtion, neu wrth deſtiolaeth tri o dyſtiō y bydd ſafadwy [pob] gair.

16 Pan godo gau-dyſt yn erbyn neb, gan deſtiolaethu bai yn ei erbyn ef,

17 Yna ſafed y ddau ddyn y rhai [y mae'r] amrafael rhyngddynt ger bron yr Arglwydd, o flaen yr offeiriaid a'r barn-wŷr y rhai a fyddant yn y dyddiau hynny.

18 Ac ymofynned y barn-wŷr yn dda, ac os y tŷſt [fydd] tŷſt ffals, [ac] a deſtiolaetha ffalſter yn erbyn ei frawd.

Diarh.19.5. 19 *Yna gwnewch iddo fel yr amcanodd wneuthur iw frawd, a thynn ymmaith y drygionus o'th fyſc.

20 A'r lleill a glywant, ac a ofnant, ac ni chwanegant wneuthur mwy yn ôl y peth drygionus hyn yn dy blith.

Exod.21.23. Lefit.24.20. Matt.5.38. 21 Ac nac arbeded dy lygad: [bydded] enioes am enioes, llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed.

## PEN. XX.

Araith yr offeiriaid a'r ſwyddogion wrth y bobl pan elent i ryfel. 10 Bod yn rhaid cynnig heddwch yn gyntaf i bawb ond i bobl Canaan. 19 Gwahardd torri mewn rhyfel goed ffrwythlon.

PAN elech i ryfel yn erbyn dy elynnion, a gweled meirch, a cherbydau, [a] phobl fwy na thi, nac ofna rhacddynt: o herwydd yr Arglwydd dy Dduw [fydd] gyd a thi, yr hwn a'th ddûg di i fynu o dir yr Aipht.

2 A bydded, pan neſſaoch i'r rhyfel: yna ddyfod o'r offeiriad, a llefaru wrth y bobl,

Deut.28.7. 3 A dyweded wrthynt, clyw Iſrael, yr ydych chwi yn neſſau heddyw i'r rhyfel yn erbyn eich gelynnion: na * feddalhaed eich calon, nac ofnwch, na ſynnwch, ac na ddychrynwch rhacddynt.

4 Canys yr Arglwydd eich Duw ſydd yn myned gyd a chwi i ryfela a'ch gelynnion troſoch chwi: [ac] i'ch achub.

5 Yna y llywawdwŷr a lefarant wrth y bobl gan ddywedyd, pa ŵr [ſydd] yr hwn a adailadodd dŷ newydd, ac nis cyſſegrodd ef, eled a dychweled iw dŷ rhac i farw mewn rhyfel, ac i ŵr arall ei gyſſegru ef.

6 A pha ŵr [ſydd] yr hwn a blannodd winllan, ac nis mwynhaodd hi, eled a dychweled iw dŷ rhac ei farw mewn rhyfel, ac i ŵr arall ei mwynhau.

7 A pha ŵr bynnac a*ymgredodd a gwraig, ac ni phriododd hi, eled, a dychweled iw dŷ rhac ei farw mewn rhyfel, ac i wr arall ei phriodi.

8 Y llywawdwŷr hefyd a chwanegant lafaru wrth y bobl, ac a ddywedant: * Pa ŵr bynnac [ſydd] ofnus, a meddal galon, eled a dychweled iw dŷ fel na lwfrhao efe galon ei frawd megis ei galon yntef. Barn.7.3.

9 A bydded pan ddarffo i'r llywawdwŷr lefaru wrth y bôbl: yna oſod o honynt dyŵyſogion y lluoedd, yn ben ar y bobl.

10 Pan neſſaech di at ddinas i ryfela yn ei herbyn, * yna galw arni am heddwch. Num.21.22. deut.2.26.

11 A bydded os heddwch a ettyb hi i ti, ac agoryd it: yna bydded i'r holl bobl y rhai a geffir ynddi fod i ti dan deyrnged, a'th waſanaethu.

12 Ac oni heddycha hi a thi, ond gwneuthur rhyfel a thi: yna gwarche di arni hi.

13 Pan roddo'r Arglwydd dy Dduw hi yn dy law di: yna taro ei holl wrywaid a mîn y cleddyf.

14 Yn vnic y benwyaid, a'r plant, * a'r anifeiliaid, a phob dim a'r a fyddo yn y ddinas [ſef] ei holl yſpail a yſpeili i ti: a thi a fwynhei yſpail dy elynnion, yr hwn a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti. Ioſ8.2.

15 Felly y gwnei i'r holl ddinaſoedd pell iawn oddi wrthit: y rhai nid [ydynt] o ddinaſoedd y cenhedloedd hynn.

16 Ond o ddinaſoedd y bobloedd hynn y rhai y mae'r Arglwydd dy Dduw yn eu rhoddi it yn etifeddiaeth na chadw vn enaid yn fyw:

17 Ond gan ddifrodi difroda hwynt [ſef] yr Hethiaid, a'r Amoriaid, y Canaaneaid, a'r Phereziaid, yr Hefiaid, a'r Iebuſiaid, megis y gorchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

18 Fel na ddyſcant i chwi wneuthur ar ôl eu holl ffieidd-dra hwynt y rhai a wnaethant iw duwiau hwynt, a phechu o honoch yn erbyn yr Arglwydd eich Duw:

19 Pan warchaech di ar dref lawer o ddyddiau, gan ryfela yn ei herbyn hi iw hennill, na ddifetha ei choed gan daro bwyall arnynt hwy canys o honynt y bwyttei, na thorr dithe hwynt i fyned o'th flaen mewn gwarch-glawdd, o herwydd [ymborth] dyn [yw] pren y maes.

20 Er hynny y pren yr hwn a ŵyddoſt nad pren ymborth yw, hwnnw a ddifethi ac a dorri, ac a adeiledi warch-glawdd yn erbyn y ddinas, yr hon ſydd yn gwneuthur rhyfel a thi, hyd oni ddaroſtyngech hi.

## PEN. XXI.

Am lofryddiaeth heb wybod pwy ai gwnaeth. 11 Am y fenyw a ddalier mewn rhyfel. 15 Ni cheir newidio braint y cyn-fab. 18 Coſpedigaeth mab anufydd.

PAn geffir [vn] wedi ei ladd o fewn y tîr, yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti iw etifeddu, yn farw yn y maes heb ŵybod pwy ai lladdodd:

2 Yna aed dy henuriaid, a'th farn-wŷr allan, a meſurant hyd y dinaſoedd y rhai [ydynt] o amgylch i'r lladdedig.

3 A bydded i'r ddinas neſaf at y lladdedig gymmeryd o henuriaid y ddinas honno anner [o'r] gwartheg yr hon ni weithiwyd a hi, [ac] ni thynnodd dan iau.

4 A dyged henuriaid y ddinas honno'r anner i ddyffryn garw, 'r hwn ni lafuriwyd, ac ni hauwyd ynddo: ac yno tor-ſynyglant yr anner yn y dyffryn.

5 A neſſaed yr offeiriaid meibion Lefi, (o herwydd yr Arglwydd dy Dduw ai etholodd hwynt i weini iddo ef, ac i fendigo yn enw'r Arglwydd: ac wrth eu barn hwynt, y derfydd pôb ymryſon, a phôb plâ.)

6 A holl henuriaid y ddinas honno, y rhai a ddeuant at y lladdedig a olchant eu dwylo vwch benn yr anner a dorr-ſynyglwyd yn y dyffryn.

7 Yna'r attebant, ac y dywedant ni ollyngodd ein dwylo ni y gwaed hwn: ac nis gwelodd ein llygaid.

8 Trugarhâ wrth bobl Iſrael y rhai a waredaiſt ô Arglwydd, ac na ddyro waed gwirion ym myſc dy bobl Iſrael: a maddeuir y gwaed iddynt hwy.

9 Felly y tynni ymmaith [affaith] y gwaed gwirion o'th fyſc, os ti a wnei'r iniawnder yngolwg yr Arglwydd.

10 Pan elech i ryfel yn erbyn dy elynnion, a rhoddi o'r Arglwydd dy Dduw hwynt yn dy law di: a chaeth-gludo o honot gaeth-glud o honynt,

11 A gweled o honot yn y gaeth-glud wraig brŷd-weddol, a'th fod yn fodlon iddi, ai chymmeryd it yn wraig:

12 Yna dwg hi i fewn dy dŷ: ac eillied hi ei phen, a thorred ei hewinedd.

13 A dioſced ddillad ei chaethiwed oddi am deni a thriged yn dy dŷ di, ac ŵyled [am] ei thâd, ai mam fîs o ddyddiau: ac wedi hynny yr ei di atti, ac y byddi ŵr iddi, a hithe fydd gwraig iti.

14 Ac oni byddi fodlon iddi, yna gollwng hi yn ôl ei hewyllys ei hun, a chan werthu na wertha hi er arian: na chais elw o honi, am i ti ei daroſtwng hi.

15 Pan fyddo i ŵr ddwy wragedd, vn yn gû, ac vn yn gâs, a phlanta o'r gu, a'r gâs feibion iddo ef: a bôd y mab cyntaf-anedic o'r [vn] gâs.

16 Yna bydded yn y dydd y cynhyſcaeddo efe ei feibion y rhai ſyddant iddo, na ddichon efe wneuthur yn gyntaf-anedic fab y gu o flaen mab y gaſedic, yr hwn ſydd gyntaf-anedic.

17 Ond mab y gâs yr hwn ſydd gyntaf-anedic a gydnebydd efe, gan roddi iddo ef y deuparth o'r hyn oll ar a gaffer yn eiddo ef: o achos hwn yw dechreuad ei nerth ef, iddo [y bydd] braint yr anedigaeth gyntaf.

18 Ond o bydd i ŵr fab cyndyn, ac anufydd heb iddo wrando a'r lais ei dâd, nac ar lais ei fam: a phan geryddant ef ni wrendu arnynt,

19 Yna ei dâd ai fam a ymaflant ynddo, ac

ai dygant at henuriaid ei ddinas ef, ac i borth ei drig-fan.

20 A dywedant wrth henuriaid ei ddinas ef, ein mab hwn ſydd gyndyn, ac anufydd heb iddo wrando ar ein llais, glŵth a meddwyn [yw efe.]

21 Yna holl ddynion ei ddinas ai llabyddiant ef a meini fel y byddo farw, felly y deleu di y drygioni o'th fyſc di: a holl Iſrael a glywant, ac a ofnant.

22 Ac o bydd mewn gŵr bechod [yn haeddu] barnedigaeth angau, ai farwolaethu: yna y crogi di ef wrth bren.

Galat.3.13. 23 Na thriged ei gelen tros nôs wrth y pren, [ond] gan gladdu ti ai cleddi ef o fewn y dydd hwnnw: o herwydd *melldith Duw [ſydd i'r hwn] a grogir: na haloga gan hynny dy dir, yr hwn y [mae]'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it yn etifeddiaeth.

## PEN. XXII.

Yr ymgeledd a ddylem ni ei wneuthur i ddâ ein cymydogion. 5 Ni chaiff gwryw wiſco dillad benyw: na benyw ddillad gwryw. 22 Coſpedigaeth am odineb.

Exod.23.4. NI chei weled *eidion dy frawd, neu ei ddafad yn cyfeiliorni, ac ymguddio oddi wrthynt: gan ddychwelyd dychwel hwynt i'th frawd.

2 Ac oni [bydd] dy frawd yn gyfagos attat, neu oni adwaenoſt ef: yna dwg hwnnw i fewn dy dŷ, a bydded gyd a thi, hyd pan ymofynno dy frawd am dano, yna dyro ef yn ei ôl iddo ef.

3 Ac felly y gwnei iw aſſyn ef, ac felly y gwnei iw ddillad ef, ac felly y gwnei i bôb collbeth i'th frawd, yr hwn a gyll oddi wrtho ef, a thithe yn ei gael: ni elli ymguddio.

4 Ni chei weled aſſyn dy frawd, neu ei ŷch yn gorwedd ar y ffordd, ac ymguddio oddi wrthynt, [onid] gan godi cyfot gyd ag ef.

5 Na fydded dilledyn gŵr am wraig, ac na wiſced gŵr wiſc gwraig: o herwydd ffiaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bawb a'r a wnêl hyn.

6 Pan ddamweinio nŷth aderyn i'th olwg ar dy ffordd mewn un pren, neu ar y ddaiar a chywion, neu ag ŵyau [ynddo,] a'r fam yn eiſtedd ar y cywion, neu ar yr ŵyau: na chymmer y fam gyd a'r cywion.

7 Gan ollwng ti a ollyngi y fam, a'r cywion a gymmeri i ti: fel y byddo daioni it, ac yr eſtynnech [dy] ddyddiau.

8 Pan adailadech dŷ newydd, yna y gwnei di ganllawiau [o amgylch] i'th nenn, fel na oſodech waed yn dy dŷ, pan ſyrthio neb o honaw.

9 Na haua yn dy winllan amryw [hâd:] rhac it halogi cynnyrch yr hâd yr hwn a hauech, a chnwd y winllan.

10 Nac ardd ag ŷch, ac ag aſſyn ynghyd.

Lefit.19.19. 11 Na *wiſc ddilledyn o amryw ddefnydd [megis o] wlan, a llîn yng-hyd.

Num.15.31. 12 *Plethau a weithi it ar bedwar cwr dy wiſc, yr hon yr ymwiſcech ynddi.

13 O chymmer gŵr wraig, ac wedi myned atti ei chaſau:

14 A goſod yn ei herbyn anair, a rhoddi allan enw drwg iddi, a dywedyd: y wraig hon a gymmerais, ac a neſſeais atti, ac ni chefais ynddi [arwyddion] morwyndod.

15 Yna cymmered tâd y llangces, ai mam: a dygant [arwyddion] morwyndod y llangces, at henuriaid y ddinas i'r porth.

16 A dyweded tâd y llangces wrth yr henuriaid, fy merch a roddais i'r gŵr hwn yn wraig: ai chaſau y mae efe.

17 Ac wele, efe a oſododd anair, gan ddywedyd: ni chefais yn dy ferch [arwyddion] morwyndod, ac fel dymma [arwyddion] morwyndod fy merch: yna lledant y dilledyn yngŵydd henuriaid y ddinas.

18 Yna henuriaid y ddinas honno, a gymmerant y gŵr, ac ai coſpant ef.

19 Ac ai dirwyant ef [mewn] cant [ſicl] o arian, ac ai rhoddant hwynt i dâd y llangces, o achos iddo ddwyn henw drwg ar y forwyn [o] Iſrael: a bydded hi yn wraig iddo, [ac] ni ddichon ei gyrru ymmaith [yn] ei holl ddyddiau.

20 Ond os gwir ſydd y peth hwnnw, [ſef] na chaffwyd [arwyddion] morwyndod yn y llangces:

21 Yna y dygant y llangces at ddrws tŷ ei thâd, a dynion ei dinas ai llabyddiant a meini oni byddo hi farw: am iddi wneuthur ffolineb yn Iſrael, gan butteinio yn nhŷ ei thâd, a thi a ddeleu y drygioni o'th fyſc.

22 O *cheffir gŵr yn gorwedd gyd a gwraig briodol [a] gŵr, byddant feirw ill dau [ſef] y gŵr yr hwn a orweddodd gyd a'r wraig, a'r wraig [hefyd:] felly y deleu y drygioni o Iſrael. Lefit.20.10.

23 O bydd llangces [o] forwyn wedi ei dyweddio i ŵr, a chael o ŵr hi mewn dinas, a gorwedd gyd a hi:

24 Yna y dygwch hwynt ill dau i borth y ddinas honno, ac ai llabyddiwch hwynt a meini fel y byddant feirw: y llangces o blegit na waeddodd, [a hithe] yn y ddinas, ac yntef y gŵr o herwydd iddo ef ddaroſtwng gwraig ei gymydog: felly ti a ddeleu ymmaith y drygioni o'th fyſc.

25 Ond os mewn maes y cafodd y gŵr y llangces (wedi ei dyweddio) ai threiſio o'r gŵr, a gorwedd gyd a hi: yna bydded farw y gŵr yr hwn a orweddodd gyd a hi yn unic.

26 Ond i'r llangces ni chei wneuthur dim, nid [oes] yn y llangces bechod [yn heuddu [marwolaeth, o herwydd megis y cyfyd gŵr yn erbyn ei gymydog, ai ddieneidio ef, yr un modd [ymae] y peth hyn.

27 O blegit yn y maes y cafodd efe hi: gwaeddodd y llangces [yr hon ſydd] wedi ei dyweddio, ac nid [oedd] achubudd iddi.

Exod.22.16. 28 *O chaiff gŵr langces o forwyn yr hon [ſydd] heb ei dyweddio, ai dal hi, a gorwedd gyda hi: ai dala hwynt:

29 Yna y rhydd y gŵr a orweddodd gyda hi i dâd y llangces ddec a deugain[dryll] o arian: ac iddo y bydd yn lle gwraig, am iddo ei darostwng hi, ni ddichon efe ei gyrru hi ymmaith [yn] ei holl ddyddiau.

30 Na chymmered neb wraig ei dâd: ac na ddinoethed odre ei dâd.

## P E N. XXIII.

1 Y rhaî ni chaent ſwyddau. 9 Am bechod ac aflendid. 15 am wâs ar encil. 17 am butteindra. 19 am addunedau. 24 Rhydd-did ar rawn-win ac yd gwr arall.

NA ddeued efnuch, neu diſpadd i gynnulleidfa'r Arglwydd.

2 Na ddeued baſterdyn i gynnulleidfa'r Arglwydd: y ddecfed genhedlaeth iddo hefyd ni chaiff ddyfod i gynnulleidfa'r Arglwydd.

Nehem.13.1. 3 Na ddeled * Ammoniad, na Moabiad i gynnulleidfa'r Arglwydd: y ddecfed genhedlaeth hefyd o honynt na ddeued i gynnulleidfa'r Arglwydd yn dragywydd:

4 O blegit ni chyfarfuant chwi a bara, ac a dwfr yn y ffordd wrth eich dyfod o'r Aipht: ac*o achos cyflogi i'th erbyn Balaam fab Beor o Pethor [ym] Meſopotamia i'th felldithio di. Num.22.5.

5 Etto'r Arglwydd dy Dduw ni fynnodd wrando ar Balaam, onid trôdd yr Arglwydd dy Dduw y felldith yn fendith it: canys hoffodd yr Arglwydd dy Dduw dy di.

6 Na chais eu heddwch hwynt, nai daioni hwynt dy holl ddyddiau byth.

7 Na ffieiddia Edomiad canys dy frawd yw: na ffieiddia Aiphtiad, o herwydd dieithr fuoſt yn ei wlad ef.

8 Deued o honynt i gynnulleidfa'r Arglwydd, y drydedd genhedlaeth o'r meibion, y rhai a genhedlir iddynt.

9 Pan elech allan [o'r] gwerſſyll yn erbyn dy elynion, yna ymgadw rhac pôb peth drwg.

10 O bydd vn o honot yr hwn ni fyddo lân oddi wrth ddamwain nôs: eled allan o'r gwerſſyll, na ddeued o fewn y gwerſſyll.

11 Ac ym mîn yr hwyr ymolched mewn dwfr: yna wedi machludo yr haul deued i fewn y gwerſſyll.

12 A bydded lle i ti o'r tu allan i'r gwerſſyll: ac yno yr ei di allan.

13 A bydded gennit raw ym myſc dy arfau, a bydded pan eiſteddech allan gloddio o honot a hi, yno trò di a gorchguddia dy dom.

14 O herwydd bod yr Arglwydd dy Dduw yn rhodio ym mhlith dy werſſyllau i'th waredu, ac i roddi dy elynnion o'th flaen di, am hynny bydded dy werſſyllau yn ſanctaidd: fel na welo ynot ti ddim brynti, a throi oddi wrthit.

15 Na ddyro at ei feiſtr wâs yr hwn a ddiangodd attat oddi wrth ei feiſtr.

16 Gyd a thi y trîg yn dy fyſc, yn y fan yr hon a ddewiſo, yn vn o'th byrth di, lle byddo da ganddo: [ac] na chyſtuddia ef.

17 Na fydded puttain o ferched Iſrael: ac na fydded putteini-wr o feibion Iſrael.

18 Na ddwg wobr puttain, na gwerth cî [i] dŷ'r Arglwydd dy Dduw mewn vn adduned: canys y maent ill dau yn ffiaidd gan yr Arglwydd dy Dduw di.

19 Na chymmer lôg gan dy frawd [ſef] Exod.22.25.
llôg arian, llôg bwyd, [na] llôg dim oll a'r a lefit.15.36.
lôger.

20 Gan eſtron y cymmeri lòg, ond na chymmer lôg gan dy frawd: fel y bendithio yr Arglwydd dy Dduw di ym mhob peth y rhoddech dy law arno, yn y tîr yr hwn yr ydwyt yn myned iddo iw oreſcyn.

21 Pan addunedech adduned i'r Arglwydd dy Dduw nac oeda ei thalu: canys yr Arglwydd dy Dduw gan ofyn ai gofyn gennit, yna y bydde yn bechod ynot.

22 Ond os peidi ac addunedu ni bydd pechod ynot.

23 Cadw, a gwna yr hyn a ddaeth allan o'th wefuſau, megis yr addunedaiſt i'r Arglwydd dy Dduw offrwm gwirfodd yr hwn a draethaiſt o'th enau.

24 Pan ddelech i winllan dy gymydog, yna bwytta o rawn-win dy wala wrth dy feddwl, ond na ddod i'th leſtr [yr vn.]

25 Pan ddelech i[faes o] ŷd dy gymydog,
* yna y cei dynnu y twyſſennau a'th law: ond ni Mat.12.1.
chei oſod crymman ar ŷd dy gymydog.

## P E N. XXIIII.

1 Am lythr yſgar. 5 Rhydd-did y gwr newydd briodi. 6 gwyſtl. 14 Talu cyflog. 16 Ac Iniondeb barn.

PAn gymmero gŵr wraig ai phriodi: yna bydded oni chaiff hi ffafor yn ei olwg ef (o achos iddo gael peth gwaradwyddus ynddi) ſcrifennu o honaw ynte iddi lythyr yſcar, ai roddi yn ei llaw hi, ai gollwng ymmaith oi dŷ.

2 Pan elo hi allan oi dŷ ef, a myned ymmaith, a bod yn eiddo gŵr arall.

3 Os ei gŵr diwethaf ai caſâ hi, ac a ſcrifenna lythyr yſcar iddi, ac ai rhydd yn ei llaw hi, ac ai gollwng hi oi dŷ: neu os bydd farw y gŵr diwethaf, yr hwn ai cymmerodd hi yn wraig iddo:

4 Ni ddichon ei phriod cyntaf, yr hwn ai gollyngodd hi ymmaith ddychwelyd iw chymmeryd hi i fod yn wraig iddo, wedi peri iddi ymhalogi, canys ffieidd-dra [yw] hyn o flaen yr Arglwydd: ac na wna i'r wlâd bechu yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti yn etifeddiaeth.

5 Pan gymmero gŵr wraig newydd nac eled efe i rhyfel, ac na rodder gofal dim arno: caiff fod gartref yn rhydd vn flwyddyn, i lawenhau ei wraig yr hon a gymmerodd.

6 Na chymmered[neb]faen iſſaf nac vchaf i felin ar wyſtl: canys y mae y cyfryw vn yn llygru enioes.

7 Pan geffir gŵr yn lledratta vn oi frodyr, o feibion Iſrael, ac yn ymelwa arno ef, neu yn ei werthu, yna lladder y lleidr hwnnw, a thyn di ymmaith y drygioni o'th fyſc.

Lefit.13.8. 8 Ymochel *ym mhlâ y gwahan-glwyf gan ddyfal gadw, a chan wneuthur yn ôl yr hyn oll a'r a ddyſcodd y Lefiadaidd offeiriaid i chwi: edrychwch am wneuthur megis y gorchymynnais wrthynt hwy.

Num.12.20. 9 Cofia yr hynn a wnaeth yr Arglwydd dy Dduw di i *Miriam ar y ffordd pan ddaethoch allan o'r Aipht.

10 Pan fenthygiech i'th gymydog fenthig dim, na ddos iw dŷ ef i gymmeryd ei wyſtl ef.

11 Allan y ſefi, a dyged y gŵr yr hwn y benthygiaiſt iddo y gwyſtl allan attat ti.

12 Ac os gŵr tlawd fydd efe, na chwſc ai wyſtl[gyd a thi.]

13 Gan ddadroddi dadrodd ei wyſtl iddo pan fachludo yr haul, fel y gorweddo yn ei wiſc, ac i'th fendithio di: a bydd[hyn]i ti yn gyfiawnder o flaen yr Arglwydd dy Dduw.

14 Na orthrymma wenidog tlawd, ac anghenus, o'th frodyr, neu o'th ddieithr-ddyn yr hwn [fydd]yn dy dîr o fewn dy byrth di.

Lefit.19.13. Tob.4.15. 15 *Yn ei ddydd y rhoddi iddo ei gyflog, ac na fachluded yr haul arno: canys tlawd yw, ac ar hyn y mae yn cynnal ei enioes, fel na lefo ar yr Arglwydd yn dy erbyn, a bôd pechod ynot.

2.bren.4.1. 2.cron.25 4. Ezec.18.20. 16*Na rodder i farwolaeth tadau tros feibion, ac na rodder meibion i farw tros dadau: pôb vn a roddir i farwolaeth am ei bechod ei hun.

17 Na ŵyra farn y dieithr[na'r] ymddifad: ac na chymmer ar wyſtloraeth wiſc y weddw.

18 Onid meddwl mai gwenidog fuoſt yn yr Aipht a'th waredu o'r Arglwydd dy Dduw oddi yno: am hynny'r wyfi yn gorchymyn it wneuthur y peth hyn.

19 Pan fedech dy gynhaiaf yn dy faes, ac anghofio yſcub yn y maes, na ddychwel iw chymmeryd[ond]bydded i'r dieithr, i'r ymddifad, ac i'r weddw: fel y bendithio 'r Arglwydd dy Dduw di yn holl waith dy ddwylo.

20 Pan eſcydwech dy oliwydden na loffa yn dy ol: bydded i'r dieithr, i'r ymddifad, ac i'r weddw.

21 Pan geſclech rawn-win dy winllan, na loffa yn dy ôl: bydded i'r dieithr, i'r ymddifad, ac i'r weddw.

22 Meddwl hefyd mae gwenidog fuoſt yn nhir yr Aipht: am hynny'r ydwyfi yn gorchymyn it wneuthur y peth hyn.

## PEN. XXV.

1 Iniondeb barn. 3 Meſur coſpedigaeth. 4 caiff y gweithudd fyw ar ei waith. 5 am ennill plant i'r hwn a fyddo farw yn ddiblant. 11 Coſpedigaeth gwraig ddigwilydd. 13 Iniondeb pwyſſau, a meſurau. 19 Gorchymyn am ddifetha Amalec.

PAn fyddo ymrafael rhwng dynion, ai dyfod i'r gyfraith iw barnu: yna cyfiawnhant y cyfiawn, a beiant y beius.

2 Ac o bydd y mab drygionus iw guro: yna pared y barnwr iddo orwedd, a phared ei guro ef ger ei fron ei hun yn ol ei ddryganieth dann rifedi.

3 Pared iddo ddeugain [gwialennod ac] na chwaneged, rhac chwanegu o honaw ei guro ef a llawer gwialennod vwch law hyn: a dirmygu dy frawd yn dy olwg.

1.Cor.9.9. 1.tim.5.18. Ruth.4.3. mat.22.24. mar.12.19. 4 *Na chae ſafn ŷch tra fyddo yn dyrnu.

5 Os* brodyr a drigant yng-hyd, a marw vn o honynt ac heb fab iddo, na phrioded gwraig y marw ŵr dieithr oddi allan: aed ei chyfathrach-wr atti, a chymmered hi yn wraig iddo, a gwnaed iddi ran cyfathrach-wr.

6 A bydded i'r cyntaf-anedic yr hwn a ymddwg hi ſefyll ar enw ei frawd yr hwn fu farw: fel na ddeleuer ei enw ef allan o Iſrael.

7 Ac oni bydd bodlon y gŵr i gymmeryd ei gyfathrach-wraig, yna aed ei gyfathrach-wraig i fynu i'r porth at yr henuriaid, a dyweded: gwrthododd fyng-hyfathrach-wr godi iw frawd enw yn Iſrael, ni fynne efe wneuthur rhan cyfathrach-wr a mi.

8 Yna galwed henuriaid ei ddinas am dano ef, ac ymryſymmant ag ef: o ſaif efe, a dywedyd, nid wyfi fodlon iw chymmeryd hi,

9 Yna neſſaed ei gyfathrach-wraig atto ef yng-ŵydd yr henuriaid a dattoded ei eſcîd ef oddi am ei droed, a phoered yn ei wyneb ef, a theſtiolaethed, a dyweded: felly y gwneir i'r gŵr yr hwn nid adailado dŷ ei frawd.

10 A gelwir ei henw ef yn Iſrael: tŷ 'r hwn y dattodwyd ei eſcid.

11 O therfyſca dynion yng-hyd,[ſef] gŵr ai frawd, a neſſau gwraig y naill i achub ei gŵr o law ei drawudd, ac eſtyn ei llaw ac ymaflyd yn ei warthle efe.

12 Torr ymmaith ei llaw hi: nac arbeded dy lygad[hi.]

23 Na fydded gennit yn dy gôd amryw bwys:[ſef] mawr a bychan.

14 Na fydded gennit yn dy dŷ amryw feſur:[ſef] mawr a bychan. Exod.16.36.

15 Bydded gennit garrec gyflawn, a chyfiawn, bydded gennit Epha gyflawn a chyfiawn: fel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaiar yr hon y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi it.

16 Canys ffiaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bôb vn a wnelo hyn,[ſef] pawb ar a wnel anwiredd.

17 *Cofia yr hyn a wnaeth Amalec i ti ar y ffordd pan ddaethoch allan o'r Aipht. Exod.17.8.

18 Yr hwn a'th gyfarfu ar y ffordd, ac a laddodd o honot yr holl weiniaid[y rhai oeddynt]

ddeffygiol:

o'th ôl di: a thi yn lluddedic, ac yn ddeffygiol: ac nid ofnodd efe Dduw.

19 Am hynny bydded pan eſmwytho 'r Arglwydd dy Dduw arnat oddi wrth dy holl elynnion oddi amgylch, yn y tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it yn etifeddiaeth iw oreſcyn, dynnu o honot ymmaith goffadwriaeth Amalec oddi tann y nefoedd: nac anghoſtia [hyn.]

## P E N. XXVI.

1 Offrymmiad y blaen-ffrwyth. 12 Degwm y drydedd flwyddyn. 17 Parch y rhai a wnel waſanaeth i Dduw.

A Phan ddelech i'r tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it yn etifeddiaeth: ai oreſcyn o honot a phreſſwylio ynddo:

2 Yna cymmer o bôb blaenffrwyth y ddaiar yr hwn a ddygi o'th dîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it: a goſot mewn cawell, a dôs i'r lle 'r hwn a ddewiſo 'r Arglwydd dy Dduw *i drigo oi enw ef ynddo.

Deut.12.5.

3 Yna dos at yr offeiriad yr hwn a fydd yn y dyddiau hynny, a dywet wrtho: yr ydwyſt yn mynegu heddyw i'r Arglwydd dy Dduw fy nyfod i'r tir, yr hwn a dyngodd yr Arglwydd wrth ein tadau ar [ei] roddi i ni.

4 A chymmered yr offeiriad y cawell o'th law di: a goſoded ef o flaen allor yr Arglwydd dy Dduw.

5 Yna atteb a dywet ger bron yr Arglwydd dy Dduw, Syriad, ar ddarfod am dano [oedd] fy nhad ac efe a ddeſcynnodd i'r Aipht, ac a ymdeithiodd yno ag ychydig bobl: ac a aeth yno yn genhedlaeth fawr, gref, ac aml.

6 A'r Aiphtiaid a'n drygodd ni, a chyſtuddiaſant ni, a rhoddaſant arnom waſanaeth caled.

7 Ond galwaſom ar Arglwydd Dduw ein tadau, a chlybu yr Arglwydd ein llais ni: gwelodd ein cyſtudd, a'n llafur, a'n gorthrymder.

8 A'r Arglwydd an dûg ni allan o'r Aipht mewn llaw gadarn, ac mewn braich eſtynnedic ac mewn ofn mawr, ac mewn arwyddion, ac mewn rhyfeddodau.

9 Ac efe a'n dûg ni i'r lle hwn, ac a roes i ni y tir hwn, [ſef] tir yn llifeirio o laeth, a mêl.

10 Ac yn awr wele mi a ddygais flaenffrwyth y tîr yr hwn a roddaiſt i mi ô Arglwydd: a gad ef ger bron yr Arglwydd dy Dduw, ac addola ger bron yr Arglwydd dy Dduw.

11 Ymlawenycha hefyd am bob daioni yr hwn a roddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti, ac i'th deulu: ty di, a'r Leſiad, a'r dieithr yr hwn [a fydd] yn dy fyſc.

12 Pan ddarffo it ddegymmu holl ddegwm dy gnwd yn y drydedd flwyddyn, [ſef] blwyddyn y degwm, yna y rhoddi i'r Leſiad, i'r dieithr, i'r ymddifad, ac i'r weddw: fel y bwyttânt yn dy byrth di, ac y digoner hwynt.

13 A dywet ger bron yr Arglwydd dy Dduw, dygais [y peth] cyſſegredic o'r tŷ, ac ai rhoddais ef i'r Leſiad, ac i'r dieithr, i'r ymddifad, ac i'r weddw: yn ol pob gorchymyn yr hwn a *orchymynnaiſt im, ni chroſſeddais [ddim] o'th orchymynnion, ac nis anghoſtiais.

Deut.14.27.

14 Ni fwytteais o honaw yn fyng-alar, ac ni ddygym ymmaith o honaw mewn halogedigaeth, ac ni roddais o honaw tros y marw: gwrandewais ar lais yr Arglwydd fy Nuw, gwneuthum yn ôl yr hyn oll a orchymynnaiſt i mi.

15 Edrych o drigle dy sancteiddrwydd [ſef] o'r nefoedd, a bendithia dy bobl Iſrael, a'r ddaiar yr hon a roddaiſt i ni, megis y tyngaiſt wrth ein tadau, [ſef] tîr yn llifeirio o laeth a mêl.

16 Y dydd hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn gorchymyn it wneuthur y deddfau hyn, a'r barnedigaethau: cadw dithe a gwna hwynt a'th holl galon, ac a'th holl enaid.

17 * Mawrygaiſt yr Arglwydd heddyw i fod yn Dduw i ti, ac i rodio [o honot] yn ei ffyrdd ef, ac i gadw ei ddeddfau, ai orchymynnion, ai farnedigaethau, ac i wrando ar ei lais ef.

Deut.7.6. deut.14.2.

18 Mawrygodd yr Arglwydd dithe heddyw i fod yn bobl unic iddo ef megis y llefarodd wrthit, ac i gadw [o honot] ei holl orchymynnion.

19 Ac i'th roddi * goruwch yr holl genhedloedd y rhai a wnaeth efe: mewn clod, ac mewn enw, ac mewn gogoniant: ac i fod o honot * yn bobl ſanctaidd i'r Arglwydd dy Dduw, megis y llefarodd efe.

Deut.4.7. deut.7.6.

## P E N. XXVII.

Gorchymyn ſcrifennu y gyfraith mewn carrec er coffadwriaeth. 5 Am adailadaeth yr allor. 12 Am y bendithion ar fynydd Garizim. 13 Am y melldithion ar fynydd Ebal.

YNA y gorchymynnodd Moſes, a henuriaid Iſrael i'r bobl gan ddywedyd: cedwch yr holl orchymynniō y rhai yr ydwyſti yn eu gorchymyn i chwi heddyw.

2 A bydded yn y dydd yr hwn yr elech tros yr Iorddonen i'r tîr yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it: godi o honot iti gerric mawrion, a chalcha hwynt a chalch.

3 Ac ſcrifenna arnynt holl eiriau y gyfraith hon, pan elech troſodd i fyned i'r tîr yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi it, [ſef] tîr yn llifeirio o laeth a mêl: megis ac y llefarodd Arglwydd Dduw dy dadau wrthit.

4 A phan eloch tros yr Iorddonen codwch y cerric hynn y rhai yr ydwyſti yn eu gorchymyn i chwi heddyw ym mynydd Ebal: a chalcha hwynt a chalch.

5 Ac *adailada yno allor i'r Arglwydd dy Dduw, [ſef] allor gerric, na chyfot arnynt [arf] haiarn.

Exod.20.25. Ioſ.8.31.

6 [A] cherric cyfan yr adailedi allor yr Arglwydd dy Dduw, yna offrymma arni boethoffrymmau, i'r Arglwydd dy Dduw.

7 Offrymma hefyd hedd aberthau, a bwytta yno, a llawenycha ger bron yr Arglwydd dy Dduw.

8 Ac ſcrifenna ar y cerric holl eiriau y gy-

fraith hon yn eglur ddigon.

9 A llefarodd Moſes, a'r offeiriaid Lefiadaidd wrth holl Iſrael gan ddywedyd: gwrando a chlyw ô Iſrael, y dydd hwn i'th wnaethbwyd yn bobl i'r Arglwydd dy Dduw.

10 Gwrando gan hynny ar lais yr Arglwydd dy Dduw, a gwna ei orchymynnion ef, ai ddeddfau y rhai 'r wyſt yn eu gorchymyn i ti heddyw.

11 A gorchymynnodd Moſes [i'r] bobl y dydd hwnnw gan-ddywedyd:

12 Y rhai hyn a ſafant i fendithio y bobl ar fynydd Garizim, pan eloch tros yr Iorddonen: Simeon, a Lefi, ac Iuda, ac Iſſachar, ac Ioſeph a Beniamin.

13 A'r hai hyn a ſafant i felldithio ar fynydd Ebal: Ruben, Gad, ac Aſer, Zabulon hefyd, Dan, a Nephthali.

14 Yna y Lefiaid a deſtiolaethant, ac a ddywedant wrth bob gŵr [o] Iſrael [a] llef vchel:

15 Melldigedic yw 'r gŵr yr hwn a wnêl ddelw gerfiedic, neu ddelw doddedic [ſef] ffieidd-dra 'r Arglwydd gwaith dwylo y ſaer, ac ai goſodo mewn [lle] dirgel: a'r holl bobl a attebant, ac a ddywedant, Amên.

16 Melldigedic yw 'r hwn a ddirmygo ei dâd, neu ei fam: a dyweded yr holl bobl Amen.

17 Melldigedic yw 'r hwn a ſymmudo derfyn ei gymydog: a dyweded yr holl bobl Amên.

18 Melldigedic yw 'r hwn a gyfeiliorno y dall o'r ffordd: a dyweded yr holl bobl Amên.

19 Melldigedic yw 'r hwn a wŷro farn y dieithr, yr ymddifad, a'r weddw: a dyweded yr holl bobl Amên.

20 Melldigedic yw 'r hwn a orweddo gŷd a gwraig ei dâd, o herwydd datcuddiodd odre ei dâd: a dyweded yr holl bobl Amên.

21 Melldigedic yw 'r hwn a orweddo gyd ag vn anifail, a dyweded yr holl bobl Amên.

22 Melldigedic yw 'r hwn a orweddo gyd ai chwaer, merch ei dâd, neu ferch ei fam ef: a dyweded yr holl bobl Amên.

23 Melldigedic yw 'r hwn a orweddo gyd ai chwegr: a dyweded yr holl bobl Amên.

24 Melldigedic yw 'r hwn a darawo ei gymydog yn ddirgel: a dyweded yr holl bobl Amên.

Ezec.22.12. 25 *Melldigedic yw 'r hwn a gymmero wobr er dieneidio [perchen] gwaed gwirion: a dyweded yr holl bobl Amên.

Gala.3.10. 26 *Melldigedic yw 'r hwn ni pharhâo yng-ciriau y gyfraith hon, gan eu gwneuthur hwynt: a dyweded yr holl bobl Amen.

## PEN. XXVIII.

Daioni Duw i'r rhai a gadwant ei orchymynnion ef. 15 Ai gosb i'r rhai nis cadwant.

Leuit.26.3. AC * os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw [a] gwneuthur ei holl orchymynnion ef, y rhai 'r ydwyſt yn eu gorchymyn i ti heddyw: yna 'r Arglwydd dy Dduw a'th eſyd yn vwch na holl genhedloedd y ddaiar.

2 A'r holl fendithion hyn a ddeuant arnat, ac a'th oddiweddant, os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw.

3 Bendigedic fyddi di yn y ddinas, a bendigedic fyddi di yn y maes.

4 Bendigedic fydd ffrwyth dy frû, a ffrwyth dy dîr, a ffrwyth dy anifail di, mwyniant dy warthec, a chorlannau dy ddefaid.

5 Bendigedic fydd dy gawell, a'th does di.

6 Bendigedic fyddi di yn dy ddyfodiad, bendigedic hefyd fyddi yn dy fynediad.

7 Rhydd yr Arglwydd dy elynnion y rhai a ymgodant i'th erbyn yn lladdedic o'th flaen di: drwy vn ffordd y deuant i'th erbyn, a thrwy ſaith o ffyrdd y ffoant o'th flaen.

8 Yr Arglwydd a orchymyn i ti y fendith yn dy dryſordai, ac yn yr hyn oll yr eſtynnech dy law arno: ac a'th fendithia yn y tîr yr hwn y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti.

9 Yr Arglwydd a'th gyfyd ti yn bobl ſanctaidd iddo ei hun megis y tyngodd wrthit: os cedwi orchymynnion yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei ffyrdd ef.

10 A holl bobloedd y ddaiar a welant fod henw yr Arglwydd yn alwedic arnat: ac a ofnant rhagot.

11 A'r Arglwydd a'th lwydda di mewn daioni, yn ffrwyth dy frû, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy ddaiar, yn y tîr yr hwn a dyngodd yr Arglwydd i'th dadau ar ei roddi i ti.

12 Yr Arglwydd a egyr ei dryſor daionus i ti, ſef y nefoedd i roddi glaw [i'th] dîr di yn ei amſer, ac i fendigo holl waith dy law: a thi a roddi echwyn i genhedloedd lawer, ac ni cheiſi echwyn.

13 A'r Arglwydd a'th rydd di yn ben, ac nid yn gynffon, hefyd ti a fyddi yn vchaf yn vnic ac nid yn iſaf, os gwrandewi ar orchymynnion yr Arglwydd dy Duw y rhai 'r ydwyſt yn gorchymyn it heddyw [eu] cadw, ai gwneuthur.

14 Ac heb gilio o honot oddi wrth yr holl eiriau y rhai yr wyſt yn eu gorchymyn i chwi heddyw i'r tu dehau neu i'r tu aſſwy: gan fyned ar ôl duwiau dieithr i'w gwaſanaethu hwynt.

15 A bydd, * oni wrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw [a] gwneuthur ei holl orchymynnion ef, ai ddeddfau, y rhai 'r ydwyſ yn eu gorchymyn i ti heddyw, y daw arnat yr holl felldithion hyn, ac a'th oddiweddant. Leuit.26.14. Mal.2.2.

16 Melldigedic fyddi di yn y ddinas, a melldigedic fyddi di yn y maes.

17 Melldigedic fydd dy gawell, a'th does di.

18 Melldigedic fydd ffrwyth dy frû, a ffrwyth dy ddaiar, mwyniant dy warthec, a chorlannau dy ddefaid.

19 Melldigedic fyddi di yn dy ddyfodiad, a melldigedic fyddi yn dy fynediad.

20 Yr Arglwydd a ddenfyn arnat ti feldith, trallod, a cherydd yn yr hyn oll yr eſtynnech dy law arno [ac yn] yr hyn a wnelech, nes iddo dy ddiniſtrio, a'th ddifetha di yn gyſlym, am ddrygioni dy weithredoedd [yn] y rhai i'm gwrthodaiſt i.

21 Yr Arglwydd a wna i haint lynu wrthit nes iddo dy ddifa oddi ar y tir yr hwn yr ydwyt ti yn myned iddo iw oreſcyn.

Lefit.26.16. 22 * Yr Arglwydd a'th deru a chwydd, ac a chryd poeth, ac a lloſcfa, ac a gwrês, ac a chleddyf, ac a diſlanniad, ac a mallder, a hwynt a'th ddilynant nes dy ddifetha.

23 Dy nefoedd hefyd y rhai [ydynt] uwch dy benn a fyddant yn brês, a'r ddaiar yn hon [ſydd] oddi tanat yn haiarn.

24 Yr Arglwydd a rydd [yn lle] glaw dy ddaiar, lwch, a lludw: o'r nefoedd y deſcyn arnat hyd onith ddiniſtrir.

25 Yr Arglwydd a wna it ſyrthio o flaen dy elynnion, drwy un fford yr ei di yn eu herbyn hwynt, a thrwy ſaith o ffyrdd y ffoi oi blaen hwynt: a thi a fyddi ar waſcar dros holl deyrnaſoedd y ddaiar.

26 A'th gelen a fydd bwyd i holl ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y tir, ac ni [bydd] tarfudd.

27 Yr Arglwydd a'th deru di a chornwyd yr Aipht, ac a chlwyf y marchogion, ac a chrach, ac ag yſſa: y rhai nid ellir eu hiachau.

28 Yr Arglwydd a'th deru di ag ynfydrwydd, ac a dallineb, ac a ſyndra calon.

29 Byddi hefyd yn ymbalfalu ganol dydd, fel yr ymbalfale y dall yn y tywyllwch, ac ni lwyddi yn dy ffyrdd di: a diau y byddi orthrymmedic, ac anrhaithiedic byth, ac ny [bydd] gwaredudd.

30 Ti a ymgredi a gwraig, a gŵr arall a gyd-orwedd a hi, ti a adeiledi dŷ, ac ni thrigi ynddo, ti a blenni winllan, ac ni cheſcli y ffrwyth.

31 Dy ŷch a leddir yn dy olwg, ac ni fwyttei o honaw, dy aſſyn a ddugir drwy drais o flaen dy wyneb, ac ni ddaw adref attat: dy ddefaid a roddir i'th elynnion, ac ni [bydd] i ti achubudd.

32 Dy feibion a'th ferched a roddir i bobl eraill, a'th lygaid yn gweled, ac yn pallu am danynt bob dydd, ac ni [bydd] yng-allu dy law [eu gwared.]

33 Ffrwyth dy ddaiar a'th holl lafur a fwyttu pobl y rhai nis adnabuoſt: a byddi yn unic orthrymmedic, a drylliedic yr holl ddyddiau.

34 A byddi wall-gofus gan weledigaeth dy lygaid, yr hon a welech.

35 Yr Arglwydd a'th deru di a chornwyd drygionus yn y gliniau, ac yn yr eſceiriau, yr hwn ni ellir ei iachau: o wadn dy droed hyd dy gorun.

36 Yr Arglwydd a'th ddwg di, (a'th frenin yr hwn a oſodech arnat) at genedl yr hon nid adnabuoſt di na'th dadau di: a gwaſanaethi yno dduwiau dieithr [o] bren, neu faen.

37 A byddi yn * rhyfeddod, yn ddammeg, ac yn ddihareb ym mhlith yr holl bobloedd y rhai'r arwain yr Arglwydd di attynt. Ier.24.9. Ier.25.9.

38 *Hâd lawer a ddygu allan i'r maes: ac ychydig a geſcli, o herwydd Locuſt ai hyſſa ef. Mic.6.15. Ag.1.6.

39 Gwinllannoedd a blenni, ac a goleddi, ond gwin nid yfi, ac ni cheſcli [y grawn-win] canys pryfed ai bwyttu.

40 Oliwydd a fyddant i ti, o fewn dy holl derfyn, ac ag olew ni'th îrir: o herwydd dy oliwydden a ddyhidla.

41 Meibion, a merched a genhedli, ac ni byddāt i ti: o herwydd hwy a ânt mewn caethiwed.

42 Dy holl brennau, a ffrwythau dy dir a oreſcyn y Locuſt.

43 Y dieithr yr hwn [a fydd] yn dy fyſc, a ddring arnat yn uchel uchel: a thi a ddeſcynni yn iſſel iſſel.

44 Efe a fenthyga i ti, a thi ni fenthygi iddo ef: efe a fydd yn ben, a thi a fyddi'n gynffon.

45 A'r holl feldithion hyn a ddeuant arnat, ac a'th erlidiant, ac a'th oddiweddant, hyd onith ddiniſtrir: am na wrandewaiſt ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw ei orchymynnion, ai ddeddfau ef, y rhai a orchymynnodd i ti.

46 A byddant yn arwydd, ac yn rhyfeddod ynot ti, ac yn dy hâd hyd byth.

47 O blegit na waſanaethaiſt yr Arglwydd dy Dduw mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch calon: am amldra pob dim.

48 Am hynny y gwaſanaethi di dy elynnion y rhai a ddenfyn yr Arglwydd yn dy erbyn, mewn newyn, ac mewn ſyched, ac mewn noethni, ac mewn eiſieu pob dim: ac efe a ddyru iau haiarn ar dy wddf hyd oni ddiniſtrio efe dydi.

49 Yr Arglwydd a ddwg i'th erbyn genedl o bell [ſef] o eithaf y tir, megis ac yr eheda yr eryr: cenedl yr hon ni ddealli ei hiaith.

50 Cenedl wyneb-galed, yr hon ni dderbyn wyneb yr henafgwr: ac ni bydd raſſon i'r llangc.

51 Ac y hi a fwyttu ffrwyth dy anifeiliaid, a ffrwyth dy ddaiar, hyd onith ddiniſtrir: yr hon ni weddilla i ti ŷd, gwin, nac olew, mwyniant dy warthec, na chorlannau dy ddefaid hyd onith ddifetho di.

52 A hi a warche arnat ti yn dy holl byrth, hyd oni ſyrthio dy uchel a'th gedyrn gaerau, y rhai'r ydwyt yn ymddyried ynddynt, o fewn dy holl dîr: hi a warche hefyd arnat yn dy holl byrth o fewn dy holl dir yr hwn a roddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

53 * Frwyth dy fru, [ſef] cig dy feibion, a'th ferched y rhai a roddodd yr Arglwydd dy Dduw it a fwyttei yn y gwarche, ac yn y cyfyngdra yr hwn a ddwg dy elyn arnat. Lefit.26.29. 2.Bren.6.29. Barwc.2.3.

54 Y gŵr tyner yn dy blith, a'r moethus iawn a * greulona ei lygad wrth ei frawd, ac wrth wraig ei fynwes, ac wrth weddill ei feibion y rhai a weddillodd efe. Deut.15.10.

55 Rhac rhoddi i un o honynt o gig ei feibi-

ōn, y rhai a ſwyttu efe: o eiſieu gado iddo ddim yn y gwarche, ac yn y cyfyngdra, yr hwn a gyfyngodd dy elyn arnat o fewn dy holl byrth.

56 Y wraig dyner a'r foethus yn dy fyſc, yr hon ni phrofodd oſod gwadn ei throed ar y ddaiar, gan ſwythe a thynêrwch a greulona ei llygad wrth ŵr ei mynwes, ac wrth ei mab, ac wrth ei merch.

57 Ac wrth ei bogel yr hwn a ddaw allan oi chorph, ai meibion y rhai a blanta hi, canys hi ai bwyttu hwynt yn ddirgel pan ballo pob dim [arall] yn y gwarche, ac yn y cyfyngdra, yr hwn a gyfyngo dy elyn arnat o fewn dy byrth.

58 Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, y rhai ydynt ſcrifennedic yn y llyfr hwn, gan ofni'r henw gogoneddus, ac ofnadwy hwn Yr Arglwydd dy Duw:

59 Yna y gwna'r Arglwydd dy blauau di yn rhyfedd, a phlauau dy hâd: [ſef] plauau mawrion, a pharhaus, a chlefydau drygionus, a pharhaus.

60 Ac efe a ddwg attat holl glwyfau yr Aipht y rhai yr ofnaiſt rhacddynt, a glynant wrthit.

61 Ie pob clefyd a phob plâ yr hwn nid yw ſcrifennedic yn llyfr y gyfraith hon a ddwg yr Arglwydd arnat, hyd oni'th ddiniſtrir.

62 Felly chwi a adewir yn ychydig bobl, lle yr oeddech fel * ſêr y nefoedd o luoſogrwydd: o herwydd na wrandewaiſt ar lais yr Arglwydd dy Dduw.

Deut.10.22.
Gen.15.5.

63 A bydd megis ac y llawenychodd yr Arglwydd ynoch wrth wneuthur daioni iwch, ac wrth eich amlhâu: felly y llawenycha yr Arglwydd ynoch chwi, gan eich diniſtrio a'ch diſetha chwi: a diwreiddir chwi o'r tîr yr hwn yr ydwyt yn myned iddo iw oreſcyn.

64 A'r Arglwydd a'th waſcar di ym mhlith yr holl bobloedd o'r [naill] gwrr i'r ddaiar, hyd y cwrr [arall] i'r ddaiar: a gwaſanaethi yno dduwiau dieithr y rhai nid adnabuoſt ti, na'th dadau [ſef] pren, a maen.

65 Ac ym-mhlith y cenhedloedd hyn ni orphwyſi, ac ni bydd gorphwyſdra i wadn dy droed, canys yr Arglwydd a rydd it yno galon aflonydd, a darfodigaeth llygaid, a gofal meddwl.

66 A'th enioes a fydd yn crogi gyferbyn a thi, a thi a ofni nos, a dydd, ac ni byddi ſiccr o'th enioes.

67 Y borau y dywedi, ô na ddeue yr hwyr, ac yn yr hwyr y dywedi, ô na ddeue y borau: rhac dychryn dy galon, [gan] yr hwn y dychryni, a rhac gweledigaeth di lygaid yr hon a welech.

68 A'r Arglwydd a'th ddychwel di i'r Aipht mewn llongau ar hyd y ffordd yr hon y dywedais wrthit na chwanegit ei gweled mwy: a chwi a ymwerthwch yno i'ch gelynnion yn gaeth-weiſion, ac yn gaeth-forwynion: ac ni [bydd] prynnudd.

## PEN. XXIX.

Moſes trwy amryw reſymmau ſydd yn annog y bobl i gadw gorchymyn Duw, ai gyſammod.

Dymma eiriau y cyfammod yr hwn a orchymynnodd'r Arglwydd wrth Moſes ei wneuthur a meibion Iſrael o fewn tir Moab: heb law y cyfammod yr hwn a ammododd efe a hwynt yn Horeb.

2 Yna y galwodd Moſes am holl Iſrael, ac y dywedodd wrthynt: chwi a welſoch yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd o flaen eich llygaid chwi yn nhîr yr Aipht i Pharao, ac iw holl weiſion, ac iw holl dir.

3 [Sef] y profedigaethau mawrion y rhai a welodd eich llygaid, yr arwyddion, a'r rhyfeddodau mawrion hynny.

4 Ond ni roddodd yr Arglwydd i chwi galon i wybod, na llygaid i weled, na chluſtiau i glywed hyd y dydd hwn.

5 Arweinais chwi yn yr anialwch ddeugain mlhynedd hefyd: ni heneiddiodd eich dillad am danoch, ac ni heneiddiodd dy eſcid am dy droed.

6 Bara ni fwyttaſoch, a gwîn neu ddiod gref nid yfaſoch: fel y gwyddech mai myfi [oeddwn] yr Arglwydd eich Duw chwi.

7 A daethoch hyd y lle hwn: yna y daeth allan Sehon brenin Heſbon, ac Og brenin Baſan i'n cyfarfod mewn rhyfel, ac ni ai lladdaſom hwynt:

8 Ac a ddugaſom eu tîr hwynt, ac ai rhoeſom yn etifeddiaeth i'r Rubeniaid, ac i'r Gadiaid, ac i hanner llwyth Manaſſes.

9 * Cedwch gan hynny eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt, fel y dealloch yr hyn oll a ddylech ei wneuthur. Deut.4.6.

10 Yr ydych chwi oll yn ſefyll heddyw ger bron yr Arglwydd eich Duw: eich pennacthiaid, eich llwythiau, eich henuriaid, a'ch ſwyddogion [a] phôb gŵr o Iſrael:

11 Eich plant, eich gwragedd, a'th ddieithr [ddyn] yr hwn [ſydd] o fewn dy werſyll, o gymynudd dy goed, hyd wahennudd dy ddwfr.

12 I fyned o honot dann gyfammod yr Arglwydd dy Duw, a thān ei gyngrair ef, yr hwn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei wneuthur a thi heddyw.

13 I'th ſiccrhau heddyw yn bobl iddo ei hun, ac i fod o honaw yntef yn Dduw i ti, megis y llefarodd wrthit, ac fel y tyngodd wrth dy dadau, [ſef] wrth Abraham, wrth Iſaac, ac wrth Iacob.

14 Ac nid a chwi yn unic yr ydwyfi yn gwneuthur y cyfammod hwn, a'r cyngrair ymma:

15 Ond a'r hwn ſydd ymma gyd a ni yn ſefyll heddyw ger bron yr Arglwydd ein Duw, ac a'r hwn nid [yw] ymma gyd a ni heddyw.

16 Canys chwi a ŵyddoch y modd y trigaſom ni yn nhîr yr Aipht, a'r modd y daethom trwy ganol y cenhedloedd y rhai ŷ daethoch trwyddynt.

17 A chwi a welſoch eu ffiaidd-dra hwynt, ai heulun dduwiau, (o bren, a maen, arian, ac aur,) y rhai [oeddynt] gyd a hwynt.

18 Rhac bod yn eich myſc ŵr, neu wraig, neu deulu, neu lwyth, yr hwn y trŷ ei galon heddyw oddi wrth yr Arglwydd ein Duw, i fyned i waſanaethu duwiau y cenhedloedd hyn: rhac bod yn eich myſc wreiddin yn ffrwytho gwenwyn, ac wermod,

19 A bod pan glywo efe eiriau y cyngrair hwn ymfendithio o honaw yn ei galon ei hun, gan ddywedyd: heddwch fydd i mi pan rodiwyf yng-hyndynrwydd fyng-halon i chwanegu y feddw at y ſychedic.

20 Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo, canys yna y mŷga digllonedd yr Arglwydd, ai eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnnw, a'r holl felldith yr hon ſydd ſcrifennedic yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r Arglwydd a ddelea ei enw ef oddi tann y nefoedd.

21 A'r Arglwydd ai naillcua ef oddi wrth holl lwythau Iſrael i [gael] drygioni, yn ôl holl felldithion y cyfammod yr hwn a ſcrifennwyd yn llyfr y gyfraith hon.

22 A dywed y genhedlaeth yr hon a ddaw ar ôl, [ſef] eich plant chwi y rhai a godant ar eich ôl chwi, a'r dieithr yr hwn a ddaw o wlâd bell pan welant blauau y wlâd hon, ai chlwyfau [trwy]'r hai y lleſcaodd yr Arglwydd hi:

23 (Ei thîr wedi ei loſci oll [gan] frwmſtan, a halen, ni heuir, ac ni flaen-dardda, ac ni ddaw i fynu un llyſſieun ynddo: fel diniſtr * Sodoma, a Gomorra, Adama, a Zeboim, y rhai a ddiniſtriodd yr Arglwydd yn ei ddigllonedd, ai ddigofaint.) Geneſ.19.25.

24 A'r holl genhedloedd a ddywedant, * pa ham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r tîr hwn? pa digter yw y digllonedd mawr hyn? 1.Bren.9.8. Ierem.22.8.

25 Yna y dywedir, am wrthod o honynt gyfammod Arglwydd Dduw eu tadau, yr hwn a ammododd efe a hwynt, pan ddûg efe hwynt allan o dîr yr Aipht.

26 Canys aethant, a gwaſanaethaſant dduwiau dieithr, ac ymgrymmaſant iddynt [ſef] dduwiau y rhai nis adwaenent hwy, ac ni roddaſent iddynt [ddim.]

27 Am hynny'r enynnodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn y wlâd hon, i ddwyn arni bob melldith a'r y ſydd ſcrifennedic yn y llyfr hwn.

28 A'r Arglwydd ai diniſtriodd hwynt oi tîr mewn digllonedd, ac mewn digter, ac mewn llid mawr: ac ai gyrrodd hwynt i wlâd arall megis [y gwelir] heddyw.

29 Y dirgeledigaethau [ydynt] eiddo'r Arglwydd ein Duw, a'r amlwg bethau [a roddwyd] i ni, ac i'n meibion hyd byth, i wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.

## PEN. XXX.

Addewid o drugaredd os edifarhae y bobl. 6 Duw yn enwaedu y galon. 11 Nid gwiw cymmeryd eſcus o annwybodaeth. 19 y mae efe yn rhoddi enioes, ac angeu oi blaen hwynt.

A Phan ddelo'r holl bethau hyn arnat, [ſef] y fendith, a'r felldith y rhai a roddais o'th flaen, ac ail cofio o honot [hwynt] ym myſc yr holl genhedloedd, y rhai i'th fwrw'r Arglwydd dy Dduw di attynt:

2 A dychwelydd o honot at yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando o honot ar ei lais ef (yn ol yr hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw) ti, a'th feibion, a'th holl galon, ac a'th holl enaid,

3 Yna y dychwel yr Arglwydd dy Dduw dy gaethiwed, ac y cymmer drugaredd arnat, ac y trŷ, ac a'th gaſcl o fyſc yr holl bobloedd, y rhai i'th waſcaro'r Arglwydd dy Dduw di attynt.

4 Pe i'th wthyr i eithaf y nefoedd, oddi yno i'th gaſcle'r Arglwydd dy Dduw, ac oddi yno i'th gymmere di.

5 Yr Arglwydd dy Dduw a'th ddŵg i'r tîr yr hwn a oreſcynnodd dy dadau, a thithe ai goreſcynni: ac efe a fydd dda wrthit, ac a'th wna yn amlach na'th dadau.

6 A'r Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon, a chalon dy hâd i garu'r Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, er mwyn byw o honot.

7 A'r Arglwydd dy Dduw a rydd yr holl felldithion hyn ar dy elynion, ac ar dy gaſeion, y rhai a'th erlidiant di.

8 Tithe a ddychweli, ac a wrandewi ar lais yr Arglwydd, ac a wnei ei holl orchymynnion ef, y rhai'r ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddyw.

9 A'r Arglwydd dy Dduw a wna it ragori, yn holl waith dy law, yn ffrwyth dy frû, ac yn ffrwyth dy anifeiliaid, ac yn ffrwyth dy ddaiar, canys trŷ'r Arglwydd i lawenychu ynot, gan wneuthur daioni [it] fel y llawenychodd yn dy dadau,

10 Os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, gan gadw ei orchymynnion ef, ai ddeddfau y rhai ydynt ſcrifennedic yn llyfr y gyfraith hon: os dychweli at yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid.

11 O herwydd y gorchymyn ymma'r hwn yr ydwyf yn ei orchymyn i ti heddyw, nid cuddiedic [yw] efe oddi wrthit, ac nid pell [yw] efe.

12 Nid yn y nefoedd [y mae] efe, i ddywedyd [o honot] *pwy a ddring drosom i'r nefoedd, ac ai dwg i ni, fel y clywom ni, ac y gwnelom ef? Rhuf.10.6.

13 Ac nid o'r tu hwnt i'r môr [y mae] efe i ddywedyd [o neb,] pwy a dramwya troſom ni i'r tu hwnt i'r môr, ac ai dwg i ni, fel y clywom, ac y gwnelom ef:

14 Canys y gair ſydd agos iawn attat, yn dy enau, ac yn dy galon iw wneuthur ef.

15 Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes, a daioni, ac angeu, a drygioni.

16 Lle yr ydwyfi yn gorchymyn i ti heddyw garu 'r Arglwydd dy Dduw, gân rodio yn ei ffyrdd ef, a chan gadw ei orchymynnion, ai ddeddfau, ai farnedigaethau ef: fel y byddech fyw, ac i'th amlhâer, ac i'th fendithio 'r Arglwydd dy Dduw yn y tîr, yr hwn yr wyt yn myned iddo iw oreſcyn.

17 Ond os trŷ dy galon fel na wrandewech, a'th yrru i ymgrymmu o honot i dduwiau dieithr, ai gwaſanaethu hwynt:

18 Mynegais i chwi heddyw mai gan ddifetha i'ch difethir, [ac] nad eſtynnwch ddyddiau ar y ddaiar yr hon yr ydwyt yn myned tros yr Iorddonen i fyned i mewn iddi iw goreſcyn.

Deut.4.26. 19 * Gelwais yn dŷſt i'th erbyn heddyw y nefoedd, a'r ddaiar, roddi o honof o'th flaen angeu, ac einioes, fendith a melldith: dewis dithe yr einioes fel y byddech fyw ti a'th hàd.

20 Gan garu 'r Arglwydd dy Dduw, gan wrando ar ei lais ef, a chan lynu wrtho ef: canys efe yw dy einioes, ac eſtynniad dy ddyddiau i drigo ar y ddaiar, yr hon a dyngodd yr Arglwydd wrth dy dadau, wrth Abraham, wrth Iſaac, ac wrth Iacob ar ei rhoddi iddynt.

## PEN. XXXI.

1 Moſes erbyn ei farw yn goſod Ioſuah i lywodraethu y bobl. 9 Ac yn rhoddi y gyfraith at y Lefiaid iw darllen i'r bobl. 19 Duw yn rhoddi cân yn deſtiolaeth rhyngddo ei hun a'r bobl. 23 ac yn cadarnhau Ioſuah. 29 Moſes yn rhybyddio y bobl oi hanufydd-dod i Dduw wedi ei farwolaeth ef.

YNA 'r aeth Moſes, ac a lefarodd y geiriau hyn wrth holl Iſrael:

2 Ac a ddywedodd wrthynt, mab chwech-ugain-mlwydd ydwyfi heddyw, ni allaf mwy fyned allan, a dyfod i mewn: yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrthif, ni chei fyned * tros yr Iorddonen hon.

Num.20.12. Deut.3.26.

3 Yr Arglwydd dy Dduw ſydd yn myned troſodd o'th flaen di, efe a ddiniſtria y cenhedloedd hyn o'th flaen, fel y goreſcynnech hwynt: * Ioſuah hefyd fydd yn myned troſodd o'th flaen, fel y llefarodd yr Arglwydd.

Num.27.18.

4 A'r Arglwydd a wna iddynt fel y gwnaeth i Sehon, ac i Og, brenhinoedd yr Amoriaid, ac iw tir hwynt, y rhai a ddiniſtriodd efe.

5 A rhydd yr Arglwydd hwynt o'ch blaen chwi, gwnewch chwithe iddynt hwy yn ôl yr *holl orchymynnion y rhai a orchymynnais i chwi.

Deut.7.2.

6 Ymgadarnhewch, ac ymnerthwch, nac ofnwch, ac na ddychrynnwch rhagddynt, canys yr Arglwydd dy Dduw ſydd yn myned gyd a thi: ni'th edu efe di, ac ni'th wrthit.

7 Galwodd Moſes hefyd ar Ioſuah, a dywedodd wrtho ef yng-olwg holl Iſrael: ymgadarnhâ, ac ymnertha: canys ti a ddygu y bobl ymma i'r tîr yr hwn a dyngodd yr Arglwydd wrth eu tadau hwynt ar ei roddi iddynt, a thi ai rhenni yn etifeddiaeth iddynt.

8 Yr Arglwydd hefyd ſydd yn myned o'th flaen di, efe a fydd gyd a thi, ni'th edu, ac ni'th wrthit, nac ofna, ac na lwfrhâ.

9 A Moſes a ſcrifennodd y gyfraith hon, ac ai rhoddes at yr offeiriaid meibion Lefi, arweinwŷr Arch cyfammod yr Arglwydd, ac at holl henuriaid Iſrael.

10 A Moſes a orchymynnodd iddynt gan ddywedyd: yn ôl [pob] *ſaith mlynedd, ar yr amſer nodedic,* ar flwyddyn y gollyngdod, ar ŵyl y pebyll:

Nehem.8.2. Deut.15.1.

11 Pan ddelo holl Iſrael i ymddangos gerbron yr Arglwydd dy Dduw yn y lle 'r hwn a ddewiſo efe, y darlleni y gyfraith hon, o flaen holl Iſrael lle y clywant.

12 Cynnull y bobl, y gwŷr, y gwragedd, a'r plant, a'th dieithr [ddyn] yr hwn [ſydd] o fewn dy byrth fel y gwrandawant, ac fel y dyſcant, ac yr ofnant yr Arglwydd eich Duw: ac yr edrychât am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.

13 Ac fel y clywo ac y dyſco eu meibion hwynt, (y rhai ni wyddant) ofni 'r Arglwydd eich Duw yr holl ddyddiau y rhai y byddoch byw ar y ddaiar yr hon yr ydych yn myned iddi tros yr Iorddonen iw goreſcyn.

14 A dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, wele dy ddyddiau a ddaethant i farw, galw Ioſuah, a ſefwch ym mhabell y cyfarfod, fel y rhoddwyf orchymynnion iddo ef: yna 'r aeth Moſes, ac Ioſuah, ac a ſafaſant ym mhabell y cyfarfod.

15 A'r Arglwydd a ymddangoſodd yn y babell mewn colofn niwl, a'r golofn niwl a ſafodd ar ddrŵs y babell.

16 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Moſes, wele di ar orwedd gyd a'th dadau, a'r bobl ymma a gyfyd ac a butteiniant ar òl duwiau dieithriaid y tir yr hwn y maent hwy yn myned i mewn iddo, ac am gwrthyd i, ac a ddiddymma fyng-hyfammod yr hwn a wneuthum ag ef.

17 A'm dîg a ennyn yn eu herbyn y dydd hwnnw, ac mi ai gwrthodaf hwynt, ac a guddiaf fy wyneb oddi wrthynt: yna y bwytteir ef, a drygau lawer, a chyfyngderau, a ddigwyddant iddo ef, a'r dydd hwnnw y dywed efe, onid am nad [yw] 'r Arglwydd yn fy myſc y digwyddodd y drwg hwn i mi?

18 Canys myfi gan guddio a guddiaf fy wyneb y dydd hwnnw, am yr holl ddrygioni 'r hyn a wnaeth efe, pan drôdd at dduwiau dieithr.

19 Scrifennwch yr awran gan hynny i chwi y gân hon, dyſc hi hefyd i feibion Iſrael, [a] goſot hi yn eu genau hwynt, fel y byddo y gân hon yn dŷſt i mi yn erbyn meibion Iſrael.

20 Canys dygaf ef i dîr yn llifeirio o laeth, a mêl, yr hwn a addewais trwy lŵ iw dadau ef: fel y bwyttu, ac y digoner, ac yr elo yn frâs ond efe â drŷ at dduwiau dieithr, ac ai gwaſanaetha hwynt, ac a'm dirmyga fi, ac a ddiddymma fyng-hyfammod.

21 Yna pan ddigwyddo iddo ddrygau lawer, a chyfyngderau y bydd i'r gân hon deſtiolaethu yn dŷſt yn ei wyneb ef: canys nac anghofier hi o enau ei hâd ef, o herwydd mi a adwen ei amcan ef, yr hwn y mae efe yn ei wneuthur heddyw, cyn dwyn o honofi ef i'r tir yr hwn a addewais trwy lŵ.

22 Yna yr ſcrifennodd Moſes y gân honno ar y dydd hwnnw, ac ai dyſcodd hi i feibion Iſrael.

23 Gorchymynnodd efe hefyd i Joſuah fab Nun, a dywedodd, * ymgadarnhâ, ac ymnertha, canys ti a arweini feibion Iſrael i'r tîr yr hwn trwy lŵ a addewais iddynt, a minne a fyddaf gyd a thi.

Ioſu.1.6.

24 A phan ddarfu i Moſes ſcrifennu geiriau y gyfraith hon ar lyfr hyd eu diwedd,

25 Yna y gorchymynnodd Moſes i'r Lefiaid y rhai oeddynt yn dwyn Arch cyfammod yr Arglwydd, gan ddywedyd:

26 Cymmerwch lyfr y gyfraith hon, a goſodwch ef ar yſtlys Arch cyfammod yr Arglwydd eich Duw, a bydded yno yn dŷſt i'th erbyn.

27 Canys mi a adwen dy wrthnyſſigrwydd, a'th wargaledrwydd, wele a'm fi etto yn fyw gyd a chwi heddyw, gwrthryfelgar yn erbyn yr Arglwydd fuoch, a pha faint fwy [y byddwch] wedi fy marw?

28 Ceſclwch attaf holl henuriaid eich llwythau, a'ch ſwyddogion fel y llefarwyf yr holl eiriau hyn lle y clywant hwy, ac y cymmerwyf yn dyſtion yn eu herbyn hwynt y nefoedd a'r ddaiar.

29 Canys gwn mai wedi fy marw gan lygru y llygrwch, ac y ciliwch o'r ffordd, yr hon a orchymynnais i chwi, ac y digwydda i chwi ddrygioni yn y dyddiau diweddaf, am y gwnelwch ddrygioni yng-olwg y, Arglwydd, gan ei ddigio ef yng-weithredoedd eich dwylo.

30 A llefarodd Moſes lle y clywu holl gynnulleidfa Iſrael eiriau y gân hon hyd ei diwedd.

## PEN. XXXII.

1 Cân yn cynnwys daioni Duw i Iſrael. 15 Eu hanniolch-garwch hwythau. 20 Ai coſpedigaeth. 44 Moſes yn cynghori y bobl i gadw y gyfraith, ai dyſcu iw plant. 48 Duw yn rhybuddio Moſes am ei farwolaeth.

YGwrandewch y nefoedd, a llefaraf: clywed y ddaiar eiriau fyng-enau.

2 Fy athrawiaeth a ddefnynna fel glaw, fy ymadrodd a ddifera fel gwlith: fel gwlithlaw ar i'r-wellt, ac fel cafodau ar lyſſiau.

3 Canys enw yr Arglwydd a gyhoeddafi, rhoddwch fawredd i'n Duw ni:

4 Y Duw ſydd berffaith ei weithred, canys ei holl lwybrau ydynt gyfiawn: Duw ffyddlon, ac heb anwiredd, cyfiawn ac iniawn [yw] efe.

5 Y genhedlaeth ŵyrog, a throfaus a ymlygrodd yn ei erbyn ef trwy eu bai, heb [fod] yn blant iddo ef.

6 Ai i'r Arglwydd y telwch hyn bobl ynfyd ac angall? ond efe [yw] dy dâd, [a'th] brŷn-ŵr? efe a'th wnaeth, ac a'th ffurfiodd.

7 Cofia ddyddiau tragywyddoldeb, deallwch flynyddoedd cenhedlaeth, a chenhedlaeth, gofyn i'th dâd, ac efe a fynega i ti, i'th henuriaid, ac hwy a ddywedant wrthit.

8 Pan gyfrannodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenhedloedd, pan ddoſparthodd efe feibion Adda, y goſododd efe derfynau y bobloedd, yn ôl rhifedi meibion Iſrael.

9 Canys rhan yr Arglwydd [yw] ei bobl ef, Iacob [yw] rhan ei etifeddiaeth ef.

10 Efe ai cafodd ef mewn tir anialwch, ac mewn gwâg vdfa ddiffaethwch yr amgylchodd efe ef, ac y parodd iddo ddeall, ac y cadwodd ef fel cannwyll ei lygad.

11 Fel y cyfyd eryr ei nŷth, y caſtella dros ei gywion, y lleda ei eſcill, y cymmer ef, ac yr arwain ef ar ei adenydd:

12 [Felly] yr Arglwydd yn vnic ai harweiniodd yntef, ac nid [oedd] duw dieithr gyd ag ef.

13 Gwnaeth iddo farchogeth ar vchelder y ddaiar, a bwytta cnwd y maes, ac iddo ſugno mêl o'r graig, ac olew o'r graig galleſtr.

14 Ymenyn gwarthec, a llaeth defaid, yng-hyd a braſder ŵyn, a hyrddodd meibion Baſan, a bychod, yng-hyd a braſder grawn gwenith, a phur-waed grawn-wîn a yfaiſt.

15 A'r inion a aeth yn frâs, ac a wingodd, braſſeaiſt, tewychaiſt, pwyntiaiſt: gwrthododd hefyd Dduw yr hwn ai gwnaeth, a diyſtyrodd graig ei iechydwriaeth.

16 A dieithr [dduwiau] y gyrraſant eiddigedd arno, a ffieidd-dra y digiaſant ef.

17 Aberthaſant i gythreuliaid, nid [i] Dduw, [ond i] dduwiau [y rhai] nid adwaenent, [duwiau] newydd a ddaethant o agos [y rhai] nid ofnodd eich tadau.

18 Y Duw a'th genhedlodd a anghofiaiſt di, a'r Duw a'th luniodd a ollyngaiſt ti tros gof.

19 Yna y gwelodd yr Arglwydd, ac a gyffroiwyd gan ddig [wrth] ei feibion, ai ferched.

20 Ac a ddywedodd, cuddiaf fy wyneb oddi wrthynt, edrychaf beth [fydd] eu diwedd hwynt: canys cenhedlaeth drofaus [ydynt]

hwy, meibion heb ffyddlondeb ynddynt.

Rhuſ.10.19.

21 Hwynt a yrraſant eiddigedd arnaf, a'r [peth] nid [oedd] dduw, digiaſant fi ai hoferedd: * minne a yrraf eiddigedd arnynt a'r [rhai] nid [ydynt] bobl: a chenedl ynfyd y digiaf hwynt.

22 Canys tân a gynneu yn fy nig, ac a lŷſc hyd uffern iſod, ac a ddifa y tîr ai gynnyrch, ac a wna i ſylfeini y mynyddoedd ffaglu.

23 Caſclaf ddrygau yn eu herbyn, treuliaf fy ſaethau arnynt.

24 Lloſcedic [fyddant gan] newyn, ac wedi eu bwytta gan wrês, a chwerw ddiniſtr, anfonaf heſyd arnynt ddaint anifail, yng-hyd a chynddaredd ſeirph daiarol.

25 Oddi allan y diddymma y cleddyf, ac o'r ſtafelloedd ofn, yn gyſtal y gŵr ieuangc, a'r weryf: y plentyn ſugno yng-hyd a'r gŵr brig-lwyd.

26 Dywedais gwaſcaraf hwynt, paraf iw coffadwriaeth ddarfod o fyſc dynnion.

27 Oni bai i'm ofni dig y gelyn, rhac ymddieithro oi gwrthwynebwŷr hwynt, [a] rhac dywedyd o honynt, ein llaw uchel ni, ac nid yr Arglwydd a wnaeth hyn oll.

28 Canys cenhedlaeth golledig[am]gynghorion ydynt hwy, ac heb ddeall ynddynt.

29 Oh na baent ddoethiõ, na ddeallent hyn, na ddeallent eu diwedd eu hun.

30 Pa fodd yr ymlidie un fil: ac y gyrre dau fyrddiwn i ffoi: ond am eu gwerthu oi Duw hwynt, a chaeu o'r Arglwydd arnynt.

31 Canys nid fel ein Duw ni [y mae] eu duw hwynt, a'n gelynion [fyddant] farn-wŷr.

32 Canys o wîn-wydden Sodom, ac o feuſydd Gomorra [y mae] eu gwin-wydden hwynt, eu grawn-win hwynt [ydynt] rawn-win buſtlaidd, chwerw wryſc grawn-win[ſydd]iddynt.

33 Gwenwyn dreigiau [yw] eu gwin hwynt, a chreulon wenwyn aſpiaid.

34 Onid yw hyn yng-hudd gyd a'm fi, wedi ei ſelio ym myſc fy nhryſorau:

Rhuſ.12.18.

35 I* mi [y perthyn] dial, a thalu y pwyth, mewn pryd y llithria eu troed hwynt, canys agos yw dydd eu trychineb, a phryſuro y mae yr hyn a baratoiwyd iddynt.

36 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl, ac a doſturia wrth ei weiſion, pan welo ymado y nerth, ac nad [oes] na gwarchaedic, na gweddilledic.

37 Ac efe a ddywed pa le[y mae]eu duwiau hwynt,[a'r]graig yr ymddyriedaſant ynddi:

38 Y rhai y bwyttaſant fraſder eu haberthau,[ac]yr yfaſant win eu diod offrwm, codant a chynnorthwyant chwi, a byddant loches i chwi.

39 Gwelwch bellach mai myfi, myfi [yw] efe, ac nad oes duw onid myfi: myfi ſydd yn lladd, ac yn bywhau: myfi a archollaf, ac mi a feddiginiaethaf, ac ni bydd a achubo o'm llaw.

40 Canys codaf fy llaw hyd y nefoedd, a dywedaf: mi a fyddaf fyw byth.

41 Os hogaf fyng-hleddyf diſclaer, ac ymaflyd o'm llaw mewn barn, dychwelaf ddial ar fyng-elynnion, a thalaf y pwyth i'm caſeion.

42 Meddwaf fy ſaethau a gwaed, a'm cleddyf a fwyttu gîg: am waed y lladdedig, a'r caeth o ddechreu dialeddau y gelyn.

43 Y cenhedloedd cenwch [iw] bobl ef, canys efe a ddial waed ei weiſion, ac a ddychwel ddial ar ei elynion: ac a drugarha wrth ei dîr, [ai] bobl ei hun.

44 Yna y daeth Moſes, ac a lefarodd holl eiriau y gân hon lle y clybu y bobl: efe ac Ioſuah mab Nun.

45 A darfu i Moſes lefaru 'r holl eiriau hyn, wrth holl Iſrael:

46 A dywedodd wrthynt, meddyliwch yn eich calõnau am yr holl eiriau y rhai yr ydwyfi yn eu teſtiolaethu wrthych chwi heddyw, y rhai a orchymynnwch i'ch plant, i edrych am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.

47 Canys nid gair ofer yw hwn oddi wrthych chwi, o herwydd eich einioes chwi [yw] efe: a thrwy y gair hwn yr eſtynnwch ddyddiau yn y tir yr hwn yr ydych yn myned iddo tros yr Iorddonen iw oreſcyn.

48 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moſes yng-horph y dydd hwnnw, gan ddywedyd:

49 Eſcynn i'r mynydd Abarim hwn, [ſef] mynydd Nebo yr hwn [ſydd] yn nhir Moab ar gyfer Iericho: ac edrych wlâd Canaan yr hon yr ydwyfi yn ei rhoddi i feibion Iſrael yn etifeddiaeth.

50 Canys byddi farw yn y mynydd yr hwn yr eſcynni iddo, a thi a geſclir at dy bobl: megis y bu farw Aaron dy frawd ym mynydd Hor, ac y caſclwyd ef at ei bobl.

51 O herwydd gwrthryfelaſoch i'm herbyn ym myſc meibion Iſrael wrth ddyfroedd cynnen Cades [yn] anialwch Zin: o blegit ni'm ſanctaiddiaſoch ym mhlith meibion Iſrael.

52 Canis y wlâd a gei di ei gweled ar [dy] gyfer, ac yno nid ei i'r tir, yr hwn yr ydwyfi yn [ei] roddi i feibion Iſrael.

## PEN. XXXIII.

Moſes yn bendithio y bobl cyn ei farw. 26 Ac yn dangos rhagoriaeth Duw a rhagoriaeth ei bobl ef.

AC dymma y fendith [drwy] 'r hon y bendithiodd Moſes (gŵr Duw) feibion Iſrael o flaen ei farwolaeth.

2 Ac efe a ddywedodd, yr Arglwydd a ddaeth allan o Sinai, ac a gododd o Seir iddynt, ymlewyrchodd o fynydd Pharan: ac efe a ddaeth gyda myrddiwn o ſainct [a] thanllyd gyfraith oi ddeheulaw iddynt.

3 Caru y mae efe y bobl, ei holl ſainct [ydynt] yn dy law: a hwynt a ymlynaſant wrth dy draed, [ac] a gymmeraſant o'th eiriau.

Moſes

4 Moſes a orchymynnodd gyfraith i ni yn etifeddiaeth cynnulleidfa Iacob.

5 Ac efe oedd [fel] brenin yn Iſrael, pan ymgaſclodd pennau y bobl yng-hyd [a] llwythau Iſrael.

6 Bydded fyw Ruben, ac na fydded farw, a bydded ei ddynion [ychydig o] rifedi.

7 [Bydded] hyn hefyd i Iuda, a dywedodd clyw ô Arglwydd lais Iuda, ac at ei bobl dwg ef, digon yw iddo ei ddwylo ei hun, os byddi yn gymmorth rhac ei elynion.

8 Ac am Lefi y dywedodd, dy Thummim, a'th Urim [a roddaiſt] i'th ŵr trugarog yr hwn a brofaiſt ym Maſſa, [ac] a gynhennaiſt ag ef wrth ddyfroedd y gynnen,

9 Yr hwn a ddywedodd am ei dâd, ac am ei fam (ni welais ef) ai frodyr nis adnabu, ac nid adnabu ei feibion ei hun: canys cadwaſant dy eiriau, a chynhaliaſant dy gyfammod.

10 Dyſcant dy farnedigaethau i Iacob, a'th gyfraith i Iſrael: goſodant arogldarth yn dy ffroen, a lloſc-aberth ar dy allor.

11 Bendithia ô Arglwydd ei olud ef, a bydd fodlon i waith ei ddwylo ef: archolla lwynau [y rhai] a godant iw erbyn, ai gaſeion fel na chodant.

12 Am Beniamin y dywedodd efe, annwylyd yr Arglwydd a drig mewn diogelwch gyd ag ef, yr hwn a fydd yn cyſcodi trosto yr holl ddydd ac yn aros rhwng ei yſcwyddau ef.

13 Ac am Ioſeph y dywedodd efe, ei dîr ef ſydd wedi ei fendigo o'r Arglwydd a hyfrydwch y nefoedd, a gwlith, ac a dyfnder yn gorwedd iſod.

14 Hefyd a hyfrydwch cynnyrch yr haul, ac a hyfrydwch addfed-ffrwyth y lleuadau.

15 Ac a [hyfrydwch] penn mynyddoedd y dwyrain, ac a hyfrydwch brynnau tragywyddoldeb.

16 Ac a hyfrydwch y ddaiar, ac ai chyflawnder, a bodd preſſwylydd y berth a ddelo ar benn Ioſeph,* ac ar goryn yr hwn a naillduwyd oddi wrth ei frodyr.

Gene.29.46.

17 Cyntafanedic ei ŷch ef [ſydd] brydferthwch iddo, ai gyrn ef [ydynt] gyrn unicorn, a hwynt y cornia efe y bobl ynghyd [hyd] eithafoedd y ddaiar: ac dymma fyrddiwn Ephraim, îe dymma filoedd Manaſſes.

18 Ac am Zabulon y dywedodd efe, ymlawenycha Zabulon yn dy fynediad allan, a [thi] Iſſachar yn dy bebyll.

19 Galwant bobloedd i'r mynydd, yna 'r aberthant ebyrth cyfiawnder: canys cyfoeth y moroedd a ſugnant, a chuddiedic dryſſorau y tywod.

20 Ac am Gad y dywedodd efe, bendigedic yw ehangudd Gad, megis llew y mae efe yn aros, fel y rhwygo efe yr yſcwyddoc a'r penn.

21 Edrychodd am dano ei hun yn y dechreuad canys yno ['r ydoedd] ran y cyfraith-wr yn guddiedic, efe a ddaeth [gyd] a phennaethiaid y bobl, gwnaeth efe gyfiawnder yr Arglwydd, ai farnedigaethau gyd ag Iſrael.

22 Am Dan hefyd y dywedodd efe, Dan yn genew llew a neidia o Baſan.

23 Ac am Nephthali y dywedodd efe, ô Nephthali llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr Arglwydd: goreſcyn di y gorllewyn a'r dehau.

24 Ac am Aſer y dywedodd efe, bendigedic o feibion [fydd] Aſer: bydd efe gymmeradwy [gan] ei frodyr, ac efe a wlych ei droed mewn olew.

25 Haiarn a phrês [a fyddant] dan dy eſcid ti: a megis dy ddyddiau [y bydd] dy nerth.

26 Nid [oes] megis Duw Iſrael yr hwn ſydd yn marchogeth y nefoedd, yn gymmorth it: a'r wybrennau yn ei fawredd.

27 [Dy] noddfa [yw] Duw tragywyddol, a thann freichiau tragwyddol [y byddi fyw,] efe a wthia dy elyn o'th flaen, ac a ddywed difetha [ef.]

28 Iſrael hefyd a drîg ei hun yn ddiogel, ffynnon Iacob [a fydd] mewn tîr ŷd, a gwîn: ei nefoedd hefyd a ddiferant wlith.

29 Gwynfydedic wyt ti o Iſrael pwy [ſydd] megis ti: ô bobl gadwedic gan yr Arglwydd tarian dy gynhorthwy, yr hwn hefyd [yw] cleddyf dy ardderchawgrwydd: a'th elynion a ymoſtyngãt i ti, a thi a ſethri a'r eu huchel-leoedd hwynt.

## PEN. XXXIIII.

Moſes wedi gweled gwlâd Canaan yn marw. 8 Iſrael yn wylo am dano. 9 Ioſuah yn cael ei ſwydd ef. 10 Clod Moſes.

YNa Moſes a eſcynnodd ô roſſydd Moab, i fynydd Nebo [i] ben y brynn yr hwn [ſydd] ar gyfer Iericho: a'r Arglwydd a ddangoſodd iddo holl wlâd Gilead, hyd Dan.

2 A holl Nephthali, a thîr Ephraim, a Manaſſes, a holl dîr Iuda, hyd y môr olaf.

3 Y dehau hefyd, a gwaſtadedd dyffryn Iericho, dinas y palm-wŷdd hyd Zoar.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, dymma y tîr yr hwn a dyngais i Abraham, i Iſaac, ac i Iacob, gan ddywedyd: i'th hâd ti y rhoddaf ef, perais it ei weled a'th lygaid, ond nid ei di troſodd yno.

5 A Moſes gwâs yr Arglwydd a fu farw yno yn nhîr Moab, yn ôl gair yr Arglwydd.

6 Ac efe ai claddodd ef mewn glyn yn nhîr Moab gyferbyn a Beth-Peor: ac nid adnabu neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.

7 A Moſes [ydoedd] fab ugain mlwydd a chant, pan fu efe farw, ni chrychaſe ei lygad, ac ni chiliaſe ei ireidd-dra ef.

8 A meibion Iſrael a wylaſant am Moſes yn rhoſſydd Moab ddeng-nhiwrnod ar hugain: a chyflawnwyd dyddiau wylofain galar Moſes.

9 Ac Ioſuah mab Nun [ydoedd] gyflawn o yſpryd doethineb, o herwydd Moſes a roddaſe ei ddwylo arno: a meibion Iſrael a wran-

hwy, meibion heb ffyddlondeb ynddynt.

Rhuf.10.19.

21 Hwynt a yrraſant eiddigedd arnaf, a'r [peth] nid [oedd] dduw, digiaſant fi ai hoferedd: * minne a yrraf eiddigedd arnynt a'r [rhai] nid [ydynt] bobl: a chenedl ynfyd y digiaf hwynt.

22 Canys tân a gynneu yn fy nig, ac a lŷſc hyd vffern iſod, ac a ddifa y tîr ai gynnyrch, ac a wna i ſylfeini y mynyddoedd ffaglu.

23 Caſclaf ddrygau yn eu herbyn, treuliaf fy ſaethau arnynt.

24 Lloſcedic [fyddant gan] newyn, ac wedi eu bwytta gan wrês, a chwerw ddiniſtr, anfonaf hefyd arnynt ddaint anifail, yng-hyd a chynddaredd ſeirph daiarol.

25 Oddi allan y diddyma y cleddyf, ac o'r ſtafelloedd ofn, yn gyſtal y gŵr ieuangc, a'r weryf: y plentyn ſugno yng-hyd a'r gŵr brig-lwyd.

26 Dywedais gwaſcaraf hwynt, paraf iw coffadwriaeth ddarfod o fyſc dynnion.

27 Oni bai i'm ofni dig y gelyn, rhac ymddieithro oi gwrthwynebwŷr hwynt, [a] rhac dywedyd o honynt, ein llaw vchel ni, ac nid yr Arglwydd a wnaeth hyn oll.

28 Canys cenhedlaeth golledig[am]gynghorion ydynt hwy, ac heb ddeall ynddynt.

29 Oh na baent ddoethiõ, na ddeallent hyn, na ddeallent eu diwedd eu hun.

30 Pa fodd yr ymlidie vn fil: ac y gyrre dau fyrddiwn i ffoi: ond am eu gwerthu oi Duw hwynt, a chaeu o'r Arglwydd arnynt.

31 Canys nid fel ein Duw ni [y mae] eu duw hwynt, a'n gelynion [fyddant] farn-wŷr.

32 Canys o wîn-wydden Sodom, ac o feuſydd Gomorra [y mae] eu gwin-wydden hwynt, eu grawn-win hwynt [ydynt] rawn-win buſtlaidd, chwerw wryſc grawn-win[ſydd]iddynt.

33 Gwenwyn dreigiau [yw] eu gwîn hwynt, a chreulon wenwyn aſpiaid.

34 Onid yw hyn yng-hudd gyd a'm fi, wedi ei ſelio ym myſc fy nhryſorau:

Rhuf.12.18.

35 I* mi [y perthyn] dial, a thalu y pwyth, mewn prŷd y llithria eu troed hwynt, canys agos yw dydd eu trychineb, a phryſuro y mae yr hyn a baratoiwyd iddynt.

36 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl, ac a doſturia wrth ei weiſion, pan welo ymado y nerth, ac nad [oes] na gwarchaedic, na gweddilledic.

37 Ac efe a ddywed pa le[y mae]eu duwiau hwynt,[a'r]graig yr ymddyriedaſant ynddi:

38 Y rhai y bwyttaſant fraſder eu haberthau,[ac] yr yfaſant win eu diod offrwm, codant a chynnorthwyant chwi, a byddant loches i chwi.

39 Gwelwch bellach mai myfi, myfi [yw] efe, ac nad oes duw onid myfi: myfi ſydd yn llâdd, ac yn bywhau: myfi a archollaf, ac mi a feddiginiaethaf, ac ni bydd a achubo o'm llaw.

40 Canys codaf fy llaw hyd y nefoedd, a dywedaf: mi a fyddaf fyw bŷth.

41 Os hogaf fyng-hleddyf diſclaer, ac ymaflyd o'm llaw mewn barn, dychwelaf ddial ar fyng-elynnion, a thalaf y pwyth i'm caſeion.

42 Meddwaf fy ſaethau a gwaed, a'm cleddyf a ſwyttu gîg: am waed y lladdedig, a'r caeth o ddechreu dialeddau y gelyn.

43 Y cenhedloedd cenwch [iw] bobl ef, canys efe a ddial waed ei weiſion, ac a ddychwel ddial ar ei elynion: ac a drugarha wrth ei dîr, [ai] bobl ei hun.

44 Yna y daeth Moſes, ac a leſarodd holl eiriau y gân hon lle y clybu y bobl: efe ac Ioſuah mab Nun.

45 A darfu i Moſes leſaru 'r holl eiriau hyn, wrth holl Iſrael:

46 A dywedodd wrthynt, meddyliwch yn eich calõnau am yr holl eiriau y rhai yr ydwyf yn eu teſtiolaethu wrthych chwi heddyw, y rhai a orchymynnwch i'ch plant, i edrych am wneuthur holl eiriau y gyfraith hon.

47 Canys nid gair ofer yw hwn oddi wrthych chwi, o herwydd eich enioes chwi [yw] efe: a thrwy y gair hwn yr eſtynnwch ddyddiau yn y tir yr hwn yr ydych yn myned iddo tros yr Iorddonen iw oreſcyn.

48 A'r Arglwydd a leſarodd wrth Moſes yng-horph y dydd hwnnw, gan ddywedyd:

49 Eſcynn i'r mynydd Abarim hwn, [ſef] mynydd Nebo yr hwn [ſydd] yn nhir Moab ar gyfer Iericho: ac edrych wlâd Canaan yr hon yr ydwyf yn ei rhoddi i feibion Iſrael yn etifeddiaeth.

50 Canys byddi farw yn y mynydd yr hwn yr eſcynni iddo, a thi a geſclir at dy bobl: megis y bu farw Aaron dy frawd ym mynydd Hor, ac y caſclwyd ef at ei bobl.

51 O herwydd gwrthryfelaſoch i'm herbyn ym myſc meibion Iſrael wrth ddyfroedd cynnen Cades [yn] anialwch Zin: o blegit ni'm ſanctaiddiaſoch ym mhlith meibion Iſrael.

52 Canis y wlâd a gei di ei gweled ar [dy] gyfer, ac yno nid ei i'r tir, yr hwn yr ydwyf yn [ei] roddi i feibion Iſrael.

## PEN. XXXIII.

Moſes yn bendithio y bobl cyn ei farw. 26 Ac yn dangos rhagoriaeth Duw a rhagoriaeth ei bobl ef.

AC dymma y fendith [drwy] 'r hon y bendithiodd Moſes (gŵr Duw) feibion Iſrael o flaen ei farwolaeth.

2 Ac efe a ddywedodd, yr Arglwydd a ddaeth allan o Sinai, ac a gododd o Seir iddynt, ymlewyrchodd o fynydd Pharan: ac efe a ddaeth gyda myrddiwn o ſainct [a] thanllyd gyfraith oi ddeheulaw iddynt.

3 Caru y mae efe y bobl, ei holl ſainct [ydynt] yn dy law: a hwynt a ymlynaſant wrth dy draed, [ac] a gymmeraſant o'ch eiriau.

4 Moſes a orchymynnodd gyfraith i ni yn etifeddiaeth cynnulleidfa Iacob.

5 Ac efe oedd [fel] brenin yn Iſrael, pan ymgaſclodd pennau y bobl yng-hyd [a] llwythau Iſrael.

6 Bydded fyw Ruben, ac na fydded farw, a bydded ei ddynion [ychydig o] rifedi.

7 [Bydded] hyn hefyd i Iuda, a dywedodd clyw ô Arglwydd lais Iuda, ac at ei bobl dwg ef, digon yw iddo ei ddwylo ei hun, os byddi yn gymmorth rhac ei elynion.

8 Ac am Lefi y dywedodd, dy Thummim, a'th Urim [a roddaiſt] i'th wr trugarog yr hwn a brofaiſt ym Maſſa, [ac] a gynhennaiſt ag ef wrth ddyfroedd y gynnen,

9 Yr hwn a ddywedodd am ei dâd, ac am ei fam (ni welais ef) ai frodyr nis adnabu, ac nid adnabu ei feibion ei hun: canys cadwaſant dy eiriau, a chynhaliaſant dy gyfammod.

10 Dyſcant dy farnedigaethau i Iacob, a'th gyfraith i Iſrael: goſodant arogldarth yn dy ffroen, a lloſc-aberth ar dy allor.

11 Bendithia ô Arglwydd ei olud ef, a bydd fodlon i waith ei ddwylo ef: archolla lwynau [y rhai] a godant iw erbyn, ai gaſeion fel na chodant.

12 Am Beniamin y dywedodd efe, annwylyd yr Arglwydd a drig mewn diogelwch gyd ag ef, yr hwn fydd yn eyſcodi troſto yr holl ddydd ac yn aros rhwng ei eſcwyddau ef.

13 Ac am Ioſeph y dywedodd efe, ei dîr ef ſydd wedi ei fendigo o'r Arglwydd a hyfrydwch y nefoedd, a gwlith, ac a dyfnder yn gorwedd iſod.

14 Hefyd a hyfrydwch cynnyrch yr haul, ac a hyfrydwch addfed-ffrwyth y lleuadau.

15 Ac a [hyfrydwch] penn mynyddoedd y dwyrain, ac a hyfrydwch brynnau tragywyddoldeb.

16 Ac a hyfrydwch y ddaiar, ac ai chyflawnder, a bodd preſſwylydd y berth a ddelo ar benn Ioſeph,* ac ar goryn yr hwn a naillduwyd oddi wrth ei frodyr.

Gene.29.46.

17 Cyntafanedic ei ŷch ef [ſydd] brydferthwch iddo, ai gyrn ef [ydynt] gyrn unicorn, a hwynt y cornia efe y bobl ynghyd [hyd] eithafoedd y ddaiar: ac dymma fyrddiwn Ephraim, îe dymma filoedd Manaſſes.

18 Ac am Zabulon y dywedodd efe, ymlawenycha Zabulon yn dy fynediad allan, a [thi] Iſſachar yn dy bebyll.

19 Galwant bobloedd i'r mynydd, yna'r aberthant ebyrth cyfiawnder: canys cyfoeth y moroedd a ſugnant, a chuddiedic dryſſorau y tywod.

20 Ac am Gad y dywedodd efe, bendigedic yw ehangudd Gad, megis llew y mae efe yn aros, fel y rhwygo efe yr yſcwyddoc a'r penn.

21 Edrychodd am dano ei hun yn y dechreuad canys yno ['r ydoedd] ran y cyfraith-wr yn guddiedic, efe a ddaeth [gyd] a phennaethiaid y bobl, gwnaeth efe gyfiawnder yr Arglwydd, ai farnedigaethau gyd ag Iſrael.

22 Am Dan hefyd y dywedodd efe, Dan yn genew llew a neidia o Baſan.

23 Ac am Nephthali y dywedodd efe, ô Nephthali llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr Arglwydd: goreſcyn di y gorllewyn a'r dehau.

24 Ac am Aſer y dywedodd efe, bendigedic o feibion [ſydd] Aſer: bydd efe gymmeradwy [gan] ei frodyr, ac efe a wlych ei droed mewn olew.

25 Haiarn a phrês [a fyddant] dan dy eſcid ti: a megis dy ddyddiau [y bydd] dy nerth.

26 Nid [oes] megis Duw Iſrael yr hwn ſydd yn marchogeth y nefoedd, yn gymmorth it: a'r wybrennau yn ei fawredd.

27 [Dy] noddfa [yw] Duw tragywyddol, a thann freichiau tragwyddol [y byddi fyw,] efe a wthia dy elyn o'th flaen, ac a ddywed difetha [ef.]

28 Iſrael hefyd a drîg ei hun yn ddiogel, ffynnon Iacob [a fydd] mewn tîr ŷd, a gwîn: ei nefoedd hefyd a ddiferant wlith.

29 Gwynfydedic wyt ti o Iſrael pwy [ſydd] megis ti? ô bobl gadwedic gan yr Arglwydd tarian dy gynhorthwy, yr hwn hefyd [yw] cleddyf dy ardderchawgrwydd: a'th elynion a ymoſtyngāt i ti, a thi a ſethri a'r eu huchel-leoedd hwynt.

## PEN. XXXIIII.

Moſes wedi gweled gwlâd Canaan yn marw. 8 Iſrael yn wylo am dano. 9 Ioſuah yn cael ei ſwydd ef. 10 Clod Moſes.

YNa Moſes a eſcynnodd ô roſſydd Moab, i fynydd Nebo [i] ben y brynn yr hwn [ſydd] ar gyfer Iericho: a'r Arglwydd a ddangoſodd iddo holl wlâd Gilead, hyd Dan.

2 A holl Nephthali, a thîr Ephraim, a Manaſſes, a holl dîr Iuda, hyd y môr olaf.

3 Y dehau hefyd, a gwaſtadedd dyffryn Iericho, dinas y palm-wŷdd hyd Zoar.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, dymma y tîr yr hwn a dyngais i Abraham, i Iſaac, ac i Iacob, gan ddywedyd: i'th hâd ti y rhoddaf ef, perais it ei weled a'th lygaid, ond nid ei di troſodd yno.

5 A Moſes gwâs yr Arglwydd a fu farw yno yn nhîr Moab, yn ôl gair yr Arglwydd.

6 Ac efe ai claddodd ef mewn glyn yn nhîr Moab gyferbyn a Beth-Peor: ac nid adnabu neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.

7 A Moſes [ydoedd] fab ugain mlwydd a chant, pan fu efe farw, ni chrychaſe ei lygad, ac ni chiliaſe ei ireidd-dra ef.

8 A meibion Iſrael a wylaſant am Moſes yn rhoſſydd Moab ddeng-nhiwrnod ar hugain: a chyflawnwyd dyddiau wylofain galar Moſes.

9 Ac Ioſuah mab Nun [ydoedd] gyflawn o yſpryd doethineb, o herwydd Moſes a roddaſe ei ddwylo arno: a meibion Iſrael a wran-

dawſant arno, ac a wnaethant fel y gorchymynnaſe'r Arglwydd wrth Moſes.

10 Ac ni chododd prophwyd etto yn Iſrael megis Moſes (yr hwn a adnabu'r Arglwydd wyneb yn wyneb.)

11 Ym mhob [rhyw] arwyddion, a rhyfeddodau y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef iw gwneuthur yn nhir yr Aipht, ar Pharao, ac ar ei holl weiſion, ac ar ei holl dîr ef.

12 Ac ym mhob llaw gadarn, ac ym mhob ofn mawr y rhai a wnaeth Moſes yng-olwg holl Iſrael.

# Lyfr Ioſuah.

## PEN. I.

Yr Arglwydd yn gyrru Ioſuah yn flaenor ar Iſrael i wlâd Canaan, ac yn addo ei gynnorthwyo ef. 11 Ioſuah yn gorchymyn i'r bobl ymbaratoi i fyned tros yr Iorddonen, ac yn annog y Rubeniaid iw helpio hwynt.

AC wedi marwolaeth Moſes gwâs yr Arglwydd, y llefarodd yr Arglwydd wrth Ioſuah fab Nun gwenidog Moſes, gan ddywedyd,

2 Moſes fyng-wâs a fu farw: gan hynny cyfot yn awr dôs tros yr Iorddonen hon, ti a'r holl bobl hyn i'r wlâd yr hon yr ydwyfi yn [ei] rhoddi iddynt hwy meibion Iſrael.

3 Pôb mann a'r a ſango gwadn eich troed chwi ynddo a roddais i chwi: fel y lleferais wrth Moſes.

Deut.1.38. deut.11.24. ioſua.14.9. 4 * O'r anialwch, a'r Libanus ymma, hyd yr afon fawr [ſef] afon Euphrates, holl wlâd yr Hethiaid, hyd y môr mawr tua machludiad yr haul, fydd eich terfyn chwi.

5 Ni ſaif neb o'th flaen di holl ddyddiau dy enioes: megis y bum gyd a Moſes y byddaf gyd a thithe, ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf.

6 Ymwrola ac ymegnia: canys ti a wnei i'r bobl hyn etifeddu y wlâd yr hon a dyngais wrth eu tadau ar [ei] rhoddi iddynt.

deut.31.7. 7 * Yn unic ymwrola, ac ymegnia yn lew, i gadw ar wneuthur yn ôl yr holl gyfraith yr hon a orchymynnodd Moſes fyng-was i ti, * na ogwydda oddi wrthi ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy: fel y ffynnech i ba le bynnac yr elech. Deut.5.32.

Deut.31.9. 8 Nac ymadawed * llyfr y gyfraith hon o'th enau, eithr mefyria ynddo ddydd a nôs, fel y cedwech ar wneuthur yn ôl yr hyn oll ſydd ſcrifennedic ynddo: canys yna y llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffynni.

9 Oni orchymynnais it [gan ddywedyd:] ymwrola, ac ymegnia, nac arſwyda, ac na ruſſa: * canys yr Arglwydd dy Dduw [ſydd] gyd a thi i ba le bynnac yr elech. Pſal.118.6. hebreaid.13.6.

10 Yna Ioſuah a orchymynnodd i lywodraeth-wŷr y bobl gan ddywedyd,

11 Trammwywch drwy ganol y llu, a gorchymynnwch i'r bobl gan ddywedyd, paratoiwch i chwi lynniaeth: canys ym mhen y tri-diau y byddwch chwi yn myned tros yr Iorddonen hon i ddyfod i oreſcyn y wlâd yr hon y mae'r Arglwydd eich Duw yn [ei] rhoddi i chwi iw meddiannu.

12 Wrth y Rubeniaid hefyd, ac wrth y Gadiaid, ac wrth hanner llwyth Manaſſes y llefarodd Ioſuah gan ddywedyd:

13 Coſiwch y * gair yr hwn a orchymynnodd Moſes gwâs yr Arglwydd i chwi gan ddywedyd: yr Arglwydd eich Duw ſydd yn eſmwythau arnoch, ac a roddodd i chwi y wlâd honn. Num.32.22.

14 Eich gwragedd, eich plant, a'ch anifeiliaid a drigant yn y wlâd yr hon a roddodd Moſes i chwi o'r tu ymma i'r Iorddonen: ac ewch chwithau troſodd yn arfogion o flaen eich brodyr, y ſawl [ydych] gedyrn, o nerth, a chynnorthwywch hwynt.

15 Nes rhoddi o'r Arglwydd lonyddwch i'ch brodyr fel i chwithau, a goreſcyn o honynt hwy hefyd y wlâd yr hon y mae'r Arglwydd eich Duw yn ei rhoddi iddynt: yna dychwelwch i wlâd eich etifeddiaeth, a meddiannwch hi, yr hon a roddodd Moſes gwâs yr Arglwydd i chwi o'r tu ymma i'r Iorddonen, tua chodiad yr haul.

16 Yna'r atebaſant Ioſuah gan ddywedyd: gwnawn yr hyn oll a orchymynnaiſt i ni, awn hefyd at beth bynnac yr anfonech ni.

17 Fel y gwrandawſom ar Moſes [ym]

mhob peth, felly y gwrandawn arnat tithe: yn unic bydded yr Arglwydd dy Dduw gyd a thi, megis y bu gyd a Moſes.

18 Pwy bynnac a anufyddhao [air] dy enau, ac ni wrandawo ar dy ymadroddion yn yr hyn oll a orchymynnech iddo, rhodder ef i farwolaeth: yn unic ymwrola ac ymegnia.

## PEN. II.

Rahab yn derbyn iw thy, y rhai a yrraſe Ioſuah i edrych anſodd y wlâd. 14 Eu haddewid hwythau i Rahab.

Num.25.1. YNa Ioſuah mab Nun a anfonaſe o * Sit-
tim ddau ŵr i chwilio yn ddirgel gan ddy-
wedyd, ewch, edrychwch y wlâd, ac Iericho
[hefyd:] a hwynt a aethant, ac a ddaethant i dŷ
Hebr.11.31. Iam.2.25. * puttein-wraig, ai henw Rahab, ac a orphywy-
ſaſant yno.

2 A mynegwyd i frenin Iericho gan ddywedyd: wele, gwŷr a ddaethant ymma heno o feibion Iſrael i chwilio y wlâd.

3 Yna brenin Iericho a anfonodd at Rahab gan ddywedyd: dŵg allan y gwŷr a ddaethant attat ti, y rhai a ddaethant i'th dŷ di, canys i chwilio 'r holl wlâd y daethant.

4 Ond y wraig a gymmeraſe y ddau ŵr ac ai cuddiaſe hwynt: am hynny hi a ddywedodd fel hyn: y gwŷr a ddaethant ataſi, ond ni wyddwn i o ba le [y daethent] hwy.

5 A phan gaewyd y porth yn y tywyllwch, yna y gwŷr a aethant allan, ni wn i ba le 'r aeth y gwŷr: canlynwch yn fuan ar eu hôl hwynt, canys chwi ai goddiweddwch hwynt.

6 Ond hi a baraſe iddynt ddringo i nenn y tŷ: ac ai cuddiaſe hwynt mewn bolldeidiau llin y rhai oedd genddi wedi eu hyſgafnu ar nenn y tŷ.

7 A'r gwŷr a ganlynaſant ar eu hol hwynt tua 'r Iorddonen hyd y rhydoedd: a'r porth a agorwyd hwyn-gyntaf ac yr aeth y rhai oeddynt yn erlid ar eu hol hwynt allan.

8 A chyn iddynt hwy gyſcu: yna hi a ddringodd attynt hwy ar nenn y tŷ.

9 A hi a ddywedodd wrth y gwŷr, mi a wn mai'r Arglwydd a roddodd i chwi y wlâd, o herwydd eich arſwyd chwi a ſyrthiodd arnom ni: canys holl drigolion y wlad a ddihoenaſant rhac eich ofn.

Exod.14.21. 10 Canys ni a glywſom fel * y ſychodd yr
Arglwydd ddyfroedd y môr côch o'ch blaen
chwi, pan aethoch allan o'r Aipht: a'r hyn a w-
naethoch i ddau frenin yr Amoriaid y rhai [oe-
Num.21.13. ddynt] tu hwnt yr Iorddonen [ſef] i * Sehon,
ac Og, y rhai a ddifrodaſoch chwi.

11 Pan glywſom yna ein digalonnwyd fel na ſafodd mwyach gyſſur yn neb rhac eich ofn: canys yr Arglwydd eich Duw ſydd Dduw yn y nefoedd oddi uchod, ac ar y ddaiar oddi iſod.

12 Yn awr gan hynny tyngwch attolwg wrthif i'r Arglwydd o herwydd i mi wneuthur trugaredd a chwi, y gwnewch chwithau hefyd drugaredd a thŷlwyth fy nhad inne, ac y rhoddwch i mi arwydd gwîr,

13 Ac y cedwch yn fyw fy nhad, a'm mam, fy mrodyr hefyd, a'm chwiorydd, a'r hyn oll [ſydd] ganddynt: ac y gwaredwch ein henioes rhac angeu.

14 A'r gwŷr a ddywedaſant wrthi: ein henioes [a roddwn] i farw droſoch, (os chwi ni fynegwch ein ymadrodd hyn) pan roddo 'r Arglwydd i ni y wlâd hon, oni wnawn a chwi drugaredd a gwirionedd.

15 Yna hi ai gollyngodd hwynt i wared wrth raff drwy y ffeneſtr. canys ei thŷ hi [oedd] o fewn mûr y ddinas, ac yn y mûr yr oedd hi yn trigo.

16 A hi a ddywedodd wrthynt, ewch i'r mynydd rhac i'r erlidwŷr gyfarfod a chwi: ac ymguddiwch yno dri-diau nes dychwelyd o'r erlidwŷr, ac wedi hynny ewch i'ch ffordd.

17 A'r gwŷr a ddywedaſant wrthi: diniwed [fyddwn] ni oddi wrth dy lw ymma [drwy] yr hwn i'n tyngaiſt.

18 Wele pan ddelom ni i'r wlâd: rhwyma y llinin ymma o edyf gôch yn y ffeneſtr yr hon y gollyngaiſt ni drwyddi, caſcl hefyd dy dâd, a'th fam, a'th frodyr, a holl dŷ-lwyth dy dad atat i'r tŷ ymma.

19 A phwy bynnac a'r a êl o ddryſſau dy dŷ di allan, ei waed ef [fydd] ar ei benn ei hun, a ninnau yn ddiniwed: a phwy bynnac fyddo gyd a thi yn tŷ [bydded] ei waed ef ar ein pennau ni, o bydd llaw yn ei erbyn ef.

20 Ac os mynegi di ein ymadrodd hynn: yna y byddwn ddiniwed oddi wrth dy lw [drwy] yr hwn i'n tyngaiſt.

21 A hi a ddywedodd, yn ôl eich geiriau felly [y byddo] hynny: yna hi ai gollyngodd hwynt, a hwy a aethant ymmaith: a hi a rwymodd y llinin côch yn y ffeneſtr.

22 Yna hwynt a aethant, ac a ddaethant i'r mynydd, ac a arhoſaſant yno dri-diau nes i'r erlidwŷr ddychwelyd: a'r erlidwŷr ai ceiſiaſant ar hyd yr holl ffordd, ond nis cawſant.

23 Felly y ddau ŵr a ddychwelaſant, ac a ddeſcynnaſant o'r mynydd, aethant hefyd troſodd, a daethant at Ioſuah fab Nun: a mynegaſant iddo yr hyn oll a ddigwyddaſe iddynt.

24 A dywedaſant wrth Ioſuah, yn ddiau 'r Arglwydd a roddodd yr holl wlâd yn ein dwylo ni: canys holl drigolion y wlad a ddihoenaſant rhac ein hofn ni.

## PEN. III.

Dyfodiad Iſrael i gwrr yr Iorddonen. 13 Yr Iorddonen yn ymrannu, ac yn gollwng Iſrael trwodd ar dir ſych.

YNa Ioſuah a gyfododd yn forau, a chychwnnaſant o Sittim, a daethant hyd yr Iorddonen, efe a holl feibion Iſrael: a lletteuaſant yno cynn iddynt fyned troſodd.

2 Ac ym mhen y tri-diau y llywiawdwŷr a dramwyaſant drwy ganol y llu.

3 A gorchymynnaſant i'r bobl gan ddywe-

dyd, pan weloch chwi Arch cyfammod yr Arglwydd eich Duw a'r Lefiadaidd offeiriaid yn ei dwyn hi: yna cychwnnwch chwi o'ch lle, ac ewch ar ei hol hi.

4 Etto bydded [ennyd] faith rhyngoch chwi a hithe yng-hylch dwy-fil o gufyddau wrth feſur: na neſſewch atti fel y gwypoch y ffordd yr hon y rhodioch ynddi, canys ni thrammwyaſoch y ffordd [hon] o'r blaen.

Leſit.20.7. num.11.18. 1.Sam.16.5. Ioſua.7.13.

5 Ac Ioſuah a ddywedodd wrth y bobl *ymſancteiddiwch: canys y foru y gwna'r Arglwydd ryfeddodau yn eich myſc chwi.

6 Ioſuah hefyd a lefarodd wrth yr offeiriaid gan ddywedyd, cymmerwch Arch y cyfammod, ac ewch troſodd o flaen y bobl: felly hwynt a gymmeraſant Arch y cyfammod ac a aethant o flaen y bobl.

7 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Ioſuah, y dydd hwn y dechreuaf dy fawrhau di yng-wydd holl Iſrael: fel y gwypant mai megis y bum* gyd a Moſes y byddaf gyd a thithe. Ioſua.1.5.

8 Am hynny gorchymyn di i'r offeiriaid y rhai ydynt yn dwyn Arch y cyfammod gan ddywedyd: pan ddeloch hyd gwrr dyfroedd yr Iorddonen, ſefwch yn yr Iorddonen.

9 Yna Ioſuah a ddywedodd wrth feibion Iſrael: neſſewch ymma, a gwrandewch eiriau yr Arglwydd eich Duw.

10 Ioſuah hefyd a ddywedodd, yn hyn y cewch wybod fod y Duw byw yn eich myſc chwi: a chan orescyn y gorescyn efe y Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Hefiaid, a'r Pheriziaid, a'r Gergaſiaid, yr Amoriaid hefyd, a'r Iebuſiaid o'ch blaen chwi.

11 Wele Arch cyfammod Arglwydd yr holl fyd yn myned o'ch blaen chwi trwy 'r Iorddonen.

12 Gan hynny cymmerwch yn awr ddeuddeng-ŵr o lwythau Iſrael: vn gŵr o bôb llwyth.

13 A phan orphywyſo gwadnau traed yr offeiriaid (y rhai ydynt yn dwyn Arch Arglwydd Iôr yr holl fyd) yn nyfroedd yr Iorddonen, [yna] dyfroedd yr Iorddonen a holltir, y dyfroedd y rhai ydynt yn deſcyn oddi vchod [a droant yn ôl:] *ac a ſafant yn vn pen-twr. Pſal.114.3.

14 Pan gychwnnodd y bobl oi pabellau i fyned tros yr Iorddonen: yna yr offeiriaid oeddynt yn dwyn * Arch y cyfammod o flaen y bobl. Act.7.45.

15 A phan ddaeth y rhai oeddynt yn dwyn yr Arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu o draed (yr offeiriaid y rhai oeddynt yn dwyn yr Arch) yng-hwrr y dyfroedd (a'r * Iorddonen oedd arferol o lenwi dros ei thorlannau ei gyd holl ddyddiau y cynhaiaf) 1.Cron.12.15. eccleſ.24.30.

16 Yna y dyfroedd y rhai oeddynt yn deſcyn oddi vchod a ſafaſant, cyfodaſant yn vn pentwr ym mhell iawn oddi wrth y ddinas Adam yr hon [ſydd] o yſtlys Zarthan a'r [dyfroedd] y rhai oeddynt yn deſcyn i fôr y rhôs [ſef] i'r môr heli a ddarfuant, ac a dorrwyd ymmaith: felly y bobl a aethant troſodd ar gyfer Iericho.

17 A'r offeiriaid y rhai oeddynt yn dwyn Arch cyfammod yr Arglwydd a ſafaſant mewn ſychder yng-hanol yr Iorddonen yn daclus: a holl Iſrael oeddynt yn myned troſodd mewn ſychder nes darfod i'r holl genedl dreiddio yr Iorddonen.

## PEN. IIII.

*Yr Arglwydd yn peri goſod deuddec o feini yn eu ſefyll i arwyddoccau treiddiad meibion Iſrael trwy yr Iorddonen.*

A Phan ddarfu i'r holl genedl fyned trwy yr Iorddonen: (canys * llefaraſe yr Arglwydd wrth Ioſuah gan ddywedyd, Deut.27.2.

2 *Cymmerwch i chwi ddeuddeng-ŵr o'r bobl: vn gŵr o bob llwyth. Pen.3.12.

3 A gorchymynnwch iddynt gan ddywedyd cymmerwch i chwi oddi ymma, o ganol yr Iorddonen, o'r fann y mae traed yr offeiriaid yn ſefyll y rhai ydynt yn daclus, ddeuddec o gerric: a throſgludwch hwynt gyd a chwi, a chyfleuwch hwynt yn y lle yr hwn y lletteuwch ynddo heno.)

4 Yna Ioſuah a alwodd am y ddeuddeng-wr y rhai a baratoaſe efe o feibion Iſrael: vn gŵr o bob llwyth.

5 A dywedodd Ioſuah wrthynt, ewch troſodd o flaen Arch yr Arglwydd eich Duw drwy ganol yr Iorddonen: a chodwch i chwi bob vn ei garrec ar ei yſcwydd, yn ôl rhifedi llwythau meibion Iſrael.

6 Fel y byddo hyn yn arwydd yn eich myſc chwi: pan ofynno eich meibion chwi rhyw amſer gan ddywedyd, beth [y mae] y cerric hyn [yn ei arwyddoccau] i chwi?

7 Yna y dywedwch wrthynt, mai dyfroedd yr Iorddonen a hollcwyd o flaen Arch cyfammod yr Arglwydd, [canys] tra fu hi yn myned trwy 'r Iorddonen, dyfroedd yr Iorddonen a hollcwyd: am hynny y mae y cerric hyn yn goffadwriaeth i feibion Iſrael byth.

8 A meibion Iſrael a wnaethant felly fel y gorchymynnaſe Ioſuah, ac a gymmeraſant ddeuddec carrec o ganol yr Iorddonen, fel y llefaraſe yr Arglwydd wrth Ioſuah yn ol rhifedi llwythau meibion Iſrael: ac ai troſgludaſant gyd a hwynt i'r llety, ac ai cyfleuaſant yno.

9 Ac Ioſuah a oſododd i fynu ddeuddec carrec yng-hanol yr Iorddonen yn y lle ['r oedd] traed yr offeiriaid (y rhai oeddynt yn dwyn Arch y cyfammod) yn ſefyll: ac y maent yno hyd y dydd hwn.

10 Felly yr offeiriaid y rhai oeddynt yn dwyn yr Arch a ſafaſant yng-hanol yr Iorddonen nes gorphen pob peth a'r a orchymynnaſe yr Arglwydd i Ioſuah lefaru wrth y bobl, yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe Moſes wrth Ioſuah: yna y bobl a fryſiaſant, ac a aethant trwodd.

11 A phan ddarfu i'r holl bobl fyned trwodd: yna Arch yr Arglwydd a aeth trwodd, a'r offeiriaid yng-wydd y bobl.

[illegible]3 25.

12 *Meibion Ruben hefyd a meibion Gad, a hanner llwyth Manaſſes a dreiddiaſant yn arfogion o flaen meibion Iſrael: fel y llefaraſe Moſes wrthynt.

13 Yng-hylch deugain-mil yn arfogion i'r filwriaeth a aethant trwodd o flaen yr Arglwydd i ryfel i roſſydd Iericho.

14 Y dwthwn hwnnw yr Arglwydd a fawrhaodd Ioſuah yng-olwg holl Iſrael: a hwynt ai hofnaſant ef fel yr ofnaſent Moſes holl ddyddiau ei enioes.

15 A'r Arglwydd a lefarodd wrth Ioſuah gan ddywedyd,

16 Gorchymyn di i'r offeiriaid y rhai ydynt yn dwyn Arch y deſtiolaeth, ddyfod o honynt i fynu o'r Iorddonen.

17 Am hynny Ioſuah a orchymynnodd i'r offeiriaid gan ddywedyd: deuwch i fynu o'r Iorddonen.

18 A phan ddaeth yr offeiriaid (y rhai oeddynt yn dwyn Arch cyfammod yr Arglwydd) i fynu o ganol yr Iorddonen [er cynted] y ſangodd gwadnau traed yr offeiriaid ar y ſych-dir yna dyfroedd yr Iorddonen a ddychwelaſant iw lle, ac a aethant megis cynt dros ei holl dorlannau.

19 Felly y bobl a ddaethant i fynu o'r Iorddonen y decfed [dydd] o'r mis cyntaf: ac a werſyllaſant yn Gilgal, yn y cwrr eithaf o du'r dwyrain i Iericho.

20 A'r deuddec carrec hynny y rhai a ddugaſent o'r Iorddonen a ſefydlodd Ioſuah yn Gilgal.

21 Ac efe a lefarodd wrth feibion Iſrael gan ddywedyd: pan ofynno eich meibion chwi ryw amſer iw tadau gan ddywedyd, beth [yw] y cerric hynn?

22 Yna yr hyſpyſſwch i'ch meibion gan ddywedyd: Iſrael a aeth drwy'r Iorddonen hon ar dir ſych.

23 Canys yr Arglwydd eich Duw chwi a ſychodd ddyfroedd yr Iorddonen o'ch blaen chwi * nes i chwi fyned trwodd: megis y gwnaeth yr Arglwydd eich Duw i'r môr coch yr hwn a ſychodd efe o'n blaen ni, nes i ni fyned trwodd.

Exod.14.21.

24 Fel y gwyppo holl bobloedd y ddaiar mai llaw'r Arglwydd ſydd nerthol: fel yr ofnoch yr Arglwydd eich Duw yr holl ddyddiau.

## PEN. V.

Ioſuah yn peri enwaedu y bobl, a chadw y Paſc. 12 y Manna yn darfod, ac angel Duw yn cyſſuro Ioſuah.

PAn glybu holl frenhinoedd yr Amoriaid y rhai [oeddynt] o'r tu hwynt i'r Iorddonen tua'r gorllewyn, a holl frenhinoedd y Canaaneaid y rhai [oeddynt] wrth y môr fel y ſychaſe'r Arglwydd ddyfroedd yr Iorddonen o flaen meibion Iſrael nes eu myned hwy trwodd: yna y digalonnwyd hwynt fel nad oedd gyſſur mwyach ynddynt, rhac ofn meibion Iſrael.

2 Y pryd hynny y dywedodd yr Arglwydd wrth Ioſuah, *gwna it gyllill llymmion: dychwel [hefyd] ac enwaeda feibion Iſrael yr ail waith.

Exod.4.25.

3 Yna Ioſuah a wnaeth iddo gyllill llymmion: ac a enwaedodd feibion Iſrael yn mryn y blaen-grwyn.

4 Ac dymma yr achos yr hon [a wnaeth] i Ioſuah enwaedu yr holl bobl [ſef] y gwrywaid y rhai a ddaethent o'r Aipht: [o herwydd] yr holl ryfel-wŷr a fuaſent feirw yn yr anialwch ar y ffordd pan ddaethant allan o'r Aipht.

5 Canys yr holl bobl a'r a ddaethent allan oeddynt enwaededic, ond y bobl oll y rhai a aneſid yn yr anialwch ar y ffordd pan ddaethent allan o'r Aipht nid enwaedaſent.

6 Canys deugain mhlynedd y rhodiaſe meibion Iſrael yn yr anialwch, nes darfod holl genedl y rhyfel-wŷr y rhai a ddaethent o'r Aipht, y rhai ni wrandawſent ar lef yr Arglwydd: y rhai y tyngaſe yr Arglwydd wrthynt na ddangoſſid iddynt * y wlâd yr hon a dyngaſe'r Arglwydd wrth eu tadau y rhodde efe i ni, [ſef] gwlâd yn llifeirio o laeth a mêl.

Num.14.23.

7 Felly Ioſuah ai henwaedodd hwynt, ſef y meibion [y rhai] a gododd efe yn eu lle hwynt: canys dienwaededic oeddynt hwy am nad enwaedaſid hwynt ar y ffordd.

8 A phan ddarfu enwaedu yr holl genedl: yna'r arhoſaſant yn eu lle nes eu hiachau hwynt

9 Yna yr Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah heddyw y * tynnais ymmaith wradwydd yr Aipht oddi arnoch: am hynny efe a alwodd enw y lle hwnnw Gilgal hyd y dydd heddyw.

10 Felly meibion Iſrael a werſyllaſant yn Gilgal: a hwynt a gynhaliaſant y Paſc ar y pedwerydd dydd ar ddêc o'r mis pryd nawn yn rhoſſydd Iericho.

11 A hwynt a fwytaſant drannoeth wedi'r Paſc fara croiw, a chraſ-yd [wedi eu gwneuthur] o ŷd y wlad honno: o fewn corph y dydd hwnnw.

12 Yna y Manna a beidiodd drannoeth wedi iddynt fwyta o ŷd y wlâd, ac ni bu Manna mwyach gan feibion Iſrael: eithr bwytaſant o gynnyrch glwâd y Canaaneaid y flwyddyn honno.

13 A phan oedd Ioſuah yn Iericho yna efe a dderchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele * wr yn ſefyll gyferbyn ag ef ai gleddyf noeth yn ei law: ac Ioſuah a aeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, ai gyd a ni ['r ydwyt] ti, ai gyd a'n gwrthwyneb-wŷr?

Exod.23.23.

14 Dywedodd yntef nage, eithr tywyſog llû'r Arglwydd ydwyf, yn awr y deuthum: yna Ioſuah a ſyrthiodd i lawr ar ei wyneb ac a addolodd, ac a ddywedodd hefyd wrtho ef, beth y mae fy Arglwydd yn ei dywedyd wrth ei wâs?

15 A thywyſog llû'r Arglwydd a ddywedodd

dodd

Exod.3.5.
Ruth.4.7.
Act.7.33.

dodd wrth Ioſuah,* dattod dy eſcidiau oddi am dy draed, canys y lle'r hwn yr ydwyt ti yn ſefyll arno ſydd ſanctaidd: ac Ioſuah a wnaeth felly.

## PEN. VI.

Duw yn rhoddi Iericho yn llaw Ioſuah. 22 yntef yn peri cadw yr addewid a wnelſid i Rahab. 26 Dialedd Duw ar yr hwn a adailade Iericho trachefn.

AC Iericho oedd yn gaeedic, ac yn argaeedic rhac ofn meibion Iſrael: nid oedd [neb] yn myned allan, nac yn dyfod i mewn.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah, gwêl rhoddais yn dy law di Iericho ai brenin: [a] chedyrn y llu.

3 Gan hynny amgylchwch y ddinas [chwi] ryfel-wŷr oll, gan amgylchynu y ddinas vn waith: gwnewch felly chwe diwrnod.

4 A dyged ſaith o offeiriaid ſaith o vdcyrn o gyrn hyrddod o flaen yr Arch, a'r ſeithfed dydd yr amgylchwch y ddinas ſaith waith: a lleiſied yr offeiriaid a'r vdcyrn.

5 A phan gênir yn hirllaes a chorn yr hwrdd, [a] phan glywoch chwithau ſain yr vdcorn bloeddied yr holl bobl a bloedd vchel: yna y ſyrth mûr y ddinas tani hi, ac eled y bobl i fynu bawb ar ei gyfer.

6 Yna Ioſuah mab Nun a alwodd ar yr offeiriaid, ac a ddywedodd wrthynt dygwch Arch y cyfammod: a dyged ſaith o offeiriaid ſaith o vdcyrn o gyrn hyrddod o flaen Arch yr Arglwydd.

7 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl cerddwch, ac amgylchwch y ddinas: a'r hwn ſydd arfog eled o flaen Arch yr Arglwydd.

8 A phan ddywedodd Ioſuah wrth y bobl, yna y ſaith offeiriaid a ddugaſant ſaith o vdcyrn o gyrn hyrddod, ac a gerddaſant o flaen [Arch] yr Arglwydd, ac a leiſiaſant mewn vdcyrn: ac Arch cyfammod yr Arglwydd oedd yn myned ar eu hol hwynt.

9 A'r rhai arfogion oeddynt yn myned o flaen yr offeiriaid y rhai oeddynt yn lleiſio mewn vdcyrn: yna y fyddin olaf oedd yn myned ar ôl yr Arch dãn gerdded, a thãn leiſio mewn vdcyrn.

10 Ac Ioſuah a orchymynnaſe i'r bobl gan ddywedyd, na waeddwch, ac na edwch glywed eich llais, ac nac eled gair allan o'ch genau, hyd y dydd y dywedwyf wrthych, gwaeddwch, a bloeddiwch.

11 Felly Arch yr Arglwydd a amgylchodd y ddinas gan [ei] hamgylchynu vnwaith: yna y daethant i'r gwerſſyll, ac y lletteuaſant yn y gwerſſyll.

12 Ac Ioſuah a gyfododd yn forau: a'r offeiriaid a ddugaſant Arch yr Arglwydd.

13 A'r ſaith offeiriaid oeddynt yn dwyn ſaith o vdcyrn o gyrn hyrddod o flaen Arch yr Arglwydd yn myned dann gerdded, ac yn lleiſio mewn vdcyrn: a'r rhai arfogion oeddynt yn myned oi blaen hwynt a'r fyddin olaf oedd yn myned ar ol Arch yr Arglwydd dann gerdded, a lleiſio mewn vdcyrn.

14 Felly 'r amgylchynaſant y ddinas vn waith yr ail dydd, a dychwelaſant i'r gwerſſyll: fel hyn y gwnaethant [dros] chwe diwrnod.

15 Ac ar y ſeithfed dydd y cyfodaſant yn forau ar godiad y wawr, ac yr amgylchaſant y ddinas y modd hwnnw, ſaith waith: yn vnic y dwthwn hwnnw 'r amgylchaſant y ddinas ſeith-waith.

16 A phan leiſiodd yr offeiriaid yn eu hudcyrn y ſeithfed waith, yna Ioſuah a ddywedodd wrth y bobl: gwaeddwch canys rhoddodd yr Arglwydd y ddinas i chwi.

17 A'r ddinas ſydd yn ddiofryd-beth, hi a'r hyn oll [ſydd] ynddi i'r Arglwydd: yn vnic Rahab y buttein-wraig ſydd byw, hi a chwbl ar y [ſydd] gyd a hi yn tŷ, canys * hi a guddiodd y cennadau y rhai a anfonaſom ni.

Ioſuah.2.4.

18 Er hynny ymgedwch chwi oddi wrth y diofryd-beth rhac eich gwneuthur eich hun yn ddiofryd-beth os cymmerwch o'r diofryd-beth: * felly y goſodech werſſyll Iſrael yn ddiofryd-beth, ac y diſwynech ef.

Leuit.27.21.
Num.21.2.
Deut.13.15.

19 Ond yr holl arian, a'r aur, a'r lleſtri prês, ac haiarn ſyddant gyſſegredic i'r Arglwydd: deled [y rhai hynny] i mewn i dryſſor yr Arglwydd.

20 Yna y gwaeddodd y bobl, ac y lleiſiaſant mewn vdcyrn: a phan glybu y bobl lef yr vdcyrn, yna y bobl a waeddaſant a llef vchel, * a'r mûr a ſyrthiodd i lawr oddi tanodd, felly y bobl a aethant i fynu i'r ddinas, pob vn ar ei gyfer, *ac a ennillaſant y ddinas.

Hebreaid.11.30.
2.Mac.12.15.

21 A hwynt a ddifrodaſant yr hyn oll [oedd] yn y ddinas yn ŵr ac yn wraig, yn fachgen, ac yn henafgwr: yn eidion ac yn ddafad, ac yn aſſyn a mîn y cleddyf.

22 Ac Ioſuah a ddywedodd wrth y ddau ŵr y rhai a fuaſent yn edrych anſodd y wlad, ewch i dŷ y buttein-wraig: a dygwch allan oddi yno y wraig a'r hyn oll [ſydd] iddi, fel y tyngaſoch wrthi.

Pen.2.14.

23 Felly y llangciau y rhai fuaſent yn edrych anſodd [y wlad] a ddaethant i mewn, ac a ddugaſant allan Rahab, ai thad, ai mam, ai brodyr, a chwbl ar a feddei hi, dugaſant allan hefyd ei holl dylwyth: a chyfleuaſant hwynt o'r tu allan i werſſyll Iſrael.

24 A lloſcaſant y ddinas a thân, a'r hyn oll [oedd] ynddi: yn vnic yr arian, a'r aur, a'r lleſtri prês, a'r haiarn a roddaſant hwy yn nhryſſor-dŷ'r Arglwydd.

25 Felly y cadwodd Ioſuah yn fyw Rahab y buttein-wraig, a thylwyth ei thad, a'r hyn oll [oedd] genddi, a hi a drigodd ym myſc Iſrael hyd y dydd hwn: am iddi guddio y cennadau y rhai a anfonaſe Ioſuah i chwilio Iericho.

26 Ac Ioſuah a dyngodd y pryd hynny gan ddywedyd: melldigedic ger bron yr Arglwydd [fyddo]'r gŵr yr hwn a gyfyd, ac a adailada y ddinas hon ſef Iericho: yn ei

1.Bren.16.34.

gyntaf-anedic y ſeilia efe hi, ac yn ei [fab] ieuangaf y ſefylla efe ei phyrth hi.

27 Felly yr Arglwydd oedd gyd ag Ioſuah: fel y bu ei glod ef drwy'r holl ddaiar.

## PEN. VII.

Cyſſegr-ledrad Achan yn peri aflwydd i bobl Iſrael, hyd oni choſpwyd ef.

Ioſua.22.20.
1.Cron.2.7.

ONd meibion Iſrael a wnaethant yn anghywir am y diofryd-beth: canys * Achan mab Charmi fab Zabdi, fab Zerach o lwyth Iuda a gymmerodd o'r diofryd-beth: am hynny yr enynnodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn meibion Iſrael.

2 Ac Ioſuah a anfonodd wŷr o Iericho i Ai yr hon [ſydd] wrth Bethafen, o du'r dwyrain i Bethel, ac a lefarodd wrthynt gan ddywedyd, ewch i fynu a deliwch ſulw ar y wlâd: a'r gwŷr a aethant i fynu ac a edrychaſant anſawdd Ai.

3 A hwynt a ddychwelaſant at Ioſuah, ac a ddywedaſant wrtho ef, nac eled yr holl bobl i fynu, [onid] yng-hylch dwy fil o wŷr, neu dair mil o wŷr a ânt i fynu a tharawant Ai: na phoenwch y bobl yno canys ychydig [ydynt] hwy.

4 Felly fe a aeth o'r bobl i fynu yno yng-hylch tair mil o wŷr: a hwynt a ffoaſant o flaen gwŷr Ai.

5 A gwŷr Ai a darawſant yng-hylch un-gwr ar bymthec ar hugain o honynt, ac ai hymlidiaſant o flaen y porth hyd Sebarim, a tharawſant hwynt yn y goriwared: am hynny y toddodd calonnau y bobl, ac yr aethant fel dwfr.

6 Yna Ioſuah a rwygodd ei wiſcoedd, ac a ſyrthiodd i lawr ar ei wyneb o flaen Arch yr Arglwydd hyd yr hwyr efe ac henuriaid Iſrael, ac a oſodaſant lŵch ar eu pennau.

7 A dywedodd Ioſuah, ah ah ô Arglwydd Iôr i ba beth gan droſgludo y troſgludaiſt y bobl ymma tros yr Iorddonen hon i'n rhoddi ni yn llaw 'r Amoriaid i'n difetha? ô na buaſem fodlon, ac [na] thrigaſem tu hwnt i'r Iorddonen.

8 [Yſtyria] wrthif ô Arglwydd, beth a ddywedaf pan drô Iſrael [ei] warr o flaen ei elynnion?

9 Canys y Canaaneaid a holl drigolion y wlâd a glywant, ac a'n hamgylchant, ac a dorrant ymmaith ein henw o'r tir: beth gan hynny a wnei i'th enw mawr?

10 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah cyfot ti: pa ham yr ydwyt yn gorwedd fel hyn ar dy wyneb?

11 Iſrael a bechodd, a throſeddaſant fynghyfammod yr hwn a orchymynnais iddynt: cymmeraſant hefyd o'r diofryd-beth, ie lledrattaſant, a gwadaſant, goſodaſant hefyd [hynny] ym myſc eu dodrefn eu hun.

12 Am hynny ni ddichon meibion Iſrael ſefyll yn wyneb eu gelynnion, [eithr] troant eu gwarr o flaen eu gelynnion canys y maent yn eſcymmyn-beth: ni byddaf mwyach gyd a chwi oni ddifethwch yr eſcymmyn-beth o'ch myſc.

13 Cyfot ſancteiddia y bobl, a dywet, ymſancteiddiwch erbyn y borau: canys fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, diofryd-beth [ſydd] yn dy blith di ô Iſrael, ni elli ſefyll yn wyneb dy elynnion nes tynnu ymmaith y diofryd-beth o'ch myſc.

14 Am hynny neſſewch y borau bob yn llwyth, a'r llwyth yr hwn a ddalio 'r Arglwydd neſſaed bob yn deulu, a'r teulu'r hwn a ddalio 'r Arglwydd neſſaed bob yn dŷ, a'r tŷ 'r hwn a ddalio 'r Arglwydd neſſaed bob yn ŵr.

15 A'r hwn a ddelir a'r diofryd-beth [ganddo] a loſcir mewn tân, efe a'r hyn oll [ſydd] ganddo: o herwydd iddo ef droſeddu cyfammod yr Arglwydd, ac o herwydd iddo ef wneuthur ynfydrwydd yn Iſrael.

16 Felly Ioſuah a gyfododd yn forau, ac a ddyneſodd Iſrael bob yn llwyth: a llwyth Iuda a ddaliwyd.

17 Ac efe a ddyneſodd deulu Iuda, a daliwyd teulu y Zarchiaid: ac efe a ddyneſodd deulu y Zarchiaid bob yn ŵr, a daliwyd Zabdi.

11 Ac efe a ddyneſodd ei dŷ ef bob yn ŵr: a daliwyd Achan mab Charmi fab Zabdi, fab Zerach o lwyth Iuda.

19 Yna Ioſuah a ddywedodd wrth Achā, fy mab attolwg dyro ogoniant i Arglwydd Dduw Iſrael, a chyffeſſa di iddo: a mynega attolwg i mi beth a wnaethoſt, na chela oddi wrthif.

20 Ac Achan a attebodd Ioſuah, ac a ddywedodd: yn wîr myfi a bechais yn erbyn Arglwydd Dduw Iſrael, canys fel hyn, ac fel hyn y gwneuthum.

21 Pan welais ym myſc yr yſpail ryw fantell fabilonic dêg, a dau cant ſicl o arian, ac un llafn aur o ddec ſicl a deugain ei bwys, yna y chwennychais hwynt, ac y cymmerais hwynt, ac wele hwynt yn guddiedic yn y ddaiar ynghanol fy mhabell a'r arian tanynt.

22 Yna Ioſuah a anfonodd gennadau, a hwynt a redaſant i'r babell, ac wele hwynt yn guddiedic yn ei babell ef, a'r arian tanynt.

23 Am hynny hwynt ai cymmeraſant o ganol y babell, ac ai dugaſant at Ioſuah, ac at holl feibion Iſrael: a goſodaſant hwy o flaen yr Arglwydd.

24 Yna Ioſuah a gymmerth Achan fab Zerach, a'r arian, a'r fantell, ar llafn aur, ei feibion hefyd, ai ferched, ai warthec, ai aſſynnod, ei ddefaid hefyd ai babell, a'r hyn oll a fedde efe: a holl Iſrael gyd ag ef ai dugaſant hwynt i ddyffryn Achor.

25 Ac Ioſuah a ddywedodd, am i ti ein blino ni, yr Arglwydd a'th flina dithe y dydd hwn: yna holl Iſrael ai llabyddiaſant ef a meini, ac ai lloſcaſant hwythau a thân wedi eu llabyddio a meini.

26 A bwriaſant arno ef garnedd fawr o gerric hyd y dydd hwn, felly y dychwelodd yr Arglwydd oddi wrth lid ei ddigllonedd ef: am hynny y gelwir henw y fann honno dyffryn Achor hyd y dydd hwn.

PEN.

## PEN. VIII.

Ioſuah yn gwarche, ac yn ennill Ai. 29 Ac yn crogi ei brenin. 30 Yn adailadu allor. 32 Yn ſcrifennu, ac yn cyhoeddi y gyfraith i'r bobl.

Deut.7.18. & 21.23.

YNa yr Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah* nac ofna, ac na arſwyda, cymmer gyd a thi yr holl bobl ryfeloc, a chyfot, dos i fynu i Ai: gwêl, mi a roddais yn dy law di frenin Ai, ai bobl, ei ddinas hefyd ai wlâd:

Ioſua.6.21. Deut.20.14.

2 Fel y gwnelech i Ai ai brenin megis y gwnaethoſt i * Iericho, ac iw brenin, etto * ei hanrhaith, ai hanifeiliaid a ſclyfaethwch i chwi: goſot ti gynllwyn yn erbyn y ddinas o'r tû ôl iddi.

3 Yna Ioſuah a gyfododd a'r holl bobl ryfeloc i fyned i fynu i Ai: ac Ioſuah a ddetholodd ddeng-mil ar hugain o wŷr cedyrn nerthol, ac ai hanfonodd ymmaith liw nôs.

4 Ac efe a orchymynnodd iddynt gan ddywedyd, gwelwch, chwi a gynllwynwch yn erbyn y ddinas o'r tu ôl i'r ddinas, nac ewch ymmhell iawn oddi wrth y ddinas, ond byddwch bawb oll yn barod.

5 Minne hefyd, a'r holl bobl y rhai [ydynt] gyd a mi a neſſawn at y ddinas: a phan elont allan i'n cyfarfod ni megis y waith gyntaf, yna ni a ffoiwn oi blaen hwynt.

6 Canys hwynt a ddeuant allan ar ein hôl ni, nes i'ni eu tynnu hwynt allan o'r ddinas, o blegit hwynt a ddywedant, ffoi y maent o'n blaen ni fel y waith gyntaf: felly y ffoiwn oi blaen hwynt.

7 Yna chwi a godwch o'r cynllwyn, ac a oreſcynnwch y ddinas: canys yr Arglwydd eich Duw ai dyru hi yn eich llaw chwi.

8 A phan ennilloch y ddinas, lloſcwch y ddinas a thân, gwnewch yn ôl gair yr Arglwydd: gwelwch mi a orchymynnais i chwi.

9 Felly Ioſuah ai hanfonodd, a hwynt a aethant i gynllwyn, ac a arhoſaſant rhwng Bethel ac Ai, o du yr gorllewyn i Ai: ac Ioſuah a leteuodd y noſſon honno ym myſc y bobl.

10 Ac Ioſuah a gyfododd yn forau, ac a gyfrifodd y bobl: ac efe a aeth i fynu a henuriaid Iſrael o flaen y bobl [tuag at] Ai.

11 A'r holl bobl ryfeloc y rhai [oeddynt] gyd ag ef a aethant i fynu, ac a neſſaſant, daethant hefyd yn erbyn y ddinas: a gwerſyllaſant o du 'r gogledd i Ai, a glynn [oedd] rhyngddynt hwy ac Ai.

12 Ac efe a gymmerth yng-hylch pum mil o wŷr: ac ai goſododd hwynt i gynllwyno rhwng Bethel ac Ai, o du 'r gorllewyn i'r ddinas.

13 A'r bobl a oſodaſant yr holl werſyllau y rhai [oeddynt] o du 'r gogledd i'r ddinas, a'r rhann olaf o honynt o du 'r gorllewyn i'r ddinas: ac Ioſuah a aeth y noſſon honno i ganol y dyffryn.

14 A phan welodd brenin Ai [hynny,] yna gwŷr y ddinas a fryſſiaſant ac a foreu-godaſant, aethant hefyd allan i gyfarfod Iſrael i ryfel, efe ai holl bobl ar yr amſer nodedic, ar hyd wyneb y gwaſtadedd: canys ni wydded efe fod cynllwyn iddo o'r tu ol i'r ddinas.

15 Yna Ioſuah, a holl Iſrael [fel pes] tarawſid hwy oi blaen hwynt a ffoaſant tua yr anialwch.

16 A'r holl bobl y rhai [oeddynt] yn y ddinas a gynhullwyd i erlid ar eu hôl hwynt: a hwynt a erlidiaſant ar ôl Ioſuah, felly y lluſcwyd hwynt o'r ddinas.

17 Ac ni adawyd gŵr yn Ai, nac [yn] Bethel a'r nad aethant allan ar ôl Iſrael: a gadawſant y ddinas yn agored, ac erlidiaſant ar ôl Iſrael.

18 Yna yr Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah, eſtyn y waiw-ffon yr hon [ſydd] yn dy law tuac at Ai, canys yn dy law di y rhoddaf hi: ac Ioſuah a eſtynnodd y waiw-ffon yr hon [oedd] yn ei law tua 'r ddinas.

19 A'r cynllwyn-wŷr a gyfodaſant yn ebrwydd oi lle, ac a redaſant pan eſtynnodd efe ei law, daethant hefyd i'r ddinas, ac ennillaſant hi: a hwynt a fryſſiaſant, ac a loſcaſant y ddinas a thân.

20 A gwŷr Ai a droeſant yn eu hôl, ac a edrychaſant, ac wele mwg y ddinas a dderchafodd hyd y nefoedd, ac nid [oedd] ganddynt hwy fôdd i ffoi ymma, nac accw: canys y bobl y rhai a ffoaſent i'r anialwch a ddychwelodd yn erbyn y rhai oeddynt yn erlid.

21 Pan welodd Ioſuah, a holl Iſrael i'r cynllwyn-wŷr ennill y ddinas, a derchafu o fŵg y ddinas: yna hwynt a ddychwelaſant, ac a darawſant wŷr Ai.

22 A hwyntau [y rhai oeddynt] yn y ddinas a aethant allan iw cyfarfod, felly 'r oeddent yng-hanol Iſrael, y rhai hyn o'r tu ymma, a'r lleill o'r tu accw: a tharawſant hwy fel na adawyd [un] * yng-weddill, nac yn ddiangol o honynt. Deut.7.2.

23 Onid brenin Ai a ddaliaſant yn fyw: a dugaſant ef at Ioſuah.

24 Pan ddarfu i Iſrael ladd holl breſſwylwŷr Ai yn y maes, [ac] yn yr anialwch yr hwn yr erlidiaſid hwynt ynddo, a [phan] ſyrthiaſent hwy oll gan fin y cleddyf nes eu darfod: yna holl Iſrael a ddychwelaſant i Ai, a tharawſant hi a mîn y cleddyf.

25 A chwbl a'r a ſyrthiaſant y dwthwn hwnnw yn wŷr ac yn wragedd oeddynt ddeuddeng-mil: [ſef] gwŷr Ai oll.

26 Canys ni thŷôdd Ioſuah trachefn ei law 'r hon a eſtynnaſe efe gyd a'r waiw-ffon: nes defetha holl drigolion Ai.

27 Yn * unic yr anifeiliaid ac anrhaith y ddinas a ſclyfaethodd yr Iſraeliaid iddynt eu hun: yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a orchymynnaſe efe i Ioſuah.

28 Ac Ioſuah a loſcodd Ai: ac ai goſododd hi yn garnedd dragywydd [ac] yn ddiffaethwch

hyd y dydd hwn.

Deut.21.23. 29 Ac efe a grogodd frenin Ai ar y prenn hyd yr hwyr: ac yng-hylch machludiad yr haul y gorchymynnodd Ioſuah iddynt *ddeſcyn ei gelain ef oddi ar y pren, ai bwrw i ddrws porth y ddinas, a goſodaſant garnedd fawr o gerric arni hyd y dydd hwn.

30 Yna Ioſuah a adailadodd allor i Arglwydd Dduw Iſrael ym mynydd Ebal,

Exod.20.25. Deut.27.5. 31 Megis y gorchymynnaſe Moſes gwâs yr Arglwydd i feibion Iſrael, fel y mae yn ſcrifennedic *yn llyfr cyfraith Moſes, [ſef] allor o gerric cyfan y rhai ni dderchafaſid haiarn arnynt: a hwynt a offrymmaſant arni boeth offrymmau i'r Arglwydd, ac a aberthaſant ebyrth hedd.

32 Ac efe a ſcrifennodd yno ar y meini adſynegiad cyfraith Moſes yr hon a ſcrifennaſe efe yng-wydd meibion Iſrael.

Deut.11.29. & 27.12. 33 A holl Iſrael ai henuriaid, ei ſwyddogion hefyd, ai barn-wŷr oeddynt yn ſefyll o bob parth i'r Arch ger bron y Lefiadaidd offeiriaid y rhai oeddynt yn dwyn Arch cyfammod yr Arglwydd, yn gyſtal yr eſtron a'r priodor: ei hanner [oedd] ar gyfer mynydd Garizim, ai hanner ar gyfer mynydd Ebal: *fel y gorchymynnaſe Moſes gwâs yr Arglwydd fendithio pobl Iſrael o'r blaen.

34 Wedi hynny efe a ddarllenodd holl eiriau y gyfraith, y fendith, a'r felldith: yn ôl y cwbl a'r y ſydd ſcrifennedic yn llyfr y gyfraith.

Deut.31.12. 35 Nid oedd air o'r hyn oll a ſcrifennaſe Moſes, a'r nas darllenodd Ioſuah ger bron holl gynnulleidfa Iſrael, *a'r gwragedd a'r plant, a'r dieithr yr hwn oedd yn rhodio yn eu myſc hwynt.

## PEN. IX.

Rhai o frenhinoedd Canaan yn ymgaſclu yn erbyn Ioſuah. 3 y cyfammod a wnaeth Ioſuah a'r Gibeoniaid. 21 A'r gwaſanaeth a oſodwyd arnynt hwy.

VVEDI i clywed [hyn] o'r holl frenhinoedd y rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i'r Iorddonen yn y mynydd, ac yn y gwaſtadedd, ac ym mhob porthladd i'r môr mawr ar gyfer Libanus: [ſef] yr Hethiaid, a'r Amoriaid, a'r Canaaneaid, a'r Phereziaid, a'r Hefiaid, a'r Iebuſiaid,

2 Yna hwynt a ymgaſclaſant yng-hyd i ymladd yn erbyn Ioſuah, ac yn erbyn Iſrael o un-frŷd.

2.Sam.21.1. 3 A *thrigolion Gibeon a glywſant yr hyn a wnaethe Ioſuah i Iericho, ac i Ai.

4 Hwyntau gan hynny a wnaethant yn gyfrwys, canys hwy a aethant, ac a ymddangoſaſant fel cennadon: cymmeraſant hefyd hên ſach-lennau ar eu haſſynnod, a hên goſtrelau gwîn wedi eu hollti hefyd, ac wedi eu rhwymo.

5 A hên eſcidiau maglog am eu traed, a hên wiſcoedd am danynt: a holl fara eu llynniaeth hwynt [oedd] ſych [a] brithl-wyd.

6 Ac aethant at Ioſuah i'r gwerſyll i Gilgal: a dywedaſant wrtho ef, ac wrth wŷr Iſrael: o wlad bell y daethom; ac yn awr gwnewch gyfammod a ni.

Pen.11.19. 7 Yna gwŷr Iſrael a ddywedaſant wrth yr *Hefiaid: nid hwyrach dy fod yn ein myſc yn trigo, pa fodd gan hynny y gwnafi gyfammod a thi?

8 A hwynt a ddywedaſant wrth Ioſuah, dy weiſion di ydym ni: ac Ioſuah a ddywedodd wrthynt, pwy ydych? ac o ba le y daethoch?

9 Yna y dywedaſant wrtho ef, dy weiſion a ddaethant o wlâd bell iawn at enw yr Arglwydd dy Dduw: canys ni a glywſom ei glod ef, a'r hyn oll a wnaeth efe yn yr Aipht.

10 A'r hyn oll a wnaeth efe i ddau frenin yr Amoriaid y rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i'r Iorddonen: i Sehon brenin Heſbon, ac i Og brenin Baſan yr hwn [oedd] yn Aſtaroth.

11 Am hynny ein henafiaid ni a holl breſſwylwŷr ein gwlâd ni a lefaraſant wrthym ni gan ddywedyd, cymmerwch lynniaeth gyd a chwi i'r daith, ac ewch iw cyfarfod hwynt, a dywedwch wrthynt, eich gweiſion ydym: yn awr gan hynny gwnewch gyfammod a ni.

12 Dymma ein bara ni, yn boeth y cymmeraſom ef yn lynniaeth o'n tai ni y dydd y cychwynaſom ddyfod attoch: ac yn awr wele ſych, a thryfrith [o lwydni] yw.

13 Dymma hefyd y coſtrelau gwin y rhai a lenwaſom yn newyddion, ac wele hwynt wedi hollti: ein gwiſcoedd hyn hefyd, a'n heſcidiau a heneiddiaſant rhac meithed y daith.

14 A'r gwŷr a gymmeraſant oi hymborth hwynt: ac nid ymgynghoraſant a genau'r Arglwydd.

14 Felly Ioſuah a wnaeth heddwch a hwynt, ac a wnaeth gyfammod a hwynt ar ei cadw hwynt yn fyw: tywyſogion y gynnulleidfa hefyd a dyngaſant wrthynt.

16 Ond ym mhen y tri-diau wedi iddynt wneuthur cyfammod a hwynt: yna y clywſant mai cymmydogion iddynt [oeddynt] hwy, ac [mai] yn eu myſc yr oeddynt yn aros.

17 A meibion Iſrael a gychwnnaſant, ac a ddaethant iw dinaſoedd hwynt y trydydd dydd: ai dinaſoedd hwynt [oedd] Gibeon, a Chaphira, Beroth hefyd, a Chiriath Iearim.

18 Ond ni tharawodd meibion Iſrael monynt hwy, o blegit tywyſogion cynnulleidfa Arglwydd Dduw Iſrael a dyngaſent wrthynt: am hynny yr holl gynnulleidfa a rwgnachaſant yn erbyn y tywyſogion.

19 Yna yr holl dywyſogion a ddywedaſant wrth yr holl gynnulleidfa, ni a dyngaſom wrthynt i Arglwydd Dduw Iſrael: am hynny nid allwn yn awr gyffwrdd a hwynt.

20 Hyn a wnawn ni iddynt hwy fel y cadwom

hwynt yn fyw: ac na byddo digoſaint arnom ni o herwydd y llw 'r hwn a dyngaſom wrthynt.

21 A'r tywyſogion a ddywedaſant wrthynt byddant fyw: a byddant yn torri cynnyd, ac yn tynnu dwfr i'r holl gynulleidfa, [a gwnaethant] fel yr archaſe y tywyſogion iddynt.

22 Yna Ioſuah a alwodd arnynt, ac a lefarodd wrthynt gan ddywedyd: pa ham y twyllaſoch ni gan ddywedyd: pell iawn [ydym] ni oddi wrthych, a chwithau yn preſſwylio yn ein mysc ni.

23 Yn awr gan hynny melldigedic ydych: ac ni phalla [bod rhai] o honoch chwi yn [gaeth] weiſion, ac yn torri cynnyd ac yn tynnu dwfr i dŷ fy Nuw.

24 A hwynt a attebaſant Ioſuah, ac a ddywedaſant, yn ddiau gan fynegu y mynegwyd i'th weiſion, ddarfod i'r Arglwydd dy Dduw orchymyn* i Moſes ei wâs roddi i chwi 'r holl wlâd hon, a difetha holl drigolion y wlâd o'ch blaen chwi: am hynny yr ofnaſom ni yn ddirfawr rhagoch am ein henioes, ac y gwnaethom y peth hyn.

Deut.7.1.

25 Ac yn awr wele ni yn dy law di: fel [y gwelech] yn dda, ac yn inion yn dy olwg wneuthur i ni, [felly] gwna.

26 Ac felly y gwnaeth efe iddynt: ac efe ai gwaredodd hwynt o law meibion Iſrael fel na laddaſant hwynt.

27 Ac Ioſuah ai rhoddodd hwynt y dwthwn hwnnw yn gymmyn-wŷr coed, ac yn wahenwŷr dwfr i'r gynnulleidfa: ac i allor yr Arglwydd hyd y dydd hwn yn y lle 'r hwn a ddewiſaſe efe.

## PEN. X.

Ioſuah yn gorfygu pum brenin. 12 yn cael gan Dduw beri i'r haul ſefyll yn ei vn-lle. 26 yn crogi y pum brenin, ac yn diniſtrio eu dinaſoedd hwynt.

A Phan glybu Adonizedec brenin Ieruſalem i Ioſuah ennill Ai, ai difrodi hi, (fel y *gwnelſe efe i Iericho, ac iw brenin, felly y gwnaethe efe *i Ai, ac iw brenin) ac heddychu o drigolion Gibeon ag Iſrael,* a bod [yr Iſraeliaid] yn eu mysc hwynt,

Ioſuah.6.15.
Ioſ.8.3.
Pen.9.16.

2 Yna 'r ofnaſant yn ddirfawr o blegit dinas fawr [oedd] Gibeon fel vn o'r dinaſoedd brenhinawl: ac o herwydd mwy [ydoedd] hi nac Ai, ei holl wŷr hefyd [oeddynt] gedyrn.

3 Am hynny Adonizedec brenin Ieruſalem a anfonodd at Hoham brenin Hebron: ac at Piram brenin Iarmuth, at Iaphia hefyd brenin Lachis, ac at Dabir brenin Eglon gan ddywedyd:

4 Deuwch i fynu attafi, a chynnorthwywch fi fel y tarawom ni Gibeon: canys hi a heddychodd ag Ioſuah, ac a meibion Iſrael.

5 Am hynny pum brenin yr Amoriaid a ymgynnullaſant, ac a ddaethant i fynu [ſef] brenin Ieruſalem, brenin Hebron, brenin Iarmuth, brenin Lachis, [a] brenin Eglon hwyntwy ai holl fyddinoedd: a gwerſſyllaſant wrth Gibeon, a rhyfelaſant yn ei herbyn hi.

6 A gwŷr Gibeon a anfonaſant at Ioſuah i'r gwerſſyll i Gilgal gan ddywedyd, na thynnu ymmaith dy ddwylo oddi wrth dy weiſion: tyret i fynu yn fuan attom ni, achub ni hefyd a chynnorthwya ni, canys holl frenhinoedd yr Amoriaid y rhai ydynt yn trigo yn y mynyddir a ymgynnullaſant i'n herbyn ni.

7 Felly Ioſuah a eſcynnodd o Gilgal, efe a'r holl bobl ryfeloc gyd ag ef, a'r holl gedyrn nerthol.

8 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ioſuah, nac ofna rhagddynt hwy canys yn dy law di y rhoddais hwynt: ni ſaif neb o honynt yn dy wyneb di.

9 Ioſuah gan hynny a ddaeth yn ddiatrec attynt hwy: [canys] ar hŷd y nos yr aeth efe i fynu o Gilgal.

10 A'r Arglwydd ai drylliodd hwynt o flaen Iſrael, ac ai tarawodd hwynt a phla mawr yn Gibeon: ac ai hymlidiodd hwynt ffordd yr eir i fynu i Beth-horon, ac ai tarawodd hwynt hyd Azeca, ac hyd Macceda.

11 Pan oeddynt yn ffoi o flaen Iſrael [a] hwynt yng-oriwared Beth-horon, yna 'r Arglwydd a fwriodd arnynt hwy gerric mawrion o'r nefoedd hyd Azeca fel y buont feirw: amlach [oedd] y rhai a fuant feirw gan y cerric cenllyſc, na'r rhai a laddodd meibion Iſrael a'r cleddyf.

12 Yna y llefarodd Ioſuah wrth yr Arglwydd, y dydd y rhoddodd yr Arglwydd yr Amoriaid o flaen meibion Iſrael: ac efe a ddywedodd yng-olwg Iſrael: ô haul aros yn Gibeon, a'r lleuad yn nyffryn Aialon.

13 A'r * haul a arhoſodd, a'r lleuad a ſafodd nes i'r genedl ddial ar ei gelynnion, onid yw hyn yn ſcrifennedic* yn llyfr yr iniawn: felly 'r haul a ſafodd yng-hanol y nefoedd, ac ni fryſſiodd i fachludo dros ddiwrnod cyfan.

Eſa.28.21.
Eccleſia.46.4.
2.Sam.1.18.

14 Ac ni bu y fath ddydd a hwnnw oi flaen ef, nac ar ei ol ef fel y gwrandawe yr Arglwydd ar lef dŷn: canys yr Arglwydd a ymladdodd dros Iſrael.

15 Yna Ioſuah a ddychwelodd, a holl Iſrael gyd ag ef i'r gwerſſyll i Gilgal.

16 Ond y pum-brenin hynny a ffoaſant: ac a ymguddiaſant mewn ogof ym Macceda.

17 A mynegwyd i Ioſuah gan ddywedyd: y pum brenin a gafwyd yng-hudd yn ogof Macceda.

18 Yna y dywedodd Ioſuah, treiglwch feini mawrion ar ſafn yr ogof: a goſodwch wrthi wŷr iw cadw hwynt.

19 Ac na ſefwch chwi, erlidiwch ar ôl eich gelynnion a threwch y rhai olaf o honynt: na adewch iddynt ddyfod iw dinaſoedd, canys yr

Arglwydd eich Duw ai rhoddodd hwynt yn eich llaw chwi.

20 A phan ddarfu i Ioſuah, a meibion Iſrael eu taro hwynt a phla mawr iawn nes eu difa: yna y gweddillion [y rhai] a adawſid o honynt a ddaethant i'r dinaſoedd caeroc.

21 A'r holl bobl a ddychwelaſant i'r gwerſſyll at Ioſuah ym Macceda yn heddychlon, heb ſymmud o neb ei dafod yn erbyn meibion Iſrael.

22 Ac Ioſuah a ddywedodd agorwch enau yr ogof: a dygwch allan y pum brenin hynny attaf o'r ogof.

23 A hwynt a wnaethant felly, ac a ddugaſant allan y pum brenin atto ef o'r ogof: ſef brenin Ieruſalem, brenin Hebron, brenin Iarmuth, brenin Lachis, [a] brenin Eglon.

24 A phan ddugaſant hwy y brenhinoedd hynny at Ioſuah, yna Ioſuah a alwodd am holl wŷr Iſrael, ac a ddywedodd wrth dywyſogion y rhyfelwŷr y rhai a aethent gyd ag ef, neſſewch goſodwch eich traed ar wddfau y brenhinoedd hyn: a hwynt a neſſaſant, ac a oſodaſant eu traed ar eu gyddfau hwynt.

25 Yna Ioſuah a ddywedodd wrthynt nac ofnwch, ac nac arſwydwch: [eithr] ymŵrolwch ac ymegniwch, canys fel hyn y gwna'r Arglwydd i'ch holl elynnion y rhai 'r ydych chwi yn ymladd iw herbyn.

26 Ac wedi hyn Ioſuah ai tarawodd hwynt, ac ai rhoddodd i farwolaeth, crogodd hwynt hefyd ar bum-prenn: a buant yng-hrog ar y prennau hyd yr hwyr.

27 Ac ym mhryd machludiad yr haul y
Deut.21.23. * gorchymynnodd Ioſuah iddynt eu deſcyn
Ioſua.8.29. hwynt oddi ar y prennau, ai bwrw hwynt i'r
ogof yr hon yr ymguddiaſent ynddi: a bwriaſant gerric mawrion ar enau 'r ogof, [y rhai ydynt yno] hyd gorph y dydd hwn.

28 Ioſuah hefyd a ennillodd Macceda y dwthwn hwnnw, ac ai tarawodd hi a min y cleddyf, ac a ddifrododd ei brenin hi gyd a hwynt, a phob enaid a'r [oedd] ynddi, ni adawodd efe [vn] gweddill: canys efe a wnaeth i
Ioſua.6.21. frenin Macceda * fel y gwnaethe i frenin Iericho.

29 Yna yr aeth Ioſuah a holl Iſrael gyd ag ef o Macceda i Libna: ac a ymladdodd yn erbyn Libna.

30 A'r Arglwydd ai rhoddodd hi hefyd ai brenin yn llaw Iſrael, ac yntef ai tarawodd hi a min y cleddyf, a phob enaid a'r [oedd] ynddi, ni adawodd ynddi [vn] yng-weddill: canys efe a wnaeth iw brenin hi fel y gwnelſe i frenin Iericho.

31 Ac Ioſuah a drammwyodd a holl Iſrael gyd ag ef o Libna i Lachis: ac a werſſyllodd wrthi, ac a ymladdodd iw herbyn.

32 A'r Arglwydd a roddodd Lachis yn llaw Iſrael, yr hwn ai ennillodd hi yr ail dydd, ac ai tarawodd hi a min y cleddyf, a phob enaid a'r [oedd] ynddi: yn ôl yr hyn oll a wnaethe efe i Libna.

33 Yna Horam brenin Gezer a ddaeth i fynu i gynnorthwyo Lachis: ond Ioſuah ai tarawodd ef, ai bobl fel na adawyd iddo ef [vn] yng-weddill.

34 Ac Ioſuah a drammwyodd ai holl bobl gyd ag ef o Lachis i Eglon: ac a werſſyllaſant wrthi, ac a ymladdaſant iw herbyn.

35 A hwynt ai hennillaſant hi y diwrnod hwnnw, a tharawſant hi a mîn y cleddyf, ac efe a ddifrododd bob enaid a'r [oedd] ynddi y dwthwn hwnnw: yn ôl yr hyn oll a wnaethe efe i Lachis.

36 Yna 'r eſcynnodd Ioſuah a holl Iſrael gyd ag ef o Eglon i Hebron: a rhyfelaſant iw herbyn.

37 Pan ennillaſant hi, yna hwy ai tarawſant hi a min y cleddyf, ai brenin, ai holl ddinaſoedd, a phob enaid a'r [oedd] ynddi, ni adawodd efe [vn] yn weddill, yn ôl yr hyn oll a wnaethe efe i Eglon: canys efe ai difrododd hi, a phob enaid a'r [oedd] ynddi.

38 Yna Ioſuah a ddychwelodd, a holl Iſrael gyd ag ef i Dabir: ac efe a ymladdodd iw herbyn.

39 Pan ennillodd efe hi, ei brenin, ai holl ddinaſoedd, yna hwynt ai tarawſant a min y cleddyf, ac a ddifrodaſant bob enaid a'r [oedd] ynddi, ni adawodd efe [vn] yng-weddill: fel y gwnaethe efe i Hebron, felly y gwnaeth efe i Dabir ac iw brenin, ac megis y gwnelſe efe i Libna ac iw brenin.

40 Felly y tarawodd Ioſuah yr holl fynydd-dir a'r dehau, y gwaſtadedd hefyd a'r bronnydd, ai holl frenhinoedd, ni adawodd efe [vn] yng-weddill: eithr efe a ddifrododd bob perchên anadl, fel y gorchymynnaſe Arglwydd Dduw Iſrael.

41 Felly Ioſuah ai tarawodd hwynt o Cades Barnea hyd Azza: a holl wlâd Goſen hyd Gibeon.

42 Yr holl frenhinoedd hyn hefyd ai gwledydd a ennillodd Ioſuah ar vn-waith: canys Arglwydd Dduw Iſrael oedd yn ymladd tros Iſrael.

43 Yna y dychwelodd Ioſuah a holl Iſrael gyd ag ef i'r gwerſſyll yn Gilgal.

## PEN. XI.

Ioſuah yn gorchfygu brenhinoedd eraill y rhai a ddaethent yn ei erbyn ef.

A Phan glybu Iabin brenin Hazor [y pethau hynny:] yna efe a anfonodd at Iobab brenin Madon, ac at frenin Simron ac at frenin Acſaph,

2 Ac at y brenhinoedd y rhai [oeddynt] o du yr gogledd [i'r wlâd] yn y mynydd-dir, ac yn y rhoſdir [tua] 'r dehau i Ceneroth ac yn y gwaſtadedd: ac yn ardaloedd Dôr tua 'r gorllewyn,

3 [At] y Canaaneaid o'r dwyrain, a'r gorllewyn,

wyn, a'r Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Phereziaid, a'r Iebuſiaid yn y mynydd-dir: ac [at] yr Heſiaid tann *Hermon yng-wlad Miſpah.

4 A hwynt a aethant allan, ai holl fyddinoedd gyd a hwynt, pobl lawer fel y tyfod yr hwn [ſydd] ar fin y môr o amldra: meirch hefyd, a cherbydau lawer iawn.

5 A'r holl frenhinoedd hyn a ymgyfarfuant: daethant hefyd a gwerſyllaſant yng-hyd wrth ddyfroedd Merom, i ymladd yn erbyn Iſrael.

6 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Ioſuah, nac ofna rhag-ddynt hwy, canys y foru yng-hylch y prŷd hyn y rhoddaf hwynt oll yn lladdedig o flaen Iſrael: llinynnau garrau eu meirch hwynt a dorri, ai cerbydau hwynt a loſci di a thân.

7 Yna Ioſuah a ddaeth a'r holl bobl ryfeloc gyd ag ef yn ddiſymmwth arnynt hwy wrth ddyfroedd Merom: ac a ruthraſant iddynt.

8 A'r Arglwydd ai rhoddodd hwynt yn llaw Iſrael, fel y tarawſant hwynt, ac yr erlidiaſant hwynt hyd Sidon fawr, ac hyd Miſrephothmaim, ac hyd glynn Miſpah o du 'r dwyrain: a tharawodd hwynt fel na adawodd efe o honynt [vn] yng-weddill.

9 Ac Ioſuah a wnaeth iddynt fel yr archaſe 'r Arglwydd iddo ef: llinynnau garrau eu meirch hwynt a dorrodd efe, ai cerbydau a loſcodd a thân.

10 Ioſuah y pryd hynny a ddychwelodd, ac a ennillodd Hazor, ac a darawodd ei brenin a'r cleddyf: canys Hazor or blaen oedd benn yr holl deyrnaſoedd hynny.

11 Tarawſant hefyd bob enaid a'r [oedd] ynddi a min y cleddyf gan [eu] difrodi [hwynt:] ni adawyd vn perchen anadl: ac efe a loſcodd Hazor a thân.

12 Felly holl ddinaſoedd y brenhinoedd hynny, ai holl frenhinoedd hwynt a ennillodd Ioſuah, ac ai tarawodd a mîn y cleddyf gan eu difrodi hwynt: *megis y gorchymynnaſe Moſes gwâs yr Arglwydd.

Num.33.52.
Deut.7.2.

13 Ond ni loſcodd Iſrael yr vn o'r dinaſoedd y rhai oeddynt yn ſefyll ar eu pelannau: namyn Hazor yn vnic a loſcodd Ioſuah.

14 A holl anrhaith y dinaſoedd hynny, a'r anifeiliaid a ſclyfaethodd meibion Iſrael iddynt eu hun: yn vnic pob dŷn a darawſant hwy a min y cleddyf, nes iddynt eu difetha hwynt, ni adawſant berchen anadl.

15 *Fel y gorchymynnaſe 'r Arglwydd i Moſes ei wâs, *felly y gorchymynnodd Moſes i Ioſuah: ac felly y gwnaeth Ioſuah, ni thynnodd efe ymmaith air o'r hyn oll a orchymynnaſe yr Arglwydd i Moſes.

Exod.34.12.
Deut.7.2.

16 Felly Ioſuah a ennillodd yr holl fynydd-dir hwnnw, a'r holl ddehau, a holl wlad Goſen a'r gwaſtadedd, a'r rhoſſydd: a mynydd Iſrael, ai waſtadedd,

17 O fynydd Halac yr hwn ſydd yn myned i fynu i Seir, hyd Baal Gad yng-lynn Libanus tann fynydd Hermon: ai holl frenhinoedd hwynt a ddaliodd efe, tarawodd hwynt hefyd a rhoddodd hwynt i farwolaeth.

18 Ioſuah a gynhaliodd ryfel yn erbyn yr holl frenhinoedd hynny ddyddiau lawer.

19 Nid oedd dinas a'r a heddychodd a meibion Iſrael heb law'r Heſiaid preſſwylwŷr Gibeon: yr holl rai [eraill] a ennillaſant hwy drwy ryfel.

Ioſua.9.3.

20 Am ddarfod i'r Arglwydd galedu eu calon hwynt i gyfarfod ag Iſrael mewn rhyfel fel y difrodent hwynt, ac na fydde iddynt drugaredd: onid eu difetha hwynt fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

21 A'r pryd hynny y daeth Ioſuah ac a ddiſaodd yr Anaciaid o'r mynydd-dir, o Hebron, o Dabir, o Anab, ac o holl fynydd Iuda, ac o holl fynydd Iſrael: Ioſuah ai difrododd hwynt ai dinaſoedd.

22 Ni adawyd [vn o'r] Anaciaid yng-wlad meibion Iſrael: yn vnic yn Azzah, yn Gath, ac yn Aſdod y gadawyd hwynt.

23 Felly Ioſuah a gymmerth yr holl wlâd yn ôl yr hyn oll a lefaraſe yr Arglwydd wrth Moſes, ac Ioſuah ai rhoddodd hi yn etifeddiaeth i Iſrael, yn ôl eu rhannau hwynt drwy eu llwythau: a'r wlâd a orphywyſodd heb ryfel.

Num.26.53.

## PEN. XII.

Pa frenhinoedd a orchfygodd Iſrael o'r tu hwnt i'r Iordonen.

DYmma frenhinoedd y wlâd [honno] y rhai a darawodd meibion Iſrael, ac a oreſcynnaſant eu gwlad hwynt or tu hwnt i'r Iorddonen tua chodiad yr haul: o afon Arnon hyd fynydd Hermon, a'r holl roſ-dir tua 'r dwyrain.

2 *Sehon brenin yr Amoriaid yr hwn oedd yn trigo yn Heſbon, yn arglwyddiaethu o Aroer yr hon [ſydd] ar fin yr afon Arnon, ac [o] ganol yr afon, ac [o] hanner Gilead hyd yr afon Iabboc [ym] mrô meibion Ammon.

Num.21.24.
Deu.3.6.

3 Ac or rhôs hyd fôr Ceneroth o du 'r dwyrain, ac hyd fôr y rhôs ſef y môr hêli o du 'r dwyrain tua Bethieſimoth: ac o du 'r deau *tann fronnydd y brynn.

Deut.3.17.
& 4.48.

4 A goror Og brenin Baſan [yr hwn oedd] *o weddill y cawri, yn trigo yn Aſtaroth ac yn Edrai.

Deu.3.11.
Ioſua.13.12.

5 Ac efe oedd yn arglwyddiaethu ym mynydd Hermon, ac yn Salcah, ac yn holl Baſan hyd terfyn y Geſſuriaid, a'r Maacathiaid: a hanner Gilead [hyd] derfyn Sehon brenin Heſbon.

6 Moſes gwâs yr Arglwydd a meibion Iſrael ai tarawſant hwy: a *Moſes gwâs yr Arglwydd ai rhoddodd hi yn etifeddiaeth i'r Rubeniaid,

Num.32.29.
deut.3.12.
ioſua.13.8.

beniaid, ac i'r Gadiaid, ac i hanner llwyth Manaſſes.

7 Dymma hefyd frenhinoedd y wlâd [hon] y rhai a darawodd Ioſuah a meibion Iſrael o'r tu ymma i'r Iorddonen tua'r gorllewyn o Baal Gad yng-lynn Libanus hyd fynydd Halac yr hwn ſydd yn myned i fynu i Seir: ac Ioſuah ai rhoddodd hi i lwythau Iſrael yn etifeddiaeth yn ôl eu rhannau.

8 Yn y mynydd, ac yn y gwaſtadedd, yn y rhoſdir hefyd, ac yn y bronnydd, ac yn yr anialwch, ac yn y dehau: [lle 'r oedd] yr Hethiaid, yr Amoriaid, a'r Canaaneaid, y Phereziaid, yr Hefiaid, a'r Iebuſiaid.

Ioſua.6.2. pen.8.29. & 10.25.

9 *Brenin Iericho yn un: brenin Ai'r hwn [oedd] o yſtlys Bethel yn un.

10 Brenin Ieruſalem yn un: brenin Hebron yn un.

10 Brenin Iarmuth yn un: brenin Lachis yn un.

Pen.10.23. 12 Brenin Eglon yn un: brenin * Gezer yn un.

13 Brenin * Dabir yn un: brenin Geder yn un.

Pen.10.39. 14 Brenin Horma yn un: brenin Arad yn un.

Ioſua.10.30. 15 Brenin * Libna yn un: brenin Adulam yn un.

Pen.10.28. & 10.19. 16 Brenin * Maccedah yn un: brenin Bethel yn un.

17 Brenin Tapuah yn un: brenin Hepher yn un.

18 Brenin Aphec yn un: brenin Laſſaron yn un.

Pen.11.10. 19 Brenin Madon yn un: brenin * Hazor yn un.

20 Brenin Simron Meron yn un: brenin Acſaph yn un.

21 Brenin Taanah yn un: brenin Megido yn un.

22 Brenin Cades yn un: brenin Iocneam o Garmel yn un.

Gene.14.1. 23 Brenin Dor o ardal Dor yn un: * brenin y cenhedloedd o Gilgal yn un.

24 Brenin Tirzah yn un: yr holl frenhinoedd [oeddynt] un ar ddec ar hugain.

## PEN. XIII.

Rhanniad tîr Canaan rhwng llwythau Iſrael. 14 Rhan y Lefiaid. 22 Dihenydd Balaam.

PAn heneiddiodd Ioſuah [a] phwyſo o honaw mewn oedran: yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho ef, ty di a heneiddiaiſt, daethoſt i ddyddiau [oedranus,] a thîr lawer iawn a adawyd iw oreſcyn.

2 Dymma y wlâd yr hon a adawyd: holl orwleddydd y Philiſtiaid, a holl Geſſuri.

3 O'r [afon] Sihor yr hon [ſydd yn rhedec] ar hŷd wyneb yr Aipht hyd derfyn Ecceron tua 'r gogledd a gyfrifir i'r Canaaneaid: [gwlad] pum tywyſog, y Philiſtiaid yr Azzathiaid, a'r Aſdodiaid yr Eſceloniaid y Githiaid, yr Ecceroniaid a'r Hefiaid.

4 O du 'r dehau holl wlâd y Canaaneaid a'r ogof yr hon [oedd] ym myſc y Sidoniaid hyd Aphec [ac] hyd terfyn yr Amoriaid.

5 A gwlâd y Gibeliaid, a holl Libanus tua chyfodiad yr haul o Baal Gad tann fynydd Hermon: nes dyfod i Hemath.

6 Holl breſſwylwŷr y mynydd o Libanus hyd * Miſrephotmaim a'r holl Sidoniaid myfi ai goreſcynnaf hwynt o flaen meibion Iſrael: yn unic rhanna hi i Iſrael yn etifeddiaeth fel y gorchymynnais iti. Pen.11.8.

7 Ac yn awr rhanna y wlâd hon yn etifeddiaeth i'r naw llwyth hynn: ac i hanner llwyth Manaſſes.

8 Y Rubenniaid hefyd ar Gadiaid a gymmeraſant eu etifeddiaeth gyd * a hi: yr hon a roddodd Moſes iddynt hwy o'r tu hwnt i'r Iorddonen tua 'r dwyrain fel y rhoddaſe Moſes gwâs yr Arglwydd iddynt. Num.32.33.

9 O Aroer yr hon [ſydd] ar fîn afon Arnon a'r ddinas yr hon [ſydd] yng-hanol y dyffryn, a holl waſtadedd Medebah hyd Dibon.

10 A holl ddinaſoedd Sehon brenin yr Amoriaid yr hwn a deyrnaſodd yn Heſbon: hyd ardal meibion Ammon.

11 Gilead hefyd, a therfyn y Geſuriaid y Maachiaid hefyd a holl fynydd Hermon a holl Iacſon hyd Salcah.

12 Holl frenhiniaeth Og yn Baſan, yr hwn a deyrnaſodd yn Aſtaroth, ac yn Edrai: efe a adawyd * o weddill y cawri, canys Moſes ai tarawſe hwynt, ac ai goreſcynnaſe. Deut.3.11. pen.12.4.

13 Ond meibion Iſrael ni oreſcynnaſant y Geſſuriaid na'r Maachiaid: eithr trigodd y Geſſuriaid, a'r Maachiaid ym mhlith Iſrael hyd y dydd hwn.

14 Yn unic i lwyth Lefi * ni roddodd efe etifeddiaeth: [eithr] aberthau tanllyd Arglwydd Dduw Iſrael oedd ei etifeddiaeth ef, fel y llefaraſe efe wrtho. Num.18.2

15 A Moſes aroddaſe i lwyth meibion Ruben [etifeddiaeth] drwy eu teuluoedd.

16 Ai terfyn hwynt oedd o Aroer yr hon [ſydd] ar fîn afon Arnon, a'r ddinas yr hon [ſydd] yng-hanol y dyffryn a'r holl waſtadedd hyd Medeba.

17 Heſbon hefyd ai holl ddinaſoedd y rhai [ydynt] yn y gwaſtadedd: Dibon a Bamoth Baal, a Beth baal Meon.

18 Iahaza hefyd a Chedemoth, a Mephaah.

19 Ciriathaim hefyd a Sibmah a Sereth Sahar ym mynydd-dir y glynn.

20 Beth-Peor hefyd, a bronnydd y brynn, a Beth Ieſimoth. Deut.3.17.

21 A holl ddinaſodd y gwaſtadedd, a holl frenhiniaeth Sehon brenin yr Amoriaid yr hwn a deyrnaſodd yn Heſbon: yr hwn a ddarfuaſe i Moſes ei daro, a * thywyſogion Midian, Efi, a Num.31.8.

Recem, Zur hefyd, a Hur, a Rebah, pendefigion Sehon [y rhai] oeddynt yn preſſwylio y wlâd.

22 Balaam hefyd fab Beor y dewin a laddodd meibion Iſrael a'r cleddyf gyd ai lladdedigion hwynt.

23 A therfyn meibion Ruben oedd yr Iorddonen ai therfyn: dymma etifeddiaeth meibion Ruben yn ôl eu teuluoedd, y dinaſoedd, ai trefi.

24 Moſes hefyd a roddodd i lwyth Gad [ſef etifeddiaeth] i feibion Gad drwy eu teuluoedd.

25 Ac Iazer oedd terfyn iddynt hwy, a holl ddinaſoedd Gilead, a hanner gwlâd meibion Ammon: hyd Aroer yr hon [ſydd] ar gyfer Rabbah.

26 Ac o Heſbon hyd Ramath, Miſpah, a Betonim: ac o Mahanaim hyd gyffinid Dabir.

27 Ac yn nyffryn Betharam, a Bethnimrah Succoth hefyd a Saphon gweddill brenhiniaeth Sehon, brenin Heſbon, [hyd] yr Iorddonen ai therfyn: hyd gwrr mor Cenereth o'r tu hwnt i'r Iorddonen o du'r dwyrain.

28 Dymma etifeddiaeth meibion Gad yn ôl eu teuluoedd: y dinaſoedd ai trefydd.

29 Moſes hefyd a roddodd [etifeddiaeth] i hanner llwyth Manaſſes: a bu ['r etifeddiaeth honno] i hanner llwyth meibion Manaſſes yn ôl eu teuluoedd.

30 Ai terfyn hwynt oedd o Mahanaim [ſef] holl Baſan, [nid amgen] holl frenhiniaeth Og brenin Baſan tri vgain nhinas.

31 A hanner Gilead, ac Aſtaroth, ac Edrai dinaſoedd brenhiniaeth Og yn Baſan [* a roddodd efe] i feibion Machir mab Manaſſes, dros hanner meibion Machir yn ôl eu teuluoedd.

Num.32.39.

32 Dymma ['r etifeddiaethau] y rhai a roddodd Moſes iw etifeddu yn rhoſſydd Moab, am yr Iorddonen ag Iericho o du'r dwyrain.

33 Ond * i lwyth Lefi ni roddodd Moſes etifeddiaeth: Arglwydd Dduw Iſrael yw eu hetifeddiaeth hwynt fel * y llefarodd efe wrthynt.

Ioſu.18.7.

Num.18.20.

## PEN. XIIII.

Naw llwyth a hanner yn cael tir Canaan ei gyd. 6 Rhan Caleb.

DYmma hefyd [y lleoedd] y rhai a etifeddodd meibion Iſrael yng-wlâd Canaan: * y rhai a roddodd Eleazar yr offeiriad, ac Ioſuah mab Nun, a phennau cenedl llwythau meibion Iſrael iddynt hwy iw etifeddu.

Num.34.17.

2 Wrth goel-bren eu hetifeddiaeth hwynt: fel y gorchymynnaſe 'r Arglwydd drwy law Moſes [eu rhoddi] i'r naw llwyth, ac i'r hanner llwyth.

Num.26.55. & 33.54.

3 Canys Moſes a roddaſe etifeddiaeth i ddau lwyth, ac i hanner llwyth o'r tu hwnt i'r Iorddonen: ond i'r Lefiaid ni roddaſe efe etifeddiaeth yn eu myſc hwynt.

4 Canys meibion Ioſeph oeddynt ddau lwyth, Manaſſes, ac Ephraim: am hynny ni roddaſant rann o'r tîr i'r Lefiaid, onid dinaſoedd i drigo, ai meuſydd pentrefol iw hanifeiliaid hwynt, ai golud.

5 * Fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd i Moſes, felly y gwnaeth meibion Iſrael, pan rannaſant y wlâd.

Num.35.2.

6 Yna meibion Iuda a ddaethant at Ioſuah yn Gilgal, a Chaleb mab Iephun y Cenezíad a ddywedodd wrtho ef: tydi a wyddoſt y gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd wrth Moſes gŵr Duw o'm plegit i, ac o'th blegit dithe yn Cades Barnea.

7 Mab deugain mlwydd oeddwn i pan anfonodd Moſes gwâs yr Arglwydd fyfi o Cades Barnea i edrych anſodd y wlad: a dugum air iddo ef trachefn, fel [yr oedd] yn fyng-halon.

8 Ond fy mrodyr y rhai a aethant i fynu gyda mi a ddigalonnaſant y bobl: etto myfi a gyflawnais [fyned] ar ôl yr Arglwydd fy Nuw.

9 Am hynny y tyngodd Moſes y diwrnod hwnnw gan ddywedyd, oni bydd y wlâd yr hon y ſathrodd dy droed ynddi yn etifeddiaeth i ti, ac i'th feibion hyd byth, [nid geir-wir fi:] am it gyflawni [myned] ar ôl yr Arglwydd dy Dduw.

10 Ac yn awr wele'r Arglwydd a'm cadwodd yn fyw fel y llefarodd efe, dymma y bummed flwyddyn a deugain er pan lefarodd yr Arglwydd y gair hwn wrth Moſes: tra y rhodiodd Iſrael yn yr anialwch: ac yn awr wele fi heddyw yn fab pum mlwydd a phedwar vgain.

11 Yr ydwyf etto mor gryf heddyw a'r dydd yr anfonodd Moſes fi, fel [yr oedd] fy nerth i yna, felly [y mae] fy nerth i yn awr, i ryfela, ac i fyned allan, ac i ddyfod i mewn.

Eccl.46.9.

12 Yn awr gan hynny dyro i mi y mynydd ymma, am yr hwn y llefarodd yr Arglwydd y dwthwn hwnnw: canys ti a glywaiſt y dwthwn hwnnw fod yr Anaciaid yno, a dinaſoedd mawrion caerog, ond odid yr Arglwydd [ſydd] gyda mi, fel y goreſcynnwyf hwynt megis y llefarodd yr Arglwydd.

13 Yna Ioſuah ai bendithiodd ef: ac a roddodd Hebron i Galeb fab Iephun yn etifeddiaeth.

14 Am hynny * y mae Hebron yn etifeddiaeth i Galeb fab Iephun y Cenezíad hyd y dydd hwn: o herwydd iddo ef gwplau [myned] ar ôl Arglwydd Dduw Iſrael.

1.Mac.2.56.

15 Ac enw * Hebron o'r blaen [oedd] Caer Arba, yr [Arba hwnnw] oedd ddŷn mawr ym myſc yr Anaciaid: yna y wlâd a orphywyſodd heb ryfel.

Ioſua.15.13

## PEN. XV.

Rhan meibion Iuda. 19 A dymuniad Achſah.

AC etifeddiaeth llwyth meibion Iuda oedd yn ôl eu teuluoedd: * tua therfyn Edom, [ac] anialwch * Zin tua yr dehau o'r cwrr dehau.

Num.34.3.

Num.33.36.

2 A therfyn y dehau oedd iddynt hwy o gwrr y môr hêli: o'r graig yr hon ſydd yn wynebu tua 'r dehau.

3 Ac yr oedd yn myned allan o'r dehau hyd riw Acrabbim, ac yr oedd yn cyredd i Zin, ac yn myned i fynu o du 'r dehau i Cades Barnea: ac yn myned hefyd i Heſron, ac yn eſcynn i Adarah, ac yn amgylchynu i Garcaa.

4 Ac yn cyredd i Aſmon, ac yn myned tu ag afon yr Aipht, a chyrrau y terfyn hwnnw oeddynt tua 'r gorllewyn: hyn fydd i chwi yn derfyn tua 'r dehau.

5 A'r terfyn tua 'r dwyrain [yw] 'r môr hêli hyd eithaf yr Iorddonen: a'r terfyn o dû 'r gogledd [ſydd] o graig y môr [ac] o gwrr yr Iorddonen.

6 A'r terfyn hwn oedd yn myned i fynu i Bethhogla, ac yn cyredd o'r gogledd hyd Beth-Arabah: a'r terfyn hwn oedd yn myned i fynu at faen Bohan mab Ruben.

7 A'r terfyn hwn ſydd yn myned i fynu i Dabir o ddyffryn Achor, a thua 'r gorllewyn yn edrych tua Gilgal, yr hon [ſydd] o du 'r dehau i'r afon: y terfyn hwn hefyd ſydd yn myned hyd ddyfroedd Enſemes, ai gwrr eithaf ſydd wrth * En-rogel.

1.Bren.1.9.

8 Yna 'r terfyn hwn ſydd yn myned i fynu [drwy] ddyffryn meibion Hinnom gan yſtlys [dinas] y Iebuſiaid o du 'r dehau, honno [yw] Ieruſalem: y terfyn hwn hefyd ſydd yn myned i fynu i benn y mynydd yr hwn [ſydd] o flaen dyffryn Hinnon tua 'r gorllewyn, yr hwn [ſydd] yng-hwrr glynn Rephaim tua 'r gogledd.

9 Felly y terfyn hwn ſydd yn amgylchu o benn y mynydd hyd ffynnon y dyfroedd Nephthoah, ac ſydd yn myned allan i ddinaſoedd mynydd Ephron: y terfyn hwn hefyd ſydd yn tueddu i Baala honno [yw] Ciriath-Iearim.

10 Yna y terfyn hwn ſydd yn amgylchynu o Baala tua 'r gorllewyn i fynydd Seir, ac y ſydd yn myned rhacddo at yſtlys mynydd Iearim o du 'r gogledd, honno [yw] Cheſalon: felly y mae yn deſcyn i Bethſemes, ac yn myned i Thimnah.

11 A'r terfyn hwn ſydd yn myned i yſtlys Eccerôn tua 'r gogledd, y terfyn hwn ſydd yn tueddu i Sichron, ac yn myned rhacddo i fynydd Baala, ac yn cyrheuddyd Iabneel: a chyrrau eithaf y terfyn hwn ydynt [wrth] y môr.

12 A therfyn y gorllewyn [yw] 'r môr mawr ai derfyn: dymma derfyn meibion Iuda o amgylch drwy eu teuluoedd.

13 Ac i Galeb fab Iephun y rhoddodd efe ran ym myſc meibion Iuda yn ol gair yr Arglwydd wrth Ioſuah: ſef * caer Arba (yr hwn oedd] dad yr Anaciaid) honno [yw] Hebron.

Pen.14.15.

14 A Chaleb a * yrrodd oddi yno dri mab Anac: Seſai, ac Ahiman, a Thalmai meibion Anac.

Barn.1.10.

15 Ac efe a aeth i fynu oddi yno at drigolion Dabir: ac enw Dabir o'r blaen [oedd] Ciriath Sepher.

16 Yna y dywedodd Caleb, pwy bynnac a darawo Ciriath Sepher, ac ai hennill hi: iddo ef y rhoddaf Achſah fy merch yn wraig.

17 Ac Othniel mab Cenaz brawd Caleb ai hennillodd hi: yntef a roddodd Achſah ei ferch iddo ef yn wraig.

18 A phan ddaeth hi i mewn [atto ef] yna hi ai annogodd ef i geiſio gan ei thad [ryw] faes, ac a ddeſcynnodd oddi ar yr aſſyn: a dywedodd Caleb wrth i, beth [ſydd] arnat?

Barn.1.14.

19 Yna hi a ddywedodd [wrtho,] dyro i mi ròdd, canys gwlâd y dehau a roddaiſt i mi, dyro i mi hefyd ffynhonnau dyfroedd: a Chaleb a roddodd iddi y ffynhonnau vchaf, a'r ffynhonnau iſaf.

20 Dymma etifeddiaeth llwyth meibion Iuda drwy eu teuluoedd.

21 A'r dinaſoedd o du eithaf i lwyth meibion Iuda tua therfyn Edom ar du 'r dehau oeddynt: Cabzeel, ac Eder, ac Iagur.

22 Cinah hefyd, a Dimonah, ac Adadah.

23 Cedes hefyd, a Hazor, ac Iethnan.

24 Ziph hefyd, a Thelem, a Bealoth.

25 Hazor hefyd, Haddatta, a Chiriath Heſron honno [yw] Hazor.

26 Amam, ac Sema, a Molada.

27 Hazar hefyd, Gadah, a Heſmon, a Beth-phaleth.

28 Haſarſual hefyd, a Beer-ſeba, a Baziotha.

29 Baala, ac Iim, ac Azem.

30 Eltholad hefyd, a Cheſil, a Horma.

31 Siglag hefyd, a Madmandah, a Sanſanna.

32 Lebaoth hefyd a Silhim, ac Ain, a Rimmon: yr holl ddinaſoedd [oeddynt] naw ar hugain, ai trefydd.

33 Ac yn y gwaſtadedd: Eſthaol, Zarea, ac Aſenah.

34 Zanoah hefyd, ac Engannim, Thapua, ac Enam.

35 Iarmuth, ac Adulam, Socoh, ac Azecah.

36 Saaraim hefyd, ac Adithaim, Gederah hefyd a Gederothaim: pedair ar ddec o ddinaſoedd, ai trefydd.

37 Zenan, a Hadazah, a Migdal-gad.

38 Dilean hefyd, a Miſpeh, ac Iecthel.

39 Lachis, a Baſecath, ac Eglon.

40 Cabbon hefyd, a Lachmas, a Chithlis.

41 Gederoth hefyd, Beth-dagon, a Naama, a Maccedah: vn dinas ar bymthec ai trefydd.

42 Libnah, ac Ether, ac Aſan.

43 Iiphthach hefyd, ac Aſnah, a Nezib.

44 Ceila hefyd, ac Achzib, a Mareſah: naw o ddinaſoedd ai trefi.

45 Ecceron, ai phentrefydd, ai threfydd.

46 Ecceron hyd y môr: yr holl rhai [yddynt] ger llaw Aſdod, ai trefydd.

47 Aſdod ai phentrefydd ai threfydd, Azza ai phentrefydd ai threfydd hyd afon yr Aipht: a'r môr mawr, ai derfyn.

48 Ac yn y mynydd-dir: Samir, ac Játhir, a Socoh.

49 Dannah hefyd, a Chiriath Sannah, honno [yw] Dabir.

50 Anab hefyd, ac Eſthemoh, ac Anim.

51 Goſen hefyd a Cholon, a Giloh: vn ddinas ar ddec ai trefydd.

52 Arab, a Dumah, ac Eſan.

53 Janum hefyd, a Bethtaphua, ac Apecah.

Pen.14.15. 54 Humtah hefyd, a *chaer Arba, honno [yw] Hebron, a Sior: naw dinas ai trefydd.

55 Maon, Carmel, a Ziph, ac Jutta.

56 Jezrael hefyd, ac Jocdeam, a Zanoah.

57 Cain, Gibea, a Thimnah: dec o ddinaſoedd ai trefydd.

58 Halchul, Bethſur, a Gedor.

59 Naarah hefyd, a Bethanoth, ac Elthecon: chwech o ddinaſoedd ai trefydd.

60 Ciriath Baal, honno [yw] Ciriath Jearim, a Rabbah: dwy ddinas ai trefydd.

61 Yn yr anialwch Beth-harabah, Midin a Secacah.

62 Mibſan hefyd, a dinas yr halen, ac Engedi: chwech o ddinaſoedd ai trefydd.

63 Ond ni allodd meibion Juda eu goreſcyn hwynt, ſef y Jebuſiaid trigolion Jeruſalem: am hynny 'y trigodd y Jebuſiaid gyd a meibion Juda yn Jeruſalem hyd y dydd hwn.

## PEN. XVI.

Rhan Ephraim.

AC etifeddiaeth meibion Joſeph oedd yn myned o'r Jorddonen [wrth] Jericho i ddyfroedd Jericho o du'r dwyrain: a'r anialwch yr hwn ſydd yn myned i fynu o Jericho i fynydd Bethel.

Barn.1.26. 2 Ac y mae yn myned o Bethel i Luz: ac yn cyfeirio at derfyn Archiataroth:

3 Ac yn deſcyn tua'r gorllewyn i ardal Japhleti hyd derfyn Beth-horon iſaf, ac hyd Gazer: ai gyrrau eithaf ydynt hyd y môr.

4 Felly meibion Joſeph, Manaſſes, ac Ephraim a gymmeraſant etifeddiaeth.

5 A therfyn meibion Ephraim oedd yn ôl eu teuluoedd: a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt o du'r dwyrain oedd Atroth Adar hyd Beth-horon vchaf.

6 A'r terfyn hwn ſydd yn myned tua'r môr, [a] thua Micmetha o du'r gogledd a'r terfyn hwn ſydd yn amgylchu o du'r dwyrain i Thaanah Siloh: ac yn myned heibio iddi o du'r dwyrain i Janohah.

7 Ac yn myned i wared o Janohah [i] Ataroth, a Naarathah: ac yn cyfwrdd ag Jericho, ac yn myned allan i'r Jorddonen.

8 O Thappuah y mae y terfyn hwn yn myned tua'r dwyrain i afon Canah, ai gyrrau eithaf ydynt wrth y môr: dymma etifeddiaeth llwyth meibion Ephraim yn ôl eu teuluoedd,

9 A dinaſoedd nailltuedic meibion Ephraim [oeddynt] ym myſc etifeddiaeth meibion Manaſſes: yr holl ddinaſoedd ai pen trefydd.

10 Ond ni oreſcynnaſant hwy y Canaaneaid y rhai oeddynt yn trigo yn Gezer: am hynny y trigodd y Canaaneaid ym mhlith yr Ephraimiaid hyd y dydd hwn, ac y maent yn gwaſanaethu tann dreth.

## PEN. XVII.

Rhan hanner llwyth Manaſſes. 3 a rhan merched Zalphaad o hynny.

Gene.46.14. AC etifeddiaeth llwyth Manaſſes oedd (canys efe [oedd] *gyntafanedic Joſeph:) i Machir cyntafanedic Manaſſes tad Gilead, o herwydd ei fod efe yn rhyfel-wr, yr oedd Gilead, a Baſan yn eiddo ef.

Num. 26.29. 2 Ac yr oedd [etifeddiaeth] i'r rhan arall o feibion Manaſſes yn ôl eu teuluoedd [ſef] i feibion Abiezer, ac i feibion Helec, ac i feibion Aſriel, ac i feibion Sichem, ac i feibion Hepher, ac i feibion Semida: dymma feibion Manaſſes, fab Joſeph [ſef] y rhai gyrſiaid yn ôl eu teuluoedd.

Num.26.33. & 27.1.& 32. 1. 3 Ac *am Zalphaad fab Hepher, fab Gilead, fab Machir, fab Manaſſes nid oedd iddo ef feibion onid merched: ac dymma enwau ei ferched ef Mahala a Noa, Hogla, Milcha, a Thirſa:

4 Y rhai a ddaethant o flaen Eleazar yr offeiriad, ac o flaen Joſuah mab Nun, ac o flaen y tywyſogion gan ddywedyd, yr Arglwydd a orchymynnodd i Moſes roddi i ni etifeddiaeth ym myſc ein brodyr: am hynny efe a roddodd iddynt etifeddiaeth yn ôl gair yr Arglwydd ym myſc brodyr eu tadau hwynt.

5 A dec rhan-dir a ſyrthiaſant i Manaſſes: heb law gwlâd Gilead, a Baſan y rhai [ydynt] tu hwnt i'r Jorddonen.

6 Canys merched Manaſſes a etifeddaſant etifeddiaeth ym myſc ei feibion ef: a gwlad Gilead oedd eiddo y rhan arall o feibion Manaſſes.

7 A therfyn Manaſſes oedd o Aſer i Micmethah, yr hon [ſydd] gyferbyn a Sichem: a'r terfyn hwn oedd yn myned ar y llaw ddehau hyd breſwyl-wyr Entaphua.

8 Gwlâd Taphua oedd eiddo Manaſſes: ond Taphua ['r hon oedd] wrth derfyn Manaſſes [oedd] eiddo meibion Ephraim.

9 A'r terfyn hwn ſydd yn myned i wared i afon Canah tu'r dehau i'r afon, y dinaſoedd hyn [oeddynt] eiddo Ephraim ym mhlith dinaſoedd Manaſſes: a therfyn Manaſſes [ſydd] o du'r gogledd i'r afon, ai diwedd oedd y môr.

10 Y dehau [oedd] eiddo Ephraim, a'r gogledd eiddo Manaſſes, a'r môr oedd ei derfyn ef: ac yn Aſer yr oeddynt yn cyfarfod, o'r gogledd, ac yn Iſſachar o'r dwyrain.

11 Yn Iſſachar hefyd, ac yn Aſer yr oedd gan Manaſſes Bethſean ai phẽtrefydd, ac Ibleam ai phentrefydd, a thrigolion Dor ai phentrefydd, a thrigolion Endor ai phentrefydd, a phreſſwyl-wŷr Thaanac ai phentrefydd, a thrigolion Megido ai phentrefydd: [ſef] y tair talaith hynny.

12 Ond ni allodd meibion Manaſſes oreſcyn y dinaſoedd hynny: eithr mynnodd y Canaaneaid breſſwylio yn y wlâd honno.

13 Etto pan gryfhaodd meibion Iſrael yna hwynt a oſodaſant y Canaaneaid tann drêth: ond gan oreſcyn ni oreſcynnodd efe hwynt.

14 Yna meibion Ioſeph a lefaraſant wrth Ioſuah gan ddywedyd: pa ham y rhoddaiſt i mi yn etifeddiaeth vn afel, ac vn rhan, a minne yn bobl aml, wedi i'r Arglwydd hyd yn hyn * fy mendichio i? Gen.48.19.

15 Ac Ioſuah a ddywedodd wrthynt, os pobl aml ydwyt dos i fynu i'r coed, a thorr [goed] it yno yng-wlâd y Pherezíaid a'r cawri: od yw mynydd Ephraim yn gyfyng i ti.

16 Yna meibion Ioſeph a ddywedaſant, ni bydd y mynydd ddigon i ni: hefyd [y mae] cerbydau heirn gan yr holl Canaaneaid y rhai ydynt yn trigo yn y dyffryn-dir [a] chan y rhai [ydynt] yn Bethſean, ai phentrefydd, a chan y rhai [ydynt] yng-lynn Iezrael.

17 Ac Ioſuah a ddywedodd wrth dŷ Ioſeph, wrth Ephraim ac wrth Manaſſes gan ddywedyd: pobl aml ydwyt, a nerth mawr [ſydd] gennit, na fydded it vn rhann [yn vnic,]

18 Eithr bydded y mynydd eiddo ti, os coedoc yw, yna arloeſa ef fel y byddo ei eithafoedd ef eiddo ti: canys ti a oreſcynni y Canaaneaid er [bod] cerbydau heirn ganddynt, [ac] er eu [bod] hwynt yn gryſion.

## PEN. XVIII.

Goſodiad y tabernacl yn Siloh. 11 Rhan meibion Beniamin.

YNA holl gynnulleidfa meibion Iſrael a ymgynnullaſant i Siloh, ac a gyfleuaſant yno babell y cyfarfod: wedi daroſtwng y wlâd oi blaen hwynt.

2 A ſaith llwyth oeddynt yn aros ym myſc meibion Iſrael i'r rhai ni rannaſent eu hetifeddiaeth.

3 Yna Ioſuah a ddywedodd wrth feibion Iſrael: pa hŷd yr ydych yn eſceuluſo myned i oreſcyn y wlâd yr hon a roddodd Arglwydd Dduw eich tadau i chwi?

4 Moeſwch o honoch dri-wŷr o [bob] llwyth: fel yr anfonwyf hwynt, ac y cyfodant, ac y rhodiant y wlad, ac y doſparthant hi yn ôl eu hetifeddiaeth hwynt, ac y delont attaf [drachefn.]

5 Felly ymrannant ynddi yn ſaith ran: Iuda a ſaif ar ei derfyn o du'r dehau, a thŷ Ioſeph ſafant ar eu terfyn o du 'r gogledd.

6 Pan ddoſparthoch chwi y wlad yn ſaith ran, yna dygwch [y doſparthiadau] attafi ymma: fel y bwriwyf goel-bren troſoch ymma o flaen yr Arglwydd ein Duw.

7 Canys ni [bydd] rhan i'r Lefiaid yn eich myſc chwi, o herwydd offeiriadaeth yr Arglwydd [fydd] ei etifeddiaeth ef: Gad hefyd, a Ruben a hanner llwyth Manaſſes a gymmeraſant eu hetifeddiaeth o'r tu hwynt i'r Iorddonen o du 'r dwyrain, yr hon a roddaſe Moſes gwâs yr Arglwydd iddynt.

8 Yna'r gwŷr a gyfodaſant ac a aethant, ac Ioſuah a orchymynnodd i'r rhai oeddynt yn myned i rannu y wlâd gan ddywedyd, ewch a rhodiwch drwy 'r wlâd, a doſperthwch hi, a dychwelwch attafi, ac ymma y bwriaf droſoch chwi goel-bren ger bron yr Arglwydd yn Siloh.

9 Felly y gwŷr a aethant ymmaith, ac a gerddaſant drwy 'r wlâd, ac ai ſcrifennaſant hi bob yn ddinas yn ſaith ran mewn llyfr: yna y daethant at Ioſuah i'r gwerſſyll [yn] Siloh.

10 Ac Ioſuah a fwriodd goel-bren droſtynt hwy ger bron yr Arglwydd yn Siloh: ac Ioſuah a rannodd yno y wlâd i feibion Iſrael yn ôl eu rhannau.

11 A choel-bren llwyth meibion Beniamin a ddaeth i fynu yn ôl eu teuluoedd: a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt a aeth allan rhwng meibion Iuda, a meibion Ioſeph.

12 A'r terfyn oedd iddynt hwy tua r' gogledd o'r Iorddonen: y terfyn hefyd oedd yn myned i fynu gan yſtlys Iericho o du'r gogledd, ac yn dringo drwy 'r mynydd tua 'r gorllewyn, ai gyrrau eithaf oeddynt yn anialwch Bethafen.

13 Y terfyn hwnn hefyd ſydd yn myned oddi yno i Luz, gan yſtlys Luz tua 'r deau, honno [yw] Bethel: a'r terfyn hwn ſydd yn deſcyn i Ateroth Adar, tua 'r mynydd yr hwn [ſydd] o du 'r dwyrain i Beth-horon iſaf.

14 Felly y terfyn ſydd yn tueddu, ac yn amgylchu cilfach y môr tua 'r dehau, o'r mynydd yr hwn [ſydd] ar gyfer Beth-horon tua 'r dehau, ai gyrrau eithaf ef [ydynt] wrth Ciriath Baal, honno [yw] Ciriath Iearim, dinas meibion Iuda: dymma du y gorllewyn.

15 A thu y dehau [ſydd] o gwrr Ciriath Iearim: a'r terfyn ſydd yn myned tua 'r gorllewyn, ac yn cyrhaeddyd hyd ffynnon dyfroedd Nephtoah.

16 Y terfyn hwn hefyd ſydd yn deſcyn tua chwrr y mynydd yr hwn [ſydd] ar gyfer glynn mab Hinnom, yr hwn [ſydd] yn nyffryn y cawri tua 'r gogledd: ac y mae efe yn deſcyn [drwy] 'r glynn Hinnom gan yſtlys y Iebuſiaid tua 'r dehau, ac yn dyfod i wared i ffynnon Rogel.

17 Ac y mae yn tueddu o'r gogledd, ac yn myned i Enſemes, ac yn cyrhaeddyd hyd Geliloth, yr hon [ſydd] gyferbyn a rhiw Adummim: ac yn deſcyn [at] * faen Bohan mab Ruben. Ioſua 15.6

18 Ac y mae efe yn myned ar hyd yr yſtlys [yr hwn ſydd] ar gyfer y rhôs tua 'r gogledd,

ac yn deſcyn i'r rhôs.

19 Y terfyn hwn hefyd ſydd yn myned rhacddo gan yſtlys Beth-hoglah tua'r gogledd, a chwr eithaf y terfyn oedd wrth lann y môr hêli tua'r gogled, [ac] hyd gwr yr Iorddonen tua'r dehau: dymma derfyn y dehau.

20 Yr Iorddonen hefyd ſydd yn ei derfynu ef o yſtlys y dwyrain: dymma etifeddiaeth meibion Beniamin drwy eu terfynau o amgylch yn ôl eu teuluoedd.

21 A dinaſoedd llwyth meibion Beniamin yn ôl eu teuluoedd oeddynt Iericho, a Beth-hoglah, a glynn Ceziz.

22 Beth Arabah hefyd, a Semaraim, a Beth-el.

23 Afim hefyd, a Pharah, ac Ophrah.

24 A Chephar, Ammonai, ac Ophni, a Gaba: deuddec o ddinaſoedd ai trefydd.

25 Gibeon, a Ramah, a Beeroth.

26 Miſpeh hefyd, a Chephirah, a Moſa.

27 Recem hefyd, ac Irpeel, a Tharolah.

28 Zela hefyd, Eleph, ac Iebuſi (honno [yw] Ieruſalem) Gibeath [a] Chiriath pedair ar ddeg o ddinaſoedd ai pentrefydd: dymma etifeddiaeth meibion Beniamin yn ôl eu teuluoedd.

## PEN. XIX.

Rhannau meibion Simeon. 10 Zabulon. 17 Iſſachar. 24 Aſer. 32 Nephthali. 40 Dan. 49 a rhan Ioſuah.

A'R ail coel-bren a aeth allan i Simeon [ſef] dros lwyth meibion Simeon yn ôl eu teuluoedd: ai hetifeddiaeth hwynt oedd ym myſc etifeddiaeth meibion Iuda.

2 Ac yr oedd ganddynt hwy yn eu hetifeddiaeth hwynt Beerſeba, a Seba, a Moladah.

3 Haſar-ſual hefyd, a Balah, ac Aſem.

4 Eltholad hefyd, a Bethul, a Horma.

5 Ziglac hefyd, a Beth-marcaboth a Hazarſuſah.

6 A Beth-lebaoth, a Saruhen: tair dinas ar ddeg ai trefydd.

7 Ain, Rimmon, ac Ether, ac Aſan: pedair o ddinaſoedd ai trefydd.

8 A'r holl drefydd y rhai [oeddynt] o amgylch y dinaſoedd hyn hyd Baalath-beer, Ramath[o du]'r dehau: dymma etifeddiaeth llwyth meibion Simeon yn ôl eu teuluoedd.

9 O ran-dir meibion Iuda yr [oedd] etifeddiaeth meibion Simeon: canys rhann meibion Iuda oedd ormod iddynt, am hynny meibion Simeon a gymmeraſant etifeddiaeth ym myſc eu hetifeddiaeth hwynt.

10 A'r trydydd coel-bren a ddaeth i fynu dros feibion Zabulon yn ôl eu teuluoedd: a therfyn eu hetifeddiaeth hwynt oedd hyd Sarid.

11 Ai terfyn hwynt ſydd yn myned i fynu tua'r môr, a Maralah, ac yn cyffwrdd a Dabaſer: ac yn cyrheuddyd i'r afon yr hon [ſydd] ar gyfer Iocneam,

12 Ac yn dychwelyd o Sarid tua thu'r dwyrain [ſef tua] chyfodiad yr haul hyd derfyn Ciſloth Tabor: ac yn myned i Ddaberath, ac yn eſcyn i Iaphia,

13 Ac yn myned oddi yno ym mlaen tua'r dwyrain i Gittah Hepher, i Ittah Cazin: ac yn myned i Rimmon Methoar, [ac i] Neah.

14 A'r terfyn hwn ſydd yn amgylchu o du'r dwyrain i Hanathon: ai ddiweddiad yng-lynn Iiphtahel.

15 Cattath hefyd a Nahalal, a Simron ac Idalah, a Bethlehem: deuddeg o ddinaſoedd ai trefydd.

16 Dymma etifeddiaeth meibion Zabulon yn ôl eu teuluoedd: [nid amgen] y dinaſoedd ymma, ai trefydd.

17 Y pedwerydd coel-bren a aeth allan dros Iſſachar: [ſef] dros feibion Iſſachar yn ôl eu teuluoedd.

18 Ai terfyn hwynt oedd Izrehelah, a Cheſuloth, a Sunem.

19 Hapharaim hefyd, a Sion, ac Anaharath.

20 Rabbith hefyd, a Chiſion, ac Abez.

21 Remeth hefyd, ac Engamin, ac Enhadah a Beth-phazez.

22 A'r terfyn hwn ſydd yn cyrhaeddyd i Thabor, a Sahazimah, a Bethſemes, ai cyrrau eithaf hwynt yw yr Iorddonen: vn dinas ar bymthec ai trefydd.

23 Dymma etifeddiaeth llwyth meibion Iſſachar yn ôl eu teuluoedd: [ſef] y dinaſoedd, ai trefydd.

24 Yna y pummed coel-bren a aeth allan dros lwyth meibion Aſer yn ôl eu teuluoedd.

25 Ai terfyn hwynt oedd: Helcath, a Hali, a Beten, ac Acſaph.

26 Alamelec hefyd, ac Amad, a Miſal: ac yn cyrheuddyd i Carmel tua'r gorllewyn, ac i Sihor Libnah,

27 Ac y mae efe yn troi tua chyfodiad yr haul i Beth-dagon, ac yn cyrhaeddyd i Zabulon, ac i ddyffryn Iiphthahel tua'r gogledd i Beth Emec, ac i Neiel, ac yn myned ar y llaw aſſwy i Chabul,

28 [Ac] Hebron hefyd, a Rehob, a Hammon, a Chanah: hyd Sidon fawr.

29 A'r terfyn ſydd yn dychwelyd i Ramah, ac hyd Zor y ddinas gaerog: a'r terfyn yn troi i Hoſah, ai gyrrau eithaf ydynt wrth y môr o randir Achzib.

30 Umma hefyd, ac Aphec, a Rehob: dwy ddinas ar hugain ai trefydd.

31 Dymma etifeddiaeth llwyth meibion Aſer yn ol eu teuluoedd: [ſef] y dinaſoedd hyn ai trefydd.

32 Y chweched coel-bren a aeth allan dros feibion Nephthali: [ſef] dros feibion Nephthali yn ól eu teuluoedd.

33 Ai terfyn hwynt oedd o Heleph, [ac] o Alon yn Zaannim, ac Adami Neceb, ac Iabneel hyd Laccum: ai gyrrau eithaf oedd [wrth] yr

Iorddonen.

34 A'r terſyn hwn ſydd yn dychwelyd tua 'r gorllewyn i Aznoth Tabor, ac yn myned oddi yno i Huccocah: ac yn cyrhaeddyd i Zabulon o du 'r dehau, [ac] yn cyrhaeddyd i Aſer o du 'r gorllewyn, ac i Iuda tua 'r Iorddonen o gyfodiad haul.

35 A'r dinaſoedd caeroc[ydynt] Zidim, Zer, a Hamniath, Raccath, a Chinereth.

36 Adamah hefyd, a Ramah, a Haſor.

37 Cedes hefyd, ac Edrai, ac Enhaſor.

38 Iron hefyd a Migdal-el, Horem a Bethanath, a Bethſemes: pedair dinas ar bymthec ai trefydd.

39 Dymma etifeddiaeth llwyth meibion Nephthali yn ôl eu teuluoedd: [ſef] y dinaſoedd ai trefydd.

40 Y ſeithfed coel-bren a ddaeth allan dros lwyth meibion Dan yn ôl eu teuluoedd.

41 A therfyn eu hetifeddiaeth hwynt oedd: Sorah, ac Eſthaol, a Chiriath Semes.

42 Saalabbin hefyd, ac Aialon, ac Ithlah.

43 Elon hefyd, a Themnatha, ac Ecceron.

44 Elthecc hefyd, a Gibbethon, a Baalath.

45 Iehud hefyd, a Beneberac, a Gathrimmon.

46 Meiarcon hefyd, a Raccon gyd a'r terfyn ar gyfer Iapho.

47 A therfyn meibion Dan a aeth yn rhy [fychan] iddynt: am hynny meibion Dan a aethant i fynu, ac a ymladdaſant yn erbyn Leſem ac ai henillaſant, tarawſant hefyd hi a mîn y cleddyf, a goreſcynnaſant hi, a thrigaſant ynddi a galwaſant Leſem *yn Ddan, yn ôl henw Dan eu tad. Barn.18.29.

48 Dymma etifeddiaeth llwyth meibion Dan yn ôl eu teuluoedd: [ſef] y dinaſoedd hynn ai trefydd.

49 Pan orphennaſant rannu y wlâd honno yn etifeddiaethau yn ôl ei therfynau: yna meibion Iſrael a roddaſant etifeddiaeth i Ioſuah fab Nun yn eu myſc hwynt.

50 Wrth orchymyn yr Arglwydd y rhoddaſant iddo ef y ddinas yr hon a ofynnodd efe, ſef *Tinnah Serah ym mynydd Ephraim: ac efe a adailadodd y ddinas, ac a drigodd ynddi. Ioſu.24.30.

51 *Dymma yr etifeddiaethau y rhai a roddodd Eleazar yr offeiriad, ac Ioſuah mab Nun a phennaethiaid teuluoedd meibion Iſrael yn etifeddiaeth wrth goel-bren yn Siloh, o flaen yr Arglwydd [wrth] ddrws papell y cyfarfod: felly y gorphennaſant rannu 'r wlâd. Num.34.17.

## PEN. XX.

Y noddfeudd y rhai a barodd yr Arglwydd eu goſod yn y wlâd, ai hachoſion.

YNa y llefarodd yr Arglwydd wrth Ioſuah gan ddywedyd,

2 Llefara wrth feibion Iſrael gan ddywedyd: *moeſwch i chwi ddinaſoedd nodded[am] y rhâi y lleferais wrthych drwy law Moſes. Exod.21.13. Num.35.6. Deut.19.2.

3 Fel y ffŷ yno y llofrudd yr hwn a laddo neb mewn amryfuſedd, [neu] mewn anwybod: a byddant i chwi yn noddfa rhac dialudd y gwaed.

4 Pan ffŷ efe i un o'r dinaſoedd hynny yna ſafed efe [wrth] ddrws porth y ddinas, a llefared lle y clywo henuriaid y ddinas honno ei achoſion: yna cymmerant ef attynt i'r ddinas, a rhoddant lê iddo, fel y trigo efe gyd a hwynt.

5 Ac os dialudd y gwaed a erlid ar ei ôl ef, na roddant y lleiddiad yn ei law ef: canys mewn anwybod y tarawodd efe ei gymmydog, ac nid oedd gâs ganddo mo honaw ef o'r blaen,

6 Ond triged efe yn y ddinas honno nes iddo ſefyll o flaen y gynnulleidfa i farn: [ac] *nes marw yr arch-offeiriad yr hwn fyddo yn y dyddiau hynny: yna dychweled y llofrudd, a deued iw ddinas ac iw dŷ, ſef y ddinas yr hon y ffoaſe efe o honi. Num.35.2

7 Am hynny y cyſſegraſant Cedes yn Galile, ym mynydd Nephthali, a Sichem ym mynydd Ephraim: a chaer Arbah (honn[yw] Hebron) ym mynydd Iuda.

8 Ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen o du 'r dwyrain i Iericho y rhoddaſant *Beſer (yn yr anialwch ar y gwaſtadedd) o lwyth Ruben: a Ramoth yn Gilead o lwyth Gad, a Golan yn Baſan o lwyth Manaſſes. Deut.4.43. 1.Cron.6.78.

9 Y rhai hynn oeddynt ddinaſoedd y cyfarfod i holl feibion Iſrael, ac i'r dieithr yr hwn a ymdiethie yn eu myſc hwynt, fel y ffoe pawb iddynt a'r a ladde neb mewn amryfuſedd: ac na bydde marw drwy law dialudd y gwaed nes iddo ſefyll o flaen y gynnulleidfa.

## PEN. XXI.

Dinaſoedd y Lefiaid. 44 A gorphwyſtra Iſrael.

YNa pennaethiaid y Lefiaid a neſſaſant at Eleazar yr offeiriad, ac at Ioſuah fab Nun: ac at bennaethiaid llwythau meibion Iſrael,

2 Ac a lefaraſant wrthynt yn Siloh o fewn gwlâd Canaan gan ddywedyd, yr Arglwydd a *orchymynnodd drwy law Moſes roddi i ni ddinaſoedd i drigo: ai meuſydd pentrefol i'n hanifeiliaid. Num.35.2.

3 Felly meibion Iſrael a roddaſant i'r Lefiaid oi hetifeddiaeth wrth orchymyn yr Arglwydd: ſef y dinaſoedd hynny ai meuſydd pentrefol.

4 Pan ddaeth allan y coel-bren dros deuluoedd y Cehathiaid: yna 'r oedd i feibion Aaron yr offeiriad[y rhai oeddynt] o'r Lefiaid, o lwyth Iuda, ac o lwyth Simeon, ac o lwyth Beniamin dair dinas ar ddec wrth goel-bren.

5 Ac i'r rhan arall o feibion Cehath [yr oedd] o deuluoedd llwyth Ephraim, ac o lwyth Dan, ac o hanner llwyth Manaſſes ddec dinas wrth goel-bren.

6 Ac i feibion Gerſon[yr oedd] o deuluoedd llwyth Iſſachar, ac o lwyth Aſer, ac o lwyth Nephthali, ac o hanner llwyth Manaſſes yn Baſan dair dinas ar ddec wrth goel-bren.

7 I feibion Merari yn ol eu teuluoedd [yr

oedd] o lwyth Ruben, ac o lwyth Gad, ac o lwyth Zabulon deuddec o ddinaſoedd.

8 Felly meibion Iſrael a roddaſant i'r Leſiaid y dinaſoedd hyn, ai meuſydd pentrefol: (fel y gorchymynnaſe 'r Arglwydd drwy law Moſes) wrth goel-bren.

9 A hwynt a roddaſant o lwyth meibion Iuda, ac o lwyth meibion Simeon, y dinaſoedd hyn y rhai a henwyd erbyn [eu] henwau.

10 Fel y byddent i feibion Aaron o deuluoedd y Cchathiaid, [ac] o feibion Lefi: canys iddynt hwy 'r oedd y coel-bren cyntaf.

11 Felly y rhoddaſant iddynt gaer Arbah tad Anac (honno [yw] Hebron) ym mynydd Iuda: ai meuſydd pentrefol oddi amgylch.

12 Ond maes y ddinas ai phentrefydd: a roddaſant i *Galeb fab Iephun yn etifeddiaeth iddo. Ioſua.14.14. 1.Cron.6.56

13 Ac i feibion Aaron yr offeiriad y rhoddaſant ddinas nodded y llofrudd, ſef Hebron ai meuſydd pentrefol, Libnah hefyd ai meuſydd pentrefol.

14 Iathir hefyd, ai meuſydd pentrefol, Eſthemoth hefyd ai menſydd pentrefol.

15 Holon hefyd, ai meuſydd pentrefol, a Dabir ai meuſydd pentrefol.

16 Ain hefyd, ai meuſydd pentrefol, ac Iutta ai meuſydd pentrefol, a Bethſemes ai meuſydd pentrefol, naw dinas o'r ddau lwyth hynny.

17 Ac o lwyth Beniamin, Gibeon ai meuſydd pentrefol: a Geba ai meuſydd pentrefol.

18 Anathoth ai meuſydd pentrefol, Halmon hefyd ai meuſydd pentrefol: pedair dinas.

19 Holl ddinaſoedd meibion Aaron yr offeiriaid [oeddynt] dair dinas ar ddec ai meuſydd pentrefol.

20 A chan deuluoedd meibion Cehath y Leſiaid, y rhan arall o feibion Cehath yr oedd dinaſoedd eu hetifeddiaeth hwynt o lwyth Ephraim.

21 A hwynt a roddaſant iddynt ddinas nodded y lleiddiad, ſef Sichem ai meuſydd pentrefol ym mynydd Ephraim: Gezer hefyd ai meuſydd pentrefol.

22 Cibſaim hefyd ai meuſydd pentrefol, a Beth-Horon ai meuſydd pentrefol: pedair o ddinaſoedd.

23 Ac o lwyth Dan, Eltece ai meuſydd pentrefol: Gibethon ai meuſydd pentrefol.

24 Aialon ai meuſydd pentrefol, Gath Rimmon ai meuſydd pentrefol: pedair o ddinaſoedd.

25 Ac o hanner llwyth Manaſſes, Tanach ai meuſydd pentrefol, Gath Rimmon hefyd ai meuſydd pentrefol [ſef] dwy ddinas.

26 Yr holl ddinaſoedd [y rhai oeddynt] eiddo y rhan arall o deuluoedd meibion Cehath [oeddynt] ddec ai meuſydd pentrefol.

27 Ac i feibion Gerſon o deuluoedd y Leſiaid [y rhoddaſid] o hanner llwyth Manaſſes ddinas nodded y llofrudd, ſef Golan yn Baſan ai meuſydd pentrefol, Beeſteroth hefyd ai meuſydd pentrefol [ſef] dwy ddinas.

28 Ac o lwyth Iſachar, Ciſon ai meuſydd pentrefol: Daberath ai meuſydd pentrefol.

29 Iarmuth ai meuſydd pentrefol, Engannim ai meuſydd pentrefol: pedair dinas.

30 Ac o lwyth, Aſer Miſal ai meuſydd pentrefol: Abdon ai meuſydd pentrefol.

31 Helcath ai meuſydd pentrefol, Rehob ai meuſydd pentrefol: [ſef] pedair dinas.

32 Ac o lwyth Nephthali dinas nodded y lleiddiad, ſef Cedes yn Galile ai meuſydd pentrefol, Hamothdor hefyd ai meuſydd pentrefol, a Chartan ai meuſydd pentrefol: tair dinas.

33 Holl ddinaſoedd y Gerſoniaid yn ol eu teuluoedd: tair dinas ar ddec ai meuſydd pentrefol.

34 Ac i deuluoedd meibion Merari y rhan arall o'r Leſiaid [y rhoddaſid] o lwyth Zabulon Iocneam ai meuſydd pentrefol: Cartah ai meuſydd pentrefol.

35 Dimnah ai meuſydd pentrefol, Nahalal ai meuſydd pentrefol: pedair dinas.

36 Ac o lwyth Ruben, Beſer ai meuſydd pentrefol: ac Iahaza ai meuſydd pentrefol.

37 Cedmoth ai meuſydd pentrefol, Mephaah ai meuſydd pentrefol: pedair dinas.

38 Ac o lwyth Gad dinas noddfa y llofrudd, ſef Ramoth Gilead ai meuſydd pentrefol, Mahanaim hefyd, ai meuſydd pentrefol.

39 Heſbon ai meuſydd pentrefol, Iahazer ai meuſydd pentrefol: pedair dinas oll.

40 Holl ddinaſoedd Meibion Merari yn ôl eu teuluoedd ([ſef] y rhan arall o deuluoedd y Leſiaid) oeddynt wrth eu coel-bren hwynt ddeuddeng-nhinas.

51 Holl ddinaſoedd y Leſiaid o fewn meddiant meibion Iſrael [oeddynt] wyth dinas a deugain ai meuſydd pentrefol.

42 Y dinaſoedd hyn oeddynt bob un ai meuſydd pentrefol oi hamgylch: felly ['r oedd] i'r holl ddinaſoedd hynny.

43 Felly 'r Arglwydd a roddodd i Iſrael yr holl wlâd yr hon a dyngodd efe ar [ei] rhoddi wrth eu tadau hwynt: a hwynt ai goreſcynnaſant hi, ac a wladychaſant ynddi.

44 Yr Arglwydd hefyd a roddodd lonyddwch iddynt hwy o amgylch yn ôl yr hyn oll a dyngaſe efe wrth eu tadau hwynt: ac ni ſafodd neb yn eu hwyneb hwynt oi holl elynnion, ei holl elynnion a roddodd yr Arglwydd yn eu dwylo hwynt.

45 Ni phallodd dim o'r holl bethau da y rhai a leſaraſe 'r Arglwydd am dŷ Iſrael: [eithr] daeth y cwbl. Ioſua.23.14.

PEN.

## PEN. XXII.

Meibion Ruben, Gad, a hanner llwyth Manaſſes wrth ddychwelyd tu ag adref yn adailadu allor, 23 nid i offrymmu arni, 24 eithr i fod yn goffadwriaeth oi hundab hwynt a'r rhan arall o Iſrael.

YNa Ioſuah a alwodd am y Rubeniaid, a'r Gadiaid: ac am hanner llwyth Manaſſes,

2 Ac a ddywedodd wrthynt, chwi a gadwaſoch yr hyn oll a orchymynnodd Moſes gwâs yr Arglwydd i chwi: ac a wrandawſoch ar fy llais yn yr hyn oll a orchymynnais i chwi.

3 Ni wrthodaſoch eich brodyr er ys llawer o ddyddiau bellach, hyd y dydd hwn: ond cadwaſoch reol gorchymyn yr Arglwydd eich Duw.

4 Ac yn awr yr Arglwydd eich Duw a eſmwythaodd ar eich brodyr, fel y llefarodd wrthynt: yn awr gan hynny troiwch, ac ewch rhagoch i'ch pabellau i wlâd eich meddiant, yr hon a *roddodd Moſes gwâs yr Arglwydd i chwi o'r tu hwynt i'r Iorddonen.

Num.32.33. Ioſua 13.8.

5 Yn vnic cedwch yn ddyfal ar wneuthur y gorchymyn, a'r gyfraith yr hon a orchymynnodd Moſes gwâs yr Arglwydd i chwi, [ſef] caru'r Arglwydd eich Duw, a rhodio yn ei holl lwybrau ef, a chadw ei orchymynnion ef, ac ymlynu wrtho ef: ai waſanaethu ef a'ch holl galon, ac a'ch holl enaid.

6 Ac Ioſuah ai bendithiodd hwynt, ac ai gollyngodd ymmaith: a hwynt a aethant iw pebyll.

7 Ac i hanner llwyth Manaſſes y rhoddaſe'r Arglwydd [etifeddiaeth] yn Baſan, ac iw hanner [arall] ef y rhoddodd Ioſuah gyd ai brodyr tu ymma i'r Iorddonen tua'r gorllewyn: hefyd pan ollyngodd Ioſuah hwynt iw pebyll, yna efe ai bendithiodd hwynt.

8 Ac efe a lefarodd wrthynt gan ddywedyd, dychwelwch a chyfoeth mawr i'ch pabellau, ſef ag anifeiliaid lawer iawn, ag arian, ac ag aur, a phrês hefyd, ac a haiarn, ac a gwiſcoedd lawer iawn: rhennwch a'ch brodyr anrhaith eich gelynnion.

9 Felly meibion Ruben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manaſſes a ddychwelaſant, ac a aethant ymmaith oddi wrth feibion Iſrael o Siloh, yr hon [ſydd] yng-wlâd Canaan: i fyned i wlâd Gilead, i wlâd eu meddiant hwy, yr hon yr ymafelaſent ynddi wrth orchymyn yr Arglwydd drwy law Moſes.

10 Pan ddaethant i gyffiniau'r Iorddonen y rhai [ydynt] yng-wlâd Canaan: yna meibion Rubē, a meibion Gad, a hanner llwyth Manaſſes a adailadaſant yno allor wrth yr Iorddonen, [ie] allor fawr mewn golwg.

11 Pan glybu meibion Iſrael ddywedyd, wele meibion Ruben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manaſſes a adailadaſant allor ar gyfer gwlâd Canaan wrth derfynau'r Iorddonen, gan yſtlys meibion Iſrael:

12 [Ie] pan glybu meibion Iſrael [hynny:] yna holl gynnulleidfa meibion Iſrael a ymgynnullaſant i Siloh, i ddyfod i fynu yn eu herbyn hwynt i ryfel.

13 Yna meibion Iſrael a anfonaſant at feibion Ruben, ac at feibion Gad, ac at hanner llwyth Manaſſes i wlâd Gilead, Phinees mab Eleazar yr offeiriad,

14 A dec o dywyſogion gyd ag ef, vn tywyſog, o'r tŷ pennaf i bob vn o lwythau Iſrael: y rhai oeddynt yn bennaf yn nhŷ eu tadau ym myſc miloedd Iſrael.

15 Felly hwynt a ddaethant at feibion Ruben, ac at feibion Gad, ac at hanner llwyth Manaſſes i wlâd Gilead: ac a ymddiddanaſant a hwynt gan ddywedyd,

16 Fel hyn y dywed holl gynnulleidfa'r Arglwydd, pa anghywirdeb [yw] hwn yr hwn a wnaethoch a Duw Iſrael gan ddychwelyd heddyw oddi ar ôl yr Arglwydd: pan adailadaſoch i chwi allor i wrthryfèla heddyw yn erbyn yr Arglwydd.

17 Ai bychan gennym ni * am anwiredd Peor, yr hwn nid ymlanhauſom oddi wrtho etto hyd y dydd hwn: am hynny y bu pla ym myſc cynnulleidfa yr Arglwydd.

Num.25.4.

18 Chwithau hefyd a ddychwelaſoch oddi ar ôl yr Arglwydd: ac am i chwi wrthryfela heddyw yn erbyn yr Arglwydd y llidia efe y foru yn erbyn holl gynnulleidfa Iſrael.

19 Ac od yw gwlâd eich meddiant chwi yn aflan dewch drosodd i wlad meddiant yr Arglwydd yr hon y mae tabernacl yr Arglwydd yn aros ynddi, a chymmerwch feddiant yn ein myſc ni: ond na wrthryfelwch yn erbyn yr Arglwydd, ac na childynnwch i'n herbyn ninnau, drwy adailadu o honoch i chwi eich hun allor heb law allor yr Arglwydd ein Duw.

20 Oni wnaeth *Achan mab Zerach, gamwedd, o herwydd y diofryd-beth, fel y bu digofaint yn erbyn holl gynnulleidfa Iſrael? ac efe [oedd] vn gŵr, [etto] nid efe [yn vnic] a fu farw am ei anwiredd ef.

Pen.7.5.

21 Yna meibion Ruben, a meibion Gad, a hanner llwyth Manaſſes a attebaſant, ac a lefaraſant wrth bennaethiaid miloedd Iſrael.

22 Arglwydd Dduw y duwiau, Arglwydd Dduw y duwiau efe ſydd yn gwybod, ac Iſrael yntef a gaiff wybod: os [gwnaethom] yn erbyn yr Arglwydd drwy anufydd-dod, na thrwy anghywirdeb: na waredet efe ni y dydd hwn.

23 Od adailadaſom i ni allor i ddychwelyd oddi ar ôl yr Arglwydd: neu os offrymmaſom arni boeth offrwm, a bwyd offrwm, neu os aberthaſom arni ebyrth hedd, efe'r Arglwydd ai hymofyn.

24 Ac oni rhac ofn y peth [ymma] y gwnaethom hynn gan ddywedyd: ryw amſer eich meibion chwi a adroddant wrth ein meibion ninneu gan ddywedyd, beth [ſydd] i chwi ag Arglwydd Duw Iſrael?

25 Canys yr Arglwydd a roddodd derfyn

rhyngom ni a chwi meibion Ruben, a meibion Gad, ſef yr Iorddonen, nid [oes] i chwi rann yn yr Arglwydd: felly y gwnae eich meibion chwi i'n meibion ni beidio ag ofni 'r Arglwydd.

26 Am hynny y dywedaſom, gan adailadu gwnawn yn awr i ni allor: nid i boeth offrwm, nac i aberth.

Geneſ.31.48. Ioſ.24.27. 27 Eithr bydded * yn dŷſt rhyngom ni a chwi, a rhwng ein hiliogaeth ni ar ein hôl, i [gael o honom] waſanaethu gwaſanaeth yr Arglwydd ger ei fron ef, a'n poeth offrymmau a'n hebyrth, ac a'n hoffrymmau hedd: fel na ddywedo eich meibion chwi ryw amſer wrth ein meibion ni, nid [oedd] i chwi ran yn yr Arglwydd.

28 Am hynny y dywedaſom, pan ddywedant hwy [felly] wrthym ni, neu wrth ein hepil ryw amſer: yna y dywedwn ninneu, gwelwch lun allor yr Arglwydd yr hon a wnaeth ein tadau ni, nid i boeth offrwm, nac i aberth, ond i fod yn dŷſt rhyngom ni a chwi.

29 Na atto Duw i ni anufyddhau 'r Arglwydd, a dychwelyd heddyw oddi ar ôl yr Arglwydd gan adailadu allor i boeth offrwm, i fwyd offrwm, neu i aberth, heb law allor yr Arglwydd ein Duw yr hon [ſydd] ger bron ei breſwylfod ef.

30 Pan glybu Phinees mab Eleazar yr offeiriad, a thywyſogion y gynnulleidfa, a phennaethiaid miloedd Iſrael y rhai [oeddynt] gyd ag ef y geiriau y rhai a leſaraſe meibion Ruben, a meibion Gad, a meibion Manaſſes: yna da oedd [y peth] yn eu golwg hwynt.

31 A Phinees mab Eleazar yr offeiriad a ddywedodd wrth feibion Ruben, ac wrth feibion Gad, ac wrth feibion Manaſſes, heddyw y gwybuom fod yr Arglwydd yn ein plith ni, o herwydd na wnaethoch y camwedd hwn yn erbyn yr Arglwydd: yna y gwaredaſoch feibion Iſrael o law 'r Arglwydd.

32 Am hynny y dychwelodd Phinees mab Eleazar yr offeiriad, a'r tywyſogion oddi wrth feibion Ruben, ac oddi wrth feibion Gad o wlâd Gilead, i wlâd Canaan at feibion Iſrael: a dugaſant drachefn air iddynt.

33 A da oedd y peth yng-olwg meibion Iſrael, a meibion Iſrael a fendithiaſant Dduw: ac ni ddywedaſant am fyned i fynu yn eu herbyn hwynt i ryfel, i ddifetha y wlâd yr hon yr oedd meibion Ruben, a meibion Gad yn preſwylio ynddi.

34 Yna meibion Ruben, a meibion Gad a alwaſant yr allor [Ed:] canys tŷſt [ſydd] hi rhyngom ni, mai'r Arglwydd [ſydd] Dduw.

## PEN. XXIII.

Ioſuah yn cynghori i'r bobl ymgadw rhag gau-dduwiaeth y cenhedloedd.

A Darfu yn ôl dyddiau lawer wedi i'r Arglwydd roddi llonyddwch i Iſrael gan ei holl elynnion o amgylch: yna i Ioſuah heneiddio [a] myned yn oedrannus.

2 Ac Ioſuah a alwodd am holl Iſrael, am eu henuriaid, ac am eu pēnaethiaid, am eu barnwŷr hefyd, ac am eu ſwyddogion: ac efe a ddywedodd wrthynt, myfi a heneiddiais [ac] a euthum yn oedrannus.

3 Chwitheu hefyd a welſoch yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd eich Duw i'r holl genhedloedd hynny er eich mwyn chwi: canys yr Arglwydd eich Duw [yw] yr hwn ſydd yn ymladd troſoch.

4 Gwelwch, daroſtyngais i chwi y cenhedloedd hynny y rhai a adawyd yn etifeddiaeth i'ch llwythau chwi: o'r Iorddonen, a'r holl genhedloedd y rhai a dorrais i ymmaith hyd y môr mawr o fachludiad yr haul.

5 A'r Arglwydd eich Duw ai hymlid hwynt o'ch blaen chwi, ac ai goreſcyn hwynt o'ch gŵydd chwi: fel yr etifeddoch eu gwlâd hwynt 'megis y dywedodd yr Arglwydd eich Duw wrthych.

6 Am hynny ymwrolwch yn lew i gadw, ac i wneuthur y cwbl a'r y ſydd ſcrifennedic yn llyfr cyfraith Moſes: * na chiliwch oddi wrthynt tua'r llaw ddehau, na'r llaw aſſwy. Deut.5.32.& 28.14.

7 Na chyd-ymgyfeillwch a'r cenhedloedd ymma, y rhai a adawyd gyd a chwi: ac na chofiwch am enw eu duwiau hwynt, ac na thyngwch [iddynt,] na waſanaethwch hwynt y chwaith, ac nac ymgrymmwch iddynt.

8 Onid yn yr Arglwydd eich Duw yr ymlynwch: fel y gwnaethoch hyd y dydd hwn.

9 Canys yr Arglwydd a oreſcynnodd o'ch blaen chwi genhedloedd mawrion, a nerthol: (ac am danoch chwi) ni ſafodd neb yn eich wynebau chwi hyd y dydd hwn.

10 Un gŵr o honoch a erlid fil, canys yr Arglwydd eich Duw yw 'r hwn ſydd yn ymladd troſoch, fel y lleſarodd efe wrthych. Leuit.26.8. Deut.32.30.

11 Ymgedwch gan hynny yn ddyfal er mwyn eich eneidiau, i garu 'r Arglwydd eich Duw.

12 Canys os gan ddychwelyd y dychwelwch, ac yr ymlynwch wrth weddill y cenhedloedd ymma, y rhai a adawyd gyd a chwi: os ymgyfathrechwch a hwynt, ac [os] deuwch i mewn attynt hwy, a hwyntau attoch chwithau,

13 Gan wybod gwybyddwch na oreſcyn yr Arglwydd eich Duw y cenhedloedd hyn mwyach o'ch blaen chwi: * onid byddant i chwi yn fagl, ac yn dramgwydd, ac yn ffrewyll yn eich yſtlyſau, ac yn ddrain yn eich llygaid, nes eich difa chwi o'r wlâd dda ymma 'r hon a roddodd yr Arglwydd eich Duw i chwi. Exod.23.33. Num.33.55. Deut.7.15.

14 Ac wele fi yn myned heddyw i ffordd yr holl fyd: am hynny gwybyddwch a'ch holl galon, ac a'ch holl enaid * na phallodd un gair o'r holl eiriau daionus y rhai a leſarodd yr Arglwydd eich Duw am danoch chwi, hwynt oll a ddaethant i chwi, ni phallodd un gair o honynt. Ioſua 21.45.

15 Ac fel y daeth i chwi bob peth daionus a'r a addawodd yr Arglwydd eich Duw wrthych: felly y dwg yr Arglwydd arnoch chwi bob peth drygionus nes eich difa chwi o'r wlâd dda ymma, yr hon a roddodd yr Arglwydd eich Duw i chwi.

16 Pan droſſeddoch gyfammod yr Arglwydd eich Duw 'r hwn a orchymynnodd efe i chwi, a [phan] rodioch, a gwaſanaethu duwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt: yna y llidia digofaint yr Arglwydd yn eich erbyn chwi, ac y cyfergollir chwi yn ebrwydd o'r wlâd dda ymma yr hon a roddodd efe i chwi.

## PEN. XXIIII.

Ioſuah wedi iddo fynegu daioni Duw i'r bobl, ai hannog hwythau i ofni Duw, yn marw.

Yna Ioſuah a gynnullodd holl lwythau Iſrael i Sichem: ac a alwodd am henuriaid Iſrael, ac am eu penaethiaid, ac am eu barnwŷr, ac am eu ſwyddogion, a hwynt a ſafaſant ger bron Duw.

2 A dywedodd Ioſuah wrth yr holl bobl fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, tu hwnt i afon [Euphrates] y trigodd eich tadau chwi gynt [ſef] Tarah tad Abraham, a thad Nachor: a gwaſanaethaſant dduwiau dieithr.

3 Ond mi a gymmerais eich tâd Abraham o'r tu hwnt i'r *afon, ac ai harweiniais ef drwy holl wlâd Canaan: amlheais hefyd ei hâd ef, a *rhoddais iddo Iſaac.

Geneſ.11.31.
Iudith.5.7.
Geneſ.21.2.
& 25.26.

4 I Iſaac hefyd y rhoddais Iacob, ac Eſau: ac *i Eſau y rhoddais fynydd Seir iw etifeddu, *ond Iacob ai feibion a aethant i wared i'r Aipht.

Geneſ.36.8.
Geneſ.46.6.

5 Ac mi *a anfonais Moſes ac Aaron, ac a darewais yr Aiphtiaid: pan wneuthum [hynny] yn eu myſc, wedi hynny y dugum chwi allan.

Exod.3.10.

6 Felly y dugum eich tadau chwi o'r Aipht nes eich dyfod hyd y môr: a'r Aiphtiaid a erlidiaſant ar ôl eich tadau a cherbydau, ac a gwŷr meirch hyd y *môr côch.

Exod.14.9.

7 Yna y gwaeddaſant ar yr Arglwydd, ac efe a oſododd dywyllwch rhyngoch chwi a'r Aiphtiaid, ac efe a ddûg y môr arnynt hwy ac ai gorchguddiodd, eich llygaid chwi hefyd a welſant yr hyn a wneuthum yn yr Aipht: trigaſoch hefyd yn yr anialwch ddyddiau lawer.

8 Ac mi a'ch dugais i wlâd yr Amoriaid y rhai oeddynt yn trigo o'r tu hwnt i'r Iorddonen *a hwynt a ymladdaſant i'ch erbyn: ond myfi ai rhoddais hwynt yn eich llaw chwi fel y goreſcynnaſoch eu gwlâd hwynt, a minne ai difethais hwynt o'ch blaen chwi.

Num.21.29.

9 *Balac hefyd mab Ziphor brenin Moab a gyfododd, ac a ryfelodd yn erbyn Iſrael: ac efe a anfonodd, ac a alwodd am Balaam fab Peor i'ch melldigo chwi.

Num.22.5.
Deut.23 4.

10 Ond ni fynnais i wrando ar Balaam: eithr gan fendithio y bendithiodd efe chwi, felly y gwaredais chwi oi law ef.

11 A chwi a aethoch tros yr Iorddonen, ac a ddaethoch i Iericho, a gwŷr Iericho a ymladdaſant i'ch erbyn, yr Amoriaid, a'r Phereziaid, a'r Canaaneaid, a'r Hethiaid, a'r Girgaziaid, yr Hefiaid a'r Iebuſiaid: ac mi ai rhoddais hwynt yn eich llaw chwi.

12 Ac mi a anfonais gacwn o'ch blaen chwi, a'r [rhai hynny] ai gyrrodd hwynt allan o'ch gŵydd chwi, [ſef] dau frenin yr Amoriaid: nid a'th gleddyf di, ac nid a'th fwa.

Exod.23.28.
Deut.7.20.
Ioſua 11.20.

13 A mi a roddais i chwi wlâd yr hon ni lafuriaſoch ynddi, a dinaſoedd y rhai nid adeiladaſoch, ac yr ydych yn trigo ynddynt: y gwinllannoedd, a'r olewlannoedd y rhai ni phlannaſoch yr ydych yn [eu] bwyta.

14 Yn awr gan hynny ofnwch yr Arglwydd, a gwaſanaethwch ef mewn perffeithrwydd, a gwirionedd: a bwriwch ymmaith y duwiau y rhai a waſanaethodd eich tadau o'r tu hwnt i'r afon, ac yn yr Aipht, a gwaſanaethwch yr Arglwydd.

15 Ac od yw drwg yn eich golwg waſanaethu 'r Arglwydd, dewiſwch iwch heddyw pa un a waſanaethwch ai 'r duwiau y rhai a waſanaethodd eich tadau, y rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i'r Iorddonenn, ai ynte duwiau 'r Amoriaid y rhai 'r ydych yn trigo yn eu gwlâd: ond myfi mi a'm tŷlwyth a waſanaethwn yr Arglwydd.

16 Yna 'r attebodd y bobl ac y dywedodd, na atto Duw i ni wrthod yr Arglwydd, i waſanaethu duwiau dieithr.

17 Canys yr Arglwydd ein Duw yw 'r hwn a'n dûg ni i fynu a'n tadau o wlâd yr Aipht o dŷ 'r caethiwed: a'r hwn a wnaeth y rhyfeddodau mawrion hynny yn ein gŵydd ni, ac a'n cadwodd ni ym mhob ffordd a'r a rodiaſom ynddi, ac ym myſc yr holl bobloedd y rhai y tramwyaſom yn eu plith.

18 Yr Arglwydd hefyd a yrrodd allan yr holl bobloedd, a'r Amoriaid preſſwylwŷr y wlâd o'n blaen ni: am hynny ninneu a waſanaethwn yr Arglwydd, canys efe [yw] ein Duw ni.

19 Ac Ioſuah a ddywedodd wrth y bobl, ni ellwch waſanaethu'r Arglwydd: canys Duw ſancteiddiol [yw] efe: Duw eiddigus yw, nid arbed efe eich anwiredd na'ch pechodau.

20 O gwrthodwch yr Arglwydd, a gwaſanaethu duwiau dieithr: *yna efe a ddychwel, ac a'ch dryga chwi, ac efe a'ch difa chwi wedi gwneuthur i chwi ddaioni.

Pen.23.15.

21 A'r bobl a ddywedodd wrth Ioſuah: nage, eithr ni a waſanaethwn yr Arglwydd.

22 A dywedodd Ioſuah wrth y bobl, tyſtion ydych yn eich erbyn eich hun, ddewis o honoch i chwi 'r Arglwydd iw waſanaethu: yna y dywedaſant hwythau tyſtion [ydym.]

23 Am hynny yn awr [eb efe] bwriwch ymmaith y duwiau dieithr y rhai [ydynt] yn eich myſc chwi: a goſtyngwch eich calon at Arglwydd Dduw Iſrael.

24 A'r bobl a ddywedaſant wrth Joſuah: yr Arglwydd ein Duw a waſanaethwn, ac ar ei lais ef y gwrandawn.

25 Felly Joſuah a wnaeth gyfammod a'r bobl y dwthwn hwnnw: ac a oſododd iddynt ddeddfau, a barnedigaethau yn Sichem.

26 Ac Joſuah a ſcrifennodd y geiriau hynn yn llyfr cyfraith Dduw: ac efe a gymmerth faen mawr, ac ai cyfleuodd ef yno tann y dderwen yr hon[oedd]yng-hyſſegr yr Arglwydd.

27 Joſuah hefyd a ddywedodd wrth yr holl bobl, wele y maen hwn fydd yn deſtiolaeth rhyngom ni: canys efe a glywodd holl eiriau 'r Arglwydd y rhai a leſarodd efe wrthym: gan hynny bydded efe yn deſtiolaeth rhyngoch chwi rhac i chwi wadu eich Duw chwi.

28 Yna Joſuah a ollyngodd y bobl, bob un iw etifeddiaeth.

29 Ac wedi y pethau hyn y bu farw Joſuah mab Nun, gwâs yr Arglwydd: yn fab dengmlwydd a chant.

30 A hwynt ai claddaſant ef yn herfyn ei etifeddiaeth o fewn *Timnath-ſerah, yr hon[oedd] ym mynydd Ephraim: o du 'r gogledd i fynydd Gaas.

31 Ac Iſrael a waſanaethodd yr Arglwydd holl ddyddiau Joſuah: a holl ddyddiau 'r henuriaid y rhai a fuant fyw ar ôl Joſuah, a'r rhai a adwaenent holl waith yr Arglwydd yr hwn a wnaethe efe er Iſrael.

32 Ac *eſcyrn Joſeph y rhai a ddugaſe meibion Iſrael i fynu o'r Aipht a gladdaſant hwy yn Sichem mewn rhan o'r maes yr hwn a brynaſe Jacob gan feibion *Hemor tad Sichem er cant [darn] o arian a buant i feibion Joſeph yn etifeddiaeth. Geneſ.50.25. Exod.13.19. Geneſ.33.19.

33 Eleazar hefyd mab Aaron a fu farw: a chladdaſant ef ym mryn Phinees ei fab, yr hwn [frynn] a roddaſſid iddo ef ym mynydd Ephraim.

# Llyfr y Barn-vvyr.

## PENNOD. I.

1 Iuda wrth orchymyn yr Arglwydd yn blaenori yn y rhyfel yn erbyn y Canaaneaid, ac efe ac Ioſeph yn gorchfygu yn rymmus Adonibezec, ac eraill. Llwfrdra y llwythau eraill.

Exod 28.30. Num.27.21. 1.Sam.28.6. AC wedi marw Joſuah, meibion Iſrael a *ymgynghoraſant a'r Arglwydd gan ddywedyd: pwy a aiff i fynu droſom ni yn erbyn y Canaaneaid, i ymladd a hwynt yn gyntaf?

2 A dywedodd yr Arglwydd, Juda a aiff i fynu: wele rhoddais y wlâd yn ei law ef.

3 Ac Juda a ddywedodd wrth Simeon ei frawd, tyret i fynu gyd a mi i'm rhan-dir, fel yr ymladdom yn erbyn y Cannaaneaid, minne hefyd a âf gyd a thi i'th ran-dir dithe: felly Simeon a aeth gyd ag ef.

4 Yna Juda a aeth i fynu, a'r Arglwydd a roddodd y Canaaneaid, a'r Phereziaid, yn eu llaw hwynt: a lladdaſant o honynt yn Bezec ddeng-mil o wŷr.

5 A hwynt a gawſant Adonibezec yn Bezec, ac a ymladdaſant yn ei erbyn, ac a laddaſant y Canaaneaid, a'r Phereziaid.

6 Ond Adonibezec a ffôdd, a hwynt a erlidiaſant ar ei ôl ef: daliaſant ef hefyd, a thorraſant fodiau ei ddwylaw ef, ai draed.

7 Ac Adonibezec a ddywedodd, dêc a thrugain o frenhinoedd wedi torri bodiau eu dwylo, ai traed a fuant yn caſclu [briwſion] dan fy mwrdd i, fel y gwneuthum, felly y talodd Duw i mi: felly hwynt ai dugaſant ef i Jeruſalem, ac efe a fu farw yno.

8 A meibion Juda a ymladdaſant yn erbyn Jeruſalem, ac ai hennillaſant hi, ac ai tarawſant a mîn y cleddyf: a lloſcaſant y ddinas a thân.

9 Wedi hynny meibion Juda a aethant i waered i ymladd yn erbyn y Canaaneaid: y rhai oeddynt yn trigo yn y mynydd, ac yn y dehau, ac yn y gwaſtadedd.

10 Ac Juda a aeth yn erbyn y Canaaneaid y rhai oeddynt yn trigo yn Hebron, (ac enw Hebron o'r blaen [oedd] * Caer Arba:) a hwynt a laddaſant * Seſai, ac Ahiman, a Thalmai. Ioſu.15.14. Num.13.22.

11 Ac efe a aeth oddi yno at drigolion Dabir: ac enw Dabir o'r blaen [oedd] Ciriath-ſepher.

12 A dywedodd Caleb, yr hwn a darawo Giriath-ſepher, ac ai hennillo: mi a roddaf

Achſah fy merch yn wraig iddo.

Ioſua.15.17. 13 Yna Othniel mab Cenaz, brawd Caleb ieuangach nac ef ai hennillodd: yntef a roddes Achſah ei ferch yn wraig iddo.

14 A phan ddaeth hi i mewn [atto ef] yna hi ai annogodd ef i geiſio gan ei thâd [ryw] faes, ac a ddeſcynnodd oddi ar yr aſſyn: a dywedodd Caleb wrthi, beth [a ddarfu] i ti?

15 Yna hi a ddywedodd wrtho, dyro i mi rôdd, canys g'wlâd y dehau a roddaiſt i mi, dyro i mi hefyd ffynhonnau dyfroedd: a Chaleb a roddodd iddi y ffynhonnau vchaf, a'r ffynhonnau iſaf.

16 A meibion Ceni chwegrwn Moſes a aethant i fynu o ddinas y palm-wŷdd gyd a meibion Iuda i anialwch Iuda'r hwn [ſydd] yn nehau Arad: ac aethant, a thrigaſant gyd a'r bobl.

17 Ac Iuda a aeth gyd a Simeon ei frawd, ac a darawſant y Canaaneaid y rhai oeddynt yn preſſwylio Sephath: ac ai difrodaſant hi, ac efe a alwodd enw'r ddinas * Hormah. Num.21.3.

18 Felly Iuda a ennillodd Azzah, ai therfynau, ac Aſcalon ai therfynau, ac Ecron ai therfynau.

19 A'r Arglwydd oedd gyd ag Iuda, ac efe a oreſcynnodd y mynydd: ond ni [alle efe] oreſcyn trigoliõ y dyffryn, canys cerbydau heirn [oedd] ganddynt.

Num.14.24. ioſua.14.13. & 5.15. 20 Ac i Caleb y rhoeſant Hebron, fel y * llefaraſe Moſes: ac efe a yrrodd oddi yno dri mab Anac.

21 Ond meibion Beniamin ni oreſcynnaſant y Iebuſiaid y rhai oeddynt yn preſſwylio Ieruſalem: am hynny y trigodd y Iebuſiaid yn Ieruſalem hyd y dydd hwn.

22 A hwythau hefyd o dŷ Ioſeph a aethant i fynu i Bethel: a'r Arglwydd [oedd] gyd a hwynt.

23 A thŷ-lwyth Ioſeph a baraſant chwilio Bethel: ac enw y ddinas o'r blaen [oedd] * Luz.

Gene.28.19. 24 A'r g'wilwŷr a welſant ŵr yn dyfod allan o'r ddinas: ac a ddywedaſant wrtho, dangos i ni attolwg y ffordd yr elir i'r ddinas, ac ni a wnawn drugaredd a thi.

25 Pan ddangoſodd efe iddynt hwy y ffordd i fyned i'r ddinas, yna hwy a darawſant y ddinas a mîn y cleddyf: ac a ollyngaſant yn rhydd y gŵr, ai holl deulu.

26 A'r gŵr a aeth i wlâd yr Hethiaid: ac a adailadodd ddinas, ac a alwodd ei henw Luz, dymma ei henw hi hyd y dydd hwn.

Ioſu.17.11. 27 Ond * ni oreſcynnodd Manaſſes Beth-ſean, nai threfydd, na Thaanah nai threfydd, na thrigolion Dor, nai threfydd, na thrigolion Ibleam, nai threfydd: eithr mynnodd y Canaaneaid breſſwylio yn y wlâd honno.

28 Ond pan gryfhaodd Iſrael, yna efe a oſododd y Canaaneaid yn drethawg: eithr gan oreſcyn nis goreſcynnodd hwynt.

Ioſu.16.10. 29 * Ephraim hefyd ni oreſcynnodd y Canaaneaid y rhai oeddynt yn g'wladychu Gezer: eithr y Canaaneaid a breſſwyliaſant yn eu myſc hwynt yn Gezer.

30 Zabulon ni oreſcynnodd drigolion Citron, na phreſſwylwŷr Nahalol: eithr y Canaaneaid a wladychaſant yn eu myſc hwynt, ac a fuant drethawg.

31 Aſer ni oreſcynnodd drigolion Acco, na thrigolion Sidon: nac Ahalab, nac Aczib, na Helbah, nac Aphic, na Rehob.

32 Ond Aſer a drigodd ym myſc y Canaaneaid trigolion y wlâd: canys ni oreſcynnodd efe hwynt.

33 Nephthali ni oreſcynnodd breſſwylwŷr Beth-ſemes na thrigolion Beth-anath, eithr efe a wladychodd ym myſc y Canaaneaid trigolion y wlâd: er hynny preſſwyl-wŷr Beth-ſemes, a Beth-anath a oeddynt tann drêth iddynt.

34 A'r Amoriaid a ymlidiaſant feibion Dan i'r mynydd: canys ni adawſant iddynt ddyfod i wared i'r dyffryn.

35 A dechreuodd yr Amoriaid breſſwylio ym mynydd Heres, yn Aialon, ac yn Saalbim: a llaw tŷ Ioſeph a orthrechodd, a'r [Amoriaid] fuant tann drêth [iddynt.]

36 A therfyn yr Amoriaid [oedd] o riw Acrabim: [ſef] o'r graig, ac vchod.

## PEN. II.

Angel Duw yn ceryddu Iſrael am heddychu a'r Canaaneaid. 11 Gau dduwiaeth yr Iſraeliaid, ai coſpedigaeth. 22 Yr achos na oreſcynnwyd y Canaaneaid ar vn-waith.

AC angel yr Arglwydd a ddaeth i fynu o Gilgal i Bochim, ac a ddywedodd: dugum chwi i fynu o'r Aipht, ac ar weiniais chwi i'r wlâd [am] yr hon y tyngais wrth eich tadau, ac a ddywedais ni ddiddymmaf fyng-hyfammod a chwi byth.

Deut.7.2. deut.12.3. 2 Na * wnewch chwithau gyfammod a thrigolion y wlâd hon, [ond] dryllíwch eu hallorau: etto ni wrandawſoch ar fy llef i, pa ham y gwnaethoch hyn?

3 Am hynny y dywedais, ni yrraf hwynt allan o'ch blaen chwi: eithr byddant i chwi * [yn ddrain] yn eich hyſtlyſau, ai duwiau hwy fyddant i chwi yn fagl. Ioſua.23.13.

4 A phan lefarodd angel yr Arglwydd y geiriau hyn wrth holl feibion Iſrael: yna y bobl a dderchafaſant eu llef, ac a ŵylaſant.

5 Ac a alwaſant enw y lle hwnnw Bochim: ac yno'r aberthaſant i'r Arglwydd.

6 Ac Ioſuah a ollyngodd y bobl ymmaith: a meibion Iſrael a aethant bôb vn iw etifeddiaeth, i feddiannu y wlâd.

7 A'r bobl a waſanaethaſant yr Arglwydd holl ddyddiau Ioſuah: a holl ddyddiau'r henuriaid y rhai a fuant fyw ar ôl Ioſuah, y rhai a welſent holl fawr-waith yr Arglwydd yr hwn a wnaethe efe er Iſrael.

8 A bu farw Ioſuah mab Nun gwâs yr

Arglwydd, yn fab cant a dêc o flwyddau.

Ioſu.24.30. 9 A chladdaſant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn *Thimnath-Heres ym mynydd Ephraim: o du 'r gogledd i fynydd Gaas.

10 A'r holl oes honno hefyd a gaſclwyd at eu tadau: a chyfododd oes arall ar eu hol hwynt, y rhai nid adwaenent yr Arglwydd, nai weithredoedd y rhai a wnaethe efe er Iſrael.

11 Yna meibion Iſrael a wnaethant ddrygiont yng-olwg yr Arglwydd: ac a waſanaethaſant Baalim.

12 Ac a wrthodaſant Arglwydd Dduw eu tadau yr hwn ai dugaſe hwynt o wlâd yr Aipht, ac a aethant ar ôl duwiau dieithr [ſef rhai] o dduwiau y bobloedd y rhai [oeddynt] oi hamgylch, ac a ymgrymmaſant iddynt: felly y digiaſant yr Arglwydd.

13 Canys gwrthodaſant yr Arglwydd, a gwaſanaethaſant Baal, ac Aſtaroth:

Pſal.44.12. eſa.50.1. 14 Yna y llidiodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn Iſrael, ac efe ai rhoddodd hwynt yn llaw 'r anrheith-wŷr y rhai ai hanrheithiaſant hwynt: ac ai gwerthaſant hwy *i law eu gelynnion o amgylch, fel na allent ſefyll mwyach yn erbyn eu gelynnion.

15 I ba le bynnac yr aethant, llaw 'r Arglwydd oedd yn ddrwg yn eu herbyn hwynt, fel y lleſaraſe 'r Arglwydd, ac fel y tyngaſe 'r Arglwydd wrthynt hwy: a bu gyfyng iawn arnynt hwy.

16 Yna yr Arglwydd a gododd farn-wŷr, y rhai ai hachubaſant hwy o law eu gorthrymwŷr.

17 Ond ni wrandawſant ychwaith ar eu barn-wŷr, eithr putteiniaſant ar ôl duwiau dieithr, ac ymgrymmaſant iddynt: ciliaſant yn ebrwydd o'r ffordd [yn] yr hon y rhodiaſe eu tadau hwynt, gan wrando ar orchymynnion yr Arglwydd: [ond] ni wnaethant hwy felly.

18 A phan gode yr Arglwydd farn-wŷr arnynt hwy, yna 'r Arglwydd fydde gyd a'r barn-wŷr, ac ai gwarede hwynt o law eu gelynnion holl ddyddiau y barn-wŷr hynny: canys yr Arglwydd a dosturie wrth eu griddfan hwynt rhac eu gorthrym-wŷr, ai cuſtydd-wŷr.

Pen.3.12. 19 A phan fydde *farw y barn-ŵr, dychwelent, ac ymlygrent yn fwy nai tadau, gan fyned ar ôl duwiau dieithr, iw gwaſanaethu hwynt, ac i ymgrymmu iddynt: ni pheidiaſant ai gweithredoedd, nac ai ffordd ddrygionus.

20 Yna digllonedd yr Arglwydd a lidie yn erbyn Iſrael: ac efe a ddywede, o blegit i'r genhedlaeth hon droſſeddu fyng-hyfammod yr hwn a orchymynnais iw tadau hwynt, ac na wrandawſant ar fy llais,

21 Ni chwanegaf inne yrru ymmaith neb oi blaen hwynt, o'r cenhedloedd y rhai a adawodd Ioſuah pan fu farw,

22 I broſi Iſrael drwyddynt hwy, a gadwent hwy ffyrdd yr Arglwydd gan rodio ynddynt fel y cadwodd eu tadau hwynt, neu beidio.

23 Felly 'r Arglwydd a adawodd y cenhedloedd hynny heb eu goreſcyn yn ebrwydd: ac ni roddoddd hwynt yn llaw Ioſuah.

## P E N. III.

Y Canaaneaid yn aros yn y wlâd i broſi Iſrael. 9 Othniel yn gwaredu Iſrael. 21 Ehwd yn lladd Eglon. 31 A Samgar yn lladd y Philiſtiaid.

Dymma y cenhedloedd y rhai a adawodd yr Arglwydd i broſi Iſrael drwyddynt (ſef y rhai oll ni ẁyddent gwbl o ryfeloedd Canaan,

2 Yn unic i beri i genhedlaethau meibion Iſrael ẁybod, ac iw dyſcu hwynt i ryfel: y rhai yn ddiau ni wyddent hynny o'r blaen)

3 Pump tywyſog y Philiſtiaid, a'r holl Canaaneaid, a'r Sidoniaid, a'r Heſiaid (y rhai oedd yn aros ym mynydd Libanus: o fynydd Baal-hermon hyd y ffordd y deuir i Hamath)

4 A'r [rhai hyn] a fuant i broſi Iſrael drwyddynt, i ẁybod a wrandawent hwy ar orchymynnion yr Arglwydd y rhai a orchymynnaſe efe iw tadau hwynt trwy law Moſes.

5 A meibion Iſrael a drigaſant ym myſc y Canaaneaid, yr Hethiaid, a'r Amoriaid a'r Phereziaid, yr Heſiaid hefyd a'r Iebuſiaid.

6 Ac a gymmeraſant eu merched hwynt iddynt yn wragedd, rhoddaſant hefyd eu merched iw meibion hwynt: a gwaſanaethaſant eu duwiau hwynt.

7 Felly meibion Iſrael a wnaethant ddrygioni yng-olwg yr Arglwydd, anghofiaſant hefyd yr Arglwydd eu Duw: a gwaſanaethaſaſant Baalim, ac Aſeroth.

8 Am hynny digllonedd yr Arglwydd a lidiodd yn erbyn Iſrael, ac efe ai gwerthodd hwynt i law Chuſan Riſathaim brenin Meſapotamia: a meibion Iſrael a waſanaethant Chuſan Riſathaim ẁyth mlhynedd.

9 A meibion Iſrael a waeddaſant ar yr Arglwydd, a'r Arglwydd a gododd achub-ŵr i feibion Iſrael, ac efe ai hachubodd hwynt: ſef Othniel mab Cenaz, brawd Caleb ieuangach nac ef.

10 Ac yſpryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef ac efe a farnodd Iſrael, ac a aeth allan i ryfel, a'r Arglwydd a roddodd yn ei law ef Chuſan Riſathaim brenin Syria: ai law ef oedd drêch na Chuſan Riſathaim.

11 Felly y cafodd y wlâd lonydd ddeugain mlhynedd: a bu farw Othniel mab Cenaz.

12 Yna meibion Iſrael a chwanegaſant wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: a'r Arglwydd a nerthodd Eglon brenin Moab yn erbyn Iſaael, am iddynt wneuthur drygioni yng-olwg yr Arglwydd.

13 Ac efe a gaſclodd atto feibion Ammon, ac Amalec: ac a aeth, ac a darawodd Iſrael, ac a oreſcynnaſant ddinas y palm-wŷdd.

14 Felly meibion Iſrael a waſanaethaſant Eglon brenin Moab ddau nau mlhynedd.

15 Yna meibion Iſrael a lefaſant ar yr Arglwydd, a'r Arglwydd a gododd achub-ŵr iddynt, ſef Ehwd mab Cera fab Iemini gwr anafus oi law ddehau: a meibion Iſrael a anfonaſant anrheg gyd ag ef i Eglon brenin Moab.

16 Ac Ehwd a wnaeth iddo gleddyf dau finiawc o gufydd ei hyd: ac ai gwregyſodd ef tann ei ddillad ar ei glûn ddehau.

17 Ac efe a ddug yr anrheg i Eglon brenin Moab: ac Eglon[oedd]ŵr tew iawn.

18 A phan ddarfu iddo ef gyflwyno 'r anrheg: yna efe a ollyngodd ymmaith y bobl y rhai a ddugaſent yr anrheg.

19 Ac efe a drodd oddi wrth y delwau cerfiedic y rhai[oeddynt]yn Gilgal, ac a ddywedodd [y mae]i mi air o gyfrinach a thi ô frenin: dywedodd yntef, goſteg: yna yr holl rai a'r a oeddynt yn ſefyll yn ei ymyl ef a aethant allan oddi wrtho ef.

20 Yna Ehwd a ddaeth i mewn atto ef, ac yntef oedd yn eiſtedd mewn ſtafell hâf, yr hon[oedd] iddo ef ei hunan, a dywedodd Ehwd gair Duw[ſydd]gennif attat ti: yna efe a gyfododd oddi ar ei orſeddfa.

21 Ac Ehwd a eſtynnodd ei law aſſwy, ac a gymmerth y cleddyf oddi ar eu glûn ddehau: ac ai brathodd ef yn ei botten.

22 A'r carn a aeth i mewn ar ôl y llafn, a'r braſder a ymgaeuodd am y llafn fel na ddeue yr cleddyf allan oi botten ef: onid y dom a aeth allan.

23 Yna Ehwd a aeth allan i'r cyntedd: ac a gaeuodd ddryſau yr ſtafell arno, ac ai cloiodd.

24 Pan aeth efe ymmaith, yna ei weiſion a a ddaethant, ac a edrychaſant, ac wele ddryſau yr ſtafell yn gloiedic: am hynny y dywedaſant, diau eſmwythau ei gorph y mae efe yn yr ſtafell hâf.

25 A hwynt a ddiſgwiliaſant nes ciwilyddio [o honynt,]ac wele nid oedd efe yn agori dryſau yr ſtafell: yna hwynt a gymmeraſant agoriad, ac a agoraſant, ac wele eu harglwydd hwy wedi cwympo i lawr yn farw.

26 Felly Ehwd a ddiangodd tra fûant hwy yn aros, ac efe a aeth heibio i'r fan y cerfeid y delwau, ac a ddiangodd i Seirah.

27 A phan ddaeth efe i mewn, yna efe a vdcanodd mewn vdcorn ym mynydd Ephraim: a meibion Iſrael a ddeſcynnaſant gyd ag ef o'r mynydd, ac yntef oi blaen hwynt.

28 Yna y dywedodd wrthynt canlynwch fi, canys yr Arglwydd a roddodd eich gelynion chwi, ſef Moab yn eich llaw chwi: a hwy a aethant i wared ar ei ôl ef, ac a ennillaſant rŷdau yr Iarddonen tuag at Moab, ac ni adawſant neb i fyned trwodd.

29 A hwy a darawſant o'r Moabiaid y pryd hynny yng-hylch deng-mil o wŷr, pawb yn rymmus, a phawb yn wŷr nerthol: ac ni ddiangodd neb.

30 Felly y daroſtyngwyd Moab y dwthwn hwnnw tann law Iſrael: a'r wlâd a gafodd lonydd bedwâr vgain mlhynedd:

31 Ac ar ei ôl ef y bu Samgar mab Anath, ac efe a darawodd o'r Philiſtiaid chwechan-wr a gwialen ychen: yntef hefyd a waredodd Iſrael.

## PEN. IIII.

1 Debora a Barac yn rhyfela yn erbyn Siſera. 17 Ac Iael gwraig Heber yn ei ladd ef.

YNa meibion Iſrael a chwanegaſant wneuthur drigioni yng-olwg yr Arglwydd: wedi marw Ehwd.

2 A'r Arglwydd ai gwerthodd hwynt i law Iabin brenin Canaan yr hwn oedd yn teyrnaſu yn Haſor: a thywyſog ei lû ef[oedd]Siſara, ac efe oedd yn trigo yn Haroſeth y cenhedloedd.

3 Yna meibion Iſrael a lefaſant ar yr Arglwydd: canys naw cant cerbyd haiarn[oedd] ganddo ef, ac efe a orthrymmodd feibion Iſrael yn dôſt vgain mlhynedd.

4 A Debora rhyw brophwydes gwraig Lapidoth: hi oedd yn barnu Iſrael yr amſer hwnnw.

5 A hi oedd yn trigo tann balm-wydden Debora, rhwng Rama a Bethel ym mynydd Ephraim: meibion Iſrael a ddeuent i fynu atti hi am farn.

6 Yna hi a anfonodd, ac a alwodd am Barac fab Abinoam o Cedes Nephthali: ac a ddywedodd wrtho, oni orchymynnodd Arglwydd Dduw Iſrael[gan ddywedyd:]dôs, a thynn tua mynydd Thabor, a chymmer gyd a thi ddeng-mil o wŷr o feibion Nephthali, ac o feibion Zabulon.

7 A mi a dŷnnaf attat Siſara tywyſog llû Iabin, ai gerbydau, ai luoſogrwydd ef * wrth afon Ciſon: ac ai rhoddaf ef yn dy law di. Pſal.83.10.

8 A Barac a ddywedodd wrthi, od ei di gyd a mi minne a âf: ac onid ei gyd a mi nid âf.

9 Yna hi a ddywedodd, gan fyned yr âf gyd a thi, etto ni bydd gogoniant i ti yn y daith i'r hon yr ydwyt yn myned, canys yn llaw gwraig y dyru yr Arglwydd Siſara: a Debora a gyfododd, ac a aeth gyd a Barac i Cedes.

10 A Barac a gynhullodd Zabulon, a Nephthali i Cedes, ac a aeth i fynu ar ei draed a deng-mil o wŷr: a Debora a aeth i fynu gyd ag ef.

11 A Heber y Cenead (o feibion * Hobab chwegrwn Moſes) a ymnailltuodd oddi wrth y Ceneaid, ac a ledodd ei babell hyd waſtaedd Zaanaim yr hwn[ſydd]yn Cedes. Num.10.29.

12 A mynegaſant i Siſara, ddyfod o Barac mab Abinoam i fynu i fynydd Thabor.

13 A Siſara a gynhullodd ei holl gerbydau [ſef]naw cant cerbyd haiarn, a'r holl bobl y rhai

[oeddynt] gyd ag ef: o Haroſeth y cenhedloedd hyd afon Ciſon.

14 Yna Debora a ddywedodd wrth Barac, cyfot, canys hwn [yw]'r dydd [yn] yr hwn y rhoddodd yr Arglwydd Siſara yn dy law di, onid aeth yr Arglwydd allan o'th flaen di? felly Barac a ddeſcynnodd o fynydd Thabor, a deng mil o wŷr ar ei ôl.

15 A'r Arglwydd a ddrylliodd Siſara, ai holl gerbydau, ai holl fyddin ef drwy fin y cleddyf o flaen Barac: a Siſara a ddeſcynnodd oddi ar ei gerbyd, ac a ffôdd ar ei draed.

Pſal.83.10. 16 Felly *Barac a erlidiodd ar ôl y cerbydau, ac ar ôl y fyddin hyd Haroſeth y cenhedloedd: a holl lu Siſara a ſyrthiodd ar fin y cleddyf, ni adawyd vn o honynt.

17 Ond Siſara a ffôdd ar ei draed i babell Iael gwraig Heber y Cenead: canys [yr oedd] heddwch rhwng Iabin brenin Hazor a thŷ Heber y Cenead.

18 Ac Iael a aeth i gyfarfod a Siſara, ac a ddywedodd wrtho, trô fy arglwydd, trô attafi: yna efe a drôdd atti i'r babell, a hi ai gorchguddiodd ef mewn gwrthban.

19 Ac efe a ddywedodd wrthi, dioda fi attolwg ag ychydig o ddwfr, canys ſychedic wyf: yna hi a agorodd *gynnoc y llaeth, ac ai diododd ef, ac ai gorchguddiodd ef. Pen.5.25.

20 Dywedodd hefyd wrthi, ſaf [wrth] ddrws y babell: ac os daw neb i mewn, a gofyn i ti, a dywedyd, a oes ymma neb? yna dywet tithe nac [oes.]

21 Yna Iael gwraig Heber a gymmerth hoel o'r babell, ac a gymmerodd forthwyl yn ei llaw, ac a ddaeth i mewn atto ef yn ddiſtaw, ac a bwyodd yr hoel yn ei arlais ef, ac ai gwthiodd i'r ddaiar: (canys efe oedd yn cyſcu, ac yn lluddedic) ac [felly] y bu efe farw.

22 Ac wele Barac yn erlid Siſara, ac Iael aeth iw gyfarfod ef, ac a ddywedodd wrtho, tyret, a dangoſaf i ti y gŵr yr hwn yr ydwyt ti yn ei geiſio: ac efe a ddaeth i mewn atti, ac wele Siſara yn gorwedd yn farw, a'r hoel yn ei arlais ef.

23 Felly y daroſtyngodd Duw y dwthwn hwnnw Iabin brenin Canaan: o flaen meibion Iſrael.

24 A llaw meibion Iſrael a lwyddodd, ac a orchfygodd Iabin brenin Canaan: nes iddynt ddeſtruwio Iabin brenin Canaan.

## PEN. V.

Cân Debora i ddiolch i Dduw am yr oruchafiaeth yn erbyn Siſera.

YNa y canodd Debora, a Barac mab Abinoam y diwrnod hwnnw gan ddywedyd:

2 Am ddial dialeddau ar Iſrael, [ac] am ymgymmell o'r bobl: bendithiwch yr Arglwydd.

3 Clywch o frenhinoedd, gwrandewch o dywyſogion: myfi, myfi a ganaf i'r Arglwydd, canmolaf Arglwydd Dduw Iſrael.

4 Oh Arglwydd pan aethoſt allan *o Seir, pan gerddaiſt o faes Edom, y ddaiar a grynnodd, y nefoedd hefyd a ddiferaſant: a'r cwmylau a ddefnynnaſant ddwfr. Deut.4.11.

5 Y *mynyddoedd a doddaſant o flaen yr Arglwydd: megis Sinai hwnnw o flaen Arglwydd Dduw Iſrael. Pſal.97.3. exod.19.16.

6 Yn nyddiau *Samgar mab Anath, yn nyddiau Iael y llwybrau a beidiaſant: a'r fforddolion a gerddaſant lwybrau ceimion. Pen.3.31. pen.4.18.

7 Treſi a darfuant yn Iſrael: darfuant nes i mi Debora gyfodi, nes i mi gyfodi yn fam yn Iſrael,

8 [Iſrael] a ddewiſodd dduwiau newyddion, yna rhyfel [oedd] yn y pyrth: a welpwyd tarian, na gwaiw-ffon ym myſc deugain mil yn Iſrael?

9 Fyng-halon [ſydd] tu ag at ddeddf-wŷr Iſrael, [a thu ag at] y rhai ewyllyſcar ym mhlith y bobl: bendithiwch yr Arglwydd.

10 Y rhai ſy yn marchogeth ar aſſynnod gwynnion, y rhai ſy yn aros ym Midin, a'r rhai ſy yn rhodio ar hyd y ffordd, lleferwch.

11 Canys trwſt y ſaethyddion ym myſc y rhai a dynnent ddwfr [a beidiodd,] yno'r adroddant gyfiawnderau'r Arglwydd, cyfiawnderau [tu ag at] y trefydd yn Iſrael: yna pobl yr Arglwydd a aethant i wared i'r porth.

12 Deffro, deffro Debora, deffro, deffro traetha gân: cyfot Barac, a chaethgluda dy gaethglud ô fab Abinoam.

13 Yna'r hwn a adewir a lywodraetha ar bendefigion y bobl: yr Arglwydd a rydd lywodraeth ar gedyrn i mi.

14 O Ephraim [yr oedd] eu gwreiddin hwynt yn erbyn Amalec, ar dy ôl di [yr oedd] Beniamin ym myſc dy bobl: y deddf-wŷr a ddaethant i wared o Machir, a ſcrifennyddion o Zabulon.

15 A thywyſogion Iſſachar [oeddynt] gyd a Debora, îe Iſſachar, a Barac, a anfonwyd ar ei draed i'r dyffryn: am ddoſparthiadau Ruben [yr oedd] mawr ofal calon.

16 Pa ham yr arhoſaiſt rhwng y corlannau i wrando brefiadau y defaid? am ddoſparthiadau Ruben yr oedd mawr ofal calon.

17 Gilead a drigodd o'r tu hwnt i'r Iorddonen, a pha ham yr erys Dan mewn llongau? Aſer a drigodd wrth borthladd y môr, ac a arhoſodd ar ei adwyau.

18 Pobl Zabulon a roddes eu henioes i farw, felly [y gwnaeth] Nephthali ar vchel-fannau y maes.

19 Brenhinoedd a ddaethant, [ac] a ymladdaſant, yna brenhinoedd Canaan a ymladdaſant yn Thaanac wrth ddyfroedd Megido: [ond] ni ddygaſant [gymmaint a] dernyn o arian.

20 O'r nefoedd yr ymladdaſant: y ſêr oi graddau a ymladdaſant yn erbyn Siſara.

21 Afon Ciſon ai ſcubodd hwynt, yr hên afon

[ſef] afon Ciſon: fy enaid, ti a gerddaiſt yn lew.

22 Yna y dylliodd carnau y meirch gan aml garlamman ei gryſion ef.

23 Melldigwch Meroz medd angel yr Arglwydd, gan felldigo melldigwch ei thrigolion: am na ddaethant yn gynnorthwy i'r Arglwydd, yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.

24 Bendithier Iael gwraig Heber y Cenead goruwch gwragedd [eraill:] bendithier [hi] goruwch gwragedd [yn preſſwylio] mewn pebyll.

25 Dwfr a geiſiodd efe, llaeth a roddes hithe: mewn phiol ardderchog y dûg hi ymenyn.

26 Ei llaw [aſſwy] at yr hoel, ai llaw ddehau at forthwyl y gweithwŷr a ymeſtynnaſant: a hi a ddyrlliodd Siſara, ac a dorrodd ei benn ef, archollodd hefyd, a thrywanodd ei arlais ef.

27 Wrth ei thraed yr ymgrymmodd efe, ſyrthiodd a gorweddodd: wrth ei thraed yr ymgrymmodd efe, ſyrthiodd lle'r ymgrymmodd, yno y ſyrthiodd yn anrhaithiedic.

28 Mam Siſara a edrychodd drwy 'r ffeneſtr, ac a waeddodd drwy 'r dellt, pa ham yr oeda ei gerbyd heb dyfod? pa ham yr arafodd olwynion ei gerbyd?

29 Ei harglwyddeſau doethion ai hattebaſant, hithe hefyd a adroddodd ei geiriau wrthi ei hun.

30 Oni chawſant hwy, [ac oni] rannaſant yr anrhaith? llangces [neu] ddwy i bob gŵr, anrhaith o [wiſcoedd] ſymmud-liw (ſydd] eiddo Siſara, [ie] anrhaith o wniadwaith ſymmudliw: ſymmudliw o wniadwaith o'r ddautu, i rannwr pennaf yr anrhaith.

31 Felly y darfyddo am dy holl elynnion di ô Arglwydd, a'r rhai a'th hoffant di [fyddant] fel yr haul yn myned yn ei rym: a'r wlâd a gafodd lonydd ddeugain mhlynedd.

## PEN. VI.

1 Y Madianiaid am bechod yr Iſraeliaid yn cael eu gorthrymmu hwynt, hyd oni waredodd Gedeon hwynt.

YNA meibion Iſrael a wnaethant yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: am hynny 'r Arglwydd ai rhoddodd hwynt yn llaw Madian ſaith mlynedd.

2 A llaw Madian a orthrechodd Iſrael: ac rhac ofn y Madianiaid, meibion Iſrael a wnaethant iddynt y llocheſau y rhai [ydynt] yn y mynyddoedd, a'r ogfeydd a'r amddeffynfaoedd.

3 Pan hauaſe Iſrael, yna Madian a aeth i fynu, ac Amalec, a meibion y dwyrain a aethant hefyd i fynu yn eu herbyn hwynt.

4 Ac a werſſyllaſant yn eu herbyn hwynt ac a ddiniſtriaſant gnwd y ddaiar hyd oni ddelech i Azza: ac ni adawſant ddim ymborth yn Iſrael, na dafad, nac eidion, nac aſſyn.

5 Canys hwynt, ai hanifeiliaid a aethant i fynu ai pebyll, daethant fel locuſtiaid o amldra, ac nid [oedd] rifedi arnynt hwy, nac ar eu camelod: felly y daethant i'r wlâd iw deſtruwio hi.

6 Ac Iſrael a aeth yn dlawd iawn o achos y Madianiaid: a meibion Iſrael a lefaſant ar yr Arglwydd.

7 A phan lefodd meibion Iſrael ar yr Arglwydd o blegit y Madianiaid:

8 Yna'r Arglwydd a anfonodd brophwydwr at feibion Iſrael, ac a ddywedodd wrthynt: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, myfi a'ch dugum chwi i fynu o'r Aipht, ac a'ch arweiniais chwi o dŷ y caethiwed.

9 Mi hefyd a'ch gwaredais chwi o law 'r Aiphtiaid, ac o law eich holl orthrym-wŷr: gyrrais hwynt allan hefyd o'ch blaen chwi, a rhoddais eu tîr hwynt i chwi:

10 A dywedais wrthych: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi * nac ofnwch dduwiau yr Amoriaid y rhai'r ydych yn trigo yn eu gwlâd: ond ni wrandawſoch ar fy llais i.

2.Bren.17.35.
Ier.10.2.

11 Yna angel yr Arglwydd a ddaeth, ac a eiſteddodd tann y dderwen yr hon [ſydd] yn Ephrah, yr hon [oedd] eiddo Ioas tâd yr Efriaid: a Gedeon ei fab ef oedd yn dyrnu gwenith mewn gwin-wryf, i ffoi rhac y Madianiaid.

12 Ac angel yr Arglwydd a ymddangoſodd iddo ef, ac a ddywedodd wrtho: yr Arglwydd [ſydd] gyd a thi [ŵr] cadarn nerthol.

13 A Gedeon a ddywedodd wrtho [gwrando] arnaf fy arglwydd, od yw 'r Arglwydd gyd a ni, pa ham y digwyddodd hyn oll i ni? a pha le [y mae] ei holl ryfeddodau ef y rhai a fynegodd ein tadau i ni gan ddywedyd, ond yr Arglwydd a'n dûg ni i fynu o'r Aipht? canys yn awr yr Arglwydd a'n gwrthododd ni, ac a'n rhoddodd i law y Madianiaid.

14 Yna 'r Arglwydd a edrychodd arno ef, ac a ddywedodd, dos yn dy rymmuſdra ymma, a gwaret Iſrael o law y Madianiaid: oni anfonais i dy di?

15 Dywedodd yntef wrtho ef, attolwg fy Arglwydd pa fodd y gwaredaf fi Iſrael? wele fy nhâd yn dlotaf ym Manaſſes, a minne 'n lleiaf yn nhŷ fy nhâd.

16 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho ef diau y byddafi gyd a thi: a thi a darewi y Madianiaid fel un gŵr.

17 Ac efe a ddywedodd wrtho, attolwg o chefais ffafor yn dy olwg: gwna erofi arwydd [fel y gwypwyf] mai ti ſydd yn lleſaru wrthif.

18 Na chilia attolwg oddi ymma hyd oni ddelwyf attat, ac oni ddygwyf fy offrwm, ac oni oſodwyf ef ger dy fron: dywedodd yntef, myfi a arhoſaf nes it ddychwelyd.

19 Yna Gedeon a ddaeth, ac a baratôdd fynn gafr, ac Epha o beillied yn fara croiw, y cig a oſododd efe mewn baſced, a'r iſcell a oſododd efe mewn crochan: ac ai dug atto ef tann y dderwen, ac ai cyflwynodd.

20 Ac angel Duw a ddywedodd wrtho, cymmer y cîg a'r bara croiw, a goſot ar y graig hon, a thywallt yr iſcell: ac efe a wnaeth felly.

21 Yna angel yr Arglwydd a eſtynnodd flaen y ffon yr hon [oedd] yn ei law ef, ac a gyffyrddodd a'r cîg, ac a'r bara croiw, a'r tân a dderchafodd o'r graig, ac a yſſodd y cîg, a'r bara croiw: ac angel yr Arglwydd a aeth ymmaith oi olwg ef.

22 Pan welodd Gedeon mai angel yr Arglwydd [oedd] efe: yna y dywedodd Gedeon oh Arglwydd Dduw, diau o herwydd *i'm weled angel yr Arglwydd wyneb yn wyneb [y byddaf marw.]

Exod.33.20.
Pen.13.22.

23 A dywedodd yr Arglwydd wrtho, tangneddyf it, nac ofna, ni byddi farw.

24 Yna Gedeon a adailadodd yno allor i'r Arglwydd, ac ai galwodd Iehofa Salom: hyd y dydd hwn [y mae] hi etto yn Ephrah tref-tad yr Eſriaid.

25 A'r noſon honno y dywedodd yr Arglwydd wrtho ef, cymmer y buſtach yr hwn [ſydd] eiddo dy dâd, a buſtach arall ſaith mlwydd oed: a deſtrywia allor Baal yr hon [ſydd] eiddo dy dâd, a thorr y llwyn yr hwn [ſydd] yn ei hymyl hi.

26 Ac adailada di allor i'r Arglwydd dy Dduw ar benn y graig hon yn drefnus, a chymmer yr ail buſtach, ac offrymma boeth offrwm ar goed y llwyn yr hwn a dorri di.

27 Yna Gedeon a gymmerodd ddeng-wr oi weiſion, ac a wnaeth fel y llefaraſe'r Arglwydd wrtho ef: ac o herwydd ei fod yn ofni tŷ ei dâd, a gwŷr y ddinas os gwnae efe [hynn] liw dydd, am hynny efe ai gwnaeth liw nos.

28 Pan gyfododd gwŷr y ddinas y borau, yna wele allor Baal wedi ei dryllio, a'r llwyn yr hwn [oedd] yn ei hymyl wedi ei dorri: a'r ail buſtach wedi ei boeth offrymmu ar yr allor yr hon a adailadaſid.

29 A dywedodd pawb wrth ei gilydd, pwy a wnaeth y peth hyn? pan geiſiaſant a [phan] chwiliaſant, yna y dywedaſant, Gedeon mab Ioas a wnaeth y peth hyn.

30 Yna gwŷr y ddinas a ddywedaſant wrth Ioas, dŵg dy fab fel y byddo efe marw: canys efe a ddrylliodd allor Baal, ac a dorrodd y llwyn yr hwn [oedd] yn ei hymyl hi.

31 Ac Ioas a ddywedodd wrth y rhai oll a oeddynt yn ſefyll yn ei ymyl, ai chwi a ddadleuwch dros Baal? ai chwi ai ceidw ef? yr hwn a ddadleuo droſto ef, bydded farw y bore hwn: os Duw [yw] efe dadleued droſto ei hun, am ddryllio ei allor.

23 Efe ai galwodd ef y dwthwn hwnnw Ierubbaal gan ddywedyd: ymddadleued Baal droſto ei hun am ddryllio ei allor.

33 Yna y Madianiaid oll, a'r Amaleciaid, a meibion y dwyrain a gaſclwyd yng-hyd: ac a aethant, ac a werſyllaſant yn nyffryn Iezrael.

34 Ond yſpryd yr Arglwydd a wiſcodd am Gedeon: ac efe a *vdcanodd mewn vdcorn, ac Abiazar a aeth ar ei ôl ef.

Num.10.3.

35 Ac efe a anfonodd gennadau drwy holl Manaſſes yr hwn pan alwyd ef ai canlynodd ef: anfonodd hefyd gennadau i Aſer, ac i Zabulon, ac i Nephthali, ac aethant i fynu iw cyfarfod hwynt.

36 Yna Gedeon a ddywedodd wrth Dduw: o gwaredi di Iſrael drwy fy llaw i megis y lleferaiſt,

37 Wele fi yn goſod cnû o wlân yn y llawr dyrnu: os gwlith fydd ar y cnû yn vnic, a ſychder ar yr holl ddaiar, yna y caf wybod y gwaredi di Iſrael drwy fy llaw i, fel y lleferaiſt.

38 Ac felly y bu, canys cyfododd yn forau, ac a ſwppynnodd y cnû, ac a waſcodd wlith o'r cnû loned phiol o ddwfr.

39 A Gedeon a ddywedodd wrth Dduw na lidied dy ddigllonedd i'm herbyn,*a mi a lefaraf vn waith etto: profaf yn awr y waith hon yn vnic drwy'r cnû: bydded attolwg ſychder ar y cnû yn vnic, ac ar yr holl ddaiar bydded gwlith.

Genes.18.32.

40 A Duw a wnaeth felly y noſon honno: canys yr oedd ſychder ar y cnû yn vnic, ac ar yr holl ddaiar yr oedd gwlith.

## PEN. VII.

1 Yr Arglwydd yn peri i Gedeon yrru ymmaith y rhan
fwyaf oi lu. 19 y modd y rhyfelodd, ac y gorchfygodd Gedeon. 25 lladdiad Oreb a Zeb.

YNA *Ierubbaal (hwnnw [yw] Gedeon) a gyfododd yn foreu, a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a werſyllaſant wrth ffynnon Harod: a gwerſyll y Madianiaid oedd iddynt odu'r gogledd wrth fryn Moreh yn y dyffryn.

Pen.8.35.

2 A dywedodd yr Arglwydd wrth Gedeon, rhy luoſog yw'r bobl y rhai [ydynt] gyd a thi i mi roddi y Madianiaid iw llaw hwynt: rhac i Iſrael ymogoneddu i'm herbyn gan ddywedyd, fy llaw fy hun a'm gwaredodd.

3 Am hynny yn awr, cyhoedda lle y clywo'r bobl gan ddywedyd, *yr hwn ſydd ofnus, ac arſwydus dychweled, ac ymadawed y boreu o fynydd Gilead: yna y dychwelodd o'r bobl ddwy fil ar hugain, a deng-mîl a arhoſaſant.

Deut.20.8.
1.Mac.3.56.

4 A dywedodd yr Arglwydd wrth Gedeon etto y mae gormod o bobl, dŵg hwynt i wared at y dyfroedd, a mi ai profaf hwynt yno i ti: ac am yr hwn y dywedwyf wrthit hwn a aiff gyd a thi, eled hwnnw gyd a thi, ac am y rhai oll y dywedwyf wrthit, hwn nid aiff gyd a thi, nac eled hwnnw gyd a thi.

5 Felly efe a ddygodd y bobl i wared at y dyfroedd, a dywedodd yr Arglwydd wrth Gedeon, pwy bynnac a leppio ai dafod o'r dwfr fel y lleppio cî, goſot ef ar nailltu, felly pwy bynnac a ymgrymmo ar ei liniau i yfed.

6 A rhifedi y rhai a godaſant [y dwfr] ai llaw at eu genau oedd dry chânwr: ar holl bobl eraill a ymgrymmaſant ar eu gliniau i yfed dwfr.

7 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Ge-

deon, drwy 'r trychan-nwr y rhai a leppiaſant [y dwfr] y gwaredaf chwi, ac y rhoddaf y Madianiaid yn dy law di: am hynny eled yr holl bobl[eraill] ymmaith bob vn iw fangre ei hun.

8 Felly y bobl a gymmeraſant fwyd yn eu [dwylo] ai hudcyrn, a [Gedeon] a ollyngodd ymmaith holl wŷr Iſrael pob vn iw babell a thry chā-nwr a ddaliodd efe: a gwerſſyll y Madianiaid oedd oddi tanodd iddo mewn dyffryn.

9 A'r noſſon honno y dywedodd yr Arglwydd wrtho ef, cyfot dos i wared i'r gwerſſyll, canys mi ai rhoddais ef yn dy law di.

10 Ac od wyt yn ofni myned i wared, dos di a Phurah dy langc i wared i'r gwerſſyll:

11 A gwrando beth a ddywedant, fel yr ymnertho wedi hynny dy ddwylo, ac yr elech i wared i'r gwerſſyll: yna efe a aeth i wared a Phurah ei langc i gwrr y rhai arfogion y rhai [oeddynt] yn y gwerſſyll.

Pen.6.33.

12 A'r Madianiaid, a'r Amaleciaid, a holl * feibion y dwyrain oeddynt yn gorwedd yn y dyffryn fel y locuſtiaid o amldra: ai camelod [oedd] heb rîf fel y tyfod yr hwn[ſydd] ar fin y môr o amldra.

13 Pan ddaeth Gedeon, yna wele ŵr yn mynegu iw gyfell freuddwyd: ac efe a ddywedodd, wele breuddwyd a freuddwydiais, ac wele dorth o fara haidd yn ymdreiglo i werſſyll y Madianiaid, ac hi a ddaeth hyd y babell, ac ai tarawodd fel y ſyrthiodd, ac hi ai hymchwelodd fel y ſyrthiodd y babell.

14 Ai gyfell ef a atebodd, ac a ddywedodd nid [yw] hyn ddim onid cleddyf Gedeon mab Ioas gŵr o Iſrael: Duw a roddodd Madian ai holl fyddin yn ei law ef.

15 Pan glybu Gedeon adroddiad y breuddwyd ai ddirnad, yna efe a addolodd: ac a ddychwelodd i werſſyll Iſrael, ac a ddywedodd, cyfodwch, canys rhoddodd yr Arglwydd werſſyll y Madianiaid yn eich llaw chwi.

16 Ac efe a rannodd y trychan-nwr yn dair byddin, ac a roddodd vdcyrn yn llaw pawb o honynt, a phiſſer gwâg, a llugyrn yng-hanol y piſſerau.

17 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, edrychwch arnaf, a gwnewch felly: wele pan ddelwyf i gwrr y gwerſſyll, yna fel y gwnelwyf fi: gwnewch chwithau.

18 Pan vdcanwyf mewn vdcorn, myfi a'r holl rai a'r [a ydynt] gyd a mi: vdcenwch chwithau mewn vdcyrn o amgylch yr holl werſſyll, a dywedwch[cleddyf] yr Arglwydd, a Gedeon.

19 Felly Gedeon a ddaeth i mewn a'r can-nwr y rhai [oeddynt] gyd ag ef i gwrr y gwerſſyll yn nechreu y wiliadwriaeth ganol, a'r gwilwŷr gan godi a godaſant, ac a vdcanaſant mewn vdcorn, ac a ddrylliaſant y piſſerau y rhai[oeddynt] yn eu llaw hwynt.

20 A'r tair byddin eraill a vdcanaſant mewn vdcyrn, ac a ddrylliaſant y piſſerau ac a ddaliaſant y llugyrn yn eu llaw aſſwy, a'r vdcyrn yn eu llaw ddehau i vdcanu: llefaſant, cleddyf yr Arglwydd, a Gedeon.

21 A ſafaſant bob vn yn ei lê o amgylch y gwerſſyll: a'r holl werſſyll a dorrodd allan, gwaeddaſant hefyd, a ffoaſant.

Eſa.9.4.

22 A'r try chant a vdcanaſant ag vdcyrn, * a'r Arglwydd a oſododd gleddyf pob vn yn erbyn ei gilydd, ac yn erbyn yr holl werſſyll: felly y gwerſſyll a ffôdd hyd Bethhaſitah yn Zererah hyd fin Abel Meholah yn ymyl Tabbath.

23 Yna gwŷr Iſrael a gaſclwyd o Nephthali, ac o Aſer, ac o holl Manaſſes: ac a erlidiaſant ar ôl y Madianiaid.

24 A Gedeon a anfonodd gennadau i holl fynydd Ephraim gan ddywedyd, deuwch i wared yn erbyn y Madianiaid, ac achubwch oi blaen hwynt y dyfroedd hyd Bethbarah, a'r Iorddonen: a chaſclwyd holl wŷr Ephraim, ac ennillaſant y dyfroedd hyd Bethbarah, a'r Iorddonen.

Pſal.83.12.
Eſa.10.26.

25 A daliaſant ddau * o dywyſogion Madian ſef Oreb, a Zeeb, a lladdaſant Oreb ar graig Oreb, a lladdaſant Zeeb wrth wîn-wryf Zeeb, ac a erlidiaſant y Madianiaid: a dugaſant bennau Oreb, a Zeeb at Gedeon i'r tu hwnt i'r Iorddonen.

## PEN. VIII.

1 Cweryl Ephraim yn erbyn Gedeon. 27 Iſrael yn gwneuthur gau-dduw o Ephod Gedeon. 30 Plant Gedeon ai diwedd.

YNa gwŷr Ephraim a ddywedaſant wrtho ef, pa ham y gwnaethoſt y peth hyn a ni, heb alw arnom ni pan aethoſt i ymladd yn erbyn y Madianiaid? ac ai dwrdiaſant ef yn dôſt.

2 Ac efe a ddywedodd wrthynt, beth a wneuthum i yn awr megis chwi? onid gwell yw lloffiad grawn-win Ephraim, na chaſcliad grawnwin Abiazar?

3 Duw a roddodd yn eich llaw chwi dywyſogion Madian [ſef] Oreb, a Zeeb, a pheth a allwn i ei wneuthur wrthych chwi? yna 'r arafodd eu dig hwynt tu ag atto ef, pan leſarodd efe y geiriau hyn.

4 A Daeth Gedeon i'r Iorddonen: i fyned troſti hi, efe a'r trychan-nwr y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn ddeffygiol, ac yn erlid.

5 Ac efe a ddywedodd wrth wŷr Succoth, rhoddwch attolwg dorthau o fara i'r bobl y rhai ydynt i'm canlyn: canys lluddedic ydynt hwy a minne yn erlyd ar ôl Zebah, a Salmunna brenhinoedd Madian.

6 A dywedodd tywyſogion Succoth a[yw] llaw Zebah, a Salmunna 'n awr yn dy law di? fel y rhoddem ni fara i'th lû di?

7 Yna y dywedodd Gedeon, o herwydd hynny pan roddo 'r Arglwydd Zebah a Salmunna yn fy llaw i: yna y dyrnaf eich cnawd chwi a drain yr anialwch, ac a mieri.

8 Ac efe a aeth i fynu oddi yno i Penuel, ac a leſarodd wrthynt hwythau felly: a gwŷr Penuel ai hattebaſant ef, fel yr attebaſe gwŷr Succoth.

9 Ac efe a leſarodd hefyd wrth wŷr Penuel gan ddywedyd: pan ddychwelwyf mewn heddwch mi a ddeſtruwiaf y tŵr ymma.

10 A Zebah a Salmunna [oeddynt] yn Carcor, ai lluoedd gyd a hwynt yng-hylch pymtheng-mil, yr hyn oll a adawſid o holl fyddin meibion y dwyrain: a lladdwyd cant ac vgain mîl o wŷr yn tynnu cleddyf.

11 A Gedeon a aeth i fynu tua'r rhai oeddynt yn trigo mewn pabellau o'r tu dwyrain i Nobah, ac i Iogbeha: ac efe a darawodd y fyddin, canys y fyddin oedd yſceulus.

12 Ond Zebah a Salmunna a ffoaſant, ac efe a erlidiodd ar eu hôl hwynt: ac a ddaliodd ddau frenin Madian ſef Zebah a Salmunna, ac a waſcarodd yr holl lû.

13 Felly Gedeon mab Ioas a ddychwelodd o'r rhyfel cyn codi'r haul.

14 Ac efe a ddaliodd langc o wŷr Succoth ac a ymofynnodd ag ef: ac yntef a ſcrifennodd iddo dywyſogion Succoth ai henuriaid, [ſef] dau wr ar bymtheg a thrugain.

15 Ac efe a ddaeth at wŷr Succoth ac a ddywedodd, wele Zebah a Salmunna: [drwy] 'r rhai yr amherchaſoch fi gā ddywedyd, a [ydyw] llaw Zebah a Salmunna yn awr yn dy law di? fel y rhoddem fara i'th wŷr lluddedic?

16 Yna efe a gymmerth henuriaid y ddinas a drain yr anialwch, a'r miêri: ac a ddrylliodd wŷr Succoth a hwynt.

17 Tŵr Penuel hefyd a ddiniſtriodd efe: ac a laddodd wŷr y ddinas.

18 Yna efe a ddywedodd wrth Zebah, ac wrth Salmunna, pa fath wŷr [oedd] y rhai a laddaſoch chwi yn Thabor? a dywedaſant, tebyg i ti, [pob] vn o ddull meibion brenin.

19 Ac efe a ddywedodd, fy mrodyr meibion fy mam [oeddynt] hwy: [fel] mai byw 'r Arglwydd pe gadawſech hwynt yn fyw ni laddwn chwi.

20 Yna efe a ddywedodd wrth Iether ei gyntafanedic, cyfot, lladd hwynt, ond ni thynne y llangc ei gleddyf: o herwydd efe a ofnodd, canys bachgen [oedd] efe etto.

21 Yna y dywedodd Zebah a Salmunna, cyfot ti a rhuthra i ni, canys fel [y byddo]'r gŵr [felly y bydd] ei rym: a Gedeon a gyfododd, ac a laddodd Zebah a Salmunna, ac a gymmerth y colèrau y rhai [oeddynt] am yddfau eu camelod hwynt.

22 A gwŷr Iſrael a ddywedaſant wrth Gedeon, arglwyddiaetha arnom ni, tydi hefyd a'th fab, a mab dy fab: canys gwaredaiſt ni o law Madian.

23 A Gedeon a ddywedodd wrthynt, ni arglwyddiaethafi arnoch, ac ni arglwyddiaetha fy mab arnoch, [eithr] yr Arglwydd a arglwyddiaetha arnoch.

24 Dywedodd Gedeon hefyd wrthynt, gofynnaf arch oddi gennwch, ar roddi o bob vn o honoch chwi i mi glustdlyſau ei anrhaith: canys clust-dlyſau aur [oedd] ganddynt hwy, o herwydd mai Iſmaeliaid oeddynt hwy.

25 A dywedaſant gan roddi y rhoddwn [hwynt,] a lledaſant ryw wiſc, a thaflaſant yno bob vn ei glust-dlws yr hwn a gawſe efe yn ſclyfaeth.

26 A phwys y clust-dlyſau aur y rhai a ofynnaſe efe oedd fîl, a ſaith gant [o ſiclau] aur, heb law 'r colêrau, a'r arogl-bellenau, a'r gwiſcoedd porphor y rhai [oeddynt] am frenhinoedd Madian, ac heb law y tyrch y rhai [oeddynt] am yddfau eu camelod hwynt.

27 A Gedeon a wnaeth hynny yn Ephod, ac ai goſododd yn ei ddinas ei hun Ephra, a holl Iſrael a butteiniaſant ar ei hôl hi yno: a bu [hynny] yn dramgwydd i Gedeon, ac iw dŷ ef.

28 Felly y daroſtyngwyd Madian o flaen meibion Iſrael, fel na chwanegaſant dderchafu eu pennau: a'r wlâd a gafodd lonydd ddeugain mhlynedd yn nyddiau Gedeon.

29 Yna Ierubbaal mab Ioas a aeth ymmaith, ac a drigodd yn ei dŷ ei hun.

30 Ac i Gedeon yr oedd deng-mab a thrugain a ddeuthe allan oi gorph ef: canys gwragedd lawer oeddynt ganddo ef.

31 Ai ordderch-wraig ef yr hon [oedd] yn Sichem a ymddug hefyd iddo ef fab: ac efe a oſododd ei henw ef yn Abimelech.

32 Felly Gedeon mab Ioas a fu farw mewn oedran têg, ac a gladdwyd ym meddrod Ioas ei dad yn Ephra [tref] tad yr Eſriaid.

33 A phan fu farw Gedeon, yna meibion Iſrael a ddychwelaſant, ac a butteiniaſant ar ôl Baalim: ac a oſodaſant Baal-berith yn dduw iddynt.

34 Felly meibion Iſrael ni choffaſant yr Arglwydd eu Duw: yr hwn ai gwaredaſe hwynt o law eu holl elynnion o amgylch.

35 Ac ni wnaethant drugaredd a thŷ Ierubbaal Gedeon: yn ôl yr holl ddaioni a'r a wnaethe efe i Iſrael.

## PEN. IX.

1 Abimelech yn barnu y bobl yn ôl Gedeon, ac yn lladd ei frodyr. 7 Dammeg Iotham.

YNa Abimelech mab Ierubbaal a aeth i Sichem, at frodyr ei fam: ac a ymddanodd a hwynt, ac a holl dylwyth tŷ tâd ei fam, gan ddywedyd,

2 Dywedwch atolwg lle y clywo holl arglwyddi Sichem, pa vn oref gennych ai arglwyddiaethu arnoch o ddeng-wr a thrugain, oll yn feibion Ierubbaal, ai arglwyddiaethu o vn gŵr arnoch? coffwch gan hynny mai eich aſcwrn, a'ch cnawd ydwyf.

3 Yna brodyr ei fam o ddywedaſant oi blegit ef lle y clywu holl arglwyddi Sichem yr holl eiriau hynny: ai calon hwynt a drôdd ar ôl Abimelech, canys dywedaſant ein brawd ni [yw] efe.

4 A rhoddaſant iddo ddec a thrugain [o ſiclau] arian o dŷ Baal-berith: ac Abimelech a

gyflogodd a hwynt ofer-wŷr gwammal, y rhai aethant ar ei ôl ef.

5 Felly efe a ddaeth i dŷ ei dad i Ephra, ac a laddodd ei frodyr meibion Ierubbaal [y rhai oeddynt] ddeng-wr a thrugain ar vn garrec: ond Iotham mab ieuangaf Ierubbaal a adawyd, canys efe a ymguddiaſe.

6 Yna holl arglwyddi Sichem, a holl dŷ Milo a ymgaſclaſant, ac a aethant, ac a vrddaſant Abimelech yn frenin yn nyffryn * y piler yr hwn [ſydd] yn Sichem. Ioſua.24.26.

7 Pan fynegaſant [hynny] i Iotham, yna efe a aeth, ac a ſafodd ar benn mynydd Garizim, ac a dderchafodd ei lêf, ac a waeddodd: dywedodd hefyd wrthynt, gwrandewch arnafi ô arglwyddi Sichem, fel y gwrandawo Duw arnoch chwithau.

8 Y coed gan fyned a aethant i eneinio brenin arnynt: a dywedaſant wrth yr oli-wydden teyrnaſa arnom ni.

9 Ond yr oliwydden a ddywedodd wrthynt a beidiafi a'm braſter a'r hwn drwofi 'r anrhydeddant Dduw, a dynion ? ac a âfi i lywodraethu ar y prennau [eraill ?]

10 Yna y coed a ddywedaſant wrth y ffiguſ-bren: tyret ti, teyrnaſa arnom ni.

11 Ond y ffiguſ-bren a ddywedodd wrthynt a beidiafi a'm melyſdra, ac a'm ffrwyth goref ? ac a âfi i lywodraethu ar y prennau [eraill ?]

12 Yna y coed a ddywedaſant wrth y winwydden: tyret ti, teyrnaſa arnom ni.

13 Ond y win-wydden a ddywedodd wrthynt hwy, a beidiafi a'm melyſ-win yr hwn ſydd yn llawenhau Duw, a dynion ? ac a âfi i lywodraethu ar y prennau [eraill ?]

14 Yna 'r holl goed a ddywedaſant wrth y fieren: tyret ti, teyrnaſa arnom.

15 A'r fieren a ddywedodd wrth y prennau os mewn gwirionedd yr eneiniwch chwi fi yn frenin arnoch, deuwch ac ymddyriedwch yn fyng-hyſcod i: ac onidê, fe aiff tân allan o'r fieren, ac a yſſa cedr-wydd Libanus.

16 Felly yn awr os mewn gwirionedd, a pherffeithrwydd y gwnaethoch, ac y goſodaſoch Abimelech yn frenin: ac os gwnaethoch yn dda ag Ierubbaal, ac ai dŷ ef, ac os yn ôl haeddedigaeth ei ddwylaw ef y gwnaethoch iddo (bernwch eich hun:)

17 Canys fy nhâd a ymladdodd droſoch chwi, ac a anturiodd ei einioes ym mhell, ac a'ch gwaredodd chwi o law y Madianiaid.

18 A chwithau a gyfodaſoch yn erbyn tŷ fy nhâd i heddyw, ac a laddaſoch ei feibion ef [y rhai oeddynt] ddeng-wr a thrugain ar vn garrec: ac a oſodaſoch Abimelech (mab ei lawforwyn ef) yn frenin ar arglwyddi Sichem o herwydd [ei fod] efe yn frawd i chwi.

91 Gan hynny os mewn gwirionedd, ac mewn perffeithrwydd y gwnaethoch ag Ierubbaal, ac ai dŷ ef y dydd hwn: llawenychwch gyd ag Abimelech, a llawenyched yntef gyd a chwithau.

20 Ac onid ê, aed tân allan o Abimelech, ac yſſed arglwyddi Sichem, a thŷ Milo: hefyd eled tân allan o arglwyddi Sichem, ac o dŷ Milo, ac yſſed Abimelech.

21 Yna Iotham a giliodd, ac a ffôdd, ac a aeth ymmaith, i Beera: ac a drigodd yno rhac ofn Abimelech ei frawd.

22 Felly Abimelech a deyrnaſodd ar Iſrael dair blynedd.

23 Ond Duw a anfonodd yſpryd drwg rhwng Abimelech, ac arglwyddi Sichem: ac arglwyddi Sichem a anghywiraſant ag Abimelech,

24 Fel y dele y traha [a wnelſid a] deng-mab a thrugain Ierubbaal: ac fel y goſodid eu gwaed hwynt ar Abimelech eu brawd yr hwn ai lladdodd hwynt, ac ar arglwyddi Sichem y rhai ai cynnorthwyaſant ef i ladd ei frodyr.

25 Felly arglwyddi Sichem a oſodaſant iddo ef fradwriaeth ar bennau y mynyddoedd, ac yſpeiliaſant bawb a'r a oedd yn trammwy heibio iddynt ar hyd y ffordd: a mynegwyd [hynny] i Abimelech.

26 Yna Gaal mab Ebed a ddaeth efe ai frodyr, ac a drammwyaſant i Sichem: ac arglwyddi Sichem a ymddyriedaſant ynddo ef.

27 Am hynny 'r aethant i'r maes, ac a gaſclaſant rawn-win eu gwîn-llãnoedd, ac ai ſangaſant, a gwnaethant yn llawen: a daethant i mewn i dŷ eu duw, bwyttawſant hefyd, ac yfaſant, a melldithiaſant Abimelech.

28 Yna Gaal mab Ebed a ddywedodd, pwy [yw] Abimelech ? a phwy [yw] Sichem fel y gwaſanaethem ef ? onid mab Ierubbaal [yw efe ?] ond Zebul [yw] ei ſwyddog ? gwaſanaethwch wŷr Hemor tad Sichem, canys paham y gwaſanaethwn ni ef ?

29 O na bydde 'r bobl hyn tann fy llaw i, fel y bwriwn ymmaith Abimelech: ac efe a ddywedodd wrth Abimelech amlhâ dy lû a thyret allã.

30 Pan glybu Zebul tywyſog y ddinas eiriau Gaal mab Ebed: yna y llidiodd ei ddigllonedd ef.

31 Ac efe a anfonodd gennadau at Abimelech yn ddirgel gan ddywedyd: wele Gaal mab Ebed ai frodyr yn dyfod i Sichem, ac wele hwynt yn gwarchae y ddinas i'th erbyn.

32 Gan hynny cyfot yn awr liw nós a'r bobl y rhai [ydynt] gyd a thi, a chynllwyn yn y maes.

33 A chyfot yn foreu yng-hylch codiad yr haul, a rhuthra yn erbyn y ddinas: ac wele [pan] ddelo efe a'r bobl y rhai [ydynt] gyd ag ef allan i'th erbyn, yna gwna iddo 'r hyn a ellech.

34 Felly Abimelech a gyfododd, a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef liw nôs: ac a gynllwynaſant yn erbyn Sichem yn bedair byddin.

35 Yna Gaal mab Ebed a aeth allan, ac a ſafodd [wrth] ddrws porth y ddinas: ac Abimelech a gyfododd, a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef o'r cynllwyn.

36 Pan welodd Gaal y bobl, yna efe a

ddywedodd wrth Zebul, wele bobl yn dyfod i wared o bennau 'r mynyddoedd: a dywedodd Zebul wrtho ef; cyſcod y mynyddoedd yr ydwyt ti 'n ei weled fel dynion.

37 A Gaal a chwanegodd etto lefaru, ac a ddywedodd: wele bobl yn dyfod i wared o ganol y tîr, ac vn fyddin yn dyfod o ffordd gwaſtadedd Meonenim.

38 Yna y dywedodd Zebul wrtho ef, pa le yn awr [y mae] dy enau di [a] 'r hwn y dywedaiſt, pwy [yw] Abimelech pan waſanaethem ef? ond dymma y bobl y rhai a ddirmygaiſt di? dos allan attolwg yn awr, ac ymladd iw herbyn.

39 Yna Gaal a aeth allan o flaen arglwyddi Sichem: ac a ymladdodd yn erbyn Abimelech.

40 Ond Abimelech ai herlidiodd ef, ac efe a ffôdd oi flaen ef: a llawer a gwympaſant yn archolledic hyd ddrws y porth.

41 Ac Abimelech a drigodd yn Arumah: a Zebul a yrrodd ymmaith Gaal ai frodyr o breſſwylio yn Sichem.

42 A thrannoeth y daeth y bobl allan i'r maes: a mynegwyd [hynny] i Abimelech.

43 Ac efe a gymmerth y bobl, ac ai rhannodd yn dair byddin, ac a gynllwynodd yn y maes: ac efe a edrychodd, ac wele y bobl yn dyfod allan o'r ddinas, ac efe a gyfododd yn eu herbyn, ac ai tarawodd hwynt.

44 Ac Abimelech, a'r byddinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef a ruthraſant, ac a ſafaſant wrth ddrws porth y ddinas: a'r ddwy fyddin [eraill] a ruthraſant ar yr holl rai a [oeddynt] yn y maes, ac ai tarawſant hwy.

45 Pan ymladdodd Abimelech yn erbyn y ddinas yr holl ddiwrnod hwnnw, yna efe a enillodd y ddinas, ac a laddodd y bobl y rhai [oeddynt] ynddi: ac a ddeſtruwiodd y ddinas, ac ai hauodd a halen.

46 Pan glybu holl arglwyddi tŵr Sichem [hynny:] yna y daethant i amddeffynfa tŷ duw Berith.

47 A mynegwyd i Abimelech, ymgaſclu o holl arglwyddi tŵr Sichem.

48 Yna Abimelech a aeth i fynu i fynydd Zalmon, efe a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac Abimelech a gymmerth fwyeill yn ei law, ac a dorrodd gangen o brenn, ac ai dûg hi, ac ai goſododd ar ei yſcwydd: ac a ddywedodd wrth y bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, gwelſoch beth a wneuthum, bryſſiwch gwnewch fel finne.

49 Yna 'r holl bobl a dorraſant bob vn ei gangen, ac a aethant ar ôl Abimelech, ac ai goſodaſant wrth yr amddeffynfa, ac a loſcaſant a hwynt yr amddeffynfa a thân: felly holl arglwyddi tŵr Sichem a fuant feirw, yng-hylch mil o wŷr a gwragedd.

50 Yna Abimelech a aeth i Thebez: ac a werſyllodd yn erbyn Thebez, ac ai hennillodd hi.

51 Ac yr oedd tŵr cadarn yng-hanol y ddinas a'r holl wŷr a'r gwragedd, a holl arglwyddi y ddinas a ffoaſant yno, ac a gaeuaſant arnynt: ac a ddringaſant ar nenn y tŵr.

52 Ac Abimelech a ddaeth at y tŵr, ac a ymladdod yn ei erbyn: ac a neſaodd at ddrws y tŵr iw loſci ef a thân.

53 Yna rhyw wraig * a daflodd ddarn o faen melin ar benn Abimelech: ac a ddrylliodd ei benglog ef.

2.Sam.11.21.

54 Am hynny efe a alwodd yn fuan ar y llangc yr hwn oedd yn dwyn ei arfau ef, ac a ddywedodd wrtho, tynn dy gleddyf a lladd fi, fel na ddywedant am danaf gwraig ai lladdodd ef: yna 'r llangc ai trywanodd ef fel y bu efe farw.

55 Pan welodd gwŷr Iſrael farw o Abimelech, yna hwynt a aethant bob vn iw fangre.

56 Felly y talodd Duw ddrygioni Abimelech yr hwn a wnelſe efe iw dâd gan ladd ei ddêc brawd a thrugain.

57 A holl ddrygioni gwŷr Sichem a dalodd Duw ar eu penn hwynt: a melldith Iotham mab Ierubbaal a ddaeth arnynt hwy.

## PEN. X.

1 Llywodraeth Tholah ac Iair. 4 Sorriant Duw wrth Iſrael am eu pechodau.

YNA y cyfododd ar ôl Abimelech i waredu Iſrael Tholah mab Phuah mab Dodo, gŵr o Iſſachar: ac efe oedd yn trigo yn Samir ym mynydd Ephraim.

2 Ac efe a farnodd Iſrael dair blynedd ar hugain, ac a fu farw, ac a gladdwyd yn Samir.

3 Ac ar ei ôl ef y cyfododd Iair y Gileadiad: ac efe a farnodd Iſrael ddwy flynedd ar hugain.

4 Ac iddo ef yr oedd deng-mab ar hugain yn marchogeth ar ddec ar hugain o ebolion aſſynnod, a dec dinas ar hugain [oedd] ganddynt: y rhai a elwid * trefydd Iair hyd y dydd hwn, y rhai [oeddynt] yng-wlâd Gilead.

Deut 3.14.

5 Yna Iair a fu farw, ac a gladdwyd yn Camon.

6 A meibion Iſrael * a chwanegaſant wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, ac a waſanaethaſant *Baalim, ac Aſtaroth, a duwiau Syria, a duwiau Sidon, a duwiau Moab, a duwiau meibion Ammon, a duwiau y Philiſtiaid: a gwrthodaſant yr Arglwydd, ac nis gwaſanaethaſant ef.

Pen.2.11.& 3.7.& 4.1.& 6.1.& 13.1.
Pen.2.13.

7 Am hynny y llidiodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn Iſrael: ac efe ai rhoddodd hwynt yn llaw y Philiſtiaid, ac yn llaw meibion Ammon.

8 A hwynt a flinaſant, ac a ddrylliaſant feibion Iſrael o'r flwyddyn honno allan (ſef tair blynedd ar bymthec) [ie] holl feibion Iſrael y rhai [oeddynt] tu hwnt i'r Iorddonen, yng-wlâd yr Amoriaid yr hon [ſydd] yn Gilead.

9 A meibion Ammon a aethant trwy 'r Iorddonen i ymladd hefyd yn erbyn Iuda, ac yn erbyn Beniamin, ac yn erbyn tŷ Ephraim: fel y bu gyfyng iawn ar Iſrael.

10 Yna meibion Iſrael a lefaſant ar yr Arglwydd, gan ddywedyd: pechaſom yn dy erbyn,

hyn, o herwydd gwrthodaſom ein Duw ni, a gwaſanaethaſom Baalim.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrth feibion Iſrael: oni [waredais chwi] rhac yr Aiphtiaid, ac rhac yr Amoriaid, ac rhac meibiō Ammō, ac rhac y Philiſtiaid?

12 Y Sidoniaid hefyd a'r Amaleciaid a'r Moaniaid a'ch gorthrymmaſant chwi: a chwi a alwaſoch arnaf, a minne a'ch gwaredais chwi oi llaw hwynt.

13 Etto chwi * a'm gwrthodaſoch i, ac a waſanaethaſoch dduwiau dieithr: am hynny ni waredaf chwi mwyach. Deut.32.15. Ier.2.13.

14 Ewch, a llefwch at y duwiau y rhai a ddewiſaſoch: hwynt a'ch gwaredant chwi yn amſer eich cyfyngdra.

15 A meibion Iſrael a ddywedaſant wrth yr Arglwydd, pechaſom, gwna di i ni fel y gwelech yn ddá: etto gwaret ni attolwg y dydd hwn.

16 Yna hwynt a fwriaſant ymmaith y duwiau dieithr oi myſc hwynt, ac a waſanaethaſant yr Arglwydd: ai enaid ef a doſtyriodd o herwydd adfyd Iſrael.

17 Yna meibion Ammon a ymgynnullaſant, ac a werſyllaſant yn Gilead: a meibion Iſrael a ymgaſclaſant, ac a werſyllaſant yn Miſpah.

18 Y bobl hefyd [a] thywyſogion Gilead a ddywedaſant bob vn wrth ei gilydd, pa ŵr bynnac a ddechreuo ymladd yn erbyn meibion Ammon: efe a fydd * yn bennaeth ar drigolion Gilead. Pen.11.16.

## PEN. XI.

1 Brodyr Iephthah, wedi iddynt ei yrru ef ymmaith oddi wrthynt ynwaith, yn ei gyrchu ef trachefn i fod yn llywydd arnynt hwy. 12 Cennadwriaeth Iephthah at yr Ammoniaid. 30 Adduned Iephthah ai oruchafiaeth.

AC Iephthah y Gileadiad oedd [ŵr] cadarn nerthol, ac efe [oedd] fab i wraig ordderch: a Gilead a genhedlaſe 'r Iephthah hwnnw.

2 A gwraig Gilead a ymddug iddo feibion: a meibion y wraig a gynnyddaſant, ac a fwriaſant ymmaith Iephthah, ac a ddywedaſant wrtho ef, nid etifeddi di yn nhŷ ein tad ni, canys mab gwraig ddieithr ydwyt ti.

3 Yna Iephthah a ffôdd rhac ofn ei frodyr, ac a drigodd yng-wlad Tob: a'r gwâg ddynion ofer a ymgaſclaſant at Iephthah, ac a aethant allan gyd ag ef.

4 Ac wedi [talm] o ddyddiau meibion Ammon a ryfelaſant yn erbyn Iſrael.

5 A phan oedd meibion Ammon yn ymladd ag Iſrael, yna henuriaid Gilead a aethant i gyrchu Iephthah o wlâd Tob.

6 A dywedaſant wrth Iephthah, tyret a bydd i ni yn dywyſog: fel yr ymladdom yn erbyn meibion Ammon.

7 Yna Iephthah a ddywedodd wrth henuriaid Gilead, onid chwi a'm caſanaſoch i, ac a'm gyrraſoch o dŷ fy nhad? pa ham y deuwch attafi ynawr pan [yw] yn gyfyng arnoch?

8 A henuriaid Gilead a ddywedaſant wrth Iephthah, am hynny y dychwelaſom yn awr attat ti fel y delyt gyd ani, ac yr ymladdit yn erbyn meibion Ammon: ac y byddit i ni yn bennaeth ar holl drigolion Gilead.

9 Ac Iephthah a ddywedodd wrth henuriaid Gilead, o throiwch fi ynôl i ymladd yn erbyn meibion Ammon, a rhoddi o'r Arglwydd hwynt o'm blaen i, a fyddaf fi 'n bennaeth arnoch chwi?

10 Yna henuriaid Gilead a ddywedaſant wrth Iephthah: yr Arglwydd fyddo 'n dyſt rhyngom ni, oni wnawn ni felly yn ôl dy air di.

11 Felly Iephthah a aeth gyd ag henuriaid Gilead, a'r bobl ai goſodáſant ef yn bennaeth ac yn dywyſog arnynt: ac Iephthah a adroddodd ei holl eiriau ger bron yr Arglwydd yn Miſpah.

12 Yna Iephthah a anfonodd gennadau at frenin meibion Ammon gan ddywedyd: beth [ſydd] i mi a [wnelwyf] a thi fel y delit ti attafi i ymladd yn erbyn fyng-wlâd i?

13 A brenin meibion Ammon a ddywedodd wrth gennadau Iephthah, o * herwydd i Iſrael ddwyn fyng-wlâd i, (pan ddaeth efe i fynu o'r Aipht) o Arnon hyd Iabboc, ac hyd yr Iorddonen: yn awr gan hynny dod adref hwynt mewn heddwch. Num.21.13.

14 Ac Iephthah a chwanegodd etto: ac a anfonodd gennadau at frenin meibion Ammon,

15 Ac efe a ddywedodd wrtho, fel hyn y dywedodd Iephthah: * ni ddûg Iſrael dîr Moab, na thîr meibion Ammon. Deut.2.9.

16 Ond pan ddaethant hwy i fynu o'r Aipht: yna Iſrael a rodiodd mewn anialwch hyd y môr côch, ac a ddaeth i Cades.

17 Ac * Iſrael a anfonodd gennadau at frenin Edom gan ddywedyd, gâd i mi dramwy attolwg drwy dy wlâd ti, ond ni wrandawodd brenin Edom, ac efe a anfonodd hefyd at frenin Moab, ond ni fynne yntef [ei ollwng ef,] felly Iſrael a arhoſodd yn Cades. Num.20.14.

18 Yna hwynt a rodiaſant yn yr anialwch, ac a amgylchynaſant wlâd Edom, a gwlâd Moab, ac a ddaethant o du codiad haul i wlâd Moab, ac hwy a werſyllaſant tu hwnt i Arnon: * ac ni ddaethant o fewn terfyn Moab, canys Arnon [oedd] derfyn Moab. Num.21.13. 22.24.

19 Iſrael * a anfonodd gennadau at Sehon brenin yr Amoriaid, [ſef] brenin Heſbon: ac Iſrael a ddywedodd wrtho, gâd i ni dramwy attolwg drwy dy wlâd ti hyd ein glwâd. Deut.2.26.

20 Ond nid ymddyriedodd Sehon i Iſrael fyned trwy ei derfyn ef, eithr Sehon a gaſclodd ei holl bobl, ac hwy a werſyllaſant yn Iaſa: ac efe a ymladdodd yn erbyn Iſrael.

21 Ac Arglwydd Dduw Iſrael a roddodd Sehon ai holl bobl yn llaw Iſrael, a'r [Iſrae-

liaid] ai tarawſant hwynt : felly Iſrael a oreſcynnodd holl wlâd yr Amoriaid trigolion y wlâd honno.

Deut.2.36. 22 Goreſcynnaſant hefyd *holl derfynau 'r Amoriaid : o Arnon hyd Iabboc, ac o'r anialwch hyd yr Iorddonen.

23 Felly yn awr Arglwydd Dduw Iſrael a fwriodd yr Amoriaid allan o flaen ei bobl Iſrael : gan hynny [ai] tydi ai meddiannit hi?

24 Ond yr hyn a oreſcyn Chamos dy dduw di a feddienni di? a'r hyn oll a oreſcynno'r Arglwydd ein Duw o'n blaen ni a feddiannwn ninnau?

Num.22.2. Deut.23.4. Ioſua.24.9. 25 Ac yn awr a wyt ti yn well na *Balac mab Ziphôr brenin Moab? a ymryſonodd efe er ioed ag Iſrael, neu gan ymladd a ymladdodd efe iw herbyn hwy?

26 Pan oedd Iſrael yn trigo yn Heſbon, ac yn ei phentrefydd, ac yn Aroer, ac yn ei phentrefydd ac yn yr holl ddinaſoedd y rhai [oeddynt] wrth derfynau Arnon, drychant-mhlynedd? pa ham nad achubaſoch [hwynt] y pryd hynny?

27 Am hynny ni phechais i yn dy erbyn di, ond yr ydwyt ti 'n gwneuthur cam a mi, gan ymladd yn fy erbyn i : yr Arglwydd yr hwn [ſydd] farn-wr a farno heddyw rhwng meibion Iſrael a meibion Ammon.

28 Er hynny ni wrandawodd brenin meibion Ammon ar eiriau Iephthah y rhai a anfonaſe efe atto.

29 Yna y daeth yſpryd yr Arglwydd ar Iephthah, ac efe a aeth troſodd i Gilead, ac i Manaſſes : aeth hefyd troſodd i Miſpah Gilead, ac o Miſpah Gilead yr aeth efe at feibiō Ammō.

30 Ac Iephthah a addunedodd adduned i'r Arglwydd, ac a ddywedodd : os gan roddi y rhoddi di feibion Ammon yn fy llaw i,

31 Yna 'r hwn a ddelo allan o ddryſau fy nhŷ (i'm cyfarfod pan ddychwelwyf mewn heddwch oddi wrth feibiō Ammō) a fydd eiddo 'r Arglwydd, a mi ai hoffrymma ef yn boeth offrwm.

32 Felly Iephthah a aeth at feibion Ammō i ymladd yn eu herbyn : a'r Arglwydd ai rhoddodd hwynt yn ei law ef.

33 Ac efe ai tarawodd hwynt o Aroer hyd [y ffordd] y delech di i Mennith [ſef] vgain nhinas, ac hyd waſtadedd y gwinllannoedd a phlâ mawr iawn : felly y daroſtyngwyd meibion Ammon o flaen meibion Iſrael.

34 Pan ddaeth Iephthah i Miſpah iw dŷ ei hun, yna wele ei ferch ef yn dyfod allan iw gyfarfod a thympanau, ac a dawnſiau : a hi [oedd] ei vnic [etifedd] ef, nid [oedd] ganddo fab na merch [arall] o honaw ei hun.

35 A phan welodd efe hi, yna efe a rwygodd ei wiſcoedd, ac a ddywedodd ahah fy merch gan ddaroſtwng y daroſtyngaiſt fi, ti hefyd ydwyt [vn] o'r rhai ydynt yn fy moleſtu : canys myfi a agorais fyng-enau wrth yr Arglwydd, ac ni allaf gilio.

36 A hi a ddywedodd wrtho ef, fy nhad [od] agoraiſt dy enau wrth yr Arglwydd gwna i mi yn ôl yr hyn a aeth allan o'th enau : wedi i'r Arglwydd wneuthur er dy fwyn di ddialedd ar dy elynnion di, meibion Ammon.

37 Hi a ddywedodd hefyd wrth ei thâd, gwneler i mi y peth hyn : paid a mi ddau fis fel yr elwyf, ac yr arhoſwyf ar y mynyddoedd ac yr wylwyf o herwydd fy morwyndod, mi a'm cyfeilleſau.

38 Ac efe a ddywedodd, dôs, ac ai gollyngodd hi ddau fis: felly hi a aeth ai chyfeilleſau, ac a wylodd o herwydd ei morwyndod ar y mynyddoedd.

39 Ac ym mhen y ddau fis hi a ddychwelodd at ei thad, ac efe a wnaeth a hi'r adduned yr hon a addunaſe efe : a hi ni adnabuſe ŵr, a bu [hyn] yn ddefod yn Iſrael.

40 Merched Iſrael a aent bob blwyddyn i alaru am ferch Iephthah y Gileadiad : pedwar diwrnod yn y flwyddyn.

## PEN. XII.

1 Yr Ephraimiaid yn cweryla ar Iephthah ac yntef yn eu lladd hwynt. 8 Ibſan yn llywodraethu ar ei ôl ef.
11 Ac Elon ar ei ôl yntef. 13 Ac Abdon ar ôl hwnnw.

A Gwŷr Ephraim a ymgaſclaſant, ac a aethant tua 'r gogledd : ac a ddywedaſant wrth Iephthah, pa ham yr aethoſt ti drosodd i ymladd yn erbyn meibion Ammō, ac na elwaiſt arnom ni i fyned gyd a thi? dy dŷ di a loſcwn ni am dy ben di a thân.

2 Ac Iephthah a ddywedodd wrthynt hwy, myfi mi a'm pobl oeddem yn ymryſon yn dôſt yn erbyn meibion Ammon : ac mi a'ch gelwais chwi, ond ni waredaſoch fi oi llaw hwynt.

3 Felly [pan] welais i nad oeddech yn fy achub, yna y goſodais fy einioes ar fy llaw : ac yr euthym yn erbyn meibion Ammon, a'r Arglwydd ai rhoddodd hwynt yn fy llaw i : i ba beth gan hynny y daethoch i fynu attaf fi y dydd hwn i ymladd i'm herbyn?

4 Yna Iephthah a gaſclodd holl wŷr Gilead, ac a ymladdodd ag Ephraim : a gwŷr Gilead a darawſant yr Ephraimiaid, am ddywedyd o honynt hwy ffoaduriaid Ephraim ym myſc yr Ephraimiaid [ac] ym myſc Manaſſes [ydych] chwi y Gileadiaid.

5 A'r Gileadiaid a enillaſant rydau 'r Iorddonen o flaen yr Ephraimiaid, a phan ddywede [vn o'r] Ephraimiaid a ddiangaſent, gedwch i mi fyned trwodd, yna gwŷr Gilead a ddywedent wrtho, ai Ephratead [ydwyt] ti? a dywede yntef nage.

6 Yna y dywedent wrtho, dywet yn awr Schibboleth, dywede yntef Sibboleth, canys ni fedre efe leſaru felly, yna y dalient ef, ac y lladdent ef wrth rydau 'r Iorddonen : a chwympodd y pryd hynny o Ephraim ddwy fil a deugain.

7 Ac Iephthah a farnodd Iſrael chwe blynedd : yna y bu farw Iephtha y Gileadiad, ac efe a gladdwyd yn [vn] o ddinaſoedd Gilead.

8 Ac ar ei ôl ef Ibſan o Bethlehem a farnodd Iſrael.

9 Ac iddo ef yr oedd deng-mab ar hugain a deng-mherched ar hugain [y rhai] a anfonodd efe allan, a deng-mherched ar hugain [eraill] a ddûg efe iw feibion oddi allan: ac efe a farnodd Iſrael ſaith mlynedd.

10 Yna y bu farw Ibſan, ac y claddwyd ef yn Bethlehem.

11 Ac ar ei ôl ef Elon y Zabuloniad a farnodd Iſrael, ac efe a farnodd Iſrael ddeng-mlhynedd.

12 Yna Elon y Zabuloniad a fu farw: ac efe a gladdwyd yn Aialon yng-wlâd Zabulon.

13 Ac Abdon mab Hilel y Parathoniad a farnodd Iſrael ar ei ôl ef.

14 Ac iddo ef yr oedd deugain o feibion, a dec ar hugain o ŵyrion yn marchogeth ar ddec a thrugain o ebolion aſſynnod: ac efe a farnodd Iſrael wyth mlynedd.

15 Yna Abdon mab Hilel y Parathoniad a fu farw: ac efe a gladdwyd yn Pirathon yng-wlad Ephraim, ym mynydd yr Amaleciaid.

## PEN. XIII.

1 Y Philiſtiaid yn gorthrymmu Iſrael am eu hanwiredd. 3 Angel Duw yn ymddiddan a gwraig Manoah ag yn addo iddi fâb yr hwn a warede Iſrael. 24 Genedigaeth Samſon.

Pen.2.11. & 3.7.& 4.1. & 6.1. & 10.6.

A Meibion Iſrael a *chwanegaſant wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: am hynny y rhoddodd yr Arglwydd hwynt yn llaw y Philiſtiaid ddeugain mlhynedd.

2 Yna'r oedd rhyw ŵr yn Zorah o dylwyth y Daniaid, ai enw ef [oedd] Manoah, ai wraig ef [oedd] amhlantadwy, ſef heb planta.

3 Ac angel yr Arglwydd a ymddangoſodd i'r wraig: ac a ddywedodd wrthi, wele yn awr amhlantadwy ydwyt ti, ac heb planta, ond ti a feichiogi, ac a eſcori ar fab.

Num.6.2.

4 Ac yn awr *ymochel, ac nac ŷf wîn, na diod gadarn: ac na fwytta ddim aflan.

5 Canys wele ti a feichiogi, ac a eſcori ar fab, ac ni chyffwrdd ellyn ai benn ef, canys Nazaread Duw fydd y bachgen o'r grôth: ac efe a ddechreu waredu Iſrael o law y Philiſtiaid.

6 Yna y daeth y wraig, ac a fynegodd iw gŵr gan ddywedyd, gŵr Duw a ddaeth attafi, ai brŷd ef [oedd] fel prŷd angel Duw yn ofnadwy iawn: ond ni-ofynnais iddo o ba le yr oedd efe, ac ni fynegodd yntef i mi ei henw.

7 Ond efe a ddywedodd wrthif, wele, ti a feichiogi, ac a eſcori ar fab: ac yn awr nac ŷf wîn, na diod gadarn, ac na fwytta ddim aflan, canys Nazaread Duw fydd y bachgen o'r grôth hyd yn nydd ei farwolaeth.

8 Yna Manoah a weddiodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: attolwg fy Arglwydd gad ti i ŵr Duw 'r hwn a anfonaiſt ti ddyfod eil-waith attom ni, fel y dyſco efe i ni beth a wnelom ni i'r bachgen yr hwn a enir.

9 A Duw a wrandawodd ar lef Manoah: ac angel Duw a ddaeth eilwaith at y wraig pan oedd hi yn eiſtedd yn y maes, a Manoah ei gŵr heb [fod] gyd a hi.

10 A'r wraig a fryſiodd, ac a redodd, ac a fynegodd iw gŵr, ac a dywedodd hefyd wrtho ef: wele ymddangoſodd y gŵr i mi yr hwn a ddaeth attafi y dydd [arall.]

11 Yna Manoah a gyfododd, ac a aeth ar ôl ei wraig: ac a ddaeth at y gŵr, ac a ddywedodd wrtho ef, ai ti [yw]'r gŵr yr hwn a leferaiſt wrth y wraig? dywedodd yntef [ie] myfi.

12 A dywedodd Manoah, deled yn awr dy eiriau: [ond] pa ddull fydd y bachgen ai weithredoedd?

13 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrth Manoah: rhac yr hyn oll a ddywedais wrth y wraig, ymocheled hi.

14 Na fwyttaed hi o ddim a'r a ddel allan o'r win-wydden, nac yfed hi wîn, na diod gadarn, ac na fwyttaed dim aflan: cadwed yr hyn oll a orchymynnais iddi hi.

15 Yna y dywedodd Manoah wrth angel yr Arglwydd: gad attolwg i ni dy attal, fel y paratôm fynn gafr ger dy fron di.

16 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrth Manoah, pe attelit fi ni fwyttawn o'th fara di, ond os gwnei boeth offrwm, gwna ef i'r Arglwydd: canys ni wyddeb Manoah mai angel yr Arglwydd [oedd] efe.

17 A Manoah a ddywedodd wrth angel yr Arglwydd, beth [yw] dy enw? fel i'th anrhydeddom di pan ddelo dy eiriau di [i benn.]

18 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrtho ef i ba beth yr ymofynni a'm fy enw? canys rhyfeddol yw.

19 Yna Manoah a gymmerth fynn gafr, a bwyd offrwm, ac a boeth offrymmodd ar y graig i'r Arglwydd: ac efe a wnaeth yn rhyfedd, a Manoah ai wraig oeddynt yn edrych.

20 Canys pan dderchafodd y fflam oddi ar yr allor tua'r nefoedd, yna angel yr Arglwydd a dderchafodd yn fflam yr allor: Manaoh ai wraig oeddynt yn edrych, a hwynt a ſyrthiaſant i lawr ar eu hwynebau.

21 Ac ni chwanegodd angel yr Arglwydd ymddangos mwyach i Manoah, nac iw wraig ef: yna y gwybu Manoah mai angel yr Arglwydd [oedd] efe.

22 A Manaoh a ddywedodd wrth ei wraig, *gan farw y byddwn farw: canys Duw o welſom.

Exod.33.20. pen.6.22.

23 Yno ei wraig a ddywedodd wrtho ef, pe mynnaſe 'r Arglwydd ein lladd ni, ni chymmeraſe efe y poeth offrwm, a'r bwyd offrwm o'n llaw ni, ac ni ddangoſaſe efe i ni 'r holl bethau hyn: ac ni pharaſe efe i ni y prŷd hyn glywed y fath bethau.

24 A'r wraig a ymddug fab, ac hi a alwodd ei enw ef Samſon: a'r bachgen a gynnyddodd, a'r Arglwydd ai bendithiodd ef.

25 Ac yſpryd yr Arglwydd a ddechreuodd ar amſeroedd *ddyfod arno ef yng-werſyll Dan: rhwng Sorah, ac Eſthoal.

Rhuf.8.14.

## PEN. XIIII.

1 Samſon yn gwreica ym myſc y Philiſtiaid. 6 Yn lladd llew. 12 Yn dal cynglwyſt ar ddirnad dammeg. 17 Ei wraig yn ei fradychu ef. 19 Yntef yn lladd dec ar hugain o'r Philiſtiaid i dalu y gynglwyſt. 20 Ei wraig yn priodi vn arall.

A Samſon a aeth i wared i Thimnath: ac a ganfu wraig yn Thimnath o ferched y Philiſtiaid.

2 Ac efe a ddaeth i fynu, ac a fynegodd iw dâd, ac iw fam, ac a ddywedodd, gwelais wraig yn Thimnath o ferched y Philiſtiaid: cymmerwch yn awr honno yn wraig i mi.

3 Yna y dywedodd ei dad ai fam wrtho ef, onid [oes] ym myſc merched dy frodyr, nac ym myſc fy holl bobl wraig, pan ydwyt ti yn myned i geiſio gwraig o'r Philiſtiaid dienwaededic? a dywedodd Samſon wrth ei dâd, cymmer hi i mi canys y hi ſydd [dda] iawn gennif,

4 Ond ni wybu ei dâd ef nai fam mai oddi wrth yr Arglwydd [yr oedd] hyn, [ac] mai ceiſio achos yr oedd efe yn erbyn y Philiſtiaid: canys y Philiſtiaid oeddynt y pryd hynny yn arglwyddiaethu ar Iſrael.

5 Yna Samſon a aeth i wared, ai dâd, ai fam i Thimnath: ac a ddaethant hyd winllannoedd Thimnath, ac wele genew llew yn rhuo yn ei gyfarfod ef.

6 Ac yſpryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef, ac efe a hollτodd [y llew] fel yr hollτid mynn, ac nid [oedd] dim yn ei law ef: ac ni fynegodd efe iw dad, nac iw fam yr hyn a wnelſe.

7 Yna efe a aeth i wared, ac a ymddiddanodd a'r wraig, ac yr oedd hi yn hawddgâr yng-olwg Samſon.

8 Ac yn ôl ychydig ddyddiau efe a ddychwelodd iw chymmeryd hi, ac a drodd i edrych yſcerbwd y llew: ac wele haid o wenyn a mél yng-horph y llew.

9 Ac efe ai cymmerth yn ei law, a thann gerdded y cerddodd, ac y bwyttaodd, ac efe a aeth at ei dâd ai fam, ac a roddodd iddynt, a hwynt a fwyttawſant: ond ni fynegodd iddynt hwy mai o gorph y llew y dugaſe efe y mêl.

10 Felly ei dad ef a aeth i wared at y wraig: a Samſon a wnaeth yno wlêdd, canys felly y gwnae y gwŷr ieuaingc.

11 A phan welſant hwy ef, yna y cymmeraſant ddec ar hugain o gyfeillion i fod gyd ag ef.

12 Yna Samſon a ddywedodd wrthynt, rhoddaf i chwi ddychymmyg yn awr, os gan fynegu y mynegwch ef i mi o fewn ſaith niwrnod y wlêdd, ac ai cewch: yna y rhoddaf i chwi ddéc ar hugain o linllionennau, a dec ar hugain pâr o wiſcoedd newyddion.

13 Ond os chwi ni fedrwch ei fynegu i mi, yna chwi a roddwch i mi ddec ar hugain o linllionennau, a dec pâr ar hugain o wiſcoedd: hwythau a ddywedaſant, traetha dy ddychymmyg fel y clywom ef.

14 Ac efe a ddywedodd wrthynt, o'r hwn oedd yn bwytta y daeth bwyd allan, ac o'r cryf y daeth allan feluſtra: ond ni fedrent ddirnad y dychymmig [mewn] tri diwrnod.

15 Ac yn y ſeithfed dydd y dywedaſant wrth wraig Samſon huda dy ẁr fel y mynego efe i ni y dychymmyg, rhac i ni dy loſci di, a thŷ dy dâd a thân: ai i'n goreſcyn ni i'n gwahoddaſoch, ai nad e?

16 Yna gwraig Samſon a ẁylodd wrtho ef, ac a ddywedodd, yn ddiau y mae yn gâs gennit fi, ac ni'm hoffaiſt: dychymmyg a roddaiſt i feibion fy mhobl, ac ni's mynegaiſt i mi: a dywedodd yntef, wele nis mynegais i'm tad, nac i'm mam, ai mynegwn gan hynny i ti?

17 Felly hi a ẁylodd wrtho ef y ſaith niwrnod hynny tra yr oeddid yn cynnal y wlédd, ac yn y ſeithfed dydd y mynegodd efe iddi hi: canys yr oedd hi yn ei flino ef, yna hi a fynegodd y dychymmyg i feibion ei phobl.

18 Yna gwŷr y ddinas a ddywedaſant wrtho ef y ſeithfed dydd cynn machludo yr haul, beth [ſydd] feluſach na mél? a pheth gryfach na llew? dywedodd yntef wrthynt, oni buaſe i chwi aredic a'm anner i, ni chawſech allan fy nychymmyg.

19 Ac yſpryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef, ac efe a aeth i wared i Aſcalon, ac a darawodd o honynt ddec ar hugain, ac a gymmerth eu hiſpail, ac a roddodd y gwiſcoedd newyddion i'r rhai a fynegaſent y dychymmyg: ai ddigllonedd ef a lidiodd, ac efe a aeth i fynu i dŷ ei dâd.

20 A phriododd gwraig Samſon ei gyfell ef ei hun, yr hwn oedd gyfeillgar ag ef.

## PEN. XV.

Samſon yn lloſci yd y Philiſtiaid. 6 Hwythau yn lloſci ei wraig ef ai thâd. 19 Samſon yn cael dwfr o gilddant carr gên aſſyn.

AC wedi [talm] o ddyddiau yn amſer cynhaiaf, y gwenith, yna Samſon a aeth i ymweled ai wraig, a mynn gafr, ac a ddywedodd, mi a âf i mewn at fyng-wraig i'r ſtafell: ond ni chanhiade ei thâd hi iddo ef fyned i mewn.

2 Yna ei thâd a lefarodd gan ddywedyd, tygaſwn it ei chaſau hi, am hynny y rhoddais hi i'th gyfell di: onid [yw] ei chwaer ieuangach yn lanach na hi? bydded [honno] i ti attolwg yn ei lle hi.

3 A Samſon a ddywedodd wrthynt, difeiach ydwyf y waith hon na'r Philiſtiaid: am hynny y gwnaf niwed iddynt.

4 Yna Samſon a aeth allan, ac a ddaliodd dry-chant o lwynogod: ac a gymmerth ffaglau, ac a drodd gynffon y naill at y llall, ac a oſododd vn ffagl rhwng [pob] dwy gynffon yn y canol.

5 Felly efe a gynneuodd dân yn y ffaglau, ac a loſcodd hyd yn oed y daſau a'r ŷd a oedd ar ei draed, y gwinllannoedd hefyd [a'r] olewydd.

6 Yna y Philiſtiaid a ddywedaſant, pwy a wnaeth hyn? hwythau a ddywedaſant, Samſon

daw y Thimniad, canys efe a ddûg ei wraig ef, ac ai rhoddodd iw gyfell : a'r Philiſtiaid a aethant i fynu, ac ai lloſcaſant hi ai thâd a thân.

7 A dywedodd Samſon wrthynt, er i chwi wneuthur fel hyn : etto mi a ymddialaf arnoch chwi, ac wedi[hynny] y peidiaf.

8 Ac efe ai tarawodd hwynt[ar]glûn[ac]ar froddwyd a phlâ mawr : yna efe a aeth i wared, ac a arhoſodd yng-hoppa craig Etam.

9 Yna y Philiſtiaid a aethant i fynu, ac a werſyllaſant yn Juda : ac a ymledaſant yn Lehi.

10 A gwŷr Juda a ddywedaſant, pa ham y daethochi fynu i'n herbyn ni? a dywedaſant hwythau i rwymo Samſon y daethom i fynu, i wneuthur iddo ef fel y gwnaeth efe i ninnau.

11 Yna tair mîl o wŷr o Juda a aethant i wared i goppa craig Etam, ac a ddywedaſant wrth Samſon, oni wyddoſt ti mai yr Philiſtiaid ſydd yn arglwyddiaethu arnom ni? pa ham gan hynny y gwnaethoſt hyn a ni? dywedodd yntef wrthynt, fel y gwnaethant hwy i mi, felly y gwneuthum inne iddynt hwythau.

12 Dywedaſant hwythau wrtho, i'th rwymo di y daethom i wared,[ac]i'th roddi yn llaw y Philiſtiaid: a Samſon a ddywedodd wrthynt, tyngwch wrthif na ruthroch i'm herbyn eich hunain.

13 Hwythau ai hattebaſant ef gan ddywedyd, ni[ruthrwn]eithr gan rwymo i'th rwymwn di, ac i'th roddwn yn eu llaw hwynt, ond ni lladdwn monot : a rhwymaſant ef a dwy o raffau newyddion, ac ai dugaſant ef i fynu o'r graig.

14 Efe a ddaeth hyd Lehi, a'r Philiſtiaid a floeddiaſant wrth gyfarfod ag ef : ac yſpryd yr Arglwydd a ddaeth arno ef, a'r rhaffau y rhai oeddynt am ei freichiau a[aethant] fel edafedd llîn y rhai a loſcaſyd yn tân, a'r cylymmau a ddatodaſant oddi am ei ddwylaw ef.

15 Ac efe a gafodd ên aſſyn îr, ac a eſtynnodd ei law, ac ai cymmerodd, ac a darawodd a hi fil o wŷr.

16 Yna Samſon a ddywedodd, a gên yr aſſyn[y lleddais]ben-twr,[îe]ddau ben-twr : a gên yr aſſyn y tarewais fil o wŷr.

17 A phan orphennodd efe leſaru, yna efe a daflodd yr ên oi law : ac efe a alwodd y lle hwnnw Ramath Lehi.

18 Ac efe a ſychedodd yn dôſt, ac a lefodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd, tydi a roddaiſt yn llaw dy wâs yr ymwared mawr ymma : ac yn awr a fyddaf farw gan ſyched? ac a ſyrthiaf yn llaw y rhai dienwaededic?

19 Yna Duw a holltodd y cîlddant yr hwn [oedd]yn yr ên fel y daeth allan ddwfr o honaw, ac efe a yfodd, ai yſpryd a ddychwelodd, fel yr adfywhaodd efe: am hynny y galwyd ei henw ffynnon y geiſwad, yr hon[ſydd]yn Lehi hyd y dydd hwn.

20 Ac efe a farnodd Iſrael yn nyddiau y Philiſtiaid ugain mlhynedd.

## PEN. XVI.

Y modd y diangodd Samſon o Azzah, 18 Y twyllodd Dalila ef, 33 Ac y bu efe farw.

YNa Samſon a aeth i Azzah, ac a ganfu yno buttein-wraig, ac efe a aeth i mewn atti hi.

2 [A mynegwyd]i'r Azzathiaid gan ddywedyd, daeth Samſon ymma, a hwynt a gylchynaſant, ac a gynllwynaſant iddo ef ar hŷd y nos ym mhorth y ddinas : a hwynt a ymoſtegaſant yr holl-nôs gan ddywedyd [tawn a ſôn] hyd y boreuawl oleuni, yna y lladdwn ef.

3 Pan orweddaſe Samſon hyd hanner nôs, yna efe a gyfododd yng-hefnynt y nos, ac a ymaflodd yn nryſſau porth y ddinas, ac yn y ddau boſt, ac efe a aeth ymmaith a hwynt yng-hyd a'r barr, ac ai goſododd ar ei yſcwyddau, ac ai dûg hwynt i fynu i benn y mynydd yr hwn [oedd]gyferbyn a Hebron.

4 Ac wedi hyn efe a garodd wraig yn nyffryn Sorec : ai henw Dalila.

5 Yna pendefigion y Philiſtiaid a aethant i fynu atti hi, ac a ddywedaſant wrthi, huda ef, ac edrych ym mha[le y mae] ei fawr nerth ef, a pha fodd y gorthrechwn ef, fel y rhwymom ef iw gyſtuddio : ac ni a roddwn i ti bôb un fil, a chant[o ſiclau]arian.

6 A Dalila a ddywedodd wrth Samſon mynega i mi attolwg ym mha[fann y mae]dy fawr nerth di? a pha fodd i'th rwymid i'th gyſtuddio?

7 Yna Samſon a ddywedodd wrthi, pe rhwyment fi a ſaith o ŵdyn irion y rhai ni ſychaſent : yna y gwanhawn, ac y byddwn fel gŵr arall.

8 A phendefigion y Philiſtiaid a ddugaſant i fynu atti hi ſaith o ŵdyn irion y rhai ni chrinaſent : a hi ai rhwymodd ef a hwynt.

9 (A chynllwynwŷr oedd yn aros genddi mewn ſtafell, a hi a dywedodd wrtho ef,[y mae] y Philiſtiaid[yn dyfod]arnat Samſon : ac efe a dorrodd y gŵdyn, fel y torrir edef garth wedi cyffwrdd[a'r]tân, felly nid adnabuwyd ei gryfder ef.

10 Ac[eil-waith]y dywedodd Dalila wrth Samſon, wele ti a'm twyllaiſt, ac a ddywedaiſt gelwydd wrthif : yn awr mynega i mi attolwg pa fodd i'th rwymir.

11 Yna y dywedodd efe wrthi, pe gan rwymo y rhwyment fi a rhaffau newyddion y rhai ni wnaethpwyd gwaith a hwynt : yna i'm gwanheuid, ac y byddwn fel gŵr arall.

12 Am hynny Dalila a gymmerth raffau newyddion, ac ai rhwymodd ef a hwynt, ac a ddywedodd wrtho,[y mae]y Philiſtiaid[yn dyfod]arnat ti Samſon,(ac yr oedd cynllwyn yn

aros mewn ſtafell: ) ac efe ai torrodd hwynt oddi ar ei freichiau fel edef.

13 Dalila hefyd a ddywedodd wrth Samſon, hyd yn hyn y twyllaiſt fi, ac y dywedaiſt gelwydd wrthif, mynega i mi a pha beth i'th rwymid: dywedodd yntef wrthi hi pe plethit ti ſaith o gudynnau fy mhen wrth garſan gwehydd.

14 A hi ai gwnaeth hwynt yn ſiccr a hoel, ac a ddywedodd wrtho ef, [y mae] y Philiſtiaid [yn dyfod] arnat ti Samſon: ac efe a ddeffrodd oi gwſc, ac efe a aeth ymmaith a hoel y wê, ac a'r garſan.

15 Yna y dywedodd hi wrtho ef, pa fodd y dywedi cu gennif dy di, a'th galon heb [fod] gyd a mi? ac ni fynegaiſt i mi ym mha [fann y mae] dy nerth di.

16 Ac o herwydd ei bod hi yn ei flîno ef ai geiriau beunydd, ac yn ei boeni ef: yna ei enaid a ymofidiodd i farw.

17 Am hynny efe a fynegodd iddi ei holl feddwl, ac a ddywedodd wrthi, ni chyffyrddodd ellyn a'm penn i canys Nazaread Duw ydwyfi o grôth fy mam: pe eillid fi, yna y cilie fy nerth oddi wrthif, ac y gwanhawn, ac y byddwn fel [y mae] pôb dŷn [arall.]

18 Pan welodd Dalila fynegu o honaw ef iddi hi ei holl feddwl, yna'r anfonodd hi, ac y galwodd am bendefigion y Philiſtiaid gan ddywedyd, deuwch i fynu un-waith, canys efe a fynegodd i mi ei holl feddwl: yna pendefigion y Philiſtiaid a ddaethant i fynu atti hi, ac a ddugaſant arian yn eu dwylo.

19 A hi a wnaeth iddo gyſcu ar ei gliniau, ac a alwodd ar ŵr, ac a barodd eillio ſaith gudyn ei ben ef: a hi a ddechreuodd ei gyſtuddio ef, ai nerth a ymadawſe oddi wrtho ef.

20 Yna hi a ddywedodd, [y mae] y Philiſtiaid [yn dyfod] arnat ti Samſon: ac efe a ddeffrôodd oi gwſc, ac a ddywedodd âf allan y waith hon fel cynt, ac ymyſcydwaf, ond ni wydded efe fod yr Arglwydd wedi cilio oddi wrtho.

Num.24.1.

21 A'r Philiſtiaid ai daliaſant ef, ac a dynnaſant ei lygaid ef, ac ai dugaſant ef i wared i Azzah, ac ai rhwymaſant ef a gefynnau, ac efe a fu yn malu yn nhŷ y carcharorion.

22 Eithr gwallt ei benn ef a ddechreuodd dyfu ar ôl ei eillio.

23 Yna pendefigion y Philiſtiaid a ymgaſclaſant i aberthu aberth mawr i Ddagon eu duw, ac i orfoleddu: canys dywedaſant ein duw ni a roddodd Samſon ein gelyn yn ein llaw ni.

24 Pan welodd y bobl ef, yna y canmolaſant ei duw: canys dywedaſant, ein duw ni a roddodd ein gelyn yn ein dwylo ni, a'r hwn a oedd yn anrheithio ein gwlad ni, a'r hwn a laddodd lawer o honom ni.

25 A phan oedd eu calon hwynt yn llawen, yna y dywedaſant, gelwch am Samſon i beri i ni chwerthyn: a hwynt a alwaſant am Samſon o'r carchar-dŷ fel y chwarâe oi blaen hwynt, a hwynt ai cyfleuaſant ef rhwng y colofnau.

26 Yna Samſon a ddywedodd wrth y llangc yr hwn oedd yn ymaflyd yn ei law ef, gollwng, a gad i mi gael gafel ar y colofnau y rhai y ſiccrhawyd y tŷ arnynt: fel y pwyſwyf arnynt.

27 A'r tŷ oedd yn llawn o wŷr a gwragedd, a holl bendefigion y Philiſtiaid [oeddynt] yno: ac ar y nenn [yr oedd] yng-hylch tair mil o wŷr a gwragedd yn edrych pan ydoedd Samſon yn chware.

28 Yna Samſon a lefodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: ô Arglwydd Iôr, cofia fi atolwg yn unic y waith hon ô Dduw, fel y dialwyf [ag] un dialedd ar y Philiſtiaid am fy nau lygaid i.

29 A Samſon a gofleidiodd y ddwy golofn ganol y rhai yr oedd y tŷ wedi ei ſiccrhau arnynt, ac efe a ymgynhaliodd wrthynt hwy: un [oedd] yn ei ddeheulaw, a'r llall yn ei law aſſwy.

30 Yna y dywedodd Samſon, bydded farw fy einioes gyd a'r Philiſtiaid, ac efe a ymdynnodd yn gryf, fel y ſyrthiodd y tŷ ar y pendefigion, ac ar yr holl bobl [y rhai] oeddynt ynddo: a'r meirw y rhai a laddodd efe wrth farw o honaw oeddynt fwy [o nifer] nac a laddaſe efe yn ei fywyd.

31 Ai frodyr ef, a holl dŷ ei dad ef a ddaethant i wared, ac ai dugaſant ef, ac a aethant i fynu, ac ai claddaſant ef rhwng Sorah, ac Eſthaol ym meddrod Manoah ei dad: ac efe a farnaſe Iſrael ugain mlhynedd.

## PEN. XVII.

Gau-dduwiaeth Micah.

AC yr oedd gŵr o fynydd Ephraim ai enw Micah,

2 Ac efe a ddywedodd wrth ei fam, y mîl a'r cant [ſicl] arian hynny y rhai a ddugpwyd oddi arnat, ac y rhegaiſt [am danynt] fel y dywedaiſt hefyd lle y clywais, wele yr arian gyd a mi, myfi ai cymmerais hwynt: yna y dywedodd ei fam ef, bendigedic [fyddech] fy mab gan yr Arglwydd.

3 Pan roddodd efe y mîl a'r cant [ſicl] arian adref iw fam: yna ei fam a ddywedodd gan gyſſegru y cyſſegrais yr arian i'r Arglwydd o'm llaw fy hun i'm mab i wneuthur delw gerfiedic, a thoddedic, am hynny yn awr mi ai rhoddaf eil-waith.

4 Wedi talu o honaw yr arian iw fam: yna ei fam ef a gymmerth ddau cant [ſicl] o arian, ac ai rhoddodd i'r toddudd, ac efe ai gwnaeth yn ddelw gerfiedic a thoddedic, a hi a fu yn nhŷ Micah.

5 A chan y gŵr hwn Micah [yr oedd] teml: ac efe a *wnaeth Ephod a *Theraphiaid, ac a gyſſegrodd un oi feibion i fod yn offeiriad iddo.

Pen.8.27.
Gene.31.19.
oſe.3.4.

6 Yn y dyddiau hynny nid [oedd] brenin yn Iſrael: pôb un a wnae yr hyn oedd inion yn ei olwg ei hun.

7 Ac yr oedd llange o Bethlehem Juda o dylwyth Juda: a Lefiad [oedd] efe, ac efe a ymdeithiaſe yno.

8 (A'r gŵr a aeth o'r ddinas [ſef] o Bethlehem Juda) i drigo pa le bynnac y caffe efe [lê:] ac efe a ddaeth i fynydd Ephraim hyd yn nhŷ Micah yn ei ymdaith.

9 A Micah a ddywedodd wrtho ef, o ba le y daethoſt ti? dywedodd yntef wrtho, Lefiad ydwyf o Bethlehem Juda, a myned yr ydwyf i drigo lle y caffwyf [lê.]

10 Yna Micah a ddywedodd wrtho ef, trig gyda mi, a bydd i mi yn dad, ac yn offeiriad, a minne a roddaf iti ddec [o ſiclau] arian bob blwyddyn, a dwy wiſc, a'th lynniaeth: felly y Lefiad a aeth [gyd ag ef.]

11 A'r Lefiad a fu fodlon i aros gyd a'r gŵr: a'r llangc oedd iddo fel vn o'i feibion ei hun.

12 A Micah a vrddodd y Lefiad, a'r llangc fû yn offeiriad iddo: ac a arhoſodd yn nhŷ Micah.

13 Yna y dywedodd Micah, yn awr y gwn y gwna'r Arglwydd ddaioni i mi: gan fod Lefiad gennifi'n offeiriad.

## PEN. XVIII.

Meibion Dan yn gyrru i chwilio y wlâd am ehangder iddynt hwy. 11 Eu rhyfel-wyr hwynt yn dwyn eulyn dduwiau Micah ai offeiriad. 27 ac yn ennill Lais.

Yn y dyddiau hynny nid [oedd] brenin yn Israel: ac yn y dyddiau hynny llwyth Dan oedd yn ceiſio iddo etifeddiaeth i drigo, canys ni* ſyrthiaſe iddo ef hyd y dydd hwnnw etifeddiaeth ymmyſc llwythau Israel.

Iosua 19.47.

2 Am hynny meibion Dan a anfonaſant o'i tylwyth hwy pump o wŷr o'i brô [ſef] gwŷr grymmus, o Sorah, ac o Esthaol i gerdded y wlâd, ac iw chwilio, ac a ddywedaſant wrthynt, ewch, chwiliwch y wlâd: yna y daethant i fynydd Ephraim hyd tŷ Micah ac a letteuaſant yno.

3 [Pan oeddynt] hwy wrth dŷ Micah, yna hwynt a adnabuant lais y llangc [ſef] y Lefiad: ac a droaſant yno, ac a ddywedaſant wrtho, pwy a'th ddûg di yma? a pheth yr ydwyt ti yn ei wneuthur yma? a pheth [ſydd] i ti yma?

4 Ac efe a ddywedodd wrthynt, fel hyn, ac fel hyn y gwnaeth Micah i mi: ac efe a'm cyflogodd i, ai offeiriad ef ydwyf fi.

5 A hwynt a ddywedaſant wrtho ef, ymgynghora attolwg a Duw: fel y gwypom a lwydda ein ffordd yr hon yr ydym ni yn rhodio arni.

6 A'r offeiriad a ddywedodd wrthynt, ewch mewn heddwch: yr Arglwydd a lwydda eich ffordd chwi yr hon a gerddwch chwi.

7 Yna y pum-wŷr a aethant ymmaith, ac a ddaethant i Lais: pan welſant hwy y bobl y rhai [oeddynt] ynddi yn trigo mewn diogelwch yn ôl arfer y Sidoniaid yn llonydd, ac yn ddiofal, ac heb ddim yn gwneuthur ſarhaed ar y wlad, [ſatteb] yn etifeddu y frenhiniaeth, ai [bod] hwynt ym mhell oddi wrth y Sidoniaid, ac heb gyweithas rhyngddynt a neb.

8 Yna y daethant at eu brodyr i Sorah, ac Esthoal: ai brodyr a ddywedaſant wrthynt, beth [a ddywedwch] chwi?

9 Hwythau a ddywedaſant, cyfodwch ac awn i fynu arnynt, canys gwelſom y wlâd, ac wele da iawn [yw hi:] ai tewi'r ydych chwi? na ruſſwch fyned i ddyfod i mewn i orescyn y wlâd.

10 (Pan ddeloch, chwi a ddeuwch at bobl ddiofal, a gwlâd ehang [ei] therfynau) canys Duw ai rhoddodd hi yn eich llaw chwi: [ſef] lle'r hwn nid [oes] ynddo brinder o ddim oll a'r y [ſydd] yn y bŷd.

11 Am hynny yr aeth oddi yno, o dylwyth y Daniaid, o Sorah, ac o Esthaol chwe chanwr wedi ymwregyſſu ag arfau rhyfel.

12 A hwy a aethant i fynu, ac a werſyllaſant yn Ciriath-Jearim yn Juda: am hynny y galwaſant y fann honno * Mahaneh Dan hyd y dydd hwn: wele [y mae] o'r tu ôl i Ciriath-Jearim.

13 Ac hwy a aethant oddi yno i fynydd Ephraim: a daethant hyd tŷ Micah.

14 A'r pum-wŷr y rhai a aethent i chwilio gwlâd Lais a lefaraſant, ac a ddywedaſant wrth eu brodyr, oni wyddoch chwi fod yn y tai hyn Ephod, a Theraphiaid, a delw gerfiedic, a thoddedic? gan hynny gwybyddwch yn awr beth a wneloch.

15 A hwy a droaſant yno, ac a ddaethant hyd dŷ y llangc [ſef] y Lefiad [yn] nhŷ Micah: ac a gyfarchaſant iddo yn heddychlon.

16 A'r chwe chan-wŷr y rhai oeddynt wedi eu gwregyſſu ag arfau rhyfel, oeddynt yn ſefyll [wrth] ddrws y porth: [ſef] y rhai [oeddynt] o feibion Dan.

17 Yna'r pum-wŷr y rhai a aethent i chwilio y wlâd a eſcynnaſant, [ac] a aethant i mewn yno, [a] ddugaſant ymmaith y ddelw gerfiedic a'r Ephod, a'r Teraphiaid, a'r ddelw doddedic: a'r offeiriad oedd yn ſefyll wrth ddrws y porth gyd a'r chwe-chan-wŷr y rhai oeddynt wedi ymwregyſſu ag arfau rhyfel.

18 Pan aeth y rhai hynny i dŷ Micah, a [phan] ddugaſant ymmaith y ddelw gerfiedic, yr Ephod, a'r Teraphiaid, a'r ddelw doddedic: yna'r offeiriad a ddywedodd wrthynt, beth yr ydych chwi yn ei wneuthur?

19 Hwythau a ddywedaſant wrtho, taw-ſôn, goſot dy law ar dy ſafn, a thyred gyd a ni, a bydd i ni yn dâd ac yn offeiriad: ai gwell iti fod yn offeiriad i dŷ vn gŵr? na'th fod yn offeiriad i lwyth, ac i deulu yn Israel?

20 A da fu [hynny gan] galon yr offeiriad, ac efe a gymmerth yr Ephod, a'r Teraphiaid, a'r ddelw gerfiedic, ac efe a aeth ym mysc y bobl.

21 A hwynt a droaſant, ac a aethant ymmaith: ac a oſodaſant y plant, a'r anifeiliaid, a'r golud o'i blaen hwynt.

22 [Pan] oeddynt hwy ym mhell oddi

wrth dŷ Micah: yna y gwŷr y rhai [oeddynt] yn y tai, y rhai [oeddynt] wrth dŷ Micah, a ymgaſclaſant, ac a erlidiaſant feibion Dan.

23 A hwynt a waeddaſant ar feibion Dan, hwythau a droaſant eu hwynebau: ac a ddywedaſant wrth Micah: beth [a ddarfu] i ti pan ydwyt yn bloeddio?

24 Yntef a ddywedodd, y duwiau y rhai a wneuthum i a ddugaſoch chwi ymmaith, a'r offeiriad, ac a aethoch i ffordd, a pheth [ſydd] gennifi mwyach? pa ham gan hynny y dywedwch wrthif beth [a ddarfu] i ti?

25 A meibion Dan a ddywedaſant wrtho, na phâr glywed dy lef yn ein myſc ni: rhac i wŷr digllon ruthro i'ch erbyn, a cholli o honot dy enioes, ac enioes dy [dylwŷth.]

26 Felly meibion Dan a aethant iw ffordd: pan ganfu Micah mai cryfach oeddynt hwy nag ef, yna efe a drôdd, ac a ddychwelodd iw dŷ ei hun.

27 A hwynt a gymmeraſant yr hyn a wnaethe Micah, a'r offeiriad yr hwn oedd ganddo ef, ac a ddaethant i Lais at bobl lonydd, a diofal, ac ai tarawſant hwynt a min y cleddyf: ac a loſcaſant y ddinas a thân.

28 Ac nid [oedd] waredudd, canys pell [oedd] hi oddi wrth Sidon, ac nid [oedd] cyweithas rhyngddynt a nêb, hefyd [yr oedd] hi mewn dyffryn yr hwn [ydoedd] wrth Bethrehob: yna'r adailadaſant y ddinas, ac a drigaſant ynddi.

Ioſua.19.47. 29 A galwaſant *enw y ddinas Dan, yn ôl henw Dan eu tad yr hwn a aneſyd i Iſrael: ac er hynny Lais [oedd] henw y ddinas yn gyntaf.

30 Yna meibion Dan a oſodaſant iddynt y ddelw gerfiedic: ac Ionathan mab Gerſom mab Manaſſes efe ai feibion fuant yn offeiriaid i lwyth Dan, hyd ddydd caeth-gludiad y wlâd.

31 Felly y goſodaſant iddynt y ddelw gerfiedic yr hon a wnaethe Micah, yr holl ddyddiau a'r y bu tŷ Dduw yn Silo.

## PEN. XIX.

Anaturiol bechod y Gibeaid. 29 y modd y darniodd y Lefiad ei wraig, i beri i Iſrael doſturio wrth ei gam ef.

Pen.17.6.& 18.1. AC yn y dyddiau hynny, *pan nad [oedd] frenin yn Iſrael: yr oedd rhyw Lefiad yn aros yn yſtlyſau mynydd Ephraim, ac efe a gymmerodd iddo* ordderch-wraig o Bethlehem Iuda. Gen.25.6.

2 Ai ordderchwraig ef a buteiniodd gyd ag ef, ac a aeth ymmaith oddi wrtho ef i dŷ ei thâd i Bethlehem Iuda: ac yno y bu hi bedwar mîs o ddyddiau.

3 Yna ei gŵr hi a gyfododd, ac a aeth ar ei hôl i ddywedyd yn dêg wrthi hi, [ac] iw throi adref, ei langc hefyd [oedd] gyd ag ef, a chwpl o aſſynnod: a hi ai dûg ef i mewn i dŷ ei thad, pan welodd tad y llangces ef, yna efe a lawenychodd am gyfarfod ag ef.

4 Ai chwegrwn ef, tâd y llangces ai daliodd ef [yno], ac efe a dariodd gyd ag ef dri-diau: bwytaſant hefyd, ac yfaſant, a lleteuaſant yno.

5 A'r pedwerydd dydd y cyfodaſant yn forau, yntef a gyfododd i fyned ymmaith: a thad y llangces a ddywedodd wrth ei ddaw, nertha dy galon a thammed o fara, ac wedi hynny dôs ymmaith.

6 Felly hwynt a eiſteddaſant, ac a fwytaſant ill dau yng-hyd, ac a yfaſant: a thâd y llangces a ddywedodd wrth y gŵr, bydd fodlon attolwg, ac aros dros nôs fel y llawenhao dy galon.

7 Ond y gŵr a gyfododd i fyned ymmaith: ai chwegrwn ef a fu daer arno: am hynny efe a drôdd, ac a leteuodd yno.

8 Ac efe a gyfododd yn forau y pummed dydd i fyned ymmaith, a thâd y llangces a ddywedodd, cyſſura dy galon attolwg, ac hwy a drigaſant nes goſtwng y dydd: ac a fwytaſant ill dau.

9 Yno y gŵr a gyfododd i fyned ymmaith efe ai ordderch, ai langc: ai chwegrwn tâd y llangces a ddywedodd wrtho ef, wele yn awr y dydd a laeſodd i hwyrhau, arhoſwch tros nôs attolwg, wele yr haul yn machludo, trig ymma fel y llawenycho dy galon, a chodwch yn forau y foru i'ch taith, fel yr elech i'th babell.

10 A'r gŵr ni fynne aros, eithr cyfododd ac aeth ymmaith, a daeth hyd ar gyfer Iebus, hon [yw] Ieruſalem: a chyd ag ef gwpl o aſſynnod llwythoc, ai ordderch-wraig gyd ag ef.

11 [Pan oeddynt] hwy wrth Iebus, yr oedd y dydd ar ddarfod, yna y llangc a ddywedodd wrth ei feiſtr, dos attolwg fel y trôm i ddinas y Iebuſiaid, ac y lleteuom ynddi.

12 Ai feiſtr a ddywedodd wrtho ef, ni throiwn ni i ddinas eſtronol, yr hon nid [yw] o feibion Iſrael: eithr nyni a awn hyd Gibea.

13 Ac efe a ddywedodd wrth ei langc, tyret a neſſawn i un o'r lleoedd hynny, fel y lleteuom yn Gibea, neu Ramah.

14 Felly y cerddaſant, ac yr aethant: a'r haul a fachludodd iddynt wrth Gibea yr hon [oedd] eiddo Beniamin.

15 Ac hwy a droaſant yno i ddyfod i mewn i Leteû i Gibea: ac efe a ddaeth i mewn, ac a eiſteddodd yn heol y ddinas, canys nid [oedd] neb ai cymmere hwynt [iw] dŷ i leteû.

16 Ac wele ŵr hên yn dyfod ai waith o'r maes yn hwyr, a'r gŵr [oedd] o fynydd Ephraim, ond ei fod ef yn ymdaith yn Gibea: a gwŷr y lle hwnnw [oeddynt] feibion Iemini.

17 Ac efe a dderchafodd ei lygaid, ac a ganfu y gŵr yr hwn oedd yn ymdaith yn heol y ddinas: yna y gŵr hên hwnnw a ddywedodd, i ba le yr ei di, ac o ba le y daethoſt?

18 Yntef a ddywedodd wrtho, trammwyo'r ydym ni o Bethlehem Iuda i yſtlyſau mynydd Ephraim o'r lle i'm [henw,] a mi a euthum

hyd Bethlehem Iuda : a myned yr ydwyf i dŷ yr Arglwydd ac nid [oes] neb a'm derbyn i dŷ,

19 Y mae [gennym ni] wellt, ac ebran hefyd i'n haſſynnod, a bara hefyd, a gwin i mi, ac i'th law-forwyn, ac i'r llangc [yr hwn ſydd] gyd a'th weiſion : heb prinder o ddim oll.

20 A'r hen-wr hwnnw a ddywedodd, tangneddyf i ti [cei] gyd a mi beth bynnac ſydd yn ddiffig arnat, yn vnic nac aros tros nos yn yr heol.

21 Felly efe ai dûg ef i mewn iw dŷ, ac a borthodd yr aſſynnod : ac hwy a olchaſant eu traed, ac a fwyttawſant, ac a yfaſant.

22 [Pan] oeddynt hwy yn llawenhau ei calon, yna wele wŷr y ddinas, gwŷr anwir a amgylchynaſant y tŷ [ac] oeddynt yn curo wrth y drws : ac a ddywedaſant ŵrth y gŵr, perchen y tŷ [ſef] yr henwr hwnnw gan ddywedyd, dŵg allan y gŵr yr hwn a ddaeth i mewn i'th dŷ, di fel yr adwaenom ef.

Gene. 19.8. 23 A'r gŵr [ſef] perchen y tŷ a*aeth allan, ac a ddywedodd wrthynt, peidiwch fy mrodyr, na wnewch niwed attolwg : wedi i'r gŵr hwn ddyfod i'm tŷ i, na wnewch yr ſcelerder hyn.

24 Wele fy merch yr hon [ſydd] forwyn, ai ordderch yntef, dygaf hwynt allan yn awr, a chyſtuddiwch hwynt, neu gwnewch iddynt yr hyn ſydd da yn eich golwg : ond i'r gŵr hwn na wnewch ddim o'r ſcelerder ymma.

25 Ond ni fynne'r gwŷr wrando arno, am hynny y gŵr a ymaflodd yn ei ordderch, ac ai dug hi allan attynt hwy : ac hwi ai hadnabuant hi, ac a ymwnaethãt a hi 'r holl nos hyd y borau, a phan gyfododd y wawr hwynt ai gollyngaſant hi ymmaith.

26 Yna 'r wraig a ddaeth pan ymddangoſodd y borau : ac a ſyrthiodd wrth ddrws tŷ 'r gŵr yr hwn [yr oedd] ei harglwydd ynddo hyd oleuni [y dydd.]

27 Ai harglwydd a gyfododd yn forau, ac a agorodd ddrŷſſau 'r tŷ, ac a aeth allan i fyned iw daith: ac wele ei ordderch-wraig ef yn gorwedd wrth ddrws y tŷ, ai llaw ar y trothwy.

28 Ac efe a ddywedodd wrthi, cyfot, fel yr elom ymmaith, ond nid oedd hi yn atteb: yna efe ai cymmerth hi ar yr aſſyn, a'r gŵr a gyfododd, ac a aeth ymmaith iw fangre ei hun.

29 Pan ddaeth iw dŷ, yna efe a gymmerth gyllell, ac a ymaflodd yn ei ordderch, ac ai darniodd hi, ai heſcyrn yn ddeuddec darn : ac ai hanfonodd i holl derfynau Iſrael.

30 A phawb a'r a welodd [hynny] a ddywedodd ni wnaethpwyd, ac ni welpwyd y fath beth er y dydd y daeth meibion Iſrael o wlâd yr Aipht hyd y dydd hwn : yſtyriwch ar hynny, ymgynghorwch, a threuthwch [eich meddwl.]

## PEN. XX.

Yr Iſraeliaid yn ymgyfarfod ym Myſpah. 3 Ac wedi gwrando cwyn y Lefiad, Yn gyrru i gyrchu y rhai a wnaethent yr ſcelerder iw coſpi.

YNa * holl feibion Iſrael a aethant allan, a'r gynnulleidfa a ymgaſclodd o vn frŷd o Ddan hyd Beerſeba, a gwlâd Gilead at yr Arglwydd i Miſpah. Oſe.10.9.

2 A phennaethiaid yr holl bobl a ſafaſant [o] holl lwythau Iſrael yng-hynnulleidfa pobl Dduw : [ſef] pedwar can mîl o wŷr traed yn tynnu cleddyf.

3 (A meibion Beniamin a glywſant fyned o feibion Iſrael i Miſpah :) yna meibion Iſrael a ddywedaſant, lleferwch pa fodd y bu y drygioni hyn?

4 Yna y gŵr hwnnw y Lefiad [ſef] gŵr y wraig yr hon a laddeſid a attebodd, ac a ddywedodd : i Gibea yr hon [ſydd] eiddo Beniamin y deuthum i, mi a'm gordderch i letteua.

5 A gwŷr Gibea a gyfodaſant i'm herbyn i ac a amgylchynaſant y tŷ yn fy erbyn liw nôs : amcanaſant fy lladd i, a threiſiaſant fyng-ordderch fel y bu hi farw.

6 Yna 'r ymaflais yn fyng-ordderch, ac y derniais hi, * anfonais hefyd hi i bob gwlâd o etifeddiaeth Iſrael : Canys gwnaethant ffieidd-dra, ac ſcelerder yn Iſrael. Pen.19.29.

7 Wele meibion Iſrael [ydych] chwi oll moeſſwch rhyngoch air, a chyngor ymma.

8 Yna y cyfododd yr holl bobl o vn frŷd gan ddywedyd : nac eled nêb o honom iw babell, ac na throed nêb o honom iw dŷ.

9 Ond yn awr, hyn [yw] 'r peth yr hwn a wnawn ni i Gibea : [ny'ni a awn i fynu] iw herbyn wrth goel-bren.

10 Ac ni a gymmerwn ddeng-wr o'r cant drwy holl lwythau Iſrael, a chant o'r mil, a mil o'r deng-mil i ddwyn llynniaeth i'r bobl : i wneuthur (pan ddelont i Gibea Beniamin) yn ôl yr holl ffieidd-dra yr hwn a wnaeth hi yn Iſrael.

11 Felly 'r ymgaſclodd holl wŷr Iſrael at y ddinas yn gydtun fel vn gŵr.

12 A llwythau Iſrael a anfonaſant wŷr at holl lwythau Beniamin gan ddywedyd, beth [yw]'r drygioni ymma yr hwn a wnaethpwyd yn eich myſc chwi?

13 Ac yn awr rhoddwch y gwŷr anwir hynny y rhai [oeddynt] yn Gibea fel y lladdom hwynt, ac y deleom ddrygioni o Iſrael : ond ni fynne meibion Baniamin wrando ar lais eu brodyr meibion Iſrael.

14 Eithr meibion Beniamin a ymgynnullaſant o'r dinaſoedd at Gibea : i fyned allan i ryfel yn erbyn meibion Iſrael.

15 A chyfrifwyd meibion Beniamin y dydd hwnnw o'r dinaſoedd yn chwe mil ar hugain o wŷr yn tynnu cleddyf : heb law trigolion Gibea, y rhai a gyfrifwyd yn ſaith gant o wŷr etholedic.

16 O'r holl bobl hyn [yr oedd] ſaith gant o wŷr etholedic * anafus oi llaw ddehau : pob vn o honynt a ergydie a charreg at y blewyn heb ballu. Pen.3.15.

17 Gwŷr Iſrael hefyd a gyfrifwyd heblaw Beniamin yn bedwar cant mil yn tynnu cleddyf: pawb o honynt yn rhyfel-wŷr.

18 A meibion Iſrael a gyfodaſant, ac a aethant i fynu i Bethel, ac a ymgynghoraſant a Duw, ac a ddywedaſant, pwy o honom ni a aiff i fynu yn gyntaf i ryfela yn erbyn meibiõ Beniamin? a dywedodd yr Arglwydd, Iuda [a aiff] yn gyntaf.

19 Yna meibion Iſrael a gyfodaſant yn forau: ac a werſſyllaſant yn erbyn Gibea.

20 A gwŷr Iſrael a aethant allan i ryfel yn erbyn Beniamin: a gwŷr Iſrael a fyddinaſant ryfel iw herbyn hwy wrth Gibea.

21 A meibion Beniamin a ddaethant allan o Gibea: ac a ddifethaſant o Iſrael y dwthwn hwnnw ddwy fil ar hugain o wŷr i'r llawr.

22 Etto ymgryfhaodd y bobl [ſef] gwŷr Iſrael: ac a chwanegaſant luniaethu rhyfel yn y llê 'r hwn y byddinaſent ynddo y dydd cyntaf.

23 Canys meibion Iſrael a aethent i fynu; ac a ŵylaſent ger bron yr Arglwydd hyd yr hwyr, ymgynghoraſent hefyd a'r Arglwydd gan ddywedyd, a chwanegafi neſſau i ryfel yn erbyn meibion Beniamin fy mrawd? a dywedaſe'r Arglwydd, dos i fynu yn ei erbyn ef.

24 Yna meibion Iſrael a neſſaſant at feibion Beniamin yr ail dydd.

25 Beniamin hefyd a aeth allan o Gibea iw cyfarfod hwynt yr ail dydd, a hwynt a ddifethaſant o feibion Iſrael eil-waith dair mil ar bymthec o wŷr i'r llawr: y rhai hyn oll oeddynt yn tynnu cleddyf.

26 Yna meibion Iſrael a'r holl bobl a aethant i fynu, ac a ddaethant i Bethel, ŵylaſant hefyd, ac arhoſaſant yno ger bron yr Arglwydd, ac ympryddiaſant y dwthwn hwnnw hyd yr hwyr: ac offrymmaſant boeth-offrymmau, ac offrymmau hedd ger bron yr Arglwydd.

27 A meibion Iſrael a ymgynghoraſant a'r Arglwydd: (canys yno ['r oedd] Arch cyfammod Duw yn y dyddiau hynny.

28 A Phinees mab Eleazar mab Aaron oedd yn ſefyll ger ei fron ef yn y dyddiau hynny) gan ddywedyd, a chwanegafi mwyach fyned allan i ryfel yn erbyn meibion Beniamin fy mrodyr, neu a beidiaf? a dywedodd yr Arglwydd, ewch i fynu, canys y foru y rhoddaf ef yn dy law di.

29 Ac Iſrael a oſododd rai i warche ar Gibea oddi amgylch.

30 Felly meibion Iſrael a aethant i fynu yn erbyn meibion Beniamin y trydydd dydd: ac a fyddinaſant wrth Gibea fel cynt.

31 Yna meibion Beniamin a aethant allan i gyfarfod a'r bobl [a] thynnwyd hwynt o'r ddinas: a hwynt a ddechreuaſant daro [rhai] o'r bobl yn archolledic fel cynt (yn y priffyrdd o'r rhai, un ſydd yn myned i fynu i Bethel, ac arall i Gibea drwy 'r maes) yng-hylch deng-wr ar hugain o Iſrael.

32 Am hynny meibion Beniamin a ddywedaſant, cwympwyd hwynt o'n blaen ni fel cynt: ond meibion Iſrael a ddywedaſent, ffoiwn fel y tynnom hwynt o'r ddinas i'r priffyrdd.

33 Yna holl wŷr Iſrael a gyfodaſant oi lle, ac a fyddinaſant yn Baal-thamar a'r [ſawl] a oedd [o] Iſrael yn cynllwyn a ddaeth allan oi fangre [ſef] o wyrgloddiau Gibea.

34 A daeth ar gyfer i Gibea ddeng-mil o wŷr etholedic o holl Iſrael, a'r rhyfel a drymhaodd: ond ni ŵyddent fod y drwg hwnnw yn digwyddo iddynt.

35 A'r Arglwydd a darawodd Beniamin o flaen Iſrael fel y difethodd meibion Iſrael o'r Beniaminiaid y dwthwn hwnnw bum-mil ar hugain a chan-ŵr: a hwynt oll yn tynnu cleddyf.

36 Felly meibion Beniamin a welſant mai eu lladd yr oeddyd: canys gwŷr Iſrael a rhoddaſant lê i'r Beniaminiaid, o herwydd hydêru o honynt wrth y cynllwyn-wŷr y rhai a oſodaſent yn erbyn Gibea.

37 A'r cynllwyn-wŷr a fryſiaſant, ac a ruthraſant yn erbyn Gibea: a'r cynllwyn-wŷr a udcanaſant yn hiraethlon, ac a darawſant yr holl ddinas a min y cleddyf.

38 Ac yr oedd amſer nodedic rhwng gwŷr Iſrael a'r cynllwyn-wŷr: [ſef] peri o honynt i fflam fawr [a] mwg dderchafu o'r ddinas.

39 Pan drôdd gwŷr Iſrael [eu cefnau] yn y rhyfel, yna Beniamin a ddechreuodd daro yn archolledic o wŷr Iſrael ynghylch deng-wr ar hugain, canys dywedaſant, diau gan daro eu taro hwynt o'n blaen ni, fel yn y rhyfel cyntaf.

40 Pan ddechreuodd y fflam dderchafu o'r ddinas [fel] colofn o fŵg: yna Beniamin a edrychodd yn ei ol, ac wele ffagl y ddinas oedd yn derchafu i'r nefoedd.

41 Yna gwŷr Iſrael a droaſant yn ôl, a gwŷr Beniamin a frawychaſant: o herwydd hwy a ganfuant fod drygioni yn digwyddo iddynt hwy.

42 Am hynny hwynt a droaſant o flaen gwŷr Iſrael tua ffordd yr anialwch, a'r rhyfel ai hymlidiodd hwynt: a'r rhai [a ddaethent] o'r dinaſoedd oeddynt yn eu myſc hwy yn eu difetha hwynt.

43 [Felly] 'r amgylchynaſant y Beniaminiaid, erlidiaſant hwynt [hyd] Menuha, ſathraſant hwynt hyd yng-hyfer Gibea tua chodiad haul.

44 A lladdwyd o'r Beniaminiaid dair mil ar bymthec o wŷr: y rhai oll [oeddynt] wŷr nerthol.

45 A hwynt a droaſant, ac a ffoaſant i'r anialwch tua chraig Rimmon, a'r [Iſraeliaid] a loffaſant [o] honynt ar hŷd y priffyrdd bum-mil o wŷr: erlidiaſant hefyd ar eu hol hwynt hyd Gidom, a lladdaſant o honynt ddwy fil o wŷr.

46 A'r hyn oll o gwympodd o Beniamin oeddynt bum-mil ar hugain o wŷr yn tynnu

cleddyf y dwthwn hwnnw: hwynt oll [oeddynt] wŷr nerthol.

47 Etto chwe chan-wr a droaſant, ac a ffoaſant i'r anialwch i graig Rimmon: ac a arhoſaſant yng-hraig Rimmon bedwar mis.

48 Yna gwŷr Iſrael a ddychwelaſant at feibion Beniamin, ac ai tarawſant hwy a mîn y cleddyf yn ddŷn, ac yn anifail, a pheth bynnac a gafwyd: yr holl ddinaſoedd hefyd a'r a adawſid a loſcaſant hwy a thân.

## PEN. XXI.

1 Widi i'r Iſraeliaid dyngu na roddent hwy eu merched i'r Beniaminiaid, 10 hwynt a laddaſant y Iabeſiaid, ac a roddaſant eu merched hwynt y rhai oeddynt weryfon i'r Beniaminiaid. 19 ac ai cynghoraſant hwy i ddwyn rhai o ferched Silo.

A Gwŷr Iſrael a dyngaſant ym Miſpah gan ddywedyd: niddyru neb o honom ni ei ferch i Beniaminiad yn wraig. 1

2 A daeth y bobl i Bethel, ac a arhoſaſant yno hyd yr hwyr gerbron Duw: dyrchafaſant hefyd eu llef, ac ŵylaſant ag wylofain mawr.

3 A dywedaſant, ô Arglwydd Dduw Iſrael pa ham y bu y peth hyn yn Iſrael, fel y darfydde heddyw am vn llwyth o Iſrael?

4 A thrannoeth y bobl a foreu-godaſant, ac a adailadaſant yno allor: ac a offrymmaſant boethoffrymmau, ac offrymmau hedd.

5 Yna meibion Iſrael a ddywedaſant, pwy [yw efe] (o holl lwythau Iſrael,) yr hwn ni ddaeth i fynu gyd a'r gynnulleidfa at yr Arglwydd? canys llŵ mawr oedd yn ei erbyn ef yr hwn ni ddelſe i fynu at yr Arglwydd i Miſpah, gan ddywedyd, llwyr rodder ef i farwolaeth.

6 A meibion Iſrael a edifarhaſant o herwydd Beniamin eu brawd: a dywedaſant torrwyd ymmaith heddyw vn llwyth o Iſrael.

7 Beth a wnawn ni am wragedd iddynt hwy [ſef] i'r rhai a adawyd, gan dyngu o honom ni i'r Arglwydd na roddem iddynt [yr vn] o'n merched ni yn wragedd?

8 Dywedaſant hefyd, pwy vn o lwythau Iſrael a'r na ddaeth i fynu at yr Arglwydd i Miſpah? ac wele ni ddelſe neb o Iabes Gilead at y fyddin, [nac] at y gynnulleidfa.

9 Canys y bobl a gyfrifwyd: ac wele nid [oedd] yno neb o drigolion Iabes Gilead.

10 Am hynny y gynnulleidfa a anfonaſant yno ddeuddeng-mil o wŷr grymmus, ac a orchymynnaſant iddynt gan ddywedyd, ewch, a tharewch breſſwylwŷr Iabes Gilead a mîn y cleddyf, y gwragedd hefyd a'r plant.

11 *Dymma hefyd y peth yr hwn a wnewch chwi: difethwch bob gwryw, a phob gwraig a'r a orweddodd gyd a gŵr. Num.31.17.

12 A hwynt a gawſant ym mhlith trigolion Iabes Gilead bedwar cant o langceſau yn weryfon y rhai nid adnabuaſent ŵr drwy gydorwedd a gŵr: a dugaſant hwynt i'r gwerſſyll i Silo yr hon [ſydd] yng-wlâd Canaan.

13 Yna'r holl gynnulleidfa a anfonaſant, ac a leſaraſant wrth feibion Beniamin y rhai [oeddynt] yng-hraig Rimmon: ac a gyhoeddaſant heddwch iddynt hwy.

14 A'r Beniaminiaid a ddychwelaſant yr amſer hwnnw, a hwynt a roddaſant iddynt hwy y gwragedd y rhai a gadwaſent yn fyw o wragedd Iabes Gilead: ond ni chawſant hwy ddigon felly.

15 A'r bobl a edifarhaodd dros Beniamin: o herwydd i'r Arglwydd wneuthur rhwygiad ym miſc llwythau Iſrael.

16 Yna henuriaid y gynnulleidfa a ddywedaſant, beth a wnawn ni am wragedd i'r lleill? canys deſtrywiwyd y gwragedd o Beniamin.

17 Dywedaſant hefyd [bydded] etifeddiaeth i'r hwn a ddiangodd o Beniamin, fel na ddeleuir llwyth o Iſrael.

18 Ac ni allwn ni roddi iddynt wragedd o'n merched ni: canys meibion Iſrael a dyngaſant gan ddywedyd, melldigedic [fyddo] 'r hwn a roddo wraig i Beniaminiad.

19 Am hynny y dywedaſant, wele [y mae] gŵyl i'r Arglwydd bob blwyddyn yn Silo, yr hwn [a gynhelir] o du'r gogledd i Bethel, tua chyfodiad haul i'r briffordd y ſydd yn myned i fynu o Bethel i Sichem: ac o du'r dehau i Libanus.

20 Am hynny y gorchymynnaſant hwy i feibion Beniamin gan ddywedyd: ewch, a chynllwynwch yn y gwin-llannoedd,

21 Edrychwch hefyd, ac wele os merched Silo a ddeuant allan i ddawnſio mewn dawnſiau, yna ewch chwithau allan o'r gwin-llannoedd, a chippiwch i chwi bob vn ei wraig o ferched Silo: ac ewch i wlâd Beniamin.

22 A phan ddelo eu tadau, neu eu brodyr hwynt i achwyn attom ni, yna y dywedwn wrthynt, rhoddwch i ni hwynt, o blegit ni chymmeraſom ni bob vn ei wraig yn y rhyfel: achos na roddaſoch chwi [hwynt] iddynt [ni] byddwch chwi euog y pryd [hyn.]

23 A meibion Beniamin a wnaethant felly, a chymmeraſant wragedd yn ôl eu rhifedi eu hun o'r rhai a gippiaſent, ac a oeddynt yn dawnſio: ac aethant ymmaith, a dychwelaſant iw hetifeddiaeth eu hun, ac adailadaſant hefyd ddinaſoedd, a thrigaſant ynddynt.

24 A meibion Iſrael a ymadawſant oddi yno y pryd hynny, pob vn at ei lwyth, ac at ei deulu ei hun: aethant felly oddi yno bob vn iw etifeddiaeth.

25 Yn y dyddiau hynny nid [oedd] brenin yn Iſrael: pob vn a wnae'r hyn oedd dda yn ei olwg. Pen.17.6.& 18.1.& 19.1.

# Llyfr Ruth.

## PENNOD. I.

1 Elimelech ai wraig ai ddau fab, yn myned i wlâd Moab, ac yn marw yno efe ai ddau fab. 19 Naomi ei wraig ef, a Ruth gwraig vn o'r meibion yn dychwelyd i Beth-lehem.

YN y dyddiau yr ydoedd y brawd-wŷr yn barnu, pan oedd newyn yn y wlâd: yna'r aeth gŵr o Bethlehem Juda i ymdeithio yng-wlâd Moab, efe ai wraig, ai ddau fab.

2 Ac enw y gŵr [oedd] Elimelech, ac enw ei wraig Naomi, ac enw ei ddau fab ef Mahlon, a Chilon Ephrateaid o Bethlehem Juda: ac hwy a ddaethant i wlâd Moab, ac a fuant yno.

3 Yna Elimelech gŵr Naomi a fu farw: hithe a arhoſodd hi ai dau fab.

4 A hwy a gymmeraſant iddynt wragedd [o'r] Moabieſau, enw y naill [oedd] Orpha, ac enw y llall [oedd] Ruth: a thrigaſant yno yng-hylch deng-mhlynedd.

5 A Mahlon, a Chilon a fuant feirw ill dau: a'r wraig a drigodd [yn ymddifad] oi dau fab, ac oi gŵr.

6 Yna hi a gyfododd ai merched yng-hyfraith, ac a ddychwelodd o wlâd Moab: canys clywſe hi yng-wlâd Moab, ddarfod i'r Arglwydd ymweled ai bobl, gan roddi iddynt fara.

7 A hi a aeth o'r lle'r hwn yr oedd hi ynddo, ai dwy waudd gyda hi: a hwy a aethant i ffordd gan ddychwelyd i wlâd Juda.

8 Yna Naomi a ddywedodd wrth ei dwy waudd, ewch, dychwelwch bob un i dŷ ei mam: gwneled yr Arglwydd drugaredd a chwi, fel y gwnaethoch a'r meirw, ac a minne.

9 Yr Arglwydd a ganniadhao i chwi gael llonydd bob un yn nhŷ ei gŵr: pan guſſanodd hi hwynt, yna y derchafaſant hwy eu llef, ac yr wylaſant.

10 Ac a ddywedaſant wrthi hi: diau y dychwelwn ni gyda thi at dy bobl di.

11 A dywedodd Naomi, dychwelwch fy merched, i ba beth y deuwch gyda mi? a [oes] gennifi feibion etto yn fyng-hrôth* i fod yn wŷr i chwi?

Deut.25.5.
Mat.22.24.
Mar.12.19.
Luc.20.28.

12 Dychwelwch fy merched, ewch ymmaith, canys ydwyf ry hên i briodi gŵr: pe dywedwn y mae gennif obaith, a bod heno gyda gŵr, ac ymddwyn meibion hefyd,

13 A ddiſgwiliech chwi am danynt hwy hyd oni gynnyddent hwy? a ymarhoſech chwi am danynt hwy heb wra? nage fy merched, canys [y mae] mwy o dristwch i mi o'ch plegit chwi, am i law 'r Arglwydd fyned i'm herbyn.

14 Yna y derchafaſant eu llef, ac yr wylaſant eilwaith: ac Orpha a guſſanodd ei chwegr, ond Ruth a lynodd wrthi hi.

15 A dywedodd [Naomi] wele dy chwaer yng-hyfraith a ddychwelodd at ei phobl, ac at ei duwiau: dychwel dithe ar ôl dy chwaer yng-hyfraith.

16 Ruth a ddywedodd, nac erfynnia arnafi ymado a thi, gan gilio oddi wrthit: canys pa le bynnac yr elech di yr âf inne, ac ym mha le bynnac y lletteuech di y lletteuaf inne, dy bobl di [fydd] fy mhobl i, a'th Dduw di, fy Nuw inne.

17 Lle y byddi di marw y byddaf inne farw, ac yno i'm cleddir inne: fel hyn y gwnelo'r Arglwydd i mi, ac fel hyn y chwanego efe, os [dim onid] angeu a wna yſcarieth rhyngofi, a thithe.

18 Pan welodd hi ei bod hi wedi ymroddi i fyned gyda hi: yna hi a beidiodd a dywedyd wrthi hi.

19 Felly hwynt ill dwy a aethant, nes iddynt ddyfod i Bethlehem: yna'r holl ddinas a gyffrôdd oi herwydd hwynt, a dywedaſant, ond hon [yw] Naomi?

20 A hi a ddywedodd wrthynt hwy, na elwch fi Naomi: gelwch fi Mara, canys yr Holl alluog a'm gwnaeth i yn chwerw iawn.

21 Myfi a euthum yn gyflawn, a'r Arglwydd a'm dûg i eilwaith yn wâg: pa ham y gelwch chwi fi Naomi? gan i'r Arglwydd fy narostwng, ac i'r Holl-alluog fy nrygu.

22 Felly y dychwelodd Naomi, a Ruth (y Moabies) ei gwaudd gyda hi a ddychwelodd o wlad Moab: a hwynt a ddaethant i Bethlehem yn nechreu cynhaiaf yr heiddiau.

## PEN. II.

1 Ruth yn lloffa ym maes Booz, 8 ai garedigrwydd yntef iddi hi.

AC i ŵr Naomi [’r ydoedd] cyfathrachwr, o ŵr cadarn nerthol, o dylwyth Elimelech, ai enw Booz.

2 Yna Ruth y Moabies a ddywedodd wrth Naomi, mi a âf yn awr i’r maes, ac a gaſclaf dwyſennau ar ôl yr hwn y caffwyf ffafor yn ei olwg: hithe a ddywedodd wrthi hi, dos fy merch.

3 Ac hi aeth, ac a ddaeth, ac a loffodd yn y maes ar ôl y medel-wŷr: a digwyddodd wrth ddamwain [fod] y rhan honno o’r maes yn eiddo Booz yr hwn [oedd] o dŷlwyth Elimelech.

4 Ac wele Booz a ddaeth o Bethlehem, ac a ddywedodd wrth y medel-wŷr, yr Arglwydd [a fyddo] gyd a chwi: hwythau a ddywedaſant wrtho ef, yr Arglwydd a’th fendithio.

5 Yna y dywedodd Booz wrth y llangc yr hwn oedd yn ſefyll yn ymyl y medel-wŷr: pwy pieu ’r llangces hon?

6 A’r llangc yr hwn oedd yn ſefyll wrth y medel-wŷr a attebodd, ac a ddywedodd: llangces o Moab [ydyw] hi, yr hon a ddychwelodd gyd a Naomi o wlâd Moab.

7 A hi a ddywedodd, attolwg yr ydwyf gael lloffa, a chynnull dyrneidiau ar ôl y medel-wŷr: ac hi a ddaeth, ac a arhoſodd er y boreu hyd yr awr hon: oddieithr eiſtedd o honi hi ychydig yn tŷ.

8 Yna y dywedodd Booz wrth Ruth, oni chlywi di fy merch? na ddos ymmaith i gaſclu i faes arall, ac na thrammwya ychwaith oddi ymma: eithr aros ymma gyd a’m llangceſau mau fi.

9 [Bydded] dy lygaid ar y maes yr hwn a fedant hwy, a dôs ar eu hôl hwynt, oni orchymynnais i’r llangciau na chyffyrddent a thi? pan ſychedech, dos yna at y lleſtri, ac ŷf o honynt yr hyn a ollyngo y llangciau.

10 Yna hi a ſyrthiodd ar ei hwyneb, ac a ymgrymmodd i lawr: ac a ddywedodd wrtho ef, pa ham y cefais ffafor yn dy olwg di, fel yr adwaenit fi, a minne yn aſtudes?

11 A Booz a attebodd, ac a ddywedodd wrthi hi, gan fynegu y mynegwyd i mi ’r hyn oll a wnaethoſt i’th chwegr ar ôl marwolaeth dy ŵr: fel y gadewaiſt dy dâd a’th fam, a gwlâd dy anedigaeth, ac y daethoſt at bobl y rhai nis adwaenit o’r blaen.

12 Yr Arglwydd a dâlo am dy waith: a bydded dy obrwy yn berffaith gan Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn y daethoſt i obeithio tann ei adenydd.

13 Yna hi a ddywedodd, caffwyf ffafor yn dy olwg di fy arglwydd, gan i ti fyng-hyſſuro i, a chan i ti lefaru wrth [fodd] calon dy waſanaeth-ferch: er nad ydwyf fel un o’th law-forwynion di.

14 A dywedodd Booz wrthi hi, yn amſer bwyd tyret ymma, a bwytta o’r bara, a throcha dy dammed mewn finegr: a hi a eiſteddodd wrth yſtlys y medel-wŷr, ac efe a eſtynnodd iddi graſ-ŷd, a hi a fwyttaodd, ac a ddigonwyd, ac a adawodd weddill.

15 Yna hi a gyfododd i loffa: a gorchymynnodd Booz iw weiſion gan ddywedyd, lloffed hefyd rhwng yr yſcubau, ac na feiwch arni hi.

16 A chan ollwng gollyngwch hefyd iddi o’r yſcubau: a gadewch [hwynt] fel y caſclo hi, ac na cheryddwch hi.

17 Felly hi a loffodd yn y maes hyd yr hwyr: a hi a ddyrnodd yr hyn a gaſclaſe hi, ac yr oedd yng-hylch Epha o haidd.

18 A hi ai cymmerth, ac a aeth i’r ddinas, ai chwegr a ganfu ’r hyn a gaſclaſe hi: hefyd hi a dynnodd allan, ac a roddodd iddi ’r hyn a weddillaſe hi wedi cael digon.

19 Yna y dywedodd ei chwegr wrthi hi, pa le y lloffaiſt heddyw, a pha le y gweithiaiſt? bydded yr hwn a’th adnabu yn fendigedic: a hi a yſpyſodd iw chwegr yr hwn y gweithiaſe hi gyd ag ef, ac a ddywedodd, enw ’r gŵr yr hwn y gweithiais gyd ag ef heddyw [yw] Booz.

20 Yna y dywedodd Naomi wrth ei gwaudd, bendîgedic [fyddo] efe gan yr Arglwydd yr hwn ni phaid [a dangos] ei drugaredd tua’r rhai byw, a’r rhai meirw: dywedodd Naomi hefyd wrthi hi, agos i ni [yw] ’r gŵr hwnnw, *o’n cyfathrach ni [y mae] efe.

21 A Ruth y Moabies a ddywedodd, efe a ddywedodd hefyd yn ddiau wrthif, gyd a’r llangciau y rhai [ydynt] gennif yr arhoſi nes gorphen yr holl gynhaiaf yr hwn [ſydd] i mi.

22 A dywedodd Naomi wrth Ruth ei gwaudd: da [yw] fy merch i ti fyned gyd ai langceſi ef, fel na ruthrant i’th erbyn mewn maes arall.

23 Felly hi a ddilynodd langceſau Booz i loffa nes darfod cynhaiaf yr haidd, a chynhaiaf y gwenith: ond hi a drigodd gyd ai chwegr.

## PEN. III.

Cyngor Naomi i Ruth yng-hylch Booz.

YNa Naomi ei chwegr hi a ddywedodd wrthi hi, fy merch oni cheiſiaf lonyddwch i ti ’r hwn fyddo da i ti?

2 Ac yn awr ein cyfathrach-wr ni [yw] Booz yr hwn y bûoſti gyd ai langceſi? wele efe yn nithio yn llawr dyrnu ’r haidd y nos hon.

3 Ymolch gan hynny, ac *ymîra, a goſot dy ddillad am danat, a dos i waered i’r llawr dyrnu: na fydd gydnabyddus i’r gŵr nes iddo orphen bwytta, ac yfed.

Pſal. 104.15.
Math 6.17.

4 A phan gyſco efe, yna gwybydd y fan yr hon y gorweddo efe yndi, yna dôs, a dinoetha ei draed ef, a gorwedd: ac efe a fynega i ti ’r hyn a wnelech.

5 A hi a ddywedodd wrthi, gwnaf yr hyn oll a erchaiſt i mi.

6 Felly hi a aeth i waered i'r llawr dyrnu, ac a wnaeth yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe ei chwegr iddi.

7 Pan fwytaodd Booz, a [phan] yfodd fel y lawenhaodd ei galon, yna efe a aeth i gyſcu i gwrr yr yſcafn: hithe a ddaeth yn ddiſtaw, ac a ddinoethodd ei draed ef, ac a orweddodd.

8 Ac yng-hanol y nôs y gŵr a ddychlammodd, ac a ymdrôodd: ac wele wraig yn gorwedd wrth ei draed ef.

9 Yna efe a ddywedodd, pwy [ydwyt] ti? a hi a ddywedodd myfi [yw] Ruth dy lawforwyn di, lleda gan hynny dy aden tros dy lawforwyn, canys fyng-hyfathrachwr i [ydwyt] ti.

10 Ac efe a ddywedodd bendigedic [fyddech] fy merch gan yr Arglwydd, gwnaethoſt yn well dy drugaredd ddiwethaf na'r gyntaf: gan nad aethoſt ar òl gwŷr ieuaingc, na thlawd na chyfoaethog.

11 Ac yn awr fy merch nac ofna, yr hyn oll a ddywedaiſt a wnaf it: canys holl ddinas fy mhobl a ŵyr mai gwraig rinweddol [ydwyt] ti.

12 Ac yn awr gwir yw fy mod i yn gyfathrach-wr: etto er hynny y mae cyfathrach-wr nês na mi.

13 Aros hêno, a'r boreu os efe a ymgyfathracha a thi da yw, ymgyfathrached, ond os efe ni fyn ymgyfathrachu a thi, yna myfi a ymgyfathrachaf a thi [fel] mai byw 'r Arglwydd: cwſc hyd y boreu.

14 A hi a orweddodd wrth ei draed ef hyd y boreu, a hi a gyfododd cyn yr adwaene neb ei gilydd: canys efe a ddywedodd, na chaffer gwybod ddyfod y wraig i'r yſcubor.

15 Ac efe a ddywedodd, moes dy fantell yr hon [ſydd] am danat, ac ymafl ynddi, a hi a ymaflodd ynddi: ac efe a feſurodd chwech [meſur] o haidd, ac ai goſododd arni, a hi aeth i'r ddinas.

16 Pan ddaeth hi at ei chwegr, hi a ddywedodd, pwy [ydwyt] ti fy merch? a hi a fynegodd iddi 'r hyn oll a wnaethe y gŵr iddi hi.

17 A hi a ddywedodd y chwech [meſur] hyn o haidd a roddodd efe i mi: canys dywedodd wrthif, ni ddeui yn wag at dy chwegr.

18 Yna y dywedodd hithe, aros fy merch oni ŵypech pa fodd y digwyddo y peth [hyn:] canys ni orphywys y gŵr nes gorphen y peth hyn heddyw.

## PEN. IIII.

Booz yn priodi Ruth. 13 Hithe yn beichiogi ar Obed. 18 Achau Dafydd o dâd i dâd.

YNa Booz a aeth i fynu i'r porth, ac a eiſteddodd yno, ac wele y cyfathrachwr yn myned heibio [am] yr hwn y dywedaſe Booz, ac efe a ddywedodd, * ho hwn a hwn, tyret yn nes, eiſtedd ymma: ac efe a neſaodd ac a eiſteddodd.

2.Sam.21.3.
2.Bren.6.8.

2 Yna efe a gymmerth ddeng-wr o henuriaid y ddinas, ac a ddywedodd, eiſteddwch ymma: a hwynt a eiſteddaſant.

3 Ac efe a ddywedodd wrth y cyfathrachwr: rhan o'r maes yr hon [oedd] eiddo ein brawd Elimelech a werth Naomi yr hon a ddychwelodd o wlâd Moab.

4 Am hynny y dywedais y mynegwn it gan ddywedyd, pryn ger bron y trigolion a cher bron henuriaid fy mhobl, os rhyddhei rhyddhâ [ef] ac oni ryddhei di mynega i mi, fel y gwypwyf: Canys nid oes onid ti iw 'ryddhau, a minne [ſydd] ar dy ôl di: ac efe a ddywedodd myfi ai rhyddhaf.

5 Yna y dywedodd Booz, y diwrnod y prynech di 'r maes o law Naomi: ti ai pryni hefyd gan Ruth y Moabites gwraig y marw, i gyfodi enw yr marw ar ei etifeddiaeth ef.

6 A'r cyfathrachwr a ddywedodd, ni allaf [ei] ryddhau i mi rhac colli fy etifeddiaeth: rhyddha di it dy hun fy rhann i, canys ni allaf [ei] ryddhau.

7 (A hyn [oedd ddefod] gynt yn Iſrael, am ryddhâd, ac am gyfnewid i ſiccrhau pob peth, gŵr a ddioſce ei eſcid, ac ai rhodde iw gymydog: a hyn [oedd] deſtiolaeth yn Iſrael.)

8 Am hynny y dywedodd y cyfathrachwr wrth Booz, pryn it dy hun: ac efe a ddioſcodd ei eſcid.

9 A dywedodd Booz wrth yr henuriaid, ac wrth yr holl bobl, tyſtion [ydych] chwi heddyw i mi brynu 'r hyn oll [oedd] eiddo Elimelech, a'r hyn oll [oedd] eiedo Chilon, a Mahlon o law Naomi.

10 Ruth hefyd y Moabites gwraig Mahlon a brynais im yn wraig i gyfodi enw y marw ar ei etifeidiaeth ef, fel na thorrer ymmaith enw y marw oddi wrth ei frodyr, nac oddi wrth borth ei fangre ef: tyſtion [ydych] chwi heddyw.

11 A'r holl bobl y rhai [oeddynt] yn y porth a'r henuriaid a dywedaſant, [yr ydym] yn dyſtion: yr Arglwydd a roddo 'r wraig yr hon ſydd yn dyfod i'th dŷ di, fel Rahel, ac fel Lea, y rhai a adailadaſant ill dwy dŷ Iſrael, fel y gwnelech di rymmuſtra yn Ephrata, ac y goſodech enw yn Bethlehem.

12 Bydded hefyd dy dŷ di, fel tŷ Pharez (* yr hwn a ymddug Thamar i Iuda:) o'r hâd yr hwn a ddyry 'r Arglwydd it o'r llangces hon. Geneſ.38.29.

13 Felly Booz a gymmerodd Ruth, a hi a fu iddo ef yn wraig, ac efe aeth i mewn atti hi: a'r Arglwydd a roddodd iddi hi feichiogi, a hi a ymddug fab.

14 A'r gwragedd a ddywedaſant wrth Naomi, bendigedic [fyddo] yr Arglwydd yr hwn ni rwyſtrodd it gyfathrach-wr heddyw: fel y gelwid ei enw ef yn Iſrael.

15 Ac efe ſydd i't yn adnewyddu[dy[enioes, ac i ymgeleddu dy hen-wynnedd: canys dy waudd yr hon a'th gâr di a blantodd iddo ef, a hon [ſydd] well i ti na ſaith o feibion.

16 A Naomi a gymmerth y plentyn, ac ai

goſododd ef yn ei monwes, ac a fu yn fammaeth iddo.

17 A'r cymydogeſau a roddaſant iddo enw, gan ddywedyd ganwyd mab i Naomi: ac a alwaſant ei enw ef Obed, hwn [oedd] tâd Iſai dâd Dafydd,

18 Dymma genhedlaethau Pharez, Pharez a genhedlodd Hezron.

19 A Hezron a genhedlodd Ram, a Ram a genhedlodd Aminadab.

20 Ac Aminadab a genhedlodd Naaſſon, a Naaſſon a genhedladd Salmah.

21 A Salmon a genhedlodd Booz, a Booz, a genhedlodd Obed.

22 Ac Obed a genhedlodd Iſai, ac Iſai a genhedlodd Ddafydd.

# Llyfr cyntaf i Samuel.

## PEN. I.

Hanes Elcana ai wragedd. 10 Gweddi Hannah ai hadduned i Dduw. 15 Ai hatteb hefyd i Eli. 20 Ganedigaeth Samuel. 24 Ai gyſſegriad i'r Arglwydd.

ACyr oedd rhyw Ephratewr o Ramathaim Zophim o fynydd Ephraim, ai enw Elcana mab Ieroham, fab Elihu, fab Thohu, fab Zuph

2 A dwy wragedd [oeddynt] iddo ef, enw y naill [oedd] Hânah, ac enw y llall Peninnah: ac i Peninnah yr ydoedd plant, ond i Hannah nid [oedd] plant.

Deut.16.16.

3 * A'r gŵr hwnnw a aei i fynu oi ddinas bôb blwyddyn i addoli, ac i aberthu i Arglwydd y lluoedd yn Siloh: ac yno dau fab Eli [ſef] Hophni a Phinees [oeddynt] offeiriaid i'r Arglwydd.

4 Bu hefyd y diwrnod yr aberthodd Elcana roddi o honaw ef i Peninnah ei wraig, ac iw meibion, ai merched oll rannau.

5 Ac i Hannah y rhoddes efe vn rhan wynebol, canys efe a gâre Hannah, er i'r Arglwydd gaeu ei brû hi.

6 Ai gwrthwyneb-wraig ai cythruddodd hi a digter, fel y cyffroawdd hi: am i'r Arglwydd gaeu ei brû hi.

7 (Ac felly y gwnaeth efe bôb blwyddyn) pan eſcynne hithe i dŷ yr Arglwydd hi ai cythrudde hi felly, fel yr ŵyle, ac na fwyttae.

8 Yna Elcana ei gŵr a ddywedodd wrthi, Hannah pa ham yr ŵyli di? a pha ham na fwyttei? a pha beth a flina dy galon? onid ŵyſt well i ti na dêc o feibion?

9 Yna Hannah a gyfododd wedi iddi fwytta, ac yfed yn Silo: ac Eli yr offeiriad oedd yn eiſtedd ar fainge, wrth bôſt teml yr Arglwydd.

10 A hi yn athriſt a weddiodd hefyd ar yr Arglwydd, a chan ŵylo a ŵylodd.

11 Hefyd hi a addunodd adduned, ac a ddywedodd: ô Arglwydd y lluoedd, os gan edrych yr edrychi ar gyſtudd dy law-forwyn, ac am coffei fi, ac nid anghofi dy law-forwyn, onid rhoddi i'th lawforwyn fâb: yna y rhoddaf ef i'r Arglwydd holl ddyddiau ei enioes, ac nid aiff ellyn ar ei ben ef.

12 A bu fel yr oedd hi yn gweddio llawer ger bron yr Arglwydd: i Eli ddal ſulw ar ei genau hi.

13 Canys Hannah oedd yn llefaru wrthi ei hun, yn vnic ei gwefuſau a ſymmudent, ai llais ni chlywid: ac Eli a dybiodd ei [bod] hi yn feddw

14 Yna Eli a ddywedodd wrthi hi, pa hŷd y byddi feddw? bwrw ymmaith dy wîn oddi wrthyt.

15 A Hannah a attebodd, ac a ddywedodd, nid [felly] fy arglwydd, gwraig galed arnt [ydwyf] fi, gwîn hefyd na diod gadarn nid yfais: eithr *tywelltais fy meddwl ger bron yr Arglwydd.

Pſal.42.5.

16 Na chyfrif dy law-forwyn yn ferch y fall: canys o amldra fy mefyrdod, a'm llid, y lleferais hyd yn hyn.

17 Yna yr attebodd Eli, ac a ddywedodd, dôs mewn hêddwch: a Duw yr Iſraela roddo dy ddymuniad yr hwn a ddymunaiſt ganddo ef.

18 A hi a ddywedodd, caffed dy law-forwyn ffafor yn dy olwg: felly yr aeth y wraig iw thaith, ac a fwyttaodd, ac ni bu mor athriſt mwy.

19 Yna y cyfodaſant yn foreu, ac a addolaſant ger bron yr Arglwydd, ac a ddychwelaſant, ac a ddaethant iw tŷ [i] Ramah: yna Elcana a adnabu Hannah ei wraig, a'r Arglwydd ai cofiodd hi.

20 A bu o fewn cylchoedd dyddiau feichiogi

o Hannah, ac eſcor ar fab, a hi a alwodd ei enw ef Samuel: canys gan yr Arglwydd y dymunais ef [eb y hi.]

21 Yna yr aeth Elcana y gŵr i fynu, ai holl dy-lwyth i aberthu i'r Arglwydd aberth blynyddawl, ai adduned.

22 Ond Hannah nid aeth i fynu, canys hi a ddywedodd wrth ei gŵr [ni ddeuafi] hyd oni ddiddyfnir y bachgen: yna y dygaf ef, fel y dangoſir ef o flaen yr Arglwydd, ac y trigo yno byth.

23 Yna Elcana ei gŵr hi a ddywedodd wrthi hi, gwna yr hyn a welech yn dda, aros hyd oni ddiddyfnech ef: yn vnic yr Arglwydd a gyflawno ei air, felly yr arhôdd y wraig, ac a fagodd ei mâb nes iddi ei ddiddyfnu ef.

24 A phan ddiddyfnodd hi ef, hi ai dûg ef i fynu gyd a hi, a thri o fuſtych, ac *vn Epha o beillied, a choſtrêled o wîn, a hi ai dûg ef i mewn i dŷ yr Arglwydd yn Silo a'r bachgen yn ieuangc. Exod.16.36.

25 Yna y lladdaſant fuſtach, ac a ddugaſant y bachgen at Eli.

26 A hi a ddywedodd [ yſtyr ] wrthif fy arglwydd [fel] y mae dy enaid yn fyw fy arglwydd, myſi yw yr wraig yr hon oedd yn ſefyll ymma gyd a thi, gan weddio ar yr Arglwydd.

27 Am y bachgen hwn y gweddiais, a'r Arglwydd a roddodd i mi fy nymuniad yr hwn a ddymunais ganddo ef.

28 Minne hefyd ai rhoddais ef i'r Arglwydd, yr holl ddyddiau y rhai y byddo efe [byw] y rhoddwyd ef i'r Arglwydd: ac efe a ymgrymmodd yno i'r Arglwydd.

## PEN. II.

1 Cân Hannah. 12 Beiau meibion Eli, Samuel yn gwaſanaethu o flaen yr Arglwydd. 20 Eli yn bendithio Elcana, a Hannah. 23 Eli yn ceryddu ei feibion yn rhy dyner. 27 Prophwyd yr Arglwydd yn bygwth dialedd ar Eli, am na lywodraethe ei feibion yn well.

YNa Hannah a weddiodd, ac a ddywedodd, llawenychodd fyng-halon yn yr Arglwydd fyng-horn a dderchafwyd yn yr Arglwydd: fyng-enau a ehangwyd ar fyng-elynion: canys llawenychais yn dy iechydwriaeth di.

2 Nid ſanctaidd [neb] fel yr Arglwydd, canys nid dim hebot ti: ac nid [oes] graig megis ein Duw ni.

3 Na chwanegwch lefaru yn vchel vchel, [na] ddeued allan [vn gair] balch och genau: canys Duw gwybodaeth [yw] yr Arglwydd, ai amcannion ef a gyflawnir.

4 Bwa y cedyrn a dorrwyd, a'r gwenniaid a ymwregyſaſant a nerth.

5 [Y rhai] digonol a ymgyflogaſant er bara, a'r rhai newynoc a beidiaſant hyd onid eſcorodd yr amhlantadwy ar ſaith, a lleſcau yr aml [ei] meibion.

Deut.32.39.
doeth.16.13.
job.13.2.

6 *Yr Arglwydd ſydd yn marwhau, ac yn bywhau, efe ſydd yn dwyn i wared i'r bedd, ac efe a ddwg i fynu.

7 Yr Arglwydd ſydd yn tlodi, ac yn cyfoethogi, yn daroſtwng, ac yn derchafu.

pſal.113.7.

8 *Efe ſydd yn cyfodi y rhaidus o'r llŵch, o'r domm y derchafa efe y tlawd, iw goſod gyd a thywyſogion, efe a bair iddynt etifeddu teyrngader gogoniant: canys eiddo yr Arglwydd golofnau y ddaiar, ac efe a oſododd y bŷd arnynt.

9 Traed ei ſainct a geidw efe, a'r annuwolion a ddiſtawant mewn tywyllwch: canys nid trwy [ei] nerth [ei hun] y gorchfyga gŵr.

10 Y* rhai a ymryſonant a'r Arglwydd a ddryllir, efe a darâna yn eu herbyn hwynt o'r nefoedd: yr Arglwydd a farn derfynau y ddaiar: ac a ddyry nerth iw frenin, ac a dderchafa gorn ei eneiniog. Pen.7.10.

11 Yna yr aeth Elcana i Ramah iw dŷ, a'r llangc a fu weinidog i'r Arglwydd ger bron Eli yr offeiriad.

12 Ond meibion Eli [oeddynt] feibion y fall: nid adwaenent hwy mo'r Arglwydd.

13 A defod yr offeiriad gyd a'r bobl [oedd hyn:] pôb gŵr a'r a offrymme offrwm, yna bachgen yr offeiriad a ddeue pan fydde y cîg yn berwi, a chigwain dri daint yn ei law,

14 Ac ai tarawe [hi] yn y badell, neu yn yr efyddyn, neu yn y crochan, neu yn y pair, yr hyn oll a gyfode y gigwain a gymmere yr offeiriad iddo: felly y gwnaent yn Silo i holl Iſrael y rhai oeddynt y dyfod yno.

15 Ac cyn arogl-loſci o honynt y braſder, y deue bachgen yr offeiriad hefyd, ac a ddywede wrth y gŵr a fydde yn aberthu, dyro gîg iw roſtio i'r offeiriad, canys ni chymmer efe gennit gîg berw, onid amrwd.

16 Os y gŵr a ddywede wrtho, gan loſci lloſcant yn awr y braſder, yna cymmer it: fel yr ewyllyſio dy galon: yntef a ddywede wrtho, er hynny yn awr y rhoddi, ac onid ê, mi ai cymmeraf drwy gryfder.

17 A phechod y llangciau oedd fawr iawn ger bron yr Arglwydd: canys ffieiddiodd y dynion fwyd offrwm yr Arglwydd.

18 A Samuel oedd yn gweini o flaen yr Arglwydd yn langc wedi ei ymwregyſu ag *Ephod liain. Exod.28.4.

19 Ai fam a wnaeth iddo fantell fechan, ac ai dûg iddo o flwyddyn i flwyddyn, pan ddele hi i fynu gyd ai gŵr i aberthu yr aberth blynyddawl.

20 Yna Eli a fendithiodd Elcana, ai wraig, ac a ddywedodd, goſoded yr Arglwydd i ti hâd o'r wraig hon: am y dymuniad yr hwn a ddymunodd gan yr Arglwydd: felly yr aethant hwy iw mangre eu hun.

21 A'r Arglwydd a ymwelodd a Hannah, a hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar dri o feibion, a dwy o ferched: a'r llangc Samuel a gynnyddodd o flaen yr Arglwydd.

22 Ac Eli [ydoedd] hên iawn, ac efe a glybu yr hyn oll a wnelſe ei feibion ef i holl Iſrael, a'r modd y gorweddaſent gyd a'r gwragedd y rhai oeddynt yn ymgaſclu [wrth] ddrws pabell y cyfarfod.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, pa ham y gwnaethoch yn ôl y geiriau hyn: canys clywaf gan yr holl bobl hyn ddrwg-air i chwi.

24 Na [wnewch felly] fy meibion, canys nid dâ y gair yr hwn yr ydwyfi yn ei glywed, [ſef] eich bod chwi yn traws-arwain pobl yr Arglwydd.

25 Os gŵr a becha yn erbyn gŵr, y ſwyddogion ai barnant ef: ond os yn erbyn yr Arglwydd y pecha gŵr, pwy a eiriol troſto ef: ond ni wrandawſant ar lais eu tâd: am y mynne yr Arglwydd eu lladd hwynt.

26 A'r llangc Samuel a aeth yn fawr, ac yn dda gan Dduw, a dynion hefyd.

27 Yna y daeth gŵr i Dduw at Eli, ac a ddywedodd wrtho ef, fel hyn y dywed yr Arglwydd, onid gan ymddangos yr ymddangoſais i dŷ dy dâd, pan oeddynt yn yr Aipht tann dylwyth Pharao:

28 Gan ei ddewis ef hefyd o holl lwythau Iſrael yn offeiriad i mi i offrymmu ar fy allor, i loſci arogl-darth, i wiſco Ephod ger fy mron: * rhoddais hefyd i dŷ dy dâd ti holl ebyrth tanllyd meibion Iſrael.

Lefit.10.14.

29 Pa ham y ſethrwch chwi fy aberth a'm bwyd offrwm, y rhai a orchymynnais [i'm] teml, ac yr anrhydeddaiſt dy feibion yn fwy na myfi, gan eich peſcu eich hunain o flaen-ffrwyth holl fwyd offrwm fy-mhobl Iſrael:

30 Am hynny medd Arglwydd Dduw Iſrael, gan ddywedyd y dywedais: dy dŷ di, a thŷ dy dâd a rodiant o'm blaen i byth: eithr yn awr medd yr Arglwydd, pell fydd hynny oddi wrthifi, canys fy anrhydedd-wŷr a anrhydeddaf, a'm dirmyg-wŷr a ddirmygir.

31 Wele y dyddiau yn dyfod pan dorrwyf dy fraich di, a braich tŷ dy dâd ti, fel na byddo henuriad yn dy dŷ di.

32 A thi a gei weled [dy] elyn yn nheml [yr Arglwydd] yn lle yr hyn oll a wnaeth efe o ddaioni i Iſrael: ac ni bydd henuriad yn dy dŷ di bŷth.

33 Ond ni thorraf ymmaith bawb o'th eiddo di oddi wrth fy allor, i beri i'th lygaid ballu, ac i beri i'th galon ofidio: a holl liaws dy dŷ di a fyddant feirw yn wŷr.

34 A hyn [fydd] i ti yn arwydd, yr hwn a ddaw i'th ddau fab, i Hophni a Phinees: yn yr vn dydd, y byddant feirw ill dau.

35 A chyfodaf i mi offeiriad ffyddlon a wnaiff fel [yr ewyllyſiwyf] yn fyng-halon, a'm meddwl: a mi a adailadaf iddo ef dŷ ſiccr, ac efe a rodia ger bron fy eneiniog yn dragywydd.

36 A bydd i'r rhai oll a adewir yn dy dŷ di ddyfod i ymgrymmu iddo ef am ddernyn o arian, a thippin o fara: a [phob vn] a ddywed, goſot fi yn awr mewn rhyw offeiriadaeth i [gael] bwytta tammed o fara.

## PEN. III.

Mor amheuthyn oedd prophwydoliaeth yn amſer Eli. 4 Duw yn dangos i Samuel ddiniſtr ty Eli. 18 A Samuel yn mynegu hynny i Eli.

A'R bachgen Samuel a waſanaethodd yr Arglwydd ger bron Eli: a gair yr Arglwydd oedd werthfawr yn y dyddiau hynny, nid [oedd ychwaith] weledigaeth eglur.

2 A'r pryd hynny (pan oedd Eli yn gorwedd yn ei fangre, wedi iw lygaid ef ddechreu tywyllu, [fel] na allei efe weled,

3 A chyn i oleuni Duw ddiffoddi, a Samuel yn cyſcu yn nheml yr Arglwydd yr hon [yr oedd] Arch Duw ynddi)

4 Yna y galwodd yr Arglwydd ar Samuel: dywedodd yntef wele fi.

5 A rhedodd at Eli, a dywedodd, wele fi, canys gelwaiſt arnaf: yntef a ddywedodd, ni elwais i, dychwel [a] gorwedd, ac efe a aeth, ac a orweddodd.

6 A'r Arglwydd a alwodd eil-waith ar Samuel: a Samuel a gyfododd, ac a aeth at Eli, a dywedodd wele fi, canys gelwaiſt arnaf: yntef a ddywedodd, na elwais fy mab, dychwel [a] gorwedd.

7 Ac nid adwaene Samuel etto yr Arglwydd, ac nid egluraſid iddo ef air yr Arglwydd etto.

8 A'r Arglwydd a alwodd Samuel trachefn y drydedd waith, ac efe a gyfododd, ac a aeth at Eli, ac a ddywedodd wele fi, canys gelwaiſt arnaf: yna y deallodd Eli mai yr Arglwydd a alwaſe ar y bachgen.

9 Am hynny Eli a ddywedodd wrth Samuel, dôs a gorwedd, ac os geilw efe arnat, yna dywet, llefara Arglwydd, canys dy wâs ſy yn clywed: felly Samuel a aeth, ac a orweddod yn ei le

10 Yna y daeth yr Arglwydd, ac a ſafodd, ac a alwodd megis o'r blaen Samuel, Samuel: a dywedodd Samuel, llefara, canys ymae dy wâs yn clywed,

11 A dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel wele fi yn gwneuthur pêth yn Iſrael, yr hwn pwy bynnac ai clywo fe * a ferwinia ei ddwy gluſt efe.

12 Yn y dydd hwnnw y cyfodaf yn erbyn Eli yr hyn oll a ddywedais am ei dŷ ef, gan ddechreu a diweddu [ar yr vnwaith.]

13 Mynegais hefyd iddo ef y barnwn i ei dŷ ef yn dragywydd, am yr anwiredd yr hwn a ŵyr efe, o herwydd iw feibion haeddu iddynt felldith, ac nas gwaharddodd efe iddynt hwy.

14 Ac am hynny y tyngais wrth dŷ Eli [nid byw fi] os gwneir iawn am anwiredd tŷ Eli ag aberth, nac a bwyd offrwm byth.

15 Yna y cyſcodd Samuel hyd y borau, ac efe a agorodd ddryſau tŷ yr Arglwydd: ond Samuel oedd yn ofni mynegu y weledigaeth i Eli.

16 Ac Eli a alwodd ar Samuel, ac a dywedodd, Samuel fy mab: yntef a ddywedodd wele fi

17 Yna y dywedodd efe, beth [yw] yr gair yr hwn a lefarodd efe wrthit: na chela attolwg oddi wrthif: * fel hyn y gwnelo Duw i ti, ac fel hyn y chwanego, os celi di oddi wrthif ddim o'r holl beth yr hwn a lefarodd efe wrthit.

Ruth.1.17

18 Felly Samuel a fynegodd iddo yr holl

eiriau, ac nis celodd rhagddo: dywedodd yntef, yr Arglwydd [yw] efe, gwnaed a [fyddo] yn ddá yn ei olwg.

19 A chynnyddodd Samuel, a'r Arglwydd oedd gyd ag ef, ac ni adawodd [i vn] oi eiriau ef ſyrthio i'r ddaiar.

20 A gwybu holl Iſrael o Dan hyd Beer-ſeba mai prophwyd yr Arglwydd [oedd] Samuel ffyddlon.

21 A'r Arglwydd a ymddangoſodd trachefn yn Silo: canys yr Arglwydd a ymeglurhaodd i Samuel yn Silo drwy air yr Arglwydd.

## PEN. IIII.

Y Philiſtiaid yn rhyfela a'r Iſraeliaid, 11 yn dwyn yr Arch. ac yn lladd meibion Eli. 18 Marwolaeth Eli a gwraig Phinees.

A Bu gair Samuel wrth holl Iſrael: ac Iſrael a aeth i gyfarfod a'r Philiſtiaid i ryfel, a gwerſyllaſant ger llaw Eben-ezer a'r Philiſtiaid a werſyllaſant yn Aphec.

2 A'r Philiſtiaid a ymdaclaſanc i gyfarfod ag Iſrael, a'r gâd a ymledodd, a lladdwyd Iſrael o flaen y Philiſtiaid: canys [y Philiſtiaid] a darawſant o'r fyddin yn y maes yng-hylch pedair mil o wŷr.

3 Yna y daeth y bobl i'r gwerſyll, ac henuriaid Iſrael a ddywedaſant, pa ham y tarawodd yr Arglwydd ni heddyw o flaen y Philiſtiaid? cymmerwn attom o Silo Arch cyfammod yr Arglwydd, a deled i'n myſc ni, fel y cadwo hi ni o law ein gelynion.

4 Felly y bobl a anfonodd i Silo, ac a ddugaſant oddi yno Arch cyfammod Arglwydd y lluoedd yr hwn * ſydd yn aros [rhwng] y Cérubiaid, ac yno [yr oedd] dau fab Eli, Hophni, a Phinees gyd ag Arch cyfammod yr Arglwydd. Exod.25.17.

5 Ac wrth ddyfod o Arch cyfammod yr Arglwydd i'r gwerſyll, yna holl Iſrael a floeddiaſant a bloedd ddirfawr, fel y dadſeiniodd y ddaiar.

6 Yna y clybu y Philiſtiaid lais y floedd, ac a ddywedaſant: pa beth [yw] llais y floedd fawr hon yng-werſyll yr Hebræaid? a gwybuant mai Arch yr Arglwydd a ddaethe i'r gwerſyll.

7 A'r Philiſtiaid a ofnaſant, o herwydd hwy a ddywedaſant, Duw a ddaeth i'r gwerſyll: dywedaſant hefyd, gwae ni canys ni bu yr fath beth o flaen hyn.

8 Gwae ni, pwy a'n gwared ni o law y Duwiau nerthol hyn? dymma y Duwiau hynny a darawſant yr Aiphtiaid a phôb plâ yn yr anialwch.

9 Ymgryfhewch, a byddwch fel gwŷr ô Philiſtiaid, rhac i chwi waſanaethu yr Hebræaid * fel y gwaſanaethaſant hwy chwi: byddwch gan hynny fel gwŷr, ac ymleddwch. Barn-wyr.13.1

10 A'r Philiſtiaid a ymladdaſant, a lladdwyd Iſrael, a ffoawdd pawb iw babell, a bu plâ mawr iawn: canys ſyrthiodd o Iſrael ddeng-mil ar hugain o wŷr traed.

11 Ac Arch Duw a ddygwyd ymmaith, a dau fab Eli, Hophni, a Phinees a fuant feirw.

12 A gŵr [o] Beniamin a redodd o'r fyddin, ac a ddaeth i Silo y diwrnod hwnnw, ai ddillad wedi [eu] rhwygo a phridd ar ei ben.

13 Pan ddaeth efe, wele yna Eli yn eiſtedd ar eiſteddfa [ger] llaw yr ffordd yn diſgwil, canys yr oedd ei galon ef yn ofni am Arch Dduw: a'r gŵr a ddaeth i fynegu i'r ddinas, a'r holl ddinas a waeddodd.

14 Pan glybu Eli lais y waedd, yna y dywedodd efe, beth [yw] llais y cynnwrf ymma? a'r gŵr a fryſiodd, ac a ddaeth, ac a fynegodd i Eli.

15 (Ac Eli [oedd] fab tair blwydd ar bymthec a phedwar vgain, a phallaſe ei lygaid ef fel na alle efe weled.) Pen.3.2.

16 A'r gŵr a ddywedodd wrth Eli, myfi ſydd yn dyfod o'r fyddin, myfi hefyd a ffoes heddyw o'r fyddin: a dywedodd yntef, pa beth a ddigwyddodd fy mab?

17 Yna y gennad a attebodd, ac a ddywedodd, Iſrael a ffoawdd o flaen y Philiſtiaid, a bu hefyd blâ mawr ym myſc y bobl, a'th ddau fab hefyd Hophni a Phinees a fuant feirw, ac Arch Dduw a ddygpwyd ymmaith.

18 A phan grybwyllodd efe am Arch Dduw, yna yntef a ſyrthiodd oddi ar yr eiſteddle yng-ŵyſc ei gefn ger llaw y porth, ac aſcwrn ei wddf ef a dorrodd, ac efe a fu farw, canys y gŵr [oedd] hên a thrwm: ac efe a farnaſe Iſrael ddeugain mlynedd.

19 Ai waudd ef, gwraig Phinees oedd feichiog [yn agos] i eſcor, pan glybu ſôn am ddwyn ymmaith Arch Dduw, a marw ei chwegrwn, ai gŵr: yna hi a ymgrymmodd, ac a eſcorodd, canys ei gwewŷr a ymdroeſent ynddi.

20 Ac yng-hylch y prŷd y bu hi farw, y dywedodd [y gwragedd] y rhai oeddynt yn ſefyll gyd a hi, nac ofna; canys ar fab yr eſcoraiſt, ond nid attebodd hi, ac nid yſtyriodd.

21 Ond hi a alwodd y bachgen Ichabod, gan ddywedyd, y gogoniant a ymadawodd o Iſrael: am gymmeryd ymmaith Arch Dduw, ac am [farw] ei chwegrwn ai gŵr.

22 Hi a ddywedodd trachefn, y gogoniant a ymadawodd o Iſrael, am ddwyn ymmaith Arch Dduw.

## PEN. V.

Dialedd Duw ar dy Dagon, ac ar ddinaſoedd y Philiſtiaid y rhai y dygpwyd yr Arch iddynt.

YNa y Philiſtiaid a gymmeraſant Arch Dduw, ac ai dugaſant hi o Eben-ezer i Aſdod.

2 A'r Philiſtiaid a gymmeraſant Arch Dduw, ac ai dugaſant i mewn i dŷ Dagon, ac ai goſodaſant hi yn ymyl Dagon.

3 A'r Aſdodiaid a gyfodaſant yn forau dranoeth, ac wele Ddagon wedi ſyrthio i lawr ar ei wyneb ger bron Arch yr Arglwydd, yna y cymmeraſant Ddagon, ac ai goſodaſant eilwaith yn ei le.

4 Codaſant hefyd yn foreu drannoeth, ac wele Ddagon wedi ſyrthio i lawr ar ei wyneb ger bron Arch yr Arglwydd, a phen Dagon, a dwy gledr ei ddwylo oeddynt wedi eu torri ar y trothwy, yn vnic dagon a adawyd o honaw ef.

5 Am hynny ni ſathr offeiriaid Dagon, na neb a ddelo i mewn i dŷ Ddagon ar drothwy Dagon yn Aſdod hyd y dydd hwn.

6 A thrwm fu llaw 'r Arglwydd ar yr Aſdodiaid, canys efe ai deſtruwiodd hwynt, ac ai tarawodd hwynt, ſef Aſdod, ai holl derfynau a chlwyf y marchogion. Pſal.78.66.

7 Pan welodd gwŷr Aſdod mai felly ['r oedd,] yna y dywedaſant, ni chaiff Arch Duw Iſrael aros gyd a ni, canys caled yw ei law ef arnom, ac ar Ddagon ein duw ni.

8 Am hynny yr anfonaſant, ac y caſclaſant holl bẽdefigion y Philiſtiaid attynt, ac a ddywedaſant: beth a wnawn ni i Arch Duw Iſrael∵ yna hwynt a attebaſant, dyger Arch Duw Iſrael o amgylch [i] Gath, a hwy a ddygaſant Arch Duw Iſrael oddi amgylch.

9 Ac wedi iddynt ei dwyn hi o amgylch, yna y bu llaw yr Arglwydd yn erbyn y ddinas a dinistr mawr iawn, ac efe a darawodd wŷr y ddinas o fychan hyd fawr a chlwyfau y marchogion, y rhai a lechaſant ynddynt hwy.

10 Am hynny yr anfonaſant hwy Arch Dduw i Acaron, a phan ddaeth Arch Dduw i Acaron, yna 'r Acaroniaid a waeddaſant gan ddywedyd: dugaſant attom ni o amgylch Arch Duw 'r Iſrael i'n lladd ni, a'n pobl.

11 Am hynny yr anfonaſant, ac y caſclaſant holl bẽdefigion y Philiſtiaid, ac a ddywedaſant: danfonwch ymmaith Arch Duw Iſrael a dychweler hi adref, fel na laddo hi ni, a'n pobl: canys dinistr angefol [oedd] drwy yr holl ddinas [a] thrwm iawn oedd law Duw yno.

12 A'r gwŷr y rhai ni buant feirw a darawyd a chlwyf y marchogion: a gwaedd y ddinas a dderchafodd [i'r] nefoedd.

## PEN. VI.

Tywyſogion y Philiſtiaid yn offrymmu gyd a'r Arch, ac yn ei gollwng hi adref. 19 Dialedd Duw ar y Bethſemeſiaid am edrych yn yr Arch.

ABu Arch yr Arglwydd yng-wlad y Philiſtiaid ſaith o fiſoedd.

2 A'r Philiſtiaid a alwaſant am yr offeiriaid, ac am y dewiniaid gan ddywedyd: beth a wnawn ni i Arch yr Arglwydd∵ hyſpyſſwch i ni pa fodd yr anfonwn hi adref.

3 Yna y dywedaſant hwythau, os ydych ar ddanfon ymmaith Arch Duw Iſrael, nac anfonwch hi yn wâg, onid gan roddi y rhoddwch iddi offrwm tros gamwedd: yna i'ch iacheuir, ac y bydd hyſpys iwch pa ham nad ymadawodd ei law ef oddi wrthych chwi.

4 Yna y dywedaſant hwythau, beth [fydd] yr offrwm tros gamwedd yr hwn a roddom ni iddi hi∵ ac hwy a ddywedaſant pump o ffolẽnau aur, a phump o lygod aur [yn ôl] rhif pendefigion y Philiſtiaid: canys yr vn plâ [ſydd] arnynt hwy oll, ac ar eich pendefigion chwi.

5 Am hynny y gwnewch luniau eich ffolennau, a lluniau eich llygod y rhai ydynt yn difwyno y tir, a rhoddwch ogoniant i Dduw Iſrael, ond odid efe a yſcafaha ei law oddi arnoch, ac oddi ar eich duwiau, ac oddi ar eich tir.

6 A pha ham y caledwch chwi eich calon, megis y caledodd yr Aipheiaid, a Pharao eu calon∵ pan wnaeth efe wrthiau yn eu plith hwy, oni ollyngaſant hwy hwynt i fyned∵ Exod.12.31.

7 Ac yn awr cymmerwch, a gwnewch vn fenn newydd, a dwy fuwch flith y rhai nid aeth iauſarnynt: a deliwch y buchod dann y fenn, a dygwch eu lloi hwynt oddi ar eu hôl i dŷ.

8 Yna cymmerwch Arch yr Arglwydd a rhoddwch hi ar y fenn, a'r tlyſſau aur y rhai a roddaſoch iddi yn offrwm dros gamwedd a oſodwch mewn cîſt wrth ei hyſtlys hi, a gollyngwch hi i fyned.

9 Yna edrychwch os aiff hi i fynu i Bethſemes tua ei chartref, efe a wnaeth i ni y mawr ddrwg hwn: ac onidê, yna y cawn wybod nad ei law ef a gyffyrddodd â ni [ond mai] damwain oedd hyn i ni.

10 A'r gwŷr a wnaethant felly, ac a gymmeraſant ddwy fuwch flithion, ac ai daliaſant hwy tann y fenn, ac a gaeuaſant eu lloi mewn tŷ: ac*a oſodaſant Arch yr Arglwydd ar y fenn, a'r giſt, a'r llygod aur, a lluniau eu ffolennau hwynt.

12 Yna y buchod a aethant yn union a'r hŷd y ffordd tua ffordd Bethſemes, ar hŷd yr vn briffordd yr aethant, gan gerdded, a brefu, ac ni wŷraſant tua 'r llaw ddehau, na'r llaw aſſwy: a phendefigion y Philiſtiaid a aethant ar eu hôl hyd derfyn Bethſemes.

13 A [thrigolion] Bethſemes oeddynt yn medi cynhaiaf y gwenith yn y dyffryn, ac a dderchafaſant eu llygaid, ac a ganfuant yr Arch, ac a lawenychaſant wrth ei gweled.

14 A'r fenn a ddaeth i faes Joſuah y Bethſemeſiad, ac a ſafodd yno: ac yno ['r oedd] maen mawr, a hwynt a holltaſant goed y fenn, ac a offrymmaſant y buchod yn boeth offrymmau i'r Arglwydd.

15 Yna y Lefiaid a ddeſcynnaſant Arch yr Arglwydd, a'r gîſt yr hon [oedd] gyd a hi, yr hon [yr oedd] y tlyſſau aur ynddi, ac ai goſodaſant ar y maen mawr, a gwŷr Bethſemes a offrymmaſant boeth offrymmau, ac a aberthaſant ebyrth i'r Arglwydd y dydd hwnnw.

16 A phendefigion y Philiſtiaid ill pump a welſant, ac a ddychwelaſant i Acaron y dydd hwnnw.

17 Ac dymma y ffolennau aur, y rhai a roddaſe y Philiſtiaid yn offrwm tros gamwedd i'r Arglwydd: dros Aſdod vn, dros Gaſa vn, dros Aſcalon vn, dros Gath vn, [ac] vn dros Acaron,

28 A'r llygod aur [yn ôl] rhifedi holl ddina-

ſoedd y Philiſtiaid [yn perthynu] i'r pum pendefig, yn gyſtal y dinaſoedd caerog, a'r trefi heb gaerau: hyd y [maen] mawr Abel yr hwn y goſodaſāt arno Arch yr Arglwydd, [yr hwn ſydd] hyd y dydd hwn ym maes Ioſuah y Bethſemesiad.

Num.4.15.20. 19 Ac efe a darawodd o wŷr Bethſemes* am iddynt edrych yn Arch yr Arglwydd, ie tarawodd ym myſc y bobl ddeng-wr a thrugain, a deng-mil a deugain o wŷr: a'r bobl a alaraſant, am i'r Arglwydd daro y bobl a phla[mor]fawr.

20 Yna gwŷr Bethſemes a ddywedaſant: pwy a ddichon ſefyll yn wyneb yr Arglwydd Dduw ſanctaidd hwn ? ac at bwy yr aiff efe oddi wrthym ni ?

21 Am hynny yr anfonaſant gennadau at drigolion Ciriathiearim gan ddywedyd: y Philiſtiaid a ddugaſant adref Arch yr Arglwydd, deuwch i wared, a chymmerwch hi i fynu attoch chwi.

## PEN. VII.

Dyfodiad yr Arch i Giriath-Iearim. 3 Iſrael wrth gyngor Samuel yn cymmeryd edifeirwch. 11 ac yn gorchfygu y Philiſtiaid, 15 llywodraeth Samuel ar Iſrael.

Ioſua 15.60. YNA gwŷr *Ciriathiearim a ddaethant, ac a gymmeraſant i fynu Arch yr Arglwydd, ac ai dugaſant hi i dŷ Abinadab yn y brynn: ac a ſancteiddiaſant Eleazar ei fab ef i gadw Arch yr Arglwydd.

2 Ac o'r dydd y trigodd yr Arch yn Ciriathiearim y bu ddyddiau lawer, nid amgen vgain mhlynedd a ddarfuant, a holl dŷ Iſrael a alaraſant ar ôl yr Arglwydd.

3 Yna Samuel a leſarodd wrth holl dŷ Iſrael gan ddywedyd: os dychwelwch chwi at yr Arglwydd a'ch holl galon, bwriwch ymmaith dduwiau dieithr o'ch myſc, ac *Aſtaroth: a pharatoiwch eich calon at yr Arglwydd, a *gwaſanaethwch ef yn vnic, ac efe a'ch gwared chwi o law y Philiſtiaid.

Ioſua 24.15.23
Barnwyr 2.13.
Deut.6.4.
Mat.4.10.

4 Am hynny meibion Iſrael a fwriaſant ymmaith *Baalim, ac Aſtaroth: a'r Arglwydd yn vnic a waſanaethaſant hwy. Barnwyr 2.12.

5 Yna y dywedodd Samuel, ymgeſclwch holl Iſrael i Miſpah: ac mi a weddiaf troſoch chwi at yr Arglwydd.

6 A hwy a ymgaſclaſant i Miſpah, ac a dynnaſant ddwfr, ac [ai] tywalltaſant ger bron yr Arglwydd, ac a ymprydiaſant y diwrnod hwnnw, ac a ddywedaſant hefyd yno, pechaſom yn erbyn yr Arglwydd: a Samuel a farnodd feibion Iſrael ym Miſpah.

7 Pan glybu y Philiſtiaid fod meibion Iſrael wedi ymgaſclu i Miſpah, yna pendefigion y Philiſtiaid a aethant i fynu yn erbyn Iſrael: a meibion Iſrael a glywſant, ac a ofnaſant rhag y Philiſtiaid.

8 A meibion Iſrael a ddywedaſant wrth Samuel, na thaw di a gweiddi troſom ni at yr Arglwydd ein Duw, ar iddo ef ein gwared ni o law y Philiſtiaid.

9 Yna y cymmerth Samuel vn llaeth-oen, ac ai hoffrymmodd ef ei gyd yn boeth offrwm i'r Arglwydd, a Samuel a waeddodd ar yr Arglwydd dros Iſrael, a'r Arglwydd ai gwrandawodd ef.

10 Pan oedd Samuel yn offrymmu y poeth offrwm, yna y Philiſtiaid a neſſaſant i ryfel yn erbyn Iſrael, a'r Arglwydd a daranodd a thwrwf mawr yn erbyn y Philiſtiaid y diwrnod hwnnw, ac ai drylliodd hwynt, fel y lladdwyd hwynt o flaen Iſrael.

11 Yna gwŷr Iſrael a aethant o Miſpah, ac a erlidiaſant y Philiſtiaid: ac ai tarawſant hyd oni [ddaethant] tann Bethcar.

12 A chymmerodd Samuel ryw faen, ac ai goſododd rhwng Miſpah a Sen, ac a alwodd ei enw ef Eben-ezer, ac a ddywedodd: hyd yn hyn yr Arglwydd a'n cynnorthwyodd ni.

13 Felly y daroſtyngwyd y Philiſtiaid, ac ni chwanegaſant mwyach ddyfod i derfyn Iſrael: a llaw'r Arglwydd a fu yn erbyn y Philiſtiaid holl ddyddiau Samuel.

14 A'r dinaſoedd y rhai a gymmeraſe y Philiſtiaid oddi ar Iſrael a roddwyd adref i Iſrael, o Acaron hyd Gath: ac Iſrael a ryddhaodd eu terfynau o law y Philiſtiaid: ac yr oedd heddwch rhwng Iſrael a'r Amoriaid.

15 A Samuel a farnodd Iſrael holl ddyddiau ei fywyd.

16 Aeth hefyd o flwyddyn i flwyddyn, ac a amgylchodd, Bethel, a Gilgal, a Miſpah: ac efe a farnodd Iſrael yn yr holl leoedd hynny.

17 Ai ddychwelfa [ydoedd] i Ramah, canys yno [yr oedd] ei dŷ ef, yno hefyd y barnodd efe Iſrael: ac yno 'r adailadodd efe allor i'r Arglwydd.

## PEN. VIII.

Pobl Iſrael (am i feibion Samuel gam arfer eu llywodraeth) yn goſyn brenin.

A Phan heneiddiodd Samuel, yna y goſododd efe ei feibion yn farnwŷr ar Iſrael.

2 A henw ei fab cyntafanedic ef oedd *Ioel, ac enw yr ail Abiah [y rhai hyn oeddynt] farnwŷr yn Beerſeba. 1.Cron.6.28.

3 A'i feibion ni rodiaſant yn ei ffyrdd ef, eithr troaſant ar ôl cybydd-dra, a *chymmeraſant obrwy, a gŵyraſant farn. Deut.16.19.

4 Yna holl henuriaid Iſrael a ymgaſclaſant, ac a ddaethant at Samuel i Ramah,

5 Dywedaſant hefyd wrtho ef, wele ti a heneiddiaiſt, a'th feibion ni rodiaſant yn dy ffyrdd di: *yn awr goſod arnom ni frenin i'n barnu ni megis yr holl genhedloedd [eraill.]

Oſea 13.10.
act.13.21.

6 A'r ymadrodd fu ddrwg gan Samuel, pan ddywedaſant, dyro i ni frenin i'n barnu: a Samuel a weddiodd at yr Arglwydd.

7 A dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, gwrando ar lef y bobl yn yr hyn oll a ddywedāt wrthit: canys nid ti y maent yn ei ddirmygu onid myfi a ddirmygaſant rhag teyrnaſu arnynt.

8 Yn ôl yr holl weithredoedd y rhai a wnaethant o'r dydd y dugum hwynt o'r Aipht hyd y dydd hwn, ac[fel]y gwrthodaſant fi, ac y gwaſanaethaſant dduwiau dieithr: felly y gwnaethant hwy hefyd i ti.

9 Ac yn awr gwrando ar eu llais hwynt, etto gan deſtiolaethu teſtiolaetha iddynt, a dangos iddynt ddull y brenin yr hwn a deyrnaſa arnynt.

10 Felly Samuel a fynegodd holl eiriau'r Arglwydd wrth y bobl y rhai oeddynt yn ceiſio brenin ganddo ef.

11 Ac efe a ddywedodd, dymma ddull y brenin yr hwn a deyrnaſa arnoch chwi: efe a gymmer eich meibion, ac ai geſyd iddo yn ei gerbydau, ac ym myſc ei wŷr meirch, i redeg o flaen ei gerbydau ef:

12 Ac[ai]geſyd[hwynt]iddo yn dywyſogion miloedd, ac yn dywyſogion dec a deugain, ac i aredic ei âr ef, ac i fedi ei gynhaiaf ef, ac i wneuthur arfau ei ryfel ef, a pheiriannau ei gerbydau.

13 A'ch merched a gymmer ef yn Apothecareſau, yn gogeſau hefyd, ac yn bobyddeſau.

14 Efe a gymmer hefyd eich meuſydd a'ch gwinllannoedd, a'ch olew lannoedd goref, ac ai dyru iw weiſion.

15 Eich hadau hefyd, a'ch gwin-llannoedd a ddegymma efe, ac ai dyru iw ſtafellyddion, ac iw weiſion.

16 Eich gweiſion hefyd, a'ch morwynion, eich gwŷr ieuaingc goref hefyd, a'ch aſſynnod, a gymmer efe, ac[ai]geſyd iw waith.

17 Eich defaid hefyd a ddegymma efe, chwitheu hefyd, fyddwch yn weiſion iddo ef.

18 A'r dydd hwnnw y gwaeddwch rhac eich brenin yr hwn a ddewiſaſoch i chwi: ac nid etyb yr Arglwydd chwi yn y dydd hwnnw.

19 Er hynny y bobl a wrthodaſant wrando ar lais Samuel, ac a ddywedaſant, nid [felly:] eithr brenin fydd arnom ni.

20 A byddwn ninnau hefyd fel yr holl genhedloedd [eraill:] a'n brenin a'n barna ni, efe a aiff allan hefyd o'n blaen ni, ac efe a ymladd ein rhyfeloedd ni.

21 A gwrandawodd Samuel holl eiriau y bobl, ac ai hadroddodd hwynt lle y clybu'r Arglwydd.

22 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, gwrando ar eu llef hwynt, a goſot frenin arnynt: a dywedodd Samuel wrth wŷr Iſrael, ewch bob vn iw ddinas ei hun.

## PEN. IX.

Saul wedi methu ganddo gael aſſynnod ei dâd, *6* Yn mynedi i ymofyn a Samuel am danynt hwy. 19 Yn ciniâwa, ac yn lletteu gyda Samuel, ac yn cael argoelion y bydde efe frenin.

Pen.14.51.
.Cron.8.33.

AC yr oedd gŵr cadarn nerthol o Beniamin, ai enw *Cis mab Abiel fab Zeror, fab Becorath, fab Aphiah, mab i wr o Iemini yn gadarn o nerth.

2 Ac iddo ef yr oedd mab ai enw Saul, yn ŵr ieuangc, a thêg, ac nid[oedd] neb o feibion Iſrael degach nag ef: oi yſcwydd i fynu yr oedd yn vwch na'r hollbobl [eraill.]

3 Ac aſſynnod Cis tad Saul a gyfrgollaſent, yna y dywedodd Cis wrth Saul ei fab, cymmer yn awr vn o'r llangciau gyd a thi, a chyfot, dôs, cais yr aſſynnod.

4 Ac efe a aeth trwy fynydd Ephraim, ac a dramwyodd drwy wlâd Saliſa, ac nis cawſant[hwynt,]yna y tramwyaſant trwy wlâd Salim, ac nis [cawſant hwynt,] ac efe a aeth trwy wlâd Iemini, ond nis cawſant[hwynt.]

5 Hwynt a ddaethant i wlâd Zuph, yna y dywedodd Saul wrth ei langc yr hwn[oedd]gyd ag ef, tyret a dychwelwn rhac i'm tad beidio a'r aſſynnod, a gofalu am danom ni.

6 Dywedodd yntef wrtho ef, wele yn awr[y mae] yn y ddinas hon ŵr i Dduw, a'r gŵr [ſydd] anrhydeddus, yr hyn oll a ddywedo efe gan ddyfod a ddaw: awn yno yn awr, nid hwyrach y mynega efe i ni y ffordd yr hon y mae i ni fyned iddi.

7 Yna y dywedodd Saul wrth ei langc, wele od awn ni pa beth a ddygwn ni i'r gŵr? canys y bara a ddarfu yn ein llestri ni, a gobr [arall] nid [oes] iw ddwyn i ŵr Duw: beth [ſydd] gennim?

8 A'r llangc a attebodd eilwaith Saul, ac a ddywedodd: wele cafwyd gyd a mi bedwaredd ran ſicl o arian: ac mi a roddaf [hynny] i ŵr Duw er mynegi i ni ein ffordd.

9 (Gynt yn Iſrael fel hyn y dywede gŵr wrth fyned i ymgynghori a Duw, deuwch, ac awn hyd at y gweledudd: canys y prophwyd heddyw a elwid gynt yn weledudd.)

10 Yna y dywedodd Saul wrth ei langc, da y dywedi, tyret, awn: felly yr aethant i'r ddinas yr hon yr [oedd] gŵr Duw ynddi.

11 Fel yr oeddynt yn myned i riw y ddinas, yna hwy a gawſant llangceſau yn dyfod allan i dynnu dwfr: ac a ddywedaſant wrthynt, a [ydyw]'r gweledudd ymma?

12 Hwytheu ai hattebaſant hwynt, ac a ddywedaſant, ydyw wele[efe] o'ch flaen: bryſia yr awr hon, canys heddyw y daeth efe i'r ddinas, o herwydd aberth[ſydd]heddyw gan y bobl yn yr vchelfa.

13 Pan ddeloch gyntaf i'r ddinas, chwi ai cewch ef cyn myned i fynu i'r vchelfa i fwytta, canys ni fwyttu y bobl hyd oni ddelo efe, o herwydd efe a fendiga yr aberth, ar ôl hynny y bwyttu y rhai a wahoddwyd, am hynny ewch i fynu canys heddyw y cewch ef.

14 Felly'r aethant i fynu i'r ddinas, [pan] ddaethant i ganol y ddinas, wele yna Samuel yn dyfod iw cyfarfod, i fyned i fynu i'r vchelfa.

15 *A'r Arglwydd a fynegaſe yng-hluſt Samuel (vn diwrnod cyn dyfod Saul) gan ddywedyd:

Pen.15.1.
Act.13.21.

16 Yng-hylch y pryd[hyn]y foru'r anfonaf attat ti ŵr o wlad Beniamin, a thi ai heneini ef

yn flaenor ar fy mhobl Iſrael, ac efe a wared fy mhobl o law y Philiſtiaid: canys edrychais ar fy mhobl, o herwydd daeth eu gwaedd attaf.

17 Pan ganfu Samuel Saul, yna 'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, wele y gŵr yr hwn a ddywedais wrthit ti, hwn a lywodraetha ar fy mhobl.

18 Yna Saul a neſſaodd at Samuel yng-hanol y porth, ac a ddywedodd: mynega i mi attolwg pa le ymma [y mae] tŷ y gweledudd?

19 A Samuel a attebodd Saul, ac a ddywedodd, myſi [yw] y gweledudd, dos i fynu o'm blaen i'r vchelfa, a bwyttewch gyd a'm fi heddyw, a mi a'th ollyngaf y boreu, ac mi a fynegaf i ti yr hyn oll a ewyllyſiech di.

20 Ac [am] yr aſſynnod y rhai a gyfrgollaſant gennit er ys tri-dieu, na ofala am danynt, canys cafwyd hwynt: ac i bwy [y mae] holl bethau dymunol Iſrael, onid i ti, ac i holl dŷ dy dad ti?

21 Yna Saul a attebodd ac a ddywedodd, onid mab Iemini [ydwyfi?] o'r lleiaf o lwythau Iſrael? a'm teulu [ſydd] leiaf o holl deuluoedd llwyth Beniamin, a pha ham y dywedaiſt wrthif y modd hyn?

22 A Samuel a gymmerth Saul ai langc, ac ai dûg hwynt i'r ſtafell, ac a roddes iddynt le o flaen y gwahodd-wŷr, a hwynt [oeddynt] yng-hylch deng-wr ar hugain.

23 A Samuel a ddywedodd wrth y côg, dyro y rhan yr hon a roddais attat ti: [ſef] y rhan am yr hō y dywedais wrthit, cadw hon gyd a thi.

24 Yna y cóg a gyfododd yſgwyddoc a'r hyn [oedd] arni, a [Samuel] ai goſodes ger bron Saul, ac a ddywedodd, wele y gweddill, goſot ger dy fron, bwytta, canys erbyn y pryd hyn y cadwyd ef i ti, gan ddywedyd, y bobl a wahoddais i: a bwyttaodd Saul gyd a Samuel y dydd hwnnw.

25 Pan ddeſcynnaſant o'r vchelfa [i'r] ddinas, yna yr ymddiddanodd efe a Saul ar benn y tŷ.

26 A phan gyfodaſant yn foreu yng-hylch codiad y wawr, yna y galwodd Samuel ar Saul ar benn y tŷ gan ddywedyd: cifot fel i'th hebryngwyf ymmaith, yna y cyfododd Saul, ac efe a Samuel a aethant ill dau allan.

27 Hwynt a ddeſcynnaſant i gwrr eithaf y ddinas, yna Samuel a ddywedodd wrth Saul, dywet wrth y llangc am fyned o'n blaen ni, (felly 'r aeth efe) ond ſaf di yr awr hon, a mynegaf i ti air Duw.

## PEN. X.

Samuel yn eneinio Saul yn frenin.

YNa Samuel a gymmerodd phioled o olew, ac ai tywalltodd ar ei ben ef, ac ai cuſanodd ef, ac a ddywedodd: onid yr Arglwydd a'th eneiniodd di yn flaenor ar ei etifeddiaeth ef?

2 Pan elech di heddyw oddi wrthif, yna y cei ddau ŵr wrth * fedd Rahel yn nherfyn Beniamin yn Zalezah, a hwynt a ddywedant wrthit, cafwyd yr aſſynnod y rhai yr aethoſt iw ceiſio, ac wele dy dad a ollyngodd hebio chwedl yr aſſynnod, a gofalu y mae troſoch chwi gan ddywedyd: beth a wnaf am fy mab? Geneſ.35.20.

3 Yna yr ei di ym mhellach oddi yno, ac y deui hyd at waſtatedd Thabor, ac yno i'th gyferfydd try-wŷr yn myned i fynu at Dduw [i] Bethel: vn yn dwyn tri o fynnod, ac vn yn dwyn tair torth o fara, ac vn yn dwyn coſtrêled o wîn.

4 A hwy a'th gyfarchant, ac a roddant i ti ddwy [dorth] o fara, [y rhai] a gymmeri oi llaw hwynt.

5 Yn ôl hynny y deui * i fryn Duw yn yr hwn y mae ſefyllfaoedd y Philiſtiaid: a phan ddelech yno [i'r] ddinas, ti a gyfarfyddi a thyrfa o brophwydi yn deſcyn o'r vchelfa, ac oi blaen hwynt nabal, a thympan, a phibell, a thelyn, a hwythau yn prophwydo. Pen.7.1.

6 Yna yſpryd yr Arglwydd a ddaw arnat ti, fel y prophwydech gyd a hwynt, a thi a droir yn ŵr arall.

7 A phan ddelo yr argoelion hyn i ti, gwna fel y byddo 'r achos, canys Duw [ſydd] gyd a thi.

8 A dos i wared o'm blaen i Gilgal, ac wele mi a ddeuaf i wared attat ti, i offrymmu offrymmau poeth [ac] i aberthu ebyrth hedd: * diſgwil am danaf ſaith niwrnod, hyd oni ddelwyf attat, ac mi a hyſpyſſaf i ti yr hyn a wnelech. Pen.13.8.

9 A phan drôdd efe ei gefn i fyned oddi wrth Samuel, yna Duw a rodd iddo ef galon arall: a'r holl argoelion hynny a ddaethant y dydd hwnnw [i ben.]

10 Pan ddaethant yno at y bryn, wele finteu o brophwydi yn ei gyfarfod ef: yna yſpryd Duw a ddaeth arno yntef, a phrophwydodd yn eu myſc hwynt.

11 A phawb a'r ai hadwaenent ef o'r blaen a edrychaſant, ac wele [efe] gyd a'r prophwydi yn prophwydo: yna y bobl a ddywedaſant bawb wrth ei gilydd, beth yw hyn gan fab Cis? * a [ydyw] Saul hefyd ym myſc y prophwydi? Pen.19.24.

12 Ac vn oddi yno a attebodd, ac a ddywedodd: etto pwy [yw] eu tâd hwy? am hynny yr aeth yn ddihareb, a [ydyw] Saul hefyd ym myſc y prophwydi?

13 Pan orphennodd efe brophwydo, yna y daeth efe i'r vchelfa.

14 Ac ewythr Saul frawd ei dad a ddywedodd wrtho ef, ac wrth ei langc ef, pa le yr aethoch? yna y dywedodd efe, i geiſio 'r aſſynnod, pan welſom nas [ceid,] yna y daethom at Samuel.

15 Ac ewythr Saul a ddywedodd, mynega attolwg i ni beth a ddywedodd Samuel wrthych chwi?

16 Yna y dywedodd Saul wrth ei ewythr, gan fynegu mynegodd i ni fod yr aſſynnod wedi eu cael: ond am chwedl y frenhiniaeth yr hwn a ddywedaſe Samuel, nid yngênodd efe wrtho ef.

17 A Samuel a alwodd y bobl at yr Arglwydd i Miſpah.

18 Ac efe a ddywedodd wrth feibion Iſrael, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, myfi a ddygais i fynu Iſrael o'r Aipht: ac a'ch gwaredais chwi o law 'r Aiphtiaid, ac o law 'r holl deyrnaſoedd y rhai a'ch gorthrymment chwi.

19 Ond chwi heddyw a wrthodaſoch eich Duw yr hwn ſydd yn eich gwared chwi oddi wrth eich holl ddrwg-fyd, a'ch helbul, ac a ddywedaſoch wrtho ef *[nid felly,] eithr goſot arnom ni frenin: am hynny ſefwch yr awr hon ger bron yr Arglwydd yn ôl eich llwythau, ac yn ôl eich miloedd. Sam.8.19.

20 Yna Samuel a barodd i holl lwythau Iſrael neſſau, ac fe a ddaliwyd llwyth Beniamin.

21 Pan barodd efe i lwyth Beniamin neſſau yn ôl eu teuluoedd, yna y daliwyd teulu Mathri, felly Saul mab Cis a ddaliwyd, a phan geiſiaſant ef nis caed ef.

22 Am hynny y gofynnaſant eil-waith i'r Arglwydd, a ddaethe 'r gŵr yno etto? a'r Arglwydd a ddywedodd, wele efe yn ymguddio ym mhlith y dodrefn.

23 Yna y rhedaſant, ac y cymmeraſant ef oddi yno, ac efe a ſafodd yng-hanol y bobl: ac yr oedd efe oi yſcwydd i fynu yn uwch na'r holl bobl.

24 Yna y dywedodd Samuel wrth yr holl bobl, oni welſoch chwi yr hwn a ddewiſodd yr Arglwydd, nad [oes neb] megis ef ym myſc y bobl? a'r holl bobl a floeddiaſant, ac a ddywedaſant, byw fyddo 'r brenin.

25 Yna Samuel a draethodd *gyfraith y deyrnas wrth y bobl, ac ai ſcrifennodd mewn llyfr, ac ai goſododd ger bron yr Arglwydd, a Samuel a ollyngodd ymmaith yr holl bobl bob un iw dŷ. Deut.17.15.

26 A Saul hefyd a aeth iw dŷ ei hun i Gibea: a llû o'r rhai y cyffyrddaſe Duw ai calon a aethant gyd ag ef.

27 Ond meibion y fall a ddywedaſant, pa fodd y gwared hwn ni? felly y dirmygaſant ef, ac ni ddugaſant anrheg iddo ef: eithr ni chymmerodd efe arno glywed hyn.

## PEN. XI.

Nahas yn rhefela yn erbyn Iabes, 11 A Saul yn ei orchfygu ef.

YNa Nahas yr Ammoniad a ddaeth i fynu, ac a werſyllodd yn erbyn Iabes Gilead: a holl wŷr Iabes a ddywedaſant wrth Nahas, gwna gyfāmod a ni, ac ni a'th waſanaethwn di.

2 A Nahas yr Ammoniad a ddywedodd wrthynt, yn hyn y cyfammodaf a chwi, drwy dynnu ymmaith bob llygad deheu i chwi, fel y goſodwyf y gwradwydd hyn ar holl Iſrael.

3 Yna henuriaid Iabes a ddywedaſant wrtho, paid â ni ſaith niwrnod, fel yr anfonom gennadau i holl derfynau Iſrael, ac oni [bydd] a'n gwaredo, yna y deuwn allan attat ti.

4 A'r cennadau a ddaethant i Gibea Saul, ac a adroddaſant y geiriau lle y clybu y bobl: a'r holl bobl a dderchafaſant eu llef, ac a ŵylaſant.

5 Ac wele Saul yn dyfod ar ôl y gwartheg o'r maes, yna y dywedodd Saul beth ſydd yn peri i'r bobl ŵylo? yna yr adroddaſant iddo eiriau gwŷr Iabes.

6 Yna yſpryd Duw a ddaeth ar Saul pan glybu efe y geiriau hynny: ai ddigofaint ef a enynnodd yn ddirfawr.

7 Ac efe a gymmerth iau o ŷchen, ac ai drylliodd, ac [ai] danfonodd drwy holl derfynau Iſrael yn llaw y cennadau gan ddywedyd: yr hwn nid elo ar ôl Saul, ac ar ôl Samuel fel hyn y gwneir iw wartheg ef: ac ofn yr Arglwydd a ſyrthiodd ar y bobl, ac hwy a aethant allan yn gytûn.

8 Pan gyfrifodd efe hwynt yn Bezec, yna meibion Iſrael oeddynt dry-chan mil, a gwŷr Iuda yn ddeng-mil ar hugain.

9 Yna y dywedaſant wrth y cennadau a ddaethent, fel hyn y dywedwch wrth wŷr Iabes Gilead, y foru erbyn gwreſſogi 'r haul y bydd i chwi ymwared: felly y cennadau a ddaethant, ac a fynegaſant [hynny] i wŷr Iabes, a hwytheu a llawenychaſant.

10 Am hynny gwŷr Iabes a ddywedaſant, y foru y deuwn allan attoch chwi, ac y gwnewch i ni, yn ôl [yr hyn] oll a weloch yn dda.

11 Yna y daeth Saul drannoeth, ac a oſododd y bobl yn dair byddin, a hwy a ddaethant i ganol y gwerſyll yn y wiliadwriaeth foreu, ac a darawſant yr Ammoniaid nes gwreſſogi o'r dydd: a'r gweddillion yna a waſcarwyd fel na thrigodd o honynt ddau yng-hyd.

12 Yna y dywedodd y bobl wrth Samuel, pwy ſy yn dywedyd, a deyrnaſa Saul arnom ni? rhoddwch y gwŷr hynny fel y rhoddom hwynt i farwolaeth.

13 A Saul a ddywedodd, na rodder neb i farwolaeth heddyw: canys heddyw y gwnaeth yr Arglwydd ymwared yn Iſrael.

14 Yna Samuel a ddywedodd wrth y bobl, deuwch fel yr elom i Gilgal, ac yr adnewyddom y frenhiniaeth yno.

15 Felly 'r holl bobl a aethant i Gilgal, ac yno y goſodaſant Saul yn frenin ger bron yr Arglwydd yn Gilgal, a hwy a aberthaſant yno ebyrth hedd ger bron yr Arglwydd: am hynny Saul a lawenychodd yno, a holl wŷr Iſrael yn ddirfawr.

## PEN. XII.

Samuel yn dangos ei ddiniweidra'ei hun, ac aniolchgarwch y bobl, 23 yn gweddio troſtynt, ac yn eu cynghori.

YNA Samuel a ddywedodd wrth holl Iſrael, wele gwrandewais ar eich llef yn yr hyn oll a ddywedaſoch wrthif: a goſodais frenin arnoch.

2 Ac yr awr hon wele y brenin yn rhodio o'ch blaen chwi, a minne a heneiddiais, ac a ben-

nwynnais, ac wele fy meibion hwythau gyd a chwi: minne hefyd a rodiais o'ch blaen chwi o'm mebyd hyd y dydd hwn.

Ecclcſiaſt.46.19.

3 Wele fi: *teſtiolaethwch i'm herbyn ger bron yr Arglwydd, a cher bron ei eneiniog, ŷch pwy a gymmerais, neu aſſyn pwy a gymmerais, neu pwy a orthrymmais i, pwy a friwais, neu o law pwy y cymmerais obrwy, fel y dallwn i fy llygaid ag ef, ac mi ai talaf i chwi:

4 Yna y dywedaſant hwy, ni orthrymmaiſt ni, ni friwaiſt ni ychwaith, ac ni chymmeraiſt ddim o law neb.

5 Dywedodd yntef wrthynt, yr Arglwydd [ſydd] dyſt 'n eich erbyn chwi, ei eneiniog ef hefyd [ſydd] dŷſt y dydd hwn, na chawſoch ddim yn fy llaw i: a'r [bobl] a ddywedaſant tŷſt [ydynt hwy.]

6 Dywedodd Samuel hefyd wrth y bobl: yr Arglwydd [ſydd dŷſt] yr hwn a fawrhaodd Moſes, ac Aaron, a'r hwn a ddûg i fynu eich tadau chwi o dir yr Aipht.

7 Ac yn awr ſefwch fel yr ymreſymmwyf a chwi, ger bron yr Arglwydd: am holl gyfiawnderau yr Arglwydd y rhai a wnaeth efe i chwi, ac i'ch tadau.

Geneſ.46.5 6.

Exod.4.16.

8 *Wedi i Iacob ddyfod i'r Aipht, a gweiddi o'ch tadau chwi ar yr Arglwydd, yna yr Arglwydd a *anfonodd Moſes, ac Aaron, a hwynt a ddugaſant eich tadau chwi o'r Aipht, ac ai cyfleuaſant hwy yn y lle hwn.

Barn-wyr 4.2.

9 * Yna 'r anghofiaſant yr Arglwydd eu Duw, ac efe ai gwerthodd hwynt i law Siſera tywyſog milwriaeth Hazor, ac i law y Philiſtiaid, ac i law brenin Moab, ac hwy a ymladdaſant iw herbyn hwynt.

10 Yna y gwaeddaſant hwy ar yr Arglwydd, ac y dywedaſant, pechaſom, canys gwrthodaſom yr Arglwydd, a gwaſanaethaſom Baalim, ac Aſtaroth, er hynny gwaret ni yr awr hon o law ein gelynion, fel y gwaſanaethom di:

11 A'r Arglwydd a anfonodd Ierubbaal, a Bedan, Iephthah hefyd, a Samuel, ac a'ch gwaredodd o law eich gelynion o amgylch, a chwi a breſſwyliaſoch yn ddiogel.

12 Er hynny pan welſoch ddyfod Nahas brenin meibion Ammon yn eich erbyn, yna y dywedaſoch wrthif, nage: onid brenin a deyrnaſa arnom ni, er [bod] yr Arglwydd eich Duw yn frenin [i] chwi.

13 Ac yn awr wele 'r brenin yr hwn a ddewiſaſoch chwi[a] 'r hwn a geiſiaſoch: wele gan hynny 'r Arglwydd a roddes frenin arnoch chwi

14 Os ofnwch chwi yr Arglwydd, ai waſanaethu ef, a gwrando ar ei lais ef, heb anufyddhau o honoch air yr Arglwydd, eithr bod o honoch chwi, a'r brenin hefyd yr hwn a deyrnaſa arnoch ar ôl yr Arglwydd eich Duw [yna y parhewch.]

15 Ond os chwi ni wrandewch ar lais yr Arglwydd, eithr annufyddhau gair yr Arglwydd: yna y bydd llaw 'r Arglwydd yn eich erbyn chwi, fel yn erbyn eich tadau.

16 Sefwch hefyd yn awr, a gwelwch y peth mawr hyn, yr hwn a wnaiff 'r Arglwydd o flaen eich llygaid chwi.

17 Onid cynhaiaf gwenith [yw] heddyw? galwaf ar yr Arglwydd, ac efe a ddyry daranau, a glaw: yna gwybyddwch a gwelwch, mai mawr [yw] eich drygioni chwi, yr hwn a wnaethoch yng-olwg yr Arglwydd, am geiſio i chwi frenin.

18 Felly y galwodd Samuel ar yr Arglwydd, a'r Arglwydd a roddes darânau, a glaw y dydd hwnnw: fel yr ofnodd yr holl bobl yr Arglwydd, a Samuel yn ddirfawr.

19 A'r holl bobl a ddywedaſant wrth Samuel, gweddia tros dy weiſion at yr Arglwydd dy Dduw, fel na byddom feirw: canys chwanegaſom ddrygioni ar ein holl bechodau wrth geiſio i ni frenin.

20 Yna y dywedodd Samuel wrth y bobl, nac ofnwch, (chwi a wnaethoch yr holl ddrygioni hyn: etto na chiliwch oddi ar ôl yr Arglwydd, onid gwaſanaethwch yr Arglwydd a'ch holl galon.

21 (Ie na chiliwch, canys [felly 'r aech] ar ôl oferedd y rhai ni leſânt, ac ni'ch gwaredant canys oferedd [ydynt] hwy.)

22 Canys ni wrthyd yr Arglwydd ei bobl er mwyn ei enw mawr ef: o herwydd yr Arglwydd a ewyllyſiodd eich gwneuthur chwi yn bobl iddo ef ei hun.

23 Minne hefyd, na atto Duw i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd, a pheidio a gweddio troſſoch: eithr dyſcaf chwi yn y ffordd dda ac inion.

24 Er hynny ofnwch yr Arglwydd, a gwaſanaethwch ef mewn gwirionedd a'ch holl galon, canys gwelwch mor fawredic y gwnaeth a chwi.

25 Ond os dilynwch ddrygioni, chwi hefyd a'ch brenin a ddifethir.

## PEN. XIII.

Samuel yn dangos i Saul y colle efe ei frenhiniaeth am ei ryfyg yn aberthu.

VVEdi teyrnaſu o Saul un flwyddyn (canys dwy flynedd y teyrnaſodd efe ar Iſrael.)

2 Yna Saul a ddewiſodd iddo dair mil o Iſrael, a dwy fil oeddynt gyd a Saul ym Micmas, ac ym mynydd Bethel: a mîl oeddynt gyd ag Ionathan yn Gibea Beniamin: a gweddill y bobl a anfonodd efe, bawb iw babell ei hun.

3 Ac Ionathan a darawodd ſefyllfa y Philiſtiaid yr hon [oedd yn Geba, a chlybu y Philiſtiaid [hynny:] a Saul a ganodd mewn udcorn drwy 'r holl dir gan ddywedyd: clywed yr Hebræaid.

4 A holl Iſrael a glywſant ddywedyd, daro o Saul ſefyllfa y Philiſtiaid, am hynny Iſrael a ffieiddiwyd ym myſc y Philiſtiaid: a'r bobl a ymgaſclodd ar ôl Saul i Gilgal.

5 A'r Philiſtiaid a ymgynnullaſant i ymladd ag Iſrael, [ſef] deng-mil ar hugain o gerbydau, a chwe mil o wŷr meirch a phobl [eraill] cyn amled a'r tywod yr hwn [ſydd] ar fin y môr: ac hwy a ddaethant i fynu, ac a werſſyllaſant ym Micmas o du'r dwyrain i Bethafen.

6 Pan welodd gwŷr Iſrael fod yn gyfyng arnynt (canys gwaſcaſyd ar y bobl:) yna y bobl a ymguddiaſant mewn ogfeudd, ac mewn amddeffynfeudd, ac mewn creigiau, ac mewn tŷrau, ac mewn pydewau.

7 A [rhai o'r] Hebreaid a aethant tros yr Iorddonen i dir Gad, a Gilead: a Saul [oedd] etto yn Gilgal, a'r holl bobl yn ddychrynedic a aethant ar ei ôl ef.

8 Ac efe a ddiſgwiliodd ſaith niwrnod hyd yr amſer terfynedic yr hwn [a ddywedaſe] Samuel, ond ni ddaeth Samuel i Gilgal: am hynny y gwaſcarodd y bobl oddi wrtho ef.

9 Yna y dywedodd Saul, dygwch attafi boeth offrwm, ac offrwm hedd, ac efe a offrymmodd boeth offrwm.

10 A phan orphennodd efe offrymmu y poeth offrwm, yna wele Samuel a ddaeth: a Saul a aeth allan iw gyfarfod ef [ac] iw gyfarch ef.

11 Yna y dywedodd Samuel, beth a wnaethoſt ti, a Saul a ddywedodd, o herwydd gweled o honof i'r bobl waſcaru oddi wrthif, ac na ddaethoſt tithe erbyn y dyddiau terfynedic, a'r Philiſtiaid ymgaſclu i Micmas:

12 Am hynny y dywedais, y Philiſtiaid yn awr a ddeuant i wared attafi i Gilgal, ac ni weddiais ger bron yr Arglwydd, am hynny 'r anturiais i, ac yr offrymmais boeth offrwm.

13 A Samuel a ddywedodd wrth Saul, ynfyd y gwnaethoſt, ni chedwaiſt orchymyn yr Arglwydd dy Dduw yr hwn a orchymynnodd efe i ti: canys yr Arglwydd yn awr a gadarnhaſe dy frenhiniaeth di ar Iſrael hyd yn dragywydd.

14 Ond yn awr ni ſaif dy frenhiniaeth di, yr Arglwydd a geiſiodd iddo ŵr wrth [fodd] ei galon ei hun, yr Arglwydd hefyd ai hordeiniodd ef yn flaenor ar ei bobl, o herwydd na chedwaiſt di yr hyn a orchymynnodd yr Arglwydd i ti.

15 Yna y cyfododd Samuel, ac yr aeth i fynu o Gilgal i Gibea Beniamin: a chyfrifodd Saul y bobl a gafwyd gyd ag ef yng-hylch chwechant o wŷr.

16 Canys Saul ac Ionathan ei fab, a'r bobl y rhai a gafwyd gyd a hwynt oeddynt yn aros yn Gibea Beniamin: a'r Philiſtiaid a werſſyllaſant ym Micmas.

17 Yna yr aeth allan o werſyll y Philiſtiaid anrhaith-wŷr, a thair byddin, un fyddin a drodd tua ffordd Ophrah, tua gwlad Sual.

18 A'r fyddin arall a drodd [tua] ffordd Beth-horon, a'r drydedd fyddin a drodd [tua] ffordd y terfyn ſy'n edrych tua dyffryn Zeboim tua'r anialwch.

19 Ac ni cheid gôf drwy holl wlâd Iſrael, canys dywedaſe y Philiſtiaid [gwiliwn] rhac gwneuthur o'r Hebreaid gleddyf neu waiwffon.

20 Yna holl Iſrael a aent i wared at y Philiſtiaid i flaen-llymmu bob un ei gwlltwr, ai gaib, ei fwyall hefyd, ai chwynnogl.

21 Ond yr oedd llif-ddur [i wneuthur] minau i'r cwlltrau, ac i'r ceibiau, i'r pig-ffyrch hefyd, ac i'r bwyill, ac i flaenllymmu y ſymbylau.

22 Felly yn nydd y rhyfel ni chaed yna na chleddyf, nag waiw-ffon yn llaw nêb o'r bobl y rhai [oeddynt] gyd a Saul, a chyd ag Ionathan: ond [yr hyn] a gaed gyd a Saul, ac Ionathan ei fâb ef.

23 A ſefyllfa y Philiſtiaid a aeth allan i fwlch Micmas.

## PEN. XIIII.

Ionathan ai eſwein ef (yr hwn a oedd yn dwyn ei arfau ef) yn taro y Philiſtiaid.

A Bu ddyddwaith i Ionathan fab Saul ddywedyd wrth y llangc a oedd yn cludo ei arfau ef, tyret, ac awn trosodd at ſefyllfa y Philiſtiaid yr hon [ſydd] o'r tu accw: ond ni fynegodd efe iw dâd.

2 A Saul a arhoſodd yng-hwrr Gibea tann [bren] pomgranad yr hwn [oedd] ym Migron: a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef [oeddynt] yng-hylch chwe chan-wr.

3 Ac Ahia mab Ahitob brawd *Ichabod fab Phinees fab Eli offeiriad yr Arglwydd yn Silo oedd yn dwyn yr Ephod: ond ni wyddei y bobl i Ionathan fyned ymmaith. Pen.4.21.

4 A rhwng y bylchau lle ceiſiodd Ionathan fyned trosodd at ſefyllfa y Philiſtiaid [yr oedd] yſcithredd y graig o'r naill du i'r bwlch, ac yſcithredd y graig o'r tu arall i'r bwlch: ac enw y naill [oedd] Bozez, ac enw y llall Seneh.

5 A ſafiad y naill yſcithredd [oedd] oddi wrth y gogledd tua Micmas, a'r llall oddi wrth y dehau tua Gibea.

6 Yna y dywedodd Ionathan wrth y llangc yr hwn oedd yn dwyn ei arfau ef, tyret, ac awn trosodd at ſefyllfa y rhai dienwaededic hyn, ond odid fe a weithia'r Arglwydd gyd a ni: canys nid [oes] rhwyſtr i'r Arglwydd *waredu drwy lawer neu drwy ychydig. 2.Cron.14.11.

7 A chludydd ei arfau ef a ddywedodd wrtho ef, gwna'r hyn oll [ſydd] yn dy galon: cerdda rhagot, wele fi gyd a thi fel y mynnech.

8 Yna y dywedodd Ionathan wele pan elom ni trosodd at y gwŷr [hynn] ac ymddangos iddynt,

9 Os dywedant fel hyn wrthym, arhoſwch nes i ni ddyfod attoch chwi: yna y ſafwn yn ein lle, ac nid awn i fynu attynt hwy.

10 Ond os fel hyn y dywedant, deuwch i fynu attom ni, yna 'r awn i fynu, canys yr *Arglwydd ai rhoddes hwynt yn ein llaw ni: a hyn [fydd] yn argoel i ni. Maca.4.30.

11 Felly 'r ymddangoſaſant ill dau i ſefyllfa y Philiſtiaid, yna y Philiſtiaid a ddywe-

daſant wele 'r Hebreaid yn dyfod allan o'r tyllau y rhai y llechaſant ynddynt.

12 A gwŷr y ſefyllfa a attebaſant Jonathan, a chludydd ei arfau ef, ac a ddywedaſant: deuwch i fynu attom ni fel yr yſpyſom beth i chwi: yna y dywedodd Jonathan wrth gludydd ei arfau, tyret i fynu ar fy ôl, canys yr Arglwydd ai rhoddes hwynt yn llaw Iſrael.

13 Felly Jonathan a aeth i fynu ar ei ddwylo, ac ar ei draed, a chludydd ei arfau ar ei ôl ef, a hwy a ſyrthiaſant o flaen Jonathan: ei eſwyn hefyd oedd yn lladd ar ei ôl ef.

14 A [hon] oedd y blâ gyntaf [yn] yr hon y tarawodd Jonathan a chludydd ei arfau ynghylch vgain-wr: megis o fewn ynghylch hanner cyfer dau [ychen] o dir.

15 A bu fraw yn y gwerſſyll, yn y maes, ac ym myſc yr holl bobl, y rhai a aethent o'r ſefyllfa i anrheithio: hwythau hefyd a ddychrynnaſāt: y ddaiar hefyd a grynnodd am ei bod [wedi ei charo] a dychryn Duw.

16 Yna diſgwil-wŷr Saul yn Gibea Beniamin a edrychaſant, ac wele y dyrfa a waſcarodd, ac a aeth, a [hynny] dan ymguro.

17 Am hynny y dywedodd Saul wrth y bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef: cyfrifwch yn awr, ac edrychwch pwy a aeth oddi wrthym ni: pan gyfrifaſant, yna wele Jonathan a chludydd ei arfau nid [oeddynt yno.]

18 Yna y dywedodd Saul wrth Ahiah, dwg ymma Arch Duw: canys yr oedd Arch Duw y pryd hynny gyd a meibion Iſrael.

19 A thra yr ydoedd Saul yn ymddiddan a'r offeiriad, yna y terfyſc yr hwn [oedd] yngwerſſyll y Philiſtiaid gan fyned a aeth, ac a amlhaodd, am hynny y dywedodd Saul wrth yr offeiriad, tynn attat dy law.

20 Yna yr ymgynhullodd Saul, a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a ddaethant
2.Cron.2.23. i'r rhyfel: ac wele gleddyf pob vn yn erbyn ei gyfneſaf [a] diniſtr mawr odieth [oedd yno.]

21 Yr Hebreaid hefyd [y rhai] oeddynt gyd a'r Philiſtiaid o'r blaen, y rhai a aethent i fynu gyd a hwynt i'r gwerſſyll oddi amgylch: îe hwyntwy hefyd [a droaſant] i fod gyd a'r Iſraeliaid y rhai [oeddynt] gyd a Saul ac Jonathan.

22 A holl wŷr Iſrael y rhai oeddynt yn llechu ym mynydd Ephraim a glywſant ffoi o'r Philiſtiaid: a hwy ai herlydiaſant hefyd oi hôl yn y rhyfel.

23 Felly yr achubodd yr Arglwydd Iſrael y dydd hwnnw, a'r rhyfel a aeth tros Beth-afen.

24 A gwŷr Iſrael oeddynt wedi eu gorthrymmu [gan newyn] y dydd hwnnw, o herwydd tynghedaſe Saul y bobl gan ddywedyd, melldigedic [fyddo] y gŵr yr hwn a fwyttao fwyd hyd yr hwyr, fel y dialwyf ar fyng-elynion: felly nid archwaithodd yr vn o'r bobl [ddim] bwyd.

25 Yna yr holl wlâd a ddaethant i goed, lle'r oedd mêl ar hyd wyneb y tîr.

26 Er dyfod y bobl i'r coed, ie wele [lle'r oedd] mêl yn diferu: etto ni chododd [vn] law at ei enau, canys ofnaſe y bobl y llw.

27 Ond Jonathan ni chlywſe pan dynghedaſe ei dad ef y bobl, am hynny yr eſtynnodd efe flaen y wialen yr hon [oedd] yn ei law ef, ac ai gwlychodd yn nil y mêl: ac a drôd ei law at ei enau, ai lygaid a oleuaſant.

28 Yna vn o'r bobl a fynegodd, ac a ddywedodd, gan dyngu y tyngodd dy dad ti y bobl gan ddywedyd: melldigedic [fyddo] 'r gŵr yr hwn a fwyttu fwyd heddyw: a'r bobl oedd ddeffygiol.

29 Yna y dywedodd Jonathan, fy nhâd a flinodd y wlâd heddyw, gwelwch yn awr fel y goleuodd fy llygaid o herwydd i mi archwaethu ychydig o'r mêl hwn.

30 Pa faint mwy, pe bwyttaſe 'r bobl heddyw o anrhaith eu gelynion, yr hon a gawſant hwy, oni buaſe yn awr fwy y diniſtr ym myſc y Philiſtiaid?

31 A hwy a darawſant ar y Philiſtiaid y dydd hwnnw o Micmas [hyd] Aialon: a'r bobl a lwyr ddeffygiodd.

32 A dychwelodd y bobl at yr anrhaith, ac a gymmeraſant y defaid, a'r gwartheg, a'r lloi, ac ai lladdaſant ar y ddaiar: a'r bobl a fwyttaodd *gyd a'r gwaed.

33 Pan fynegaſant hwy i Saul gan ddywedyd, wele y bobl fy'n pechu yn erbyn yr Arglwydd gan fwytta yng-hyd a'r gwaed: yna efe a ddywedodd, troſeddaſoch, treiglwch attafi heddyw faen mawr.

34 Dywedodd Saul hefyd, ymwaſcerwch ym-myſc y bobl, a dywedwch wrthynt, dygwch attafi bob vn ei ŷch, a phob vn ei lwdn dafad, a lleddwch [hwynt] ymma, fel y bwyttaoch, ac na phechoch yn erbyn yr Arglwydd, gan fwytta yng-hyd a'r gwaed: a'r bobl oll a ddugaſant bob vn ei ŷch yn ei law y noſwaith honno, ac ai lladdaſant yno.

35 Yna 'r adailadodd Saul, allor i'r Arglwydd: hon a ddechreuodd efe [ei] hadailadu yn allor i'r Arglwydd.

36 A dywedodd Saul, awn i waered ar ôl y Philiſtiaid liw nôs, ac yſclyfaethwn oddi arnynt hyd oni oleuo 'r borau, ac na ollyngwn ymmaith vn o honynt, hwythau a ddywedaſant gwna yr hyn oll [fyddo] da yn dy olwg: yna y dywedodd yr offeiriad, neſſawn ymma at Dduw.

37 Yna y gofynnodd Saul i Dduw, a âfi i waered ar ôl y Philiſtiaid? a roddi di hwynt yn llaw Iſrael? ond nid attebodd efe y dydd hwnnw

38 Yna y dywedodd Saul, dynneſſwch ymma holl bennaethiaid y bobl: mynnwch wybod Barn.20.2.
hefyd, ac edrychwch ym mhwy y mae y pechod hwn heddyw.

39 Canys [megis] mai byw yr Arglwydd yr hwn ſydd yn gwaredu Iſrael, pe bydde hyn yn Jonathan fy mab, diau y llwyr roddid ef i

farwolaeth: ac nid attebodd [ neb ] o'r holl bobl ef.

40 Dywedodd efe hefyd wrth holl Iſrael, chwi a fyddwch ar y naill du, minne hefyd, ac Ionathan fy mab fyddwn ar y tu arall: a dywedodd y bobl wrth Saul, gwna [ a fyddo ] dâ yn dy olwg.

41 Yna y dywedodd Saul wrth Arglwydd Dduw Iſrael, dod oleufyneg: a daliwyd Ionathan, a Saul, ond y bobl a aethant allan.

42 Dywedodd Saul hefyd, bwriwch [goelbren] rhyngofi, ac Ionathan fy mab: a daliwyd Ionathan.

43 Yna y dywedodd Saul wrth Ionathan, mynega i mi beth a wnaethoſt, ac Ionathan a fynegodd iddo ef, ac a ddywedodd: gan archwaithu yr archwaithais ychydig o fêl ar flaen y wialen yr hon[oedd]yn fy llaw, wele fi, a fyddafi farw?

44 Dywedodd Saul hefyd, felly gwneled Duw[imi]ac felly y chwaneged, onid gan farw y byddi di farw Ionathan.

45 Yna y dywedodd y bobl wrth Saul, a leddir Ionathan yr hwn a wnaeth yr ymwared mawr hyn yn Iſrael? na atto Duw:[nid]byw yr Arglwydd o ſyrth[un]o wallt ei benn ef i'r ddaiar, canys gyd a Duw y gweithiodd efe heddyw: a'r bobl a waredâſant Ionathan, fel na laddwyd ef.

46 A Saul a ddaeth i fynu oddi ar ôl y Philiſtiaid, a'r Philiſtiaid a aethant iw llê eu hun.

47 Felly y cynhaliodd Saul y frenhiniaeth ar Iſrael, ac yr ymladdodd oddi amgylch yn erbyn meibion Ammon, ac yn erbyn Edom, yn erbyn brenhinoedd Zobah hefyd, ac yn erbyn y Philiſtiaid, ac yn erbyn pwy bynnac yr ŵynebodd, efe ai gorchfygodd[hwynt.]

48 Cynnullodd lû hefyd a tharawodd Amalec, ac a waredodd Iſrael o law ei anrheithudd.

49 A meibion Saul oeddynt Ionathan, a Ieſſui, a Malchuſiah: dymma henwau ei ddwy ferched ef, enw yr hynaf[oedd]Merab, ac enw yr ieuangaf Michol.

50 Ac enw gwraig Saul[oedd]Ahinoam merch Ahimaaz: ac enw tywyſog ei filwriaeth ef[oedd]Abner mâb Nêr, ewythr frawd ei dad i Saul.

51 Cis hefyd[oedd]dad Saul: a Nêr tad Abner[oedd]fab Abiel.

52 A bu ryfel caled yn erbyn y Philiſtiaid holl ddyddiau Saul: a Saul a wele bôb gŵr glew, a phôb mab nerthol, ac ai cymmere atto ei hun.

## PEN. XV.

Saul yn erbyn gorchymyn yr Arglwydd yn arbed Agag a'r anifeiliaid teccaf o'r eiddo yr Amaleciaid. 19 A Samuel yn ei geryddu ef am hynny.

Pen.9.16.

YNa y dywedodd Samuel wrth Saul, * yr Arglwydd a'm hanfonodd i i'th eneinio di yn frenin ar ei bobl,[ſef] ar Iſrael: ac yn awr gwrando ar lais geiriau yr Arglwydd.

2 Fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, côfiais yr hyn a wnaeth Amalec i Iſrael, y modd y goſododd efe iw erbyn ar y ffordd, pan ddaeth efe i fynu o'r Aipht.

Exod.17.14, num.24.20.

3 Dôs yn awr a tharo Amalec, a diniſtria yr hyn oll [ ſydd ] ganddo, ac nac eiriach ef: ond lladd[hwynt] yn ŵr, ac yn wraig, yn ddyn-bach, ac yn blentyn ſugno, yn ŷch, ac yn oen, yn gâmel ac yn aſſyn.

4 Yna Saul a gynhullodd y bobl, ac ai cyfrifodd hwynt yn Telaim yn ddau cant mil o wŷr traed, ac yn ddeng-mil o wŷr Iuda.

5 A Saul a ddaeth hyd ddinas i Amalec, ac a gynllwynodd yn yr afon.

6 Dywedodd Saul hefyd wrth y Ceneaid, cerddwch, ciliwch, ewch i wared o fyſc yr Amaleciaid, rhac i mi eich deſtruwio chwi gyd a hwynt, o herwydd ti a wnaethoſt drugaredd a holl feibion Iſrael, pan ddaethant i fynu o'r Aipht: a'r Ceneiaid a ymadawſant o fyſc yr Amaleciaid.

7 Felly Saul a darawodd yr Amaleciaid o Hafila[ffordd] y delech di i Sur, yr hon[ſydd] ar gyfer yr Aipht.

8 Ac a ddaliodd Agag brenin yr Amaleciaid yn fyw: ac efe a laddodd yr holl bobl a mîn y cleddyf.

9 Ond Saul a'r bobl a arbedaſant Agag, a'r defaid goref, a'r ŷchen, a'r[gwarthec] breiſion, a'r ŵyn, a'r hyn oll a [ydoedd] ddâ, ac ni fynnent eu deſtruwio hwynt: a phôb peth gwâel, a ſalw, hwnnw a ddifrodaſant hwy.

10 Yna y bu gair yr Arglwydd wrth Samuel gan ddywedyd:

11 Edifar yw gennif oſod Saul yn frenin, canys efe a ddychwelodd oddi ar fy ôl i, ac ni chyflawnodd fyng-eiriau i: yna y cyffrôdd Samuel, ac a lefodd ar yr Arglwydd ar hŷd y nôs.

12 Yna y cyfododd Samuel yn foreu i gyfarfod Saul: a mynegwyd i Samuel gan ddywedydd, daeth Saul i Garmel, ac wele, efe a oſododd iddo lê, efe a amgylchodd hefyd, ac a drammwyodd, ac a aeth i wared i Gilgal.

13 A Samuel a ddaeth at Saul, a Saul a ddywedodd wrtho ef, bendigedic[fyddech]di i'r Arglwydd, mi a gyflawnais air yr Arglwydd.

14 Yna y ddywedodd Samuel, beth yntef [yw]brefiad y defaid hyn[ſy]yn fyng-hluſtiau, i? a beichiad y gwarthec, yr hwn yr ydwyfi yn ei glywed?

15 A Saul a ddywedodd, oddi ar yr Amaleciaid y dugaſant hwy, canys y bobl a arbedodd y defaid goref, a'r ŷchen i aberthu i'r Arglwydd dy Dduw: a'r rhan arall a ddifrodaſom ni.

16 Yna y dywedodd Samuel wrth Saul, bydd fodlon, a mi a fynegaf i ti yr hyn a lefarodd yr Arglwydd wrthifi neithwyr: yntef a ddywedodd wrtho ef llefara.

17 A Samuel a ddywedodd, ond pan [ oeddit]ti yn fychan yn dy olwg dy hun [ y gwnaed]ti yn benn [ ar ] deuluoedd Iſrael? ac yr

eneiniodd yr Arglwydd di yn frenin ar Iſrael:

18 Ac yr anfonodd yr Arglwydd di i daith, ac y dywedodd wrthit, dos a difroda y pechaduriaid hynny, ſef yr Amaleciaid, ac ymladd iw herbyn nes it eu difa hwynt:

19 Paham gan hynny na wrandewaiſt ar lais yr Arglwydd: eithr troaiſt at yr anrhaith, a gwnaethoſt ddrwg yng-olwg yr Arglwydd:

20 A Saul a ddywedodd wrth Samuel, yn wîr mi a wrandêwais ar lais yr Arglwydd, ac a rodiais yn y ffordd yr hon i'm anfonodd yr Arglwydd [iddi,] a dugum Agag brenin Amalec, ac mi a ddifrodais yr Amaleciaid.

21 Ond y bobl a gymmerth o'r yſpail, y defaid, a'r gwarthec [ſef] blaenion y ddifrodaeth i aberthu i'r Arglwydd dy Dduw yn Gilgal.

22 A Samuel a ddywedodd: a [yw] ewyllys yr Arglwydd ar boeth offrymmau, ne ebyrth, megis ar wrando ei air ef: wele *gwrando ſydd well nac aberth, ac vfyddhau na braſder hyrddod.

Eccleſi.4.17.
oſe.6.7.
math.9.19.

23 Canys anufydd-dod [ſydd fel] pechod dewiniaeth, a throſeddiad [ſydd] anwiredd, a delw-addoliaeth: o herwydd it fwrw ymmaith gair yr Arglwydd, y bwriodd efe dithe o [fod] yn frenin.

24 Yna y dywedodd Saul wrth Samuel, pechais, canys troſeddais air yr Arglwydd a'th eiriau dithe: o herwydd i'm ofni y bobl, a gwrando ar eu llais hwynt.

25 Ond yn awr cymmer ymmaith attolwg fy mhechod, a dychwel gyd a mi, fel yr addolwyf yr Arglwydd.

26 A Samuel a ddywedodd wrth Saul, ni ddychwelaf gyd a chi, canys bwriaiſt ymmaith air yr Arglwydd, am hynny yr Arglwydd a'th fwriodd dithe ymmaith o fod yn frenin ar Iſrael.

27 Pan drôdd Samuel i fyned ymmaith, yntef a ymaflodd yng-hwrr ei fantell ef, a hi a rwygodd.

28 Yna y dywedodd Samuel wrtho ef, yr Arglwydd a rwygodd frenhiniaeth Iſrael oddi wrthit ti heddyw, ac ai rhoddes i gymydog i ti gwell na thi.

29 O herwydd cadernid Iſrael ni ddywed gelwydd, ac nid edifarhâ: canys nid dŷn [yw] efe i edifarhau.

30 Yna y dywedodd [Saul,] pechais, anrhydedda fi attolwg yn awr ger bron henuriaid fy mhobl, a cher bron Iſrael: a dychwel gyd a mi fel yr addolwyf yr Arglwydd dy Dduw.

31 Felly Samuel a ddychwelodd ar ôl Saul, a Saul a addolodd yr Arglwydd.

32 Yna y dywedodd Samuel, cyrchwch attafi Agag brenin yr Amaleciaid: ac Agag a ddaeth atto ef yn hoiw, ac Agag a ddywedodd, chwerwder marwolaeth yn ddiau a aeth ymmaith.

33 A Samuel a ddywedodd, *fel y diblantodd dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir dy fam dithe ym myſc gwragedd: yna Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr Arglwydd yn Gilgal.

Exod.17.11.
num.14.45.

34 Felly Samuel a aeth i Ramah, a Saul a aeth i fynu iw dŷ yn Gibea Saul.

35 Ac nid ymwelodd Samuel mwyach a Saul hyd ddydd ei farwolaeth ef: onid Samuel a alarodd am Saul: *ac edifar fu gan yr Arglwydd osod Saul yn frenin ar Iſrael.

Gen.6.6.

## PEN. XVI.

Duw yn peri i Samuel eneinio Dafydd yn frenin. 13 Ac yn rhoddi ei yſpryd ei hun ar Ddafydd.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrth Samuel, pa hyd y galêri di am Saul, gan i mi ei fwrw ef ymmaith o deyrnaſu ar Iſrael: llanw dy gorn ag olew, a dos, mi a'th anfonaf di at Iſai y Bethlehemiad, canys ym myſc ei feibion ef y canfyddais i'm frenin.

2 A Samuel a ddywedodd pa fodd yr âfi: canys Saul a glyw, ac a'm lladd i: yna y dywedodd yr Arglwydd, cymmer anner [o blith] y gwartheg gyd a thi, a dywet, deuthum i aberthu i'r Arglwydd.

3 A galw ar Iſai i'r aberth, a mi a yſpyſſaf i ti yr hyn a wnelech, fel yr eneiniech i mi yr hwn a ddywedaf wrthit.

4 Felly y gwnaeth Samuel yr hyn a archaſe yr Arglwydd, ac a ddaeth i Bethlehem, ac henuriaid y ddinas a ddychrynnaſant wrth gyfarfod ag ef, ac a ddywedaſant, ai heddychlon [yw] dy ddyfodiad:

5 Ac efe a ddywedodd, heddychlon: deuthum i aberthu i'r Arglwydd, ymſancteiddiwch a deuwch gyd a mi i'r aberth: ac efe a ſancteiddiodd Iſai, ai feibion, ac ai galwodd hwynt i'r aberth.

6 A phan ddaethant, yna efe a welodd Eliab, ac a ddywedodd: diau [ddyfod] ei eneiniog ger bron yr Arglwydd.

7 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Samuel, nac edrych ar ei olŵg ef, nac ar vchter ei gorpholaeth ef, canys gwrthodais ef: o herwydd nid [edrych Duw ar] yr hyn a edrych dyn, *canys dŷn a edrych ar y llygaid, ond yr Arglwydd a edrych ar y galon.

Cron.28:9.
ier.11.20.
iere.17.10.
iere.20.12.
pſal.7.10.

8 Yna Iſai a alwodd am Abinadab, ac a barodd iddo ef fyned o flaen Samuel: a dywedodd yntef, ni ddewiſodd yr Arglwydd hwn ychwaith.

9 Yna y gwnaeth Iſai i *Samma ddyfod, a ddywedodd yntef, ni ddewiſodd yr Arglwydd hwn ychwaith.

2.Sam.21.21.

10 Yna y parodd Iſai iw ſaith mab ddyfod ger bron Samuel: a Samuel a ddywedodd wrth Iſai, ni ddewiſodd yr Arglwydd [yr un] o'r rhai hyn.

11 Dywedodd Samuel hefyd wrth Iſai, a ddarfu y plant: yntef a ddywedodd, yr ieuangaf

etto ſydd yn aros, ac wele[ymae] efe yn bugeilio y defaid: yna y dywedodd Samuel wrth
2.Sam.7.8. pſal.78.71. pſal.89.21. Jſai, danfon, a chyrch ef, canys nid eiſteddwn ni i lawr, nes ei ddyfod ef ymma.

12 Yna yr ynfonodd, ac y cyrchodd ef, ac efe [oedd] wrid-coch a thêg yr olwg, a hardd o wedd: a dywedodd yr Arglwydd, cyfod, eneinia ef, canys dymma efe.

13 Yna y cymmerth Samuel gorn yr olew, ac ai heneiniodd ef yng-hanol ei frodyr, a daeth
Act.7.45. act.13.22. * yſpryd yr Arglwydd ar Ddafydd o'r dydd hwnnw allan: yna Samuel a gyfododd, ac a aeth i Ramah.

14 Ond yſpryd yr Arglwydd a giliodd oddi wrth Saul: ac yſpryd drwg oddi wrth yr Arglwydd ai poenodd ef.

15 A gweiſion Saul a ddywedaſant wrtho ef, wele yn awr drwg yſpryd Duw yn dy boeni di.

16 Dyweded attolwg ein meiſtr ni [wrth] dy weiſion [y rhai ydynt] ger dy fron [am] yddynt geiſio gŵr yn medru canu telyn, a bydded pan ddelo drwg yſpryd Duw arnat ti, yna iddo ef ganu ai law, a [hynny] fydd da i ti.

17 Yna y dywedodd Saul wrth ei weiſion, edrychwch yn awr i mi [am] ŵr yn medru canu yn ddâ, a dugwch ef attaf.

18 Ac vn o'r llangciaid a attebodd, ac a ddywedodd, wele gwelais fab i Jſai y Bethlehemiad yn medru canu, ac yn gadarn [o] nerth, ac yn rhyfel-wr, yn ddoeth o ymadrodd hefyd, ac yn ŵr lluniaidd, a'r Arglwydd [ſydd] gyd ag ef.

19 Yna yr anfonodd Saul gennadau at Jſai, ac a ddywedodd: anfon ataf Ddafydd dy fab yr hwn [ſydd] gyd a'r praidd.

20 Ac Jſai a gymmerth aſſyn [lwythoc] o fara, a choſtrêled o wîn, ac vn mynn gafr, ac ai hanfonodd gyd a Dafydd ei fab at Saul.

21 A Dafydd a ddaeth at Saul, ac a ſafodd ger ei fron ef, yntef ai haffodd ef yn ddirfawr, ac efe a aeth yn gludydd arfau iddo ef.

22 Yna Saul a anfonodd at Jſai, gan ddywedyd: arhoſed Dafydd attolwg ger fy mron i, canys efe a gafodd ffafor yn fyng-olwg.

23 A phan fydde [drwg] yſpryd Duw ar Saul yna y cymmere Dafydd y delyn, ac y câne ai [ddwylaw:] a bydde eſmwythdra i Saul, a dâ [oedd hynny] iddo ef, a'r yſpryd drwg a gilie oddi wrtho ef.

## PEN. XVII.

Y modd y gorchfygodd Dafydd Goliath.

YNa y Philiſtiaid a gaſclaſant eu byddinoedd i ryfel, ac a ymgynnullaſant i Socho, yr hon [ſydd] yn Juda, ac a werſſyllaſant rhwng Socho, ac Azecah yng-hwrr Dammim.

2 Saul hefyd a gwŷr Jſrael a ymgaſclaſant, ac a werſſyllaſant yn nyffryn Elah: ac a luniaethaſant ryfel yn erbyn y Philiſtiaid.

3 A'r Philiſtiaid oeddynt yn ſefyll ar fynydd o'r naill du, ac Jſrael oeddynt yn ſefyll ar fynydd o'r tu arall, a'r dyffryn [oedd] rhyngddynt.

4 Yna y daeth gŵr rhyngddynt hwy o werſſylloedd y Philiſtiaid ai enw Goliath o Gath: ei vchter [oedd] chwe chufydd a rhychwant.

5 A hêlm o brês ar ei ben, a lluric emmoc a wiſcodd efe, a phwys y lluric [oedd] bum mil o ſiclau prês.

6 A bottyſſau prês [oeddynt] am ei draed ef, a tharian prês rhwng ei yſcwyddau.

7 A phaladr ei waiw-ffon ef [oedd] fel carſan gwehyddion, a blaen ei waiw-ffon ef [oedd] chwe-chant ſicl o haiarn: a'r hwn oedd yn dwyn y tarian oedd yn myned oi flaen ef.

8 Ac efe a ſafodd, ac a waeddodd ar fyddinoedd Jſrael, ac a ddywedodd wrthynt: i ba beth y deuwch i luniaethu rhyfel, onid [ydwyf] fi Philiſtiad? a chwithau yn weiſion i Saul? dewiſwch i chwi ŵr i ddyfod i wared attaf.

9 Os efe a orchfyga wrth ymladd a mi, ac a'm lladd i, yna y byddwn ni yn weiſion i chwi, ond os myfi ai gorchfygaf ef, ac ai laddaf ef, yna y byddwch chwi yn weiſion i ni, ac y gwaſanaethwch ni.

10 Y Philiſtiad hefyd a ddywedodd, myfi a wradwyddais fyddinoedd Jſrael y dydd hwn, moeſwch attaf ŵr fel y cyd-ymladdom ni.

11 Pan glybu Saul, a holl Jſrael y geiriau hynny [gan] y Philiſtiad, yna y brawychaſant, ac yr ofnaſant yn ddirfawr.

12 A'r Dafydd hwn [oedd] fab i Ephrate- Pen.16.1.
wr o Bethlehem Juda, ai enw ef Jſai, ac iddo ef [yr oedd] ŵyth o feibion: a'r gŵr [oedd] yn nyddiau Saul yn hên yn dyfod ym mhlith [hên] ddynion.

13 A thri mab hynaf Jſai a aethant [ac] a ddaethant ar ôl Saul i'r rhyfel: ac enw ei dri mab ef y rhai a aethant i'r rhyfel [oeddynt] Eliab y cyntafanedic, ac Abinadab yr ail, a Samma y trydydd.

14 A Dafydd hwnnw [oedd] ieuangaf: a'r tri hynaf a aethant ar ôl Saul.

15 Dafydd hefyd a*aeth, ond efe a ddychwe- Pen.16.19.
lodd oddi wrth Saul i fugeilio defaid ei dad yn Bethlehem.

16 Felly y Philiſtiad a neſſaodd yn foreu, ac yn hwyr, ac a barhaodd ddeugain nhiwrnod.

17 A dywedodd Jſai wrth Ddafydd ei fab, cymmer yn awr i'th frodyr Epha o'r crâſ-ŷd hwn, a'r dêc torth hyn: ac ar redeg dwg [hwynt] i'r gwerſſyll at dy frodyr.

18 Dŵg hefyd y dêc coſſyn îr hyn i dywyſog y mîl, ac ymwel a'th frodyr mewn heddwch, a dwg [yn rhydd] eu gwyſtl hwynt.

19 Yna Saul, a hwythau, a holl wŷr Jſrael [oeddynt] yn nyffryn Elah yn ymladd a'r Philiſtiaid.

20 Felly Dafydd a gyfododd yn foreu, ac a adawodd y defaidd gyd a cheidwad, ac a gymmerth y pethau hynny, ac a aeth megis y gorchymynnaſe Jſai iddo ef: ac a ddaeth i'r gwerſſyll,

a'r llu a aethe allan i'r gâd, ac a floeddiaſent yn y rhyfel.

21 Canys Iſrael a'r Philiſtiaid a fyddinaſent fyddin yn erbyn byddin.

22 A Dafydd a adawodd y mûd oddi wrtho tann law ceidwad y dodrefn: ac a redodd i'r fyddin, ac a ddaeth, ac a gyfarchodd ei frodyr.

23 Pan oedd Dafydd yn ymddiddan a hwynt, yna wele yr gŵr (yr hwn [oedd yn ſefyll] rhwng y ddeu-lu) yn dyfod i fynu o fyddinoedd y Philiſtiaid (Goliath y Philiſtiad o Gath [oedd] ei enw ef,) ac efe a ddywedodd yr vn fath eiriau fel y clybu Dafydd.

24 A holl wŷr Iſrael pan welſant y gŵr hwnnw a ffoaſant rhagddo ef, ac a ofnaſant yn ddirfawr.

25 Dywedodd gwŷr Iſrael hefyd oni welſoch chwi y gwr hwn yn dyfod i fynu? diau i wradwyddo Iſrael y mae yn dyfod i fynu: a'r gŵr yr hwn ai laddo ef, y brenin a gyfoethoga
Ioſu.15.16. hwnnw *a chyfoeth mawr, ei ferch hefyd a rydd efe iddo ef, a thŷ ei dâd ef a wnaiff efe yn rhydd yn Iſrael.

26 Yna y llefarodd Dafydd wrth y gwŷr y rhai oeddynt yn ſefyll gyd ag ef gan ddywedyd: beth a wneir i'r gŵr yr hwn a laddo y Philiſtiad hwn? ac a dynn ymmaith y gwradwydd oddi ar Iſrael? canys pwy [yw] y Philiſtiad dienwaededic hwn, pan wradwydde efe fyddinoedd y Duw byw?

27 A'r bobl a ddywedodd wrtho ef fel hyn, gan ddywedyd: felly y gwneir i'r gŵr yr hwn ai laddo ef.

28 Ac Eliab ei frawd hynaf ef ai clybu ef pan oedd efe yn ymddiddan a'r gwŷr, a digter Eliab a enynnodd yn erbyn Dafydd, ac efe a ddywedodd, pa ham y daethoſt i wared ymma? a chyd a phwy y gadewaiſt yr ychydic ddefaid hynny yn yr anialwch? myfi a adwen dy falchder di, a drygioni dy galon di, canys i weled y y rhyfel y daethoſt di i wared.

29 Yna y dywedodd Dafydd, beth a wneuthum i yn awr? onid oedd neges [i mi?]

30 Ac efe a ddychwelodd oddi wrtho ef at vn arall, ac a ddywedodd yr vn modd, a'r bobl ai hattebaſant ef air yng-air [fel] o'r blaen.

31 Pan glybuwyd y geiriau y rhai a lefarodd Dafydd, yna y mynegwyd hwynt ger bron Saul, ac efe a barodd ei ddwyn ef [atto ef.]

32 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, na lwfrhaed calon dŷn erddo ef, dy wâs di a aiff, ac a ymladd a'r Philiſtiad hwn.

33 Yna y dywedodd Saul wrth Ddafydd, ni elli di fyned at y Philiſtiad hwn i ymladd ag ef, canys llangc [ydwyt] ti, ac yntef ſydd yn rhyfel-wr oi febyd.

34 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, bugail oedd dy wâs di ar ddefaid ei dâd, pan ddaeth y llew, a'r arth a chymmeryd oen o'r praidd.

35 A mi a euthum ar ei ôl ef, ac ai tarewais ef, ac [ai] hachubais oi ſafn ef: pan gyfododd ef i'm herbyn i, yna mi a y maflais yn ei farf ef, ac ai tarewais, ac ai lleddais ef.

36 Felly dy wâs di a laddodd y llew, a'r arth: a'r Philiſtiad dienwaededic hwn fydd megis vn o honynt, canys efe a amharchodd fyddinoedd y Duw byw.

37 Dywedodd Dafydd hefyd, yr Arglwydd yr hwn a'm hachubodd i o grafangc y llew, ac o balf yr arth, efe a'm hachub i o law y Philiſtiad hwn: yna y dywedodd Saul wrth Ddafydd, dos, a'r Arglwydd fyddo gyd a thi.

38 A Saul a wiſcodd Ddafydd ai wiſcoedd ei hun, ac a roddodd helm o brês ar ei benn ef: ac ai gwiſcodd ef [mewn] llurig.

39 Yna y gwregyſodd Dafydd ei gleddyf ar vchaf ei wiſcoedd, ac a geiſiodd gerdded am na phrofaſe efe, yna y dywedodd Dafydd wrth Saul, ni allafi fyned yn y rhai hyn, canys ni phrofais i: am hynny y dioſcodd Dafydd hwynt oddi am dano.

40 Yna y cymmerth efe ei ffon yn ei law, ac a ddewiſodd iddo bump o gerric llyfnion o'r afon, ac ai goſododd hwynt yng-hôd y bugeiliaid yr hon [oedd] ganddo, ſef yn yr ſcrepan: ai ffon dafl [oedd] yn ei law ef: ac efe a neſſaodd at y Philiſtiad.

41 A'r Philiſtiad a gerddodd, gan fyned, a neſſau at Ddafydd: a'r gŵr oedd yn cludo y tarian oi flaen ef.

42 Pan edrychodd y Philiſtiad o amgylch, a chanfod Dafydd, yna efe ai dirmygodd ef, canys llangc oedd efe, gwrid-coch, a thêg yr olwg.

43 A'r Philiſtiad a ddywedodd wrth Ddafydd, ai cî ydwyfi, gan dy fod yn dyfod attafi a ffynn? a'r Philiſtiad a regodd Ddafydd drwy ei dduwiau ef.

44 Y Philiſtiad hefyd a ddywedodd wrth Ddafydd, tyret attafi, a rhoddaf dy gnawd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeilaid y maes.

45 Yna y dywedodd Dafydd wrth y Philiſtiad, ti ydwyt yn dyfod attafi a chleddyf, ac a gwaiw-ffon, ac a tharian: a minne ydwyf yn dyfod attat ti yn enw Arglwydd y lluoedd, Duw byddinoedd Iſrael yr hwn a geblaiſt ti.

46 Y dydd hwn y dyru yr Arglwydd dydi yn fy llaw i, a mi a'th darawaf di, ac a gymmeraf ymmaith dy ben di oddi arnat ti, ac a roddaf gelanedd gwerſſyll y Philiſtiaid y dydd hwn i chediaid y nefoedd, ac i fwyſt-filod y ddaiar: a holl [drigolion] y ddaiar a gânt ŵybod fod Duw i Iſrael.

47 A'r holl gynnulleidfa hon a gânt ŵybod, nad a chleddyf, nac a gwaiw-ffon y gwared yr Arglwydd: canys eiddo yr Arglwydd [yw] y rhyfel, ac efe a'ch rhydd chwi yn ein llaw ni.

48 A phan gyfododd y Philiſtiad, a dyfod a neſſau i gyfarfod Dafydd: yna y bryſſiodd Dafydd, ac y rhedodd tu a'r fyddin i gyfarfod a'r Philiſtiad.

49 A Dafydd a eſtynnodd ei law i'r gôd, ac a

gymmerth oddi yno garrec, ac a chwyrnddafiodd, ac a darawodd y Philiſtiad yn ei dalcen: a'r garrec a ſoddodd yn ei dalcen ef, ac efe a ſyrthiodd i lawr ar ei wyneb.

Eccleſiaſt.47.4.
1.Mac.4.30.

50 Felly * y gorthrechodd Dafydd y Philiſtiad, a ffon-dafl, ac a charrec, ac a darawodd y Philiſtiad, ac ai lladdodd ef: er nad [oedd] cleddyf yn llaw Dafydd.

51 Yna y rhedodd Dafydd, ac a ſafodd ar y Philiſtiad, ac a gymmerth gleddyf hwnnw, ac ai tynnodd o'r wain, ac ai lladdodd ef, ac a dorrodd ei benn ag ef: pan welodd y Philiſtiaid farw oi cawr hwynt, yna y ffoaſant hwy.

52 A gwŷr Iſrael, ac Iuda a gyfodaſant, ac a floeddiaſant, ac a erlydiaſant y Philiſtiaid hyd [y ffordd] y delech i'r dyffryn, ac hyd byrth Acaron: a'r Philiſtiaid a ſyrthiaſant yn archolledic ar hyd ffordd Saarim, ſef hyd Gath, ac hyd Acaron.

53 Yna meibion Iſrael a ddychwelaſant o ymlid ar ôl y Philiſtiaid: ac a anrheithiaſant eu gwerſylloedd hwynt.

54 A Dafydd a gymmerodd benn y Philiſtiad, ac ai dûg i Ieruſalem: ai arfau ef a oſododd efe yn ei babell.

55 A phan welodd Saul Ddafydd yn myned i gyfarfod a'r Philiſtiad, efe a ddywedodd wrth Abner tywyſog y filwriaeth, mab i bwy [yw]'r llangc hwn, Abner? ac Abner a ddywedodd [fel] y mae yn fyw dy enaid ô frenin nis gẃn.

56 Yna y dywedodd y brenin, ymofyn di mab i bwy [yw]'r gwr ieuangc hwn.

57 A phan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philiſtiad, yna Abner ai cymmerodd ef, ac ai dûg ef o flaen Saul: a phenn y Philiſtiad yn ei law.

58 A Saul a ddywedodd wrtho ef, mab i bwy [wyt] ti y gwr ieuangc? yna y dywedodd Dafyd, mab i'th wâs Iſai y Bethlehemiad.

## PEN. XVIII.

Y Gefeillach a oedd rhwng Ionathan a Dafydd. 11 Saul yn caſau, ac yn ofni Dafydd.

A Phan orphennodd efe ymddiddan a Saul, yna enaid Ionathan a ymglymmodd wrth enaid Dafydd: fel y carodd Ionathan ef, megis ei enaid ei hunan.

2 A Saul ai cymmerth ef [atto] y diwrnod hwnnw: ac ni adawodd iddo ddychwelyd i dŷ ei dâd.

3 Yna Ionathan a wnaeth gyfammod a Dafydd: o herwydd efe ai care megis ei enaid ei hun.

4 Ac Ionathan a ddioſcodd y fantell yr hon [oedd] am dano ei hun, ac ai rhoddes i Ddafydd, ai wiſcoedd, îe hyd yn oed ei gleddyf, ai fwa, ai wregys.

5 A Dafydd a aeth yn gall i ba [le] bynnac yr anfonodd Saul ef, a Saul ai goſododd ef ar y rhyfel-wŷr: ac efe oedd gymmeradwy yng-olwg yr holl bobl, ac yng-olwg gweiſion Saul hefyd.

6 A bu (wrth ddyfod o honynt) pan ddychwelodd Dafydd o ladd y Philiſtiad, yna ddyfod o'r gwragedd allan o holl ddinaſoedd Iſrael dan ganu, a dawnſio i gyfarfod a'r brenin Saul: a thympanau, a gorfoledd, ac ag [offer] tri-thant.

7 A'r gwragedd yn chware a ymmatebent, ac a ddywedent: * tarawodd Saul ar ei filoedd, a Dafydd ar ei fyrddiwn.

Pennod.21.11 & 29.5.
Eccleſiaſt.47.6.7.

8 Am hynny y digiodd Saul yn ddirfawr, a'r ymadrodd hwn oedd ddrwg yn ei olwg ef, ac efe a ddywedodd, rhoddaſant i Ddafydd fyrddiwn, ac i mi y rhoddaſant filoedd: [beth] mwy [a roddent] iddo ef, eithr y frenhiniaeth?

9 A bu Saul yn gwilied Dafydd o'r dydd hwnnw allan.

10 Bu hefyd drannoeth i ddrwg yſpryd Duw ddyfod ar Saul, ac efe a brophwydodd yng-hanol y tŷ, yna Dafydd a ganodd ai law, fel o'r blaen: a gwaiw-ffon [oedd] yn llaw Saul.

11 Yna Saul a ſiglodd y waiw-ffon, ac a ddywedodd, tarawaf trwy Ddafydd, a thrwy'r pared: a Dafydd a giliodd ddwy-waith oi ŵydd ef.

12 A Saul a ofnodd rhac Dafydd: o herwydd bod yr Arglwydd gyd ag ef, a chilio o honaw ef oddi wrth Saul.

13 Am hynny Saul ai gyrrodd ef ymmaith oddi wrtho ef, ac ai goſododd ef tano ei hun yn dywyſog [ar] fil: ac efe a lywodraethodd y bobl.

14 A bu Ddafydd gall yn ei holl ffyrdd: a'r Arglwydd [oedd] gyd ag ef.

15 Pan welodd Saul ei fod ef yn gall iawn: yna 'r ofnodd efe rhacddo ef.

16 Eithr holl Iſrael, ac Iuda a garodd Ddafydd: am ei fod ef yn eu llywodraethu hwynt.

17 Yna y dywedodd Saul wrth Ddafydd, wele Merab fy merch hynaf, hi a roddafi i ti yn wraig, yn unic bydd i mi yn fab nerthol, ac ymladd ryfeloedd yr Arglwydd: (canys dywedaſe Saul, ni bydd fy llaw i yn ei erbyn ef, onid llaw y Philiſtiaid fydd yn ei erbyn ef.)

18 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, pwy [ydwyf] fi, a pheth [yw] fy mywyd [neu] dŷlwyth fy nhâd i yn Iſrael, fel y byddwn yn ddaw i'r brenin?

19 Eithr yn yr amſer [y dyleſid] rhoddi Merab merch Saul i Ddafydd, yna hi a rhoddwyd i Adriel y Meholathiad yn wraig.

20 Yna Michol merch Saul a garodd Ddafydd: a mynegaſant [hynny] i Saul, a'r peth fu fodlon ganddo.

21 (A dywedodd Saul, rhoddaf hi iddo ef, fel y byddo hi iddo 'n fagl, ac y byddo llaw y Philiſtiaid yn ei erbyn ef:) felly Saul a ddywedodd wrth Ddafydd, drwy'r llall yr ymgyfathrechi a mi heddyw.

22 A Saul a orchymynnodd iw weiſion [fel hyn:] ymddiddenwch a Dafydd yn ddiſtaw,

gan ddywedyd, wele y brenin ſydd hoff ganddo dydi, ai holl weiſion ef a'th garant di: yn awr gan hynny ymgyfathracha a'r brenin.

23 A gweiſion Saul a adroddaſant wrth Ddafydd y geiriau hyn: a Dafydd a ddywedodd ai yſcafn [yw] yn eich golwg chwi ymgyfathrachu a brenin, a minne yn ŵr tlawd, a gwael?

24 A gweiſion Saul a fynegaſant iddo, gan ddywedyd: fel hyn y llefarodd Dafydd.

25 Yna y dywedodd Saul, fel hyn y dywedwch wrth Ddafydd, nid yw y brenin yn ewyllyſio cynhyſcaeth, onid [cael] cant o flaen-grwyn y Philiſtiaid i ddial ar elynnion y brenin: (canys Saul a feddyliodd am ladd Dafydd drwy law y Philiſtiaid.)

26 Ai weiſion ef a fynegaſant i Ddafydd y geiriau hynn, a'r ymadrodd fu fodlon gan Ddafydd am ymgyfathrachu a'r brenin: ond ni ddaethe yr amſer.

27 Yna y cyfododd Dafydd, ac efe a aeth, ai wŷr, ac a darawodd ddau can-wr, o'r Philiſtiaid, a Dafydd a ddygodd eu blaen-grwyn hwynt, ac ai cwbl dalaſant i'r brenin, i ymgyfathrachu a'r brenin: am hynny y rhoddes Saul Michol ei ferch yn wraig iddo yntef.

28 Yna y gwelodd Saul, ac y gwybu mai'r Arglwydd [oedd] gyd a Dafydd: a Michol merch Saul ai carodd ef.

29 A Saul a ofnodd fwy-fwy rhac Dafydd, a bu Saul yn elyn i Ddafydd byth.

30 Yna tywyſogion y Philiſtiaid a aent allan, a phan elent hwy, Dafydd a fydde gallach na holl weiſion Saul, ai enw ef oedd anrhydeddus iawn.

## PEN. XIX.

Ionathan yn rhybyddio Dafydd o gâs ei dâd Saul iddo ef. 11 Michol ei wraig yn ei achub ef. 23 Saul yn prophwydo wrth erlid Dafydd.

YNA y dywedodd Saul wrth Jonathan ei fab, ac wrth ei holl weiſion am ladd Dafydd: ond Jonathan mab Saul oedd hôff iawn ganddo Ddafydd.

2 Am hynny y mynegodd Jonathan i Ddafydd gan ddywedyd: Saul fy nhâd ſy yn ceiſio dy ladd di: ac yn awr ymgadw attolwg hyd y boreu, ac aros mewn [lle] dirgel, ac ymguddia.

3 A mi a âf allan, ac a ſafaf ger llaw fy nhâd yn y maes, yr hwn [y byddi] di ynddo, mi hefyd a ymddiddanaf a'm tâd o'th blegit ti: ac mi a edrychaf beth [a ddywedo efe,] ac a fynegafi ti.

4 Ac Jonathan a ddywedodd yn dda am Ddafydd wrth Saul ei dâd: ac a ddywedodd wrtho ef, na pheched y brenin yn erbyn ei wâs, [ſef] yn erbyn Dafydd, o herwydd na phechodd efe i'th erbyn di, ac o herwydd [bod] ei weithredoedd ef yn dda iawn i ti.

Barn.12.3.
1.Sam.28.21.
Pſal.119.109.

5 Canys efe a oſodes ei einioes yn ei law, ac a darawodd y Philiſtiad, a'r Arglwydd a wnaeth iechydwriaeth mawr i holl Iſrael, ti a welaiſt [hyn] ac a lawenychaiſt: pa ham gan hynny y pechi yn erbyn gwaed diniwed, gan ladd Dafydd yn ddiachos?

6 Yna Saul a wrandawodd ar lais Jonathan, a Saul a dyngodd [nid] byw yw'r Arglwydd os lleddir ef.

7 Felly Jonathan a alwodd ar Ddafydd, ac Jonathan a fynegodd iddo ef yr holl eiriau hyn: ac Jonathan a ddug Ddafydd at Saul, ac efe a fu ger ei fron ef megis cynt.

8 Yna y bu chwaneg o ryfel: a Dafydd a aeth allan ac a ymladdodd yn erbyn y Philiſtiaid, ac ai tarawodd hwynt a phla mawr, ac hwy a ffoaſant rhagddo ef.

9 A drwg yſpryd yr Arglwydd oedd ar Saul pan oedd efe yn eiſtedd yn ei dŷ, ai waiwffon yn ei law: a *Dafydd yn canu ai law. Pen.16.23.

10 A cheſiodd Saul daro ai waiwffon drwy Ddafydd, a thrwy yr pared, ond efe a giliodd o ŵydd Saul, ac yntef a darawodd y waiw-ffon yn y pared, a Dafydd a ffoawdd, ac a ddiangodd y noſwaith honno.

11 Saul hefyd a anfonodd gennadau i dŷ Ddafydd iw wilied ef, ac iw ladd ef y boreu: a Michol ei wraig ef a fynegodd i Ddafydd gan ddywedyd, onid achubi dy einioes heno, y fory i'th leddir.

12 Felly Michol a ollyngodd Ddafydd i lawr drwy'r ffeneſtr, ac efe a aeth, ac a ffôdd, ac a ddiangodd.

13 Yna y cymmerodd Michol ryw ddelw, ac ai goſododd yn y gwely, a chluſtog [o flew] geifr a oſododd hi yn obennydd iddi: ac ai goblygodd a dillad.

14 Pan anfonodd Saul gennadau i ddala Dafydd: yna hi a ddywedodd, [y mae] efe yn glâf.

15 Anfonodd Saul eilwaith gennadau i edrych Dafydd, gan ddywedyd: dygwch ef i fynu attafi yn ei wely, fel y lladdwyf ef.

16 Pan ddaeth y cennadau, yna wele y ddelw ar y gwely: a chluſtog [o flew] geifr yn obennydd iddi.

17 Yna y dywedodd Saul wrth Michol, pa ham y twyllaiſt fi fel hyn, ac y gollyngaiſt fyng-elyn i ddiange? a Michol a ddywedodd wrth Saul, efe a ddywedodd wrthif, gollwng fi, onid ê mi a'th laddaf di.

18 Felly Dafydd a ffoawdd, ac a ddiangodd, ac a ddaeth at Samuel i Ramah, ac a fynegodd iddo yr hyn oll a wnaethe Saul iw erbyn ef, ac efe a aeth gyd a Samuel, ac a drigaſant yn Naioth.

19 A mynegwyd i Saul gan ddywedyd: wele [y mae] Dafydd yn Naioth o fewn Ramah.

20 Yna Saul a anfonodd gennadau i ddala Dafydd, pan welſant gynnulleidfa y prophwydi yn prophwydo, a Samuel yn ſefyll, wedi ei oſod arnynt hwy: yna yr oedd ar gennadau Saul yſpryd Duw, fel y prophwydaſant hwythau hefyd.

21 Pan fynegaſant [hyn] i Saul, yna efe a anfonodd gennadau eraill, a hwythau hefyd a brophwydaſant: ac eilwaith y danfonodd Saul gennadau y drydedd waith, a phrophwydaſant hwythau hefyd.

22 Yna yntef hefyd a aeth i Ramah, ac a ddaeth hyd y ffynnon fawr yr hon [ſydd] yn Sechu, ac efe a ofynnodd, ac a ddywedodd, pa le [y mae] Samuel a Dafydd? ac [un] a ddywedodd wele [y maent hwy] yn Naioth o fewn Ramah.

23 Ac efe a aeth yno i Naioth yn Ramah: ac arno yntef hefyd y daeth yr un yſpryd Duw, a chan fyned yr aeth, ac y prophwydodd, nes ei ddyfod i Naioth yn Ramah.

24 Ac efe a ddioſcodd ei ddillad, ac a brophwydodd hefyd ger bron Samuel, ac a ſyrthiodd i lawr yn noeth yr holl ddiwrnod hwnnw, a'r holl nôs: am hynny y dywedent, a ydyw Saul hefyd ym myſc y prophwydi? Pen.10.11.

## PEN. XX.

Y cyfammod yr hwn a oedd rhwng Ionathan a Dafydd.
30 Saul yn digio wrth Ionathan o achos Dafydd.
36 Ionathan yn ſaethu tair ſaeth i rybyddio Dafydd.

YNA y ffoawdd Dafydd o Naioth yn Ramah, ac a ddaeth, ac a ddywedodd ger bron Ionathan, beth a wneuthum? beth [yw] fy anwiredd, a pheth [yw] fy mhechod o flaen dy dâd ti, gan ei fod efe yn ceiſio fy enioes i?

2 Ac efe a ddywedodd wrtho, na atto Duw, ni byddi farw, wele ni wnaiff fy nhâd na pheth mawr, na pheth bychan heb [ei] fynegu i mi: pa ham gan hynny y cêle fy nhâd y peth hyn oddi wrthifi? ni [wna efe] hyn.

3 Yna Dafydd a dyngodd eilwaith, (ac a ddywedodd, dy dâd a ŵyr yn hyſpys i mi gael ffafor yn dy olwg di, am hynny y dywedodd, na chaffed Ionathan ŵybod hyn rhac ei driſtau ef:) cyn wîred a bod yr Arglwydd yn fyw, a'th enaid dithe yn fyw [nid oes] onid megis camm rhyngofi ag angeu.

4 Yna y dywedodd Ionathan wrth Ddafydd: dywet beth [yw] dy ewyllys, a mi ai cwplhaf i ti.

5 A Dafydd a ddywedodd wrth Ionathan, wele [y dydd cyntaf o'r] mis [yw] foru, a minne gan eiſtedd a ddylwn eiſtedd gyd a'r brenin i fwytta: gollwng fi gan hynny fel yr ymguddiwyf yn y maes hyd brydnawn y trydydd [dydd.]

6 Os dy dâd gan goffau a goffa am danaf: yna y dywedi, Dafydd gan ofyn a ofynnodd [gennad] gennifi i redeg i Bethlehem ei ddinas ei hun, canys * aberth blynyddawl [ſydd] yno gan yr holl genedl. Pen.1.21.

7 Os fel hyn y dywed efe, dâ, heddwch [ſydd] i'th wâs: ond os gan ddigio y digia efe gwybydd fod y malis wedi ei baratoi gãddo ef.

8 Felly y gwnei drugaredd a'th wâs * canys mewn cyfammod yr Arglwydd y dugaiſt dy was gyd a thi: ac od oes anwiredd ynofi, lladd di fi, canys i ba beth y dygi di fi at dy dâd? Pen.18.3. & 23.18.

9 Yna y dywedodd Ionathan, na atto Duw [hynny] i ti: canys os gan wybod y caf wybod fod y malis wedi ei baratoi gan fy nhâd i ddyfod i'th erbyn, onis mynegwn i ti?

10 A Dafydd a ddywedodd wrth Ionathan, pwy a fynega i mi os ettyb dy dâd ti ddim yn galed?

11 Yna y dywedodd Ionathan wrth Ddafydd, tyret fel yr elom i'r maes: ac hwy a aethant ill dau i'r maes.

12 Dywedodd Ionathan hefyd wrth Ddafydd, Arglwydd Dduw Iſrael [fyddo tŷſt] y chwiliafi [feddwl] fy nhad yng-hylch y pryd [hyn] y foru [neu] drennydd, ac os daioni [fydd] tu ag at Ddafydd, ac oni anfonaf yna attati fel y mynegwyf it,

13 Fel hyn y gwnel yr Arglwydd i Ionathan ac y chwanego: os da fydd gan fy nhad [ddwyn] y drwg i'th erl yn yna y mynegaf it, ac a'th ollyngaf fel yr elech mewn heddwch: a bydded yr Arglwydd gyd a thi, megis y bu gyd a'm tad i.

14 Felly nid tra fyddwyfi byw, ac nid a mi [yn unic] y gwnei drugaredd yr Arglwyd fel na byddwyf marw:

15 Ond na thorr ymmaith dy drugaredd a'm tŷ maufi byth, na phan ddeſtruwio 'r Arglwydd elynnion Dafydd bob un oddi ar wyneb y ddaiar.

16 Felly y cyfammododd Ionathan a thŷ Ddafydd [ac efe a ddywedodd:] gofynned yr Arglwydd oddi ar law gelynion Dafydd [eu camwedd.]

17 Yna y chwanegodd Ionathan dyngu wrth Ddafydd, o herwydd efe ai care ef: (canys fel ei enaid ei hun y care efe ef.)

18 Ac Ionathan a ddywedodd wrtho ef, y foru [yw 'r dydd cyntaf o'r] mis, a thi a goffeir, am y bydd dy ei ſteddle yn wâg.

19 Wedi i ti lechu dridieu yna tyret i waered yn fuan, a thyret i'r lle yr hwn yr ymguddiaiſt ynddo, * yn y dydd [y bu] y gwaith hyn [o'r blaen] ac aros wrth faen Ezel. 1.Sam.19.2.

20 A mi a ſaethaf dair o ſaethau at [ei] yſtlys [ef:] fel pes gollyngwn [hwynt] at nôd.

21 Wele hefyd mi a anfonaf y llangc [gan ddywedyd,] dôs, cais y ſaethau: os gan ddywedyd y dywedaf wrth y llangc, wele y ſaethau [ennyd] oddi wrthit o'r tu ymma i ti dwg hwynt: yna tyret ti, canys heddwch [ſydd] i ti, ac ni bydd dim [niwed, fel] mai byw yw 'r Arglwydd.

22 Ond os fel hyn y dywedaf wrth y bachgen, wele y ſaethau [ennyd] oddi wrthit o'r tu hwnt: dôs ymmaith, canys yr Arglwydd a'th anfonodd ymmaith.

23 Am y peth yr hwn a leferais i, mi a thi: wele 'r Arglwydd [fyddo] rhyngofi, a thi yn dragywydd.

24 Felly 'r ymguddiodd Dafydd yn y maes, a phan oedd y dydd cyntaf o'r mis, y brenin a eiſteddodd wrth y bwyd i fwytta.

25 Ie y brenin a eiſteddodd ar ei eiſteddfa, megis ar amſeroedd eraill, [ſef] ar yr eiſteddfa wrth y pared, ac Ionathan a gyfododd, ac Abner a eiſteddodd wrth yſtlys Saul: a lle Dafydd oedd wag.

26 Ac nid yngênodd Saul ddim y diwrnod hwnnw: canys meddyliodd [mai] damwain [oedd] hyn, am nad [oedd] efe lân, o herwydd [ei fod] yn aflan [ni ddaeth.]

27 A bu drannoeth, yr ail [dydd] o'r mis fod lle Dafydd yn wâg: yna y dywedodd Saul wrth Ionathan ei fâb, pa ham na ddaeth mab Iſai at y bwyd na doe, na heddyw?

28 Yna Ionathan a attebodd Saul: Dafydd gan ofyn a ofynnodd i mi [am gael myned] hyd Bethlehem.

29 Canys efe a ddywedodd, gollwng fi attolwg, o herwydd ein tylwyth ni [ydynt yn offrymmu] aberth yn y ddinas, a'm brawd yntef a'm gwahoddodd i, ac yn awr o chefais ffafor yn dy olwg di, gad i'm fyned attolwg, fel y gwelwyf fy mrodyr: o herwydd hyn ni ddaeth efe i fwrdd y brenin.

30 Yna y llidiodd digter Saul yn erbyn Ionathan, ac efe a ddywedodd wrtho, [ti] fab y gyndyn wrthnyſſic, oni ŵyddwn i ti ddewis mab Iſai yn wradwydd it, ac yn gywilydd [a] gwarth i'th fam.

31 Canys yr holl ddyddiau ar y byddo mab Iſai yn fyw ar y ddaiar, ni'th ſicrheuir di na'th deyrnas: yn awr gan hynny, anfon, a chyrch ef attaf, canys marwolaeth [a gaiff] efe.

32 Yna Ionathan a attebodd Saul ei dad, ac a ddywedodd wrtho: pa ham y bydd efe marw? beth a wnaeth efe?

33 Yna Saul a ergydiodd y waiw-ffon tu ag atto ef, iw daro ef: wrth hyn y gwybu Ionathan [fod] y bwriad ymma gan ei dâd ef, ſef lladd Dafydd.

34 Felly Ionathan a gyfododd oddi wrth y bwrdd mewn llid digllawn: ac ni fwyttâodd fwyd yr ail dydd o'r mîs, canys gofidiodd dros Ddafydd, o herwydd iw dâd ei wradwyddo ef.

35 A'r borau, yr aeth Ionathan i'r maes erbyn yr amſer a oſodaſe ef i Ddafydd: a bachgen bychan gyd ag ef.

36 Ac efe a ddywedodd wrth ei fachgen, rhêd, cais yn awr y ſaethau, y rhai 'r ydwyfi yn eu ſaethu: y bachgen a redodd, yna yntef a ſaethodd ſaeth gan gyrheuddyd troſto ef.

37 Pan ddaeth y bachgen hyd y fan [yr oedd] y ſaeth yr hon a ſaethaſe Ionathan: yna y llefodd Ionathan ar ôl y bachgen, ac a ddywedodd, onid [yw] y ſaeth ennyd oddi wrthit o'r tu hwnt?

38 Llefodd Ionathan drachefn ar ôl y bachgen, cyflymma, bryſſia, na ſaf: yna bachgen Ionathan a gaſclodd y ſaethau, ac a ddaeth at ei feiſtr.

39 A'r bachgen ni ŵydded ddim, onid Ionathan a Dafydd a wyddent y peth.

40 Yna Ionathan a roddes ei offer at y bachgen yr hwn [oedd] gyd ag ef, ac a ddywedodd wrtho ef, dos, dûg [y rhai hyn] i'r ddinas.

41 Y bachgen a aeth ymmaith, yna Dafydd a gyfododd o'r tu dehau [i'r maen,] ac a ſyrthiodd i lawr ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd dair gwaith: a hwy a ymguſanaſant bob vn ei gilydd, ac a ŵylaſant y naill wrth y llall, a Dafydd a ragorodd.

42 Yna y dywedodd Ionathan wrth Ddafydd, dôs mewn heddwch: yr hyn a dyngaſom ni ein dau yn enw 'r Arglwydd gan ddywedyd, yr Arglwydd fyddo rhyngofi a thi, a rhwng fy hâd i, a'th hâd dithe, [ſafed hynny] yn dragywydd.

43 Yna [Dafydd] a gyfododd ac a aeth ymmaith: ac Ionathan a ddaeth i'r ddinas.

## PEN. XXI.

Dafydd yn cael gan Ahimelec yr offeiriad y bara goſod iw fwytta, a chleddyf Goliath iw wiſco.

YNA y daeth Dafydd i Nob at Ahimelec yr offeiriad, ac Ahimelec a ddychrynnodd wrth gyfarfod a Dafydd, ac a ddywedodd wrtho ef: pa ham yr ydwyt ti yn vnic, ac heb nêb gyd a thi?

2 Yna y dywedodd Dafydd wrth Ahimelec yr offeiriad, y brenin a orchymynnodd i mi beth, ac a ddywedodd wrthif, na chaed neb ŵybod ddim o'r peth [am] yr hwn i'th anfonais, ac [am] yr hwn y gorchymynnais i ti: a'r llangciau a gyfarwyddais i i'r lle a'r lle.

3 Ac yn awr beth ſydd dann dy law? dod i mi bump torth: neu ['r peth] a geffir.

4 A'r offeiriad a attêbodd Ddafydd, ac a ddywedodd, nid [oes] fara cyffredin tann fy llaw i: eithr y mae bara cyſſegredic [ymma,] os y llangciau a ymgadwaſant yn enwedig oddi wrth wragedd.

Exod.25.30.
Lefit.24.5.
Math.12.3.4.

5 Yna'r attebodd Dafydd yr offeiriad ac a ddywedodd wrtho, diau attal gwragedd oddi wrthym ni er ys dau ddydd neu dri, er pan gychwynnais i, lleſtri y llangciau hefyd ydynt yn ſanctaidd, er [bod] y ffordd honno yn halogedic, etto diau y ſancteiddir [y bara] heddyw yn y lleſtr?

6 Felly yr offeiriad a roddes iddo ef [y bara] ſanctaidd, canys nid oedd yno fara, onid bara goſod yr hwn a dynnaſid ymmaith oddi ger bron yr Arglwydd i oſod bara poeth yn y dydd y tynnid ef ymmaith.

7 Ac yr oedd yno y diwrnod hwnnw vn o weiſion Saul yn aros ger bron yr Arglwydd ai enw Doeg yr Edomiad, y pennaf o'r bugeiliaid y rhai [oeddynt] gan Saul.

8 A dywedodd Dafydd wrth Ahimelec onid oes ymma tann dy law di waiw-ffon, neu gleddyf? canys ni chymmerais fy ng-hleddyf, na'm harfau ychwaith i'm llaw, o herwydd bod gorchymyn y brenin ar ffrŵst.

9 Yna y dywedodd yr offeiriad, cleddyf Goliath y Philiſtiad yr hwn a leddaiſt di yn nyffryn *Elah, wele ef wedi ei oblygu mewn brethyn o'r tu ôl i'r Ephod: o chymmeri hwnnw i ti cymmer: canys nid [oes] ymma arall onid hwnnw: a Dafydd, a dywedodd nid [oes] o ſath hwnnw, dyro ef i mi.

Pen.17.2.

10 Dafydd hefyd a gyfododd, ac a ffôdd y dydd hwnnw o ŵydd Saul: ac a ddaeth at Achis brenin Gath.

11 Yna gweiſion Achis a ddywedaſant wrtho ef, onid hwn yw Dafydd *brenin y wlâd? onid i hwn y canâſant yn y dawnſiau gan ddywedyd: Saul a laddodd ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn?

Pen.17.9.& 18.7.& 29.5. Ecclus.47.6.

12 A Dafydd a oſododd y geiriau hynny yn ei galon: ac a ofnodd yn ddirfawr rhac Achis brenin Gath.

13 Ac efe a newidiodd ei ymadrodd yn ei gŵydd hwynt, ac a gymmerth arno ynfydu rhwng eu dwylo hwynt, ac a ſcribliodd ar ddryſau y porth, ac a ollyngodd ei boeryn i lawr ar ei farf.

14 Yna y dywedodd Achis wrth ei weiſion: wele gwelwch y gŵr yn gwallgofi, pa ham y dugaſoch ef attafi?

15 [Ai] eiſieu ynfydion ſydd arnafi, pan ddugaſoch hwn i ynfydu o'm blaen i? a gaiff hwn ddyfod i'm tŷ i?

## PEN. XXII.

Pa wyr a ddaethant at Ddafydd yn ei herwriaeth.

YNA Dafydd a aeth ymmaith oddi yno, ac a ddiangodd i ogof Adulam: pan glybu ei frodyr ef, a holl dŷ ei dâd ef [hynny,] yna hwy a ddaethant i wared atto ef yno.

2 Ymgynnullodd hefyd atto ef bob gŵr helbulus, a phob gŵr a'r a oedd mewn dylêd, a phob gŵr cyſtuddiedic o feddwl, ac efe a fu yn dywyſog arnynt hwy: ac yr oedd gyd ag ef ynghylch pedwar cant o wŷr.

3 A Dafydd a aeth ymmaith oddi yno i Miſpa Moab: ac a ddywedodd wrth frenin Moab, deled attolwg fy nhâd, a'm mam [i aros] gyd a chwi, hyd oni wypwyf beth a wnêl Duw i mi.

4 Ac efe ai dûg hwynt ger bron brenin Moab: ac arhoſaſant gyd ag ef yr holl ddyddiau tra fu Dafydd yn yr amddeffynfa.

5 Yna Gad y prophwyd a ddywedodd wrth Ddafydd, nac aros yn yr amddeffynfa, dôs ymmaith a cherdda rhagot i wlâd Iuda: felly Dafydd a ymadawodd, ac a ddaeth i goed Hareth.

6 Pan glybu Saul fod Dafydd yn adnabyddus a'r gwŷr y rhai [oeddynt] gyd ag ef: yna Saul oedd yn aros yn Gibea tann y pren yn Ramah, ai waiw-ffon yn ei law, ai holl weiſion yn ſefyll oi amgylch.

7 A Saul a ddywedodd wrth ei weiſion y rhai oeddynt yn ſefyll oi amgylch, clywch attolwg feibion Iemini: a ddyru mab Iſai i chwi oll feuſydd, a gwin-llannoedd? [a] eſyd efe chwi oll yn dywyſogion miloedd, ac yn dywyſogion cantoedd?

8 Canys chwi oll a gyd-fwriadaſoch i'm herbyn i, ac nid oedd a fynege i mi, pan wnaeth fy mab gyngrair a mab Iſai, ac nid oes [neb] o honoch yn dolurio o'm plegit, nac yn datcuddio i'm cluſt ddarfod i'm mab annog fyngwâs yn gynllwyn-wr i'm herbyn, megis y dydd hwn.

9 Yna yr attebodd Doeg yr Edomiad, (yr hwn oedd wedi ei oſod ar weiſion Saul) ac a ddywedodd: gwelais fab Iſai yn dyfod i Nob at Ahimelec fab Ahitob.

10 Ac efe a ymgynghorodd troſto ef a'r Arglwydd, ac a roddes fwyd iddo ef: cleddyf Goliath y Philiſtiad a roddes efe hefyd iddo ef.

11 Yna 'r arfonodd y brenin i alw am Ahimelec fab Ahitob yr offeiriad, a holl dŷ ei dâd ef [ſef] yr offeiriaid y rhai [oeddynt] yn Nob: a hwynt oll a ddaethant at y brenin.

12 A Saul a ddywedodd, gwrando yn awr mab Ahitob: dywedodd yntef, wele fi fy arglwydd.

13 Yna y dywedodd Saul wrtho ef, pa ham y cydfwriadaſoch i'm herbyn i, ti a mab Iſai? gan roddi iddo fara, a chleddyf, ac ymgynghori a Duw troſto ef, fel y cyfode yn fy erbyn yn gynllwyn-wr megis [y gwelir] heddiw.

14 Ac Ahimelec a attebodd y brenin, ac a ddywedodd: pwy ym myſc dy holl weiſion di [ſydd] môr ffyddlon a Dafydd? ac yn ddaw i'r brenin, ac yn myned mewn vſydd-dod it, ac yn anrhydeddus yn dy dŷ di?

15 Ai 'r dydd [hwnnw] y dechreuais i ymgynghori a Duw troſto ef? na atto Duw i mi [frâdfwriadu i'th erbyn:] na oſoded y brenin ddim yn erbyn ei wâs, [nac] yn erbyn neb o dŷ fy nhâd, canys ni ŵybu dy wâs di o'r peth hyn oll, [nac] ychydic na llawer.

16 Yna y dywedodd y brenin, gan farw y byddi farw Ahimelec: tydi a holl dŷ dy dâd.

17 A'r brenin a ddywedodd wrth y rhedegwŷr y rhai oeddynt yn ſefyll oi amgylch ef, troiwch, a lleddwch offeiriaid yr Arglwydd, canys [y mae] eu llaw hwynt hefyd gyd a Dafydd, ac o herwydd iddynt ŵybod ffoi o honaw ef, ac na fynegaſant i mi: ond ni fynne gweiſion y brenin eſtyn eu llaw i ruthro yn erbyn offeiriaid yr Arglwydd.

18 Yna y dywedodd y brenin wrth Ddoeg, tro di, a rhuthra yn erbyn yr offeiriaid: yna Doeg yr Edomiad a drôdd, ac efe a ruthrodd yn erbyn yr offeiriaid, ac a laddodd y diwrnod hwnnw bump a phedwar vgain o wŷr yn dwyn Ephod liain.

19 Efe hefyd a darawodd Nob dinas yr offeiriaid a mîn y cleddyf, yn ŵr, ac yn wraig, yn ddyn-bàch ac yn blentyn ſugno: yn ŷch hefyd, ac yn aſſyn, ac yn oen, a min y cleddyf.

20 Ond vn mab i Ahimelec fab Ahitob a ddiangodd, (ai enw ef [oedd] Abiathar:) ac a ffôdd

ar ôl Dafydd.

21 Ac Abiathar a fynegodd i Ddafydd ddarfod i Saul ladd offeiriaid yr Arglwydd.

22 Yna y dywedodd Dafydd wrth Abiathar, gwybûm y dydd hwnnw pan [oedd] Doeg yr Edomiad yno, gan fynegu y mynege efe i Saul: myfi fum yn achos [marwolaeth] i holl dylwyth tŷ dy dâd ti.

23 Aros gyda mi, nac ofna, canys yr hwn a geiſio fy enaid i, a gais dy enaid tithe: o herwydd [mewn] cadwraeth [y byddi] di gyda mi.

## PEN. XXIII.

Dafydd yn tarfu y Philiſtiaid oddi wrth Ceila. 7 Saul yn dyfod tu a Cheila yn erbyn Dafydd. 27 ac yn gorfod iddo droi yn erbyn y Philiſtiaid.

PAN fynegaſant hwy i Ddafydd gan ddywedyd: wele y Philiſtiaid yn ymladd yn erbyn Ceila, ac y maent hwy yn anrheithio 'r yſcuborau:

2 Yna y gofynnodd Dafydd i'r Arglwydd gan ddywedyd, a âf i, ac a darawaf y Philiſtiaid hynn? a'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ddafydd, dôs, a tharo y Philiſtiaid, ac achub Ceila.

3 A gwŷr Dafydd a ddywedaſant wrtho ef, wele ni yn ofnus ymma yn Iuda: pa faint fwy os awn i Geila yn erbyn byddinoedd y Philiſtiaid?

4 Yna Dafydd eilwaith a ymgynghorodd a'r Arglwydd, a'r Arglwydd ai hattebodd ef: ac a ddywedodd: cyfot, a dos i wared i Geila, canys myfi ſydd yn rhoddi y Philiſtiaid yn dy law di.

5 A Dafydd ai wŷr a aethant i Geila, ac a ymladdodd a'r Philiſtiaid, ac a ddug eu gwartheg hwynt, ac ai tarawodd hwynt a phlâ mawr: felly y gwaredodd Dafydd drigolion Ceila.

Pen.22.20. 6 (A bu pan *ffoawdd Abiathar mab Ahimelec at Ddafydd i Geila, ddwyn o honaw ef Ephod yn ei law)

7 A mynegwyd i Saul ddyfod Dafydd i Geila: a dywedodd Saul, Duw ai rhoddes ef yn fy llaw i, canys caewyd arno ef pan ddaeth i ddinas a phyrth ac a barrau [iddi.]

8 Yna Saul a gyhoeddodd rhyfel i'r holl bobl: gan fyned i wared i Geila i warche ar Ddafydd, ac ar ei wŷr ef.

9 Pan wybu Dafydd fod Saul yn bwriadu iw erbyn ef y drwg hwn: yna efe a ddywedodd wrth Abiathar yr offeiriad, dwg yr Ephod.

10 Yna y dywedodd Dafydd, ô Arglwydd Dduw Iſrael, gan glywed y clybu dy wâs fod Saul yn ceiſio dyfod i Geila i ddeſtruwio y ddinas er fy mwyn i.

11 A ddyru arglwyddi Ceila fi yn ei law ef? a ddaw Saul i wared megis y clybu dy wâs di? ô Arglwydd Dduw Iſrael mynega attolwg i'th wâs: a'r Arglwydd a ddywedodd, efe a ddaw i wared.

12 Yna y dywedodd Dafydd, a ddyru arglwyddi Ceila fyfi a'm gwŷr yn llaw Saul? a'r Arglwydd a ddywedodd, rhoddant.

13 Yna y cyfododd Dafydd ai ddynion, [y rhai oeddynt] yng-hylch chwe chant o wŷr, ac a aethant o Geila, ac a rodiaſant lle y gallaſant: a mynegwyd i Saul fod Dafydd wedi diangc o Geila, ac efe a beidiodd a myned.

14 A Dafydd a arhoſodd yn yr anialwch mewn amddeffynfeudd, ac a arhôdd mewn mynydd yn anialwch Ziph: a Saul ai ceiſiodd ef bob dydd, ond ni roddes Duw ef yn ei law ef.

15 Yna y gwelodd Dafydd fod Saul wedi myned allan i geiſio ei enioes ef: a Dafydd [oedd] yn anialwch Ziph mewn coed.

16 Yna Ionathan mab Saul a gyfododd, ac a aeth at Ddafydd i'r coed: ac ai cymmorthwyodd ef yn Nuw.

17 Dywedodd efe hefyd wrtho ef, nac ofna: canys llaw Saul fy nhâd ni'th gaiff di, a thi a deyrnaſi ar Iſrael, a minne a fyddaf yn neſſaf ar dy ôl di, a Saul fy nhad ſydd yn gŵybod hyn hefyd.

18 Felly hwynt ill dau a wnaethant gyfammod ger bron yr Arglwydd: a Dafydd a arhoſodd yn y coed, ond Ionathan a aeth ymmaith iw dŷ ei hun.

19 Yna y daeth y Ziphiaid i fynu at Saul i Gibea gan ddywedyd: onid yw Dafydd yn ymguddio gyda ni mewn amddeffynfeudd yn y coed, ym mryn Hachila yr hwn [ſydd] o'r tu dehau i'r diffaethwch?

20 Ac yn awr ô frenin tyret i wared yn ôl holl ddymuniad dy galon: a [bydded] arnom ni ei roddi ef yn llaw y brenin.

21 Yna y dywedodd Saul, bendigedic [fyddoch] chwi i'r Arglwydd: canys coſturiaſoch wrthif.

22 Ewch attolwg, parattoiwch etto, mynnwch wybod hefyd, ac edrychwch am ei gyniwerfa ef lle y mae efe yn trammwyo, [a] phwy ai gwelodd ef yno: canys dywetpwyd i mi ei fod efe yn gyfrwys iawn.

23 Edrychwch gan hynny, a gwybyddwch yr holl locheſau y rhai y mae efe yn ymguddio ynddynt, a dychwelwch attafi a ſiccrwydd, fel yr elwyf gyda chwi: ac os bydd efe yn y wlad, chwiliaf am dano ef drwy holl filoedd Iuda.

24 Yna y cyfodaſant hwy, ac yr aethant i Ziph o flaen Saul: ond Dafydd ai wŷr [oeddynt] yn anialwch Maon, mewn rhos o'r tu dehau i'r diffaethwch.

25. Saul hefyd a aeth ai wŷr iw geiſio [ef,] a
mynegwyd i Ddafydd, am hynny efe a ddaeth
i wared i'r graig, ac a arhoſodd yn anialwch
*Maon: pan glybu Saul [hynny,] yna efe a Ioſua 15.55.
erlidiodd ar ôl Dafydd yn anialwch Maon.

26 A Saul a aeth o'r naill du i'r mynydd, a Dafydd ai wŷr o'r tu arall i'r mynydd: ac yr oedd Dafydd yn bryſſio i fyned ymmaith oddi wrth Saul: canys Saul ai wŷr ef a amgylchynaſent

naſent Dafydd, ai wŷr, iw dala hwynt.

27 Yna cennad a ddaeth at Saul gan ddywedyd: bryſia a dôs, canys y Philiſtiaid a ruthraſant ar y wlâd.

28 Am hynny y dychwelodd Saul o erlid ar ôl Dafydd, ac efe a aeth i gyfarfod a'r Philiſtiaid: herwydd hynny y galwaſant y fann honno Sela Hamahlecoth.

## PEN. XXIIII.

Dafydd yn gallu lladd Saul, ac yn ei arbed ef. 18 Saul yn cydnabod ei fai, ac yn peri i Ddafydd dyngu bod yn dda wrth ei hiliogaeth ef.

A Dafydd a aeth i fynu oddi yno: ac a arhoſodd yn amddeffynfeudd *En-gedi.

Iosua.15.62.

2 A phan ddychwelodd Saul oddi ar ôl y Philiſtiaid: yna y mynegwyd iddo ef gan ddywedyd, wele Ddafydd yn anialwch En-gedi.

3 Yna y cymmerth Saul dair mîl o wŷr etholedig o holl Iſrael: ac efe a aeth i geiſio Dafydd ai wŷr ar hŷd coppa y creigiau [ym mhlith] y geifr gwylltion.

4 Ac efe a ddaeth at gorlannau y defaid [y rhai oeddynt] ar y ffordd, ac yno yr oedd ogof, a Saul a aeth i mewn i waſanaethu ei gorph: a Dafydd ai wŷr oeddynt yn aros yn yſtlyſau yr ogof.

5 Yna gwŷr Dafydd a ddywedaſant wrtho ef, wele 'r dydd [am] yr hwn y dywedodd yr Arglwydd wrthit, wele fi yn rhoddi dy elyn yn dy law di, fel y gwnelech iddo ef megis y byddo da yn dy olwg di: yna Dafydd a gyfododd, ac a dorrodd gwrr y fantell (yr hon [oedd] am Saul) yn ddirgel.

6 Ac wedi hyn chwith fu gan Ddafydd o herwydd iddo dorri cwrr [y fantell] yr hon [oedd] gan Saul.

7 Ac efe a ddywedodd wrth ei wŷr, na atto 'r Arglwydd i mi wneuthur y peth hwn i'm meiſtr eneiniog yr Arglwydd, gan eſtyn fy llaw yn ei erbyn ef: oblegit eneiniog yr Arglwydd [yw] efe.

8 Felly y goſtegodd Dafydd ei wŷr a'r geiriau [hyn,] ac ni adawodd iddynt gyfodi yn erbyn Saul: a Saul a gododd i fynu o'r ogof, ac a aeth i ffordd.

9 Ac yn ôl hyn Dafydd a gyfododd, ac a aeth allan o'r ogof, ac a lefodd ar ôl Saul gan ddywedyd, fy arglwydd frenin: pan edrychodd Saul oi ôl, yna Dafydd a oſtyngodd ei wyneb tua'r ddaiar, ac a ymgrymmodd.

10 A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, pa ham y gwrandewi eiriau dŷn, gan ddywedyd? wele y mae Dafydd yn ceiſio niwed iti.

11 Wele dy lygaid a wellaſant y dydd hwn ddarfod i'r Arglwydd dy roddi di yn fy llaw i heddyw yn yr ogof, a dywetpwyd [wrthif] am dy ladd di, ond [fy enaid] a'th arbedodd di: a dywedais, ni eſtynnaf fy llaw yn erbyn fy meiſtr, canys eneiniog yr Arglwydd [yw] efe.

12 Fy nhâd hefyd gwêl, gwêl etto gwrr dy fantell yn fy llaw i: canys pan dorrais ymmaith gwrr dy fantell di heb dy ladd, gŵybydd a gwêl nad oes yn fy llaw i ddrygioni, na chamwedd, ac na phechais i'ch erbyn, er dy fod ti yn hêla a'm fy enioes i iw chymmeryd hi ymaith.

13 Barned yr Arglwydd rhyngofi a thithe, a dialed yr Arglwydd fi arnat ti, ac na fydded fy llaw i i'ch erbyn di.

14 Megis y dywed yr hên ddihareb, o'r rhai anwir y daw allan anwiredd: ond ni bydd fy llaw i i'ch erbyn di.

15 Ar ôl pwy 'r aeth brenin Iſrael allan? ar ôl pwy 'r ydwyt ti 'n erlid? ar ôl ci marw? ar ôl un gwybedyn?

16 Ond bydded yr Arglwydd yn farn-wr, a barned rhyngofi a thi: edryched hefyd a dadleued fy nadl, ac achubed fi o'th law di.

17 A phan orphennodd Dafydd lefaru y geiriau hyn wrth Saul, yna y dywedodd Saul, ai dy lêf di [yw] hon fy mab Dafydd? a Saul a dderchafodd ei lêf, ac a ŵylodd.

18 Efe a ddywedodd hefyd wrth Ddafydd, cyfiawnach [ydwyt] ti na mi: canys ti a delaiſt i mi y daioni, a minne a delais i ti y drygioni.

19 A thi a ddangoſaiſt heddyw yr hyn a wnaethoſt a mi o ddaioni: o herwydd rhoddes yr Arglwydd fi yn dy law di, ac ni'm lleddaiſt.

20 Ond os caffe gŵr ei elyn, a ollynge efe ef mewn ffordd dda? am hynny yr Arglwydd a dalo i ti ddaioni am yr hyn a wnaethoſt i mi y dydd hwn.

21 Ac wele yn awr y gwn gan deyrnaſu y teyrneſi di: ac y ſaif brenhiniaeth Iſrael yn dy law di.

22 Twng dithe wrthifi yn awr i'r Arglwydd, na thorrech ymmaith fy hâd i ar fy ôl: ac na ddifethech fy enw i o dŷ fy nhâd.

23 Felly Dafydd a dyngodd wrth Saul: a Saul a aeth iw dŷ, Dafydd hefyd ai wŷr a aethant i fynu i'r amddeffynfa.

## PEN. XXV.

Marwolaeth Samuel. 10 Afrywiowgrwydd Nabal. 18 Synwyr Abigail. 38 Marwolaeth Nabal. 39 Dafydd yn priodi Abigail.

Yna y *bu farw Samuel, a holl Iſrael a ymgynnullaſant, ac a alaraſant am dano ef ac ai claddaſant ef o fewn ei dy ei hun yn Rama: a Dafydd a gyfododd, ac a aeth i wared i anialwch Paran.

Pen.28.3.
Ecclus. 46.13.

2 Ac [yr oedd] gŵr ym Maon ai gyfoeth yn Carmel, a'r gŵr [oedd] rymmus iawn, ac iddo ef [yr oedd] dair mil o ddefaid, a mîl o eifr: ac yr oedd efe yn cneifio ei ddefaid yn Carmel.

3 Ac enw 'r gŵr [oedd] Nabal, ac enw ei wraig Abigail: a'r wraig [oedd] yn dda [ei] deall, ac yn deg [ei] gwêdd, a'r gŵr [oedd] galed, a drwg [ei] weithredoedd, a Chalibiad [oedd] efe.

4 A chlybu Dafydd yn yr anialwch fod Nabal

bal yn cneiſio ei ddefaid.

5 Yna Dafydd a anfonodd ddêc o langciau: a Dafydd a ddywedodd wrth y llangciau, ewch i fynu i Garmel, a cherddwch i mewn at Nabal, a chyferchwch ef yn fy enw i.

6 Dywedwch hefyd, fel hyn [y byddo it] yn [dy] fywyd, [caffech] di heddwch, a'th dŷ heddwch, a'r hyn oll [ſydd] eiddo ti heddwch.

7 Ac yn awr clywais fod rhai yn cneiſio i ti: yn awr y bugeiliaid y rhai [ſydd] gennit a fuant gyd a ni, ni wnaethom ſarhaed arnynt hwy ac ni bu ddim eiſie iddynt yr holl ddyddiau y buant hwy yn Carmel.

8 Gofyn i'th langciau, a hwy a fynegant it, fel y caffo'r llangciau hyn ffafor yn dy olwg di, canys ar ddiwrnod da y daethom ni, dyro attolwg yr hyn a ddelo i'th law i'th weiſion, ac i'th fab Dafydd.

9 A llangciau Dafyd a ddaethant, ac wedi iddynt ddywedyd wrth Nabal yn ôl yr holl eiriau hynny yn enw Dafydd: yna y tawſant.

10 Yna Nabal a attebodd weiſion Dafydd ac a ddywedodd, pwy [yw] Dafydd, neu pwy [yw] mab Iſai? llawer ſydd o weiſion heddyw yn torri allan bob vn oddi wrth eu meiſtred.

11 A gymmeraſi fy mara, a'm dwfr, a'm cîg yr hwn a leddais i'r cneif-wŷr, a'i rhoddi i wŷr y rhai nis gwn o ba le [y maent] hwy?

12 Yna llangciau Dafydd a droaſant iw ffordd, ac a ddychwelaſant, ac a ddaethant, ac a fynegaſant iddo ef yn ôl yr holl eiriau hynny.

13 A Dafydd a ddywedodd wrth ei wŷr, ymwregyſwch bob vn ei gleddyf, yna'r ymwregyſodd pob vn ei gleddyf, ymwregyſodd Dafydd hefyd ei gleddyf: ac yng-hylch pedwar cant o wŷr a aethant i fynu ar ôl Dafydd, a dau cant a drigaſant gyd a'r dodrefn.

14 Yna vn o'r llangciau a fynegodd i Abigail gwraig Nabal, gan ddywedyd: wele Dafydd a anfonodd gennadau o'r anialwch i gyfarch ein meiſtr ni, ond efe ai difenwodd hwynt.

15 A'r gwŷr [fuant] yn dda iawn wrthym ni, ac ni wnaed ſarhaed arnom ni, ac ni bu i ni ddim yn eiſieu yr holl ddyddiau y rhodiaſom gyd a hwynt pan oeddem yn y maes.

16 Mûr oeddynt hwy i ni nôs a dydd: yr holl ddyddiau y buom gyd hwynt yn porthi y praidd.

17 Ac yn awr gwybydd, ac edrych beth a wnelech, canys paratowyd niwed yn erbyn ein meiſtr ni, ac yn erbyn ei holl dŷ ef: canys efe [ſydd] fab i'r fall, fel na ellir ymddiddan ag ef.

18 Yna Abigail a fryſſiodd, ac a gymmerth ddau cant o fara, a dwy goſtrelêd o wîn, a phump o ddefaid parod, a phum hobed o graſŷd, a chant [cawelled] o reſynau, a dau cant [torth] o ffigus, ac ai goſododd ar yr aſſynnod.

19 A hi a ddywedodd wrth ei gweiſion cerddwch o'm blaen i, wele fi yn dyfod ar eich ôl: ond wrth Nabal ei gŵr nid yngênodd hi.

20 A hi yn marchogeth ar yr aſſyn, ac yn dyfod i wared ar hŷd ŷ mynydd yn ddirgel, yna wele Dafydd ai wŷr yn deſcyn iw herbyn, a hi a gyfarfu a hwynt.

21 Yna y dywedodd Dafydd, diau gadw o honoſi yn ofer yr hyn oll [oedd] gan hwn yn yr anialwch, fel na bu ddim yn eiſieu o'r hyn oll [oedd] ganddo ef, canys efe a dalodd i mi ddrwg dros dda.

22 Felly y gwnelo Duw i elynnion Dafydd, ac felly chwaneged, os gadawaf o'r hyn oll [ſydd] ganddo ef erbyn y boreu [vn] a biſſo ar bared.

23 Pan welodd Abigail Ddafydd, yna hi a fryſſiodd, ac a ddeſcynnodd oddi ar yr aſſyn: a hi a ſyrthiodd ger bron Dafydd ar ei hwyneb, ac a ymgrymmodd i lawr.

24 A hi a ſyrthiodd wrth ei draed ef, ac a ddywedodd, ynoſi fy arglwydd y [mae] yr anwiredd: etto llefared dy waſanaeth-ferch attolwg wrthit, a gwrando eiriau dy law-forwyn.

25 Attolwg na oſoded fy arglwydd ei galon yn erbyn y gŵr anwir hwn, [ſef] yn erbyn Nabal, canys fel [y mae] ei enw ef, felly [y mae] yntef, Nabal, [yw] ei enw ef, ac ynfydrwydd [ſydd] gyd ag ef: a minne dy waſanaethferch ni welais weiſion fy arglwydd y rhai a anfonaiſt.

26 Ac yn awr fy arglwydd, [fel] y mae yr Arglwydd yn fyw, (ac [mai] byw dy enaid ti) yr Arglwydd a'th luddiodd di rhac dyfod [i dywallt] gwaed, ac i ymddial a'th law dy hun, felly yn awr bydded dy elynion di megis Nabal, a'r ſawl a geiſiant niwed i'm harglwydd.

27 Ac yn awr yr anrheg ymma yr hon a ddug dy waſanaethferch i'm harglwydd, rhodder hi i'r llangciau y rhai ſy yn canlyn fy arglwydd.

21 A madde attolwg gamwedd dy waſanaeth-ferch: canys yr Arglwydd gan wneuthur a wnaiff i'm harglwydd dŷ ſiccr, o herwydd fy arglwydd ſy yn ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd, a drygioni ni chafwyd ynot ti yn dy holl ddyddiau.

29 Er cyfodi o ddyn i'th erlyd ti, ac i geiſio dy enaid: etto enaid fy arglwydd a fydd wedi ei rwymo mewn rhwymyn y bywyd, gyd a'th Arglwydd dy Dduw, ac enaid dy elynnion a chwyrndeifl efe fel o ganol caudab y ffon-dafl.

30 A phan wnelo'r Arglwydd i'm harglwydd yn ôl yr hyn oll a lefarodd efe o ddaioni am danat, a phan i'th orchymyn di yn flaenor ar Iſrael,

31 Yna ni bydd hyn yn gwymp, nac yn dramgwydd calon i'm harglwydd megis tywallt gwaed heb achos, a dial o'm harglwydd ef ei hun: pan wnelo Duw ddaioni i'm harglwydd, yna cofia di dy law-forwyn.

32 Yna y dywedodd Dafydd wrth Abigail bendigedic [fyddo] Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn a'th anfonodd di y dydd hwn i'm cyfarfod i.

33 Bendigedic hefyd [yw] dy gyngor, a bendigedic [fyddech] dithe: yr hon a'm lluddiaiſt y dydd hwn rhac dyfod i [dywallt] gwaed, ac i ymddial a'm llaw fy hun.

34 Yn wîr fel y mae Arglwydd Dduw Iſrael yn fyw yr hwn a'm hattaliodd i rhac dy ddrygi di: oni buaſe i ti ddyfod i'm cyfarfod i yn fuan, diau na adawſid i Nabal erbyn goleuni y boreu [un] a biſſe ar bared.

35 Yna y cymmerodd Dafydd oi llaw hi yr hyn a ddugaſe hi iddo ef: ac efe a ddywedodd wrthi hi, dos i fynu mewn heddwch i'th dŷ, gwêl mi a wrandewais ar dy lais, ac a ganiateais dy ddyſyfiad di.

36 Felly Abigail a ddaeth at Nabal, ac wele [yr oedd] gwlêdd ganddo ef yn ei dŷ, fel gwlêdd y brenin, a chalon Nabal oedd lawen ynddo ef, canys meddw iawn oedd efe: ac nid yngênodd hi wrtho ef air bychan, na mawr nes goleuo yr boreu.

37 A'r boreu pan aeth y meddwdod allan o Nabal, yna y mynegodd ei wraig iddo ef y geiriau hynny: ai galon ef fu farw oi fewn, ac efe oedd fel carrec.

38 Yna yng-hylch [pen] y deng-nhiwrnod y tarawodd yr Arglwydd Nabal fel y bu efe farw.

39 Pan glybu Dafydd farw Nabal, yna y dywedodd efe, bendigedic [fyddo] yr Arglwydd yr hwn a ddialodd fy ſarhaed i o law Nabal, ac a attaliodd ei was rhac drwg, canys yr Arglwydd a drodd ddrygioni Nabal ar ei ben ei hun: Dafydd hefyd a anfonodd i ymddiddan ag Abigail am ei chymmeryd hi yn wraig iddo ef.

40 A phan ddaeth gweiſion Dafydd at Abigail i Garmel: hwy a lefaraſant wrthi hi gan ddywedyd, Dafydd a'n hanfonodd ni attati i'th gymmeryd ti yn wraig iddo ef.

41 Yna hi a gyfododd, ac a ymgrymmodd [ai] hwyneb tua yr ddaiar: ac a ddywedodd, wele dy forwyn yn wasanaeth-ferch i olchi traed gweiſion fy arglwydd.

42 Abigail hefyd a fryſſiodd, ac a gyfododd, ac a farchogodd ar aſſyn, a phump o langceſau yn ei chanlyn, a hi a aeth ar ôl cennadau Dafydd, ac a aeth yn wraig iddo ef.

43 A Dafydd a gymmerth Ahinoam o *Jezrêhel, ac hwy a fuant ill dwyoedd yn wragedd iddo ef.

Ioſ.15.56.
2.Sam.3.14.

44 A Saul a roddaſe Michol ei ferch ef gwraig Dafydd i Phalti fab Lais o Galim.

## P E N. XXVI.

Dafydd eilwaith yn gallu lladd Saul, ac yn ei arbed ef.

Yna y Ziphiaid a ddaethant at Saul i Gibea gan ddywedyd: *onid [ydyw] Dafydd yn llechu ym mryn Hachila ar gyfer y diffaethwch?

Pen.23.19.

2 Yna y cyfododd Saul, ac a aeth i wared i anialwch Ziph a thair mil o etholedigion gwŷr Iſrael gyd ag ef, i geiſio Dafydd yn anialwch Ziph.

3 A Saul a werſſyllodd ym mryn Hachila, yr hwn [ſydd] ar gyfer y diffaethwch wrth y ffordd: a Dafydd oedd yn aros yn yr anialwch, ac efe a gaufu Saul wedi dyfod ar ei ôl ef i'r anialwch.

4 (Canys Dafydd a anfonaſe chwil-wŷr, ac a ŵybu ddyfod o Saul yn ſiccr.)

5 Yna y cyfododd Dafydd, ac y daeth i'r lle yr hwn y gwerſſyllaſe Saul ynddo, a chanfu Dafydd y lle yr hwn yr oedd Saul yn gorwedd ynddo, ac Abner mab Ner tywyſog ei filwriaeth ef: a Saul oedd yn gorwedd yn y werſſyllfa, a'r bobl yn gwerſſyllu oi amgylch ef.

6 Yna y llefarodd Dafydd, ac y dywedodd efe wrth Ahimelec yr Hethiad, ac wrth Abiſai fab Serfia brawd Ioab gan ddywedyd, pwy a aiff i wared gyd a mi at Saul i'r gwerſſyll? yna y dywedodd Abiſai, myfi a âf i wared gyd a thi.

7 Felly y daeth Dafydd, ac Abiſai at y bobl liw nos, ac wele Saul yn gorwedd, [ac] yn cyſcu yn y werſſyllfa, ai waiwffon wedi ei gwthio i'r ddaiar [wrth] ei obennydd ef: ac Abner, a'r bobl oeddynt yn gorwedd oi amgylch ef.

8 Yna y dywedodd Abiſai wrth Ddafydd, Duw a roddes heddyw dy elyn di yn dy law di: ac yn awr gad i mi ei daro ef attolwg a gwaiwffon hyd y ddaiar un waith, ac nis ail tarawaf ef.

9 A Dafydd a dywedodd wrth Abiſai, na ddifetha ef, canys pwy a eſtynne ei law yn erbyn eneiniog yr Arglwydd, ac a fydde ddiniwed?

10 Dywedodd Dafydd hefyd, [fel] y mae yr Arglwydd yn fyw, y naill ai yr Arglwydd ai teru ef: neu ei ddydd ef a ddaw i farw, neu efe a ddeſcyn i'r rhyfel, ac a ddifethir.

11 Yr Arglwydd a'm cadwo i rhac eſtyn fy llaw yn erbyn eneiniog yr Arglwydd: ac yn awr cymmer attolwg y waiw-ffon yr hon [ſydd wrth] ei obennydd ef, a'r phioled ddwfr, ac awn ymmaith.

12 A Dafydd a gymmerth y waiw-ffon, a'r phioled ddwfr oddi wrth obennydd Saul, a hwy a aethant ymmaith: ac nid oedd [neb] yn gweled, nac yn gwybod, nac yn neffro, canys hwynt oll oeddynt yn cyſcu, o herwydd trwmgwſc yr Arglwydd a ſyrthiaſe arnynt hwy.

13 Yna Dafydd a aeth i'r tu hwnt, ac a ſafodd ar ben y mynydd o hir-bell, [ac] encyd fawr rhyngddynt.

14 A Dafydd a lefodd ar y bobl, ac ar Abner fab Ner gan ddywedyd, onid attebi di Abner? yna Abner a attebodd, ac a ddywedodd, pwy [ydwyt] ti [yr hwn] a elwaiſt ar y brenin?

15 A Dafydd a ddywedodd wrth Abner, onid gŵr [ydwyt] ti? a phwy [ſydd] fel ti yn Iſrael? a pha ham na chedwaiſt dy arglwydd

frenin ∴ canys daeth vn o'r bobl i ddifetha y brenin dy feiſtr di.

16 Nit da [yw] y peth hyn yr hwn a wnaethoſt di [fel] y mae 'r Arglwydd yn fyw, canys meibiō [euog] o farwolaeth [ydych] chwi, am na chadwaſoch eich meiſtr ſef eneiniog 'r Arglwydd: ac yn awr edrychwch pa le [y mae] gwaiw-ffon y brenin, a'r phioled ddwfr y rhai [oeddynt wrth] ei obennydd ef.

17 Yna Saul a adnabu lais Dafydd, ac a ddywedodd, ai dy lef di [yw] hon fy mab Dafydd ∴ yna y dywedodd Dafydd, fy llef fi [ydyw] hi fy arglwydd frenin.

18 Dywedodd efe hefyd, pa ham [fel] hyn fy arglwydd yr ydwyt yn erlid ar ôl dy wâs ∴ canys beth a wneuthum ∴ neu pa ddrygioni [ſydd] yn fy llaw ∴

19 Ac yn awr, attolwg gwrandawed fy arglwydd frenin eiriau ei waſanaeth-wr: os yr Arglwydd a'th annogodd di i'm herbyn arogler aberth, ond os meibion dynion, melldigedic [fyddant] hwy ger bron yr Arglwydd, o herwydd iddynt fyng-yrru i ymmaith heddyw, fel nad ydwyf yn cael glynu yn etifeddiaeth yr Arglwydd gan ddywedyd, dos gwaſanaetha dduwiau dieithr.

20 Yn awr gan hynny na ſyrthied fyng-waed i i'r ddaiar o flaen wyneb yr Arglwydd: canys brenin Iſrael a aeth allan i geiſio vn gwybedyn, megis pe ymlidie efe bettris yn y mynyddoedd.

21 Yna Saul a ddywedodd, pechais, dychwel Dafydd fy mab, canys ni'ch ddrygaf di mwy, o herwydd gwerth-fawr fu fy enioes i yn dy olwg di y dydd hwn: wele ynfyd y gwneuthum, ac mi a ymryfuſais yn ddirfawr.

22 A Dafydd a attebodd, ac a ddywedodd wele waiw-ffon y brenin: deled vn o'r llangciau troſodd, a chymmered hi.

23 A'r Arglwydd a dalo i bôb vn ei gyfiawnder ei hun, ai ffyddlondeb: canys yr Arglwydd a'th roddes di heddyw yn [fy] llaw i, ond ni fynnais i eſtyn fy llaw yn erbyn eneiniog yr Arglwydd.

24 Ac wele megis y mawrhauwyd dy enaid ti heddyw yn fyng-olwg i: felly y mawrhaer fy enaidinne yng-ŵydd yr Arglwydd, fel y gwaredo efe fi o'm holl gyfyngdra.

25 Yna y dywedodd Saul wrth Ddafydd, bendigedic [ydwyt] ti fy mab Dafydd, hefyd gan wneuthur y gwnei, a chan orchfygu y gorchfygi, a Dafydd a aeth iw ffordd, a Saul a ddychwelodd iw fangre ei hun.

## P.E N. XXVII.

Dafydd yn ffoi at Achis, ac yn cael aros yn Siclag. 8 Ac oddi yno yn lladd rhai o'r Philiſtiaid heb wybod i Achis.

Dywedodd Dafydd hefyd yn ei galon yn awr difethir fi ryw ddydd drwy law Saul: onid goref i mi ddiang i dir y Philiſtiaid, (fel yr anobeithio Saul [ddyfod] i mi,) ac nim cais i yn holl derfynau Iſrael ∴ felly y diangaf oi law ef ∴

2 Yna Dafydd a gyfododd, ac a dramwyodd, efe a'r chwe chan-ŵr y rhai [oeddynt] gyd ag ef, at Achis fab Maoc brenin Gath.

3 A Dafydd a arhoſodd gyd ag Achis yn Gath, efe, ai wŷr, pôb vn ai deulu ei hun: Dafydd ai ddwy wragedd Ahinoam yr Iezrahelithes, ac Abigail gwraig Nabal y Garmeluthes.

4 Yna y mynegwyd i Saul ffoi o Ddafydd i Gath: ac ni chwanegodd efe ei geiſio ef mwy.

5 A Dafydd a ddywedodd wrth Achis, o chefais yn awr ffafor yn dy olwg di, rhodder i mi le yn vn o'r maes drefi fel y trigwyf yno: canys pa ham yr erys dy wâs di yn ninas y brenin gyd a thi ∴

6 Yna Achis a roddes iddo ef y dydd hwnnw Siclag: am hynny y mae Siclag yn eiddo brenhinoedd Iuda hyd y dydd hwn.

7 A rhifedi y dyddiau y rhai yr arhoſodd Dafydd yng-wlâd y Philiſtiaid [oeddynt] ddyddiau a phedwar mis.

8 Yna Dafydd a aeth i fynu, ai wŷr, ac a ruthraſant ar y Geſuriaid, ar Girziaid, a'r Amaleciaid: hwynt oeddynt yn preſſwylio y wlâd honno er ioed, ffordd y delech i Sur, ie hyd wlâd yr Aipht.

9 A Dafydd a darawodd y wlâd, ac ni adawodd yn fyw ŵr, na gwraig: ac efe a ddûg ddefaid, a gwarthec, aſſynnod hefyd a chamêlod, a gwiſcoedd, ac a ddychwelodd, ac a ddaeth at Achis.

10 Ac Achis a ddywedodd, i ba le y rhuthraſoch chwi heddyw ∴ yna y dywedodd Dafydd yn erbyn tu dehau Iuda, ac yn erbyn tu dehau yr * Ierameeliaid, ac yn erbyn tu dehau y Ceneaid. 1.Cron.2.9.

11 Ac ni adawſe Dafydd yn fyw ŵr na gwraig iw dwyn i Gath, gan ddywedyd: rhac mynegu o honynt i'n herbyn gan ddywedyd: fel hyn y gwnaeth Dafydd, ac felly [yr oedd] ei arfer ef yr holl ddyddiau tra yr arhoſodd efe yng-wlâd y Philiſtiaid.

12 Ac Achis a gredodd Ddafydd gan ddywedyd: efe ai gwnaeth ei hun yn ffiaid, ac yn wrthgas gan ei bobl ei hun yn Iſrael, am hynny y bydd efe yn wâs i mi yn dragywydd.

## P E N. XXVIII.

Saul yn ymgynghôri a dewines, ac yn cael clywed ei ddiniſtr ei hun.

AR Philiſtiaid yn y dyddiau hynny a gynnullaſant eu byddinoedd yn llu, i ymladd yn erbyn Iſrael: a dywedodd Achis wrth Ddafydd, gwybydd di yn yſpys yr ei di gyd a mi allan i'r gwerſſylloedd ti a'th wŷr.

2 A dywedodd Dafydd wrth Achis, yn ddiau ti a gei wybod yr hyn a wnaiff dy wâs di: a dywedodd Achis wrth Ddafydd, yn wîr minne a'th oſodaf di yn geidwad ar fy mhen i byth.

3 (A *Samuel a fuaſe farw, a holl Iſrael a Pen.25.1.
alaraſent

alaraſent am dano ef, ac ai claddaſent ef yn Ramah, ſef yn ei ddinas ei hun: a Saul a* yrraſe ymmaith y ſwynyddion, a'r dewiniaid o'r wlâd)

Exod.22.18.
deut.18.10.11.

4 Yna y Philiſtiaid a ymgynnullaſant, ac a ddaethant, ac a werſyllaſant yn Sunem: a Saul a gaſclodd holl Iſrael, a hwy a werſyllaſant yn Gilboa.

5 Pan welodd Saul werſyll y Philiſtiaid yna yr ofnodd efe, ai galon a ddychrynnodd yn ddirfawr.

6 A phan ymgynghorodd Saul a'r Arglwydd yna'r Arglwydd nis attebodd ef: na thrwy freuddwydion, na thrwy * Urim, na thrwy brophwydi.

Exod.28.30.

7 Yna y dywedodd Saul wrth ei weiſion, ceiſiwch i mi wraig berchen yſpryd dewiniaeth, fel yr elwyf atti, ac yr ymofynnwyf a hi: ai weiſion a ddywedaſant wrtho ef, wele [y mae] gŵraig berchen yſpryd dewiniaeth yn Endor.

8 Yna Saul a newidiodd ei ddillad, ac a wiſcodd ddillad eraill, ac efe a aeth a dau ŵr gyd ag ef, a hwy a ddaethant at y wraig liw nôs, ac efe a ddywedodd, dewina attolwg i mi drwy yſpryd dewiniaeth, a dwg i fynu attafi yr hwn a ddywedwyf wrthit ti.

9 A'r wraig a ddywedodd wrtho ef, wele ti a wyddoſt yr hyn a wnaeth Saul, yr hwn a ddiſethodd y ſwynyddion, a'r dewiniaid o'r wlâd: pa ham gan hynny yr ydwyt ti yn goſod magl yn erbyn fy enaid i, i beri i mi farw?

10 A Saul a dyngodd wrthi hi i'r Arglwydd gan ddywedyd: [nid] byw yr Arglwydd os ddigwydda i ti niwed am y peth hyn.

11 Yna y dywedodd y wraig, pwy a ddygafi i fynu attat ti? ac efe a ddywedodd, dwg Samuel i fynu attafi.

12 A'r wraig a ganfu Samuel, ac a alwodd a llef vchel: a'r wraig a lefarodd wrth Saul gan ddywedyd: pa ham y twyllaiſt fi, canys ti [ydwyt] Saul?

13 A'r brenin a ddywedodd wrthi hi, nac ofna, canys beth a welaiſt? a'r wraig a ddywedodd wrth Saul, duwiau a welais yn derchafu o'r ddaiar.

14 Yntef a ddywedodd wrthi hi, pa ddull [ſydd] arno ef? a hi a ddywedodd, gŵr hên ſydd yn dyfod i fynu, a hwnnw yn gwiſco mantell: a gwybu Saul mai Samuel [oedd] efe, ac efe a oſtyngodd ei wyneb i lawr, ac a ymgrymmodd.

15 A Samuel a ddywedodd wrth Saul, pa ham y cyffroaiſt fi, gan beri i mi ddyfod i fynu? yna y dywedodd Saul, mae yn gyfyng iawn arnafi, canys y mae y Philiſtiaid yn ryfêla yn fy erbyn i, a Duw a giliodd oddi wrthifi, ac ni'm hattebodd mwyach na thrwy law prophwydi, na thrwy freuddwydion, am hynny y gelwais arnat ti i yſpyſſu i mi beth a wnawn.

16 Yna y dywedodd Samuel, pa ham gan hynny yr ydwyt ti yn ymofyn a mi, gan i'r Arglwydd gilio oddi wrthit ti, a bôd i ti yn elyn?

17 Yr Arglwydd yn ddiau a wnaeth iddo megis, ac y llefarodd drwy * fy llaw i: canys yr Arglwydd a rwygodd y frenhiniaeth o'th law di, ac ai rhoddes hi i'th gymmydog Dafydd,

Pen.15.28.

18 Oherwydd na wrandewaiſt di ar lais yr Arglwydd, ac na chyflawnaiſt di lidiawgrwydd ei ddigter ef yn erbyn yr Amaleciaid, am hynny y gwnaeth yr Arglwydd y peth hyn i ti y dydd hwn.

19 Yr Arglwydd hefyd a ddyru Iſrael gyd a thi yn llaw y Philiſtiaid, ac y * foru [y byddi] di a'th feibion gyd a mi: a'r Arglwydd a ddyru werſyllau Iſrael yn llaw y Philiſtiaid.

Pen.31.6.

20 Yna Saul a fryſſiodd, ac a ſyrthiodd ei hŷd gyhŷd ar y ddaiar, ac a ofnodd yn ddirfawr rhac geiriau Samuel: nerth hefyd nid oedd ynddo ef, canys ni fwytaſe fwyd yr holl ddiwrnod, na'r holl noſwaith honno.

21 Yna y daeth y wraig at Saul, a hi a ganfu mai dychrynnedig iawn oedd efe: a hi a ddywedodd wrtho ef, wele gwrandawodd dy lawforwyn ar dy lais di, goſodais hefyd fy enioes mewn enbydrwydd, ac vfyddheais dy eiriau y rhai a leferaiſt wrthif.

22 Yn awr gan hynny gwrando dithe attolwg ar lais dy waſanaeth-ferch, a gad i mi oſod ger dy fron di dammed o fara, fel y bwyttaech: ac y byddo nerth ynot, pan elech i ffordd.

23 Ond efe a wrthododd, ac a ddywedodd, ni fwyttâf: etto ei weiſion a'r wraig hefyd ai cymmellaſant ef, ac efe a wrandawodd ar eu llais hwynt: ac efe a gyfododd oddi ar y ddaiar, ac a eiſteddodd ar y gwely.

24 Ac [yr oedd] gan y wraig lô brâs yn tŷ, yna hi a fryſſiodd, ac ai lladdodd ef: cymmerth hefyd beillied, ac ai telînodd, ac ai pobodd yn grî.

25 Yna hi ai dûg [hwynt] ger bron Saul, a cher bron ei weiſion ef, a hwy a fwyttaſant: ac a gyfodaſant, ac a aethant ymmaith y noſon honno.

## PEN. XXIX.

Tywyſogion y Philiſtiaid yn peri gyrru Dafydd yn ei ôl.

YNa y Philiſtiaid a gynnullaſant eu holl fyddinoedd i Aphec: a'r Iſraeliaid oeddynt yn gwerſyllu wrth Ain yr hon [ſydd] yn Iezrahel.

2 A thywyſogion y Philiſtiaid oeddynt yn trammwy yn gantoedd, ac yn filoedd: ond Dafydd ai wŷr oeddynt yn cerdded yn olaf gyd ag Achis.

3 Yna tywyſogion y Philiſtiaid a ddywedaſant, beth [a wna] yr Hebræaid hyn [ymma?] ac Achis a ddywedodd wrth dywyſogion y Philiſtiaid, onid dymma Ddafydd gwâs Saul brenin Iſrael, yr hwn a fu gyd a mi y dyddiau hyn, neu yr blynyddoedd hyn, ac ni chefais ddim yntho ef, er y dydd y ffoawdd efe [attaf] hyd y dydd hwn?

4 Er hynny tywyſogion y Philiſtiaid a lidi-

aſant wrtho ef, a thywyſogion y Philiſtiaid a
ddywedaſant wrtho ef, trô di y gŵr hwn fel y
dychwelo iw le yr hwn y goſodaiſt ef arno, ac
na ddeled i wared gyd a ni i'r rhyfel, rhac ei fod
yn wrthwyneb-ŵr i ni yn y rhyfel: canys a pha
1.Cron.12.19. beth y rhynga hwn fodd iw feiſtr onid a phennau y gwŷr hyn?

5 Onid hwn [yw] Dafydd yr hwn y canaſant
Pen.18.7. iddo yn y dawnſiau gan ddywedyd: Saul
& 21.11. a darawodd ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn.

6 Yna Achis a alwodd ar Ddafydd, ac a ddywedodd wrtho ef, [fel mai] byw yw yr Arglwydd diau dy [fod] ti yn inion, ac yn ddâ yn fyng-olwg i, pan elit allan, a phan ddelit i mewn gyd a mi yn y gwerſſyll, canys ni chefais ynot ddrygioni o'r dydd y daethoſt attaf hyd y dydd hwn: eithr nid [wyt] ti wrth fodd y tywyſogion.

7 Dychwel yn awr gan hynny a dos mewn heddwch: ac na anfodlona dywyſogion y Philiſtiaid.

8 Yna y dywedodd Dafydd wrth Achis, ond beth a wneuthum i, a pheth a gefaiſt di yn dy wâs o'r dydd yr hwn y bum o'th flaen di hyd y dydd hwn, fel na ddelwn i ymladd yn erbyn gelynnion fy arglwydd frenin.

9 Ac Achis a attebodd, ac a ddywedodd wrth Ddafydd, gwn mai da [ydwyt] ti yn fyng-olwg i, megis angel Duw: ond tywyſogion y Philiſtiaid a ddywedaſant, na ddeued efe i fynu gyd a ni i'r rhyfel.

10 Am hynny yn awr cyfot yn foreu, a gweiſion dy feiſtr y rhai a ddaethant gyd a thi: pan gyfodoch yn foreu, a goleuo i chwi, yna ewch ymmaith.

11 Felly Dafydd a gyfododd, efe ai wŷr i fyned ymmaith y boreu, i ddychwelyd î dîr y Philiſtiaid: a'r Philiſtiaid a aethant i fynu i Jezrehel.

## PEN. XXX.

Yr Amaleciaid yn lloſci, ac yn yſpeilio Siclag. 8 Dafydd yn eu hymlid, yn eu difetha, ac yn eu hyſpeilio hwythau.

PAn ddaeth Dafydd ai wŷr i Siclag y trydydd dydd: yna yr Amaleciaid a ruthraſent, ar du yr dehau, ac ar Siclag, ac a darawſent Siclag, ac ai lloſcaſent hi a thân.

2 Caeth-gludaſent hefyd y gwragedd y rhai [oeddynt] ynddi, o fychan hyd fawr, ni laddaſent hwy nêb, eithr dugaſent [hwy] ymmaith, ac aethent iw ffordd.

3 Felly y daeth Dafydd ai wŷr i'r ddinas, ac wele hi wedi ei lloſci a thân: eu gwragedd hwynt hefyd, ai meibion, ai merched a gaeth-gludaſid ymmaith.

4 Yna y derchafodd Dafydd, a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef eu llef, ac a ŵylaſant hyd nad [oedd] egni ynddynt i ŵylo.

5 Dwy wragedd Dafydd hefyd a gaeth-gludaſid: Ahinoam yr Jezrehelies, ac Abigail gwraig Nabal y Carmeliad.

6 A bu yn gyfyng iawn ar Ddafydd, canys y bobl a feddyliaſant ei labyddio ef, o herwydd chwerwaſe enaid yr holl bobl, pôb un am ei feibion, ac am ei ferched: ond Dafydd a ymgyſſurodd yn yr Arglwydd ei Dduw.

7 A Dafydd a dywedodd wrth Abiathar yr offeiriad mab Ahimelec, dŵg i mi attolwg yr Ephod: ac Abiathar a ddug yr Ephod at Ddafydd.

8 Yna Dafydd a ymgynghorodd a'r Arglwydd, gan ddywedyd, [a] erlidiafi ar ôl y dorf hon? a oddiweddafi hi? ac efe a ddywedodd wrtho ef, erlid, canys gan oddiweddid y goddiweddi, a chan waredu y gwaredi.

9 Felly Dafydd a aeth, efe a'r chwe chanŵr y rhai [oeddynt] gyd ag ef, a hwy a ddaethant hyd afon Beſor, a'r rhan arall a arhoſaſant [yno.]

10 A Dafydd a erlidiodd, efe a phedwar cant o wŷr: (canys dau can-wr a ſafaſant yn ôl [ſef] y rhai a flinaſent fel na allent fyned tros afon Beſor.)

11 A hwy a gawſant Aipht-ddyn yn y maes, ac ai dugaſant ef at Ddafydd: rhoddaſant hefyd iddo ef fara, ac efe a fwyttâodd, a hwy ai diodaſant ef a dwfr.

12 A hwy a roddaſant iddo ef ddarn o ffigus, a dau [gawell] o reſſyng, ac efe a fwyttâodd, ai yſpryd a ddychwelodd atto ef, canys ni fwyttaſe fara, ac ni yfaſe ddwfr dridiau, a thair nos.

13 A Dafydd a ddywedodd wrtho ef, [gwâs] i bwy [wyt] ti, ac o ba le y [daethoſt] ti? ac efe a ddywedodd, llangc o'r Aipht [ydwyf] fi, [a] gwâs i ŵr o Amalec, a'm meiſtr a'm gadawodd, o blegit i mi glefychu er ys tridiau bellach.

14 Nyni a anrhaithiaſom du yr dehau i Cerethi, a'r hyn [ſydd] eiddo Juda, a thu yr dehau i Caleb: Siclag hefyd a loſcaſom ni a thân.

15 A Dafydd a ddywedodd wrtho, a ei di a mi i wared at y dorf hon? yntef a ddywedodd twng wrthifi i Dduw, na leddech fi, ac na roddech fi yn llaw fy meiſtr, ac mi a âf a thi i wared at y dorf hon.

16 Ac efe ai dûg ef i wared, ac wele hwynt wedi ymwaſcaru ar hŷd wyneb yr holl dîr: yn bwytta, ac yn yfed, ac yn llemmen, o herwydd yr holl yſpail fawr yr hon a ddygaſent hwy o wlâd y Philiſtiaid, ac a wlâd Juda.

17 A Dafydd ai tarawodd hwynt o'r cyfnos hyd brydnawn drannoeth: ac ni ddiangodd un o honynt, eithr pedwar cant o wŷr ieuaingc, y rhai a farchogaſant ar gamêlod, ac a ffoaſant.

18 A Dafydd a achubodd yr hyn oll a ddugaſe yr Amaleciaid: Dafydd hefyd a waredodd ei ddwy wragedd.

19 Ac nid oedd yn eiſieu iddynt, na bychan na mawr, na mab, na merch, na [dim] o'r anrhaith, hyd ynoed yr hyn oll a ddugaſent hwy gandynt: hynny oll, a ddûg Dafydd adref.

29 Dûg Dafydd hefyd yr holl defaid, a'r

gwartheg: [ac ai] gyrraſant o flaen ei yr ef, a hwy a ddywedaſant, dymma anrhaith Dafydd.

21 A Dafydd a ddaeth at y dau can-wr y rhai a flinaſent fel nad allent fyned ar ôl Dafydd, ac a baraſid iddynt aros wrth afon Beſor, a hwy a aethant i gyfarfod Dafydd, ac i gyfarfod a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef: a phan neſſaodd Dafydd at y bobl, efe ai cyfarchodd hwynt.

22 Yna'r attebodd pob gŵr drygionus, ac eiddo'r fall o'r gwŷr y rhai a aethent gyd a Dafydd, ac a ddywedaſant, o herwydd nad aethant hwy gyd a ni, ni roddwn ni iddynt hwy [ddim] o'r anrhaith yr hon a achubaſom ni: eithr i bob vn ei wraig, ai feibion: am hynny dygant [hwynt] ymmaith, ac ymadawant.

23 Yna y dywedodd Dafydd, ni wnewch chwi felly fy mrodyr: am yr hyn a roddes yr Arglwydd i ni, yr hwn a'n cadwodd ni, ac a roddes y dorf yr hon a ddaethe i'n herbyn ni yn ein llaw ni.

24 Pwy gan hynny a wrendu arnoch chwi yn y peth hyn? canys vn fath [fydd] rhann yr hwn a elo i waered i ryfel, a rhann yr hwn a arhoſo gyd a'r dodrefn, hwy a gyd rannant.

25 Ac o'r dydd hwnnw allan efe a oſododd hynn yn gyfraith, ac yn farnedigaeth yn Iſrael hyd y dydd hwn.

26 Pan ddaeth Dafydd i Siclag, efe a anfonodd o'r anrhaith, i henuriaid Iuda, [ſef] i'w gyfeillion gan ddywedyd: wele i chwi anrheg o anrhaith gelynnion yr Arglwydd.

27 [Sef] i'r rhai [oeddynt] yn Bethel, ac i'r rhai [oeddynt] yn Ramoth tua'r dehau, ac i'r rhai [oeddynt] yn Iather.

28 Hefyd i'r rhai [oeddynt] yn Aroer, ac i'r rhai [oeddynt] yn Siphmoth, ac i'r rhai [oeddynt] yn Eſtemoa.

29 Ac i'r rhai [oeddynt] yn Rachal, ac i'r rhai [oeddynt] yn ninaſoedd y Ierahmeeliaid, ac i'r rhai [oeddynt] yn ninaſoedd y Ceneaid.

30 Ac i'r rhai [oeddynt] yn Horma, ac i'r rhai [oeddynt] yng-Horaſan, ac i'r rhai [oeddynt] yn Athach.

31 Ac i'r rhai [oeddynt] yn Hebron, ac i'r holl leoedd y rhai y rhodiaſe Dafydd efe ai wŷr ynddynt.

## PEN. XXXI.

Dihenydd Saul, ai feibion.

AR *Philiſtiaid oeddynt yn ymladd yn erbyn Iſrael, a gwŷr Iſrael a ffoaſant rhac y Philiſtiaid, ac a ſyrthiaſant yn archolledic ym mynydd Gilboa. 1.Cron.10.1.

2 A'r Philiſtiaid a erlidiaſant Saul, ai feibion: a'r Philiſtiaid a laddaſant Ionathan, Abinadab hefyd, a Malciſua meibion Saul.

3 A chrwmhaodd y rhyfel yn erbyn Saul, a'r perchen bwâu ai cawſant ef, ac efe a ofnodd yn ddirfawr rhac y ſaethyddion.

4 Yna y dywedodd Saul wrth glydydd ei arfau, tynn dy gleddyf a thrywana fi ag ef, rhac i'r rhai dienwaededic ymma ddyfod a'm trywanu i, a'm gwaradwyddo, ond ni fynne ei eſwyn ef, canys efe a ddychrynnaſe yn ddirfawr: am hynny Saul a gymmerodd y cleddyf, ac a ſyrthiodd arno ef.

5 Pan welodd ei eſwyn ef farw o Saul: yna yntef hefyd a ſyrthiodd ar ei gleddyf, ac a fu farw gyd ag ef.

6 Felly y bu farw Saul, ai dri mab ef, ai eſwyn, ai holl wŷr ef y dydd hwnnw ar vn waith.

7 Pan welodd gwŷr Iſrael y rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i'r dyffryn, a'r rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i Iorddonen ffoi o wŷr Iſrael, a marw Saul ai feibion: yna y gadawſant y dinaſoedd, ac y ffoaſant, a'r Philiſtiaid a ddaethant, ac a breſwyliaſant ynddynt hwy.

8 A'r boreu pan ddaeth y Philiſtiaid i yſpeilio y lladdedigion: yna y cawſant Saul ai dri mab, yn gorwedd ym mynydd Gilboa.

9 A hwy a dorraſant ei benn ef, ac a ddioſcaſant ei arfau ef, ac a anfonaſant i wlad y Philiſtiaid o bob parth, i fynegu yn nhŷ eu delwau hwynt, ac ym myſc y bobl.

10 A goſodaſant ei arfau ef yn nhŷ Aſtaroth ai gorph ef a hoeliaſant hwy ar fûr Bethſan.

11 Pan glybu trigolion Iabes Gilead hynny, ſef yr hyn a wnaethe y Philiſtiaid i Saul,

12 Yna'r holl wŷr nerthol a gyfodaſant, ac a rodiaſant yr holl nôs, ac a ddugaſant ymmaith gorph Saul, a chyrph ei feibion ef oddi ar fûr Bethſan: ac a ddaethant i Iabes, ac ai llôſcaſant hwynt yno.

13 A hwy a gymmeraſant eu heſcyrn hwynt, ac ai claddaſant tãn brenn yn Iabes: ac a ymprydiaſant ſaith niwrnod.

YR

# Yr ail llyfr i Samuel.

## PENNOD. I.

1 Vn yn dwyn newydd i Ddafyd o farwolaeth Saul. 14 Gwobr yr hwn ai dug. 17 Galar-nad Dafydd am Saul, ac Ionathan.

AC yn ôl marwolaeth Saul pan ddychwelaſe Dafydd * o ladd yr Amaleciaid: wedi aros o Ddafydd ddeu-ddydd yn Siclag,

1.Sam.30.17.

2 Yna y trydydd dydd wele ŵr yn dyfod o'r gwerſſyll oddi wrth Saul, ai ddillad wedi eu rhwygo, a phridd ar ei benn: a phan ddaeth efe at Ddafydd, yna efe a ſyrthiodd i lawr, ac a ymgrymmodd.

3 A Dafydd a ddywedodd wrtho ef, o ba le y daethoſt di? yntef a ddywedodd wrtho ef, o werſſyll Iſrael y diengais i.

4 Yna y dywedodd Dafydd wrtho ef, beth yw 'r matter mynega attolwg i mi? yntef a ddywedodd, y bobl a ffoawdd o'r rhyfel, a llawer hefyd o'r bobl a ſyrthiodd, ac a fuant feirw: Saul hefyd ac Ionathan ei fab a fuant feirw.

5 A Dafydd a ddywedodd wrth y llangc yr hwn oedd yn mynegu [hyn] iddo ef: pa fodd y gwyddoſt di farw Saul, ac Ionathan ei fab?

6 Yna 'r llangc yr hwn oedd yn mynegu iddo ef a ddywedodd, digwyddodd i mi ddyfod i fynydd Gilboa, ac wele Saul oedd yn pwyſo ar ei waiw-ffon: wele hefyd y cerbydau a'r marchogion yn ei erlid ef.

7 Ac efe a edrychodd oi ôl, ac am canfu i: ac a alwodd arnafi, minne a ddywedais wele fi.

8 Dywedodd yntef wrthifi, pwy [ydwyt] ti? minne a ddywedais wrtho ef, Amaleciad [ydwyf] fi.

9 Yna y dywedodd efe wrthifi, ſaf attolwg arnaf a lladd fi, canys dychryn a'm daliodd i, o herwydd [bod] fy holl enaid ynofi etto.

10 Felly mi a ſefais arno ef, ac ai lleddais ef, canys gwybum na bydde efe byw ar ôl ei gwymp: a chymmerais y goron yr hon [oedd] ar ei benn ef, a'r fraichled yr hon [oedd] am ei fraich ef, ac ai dugum hwynt ymma at fy arglwydd.

11 Yna Dafydd a ymaflodd yn ei ddillad, ac * ai rhwygodd hwynt: a'r holl wŷr hefyd y rhai [oeddynt] gyd ag ef.

Pen.3.31.& 13.31.

12 Galaraſant hefyd, ac ŵylaſant, ac ymprydiaſant hyd yr hwyr am Saul, ac am Ionathan ei fab, ac am bobl yr Arglwydd, ac am dŷ Iſrael, o herwydd iddynt ſyrthio trwy gleddyf.

13 A Dafydd a ddywedodd wrth y llangc yr hwn oedd yn mynegu [hyn] iddo ef, o ba le i'th [henniw] di? yntef a ddywedodd mab i ŵr dieithr o Amaleciad ydwyf fi.

14 Yna y dywedodd Dafydd wrtho ef: * pa fodd nad ofnaiſt di eſtyn dy law i ddifetha eneiniog yr Arglwydd?

Psal.105.15.

15 A Dafydd a alwodd ar vn o'r gweiſion, ac a ddywedodd, neſſâ, rhuthra iddo ef: ac efe ai tarawodd ef, fel y bu efe farw.

16 Yna y dywedodd Dafydd wrtho ef, [bydded] dy waed ti ar dy benn dy hun: canys dy enau dy hun a deſtiolaethodd yn dy erbyn gan ddywedyd: myfi a leddais eneiniog yr Arglwydd.

17 A Dafydd a alar-nadodd yr alar-nad hon am Saul, ac am Ionathan ei fab ef.

18 Dywedodd hefyd am ddyſcu meibion Iuda [ſaethu] a bŵa: wele y mae yn ſcrifennedic * yn llyfr yr iniawn.

Iosua 10.13.

19 Oh arddercha wgrwydd Iſrael, efe a archollwyd ar dy vchelfaoedd di: pa fodd y cwympodd y cedyrn?

20 Nac * adroddwch [hyn] yn Gath, na fynegwch yn heolydd Aſcelon: rhac llawenychu merched y Philiſtiaid, rhac gorfoleddu o ferched y rhai dienwaededic.

Mic.1.10.

21 Oh fynyddoedd Gilboa, na [ddeſcyned] arnoch chwi wlith na glaw, na meuſydd o offrymmau: canys yno y ſyrthiodd tarian y cedyrn, [ſef] tarian Saul, fel pe buaſe heb ei eneinio ag olew.

22 Oddi wrth waed lladdedigion, oddi wrth fraſder cedyrn ni phlygodd bŵa Ionathan yn ôl: a chleddyf Saul ni ddychwelodd yn wâg.

23 Saul ac Ionathan [oeddynt] gariadol ac annwyl yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth ni wahanwyd hwynt: cynt oeddynt na'r eryrod, [a] chryfach oeddynt na'r llewod.

24 Merched Iſrael ŵylwch am Saul: yr hwn oedd yn eich dilladu chwi ag ſcarlat gyd ag hyfrydwch, yr hwn oedd yn gwiſco addurnwiſc aur ar eich gwiſc chwi.

25 Pa fodd y cwympodd y cedyrn yng-hanol y rhyfel? Ionathan a laddwyd ar dy vchelfaoedd.

26 Gofid [ſydd] arnafi am danati fy mrawd Ionathan, cû iawn fuoſt gennyfi: rhyfeddach oedd dy gariad tua ag attafi na chariad gwragedd.

27 Pa fodd y ſyrthiodd y cedyrn, ac y difethwyd arfau rhyfel?

## PEN. II.

Eneiniad Dafydd yn Hebron ac Iuda. 8 Isboſeth yn llywodraethu Iſrael trwy help Abner. 17 Gwyr Dafydd yn gorchfygu gwyr Abner.

AC yn ôl hyn yr ymgynghorodd Dafydd a'r Arglwydd gan ddywedyd, a âfi i fynu i vn o ddinaſoedd Iuda? a'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, dôs i fynu: yna y dywedodd Dafydd, i ba le yr âfi i fynu? dywedodd yntef, i

Hebron.

2 Yna Dafydd a aeth i fynu yno, ai ddwy wragedd hefyd Ahinoam yr Iezralithes, ac Abigail gwraig Nabal y Carmeliad.

3 A Dafydd a ddug i fynu ei wŷr y rhai [oeddynt] gyd ag ef, pob vn ai deulu: a hwy a arhoſaſant yn ninaſoedd Hebron.

4 Yna gwŷr Iuda a ddaethant, ac a eneiniaſant Ddafydd yno yn frenin ar dŷ Iuda: a mynegaſant i Ddafydd gan ddywedyd, mai gwŷr Iabes Gilead * a gladdaſent Saul. 1.Sam 31.13.

5 A Dafydd a anfonodd gennadau at wŷr Iabes Gilead, ac a dywedodd wrthynt hwy: bendigedic [ydych] chwi i'r Arglwydd, y rhai a wnaethoch y drugaredd hon a'ch arglwydd Saul, ac ai claddaſoch ef.

6 Ac yn awr yr Arglwydd a wnelo a chwi drugaredd, a gwirionedd: minne hefyd a dalaf i chwi am y daioni hwn, o blegit i chwi wneuthur y peth hyn.

7 Yn awr gan hynny, ymnerthed eich dwylo, a byddwch feibion grymmus: canys marw a fu eich arglwydd Saul, a thŷ Iuda a'm heneiniaſant innef yn frenin arnynt hwy.

8 Ond Abner mab Ner tywyſog y filwriaeth yr hon [oedd] gan Saul a gymmerth Iſboſeth fab Saul, ac ai dug ef i Mahanaim.

9 Ac ai goſododd ef yn frenin ar Gilead, ac ar yr Aſſuriaid, ac ar Iezrahel: ac ar Ephraim ac ar Beniamin, ac ar holl Iſrael.

10 Mab deu-gain-mlwydd [oedd] Iſboſeth mab Saul, pan deyrnaſodd efe ar Iſrael, a dwy flynedd y teyrnaſodd efe: tŷ Iuda yn vnic oeddynt gyd a Dafydd.

11 (A rhifedi y dyddiau y rhai y bu Dafydd yn frenin yn Hebron ar dŷ Iuda oedd ſaith mlynedd, a chwe mis.

12 Ac Abner mab Ner, a gweiſion Iſboſeth fab Saul a aethant allan o Mahanaim i Gibeon.

13 Ioab hefyd mab Serfia, a gweiſion Dafydd a aethant allan, ac a gyfarfuant a hwynt wrth lynn Gibeon: a'r rhai hyn a eiſteddaſant wrth y llynn or naill du, a'r lleill wrth y llynn o'r tu arall.

14 Yna Abner a ddywedodd wrth Ioab, cyfoded yn awr y llangciau, a chwarânt ger ein bronnau ni: a dywedodd Ioab cyfodant.

15 Yna y cyfodaſant, ac yr aethant troſodd dan rif: deuddec o Beniamin, ſef oddi wrth Iſboſeth fab Saul, a deuddec o weiſion Dafydd.

16 A phob vn a ymaflodd ym mhen ei gilydd ac [a yrodd] ei gleddyf yn yſtlys ei gyfell, felly y cyd ſyrthiaſant hwy: am hynny y galwyd y lle hwnnw erw'r cryfion yr hon [ſydd] yn Gibeon.

17 A bu ryfel caled iawn y dwthwn hwnnw: a tharawyd Abner, a gwŷr Iſrael o flaen gweiſion Dafydd.

18 A thri mab Serfia oeddynt yno, [ſef] Ioab, ac Abiſai, ac Aſahel: ac Aſahel [oedd] mor fuan ar ei draed ag vn o'r iwrchod y rhai [ydynt] yn y maes.

19 Ac Aſahel a ddilynodd ar ôl Abner: ac wrth fyned ni throdd ar y tu dehau, nac ar y tu aſſwy oddi ar ôl Abner.

20 Yna Abner a edrychodd oi ôl ac a ddywedodd, ai tydi [ſydd] ymma Aſahel? a dywedodd yntef [ie] myfi.

21 Yna y dywedodd Abner wrtho ef, trô ar dy law ddehau, neu ar dy law aſſwy, a dal it vn o'r llangciau, a chymmer it ei arfau ef: ond ni fynne Aſahel droi oddi ar ei ôl ef.

22 Ac Abner a ddywedodd eilwaith wrth Aſahel, cilia di oddi ar fy ôl i: i ba beth y tarawaf di i lawr, canys pa fodd y codwn fyng-olwg ar Ioab dy frawd ti [wedi hynny?]

23 Pan wrthododd efe ymado, yna Abner ai tarawodd ef a bôn y waiw-ffon tann y bummed [ais,] a'r waiw-ffon a aeth allan o'r tu cefn iddo ef, fel y ſyrthiodd efe yno, ac y bu farw yn ei lê: a phawb a'r oedd yn dyfod i'r lle yr hwn y ſyrthiaſe Aſahel ynddo, ac y buaſe efe farw, a ſafaſant.

24 Ioab hefyd, ac Abiſai a erlidiaſant ar ôl Abner: pan fachludodd yr haul yna hwy a ddaethant hyd frynn Ammah yr hwn [ſydd] gyferbyn a Giah tu ag anialwch Gibeon.

25 A meibion Beniamin a ymgaſclaſant ar ôl Abner, ac yr oeddynt yn vn fintai: ac a ſafaſant ar benn vn brynn.

26 Yna Abuer a alwodd ar Ioab, ac a ddywedodd, ai bych y diniſtria'r cleddyf? oni wyddoſt ti mai chwerwder fydd yn y diwedd? hyd ba bryd gan hynny y byddi heb ddywedyd wrth y bobl am ddychwelyd oddi ar ôl eu brodyr hwynt?

27 A dywedodd Ioab, fel mai byw yw Duw oni buaſe [yr hyn] a ddywedaiſt, diau yna y borau'r aethe y bobl i fynu, bob vn oddi ar ôl ei frawd.

28 Felly Ioab a vdcanodd mewn vdcorn, a'r holl bobl a ſafaſant, ac nid erlidiaſant mwyach ar ôl Iſrael, ac ni chwanegaſant ymladd mwyach.

29 Yna Abner ai wŷr a aethant drwy'r rhos ar hyd y nôs honno: ac aethant tros yr Iorddonen, a thrammwyaſant holl Bithron, a daethant i Mahanaim.

30 Ac Ioab a ddychwelodd oddi ar ôl Abner, ac a gaſclodd yr holl bobl: ac yr oedd yn eiſieu o weiſion Dafydd bedwar gŵr ar bymthec ac Aſahel.

31 A gweiſion Dafydd a darawſent o Beniamin, ac o wŷr Abner dry-chant, a thri vgain gŵr [fel] y buant feirw.

32 A hwy a ddugaſant Aſahel, ac ai claddaſant ef ym meddrod ei dâd yr hwn [oedd] yn Bethlehem: ac Ioab ai wŷr a rodiaſant ar hŷd y nôs, ac yn Hebron y goleuodd arnynt hwy.

## PEN. III.

Y plant a ennillodd Dafydd yn Hebron. 12 Dafydd (wedi i Abner Droi atto ef) yn cael ei wraig Michol adref. 26 Ioab yn lladd Abner trwy frâd.

A Bu y rhyfel yn hir rhwng tŷ Saul a thŷ Ddafydd: a Dafydd oedd yn myned gryfach gryfach, ond tŷ Saul oedd yn myned wannach wannach.

2 A meibion a anwyd i Ddafydd yn Hebron: ai gyntafanedic ef oedd Amnon o Ahinoam yr Iezrahelithes.

1.Cron.3.1. 3 Ai ail [mab] ef [oedd] * Chilab o Abigail gwraig Nabal y Carmeliad: a'r trydydd [oedd] Abſalom mab Maacah ferch Talmai brenin Geſur.

4 A'r Pedwerydd [oedd] Adonia mab Haggith: a'r pummed [oedd] Sephatiah mab Abital.

5 A'r chweched [oedd] Ithream o Egla gwraig Ddafydd: y rhai hyn a anwyd i Ddafydd yn Hebron.

6 A thra 'r ydoedd y rhyfel rhwng tŷ Saul a thŷ Ddafydd, yr oedd Abner yn ymegnio dros dŷ Saul.

7 Ond i Saul y [buaſe] ordderch-wraig, ai henw Riſpa merch Aiah: ac [Iſboſeth] a ddywedodd wrth Abner, pa ham yr aethoſt i mewn at ordderch-wraig fy nhad?

8 Yna y digiodd Abner yn ddirfawr o herwydd geiriau Iſboſeth, ac a ddywedodd, ai pen cî [ydwyfi?] (yr hwn ydwyf heddyw 'n erbyn Iuda yn gwneuthur trugaredd a thŷ Saul dy dâd ti, ai frodyr ef, ac ai gyfeillion, a heb dy roddi di yn llaw Dafydd) pan oſodaiſt i'm herbyn fai [am] y wraig hon heddyw?

9 Fel hyn y gwnelo Duw i Abner, ac fel hyn y chwanego iddo ef: onid megis y tyngodd yr Arglwydd wrth Ddafydd, felly y gwnaf iddo ef.

10 Gan droi y frenhiniaeth oddi wrth dŷ Saul, a derchafu gorſedd-faingc Dafydd ar Iſrael, ac ar Iuda, o Ddan hyd Beerſeba.

11 Ac ni feiddiodd efe mwyach atteb gair i Abner rhac ei ofn ef.

12 Yna Abner a anfonodd gēnadau at Ddafydd troſto ei hun gan ddywedyd: eiddo pwy yw 'r wlâd? [a] chan ddywedyd, gwna di gyngrair a mi, ac wele fy llaw i [fydd] gyd a thi, i droi attat ti holl Iſrael.

13 A dywedodd yntef da, mifi a wnaf gyfammod a thi: etto un peth yr ydwyfi yn ei geiſio gennit, gan ddywedyd: ni weli fy wyneb oni ddygi di Michol ferch Saul ger fy mron i pan ddelech i'm hedrych.

14 Yna yr anfonodd Dafydd gennadau at Iſboſeth fab Saul gan ddywedyd: dyro [i mi] fyng-wraig Michol yr hon a ddyweddiais i mi am gant o flaen-grwyn y Philiſtiaid.

15 Ac Iſboſeth a anfonodd, ac ai dug hi oddi wrth [ei] gŵr [ſef] oddi wrth Phaltiel fab Lais.

16 Ai gŵr a aeth gyd a hi, gan fyned ac ŵylo ar ei hol hi hyd Bahurim: yna y dywedodd Abner wrtho ef, dos [a] dychwel, ac efe a ddychwelodd.

17 Ac Abner a lefarodd wrth henuriaid Iſrael gan ddywedyd: cyn hyn yr oeddech chwi 'n ceiſio Dafydd yn frenin arnoch.

18 Ac yn awr gwnewch [hynny:] canys yr Arglwydd a lefarodd am Ddafydd gan ddywedyd, drwy law Dafydd fyng-wâs y gwaredaf fy mhobl Iſrael o law y Philiſtiaid, ac o law eu holl elynnion hwynt.

19 Dywedodd Abner [hyn] hefyd wrth Beniamin: ac yna 'r aeth Abner i ymddiddan a Dafydd yn Hebron am yr hyn oll [oedd] dda yng-olwg Iſrael, ac yng-olwg holl dŷ Beniamin.

20 Felly Abner a ddaeth at Ddafydd i Hebron ac ugain-wr gyd ag ef: a Dafydd a wnaeth wledd i Abner, ac i'r gwŷr y rhai [oeddynt] gyd ag ef.

21 Yna y dywedodd Abner wrth Dafydd, cyfodaf fel yr elwyf, ac y caſclwyf holl Iſrael at fy arglwydd frenin, fel y gwnant gyfammod a thi, ac y teyrnaſech di yn ôl yr hyn oll a chwennycho dy galon: yna Dafydd a ollyngodd Abner, ac efe a aeth mewn heddwch.

22 Ac wele weiſion Dafydd, ac Ioab yn dyfod oddi wrth y dorf, ac anrhaith fawr a ddugaſent hwy ganddynt: ond nid oedd Abner gyd a Dafydd yn Hebron, canys efe ai gollyngaſe ef, ac yntef a aethe mewn heddwch.

23 Yna Ioab a'r holl lu yr hwn [oedd] gyd ag ef a ddaethant: a mynegwyd i Ioab gan ddywedyd, Abner mab Ner a ddaeth at y brenin, ac efe ai gollyngodd ef i fyned mewn heddwch.

24 Ac Ioab a ddaeth at y brenin, ac a ddywedodd, beth a wnaethoſti? wele daeth Abner attat ti, pa ham y gollyngaiſti ef i fyned ymmaith?

25 Ti a adwaenit Abner fab Ner, mai i'th dwyllo di y daeth efe: ac i ŵybod dy fynediad, a'th ddyfodiad, ac i ŵybod yr hyn oll yr ydwyt ti yn ei wneuthur.

26 Yna Ioab a aeth allan oddi wrth Ddafydd, ac a anfonodd gennadau ar ôl Abner, a hwy ai dugaſant ef yn ôl oddi wrth ffynnon Siriah heb ŵybod i Ddafydd.

27 Pan ddychwelodd Abner i Hebron, * yna Ioab ai trôdd ef i fewn y porth i ymddiddan ag ef mewn heddwch: ac ai tarawodd ef yno, [tān] y bummed [ais] fel y bu efe farw, o herwydd * gwaed Aſahel ei frawd ef. 1.Bren.2.5. Pen.2.23.

28 A wedi hynny y clybu Dafydd, ac y dywedodd, dieuog [ydwyfi,] a'm brenhiniaeth gyd a'r Arglwydd byth, oddi wrth waed Abner fab Nêr.

29 Syrthied [y gwaed] ar benn Ioab, ac ar holl dŷ ei dad ef: fel na phallo [fod un] o dŷ Ioab yn ddiferllyd, neu yn wahan-glwyfus, neu 'n ymgynnal wrth fagl, neu yn ſyrthio ar gleddyf, neu mewn eiſieu bara.

30 Felly Ioab ac Abiſai ei frawd ef a laddaſant Abner: o herwydd lladd o honaw ef Aſahel eu brawd hwynt mewn rhyfel yn Gibeon.)

31 A Dafydd a ddywedodd wrth Ioab, ac wrth yr holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, rhwygwch eich dillad, ac ymwregyſſwch mewn ſach-liain, a galerwch o flaen Abner: a'r brenin Dafydd oedd yn myned ar ôl yr elor.

32 Pan gladdaſant hwy Abner yn Hebron: yna 'r brenin a ddyrchafodd ei lêf ac a ŵylodd ar fedd Abner, yr holl bobl hefyd a ŵylaſant.

33 A'r brenin a alarnadodd am Abner, ac a ddywedodd: ai fel y mae 'r ynfyd yn marw y bydd marw Abner?

34 Dy ddwylo nid [oeddynt] yn rhwym, ac nid oedd dy draed wedi rhoddi mewn egwyddyd, ſyrthiaiſt fel y ſyrthie [un] o flaen meibion enwir: a'r holl bobl a chwanegaſant ŵylo am dano ef.

35 Yna y daeth yr holl bobl i beri i Ddafydd fwytta bara a hi etto yn ddydd: ond Dafydd a dyngodd gan ddywedyd, fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego efe os archwaethaf fara na dim oll cyn machludo 'r haul.

36 A'r holl bobl a ŵybuant [hynny,] a da oedd [hyn] yn eu golwg hwynt: a'r hyn oll a wnaeth y brenin oedd dda yng-olwg y bobl.

37 Yna 'r holl bobl, a holl Iſrael y diwrnod hwnnw a ŵybuant: na ddarfuaſe o fodd y brenin ladd Abner fab Nêr.

38 A'r brenin a ddywedodd wrth ei weiſion: oni wyddoch chwi i Dywyſog, ac i [ŵr] mawr ſyrthio heddyw yn Iſrael?

39 A minne [ydwyf] eiddil, a brenin [newydd] eneiniog, a'r gwŷr hyn meibion Serfia ydynt lewach nam fi: yr Arglwydd a dalo i'r hwn a wnaeth y drwg, yn ol ei ddrygioni.

## PEN. IIII.

Baanah a Rechab yn lladd Isboſeth. 12 a Dafydd yn peri eu lladd hwythau.

PAN glybu mab Saul farw o Abner yn Hebron yna ei ddwylo ef a laeſaſant: a holl Iſrael a ddychrynnaſant.

2 A dau wr oeddynt gan fab Saul yn dywyſogion [ar] y torfoedd, enw un [oedd] Baanah, ac enw 'r ail Rechab meibion Rimmon y Beerothiad o feibion Beniamin: canys Beeroth hefyd a gyfrifaſyd gyd a Beniamin.

3 A'r Beerothiaid hyn a ffoaſēt i Gittaim: ac a fuaſent yno yn ddieithriaid hyd y dydd hwn.

4 Ac i Ionathan fab Saul [yr oedd] mab cloff: mab pum mlwydd oedd efe, pan ddaeth y gair am Saul ac Ionathan o Iezrael, yna ei fammeth ai cymmerth ef, ac a ffôdd, a bu wrth fryſſio o honi i ffoi, yna efe a ſyrthiodd fel y cloffodd efe, ai enw ef [oedd] Mephiboſeth.

5 A meibion Rimmon y Beerothiad [ſef] Rechab a Baanah a aethant, ac a ddaethant pan wreſogaſe y dydd i dŷ Iſboſeth: ac efe oedd yn gorwedd ar wely ganol dydd.

6 Ac wele hwy a ddaethant i mewn i ganol y tŷ [fel] rhai yn prynnu gwenith, ac hwy ai tarawſant ef tann y bummed [aſen:] yna Rechab, a Baanah ei frawd a ddiangaſant.

7 Pan ddaethent i'r tŷ, yna efe oedd yn gorwedd ar ei wely o fewn ſtafell ei wely, ac hwy ai tarawſāt ef, ac ai lladdaſant ef, ac a dorraſant ei benn ef: ac a gymmeraſant ei benn ef, ac a gerddaſant [ar hyd] ffordd y rhos ar hyd y nôs.

8 Ac hwy a ddugaſant ben Iſboſeth at Ddafydd i Hebron, ac a ddywedaſant wrth y brenin, wele benn Iſboſeth fab Saul dy elyn di 'r hwn a geiſiodd dy einioes di: a'r Arglwydd a roddes i'm harglwydd frenin ddial y dydd hwn ar Saul, ac ar ei hâd ef.

9 Yna Dafydd a attebodd Rechab, a Baanah ei frawd meibion Rimmon y Beerothiad, ac a ddywedodd wrthynt hwy: [fel y mae] byw 'r Arglwydd yr hwn a ryddhaodd fy enaid o bob cyfyngdra,

10 Pan * fynegodd [un] i mi gan ddywedyd, wele bu farw Saul, (ac efe oedd megis un yn dwyn llawen-chwedl yn ei olwg ei hun) yna ymaflais ynddo, a lleddais ef yn Siclag: yr hwn [a dybiaſe] y rhoddaſwn i iddo obrwy am ei gennadwriaeth. Pen.1.15.

11 Pa faint mwy [y gwnaf i] ddynion annuwiol [y rhai] a laddaſant ŵr cyfion yn ei dŷ, ac ei wely? yn awr gan hynny oni cheiſiaf ei waed ef oddi ar eich llaw chwi? ac [oni] thorraf chwi ymmaith o'r tir?

12 Yna y gorchymynnodd Dafydd iw langciau eu lladd hwynt, ac hwy a dorraſant eu dwylo hwynt, ai traed, ac ai crogaſant hwy uwch ben y llyn yn Hebron: a phen Iſboſeth a gymmeraſant hwy, ac ai claddaſant ym medd * Abner yn Hebron. Pen.3.32.

## PEN. V.

Eneiniad Dafydd yn frenin ar Iſrael. 7 Dafydd yn ennill ymddiffynfa Sion. 19 ac yn gorchfygu y Philiſtiaid dwywaith.

YNa holl lwythau Iſrael a ddaethāt at Dafydd i Hebron: ac a lefaraſant gan ddywedyd, wele dy aſcwrn di, a'th gnawd di ydym ni. 1.Cron.11.1.

2 Cyn hyn hefyd pan oedd Saul yn frenin arnom ni ti oeddit yn rheoli Iſrael: a dywedodd yr Arglwydd wrthit ti, ti * a borthi fy mhobl Iſrael, a thi a fyddi yn flaenor ar Iſrael. Pſal.78.71.

3 Felly holl henuriaid Iſrael a ddaethant at y brenin i Hebron, a'r brenin Dafydd a wnaeth gyfammod a hwynt yn Hebron ger bron yr Arglwydd: ac hwy a eneiniaſant Ddafydd yn frenin ar Iſrael.

4 Mab deng mlwydd ar hugain [oedd] Dafydd pan deyrnaſodd efe [gyntaf: a] deugain mhlynedd y teyrnaſod efe.

5 Yn Hebron * y teyrnaſodd efe ar Iuda ſaith mlynedd, a chwe mis: ac yn Ieruſalem y teyrnaſodd efe dair blynedd ar ddec ar hugain ar holl Iſraell, a Iuda. Pen.2.11.

6 Ar brenin ai wŷr a aethant i Ieruſalem at yr Iebuſiaid preſſwyl-wyr y wlâd: y rhai a le-

faraſant wrth Ddafydd gan ddywedyd, ni ddeui di ymma oni thynni ymmaith y deillion, a'r cloffion, [y rhai ydynt] yn dywedyd ni ddaw Dafydd ymma.

7 Ond Dafydd a ennillodd amddeffynſa Sion: honno [yw] dinas Ddafydd.

8 (A dywedaſe Dafydd y dwthwn hwnnw, pwy bynnac a clo ar rigolau [y tai,] ac a deru yr Iebuſiaid, a'r cloffion, a'r deillion y rhai ſydd gâs gan enaid Dafydd: * am hynny y dywedaſant y dall, a'r cloff ni ddaw i mewn i'r tŷ.) 1.Cron.11.6.

9 A Dafydd a arhoſodd yn yr amddeffynſa, ac ai galwodd hi dinas Dafydd, a Dafydd a adailadodd oi hamgylch hi, o Milo, hyd i mewn.

10 A Dafydd a aeth [rhagddo,] gan fyned, a chynnyddu: ac Arglwydd Dduw y lluoedd [oedd] gyd ag ef.

11 A Hiram brenin Tyrus a anfonodd gennadau at Ddafydd, a choed cedr, a ſeiri prennau, a ſeiri meini: ac adailadaſant dŷ i Ddafydd.

12 Yna y gwybu Dafydd mai'r Arglwydd ai ſicrhauſe ef yn frenin ar Iſrael: ac a dderchafaſe ei frenhiniaeth ef er mwyn ei bobl Iſrael.

1.Cron.3.5. 13 A Dafydd a gymmerodd etto *ordderch wragedd, a gwragedd o Ieruſalem, wedi iddo ddyfod o Hebron: a ganwyd i Ddafydd feibion a merched trachefn.

1.Cron.3.5. 14 Ac *dymma henwau y rhai a anwyd iddo ef yn Ieruſalem: Sammuah, a Sobab, Nathā hefyd a Salomon.

15 Ibhar hefyd, ac Eliſuah, a Nepheg, ac Iaphia.

16 Eliſamah hefyd, ac Eliada, ac Eliphalet.

1.Cron.14.8, & 12.16. 17 * Pan glybu y Philiſtiaid iddynt eneinio Dafydd yn frenin ar Iſrael, yna'r holl Philiſtiaid a ddaethant i fynu i geiſio Dafydd: pan glybu Dafydd [hynny,] yna efe a aeth i wared i'r amddeffynſa.

18 A'r Philiſtiaid a ddaethant: ac a ymledaſant yn nyffryn Rephaim.

19 Yna Dafydd a ymgynghorodd a'r Arglwydd gan ddywedyd, a âſi i fynu at y Philiſtiaid? a roddi di hwynt yn fy llaw i? a'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ddafydd, dos i fynu, canys gan roddi y rhoddaf y Philiſtiaid yn dy law di.

Eſa.28.21. 20 A * Dafydd a ddaeth i Baal Perazim, a Dafydd ai tarawodd hwynt yno, ac a ddywedodd, yr Arglwydd a rwygodd fyng-elynnion o'm blaen i megis rhwygiad dyfroedd: am hynny y galwodd efe henw y lle hwnnw Baal-perazim.

1.Cron.14.18. 21 Ac yno y gadawſant hwy eu delwau: a Dafydd ai wŷr * ai lloſcodd hwynt.

22 A'r Philiſtiaid etto a chwanegaſant ddyfod i fynu: ac a ymledaſāt yn nyffryn Rephaim.

23 Yna Dafydd a ymgynghorodd a'r Arglwydd, ac yntef a ddywedodd, na ddôs i fynu: amgylchyna ar eu hôl hwynt, a thyret arnynt hwy gyferbyn a'r mor-wŷdd.

24 A phan glywech drwſt cerddediad ym mrig y môr-wŷdd, yna cychwyn: canys yna'r Arglwydd a aiff allan o'th flaen di i daro gwerſyll y Philiſtiaid.

25 A Dafydd a wnaeth megis y gorchymynnaſe'r Arglwydd iddo ef: ac a darawodd y Philiſtiaid o Geba, hyd oni ddelech di i Gazer.

## PEN. VI.

*Lladdiad vzza wrth fyned o'r Arch o dy Abinadab. 14 Dafydd yn dawnſio o flaen yr Arch. 16 A Michol am hynny yn ei gaſâu ef.*

A Chaſclodd Dafydd etto 'r holl etholedigion yn Iſrael [ſef] deng-mîl ar hugain,

2 * Dafydd a gyfododd, ac a aeth, a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef o Baal Iuda i ddwyn i fynu oddi yno Arch Dduw, enw 'r hon a elwir [ar] enw Arglwydd y lluoedd yr hwn ſydd yn aros arni [rhwng] y Cerubiaid. 1.Cron.13.5.

3 A hwy a oſodaſant Arch Dduw ar fenn newydd, ac ai dugaſāt hi o dŷ Abinadab yr hwn [oedd] yn Gibeah: Uzza hefyd, ac Ahio meibion Abinadab oeddynt yn gyrru y fenn newydd.

4 A hwy ai dugaſant hi * o dŷ Abinadab yr hwn [ſydd] yn Gibeah, gyd ag Arch Dduw: ac Ahio oedd yn myned o flaen yr Arch. 1.Sam.7.2.

5 Dafydd hefyd a holl dŷ Iſrael oeddynt yn chware ger bron yr Arglwydd a phob [offer] o goed ffynnidwydd: ſef a thelynau, ac a Nablau, ac a thympanau, ac ag vdcyrn, ac a cymbalau.

6 Pan ddaethant hyd lawr dyrnu * Nachon: yna Uzza a eſtynnodd ei law at Arch Dduw, ac a ymaflodd ynddi hi, canys 'r ŷchen a ledpeiaſent. 1.Cron.13.9.

7 A digofaint yr Arglwydd a lidiodd wrth Uzza, a Duw ai tarawodd ef yno am yr amryfuſedd hyn: ac efe a fu farw yno wrth Arch Dduw

8 A bu ddrwg gan Ddafydd am i'r Arglwydd rwygo rhwygiad yn Uzza: ac efe a alwodd y lle hwnnw Perets Uzza hyd y dydd hwn.

9 A Dafydd a ofnodd yr Arglwydd y dydd hwnnw, ac a ddywedodd, pa fodd y daw Arch yr Arglwydd attafi i mewn?

10 Ac ni fynne Dafydd droi Arch yr Arglwydd atto ef i ddinas Dafydd: ond Dafydd a barodd ei throi hi i dŷ Obed Edom y Gethiad.

11 Ac Arch yr Arglwydd a arhoſodd yn nhŷ Obed Edom y Gethiad dri mis: a'r Arglwydd a fendithiodd Obed Edom, ai holl dŷ.

12 A mynegwyd i'r brenin Dafydd gan ddywedyd, yr Arglwydd a fendithiodd dŷ Obed Edom, a'r hyn oll [oedd] ganddo *er mwyn Arch Dduw: yna Dafydd a aeth, ac a ddûg i fynu Arch Dduw o dŷ Obed Edom, i ddinas Dafydd mewn llawenydd. 1.Cron. 15.25.

13 A phan gychwynnodd y rhai oeddynt yn dwyn Arch yr Arglwydd chwech o gammau: yna efe a offrymmodd ŷch, ac [anifail] brâs.

14 A Dafydd a ddawnſiodd ai holl egni ger bron yr Arglwydd: a Dafydd a ymwregyſodd hefyd ag Ephod liain.

15 Felly Dafydd, a holl dŷ Iſrael a dduga-

ſant i fynu Arch yr Arglwydd, drwy floddeſt, a ſain udcorn.

16 Pan oedd Arch yr Arglwydd yn dyfod i mewn i ddinas Dafydd: yna Michol merch Saul a edrychodd drwy yr ffeneſtr, ac a ganfu y brenin Dafydd yn ymwrolli, ac yn llemmen o flaen yr Arglwydd, a hi ai dirmygodd ef yn ei chalon.

17 A phan ddugaſant hwy Arch yr Arglwydd, hwy ai goſodaſant hi yn ei lle yng-hanol y babell, yr hon a eſtynnaſe Dafydd iddi: yna Dafydd a offrymmodd boeth offrymmau, ac offrymmau hedd ger bron yr Arglwydd.

1.Cron.18.2. 18 Pan orphennodd Dafydd offrymmu poeth offrwm ac offrymmau hedd, * yna efe a fendithiodd y bobl yn enw Arglwydd y lluoedd.

19 Ac efe a rannodd i'r holl bobl, [ſef] i holl dyrfa Iſrael, yn wyr, ac yn wragedd i bob vn, vn deiſen o fara, ac vn dryll o gig, ac vn goſtrêled [o wîn : ] felly 'r aeth yr holl bobl bawb iw dŷ ei hun.

20 Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ: a Michol merch Saul a ddaeth i gyfarfod Dafydd, a hi a ddywedodd, o mor ogoneddus oedd brenin Iſrael heddyw yr hwn a ymddioſcodd heddyw yng-wydd llawforwynion ei weiſion fel yr ymddioſce vn o'r ynfydion.

21 Yna y dywedodd Dafydd wrth Michol, ger bron yr Arglwydd yr hwn a'm dewiſodd i o flaen dy dad ti, ac o flaen ei holl dŷ ef gan fy-ngorchymyn i yn flaenor ar bobl yr Arglwydd [ſef] ar Iſrael [y chwareais i] a mi a chwaraeaf ger bron yr Arglwydd.

22 Byddaf etto waelach na hyn, a byddaf oſtyngeiddic yn fyng-olwg fy hun: a chyd a'r llawforwynion ([am] y rhai y dywedaiſt wrthif) i'm gogoneddir.

23 Am hynny i Michol merch Saul ni bu etifedd hyd ddydd ei marwolaeth.

## PEN. VII.

Dafydd yn chwennychu ac heb gael adailadu teml yr Arglwydd.

1.Cron.17.1. A*Phan eiſteddodd y brenin yn ei dŷ: a rhoddi o'r Arglwydd lonydd iddo ef rhag ei holl elynion oddiamgylch:

2 Yna y dywedodd y brenin wrth Nathan y prophwyd, wele yn awr fi yn preſwylo mewn tŷ o cedr-wŷdd: ac Arch Duw yn aros o fewn y cortinau.

3 Yna Nathan a ddywedodd wrth y brenin, dos, gwna'r hyn oll [ſydd] yn dy galon, canys yr Arglwydd [ſydd] gyd a thi.

4 A bu y noſon honno i air yr Arglwydd ddyfod at Nathan gan ddywedyd:

5 Dos, a dywet wrth fyng-wâs Dafydd, fel hyn y dywed yr Arglwydd: ai ty di a adailedi i mi dŷ lle y cyfanneddwyf?

6 Canys nid arhoſais mewn tŷ er y dydd yr arweiniais blant Iſrael o'r Aipht hyd y dydd hwn: eithr bum yn rhodio mewn pabell ac mewn tabernacl.

7 Ym mha [le] bynnac y rhodiais gyd a holl feibion Iſrael, a yngenais i air wrth vn o lywodraethwŷr Iſrael i'r rhai y gorchymynnais borthi fy-mhobl Iſrael, gan ddywedyd pa ham nad adailadaſoch i mi dŷ o cedr-wŷdd?

8 Ac yn awr fel hyn y dywedi di wrth fyng-wâs Dafydd, fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, * myfi a'th gymmerais di o'r gorlan oddiar ôl y praidd: i fod yn flaenor ar fy-mhobl Iſrael. 2.Sam 61.12, Pſal.78.70.

9 A bum gyd a thi ym mha [le] bynnac y rhodiaiſt, torrais ymmaith hefyd dy holl elynion di o'th flaen: a gwneuthum enw mawr i ti megis enw 'r rhai mwyaf [ar ydynt] yn y tîr.

10 (Goſodaf hefyd i'm pobl Iſrael lê, a phlannaf ef, fel y trigo efe yn ei le ei hun, ac na ſymmuder ef mwyach: a meibion anwiredd ni chwanegant ei gyſtuddio ef megis cynt,

11 Sef er y dydd yr hwn yr ordeiniais i farnwŷr ar fy mhobl Iſrael) a rhoddaf hefyd lonyddwch i ti oddi wrth dy holl elynion: yr Arglwydd hefyd ſydd yn mynegu iti, y gwnaiff yr Arglwydd dŷ iti. 1.Cron.17.10.

12 Pan * gyflawnir dy ddyddiau di, a huno o honot gyd a'th dadau, yna y goſodaf dy hâd ti ar dy ôl di, yr hwn a ddaw allan o'th ymyſcaroedd di: a mi a gadarnhaf ei frenhiniaeth ef. 1.Bren.8.20.

13 Efe * a adailada dŷ i'm enw i: minne a gadarnhaf orſeddfaingc ei frenhiniaeth ef byth. 1.Bren.5.5. 1.Cron.22.10.

14 * Myfi a fyddaf iddo ef yn dâd, ac yntef fydd i mi yn fab: pan droſeddo efe, yna y ceryddaf ef a gwialen ddynawl, ſef a phlagau meibion Dynion. Heb.1.5. Pſal.8.9.31.

15 Ond fy nhrugaredd ni ymedy ag ef: megis ac y tynnais ymmaith oddi wrth Saul yr hwn a dynnais ymmaith o'th flaen di.

16 A'th dŷ di a ſiccrheuir a'th frenhiniaeth yn dragywydd o'th flaen di: dy orſedd-faingc a fydd gadarn byth.

17 Yn ôl yr holl eiriau hyn, ac yn ôl yr holl weledigaeth hon: felly y lleſarodd Nathā wrth Ddafydd.

18 Yna y daeth y brenin Dafydd, ac a eiſteddodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, pwy [ydwyf] ô Arglwydd Dduw, a phwy [yw] fy nhŷlwyth, pan ddygit ti fi hyd ymma?

19 Ac etto bychan oedd hyn yn dy olwg di ô Arglwydd Dduw, am hynny y lleferaiſt am dŷ dy wâs dros hir amſer: fel dymma arfer dŷn ô Arglwydd Dduw. 1.Cron.17.17.

20 Pa beth mwyach a ddywed Dafydd ychwaneg wrthit? canys ti a adwaenoſt dy wâs ô Arglwydd Dduw.

21 Er mwyn dy air di, ac yn ôl dy fodd wrth dy hun y gwnaethoſt yr holl fawredd hyn, iw hyſpyſſu i'th wâs.

22 Am hynny i'th fawrhawyd ô Arglwydd Dduw: canys nid [oes neb] fel tydi, ac nid [oes] Duw onid ti, yn ôl yr hyn oll a glywſom ni a'n cluſtiau.

Deut.4.7.

23 A * pha vn genedl [ſydd] yn y tir megis dy bobl Iſrael yr hon yr aeth Duw iw gwaredu yn bobl iddo ef ei hun, ac i oſod iddo enw; ac i wneuthur eroch chwi fawrhydri, a [phethau] ofnadwy yn dy dir di, [ô arglwydd * gan fwrw allan] genhedloedd, ai duwiau o flaen dy bobl y rhai a waredaiſt ti o'r Aipht?

1.Cron.17.21.

24 Canys ti a ſiccrheaiſt i ti dy bobl Iſrael yn bobl i ti byth: a thi Arglwydd ydwyt iddynt hwy yn Dduw.

25 Ac yn awr ô Arglwydd Dduw cwplâ byth y gair yr hwn a leferaiſt am dy wâs, ac am ei dŷ ef: a gwna megis y dywedaiſt.

26 Fel y mawrhaer dy enw yn dragywydd gan ddywedyd, Arglwydd y lluoedd [ſydd] Dduw ar Iſrael, a bydded tŷ dy wâs Dafydd yn gadarn ger dy fron di.

27 Canys ti ô Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael a fynegaiſt i'th wâs gan ddywedyd, adeiladaf dŷ i ti: am hynny dy wâs a gafodd ei galon [atto,] i weddio attati y weddi hon.

28 Ac yn awr ô Arglwydd Dduw, ti ydwyt Dduw, a'th eiriau di ſyddant wirionedd, a thi a leferaiſt am dy wâs y daioni hwn.

29 Yn awr gan hynny rhynged bodd it fendigo tŷ dy wâs i fod ger dy fron di yn dragywydd: canys ti ô Arglwydd Dduw a leferaiſt, ac a'th fendith di y bendithier tŷ dy wâs yn dragywydd.

## PEN. VIII.

Y cenhedloedd a wnaeth Dafydd iddynt dalu teyrnged iddo ef.

1.Cron.18.1.
Pſal.60.2.

AC wedi * hyn y tarawodd Dafydd y Philiſtiaid, ac ai daroſtyngodd hwynt: a Dafydd a ddug ymmaith ffrwyn y gaethiwed o law y Philiſtiaid.

2 Hefyd efe a darawodd Moab, ac ai meſurodd hwynt a rheffyn gan eu cwympo hwynt i lawr, ac efe ai meſurodd a dau reffyn iw lladd [hwynt,] ac a lloned y rheffyn iw bywhau: felly y Moabiaid fuant i Ddafydd yn weiſion yn dwyn trêth.

3 Tarawodd Dafydd hefyd Hadarezar fab Rehob brenin Zoba, pan oedd efe yn myned i oſod ei gryfder wrth afon Euphrates.

4 A Dafydd a ennillodd oddi arno ef fil [o gerbydau,] a ſaith gant o farchogion, ac vgain mil o wŷr traed: a thorrodd Dafydd linynnau garr [meirch] pob cerbyd, ac efe a adawodd o honynt gant cerbyd [yn gyfan.]

5 Yna y daeth y Syriaid o Ddamaſcus i gynnorthwyo Hadarezar brenin Zoba: a Dafydd a laddodd o'r Syriaid ddwy fil ar hugain o wŷr.

6 A Dafydd a oſododd ſwyddogion ar y Syriaid o Ddamaſcus, a'r Syriaid a fuant weiſion i Ddafydd yn dwyn trêth: a'r Arglwydd a gadwodd Ddafydd ym mha le bynnac yr aeth efe.

7 Dafydd hefyd a gymmerth dariannau aur y rhai oeddynt gan weiſion Hadarezar: ac ai dûg hwynt i Ieruſalem.

8 O Beta hefyd, ac o Berothai dinaſoedd Hadarezar, y dûg y brenin Dafydd lawer iawn o brês.

1.Cron.18.9.

9 Pan glybu * Tohi brenin Hamath, daro o Ddafydd holl nerth Hadarezar.

1.Cron.18.10.

10 Yna Tohi a anfonodd * Ioram ei fab at y brenin Dafydd i geiſio ganddo ef heddwch, ac i ddiolch iddo ef, (am iddo ymladd yn erbyn Hadarezar, ai faeddu ef, canys gŵr rhyfelgar oedd Hadarezar [yn erbyn] Tohi) a lleſtri arian, a lleſtri aur, a lleſtri prês oeddynt ganddo ef.

11 Y rhai hynny hefyd a gyſſegrodd y brenin Dafydd i'r Arglwydd: gyd a'r arian, a'r aur, y rhai a gyſſegraſe efe o'r holl genhedloedd y rhai a oreſcynnaſe efe.

12 [Sef] oddi ar y Syriaid, ac oddi ar y Moabiaid, ac oddi ar feibion Ammon, ac oddi ar y Philiſtiaid, ac oddi ar yr Amaleciaid, ac o anrhaith Hadarezar mab Rehob brenin Zoba.

13 Felly Dafydd a ennillodd [iddo] enw pan ddychwelodd efe o ladd y Syriaid yn nyffryn yr halen: [ſef] tair mil ar bymthec.

1.Cron.18.13.

14 Efe a oſododd bennaethiaid ar Edom, ar holl Edom y goſododd efe bennaethiaid, a bu holl Edom yn weiſion i Ddafydd: a'r Arglwydd a gadwodd Ddafydd ym mha le bynnac y rhodiodd efe.

15 A theyrnaſodd Dafydd ar holl Iſrael: yr oedd Dafydd hefyd yn gwneuthur barn, a chyfiawnder iw holl bobl.

16 Ac Ioab mab Serfia [oedd] benn ar y llu: ac Iehoſaphat mab Ahilud yn gofiadur.

1.Cron.18.16.

17 A Zadoc mab Ahitob, a'r * Ahimelec mab Abiathar [oeddynt] offeiriaid: Seraiah yn ſcrifennydd.

1.Cron.18.17

18 Benaiahu hefyd mab Iehoiada [oedd] ar y Cerethiaid, a'r Pelethiaid: a * meibion Dafydd oeddynt dywyſogion.

## PEN. IX.

Caredigrwydd Dafydd i Mephiboſeth mab Ionathan.

YNa y dywedodd Dafydd, a oes etto vn wedi ei adel o dŷ Saul, fel y gwnelwyf drugaredd ag ef er mwyn Ionathan?

2 Ac yr [oedd] gwâs o dŷ Saul, ai enw Ziba a hwy ai galwaſant ef at Ddafydd: a'r brenin a ddywedodd wrtho ef, ai tydi [yw] Ziba? a dywedodd yntef, dy wâs [yw] efe.

Pen.4.4.

3 Yna y dywedodd y brenin, a oes neb etto o dŷ Saul, fel y gwnelwyf drugaredd Duw ag ef? dywedodd Ziba wrth y brenin [y mae] etto fâb i Ionathan * yn gloff oi draed.

4 Yna y dywedodd y brenin wrtho ef, pa le y mae efe? a Ziba a ddywedodd wrth y brenin, wele ef yn nhŷ Machir fab Ammiel o Lo-debar.

5 Yna y brenin Dafydd a anfonodd, ac ai dûg ef o dŷ Machir fab Ammiel o Lo-debar.

6 Pan ddaeth Mephiboſeth mab Ionathan, mâb Saul at Ddafydd, yna efe a ſyrthiodd ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd: a Dafydd a ddywedodd, Mephiboſeth? dywedodd yntef, wele dy wâs.

7 Yna Dafydd a ddywedodd wrtho ef, nac ofna, canys gan wneuthur y gwnaf drugaredd a

thi, er mwyn Ionathan dy dâd, a mi a roddaf yn ei ôl i ti holl dir Saul dy dâd: a thi a fwytti bara ar fy mwrdd i yn waſtadol.

8 Ac efe a ymgrymmodd, ac a ddywedodd, beth [ydyw] dy wâs di: pan edrychit ar gî marw o'm math i.

9 Yna y brenin a alwodd ar Ziba gwâs Saul, ac a ddywedodd wrtho ef: yr hyn ôll oedd eiddo Saul, ac eiddo ei holl dŷ ef a roddais i fab dy feiſtr di.

10 A thi a erddi y tir iddo ef, ti a'th feibion, a'th weiſion, ac ai dygi i mewn, fel y byddo bara i fab dy feiſtr di, ac y bwytao efe, a Mephiboſeth mab dy feiſtr di a fwytu yn waſtadol fara ar fy mwrdd i: (ac i Ziba ['r oedd] pymthec o feibion, ac ugain o weiſion)

11 Yna y dywedodd Ziba wrth y brenin, yn ôl yr hyn oll a orchymynnodd fy Arglwydd y brenin i'th wâs, felly y gwnaiff dy wâs: yna [y dywedodd Dafydd,] Mephiboſeth a fwytu ar fy mwrdd i, fel un o feibion y brenin.

12 Ac i Mephiboſeth [yr oedd] mab bychan ai enw [oedd] Micha: a phawb a'r [a oeddynt] yn cyfanneddu tŷ Ziba [oeddynt] weiſion i Mephiboſeth.

13 A Mephiboſeth a drigodd yn Ieruſalem, canys ar fwrdd y brenin yr oedd efe yn bwyta yn waſtadol: ac yr oedd efe yn gloff oi ddeu-droed.

## PEN. X.

Yr Ammarch a wnaeth brenin Ammon i weiſion Dafydd. 7 Ioab yn ryfela yn erbyn yr Ammoniaid, ac yn eu gorchfygu hwynt.

1.Cron.19.1. AC yn ôl hyn y darfu i frenin meibion Ammon farw: a Hanon ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

2 Yna y dywedodd Dafydd, mi a wnaf garedigrwydd a Hanon mab Nahas, megis y gwnaeth ei dâd ef garedigrwydd a mi, a Dafydd a anfonodd gyd ai weiſiõ iw gyſſuro ef am ei dâd: a gweiſion Dafydd a ddaethant i wlad meibion Ammon.

3 A thywyſogion meibion Ammon a ddywedaſant wrth Hanon eu harglwydd, ai anrhydeddu y mae Dafydd dy dâd ti yn dy olwg di, o herwydd iddo ddanfon cyſſur-wŷr attati? onid er mwyn chwilio'r ddinas, ai throedio, ai difetha yr anfonodd Dafydd ei weiſion attat ti?

4 Yna Hanon a gymmerth weiſion Dafydd ac a eilliodd hanner eu barfau hwynt, ac a dorrodd eu gwiſcoedd hwynt yn [eu] hanner hyd eu cluniau: ac ai gollyngodd hwynt.

5 Pan fynegwyd [hyn] i Ddafydd, yna efe a anfonodd iw cyfarfod hwynt, (canys y gwŷr oeddynt wedi eu cywilyddio yn fawr) a dywedodd y brenin arhoſwch yn Iericho hyd oni dyfo eich barfau chwi, yna dychwelwch.

1.Cron.19.6. 6 Yna meibion Ammon a welſant eu bod yn ffiaidd gan Ddafydd: a meibion Ammon a anfonaſant, ac a gyflogaſant o'r Syriaid, o dŷ Rehob, ac o Syriaid Zoba ugain mil o wŷr traed, a chan frenin Maacah fil o wŷr, ac o Iſtob ddeuddeng-mil o wŷr.

7 Pan glybu Dafydd: yna efe a anfonodd Ioab, a holl lu y cedyrn.

8 A meibion Ammon a aethant, ac a luniaethaſant ryfel [wrth] ddrws y porth: a'r Syriaid, [o] Zoba, a Rehob, Iſtob hefyd, a Maacah [oeddynt] ar naill-du yn y maes.

9 Pan ganfu Ioab fod wyneb y rhyfel yn ei erbyn ef ym mlaen, ac yn ôl: yna efe a etholodd o holl etholedigion Iſrael, ac a ymdaclodd yn erbyn y Syriaid.

10 A gweddill y bobl a roddes efe tann law Abiſai ei frawd: (ac yntef a ymdaclodd yn erbyn meibion Ammon.)

11 Ac efe a ddywedodd, os trêch fydd y Syriaid na mi, yna bydd di i mi yn gynnorthwy: ond os meibion Ammon fyddant trêch na thi, yna y deuaf i'th gynnorthwyo dithe.

12 Ymnertha, ac ymegniwn dros ein pobl, a thros ddinaſoedd ein Duw ni: a'r Arglwydd a wnaiff yr hyn fyddo da yn ei olwg ef.

13 Yna y neſſaodd Ioab, a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn erbyn y Syriaid i'r rhyfel: a hwy a ffoaſant oi flaen ef.

14 Pan welodd meibion Ammon ffoi o'r Syriaid, yna hwythau a ffoaſant o flaen Abiſai, ac a ddaethant i'r ddinas: a dychwelodd Ioab oddi wrth feibion Ammon, ac a ddaeth i Ieruſalem.

15 Pan welodd y Syriaid eu lladd o flaen Iſrael, yna'r ymgynnullaſant yng-hyd.

16 Ac Hadarezar a anfonodd, ac a ddug y Syriaid y rhai [oeddynt] o'r tû hwnt i'r afon, ac a ddaethant i Helam: a* Sobac tywyſog llu Hadarezar oi blaen hwynt. 1.Cron.19.16

17 Pan fynegwyd i Ddafydd [hynny,] yna efe a gaſclodd holl Iſrael, ac a aeth tros yr Iorddonen, ac a ddaeth i Helam, a'r Syriaid a ymdaclaſant yn erbyn Dafydd, ac a ymladdaſant ag ef.

18 A'r Syriaid a ffoaſant o flaen Iſrael, a Dafydd a laddodd o'r Syriaid ſaith gant [o] gerbydau, a deugain mil o wŷr meirch: ac efe a darawodd Sobac tywyſog eu llû, fel y bu efe farw yno.

19 Pan welodd yr holl frenhinoedd [y rhai oeddynt] yn weiſion i Hadarezar eu lladd hwynt o flaen Iſrael, yna'r heddychaſant ag Iſrael, a gwaſanaethaſant hwynt: a'r Syriaid a ofnaſant gynnorthwyo meibion Ammon mwyach.

## PEN. XI.

Dafydd yn gwneuthur godineb a gwraig Vrias. 14 yn peri lladd Vrias. 27 ac yn priodi y wraig.

AC yng-hyfnod y flwyddyn yn yr amſer y bydde y brenhinoedd yn myned allan [i ryfel] y danfonodd Dafydd * Ioab ai weiſion gyd ag ef, a holl Iſrael, a hwy a ddeſtrywiaſant feibion Ammon, ac a warchaeaſant ar Rabba, a Dafydd oedd yn aros yn Ieruſalem. 1.Cron.20.1.

2 Pan ydoedd hi yn brydnawn, yna y cyfododd Dafydd oddi ar ei wely, ac a rodiodd ar nenn tŷ y brenin, ac oddi ar y nenn efe a ganfu wraig yn ymolchi: a'r wraig oedd dêg iawn yr olwg.

3 Yna Dafydd a anfonodd, ac a ymofynnodd am y wraig: ac a ddywedodd, onid hon [yw] Bathſeba merch Eliam, gwraig Urias yr Hethiad?

4 A Dafydd a anfonodd gennadau, ac ai cymmerth hi, a hi a ddaeth i mewn atto ef, ac efe a orweddodd gyd a hi, a hi a ymlanhaodd oi haflendid, ac a ddychwelodd iw thŷ ei hun.

5 A'r wraig a fechiogodd: ac a anfonodd, ac a fynegodd i Ddafydd, ac a ddywedodd: yr ydwyfi yn feichiog,

6 Yna Dafydd a anfonodd at Joab [gan ddywedyd, danfon attafi Urias yr Hethiad: ac Joab a anfonodd Urias at Ddafydd.

7 Pan ddaeth Urias atto ef, yna Dafydd a ymofynnodd am lwyddiant Joab, ac am lwyddiant y bobl, ac am ffynniant y rhyfel.

8 Dywedodd Dafydd hefyd wrth Urias, dos i wared i'th dŷ, a golch dy draed: ac Urias a aeth allan o dŷ'r brenin, a ſaig y brenin aeth ar ei ôl ef.

9 Ond Urias a gyſcodd wrth ddrws tŷ y brenin gyd a holl weiſion ei arglwydd: ac nid aeth efe i wared iw dy ei hun.

10 Yna y mynegaſant i Ddafydd gan ddywedyd, nid aeth Urias i wared iw dŷ ei hun: a Dafydd a ddywedodd wrth Urias, onid o'th daith yr ydwyt ti yn dyfod? pa ham nad aethoſt ti i wared i'th dŷ dy hun?

11 A dywedodd Urias wrth Ddafydd, yr Arch, Iſrael hefyd, ac Juda ydynt'n aros mewn pebyll, ac Joab fy meiſtr, a gweſion fy meiſtr ydynt yn gwerſſyllu ar hŷd wyneb y maes, a âſt gan hynny i'm tŷ fy hun, i fwytta, ac i yfed, ac i orwedd gyd a'm gwraig? [mynn] dy einioes di, ac einioes dy enaid di ni wnaf y peth hyn.

12 Yna Dafydd a ddywedodd wrth Urias, aros ymma etto heddyw, ac y foru i'th ollyngaf di: ac Urias a arhoſodd yn Jeruſalem y dwthwn hwnnw, a thrannoeth.

13 Yna Dafydd ai galwodd ef, i fwytta, ac i yfed ger ei fron ef, ac ai meddwodd ef: ac ynhwyr efe a aeth i orwedd iw guſiel gyd a gweiſiō ei arglwydd, ac nid aeth efe i wared iw dŷ ei hun.

14 A'r boreu yr ſcrifennodd Dafydd lythyr at Joab, ac ai hanfonod gyd ag Urias.

15 Ac efe a ſcrifennodd yn ei lythyr gan ddywedyd: cyfleuwch Urias ar gyfer wyneb y rhyfel-wŷr glewaf, a dychwelwch oi ôl ef, fel y tarewer ef, ac y byddo efe marw.

16 A phan oedd Joab yn gwarche ar y ddinas: yna efe a roddes Urias yn y lle yr hwn y gwyddeb efe fod y gwŷr nerthol ynddo.

17 A gwŷr y ddinas a aethant allan, ac a ymladdaſant ag Joab, a ſyrthiodd [rhai] o'r bobl, [ſef] o weiſion Dafydd: ac Urias yr Hethiad a fu farw hefyd.

18 Yna Joab a anfonodd, ac a fynegodd i Ddafydd holl hanes y rhyfel.

19 Ac efe a orchymynnodd i'r gennad, gan ddywedyd: pan orphennech lefaru holl hanes y rhyfel wrth y brenin,

20 Yna os cyfyd llidiawgrwydd y brenin fel y dywedo wrthit, pa ham y neſſauaſoch at y ddinas i ryfela? oni wyddech y taflent hwy oddi ar y gaer?

21 Pwy a darawodd Abimelec fab Jerubbeſeth? onid gwraig a daflodd arno ef ddarn o faen melin oddi ar y mûr fel y bu efe farw yn Thebes? pa ham y neſſauaſoch at y mûr? yna y dywedi, dy wâs Urias yr Hethiad a fu farw hefyd.

22 Felly y gennad a aeth, ac a ddaeth ac a fynegodd i Ddafydd yr hyn oll yr anfonaſe Joab ef [iw fynegu.]

23 Yna yr gennad a ddywedodd wrth Ddafydd, yn ddiau y gwŷr oeddynt drêch na ni, ac a ddaethant attom ni i'r maes: ninneu hefyd a aethom arnynt hwy hyd ddrŵs y porth.

24 A'r ſaethyddion a ſaethaſant at dy weiſion oddi ar y mûr, a [rhai] o weiſion y brenin a fuant feirw: a'th was Urias yr Hethiad a fu farw hefyd.

25 Yna Dafydd a ddywedodd wrth y gennad, fel hyn y dywedi di wrth Joab, na fydded yn ddrwg yn dy olwg di y peth hyn, canys fel hyn, ac fel hyn y difetha y cleddyf: cadarnhâ dy ryfel yn erbyn y ddinas, fel y deſtruwiech hi, a chyſſura dithe ef.

26 Pan glybu gwraig Urias farw Urias ei gŵr: yna y galarodd hi am ei phriôd.

27 A [phan] aeth y galar heibio, yna Dafydd a anfonodd, ac ai dûg hi iw dŷ ef, i fod iddo ef yn wraig, a hi a ymddug iddo ef fâb: a drwg yng-olwg yr Arglwydd oedd y peth a wnaethe Dafydd.

## PEN. XII.

Nathan yn ceryddu Dafydd o achos gwraig Vrias. 18 Y plentyn yr hwn a ennillodd Dafydd o Bathſeba yn marw. 24 Ganedigaeth Salomon. 29 Goreſcynniad Rabbath.

Yna yr Arglwydd a anfonodd Nathan at Ddafydd: ac efe a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho ef, dau ŵr oeddynt yn yr un ddinas, y naill yn gyfoethog, a'r llall yn dlawd.

2 Gan y cyfoethog yr oedd llawer iawn o ddefaidd, a gwartheg.

3 A chan y tlawd nid [oedd] dim onid un oenic fechan yr hon a brynâſe efe, ac a fagâſe, a hi a gynnyddaſſe gyd ag ef, a chyd ai feibion ef hefyd: oi dammed ef yr ŷfe hi, ac yn ei fonwes ef y gorweddé hi, ac yr oedd hi iddo megis merch.

4 Ac ymdeithudd a ddaeth at y gŵr cyfoethog, ond efe a arbedodd gymmeryd oi ddefaid ei hun, ac oi ychen ei hun i arlwyo i'r ymdeithudd yr hwn a ddaethe atto ef: ond efe a gymmerth oenic y gŵr tlawd, ac ai paratôdd i'r gŵr yr hwn a ddaethe atto ef.

5 Yna digofaint Dafydd a ddigiodd yn ddirfawr wrth y gŵr: ac efe addywedodd wrth Nathan,[fel] y mae byw yr Arglwydd euog o farwolaeth[yw] yr gŵr yr hwn a wnaeth hyn. Exod 22.1.

6 A'r oenic a dâl efe adref *yn bedwar dyblyg: o herwydd nad arbedodd efe.

7 Yna y dywedodd Nathan wrth Ddafydd, 1.Sam.16.13. ti[yw] yr gŵr: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, *myfi a'th eneiniais di yn frenin ar Iſrael, myfi hefyd a'th waredais di o law Saul,

8 Rhoddais hefyd i ti dŷ dy arglwydd, a gwragedd dy arglwydd yn dy fonwes, ac mi a roddais i ti dŷ Iſrael, ac Iuda: ac os[rhy] fychan [fuaſe hynny,] myfi a roddaſwn fwy o lawer.

9 Pa ham y dremygaiſt air yr Arglwydd gan wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ei olwg ef? Urias yr Hethiad a darewaiſt di a chleddyf, ai wraig ef a gymmeraiſt i ti yn wraig: a thi ai lleddaiſt ef a chleddyf meibion Ammon.

10 Yn awr gan hynny ni ymêdu cleddyf a'th dŷ di byth: o herwydd i ti fy nirmygu i, a chymmeryd gwraig Urias yr Hethiad i fod yn wraig i ti.

11 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele Deut.28.36. myfi a gyfodaf i'th erbyn ddrwg o'th dŷ dy hun, 2.Sam.16.22. ac mi a ddygaf dy wragedd di yng-ŵydd dy lygaid, ac ai rhoddaf[hwynt] i'th gymydog: ac efe a orwedd gyd a'th wragedd di yng-olwg yr haul hwn.

12 Er i ti wneuthur mewn dirgelwch: etto myfi a wnaf y peth hyn ger bron holl Iſrael, a cher bron yr haul.

13 Eccle.47.13. Yna y dywedodd Dafydd wrth Nathan, *pechais yn erbyn yr Arglwydd: a Nathan a ddywedodd wrth Ddafydd, yr Arglwydd hefyd a dynnodd ymmaith dy bechod ti, ni byddi di marw.

14 Etto o herwydd i ti beri i elynnion yr Arglwydd ei gablu ef drwy yr peth hyn: am hynny y mab yr hwn a enir i ti a fydd marw yn ddiau.

15 Yna Nathan a aeth iw dŷ: a'r Arglwydd a darawodd y plentyn yr hwn a blantaſe gwraig Urias i Ddafydd fel y clafychodd efe.

16 Dafydd am hynny a ymbiliodd a Duw dros y bachgen: a Dafydd a ymprydiodd ympryd, ac a ddaeth, ac a arhoſodd tros nos ac a orweddodd ar y ddaiar.

17 Yna henuriaid y tŷ a gyfodaſant atto ef, i beri iddo godi oddi ar y ddaiar; ond ni fynne efe, ac ni fwyttae efe fara gyd a hwynt.

18 Ac ar y ſeithfed dydd y bu farw y plentyn: a gweiſion Dafydd a ofnaſant fynegu iddo ef farw y bachgen: canys dywedaſent, wele, tra oedd y bachgen yn fyw y llefaraſom wrtho ef, ond ni wrandawodd ar ein llais ni, pa fodd gan hynny y dywedwn ni wrtho farw y plentyn, rhac gwneuthur [o hynny ]niwed[iddo ef?

19 Pan welodd Dafydd ei weiſion yn ſibrwd, yna y deallodd Dafydd farw y plentyn: a Dafydd a dywedodd wrth ei weiſion, a fu farw y plentyn? a hwy a ddywedaſant efe a fu farw.

20 Yna Dafydd a gyfododd oddiar y ddaiar, ac a ymolchodd, ac a ymeneiniodd, ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth i dŷ 'r Arglwydd, ac a addolodd: wedi hynny y daeth efe iw dŷ ei hun, ac a ofynnodd, a hwynt a roddaſant iddo fara ac efe a fwytâodd.

21 Yna ei weiſion a ddywedaſant wrtho ef, pa beth[yw]hyn a wnaethoſt di? dros y plentyn byw 'r ymprydiaiſt, ac yr ŵylaiſt, ond pan fu y plentyn farw, ti a gyfodaiſt, ac a fwyteaiſt fara.

22 Ac efe a ddywedodd, tra yr ydoedd y plentyn yn fyw 'r ymprydiais, ac yr wylais: canys mi a ddywedais, pwy a ŵyr a drugarhâ fy Arglwydd fel y byddo byw y plentyn?

23 Ac yn awr efe fu farw, i ba beth yr ymprydiŵn? a allafi ei ddwyn ef yn ei ôl mwyach? myfi a âf atto ef, ond ni ddychwel efe attafi.

24 Yna Dafydd a gyſurodd Bathſeba ei wraig, ac a aeth atti hi, ac a orweddodd gyd a hi: a hi a ymddug fab, ac *efe alwodd ei enw ef Salomon, a'r Arglwydd ai carodd ef. 1.Cron.22.9.

25 Canys efe a anfonaſe drwy law Nathan y prophwyd, ac efe a alwodd ei * enw ef Iedidiah o blegit yr Arglwydd [ ai care ef.] 1.Cron.22.9.

26 Yna Ioab a ymladdodd yn erbyn Rabbah meibion Ammon: ac efe a ennullodd y frehinawl ddinas.

27 Ac Ioab a anfonodd gennadau at Ddafydd, ac a ddywedodd: rhyfelais yn erbyn Rabbah ennillais hefyd ddinas y dyfroedd.

28 Yn awr gan hynny caſcl weddill y bobl, a gwerſylla yn erbyn y ddinas, ac ennill hi: rhac i mi ennill y ddinas, a galw fy henw i arni hi.

29 Felly Dafydd a gaſclodd y bobl ac a aeth yn erbyn Rabba: ac a ymladdodd yn ei herbyn hi ac ai hennillodd hi.

30 Ac* efe a ddûg goron eu brenin hwynt oddi am ei ben(ai phwys hi[oedd] dalent o aur, ac[yr oedd]maen gwerthfawr[ynddi) a hi a oſodwyd ar ben Dafydd: ac efe a ddûg ymmaith lawer iawn o anrhaith y ddinas. 1.Cron.20.2.

31 Ac efe a ddûg ymmaith y bobl y rhai [oedd]ynddi, ac ai goſododd tan lifau, a than ogau heirn, a than fwyill heirn, ac ai bwriodd hwynt i'r odynau calch, ac felly y gwnaeth i holl ddinaſoedd meibion Ammon: yna Dafydd a ddychwelodd a'r holl bobl i Ieruſalem.

## PEN. XIII.

Amnon yn treiſio Thamar. 28 Abſalom yn peri lladd Amnon.

AC yn ôl hyn yr ydoedd gan Abſalom fab Dafydd chwaer dêg, ai henw Thamar: ac Amnon mab Dafydd ai carodd hi.

2 Ac yr oedd mor flin ar Amnon, fel y clafychodd efe o herwydd Thamar ei chwaer, canys gweryf[oedd]hi: ac anhawdd y gwele Amnon wneuthur dim iddi hi.

3 A chyfell[oedd]gan Amnon, ai enw Ionadab mab Simah brawd Dafydd: ac Ionadab [oedd]ŵr call iawn.

4 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, ti fab y brenin pa ham yr ydwyt yn curio fel hyn beunydd? oni fynegi di i mi? yna Amnon a ddywedodd wrtho ef, caru yr ydwyſt Thamar chwaer Abſalom fy mrawd.

5 Yna Ionadab a ddywedodd wrtho ef, gorwedd ar dy wely, a chymmer arnat glaſychu: pan ddelo dy dad i'th edrych, yna dywet, wrtho ef, deued attolwg Thamar fy chwaer, fel y paro i mi fwyta bara, ac yr arlwyo fwyd yn fyng-olwg, fel y gwelwyf, ac y bwytawyf oi llaw hi.

6 Felly Amnon a orweddodd, ac a gymmerth arno glaſychu: a'r brenin a ddaeth iw edrych ef, ac Amnon a ddywedodd wrth y brenin, deued attolwg Thamar fy chwaer i graſſu dwy deiſen yn fyng-olwg i, fel y bwytawyf oi llaw hi.

7 Yna Dafydd a anfonodd adref at Thamar gan ddywedyd: dos yn awr i dŷ Amnon dy frawd, a pharatoa fwyd iddo ef.

8 Felly Thamar a aeth i dŷ Amnon ei brawd, (ac efe oedd yn gorwedd) a hi a gymmerth beillied, ac ai telinodd, ac a wnaeth deiſennau yn ei ŵydd ef, ac a graſodd y teiſennau.

9 Yna hi a gymmerth y radell, ac ai tywalltodd [hwynt] ger ei fron ef, ond efe a wrthododd fwytta: ac Amnon a ddywedodd, dugwch allan bawb oddi wrthifi, a phawb a aethant allan oddi wrtho ef.

10 Yna Amnon a ddywedodd wrth Thamar, dŵg y bwyd i'r ſtafell, fel y bwytawyf o'th law di: a Thamar a gymmerth y teiſennau y rhai a wnaethe hi, ac ai dûg at Amnon ei brawd i'r ſtafell.

11 Pan ddûg hi [hwynt] atto ef i fwytta: yna efe a ymaflodd ynddi hi, ac a ddywedodd wrthi hi, tyret, gorwedd gyd a mi fy chwaer.

Leuit.18.9.

12 A hi a ddywedodd wrtho ef, paid fy mrawd na threiſia fi, canys *ni wneir fel hyn yn Iſrael: na wna di yr ynfydrwydd hyn.

13 Canys pa fodd y bwriaf ymmaith fyng-warth? a thi a fyddi fel vn o'r ynfydion yn Iſrael: yn awr gan hynny ymddiddan attolwg a'r brenin, canys ni ommedd efe fi i ti.

14 Ond ni fynne efe wrando ar ei llais hi: eithr efe a fu drêch na hi, ac ai treiſiodd, ac a orweddodd gyd a hi.

15 Yna Amnon ai caſâodd hi a châs mawr iawn, canys mwy [oedd] y câs a'r hwn y caſauaſe efe hi, na'r cariad a'r hwn y carâſe efe hi: ac Amnon a ddywedodd wrthi hi, cyfot dôs ymmaith.

16 A hi a ddywedodd wrtho ef, nid [oes achos i hyn:] y drygioni hwn [ſef] fyng-yrru ymmaith ſydd fwy na'r llall yr hwn a wnaethoſt a mi, ond ni fynne efe wrando arni hi.

17 Eithr efe a alwodd ar ei langc [ſef] ei weinidog, ac a ddywedodd, hebrwng allan attolwg hon oddi wrthifi: a chlôa y drŵs ar ei hôl hi.

18 (Ac am deni hi [yr oedd] mantell ſymmud-liw: canys felly y dilladid merched y brenin, y rhai [oeddynt] forwynion a mantellau:) yna ei weinidog ef ai dûg hi allan, ac a glôodd y drws ar ei hôl hi.

19 A Thamar a gymmerodd ludw ar ei phen, ac a rwygodd y fantell ſymmud-liw yr hon [oedd] am deni hi: ac a oſododd ei llaw ar ei phen, ac a aeth ymmaith dan gerdded a gweiddi.

20 Ac Abſalom ei brawd hi a ddywedodd wrthi hi, ai Amnon dy frawd a fu gyd a thi? er hynny yn awr taw a ſôn fy chwaer, dy frawd ti [yw] efe, na oſod dy galon ar y peth hyn: felly Thamar a drigodd yn anrhaithiedic yn nhŷ Abſalom ei brawd.

21 Pan glybu y brenin Dafydd yr holl bethau hynny: yna efe a ddigiodd yn aruthr.

22 Ac ni ddywedodd Abſalom wrth Amnon na drwg, na dâ: er hynny Abſalom a gaſaodd Amnon o herwydd iddo ef dreiſio Thamar ei chwaer ef.

23 Ac ar ôl dwy flynedd o ddyddiau, yr oedd gan Abſalom rai yn cneiſio yng-waſtadedd Hazor, yr hwn [ſydd] wrth Ephraim: ac Abſalom a wahoddodd holl feibion y brenin.

24 Canys Abſalom a ddaeth at y brenin, ac a ddywedodd, wele yn awr rai yn cneiſio i'th wâs di: deued attolwg y brenin ai weiſion gyd a'th wâs di.

25 Yna y dywedodd y brenin wrth Abſalom, nage fy mâb, ni ddeuwn ni i gyd yn awr, ac ni orneſwn arnat ti: etto [Abſalō] a fu daer arno ef, ond ni fynne efe fyned, eithr efe ai bendithiodd ef.

26 Yna y dywedodd Abſalom, oni ddaw Amnon fy mrawd yn awr gyd a ni? a'r brenin a ddywedodd wrtho ef, i ba beth yr aiff efe gyd a thi?

27 Etto Abſalom fu daer arno ef, fel y gollyngodd efe Amnon gyd ag ef, a holl feibion y brenin.

28 Ac Abſalom a orchymynnodd iw lagciau gan ddywedyd, edrychwch attolwg pan fyddo llawen calon Amnon gan wîn, a [phan] ddywedwyf wrthych, tarewch Amnon, yna lleddwch ef, nac ofnwch: canys oni orchymynnais i chwi? ymnerthwch, a byddwch feibiō glewiō.

29 A llangciau Abſalom, a wnaethant i Amnon fel y gorchymynnaſe Abſalom: a holl feibion y brenin a gyfodaſant, a phôb vn a farchogodd ar ei fûl, ac hwy a ffoaſant.

30 A [thra yr oeddynt hwy] ar y ffordd y daeth y chwedl at Ddafydd gan ddywedyd: Abſalom a laddodd holl feibion y brenin, ac ni adawyd vn o honynt.

31 Yna y brenin a gyfododd, ac a rwygodd ei ddillad, ac a orweddodd ar y ddaiar: ei holl weiſion ef hefyd oeddynt yn ſefyll ai gwiſcoedd yn rhwygedic.

32 Yna Ionadab mab Simah frawd Dafydd a attebodd, ac a ddywedodd, na ddyweded fy arglwydd iddynt hwy ladd yr holl langciau [ſef] meibion y brenin, canys Amnon yn vnic a fu farw: canys yr oedd ym mryd Abſalom [hynny] er y dydd y treiſiodd efe Thamar ei chwaer ef

33 Ac yn awr na oſoded fy arglwydd frenin y peth at ei galon gan dybied farw holl feibion y brenin: canys Amnon yn unic a fu farw.

34 Yna Abſalom a ffoawdd: a'r llangc yr hwn oedd yn gwilio a dderchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele bobl lawer yn myned o'r ffordd ar ei ôl ef, ar hŷd yſtlys y mynydd.

35 Ac Jonadab a ddywedodd wrth y brenin, wele feibion y brenin yn dyfod: fel y dywedodd dy wâs felly y mae.

36 A phan orphennaſe efe ymddiddan, yna wele meibion y brenin a ddaethãt, ac a derchafaſant eu llef, ac a wylaſant: a'r brenin hefyd, ai holl weiſion a wylaſant ag wylofain mawr iawn.

Pen.3.3.

37 Ac Abſalom a ffoawdd, ac a aeth at *Thalmai fab Ammihur brenin Geſur: a [Dafydd] a alarodd am ei fab yr holl ddyddiau hynny.

38 Felly Abſalom a ffoawdd, ac a aeth i Geſur: ac yno y bu efe dair blynedd.

39 Ac [enaid] Dafydd y brenin a hiraethodd am fyned at Abſalom: canys efe a gyſuraſid am Amnon, o herwydd ei farw efe.

## PEN. XIIII.

Dafydd wedi cymmodi ag Abſalom, heb adel iddo ddyfod yn ei wydd tros ddwy flynedd. 29 Y modd y cafodd efe ddyfod yng-wydd ei dâd o'r diwedd.

YNa Joab mab Serfia a wybu fod calon y brenin tu ag at Abſalom.

2 Ac Joab a anfonodd i Thecoah, ac a ddûg oddi yno wraig ddoeth: ac a ddywedodd wrthi hi: cymmer arnat attolwg alaru, a gwiſc yn awr alar-wiſc, ac nac ymira ag olew, eithr bydd fel gwraig yn galaru euſus er ys llawer o ddyddiau am y marw.

3 A thyret at y brenin, a llefara wrtho yn ôl yr ymadrodd hyn: ac Joab a oſododd yr ymadroddion yn ei genau hi.

4 Yna y wraig o Theocah a ddywedodd wrth y brenin, canys hi a ſyrthiodd i lawr ar ei hwyneb, ac a ymgrymmodd, ac a ddywedodd, cynnorthwya ô frenin.

5 Yna y dywedodd y brenin wrthi hi, beth [a ddarfu] iti? a hi a ddywedodd, yn wîr gwraig weddw ydwyf, canys fyng-wr a fu farw.

6 Ac i'th lawforwyn [yr oedd] dau fab, a hwynt ill dau a ymryſonnaſant yn y maes, ond nid [oedd] ymathrywŷn-wr rhyngddynt hwy: a'r naill a darawodd y llall, ac ai lladdodd ef.

7 Ac wele yr holl dylwyth a gyfododd yn erbyn dy lawforwyn, a hwy a ddywedaſant, dyro yr hwn a darawodd ei frawd fel y lladdom ni ef am einioes ei frawd yr hwn a laddodd efe, ac y difethom hefyd yr etifedd: felly y diffoddent fy marworyn yr hwn a adawyd, heb adel im gŵr enw, nac eppil ar wyneb y ddaiar.

8 A'r brenin a ddywedodd wrth y wraig, dôs i'th dŷ dy hun: a mi a roddaf orchymyn o'ch blegit.

9 Yna y dywedodd y wraig o Thecoah wrth y brenin, [bydded] y camwedd hwn arnaf fi fy arglwydd frenin, ac ar dŷ fy nhâd i: a'r brenin ai orſedd-faingc ef yn ddiniwed.

10 A'r brenin a ddywedodd, dŵg attaf fi yr hwn a yngêna wrthit, fel na chwanego efe mwyach gyffwrdd a thi.

11 Yna hi a ddywedodd, cofied attolwg y brenin dy Arglwydd Dduw, rhac amlhau dialwŷr y gwaed i ddeſtrywio, a rhac difetha o honynt hwy fy mab i: ac efe a ddywedodd [fel] mai byw yr Arglwydd ni ſyrth [un] o wallt dy fab di i lawr.

12 Yna y dywedodd y wraig, attolwg, caffed dy law-forwyn ddywedyd gair wrth fy arglwydd frenin: yntef a ddywedodd dywet.

13 A'r wraig a ddywedodd, pa ham gan hynny y meddyliaiſt fel hyn yn erbyn pobl Dduw? neu [pa ham] y mae yr brenin yn llefaru y gair hwn megis [un] beius? gan na ddûg y brenin adref ei herwr.

14 Canys gan farw yr ydym ni yn marw, ie fel dyfroedd wedi eu tywallt a'r y ddaiar, y rhai ni cheſclir: ac ni eiriach Duw einioes, etto efe a feddwl foddion, fel na yrro efe ymmaith yr herwr oddi wrtho ef.

15 Ac yn awr mi a ddaethum i ymddiddan a'm harglwydd frenin am y peth hyn, o blegit i'r bobl fy nychrynnu i: am hynny y dywedodd dy law-forwyn, ymddiddanaf yn awr a'r brenin, ond odid efe a wnaiff y brenin ddymuniad ei law-forwyn.

16 A'r brenin a wrendu, fel y gwaredo efe ei law-forwyn o law y gŵr [yr hwn a geiſio] fy nifetha i, a'm mab hefyd o etifeddiaeth Dduw.

17 A'th law-forwyn a ddywedodd, bydded attolwg gair fy arglwydd frenin yn gyſur: (canys fel angel Duw yw fy arglwydd frenin i wrando y da, a'r drwg) a'r Arglwydd dy Dduw fyddo gyd a thi.

18 Yna'r attebodd y brenin, ac y dywedodd wrth y wraig, na chêla attolwg oddi wrthif y peth yr hwn yr ydwyf yn ei ofyn iti: a dywedodd y wraig, llefared yn awr fy arglwydd frenin.

19 A'r brenin a ddywedodd, a [ydyw] llaw Joab gyd a thi yn hyn oll? yna 'r attebodd y wraig, ac y dywedodd, [fel] mai byw dy enaid ti fy arglwydd frenin nid gwiw [troi] ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy oddi wrth yr hyn oll a ddywedodd fy arglwydd frenin, canys dy wâs Joab a orchymynnodd i mi, ac a oſododd yr holl eiriau hyn yng-enau dy law-forwyn.

20 Ar fedr troi wyneb y chwedl y gwnaeth dy wâs Joab y peth hyn: ond fy arglwydd [ſydd] ddoeth fel doethineb angel Duw i wybod yr hyn oll [ſydd] ar y ddaiar.

21 A'r brenin a ddywedodd wrth Joab, wele yn awr gwneuthum y peth hyn: dôs, a dwg y llangc Abſalom yn ei ôl.

22 Yna Joab a ſyrthiodd i lawr ar ei wyneb, ac a ymgrymmodd, ac a fendithiodd y brenin:

nin: ac Joab a ddywedodd, heddyw y gwybu dy wâs di gael o honof ffafor yn dy olwg di (fy arglwydd frenin) am i'r brenin gyflawni dymuniad ei wâs.

23 Ac Joab a gyfododd, ac a aeth i Geſur: ac a ddûg Abſalom i Jeruſalem.

24 A'r brenin a ddywedodd, troed iw dŷ ei hûn ac nac edryched [yn] fy wyneb i: felly Abſalom a drôdd iw dŷ ei hun, ac ni welodd wyneb y brenin.

25 Ac nid oedd ŵr mor dêg [ac] mor glodfawr ag Abſalom o fewn holl Iſrael: o wadn ei droed, hyd ei goryn nid oedd wrthyni ynddo ef.

26 A phan gneifie efe ei benn, (canys un waith yn y flwyddyn y cneifie efe ei walle, o herwydd ei fod yn drwm arno, am hynny efe ai cneifie ef) yna efe a bwyſe walle ei benn yn ddau cant ſicl wrth bwys y brenin.

27 A thri mab a anwyd i Abſalom, ac un ferch, ai henw hi [oedd] Thamar: yr oedd hi yn wraig dêg yr olwg.

28 Felly Abſalom a drigodd ddwy flynedd gyfan yn Jeruſalem: ac ni welodd wyneb y brenin.

29 Yna Abſalom a ddanfonodd at Joab, iw anfon ef at y brenin, ond ni fynne efe ddyfod atto ef: ac efe a anfonodd etto 'r ailwaith, ond ni fynne efe ddyfod.

30 Am hynny efe a ddywedodd wrth ei weiſion gwelwch randîr Joab ger fy llaw i, a haidd [ſydd] ganddo ef yno, ewch a lloſcwch hi a thân: a gweiſion Abſalom a loſcaſant y rhan-dir a thân.

31 Yno Joab a gyfododd, ac a ddaeth at Abſalom iw dŷ, ac a ddywedodd wrtho ef, pa ham y lloſcodd dy weiſion di y rhã-dir yr hon [oedd] gennifi a thân?

32 Ac Abſalom a ddywedodd wrth Joab, wele mi a anfonais attat ti gan ddywedyd, tyret ymma fel i'th anfonwyf di at y brenin i ddywedyd, i ba beth y daethum i o Geſur? gwell fuaſe i mi fy [mod] i yno etto: ac yn awr gadawer i mi weled wyneb y brenin, ac od oes gamwedd ynof, yna lladded fi.

33 Yna Joab a ddaeth at y brenin, ac a fynegodd iddo ef, ac efe a alwodd am Abſalom, yntef a ddaeth at y brenin, ac a ymgrymmodd iddo i lawr ar ei wyneb ger bron y brenin: a'r brenin a guſſanodd Abſalom.

## PEN. XV.

Tracturiaeth Abſolom. Huſai yn ffyddlon i Ddafydd.

AC wedi hyn y paratôdd Abſalom iddo eu hun gerbydau, a meirch: a deng-ŵr a deugain i redeg oi flaen ef.

2 Ac Abſalom a gyfode yn fore, ac a ſafe ger llaw ffordd y porth: ac yna Abſalom a alwe atto bob gŵr yr hwn yr oedd iddo fatter i ddyfod at y brenin am farn, ac a ddywede, o ba ddinas [yr ydwyt] ti? yntef a ddywede, o un o lwythau Iſrael [y mae] dy wâs di.

3 Ac Abſalom a ddywede wrtho ef, wele [y mae] dy ymadroddion yn dda, ac yn inion: ond nid [oes] gan y brenin a wrandawo arnat ti.

4 Dywede Abſalom hefyd, oh na'm goſodid i yn farn-wr yn y wlad, fel y dele attafi bob gŵr yr hwn fydde ganddo ymrafel neu gynghaws, fel y gwnawn i gyfiawnder iddo.

5 A phan neſſe neb i ymgrymmu iddo ef: yna efe a eſtynne ei law, ac a ymafle ynddo ef, ac ai cuſſane ef.

6 Ac fel hyn y gwnae Abſalom i holl Iſrael y rhai a ddeuent am farn at y brenin: felly Abſalom a ennillodd galon holl wŷr Iſrael.

7 Ac ym mhen deugain mlhynedd y dywedodd Abſalom wrth y brenin, mi a âf yn awr, ac a dalaf fy adduned yr hon a addunedais i'r Arglwydd yn Hebron.

8 Canys dy wâs a addunodd adduned pan oeddwn i yn aros o fewn Geſur yn Syria gan ddywedyd: os gan ddychwelyd y dychwel yr Arglwydd fi i Jeruſalem, yna y gwaſanaethaf yr Arglwydd.

9 A'r brenin a ddywedodd wrtho ef, dos mewn heddwch: felly efe a gyfododd, ac a aeth i Hebron.

10 Yna Abſalom a anfonodd chwil-wŷr drwy holl lwythau Iſrael gan ddywedyd: pan glywoch lef yr udcorn yna dywedwch, Abſalom ſydd yn teyrnaſu yn Hebron.

11 A dau cant o wŷr a aethant gyd ag Abſalom o Jeruſalem ar wahodd, ac yr oeddynt yn myned yn ei perffaithrwydd, ac heb wybod dim oll.

12 Ac Abſalom a anfonodd am Ahitophel y Geloniad cyngor-ŵr Dafydd oi ddinas Gilo, tra fydde efe yn offrymmu aberthau: a'r cydfrad-wriaeth [oedd] gref, a'r bobl oedd yn myned, ac yn amlhau gyd ag Abſalom.

13 Yna y daeth cennad at Ddafydd gan ddywedyd: y mae calon gwŷr Iſrael ar ôl Abſalom.

14 Yna y dywedodd Dafydd wrth ei holl weiſion y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn Jeruſalem, cyfodwch, a ffoiwn, canys ni ddiang-wn ni gan Abſalom: bryſſiwch i fyned, rhac iddo ef fryſſio a'n dala ni, a bwrw drygioni i'n herbyn ni, a tharo y ddinas a mîn y cleddyf.

15 A gweiſion y brenin a ddywedaſant wrth y brenin: wele dy weiſion [yn barod] ar ôl yr hyn oll a ddewiſo fy arglwydd frenin.

16 Felly y brenin a aeth, ai holl dŷlwyth ar ei ôl: a'r brenin a adawodd ddeg o ordderchwragedd i gadw 'r tŷ.

17 Ar brenin a aeth a'r holl bobl ar ei ôl: ac a ſafaſant mewn lle pell.

18 Ai holl weiſion ef oeddynt yn cerdded ger ei law ef, yr holl Gerethiaid, a'r holl Pelethiaid: a'r holl Gethiaid [ſef] y chwechan-wr y rhai a ddaethent ar ei ôl ef o Gath oeddynt yn cerdded o flaen y brenin.

19 Yna y dywedodd y brenin wrth Ittai y Gethiad, i ba beth yr ei di hefyd gyd a ni? dychwel,

wel, a thrig gyd a'r brenin, canys dieithr ydwyt ti, a chyrwydrad hefyd o'th frô dy hun.

20 Doe y daethoſt ti, a fudwn i di heddyw i fyned gyd a ni ꝛ myfi a âf i ryw lê : dychwel, a dŵg dy frodyr gyd a thi [mewn] trugaredd, a gwirionedd.

21 Ac Ittai a attebodd y brenin, ac a ddywedodd, [fel] mai byw 'r Arglwydd, ac mai byw fy arglwydd frenin, yn wir yn y lle 'r hwn y byddo fy arglwydd frenin, ynddo pa un bynnac ai i angeu, ai i enioes, yno yn ddiau y bydd dy wâs.

22 Yna Dafydd a ddywedodd wrth Ittai, dòs, a cherdda : ac Ittai y Gethiad a aeth ai holl wŷr, a'r holl blant y rhai [oeddynt] gandddo ef.

23 A'r holl wlâd oeddynt yn llefain a llef uchel, pan ydoedd yr holl bobl yn myned : a'r brenin a aeth tros afon Cedron, a'r holl bobl a aethant ar hŷd ffordd yr anialwch.

24 Yna wele Zadoc, a'r holl Lefiaid [oeddynt] gyd ag ef, yn dwyn Arch cyfammod Duw, a hwy a oſodaſant i lawr Arch Dduw, ac Abiathar a aeth i fynu, nes darfod i'r holl bobl ddyfod allan o'r ddinas.

25 Yna y dywedodd y brenin wrth Zadoc, dychwel ag Arch Dduw i'r ddinas : os cafi ffafor yng-olwg yr Arglwydd, efe a'm dwg i eil-waith, ac a bar i mi ei gweled hi, ai phabell.

26 Ond os fel hyn y dywed efe, nid wyf fodlon it : wele fi, gwnaed i mi fel [y byddo] da yn ei olwg.

27 A'r brenin a ddywedodd wrth Zadoc yr offeiriad, onid * gweledydd [ydwyt] ti ꝛ dychwel i'r ddinas mewn heddwch, a'th ddau fab gyd a thi [ſef] Ahimaaz dy fab, ac Jonathan mab Abiathar. 1.Sam.9.9.

28 Gwelwch fi yn aros yn rhoſydd yr anialwch, nes dyfod gair oddi wrthit iw fynegu i mi.

29 Felly Zadoc, ac Abiathar a ddugaſant yn ôl Arch Dduw i Jeruſalem : ac a arhoſaſant yno.

30 A Dafydd a aeth i fynu i fryn yr oliwydd, yr oedd yn myned i fynu, ac yn ŵylo, ai benn wedi ei orchguddio, ac yr oedd efe yn myned yn droed-noeth : a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef a orchguddiaſant bawb ei ben, ac a aethant i fynu, gan fyned ac ŵylo.

31 Yna y mynegwyd [i] Ddafydd gan ddywedyd, Ahitophel [ſydd] mewn cydfradwriaeth ag Abſalom : a Dafydd a ddywedodd, ô Arglwydd diddymma attolwg gyngor Ahitophel.

32 A phan ddaeth Dafydd hyd benn [y bryn] yr hwn yr addole efe Dduw ynddo, yna wele Huſai 'r Arciad yn ei gyfarfod ef wedi rhwygo ei bais, a phridd ar ei benn.

33 A Dafydd a ddywedodd wrtho ef : od ei troſodd gyd a mi, byddi yn faich arnafi.

34 Ond os dychweli i'r ddinas, a dywedyd wrth Abſalom, dy wâs di ô frenin fyddaf, gwas dy dâd [fum] er yſtalm, ac yn awr dy wâs di the [ydwyfi] hefyd : a diddymma i mi gyngor Ahitophel.

35 Oni [bydd] gyd a thi yno Zadoc, ac Abiathar yr offeiriaid ꝛ am hynny pob gair a'r a glywech o dŷ 'r brenin, mynega [ef] i Zadoc, ac i Abiathar yr offeiriaid.

36 Wele [y mae] yno gyd a hwynt eu dau fab, [ſef] Ahimaaz [mab] Zadoc, ac Jonathan [mab] Abiathar : danfonwch gan hynny gyd a hwynt attafi bob peth a'r a glywoch.

37 Felly Huſai cyfell Dafydd a ddaeth i'r ddinas : ac Abſalom a ddaeth i Jeruſalem.

## PEN. XVI.

Ziba yn bradychu ei feiſtr. 5 Simei yn rhegu Dafydd. 16 Dyfodiad Huſai at Abſalom. 21 Cyngor Ahitophel am y gordderch-wragedd.

PAN aethe Dafydd ychydig o benn [y brynn,] yna wele Ziba gwas Mephiboſeth yn ei gyfarfod ef : a chwpl o aſſynnod wedi eu cyfrwyo, ac arnynt hwy ['r oedd] dau cant [torth] o fara, a chant o reſynnau, a chant o ffigus, a choſtreled o win.

2 Yna y dywedodd y brenin wrth Ziba, beth [yw] y rhai hyn [ſydd] gennit ꝛ Ziba a ddywedodd, aſſynnod i dŷlwyth y brenin i farchogeth, a bara, a ffigus i'r llangciau iw bwytta, a gŵin i'r deffygiedic iw yfed yn yr anialwch [ydynt hwy.]

3 A'r brenin a ddywedodd, ond pa le [y mae] mab dy feiſtr di ꝛ a Ziba a ddywedodd wrth y brenin, wele y mae efe yn aros yn Jeruſalem, canys efe a ddywedodd, tŷ Iſrael a roddant trachefn i mi heddyw frenhiniaeth fy nhad.

4 Yna y dywedodd y brenin wrth Ziba, wele eiddo ti 'r hyn oll [oedd] gan Mephiboſeth : a Ziba a ddywedodd, yr ydwyf yn attolwg gael o honof ffafor yn dy olwg di fy arglwydd frenin.

5 Pan ddaeth y brenin Dafydd hyd Bahurim, yna wele un o dylwyth tŷ Saul yn myned allan oddi yno, ai enw ef [oedd] Simei mab Gera yn myned gan gerdded a melldigo.

6 Ac efe a daflodd Ddafydd a cherric, a holl weiſion y brenin Dafydd : er [bod] yr holl bobl, a'r holl gedyrn ar ei law ddehau, ac ar ei law aſſwy.

7 Ac fel hyn y dywede Simei wrth ei felldithio ef : tyret allan, tyret allan ŵr gwaedlyd, a gŵr i'r fall.

8 Yr Arglwydd a drôdd arnat ti holl waed tŷ Saul, yr hwn y teyrnaſaiſt yn ei le, a'r Arglwydd a roddodd y frenhiniaeth yn llaw Abſalom dy fab di : ac wele di yn dy ddrygioni dy hun, canys gŵr gwaedlyd [ydwyt] ti.

9 Yna y dywedodd Abiſai mab Serfia wrth y brenin, pa ham y melldithia y ci * marw hwn fy arglwydd frenin ꝛ gâd i mi fyned attolwg fel y torrwyf ymmaith ei ben ef. 1.Sam.24.15. Pen.3.8.

10 A'r brenin a ddywedodd, beth [ſydd] i mi a [wnelwyf] a chwi meibion Serfia ꝛ canys melldithio y mae efe o herwydd yr Arglwydd a

ddywedodd wrtho ef, melldithia Ddafydd, am hynny pwy a ddywed pa ham y gwnaethoſt hyn?

11 A Dafydd a ddywedodd wrth Abiſai, ac wrth ei holl weiſion, wele fy mab yr hwn a ddaeth allan o'm emiſcaroedd yn ceiſio fy einioes, ac yn awr pa feint mwy [y cais] mab Iemini? gedwch iddo, a melldithied, canys yr Arglwydd a archodd iddo.

12 Ond odid fe a edrych yr Arglwydd ar fyng-hyſtudd i: a'r Arglwydd a ddyru i mi ddaioni am ei felldith ef y dydd hwn.

13 A Dafydd a aeth ai wŷr i ffordd: Simei oedd yn myned ar hŷd yſtlys y mynydd ar ei gyfer ef, ac fel yr oedd efe yn myned, efe a felldithiodd, ac a daflodd gerric, ac a lychiodd lŵch iw erbyn ef.

14 Yna y daeth y brenin, a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn ddeffygiol: ac efe a orphywyſodd yno.

15 Ac Abſalom a'r holl bobl [ſef] gwŷr Iſrael a ddaethant i Ieruſalem: ac Ahitophel gyd ag ef.

16 A phan ddaeth Huſai 'r Arciad cefell Dafydd at Abſalom, yna Huſai a ddywedodd wrth Abſalom: byw fo'r brenin, byw fyddo 'r brenin.

17 Yna Abſalom a ddywedodd wrth Huſai: ai dymma dy garedigrwydd di i'th gefell? pa ham nad aethoſt ti gyd a'th gefell?

18 A Huſai a ddywedodd wrth Abſalom, nid tim, eithr yr hwn a ddwiſo r' Arglwydd, ar bobl ymma, ſef holl wŷr Iſrael: eiddo ef fyddaſi, a chyd ag ef yr arhoeſaf fi,

19 Ar' bwy hefyd y gwaſanaethaf, onid ger bron ei fab ef? megys y gwaſanaethais ger bron dy dad ti felly y byddaf ger dy fron dithe.

20 Yna y Dywedodd Abſalom wrth Ahitophell: rhoddwch eich cyngor beth a wnawn ni:

21 Ac Ahitophel a ddywedodd wrth Abſalom, dôs i mewn at ordderch-wragedd dy dâd y rhai a adawodd efe i gadw y tŷ: pan glywo holl Iſrael dy fod yn ffiaid gan dy dad, yna y cryfheuir llaw y rhai oll [ydynt] gyd a thi.

2.Sam.12.11. 22 Felly y tanaſant i Abſalom y babell ar nen y tŷ: *ac Abſalom a aeth i mewn at ordderch-wragedd ei dâd yng-wydd holl Iſrael.

23 A chyngor Ahitophel, yr hwn a gynghorai efe yn y dyddiau hynny [oedd] fel pe ymofynne [un] a gair Duw: felly ['r oedd] holl gyngor Ahitophel i Ddafydd hefyd, fel i Abſalom.

## PEN. XVII.

Abſalom yn dewis cyngor Huſai o flaen cyngor Ahitophel. 29 Yntef am hynny yn ymgrogi.

Dywedodd Ahitophel hefyd wrth Abſalom: gâd i mi yn awr ddeuddeng-mil o wŷr, ac mi a gyfodaf, ac a erlidiaf ar ôl Dafydd liw nôs.

2 A mi a ddeuaf arno ef, tra fyddo efe yn lluddedic, ac yn wann ei ddwylaw, ac ai brawychaf ef, fel y ffu 'r holl bobl y rhai [ydynt] gyd ag ef: felly y tarawaf y brenin ei hunan.

3 A throaf yr holl bobl attat ti: [a] phan ddychwelo pob un [wedi lladd] y gŵr yr hwn yr ydwyt ti 'n ei geiſio, yr holl bobl fydd [mewn] heddwch.

4 A da fu 'r peth yng-olwg Abſolom, ac yng-olwg holl henuriaid Iſrael.

5 Yna y dywedodd Abſalom, galw attolwg hefyd ar Huſai yr Arciad: a gwrandawn beth a ddywedo yntef hefyd.

6 Pan ddaeth Huſai at Abſalom, yna y llefarodd Abſalom wrtho ef gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Ahitophel, a wnawn ni ei gyngor ef, ai nis [gwnawn?] dywet ti.

7 Yna y dywedodd Huſai wrth Abſalom: nid da y cyngor yr hwn a gynghorodd Ahitophel y waith hon.

8 Canys eb Huſai, ti a wyddoſt am dy dad ai wŷr, mai cryfion [ydynt] hwy, a chreulon, megis arth wedi difa ei chenawon yn y maes: dy dad hefyd [ſydd] ryfel-wr, ac nid erys efe tros nos gyd a'r bobl.

9 Wele yn awr y mae efe yn llechu, mewn rhyw ogof neu mewn rhyw le: a phan ſyrthio [rhai] o honynt yn y dechreu, yna y [bobl] a glyw, ac a ddywed, bu pla yn erbyn y bobl y rhai ]oeddynt] ar ôl Abſalom.

10 Yna 'r un grymmyſaf yr hwn [y mae] ei galon fel calon llew a lwfrhâ: canys gŵyr holl Iſrael mai glew [yw] dy dâd ti, ac [mai] meibion nerthol [yw] y rhai [ſydd] gyd ag ef.

11 Am hynny y cynghoraf lwyr gaſclu attat ti holl Iſrael o Dan hyd Beerſeba fel y tywod y rhai [ydynt] wrth y môr o amldra, a'th wyneb dy hun aiff i'r rhyfel.

12 Felly y deuwn atto ef i un o'r lleoedd yr hwn y ceffir ef ynddo, ac a werſyllwn iw erbyn ef fel y ſyrth y gwlith ar y ddaiar: ac ni adewir [dim] o honaw ef nac un ychwaith o'r gwŷr y rhai [ydynt] gyd ag ef.

13 Ond os iddinas yr ymgaſcl ef, yna holl Iſrael a ddygant raffau at y ddinas honno: ac ni ai tynnwn hi hyd yr afon, fel na cheffir yno un garregan.

14 Yna y dywedodd Abſalom, a holl wŷr Iſrael, gwell [yw] cyngor Huſai yr Arciad, na chyngor Ahitophel: canys yr Arglwydd a orddeiniaſe ddiddymmu cyngor da Ahitophel, fel y dyge yr Arglwydd ddrygioni ar Abſalom.

15 Yna y dywedodd Huſai wrth Zadoc, ac wrth Abiathar yr offeiriaid, fel hyn, ac fel hyn, y cynghorodd Ahitophel i Abſalom, ac i henuriaid Iſrael: ac fel hyn, ac fel hyn y cynghorais inne.

16 Yn awr gan hynny anfonwch yn fuan a mynegwch i Ddafydd gan ddywedyd, nac aros tros nôs yn rhoſſydd yr anialwch, onid gan fy-

ned dos, rhac difetha y brenin, a'r holl bobl y rhai [ydynt] gyd ag ef.

17 Jonathan hefyd, ac Ahimaaz oeddynt yn ſefyll wrth ffynnon Rogel, ac fe aeth llangces ac a fynegodd iddynt, hwythau a aethant ac a fynegaſant i'r brenin Dafydd: ni allent hwy ymddangos i fyned i'r ddinas.

18 Etto llangc ai gwelodd hwynt, ac a fynegodd i Abſalom, a'm hynny 'r aethant ill dau yn fuan, ac y daethant i dŷ gŵr yn Bahurim, ac iddo ef [yr oedd] pydew yn ei gyntedd, ac hwy a aethant i wared yno.

19 Yna y wraig a gymmerth, ac a ledodd glawr ar wyneb y pydew, ac a dânodd arno ef falurion: fel na ŵybuwyd y peth.

20 A phan ddaeth gweiſion Abſalom at y wraig i'r tŷ, hwy a ddywedaſant, pa le [y mae] Ahimaaz ac Jonathan? a'r wraig a ddywedodd wrthynt, hwy a aethant tros y ffrwd ddwfr: pan geiſiaſant, ac nas cawſant [hwy,] yna y dychwelaſant i Jeruſalem.

21 Ac ar ôl iddynt hwy fyned ymmaith, yna [y lleill] a ddaethant i fynu o'r pydew, ac a aethant, ac a fynegaſant i'r brenin Dafydd: ac a ddywedaſant wrth Ddafydd, cyfodwch, ac ewch yn fuan tros y dyfroedd, canys fel hyn y cynghorodd Ahitophel yn eich erbyn chwi.

22 Yna y cododd Dafydd a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac a aethant tros Jorddonen, nes goleuo 'r boreu, fel nad oedd vn yn eiſieu a'r nad aethe tros yr Jorddonen.

23 Pan welodd Ahitophel na wneuthid ei gyngor ef, yna efe a gyfrwyodd ei aſſyn, ac a gyfododd, ac a aeth iw dŷ ei hun, yn ei ddinas ei hun, ac a gymmerodd drefn am ei dŷ, ac a ymdâgodd: felly efe a fu farw, ac a gladdwyd ym meddrod ei dâd.

24 Yna Dafydd a ddaeth i Mahanaim: ac Abſalom a aeth tros yr Jorddonen, efe a holl wŷr Iſrael gyd ag ef.

25 Ac Abſalom a oſododd Amaſa yn lle Joab ar y llu: ac Amaſa [oedd] fab i ŵr ai enw Ithra yr hwn [oedd] Iſraeliad, yr hwn a ddaeth at Abigail ferch Nahas chwaer Serfia, mam Joab.

26 Felly y gwerſyllodd Iſrael, ac Abſalom yng-wlâd Gilead.

27 A phan ddaeth Dafydd i Mahanaim: yna Sobi mab Nahas o Rabbath meibion Ammon, a Machir mab Ammiel o Lodebar, a Barzelai y Gileadiad o Rogelim,

28 [A ddugaſant] welâu, a chawgiau, a lleſtri pridd, a gwenith, a haidd, a blawd, a chraſyd: ffâ hefyd, a ffacbys, a chraſbys.

29 Mêl hefyd, ac ymenyn, a defaid, a chaws gwarthec a ddugaſant hwy i Ddafydd, ac i'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef iw bwytta: canys dywedaſant, [y mae] 'r bobl yn newynoc, yn flin hefyd, ac yn ſychedic yn yr anialwch.

## PEN. XVIII.

Doſparthiad llu Dafydd. 9 Derwen yn crogi Abſalom erbyn gwallt ei ben. 33 Galar Dafydd tros Abſalom.

YNA Dafydd a gyfrifodd y bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef: ac efe a oſododd arnynt hwy filwriaid, a chan-wriaid.

2 A Dafydd a anfonodd y bobl, ſef y drydedd rann tann law Joab, a'r drydedd rann tann law Abiſai fab Serfia brawd Joab, ar drydedd rann tann law Ithai y Gethiad: a'r brenin a ddywedodd wrth y bobl, gan fyned yr âf finne hefyd gyd a chwi.

3 Yna y dywedodd y bobl, nid ei di allan, canys os gan ffoi y ffoiwn ni, ni oſodant hwy [eu] meddwl arnom ni, ac os bydd marw ein hanner ni, ni oſodant [eu] meddwl arnom, canys yn awr [yr ydwyt] fel deng-mîl o honom ni: yn awr gan hynny gwell [yw] i ti fod i'n cynnorthwyo ni o'r ddinas.

4 Yna y dywedodd y brenin wrthynt hwy, gwnaf yr hyn fyddo da yn eich golwg chwi: a'r brenin a ſafodd ger llaw 'r porth a'r holl bobl a aethant allan yn gantoedd, ac yn filoedd.

5 A'r brenin a orchymynnodd Joab, ac Abiſai, ac Ithai gan ddywedyd, [chwarewch] yn araf er fy mwyn i a'r llangc Abſalom: a'r holl bobl a glywſant pan orchymynnodd y brenin i'r holl bennaethiaid yn achos Abſalom.

6 Felly 'r aeth y bobl i'r maes i gyfarfod Iſrael, a'r rhyfel fu yng-hoed Ephraim.

7 Ac yno y lladdwyd pobl Iſrael o flaen gweiſion Dafydd: ac yno y bu lladfa fawr y dwthwn hwnnw [ſef] vgain mîl.

8 Canys y rhyfel oedd yno wedi gwaſcaru ar hŷd wyneb yr holl wlâd: a'r coed a ddifethodd fwy o'r bobl, nac a ddifethodd y cleddyf y diwrnod hwnnw.

9 Ac Abſalom a gyfarfu â gweiſion Dafydd yn [eu] hwyneb: ac Abſalom oedd yn marchogeth ar fûl, a'r mûl aeth tann dderwen fawr ddyrus, ai ben ef a lynodd yn y dderwen, felly yr oedd efe rhwng y nefoedd a'r ddaiar, a'r mûl yr hwn [oedd] tano ef a aeth ymmaith.

10 A rhyw vn a ganfu [hynny] ac a fynegodd i Joab; ac a ddywedodd, wele, gwelais Abſalom yng-hrog mewn derwen.

11 Yna y dywedodd Joab wrth y gŵr yr hwn oedd yn mynegu iddo ef, os gwelaiſt ti [ef] pa ham na's tarewaiſt ef yno i'r llawr? fel [y buaſe] arnafi roddi i ti ddeg [ſicl] o arian, ac vn gwregys?

12 Yna y dywedodd y gŵr wrth Joab, pe cawn bwyſo ar fy llaw fil [o ſiclau] arian, nid eſtynnwn fy llaw ar fab y brenin, canys gorchymynnodd y brenin lle y clywſom ni wrthit ti, ac wrth Abiſai, ac wrth Ithai gan ddywedyd, gwiliwch [gyffwrdd] o neb a'r llangc Abſalom.

13 Pe gwnelſwn [hynny, rhoddaſid] ffalſter yn erbyn fy einioes i, canys nid oes dim yn guddiedic oddi wrth y brenin: tithe hefyd a ſafaſit yn [fy] erbyn.

14 Yna y dywedodd Joab, nid arhoaf fel

hyn o'th flaen di: ac efe a gymmerth dair o bicellau yn ei law, ac ai gwthiodd yng-halon Abſalom, ac efe etto yn fyw yng-hanol y dderwen.

15 A'r deg llangc [y rhai] oeddynt yn dwyn arfau Ioab, a amgylchynaſant, ac a darawſant Abſalom, ac ai lladdaſant ef.

16 Yna Ioab a vdcanodd mewn vdcorn, a'r bobl a ddychwelodd o erlyd ar ôl Iſrael: canys Ioab a ataliodd y bobl.

17 Ac hwy a gymmeraſant Abſalom, ac ai bwriaſant ef mewn ffôs fawr yn y coed, ac a oſodaſant arno ef garnedd gerric fawr iawn: a holl Iſrael a ffoaſant pob vn iw babell.

18 Ac Abſalom a gymmeraſe, ac a oſodaſe iddo yn ei fywyd golofn * yn nyffryn y brenin, canys efe a ddywedodd, nid [oes] fab gennifi wneuthur coffa am fy enw: ac efe a alwodd y golofn ar ei enw ei hun, ac hi a elwir lle Abſalom hyd y dydd hwn. Gen.14.17.

19 Yna Ahimaaz mab Zadoc a ddywedodd, rhedaf yn awr, a mynegaf i'r brenin ddarfod i'r Arglwydd ei farnu ef o law ei elynnion.

20 Ac Ioab a ddywedodd wrtho ef, ni [byddi] di yn gennad-wr y dydd hwn, eithr mynegi ddiwrnod arall: ond heddyw ni fynegi di o herwydd marw mab y brenin.

21 Yna y dywedodd Ioab wrth Chuſi, dôs dywet i'r brenin yr hyn a welaiſt: a Chuſi a ymgrymmodd i Ioab, ac a redodd.

22 Yna Ahimaaz mab Zadoc a ddywedodd eilwaith wrth Ioab, pa beth a fydd, os mi a redaf yn awr ar ôl Chuſi: a dywedodd Ioab, i ba beth y rhedi di fy mab gan nad [oes] gennit ti gennadwriaeth addas?

23 Beth bynnac a fyddo mi a redaf, a dywedodd yntef wrtho ef, rhêd: felly Ahimaaz a redodd rhyd y gwaſtadedd, ac a aeth heibio i Chuſi.

24 A Dafydd oedd yn eiſtedd rhwng y ddau borth: a'r gwiliedudd aeth ar nēn y porth ar y mûr, ac a dderchafodd ei lygaid, ac a edrychodd, ac wele ŵr yn rhedeg ei hunan.

25 A'r gwiliedudd a waeddodd, ac a fynegodd i'r brenin, a'r brenin a ddywedodd, os ei hun [y mae] efe, cennadwriaeth [ſydd] yn ei enau ef: ac efe a ddaeth, ac a neſaodd.

26 A'r gwiliedudd a ganfu ŵr arall yn rhedeg, a'r gwiliedudd a alwodd ar y porthor, ac a ddywedodd, wele ŵr [arall] yn rhedeg ei hunan: a dywedodd y brenin, hwn hefyd ſydd gennad.

27 A'r gwiliedudd a ddywedodd, yr ydwyf fi yn gweled rhediad y blaenaf fel rhediad Ahimaaz mab Zadoc: yna y dywedodd y brenin, gŵr da [yw] hwnnw, ac a chennadwriaeth dda y daw efe.

28 Yna Ahimaaz a alwodd, ac a ddywedodd wrth y brenin, heddwch, ac a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb i'r brenin: ac a ddywedodd, bendigedic [fyddo]'r Arglwydd dy Dduw'r hwn a warchaodd ar y gwŷr y rhai a gyfodent eu llaw yn erbyn fy arglwydd frenin.

29 A'r brenin a ddywedodd, ai diangol y llangc Abſalom? yna y dywedodd Ahimaaz, gwelais gythryfwl mawr, pan anfonodd Ioab wâs y brenin, a'th wâs dithe, ond ni wybum i ddim.

30 A'r brenin a ddywedodd, trô, ſaf ymma: ac efe a drôdd, ac a ſafodd.

31 Ac wele Chuſi a ddaeth, a dywedodd Chuſi, mynegir i ti fy arglwydd frenin mai yr Arglwydd a'th farnodd di heddyw o law pawb a'r ſydd yn ymgyfodi i'th erbyn.

32 Yna y dywedodd y brenin wrth Chuſi, a ddiangodd y llangc Abſalō? a dywedodd Chuſi, fel y llangc hwnnw y byddo gelynion fy arglwydd frenin, a'r holl rai a ymgyfodant i'th erbyn mewn drygioni.

33 A'r brenin a gyffrôdd, ac a aeth i fynu i ſtafell y porth, ac a ŵylodd, ac fel hyn y dywedodd efe wrth fyned, ô fy mab Abſalom, fy mab, fy mab Abſalom, ô na bawn farw troſot ti Abſalom fy mab, fy mab.

## PEN. XIX.

Dafydd wrth gyngor Ioab yn ymddangos yn gyſſurus i'r bobl. 23 Dyfodiad Semei a Mephiboſeth at Ddafydd. 34 Barzelai yn gwrthod myned gyd a'r brenin. 41 Iſrael ac Iuda yn ymryſon.

YNA y mynegwyd i Ioab: wele y brenin yn ŵylo, ac yn galaru am Abſalom.

2 A'r fuddugoliaeth a fu y dwthwn hwnnw yn alar i'r holl bobl: canys clywodd y bobl y diwrnod hwnnw ddywedyd, driſtau or brenin am ei fab.

3 A'r bobl a aethant yn lledradaidd y diwrnod hwnnw gan fyned i mewn i'r ddinas: fel pobl a fydde yn myned yn lledradaidd wedi eu cywilyddio wrth ffoi o ryfel.

4 Felly y brenin a oblygodd ei wyneb, a'r brenin a waeddodd a lléf vchel: ô fy mab Abſalom, Abſalom fy mab, fy mab.

5 Yna Ioab a ddaeth i mewn i'r tŷ at y brenin, ac a ddywedodd: gwradwyddaiſt heddyw wynebau dy holl weiſion, y rhai a amddeffynnaſant dy enioes di heddyw, ac enioes dy feibion, a'th ferched, ac enioes dy wragedd, ac enioes dy ordderch-wragedd,

6 Gan garu dy geiſion, a chaſau dy garedigion: canys mynegaiſt heddyw nad oedd gennit ti dywyſogion, na gweiſion, o herwydd mi a wn heddyw os Abſalom fuaſe byw, a ninne i gyd yn feirw heddyw: yna mai da fuaſe [hynny] yn dy olwg di.

7 Cyfot yn awr gan hynny tyret allan, a dywet yn dêg wrth dy weiſion: canys tyngais i'r Arglwydd os ti ni ddeui allan nad erys neb gyd a thi y noſſon hon, a gwaeth fydd hyn i ti, na'r holl ddrwg yr hwn a ddaeth i'th erbyn di o'th febyd hyd yr awr hon.

8 Yna y brenin a gyfododd, ac a eiſteddodd

yn y porth: a mynegwyd i'r holl bobl gan ddywedyd, wele y brenin yn eiſtedd yn y porth, a'r holl bobl a ddaethant o flaen y brenin, canys Iſrael a ffoaſe bob vn iw pebyll.

9 Ac yr oedd yr holl bobl yn ymryſon drwy holl deuluoedd Iſrael gan ddywedyd: y brenin a'n gwaredodd ni o law ein gelynnion, ac efe a'n gwaredodd ni o law y Philiſtiaid, ac yn awr efe a ffôdd o'r wlâd rhac Abſalom.

10 Ac Abſalom yr hwn a eneiniaſom ni arnom a fu farw mewn rhyfel: ac yn awr pa ham yr ydych yn peidio a chyrchu yr brenin trachefn?

11 Yna y brenin Dafydd a anfonodd at Zadoc, ac at Abiathar yr offeiriaid gan ddywedyd, lleferwch wrth henuriaid Iuda gan ddywedyd, pa ham yr ydych chwi olaf i ddwyn eilwaith y brenin iw dŷ? canys gair holl Iſrael a ddaeth at y brenin [am ei ddwyn eilwaith] iw dŷ ei hun.

12 Fy mrodyr [ydych] chwi, fy aſcwrn a'm cnawd [ydych] chwi: pa ham gan hynny'r ydych yn olaf i ddwyn adref y brenin?

13 Dywedwch hefyd wrth Amaſa, onid fy aſcwrn i a'm cnawd i [ydwyt] ti? fel hyn y gwnelo Duw imi, ac fel hyn y chwanego, onid tywyſog y llu fyddi di ger fy mron i yn lle Ioab byth.

14 Felly efe a drôdd galon holl wŷr Iuda, fel [calon] vn gŵr: a hwy a anfonaſant at y brenin [gan ddywedyd,] dychwel di a'th holl weiſion.

15 Felly y brenin a ddychwelodd, ac a ddaeth hyd yr Iorddonen: ac Iuda a ddaeth i Gilgal i fyned i gyfarfod a'r brenin, i ddwyn y brenin tros yr Iorddonen.

16 A Simei mab Gera mab Iemini, yr hwn [oedd] o Bahurim a fryſiodd: ac a ddaeth i wared gyd a gwŷr Iuda, i gyfarfod a'r brenin Dafydd.

Pen.16.15.

17 A mîl o wŷr o Beniamin [oeddynt] gyd ag ef, *Ziba hefyd gwâs tŷ Saul, ai bymthengmab, ai vgain gwâs gyd ag ef: ac a aethant tros yr Iorddonen o flaen y brenin.

18 Ac yſcraff aeth troſodd i ddwyn trwodd dylwyth y brenin, ac i wneuthur yr hyn fydde dda yn ei olwg ef: yna Semei mab Gera a ſyrthiodd ger bron y brenin, pan ddaeth efe tros yr Iorddonen.

19 Ac efe a ddywedodd wrth y brenin, na ddannoded * fy arglwydd i mi anwiredd, ac na chofia yr hyn a wnaeth dy wâs yn anwir, y dydd yr aeth fy arglwydd frenin o Ieruſalem: gan oſod o'r brenin [hynny] at ei galon.

20 Canys dy wâs ſydd yn cydnabod bechu o hònofi: ac wele deuthum heddyw yn gyntaf o holl dŷ Ioſeph i ddyfod i wared i gyfarfod a'm harglwydd frenin.

21 Ac Abiſai mab Serfia a attebodd, ac a ddywedodd, ai o herwydd hyn ni roddir Semei i farwolaeth? am iddo ef felldithio eneiniog yr Arglwydd?

22 Yna y dywedodd Dafydd, beth [ſydd] i mi [a wnelwyf] a chwi meibion Serfia, gan eich bod i mi yn wrthwyneb-wŷr heddyw'ra roddir i farwolaeth heddyw neb yn Iſrael (canys oni wn i mai heddyŵ'r ydwyfi yn frenin ar Iſrael?

23 A'r brenin a ddywedodd wrth Semei, ni byddi di farw: a'r brenin a dyngodd wrtho ef.

24 Mephiboſeth mab Saul hefyd a ddaeth i wared i gyfarfod a'r brenin: ac ni olchaſe efe ei draed, ac ni eilliaſe ei farf, ac ni olchaſe ei ddillad, er y dydd yr aethe yr brenin, hyd y dydd [yn] yr hwn y daeth efe mewn heddwch.

25 A phan ddaeth efe i Ieruſalem i gyfarfod a'r brenin: yna y dywedodd y brenin wrtho ef, pa ham nad aethoſt ti gyd a mi Mephiboſeth?

26 Ac efe a ddywedodd, fy arglwydd frenin, fyng-wâs a'm twyllodd: canys dywedodd dy wâs, cyfrwyaf i mi aſſyn fel y marchogwyf arni hi, ac yr elwyf at y brenin, o herwydd cloff [yw] dy wâs.

27 Ac efe a athrododd rhwng dy was a'm harglwydd frenin: ond fy arglwydd frenin [ſydd] fel angel Duw, am hynny gwna yr hyn [fyddo] da yn dy olwg.

Pen.16.3.

28 Canys nid oedd holl dŷ fy nhad i onid dynion meirw ger bron fy arglwydd y brenin, etto tydi a oſodaiſt dy wâs ym mhlith y rhai oeddynt yn bwytta ar dy fwrdd dy hun: pa gyfiawnder gan hynny ſydd i mi bellach fel y gwaeddwn mwy ar y brenin?

29 A'r brenin a ddywedodd wrtho ef, i ba beth yr adroddi dy fatterion ym mhellach? dywedais, ti, a Ziba rhennwch y tîr.

30 A Mephiboſeth a ddywedodd wrth y brenin, îe cymmered efe y cwbl: gan ddyfod fy arglwydd frenin iw dŷ mewn heddwch.

31 Yna Barzelai y Gileadiad a ddaeth i wared o Rogelim: ac a aeth tros yr Iorddonen gyd a'r brenin, iw hebrwng ef tros yr Iorddonen.

32 A Barzelai [oedd] hên iawn, yn fab pedwar vgain mlwydd: ac efe oedd yn arlwyo i'r brenin tra'r ydoedd efe ym Mahanaim, canys gŵr mawr iawn [oedd] efe.

33 A'r brenin a ddywedodd wrth Barzelai: tyret ti troſodd gyd a mi, a mi a'th borthaf di gyd a mi yn Ieruſalem.

34 Yna Barzelai a ddywedodd wrth y brenin: pa faint [yw] dyddiau blynyddoedd fy einioes i, fel yr elwni i fynu gyd a'r brenin i Ieruſalem?

35 Mab pedwar vgain mlwydd [ydwyfi] heddyw, a wn i ragoriaeth rhwng da a drwg? a ddichon dy wâs di archwaethu yr hyn a fwytaf, neu'r hyn a yfaf? a glywaf fi bellach lais cerddorion, a cherddoreſau? pa ham gan hynny y bydd dy wâs mwyach yn faich ar fy arglwydd frenin?

36 Dy wâs a aiff ychydig tu hwnt i'r Iorddonen gyd a'r brenin: a pha ham y tâl y brenin imi y taledigaeth ymma?

37 Gâd attolwg i'th wâs ddychwelyd fel y byddwyf marw yn fy ninas fy hun, [ac fel i'm cleddir] ym meddrod fy nhad, a'm mam: ac wele Chimham dy was di, efe a aiff troſodd gyd a'm harglwydd frenin, a gwna iddo yr hyn [fyddo] da yn dy olwg.

38 Yna y dywedodd y brenin, Chimham a aiff gyd a mi, ac mi a wnaf iddo ef yr hyn [fyddo] da yn dy olwg di: A pheth bynnac a erfynniech di arnafi, mi ai gwnaf erot ti.

39 Felly 'r holl bobl a aethant tros yr Iorddonen, y brenin hefyd a aeth troſodd: a'r brenin a guſſanodd Barzelai, ac ai bendithiodd ef, ac efe a ddychwelodd iw fangre ei hun.

40 Yna y brenin a aeth troſodd i Gilgal, a Chimham a aeth gyd ag ef: a holl bobl Iuda a droſgludaſant y brenin, a hanner pobl Iſrael hefyd.

41 Ac wele holl wŷr Iſrael yn dyfod at y brenin: a dywedaſant wrth y brenin, pa ham y lledrataodd ein brodyr ni gwŷr Iuda dy di, ac y troſgludaſant y brenin ai dylwyth tros yr Iorddonen, a holl wŷr Dafydd gyd ag ef?

42 Ac attebodd holl wŷr Iuda yn erbyn gwŷr Iſrael, canys agos [yw] 'r brenin i ni: pa ham gan hynny y digiaſoch chwi am y peth hyn? a fwytawſom ni [ddim] o'r [eiddo] yr brenin? neu a anrhegodd efe ni ag anrheg?

43 Yna gwŷr Iſrael a attebaſant wŷr Iuda, ac a ddywedaſant, dêc rhan [ſydd] i ni yn y brenin, hefyd gyd a Dafydd [yr ydwyfi] yn fwy na chwi, pa ham gan hynny y diyſtyraiſt fi? oni ddywedais i yn gyntaf am gyrchu adref fy mrenin? ac ymadrodd gwŷr Iuda oedd galedach nac ymadrodd gwŷr Iſrael.

## PEN. XX.

Seba yn gwrthryfela yn erbyn Dafydd. 10 Ioab trwy frâd yn lladd Amaſa. 22 Dihenydd Seba.

AC yno y digwyddodd bod gŵr i'r fall ai enw Seba mab Bichri, gŵr o Iemini: ac efe a vdcanodd mewn vdcorn, ac a ddywedodd, nid oes i ni rann mewn Dafydd, nac etifeddiaeth i ni ym mab Iſai, [eled] pawb iw babell, ô Iſrael.

2 Felly holl wŷr Iſrael a aethant i wared oddi ar ôl Dafydd ar ôl Seba mab Bichri: ond gwŷr Iuda a lynáſant wrth ei brenin o'r Iorddonen hyd Ieruſalem.

3 Pan ddaeth Dafydd iw dŷ ei hun i Ieruſalem, yna y brenin a gymmerth * y dêc gordderch-wraig y rhai a adawſe efe i gadw yr tŷ, ac ai rhoddes hwynt [mewn] carchar-dŷ, ac ai porthodd hwynt, ond nid aeth efe i mewn attynt hwy, eithr buant yn rhwym hyd ddydd eu marwolaeth yn byw mewn gweddwdod. Pen.16.22.

4 Yna y dywedodd y brenin wrth Amaſa, dyfyn i mi wŷr Iuda [erbyn] y trydydd dydd: a ſaf dithe ymma.

5 Felly Amaſa a aeth i ddyfyn Iuda: ond efe a drigodd yn hwy na'r amſer terfynedic yr hwn a oſodaſe efe iddo.

6 Yna y dywedodd Dafydd wrth Abiſai, Seba mab Bichri a'n dryga ni yn waeth nac Abſalom: cymmer di weiſion dy arglwydd ac erlid ar ei ôl ef, rhac iddo gael y dinaſoedd caeroc, a diange [o'n] golwg ni.

7 A gwŷr Ioab, a'r Cerethiaid, y Pelethiaid hefyd, a'r holl gedyrn a aethant ar ei ôl ef: ac aethant allan o Ieruſalem, i erlid ar ôl Seba mab Bichri. Pen.8.19.

8 [Pan oeddynt] hwy wrth y maen mawr yr hwn [ſydd] yn Gibeon, yna Amaſa a ddaeth oi blaen hwynt: ac Ioab oedd wedi gwregyſu ei gochol ar ei ddillad, ac arni [yr oedd] gwregys [a] chleddyf wedi ei gwplyſu wrth ei lwynau ef mewn gwain, pan ele efe [y cleddyf] a ſyrthie.

9 A dywedodd Ioab wrth Amaſa, a wyt ti yn llawen fy mrawd? a llaw ddehau Ioab a ymaflodd ym marf Amaſa iw guſſanu ef.

10 Ond ni ymochelodd Amaſa rhac y cleddyf yr hwn [oedd] yn llaw Ioab, canys ag ef y tarawodd efe ef dan y bummed [aiſ,] ac a ollyngodd ei berfedd ef i'r llawr, ac nis ail darawodd ef, felly efe a fu farw: yna Ioab, ac Abiſai ei frawd a ganlynodd ar ôl Seba mab Bichri.

11 Ac vn o weiſion Ioab oedd yn ſefyll yn ei ymyl ef: ac a ddywedodd, pwy bynnac a'r a ewyllyſio [yn dda] i Ioab, a phwy bynnac ar a [ewyllyſio yn dda] i Ddafydd [eled] ar ôl Ioab.

12 Ac Amaſa a ymdrabaeddaſe mewn gwaed yng-hanol y briffordd: pan welodd y y gŵr ſefyll o'r holl bobl, yna efe a ſymmudodd Amaſa oddi ar y briffordd i'r maes, ac a daflodd gadach arno ef, pan welodd efe bawb ar a oedd yn dyfod atto ef yn ſefyll.

13 Pan ſymmudwyd ef oddi ar y briffordd: yr holl wyr a aethant ar ôl Ioab i erlid ar ôl Seba mâb Bichri.

14 Ac efe a dramwyodd drwy holl lwythau Iſrael i Abel, ac i Beth-maacha, ac i holl [leoedd] Berim: ac hwy a ymgaſclaſant ac a ddaethant ar ei ôl ef.

15 Felly y daethant hwy, ac a warchauaſant arno ef yn Abel Beth-maacha, ac a fwriaſant glawdd yn erbyn y ddinas [yr hon] a ſafodd [ei phobl] ar y rhagfur: a'r holl bobl y rhai [oeddynt] gyd ag Ioab oeddynt yn diniſtrio, gan gwympo y mûr.

16 Yna gwraig ddoeth o'r ddinas, a lefodd: clywch, clywch, dywedwch attolwg wrth Ioab, neſſâ hyd ymma fel yr ymddiddanwyf a thi.

17 Pan neſſaodd efe atti hi, yna y wraig a ddywedodd ai ti [yw] Ioab? dywedodd yntef [îe] myfi: a hi a ddywedodd wrtho ef, gwrando eiriau dy lawforwyn, dywedodd yntef yr ydwyf yn gwrando.

18 Yna

Deut.20.11. 18 Yna hi a ddywedodd, *fel hyn gynt y llefarent gan ddywedyd, ac y gofynnent [am heddwch] yn Abel, ac felly y cwplaent.

19 Myfi [ydwyf un] o heddychol ffyddloniaid Iſrael: ti ydwyt yn ceiſio difetha dinas a mam yn Iſrael, pa ham y difethi di etifeddiaeth yr Arglwydd?

20 Ac Ioab a attebodd, ac a ddywedodd, na atto Duw, na atto Duw i mi, na difetha na diniſtrio.

21 Nid felly [y mae] yr peth, eithr gŵr o fynydd Ephraim (Seba mab Bichri [yw] ei enw ef) a dderchafodd ei law yn erbyn y brenin Dafydd, rhoddwch ef yn unic, ac mi a âf ymmaith oddi wrth y ddinas: a dywedodd y wraig wrth Ioab, wele ei benn ef a fwrir attat ti dros y mûr.

22 Yna yr wraig oi doethineb ei hun a aeth at yr holl bobl, a hwynt a dorraſant ben Seba mab Bichri, ac ai taflaſant at Ioab, yna efe a udcanodd mewn udcorn, ac hwy a waſcaraſant oddi wrth y ddinas, pôb un iw pabellau: ac Ioab a ddychwelodd i Ieruſalem at y brenin.

Pen.8.16. 23 Yna *Ioab [oedd] ar holl luoedd Iſrael: a Banaiah mab Iehoiada ar y Cerethiaid, ac ar y Pelethiaid.

24 Ac Adoram [oedd] ar y drêth: ac Ioſaphat mab Ahilud yn gofiadur.

25 Seia hefyd yn ſcrifennydd: a Zadoc, ac Abiathar yn offeiriaid.

26 Ira hefyd yr Iairiad oedd raglaw i Ddafydd.

## PEN. XXI.

Newyn mawr yn Iſrael am bechod Saul hyd oni chrogwyd pump oi hiliogaeth ef. 15 Pedair câd rhwng Dafydd a'r Philiſtiaid.

ABu newyn yn nyddiau Dafydd dair blynedd ôl ynol, yna Dafydd a ofynnodd gyngor ger bron yr Arglwydd: a'r Arglwydd a ddywedodd, o herwydd Saul, ac o herwydd [ei] dŷ gwaedlyd [y mae hyn,] o blegit lladd o honaw ef y Gibeoniaid.

2 Yna yr brenin a alwodd am y Gibeoniaid, ac a ymddiddanodd a hwynt: (a'r Gibeoniaid hynny nid [oeddent] o feibion Iſrael, onid *o weddill yr Amoriaid, a meibion Iſrael a dyngaſent iddynt hwy, etto Saul a geiſiodd eu lladd hwynt oi ſerch i feibion Iſrael, ac Iuda.) Ioſu.9.3.

3 A Dafydd a ddywedodd wrth y Gibeoniaid beth a wnaf i chwi? ac a pha beth y gwnaf iawn, fel y bendithioch chwi etifeddiaeth yr Arglwydd?

4 A'r Gibeoniaid a ddywedaſant wrtho ef, ni fynnwn ni arian, nac aur gan Saul, na chan ei dŷ ef, ac ni fynnwn ni ladd neb yn Iſrael: ac efe a ddywedodd, yr hyn a ddywedoch chwi a wnaf i chwi.

5 Yna y dywedaſant hwy wrth y brenin, y gŵr yr hwn a'n difethodd ni, ac a fwriadodd i'n herbyn ni: [drwy'r hwn] ei'n diniſtriwyd ni rhac ſefyll yn un o derfynau Iſrael,

6 Rhodder i ni ſaith o wŷr oi feibion ef, fel y crogom ni hwynt i'r Arglwydd yn Gibea Saul (ô ddewiſedic yr Arglwydd:) a dywedodd y brenin, myfi ai rhoddaf.

7 Ond y brenin a doſturiodd wrth Mephiboſeth fab Ionathan, fab Saul: o herwydd *llŵ yr Arglwydd yr hwn [oedd] rhyngddynt hwy [ſef] rhwng Dafydd, ac Ionathan mab Saul. 1.Sam.18.3.

8 A'r brenin a gymmerth ddau fab Riſpha merch Aia y rhai a ymddug hi i Saul [ſef] Armoni a Mephiboſeth: a phum mab [*chwaer] Michol merch Saul y rhai a blantodd hi i Adriel fab Barzelai y Maholathiad. 2.Sam.6.23.

9 Ac efe ai rhoddes hwynt yn llaw y Gibeoniaid, ac hwynt ai crogaſant hwy yn y mynydd ger bron yr Arglwydd, a'r ſaith hyn a gyd gwympaſant: a hwynt a roddwyd i farwolaeth yn y dyddiau cyntaf [o'r] cynhaiaf, yn nechreuad cynhaiaf yr haidd.

10 Yna Riſpha merch Aia a gymmerth ſach-liain, ac hi ai heſtynnodd ef iddi ar y graig o ddechreu y cynhaiaf nes deferu dwfr arnynt hwy o'r nefoedd: ac ni adawodd hi i ehediaid y y nefoedd orphywys arnynt hwy y dydd, na bwyſt-fil y maes liw nôs.

11 A mynegwyd i Ddafydd yr hyn a wnaethe Riſpha merch Aia gordderch wraig Saul.

12 Yna yr aeth Dafydd, ac a ddûg eſcyrn Saul, ac eſcyrn Ionathan ei fab ef oddi wrth berchennogion Iabes Gilead: y rhai ai lladrataſent hwy o heol Bethſan yr hon *y crogaſe y Philiſtiaid hwynt ynddi, y diwrnod y lladdodd y Philiſtiaid Saul yn Gilboa. 1.Sam. 31.10.

13 Felly y dûg efe i fynu oddi yno eſcyrn Saul, ac eſcyrn Ionathan ei fab ef: a hwynt a gaſclaſant eſcyrn y rhai a grogaſid.

14 A hwynt a gladdaſant eſcyrn Saul, ac Ionathan ei fab yng-wlad Beniamin yn Zela ym meddrod Cis ei dad, a hwy a wnaethant yr hyn oll a orchymynnaſe yr brenin: a bu Duw yn fodlon i'r wlâd ar ôl hyn.

15 A bu eil-waith ryfel rhwng y Philiſtiaid, ag Iſrael: a Dafydd a aeth i wared ai weiſion gyd ag ef, ac hwy a ymladdaſant a'r Philiſtiaid, a deffygiodd Dafydd.

16 Yna Ieſbibenob yr hwn [oedd] o feibion rhyw gawr, (a phwys ei waywffon ef yn drychant ſicl o brês) ac efe oedd wedi ei wregyſu [a chleddyf] newydd, a feddyliodd ladd Dafydd.

17 Ond Abiſai mab Serfia ai helpiodd ef, ac a darawodd y Philiſtiad, ac ai lladdodd ef: yna gwŷr Dafydd a dyngaſant wrtho ef gan ddywedyd, nid ei di allan mwyach gyd a ni i ryfel, rhac it ddiffoddi goleuni Iſrael.

18 Ac ar ôl hyn fe fu eil-waith ryfel yn *Gob yn erbyn y Philiſtiaid: yna Sibbechai yr Huſiad a laddodd Saph yr hwn [oedd] o feibion y cawr. 1.Cron. 20.4.

19 A bu etto ryfel yn Gob yn erbyn y Philiſtiaid: ac Elhanan mab *Iaere Oregim y Bethlehemiad a darawodd [frawd] Goliath y 1.Cron.20.5.

Gethiad, a phren ei waiw-ffon ef[oedd] fel carfan gwehydd.

20 A bu etto ryfel yn Gath: ac yr oedd gŵr corphol, a chwech o fyſedd ar bôb llaw iddo, a chwech o fyſedd ar bôb troed iddo, ſef pedwar ar hugain o rifedi, efe hefyd [oedd] fab i'r cawr.

1.Sam 16.9. 21 Ac efe a amharchodd Iſrael: ac Ionathã mab *Simea brawd Dafydd ai lladdodd ef.

22 Y pedwar hyn a aned i'r cawr o Gath: a chwympaſant drwy law Dafydd, a thrwy law ei weiſion ef.

## PEN. XXII.

Dafydd yn canu mawl a diolch i'r Arglwydd.

A Dafydd a leſarodd wrth yr Arglwydd eiriau y gânhon: yn y dydd y gwaredodd yr Arglwydd ef o law ei holl elynnion, ac o law Saul.

Pſal.18.2. 2 Ac efe a ddywedodd: yr Arglwydd [yw] fyng-hraig, a'm hamddeffynfa, a'm gwaredudd i.

3 Duw [yw] fyng-hadernid, ynddo ef yr ymddyriedaf: fy nharian, a chorn fy iechydwriaeth, fy nerchaſtad a'm noddfa, fy achubwr, rhac trais i'm hachubaiſt fi.

4 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly i'm cedwir rhac fyng-elynnion.

5 Canys gofidion angau a'm cylchynaſant: afonydd y fall a'm dychrynnaſant i.

6 Doluriau vffern a'm gogylchynaſant i: maglau angau a'm rhacflaenaſant i.

Pſal.18.6. 7 Yn fyng-hyfyngdra y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais at fy Nuw: ac efe a glybu fy llef oi deml, a'm gwaedd [a aeth] iw glustiau ef.

8 Yna y cynnyrfodd, ac y crynnodd y ddaiar, ſeiliau y nefoedd a gyffroaſant, ac a ymſiglaſant am iddo ef ddigio.

9 Derchafodd mwg oi ffroenau ef, a thân oi enau ef a yſſodd: glô a enynnaſant ganddo ef.

10 Efe a oſtyngodd y nefoedd, ac a ddeſcynnodd: a thywyllwch[oedd]tann ei draed ef.

11 Marchogodd efe hefyd ar y Cerub, ac a ehedodd: ie efe a hedodd ar adenydd y gwynt.

12 Efe a oſododd y tywyllwch yn bebyll oi amgylch: [ſef] caſcliad y dyfroedd, [a] chwmylau yr awyr.

13 Gan y diſcleirdeb [yr hwn ſydd] ger ei fron ef yr enynnodd y marwor tan-llydd.

14 Yr Arglwydd a darânodd o'r nefoedd: a'r Goruchaf a roddes ei lef.

15 Ac efe a anfonodd[ei]ſaethau, ac ai gwaſcarodd hwynt: [anfonodd efe] fellt, a dryſliodd hwynt.

16 Gwaelodion y môr a ymddangoſaſant, [a] ſeiliau y byd a ddinoethwyd: gan gerydd yr Arglwydd, [a] chan chwythad anadl ei ffroenau ef.

17 Efe a anfonodd oddi vchod, cymmerodd fi [a] thynnodd fi o ddyfroedd lawer.

18 Gwaredodd fi rhac fyng-elyn cadarn: a rhac fyng-haſeion, am eu bôd yn drêch na mi.

19 Achubaſant fy mlaen yn nydd fyng-ofid: a'r Arglwydd oedd yn gynhalliad i mi.

20 Efe a'm dûg i ehangder: efe a'm gwaredodd i, canys ymhoffodd ynof.

21 Yr Arglwydd a'm gobrwya yn ôl fyng-hyfiawnder: yn ôl glendid fy nwylo y tâl efe i mi.

22 Canys mi a gedwais ffyrdd yr Arglwydd: ac ni wneuthum yn ddrygionus yn erbyn fy Nuw.

23 O herwydd ei holl farnedigaethau ef [ydynt] ger fy mron i: ac oddi wrth ei ddeddfau ni chiliais i.

24 Bum hefyd berffaith tu ag atto ef: ac ymgedwais rhac fy anwiredd.

25 A'r Arglwydd a'm gobrwyodd inne yn ôl fyng-hyfiawnder: [ac] yn ôl fyng-lendid o flaen ei lygaid ef.

26 A'r trugarog y gwnei drugaredd: a'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.

27 A'r glân y gwnei lendid: ac a'r cyndyn yr ymgyndynni.

28 Canys ti a waredi y bobl gyſtuddiedic: ac a oſtyngi dy lygaid yn erbyn y rhai vchel.

29 Canys ti[a oleui]fyng-hannwyll i ô Arglwydd: a'r Arglwydd a lewyrcha fy nhywyllwch.

30 O blegit ynot ti y rhedaf drwy fyddin: yn fy Nuw y llammaf dros fûr.

31 Duw[ſydd]berffaith ei ffordd: ymadrodd yr Arglwydd ſydd buredic, tarian [yw] efe i bawb a ymddyriedant ynddo ef.

32 Canys pwy [ſydd] Dduw heb law yr Arglwydd? a phwy[ſydd]graig eithr ein Duw ni?

33 Duw a'm cadarnhaodd i a nerth: ac a rŷddhaodd fy ffordd i yn berffaith.

34 Efe ſydd yn goſod fy nhraed fel [traed] ewîgod: ac efe am ſefydlodd i ar fy vchelfaoedd.

35 Efe ſydd yn dyſcu fy nwylo i ryfel: fel y dryllid bŵa dur [yn] fy mreichiau.

36 Rhoddaiſt hefyd i mi darian dy iechydwriaeth: ac a'th fwynder y lluoſogaiſt fi.

37 Ehanghaiſt fyng-herddediad tanaf: fel na lithrodd fy ſodlau.

38 Erlidiais fyng-elynnion, a difethais hwynt: ac ni ddychwelais nes eu difa hwynt.

39 Difeais hwynt hefyd, a thrywenais hwynt fel na chyfodant: ac hwy a ſyrthiaſant dann fy nhraed i.

40 Canys ti a'm gwregyſaiſt i a nerth i ryfel: cwympaiſt tanaf y rhai a ymgyfodent i'm herbyn.

41 Rhoddaiſt hefyd i mi warrau fyng-elynnion: fel y difethwn fyng-haſeion.

42 Diſgwiliaſant, ac nid[oedd]achubudd: [ſef] am yr Arglwydd, ac nis attebodd hwynt.

43 Yna y maluriais hwynt fel llwch y ddaiar: melais hwynt fel tõm yr heolydd, [a] thenais hwynt.

44 Gwaredaiſt fi rhac cynhennau fy mhobl:

cedwaiſt fi yn benn [ar] genhedloedd, pobl nis adnabum a'm gwaſanaethant.

45 Meibion dieithr a gymmerant arnynt ymddaroſtwng i mi: pan glywant, gwrandawant arnaf.

46 Meibion dieithr a ballant: ac a ddychrynnant oi carchar-dai.

47 Byw ſydd yr Arglwydd, a bendigedic [ſydd] fyng-hraig, a derchafer Duw, craig fy iechydwriaeth.

48 Duw ſydd yn rhoddi i mi allu i ymddial: ac ſydd yn daroſtwng pobloedd tanaf i.

49 Ac ſydd yn fy nhywys i o blith fyng-elynnion: ti hefyd a'm derchefaiſt oddiwrth y rhai a gyfodent i'm herbyn, rhac y gŵr traws i'm hachubaiſt i.

Rhuf.15.1.

50 Am hynny y moliannaf di ô Arglwydd ym mhlith * y cenhedloedd: ac y canaf i'th enw.

51 [Efe ſydd] dŵr iechydwriaeth i'r brenin, tŵr iechydwriaeth [ydyw efe] iw frenin: ac yn gwneuthur trugaredd iw eneiniog, i Ddafydd, ac iw hâd ef hyd * yn dragywydd.

Pen.7.11.

## PEN. XXIII.

Geiriau diweddaf Dafydd. 8 Henwau, a chyflaſan cedyrn Dafydd.

Dymma eiriau diweddaf Dafydd: dywedodd Dafydd mab Iſai, a dywedodd y gŵr yr hwn a oſodwyd yn uchel, eneiniog Duw Iacob, a pheraidd yng-haniadau Iſrael.

2 Yſpryd yr Arglwydd a lefarodd ynofi: ai ymadrodd ef [oedd] ar fy nhafod.

3 Duw Iſrael a ddywedodd wrthifi, craig Iſrael a ddywedodd: [byddi] lywodraethwr ar ddynion yn gyfiawn yn llywodraethu [mewn] ofn Duw:

4 Ac fel boreuol oleuni pan gyfodo haul foreuwaith heb gwmylau, ac nid fel eginin yr hwn a dyf o'r ddaiar drwy lewyrchiad, a glaw.

5 Canys nid felly y [bydd] fy nhŷ i gyd a Duw: o herwydd cyfammod tragywyddol a oſododd efe i mi, wedi ei luniaethu yn hollawl, ac yn gadwedig, canys fy holl iechydwriaeth, a'm holl ddymuniad [yw] na wnaiff efe [iddo] flaguro [felly.]

6 A'r rhai anwir fyddant oll fel drain ſymudedic: canys mewn llaw nis cymmerir hwynt.

7 Ond y gŵr [yr hwn] a gyffwrdd a hwynt a gynnorthwyir a haiarn, ac a phaladr gwaiffon: ac a thân y lloſcir hwynt yn [eu] trig-le.

8 Dymma enwau y cedyrn y rhai [oeddynt] gan Ddafydd: yr hwn a eiſtedde yng-hader doethineb, yn bennaeth y tywyſogion oedd Adino yr Eſinad, [efe a ruthrodd] yn erbyn wyth-gant o rhai archolledig ar unwaith.

1.Cron.11.12.

9 Ac ar ei ôl ef [yr oedd] Eleazar mab Dodo, fab Ahohi, ym mhlith y tri cedyrn gyd a Dafydd, pan ddifenwaſant hwy y Philiſtiaid [y rhai] a ymgynnullaſant yno i ryfel, pan aeth gwŷr Iſrael i fynu.

10 Efe a gyfododd, ac a darawodd ar y Philiſtiaid nes deffygio ei law ef, a glynu oi law ef wrth y cleddyf, a'r Arglwydd a wnaeth iechydwriaeth mawr y diwrnod hwnnw: a'r bobl a ddychwelaſant ar ei ôl ef yn unic i anrheithio.

1.Cron.11.27.

11 Ac ar ei ôl ef [yr oedd] * Samma mab Age yr Harariad: a'r Philiſtiaid a ymgynnullaſant yn dorf, ac yr oedd yno rann o'r maes yn llawn o ffacbys: a'r bobl a ffoawdd o flaen y Philiſtiaid.

12 Ond efe a ſafodd yng-hanol y rhandir, ac ai hachubodd, ac efe a darawodd y Philiſtiaid: felly y gwnaeth yr Arglwydd ymwared mawr.

1.Cron.11.15.

13 A thri o'r dêg pennaeth ar hugain a ddeſcynnaſant, ac a ddaethant y cynhaiaf at Ddafydd i ogof Adulam: a thorf y Philiſtiaid oedd yn gwerſſyllu yn nyffryn y cawri.

14 A Dafydd [oedd] yna mewn amddeffynfa: a ſefyllfa y Philiſtiaid yna [ydoedd] yn Bethlehem.

15 Yna y blyſſiodd Dafydd, ac y dywedodd: pwy a'm dioda â dwfr o bydew Bethlehem, yr hwn [ſydd] yn y porth?

16 Yna yr tri chedyrn a ruthraſant i werſſyll y Philiſtiaid, ac a dynnaſant ddwfr o bydew Bethlehem yr hwn [oedd] yn y porth, ac a gymmeraſant hefyd, ac a ddugaſant at Ddafydd: ond ni fynne efe ei yfed ef, eithr efe ai diod-offrymmodd ef i'r Arglwydd,

17 Ac a ddywedodd, na atto yr Arglwydd i mi wneuthur hyn, a [yfwn i] waed y gwŷr a aethant mewn [enbydrwydd] am eu heinioes? am hynny ni fynne efe ei yfed: hyn a wnaeth y tri chedyrn hynny.

1.Cron.11.19.

18 Ac * Abiſai brawd Ioab, mab Serfia oedd bennaf o'r tri, ac efe a eſcydwodd ei waiwffō ar dry-chant [ac ai] lladdodd [hwynt:] ac iddo ef [y bu] enw ym mhlith y tri.

1.Cron.11.21.

19 Onid anrhydeddusach [oedd efe] na'r tri hyn? a bu iddynt yn dywyſog: etto ni chyrhaeddodd efe y tri [cyntaf.]

20 A Banaia mab Iehoiada, mab gŵr grymmus o Cabzel, aml o weithredoedd: efe a laddodd ddau o gedyrn Moab, ac efe aeth i wared, ac a laddodd rhyw lew o fewn y pydew yn amſer yr eira.

21 Ac efe a darawodd Aipht-ddyn, gŵr golygus [o faint,] ac yn llaw yr Aiphtiad [yr oedd] gwaiw-ffon, eithr efe a ddaeth i wared atto ef a gwialen: ac a gippiodd y waiw-ffon o law yr Aiphtiad, ac ai lladdodd ef, ai waiw-ffon ei hun.

22 Hyn a wnaeth Banaia mab Iehoiada: ac iddo [y bu] enw ym mhlith y tri cedyrn.

23 Anrhydeddusach [oedd] na'r dêc ar hugain, ond ni chyrhaeddodd efe y tri [cyntaf:] etto Dafydd ai goſododd ef yn ei gyngor.

Pen.2.18.

24 * Aſahel brawd Ioab [oedd un] o'r dêc ar hugain: Elhanan mab Dodo y Bethlehemiad.

1.Cron.11.27.

25 * Samma'r Harodiad, Elica yr Harodiad

1.Cron.11.27.

26 Helez * y Paltiad, Ira mab Icces y Theociad.

27 Abieſer yr Anatothiad, Mebunnai yr Huſathiad,

28 Salomon yr Ahohiad, Mahari y Netophathiad.

1.Cron.11.30. 29 * Heleb mab Baana y Netophathiad: Ithai mab Ribai o Gibea meibion Beniamin.

30 Benaia y Pirathoniad, *Hidai o afonydd Gaas. 2.Cron.11.32.

31 *Abi-albon yr Arbathiad, Azmafeth *y Barhumiad. 1.Cron.11.32. 33.

32 Elihaba y Saalboniad, o feibion Iaſen Ionathan.

33 Samma yr Harariad, Ahiam mab Sarar yr Arariad.

34 Eliphelet mab Ahaſbai, mab Maachathi: Eliam mab Ahitophel y Giloniad.

35 Heſrai y Carmeliad, Paarai, yr Arbiad.

36 Igal mab Nathan o Zobah, Bani y Gadiad.

37 Selec yr Ammoniad: Nahari y Beerothiad yn dwyn arfau Ioab mab Serfia.

38 Ira yr Ithriad, Gareb yr Ithriad.

39 Urias yr Hethiad, dau ar bymthec, ar hugain oll.

## PEN. XXIIII.

Gorfod i Ddafydd am rifo y bobl ddewis vn o dri dial.
14 Deng-mil a thrugain yn meirw o'r bobl am eu rhifo hwynt.

1.Cron 21.1. YNa digllonedd yr Arglwydd a ennynnodd yn erbyn Iſrael: pan annogodd [Satan] Ddafydd yn eu herbyn hwynt, gan ddywedyd, dos, cyfrif Iſrael, ac Iuda.

2 Canys y brenin a ddywedodd wrth Ioab tywyſog y llû yr hon[oedd]ganddo ef, cylchyna yn awr holl lwythau Iſrael o Dan hyd Beerſeba, a chyfrif y bobl: fel y gwypwyf rifedi y bobl.

3 Ac Ioab a ddywedodd wrth y brenin, yr Arglwydd dy Dduw a chwanego yr bobl yn gant cymmeint ac y maent, fel y gwelo llygaid fy arglwydd frenin: ond pa ham yr ewyllyſia fy arglwydd frenin y peth hyn?

4 A gair y brenin fu drech nac Ioab, ac na thywyſogion y llû: Ioab am hynny a aeth allan, a thywyſogion y llu o ŵydd y brenin i gyfrif pobl Iſrael.

5 Ac hwy a aethant tros yr Iorddonen: ac a werſſyllaſant yn Aroer, o'r tu dehau i'r ddinas 'r hon[ſydd]yng-hanol dyffryn Gad, hyd Iazer

6 Yna y daethant hwy i Gilead, ac i wlâd Tachtim Hodſi: daethnant hefyd i Dan Iaan, ac o amgylch i Sidon.

7 Daethant hefyd i amddeffynfa Tyrus, ac i holl ddinaſoedd yr Hefiaid, a'r Canaaneaid: ac hwy a aethant tua thu dehau Iuda i Beerſeba.

8 Felly y cylchynaſant hwy yr holl wlâd: ac a ddaethant ym mhen naw mis, ac ugain nhiwrnod i Ieruſalem.

9 Yna y rhoddes Ioab nifer cyfrif y bobl at y brenin: ac Iſrael ydoedd wyth gant mil o wŷr grymmus yn tynnu cleddyf, a gwŷr Iuda [oeddynt] bump cant mil o wŷr.

10 Yna calon Dafydd ai tarawodd ef, ar ôl iddo gyfrif y bobl: a dywedodd Dafydd wrth yr Arglwydd, pechais yn ddirfawr [yn] yr hyn a wneuthum, ac yn awr delea attolwg ô Arglwydd anwiredd dy wâs, canys ynfyd iawn y gwneuthum.

11 A Dafydd a gyfododd yn forau: a daeth gair yr Arglwydd at Gad y prophwyd, gweledydd Dafydd gan ddywedyd:

12 Dos, a dywet wrth Ddafydd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, yr ydwyfi yn goſod tri pheth o'th flaen di: dewis it un o honynt, a gwnaf [hynny] i ti.

13 Felly Gad a ddaeth at Ddafydd, ac a fynegodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, pa [un a fynnit] ddyfod it, ai ſaith mlynedd o newyn yn dy wlâd, ai it ffoi dri mis o flaen dy orthrymwŷr, ac efe yn dy erlid ti, ai yntef bod haint yn y wlâd dri diwrnod? ac yn awr gwybydd, ac edrych pa beth a attebaf i'r hwn a'm hanfonodd i. 1.Cron. 21.12.

14 A dywedodd Dafydd wrth Gad, y mae yn gyfyng iawn arnafi, gâd i mi ſyrthio yn awr yn llaw yr Arglwydd (canys aml yw ei drugareddau ef) fel na chwympwyf yn llaw dŷn.

15 Yna y rhoddes yr Arglwydd haint yn Iſrael o'r borcu hyd yr amſer nodedic: a bu farw o'r bobl o Ddan hyd Beerſeba ddeng mil a thrugain o wŷr.

16 A'r angel a eſtynnaſe ei law [at] Ieruſalem iw diniſtrio hi, ond * ediſarhaodd ar yr Arglwydd y drwg hwn, ac a ddywedodd wrth yr angel yr hwn oedd yn diniſtrio yr bobl, digon bellach, llaeſa dy law: ac angel yr Arglwydd [oedd] wrth lawr dyrnu * Arafna y Iebuſiad. 1.Sam.15.11. 1.Cron.21.15.

17 Yna y llefarodd Dafydd wrth yr Arglwydd pan ganfu efe yr angel yr hwn a darawſe y bobl, a dywedodd, wele mi a bechais, ac a wneuthum yn ddrygionus, ond beth a wnaeth y defaid hyn? bydded attolwg dy law arnafi, ac ar dŷ fy nhâd i.

18 A Gad a ddaeth at Ddafydd y dwthwn hwnnw: ac a ddywedodd wrtho ef, dos i fynu, cyfot allor i'r Arglwydd yn llawr dyrnu Araniah y Iebuſiad.

19 Felly Dafydd a aeth i fynu yn ôl gair Gad, fel y gorchymynnaſe yr Arglwydd.

20 Ac Arafna a edrychodd, ac a ganfu y brenin ai weiſion yn dyfod tu ag atto ef: ac Arafna a aeth allan, ac a oſtyngodd ei wyneb ei lawr ger bron y brenin.

21 Ac Arafna a ddywedodd, pa ham y daeth fy arglwydd frenin at ei wâs? yna y dywedodd Dafydd, i brynu gennit ti y llawr dyrnu i aadailadu allor i'r Arglwydd, fel yr attalier y pla hwn oddi wrth y bobl.

22 Yna y dywedodd Arafna wrth Ddafydd, cymmered, ac offrymmed fy arglwydd frenin yr hyn fyddo da yn ei olwg: wele yr ychen yn boeth offrwm, a'r ffuſtiau, ac offer yr ychen yn lle cynnyd.

23 Hyn oll a roddaſe y brenin Arafna i'r brenhin, a dywedodd Arafna hefyd wrth y brenin, yr Arglwydd dy Dduw a fyddo bodlon i ti.

24 Yna y dywedodd y brenin wrth Arafna, nid [felly] eithr gan brynnu y prynnaf [ef] mewn prîs gennit, ac nid offrymmaf i'r Arglwydd fy Nuw boeth offrymmau rhad: felly Dafydd a brynodd y llawr-dyrnu, a'r ychen er dec a deugain o ſiclau arian.

25 Ac yno 'r adailadodd Dafydd allor i'r Arglwydd, ac a offrymmodd boeth offrymmau, ac offrymmau hedd: a'r Arglwydd a gymmododd a'r wlâd, a'r plâ a attaliwyd oddi wrth Iſrael.

# Y llyfr cyntaf o'r Brenhinoedd.

## PENNOD. I.

Abiſag yn cynheſu Dafydd. 5 Adonia yn ei wneuthyd ei hun yn frenin. 29 Dafydd yn peri vrddo Salomon yn frenin. 50 ac Adonia yn gorfod iddo gymmeryd noddfa.

A'R brenin Dafydd [oedd] * hên, [ac] a aethe mewn oedran, er iddynt ei anhuddo ef mewn dillad etto ni chynheſe efe.

2 Yna ei weiſion a ddywedaſant wrtho ef, ceiſier i'm harglwydd frenin langces o forwyn, a ſafed hi o flaen y brenin, a bydded yn gwneuthur ymgeledd iddo ef: a gorwedded yn dy fonwes fel y gwreſogo fy arglwydd frenin.

3 Felly y ceiſiaſant langces dêg drwy holl frô Iſrael, ac a gawſant Abiſag y Sunamites, ac ai dugaſant hi at y brenin.

4 A'r llangces [oedd] dêg iawn, ac yr ydoedd hi yn gwneuthur ymgeledd i'r brenin, ac hi ai gwaſanaethodd ef: ond ni bu i'r brenin a wnaeth a hi.

5 Ac Adonia mab Haggith a ymdderchafodd gan ddywedyd, myfi a fyddaf frenin: ac efe a ddarparodd iddo gerbydau a gwŷr meirch, a * deng-wr a deugain yn rhedeg oi flaen ef. 2.Sam.15.1.

6 Ai dâd nis cyſtuddiaſe ef yn ei ddyddiau gan ddywedyd, paham y gwnaethoſt fel hyn? yntef hefyd [oedd] dêg iawn o bryd, ac efe a aneſyd wedi Abſalom.

7 Ai gyfrinach ef oedd gyd ag Ioab fab Serfia, a chyd ag Abiathar yr offeiriad: a hwynt a gynnorthwyaſant Adonia.

8 Ond Zadoc yr offeiriad, a Benaiah mab Iehoiada, a Nathan y prophwyd, a Semei, a Rei, a'r cedyrn y rhai [a fuaſent] gyd a Dafydd nid [oeddynt] gyd ag Adonia.

9 Ac Adonia a aberthodd ddefaid, a gwartheg, a [chig] brâs wrth faen Zoheleth, yr hwn [ſydd] wrth ffynnon Rogel, ac a wahoddodd ei holl frodyr meibion y brenin, a holl wŷr Iuda gweiſion y brenin.

10 Ond Nathan y prophwyd, a Benaiah, a'r cedyrn, a Salomon ei frawd ni wahoddodd efe.

11 Am hynny y dywedodd Nathan wrth Bathſeba mam Salomon gan ddywedyd: oni chlywaiſti fod Adonia mab * Haggith yn teyrnaſu? a'n harglwydd Dafydd heb wybod [hynny? 2.Sam.3.4.

12 Tyret gan hynny yn awr attolwg, rhoddaf it gyngor fel yr achubech dy einioes dy hun, ac einioes Salomon dy fab.

13 Dos a cherdda at y brenin Dafydd, a dywet wrtho ef, oni thyngaiſt di fy arglwydd frenin wrth dy waſanaeth-wraig gan ddywedyd? Salomon dy fab di a deyrnaſa yn ddiau ar fy ôl i, ac efe a eiſtedd ar fyngorſedd-faingc i: paham gan hynny y mae Adonia yn teyrnaſu?

14 Wele tra fyddech yno etto yn llefaru wrth y brenin, minne a ddeuaf ar dy ôl di, ac a gyflawnaf dy eiriau di.

15 Felly yr aeth Bathſeba at y brenin i'r ſtafell, a'r brenin oedd hên iawn, ac Abiſag y Sunamites oedd yn gwaſanaethu y brenin.

16 A Bathſeba a oſtyngodd ei phen, ac a ymgrymmodd i'r brenin: a'r brenin a ddywedodd, beth [ddarfu] i ti?

17 Hithe a ddywedodd wrtho ef, fy arglwydd ti a dyngaiſt i'r Arglwydd dy Dduw wrth dy waſanaethyddes: Salomon dy fab a deyrnaſa yn ddiau ar fy ôl i, ac efe a eiſtedd ar fyngorſedd faingc i.

18 Ac yn awr wele Adonia ſydd frenin, ac yr awr hon fy arglwydd frenin nis gwybuoſt di [hyn.]

19 Hefyd efe a aberthodd wartheg, ac [anifeiliaid] breiſion, a defaid yn lluoſog, ac a wa-

hoddodd holl feibion y brenin, ac Abiathar yr offeiriad, ac Ioab tywyſog y filwriaeth: ond dy wâs Salomon ni wahoddodd efe.

20 Tithe fy Arglwydd frenin [y mae] llygaid holl Iſrael arnat ti, am fynegu iddynt pwy a eiſtedd ar orſedd-faingc fy arglwydd y brenin ar ei ôl ef.

21 Os amgen, pan orweddo fy arglwydd frenin gyd ai dadau, yna y byddafi a'm mab Salomon yn bechaduriaid.

22 Ac wele tra 'r oedd hi etto yn ymddiddan a'r brenin, y daeth Nathan y prophwyd hefyd.

23 Felly y mynegaſant i'r brenin gan ddywedyd: wele Nathan y prophwyd, ac efe a aeth i mewn o flaen y brenin, ac efe a ymgrymmodd i'r brenin ar ei wyneb hyd lawr.

24 Yna y dywedodd Nathan, fy arglwydd frenin a ddywedaiſt di, Adonia a deyrnaſa ar fy ôl i, ac efe a eiſtedd ar fyng-orſedd faingc?

25 Canys efe a aeth i wared heddyw, ac a aberthodd ŷchen, ac [anifeiliaid] breiſion, a defaid lawer, ac a wahoddodd holl feibion y brenin, a thywyſogion y filwriaeth, ac Abiathar yr offeiriad: ac wele hwynt yn bwytta ac yn yfed oi flaen ef, ac y maent yn dywedyd, bydded byw y brenin Adonia.

26 Ond myfi dy wâs, a Zadoc yr offeiriad, a Banaiah mab Iehoiada, a'th wâs Salomon ni wahoddodd efe.

27 Ai trwy fy arglwydd frenin y bu y peth hyn, heb ddangos o honot i'th wâs, pwy a eiſtedde ar orſedd-faingc fy arglwydd y brenin ar ei ôl ef?

28 Y brenin Dafydd a attebodd, ac a ddywedodd, gelwch Bathſeba attafi: a hi a ddaeth o flaen y brenin, ac a ſafodd ger bron y brenin.

29 A'r brenin a dyngodd, ac a ddywedodd, [fel] y mae 'r Arglwydd yn fyw, yr hwn a waredodd fy enaid i o bob ing:

30 Yn ddiau megis y tyngais wrthit ti i Arglwydd Dduw Iſrael, (gan ddywedyd: Salomon dy fab a deyrnaſa yn ddiau ar fy ôl i, ac efe a eiſtedd ar fyng-orſeddfaingc i yn fy lle i) felly y gwnaf y dydd hwn.

31 Yna Bathſeba a oſtyngodd ei phen, [ai] hwyneb i lawr, ac a ymgrymmodd i'r brenin, ac a ddywedodd: bydded fy arglwydd frenin Dafydd fyw byth.

32 A'r brenin Dafydd a ddywedodd, gelwch attafi am Zadoc yr offeiriad, ac am Nathan y prophwyd, ac am Banaiah fab Iehoiada: a hwynt a ddaethant o flaen y brenin.

33 Yna y brenin a ddywedodd wrthynt, cymmerwch weiſion eich arglwydd gyd a chwi, a pherwch i Salomon fy mab farchogeth ar fy mules fy hun, ac ewch ag ef i wared i Gihon.

34 Ac eneinied Zadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd ef yno yn frenin ar Iſrael: yna udcenwch mewn udcorn, a dywedwch, bydded byw y brenin Salomon.

35 Deuwch chwithau i fynu ar ei ôl ef, a deued efe i fynu, ac eiſtedded ar fyng-orſeddfa i, a theyrnaſed efe yn fy lle i, canys ef a ordeiniais i fod yn flaenor ar Iſrael, ac ar Iuda.

36 A Banaiah mab Iehoiada a attebodd y brenin, ac a ddywedodd Amen, yr un modd y dywedo 'r Arglwydd, Duw fy arglwydd frenin.

37 Megis y bu 'r Arglwydd gyd a'm harglwydd y brenin, felly bydded gyd a Salomon: a gwnaed yn fwy ei orſedd-faingc ef, na gorſedd-faingc fy arglwydd y brenin Dafydd.

38 Felly yr aeth Zadoc yr offeiriad i wared, a Nathan y prophwyd, a Banaiah mab Iehoiada, a'r Cerethiaid, a'r Pelethiaid, ac a wnaethant i Salomon farchogeth ar fules y brenin Dafydd, ac a aethant ag ef i Gihon.

39 A Zadoc yr offeiriad a gymmerodd gorn yr olew o'r babell, ac a eneiniodd Salomon: yna 'r udcanaſant mewn udcorn, a'r holl bobl a ddywedaſant, bydded byw y brenin Salomon.

40 A'r holl bobl a aethant i fynu ar ei ôl ef yn pibyddio mewn pibellau, ac yn llawenychu a llawenydd mawr fel y rhwygé 'r ddaiar gan eu llefain hwy.

41 A chlybu Adonia ai holl wahoddedigion y rhai [oeddynt] gyd ag ef, a hwynt a ddarfaſe iddynt fwytta: Ioab hefyd a glywodd lais yr udcorn, ac a ddywedodd, pa ham [y mae] twrwf y ddinas yn derfyſcol?

42 Ac efe etto yn llefaru, yna wele daeth Ionathan mab Abiathar yr offeiriad: a dywedodd Adonia, tyret i mewn canys gŵr grymmus [ydwyt] ti, a daioni a fynegi di.

43 Yna 'r attebodd Ionathan, ac y dywedodd wrth Adonia: yn ddiau y brenin Dafydd ein harglwydd ni a oſododd Salomon yn frenin.

44 A'r brenin a anfonodd gyd ag ef Zadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd, a Banaiah fab Iehoiada, y Cerethiaid hefyd, a'r Pelethiaid, a hwy a baraſant iddo ef farchogeth ar fules y brenin.

45 Zadoc hefyd yr offeiriad, a Nathan y prophwyd ai heneiniaſant ef yn frenin yn Gihon: ac a aethant i fynu oddi yno yn llawen, a'r ddinas a derfyſcodd, dyna 'r twrwf yr hwn a glywſoch chwi.

46 A Salomon a eiſteddodd hefyd ar orſedd-faingc y frenhiniaeth.

47 A gweiſion y brenin a ddaethant hefyd i fendithio y brenin Dafyd ein harglwydd ni gan ddywedyd: dy Dduw a wnelo enw Salomon yn well na'th enw di, ac a wnelo yn fwy ei orſedd-faingc ef na'th orſedd-faingc di: a'r brenin a ymgrymmodd ar y gwely.

48 Fel hyn hefyd y dywedodd y brenin, bendigedic [fyddo] Arglwydd Dduw Iſrael, yr hwn a roddodd heddyw un i eiſtedd ar fyng-orſedd-

ſedd-faingc,a'm llygaid yn gweled.

49 Yna yr holl wahoddedigion, y rhai [oeddynt] gyd ag Adonia a ddychrynnaſant, ac a gyfodaſant,ac a aethant bob vn iw daith.

50 Ac Adonia oedd yn ofni rhac Salomon, ac a gyfododd,ac a aeth,ac a ymaflodd yng-hyrn yr allor.

51 A mynegwyd i Salomon gan ddywedyd,wele y mae Adonia yn ofni y brenin Salomon , ac efe a ymaflodd yng-hyrn yr allor gan ddywedyd : tynged y brenin Salomon i mi heddyw,na ladd efe ei wâs a'r cleddyf.

52 Yna y dywedodd Salomon, os bydd efe yn fab rhinweddol , ni ſyrth [vn] oi wallt ef i lawr : ond os ceir drygioni ynddo ef,yna y bydd efe marw.

53 A'r brenin Salomon a anfonodd, a hwynt ai deſcynnaſant ef oddi ar yr allor , ac efe a ddaeth,ac a ymgrymmodd i'r brenin Salomon: a dywedodd Salomon wrtho ef, dos i'th dŷ.

## PEN. II.

Dafydd yn cynghôri Salomon i ofni 'r Arglwydd. 5 Ac yn dangos beth a wnae efe i Ioab,Barzelai ,a Semei. 10 Ac yn marw. 13 Bai Adonia , ai farwolaeth. 35 Zadoc yn cael lle Abiathar.

YNa dyddiau Dafydd a neſſauaſant i farw, ac efe a orchymynnodd i Salomon ei fab gan ddywedyd:

2 Myfi ydwyf yn myned ar hŷd ffordd yr holl fyd,am hynny ymnertha a bydd yn ŵr.

3 A chadw gadwriaeth yr Arglwydd dy Dduw gan rodio yn ei ffyrdd ef, gan gadw ei ddeddfau ef,ai orchymynnion,ai farnedigathau, ai deſtiolaethau,fel yr ſcrifēnwyd yng-hyfraith Moſes, megis * y ffynno gennit yr hyn oll a wnelech,a'r hyn oll y troech atto. Deut.29.9. Ioſu.1.7.

4 Fel y cyflawno'r Arglwydd ei air,yr hwn a lefarodd efe wrthif gan ddywedyd : os dy feibion a gadwant eu ffyrdd, gan rodio ger fy mron mewn gwirionedd , ai holl galon, ac ai holl enaid ([îe] gan ddywedyd) * ni thorrir na [byddo] o honot ŵr ar orſedd-faingc Iſrael. 2.Sam.7.12.

5 Tithe hefyd a wyddoſt yr hyn a wnaeth Ioab mab Serfia a mi, [ſef] yr hyn a wnaeth efe i ddau o dywyſogion lluoedd Iſrael, i * Abner fab Ner, ac * i Amaſa fab Iether,canys efe ai lladdodd hwynt,ac a ollyngodd waed yn rhyfelgar mewn heddwch, ac a roddodd waed rhyfel ar ei wregys yr hwn [oedd] am ei lwynau, ac yn ei eſcidiau y rhai [oeddynt] am ei draed. 2.Sam.3.27. 2.Sam.20.10.

6 Am hynny gwna yn ôl dy ddoethineb, ac na âd iw ben-llwydni ef ddeſcyn i'r bedd mewn heddwch.

7 Ond i feibion * Barzelai y Gileadiad y gwnei di drugaredd, a byddant ym myſc y rhai a fwyttânt [ar] dy fwrdd di : canys felly y daethant attafi pan oeddwn yn ffoi rhac Abſalom dy frawd ti. 2.Sam.19.31.

8 Wele hefyd * Semei fab Gera, fab Iemini , o Bahurim gyd a thi, ac efe a'm melldithiodd i a melldith dôſt y dydd yr euthum i Mahanaim : ond efe a ddaeth i wared hyd yr Iorddonen i gyfarfod a mi,ac mi a dyngais i'r Arglwydd wrtho ef gan ddywedyd : * ni'th laddaf a'r cleddyf. 2.Sam.16.5. 2.Sam.19.23.

9 Ond yn awr na âd ti ef heb goſp , canys gŵr doeth [ydwyt] ti, a gwyddoſt beth a wnei iddo:dwg dithe ei ben-wynni ef i wared i'r bedd mewn gwaed.

10 Yna * Dafydd a hunodd gyd ai dadau,ac a gladdwyd yn ninas Ddafydd. Act.2.39. & 13.36.

11 A'r dyddiau * y rhai y teyrnaſodd Dafydd ar Iſrael [oeddynt] ddeugain mhlynedd : ſaith mlynedd y teyrnaſodd efe yn Hebron , a thair blynedd ar ddec ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem. 2.Sam.5.4.

12 A Salomon * a eiſteddodd ar orſedd-faingc Dafydd ei dâd , ai frenhiniaeth ef a ſicrhauwyd yn ddirfawr. 2.Cron 29.23.

13 Ac Adonia mab Haggith a ddaeth at Bathſeba mam Salomon: a hi a ddywedodd,ai heddychlon dy ddyfodiad ti: yntef a ddywedodd, heddychlon.

14 Ac efe a ddywedodd,[y mae] gennif neges attati : hithe a ddywedodd, dywet.

15 Yntef a ddywedodd,ti a wyddoſt mai eiddofi oedd y frenhiniaeth, a holl Iſrael a oſodaſent eu hwynebau, ar fyng-wneuthur i yn frenin , eithr trôdd y frenhiniaeth, ac a aeth i'm brawd : canys trwy 'r Arglwydd yr aeth hi iddo ef.

16 Ond yn awr dymunaf gennit vn dymyniad , na ommedd fi , hithe a ddywedodd wrtho ef,dywet.

17 Yntef a ddywedodd : dywet attolwg wrth y brenin Salomon (canys ni ommedd efe dy di ) am roddi o honaw ef Abiſag y Sunamites yn wraig i mi.

18 Yna y dywedodd Bathſeba,dâ:mi a ddywedaf droſot ti wrth y brenin.

19 Felly y daeth Bathſeba at y brenin Salomon, i ddywedyd wrtho ef tros Adonia, a'r brenin a gododd iw chyfarfod hi,ac a oſtyngodd iddi, ac a eiſteddodd ar ei orſedd-faingc,ac a oſododd orſedd-faingc i fam y brenin, a hi a eiſteddodd ar ei ddeheulaw ef.

20 Yna hi a ddywedodd,vn ddymuniad fechan yr ydwyfi yn ei dymuno gennit,na ommedd fi : a'r brenin a ddywedodd wrthi hi, gofyn fy mam , canys ni'th ommeddaf.

21 Ac hi a ddywedodd , rhodder Abiſag y Sunamites yn wraig i Adonia dy frawd ti.

22 Yna 'r attebodd y brenin Salomon,ac y dywedodd wrth ei fam, paham y ceiſi di Abiſag y Sunamites i Adonia ? cais hefyd y frenhiniaeth iddo ef, (canys fy mrawd hŷn na mi ydyw efe) a chyd ag ef y mae Abiathar yr offeiriad,ac Ioab mab Serfia.

23 A'r brenin Salomon a dyngodd i'r Arglwydd gan ddywedyd:fel hyn y gwnelo Duw i mi,ac fel hyn y chwanego efe,onid yn erbyn ei einioes y llefarodd Adonia y peth hyn.

24 Yn awr gan hynny [fel] mai byw 'r Arglwydd yr hwn a'm ſiccrhaodd i, ac a wnaeth i
mi eiſtedd ar orſedd-faingc Dafydd fy nhad, yr
2.Sam.7.12. hwn hefyd a wnaeth i mi dŷ megis y * dywedaſe
efe, heddyw yn ddiau y rhoddir Adonia i farwolaeth.

25 A'r brenin Salomon a anfonodd gyd a Banaiah mab Jehoiada, ac efe a ruthrodd arno ef, fel y bu efe farw.

26 Ac wrth Abiathar yr offeiriad y dywedodd y brenin, dos i Anathoth, i'th frô dy hun, canys gŵr [yn heuddu] marwolaeth [ydwyt] ti: ond ni laddaf mo honot y prŷd hyn, o herwydd arwain o honot Arch yr Arglwydd Dduw o flaen fy nhâd Dafydd, ac am dy gyſtuddio yn yr hyn oll y cyſtuddiwyd fy nhâd.

27 Felly y bwriodd Salomon Abiathar
ymmaith o fod yn offeiriad i'r Arglwydd, gan
1.Sam.2.31. * gyflawni gair yr Arglwydd yr hwn a ddywedaſe efe am dŷ Eli yn Silo.

Pen.1.7. 28 A'r chwedl a ddaeth at Joab, canys * Joab a ŵyraſe ar ôl Adonia, er na ŵyraſe efe ar ôl Abſalom: yna y ffôdd Joab i babell yr Arglwydd, ac yr ymaflodd yng-hyrn yr allor.

29 A mynegwyd i'r brenin Salomon, ffoi o Joab i babell yr Arglwydd, ac wele [y mae efe] wrth yr allor, a Salomon a anfonodd Banaiah fab Jehoiada gan ddywedyd, dos, rhuthra arno ef.

30 Felly y daeth Banaiah i babell yr Arglwydd, ac a ddywedodd wrtho efe, fel hyn y dywedodd y brenin, tyret allan: yntef a ddywedodd, na [ddeuaf,] eithr ymma y byddaf farw: a Banaiah a ddug trachefn air at y brenin gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Joab, ac fel hynn i'm hattebodd.

31 Yna y dywedodd y brenin wrtho ef, gwna fel y dywedodd efe, a rhuthra arno ef, a chladd ef: fel y tynnech y gwaed gwirion yr hwn a dywalltodd Joab oddi arnafi, ac oddi ar dŷ fy nhâd i.

32 A'r Arglwydd a ddychwel ei waed ef ar
ei ben ei hun: o herwydd efe a ruthrodd ar ddau
2.Sam.3.27. ŵr cyfiawnach, a gwell nag ef ei hun, (ac ai
lladdodd hwynt a'r cleddyf, a Dafydd fy nhâd
heb ŵybod) ſef Abner fab Ner tywyſog llu Iſ-
2.Sam.20.10. rael, ac * Amaſa fab Jether tywyſog llu Juda.

33 Ai gwaed hwynt a ddychwel ar ben Joab, ac ar ben ei hâd ef yn dragywydd, ond i Ddafydd, ac iw hâd, ac iw dŷ, ac iw orſedd-faingc y bydd hedwch yn dragywydd gan yr Arglwydd.

34 Felly r' aeth Banaiah mab Jehoiada, ac a ruthrodd arno, ac ai lladdodd, ac efe a gladwyd yn ei dŷ ei hûn yn yr anialwch.

35 Yna y rhóddes y brenin Banaiah fab Jehoiada yn ei le ef ar y filwriaeth, a'r brenin a roddodd Zadoc yr offeiriad yn lle Abiathar.

36 Y brenin hefyd a anfonodd, ac a alwodd am Simei, ac a ddywedodd wrtho ef: adailada it dŷ yn Jeruſalem, ac aros yno, ac na ddôs allan oddi yno ymma na thraw.

37 A bydded y dydd yr elech allan, ac yr elech dros afon Cedron, gan ŵybod y cei di ŵybod y lleddir di yn farw: dy waed fydd ar dy ben dy hun.

38 A dywedodd Simei wrth y brenin, da yw 'r gair, fel y dywedodd fy arglwydd frenin felly y gwnâ dy wâs: a Simei a arhoſodd yn Jeruſalem ddyddiau lawer.

39 Eithr ym mhen tair blynedd y ffôdd dau wâs i Simei at Achis fab Maacha brenin Gath, a mynegwyd i Simei gan ddywedyd: wele dy weiſion di yn Gath.

40 Yna y cyfododd Simei, ac a gyfrwyodd ei aſſyn, ac a aeth i Gath at Achis i geiſio ei weiſion: ie Simei a aeth, ac a gyrchodd ei weiſion o Gath.

41 A mynegwyd i Salomon fyned o Simei o Jeruſalem i Gath, ai ddychwelyd ef.

42 Yna 'r anfonodd y brenin, ac a alwodd am Simei, ac a ddywedodd wrtho ef, oni thyngais i'r Arglwydd, ac [oni] theſtiolaethais wrthit gan ddywedyd: yn y dydd yr elech allan, ac yr elech nac ymma, nac accw, gan ŵybod gŵybydd y lleddir di yn farw: a thi a ddywedaiſt wrthif, da yw 'r gair a glywais i.

43 Paham gan hynny na chedwaiſt lŵ yr Arglwydd, na'r gorchymyn yr hwn a orchymynnais i ti?

44 A dywedodd y brenin wrth Simei, ti a wyddoſt yr holl ddrygioni yr hwn a edwyn dy galon, yr hwn a wnaethoſt di yn erbyn Dafydd fy nhâd: yr Arglwydd am hynny a ddychwelodd dy ddrygioni di ar dy ben dy hun.

45 A bendigedic [fydd] y brenin Salomon, a gorſedd-faingc Dafydd a fydd ſiccr o flaen yr Arglwydd yn dragywydd.

46 Felly y gorchymynnodd y brenin i Banaiah fab Jehoiada, ac efe a aeth allan, ac a ruthrodd arno ef, fel y bu efe farw: a'r frenhiniaeth
* a ſiccrhauwyd yn llaw Salomon. 2.Cron.1.1.

## PEN. III.

Salomon yn priodi merch Pharao. 4 Yn aberthu yn Gibeon y cafodd efe ei ddewis rodd: ac efe a ddewiſodd ddoethineb. 17 Barn Salomon rhwng y ddwy buttain.

A Salomon a * ymgyfathrachodd a Pha- Pen.7.8.
rao brenin yr Aipht, ac a briododd ferch Pharao, ac ai dûg hi i ddinas Dafydd, nes darfod iddo adailadu ei dŷ ei hun, a thŷ yr Arglwydd, a mûr Jeruſalem oddi amgylch.

2 Etto y bobl oeddynt yn aberthu mewn uchelfaoedd, o herwydd nad adaladaſyd tŷ i enŵ 'r Arglwydd hyd y dyddiau hynny.

3 A Salomon a garodd yr Arglwydd, gan rodio yn neddfau Dafydd ei dad: etto mewn uchelfaoedd yr oedd efe yn aberthu, ac yn arogldarthu.

4 A'r brenin a aeth i Gibeon i aberthu yno, canys honno oedd vchelfa fawr, mîl o boeth offrymmau a offrymmodd Salomon ar yr allor honno.

5 Yn Gibeon yr ymddangoſodd yr Arglwydd i Salomon mewn breuddwyd nos; ac y dywedodd Duw, gofyn beth a roddaf it ti.

6 Yna y dywedodd Salomon, ti a wnaethoſt a'th wâs Dafydd fy nhâd fawr drugaredd, megis y rhodiodd efe o'th flaen di mewn gwirionedd, ac mewn cyfiawnder, ac mewn iniondeb calon gyd a thi: ie cedwaiſt iddo y drugaredd fawr hon, a rhoddaiſt iddo fab i eiſtedd ar ei orſedd-faingc ef, fel [y gwelyr] heddyw.

7 Ac yn awr fy Arglwydd Dduw, ti a wnaethoſt i'th wâs deyrnaſu yn lle Dafydd fy nhâd: a minne yn llangc ieuangc heb fedru llywodraethu.

8 A'th wâs [ſydd] ym myſc dy bobl di y rhai a ddewiſaiſt ti, pobl aml y rhai ni rifir, ac nis cifrifir o luoſogrwydd.

2.Cron.1.10. 9 Am hynny * dyro i'th wâs galon ddeallus i farnu dy bobl, gan ddeall [rhagor] rhwng dâ a drwg: canys pwy a ddichon farnu dy luoſog bobl hyn?

10 A'r peth fu ddâ yng-olwg yr Arglwydd, am ofyn o Salomon y peth hyn.

11 A Duw a ddywedodd wrtho ef, o herwydd gofyn o honot y peth hyn, ac na ofynnaiſt it ddyddiau lawer, ac na ofynnaiſt it olud, ac na cheiſiaiſt waed dy elynion, eithr ceiſiaiſt it ddeall i fedru gwrando barn:

12 Wele gwneuthum yn ôll dy eiriau, wele rhoddais it galon ddoeth a deallus fel na bu dy fath o'th flaen, ac na chyfyd dy fath ar dy ôl di.

Doeth.7.11. Math.6.33. 13 A * rhoddais it hefyd yr hyn nis gofynnaiſt ſef golud, a gogoniant hefyd, fel na byddo vn o'th fath ym myſc y brenhinoedd dy holl ddyddiau di.

Pen.15.5. 14 Ac os rhodi yn fy ffyrdd i gan gadw fy neddfau a'm gorchymynnion, * megis y rhodiodd Dafydd dy dâd, eſtynnaf hefyd dy ddyddiau di.

15 Yna y deffrôdd Salomon, ac wele breuddwyd [oedd,] ac efe a ddaeth i Ieruſalem ac a ſafodd o flaen Arch cyfammod yr Arglwydd, ac a offrymmodd offrymmau poeth, ac a aberthodd aberthau hedd, ac a wnaeth wledd i'w holl weiſion.

16 Yna dwy wragedd o butteiniaid a ddaethant at y brenin, ac a ſafaſant ger ei fron ef.

17 A'r naill wraig a ddywedodd [edrych] arnaf fy arglwydd, myfi a'r wraig hon oeddem yn trigo yn yr vn tŷ, ac mi a eſcorais yn tŷ gyd a hi.

18 Ac ar y trydydd dydd wedi eſcor o honoſt, yr eſcorodd y wraig hon hefyd, ac yr [oeddem] ni yng-hyd, heb arall yn tŷ gyd a ni, ond nyni ein dwyoedd [oeddem] yn tŷ.

19 A mab y wraig hon a fu farw liw nos: o herwydd hi a orweddodd arno ef.

20 A hi a gododd yng-hanol y nôs, ac a gymmerodd fy mab i o'm hymyl tra yr ydoedd dy law-forwyn yn cyſcu, ac ai goſododd ef yn ei monwes hi, ai mab marw hi a oſododd hi yn fy nonwes inne.

21 Pan gôdais i yn foreu i beri i'm mab ſugno, yna wele marw oedd efe: yna edrychais arno yn foreu, ac wele nid fy mab mauſi yr hwn a eſcoraſwn i ydoedd efe.

22 A'r wraig arall a ddywedodd nid [felly] eithr fy mab i [ſydd] fyw, a'th fab dithe yn farw: a hon a ddywedodd nage, eithr dy fab di ſydd farw, a'm mab i yn fyw: fel hyn y llefaraſant o flaen y brenin.

23 Yna y dywedodd y brenin, hon ſydd yn dywedyd dymma fy mab i yn fyw, a'th fab dithe ſydd farw, a hon accw ſydd yn dywedyd nage, eithr dy fab di [ſydd] farw, a'm mab inne yn fyw.

24 Yna y dywedodd y brenin dygwch i mi gleddyf, ac hwy a ddugaſant gleddyf o flaen y brenin.

25 A'r brenin a ddywedodd rhennwch y bachgen byw yn ddau, a rhoddwch yr hanner i'r naill, a'r hanner i'r llall.

26 Yna y dywedodd y wraig yr hon [yr oedd] ei mab yn fyw wrth y brenin (canys ei hemyſcaroedd a dwymnaſent wrth ei mab,) ac a lefarodd, [edrych] arna fi fy arglwydd: rhoddwch iddi hi y bachgen byw, a chan ladd na leddwch ef, a'r llall a ddywedodd na fydded eiddo fi, na thithe, [eithr] rhennwch [ef.]

27 Yna yr attebodd y brenin, ac y dywedodd, rhoddwch y bachgen byw iddi hi, a chan ladd na leddwch ef, dyna ei fam ef.

28 A holl Iſraell a glywſant y farn yr hon a farnaſe'r brenin, ac a ofnaſant rhac y brenin, am weled o honynt mai doethineb Duw [ydoedd] oi fewn ef i wneuthur cyfiawnder.

## PEN. IIII.

Swyddogion Salomon. 22 yr arlwy ydoedd i fwrdd Salomon. 26 Ei feirch ef, 32 Ai lyfrau.

A'R brenin Salomon oedd frenin ar holl Iſrael.

2 Dymma y tywyſogion y rhai [oeddynt] ganddo ef: Azariahu mab Zadoc yr offeiriad:

3 Elihoreph, ac Ahiah, meibion Siſa [oeddynt] ſcrifennyddion, [ac] Iehoſaphat mab Ahilud yn gofiadur:

4 A Banaiah mab Iehoiada [oedd] ar y llu, a Zadoc, ac Abiathar yn offeiriaid:

5 Azariahu hefyd mab Nathan [oedd] ar y ſwyddogion, a Zabud mab Nathan [oedd] raglaw [ac] yn gyfell i'r brenin:

6 Ac Ahiſar [oedd] ben-teulu, * ac Adoniram mab Abda ar y deyrnged. Pen.5.14.

7 A chan Salomon yr ydoedd deuddec o ſwyddogion, ar holl Iſrael, a hwynt a gynhalient y brenin ai dŷ: mîs yn y flwyddyn yr oedd ar [bob] vn gynnal.

8 Dymma eu henwau hwynt, mab Hur yn

mynydd Ephraim.

9 Mab Decar ym Macas, ac yn Saalbin, a Bethſemes, ac Elon, [a] Bethanan.

10 Mab Heſed yn Aruboth, iddo ef [yr oedd] Socho, a holl dir Hepher.

11 Mab Abinadab [oedd yn] holl ardal Dor, Taphath merch Salomon oedd yn wraig iddo ef.

12 Baanah mab Ahilud [oedd yn] Thaanach, a Megido, a Bethſan oll yr hon [ſydd] ger llaw Sarthana, îs law Iezrahel: o Bethſan hyd Abelmehola, hyd ar gyfer Iocmeam.

13 Mab Geber [oedd] yn Ramoth Gilead, iddo ef [yr oedd] * trefydd Iair mab Manaſſes, y rhai [ydynt] yn Gilead: eiddo ef [oedd] ardal Argob, yr hon [oedd] o fewn Baſan: [ſef] tri vgain o ddinaſoedd mawrion [tann] gaerau a barrau prês. Num.32.41.

14 Ahinadab mab Hido [oedd] ym Mahanaim.

15 Ahimaaz [oedd] yn Nephthali, yntef a gymmerodd Baſmath merch Salomon yn wraig.

16 Baanah mab Huſai [oedd] yn Aſer, ac yn Aloth.

17 Iehoſaphat mab Paruah [oedd] yn Iſſachar.

18 Simei mab Ela [oedd] o fewn Bẽiamin.

19 Geber mab Uri [oedd] yng-wlâd Gilead, [ſef] gwlâd Sehon yr Amoriad, ac Og brenin Baſan, ar vnic ſwyddog yr hwn [oedd] yn y wlâd [ydoedd efe.]

20 Iuda, ac Iſrael [oeddynt] aml, fel y tywod yr hwn [ſydd] ger llaw 'r mor o amldra: yn bwytta, ac yn yfed, ac yn bod yn llawen.

21 A * Salomon oedd yn llywodraethu ar yr holl deyrnaſoedd o afon gwlâd y Philiſtiaid, hyd derfyn yr Aipht: yr oeddynt hwy yn dwyn anrhegion, ac yn gwaſanaethu Salomon holl ddyddiau ei oes ef. Eccleſi.47.15.

22 A bara Salomon beunydd oedd ddêc Corus ar hugain o beillied, a thri vgain Corus o flawd:

23 Dêc o ŷchen paſcedic, ac vgain o ŷchen porfadwy, a chant o ddefaid, heb law ceirw, ac iwrchod, a buail, ac ednod breiſion.

24 Canys efe oedd yn llywodraethu ar y tu hwnt i'r afon oll, o Thipſah, hyd Azza, ar yr holl frẽhinoedd o'r tu hwynt i'r afon: ac yr oedd iddo ef heddwch o bob parth iddo o amgylch.

25 Yna y preſſwyliodd Iuda ac Iſrael yn ddiogel, pob vn tann ei win-wŷdden, a thann ei ffigus-bren, o Dan hyd Beerſeba holl ddyddiau Salomon.

26 Ac * yr oedd gan Salomon ddeugain mil o breſêbau meirch iw gerbydau, a deuddeng-mil o wŷr meirch. 1.Cron.9.25.

27 A'r ſwyddogion hyn a gynhaliaſant Salomon y brenin, a phawb a ddele i fwrdd y brenin, pob vn ei fîs, ni adawſant eiſieu dim.

28 Haidd hefyd, a gwellt a ddugaſant hwy i'r meirch, ac i'r mulod, i'r fann lle y bydde [y ſwyddogion,] pob vn ar ei gylch.

29 A * Duw a roddodd ddoethineb i Salomon a deall mawr iawn, a helaethdra calon, fel y tywod yr hwn ſydd ar fîn y môr. Eccleſi 47.16.

30 A doethineb Salomon oedd fwy na doethineb holl feibion y dwyrain, ac na doethineb yr Aiphtiaid.

31 Ie doethach oedd efe nac vn dŷn: nac Ethan yr Ezrahiad, na Heman, na Chalcol, na Darda meibion Mahol: ai enw ef oedd ym myſc yr holl genhedloedd oddi amgylch.

32 Ac efe a lefarodd dair mil o ddiharebion, ai ganiadau ef oedd fil, a phump.

33 Llefarodd hefyd a'm brennau, o'r cedrwŷdd yr hwn [ſydd] yn Libanus, hyd yr yſſop yr hwn a dŷf wrth y pared: ac efe a lefarodd am anifeiliaid, ac am ehediaid, ac am ymluſciaid, ac am byſcod.

34 Ac o bob pobloedd y daethpwyd i wrando doethineb Salomon, oddi wrth holl frenhinoedd y ddaiar y rhai a glywſent am ei ddoethineb ef.

## PEN. V.

Hiram yn gyrru i gyfarch Salomon. 2 Salomon yn ceiſio, ac yn cael gan Hiram weith-wyr, a defnyddiau i weithio ty'r Arglwydd. 13 rhifedi y gweithwyr.

HIram hefyd brenin Tyrus a anfonodd ei weiſion at Salomon, pan glybu efe eneinio o honynt hwy ef yn frenin yn lle ei dâd: canys hoff oedd gan Hiram Ddafydd bob amſer.

2 Yna yr * anfonodd Salomon at Hiram gan ddywedyd: 2.Cron.2.3.

3 Ti a ŵyddoſt am Ddafydd fy nhâd, na alle efe adailadu tŷ i enw 'r Arglwydd ei Dduw, gan y rhyfeloedd y rhai ai hamgylchynaſent ef, nes rhoddi o'r Arglwydd hwynt dan wadnau ei draed ef.

4 Eithr yn awr yr Arglwydd fy Nuw a barodd i mi lonydd oddi amgylch, nid [oes] gwrthwynebudd, nac ymgyfarfod niweidiol.

5 Ac wele fi yn meddwl adailadu tŷ i enw 'r Arglwydd fy Nuw, * megis y llefarodd yr Arglwydd wrth Ddafydd fy nhad gan ddywedyd: dy fab yr hwn a roddaf yn dy lê di, ar dy orſeddfaingc di, efe a adailada dŷ i'm henw i. 2.Sam.7.13. 1.Cron.22.10.

6 Yn awr gan hynny gorchymyn dorri o honynt i mi cedr-wŷdd o Libanus, a'm gweiſion a fyddant gyd a'th weiſion di, a rhoddaf attat gyflog dy weiſion yn ôl yr hyn a ddywedech: canys ti a ŵyddoſt nad [oes] yn ein plith ni ŵr a fedro gymmynu coed megis y Sidoniaid.

7 A bu pan glybu Hiram eiriau Salomon lawenychu o honaw ef yn ddir-fawr, a dywedyd: bendigedic [yw] 'r Arglwydd heddyw, 'r hwn a roddes i Ddafydd fab doeth ar y bobl luoſog ymma.

8 A Hiram a anfonodd at Salomon gan ddywedyd: gwrandewais ar yr hyn a anfonaiſt attaf: mi a wnaf dy holl ewyllys di am goed

cedr-wŷdd, a choed ffynnidwŷdd.

9 Fyng-weiſion ai dygant i wared o Libanus hyd y môr: ac mi ai gyrraf hwynt yn glydeiriau ar hyd y môr, hyd y fann lle 'r anfonech attaf: ac yno y gwaſcaraf hwynt, a chymmer di [hwynt,] ond ti a wnei fy ewyllys inne, gan roddi ymborth i'm tŷ i.

10 Felly yr oedd Hiram yn rhoddi i Salomon o goed cedr-wŷdd, ac o goed ffynnidwŷdd ei holl ddymuniad.

11 A Salomon a roddodd i Hiram vgain mil Corus o wenith yn gynhelieth iw dŷ ef, ac vgain Corus o olew coeth: felly y rhoddes Salomon i Hiram bob blwyddyn.

12 A'r Arglwydd a roddes ddoethineb i Salomon fel * y dywedaſe wrtho ef: a bu heddwch rhwng Hiram a Salomon, a hwy a wnaethant gyfammod ill dau. Pen.3.12.

13 A'r brenin Salomon a gyfododd drêth o holl Iſrael, a'r drêth oedd ddeng-mil ar hugain o wŷr.

14 Ac efe ai hanfonodd hwynt i Libanus, deng-mil yn y mîs [ar] gylch: mîs y byddent yn Libanus, a dau fis gartref, ac Adoniram oedd ar y drêth.

15 Ac yr oedd gan Salomon ddeng-mil a thrugain yn cludo llwythau, a phedwar vgain mil yn naddu cerrig yn y mynydd.

16 Heb law y tywyſogion y rhai oeddynt yn llywodraethu tann Salomon, y rhai [oeddynt] dair mil, a thry-chant, ar y gwaith, yn llywodraethu y bobl y rhai a weithient yn y gwaith.

17 A'r brenin a orchymynnodd ddwyn o honynt hwy feini mawr, a meini gwerthfawr, [a] meini nadd i ſylfaenu y tŷ.

18 Felly ſeiri Salomon, a ſeiri Hiram, a'r Gibliaid a naddaſant, ac a ddarparaſant goed, a cherrig i adailadu 'r tŷ.

## PEN. VI.

Adailadaeth, a llûn y deml. 12. addêwid yr Arglwydd i Salomon. 14 Tegwch, a gwchder y deml.

2.Cron.31. AC yn y bedwar-vgeinfed, a phedwar cant o flynyddoedd wedi dyfod meibion Iſrael allan o'r Aipht, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnaſiad Salomon ar Iſrael, yn y mîs Zif (hwnnw yw 'r ail mîs) yr adailadodd efe dŷ i'r Arglwydd.

2 A'r tŷ 'r hwn a adailadodd y brenin Salomon i'r Arglwydd [oedd] dri vgain cufydd ei hŷd, ac yn vgain cufydd ei lêd, ac yn ddêc cufydd ar hugain ei vchter.

3 A'r porth o flaen teml y tŷ [ydoedd] vgain cufydd ei hŷd, yn vn hŷd a llêd y tŷ, [ac] yn ddêc cufydd ei lêd wrth dalcen y tŷ.

4 Ac efe a wnaeth i'r tŷ ffeneſtri, yn llydan oddi allan, ac yn gyfyng oddi fewn.

5 Ac efe a adailadodd wrth bared y tŷ ſtafelloedd oddi amgylch pared y tŷ, yng-hylch y deml, a'r gafell: ac a wnaeth gelloedd o amgylch.

6 Yr ſtafell iſaf [oedd] bump cufydd ei llêdd, a'r ganol chwe chufydd ei llêd, a'r drydedd yn ſaith gufydd ei lled: canys efe a roddaſe attegion o'r tu allan i'r tŷ oddi amgylch, fel nad attegyd ym mharwydydd y tŷ.

7 A'r tŷ pan adailadwyd ef, a adailadwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu yn y gloddfa: felly ni chlybuwyd yn nhŷ 'r Arglwydd wrth ei adailadu ef na morthwylion, na bwyîll, [nac] vn offeryn haiarn.

8 Drws y gell ganol [oedd] ar yſtlys dehau y tŷ, ac ar hŷd griſieu troedic y dringid i'r ganol, ac o'r ganol i'r drydedd.

9 Felly yr adailadodd efe y tŷ, ac ai gorphennodd: ac a fyrddiodd y tŷ a chleder ac ag yſtyllod o cedr-wŷdd.

10 Ac efe a adailadodd [bob] ſtafell wrth yr holl dŷ yn bump cufydd ei huchter: ac mewn coed cedr yr ymgyſſyllte [yr ſtafell oedd] a'r tŷ.

11 Yna y daeth gair yr Arglwydd at Salomon, gan ddywedyd:

12 Dymma y tŷ [a fynnwn i] yr hwn yr ydwyt ti yn ei adailadu, os rhodi di yn fy neddfau i, a gwneuthur fy marnedigaethau, a chadw fy holl orchymynnion gan rodio ynddynt: yna y cyflawnaf a thi fyng-air * yr hwn a leferais wrth Ddafydd dy dâd. 2.Sam.7.33.

13 Ac mi a breſſwyliaf * ym myſc meibion Iſrael, ac ni adawaf fy mhobl Iſrael. Exod.25.22.

14 Felly 'r adailadodd Salomon y tŷ, ac ai gorphennodd.

15 Ac efe a fyrddiodd barwydydd y tŷ oddi fewn ag yſtyllod cedr-wŷdd, o lawr y tŷ hyd y llogel y byrddiodd efe ef a choed [cedr] oddi fewn: byrddiodd hefyd lawr y tŷ a phlangciau o ffynnidwŷdd.

16 Ac efe a fyrddiodd vgain cufydd o yſtlyſſau 'r tŷ ag yſtyllod cedr, o'r llawr hyd y parwydydd: felly 'r adailadodd iddo o fewn y gafell yn y cyſſegr ſancteiddiolaf.

17 A'r tŷ oedd yn ddeugain cufydd, ſef y deml oddi fewn.

18 A'r cedr-wŷdd yn tŷ oddi fewn [oeddynt] wedi eu cerfio yn gnappiau, ac yn flodau gwaſcaredic: y cwbl [oedd] cedr-wydd, ni welyd carrec.

19 Y gafell a ddarparodd efe ynghanol y tŷ o fewn: i roddi yno Arch cyfammod yr Arglwydd.

20 Ac o fewn y gafell [yr oedd] vgain cufydd o hŷd, ac vgain cufydd o lêd, ac vgain cufydd [oedd] ei huchter: ac efe ai gwiſcodd ag aur pûr, felly y gwiſcodd efe 'r allor o cedr-wŷdd.

21 Salomon hefyd a wiſcodd y tŷ oddi fewn ag aur pûr, ac a roddes farrau ar draws wrth gadwyni aur o flaen y gafell, ac a wiſcodd hynny ag aur.

22 Ie 'r holl dŷ a wiſcodd efe ag aur, nes gorphen yr holl dŷ: yr allor hefyd oll yr hon [oedd] wrth y gafell a wiſcodd efe ag aur.

23 Ac efe a wnaeth yn y gafell ddau o Gerubiaid, o bren oliwŷdd, [pob vn ydoedd] ddêc cufydd ei vchter.

24 A'r naill aden i'r Cerub [oedd] bump cufydd, a'r aden arall i'r Cerub [oedd] bump cufydd: dêc cufydd [oedd] o'r naill gwrr iw adenydd ef hyd y cwrr arall iw adenydd ef.

25 A'r ail Cerub oedd o ddêc cufydd: vn feſur, ac vn agwedd [oedd] i'r ddau Gerub.

26 Vchter y naill Gerub [oedd] o ddêc cufydd: ac felly ['r oedd] y Cerub arall.

27 Ac efe a roddodd y Cerubiaid yng-hanol y tŷ oddi fewn, ac *adenydd y Cerubiaid a ymledaſant fel y cyffyrddodd aden y naill a'r [naill] bared, ac aden y Cerub arall oedd yn cyffwrdd a'r pared arall: ai hadenydd hwy yng-hanol y tŷ oeddynt yn cyffwrdd ai gilydd. Exod.25.20.

28 Ac efe a wiſcodd y Cerubiaid ag aur.

29 A holl barwydydd y tŷ o amgylch a gerfiodd efe ag agored gerfiadau Cerubiaid, a a phalm-wŷdd, a blodau gwaſcaroc o fewn ac oddi allan.

30 Llawr y tŷ hefyd a wiſcodd efe ag aûr oddi fewn, ac oddi allan.

31 Ac i ddrŵs y gafell y gwnaeth efe ddôrau o goed oliwŷdd, cappan y drws [a'r] gorſyngau [oeddynt] bummed rann y pared.

32 Ac ar y ddwy ddôr o goed oliwydd y cerfiodd efe gerfiadau Cerubiaid, a phalmwŷdd a blodau gwaſcaroc, ac [ai] gwiſcodd ag aur: ac a yrrodd yr aur yn dene ar y Cerubiaid, ac ar y palm-wŷdd.

33 Ac felly y gwnaeth efe i ddrws y deml, orſyngau o goed oliwŷdd [y rhai oeddynt] o bedwaredd rann [y pared.]

34 Ac yr [oedd] dwy ddôr o goed ffynnidwŷdd, dwy ddalen blygedic [oedd] i'r naill ddôr, a dwy ddalen blygedic i'r ddôr arall.

35 Ac efe a gerfiodd Gerubiaid a phalmwŷdd, a blodau gwaſcaroc, ac [ai] gwiſcodd ag aur, yr hwn a gymhwyſwyd ar y cerfiad.

36 Ac efe a adailadodd y cyntedd neſſaf i mewn a thair rhês o [gerric] nadd, ac a rhês o drawſtiau cedr-wŷdd.

37 Yn y bedwaredd flwyddyn y ſylfaenwyd tŷ 'r Arglwydd ym mîs Zif.

38 Ac yn yr vnfed flwyddyn ar ddêc, ym mis Bul, dyna 'r wythfed mis y gorphennwyd y tŷ, ai holl berthynaſau, ac ai holl gyfreidiau: felly [mewn] ſaith mlynedd yr adailadodd efe ef.

## PEN. VII.

Adeiladu ty Salomon. 15 a Hiram yn gwneuthur amryw ddodrefn i'r deml.

Pen.9.10. « YNa yr adailadodd Salomon ei dŷ ei hun
« [mewn]* tair blynedd ar ddêc, ac a orphēnodd
« ei holl dŷ.
« 2 Adailadodd efe hefyd dŷ coedwic Libanus,
« yn gant cufydd ei hŷd, ac yn ddêc cufydd a
« deugain ei lêd, ac yn ddêc cufydd ar hugain ei
« vchter: ar bedair rhês o golofnau cedr-wŷdd,
« a thrawſtiau cedr-wŷdd ar y colofnau.
« 3 A byrddiad o cedr-wŷdd [oedd] oddi arnodd
« ar y trawſtiau y rhai [oeddynt] ar y pump
« colofn a deugain: pymthec [yn] y rhês.

4 Ac [yr oedd] tair rhês o ffeneſtri, ſef ffeneſtr »
ar gyfer ffeneſtr dair gwaith. »
5 A'r holl ddryſſau a'r gorſyngau [oeddynt] »
bedwar corneloc, [felly 'r oedd] y ffeneſtri: ffeneſtr »
ar gyfer ffeneſtr dair gwaith. »
6 Hefyd efe a wnaeth borth o golofnau yn »
ddêc cufydd a deugain ei hŷd, ac yn ddêc cufydd »
ar hugain ei lêd: a'r porth [oedd] oi blaen hwynt, »
ſef ar y colofnau, a ſwmmerau [oedd] oi »
blaen hwythau. »
7 Porth yr orſeddfa hefyd yr hwn y barne »
efe ynddo, a wnaeth efe yn borth barn: ac efe a »
wiſcwyd a cedr-wŷdd o ſylfaen hyd ſylfaen. »
8 Ac [iw] dŷ ei hun yr hwn y trige efe ynddo, »
yr oedd cyntedd arall o fewn y porth fel »
y gwaith hyn: gwnaeth efe hefyd dŷ i ferch »
Pharao *'r hon a briodaſe Salomon, fel y porth »
hwn. »
9 Hyn oll [oeddynt] o feini gwerthfawr »
wedi eu naddu wrth feſur, [ai] lladd a llif o »
fewn, ac allan: a [hynny] o'r ſylfaen hyd y llogel: »
ac oddi allan hyd y cyntedd mawr. »
10 Ac efe a ſylfaeneſid a meini gwerthfawr, »
a meini mawr, a meini o ddêc cufydd, ac a meini »
o wyth gufydd. »
11 Ac oddi arnodd [yr oedd] meini gwerthfawr, »
wedi eu naddu wrth feſur, a cedr-wŷdd. »
12 Ac [i'r] cyntedd mawr [yr oedd] o amgylch »
dair rhês o gerric nadd, a rhês o drawſtiau »
cedr-wŷdd: fel [yr oedd] i gyntedd tŷ 'r »
Arglwydd oddi fewn, ac i borth y tŷ. »
13 A'r brenin Salomon a anfonodd, ac a »
gymmerodd Hiram o Dyrus. »
14 Mab gwraig weddw [oedd] hwn o lwyth »
Nephthali, ai dâd yn ŵr ô Dyrus) gôf prês »
[ydoedd efe:] a llawn ydoedd efe o ddoethineb »
a ddeall, a gwybodaeth i weithio pob gwaeth o »
brês, ac efe a ddaeth at y brenin Salomon, ac a »
weithiodd ei holl waith ef. »
15 Ac efe a luniodd ddwy golofn brês, »
deu-naw cufydd [oedd] vchter vn golofn, a llinin »
o ddeuddec cufydd [ai] hamgylche [felly yr »
oedd] yr ail golofn. »
16 Ac efe a wnaeth ddau gnapp o brês »
tawdd, iw rhoddi ar bennau y colofnau: pump »
cufydd [oedd] vchter y naill gnapp, a phump »
cufydd vchter y cnapp arall. »
17 Efe a wnaeth rwyd-waith, yn blethiadau »
o waith cadwynau ar y cnappiau y rhai [oeddynt] »
ar ben y colofnau: ſaith ar y naill gnapp, »
a ſaith ar gnapp arall. »
18 Felly y gwnaeth efe y colofnau, a dwy »
rês o bomgranadau o amgylch ar y naill rwyd »
waith i guddio y cnappiau y rhai [oeddynt] »
vwch benn: ac felly y gwnaeth efe i'r cnapp »
arall. »
19 A'r cnappiau y rhai [oeddynt] ar benn y »
colofnau [oeddynt] o waith lili yn y porth yn »
bedwar cufydd. »
20 Ac ar y cnappiau ar y ddwy golofn oddi »
arnodd ar gyfer y canol [yr oedd pomgranadau] »

y rhai[oeddynt] tros yꝛ rhwyd-waith : felly y pomgranadau[oeddynt] ddau cant yn rheſau o amgylch ar yꝛ ail cnapp.

21 Ac efe a gyfododd y colofnau yn mhoꝛth y deml, pan gyfododd efe y golofn ddehau, yna y galwodd efe ei henw hi Iachin; ac efe a gyfododd y golofn aſſwy, ac a alwodd ei henw hi Boaz.

22 Ac ar benn y colofnau yꝛ[oedd] gwaith lili : felly y goꝛphennwyd gwaith y colofnau.

23 Ac efe a wnaeth gerwyn dawdd yn ddec cufydd oi hymyl bwy gilydd, [ac] yn gron oddi amgylch : ac yn bump cufydd ei huchter, a llinin o ddêc cufydd a'r hugain ai hamgylche hi oddi amgylch.

24 A chnappiau ai hamgylchent hi tann ei hymyl o amgylch, dêc mewn cufydd oeddynt yn amgylchu y gerwyn * o amgylch : y cnappiau[oeddynt] yn ddwy rês wedi eu bwꝛw pan fwꝛriwyd hiche. 2.Cron.4.3.

25 Sefyll yꝛ oedd hi ar ddeuddec o ŷchen, tri oeddynt yn edꝛych tua yꝛ gogledd, a thꝛi yn edꝛych tua yꝛ gorllewyn : tri hefyd yn edꝛych tua yꝛ dehau, a thꝛi yn edꝛych tua yꝛ dwyꝛain, a'r gerwyn arnynt oddi arnodd, ai pennau ôl hwynt oll o fewn.

26 Eithewder hi hefyd[oedd]ddyꝛnfedd, ai hymyl fel gwaith ymyl cwppan : [fel] blodeuin lili, dwy fil o Bathau a anne ynddi.

27 Hefyd efe a wnaeth ddêc o yſtolion pꝛes, pedwar cufydd[oedd] hŷd pob yſtôl, a phedwar cufydd eu llêd, a thꝛi chufydd eu huchter.

28 Ac dymma waith yꝛ yſtolion, yſtlyſau [oedd] iddynt, a'r yſtlyſau[ oeddynt ] rhwng delltennau.

29 Ac ar yꝛ yſtlyſau y rhai[oeddynt]rhwng y delltennau[yꝛ oedd]llewod,[ac] ŷchen, a Cherubiaid: ac ar y dellt[yꝛ oedd]yſtol oddi arnodd, ac oddi tann y llewod a'r ŷchen[yꝛ oedd]cyſſylltiadau o waith teneu.

30 A phedair olwyn bꝛês[oedd]i bôb yſtôl, a phlangciau pꝛês : ac yn eu pedair congl [yꝛ oedd ]derbynniadau iddynt hwy : tann y noe [yꝛ oedd]derbyniadau wedi eu toddi ar gyfer pôb cyſſylltiad.

31 Ai genau[oedd]oddi fewn y cwmpas, ac oddi arnodd wꝛth[feſur]cufydd, canys ei genau hi oedd grwnn ar waith yꝛ yſtôl yn gufydd a hanner : ac ar ei hymyl hi[yꝛ oedd]cerfiadau, ai hyſtlyſau hwynt[oeddynt] yn bedwar ochꝛoc, [ac]nid yn grynnion.

32 A'r pedair olwyn[oedd]tann yꝛ yſtlyſau, ac echelau yꝛ olwynion trwy yꝛ yſtôl : ac vchter pôb olwyn yn gufydd, a hanner cufydd.

33 Gwaith yꝛ olwynion hefyd [ oedd ] fel gwaith olwynion menn, ei hechelau, ai bothau, ai cammegau, ai hadenydd [ oeddynt ] oll yn dawdd.

34 Ac[yꝛ oedd] pedwar derbynniad ar bedair congl pôb yſtôl, o'ꝛ yſtôl[yꝛ oedd] ei derbyniadau hi.

35 Ac ar benn yꝛ yſtôl[ yꝛ oedd ] cwmpas o amgylch o hanner cufydd o vchter, ar benn yꝛ yſtôl hefyd[yꝛ oedd]ei hymylau, ai hyſtlyſau, o honi ei hun.

36 Ac efe a gerfiodd ar yſtyllod ei hymylau hi, ac ar ei hyſtlyſau hi Gerubiaid, llewod, a phalm-wŷdd wꝛth yſtlys eu gilydd, a'r cyſſylltiadau iddi o amgylch.

37 Fel hyn y gwnaeth efe y dêc yſtôl, vn doddiad, vn feſur, ac vn agwedd [ oedd ] iddynt hwy oll.

38 Gwnaeth hefyd ddeng noe bꝛês, deugain Bath a ddalie pôb noe, yn bedwar cufydd bôb noe,[a]phôb noe ar vn yſtôl, o'ꝛ dec yſtôl.

29 Ac efe a roddes bump yſtôl ar yſtlys dehau y tŷ, a phump ar yꝛ yſtlys aſſwy i'r tŷ : a'r gerwyn a roddes efe tu y dehau i'r tŷ tua yꝛ dwyꝛain, ar gyfer y dehau.

40 Gwnaeth Hiram hefyd noeau, a rhawiau a chawgiau, a Hiram a oꝛphennodd wneuthur yꝛ holl waith, yꝛ hwn a wnaeth efe i'r bꝛenin Salomon[yn] nhŷ yꝛ Arglwydd.

41 Y ddwy golofn, a'r cnappiau coꝛonoc y rhai oeddynt ar benn y ddwy golofn, a dwy bleth i guddio y ddau gnapp goꝛonoc y rhai[oeddynt] ar y colofnau.

42 A phedwar cant o bomgranadau yn y ddwy bleth : dwy rês o bomgranadau[oedd]ar hyd pôb pleth, i guddio y ddau gnapp goꝛonoc y rhai[oeddynt]ar benn y colofnau.

43 A'r dêc yſtôl, a'r dêc noe ar yꝛ yſtôlion.

44 Ac vn gerwyn, a deuddec o ŷchen tann y gerwyn.

45 A'r crochanau, a'r rhawiau a'r cawgiau, a'r holl leſtri y rhai a wnaeth Hiram i'r bꝛenin Salomon[yn] nhŷ yꝛ Arglwydd[ oeddynt ] o bꝛês gloyw.

46 Yng-waſtadedd Ioꝛddonen y toddodd y bꝛenin hwynt mewn clei-dir, rhwng Succoth, a Zarthan.

47 A Salomon a beidiodd [ a phwyſo ] yꝛ holl leſtri rhac moꝛ ddirfawꝛ aml[oeddynt:]anfeidꝛol oedd pwys y pꝛês.

48 A Salomon a wnaeth yꝛ holl ddodꝛefn y rhai[a berthynent i] dŷ yꝛ Arglwydd : ſef yꝛ alloꝛ aur, a'r bwꝛdd aur, yꝛ hwn[yꝛ oedd]y bara goſod arno.

49 A phump canhwyll-bꝛen o'ꝛ tu dehau, a phump o'ꝛ tu aſſwy o flaen y gafell yn aur pur, a'r blodau, a'r luſernau, a'r gefeiliau o aur.

50 Y phiolau hefyd, a'r pſaltringau, a'r cawgiau, a'r llwyau, a'r thuſſerau o aur coeth, a bachau dòꝛau y tŷ o fewn y cyſſegr ſancteiddiaf, a doꝛau tŷ y deml[oeddynt]aur.

51 Felly y goꝛphennwyd yꝛ holl waith yꝛ hwn a wnaeth y bꝛenin Salomon i dŷ yꝛ Arglwydd, a Salomon a ddûg * yꝛ hyn a gyſſegraſe Dafydd ei dâd : yꝛ arian, a'r aur, a'r dodꝛefn a roddodd efe ym mhlith tryſſoꝛau tŷ yꝛ Arglwydd. 2.Cron.5.1.

24 A'r naill aden i'r Cerub [oedd] bump cufydd, a'r aden arall i'r Cerub [oedd] bump cufydd: dêc cufydd [oedd] o'r naill gwr iw adenydd ef hyd y cwr arall iw adenydd ef.

25 A'r ail Cerub oedd o ddêc cufydd: vn feſur, ac vn agwedd [oedd] i'r ddau Gerub.

26 Vchter y naill Gerub [oedd] o ddêc cufydd: ac felly ['r oedd] y Cerub arall.

Exod.25.20. 27 Ac efe a roddodd y Cerubiaid yng-hanol y tŷ oddi fewn, ac *adenydd y Cerubiaid a ymledaſant fel y cyffyrddodd aden y naill a'r [naill] bared, ac aden y Cerub arall oedd yn cyffwrdd a'r pared arall: ai hadenydd hwy yng-hanol y tŷ oeddynt yn cyffwrdd ai gilydd.

28 Ac efe a wiſcodd y Cerubiaid ag aur.

29 A holl barwydydd y tŷ o amgylch a gerfiodd efe ag agored gerfiadau Cerubiaid, a a phalm-wŷdd, a blodau gwaſcaroc o fewn ac oddi allan.

30 Llawr y tŷ hefyd a wiſcodd efe ag aûr oddi fewn, ac oddi allan.

31 Ac i ddrŵs y gafell y gwnaeth efe ddôrau o goed oliwŷdd, cappan y drws [a'r] gorſyngau [oeddynt] bummed rann y pared.

32 Ac ar y ddwy ddôr o goed oliwydd y cerfiodd efe gerfiadau Cerubiaid, a phalmwŷdd a blodau gwaſcaroc, ac [ai] gwiſcodd ag aur: ac a yrrodd yr aur yn dene ar y Cerubiaid, ac ar y palm-wŷdd.

33 Ac felly y gwnaeth efe i ddrws y deml, orſyngau o goed oliwŷdd [y rhai oeddynt] o bedwaredd rann [y pared.]

34 Ac yr [oedd] dwy ddôr o goed ffynnidwŷdd, dwy ddalen blygedic [oedd] i'r naill ddôr, a dwy ddalen blygedic i'r ddôr arall.

35 Ac efe a gerfiodd Gerubiaid a phalmwŷdd, a blodau gwaſcaroc, ac [ai] gwiſcodd ag aur, yr hwn a gymhwyſwyd ar y cerfiad.

36 Ac efe a adailadodd y cyntedd neſſaf i mewn a thair rhês o [gerric] nadd, ac a rhês o drawſtiau cedr-wŷdd.

37 Yn y bedwaredd flwyddyn y ſylfaenwyd tŷ 'r Arglwydd ym mîs Zif.

38 Ac yn yr vnfed flwyddyn ar ddêc, ym mis Bul, dyna 'r wythfed mis y gorphennwyd y tŷ, ai holl berthynaſau, ac ai holl gyfreidiau: felly [mewn] ſaith mlynedd yr adailadodd efe ef.

## PEN. VII.

Adeiladu ty Salomon. 15 a Hiram yn gwneuthur amryw ddodrefn i'r deml.

Pen.9.10. « YNa yr adailadodd Salomon ei dŷ ei hun
« [mewn]* tair blynedd ar ddêc, ac a orphê-
« nodd ei holl dŷ.
« 2 Adailadodd efe hefyd dŷ coedwic Liba-
« nus, yn gant cufydd ei hŷd, ac yn ddêc cufydd a
« deugain ei lêd, ac yn ddêc cufydd ar hugain ei
« vchter: ar bedair rhês o golofnau cedr-wŷdd,
« a thrawſtiau cedr-wŷdd ar y colofnau.
« 3 A byrddiad o cedr-wŷdd [oedd] oddi ar-
« nodd ar y trawſtiau y rhai [oeddynt] ar y pump
« colofn a deugain: pymthec [yn] y rhês.

4 Ac [yr oedd] tair rhês o ffeneſtri, ſef ffe- »
neſtr ar gyfer ffeneſtr dair gwaith. »
5 A'r holl ddryſſau a'r gorſyngau [oeddynt] »
bedwar cornelog, [felly 'r oedd] y ffeneſtri: ffe- »
neſtr ar gyfer ffeneſtr dair gwaith. »
6 Hefyd efe a wnaeth borth o golofnau yn »
ddêc cufydd a deugain ei hŷd, ac yn ddêc cufydd »
ar hugain ei lêd: a'r porth [oedd] oi blaen hw- »
ynt, ſef ar y colofnau, a ſwmmerau [oedd] oi »
blaen hwythau. »
7 Porth yr orſeddfa hefyd yr hwn y barne »
efe ynddo, a wnaeth efe yn borth barn: ac efe a »
wiſcwyd a cedr-wŷdd o ſylfaen hyd ſylfaen. »
8 Ac [iw] dŷ ei hun yr hwn y trige efe yn- »
ddo, yr oedd cyntedd arall o fewn y porth fel »
y gwaith hyn: gwnaeth efe hefyd dŷ i ferch »
Pharao*'r hon a briodaſe Salomon, fel y porth »
hwn. »
9 Hyn oll [oeddynt] o feini gwerthfawr »
wedi eu naddu wrth feſur, [ai] lladd a llif o »
fewn, ac allan: a [hynny] o'r ſylfaen hyd y llo- »
gel: ac oddi allan hyd y cyntedd mawr. »
10 Ac efe a ſylfaeneſid a meini gwerthfawr, »
a meini mawr, a meini o ddêc cufydd, ac a meini »
o wyth gufydd. »
11 Ac oddi arnodd [yr oedd] meini gwerth- »
fawr, wedi eu naddu wrth feſur, a cedr-wŷdd. »
12 Ac [i'r] cyntedd mawr [yr oedd] o am- »
gylch dair rhês o gerric nadd, a rhês o drawſti- »
au cedr-wŷdd: fel [yr oedd] i gyntedd tŷ 'r »
Arglwydd oddi fewn, ac i borth y tŷ. »
13 A'r brenin Salomon a anfonodd, ac a »
gymmerodd Hiram o Dyrus. »
14 Mab gwraig weddw [oedd] hwn o lw- »
yth Nephthali, ai dâd yn ŵr ô Dyrus) gôf prês »
[ydoedd efe:] a llawn ydoedd efe o ddoethineb »
a ddeall, a gwybodaeth i weithio pob gwaeth o »
brês, ac efe a ddaeth at y brenin Salomon, ac a »
weithiodd ei holl waith ef. »
15 Ac efe a luniodd ddwy golofn brês, »
deu-naw cufydd [oedd] vchter vn golofn, a lli- »
nin o ddeuddec cufydd [ai] hamgylche [felly yr »
oedd] yr ail golofn. »
16 Ac efe a wnaeth ddau gnapp o brês »
tawdd, iw rhoddi ar bennau y colofnau: pump »
cufydd [oedd] vchter y naill gnapp, a phump »
cufydd vchter y cnapp arall. »
17 Efe a wnaeth rwyd-waith, yn blethia- »
dau o waith cadwynau ar y cnappiau y rhai [oe- »
ddynt] ar ben y colofnau: ſaith ar y naill gnapp, »
a ſaith ar gnapp arall. »
18 Felly y gwnaeth efe y colofnau, a dwy »
rês o bomgranadau o amgylch ar y naill rwyd- »
waith i guddio y cnappiau y rhai [oeddynt] »
vwch benn: ac felly y gwnaeth efe i'r cnapp »
arall. »
19 A'r cnappiau y rhai [oeddynt] ar benn y »
colofnau [oeddynt] o waith lili yn y porth yn »
bedwar cufydd. »
20 Ac ar y cnappiau ar y ddwy golofn oddi »
arnodd ar gyfer y canol [yr oedd pomgranadau] »

y rhai [oeddynt] tros yr rhwyd-waith: felly y pomgranadau [oeddynt] ddau cant yn rheſau o amgylch ar yr ail cnapp.

21 Ac efe a gyfododd y colofnau ym mhorth y deml, pan gyfododd efe y golofn ddehau, yna y galwodd efe ei henw hi Iachin; ac efe a gyfododd y golofn aſſwy, ac a alwodd ei henw hi Boaz.

22 Ac ar benn y colofnau yr [oedd] gwaith lili: felly y gorphennwyd gwaith y colofnau.

23 Ac efe a wnaeth gerwyn dawdd yn ddec cufydd oi hymyl bwy gilydd, [ac] yn gron oddi amgylch: ac yn bump cufydd ei huchter, a llinin o ddêc cufydd a'r hugain ai hamgylche hi oddi amgylch.

24 A chnappiau ai hamgylchent hi tann ei hymyl o amgylch, dêc mewn cufydd oeddynt yn amgylchu y gerwyn * o amgylch: y cnappiau [oeddynt] yn ddwy rês wedi eu bwrw pan fwriwyd hithe.

2.Cron.4.3.

25 Sefyll yr oedd hi ar ddeuddec o ŷchen, tri oeddynt yn edrych tua yr gogledd, a thri yn edrych tua yr gorllewyn: tri hefyd yn edrych tua yr dehau, a thri yn edrych tua yr dwyrain, a'r gerwyn arnynt oddi arnodd, ai pennau ôl hwynt oll o fewn.

26 Eithewder hi hefyd [oedd] ddyrnfedd, ai hymyl fel gwaith ymyl cwppan: [fel] blodeun lili, dwy fil o Bathau a anne ynddi.

27 Hefyd efe a wnaeth ddêc o yſtolion prês, pedwar cufydd [oedd] hŷd pobl yſtôl, a phedwar cufydd eu llêd, a thri chufydd eu huchter.

28 Ac dymma waith yr yſtolion, yſtlyſau [oedd] iddynt, a'r yſtlyſau [oeddynt] rhwng delltennau.

29 Ac ar yr yſtlyſau y rhai [oeddynt] rhwng y delltennau [yr oedd] llewod, [ac] ŷchen, a Cherubiaid: ac ar y dellt [yr oedd] yſtol oddi arnodd, ac oddi tann y llewod a'r ŷchen [yr oedd] cyſſylltiadau o waith teneu.

30 A phedair olwyn brês [oedd] i bób yſtôl, a phlangciau prês: ac yn eu pedair congl [yr oedd] derbynniadau iddynt hwy: tann y noe [yr oedd] derbyniadau wedi eu toddi ar gyfer pôb cyſſylltiad.

31 Ai genau [oedd] oddi fewn y cwmpas, ac oddi arnodd wrth [feſur] cufydd, canys ei genau hi oedd grwnn ar waith yr yſtôl yn gufydd a hanner: ac ar ei hymyl hi [yr oedd] cerfiadau, ai hyſtlyſau hwynt [oeddynt] yn bedwar ochrog, [ac] nid yn grynnion.

32 A'r pedair olwyn [oedd] tann yr yſtlyſau, ac echelau yr olwynion trwy yr yſtôl: ac vchter pôb olwyn yn gufydd, a hanner cufydd.

33 Gwaith yr olwynion hefyd [oedd] fel gwaith olwynion menn, ei hechelau, ai bothau, ai cammegau, ai hadenydd [oeddynt] oll yn dawdd.

34 Ac [yr oedd] pedwar derbynniad ar bedair congl pôb yſtôl, o'r yſtôl [yr oedd] ei derbyniadau hi.

35 Ac ar benn yr yſtôl [yr oedd] cwmpas o amgylch o hanner cufydd o vchter, ar benn yr yſtôl hefyd [yr oedd] ei hymylau, ai hyſtlyſau, o honi ei hun.

36 Ac efe a gerfiodd ar yſtyllod ei hymylau hi, ac ar ei hyſtlyſau hi Gerubiaid, llewod, a phalm-wŷdd wrth yſtlys eu gilydd, a'r cyſſylltiadau iddi o amgylch.

37 Fel hyn y gwnaeth efe y dêc yſtôl, vn doddiad, vn feſur, ac vn agwedd [oedd] iddynt hwy oll.

38 Gwnaeth hefyd ddeng noe brês, deugain Bath a ddalie pôb noe, yn bedwar cufydd bôb noe, [a] phôb noe ar vn yſtôl, o'r dec yſtôl.

29 Ac efe a roddes bump yſtôl ar yſtlys dehau y tŷ, a phump ar yr yſtlys aſſwy i'r tŷ: a'r gerwyn a roddes efe tu y dehau i'r tŷ tua yr dwyrain, ar gyfer y dehau.

40 Gwnaeth Hiram hefyd noeau, a rhawiau a chawgiau, a Hiram a orphennodd wneuthur yr holl waith, yr hwn a wnaeth efe i'r brenin Salomon [yn] nhŷ yr Arglwydd.

41 Y ddwy golofn, a'r cnappiau coronoc y rhai oeddynt ar benn y ddwy golofn, a dwy bleth i guddio y ddau gnapp coronoc y rhai [oeddynt] ar y colofnau.

42 A phedwar cant o bomgranadau yn y ddwy bleth: dwy rês o bomgranadau [oedd] ar hyd pôb pleth, i guddio y ddau gnapp coronoc y rhai [oeddynt] ar benn y colofnau.

43 A'r dêc yſtôl, a'r dêc noe ar yr yſtôlion.

44 Ac vn gerwyn, a deuddec o ŷchen tann y gerwyn.

45 A'r crochanau, a'r rhawiau a'r cawgiau, a'r holl leſtri y rhai a wnaeth Hiram i'r brenin Salomon [yn] nhŷ yr Arglwydd [oeddynt] o brês gloyw.

46 Yng-waſtadedd Iorddonen y toddodd y brenin hwynt mewn clei-dir, rhwng Succoth, a Zarthan.

47 A Salomon a beidiodd [a phwyſo] yr holl leſtri rhac mor ddirfawr aml [oeddynt:] anfeidrol oedd pwys y prês.

48 A Salomon a wnaeth yr holl ddodrefn y rhai [a berthynent i] dŷ yr Arglwydd: ſef yr allor aur, a'r bwrdd aur, yr hwn [yr oedd] y bara goſod arno.

49 A phump canhwyll-bren o'r tu dehau, a phump o'r tu aſſwy o flaen y gafell yn aur pur, a'r blodau, a'r luſernau, a'r gefeiliau o aur.

50 Y phiolau hefyd, a'r pſaltringau, a'r cawgiau, a'r llwyau, a'r thuſſerau o aur coeth, a bachau dôrau y tŷ o fewn y cyſſegr ſancteiddiaf, a dorau tŷ y deml [oeddynt] aur.

51 Felly y gorphennwyd yr holl waith yr hwn a wnaeth y brenin Salomon i dŷ yr Arglwydd, a Salomon a ddûg * yr hyn a gyſſegraſe Dafydd ei dâd: yr arian, a'r aur, a'r dodrefn a roddodd efe ym mhlith tryſſorau tŷ yr Arglwydd.

2.Cron.5.1.

## PEN. VIII.

Dygiad yr Arch i'r deml. 10 Gogoniant yr Arglwydd yn llenwi y deml. 15 Diolch Salomon, ai weddi.

2.Cron.5.2. YNa * Salomon a gaſclodd henuriaid Iſrael, a holl bennau y llwythau, a thywyſogion tadau meibion Iſrael at y brenin Salomon yn Ieruſalem, i ddwyn i fynu Arch cyfammod yr Arglwydd o ddinas Dafydd, honno [yw] Sion.

2 A holl wŷr Iſrael a ymgynnullaſant at y brenin Salomon ar yr ŵyl ym mîs Ethanim: hwnnw [yw] y ſeithfed mîs.

3 A holl henuriaid Iſrael a ddaethant: a'r offeiriaid a ddugaſant yr Arch.

4 Hwy a ddugaſant i fynu Arch yr Arglwydd, a phabell y cyfarfod, a holl leſtri y cyſſegr y rhai [oeddynt] yn y babell: a'r offeiriaid a'r Lefiaid ai dugaſant hwy i fynu.

5 A'r brenin Salomon, a holl gynnulleidfa Iſrael y rhai a ymgynnullaſent atto ef [oeddynt] gyd ag ef o flaen yr Arch, yn aberthu defaid, a gwartheg, y rhai ni rifwyd, ac ni chyfrifwyd rhac amldra.

6 Felly yr offeiriaid a ddugaſant Arch cyfammod yr Arglwydd iw lle ei hun, i gafell y tŷ, i'r cyſſegr ſancteiddiaf, tan adenydd y Cerubiaid.

7 Canys y Cerubiaid oeddynt yn lledu eu hadenydd tros le yr Arch: a'r Cerubiaid a oruchguddient yr Arch, ai barrau oddi arnodd.

8 A'r barrau a eſtynnaſant fel y gwelyd blaeniau y barrau o'r cyſſegr o flaen y gafell, ond nis gwelyd oddi allan: yno y buant hwy hyd y dydd hwn.

9 Nid [oedd] yn yr Arch onid y ddwy lêch faen y rhai a oſodaſe Moſes yno, yn Horeb: lle y cyfammododd yr Arglwydd a meibion Iſrael, wrth fyned o honynt o wlâd yr Aipht.

10 A phan ele yr offeiriaid allan o'r cyſſegr: Exod.40.34. yna * y cwmwl a lanwe dŷ yr Arglwydd,

11 Fel na alle yr offeiriaid ſefyll i waſanaethu rhac y cwmwl: canys gogoniant yr Arglwydd a lanwe dŷ yr Arglwydd.

12 Yna y dywedodd Salomon: yr Arglwydd 2.Cron.6.1. a * ddywedodd y preſwylie efe yn y cwmwl tywyll.

13 Gan adailadu yr adailedais dŷ yn breſwylfod i ti: trig-le i ti i aros yn dragywydd.

14 A'r brenin a drôdd ei wyneb, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Iſrael: canys holl gynnulleidfa Iſrael oedd yn ſefyll [yno.]

15 Ac efe a ddywedodd, bendigedic [fyddo] Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn a lefarodd ai enau wrth Ddafydd fy nhâd: ac ai cwplaodd ai law gan ddywedyd:

16 Er y dydd y dugum fy mhobl Iſrael o dîr yr Aipht ni ddewiſais ddinas o holl lwythau Iſrael i adailadu tŷ fel y bydde fy enw i yno: 2.Sam.7.8. * eithr dewiſais Ddafydd i fod ar fy mhobl Iſrael.

17 Ac yr oedd ym mryd Dafydd fy nhâd i adailadu tŷ i enw Arglwydd Dduw Iſrael.

18 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ddafydd fy nhâd i, o herwydd bôd yn dy frŷd ti adailadu tŷ i'm henw i: da y gwnaethoſt am fod [hynny] yn dy feddwl,

19 Etto nid adailedi di y tŷ: onid dy fâb di yr hwn a ddaw allan o'th lwynau di, efe a adailada y tŷ i'm henw i.

20 A'r Arglwydd a ſiccrhaodd ei air yr hwn a lefarodd efe: a mi a gyfodais dros Ddafydd fy nhâd, ac a eiſteddais ar deyrn-gader Iſrael, megis y llefarodd yr Arglwydd, ac a adailedais dŷ i enw Arglwydd Dduw Iſrael.

21 A mi a oſodais yno le i'r Arch, yr hon [y mae] ynddi gyfammod yr Arglwydd: yr hwn a gyfammododd efe a'n tadau, pan ddûg efe hwynt allan o wlâd yr Aipht.

22 Yna Salomon a ſafodd * o flaen allor yr 2.Cron.6.15. Arglwydd ger bron holl gynnulleidfa Iſrael: ac a eſtynnodd ei ddwylo tua yr nefoedd.

23 Ac efe a ddywedodd, * ô Arglwydd Dduw Mac.2.8. Iſrael nid [oes] Duw fel tydi yn y nefoedd oddi uchod, nac yn y ddaiar oddi iſod: yn cadw y cyfammod, a'r drugaredd a'th weiſion, y rhai ydynt yn rhodio ger dy fron di ai holl galon.

24 Yr hwn a gedwaiſt a'th wâs Dafydd fy nhâd yr hyn a leferaiſt wrtho ef: fel y tracthaiſt a'th enau, felly y cwpleaiſt a'th law megis heddyw.

25 Ac * yn awr ô Arglwydd Dduw Iſrael ca- 2.Cro.6.16.
dw a'th wâs Dafydd fy nhâd yr hyn a lefaraiſt
wrtho ef gan ddywedyd, * ni thorrir ymmaith Pen.2.4.
oddi wrthit [fel na byddo] gŵr ger fy mron i yn eiſtedd ar deyrn-gader Iſrael: os dy feibion a gadwant eu ffordd gan rodio ger fy mron i, megis y rhodiaiſt di ger fy mron.

26 Yn awr gan hynny ô Dduw Iſrael: poed gwîr fyddo y gair yr hwn a leferaiſt wrth dy wâs Dafydd fy nhâd.

27 Ai gwîr yw y preſwylia Duw ar y ddaiar? wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd ni'th gynhwyſant, pa feint lai [y dichon] y tŷ hwn yr hwn a adailedais i?

28 Edrych gan hynny ar weddi dy wâs, ac ar ei ddeiſyfyad ef ô Arglwydd fy Nuw: i wrando ar y llef a'r weddi yr hon y mae dy wâs yn ei weddio heddyw ger dy fron di.

29 Fel y byddo dy lygaid yn agored tua yr tŷ ymma nôs a dydd, tua yr lle [am] yr hwn y dywedaiſt, * fy enw a fydd yno: i wrando ar y Deut.12.11. weddi yr hon a weddio dy wâs yn y lle hwnnw.

30 Gwrando gan hynny ddeiſyfyad dy wâs, a'th bobl Iſrael y rhai a weddiant yn y lle hwn: clyw di hefyd o le dy breſwylfa [ſef] o'r nefoedd, a phan glywech maddeu.

31 Pan becho gŵr yn erbyn ei gymydog, a chynnig iddo raith, gan ei dyngu ef: yna deued y llw o flaen dy allor di yn y tŷ hwn.

32 Yna clyw di o'r nefoedd, gwna hefyd,

a

a barn dy weiſion, gan farnu y drygionus yn ddrygionus, drwy roddi ei ffordd ef ar ei ben: a chan gyfiawnhau y cyfiawn, drwy roddi iddo ef yn ôl ei gyfiawnder.

33 Pan leddir dy bobl di Iſrael o flaen y gelyn am iddynt bechu yn dy erbyn di: os dychwelant attat ti, a chyfâdde dy enw, a gweddîo, ac deiſyf arnat ti yn y tŷ hwn:

34 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu di bechod dy bobl Iſrael: a dychwel hwynt i'r tîr yr hwn a roddaiſt iw tadau hwynt.

35 Pan gaeir y nefoedd fel na byddo glaw, o herwydd pechu o honynt i'th erbyn: os gweddîant yn y lle hwn, a chyfâddef dy enw, a dychwelyd o honynt oddi wrth eu pechod pan gyſtuddiech di hwynt,

36 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu di bechodau dy weiſion, a'th bobl Iſrael, (fel y dyſcech iddynt y ffordd oref yr hon y rhodiant ynddi) a dyro law ar y tîr yr hwn a roddaiſt i'th bobl yn etifeddiaeth.

2.Cron.6.28. 37 Pan fyddo newyn yn y tîr, pan fyddo haint, drydanieth, mallwod, ceiliogod rhedyn neu fod locuſtiaid, pan warchao ei elyn arno ef, yn ninaſoedd ei wlad ef: [neu] pa blâ bynnac, [neu] glefyd bynnac,

38 Pôb gweddi, pôb deiſyfiad a'r a fyddo gan vn dyn, [neu] gan holl bobl Iſrael: pan ŵypo pawb blâ ei galon ei hun, ac eſtyn ei ddwylo tua yr tŷ hwn,

39 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breſſwylfod, a maddeu di, gwna hefyd, a dŷro i bôb vn yn ôl ei holl ffyrdd ef, yr hwn a adwaenoſt ei galon ef: canys ti yn vnic a adwaenoſt galon holl feibion dynion,)

40 Fel i'th ofnant di yr holl ddyddiau y rhai y byddant hwy byw ar wyneb y ddaiar: yr hon a roddaiſt i'n tadau ni.

41 Ac am y dieithr-ddyn hefyd yr hwn ni [byddo] o'th bobl di Iſrael: onid dyfod o wlâd bell er mwyn dy enw,

42 (Pan glywant dy enw mawr di, a'th law gadarn, a'th fraich eſtynnedic) a dyfod, a gweddîo yn y tŷ hwn,

43 Gwrando di o'r nefoedd, mangre dy breſſwylfod, a gwna yn ôl yr hyn oll a'r a lefo y dieithr-ddyn attat: fel yr adwaeno holl bobl y ddaiar dy enw di, i'th ofni di fel dy bobl Iſrael, ac i ŵybod mai ar dy enw di y gelwir yn y tŷ hwn, yr hwn a adailedais i.

44 Pan êl dy bobl di allan i ryfel yn erbyn eu gelyn ar hyd y ffordd yr anfonech hwynt: os gweddîant ar yr Arglwydd * [tua] ffordd y ddinas yr hon a ddewiſaiſt, a'r tŷ yr hwn a adailedais i'th enw di, Dan.6.10.

45 Yna gwrando o'r nefoedd ar eu gweddi hwynt, ac ar eu deiſyfiad hwynt: a gwna farn a hwynt.

2.Cron.6.36. eccle.7.21. 46 Os pechant i'th erbyn (*canys nid [oes] ddyn yr hwn ni phecha) a digloni o honot iw herbyn, ai rhoddi hwynt o flaen eu gelynnion, fel y caeth-gludant hwynt yn gaethion i wlâd y gelyn ym mhell neu yn agos,

47 Os dychwelant at eu calon (yn y wlâd yr hon y caeth-gludwyd hwynt iddi:) a dychwelyd, ac erfyn arnat yng-wlâd y rhai ai caeth-gludaſant gan ddywedyd, pechaſom, troſeddaſom hefyd, a gwnaethom yn annuwiol.

48 Os dychwelant attat ti ai holl galon, ac ai holl enaid yng-wlad eu gelynnion y rhai ai caeth-gludaſant hwynt, a gweddio attat ti tua eu gwlâd, yr hon a ddewiſaiſt, a'r tŷ yr hwn a adailedais i'th enw di,

49 Yna gwrando di o'r nefoedd (mangre dy breſſwylfod) eu gweddi hwynt, ai deiſyfiad hwynt: a gwna farn a hwynt.

50 Ac arbed dy bobl y rhai a bechâſant i'th erbyn, ai holl gamweddau [yn] y rhai y troſeddaſant i'th erbyn: a phâr iddynt fod yn gymmeradwy ger bron y rhai ai caeth-gludaſant, fel y trugarhânt wrthynt hwy:

51 Canys dy bobl di a'th etifeddiaeth [ydynt] hwy: y rhai a ddugoſti allan o'r Aipht o ganol y ffwrn haiarn,

52 Fel y byddo dy lygaid yn agored tu ag at ddeiſyfiad dy wâs, a deiſyfiad dy bobl Iſrael: i wrando arnynt hwy pa bryd bynnac y galwant arnat ti.

53 Canys ti ai neilltuaiſt hwynt yn etifeddiaeth i ti o holl bobl y ddaiar: fel y lleferaiſt drwy law Moſes dy wâs pan ddygaiſt allan ein tadau ni * o'r Aipht, ô Arglwydd Iôr. Exod.19.6.

54 A phan orphennodd Salomon weddio ar yr Arglwydd yr holl weddi, ar deiſyfiad ymma: efe a gyfododd o flaen allor yr Arglwydd, o oſtwng ar ei liniau, ac o eſtyn ei ddwylo tua yr nefoedd,

55 Yna efe a ſafodd, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Iſrael a llef vchel gan ddywedyd,

56 Bendigêdic [fyddo] yr Arglwydd yr hwn a roddes lonyddwch iw bobl Iſrael, yn ôl yr hyn oll a lefarodd efe: ni ſyrthiodd vn gair oi ymadroddion dâ ef y rhai a lefarodd efe trwy law Moſes ei wâs.

57 Yr Arglwydd ein Duw fyddo gyd a ni, fel y bu efe gyd a'n tadau: na wrthoded ni, ac na'n gadawed ni:

58 I droi ein calônau ni atto ef: i rodio yn ei holl ffyrdd ef, ac i gadw ei orchymynnion ef, ai ddeddfau, ai farnedigaethau, y rhai a orchymynnodd efe i'n tadau ni.

59 A bydded fyng-eirau hyn y rhai a ddeiſyfiais ger bron yr Arglwydd, yn agos at fy Arglwydd Dduw ddydd a nôs: i wneuthur barn ai wâs, a barn ai bobl Iſrael, beunydd fel y byddo yr achos.

60 Fel y gŵypo holl bobl y ddaiar mai yr Arglwydd [yw] yr Duw hwnnw: ac nad [neb] amgen.

61 Bydded gan hynny eich calon yn berffaith gyd a'r Arglwydd ein Duw ni: i rodio yn

ei ddeddfau ef, ac i gadw ei orchymynnion ef fel heddyw.

62 Yna y brenin a holl Iſrael gyd ag ef a aberthaſant aberth ger bron yr Arglwydd.

2.Cron.7.3. 63 A *Salomon a aberthodd yno yr aberth hedd (yr hwn a offrymmodd efe i'r Arglwydd) [ſef] dwy fil ar hugain o wartheg, a chwech vgain mil o ddefaid: felly y brenin a holl feibion Iſrael a gyſſegraſant dŷ yr Arglwydd.

64 Y dwthwn hwnnw y ſancteiddiodd y brenin ganol y cyntedd yr hwn [oedd] o flaen tŷ yr Arglwydd, canys yno y paratoeſe efe y poeth-offrwm, a'r bwyd offrwm, a braſder yr offrymmau hedd: o herwydd yr allor brês yr hon [oedd] ger bron yr Arglwydd [oedd] ry fechan i dderbyn y poeth offrwm, a'r bwyd offrwm, a braſder yr offrymmau hedd.

65 A Salomon a gadwodd y prŷd hynny ŵyl, a holl Iſrael gyd ag ef, yn gynulleidfa fawr o ddyfodfa Hamath hyd afon yr Aipht, ger bron yr Arglwydd ein Duw ni, ſaith o ddyddiau, a ſaith o ddyddiau: [ſef] pedwar diwrnod ar ddêc.

66 A'r wythfed dydd y gollyngodd efe ymmaith y bobl, a hwynt a fendithiaſant y brenin: ac a aethant iw pabellau yn hyfryd, ac a chalon lawen, am yr holl ddaioni yr hwn a wnaethe yr Arglwydd i Ddafydd ei wâs, ac i Iſrael ei bobl.

## PEN. IX.

Ymddangoſiad yr Arglwydd i Salomon yr ail waith. 11 Anfodlonrwydd Hiram i'r dinaſoedd y rhai a roddodd Salomon iddo ef. 14 Yr ardreth yr oedd Salomon yn ei gael. 25 A'r modd yr oedd efe yn cyrchu aur o bell.

2.Cron.7.11. PAn orphennodd Salomon adailadu tŷ yr Arglwydd, a thŷ yr brenin: a chwbl o ddymuniad Salomon, yr hyn a ewyllyſiodd efe ei wneuthur:

2 Yna yr Arglwydd a ymddangoſodd i Salomon yr ail-waith: fel yr ymddangoſaſe iddo ef yn Gibeon. Pen 3.5.

Pen.8.29. deut.12.11. 3 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, gwrandewais dy weddi di, a'th ddeiſyfiad ti yr hwn a ddeiſyfiaiſt, ger fy mron i, cyſſegrais y tŷ ymma yr hwn a adailedaiſt * i oſod fy enw yndo byth: fy llygaid hefyd, a'm calon fyddant yno yr holl ddyddiau.

4 Ac os rhodî di ger fy mron i megis y rhodiodd Dafydd dy dad ti, mewn perffeithrwydd calon, ac iniondeb, gan wneuthur yn ôl yr hyn oll a orchymynnais i ti: [a] chadw o honot fy neddfau, a'm barnedigaethau maufi,

2.Sam.7.12. 1.cron.22.10. 5 Yna mi a ſiccrhâf orſedd-faingc dy frenhiniaeth ar Iſrael yn dragywydd, fel y lleferais wrth Ddafydd dy dâd, gan ddywedyd, * ni thorrir ymmaith oddi wrthit ti ŵr oddi ar orſedd-faingc Iſrael.

6 Os gan ddychwelyd y dychwelwch chwi a'ch meibion oddi ar fy ôl i, ac heb iwch gadw fyng-orchymynnion [a'm] deddfau, y rhai a roddais o'ch blaen chwi: eithr myned o honoch, a gwaſanaethu duwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt hwy,

Iere.7.14. 7 Yna y torraf Iſrael oddi ar ŵyneb y ddaiar yr hon a roddais iddynt hwy, a'r tŷ yr hwn * a gyſſegrais i'm enw a fwriaf o'm gŵydd: ac Iſrael fydd yn ddammeg, ac yn ddihareb ym myſc yr holl bobloedd.

Deut.29.24. iere.22.8. 8 A'r tŷ uchel hwn fydd [yn ſiampl,] pawb a gynniwero heibio iddo ef, a ſynna, ac a chwibiana: dywedant hefyd, *pa ham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r wlâd hon, ac i'r tŷ ymma?

9 Ac hwy a ddywedant, am iddynt wrthod yr Arglwydd eu Duw yr hwn a ddûg eu tadau hwynt allan o dir yr Aipht, ac iddynt ymaflyd mewn duwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt, ai gwaſanaethu hwynt: am hynny y dûg yr Arglwydd arnynt hwy yr holl ddrwg hyn.

2.Cron.8.1. 10 Ac * ym mhen yr vgain mlynedd [yn] y rhai yr adailadodd Salomon y ddau dŷ: ſef tŷ yr Arglwydd, a thŷ yr brenin,

11 (Am] i Hiram brenin Tyrus ddwyn i Salomon goed cedr, a choed ffynidwydd, ac aur yn ôl ei holl ewyllys ef) yna yr brenin Salomon a roddes i Hiram vgain nhinas yng-wlâd Galile.

12 A Hiram a aeth o Dyrus i edrych y dinaſoedd y rhai a roddaſe Salomon iddo ef, ac nid oeddynt wrth ei fodd ef.

13 Ac efe a ddywedodd, pa ddinaſoedd [yw] y rhai hyn, y rhai a roddaiſt i mi fy mrawd? ac efe ai galwodd hwynt gwlâd Cabul hyd y dydd hwn.

14 A Hiram a anfonaſe i'r brenin chwech vgain talent o aur.

15 Ac dymma ſwmm y drêth yr hon a gododd y brenin Salomon i adailadu tŷ yr Arglwydd, ai dŷ ei hun, a Milo, a mur Ieruſalem: Hazor hefyd, a Megido, a Gezer.

16 Pharao brenin yr Aipht a ddaeth i fynu, ac a ennillodd Gezer, ac ai lloſcodd hi a thân, ac a laddodd y Canaaneaid y rhai oeddynt yn trigo yn y ddinas: ac ai rhoddodd hi yn anrheg iw ferch gwraig Salomon.

17 Am hynny Salomon a adailadodd Gezer, a Beth-horon iſſaf,

2.Cron.8.4. 18 Baalath hefyd, a Thamor yn yr anialwch [ac] yn y wlâd.

19 A holl ddinaſoedd y tryſſorau y rhai oeddynt gan Salomon, ſef dinaſoedd y cerbydau, a dinaſoedd y gwŷr meirch: a'r hyn [oedd] ewyllys gan Salomon a fynnodd efe adailadu yn Ieruſalem, ac yn Libanus, ac yn holl dir ei arglwyddiaeth ef.

20 Yr holl bobl y rhai a adawyd o'r Amoriaid, Hethiaid, Periziaid, Hefiaid, a'r Iebuſiaid y rhai nid oeddynt o feibion Iſrael:

21 [Sef] eu meibion hwy y rhai a drigaſant ar eu hôl hwynt yn y wlâd, y rhai ni allodd meibion Iſrael eu lladd: hwynt a wnaeth Salomon yn drethawl hyd y dydd hwn.

Leuit.25.39. 22 Ond o feibion Iſrael * ni roddodd Salomon [vn] yn [gaeth] wâs: canys hwynt [oeddynt] ryfel-wŷr, a gweiſion iddo ef, a thywyſogion iddo ef, a chapteniaid iddo ef, a thywyſogion ei gerbydau ef, ai wŷr meirch ef.

23 Y rhai hyn [oeddynt] dywyſogion y ſwyddogion y rhai [oeddynt] ar waith Salomon: [ſef] pump cant, a dêc a deugain oeddynt yn llywodraethu 'r bobl y rhai oeddynt yn gweithio yn y gwaith.

24 A merch Pharao a ddaeth i fynu o ddinas Dafydd iw thŷ ei hun yr hwn a adailadaſe [Salomon] iddi hi: yna efe a adailadodd Millo.

25 A thair gwaith yn y flwyddyn yr offrymmodd Salomon boeth offrymmau, ac offrymmau hedd ar yr allor yr hon a adailadaſe efe i'r Arglwydd, ac a arogl-darthodd arni hi, yr hon [oedd] ger bron yr Arglwydd, pan orphennodd efe y tŷ.

26 A'r brenin Salomon a wnaeth longau yn Aſion Gaber yr hon [ſydd] wrth Eloth ar fîn y môr côch yng-wlâd Edom.

27 A Hiram a anfonodd ei weiſion yn y llongau [y rhai oeddynt] long-wŷr yn medru [oddi wrth] y môr, gyd a gweiſion Salomon.

28 Ac hwy a ddaethant i Ophir, a dugaſant oddi yno bedwar cant ac vgain o dalentau aur: ac ai cywainaſant at y brenin Salomon.

## PEN. X.

Y frenhines Saba yn dyfod i ymweled ac i ofwyo Salomon, ac yn dychwelyd wedi clywed, a gweled arwyddion oi ddoethineb, ai gyfoeth ai gadernid ef, a rhoddi o bob vn roddion mawr iw gilydd.

2.Cron.9.1. Math.12.42. Luc.11.31. PAN glybu brenhines * Saba glôd Salomon drwy enw 'r Arglwydd: yna hi a ddaeth iw brofi ef mewn cweſtiwnau caled.

2 A hi a ddaeth i Ieruſalem a llu mawr iawn, a chamêlod yn dwyn pêr aroglau, ac aur lawer iawn, a meini gwerthfawr: a hi a ddaeth at Salomon, ac a leſarodd wrtho ef yr hyn oll oedd yn ei chalon.

3 A Salomon a fynegodd iddi hi ei holl ofynion hi: nid oedd dim yn guddiedic rhac y brenin, a'r na fynegodd efe iddi hi.

4 Yna y canfu brenhines Saba holl ddoethineb Salomon: a'r tŷ 'r hwn a adailadaſe efe.

5 A bwyd ei fwrdd ef, ac eiſteddiad ei weiſion ef, a threfn ei weinidogion ef, ai gwiſcoedd hwynt, ai drulliadau ef, ai boeth offrymmau ef y rhai a offrymmodd efe yn nhŷ 'r Arglwydd: ac nid oedd mwyach yſpryd ynddi hi.

6 A hi a ddywedodd wrth y brenin, gwîr yw 'r gair yr hwn a glywais yn fyng-wlâd am dy ymadroddion di, ac am dy ddoethineb.

7 Etto ni chredais i eiriau [rhai eraill], nes i'm ddyfod ac i'm llygaid weled, ac wele ni fynegaſid i mi 'r hanner: [canys] mwy yw dy ddoethineb, a'th ddaioni, na'r glôd yr hon a glywais.

8 Gwynfŷd dy wŷr di, gwynfydedic [yw] dy weiſion hyn, y rhai ydynt yn ſefyll yn waſtadol ger dy fron di yn clywed dy ddoethineb.

9 Bendigedic fyddo dy Arglwydd Dduw 'r hwn a'th hoffodd di i'th roddi ar deyrn-gader Iſrael: o herwydd cariad yr Arglwydd tu ag at Iſrael yn dragywydd, y goſododd efe di yn frenin i wneuthur barn, a chyfiawnder.

10 A hi a roddes i'r brenin chwech vgain talent o aur, a phêr aroglau lawer iawn, a meini gwerthfawr: ni ddaeth y fath bêr arogl a hwn mwyach cyn amled, [ſef] yr hwn a roddes brenhines Saba i'r brenin Salomon.

11 A llongau Hiram hefyd (y rhai a gludaſant aur o Ophir) a ddugaſant ó Ophir lawer iawn o goed * Almugim, ac o feini gwerthfawr. 2.Cron.9.10. & 2.Cron.2.8.

12 A'r brenin a wnaeth o'r coed Almugim annêlau i dŷ 'r Arglwydd, ac i dŷ 'r brenin, a thelŷnau, a pſaltringau i'r cantorion: ni ddaeth o'r fath goed Almugim, ac nis gwelpwyd hyd y dydd hwn.

13 A'r brenin Salomon a roddes i frenhines Saba ei holl ddymuniad, yr hyn a ofynnodd hi, heblaw 'r hyn a roddodd efe iddi hi drwy ei law ei hun: felly hi a ddychwelodd, ac a aeth iw gwlâd, hi ai gweiſion.

14 A phwys yr aur yr hwn a ddaeth i Salomon bob blwyddyn oedd chwe chant, a thri vgain, a chwech o dalentau aur.

15 Heblaw ['r hyn a gai efe] gan y marchnadwŷr, a marſiandiaeth y llyſſieuwŷr: a chan holl frenhinoedd Arabia, a thywyſogion y wlâd.

16 A'r brenin Salomon a wnaeth ddau cant o dariannau aur dilin: chwech chant [ſicl] o aur a roddodd efe ym mhob tarian.

17 A thrychant o dariannau o aur dilin, tair punt o aur a roddes efe ym mhob tarian: a'r brenin ai rhoddes hwynt yn nhŷ * coed Libanus. Pen.7.2.

18 A'r brenin a wnaeth orſedd-faingc fawr o Ifori: ac ai goruchguddiodd a'r aur o'r goref. 2.Cron.9.17.

19 Chwech o riſiau [oeddynt] i'r orſedd-faingc, a phenn crwn [oedd] i'r orſedd-faingc o'r tu ôl iddi, a chanllawiau o bob tu i'r eiſtedd le: a dau lew yn ſefyll wrth ymyl y canllawiau.

20 A deuddec o lewod yn ſefyll yno ar y chwe grîs o bob tu: ni wnaethpwyd felly yn vn o'r teyrnaſoedd.

21 A holl leſtri yfed y brenin Salomon [oeddynt] o aur, a holl leſtri tŷ coed Libanus [oeddynt] aur pur: nid [oedd] arian [ynddynt: canys] ni roddid dim bri arno yn nyddiau Salomon.

22 O herwydd llongau Tharſis [oedd] gan y brenin ar y môr gyd a llongau Hiram: vnwaith yn y tair blynedd y deue llong Tharſis * yn dwyn aur, ac arian, ac Ifori, ac eppâod, a pheunod 2.Cron.9.21.

23 A'r brenin Salomon a ragórodd ar holl frenhinoedd y ddaiar: mewn cyfoeth a doethineb.

24 A'r holl fŷd oeddynt yn ceiſio [gweled] wyneb Salomon: i wrando ei ddoethineb ef yr hwn a roddaſe Duw yn ei galon ef.

25 A hwynt a ddugaſant bob un ei anrheg, lleſtri arian, a lleſtri aur, a gwiſcoedd, ac arfau, a phêr aroglau, meirch, a mulod, bob blwyddyn.

26 Yna Salomon a gaſclodd gerbydau, a marchogion, ac yr oedd ganddo ef fil a phedwar cant o gerbydau, a deuddeng-mil o farchogion: ac ai dûg hwynt i ddinaſoedd y cerbydau, ac at y brenin yn Ieruſalem.

27 A'r brenin a roddes yr arian yn Ieruſalem fel cerrig: a'r cedr-wŷdd a roddodd efe fel y ffiguſ-wŷdd gwylltion y rhai [ydynt] yn aml mewn dol-dir.

28 A mynediad y meirch y rhai [oeddynt] gan Salomon [oedd] o'r Aipht, a lliain main: marchnadyddion y brenin a gymmeraſant y lliain main dan bris.

29 Ac un cerbyd a ddeue i fynu, ac a âe allan o'r Aipht, am chwech chant [ſicl] o arian, a march am gant a dec a deugain: ac fel hyn i holl frenhinoedd yr Hethiaid, a brenhinoedd Syria y dugaſant hwy [feirch] trwy eu llaw hwynt.

## PEN. XI.

Nifer gwragedd, a gordderchadon Salomon: a'r gau-dduwiaeth yr hon y dygaſant hwy ef iddi.

Deut.17.17.
Eccleſ.47.19.

A'R brenin Salomon a *garodd lawer o wragedd dieithr, a merch Pharao: [a'r] Moabieſau, Ammonieſau, Edomieſau, Sidonieſau, [a'r] Hethieſau,

Exod.34.16.

2 O'r cenhedloedd [am] y rhai y dywedaſe yr Arglwydd wrth feibion Iſrael, *nac ewch i mewn attynt hwy, ac na ddeuant hwythau i mewn attoch chwi, diau y troant eich calonnau chwi ar ôl eu duwiau hwynt: wrthynt hwy y glynodd Salomon mewn cariad.

3 Ac yr oedd ganddo ef ſaith gant o wragedd yn frenhineſau a thrŷ-chant o ordderch-wragedd: ai wragedd a droaſant ei galon ef.

4 Pan heneiddiodd Salomon, ei wragedd ef a droaſant ei galon ef ar ôl duwiau dieithr: fel nad oedd ei galon ef berffaith gyd a'r Arglwydd ei Dduw, fel [y buaſe] calon Dafydd ei dâd ef.

Barn.2.13.

5 Canys Salomon a aeth ar ôl *Aſtaroth duw y Sidoniaid: ac ar ôl Milcom ffieidd-dra'r Ammoniaid.

6 Felly Salomon a wnaeth yr hyn [oedd] ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: ac ni chyflawnodd [fyned] ar ôl yr Arglwydd fel Dafydd ei dâd.

7 Yna Salomon a adailadodd uchelfa i Chamos ffieidd-dra Moab mewn mynydd yr hwn [ſydd] ar gyfer Ieruſalem: ac i Moloch ffieidd-dra meibion Ammon.

8 Ac felly y gwnaeth efe iw holl wragedd dieithr: y rhai a arogl-darthaſant, ac a aberthaſant iw duwiau.

9 Am hynny yr Arglwydd a ddigiodd wrth Salomon: o herwydd troi ei galon ef oddi wrth Arglwydd Dduw Iſrael, yr hwn a ymddangoſaſe iddo ef *ddwy waith.

Pen.3.5.& 9.2

Pen.6.12.

10 Ac a orchymynnaſe iddo *am y peth hyn, nad ele efe ar ôl duwiau dieithr: ond ni chadwodd efe yr hyn a orchymynnaſe yr Arglwydd.

11 Am hynny y dywedodd yr Arglwydd wrth Salomon, o herwydd bod hyn ynot ti, ac na chedwaiſt fyng-hyfammod, a'm deddfau y rhai a orchymynnais i ti: gan rwygo y *rhwygaf y frenhiniaeth oddi wrthit ti, ac ai rhoddaf hi i'th wás di.

Pen.12.15.

12 Etto yn dy ddyddiau di ni wnaf hyn er mwyn Dafydd dy dâd: o law dy fâb di y rhwygaf hi.

13 Ond ni rwygaf yr holl frenhiniaeth, un llwyth a roddaf i'th fab di: er mwyn Dafydd fyng-wâs, ac er mwyn Iéruſalem yr hon a etholais i.

14 Yna'r Arglwydd a gyfododd wrthwyneb-wr i Salomon, ſef Hadad yr Edomiad, o hâd y brenin, efe [oedd] yn Edom.

2.Sam.8.14.

15 Pan *oedd Dafydd yn Edom, [ac] Ioab tywyſog y filwriaeth yn myned i fynu i gladdu y lladdedigion: wedi iddo daro pob gwryw yn Edom,

16 (Canys chwe mîs yr arhoſodd Ioab yno, a holl Iſrael: nes difetha pob gwryw yn Edom.)

17 Yna'r Hadad hwnnw a ffôdd, a gwŷr Edom o weiſion ei dad ef gyd ag ef i fyned i'r Aipht: a Hadad [oedd] fachgen bychan.

18 A hwy a gyfodaſant o Madian, ac a ddaethant i Pharan: ac a gymmeraſant wŷr gyd a hwynt o Pharan, ac a ddaethant i'r Aipht at Pharao brenin yr Aipht, ac efe a roddes iddo ef dŷ, ac a ddywedodd [am roddi] bwyd iddo ef, ac a roddodd dîr iddo ef.

19 Felly Hadad a gafodd ffafor fawr yng-olwg Pharao: ac efe a roddes iddo ef yn wraig chwaer ei wraig ei hun, [ſef] chwaer Taphnes y frenhines.

20 A chwaer Taphnes a ymddug iddo ef Genubath ei fab, a Taphnes ai diddyfnodd ef yn nhŷ Pharao: a Genubath ſû yn nhŷ Pharao, ym myſc meibion Pharao.

21 Pan glybu Hadad yn yr Aipht, huno o Ddafydd gyd ai dadau, a marw o Ioab tywyſog y filwriaeth: yna Hadad a ddywedodd wrth Pharao, gollwng fi, fel yr elwyf i'm gwlâd fy hûn.

22 A dywedodd Pharao wrtho ef, pa beth ſydd arnat ei eiſieu gyd a mi, pan ydwyt yn ceiſio myned i'th wlâd dy hun? ac efe a ddywedodd, dim: eithr gan ollwng gollwng fi.

2.Sam.8.3.

23 A *Duw a gyfododd wrthwyneb-wr

yn ei erbyn ef, ſef Razon fab Eliada : yr hwn a ffoaſe oddi wrth Adadezer brenin Soba ei arglwydd.

24 Ac efe a gynhullodd wŷr atto ef, ac oedd yn dywyſog y fyddin, pan laddodd Dafydd hwynt : a hwy aethant i Ddamaſcus ; ac a drigaſant ynddi, ac a deyrnaſaſant yn Damaſcus.

25 Ac yr oedd efe yn wrthwyneb-wr i Iſrael holl ddyddiau Salomon, heb law y drygioni yr hwn [a wnaeth] Hadad: ac efe a ffieiddiodd Iſrael, ac a deyrnaſodd ar Syria.

2.Cron.13.6. 26 Ac *Ieroboam mab Nabat, Ephratead o Sareda, (ac enw ei fam ef [oedd] Serfa [yr hon oedd] wraig weddw) gwâs i Salomon, a dderchafodd hefyd [ei] law yn erbyn y brenin.

27 Ac o achos hyn y derchafodd efe [ei] law yn erbyn y brenin : [pan] adailadodd Salomon Milo, efe a gaeodd adwyau dinas Dafydd ei dâd.

28 Ac Ieroboam y gŵr hwn [oedd] gadarn o nerth: a Salomon a ganfu'r llangc hwnnw yn [medru] gwneuthur gwaith, yna efe ai gwnaeth ef yn oruchwiliwr ar holl faich tŷ Ioſeph.

29 A'r prŷd hynny pan aeth Ieroboam allan o Ieruſalem: yna y prophwyd Ahias y Siloniad ai cafodd ef ar y ffordd, ac efe oedd wedi ei wiſco mewn gwiſc newydd, a hwynt ill dau [oeddynt] yn vnic yn y maes.

30 Yna Ahias a ymaflodd yn y wiſc newydd yr hon [oedd] am dano ef : ac ai rhwygodd hi yn ddeuddec o ddarniau.

31 Ac efe a ddywedodd wrth Ieroboam, cymmer i ti ddeng-nharn : canys fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, wele fi yn rhwygo y frenhiniaeth o law Salomon, a mi a roddaf ddêc llwyth i ti.

32 Ac vn llwyth fydd iddo ef er mwyn fyng-wâs Dafydd, ac er mwyn Ieruſalem y ddinas yr hon a etholais i o holl lwythau Iſrael.

33 O blegit iddynt fyng-wrthod i, ac ymgrymmu i Aſtaroth Duw y Sidoniaid, [ac] i Chamos Duw y Moabiaid, ac i Milcom Duw meibion Ammon : ac na rodiaſant yn fy ffyrdd i, i wneuthur yr hyn oedd inion yn fyng-olwg i a'm deddfau, a'm barnedigaethau, fel Dafydd ei dad ef.

34 Ond ni chymmeraf yr holl frenhiniaeth oi law ef: eithr goſodaf ef yn dywyſog holl ddyddiau ei enioes, er mwyn Dafydd fyng-wâs yr hwn a ddewiſais i, canys efe a gadwodd fyng-orchymynnion, a'm deddfau mau fi.

Pen.12.15. 35 Eithr * cymmeraf y frenhiniaeth o law ei fab ef : a rhoddaf [o] honi i ti ddéc o'r llwythau.

36 Ac iw fab ef y rhoddaf vn llwyth : fel y byddo goleuni i'm gwâs Dafydd yr holl ddyddiau ger fy mron yn Ieruſalem, y ddinas yr hon a ddewiſais i mi, i oſod fy enw yno.

37 A thi a gymmeraſt fel y teyrnaſech ar yr hyn oll a ddymuno dy galon : a thi a fyddi frenin ar Iſrael.

38 Ac os gwrandewi di ar yr hyn oll a orchymynnwyf i ti, a rhodio yn fy ffyrdd i, a gwneuthur yr hyn [ſydd] inion yn fyng-olwg i, gan gadw fy neddfau, a'm gorchymynnion fel y gwnaeth Dafydd fyng-wâs : yna mi a fyddaf gyd a thi, ac a adailadaf i ti dŷ ſiccr fel yr adailedais i Ddafydd, ac mi a roddaf Iſrael i ti.

39 A mi a gyſtuddiaf hâd Dafydd o blegit hyn : etto nid yn dragywydd.

40 Am hynny Salomon a geiſiodd ladd Ieroboam : ond Ieroboam a gyfododd, ac a ffoawdd i'r Aipht at Seſac brenin yr Aipht, ac efe a fu yn yr Aipht hyd farwolaeth Salomon.

41 A'r rhan arall o eiriau Salomon, a'r hyn oll a wnaeth efe, ai ddoethineb ef : onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr ymadroddion Salomon?

42 A'r dyddiau [yn] y rhai y teyrnaſodd Salomon yn Ieruſalem ar holl Iſrael, [oeddynt] ddeugain mhlynedd.

43 Yna Salomon a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yn ninas Dafydd ei dad : a Rehoboam ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

## PEN. XII.

1 Rehoboam yn teyrnaſu ar ôl Salomō, a thrwy ei anghallineb ei hun yn colli deg o'r deuddeg llwyth. 20 Y rhai a dewiſaſant Ieroboam yn frenin arnynt.

YNa Rehoboam a aeth i Sichem : canys i Sichem y daethe holl Iſrael iw vrddo ef yn frenin. 2.Cron.10.1.

2 A phan glybu Ieroboam mab Nabat ac efe etto yn yr Aipht, canys efe *a ffoaſe rhac Salomon y brenin: (ac Ieroboam a arhoſaſe yn yr Aipht,) Pen.11.40.

3 Yna 'r anfonaſant, ac y galwaſant arno ef, ac Ieroboam a holl gynnulleidfa Iſrael a ddaethant : ac a ymddiddanaſant a Rehoboam gan ddywedyd,

4 Dy dâd ti * a wnaeth ein hiau ni yn drom : ac yn awr yſcafnhâ [bech] o gaethiwed caled dy dâd ti, ac oi iau drom ef yr hon a roddes efe arnom ni, ac ni a'th waſanaethwn di. Pen.4.7.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, ewch etto dridiau, yna dychwelwch attafi : a'r bobl a aethant.

6 A'r brenin Rehoboam a ymgynghorodd a'r henuriaid y rhai a fuaſent yn ſefyll o flaen Salomon ei dad ef, tra yr ydoedd efe yn fyw, gan ddywedyd : pa fodd yr ydych chwi yn cynghori atteb ymadrodd y bobl hyn?

7 A hwynt a lefaraſant wrtho ef gan ddywedyd, os byddi di heddyw wâs i'r bobl hyn, ai gwaſanaethu hwynt, ai hatteb hwynt, a llefaru wrthynt eiriau têg : yna y byddant yn weiſion i ti byth.

8 Ond efe a wrthododd gyngor yr henuriaid yr hwn a gynghoraſent iddo ef : ac efe a ymgynghorodd a'r bechgyn, y rhai a gynnyddaſent gyd ag ef, a'r rhai oeddynt yn ſefyll ger ei fron ef.

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, beth yr ydych chwi yn ei gynghori, fel yr attebom ymadrodd y bobl hyn: y rhai a lefaraſont wrthif gan ddywedyd, yſcafnhâ [beth] o'r iau 'r hon a roddodd dy dâd ti arnom ni?

10 Yna y bechgyn y rhai a gynnyddaſent gyd ag ef a lefaraſant wrtho ef gan ddywedyd, fel hyn y dywedi di wrth y bobl ymma y rhai a lefaraſant wrthit gan ddywedyd, dy dâd ti a drymhaodd ein hiau ni, ond yſcafnhâ di [hi[ oddiarnom ni: fel hyn y lleferi di wrthynt, fy [mŷs] bach [ſydd] freiſcach na llwynau fy nhâd.

11 Ac yn awr fy nhâd a'ch llŵythodd ag iau drom, a minne a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhâd a'ch coſpodd chwi a gwielyn, a mi a'ch coſpaf chwi a ffrewyllau.

12 Yna y daeth Ieroboam, a'r holl bobl at Rehoboam y trydydd dydd: fel y llefaraſe yr brenin gan ddywedyd, dychwelwch attafi y trydydd dydd.

13 A'r brenin a attebodd y bobl yn ſarric: ac a wrthododd gyngor yr henuriaid yr hwn a gyng-horaſent hwy iddo ef.

2.Cron.10.11. 14 Ac efe a lefarodd wrthynt hwy yn ôl cyngor y bechgyn gan ddywedyd, * fy nhâd a wnaeth eich iau chwi yn drom, a minne a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhâd a'ch ceryddodd chwi a gwielyn, a minne a'ch ceryddaf chwi a ffrewyllau.

Pen.11.11. 15 Ac ni wrandawodd y brenin ar y bobl: o herwydd * yr achos oedd oddi wrth yr Arglwydd, fel y cwplauid ei air ef yr hwn a lefaraſe yr Arglwydd drwy law Ahia y Siloniad wrth Ieroboam fab Nabat.

16 Pan welodd holl Iſrael na wrandawe'r brenin arnynt hwy, yna y bobl a attebaſant y brenin gan ddywedyd, pa ran [ſydd] i ni yn Nafydd? nid [oes i ni] ettifeddiaeth ym mab Iſai, ô Iſrael [dos] i'th babellau, edrych yn awr [ar] dy dŷ Dafydd: felly Iſrael a aethant iw pabellau.

17 Ar feibion Iſrael y rhai oeddynt yn preſſwylio yn ninaſoedd Iuda, y teyrnaſodd Rehoboam.

18 A'r brenin Rehoboam a anfonodd Adoram yr hwn [oedd] ar y drêth, a holl Iſrael ai llabyddiaſant ef a mein fel y bu efe farw: yna 'r brenin Rehoboam a ymegniodd i fyned i fynu mewn cerbyd i ffoi i Ieruſalem.

19 Felly Iſrael a wrthryfelaſant yn erbyn tŷ Ddafydd hyd y dydd hwn.

20 Pan glubu holl Iſrael ddychwelyd o Ieroboam, yna hwy a anfonaſant, ac ai galwaſant ef at y gynnulleidfa, ac ai goſodaſant ef yn frenin ar holl Iſrael: [ac] nid oedd [yn mŷned] ar ôl tŷ Ddafydd onid llwyth Iuda * yn vnic.

Pen.11.13. 21 Yna * Rehoboam a ddaeth i Ieruſalem, ac a gaſclodd o holl dŷ Iuda, ac o lwyth Beniamin gant, a phedwar vgain mil [o wŷr] dewiſol cymmwys i ryfel: i ymladd yn erbyn tŷ Iſrael, [ac] i ddwyn trachefn y frenhiniaeth i Rehoboam fab Salomon.

22 Ond gair Duw a ddaeth at Semaia gŵr Duw gan ddywedyd:

23 Adrodd wrth Rehoboam fab Salomon brenin Iuda, ac wrth holl dŷ Iuda, a Beniamin, a gweddill y bobl gan ddywedyd,

24 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, nac ewch i fynu, ac nac ymleddwch yn erbyn eich brodyr meibion Iſrael, dychwelwch bob vn iw dŷ ei hun, canys drwofi y gwnaethpwyd y peth hyn: a hwynt a wrandawſant ar air yr Arglwydd, ac a ddychwelaſant i fyned ymmaith yn ôl gair yr Arglwydd.

25 Yna Ieroboam a adailadodd Sichem ym mynydd Ephraim, ac a drigodd ynddi hi, ac efe a aeth oddi yno, ac a adailadodd Phanuel.

26 Yna Ieroboam a feddyliodd yn ei galon: yn awr y dychwel y frenhiniaeth at dŷ Dafydd.

27 Os aiff y bobl hyn i fynu i wneuthur aberthau yn nhŷ 'r Arglwydd yn Ieruſalem, yna y try calon y bobl hyn at eu harglwydd Rehoboam brenin Iuda: ac y lladdant fi, ac y dychwelant at Rehoboam brenin Iuda.

28 Yna 'r brenin a ymgyng-horodd, ac a wnaeth ddau lo aur ac a ddywedodd wrthynt hwy: gormod yw i chwi fyned i fynu i Ieruſalem, wele dy dduwiau di o Iſrael y rhai a'th ddugaſant di i fynu o wlâd yr Aipht.

29 Ac efe a oſododd vn yn Bethel: ac a roddes y llall yn Dan.

30 A'r peth hyn a aeth yn bechod: o blegit y bobl a aethant ger bron y naill hyd Dan.

31 Ac efe a wnaeth dŷ vchelfeydd: ac a wnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oeddynt o feibion Lefi.

32 Ac Ieroboam a wnaeth vchel-ŵyl yn yr wythfed mîs, ar y pymthecfed dydd o'r mîs, fel yr vchelŵyl yr hon [oedd] yn Iuda, ac efe a offrymmodd ar yr allor felly y gwnaeth efe yn Bethel gan aberthu i'r lloi y rhai a wnaethe efe: ac efe a oſododd yn Bethel offeiriaid yr vchelfaoedd y rhai a wnaethe efe.

33 Ac efe a offrymmodd ar yr allor yr hon a wnaethe efe yn Bethel y pymthecfed dydd o'r wythfed mis, [ſef] yn y mis yr hwn a ddychymygaſe efe yn ei galon: ac efe a wnaeth ŵyl arbennic i feibion Iſrael, ac efe aeth i fynu at yr allor i arogl-darthu.

## PEN. XIII.

Llaw Ieroboam yr hon a eſtynnaſe efe yn erbyn y prophwyd yr hwn a ddaethe iw geruddu ef yn gweuwo. 24 A llew yn lladd y prophwyd hwnnw am ei annufydd-dod yntef i Dduw.

AC wele gŵr Duw a ddaeth o Iuda drwy air yr Arglwydd i Bethel: ac Ieroboam yn ſefyll wrth yr allor i arogldarthu.

2 Ac efe a lefodd yn erbyn yr allor, drwy air yr Arglwyddd ac a ddywedodd, ô allor allor fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: wele mâb a

enir

ren.13.17. enir i dŷ Dafydd, ai enw *Joſia, ac efe a abertha arnat ti offeiriaid yr uchelfeudd y rhai ydynt yn arogldarthu arnat ti, a hwynt a loſcant eſcyrn dynion arnat i.

3 Ac efe a roddes arwydd y dwthwn hwnnw gan ddywedyd, dymma 'r argoel yr hwn a lefarodd yr Arglwydd: wele 'r allor a rwygir, a'r lludw 'r hwn [ſydd] arni hi a dywelltir.

4 A phan glybu y brenin air gŵr Duw yr hwn a lefodd efe yn erbyn yr allor yn Bethel, yna Jeroboam a eſtynnodd ei law oddi ar yr allor gan ddywedyd, delwch ef: a diffrwythodd ei law ef yr hon a eſtynnaſe efe yn ei erbyn ef, fel na alle efe ei thynnu hi atto.

5 Yr allor hefyd a rwygodd, a'r ludw a dywalltwyd oddi ar yr allor: yn ôl yr argoel yr hwn a roddaſe gŵr Duw drwy air yr Arglwydd.

6 Yna 'r brenin a attebodd, ac a ddywedodd wrth ŵr Duw, gweddia attolwg ger bron yr Arglwydd dy Dduw, ac ymbil troſofi fel y dychwelo fy llaw attaf: a gŵr Duw a weddiodd ger bron yr Arglwydd, a llaw 'r brenin a ddychwelodd atto ef, ac a fu fel cynt.

7 Yna 'r brenin a ddywedodd wrth ŵr Duw, tyret adref gyd a mi a chynniawa: ac mi a roddaf rodd i ti.

8 A gŵr Duw a ddywedodd wrth y brenin, pe rhoddit i mi hanner dy dŷ di, nid awn i gyd a thi, ac ni fwyttawn fara, ac ni yfwn ddwfr yn y fan hon.

9 Canys fel hyn y gorchymynnwyd i mi drwy air yr Arglwydd gan ddywedyd, na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr: na ddychwel ychwaith ar hyd y ffordd yr hon y daethoſt.

10 Felly efe a aeth ymmaith ar hyd ffordd arall: ac ni ddychwelodd efe rhyd y ffordd yr hon y daethe efe ar hyd-ddi i Bethel.

11 Ac yr oedd rhyw hen brophwyd yn trigo yn-Bethel: ai feibion ef a ddaethant, ac a fynegaſant iddo yr holl waith a'r a wnaethe gŵr Duw y dydd [hwnnw] yn Bethel, ac hwy a fynegaſant i'w tad y geiriau y rhai a lefaraſe efe wrth y brenin.

21 Ai tad a ddywedodd wrthynt, pa ffordd yr aeth efe? ai feibion ef a ddangoſaſant y ffordd yr aethe gŵr Duw yr hwn a ddaethe o Juda.

13 Ac efe a ddywedodd wrth ei feibion, cyfrwywch i mi 'r aſſyn: a hwynt a gyfrwyaſant iddo 'r aſſyn, ac efe a farchogodd arni hi.

14 Ac efe a aeth ar ôl gŵr Duw, ac ai cafodd ef yn eiſtedd tan dderwen, ac a ddywedodd wrtho, ai ty di [yw] gŵr Duw yr hwn a ddaethoſt o Juda? ac efe a ddywedodd, [ie] myfi.

15 Yna efe a ddywedodd wrtho ef, tyret adref gyd a mi, a bwytta fara.

16 Yntef a ddywedodd, ni allaf ddychwelyd gyd a thi, na dyfod gyd a thi: na bwytta bara ychwaith, nac yfed dwfr gyd a thi yn y fan hon.

17 Canys gair [a ddaeth] attaf drwy ymadrodd yr Arglwydd [gan ddywedyd,] na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr yno: na ddychwel gan fyned drwy 'r ffordd yr hon yr aethoſt ar hyd-ddi.

18 Dywedodd yntef wrtho ef, prophwyd hefyd [ydwyf] fel tithe, ac angel a lefarodd wrthif drwy air yr Arglwydd gan ddywedyd, dychwel ef gyd a thi i'th dŷ, fel y bwyttao fara, ac yr yfo ddwfr: ([ond] efe a ddywedodd gelwydd wrtho ef)

19 Felly efe a ddychwelodd gyd ag ef, ac a fwyttaodd fara yn ei dŷ ef, ac a yfodd ddwfr.

20 A phan oeddynt hwy yn eiſtedd wrth y bwrdd: yna y daeth gair yr Arglwydd at y prophwyd yr hwn a baraſe iddo ef ddychwelyd.

21 Ac efe a lefodd ar ŵr Duw 'r hwn a ddaethe o Juda gā ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: o herwydd it anufyddhau i air yr Arglwydd, ac na chedwaiſt y gorchymyn yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd dy Dduw i ti,

22 Eithr dychwelaiſt, a bwytteaiſt fara, ac yfaiſt ddwfr yn y lle [am] yr hwn y dywedodd [yr Arglwydd] wrthit ti, na fwytta fara, ac nac ŷf ddwfr: nid aiff dy gelain di i feddrod dy dadau.

23 A phan ddarfu iddo ef fwytta bara, ac wedi iddo yfed: yna efe a gyfrwyodd iddo 'r aſſyn [ſef] i'r prophwyd yr hwn a baraſe efe iddo ddychwelyd.

24 Pan aeth efe ymmaith, yna llew ai cyfarfu ef ar y ffordd, ac ai lladdodd ef: a bu ei gelain ef wedi ei bwrw ar y ffordd, a'r aſſyn oedd yn ſefyll yn ei ymyl ef, a'r llew yn ſefyll wrth y gelain.

25 Ac wele wŷr yn myned heibio, ac a ganfuant y gelain wedi ei thaflu ar y ffordd, a'r llew yn ſefyll wrth y gelain: a hwy a ddaethant, ac a adroddaſant [hynny] yn y ddinas yr hon yr oedd yr hên brophwyd yn aros ynddi.

26 Pan glybu y prophwyd yr hwn a baraſe iddo ef ddychwelyd o'r ffordd, yna efe a ddywedodd, gŵr Duw [yw] efe yr hwn a anufyddhaodd air yr Arglwydd: am hynny 'r Arglwydd ai rhoddodd ef i'r llew, fel y drylle efe ef, ac y llادde ef, yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a lefarodd efe wrtho ef.

27 Ac efe a lefarodd wrth ei feibion gan ddywedyd, cyfrwywch i mi 'r aſſyn: a hwy ai cyfrwyaſant.

28 Yna efe a aeth, ac a gafodd ei gelain ef wedi ei thaflu ar y ffordd a'r aſſyn, a'r llew yn ſefyll wrth y gelain, ac ni fwyttaſe y llew mo 'r gelain, ac ni ddrylliaſe efe yr aſſyn.

29 A'r prophwyd a gymmerth gelain gŵr Duw, ac ai goſododd hi ar yr aſſyn ac ai dug yn ei hôl: a'r hên brophwyd a ddaeth i'r ddinas i alaru, ac i'w gladdu ef.

30 Ac efe a oſododd ei gelain ef yn ei feddrod ei hun: a hwy a alaraſant am dano ef, [gan ddywedyd,] Ah fy mrawd.

31 Ac wedi iddo ei gladdu ef, yna y llefarodd

ſarodd efe wrth ei feibion gan ddywedyd, pan fyddwyf farw cleddwch finne hefyd yn y bedd yr hwn y claddwyd gŵr Duw ynddo: goſodwch fy eſcyrn i wrth ei eſcyrn ef.

32 Canys diammau y bydd y peth yr hyn a lefodd efe drwy air yr Arglwydd yn erbyn yr allor yr hon [ſydd] yn Bethel: ac yn erbyn holl dai 'r uchelfeudd, y rhai [ydynt] yn ninaſoedd Samaria.

33 Wedi 'r peth hyn ni ddychwelodd Jeroboam oi ffordd ddrygionus: onid efe a drodd eilwaith, ac a wnaeth o wehilion y bobl offeiriaid i'r uchelfeudd: y neb a fynne a ymgyſſegre, ac a gai fod yn offeiriad i'r uchelfeudd.

34 Ac o herwydd y peth hyn y bu tŷ Jeroboam yn bechod: iw ddiwreiddio [ef] hefyd, ac iw ddeleu oddi ar wyneb y ddaiar.

## PEN. XIIII.

Atteb y prophwyd Abias i wraig Ieroboam. 22 Seſac yn rhyfela yn erbyn Iuda o herwydd eu hanwiredd hwynt.

Y Pryd hynny y clafychodd Abia mab Jeroboam.

2 Ac Jeroboam a ddywedodd wrth ei wraig, cyfod yn awr a newid dy ddillad, fel na wypont mai ti [yw] gwraig Jeroboam: a dos i Silo, wele yno [y mae] Abias y prophwyd yr hwn *a ddywedodd wrthif [y byddwn] yn frenin ar y bobl ymma.

Pen.11.31.

3 A chymmer yn dy law ddêc o fara, a theiſennau, a chostrelaid o fêl, a dôs atto ef: efe a fynega i ti beth a ddêrfydd i'r llangc.

4 A gwraig Jeroboam a wnaeth felly, ac a gyfododd, ac a aeth i Silo, ac a ddaeth i dŷ Abias: ond nid alle Abias weled, o herwydd ei lygaid ef a ballaſent o blegit ei henaint.

5 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Abias, wele y mae gwraig Jeroboam yn dyfod i geiſio peth gennit tros ei mab, canys clâf yw efe, fel hyn, ac fel hyn y dywedi wrthi hi: a phan ddaeth hi i mewn, yna hi a ymddieithrodd.

6 A phan glybu Abias drwſt ei thraed hi yn dyfod i'r drws, yna efe a ddywedodd, cyrch i mewn gwraig Jeroboam: i ba beth yr ydwyt yn ymddieithro? myfi a anfonwyd attat ti [i fynegu] caledi.

7 Dôs, dywet wrth Jeroboam, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, o blegit i mi dy dderchafu di o blith y bobl: a'th roddi di yn flaenor ar fy mhobl Iſrael,

8 A thorri ymmaith y frenhiniaeth oddi wrth dŷ Dafydd, a'i rhoddi i ti: ac na buoſt ti fel fyng-wâs Dafydd yr hwn a gadwodd fyng-orchymynnion, a'r hwn a rodiodd ar fy ôl i a'i holl galon, i wneuthur yn unic yr hyn oedd uniawn yn fyng-olwg i:

9 Onid ti a wnaethoſt yn waeth na'r holl rai a'r a oeddynt o'th flaen di: a chi a aethoſt, ac a wnaethoſt it dduwiau dieithr, a delwau toddedic, i'm digio i, a thi a'm teflaiſt i o'r tu ôl i'th gefn,

10 Am hynny wele fi yn dwyn drwg ar dŷ Jeroboam, a thorraf ymmaith oddi wrth Jeroboam * yr hwn a biſſo ar bared, y gwarchaedic, a'r gweddilledic yn Iſrael: a mi a ſwrtiaf allan weddillion tŷ Jeroboam, fel y bwrir allan dom nes ei ddarfod.

Pen.16.11.
Pen.21.21.
1.Sam.25.22.
2.Bren.9.8.

11 Y cŵn a fwyttânt yr hwn ſydd farw o eiddo Jeroboam yn y ddinas, ac adar y nefoedd a fwyttânt yr hwn fyddo farw yn y maes: canys yr Arglwydd a'i dywedodd.

12 Cyfot ti a dôs i'th dŷ: pan ddelo dy draed i'r ddinas, y bydd marw y plentyn.

13 A holl Iſrael a alarant am dano ef, ac a'i claddant ef, canys efe yn unic o Jeroboam a ddaw i'r bedd: o herwydd cael ynddo ef beth daioni tu ag at Arglwydd Dduw Iſrael yn nhŷ Jeroboam.

14 Yr Arglwydd hefyd a gyfyd iddo frenin ar Iſrael yr hwn a dyrr ymmaith dŷ Jeroboam y dwthwn hwnnw: a pheth os [cyfododd] eiſus?

15 A'r Arglwydd a dery Iſrael megis y ſiglir y gorſen mewn dwfr, ac a ddiwreiddia Iſrael o'r wlâd dda hon, yr hon a roddodd efe iw tadau hwynt, ac a'i gwaſcar hwynt tros yr afon: o herwydd gwneuthur o honynt eu llwyni y rhai ydynt yn annog yr Arglwydd.

16 Ac efe a ddyru heibio Iſrael, er mwyn pechodau Jeroboam, yr hwn a bechodd, a'r hwn a wnaeth i Iſrael bechu.

17 Yna gwraig Jeroboam a gyfododd, ac a aeth ymmaith, ac a ddaeth i Therſa: a hi yn dyfod i drothwy 'r tŷ, yna y bu farw y bachgen.

18 A hwy a'i claddaſant ef, a holl Iſrael a alaraſant am dano ef: yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe efe drwy law ei wâs Abias y prophwyd.

19 A'r rhan arall o weithredoedd Jeroboam fel yr ymladdodd efe, ac fel y teyrnaſodd efe, wele hwynt yn ſcrifennedic ymmewn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

20 A'r dyddiau [yn] y rhai y teyrnaſodd Jeroboam [oeddynt] ddwy flynedd ar hugain: ac * efe a hunodd gyd a'i dadau, a Nadab ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

2.Cron.13.20.

21 A Rehoboam mab Salomon a deyrnaſodd yn Juda: mab un mlwydd a deugain [oedd] Rehoboam pan aeth efe yn frenin, a dwy flynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Jeruſalē, (y ddinas yr hon a ddewiſaſe yr Arglwydd o holl lwythau Iſrael i oſod ei enw yno) ac enw ei fam ef [oedd] Naama 'r Ammonees.

22 Ac Juda a wnaeth ddrygioni yng-olwg yr Arglwydd: ac ei annogaſant ef i lid rhagor yr hyn oll a wnaethe eu tadau hwynt yn eu pechodau y rhai a wnaethent.

23 Canys hwy a adeiladaſant iddynt uchelfeudd, a delwau, a llwynau ar bob bryn uchel a than bob pren ir.

24 A gwyr Sodomitaidd oedd hefyd yn y wlad: gwnaethant [hefyd] yn ôl holl ffieidd-dra y

cenhedloedd y rhai a fwriaſe 'r Arglwydd o flaen meibion Iſrael.

2.Cron.12.9. 25 Ac yn y bũmed flwyddyn i'r brenin Rehoboam: * Seſac brenin yr Aipht a ddaeth i fynu yn erbyn Ieruſalem.

Pen.10.16. 26 Ac efe a gymmerth dryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thryſſorau tŷ 'r brenin, ac ai dûg hwynt ymmaith oll: dûg ymmaith hefyd yr holl dariannau aur * y rhai a wnaethe Salomon.

27 A'r brenin Rehoboam a wnaeth yn eu lle hwynt dariannau prês: ac ai rhoddes [hwynt] i gadw yn llaw tywyſogion y rhedeg-wŷr y rhai oeddynt yn cadw drws tŷ 'r brenin.

28 A phan ele 'r brenin i dŷ 'r Arglwydd: y rhedeg-wŷr ai dygent hwy, ac ai hadferent i ſtafell y rhedeg-wŷr.

2.Cron.12.15. 29 A'r rhan arall o weithredoedd Rehoboam, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

30 A rhyfel fu rhwng Rehoboam, ac Ieroboam yr holl ddyddiau.

31 A Rehoboam a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai dadau yn ninas Dafydd, ac enw ei fam ef [oedd] Naama 'r Ammoniteſ: ac Abiam ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

## PEN. XV.

Teyrnaſiad Abiam ar Iuda. 8 Ac Aſa ar ei ôl yntef. 16 Y rhyfel a fu rhwng Aſa a Baaſa.

2.Cron.11.1. AC yn y ddeunawfed flwyddyn i'r brenin Ieroboam mab Nabat, yr aeth * Abiam yn frenin ar Iuda.

2 Tair blynedd y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Maacha * merch Abiſalom.

3 Ac efe a rodiodd yn holl bechodau ei dâd y rhai a wnaethe efe oi flaen ef: ac nid oedd ei galon ef berffaith gyd a'r Arglwydd ei Dduw, fel calon Dafydd ei dâd.

4 Ond er mwyn Dafydd y rhoddodd yr Arglwydd ei Dduw iddo ef oleuni yn Ieruſalem: gan gyfodi ei fab ef ar ei ôl ef, a ſiccrhau Ieruſalem.

5 O herwydd Dafydd a wnaeth yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd: ac ni chilſodd oddi wrth yr hyn oll a orchymynnodd efe iddo ef

2.Sam.11.4. & 12.9. holl ddyddiau ei enioes, onid * yn achos Vrias yr Hethiad.

6 A rhyfel fu rhwng Rehoboam ac Ieroboam holl ddyddiau ei enioes.

2.Cron.13.3. 7 A'r rhan arall o weithredoedd Abiam, a'r hyn oll a wnaeth efe, onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda? a rhyfel fu rhwng Abiam, ac Ieroboam.

2.Cron.14.1 8 Ac * Abiam a hunodd gyd ai dadau, a hwynt ai claddaſant ef yn ninas Dafydd: ac Aſa ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

9 Ac yn yr vgeinfed flwyddyn i Ieroboam brenin Iſrael, yr aeth Aſa yn frenin ar Iuda.

10 Ac vn mlynedd a deugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Maacha merch Abiſalom.

11 Ac Aſa a wnaeth yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd, fel Dafydd ei dad.

12 Canys efe a yrrodd ymmaith y gwŷr Sodomiaidd o'r wlâd: ac efe a fwriodd ymmaith yr holl ddelwau y rhai a wnaethe ei dadau.

13 Ac * efe a ſymmudodd Maacha ei fam o [fod] yn dywyſoges, o herwydd gwneuthur o honi hi ddelw mewn llwyn: ac Aſa a ddrylliodd ei delw hi, ac ai lloſcodd wrth afon Cedron. 2.Cron.15.16.

14 Ond nid yſcogwyd yr uchelfeudd: etto calon Aſa oedd berffaith gyd a'r Arglwydd ei holl ddyddiau ef.

15 Ac efe a ddûg i mewn gyſſegredic bethau ei dad ef, a chyſſegredic bethau tŷ 'r Arglwydd: yn arian, yn aur, ac yn lleſtri.

16 A rhyfel fu rhwng Aſa a Baaſa brenin Iſrael, eu holl ddyddiau hwynt.

17 Yna Baaſa brenin Iſrael a aeth i fynu yn erbyn Iuda, ac a adailadodd Rama: fel na adawe efe i neb fyned, na dyfod at Aſa frenin Iuda.

18 Yna Aſa a gymmerodd yr holl arian, a'r 2.Cron.16.1. aur a adawſyd yn nhryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thryſſorau tŷ 'r brenin, ac efe ai rhoddes hwynt yn llaw ei weiſion: a'r brenin Aſa a anfonodd at Benhadad mab Tabrimon, mab Heſion brenin Syria, yr hwn oedd yn trigo yn Damaſcus gan ddywedyd:

19 Cyfammod [ſydd] rhyngofi a thi, rhwng fy nhâd i a'th dâd ti: wele mi a anfonais i ti anrheg o arian, ac aur, dôs, diddymma dy gyfammod a Baaſa brenin Iſrael, fel y cilio efe oddi wrthifi.

20 Felly Benhadad a wrandawodd ar y brenin Aſa, ac a anfonodd dywyſogion y lluoedd y rhai [oeddynt] ganddo ef yn erbyn dinaſoedd Iſrael, ac efe a darawodd Hion, a Dan, ac Abel 2.Cron.16.3. Bethmaacah: a holl [ardaloedd] Cinneroth, gyd a holl wlâd Nephthali.

21 A phan glybu Baaſa [hynny,] yna efe a beidiodd ac adailadu Rama: ac a drigodd yn Thirſa.

22 Yna y brenin Aſa a gaſclodd holl Iuda heb lyſſu [neb,] ac hwy a gymmeraſant gerric Rama, ai choed y rhai a adailadaſe Baaſa: a'r brenin Aſa a adailadodd a hwynt Gibea Beniamin, a Miſpah.

23 A'r rhan arall o holl hanes Aſa, ai holl gadernid ef, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'r dinaſoedd y rhai a adailadodd efe, onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda? eithr yn amſer ei henaint ef, efe a glafychodd oi draed.

24 Ac Aſa a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai dadau yn ninas Dafydd ei dâd: ac Ioſaphat ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

25 A Nadab mab Ieroboam a ddechreuodd deyrnaſu ar Iſrael yn yr ail flwyddyn i Aſa brenin Iuda: ac efe a deyrnaſodd ar Iſrael ddwy flynedd.

26 Ac efe a wnaeth ddrygioni yng-olwg yr

Arglwydd: ac a rodiodd yn ffordd ei dâd ac yn ei bechod ef [drwy] 'r hwn y gwnaeth efe i Iſrael bechu.

27 Am hynny Baaſa mab Ahia o dŷ Iſſachar a gydfwriadodd yn ei erbyn ef, a Baaſa ai tarawodd ef yn Gibethon yr hon [oedd] eiddo y Philiſtiaid: canys Nadab, a holl Iſrael oeddynt yn gwarchau ar y Gibethoniaid.

28 A Baaſa ai lladdodd ef yn y drydedd flwyddyn i Aſa brenin Iuda: ac efe a deyrnaſodd yn ei le ef.

Pen.14.10.

29 A phan deyrnaſodd, efe a darawodd holl dŷ Ieroboam, ni adawodd vn [perchen] anadl i Ieroboam nes ei ddifetha ef, yn ôl* gair yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe efe drwy law ei wâs Ahia y Siloniad,

30 Am bechodau Ieroboam y rhai a bechaſe efe, a [thrwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu: o herwydd ei waith ef yn digio Arglwydd Dduw Iſrael.

31 A'r rhan arall o hanes Nadab, a'r hyn oll a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

32 A rhyfel fu rhwng Aſa, a Baaſa brenin Iſrael, eu holl ddyddiau hwynt.

33 Yn y drydedd flwyddyn i Aſa brenin Iuda: y teyrnaſodd Baaſa mab Ahia ar holl Iſrael yn Thirſa, bedair blynedd a'r hugain.

34 Ac efe a wnaeth ddrygioni yng-olwg yr Arglwydd: ac a rodiodd yn ffordd Ieroboam, ac yn ei bechod ef, [drwy] yr hwn y gwnaeth efe i Iſrael bechu.

## PEN. XVI.

Teyrnaſiad Baaſa. 6 Ela. 9 Zimri. 17 Omri a Thibni. 29 Ac Ahab yr hwn a briododd Ieſabel. 34 Ac adailadaeth Iericho.

YNa y daeth gair yr Arglwydd at Iehu fab Hanani yn erbyn Baaſa gan ddywedyd:

2 O herwydd i'm dy dderchafu o'r llwch, a'th roddi yn flaenor ar fy mhobl Iſrael: a rhodio o honot tithe yn ffordd Ieroboam, a pheri i'm pobl Iſrael bechu gan fy nigio ai pechodau.

Pen.15.29.

3 Wele fi yn torri ymmaith hiliogaeth Baaſa, a hiliogaeth ei dŷ ef: a rhoddaf dy dŷ fel * tŷ Ieroboam mab Nabat.

Pen.14.11.

4 *Y cŵn a fwyttu 'r hwn fyddo marw o eiddo Baaſa yn y ddinas, ac adar y nefoedd a fwyttânt yr hwn fyddo marw oi eiddo ef yn y maes.

2.Cron.16.1.

5 A'r rhan arall o hanes Baaſa, a'r hyn a wnaeth efe, ai gadernid ef: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

6 A Baaſa a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yn Thirſa: ac Ela ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

7 Hefyd drwy law Iehu fab Hanani y prophwyd y bu gair yr Arglwydd yn erbyn Baaſa, ac yn erbyn ei dŷ ef, o herwydd yr holl ddrygioni 'r hwn a wnaethe efe yng-olwg yr Arglwydd, gan ei ddigio ef drwy waith ei ddwylaw i fod fel tŷ Ieroboam: ac o blegit iddo ei ladd ef.

8 Yn y chweched flwyddyn ar hugain i Aſa brenin Iuda: y teyrnaſodd Ela mab Baaſa ar Iſrael yn Thirſa ddwy flynedd.

9 A Zimri ei wâs ef tywyſog ar hanner y cerbydau a gyd-fwriadodd yn ei erbyn ef: ac efe oedd feddw yn yfed yn Thirſa yn nhŷ Arſa yr hwn [oedd] ben teulu yn Thirſa.

10 Yna y daeth Zimri, ac ai tarawodd ef ac ai lladdodd yn y ſeithfed flwyddyn ar hugain i Aſa brenin Iuda: ac a deyrnaſodd yn ei le ef.

11 A phan deyrnaſodd efe, ac eiſtedd ar ei deyrn-gader, efe a laddodd holl dŷ Baaſa, ni adawodd efe iddo ef [vn] i biſſo yn erbyn y pared: nai geraint, nai gyfeillion.

12 Felly Zimri a ddiniſtriodd holl dŷ Baaſa: yn ol gair yr Arglwydd yr hwn a lefarodd efe yn erbyn Baaſa drwy law Iehu y prophwyd.

13 O herwydd holl bechodau Baaſa, a phechodau Elah ei fâb ef: [drwy] 'r rhai y pechaſant hwy, a thrwy y rhai y gwnaethant i Iſrael bechu, gan ddigio Arglwydd Dduw Iſrael drwy eu gorwagedd hwynt.

14 A'r rhan arall o hanes Ela, a'r hyn oll a wnaeth efe: onid ydynt hwy 'n ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

15 Yn y ſeithfed flwyddyn ar hugain i Aſa brenin Iuda y teyrnaſodd Zimri ſaith niwrnod yn Thirſa: a'r bobl oeddynt yn gwerſyllu yn erbyn Gibethon yr hon [oedd] eiddo y Philiſtiaid.

16 A chlybu 'r bobl (y rhai oeddynt yn y gwerſyll) ddywedyd, Zimri a gyd fwriadodd, ac a darawodd y brenin: a holl Iſrael a goronaſant Omri tywyſog y llu yn frenin y diwrnod hwnnw ar Iſrael yn y gwerſyll.

17 Yna Omri a aeth i fynu, a holl Iſrael gyd ag ef o Gibethon: ac hwy a warchauaſant yn erbyn Thirſa.

18 Pan welodd Zimri fod y ddinas wedi ei hennill, yna efe a ddaeth i balas y brenin: ac efe a loſcodd dŷ r' brenin ar ei vchaf a thân, ac efe a fu farw,

19 Am ei bechodau ef yn y rhai y pechodd efe, gan wneuthur drygioni yng-olwg yr Arglwydd: gan rodio yn ffordd Ieroboam ac yn ei bechod [drwy] 'r hwn y gwnaeth efe i Iſrael bechu.

20 A'r rhan arall o hanes Zimri ai gydfradwriaeth ef [drwy] yr hwn y cydfwriadodd efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

21 Yna yr ymrannodd y bobl yn [ddau] hanner: rhan o'r bobl oedd ar ôl Tibni mab Ginah iw oſod ef yn frenin, a rhan ar ôl Omri.

22 A'r bobl y rhai [oeddynt] ar ôl Omri a orchfygodd y bobl y rhai [oeddynt] ar ôl Tibni

mab Ginah: felly Tibni a fu farw, ac Omri a deyrnaſodd.

23 Yn yr unfed flwyddyn ar hugain i Aſa brenin Iuda y teyrnaſodd Omri ar Iſrael ddeuddeng mhlynedd: yn Thirſa y teyrnaſodd efe chwe blynedd.

24 Ac efe a brynodd fynydd Samaria gan Semer er dwy o dalentau arian: ac efe a adailadodd yn y mynydd, ac a alwodd enw yr ddinas yr hon a adailadaſe efe, ar ôl enw Semer arglwydd mynydd Samaria.

25 Ond Omri a wnaeth ddrygioni yng-ŵydd yr Arglwydd: ac a wnaeth yn waeth na'r holl rai[a fuaſent]oi flaen ef.

26 Ac efe a rodiodd yn holl ffordd Ieroboam mab Nabat, ac yn ei bechod ef[drwy] yr hwn y gwnaeth efe i Iſrael bechu: gan ddigio Arglwydd Dduw Iſrael drwy eu gorwagedd hwynt.

27 A'r rhan arall o hanes Omri yr hyn a wnaeth efe, ai gadernid yr hwn a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

28 Ac Omri a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yn Samaria, ac Ahab ei fab ef a deyrnaſodd yn i le ef.

29 Canys Ahab mab Omri a deyrnaſodd ar Iſrael yn y drydedd flwyddyn ar bymthec ar hugain i Aſa brenin Iuda: ac Ahab mab Omri a deyrnaſodd ar Iſrael yn Samaria ddwy flynedd ar hugain.

30 Ac Ahab mab Omri a wnaeth yn waeth yng-olwg yr Arglwydd, na'r holl rai a[fuaſent]oi flaen ef.

31 Canys yſcafn oedd ganddo ef rodio ym mhechodau Ieroboam mab Nabat: ac efe a gymmerth yn wraig Ieſebel merch Ethbaal brenin y Sidoniaid, ac efe a aeth, ac a waſanaethodd Baal, ac a ymgrymmodd iddo ef.

32 Ac efe a gyfododd allor i Baal yn nhŷ Baal, yr hwn a adailadaſe efe yn Samaria.

33 Ac Ahab a wnaeth lwyn, ac Ahab a wnaeth fwy i ddigio Arglwydd Dduw Iſrael na holl frenhinoedd Iſrael y rhai fuaſent oi flaen ef.

34 Yn ei ddyddiau ef Hiel y Betheleiad a adailadodd Iericho: drwy[farwolaeth] Abiram ei 'gyntafenedic y ſylfaenodd efe hi, a thrwy[farwolaeth] Segub ei fab ieuangaf y goſododd efe ei phyrth hi, yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn lefaraſe efe *drwy law Ioſua mab Nun. Ioſua.6.26.

## PEN. XVII.

Elias yn prophwydo newyn i Ahab. 6 Ac yn cael ei borthi gan y cig-frain ennyd. 10 Ac wedi hynny gan wraig weddw o Sarepta. 16 A honno yn cael rhâd penllâd; ai mab o farw i fyw.

AC Elias (y Theſbiad[un] o breſſwylwyr Gilead) a ddywedodd wrth Ahab,[fel] y *mae byw Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn yr ydwyf yn ſefyll ger ei fron, ni bydd y blynyddoedd hyn wlith, na glaw: onid yn ôl fyng-air mauſi. Eccle.48.3. iago.5.16.

2 A gair yr Arglwydd a ddaeth atto ef gan ddywedyd:

3 Dôs oddi ymma a thro di tua yr dwyrain: ac ymguddia wrth afon Cerith yr hon[ſydd] ar gyfer yr Iorddonen.

4 Ac o'r afon yr ŷfi: a mi a berais i'r cigfrain dy borthi di yno.

5 Felly efe a aeth, ac a wnaeth yn ôl gair yr Arglwydd: efe a aeth, ac a arhoſodd wrth afon Cerith, yr hon[ſydd] ar gyfer yr Iorddonen.

6 A'r cigfrain a ddugent iddo ef fara, a chîg y boreu, a bara, a chîg brydnawn: ac yntef a yfe o'r afon.

7 Ac ym mhen y flwyddyn y ſychodd yr afon: canys ni buaſe law yn y wlâd.

8 A gair yr Arglwydd a ddaeth atto ef gan ddywedyd:

9 *Cyfot dos i Sareptha yr hon[ſydd] yn Sidon, ac aros yno: wele gorchymynnais i wraig weddw dy borthi di yno. Luc.4.25.

10 Felly efe a gyfododd, ac a aeth i Sareptha, pan ddaeth efe at borth y ddinas, wele yno wraig weddw yn caſclu briwydd: ac efe a lefodd arni, ac a ddywedodd, dŵg attolwg i mi ychydig ddwfr mewn lleſtr fel yr yfwyf.

11 Ac hi a aeth iw gyrchu: yna efe a alwodd arni, ac a ddywedodd, dwg attolwg i mi dammed o fara yn dy law.

12 A hi a ddywedodd[fel]y mae yr Arglwydd dy Dduw yn fyw, nid oes gennif deiſen, onid lloned llaw o flawd mewn celwrn, ac ychydig olew mewn ſtên: ac wele fi yn caſclu briwydd i fyned i mewn, ac i baratoi hynny i mi, ac i'm mab, fel y bwyttaom hynny, ac y byddom feirw.

13 Ac Elias a ddywedodd wrthi, nac ofna, dos i mewn gwna yn ôl dy air: etto gwna i mi o hynny dorth fechan yn gyntaf, a dŵg i mi, yna gwna i ti, ac i'th fab yn olaf.

14 Canys fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, y blawd yn y celwrn ni threulir, a'r olew o'r ſten ni dderfydd hyd y dydd y rhoddo yr Arglwydd law ar wyneb y ddaiar.

15 Felly hi a aeth, ac a wnaeth yn ôl gair Elias: ac hi a fwyttaodd, ac yntef, ai thŷlwyth, [yſpaid] blwyddyn.

16 Ni ddarfu y celyrned blawd, a'r ſtêned olew ni ddarfu: yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a ddywedaſe efe drwy law Elias.

17 Ac wedi y pethau hyn y clefychodd mab gwraig y tŷ: ac yr oedd ei glefyd ef mo'r gryf, fel na thrigodd anadl ynddo.

18 A hi a ddywedodd wrth Elias, beth[ſydd] i mi[a wnelwyf] a thi gwr Duw? a ddaethoſt ti attaf i goffau fy anwiredd, ac i ladd fy mab?

19 Ac efe a ddywedodd wrthi hi, dyro i mi dy fab: ac efe ai cymmerth ef oi mynwes hi, ac ai

dûg ef i fynu i ſtafell yr hon yr oedd efe yn aros ynddi, ac ai goſododd i lawr ar ei wely ei hun.

20 Yna efe a lefodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: ô Arglwydd fy Nuw, a ddrygaiſt ti y wraig weddw yr hon yr oeddwn i yn ymdeithio gyd a hi, gan lâdd ei mab hi?

21 Ac efe a ymeſtynnodd ar y bachgen dair gwaith, ac a lefodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: ô Arglwydd fy Nuw, dychweled attolwg enaid y bachgen hwn iddo eil-waith.

22 Yna yr Arglwydd a wrandawodd ar lef Elias: ac enaid y bachgen a ddychwelodd i mewn iddo ef, ac efe a ddadebrodd.

23 Yna Elias a gymmerodd y bachgen, ac ai rhoddes ef iw fam: ac Elias a ddywedodd, gwêl, byw yw dy fab.

24 A'r wraig a ddywedodd wrth Elias, yn awr, hyn a wn i [ſef] mai gŵr Duw [ydwyt] ti: ac [mai] gwirionedd [yw] gair yr Arglwydd yn dy enau di.

## PEN. XVIII.

Elias wedi ei yrru at Ahab yn cyfarfod ag Obadia yn gyntaf, ac yna ag Ahab. 10 Yn peri lladd prophwydi Baal, ac yn cael glaw gan Dduw.

YN ôl dyddiau lawer y daeth gair yr Arglwydd at Elias yn y drydedd flwyddyn gan ddywedyd: dos, ymddangos i Ahab, a mi a roddaf law ar wyneb y ddaiar.

2 Elias gan hynny a aeth, ac a ymddangoſodd i Ahab: a'r newyn oedd dôſt yn Samaria.

3 Ac Ahab a alwodd am Obadia yr hwn [oedd] ben teulu [iddo ef: ac Obadia oedd yn ofni yr Arglwydd yn fawr.

4 Canys pan ddeſtruwiodd Iezabel brophwydi yr Arglwydd: yna Obadia a gymmerodd gant o brophwydi, ac ai cuddiodd hwynt, bôb yn ddeg a deugain mewn ogof, ac ai porthodd hwynt a bara, ac a dwfr.

5 Ac Ahab a ddywedodd wrth Obadia, dôs i'r wlâd, at bôb ffynnon ddwfr, ac at yr holl afonydd: ond odid ni a gawn laſ-wellt fel y cadwom yn fyw y ceffŷlau a'r mulod, fel na adawom [i'r un] o'r anifeiliaid fethu.

6 Felly y rhannaſant iddynt y wlâd iw cherdded: Ahab a aeth y naill ffordd ei hunan, ac Obadia a aeth y ffordd arall ei hunan.

7 Pan oedd Obadia ar y ffordd, yna wele Elias yn ei gyfarfod ef: ac efe ai hadnabu ef, ac a ſyrthiodd ar ei wyneb, ac a ddywedodd, onid ti yw fy arglwydd Elias?

8 Yntef a ddywedodd wrtho ef [îe] myfi: dos, dywet i'th arglwydd, wele Elias.

9 Dywedodd yntef, pa bechod a wneuthum i, pan ydwyt ti yn rhoddi dy wâs yn llaw Ahab i'm lladd?

10 [Fel] mai byw yr Arglwydd dy Dduw, nid oes genhedlaeth, na brenhiniaeth yr hon ni ddanfonodd fy arglwydd iddi i'th geiſio di, pan ddywedent, nid [yw efe ymma:] yna efe a dynge y frenhiniaeth, a'r genhedlaeth pan nath graffe di.

11 Ac yn awr, ti ydwyt yn dywedyd: dôs, dywet i'th arglwydd, wele Elias.

12 A phan elwyf fi oddi wrthit ti, yna yſpryd yr Arglwydd a'th gymmer di i'r llê nis gwn i, pan ddelwyf i fynegu i Ahab ac yntef heb dy gael di, yna efe a'm lladd fi: ond y mae dy wâs di yn ofni yr Arglwydd oi febyd.

13 Oni fynegwyd i'm harglwydd yr hyn a wneuthum i pan laddodd Iezabel brophwydi 'r Arglwydd, fel y cuddiais, gan-ŵr o brophwydi yr Arglwydd bôb yn ddêng-ŵr a deugain mewn ogof, ac y porthais hwynt a bara, ac a dwfr?

14 Ac yn awr ti a ddywedi, dos, dywet i'th arglwydd, wele Elias, fel i'm lladdo fi.

15 A dywedodd Elias [fel] mai byw Arglwydd y lluoedd yr hwn y ſefais ger ei fron: heddyw yn ddiau yr ymddangoſaf iddo ef.

16 Yna Obadia a aeth i gyfarfod Ahab, ac a fynegodd iddo ef: ac Ahab a aeth i gyfarfod Elias.

17 Pan welodd Ahab Elias: yna Ahab a ddywedodd wrtho ef, onid ti yw efe yr hwn ſydd yn blino Iſrael?

18 Ac efe a ddywedodd, ni flinais i Iſrael, onid ty di, a thŷ dy dad ti: am i chwi wrthod gorchymynnion yr Arglwydd, a rhodio, o honoch chwi ar ôl Baalim.

19 Ac yn awr anfon, [a] chaſcl attaf holl Iſrael i fynydd Carmel: a phrophwydi Baal, [ſef] pedwar cant, a dêc a deugain, a phrophwydi y llwynau, [ſef] pedwar cânt y rhai ydynt yn bwytta ar fwrdd Iezabel.

20 Felly Ahab a anfonodd at holl feibion Iſrael: ac a gaſclodd y prophwydi i fynydd Carmel.

21 Yna Elias a neſſaodd at yr holl bobl, ac a ddywedodd, pa hŷd yr ydych chwi yn cloffi mewn dau feddwl? os yr Arglwydd [ſydd] Dduw, ewch ar ei ôl ef, ond os Baal, ewch ar ei ôl yntef: a'r bobl ni attebaſant iddo ef air.

22 Yna y dywedodd Elias wrth y bobl, myfi fy hunan ydwyf yn fyw o brophwydi yr Arglwydd: a phrophwydi Baal [ydynt] bedwar cant a deng-ŵr a deugain.

23 Rhodder gan hynny i ni ddau fuſtach, a dewiſant hwy iddynt un buſtach, a drylliant ef, a goſodant ar y coed, ond na oſodant dân [tano ef:] a minnef a baratoaf y buſtach arall, ac ni roddaf dân tano.

24 Yna gelwch ar enw eich duwiau chwi, a minnef a alwaf ar enw yr Arglwydd, a bydded efe yn Dduw yr hwn a attebo drwy dân, [îe bydded] efe Dduw: a'r holl bobl a attebaſant, ac a ddywedaſant, da yw yr pêth.

25 Ac Elias a ddywedodd wrth brophwydi Baal, dewiſwch i chwi un buſtach, a pharatoiwch ef yn gyntaf, (canys llawer ydych chwi:) a gelwch ar enw eich duwiau chwi, ac na oſodwch dân tano ef,

26 A hwynt a gymmeraſant y buſtach yr

hwn a roddaſid iddynt hwy, ac ai paratoaſant, ac a alwaſant ar enw Baal o'r boreu hyd hanner dydd, gan ddywedyd, Baal gwrando ni, ond ni[chlybuwyd]llef, na neb yn atteb : a hwynt a lammaſant ar yr allor yr hon a wnelſid.

27 Pan ydoedd hi yn hanner dydd, yna Elias ai gwatworodd hwynt, ac a ddywedodd, gelwch a llef vchel, gan mai duw yw efe : canys ymddiddan[y mae,]neu erlyd ei[elynnion]neu ymdeithio y mae efe, fe a alle gyſcu o honaw ef, ac [mai rhaid]ei ddeffroi ef.

28 A hwynt a waeddaſant a llef vchel, ac a ymrwygaſant yn ôl eu harfer a chyllill, ac ag ellynnod, nes gollwng gwaed arnynt.

29 Ac wedi iddi fyned tros hanner dydd, a phrophwydo o honynt nes offrymmu y bwyd offrwm: etto ni chlybuwyd llef, na neb yn atteb, na dim yſtyriaeth[am danynt hwy.]

30 A dywedodd Elias wrth yr holl bobl, neſſewch attafi, a'r holl bobl a neſſaſant atto ef : ac efe a gyweiriodd allor yr Arglwydd yr hon a ddrylliaſid.

31 Ac Elias a gymmerth ddeuddec o gerric, yn ôl rhifedi llwythau meibion Iacob : yr hwn y buaſe gair yr Arglwydd gyd ag ef gan ddywedyd,* Iſrael fydd dy enw di.

Gene.32.28.
2.bren.17.34.

32 Ac efe a adailadodd a'r meini allor yn enw yr Arglwydd : ac a wnaeth ffôs (o gylch lle dau feſur o hâd )o amgylch i'r allor.

33 Ac efe a drefnodd y coed, ac a ddrylliodd y buſtach, ac ai goſododd ef ar y coed.

34 Ac efe a ddywedodd, llenwch bedwar celyrned o ddwfr, a thywelltwch ar y poeth offrwm, ac ar y coed : ac efe a ddywedodd, gwnewch eil-waith, a hwy a wnaethant eil-waith, dywedodd hefyd, gwnewch y drydedd waith, a hwy a wnaethant y drydedd waith.

35 A'r dyfroedd a aethant o amgylch i'r allor, fel y llawnwyd y ffos o ddwfr.

36 A phan offrymmwyd y bwyd offrwm, yna Elias y prophwyd a neſſaodd, ac a ddywedodd, ô Arglwydd Dduw Abraham, Iſaac, ac Iſrael, gwybydder heddyw mai ti[ſydd]Dduw yn Iſrael, a minnef yn wâs i ti : ac mai trwy dy air di y gwneuthum i yr holl bethau hynn.

37 Gwrando fi ô Arglwydd, gwrando fi, fel y gŵyppo y bobl hyn mai tydi[yw 'r]Arglwydd Dduw : pan ddychwelech eu calon hwynt trachefn.

38 Yna tân yr Arglwydd a ſyrthiodd, ac a yſſodd y poeth offrwm, a'r coed, a'r cerrig, a'r llwch : ac a leibiodd y dwfr yr hwn [ oedd ] yn y ffôs.

39 A'r holl bobl a welſant, ac a ſyrthiaſant ar eu hwynebau, ac a ddywedaſant:'r Arglwydd ſydd Dduw, yr Arglwydd ſydd Dduw.

40 Ac Elias a ddywedodd wrthynt hwy, deliwch brophwydi Baal, na ddianged gŵr o honynt, a hwynt ai daliaſant hwy : ac Elias ai dygodd hwynt i wared i afon Ciſon, ac ai lladdodd hwynt yno.

41 Ac Elias a ddywedodd wrth Ahab, dôs i fynu, bwytta, ac yf : canys [wele]drwſt llawer o law.

42 Felly Ahab a aeth i fynu i fwytta, ac i yfed: ac Elias a aeth i fynu i benn Carmel, ac a ymeſtynnodd ar y ddaiar, ac a oſododd ei wyneb rhwng ei liniau.

43 Ac efe a ddywedodd wrth ei langc, dos i fynu yn awr edrych tua yr môr, ac efe a aeth i fynu ac a edrychodd, ac a ddywedodd, nid [ oes ] dim : dywedodd yntef, dos etto ſaith waith.

44 A'r ſeithfed waith y dywedodd efe, wele gwmmwl bychan fel cledr llaw gŵr yn derchafu o'r môr: yna y dywedodd yntef, dos i fynu, dywet wrth Ahab, rhwym[dy gerbyd], a dos i wared fel na'th rwyſtro yr glaw.

45 Ac yn yr ennyd honno y nefoedd a dywyllaſant gan gwmylau, a gwynt, fel y bu glaw mawr : yna Ahab a farchogodd, ac a aeth i Iezrahel.

46 A llaw yr Arglwydd oedd gyd ag Elias, ac efe a wregyſſodd ei lwynau : ac a redodd o flaen Ahab nes ei ddyfod efe i Iezrahel.

## PEN. XIX.

Elias yn ffoi rhag Iezabel. 5 Angel Duw yn ei borthi ef. 9 Duw yn ymddiddan ag Elias, ac yn ei yrru ef i eneinio Hazael ar Siria, Iehu ar Iſrael, ac Eliſeus yn brophwyd.

YNa Ahab a fynegodd i Iezabel yr hyn oll a wnaethe Elias: a chwbl oll a'r a laddaſe efe (ſef yr holl brophwydi) a'r cleddyf.

2 Yna Iezabel a anfonodd gennad at Elias gan ddywedyd, fel hyn y gwnelo y duwiau, ac fel hyn y chwanegant oni oſodaf erbyn y pryd [hyn]y foru dy enioes di fel enioes vn o honynt hwy.

3 Pan welodd efe[hynny,]yna y cyfododd efe, ac efe a aeth am ei enioes, ac a ddaeth i Beerſeba yr hon[ſydd]yn Iuda : ac efe a adawodd ei langc yno.

4 Ac efe aeth i'r anialwch daith diwrnod, ac a ddaeth, ac a eiſteddodd tann ryw fêrywen : ac a ddeiſyfiodd gael marw, dywedodd hefyd, digō yw, yn awr Arglwydd cymmer fy enaid, canys nid ydwyf fi well na'm tadau.

5 Ac efe a orweddodd, ac a gyſcodd tann ryw fêrywen: ac wele ryw angel yn cyffwrdd ag ef, yr hwn a ddywedodd wrtho ef, cyfot, bwytta.

6 Ac efe a edrychodd, ac wele deiſen wedi ei chraſu ar farwor, a phioled o ddwfr wrth ei ben ef : felly efe a fwytâodd, ac a yfodd, ac a ddychwelodd, ac a gyſcodd.

7 Ac angel yr Arglwydd a ddaeth trachefn yr ail waith, ac a gyffyrddodd ag ef, ac a ddywedodd, cyfot bwytta : canys[y mae] i ti lawer o ffordd.

8 Yna efe a gyfododd, ac a fwyttaodd, ac a yfodd : a thrwy rym y bwyd hwnnw y cerddodd efe ddeugain nhiwrnod, a deugain nhôs hyd Horeb mynydd Duw.

9 Ac yno yr aeth efe i fewn ogof, ac a letteuodd yno: ac wele air yr Arglwydd atto ef, ac efe a ddywedodd wrtho ef, beth [a wnei] di ymma Elias?

Rhuf.11.3.

10 Ac efe a ddywedodd, dygais fawr zêl dros Arglwydd Dduw y lluoedd, o herwydd i feibion Iſrael wrthod dy gyfammod ti, a deſtruwio dy allorau di, a ladd dy brophwydi di a'r cleddyf: a * mi fy hunan a adawyd, a cheiſio y maent hwy ddwyn fy enioes inne.

11 Ac efe a ddywedodd, tyret allan, a ſaf yn y mynydd ger bron yr Arglwydd, ac wele yr Arglwydd yn myned heibio, a gwynt mawr a chrŷf yn rhwygo yr mynyddoedd, ac yn dryllio yr creigiau o flaen yr Arglwydd, [ond] nid [oedd] yr Arglwydd yn y gwynt: ac ar ôl y gwynt [y daeth] daiar-gryn, ac nid [oedd] yr Arglwydd yn y ddaiar-gryn.

12 Ac ar ôl y ddaiar-gryn [y daeth] tân [ond] nid [oedd] yr Arglwydd yn y tân: ac ar ôl y tân [y daeth] llef ddiſtaw fain.

13 A phan glybu Elias [hynny,] yna efe a oblygodd ei wyneb yn ei fantell, ac a ddaeth allan, ac a ſafodd [wrth] ddrws yr ogof: ac wele lef [yn dyfod] atto ef, yr hon a ddywedodd, beth [a wnei] di ymma Elias?

14 Dywedodd yntef dygais zêl dros Arglwydd Dduw yr lluoedd, o herwydd i feibion Iſrael wrthod dy gyfammod ti a deſtruwio dy allorau, a lladd dy brophwydi a'r cleddyf: a mi fy hunan a adawyd, a cheiſio y maent fy enioes inne fel y dygent hi ymmaith.

15 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, dôs, dychwel i'th ffordd [tu ag] anialwch Damaſcus: pan ddelech [yno] eneinia Hazael yn frenin ar Syria.

16 Iehu fab Nimſi a eneini di yn frenin ar Iſrael: ac Eliſêus fab Saphat o Abel Meholah a eneini di yn brophwyd yn dy lê dy hun.

2.Bren.9.1.
eccle.48.8.

17 A'r * hwn a ddiango rhac cleddyf Hazael, Iehu ai lladd ef: ac Eliſêus a ladd yr hwn a ddiango rhac cleddyf Iehu.

Rhuf.11.4.

18 Ac * mi a adewais yn Iſrael ſaith o filoedd: glinniau y rhai oll nid ymgrymmaſant i Baal, a genau y rhai oll nis cuſſanaſant ef.

19 Felly efe aeth oddi yno, ac a gafodd Eliſêus fab Saphat yn aredic a deuddec cwpl [o ŷchen] oi flaen, ac efe [oedd] gyd a'r deuddec: ac a fwriodd ei fantell am dano ef.

20 Ac efe a adawodd yr ŷchen, ac a redodd ar ôl Elias, ac a ddywedodd, attolwg gad i mi guſſanu fy nhâd, a'm mam, ac mi a ddeuaf ar dy ôl: ac yntef a ddywedodd wrtho ef, dôs, dychwel, canys beth a wneuthum i ti?

21 Ac efe a ddychwelodd oddi ar ei ôl ef, ac a gymmerth gwpl o ŷchen, ac ai lladdodd, ac ag offer yr ŷchen efe ai berwodd hwynt, ac a roddodd y cîg i'r bobl, ac hwy a fwyttawſant: yna efe a gyfododd, ac a aeth ar ôl Elias, ac ai gwaſanaethodd ef.

## PEN. XX.

Brenin Syria yn gwarchau Samaria. 13 Duw yn addo ac yn rhoddi yr oruchafiaeth i Iſrael. 34 Y prophwyd yn ceryddu Ahab am wneuthur cyfammod a brenin Syria.

YNa Benhadad brenin Syria a gaſclodd ei holl lû, a deuddec brenin ar hugain gyd ag ef, a meirch, a cherbydau: ac efe a aeth i fynu, ac a warchaodd ar Samaria, ac a ymladdodd iw herbyn hi.

2 Ac efe a anfonodd gennadau at Ahab brenin Iſrael i'r ddinas.

3 Ac a ddywedodd wrtho ef, fel hyn y dywed Benhadad, dy arian a'th aur ſydd eiddo fi: dy wragedd hefyd a'th feibion teccaf ydynt eiddo fi.

4 A brenin Iſrael a attebodd, ac a ddywedodd, yn ôl dy air di fy arglwydd frenin myfi a'r hyn oll [ſydd] gennif [ydym] eiddo ti.

5 A'r cennadau a ddychwelaſant, ac a ddywedaſant, fel hyn yr ymadroddodd Benhadad gan ddywedyd: o herwydd i mi anfon attat ti gan ddywedyd, dy arian, a'th aur, a'th wragedd, a'th feibion a roddi di i mi,

6 Am hynny yng-hylch y pryd [hyn] y foru yr anfonaf fyng-weiſion attat tî, fel y chwiliant dy dŷ, a thai dy weiſion: a phob peth dymunol yn dy olwg a gymmerant hwy yn eu dwylo, ac [ai] dugant ymmaith.

7 Yna brenin Iſrael a alwodd am holl henuriaid y wlâd, ac a ddywedodd, gwybyddwch attolwg, a gwelwch mai ceiſio drygioni y mae hwn: canys efe a anfonodd attafi, am fyng-wragedd, am fy meibion, ac am fy arian, ac am fy aur, ac nis gommeddais ef.

8 Yr holl henuriaid hefyd, a'r holl bobl a ddywedaſant wrtho ef: na wrando, ac na chydtuna [ag ef.]

9 Am hynny y dywedodd efe wrth gennadau Benhadad, dywedwch i'm harglwydd y brenin, [am] yr hyn oll yr anfonaiſt ti at dy wâs o'r cyntaf mi ai gwnaf, ond ni allaf wneuthur y peth hyn: a'r cennadau a aethant, ac a ddugaſant air iddo ef.

10 A Benhadad a anfonodd atto ef, ac a ddywedodd, fel hyn y gwnelo y duwiau i mi, ac fel hyn y chwanegant: os bydd pridd Samaria ddigon [i lenwi,] dyrnau yr holl bobl y rhai [ydynt] i'm canlyn i.

11 A brenin Iſrael a attebodd, ac a ddywedodd, dywedwch [wrtho ef,] nac ymffroſtied yr hwn a wregyſſo [ei arfau,] fel yr hwn ai dioſco.

12 A phan glywodd efe y peth hyn, ac efe yn yfed, efe a'r brenhinoedd yn eu pebyll: yna efe a ddywedodd wrth ei weiſion, goſodwch, a hwy a oſodaſant ar y ddinas.

13 Yna wele rhyw brophwyd a neſſaodd at Ahab brenin Iſrael, ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, oni welaiſti'r holl dyrfa fawr hon? wele fi yn eu rhoddi hwynt yn dy law di heddyw, fel y gŵypech mai myfi [ydwyf]

wyf] yr Arglwydd.

14 Ac Ahab a ddywedodd, drwy bwy? dywedodd yntef, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, drwy langciau tywyſogion y talaithau: ac efe a ddywedodd, pwy a luniaetha 'r rhyfel? dywedodd yntef tydi.

15 Yna efe a gyfrifodd langciau tywyſogion y talaithau, ac yr oeddynt yn ddau cant, [a] deuddec ar hugain: ac ar eu hôl hwynt efe a gyfrifodd yr holl bobl, cwbl o feibion Iſrael yn ſaith mil.

16 Ac hwy a aethant allan ganol dydd: a Benhadad oedd yn yfed yn feddw yn y gwerſyllau efe a'r brenhinoedd, ſef y deuddec brenin ar hugain y rhai oeddynt yn ei gynnorthwyo ef.

16 Felly llangciau tywyſogion y talaithau a aethant allan yn gyntaf: a Benhadad a anfonodd [gennadau,] ac hwy a fynegaſant iddo ef gan ddywedyd, dynion a ddaethant allan o Samaria.

18 Ac efe a ddywedodd, os am heddwch y daethant allan deliwch hwynt yn fyw: ac os i ryfel y daethant allan, deliwch hwynt yn fyw.

19 Felly 'r aethant hwy allan o'r ddinas, [ſef] llangciau tywyſogion y talaithau: a'r llu 'r hwn [oedd] ar eu hôl hwynt.

20 Ac hwy a laddaſant bawb ei ŵr, a'r Syriaid a ffoaſant, ac Iſrael ai herlidiodd hwynt: a Benhadad brenin Syria a ddiangodd ar farch, gydar gwŷr meirch.

21 Yna brenin Iſrael a aeth allan, ac a darawodd y meirch, a'r cerbydau: felly efe a darawodd y Syriaid a phla mawr.

22 A'r prophwyd a neſſaodd at frenin Iſrael, ac a ddywedodd wrtho ef, dôs ymgryfha, gwybydd hefyd, a gwêl yr hyn a wnelech: canys yng-hyfnod y flwyddyn brenin Syria a ddaw i fynu i'th erbyn di.

23 Yna gweiſion brenin Syria a ddywedaſant wrtho ef, duwiau y mynyddoedd [yw] eu duwiau hwynt, am hynny trêch fuant na ni: er hynny os ymladdwn ni a hwynt yn y gwaſtad [ti a gei weled] oni orthrechwn ni hwynt.

24 Gwna gan hynny y peth hyn: tyn ymmaith y brenhinoedd bob vn oi le, a goſot ddugiaid yn ei lle hwynt.

25 Rhifa hefyd it lu fel y llu 'r hwn a gollaiſt ti, a meirch fel y meirch [hynny,] a cherbydau fel y cerbydau [hynny,] ac ni a ymladdwn a hwynt yn y gwaſtad tir [a chei weled] oni orthrechwn ni hwynt: ac efe a wrandawodd ar eu llais hwynt, ac a wnaeth felly.

26 Ac yng-hyfnod y flwyddyn, Benhadad a gyfrifodd y Syriaid: ac a aeth i fynu i Aphec i ryfela yn erbyn Iſrael.

27 A meibion Iſrael a gyfrifwyd, ac a niferwyd, ac a aethant iw cyfarfod hwynt: a meibion Iſrael a werſyllaſant yn eu herbyn hwynt: fel dwy ddiadell fechain o eifr, a'r Syriaid a lawnaſant y wlâd.

28 A gŵr Duw a neſſaodd, ac a leſarodd wrth frenin Iſrael, ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, o herwydd dywedyd or Syriaid Duw y mynyddoedd [yw]'r Arglwydd, ac nid Duw'r dyffrynnoedd [yw] efe: am hynny y rhoddaf yr holl dyrfa fawr hon i'th law di, ac y cewch wybod mai myfi [yw] r' Arglwydd.

29 A'r rhai hyn a werſyllaſant yn erbyn y llaill ſaith niwrnod: ac ar y ſeithfed dydd y rhyfel a neſaodd, a meibion Iſrael a laddaſant o'r Syriaid gan mil o wŷr traed mewn vn diwrnod.

30 A'r lleill a ffoaſant i Aphec i'r ddinas, a'r mûr a ſyrthiodd, ar ſaith mil ar hugain o'r gwŷr a adawſid: a Benhadad a ffôdd, ac a ddaeth i'r ddinas o ſtafell i ſtafell.

31 Ai weiſion a ddywedaſant wrtho ef, wele clywſom yn awr am frenhinoedd tŷ Iſrael, mai brenhinoedd trugarogion ydynt hwy: goſodwn attolwg ſachliain am ein lwynau, a rhaffau am ein pennau, ac awn at frenin Iſrael, ond odid efe a geidw dy enioes di.

32 Yna y gwregyſaſant ſachliain am eu lwynau, a rhaffau am eu pennau, ac a ddaethant at frenin Iſrael, ac a ddywedaſant, Benhadad dy wâs a ddywedodd, attolwg gad i mi fyw: dywedodd yntef, a ydyw efe etto yn fyw? fy mrawd [yw] efe.

33 A'r gwŷr a gymeraſant [hynny] yn argoel dda, ac a fryſiaſant, ac a gippiaſāt y [gair] oddi wrtho ef, ac a ddywedaſant dy frawd Benhadad, dywedodd yntef, ewch dygwch ef: felly Benhadad a ddaeth allan atto ef, ac efe a barodd iddo ddyfod i fynu i'r cerbyd.

34 A [Benhadad] a ddywedodd wrtho ef, y dinaſoedd y rhai a ddûg fy nhâd i oddiar dy dâd ti a roddaf trachefn, fel y goſottech heolydd it yn Damaſcus, fel y goſododd fy nhâd yn Samaria, a [dywedodd Ahab] mi a'th ollyngaf drwy'r ammod [hwn:] felly efe a wnaeth gyfammod ag ef, ac ai gollyngodd ef.

35 Yna rhyw ŵr o feibion y prophwydi a ddywedodd wrth ei gymmydog drwy air yr Arglwydd, taro fi attolwg: ond y gŵr a wrthododd ei daro ef.

36 Dywedodd yntef wrtho ef, o herwydd na wrandewaiſt ar lais yr Arglwydd, wele pan elech oddi wrthif y llew a'th ladd di: felly efe a aeth oddi wrtho ef, a'r llew ai cyfarfu ef, ac ai lladdodd.

37 Yna efe a gafodd ŵr arall, ac a ddywedodd, taro fi attolwg: a'r gŵr ai tarawodd ef gan ei daro, ai archolli.

38 Felly 'r aeth y prophwyd ac a ſafodd o flaen y brenin ar y ffordd, ac a ymddieithrodd trwy [oſod] lludw ar ei lygaid.

39 A phan ddaeth y brenin heibio, yna efe a leſodd ar y brenin, ac a ddywedodd: dy wâs a aeth i ganol y rhyfel, ac wele gŵr a aeth ym-

maith yr hwn a ddugaſe rhyw ŵr attafi, ac a ddywedaſe, cadw y gŵr hwn: os gan golli y collir ef, yna y bydd dy einioes di yn lle ei einioes ef, neu ti a deli dalent o arian.

40 A thra yr oedd dy wâs yn ymdroi ymma, ac accw, efe [a ddiangodd,] ac nid [yw] efe [iw gael]: a brenin Iſrael a ddywedodd wrtho ef, felly [y bydd] dy farn, ti [ai] goſodaiſt [hi.]

41 Yna efe a fryſſiodd, ac a dynnodd ymmaith yr hûg oddi ar ei lygaid: a brenin Iſrael ai hadnabu ef, mai o'r prophwydi ['r oedd] efe.

42 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, o herwydd it ollwng ymmaith o'th law di y gŵr a roddais i farw: dy einioes di fydd yn lle ei einioes ef, a'th bobl di yn lle ei bobl ef.

43 Yna brenin Iſrael a aeth iw dŷ ei hun, yn driſt, ac yn llidioc: ac a ddaeth i Samaria.

## PEN. XXI.

Iezabel yn peri lladd Naboth i gael ei winllan ef. 19 Elias yn ceryddu Ahab. 27 yntef yn cymmeryd math ar edifeirwch, ac yn cael gan Dduw ei arbed.

A Digwyddodd yn ôl y pethau hyn fod gwin-llan gan Naboth y Iezraeliad yr hon [oedd] yn Iezrahel, wrth balas Ahab brenin Samaria.

2 Ac Ahab a lefarodd wrth Naboth gan ddywedyd, dyro i mi dy win-llan, fel y byddo hi i mi yn ardd lyſſiau, canys y mae hi yn agos i'm tŷ i, ac mi a roddaf i ti am deni hi win-llan well na hi: [neu] os da fydd gennit, rhoddaf i ti ei gwerth hi o arian.

3 A Naboth a ddywedodd wrth Ahab: na atto'r Arglwydd i mi roddi tref-tadaeth fy henafiaid i ti.

4 Yna Ahab a ddaeth iw dŷ yn athriſt ac yn llidioc (o herwydd y gair yr hwn a lefaraſe Naboth yr Iezraeliad wrtho ef, pan ddywedodd efe ni roddaf it dref-tadaeth fy henafiaid) ac efe a orweddodd ar ei wely, ac a drôdd ei wyneb, ac ni fwyttai fara.

5 Yna Iezabel ei wraig a ddaeth atto ef: ac a ddywedodd wrtho ef, pa ham y mae dy yſpryd [mor] athriſt, ac nad wyt yn bwytta bara?

6 Ac efe a ddywedodd wrthi hi, o herwydd i mi lefaru wrth Naboth yr Iezraeliad, a dywedyd wrtho ef, dyro i mi dy win-llan er arian, neu os mynni di, rhoddaf it win-llan am deni: ond efe a ddywedodd, ni roddaf it fyng-winllan.

7 Yna Iezabel ei wraig a ddywedodd wrtho ef, [ond] ydwyt ti yn awr yn teyrnaſu ar Iſrael? cyfot, bwytta fara, a llawenhaed dy galon, myfi a roddaf i ti win-llan Naboth yr Iezraeliad.

8 Felly hi a ſcrifennodd lythŷrau yn enw Ahab, ac ai ſeliodd ai ſêl ef: ac a anfonodd y llythŷrau at yr henuriaid, ac at y pennaethiaid y rhai [oeddynt] yn ei ddinas ef yn trigo gyd a Naboth.

9 A hi a ſcrifennodd yn y llythŷrau gan ddywedyd: cyhoeddwch ympryd, a chyfleuwch Naboth ym myſc pennaethiaid y bobl.

10 Cyfleuwch hefyd ddau ŵr o feibion y fall gyferbyn ag ef, i deſtiolaethu iw erbyn ef gan ddywedyd, ti a gablaiſt Dduw, a'r brenin: yna dygwch ef allan a llabyddiwch ef, fel y byddo efe marw.

11 A gwŷr ei ddinas ef [ſef] yr henuriaid, a'r pennaethiaid y rhai oeddynt yn trigo yn ei ddinas ef a wnaethant yn ôl yr hyn a anfonaſe Iezabel attynt hwy: [ſef] yn ôl yr hyn oedd yn ſcrifennedic yn y llythŷrau y rhai a anfonaſe hi attynt hwy.

12 Cyhoeddaſant ympryd, a chyfleuaſant Naboth ym myſc pennaethiaid y bobl.

13 A'r ddau ŵr o feibion y fall a ddaethant, ac a eiſteddaſant ar ei gyfer ef, gwŷr y fall a deſtiolaethaſant yn erbyn Naboth, ger bron y bobl gan ddywedyd, Naboth a gablodd Dduw, a'r brenin: yna hwynt ai dugaſant ef allan o'r ddinas, ac ai llabyddiaſant ef a meini, fel y bu efe farw.

14 Yna'r anfonaſant hwy at Iezabel gan ddywedyd: Naboth a labyddiwyd, ac a fu farw.

15 Pan glybu Iezabel labyddio Naboth, ai farw ef: yna Iezabel a ddywedodd wrth Ahab, cyfot, meddianna win-llan Naboth yr Iezraeliad, yr hwn a wrthododd [ei] rhoddi i ti er ariã, canis nid byw Naboth, eithr marw yw efe.

16 A phan glybu Ahab farw o Naboth: yna Ahab a gyfododd i fyned i wared i win-llan Naboth yr Iezraeliad iw meddiannu hi.

17 A gair yr Arglwydd a ddaeth at Elias y Theſbiad gan ddywedyd:

18 Cyfot, dos i wared i gyfarfod Ahab brenin Iſrael, yr hwn [ſydd] yn Samaria: wele efe yng-winllan Naboth yr hon yr aeth efe i wared iddi iw mediannu.

19 A llefara wrtho ef gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, a leddaiſti, ac a feddiannaiſt hefyd? llefara hefyd wrtho ef gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, y fan llê y llyfodd y cŵn waed Naboth, y cŵn a lyfant dy waed tithef hefyd.

20 A dywedodd Ahab wrth Elias, a gefaiſt ti fiô f yng-elyn? dywedodd yntef, cefais, canys ti a ymroddaiſt i wneuthur yr hyn ſydd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

21 Wele * fi yn dwyn dialedd arnat ti, a mi Pen.14.10.
a dynnaf ymmaith dy hiliogaeth di: ac a dorraf 2.Bren.9.8.
oddi wrth Ahab * yr hwn a biſſo ar bared, y 1.Sam.25.22.
gwarchaedic hefyd, a'r gweddilledic yn Iſ- Pen.14.10.
rael.

22 A mi a roddaf dy dŷ di * fel tŷ Ieroboam Pen.15.29.
mab Nabat, ac fel tŷ Baaſa mab Ahia: o her- Pen.16.3.
wydd y digter [drwy] 'r hwn [i'm] digiaiſt, ac
y gwnaethoſt i Iſrael bechu.

23 Am Iezabel hefyd y llefarodd yr Ar-
glwydd gan ddywedyd: * cŵn a fwytânt Ieza- 2.Bren.9.36.
bel yn rhan-dir Iezrahel.

24 Y cŵn a fwytânt yr hwn fyddo marw o eiddo Ahab yn y ddinas: a'r hwn a fyddo marw yn y maes a fwyttu adar y nefoedd.

25 Diau na bu [neb] fel Ahab yr hwn a ymroddodd i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: o herwydd Iezabel ei wraig ai hannogodd ef.

26 Canys efe a wnaeth yn ffiaidd iawn, gan fyned ar ôl y delwau: yn ôl yr hyn oll a wnaeth yr Amoriaid y rhai a yrrodd yr Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael.

27 A phan glybu Ahab y geiriau hyn, yna efe a rwygodd ei ddillad, ac a oſododd ſachliain am ei gnawd, ac a ymprydiodd: ac a orweddodd mewn ſachliain, ac a rodiodd yn arafaidd.

28 A gair yr Arglwydd a ddaeth at Elias y Theſbiad gan ddywedyd:

29 Oni weli di, fel yr ymoſtyngodd Ahab ger fy mron i? am iddo ef ymoſtwng ger fy mron i, ni ddygaf y drwg hwnnw yn ei ddyddiau ef, [ond] * yn nyddiau ei fâb ef y dygaf y drwg hwnnw ar ei dŷ ef.

2.Bren.9.26.

## PEN. XXII.

Rhyfel Ahab yn erbyn Ramoth. 15 Michea yn prophwydoliaethu y gwîr yn erbyn y gau brophwydi. 40 Ahazia yn teyrnaſu yn lle Ahab. 50 Ac Ioram yn lle Ioſaphat.

2.Cron.18.1.

WEdi iddynt aros dair blynedd heb ryfel rhwng Syria ac Iſrael:

2 Yna yn y drydedd flwyddyn, Jehoſaphat brenin Juda a ddaeth i wared at frenin Iſrael.

3 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth ei weiſion, oni wyddoch mai eiddo ni [oedd] Ramoth Gilead? a'n bod ni yn tewi heb ei dwyn hi o law brenin Syria?

2.Cron.18.3

4 Yna efe a ddywedodd wrth Jehoſaphat, a ei di gyd a mi i ryfel [yn erbyn] Ramoth Gilead? ac Jehoſaphat a ddywedodd wrth frenin Iſrael, yr ydwyf fi fel tithe, fy mhobl i fel dy bobl dithe, fy meirch i fel dy feirch dithe.

5 Jehoſaphat hefyd a ddywedodd wrth frenin Iſrael: ymgynghora attolwg heddyw a gair yr Arglwydd.

6 Yna brenin Iſrael a gaſclodd o'r prophwydi yng-hylch pedwar cant o wŷr, ac a ddywedodd wrthynt hwy, a âf fi yn erbyn Ramoth Gilead i ryfel neu a beidiaf? dywedaſant hwythau dos i fynu, canys yr Arglwydd ai dyru hi yn llaw 'r brenin.

7 Ac Jehoſaphat a ddywedodd, onid [oes] ymma [un] prophwyd i'r Arglwydd mwyach, fel yr ymgynghorem ag ef?

8 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat, [y mae] etto un gŵr drwy'r hwn y [gallem] ymgynghori a'r Arglwydd, eithr câs yw gennyf ef, canys ni phrophwyda efe i mi ddaioni namyn drygioni: (Michea mab Jimla [yw ei enw)] a dywedodd Jchoſaphat, na ddyweded y brenin felly.

9 Yna brenin Iſrael a alwodd ar un [oi] ſtafellyddion, ac a ddywedodd: bryſia [galw] Michea fab Jimla.

10 A brenin Iſrael, ac Jchoſaphat brenin Juda oeddynt yn eiſtedd bob un ar ei deyrn-gader wedi eu gwiſco mewn [brenhinawl] wiſcoedd, mewn llãnerch [wrth] ddrws porth Samaria: a'r holl brophwydi oeddynt yn prophwydo ger eu bron hwynt.

11 A Zidecia mab Chanaana a wnaeth gyrn heirn: ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, a'r rhai hyn y corni di y Syriaid nes it eu difa hwynt.

12 A'r holl brophwydi oeddynt yn prophwydo fel hyn gan ddywedyd: dos i fynu i Ramoth Gilead, a ffynna, canys yr Arglwydd ai dyru hi yn llaw yr brenin.

13 A'r gennad yr hwn a aethe i alw Michea a lefarodd wrtho ef gan ddywedyd: wele yn awr eiriau y prophwydi yn un air yn dda i'r brenin: bydded attolwg dy air dithe, fel gair un o'r rhai hynny, a dywet y goref.

2.Cron. 18.12

14 A dywedodd Michea: [fel] mai byw 'r Arglwydd, [diau] mai 'r hyn a ddywedodd yr Arglwydd wrthifi, hynny a lefaraf.

15 Felly efe a ddaeth at y brenin, a'r brenin a ddywedodd wrtho, Michea, a awn ni i ryfel [yn erbyn] Ramoth Gilead, ai peidio? dywedodd yntef wrtho, dôs i fynu, a llwydda, canys yr Arglwydd ai dyru hi yn llaw 'r brenin.

16 A'r brenin a ddywedodd wrtho ef, hyd ba ſawl gwaith yr ydwyf fi yn dy dyngheđu di, ar na ddywedech di wrthif onid gwirionedd yn enw yr Arglwydd?

17 Yna efe a ddywedodd, gwelais holl Iſrael yn waſcaredic ar hŷd y mynyddoedd, fel defaid y rhai ni [bydde] iddynt fugail: a dywedodd yr Arglwydd, nid [oes] feiſtred arnynt hwy, dychweled pob un iw dŷ ei hun mewn heddwch.

18 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat: oni ddywedais i wrthit na phrophwyde efe ddaioni i mi, eithr drygioni?

19 Ac efe a ddywedodd, clyw gan hynny air yr Arglwydd: gwelais yr Arglwydd yn eiſtedd ar ei orſeddfa, a holl lu y nefoedd yn ſefyll o bob parth iddo ef ar ei law ddehau, ac ar ei law aſſwy ef.

20 A'r Arglwydd a ddywedodd, pwy a dwylla Ahab, fel yr elo efe i fynu, ac y ſyrthio yn Ramoth Gilead? ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall oedd yn dywedyd fel hyn.

21 Yna yſpryd a ddaeth allan, ac a ſafodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, myfi ai twyllaf ef: a dywedodd yr Arglwydd wrtho ef, pa fodd?

22 Dywedodd yntef, mi a âf allan, ac a fyddaf yn yſpryd celwyddoc yng-enau ei holl brophwydi ef: yna ['r Arglwydd] a ddywedodd, twylli a gorchfygi [ef,] dôs ymmaith, a gwna felly.

23 Ac yn awr wele 'r Arglwydd a roddodd yſpryd celwyddoc yng-enau dy holl brophwydi

hynn: a'r Arglwydd a leſarodd ddrwg am danat ti.

24 Yna Zidecia mab Canaanah a neſſaodd, ac a darawodd Michea tan [ci]gern: ac a ddywedodd,* pa bryd yr aeth yſpryd yr Arglwydd oddi wrthifi i ymddiddan a thi? 1.Cron. 18.28.

25 A Michea a ddywedodd, wele ti a gei weled yn y dwthwn hwnnw, pan elech di o ſtafell i ſtafell i ymguddio.

26 A brenin Iſrael a ddywedodd, cymmer Michea, a dŵg ef at Amon tywyſog y ddinas, ac at Ioas mab y brenin:

27 A dywet, fel hyn y dywedodd y brenin, goſodwch hwn yn y charchar-dŷ: a bwydwch ef a bara cyſtudd, ac a dwfr blinder, nes i mi ddyfod mewn heddwch.

28 A dywedodd Michea, os gan ddychwelyd y dychweli di mewn heddwch, ni leſarodd yr Arglwydd ynofi: dywedodd hefyd, gwrandewch [hyn] yr holl bobl.

29 Felly brenin Iſrael, ac Iehoſaphat brenin Iuda a aethant i fynu i Ramoth Gilead.

2.Cron. 18.29. 30 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Iehoſaphat, mi a newidiaf fy nillad, ac a âf i'r rhyfel, ond gwiſc di dy ddillad dy hun: a brenin Iſrael a newidiodd ei ddillad, ac a aeth i'r rhyfel.

31 A brenin Syria a orchymynnodd i dywyſogion y cerbydau y rhai [oeddynt] ganddo ([ſef] deuddec ar hugain) gan ddywedyd, nac ymleddwch a bychan, nac a mawr: onid a brenin Iſrael ei hun.

32 Pan welodd tywyſogion y cerbydau Iehoſaphat, yna hwy a ddywedaſant, diau brenin Iſrael [yw] efe, a hwynt a droaſant i ymladd yn ei erbyn ef: ac Iehoſaphat a waeddodd.

33 A phan welodd tywyſogion y cerbydau nad brenin Iſrael oedd efe: yna hwynt a ddychwelaſant oddi ar ei ôl ef.

2.Cron. 18.33. 34 Yna rhyw ŵr a dynnodd mewn bŵa ar ei amcan, ac a darawodd frenin Iſrael rhwng y cyſſylltiadau, ſef rhwng [cyſſylltiadau] y llurig: am hynny efe a ddywedodd wrth ei waſſrawd, trô dy law, a dwg fi allan o'r fyddin canys fo'm clwyfwyd i.

35 A'r rhyfel a gryfhaodd y dwthwn hwnnw, a'r brenin oedd wedi ei oſod mewn cerbyd ar gyfer y Syriaid: ac efe a fu farw gyd ar hwyr, a gwaed yr archoll a ffrydiodd i ganol y cerbyd.

36 Am hynny yr aeth cyhoeddiad trwy'r gwerſſyll yng-hylch machludiad yr haul gan ddywedyd: [eled] pob un iw ddinas, a phob un iw wlâd ei hun.

37 Felly y bu farw'r brenin, ac y daeth efe i Samaria: a'r [Iſraeliaid] a gladdaſant y brenin yn Samaria.

38 Yna y golchwyd ei gerbyd ef yn llynn Samaria, a'r cŵn a lyfaſant ei waed ef, (yr arfau hefyd a olchwyd) yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a leſaraſe efe.

39 A'r rhan arall o haneſſion Ahab, a'r hyn oll a wnaeth efe, a'r tŷ ifori'r hwn a adailadodd efe, a'r holl ddinaſoedd y rhai a adailadodd efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

40 Felly Ahab a hunodd gyd ai dadau: ac Ahazia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

41 Ac Iehoſaphat mab Aſa a aethe yn frenin ar Iuda yn y bedwaredd flwyddyn i Ahab brenin Iſrael.

42 Iehoſaphat [oedd] * fab pymthengmlwydd ar hugain pan aeth efe yn frenin, a phum mhlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Azuba merch Silhi. 2.Cron.20.31.

43 Ac efe a rodiodd yn holl ffordd Aſa ei dad, ni ledpeiodd efe oddi wrthi hi, gan wneuthur yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd.

44 Er hynny ni thynnwyd ymmaith yr vchelfeudd, y bobl oeddynt etto yn offrymmu, ac yn arogldarthu yn yr vchelfeudd.

45 Ac Iehoſaphat a heddychodd a brenin Iſrael.

46 A'r rhan arall o hanes Iehoſaphat, ai rymmuſdra yr hwn a wnaeth efe, a'r môdd yr ymladdodd efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

47 A'r rhan arall o'r Sodomiaid a'r a adawyd yn nyddiau Aſa ei dad ef: efe ai deleodd hwynt o'r wlâd.

48 Yna nid [oedd] brenin yn Edom: [onid] duwc oedd yn llê brenin.

49 Iehoſaphat a wnaeth longau môr i fyned i Ophir am aur, ond nid aeth efe,* canys y llongau a ddrylliaſant yn Ezion Gaber. 2.Cron.20.37

50 Yna y dywedodd Ahazia mab Ahab wrth Iehoſaphat, eled fyng-weiſion i gyd a'th weiſion di yn y llongau: ond ni fynne Iehoſaphat.

51 Ac Iehoſaphat a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd ei dad: ac Ioram ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

52 Ahazia mab Ahab a aeth yn frenin ar Iſrael yn Samaria yn yddwyfed flwyddyn ar bymthec i Iehoſaphat brenin Iuda: ac efe a deyrnaſodd ar Iſrael ddwy flynedd.

53 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: ac a rodiodd yn ffordd ei dad, ac yn ffordd ei fam, ac yn ffordd Ieroboam mab Nabat, yr hwn a wnaeth i Iſrael bechu.

54 Canys efe a waſanaethodd Baal, ac a ymgrymmodd iddo ef: ac a ddigiodd Arglwydd Dduw Iſrael, yn ôl yr hyn oll a wnaethe ei dâd ef.

# Yr ail llyfr o'r Brenhinoedd.

## PENNOD. I.

Elias yn ceryddu Ahazia am ymgynghori a Baal-zebub. 10 tân o'r nefoedd yn lloſci dau o'r captenniaid y rhai a yrraſid i gyrchu Elias. 17 Ac Ioram mab Ahab yn teyrnaſu yn lle Ahazia.

2.Sam.8.2. YNA Moab a wrthryfelodd yn erbyn Iſrael, wedi marwolaeth Ahab.

2 Ac Ahazia a syrthiodd drwy feneſtr ddellt oi loft yr hon [oedd] yn Samaria, ac a glafychodd: am hynny efe a anfonodd gennadau, ac a ddywedodd wrthynt, ewch, ac ymofynnwch a Baal-zebub duw Ecron, a fyddafi byw o'r clefyd hwn.

3 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrth Elias y Theſbiad, cyfot, dos i fynu i gyfarfod a chennadau brenin Samaria: a dywet wrthynt, ai am nad [oedd] Dduw yn Iſrael yr ydych chwi yn myned i ymgynghori a Baal-zebub duw Ecron?

4 Ac am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, ni ddeſcynni o'r gwely 'r hwn y dringaiſt arno, eithr gan farw y byddi farw: felly Elias a aeth ymmaith.

5 Pan ddychwelodd y cennadau atto ef: efe a ddywedodd wrthynt hwy, pa ham y dychwelaſoch chwi?

6 A hwynt a ddywedaſant wrtho, gŵr a ddaeth i fynu i'n cyfarfod ni, ac a ddywedodd wrthym ni, ewch, dychwelwch at y brenin yr hwn a'ch anfonodd chwi, a lleferwch wrtho ef, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, ai am nad [oes] Duw yn Iſrael yr ydwyt ti yn anfon i ymgynghori a Baal-zebub duw Ecron? o herwydd hynny ni ddeſcynni o'r gwely yr hwn y dringaiſt arno, eithr gan farw y byddi farw.

7 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pa ddull [oedd ar] y gŵr yr hwn a ddaeth i fynu i'ch cyfarfod chwi, ac a lefarodd wrthych yr ymadroddion ymma?

8 Ac hwy a ddywedaſant wrtho ef, gŵr blewog oedd efe, wedi ymwregyſſu hefyd a gwregys croen am ei lwynau: yna y dywedodd yntef, Elias y Theſbiad [oedd] efe.

9 Yna efe a anfonodd atto ef dywyſog ar ddêc a deugain gyd ai ddêc a deugain: yr hwn a aeth i fynu atto ef, (ac wele ef yn eiſtedd ar ben y mynydd) ac a lefarodd wrtho ef, o ŵr [i] Dduw, y brenin a lefarodd, tyret i wared.

10 Ac Elias a attebodd, ac a ddywedodd wrth dywyſog y dêc a deugain, os gŵr Duw ydwyfi', deſcynned tân o'r nefoedd, ac yſſed di, a'th ddêc a deugain: felly tân a ddeſcynnodd o'r nefoedd, ac ai hyſſodd ef, ai ddêc a deugain.

11 A'r [brenin] a anfonodd eilwaith atto ef dywyſog dêc a deugain arall, ai ddêc a deugain: ac efe a lefarodd, ac a ddywedodd, ô ŵr Duw fel hyn yr archodd y brenin, tyret i wared yn ebrwydd.

12 Ond Elias a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt hwy, os gŵr Duw ydwyfi, deſcynned tân o'r nefoedd, ac yſſed di a'th ddêc a deugain: felly tân Duw a ddeſcynnodd o'r nefoedd, ac ai hyſſodd ef, ai ddêc a deugain.

13 [Y brenin] gan hynny a anfonodd etto y trydydd tywyſog [ar] ddêc a deugain, ai ddêc a deugain: a'r trydydd tywyſog [ar] ddêc a deugain a aeth i fynu, ac a ddaeth, ac a ymgrymmodd ar ei liniau ger bron Elias, ac a ymbiliodd ag ef, ac a lefarodd wrtho ef, o ŵr Duw, attolwg bydded fy enioes i, ac enioes dy ddêc gwâs a deugain hyn yn werthfawr yn dy olwg di.

14 Wele deſcynnodd tân o'r nefoedd, ac yſſodd y ddau dywyſog gyntaf ar ddêc a deugain, ai ddêc a deugain: ond yn awr bydded fy enioes i yn werthfawr yn dy olwg di.

15 Ac angel yr Arglwydd a lefarodd wrth Elias, dos i wared gyd ag ef, nac ofna rhac ei wyneb ef: felly efe a gyfododd, ac a aeth i wared gyd ag ef at y brenin.

16 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, o herwydd it anfon cennadau i ymgynghori a Baal-zebub duw Ecron (ai am nad [oes] Duw yn Iſrael i ymgynghori ai air [yr anfonaiſt?]) am hynny ni ddeſcynni o'r gwely 'r hwn y dringaiſt arno, eithr gan farw y byddi farw.

17 Felly efe a fu farw yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe Elias, ac Ioram a deyrnaſodd yn ei le ef yn yr ail flwyddyn i Ioram fab Iehoſaphat brenin Iuda: canys nid oedd mab iddo ef.

18 A'r rhan arall o hanes Azaria, y rhai a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn *llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael? 1.Bren.11.41.

## PEN. II.

1 Elias heb gael gan Eliſêus ymadel ag ef, yn rhwygo yr Iorddonen ai fantell, ac yn myned i'r nefoedd. 13 Elizeus wedi cael mantell Elias yn hollti yr Iorddonen ac yn gwneuthur y dwfr yn beraidd. 23 deſtruw y bechgin y rhai a watwaraſent Elizêus.

PAN oedd yr Arglwydd ar gymmeryd i fynu Elias mewn corwynt i'r nefoedd: yna 'r aeth Elias, ac Eliſêus allan o Gilgal.

2 Ac Elias a ddywedodd wrth Eliſêus, eiſtedd attolwg ymma, canys yr Arglwydd a'm hanfonodd hyd Bethel, ond Eliſêus a ddywedodd, [fel] mai byw yw yr Arglwydd, ac mai byw dy enaid tithe nid ymadawaf a thi: felly hwynt a ddaethant i wared i Bethel.

3 Yna meibion y prophwydi y rhai [oe-

ddynt] yn Bethel a aethant allan at Eliſêus, ac a ddywedaſant wrtho ef, a wyddoſti mai heddyw y mae'r Arglwydd yn dwyn dy feiſtr di oddi arnat? dywedodd yntef, mi a wn [hynny] hefyd, tewch a ſôn.

4 Elias a ddywedodd eilwaith wrtho ef, eiſtedd ymma attolwg Eliſêus, canys yr Arglwydd a'm hanfonodd i Iericho, dywedodd yntef, [fel] mai byw 'r Arglwydd, ac mai byw dy enaid tithe nid ymadawaf a thi: felly hwynt a ddaethant i Iericho.

5 Yna meibion y prophwydi y rhai [oeddynt] yn Iericho a neſſauaſant at Eliſêus, ac a ddywedaſant wrtho ef, a wyddoſti mai heddyw y mae'r Arglwydd yn dwyn dy feiſtr di oddi arnat? yntef a ddywedodd, minne a wn [hynny] tewch a ſôn.

6 Etto Elias a ddywedodd wrtho ef, eiſtedd ymma attolwg, canys yr Arglwydd a'm hanfonodd i'r Iorddonen, dywedodd yntef, [fel] mai byw 'r Arglwydd, ac mai byw dy enaid tithe, nid ymadawaf a thi: yna hwynt a aethant ymmaith ill dau.

7 A deng-wr a deugain o feibion y prophwydi a aethant, ac a ſafaſant ar gyfer o bell: a hwynt ill dau a ſafaſant wrth yr Iorddonen.

8 Yna Elias a gymmerth ei fantell, ac ai plygodd, ac a darawodd y dyfroedd, a hwynt a ymwahanaſant ymma, ac accw, fel yr aethant hwy trwodd ill dau ar hyd ſych [dir.]

9 A phan aethant hwy trwodd, yna Elias a ddywedodd wrth Eliſêus, gofyn beth a wnafi i ti cyn fyng-hymmeryd i oddi wrthit ti: a dywedodd Eliſêus, bydded gan hynny attolwg ddau cymmaint o'th yſpryd ti gyd a mi.

10 Dywedodd yntef, gofynnaiſt beth anhawdd: os gweli fi wedi fyng hymmeryd oddi wrthit ti fe fydd it felly, ac onid ê ni bydd.

11 A phan oeddynt hwy yn myned gan rodio, ac ymddiddan, yna wele gerbyd tanllŷd, a meirch tanllyd, ac hwy a wnaethant wahaniaeth rhyngddynt ill ddau: * felly Elias a dderchafodd mewn corwynt i'r nefoedd.

Eccleſ.48.9.
1.Mac.2.58.

12 Ac Eliſêus oedd yn edrych, ac efe a lefodd, fy nhâd, fy nhâd cerbyd Iſrael, ai marchogion, ac nis gwelodd ef mwyach: ac efe a ymaflodd yn ei ddillad, ac ai rhwygodd yn ddau ddarn.

13 Ac efe a gododd i fynu fantell Elias, yr hon a ſyrthiaſe oddi am dano ef: ac efe a ddychwelodd, ac a ſafodd wrth fin yr Iorddonen.

14 Yna efe a gymmerth fantell Elias yr hon a ſyrthiaſe oddi am dano ef, ac a darawodd y dyfroedd, ac a ddywedodd, pa le [y mae] Arglwydd Dduw Elias? ac yntef hefyd? efe a darawodd y dyfroedd eilwaith, a hwynt a wahanwyd ymma, ac accw, felly Eliſêus a aeth trwodd.

15 Pan welodd meibion y prophwydi (y rhai [oeddynt] yn Iericho) ef ar [eu] cyfer, yna y dywedaſant hwy, gorphywyſodd yſpryd Elias ar Eliſêus: a hwynt a ddaethant iw gyfarfod ef, ac a ymgrymmaſant hyd lawr iddo ef.

16 A hwy a ddywedaſant wrtho ef, wele yn awr y mae gyd a'th weiſion ddêc a deugain o wŷr nerthol, elant yn awr a cheiſiant dy feiſtr rhac i yſpryd yr Arglwydd ei ddwyn ef ai fwrw ef ar ryw fynydd, neu mewn rhyw ddyffryn: dywedodd yntef, nac anfonwch.

17 Etto buant daer arno ef nes cywilyddio [o honaw ef,] am hynny y dywedodd efe, anfonwch: yna hwynt a anfonaſant ddeng-wr a deugain y rhai ai ceiſiaſant dri diau, ond nis cawſant ef.

18 Am hynny hwynt a ddychwelaſant atto ef, ac efe oedd yn trigo yn Iericho: ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, oni ddywedais i wrthych, nac ewch ymmaith?

19 Yna gwŷr y ddinas a ddywedaſant wrth Eliſêus, wele attolwg anſawdd y ddinas, da yw fel y mae fy arglwydd yn gweled: ond dyfroedd drwg, a thir diffaith [ſydd ymma.]

20 Ac efe a ddywedoddd, dygwch i mi phiol newydd, a goſodwch ynddi halen: a hwynt ai dugaſant atto ef.

21 Yna efe a aeth at ffynhonnell y dyfroedd ac a fwriodd yr halen yno, ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, mi a iacheais y dyfroedd hyn, ni bydd oddi yno farwolaeth mwyach na diffrwythdra.

22 Felly 'r iachauwyd y dyfroedd hynny hyd y dydd hwn: yn ôl gair Eliſêus yr hwn a ddywedaſe efe.

23 Ac efe a aeth i fynu oddi yno i Bethel: pan oedd efe yn myned i fynu ar hyd y ffordd, yna 'r plant bychain a ddaethant allan o'r ddinas ac ai gwatworaſant ef, ac a ddywedaſant wrtho ef, dôs i fynu moelun, dôs i fynu moelun.

24 Ac efe a drôdd yn ei ôl, ac a edrychodd arnynt hwy, ac ai melldithiodd hwynt yn enw 'r Arglwydd: a dwy arth a ddaethant allan o'r goedwic, ac a ddrylliaſant o honynt ddau blentyn a deugain.

25 Felly efe a aeth oddi yno i fynydd Carmel: ac oddi yno efe a ddychwelodd i Samaria.

## PEN. III.

Iehoſaphat yn cynnorthwyo Ioram yn ei ryfel yn erbyn Moab. 13 Eliſêus yn rhoddi dwfr iw llu hwynt. 24 Ioram yn gorchfygu y Moabiaid, ac yn aberthu ei fab.

AC Ioram mab Ahab a aeth yn frenin ar Iſrael yn Samaria, yn y ddeu-nawfed flwyddyn i Iehoſaphat brenin Iuda: ac efe a deyrnaſodd ddeuddeng mhlynedd.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd, ond nid fel ei dâd ai fam: canys efe a fwriodd ymmaith ddelw Baal yr hon a wnelſe ei dâd ef.

3 Etto efe a lŷnodd mewn pechodau Ieroboam mab Nabat, yr hwn a wnaeth i Iſrael bechu: ni chiliodd efe oddi wrthynt hwy.

4 Yna Meſa brenin Moab oedd berchen defaid, ac efe a dalodd i frenin Iſrael gan-

mil

mîl o ŵyn, a chan-mîl o hyrddod gwlânoc.

5 A phan fu farw Ahab : yna brenin Moab a wrthryfelodd yn erbyn brenin Iſrael.

6 Am hynny y brenin Ioram a aeth allan y pryd hynny o Samaria : ac a gyfrifodd holl Iſrael.

7 Efe a aeth hefyd, ac a anfonodd at Iehoſaphat brenin Iuda, gan ddywedyd : brenin Moab a wrthryfelodd i'm herbyn i, a ddeui di gyd a mi i ryfel yn erbyn Moab? dywedodd yntef, âf i fynu, myfi * [a fyddaf] fel tithe, fy mhobl i fel dy bobl dithe, fy meirch i fel dy feirch dithe. 1.Bren.22.4.

8 Yna efe a ddywedodd, pa ffordd yr awn i fynu? dywedodd yntef, [ar hŷd] ffordd anialwch Edom.

9 Felly brenin Iſrael a aeth ymmaith, a brenin Iuda, a * brenin Edom, ac a amgylchaſant y ffordd ſaith niwrnod : ac nid oedd dwfr i'r fyddin, nac i'r anifeiliaid y rhai [oeddynt] yn eu canlyn hwynt. 1.Bren.22.48.

10 Am hynny brenin Iſrael a ddywedodd, gwae [fi] o herwydd i'r Arglwydd alw y tri brenin hyn i'w rhoddi hwynt yn llaw Moab.

11 Ac Iehoſaphat a ddywedodd, onid [oes] ymma brophwyd i'r Arglwydd fel yr ymgynghorem ni a'r Arglwydd drwyddo ef? ac vn o weiſion brenin Iſrael a attebodd, ac a ddywedodd, [y mae] ymma Eliſêus mab Saphat yr hwn a dywalltodd ddwfr ar ddwylo Elias.

12 Yna Iehoſaphat a ddywedodd, y mae gair yr Arglwydd gyd ag ef : am hynny brenin Iſrael, ac Iehoſaphat, a brenin Edom a aethant i wared atto ef.

13 Ac Eliſêus a ddywedodd wrth frenin Iſrael, beth [ſydd] i mi [a wnelwyf] a thi? dôs at brophwydi dy dâd, ac at brophwydi dy fam : a brenin Iſrael a ddywedodd wrtho ef, na-gê : canys yr Arglwydd a alwodd y tri brenin hyn i'w rhoddi hwynt yn llaw Moab.

14 Yna Eliſêus a ddywedodd, [fel] mai byw Arglwydd y lluoedd, yr hwn y ſefais ger ei fron, oni bai fy mod i yn perchi wyneb Iehoſaphat nid edrychaſwn i arnat ti, ac ni'th welſwn.

15 Ond yn awr dygwch i mi gerddor, a phan ganodd y cerddor, yna y daeth llaw'r Arglwydd arno ef.

16 Ac efe a ddywedodd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, gwna y dyffryn hwn yn llawn ffoſydd.

17 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, ni welwch wynt, ac ni welwch law, etto y dyffryn hwn a lenwir o ddyfroedd : fel yr yfoch chwi, a'ch yſcrubliaid, a'ch gwartheg.

18 A pheth yſcafn yw hyn yng-olwg yr Arglwydd : canys efe a ddyru Moab yn eich llaw chwi.

19 A chwi a darewch bob dinas gaeroc, a phob dinas ddetholedic, a phob prenn têg a fwriwch chwi i lawr, yr holl ffynhonnau dyfroedd hefyd a argaewch chwi : a phob rhan-dir ddâ a ddifwynwch chwi a cherric.

20 A'r boreu pan offrymmwyd y bwyd offrwm, yna wele ddyfroedd yn dyfod o ffordd Edom : a'r wlâd a lawnwyd o ddyfroedd.

21 Pan glybu'r holl Moabiaid fod y brenhinoedd hynny wedi dyfod i fynu i ymladd yn eu herbyn hwynt : yna y galwyd yng-hyd bawb ar a alle wiſco arfau, a hwynt a ſafaſant ar y terfyn

22 A hwynt a gyfodaſant yn foreu, a'r haul a gyfodaſe ar y dyfroedd : a'r Moabiaid a ganfuāt ar [eu] cyfer y dyfroedd yn gôch fel gwaed

23 A hwy a ddywedaſant, gwaed [yw] hwn, gan ddifetha y difethwyd y brenhinoedd, a hwy a darawſant bawb ei gilydd : am hynny [awn] yn awr i'r anrhaith ô Moabiaid.

24 Pan ddaethant at werſyll Iſrael, yna'r Iſraeliaid a gyfodaſant, ac a darawſant y Moabiaid fel y ffoaſant hwy oi blaen hwynt : tarawſant hefyd arnynt hwy, a lladdaſant y Moabiaid.

25 A hwynt a ddeſtruwiaſant y dinaſoedd, ac [i] bob rhan-dir ddâ y bwriaſant bawb ei garrec, ac ai llanwaſant, a phob ffynnon ddwfr a argaeaſant hwy, a phob prenn têg a gwympaſant hwy ei lawr, yn vnic yn Cir-hareſeth y gadawſant ei cherric : etto y rhai oeddynt yn taflu [cerric] ai hamgylchynâſant ac ai tarawſant hi.

26 Pan welodd brenin Moab fod y rhyfelwŷr yn drêch nag ef : yna efe a gymmerth ſaith gant o wŷr gyd ag ef yn tynnu cleddyf i ruthro at frenin Edom, ond nis gallaſant hwy.

27 Ond efe a gymmerodd ei fab [ſef] y cyntafanedic yr hwn oedd i deyrnaſu yn ei le ef, ac ai hoffrymmodd ef yn boeth offrwm ar y mur, fel y bu llid mawr yn erbyn Iſrael : am hynny hwynt a aethant ymmaith oddi wrtho ef, ac a ddychwelaſant i'w gwlad.

## PEN. IIII.

Eliſeus yn cael i wraig weddw ddyledog olud mawr o olew trwy râd penllâd. 12 Ac yn cael i'r Sunamites yr vn mab ddwy waith. 40 Yn pereiddio y cawl, a thrwy râd penllâd yn amlhau y bara.

A Rhyw wraig o wragedd * meibion y prophwydi a lefodd ar Eliſêus gan ddywedyd, dy wâs di, [ſef] fyng-ŵr mau fi a fu farw, a thi a wyddoſt fod dy wâs di yn ofni yr Arglwydd : a'r echwyn-wr a ddaeth i gymmeryd ymmaith fy nau fab i [i fod] yn weiſion iddo ef. Pen.2..3.

2 Yna Eliſêus a ddywedodd wrthi hi, beth a wnaf fi i ti? mynega i mi, beth ſydd gennit ti yn [dy] dŷ? dywedodd hithe, nid [oes] dim gan dy law-forwyn yn tŷ onid yſtêned o olew.

3 Ac efe a ddywedodd, dos, cais it leſtri oddi allan gan dy holl gymmydogion : [ſef] lleſtri gweigion nid ychydig.

4 Pan ddelech i mewn, yna cae di 'r drws arnat, ac ar dy feibion, a thywallt i'r holl leſtri hynny : a phâr dynnu ymmaith yr hwn [a fyddo] llawn.

5 Felly hi a aeth ymmaith oddi wrtho ef,

ac a gaeodd y drws arni hi, ac ar ei meibion: hwynt hwy a ddugaſant atti hi, a hithe a dywalltodd.

6 A phan lawnwyd y lleſtri, yna hi a ddywedodd wrth ei mab, dŵg etto attaſi leſtr, dywedodd yntef wrthi hi, nid [oes] mwyach [un] lleſtr: a'r olew a beidiodd.

7 Yna hi a ddaeth, ac a fynegodd i ŵr Duw, dywedodd yntef, dôs, gwerth yr olew, a thâl dy ddylêd: a bydd di fyw ti a'th feibion ar y rhan arall.

8 Ac Eliſêus a drammwyodd ryw ddiwrnod i Sunem, ac yno ['r oedd] gwraig oludog yr hon ai cymhellodd ef i fwytta bara: a chynniſer gwaith ac y trammwye efe heibio, efe a droe yno i fwytta bara.

9 A hi a ddywedodd wrth ei gŵr, wele yn awr mi a wn mai gŵr Duw ſanctaidd [ydyw] yr hwn ſydd yn cynniſwer heibio i ni yn oeſtadol.

10 Gwnawn yn awr ſtafell gaerog fechan, a goſodwn iddo yno wely, a bwrdd, a maingc, a chanhwyll-bren: fel y trô efe yno, pan ddelo efe attom ni.

11 Ac ar ddydd-cwaith efe a ddaeth yno: ac a drôdd i'r ſtafell, ac a orphywyſodd yno.

12 Ac efe a ddywedodd wrth Gehezi ei langc, galw ar y Sunamites hon: yntef a alwodd arni hi, hithe a ſafodd ger ei fron ef.

13 Dywedodd hefyd wrtho ef, dywet yn awr wrthi hi, wele ti a ofelaiſt troſom ni a'r holl ofal ymma, beth [a fynni di] ei wneuthur i ti? a oes [dim a'r a fynnech] di ei ddywedyd wrth y brenin, neu wrth dywyſog y llu: hithe a ddywedodd, yng-hanol fy mhobl yr ydwyſt yn trigo.

14 Yna y dywedodd [Eliſêus,] beth gan hynny [ſydd] iw wneuthur erddi hi? a Gehezi a ddywedodd, diau nad [oes] iddi fab, ai gŵr [ſydd] hên.

15 Am hynny efe a ddywedodd, galw am dani hi, ac efe a alwodd a'm dani hi, ac y hi a ſafodd yn y drws.

Gen.18.10.14.

16 Ac efe a ddywedodd, *yn yr amſer nodedic hwnnw wrth amſer bywiolaeth, ti a gofleidi fab: hithe a ddywedodd, na-ge fy arglwydd gŵr Duw, na ddywet gelwydd i'th law-forwyn.

17 Felly y wraig a feichiogodd, ac a ymddug fab wrth yr amſer nodedic hwnnw, yn ôl amſer bywiolaeth, yr hwn a lefaraſe Eliſêus wrthi hi.

18 A'r bachgen a gynnyddodd: ac a aeth ddydd-cwaith allan at ei dâd, [ac] at y medelwŷr.

19 Ac efe a ddywedodd wrth ei dâd, fy mhen, fy mhen [ſy 'n dolurio:] dywedodd yntef wrth ryw langc, dŵg ef at ei fam.

20 Ac efe ai cymmerth, ac ai dûg ef at ei fam: ac efe a eiſteddodd ar ei gliniau hyd hãner dydd, ac a fu farw.

21 Yna hi a aeth i fynu, ac ai goſododd ef i orwedd ar wely gŵr Duw: ac a gaeodd [y drws] arno ef, ac a aeth allan.

22 A hi a alwodd ar ei gŵr, ac a ddywedodd, anfon attolwg gyd a mi un o'r llangciau, ac un o'r aſſynnod: canys mi a redaf hyd at ŵr Duw, ac a ddychwelaf.

23 Dywedodd yntef, pa ham yr ydwyt ti yn myned atto ef heddyw? nid [yw hi] yn newyddloer, nac yn Sabboth: hithe a ddywedodd, pob peth yn ddâ.

24 Yna hi a gyfrwyodd yr aſſyn, ac a ddywedodd wrth ei llangc, gyrr, a dôs ymmaith: gan farchogeth, nac aros am danaſi onid archwyf it.

25 Felly hi a aeth, ac a ddaeth at ŵr Duw i fynydd Carmel: a phan welodd gŵr Duw hi o bell, yna efe a ddywedodd wrth Gehezi ei langc, wele y Sunamites honno.

26 Rhêd yn awr attolwg iw chyfarfod, a dywet wrthi hi, a ydŵyt ti yn llawen? a ydyw dy ŵr y llawen? a ydyw dy fachgen yn llawen? dywedodd hithe, llawen.

27 Pan ddaeth hi at ŵr Duw i'r mynydd, yna hi a ymaflodd yn ei draed ef: a Gehezi a neſſaodd iw gwthio hi ymmaith, ond gŵr Duw a ddywedodd, gad ti hi yn llonydd, canys ei henaid ſydd ofidus ynddi, a'r Arglwydd a gêlodd [hyn] oddi wrthifi, ac nis mynegodd i mi.

28 Yna hi a ddywedodd, a ddymunais i fab gan fy arglwydd? oni ddywedais, na thwylla fi?

29 Yna efe a ddywedodd wrth Gehezi, gwregyſa dy lwynau, a chymmer fy ffonn yn dy law, a dôs ymmaith, o chyfarfyddi a nêb na *chyfarch iddo, ac o chyfarch neb di nac atteb ef: a goſot fy ffon i ar wyneb y bachgen. Luc.10.4.

30 A mam y bachgen a ddywedodd, [fel] mai byw 'r Arglwydd, ac mai byw dy enaid ti nid ymadawaſi a thi: yna efe a gyfododd ac a aeth ar ei hôl hi.

31 A Gehezi a gerddodd oi blaen hwynt ac a oſododd y ffon ar wyneb y bachgen, ond nid ymadrodde, ac ni chlywe efe: am hynny efe a ddychwelodd iw gyfarfod ef, ac a fynegodd iddo gan ddywedyd, ni ddeffrôdd y bachgen.

32 Yna Eliſêus a ddaeth i mewn i'r tŷ: ac wele y bachgen wedi marw yn gorwedd ar ei wely ef.

33 Felly efe a ddaeth i mewn, ac a gaeodd y drws arnynt ill dau: ac a weddiodd ar yr Arglwydd.

34 Yna efe *a aeth i fynu, ac a orweddodd ar y bachgen, goſododd hefyd ei enau ar ei enau yntef, ai lygaid ar ei lygaid ef: ai ddwylaw ar ei ddwylaw ef, ac efe a ymeſtynnodd arno ef, fel y cynheſodd cnawd y bachgen. 1.Bren.17.21. Act.20.10.

35 Ac efe a ddychwêlodd, ac a rodiodd ar hŷd y tŷ i fynu ac i wared, yna efe aeth i fynu ac a ymeſtynnodd arno ef: a'r bachgen a diſiodd hyd yn ſaith-waith, yna 'r bachgen a agorodd ei lygaid.

36 Ac efe a alwodd ar Gehezi, ac a ddywedodd, galw ar y Sunamites hon, yna efe a alwodd arni hi, a hi a ddaeth atto ef: dywedodd yntef, cymmer dy fâb.

37 A hi a ddaeth, ac a ſyrthiodd wrth ei draed ef, ac a ymgrymmodd i lawr: ac a gymmerodd ei mab, ac a aeth allan.

38 Yna Eliſeus a ddychwelodd i Gilgal, a [bu] newyn yn y wlâd, a meibion y prophwydi oeddynt yn aros oi flaen ef: ac efe a ddywedodd wrth ei langc, trefna y crochan mawr, a berw gawl i feibion y prophwydi.

39 Ac vn a aeth allan i'r maes i gaſclu brefech, ac efe a gafodd winwydden wyllt, ac a gaſclodd o honi freſech gwylltion loned ei wiſc: ac a ddaeth, ac ai briwodd yn y crochaned cawl: canys nid adwaenent [hwynt.]

40 Yna y tywalltâſant i'r gŵŷr i fwytta: a phan fwyttaſant o'r cawl, yna hwynt a waeddaſant, ac a ddywedaſant, ô ŵr Duw [y mae] angau yn y crochan, ac nid allent fwytta.

41 Yna efe a ddywedodd, dygwch flawd, ac efe ai bwriodd yn y crochan: dywedodd hefyd, tywallt i'r bobl fel y bwyttânt, ac nid oedd dim niwed yn y crochan.

42 A daeth gŵr o Baal Saliſa, ac a ddûg i ŵr Duw o fara y blaen ffrwyth vgain torth haidd, a thwyſſennau irion yn ei col: ac efe a ddywedodd dod ti i'r bobl fel y bwyttânt.

43 Ai weinidog ef a ddywedodd, i ba beth y rhoddaf hyn ger bron can-wr? dywedodd yntef, dyro i'r bobl fel y bwyttânt, canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, hwy a fwyttânt, ac a weddillir.

44 Felly efe ai rhoddodd ger eu bron hwynt, a hwynt a fwyttaſant, ac a weddillaſant yn ôl gair yr Arglwydd.

## PEN. V.

1 Yr achlyſyr, a'r modd yr iachauwyd Naaman yn rhâd
20 Gehezi yn chwennychu cael arian a dillad gan Naaman, ac am hynny yn cael gwahan-glwyf tragywyddol.

A Naaman tywyſog llu brenin Syria oedd ŵr mawr yng-olwg ei arglwydd, ac yn anrhydeddus; canys drwyddo ef y rhoddaſe yr Arglwydd ymwared i'r Syriaid: etto y gŵr cadarn nerthol hwnnw oedd wahan-glwyfus.

2 Pan aethe y Syriaid allan yn finteioedd, yna y caeth-gludaſent o wlâd Iſrael langces fechan: a honno oedd yn gwaſanaethu gwraig Naaman.

3 A hi a ddywedodd wrth ei meiſtres, ô na bydde fy arglwydd i o flaen y prophwyd yr hwn [ſydd] yn Samaria: yna efe ai tynne ef ymmaith oi wahan-glwyf.

4 Yntef a ddaeth, ac a fynêgodd iw arglwydd gan ddywedyd: fel hyn, ac fel hyn y dywedodd y llangces yr hon [a ddaeth] o wlâd Iſrael.

5 A brenin Syria a ddywedodd, dos, cerdda ymmaith, a mi a anfonaf lythyr at frenin Iſrael: ac efe a aeth ymmaith, ac a ddûg gyd ag ef ddêc talent o arian, a chwe mil o aur, a dêc o wiſgoedd newyddion.

6 Ac efe a ddûg y lythyr at frenin Iſrael gan ddywedyd: yn awr pan ddêl y llythyr hwn attat ti, wele anfonais attat ti Naaman fyng-wâs, fel y tynnit ef oi wahan-glwyf.

7 A phan ddarllenodd brenin Iſrael y llythyr, yna efe a rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, ai Duw [ydwyf] fi i farwhau, ac i fywhau, pan anfone efe attaf fi i iachau gŵr oi wahan-glwyf? gŵybyddwch gan hynny attolwg, a gwelwch mai ceiſio achos y mae efe i'm herbyn i.

8 A phan glybu Eliſèus gŵr Duw, rwygo o frenin Iſrael ei ddillad, yna efe a anfonodd at y brenin gan ddywedyd, pa ham y rhwygaiſti dy wiſcoedd? deued efe yn awr attaf fi, ac efe a gaiff wybod fod prophwyd yn Iſrael.

9 Yna Naaman a ddaeth ai feirch, ac ai gerbydau: ac a ſafodd [wrth] ddrws tŷ Eliſêus.

10 Ac Eliſêus a anfonodd atto ef gennad gan ddywedyd: dôs, ac ymolch ſaith waith yn Iorddonen, a'th gnawd a ddychwel i ti, a thi a lanheuir.

11 Yna Naaman a ddigllonodd, ac a aeth ymmaith: ac a ddywedodd, mi a feddyliais ynof fy hun gan ddyfod y deue efe allan, ac y ſafe efe, ac y galwe ar enw yr Arglwydd ei Dduw, ac y goſode efe ei law ar y fann, fel yr iachâe efe y [mann] gwahan-glwyfus.

12 Onid gwell yw Abana, a Pharphar afonydd Damaſcus, na holl ddyfroedd Iſrael? oni allaf ymolchi ynddynt hwy, ac ymlanhau? felly efe a drôdd, ac a aeth ymmaith mewn digter.

13 Yna ei weiſion a neſſaſant, ac a lefaraſant wrtho ef, ac a ddywedaſant, fy arglwydd, [pe] dywedaſe y prophwyd beth mawr wrthit ti onis gwnelſit? pa faint fwy gan iddo ef ddywedyd wrthit, ymolch, fel yr ymlanhaech?

14 Am hynny efe a aeth i wared, ac a ymdrôchodd ſaith waith * yn yr Iorddonen yn ôl gair gŵr Duw: ai gnawd ef a ddychwelodd fel cnawd bachgen bychan, ac efe a lanhauwyd. Luc.4.27.

15 Yna efe a ddychwelodd at ŵr Duw, efe ai holl fintai, ac efe a ddaeth, ac a ſafodd ger ei fron ef, ac a ddywedodd, wele yn awr y gŵn i nad [oes] Dduw drwy yr holl ddaiar, onid yn Iſrael: am hynny cymmer yn awr attolwg anrheg oddi gan dy wâs.

16 Ac efe a ddywedodd, [fel] mai byw yr Arglwydd yr hwn 'r ydwyf yn ſefyll ger ei frõ ni chymmeraf: ac efe a gymhellodd arno ef [ei] chymmeryd, etto efe ai gwrthododd.

17 A Naaman a ddywedodd, oni roddir yn awr i'th wâs di lwyth cwpl o fulod o'r ddaiar [hon?] canys ni offrymma dy wâs di mwyach boeth offrwm, nac aberth i dduwiau dieithr, onid i'r Arglwydd.

18 Yn y peth hyn yr Arglwydd a faddeuo i'th wâs: pan ddelo fy arglwydd i dŷ Rimmon i addoli yno, a [phan] bwyſſo efe ar fy llaw i, a [phan] a ddolwyf innef yn nhŷ Rimmon, [ie]

pan ymgrymmwyf yn nhŷ Rimmon, maddeued attolwg yr Arglwydd i'th wâs y peth hyn.

19 Ac efe a ddywedodd wrtho, dôs mewn heddwch: yna efe aeth oddi wrtho ef yng-hylch mill-dir o dîr.

20 A Gehezi gwâs Eliſêus gŵr Duw a ddywedodd, wele fy meiſtr a arbedodd Naaman y Syriad hwn rhac cymmeryd oi law ef yr hyn a ddugaſe efe: [fel] y mae 'r Arglwydd yn fyw mi a redaf ar ei ôl ef, ac a gymmeraf rhyw beth ganddo ef.

21 Felly Gehezi a ganlynodd ar ôl Naaman: Pan welodd Naaman [ef] yn rhedeg ar ei ôl, yna efe a ddeſcynnodd oddi ar y cerbyd iw gyfarfod ef, ac a ddywedodd, a yw pôb peth yn ddâ?

22 Dywedodd yntef, y mae pôb peth yn ddâ, fy meiſtr a'm anfonodd i gan ddywedyd, wele hyn yn awr, dau langc o fynydd Ephraim, o feibion y prophwydi a ddaethant attaf: dyro yn awr iddynt dalent o arian, a dau bâr o wiſcoedd.

23 A Naaman a ddywedodd, bydd fodlon cymmer ddwy dalent: ac efe a fu daer arno ef, ac a rwymodd y ddwy dalent arian mewn dwy gôd, a'r ddau-bâr ddillad, ac efe ai rhoddodd at ei ddau langc iw dwyn oi flaen ef.

24 Pan ddaeth efe i'r bwlch, yna efe ai cymmerth oi llaw hwynt, ac ai rhoddodd i gadw yn tŷ: ac efe a anfonodd ymmaith y gwŷr, a hwy a aethant ymmaith.

25 Yna efe a ddaeth i mewn, ac a ſafodd o flaen ei feiſtr, ac Eliſêus a ddywedodd wrtho ef, o ba lê [y daethoſt ti] Gehezi? dywedodd yntef, nid aeth dy wâs [nac] ymma na thraw.

26 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, onid aeth fyng-halon, [gyd a thi] pan drodd y gŵr oddi ar ei gerbyd i'th gyfarfod ti? a [ydoedd hi] amſer i gymmeryd arian, ac i gymmeryd gwiſcoedd, ac oliwydd-lannau, a gwinllannau, a defaid, a gwartheg, a gweiſion, a morwynion?

27 Am hynny gwahan-glwyf Naaman a lŷn wrthit ti, ac wrth dy hâd yn dragywydd: ac efe a aeth ymmaith oi ŵydd ef yn wahan-glwyfus [cyn wynned] a'r eira.

## ·PEN. VI.

Eliſêus yn peri i'r haiarn nofio. 9 Yn dadcuddio cyfrinach brenin Syria i frenin Iſrael. 18 Ac yn arwain llu brenin Syria yn ddeillion i Samaria. 24 Newyn aruthrol yn Samaria.

A Meibion y prophwydi a ddywedaſant wrth Eliſêus: wele yn awr y llê yr hwn yr ydym ni yn trigo yndddo ger dy fron di ſydd ry gyfyng i ni.

2 Awn yn awr hyd yr Iorddonen, fel y cymmerom oddi yno bawb un droſtan, ac y gwnelom i ni yno le i gyfanneddû yndddo: dywedodd yntef, ewch.

33 Ac un a ddywedodd bydd fodlon attolwg, a dos gyd a'th weiſion: dywedodd yntef mi a âf.

4 Felly efe a aeth gyd a hwynt: a hwy a ddaethant at yr Iorddonen, ac a dorraſant y coed.

5 A phan oedd un yn bwrw i lawr draws, yna ei fwyall ef a ſyrthiodd i'r dwfr: ac efe a waeddodd, ac a ddywedodd, och-fi fy meiſtr canys benthig oedd hi.

6 A gŵr Duw a ddywedodd, pa lê y ſyrthiodd hi? yntef a ddangoſodd iddo yr fann, ac efe a dorrodd bren, ac ai taflodd yno, ac a wnaeth i'r haiarn nofio.

7 Yna efe a ddywedodd, cymmer i fynu it: ac efe a eſtynnodd ei law ac ai cymmerodd.

8 A brenin Syria oedd yn ymladd yn erbyn Iſrael: ac efe a ymgynghorodd ai weiſion gan ddywedyd, yn y lle a'r lle [y bydd] fyng-werſyllfa.

9 Yna gŵr Duw a anfonodd at frenin Iſrael gan ddywedyd, ymgadw rhac myned i'r lle hwnnw, canys yno y mae y Syriaid yn llechu.

10 Felly brenin Iſrael a anfonodd i'r lle [am] yr hwn y dywedaſe gŵr Duw wrtho ef, ac y rhybyddiaſe ef, ac a ymgadwodd yno: nid unwaith, ac nid dwy-waith.

11 A chalon brenin Syria a gynhyrfodd o herwydd y peth hyn: ac efe a alwodd ar ei weiſion, ac a ddywedodd wrthynt, oni fynegwch i mi pwy o honoch [ſydd yn egluro ein cyfrinach ni] i frenin Iſrael?

12 Yna un oi weiſion ef a ddywedodd, nid [oes neb] fy arglwydd frenin, onid Eliſêus y prophwyd, yr hwn [ſydd] yn Iſrael a fynega i'r brenin y geiriau y rhai a leferi di yng-hanol dy ſtafell.

13 Ac efe a ddywedodd, ewch, ac edrychwch pa le y [mae] efe, fel yr anfonwyf, ac y dygwyf ef ymmaith: a mynegwyd iddo ef, gan ddywedyd, wele yn Dothan [y mae efe.]

14 Felly efe a anfonodd yno feirch, a cherbydau a llu mawr: a hwynt a ddaethant liw nos, ac a amgylchynâſant y ddinas.

15 Pan gododd gwenidog gŵr Duw yn foreu, a myned allan, yna wele lu yn amgylchynu y ddinas, meirch hefyd a cherbydau: a'r llangc a ddywedodd wrtho ef, ahâ fy meiſtr pa fodd y gwnawn?

16 Ac efe a ddywedodd, nac ofna: canys amlach [yw] y rhai [ſydd] gyd a ni, na'r rhai [ſy] gyd a hwynt.

17 Yna Eliſêus a weddiodd, ac a ddywedodd, ô Arglwydd agor attolwg ei lygaid ef, fel y gwelo efe: a'r Arglwydd a agorodd lygaid y llangc, ac efe a edrychodd, ac wele y mynydd yn llawn meirch, a cherbydau tanllyd o amgylch Eliſêus.

18 Felly hwynt a ddaethant i wared atto ef, ac Eliſêus a weddiodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: taro attolwg y genhedlaeth hon a dallineb: ac efe ai tarawodd hwynt a dallineb yn ôl gair Eliſêus.

19 Ac Eliſêus a ddywedodd wrthynt hwy, nid hon [yw] yr ffordd, ac nid hon [yw] yr ddinas, deuwch ar fy ôl i, ac mi a'ch tywyſa chwi at y gŵr yr hwn yr ydych chwi yn ei geiſio: ond efe ai harweinodd hwynt i Samaria.

20 A phan ddaethant hwy i Samaria yna Eliſêus a ddywedodd, ô Arglwydd agor di lygaid y rhai hyn fel y gwelant: a'r Arglwydd a agorodd eu llygaid hwynt, a hwy a edrychaſant, ac wele yng-hanol Samaria [ r oeddynt.]

21 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Eliſêus, pan welodd efe hwynt: gan daro a darawaf [hwynt] fy nhâd?

22 Dywedodd yntef, na tharo, ond y rhai a gaethiwaiſt a'th gleddyf, ac a'th fŵa dy hun a darewi di? [yn hytrach] goſot fara a dwfr ger eu bron hwynt fel y bwyttânt, ac yr yfant, ac yr elont at eu harglwydd.

23 Ac efe a arlwyodd iddynt hwy arlwy fawr, a hwy a fwytaſant, ac a yfaſant, ac efe ai gollyngodd hwynt ymmaith, a hwy a aethant at eu harglwydd: felly byddinoedd y Syriaid ni chwanegaſant ddyfod mwyach i wlâd Iſrael.

24 Ac wedi hyn Ben-hadad brenin Syria a gynhullodd ei holl lû: ac efe a aeth i fynu, ac a warchaodd ar Samaria.

25 Ac yr oedd newyn mawr yn Samaria, canys wele yr oeddynt hwy yn gwarche arni hi, nes bôd pen aſſyn er pedwar vgain [ſicl] o arian, a phedwerydd [ran] Câb o dom colomennod er pump [ſicl] o arian,

26 Fel yr oedd brenin Iſrael yn cerdded ar y mûr, yna gwraig a lefodd arno ef gan ddywedyd: achub fi fy arglwydd frenin.

27 Dywedodd yntef, [gan] nad achub yr Arglwydd dydi, pa fodd yr achubafi di? ai o'r yſcybor, neu o'r gwîn-wryf?

28 A'r brenin a ddywedodd wrthi hi, beth a [ddarfu] i ti? hithe a ddywedodd, y wraig hon a ddywedodd wrthif, dyro dy fab fel y bwyttaom ef heddyw, a'm mab inne a fwyttawn ni y foru.

Lefit.26.29. deut.28.53. galar.4.10. baruc.2.3.

29 Felly ni a ferwaſom fy mab i, *ac ai bwyttawſom ef: a mi a ddywedais wrthi hithe ddiwrnod arall, dyro dithe dy fab fel y bwyttaom ef, ond hi a guddiodd ei mab.

30 A phan glybu y brenin eiriau yr wraig, yna efe a rwygodd ei ddillad, ac fel yr oedd efe yn cerdded ar y mûr y bobl ai canfu [ef,] ac wele ſach-liain [ydoedd] am ei gnawd ef oddi fewn.

31 Ac efe a ddywedodd, fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego: os ſaif pen Eliſêus mab Saphat arno ef heddyw.

Bren.21.3.

32 (Ac Eliſêus oedd yn eiſtedd yn ei dŷ, a'r henuriaid oeddynt yn eiſtedd gyd ag ef:) a'r [brenin] a anfonodd ŵr oi flaen: cyn dyfod y gennad atto ef, efe a ddywedodd wrth yr henuriaid, oni welwch chwi fel yr anfonodd mab * y llofrudd hwn i gymmeryd ymmaith fy mhen i? edrychwch pan ddel y gennad i mewn ceiwch y drws, a deliwch ef wrth y drws, onid [yw] trwſt traed ei arglwydd ef ar ei ôl ef?

33 Ac efe etto yn ymddiddan a hwynt yna wele y gennad yn dyfod i wared atto ef: ac a ddywedodd, wele y drygioni hyn [ſydd] oddi wrth yr Arglwydd, pa ham y diſgwiliaf wrth yr Arglwydd mwy?

## PEN. VII.

Duw yn addo, ac yn rhoddi amldra diſymmwth yn Samaria. 17 Pa ddialedd a gafodd y pennaeth yr hwn ni choelie eiriau y prophwyd.

YNa Eliſêus a ddywedodd, gwrandewch air yr Arglwydd: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, yng-hylch y pryd [hyn] y foru y [gwerthir] ſât o beillied er ſicl, a dau ſât o haidd er ſicl ym mhorth Samaria.

2 A'r tywyſog yr hwn yr oedd y brenin yn pwyſo ar ei law a attebodd ŵr Duw, ac a ddywedodd, pe gwnai yr Arglwydd ffeneſtri yn y nefoedd, a fydde y peth hyn? dywedodd yntef, wele ti ai gweli a'th lygaid, ond ni fwyttei o honaw.

3 A phedwar-gŵr gwahan-glwyfus oeddynt wrth ddrws y porth: a hwy a ddywedaſant bôb vn wrth ei gilydd, pa ham yr ydym ni yn aros ymma nes ein meirw?

4 Os dywedwn ni, awn i mewn i'r ddinas, newyn [ſydd] yn y ddinas, ac ni a fyddwn feirw yno, ac os trigwn ni ymma hefyd ni a fyddwn feirw, am hynny deuwch yn awr, a rhuthrwn i werſſyll y Syriaid, o chadwant ni yn fyw, byw fyddwn, ac os lladdant ni, byddwn feirw.

5 Ac hwynt a gyfodaſant ar doriad dydd i fyned i werſſyll y Syriaid: pan ddaethant at gwrr gwerſſyll y Syriaid, yna wele nid [oedd] neb yno.

6 Canys yr Arglwydd a baraſe i werſſyll y Syriaid glywed trŵſt cerbydau, a thrŵſt meirch, [a] thrŵſt llû mawr: fel y dywedaſent bôb vn wrth eu gilydd, wele brenin Iſrael a gyflogodd i'n herbyn ni frenhinoedd yr Hethiaid, a brenhinoedd yr Aipht i ddyfod arnom ni.

7 Am hynny hwynt a gyfodaſant, ac a ffoaſant, ar laſiad dydd, ac a adawſant eu pebyll, ai meirch, ai haſſynnod, [ſef] y gwerſſyll fel yr ydoedd: ac a ffoaſant am eu henioes.

8 Pan ddaeth y rhai gwahan-glwyfus hyn hyd gwrr y gwerſſyll, yna y daethant at vn babell, bwyttaſant hefyd, ac yfaſant, a chymmeraſant oddi yno ariã, ac aur, a gwiſcoedd, ac aethãt ymmaith, ac ai cuddiaſant: a hwynt a ddychwelaſant, ac a ddaethãt i babell arall, cymmeraſant hefyd oddi yno, ac aethant ymmaith a chuddiaſant [hwynt.]

9 Yna y dywedodd y naill wrth y llall, nid ydym ni yn gwneuthur yn iawn, y dydd hwn ſy ddydd llawen-chwedl, ac yr ydym ni yn tewi a ſôn, os arhoſwn ni hyd oleuni y boreu, yna anwiredd a'n deil ni: deuwch gan hynny yn awr, ac awn fel y mynegom i dŷ yr brenin.

10 Felly hwynt a ddaethant, ac a waeddaſant ar borthorion y ddinas, ac a fynegaſant iddynt gan ddywedyd, daethom i werſſyll y Syriaid, ac wele nid [oedd] yno neb, na llais dŷn: onid y meirch yn rhwym, a'r aſſynnod yn rhwym, a'r pabellau megis yr oeddynt hwy [o'r blaen.]

11 Yna y llefodd y porthorion: ac y mynegaſant i dŷ yr brenin oddi fewn.

12 Yna y brenin a gyſododd liw nôs, ac a ddywedodd wrth ei weiſion, mynegaf yn awr i chwi yr hyn a wnaeth y Syriaid i ni: gwyddent mai newynoc oeddem ni, am hynny yr aethant ymmaith o'r gwerſſyll i ymguddio yn y maes gan ddywedyd, pan elont hwy allan o'r ddinas yna y daliwn ni hwynt yn fyw, ac y deuwn i mewn i'r ddinas.

13 Ac vn o'r gweiſion a attebodd, ac a ddywedodd, cymmer yn awr bump o'r meirch a adawyd, y rhai a adawyd yn y ddinas, (wele [y maent] hwy fel holl liaws Iſrael y rhai a arhoſaſant ynddi, wele [y maent] hwy fel holl liaws Iſrael y rhai a ddarfuant) ac nyni a anfonwn, ac a edrychwn.

14 Felly hwynt a gymmeraſant ddau gerbyd meirch: a'r brenin a anfonodd ar ôl gwerſſyll y Syriaid gan ddywedyd, ewch, ac edrychwch.

15 A hwy a aethant ar eu hôl hwynt hyd yr Iorddonen, ac wele yr holl ffordd ydoedd yn llawn o wiſcoedd, a lleſtri y rhai a fwriaſe y Syriaid ymmaith wrth fryſſio o honynt: a'r cennadau a ddychwelaſāt, ac a fynegaſāt i'r brenin.

16 Yna yr bobl a aethant allan, ac a anrheithiaſant werſſyll y Syriaid: a bu ſât o beillied er ſicl, a dau ſât o haidd er ſicl, yn ôl gair yr Arglwydd.

17 A'r brenin a oſododd y tywyſog (yr hwn yr oedd efe yn pwyſſo ar ei law) [i wilied] ar y porth, a'r bobl ai mathraſant ef yn y porth, felly y bu efe farw megis y llefaraſe gŵr Duw) yr hwn a ddywedaſe [hynny] pan ddaeth y brenin i wared atto ef.

18 Felly y bu megis ac y llefaraſe gŵr Duw wrth y brenin, gan ddywedyd: dau ſât o haidd er ſicl, a ſât o beillied er ſicl fydd y prŷd [hyn] y foru ym mhorth Samaria.

19 Ond y tywyſog a attebaſe ŵr Duw, ac a ddywedaſe, wele pe gwnai yr Arglwydd ffeneſtri yn y nefoedd, a fydde yn ôl yr ymadrodd hyn? dywedodd yntef, wele ti ai gwelli a'th lygaid, ond ni fwytcei di o honaw.

20 Ac felly y bu iddo ef: canys y bobl ai ſathrâſant ef yn y porth fel y bu efe farw.

## PEN. VIII.

Eliſêus yn rhybuddio y Sunamites y bydde ſaith mlynedd o newyn. 10 Yn prophydo i Hazael am farwolaeth Benhadad, ai greulondeb yntef i Iſrael. 20 Edom yn cilio oddi wrth Iuda. 25 Ahazia yn teyrnaſu yn lle Ioram.

YNa Eliſêus a lefaraſe wrth y wraig yr hon y * bywhauſe efe ei mab gan ddywedyd, cyfod, a dos ti a'th dylwyth, ac ymdeithia lle y gellech ymdeithio: canys 'r Arglwydd a alwodd am newyn, a [hwnnw] a ddaw ar y wlâd ſaith mlynedd. Pen.4.35.

2 A'r wraig a gyfododd, ac a wnaeth yn ôl gair gŵr Duw: ac hi a aeth ymmaith, hi ai thylwyth, ac a ymdeithiodd yng-wlâd y Philiſtiaid ſaith mlynedd.

3 Ac ym mhen y ſaith mlynedd y wraig a ddychwelodd o wlâd y Philiſtiaid: ac a aeth i weiddi ar y brenin am ei thŷ, ac am ei thîr.

4 A'r brenin a ymddiddanodd a Gehezi llāc gŵr Duw gan ddywedyd: adrodd i mi attolwg yr holl fawrhydri y rhai a wnaeth Eliſéus.

5 Ac fel yr oedd efe yn mynegu i'r brenin y môdd y bywhauſe efe y marw, yna wele y wraig yr hon y bywhauſe efe ei mab yn gweiddi ar y brenin am ei thŷ, ac am ei thir: yna Gehezi a ddywedodd, fy Arglwydd frenin, dymma yr wraig, ac dymma ei mâb yr hwn a ddarfu i Eliſèus ei fywhau.

6 A'r brenin a ofynnodd i'r wraig, a hithe a fynegodd iddo ef: a'r brenin a roddodd iddi vn ſtafelludd gan ddywedyd, pâr roddi trachefn yr hyn oll [ſydd] eiddo hi, a holl gnŵd y maes, o'r dydd y gadawodd hi yr wlad, hyd y prŷd hwn.

7 Yna y daeth Eliſêus i Ddamaſcus, a Ben-hadad brenin Syria oedd glâf: a mynegwyd iddo ef gan ddywedyd: daeth gŵr Duw ymma.

8 A'r brenin a ddywedodd wrth Hazael, cymmer anrheg yn dy law, a dôs i gyfarfod a gŵr Duw: fel yr ymgynghorech a'r Arglwydd drwyddo ef, gan ddywedyd, a fyddafi byw o'r clefyd hwn?

9 Felly Hazael a aeth iw gyfarfod ef, ac a gymmerth anrheg yn ei law, a phôb peth [a'r a oedd] ddâ [o] Ddamaſcus, [ſef] llwyth deugain o gamêlod: ac a ddaeth, ac a ſafodd oi flaen ef, ac a ddywedodd, Ben-hadad brenin Syria dy fab di a'm hanfonodd fi attat ti gan ddywedyd, a fyddafi byw o'r clefyd hwn?

10 Ac Eliſêus a ddywedodd wrtho ef, dos, a dywet wrtho ef, ti a fyddi byw: etto yr Arglwydd a ddangoſodd y bydd efe marw yn ddiau.

11 Ac efe a gododd ei wyneb, ac a oſododd [ei ddwylo arno ef] nes cywilyddio o honaw ef, a gŵr Duw a ŵylodd.

12 A Hazael a ddywedodd, pa ham fy arglwydd yr ydwyt ti yn ŵylo? dywedodd yntef, am fy mod yn gŵybod y drygioni yr hwn a wnei di i feibion Iſrael, eu hamddeffynfaoedd hwynt a loſci di a thân, ai gwŷr ieuaingc a leddi a'r cleddyf, ai plant a ddrylli, ai gwragedd beichiogion a rwygi di.

13 Yna Hazael a ddywedodd, beth [yw] dy wâs di? ai cî fel y gwnele efe y mawr beth hyn? ac Eliſêus a ddywedodd, yr Arglwydd a'th ddangoſodd di i mi yn frenin ar Syria.

14 Felly efe a aeth ymmaith oddi wrth Eliſêus, ac a ddaeth at ei arglwydd, yr hwn a ddywedodd wrtho ef, beth a ddywedodd Eliſêus wrthit ti? efe a ddywedodd wrthif (eb yntef) y byddit ti byw yn ddiau.

15 A thrannoeth efe a gymmerth gŵrlid, ac ai gwlychodd mewn dwfr, ac ai lledodd ar ei wyneb ef, fel y bu efe farw: a Hazael a deyrnaſodd yn ei lê ef.

16 Ac yn y bummed flwyddyn i Ioram fab Ahab frenin Iſrael, ac Iehoſaphat frenin Iuda: y dechreuodd Ioram mab Iehoſaphat brenin

Iuda deyrnaſu.

17 Mab ddeuddeng-mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd deyrnaſu: ac wyth mlynedd y teyrnaſodd efe yn Ierusalem.

18 Ac efe a rodiodd yn ffordd brenhinoedd Iſrael, fel y gwnaethe tŷ Ahab, canys merch Ahab oedd iddo ef yn wraig: felly efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

1.Bren.11.36. 2.Sam.7.13.

19 Ond * ni fynne'r Arglwydd ddifetha Iuda er mwyn Dafydd ei wâs: * megis y dywedaſe efe wrtho ef, y rhodde efe iddo oleuni [ac] iw feibion yn dragywydd.

20 Yn ei ddyddiau ef y gwrthryfelodd Edom [i fôd] oddi tann law Iuda: ac y goſodaſant frenin i deyrnaſu arnynt eu hun.

21 Ac Ioram a aeth i Zair, a'r holl gerbydau gyd ag ef: ac efe a gyfododd liw nôs, ac a darawodd yr Edomiaid y rhai oeddynt yn ei amgylchu ef, a thywyſogion y cerbydau, a'r bobl a ffoawdd iw pabellau.

22 Er hynny Edom a wrthryfelodd [ac a fu] oddi tann law Iuda hyd y dydd hwn: yna y gwrthryfelodd Libnah y prŷd hynny.

23 A'r rhan arall o hânes Ioram, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

2.Cron.22.1.

24 Ac Ioram a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd: * ac Ahazia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

25 Yn y ddeuddecfed flwyddyn i Ioram fab Ahab frenin Iſrael, yr aeth Ahazia mab Ioram brenin Iuda yn frenin.

26 Mab dwy flwydd ar hugain [oedd] Ahazia pan aeth efe yn frenin, ac vn flwyddyn y teyrnaſodd efe yn Ierusalem: ac enw ei fam ef [oedd] Athaliah merch Omri brenin Iſrael.

27 Ac efe a rodiodd yn ffordd tŷ Ahab, ac a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, fel tŷ Ahab: canys daw tŷ Ahab [ydoedd] efe.

28 Ac efe a aeth gyd ag Ioram mab Ahab i ryfel yn erbyn Hazael brenin Syria i Ramoth Gilead: a'r Syriaid a darawſant Ioram.

29 Ac Ioram y brenin a ddychwelodd i Iezrahel i ymiachâu o'r dyrnodiau a'r rhai y tarawſe y Syriaid ef yn Ramah wrth ymladd o honaw ef yn erbyn Hazael brenin Syria: ac Ahazia mab Ioram a ddaeth i wared i edrych Ioram mab Ahab yn Iezrahel, canys claf ydoedd efe.

## PEN. IX.

Iehu yn difetha Ioram. 27 ac Ahazia 33 ac Iezabel.

1.Bren.19.17.

YNA Eliſeus y prophwyd a alwodd ar vn o feibion y prophwydi: ac a ddywedodd wrtho ef, * gwregyſſa dy lwynau, a chymmer y phioled olew hon yn dy law, a dos i Ramoth Gilead.

2 Pan ddelech yno, a gweled o honot yno Iehu mab Iehoſaphat mab Nimſi, yna cyrch, a phâr iddo godi o fyſc ei frodyr, a dŵg ef i ſtafell ddirgel.

3 Yna cymmer y phioled olew, a thywallt am ei ben ef, a dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, mi a'th enieniais di yn frenin ar Iſrael: yna agor y drŵs, a ffô ymmaith, ac nac aros.

4 Felly y llangc [ſef] gwâs y prophwyd a aeth i Ramoth Gilead.

5 Pan ddaeth efe i mewn, yna wele tywyſogion y llu oeddynt yn eiſtedd, ac efe a ddywedodd: gair [ſydd] gennif attat ti ô dywyſog: a dywedodd Iehu, at ba vn o honom ni oll? dywedodd yntef, attat ti ô dywyſog.

6 Ac efe a gyfododd, ac a aeth i mewn i'r tŷ, ac yntef a dywalltodd yr olew ar ei ben ef, ac a ddywedodd wrtho ef: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, myfi a'th eneiniais di yn frenin ar bobl yr Arglwydd, [ſef] ar Iſrael.

7 A thi a darewi dŷ Ahab dy arglwydd: fel y dialwyf fi waed fyng-weiſion y prophwydi, a gwaed holl weiſion yr Arglwydd oddi a'r law Iezabel.

1.Bren.14.10. & 21.21.

8 Canys holl dŷ Ahab a ddifethir, a mi a dorraf ymmaith oddi wrth Ahab * yr hwn a biſſo ar bared, y gwarchaedig hefyd, a'r hwn a adawyd yn Iſrael.

1.Bren.14.10. & 21.30. 1.Bren.16.3.

9 A mi a roddaf * dŷ Ahab fel tŷ Ieroboam mab Nabat: ac fel * tŷ Baaſa mab Ahia.

10 A'r cŵn a fwyttânt Iezabel yn rhandir Iezrahel, ac ni [bydd] ai claddo [hi:] yna efe a agorodd y drŵs, ac a ffôdd.

11 Ac Iehu a aeth allan at weiſion ei arglwydd, a dywedwyd wrtho ef, a yw pob peth yn dda? pa ham y daeth yr ynfyd hwn attat ti? dywedodd yntef wrthynt, chwi a adwaenoch y gŵr, ai ymadroddion.

12 Dywedaſant hwythau, celwydd [yw hynny,] mynega yn awr i ni: dywedodd yntef, fel hyn, ac fel hyn y llefarodd wrthif gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, mi a'th eneiniais di yn frenin ar Iſrael.

13 Yna hwynt a fryſſiaſant, ac a gymmeraſant bob vn ei wiſc, ac ai goſodaſant tano ef ar goppa y griſſiau: ac a ganâſant mewn vdcorn, ac a ddywedaſant, teyrnaſed Iehu.

14 Ac Iehu mab Iehoſaphat, mab Nimſi a gydfwriadodd yn erbyn Ioram: ac Ioram oedd yn cadw Ramoth Gilead, efe a holl Iſrael rhac ofn Hazael brenin Syria.

Pen.8.29.

15 Ac Ioram y brenin a ddychwelodd i ymiachau i Iezrahel o'r archollau [a] yr rhai yr archollaſe y Syriaid ef wrth ymladd o honaw yn erbyn Hazael brenin Syria: a dywedodd Iehu, os mynnwch chwi nac eled [vn] yn ddiangol o'r ddinas i fyned i fynegu i Iezrahel.

16 Yna Iehu a farchogodd, ac a aeth i Iezrahel, canys Ioram oedd yn gorwedd yno: ac Ahazia brenin Iuda a ddaethe i wared i edrych Ioram.

17 A'r gwiliwr oedd yn ſefyll ar y tŵr yn Iezrael, ac a ganfu fintai Iehu pan oedd efe yn dyfod, ac efe a ddywedodd, yr ydwyf yn gweled

torf: ac Ioram a ddywedodd, cymmer ŵr march ac anfon iw cyfarfod hwynt, a dyweded, ai heddwch [yw?]

18 A'r gŵr march a aeth iw gyfarfod ef, ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd y brenin, ai heddwch [ſydd?] a dywedodd Iehu, beth [ſydd] i ti [a ofynnech] am heddwch? tro yn fy ôl i: a'r gwili-wr a fynegodd gan ddywedyd, y gennad a ddaeth hyd attynt hwy, ond nid yw efe yn dychwelyd.

19 Yna efe a anfonodd yr ail gŵr march, ac efe a ddaeth attynt hwy, ac a ddywedodd, fel hyn y dywedodd y brenin, [ai] heddwch [ſydd? a dywedodd Iehu, beth [ſydd] i ti [a ofynnech] am heddwch? tro yn fy ôl i.

20 A'r gwili-wr a fynegodd gan ddywedyd, efe a ddaeth hyd attynt hwy, ond nid yw efe yn dychwelyd: ar gyrriad [ſydd] fel gyrriad Iehu mab Nimſi, canys y mae efe yn gyrru yn ynfyd.

21 Yna Ioram a ddywedodd, rhwym [y cerbyd,] yntef a rwymodd ei gerbyd ef: ac Ioram brenin Iſrael a aeth allan, ac Ahazia brenin Iuda, pob vniw gerbyd, felly 'r aethant i gyfarfod Iehu, a chyfarfuant ag ef yn rhan-dir Naboth yr Iezraheliad.

22 A phan welodd Ioram Iehu, yna efe a ddywedodd, a [oes] heddwch Iehu? dywedodd yntef, pa heddwch? tra [fyddo] putteindra Iezabel dy fam di, ai rhaib mor aml?

23 Am hynny Ioram a drodd ei ddwylaw, ac a ffôdd: ac a ddywedodd wrth Ahazia, [y mae] bradwriaeth ô Ahaziah.

24 Yna Iehu a gymmerth fŵa yn ei law, ac a darawodd Ioram rhwng ei yſcwyddau, fel yr aeth y ſaeth drwy ei galon ef: felly efe a ſyrthiodd yn ei gerbyd.

25 Ac [Iehu] a ddywedodd wrth Bidcar ei dywyſog, cymmer, bwrw ef i randir maes Naboth yr Iezraheliad: canys coffa ein bod ni mi a thi yn marchogeth yng-hyd ein dau ar ôl Ahab ei dad ef, a chodi o'r Arglwydd arno ef y baich hwn.

26 [Nid geir-wir fi] medd yr Arglwydd onid celanedd Naboth, a chelanedd ei feibion ef a welais i neithwyr, am hynny mi a dalaf i ti yn y rhandir hon medd yr Arglwydd: gan hynny cymmer, [a] bwrw ef yn awr yn y rhandir hon yn ôl gair yr Arglwydd.

27 Pan welodd Ahazia brenin Iuda [hynny] yna efe a ffôdd tua thŷ 'r ardd: ac Iehu a ymlidiodd ar ei ôl ef, ac a ddywedodd, tarewch hwn hefyd yn [ei] gerbyd, [felly hwynt ai tarawſant ef] yn rhiw Gwr, yr hon [ſydd] wrth Ibleam, ac efe a ffôdd i Megido, ac a fu farw yno.

28 Ai weiſion ai dugaſant ef mewn cerbyd i Ieruſalem: ac ai claddaſāt ef yn ei feddrod gyd ai dadau, yn ninas Dafydd.

29 Ac yn yr vnfed flwyddyn ar ddêc i Ioram fab Ahab yr aethe Ahazia yn frenin ar Iuda.

30 Pan ddaeth Iehu i Iezrahel: yna Iezabel a glybu [hynny,] ac a golurodd ei hwyneb, ac a wiſcodd yn wŷch am ei phenn, ac a edrychodd drwy 'r ffeneſtr.

31 Pan ddaeth Iehu i'r porth, yna hi a ddywedodd: a [fu] heddwch i Zimri yr hwn a laddodd ei feiſtr?

32 Ac efe a dderchafodd ei wyneb at y ffeneſtr, ac a ddywedodd, pwy [ſydd] gyd a mi, pwy? yna dau, [neu] dri o'r ſtafellyddion a edrychaſant arno ef.

33 Yntef a ddywedodd tafl hi i lawr, a hwynt ai taflaſant hi i lawr: ac efe a daenellodd oi gwaed hi ar y pared, ac ar y meirch, ac ai mathrodd hi.

34 Yna efe a ddaeth i mewn, ac a fwyttaodd, ac a yfodd, dywedodd hefyd, edrychwch am y [wraig] felldigedic honno, a chleddwch hi, canys merch brenin [ydyw] hi.

35 Pan aethant hwy iw chladdu hi: yna ni chawſant o honi onid y benglog, a'r traed, a chledrau y dwylo.

36 Am hynny hwynt a ddychwelaſant, ac a fynegaſant [hyn] iddo ef: dywedodd yntef, dyna air yr Arglwydd yr hwn a leſarodd efe drwy law ei waſanaethwr Elias y Theſbiad gan ddywedyd: *yn rhan-dir Iezrahel y bwytta y cŵn gnawd Iezabel.

1.Bren. 21.23.

37 A chelain Iezabel a fydd fel tommen ar wyneb y maes, yn rhan-dir Iezrahel: fel na ellir dywedyd, dymma Iezabel.

## P E N. X.

Iehu yn peri lladd meibion Ahab, 14 Brodyr Ahazia, 25 Ac offeiriaid Baal. 35 Ioachas yn teyrnaſu yn lle Iehu.

AC i Ahab [yr oedd] deng-mab a thrugain yn Samaria: ac Iehu a ſcrifennodd lythŷrau, ac a anfonodd [i] Samaria at dywyſogion Iezrahel, [ac] at yr henuriaid, ac at dadmaethod Ahab gan ddywedyd.

2 Ac yn awr pan ddêl y llythyr hwn attoch chwi (canys gyd a chwi [y mae] meibion eich arglwydd, a chennwch chwi [y mae] cerbydau, a meirch, a dinaſoedd caeroc, ac arfau)

3 Yna edrychwch yr hwn ſydd oref, ac yn gymhwyſaf o feibion eich arglwydd, a goſodwch [ef] ar deyrn-gader ei dad: ac ymleddwch dros dŷ eich arglwydd.

4 A hwynt a ofnaſant yn ddirfawr, ac a ddywedaſant, wele y ddau frenin hynny ni ſafaſant oi flaen ef: pa fodd gan hynny y ſafwn ni?

5 Am hynny 'r anfonodd yr hwn [oedd bennaf] ar dŷ [Ahab,] a'r hwn [oedd bennaf] ar y ddinas, a'r henuriaid, a'r tadmaethod at Iehu gan ddywedyd, dy weiſion di ydym ni, a'r hyn oll a ddywedech di wrthym ni a wnawn ni: ni wnawn ni neb yn frenin, gwna 'r hyn a fyddo dâ yn dy olwg.

6 Yna efe a ſcrifennodd yr ail lythyr attynt hwy gan ddywedyd, os eiddo fi fyddwch chwi,

ac [os] ar fy llais i y gwrandewch, cymmerwch bennau holl feibion eich arglwydd, a deuwch attaſi y pryd hyn y foru i Iezrahel: a meibion y brenin, [ſef] deng-wr a thrugain [oeddynt] gyd a phennaethiaid y ddinas, y rhai oeddynt yn eu maethu hwynt.

7 A phan ddaeth y llythr attynt hwy, yna hwy a gymmeraſant feibion y brenin, ac a laddaſant y deng-wr a thrugain, ac a oſodaſant eu pennau hwynt mewn baſcêdau, ac ai danfonaſant hwy atto ef i Iezrahel.

8 Yna y gennad a ddaeth, ac a fynegodd iddo ef gan ddywedyd, hwynt a ddugaſant bennau meibion y brenin: dywedodd yntef, goſodwch hwynt yn ddau ben-twr wrth ddrws y porth hyd y boreu.

9 A'r boreu efe a aeth allan, ac a ſafodd, dywedodd hefyd wrth yr holl bobl, byddwch gifiawn: wele myfi a gyd-fwriedais yn erbyn fy arglwydd, ac ai lleddais ef, ond pwy a laddodd yr holl rai hyn?

10 Gwybyddwch yn awr na ſyrth [dim] o air yr Arglwydd i'r ddaiar yr hwn a leſarodd yr Arglwydd am dŷ Ahab: canys gwnaeth yr Arglwydd yr hyn a leſarodd efe drwy law *Elias ei wâs.

1.Bren. 21.29.

11 Felly Iehu a darawodd holl weddillion tŷ Ahab yn Iezrahel, ai holl bennaethiaid ef, ai gyfneſeiſiaid ef, ai offeiriad: fel na adawyd vn yn weddill.

12 Ac efe a gyfododd, ac a aeth hefyd, ac a ddaeth i Samaria: [ac] efe [oedd wrth] dy cneiſio y bugeiliaid ar y ffordd.

13 Ac Iehu a gyfarfu a brodyr Ahazia brenin Iuda, ac a ddywedodd, pwy [ydych] chwi? dywedaſant hwythau, brodyr Ahazia [ydym] ni, ac ni a ddaethom i wared i gyfarch meibion y brenin, a meibion y frenhines.

14 Ac efe a ddywedodd, deliwch hwynt yn fyw, a hwynt ai daliaſant hwy yn fyw: ac ai lladdaſant hwy wrth bydew y tŷ cneiſio, [ſef] dau-wr a deugain, ac ni adawodd efe ŵr o honynt.

15 Pan aeth efe oddi yno, efe a gyfarfu ag Iehonadab fab Rechab yn cyfarfod ag ef, ac ai cyfarchodd ef, ac a ddywedodd wrtho ef, a yw dy galon di yn inion [tu ag attaſi] fel [y mae] fyng-halon i gyd a'th galon di? a dywedodd Iehonadab, ydyw, od ydyw [eb efe] moes dy law: rhoddodd yntef ei law, ac efe a barodd iddo ddyfod i fynu atto i'r cerbyd.

16 Ac efe a ddywedodd, tyret gyd a mi, a gwêl fy zêl i tua 'r Arglwydd: ac efe a barodd iddo farchogeth yn ei gerbyd.

17 Pan ddaeth efe i Samaria, yna efe a darawodd yr holl rai a adawſid i Ahab yn Samaria, nes iddo ei ddiniſtrio ef: yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe efe wrth Elias.

18 Yna Iehu a gynhullodd yr holl bobl, ac a ddywedodd wrthynt hwy, Ahab a waſanaethodd Baal ychydig: Iehu ai gwaſanaetha ef lawer.

19 Ac yn awr gelwch attaſi holl brophwydi Baal, ei holl weiſion ef, ai holl offeiriaid ef, na fydded vn yn eiſieu, canys aberth mawr [ſydd] gennif i Baal, pwy bynnac a fyddo yn eiſieu ni bydd efe byw: ond Iehu a wnaeth [hyn] mewn cyfrwyſtra, fel y difethe efe weiſion Baal.

20 Ac Iehu a ddywedodd, cyhoeddwch gymanfa ſanctaidd i Baal, a hwynt ai cyhoeddaſant.

21 Felly Iehu a anfonodd drwy holl Iſrael, a holl weiſion Baal a ddaethant, ac ni thrigodd vn yr hwn na ddaethe: a hwy a ddaethant i dŷ Baal, a llawnwyd tŷ Baal o ben bwy gilydd.

22 Ac efe a ddywedodd wrth yr hwn [oedd geidwad] ar y gwiſcoedd, dwg allan wiſc i holl weiſion Baal: ac efe a ddug y gwiſcoedd iddynt hwy.

23 Pan ddaeth Iehu i mewn ac Iehonadab mab Rechab i dŷ Baal, yna efe a ddywedodd wrth weiſion Baal: chwiliwch, ac edrychwch rhac bod ymma gyd a chwi [neb] o weiſion yr Arglwydd, onid gweiſion Baal yn vnic.

24 Felly y daethant i mewn i wneuthur aberthau, a phoethoffrymmau: ac Iehu a oſododd iddo allan bedwar vgain-wr, ac a ddywedodd, einioes y gŵr [oddi gan] yr hwn y diango [vn] o'r dynion hyn (y rhai yr ydwyfi yn eu dwyn i'ch dwylo chwi) [fydd] am ei einioes ef.

25 A phan orphennodd efe wneuthur y poeth offrwm, yna Iehu a ddywedodd wrth y ſwyddogion, a'r tywyſogion, ewch i mewn a tharewch hwynt, nac eled neb allan, felly hwynt ai tarawſant hwy a mîn y cleddyf: a'r ſwyddogion, a'r tywyſogion ai taflaſant hwy allan, ac a aethant i ddinas tŷ Baal.

26 A hwynt a ddugaſant allan ddelwau tŷ Baal, ac ai lloſcaſant hwy.

27 A hwynt a ddeſtruwiaſant ddelw Baal, ac a ddiniſtriaſant dŷ Baal, ac ai goſodaſant ef yn dommen hyd heddyw.

28 Felly y dileodd Iehu Baal allan o Iſrael.

29 Etto am bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwnaeth efe i Iſrael bechu, ni throdd Iehu oddi wrthynt hwy [nac oddi wrth] y lloi aur y rhai [oeddynt] yn Bethel, ac yn Dan.

30 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Iehu, o herwydd it wneuthur yn dda, gan wneuthur yr hyn oedd inion yn fyng-olwg i yn ôl yr hyn oll a'r a [oedd] yn fyng-halon i y gwnaethoſti i dŷ Ahab: meibion y bedwaredd genhedlaeth i ti a eiſteddant ar orſeddfa Iſrael.

31 Ond nid edrychodd Iehu am fyned rhagddo yng-hyfraith Arglwydd Dduw Iſrael ai holl galon: [canys] ni throdd efe oddi wrth bechodau Ieroboam [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu.

32 Yn y dyddiau hynny y dechreuodd yr Arglwydd dorri ymmaith Iſrael: a Hazael ai tarawodd hwynt drwy holl derfynau Iſrael,

33 O'r Iorddonen [tua] chodiad yr haul [ſef] holl wlâd Gilead, y Gadiaid, y Rubeniaid hefyd, a'r Manaſſiaid: o Aroer yr hon [ſydd] wrth afon Arnon, Gilead hefyd a Baſan.

34 A'r rhan arall o hanes Iehu, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe, ai holl gadernid ef: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

35 Ac Iehu a hunodd gyd ai dadau, a chladdwyd ef yn Samaria: ac Ioachaz ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

36 A'r dyddiau y rhai y teyrnaſodd Iehu ar Iſrael yn Samaria, [oeddynt] wyth mlynedd ar hugain.

## PEN. XI.

1 Gwaedlyd Deyrnaſiad Athaliah. 4 Duwiol Deyrnaſiad Ioas. 15 Ac Iehoiadah yn peri lladd Athaliah, yn gwneuthur cyfamod a Duw a diniſtr ar dy Baal.

2.Cron.22.10. PAn welodd Athaliah mam Ahaziah farw oi mab hi: yna hi a gyfododd, ac a ddifethodd yr holl hâd brenhinawl.

2 Ond Ioſaba merch y brenin Ioram, chwaer Ahaziah a gymmerth Ioas fab Ahaziah, ac ai lladrattaodd ef o fyſc meibion y brenin y rhai a laddwyd efe ai fammaeth [gan eu cadw] mewn ſtafell y gwelâu: a hwy ai cuddiaſant ef rhac Athaliah, fel na laddwyd ef.

3 Ac efe a fu gyd a hi yng-hudd [yn] nhŷ 'r Arglwydd chwe blynedd: ac Athaliah oedd yn teyrnaſu ar y wlâd.

4 Ac* yn y ſeithfed flwyddyn yr anfonodd Iehoiadah, ac y cymmerth dywyſogion y cantoedd [a'r] capteniaid, a'r ſwyddogion, ac ai dûg hwynt i mewn atto i dŷ 'r Arglwydd: ac a wnaeth a hwynt gyfammod, gwnaeth iddynt dyngu hefyd yn nhŷ yr Arglwydd, a dangoſodd iddynt fab y brenin.

5 Ac efe a orchymynnodd iddynt gan ddywedyd, dymma 'r peth yr hwn a wnewch chwi, trydedd ran o honoch, a ddeuant i mewn [ar] y Sabboth, ac a gadwant wiliadwriaeth tŷ y brenin.

2.Cron.23.5. 6 A thrydedd ran [fydd]* ym mhorth Sur, a thrydedd ran yn y porth ar ôl y ſwyddogion: felly cedwch wiliadwriaeth y tŷ Maſſa.

7 A dau parth o honoch chwi [ſef] yr hyn oll a'r a êlo allan y Sabboth, a gadwant wiliadwriaeth tŷ 'r Arglwydd yng-hylch y brenin.

8 A chwi a amgylchynwch y brenin o bob parth pob un ai arfau yn ei law, a'r hwn a ddelo i'r rheſau lladder ef: a byddwch gyd a'r brenin pan elo efe allan, a phan ddelo efe i mewn.

9 A thywyſogion y cantoedd a wnaethant yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe Iehoiadah yr offeiriad, a chymmeraſant bawb eu gwŷr y rhai oeddynt yn dyfod i mewn [ar] y Sabboth, gyd a'r rhai oeddynt yn myned allan [ar] y Sabboth: ac a ddaethant at Iehoiadah yr offeiriad.

10 A'r offeiriad a roddodd i dywyſogion y cantoedd y gwaiw-ffyn, a'r tariannau, y rhai [oeddynt] eiddo y brenin Dafydd: ac yn nhŷ yr Arglwydd.

11 A'r ſwyddogion a ſafaſant bob un, ai arfau yn ei law o'r tu dehau i'r tŷ hyd y tu aſſwy i'r tŷ yng-hylch yr allor, a'r tŷ, wrth y brenin o amgylch. 2.Cron.23.10.

12 Yna efe a ddug allan fab y brenin, ac a roddodd y goron arno ef, a'r deſtiolaeth, a hwy ai hurddaſant ef yn frenin, ac ai heneiniaſant ef: curâſant hefyd eu dwylo, a dywedaſant, byw fyddo 'r brenin.

13 Pan glybu Athaliah drŵſt y bobl yn rhedeg, yna hi a ddaeth i mewn at y bobl i dŷ 'r Arglwydd.

14 Pan edrychodd hi, yna wele y brenin oedd yn ſefyll wrth y golofn yn ôl yr arfer, a'r tywyſogion, a'r udcyrn o flaen y brenin, a holl bobl y wlâd yn llawen, ac yn canu mewn udcyrn: am hynny Athaliah a rwygodd ei gwiſcoedd, ac a waeddodd, bradwriaeth, bradwriaeth.

15 Ac Iehoiadah yr offeiriad a orchymynnodd i dywyſogion y cantoedd y rhai oeddynt wedi eu goſod ar y llu, ac a ddywedodd wrthynt, dygwch hi o'r tu allan i'r rheſau a'r hwn a ddelo ar ei hôl hi lladder ef a'r cleddyf: canys dywedaſe yr offeiriad, na rodder hi i farwolaeth yn nhŷ yr Arglwydd.

16 Yna y goſodaſant ddwylo arni hi, a hi a ddaeth tu a'r ffordd feirch i dŷ 'r brenin: ac yno y lladdwyd hi.

17 Ac Iehoiadah a wnaeth gyfammod rhwng yr Arglwydd, a'r brenin, a'r bobl, i fod yn bobl i'r Arglwydd: a rhwng y brenin a'r bobl.

18 Yna holl bobl y wlâd a ddaethant i dŷ Baal, ac ai diniſtriaſant ef ai allorau, ei ddelwau hefyd a ddrylliaſant hwy yn chwilfriw, lladdaſant hefyd Mathan offeiriad Baal o flaen yr allor: a'r offeiriad a oſododd oruwchwil-wŷr ar dŷ 'r Arglwydd.

19 Cymmerth efe hefyd dywyſogion y cantoedd, a'r capteniaid, a'r ſwyddogion, a holl bobl y wlâd a ddugaſant i wared y brenin o dŷ 'r Arglwydd, a hwy a ddaethant tua phorth ſwyddogion tŷ y brenin: ac efe a eiſteddodd ar orſeddfa y brenhinoedd.

20 A holl bobl y wlâd a lawenychaſant, a'r ddinas a lonyddodd: canys lladdaſent Athaliah a'r cleddyf [wrth] dŷ y brenin.

21 Mab ſaith mlwydd [oedd] Ioas pan aeth efe yn frenin.

## PEN. XII.

Duwioldeb Ioas, ai ofal i gyweirio y deml, cyn marw Iehoiada. 17 Iehu wedi hynny yn ei flino ef, ac yntef yn prynu ei heddwch a golud y cyſſegr. 20 Ac wedi i ddau oi weiſion ladd Ioas, Amaſia yn teyrnaſu yn ei lê ef.

2.Cron.24.1. YN y ſeithfed flwyddyn i Iehu, y dechreuodd Ioas deyrnaſu, a deugain mhlynedd y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Zibia o Beer-ſeba.

2 Ac Ioas a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd ei holl ddyddiau ef: [yn] y rhai y dyſcodd Iehoiadah yr offeiriad ef.

3 Er hynny ni thynnaſid ymmaith yr vchelfeudd: y bobl oeddynt etto yn offrymmu, ac yn arogl-darthu yn yr vchelfeudd.

4 Ac Ioas a ddywedodd wrth yr offeiriaid: holl arian y pethau cyſſegr-edic y rhai a ddygir i mewn i dŷ 'r Arglwydd, arian y gŵr a gynniwero, arian gwerth eneidiau pob vn: a'r holl arian a'r a chwẽnycho neb eu dwyn i mewn i dŷ 'r Arglwydd,

5 Cymmered yr offeiriaid [hynny] iddynt, pawb gan ei gydnabod: ac adnewyddant adwyau y tŷ, pa le bynnac y ceffir adwy ynddo.

6 Ac yn y drydedd flwyddyn ar hugain i'r brenin Ioas, nid adgyweiriaſe yr offeiriaid agennau y tŷ.

7 Yna y brenin Ioas a alwodd am Iehoiadah yr offeiriad, a'r offeiriaid [eraill,] ac a ddywedodd wrthynt hwy: pa ham nad ydych chwi yn cyweirio agennau y tŷ? yn awr gan hynny na dderbynniwch arian gan eich cydnabod, onis rhoddwch at [gyweirio] adwyau y tŷ.

8 A'r offeiriaid a gydſynniaſant ar na dderbynnid arian gan y bobl, heb adnewyddu rwygiadau y tŷ.

9 Yna Iehoiadah yr offeiriad a gymmerth ryw giſt, ac a dyllodd dwll yn ei chaead: ac ai rhoddodd hi o'r tu dehau i'r allor ffordd y dele pawb i mewn i dŷ 'r Arglwydd, a'r offeiriaid y rhai oeddynt yn cadw y trothwy a roddaſant yno 'r holl arian a'r a ddygwyd i mewn i dŷ 'r Arglwydd.

10 A phan welſant hwy fod llawer o arian yn y gîſt: yna y daeth ſcrifennudd y brenin, a'r arch-offeiriad i fynu, a hwy a rwymaſant yr arian pan gyfrifaſant yr hyn a gawſid yn nhŷ 'r Arglwydd;

11 A hwynt a roddaſant yr arian yn barod tann ddwylo gweith-wŷr y gwaith, [ac] i oruchwil-wŷr tŷ 'r Arglwydd: ac ai talaſant i'r ſeiri pren, ac i'r adailadwŷr y rhai oeddynt yn gweithio tŷ 'r Arglwydd.

12 Ac i'r pridd-wŷr, i'r ſeiri meini hefyd, ac i brynu coed, a cherrig nadd i adnewyddu adwyau tŷ 'r Arglwydd: a thu ag at yr hyn oll a'r a aethe allan i adgyweirio y tŷ.

13 Etto ni wnaed yn nhŷ 'r Arglwydd gwpanau arian, ſaltringau, cawgiau, vdcyrn, [na] dim lleſtri aur, na lleſtri arian, o'r arian a ddygaſid i mewn i dŷ 'r Arglwydd.

14 Eithr hwy ai rhoddaſant i weith-wŷr y gwaith: fel yr adnewyddyd tŷ 'r Arglwydd a hwynt.

15 Ac ni theiſiaſant gyfrif gan y dynion y rhai y rhoddaſent hwy 'r arian dann eu dwylo iw rhoddi i weith-wŷr y gwaith: canys yr oeddynt hwy yn gwneuthur yn ffyddlon.

16 Arian [dros] gamwedd, ac arian [dros] bechodau ni dducpwyd i mewn i dŷ 'r Arglwydd: [canys] eiddo 'r offeiriaid oeddynt hwy.

17 Yna Hazael brenin Syria a ddaeth i fynu, ac a ymladdodd yn erbyn Gath, ac ai hennillodd hi: a Hazael a oſododd ei wyneb i fyned i fynu yn erbyn Ieruſalem.

18 Ac Ioas brenin Iuda a gymmerth yr holl bethau cyſſegredic, y rhai a gyſſegraſe Iehoſaphat, ac Ioram, ac Azahia ei henafiaid ef brenhinoedd Iuda, ai gyſſegredic bethau ef ei hun, a'r holl aur a'r a gafwyd yn nhryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thŷ 'r brenin: ac efe ai hanfonodd at Hazael brenin Syria, ac efe a ymadawodd oddi wrth Ieruſalem.

19 A'r rhan arall o hanes Ioas, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

20 Ai weiſion ef a gyfodaſant, ac a gydfwriadaſant fradwriaeth: * ac a darawſant Ioas 2.Cron.24.25.
[yn] nhŷ * Milo, wrth ddyfod i wared i Sila. 2.Sam.5.9.

21 Felly Iozacar mab Simeath, ac Iozabad mab Somer ei weiſion ef, ai tarawſant ef, fel y bu efe farw, a hwy ai claddaſant ef gyd ai dadau yn ninas Dafydd: ac Amaſia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XIII.

Ioachas (wedi myned tann law y Syriaid) trwy weddi
yn cael ymwared. 9 Ioas yn teyrnaſu yn ei lê ef.
20 Marwolaeth Eliſêus a Hazael.

OR drydedd flwyddyn ar hugain i Ioas fab Ahazias brenin Iuda: y teyrnaſodd Ioachaz mab Iehu ar Iſrael yn Samaria ddwy flynedd ar bymthec.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: ac a rodiodd ar ôl pechodau Ieroboam mab Nabat, [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu, [ac] ni throôdd oddi wrthynt hwy.

3 Am hynny digllonedd yr Arglwydd a lidiodd yn erbyn Iſrael: ac efe ai rhoddodd hwynt yn llaw Hazael brenin Syria, ac yn llaw Ben-hadad mab Hazael yr holl ddyddiau hynny.

4 Ac Ioachaz a erfynniodd ar yr Arglwydd: a gwrandawodd yr Arglwydd arno ef, o herwydd iddo ganfod gorthrymder Iſrael, canys brenin Syria ai gorthrymmaſe hwynt.

5 Am hynny 'r Arglwydd a roddodd achubwr i Iſrael, fel yr aethant oddi tann law y Syriaid: a meibion Iſrael a drigaſant yn eu pebyll fel cynt.

6 Etto ni throeſant hwy oddi wrth bechodau tŷ Ieroboam: [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu, [eithr] rhodiaſant ynddynt hwy: a'r llwyn hefyd a ſafodd yn Samaria.

7 Canys ni adawodd efe i Ioachaz [o'r] bobl onid dêc a deugain o wŷr meirch, a dêc cerbyd, a deng-mil o wŷr traed: o herwydd brenin Syria ai diniſtriaſe hwynt, ac ai goſodaſe hwynt fel llwch iw dyrnu.

8 A'r rhan arall o hanes Ioachaz, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe, ai gadernid: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

9 Ac Ioachaz a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef yn Samaria: ac Ioas ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

10 Y'r ail flwyddyn ar bymthec ar hugain i Ioas frenin Iuda, y teyrnaſodd Ioas mab Ioachaz ar Iſrael yn Samaria vn mlynedd ar bymthec.

11 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: ni thrôdd efe oddi wrth holl bechodau Ieroboam mab Nabat, [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu, [eithr] efe a rodiodd ynddynt.

12 A'r rhan arall o hanes Ioas, a'r hyn oll a wnaeth efe ai gadernid [drwy] 'r hwn yr ymladdodd efe ag Amaſia brenin Iuda: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

13 Ac Ioas a hunodd gyd ai dadau, ac Ieroboam a eiſteddodd ar ei deyrn-gader ef: ac Ioas a gladdwyd yn Samaria gyd a brenhinoedd Iſrael.

14 Pan glafychodd Eliſêus oi glefyd yr hwn y bu efe farw ynddo: yna Ioas brenin Iſrael a ddaeth i wared atto ef, ac a ŵylodd ar ei wyneb ef, ac a ddywedodd, fy nhâd, * fy nhâd, cerbyd Iſrael, ai farchogion. Pen.2.12.

15 Yna Eliſêus a ddywedodd wrtho ef, cymmer fŵa, a ſaethau: ac efe a gymmerth fŵa, a ſaethau.

16 Ac efe a ddywedodd wrth frenin Iſrael, goſot dy law ar y bŵa, ac efe a oſododd ei law: ac Eliſêus a oſododd ei ddwylaw ar ddwylo'r brenin,

17 A dywedodd, agor y ffeneſtr tua'r dwyrain, yntef ai hagorodd: yna y dywedodd Eliſêus, ſaetha, ac efe a ſaethodd, dywedodd yntef: ſaeth ymwared yr Arglwydd, a ſaeth iechydwriaeth yn erbyn y Syriaid, ti a darewi y Syriaid yn Aphec, nes eu difa hwynt.

18 Hefyd efe a ddywedodd, cymmer y ſaethau, ac efe ai cymmerodd: dywedodd yntef wrth frenin Iſrael, taro'r ddaiar, ac efe a darawodd dair g'waith, ac a ſafodd.

19 Yna gŵr Duw a ddigiodd wrtho ef, ac a ddywedodd [dyleſit] daro bump neu chwech o weithiau, yna y tarawſit y Syriaid nes [eu] difa [hwynt,] yn awr gan hynny tair g'waith y tarewi y Syriaid.

20 Felly Eliſêus a fu farw, a hwynt ai claddaſant ef: a minteioedd o'r Moabiaid a ddaethant i'r wlâd y flwyddyn honno.

21 A phan oeddynt hwy yn claddu gŵr, yna wele hwynt a ganfuant y dorf, am hynny y bwriaſant y gŵr i feddrod Eliſêus: pan aeth y gŵr a chyffwrdd ag eſcyrn Eliſêus, *yna efe a ddadebrodd, ac a gyfododd ar ei draed. Eccleſi.48.14.

22 A Hazael brenin Syria a orthrymmodd Iſrael holl ddyddiau Ioachaz.

23 A'r Arglwydd a drugarhaodd wrthynt hwy, ac a doſturiodd wrthynt hwy, ac a drôdd attynt hwy er mwyn ei gyfammod ag Abraham, Iſaac, ac Iacob: ac ni fynnodd eu diniſtrio hwynt, nai bwrw hwynt ymmaith oi ŵydd ef hyd yn hyn.

24 Felly Hazael brenin Syria a fu farw: a Benhadad ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

25 Ac Ioas mab Ioachaz a ddychwelodd ac a ennillodd y dinaſoedd o law Benhadad mab Hazael, y rhai a ddugaſe efe o law Ioachaz ei dâd mewn rhyfel: Ioas ai tarawodd ef dair g'waith, ac a ddûg adref ddinaſoedd Iſrael.

## PEN. XIIII.

Amaſia yn dial ei dâd 7 ac yn lladd llawer o'r Edomiaid 15 Ieroboam yn teyrnaſu yn llê Ioas. 29 a Zacharia yn ei le yntef.

YN yr ail flwyddyn i Ioas fab Ioachaz brenin Iſrael, y teyrnaſodd * Amaſia mab Ioas brenin Iuda. 2.Cron 25.1.

2 Mab pum-mlwydd ar hugain oedd efe pan aeth efe yn frenin, a naw mlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Ioadan o Ieruſalem.

3 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd, etto nid fel Dafydd ei dâd: [ond] efe a wnaeth yn ôl yr hyn oll a'r a wnaethe Ioas ei dad ef.

4 Er hynny ni thynnwyd ymmaith yr vchelfeudd: [canys] y bobl oeddynt etto yn aberthu, ac yn arogl-darthu mewn vchelfeudd.

5 A phan ſiccrhauwyd ei deyrnas yn ei law ef: * yna efe a laddodd ei weiſion y rhai a laddaſent y brenin ei dâd ef. Pen.12.20.

6 * Ond ni laddodd efe feibion y rhai a darawſent [ei dâd ef] fel y mae yn ſcrifennedic yn llyfr cyfraith Moſes, [yn] yr hon y gorchymynnaſe'r Arglwydd gan ddywedyd, * na ladder y tadau dros y meibion, ac na ladder y meibion dros y tadau, onid ladder pob vn am ei bechod ei hun. 2.Cron.25.4. Deut.24.16. Ier.31.32. Ezech.18.20.

7 Efe a darawodd o'r Edomiaid (yn nyffryn yr halen) ddeng-mil, ac a ennillodd [y caſtell ar] y graig mewn rhyfel: ac a alwodd ei henw ef Ioctheel hyd y dydd hwn.

8 Yna Amaſia a anfonodd gennadau at Ioas fab Ioachaz, fab Iehu brenin Iſrael gan ddywedyd: tyret, ymwelwn ai gilydd. 2.Cron.25.17.

9 Ac Ioas brenin Iſrael a anfonodd at Amaſia brenin Iuda gan ddywedyd; yr yſcellyn yr hwn [ſydd] yn Libanus a anfonodd at y cedrwydden yr hon [ſydd] yn Libanus gan ddywedyd, dyro dy ferch i'm mab i yn wraig: a bwyſtfil y maes yr hwn [oedd] yn Libanus a drammwyodd, ac a ſathrodd yr yſcellyn.

10 Gan daro y tarewaiſt yr Edomiaid, am hynny dy galon a'th ſalchiodd, ymffroſtia, ac eiſtedd yn dy dŷ, canys i ba beth yr ymryſoni mewn drygioni, fel y ſyrthit ti hefyd, ac Iuda gyd a thi?

11 Ond ni wrandawodd Amaſia, am hynny Ioas brenin Iſrael a aeth i fynu, a hwy a welſant wynebau eu gilydd, efe ac Amaſia brenin Iuda yn Bethſemes yr hon [ſydd] yn Iuda.

12 Ac Iuda a laddwyd o flaen Iſrael: fel y ffôdd pawb iw pabellau.

13 Ond Ioas brenin Iſrael a ddaliodd Amaſia fab Ioas, fab Ahazia, brenin Iuda yn Bethſemes: ac efe a ddaeth i Ieruſalem, ac a rwygodd o fûr Ieruſalem o borth Ephraim, hyd borth y gongl bedwar cant cufydd.

14 Ac efe á gymmerth yr holl aur, a'r arian, a'r holl leſtri a'r a gafwyd yn nhŷ'r Arglwydd, ac yn nhryſſorau tŷ'r brenin, a'r meibion y rhai oeddynt yn wyſtlon: ac a ddychwelodd i Samaria.

15 A'r rhan arall o hanes Ioas y rhai a wnaeth efe, ai gadernid ef, ac fel yr ymladdodd efe ag Amaſia brenin Iuda: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

16 Ac Ioas a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yn Samaria gyd a brenhinoedd Iſrael: ac Ieroboam ei fab a deyrnaſodd yn ei lê ef.

17 Ac Amaſia mab Ioas brenin Iuda a fu fyw ar ôl marwolaeth Ioas fab Ioachaz brenin Iſrael bymtheng-mhlynedd.

2.Cron. 25.26. 18 A'r rhann arall o hanes Amaſia: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic mewn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

19 Ond hwy a frâd-fwriadaſant yn ei erbyn ef yn Ieruſalem, ac efe a ffôdd i Lachis: etto hwynt a anfonaſant ar ei ôl ef i Lachis, ac ai lladdaſant ef yno.

20 A hwynt ai dugaſant ef ar feirch: ac efe a gladdwyd yn Ieruſalem gyd ai dadau yn ninas Dafydd.

2.Cron.26.1. 21 Yna holl bobl Iuda a gymmeraſant * Azariah, ac yntef yn fab vn mlwydd ar bymthec: ac ai hurddaſant ef yn frenin yn llê Amaſia ei dad.

22 Efe a adailadodd Elath, ac ai rhoddodd hi trachefn i Iuda, ar ôl huno o'r brenin gyd ai dadau.

23 O'r bymthecfed flwyddyn i Amaſia fab Ioas brenin Iuda, y teyrnaſodd Ieroboam mab Ioas brenin Iſrael yn Samaria vn mlynedd a deugain.

24 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: ni chiliodd efe oddi wrth holl bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu.

25 Efe a ddug adref derfyn Iſrael o ddyfodfa Hemath, hyd fôr y rhôs: yn ôl gair Arglwydd Dduw Iſrael, yr hwn a lefaraſe efe drwy law ei wâs Ionas mab Amittai y prophwyd, yr hwn [oedd] o Gath Hepher.

26 Canys yr Arglwydd a welſe gyſtudd Iſrael yn flin iawn: nad [oedd neb] * gwar- 1.Bren.14.10.
chaedic, na neb wedi ei adel, ac nad [oedd] gynnorthwywudd i Iſrael.

27 Etto ni lefaraſe yr Arglwydd am ddeleu enw Iſrael oddi tann y nefoedd: am hynny efe ai gwaredodd hwynt drwy law Ieroboam mab Ioas.

28 A'r rhan arall o hanes Ieroboam, a'r hyn oll a'r a wnaethe efe, ai gadernid ef [drwy] yr hwn yr ymladdodd efe, a [thrwy] yr hwn y dug efe adref Ddamaſcus, a Hemath i Iuda yn Iſrael: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

29 Ac Ieroboam a hunodd gyd ai dadau, [ſef] gyd a brenhinoedd Iſrael: a Zacharia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XV.

1 Gwahan-glwyf Azaria Teyrnaſiad Salum. 14 Menahem. 23 Pecahia. 32 Yr Azariah vchod, ac Ahas ei fab ef.

YN y ſeithfed flwyddyn ar hugain i Ieroboam brenin Iſrael, y teyrnaſodd * Azariah 2.Cron.26.1.
mab Amaſia brenin Iuda.

2 Mab vn mlwydd ar bymthec ydoedd efe pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a deuddeng-mhlynedd a deugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam [oedd] Iecholiahu o Ieruſalem.

3 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd iawn yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnelſe Amaſia ei dad ef.

4 Er hynny ni thynnwyd ymmaith yr vchelfeudd: [canys] y bobl oeddynt etto yn aberthu, ac yn arogl-darthu mewn vchelfeudd.

5 A'r * Arglwydd a darawodd y brenin fel y 2.Cron. 26.21.
bu efe yn wahan-glwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, am hynny efe a drigodd mewn tŷ ar nailltu: ac Iotham mab y brenin [oedd bennaf] ar y tŷ yn barnu pobl y wlâd.

6 A'r rhan arall o hanes Azariah, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

7 Ac Azariah a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd: ac Iotham ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

8 Yn y drydedd flwyddyn ar bymthec ar hugain i Azariah frenin Iuda: y teyrnaſodd Zacharia mab Ieroboam ar Iſrael yn Samaria chwe mîs.

9 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, megis y gwnaethe ei dadau ef: ni thrôdd efe oddi wrth bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwna-

ethe efe i Iſrael bechu.

10 A Salum mab Iabes a frad-fwriadodd yn ei erbyn ef, ac ai tarawodd ef ger bron y bobl, ac ai lladdodd ef: ac a deyrnaſodd yn ei lê ef.

11 A'r rhan arall o hanes Zacharia: wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

Pen.10.30. 12 Dymma * air yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe efe wrth Iehu gan ddywedyd, meibion y bedwaredd genhedlaeth i ti a eiſteddant ar orſeddfa Iſrael: ac felly y bu.

13 Salum mab Iabes a deyrnaſodd yn y bedwaredd flwyddyn ar bymthec ac hugain i Uzziah brenin Iuda: a mis cyfan y teyrnaſodd efe yn Samaria.

14 Canys Menahem mab Gadi a aeth i fynu o Thirſa, ac a ddaeth i Samaria, ac a darawodd Salum fab Iabes yn Samaria: ac ai lladdodd ef, teyrnaſodd hefyd yn ei lê ef.

15 A'r rhan arall o hanes Salum, ai fradwriaeth ef [drwy] 'r hon y brad-fwriadodd efe: wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

16 Yna Menahem a darawodd Thipſah, a'r rhai oll [oeddynt] ynddi, ai therfynau o Thirſa allan, o herwydd nad agorwyd [iddo ef,] am hynny y tarawodd efe hi, ai holl wragedd beichiogion a rwygodd efe.

17 O'r bedwaredd flwyddyn ar bymthec ar hugain i Azariah brenin Iuda, y teyrnaſodd Menahem mab Gadi ar Iſrael ddeng-mhlynedd yn Samaria.

18 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: ni thrôdd oddi wrth bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwnaethe efe i Iſrael bechu [yn] ei holl ddyddiau.

19 A Phul brenin Aſſyria a ddaeth yn erbyn y wlâd, a Menahem a roddodd i Phul fil o dalentau arian: fel y bydde ei law gyd ag ef, i ſiccrhau y frenhiniaeth yn ei law ef.

20 A Menahem a drethodd arian ar Iſrael, [ſef] ar yr holl rai cedyrn o allu, drwy roddi o bob un i frenin Aſſyria ddec ſicl a deugain o arian: felly brenin Aſſyria a ddychwelodd, ac nid arhoſodd yno yn y wlâd.

21 A'r rhan arall a hanes Menahem, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael?

22 A Menahem a hunodd gyd ai dadau: a Phecahia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

23 O'r ddecfed flwyddyn a deugain i Azaria brenin Iuda, y teyrnaſodd Pecahia mab Menahem ar Iſrael yn Samaria ddwy flynedd.

24 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: ni thrôdd efe oddi wrth bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwnaeth efe i Iſrael bechu.

25 A Pheca mab Remaliahu ei dywyſog ef a frad-fwriadodd yn ei erbyn ef, ac ai tarawodd ef yn Samaria yn llŷs y brenin gyd ag Argob, ag Arieth a deng-wr a deugain o feibion y Gileadiaid: felly efe ai lladdodd ef, ac a deyrnaſodd yn ei lê ef.

26 A'r rhan arall o hanes Pecahia, a'r hyn oll a wnaeth efe: wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

27 O'r ddeuddecfed flwyddyn a deugain i Azaria brenin Iuda, y teyrnaſodd Peca mab Remaliahu ar Iſrael yn Samaria ugain mlynedd.

28 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: ni throdd efe oddi wrth bechodau Ieroboam mab Nabat [drwy] y rhai y gwnaeth efe i Iſrael bechu.

29 Yn nyddiau Peca brenin Iſrael,* y daeth Tiglath Peleſer brenin Aſſyria, ac a ennillodd Iion, ac Abel, Bethmaacha, ac Ianoah, Cedes hefyd, a Hazor, Gilead hefyd, a Galilea [a] holl wlâd Nephthali: ac a gaeth-gludodd eu [trigolion] i Aſſyria. 1.Cron. 5.26.

30 A Hoſea mab Elah, a frad-fwriadodd fradwriaeth yn erbyn Peca mab Remaliahu, ac ai tarawodd ef, ac ai lladdodd ef, ac efe a deyrnaſodd yn ei lê ef: yn yr ugeinfed flwyddyn i Iotham fab Uzzia.

31 A'r rhan arall o hanes Peca, a'r hyn oll a wnaeth efe: wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iſrael.

32 Yn yr ail flwyddyn i Peca fab Remaliahu brenin Iſrael: y dechreuodd Iotham mab Uzziah brenin Iuda deyrnaſu.

33 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Ieruſa merch Zadoc. 2.Cron.27.1.

34 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd union yngolwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnelſe Uzziah ei dad ef.

35 Er hynny ni thynnwyd ymmaith yr uchelfeudd, y bobl oeddynt etto yn aberthu, ac yn arogl-darthu mewn uchelfeudd: efe a adeiladodd y porth uchaf i dŷ'r Arglwydd.

36 A'r rhan arall o hanes Iotham, a'r hyn oll a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

37 Yn y dyddiau hynny y dechreuodd yr Arglwydd anfon yn erbyn Iuda Rezin brenin Syria: a Pheca mab Remaliahu.

38 Ac Iotham a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd ei dad: ac Ahaz ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XVI.

Ahaz yn cyſſegru ei fab mewn tan. 7 Yn ceiſio ac yn cael cynhorthwy gan frenin Aſſyria yn erbyn brenhinoedd Syria, ac Iſrael. 20 Hezecia yn teyrnaſu yn lle Ahaz.

YN yr ail flwyddyn ar bymthec i Peca fab Remaliahu y dechreuodd Ahaz mab Iotham brenin Iuda deyrnaſu.

2 Mab ugain mlwydd [oedd] Ahaz pan dde- 2.Cron.28.1.

chreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac ni wnaeth efe yr hyn oedd union yng-olwg yr Arglwydd ei Dduw ef, fel Dafydd ei dad.

Lefit 28.21. deut.18.10. 2.cron.28.3. 3 Eithr rhodiodd yn ffordd brenhinioedd Iſrael: *ac a yrrodd ei fab drwy yr tân yn ôl ffieidd-dra y cenhedloedd y rhai a fwriaſe yr Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael.

4 Ac efe a aberthodd, ac a arogl-darthodd mewn uchelfeudd, ac ar y bryniau: a than bôb pren gwyrdd-las.

Eſa.7.4. 5 Yna y daeth *Rezin brenin Syria, a Pheca mab Remaliahu brenin Iſrael i fynu i Jeruſalem y ryfel: a hwynt a warchâſant ar Ahaz, ond ni allaſant hwy [ei] orchfygu [ef.]

6 Yn yr amſer hwnnw Rezin brenin Syria a ddug trachefn Elath at Syria, ac a ddiwreiddiodd yr Iddewon o Elath: a'r Syriaid a ddaethant i Elath, ac a breſwyliaſant yno hyd y dydd hwn.

2.Cron.28.20. 7 Yna Ahaz a anfonodd gennadau at *Tiglath Peleſer brenin Aſſyria gan ddywedyd: dy wâs di, a'th fab di ydwyfi: tyret i fynu, a gwaret fi o law brenin Syria, ac o law brenin Iſrael, y rhai ydynt yn cyfodi yn fy erbyn i.

8 Ac Ahaz a gymmerth yr arian, a'r aur y rhai a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn nhryſorau tŷ y brenin: ac a anfonodd anrheg i frenin Aſſyria.

9 A brenin Aſſyria a wrandawodd arno ef, a brenin Aſſyria a ddaeth i fynu i Ddamaſcus, ac ai hennillodd hi, ac a gaeth-gludodd ei [thrigolion] i Cir: ac a laddodd Rezin.

10 A'r brennin Ahaz a aeth i Ddamaſcus i gyfarfod Tiglath Peleſer brenin Aſſyria, pan welodd efe yr allor'r hon [oedd] yn Damaſcus: yna brenin Ahaz a anfonodd at Uria yr offeiriad lûn yr allor, ai hagwedd yn ôl ei holl wneuthuriad.

11 Ac Uria yr offeiriad o adailadodd yr allor: yn ôl yr hyn oll a anfonaſe y brenin Ahaz o Ddamaſcus, felly y gwnaeth Uria yr offeiriad erbyn dyfod y brenyn Ahaz o Ddamaſcus.

12 Felly y brenin a ddaeth o Ddamaſcus a'r brenin a ganfu yr allor: y brenin hefyd a neſſaodd at yr allor, ac a boeth offrymmodd arni hi.

13 Ac efe a loſcodd ei boeth-offrwm, ai fwyd offrwm, ac a dywalltodd ei ddiod offrwm: taenellodd hefyd waed yr offrymmau hedd yr hwn [oedd] ganddo ar yr allor.

14 A'r allor brês yr hon [oedd] ger bron yr Arglwydd a dynnodd efe ymmaith o dalcen y tŷ, oddi rhwng yr allor, a thŷ yr Arglwydd: ac ai rhoddes hi wrth yſtlys yr allor o du yr gogledd.

15 A'r brenin Ahaz a orchymynnodd i Uria yr offeiriad gan ddywedyd, lloſc ar yr allor fawr y poeth offrwm boreuol, a'r bwyd offrwm prynhawnol, poeth offrwm y brenin hefyd, ai fwyd offrwm ef, a phoeth offrwm holl bobl y wlâd ai bwyd offrwm hwynt, eu diodydd offrwm hwynt hefyd, a holl waed y poeth offrwm, a holl waed yr aberth a daenelli di arni hi: a bydded yr allor brês i mi i ymmiorol [a hi,]

16 Ac Uria yr offeiriad a wnaeth yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe y brenin Ahaz.

17 A'r brenin Ahaz a dorrodd ddaliadau y treſtêlau, ac a dynnodd ymmaith y noe oddi arnynt hwy, ac a ddeſcynnodd y gerwyn oddi ar yr ŷchen prês, y rhai [oeddynt] tani hi: ac ai rhoddodd hi ar balmant cerrig.

18 A gorchudd y Sabboth yr hwn a adailadaſent hwy yn tŷ, a dyfodfa y brenin oddi allan a drôdd efe [oddi wrth] dŷ yr Arglwydd: rhac ofn brenin Aſſyria.

19 A'r rhan arall a hanes Ahaz, yr hyn a wnaeth efe: onid [ydynt] hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda:

20 Ac Ahaz a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd: a Hezecia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XVII.

Hoſea ddrygionus wedi myned tan dreth i'r Aſſyriaid yn gwrthod eu gwarrogaeth hwynt. 7 Duw yn gadel am bechod yr Iſraeliaid i'r Aſſyriaid eu caethiwo hwynt. 25 Llewod yn difetha yr Aſſyriaid a ddaethent i aros yn Samaria.

O'R ddeuddecfed flwyddyn i Ahaz frenin Iuda: y teyrnaſodd Hoſea mab Elah yn Samaria ar Iſrael naw mlynedd.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: etto nid fel brenhinoedd Iſrael y rhai a fuaſent oi flaen ef.

3 A Salmaneſer brenin Aſſyria a ddaeth i fynu yn ei erbyn ef: a Hoſea a fu yn wâs iddo ef, ac a ddug iddo anrhegion.

4 A brenin Aſſyria a gafodd fradwriaeth yn Hoſea, am ddanfon o honaw gennadau at So brenin yr Aipht, ac [am] na ddanfonaſe efe i fynu anrheg i frenin Aſſyria, fel [y bydde efe arferol] bôb blwyddyn: am hynny brenin Aſſyria a gaeodd arno ef, ac ai rhwymnodd ef mewn carchar-dŷ.

5 Yna brenin Aſſyria a aeth i fynu drwy yr holl wlad: ac a ddaeth i fynu i Samaria, ac a warchâodd arni hi dair blynedd.

6 *Yn y nawfed flwyddyn i Hoſea, yr ennillodd brenin Aſſyria Samaria, ac y caeth-gludodd efe Iſrael i Aſſyria: ac ai cyfleuodd hwynt yn Halah, ac yn Habor, [wrth] afon Gozan, ac [yn] ninaſoedd y Mediaid: Pen.18.10.

7 Am i feibion Iſrael bechu yn erbyn yr Arglwydd eu Duw hwynt, yr hwn ai dugaſe hwynt i fynu o wlâd yr Aipht, oddi tann law Pharao brenin yr Aipht: ac am iddynt ofni duwiau dieithr,

8 A rhodio o honynt yn neddfau y cenhedloedd y rhai a fwriaſe yr Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael: ac [yn y deddfau] y rhai a wnaethe brenhinoedd Iſrael.

9 A meibion Iſrael a wnaethent yn ddirgel bethau y rhai nid [oeddynt] iuion ger bron yr Arglwydd eu Duw: ac a adailadaſent iddynt vchelfeudd yn ei holl ddinaſoedd, yn gyſtal ym mhob tŵr gwil-wŷr, ac ym mhob dinas gaeroc.

10 Goſodaſent hefyd iddynt ddelwau, a llwynau: ar bob brynn vchel, a thann bob prenn ir-las.

11 Ac arogl-darthaſent yno yn yr holl vchelfeudd, fel y cenhedloedd y rhai a gaeth-gludaſe yr Arglwydd oi blaen hwynt: a gwnelſent bethau drygionus i ddigio yr Arglwydd.

12 A hwy a waſanaethaſent eulynnod, [am] y rhai y dywedaſe yr Arglwydd wrthynt, * na wnewch y peth hyn. Deut.4.19.

13 Er i'r Arglwydd deſtiolaethu yn Iſrael, ac yn Iuda drwy law yr holl brophwydi, [a] phob gweledudd, gan ddywedyd, * dychwelwch o'ch ffyrdd drygionus, a chedwch fyng-orchymynnion, a'm deddfau, yn ôl yr holl gyfraith yr hon a orchymynnais i'ch tadau: a'r hon a anfonais attoch chwi drwy law fyng-weiſion y prophwydi, Iere.18.11.& 25.5.& 35.15.

14 Etto ni wrandawent: eithr ſythaſant eu gwarrau, fel gwarrau eu tadau, y rhai ni chredaſent yn yr Arglwydd eu Duw. Deut.31.27.

15 Canys hwy a ddirmygaſant ei ddeddfau ef, ai gyfammod yr hwn a wnaethe efe ai tadau hwynt, ai deſtiolaethau ef [drwy] y rhai y teſtiolaethodd efe iddynt: a hwy a rodiaſant ar ôl oferedd nes eu myned yn ofer: [aethant] hefyd ar ôl y cenhedloedd y rhai oeddynt oi hamgylch [am] y rhai y gorchymynnaſe yr Arglwydd iddynt, na wnelent fel hwynt hwy.

16 Eithr hwynt a wrthodaſant holl orchymynnion yr Arglwydd eu Duw, ac a wnaethant iddynt ddelw dawdd, * [nid amgen] dau lô: gwnaethant hefyd lwyn, ac ymgrymmaſant i holl lu y nefoedd, a gwaſanaethaſant Baal. Exod.32.8. 1.Bren.12.28.

17 A hwynt * a yrraſant eu meibion ai merched drwy yr tân, a dewiniaſant ddewiniaeth, a daroganaſant: ymroddaſāt hefyd i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, gan ei ddigio ef. Pen.16.3.

18 Am hynny yr Arglwydd a ddigiodd yn ddirfawr wrth Iſrael, ac ai troſſodd hwynt oi ŵydd efe: [ac] ni adawyd onid llwyth Iuda yn vnic.

19 Ni chadwodd Iuda ychwaith orchymynnion yr Arglwydd eu Duw: eithr hwy a rodiaſant yn neddfau yr Iſraeliaid y rhai a wnelſent hwy.

20 Am hynny yr Arglwydd a ddiyſtyrodd holl hâd Iſrael, ac ai cyſtuddiodd hwynt, rhoddodd hwynt hefyd yn llaw yr anrheithwŷr: nes iddo eu taflu hwynt oi ŵydd.

21 Canys efe a rwygodd Iſrael oddi wrth dŷ Ddafydd, a hwynt a wnaethant Ieroboam fab Nabat yn frenin: ac Ieroboam a yrrodd Iſrael oddi ar ôl yr Arglwydd, ac a wnaeth iddynt bechu pechod mawr.

22 A meibion Iſrael a rodiaſant yn holl bechodau Ieroboam y rhai a wnaeth efe: heb gilio oddi wrth hynny.

23 Nes i'r Arglwydd fwrw ymmaith Iſrael oi ŵydd ef, fel y llefaraſe drwy law * ei holl weiſion y prophwydi: ac Iſrael a gaeth-gludwyd oi wlad ei hun i Aſſyria hyd y dydd hwn. Iere.25.9.

24 A brenin Aſſyria a ddûg [bobl] o Babilon, o Cutha hefyd, ac o Afa, o Hemath hefyd, ac o Sepharfaim, ac ai cyfleuodd hwynt yn ninaſoedd Samaria, yn lle meibion Iſrael: felly hwynt a oreſcynnaſant Samaria, ac a drigaſant yn ei dinaſoedd hi.

25 Ac yn nechreu eu trigas hwynt yno nid ofnaſant hwy yr Arglwydd: am hynny 'r Arglwydd a anfonodd lewod yn eu plith hwynt y rhai ai lladdaſant hwy.

26 Am hynny y mynegwyd i frenin Aſſyria gan ddywedyd, y cenhedloedd y rhai a gaeth-gludaiſt ti, ac a gyfleuaiſt yn ninaſoedd Samaria nid adwaenent ddefod Duw y wlâd: am hynny efe a anfonodd lewod yn eu myſc hwynt ac wele lladdaſant hwynt, am na ŵyddent ddefod Duw y wlâd.

27 Yna brenin Aſſyria a orchymynnodd gan ddywedyd, cyrchwch yno vn o'r offeiriaid y rhai a gaeth-gludaſoch oddi yno, i fyned, ac i drigo yno: ac i ddyſcu iddynt ddefod Duw y wlâd [honno.]

28 Felly vn o'r offeiriaid y rhai a gaeth gludaſent hwy o Samaria a ddaeth ac a drigodd yn Bethel: ac efe a ddyſcodd iddynt hwy pa fodd yr ofnent yr Arglwydd.

29 Etto pob cenhedlaeth oeddynt yn gwneuthur eu duwiau: ac ai goſodaſant yn nhai yr vchelfeudd y rhai yr oeddynt yn preſſwylio ynddynt.

30 Canys gwŷr Babilon a wnaethant Succoth Benoth, a gwŷr Cutha a wnaethant Nergal: gwŷr Hemath hefyd a wnaethant Aſima.

31 A'r Afiaid a wnaethant Nibcaz, a Thartac: a'r Sepharfiaid a loſcoſant eu meibion mewn tan i Adramelech, ac i Hanamelech duwiau y Sepharfiaid.

32 Felly hwy a ofnaſant yr Arglwydd: ac a wnaethant iddynt rai oi gwehilion eu hun yn offeiriaid yr vchelfeudd, y rhai a wnaethant [aberthau] iddynt yn nhŷ 'r vchelfeudd.

33 Yr Arglwydd yr oeddynt hwy yn ei ofni, etto gwaſanaethu 'r oeddynt eu duwiau yn ôl defod y cenhedloedd y rhai a gaeth-gludaſent oddi yno.

34 Hyd y dydd hwn y maent hwy yn gwneuthur yn ôl eu hên arferion: nid ydynt yn ofni 'r Arglwydd, ac nid ydynt yn gwneuthur yn ôl eu deddfau hwynt, nac yn ôl eu harfer, nac yn ôl y gyfraith, nac yn ôl y gorchymyn yr hwn a orchymynnodd yr Arglwydd i feibion Iacob, yr hwn y goſododd efe * ei enw yn Iſrael. Gen.32.28. 1.Bren.18.31. Barn.6.10. Iere.10.1.

35 A'r Arglwydd a wnaethe gyſammod a hwynt, ac a orchymynnaſe iddynt gan ddywedyd, nac ofnwch dduwiau dieithr: ac nac ymgrymmwch iddynt, ac na waſanaethwch hwynt ychwaith, ac nac aberthwch iddynt hwy.

36 Ond yr Arglwydd yr hwn a'ch dûg chwi i fynu o wlad yr Aipht, mewn nerth mawr, ac a braich eſtynnedic, ef a ofnwch chwi: iddo ef hefyd yr ymgrymmwch, ac iddo ef yr aberthwch.

37 Y deddfau hefyd a'r barnedigaethau, a'r gyfraith, a'r gorchymyn y rhai a ſcrifennodd efe i chwi a gedwch chwi, gan [eu] gwneuthur yr holl ddyddiau: ac nac ofnwch dduwiau dieithr.

38 Ac nac anghofiwch y cyfammod yr hwn a ammodais a chwi: ac nac ofnwch dduwiau dieithr.

39 Eithr ofnwch yr Arglwydd eich Duw: ac efe a'ch gwared chwi o law eich holl elynnion.

40 Ond ni wrandawſant hwy, eithr yn ôl eu hên arfer y gwnaethant hwy.

41 Felly y cenhedloedd hyn fuant yn ofni yr Arglwydd, ac yn gwaſanaethu eu delwau cerfiedic: eu meibion, ai hwyrion [a wnaethant felly,] fel y gwnaeth eu tadau hwynt, y maent hwy yn gwneuthur hyd y dydd hwn.

## PEN. XVIII.

Duwioldeb Hezecia yn torri y ſarph brês, a'r delwau eraill, ai lwyddiant. 30 Mawr-hydri a chabledd Senacherib, ai wâs Rabſacch yn erbyn Duw.

2.Cron.28.27. & 29.1. AC yn * y drydedd flwyddyn i Hoſea fab Elach brenin Jſrael, y teyrnaſodd Hezecia mab Ahaz brenin Juda.

2 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan aeth efe yn frenin, a naw mlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Abi merch Zacharia.

3 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnaethe Dafydd ei dâd ef.

4 Efe a dynnodd ymmaith yr uchelfeudd, ac a ddrylliodd eu delwau hwynt, ac a dorrodd eu
Num.21.8. llwynau: ac a faluriodd * y ſarph brês yr hon a wnelſe Moſes, canys hyd y dyddiau hynny yr oedd meibion Jſrael yn arogl-darthu iddi hi, ac efe ai galwodd hi Nehuſtan.

5 Yn Arglwydd Dduw Jſrael yr ymddiriedodd efe: ac ar ei ôl ef ni bu ei fath ef ym mhlith holl frenhinoedd Juda, nac [ym myſc] y rhai a fuaſent oi flaen ef.

6 Canys efe a lŷnodd wrth yr Arglwydd, ni thrôdd efe oddi ar ei ôl ef: eithr efe a gadwodd ei orchymynnion ef y rhai a orchymynnaſe yr Arglwydd wrth Moſes.

7 Felly yr Arglwydd fu gyd ag ef, i ba le bynnac yr aeth, efe a lwyddodd: ac efe a wrthryfelodd yn erbyn brenin Aſſyria, ac nis gwaſanaethodd ef.

8 Efe a darawodd y Philiſtiaid hyd Azza ai therfynau * yn gyſtal pôb twr gwil-wŷr, a phob dinas gaeroc. Pen.17.9.

9 Ac * yn y bedwaredd flwyddyn i'r brenin Hezecia (honno [oedd] y ſeithfed flwyddyn i Hoſea fab Elach brenin Jſrael) y daeth Salmaneſer brenin Aſſyria i fynu yn erbyn Samaria, ac y gwarchaodd efe arni hi. Pen.17.4.

10 Ac ym mhen y tair blynedd yr ennillwyd hi, yn y chweched flwyddyn i Hezecia: (honno [oedd] y nawfed flwyddyn i Hoſea brenin Jſrael) yr ennillwyd Samaria.

11 Yna brenin Aſſyria a gaeth-gludodd Jſrael i Aſſyria: ac ai cyfleuodd hwynt yn Halah, ac yn Habor [wrth] afon Gozan, ac yn ninaſoedd y Mediaid,

12 Am na wrandawſent hwy ar lais yr Arglwydd eu Duw, eithr troſeddu o honynt hwy ei gyfammod ef [ſef] yr hyn oll a orchymynnaſe Moſes gwâs yr Arglwydd: ni wrandawent, ac nis gwnaent [hwynt.]

13 Ac yn y bedwaredd flwyddyn ar ddêc i'r
brenin Hezecia * y daeth Senacherib brenin 2.Cron 32.1.
Aſſyria yn erbyn holl ddinaſoedd caerog Juda, eſa.36.1.
ac ai hennillodd hwynt. eccle.48.19.

14 Yna Hezecia brenin Juda a anfonodd at frenin Aſſyria i Lachis gan ddywedyd, pechais, dychwel oddi wrthif, dygaf yr hyn a roddech arnaf: a brenin Aſſyria a oſododd ar Hezecia brenin Juda dry-chant o dalentau arian, a dêc ar hugain o dalentau aur.

15 A Hezecia a roddodd yr holl arian a'r a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd: ac yn nhryſſorau tŷ yr brenin.

16 Yn yr amſer hwnnw y torrodd Hezecia ddryſau teml yr Arglwydd, a'r coloſnau y rhai a orchguddiaſe Hezecia brenin Juda: ac ai rhoddes hwynt i frenin Aſſyria.

17 A brenin Aſſyria a anfonodd Tharthan a Rabſaris, a Rabſaceh o Lachis yn erbyn y brenin Hezecia a llû dirfawr i Jeruſalem: a hwynt a aethant i fynu, ac a ddaethant i Jeruſalem, pan aethant i fynu, yna hwy a ddaethant, ac a ſafaſant wrth aber y llynn uchaf yr hwn [ſydd] ym mhriffordd * maes y pannwr. Eſa.36.2.

18 Pan alwaſant hwy am y brenin, yna y daeth allan attynt hwy Eliacim mab Helcia, yr hwn [oedd] bêteulu: a Sobnah yr ſcrifennudd, ac Joah mab Aſaph y coſiadur.

19 A Rabſaceh a ddywedodd wrthynt hwy, Eſa.36.4.
dywedwch yn awr wrth Hezecia: fel hyn y dy- 2.Cron.18,
wedodd y brenin mawr [ſef] brenin Aſſyria, pa hyder [yw] hwn [yn] yr hwn yr ymddiriedaiſt ti?

20 Meddwl yr ydwyt ti yn ddiau [y mae Eſa.36.5.
genif] ymadrodd, cyngor, a nerth [ſydd raid] i ryfel: ar bwy yn awr yr hyderaiſt ti: pan wrthryfelaiſt i'm herbyn i?

21 Wele yn awr ti a hyderaiſt ar y ffon gorſen ddrylliedic honno [ſef] a'r yr Aipht, yr hon pwy bynnac a bwyſſo arni, yna hi a aiff i gledr ei law ef, ac a dylla trwyddi hi: felly [y mae]

Pharao brenin yr Aipht i bawb a hydêrant arno ef.

22 Ac os dywedwch chwi wrthif, yn yr Arglwydd ein Duw yr ydym ni yn ymddyried: onid efe [yw] yr hwn y tynnodd Hezecia ymmaith ei uchelfeudd, ai allorau, ac y dywedodd wrth Iuda, ac wrth Ieruſalem, o flaen yr allor hon yr ymgrymmwch chwi yn Ieruſalem?

23 Ac yn awr dod wyſtl attolwg i'm harglwydd brenin Aſſyria: a rhoddaf i ti ddwy fil o feirch, os gelli di roddi iddo ef rai a farchogant arnynt hwy.

A pha fodd y gwrthwynebi di un capten o'r gweiſion lleiaf i'm harglwydd? ac yr ymddyriedi di yn yr Aipht am gerbydau a gwŷr meirch?

25 Ai o anfodd yr Arglwydd y deuthum i i fynu yn erbyn y lle hwn iw ddiniſtrio ef? yr Arglwydd a ddywedodd wrthif, dos i fynu yn erbyn y wlâd hon, a diniſtria hi.

26 Yna y dywedodd Eliacim mab Helcia Sobna hefyd, ac Ioah wrth Rabſaceh, llefara attolwg wrth dy weiſiō yn Syrian-aec, canys yr ydym ni yn [ei] deall hi: ac na lefara wrthym ni yn iaith yr Iddewon lle y clywo yr bobl y rhai [ydynt] ar y mur.

27 Ond Rabſaceh a ddywedodd wrthynt hwy, ai at dy feiſtr di, ac atat tithe yr anfonodd fy meiſtr fi i lefaru y geiriau hyn? ond at y dynion y rhai ydynt yn eiſtedd ar y mur, fel y bwytânt eu tomm eu hun, ac yr yfant eu trwngc eu hun gyd a chwi?

28 Felly Rabſaceh a ſafodd, ac a waeddodd a llef uchel yn iaith yr Iddewon: llefarodd hefyd a dywedodd, gwrandewch air y brenin mawr [ſef] brenin Aſſyria.

29 Fel hyn y dywedodd y brenin, na thwylled Hezecia chwi: canys ni ddichon efe eich gwaredu chwi o'm llaw i.

30 Ac na phared Hezecia i chwi ymddyried yn yr Arglwydd, gan ddywedyd, yr Arglwydd gan waredu a'ch gwared chwi: ac ni roddir y ddinas hon yn llaw brenin Aſſyria.

31 Na wrandewch ar Hezecia: canys fel hyn y dywedodd brenin Aſſyria, gwnewch fwynder a mi, a dewch attafi, yna y cewch fwyta bôb un oi win-wŷdden ei hun, a phob un oi ffigus-bren, ac yfed pawb ddwfr ei ffynnon ei hun,

32 Nes i'm ddyfod a'ch dwyn chwi i wlâd megis eich gwlad eich hun: gwlâd ŷd, a gwîn, gwlâd bara, a gwin-llannoedd, gwlâd olew olewydd, a mêl, fel y byddoch fyw, ac na byddoch feirw: ac na wrandewch ar Hezecia pan hudo efe chwi gan ddywedyd, yr Arglwydd a'ch gwared chwi.

33 Gan waredu a lwyr waredodd duwiau y cenhedloedd, bôb un ei wlâd ei hun o law brenin Aſſyria?

34 Mae duwiau Hemath, Arphad? mae duwiau Sepharfaim, Hena, ac Iſa? a achubaſant hwy Samaria o'm llaw i?

35 Pwy [ſydd] ym mhlith holl dduwiau y gwledydd a'r a waredaſant eu gwlâd o'm llaw i? fel y gwarede yr Arglwydd Ieruſalem o'm llaw i?

36 Yna y bobl a dawſant, ac nid attebaſant air iddo ef: canys gorchymyn y brenin [oedd] hyn gan ddywedyd, nac attebwch ef.

37 Yna y daeth Eliacim mab Helcia yr hwn [oedd] benteulu, a Sobna yr ſcrifennydd, ac Ioah mab Aſaph y coffiadur at Hezecia a gwiſcoedd rhwygedic: ac a fynegaſant iddo ef eiriau Rabſaceh.

## PEN. XIX.

Duw yn addo, ac yn rhoddi i Hezecia y fuddugoliaeth yn erbyn Senacherib. 37 Ai feibion ei hun yn lladd Senacherib.

A Phan glybu y brenin Hezecia [hynny,] yna efe a rwygodd ei ddillad: ac a wiſcodd ſach-liain, ac a aeth i mewn i dŷ yr Arglwydd.

2 Ac a anfonodd Eliacim yr hwn [oedd] benteulu, a Sobna yr ſcrifennydd, ac henuriaid yr offeiriaid wedi ymwyſco mewn ſach-liain at Eſay fab Amos y prophwyd. Eſa.37.x.

3 Ac hwy a ddywedaſant wrtho ef, fel hyn y dywedodd Hezecia, diwrnod cyfyngdra, a cherydd, a chabledd [yw] yr dydd hwn: canys y meibion a ddaethant hyd yr anedigaethfa, ond nid [oes] grym i eſcor.

4 Ond odid fe a wrendu yr Arglwydd dy Dduw ar holl eiriau Rabſaceh (yr hwn a anfonodd brenin Aſſyria ei feiſtr ef i gablu y Duw byw) ac i geryddu a geiriau y rhai a glybu yr Arglwydd dy Dduw: am hynny dercha dy weddi dros y gweddill yr hwn ſydd iw gael.

5 Felly gweiſion y brenin Hezecia a ddaethant at Eſay.

6 Ac Eſay a ddywedodd wrthynt hwy, fel hyn y dywedwch wrth eich meiſtr: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, nac ofna rhac y geiriau y rhai a glywaiſt [drwy] y rhai y cablodd gweiſion brenin Aſſyria fi.

7 Wele fi yn rhoddi yn ei erbyn ef wynt, fel y clywo efe drwſt, ac y dychwelo iw wlâd: gwnaf hefyd iddo ſyrthio ar gleddyf yn ei wlâd ei hun.

8 Yna y dychwelodd Rabſaceh, ac y cafodd frenin Aſſyria yn ymladd yn erbyn Libna: canys efe a glywſe fyned o honaw ef o Lachis.

9 A phan glybu efe am Thirhaca brenin Ethiopia gan ddywedyd, wele efe a aeth allan i ryfela a thi: yna efe a ddychwelodd, ac a anfonodd gennadau at Hezecia gan ddywedyd:

10 Fel hyn y lleferwch wrth Hezecia brenin Iuda gan ddywedyd, na thwylled dy Dduw di yr hwn yr wyt yn ymddyried ynddo gan ddywedyd: ni roddir Ieruſalem yn llaw brenin Aſſyria.

11 Wele ti a glywaiſt yr hyn a wnaeth brenhinoedd Aſſyria i'r holl wledydd gan eu difrodi hwynt: ac a waredir di?

12 A waredodd Duwiau y cenhedloedd hwynt, y rhai a ddarfu i'm tadau i eu diniſtrio, ſef Goſan, a Haran, a Reſeph, a meibion Eden y

rhai [oeddynt] o fewn Thelaſſar?

13 Mae brenin Hemath? a brenin Arphad? a brenin dinas Sepharfaim, Hena ac Ifa?

14 A Hezecia a gymmerodd y llythyrau o law y cennadau, ac ai darllenodd hwy, yna efe a aeth i fynu i dŷ yr Arglwydd, a Hezecia ai lledodd hwynt ger bron yr Arglwydd.

15 Yna Hezecia a weddiodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, ô Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn wyt yn aros [rhwng] y Cerubiaid, ti yn vnic ydwyt Dduw ar holl deyrnaſoedd y ddaiar: ti a wnaethoſt y nefoedd, a'r ddaiar.

16 Gogwydda Arglwydd dy gluſt, a gwrando, agor dy lygaid Arglwydd ac edrych: gwrādo hefyd eiriau Senacherib, yr hwn a anfonodd i ddifenwi y Duw byw.

17 Gwir [yw] ô Arglwydd, i frenhinoedd Aſſyria ddifa'r holl genhedloedd ai tîr hwynt,

18 A rhoddi eu duwiau hwynt yn tân: canys nid [oeddynt] hwy dduwiau, eithr gwaith dwylo dŷn [o] goed, a maen, am hynny y diniſtriaſant hwy hwynt.

19 Yn awr gan hynny ô Arglwydd ein Duw ni, achub ni attolwg oi law ef: fel y gwypo holl deyrnaſoedd y ddaiar mai tydi yn vnic [yw]'r Arglwydd Dduw.

20 Yna Eſay mab Amos a anfonodd at Hezecia gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael: gwrandewais ar yr hyn a ddeiſyfaiſt arnaf yn erbyn Senacherib brenin Aſſyria.

21 Dymma 'r gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd yn ei erbyn ef: y forwyn merch Sion a'th ddirmygodd di, [ac] a'th watwarodd, merch Ieruſalem a eſcydwodd ben ar dy ôl di.

22 Pwy a ddifenwaiſt ti, ac a geblaiſt? ac yn erbyn pwy y derchefaiſt di [dy] lef, ac y codaiſt yn vchel dy lygaid? onid yn erbyn Sanct Iſrael?

23 Trwy law dy gennadau y ceblaiſt ti yr Arglwydd, ac y dywedaiſt: yn amldra fyng-herbydau y dringais i vchelder y mynyddoedd [gan] yſtlyſau Libanus: a mi a dorraf vchelder ei cedr-wŷdd ef ai ddewiſ ffynnidwŷdd ef, âf hefyd iw lletty eithaf, [ac i] goed eu dol-dir hwynt.

24 Myfi a gloddiais, ac a yfais ddyfroedd dieithr: a gwadnau fy nhraed hefyd y diſpyddais yr holl afonydd gwarchaedic.

25 Oni chlywaiſt ti ddarparu o honof hyn er yſtalm, ac i mi lunio hynny er y dyddiau gynt? yn awr y dygum hynny i benn fel y bydde i ddinyſtrio dinaſoedd caeroc yn garneddau diniſtriol.

26 Am hynny eu trigolion yn gwttoglaw a ddychrynnwyd, ac a gywilyddiwyd: oeddynt [megis] gwellt y maes, fel eginin llyſſieun [neu] laſwelltyn ar bennau [tai,] neu oloſciad ŷd cyn corſt.

27 Dy eiſteddiad hefyd, a'th fynediad, a'th ddyfodiad a adnabum i: a'th gynddeiriawgrwydd i'm herbyn.

28 Am it ymgynddeiriogi i'm herbyn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fynu i'm cluſtiau i: am hynny y goſodaf fy mâch yn dy ffroen, a'm ffrwyn yn dy weflau, ac a'th ddychwelaf di ar hŷd yr vn ffordd ac y daethoſt.

29 A hyn [fydd] yn argoel i ti [ô Hezecia] y flwyddyn hon y bwyttei a dyfo o honaw ei hun, ac yn yr ail flwyddyn yr attwf: ac yn y drydedd flwyddyn hauwch, a medwch, plennwch winllānoedd hefyd, a bwyttewch eu ffrwyth hwynt.

30 A'r gweddill o dŷ Iuda ['r hwn] a adewir a wreiddia eilwaith i wared, ac a ddwg ffrwyth i fynu.

31 Canys gweddill a aiff allan o Ieruſalem, a rhai diangol o fynydd Sion: zêl Arglwydd y lluoedd a wnaiff hyn.

32 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am frenin Aſſyria, ni ddaw efe i'r ddinas hon, ac ni ergydia ſaeth yno: hefyd ni ddau efe oi blaen hi a tharian, ac ni fwrw glawdd iw herbyn hi.

33 Ar hyd yr vn ffordd, ac y daeth y dychwel efe, ac ni ddaw i mewn i'r ddinas hon medd yr Arglwydd.

34 A mi a ddeffynnaf y ddinas hon, gan ei chadw hi er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fyng-wâs.

35 A'r noſſon honno 'r aeth * angel yr Arglwydd, ac a darawodd yng-werſſyll yr Aſſyriaid bump, a phedwar vgain, a chant o filoedd: a'r [lleill] a gyfodaſant yn foreu, ac wele hwynt oll yn gelaneddau meirwon.

Eſa.37.36.
2.Cron.23.21.
Tob.1.21.
Eccleſ.48.24.
1.Mac.7.41.
2.Mac.8.19.

36 Felly Senacherib brenin Aſſyria a gychwynnod, ac a aeth ymmaith hefyd, ac a ddychwelodd: ac a arhoſodd yn Ninife.

37 Pan ydoedd efe yn addoli yn nhŷ Neſroth ei dduw ef, yna Adramalech a Sarazer ei feibion ef ai lladdaſant ef a chleddyf, a hwynt a ddiangaſant i wlâd Armenia: ac Aſarhadon ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

2.Cron.32.21.
Eſay.37.38.

## PEN. XX.

Duw wedi rhybuddio Hezecia i farw yn eſtyn ei enioes ef. 13 ac yn ei geryddu ef am ddangos ai dryſſor i'r Babiloniaid. 22 Manaſſes yn teyrnaſu yn lle Hezecia.

YN y dyddiau hynny * y clafychodd Hezecia i farw: ac Eſay mab Amos y prophwyd a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, trefna dy dŷ canys marw fyddi, ac ni byddi byw.

2.Cron 32.24.
Eſay.38.1.

2 Yna efe a drôdd ei wyneb at y pared: ac a weddiodd at yr Arglwydd gan ddywedyd.

3 Attolwg Arglwydd coſia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd, ac mewn calon berffaith, a gwneuthur yr hyn oedd dda yn dy olwg di: a Hezecia a ŵylodd ag wylofain mawr.

4 A chyn myned o Eſay allan i'r cyntedd canol: yna y daeth gair yr Arglwydd atto ef, gan ddywedyd:

5 Dychwel, a dywet wrth Hezecia blaenor fy mhobli, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Dafydd dy dad ti, clywais dy weddi di, gwelais dy ddagrau: wele fi yn dy iachau di, y trydydd dydd yr ei di i fynu i dŷ'r Arglwydd.

6 A mi a chwanegaf at dy ddyddiau di bymtheng-mhlynedd, ac a'th waredaf di, a'r ddinas hon, o law brenin Aſſyria: deffynnaf y ddinas hon er fy mwyn fy hun, ac er mwyn Dafydd fyng-wâs.

7 Yna y dywedodd Eſay, cymmerwch ſwpp o ffigus: a hwynt a gymmeraſant, ac ai goſodaſant ar y cornwyd, ac efe a fû fyw.

8 Ac Hezecia a ddywedodd wrth Eſay, pa arwydd [fydd] yr iachâ'r Arglwydd fi: ac yr afi i fynu i dŷ'r Arglwydd y trydydd dydd?

9 Ac Eſay a ddywedodd, hyn [fydd] i ti yn argoel oddi wrth yr Arglwydd, y gwna'r Arglwydd y gair yr hwn a lefarodd efe: [a aiff y cyſcod ddêc o raddau ym mlaen, neu [a] ddychwel efe ddêc o raddau yn ôl?

10 Ac Hezecia a ddywedodd, hawdd yw i'r cyſcod ogwyddo ddêc o raddau: nid [felly gan hynny,] onid dychweled y cyſcod yn ei ôl ddêc o raddau.

11 Ac Eſay y prophwyd a lefodd ar yr Arglwydd: ac efe a drôdd y cyſcod ar hŷd y graddau, (ar hŷd y rhai y deſcynnaſe efe yn neial Ahaz) ddêc o raddau yn ei ôl.

12 Yn yr amſer hwnnw'r anfonodd *Berodac Baladan, mab Baladan brenin Babilon lythyrau, ac anrheg at Hezecia: canys efe a glywſe fod Hezecia yn glâf. Eſa.39.1.

13 Ac Hezecia a wrandawodd arnynt hwy, ac a ddangoſodd iddynt hwy holl dŷ ei dryſſor ef [ſef] yr arian, a'r aur, a'r pêr aroglau, a'r olew goref, a thŷ ei arfau ef, a'r hyn oll a'r a gafwyd yn ei dreſſorau ef: nid oedd dim yn ei dŷ ef, nac yn ei holl gyfoeth ef yr hwn nas dangoſodd Hezecia iddynt hwy.

14 Yna Eſay y prophwyd a ddaeth at y brenin Hezecia, ac a ddywedodd wrtho ef, beth a ddywedodd y gwŷr hynny, ac o ba le y daethant hwy attat ti? a dywedodd Hezecia o wlâd bell y daethant hwy [ſef] o Babilon.

15 Yntef a ddywedodd beth, a welſant hwy yn dy dŷ di? a dywedodd Hezecia, yr hyn oll [oedd] yn fy nhŷ i a welſant hwy, nid oes dim yn fy nhreſſorau i a'r nas dangoſais i iddynt hwy.

16 Ac Eſay a ddywedodd wrth Hezecia: gwrando air yr Arglwydd.

17 Wele y dyddiau yn dyfod pan *ddygir i Babilon yr hyn oll [ſydd] yn dy dŷ di, a'r hyn a gynhilodd dy dadau hyd y dydd hwn: ni adewir dim medd yr Arglwydd. 2.Bren.24.13. &25.13. Ier.27.19.

18 Cymmerant hefyd o'th feibion di y rhai a ddeuant allan o honot ti [ſef] y rhai a genhedli di, i fod yn ſtafellyddion yn llŷs brenin Babylon.

19 Yna Hezecia a ddywedodd wrth Eſay, da yw gair yr Arglwydd yr hwn a leferaiſt: dywedodd hefyd, oni bydd heddwch a gwirionedd yn fy nydd i?

20 A'r rhan arall o hanes Hezecia, ai holl rym ef, ac fel y gwnaeth efe y llynn, a'r piſtill, ac y dûg efe y dyfroedd i'r ddinas: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

21 Ac Hezecia a hunodd gyd ai dadau: a Manaſſes ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

## PEN. XXI.

Wedi i Manaſſes fyw yn ddrygionus, 18 y teyrnaſodd Ammon anuwiol yn ei le ef 23 yr hwn a laddwyd gan ei weiſion, ac Ioſia dduwiol a deyrnaſoed yn ei le yntef.

MAB deuddeng-mlwydd [oedd] Manaſſes pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a phymtheng-mhlynedd a deugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Haphſiba. 2Cron.33.1.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl ffieidd-dra y cenhedloedd y rhai a * fwriodd yr Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael. Deut.18.9.

3 Canys efe a drôdd, ac a adailadodd yr uchelfeudd * y rhai a ddiniſtriaſe Hezecia ei dâd ef: ac a gyfododd allorau i Baal, ac a wnaeth lwyn fel y gwnelſe Ahab brenin Iſrael, ac efe a addolodd holl lû y nefoedd, ac ai gwaſanaethodd hwynt. Pen.18.4.

4 Adailadodd hefyd allorau yn nhŷ'r Arglwydd: [am] yr hwn y dywedaſe'r Arglwydd, yn Ieruſalem y goſodaf fy enw.

5 Ac efe a adailadodd allorau i holl lu y nefoedd yn nau gyntedd tŷ'r Arglwydd.

6 Ac * efe a yrrodd ei fâb drwy dân, dewinodd efe hefyd, a brudiodd, ac efe a fawrhaodd ſwynyddion, a dewiniaid: efe a chwanegodd wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd iw ddigio ef. Pen.16.3. 2.Cron.33.6.

7 Ac efe a oſododd ddelw gerfiedic y llwyn (yr hon a wnelſe efe) yn y tŷ [am] yr hwn y dywedaſe'r Arglwydd wrth Ddafydd, ac wrth Salomon ei fab ef,* yn y tŷ hwn, ac yn Ieruſalem yr hon a ddewiſais i o holl lwythau Iſrael y goſodafi fy enw yn dragywydd. 1.Bren.8.29. & 9.3. 2.Bren.7.10.

8 Ac ni chwanegafi ſymmud troed Iſrael o'r wlâd yr hon a roddais iw tadau hwynt: os cadwant ar wneuthur yr hyn oll a'r orchymynnais iddynt hwy, ac yn ôl yr holl gyfraith yr hon a orchymynnodd fyng-was Moſes iddynt hwy.

9 Ond ni wrandawſant hwy: a Manaſſes ai cyfeiliornodd hwynt i wneuthur yn waeth na'r cenhedloedd y rhai a ddifethaſe yr Arglwydd o flaen meibion Iſrael.

10 Am hynny y llefarodd yr Arglwydd drwy law ei weiſion y prophwydi gan ddywedyd,

11 O * herwydd i Manaſſes brenin Iuda wneuthur y ffieidd-dra hyn, gan wneuthur yn waeth na'r hyn oll a'r a wnaethe yr Amoriaid y rhai Iere.15.4.

rhai [fuant] oi flaen ef: a pheri o honaw i Iuda bechu drwy eu heulynnod.

12 Ie o blegit hynny, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, wele fi yn dwyn drwg ar Ieruſalem, ac Iuda: fel y merwino dwy-gluſt y neb a glywant hynny.

13 A mi a eſtynnaf linin meſur Samaria ar Ieruſalem, a phwys tŷ Ahab: ſcwriaf hefyd Ieruſalem, fel y ſcwria [vn] gwppan [yr hwn pan] ſcwria efe [ef] yna efe ai trŷ ar ei wyneb.

14 A mi a wrthodaf weddill fy etifeddiaeth, ac ai rhoddaf hwynt yn llaw ei gelynnion: ac hwynt a fyddant yn anrhaith, ac yn yſpail iw holl elynnion,

15 Am iddynt wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn fyng-olwg i, ai bod yn fy nigio i er y dydd [yn] yr hwn y daeth eu tadau hwynt allan o'r Aipht hyd y dydd hwn.

16 Manaſſes hefyd a dywalldodd lawer iawn o waed gwirion hyd oni lanwodd efe Ieruſalem o benn bwy gilydd: heb law ei bechod [drwy] yr hwn y gwnaeth efe i Iuda bechu, gan wnenthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

17 A'r rhan arall o hanes Manaſſes, a'r hyn a wnaeth efe, ai bechod yr hwn a bechodd efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda.

18 A Manaſſes a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yng-ardd ei dŷ ei hun [ſef] yng-ardd Uzzia: ac Amon ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

19 Mab * dwy flwydd ar hugain [oedd] Ammon pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a dwy flynedd y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Meſulemeth merch Haruz o Iotbah.

2.Cron.33.20.

20 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: fel y gwnêlſe Manaſſes ei dad ef.

21 Canys efe a rodiodd yn yr holl ffordd y rhodiaſe ei dad ef: ac a waſanaethodd eulynnod, y rhai a waſanaethaſe ei dad ef, ac a ymgrymmodd iddynt hwy.

22 Ac efe a wrthododd Arglwydd Dduw ei dadau: ac ni rodiodd yn ffordd yr Arglwydd.

23 A gweiſion Ammon a frad-fwriadaſant yn ei erbyn ef, ac a laddaſant y brenin yn ei dŷ ei hun.

24 A tharawodd pobl y wlâd yr holl rai a frad-fwriadaſent yn erbyn brenin Ammon: a phobl y wlâd a oſodaſant Ioſia ei fab ef yn frenin yn ei le ef.

25 A'r rhan arall o hanes Ammon a'r hyn a wnaeth efe: onid ydynt hwy 'n ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda?

26 A chladdwyd ef yn ei feddrod yng-ardd Uzza: ac Ioſia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXII.

Ioſia yn cyweirio y deml. 8 Helcia yn cael llyfr y gyfraith, ac yn ei ddangos ef i Ioſia, 14 Yntef yn gyrru i ymgynghori a Huldah y brophwydes.

Mab wyth mlwydd [oedd] Ioſia pan aeth efe yn frenin, ac vn mlynedd ar ddêc ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Iedida merch Adaiah o Boſcath.

2.Cron.34.1.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd: ac a rodiodd yn holl lwybrau Dafydd ei dad, ac ni thrôdd efe ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy.

3 Ac yn y ddeunawfed flwyddyn i frenin Ioſia, y brenin a anfonodd Saphan fab Aſalia, fab Meſulam yr ſcrifennudd i dy 'r Arglwydd gan ddywedyd,

4 Dos i fynu at Helcia yr arch-offeiriad, fel y cwplao efe [drefnu] 'r arian y rhai a ddueypwyd i dŷ 'r Arglwydd: y rhai a gaſclodd gwilwŷr y cyntedd gan y bobloedd.

5 A rhoddant hwy yn llaw gweithwŷr y gwaith a'r ſwyddogion yn nhŷ 'r Arglwydd: a rhoddant hwy i'r rhai ydynt yn gwneuthur y gwaith yr hwn [ſydd] yn nhŷ 'r Arglwydd i gyweirio agennau y tŷ.

6 I'r ſeiri, ac i'r adeiladwŷr, ac i'r priddwŷr: ac i brynu coed, a cherric nadd i adnewyddu yr tŷ.

7 Etto na chyfrifer a hwynt am yr arian, y rhai a roddwyd yn eu llaw hwynt: canys y maent hwy 'n gwneuthur yn ffyddlon.

8 A * Helcia 'r arch-offeiriad a ddywedodd wrth Saphan yr ſcrifennudd, cefais lyfr y gyfraith yn nhŷ 'r Arglwydd: a Helcia a roddodd y llyfr at Saphan, ac efe ai darllenodd ef.

2.Cron. 34.14

9 Felly Saphan yr ſcrifennudd a ddaeth at y brenin, ac a adroddodd y peth i'r brenin, ac a ddywedodd: dy weiſion di a doddaſant yr arian yr hwn a gafwyd yn tŷ, ac ai rhoddaſant yn llaw gweith-wŷr y gwaith [a] ſwyddogion tŷ 'r Arglwydd.

10 Saphan yr ſcrifennudd hefyd a fynegodd i'r brenin gan ddywedyd, Helcia 'r offeiriad a roddodd i mi lyfr: a Saphan ai darllenodd ef ger bron y brenin.

11 A phan glybu y brenin eiriau llyfr y gyfraith: yna efe a rwygodd ei wiſcoedd.

12 Am hynny y brenin a orchymynnodd i Helcia 'r offeiriad, ac i Ahicam fab Saphan, ac i Achbor fab Michaiah, i Saphan hefyd yr ſcrifennudd, ac i Aſaiah gwâs y brenin gan ddywedyd:

2.Cron.34.20.

13 Ewch, ymgynghorwch a'r Arglwydd droſof, a thros y bobl, a thros holl Iuda am eiriau y llyfr hwn yr hwn a gawd: canys mawr yw llid yr Arglwydd yr hwn a ennynnodd i'n herbyn ni, o herwydd na wrandawodd ein tadau ni ar eiriau y llyfr hwn i wneuthur yn ôl yr hyn oll a'r a ſcrifennwyd o'n plegit ni.

14 Felly Helcia yr offeiriad, ac Ahicam, ac Achbor, Saphan hefyd, ac Aſaia a aethant at Huldah y brophwydes, gwraig Salum mab *Ticfa, ſab Harhas ceidwad y gwiſcoed, (a hi

2.Cron.34.22.

oedd yn trigo yn Ieruſalem yn yr ail rhan, a hwynt a ymddiddanaſant a hi.

15 A hi a ddywedodd wrthynt hwy, fel hyn y dywedodd Arglwydd Duw Iſrael: dywedwch i'r gŵr yr hwn a'ch anfonodd chwi attafi,

16 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn dwyn drwg ar y llê hwn, ac ar ei drigolion: [ſef] holl eiriau y llyfr yr hwn a ddarllenodd brenin Iuda.

17 Am iddynt fyng-wrthod i, ac arogl-darthu i dduwiau dieithr, i'm digio i a holl waith eu dwylo: am hynny 'r ennyn fy llid yn erbyn y lle hwn, ac nis diffoddir ef.

18 Ond am frenin Iuda yr hwn a'ch anfonodd chwi i ymgynghori a'r Arglwydd, fel hyn y dywedwch wrtho ef: fel hyn y dywed Arglwydd Duw Iſrael [am] fyng-eiriau y rhai a glywaiſt ti.

19 O blegit i'th galon feddalhau, ac i titheu ymoſtwng o flaen yr Arglwydd pan glywaiſt yr hyn a leferais am y lle hwn, ac am ei drigolion, i fod yn anghyfannedd, ac yn felldith, ac [am] rwygo o honot dy wiſcoedd, ac ŵylo ger fy mron i: am hynny y gwrandewais inne medd yr Arglwydd.

20 O herwydd hynny wele mi a'th gynnullaf di ynmaith at dy dadau, a thi a ddugir ymmaith i'th fedd mewn heddwch, fel na wêlo dy lygaid yr holl ddrwg yr hwn yr ydwyfi yn ei ddwyn ar y fann hon: felly hwynt a ddugaſant air i'r brenin drachefn.

## PEN. XXIII.

Ioas yn darllen y gyfraith i'r bobl. 3 Yn gwneuthur cyfammod a Duw. 4 Yn difetha yr eulyn-dduwiau ai hoffeiriaid. 22 Yn cadw Paſc godidog, ac yn difetha y conſurwyr. 29 Wedi lladd Ioſia y teyrnaſodd Ioachas ei fab ef. 33 Yr hwn a garcharodd Pharao Necho ac a wnaeth Ioachim ei frawd ef yn frenin.

2.Cron.34.29. YNa y brenin a anfonodd: a holl henuriaid Iuda, ac Ieruſalem a ymgynnullaſant atto ef.

2 A'r brenin a aeth i fynu i dŷ 'r Arglwydd, a holl wŷr Iuda, a holl drigolion Ieruſalem gyd ag ef, yr offeiriaid hefyd a'r prophwydi, a'r holl bobl o fychan hyd fawr: ac efe a ddarllenodd lle y clywſant hwy holl eiriau llyfr y cyfammod, yr hwn a gawſid yn nhŷ 'r Arglwydd.

Pen.11.14. 3 A'r brenin a ſafodd wrth * y golofn, ac a wnaeth gyfammod ger bron yr Arglwydd ar fyned ar ôl yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymynnion ef, ei deſtiolaethau, ai ddeddfau, ai holl galon, ac ai holl enaid, gan gwplau geiriau y cyfammod hwn, y rhai oeddynt ſcrifennedic yn y llyfr hwnnw: a'r holl bobl a ſafodd wrth y cyfammod.

4 Yna y brenin a orchymynnodd i Helcia yr arch-offeiriad, ac i'r offeiriaid o'r ail [radd,] ac i geidwaid y cyntedd ddwyn o deml yr Arglwydd yr holl leſtri y rhai a wnelſid i Baal, ac i'r llwyn, ac i holl lu y nefoedd: ac ai lloſcodd hwynt o'r tu allan i Ieruſalem ym meuſydd Cedron, ac a ddug eu llŵch hwynt i Bethel.

5 Ac efe a ddiſwyddodd offeiriaid [Baal] y rhai a oſodaſe brenhinoedd Iuda i arogldarthu yn yr vchelfeudd, [ac] yn ninaſoedd Iuda, ac yn amgylchion Ieruſalem: a'r rhai oeddynt yn arogl-darthu i Baal, i'r haul, ac i'r lleuad, ac i'r planedau, ac i holl lû y nefoedd.

6 Efe a ddûg allan hefyd y llwyn o dŷ 'r Arglwydd i'r tu allan i Ieruſalem hyd afon Cedron, ac ai lloſcodd ef wrth afon Cedron, ac ai malodd yn llwch: ac a daflodd ei lwch ar feddau meibion y bobl.

7 Ac efe a ddeſtrywiodd dai y Sodomiaid y rhai [oeddynt] wrth dŷ 'r Arglwydd: lle yr oedd y gwragedd yn gweu cortynau i'r llwyn.

8 Ac efe a ddûg yr holl offeiriaid o ddinaſoedd Iuda, ac a halogodd yr vchelfeudd y rhai yr oedd yr offeiriaid yn arogldarthu arnynt o Geba hyd Beer-ſeba: deſtrywiodd hefyd vchelfeudd y pyrth y rhai [oeddynt wrth] ddrws porth Ioſuah tywyſog y ddinas, yr hwn [oedd] ar y llaw aſſwy i bawb [a'r a ddele] i borth y ddinas.

9 Etto offeiriaid yr vchelfeudd ni ddaethant i fynu at allor yr Arglwydd i Ieruſalem: ond hwy a fwytawſant fara croiw ym myſc eu brodyr.

10 Efe hefyd a ddiſwynodd Topheth yr hon [oedd] yn nyffryn meibion Hinnom: fel na yrre neb ei fab, nai ferch drwy dân i Moloch.

11 Ac efe a ddifethodd y meirch y rhai a roddaſe brenhinoedd Iuda i'r haul, o ddyfodfa tŷ yr Arglwydd i ſtafell Nathan-melech yr ſtafellydd, yr hwn [oedd ſwyddog] ar y pentrefydd: ac efe a loſcodd gerbydau 'r haul yn tân.

12 Yr allorau hefyd y rhai [oeddynt] ar nenn ſtafell Ahas, y rhai a wnelſe brenhinoedd Iuda, a'r allorau y rhai a wnelſe Manaſſes yn nau gyntedd tŷ 'r Arglwydd a ddeſtrywiodd y brenin: ac a redodd oddi yno, ac a daflodd eu llŵch hwynt i afon Cedron.

1.Bren.11 7. 13 Y brenin hefyd a ddiſwynodd yr vchelfeudd y rhai [oeddynt] ar gyfer Ieruſalem, y rhai [oeddynt] o'r tu dehau i fynydd y llygredigaeth, y * rhai a adailadaſe Salomon brenin Iſrael i Aſteroth gauddduw y Sidoniaid, ac i Chamos gauddduw y Moabiaid, ac i Milchom gauddduw meibion Ammon.

14 Ac efe a ddrylliodd y delwau, ac a dorrodd y llwynau: ac a lanwodd eu lle hwynt ag eſcyrn dynion.

1.Bren.12.28. 15 Yr allor hefyd * yr hon [oedd] yn Bethel [a'r] vchelfa 'r hon a wnaethe Ieroboam mab Nabat [drwy] 'r hon y gwnaethe efe i Iſrael bechu, ie 'r allor honno a'r vchelfa a ddeſtrywiodd efe: ac efe a loſcodd yr vchelfa, [ac ai] malodd yn llŵch, ac a loſcodd y llwyn.

16 Ac Ioſia a edrychodd, ac a ganfu feddau y rhai [oeddynt] yno yn y mynydd, anfonodd hefyd, a chymmerth yr eſcyrn o'r beddau, ac ai loſcodd ar yr allor, ac ai halogodd hi: yn

ôl gair yr Arglwydd yr hwn a gyhoeddaſe gŵr Duw, yr hwn a bregethaſe y geiriau hynny.

17. Yna efe a ddywedodd, pa lun [yw] hwn yr hwn yr ydwyfi yn ei weled ⁚ a gwŷr y ddinas a ddywedaſant wrtho ef, bedd gŵr Duw 'r hwn a ddaeth o Iuda, ac a brophwydodd y pethau hyn y rhai a wnaethoſt ti i allor Bethel.

1.Bren.13.31.

18 Ac efe a ddywedodd, gedwch ef yn llonydd, nac ymyrred neb ai eſcyrn ef: felly 'r achubaſant ei eſcyrn ef gyd ag eſcyrn * y prophwyd yr hwn a ddaethe o Samaria.

19 Ioſia hefyd a dynnodd ymmaith holl dai 'r vchelfeudd y rhai [oeddynt] yn ninaſoedd Samaria, y rhai a wnelſe brenhinoedd Iſrael i ddigio ['r Arglwydd:] ac efe a wnaeth iddynt yn ôl yr holl weithredoedd y rhai a wnelſe efe yn Bethel.

20 Ac efe a laddodd holl offeiriaid yr vchelfeudd y rhai [oeddynt] yno, ar yr allorau, ac a loſcodd eſcyrn dynion arnynt hwy: ac a ddychwelodd i Ieruſalem.

2.Cron.35.1.
3.Eſdra.1.1.
Exod.18.3.
Deut.16.2.

21 Yna 'r brenin * a orchymynnodd i'r holl bobl gan ddywedyd, gwnewch Baſc i'r Arglwydd eich Duw, * fel y mae yn ſcrifennedic yn llyfr y cyfammod hwn.

22 Canys ni wnaed y fath Baſc a hwn, er dyddiau y barn-wŷr y rhai a farnaſant Iſrael: nac [yn] holl ddyddiau brenhinoedd Iſrael, na brenhinoedd Iuda.

23 Ac yn y ddeu-nawfed flwyddyn i frenin Ioſia y cynhaliwyd y Paſc hwn i'r Arglwydd yn Ieruſalem.

Lefit.20.27.
Deut.18.11.

24 Y ſwynyddion hefyd, a'r dewiniaid, a'r delwau, a'r eulynnod, a'r holl ffieidd-dra y rhai a welwyd yng-wlâd Iuda, ac yn Ieruſalem, a dynnodd Ioſia ymmaith: fel y cyflawne efe * eiriau y gyfraith, y rhai oeddynt yn ſcrifennedic yn y llyfr yr hwn a gaſodd Helcia 'r offeiriad yn nhŷ 'r Arglwydd.

25 Ac ni bu oi flaen ef frenin oi fath ef, yr hwn a drôdd at yr Arglwydd ai holl galon, ac ai holl enaid, ac ai holl egni, yn ôl cwbl o gyfraith Moſes: ac ar ei ôl ef ni chyfododd ei fâth ef.

26 Er hynny ni thrôdd yr Arglwydd oddi wrth lid ei ddigofaint mawr ef [drwy] 'r hwn y llidiodd ei ddigllonedd ef yn erbyn Iuda: o herwydd yr holl ddigter [drwy] yr hwn y digiaſe Manaſſes ef.

27 Am hynny y dywedodd yr Arglwydd, Iuda hefyd a fwrriaf ymmaith o'm gŵydd, fel y bwrriais ymmaith y ddinas hon Ieruſalem, yr hon a ddetholais, a'r tŷ [am] yr hwn y dywedais, * fy enw a fydd yno.

1.Bren.8.29.
& 9.3.
2.Bren.21.7.

28 A'r rhan arall o hanes Ioſia, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda ⁚

2.Cron.35.20.

29 Yn ei ddyddiau ef y daeth Pharao Necho brenin yr Aipht i fynu yn erbyn brenin Aſſyria hyd afon Euphrates: a'r brenin Ioſia a aeth iw gyfarfod ef, a [Pharao] ai lladdodd ef ym Megido, pan ei gwelodd ef.

2.Cron.36.1.

30 Ai weiſion ai cludaſant ef mewn cerbyd yn farw o Megido, ac ai dugaſāt ef i Ieruſalem, ac ai claddaſant ef yn ei feddrod ei hun: a * phobl y wlâd a gymmeraſant Ioachaz ei fab ef, ac ai heneiniaſant ef, ac ai hurddaſant ef yn frenin yn lle ei dad.

31 Mab tair blwydd ar hugain [oedd] Ioachaz pan aeth efe yn frenin, a thri mîs y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Hamutal merch Ieremia o Libna.

32 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnaethe ei dadau ef.

33 A Pharao Necho ai rhwymodd ef yn Riblah yng-wlad Hemath, pan oedd efe yn teyrnaſu yn Ieruſalem: ac a oſododd dreth ar y wlâd [ſef] cant talent o arian, a thalent o aur.

34 A Pharao Necho a oſododd Eliacim fab Ioſia yn frenin yn lle Ioſia ei dâd, ac a drôdd ei henw ef Ioachim: ac efe a ddûg ymmaith Ioachaz, ac a ddaeth i'r Aipht, ac yno y bu efe farw.

35 Ac Ioachim a roddodd i Pharao yr arian, a'r aur, ond efe a drethodd y wlâd i roddi arian wrth orchymyn Pharao: efe a drethodd [ar] bob vn o bobl y wlâd yn ôl ei allu, arian, ac aur iw rhoddi i Pharao Necho.

36 Mab pum mlwydd ar hugain [oedd] Ioachim pā ddechreuodd efe deyrnaſu, ac vn mlynedd ar ddec y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Zebuda merch Pedaia o Ruma.

37 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a wnelſe ei dadau ef.

## PEN. XXIIII.

Nabuchodonoſor yn gorchfygu Ioachim, ac am ei anufydd-dod yn ei ddifetha ef. 6 Ac Ioachim ei fab yntef yn teyrnaſu yn ei le ef hyd oni chaethgludodd Nabuchodonoſor ef ai bobl i Babilon, 17 a gwneuthur ei ewythr ef Sedecia yn frenin yn ei le ef.

2.Cron.36.6.

YN ei ddyddiau ef y daeth Nabuchodonoſor brenin Babilon i fynu: ac Ioachim fu yn wâs iddo ef dair blynedd, yna efe a ddychwelodd, ac a wrthryfelodd yn ei erbyn ef.

Pen.20.17.
& 23.27.

2 A'r Arglwydd a anfonodd yn ei erbyn ef dorfoedd o'r Caldeaid, a thorfoedd o'r Syriaid, a thorfoedd o'r Moabiaid, a thorfoedd o feibion Ammon, ac ai hanfonodd hwynt yn erbyn Iuda iw diniſtrio hi: * yn ôl gair yr Arglwydd yr hwn a lefaraſe efe drwy law ei weiſion y prophwydi.

3 Yn vnic, drwy orchymyn yr Arglwydd y bu [hyn] yn erbyn Iuda iw bwrw ymmaith oi ŵydd ef: o achos pechodau Manaſſes, yn ôl yr hyn oll a wnaethe efe.

4 Canys efe hefyd a dynnodd waed gwirion fel y llawnodd efe Ieruſalem o waed gwirion am hynny ni fynne 'r Arglwydd fadde [hynny.]

5 A'r rhan arall o hanes Ioachim, a'r hyn oll a'r a wnaeth efe: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Iuda ⁚

Ier.22.19.

6 Ac Ioachim * a hunodd gyd ai dadau: ac Ioachim ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

7 Ac ni chwanegodd brenin yr Aipht fyned

mwyach oi wlad: canys brenin Babilon a ddugaſe yr hyn oll a oedd eiddo brenin yr Aipht o afon yr Aipht hyd afon Euphrates.

2.Cron.36.9. 8 Mab deu naw-mlwydd [oedd] Ioachin pan aeth efe yn frenin, a thri mis y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Nehuſta merch Elnathan o Ieruſalem.

9 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a wnaethe ei dâd ef.

Dan.1.2. 10 *Yn yr amſer hwnnw y daeth gweiſion Nabuchodonoſor brenin Babilon i fynu yn erbyn Ieruſalem: a gwarchauwyd ar y ddinas.

11 A Nabuchodonoſor brenin Babilon a ddaeth yn erbyn y ddinas: ai weiſion ef a warchauaſant arni hi.

12 Yna Ioachim brenin Iuda a aeth allan at frenin Babilon, efe, ai fam, ai weiſion, ai dywyſogion, ai ſtafellyddion: a brenin Babilon, ai daliodd ef yn yr wythfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef.

Pen.20.17. Eſa.39.6. 13 Ac *efe a ddûg oddi yno holl dryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thryſſorau tŷ y brenin: ac a dorrodd yr holl leſtri aur y rhai a wnelſe Salomon brenin Iſrael yn nheml yr Arglwydd, fel y llefaraſe 'r Arglwydd.

14 Ac efe a droſgludodd holl Ieruſalem, yr holl dywyſogion hefyd, a'r holl gedyrn nerthol [ſef] deng-mil o gaethion, a phob ſaer prenn, a góf: ni adawyd ond pobl dlodion y wlad [yno.]

2.Cron.36,10. Eſther.2.6. 15 Efe * hefyd a droſgludodd Ioachim i Babilon: a mam y brenin, a gwragedd y brenin, ai ſtafellyddion ef, a chedyrn y wlâd a ddûg efe mewn caethiwed o Ieruſalem i Babilon.

16 A'r holl wŷr nerthol, [ſef] ſaith mil, ac o ſeiri, a gofaint mil, y rhai hyn oll yn rhyfelwŷr cedyrn: a brenin Babilon ai dûg hwynt yn gaeth i Babilon.

Ier.37.1. & 52.1. 17 A * brenin Babilon a oſododd Mathania ei ewythr ef frawd ei dad yn frenin yn ei lê ef: ac a drôdd ei henu ef yn Sedecia.

18 Mab un mlwydd ar hugain [oedd] Sedecia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar ddêc y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Hamittal merch Ieremia o Libna.

19 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a wnaethe Ioachim.

20 Am hynny yn ddiau y bu digofaint yr Arglwydd yn erbyn Ieruſalem, ac yn erbyn Iuda, nes iddo ef eu taſlu hwynt oi ŵydd, ac y gwrthryfelodd Sedecia yn erbyn brenin Babilon.

## PEN. XXV.

Nabuchodonoſor yn gwarchau ar Ieruſalem 6 yn dala Sedecia, yn lladd ei blant, ac yn tynnu ei lygaid ef. 9 yn difetha y deml, a'r gaer, a'r tai teccaf. 11 yn dwyn i Babilon ran o'r bobl a golud y deml. 25 lladdiad Gedalia 27 ail goruwchafiaeth Ioachim.

Ier.39.1. Ier.52.4. AC * yn y nawfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef, yn y decfed mis, ar y decfed [dydd] o'r mis y daeth Nabuchodonoſor brenin Babilon efe ai holl lû yn erbyn Ieruſalem, ac a werſſyllodd yn ei herbyn hi: a hwy a adeiladaſant yn ei herbyn hi wrthglawdd oi hamgylch hi.

2 Felly y daeth y ddinas yng-warche hyd yr unfed flwyddyn ar ddêc i'r brenin Sedecia.

3 Ac yn y nawfed * [dydd o'r pedwerydd] mîs y gorchfygodd newyn y ddinas, fel nad oedd bara i bobl y wlâd. Ier.52.6.

4 Yna y ddinas a dorrwyd, a'r holl ryfelwŷr [a ffoaſant] liw nôs [ar hyd] ffordd y porth, rhwng y ddau fûr y rhai [ydynt] wrth ardd y brenin, a'r Caldeaid [oeddynt] wrth y ddinas o amgylch: [a'r brenin] a aeth tu a'r rhôs.

5 A llu y Caldeaid a erlidiaſant ar ôl y brenin, ac ai daliaſant ef yn rhoſydd Iericho: ai holl lu ef a waſcaraſid oddi wrtho ef.

6 Yna y daliaſant hwy y brenin, ac y dugaſant ef i fynu at frenin Babilon i Riblah: ac * a draethaſant farn yn ei erbyn ef. 2.Cron.36.13.

7 Laddaſant feibion Sedecia hefyd yn ei olwg ef: a thynnaſant lygaid Sedecia, ac ai rhwymaſant ef mewn gefynnau, ac ai dugaſant ef i Babilon.

8 Ac yn y pummed mîs, ar y ſeithfed [dydd] o'r mis, honno [oedd] y bedwared flwyddyn ar bymthec i frenin Nabuchodonoſor brenin Babilon: y daeth Nabuzaradan y diſtain gwâs brenin Babilon i Ieruſalem. Ier.52.12.

9 Ac efe a loſcodd dŷ 'r Arglwydd, a thŷ 'r brenin: a holl dai Ieruſalem, a phob tŷ mawr a loſcodd efe a thân.

10 A holl lu y Caldeaid y rhai [oeddynt gyd] a'r diſtain a ddiniſtriaſant furoedd Ieruſalem oddi amgylch.

11 A Nabuzaradan y diſtain a gaeth-gludodd weddill y rhã arall o'r bobl y rhai oeddynt yn aros yn y ddinas, a'r enciliaid y rhai a giliaſent at frenin Babilon gyd a gweddill y dyrfa.

12 Ac o dlodion y wlâd y gadawodd y diſtain [rai] yn winllan-wŷr, ac yn ardd-wŷr.

13 Y * colofnau prês hefyd y rhai [oeddynt] yn nhŷ 'r Arglwydd, a'r treſtêlau, a'r gerwyn brês yr hon [oedd] yn nhŷ 'r Arglwydd a ddrylliodd y Caldeaid: a hwy a ddugaſant eu prês hwynt i Babilon. Pen.20.17. Ier.27.22.

14 Y * crochanau hefyd, a'r rhawiau, ar ſaltringau, y llwyau, a'r holl leſtri prês (y rhai 'r oeddid yn gwaſanaethu ynddynt) a ddugaſant hwy ymmaith. Exod,27.3.

15 Y pedill tân hefyd, a'r cawgiau y rhai [oeddynt] aur, a'r rhai [oeddynt] arian, a ddûg y diſtain ymmaith.

16 Y ddau goloſn, yr un gerwyn, a'r treſtélau y rhai a wnelſe Salomon i dŷ 'r Arglwydd: nid oedd bwys ar brês yr holl leſtri hynny.

17 * Tri chufydd ar bymthec [oedd] uchter y naill goloſn, a chnap prês [oedd] arni hi, ac uchter y cnap [oedd] dri chufydd, pleth hefyd, a phomgranadau [oeddynt] ar y cnap o amgylch yn brês ei gyd: ac felly ['r oedd] yr ail goloſn, a'r bleth. 1.Bren.7.15. Ier.52.21. 2.Cron.3.15.

18 A'r diſtain a gymmerth Seraiah yr offeiriad pennaf,a Sephaniah yr ail offeiriad,a'r tri y rhai oeddynt yn cadw y drws.

19 Ac o'r ddinas efe a gymmerth vn ſtafelludd yr hwn oedd ſwyddog ar y rhyfel-wŷr, a phum-ŵr o'r rhai oeddynt yn gweled wyneb y brenin, y rhai a gafwyd yn y ddinas, ac ſcriſennudd tywyſog y llu, yr hwn oedd yn byddino pobl y tir : a thrugain-ŵr o bobl y tir y rhai a gafwyd yn y ddinas.

20 A Nabuzaradan y diſtain ai cymmerth hwynt, ac ai dûg hwynt at frenin Babilon i Riblah.

21 A brenin Babilon ai tarawodd hwynt, ac ai lladdodd hwynt yn Riblah yng-wlâd Hemath: felly y caeth gludwyd Iuda oi wlâd ei hũ.

Ier.40.5.9. 22 Ac [am] y * bobl y rhai a adawſid yng-wlâd Iuda [ſef] y rhai a adawſe Nabuchodonoſor brenin Babilon : efe a wnaeth yn ſwyddog arnynt hwynt Gedaliah fab Ahicam fab Saphan.

23 Pan glybu holl dywyſogion y lluoedd, hwyntwy ai gwŷr wneuthur o frenin Babilon Gedaliah yn ſwyddog, yna hwy a ddaethant at Gedaliah i Miſpah : ſef Iſmael mab Nethaniah, ac Iohanan mab Cerah, a Seraiah mab Tanhumeth y Netophathiad,ac Iazoniah mab Maacathi,hwynt ai gwŷr.

24 A Gedaliah a dyngodd wrthynt hwy, ac wrth eu gwŷr hwynt, ac a ddywedodd wrthynt hwy, nac ofnwch rhac[bod]yn weiſion i'r Caldeaid : arhoſwch yn y tîr, a gwaſanaethwch frenin Babilon,felly y bydd daioni i chwi.

25 Ac yn y ſeithfed mîs * y daeth Iſmael mab Nethaniah fab Eliſama o'r brenhinawl hâd,a deng-wr gyd ag ef,ac a darawſant Gedaliah fel y bu efe farw : [tarawſant] hefyd yr Iddewon a'r Caldeaid y rhai oeddynt gyd ag ef ym Miſpah. Ier.41.1.

26 Yna'r holl bobl a gyfodaſant o fychan hyd fawr,a thywyſogion y lluoedd,ac a aethant i'r Aipht : canys ofnaſant rhac y Caldeaid.

27 Yn yr ail flwyddyn ar bymthec,ar hugain o gaethiwed Ioachim brenin Iuda,yn y deuddecfed mîs, ar y ſeithfed [dydd] ar hugain o'r mîs : Efil-merodach brenin Babilon ( yn y flwyddyn yr aeth efe yn frenin a dderchafodd ben Ioachim brenin Iuda o'r carchar-dŷ,

28 Ac efe a ddywedodd yn dêg wrtho ef : ac a oſododd ei gadair ef goruwch cadeiriau y brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn Babilon.

29 Ac efe a newidiodd ei garchar-wiſc ef:ac efe a fwytâodd fwyd yn oeſtadol ger ei fron ef holl ddyddiau ei enioes.

30 Ai lynniaeth ef [oedd] lynniaeth beunyddol, rhoddid iddo ef oddi wrth y brenin ddogn dydd yn ei ddydd,holl ddyddiau ei enioes ef.

# Y llyfr cyntaf o'r Cronicl yr hwn a elwir yn yr Ebre-aec Difre Haiamim, ac yn Gamber-aec Haneſſion yr amſeroedd.

## PENNOD. I.

Achau Abraham, Iſaac, ac Iacob. 43 A thywyſogion Edom.

“ ADda, Seth, Enos.
“ 2 Cenan, Mahalehel,
“ Iared.
“ 3 Henoch, Methuſe-
“ lah, Lamech.
“ 4 Noah, Sem, Cam,
“ ac Iapheth.
Gene.10.1. “ 5 Meibion * Iapheth
“ [oeddynt] Gomer, a Magog, a Madai, ac Ia-
“ ſan. a Thubal, a Meſech, a Thiras.
“ 6 A meibion Gomer: Aſchenas, ac Iphath, a
“ Thogarma.
“ 7 A meibion Iaſan Eliſa, a Tharſis, Cit-
tim, a Dodanim.
8 A meibion Cam : Cus, a Mizraim, ”
Phut, a Chanaan. ”
9 A meibion Cus : Seba ac Haſilah, a ”
Sabthah, a Raamah, a Sabtheca : a Seba, a ”
Dedan meibion Raama. ”
10 A Chus a genhedlodd * Nimrod : hwn a ” Gene.10.8.
dechreuodd fod yn gadarn ar y ddaiar. ”
11 A Mizraim a genhedlodd Ludim, ac A- ”
namim, a Lehabim, a Nephthuim. ”
12 Pathruſim hefyd a Caſluhim, a'r Ca- ”
phthoriaid y rhai y daeth y Philiſtiaid, allan o ”
honynt. ”
13 A Chanaan a genhedlodd Sidon ei gyn- ”
taf-anedic, a Heth. ”
14 Iebuſi hefyd, ac Amori, a Girgaſi. ”

15 A Hefi, ac Araci, a Simi.

16 Ac Arfadi, a Zamari, ac Hemathi.

Gen.10.22. & 11.10. 17 Meibion Sem: * Elam, ac Aſſur, ac Arphacſad, a Lud, ac Aram, ac Uz, a Hul, a Gether, a Meſech.

18 Ac Arphacſad a genhedlodd Selah, a Selah a genhedlodd Eber.

19 Ac i Eber y ganwyd dau o feibion: henw y naill [ydoedd] Peleg, o herwydd mai yn ei ddyddiau ef y doſparthwyd y ddaiar, ac enw ei frawd [oedd] Ioctan.

20 Ac Ioctan a genhedlodd Almodad, a Saleph, ac Hazermafeth, ac Ierah.

21 Hadoram hefyd, ac Uſal, a Dicla.

22 Ac Ebal, ac Abimael, a Seba.

23 Ophir hefyd, a Hafila, ac Iobab: y rhai hyn oll [oeddynt] feibion Ioctan.

24 Sem, Arphacſad, Selah.

25 Eber, Peleg, Rehu.

26 Serug, Nahor, Therah.

27 * Abram, hwnnw [yw] Abraham.

Gene.11.26. & 17.5. & 21.2.&c. 28 Meibion Abraham: Iſaac, ac Iſmael.

Gen.25.13. 29 Dymma eu cenhedlaethau hwynt: cyntaf-anedic * Iſmael [oêdd] Nabaioth, yna Cedar, ac Adbeel, a Mibſam.

30 Miſma, a Dumah, Maſſa, Hadad, a Thema.

31 Ietur, Naphis, a Chedma: Dymma hwynt meibion Iſmael.

Gen.25.2. 32 A meibion Cetura * gordderch-wraig Abraham: hi a ymddug Zimram, ac Iocſan, a Medan, a Midian, ac Iiſboc, a Suah: a meibion Iocſan, Seba, a Dedan.

Gen.25.4. 33 A meibion Midian, Epha, ac Ephar, a Henoch, ac Abdia, ac Eldaa: y * rhai hyn oll [oeddynt] feibion Cetura.

Gen.21.2. 34 Ac * Abraham a genhedlodd Iſaac: meibion Iſaac, Eſau, ac Iſrael.

Gen.36.4. & 36.9. 35 Meibion Eſau: * Eliphaz, Rehuel, ac Iehus, ac Iaelam, a Chorah.

36 Meibion Eliphas: Theman, ac Omar, Zephi, a Gatham, Cenas, a Thimna, ac Amalec.

Gen.36.12. 37 Meibion Rehuel: Nahath, Zerah, Zamma, a Miza.

38 A meibion Zeir: Lotan, a Sobal, a Zibeon, ac Ana, a Diſon, ac Eſer, a Diſan.

39 A meibion Lotan: Hori, ac Homam: a chwaer Lotan [oedd] Thimna.

40 Meibion Sobal: Alian, a Manahath, ac Ebal, Sephi, ac Onam: a meibion Zibeon: Aia, ac Ana.

41 Meibion Ana, Diſon: a meibon Diſon, Hamran, ac Eſban, ac Iethran, a Cheran.

42 Meibion Ezer: Bilhan, a Zaeſan, Iacan: meibion Diſon: Uz, ac Aran.

43 Dymma hefyd y brenhinoedd y rhai a deyrnaſaſant yn-nhîr Edom, oſlaen teyrnaſu o frenin ar feibion Iſrael: Bela mab Beor, a henw ei ddinas ef [oedd] Dinhaba.

44 Pan fu farw Bela, yna y teyrnaſodd yn ei lê ef Iobab mab Zerah o Bozra.

45 A phan fu farw Iobab: Huſam, o wlâd y Themaniaid a deyrnaſodd yn ei lê ef.

46 Yna y bu farw Huſam, ac yn ei lê ef y teyrnaſodd Hadad mab Bedad, yr hwn a darawodd Midian ym maes Moab, ac enw ei ddinas ef [ydoedd] Afith.

47 Yna y bu farw Hadad: ac y teyrnaſodd yn ei lê ef, Samla o Maſcereca.

48 A phan fu farw Samla: Saul o Rehoboth [wrth] yr afon a deyrnaſodd yn ei lê ef.

49 A bu farw Saul: a theyrnaſodd yn ei lê ef Baalhanan mab Achbor.

50 Yna y bu farw Baalhanan, a theyrnaſodd yn ei lê ef Hadad, ac enw ei ddinas ef [oedd] Phai: ac enw ei wraig ef Mehetabel, merch Matred, merch Meſahab.

51 A phan fu farw Hadad: dugiaid oeddynt yn Edom, duwc Thimna, duwc Aliah, duwc Ietheth.

52 Duwc Aholibama, duwc Ela, duwc Pinon.

53 Duwc Cenaz, duwc Theman, duwc Mibzar.

54 Duwc Magdiel, duwc Iram: dymma ddugiaid Edom.

## PEN. II.

Achau Iuda hyd at Iſai tâd Dafydd.

Dymma feibion Iſrael: Ruben, Simeon, Lefi, ac Iuda, Iſſachar, a Zabulon. Gen. 29.32 & 30.5. & 35.18.

2 Dan, Ioſeph, a Beniamin, Nephthali, Gad, ac Aſer.

3 * Meibion Iuda: Er, ac Onan, a Sela, y tri [hyn] a anwyd iddo ef o ferch Sua y Cannaanites: ond Er cyntaf-anedic Iuda ydoedd ddrygionus yng-olwg yr Arglwydd, ac efe ai lladdodd ef. Gen.38.3. & 46.12. pen.4.1.

4 A * Thamar ei waudd ef a ymddug iddo Pharez, a Zara: holl feibion Iuda [oeddynt] bump. Gen.38.29 Matth.1.3.

5 Meibion Pharez: * Heſron, a Hamul. Ruth 4.18.

6 A meibion Zara: Zimri, * ac Ethan, a Heman, a Chalcol, a Dara: hwynt oll [oeddynt] bump. 1.Bren.4.31.

7 A meibion Charmi: * Achar yr hwn a flinodd Iſrael, ac a wnaeth gamwedd o blegit y diofryd-beth. Iosu.7.1.

8 A meibion Ethan: Azaria.

9 A meibion Hezrom y rhai a anwyd iddo ef: Ierahmeel, a * Ram, a Chelubai. Matth.1.3.

10 A Ram a genhedloedd Aminadab, ac Aminadab a genhedlodd Naaſſon pennaeth meibion Iuda.

11 A Naaſſon a genhedlodd Salma, a Salma a genhedlodd Boaz.

12 A Boaz a genhedlodd Obed, ac Obed a genhedlodd Iſai.

13 Ac * Iſai a genhedlodd ei gyntaf-anedic Eliab, ac Aminadab yn ail, a Simaa yn drydydd. 1.Sam.16. 19. & 17.12.

14 Nathanaeel yn bedwerydd, Radai yn bummed.

15 Ozem yn chweched, Dafydd yn ſeithfed.

16 Ai chwioꝛydd hwynt [oeddynt] Serfia, ac Abigail: a meibion Serfia [oeddynt] dꝛî: Abiſai, Joab, ac Aſahel.

17 Ac Abigail a ymddug Amaza, a thâd Amaza [oedd] Jether yꝛ Iſmaeliad.

18 A Chaleb mab Hezron a ennillodd blant o Azubah [ei] wꝛaig, ac o Jerioth: ac dymma ei meibion hi: Jaſer, a Sobab, ac Ardon.

19 A phan fu farw Azuba, Caleb a gymmerth iddo Ephꝛath, a hi a ymddug iddo Hur.

20 A *Hur a genhedlodd Uꝛi, ac Uꝛi a genhedlodd Bezaleel. Exod.31.2.

21 Ac wedi hynny y daeth Hezron at ferch Machir *tâd Gilead, ac efe ai pꝛiododd hi, pan [ydoedd] efe fab trugain-mlwydd: a hi a ymddug iddo Segub. Num.32.40.

22 A Segub a genhedlodd Jair: ac yꝛ oedd iddo ef dair ar hugain o ddinaſoedd yng-wlâd Gilead.

23 Ac efe a ddug oddi ar Geſſur, ac Aram dꝛefydd Jair, a Chenath ai phen-trefydd [ſef] trugain o ddinaſoedd: dymma holl feibion Machir tâd Gilead.

24 Ac yn ôl marw Hezron o fewn Caleb Ephꝛata: Abia gwꝛaig Hezron a ymddug iddo Aſhur, tâd Thecoa.

25 A meibion Jerahmeel cyntaf-anedic Hezron oeddynt Ram yꝛ hynaf: yno Buna, ac Oꝛen, ac Ozen [ac] Ahia.

26 A gwꝛaig arall ydoedd i Jerahmeel, ai henw Atara: hon [oedd] fam Onam.

27 A meibion Ram cyntaf-anedic Jerahmeel oeddynt Maaz, ac Jamin, ac Eccar.

28 A meibion Onam oeddynt Sammai, ac Jada: a meibion Sammai, Nadab, ac Abiſur.

29 Ac enw gwꝛaig Abiſur [oedd] Abiahil: a hi a ymddug iddo Ahban, a Molid.

30 A meibion Nadab, Seled, ac Appaim: a bu farw Seled heb feibion.

31 A meibion Appaim, Jeſi: a meibion Jeſi, Seſan: a meibion Seſan, Ahlai.

32 A meibion Jada, bꝛawd Samai, Jether, ac Jonathan: a bu farw Jether heb feibion.

33 A meibion Jonathan, Peleth, a Zaza: y rhai hyn [oeddynt] feibion Jerahmeel.

34 Ac nid oedd i Seſan feibion onid merched: ac i Seſan [yꝛ ydoedd] gwâs o Aiphtiad, ai enw ef Jarha.

35 A Seſan a roddodd ei ferch yn wꝛaig i Jarha ei wâs: A hi a ymddug iddo Athai.

36 Ac Athai a genhedlodd Nathan, a Nathan a genhedlodd Zabad.

37 A Zabad a genhedlodd Aphlal, ac Aphlal a genhedlodd Obed.

38 Ac Obed a genhedlodd Jehu, ac Jehu, a genhedlodd Azaria.

39 Ac Azaria a genhedlodd Helez, a Helez a genhedlodd Elaſa.

40 Ac Elaſa a genhedlodd Siſamai, a Siſamai a genhedlodd Salum.

41 A Salum a genhedlodd Jecamia, ac Jecamia a genhedlodd Eliſamah.

42 Hefyd meibion Caleb bꝛawd Jerahmeel [oeddynt] Meſa ei gyntaf-anedic ef, hwn [oedd] dâd Ziph: a meibion Mareſa tâd Hebꝛon.

43 A meibion Hebꝛon: Coꝛah, a Thapuah, a Recem, a Sama.

44 A Sama a genhedlodd Raham, tâd Jercoam: a Recem a genhedlodd Sammai.

45 A mab Sammai [ydoedd] Maon: a Maon [oedd] dâd Bethzur.

46 Ac Epha goꝛdderch-wꝛaig Caleb a ymddug Haran, a Moſa, a Gazez: a Haran a genhedlodd Gazez.

47 Meibion Jahdai: Regem, ac Jotham, a Geſan, a Phelet, ac Epha, a Saaph.

48 Goꝛdderch-wꝛaig Caleb [ſef] Maacha, a ymddug Seber, a Thirhana.

49 Hefyd hi a ymddug Saaph, tâd Madmanna, [a] Sefa tad Machbena, a thâd Gibea: ac *Achſa merch Caleb. Ioſua 15.17.

50 Y rhai hyn oeddynt feibiõ Caleb fab Hur, cyntaf-anedic Ephꝛata: Sobal tâd Ciriath-Jearim.

51 Salma tâd Bethlehem [a] Hareph tâd Beth-Gader.

52 A meibiõ oeddynt i Sobal, tâd [pꝛiodoꝛiõ] Ciriath Jearim: golygwꝛ hanner Hammenoth

53 A theuluoedd Ciriath Jearim [oeddynt:] y Jethꝛiaid, a'r Puthiaid, a'r Sumathaid, a'r Miſrahiaid: o'r rhai hyn y dath allan y Zarathiaid a'r Eſthauliaid.

54 Meibion Salma: Bethlehem, a Netophathi, parch tŷ Joab: a hanner y Manahethiaid a'r Zariaid.

55 A thylwyth yꝛ ſcrifẽnyddion y rhai a bꝛeſſwylient Jabes, y Thirathiaid, y *Simeathiaid, y Suchathiaid: dymma y Ceniaid, y rhai a ddaethant o Hemath, tâd tŷ-lwyth Rechab. Num.10.29 Barn.1.16.

## PEN. III.

Achau Dafydd, ai hiliogaeth hyd at feibion Ioſia.

Y Rhai hyn hefyd oeddynt feibion Dafydd, y rhai a anwyd iddo ef yn Hebꝛon: y cyntaf-anedic Amnon o Ahinoam yꝛ Jeſraelites: yꝛ ail, *Daniel o Abigail y Garmelites. 2.Sam.3.3

2 Y trydydd Abſalom mab Maacha, merch Thalmai bꝛenin Geſſur: y pedwerydd Adonia mab Haggith.

3 Y pummed Sephatia o Abital: y chweched, Jethꝛeam o Egla ei wꝛaig.

4 Chwech a anwyd iddo ef yn Hebꝛon, ac yno y teyꝛnaſodd efe ſaith mlynedd, a chwe-mîs: a thair blynedd ar ddec ar hugain y teyꝛnaſodd efe yn Jeruſalem.

5 A'r rhai hyn a anwyd iddo ef yn-Jeruſalem: Sima, a Sobab, a Nathan, a Salomon, pedwar o Bathſua merch Ammiel.

6 Ibhar hefyd, ac Eliſama, ac Eliphelet.

7 A Noga, a Nepheg, a Jephia.

8 Ac Eliſama, a Eliada, ac Eliphelet ſef naw

9 [Dymma] holl feibion Dafydd, heb-law

meibion y gordderch-wragedd: a Thamar [oedd] eu chwaer hwynt.

10 A mab Salomon [ydoedd] Rehoboam: Abia ei fab yntef, Aſa ei fab yntef, [ac] Iehoſaphat ei fab yntef:

11 Ioram [hefyd] ei fab yntef, Ahazia ei fab yntef, Ioas ei fab yntef,

12 Amazia ei fab yntef, Azariah ei fab yntef, a Iotham ei fab yntef,

13 Achaz ei fab yntef, Hezecia ei fab yntef, Manaſſes ei fab yntef,

14 Amon ei fab yntef, Ioſia ei fab yntef.

15 Meibion Ioſia, y cyntaf-anedic [oedd,] Iohanan, yr ail Iehoiacim, y trydydd Zedecia, y pedwerydd Salum.

16 A meibion Iehoiacim: Ieconiah ei fab ef, Zedeciah ei fab yntef.

17 A meibion Ieconiah, Aſſir, Salathiel ei fab yntef.

18 Malchiram hefyd, a Pedaia, a Senazar, Iecamia, Hoſama, a Nedabia.

19 A meibion Pedaia, Zorobabel, a Semei: a meibion Zorobabel, Meſulam, ac Hanania, a Selomith eu chwaer hwynt.

20 A Haſubah, ac Ohel, a Berechia, a Hazadia, Iuſabheſed [ſef] pump.

21 A meibion Hanania, Pelatia, ac Ieſaia: [felly] meibion Raphaia, meibion Arnan, meibion Obadia, [a] meibion Sechania.

22 A meibion Sechania, Semaia: a meibion Semaia, Hattus, ac Igal, a Bariah, a Neariah, a Saphat, [ſef] chwech.

23 A meibion Nearia: Elioenai, a Hizciah, ac Azricam [ſef] tri.

24 A meibion Elioenai [oeddynt] Hodaſiahu, ac Eliaſib, a Pelaiah, ac Accub, ac Iohanã, a Delaia, ac Anani, [ſef] ſaith.

## PEN. IIII.

Achau meibion Iuda, 5 Aſſur, 9 Iabes, 11 Chelub, A Simeon: ai cyfanneddau ai goruchafiaethau.

Gen. 38.29. & 46.12. pen.2.4.

MEibion Iuda: *Pharez, Heſron, a Charmi, a Hur, a Sobal.

2 A Reaia mab Sobal a genhedlodd Iahath, ac Iahath a genhedlodd Ahumai, a Lahad: fel dymma deuluoedd y Zorathiaid.

3 A'r rhai hyn [oeddynt o] dâd Etam: Ieſrahel, ac Iſma, ac Idbas: ac enw eu chwaer hwynt [oedd] Hazlelphoni.

4 A Phenuel [ydoedd] dâd Gedor, ac Eſer dâd Huſa: dymma feibion Hur cyntaf-anedic Ephratah, tâd Bethlehem.

5 Ac i Aſſur tâd Thecoa yr oedd dwy wragedd: Helah, a Naarah.

6 A Naarah a ymddug iddo Ahuſam, a Hepher, a Themeni, ac Ahaſtari: dymma feibion Naarah.

7 A meibion Helah [oeddynt] Zereth, Iezoar, ac Etnan.

8 A Coz a genhedlodd Anob, a Zobeba: a theuluoedd Aharel fab Harum.

Barn.1.13. 9 Ac yr oedd *Iabes yn anrhydeddusach nai frodyr: ai fam a alwodd ei enw ef Iabes, gãddywedyd: o blegit i mi ei ymddwyn ef drwy oſid.

10 Ac Iabes a alwodd ar Dduw Iſrael, gan ddywedyd: os gan fendithio y bendithi, ac yr ehengi fy-nherfynau, a bod dy law gyd a mi, am gwneuthur [yn rhydd] oddi wrth ddrwg fel na'm goſidier: a pharodd Duw ddyfod [iddo] yr hyn a ofynnaſe.

11 A Chelub brawd Suah a genhedlodd Mehir: hwn [ydoedd] tâd Eſthon.

12 Ac Eſthon a genhedlodd Bethrapha, a Phaſe, a Thehinna tad dinas Nahas: dymma ddynion Recha.

13 A meibion Cenas, Othniel, a Seraia: a meibion Othniel [oedd] Hathath,

14 A Meonothi a genhedlodd Ophra: a Seraia a genhedlodd Ioab tâd [trigolion] glyn y crefft-wŷr, canys crefft-wŷr oeddynt hwy.

15 A meibion Caleb fab Iephun: Iru, Ela, a Naam: a meibion Ela [oedd] Cenas.

16 A meibion Iehalel [oeddynt] Ziph a Zipha, Thiria, ac Aſarel.

17 A meibion Ezra [oeddynt] Iether, a Mered, ac Epher, ac Ialon: ac efe a genhedlodd Miriam, a Sammai, ac Iſbah, tâd Eſthemoa.

18 Ai wraig ef Iehudia a ymddug Iered tâd Gedor, a Heber tâd Socho, ac Iecuthiel tâd Zanoah: ac dymma feibion Bithiah merch Pharao, yr hon a gymmerth Mered.

19 A meibion gwraig Hodia, chwaer Naham, tâd Ceilah [oeddynt] y Garmiaid, ac Eſthemoa y Maachathiad.

20 A meibion Simon [oedd] Amnon, a Rinnah, Benhanan, a Thilon: a meibion Iiſi [oedd] Zoheth, a Benzoheth.

21 [A] *meibion Selah fab Iuda, [oeddynt] Er, tâd Lecha, a Laada tâd Mareſa, a theuluoedd tylwyth gweithyddion ſidan yn nhŷ Aſbea. Gen. 38.1.3. 5.

22 Ac Iocim, a dynion Chozebah, ac Ioas, a Saraph y rhai oeddynt yn arglwyddiaethu ar Moab, ac Iaſubi Lehem: ond [y mae] y pethau hyn yn hên.

23 Y rhai hyn [oddynt] grochenyddion yn cyfanneddu [ym myſc] planwydd, a chaeau, gyd a'r brenin yr arhoſaſant yno yn ei waith ef.

24 *Meibion Simeon [oedd] Nemuel, a Iamin, Iarib, Zerah, [a] Saul. Gene.46.10. exod.6.15.

25 Salum [ydoedd] ei fab yntef, Mibſam ei fab yntef, Miſma ei fab yntef.

26 A meibion Miſma: Hamuel ei fab yntef, Zachur ei fab yntef, Semehi ei fab yntef.

27 Ac i Semehi [yr oedd] vn ar bymthec o feibion, a chwech o ferched, ac iw frodyr ef nid [oedd] nemmor o feibion: ac nid amlhauſe eu holl deuluoedd hwynt megis meibion Iuda.

28 A hwy a breſwyliaſant yn Beerſeba, a Molada, a Hazar Sual.

29 Yn Bilah hefyd, ac yn Ezẽ, ac yn Tholad

30 Ac yn Bathuel, ac yn Horma, ac yn Ziclag

31 Ac yn Beth-marcaboth, ac yn Hazer Suſim, ac yn Bethbirei, ac yn Saaraim: dymma

“ eu dinaſoedd hwynt nes teyrnaſu o Ddafydd.
“ 32 Ai trefydd hwynt[oeddynt]Etam,ac Ain,
“ Rimmon,a Thochen,ac Aſan: pump o ddinaſoedd.
“ 33 Ai holl ddrefydd hwynt hefyd,y rhai[oeddynt]
“ oddi-amgylch y dinaſoedd hyn hyd Baal:
“ dymma eu trigfannau hwynt,ai hachau.
“ 34 Meſobab, ac Iamlech, ac Ioſa mab Amaſia.
“ 35 Ac Ioel,ac Iehu mab Ioſibi, fab Saraia,
“ fab Aſiel.
“ 36 Ac Elioenai,ac Iaacoba, ac Iſohaia, ac
“ Aſaiah,ac Adiel,ac Iſmiel,a Benaia.
“ 37 A Ziza mab Siphi,fab Alon, fab Iedaiah,
“ fab Zimri, fab Semaia.
“ 38 Y rhai hyn erbyn[eu]henwau a ddaethãt
“ yn bennaethiaid yn eu teuluoedd: ac a amlhaſant
“ dylwyth eu tadau yn fawr.
“ 39 A hwy a aethant i ddrothwy Gedor,hyd at
“ du dwyrain y dyffryn, i geiſio porfa iw praidd.
“ 40 A hwynt a gawſant borfa frâs,a da,a gwlâd
“ ehang[ei]therfynau, heddychlon a thangneddyfus:
“ canys y rhai a breſwyliaſent yno o’r
“ blaen[oeddynt]o Cham.
“ 41 A’r rhai hyn yn ſcrifennedic erbyn eu
“ henwau a ddaethant yn nyddiau Hezecia brenin
“ Iuda,ac a darawſant eu pebyll, a’r anneddau y
“ rhai a gafwyd yno, a difrodaſant hwynt hyd y
“ dydd hwn,a thrigaſant yn eu lle hwynt,am[fod]
“ porfa iw praidd hwynt yno.
“ 42 Ac o honynt hwy[ſef]o feibion Simeõ
“ yr aeth pum-cant o ddynion i fynydd Seir: a
“ Phelathia,a Nearia, a Raphaia,ac Uzziel meibion
“ Iſi,yn ben arnynt.
“ 43 Tarawſãt hefyd y gweddill a ddiangaſe o
“ Amalec: a gwladychaſant yno hyd y dydd hwn.
“

## PEN. V.

“ Braint y cyntaf-anedic a ddygwyd oddi ar Ruben,ac ai
“ rhoddwyd i feibion Ioſeph. 3 Achau Ruben, 11
“ Gad, 23 A hanner llwyth Manaſſes.

Gen.35.22. “ A Meibion Ruben cyntaf-anedic Iſrael(canys
& 49 4. “ efe oedd gyntaf-anedic,ond pan halogodd
“ efe welŷ ei dâd y rhoddwyd ei anedigaeth
“ fraint ef i feibion Ioſeph fab Iſrael: fel na chyfrifwyd
“ ei achau ef yn ôl yr anedigaeth-fraint.
“ 2 Canys Iuda a ragorodd ar ei frodyr, ac o
“ honaw ef [y daeth] blaenor: a’r anedigaeth-fraint
“ [a roddwyd] i Ioſeph)
Gen.46.9. “ 3 *Meibion Ruben cyntaf-anedic Iſrael
exod.6.14. “ [oeddynt]Hanoch,a Phalu,Hezron,a Charmi.
num.26.5. “ 4 Meibion Ioel: Semaia ei fab yntef,Gog
“ ei fab yntef,Semhi ei fab yntef,
“ 5 Micah ei fab yntef, Reaia ei fab yntef,
“ Baal ei fab yntef.
2.Bren.15. “ 6 Beera ei fab yntef, yr hwn *a gaeth-gludodd
29. “ Tilgath-pilneſer brenin Aſſyria: hwn
“ [ydoedd]dywyſog i’r Rubeniaid.
“ 7 Ac oi frodyr ef yn eu teuluoedd wrth gymmeryd
“ eu hachau yn ei cenhedlaethau: y pennaf
“ [oedd]Ieiel, yna Zachariah.
“ 8 A Bela mab Azan, fab Sema, fab Ioel,
hwn a gyfanneddodd yn Aroer, ac hyd at Nebo,
a Baal-meon. ”
9 Ac o du yr dwyrain y preſſwyliodd efe hyd ”
lle yr elir i’r anialwch, oddi wrth yr afon Euphrates: ”
canys eu hanifeiliaid hwynt a amlhauſent ”
yng-wlâd Gilead. ”
10 Ac yn nyddiau Saul y gwnaethant hwy ”
ryfel yn erbyn yr Hagariaid[a’r rhai hynny]a ”
ſyrthiaſant yn eu dwylo hwynt,a thrigaſant yn ”
eu pebyll, ar holl hwynt wyneb [y wlad] o du ”
dwyrain Gilead. ”
11 A meibion Gad a drigaſant gyferbyn a ”
hwynt,yng-wlâd Baſan,hyd at Salcha. ”
12 Ioel[oedd] y pennaf o fewn Baſan, a ”
Sapham yr ail: yna Ianai,a Saphat. ”
13 Ai brodyr hwynt o dŷ eu tadau[oeddynt] ”
ſaith,Michael,a Meſulam,a Seba,ac Iorai,ac ”
Iachan,a Zia,ac Eber. ”
14 Dymma feibion Abihail fab Huri, fab ”
Iaroah,fab Gilead,fab Michael,fab Ieſiſa, fab ”
Iahdo,fab Buz. ”
15 Ahi mab Abdiel, fab Guni[oedd] bennaf ”
o dŷ eu tadau hwynt. ”
16 A hwy a drigaſant yn Gilead,yn Baſan ”
ac yn ei phentrefydd hi, ac yn holl bentrefol feuſydd ”
Saron wrth eu terfynau. ”
17 Hwynt oll a gyfrifwyd wrth eu hachau, ”
yn nyddiau Iotham brenin Iuda,ac yn nyddiau ”
Ieroboam brenin Iſrael. ”
18 Meibion Ruben,a Gad,a hanner llwyth ”
Manaſſes,(o wŷr nerthol,dynion yn dwyn tarian ”
a chleddyf, ac yn tynnu bwa,ac wedi eu dyſcu ”
[i] ryfel) [oeddynt]bedair mil a deugain, a ”
ſaith gant,a thri vgain, yn gallu myned i ryfel. ”
19 A hwy a wnaethant ryfel yn erbyn yr ”
Hagariaid,ſef Ietur,a Naphis,a Nodab. ”
20 A chynnorthwywyd hwynt yn erbyn y ”
rhai hynny, a rhoddwyd yr Hagariaid iw dwylo ”
hwynt, a chwbl,a’r a [ydoedd]gyd a hwynt: ”
canys llefaſant, ar Dduw yn y rhyfel, ac efe a ”
wrandawodd arnynt,o herwydd iddynt obeithio ”
ynddo ef. ”
21 A hwy a gaethgludaſant eu hanifeiliaid ”
hwynt,oi camelod hwynt ddeng-mil a deugain, ”
ac[o]ddefaid deucant a dêc a deugain mil, ac ”
[o]aſſynnod ddwyfil, ac[o] ddynion gan-mil. ”
22 Canys llawer yn archolledic a fuant feirw ”
am[fod]y rhyfel hwn oddi wrth Dduw, a ”
hwy a drigaſãt yn eu lle hwynt hyd y caethiwed ”
23 A meibion hanner llwyth Manaſſes a ”
drigaſant yn y tir, o Baſan hyd Baal-hermon, ”
a Senir a mynydd Hermon,[canys] y rhai ”
hyn a aethant yn aml. ”
24 Y rhai hyn hefyd[oeddynt] bennau tŷlwyth ”
eu tadau: ſef Epher,ac Ieſi, ac Eliel, ac ”
Azriel, ac Ieremia, ac Hodaſia, ac Iahdiel, ”
gwŷr cedyrn o nerth, gwŷr enwoc, pennau tŷ ”
[lwyth]eu tadau. ”
25 Yna y cildynnaſãt hwy oddi wrth Dduw ”
eu tadau,a phutteiniaſãt ar ôl duwiau pobloedd ”
y tîr,y rhai a ddiniſtriaſe Duw oi blaen hwynt. ”

26 A Duw Iſrael a annogodd yſpryd Phul brenin Aſſyria, ac yſpryd Thiglath Pilneſer brenin Aſſyria, ac ai caethgludodd hwynt ſef y Rubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manaſſes: ac ai dug hwynt *i Halah, a Habor, a Hara, ac i Afon Gozan hyd y dydd hwn. 2.Bren 18. 11.

## PEN. VI.

10 Achau meibion Lefi. 31 Eu trefn yng-wenidogaeth y cyſſegr. 49 Aaron ai feibion yn offeiriaid. 54 57 Eu trigfannau hwynt.

MEibion Lefi [ oeddynt ] Gerſom, Cehath, a Merari.

Gen.46.11. exod 6.16. pen.23.12. Lefit.10.1. num.20.25. 2 A meibion * Cehath: [oeddynt] Amram, Izahar, a Hebron, ac Uziel.

3 A phlant Amram, Aaron, a Moſes, a Miriam: a meibion Aaron, * Nadab, ac Abihu, Eleazar, ac Ithamar.

4 Eleazar a genhedlodd Phinehes, Phinehes a genhedlodd Abiſua.

5 Ac Abiſua a genhedlodd Boci, a Boci a genhedlodd Uzzi.

6 Ac Uzzi a genhedlodd Zarahia, a Zarahia a genhedlodd Meraioth.

7 Meraioth a genhedlodd ·Amaria, ac Amaria a genhedlodd Ahitub.

8 Ac Ahitub a genhedlodd Zadoc, a Zadoc a genhedlodd Ahimaaz.

9 Ac Ahimaaz a genhedlodd Azaria, ac Azaria a genhedlodd Iohanan.

10 Iohanan hefyd a genhedlodd Azaria, yr hwn a offeiriadodd yn y tŷ yr hwn a adailadodd Salomon yn Ieruſalem.

11 Ac Azaria a genhedlodd Amaria, ac Amaria a genhedlodd Ahitub.

12 Ac Ahitub a genhedlodd Zadoc, a Zadoc a genhedlodd Salum.

13 A Salum genhedlodd Helcia, a Helcia a genhedlodd Azaria.

14 Ac Azaria a genhedlodd Saraia, a Saraia a genhedlodd Iehozedech.

15 A Iehozedech a ymadawodd pan gaethgludodd yr Arglwydd Iuda, ac Ieruſalem, drwy law Nabuchodonoſor.

16 Meibion Lefi [oeddynt] Gerſom, Cehath, a Merari.

17 Ac dymma enwau meibion Gerſom: Libni, a Simhi.

18 A meibion Cehath [ oeddynt ] Amram, ac Iſahar, a Hebron, ac Uzziel.

19 Meibion Merari, Mahali, a Muſi: ac dymma dylwyth y Lefiaid, yn ôl eu tadau hwynt

20 I Gerſom [yr ydoedd] Libni ei fab ef, Iehath ei fab yntef, a Zimma ei fab yntef.

21 Ioah ei fab yntef, Iddo ei fab yntef, Zerah ei fab yntef, [ac] Iethrai ei fab yntef.

22 Meibion Cehath: Aminadab ei fab ef, *Corah ei fab yntef, Aſſir ei fab yntef.

Num.16.1. 23 Elcana ei fab yntef, ac Ebiaſaph ei fab yntef, ac Aſſir ei fab yntef.

24 Thahath ei fab yntef, Uriel ei fab yntef, Uzzia ei fab yntef, a Saul ei fab yntef.

25 A meibion Elcana: Amazai, ac Ahimoth.

26 Elcana: meibion Elcana, Zophai ei fab ef, a Nahath ei fab yntef.

27 Eliab ei fab yntef, Ierobam ei fab yntef, Elcana ei fab yntef.

28 A meibion Samuel, y cyntaf-anedic Vaſni, yno Abia. 1.Sam.8.2.

29 Meibion Merari, Mahali: Libni ei fab yntef, Simhi ei fab yntef, Uzzia ei fab yntef.

30 Simha fab yntef Haggia ei fab yntef Aſaia ei fab yntef.

31 Y rhai hyn a oſododd Dafydd yn gantorion [yn] nhŷ yr Arglwydd, ar ôl gorphywys o'r Arch.

32 Ac hwy a fuant wenidogion mewn cerdd o flaen * tabernacl pabell y cyfarfod nes adailadu o Salomon dŷ yr Arglwydd yn Ieruſalē: a hwy a ſafaſant yn eu defod wrth eu gwaſanaeth. Exod.27.21.

33 A dymma y rhai a weinaſant ai meibion hefyd: o feibion y Cehathiaid Heman y cantor, mab Ioel, fab Semuel,

34 Fab Elcana, fab Ierobam, fab Eliel, fab Thoah,

35 Fab Zuph, fab Elcana, fab Mahath, fab Amaſai,

36 Fab Elcana, fab Ioel, fab Azaria, fab Zephadia,

37 Fab Thahath, fab Aſſir, fab Elbaſaph, fab Corah,

38 Fab Iſahar, fab Cehath, fab Lefi, fab Iſrael,

39 Ai frawd Aſaph oedd yn ſefyll ar ei law ddehau ſef Aſaph mab Barachia, fab Simha,

40 Fab Michael, fab Baaſa, fab Melchia,

41 Fab Athan, fab Zarah, fab Adaia,

42 Fab Ethan, fab Zimma, fab Simhi,

43 Fab Iahath, fab Gerſom, fab Lefi.

41 Ai brodyr hwynt, meibion Merari [ oeddynt ] ar y llaw aſſwy: [ ſef ] Ethan mab Ciſi, fab Abdi, fab Maluch.

45 Fab Hazabia, fab Amazia, fab Helcia,

46 Fab Amzi, fab Bani, fab Samer,

47 Fab Mahli, fab Muſi, fab Merari, fab Lefi

48 Ai brodyr hwynt y * Lefiaid oeddynt gwedi eu rhoddi i holl waſanaeth tabernacl tŷ Dduw Num.4.4

49 Aarō hefyd ai feibiō a rogl-darthaſant ar allor y poeth offrwm, ac ar allor'r arogl-darth i [ gyflawni ] holl waſanaeth y cyſſegr, ſancteiddiolaf, ac i wneuthur iawn tros Iſrael yn ôl'r hyn oll a orchymynaſe Moſes gwâs Duw.

50 Dymma hefyd feibion Aaron: Eleazar ei fab ef, Phinehes ei fab yntef, Abiſua ei fab yntef

51 Bocci ei fab yntef, Uzzi ei fab yntef, Zeraiah ei fab yntef.

52 Meraioth ei fab yntef, Amaria ei fab yntef, Ahitub ei fab yntef.

53 Zadoc ei fab yntef, Ahimaaz ei fab yntef.

54 Ac dymma eu trigleoedd hwynt yn ôl eu palaſoedd hwynt, yn eu terfynau: ſef meibion Aaron o dylwyth y Cehathiaid o blegit eiddynt hwy yoedd y rhan hon.

55 A rhoddaſant iddynt Hebron yng-wlâd Juda: ai meuſydd pentrefol oi hamgylch hi.

56 A maes y ddinas, ai phentrefydd a roddaſant hwy i Caleb fab Jephun.

Deut.19.2. 57 Ac i feibion Aaron y rhoddaſant hwy ddinaſoedd Juda: y *noddfa, ſef Hebron, a Libna, ai meuſydd pentrefol, ac Jathir, ac Eſthemoa ai meuſydd pentrefol.

Ioſua 15.51. 58 A *Hilen ai meuſydd pentrefol, a Dabir ai meuſydd pentrefol.

59 Aſan hefyd ai meuſydd pentrefol, a Bethſemes ai meuſydd pentrefol.

Ioſua 21.18. 60 Ac o lwyth Beniamin, Geba ai meuſydd pentrefol, *Alemeth hefyd ai meuſydd pentrefol, ac Anathoth ai meuſydd pentrefol: eu holl ddinaſoedd hwynt drwy eu-teuluoedd [oeddynt] dair dinas [ar] ddêc.

61 Ac i'r rhan arall o feibion Cehath [y rhoddwyd] oddi wrth deulu y llwyth: [ac] o hanner llwyth ſef hanner Manaſſes ddêc dinas wrth goel-bren.

62 [Rhoddaſant] hefyd i feibiõ Gerſom drwy eu teuluoedd o lwyth Iſſachar, ac o lwyth Aſer, ac o lwyth Nephthali, ac o lwyth Manaſſes yn Baſan dair [ar] ddêc o ddinaſoedd.

63 I feibion Merari drwy eu teuluoedd, o lwyth Ruben, ac o lwyth Gad, ac o lwyth Zabulon [y rhoddaſant] drwy goel-bren ddeuddec o ddinaſoedd.

64 A meibion Iſrael a roddaſant i'r Lefiaid y dinaſoedd, ai meuſydd pentrefol.

65 A roddaſant drwy goel-bren, o lwyth meibion Juda, ac o lwyth meibion Simeon, ac o lwyth meibion Beniamin, y dinaſoedd hyn y rhai a alwaſant hwy ar [eu] henwau hwynt.

66 [I'r rhai oeddynt] o deuluoedd meibion Cehath yr ydoedd dinaſoedd eu terfyn o lwyth Ephraim.

Ioſua 21.21. 67 A hwy a roddaſant iddynt hwy *ddinaſoedd noddfa, ſef Sichem, ai meuſydd pentrefol, ym mynydd Ephraim: Gaſer hefyd ai meuſydd pentrefol.

68 Jocmeam hefyd ai meuſydd pentrefol, a Bethoron ai meuſydd pentrefol.

69 Felly Aialon ai meuſydd pentrefol, Gethrimmon hefyd ai meuſydd pentrefol.

70 Ac o hanner llwyth Manaſſes, Aner, ai meuſydd pentrefol, a Bileam ai meuſydd pentrefol i deulu y rhai oeddynt yng-weddill o feibion Cehath.

71 I feibion Gerſom o deulu hanner llwyth Manaſſes [y rhoddwyd] Golan yn Baſan ai meuſydd pentrefol: Aſtaroth hefyd ai meuſydd pentrefol.

72 Ac o lwyth Iſſachar, Cedes ai meuſydd pentrefol, a Dabrah ai meuſydd pentrefol.

73 Ramoth hefyd ai meuſydd pentrefol, ac Anem ai meuſydd pentrefol.

74 Ac o lwyth Aſer, Maſal ai meuſydd pentrefol, ac Abdon ai meuſydd pentrefol.

75 Hucoc hefyd ai meuſydd pentrefol: a Rehob ai meuſydd pentrefol.

76 Ac o lwyth Nephthali, Cedes yn Galilea ai meuſydd pentrefol, Hammon hefyd ai meuſydd pentrefol, a Chiriathaim ai meuſydd pentrefol.

77 I'r rhan arall o feibion Merari [y rhoddwyd o lwyth Zabulon, Rimmon ai meuſydd pentrefol, a Thabor ai meuſydd pentrefol.

Ioſua 20.8. & 21.36. 78 Ac am yr Jorddonen *ag Jericho [ſef] o du dwyrain yr Jorddonen, [y rhoddwyd] o lwyth Ruben, Bezer yn yr anialwch ai meuſydd pentrefol, Jahzah hefyd, ai meuſydd pentrefol.

79 Cedmoth hefyd ai meuſydd pentrefol, a Mephaath ai meuſydd pentrefol.

80 Ac o lwyth Gad, Ramoth yn Gilead, ai meuſydd pentrefol, Mahanaim hefyd, ai meuſydd pentrefol.

81 Heſbon hefyd ai meuſydd pentrefol, a Jazer, ai meuſydd pentrefol.

## PEN. VII.

1 Hiliogaeth, Iſſachar, Beniamin, Nephthali. 14 Manaſſes. 20 Ephraim. 30 ac Aſer.

AC am feibion Iſſachar pedwar [oeddynt] Tola, a Phua, Jaſub, a Simron.

2 A meibion Tola, Uzzi, a Rephaia, ac Jeriel, ac Jamai, ac Jebſam, a Semuel pennacthiaid ar dŷ eu tadau: o Tola ['r ydoedd] gwŷr cedyrn [o] nerth yn eu cenhedlaethau: eu *rhîf yn nyddiau Dafydd [oedd] ddwy fil ar hugain, a chwe chant. 2.Sam.24.1.

3 A meibion Uzzi, Jezrahia: a meibion Jezrahia, Michael, ac Obadia, ac Joel, [ac] Jeſia pump yn bennaethiaid oll.

4 A chyd a hwynt yn eu cenhedlaethau [ac] yn ôl tŷ eu tadau [yr ydoedd] byddinoedd llu ryfel o un mil ar bymthec ar hugain: canys llawer oedd ganddynt o wraged, a meibion.

5 Ai brodyr cedyrn [o] nerth o holl deuluoedd Iſſachar a roddaſant eu rhifedi wrth eu hachau yn ſaith mil a phedwar ugain [mil] oll.

6 [A meibion] Beniamin [oeddynt] dri: Bela, a Becher, ac Jediel.

7 A meibion Bela, Eſbon, ac Uzzi, ac Uzziel, ac Jerimoth, ac Iri: pumb o bennau tŷ eu cenedl cedyrn [o] nerth, a rhoddaſant eu rhifedi wrth eu hachau yn ddwy fil ar hugain, a phedwar ar ddec ar hugain.

8 A meibion Becher [oeddynt] Zemira, ac Joas, ac Eliezer, ac Elionai, ac Omri, ac Jerimoth, ac Abia, ac Anathoth, ac Alamath: y rhai hyn oll [oeddynt] feibion Becher.

9 A hwynt a rifwyd yn ôl eu cenhedlaethau yn bennau eu cenedl cedyrn [o] nerth yn ugain mil a dau cant.

10 A meibion Jediel, Bilhan: a meibion Bilhan, Jeus, a Beniamin, ac Ehud, a Chanaana, a Zethan, a Tharſis, ac Ahiſahar.

11 Y rhai hyn oll [oeddynt] feibion Jediel yn bennau cenedl cedyrn o nerth, yn myned a-

llan mewn llu i ryfel, yn ddwy fil ar bymthec, a deu-cant.

12 Suppim hefyd, a Huppim [oeddynt] feibion Ir: Huſim [oedd] fab Aher.

13 Meibion Nephthali [oeddynt] Jahziel, a Guni, ac Jezer, a Salum, meibion Bilha.

14 Meibion Manaſſes: Azriel yr hwn a ymddug ei [wraig:] ei ordder-wraig o Syria a ymddug Machir * tâd Gilead.

Gen.46.24.

15 A Machir a gymmerodd wraig gā Huppim, a Suppim, ac henw eu chwaer hwynt [oedd] Maacha, ac enw 'r ail [mâb] Zalphaad: ac i Zalphaad yr oedd merched.

16 A Maacha gwraig Machir a ymddug fab, a hi a alwodd ei enw ef Pherez, ac enw ei frawd ef Seres, ai feibion ef [oeddynt] Ulam, a Recem.

17 A meibion Ulam, Bedan: dymma feibion Gilead fab Machir, fab Manaſſes.

18 A Molecath ei chwaer ef a ymddug Jeſhod, ac Abieſer, a Mahelah.

19 A meibion Semida oeddynt Ahian, a Sichem, a Lichi, ac Aniham.

20 A meibion Ephraim, Suthelah, a Bered ei fab ef, a Thahath ei fab yntef, ac Elodah ei fab yntef, a Thahath ei fab yntef,

21 A Sabad ei fab yntef, a Suthelah ei fab yntef, ac Eſer, ac Elead: a dynion Gath y rhai a anwyd yn y tir ai lladdodd hwynt, o herwydd deſcyn o honynt i ddwyn eu hanifeiliaid hwynt.

22 Ac Ephraim eu tâd a alarodd ddyddiau lawer: ai frodyr ef a ddaethant iw gyſſuro ef.

23 A phan aeth efe at ei wraig, hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar fab: ac efe alwodd ei enw ef Beria am ei fod mewn dryg-fyd am ei dŷ [lwyth.]

24 Seera hefyd [oedd] ei ferch ef, a hi a adailadodd Beth-horon yr iſſaf, a'r uchaf hefyd, ac Uzen Seera.

25 A Rapha [oedd] ei fab ef, a Reſeph, a Thelah ei fab yntef, a Thahan ei fab yntef.

26 Ladan ei fab yntef, Amihud ei fab yntef, Eliſama ei fab yntef.

27 Nun ei fab yntef, [ac] Joſuah ei fab yntef.

28 Eu meddiant, ai cyfanneddau [oeddynt] Bethel ai phen-trefydd: ac o du dwyrain Naaran, ac i du 'r gorllewyn i Gazer, ai phen-trefydd hefyd: a Sechem ai phen-trefydd, Adaia ai phentrefydd.

29 Ac ar derfynau meibion Manaſſes, Bethſean ai phentrefi, Thaamach ai phentrefi, Megido ai phentrefi, Dor ai phentrefi: meibion Joſeph mab Iſrael a drigaſant yn y rhai hyn.

30 Meibion Aſer [oeddynt] Jimna, ac Jeſua, ac Iſu, a Beria, a Serah eu chwaer hwynt.

31 A meibion Beria, Heber, a Melchiel, hwn yw tâd Birſavith.

32 A Heber a genhedlodd Japhlet, a Somer, a Hotham, a Sua eu chwaer hwynt.

33 A meibion Japhlet, Paſac, a Bimhal, ac Aſuah: dymma feibion Japhlet.

34 A meibion Semer Ahi, a Rohga, Jehuba, ac Aram.

35 A meibion Helem ei frawd ef [oeddynt] Zophah, ac Jimna, a Seles, ac Amal.

36 Meibion Zophah, Suah, ac Harnepher, a Sual, a Beri, a Jimrah,

37 Bezer, a Hod, a Samma, a Silſa, ac Jethran, a Beera.

38 A meibion Jether: Jephun, Piſpa, ac Ara.

39 A meibion Ola, Areh, a Haniel, a Rezia.

40 Dymma holl feibion Aſer, pennau [eu] cenedl yn ddewis gwŷr o nerth yn bennau capteniaid, wedi eu cyfrif drwy eu hachau mewn byddyn i ryfel: rhif y dynion [oeddynt] chwe mil ar hugain.

## PEN. VIII.

Hiliogaeth Beniamin. 43 Ac achau Saul.

BEniamin hefyd a genhedlodd Bela ei gyntafanedic, Aſbel yn ail, ac Aharath yn drydydd.

2 Noah yn bedwerydd, a Raphah yn bummed.

3 A meibion oeddynt i Bela, [ſef] Adar, a Gera, ac Abihud.

4 Ac Abiſua, a Naaman, ac Ahoa.

5 A Gera, a Sephuphan, a Huram.

6 Dymma hefyd feibion Ehud, dymma hwyntau pennau cenedl preſſwylwŷr Geba, a hwy ai mudaſant hwynt i Manahath.

7 Naaman hefyd, ac Ahia, a Gera, efe ai caeth-gludodd hwynt, ac a genhedlodd Uzzia, ac Ahihud.

8 Cenhedlodd efe hefyd Saharaim yng wlâd Moab, gwedi iddo ollwng ymmaith Huſim, a Baarah ei wragedd.

9 Ac yntef a genhedlodd o Hodes ei wraig, Jobab, a Zibia, a Meſa, a Malcham.

10 Ac Jeus, a Sachia, a Mirma: dymma ei feibion ef, pennau cenhedloedd.

11 Ac o Huſim efe a genhedlodd Ahitub, ac Elpaal.

12 A meibion Elpaal [oeddynt] Eber, a Miſaham, a Samed: yr hwn a adailadodd Ono, a Lod ai phen-trefydd.

13 Beria hefyd, a Sema ([oeddynt] bennau cenhedloedd preſſwylwŷr Aialon: hwynt a ymlidiaſant drigolion Gath.)

14 Ahio hefyd, Saſac, ac Jerimoth.

15 Zebadia hefyd, ac Arad, ac Ader.

16 Michael hefyd, ac Iiſpa, ac Joah meibion Beria.

17 Zebadia hefyd, a Meſulam, a Hizeci, a Heber.

18 Iſmerai hefyd, ac Ieſliah, ac Iobab meibion Elpaël.

19 Iacim hefyd, a Zicri, a Zabdi.

20 Elienai hefyd, a Zilthai, ac Eliel.

21 Adaia hefyd, a Beraiah, a Zimreth, meibion Simhi.

22 Iiſpan hefyd, ac Eber, ac Eliel.

23 Abdon hefyd, a Zicri, a Hanan.

24 Hanania hefyd, ac Elam, ac Anthothia.

25 Iepdeia hefyd, a Phenuel, meibion Saſac.

26 Samſerai hefyd, a Seraiah, ac Athaliah.

27 Iereſiah hefyd, ac Elia, a Zicri meibion Ieroham.

28 Y rhai hyn oeddynt bennau cenedl [ſef] pennaethiaid ar eu cenhedlaethau, y rhai hyn a gyfanneddaſant yn Ieruſalem.

Pen.9.35. 29 Yn Gibeon hefyd y preſſwyliodd * Abi Gibeon, ac enw ei wraig ef [oedd] Maacah.

30 Ac Abdon ei fâb cyntaf-anedic ef, Zur hefyd, a Cis, a Baal, a Nadab.

31 Gedor hefyd, ac Ahio, a Zacher.

32 Micloth hefyd a genhedlodd Simea: y rhai hyn hefyd ar gyfer eu brodyr a breſſwyliaſant yn Ieruſalem gyd ai brodyr.

33 Ner hefyd a genhedlodd Cis, a Cis, a genhedlodd Saul, a Saul a genhedlodd Ionathan, a Malchiſuah, ac Aminadab, ac Eſbaal.

34 A mab Ionathan [oedd] Meribbal, a Meribbal a genhedlodd Micah.

35 A mebion Micah Pithon, a Melec, a Tharea, ac Ahaz.

36 Ac Ahaz a genhedlodd Iehoada, ac Iehoada a genhedlodd Alemeth, ac Azmafeth, a Zimri: a Zimri a genhedlodd Moza.

37 Moza a genhedlodd Binea: Rapha [oedd] ei fab ef, Eleaſa ei fab yntef, ac Azel ei fab yntef.

38 Ac i Azel [y bu] chwech o feibion, ac dymma eu henwau hwynt Aſcricam, Bocheru ac Iſmael, a Seariah ac Obadia, a Hanan, y rhai hyn oll [oeddynt] feibion Azel.

39 A meibion Ezec ei frawd ef [oeddynt] Ulam ei gyntaf-anedic ef, Iehus yr ail, ac Elipheleth y trydydd.

40 A meibion Ulam oeddynt ddynion cedyrn o nerth yn ſaethyddion, ac yn lluoſog o feibion ac o wyrion [ſef] cant, a dec a deugain: y rhai hyn oll [oeddynt] o feibion Beniamin.

## PEN. IX.

Am Iſrael, ac Iuda. 10 Yr offeiriaid a'r Leſiaid. 39 Ac am achau Saul.

AHoll Iſrael a ryſwyd wrth eu hachau, ac wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iſrael, ac Iuda: a hwy a gaeth-gludwyd i Babilon am eu camwedd.

2 Y trigolion cyntaf hefyd y rhai oeddynt yn eu etifeddiaeth eu hun [ac] yn eu dinaſoedd [ſef] yn Iſraeliaid, yn offeiriaid, yn Leſiaid, ac yn Nethiniaid.

3 Ac yn Ieruſalem y trigodd [rhai] o feibion Iuda, ac o feibion Beniamin, ac o feibion Ephraim, a Manaſſes.

4 Uthai mab Amihud, fab Omri, fab Imri, fab Bani o feibion Phares fab Iuda.

5 Ac o Siloni: Aſaia y cyntafanedic, ai feibion.

6 Ac o feibion Zerah ac Iehuel, ai brodyr chwe chant, a dêc a phedwar ugain.

7 Ac o feibion Beniamin: Salu mab Meſulam, fab Hodaſia, fab Haſenua.

8 Iibnea hefyd mab Ieroham, ac Ela mab Uzi, fab Michri: a Meſulam mab Sephatia, fab Rehuel, fab Ibnia.

9 Ai ceraint yn ôl eu teuluoedd: naw cant, dec a deugain, a chwech: y dynion hyn oll [oeddynt] bennau cenedl ar dŷ eu tadau.

10 Ac o'r offeiriaid, Iedaiah, ac Iehoiarib, ac Iachin.

11 Azaria hefyd mab Helcia, fab Meſulam fab Zadoc, fab Meraioth, fab Ahitub tywyſog tŷ Dduw.

12 Adaiah hefyd mab Ieroham, fab Phaſſur, fab Melcia: a Maaſia mab Adiel, fab Iehezrah, fab Meſulam, fab Meſilemith, fab Immer.

13 Ai ceraint pennaf ar dŷ eu tadau, yn fîl, a ſaith gant, a thrugain, gwŷr galluoc o nerth [i] waith gwaſanaeth tŷ Dduw.

14 Ac o'r Leſiaid, Semaia mab Haſub, fab Aſcricam, fab Haſabia o feibion Merari.

15 Bacbacer hefyd Heres, a Galal: Mathania mab Micha, fab Zicri, fab Aſaph.

16 Obadaia hefyd mâb Semeia, fab Galal, fab Ieduthum: a Berechia mab Aſa, fab Elcana, yr hwn a drigodd yn-nhrefydd y Netophathiaid.

17 Y porthorion hefyd [oeddynt] Salum, ac Accub, a Talmon, ac Ahiman, ai brodyr: Salum [ydoedd] bennaf.

18 Ac hyd yn hyn ym-mhorth y brenin o du 'r dwyrain y rhai hyn o werſſylloedd meibion Leſi [oeddynt] borthorion.

19 Salum hefyd mab Core, fab Ebiaſaph, fab Corah a'r Corathiaid ei geraint ef o dylwyth ei dâd oeddynt ar waith y weinidogaeth yn cadw pyrth y babell megis [y buaſe] eu tâd hwynt yng-werſſyll yr Arglwydd yn cadw y ddyfodfa i mewn.

20 Phinehes hefyd mab Eleazar a fuaſe dywyſog arnynt hwy o'r blaen: a'r Arglwydd [ydoedd] gyd ag ef.

21 Zecharia mab Meſelmia ydoedd borthor drws pabell y cyfarfod.

22 Hwynt oll y rhai a etholaſyd yn borthorion ar y rhinniogau [oeddynt] ddau cant, a deuddec: hwynt yn eu trefydd a rifwyd wrth eu hachau, goſodaſe Dafydd, a Samuel y gweledydd y rhai hynny yn eu ſwydd hwynt.

23 Felly y rhai hynny ai meibion [a ſafent]

“ wrth byrth tŷ 'r Arglwydd [ſef] tŷ y babell, iw
“ gadw ef mewn gwiliadwriaeth.
“ 24 Y porthorion oeddynt ar bedwar o fannau,
“ dwyrain, gorllewyn, gogledd, a'r dehau.
“ 25 Ai brodyr [a drigent] yn eu trefydd gan
“ ddyfod ar y ſeithfed diwrnod, o amſer, i amſer
“ gyd a hwynt.
“ 26 Canys tãn lywodraeth y pedwar porthor
“ cedyrn yr oedd y Leſiaid a'r ſtafelloedd hefyd,
“ ac ar dryſſorau tŷ Dduw 'r oeddynt hwy [yn
“ ſwyddogion.]
“ 27 Ac o amgylch tŷ Dduw y lletteuent hwy
“ canys arnynt hwy ['r ydoedd] yr oruchwiliaeth,
“ a hwy hefyd [oeddynt] iw agoryd o forau i forau.
“ 28 Ac o honynt hwy [yr oedd golygwŷr] ar
“ leſtri y wenidogaeth, o herwydd mewn rhif y
“ dygent hwynt i mewn, ac mewn rhif y dygent
“ hwynt allan.
“ 29 A [rhai] o honynt oeddynt wedi eu goſod
“ ar y lleſtri, ac ar holl ddodrefnau y cyſſegr:
“ ac ar y peillied, a'r gwin, a'r olew, a'r thûs, a'r
“ aroglau peraidd.
“ 30 [Rhai] hefyd o feibion yr offeiriaid oeddynt
“ yn gwneuthur ennaint o'r aroglau peraidd.
“ 31 A Mathathia [un] o'r Leſiaid (hwnnw
“ oedd gyntafanedic Salum y Corathiad) ydoedd
Exod.25.30. “ mewn ſwydd ar waith * y radell.
“ 32 Ac [eraill] o feibion y Cehathiaid [ſef]
“ oi ceraint hwynt [oeddynt ſwyddogion] ar y
“ bara goſod iw ddarparu bob Sabboth.
“ 33 A'r cantorion hyn pennau cenedl y Leſiaid
“ [oeddynt,] mewn ſtafelloedd yn yſcafala: o
“ herwydd [gorfod] arnynt ddydd, a nôs [aros]
“ yng-waith [y cyſſegr.]
“ 34 Dymma bennau cenedl y Leſiaid, pennau
“ drwy eu cenedlaethau: hwynt a drigaſant
“ yn Ieruſalem.
Pen.8.29. “ 35 Ac yn Gibeon y trigodd * tâd Gibeon
“ Iehiel: a henw ei wraig ef [oedd] Maacha.
“ 36 Ai fab cyntaf-anedic ef [oedd] Abdon, yno
“ Zur, a Cis, a Baal, a Ner, a Nadab.
“ 37 Gedor hefyd, ac Ahio, a Zacharia, a Micloth.
“ 38 A Micloth a genhedlodd Simeam: a
“ hwynteau hefyd ar gyfer eu brodyr a drigaſant
“ yn Ieruſalem gyd ai brodyr.
1.Sa.14.51. “ 39 Ner * hefyd a genhedlodd Cis, a Chis a
Pen.8.33. “ genhedlodd Saul, a Saul a genhedlodd Ionathan
“ a Malchiſua, ac Abinadab, ac Eſbaal.
2.Sam.9.6. “ 40 A mab Ionathan [oedd] * Meribbal, a
“ Meribbal a genhedlodd Micah.
“ 41 A meibion Micah [oeddynt] Pithon, a
“ Melech, a Thahrea.
“ 42 Ac Ahaz a genhedlodd Iahra, o Iahra, a
“ genhedlodd Alameth, ac Aſmafeth, a Zimri:
“ Zimri hefyd a genhedlodd Moza.
“ 43 Moza hefyd a genhedlodd Binea, Raphaia
“ [oedd] ei fab ef, Elaſa ei fab yntef, Azel
“ ei fab yntef.
“ 44 Ac i Azel [yr ydoedd] chwech o feibion,
“ ac dymma ei henwau hwynt: Azricam, Bochru, ac Iſmael, a Searia, ac Obadia, a Hanan, Dymma feibion Azel.

## PEN. X.

Marwolaeth Saul.

1.Sam.31.1. AR Philiſtiaid a ryfelaſant yn erbyn Iſrael, a ffoawdd gwŷr Iſrael o flaen y Philiſtiaid, a hwynt a gwympaſant yn archolledic ym mynydd Gilboa.

2 A'r Philiſtiaid a erlidiaſant ar ôl Saul, ac ar ôl ei feibion ef: a'r Philiſtiaid a laddaſant Ionathan, ac Abinadab, a Malchiſua meibion Saul.

3 A'r rhyfel a drwmhaodd yn erbyn Saul, a'r perchen bwâu ai cawſant ef, ac efe a archollwyd gan y ſaethyddion.

4 Yna y dywedodd Saul wrth arweinudd ei arfau ef, tynn dy gleddyf, a gwâna fi ag ef, rhac dyfod y dienwaededigion hyn, a'm gwatwar i: ond arweinudd ei arfau ef nid oedd fodlō, canys ofnodd yn ddirfawr: yna y cymmerth Saul y cleddyf, ac a ſyrthiodd arno ef.

5 Pan welodd arweinudd ei arfau ef, farw o Saul: yna y ſyrthiodd yntef hefyd ar y cleddyf, ac a fu farw.

6 Felly y bu farw Saul ai dri mâb ef, ai holl dŷ-lwyth a fuant feirw yng-hyd ag ef.

7 Pan welodd holl wŷr Iſrael y rhai [oeddynt] yn y dyffryn fel y ffoaſent hwy, ac fel y buaſe marw Saul, ai feibion: yna hwy a ymadawſant oi dinaſoedd, ac a ffoaſant: a'r Philiſtiaid a ddaethant, ac a drigaſant ynddynt hwy.

8 A thrannoeth pan ddaeth y Philiſtiaid i ddioſc y lladdedigion, a chael o honynt hwy Saul, ai feibion yn feirw ym mynydd Gilboa,

9 Pan ddioſcwyd ef yna y cymmeraſant ei benn ef, ai arfau, ac ai hanfonaſant i wlâd y Philiſtiaid o amgylch i ddangos iw delwau, ac i'r bobl.

10 A hwy a oſodaſant ei arfau ef yn-nhŷ eu duwiau hwynt: ai bengloc a grogaſant hwy yn-nhŷ Dagon.

11 Pan glybu holl Iabes Gilead yr hyn oll a wnaethe y Philiſtiaid i Saul,

12 Yna pob gŵr nerthol a godaſant, ac a gymmeraſant gorph Saul, a chyrph ei feibion ef, ac ai dugaſant i Iabes, ac a gladdaſant eu heſcyrn hwynt dann y dderwen yn Iabes, ac a ymprydiaſant ſaith niwrnod.

1.Sam.15.23. 13 Felly y bu farw Saul am ei gamwedd yr hwn a wnaethe efe yn erbyn yr Arglwydd, [ſef] yn erbyn gair yr Arglwydd yr hwn ni chadwaſe efe, ac am iddo geiſio ymgynghori a dewines.

14 Ac heb ymgynghori a'r Arglwydd, am hyn y lladdodd ef, ac y trôdd y frenhinaeth i Ddafydd fab Iſai. 1.Sam.28.6.

## PEN. XI.

3 Eneiniad Dafydd yn frenin yn lle Saul. 5 Y Iebuſiaid yn gwrthwynebu Dafydd. 6 Yr achos y gwnaed Ioab yn benn capten i Ddafydd. 10 Y gwyr cadarnaf, a glewaf o'r eiddo Dafydd.

2.Sam.16.13. YNa holl Iſrael a ymgaſclaſant at Ddafydd i Hebron gan ddywedyd: wele dy aſcwrn,

cwrn, a'th gnawd ti ydym ni.

2 Doe hefyd, ac echdoe, pan ydoedd Saul yn frenin ti a oeddyt yn dwyn Iſrael i mewn, ac allan, a dywedodd yr Arglwydd dy Dduw wrthit: ti a borthi fy mhobl Iſrael, a thi a fyddi dywyſog ar fy mhobl Iſrael.

3 A holl henuriaid Iſrael a ddaethant at y brenin i Hebron, a Dafydd a wnaeth gyfammod a hwynt yn Hebron ger bron yr Arglwydd: a hwynt a eneiniaſant Ddafydd yn frenin ar Iſrael, * yn ôl gair yr Arglwydd drwy law Samuel.

1.Sam.16.13.

4 Yna 'r aeth Dafydd a holl Iſrael i Jeruſalem, hon [yw] Jebus, ac yno yr Jebuſiaid [oeddynt] drigolion y tîr.

5 A thrigolion Jebus a ddywedaſant wrth Ddafydd, ni ddeui i mewn ymma: yna 'r ennillodd Dafydd dŵr Sion yr hwn [yw] dinas Dafydd.

1.Sam.5.8.

6 A dywedodd Dafydd,* pwy bynnac a darawo y Jebuſiaid yn gyntaf, efe a fydd yn bennaf, ac yn dywyſog: yna 'r eſcynnod Joab mab Serfia yn gyntaf, ac efe a wnaethbwyd yn dywyſog.

7 A thrigodd Dafydd yn y tŵr: o herwydd hynny y galwant ef dinas Dafydd.

2.Sam.5.9.

8 Ac * efe a adailadodd y ddinas oddi amgylch oddi wrth Milo yn amgylch ogylch: ac Joab a adnewyddodd y rhan arall i'r ddinas.

9 A Dafydd a lwyddodd, ac a gynnyddodd, ac Arglwydd y lluoedd [oedd] gyd ag ef.

2.Sam.23.8.

10 Dymma hefyd bennaethiaid y cedyrn, y rhai oeddynt gan Ddafydd yn ymgryfhau gyd ag ef yn ei deyrnas, gyd a holl Iſrael i'w wneuthur ef yn frenin ar Iſrael yn ôl gair yr Arglwydd.

2.Sam.23.8.

11 Ac dymma rîf y cedyrn, y rhai [oeddynt] gan Ddafydd: Joſobeam mab Hachmoni, pennaeth ar ddêc ar hugain: hwn a dderchafodd ei waiw-ffon ar dry-chant y rhai a archollwyd ar un-waith.

12 Ac ar ei ôl ef Eleazar mab Dodo, yr Ahothiad, hwn [oedd] [un] o'r trî cedyrn.

13 Hwn oedd gyd a Dafydd yn Phaſdammim, a'r Philiſtiaid a ymgynnullaſant yno i ryfel: ac yr ydoedd rhan o'r maes yn llawn haidd, a'r bobl a ffoaſant o flaen y Philiſtiaid.

14 Yna [y rhai hyn] a ſafaſant yng-hanol y rhann dir [honno,] ac ai hachubaſant hi, ac a darawſant y Philiſtiaid: felly y gwaredodd yr Arglwydd [ei bobl] ag ymwared mawr.

15 A thri o'r dêc pennaeth ar hugain a ddeſcynnaſant i'r graig at Ddafydd i ogof Adulam: a gwerſyll y Philiſtiaid oedd yn gwerſyllu yn nyffryn Rephaim.

16 A Dafydd yna [ydoedd] mewn amddeffynfa, a ſefyllfa y Philiſtiaid yna [oedd] yn Bethlehem.

2.Sam.23.15.

17 Yna y blyſſiodd Dafydd, ac y dywedodd, ô pwy a rydd i mi ddiod ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn [ſydd] yn y porth?

18 A'r tri a ruthraſant i werſyll y Philiſtiaid, ac a dynnaſant ddwfr o bydew Bethlehem, yr hwn [oedd] o yn y porth: ac [ai] cymmeraſant, ac [ai] dygaſant at Ddafydd, ac ni fynne Dafydd ei yfed ef, onid efe ai diod-offrymmodd ef i'r Arglwydd.

19 Ac efe a ddywedodd, na atto Duw i mi wneuthur hyn, ai gwaed y dynion hyn a yfwn i, yng-hyd ai henioes? o herwydd mewn [enbydrwydd am] eu henioes y dugaſant ef: am hynny ni fynne efe ei yfed ef: y tri cedyrn a wnaethant hynn.

20 Ac Abiſai brawd Joab oedd bennaf [o'r] tri, a hwn a eſcydwodd ei waiw-ffon ar dry-chant, [ac ai] lladdodd [hwynt]: ac iddo ef [y bu] enw ym mhlith y tri.

2.Sam.23.19.

21 O'r tri anrhydeddusach na'r ddau [eraill] a thywyſog iddynt oedd efe: ond ni ddaeth efe hyd y tri [cyntaf.]

22 Banaia mab Jehoiadah mab gŵr grymmus o Cabzel, mawr [ei] weithredoedd: efe a laddodd ddau o gedyrn Moab, ac efe a ddeſcynnodd, ac a laddodd lew o fewn y pydew yn amſer yr eira.

23 Ac efe a laddodd Aipht-ddyn, gŵr pumb cufydd o feſur, ac yn llaw 'r Aipht-ddyn [yr oedd] gwaiw-ffon megis carfan gwehyddion, ac yntef a aeth i wared atto ef a gwialen, ac efe a gippiodd y waiw-ffon o law 'r Aipht-ddyn, ac ai lladdodd ef ai waiw-ffon ei hun.

24 Hynn a wnaeth Banaia mab Jehoiadah, ac iddo [y bu] enw ym mhlith y tri cedyrn.

2.Sam.23.23.

25 Wele anrhydeddus [oedd] efe ym myſc y dêc ar hugain [hynny,] ond at y tri [cyntaf] ni ddaeth efe: etto goſododd Dafydd ef yn ei gyngor.

26 A chadarn nerthol [oedd] Aſahel brawd Joab, [ac] Elchanan mab Dodo o Bethlehem.

27 * Samoth yr Harodiad, Helez y * Peloniad.

2.Sam.23.25. 26.

28 Ira mab Icces y Thecoiad, Abieſer yr Anatothiad.

29 Sibcai 'r Huſathiad, Ilai 'r Ahohiad.

30 Mahari y Netophathiad, Heled mâb Baana y Netophathiad.

2.Sam.23.29.

31 Ithai mab Ribai o Gibea meibion Beniamin: Benaia y Pirathoniad.

32 * Hurai o afonydd Gaas, Abiel yr Arbathiad.

2.Sam.23.30.

33 Azmafeth y Baharumiad, Elihaba y Salaboniad.

34 Meibion Haſſem y Gezoniad, Jonathan mab Sageh, yr Harariad.

35 Ahiam mab Sacar yr Harariad, Eliphal mab Ur.

36 Hepher y Mecherathiad, Ahia y Peloniad.

37 Hezro y Carmeliad, Narai mab Ezbai.

38 Joel mab Nathan, Mibhar mab Hagari.

39 Zelec yr Amoniad, Naharai y Berothiad

clud-wr arfau Ioab mab Serfia.

40 Ira'r Iethriad, Gareb yr Iethriad.

41 Urias yr Hethiad, Zabad mab Ahlai.

42 Adina mâb Siſa y Rubeniad, pennaeth y Rubeniaid, a chyd ag ef ddêc ar hugain.

43 Hanan mab Maacah, ac Ioſaphat y Mathaniad.

44 Uzzia'r Aſtherathiad, Sama, ac Iehiel meibion Hothan yr Aroeriad.

45 Iediel mab Zimri, ac Ioha ei frawd ef y Thiſaiad.

46 Eliel y Mahaſiad, Ieribai hefyd, ac Ioſaia, meibion Elnaam: ac Ithma y Moabiad.

47 Eliel, ac Obed, ac Iaſiel y Moſobaid.

## PEN. XII.

Henwau y rhai a ddaethant at Ddafydd tra 'r ydoedd efe ar herwoddi wrth Saul.

AC dymma y rhai a ddaethant at Ddafydd i Ziclag, [ac] efe etto wedi caeu arno rhac Saul fab Cis: a hwynt [oeddynt] o gedyrn gynhal-wŷr y rhyfel.

Barnw.20.16. 2 Yn arfogion [o] fwâu yn ymdrech o ddehau ac o aſſwy a cherric, ac a ſaethau, mewn bwâu: o geraint Saul [ſef] o Beniamin.

3 Y pennaf [oedd] Ahiezer, yna Ioas, meibion Samaa y Gibeathiad, Ieziel hefyd, a Phelet meibion Aſmafeth: Beracah hefyd, ac Iehu yr Anathothiad.

4 Ac Iſmaia y Gibeionad grymmus [oedd efe] ym mhlith y dêc ar hugain, a goruwch y dêc ar hugain: Ieremiah hefyd ac Iehaziel, ac Iohanan, ac Ioſabad y Gederathiad.

5 Eluſai, ac Ierimoth, a Bealia, a Semaria, a Sephatia yr Haruphiad.

6 Elcana, ac Ieſia, ac Azariel, ac Ioezer, ac Ieſebeam y Corechiaid.

7 Ioela hefyd, a Zebadiah, meibion Ieroam o Gedor.

8 A [rhai] o'r Gadiaid a ymrannaſant at Ddafydd i amddeffynfa yr anialwch yn gedyrn o nerth, gwŷr milwraidd i ryfel yn trin tarian, a gwaiw-ffon, ac wynebau llewod [oedd] eu hwynebau hwynt, ac megis iwrchod ar y mynyddoedd o fuander [yr oeddynt hwy.]

9 Ezer y cyntaf, Obadia'r ail, Eliab y trydydd.

10 Miſmana y pedwerydd, Ieremia y pummed.

11 Attai y chweched, Eliel y ſeithfed.

12 Iohanan yr wythfed, Elſabad y nawfed.

13 Ieremia y decfed, Machanai'r unfed ar ddêc.

14 Y rhai hyn [oeddynt] o feibion Gad, yn gapteniaid y llû, yr un lleiaf [oedd] ar gant, a'r mwyaf ar fil.

Ioſua 3.15. Doeth.24.30. 15 Dymma hwynt y rhai a aethant tros yr Iorddonen yn y mîs cyntaf (ac hi wedi llifo tros ei holl dorlannau) ac a ymlidiaſant holl [drigolion] y dyffrynnoedd tua'r dwyrain, a thua'r gorllewyn.

16 A [rhai] o feibion Beniamin, ac Iuda a ddaethant i'r amddeffynfa at Ddafydd.

17 A Dafydd a aeth i'w cyfarfod hwynt, ac a lefarodd, ac a ddywedodd wrthynt hwy, os mewn heddwch y daethoch chwi attafi i'm cynhorthwyo, byddaf yn un galon a chwi: ond os i'm bradychu fi i'm gelynion heb fod camwedd yn fy-nwylaw, Duw ein tadau ni a edrycho, ac a geryddo.

18 Yna'r hyderodd Amaſia pennaeth y dêc ar hugain [ddywedyd:] eiddo ti Dafydd, a chyd a thi fab Iſai [y byddwn ni,] heddwch, heddwch i ti, ac hedd i'th gynhorthwy-wŷr, o herwydd dy Dduw ſydd yn dy gymmorth di: yna Dafydd ai creſawodd hwynt, ac ai goſododd hwy yn bennaethiaid y fintei.

19 A [rhai] o Manaſſes a droaſant at Ddafydd, pan ddaeth efe gyd a'r Philiſtiaid yn erbyn Saul i ryfel, ond ni chynnorthwyaſant hwynt: canys pennaduriaid y Philiſtiaid mewn bwriad ai gollyngaſant ef gan ddywedyd, *efe a ſyrth gyd ai feiſtr Saul am ein pennau ni. 1.Sam.29.4.

20 Fel yr oedd efe yn myned i Ziclag, trôdd attaw ef o Manaſſes, Adna, ac Iozabad, ac Iediel, a Micael, ac Iozabad, ac Elihu, a Zilthai y rhai [oeddynt] bennaethiaid y miloedd yn Manaſſes.

21 A'r rhai hyn a gynnorthwyaſant Ddafydd yn erbyn y fintei, canys cedyrn o nerth oeddynt hwy oll, a chapteniaid ar y llû.

22 Canys rhai a ddaethant at Ddafydd beunydd y pryd [hynny] i'w gynhorthwyo ef, hyd onid [oedd efe] yn lu mawr, megis llu Dduw.

23 Ac dymma rifedi y pennaethiaid y rhai yn arfogion i ryfel a ddaethant at Ddafydd i Hebron: i droi brenhiniaeth Saul atto ef, yn ôl gair yr Arglwydd.

24 [O] feibion Iuda yn dwyn tarian, a ffon-waiw chwe mil, ac wŷth gant, yn arfog i ryfel.

25 O feibion Simeon yn gedyrn nerthol i ryfel ſaith mil a chant.

26 O feibion Lefi pedair mîl, a chwe chant.

27 Ac Iehoiada ydoedd dywyſog ar yr Aaroniaid, a chyd ag ef dair mîl, a ſaith gant.

28 Zadoc hefyd llangc grymmus nerthol, ac o dŷ ei dâd ef dau ar hugain o gapteniaid.

29 Ac o feibion Beniamin brodyr Saul tair mîl: canys hyd yn hyn llawer o honynt oeddynt yn dilyn tŷ Saul.

30 Ac o feibion Ephraim ugain mîl, ac wŷth gant, yn rymmus nerthol, yn wŷr enwoc yn nhŷ eu tadau hwynt.

31 Ac o hanner llwyth Manaſſes tair mil ar bymthec, y rhai a ddewiſaſid erbyn [eu] henwau i ddyfod i wneuthur Dafydd yn frenin.

32 Ac o feibion Iſſachar y rhai a fedrent ddeall yr amſeroedd i wybod beth a ddyle Iſrael ei wneuthur: eu pennaethiaid hwynt [oeddynt] ddau-cant, ai holl frodyr wrth eu gorchymyn hwynt.

33 Deng mil a deugain oeddynt yn myned

allan o Zabulon [mewn] byddin yn medru rhyfela a phob arfau rhyfel, a byddino yn ffyddlon.

34 O Nephthali hefyd mîl [o] dywyſogion [a ddaethant] a chyd a hwynt mewn tarian, a gwaiw-ffon ddwy fîl ar bymthec ar hugain.

35 O'r Daniaid hefyd wyth mîl ar hugain, a chwe chant yn medru rhyfela.

36 Ac o Aſer yr oedd deugain mil yn myned allan mewn byddyn i oſod rhyfel.

37 Ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen, o'r Rubeniaid, ac o'r Gadiaid, ac o hanner llwyth Manaſſes [y daeth] chwech vgain mil mewn pob rhyw arfau cymmwys i ryfel.

38 Yr holl ryfel-wŷr hyn y rhai oeddynt fyddinwŷr câd a ddaethant mewn calon berffaith i Hebron i wneuthur Dafydd yn frenin ar holl Iſrael: a'r rhann arall o Iſrael [oeddynt] hefyd yn vn feddwl i wneuthur Dafydd yn frenin.

39 A hwy a fuant yno gyd a Dafydd dri diau yn bwytta ac yn yfed: canys eu brodyr a arlwyaſent iddynt hwy.

40 A hefyd y rhai oeddynt neſaf atynt hwy hyd Iſſachar, a Zabulon, a Nephthali a ddugaſant fara ar aſſynnod, ac ar gamelod, ac ar fulod, ac ar ŷchen: yn fwyd, yn flawd, yn ffigus, ac yn reſingau, ac yn wîn, ac yn olew, ac yn warthec, ac yn ddefaid mewn amldra: o herwydd llawenydd [ydoedd] yn Iſrael.

## PEN. XIII.

Dygiaid yr Arch o Ciriath-Iearim i Ieruſalem. 9 Vzza yn marw o herwydd cyffwrdd a'r Arch.

YNa'r ymgynghorodd Dafydd a chapteniaid y miloedd, a'r cantoedd, ac a'r holl dywyſogion.

2 A Dafydd a ddywedodd wrth holl gynnulleidfa Iſrael, os da gennwch chwi, a [bod hynn] o'r Arglwydd ein Duw, ni a rannwn, [ac] a ddanfonwn at ein brodyr, y rhai a weddillwyd drwy holl diroedd Iſrael, a chyd a hwynt [at] yr offeiriaid, a'r Lefiaid o fewn dinaſoedd eu meuſydd pentrefol hwynt, iw cynnûll hwynt attom ni.

3 Ac ni a ddygwn trachefn Arch ein Duw attom ni, canys nid ymofynnaſom a hi yn nyddiau Saul.

4 A'r holl dyrfa a ddywedaſant am wneuthur felly: canys iawn [oedd] y peth yng-olwg yr holl bobl.

5 Felly y caſclodd Dafydd holl Iſrael, o Sihor yr Aipht hyd y ffordd y delir i Hemath: i ddwyn Arch Duw o Ciriath-Iearim.

6 Yna'r aeth Dafydd, a holl Iſrael i Bahalath, o fewn Ciriath-Iearim yr hon [ſydd] yn Iuda i ddwyn oddi yno Arch yr Arglwydd Dduw, yr hwn ſydd yn preſſwylio rhwng y Cerubiaid lle y gelwir ar ei enw ef.

7 A hwy a oſodaſant Arch Dduw ar fenn newydd o dŷ Abinadab, ac Vzza, ac Ahio oeddynt yn gyrru y fenn.

8 Yna Dafydd a holl Iſrael a ymlawenychaſant o flaen [Arch] Dduw, ai holl nerth, ac a chaniadau, ac a thelynau, ac a nablau, ac a thympanau, ac a ſymbalau, ac ag vdcyrn.

9 A phan ddaethant hwy hyd lawr dyrnu *Cidon, yna Vzza a eſtynnodd ei law i ddala yr Arch canys yr ŷchen a ledpeiaſent. 2.Sam.6.6.

10 Ac enynnodd llid yr Arglwydd yn erbyn Vzza, ac ai lladdodd ef: o blegit iddo eſtyn ei law ar yr Arch, ac yno y bu efe farw ger bron Duw.

11 A bu ddrwg gan Ddafydd am i'r Arglwydd rwygo rhwygiad yn Vzza, ac efe a alwodd y lle hwnnw Perets Vzza hyd y dydd hwn.

12 A Dafydd a ofnodd Dduw y dydd hwnnw gã ddywedyd: pa fodd y dygaf Arch Dduw i mewn attafi?

13 Ac ni ddûg Dafydd yr Arch atto ef ei hun i ddinas Dafydd, ond efe ai cludodd hi i dŷ Obed Edom y Gethiad.

14 Ac Arch Dduw a arhoſodd gyd a theulu Obed Edom, yn ei dŷ ef dri mîs: a'r Arglwydd a fendithiodd dŷ Obed Edom, a'r hyn oll [ydoedd] eiddo ef.

## PEN. XIIII.

Hiram yn anfon i Ddafydd goed, a ſeiri. 4 Plant Dafydd. 8 Dafydd trwy gyngor Duw yn rhyfela yn erbyn y Philiſtiaid: ac yn eu gorchfygu hwynt.

AHiram brenin Tyrus a anfonodd gennadau at Ddafydd, a choed cedr, a ſeiri meini, a ſeiri prennau i adailadu iddo ef dŷ. 2.Sam.5.11.

2 Am hynny y gwybu Dafydd gadarnhau o'r Arglwydd ef yn frenin ar Iſrael, a derchafu o honaw ef yn vchel ei frenhiniaeth ef er mwyn Iſrael ei bobl.

3 A chymmerth Dafydd wragedd yn chwanec yn Ieruſalem: cenhedlodd Dafydd hefyd feibion yn chwanec a merched.

4 Ac Dymma henwau y plant y rhai oeddynt iddo ef yn Ieruſalem, Samua, a Sobab, Nathana, a Salomon.

5 Ibehar hefyd, ac Eliſua, ac Elpalel.

6 Noga hefyd, a Nephec, ac Iaphia.

7 Eliſama hefyd, a Beeliada, ac Eliphalet.

8 Pan glybu y Philiſtiaid fod Dafydd wedi ei eneinio yn frenin ar holl Iſrael, yna y Philiſtiaid oll a aethant i fynu i geiſio Dafydd, a chlybu Dafydd, ac efe a aeth allan yn eu herbyn hwynt.

9 A'r Philiſtiaid a ddaethant, ac a ymwaſcaraſant yn nyffryn Rephaim.

10 A Dafydd a ymgynghorodd a Duw gan ddywedyd: a âfi i fynu yn erbyn y Philiſtiaid? ac a roddi di hwynt yn fy llaw i? a'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, cerdda i fynu, a mi ai rhoddaf hwynt yn dy law di.

11 Felly 'r aethant i fynu i Baal Perazim, a lladdodd Dafydd hwynt yno, a Dafydd a ddywedodd, Duw a rwygodd fyng-elynnion drwy fy llaw i fel rhwygo dyfroedd, am hynny y galwaſant hwy enw'r lle hwnnw Baal Perazim.

12 A phã adawſant hwy eu duwiau, yna y dy-

wedodd Dafydd am eu lloſci hwynt yn tân.

13 Ac eilwaith y Philiſtiaid a ddaethant trachefn, ac a ymwaſcaraſant yn y dyffryn.

2.Sam 5.23. 14 Yna eilwaith yr ymgynghorodd Dafydd a Duw, a Duw a ddywedodd wrtho ef, na ddos i fynu ar eu hôl hwynt, amgylcha [enyd] oddi wrthynt hwy, a thyret attynt hwy oddi ar gyfer y mor-wŷdd.

15 A phan glywech drwſt cerddediad ym-mrig y morwŷdd yna dos allan i ryfel canys y mae Duw yn myned o'th flaen di, i daro llu y Philiſtiaid.

16 A gwnaeth Dafydd megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd iddo ef, a hwy a darawſant lû y Philiſtiaid o Gibeon hyd Gazer.

17 A henw Dafydd a aeth drwy 'r holl diroedd, a'r Arglwydd a roddes ei arſwyd ef ar yr holl genhedloedd.

## PEN. XV.

Dafydd yn cyrchu 'r Arch. 4 Rhifedi, a threfn y Lefiaid. 16 Dafydd yn peri dewis cerddorion, a chantorion i ganu o flaen yr Arch. 29 Dafydd ei hun yn dawnſio oi blaen hi, ai wraig Michol yn ei ddirmygu ef am hynny.

AC wedi gwneuthur o honaw ef iddo dai yn ninas Dafydd, a pharatoi lle i Arch Duw, ac eſtyn o honaw ef iddi hi babell.

2 Yna Dafydd a ddywedodd, nid [gweddus neb] * i ddwyn Arch Duw onid y Lefiaid : canys hwynt a ddewiſodd yr Arglwydd i ddwyn Arch yr Arglwydd, ac i weini iddo ef yn dragywydd. Num.4.2.& 20

3 A chaſclodd Dafydd holl Iſrael i Ieruſalem, i gyrchu Arch yr Arglwydd iw lle 'r hwn a baratoaſe efe iddi hi.

4 Dafydd hefyd, a gynhullodd feibion Aaron, a'r Lefiaid.

5 O feibion Cehath, Uriel y tywyſog, a chant, ac ugain oi frodyr ef.

6 O feibion Merari, Aſaia y tywyſog, a dau cant, ac ugain oi frodyr ef.

7 O feibion Gerſom, Ioel y tywyſog, a chant, a deg ar hugain oi frodyr.

8 O feibion Elizaphan, Semaia y tywyſog, a dau cant oi frodyr.

9 O feibion Hebron, Eliel y tywyſog, a phedwar ugain oi frodyr.

10 O feibion Uziel, Aminadab y tywyſog, a chant, a deuddec oi frodyr.

11 Yna Dafydd a alwodd ar Zadoc, ac ar Abiathar yr offeiriaid, ac ar y Lefiaid, [ſef] ar Uriel, Aſaiah, ac Ioel, Semaia, ac Eliel, ac Aminadab.

12 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, chwi [ydych] bennau cenedl ym mhlith y Lefiaid : ymſancteiddiwch chwi a'ch brodyr, fel y cyrchoch Arch Arglwydd Duw Iſrael i'r [lle] a baratoais iddi hi.

Pen.13.10. 13 O herwydd * nad [oeddych] o'r dechreuad y rhwygodd yr Arglwydd ein Duw ni arnom ni: o blegit na cheiſiaſom ef yn ol y ddefod.

14 Felly yr offeiriaid, a'r Lefiaid a ymſancteiddiaſant i gyrchu Arch Arglwydd Dduw Iſrael.

15 A meibion y Lefiaid, a ddugaſant Arch Duw ar eu hyſcwyddau wrth droſolion, megis y gorchymynnodd Moſes, * yn ôl gair yr Arglwydd. Exod.25.15.

16 Dafydd hefyd a ddywedodd wrth dywyſogion y Lefiaid, ar iddynt oſod eu brodyr y cerddorion i leiſio ag offer cerdd [ſef] nablau, a thelynau, a Symbalau, gan dderchafu llêf mewn gorfoledd.

17 Yna y Lefiaid a oſodaſant Heman fab Ioel, ac oi frodyr ef Aſaph [fab] Berecia, ac o feibion Merari eu brodyr Ethan fab Cuſaiahu.

18 A chyd a hwynt eu brodyr o'r ail rádd Zacharia, Ben, ac Iaziel, Semiramoth hefyd, ac Iehiel, ac Unni, Eliab, a Benaiahu, Maaſia hefyd a Mathathiahu, Eliphalehu hefyd, a Micniahu, Obed Edom hefyd, ac Iehiel y porthorion.

19 Felly Heman, Aſaph, ac Ethan y cerddorion [oeddynt] i leiſio a Symbalau prês.

20 Zacharia hefyd, ac Aziel, Semiramoth hefyd ac Iehiel, ac Unni, ac Eliab a Maaſiahu, a Benaiahu, [a ganent] nablau ar yr Alamoth.

21 Mathathiahu hefyd, ac Eliphalehu, a Micniahu, ac Obed Edom, ac Ieiel ac Azaiahu [oeddynt] i ragori, a thelynau ar y Sheminyth.

22 Cenaniahu hefyd oedd flaenor y Lefiaid mewn derchafiad [llais,] dyſce efe [eraill] i dderchafu, canys deallgar ydoedd efe.

23 Berechia hefyd, ac Elcana [oeddynt] borthorion ar yr Arch.

24 Sebaniahu hefyd, ac Iehoſaphat, Nathanael hefyd, ac Amaſai, a Zachariahu, a Benaiahu, ac Eliezer yr offeiriaid [oeddynt] yn lleiſio mewn udcyrn ger bron Arch Duw: Obed Edom hefyd, ac Iehia [oeddynt] borthorion ar yr Arch.

25 * Felly Dafydd, a henuriaid Iſrael, a thywyſogion y miloedd a aethant i gyrchu Arch cyfammod yr Arglwydd o dŷ Obed Edom mewn llawenydd : 2.Sam.6.12.

26 Ac am gynhorthwyo o Dduw y Lefiaid, y rhai oeddynt yn dwyn Arch cyfammod yr Arglwydd, hwynt a offrymmaſant ſaith o fuſtych, a ſaith o hyrddod.

27 A Dafydd oedd wedi ymwiſco mewn gwiſc liain, felly yr holl Lefiaid y rhai oeddynt yn dwyn yr Arch, a'r cerddorion : Cenaniahu hefyd tywyſog y gerdd, a'r cerddorion, ac am Ddafydd [yr oedd] * Ephod liain. 2.Sam.6.14.

28 A holl Iſrael a gyrchaſant Arch cyfammod yr Arglwydd ag udcaniad, a llais trwmpet ac udcyrn, a Symbalau hefyd yn lleiſio gyd ar nablau, a'r telynau.

29 Pan ydoedd Arch cyfammod yr Arglwydd yn dyfod i ddinas Dafydd : yna Michol merch Saul a edrychodd drwy 'r ffeneſtr, ac a ganfu Ddafydd y brenin yn dawnſio, ac yn ymlawenychu, a hi ai dirmygodd ef yn ei chalon.

## PEN. XVI.

1 Goſodiad yr Arch yn y babell. 4 Dafydd yn goſod Aſaph,ac eraill i weini yn y babell. 7 Dafydd yn gwneuthur Pſalm i Dduw. 37 Adroddiad ſwydd y Lefiaid.

2.Sam.6.17. Felly * y dugaſant hwy Arch Dduw i mewn,ac ai goſodaſāt hi yng-hanol y babell,yr hon a yſtynnaſe Dafydd iddi hi:a hwy a offrymmaſant offrymmau poeth, ac ebyrth hedd ger bron Duw.

2 Pan ddiweddodd Dafydd aberthu offrymmau poeth,ac ebyrth hedd: yna y bendithiodd efe y bobl yn enw yr Arglwydd.

3 Ac efe a rannodd i bôb un[o]Iſrael,yn wr, ac yn wraig dorth o fara,a golwyth,a choſtrelcd [o wîn.]

4 Ac efe a oſododd ger bron Arch 'r Arglwydd wenidogion o'r Lefiaid i goffau, ac i foliannu,ac i ogoneddu Arglwydd Dduw Iſrael.

5 Aſaph[oedd]bēnaf,ac yn ail iddo ef Zacharia,Ieiel,a Semiramoth, ac Iehiel, a Mathathia,ac Eliab,a Benaia,ac Obed Edom,ac Ieiel ag offer, nablau,a thelynau,ac Aſaph oedd yn lleiſio a Symbalau.

6 Benaia hefyd, ac Iahaziel yr offeiriaid [oeddynt] ag udcyrn yn waſtadol o flaen Arch cyfammod Duw.

7 Yna yn y dydd hwnnw y rhoddes Dafydd [y pſalm hon] yn gyntaf i foliannu yr Arglwydd drwy law Aſaph ai frodyr.

Pſal.105. Eſa.12.4. 8 Moliennwch yr Arglwydd, gelwch ar ei enw ef,hyſpyſwch ei weithredoedd ef i'r bobloedd.

9 Cenwch iddo, clodforwch ef, ymadroddwch am ei holl ryfeddodau,

10 Ymlawenychwch yn ei enw ſanctaidd ef: ymhyfryded calon y ſawl a geiſiāt 'r Arglwydd

11 Ymofynnwch [am] yr Arglwydd, ai nerth ef: ceiſiwch ei wyneb ef yn waſtadol.

12 Coffiwch ei wrthiau ef,y rhai a wnaeth efe, ei ryfeddodau,a barnedigaethau ei enau ef.

13 Hâd Iſrael ei wâs ef: meibion Iacob ei etholedigion ef:

14 Efe yw 'r Arglwydd ein Duw ni,ei farnedigaethau ef[ydynt]dros yr holl ddaiar.

15 Coffiwch yn dragywydd ei gyfammod ef,[ſef]y gair a orchymynnodd efe i fil o oeſoedd

Gene.22.16. luc.1.73. hebr.6.17. 16 Yr * hwn a gyfammododd efe ag Abraham,ai lŵ ef i Iſaac.

17 Ac a oſododd efe yn ddeddf i Iacob,[ac] yn gyfammod tragywyddol i Iſrael.

18 Gan ddywedyd,i ti y rhoddaf dir Canaan,rhandir eich etifeddiaeth.

19 Pan oeddych yn bobl anaml, ac yn ddieithriaid yno.

20 A phan rodient hwy o genhedlaeth i gēhedlaeth,ac o frenhiniaeth at bobl eraill.

21 Ni adawodd efe i neb eu gorthrymmu hwy: onid efe a geryddodd frenhinoedd oi plegit hwy[gan ddywedyd,]

22 Na chyffyrddwch am eneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.

Pſal 96.1. 23 *Cenwch i'r Arglwydd yr holl ddaiar mynegwch o ddydd i ddydd ei iechydwriaeth ef.

24 Adroddwch ei ogoniant ef ym mhlith y cenhedloedd,ai wrthiau hefyd ym-mhlith yr holl bobloedd.

25 Canys mawr[yw]'r Arglwydd, a clodforuſaf:ofnadwy hefyd yw efe uwch yr holl dduwiau.

26 O herwydd holl dduwiau y bobloedd [ydynt]eulynnod,onid yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.

27 Gogoniant a phrydferthwch[ſydd]ger ei fron ef, nerth a gorfoledd yn ei fangre ef.

28 Moeſwch i'r Arglwydd chwi deuluoedd y bobloedd, moeſwch i'r Arglwydd ogoniant, a nerth.

29 Moeſwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw ef: dygwch ebyrth,a deuwch ger ei fron ef:ymgrymmwch i'r Arglwydd ym mhrydferthwch ſanctaiddrwydd.

30 Dychrynwch rhagddo ef yr holl ddaiar, îe y byd a ſiccrhauir, fel na ſyflo.

31 Ymlawenyched y nefoedd, ac ymhyfryded y ddaiar, a dywedant ym mhlith y cenhedloedd,yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu.

32 Rhued y môr ai lawndra, llawenhaed y maes a'r hyn oll[y ſydd]ynddo.

33 Yna prennau y goedwig a ganant o flaen 'r Arglwydd,pan ddelo efe i farnu y ddaiar.

34 Moliannwch yr Arglwydd canys da yw efe:o herwydd ei drugaredd[ ſydd ]yn dragywydd.

35 A dywedwch,achub ni ô Dduw ein iechydwriaeth,caſcl ni hefyd , a gwaret ni oddi wrth y cenhedloedd,i foliannu dy enw ſanctaidd di,gan ymogoneddu yn dy foliant di.

36 Bendigedic[yw]Arglwydd Dduw Iſrael o dragywyddoldeb, hyd dragywyddoldeb: a dyweded yr holl bobl Amen: gan foliannu yr Arglwydd.

37 Ac efe a adawodd yno o flaen Arch cyfammod yr Arglwydd Aſaph ai frodyr, i weini ger bron yr Arch yn waſtadol y peth[oedd raid] dydd yn ei ddydd.

38 Ac Obed Edom, ſef Obed Edom mab Ieduthun,ac Hoſo,ac ŵyth a thri ugain oi brodyr hwynt oeddynt yn borthorion.

39 Zadoc hefyd yr offeiriad, ai frodyr ef yr offeiriaid oeddynt o flaen tabernacl yr Arglwydd, yn yr uchelfa yr hon[ydoedd]yn Gibeon,

40 I offrymmu poeth offrymmau 'r Arglwydd ar allor y poeth offrwm yn waſtadol y boreu a'r hwyr: yn ôl yr hyn oll a'r y'ſydd ſcrifennedic yng-hyfraith yr Arglwydd, yr hon a orchymynnodd efe i Iſrael.

41 A chyd a hwynt Heman,ac Ieduthun, a gweddill yr etholedigion, y rhai a ddewiſaſyd wrth[eu]henwau i foliannu yr Arglwydd: canys ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

42 A chyd a hwynt Heman,ac Ieduthun yn

lleiſio ag vdcyrn, ac a Symbalau, ac offer cerdd Duw: a meibion Ieduthun [oeddynt] wrth y porth.

43 Yna yr holl bobloedd a aethant, pob vn iw dŷ ei hun: a Dafydd a ddychwelodd i fendigo ei dŷ yntef.

### PEN. XVII.

Dafydd yn chwenychu adailadu ty i'r Arglwydd. 3 Duw yn gwahardd iddo ef hynny. 12. Addewid o Griſt. 18 Dafydd yn diolch i Dduw, ac yn gweddio.

2.Samuel. 7.1. A* Phan drigodd Dafydd yn ei dŷ, yna Dafydd a ddywedodd wrth Nathan y prophwyd: wele fi yn trigo mewn tŷ o cedr-wŷdd, ac Arch cyfammod yr Arglwydd tan gortynnau.

2 Yna Nathan a ddywedodd wrth Ddafydd, gwna 'r hyn oll [a fyddo] yn dy feddwl: canys [y mae] Duw gyd a thi.

3 A'r nôs honno y daeth gair Duw at Nathan, gan ddywedyd.

4 Dôs, a dywet wrth Ddafydd fyng-wâs, fel hyn y dywed yr Arglwydd: nid tydi a adailada i mi dŷ i breſswylo [ynddo].

5 Canys ni Phreſswyliais i mewn tŷ er y dydd yr hwn *yr arweiniais Iſrael [o'r Aipht] hyd y dydd hwn: ond bûm o babell i babell, ac o breſswylfod [i breſswylfod.] 2.Sam.7.6.

6 Ym mha[le] bynnac y rhodiais gyd ag holl Iſrael, a yngenais i air wrth vn o farnwŷr Iſrael i'r rhai y gorchymynnaſwn borthi fy mhobl, gan ddywedyd: pa ham nad adailadaſoch i mi dŷ o cedr-wŷdd?

7 Ac yr awr hon fel hyn y dywedi wrth Ddafydd fyng-wâs: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, myfi a'th gymmerais di o'r gorlan, oddiar ôl y praidd, i fod yn dywyſog ar fy mhobl Iſrael.

8 A bum gyd a thi ym mha le bynnac y rhodiaiſt, torrais ymmaith hefyd dy holl elynnion o'th flaen: a gwneuthum enw i ti megis enw y rhai mwyaf [a ydynt] yn y tîr.

9 Goſodaf hefyd i'm holl bobl Iſrael le, ac ai plannaf ef, fel yr arhoſo efe, yn ei le ei hun, ac ni ſymudir ef mwyach: a meibion anwiredd ni chwanegant ei gyſtuddio ef, megis yn y cyntaf.

2 Sam.7.11. 10 Sef er y dyddiau, pan orchymynnais farn-wŷr ar fy mhobl Iſrael. Canys daroſtyngais dy holl elynnion di, a mynegais i ti yr adailada yr Arglwydd i ti dŷ.

11 A bydd pan gyflawner dy ddyddiau di, i fyned gyd a'th dadau y cyfodaf dy hâd ar dy ôl di, yr hwn a fydd o'th feibion di: a mi a gadarnhaf ei deyrnas ef.

12 Efe a adailada i mi dŷ: a minne a gadarnhaf ei deyrn-gadair ef byth.

13 Myfi a fyddaf iddo ef yn dâd, ac yntef fydd i mi yn fâb, a'm trugaredd ni thynnaf oddi wrtho ef megis y tynnais oddi wrth yr hwn a fu o'th flaen di.

14 Ond mi ai goſodaf ef yn fy nhŷ, ac yn fy nheyrnas byth: ai deyrn-gadair ef a gadarnheuir byth.

15 Yn ôl yr holl eiriau hyn, ac yn ôl yr holl weledigaeth hon: felly y llefarodd Nathan wrth Ddafydd.

16 Yna y daeth Dafydd y brenin, ac a eiſteddodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd: pwy [ydwyf] fi ô Arglwydd Dduw? a phwy [yw] fy nhy-lwyth pan ddygit ti fi hyd ymma?

17 Etto *bychan [yw] hyn yn dy olwg di ô Dduw: am hynny y dywedaiſt am dŷ dy wâs dros hir o amſer: a thi a edrychaiſt arnaf (ô Arglwydd Dduw) fel ar ddyn rhagorol. 2.Sam.7.19.

18 Pa ham y chwanega Dafydd [ymofyn] a thi mwyach am anrhydedd dy wâs, canys ti a adwaenoſt dy wâs?

19 Oh Arglwydd er mwyn dy wâs, ac yn ôl dy feddwl y gwnaethoſt yr holl fawredd hyn, i ddangos pob mawrhydri.

20 Arglwydd nid [oes neb] fel tydi, ac nid [oes] Duw onid ti: yn ôl yr hyn oll a glywſom a'n cluſtiau.

21 A pha vn genedl [ſydd] yn y tir megis dy bobl Iſrael, yr hon yr aeth Duw iw gwaredu yn bobl iddo ei hun: gan oſod i ti enw mawr, ac ofnadwy, gan fwrw allan genhedloedd o flaen dy bobl, y rhai a waredaiſt ti o'r Aipht?

22 Ti hefyd a roddaiſt dy bobl Iſrael yn bobl i ti byth: a thi Arglwydd ydwyt iddynt hwy yn Dduw.

23 Am hynny yr awr hon Arglwydd, y gair yr hwn a leferaiſt am dy wâs, ac am ei dŷ ef, poed gwîr fyddo byth: gwna fel y lleferaiſt.

24 A phoed gwîr fyddo, fawrhau hefyd dy enw yn dragywydd, gan ddywedyd: Arglwydd y lluoedd, Duw Iſrael [ſydd] Dduw i Iſrael: a [bydded] tŷ Ddafydd dy wâs yn gadarn, ger dy fron di.

25 Canys ti ô fy Nuw a ddywedaiſt i'th wâs yr adailadit ti dŷ iddo ef: am hynny y caiff dy wâs weddio ger dy fron di.

26 Ac yr awran Arglwydd ti ydwyt Dduw: a thi a leferaiſt am dy wâs y daioni hwn.

27 Ac yn awr ti a ddechreuaiſt fendîgo tŷ dy wâs, i fod ger dy fron yn dragywydd: am i ti ô Arglwydd ei fendîgo, bendigedic [fydd efe] yn dragywydd.

### PEN. XVIII.

1 Rhyfel Dafydd yn erbyn y Philiſtiaid, 2 Moab. 3 Zoba, 5 Damaſcus, 12 Ac Edom.

A Darfu wedi hyn i Ddafydd daro y Philiſtiaid, ai daroſtwng hwynt: ac efe a ddug *Gath ai phentrefydd o law y Philiſtiaid. 2.Sam.8.1.

2 Hefyd efe a darawodd Moab, a'r Moabiaid a fuant weiſion i Ddafydd yn dwyn trêth.

3 Tarawodd Dafydd hefyd Hadarezar, brenin Zoba [yn] Hemath, pan oedd efe yn myned i oſod ei gryfdwr wrth afon Euphrates.

2.Sam.8.4. 4 A chymmerth Dafydd oddi wrtho ef *fil o gerbydau, a ſaith mil o farchogion, ac vgain mîl o wŷr traed, a thorrodd Dafydd linynnau garr [meirch] bôb cerbyd: ond efe a adawodd o honynt gant cerbyd.

5 Yna y daeth y Siriaid o Ddamaſcus i gynhorthwyo Hadarezar brenin Zoba: yna Dafydd a laddodd o'r Siriaid ddwy fil ar hugain o wŷr.

6 A goſododd Dafydd [ſwyddogion] ar y Siriaid o Ddamaſcus: a bu y Siriaid weiſion i Ddafydd yn dwyn trêth: a'r Arglwydd a waredodd Ddafydd ym mha le bynnac yr aeth.

7 Dafydd hefyd a gymmerodd dariannau aur y rhai oeddynt gan weiſion Hadarezar, ac ai dûg hwynt i Ieruſalem.

2.Bren.7.23. Ier.52.20. 8 Dûg Dafydd hefyd o Tebhath, ac o Chun, dinaſoedd Hadarezar lawer iawn o brês, â hwn y gwnaeth Salomon y * gerwyn brês, a'r colofnau, a'r lleſtri prês.

9 Pan glybu * Tohu brenin Hemath daro o Ddafydd holl nerth Hadarezar brenin Zoba,

2.Sam.8.9. 10 Yna efe a anfonodd at y brenin Dafydd *Hadoram ei fâb, a phob lleſtri aur, ac arian, a phrês i geiſio heddwch gandddo ef, ac iw fendithio ef, am iddo ryfela yn erbyn Hadarezar ai daro ef: canys rhyfelwr oedd Hadarezar [yn erbyn] Tohu.

11 Y rhai hynny hefyd a gyſſegrodd y brenin Dafyd i'r Arglwydd, gyd a'r arian, a'r aur, y rhai a ddygaſe efe oddi ar yr holl genhedloedd [ſef] oddi ar Edom, ac oddi ar Moab, ac oddi ar feibion Ammon, ac oddi ar y Philiſtiaid; ac oddi ar Amalec.

12 Ac Abiſai mab Serfia a laddodd o Edom yn nyffryn yr halen dair mîl ar bymthec.

13 Ac efe a oſododd bennaethiaid yn Edom, a'r holl Edomiaid a fuant weiſion i Ddafydd, a'r Arglwydd a gadwodd Ddafydd, ym mha le bynnac y rhodiodd efe.

14 A Dafydd a deyrnaſodd ar holl Iſrael, ac yr oedd efe yn gwneuthur barn, a chyfiawnder iw holl bobl.

15 Ac Ioab mab Serfia [oedd benn] ar y llu: ac Iehoſaphat mab Ahilud yn gofiadur.

2.Sam.8.17. 16 A Zadoc mab Ahitub, ac *Abimelec mab Abiathar [oeddynt] offeiriaid, a Sauſa yn ſcrifennudd.

17 Benaiahu hefyd mab Iehoiada [oedd] ar y Cretheiaid, a'r Pelethiaid: a meibion Dafydd [oeddynt] y rhai neſaf at law y brenin.

## PEN. XIX.

2 Dafydd yn anfon i ddiddanu Hanon brenin yr Ammoniaid yn ôl marwolaeth ei dâd ef. 4 Aniolchgarwch Hanon, ai draha yn erbyn cenadau Dafydd. 6 Rhyfel rhwng Dafydd a Hanon: yn yr hwn y gorchfygodd Dafydd.

2.Sam.10.1. AC yn ôl hyn y darfu i Nahas brenin meibion Ammon farw: ai fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

2 A Dafydd a ddywedodd, gwnaf garedigrwydd a Hanon fab Nahas, o herwydd gwnaeth ei dâd ef a'm fi garedigrwydd: ac anfonodd Dafydd gennadau iw gyſſuro ef am ei dâd: a gweiſion Dafydd a ddaethant i wlâd meibion Ammon at Hanon iw gyſſuro ef.

3 A thywyſogion meibion Ammon a ddywedaſant wrth Hanon, ai anrhydeddu dy dâd ti y mae Dafydd yn dy olwg di? am iddo anfon cyſſur-wŷr attat ti? onid i ſpio, ac i chwilio, i ac droedio y wlâd y daeth eu weiſion ef attat ti?

4 Yna y cymmerth Hanon weiſion Dafydd, ac ai heilliodd hwynt, ac a dorrodd eu dyllad hwynt yn eu hanner, wrth y glun: ac ai gollyngodd hwynt ymmaith.

5 Ac fe a aethpwyd, ac a fynegwyd i Ddafydd am y gwŷr, yna efe a anfonodd iw cyfarfod hwynt, canys y gwŷr oeddynt wedi cywilyddio yn fawr: a dywedodd y brenin, trigwch yn Iericho, hyd oni dyfo eich barfau chwi, yna dychwelwch.

6 Yna meibion Ammon a welſant mai brwnt y gwnaethent a Dafydd, ac anfonodd Hanon, a meibion Ammon fil o dalentau arian i gyflogi iddynt gerbydau, â marchogion, o Meſopotamia, ac* o Siria Maacha, ac o Zoba. 2.Sam.10.8.

7 A chyflogaſant iddynt ddeuddeng-mil ar hugain o gerbydau a brenin Maacha ai bobl: y rhai a ddaethant, ac a werſyllant o flaen Medeba, a meibion Ammon hefyd a ymgaſclaſant oi dinaſoedd, ac a ddaethant i'r rhyfel.

8 Pan glybu Dafydd, yna efe a anfonodd Ioab, a holl lu y cedyrn.

2.Sam.10.8. 9 A meibion Ammon a aethant, ac a ymfyddinaſant [wrth] borth y ddinas: a'r brenhinoedd y rhai a ddelſent [oeddynt] ar nailltu yn y maes.

10 Pan ganfu Ioab fod wyneb y rhyfel yn ei erbyn ef ym mlaen, ac yn ôl: yna yr etholodd efe oi holl etholedigion o fewn Iſrael, a hwy a ymdaclaſant yn erbyn y Siriaid.

11 A gweddill y bobl a roddes efe dan law Abiſai ei frawd: a hwy a ymfyddinaſant yn erbyn meibion Ammon.

12 Ac efe a ddywedodd, os trêch [fydd] y Siriaid na mi, yna bydd di i mi yn gynhorthwy: ond os meibion Ammon a fyddant trêch na thi, yna mi a'th gynnorthwyaf dithe.

13 Bydd rymmus, ac ymnerthwn dros ein pobl, a thros ddinaſoedd ein Duw ni, a'r Arglwydd a wna 'r hyn fyddo dda yn ei olŵg ef.

14 Yna y neſſaodd Ioab, a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn erbyn y Siriaid i'r rhyfel: a hwy a ffoaſant oi flaen ef.

15 Pan welodd meibion Ammon ffoi o'r Siriaid, yna hwyntau hefyd a ffoaſant o flaen Abiſai ei frawd ef, ac a ddaethant i'r ddinas: ac Ioab a aeth i Ieruſalem.

16 Pan welodd y Syriaid ei lladd o flaen

Iſrael, yna yr anfonaſont gẽnadau, ac y dugaſant y Siriaid y rhai[oeddynt]o'r tu hwynt i'r afon: a Sophac capten llu Hadarezar oi blaen hwynt.

17 Pan fynegwyd i Ddafydd[hynny,] yna efe a gaſclodd holl Iſrael, ac a aeth tros yr Iorddonen, ac a ddaeth attynt hwy, ac a ymfyddinaſant yn eu herbyn hwynt: pan ymfyddinodd Dafydd yn erbyn y Siriaid, hwytheu a ryfelaſant ag ef.

18 Ond y Siriaid a ffoaſant o flaen Iſrael, a lladdodd Dafydd o'r Siriaid ſaith mîl o gerbydau, a deugein mîl o wŷr traed: ac efe a laddodd Sophac capten y llû.

19 A phan welodd gweiſion Hadarezar eu lladd hwynt o flaen Iſrael: yna yr heddychaſant a Dafydd, a gwaſanaethaſant ef: ac ni fynne y Siriaid gynhorthwyo meibion Ammon mwyach.

## PEN. XX.

Diniſtr Rabba. 3 Coſpedigaeth ar yr Ammoniaid. 4 Y Philiſtiaid, ai cawri yn colli yr maes.

1.Sam.11.1. Darfu hefyd * yng-hyfnod y flwyddyn, yn amſer mynediad brenhinoedd allan [i ryfela,] arwein o Ioab gadernid y fyddin, ac anrhaithio gwlâd meibion Ammon, ac efe a ddaeth, ac a warchaodd Rabba: a Dafydd oedd yn aros yn Ieruſalem, pan darawodd Ioab Rabba, ai diniſtrio hi,

2.Sam.12.29. 2 A * chymmerth Dafydd goron eu brenin hwynt oddi am ei ben ef, a chafodd hi o bwys talent aur, ac ynddi feini gwerthfawr, ac hi a fu am ben Dafydd: ac efe a ddûg anrhaith fawr iawn[o'r]ddinas.

3 A'r bobl y rhai[oeddynt]ynddi, a ddûg efe allan, ac ai rhygnodd hwynt a llîf, ac ag ogau heirn, ac a bwyîll: ac fel hyn y gwnaeth Dafydd i holl ddinaſoedd meibion Ammon, a dychwelodd Dafydd a'r holl bobl i Ieruſalem.

4 Ac yn ôl hyn, pan gynhaliwyd rhyfel yn 2.Sam. 21.18. * Gezer yn erbyn y Philiſtiaid: yna Sibbechai yr Huſiad a laddodd Sippai o feibion rhyw gawr, felly y daroſtyngwyd hwynt.

5 A bu drachefn ryfel yn erbyn y Philiſtiaid, 2.Sam.21.19. ac Elhanan mab * Iair a laddodd Lahemi, brawd Goliath y Gethiad, a throed gwaiw-ffon hwnnw[oedd]fel carfan gwehyddion.

6 Bu hefyd trachefn ryfel yn Gath: ac yr oedd gŵr hîr, ai fyſedd[oeddynt]yn chwech a chwech[ſef]pedwar ar hugain, yntef hefyd a aneſid i'r cawr.

7 Pan ddifenwodd efe Iſrael, yna Ionathan mab Simea brawd Dafydd ai lladdodd ef.

8 Y rhai hyn a anwyd i'r cawr yn Gath, ac a laddwyd drwy law Dafydd, a thrwy law ei weiſion ef.

## PEN. XXI.

Dafydd yn pêri cyfrif y bobl. 14 Deng-mil a thrugain yn meirw o haint y nodau.

A Satan a ſafodd yn erbyn Iſrael, ac a annogodd Ddafydd i gyfrif Iſrael. 2.Sam.24.1.

2 A dywedodd Dafydd wrth Ioab, ac wrth bennaethiaid y bobl, ewch, cyfrifwch Iſrael o Beerſeba hyd Dan: a dygwch attafi[air] fel y gwypwyf eu rhifedi hwynt.

3 A dywedodd Ioab, chwaneged yr Arglwydd at ei bobl gant cymmeint ac a ydynt hwy: ô fy arglwydd frenin, onid gweiſion i'm harglwydd [ydynt]hwy oll: pa ham y cais fy arglwydd hyn? pa ham y bydd efe[achos]i ddwyn euogrwydd ar Iſrael?

4 Ond gair y brenin a fu drêch nag Ioab: ac Ioab a aeth allan, ac a rodiodd drwy holl Iſrael, ac a ddaeth i Ieruſalem.

5 Yna y rhoddes Ioab nifer rhifedi y bobl i Ddafydd, a holl Iſrael ydoedd fil o filoedd, a chan mîl o wŷr yn tynnu cleddyf, ac Iuda[oedd]bedwar-cant, a dêc mil a thrugain, o wŷr yn tynnu cleddyf.

6 Ond y Lefiaid, a Beniamin ni chyfrifaſe efe yn eu myſc hwynt, canys ffiaidd oedd gan Ioab air y brenin.

7 A bu ddrwg gan Dduw y peth hyn: ac efe a darawodd Iſrael.

8 Yna Dafydd a ddywedodd wrth Dduw, pechais yn ddirfawr, o herwydd i'm wneuthur y peth hyn: ac yr awr hon, delea attolwg anwiredd dy wâs, canys gwneuthum yn ynfyd iawn

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Gad gweledydd Dafydd gan-ddywedyd:

10 Dos, a llefara wrth Ddafydd gan ddywedyd, fel hyn y dywed yr Arglwydd: tri pheth yr ydwyfi yn eu goſod och flaen di, dewis i ti un o honynt, ac mi a wnaf[hynny]i ti.

11 Yna Gad a ddaeth at Ddafydd, ac a ddywedodd wrtho ef, fel hyn y dywed yr Arglwydd, cymmer i ti,

12 [Ynaill]ai tair blynedd o newyn, ai[dy] 2.Sam.24.13. ddifetha dri mîs o flaen dy wrthwyneb-wŷr, a chleddyf dy elynnion yn [dy]oddiweddyd, ai yntef cleddyf yr Arglwydd, a haint yn y tîr dri diwrnod, ac angel yr Arglwydd yn diniſtrio yn holl derfynau Iſrael: ac yr awran edrych pa air a ddygaf drachefn i'r hwn a'm hanfonodd.

13 A Dafydd a ddywedodd wrth Gad, y mae yn gyfyng odiaeth arnafi, ſyrthiwyf attolwg yn llaw yr Arglwydd (canys ei drugareddau ef[ydynt]aml iawn) ac na ſyrthiwyf yn llaw dŷn.

14 Yna y rhoddes yr Arglwydd haint ar Iſrael, a ſyrthiodd o Iſrael ddeng[mîl]a thrugain[mîl]o wŷr.

15 A Duw a anfonodd angel i Ieruſalem 2.Sam.24.16. iw diniſtrio hi, ac fel yr oedd yn ei diniſtrio, yr Arglwydd a edrychodd, ac a doſturiodd am y niwed ymma, ac a ddywedodd * wrth yr angel, yr hwn oedd yn diniſtrio: digon bellach, llaeſa dy law: ac angel yr Arglwydd a ſafodd wrth 2.Sam.24.16. lawr dyrnu * Ornan y Iebuſiad. 18.

16 Pan

16 A Dafydd a dderchafodd ei lygaid, ac a ganfu angel yr Arglwydd yn ſefyll rhwng y ddaiar, a'r nefoedd, ai gleddyf noeth yn ei law wedi ei eſtyn tua Ieruſalem, a ſyrthiodd Dafydd a'r henuriaid (y rhai oeddynt wedi ymwiſco mewn ſach-liain) ar eu hwynebau.

17 A Dafydd a ddywedodd wrth Dduw, onid myfi a ddywedais am gyfrif y bobl? a mi yw 'r hwn a bechais, ac a wneuthum fawr ddrwg, a pheth a wnaeth y defaid hynn? fy Arglwydd Dduw dyro attolwg dy law arnafi, ac ar dŷ fy nhâd, ac nid yn blâ ar dy bobl.

18 Yna angel yr Arglwydd a archodd i Gad ddywedyd wrth Ddafyd: am fyned o Ddafydd i fynu i gyfodi allor i'r Arglwydd yn llawr dyrnu Ornan y Iebuſiad.

19 A Dafydd a aeth i fynu yn ôl gair Gad yr hwn a lefaraſe efe yn enw yr Arglwydd.

20 Yna y trôdd Ornan, ac y canfu efe yr angel, ai bedwar mab [y rhai oeddynt] gyd ag ef a ymguddiaſant: ac Ornan oedd yn dyrnu gwenith.

21 A Dafyd a ddaeth at Ornan, yna yr edrychodd Ornan, ac a ganfu Ddafydd, ac a aeth allan o'r llawr dyrnu, ac a ymgrymmodd i Ddafydd [ai] wyneb tua'r ddaiar.

22 A dywedodd Dafydd wrth Ornan, dyro i mi lê y llawr dyrnu, fel yr adailadwyf ynddo ef allor i'r Arglwydd: dyro ef i mi am [ei] lawn-[werth] o arian, fel yr attalier y blâ hon oddi wrth y bobl.

23 Yna Ornan a ddywedodd wrth Ddafydd, cymmer i ti, a gwnaed fy arglwydd frenin yr hyn [fyddo] dâ yn ei olwg: wele rhoddaf yr ŷchen yn boeth offrwm, a'r offer dyrnu yn gynnyd, a'r gwenith yn fwyd offrwm: hyn oll a roddaf.

2.Sam.24.24. 24 A'r brenin Dafydd a ddywedodd wrth Ornan, nid [felly] onid gan brynu y prynaf am [ei] lawn-werth o] arian: canys ni chymmeraf i'r Arglwydd yr hyn [ſydd] eiddo ti i offrymmu offrwm yn rhâd.

25 Felly y rhoddes Dafydd i Ornan am y lle [hwnnw] chwe chant ſicl o aur pwyſedic.

26 Ac yno 'r adailadodd Dafydd allor i'r Arglwydd, ac a offrymmodd boeth offrymmau, ac ebyrth hedd, ac a alwodd ar yr Arglwydd, ac efe ai hattebodd ef yn y tân o'r nefoedd ar allor y poeth offrwm

27 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth yr angel: ac yntef a ddychwelodd ei gleddyf i'w wain.

28 Yn y pryd hynny pan ganfu Dafydd ddarfod i'r Arglwydd wrando arno ef yn llawr dyrnu Ornan y Iebuſiad, efe a aberthodd yno.

29 Ond tabernacl yr Arglwydd yr hon a wnelſe Moſes yn yr anialwch, ac allor y poeth offrwm y pryd hynny [oeddynt] yn yr uchelfa yn Gibeon.

30 Ac ni alle Dafydd fyned oi blaen hi i ymofyn a Duw: canys dychrynnaſe gan gleddyf angel yr Arglwydd.

## PEN. XXII.

*Dafydd yn darparu pethau angen-rheidiol i adailadu teml yr Arglwydd. 5 Ac yn gorchymyn i Salomon ei hadailadu hi. 9 Salomon yn arwyddoccau Criſt. 17 Geiriau Dafydd wrth dywyſogion Iſrael.*

A Dywedodd Dafydd, hwn yw tŷ 'r Arglwydd Dduw: ac dymma allor poeth offrwm Iſrael.

2 Dywedodd Dafydd hefyd am gaſclu y dieithriaid y rhai [oeddynt] yn nhir Iſrael: ac efe a oſododd ſeiri meini i naddu cerric nadd i adailadu tŷ Dduw.

3 A pharatoawdd Dafydd haiarn yn aml tu ag at hoelion dryſſau y pyrth, ac i'r cyſſylltiadau: a phrês cyn amled nad [oedd arno] bwys.

4 Coed cedr hefyd allan o rif: canys y Sidoniaid, a'r Tyriaid a ddugaſent cedrwŷdd yn aml i Ddafydd.

5 Yna y dywedodd Dafydd: Salomon fy mab [ſydd] ieuangc, a thŷner, a thŷ [ſydd raid] ei adailadu i'r Arglwydd, mewn mawredd, mewn rhagoriaeth, mewn enw, ac mewn anrhydedd drwy 'r holl dir: paratoaf yn awr tu ag atto ef: felly y paratôdd Dafydd yn helaeth o flaen ei farwolaeth.

6 Ac efe a alwodd ar Salomon ei fab, ac a orchymynnodd iddo adailadu tŷ i Arglwydd Dduw Iſrael.

7 Dywedodd *Dafydd hefyd wrth Salomon ei fab: yr oedd yn fy mryd i adailadu tŷ i enw 'r Arglwydd fy Nuw: 2.Sam.7.13.

8 Eithr gair yr Arglwydd a ddaeth attafi gan ddywedyd: *gwaed yn aml a dywelltaiſt ti, Pen.28.3. a rhyfeloedd mawrion a wnaethoſt ti, nid adailedi di dŷ i'm henw i: canys gwaed lawer a dywelltaiſt ar y ddaiar yn fyng-ŵyddi.

9 Wele mab a anwyd i ti, efe a fydd ŵr llonydd, ac mi a roddaf lonyddwch iddo ef, gan ei holl elynnion o amgylch: canys Salomon fydd ei enw ef, heddwch hefyd a thangneddyf a roddaf yn Iſrael yn ei ddyddiau ef.

10 Efe a adailada dŷ i'm henw mau fy, ac efe a fydd i mi yn fab, a minne yn dâd iddo yntef: 2.Sam.7.13. 1.Bren.5.5. cadarnhaf hefyd orſeddfa ei frenhiniaeth ef ar Iſrael byth.

11 Weithian fy mab yr Arglwydd fydd gyd a thi, ti hefyd a ffynni, ac a adailedi dŷ i'r Arglwydd dy Dduw, megis ac y llefarodd efe am danat ti.

12 Yn unic rhodded yr Arglwydd i ti ſynnwyr, a deall, pan roddo it orchymynnion am Iſrael, fel y cadwech gyfraith yr Arglwydd dy Dduw.

13 Yna y ffynni, os cedwi ar wneuthur y deddfau, a'r barnedigaethau, y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd i Moſes am Iſrael: ymgryfhâ, ac ymegnia, nac ofna, ac na arſwyda.

14 Ac wele yn ôl fy nhlodi y paratoais

i dŷ 'r Arglwydd gan-mil o dalentau aur, a mil o filoedd o dalentau arian, ar brês hefyd, ac ar haiarn nid [oes] bwys, canys y mae yn aml: y coed hefyd, a'r meini a baratoais i, chwanega dithe hefyd arnynt hwy.

15 Hefyd [y mae] yn aml gyd a thi weithwŷr gwaith [ſef] cymyn-wŷr, a ſeiri maen, a phren, a phob rhai celfydd ym mhob gwaith.

16 Ar aur, ar arian, ar brês, ac ar haiarn nid [oes] rifedi: cyfod, a gweithia, a'r Arglwydd a fydd gyd a thi.

17 Yna y gorchymynnod Dafydd i holl dywyſogion Iſrael gynnorthwyo Salomon ei fab [gan ddywedyd:]

18 Onid [yw]'r Arglwydd eich Duw gyd a chwi? ac efe a ddyru lonyddwch i chwi oddi amgylch: canys rhoddes efe yn fy llaw i drigolion y ddaiar, a'r ddaiar a ddaroſtyngwyd o flaen yr Arglwydd, ac o flaen ei bobl ef.

19 Yn awr rhoddwch eich calon, a'ch meddwl i geiſio yr Arglwydd eich Duw: cyfodwch hefyd, ac adailedwch gyſſegr yr Arglwydd Dduw, i ddwyn i mewn Arch cyfammod yr Arglwydd, a ſanctaidd leſtri Duw i'r tŷ yr hwn a adailedir i enw 'r Arglwydd.

## PEN. XXIII.

Dafydd tu ai ddiwedd yn rhoddi y frenhiniaeth i Salomon. 3 Ac yn goſod i bawb o'r Lefiaid ei ſwydd.

1.Bren.1.30. “ PAN [oedd] Dafydd yn hên, ac yn gyflawn
“ o ddyddiau: * yna y goſododd efe Salomon
“ ei fab yn frenin ar Iſrael.
“ 2 Ac efe a gaſclodd holl dywyſogion Iſrael:
“ yr offeiriaid hefyd, a'r Lefiaid.
“ 3 A'r Lefiaid a gyfrifwyd o fab deng-mlwydd
“ ar hugain, ac vchod: ai nifer hwy wrth eu
“ pennau bob yn ŵr [oedd] onid dwy fil
“ deugain,
“ 4 O'r rhai hyn pedair mil ar hugain [oeddynt]
“ i orchwylio ar waith tŷ yr Arglwydd:
“ y ſwyddogion hefyd, a'r rhaglawiaid [oeddynt]
“ chwe mil.
“ 5 A phedair mil yn borthorion, a phedair
“ mil yn moliannu 'r Arglwydd a'r offer y rhai a
“ wnelſwn i iw foliannu [ef].
Pen.6.1. “ 6 Yna * y doſparthodd Dafydd ddoſparthiadau,
Exod.6.17. “ yn ôl meibion Lefi [ſef] Gerſon, Cehath,
“ a Merari.
“ 7 O'r Gerſoniaid [yr oedd] Laadan, a
“ Semei.
“ 8 Pen meibion Laadan [oedd] dri, Iehiel, a
“ Zethan, ac Ioel.
“ 9 Meibion Semei [oeddynt] dri, Selomith,
“ a Haziel, a Haran: y rhai hyn [oeddynt]
“ bennau cenhedl Laadan.
“ 10 Meibion Semei hefyd [oeddynt] Iahath,
“ Zina, Ieus hefyd, a Beriah: Dyna bedwar
“ mab Semei.
“ 11 Ac Iahath oedd bennaf, yna Ziza yn ail:
“ ond i Ieus, a Beriah nid oedd nemmor o feibion,
“ am hynny yr oeddynt hwy yn vn genhedlaeth
“ o gyfrif.

12 Meibion Cehath [oeddynt] bedwar, Amram, ”
Iſahar, Hebron, ac Uzziel. ”
13 Meibion * Amram [oeddynt] Aaron, a ” Exod.2.2.&
Moſes: ac Aaron a nailltuwyd i ſancteiddio y ” 6.20.
cyſſegr ſancteiddiolaf, efe ai feibion byth, i arogldarthu ” Heb.5.5.
ger bron yr Arglwydd, iw waſanaethu ”
ef, ac i fendigo yn ei enw ef yn dragywydd. ”
14 Moſes hefyd [oedd] ŵr [i] Dduw, ei ”
feibion ef a alwyd gyd a llwyth Lefi. ”
15 Meibion Moſes [oedd] Gerſom, ac ”
Eliezer. ”
16 [O] feibion * Gerſom, Sebuel [oedd] ” Exod.2.22.
y pennaf. ” & 18.3.
17 A meibion Eliezer oeddynt Rehabia y ”
cyntaf: ac i Eliezer nid oedd meibion eraill, a ”
meibion Rehabia a amlhauſant yn ddir-fawr. ”
18 Meibion Iſahar, Selomith y pennaf. ”
19 Meibion Hebron, Ieriahu y cyntaf, Amaria ”
'r ail, Iahaziel y trydydd, ac Iecamiam y ”
pedwerydd. ”
20 Meibion Uzziel [oeddynt] Mica y cyntaf, ”
ac Ieſia 'r ail. ”
21 Meibion Merari [oeddynt] Mahali, a ”
Muſi: meibion Mahali, Eleazar, a Chis. ”
22 A bu farw Eleazar, a meibion nid oeddynt ”
iddo ef, ond merched: a meibion Cis eu ”
brodyr ai priodaſant hwy. ”
23 Meibion Muſi [oeddynt] dri: Mahali, ”
ac Eder, ac Ieremoth. ”
24 Dymma feibion Lefi yn ôl tŷ eu tadau ”
pennau [eu] cenedl wrth eu rhifedi, dann nifer ”
[eu] henwau wrth eu pennau, y rhai oeddynt yn ”
gwneuthur gwaith yng-waſanaeth tŷ 'r Arglwydd ”
o fab vgain mlwydd ac vchod. ”
25 Canys dywedodd Dafydd, Arglwydd ”
Dduw Iſrael a roddes lonyddwch iw bobl, i ”
aros yn Ieruſalem byth. ”
26 Ac nid [rhaid] hefyd i'r Lefiaid ddwyn y ”
tabernacl, ai holl leſtri iw gwaſanaeth. ”
27 Canys yn ôl geiriau diweddaf Dafydd, ”
dymma nifer meibion Lefi o fab vgain mlwydd ”
ac vchod. ”
28 Ai gwaſanaeth hwynt [oedd] tann law ”
meibion Aaron yng-wenidogaeth tŷ 'r Arglwydd ”
yn y cynteddau, ac yn y celloedd, ac yn y puredigaethfa, ”
ym mhob ſanctaidd beth, a gwaith ”
gwenidogaeth tŷ Dduw. ”
29 Yn y bara goſod hefyd, ac yn y peillied, ”
yn y bwyd offrwm, ac yn yr afrllad croiw, yn y ”
radell hefyd, ac yn y badell ffrio: ac ym mhob ”
meſur, a meidroldeb. ”
30 Ac i ſefyll bob borau i foliannu, ac i ogoneddu ”
yr Arglwydd: felly hefyd bryd nawn. ”
31 Ac i offrymmu pob offrwm poeth i'r Arglwydd ”
ar y Sabbothau, ar y newydd loerau, ac ”
ar y gwyliau arbēnic wrth rifedi yn ôl y ddefod ”
ſydd arnynt yn waſtadol ger brō yr Arglwydd. ”
32 Cadwant hefyd orchwyliaeth pabell y ”
cyfarfod, a gorchwyliaeth y cyſſegr, a gorchwyliaeth ”
meibion Aaron eu brodyr hwynt, yng-waſanaeth ”
tŷ 'r Arglwydd. ”

PEN. ”

## PEN. XXIIII.

Dafydd yn rhoddi ſwyddau i feibion Aaron.

Lefit.10.4. Num.3.4. & 26.60. Dymma eu * doſparthiadau hwynt meibion Aaron: meibion Aaron [oeddynt] Nadab, ac Abihu, Eleazar, ac Ithamar.

2 A bu farw Nadab, ac Abihu o flaen eu tâd, ac nid oedd meibion iddynt hwy: ond Eleazar, ac Ithamar a offeiriadaſant.

3 Yna Dafydd ai doſparthodd hwynt, a Zadoc o feibion Eleazar, ac Ahimelec o feibion Ithamar [oeddynt] yn ôl eu ſwyddau yn eu gwaſanaeth.

4 A chafwyd mwy o feibion Eleazar yn llywodraethwŷr nac o feibion Ithamar, pan rannaſant hwy, [yr ydoedd] o feibion Eleazar yn bennau ar dŷ eu tadau vn ar bymthec, ac o feibion Ithamar yn ôl tŷ eu tadau [yr oedd] ŵyth.

5 Felly y doſparthwyd hwynt wrth goelbrennau y naill gyd a'r llall, eithr tywyſogion y cyſſegr, a thywyſogion Duw oeddynt o feibion Eleazar, ac o feibion Ithamar.

6 A Semaia mab Nathaneel yr ſcrifennydd o [lwyth] Lefi ai ſcrifennodd hwynt ger bron y brenin, a'r tywyſogion, a Zadoc yr offeiriad, ac Ahimelec mab Abiathar a phen cenedl yr offeiriaid, a'r Lefiaid, vn teulu a atalíwyd i Eleazar, ac [arall] a atalíwyd [ie] a atalíwyd i Ithamar.

7 A'r coel-bren cyntaf aeth i Iehoiarib, a'r ail i Iedaia.

8 Y trydydd i Harim: y pedwerydd i Sehorim.

9 Y pummed i Melchia: y chweched i Miiamin.

10 Y ſeithfed i Hacos: yr wythfed i Abia.

11 Y nawfed i Ieſua: y decfed i Secaniah.

12 Yr vnfed ar ddec i Eliaſib: y deuddecfed i Iacim.

13 Y trydydd ar ddêc i Huppa: y pedwerydd ar ddêc i Ieſebeab.

14 Y pymthecfed i Bilga: yr vnfed ar bymthec i Immer.

15 Y ddeufed ar bymthec i Hezir: y deunawfed i Aphſes.

16 Y pedwerydd ar bymthec i Pethahia: yr vgainfed i Ieheſcel.

17 Yr vnfed ar hugain i Iachin: y ddeufed ar hugain i Gamul.

18 Y trydydd ar hugain i Ddelaiahu: y pedwerydd ar hugain i Maaſiahu.

19 Dymma eu rhifedi hwynt yn eu gwaſanaeth wrth fyned i dŷ'r Arglwydd yn ôl eu defod, tann law Aaron eu tad hwynt: fel y gorchymynnaſe Arglwydd Dduw Iſrael iddo ef.

20 Ac o feibion Lefi y rhai a weddillaſid o feibion Amram [yr ydoedd] Subael, o feibion Subael Iehdeiahu.

21 O Rehabia [yr oedd] Ieſia yn ben ar feibion Rehabia.

22 O Izhari Selomoth: o feibion Selomoth Iahath.

23 A * meibion [Hebron oeddynt] Ieriahu, Amaria yn ail, Iahaziel yn drydydd Iecamiam yn bedwerydd. Pen.23.19.

24 Meibion Uziel Micha: o feibion Micha Samir.

25 Brawd Micha [oedd] Iſſia, o feibion Iſſia Zechariahu.

26 Meibion Merari [oeddynt] Mahali a Muſi, meibion Iaaziahu, Beno.

27 Meibion Merari o Iaaziahu: Beno, a Soham, Zacur hefyd ac Ibri.

28 O Mahali Eleazar: ac ni bu iddo ef feibion.

29 O Chis: meibion Chis Ierahemeel.

30 A meibion Muſi [oeddynt] Mahali, ac Eder, ac Ierimoth: dymma feibion y Lefiaid yn ôl tŷ eu tadau.

31 A hwynt a gydfwriaſant goelbrennau ai brodyr meibion Aaron, ger bron Dafydd y brenin, a Zadoc, ac Ahimelec, a phennau cenedl yr offeiriaid, a'r Lefiaid, [ie] y penn cenedl a gydfwriodd a'r brawd ieuangaf.

## PEN. XXV.

Rhifedi, a rhan, y cantoriaid.

Yna y naillduodd Dafydd, a thywyſogion y llu tu ag at waſanaeth feibion Aſaph, a Heman, ac Ieduthun: y rhai a brophwydaſant, a thelynau, ac a nablau, ac a ſymbalau, ai nifer hwy oedd wŷr celfyddus yn eu gwaſanaeth.

2 O feibion Aſaph, Zacur, ac Ioſeph, Nathani hefyd ac Aſarela meibion Aſaph, tann law Aſaph [yr hwn] oedd yn prophwydo wrth law y brenin.

3 O Ieduthnn: meibion Ieduthun Gedaliahu, a Zeri, ac Ieſaiahu, a Haſabiahu, a Mathathiahu [ill] chwech tann law Ieduthun eu tâd ar y delyn yn prophwydo i foliannu, ac i glodfori yr Arglwydd.

4 O Heman: meibion Heman, Bucciahu, Mathoniahu, Uziel, Zebuel ac Ierimoth, Hananiah, Hanani, Eliatha, Gedalthi, a Romamthi, Ezer, Ioſbecaſa, Malothi, Hothir, [a] Mahazioth.

5 Y rhai hyn oll [oeddynt] feibion Heman gweledudd y brenin yng-eiriau Duw i dderchafu corn [y frenhiniaeth:] Duw hefyd a roddes i Heman bedwar ar ddêc o feibion, a thair o ferched.

6 Y rhai hyn oll [oeddynt] tann law eu tâd, yn canu yn-nhŷ 'r Arglwydd, a ſymbalau a nablau, ac a thelynau yng-waſanaeth tŷ Dduw: Aſaph, ac Ieduthun, a Heman [oeddynt] tann law y brenin.

7 Ai nifer hwynt (yng-hyd ai brodyr dyſcedic yng-haniadau 'r Arglwydd [ſef] pob vn deallgar) oedd ddau cant, pedwar vgain, ac ŵyth.

8 A hwy a fwriaſant goel-brennau am yr orchwyliaeth, bychan a mawr, athro a diſcybl.

9 Ar coel-bren cyntaf a ddaeth i Aſaph dros Ioſeph, yr ail i Gedaliahu, efe ai frodyr ai feibion [y rhai oeddynt] ddeuddec.

10 Y trydydd i Zacur: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

11 Y pedwerydd i Izri: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

12 Y pummed i Nathaniahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

13 Y chweched i Bucciahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

14 Y ſeithfed i Ieſarela: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

15 Yr ŵythfed i Ieſaiahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

16 Y nawfed i Mathaniahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

17 Y decfed i Semei: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

18 Yr vnfed ar ddec i Azareel: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

19 Y deuddecfed i Hazabia: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

20 Y trydydd ar ddêc i Subeal: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

21 Y pedwerydd ar ddêc i Mathathiahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

22 Y pymthecfed i Ieremoth: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

23 Yr vnfed ar bymthec i Hananiahu: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

24 Y ddeufed ar bymthec i Ioſbecaſa: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

25 Y deunawfed i Hanani: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

26 Y pedwerydd ar bymthec i Malothi: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

27 Yr vgainfed i Eliatha: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

28 Yr vnfed ar hugain i Hothir: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

29 Y ddeufed ar hugain i Gedalthi: ai feibion ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

30 Y trydydd ar hugain i Mahazioth: ai feibion, ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

31 Y pedwerydd ar hugain i Romanthiezer: ai feibion, ai frodyr [y rhai oeddynt] ddeuddec.

## PEN. XXVI.

Porthorion y deml, a'r tryſſor-dai.

AM ddoſparthiad y porthorion o'r Corethiaid: Meſclemiahu mab Core [oedd] o feibion Aſaph.

2 A meibion Meſelemiahu [oeddynt] Zechariahu y cyntaf-anedic, Iediel yr ail, Zebadiahu y trydydd, Iahniel y pedwerydd.

3 Elam y pummed, Iehohanan y chweched, Elihoenai y ſeithfed.

4 A meibion Obed Edom, Semeia y cyntaf-anedic, Iehoſabad yr ail, Ioah y trydydd, Sacar hefyd y pedwerydd, a Nathanael y pummed.

5 Ammiel y chweched, Iſſachar y ſeithfed Peulthai yr ŵythfed, canys Duw ai bendithiodd ef.

6 Ac i Semei ei fab ef y ganwyd meibion y rhai a arglwyddiaethaſant ar dŷ eu tâd: canys cedyrn a nerth oeddynt hwy.

7 Meibion Semeia: Othni, Rephael hefyd, ac Obed, Elzabad, ei frodyr ef [oeddynt] feibion nerthol [ſef] Elihu, a Semachia.

8 Y rhai hyn oll o feibion Obed Edom, hwynt ai meibion, ai brodyr yn wŷr nerthol mewn cryfdwr tu ag at y wenidogaeth [oeddynt] dri vgain, a dau o Obed Edom.

9 Ac o Meſelemiahu yn feibion, ac yn frodyr [yr oedd] tri ar bymthec yn feibion nerthol.

10 O Hoſa hefyd, o feibion Merari, y meibion [oeddynt] Zimri y pennaf, er nad oedd efe gyntaf-anedic, etto ei dâd ef ai goſododd ef yn ben.

11 Helchiahu yn ail, Tebaliahu yn drydydd Zechariahu yn bedwerydd: holl feibion, a brodyr Hoſa [oeddynt] dri ar ddêc.

12 O'r rhai hyn yr [oedd] doſparthiadau y porthorion o bennau gwŷr yr orchwyliaeth ar gyfer eu brodyr i waſanaethu yn nhŷ 'r Arglwydd.

13 A hwy a fwriaſant goel-brennau bychan a mawr yn ôl tŷ eu tadau am bob porth.

14 A choel-bren Selemiahu a ſyrthiodd tu a'r dwyrain, a [thros] Zechariahu ei fab (cynghorwr deallgar) y bwriaſant hwy goel-brennau, ai goel-bren ef a ddaeth tu a'r gogledd.

15 I Obed Edom tu a'r dehau, ac iw feibion [y daeth] tŷ Aſuppim.

16 I Suppim, a Hoſa tu a'r gorllewyn, gyd a phorth y ſarn, ym mhriffordd y rhiw [yr oedd] y naill orchwyliaeth ar gyfer y llall.

17 Tua 'r dwyrain [yr oedd] chwech o Lefiaid, tua 'r gogledd pedwar beunydd, tua 'r deau pedwar beunydd, a thuac Aſuppim dau [a] dau.

18 I'r gell tua 'r gorllewyn [y rhoddwyd] pedwar ar y briffordd, [a] dau ar y gell.

19 Dymma ddoſparthiadau y porthorion, o feibion Core, ac o feibion Merari.

20 Ac [o'r] Lefiaid Abia [oedd] ar dryſſorau tŷ Dduw, ac ar dryſſorau y pethau cyſſegredic.

21 Meibion Laadan [ſef] meibion Gerſon o Laadan yn bennau tylwyth Laadan [oedd] y Gerſuniaid, [a'r] Iehieliaid.

22 Meibion Iehieli, Zethã, ac Ioel ei frawd [oeddynt] ar dryſſorau tŷ 'r Arglwydd.

23 O'r Amramiaid, o'r Izahariaid, o'r Hebroniaid, o'r Ozieliaid.

24 A Sebuel mab Gerſom, mab Moſes [oedd] olygwr ar y tryſſorau.

25 Ac oi frodyr ef [ſef] o Eleazar [yr oedd] Rehabiahu ei fab ef, ac Ieſaiahu ei fab yntef, ac Ioram ei fab yntef, a Zichri ei fab yntef, a Selomith ei fab yntef.

26 Y Selomith hwnnw ai frodyr [oeddynt]

ar yr holl dryſſorau cyſſegredic, y rhai a barodd Dafydd frenin, a'r tadau pennaf, a thywyſogion y miloedd, a'r cantoed, a thywyſogion y llu eu cyſſegru.

27 O'r rhyfeloedd, ac o'r yſpail y cyſſegraſant [pethau] i gryfhau tŷ'r Arglwydd.

28 A'r hyn oll a gyſſegrodd Samuel y gweledudd, a Saul mab Cis, ac Abner mab Ner, ac Ioab mab Serfia: pob peth a gyſſegraſid [oedd] tann law Selomith ai frodyr.

29 O'r Izariaid, Cananiahu ai feibion [oeddynt] yn Iſrael yn ſwyddogion, ac yn farn-wŷr ar y gwaith oddi allan.

30 O'r Hebroniaid Haſabiahu ai frodyr meibion nerthol mil a ſaith gant [oedd] mewn ſwydd [yn] Iſrael o'r tu hwynt i'r Iorddonen tua'r gorllewyn, yn holl waith yr Arglwydd, ac yng-waſanaeth y brenin.

31 O'r Hebroniaid Iedia [oedd] benn o'r Hebroniaid yn ôl ei genedlaethau ef, drwy [ei] deuluoedd, yn y ddeugeinfed flwyddyn o deyrnaſiad Dafydd y ceiſiwyd hwynt, ac fe a gafwyd yn eu myſc hwy [wŷr] cryfion nerthol yn Aſer Gilead.

32 Ai frodyr ef yn feibion nerthol [oeddynt] ddwy fil a ſeith gant o bennau cenedl: a Dafydd y brenin ai goſododd hwynt ar y Rubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manaſſes, ym mhob gorchwyl Duw, a gorchwyl y brenin.

## PEN. XXVII.

Tywyſogion, a ſwyddogion y brenin.

PEdair mil ar hugain [oedd] bob doſparthiad o feibion Iſrael dann eu rhif, yn bennau cenedl, ac yn dywyſogion miloedd, a chantoedd, ai ſwyddogion yn gwaſanaethu 'r brenin ym mhob achos [o'r] doſparthiadau, yn dyfod i mewn, ac yn myned allan, mis yn ei fis, drwy holl fiſoedd y flwyddyn.

2 Ar y doſparthiad cyntaf yn y mîs cyntaf [yr oedd] Iaſobeam mab Zabdiel: ac yn ei ddoſparthiad ef [yr oedd] pedair mil ar hugain.

3 O feibion Pharez [yr oedd] y-pennaf, a holl dywyſogion y lluoedd tros y mis cyntaf.

4 Ac ar ddoſparthiad 'r ail mis [yr oedd] Dodai'r Ahohiad ai ddoſparthiad ef, a Micloth yn gapten, ac yn ei ddoſparthiad ef bedair mil ar hugain.

5 Tywyſog y trydydd llu tros y trydydd mis [oedd] Benaiahu mab Iehoiada yr offeiriad pennaf: ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

6 Y Benaiahu hwn [oedd] gadarn [ym mhlith] *y dêc ar hugain, ac oddi ar y dêc ar hugain: ac yn i ddoſparthiad ef [yr oedd] Amizabad ei fab ef.

2.Sam.23.20 & 22,23.

7 Y pedwerydd dros y pedwerydd mîs [oedd] Aſahel brawd Ioab, a Zabadia ei fab yn ei ôl ef: ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

8 Y pummed dros y pummed mis [oedd] dywyſog Samhut yr Izrahiad, ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

9 Y chweched dros y chweched mis [oedd] Ira mab Icces y Thecoad: ac yn ei ddoſparthiad ef, pedair mil ar hugain.

10 Y ſeithfed dros y ſeithfed mis [oedd] Helez y Peloniad o feibion Ephraim: ac yn i ddoſparthiad ef, pedair mil ar hugain.

11 Yr ŵythfed dros yr ŵythfed mis [oedd] Sibbecai'r Huſathiad, o'r Zarhiaid: ac yn ei ddoſparthiad ef, pedair mil ar hugain.

12 Y nawfed tros y nawfed mis [oedd] Abiezer yr Anathothiad o'r Beniaminiaid: ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

13 Y decfed dros y decfed mis [oedd] Maharai y Netophathiad o'r Zarahiaid: ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

14 Yr vnfed ar ddêc dros yr vnfed mis ar ddec [oedd] Banaia y Parathoniad o feibion Ephraim: ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

15 Y deuddecfed dros y deuddecfed mis [oedd] Heldai y Netophathiad o Othniel, ac yn ei ddoſparthiad ef pedair mil ar hugain.

16 Ac ar lwythau Iſrael, ar y Rubeniaid, Eliezer mab Zichri [oedd] dywyſog: ar y Simeoniaid, Sephariah mab Maacha.

17 Ar y Lefiaid Haſabia mab Cemuel: ar yr Haaroniaid Zadoc.

18 Ar Iuda Elihu o frodyr Dafydd: ar Iſſachar Omri mab Michael.

19 Ar Zabulon Ieſmaiahu mab Obadiahu: ar Nephthali Ierimoth mab Azriel.

20 Ar feibion Ephraim Hoſea mab Azazia: ar hanner llwyth Manaſſes, Ioel mab Pedaiahu.

21 Ar yr hanner [arall] i lwyth Manaſſes yn Gilead, Iddo mab Zachariahu: ar Beniamin Iaaſiel mab Abner.

22 Ar Dan Azarel mab Iehoram: dymma dywyſogion llwythau Iſrael.

23 Ond ni chymmerth Dafydd eu rhifedi hwynt o fab vgain mlwydd ac iſod, canys dywedodd yr Arglwydd am amlhau Iſrael megis ſêr y nefoedd.

24 *Ioab mab Serfia a ddechreuodd gyfrif ond ni orphennodd efe, am fod o achos hyn lidiawgrwydd yn erbyn Iſrael, ac nid aeth y cyfrif hwn ym myſc cyfrifon Cronicl y brenin Dafydd.

Pen.21.7.

25 Ac ar dryſſorau y brenin [yr oedd] Azmaſeth mab Adiel, ac ar y tryſſorau yn y maes, yn y dinaſoedd, yn y pentrefi hefyd, ac yn y tŷrau [yr oedd] Iehonathan mab Vzzia.

26 Ac ar weith-wŷr y maes [y rhai oeddynt] yn llafurio'r ddaiar [yr oedd] Ezri mab Celub.

27 Ac ar y gwinllannoedd [yr oedd] Simei y Ramathiad: ac ar yr hyn [oedd] yn y gwinllannoedd, ac yn y ſelêrau gwîn [yr oedd] Sabei y Siphmiad.

28 Ac ar yr oliwŷdd, ar Sicomor-wŷdd y

“ rhai [oeddynt] yn y dyffrynnoedd yr [oedd]
“ Baal hanan y Gederiad: ac ar y ſelerau olew
“ [yr oedd] Ioas.
“ 29 Ac ar yr ŷchen paſcedic yn Saron [yr
“ oedd] Setrai y Saroniad: ac ar yr ŷchen yn
“ y dyffrynnoedd [yr oedd] Saphar mab Adlai.
“ 30 Ac ar y camêlod [yr oedd] Obil yr Iſ-
“ maeliad, ac ar yr aſſynnod Iediah y Merono-
“ thiad.
“ 31 Ac ar y defaid [yr oedd] Iaziz yr Hage-
“ riad, y rhai hyn oll [oeddynt] dywyſogion y
“ golud yr hwn [oedd] eiddo y brenin Dafydd.
“ 32 Ac Iehonathan ewythr Dafydd frawd
“ ei dad oedd gynghorwr deallgar, ac ſcrifen-
“ nudd: Iehiel hefyd mab Hachmoni [oedd] gyd
“ a meibion y brenin.
“ 33 Ac Ahitophel [oedd] gynghorwr y bre-
“ nin, a Huſſai 'r Arciad [oedd] gyfell y bre-
“ nin.
“ 34 Ac ar ôl Ahitophel [yr oedd] Iehoiada
“ mab Benaiahu, ac Abiathar: a thywyſog llu y
“ brenin [oedd] Ioab.
“

## PEN. XXVIII.

Dafydd yn cynghori Salomon i adailadu 'r deml: ac i ofni Duw.

YNA y caſclodd Dafydd holl dywyſogion Iſrael, tywyſogion y llwythau, a thywyſogion y doſparthiadau y rhai oeddynt yn gwaſanaethu 'r brenin: tywyſogion y miloedd hefyd, a thywyſogion y cantoedd, a thywyſogion holl olud, a meddiant y brenin, ai feibion, gyd a'r ſtafellyddion, a'r cedyrn, a phob vn grymmuſol o nerth i Ieruſalem.

2 A chyfododd Dafydd y brenin ar ei draed, ac a ddywedodd, gwrandewch arnaf fi fy mrodyr, a'm pobl: myfi [a feddyliais] yn fyng-halon adailadu tŷ gorphywyſfa i Arch cyfammod yr Arglwydd, * a lleithic i draed ein Duw ni, ac mi a baratoais tu ag at adailadu. Pſal.99.5.

3 Yna Duw a ddywedodd wrthif, * nid adailedi di dŷ i'm enw mau fi, canys rhyfel-wr ydwyt, a gwaed a dywelltaiſt ti. 2.Sam.7.13. Pen.22.8.

4 Ac Arglwydd Dduw Iſrael a'm etholodd i o holl dŷ fy nhâd i fod yn frenin ar Iſrael yn dragywydd: canys o Iuda y dewiſe efe lywiawdur, ac o dŷ Iuda [y mae] tŷ fy nhâd i, ac o feibion fy nhâd, efe a fynne i mi deyrnaſu ar holl Iſrael.

5 * Ac o'm holl feibion inne (canys llawer o feibion a roddes yr Arglwydd i mi) efe hefyd a ddewiſodd Salomon fy mab i eiſtedd ar orſeddfa brenhiniaeth yr Arglwydd yn Iſrael. Doeth.9.7.

6 Dywedodd hefyd wrthif: Salomon dy fab di, efe a adailada fy nhŷ a'm cynteddau, canys dewiſais ef yn fab i mi, a minne a fyddaf iddo ef yn dâd.

7 Ai frenhiniaeth ef a gadarnhaf yn dragywydd, os efe a ymegnia ar wneuthur fyngorchymynnion, a'm barnedigaethau megis y dydd hwn.

8 Ac yn awr yng-ŵydd holl Iſrael, cynnulleidfa 'r Arglwydd, ac lle y clywo ein Duw ni, cedwch, a cheiſiwch holl orchymynnion yr Arglwydd eich Duw: fel y meddiannoch y wlâd dda [hon] ac y rhoddoch etifeddiaeth i'ch meibion ar eich ôl yn dragywydd.

9 A thithe Salomon fy mab cydnebydd Dduw dy dâd, a gwaſanaetha ef a chalon berffaith, ac ag enaid ewyllyſcar: * canys yr Arglwydd ſydd yn chwilio yr holl galonnau, ac yn deall pob dychymyg meddyliau: o cheiſi ef ti ai cei ef, ond os gwrthodi ef, efe a'th fwrw di ymaith yn dragywydd. 1.Sam.16.7. Pſal.7.10. Ier.11.20. & 17.10.& 20.12,

10 Gwêl yn awr mai 'r Arglwydd a'th ddewiſodd di i adailadu tŷ y cyſſegr: ymegnîa, a gwna [ef.]

11 Yna y rhoddes Dafydd i Salomon ei fab bortreiad y porth ai dai, ai ſelerau, ai gellau, ai ſtafelloedd oddi fewn, a thŷ y drugareddfa.

12 A phortreiad yr hyn oll a oedd mewn cof ganddo ef am gynteddau tŷ 'r Arglwydd, ac am yr holl ſtafelloedd o amgylch: am dryſſorau tŷ Dduw, ac am dryſſorau y pethau cyſſegredic.

13 Ac am ddoſparthiadau yr offeiriaid, a'r Lefiaid, ac am holl waith gwenidogaeth ty'r Arglwydd, ac am holl leſtri gwaſanaeth tŷ'r Arglwydd.

14 Am yr aur, am bwys yr aur tu ag at holl leſtri pob gwaſanaeth, [ac] am holl leſtri arian mewn pwys: tu ag at holl leſtri pob math waſanaeth.

15 A phwys * y canhwyll-brennau aur, ai lluſernau aur hwynt, wrth bwys pob canhwyll-bren ai luſernau: ac am y canhwyll-brennau arian wrth bwys, y canhwyll-bren ai luſernau, yn ôl gwaſanaeth pob canhwyll-bren. 1.Bren.7.49.

16 Aur hefyd [tann] bwys tu ag at fyrddau [y bara] goſod i bob bwrdd: ac arian i'r byrddau arian.

17 Ac aur pur i'r cigweiniau, ac i'r phiolau, ac i'r dyſclau, ac i'r gorflychau aur wrth bwys pob gorflwch: ac i'r gorflychau arian wrth bwys bob gorflwch. 1.Bren.7.51.

18 Ac i allor yr arogl-darth aur pur wrth bwys, ac i bortreiad cerbyd y Cerubiaid aur yn ymledu, ac yn gorchguddio Arch cyfammod yr Arglwydd.

19 Hyn oll mewn ſcrifen o law 'r Arglwydd attafi, a wnaeth i mi ddeall holl waith y portreiad.

20 A dywedodd Dafydd wrth Salomon ei fab, ymgryfha, ac ymegnia, a gweithia, nac ofna, ac na arſwyda: canys yr Arglwydd Dduw fy Nuw i [ſydd] gyd a thi, nid ymedu efe a thi, ac ni'th wrthic nes gorphen holl waith gwaſanaeth tŷ 'r Arglwydd.

21 Wele hefyd ddoſparthiadau 'r offeiriaid a'r Lefiaid i holl waſanaeth tŷ Dduw: a chyd a thi [y maent] yn yr holl waith, o bob rhai ethrylgar, mewn cywreinrwydd i bob gwaſanaeth, y tywyſogion hefyd, a'r bobl oll [fyddant] wrth dy holl orchymynnion.

PEN.

## PEN. XXIX.

Dafydd a'i dywysogion yn offrymmu tu ag at waith y deml. 10 Dafydd yn moliannu Duw, ac yn cynghori y bobl. 22 Coroniad Salomon a diweddiad Dafydd.

YNa y dywedodd Dafydd y brenin wrth yr holl dyrfa, Duw a ddewiſodd efo fy un mab Salomon yn ieuangc [ac] yn dyner: a'r gwaith [ſydd] fawr, canys nid tŷ [yw eſe] i ddyn, onid i'r Arglwydd Dduw.

2 Ac a'm holl gryfder y paratoais i dŷ fy Nuw aur i'r [gwaith] aur, ac arian i'r arian, a phrês i'r prês, a haiarn i'r haiarn, a choed i'r [gwaith] coed: meini Onix, a [meini] goſod, meini Carbunculus, ac o amryw liw, a phob maen gwerthfawr, a meini Marmor yn aml.

3 Ac etto am [fod] fy ewyllys tua thŷ fy Nuw, y mae gennif o'm heiddo fy hun aur, ac arian yr hwn a roddaf tu ag at dŷ fy Nuw; heb law yr hyn oll a baratoais tua thŷ y cyſſegr.

4 Tair mil o dalentau aur, o aur Ophir, a ſaith mil o dalentau arian puredic, i oreuro parwydydd y tai.

5 Yr aur i'r [gwaith] aur, a'r arian i'r arian, a thu ag at yr holl waith drwy law y rhai celfydd: pwy hefyd a ymrydd yn ewyllyſcar i ymgyſſegru heddyw i'r Arglwydd?

6 Yna tywyſogion y teuluoedd, a thywyſogion llwythau Iſrael, a thywyſogion y miloedd, a [thywyſogion] y cantoedd, a thywyſogion gwaith y brenin a offrymmaſant yn ewyllyſcar.

7 A hwy a roddaſant tu ag at waſanaeth tŷ Dduw bum mil o dalentau aur, a deng-mil o ſylltau, a deng-mil o dalentau arian, a deunaw mil o dalentau prês, a chant mil o dalentau haiarn.

8 A chyd a'r hwn y caed meini hwy ai rhoddaſant i drysor tŷ 'r Arglwydd drwy law Iehiel y Gerſuniad.

9 A'r bobl a lawenhaſant pan offrymmaſant oi gwirfodd: canys mewn calon berffaith ewyllyſcar yr offrymmaſant i'r Arglwydd: a Dafydd y brenin hefyd a lawenychodd a llawenydd mawr.

10 Yna y bendithiodd Dafydd yr Arglwydd yng-wydd yr holl dyrfa, a dywedodd Dafydd, bendigedic [wyt] ti Arglwydd Dduw Iſrael ein tad ni o dragywyddoldeb, hyd dragywyddoldeb.

11 I ti Arglwydd [y mae] mawredd, a gallu, gogoniant hefyd, goruwchafiaeth, a harddwch: canys y cwbl yn y nefoedd, ac yn y ddaiar [ſydd] eiddo ti, y deyrnas [ſydd] eiddo ti Arglwydd, yr hwn hefyd a ymdderchefaiſt yn benn ar bawb.

12 Cyfoeth hefyd ac anrhydedd [a ddeuant] oddi wrthit ti, a thi ſydd yn arglwyddiaethu ar bawb, ac yn dy law di y mae nerth, a chadernid, ie yn dy law di hefyd [y mae] mawrhau, a nerthu pob dim.

13 Ac yn awr ein Duw ni, yr ydym ni yn dy foliannu, ac yn clodforu dy enw gogoneddus.

14 Eithr pwy ydwyfi? a phwy [yw] fy mhobl, fel y gallem ni fod yn alluog i offrymmu yn ewyllyſcar fel hyn? oblegit oddi wrthit ti [y mae] pob peth, ac o'th law di y rhoeſom i ti.

15 O herwydd dieithriaid [ydym] ni ger dy fron di, ac alltudion fel ein holl dadau: fel cyſcod [yw] ein dyddiau ni ar y ddaiar, a [hwnnw] heb aros.

16 Oh Arglwydd ein Duw ni, yr holl amlder hyn y rhai a baratoaſom ni i adailadu i ti dŷ, i'th enw ſanctaidd: o'th law di [y mae] hyn, ac eiddo ti [yw] hyn oll.

17 Gwn hefyd ô fy Nuw * mai ti ſydd yn profi y galon, ac a ewyllyſi gyfiawnder: myfi yn uniondeb fyng-halon o wirfodd a offrymmais hyn oll, ac yn awr y gwelais dy bobl y rhai a gafwyd yma, mewn llawenydd yn offrymmu yn ewyllyſcar i ti. Pen.28.9.

18 Arglwydd Dduw Abraham, Iſaac, ac Iſrael ein tadau ni, cadw hyn yn dragywydd ym mryd meddyliau calon dy bobl: a pharatoa galon dy bobl attat ti.

19 A dyro i Salomon fy mab galon berffaith i gadw dy orchymynnion, dy deſtiolaethau a'th ddeddfau, ac i wneuthur [hwynt] oll, ac i adailadu y tŷ 'r hwn a ddarperais i.

20 Dywedodd Dafydd hefyd wrth yr holl dyrfa, bendithiwch attolwg eich Arglwydd Dduw: yna 'r holl dyrfa a fendithiaſant Arglwydd Dduw eu tadau, ac a ymgrymmaſant, ac a ymoſtyngaſant i'r Arglwydd, ac i'r brenin.

21 Aberthaſant hefyd ebyrth i'r Arglwydd, a thrannoeth [yn ôl] y dydd hwnnw, yr aberthaſant yn boeth offrymmau i'r Arglwydd fil o fuſtych, [a] mil o hyrddod, mil o wyn ai diod offrwm: ac ebyrth yn aml dros holl Iſrael.

22 Yna y bwyttaſant hwy, ac yr yfaſant ger bron yr Arglwydd y diwrnod hwnnw mewn llawenydd mawr, a goſodaſant Salomon fab Dafydd yn frenin yr ail waith: ac eneiniaſant ef i'r Arglwydd yn flaenor, a Zadoc yn offeiriad.

23 Felly 'r eiſteddodd Salomon ar orſeddfa 'r Arglwydd yn frenin yn lle Dafydd ei dad, ac a lwyddodd: a holl Iſrael a wrandawſant arno ef.

24 Yr holl dywyſogion hefyd, a'r cedyrn, a chyd a hynny holl feibion y brenin Dafydd a dyngaſant [ar fod] tann Salomon y brenin.

25 A'r Arglwydd a fawrygodd Salomon yn rhagorol yng-wydd holl Iſrael, ac a roddes iddo ogoniant brenhinawl, mâth yr hwn ni bu i un brenin oi flaen ef yn Iſrael.

26 Felly * Dafydd mab Iſai a deyrnaſodd ar holl Iſrael. 1.Bren.2.11.

27 A'r dyddiau y teyrnaſodd efe ar Iſrael [oeddynt] ddeugain mlynedd: ſaith mlynedd y teyrnaſodd efe yn Hebron, a thair blynedd ar ddec ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem.

28 Ac efe a fu farw mewn oedran têg, yn gyflawn o ddyddiau, cyfoeth, ac anrhydedd: a Salomon ei fab a deyrnaſodd yn ei lê ef.

29 Ac [am] weithredoedd cyntaf a diweddaf y brenin Dafydd, wele y maent yn ſcrifennedic yng-eiriau Samuel y gweledudd, ac yng-eiriau Nathan y prophwyd, ac yng-eiriau Gad y gweledudd,

30 Gyd ai holl frenhiniaeth ef, ai gadernid, a'r amſerau y rhai a aethant troſto ef, a thros Iſrael, a thros holl deyrnaſoedd y ddaiar.

# Yr ail llyfr o'r Cronicl.

## PENNOD. I.

Salomon yn offrymmu yn Gibeon, 8 Yn gweddio hefyd am ddoethineb, 11 Ac yn cael hynny, a chwaneg. 14 Nifer meirch, a cherbydau Salomon: a lluoſogrwydd ei olud ef.

1.Bren.2.46. YNa Salomō mab Dafydd a ymgadarnhaodd ar ei orſeddfaingc, * a'r Arglwydd ei Dduw ef [ydoedd] gyd ag ef, ac ai derchafodd ef yn vchel.

2 A Salomon a ddywedodd wrth holl Iſrael, wrth dywyſogion y miloedd, a'r cantoedd, ac wrth y barn-wŷr, ac wrth bob pennaeth yn holl Iſrael [ſef] y penau cenedl.

1.Bren.3.4. 3 Felly Salomon a'r holl dyrfa gyd ag ef a aethant i'r * vchelfa yr hon [oedd] yn Gibeon canys yno 'r oedd pabell cyfarfod Duw, yr hon a wnelſe Moſes gwâs yr Arglwydd yn yr anialwch.

4 Eithr Arch Duw a ddugaſe Dafydd i fynu o Ciriath-iearim i'r [lle] a ddarparaſe Dafydd iddi: canys efe a eſtynnaſe iddi hi babell yn Ieruſalem.

Exod.38.1. 5 Hefyd yr allor brês yr hon a wnelſe Bezaleel mab Uri, fab Hur [oedd] yno o flaen pabell yr Arglwydd: a Salomon a'r dyrfa ai hargeiſiodd hi.

1.Bren.3.4. 6 A Salomon a offrymmodd yno ar yr allor brês ger bron yr Arglwydd yr hon [oedd] ym mhabell y cyfarfod: a * mil o boeth offrymmau a offrymmodd efe arni hi.

7 Y noſſon honno 'r ymddangoſodd Duw i Salomon, ac y dywedodd wrtho ef, gofyn yr hyn a roddaf i ti.

8 Yna y dywedodd Salomon wrth Dduw, ti a wnaethoſt fawr drugaredd a'm tâd Dafydd, ac a wnaethoſt i mi deyrnaſu yn ei lê ef:

9 Yn awr ô Arglwydd Dduw, ſiccrhaer dy air wrth fy nhâd Dafydd, canys gwnaethoſt i mi deyrnaſu ar bobl mor lluoſog a llwch y ddaiar.

10 Yn awr dyro i mi ddoethineb, a gŵybodaeth, fel yr elwyf allan, ac y delwyf i mewn o flaen y bobl hyn: canys pwy a ddichon farnu y bobl luoſog hyn:

11 Yna y dywedodd Duw wrth Salomon, o herwydd bod hyn yn dy feddwl di, ac na ofynnaiſt gyfoeth, golud, na gogoniant, nac enioes dy elynnion, ac na ofynnaiſt lawer o ddyddiau ychwaith, eithr gofyn o honot ddoethineb, a gwybodaeth, fel y llywodraethit fy mhobl y rhai i'th oſodais yn frenin arnynt:

12 Doethineb, a gwybodaeth a roddwyd it, cyfoeth hefyd, a golud, a gogoniant a roddaf it, y rhai ni bu eu cyffelyb gan y brenhinoedd y rhai [a fuant] o'th flaen di, ac ni bydd eu cyffelyb ar dy ôl di.

13 A Salomon a ddaeth o'r vchelfa 'r hon [ydoedd] yn Gibeon i Ieruſalem oddi ger bron pabell y cyfarfod, ac a deyrnaſodd ar Iſrael.

14 A * Salomon a gaſclodd gerbydau, a marchogion, ac yr oedd ganddo ef fil, a phedwar cant o gerbydau, a deuddeng-mil o wŷr meirch, ac efe ai goſododd hwynt yn ninaſoedd y cerbydau, ac yn Ieruſalem gyd a'r brenin.

15 A'r brenin a roddodd arian, ac aur yn Ieruſalem fel cerric, a chedr-wŷdd a roddes efe fel ffiguſ-wŷdd gwylltion o amldra, y rhai ydynt yn tŷfu yn y dol-dir.

16 A * dyfodiad y meirch y rhai oedd gan Salomon oedd o'r Aipht, felly y * gweoedd: marchnadwŷr y brenin a gymmerent wê oedd am werth. 1.Bren. 10.28. Eſa.19.9. Ezec.27.7.

17 Canys deuent i fynu, a dygent o'r Aipht [feirch pob] cerbyd am chwe chant [darn] o arian: ſef [pob] march am gant a hanner, ac felly y dygent i holl frenhinoedd yr Hethiaid, ac i frenhinoedd Syria gyd a hwynt.

## PEN. II.

Rhifedi ſeiri Salomon. 3 Salomon yn gyrru at Hiram i ddeiſyf coed, a gweith-wyr.

YNa y meddyliodd Salomon am adailadu tŷ i enw yr Arglwydd, ai frenhin-dŷ ei hun.

2 A Salomon a rifodd ddeng-mil a thrugain o glud-wŷr, a phedwar vgain mil o gymyn-wŷr yn y mynydd: ac yn oruchwil-wŷr arnynt hwy dair mil a chwe-chant.

3 A Salomon a anfonodd at Hiram brenin Tyrus gan ddywedyd: * megis y gwnaethoſt a Dafydd fy nhâd, ac yr anfonaiſt iddo cedr-wŷdd i adailadu iddo dŷ i drigo ynddo, 2.Sam.5.12.

4 (Wele fi yn adailadu tŷ i enw yr Arglwydd fy Nuw iw gyſſegru, i arogl-darthu arogl-darth arogl-bêr, a gwaſtadol oſodiad [bara,] a phoeth offrymmau boreu, a hwyr: ar y Sabbothau, ac ar y newydd loerau, ac ar oſodedic ŵyliau 'r Arglwydd ein Duw ni, hyd byth y mae hyn ar Iſrael.

5 A'r tŷ yr hwn a adailadaf [fydd] mawr, canys mwy [yw] ein Duw ni, na'r holl dduwiau.

6 A phwy a gaſcl nerth i adailadu iddo ef

dŷ: canys y nefoedd, ie nefoedd y nefoedd nid amgyffredant ef, a phwy ydwyf, yr hwn a adailadwn iddo ef dŷ, eithr i arogl-darthu oi flaen ef:

7 Felly yn awr anfon i mi ŵr cywraint i weithio mewn aur, ac mewn arian, mewn prês, ac mewn haiarn, ac mewn porphor, ac ſcarlat, a ſidan glâs, ac yn medru cerfio cerfiadau gyd a'r rhai celfydd y rhai ydynt gyd a mi yn Iuda, ac yn Ieruſalem, y rhai a ddarpârodd fy nhâd Dafydd.

1.Bren. 10.11. pen.9.10.

8 Anfon hefyd i mi goed cedr, a ffynnidwŷdd, * ac Algumim-wŷdd o Libanus: canys myfi a wn y medr dy weiſion di naddu coed Libanus, ac wele fyng-weiſion inne a [fyddant] gyd a'th weiſion dithe.

9 A [hynny] i ddarparu i mi lawer o goed cedr-wŷdd, canys y tŷ yr hwn yr ydwyf ar ei adailadu [fydd] mawr a rhyfedd.

10 Ac wele i'r ſeiri y rhai a naddant y coed y rhoddais vgain-mil Corus o wenith wedi ei guro i'th weiſion, ac vgain mil Corus o haidd, ac vgain-mil Bath o wîn, ac vgain mil Bath o olew.

11 A Hiram brenin Tyrus a attebodd mewn ſcrifen, ac a anfonodd at Salomon, o gariad yr Arglwydd ar ei bobl y rhoddes efe dydi yn frenin arnynt hwy.

12 Dywedodd Hiram hefyd, bendigedic [fyddo] Arglwydd Dduw Iſrael, yr hwn a wnaeth nef a daiar, am roddi o honaw ef i'r brenin Dafydd fab doeth, gwybodus o ſynnwyr, a deall i adailadu tŷ i'r Arglwydd, ai frenhin-dŷ ei hun.

13 Ac yn awr yr anfonais ŵr celfydd, cywraint, a deallus o'r eiddo fy nhâd Hiram.

1.Bren.7.14.

14 Mab gwraig o ferched Dan, ai dad yn ŵr o Dyrus yn medru gweithio mewn aur, ac mewn arian, mewn prês, mewn haiarn, mewn cerrig, ac mewn coed, mewn porphor, ac mewn ſidan glâs, ac mewn lliain main, ac mewn ſcarlat, ac i gerfio pôb cerfiad, ac i ddychymygu pôb dychymyg yr hwn a roddid atto ef, gyd a'th rai cywraint di, a rhai cywraint fy arglwydd Dafydd dy dâd.

15 Ac yn awr y gwenith, a'r haidd, yr olew, a'r gwîn, y rhai a ddywedodd fy arglwydd, anfoned hwynt iw weiſion.

16 Ac ni a gymynwn goed o Libanus, yn ôl dy holl raid, ac ai dygwn hwynt it yn gludeiriau ar hŷd môr Iapho: dwg dithe [hwynt] i fynu i Ieruſalem.

17 A Salomon a rifodd yr holl wŷr dieithr y rhai [oeddynt] yn nhîr Iſrael wedi y rhifiad a'r hon y rhifaſe Dafydd ei dâd ef hwynt: a chaed, tair ar ddêc a ſaith vgain o filoedd, a chwechant.

18 Ac efe a wnaeth o honynt hwy ddeng-mil, a thri vgain yn glud-wŷr, a pedwar vgain mil yn nadd-wŷr yn y mynydd, a thair mil a chwe-chant yn oruwch-wil-wŷr i beri i'r bobl weithio.

## PEN. III.

Gwaith y deml, y porth, ai perthynaſau.

A Salomon * a ddechreuodd adailadu tŷ yr Arglwydd yn Ieruſalem ym mynydd Moria: lle yr ymddangoſaſe [yr Arglwydd] i Ddafydd ei dad ef yn y lle yr hwn a ddarparaſe Dafydd yn llawr dyrnu * Ornan y Iebuſiad.

1.Bren.6.1. 2.Sam. 24.16.

2 Ac efe a ddechreuodd adailadu ar yr ail [dydd] o'r ail mîs, yn y bedwaredd flwyddyn oi deyrnaſiad ef.

3 Ac dymma [feſurau] ſylfaeniad Salomon wrth adailadu tŷ Dduw, yr hŷd [oedd] o gufyddau wrth y meſur cyntaf yn dri vgain cufydd, a'r lled yn vgain cufydd.

4 A'r porth yr hwn [oedd] wrth dalcen hŷd y tŷ [oedd] vn hŷd a lled y tŷ yn vgain cufydd, ai vchter yn chwech vgain cufydd, ac efe a oreurodd hwn o fewn ag aur pûr.

5 A'r tŷ mawr a fyrddiodd efe a ffynnidwŷdd, ac ai goreurodd ag aur da, ac a gerfiodd balm-wŷdd, a chadwynau ar hyd-ddo ef.

6 Ac efe a wiſcodd y tŷ a meini gwerthfawr yn hardd, a'r aur [oedd] aur Parfaim.

7 Ie efe a oreurodd y tŷ, y trawſtydd, y rhiniogau, ei barwydydd hefyd, ai ddorau ag aur: ac efe a gerfiodd Gerubiaid ar y parwydydd.

8 Ac efe a wnaeth dŷ y cyſſegr ſancteiddiolaf, ei hŷd [oedd] vn hŷd a llêd y tŷ yn vgain cufydd, ai lêd yn vgain cufydd: ac efe ai goreuodd ef ag aur dâ [ſef] a chwe-chant talent.

9 Ac [yr oedd] pwys yr hoelion o ddêc ſicl a deugain o aur, y lloffydd hefyd a oreurodd efe ag aur.

10 Ac efe a wnaeth yn nhŷ y cyſſegr ſancteiddiolaf ddau Gerub ar waith bechgin, ac ai gwiſcaſant hwynt hefyd ag aur.

11 Ac * adenydd y Cerubiaid [oeddynt] vgain cufydd eu hŷd, y naill aden o bump cufydd yn cyffwrdd a phared y tŷ: a'r aden arall o bump cufydd yn cyffwrdd ag aden y Cerub arall.

1.Bren.6.24.

12 Ac aden y Cerub arall o bump cufydd yn cyffwrdd a phared [arall] y tŷ, a'r aden arall o bump cufydd yng-lyn wrth aden y Cerub arall.

13 Adenydd y Cerubiaid hyn a ledwyd yn vgain cufydd, a hwythau oeddynt yn ſefyll ar eu traed, ai hwynebau tu ag i fewn.

14 Ac efe a wnaeth wahan-lenn o ſidan glâs, a phorphor, ac ſcarlet, a lliain main, ac a gerfiodd Gerubiaid ar hynny.

15 Gwnaeth hefyd ddwy golofn o flaen y tŷ, yn bymthec cufydd ar hugain o hŷd, a chap [pob vn] yr hwn [oedd] ar ei phen o bum cufydd.

16 Ac efe a wnaeth gadwyni wrth y gafell, ac ai rhoddodd ar benn y colofnau: ac efe a wnaeth gant a bomgranadau, ac ai rhoddodd ar y cadwynau.

17 A chyfododd y colofnau o flaen y deml, vn o'r tu dehau, ac vn o'r tu aſſwy, ac a alwodd henw yr dehau Iachin, a henw yr aſſwy Boaz.

1.Bren.7.20.

## PEN. IIII.

Gwaith yr allor. 2 Y gerwyn, 6 Y noeau, 7 Y Canwyll-brennau, ac eraill o ddodrefnau yr deml.

AC efe a wnaeth allor brês, o vgain cuſydd ei hŷd, ac vgain cuſydd ei llêd, a dêc cuſydd ei huchter.

2 Gwnaeth efe hefyd gerwyn, dawdd yn ddêc cuſydd oi [ naill ] ymyl hyd ei hymyl [ arall] yn gron o amgylch, ac yn bump cuſydd ei huchter: a llinin o ddêc cuſydd ar hugain ai hamgylche hi oddi amgylch.

3 A llun [wynebau] ŷchen [oedd] tani hi yn ei hãgylchu hi o amgylch, mewn dêc cuſydd yr oeddynt yn amgylchu y gerwyn oddi amgylch: dwy rês o [wynebau] ŷchen oeddynt wedi eu toddi, pan doddwyd hithe.

4 Sefyll yr oedd hi ar ddeuddec o ŷchen, tri yn edrych tua 'r gogledd, a thri yn edrych tua 'r gorllewyn: a thri yn edrych tua 'r dehau, a thri yn edrych tua 'r dwyrain: a'r gerwyn arnynt oddi arnodd, ai holl bennau ôl hwynt o fewn.

1.Bren.7.26.

5 Ai thewder [oedd] ddyrnfedd, ai hymyl fel gwaith ymyl cwppan, [ fel] blodeun lili, tair mil o Bathau a ddalie hi.

6 Gwnaeth efe hefyd ddêc o noeau, ac efe a roddodd bump o'r tu dehau, a phũp o'r tu aſſwy, i ymolchi vnddynt: trochent ynddynt ddefnydd y poeth offrwm, a'r gerwyn [oedd] i'r offeiriaid i ymolchi ynddi.

Exod.25.31.

7 Ac efe a wnaeth ddêc canhwyll-bren aur yn ôl eu portreiad, ac [ ai ] rhoddes yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aſſwy.

8 Gwnaeth hefyd ddêc o fyrddau, ac ai rhoddes yn y deml, pump o'r tu dehau, a phump o'r tu aſſwy: ac efe a wnaeth gant o gawgiau aur.

9 Ac efe a wnaeth gyntedd yr offeiriaid, a'r cyntedd mawr, a dorau i'r cynteddoedd, ai dorau hwynt a wiſcodd efe a phrês.

10 Ac efe a oſododd y gerwyn yn yr yſtlys dehau tua 'r dwyrain ar gyfer y dehau.

11 Gwnaeth Hiram hefyd grochanau, a rhawiau, a chawgiau, a darfu i Hiram wneuthur y gwaith yr hwn a wnaeth efe i'r brenin Salomon yn nhŷ Dduw.

12 [Sef ] dwy golofn, a chnappiau, a choronau ar ben y ddwy golofn, a dwy bleth i guddio y ddau gnapp goronoc, y rhai [oddynt] ar ben y colofnau.

13 A phedwar-cant o bomgranadau ar y ddwy bleth, dwy rês [oedd] o bomgranadau ar bôb pleth: i guddio y ddau gnapp gornoc y rhai [oeddynt] ar bennau y colofnau.

14 Ac efe a wnaeth yſtolion, ac a wnaeth noeau ar yr yſtolion:

15 [ Gwnaeth ] vn gerwyn, a deuddec o ŷchen tani.

16 Y crochanau hefyd, a'r rhawiau. a'r cigweiniau, ai holl leſtri hwynt a wnaeth Hiram ei dad i'r brenin Salomon yn nhŷ 'r Arglwydd o brês gloiw.

17 Yng-waſtadedd yr Iorddonen y toddodd y brenin hwynt mewn clei-dir rhwng Sucoth a Zaredatha.

18 Ie gwnaeth Salomon yr holl leſtri hyn yn lluoſog iawn, canys anfeidrol oedd bwys y prês.

19 A Salomon a wnaeth yr holl leſtri y rhai [ydynt yn] nhŷ Dduw: a'r allor aur, a'r byrddau, a'r bara goſod arnynt.

20 A'r canhwyll-brennau, ai lluſernau (iw goleuo yn ôl y ddefod o flaẽ y gafell) yn aur pûr.

21 Y blodau hefyd, a'r luſernau, a'r gefeiliau [oeddynt] aur, [a] hwnnw yn aur perffaith.

22 Y pſaltringau hefyd, a'r cawgiau, a'r llwyau, a'r thuſſerau [oeddynt] aur pûr: felly drws y tŷ, ai ddorau o du fewn y cyſſegr ſancteiddiolaf, a dorau tŷ y deml [oeddynt] aur.

## PEN. V.

Salomon yn dwyn i'r deml offrymmau Dafydd, ac Arch yr Arglwydd. 11 Ac yn peri i'r holl Lefiaid ganu moliant i Dduw.

FElly y * gorphennwyd yr holl waith yr hwn a wnaeth Salomon yn nhŷ yr Arglwydd: a Salomon a ddug yr hyn a gyſſegraſe Dafydd ei dad, ac a oſododd yn nhryſſorau tŷ Dduw yr arian, a'r aur, a'r holl leſtri.

1.Bren.7.51. & 8.1.

2 Yna y cynhullodd Salomon henuriaid, Iſrael, a holl bennau y llwythau, pennau cenedl meibion Iſrael i Ieruſalem, i ddwyn i fynu Arch cyfammod yr Arglwydd o ddinas Dafydd, honno [yw] Sion.

3 Am hynny holl wŷr Iſrael a ymgynnullaſant at y brenin, a'r vchel-wŷl honno [ oedd yn] y ſeithfed mîs.

4 A holl henuriaid Iſrael a ddaethant, a'r Lefiaid a ddugaſant yr Arch,

5 Yna y dugaſant i fynu 'r Arch, a phabell y cyfarfod, a holl leſtri y cyſſegr, y rhai [oeddynt] yn y babell, yr offeiriaid Lefiadaidd ai dugaſant hwynt i fynu.

6 Yna y brenin Salomon, a holl gynnulleidfa Iſrael y rhai a gyfarfuãt âg ef o flaen 'r Arch a aberthaſant o ddefaid, a gwartheg fwy nag a ellid eu rhifo nai cyfrif gan luoſogrwydd.

7 Felly 'r offeiriaid a ddugaſant Arch cyfãmod yr Arglwydd iw lle, i gafell y tŷ, i'r cyſſegr ſancteiddiolaf, hyd tann adenydd y Cerubiaid.

8 A'r Cerubiaid oeddynt yn lledu eu hadenydd tros lê yr Arch: a'r Cerubiaid a gyſcodẽt yr Arch, a thros ei throſolion oddi arnynt.

9 Pan eſtynnent y troſolion y gwelyd pẽnau y troſolion o'r Arch o flaen y gafell, ac ni welyd hwynt oddi allan: yno hefyd y mae hi hyd y dydd hwn.

10 Nid [oedd] yn yr Arch ond y ddwy lêch, y rhai a roddaſe Moſes yn Horeb, llê y gwnaethe yr Arglwydd gyfammod a meibion Iſrael pan ddaethent hwy allan o'r Aipht.

11 A phan ddaeth yr offeiriaid o'r cyſſegr (canys yr holl offeiriaid y rhai a gafwyd, a ymſancteiddiaſent heb gadw doſparthiad,

12 Felly y Lefiaid y rhai oeddynt gantoriõ

o

o honynt hwy oll[ſef] o Aſaph, o Heman, o Ieduthun, ac oi meibion hwynt, ac oi brodyr, wedi eu gwiſco a lliain main, a Symbalau, ac a nablau, a thelynau, yn ſefyll o du dwyrain yr allor, a chyd a hwynt chwech vgain o offeiriaid yn vdcanu mewn vdcyrn.

13 Ac hwyntau yn gydtun a vdganent, ac a ganent, gan ſeinio vn ſain i glodfori, ac i foliannu yr Arglwydd: ac wrth dderchafu ſain mewn vdcyrn, ac mewn Symbalau, ac mewn offer cerdd, ac wrth foliannu'r Arglwydd mai da yw, ac mai yn dragywydd[y mae]ei drugaredd ef) yna y llawnwyd y tŷ a niwl[ſef]tŷ'r Arglwydd.

14 Ac ni alle yr offeiriaid ſefyll i waſanaethu gan y niwl: o herwydd gogoniant yr Arglwydd a lawnaſe dŷ Dduw.

## PEN. VI.

Salomon yn bendithio y bobl. 4 Yn Moliannu Duw. 14 Ac yn gweddio tros y rhai a weddient yn y deml neu tu ag atti hi.

1.Bren.8.12. YNa y * llefarodd Salomon: yr Arglwydd a ddywedodd yr arhoſe efe yn y cwmwl.

2 A minne a adailedais dŷ yn drigfa it: a lle i'th breſſwylfod yn dragywydd.

3 A'r brenin a drodd ei wyneb, ac a fendithiodd holl gynnulleidfa Iſrael: (canys holl gynnulleidfa Iſrael oedd yn ſefyll [yno.)]

4 Ac efe a ddywedodd, Bendigedic [fyddo] Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn a lefarodd ai enau wrth Ddafydd fy nhâd: ac a gwplaodd ai ddwylaw gan ddywedyd,

5 Er y dydd y dugym i fy mhobl allan o wlâd yr Aipht ni ddetholais ddinas o holl lwythau Iſrael i adailadu tŷ i fod fy enw yndo: ac ni ddewiſais ŵr i fod yn flaenor ar fy mhobl Iſrael:

6 Ond mi a etholais Ieruſalem i fod fy enw yno: ac mi a ddewiſais Ddafydd i fod ar fy mhobl Iſrael.

2.Sam.7.5. 7 Pan *oedd ym mryd Dafydd fy nhâd i adailadu tŷ i enw Arglwydd Dduw Iſrael,

8 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Ddafydd fy nhâd, o herwydd bôd yn dy feddwl di adailadu tŷ i'm henw i: dâ y gwnaethoſt am fod [hynny]yn dy fryd di.

9 Er hynny nid adailedi di y tŷ: onid dŷ fab di yr hwn a ddaw allan o'th lwynau di, efe a adailada y ty i'm henw i.

10 Am hynny yr Arglwydd a gwplaodd ei air yr hwn a lefarodd efe: canys mi a gyfodais yn llê Dafydd fy nhâd, ac a eiſteddais ar orſeddfa Iſrael, fel y llefarodd yr Arglwydd, ac mi a adailedais dŷ i enw Arglwydd Dduw Iſrael.

11 Ac yno y goſodais yr Arch yn yr hon [y mae]cyfammod yr Arglwydd: yr hwn a ammododd efe a meibion Iſrael.

12 A[Salomon]a ſafodd o flaen allor yr Arglwydd ger bron holl gynnulleidfa Iſrael: ac a eſtynnodd ei ddwylaw.

13 A Salomō a wnaethe bulpud prês, ac ai goſodaſe yng-hanol y cyntedd, yn bump cufydd ei hŷd, a phump cufydd ei lêd, a thri chufydd ei vchter: ac efe a ſafodd arno, ac a oſtyngodd ar ei liniau ger bron holl gynnulleidfa Iſrael, ac a eſtynnodd ei ddwylo tua'r nefoedd.

14 Ac efe a ddywedodd, ô Arglwydd Dduw Iſrael *nid[oes]Duw cyffelib i ti yn y nefoedd, nac yn y ddaiar, yn cadw y cyfammod a'r drugaredd a'th weiſion y rhai ydynt yn rhodio ger dy fron di ai holl galon. 2.Mac.2.8.

15 Yr hwn a gedwaiſt a'th wâs Dafydd fy nhâd yr hyn a lefaraiſt wrtho ef: fel y lleferaiſt a'th enau, felly y cwplcaiſt a'th law megis [y gwelir] y dydd hwn.

16 Ac yn awr ô Arglwydd Dduw Iſrael cadw a'th wâs Dafydd fy nhâd yr hyn a lefaraiſt wrtho ef, gan ddywedyd: ni thorrir ymmaith oddi wrthit [fel na byddo] gŵr ger fy mron i yn eiſtedd ar deyrn-gadair Iſrael: os dy feibion a gadwant eu ffordd, gan rodio yn fyng-hyfraith i, fel y rhodiaiſt ti ger fy mron i. 1.Bren.8.25.

17 Yn awr gan hynny ô Arglwydd Dduw Iſrael: poed gwîr fyddo dy air yr hwn a leferaiſt wrth dy wâs Dafydd.

18 Ai gwir yw y preſſwylia Duw gyd a dyn a'r y ddaiar? wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd ni'th ymgyffredant di, pa feint lai[y dichon] y tŷ hwn yr hwn a adailedais i? 1.Bren.8.27.

19 Edrych gan hynny ar weddi dy wâs, ac ar ei ddeiſyfiad ef ô Arglwydd fy Nuw: i wrando ar y llêf, ac ar y weddi yr hon y mae dy wâs yn ei gweddio ger dy fron di.

20 Fel y byddo dy lygaid yn agored tua'r tŷ ymma ddydd a nôs, tua yr lle [am] yr hwn y dywedaiſt y goſodit dy enw yno: i wrando ar y weddi yr hon a weddia dy wâs di yn y fan honno.

21 Gwrando gan hynny ddeiſyfiadau dy wâs, a'th bobl Iſrael y rhai a weddiant yn y lle hwn: gwrando di hefyd o lê dy breſſwylfod, [ſef] o'r nefoedd, pan glywech, yna maddeu di.

22 *Pan becho gŵr yn erbyn ei gymmydog, a chynnig iddo raith, gan ei dyngu ef: yna deued y llw o flaen dy allor di yn y tŷ hwn. 1.Bren.8.31.

23 A gwrando di o'r nefoedd, gwna hefyd, a barna dy weiſion, gan dalu i'r drygionus, drwy roddi ei ffordd ef ar ei benn: a chan gyfiawnhau y cyfiawn, drwy roddi iddo yntef yn ôl ei gyfiawnder.

24 A phan leddir dy bobl Iſrael o flaen y gelyn am iddynt bechu yn dy erbyn: os dychwelant, a chyfaddef dy enw: a gweddio, ac ymbil ger dy fron di yn y tŷ hwn,

25 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu di bechod dy bobl Iſrael: dychwel hefyd hwynt i'r tîr yr hwn a roddaiſt iddynt hwy, ac iw tadau.

26 Pan gaeir y nefoedd fel na byddo glaw o herwydd pechu o honynt hwy i'th erbyn: os gweddiant yn y lle hwn, a chyfaddef dy enw, a dychwelyd o honynt oddi wrth eu pechod pan

gyſtuddiech hwynt,

27 Yna gwrando di o'r nefoedd, a maddeu bechod dy weiſiō, a'th bobl Iſrael (pan ddyſcech iddynt y ffordd orec yr hon y rhodient ynddi) a dyro law ar dy wlâd yr hon a roddaiſt i'th bobl yn etifeddiaeth.

1.Bren.8.37. pen.20.9. 28 *Pan fyddo newyn yn y tîr, pan fyddo haint, deifiad, neu falldod, pan fyddo ceiliogod rhedyn neu locuſtiaid, pan warchae ei elyn arno ef yn ninaſoedd ei wlâd ef: [neu] pa blâ bynnac, neu glefyd bynnac [a fyddo,]

29 Pôb gweddi, pôb deiſyfiad a'r a fyddo gan bôb dyn, a chan holl bobl Iſrael: pan wypo pawb ei blâ ei hun, ai ddolur, ac eſtyn ei ddwylaw tua 'r tŷ hwn:

30 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breſſwylfod, a maddeu di, gwna hefyd, a dyro i bôb vn yn ôl ei holl ffyrdd ef, yr hwn a adwaenoſt ei galon ef: canys ty di yn vnic a adwaenoſt galon meibion dynion:

31 Fel i'th ofnant gan rodio yn dy ffyrdd di yr holl ddyddiau a'r y byddant hwy byw ar wyneb y ddaiar: yr hon a roddaiſt i'n tadau ni.

32 Ac am y dieithr-ddyn hefyd yr hwn ni [byddo] o'th bobl di Iſrael, onid yn dyfod o wlâd bell er mwyn dy enw mawr a'th law gadarn, a'th fraich eſtynnedic: pan ddeuant, a gweddio yn y tŷ hwn,

33 Yna gwrando di o'r nefoedd, o fangre dy breſſwylfod, a gwna yn ôl yr hyn oll a lefa y dieithr-ddyn arnat: fel yr adwaeno holl bobl y ddaiar dy enw di, i'th ofni di, fel dy bobl Iſrael, ac i wŷbod mai ar dy enw di y gelwir yn y tŷ ymma yr hwn a adailedais i.

34 Pan êl dy bobl allan i ryfel yn erbyn eu gelynniō ar hyd y ffordd yr anfonech hwynt: os

1.Bren.8.46. eccle 7.21. 1.10.1.8. gweddiant arnat ti [tua] * ffordd y ddinas ymma yr hon a ddetholaiſt, a'r tŷ yr hwn a adailedais i'th enw di,

35 Yna gwrādo o'r nefoedd ar eu gweddi hwynt, ac ar eu deiſyfiad hwy: a gwna farn a hwynt

36 Os pechant i'th erbyn (canys nid [oes] ddyn yr hwn ni phecha) a diglloni o honot iw herbyn hwynt, ai rhoddi hwynt o flaen eu gelynnion, fel y caeth-gludant hwy yn gaethion i wlâd bell, neu agos:

37 Os edifarhânt yn eu calon yn y wlâd yr hon y caeth-gludwyd hwynt iddi: a dychwelyd, ac ymbil a thi yng-wlâd eu caethiwed gan ddywedyd, pechaſom, troſſeddaſom hefyd, a gwnaethom yn annuwiol.

38 Os dychwelant attat ti ai holl galon, ac ai holl enaid yng-wlâd ei caethiwed lle y caeth-gludaſant hwynt: a gweddio attat ti tua eu gwlâd yr hon a roddaiſt iw tadau, a'r ddinas 'r hon a ddetholaiſt, a'r tŷ 'r hwn adailadais i'th enw di:

39 Yna gwrando di o'r nefoedd (o fangre dy breſſwylfod) eu gweddi hwynt, ai deiſyfiadau hwynt, a gwna farn a hwynt: maddeu di hefyd i'th bobl y rhai a bechaſant i'th erbyn.

40 Yn awr ô fy Nuw bydded dy lygaid yn agored, a'th gluſtiau yn ymwrando a'r weddi [yr hon a wneir tua] yr lle ymma.

41 Ac *yn awr cyfot ô Arglwydd Dduw i'th orphywyſfa, ti ag Arch dy gadernid: dillader dy offeiriaid ô Arglwydd Dduw ag iechydwriaeth, a llawenyched dy ſainct mewn daioni. Pſal.132.8.

42 O Arglwydd Dduw na thro ymmaith wyneb dy eneiniog: cofia drugareddau Dafydd dy wâs.

## PEN. VII.

Tân o'r nefoedd yn difa yr aberth, a gogoniant yr Arglwydd yn llenwi y deml.

A*Phan orphennodd Salomon weddio, yna y tân a ddeſcynnodd o'r nefoedd, ac a yſodd y poeth offrwm, a'r ebyrth: a gogoniant yr Arglwydd a lawnodd y tŷ, 2.Mac.2.10.

2 Fel na alle yr offeiriaid fyned i mewn idŷ yr Arglwydd: o herwydd gogoniant yr Arglwydd a lawnaſe dy 'r Arglwydd.

3 Pan welodd holl feibion Iſrael y tân, a gogoniant yr Arglwydd yn deſcyn ar y tŷ: yna hwynt a ymgrymmaſant ai hwynebau i lawr ar y palmant, ac a addolaſant, ac a glodforaſant yr Arglwydd, mai dâ yw efe, a bod ei drugaredd ef yn dragywydd.

4 *Yna yr brenin a'r holl bobl a aberthaſant aberth ger bron yr Arglwydd. 1.Bren.8.65.

5 A'r brenin Salomō a aberthodd aberth o ddwy fil ar hugain o ŷchen, a chwech vgain mil o ddefaid: felly y brenin, a'r holl bobl a gyſſegraſant dŷ yr Arglwydd.

6 A'r offeiriaid oeddynt yn ſefyll yn eu gorchwyliaeth, a'r Lefiaid ag offer gerdd 'r Arglwydd, y rhai a wnaethe Dafydd y brenin i gyffeſſu i'r Arglwydd, mai yn dragywydd [y mae] ei drugaredd ef, pan oedd Dafydd yn moliannu [Duw] drwyddynt hwy: yna yr offeiriaid oeddynt yn vdcanu ar eu cyfer hwynt, a holl Iſrael oeddynt yn ſefyll.

7 A Salomon a gyſſegrodd ganol y cyntedd yr hwn [oedd] o flaen tŷ 'r Arglwydd, canys yno y paratoaſe efe y poeth offrymmau, a braſter yr aberthau hedd: canys ni alle yr allor brés yr hon a wnaethe Salomon gynnal y poeth offrwm, a'r bwyd offrwm, a'r braſter.

8 A Salomon a gadwodd ŵyl y pryd hynny ſaith niwrnod, a holl Iſrael gyd ag ef yn gynnulleidfa fawr iawn: o ddyfodfa Hemath hyd afon yr Aipht.

9 Gwnaethant hefyd yr wythfed dydd gymmanfa, canys cyſſegriad yr allor a wnaelſent hwy mewn ſaith niwrnod, a'r ŵyl ſaith niwrnod.

10 Ac yn y trydydd dydd ar hugain o'r ſeithfed mîs y gollyngodd efe y bobl iw pabellau yn hyfryd, ac yn llawen [eu] calon am y daioni 'r hwn a wnaethe 'r Arglwydd i Ddafydd, ac i Salomon, ac i Iſrael ei bobl.

11 Pan orphennodd Salomon dŷ 'r Arglwydd, a thŷ yr brenin (a'r hyn oll oedd ym mrŷd Salomon ei wneuthur yn nhŷ 'r Arglwydd, ac yn ei dŷ ei hun, a wnaeth efe yn llwyddiannus,) 1.Bren.9.1.

12 Yna

Num.12.6.

12 Yna 'r Arglwydd a * ymddangoſodd i Salomon liw nôs, ac a ddywedodd wrtho ef, gwrandewais dy weddi, ac mi a dewiſſais y fann hon i mi yn dŷ aberth.

13 Pan attaliwyf fi y nefoedd fel na byddo glaw, neu pan orchymynnwyf i'r locuſtiaid fwytta y ddaiar: a phan anfonwyf haint ymmyſc fy mhobl,

14 Os fy mhobl y rhai y gelwir fy enw yn eu myſc a ymoſtyngant, ac a weddiant, ac a geiſiant fy wyneb, ac a droant oi ffyrdd drygionus: yna y gwrandawaf o'r nefoedd, ac y maddeuaf iddynt eu pechodau, ac yr iachâf eu gwlâd hwynt.

15 Yn awr fy llygaid a fyddant agored, a'm cluſtiau yn ymwrando a'r weddi [a wneir yn] y fann honn.

16 Ac yn awr mi a ddetholais, ac a ſancteiddiais y tŷ hwn i fod fy enw yno hyd byth: fy llygaid hefyd a'm calon fyddant yno yr holl ddyddiau.

17 Ac os rhodi dithe ger fy mron i fel y rhodiodd Dafydd dy dâd, gan wneuthur yr hyn oll a orchymynnais i ti: ac [o] chedwi fy neddfau, a'm barnedigaethau mau fi,

Pen.6.16.

18 Yna y ſiccrhaf deyrn-gader dy frenhiniaeth di, megis yr ammodais a Dafydd dy dâd ti gan ddywedyd, ni thorrir ymmaith oddi wrthit [fel na byddo] * gŵr yn arglwyddiaethu yn Iſrael.

19 Ond os dychwelwch, ac [os] gwrthodwch fy neddfau, a'm gorchymynnion y rhai a roddais ger eich bron chwi: ac os rhodiwch, ac os gwaſanaethwch dduwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt hwy,

20 Yna mi ai diwreiddiaf hwynt o'm gwlâd yr hon a roddais iddynt hwy, a'r tŷ 'r hwn a ſancteiddiais i'm henw a fwriaf ymmaith o'm gŵydd: ac mi ai rhoddaf ef yn ddammeg, ac yn ddihareb ym myſc yr holl bobloedd.

21 A'r tŷ yma 'r hwn ſydd uchel a wna i bawb ar a êl heibio iddo ſynnu: fel y dyweder, pa ham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn i'r wlâd hon? ac i'r tŷ hwn?

22 Yna y dywedant, am iddynt wrthod Arglwydd Dduw eu tadau hwynt, yr hwn ai dug hwynt allan o wlâd yr Aipht, ac [am] iddynt ymaſlyd mewn duwiau dieithr, ac ymgrymmu iddynt, ai gwaſanaethu hwynt: am hynny y dûg efe yr holl ddrwg yma arnynt hwy.

## PEN. VIII.

Y dinaſoedd y rhai a adailadodd, ac a ennillodd Salomon. 12 ei aberthau, ai aur ef.

1.Bren.9.10.

AC * wedi yr ugain mlynedd [yn] y rhai'r adailadodd Salomon dŷ'r Arglwydd, ai dŷ ei hun.

1.Bren.9.12. 13.

2 Yna Salomon a adailadodd y dinaſoedd * y rhai a roddaſe Hiram i Salomon: ac a wnaeth i feibion Iſrael drigo yno.

3 A Salomon a aeth i Hemath Sobah: ac ai gorchfygodd hi.

1.Bren.9.18.

4 Ac efe a adailadodd Tadmor yn yr anialwch: a holl ddinaſoedd y tryſſorau y rhai a adailadodd efe yn Hemath.

5 Efe hefyd a adailadodd Beth-horon uchaf, a Beth-horon iſaf: dinaſoedd cedyrn o furiau, pyrth, a barrau.

1.Bren.7.2.

6 Baalath hefyd, a holl ddinaſoedd y tryſſorau y rhai oeddynt gan Salomon, a holl ddinaſoedd y cerbydau, a dinaſoedd y marchogion: a'r hyn oedd ewyllys gan Salomon a fynnodd efe ei adailadu yn Ierusalem, ac * yn Libanus, ac yn holl dir ei arglwyddiaeth ef.

7 Yr holl bobl y rhai a adawyd o'r Hethiaid a'r Amoriaid, a'r Phereziaid, a'r Hefiaid, a'r Iebuſiaid y rhai nid oeddynt o Iſrael:

8 Oi meibion hwynt y rhai a drigaſant ar eu hôl 'hwynt yn y wlâd, y rhai ni ddifethaſe meibion Iſrael: Salomon ai gwnaeth hwynt yn drethawl hyd y dydd hwn.

9 Ond o feibion Iſrael ni roddodd Salomon [neb] yn weiſion yn ei waith ef: canys hwynt [oeddynt] ryfel-wŷr, a thywyſogion ei gapteniaid ef, a thywyſogion ei gerbydau, ai wŷr meirch ef.

10 Ac dymma dywyſogion y ſwyddogion y rhai [oeddynt] gan y brenin Salomon, [ſef] dau cant, a dêc a deugain yn arglwyddiaethu ar y bobl.

11 Yna Salomon a ddug ferch Pharao i fynu o ddinas Dafydd i'r tŷ 'r hwn a adailadaſe efe iddi hi: canys efe a ddywedodd, ni thrig fyng-wraig i yn nhŷ Ddafydd brenin Iſrael, o herwydd ſanctaidd yw, o blegit i Arch yr Arglwydd ddyfod i mewn iddo ef.

Pen.4.1.
Exod.29 39.

12 Yna Salomon a offrymmodd boeth offrymmau i'r Arglwydd ar * allor yr Arglwydd, yr hon a adailadaſe efe o flaen y porth,

Lefit.23.

13 I * boeth-offrymmu o ddydd i ddydd yn ôl gorchymyn Moſes, ar y Sabbothau, ac ar y newydd loerau, ac ar y gŵyliau arbennic * dair gwaith yn y flwyddyn: [ſef] ar ŵyl y bara croiw, ac ar ŵyl yr wythnoſau, ac ar ŵyl y pebyll.

1.Cron.24.1.

14 Ac efe a oſododd '(yn ôl trefn Dafydd ei dâd ef) ddoſparthiadau'r offeiriaid yn eu gwaſanaeth, a'r Lefiaid* yn eu gorchwyliaeth i foliannu, ac i weini ger bron yr offeiriaid bob dydd yn ei ddydd, a'r porthorion yn eu doſparthiadau wrth bob porth: canys felly ['r oedd] gorchymyn Dafydd gŵr Duw.

15 Ac ni throaſant hwy oddi wrth orchymyn y brenin [yr hwn a roddwyd] i'r offeiriaid, a'r Lefiaid am bob peth, ac am y tryſſorau.

16 A Salomon a baratôdd yr holl waith er y dydd y ſeiliwyd tŷ 'r Arglwydd nes ei orphen: [felly] y diweddwyd tŷ 'r Arglwydd.

17 Yna 'r aeth Salomon i Eſion-geber, ac i Eloth ar fin y môr yng-wlâd Edom.

18 A Hiram a anfonodd gyd ai weiſion longau, a gweiſion cyfarwydd ar y môr, a hwy a aethant gyd a gweiſion Salomon i Ophir, ac a

gymmeraſant oddi yno bedwar cant a dêc a deugain talent o aur: ac ai dugaſant [hwynt] at y bꝛenin Salomon.

## PEN. IX.

Y frenhines Saba yn gofwyo, ac yn anrhêgu Salomon. 12 haelioni, 13 cyfoeth, 30 ac oes Salomon.

1.Bren.10.1 Math.12.14. Luc.11.31. PAN glybu * bꝛenhines Saba glôd Salomō, yna hi a ddaeth i Ieruſalem, i bꝛofi Salomon mewn cweſtiwnau caled a llû mawꝛ iawn, ac a chamêlod yn dwyn aroglau, ac aur yn aml, a meini gwerthfawꝛ: a hi a ddaeth at Salomon, ac a ddywedodd wꝛtho ef yꝛ hyn oll oedd yn ei chalon.

2 A Salomon a fynegodd iddi hi ei holl eiriau: ac nid oedd dim yn guddiedic rhac Salomon, a'r na fynegodd efe iddi hi.

3 Yna y canfu bꝛenhines Saba ddoethineb Salomon: a'r tŷ'r hwn a adailadaſe efe.

4 A bwyd ei fwꝛdd ef, ac eiſteddiad ei weiſion ef, a thꝛefn ei weinidogion ef, ai gwiſcoedd hwynt, ai dꝛulliadau ef, ai gwiſcoedd, ai boeth offrwm yꝛ hwn a offrymmodd efe yn nhŷ'r Arglwydd: ac nid oedd mwyach yſpꝛyd ynddi.

5 A hi a ddywedodd wꝛth y bꝛenin, gwîr iw y gair yꝛ hwn a glywais yn fyng-wlâd: am dy ymadꝛoddion di, ac am dy ddoethineb.

6 Etto ni choeliais iw geiriau hwynt nes i'm ddyfod, ac i'm llygaid weled, ac wele ni fynegaſid i mi hanner helaethꝛwydd dy ddoethineb: chwanegaiſt at y glôd yꝛ hon a glywais.

7 Gwynfyd dy wŷꝛ di, a gwynfydedic [yw] dy weiſion hyn: y rhai ydynt yn ſefyll yn oeſtadol ger dy fron, ac yn clywed dy ddoethineb.

8 Bendigêdic fyddo'r Arglwydd dy Dduw di'r hwn a'th hoffodd di, gan dy oſot ar ei oꝛſeddfa yn frenin tros yꝛ Arglwydd dy Dduw: o herwydd cariad dy Dduw tu ag at Iſrael iw ſiccrhau yn dꝛagywydd, am hynny y rhoddodd [yꝛ Arglwydd] dydi yn frenin arnynt hwy i wneuthur barn, a chyfiawnder.

9 A hi a roddodd i'r bꝛenin chwech ugain talent o aur, a phêr aroglau lawer iawn, a meini gwerthfawꝛ: ac ni bu y fath bêr aroglau ymma, y rhai a roddodd bꝛenhines Saba i frenin Salomon.

10 Gweiſion Hiram hefyd, a gweiſion Salomon y rhai a ddugaſant aur o Ophir: a ddugaſant goed * Algumim, a meini gwerthfawꝛ. 1.Bren.10.11. Pen.2.8.

11 A'r bꝛenin a wnaeth o'ꝛ coed Algumim anelion i dŷ'r Arglwydd, ac i dŷ'r bꝛenin, a thelynau, a nablau i'r cantoꝛion: ac ni welſid eu math hwynt o'ꝛ blaen yng-wlâd Iuda.

12 A'r bꝛenin Salomon a roddodd i frenhines Saba ei holl ddymuniad yꝛ hyn a ofynnodd hi, heb law ['r hyn a roddodd efe am] yꝛ hyn a ddugaſe hi i'r bꝛenin: felly hi a ddychwelodd, ac a aeth iw gwlâd, hi ai gweiſion.

13 A phwys yꝛ aur yꝛ hwn a ddaeth at Salomon bob blwyddyn oedd chwe chant, a thꝛi ugain, a chwech o dalentau aur.

14 Heb law ['r hyn] yꝛ oedd y marchnadwŷꝛ, a'r marſiand-wŷꝛ yn eu dwyn: a holl frenhinoedd Arabia, a thywyſogion y wlâd oeddynt yn dwyn aur, ac arian i Salomon.

15 A'r bꝛenin Salomon a wnaeth ddau cant tarian o aur dilin: chwe chant [ſicl] o aur dilin a roddod efe ym mhob tarian.

16 A thꝛy chant o helmau o aur dilin, trychant [ſicl] o aur a roddodd efe ym mhob helm: a'r bꝛenin ai rhoddodd hwynt yn nhŷ y coed Libanus.

17 A'r * bꝛenin a wnaeth oꝛſeddfa fawꝛ o Iſoꝛi: ac ai goꝛeurodd ag aur pur. 1.Bren.10.18.

18 A chwech o riſiau [oeddynt] i'r oꝛſeddfa, a thꝛoed-le o aur yng-lyn wꝛth yꝛ oꝛſeddfa, a chanllawiau o bob tu i'r eiſtedd-le: a dau lew yn ſefyll wꝛth ymyl y canllawiau.

19 A deuddec o lewod yn ſefyll yno ar y chwe gris o bob tu: ni wnaethpwyd felly mewn un deyꝛnas.

20 A holl leſtri diod y bꝛenin Salomon [oeddynt] o aur, a holl leſtri tŷ coed Libanus [oeddynt] aur pur: nid oedd dim bꝛî ar arian yn nyddiau Salomon.

21 Canys llongau * y bꝛenin oeddynt yn myned i Tharſis gyd a gweiſion Hiram: un waith yn y tair blynedd y deue llongau Tharſis yn dwyn aur, ac arian, ac Iſoꝛi, eppaod hefyd, a pheunod. 1.Bren.10.22.

22 A'r bꝛenin Salomon a ragoꝛodd ar holl frenhinoedd y ddaiar, mewn cyfoeth, a doethineb.

23 A holl frenhinoedd y ddaiar oeddynt yn ceiſio [gweled] wyneb Salomon: i wꝛando ei ddoethineb ef, yꝛ hwn a roddaſe Duw yn ei galon ef.

24 A hwynt a ddugaſant bob un ei anrheg, lleſtri arian, a lleſtri aur, a gwiſcoedd, arfau a phêr-aroglau, meirch, a mulod bob blwyddyn.

25 Ac yꝛ oedd gan Salomon bedwar mîl o bꝛeſêbau meirch, a cherbydau, a deuddeng-mil o wŷꝛ meirch: ac ai cyfleuodd hwynt yn ninaſoedd y cerbydau, a chyd a'r bꝛenin yn Ieruſalem.

26 Ac yꝛ oedd efe yn arglwyddiaethu ar yꝛ holl frenhinoedd o'ꝛ afon [Euphꝛates] hyd wlâd y Philiſtiaid: ac hyd derfyn yꝛ Aipht.

27 A'r bꝛenin a roddodd yꝛ arian yn Ieruſalem fel cerric: a'r cedꝛ-wŷdd a roddodd efe fel y ffigus-bꝛennau gwylltion y rhai [ydynt] yn aml mewn dol-dir.

28 Ac yꝛ oeddynt hwy yn dwyn meirch i Salomon o'ꝛ Aipht, ac o'ꝛ holl wledydd eraill. 1.Bren.10.24.

29 A'r rhan arall o weithꝛedoedd Salomon cyntaf, a diwethaf: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yng-eiriau Nathan y pꝛophwyd, ac ym mhꝛophwydoliaeth Ahia y Siloniad, ac yng-weledigaethau Ido y gweledudd yn erbyn Ieroboam mab Nabat?

30 A Salomon a deyꝛnaſodd yn Ieruſalem ar holl Iſrael ddeugain mlynedd.

31 A Salomon a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef yn ninas Dafydd ei dâd: a Rehoboam 1.Bren.11.43.

hoboam ei fab a deyrnaſodd yn ei lê ef.

### PEN. X.

Y Cyngor yr hwn a ddilynodd Rehoboam yn peri iddo ef golli dêc o ddeuddec llwyth Iſrael.

1.Bren.12.1. YNa Rehoboam a aeth i Sichem: canys i Sichem y daethe holl Iſrael iw vrddo ef yn frenin.

2 Pan glybu Ieroboam mab Nabat, (ac yntef yn yr Aipht lle y ffoaſe efe o ŵydd Salomon y brenin) yna Ieroboam a ddychwelodd o'r Aipht.

3 Canys hwynt a anfonaſent, ac a alwaſent am dano ef, ac Ieroboam a ddaeth a holl Iſrael: a hwy a ymddiddanaſant a Rehoboam gan ddywedyd,

4 Dy dâd ti a wnaeth ein iau ni yn drom: yn awr gan hynny yſcafnhâ [ni] o gaethiwed caled dy dâd, ac oi iau drom ef yr hon a roddodd efe arnom ni, ac ni a'th waſanaethwn di.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, [ewch] etto dri diau, yna dychwelwch attafi: a'r bobl a aethant.

6 A'r brenin Rehoboam a ymgynghôrodd a'r henuriaid (y rhai a fuaſent yn ſefyll o flaen Salomon ei dâd ef pan ydoedd efe yn fyw) gan ddywedyd: pa fodd yr ydych chwi yn cynghori atteb i ymadrodd y bobl hynn?

7 A hwynt a lefaraſant wrtho ef gan ddywedyd, os byddi yn ddâ i'r bobl ymma, os boddloni di hwynt, ac [os] dywedi wrthynt eiriau têg: yna y byddant yn weiſion i ti byth.

8 Ond efe a wrthododd gyngor yr henuriaid, yr hwn a gyngoraſent hwy iddo: ac efe a ymgynghorodd a'r bechgyn y rhai a gynnyddaſent gyd ag ef, a'r rhai oeddynt yn ſefyll ger ei fron ef.

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, beth yr ydych chwi yn ei gynghori, fel yr attebom [i] ymadrodd y bobl hyn y rhai a lefaraſant wrthif gan ddywedyd, yſcafnhâ [ni] o'r iau 'r hon a oſododd dy dâd ti arnom ni?

10 Yna y bechgyn y rhai a gynnyddaſent gyd ag ef a lefaraſant wrtho gan ddywedyd, fel hyn y dywedi wrth y bobl y rhai a lefaraſant wrthit gan ddywedyd, dy dâd ti a wnaeth ein hiau ni yn drwm, yſcafnhâ dithe [hi] oddi arnom ni: fel hyn y dywedi wrthynt, fy [mŷs] bach [ſydd] ffyrfach na lwynau fy nhad. 1.Bren. 12.14.

11 Ac yn awr* fy nhâd a'ch llwythodd chwi ag iau drom, minnef hefyd a chwanegaf ar eich iau chwi: fy nhâd i a'ch ceryddodd chwi a gwielyn, a minnef [a'ch ceryddaf] a ffrewyllau.

12 Yna y daeth Ieroboam, a'r holl bobl at Rehoboam y trydydd dydd: fel y llefaraſe y brenin gan ddywedyd, dychwelwch attafi y trydydd dydd.

13 A'r brenin ai hattebodd hwynt yn galed: (canys y brenin Rehoboam a wrthododd gyngor yr henuriaid)

14 Ac efe a lefarodd wrthynt yn ôl cyngor y bechgyn gan ddywedyd, fy nhadi a drwmhaodd eich iau chwi, a minne a chwanegaf arni hi: fy nhad i a'ch ceryddodd chwi a gwielyn, a minne [a'ch ceryddaf chwi] a ffrewyllau.

15 Ac ni wrandawodd y brenin ar y bobl: o herwydd yr achos oedd oddi wrth Dduw, fel y cwplâe 'r Arglwydd ei air yr hwn a lefaraſe efe drwy law Ahia y Siloniad wrth Ieroboam fab Nabat.

16 Pan *[welodd] holl Iſrael na wrandawe y brenin arnynt hwy, yna y bobl a attebaſant y brenin gan ddywedyd, pa rann [ſydd] i ni yn Dafydd? nid [oes] ychwaith [i ni] etifeddiaeth ym mab Iſai: ô Iſrael [aed] pawb iw pebyll, edrych yn awr [ar] dy dŷ dy hun Dafydd: felly holl Iſrael a aethant iw pabellau. 1.Bren. 12. 16.

17 Felly [ar] feibion Iſrael y rhai oeddynt yn preſſwylio yn ninaſoedd Iuda, yn unic y teyrnaſodd Rehoboam.

18 A'r brenin Rehoboam a anfonodd Adoram yr hwn [oedd] ar y drêth, a meibion Iſrael at llabyddiaſant ef a meini fel y bu efe farw: yna y brenin Rehoboam a ymegniodd i fyned i fynu mewn cerbyd i ffoi i Ieruſalem.

19 Felly Iſrael a wrthryfelaſant yn erbyn tŷ Ddafydd hyd y dydd hwn.

### PEN. XI.

Duwyn gwahardd i Rehoboam ryfela yn erbyn Ieroboam. 5 Dinaſoedd, gwragedd, a phlant Rehoboam.

PAn *ddaeth Rehoboam i Ieruſalem, yna efe a gaſclodd o holl dŷ Iuda, ac o Beniamin gant, a phedwar ugain mil [o wŷr] dewiſol cymmwys i ryfel: i ymladd ag Iſrael, [ac] i ddwyn trachefn y frenhiniaeth i Rehoboam. 1.Bren. 12. 21.

2 Ond gair yr Arglwydd a ddaeth at Semaiahu gŵr Duw gan ddywedyd:

3 Dywet wrth Rehoboam fab Salomon brenin Iuda: ac wrth holl Iſrael o fewn Iuda a Beniamin, gan ddywedyd,

4 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, nac ewch i fynu, ac nac ymleddwch yn erbyn eich brodyr, dychwelwch bob un iw dŷ ei hun, canys drwof fi y gwnaethpwyd y peth hyn: a hwynt a wrandawſant ar eiriau 'r Arglwydd, ac a ddychwelaſant heb fyned yn erbyn Ieroboam.

5 A Rehoboam a drigodd yn Ieruſalem: ac a adailadodd ddinaſoedd cedyrn yn Iuda.

6 Ac efe a adailadodd Bethlehem, ac Etam, a Thecoa.

7 Bethzur hefyd, a Socho, ac Adulam.

8 Gath hefyd, a Mareſa, a Ziph.

9 Adoraim hefyd, a Lachis, ac Azecah.

10 Zorah hefyd, ac Aialon, a Hebron y rhai [oeddynt] yn Iuda, ac yn Beniamin: dinaſoedd caeroc.

11 Ac efe a gadarnhaodd yr amddiffynfaoedd, ac a oſododd flaenoriaid ynddynt hwy, a chellau bwyd, ac olew, a gwîn.

12 Ac ym mhob dinas [y goſododd efe] dariannau, a gwaiw-ffyn, ac ai cadarnhaodd hwynt yn gadarn iawn: ac eiddo ef oedd Iuda, a Beniamin.

13 A'r offeiriaid,a'r Lefiaid y rhai[oeddynt] yn holl Iſrael a ſafaſant wrtho ef oi holl derfynau.

14 Canys y Lefiaid a wrthodaſant eu meuſydd pentrefol,ai meddiant,ac a aethant i Iuda, ac i Ieruſalem: * canys Ieroboam ai feibion ai bwriaſe hwynt ymmaith o fod yn offeiriaid i'r Arglwydd. Pen.13.9.

2.Bren.12.31. Eſa.34.14. 15 Ac * efe a oſododd iddo ef offeiriaid i'r vchelfeudd,ac i'r * cythreuliaid: ac i'r lloi y rhai a wnaethe efe.

16 Ac ar eu hôl hwynt[rhai]o holl lwythau Iſrael (y rhai oeddynt yn rhoddi eu calon i geiſio Arglwydd Dduw Iſrael) a ddaethant i Ieruſalem i aberthu i Arglwydd Dduw eu tadau.

17 Felly hwynt a gadarnhauſant frenhiniaeth Iuda, ac a nerthaſant Rehoboam fab Salomon dros dair blynedd: canys hwy a rodiaſant yn ffordd Dafydd, a Salomon, yng-hyfod tair blynedd.

18 A Rehoboam a gymmerth Mahalath ferch Ierimoth fab Dafydd yn wraig iddo: [ac] Abihail ferch Eliab fab Iſai.

19 A hi a ymddug iddo ef feibion: ſef Ieus, a Semaria,a Zaham.

20 Ac ar ei hôl hi efe a gymmerth Maacha ferch Abſalom: a hi a ymddug iddo ef Abiiah, ac Atthai,a Ziza,a Selomith.

21 A Rehoboam a garodd Maacha ferch Abſalom yn fwy nai holl wragedd, ai ordderch wragedd, canys deu-naw o wragedd a gymmerth efe, a thri vgain o ordderchadon: ac efe a genhedlodd wyth ar hugain o feibion, a thri vgain o ferched.

22 A Rehoboam a oſododd Abiiah fab Maacha yn benn blaenor ar ei frodyr: canys[yr oedd yn ei fryd ef] ei vrddo ef yn frenin.

23 Ac efe a fu gall, ac a waſcarodd[rai] oi feibion i holl wledydd Iuda, a Beniamin, ac i'r holl ddinaſoedd caeroc, ac a roddes iddynt hwy lynniaeth yn aml: ond efe a geiſiodd liaws o wragedd.

## PEN. XII.

Seſac(am i Rehoboam bechu yn erbyn Duw)yn cael ei ddrygu ef.

A Phan ſiccrhaodd Rehoboam y frenhiniaeth, ai chadarnhau, efe a wrthododd gyfraith yr Arglwydd: a holl bobl Iſrael gyd ag ef.

2 Ac yn y bummed flwyddyn i'r brenin Rehoboam y daeth Seſac brenin yr Aipht i fynu yn erbyn Ieruſalem: (canys hwy a wrthryfelaſent yn erbyn yr Arglwydd)

3 A mil a dau cant o gerbydau,a thri vgain-mil o wŷr meirch, ac nid [oedd] nifer ar y bobl y rhai a ddaethant gyd ag ef o'r Aipht [ſef] y Lybiaid,y Succiaid,a'r Ethiopiaid.

4 Ac efe a ennillodd y dinaſoedd caeroc y rhai[oeddynt] yn Iuda: ac a ddaeth hyd Ieruſalem.

5 Yna Semaiah y prophwyd a ddaeth at Rehoboam, a thywyſogiō Iuda y rhai oeddynt wedi ymgaſclu yn Ieruſalem rhac ofn Seſac: ac efe a ddywedodd wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, chwi a'm gwrthodaſoch i,am hynny myfi a'ch gadawaf chwi yn llaw Seſac.

6 Yna tywyſogion Iſrael a ymoſtyngaſant, ac a ddywedaſant,cyfiawn yw'r Arglwydd.

7 Pan welodd yr Arglwydd iddynt hwy ymoſtwng,daeth gair yr Arglwydd at Semaiah gan ddywedyd,hwynt a ymoſtyngaſant[am hynny] ni ddifethaf hwynt: onid rhoddaf iddynt ymwared ar fyrder, ac ni ddifera fy llid yn erbyn Ieruſalem drwy law Seſac.

8 Etto byddant yn weiſion iddo ef: fel yr adnabyddant fyng-haethiwed mau fi, a chaethiwed brenhinoedd y ddaiar.

9 Yna * Seſac brenin yr Aipht a ddaeth i fynu yn erbyn Ieruſalem,ac a gymmerth dryſſorau tŷ'r Arglwydd, a thryſſorau tŷ y brenin, ac ai dûg hwynt ymmaith oll: dûg ymmaith y tariannau aur y * rhai a wnaethe Salomon. 1.Bren.14.26 Pen.9.15.

10 A'r brenin Rehoboam a wnaeth yn eu llê hwynt dariannau prês:ac ai rhoddodd [hwynt] i gadw tann law tywyſogion y rhedegwŷr y rhai oeddynt yn cadw drws tŷ y brenin.

11 A phan ele'r brenin i dŷ'r Arglwydd: y rhedeg-wŷr a ddeuent, ac ai dygent hwy, ac ai dygent trachefn i ſtafell y rhedeg-wŷr.

12 Am hynny pann ymoſtyngodd efe,llid yr Arglwydd a ddychwelodd oddi wrtho ef fel nas diniſtrie yn hollawl: ac felly y bu[pob]peth yn dda yn Iuda.

13 Felly y brenin Rehoboam a ymgryfhaodd yn Ieruſalem, ac a deyrnaſodd: a mab vn mlwydd a deugain[oedd] Rehoboam pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a dwy flynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem,(y ddinas yr hon a ddewiſaſe'r Arglwydd i oſod ei enw ef ynddi o holl lwythau Iſrael) ac enw ei fam ef [oedd] Naamah yr Ammonites. 1.Bren.14.21.

14 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg: canys ni ddarparodd efe ei galon i geiſio'r Arglwydd.

15 Am y gweithredoedd cyntaf a diwethaf i Rehoboam, onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yng-eiriau Semaiah y prophwyd, ac Iddo y gweledudd yn yr achau: a [bu] rhyfeloedd [rhwng] Rehoboam ac Ieroboam yr holl ddyddiau.

16 A Rehoboam a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd yn ninas Dafydd: ac Abiiah ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XIII.

Abia yn Rhyfela yn erbyn Ieroboam, ac yn ei orchfygu ef.

AC yn y ddeu nawfed flwyddyn i'r brenin Ieroboam, y dechreuodd * Abiiah deyrnaſu ar Iuda. 1.Bren.15.1.

2 Tair blynedd y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem,ac enw ei fam ef[oedd]*Michaiahu merch Vriel o Gibea: a bu ryfel rhwng Abiiah

ac Jeroboam.

3 Ac Abiiah a gydiodd y rhyfel a llu o ryfel-wŷꝛ cedyꝛn [ſef] pedwar cant mil o wŷꝛ etholedig: ac Jeroboam a luniaethodd yn ei erbyn ef ryfel, ag wyth gant mil o wŷꝛ etholedig, cedyꝛn nerthol.

4 Ac Abiiah a gyfododd oddi ar fynydd Zemaraim yꝛ hwn [ſydd] ym mynydd Ephꝛaim: ac a ddywedodd, ô Jeroboam, a holl Iſrael gwꝛandewch fi.

5 Oni [pherthyn] i chwi wybod mai Arglwydd Dduw Iſrael a roddodd y frenhiniaeth i Ddafydd ar Iſrael yn dꝛagywydd: iddo ef ac iw feibion drwy gyfammod hâlen?

6 Etto Jeroboam mab Nabat gwâs Salomon fab Dafydd a gyfododd, ac * a wꝛthryfelodd yn erbyn ei arglwydd. 1.Bren.11.26.

7 Ac ofer ddynion [ſef] meibion y fall a ymgaſclaſant atto ef, ac a ymgadarnhaſant yn erbyn Rehoboam mab Salomon: a Rehoboam oedd * fachgen, a gwann ei galon, ac nid ymgadarnhaodd efe iw herbyn hwynt. 1.Bren.12.31.

8 Ac yn awꝛ yꝛ ydych yn meddwl i chwi ymgadarnhau yn erbyn bꝛenhiniaeth yꝛ Arglwydd [yꝛ hon ſydd] yn llaw meibion Dafydd: am eich bod yn dyꝛfa fawꝛ, a [bod] gyd a chwi y lloi aur y rhai a wnaeth Jeroboam yn dduwiau i chwi.

9 * Oni yꝛraſoch ymmaith offeiriaid yꝛ Arglwydd, ſef meibion Aaron, a'r Lefiaid? ac oni wnaethoch i chwi offeiriaid fel pobl y gwledydd eraill? pwy bynnac ſydd yn dyfod iw gyſſegru, a buſtach ieuangc, ac a ſaith o hyꝛddod, hwnnw ſydd yn offeiriad i'r [rhai] nid [ydynt] dduwiau. Lefit.26.36. 1.Bren.12.31.

10 Ninnau [ydym eiddo]'r Arglwydd ein Duw, ac nis gwꝛthodaſom ef: a'r offeiriaid y rhai ydynt yn gwaſanaethu'r Arglwydd [ydyw] meibion Aaron, a'r Lefiaid [ydynt] yn [eu] goꝛchwyl.

11 Ac y maent hwy yn lloſci i'r Arglwydd boeth offrymmau bob boꝛeu, a phob hwyꝛ, ac arogl-darth aroglbêr, ac [yn cadw] trefn y bara [goſod] ar y bwꝛdd pur, a'r canhwyll-bꝛen aur ai luſernau i loſci bob pꝛynhawn, canys yꝛ ydym ni yn cadw goꝛchwyliaeth yꝛ Arglwydd ein Duw: ond chwi ai gwꝛthodaſoch ef.

12 Ac wele y Duw hwn [ſydd] yn bennaf gyd a ni, ai offeiriaid ef, ac udcyꝛn ſoniarus i udcanu yn eich erbyn chwi: ô feibion Iſrael nac ymleddwch yn erbyn Arglwydd Dduw eich tadau, canys ni lwyddwch chwi.

13 Ond Jeroboam a barodd oſod cynllwyn o amgylch, a dyfod oi hôl hwynt: felly ['r Iſraeliaid] oeddynt o flaen Juda, ar cynllwyn o'ꝛ tu ôl iddynt hwy.

14 Yna [meibion] Juda a edꝛychaſant, ac wele ryfel iddynt ym mlaen, ac yn ôl, a hwynt a waeddaſant ar yꝛ Arglwydd: a'r offeiriaid a leiſiaſant mewn udcyꝛn.

15 A gwŷꝛ Juda a floeddiaſant: a phan waeddodd gwŷꝛ Juda, yna Duw a darawodd Jeroboam, a holl Iſrael o flaen Abiiah ac Juda.

16 A meibion Iſrael a ffoaſant o flaen Juda: a Duw ai rhoddodd hwynt iw llaw hwynt.

17 Ac Abiiah ai bobl ai tarawſant hwy a phlâ mawꝛ: fel y ſyꝛthiodd yn archolledic o Iſrael bump cant mil o wŷꝛ etholedig.

18 Felly y daroſtyngwyd meibion Iſrael y pryd hynny: a meibion Juda a gryfhaſant, o herwydd pwyſo o honynt hwy ar Arglwydd Dduw eu tadau.

19 Ac Abiiah a erlidiodd ar ôl Jeroboam, ac a ddûg oddi arno ef ddinaſoedd, ſef Bethel ai phentrefydd, ac Jeſanah ai phen-trefydd, ac Ephꝛon ai phen-trefydd.

20 Ac ni ennillodd Jeroboam [ei] nerth mwyach yn nyddiau Abiiah: ond yꝛ Arglwydd ai tarawodd ef fel y bu efe farw.

21 Ond Abiiahu a ymgadarnhaodd, ac a gymmerth iddo bedair ar ddêc o wꝛagedd: ac a genhedlodd ddau fab ar hugain, ac vnar bymthec o ferched.

22 A'r rhan arall o hanes Abiiah, ai ffyꝛdd ef, ai eiriau: y maent yn ſcrifennedic yn llyfr y pꝛophwyd Iddo.

## PEN. XIIII.

Duwiol lywodraeth Aſa.

Felly Abiiah a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef yn ninas Dafydd, ac Aſa ei fab a deyꝛnaſodd yn ei lê ef: yn ei ddyddiau ef y caſodd y wlad lonydd ddeng-mhlynedd. 1.Bren.15.8.

2 Ac Aſa a wnaeth yꝛ hyn oedd ddâ, ac inion yng-olwg yꝛ Arglwydd ei Dduw.

3 Canys efe a fwꝛiodd ymmaith alloꝛau y [duwiau] dieithꝛ, a'r uchelfeudd: dꝛylliodd hefyd y delwau, a thoꝛrodd y llwynau. Deut.16.20.

4 Ac a ddywedodd wꝛth Juda am geiſio Arglwydd Dduw eu tadau: ac am wneuthur cyfraith, a goꝛchymyn [Duw.]

5 Ac efe a fwꝛiodd ymmaith o holl ddinaſoedd Juda yꝛ uchelfeudd, a'r delwau: am hynny y caſodd y frenhiniaeth lonydd oi flaen ef.

6 Ac efe a adailadodd ddinaſoedd caeroc yn Juda: am gael o'ꝛ wlâd lonydd fel nad [oedd] rhyfel yn ei erbyn ef yn y blynyddoedd hynny, o blegit yꝛ Arglwydd a roddaſe lonyddwch iddo ef.

7 Ac efe a ddywedodd wꝛth Juda, adailadwn y dinaſoedd hyn, ac amgylchwn [hwynt] a mûr, ac a thŷꝛau, a dꝛyſſau, ac a barrau tra [ſyddo] y wlâd hon o'n blaen ni, o herwydd ni a geiſiaſom yꝛ Arglwydd ein Duw ni, ac efe a roddodd lonyddwch i ni o amgylch: felly hwynt a adailadaſant, ac a lwyddaſant.

8 Ac yꝛ oedd gan Aſa lû o Juda yn dwyn tariannau a gwaiw-ffyn [ſef] try chant mil, ac o Beniamin dau cant a phedwar ugain-mil yn dwyn tariannau, ac yn tynnu bwâ: y rhai hyn oll [oeddynt wŷꝛ] cedyꝛn nerthol.

9 A Zerah yꝛ Ethiopiad a aeth allan yn eu herbyn hwynt a llû o fil o filoedd, ac a thꝛy-

chant o gerbydau: ac efe a ddaeth hyd Mareſa.

10 Yna Aſa a aeth allan yn ei erbyn ef, a hwynt a luniaethaſant ryfel yn nyffryn Sephata wrth Mareſa.

1.Sam.14.6. 11 Ac Aſa a waeddodd ar yr Arglwydd ei Dduw, ac a ddywedodd, ô Arglwydd * nid [rhaid] i ti wrth lawer i gynnorthwyo [yr hwn] ni [bydd] ganddo gryfdwr, cynnorthwya di ni ô Arglwydd ein Duw ni, canys pwyſo 'r ydym ni arnat ti, ac yn dy enw di y daethom yn erbyn y dorf honn: ô Arglwydd ein Duw ni ydwyt ti, na orchfyged dŷn i'th erbyn.

12 Felly 'r Arglwydd a darawodd yr Ethiopiaid o flaen Aſa, ac o flaen Juda: a'r Ethiopiaid a ffoaſant.

13 Ac Aſa, a'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef ai herlidiodd hwynt hyd Gerar, a ſyrthiodd [llawer] o'r Ethiopiaid heb fywyd ynddynt, canys drylliaſyd hwynt o flaen yr Arglwydd, ac o flaen ei werſyll ef: a hwy a ddugaſant ymmaith anrhaith fawr iawn.

14 A tharawſant yr holl ddinaſoedd o amgylch Gerar, canys yr oedd dychryn yr Arglwydd arnynt hwy: a hwynt a anrhaithiaſant yr holl ddinaſoedd, canys anrhaith fawr oedd ynddynt.

15 Llueſtai hefyd yr anifeiliaid a darawſant hwy, a chaeth-gludaſant lawer o ddefaid, a chamêlod: a dychwelaſant i Jeruſalem.

## PEN. XV.

Aſa wrth Gyngor Azaria yn deleu gau-dduwiaeth. 14
yn peri i'r bobl wneuthur cyngrair a'r Arglwydd 16
ac yn diſwyddo ei fam am ei gau-dduwiaeth.

YNA yſpryd Duw a ddaeth ar Azaria fab Obed.

2 Ac efe a aeth allan o flaen Aſa, ac a ddywedodd wrtho ef, ô Aſa, a holl Juda, a Beniamin gwrandewch fi: yr Arglwydd [ſydd] gyd a chwi tra fyddoch gyd ag ef, ac os ceiſiwch ef, chwi ai cewch ef, ac os gwrthodwch ef, yntef a'ch gwrthyd chwitheu.

3 Dyddiau lawer [fuant] i Iſrael heb y gwir Dduw, ac heb offeiriad yn dyſcawdur, ac heb gyfraith.

4 Pan ddychwelodd [neb] yn ei gyfyngdra at Arglwydd Dduw Iſrael, ai geiſio ef, yna hwynt ai cawſant ef.

5 Ac yn yr amſeroedd hynny nid [oedd] heddwch i'r hwn oedd yn myned allan, ac yn dyfod i mewn: ond blinder lawer ym myſc holl breſſwyl-wŷr y ddaiar.

6 Canys cenedl a ddiniſtriwyd gan genedl, a dinas gan ddinas: o blegit yr Arglwydd ai poenodd hwynt a phob aflwydd.

7 Cryfhewch gan hynny, ac na laeſed eich dwylo: canys y mae gwobr i'ch gwaith chwi.

8 Pan glybu Aſa y geiriau hyn, a phrophwydoliaeth Obed y prophwyd, yna efe a gryfhaodd, ac a fwriodd ymmaith y ffieidd [eulynnod] o holl wlâd Juda, a Beniamin, ac o'r holl ddinaſoedd y rhai a ennillaſe efe o fynydd Ephraim: ac efe a adnewyddodd allor 'yr Arglwydd yr hon [oedd] o flaen porth yr Arglwydd.

9 Ac efe a gynhullodd holl Juda, a Beniamin, a'r dieithriaid gyd a hwynt o Ephraim, a Manaſſes, ac o Simeon: canys hwy a ſyrthiaſant atto ef yn aml o Iſrael, pan welſant fod yr Arglwydd ei Dduw gyd ag ef.

10 Felly hwynt a ymgynnullaſant i Jeruſalem yn y trydydd mis: yn y bymthecfed flwyddyn o deyrnaſiad Aſa.

11 A hwynt a aberthaſant i'r Arglwydd y dydd hwnnw o'r anrhaith [yr hon] a ddugaſent, ſaith gant o eidionnau, a ſaith mil o ddefaid.

12 A hwynt a ddaethant dann gyfammod i geiſio Arglwydd Dduw eu tadau, ai holl galon, ac ai holl enaid.

13 A phwy bynnac ni cheiſie Arglwydd Dduw Iſrael, efe a roddid i farwolaeth: yn fychan, [ac] yn fawr, yn ŵr, [ac] yn wraig.

14 A hwynt a dyngaſant i'r Arglwydd a llef vchel, ac a bloedd: ag vdcyrn hefyd, ac a thrwmpêdau.

15 A holl Juda a lawenychaſant o herwydd y llŵ, canys ai holl galon y tyngaſent, ac ai holl ewyllys y ceiſiaſant ef, a hwynt ai cawſant ef: a'r Arglwydd a roddodd lonyddwch iddynt hwy o amgylch.

16 A'r brenin Aſa a ſymmudodd Maacha ei fam o [fod] yn dywyſoges, o herwydd gwneuthur o honi hi ddelw mewn llwyn: ac Aſa a dorrodd ei delw hi, ac ai drylliodd, ac ai lloſcodd wrth afon Cedron. 1.Bren.15.13.

17 Ond nid yſcogwyd yr vchelfeudd o Iſrael: er bod calon Aſa yn berffaith ei holl ddyddiau ef.

18 Ac efe a ddûg i mewn i dŷ 'r Arglwydd yr hyn a gyſſegraſe ei dâd ef, a'r hyn a gyſſegraſſe efe ei hun yn aur, ac yn arian, ac yn leſtri.

19 Ac ni bu rhyfel hyd y bymthecfed flwyddyn ar hugain o deyrnaſiad Aſa.

## PEN. XVI.

Hanani yn ceryddu Aſa am y cyfammod yr hwn a wnaethe efe a brenin Syria.

1.Bren.15.17. YN yr unfed flwyddyn ar bymthec ar hugain o deyrnaſiad Aſa y daeth Baaſa brenin Iſrael i fynu yn erbyn Juda, ac a adailadodd Ramah: fel nad adawe efe [i neb] fyned, na dyfod at Aſa brenin Juda.

2 Yna Aſa a ddûg allan arian, ac aur o dryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thŷ 'r brenin: ac ai hanfonodd at Benhadad brenin Syria, yr hwn oedd yn trigo yn Damaſcus gan ddywedyd,

3 Cyfammod [ſydd] rhyngofi a thi, a rhwng fy nhâd i a'th dâd tithe: wele anfonais atat ti arian, ac aur, dos, torr dy gyfammod a Baaſa brenin Iſrael fel y ciliô efe oddi wrthifi.

4 Felly Benhadad a wrandawodd ar y brenin Aſa, ac a anfonodd dywyſogion y lluoedd y

rhai [ oeddynt ] ganddo ef yn erbyn dinaſoedd Iſrael, a hwy a darawſant Hion, a Dan, ac Abel-maim: a holl dryſſorau dinaſoedd Nephthali.

5 A phan glybu Baaſa [hynny,] yna efe a beidiodd ac adailadu Ramah: canys [Aſa] a luddiodd ei waith ef. 1.Bren. 15.22.

6 Yna Aſa 'r brenin a gymmerth holl Iuda, ac a gludaſant gerrig Ramah, ai choed y rhai a adailadaſe Baaſa: ac a adailadodd a hwynt Gibea, a Miſpah.

7 Y pryd hynny y daeth Hanani y gweledudd at Aſa frenin Iuda: ac a ddywedodd wrtho ef, gan i ti bwyſo ar frenin Syria, ac na phwyſaiſt ar yr Arglwydd dy Dduw, am hynny y diangodd llû brenin Syria o'th law di.

8 Onid oedd yr Ethiopiaid, a'r Lybiaid yn llu dirfawr, a cherbydau, ac a gwŷr meirch yn aml iawn: ond am it bwyſo ar yr Arglwydd efe ai rhoddodd hwynt yn dy law di: Pen.12.3. 1.Mac.9.5. & 12.22.

9 Canys y mae llygaid yr Arglwydd yn edrych ar yr holl ddaiar i ymegnio gyd [a'r rhai ydynt] ai calon yn berffaith tu ag atto ef, ynfyd y gwnaethoſt yn hyn: canys rhyfeloedd bellach fyddant i'th erbyn.

10 Yna y digiodd Aſa wrth y gweledudd, ac ai rhoddodd ef mewn carchar-dŷ, canys [yr oedd efe] yn ddigllon wrtho ef am y peth hyn: ac Aſa a orthrymmodd [rai] o'r bobl y pryd hynny.

11 Ac wele weithredoedd Aſa y rhai cyntaf, a'r rhai diweddaf: ie wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iuda, ac Iſrael.

12 Ac Aſa a glafychodd oi draed yn y bedwaredd flwyddyn ar bymthec ar hugain oi deyrnaſiad, nes iw glefyd [ddolurio] yn ddirfawr: etto ni cheiſiodd efe yr Arglwydd yn ei glefyd, onid y meddygon.

13 Felly Aſa a hunodd gyd ai dadau: ac a fu farw yn yr unfed flwyddyn a deugain oi deyrnaſiad ef.

14 A chladdaſant ef yn ei feddrod yr hwn a wnaethe efe iddo yn ninas Dafydd, a rhoddaſant ef i orwedd mewn gwely 'r hwn a lanwaſe efe a phêr aroglau o amryw rywogaethau wedi eu gwneuthur drwy waith apothecari, a hwy a gynneuaſant iddo ef gynneu mawr iawn.

## PEN. XVII.

Duwiol a llwyddiannus deyrnaſiad Iehoſaphat.

AC Iehoſaphat ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef: ac a orthrechodd ar Iſrael.

2 Ac efe a roddodd fyddin ym mhob un o gaeroc ddinaſoedd Iuda: ac a roddes raglawiaid yng-wlâd Iuda, ac yn ninaſoedd Ephraim y rhai a ennillaſe Aſa ei dad ef.

3 A'r Arglwydd a fu gyd ag Iehoſaphat: canys efe a rodiodd * yn ffyrdd cyntaf Dafydd ei dad, ac ni ymofynnodd am Baalim. 1.Cron. 29.29.

4 Eithr Duw ei dâd a geiſiodd efe, ac yn ei orchymynnion ef y rhodiodd efe: ac nid yn ôl arfer Iſrael.

5 Am hynny 'r Arglwydd a ſicrhaodd y frenhiniaeth yn ei law ef, a holl Iuda a roddaſant anrhegion i Iehoſaphat: felly 'r ydoedd iddo ef olud, ac anrhydedd yn helaeth.

6 Ac efe a dderchafodd ei galon yn ffyrdd yr Arglwydd: ac efe a fwriodd ymmaith hefyd yr uchelfeudd a'r llwynau o Iuda.

7 Yn y drydedd flwyddyn oi deyrnaſiad, efe a anfonodd ei dywyſogion, ſef Benhail, ac Obadia, a Zacharia, Nathaneel hefyd a Michaiahu, i ddyſcu drwy ddinaſoedd Iuda.

8 A chyd a hwynt [yr anfonodd efe] y Lefiaid hyn, Semeiahu, a Nethaniahu, a Zebadiahu, ac Aſael, a Semiramoth, ac Iehonathan, ac Adoniahu, Tobiahu hefyd, a Thob-adoniahu y Lefiaid: a chyd a hwynt Eliſama, ac Iehoram yr offeiriaid.

9 A hwynt a ddyſcaſant yn Iuda, ac chyd a hwynt [yr oedd] llyfr cyfraith yr Arglwydd: felly 'r amgylchaſant hwy holl ddinaſoedd Iuda, ac y dyſcaſant y bobl.

10 Ac arſwyd yr Arglwydd oedd ar holl deyrnaſoedd y gwledydd y rhai [oeddynt] o amgylch Iuda: fel nad ymladdaſant hwy yn erbyn Iehoſaphat.

11 A [rhai] o'r Philiſtiaid oeddynt yn dwyn i Iehoſaphat anrhegion, a theyrnged o arian: yr Arabiaid hefyd oeddynt yn dwyn iddo ef fân yſcrubliaid, [ſef] ſaith mil, a ſaith gant o hyrddod, a ſaith mil, a ſaith gant o fychod.

12 Felly Iehoſaphat oedd yn myned rhagddo, ac yn cynnyddu yn oruchel: ac efe a adailadodd yn Iuda balâſau, a dinaſoedd tryſſorau.

13 A llawer o waith oedd ganddo ef yn ninaſoedd Iuda: a rhyfel-wŷr cedyrn nerthol yn Ierusalem.

14 Ac dymma eu rhifedi hwynt yn ôl tŷ eu tadau: o Iuda yn dywyſogion y miloedd [yr oedd] Adna y tywyſog, a chyd ag ef dry-chant mîl [o wŷr] cedyrn nerthol.

15. Ac yn neſaf atto ef Iehohanan y tywyſog: a chyd ag ef ddau cant a phedwar ugain mil.

16 A cher llaw iddo ef Amaſia mab Zichri yn ei ymroddi ei hun i'r Arglwydd: a chyd ag ef ddau cant mil [o wŷr] cedyrn nerthol.

17 Ac o Beniamin [yr oedd] Eliada yn [ŵr] cadarn nerthol: a chyd ag ef ddau can-mil yn arfogion o fwâu, a thariannau.

18 A cher llaw iddo ef Iehozabad: a chyd ag ef gant a phedwar ugain mil wedi ymwregyſu i'r llû.

19 Y rhai hyn oeddynt yn gwaſanaethu 'r brenin heb law y rhai a roddaſe y brenin yn y dinaſoedd caeroc drwy holl Iuda.

## PEN. XVIII.

Y gyfrathrach rhwng Iehoſaphat, ac Ahab. 10 Gwirionedd Micheas ei hun yn drech na chelwyld pedwar-cant o'r gau brophwydi.

1.Bren.22.3. AC *i Jehoſaphat yr ydoedd golud, ac anrhydedd yn helaeth: ac efe a ymgyfathrachodd ag Ahab.

2 Ac ym mhen [ennyd] o flynyddoedd efe a ddaeth i wared at Ahab i Samaria, ac Ahab a laddodd ddefaid, a gwartheg yn aml iddo ef, ac i'r bobl y rhai [oeddynt] gyd ag ef, ac ai hannogodd ef i fyned i fynu i Ramoth Gilead.

1.Bren.22.4. 3 Canys Ahab brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat brenin Juda, a ei di gyd a mi i Ramoth Gilead? yntef a ddywedodd wrtho, yr ydwyf fi fel tithe, a'm pobl mau fi fel dy bobl dithe, a [byddaf] gyd a thi yn y rhyfel.

4 Jehoſaphat hefyd a ddywedodd wrth frenin Iſrael: ymgynghora attolwg heddyw a gair yr Arglwydd.

5 Yna brenin Iſrael a gasclodd o'r prophwydi bedwar cant o wŷr, ac a ddywedodd wrthynt hwy, a awn ni yn erbyn Ramoth Gilead i ryfel, neu a beidiaf? dywedaſant hwythau, dôs i fynu, canys yr Arglwydd ai dyru yn llaw y brenin.

6 Ac Jehoſaphat a ddywedodd, onid [oes] ymma [un] prophwyd i'r Arglwydd mwyach, fel yr ymgynghorem ag ef?

7 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat, [y mae] etto un gŵr drwy'r hwn y [gallem] ymgynghori a'r Arglwydd, ond y mae yn gâs gennifi ef, canys nid yw'n prophwydo i mi ddaioni, onid drygioni er ei oed, efe [yw] Michea mab Jimla: a dywedodd Jehoſaphat, na ddyweded y brenin felly.

8 Yna brenin Iſrael a alwodd ar un [o'i] ſtafellyddion: ac a ddywedodd, bryſia [galw] Michea fab Jimla.

9 A brenin Iſrael ac Jehoſaphat brenin Juda oeddynt yn eiſtedd bob un ar ei deyrn-gader wedi eu gwiſco mewn [brenhinawl] wiſcoedd, eiſtedd yr oeddynt mewn llannerch [wrth] ddrws porth Samaria: a'r holl brophwydi oeddynt yn prophwydo ger eu bron hwynt.

10 A Zidecia mab Chanaana a wnaethe iddo ei hun gyrn heirn: ac a ddywedodd, fel hyn 1.Bren.22.11. y dywedodd yr Arglwydd, a'r rhai hyn y corni di y Syriaid nes it eu difa hwynt.

11 A'r holl brophwydi oeddynt yn prophwydo fel hyn gan ddywedyd: dos i fynu i Ramoth Gilead, a ffynna, canys yr Arglwydd ai dyru hi yn llaw y brenin.

12 A'r gennad yr hwn a aethe i alw Michea 1.Bren.22.13. a lefarodd wrtho ef gan ddywedyd, wele eiriau y prophwydi o un enau yn dda i'r brenin: bydded gan hynny attolwg dy air dithe fel un o'r rhai hynny, dywet y goref.

13 A Michea a ddywedodd: [fel] mai byw 'r Arglwydd, [diau] mai 'r hyn a ddywedo fy Nuw, hynny a lefarafi.

14 Felly efe a ddaeth at y brenin, a'r brenin a ddywedodd wrtho ef, Michea, a awn ni i ryfel yn erbyn Ramoth Gilead, neu a beidiafi? dywedodd yntef, ewch i fynu, a ffynnwch, canys rhoddir hwynt yn eich llaw chwi.

15 A'r brenin a ddywedodd wrtho ef, hyd ba ſawl gwaith yr ydwyf fi yn dy dynghedu di, ac na leferech wrthifi onid gwirionedd yn enw 'r Arglwydd?

16 Yna efe a ddywedodd: gwelais holl Iſrael yn waſcaredic ar y mynyddoedd fel defaid y rhai ni [bydde] iddynt fugail: a dywedodd yr Arglwydd, nid [oes] feiſtred arnynt hwy, dychweled pob un iw dŷ ei hun mewn tangneddyf.

17 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat: oni ddywedais i wrthit, na prophwyde efe ddaioni i mi, onid drygioni?

18 Yntef a ddywedodd, gan hynny gwrando air yr Arglwydd: gwelais yr Arglwydd yn eiſtedd ar ei orſeddfa, a holl lû y nefoedd yn ſefyll ar ei ddeheu-law ef, ac ar ei law aſſwy ef.

19 A dywedodd yr Arglwydd, pwy a dwylla Ahab brenin Iſrael fel yr elo efe i fynu, ac y ſyrthio yn Ramoth Gilead? (dywedodd hefyd) un oedd yn dywedyd fel hyn, ac arall oedd yn dywedyd fel hyn.

20 Yna yſpryd a aeth allan, ac a ſafodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, myfi ai twyllaf ef: a dywedodd yr Arglwydd wrtho ef, pa fodd?

21 Dywedodd yntef, myfi a âf allan, *ac a 2.Theſſ.2.10. fyddaf yn yſpryd celwyddoc yng-enau ei holl brophwydi ef: yna y dywedodd [yr Arglwydd] twylli, a gorchfygi, dos allan, a gwna felly.

22 Ac yn awr wele 'r Arglwydd a roddodd yſpryd celwyddoc yng-enau dy brophwydi hynn: a'r Arglwydd a lefarodd am danat ti ddrygioni.

23 Yna Zidecia mab Chanaana a neſſaodd, ac a darawodd Michea tan [ei] gern, ác a ddywedodd: pa ffordd yr aeth yſpryd yr Arglwydd oddi wrthifi i ymddiddan a thi?

24 A Michea a ddywedodd, wele ti a gei weled y diwrnod hwnnw: pan elech di o ſtafell i ſtafell i ymguddio.

25 A brenin Iſrael a ddywedodd, cymmerwch Michea, a dygwch ef at Amon tywyſog y ddinas: ac at Joas mab y brenin.

26 A dywedwch, fel hyn y dywedodd y brenin, goſodwch hwn yn y carchar-dŷ: a bwydwch ef a bara cyſtudd, ac a dwfr blinder, nes i mi ddyfod eilwaith mewn heddwch.

27 Yna y dywedodd Michea, os gan ddychwelyd y dychweli di mewn heddwch ni lefarodd yr Arglwydd ynofi, efe a ddywedodd hefyd, gwrandewch [hyn] yr holl bobl.

28 Felly y brenin Iſrael, ac Jehoſaphat brenin Juda a aethant i fynu i Ramoth Gilead.

29 A brenin Iſrael a ddywedodd wrth Jehoſaphat, mi a newidiaf fy-nillad, ac a âf i'r rhyfel, ond gwiſc di dy ddillad: felly brenin Iſrael a newidiodd ei ddillad, a hwy a aethant i'r rhyfel. 1.Bren.22.30.

30 A brenin Syria a orchymynnodd i dywyſogion y cerbydau y rhai [oeddynt] gantho ef gan ddywedyd, nac ymleddwch a bychan, nac a mawr, onid a brenin Iſrael yn unic.

31 Pan welodd tywyſogion y cerbydau Iehoſaphat, yna hwy a ddywedaſant, brenin Iſrael [yw] efe, a hwy a droaſant i ymladd yn ei erbyn ef: ond Iehoſophat a waeddodd, a'r Arglwydd ai cynnorthwyodd ef, a Duw ai gyrrodd hwynt oddi wrtho ef.

32 A phan welodd tywyſogion y cerbydau nad brenin Iſrael oedd efe: yna hwynt a ddychwelaſant oddi ar ei ôl ef.

1.Bren.22.34. 33 Yna [rhyw] ŵr a dynnodd mewn bŵa ar ei amcan, ac a darawodd frenin Iſrael rhwng y cyſſylldiadau, ſef rhwng [cyſſylldiadau] y llurig: am hynny efe a ddywedodd wrth ei waſtrawd, trô dy law, a dwg fi allan o'r gâd, canys fo'm clwyfwyd i.

34 A'r rhyfel a gryfhaodd y dwthwn hwnnw, a brenin Iſrael oedd yn ſefyll mewn cerbyd ar gyfer y Siriaid hyd yr hwyr: ac efe a fu farw ym mhrŷd machludiad haul.

## PEN. XIX.

Iehu yn ceryddu Iehoſaphat. 4 Gófal Iehoſaphat am yr iawn grefydd.

AC Iehoſaphat brenin Iuda a ddychwelodd iw dŷ ei hun i Ieruſalem mewn heddwch.

2 Ac Iehu mab Hanani y gweledudd a aeth oi flaen ef, ac a ddywedodd wrth y brenin Iehoſaphat, ai cynnorthwyo yr annuwiol, a charu y rhai oeddynt yn caſſau yr Arglwydd a wnait ti: am hyn digofaint oddi wrth yr Arglwydd [ſydd yn dyfod] arnat ti.

3 Er hynny pethau dâ a gaſwyd ynot ti: canys ti a dynnaiſt ymmaith y llwyni o'r wlâd, ac a baratoaiſt dy galon i geiſio Duw.

4 Felly Iehoſophat a drigodd yn Ieruſalem: ac a ddychwelodd, ac a aeth trwy yr bobl o Beer-ſeba hyd fynydd Ephraim, ac ai dûg hwynt eil-waith at Arglwydd Dduw eu tadau.

5 Ac efe a oſododd farn-wŷr yn y wlâd, drwy holl ddinaſoedd caeroc Iuda, ac ym mhob dinas.

6 Ac efe a ddywedodd wrth y barn-wŷr, gwelwch beth yr ydych yn ei wneuthur, canys nid tros ddŷn y bernwch onid tros yr Arglwydd: ac [efe a fydd] gyd a chwi wrth roddi barn.

7 Yn awr gan hynny bydded ofn yr Arglwydd arnoch chwi: cedwch, a gwnewch [hynny] o herwydd nid [oes] anwiredd gyd a'r Arglwydd ein Duw, *na derbyniad wyneb, na derbyniad gwobr.

Deut.10.17.
iob.34.19.
act.10.34.
rhuf.2.11.
galath.2.6.
ephe.6.9.
coloſ.3.25.
1.pet.1.17.

8 Ac Iehoſaphat a oſododd hefyd yn Ieruſalem [rai] o'r Leſiaid, ac o'r offeiriaid, ac o bennau tadau Iſrael [i drin] barnedigaethau a matterion yr Arglwydd: a hwynt a ddychwelaſant i Ieruſalem.

9 Ac efe a orchymynnodd iddynt gan ddywedyd: fel hyn y gwnewch mewn ofn yr Arglwydd, mewn ffydd, ac a chalon berffaith.

10 Am bôb ymryſon a'r a ddêl attoch chwi oddi wrth eich brodyr (y rhai ſy yn trigo yn eu dinaſoedd) rhwng gwaed a gwaed, rhwng cyfraith a gorchymyn, deddfau a barnedigaethau, rhybyddiwch hwynt fel na throſſeddant yn erbyn yr Arglwydd, a bod [ei] ddigofaint ef arnoch chwi, ac ar eich brodyr: felly gwnewch, ac na throſſeddwch.

11 Ac wele Amaria'r offeiriad [ſydd] yn benn arnoch chwi ym mhob peth [a berthyno i'r] Arglwydd, a Zebadia mab Iſmael yn flaenor ar dŷ Iuda ym mhob achos i'r brenin, a'r Leſiaid yn ſwyddogion ger eich bron chwi: ymwrôlwch, a gwnewch [hynny,] a'r Arglwydd fydd gyd a'r daionus.

## PEN. XX.

Iehoſaphat trwy weddi yn ceiſio, ac yn cael y fuddugoliaeth yn erbyn ei elynnion. 30 Ei holl deyrnaſiad ef. 35 A'r cerydd a gafodd efe am wneuthur cyfammod a'r anffyddlon.

AC wedi hyn meibion Moab, a meibion Ammon a ddaethant, a chyd a hwynt [eraill] o'r Ammoniaid yn erbyn Iehoſaphat i ryfel.

2 Yna y deuwyd, ac y mynegwyd i Iehoſophat gan ddywedyd, tyrfa fawr a ddaeth yn dy erbyn di o'r tu hwnt i'r môr, [ſef] o Syria: ac wele [y maent] hwy yn Haſon Thamar honno [yw] Engedi.

3 Ac Iehoſophat a ofnodd, ac a roddes ei frŷd ar geiſio 'r Arglwydd: ac a gyhoeddodd ympryd drwy holl Iuda.

4 Ac Iuda a ymgaſclaſant i ymgynghori a'r Arglwydd: canys hwy a ddaethant o holl ddinaſoedd Iuda i ymofyn a'r Arglwydd.

5 Ac Iehoſophat a ſafodd yng-hynnulleidfa Iuda, ac Ieruſalem yn nhŷ 'r Arglwydd, o flaen y cyntedd newydd.

6 Ac efe a ddywedodd: ô Arglwydd Dduw ein tadau, onid tydi ydwyt Dduw yn y nefoedd, a thi ydwyt yn llywodraethu ar holl deyrnaſoedd y cenhedloedd: ac yn dy law di [y mae] nerth a chadernid, ac nid oes a ddichon dy wrthwynebu di?

7 Onid ti ein Duw a yrraiſt ymmaith breſſwyl-wŷr y wlâd hon o flaen dy bobl Iſrael? ac ai rhoddaiſt hi i hâd Abraham dy garedigol yn dragywydd?

8 A thrigaſant ynddi: ac a adailadaſant i ti ynddi gyſſegr i'th enw, gan ddywedyd,

9 Os daw niwed arnom ni [ſef] cleddyf barnedigaeth, neu haint, neu newyn, ni a ſafwn o flaen y tŷ hwn, a cher dy fron di (canys dy enw di [ſydd] yn y tŷ hwn) am hynny y gwaeddwn arnat yn ein cyfyngdra, gwrando dithe a gwaret [ni.]

10 Ac yn awr wele feibion *Ammon, a Moab, *a [thrigolion] mynydd Seir, y rhai ni chaniattaiſt i Iſrael fyned attynt pan ddaethāt o wlâd yr Aipht: er iddynt hwy droi oddi wrthynt îe heb eu difa:

1.Bren.8.38.
pen.6.28.
Gen.36.8.
deut.2.4.
iſod.23.

11 Etto wele hwynt hwy yn talu i ni: gan ddyfod i'n bwrw ni allan o'th etifeddiaeth di yr hon a wnaethoſt i ni ei goreſgyn.

12 Oh ein Duw ni, oni ferni di hwynt? canys

nys nid[oes]gennym ni nerth[i ſefyll] o flaen y dyrfa fawr hon yr hon ſydd yn dyfod i'n herbyn ni: ac ni wyddom ni beth a wnawn, ond arnat ti[y mae]ein llygaid.

13 A holl Iuda oeddynt yn ſefyll ger bron yr Arglwydd: eu plāt hefyd, eu gwragedd ai meibiō.

14 Ac Iahziel mab Zacharia, fab Banaia fab Iehiel, fab Mathania y Lefiad o febion Aſaph ydoedd[yno, ac]arno ef y daeth yſpryd yr Arglwydd yng-hanol y gynulleidfa.

15 Ac efe a ddywedodd, gwrandewch holl Iuda, a thrigolion Ieruſalem, a[chwithe] ô frenin Iehoſaphat: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthych chwi, nac ofnwch chwi, ac nac arſwydwch rhac ofn y dyrfa fawr hon, canys nid eiddo chwi y rhyfel, eithr eiddo Duw.

16 Y foru ewch i wared yn eu herbyn hwynt, wele hwynt yn dyfod i fynu wrth darren Ziz: a chwi ai goddiweddwch hwynt yng-hwrr yr afon tu ag anialwch Ieruel.

17 Nid[rhaid]i chwi ymladd yn y[rhyfel] hwn, * ſefwch yn llonydd, a gwelwch ymwared yr Arglwydd tu ag attoch chwi ô Iuda, ac Ieruſalem nac ofnwch, ac nac arſwydwch, ewch y foru allan yn eu herbyn hwynt, a'r Arglwydd[fydd]gyd a chwi.

Exod.14.13.

18 Yna Iehoſaphat a ymgrymmodd i lawr ar ei wyneb: holl Iuda hefyd, a holl drigolion Ieruſalem a ſyrthiaſant ger bron yr Arglwydd gan addoli 'r Arglwydd.

19 A'r Lefiaid[y rhai oeddynt] o feibion y Cehathiaid, ac o feibion y Corathiaid a gyfodaſant i foliannu Arglwydd Dduw Iſrael a llef fawr odieth.

20 Felly hwynt a gyfodaſant yn forau, ac a aethant drwy anialwch Thecoa: ac wrth fyned o honynt, Iehoſophat a ſafodd, ac a ddywedodd, gwrandewch fi ô Iuda, a thrigolion Ieruſalem credwch i'r Arglwydd eich Duw, a chwi a ſicrheuir, coeliwch ei brophwydi ef, ac chwi a ffynnwch.

21 Ac efe a ymgynghôrodd a'r bobl, ac a oſododd gantorion i'r Arglwydd, a rhai yn molliannu ym mhrydferthwch y cyſſegr: pan aent allan o flaen y rhyfel-wŷr yna y dywedent, *clodforwch yr Arglwydd o herwydd ei drugaredd[a beru]yn dragywydd.

Pſal.136.

22 Ac yn yr amſer y dechreuaſant hwy y gân a'r moliāt y rhoddodd yr Arglwydd gynllwynwŷr yn erbyn meibion Ammon, a Moab, a[thrigolion]mynydd Seir (y rhai oeddynt yn dyfod yn erbyn Iuda(fel y lladaſant bawb ei gilydd.

23 Canys meibion Ammon, a Moab a gyfodaſant yn erbyn trigolion mynydd Seir iw difrodi, ac iw difetha[hwynt:]a phan orphennaſent hwy drigolion Seir helpiaſant ddifa pawb ei gilydd.

24 Pan ddaeth Iuda hyd Miſpa yn yr anialwch: yna'r edrychaſant ar y dyrfa, ac wele hwynt yn gelaneddau yn gorwedd ar y ddaiar, ac heb[un]diangol.

25 Am hynny Iehoſaphat ai bobl a ddaeth i ſclyfaethu eu hyſpail hwynt, a chawſant yn eu myſc hwy lawer o olud, a dillad, a thlyſau dymunol, ſclyfaethaſant iddynt beth anfeidrol: a thri diau y buant yn ſclyfaethu 'r yſpail, canys mawr oedd hi.

26 Ac ar y pedwerydd dydd yr ymgynnullaſant i * ddyffryn y fendith, canys yno y bendithiaſant yr Arglwydd: am hynny y gelwir henw y fann honno dyffryn y fendith hyd heddyw.

Ioel.3.2.

27 Yna holl wŷr Iuda, ac Ieruſalem a ddychwelaſant gyd ag Iehoſaphat eu pennadur hwynt, gan fyned yn ôl i Ieruſalem mewn llawenydd: canys yr Arglwydd a roddaſe lawenydd iddynt hwy ar eu gelynnion.

28 A hwynt a ddaethant i Ieruſalem a nablau, a thelynau hefyd, ac udcyrn i dŷ 'r Arglwydd.

29 Ac ofn Duw fu ar holl deyrnaſoedd y ddaiar: pan glywſant hwy fel y rhyfelaſe yr Arglwydd yn erbyn gelynnion Iſrael.

30 Felly teyrnas Iehoſaphat a gafodd lonydd ai Dduw a roddodd iddo ef lonyddwch o amgylch.

31 Ac Iehoſaphat a deyrnaſodd ar Iuda: * mab pymtheng-mlwydd ar hugain[oedd efe] pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a phum mlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem, ac enw ei fam ef[oedd]Azuba merch Silhi.

1.Breu.22.42.

32 Ac efe a rodiodd yn ffordd Aſa ei dad, ac ni chiliodd oddi wrth hi: gan wneuthur yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd.

33 Er hynny, ni thynnwyd yr uchelfeudd ymmaith: canys ni pharatoaſe y bobl eu calon etto at Dduw eu tadau.

34 A'r rhan arall o'r gweithredoedd cyntaf a diweddaf i Iehoſaphat: wele hwynt yn ſcrifennedic ym myſc geiriau Iehu mab Hanani'r * hwn ai ſcrifennodd hwynt yn llyfr brenhinoedd Iſrael.

1.Cron.29.29.

35 Ac wedi hyn Iehoſaphat brenin Iuda a ymgyfeillodd ag Ahazia brenin Iſrael: hwnnw a ymroddaſe i ddrygioni.

36 Ac efe a unodd ag ef ar wneuthur llongau i fyned i Tharſis: a gwnaethant longau yn Ezion Gaber.

37 Yna Eliezer mab Dodafah o Mareſah a brophwydodd yn erbyn Iehoſaphat gan ddywedyd: o herwydd i ti ymgyfeillach ag Ahazia, yr Arglwydd a rwygodd dy waith di, * a'r llongau a ddrylliwyd fel nad allaſant fyned i Tharſis.

1.Bren.22.49.

## PEN. XXI.

Creulondeb a drygioni Ioram yr hwn a deyrnaſodd yn lle Iehoſaphat. 16 Ac yntef yn cael Dialedd gan y Philiſtiaid, a thrwy glefyd erchyll.

YNa Iehoſaphat a hunodd gyd ai dadau, ac a gladdwyd gyd ai henafiaid yn ninas Dafydd: ac Ioram ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

2 Ac iddo ef[yr oedd]brodyr, meibion Iehoſaphat, Azaria, ac Iehiel, a Zacharia, ac a Azariahu, a Michael, a Saphatiah: y rhai hyn oll

[oeddynt] feibion Jehoſaphat brenin Iſrael.

3 Ai tâd hwynt a roddodd iddynt roddion lawer o arian, ac aur, a gwerthfawr bethau gyd a dinaſoedd caerog Juda: ac efe a roddodd y frenhiniaeth i Joram, canys efe [oedd] y cyntafanedic.

2.Bren.8.16. 4 Ac *Joram a gyfododd ar frenhiniaeth ei dad, ac a ymgadarnhaodd, ac a laddodd ei holl frodyr a chleddyf: a [rhai] hefyd o dywyſogion Iſrael.

5 Mab deuddeng-mlwydd ar hugain [oedd] Joram pan ddechreuodd efe deyrnaſu: ac wyth mlynedd y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem.

6 Ac efe a rodiodd yn ffordd brenhinoedd Iſrael fel y gwnelſe tŷ Ahab, canys merch Ahab oedd yn wraig iddo ef: felly efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

2.Sam.7.12. 2.bren.8.19. 7 Ond ni fynne 'r Arglwydd ddifetha tŷ Ddafydd er mwyn *y cyfammod yr hwn a ammodaſe efe a Dafydd: fel y dywedaſe, y rhodde efe iddo oleuni, ac iw feibion byth.

8 Yn ei ddyddiau ef y gwrthryfelodd Edom oddi tann law Juda: ac y goſodant frenin i deyrnaſu arnynt eu hun.

9 Ac Joram a drammwyodd gyd ai dywyſogion, ai holl gerbydau gyd ag ef: ac efe a gyfododd liw nos, ac a darawodd yr Edomiaid y rhai oeddynt yn ei amgylchu ef, a thywyſogion y cerbydau.

2.Bren.8.22. 10 Felly Edom a wrthryfelodd rhag [bôd] tann law Juda hyd y dydd hwn: yna y *gwrthryfelodd Libnah y prŷd hynny oddi tann ei law ef: o herwydd iddo ef ymwrthod ag Arglwydd Dduw ei dadau.

11 Efe hefyd a wnaeth vchelfeudd yn mynyddoedd Juda: ac efe a wnaeth i drigolion Jeruſalem butteinio, ac a gymhellodd Juda [i gau-dduwiaeth.

12 Daeth hefyd ſcrifen oddi wrth Elias y prophwyd atto ef gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Dafydd dy dâd, o herwydd na rodiaiſt ti yn ffyrdd Jehoſaphat dy dâd, nac yn llwybrau Aſa brenin Juda,

13 Eithr rhodio o honot yn ffordd brenhinoedd Iſrael, a gwneuthur o honot i Juda, ac i drigolion Jeruſalem butteinio, fel y putteiniodd tŷ Ahab: a lladd o honot dy frodyr hefyd [o] dŷ dy dad, y rhai [oeddynt] well na thi:

14 Wele yr Arglwydd a'th deru di a phlâ mawr, ti a'th bobl: dy feibion hefyd, a'th wragedd, a'th holl olud.

15 A thi [a fyddi] mewn clefydau lawer, mewn clefyd o'th emyſcaroedd: nes myned allan o'th goluddion gan y clefyd o ddydd i ddydd.

16 Felly 'r Arglwydd a gyffrôdd yn erbyn Joram yſpryd y Philiſtiaid, a'r Arabiaid y rhai [oeddynt] ger llaw 'r Ethiopiaid.

Pen.22.1.6. 17 A hwynt a ddaethant i fynu i Juda, ac ai drylliaſant hi, caeth-gludaſant hefyd yr holl gyfoeth a'r a gafwyd yn nhŷ 'r brenin, ai feibion, ai wragedd: ac ni adawyd mab iddo onid *Jehoahaz yr ieuangaf oi feibion.

18 Ac wedi hyn oll yr Arglwydd ai tarawodd ef yn ei emyſcaroedd ag anaele glefyd.

19 Felly y bu efe o ddyddiau i ddyddiau, ac wedi darfod yſpaid dwy flynedd o ddyddiau ei emyſcaroedd ef a aethant allan gan ei glefyd, felly y bu efe farw o glefydau drwg: ai bobl ni wnaethãt iddo ef y fath gynneuad, ac iw dadau:

20 Mab deuddeng-mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a wyth mlynedd y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac efe a rodiodd heb hyfrydwch, a chladdaſant ef yn ninas Ddafydd, ond nid yn meddrod y brenhinoedd.

## PEN. XXII.

Athaliah yn difetha gwaedoliaeth y brenin, ond Ioas yr hwn a guddiaſid rhagddi hi.

2.Bren.1.24. A *Thrigolion Jeruſalem a vrddaſant Ahazia ei fab ieuangaf ef yn frenin yn ei lê ef, canys y fintei yr hon a ddelſe gyd a'r Arabiaid i'r gwerſſyll a laddaſe y rhai hynnaf oll: felly Ahazia mab Joram brenin Juda a deyrnaſodd.

2 Mab *dwy flwydd a deugain [oedd] Ahazia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac vn flwyddyn y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Athaliah merch Omri.

3 Yntef hefyd a rodiodd mewn ffyrdd tŷ Ahab: canys ei fam ef oedd yn ei gynghôri ef i wnethur drwg.

4 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, fel tŷ Ahab: canys hwynt oeddynt gynghoriaid iddo ef ar ôl marwolaeth ei dâd ef, iw ddiniſtr ef.

5 Felly efe a rodiodd yn eu cyngor hwynt, ac a aeth gyd ag Joram mab Ahab brenin Iſrael i ryfel yn erbyn Hazael brenin Syria yn Ramoth Gilead: a'r Syriaid a darawſant Joram,

6 Ac efe a ddychwelodd i ymiachau i Jezrahel, o herwydd y dyrnodiau a'r rhai y tarawſent ef yn Ramah pan ymladdodd efe ag Hazael brenin Syria: ac Ahazia mab Joram brenin Juda a aeth i wared i ymweled ag Joram mab Ahab i Jezrahel, canys claf oedd efe.

2.Bren.9.7. 7 A diniſtr Ahazia oedd oddi wrth Dduw, am fyned at Joram: pan ddaeth, efe a aeth gyd ag Joram yn erbyn Jehu mab Nimſi 'r hwn a *enneiniaſe 'r Arglwydd i dorri ymmaith dŷ Ahab.

8 A phan farnodd Jehu yn erbyn tŷ Ahab: yna efe a gafodd dywyſogion Juda, a meibion brodyr Ahazia y rhai oeddynt yn gwaſanaethu Ahazia, ac efe ai lladdodd hwynt.

9 Ac efe a geiſiodd Ahazia, a hwynt ai daliaſant ef (lle yr oedd efe yn llechu yn Samaria) a hwy ai dugaſant ef at Jehu, lladdaſant ef hefyd, a chladdaſant ef, canys dywedaſant, mab Jehoſaphat [yw] efe yr hwn a geiſiodd yr Arglwydd ai holl galon: felly ni [adawyd] i dŷ Ahazia [neb] i lywodraethu y deyrnas.

10 Pan welodd Athaliah mam Ahazia farw oi mab hi: yna hi a gyfododd, ac a ddifethodd holl frenhinawl hâd tŷ Juda.

11 Ond Joſabah merch y brenin a gym-

merth Joas fab Ahaziah, ac ai lladrataodd ef o fyſc meibion y brenin y rhai a lladdwyd, ac ai rhoddodd ef, ai fammaeth mewn ſtafell y gwelâu: felly Joſabah merch y brenin Joram gwraig Jehoiada yr offeiriad ai cuddiodd ef (canys chwaer Ahazia ydoedd hi) rhac ofn Athaliah, fel na laddwyd ef.

12 Ac efe a fu yng-hudd gyd a hwynt yn nhŷ Dduw chwe blynedd: ac Athaliah oedd yn teyrnaſu ar y wlâd.

## PEN. XXIII.

Iehoidah yn peri corôni Ioas. 5 Lladd Athaliah, 17 a diniſtrio yr eulyn dduwiau.

2.Bren.11.4. AC yn *y ſeithfed flwyddyn yr ymgadarnhaodd Jehoiadah, ac y cymmerodd efe dywyſogion y cantoedd, ſef Azariah mab Joram, ac Jſmael mab Johanan, ac Azariah mab Obed, a Maaſiah mab Adaiah, ac Eliſaphat mab Zichri gyd ag ef mewn cyfammod.

2 A hwynt a amgylchaſant drwy Juda, ac a gynnullaſant y Lefiaid o holl ddinaſoedd Juda, a phenau cenedl Jſrael: ac a ddaethant i Jeruſalem.

3 A'r holl gynnulleidfa a wnaethant gyfammod a'r brenin yn nhŷ Dduw: ac efe a ddywedodd wrthynt hwy: wele mab y brenin a deyrnaſa *fel y llefarodd yr Arglwydd am feibion Dafydd. 2.Sam.7.12. 1.bren.2.4.

4 Dymma y peth yr hwn a wnewch chwi: y drydedd rann o honoch y rhai a ddeuant i mewn [ar] y Sabboth o'r offeiriaid, ac o'r Lefiaid [fyddant] yn borthorion i'r trothwyau. 2.Bren.11.6.

5 A'r drydedd rann [fydd] yn nhŷ 'r brenin, a'r drydedd rann yn y porth pennaf: a'r holl bobl [a ſafant] yng-hynteddau tŷ 'r Arglwydd.

6 Ac na ddeled [neb] i dŷ 'r Arglwydd, onid yr offeiriaid, a'r gweinidogion o'r Lefiaid, deuant hwy i mewn, canys ſanctaidd ydynt: a'r holl bobl a gadwant wiliadwriaeth yr Arglwydd.

7 A'r Lefiaid a amgylchynant y brenin, pôb vn ai arfau yn ei law, a'r hwn a ddelo i'r tŷ lladder ef: a byddwch gyd a'r brenin pan ddelo efe i mewn, a phan ddelo efe allan.

8 A'r Lefiaid a holl Juda a wnaethant yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe Jehoiadah yr offeiriad, a hwy a gymmeraſāt bawb eu gwŷr y rhai a oeddynt yn dyfod i mewn [ar] y Sabboth: gyd a'r rhai oeddynt yn myned allan [ar] y Sabboth (canys ni ryddhauſe Jehoiadah 'r offeiriad y doſparthiadau)

9 Ac Jehoiadah 'r offeiriad a roddodd i dywyſogion y cantoedd y gwaiw-ffyn, a'r tariannau, a'r eſtylch y rhai [fuaſent] yn eiddo y brenin Dafydd: y rhai [oeddynt] yn nhŷ Dduw.

2·Bren. 11.11. 10 Ac efe a * gyfleuodd yr holl bobl, a phob vn ai gleddyf yn ei law, o'r tu dehau i'r tŷ hyd y tu aſſwy i'r tŷ, yng-hylch yr allor, a'r tŷ, wrth y brenin oddi amgylch.

11 Yna y dugaſant allan fab y brenin, a rhoddaſant y goron arno ef, a'r deſtiolaeth, ac ai hurddaſant ef yn frenin: Jehoiahah hefyd ai feibion ai heneiniaſant ef, ac a ddywedaſant, byw fyddo 'r brenin.

12 Pan glybu Athaliah drŵſt y bobl yn rhedeg, ac yn moliannu y brenin: yna hi a ddaeth at y bobl i dŷ 'r Arglwydd.

13 Pan edrychodd hi, yna wele y brenin oedd yn ſefyll yn ei lê wrth y ddyfodfa, a'r tywyſogion, a'r vdcyrn o amgylch y brenin, a holl bobl y wlâd yn llawen, ac yn lleiſio mewn vdcyrn, a'r cantorion ag offer gerddgar, a'r rhai a fedrent foliannu: yna Athaliah a rwygodd ei gwiſcoedd, ac a ddywedodd, bradwriaeth, bradwriaeth.

14 Ac Jehoiadah yr offeiriad a barodd i dywyſogion y cantoedd, [ ſef ] ſwyddogion y llû fyned allan, ac a ddywedodd wrthynt, dygwch hi allan o'r rheſſau, a'r hwn a ddelo ar ei hôl hi lladder ef a chleddyf: canys dywedaſe 'r offeiriaid, na ladder hi yn nhŷ 'r Arglwydd.

15 Am hynny y goſodaſant ddwylo arni hi, a hi a ddaeth tu a'r porth y deue y meirch i dŷ y brenin, ac yno y lladdaſant hwy hî.

16 Ac Jehoiadah a wnaeth gyfammod rhyngddo ei hun a'r holl bobl, a'r brenin: i fod yn bobl i'r Arglwydd.

17 Yna 'r holl bobl a ddaethant i dŷ Baal, ac ai deſtruwiaſant ef, ai allorau, ei ddelwau hefyd a ddrylliaſant hwy: felly y lladaſant hwy Mathan offeiriad Baal o flaen yr allor.

18 Ac Jehoiadah a oſododd ſwyddogiō [yn] nhŷ 'r Arglwydd tann law y Lefiadaidd offeiriaid y rhai a ddoſparthaſe Dafydd yn nhŷ yr Arglwydd i offrymmu poeth offrymmau i'r Arglwydd, * fel y mae yn ſcrifennedic yn llyfr Moſes mewn llawenydd a chân, fel y trefnaſe Dafydd. Num.28.3.

19 Ac efe a gyfleuodd y porthorion wrth byrth tŷ 'r Arglwydd: fel na ddêle i mewn yr hwn [fydde] aflan mewn dim oll.

20 Cymmerodd efe hefyd dywyſogion y cantoedd, a'r pendefigiō, a'r rhai oeddynt yn arglwyddiaethu ar y bobl, a holl bobl y wlâd, ac efe a barodd i'r brenin ddyfod i waered o dŷ 'r Arglwydd, a hwy a ddaethāt i fewn porth vchaf tŷ y brenin: a chyfleuaſant y brenin ar orſeddfa y frenhiniaeth.

21 A holl bobl y wlâd a lawenychaſant, a'r ddinas a fu lonydd wedi lladd o honynt hwy Athaliah a'r cleddyf.

## PEN. XXIIII.

Puredd crefydd Ioas tra fu byw Iehoiadah. 17 Ei llwgredigaeth ef wedi hynny, ai goſp.

MAb ſaith mlwydd [ oedd ] Joas pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a deugain mlynedd y teyrnaſodd efe yn Jeruſalêm: ac enw ei fam ef [ oedd ] Zibia o Beer-ſeba. 2.Bren.12.1.

2 Ac Joas a wnaeth yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd, holl ddyddiau Jehoiadah 'r offeiriad.

3 Ac Jehoiadah a gymmerth iddo ddwy wragedd: ac efe a genhedlodd feibion, a merched.

4 Ac wedi hyn y meddyliodd Joas am adnewyddu tŷ 'r Arglwydd.

5 Ac efe a gynhullodd yr offeiriaid, a'r Leſiaid, ac a ddywedodd wrthynt hwy, ewch i ddinaſoedd Iuda, a chesclwch gan holl Iſrael arian i gyweirio tŷ eich Duw ni o flwyddyn i flwyddyn: bryſſiwch chwithau at y peth: ond ni tryſſiodd y Leſiaid.

Exod.30.16.

6 Am hynny y brenin a alwodd am Iehoiadah yr [offeiriad] pennaf, ac a ddywedodd wrtho ef, pa ham na cheſiaiſt gan y Leſiaid ddwyn o Iuda, ac o Ieruſalem drêth Moſes gwâs yr Arglwydd, ac o gynnulleidfa Iſrael, i * babell y deſtiolaeth?

7 Canys Athaliah ddrygionus ai meibion a rwygaſent dŷ Dduw: a holl gyſſegredic bethau tŷ'r Arglwydd a ddarparaſent hwy i Baalim.

2.Bren.12.9.

8 Pan archodd y brenin, yna hwynt a wnaethant vn gîſt: * ac ai goſodaſant hi ym mhorth tŷ'r Arglwydd oddi allan.

Exod 30.13.

9 A rhoddaſant gyhoedd yn Iuda, ac yn Ieruſalem ar ddwyn i'r Arglwydd drêth Moſes gwâs Duw * ['r hon a orchymynnaſid i blant] Iſrael yn yr anialwch.

10 A'r holl dywyſogion, a'r holl bobl a lawenychaſant: ac a ddugaſant, ac a fwriaſant i'r gîſt nes gorphen [y cywair.]

11 Pan ydoedd yn fadws, y ducpwyd y gîſt at ſwyddog y brenin drwy law y Leſiaid, a phan welſant fod llawer o arian, yna y daeth ſcrifennydd y brenin, a ſwyddog yr Arch-offeiriad, ac a dywalltaſant y gîſt, wedi hynny hwy ai dugaſant, ac ai hadferaſant hi i'w lle ei hun: felly y gwnaethant o ddydd i ddydd, a chaſclaſant arian lawer.

12 A'r brenin, ac Iehoiadah ai rhoddodd i'r rhai oedd yn gweithio gwaſanaeth tŷ'r Arglwydd, a chyflogaſant ſeiri maen, a ſeiri pren i gyweirio tŷ'r Arglwydd: a gofiaid haiarn, a phrês i gadarnhau tŷ'r Arglwydd.

13 Felly y gweith-wŷr a weithiaſant, a'r gwaith a gyweiriwyd drwy eu dwylo hwynt: a chodaſant dŷ Dduw yn ei drefn ei hun, ac ai cadarnhauſant ef.

14 A phan orphennaſant hwy [ef,] hwy a ddugaſant y gweddill o'r arian ger bron y brenin, ac Iehoiadah, a hwy a wnaethant o honynt leſtri i dŷ'r Arglwydd, [ſef] lleſtri y weinidogaeth, a'r morterau, a'r phiolau, a'r lleſtri aur, ac arian: ac yr oeddynt hwy yn offrymmu poeth offrymmau yn nhŷ'r Arglwydd yn deſtadol holl ddyddiau Iehoiadah.

15 Ac Iehoiadah a heneiddiodd, ac oedd gyflawn o ddyddiau, ac a fu farw: mab can mlwydd a dêc ar hugain [oedd efe] pan fu efe farw.

16 A hwynt ai claddaſant ef yn ninas Ddafydd gyd a'r brenhinoedd: canys efe a wnelſe ddaioni yn Iſrael tu ag at Dduw ai dŷ ef.

17 Ac wedi marw Iehoiadah tywyſogion Iuda a ddaethant, ac a ymgrymmaſant i'r brenin: yna y brenin a wrandawodd arnynt hwy.

18 A hwy a wrthodaſant dŷ Arglwydd Dduw eu tadau, ac a waſanaethaſant y llwynau, a'r delwau: a bu ddigofaint yn erbyn Iuda, ac Ieruſalem, o herwydd eu camwedd hyn.

19 A [Duw] a anfonodd attynt hwy brophwydi i'w troi hwynt at yr Arglwydd: y rhai a deſtiolaethaſant yn eu herbyn hwynt, ond ni wrandawſant hwy ar y rhai hynny.

20 Ac yſpryd Duw a ddaeth ar Zachariah fab Iehoiadah yr offeiriad, ac efe a ſafodd oddi ar y bobl: ac a ddywedodd wrthynt hwy, fel hyn y dywedodd Duw, pa ham yr ydych chwi yn troſſeddu gorchymynnion yr Arglwydd? diau na ffynnwch chwi, canys gwrthodaſoch yr Arglwydd, am hynny yntef a'ch gwrthyd chwithau.

21 Yna y bradfwriadaſant hwy yn ei erbyn ef, ac y llabyddiaſant ef a meini wrth orchymyn y brenin yng-hyntedd tŷ'r Arglwydd.

22 Ac ni chofiodd Ioas y brenin y drugaredd yr hon a wnaethe Iehoiadah ei dâd ef ag ef, ond efe a laddodd ei fab ef: a phan oedd efe yn marw, efe a ddywedodd, edryched yr Arglwydd, a gofynned [hyn.]

23 Ac yng-hyfnod y flwyddyn y daeth llu y Syriaid i fynu yn ei erbyn ef, a hwynt a ddaethant yn erbyn Iuda, ac Ieruſalem, ac a ddifethaſant holl dywyſogion y bobl o blith y bobl: ac a anfonaſant eu holl anrhaith hwynt at frenin Damaſcus.

24 Er i lu y Syriaid ddyfod ag ychydig ddynion, etto yr Arglwydd a roddodd yn ei llaw hwynt lu mawr iawn, canys gwrthodaſent Arglwydd Dduw eu tadau: felly y rhoddaſant hwy farn ar Ioas.

25 A phan aethant hwy oddi wrtho ef (canys hwynt ai gadawſant ef mewn clefydau mawrion) ei weiſion ef a ymgaſclaſant i'w erbyn ef o herwydd gwaed meibion Iehoiadah yr offeiriad, ac ai lladdaſant ef ar ei wely, ac efe a fu farw: ac hwy ai claddaſant ef yn ninas Ddafydd, ond ni chladdaſant ef ym meddau y brenhinoedd.

26 Dymma y rhai a fradfwriadaſant yn ei erbyn ef: Zabad mab Simach yr Ammoniad, ac Iehoſabad mab Simrich y Moabiad.

27 Am ei feibion ef, a maint y drêth [a gaſclwyd] drwyddo ef, a ſeiliad tŷ Dduw, wele hwynt yn ſcrifennedic mewn hyſtori llyfr y brenhinoedd: ac Amaſia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXV.

Amaſia yn dial lladdiad ei dâd. 14 ac yn pechu trwy gau-dduwiaeth.

2,Bren.14.2.

MAB pûm-mlwydd a'r hugain [oedd] Amaſia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a naw mlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe * yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Iehoadan o Ieruſalem.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd: ond nid ar halon berffaith.

3 A phan ſiccrhauwyd ei deyrnas iddo ei hun: yna efe a laddodd ei weiſion y rhai a laddaſent y brenin ei dâd ef.

2.Bren.14 6.
Deut.24.16.
Ier.31.30.
Ezec.18.20.

4 Ond * ni laddodd efe eu meibion hwynt: canys [efe a wnaeth] fel y mae * yn ſcrifennedic yn llyfr cyfraith Moſes, lle y gorchymynnaſe yr Arglwydd gan ddywedyd, na ladder y tadau dros y meibion, ac na ladder y meibion dros y tadau, onid lladder pob vn am ei bechod ei hun.

5 Ac Amaſia a gynhullodd Iuda, ac ai cyfleuodd hwynt yn ôl tŷ eu tadau, yn dywyſogion ar filoedd, ac yn dywyſogion ar gantoedd drwy holl Iuda, a Beniamin: ac efe ai cyfrifodd hwynt o fab vgain mlwydd, ac vchod, ac efe ai cafodd hwynt yn dry-chan-mil etholedig: yn [gallu] myned i ryfel yn trin gwaiw-ffyn a tharian.

6 Ac efe a gyflogodd o Iſrael gan mîl [o wŷr] cedyrn nerthol er cant talent o arian.

7 Ond gŵr Duw a ddaeth atto ef gan ddywedyd, ô frenin na ddeued llu Iſrael gyd a thi: canys nid [yw] 'r Arglwydd gyd ag Iſrael, [na] chyd a holl feibion Ephraim.

8 Onid tyret ti, ymbaratoa, ym-gadarnha i ryfel: [ond] Duw a wna it ſyrthio o flaen dy elynnion, canys y mae gan Dduw nerth i gynnorthwyo, ac i gwympo.

9 Ac Amaſia a ddywedodd wrth ŵr Duw, beth a wneir i'r cant talent y rhai a roddais i i dorf Iſrael? a dywedodd gŵr Duw, y mae gan yr Arglwydd fwy na hyn iw roddi i ti.

10 Felly Amaſia ai nailltuodd hwynt, ſef y dorf yr hon a ddelſe atto ef o Ephraim i fyned iw mangre ei hun: a llidiodd eu digllonedd hwynt yn ddirfawr yn erbyn Iuda, a dychwelaſant iw lle eu hûn mewn llid ddigllon.

11 Yna Amaſia a ymgadarnhaodd, ac a dywyſodd ei bobl, ac a aeth i ddyffryn yr hâlen: ac a darawodd [o] feibion Seir ddeng-mîl.

2.Bren.14.7.

12 Meibion Iuda hefyd a gaeth-gludaſant ddeng-mil yn fyw, ac * ai dugaſant i benn y graig: a thaflaſant hwynt o benn y graig, fel y drylliwyd hwynt oll.

13 A'r minteioedd y rhai a ddarfuaſe i Amaſia eu troi yn ôl rhac myned gyd ag ef i ryfel a ruthraſant yn erbyn dinaſoedd Iuda, o Samaria hyd Beth-horon: a tharawſant o honynt dair mil, ac yſclyfaethaſant anrhaith fawr.

14 Ac wedi dyfod Amaſia o ladd yr Edomiaid, efe a ddûg dduwiau meibion Seir, ac ai goſododd hwynt iddo ef yn dduwiau: ac a addolodd ger eu bron hwynt, ac a arogl-darthodd iddynt hwy.

15 Am hynny y llidiodd digllonedd yr Arglwydd yn erbyn Amaſia: ac efe a anfonodd brophwyd atto ef, yr hwn a ddywedodd wrtho ef, pa ham y ceiſiaiſt ti dduwiau y bobl, y rhai nid achubaſant eu pobl eu hun o'th law di?

16 A phan leſarodd efe wrtho ef, yna [y brenin] a ddywedodd wrtho ynteu, ai yn gynghor-wr i'r brenin y rhoddaſant di? paid ti, i ba beth i'th darawant? a'r prophwyd a beidiodd, ac a ddywedodd, gŵyddwn fod Duw wedi arfaethu dy ddiniſtrio di am it wneuthur hyn, ac na wrandewaiſt fyng-hyngor i.

17 Yna Amaſia brenin Iuda a ymgynghorodd, ac a anfonodd at Ioas fab Iehoahaz fab Iehu brenin Iſrael gan ddywedyd: tyret ymwelwn ai gilydd. 2.Bren.14.8.

18 Ac Ioas brenin Iſrael a anfonodd at Amaſia brenin Iuda gan ddywedyd, yr yſcellyn yr hwn [ſydd] yn Libanus a anfonodd at y cedr-wydden yr hon [ſydd] yn Libanus gan ddywedyd, dyro dy ferch i'm mab i yn wraig: a bwyſt-fil y maes yr hwn [oedd] yn Libanus a drammwyodd, ac a ſathrodd yr yſcellyn. 2.Bren.14.9.

19 Dywedaiſt, wele tarewaiſt yr Edomiaid: a'th galon a'th dderchafodd i ymffroſtio: eiſtedd yn awr yn dy dŷ, pa ham yr wyt yn annog i ddrygioni, fel y ſyrthit ti hefyd, ac Iuda gyd a thi?

20 Ond ni wrandawodd Amaſia, canys oddi wrth Dduw ['r oedd] hynny, fel y rhoddid hwynt yn [ei] law [ef,] am iddynt geiſio duwiau Edom.

21 Felly Ioas brenin Iſrael a aeth i fynu, a hwynt a welſant eu gilydd, efe ac Amaſia brenin Iuda: yn Beth-ſemes yr hon [oedd] yn Iuda.

22 Ac Iuda a laddwyd o flaen Iſrael: fel y ffoaſant bawb iw pabellau.

23 Ac Ioas brenin Iſrael a ddaliodd Amaſia mab Ioas, fab Iehoahaz brenin Iuda yn Beth-ſemes: ac ai dûg ef i Ieruſalem, ac efe a rwygodd fur Ieruſalem o borth Ephraim hyd borth y gongl, bedwar cant cufydd.

24 Ac [efe a gymmerth] yr holl aur, a'r arian, a'r holl leſtri a'r a gafwyd yn nhŷ Dduw gyd ag Obed Edom, a thryſſorau tŷ y brenin, a'r meibion y rhai oeddynt yn wyſtlon: ac a ddychwelodd i Samaria.

25 Ac Amaſia mab Ioas brenin Iuda a fu fyw wedi marwolaeth Ioas mab Iehoahaz brenin Iſrael bymtheng mlynedd.

26 A'r rhann arall o'r gweithredoedd cyntaf, a diweddaf i Amaſia: wele onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iuda, ac Iſrael? 2.Bren.14.18.

27 Ac wedi yr amſer yr ymadawodd Amaſia oddi ar ôl yr Arglwydd, hwynt a fradfwriadaſant fradwriaeth yn ei erbyn ef yn Ieruſalem, ac efe a ffoawdd i Lachis: etto hwynt a anfonaſant ar ei ôl ef i Lachis, ac ai lladdaſant ef yno.

28 A hwynt ai dugaſant ef ar feirch, ac

ai claddaſant ef gyd ai dadau yn ninas Iuda.

## PEN. XXVI.

Llwyddiant Vzzia yr hwn hefyd a elwid Azaria tra fu efe dduwiol. 19 A'r gwahan-glwyf a ddaeth arno ef am ei ryfyg.

2.Bren.14.21. YNa holl bobl Iuda a gymmeraſant * Uzzia, ac yntef yn fab un mlwydd ar bymthec: ac ai hurddaſant ef yn frenin yn lle Amaſia ei dad.

2 Efe a adailadodd Eloth, ac ai dug hi drachefn i Iuda ar ôl huno o'r brenin gyd ai dadau.

2.Bren.15.2. 3 Mab * un mlwydd ar bymthec [oedd] Uzzia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a deuddeng mlynedd a deugain y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Iecholiah o Ieruſalem.

4 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnaethe Amaſia ei dad ef.

5 Ac efe a geiſiodd Dduw yn nyddiau Zacharia 'r hwn oedd yn deall gweledigaethau Duw: a thra y ceiſiodd efe yr Arglwydd, Duw ai llwyddodd ef.

6 Canys efe a aeth allan, ac a ymladdodd yn erbyn y Philiſtiaid, ac a rwygodd fur Gath, a mûr Iabneh, a mûr Aſdod: ac a adailadodd ddinaſoedd yn Aſdod, ac ym mhlith y Philiſtiaid.

7 A Duw ai cynnorthwyodd ef yn erbyn y Philiſtiaid, ac yn erbyn yr Arabiaid y rhai oeddynt yn trigo yn Gurbaal, ac yn Hammeunim.

8 A'r Ammoniaid a roddaſant anrheg i Uzzia: ai enw ef a aeth hyd ddyfodfa yr Aipht, canys glew odiaeth oedd efe.

9 Uzzia hefyd a adailadodd dŷrau yn Ieruſalem wrth borth y gongl, ac wrth borth y dyffryn, ac wrth * Miczoah, ac ai cadarnhaodd hwynt. Nehe.3.19.24.

10 Ac efe a adailadodd dŷrau yn yr anialwch, ac a gloddiodd bydêwau lawer, canys anifeiliaid lawer oeddynt ganddo ef yn y dolydd, ac yn y gwaſtadedd: llafurwŷr a gwinllan-wŷr [oeddynt ganddo] ef yn y mynyddoedd, ac o fewn Carmel, canys hoff oedd ganddo ef [goledd] y ddaiar.

11 Ac yr oedd gan Uzzia lu o ryfel-wŷr yn myned allan [mewn] byddin yn dorfoedd dann nifer eu rhifedi hwynt, tann law Iehiel yr ſcrifennudd, a Maaſeiah y ſwyddog: * a thann law Hanania [un] o dywyſogion y brenin.

12 Holl rifedi y tadau pennaf ym mhlith y rhai cedyrn nerthol [oedd] ddwy fil a chwechant.

13 A thann eu llaw hwynt [yr oedd] llu y filwriaeth [ſef] try chant mil, a ſaith mil, a phum cant o ryfelwŷr mewn nerth grymmuſol, i gynnorthwyo y brenin yn erbyn y gelyn.

14 Ac Uzzia a baratôdd iddynt hwy drwy 'r holl lu dariannau, a gwaiw-ffyn, a helmau, a llurigau, a bwâu: a cherrig i daflu.

15 Ac efe a wnaeth yn Ierùſalem Offer drwy gelfyddyd rhai cywraint i fod ar y tŷrau, ac ar y conglau i ergydio ſaethau, a cherrig mawrion: ai enw ef aeth ym mhell, canys yn rhyfedd yr ymgynnorthwyodd efe nes ei gadarnhau.

16 Pan gadarnhawyd ef, ei galon a ymddyrchafodd iw ddinistr [ei hun,] canys efe a droſeddodd yn erbyn yr Arglwydd ei Dduw: ac efe a aeth i mewn i deml yr Arglwydd i arogl-darthu ar allor yr arogl-darth.

17 Ac Azaria 'r offeiriad a ddaeth ar ei ôl ef: a chydag ef pedwar ugain o offeiriaid yr Arglwydd yn feibion grymmus.

18 A hwynt a ſafaſant yn erbyn Uzzia y brenin, ac a ddywedaſant wrtho ef, * ni [pherthyn] i ti Uzzia arogl-darthu i'r Arglwydd, onid i'r offeiriaid meibion Aaron y rhai a gyſſegrwyd i arogl-darthu: dos allan o'r cyſſegr, canys ti a droſeddaiſt, ac ni [bydd hynny] i ti yn ogoniant gan yr Arglwydd Dduw. Num.18.7.

19 Yna y llidiodd Uzzia, a'r arogl-darth i arogl-darthu [oedd] yn ei law ef: a phan llidiodd efe yn erbyn yr offeiriaid, yna y gwahan-glwyf a gyfododd yn ei dalcen ef gèr bron yr offeiriaid yn nhŷ 'r Arglwydd gèr llaw allor yr arogl-darth.

20 Pan edrychodd Azaria 'r arch-offeiriad a'r holl offeiriaid arno ef, yna wele [yr oedd] efe yn wahan-glwyfus yn ei dalcen, a pharaſant iddo frysio [i fyned] oddi yno: ac felly y cymhellwyd ef i fyned allan, o herwydd yr Arglwydd ai tarawſe ef.

21 Felly Uzzia y brenin fu yn wahan-glwyfus hyd ddydd ei farwolaeth, ac efe a drigodd yn wahan-glwyfus * mewn tŷ nailltuol, canys efe a dorraſid ymmaith o dŷ 'r Arglwydd: ac Iotham ei fab ef [oedd] benteulu 'r brenin yn barnu pobl y wlâd [honno.] 2.Bren.15.5. Lefit.13.46.

22 A'r rhan arall o weithredoedd cyntaf a diweddaf Uzzia: Eſay mab Amos y prophwyd ai ſcrifennodd [hwynt.]

23 Felly Uzzia a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef gyd ai henafiaid ym maes y beddrod yr hwn [oedd] eiddo y brenhinoedd, canys dywedaſant gwahan-glwyfus [ydyw] efe: ac Iotham ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXVII.

Teyrnaſiad Iotham ar Iuda.

MAb pum mlwydd ar hugain * [oedd] Iotham pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Ierusa merch Zadoc. 2.Bren.15.33.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yngolwg yr Arglwydd yn ôl yr hyn oll a wnelſe Uzzia ei dâd ef, eithr ni ddaeth efe i deml yr Arglwydd: a'r bobl oeddynt etto yn ymlygru.

3 Efe a adailadodd y porth uchaf i dŷ 'r Arglwydd: ac ar fûr y tŵr yr adailadodd efe lawer.

4 Dinaſoedd hefyd a adailadodd efe ym mynyddoedd Iuda: ac yn y coedydd yr adailadodd efe balâſau, a thŷrau.

5 Ac efe a ryfelodd yn erbyn brenin meibion

on Ammon, ac ai gorthrechodd hwynt, a meibion Ammon a roddaſant iddo ef gant talent o arian yn y flwyddyn honno, a deng-mil Corus o wenith, a deng-mil Corus o haidd: hyn a roddodd meibion Ammon iddo ef yr ail flwyddyn a'r drydedd.

6 Felly Jotham a ymgadarnhaodd: canys efe a baratôdd ei ffyrdd ger bron yr Arglwydd ei Dduw.

7 A'r rhan arall o hanes Jotham, ai holl ryfeloedd ef, ai lwybrau ef: wele y maent yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iſrael ac Juda.

8 Mab pum mlwydd ar hugain oedd efe pan ddechreuodd efe deyrnaſu: ac un mlynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem.

9 Ac Jotham a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef yn ninas Dafydd: ac Ahaz ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXVIII.

Gau dduwiaeth Ahaz, ai aflwydd.

2.Bren.16.2. MAb ugain mlwydd [oedd] Ahaz pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar bymthec y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac ni wnaeth efe yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd fel Dafydd ei dad.

2 Eithr efe a rodiodd yn ffyrdd brenhinoedd Iſrael: ac efe a wnaeth i Baalim [ddelwau] toddedic.

3 Ac efe a arogl-darthodd yn nyffryn Ben-hinnon: ac * a loſcodd ei feibion yn tân yn ôl ffieidd-dra y cenhedloedd y rhai a fwriaſe yr Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael. Lefit.18.21. Pen.33.6.

4 Efe hefyd a aberthodd, ac a arogl-darthodd yn yr uchelfeudd, ac ar y brynnau: a than bob prenn gwyrdd-las.

5 Am hynny 'r Arglwydd ei Dduw ai rhoddodd ef yn llaw brenin Syria, a hwynt ai tarawſant ef, ac a gaethgludaſant ymmaith oddi gantho ef gaethglud fawr, ac ai dugaſant hwy i Ddamaſcus: ac yn llaw brenin Iſrael hefyd y rhoddwyd ef, yr hwn ai tarawodd ef a phlâ mawr.

6 A Pheca mab Remaliahu a laddodd yn Juda chwech ugain mil mewn un diwrnod, hwynt oll yn feibion grymmus: am wrthod o honynt Arglwydd Dduw eu tadau.

7 A Zichri gadarn yr Ephraimiad a laddodd Maaſeiah fab y brenin, ac Azricham blaenor y tŷ: ac Elchanah rhaglaw y brenin.

8 A meibion Iſrael a gaeth-gludaſant oi brodyr ddau cant mil yn wragedd, yn feibion, ac yn ferched, ſclyfaethaſant hefyd anrhaith fawr oddi arnynt: ac a ddugaſant yr yſpail i Samaria.

9 Ac yno 'r oedd prophwyd i'r Arglwydd ai enw Oded, ac efe a aeth allan o flaen y llû yr hwn oedd yn dyfod i Samaria, ac a ddywedodd wrthynt hwy, wele o herwydd digofaint Arglwydd Dduw eich tadau yn erbyn Juda y rhoddodd efe hwynt yn eich llaw chwi: fel y lladdaſoch o honynt mewn cynddaredd, [yr hon] a aeth hyd y nefoedd.

10 Ac yn awr yr ydych chwi yn amcanu daroſtwng meibion Juda, ac Jeruſalem yn weiſion, ac yn forwynion i chwi: onid [ydych] chwi yn ddiau [yn chwanegu] pechodau arnoch yn erbyn yr Arglwydd eich Duw?

11 Yn awr gan hynny gwrandewch arnaf, a gollyngwch adref y gaeth-glud yr hon a gaeth-gludaſoch o'ch brodyr: os angerdd llidiog ddigofaint yr Arglwydd [ſydd] arnoch chwi.

12 Am hynny rhai o bennaethiaid meibion Ephraim, Azaria mab Jehohanan, Berechiahu mab Meſilemoth, ac Jehizciah mab Salum, ac Amaſa mab Hadlai a gyfodaſant yn erbyn y rhai oeddynt yn dyfod o'r filwriaeth,

13 Ac a ddywedaſant wrthynt hwy, na ddygwch y gaeth-glud ymma, canys yn bechod [y bydd hyn] yn ein herbyn ni [ger bron] yr Arglwydd, yr ydych chwi yn amcanu chwanegu ar ein pechodau ni, ac ar ein camweddau: canys [y mae] camwedd lawer yn ein herbyn ni, a digofaint llidiog yn erbyn Iſrael.

14 Felly y llu a adawodd y gaeth-glud a'r anrhaith o flaen y tywyſogion: a'r holl gynnulleidfa.

15 A'r gwŷr y rhai a henwyd [uchod] wrth eu henwau a gyfodaſant, ac a ymaflaſant yn y gaeth-glud, ac a ddilladaſant eu holl rai noethion hwynt a'r yſpail, pan ddilladdaſant hwynt, a [phan] roddaſant iddynt eſcidiau, yna hwynt a wnaethant iddynt fwytta, ac ai diodaſant, eneiniaſant hwynt hefyd, a dugaſant ar aſſynnod bob un lleſc, ie dugaſant hwynt i Jericho dinas y palm-wŷdd at eu brodyr: felly hwyntau a ddychwelaſant i Samaria.

16 Yr amſer hwnnw yr anfonodd y brenin Ahaz at frenhinoedd Aſſyria i [gael] ei gynnorthwyo.

17 A'r Edomiaid a ddaethant etto, ac a darawſant ar Juda, ac a gaeth-gludaſant gaeth-glud.

18 Y Philiſtiaid hefyd a ruthraſant i ddinaſoedd y gwaſtadedd, a thû 'r dehau i Juda, ac a ennillaſant Beth-ſemes, ac Aialon, a Gederoth, a Socho, ai phen-trefydd, Thimna hefyd ai phen-trefydd, a Gimzo ai phentrefydd: ac a drigaſant yno.

19 Canys Duw a ddaroſtyngodd Juda er mwyn Ahaz brenin Iſrael: o blegit efe a wnelſe ddialedd yn Juda gan droſſeddu drwy gamwedd yn erbyn yr Arglwydd.

20 A * Thilgath Pilneſer brenin Aſſyria a ddaeth atto ef: ac a flinodd arno ef, ac ni's cynnorthwyodd ef. 2.Bren.19.7.

21 Er * i Ahaz gymmeryd rhan o dŷ 'r Arglwydd, ac o dŷ 'r brenin, a'r tywyſogion: ai rhoddi i frenin Aſſyria, etto ni's cynnorthwyodd efe ef. 1.Bren.16.8.

22 A'r amſer yr oedd yn gyfyng arno ef, efe a chwanegodd droſſeddu yn erbyn yr Arglwydd:

ydd: hwn [yw]'r brenin Ahaz.

23 Ac efe a aberthodd i dduwiau Damaſcus y rhai ai tarawſent ef, ac efe a ddywedodd, am iddynt hwy duwiau brenhinoedd Syria ~~fyng-hynnorthwyo i~~ i'w cynnorthwyo hwynt, myfi a aberthaf iddynt hwy, fel i'm cynnorthwyant [~~efo~~ [illegible]:] ond hwy a fuant iddo ef [yn achos] i beri iddo ef, ac i holl Iſrael dramgwyddo.

24 Ac Ahaz a gaſclodd leſtri tŷ Dduw, ac a ddarniodd leſtri tŷ Dduw, ac a gaeodd ddryſſau tŷ'r Arglwydd: ac a wnaeth iddo ef allorau ym mhob congl i Jeruſalem.

25 Ac ym mhob Dinas yn Juda y gwnaeth efe uchelfeudd i arogl-darthu i dduwiau dieithr: ac a ddigllonodd Arglwydd Dduw ei dadau.

26 A'r rhan arall oi hanes ef, ai holl lwybrau ef cyntaf a diweddaf: wele hwynt yn ſcriſennedic yn llyfr brenhinoedd Juda, ac Iſrael.

27 Ac Ahaz a hunodd gyd ai dadau, a hwynt ai claddaſant ef yn ninas Jeruſalem, ond ni ddugaſant hwy mo honaw ef i feddrod brenhinoedd Iſrael: a Hezecia ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXIX.

Teyrnaſiad Hezecia, ai ofal am yr iawn grefydd.

2.Bren.18.1. MAB * pum mlwydd ar hugain oedd Hezecia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, a naw mlynedd ar hugain y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac enw ei fam ef [oedd] Abia merch Zacharia.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd uniawn yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl yr hyn oll a'r a wnelſe Dafydd ei dâd ef.

3 Yn y flwyddyn gyntaf oi deyrnaſiad ef, yn y mis cyntaf, efe a agorodd ddryſſau tŷ'r Arglwydd, ac ai cyweiriodd hwynt.

4 Ac efe a ddug i mewn yr offeiriaid, a'r Lefiaid: ac ai caſclodd hwynt i hêol y dwyrain.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy, gwrandewch fi ô Lefiaid: ymſancteiddiwch, yn awr, a chyſſegrwch dŷ Arglwydd Dduw eich tadau, a dugwch yr aflendid allan o'r cyſſegr.

6 Canys ein tadau ni a droſeddaſant, ac a wnaethant yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd ein Duw ni, ac ai gwrthodaſant ef: troaſant hefyd eu hwynebau oddi wrth babell yr Arglwydd, a rhoddaſant [eu] gwarrau [tu ag atti hi.]

7 Caeaſant hefyd ddryſſau y porth, a diffoddaſant y goleuadau, ac nid arogl-darthaſant arogl-darth: ac ni offrymmaſant boeth offrymmau yng-hyſſegr Duw Iſrael.

8 Am hynny digofaint yr Arglwydd a ddaeth yn erbyn Juda, ac Jeruſalem: ac efe ai rhoddodd hwynt yn gyffro, yn rhifeddod, ac yn watwargerdd, fel yr ydych yn gweled a'ch llygaid.

9 Ac wele ein tadau ni a ſyrthiaſant drwy 'r cleddyf: ein meibion hefyd, a'n merched, a'n gwragedd [ydynt] mewn caethiwed o herwydd hyn.

10 Yn awr [y mae] yn fy mryd wneuthur cyfammod ag Arglwydd Dduw Iſrael: fel y dychwelo ei ddigofaint llidioc ef oddi wrthym ni.

11 Fy meibion na fyddwch ddifraw: canys yr Arglwydd a'ch dewiſodd chwi i * ſefyll ger ei fron ef i weini iddo ef, ac i fod yn gweini, ac yn arogl-darthu iddo ef. Num.18.6.

12 Yna y Lefiaid a gyfodaſant, Mahath mab Amaſai, ac Joel mab Azariah o feibion y Cehathiaid, ac o feibion Merari, Chis mab Abdi, ac Azariah mab Jehalelel: ac o'r Gerſoniaid, Joah mab Zimmah, ac Eden mab Joah.

13 Ac o feibion Eliſaphan, Simri, ac Jehiel: ac o feibion Aſaph, Zacariah, a Mathania.

14 Ac o feibion Heman, Jehiel a Simei: ac o feibion Jeduthun, Semaiah ac Uzziel.

15 Felly hwynt a gynnullaſant eu brodyr, ac a ymſancteiddiaſant, ac a ddaethant yn ôl gorchymyn y brenin drwy eiriau 'r Arglwydd: i lanhau tŷ'r Arglwydd.

16 A'r offeiriaid a ddaethant i fewn tŷ'r Arglwydd iw lanhau, ac a ddugaſant allan yr holl frynti a'r a gawſant yn nheml yr Arglwydd i gyntedd tŷ'r Arglwydd: a'r Lefiaid ai cymmeraſant iw dwyn ymmaith allan i afon Cedron.

17 Ac yn y [dydd] cyntaf o'r mis cyntaf y dechreuaſant [ei] gyſſegru [ef,] ac ar yr wythfed dydd o'r mîs y daethant i borth yr Arglwydd, ac mewn wyth niwrnod y cyſſegraſant dŷ'r Arglwydd: ac yn yr unfed dydd ar bymthec o'r mîs cyntaf y gorphennaſant.

18 Yna y daethant hwy i mewn at Hezecia y brenin, ac a ddywedaſant, glanhauſom holl dŷ'r Arglwydd: ac allor y poeth offrwm ai holl leſtri a bwrdd y [bara] goſod, ai holl leſtri.

19 A'r holl leſtri y rhai a fwriaſe y brenin Ahaz ymmaith (pan oedd efe yn teyrnaſu yn ei gamwedd) a baratoaſom, ac a gyſſegraſom ni: ac wele hwynt ger bron allor yr Arglwydd.

20 Yna Hezecia y brenin a gododd yn foreu, ac a gaſclodd dywyſogion y ddinas: ac a aeth i fynu i dŷ yr Arglwydd.

21. Dugaſant hefyd ſaith o fuſtych, a ſaith o hyrddod, a ſaith o wyn, a ſaith o fychod geifr * ym mhech-aberth dros y frenhiniaeth, a thros y cyſſegr, a thros Juda: ac efe a ddywedodd wrth feibion Aaron yr offeiriaid am boeth offrymmu [y rhai hynny] ar allor yr Arglwydd. Lefit.4.14.

22 Felly hwynt a laddaſant y buſtych, a'r

offeiriaid a gymmeraſant y gwaed, ac ai taenellaſant ar yr allor: lladdaſant hefyd yr hyrddod * a thaenellaſant y gwaed ar yr allor, a hwynt a laddaſant yr ŵyn, ac a daenellaſant y gwaed ar yr allor.

Exod.24.8. Hebre.9.11.

23 Yna hwynt a ddugaſant fychod y pech-aberth o flaen y brenin a'r gynnulleidfa: ac a oſodaſant eu dwylo arnynt hwy.

24 A'r offeiriaid ai lladdaſant hwy, ac a lanhauſant yr allor ai gwaed hwynt, i wneuthur iawn dros holl Iſrael: canys tros holl Iſrael yr archaſe y brenin [roddi] poeth offrwm, a phech-aberth.

25 Ac efe a gyfleuodd y Lefiaid yn nhŷ 'r Arglwydd a ſymbalau, ac a nablau, ac a thelynau * yn ôl gorchymyn Dafydd, a Gad gwelududd y brenin, a Nathan y prophwyd: canys y gorchymyn [oedd] drwy law 'r Arglwydd, [a] thrwy law ei brophwydi ef.

1.Cron.16.4.

26 A'r Lefiaid a ſafaſant ag offer Dafydd, a'r offeiriaid ag vdcyrn.

27 Ac Hezecia a ddywedodd am offrymmu poeth offrwm ar yr allor: a'r amſer y dechreuodd y poeth offrwm, y dechreuodd cân yr Arglwydd, a'r vdcyrn, gyd ag offer Dafydd brenin Iſrael.

28 A'r holl gynnulleidfa oeddynt yn addoli, ac yn canu cân, a'r vdcyrn yn lleiſio: hyn oll [a barhâodd] nes gorphen y poeth offrwm.

29 A phan orphennaſant hwy boeth offrymmu: y brenin a'r holl rai a gafwyd gyd ag ef a ymgrymmaſant, ac a addolaſant.

30 Yna Hezecia y brenin a'r tywyſogion a ddywedaſant wrth y Lefiaid am foliannu yr Arglwydd drwy eiriau Dafydd, ac Aſaph y gweledudd: felly hwynt a foliannaſant a llawenydd, ac a oſtyngaſant, ac a addolaſant.

31 Ac Hezecia a attebodd, ac a ddywedodd, yn awr yr ymgyſſegraſoch chwi i'r Arglwydd, neſſewch, a dygwch ebyrth, a moliant i dŷ 'r Arglwydd: a'r gynnulleidfa a ddugaſant ebyrth, a moliant, a phob ewyllyſcar o galon [a offrymmodd] boeth offrymmau.

32 A rhifedi y poeth offrwm yr hwn a ddug y gynnulleidfa oedd ddêc a thrugain o fuſtych, cant o hyrddod, dau cant o ŵyn: y rhai hyn oll [oeddynt] yn boeth offrwm i'r Arglwydd.

33 Ac i'r cyſſegriadau [eraill,] chwe chant o fuſtych, a thair mil o ddefaid.

34 Ond yr oedd rhy fychan o offeiriaid fel na allent flingo 'r holl boeth offrymmau: am hynny eu brodyr hwynt y Lefiaid ai cynnorthwyaſant hwy nes gorphen y gwaith, ac nes i'r offeiriaid ymgyſſegru, canys y Lefiaid [oeddynt] iniawnach o galon i ymgyſſegru na'r offeiriaid.

35 Y poeth offrwm hefyd [oedd] yn aml gyd * a braſter yr hedd offrwm, a diod offrwm y poeth offrwm: felly y darparwyd gwaſanaeth tŷ 'r Arglwydd.

Lefit.3.1.

36 Yna Hezecia a lawenychodd a'r holl bobl, o herwydd paratoi o Dduw y bobl: o blegit yn ddiſymmwth y bu y peth.

## PEN. XXX.

Pa Baſc a barodd Hezecia ei gadw.

YNA Hezecia a anfonodd at holl Iſrael ac Iuda, ac a ſcrifennodd lythyrau at Ephraim, a Manaſſes i ddyfod i dŷ 'r Arglwydd i Ieruſalem, i gynnal Paſc i Arglwydd Dduw Iſrael.

2 A'r brenin a ymgynghorodd ai dywyſogion a'r holl gynnulleidfa yn Ieruſalem am gynnal y Paſc * yn yr ail mîs.

Num.9.10.

3 Canys ni allent ei gynnal ef y pryd hwnnw: o blegit ni chyſſegraſyd ddigon o'r offeiriaid, ac nid ymgaſclaſe y bobl i Ieruſalem.

4 A dâ oedd y peth yng-olwg y brenin: ac yng-olwg yr holl gynnulleidfa.

5 A hwynt a orchymynnaſant gyhoeddi drwy holl Iſrael o Beerſeba hyd Ddan am ddyfod i gynnal Paſc i Arglwydd Dduw Iſrael yn Ieruſalem: canys ni wnaethent er yſtalm, fel y mae yn ſcrifennedic.

6 Felly y rhedeg-wŷr a aethant a'r llythŷrau o law y brenin, ai dywyſogion ef drwy holl Iſrael, ac Iuda, ac wrth orchymyn y brenin gan ddywedyd: ô meibion Iſrael dychwelwch at Arglwydd Dduw Abraham, Iſaac, ac Iſrael, fel y dychwelo efe at y gweddill y rhai a ddiangodd o honoch chwi o law brenhinoedd Aſſyria.

7 Ac na fyddwch fel eich tadau, nac fel eich brodyr y rhai a droſſeddaſant yn erbyn Arglwydd Dduw eu tadau: am hynny efe ai rhoddodd hwynt yn anghyfannedd megis y gwelwch [heddyw.]

8 Yn awr na chaledwch eich gwarr fel eich tadau: rhoddwch law i'r Arglwydd, a deuwch iw gyſſegr ef yr hwn a gyſſegrodd efe yn dragywydd, a gwaſanaethwch yr Arglwydd eich Duw fel y dychwelo llid ei ddigofaint ef oddi wrthych chwi.

9 Canys pan ddychweloch chwi at yr Arglwydd, eich brodyr chwi, a'ch meibion [a gânt] drugaredd ger bron y rhai ſy yn eu caethgludo hwynt, fel y dychwelont i'r wlâd ymma: o blegit graſol, a thrugarog [yw] 'r Arglwydd eich Duw, ac ni thrŷ efe ei wyneb oddi wrthych os dychwelwch atto ef.

10 Felly y rhedeg-wŷr fuant yn myned o ddinas i ddinas drwy wlâd Ephraim, a Manaſſes hyd Zabulon: ond hwynt ai dynwaredaſant, ac ai gwat-waraſant hwy.

11 Er hynny gwŷr o Aſer, a Manaſſes, ac o Zabulon a ymoſtyngaſant, ac a ddaethant i Ieruſalem.

12 Llaw Dduw hefyd fu yn Iuda, gan roddi iddynt vn galon i wneuthur gorchymyn y brenin, a'r tywyſogion yn ôl gair yr Arglwydd.

13 A phobl lawer a ymgaſclaſant i Ieruſalem i gynnal gŵyl y bara croiw yn yr ail mîs: [ſef] cynnulleidfa fawriawn.

14 A hwynt a gyfodaſant, ac a fwriaſant ymmaith yr allorau y rhai [oeddynt] yn Ieruſalem: bwriaſant ymmaith allorau'r arogl-darth a thaflaſant [hwynt] i afon Cedron.

15 Yna 'r aberthaſant y Paſc ar y pedwerydd [dydd] ar ddêc o'r ail mîs: yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a gywilyddiaſant, ac a ymgyſſegraſant, ac a ddugaſant boeth offrymmau i dŷ 'r Arglwydd.

16 A hwynt a ſafaſant ar eu lle wrth eu harfer yn ôl cyfraith Moſes gŵr Duw: a'r offeiriaid oeddynt yn taenellu y gwaed o law y Lefiaid.

17 Canys [yr oedd] llawer yn y gynnulleidfa y rhai nid ymſancteiddiaſent: a'r Lefiaid [oeddynt bennaf] ar aberth y Paſc dros yr holl rai aflan, [iw] ſancteiddio [hwynt] i'r Arglwydd.

18 O herwydd llawer o'r bobl [ſef] llawer o Ephraim, a Manaſſes, Iſſachar, a Zabulon nid ymlanhauſant, eithr hwy a fwytaſant y Paſc yn amgenach nac y mae yn ſcrifennedic: am hynny Hezecia a weddiodd droſtynt hwy gan ddywedyd, yr Arglwydd daionus a faddeu i [bawb,]

19 Pwy bynnac a baratôdd ei galon i geiſio Duw, [ſef] Arglwydd Dduw ei dadau: er na [lanhawyd ef] yn ôl puredigaeth y cyſſegr.

20 A'r Arglwydd a wrandawodd ar Hezecia, ac a iachâodd y bobl.

21 A meibion Iſrael y rhai a gafwyd yn Ieruſalem a gynhaliaſant ŵyl y bara croiw ſaith niwrnod drwy lawenydd mawr: y Lefiaid hefyd, a'r offeiriaid oeddynt yn moliannu 'r Arglwydd o ddydd i ddydd ag offer [yn cydganu] ar offer ſoniarus i'r Arglwydd.

22 Ac Hezecia a ddywedodd wrth [fodd] calon yr holl Lefiaid y rhai oeddynt yn medru [drwy] ddeall da [ganu] i'r Arglwydd: am hynny hwy a fwytaſant yr amſer goſodedic hwnnw [dros] ſaith niwrnod, [ac] a aberthaſant ebyrth hedd, ac a foliannaſant Arglwydd Dduw eu tadau.

23 A'r holl gynnulleidfa a ymgynghoraſant i gynnal ſaith o ddyddiau eraill: felly y cynhaliaſant ſaith o ddyddiau [drwy] lawenydd.

24 Canys Hezecia brenin Iuda a roddodd i'r gynnulleidfa fil o fuſtych, a ſaith mil o ddefaid, a'r tywyſogion a roddaſant i'r gynnulleidfa fil o fuſtych, a deng-mil o ddefaid: a llawer o offeiriaid a ymſanctaiddiaſant.

25 A holl gynnulleidfa Iuda a lawenychaſant gyd a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r holl gynnulleidfa y rhai oeddynt yn dyfod o Iſrael: a'r dieithriaid y rhai oeddynt yn dyfod o wlâd Iſrael, a'r rhai oeddynt yn gwladychu yn Iuda.

26 Felly y bu llawenydd mawr yn Ieruſalem: canys er dyddiau Salomon mab Dafydd brenin Iſrael ni [bu] cyffelib i hyn yn Ieruſalem.

27 Yna yr offeiriaid a'r Lefiaid a gyfodaſant, ac a fendithiaſant y bobl, a gwrandawyd ar eu llef hwynt: a'i gweddi hwynt a ddaeth at ei breſwylfa ſanctaidd ef i'r nefoedd.

## PEN. XXXI.

Goſal Hezecia yn erbyn gau-dduwiaeth, a thros iawn waſanaeth Duw.

PAn orphennwyd hyn ei gyd, holl Iſrael y rhai a gafwyd yn ninaſoedd Iuda a aethant allan, *ac a ddrylliaſant y delwau, ac a dorraſant y llwynau, ac a ddeſtrywiaſant yr uchelfeudd a'r allorau o holl Iuda a Beniamin, yn Ephraim hefyd, a Manaſſes, nes [eu] difa [hwynt:] yna holl feibion Iſrael a ddychwelaſant bob vn at ei feddiant, iw dinaſoedd.

Deut.7.25.
Ioſu 7.1.
2.Mac.12.40.

2 Ac Hezecia a oſododd ddoſparthiadau 'r offeiriaid, a'r Lefiaid yn eu trefniadau, pob vn yn ôl ei weinidogaeth, yr offeiriaid a'r Lefiaid i'r poeth offrwm, ac i'r ebyrth hedd i weini, i foliannu hefyd, ac i ganmol ym mhyrth gwerſſyllau yr Arglwydd.

3 A rhan y brenin [oedd] oi olud ei hun yn boeth offrymmau, [ſef] yn boeth offrymmau y borau a'r hwyr, ac yn boeth offrymmau ar y Sabbothau, ac ar y newydd loerau, a'r gwyliau arbennic: fel y mae yn ſcrifennedic *yng-hyfraith yr Arglwydd.

Num.28.3.&9

4 Efe hefyd a ddywedodd wrth y bobl ſef trigolion Ieruſalem am roddi rhan i'r offeiriaid, a'r Lefiaid: fel yr ymgryfhaent yng-hyfraith yr Arglwydd.

5 A phan gyhoeddwyd y gair hwn, meibion Iſrael a ddugaſant yn aml flaen-ffrwyth yr ŷd, y gwîn, yr olew hefyd, a'r mêl, ac o holl gnwd y maes: a'r degwm o bob peth a ddugaſant hwy yn helaeth.

6 A meibion Iſrael ac Iuda y rhai oeddynt yn trigo yn ninaſoedd Iuda, ie hwynt hwy [a ddugaſant] ddegwm gwartheg, a defaid, a degwm y pethau cyſſegredic y rhai a gyſſegraſid i'r Arglwydd eu Duw: dugaſant, a dodaſant [hwy] bob yn ben-twr.

7 Yn y trydydd mîs y dechreuaſant hwy ſeilio y pentyrrau: ac yn y ſeithfed mîs y gorphennaſant hwy.

8 Pan ddaeth Hezecia a'r tywyſogion, a gweled o honynt y pentyrrau: yna y bendithiaſant yr Arglwydd ai bobl Iſrael.

9 Ac Hezecia a ymofynnodd a'r offeiriaid, a'r Lefiaid o herwydd y pentyrrau.

10 Ac Azaria yr offeiriad pennaf o dŷ Zadoc a ddywedodd wrtho ef, ac a leſarodd, er pan ddechreuwyd dwyn offrwm i dŷ 'r Arglwydd bwytawſom ac fe a'n digonwyd ni, gweddilla-

ſom hefyd amldra mawr, canys yr Arglwydd a fendithiodd ei bobl, a'r amldra hyn a weddillwyd.

11 Ac Hezecia a ddywedodd am baratoi celloedd yn nhŷ 'r Arglwydd, a hwynt ai paratoaſant.

12 A hwynt a ddugaſant y blaen-ffrwyth, a'r degwm, a'r pethau cyſſegredic yn ffyddlon: a Chonaniah y Lefiad [oedd] yn flaenor arnynt hwy, a Simei ei frawd ef yn ail.

13 Iehiel hefyd, ac Azaria, a Nahath, ac Azahel, ac Ierimoth, ac Iozabad, ac Eliel, ac Iſmachia, Mahath hefyd, a Benaia [oeddynt] ſwyddogion tann law Chonaniah, a Simei ei frawd ef drwy orchymyn Hezecia y brenin, ac Azaria [oedd] flaenor yn nhŷ Dduw.

14 A Chore mab Imnah y Lefiad porthor tua 'r dwyrain [oedd] ar y pethau a offrymmid yn ewyllyſcar i Dduw: i roddi y blaenffrwyth i'r Arglwydd, a'r cyſſegredic bethau y rhai a gyſſegraſid.

15 A thann ei law ef [yr oedd] Eden, a Miniamin, ac Ieſua, a Semaiah, Amariahu, a Secaniahu yn ninaſoedd yr offeiriaid mewn ffyddlondeb: i roddi iw brodyr eu rhan, i fawr, ac i fychan.

16 (Heb law y gwrſiaid oi hiliogaeth hwynt o fab tair blwydd ac vchod) i bawb a'r a oedd yn dyfod i dŷ 'r Arglwydd traul dydd yn ei ddydd: yn eu gwaſanaeth hwynt o fewn eu gorchwyliaethau, yn ôl eu doſparthiadau.

17 Ac i hiliogaeth yr offeiriaid drwy dŷ eu tadau hwynt, a'r Lefiaid, o fab vgain mlwydd ac vchod: yn ôl eu gorchwyliaethau yn eu doſparthiadau.

18 Ac i hiliogaeth eu holl blant hwynt, eu gwragedd hwynt, eu meibion hefyd, ai merched [ſef] i'r holl gynnulleidfa: o blegit trwy eu ffyddlondeb hwynt y trinent hwy yn ſanctaidd yr hyn oedd ſanctaidd.

19 Ac i feibion Aaron yr offeiriaid [y rhai oeddynt] ym meuſydd pentrefol eu dinaſoedd, ym mhob dinas y gwŷr y rhai a henwaſid wrth eu henwau: i roddi rhannau i bob gwryw ym myſc yr offeiriaid, ac i holl hiliogaeth y Lefiaid.

20 Ac fel hyn y gwnaeth Hezecia drwy holl Iuda: ac efe a wnaeth yr hyn oedd yn ddâ, ac yn inion, a'r gwirionedd ger-bron yr Arglwydd ei Dduw.

21 Ac ym mhob gwaith yr hwn a ddechreuodd efe yng-wenidogaeth tŷ Dduw, ac yn y gyfraith, ac yn y gorchymyn, gan geiſio ei Dduw: efe ai gwnaeth ai holl galon, ac a ffynnodd.

## PEN. XXXII.

Rhyfel Senacherib yn erbyn Iuda. 3 Gofal Hezecia. 7 Ai amdeffyn.

2.Bren. 18. 13. Eſa. 30. 1. Eccl. 48. 18. Wedi y pethau hyn, a'r gwirionedd ymma, y daeth Senacherib brenin Aſſyria: ac efe a ddaeth i mewn i Iuda, ac a werſyllodd yn erbyn y dinaſoedd caerog, ac a feddyliodd eu hennill hwynt iddo ei hun.

2 Pan welodd Hezecia ddyfod Senacherib: a [bod] ei wyneb ef i ryfela yn erbyn Ieruſalem:

3 Yna efe a ymgynghorodd ai dywyſogion, ac ai gedyrn am argaeu dyfroedd y ffynhonnau y rhai [oeddynt] allan o'r ddinas: a hwynt ai cynnorthwyaſant ef.

4 Felly pobl lawer a ymgaſclaſant, ac a argaeaſant yr holl ffynhonnau, a'r afon yr hon ſydd yn rhedeg drwy ganol y wlâd gan ddywedyd: pa ham y daw brenhinoedd Aſſyria, ac y cânt ddyfroedd lawer?

5 Ac efe a ymegnîodd, ac a adailadodd yr holl fur drylliedic hwnnw, ac a gadarnhaodd Milo [yn] ninas Dafydd: ac efe a wnaeth lawer o biccellau, ac o dariannau. 2.Sam.5.9.

6 Ac efe a oſododd dywyſogion rhyfel ar y bobl: ac ai caſclodd hwynt atto i heol porth y ddinas, ac a lefarodd wrth [fodd] eu calon hwynt gan ddywedyd,

7 Ymwrolwch, ac ymgadarnhewch, nac ofnwch, ac na arſwydwch rhac brenin Aſſyria, na rhac yr holl dyrfa 'r hon [ſydd] gyd ag ef: canys [y mae] gyda ni fwy na chyd ag ef.

8 Gyd ag ef [y mae] braich gnawdol, a'r Arglwydd ein Duw [ſydd] cyd a ni i'n cynnorthwyo, ac i ryfela ein rhyfeloedd: a'r bobl a ymgryfhauſant o herwydd geiriau Hezecia brenin Iuda.

9 Wedi hyn yr anfonodd * Senacherib brenin Aſſyria ei weiſion i Ieruſalem (tra [yr ydoedd] efe [yn rhyfela] yn erbyn Lachis ai holl allu gyd ag ef) at Hezecia frenin Iuda, ac at holl Iuda y rhai [oeddynt] yn Ieruſalem, gan ddywedyd, 2.Bren.18.17.

10 Fel hyn y dywedodd Senacherib brenin Aſſyria: ar ba beth yr ydych chwi yn hyderu, chwi y rhai ſy 'n aros yng-warchaedigaeth o fewn Ieruſalem?

11 Ond Hezecia ſydd yn eich hûdo chwi, i'ch rhoddi chwi i farw drwy newyn, a thrwy ſyched gan ddywedyd: yr Arglwydd ein Duw ni a'n gwared ni o law brenin Aſſyria?

12 Onid yr Hezecia hwnnw a dynnodd ymmaith ei vchelfeudd ef, ai allorau, ac a lefarodd wrth Iuda, ac Ieruſalem gan ddywedyd, o flaen vn allor yr addolwch, ac ar honno yr arogldarthwch?

13 Oni wyddoch chwi beth a wneuthum mi a'm tadau i holl bobloedd y tiroedd? ai gan allu y galle duwiau cenhedloedd y gwledydd achub eu gwlâd o'm llaw i?

14 Pwy [ſydd] ym myſc holl dduwiau y cenhedloedd hyn (y rhai a ddarfu i'm tadau eu difetha) a'r a ddichon waredu ei bobl o'm llaw i: fel y galle eich Duw chwi eich gwaredu chwi o'm llaw i?

15 Yn awr gan hynny na thwylled Hezecia chwi, ac na huded mohonoch fel hyn, ac na choeliwch

eliwch iddo ef, canys ni ddichon vn Duw o'r holl genhedloedd na'r teyrnaſoedd achub ei bobl o'm llaw i, nac o law fy nhadau: pa faint lai y gwared eich duwiau chwychwi o'm llaw i?

16 Ai weiſion ef a ddywedaſant chwaneg yn erbyn yr Arglwydd Dduw: ac yn erbyn Hezecia ei wâs ef.

17 Ac efe a ſcrifennodd lythŷrau gan gablu Arglwydd Dduw Iſrael: a thrwy lefaru yn ei erbyn ef gan ddywedyd, fel duwiau cenhedloedd y gwledydd y rhai nid achubaſant eu pobl o'm llaw i, felly nid achub Duw Hezecia ei bobl o'm llaw i.

18 Yna y gwaeddaſant hwy *a llef vchel yn iaith yr Iddewon ar bobl Jeruſalem y rhai [oeddynt] ar y mûr, iw hofni hwynt, ac iw brawychu: fel yr enillent hwy y ddinas.

19 Felly y dywedaſant yn erbyn Duw Jeruſalem, fel yn erbyn duwiau pobloedd y wlâd [ſef] gwaith dwylo dŷn.

20 Yna y gweddiodd Hezecia y brenin, ac Eſay mab Amos y prophwyd o blegit hyn: a hwy a waeddaſant i'r nefoedd.

2.Bren.19.35. 21 Am hynny yr Arglwydd a anfonodd angel *yr hwn a laddodd bôb cadarn nerthol, [pob] blaenor hefyd a thywyſog yng-werſyll brenin Aſſyria: felly efe a ddychwelodd a chywilydd [ar ei] wyneb iw wlâd ei hun, pan ddaeth efe i dŷ ei Dduw, yna * y rhai a ddaethent allan oi emyſcaroedd ei hun ai lladaſant ef yno a chleddyf. 2.Bren.19.37. eſa.37.38.

22 Felly y gwaredodd yr Arglwydd Hezecia a thrigolion Jeruſalem o law Senacherib brenin Aſſyria, ac o law pawb [eraill:] ac ai cadwodd hwynt oddi amgylch:

23 A llawer oeddynt yn dwyn offrwm i'r Arglwydd i Jeruſalem, a phethau gwerthfawr i Hezecia brenin Juda: fel y derchafwyd ef o hynny allan yng-ŵydd yr holl genhedloedd.

2.Bren.20.1. eſa.38.1. 24 Yn * y dyddiau hynny y clafychodd Hezecia i farw: ac efe a weddiodd ar yr Arglwydd, yntef a ddywedodd wrtho ef, ac a roddes argoel iddo ef.

25 Ond ni thalodd Hezecia yn ôl y gwobr [yr hwn a roddaſyd] iddo ef: canys ei galon ef a dderchafodd: a digofaint a ddaeth yn ei erbyn ef, ac yn erbyn Juda, ac Jeruſalem.

26 Er hynny Hezecia a ymoſtyngodd oddi wrth dderchafiad ei galon, efe a thrigolion Jeruſalem: ac ni ddaeth digofaint yr Arglwydd arnynt hwy yn nyddiau Hezecia.

27 Ac yr oedd gan Hezecia gyfoeth ac anrhydedd mawr iawn, ac efe a wnaeth iddo dryſſorau o arian, ac o aur, ac o feini gwerth-fawr, o bêr-aroglau hefyd, ac o dariannau, ac o bôb lleſtri hyfrydaidd.

28 A ſelêrau i gnŵd yr ŷd, a'r gwin, a'r olew: a phreſêbau i bôb anifail, a chorlannau i'r diadellau [defaid.]

29 Ac efe a wnaeth iddo ddinaſoedd, ac [yr oedd yn ei] feddiant ef ddefaid a gwarthec yn aml: canys Duw a roddaſe iddo ef gyfoeth mawr iawn.

30 A'r Hezecia ymma a argaeodd yr aber vchaf i ddyfrocod * Gihon, ac ai dug hwynt yn union oddi tanodd tua thu'r gorllewyn i ddinas Dafydd: felly y ffynnodd Hezecia yn ei holl waith. Eſa.8.6. ioh.9.7.

31 Ond o herwydd cennadau tywyſogion Babilon, y rhai a anfonwyd atto ef i ymofyn am y rhyfeddod y rhwn a wnaethid yn y wlâd, y gwrthododd Duw ef: iw brofi ef, [ac] i wybod cwbl [a'r a ydoedd] yn ei galon ef.

32 A'r rhan arall o hanes Hezecia ai garedigrwydd ef: wele hwynt yn ſcrifennedic *yng-weledigaeth Eſay mab Amos y prophwydd, [ac] yn *llyfr brenhinoedd Juda ac Iſrael. 2.Bren. 18.19. 20.

33 Ac Hezecia a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef yn y fann vchaf o feddau meibiō Dafydd, a holl Juda a thrigolion Jeruſalē a wnaethāt anrhydedd iddo ef yr amſer y bu efe farw: a Manaſſes ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

## PEN. XXXIII.

Gau-dduwiaeth Manaſſes. 11 Ai goſpedigaeth.

MAb deuddeng-mlwydd [oedd] Manaſſes pan ddechreuodd efe deyrnaſu: a phymtheng mhlynedd a deugain y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem. 2.Bren.21.1.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd: yn ôl ffieidd-dra y cenhedloedd *y rhai a fwriaſe'r Arglwydd allan o flaen meibion Iſrael. Deut.18.9.

3 Canys efe a ddychwelodd, ac a adailadodd yr vchelfeudd * y rhai a ddiniſtriaſe Hezecia ei dâd ef: ac * a gyfododd allorau i Baalim, ac a wnaeth lwynau, ac a addolodd holl lû y nefoedd, ac ai gwaſanaethodd hwynt. 2.Bren.18.4. Iere.32.34.

4 Adailadodd hefyd allorau yn nhŷ'r Arglwydd: [am] yr hwn y dywedaſe'r Arglwydd * yn Jeruſalem y bydd fy enw i yn dragywydd. 2.Bren.21 5.

5 Ac efe a adailadodd allorau i holl lû y nefoedd yn nau gyntedd tŷ'r Arglwydd.

6 Ac efe a yrrodd ei feibion drwy'r tân yn nyffryn meibion Hinnon, dewinodd hefyd, a daroganodd, hudoliaethodd hefyd, a mawrhaodd ſwynyddion, a dewiniaid: chwanegodd wneuthur yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd iw ddigio ef. 2.Bren.16.3.

7 Ac efe a gyfleuodd ddelw gerfiedic (yr hon a wnelſe efe) yn nhŷ Dduw, [am] yr hwn y dywedaſe Duw wrth Ddafydd, ac wrth Salomō ei fab, * yn y tŷ hwn, ac yn Jeruſalem (yr hon a ddewiſais o holl lwythau Iſrael) y goſodaf fy enw yn dragywydd. 1.Bren.8.29.& 9.3.2. Bren.21.7.

8 Ac ni chwanegaf * ſymmud troed Iſrael oddi ar y tîr yr hwn a ordeiniais i'ch tadau chwi: os cadwant ar wneuthur yr hyn oll a orchymynnais iddynt hwy trwy law Moſes, ſef yr holl gyfraith a'r deddfau, a'r barnedigaethau. 2.Sam.7.10.

9 Felly Manaſſes a hudodd Juda, a thrigolion Jeruſalem i wneuthur yn waeth na'r cenhedloedd y rhai a ddiſethaſe'r Arglwydd o flaen meibion Iſrael.

10 Er llefaru o'r Arglwydd wrth Manaſſes, ac wrth ei bobl, etto ni wrandawſant hwy.

11 Am hynny y dûg yr Arglwydd arnynt hwy dywyſogion y llu, y rhai [oeddynt] eiddo brenin Aſſyria, a hwynt a ddaliaſant Manaſſes, [ac ai rhoddaſant] mewn gefynnau: rhwymaſant ef hefyd a dwy gadwyn, a dugaſant ef i Babilon.

12 A phan oedd gyfyng arno ef, efe a weddiodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw: ac a ymoſtyngodd yn ddirfawr o flaen Duw ei dadau.

13 Pan weddiodd efe atto ef, yna efe a fu fodlō iddo, ac a wrandawodd ei ddymyniad ef, ac ai dychwelodd ef i Jeruſalem iw frenhiniaeth: yna y gwybu Manaſſes mai 'r Arglwydd oedd Dduw.

14 Wedi hyn hefyd efe a adailadodd y mûr eithaf i ddinas Dafydd, o du 'r gorllewyni * Gihon, o'r afon hyd y ddyfodfa i borth y pyſcod, ac efe a amgylchodd Ophel, ac ai derchafodd yn vchel iawn: ac efe a oſododd dywyſogion y llu yn yr holl ddinaſoedd caerog o fewn Juda. Pen.32.30.

15 Ac efe a ddug ymmaith y duwiau dieithr, a'r ddelw o dŷ 'r Arglwydd, a'r holl allorau y rhai a adailadaſe efe ym mynydd tŷ 'r Arglwydd, ac yn Jeruſalem: ac ai taflodd allan o'r ddinas.

16 Ac efe a gyweiriodd allor yr Arglwydd, ac a aberthodd arni hi ebyrth hedd a moliant: dywedodd hefyd wrth Juda, am waſanaethu Arglwydd Dduw Iſrael.

17 Er hynny y bobl oeddynt etto yn aberthu yn yr vchelfeudd: etto i'r Arglwydd eu Duw yn vnic.

18 A'r rhan arall o hanes Manaſſes, ai weddi ef at ei Dduw, a geiriau y prophwydi y rhai a lefaraſant wrtho ef yn enw Arglwydd Dduw Iſrael: wele hwynt * ym mhlith geiriau brenhinoedd Iſrael. 2.Bren.21.

19 Ei weddi ef hefyd pan gymmododd [Duw] ag ef, ai holl bechod ef, ai gamwedd, a'r lleoedd y rhai'r adailadodd efe ynddynt vchelfeudd, ac y goſododd lwynau, a delwau cynn ymoſtwng o honaw ef: wele hwynt yn ſcrifennedic ym myſc geiriau y gweledyddion.

20 Felly Manaſſes a hunodd gyd ai dadau, a chladdaſant ef [yn] ei dŷ ei hun: ac Amon ei fab ef a deyrnaſodd yn ei lê ef.

21 Mab dwy flwydd ar hugain [oedd] Amon pan ddechreuodd efe deyrnaſu: a dwy flynedd y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem.

22 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd fel y gwnaethe Manaſſes ei dad ef: canys Amon a aberthodd i'r holl ddelwau y rhai a wnelſe Manaſſes ei dâd ef, ac ai gwaſanaethodd hwynt.

23 Ond nid ymoſtyngodd efe ger bron yr Arglwydd fel yr ymoſtyngaſe Manaſſes ei dad ef: eithr yr Amon ymma a bechodd fwy fwy.

2. Bren.21.23. 24 Ai weiſion ef a * frad-fwriadaſant iw erbyn ef, ac ai lladdaſant ef yn ei dŷ ei hun.

25 A phobl y wlâd a laddaſant yr holl rai a frad-fwriadaſent yn erbyn y brenin Amon: a phobl y wlâd a vrddaſant Joſia ei fab ef yn frenin yn ei le ef.

## PEN. XXXIIII.

Duwiol lywodraeth Ioſia. 14 Caffaeliad llyfr y gyfraith. 20 Y brenin ar hynny yn gyrru i ymgynghori a Duw. 23 A'r atteb a gafodd efe.

MAb wyth mlwydd [oedd] Joſia pan ddechreuodd efe deyrnaſu: ac vn flynedd ar ddêc ar hugain y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem. 2.Bren.22.1.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd inion yng-olwg yr Arglwydd: ac a rodiodd yn llwybrau Dafydd ei dâd, ac ni ogwyddodd efe ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy.

3 Ac yn yr wythfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef (tra 'r ydoedd efe etto yn fachgen) efe a ddechreuodd geiſio Duw Dafydd ei dâd: ac yn y ddeuddecfed flwyddyn efe a ddechreuodd lanhau Juda, ac Jeruſalem o'r vchelfeudd, a'r llwynau, a'r delwau cerfiedic, a'r delwau toddedic.

4 Deſtruwiaſãt hefyd yn ei wŷdd ef allorau Baalim, a'r delwau y rhai [a oſodaſid] i fynu oddi arnynt hwy a dorrodd efe: y llwynau hefyd, a'r delwau cerfiedic, a'r delwau toddedic a ddrylliodd efe, ac a faluriodd efe, tânodd hefyd [eu] llwch hwy ar hyd wyneb beddau y rhai a aberthaſent iddynt hwy.

5 Ac eſcyrn yr offeiriaid a * loſcodd efe ar eu hallorau: ac a lanhâodd Juda, ac Jeruſalem. 2.Bren.23.16.

6 Felly [y gwnaeth efe] yn ninaſoedd Manaſſes, ac Ephraim, a Simeon, ac hyd Nephthali: yn yr anghyfãnedd-leoedd oddi amgylch.

7 Pan ddiniſtriodd efe yr allorau, a'r llwynau, a dryllio o honaw y delwau cerfiedic gan [eu] malurio, a thorri ymmaith yr eulynnod eu gyd o holl wlâd Iſrael: yna efe a ddychwelodd i Jeruſalem.

8 Ac yn y ddeunawfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef, wedi glanhau y wlad, a'r tŷ: efe a anfonodd Saphan fab Azaliahu, a Maaſiah tywyſog y ddinas, ac Joah fab Joahaz y cofiadur i gyweirio tŷ yr Arglwydd ei Dduw. 2.Bren.22.3.

9 A phan ddaethant hwy at Hilcia yr arch-offeiriad, yna y rhoddaſant yr arian a ddugaſid i dŷ Dduw, y rhai a gaſclaſe y Lefiaid, y rhai oeddynt yn cadw y cyntedd o law Manaſſes, ac Ephraim, ac oddi gan holl weddill Iſrael, ac oddi ar holl Juda, a Beniamin: a hwy a ddychwelaſant i Jeruſalem.

10 A hwynt ai rhoddaſant yn llaw y gweithwŷr, y rhai oeddynt oruchwilwŷr yn nhŷ 'r Arglwydd: hwyntau ai rhoddaſant i wneuthurwŷr y gwaith y rhai oeddynt yn gweithio yn nhŷ 'r Arwlwydd, i gyweirio, ac i gadarnhau y tŷ.

11 Rhoddaſant hefyd i'r ſeiri, ac i'r adailadwŷr i brynu cerrig nâdd, a choed tu ag at y cyſſylltiadau: ac i fyrddu y tai y rhai a ddiniſtriaſe brenhinoedd Juda.

12 A'r gwŷr oeddynt yn gweithio yn y gwaith yn ffyddlon, ac arnynt hwy yn olyg-wŷr [yr] oedd Iahath, ac Obadiahu y Lefiaid o feibion Merari, Zecaria hefyd, a Meſulam o feibion y Cehathiaid iw hannog: ac o'r Lefiaid pôb ddeallgar mewn offer gerddgar.

13 Ac ar y clud-wŷr, a'r golyg-wŷr yr holl rai oedd yn gweithio mewn amryw waith: ac o'r Lefiaid [yr oedd] ſcrifennyddion, ſwyddogion hefyd, a phorthorion.

2.Bren.22.8.
14 A phan ddugaſant hwy allan yr arian y rhai a ddugaſid i dŷ 'r Arglwydd, * Helcia 'r offeiriad a gafodd lyfr cyfraith yr Arglwydd [yr hwn a roddaſid] drwy law Moſes.

15 A Helcia a attebodd, ac a ddywedodd wrth Saphan yr ſcrifennydd, ceſais lyfr y gyfraith yn nhŷ 'r Arglwydd: a Helcia a roddodd y llyfr at Saphan.

16 A Saphan a ddug y llyfr at y brenin, ac a ddug air trachefn i'r brenin gan ddywedyd: yr hyn oll a roddwyd yn llaw dy weiſion di, y maent hwy yn [ei] wneuthur.

17 Toddaſant hefyd yr arian y rhai a gafwyd yn nhŷ 'r Arglwydd: a rhoddaſant hwy yn llaw y ſwyddogion, ac yn llaw y gweith-wŷr.

18 Saphan yr ſcrifennudd a fynegodd hefyd i'r brenin gan ddywedyd, Helcia 'r offeiriad a roddodd i mi lyfr: a Saphan a ddarllenodd ynddo ef ger bron y brenin.

19 A phan glybu y brenin eiriau y gyfraith, yna efe a rwygodd ei wiſcoedd.

2.Bren.22.12.
20 A'r brenin a orchymynnodd i Helcia, ac i Ahicam fab Saphan, ac i Abdon fab Micah, i Saphan hefyd yr ſcrifennydd, ac i Aſaiah gwâs y brenin gan ddywedyd:

21 Ewch, ymgynghorwch a'r Arglwydd troſof, a thros y gweddill yn Iſrael, ac yn Iuda, am eiriau y llyfr yr hwn a gafwyd: canys mawr [yw] cynddaredd yr Arglwydd yr hon a dywalltodd efe arnom ni o blegit na chadwodd ein tadau ni air yr Arglwydd gan wneuthur yn ôl yr hyn oll a'r ſydd yn ſcrifennedic yn y llyfr hwn.

2.Bren.22.14.
22 Yna 'r aeth Helcia, a'r rhai [a yrrodd] y brenin at Huldah y brophwydes, gwraig Salum mab Tocath, fab Haſrah ceidwad y gwiſcoedd, a hi oedd yn aros yn Ieruſalem yn yr ail rhan [oddi wrtho ef] ac ymddiddanaſant a hi felly.

23 A hi a ddywedodd wrthynt hwy, fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, dywedwch i'r gŵr yr hwn a'ch anfonodd chwi attaf fi,

24 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn dwyn drwg ar y lle hwn, ac ar ei drigolion: ſef yr holl felldithion y rhai ydynt yn ſcrifennedic yn y llyfr yr hwn a ddarllenaſant hwy ger bron brenin Iuda.

25 Am iddynt fy ngwrthod i, ac arogl-darthu i dduwiau dieithr i'm digio i a holl waith eu dwylo: am hynny yr ymdywallt fy llid i yn erbyn y lle hwn, ac nis diffoddir ef.

26 Ond am frenin Iuda 'r hwn a'ch anfonodd chwi i ymgynghori a'r Arglwydd, fel hyn y dywedwch wrtho ef: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael [am] y geiriau y rhai a glywaiſt.

27 O blegit i'th galon feddalhau, ac i tithe ymoſtwng o flaen Duw, pan glywaiſt ei eiriau ef yn erbyn y fann hon, ac yn erbyn ei thrigoliō, ac ymoſtwng o honot ger fy mron, a rhwygo dy wiſcoedd, ac ŵylo o'm blaen i: am hynny y gwrandewais inne, medd yr Arglwydd.

28 Wele mi a'th gymmeraf di ymmaith at dy dadau, a thi a ddugir ymmaith ith fedd ~~i'r bedd~~ mewn heddwch, fel na wêlo dy lygaid di yr holl ddrwg 'r hwn yr ydwyf fi yn ei ddwyn ar y fann hon, ac yn erbyn ei phreſwyl-wŷr: felly hwynt a ddugaſant yn ei ôl air i'r brenin.

29 Yna y brenin a anfonodd: ac a gynhullodd holl henuriaid Iuda, ac Ieruſalem. 2.Bren.23.1.

30 A'r brenin a aeth i fynu i dy 'r Arglwydd, a holl wŷr Iuda, a thrigolion Ieruſalem, yr offeiriaid hefyd a'r Lefiaid a'r holl bobl o fawr i fychan: ac efe a ddarllênodd lle y clywſant hwy holl eiriau llyfr y cyfammod yr hwn a gawſid yn nhŷ 'r Arglwydd.

31 A'r brenin a ſafodd yn ei ſefyll, ac a wnaeth gyfammod ger bron yr Arglwydd, ar rodio ar ôl yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymynniō ef, ai dyſtiolaethau, ai ddefodau, ai holl galon, ac ai holl enaid: gan gwplau geiriau y cyfammod y rhai oeddynt yn ſcrifennedic yn y llyfr hwnnw.

32 Ac efe a wnaeth i bawb a'r a gafwyd yn Ieruſalem, ac yn Beniamin ſefyll [wrth yr ammod: trigolion Ieruſalem hefyd a wnaethant yn ôl cyfammod Duw, [ſef] Duw eu tadau.

33 Felly Ioſia a dynnodd ymmaith y ffieidd-dra ei gyd o'r holl wledydd y rhai [oeddynt] eiddo meibion Iſrael, ac efe a wnaeth i bawb a'r a gafwyd yn Iſrael waſanaethu 'r Arglwydd eu Duw: [ac yn] ei holl ddyddiau ef ni throaſant hwy oddi ar ôl Arglwydd Dduw eu tadau.

## PEN. XXXV.

Paſc Ioſia, 20 Ei ryfel, 23 Ai farwolaeth.

YNa * Ioſia a gynhaliodd Baſc yn Ieruſalem: a hwynt a aberthaſant y Paſc y pedwerydd [dydd] ar ddêc o'r mis cyntaf. 2.Bren.23.21.

2 Ac efe a gyfleuodd yr offeiriaid yn eu gorchwyliaethau: ac ai nerthodd hwynt yng-wenidogaeth tŷ 'r Arglwydd.

3 Dywedodd hefyd wrth y Lefiaid (y rhai oeddynt yn dyſcu holl Iſrael a'r rhai oeddynt ſanctaidd i'r Arglwydd) rhoddwch yr Arch ſanctaidd yn y tŷ yr hwn a adeiladodd Salomon mab Dafydd brenin Iſrael, na [fydded hi mwyach] i chwi yn faich ar yſcwydd: gwaſanaethwch yn awr yr Arglwydd eich Duw, ai bobl Iſrael.

4 Ymbaratoiwch gan hynny drwy deuluoedd eich tadau yn ôl eich doſparthiadau, fel * yr ſcrifennodd Dafydd brenin Iſrael, ac yn ôl ſcrifen Salomon ei fab ef. 1.Cron.23.6. & 25. & 26.

5 A ſefwch yn y cyſſegr yn ôl doſparthiadau tŷlwyth tadau eich brodyr meibion y bobl: ac [yn ôl] doſparthiad tylwyth tad y Leſiaid.

6 Felly aberthwch y Paſc: ymſancteiddiwch hefyd, a pharatoiwch eich brodyr i wneuthur yn ôl gair yr Arglwydd drwy law Moſes.

7 Yna Ioſia a roddodd i feibion y bobl ddiadell o ŵyn, ac o fynnod ei gyd tu ag at y Paſc aberthau [ſef] i bawb a'r a gafwyd hyd rifedi deng-mil ar hugain, a thair mil o eidionnau, hyn [oedd] o gyfoeth y brenin.

8 Ai dywyſogion ef a offrymmaſant yn ewyllyſcar i'r bobl, i'r offeiriaid, ac i'r Leſiaid: Helcia, a Zacharia, ac Iehiel blaenoriaid tŷ Dduw a roddaſant i'r offeiriaid tu ag at y Paſc aberthau ddwy fil, a chwe chant [o ddefaid,] a thrŷ chant o eidionnau.

9 Conania hefyd a Semaiahu, a Nathaneel ei frodyr ef, Haſabia hefyd, ac Iehiel, ac Iozabad tywyſogion y Leſiaid a offrymmaſant i'r Leſiaid yn Baſc ebyrth bum mil [o ddefaid,] a a ~~thrŷ chant~~ pum-cant o eidionnau.

10 Felly y paratoiwyd y gwaſanaeth: a'r offeiriaid a ſafaſant yn eu llê, a'r Leſiaid yn eu doſparthiadau, yn ôl gorchymyn y brenin.

11 A hwynt a aberthaſant y Paſc: a'r offeiriaid a daenellaſant y [gwaed wedi ei gymmeryd] oi llaw hwynt, a'r Leſiaid oeddynt yn [eu] blingo [hwynt.]

12 A chymmeraſant ymmaith [o'r] poeth offrwm, i'w roddi yn ôl doſparthiadau tylwyth tadau meibiō y bobl, i offrymmu i'r Arglwydd, fel y mae yn ſcrifennedic yn llyfr Moſes: ac felly am yr eidionnau,

Exod.12.8. 13 A hwynt a *roſtiaſant y Paſc wrth dân yn ôl y ddefod, a'r cyſſegredic bethau a ferwaſant hwy mewn crochanau, ac mewn pedill, ac mewn peirîau, ac [ai] rhannaſant ar frys i'r holl bobl.

14 Wedi hynny y paratoaſant hwy iddynt eu hunain, ac i'r offeiriaid, canys yr offeiriaid meibion Aaron oeddynt yn offrymmu y poeth offrwm, a'r braſder hyd y nôs: am hynny y Leſiaid oeddynt yn paratoi iddynt eu hunain, ac i'r offeiriaid meibion Aaron.

15 A meibion Aſaph y cantorion [oeddynt] 1.Cron.25.1. yn eu ſefyllfa * yn ôl gorchymyn Dafydd, ac Aſaph, a Heman, ac Ieduthun gweledydd y brenin, a'r porthorion ym mhob porth: ni chaent hwy ymado oi gwaſanaeth, canys eu brodyr y Leſiaid a baratoent iddynt hwy.

16 Felly y paratoiwyd holl waſanaeth yr Arglwydd y dwthwn hwnnw, gan gynnal y Paſc, ac offrymmu poeth offrymmau ar allor yr Arglwydd, yn ôl gorchymyn y brenin Ioſia.

17 A meibion Iſrael y rhai a gafwyd, a gynhaliaſant y Paſc yr amſer hwnnw: a gŵyl y bara croiw ſaith niwrnod.

18 Ac ni chynhaliaſid Paſc fel hwnnw yn Iſrael er dyddiau Samuel y prophwyd: ac ni wnaeth neb o frenhinoedd Iſrael gyffelib i'r Paſc yr hwn a wnaeth Ioſia, a'r offeiriaid, a'r Leſiaid, a holl Iuda, a'r neb a gafwyd o Iſrael, a thrigolion Ieruſalem.

19 Yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnaſiad Ioſia y cynhaliwyd y Paſc hwnnw. 2.Bren. 23.29.

20 Wedi hyn oll, pan baratoaſe Ioſia y tŷ: Necho brenin yr Aipht a ddaeth i fynu i ryfela yn erbyn Carchemis wrth Euphrates: ac Ioſia a aeth allan i'w gyfarfod ef.

21 Yntef a anfonnodd gennadau atto ef gan ddywedyd, beth [ſydd] i mi [a wnelwyf] a thi ô frenin Iuda: nid yn dy erbyn di [y daethum i] heddyw, ond yn erbyn tŷ [arall y mae] fy rhyfel i, a Duw a archodd i mi fryſſio: paid â Duw yr hwn [ſydd] gyd a mi, fel na ddiſetho efe di,

22 Ond ni throe Ioſia ei wyneb oddi wrtho ef, eithr newidiodd ei ddillad i ymladd yn ei erbyn ef, ac ni wrandawodd ar eiriau Necho [y rhai oeddynt] o enau Duw: ond efe a ddaeth i ymladd i ddyffryn Megido.

23 A'r ſaethyddion a ſaethaſant y brenin Ioſia: yna y brenin a ddywedodd wrth ei weiſion, dygwch fi ymmaith canys clwyfwyd fi yn dôſt.

24 Felly ei weiſion ai tynnaſant ef o'r cerbyd, ac ai goſodaſant ef yn yr ail cerbyd yr hwn [oedd] ganddo ef, dugaſant ef hefyd i Ieruſalem, ac efe fu farw, ac a gladdwyd ym meddrod ei dadau: a holl Iuda, ac Ieruſalem a alaraſant am Ioſia.

25 Ieremi hefyd a alar-nadodd am Ioſia, a'r holl gantorion, a'r cantoreſau yn eu galarnadau a ſoniant am Ioſia hyd heddyw, a hwy ai rhoddaſant hwynt yn ddefod yn Iſrael: ac wele hwynt yn ſcrifennedic yn y galar-nadau.

26 A'r rhan arall o hanes Ioſia ai dduwioldeb ef: (fel y mae yn ſcrifennedic yng-hyfraith yr Arglwydd)

27 Ai weithredoedd ef cyntaf a diweddaf: wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iſrael, ac Iuda.

## PEN. XXXVI.

Teyrnaſiad Ioachas, 4 Ioachim, 8 Ioachin, 11 A Sedecia. 17 A chaeth-gludiad y bobl i Babilon.

A Phobl y wlâd a gymmeraſant Ioachaz fab Ioſia: ac ai hurddaſant ef yn frenin yn lle ei dâd yn Ieruſalem. 2.Bren.23.30.

2 Mab tair blwydd ar hugain [oedd] Ioachaz pan ddechreuodd efe deyrnaſu: a thri mis y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem.

3 A brenin yr Aipht ai dûg ef ymmaith o Ieruſalem: ac a drethodd ar y wlâd gant talent o arian, a thalent o aur.

4 A brenin yr Aipht a wnaeth Eliacim ei frawd ef yn frenin ar Iuda ac Ieruſalem, ac a drôdd ei henw ef yn Ioachim: a Necho a gymmerodd Ioachaz ei frawd ef, ac ai dûg ef i'r Aipht. 2.Bren.23.34.

5 Mab pum mlwydd ar hugain [oedd] Ioachim pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac un mlynedd ar ddêc y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem:

lem: ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd ei Dduw.

2.Bren.24.1. 6 Nabuchodonoſor brenin Babilon a ddaeth i fynu yn ei erbyn ef: ac ai rhwymodd ef mewn cadwynau prês iw ddwyn i Babilon.

7 Nabuchodonoſor hefyd a ddug o leſtri tŷ 'r Arglwydd i Babilon: ac ai rhoddodd hwynt yn ei deml ef o fewn Babilon.

8 A'r rhann arall o hanes Ioachim, ai ffieidd-dra ef y rhai a wnaeth efe, a'r hyn a gafwyd arno ef, wele hwynt yn ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iſrael, ac Iuda: ac Ioachin ei fab ef a deyrnaſodd yn ei le ef.

9 Mab wyth mlwydd [oedd] Ioachin pan ddechreuodd* efe deyrnaſu, a thri mis, a deng-nhiwrnod y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem: ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd.

2.Bren.24.17. 10 Ac yng-hyfnod y flwyddyn yr anfonodd y brenin Nabuchodonoſor, ac ai dûg ef i Babilon gyd a lleſtri cûaidd tŷ 'r Arglwydd: ac *efe a vrddodd Sedecia ei [ewythr ef] frawd ei dâd yn frenin ar Iuda, ac Ieruſalem.

11 Mab un mlwydd ar hugain [oedd] Sedecia pan ddechreuodd efe deyrnaſu: ac un mlynedd ar ddêc y teyrnaſodd efe yn Ieruſalem.

2 Bren.24.19. Iere.51.1. 12 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd ei Dduw: ac nid ymoſtyngodd efe o flaen Ieremi y prophwyd [yr hwn oedd yn llefaru] o enau 'r Arglwydd.

13 Ond efe a wrthryfelodd yn erbyn brenin Nabuchodonoſor (yr hwn a wnaethe iddo dyngu i Dduw) ac efe a galedodd ei wart, ac a gryfhaodd ei galon rhac dychwelyd at Arglwydd Dduw Iſrael.

14 Holl dywyſogion yr offeiriaid hefyd a'r bobl a chwanegaſant gamfucheddu yn ôl holl ffieidd-dra y cenhedloedd: a hwy a halogaſant dŷ 'r Arglwydd yr hwn a ſancteiddiaſe efe yn Ieruſalem.

Eſa.65.2. Iere.11.7. Diah.1.23. 15 Am hynny Arglwydd Dduw eu tadau hwy a anfonodd attynt hwy drwy law ei gennadau * gan forau godi, a chan anfon: am ei fod efe yn toſturio wrth ei bobl, ac wrth ei breſwylfod.

16 Ond hwyntau oeddynt yn gwatwar cennadau Duw, ac yn dremygu ei eiriau ef, ac yn dynwared ei brophwydi ef: nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl fel nad oedd iechyd.

17 Canys efe a ddygodd i fynu arnynt hwy frenin y Caldeaid, yr hwn a laddodd eu gwŷr ieuaingc hwy, a'r cleddyf yn nhŷ eu cyſſegr, ac nid arbedodd efe na gŵr ieuangc na morwyn, hên, nac oedrannus: rhoddwyd hwynt oll yn ei law ef.

18 Holl leſtri tŷ Dduw hefyd, mawrion a bychain, a thryſſorau tŷ 'r Arglwydd, a thryſſorau y brenin ai dywyſogion: y rhai hynny oll a ddûg efe i Babilon.

19 A hwynt a loſcaſant dŷ Dduw, ac a ddeſtrywiaſant fûr Ieruſalem: ai holl balâſau hi a loſcaſant hwy a thân, ai holl leſtri cuaf gan [eu] diniſtrio [oll.]

20 A'r hyn a weddillwyd gan y cleddyf a gaeth-gludodd efe i Babilon: lle y buant hwy yn weiſion iddo ef, ac iw feibion nes teyrnaſu o'r Perſiaid.

21 I gyflawni gair yr Arglwydd [yr hwn a adroddaſid] drwy enau Ieremi, nes i'r wlâd ei digoni oi Sabbothau: [canys] yr holl ddyddiau [a'r y bu hi] yn anghyfannedd y gorphywyſodd hi i gyflawni deng-mhlynedd a thrugain.

22 Ac* yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Perſia, (fel y cyflawnid gair yr Arglwydd [yr hwn a ddywedwyd] drwy enau Ieremi) yr Arglwydd a gyffrôdd yſpryd Cyrus brenin Perſia fel y cyhoeddodd efe drwy ei holl frenhiniaeth, a hynny mewn ſcrifen gan ddywedyd, Ier.25.11. & 29.10. 3.Eſd.2.1.

23 Fel hyn y dywed Cyrus brenin Perſia, Arglwydd Dduw 'r nefoedd a roddodd holl deyrnaſoedd y ddaiar i mi, ac efe a orchymynnodd i mi adailadu tŷ iddo ef yn Ieruſalem yr hon [ſydd] yn Iuda: pwy yn eich myſc chwi oi holl bobl ef [ſydd ar fedr adailadu:] yr Arglwydd ei Dduw [fyddo] gyd ag ef, ac eled i fynu.

Llyfr

# Llyfr cyntaf Eſdras.

## PENNOD. I.

Cyrus yn gollwng caethion Iuda yn rhydd. 7 Ac yn rhoddi adref leſtri y deml.

2.Cron 36.22. Ier.29.10. YN* y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Perſia (i gyflawni gair yr Arglwydd o enau Ieremi) y cyffrôdd yr Arglwydd yſpryd Cyrus brenin Perſia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas, a [hynny] hefyd mewn ſcrifen gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywedodd Cyrus brenin Perſia, Arglwydd Dduw'r nefoedd a roddes i mi holl deyrnaſoedd y ddaiar, ac efe a orchymynnodd i mi adailadu iddo ef dŷ yn Ieruſalem, yr hon [ſydd] yn Iuda.

3 Pwy bynnac o honoch oi holl bobl ef [a ſynno,] bydded ei Dduw gyd ag ef, ac eled i fynu i Ieruſalem yr hon [ſydd] yn Iuda, ac adailaded dŷ Arglwydd Dduw Iſrael: dyna'r Duw 'r hwn [ſydd] yn Ieruſalem.

4 A phwy bynnac a adawyd o'r holl leoedd y rhai y mae efe yn ymdeithio ynddynt, cynnorthwyed gwŷr ei wlâd ef ag arian, ac ag aur, ac a golud, ac ag anifeiliaid, gyd ag ewyllyſcar offrwm tŷ Dduw, yr hwn [ſydd] yn Ieruſalem.

5 Yna y cododd pennau cenedl Iuda a Beniamin, a'r offeiriaid a'r Lefiaid, a phob vn y cyffrôdd Duw ei yſpryd, i fyned i fynu i adailadu tŷ yr Arglwydd yr hwn [oedd] yn Ieruſalem.

6 A'r rhai oll oi hamgylch ai cynnorthwyaſant hwy a lleſtri arian, ac aur, a golud, ac ag anifeiliaid, ac a phethau gwerth-fawr heb law'r hyn oll a offrymmwyd yn ewyllyſcar.

2.Bren.25.13. 2.Cron.36.7. Ier.27.19. Dan.1.2. 7 A'r brenin Cyrus a ddûg allan leſtri tŷ'r Arglwydd * y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor allan o Ieruſalem, ac a roddaſe efe yn nhŷ ei dduwiau ei hun.

8 Felly Cyrus brenin Perſia ai dûg hwynt allan trwy law Mithridates y tryſorudd, ac ai rhifodd hwynt at Seſbazer pennaeth Iuda.

9 Ac dymma eu rhifedi hwynt, dêc ar hugain o gawgiau aur, mîl o gawgiau arian, naw ar hugain o gyllill.

10 Dêc ar hugain o orflychau aur, dêc a phedwar cant o ail fath o orflychau arian, [a] mil o leſtri eraill.

11 Yr holl leſtri yn aur, ac yn arian [oeddynt] bum mîl a phedwar cant: Seſbazer a ddûg y cwbl i fynu wrth ddwyn y gaeth-glud o Babilon i Ieruſalem.

## PEN. II.

Rhifedi y rhai a ddychwelaſant o gaethiwed Babilon.

Nehem.7.6. 3.Eſdr.5.7. AC * dymma feibion y dalaith y rhai a ddaethant i fynu o gaethiwed y gaeth-glud, yr hon a gaeth-gludaſe Nabuchodonoſor brenin Babilon i Babilon, ac a ddychwelaſant i Ieruſalem, ac Iuda: pob vn iw ddinas ei hun.

2 Y rhai a ddaethant gyd a Zorobabel, [oeddynt] ”
Ieſua, Nehemiah, Saraiah, Rehelaia, ”
Mardocheus, Bilſan, Miſpar, Biguai, Rehum; ”
[a] Baanah. [Dymma] rifedi gwŷr pobl ”
Iſrael. ”

3 Meibion Pharos [oeddynt] ddwy fil, ”
[a] deuddec ac ŵyth vgain. ”

4 Meibion Sephatia, try-chant, [a] deuddec ”
a thri vgain. ”

5 Meibion Arah: ſaith gant, a phymthec a ”
thrugain. ”

6 Meibion Pahath Moab, o feibion Ieſua ”
[ac] Ioab: dwy fil, ŵyth gant, a deuddec. ”

7 Meibion Elam: mil, dau cant, [a] phedwar ”
ar ddêc a deugain. ”

8 Meibion Zathu: naw cant, a phump a ”
deugain. ”

9 Meibion Zaccai: ſaith gant, a thri vgain. ”

10 Meibion Bani: chwe-chant, dau a deugain. ”

11 Meibion Babai: chwe-chant, a thri ar ”
hugain. ”

12 Meibion Aſgad: mil, dau cant a dau ar ”
hugain. ”

13 Meibion Adonicam: chwe-chant, a chwech a thrugain. ”

14 Meibion Biguai: dwy fil, ac onid pedwar trugain. ”

15 Meibion Adin, pedwar cant, a phedwar ”
ar ddêc a deugain. ”

16 Meibion Ater o Hezecia: onid dau ”
pum hugain. ”

17 Meibiō Bezai try chant, a thri ar hugain.

18 Meibion Iora: cant, a deuddec.

19 Meibion Haſum: dau cant a thri ar hugain.

20 Meibion Gibbar: pymthec a phedwar vgain.

21 Meibion Bethlehem: cant a thri ar hugain.

22 Gwŷr Netopha: onid pedwar trugain.

23 Gwŷr Anathoth: cant, ac wyth ar hugain.

24 Meibion Aſmafech: dau a deugain.

25 Meibion Ciriathiearim, Cephira, a Beeroth: ſeith gant, a thri a deugain.

26 Meibion Harama, a Gaba: chwe-chant, ac vn ar hugain.

27 Gwŷr Michmas: cant a dau ar hugain.

28 Gwŷr Bethel, a Hai: dau cant a thri ar hugain.

29 Meibion Nebo: deuddec a deugain.

30 Meibion Magbis: cant ac onid pedwar tri vgain.

31 Meibion Elam arall: mîl, dau cant, a phedwar ar ddêc a deugain.

32 Meibion Haarim: try-chant, ac vgain.

33 Meibion Lod, Hadid, ac Ono: ſeithgant, a phump ar hugain.

34 Meibion Iericho: try-chant, a phump a deugain.

35 Meibion Senaa: tair mil, a chwe-chant, a dêc ar hugain.

36 Yr offeiriaid meibiō Iedaia, o dŷ Ieſua: naw cant, dêc a thri vgain a thri.

37 Meibion Immer: mil a deuddec a deugain.

38 Meibion Phaſur: mîl, dau cant, a ſaith a deugain.

39 Meibion Arim: mil a dau ar bymthec.

40 Y Lefiaid, meibion Ieſua, a Chadniel o feibion Hodafia: pedwar ar ddêc a thrugain.

41 Y cantoriaid meibion Aſaph: cant ac ŵyth ar hugain.

42 Meibion y porthorion [ſef] meibion Salum, meibion Ater, meibion Talmon, meibion Accub, meibion Hattita, a meibion Sobai [oeddynt] oll gant, ac onid vn deugain.

Iosua.9.23. 43 Y * Nethiniaid [oeddynt] feibion Ziha, meibion Aſupha, meibion Tabaoth.

44 Meibion Ceros, meibion Siaha, meibion Padon.

45 Meibion Lebanah, meibion Hagabath, meibion Accub.

46 Meibion Hagab, meibion Semlai, meibion Hanan.

47 Meibion Gidel, meibion Gahar, meibion Reaiah.

48 Meibion Razin, mebion Nechoda, meibion Gaſam.

49 Meibion Vzza, meibion Paſeah, meibion Beſai.

50 Meibion Aſnah, meibion Mehunim, meibion Nephuſim.

51 Meibion Bacbuc, meibion Hacuba, meibion Harhur,

52 Meibion Bazluth, meibion Mehida, meibion Harſa.

53 Meibion Barcos, meibion Siſara, meibion Thamah.

54 Meibion Neſiah, meibion Hatipha.

55 Meibion gweiſion Salomon, meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Peruda.

56 Meibion Iaala, meibion Darcon, meibion Gidel.

57 Meibion Sephatiah, meibion Hattil, meibion Pocereth Hazbaim, meibion Ami.

58 Yr holl Nethiniaid, a meibion gweiſion Salomon [oeddynt] dry chant, deuddec a phedwar vgain.

59 A'r rhai hyn a aethant i fynu o Delmalah, Delharſa, Cerub, Adan [ac] Immer: ond ni fedrent adnabod dŷ eu tadau, nai hiliogaeth, ai o Iſrael [yr oeddynt] hwy.

60 Meibion Delaia, meibion Tobia, meibion Necoda, chwe-chant, a deuddec a deugain.

61 Ac o feibion yr offeiriaid, meibiō Habaia, meibion Acos, meibion Berzilai, yr hwn a gymeraſe wraig o ferched Berzilai y Gileadiad, ac a alwaſyd ar eu henw hwynt.

62 Y rhai hyn a geiſiaſant eu ſcrifennadau [gan] yr ach-wŷr, ond ni chafwyd hwynt: am hynny y bwriwyd hwynt allan o'r offeiriadaeth.

63 Yna Hathirſatha a ddywedodd wrthynt, na fwyttaent o'r pethau ſancteiddiaf hyd oni chyfode offeiriad mewn Vrim a Thummim. Exod.28.30.

64 Yr holl dyrfa yng-hyd [oedd] bedair myrdd, dwy fil, try-chant, [a] thri vgain.

65 Heb law eu gweiſion, ai morwynion y rhai hynny [oeddynt] ſaith mîl, try-chant, a dau ar bymthêc ar hugain: ac o honynt hwy [yr oedd] dau cant yn gantorion, ac yn gantorêſau.

66 Eu meirch [oeddynt] ſaith gant, ac onid pedwar deugain: eu mulod yn ddau cant, ac yn bump a deugain.

67 Eu camelod yn bedwar cant, ac yn bymthêc ar hugain: eu haſſynnod yn chwe mîl, ſaith gant, ac vgain.

68 Ac o'r pennau cenedl pan ddaethant i dŷ yr Arglwydd yr hwn [oedd] yn Ieruſalem, [rhai] a offrymmaſant oi gwaith eu hun tu ag at dŷ 'r Arglwydd iw gyfodi yn ei lê.

69 Rhoddaſant yn ôl eu gallu i dryſſor-dŷ 'r gwaith chwe myrddiwn, a mil o ddracmonau aur, a phum mîl o bunnoedd arian: a chant o wiſcoedd offeiriaid.

70 Yna'r offeiriaid a'r Lefiaid, ac o'r bobl y cantorion, a'r porthorion, a'r Nethiniaid a drigaſant yn eu dinaſoedd: a holl Iſrael yn eu dinaſoedd hwythau.

## PEN. III.

Adailadaeth yr allor. 6 Offrwm y bobl, tu ag at waith y deml. 11 Ai diolchgarwch i Dduw am gael ei hadailadu.

3.Eſdr.5.47. PAn ddaeth * y ſeithfed mîs, a meibion Iſrael yn eu dinaſoedd: yna 'r bobl a ymgaſclaſant i Ieruſalem megis vn gŵr.

2 Yna y cyfododd Ieſua mab Ioſadac, ai frodyr yr offeiriaid, a Zorobabel mab Salathiel, ai frodyr, ac a adailadaſant allor Duw Iſrael i offrymmu arni offrymmau poeth, fel yr ſcrifennaſid yng-hyfraith Moſes gŵr Duw.

3 A hwy a ſicrhauſant yr allor yn ei llê (canys [yr oedd] arnynt ofn pobl y wlâd) ac a offrymmaſant arni boeth offrymmau i'r Arglwydd: borau, a hwyr [yr offrymmaſant] boeth offrymmau.

4 Cadwaſant hefyd ŵyl y pebyll, fel y mae
Exod.23.16. yn ſcrifennedic: a * phoeth aberth beunydd tann riſedi, yn ôl y ddefod dogn dydd yn ei ddydd,

5 Ac wedi hynny y poeth offrwm gwaſtadol, a'r [offrwm] yn y newydd loerau, a holl ſanctaidd oſodedic ŵyliau 'r Arglwydd, offrwm ewyllyſcar pob vn a offrymme o honaw ei hun [a offrymmaſant] i'r Arglwydd.

6 O'r dydd cyntaf i'r ſeithfed mis y dechreuaſant offrymmu poeth offrymmau i'r Arglwydd, a theml yr Arglwydd ni ſylfaenaſid.

7 Yna y rhoddaſant arian i gymmyn-wŷr, ac i ſeiri, a bwyd a diod, ac olew i'r Sydoniaid, ac i'r Tyriaid, am ddwyn coed cedr o Libanus hyd y môr i Ioppa: yn ôl cennadhâd Cyrus brenin Perſia iddynt hwy.

8 Ac yn yr ail flwyddyn wedi eu dyfod hwynt i dŷ Dduw i Ieruſalem yn yr ail mis y dechreuodd Zorobabel mab Salathiel, ac Ieſua mab Ioſadac, a'r rhan arall oi brodyr hwynt, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r rhai oll a ddaethant o'r caethiwed i Ieruſalem, ac a oſodaſant y Lefiaid o fab vgain-mlwydd ac vchod i oruwchwilio ar waith tŷ 'r Arglwydd.

9 Yna y ſafodd Ieſua ai feibion, ai frodyr, Cadmiel hefyd, ai feibion, [ſef] meibion Iuda yn gytûn i oruchwilio ar weith-wŷr y gwaith yn nhŷ Dduw, [a] meibion Henadad, ai meibion hwythau, ai brodyr y Lefiaid.

10 A'r ſeiri a ſylfaenaſant deml yr Arglwydd, ac a oſodaſant yr offeiriaid yn eu gwiſcoedd, ag vdcyrn, a'r Lefiaid meibion Aſaph a
1.Cron.16.7. Symbalau i foliannu 'r Arglwydd * yn ôl dull Dafydd brenin Iſrael.

11 A chanâſant wrth foliannu, ac wrth glodfori yr Arglwydd, mai dâ oedd, mai yn dragywydd [yr ydoedd] ei drugaredd ef ar Iſrael: a'r holl bobl a floeddiaſant a bloedd fawr, gan foliannu yr Arglwydd am ſylfaenu tŷ 'r Arglwydd.

12 A llawer o'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r pennau cenedl hynaf y rhai a welſent y tŷ cyntaf ar ei ſylfaen [a'r] tŷ hwn yn eu golwg, a ŵylaſant a llêf vchel: a llawer oeddynt yn derchafu llef mewn bloedd gorfoledd.

13 Ac nid oedd y bobl yn anabod ſain bloedd y llawenydd oddi wrth ſain ŵylofain y bobl: canys y bobl oeddynt yn bloeddio a bloedd fawr, a'r ſŵn a glywid ym mhell.

## PEN. IIII.

Rhai yn rhwyſtro gwaith y deml, eu llythyrau hwynt at Artaxerxes, ai atteb yntef.

YNa gwrthwyneb-wŷr Iuda, a Beniamin a glywſant fod meibion y gaeth-glud yn adailadu teml i Arglwydd Dduw Iſrael.

2 Ac a ddaethant at Zorobabel, ac at y pennau cenedl, ac a ddywedaſant wrthynt, adailadwn gyd a chwi: canys fel chwithau i ceiſiwn eich Duw chwi, ac iddo ef yr ydym ni yn aberthu er dyddiau Eſarhadon brenin Aſſyria 'r hwn a'n dûg ni i fynu ymma.

3 Yna y dywedodd Zorobabel, ac Ieſua, a'r rhan arall o bennau cenedl Iſrael wrthynt: nid [yw] i chwi ac i ninne adailadu tŷ ein Duw ni: eithr nyni a gyd adailadwn i Arglwydd Dduw Iſrael megis i'n gorchymynnodd y brenin Cyrus brenin Perſia.

4 A phobl y wlâd oedd yn anghyſuro pobl Iuda, ac yn eu rhwyſtro hwynt i adailadu,

5 Ac yn cyflogi cyngor-wŷr yn eu herbyn hwynt i ddiddymmu eu cyngor hwynt holl ddyddiau Cyrus brenin Perſia: ac hyd deyrnaſiad Darius brenin Perſia.

6 Ac yn nheyrnaſiad Ahaſſerus, yn nechreuad ei deyrnaſiad ef yr ſcrifennaſant achwyn yn erbyn trigolion Iuda, ac Ieruſalem.

7 Ac yn nyddiau Artaxerzes yr ſcrifennodd Biſlam, Mithridates, Tabeel, a'r rhan arall oi gyfeillion ef at Artaxerxes brenin Perſia, ac ſcrifen y llythr a ſcrifennwyd yn Syrian-aec, ac a eglurwyd yn Syrian-aec.

8 Rehum y cofiadur, a Simſai yr ſcrifennydd a ſcrifennaſant vn llythr yn erbyn Ieruſalem at Artaxerxes y brenin fel hyn.

9 Yna [yr oedd] Rehum y cofiadur, a Simſai yr ſcrifennydd, a'r rhan arall oi cyfeillion: y Dinaaid, yr Apharſatheaid, y Tharpeliaid, y Perſiaid, yr Aracheaid, y Babiloniaid, y Suſanniaid, y Dehafeaid, yr Elamiaid,

10 A'r rhan arall o'r bobl y rhai a ddugaſe Aſnapper mawr ac enwoc, ac a oſodaſe efe yn ninaſoedd Samaria, a'r rhan arall tu hwnt i'r afon yn anfon annerch.

11 Dymma yſtyr y llythr yr hwn a anfonaſant atto ef [ſef] at Artaxerxes y brenin. DY WASANAETH-WYR o'r tu hwnt i'r afon, yn anfon annerch.

12 Fel y byddo hyſpys i'r brenin fod yr Iddewon y rhai a ddaethant i fynu oddi wrthit ti, wedi dyfod attom ni i Ieruſalem [ac] yn adailadu y ddinas wrthryfelgar ddrygionus, a'r muroedd a ſylfaenaſant hwy, ac a gyweiriaſant y ſylfaenau.

13 Yn awr bydded hyſbys i'r brenin, os adailedir y ddinas honno a gorphen ei chaer, na roddant doll, deyrnged, na thrêth, felly y drygi dryſſor y brenhinoedd.

14 Ac yn awr o herwydd ceiſio o honom ddi-

niſtrio y deml, ac nad oedd weddaidd gweled gwarth y brenin, am hynny 'r anfonaſom, ac yr yſpyſaſom i'r brenin.

15 Fel y ceiſier yn llyfr hyſtoriâu dy dadau, a thi a gei yn llyfr yr hyſtoriâu, ac a elli ŵybod fod y ddinas hon yn ddinas wrthryfelgar, niweidiol i frenhinoedd, a thalaithau: a bod yn gwneuthur brâdfwriad o fewn hon er ioed, am hynny y diniſtriwyd y ddinas hon.

16 Yr ydym yn yſpyſu i'r brenin, os y ddinas hon a adailedir, ai murau a ſylfaenir, o herwydd hynny na fydd eiddo ti y rhan [ſydd] o'r tu hwnt i'r afon.

17 Anfonodd y brenin air at Rehum y cofiadur, a Simſai'r ſcrifennydd, a'r rhan arall oi cyfeillion hwynt y rhai a drigent yn Samaria: a'r rhan arall tu hwnt i'r afon [gan erchi] tangneddyf, ac annerch.

18 Y llythyr yr hwn a anfonaſoch attaf a ddarllenwyd yn eglur ger fy mron.

19 Yna y goſodais orchymyn, a cheiſiwyd a chafwyd fod y ddinas honno er ioed yn ymdderchafu yn erbyn brenhinoedd, a gwneuthur ynddi annufydd-dod, a gwrthryfel,

20 A brenhinoedd cryfion a fuant ar Ieruſalem, yn llywodraethu ar bawb o'r tu hwnt i'r afon, ac iddynt hwy y rhoddid toll, teyrnged, a thrêth.

21 Yn awr rhoddwch orchymyn i beri i'r gwŷr hynny beidio, ac nad adailader y ddinas honno hyd oni roddwyf orchymyn.

22 A gwiliwch wneuthur yn ymryſus yn hyn, pa ham y tŷf llwgredigaeth yn niwed i'r brenin?

23 Yna pan ddarllenwyd yſtyr llythyr Artaxerxes y brenin o flaen Rehum, a Simſai'r ſcrifennydd, ai cyfeillion, hwyntau a aethant ar frŷs i Ieruſalem yn erbyn yr Iddewon, ac a wnaethant iddynt beidio drwy fraich, a chryfdwr.

24 Yna y peidiodd gwaith tŷ Dduw 'r hwn [oedd] yn Ieruſalem, ac y bu yn ſefyll hyd yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Darius brenin Perſia.

## PEN. V.

Aggeus, a Zacarias oeddynt yn prophwydo, a gwaith y deml yn llwyddo o anfodd Thathanai: 6 llythyrau Thathanai at Ddarius.

Agge.1.1.
3.Eſdr.6.1.

YNA y prophwydodd * Aggeus y prophwyd, a Zacarias mab Ido y prophwyd i'r Iddewon y rhai [oeddynt] yn Iuda, ac yn Ieruſalem: yn enw Duw Iſrael y prophwydaſant iddynt.

2 Yna Zorobabel mab Salathiel, ac Ieſua mab Ioſedec a godaſant, ac a ddechreuaſant adailadu tŷ Dduw'r hwn [oedd] yn Ieruſalem: a phrophwydi Duw [a oeddynt] gyd a hwynt yn eu cynnorthwyo.

3 Y pryd hynny y daeth attynt hwy Thathanai tywyſog tu hwnt i'r afon, a Setharbuzani, ai cyfeillion, ac fel hyn y dywedaſant wrthynt: pwy a roddes i chwi orchymyn i adailadu y tŷ hwn, ac i ſylfaenu y murau hyn?

4 Yna fel hyn y dywedaſom wrthynt, beth yw henwau y gwŷr a adailadant yr adailadaeth ymma?

5 A golwg eu Duw oedd ar henuriaid yr Iddewon, fel na wnaethant iddynt beidio nés dyfod yr achos at Ddarius: ac yna 'r attebaſant [drwy] lythyr am hyn.

6 Yſtyr y llythyr yr hwn a anfonodd Thathanai tywyſog tu hwnt i'r afon, a Setharbuzani ai gyfeillion y Perſiaid y rhai [oeddynt] o'r tu hwnt i'r afon at y brenin Darius [oedd hyn.]

7 Anfonaſant air atto ef, ac fel hyn yr ſcrifennaſid ynddo ef: POB heddwch i'r brenin Darius.

8 Bydded hyſpys i'r brenin fyned o honom ni i dalaith Iuda i dŷ y Duw mawr, a bod yn ei adeiladu a meini marmor, a goſot coed yn ei barwydydd ef, a bod yn gwneuthur y gwaith ar frŷs, ai fod yn llwyddo yn eu dwylo hwynt.

9 Yna y gofynnaſom i'r henuriaid hynny, [ac] a ddywedaſom wrthynt fel hyn: pwy a roddes i chwi orchymyn i adailadu y tŷ hwn, ac i ſylfaenu y mûr ymma?

10 Gofynnaſom hefyd iddynt eu henwau hwynt, fel yr yſpyſſem i ti, [ac] fel yr ſcrifennem henwau y gwŷr y rhai [oeddynt] yn bennau iddynt.

11 A'r geiriau hyn a attebaſant i ni gan ddywedyd: nyni ydym weiſion Duw y nefoedd, a'r ddaiar, ac yn adailadu y tŷ'r hwn fu yn adailedic cyn hyn lawer o flynyddoedd: a'r * brenin mawr o Iſrael ai hadailadaſe, ac ai ſeiliaſe ef.

1.Bren.6.2.
2.Cron.3.2.

12 Eithr er pan ddigiodd ein tadau ni Dduw nefoedd, efe ai * rhoddes hwynt yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon y Caldead, a'r tŷ hwn a ddiniſtriodd efe, ac a gaeth-gludodd y bobl i Babilon.

2.Bren.24.12.
& 25.9.

13 Er hynny yn * y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Babilon y rhoddes y brenin Cyrus orchymyn i adailadu y tŷ Duw hwn.

Pen.1.1.

14 A lleſtri tŷ Dduw hefyd o aur, ac arian y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor o'r deml yn Ieruſalem, ac ai ddugaſe i deml Babilon: y rhai hynny a ddûg y brenin Cyrus allan o deml Babilon, a rhoddwyd hwynt i [un] * Saſbazar [wrth] ei henw, yr hwn a oſodaſe efe yn dywyſog.

Pen.1.8.

15 Ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer y lleſtri hyn, dos, dwg hwynt i'r deml yn Ieruſalem, ac adailader tŷ Dduw yn ei lẽ.

16 Yna y daeth y Saſbazar hwnnw, ac a oſododd ſylfeini tŷ Dduw yn Ieruſalem, ac o'r pryd hynny hyd yr awr hon yr ydys yn ei adailadu, ac nis gorphennwyd.

17 Ac yn awr (os dâ gan y brenin) ceiſier yn nhryſor-dŷ y brenin yna yn Babilon: a

ddarfu i'r brenin Cyrus oſod gorchymyn am adailadu y tŷ Duw hwn yn Jeruſalem, ac anfoner attom ni ewyllys y brenin am hyn.

### PEN. VI.

Yr Iddewon drwy gennad Darius yn adailadu 'r deml. 15 ac yn ei chyſſegru. 19 ac yn cadw 'r Paſc.

YNA 'r * brenin Darius a oſododd orchymyn ar geiſio o honynt hwy yn nhŷ y llyfrau, [a'r] tryſſorau cadwedic yn Babilon. 2.Eſdr.6.21.

2 A chafwyd mewn ciſt yn y llŷs yn nhalaith Media ryw lyfr, ac fel hyn yr ſcrifennaſid ynddo yn goffadwriaeth.

3 Yn y flwyddyn gyntaf i'r brenin Cyrus y goſododd y brenin Cyrus orchymyn, adailadu tŷ Dduw o fewn Jeruſalem, yn y fangre lle yr aberthent aberthau, a chyfodi ei ſylfaenau yn dri ugain cufydd eu huchter, [ac] yn dri ugain cufydd eu llêd.

4 Yn dair rhês o feini mawr, a rhês o goed newydd, a'r draul a roddir o dŷ 'r brenin.

5 A llestri tŷ Dduw hefyd yn aur, ac yn arian, y rhai a ddûg Nabuchodonoſor o'r deml yn Jeruſalem, ac a ddûg efe i Babilon, a roddir i fyned adref i'r deml yn Jeruſalem, ac iw dwyn [iw] llê i dŷ Dduw.

6 Yn awr Thathanai tywyſog tu hwnt i'r afon, Sethar-buzani a'ch cyfeillion y Perſiaid y rhai [ydych] o'r tu hwnt i'r afon ciliwch oddi yno.

7 Gadewch waith tŷ Dduw hwn, adailaded tywyſogion, ac henuriaid yr Iddewon y tŷ hwn [i] Dduw yn ei lê ei hun.

8 Goſodais hefyd orchymyn am yr hyn a wnewch i henuriaid yr Iddewon hyn, wrth adailadu tŷ Dduw hwn, mai o gyfoeth y brenin, ſef o'r deyrn-ged o'r tu hwnt i'r afon y rhoddir traul i'r gwŷr hynny fel na pheidio ['r gwaith.]

9 A'r hyn [fyddo] angen-rheidiol i boeth offrymmau Duw y nefoedd yn eidionau, neu yn hyrddod, neu yn ŵyn, yn ŷd, yn hâlen, yn win, ac yn olew: yn ôl yr hyn a ddywedo 'r offeiriaid y rhai [ydynt] yn Jeruſalem, rhodder iddynt bob dydd yn ddibaid:

10 Fel yr offrymmant aroglau peraidd i Dduw 'r nefoedd, ac y gweddiant tros ennioes y brenin, ai feibion.

11 Goſodais hefyd orchymyn, mai pa ddŷn bynnac a newidio y gair hwn, y tynnir pren oi dŷ ef, ac y goſodir ef i ſefyll: [ac] ar hwnnw y difethir ef, ac mai yn dommen y bydd ei dŷ ef am hynny.

12 A Duw yr hwn a wnaeth iw enw breſſwylio yno, a ddiniſtrio bob brenin, a phobl yr hwn a eſtynno ei law i newidio, [ac] i lygru y tŷ hwn eiddo Duw yn Jeruſalem: myfi Darius a oſodais y gorchymyn, gwneler ef yn ebrwydd.

13 Yna * Thathanai tywyſog tu hwynt i'r afon, Setharbuzani ai cyfeillion, megis yr anfonodd brenin Darius, felly y gwnaethant yn ebrwydd. 2.Eſdr.7.1.

14 A henuriaid yr Iddewon a adailadaſant, ac a lwyddaſant, drwy brophwydoliaeth Aggeus y prophwyd, a Zacharias fab Ido: ie adailaſant, a ſylfaenaſant wrth orchymyn Duw Iſrael, ac wrth orchymyn Cyrus, a Darius, ac Artaxerxes brenin Perſia.

15 A'r tŷ hwn a orphennwyd erbyn y trydydd dydd o fîs Adar, pan oedd y chwechfed flwyddyn o deyrnaſiad y brenin Darius.

16 Yna meibion Iſrael, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r rhan arall o feibion y gaeth-glud a gyſſegraſant y tŷ hwn o eiddo Duw mewn llawenydd.

17 Ac a offrymmaſant wrth gyſſegru y tŷ hwn eiddo Dduw, gant o ŷchen, dau cant o hyrddod, pedwar cant o ŵyn, a deuddec o fychod geifr yn bech aberth tros Iſrael, yn ôl rhifedi llwythau Iſrael.

18 Goſodaſant hefyd yr offeiriaid yn eu dosparthiadau, a'r Lefiaid yn eu dosparthiadau hwythau ar waith Duw yn Jeruſalem, yn ôl ſcrifen * llyfr Moſes.

19 Meibion y gaeth-glud a gadwaſant hefyd y Paſc, ar y pedwerydd [dydd] ar ddêc o'r mîs cyntaf. Num.3.6.& 8.9.

20 Canys yr offeiriaid a'r Lefiaid a ymlanhaſant yn gydtun, yn lân hwynt oll: ac a aberthaſant y Paſc tros holl feibion y gaeth-glud, a thros eu brodyr yr offeiriaid, a throſtynt eu hun.

21 Yna meibion Iſrael y rhai a ddychwelaſent o'r gaeth-glud, a phob un a ymnailltuaſe oddi wrth halogedigaeth cenhedloedd y wlâd attynt hwy gan geiſio Arglwydd Dduw 'r Iſrael, a fwyttâſant,

22 Ac a gadwaſant ŵyl y bara croyw ſaith niwrnod mewn llawenydd, canys yr Arglwydd ai llawenhauſe hwynt, ac a droeſe galon brenin Aſſyria attynt hwy, iw cynnorthwyo hwynt yng-waith tŷ Dduw, [ſef] Duw Iſrael.

### PEN. VII.

Eſdras trwy gennad y brenin yn dyfod i Jeruſalem. 27 Ac yn moliannu Duw yno.

AC wedi y pethau hyn yn nheyrnaſiaid Artaxerxes brenin Perſia ['r oedd] Eſdras mab Saraia, fab Aſaria, fab Helcia,

2 Fab Salum, fab Zadoc, fab Ahitob.

3 Fab Amaria, fab Aſaria, fab Meraioth,

4 Fab Zeraiah, fab Uzzi, fab Bucci,

5 Fab Abuſia, fab Phinehes, fab Eleazar, fab Aaron yr offeiriad pennaf.

6 Yr Eſdras hwn a aeth i fynu o Babilon, ac efe yn ſcrifennudd cyflym yng-hyfraith Moſes yr hon a roddaſe Arglwydd Dduw Iſrael, a'r brenin a roddes iddo ef (fel yr [ydoedd] llaw 'r Arglwydd ei Dduw arno ef) ei holl ddymuniad.

7 A [llawer] a aethant i fynu o feibion

Iſrael, ac o'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r cantorion, a'r porthorion, a'r Nethinaid, i Jeruſalem, yn y ſeithfed flwyddyn o'r brenin Artaxerxes.

8 Ac efe a ddaeth i Jeruſalem yn y pummed mis, hynny [oedd] yn y ſeithfed flwyddyn i'r brenin.

9 Canys ar y [dydd] cyntaf o'r mis cyntaf [y bu] efe yn achos i ddyfod i fynu o Babilon, ac ar y [dydd] cyntaf o'r pummed mis y daeth efe i Jeruſalem fel [yr oedd] daionus law ei Dduw gyd ag ef.

10 Canys Eſdras a oſodaſe ei galon ar geiſio cyfraith yr Arglwydd, ac ar wneuthur, a dyſcu yn Iſrael ddeddfau, a barn.

11 Ac dyma yſtyr y llythr yr hwn a roddodd y brenin Artaxerxes i Eſdras yr offeiriad a'r ſcrifennudd, [ſef] ſcrifennudd geriau gorchymynnion yr Arglwydd, ai ddeddfau ef i Iſrael.

12 Artaxerxes brenin y brenhinoedd at Eſdras yr offeiriad, ſcrifennudd deddf Duw y nefoedd yn anfon annerch.

13 Myfi a oſodais orchymyn, mai pwy bynnac yn fy nheyrnas i o bobl Iſrael, yr offeiriaid, a'r Lefiaid ſydd ewyllyſcar i fyned i Jeruſalem, a gaiff fyned gyd a thi.

14 Am hynny i'th yrryr oddi wrth y brenin a ſaith o gynghorriaid i ymweled ag Juda, ac ag Jeruſalem, wrth gyfraith dy Dduw yr hon [ſydd] yn dy law di:

15 Ac i ddwyn arian, ac aur yr hwn a offrymmodd y brenin ai gynghoriaid o honynt eu hunain i Dduw Iſrael, (yr hwn [y mae] ei breſwylfa yn Jeruſalem)

16 A'r holl arian, a'r aur yr hyn a geffech di yn holl dalaith Babilon o wirfodd y bobl a'r offeiriaid, y rhai a offrymmant o honynt en hunain tu ag at dŷ eu Duw yn Jeruſalem,

17 Fel y prynech yn ebrwydd a'r arian hynny ẏchen, hyrddod, ŵyn, ai bwyd offrymmau, ai diod offrymmau, ac offrwm hwynt ar allor tŷ eich Duw yn Jeruſalem.

18 A'r hyn a fyddo dâ gennit ti, a than dy frodyr wneuthur a'r rhan arall i'r arian, ac i'r aur, gwnewch yn ôl ewyllys eich Duw.

19 A'r lleſtri y rhai a roddwyd it tua gwaſanaeth tŷ dy Dduw, dod ti adref o flaen dy Dduw [yn] Jeruſalem.

20 A'r rhan arall o angenrhaid tŷ dy Dduw 'r hyn a ddigwyddo it ei roddi, a roddi di o dryſſor-dŷ 'r brenin.

21 A myfi y brenin Artaxerxes ydwyf yn goſod gorchymyn i holl dryſſor-wŷr tu hwnt i'r afon, beth bynnac a geiſio Eſdras (offeiriad, [ac] ſcrifennydd Deddf Duw 'r nefoedd) gennych, gwnelét yn ebrwydd.

22 Hyd gant talent o arian, ac hyd gant Corus o wenith, ac hyd gant Bath o wîn, ac hyd gant Bath o olew, a hâlen heb feſur.

23 Beth bynnac [ſydd] wrth gyfraith Duw yr nefoedd, gwneler yn ebrwydd i dŷ Duw 'r nefoedd, fel na byddo ei lidiawgrwydd ef yn erbyn teyrnas y brenin ai feibion:

24 Yr ydym yn yſpyſſu i chwi hefyd [am] yr holl offeiriaid, Lefiaid, pſalmyddion, porthorion, Nethiniaid, a gweinidogion y tŷ Duw hwn na ellit bwrw arnynt doll, teyrn-ged, na thrêth,

25 Tithe Eſdras yn ôl doethineb dy Dduw yr hon [ſydd] yn dy law, goſot farn-wŷr, ac ynadon i farnu 'r holl bobl o'r tu hwnt i'r afon, o'r rhai oll a fedrant gyfraith dy Dduw: a dyſcwch y rhai ni fedrant.

26 Pwy bynnac ni fyddo 'n cadw cyfraith dy Dduw, a chyfraith y brenin, gwneler barn yn ebrwydd am dano ef, y naill ai i farwolaeth, ai i herwriaeth, ai i ddirwy o dda, neu i garchar.

27 Bendigedic yw Arglwydd Dduw ein tadau 'r hwn a roddes fel hyn yng-halon y brenin, i adailadu tŷ 'r Arglwydd yr hwn [ſydd] yn Jeruſalem.

28 Ac a barodd i mi drugaredd, o flaen y brenin, ai gynghoriaid, ac o flaen holl gedyrn dywyſogion y brenin, a mi a gynnorthwywyd (fel [yr oedd] llaw yr Arglwydd fy Nuw arnaſi) a cheſclais bennaethiaid Iſrael i fyned i fynu gyd a mi.

## PEN. VIII.

Rhifedi y rhai a ddaethant gyd ag Eſdras i Ieruſalem, 21 Eu hympryd hwynt. 24 Pwys y lleſtri y rhai a ddug efe i Ieruſalem: a ſwydd yr offeiriaid yn eu cadw hwynt.

AC dymma eu pennau cenedl hwynt ai ha- 3.Eſdr.8.29.
chau hwynt, y rhai a ddaethant i fynu gyd
a mi (yn nheyrnaſiad * Artaxerxes y brenin) o Pen.7.1.
Babilon.

2 O feibion Phinehes Gerſom, o feibion »
Ithamar Daniel, o feibion Dafydd Hattus. »
3 O feibion Zechaniah, o feibion Pharos »
Zachariah, a chyd ag ef y rhifwyd wrth eu ha- »
chau gant, a dêc a deugain o wŷr. »
4 [Ac] o feibion tywyſog Moab, Eliohe- »
nai mab Zerahia, a chyd ag ef ddau cant o wŷr. »
5 O feibion Jecania, mab Jahaſiel, a chyd »
ag ef dry-chant o wŷr. »
6 O feibion Adin, Abed mab Jonathan a »
chyd ag ef ddêc a deugain o wŷr. »
7 Ac o feibion Elam, Iſai mab Athalia, a »
chyd ag ef ddêc a thrugain, o wŷr. »
8 Ac o feibion Saphatia, Zebadia mab Mi- »
chael: a chyd ag ef bedwar ugain o wŷr. »
9 O feibion Joab, Obadia mab Jehiel: a »
chyd ag ef ddau cant a deunaw o wŷr. »
10 Ac o feibion Selomith, mab Joſiphiah, a »
chyd ag ef wyth ugain o wŷr. »
11 Ac o feibion Bebai, Zachari mab Bebai: »
a chyd ag ef wyth ar hugain o wŷr. »
12 Ac o feibion Aſgad, Johanan mab Hac- »
catan: a chyd ag ef ddeng-wr a chant. »
13 Ac o feibion Adonicam y rhai olaf, dym- »
ma hefyd eu hēwau hwynt Eliphelet, ac Jehiel, »

“ a Samaiah: a chyd a hwynt drugain o wŷr.
“ 14 Ac o feibion Biguai, Uthai, a Zabud: a
“ chyd a hwynt ddêc a thrugain o wŷr.
“ 15 A chesclais hwynt wrth yr afon yr hon
“ ſydd yn myned i Ahafa, ac yno y gwerſſyllaſom
“ ni dridiau: ac mi a yſtyriais y bobl, a'r offeiriaid,
“ ond ni chefais yno [neb] o feibion Lefi.
“ 16 Yna'r anfonais at Eliezer, [ac] at Ariel,
“ [ac] at Semeiah, ac at Elnathan, ac at Iarib,
“ at Elnathan, ac at Nathan, ac at Zacharia,
“ ac at Meſulam y pennaethiaid: at Ioiarib hefyd,
“ ac at Elnathan y rhai doethion.
“ 17 A rhoddais orchymynnion gyd a hwynt
“ at Ido pennaeth yn y fann [a elwir] Caſphia:
“ a goſodais yn eu pennau hwynt eiriau iw traethu
“ wrth Ido, ai frodyr y Nethiniaid yn y fann
“ [a elwir] Caſphia, am ddwyn attom ni weinidogion
“ i dŷ ein Duw.
“ 18 A hwy a ddugaſant attom (fel [yr oedd]
“ daionus law Dduw gyd a ni) ŵr deallgar o feibion
“ Mahali fab Lefi, fab Iſrael, ſef Serabiah
“ ai feibion, ai frodyr yn ddau-naw.
“ 19 A Haſabia, a chyd ag ef Iſai o feibion
“ Merari ai frodyr, ai meibion [ſef] vgain.
“ 20 Ac o'r * Nethiniaid y rhai a roddaſe Dafydd,
Pen.2.43. “ a'r tywyſogion yng-waſanaeth y Lefiaid
“ [ſef] dau cant, ac vgain o Nethiniaid: hwynt
“ oll a yſpyſſaſyd erbyn [eu] henwau.

21 Ac yna wrth Afon Ahafa y cyhoeddais ympryd, i ymgyſtuddio ger bron ein Duw ni, gan geiſio ganddo ef ffordd uniõ i ni, ac i'n plant ac i'n golud oll.

22 Canys cywilydd oedd gennif geiſio gan y brenin fyddin, a gwŷr meirch i'n cynnorthwyo rhag y gelyn ar hŷd y ffordd: canys llefaraſem wrth y brenin gan ddywedyd: llaw ein Duw ni [fydd] ar bawb ai ceiſiant ef mewn daioni, ai gryfdwr, ai ddigter yn erbyn pawb ai gadawant ef.

23 Am hynny yr ymprydiaſom, ac yr ymbiliaſom a'n Duw am hyn: ac efe a wrandawodd arnom.

24 Yna y naillduais ddeuddec o bennaethiaid yr offeiriaid: Sarabia, Haſabia, a dêc oi brodyr gyd a hwynt.

25 Yna y pwyſais i attynt hwy yr arian, a'r aur, a'r lleſtri, [ſef] offrwm tŷ ein Duw ni, yr hyn a offrymmaſe'r brenin, ai gynghoriaid, ai dywyſogion, a holl Iſrael y rhai a gawſid [yno.]

1.Bren.9.14. 26 Ie pwyſais iw dwylo hwynt, chwe-chant a dêc a deugain talent o arian, a lleſtri arian o gant talent, [a] chant talent o aur.

Pen.2.69. 27 A dêc o orflychau aur, o fil * o ddracmonau, a dau o leſtri o brês melyn dâ mor brydferth ag aur.

28 A dywedais wrthynt, ſanctaidd [ydych] chwi i'r Arglwydd, a'r lleſtri [ydynt] ſanctaidd: yr arian hefyd, a'r aur [ſydd] yn offrwm gwirfodd i Arglwydd Dduw eich tadau.

29 Gwiliwch, a chedwch hyd oni phwyſoch [hwynt] o flaen pennaethiaid yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a phennau cenedl Iſrael yn Ieruſalem, [yn] nhryſſorau tŷ'r Arglwydd.

30 Felly'r offeiriaid, a'r Lefiaid a gymmeraſant bwys yr arian, a'r aur, a'r lleſtri, iw dwyn i Ieruſalem i dŷ ein Duw ni.

31 A chychwnnaſom oddi wrth afon Ahafa ar y deuddecfed [dydd] o'r mis cyntaf, i fyned i Ieruſalem: a llaw ein Duw oedd gyd a ni, ac a'n gwaredodd o law y gelyn, a'r rhai oeddynt yn brâd-fwriadu ar y ffordd.

32 Daethom hefyd i Ieruſalem, ac arhoſaſom yno dridiau.

33 Ac ar y pedwerydd dydd y pwyſwyd yr arian, a'r aur, a'r lleſtri yn nhŷ ein Duw ni i law Meremoth fab Uria'r offeiriad: ac Eleazar mab Phinehes gyd ag ef: ac Ioſabad mab Ieſua, a Noadia mab Bennoi y Lefiaid [oeddynt] gyd a hwynt.

34 [Yr oeddynt] yn y rhifedi, [ac] yn y pwys [y rhoddaſid] hwynt at bob vn, a'r holl bwyſau a ſcrifennwyd y pryd hynny.

35 Meibion y gaeth-glud y rhai a ddaethant o'r caethiwed a offrymmaſant boeth offrymmau i Dduw Iſrael, [ſef] deuddec o fuſtych dros holl Iſrael, onid pedwar pum hugain o hyrddod, amyn tri pedwar vgain o ŵyn, [a] deuddec o fychod yn bech-aberth: y cwbl [oedd] yn offrwm poeth i'r Arglwydd.

36 A rhoddaſant orchymyn y brenin at bendefigion y brenin, a'r tywyſogion tu hwnt i'r afon: a hwynt a gynnorthwyaſant y bobl, a thŷ Dduw.

## PEN. IX.

Pobl Iſrael yn priodi gwragedd o'r cenhedloedd anghredadwy. 3 Eſdras yn gofidio am hynny. 6 Ac yn gweddio Duw troſtynt hwy.

AC wedi * darfod hynny y tywyſogion a ddaethant attafi gan ddywedyd: nid ymnailltuodd pobl Iſrael, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid oddi wrth bobl y gwledydd, [gwnaethant] yn ôl eu ffiaidd-dra hwynt [ſef] y Canaaneaid, yr Hethiaid, y Phereziaid, y Iebuſiaid, yr Ammoniaid, y Moabiaid, yr Aiphtiaid, a'r Amoriaid. 3.Eſdr.9.67.

2 Canys cymmeraſant oi merched iddynt eu hun, ac iw meibion, a'r hâd ſanctaidd a ymgymmyſcodd a phobloedd y gwledydd, a llaw y pennaethiaid a'r tywyſogion fû gyntaf yn y camwedd hyn.

3 Pan glywais inne y peth hyn, rhwygais fy nillad a'm gwiſc, a thynnais wallt fy mhen, a'm barf, ac eiſteddais yn ſynn.

4 Yna'r ymgaſclodd attafi bob vn a'r a ofnodd eiriau Duw Iſrael, am gamwedd y gaeth-glud, ac myfi a eiſteddais yn ſynn hyd y bwyd * offrwm prynhawnol. Exod.29.39. Num.28.3.

5 Ac ar y bwyd offrwm prynhawnol y cyfodais o'm cyſtudd, gan rwygo o honofi fy nillad, a'm gwiſc, goſtyngais hefyd ar fyng-liniau, a lledais fy nwylo at yr Arglwydd fy Nuw:

6 A dywedais, gwradwydd, a chywilyddus

oedd gennif godi fy wyneb attat ti fy Nuw, o herwydd ein hanwireddau ni a aethant yn aml tros ben: a'n camwedd a dyfodd hyd y nefoedd.

7 Er dyddiau ein tadau ['r ydym] ni mewn camwedd mawr hyd y dydd hwn, ac yn ein hanwireddau y rhoddwyd ni, ein brenhinoedd, a'n hoffeiriaid i law brenhinoedd y gwledydd, i gleddyf, i gaethiwed, ac i anrhaith, ac i warthrudd wyneb megis heddyw,

8 Ac yn awr megis ennyd fechan y mae trugaredd oddi wrth yr Arglwydd ein Duw i beri gadel i ni ddiangc, ac i roddi i ni hoel yn ei lê ſanctaidd ef: gan lewyrchu o'n Duw ni ein llygaid, a rhoddi i ni ychydig 'orphywyſdra yn ein caethiwed,

9 Canys caethion [oeddem] ni, ond ni adawodd ein Duw ni yn ein caethiwed: eithr parodd i ni drugaredd o flaen brenhinoedd Perſia, i roddi i ni orphywyſdra i dderchafu tŷ ein Duw ni, ac i gyfodi y lleoedd ang-hyfannedd, ac i roddi i ni gae yn Juda, ac Jeruſalem.

10 Ac yn awr beth a ddywedwn wedi hyn, ô ein Duw: canys gadawſom dy orchymynniō di,

Exod.23.33.& 34.12.15. Deut.7.23.

11 Y rhai a orchymynnaiſt trwy law dy weiſion y prophwydi gan ddywedyd: y *wlâd yr hon yr ydych yn myned iw goreſcyn, gwlâd halogedic [yw] hi, trwy halogedigaeth pobl y gwledydd, o blegit eu ffieidd-dra hwynt y rhai ai llawnaſant hi ai haflendid o gwrr bwy gylydd.

12 Ac yn awr na roddwch eich merched iw meibion hwynt, ac na chymmerwch eu merched hwynt i'ch meibion chwi, na cheiſiwch ychwaith heddwch, na daioni ganddynt byth: fel y cryfhaoch, ac y mwynhaoch ddaioni y wlâd, ac y rhoddoch hi yn etifeddiaeth i'ch meibion byth. Deut.8.13.

13 Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd, a'n mawr gamwedd am i ti ein Duw ein hattal oddi tann ein hanwiredd a rhoddi i ni ddiangc fel hyn.

14 A ddychwelwn i dorri dy orchymynnion di, ac i ymgyfathrachu a'r ffiaidd bobl hyn? oni ddigit ti i'n herbyn, nes [ein] difetha, fel na [bydde un] gweddill, na diangol?

15 Arglwydd Dduw Iſrael cyfiawn [ydwyt] ti, eithr gweddill diangol ydym ni megis heddyw: wele ni o'th flaen di yn ein camweddau, eithr ni allwn ni ſefyll o'th flaē di am hyn.

## PEN. X.

Pobl Iſrael yn ymado ai gwragedd anghredadwy.

3.Eſdr.8.90.

PAn weddiodd Eſdras, a phan gyffeſſodd efe gan ŵylo, a chan ſyrthio o flaen tŷ Dduw, tyrfa fawr o Iſrael a ymgaſclaſant atto ef, yn wŷr, ac yn wragedd, ac yn blant, canys y bobl a ŵylaſant ag ŵylofain mawr.

2 Yna y llefarodd Sechaniah mab Jechiel o feibion Elam, ac a ddywedodd wrth Eſdras, ni a bechâſom yn erbyn ein Duw, ac a gyttaliaſom a gwragedd dieithr o bobl y wlâd: etto yn awr y mae gobaith i Iſrael am hyn.

3 Yn awr gan hynny gwnawn gyfammod a'n Duw, ar fwrw allan yr holl wragedd, ai plant, wrth gyngor yr Arglwydd a'r rhai a ofnant orchymynnion ein Duw: a gwneler yn ôl y gyfraith.

4 Cyfod, canys arnat ti [y mae]'r peth: ac ni [a fyddwn] gyd a thi, ymnertha, a gwna.

5 Yna y cyfododd Eſdras, ac a dyngodd bennaethiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid, a holl Iſrael ar wneuthur ar ôl y peth hyn, a hwynt a dyngaſant.

6 Yna *y cyfododd Eſdras o flaen tŷ Dduw ac a aeth i ſtafell Johanan fab Eliaſib: pan aeth yno ni fwytaodd fara, ac nid yfodd ddwfr, canys galaru'r oedd am gamwedd y gaeth-glud. 3.Eſdr.9.1.

7 A chyhoeddaſant yn Juda, ac Jeruſalem, i holl feibion y gaeth-glud ymgaſclu i Jeruſalem.

8 A phwy bynnac ni ddele o fewn tridiau yn ôl cyngor y pennaethiaid, a'r henuriaid, difrodid ei holl olud ef, ac yntef a ddidolid oddi wrth dyrfa y gaeth-glud.

9 Felly holl wŷr Juda, a Beniamin a ymgaſclaſant i Jeruſalem o fewn tridiau, hynny [oedd] y nawfed mîs, ar yr ugeinfed [dydd] o'r mîs, a'r holl bobl a eiſteddaſāt yn heol tŷ Dduw yn crynnu rhag y peth hyn, a rhag y glaw.

10 Ac Eſdras yr offeiriad a gyfododd, ac a ddywedodd wrthynt: chwi a bechaſoch, ac a gyttaliaſoch a gwragedd dieithr, gan chwanegu ar bechod Iſrael.

11 Ac yn *awr rhoddwch ogoniant i Arglwydd Dduw eich tadau, a gwnewch ei ewyllys ef, ac yſcerwch oddi wrth bobl y tîr, ac oddi wrth y gwragedd dieithr. Ioſu.7.1.9.

12 A holl dyrfa Iſrael a attebaſant, ac a ddywedaſant a llef uchel, [gweddus] i ni wneuthur felly yn ôl dy air di.

13 Eithr y bobl ſydd lawer, a'r amſer yn lawog, ac ni ellir ſefyll allan, ac nid gwaith un diwrnod, na dau [ſydd:] canys pechaſom yn ddirfawr yn y peth hyn.

14 Safed ein pennaethiaid attolwg tros yr holl dyrfa, a'r rhai oll [a ydynt] yn ein dinaſoedd y rhai a gyttaliaſant a gwragedd dieithr, deued [y rhai hynny] ar yr amſeroedd goſodedic, a henuriaid pôb dinas, ai barn-wŷr gyd a hwynt, nes troi digter ein Duw oddi wrthym am y peth hyn.

15 Yn unic Jonathan mab Aſahel, ac Jahaſiah mab Thecua a ſafaſant am hyn: Meſulam, hefyd a Sabathai y Lefiaid ai cynnorthwyaſant hwy.

16 A meibion y gaeth-glud a wnaethāt felly: yna Eſdras yr offeiriad a'r gwŷr [y rhai oeddynt] pennau cenedl tŷ eu tadau, a hwynt oll yn enwoc a ymddidolaſant, ac a eiſteddaſant, ar y dydd cyntaf o'r decfed mîs i holi y peth hyn.

17 A darfu iddynt a'r holl wŷr a gyttaliaſent a gwragedd dieithr, erbyn y dydd cyntaf o'r mîs cyntaf.

18 A chafwyd o feibion yr offeiriaid y rhai a gyttaliaſent a gwragedd dieithr, o feibiō Ieſua fab Ioſedec ai frodyr, Maaſia, ac Eliezer, ac Iarib, a Gedaliah.

19 A hwy a roddaſant eu dwylo ar fwrw allan eu gwragedd, a'r rhai a bechaſent [ a offrymmaſant ] hwrdd defaid dros eu camwedd.

“ 20 Felly o feibion Immer, Hanani, a Zebadia.
“
“ 21 Ac o feibion Harim: Maaſia, Elia, Semeia,
“ Iehiel, ac Uzziah.
“ 22 Ac o feibion Paſhur, Elioenai, Maſia,
“ Iſmael, Nathanel, Ioſabad, ac Elaſah.
” 23 Ac o'r Lefiaid Ioſabad, Semei, a Celaia,
“ hwnnw [ yw ] Celita. Phathaiah, Iuda, ac Eliezer.
“
“ 24 Ac o'r cantorion, Eliaſib, ac o'r porthorion,
“ Selum, Telem, ac Uri.
“ 25 Ac o Iſrael, o feibion Pharos, Rameiah,
“ Ieſia, Melchia, Miamin, Eleazar, Melchia, a
“ Benaiah.
“ 26 Ac o feibion Elam Mathania, Zacharia,
“ Iehiel, Abdi, Ierimoth, ac Elia.
“ 27 Ac o feibion Zatthu Elioenai, Eliaſib,
“ Mathania, Ierimoth, Zabad, ac Aziza.
“ 28 Ac o feibion Bebai, Iehohanan, Hanania, Zabbai, ac Athalai.
29 Ac o feibion Bani, Meſulam, Maluch, a ”
Adaiah: Iaſub, Saal, ar Ieramoth. ”
30 Ac o feibion cywyſog Moab, Adna Chelal, ”
Benaia, Maaſia, Mathania, Beſalel, Bennui, ”
a Manaſſe. ”
31 Ac o feibion Harim, Eliezer, Iſiiah, ”
Melchiiah, Semeia, [a] Simeon: ”
32 Beniamin, Maluch, [a] Semariah. ”
33 O feibion Haſum, Matthenai, Mathatha, ”
Zabad, Eliphalet, Ieremai, Manaſſe, [ a ] ”
Semei. ”
34 O feibiō Bani, Maadai, Amram, ac Uel, ”
35 Banaia, Badaia, Cheluhu. ”
36 Uaniah, Maremoth, Eliaſib, ”
37 Mathaniah, Mathanai, ac Iaſi. ”
38 Bani, Bennui, a Semei. ”
39 Selemia, Nathan, Adaiah. ”
40 Machnadebai, Saſai, Sarai. ”
41 Aſarel, Selemiahu, a Semariah. ”
42 Salum, Amaria, ac Ioſeph. ”
43 O feibion Nebo, Iehiel, Mathathia, Zabad, ”
Zebina, Iadau, ac Ioel, [a] Benaia. ”
44 Y rhai hyn oll a gymmeraſent wragedd ”
dieithr, ac yr oedd [ i rai ] o honynt wragedd, a ”
hwy a ennillaſent blant. ”
”

# Lyfr Nehemias, yr hvvn hefyd a elvvir ail llyfr Eſdras.

## PENNOD. I.

Nehemias yn gofidio o herwydd dryg-fyd Ieruſalem. 5 Yn cyfaddef anwiredd y bobl. 8 Ac yn gweddio troſtynt hwy.

Eſther. 1.1.

Geiriau Nehemias mab Hacalia, ym mis Ciſleu [ ar ] yr ugeinfed flwyddyn, pan oeddwn i ym mrenhin-lys Suſan,

2 Yna y daeth Hanani un o'm brodyr, efe a gwŷr o Iuda: a gofynnais iddynt am yr Iddewon a ddiangaſent, y rhai a adawſid o'r caethiwed, ac am Ieruſalem.

3 A hwynt a ddywedaſant wrthif, y gweddillion y rhai a adawyd o'r gaethglud yno yn y dalaith [ ydynt ] mewn blinder mawr, a gwradwydd: mûr Ieruſalem hefyd a ddrylliwyd, ai phyrth a loſcwyd a thân.

4 A phan glywais y geiriau hyn, myfi a eiſteddais, wylais hefyd, a galêrais ddyddiau [lawer:] a bum yn ymprydio, ac yn gweddio ger bron Duw y nefoedd,

Dan.9.4.

5 A dywedais, attolwg * Arglwydd Dduw y nefoedd, (y Duw mawr, ac ofnadwy, yr hwn ſydd yn cadw cyfammod a thrugaredd i'r rhai ai carant ef, ac a gadwant ei orchymynnion)

(6 Bydded attolwg dy glust yn clywed, a'th lygaid yn agored i wrando ar weddi dy wâs, yr hon yr ydwyf fi yn ei gweddio ger dy fron di ddydd a nôs dros feibion Iſrael dy weiſion: ac yn cyffeſſu pechodau meibion Iſrael y rhai a bechaſom i'th erbyn, mynne hefyd a thy-lwyth fy nhâd a bechaſom.

7 Gan lygru y llygraſom i'th erbyn: ac ni chadwaſom y gorchymynnion, na'r barnedigaethau, y rhai a orchymynnaiſt i Moſes dy wâs.

8 Cofia attolwg y gair yr hwn a orchymynnaiſt wrth Moſes dy wâs gan ddywedyd: chwi a drosseddwch, * mynne a'ch gwaſcaraf chwi ym myſc y bobloedd.

Deut.30.4.

9 Ond [ os ] dychwelwch attafi, a chadw fyng-orchymynnion, ai gwneuthur hwynt: pe byddei eich gwrthlad chwi hyd eithaf y nefoedd, [etto] mi a'ch caſclaf chwi oddi yno, ac a'ch dygaf i'r lle'r hwn a etholais i drigo o'm henw ynddo.

10 A hwynt [ydynt] dy weiſion, a'th bobl: y rhai a ryddhêaiſt a'th fawr allu, ac a'th law nerthol.

11 Attolwg Arglwydd bydded yn awr dy glust yn gwrando ar weddi dy wâs, ac ar weddi dy weiſion y rhai ydynt yn ewyllyſio ofni dy enw, llwydda hefyd attolwg dy wâs heddyw, a chaniadhâ iddo [ gael ] trugâredd ger bron y gŵr hwn: canys myfi oeddwn drulliad i'r brenin.

### PEN. II.

Nehemias yn cael llythyrau gan Artaxerxes, 11 Ac yn dyfod i adailadu Ieruſalem.

AC o fewn mis Niſan [yn] yr ugeinfed flwyddyn i Artaxerxes y brenin, yr oedd gwîn oi flaen ef: a mi a gymmerais y gwîn, ac ai rhoddais i'r brenin, ond ni byddwn [arferol fod] yn drîſt ger ei fron ef.

2 Am hynny y brenin a ddywedodd wrthif, pa ham [y mae] dy wyneb-pryd yn drîſt, a thithe heb fod yn glaf? nid [yw] hyn onid triſtwch calon: yna'r ofnais yn ddirfawr.

3 A dywedais wrth y brenin, byw fyddo'r brenin yn dragywydd: pa ham na thriſtâe fy wyneb pan fydde y ddinas [a] thŷ beddrod fy nhadau wedi [eu] diniſtrio, ai pyrth wedi eu hyſſu a thân?

4 A'r brenin a ddywedodd wrthif, pa beth yr wyt ti yn ei geiſio? yna y gweddiais ar Dduw y nefoedd,

5 A mi a ddywedais wrth y brenin, o rhynga bodd i'r brenin, ac od yw dy wâs yn gymmeradwy ger dy fron di: yna gollwng fi i Iuda at ddinas beddrod fy nhadau fel yr adailadwyf hi.

6 A'r brenin a ddywedodd wrthif (ai wraig oedd yn eiſtedd gyd ag ef) pa hŷd y bydd dy daith di, a pha bryd y dychweli? a'r [peth] oedd ddâ yng-ŵydd y brenin, am hynny efe a'm gollyngodd, a minne a oſodais iddo amſer nodedic.

7 Yna y dywedais wrth y brenin, o rhynga bodd i'r brenin, rhodder i mi lythŷrau [iw dwyn] at y tywyſogion o'r tu hwynt i'r afon: fel y troſglwyddant fi nes fy nyfod i Iuda:

8 A llythyr at Aſaph ceidwad y goedwig yr hon [ſydd] eiddo'r brenin, fel y rhoddo efe i mi goed i yſtyllennu pyrth y pâlas y rhai [a berthynant] i'r tŷ, ac i fur y ddinas, ac i'r tŷ yr hwn y delwyf iddo: a'r brenin a roddodd i mi, fel yr [oedd] llaw fy Nuw yn ddaionus i mi.

9 Yna y daethum at y tywyſogion o'r tu hwnt i'r afon, ac mi a roddais iddynt lythŷrau y brenin: a'r brenin a anfonaſe dywyſogion y llu, a marchogion gyd a mi.

10 Pan glybu Sanebalat yr Horoniad a Thobia y gwâs yr hwn [oedd] Ammoniad [y peth hyn,] yna y bu ddrwg iawn ganddynt, am ddyfod dŷn i geiſio daioni i feibion Iſrael.

11 Felly mi a ddeuthum i Ieruſalem: ac a fum yno dri-diau.

12 A chyfodais liw nôs, myfi ac ychydig o wŷr gyd a mi, ac ni fynegais i nêb beth a roddaſe fy Nuw yn fyng-halon i wneuthur yn Ieruſalem: ac anifail nid oedd gennif, onid yr anifail yr hwn yr oeddwn i yn marchogaeth arno.

13 A mi a euthum allan liw nôs drwy borth y glynn tu ag at ffynnon y ddraig, ac at borth y domm: a deliais ſulw ar furoedd Ieruſalem y rhai oeddynt wedi eu dryllio, ai pyrth hi [y rhai] oeddynt wedi eu hyſſu a thân.

14 Yna y tramwyais i borth y ffynnon, ac at byſcod-lynn y brenin: ac nid [oedd] le i'r anifail yr hwn oedd tanaf i fyned trwodd.

15 A mi a acthum i fynu gan lan yr afon liw nôs, a deliais ſulw ar y mûr, dychwelais hefyd, a daethũ drwy borth y glyn, felly y troais yn ôl.

16 A'r pennaethiaid ni wyddent i ba le'r aethwn i, na pheth oeddwn yn ei wneuthur: canys hyd yn hyn ni fynegaſwn [ddim] i'r Iddewon, nac i'r offeiriaid, nac i'r pendefigion, nac i'r pennaethiaid, nac i'r rhan arall oedd yn gwneuthur y gwaith.

17 Yna y dywedais wrthynt, yr ydych yn gweled yr adfyd yr hwn yr ydym ynddo, canys Ieruſalem a ddiniſtriwyd, ai phyrth hi a loſcwyd a thân: deuwch, ac adailadwn fûr Ieruſalem, fel na byddom mwyach yn wradwydd.

18 Pan fynegais iddynt fod llaw fy Nuw yn ddaionus tu ag attaf, a geiriau y brenin hefyd y rhai a ddywedaſe efe wrthif: yna hwynt a ddywedaſant, cyfodwn, ac adailadwn, felly y cryfhauſant eu dwylo i ddaioni.

19 Pan glybu Sanebalat yr Horoniad, a Thobia y gwâs yr hwn [oedd] Ammoniad a Geſem yr Arabiad [y peth hynn,] yna hwynt a'n gwatwaraſant ni, ac a'n dirmygaſant ni: dywedaſant hefyd, pa beth [yw] hyn yr ydych chwi yn ei wneuthur? a wrthryfelwch chwi yn erbyn y brenin?

20 Yna yr attebais hwynt, ac y dywedais wrthynt, Duw y nefoedd efe a'n llwydda ni, a ninnau ei weiſion ef a gyfodwn, ac a adailadwn: ond ni [bydd] i chwi rann, na chyfiawnder, na choffadwriaeth yn Ieruſalem.

### PEN. III.

Y rhai oeddynt yn adailadu caerau Ieruſalem.

YNa Eliaſib yr arch-offeiriad a gyfododd,
ai frodyr yr offeiriaid, ac a adailadaſant
borth y defaid, hwynt ai cyſſegraſant ef, ac a ”
godaſant ei ddorau ef: ie hyd dŵr Meah y ”
cyſſegraſant ef, [ac] hyd dŵr Hananeel. ”
2 A cher llaw iddo ef gwŷr Iericho a adai- ”
ladaſant: ger llaw iddo ef hefyd yr adailadodd ”
Zaccur mab Imri. ”
3 A meibion Haſenah a adailadaſant borth ”
y pyſcod: hwynt hwy ai ſtyllennaſant ef, ac a ”
oſodaſant ei ddorau, ei glôau, ai farrau. ”
4 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Me- ”
remoth mab Uria fab Haccos, a cher eu llaw ”
hwynt y cyweiriodd Meſulam mab Bereciah ”
fab Meſezabel: a cher eu llaw hwynt Zadoc ”
mab Baana a gyweiriodd. ”
5 A cher llaw iddynt hwy y cyweiriodd y ”
Thecoaid: ond y gwŷr mawr ni oſodaſant eu ”
gwddf yng-waſanaeth eu Harglwydd. ”
6 Ac Iehoiada mab Paſeach, a Meſulam ”
mab Beſodeiah a gyweiriaſant yr hên borth, ”
hwynt ai ſtyllennaſant ef, ac a oſodaſant i fynu ”
ei ddorau, ai glôau, ai farrau. ”
7 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Me- ”
lachia y Gibeoniad, ac Iadon y Meronothiad, ”
gwŷr Gibeon a Miſpa, hyd orſeddfa y duwc ”
[yr hwn oedd] tu hwynt i'r afon. ”

“ 8 Ger llaw iddo ef y cyweiriodd Uzziel mab
“ Harhoiah[gyd a'r]eurŷchod, a cher llaw iddo
“ ef y cyweiriodd Hananiah mab[un] o'r apothecariaid:
“ a hwynt a gyweiriaſant Ieruſalem hyd
“ mûr llydan.
“ 9 A cher eu llaw hwynt y cyweiriodd Rephaiah
“ mab Hur (tywyſog hanner talaith Ieruſalem)
“ 10 A cher llaw iddynt hwy y cyweiriodd
“ Iedaiah mab Harumaph ar gyfer ei dŷ: a Hattus
“ mab Haſabina a gyweiriodd ger llaw iddo
“ yntef.
“ 11 Malciah mab Harim, ac Aaſub mab tywyſog
“ Moab a gyweiriaſant yr ail meſur: a
“ thŵr y ffyrnau.
“ 12 A cher llaw iddo ef y cyweiriodd Salum
“ mab Haloches (tywyſog hanner talaith Ieruſalem)
“ efe ai ferched.
“ 13 Porth y glynn a gyweiriodd Hanun, gyd
“ a thrigolion Zanoah, hwynt hwy ai hadailadaſant
“ ef, ac a oſodaſant ei ddorau ef, ei glôau, ai
“ farrau: a mîl o gufyddau[oedd] yn y mûr hyd
“ borth y domm.
“ 14 Ond porth y domm a gyweiriodd Malciah
“ mab Rechab tywyſog talaith Bethhaccarem:
“ efe ai hadailadodd, ac a oſododd ei ddorau,
“ ei glôau, ai farrau.
“ 15 A Salun mab Col-hoſah tywyſog talaith
“ Miſpa a gyweiriodd borth y ffynnon, efe ai
“ hadailadodd, ac ai tôdd, ac a oſododd ei ddorau
“ ef, ei glôau, ai farrau: a mûr pyſcod-lynn
“ Selah yng-ardd y brenin, ac hyd y griſſiau y
“ rhai ydynt yn deſcyn o ddinas Dafydd.
“ 16 Ar ei ôl ef y cyweiriodd Nehemiah mab
“ Azbub tywyſog hanner talaith Beth-zur: hyd
“ ar gyfer beddrod Dafydd, ac hyd y pyſcod-lynn
“ yr hwn a wnelſid, ac hyd dŷ y cedyrn.
“ 17 Ar ei ôl ef y Lefiaid a gyweiriaſant, Rehum
“ mab Bani: [a] cher llaw iddo ef y cyweiriodd
“ Haſabiah tywyſog hanner talaith Ceilah
“ yn ei frô ei hun.
“ 18 Ar ei ôl ef eu brodyr hwynt a gyweiriaſant,
“ Bafai mab Henadad tywyſog hanner talaith
“ Ceilah.
“ 19 A cher llaw iddo ef y cyweiriodd Ezer
“ mab Ieſua tywyſog Miſpa yr ail meſur, ar gyfer
“ y ddringfa i gongl yr arfau.
“ 20 Ar ei ôl ef Baruc mab Zabbai yn awyddus
“ a gyweiriodd y meſur arall', o'r yſtym
“ hyd ddrws tŷ Eliaſib yr arch-offeiriad.
“ 21 Ar ei ôl ef Meremoth mab Uria fab Haccos
“ a gyweiriodd y meſur arall, o ddrws tŷ Eliaſib
“ hyd dalcen tŷ Eliaſib.
“ 22 Ac ar ei ôl ef yr offeiriaid, [a] gwŷr y gwaſtadedd
“ a gyweiriaſant.
“ 23 Ar ei ôl ef y cyweiriodd Beniamin, a Haſſub
“ gyferbyn ai dŷ: wedi yntef Azaria mab
“ Maaſeiah fab Ananiah a gyweiriodd wrth ei dŷ
“ yntef.
“ 24 Ar ei ôl yntef Binnui mab Henadad a gyweiriodd
“ feſur arall: o dŷ Azaria hyd yr yſtym,
ac hyd y gongl.
25 Palal mab Uzai[a adnewyddodd]ar gyfer ”
yr yſtym, a'r tŵr uchel yr hwn ſydd yn myned ”
allan o dŷ 'r brenin i gyntedd y carchar: ar ”
ei ôl ef Pedaia mab Pharos. ”
26 A'r *Nethiniaid y rhai oeddynt yn trigo ” Eſdras.2.43.
yn y tŵr[a gyweiriaſant]hyd ar gyfer porth y ”
dwfr tua 'r dwyrain, a'r tŵr yr hwn oedd yn ”
myned allan. ”
27 Ar ei ôl yntef y Thecoiaid a gyweiriaſant ”
feſur arall, ar gyfer y tŵr mawr yr hwn ſydd yn ”
myned allan hyd fûr yr amddeffynfa. ”
28 Oddi ar borth y meirch yr offeiriaid a gyweiriaſant ”
bôb un gyferbyn ai dŷ ei hun. ”
29 Ar ôl hynny Zadoc mab Immer a gyweiriodd ”
ar gyfer ei dŷ ei hun, ac ar ei ôl yntef y ”
cyweiriodd Semaiah mab Secaniah ceidwad ”
porth y dwyrain. ”
30 Ar ei ôl ef y cyweiriodd Hanania mab ”
Selomia, a Hanun chweched mab Zalaph y meſur ”
arall: ar ei ôl yntef Meſulam mab Bereciah ”
a gyweiriodd ar gyfer ei ſtafell. ”
31 Ar ei ôl yntef Malciah mab yr eurych a ”
gyweiriodd hyd dŷ y Nethiniaid, a'r marchnadyddion ”
ar gyfer porth Miphcad, hyd ſtafell y ”
gongl. ”
32 A rhwng ſtafell y gongl a phorth y defaid ”
yr eurychod, a'r marchnadyddion a gyweiriaſant. ”

## PEN. IIII.

Rhai yn ceiſio rhwyſtro adailadaeth Ieruſalem, yr hon yr oedd yr Arglwydd yn ei llwyddo, 17 Yr Iddewon yn adailadu a'r naill law, ac yn dala eu harfau a'r llaw arall.

Pan glybu Sanebalat ein bod ni yn adailadu 'r mûr, yna efe a gynddeiriogodd ynddo, ac a lidiodd yn ddirfawr: ac a watwarodd yr Iddewon.

2 Ac efe a ddywedodd o flaen ei frodyr a llû Samaria, îe efe a dywedodd: beth y mae 'r Iddewon gweiniaid hyn yn ei wneuthur? a adewir iddynt hwy? a aberthant, a orphennant mewn diwrnod? a godant hwy y cerrig o'r tyrrau llwch, a hwynt wedi eu llosci?

3 A Thobia 'r Ammoniad[oedd]gyd ag ef: ac efe a ddywedodd, er eu bod hwynt yn adailadu,[etto] pe dele llwynog i fynu, efe a rwyge eu mûr cerric hwynt.

4 Gwrando[ni]ô ein Duw, canys yr ydym yn ddirmygus: dychwel hefyd eu gwradwydd ar eu pennau hwynt, a dod ti hwynt yn anrhaith yng-wlâd [eu]caethiwed.

5 Ac na orchguddia eu hanwiredd hwynt, ac na ddeleuer eu pechod hwynt o'th ŵydd di: canys digiaſant yr adailadwŷr.

6 Felly nyni a adailadaſom y mûr, a chyſannwyd yr holl fûr hyd ei hanner: ac yr oedd calon y bobl i weithio.

7 Ond pan glybu Sanebalat, a Thobia, a'r Arabiaid, yr Ammoniaid hefyd, a'r Aſdodiaid gwbl gyweirio muroedd Ieruſalem, a dechreu caeu yr adwyau: yna y llidiaſant yn ddirfawr.

8 A hwynt oll a fradfwriadaſant yng-hyd ddyfod i ymladd yn erbyn Ieruſalem: ac iw rhwyſtro

9 Yna y gweddiaſom ar ein Duw: ac y goſodaſom wiliadwriaeth yn eu herbyn hwynt ddydd a nôs rhag eu hofn hwynt.

10 Ac Iuda a ddywedodd, nerth y cludwŷr a wanhâodd, a phrîdd lawer [ſydd raid ei gael:] am hynny ni allwn ni adailadu'r mûr.

11 A'n gwrthwyneb-wŷr a ddywedaſent, ni chânt wybod, na gweled nes i ni ddyfod iw myſc hwynt, ai lladd hwynt: a rhwyſtro eu gwaith hwynt.

12 A phan ddaeth yr Iddewon y rhai oeddynt yn preſſwylio gyd a hwynt: dywedaſant wrthym ddeng-waith, [gochelwch] rhac yr holl leoedd [drwy]'r rhai y gallech ddychwelyd attom ni.

13 Am hynny mi a oſodais [rai] yn y lleoedd iſſaf o'r tu ôl i'r mûr [ac] yn yr amddeffynfeudd: yn ôl eu teuluoedd hefyd y goſodais y bobl ai cleddyfau [ai] gwaiw-ffyn, ac ai bwâu.

14 Yna'r edrychais, y cyfodais, ac y dywedais wrth y pendefigion, a'r ſwyddogion, ac wrth y rhan arall o'r bobl, nac ofnwch rhagddynt: cofiwch yr Arglwydd mawr ac ofnadwy, ac ymleddwch dros eich brodyr, eich meibion a'ch merched, eich gwragedd a'ch tai.

15 Pan glybu ein gelynnion fod [y peth] yn hyſpus i ni, yna Duw a ddiddymmodd eu cyngor hwynt: a ninneu oll a ddychwelaſom at y mûr bawb iw waith.

16 Ac o'r dydd hwnnw hanner fy llangciau oeddynt yn gweithio mewn gwaith, ai hanner hwynt oeddynt yn dal gwaiw-ffyn a tharianau, a bwâu, a llurigau: a'r tywyſogion [oeddynt] ar ôl pob vn o deuluoedd Iuda.

17 Y rhai oeddynt yn adailadu ar y mûr, ac yn cludo beichiau, [a'r] rhai oeddynt yn llwytho, oeddynt ag vn llaw yn gweithio mewn gwaith, ac a'r [llaw] arall yn dal y cleddyf.

18 Canys pob vn o'r adailad-wŷr oeddynt wedi gwregyſſu ei gleddyf ar ei glun, ac yn adailadu: a'r hwn oedd yn lleiſio mewn vdcorn [ydoedd] gyd a mi.

19 Yna y dywedais wrth y pendefigion, ac wrth y ſwyddogion, ac wrth y rhann arall o'r bobl, y gwaith ſydd fawr a helaeth: a nyni a waſcarwyd ar hyd y mûr ym mhell bob vn oddi wrth ei gilydd.

20 Yn y fann lle y clywoch ſain yr vdcorn yno ymgeſclwch attom: ein Duw ni a ymladd troſom.

21 Felly'r oeddem ni yn gweithio mewn gwaith: ai hanner hwynt yn dal gwaiw-ffyn o gyfodiad y wawr, hyd ddyfodiad y ſêr.

22 Dywedais hefyd y prŷd hynny wrth y bobl, lleteued pob vn ai langc yn Ieruſalem: fel y byddant i ni [mewn] gwiliadwriaeth y nôs, a'r dydd [mewn] gwaith.

23 Felly myfi a'm brodyr, a'm llangciau a'r gwil-wŷr y rhai [oeddynt] ar fy ôl, ni ddioſgaſom ein dillad: [eithr] pob vn a ymddioſcei i olchi.

## PEN. V.

Cwyn y bobl, a gwaharddiad Nehemias yn erbyn vſuriaeth.

AC yr oedd gweiddi mawr [gan] y bobl, ai gwragedd yn erbyn yr Iddewon eu brodyr.

2 Canys yr oedd rhai yn dywedyd, [glwyſtlo y mae] llawer o honom ni ein meibion, a'n merched i gymmeryd ŷd, fel y bwytaom, ac y byddom byw.

3 Yr oedd rhai hefyd yn dywedyd, ein meuſydd, ein gwin-llannoedd hefyd a'n tai yr ydym ni yn eu gwyſtlo: fel y prynom ŷd rhac newyn.

4 Ac yr oedd rhai [eraill] yn dywedyd, benthygiaſom arian i [dalu] treth y brenin: [gan wyſtlo] ein meuſydd a'n gwîn-llannoedd.

5 Ac yn awr ein cnawd ni [ſydd] fel cnawd ein brodyr, ein meibiō ni fel eu meibion hwynt: ac wele ni yn daroſtwng ein meibion a'n merched yn weiſion, ac y mae [rhai] o'n merched ni wedi eu caethiwo, ac heb fodd gennym [iw rhyddhau,] canys gan eraill [y mae] ein meuſydd, a'n gwin-llannoedd ni.

6 Yna y llidiais ynof yn ddirfawr: pan glywais eu gwaedd hwynt, a'r geiriau hyn.

7 Fyng-halon hefyd a feddyliodd ynof, a mi a ddwrdiais y pendefigion, a'r ſwyddogion, ac a ddywedais wrthynt, yr ydych chwi yn cymmeryd occreth bob vn gan ei gilydd: a rhoddais yn eu herbyn hwynt gynnulleidfa fawr.

8 Dywedais hefyd wrthynt, nyni a brynaſom ein brodyr yr Iddewon y rhai a werthaſid i'r cenhedloedd yn ôl ein gallu, ac a ydych chwithau yn gwerthu eich brodyr? neu a werthir hwynt i ni? yna y tawſant, ac ni chawſant air [i atteb.]

9 A mi a ddywedais nid da'r peth yr hwn yr ydych chwi yn ei wneuthur: oni ddylech chwi rodio mewn ofn ein Duw ni rhac gwradwydd y cenhedloedd ein gelynnion?

10 Myfi hefyd [a'm] brodyr, a'm llangciau ydym yn echwyno iddynt arian, ac ŷd: peidiwn attolwg a'r occreth ymma.

11 Rhoddwch attolwg iddynt heddyw eu meuſydd, eu gwin-llannoedd, ai oliwydd lannoedd, ai tai trachefn: a chanfed [rann] yr arian a'r ŷd, y gwîn, a'r olew, yr hon yr ydych chwi yn ei chymmeryd ganddynt.

12 Hwyntau a ddywedaſant, nyni ai rhoddwn trachefn, ac ni cheiſiwn ddim ganddynt, felly y gwnawn fel yr ydwyt yn llefaru: yna y gelwais yr offeiriaid [drwy 'r rhai] y tynghedais hwynt i wneuthur yn ôl y gair hwn.

13 A mi a eſcydwais fy mraich, ac a ddywedais, felly'r eſcydwo Duw bob gŵr yr hwn ni chwplâo y gair hwn oi dŷ, ac oi lafur, ac felly y byddo efe yn eſcydwedic, ac yn wâg: a'r holl

gynnulleidfa a ddywedaſant Amen, ac a foliannaſant yr Arglwydd, a'r bobl a wnaeth yn ôl y gair hwn.

14 Ac o'r dydd [yn] yr hwn y gorchymynnaſe ['r brenin] i mi fod yn dywyſog iddynt hwy yng-wlâd Iuda o'r vgainfed flwyddyn hyd y ddeuddecfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes y brenin [ſef] deuddeng mhlynedd, ni fwyteais i na'm brodyr fara y tywyſog.

15 Canys y tywyſogion cyntaf y rhai [a fuaſent] o'm blaen i a fuaſent drymmion ar y bobl, ac a gymmeraſent ganddynt am fara a gwîn wedi deugain ſicl o arian, eu llangciau hefyd a arglwyddiaethaſent ar y bobl: ond ni wneuthum i felly rhag ofn Duw.

16 Eithr myfi a gyweiriais [rann] yng-waith y mûr hwn, ac ni phrynaſom [vn] maes: fy holl langciau hefyd a ymgynnullaſant yno at y gwaith.

17 Ac [yr oedd] ar fy mwrdd i o Iddewon, ac o ſwyddogion ddeng-ŵr a ſaith vgain, a rhai yn dyfod attom ni o'r cenhedloedd y rhai [oeddynt] o'n hamgylch.

18 A'r hynn a arlwyid beunydd oedd vn ŷch, chwech o ddefaid etholedig, ac adar wedi eu paratoi i mi, a phob deng-nhiwrnod y rhoddid gwin i bawb yn ddiandlawd: ac er hyn ni cheiſiais fara y tywyſog, canys trwm oedd y gwaſanaeth hwnnw ar y bobl.

19 Coſia fi ô Arglwydd er llês [i mi: yn ôl] yr hyn oll a'r a wneuthum i'r bobl hyn ⁖

## PEN. VI.

Atteb Nehemias i'r gelynnion. 11 ac i'r gau brophwydi.

A Phan glybu Sanebalat, a Thobia, a Geſem yr Arabiaid a'r rhan arall o'n gelynnion adailadu o honofi y mûr, ac nad oedd adwy wedi ei gadel ynddo: (er na oſodaſwn i y pryd hynny y dorau ar y pyrth)

2 Yna'r anfonodd Sanebalat, a Geſem attaf gan ddywedyd, tyret, ac ymgyfarfyddwn yng-hyd yn [vn o'r] pentrefydd yng-lynn Ono: ac yr oeddynt hwy yn bwriadu gwneuthur niwed i mi.

3 Am hynny 'r anfonais gennadau attynt hwy gan ddywedyd, gwaith mawr yr ydwyfi yn ei wneuthur, o herwydd hynny ni allaf ddyfod i wared, rhac i'r gwaith beidio pan ymmadawn ag ef, a dyfod i wared attoch chwi.

4 Etto hwynt a anfonaſant attafi yn y wedd hon bedair gwaith, ac yn y modd hwnnw 'r attebais hwynt.

5 Yna Sanebalat a anfonodd ei wâs attafi y bummed waith yr vn ffunyd, a llythyr agored yn ei law.

6 Ynddo 'r oedd yn ſcrifennedic, Ym Myſc y cenhedloedd y clybywyd, a Geſem ſydd yn dywedyd, dy fod ti, a'r Iddewon, yn amcanu gwrthryfela, o herwydd hynny dy fod ti yn adailadu y mûr: ac y byddi yn frenin arnynt pan [ddarfyddo] y pethau hyn.

7 A'th fod tithe hefyd wedi goſod prophwydi i bregethu am danat ti yn Ieruſalem gan ddywedyd, [y mae] brenin yn Iuda, ac yn awr y fath ymadroddion a hyn a glyw y brenin: gan hynny tyret yn awr, ac ymgynghorwn yng-hyd.

8 Yna a'r anfonais atto gan ddywedyd, ni ddarfu yn ôl yr ymadroddion hyn y rhai 'r ydwyt ti yn eu dywedyd: canys o'th galon dy hun yr ydwyt yn eu dychymygu hwynt.

9 O blegit hwynt oll ydynt yn ceiſio ein hofni ni gan ddywedyd, eu dwylo hwynt a laeſant o'r gwaith fel na's gwneir ef: gan hynny cryfhâ yn awr [ô Dduw] fy nwylaw i.

10 A mi a ddaethum i dŷ Semaia mab Delaia, fab Mehetabel yr hwn oedd wedi caeu arno [yn ei dŷ:] ac efe a ddywedodd, cyfarfyddwn yn nhŷ Dduw yng-hanol y deml, a chaewn ddryſſau y deml, canys y maent yn dyfod i'th ladd di, a lliw nôs y deuant i'th ladd di.

11 Yna y dywedais, a ffŷ gŵr o'm mâth i ⁖ neu pwy [ſydd] fel myfi'r hwn a ele i'r deml fel y bydde byw ⁖ nid âf i mewn.

12 Ac wele gwybûm nad Duw ai hanfonaſe ef: onid llefaru o honaw ef y brophwydoliaeth hon yn fy erbyn i, canys Tobia, a Sanebalat ai cyflogaſent ef.

13 O herwydd hyn y cyflogaſid ef fel i'm hofnid i, ac y gwnawn felly, ac y pechwn: ac y bydde [hynny] ganddynt yn enllib [i'm herbyn] fel i'm gwradwyddent.

14 O fy Nuw coſia di Tobia, a Sanebalat yn ôl eu gweithredoedd hynny: a Noadia y brophwydes hefyd a'r rhan arall o'r prophwydi y rhai oeddynt yn fy nychrynnu i.

15 A'r mûr a orphennwyd ar y pummed [dydd] ar hugain o Elul, mewn deuddeng-nhiwrnod a deugain.

16 A phan glybu ein gelynnion ni [hynny,] yna'r holl genhedloedd y rhai [oeddynt] o'n hamgylch a ofnaſant, ac a lwfrhaſant yn ddirfawr ynddynt eu hun: canys gwybuant mai drwy ein Duw ni y gwnelſid y gwaith hwn.

17 Ac yn y dyddiau hyn pendefigion Iuda oeddynt yn mynych-ddanfon eu llythŷrau i fyned at Tobia: a'r rhai [oedd] eiddo Tobia oeddynt yn dyfod attynt hwythau.

18 Canys [yr oedd] llawer yn Iuda mewn cyngrair ag ef, o herwydd daw [oedd] efe i Secania fab Arah, ac Iehochanan ei fab ef a gymmeraſe ferch Meſulam fab Bereciah [yn wraig iddo.]

19 Ai gymmwynaſau ef y byddent hwy yn eu mynegu ger fy mron i, fyng-eiriau finne hefyd y byddent hwy yn eu hadrodd iddo yntef: [a] Thobia a anfonodd lythŷrau i'm dychrynnu i.

## PEN. VII.

Cadwriaeth pyrth Ieruſalem. 6 Niſer y rhai a ddychwelaſant o'r caethiwed.

Ac

Eccles.49.13.

AC wedi* adailadu y mûr, a chyfodi o honof y dorau: a chyfrif y porthorion, a'r cantocantorion, a'r Lefiaid:

2 Yna mi a orchymynnais i Hanani fy mrawd, ac i Hananiah tywyſog y palas yn Ieruſalem: canys efe [oedd] fel gŵr gwirion, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer.

3 A mi a ddywedais wrthynt, nac agorer pyrth Ieruſalem nes gwreſogi'r haul, a thra fyddant hwy yn ſefyll, caeant hwythau y dryſſau a chlohigant: a chan oſod [mi a oſodais] wiliadwriaethau [o] drigolion Ieruſalem, pob vn yn ei wiliadwriaeth, a phob vn ar gyfer ei dŷ ei hun.

4 A'r ddinas [oedd] ehang o leoedd, a mawr, ac ychydig o bobl ynddi: a'r tai [nid] oeddynt wedi eu hadailadu.

5 A'm Duw a roddodd yn fyng-halon gynnull o honof y pendefigion, y tywyſogion hefyd a'r bobl iw cyfrif yn ôl eu hachau: a mi a gefais * lyfr achau y rhai a ddaethent i fynu yn gyntaf, a chefais yn ſcrifennedic ynddo,

Eſdras.2.2.

6 Dymma feibion y dalaith y rhai a ddaethant i fynu o gaethiwed y gaeth-glud yr hon a gaeth-gludaſe Nabuchodonoſor brenin Babilon: y rhai a ddychwelaſant i Ieruſalem, ac i Iuda, pob vn iw ddinas ei hun.

7 Y rhai a ddaethant gyd a Zorobabel Ieſua, Nehemias, Azariah, Raamah, Nahamani, Mardoceus, Bilſan, Miſperech, Biguai, Nehũ, Baanah: [dymma] rifedi dynion pobl Iſrael.

8 Meibion Pharos [oeddynt] ddwy fil, cant, a deuddec a thrugain.

9 Meibion Sephatiah, try-chant, a deuddec a thrugain.

10 Meibion Arah, chwe chant, a deuddec a deugain.

11 Meibion tywyſog Moab, o feibion Ieſua ac Ioab: dwy fil, ac wyth gant, a thri ar bymthec.

12 Meibion Elam, mîl, dau cant, a phedwar ar ddec a deugain.

13 Meibion Zattu, wyth gant, a phump a deugain.

14 Meibion Zaccai, ſaith gant, a thri vgain.

15 Meibion Binnui, chwe chant, ac ŵyth a deugain.

16 Meibion Bebai, chwe chant, ac ŵyth ar hugain.

17 Meibion Azgad, dwy fil, try-chant, a dau ar hugain.

18 Meibion Adonicam, chwe chant, a ſaith a thri vgain.

19 Meibion Biguai, dwy fil, a ſaith a thrugain.

20 Meibion Adin, chwe chant, a phymthec a deugain.

21 Meibion Ater o Hizecia, tri ar bymthec a phedwar vgain.

22 Meibion Haſum try-chant, ac ŵyth ar hugain.

23 Meibion Bezai, try-chant, a phedwar ar hugain.

24 Meibion Hariph, cant, a deuddec.

25 Meibion Gibeon, pymthec a phedwar vgain.

26 Gwŷr Bethlehem, a Netopha, cant, wyth a phedwar vgain.

27 Gwŷr Anathoth, cant, ac wŷth ar hugain.

28 Gwŷr Bethazmaſeth, dau a deugain.

29 Gwŷr Ciriath Iearim, Cephirah, a Beroth: ſaith gant, a thri a deugain.

30 Gwŷr Ramah, a Gaba, chwe chant, ac vn ar hugain.

31 Gwŷr Micmas, cant, a dau ar hugain.

32 Gwŷr Beth-el, ac Ai, cant, a thri ar hugain.

33 Gwŷr Nebo arall, deuddec a deugain.

34 Meibion Elam arall, mil, dau cant, a phedwar ar ddêc a deugain.

35 Meibion Harim try-chant ac vgain.

36 Meibion Iericho, try-chant, a phump a deugain.

37 Meibion Lod Hadid, ac Ono, ſaith gant, ac vn ar hugain.

38 Meibion Senaah, tair mil, naw cant, a dêc ar hugain.

39 Yr offeiriaid: meibion Iedaiah o dŷ Ieſua, naw cant, a thri ar ddêc a thri vgain.

40 Meibion Immer, mil, a deuddec a deugain.

41 Meibion Phaſhur, mil, dau cant, a ſaith a deugain.

42 Meibion Harim, mil, a dau ar bymthec.

43 Y Lefiaid: meibion Ieſua, a Chadmiel o feibion Lehodeſa, pedwar ar ddêc a thrugain.

44 Y cantorion, meibion Aſaph, cant, ŵyth a deugain.

45 Y porthorion meibion Salum, meibion Ater, meibion Talmon, meibion Accub, meibion Hatita, meibion Sobai: cant, tri ar bymthec ar hugain.

46 Y Nethiniaid: meibion Ziha, meibion Haſupha, meibion Tabbaoth.

47 Meibion Ceros, meibion Sia, meibion Padon.

48 Meibion Lebana, meibion Hagaba, meibion Salmai.

49 Meibion Hanan, meibion Gedel, meibion Gahar.

50 Meibion Reaiah, meibion Rezin, meibion Necoda.

51 Meibion Gazam, meibion Vzza, meibion Paſeach.

52 Meibion Beſai, meibion Meunim, meibion Nephyſſim.

53 Meibion Bacbuc, meibion Hacupha, meibion Harhur.

54 Meibion Bazlith, meibion Mehida, meibion Harſha.

55 Meibion Barcos, meibion Siſera, meibion Thamah.

56 Meibion Neziah, meibion Hatipha.

57 Meibion gweiſion Salomon: meibion Sotai, meibion Sophereth, meibion Peridah.

58 Meibion Iahala, meibion Darcon, meibion Gidel.

59 Meibion Sephatiah, meibion Hatil, meibion Pocereth y Zebaimiaid, meibion Amon.

60 Yꝛ holl Nethiniaid, a meibion gweiſion Salomon [oeddynt] dꝛy chant, a deuddec a phedwar vgain.

61 A'r rhai hynn a ddaethant i fynu o Dalmelach, Talcharſia, Cerub, Adon, ac Immer: ond ni fedꝛent fynegu tŷ eu tadau, nai hiliogaeth, [neu] ai o Iſrael yꝛ oeddynt.

62 Meibion Delaiah, meibion Tobia, meibion Necoda: chwe chant, a dau a deugain.

63 Ac o'ꝛ offeiriaid, meibion Habaia, meibion Hacos, meibiō Barzilai, yꝛ hwn a gymmerth [vn] o ferched Barzilai y Gileadiad yn wꝛaig, ac a alwyd ar eu henw hwynt.

64 Y rhai hyn a geiſiaſant eu ſcrifen i ddwyn eu hachau, ond nis cafwyd: am hynny y didolwyd hwynt o'ꝛ offeiriadaeth.

65 Yna Hathirſatha a ddywedodd wꝛthynt am na fwytaent o'ꝛ cyſſegr ſancteiddiolaf: nes ſefyll o'ꝛ offeiriad mewn *Urim a Thummim.

Exod.28.30.

66 Yꝛ holl gynnulleidfa yng-hyd [oedd] bedair myꝛddiwn, dwy fil, try-chant, a thꝛi vgain.

67 Heb law eu gweiſion hwynt ai moꝛwyniō, y rhai hynny [oeddynt] ſaith mil, try-chant, a dau ar bymthec ar hugain: a chanddynt hwy [yꝛ oedd] dau cant, a phump a deugain o gantoꝛion, ac o gantoꝛeſau.

68 Eu meirch hwynt [oeddynt] ſaith gant, ac vn ar bymthec ar hugain, ai mûlod yn ddau cant, a phump a deugain.

69 Y camêlod [oeddynt] bedwar cant, a phymthec ar hugain: yꝛ aſſynnod [oeddynt] chwe mil, ſaith gant, ac vgain.

70 A rhai o'ꝛ tadau pennaf a roddaſant tu ag at y gwaith: Hathirſatha a roddodd i'r tryſſoꝛ fil o ddꝛacmonau aur, dêc a deugain o phiolau, pum cant, a dêc ar hugain o beiſiau offeiriaid.

71 A [rhai] o'ꝛ tadau pennaf a roddaſant i dꝛyſſoꝛ y gwaith vgain mil o ddꝛacmonau aur: a dwy fil, a deu cant o bunnau o arian.

72 A'r hyn a roddodd y rhann arall o'ꝛ bobl [oedd] vgain mil o ddꝛacmonau aur, a dwy fil o bunnau yn arian: a ſaith a thꝛugain o beiſiau offeiriaid.

73 A'r offeiriaid, a'r Lefiaid, y poꝛthoꝛion hefyd, a'r cantoꝛion a'r [rhan arall] o'ꝛ bobl, a'r Nethiniaid, a holl Iſrael a drigaſant yn eu dinaſoedd: pan ddigwyddodd y ſeithfed mîs, yna meibion Iſrael [oeddynt] yn eu dinaſoedd.

## PEN. VIII.

Eſdras yn darllen y gyfraith i'r bobl.

A'R holl bobl a ymgaſclaſant o vn-fryd i'r heol yꝛ hon [oedd] o flaen poꝛth y dwfr: a dywedaſant wꝛth * Eſdꝛas yꝛ ſcrifennudd am ddwyn llyfr cyfraith Moſes, yꝛ hon a oꝛchymynnaſe 'r Arglwydd i Iſrael.

Eſdras.7.5.

2 Yna Eſdꝛas yꝛ offeiriad a ddûg y gyfraith o flaen y gynnulleidfa yn wŷꝛ, ac yn wꝛagedd, a phawb a'r a oedd yn medꝛu gwꝛando yn ddeallus, ar y dydd cyntaf o'ꝛ ſeithfed mîs.

3 Ac efe a ddarlenodd ynddo ar wyneb yꝛ heol (yꝛ hon [oedd] o flaen poꝛth y dwfr) o'ꝛ boꝛau hyd hanner dydd ger bꝛon y gwŷꝛ, a'r gwꝛagedd, a'r rhai oeddynt yn ddeall: a chluſtiau 'r holl bobl [oeddynt yn gwꝛando] ar lyfr y gyfraith.

4 Ac Eſdꝛas yꝛ ſcrifennudd a ſafodd ar bulpyd o goed yꝛ hwn a wnelſid i'r peth [hynn,] a chyd ag ef y ſafodd Mattithia, a Semaa, ac Anania, ac Uria, Helcia hefyd, a Maaſeiah ar ei law ddehau ef: a Phedaiah, a Miſael, a Malciah, a Haium, Haſbadana hefyd, Zecariah, [a] Meſulam ar ei law aſſwy ef.

5 Yna Eſdꝛas a agoꝛodd y llyfr yng-ŵydd yꝛ holl bobl, canys yꝛ oedd efe oddi ar yꝛ holl bobl: a phan yꝛ agoꝛodd, yꝛ holl bobl a ſafaſant.

6 Ac Eſdꝛas a fendithiodd yꝛ Arglwydd y Duw mawꝛ: a'r holl bobl a attebaſant Amen, Amen, gan dderchafu eu dwylo, a hwynt a ymgrymmaſant, ac a addolaſant yꝛ Arglwydd [ai] hwynebau [tua] 'r ddaiar.

7 Ieſua hefyd, a Bani, a Serebiah, Iamin, Accub, Sabbethai, Hodiiah Maaſeiah, Celita, Azariah, Iozabad, Hanan, Pelaiah, a'r Lefiaid oeddynt yn dyſcu y gyfraith i'r bobl, a'r bobl yn eu ſefyll.

8 A hwynt a ddarllenaſant yn eglur yn llyfr cyfraith Dduw: gan oſod [allan] y ſynnwyꝛ fel y deallent wꝛth ddarllen.

9 Yna Nehemias efe [yw] Hathirſatha, ac Eſdꝛas yꝛ offeiriad [a'r] ſcrifennudd, a'r Lefiaid y rhai oeddynt yn dyſcu 'r bobl a ddywedaſant wꝛth yꝛ holl bobl, heddyw ſydd ſanctaidd i'r Arglwydd eich Duw, na alêrwch, ac na ŵylwch: canys yꝛ holl bobl oeddynt yn ŵylo pan glywſant eiriau y gyfraith.

10 Ac efe a ddywedodd wꝛthynt, ewch, bŵytewch y bꝛeiſion, ac yfwch y melyſion, ac anfonwch rannau i'r hwn nid [oes] ganddo [ddim] yn barod, canys heddyw [ſydd] ſanctaidd i'n Harglwydd: am hynny na thꝛiſtewch, canys llawenydd yꝛ Arglwydd yw ein nerth ni.

11 A'r Lefiaid a oſtegaſant yꝛ holl bobl gan ddywedyd, tewch, canys heddyw ſydd ſanctaidd: am hynny na thꝛiſtêwch.

12 Yna 'r holl bobl a aethant i fwytta, ac i yfed, ac i anfon ymmaith rannau, ac i wneuthur llawenydd mawꝛ: canys deallaſent y geiriau y rhai a ddyſcaſent hwy iddynt.

13 A'r ail dydd tadau pennaf yꝛ holl bobl, yꝛ offeiriaid, a'r Lefiaid a ymgynnullaſant at Eſdꝛas yꝛ ſcrifennudd, i'w dyſcu yng-eiriau y gyfraith.

14 A hwynt a gawſant yn ſcrifennedic yn y

Lefit.23.42. gyfraith, (yr hon a orchymynnaſe 'r Arglwydd drwy law Moſes) y dyle meibion Iſrael* drigo mewn bythod ar yr wyl yn y ſeithfed mis.

15 Ac y dylent gyhoeddi, a gyrru gair trwy eu holl ddinaſoedd, a thrwy Ieruſalem gan ddywedyd, ewch i'r mynydd, a dygwch ganghennau oliwŷdd, a changau pîn-wŷdd, a changau y myrt-wŷdd, a changau y palm-wŷdd a changhennau o'r prennau caead-frig, i wneuthur bythod fel y mae yn ſcrifennedic.

16 Felly y bobl a aethant allan, ac a ddugaſant, ac a wnaethant iddynt fythod bob vn ar ei nenn, ac yn eu cynteddoedd, ac yng-hynteddoedd tŷ Dduw: ac yn heol porth y dwfr, ac yn heol porth Ephraim.

17 A'r holl gynnulleidfa y rhai a ddychwelaſent o'r caethiwed a wnaethant fythod, a thrigaſant yn y bythod, canys er dyddiau Ioſuah fab Nun hyd y dydd hwnnw ni wnaethe meibion Iſrael felly: ac yr oedd llawenydd mawr iawn.

18 Ac [Eſdras] a ddarllenodd yn llyfr cyfraith Duw beunydd o'r dydd cyntaf hyd y dydd diweddaf: a hwynt a gynhaliaſant yr ŵyl ſaith niwrnod, ac ar yr ŵythfed dydd [y bu] gymmanfa yn ôl y ddefod.

## PEN. IX.

Y bobl yn edifarhau, ac yn gadel eu gwragedd anghredadwy. 5 A'r Lefiaid yn eu hannog hwynt i foli Duw.

3.Eſd.9.4. AC ar y pedwerydd dydd ar hugain o'r mis hwn meibion Iſrael a ymgynnullaſant* mewn ympryd, ac mewn ſach-liain, a phridd arnaddynt.

2 A phlant Iſrael a ymnailltuaſant oddiwrth bob dieithriaid, ſafaſant hefyd, a chyffeſſaſant eu pechodau, ac anwireddau eu tadau.

3 A chodaſant yn eu ſefyll, a'r [Lefiaid] a ddarllenaſant yn llyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw bedair gwaith yn y dydd: a phedair gwaith yr ymgyffeſſaſant, ac yr ymgrymmaſant i'r Arglwydd eu Duw.

4 Yna y ſafodd ym mhulpud y Lefiaid Ieſua, a Bani, Cadmiel, Sebaniah, Buni, Serebiah, Bani, [a] Chenani: a gwaeddaſant a llef vchel ar yr Arglwydd eu Duw.

5 A'r Lefiaid a ddywedaſant ([ſef] Ieſua a Chadmiel, Bani, Haſabneiah, Serebiah, Hodiah, Sebaniah, Pethahia) cyfodwch, bendithiwch yr Arglwydd eich Duw o dragywyddoldeb hyd dragywyddolbed: a bendithiant dy enw gogoneddus a derchafedic goruwch bob bendith a moliant.

6 Ti yn vnic wyt Arglwydd, ti a wnaethoſt y nefoedd, [a] nefoedd y nefoedd, ai holl luoedd hwynt, y ddaiar a'r hyn oll [ſydd] arni, y moroedd a'r hyn oll [ſydd] ynddynt, a thi ſydd yn eu bywhâu hwynt oll, a lluoedd y nefoedd ydynt yn ymgrymmu i ti.

7 Ti yw 'r Arglwydd Dduw 'r hwn a ddetholaiſt Abram, ac ai dygaiſt ef allan o * Vr y Caldeaid: ac a oſodaiſt ei enw ef yn * Abraham. Gen.11.31. Gen.17.5.

8 A chefaiſt ei galon ef yn ffyddlawn ger dy fron di, ac a * wnaethoſt gyfammod ag ef ar roddi yn ddiau iw hâd ef wlâd y Canaaneaid, yr Heſiaid, yr Amoriaid, a'r Pheriziaid, y Iebuſiaid hefyd a'r Gergaſiaid: ac a gwplaiſt dy eiriau, o herwydd cyfiawn wyt. Gen.15.18.

9 * Gwelaiſt hefyd gyſtudd ein tadau yn yr Aipht: a thi a wrandewaiſt eu gwaedd hwynt wrth y môr côch. Exod.3.7.& 14.10.

10 A thi a roddaiſt arwyddion, a rhyfeddodau yn erbyn Pharao, ac yn erbyn ei holl weiſion, ac yn erbyn holl bobl ei wlad ef, canys gŵybuoſt i'r rhai hyn falchio yn eu herbyn hwynt: a gwnaethoſt it enw fel [y gwelir] y dydd hwn.

11 Y * môr hefyd a holltaiſt oi blaen hwynt, fel y treiddiaſant drwy ganol y môr ar hyd ſych-dir: ai herlidwŷr hwynt a fwriaiſt i'r gwaelod fel maen i ddyfroedd cryfion: Exod.14.22.

12 Ac ai * harweiniaiſt hwy liw dydd mewn colofn niwl: a lliw nôs mewn colofn dân, i oleuo iddynt hwy y ffordd yr hon yr oeddynt yn myned rhyd-ddi. Exod.13.21.

13 Yna ti a * ddeſcynnaiſt ar fynydd Sinai, ac a ymddiddenaiſt a hwynt o'r nefoedd: rhoddaiſt hefyd iddynt farnedigaethau iniawn, a chyfreithiau gwirion, deddfau a gorchymynnion daionus. Exod.20.1. Exod.19.18.

14 A'th Sabboth ſanctaidd a hyſpyſaiſt iddynt: gorchymynnion hefyd, a deddfau, a chyfraith a orchymynnaiſt iddynt drwy law Moſes dy wâs.

15 * Bara hefyd o'r nefoedd a roddaiſt iddynt yn eu newyn; a dwfr o'r graig a dynnaiſt iddynt yn eu ſyched: a thi * a ddywedaiſt wrthynt, y deuent i etifeddiaethu y wlâd yr hon a dyngaiſt ar [ei] rhoddi iddynt. Exod.16.15. Exod.17.6. Deut.1.8.

16 Ond hwynt hwy a'n tadau ni a falchiaſant: ac a galedâſant eu gwarrau, ac ni wrandawſant ar dy orchymynnion di.

17 Eithr gwrthodaſant wrando, ac ni choffiaſant dy ryfeddodau, y rhai a wnelſit ti erddynt, caledaſant hefyd eu gwarrau, a goſodaſant [eu] pennau i ddychwelyd iw caethiwed drwy eu cyndynrwydd eu hun: etto ti Dduw y maddeuaint [ydwyt] râſ-lawn, a thrugarawg, hwyrfrydic i ddigter, ac aml o drugaredd, yr hwn ni wrthodaiſt hwynt.

18 Hefyd pan wnaethant iddynt lô toddedic, a dywedyd, dymma dy Dduw di 'r hwn a'th ddûg di i fynu o'r Aipht: a gwneuthur dirmyg mawr [arnat,]

19 Er hynny er mwyn dy aml doſturiaethau ni adewaiſt ti hwynt yn yr anialwch: * y golofn niwl ni chiliodd oddi wrthynt Exod.13.21. Num.14.14. 1.Cor.10.1.

hwy drwy'r dydd iw harwain hwynt ar hyd y ffordd, na'r golofn dân drwy'r nos i oleuo iddynt hwy'r ffordd yr hon a gerddent ar hyddi.

10 Dy yſpryd dâ hefyd a roddaiſt i beri iddynt ddeall: ac ni orafunaiſt dy Manna rhag eu genau, dwfr hefyd a roddaiſt iddynt yn eu ſyched.

Deut.8.4.

21 Felly deugain mhlynedd y porthaiſt hwynt yn yr anialwch heb fod arnynt eiſieu [dim:]* eu gwiſcoedd ni heneiddiaſant, ai traed ni chwyddaſant.

Num.21.16.

22 A thi a roddaiſt iddynt frenhiniaethau, a phobloedd, y rhai a waſceraiſt i gonglau: canys hwynt a oreſcynnaſant *wlâd Sehon, ſef gwlâd brenin Heſbon, a gwlâd Og brenin Baſan.

23 Lluoſogaiſt hefyd eu meibion hwynt fel ſêr y nefoedd: ac ai harweiniaiſt hwynt i'r wlâd yr hon a ddywedaſit wrth eu tadau y deuent iw meddiannu.

24 Felly y meibion a ddaethant, ac a feddiannaſant y wlâd, a thi a ddaroſtyngaiſt drigolion gwlâd y Canaaneaid oi blaen hwynt, ac ai rhoddaiſt yn eu llaw hwynt: eu brenhinoedd hefyd, a phobloedd y wlâd fel y gwnaent iddynt yn ôl eu hewyllys.

25 A hwynt a ennillaſant ddinaſoedd caerog, a daiar frâs, ac a oreſcynnaſant dai llawn o bob daioni, pydewau cloddiedic, gwin-llannoedd, ac oliwydd-lannoedd, a choed ffrwythlawn yn aml: a hwynt a fwytawſant fel y digonwyd hwynt, ac y braſſauwyd hwynt, ac yr ymhyfrydaſant hwy yn dy fawr ddaioni di.

26 Etto hwynt a annufyddhaſant, ac a wrthryfelaſant yn dy erbyn, taflaſant hefyd dy gyfraith o'r tu ôl iw cefn, a'th brophwydi a laddaſant, y rhai a deſtiolaethaſent wrthynt, am iddynt ddychwelyd attat: felly y gwnaethant ddirmyg mawr [arnat.]

27 Am hynny ti ai rhoddaiſt hwynt yn llaw eu gorthrym-wŷr, y rhai ai cyſtuddiaſant: yna yn amſer eu cyfyngdra y gwaeddaſant arnat, a thi ai gwrandewaiſt [hwynt] o'r nefoedd, ac yn ôl dy aml doſturiaethau rhoddaiſt iddynt achub-wŷr y rhai ai hachubaſant o law eu gwrthwyneb-wŷr.

28 Ond pan lonyddodd arnynt, dychwelaſant i wneuthur drygioni yn dy wŷdd di: am hynny y gadewaiſt hwynt yn llaw eu gelynnion y rhai a arglwyddiaethaſant arnynt, yna y dychwelaſant, ac y gwaeddaſant arnat, a thithe o'r nefoedd a wrandewaiſt, ac ai gwaredaiſt hwynt yn ôl dy doſturiaethau lawer o amſeroedd.

Leuit.18.5.
Ezec.20.11.
Rom.10.5.
Galat.3.12.

29 A thi a deſtiolaethaiſt wrthynt am iddynt ddychwelyd at dy gyfraith, ond hwynt a falchiaſant, ac ni wrandawſant ar dy orchymynnion, eithr pechâſant yn erbyn dy farnedigaethau, (y rhai [os] gwnaiff dyn [hwynt,] * efe fydd byw yndynt) a rhoddaſant yſcwydd ar gilio, caledaſant hefyd eu gwarrau, ac ni wrandawſant.

30 Er hynny ti a oedaiſt a hwynt flynyddoedd lawer, ac a deſtiolaethaiſt wrthynt a'th yſpryd drwy law dy brophwydi, ond ni wrandawſant: am hynny y rhoddaiſt hwynt yn llaw pobloedd y gwledydd.

31 Etto er mwyn dy fawr drugareddau di ni wnaethoſt hwynt yn ddarfodedigaeth, ac ni wrthodaiſt mo honynt: canys Duw grâſlawn, a thrugarog ydwyt.

Exod.34.6.
Pſal.143.2.

32 Ac yn awr ô ein Duw ni, y Duw *mawr, cadarn, ac ofnadwy, yr hwn [wyt] yn cadw y cyfammod * a'r drugaredd, na fydded bychan o'th flaen di yr holl flinder yr hwn a ddigwyddodd i ni, i'n brenhinoedd, i'n tywyſogion, ac i'n hoffeiriaid, i'n prophwydi hefyd, ac i'n tadau, ac i'th holl bobl, er dyddiau brenhinoedd Aſſyria hyd y dydd hwn.

33 Tithe [ydwyt] gyfiawn yn yr hynn oll a ddigwyddodd i ni: canys gwirionedd a wnaethoſt ti, a ninneu a wnaethom yn anuwiol.

34 Ein brenhinoedd hefyd, ein tywyſogion, ein hoffeiriaid, a'n tadau ni wnaethant dy gyfraith: ac nid edrychaſant am dy orchymynnion, na'th deſtiolaethau, y rhai a deſtiolaethaiſt wrthynt.

35 A hwynt ni'th waſanaethaſant yn eu brenhiniaeth, nac yn dy aml ddaioni yr hwn a roddaiſt iddynt, nac yn y wlâd ehang, a brâs, yr hon a oſodaiſt oi blaen hwynt: ac ni ddychwelaſant oddi wrth eu drwg weithredoedd.

36 Wele ni heddyw yn weiſion: ie [yn] y wlâd yr hon a roddaiſt i'n tadau ni i fwytta eu ffrwyth, ai daioni, wele ni yn weiſion ynddi.

37 A mawr yw eithorech hi i'r brenhinoedd y rhai a oſodaiſt arnom ni, am ein pechodau: ac arglwyddiaethu y maent ar ein cyrph, ac ar ein hanifeiliaid yn ôl eu hewyllys, ac yr ydym mewn cyfyngdra.

38 Ac o herwydd hyn oll yr ydym yn gwneuthur cyfammod yn ffyddlon, ac yn [ei] ſcrifennu, ac wrth ſêl hwnnw [y mae henwau] ein tywyſogion, ein Lefiaid, a'n hoffeiriaid.

## PEN. X.

Henwau y rhai a ſeliaſant y cyfammodd rhwng Duw a'r bobl.

AC ym myſc y rhai ſeliedic [yr oedd:] Nehemias Hachirſatha mab Hacalia a Zidciah.
2 Seraiah, Azaria, Jeremia.
3 Paſhur, Amaria, Malaciah.
4 Hattus, Sebania, Maluc.
5 Harim, Meremoth, Obadia.
6 Daniel, Ginnethon, Baruc.
7 Meſulam, Abia, Miiamin.
8 Maazia, Bilgai, Semaia: dymma'r offeiriaid.
9 A'r Lefiaid: Jeſua mab Azania, Binnui, o feibion Hanadad Cadmiel.

“ 10 Ai brodyr hwynt : Sebania, Hodiiah
“ Celita,Pelaia,Hanan.
“ 11 Micha,Rehob,Haſabiah.
“ 12 Zaccur,Serebiah,Sebania.
“ 13 Hodiah,Bani,Beninu.
“ 14 Pennaethiaid y bobl Paros, tywyſog
“ Moab,Elam,Zathur Bani.
“ 15 Bunni,Azgad,Bebai.
“ 16 Adonia,Bigua,Adin.
“ 17 Ater,Hizciah,Azzur.
“ 18 Hodia,Haſum,Bezai.
“ 19 Hariph,Anathoth,Nebai.
“ 20 Magpias,Meſulam,Hezir.
“ 31 Meſezabel,Zadoc,Iadua.
“ 22 Pelatia,Hanan,Ananiah.
“ 23 Hoſea,Hananiah,Haſſub.
“ 24 Halohes,Pilha,Sobec.
“ 25 Rehum,Haſabna,Maaſeiah.
“ 26 Achia hefyd,Chanan,Anan.
“ 27 Maluc,Harim,Baanah.

28 A'r rhann arall o'r bobl, yr offeiriaid, y Leſiaid,y porthorion,y cantorion,y Nethiniaid, a phawb a'r a oedd naillduedic oddi wrth bobl y gwledydd at gyfraith Dduw,eu gwragedd hwynt,eu meibion, ai merched:pawb a'r a oedd yn medru deall.

29 Eu pennaethiaid ai cadarnhauſant [ef] tros eu brodyr, ac a ddaethant mewn rhaith a llŵ ar rodio yng-hyfraith Dduw,yr hon a roddaſid drwy law Moſes gwâs Duw:ar gadw hefyd,ac ar wneuthur holl orchymynnion yr Arglwydd ein Duw ni,ai farnedigaethau,ai ddeddfau.

30 Ac ar na roddem ein merched i bobloedd y wlâd hon : ac na chymmerem eu merched hwynt i'n meibion ni.

31 Ac [o bydde] pobl y tîr yn dwyn marchnadoedd,neu ddim llynniaeth ar y ddydd Sabboth iw werthu,na chymmerem [ddim]ganddynt ar y Sabboth, neu ar y dydd ſanctaidd : ac * y gadawem hebio [laſurio] y ſeithfed flwyddyn, ac [y maddeuem]ddyled pob dyn. Lefit 25.4. Deut.15.1.

32 A ni a oſodaſom arnom orchymynnion ar i ni roddi traian ſicl yn y flwyddyn tu ag at waith tŷ ein Duw ni,

33 A thu ag at y bara goſod a'r offrwm oeſtadol, a thu ag at y poeth offrwm oeſtadol, y Sabbothau, y newydd loerau,tu ag at y gŵyliau arbennic, a thu ag at y cyſſegredic bethau, a thu ag at y pech-ebyrth i wneuthur iawn tros Iſrael : [a thu ag at] holl waith tŷ ein Duw.

34 Ac ni a fwriaſom goel-brennau yr offeiriaid,y Leſiaid,a'r bobl am goed yr offrwm, fel y dygent [hwynt] i dŷ ein Duw ni dros dŷlwyth ein tadau ni, ar amſerau nodedic o flwyddyn i flwyddyn : iw lloſci ar allor yr Arglwydd ein Duw,fel y mae'n ſcrifennedic yn y gyfraith.

35 Ac i ddwyn blaen-ffrwyth ein gwlad ni,a blaen-ffrwyth o bob ffrwyth,o bob prenn o flwyddyn i flwyddyn i dŷ 'r Arglwydd.

36 A'r rhai cyntaf-anedic o'n meibion ni,ac o'n hanifeiliaid fel y mae yn ſcrifennedic yn y gyfraith : a chyntaf-anedigion ein gwartheg, a'n defaid iw dwyn i dŷ ein Duw ni at yr offeiriaid, y rhai ydynt yn gwaſanaethu yn nhŷ ein Duw ni.

37 A blaenion ein toes ni, a'n hoffrwm derchafel,a ffrwyth bob prenn, gŵin, ac olew a ddygem at yr offeiriaid i gelloedd tŷ ein Duw ni, a degwm ein tir i'r Leſiaid : fel y caffe y Leſiaid hwythau ddegwm drwy holl ddinaſoedd ein gorchwyliaeth ni.

38 A bydded yr offeiriad mab Aaron gyd a'r Leiſiaid pan fyddo y Leſiaid yn degymmu : a dyged y Leſiaid i fynu ddecfed rann y degwm i dŷ ein Duw ni,i'r celloedd yn y treſſor-dŷ.

39 Canys meibion Iſrael, a meibion Lefi a ddygant offrwm yr ŷd, y gwîn, a'r olew i'r ſtafelloedd,ac yno [y bydd] llestri y cyſſegr, a'r offeiriaid y rhai ydynt yn gweini, y porthorion hefyd, a'r cantorion : ac nac ymadawn a thŷ ein Duw ni.

## PEN. XI.

Y modd yr ymrannodd yr Iddewon i aros mwen amryw drefydd yn Iuda.

A Thywyſogion y bobl a drigaſant yn Ieruſalem : a'r rhann arall o'r bobl a fwriaſant goel-brennau i ddwyn un o'r dêc i drigo yn Ieruſalem y ddinas ſanctaidd, a naw rhann [i fod] yn y dinaſoedd.

2 A'r bobl a fendithiaſant yr holl wŷr y rhai a ymroddaſent yn ewyllyſcar i breſſwylio yn Ieruſalem.

3 Ac dymma bennaethiaid y dalaith y rhai a drigaſant yn Ieruſalem : ac yn [eraill] o ddinaſoedd Iuda, pawb a drigaſant yn eu meddiânt eu hun o fewn eu dinaſoedd,[yr]Iſraeliaid, yr offeiriaid, a'r Leſiaid, y Nethiniaid hefyd, a * meibion gweiſion Salomon. 1.Bren.9.21.

4 A[rhai]o feibion Iuda, ac o feibion Beniamin a drigaſant yn Ieruſalem : o feibion Iuda, Athaiah mab Uzzia, fab Zecariah,fab Amaria, fab Sephatia, fab Mahaleel o feibion Pharez.

5 Maaſeiah hefyd mab Baruc, fab Colhozeh,fab Hazaiah,fab Adaiah,fab Ioiarib,fab Zechariäh,fab Siloni.

5 Holl feibion Pherez y rhai oeddynt yn trigo yn Ieruſalem [oeddynt] bedwar cant, ac ŵyth a thri ugain o wŷr nerthol.

7 Ac dymma feibion Beniamin, Salu mab Meſulam, fab Ioed, fab Pedaia, fab Colaiah, fab Maaſeiah,fab Ithiel,fab Eſay.

8 Ac ar ei ôl ef Gabbai,Salai : naw cant,ac ŵyth ar hugain.

9 Ac Ioel mab Zichri [oedd] ſwyddog arnynt hwy : ac Iuda mab Senua yn ail ar y ddinas.

10 O'r offeiriaid Iedaiah mab Ioiarib, Iacin.

11 Seraiah mab Helciah,fab Meſulam,fab

Zadoc, fab Meraioth, fab Ahitub blaenor tŷ Dduw.

12 Ai brodyr y rhai oeddynt yn gweithio y gwaith yn y tŷ [oeddynt] ŵyth gant, a dau ar hugain: ac Adaiah mab Jeroham fab Pelaliah, fab Amſi, fab Zechariah, fab Paſhur, fab Malciah.

13 Ai brodyr hwynt pennaethiaid [tylwyth eu] tadau, dau cant, a dau a deugain: ac Amaſſai mab Azareel, fab Ahazai, fab Meſilemoth, fab Jmmer.

14 Ai brodyr hwynt yn gedyrn o nerth [oeddynt] gant, ac ŵyth ar hugain: a Zabdiel mab Gedolim yn ſwyddog arnynt.

15 Ac o'r Lefiaid: Semaiah mab Haſſub, fab Azricam, fab Haſabiah, fab Buni.

16 Sabbethai hefyd, ac Jozabad o bennaethiaid y Lefiaid [oeddynt oruchaf] ar y gwaith o'r tu allan i dŷ Dduw.

17 Mattaniah hefyd mab Micha, fab Zabdi, fab Aſaph bennadur yr hwn yn gyntaf a foliannе['r Arglwydd] drwy weddi, a Bacbuciah yn ail oi frodyr: ac Abda mab Samua, fab Galal, fab Jeduthun.

18 Yr holl Lefiaid yn y ddinas ſanctaidd [oeddynt] ddau cant, a phedwar, a phedwar vgain.

19 A'r porthorion, Accub, Talmon ai brodyr y rhai oeddynt yn cadw y pyrth, [oeddynt] gant, [a] deuddec a thrugain.

20 A'r rhann arall o Jſrael, o'r offeiriaid, [ac] o'r Lefiaid [a drigaſant] yn holl ddinaſoedd Juda, pob vn yn ei etifeddiaeth.

21 A'r Nethiniaid oeddynt yn aros yn y tŵr, ac [yn] Ziha, a Giſpah [oedd oruchaf] ar y Nethiniaid.

22 A ſwyddog y Lefiaid yn Jeruſalē [oedd] Uzzi mab Bani, fab Haſabia fab Mattaniah fab Micha: o feibion Aſaph y cantorion [oeddynt] ar gyfer gwaith tŷ Dduw.

23 Canys gorchymyn y brenin am danynt hwy [oedd fod ordinhâd] ſafadwy i'r cantorion, dogn dydd yn ei ddydd.

24 A Phethahiah mab Meſezabel o feibion Zerah fab Juda [oedd] wrth law 'r brenin ym mhob peth [a berthyne] i'r bobl.

25 Ac yn y trefydd, yn eu meuſydd: [rhai] o feibion Juda a drigaſant yng-haer Arba ai phentrefydd, ac yn Dibon, ai phentrefydd, ac yn Jecabzel ai threfydd.

26 Ac yn Jeſua, ac ym Molada, ac yn Beth-palet.

27 Ac yn Hazar Sual, ac yn Berſeeba ai phentrefydd.

28 Ac yn Ziclag, ac ym Mecona, ac yn ei phentrefydd.

29 Ac yn Enrimmon, ac yn Zorah, ac yn Jarmuth.

30. Zanoah, Adulam ai trefydd, Lachis ai meuſydd, Azecah ai phentrefydd: a hwynt a wladychaſant o Beerſeba hyd ddyffryn Hinnō.

31 A meibion Beniamin o Geba, [yn] Micmas, ac Aia, a Beth-el ai phentrefydd.

32 Anathoth, Nob, Anania.

33 Hazor, Ramah, Gittaim.

34 Hadid, Zeboim, Nebalat.

35 Lod, ac Ono yng-lynn y ſeiri.

36 Ac o feibion y Lefiaid [yr oedd] rhannau [yn] Juda, [ac] yn Beniamin.

## PEN. XII.

Yr offeiriaid a'r Lefiaid y rhai a ddaethant gyd a Zorobabel.

Dymma hefyd yr offeiriaid a'r Lefiaid y rhai a ddaethant i fynu gyd a Zorobabel mab Salathiel, ac Jeſua: [ſef] Seraiah, Jeremia, Eſdras.

2 Amaria, Maluc, Hattus.

3 Secania, Rehum, Meremoth.

4 Jddo, Ginnethon, Abiiah.

5 Miiamin, Maadia, Bilga.

6 Semaiah, ac Joiarib, Jedaiah.

7 Salu, Amoc, Helcia, [ac] Jedaiah: dymma bennaethiaid yr offeiriaid ai brodyr hwynt yn nyddiau Jeſua.

8 A'r Lefiaid: Jeſua, Binnui, Cadmiel Serebiah, Juda, Mattania [oedd] ar y gerdd efe ai frodyr.

9 Bacbucia hefyd, ac Unni, eu brodyr hwynt ar eu cyfer yn y gwiliadwriaethau.

10 Ac Jeſua a genhedlodd Joiacim: ac Joiacim a genhedlodd Eliaſib, ac Eliaſib a genhedlodd Joiada.

11. Ac Joiada a genhedlodd Jonathan, ac Jonathan genhedlodd Jadua.

12 Ac yn nyddiau Joiacim, yr offeiriaid [hyn] oeddynt bennau cenedl: o Seraiah [yr oedd] Meraiah, o Jeremia, Hanania.

13 O Eſdras Meſulam, o Amariah Jehohanan.

14 O Melicu Jonathan, o Sebaniah Joſeph.

15 O Harim Adna, o Meraioth Helcai.

16 O Jddo Zechariah, o Ginnethon Meſulam.

17 O Abiiah Zichri: o Miniamina Moadiah Piltai.

18 O Bilga Samua, o Semaiah Jonathā.

19 Ac o Joiarib Mattenai, o Jedaia Uzzi.

20 O Salai Calai, o Amoc Eber.

21 O Helciah Haſabeiah, o Jedaiah Nathanel.

22 Y Lefiaid yn nyddiau Eliaſib, Joiada, ac Johanan, ac Jaduah [oeddynt] wedi ſcrifennu yn bennau cenedl: a'r offeiriaid ar deyrnaſiad Darius y Perſiad.

23 Meibion Lefi [oeddynt] wedi eu ſcrifennu ([ſef] y pennau) yn llyfr y Cronicl hyd ddyddiau Johanan mab Eliaſib.

24 A phennaethiaid y Lefiaid [oeddynt] Haſabiah, Serebiah, ac Jeſua mab Cadmiel, ai brodyr hwynt ar eu cyfer, i ogoneddu, [ac] i foliannu yn ôl gorchymyn Dafydd gŵr Duw:

gwiliadwriaeth ar gyfer gwiliadwriaeth.

25 Mattaniah, a Bacbuciah, Obadia, Meſulam, Talmon, Accub[oeddynt]yn borthorion yn cadw gwiliadwriaeth yn nhrothwyau y pyrth.

26 Y rhai hyn[oeddynt]yn nyddiau Ioiacim fab Ieſua, fab Ioſadac: ac yn nyddiau Nehemias y tywyſog, ac Eſdras 'r offeiriad, [a'r]ſcrifennudd.

27 Ac yng-hyſſegriad mur Ieruſalem y ceiſiaſant y Lefiaid oi holl leoedd iw dwyn hwynt i Ieruſalem, i wneuthur cyſſegriad, a gorfoledd, mewn diolchgarwch, ac mewn cân, a Symbalu, nablau, ac a thelynau.

28 Yna meibion y cantorion a ymgynnullaſant o'r gwaſtadedd o amgylch i Ieruſalem, ac o drefydd Netophati.

29 Ac o dŷ Gilgal, ac o feuſydd Geba, ac Azmafeth: canys y cantorion a adailadaſent drefydd iddynt o amgylch Ieruſalem.

30 Yr offeiriaid hefyd, a'r Lefiaid a ymlanhauſant: glanhauſant hefyd y bobl, a'r pyrth, a'r mur.

31 A mi a berais i dywyſogiō Iuda ddringo ar y mûr: a goſodais ddwy[fintai] fawr o rai yn moliannu, a mynediad[y naill oedd] ar y llaw ddehau ar y mûr tua phorth y domm.

32 Ac ar eu hôl hwynt yr aeth Hoſaiah, a hanner tywyſogion Iuda.

33 Azariah hefyd, Eſdras, a Meſulam.

34 Iuda, a Beniamin, Semaiah hefyd, ac Ieremia.

35 Ac o feibion yr offeiriaid ag udcyrn: Zechariah mab Ionathan, fab Semaiah, fab Mathaniah, fab Michaia, fab Zaccur, fab Aſaph.

36 Ai frodyr ef Semaiah, ac Azarel, Milalai, Gilalai, Mai, Nethaniel, ac Iuda, Hanani ag offer cerdd Dafydd gŵr Duw: ac Eſdras yr ſcrifennudd oi blaen hwynt.

37 A thua phorth y ffynnon, yr hon[oedd] ar eu cyfer hwynt y dringaſant ar riſiau dinas Dafydd yn nringfa y mûr: oddi ar dŷ Ddafydd hyd borth y dwfr tua'r dwyrain.

38 A'r ail [fintai] o'r rhai oeddynt yn moliannu oedd yn myned o'r tu arall, a minnef ar eu hôl: a hanner y bobl[oedd]ar y mur,[ac]ar dŵr y ffyrnau hyd y mûr llydan.

39 Ac oddi ar borth Ephraim, ſef ar yr hên borth, ac ar borth y pyſcod, a thŵr Hananeel, a thŵr Meah, hyd borth y defaid: a hwynt a ſafaſant ym mhorth y wiliadwriaeth.

40 Felly y ddwy [fintai]y rhai oeddynt yn moliannu a ſafaſant yn nhŷ Dduw: minne hefyd, a hanner y ſwyddogion gyd a mi.

41 Yr offeiriaid hefyd, Eliacim, Maaſeiah, Miniamin, Michaiah, Elioenai, Zechariah, Hananiah ag udcyrn.

42 Maaſeiah hefyd, a Semaiah, ac Eleazar, ac Uzzi, ac Iehohanan, Malciah hefyd ac Elam, ac Ezer: a'r cantorion a ganâſant yn grôch, ac Izrahiah[oedd]y blaenor.

43 A'r diwrnod hwnnw 'r aberthaſant ebyrth mawrion, ac y llawenychaſant, canys Duw ai llawenhauſe hwynt a llawenydd mawr, y gwragedd hefyd, a'r plant a orfoleddaſant: fel y clywyd llawenydd Ieruſalem hyd ym mhell.

44 A'r dwthwn hwnnw y ſwyddwyd gwŷr ar gelloedd y tryſſorau, ar yr offrymmau, ar y blaen-ffrwyth, ac ar y degymmau i gaſclu iddynt hwy o feuſydd y dinaſoedd y rhannau cyfreithlon i'r offeiriaid, a'r Lefiaid: canys llawenydd Iuda[oedd]ar yr offeiriaid, ac ar y Lefiaid y rhai oeddynt yn ſefyll [yng-waſanaeth Duw.]

45 Y cantorion hefyd a'r porthorion a gadwaſant wiliadwriaeth eu Duw, a gwiliadwriaeth y glanhâd, yn ôl gorchymyn Dafydd, [a] Salomon ei fab.

46 Canys * gynt yn nyddiau Dafydd, ac Aſaph[yr oedd]y penn cantorion, a chaniadau canmoliaeth, a moliant i Dduw. 1.Cron.15.16.

47 Ac yn nyddiau Zorobabel, ac yn nyddiau Nehemias, holl Iſrael oeddynt yn rhoddi rhannau i'r cantorion, a'r porthorion, dogn dydd yn ei ddydd: a hwynt a offrymmaſant i'r Lefiaid, a'r Lefiaid a offrymmaſant i feibion Aaron.

## PEN. XIII.

Darllenniad y gyffraith, ac yſcariaeth y cenhedloedd oddi wrth yr Iddewon.

YN y dwthwn hwnnw y darllenwyd yn llyfr Moſes lle y clybu y bobl: a chafwyd yn ſcrifennedic ynddo, na ddyle'r Ammoniaid, na'r Moabiaid * ddyfod i gynnulleidfa Duw yn dragywydd: Deut.23.3. num.22.5.

2 Am na chyfarfuaſent a meibion Iſrael â bara, ac â dwfr: eithr cyflogaſent Baalam yn eu herbyn iw melldigo hwynt, a'n Duw ni a drôdd y felldith yn fendith.

3 A phan glywſant hwy y gyfraith: yna y naillduaſant yr holl rai cymmyſc oddi wrth Iſrael.

4 Ac o flaen hyn Eliaſib yr offeiriad a oſodaſyd ar dryſor-gell tŷ ein Duw ni: cyfneſafi Dobiah[oedd efe.]

5 Ac efe a wnaeth iddo ei hun gell fawr, ac yno y byddent o'r blaen yn rhoddi yr offrwm, y thus, a'r lleſtri, a degwm yr ŷd, y gwîn, a'r olew wedi ei orchymyn i'r Lefiaid, a'r cantorion, a'r porthorion: ac offrwm yr offeiriaid.

6 Ac yn hynn ei gyd [o amſer] ni bum i yn Ieruſalem: canys yn y ddeuddecfed flwyddyn ar hugain i Artaxerxes brenin Babilon, y deuthſi i at y brenin, ac ym mhen [talm o] ddyddiau y cefais gannad gan y brenin [i ddychwelyd.]

7 Pan ddaethum i Ieruſalem, yna y deallais y drygioni 'r hwn a wnaethe Eliaſib er Tobiah, gan wneuthur iddo ſtafell yng-hynteddoedd tŷ Dduw.

8 A bu ddrwg iawn gennif: am hynny mi

a fwriais holl leſtri tŷ Tobiah allan o'r gell.

9 Erchais hefyd lânhau o honynt hwy y celloedd: a mi a ddygais yno trachefn leſtri tŷ Dduw, yr offrwm, a'r thus.

10 Gwybum hefyd fod rhannau y Lefiaid heb eu rhoddi: am hynny y ffoaſe pôb vn iw faes, [ſef] y Lefiaid, a'r cantorion y rhai oeddynt yn gwneuthur y gwaith.

11 Yna y dwrdiais y ſwyddogion, ac y dywedais: pa ham y gwrthodwyd tŷ Dduw? a mi ai ceſclais hwynt, ac ai cyfleuais hwynt yn eu llê.

12 Yna holl Iuda a ddugaſant ddegwm yr ŷd, a'r gwîn, a'r olew i'r tryſſorau.

13 A mi a roddais yn dryſſorwŷr ar y tryſſorau Selemiah yr offeiriad, a Zadoc yr ſcrifennudd, a Phedaiah o'r Lefiaid: a cher llaw iddynt hwy Hanan fab Zaccur, fab Mattaniah, canys ffyddlon y cyfrifid hwynt, ac [yr oedd] arnynt hwy rannu iw brodyr.

14 Cofia fi fy Nuw o herwydd hyn: ac na ddelea fy nhrugareddau, y rhai a wneuthum a thŷ fy Nuw, ac ai wiliadwriaethau ef.

15 Yn y dyddiau hynny y gwelais yn Iuda [rai] yn ſengi gwin-wryfau ar y Sabboth, ac yn dwyn i mewn ddaſſau ŷd, ac yn llwytho ar yr aſſynnod wîn, a grawn-win hefyd, a ffigus a phob beichiau, ac yn [eu] dwyn i Ieruſalem ar y dydd Sabboth: a mi a deſtiolaethais [yn eu herbyn] ar y dydd y gwerthaſant lynniaeth.

16 Y Tyriaid hefyd oeddynt yn trigo ynddi, [ac] yn dwyn pyſcod, a phob peth gwerthadwy: y rhai yr oeddynt hwy yn [eu] gwerthu ar y Sabboth i feibion Iuda, ſef yn Ieruſalem.

17 Yna y dwrdiais bendefigion Iuda: ac y dywedais wrthynt, pa beth drygionus [yw] hwn yr ydych chwi yn ei wneuthur, gan eich bod yn halogi y dydd Sabboth?

18 Ond fel hyn y gwnaeth eich tadau chwi? am hynny y dûg ein Duw ni 'r holl ddrygfyd hyn arnom ni, ac ar y ddinas hon: a chwithau ydych yn chwanegu digofaint ar Iſrael am halogi y Sabboth?

19 A phan gyſcodaſe pyrth Ieruſalem cyn y Sabboth yr erchais i gaeu y dryſſau, am y rhai y dywedais nad agorid hwynt hyd wedi 'r Sabboth: a mi a oſodais [rai] o'm gweiſion wrth y pyrth, fel na ddele baich i mewn ar ddydd y Sabboth.

20 Felly y negeſſeu-wŷr, a gwerth-wŷr pôb peth gwerthadwy a letteuaſant o'r tu allan i Ieruſalem vn-waith, neu ddwy.

21 A mi a deſtiolaethais yn eu herbyn hwynt, ac a ddywedais wrthynt, pa ham yr ydych chwi yn aros tros nôs gyferbyn a'r mûr? os gwnewch eilwaith, mi a eſtynnaf fy llaw i'ch erbyn: o'r pryd hwnnw ni ddaethant ar y Sabboth.

22 A mi a ddywedais wrth y Lefiaid am iddynt ymlanhau, a dyfod i gadw y pyrth, gan ſancteiddio y dydd Sabboth: fel hyn hefyd cofia fi fy Nuw, a maddeu i mi yn ôl lliaws dy drugaredd.

23 Yn y dyddiau hynny hefyd y gwelais yr Iddewon yn priodi yr Aſtodieſau, yr Ammonieſau, [a'r] Moabieſau yn wragedd [iddynt.]

24 Ai meibion hwynt yn llefaru [y naill] hanner o'r Aſtodiad-aec, ac heb fedru ymddiddan yn iaith yr Iddewon: ond yn ôl tafodiaith amryw bobl.

25 Yna 'r ymryſonais a hwynt, ac y melldithiais hwynt, tarewais hefyd rai o honynt, ac ai plicciais hwynt: ac mi ai tynghedais hwynt drwy Dduw [gan ddywedyd,] os rhoddwch eich merched iw meibion hwynt, neu os cymmerwch oi merched hwynt i'ch meibion, nac i chwithau [melldigedic fyddoch.]

26 Ond o achos y rhai hyn y pechodd Salomon brenin Iſrael? er na bu brenin cyffelyb iddo ef ym myſc cenhedloedd lawer, canys hôff gan ei Dduw oedd efe, am hynny y rhoddodd Duw ef yn frenin ar holl Iſrael: etto *gwragedd dieithr a wnaethant iddo ef bechu.

1.Bren.30.

2.Sam.12.24.
1.bren.11.1.4.
ecclus.47.19.

27 Ai arnoch chwi y gwrandewir, gan wneuthur yr holl drygioni mawr hwn, gan droſeddu yn erbyn ein Duw, drwy briodi gwragedd dieithr?

28 Ac [vn] o feibion Ioiadah fab Eliaſib yr arch-offeiriad [oedd] ddaw i Sanebalat yr Horoniad: yr hwn a ymlidiais i oddi wrthif.

29 O fy Nuw cofia hwynt: am iddynt halogi 'r offeiriadaeth, a chyfammod yr offeiriadaeth, a'r Lefiaid.

30 Yna y glanhêais hwynt oddi wrth bôb eſtron: goſodais hefyd orchwyliaethau i'r offeiriaid, ac i'r Lefiaid, pôb vn yn ei waith,

31 Ac at goed yr offrwm mewn amſerau nodedic, ac at y blaen-ffrwythau: cofia fi ô fy Nuw er llês [i'm.]

Llyfr

# Llyfr Eſther.

## PENNOD. I.

Ahaſſerus yn yſcar ai wraig Faſthi am na ddeue hi wrth ei orchymyn ef iw wledd ef. 20 Awdurdod gwyr eraill ar eu gwragedd.

YN nyddiau Ahaſſerus: (efe[yw]Ahaſſerus yꝛ hwn oedd yn teyꝛnaſu o India hyd Ethiopia, [ſef ar]gant, a ſaith ar hugain o dalaithau)

2 Yn y dyddiau hynny pan eiſteddodd y bꝛenin Ahaſſerus ar oꝛſeddfa ei frenhiniaeth yꝛ hon[oedd]yn*Suſan y bꝛenhin-lys: Nehem.1.1.

3 Yn y dꝛydedd flwyddyn oi deyꝛnaſiad, efe a wnaeth wledd iw holl dywyſogion, ai weiſion: [ſef]cadernid y Perſiaid, a'r Mediaid, y rhaglawiaid, a thywyſogion y talaithau[oeddynt]ger ei fron ef:

4 Fel y dangoſe efe gyfoeth, [a] gogoniant ei deyꝛnas, anrhydedd hefyd, [a] phꝛydferthwch ei fawꝛedd ef ddyddiau lawer, [nid amgen]cant a phedwar vgain o ddyddiau.

5 A phan gyflawnwyd y dyddiau hynny, y bꝛenin a wnaeth i'r holl bobl a'r a gafwyd yn Suſan y bꝛenhin-lys, o'ꝛ mwyaf hyd y lleiaf wlêdd[dꝛos]ſaith niwꝛnod yng-hyntedd gardd palas y bꝛenin,

6 [Tann lenni] gwynnion, gwyꝛddion, a rhuddgochion wedi eu cylymmu a rheffynnau ſidan, ac a phoꝛphoꝛ mewn modꝛwyau arian, a cholofnau marmoꝛ: gwelâu[oeddynt] o aur, ac arian ar balmant o [faen] Griſſial, a Marmoꝛ, Alabaſter hefyd, ac Iaſinct.

7 Yfed diod [yꝛ oeddynt] mewn lleſtri aur, a chyfnewid amryw leſtri: a gwîn bꝛenhinawl lawer yn ôl gallu y bꝛenin.

8 Y ddiod hefyd [oedd] wꝛth ddefod, nid [oedd] a gymhelle: canys felly y goſodaſe y bꝛenin[oꝛchymyn]ar bôb[gŵꝛ]mawꝛ[o fewn] ei dŷ ef, ſef gwneuthur yn ôl ewyllys pawb.

9 Y frenhines Faſthi hefyd a wnaeth wlêdd i'r gwꝛagedd, [yn]y bꝛenhin-dŷ yꝛ hwn[oedd] eiddo Ahaſſerus y bꝛenin.

10 Ar y ſeithfed dydd pan oedd lawen calon y bꝛenin gan wîn, efe a ddywedodd wꝛth Mehumã, Biztha, Harbona, Bigtha, ac Abagtha, Zethar, a Charcas, y ſaith ſtafelludd(y rhai oeddynt yn gweini ger bꝛon y bꝛenin Ahaſſerus)

11 Am gyꝛchu y frenhines Faſthi o flaen y bꝛenin mewn bꝛenhinawl goꝛon: i ddangos i'r bobloedd, ac i'r tywyſogion ei glendid hi, canys têg[mewn]golwg ydoedd hi.

12 Ond y frenhines Faſthi a wꝛthododd ddyfod wꝛth air y bꝛenin yꝛ hwn [a anfonaſe efe]dꝛwy law y ſtafellyddion: am hynny y llidiodd y bꝛenin yn ddirfawꝛ, ai ddigllonedd ef a enynnodd ynddo.

13 Yna y dywedodd y bꝛenin wꝛth y doethion[y rhai]oeddynt yn gŵybod yꝛ amſerau: (canys felly['r hyſpyſſid]achoſion y bꝛenin ger bꝛon yꝛ holl rai a fyddent yn gŵybod cyfraith, a barn)

14 A neſaf atto ef[oedd]Carſena, Sethar, Admatha, Tharſis, Meres, Marſena, [a] Memucan: ſaith dywyſog Perſia, a Media y rhai oeddynt yn gwêled wyneb y bꝛenin, [ac]yn eiſtedd yn gyntaf yn y frenhiniaeth,

15 Beth ſyddi w wneuthur wꝛth y gyfraith i'r frenhines Faſthi, am na wnaeth hi archedigaeth y bꝛenin Ahaſſerus[yꝛ hwn a anfonaſe efe]dꝛwy law y ſtafellyddion:

16 Yna Memucan a ddywedodd ger bꝛon y bꝛenin, a'r tywyſogion: nid yn erbyn y bꝛenin yn vnic y gwnaeth Faſthi y frenhines ar fai: onid yn erbyn yꝛ holl bobloedd y rhai[ydynt] dꝛwy holl dalaithau y bꝛenin Ahaſſerus.

17 Canys gweithꝛed y frenhines a aiff allan at yꝛ holl wꝛagedd, fel y dꝛemygant eu gwŷꝛ yn eu golwg eu hun: pan ddywedant, y bꝛenin Ahaſſerus a archodd gyꝛchu Faſthi y frenhines oi flaen ef, ond ni ddaeth hi.

18 Arglwyddeſau Perſia, a Media y rhai a glywſant weithꝛed y frenhines a ddywedant heddyw bellach wꝛth holl dywyſogion y bꝛenin: felly[y bydd] mwy na digon o ddirmig, a digter[i ni.]

19 Os bydd bodlon gan y bꝛenin, eled bꝛenhinawl oꝛchymyn oddi wꝛtho ef, ac ſcrifenner ef ym myſc cyfreithiau y Perſiaid, a'r Mediaid, ac na thꝛoſſedder ef: am na ddaeth Faſthi ger bꝛon y bꝛenin Ahaſſerus, am hynny rhodded y bꝛenin ei bꝛenhiniaeth hi iw chyfeilles yꝛ hon ſydd well na hi.

20 Pan glywer goꝛchymyn y bꝛenin( yꝛ hwn a wnelo efe )dꝛwy ei holl frenhiniaeth yꝛ hon ſydd fawꝛ: yna'r holl wꝛagedd a roddant anrhydedd iw gwŷꝛ, o'ꝛ mwyaf, hyd y lleiaf.

21 A dâ fu'r peth yng-olwg y bꝛenin, a'r tywyſogion: a'r bꝛenin a wnaeth ar ôl gair Memucan.

22 Canys efe a anfonodd lythŷꝛau i holl dalaithau y bꝛenin, ê i bôb talaith yn ôl ei ſcrifen hi, ac at bôb pobl yn ôl eu tafodiaith eu hun: ar fod pôb gŵꝛ yn arglwyddiaethu yn ei dŷ ei hun, a thꝛaethu[o bawb hyn]yn ôl tafodiaith ei bobl.

## PEN. II.

Y brenin yn peri cyrchu iddo ef y gweryſon, neu y morwynion teccaf yn y wlâd. 14 Ac yn hoffi Eſther yn fwyaf.

WEdi y pethau hyn, pan lonyddodd digllonedd y brenin Ahaſſerus, efe a gofiodd am Faſthi, ac am yꝛ hyn a wnelſe hi, ac am yr hyn a farnaſid arni.

2 Am hynny llangciau y brenin [ſef] ei weinidogion ef a ddywedaſant: ceiſier i'r brenin langceſau têg yr olwg [y rhai ydynt] weryſon,

3 A goſoded y brenin ſwyddogion drwy holl dalaithau ei frenhiniaeth ef, a chaſclant hwythau bôb llangces dêg yr olwg, [a'r y ſydd] weryf, i Suſan y brenhin-lys i dŷ y gwragedd, tann law Hege ſtafelludd y brenin, ceidwad y gwragedd: yr hwn addyru iddynt eu gwychter.

4 A'r llangces yr hon fyddo dâ yng-olwg y brenin a deyrnaſa yn lle Faſthi: a dâ oedd y peth hyn yng-olwg y brenin, ac felly y gwnaeth efe.

5 Yn Suſan y brenhin-lys yr oedd rhyw Iddew, ai enw Mordoceus mab Iair, fab Simei, fab Cis, gŵr o Iemini,

2.Bren.24.15. 6 Yr hwn a droſgludaſid o Ieruſalem gyd a'r gaeth-glud * yr hon a gaeth-gludaſid gyd ag Ieconiah brenin Iuda: yr hon a baraſe Nabuchodonoſor brenin Babilon ei chaeth-gludo.

7 Ac efe a fagaſe Hadaſſa honno [yw] Eſther, merch ei ewythr ef frawd ei dad, canys nid [oedd] iddi dad, na mam: a'r llangces [oedd] weddaidd-lwys, a chlaer-deg [mewn] golwg, a phan fuaſe ei thad, ai mam hi farw, Mordoceus ai cymmeraſe hi yn ferch iddo.

8 A phan gyhoeddwyd gair y brenin, ai gyfraith, pan gaſclaſid hefyd langceſau lawer i Suſan y brenhin-lys tann law Hegai: yna y cymmerwyd Eſther i dŷ y brenin tann law Hegai ceidwad y gwragedd.

9 A'r llangces oedd dêg yn ei olwg ef, ac hi a gafodd ffafor ganddo ef, am hynny efe ar frys a barodd rhoddi iddi ei gwychter, ai rhannau, a rhoddi iddi ſaith o langceſau golygus o dŷ'r brenin: ac efe ai ſymmudodd hi, ai llangceſau i'r [fann] oref [yn] nhŷ y gwragedd.

10 [Ond ni fynêgodd Eſther ei phobl, nai chenedl: canys Mordoceus a orchymynnaſe iddi nad yngêne [hynny.]

11 A Mordoceus a rodiodd beunydd o flaen cyntedd tŷ'r gwragedd, i ŵybod llwyddiant Eſther, a pheth a wnelyd iddi.

12 A phan ddigwydde amſer pob llangces i fyned i mewn at y brenin Ahaſſerus wedi bod iddi hi yn ôl defod y gwragedd ddeuddeng-mis, canys felly y cyflawnyd dyddiau eu puredigaethau hwynt: chwe mis mewn olew myrh, a chwe mis mewn pêr-aroglau, a gwychter y gwragedd.

13 Ac fel hyn y deue y llangces at y brenin: pa beth bynnac a ddywede hi [am dano] a roddid iddi, i fyned gyd a hi o dŷ'r gwragedd hyd dŷ'r brenin.

14 Gyd a'r hwyr hi a ddeue i mewn, a'r borau hi a ddychwele i dŷ arall y gwragedd tann law Saaſgaz ſtafelludd y brenin ceidwad y gordderchadon: ni ddeue hi i mewn at y brenin mwyach, ond os chwennyche'r brenin hi, yna y gelwid hi wrth [ei] henw.

15 Pan ddigwyddodd amſer Eſther (merch Abihail ewythr Mordoceus yr hon a gymmeraſe efe yn ferch iddo) i fyned i mewn at y brenin, ni cheiſiodd hi ddim ond yr hyn a ddywedaſe Hegai ſtafelludd y brenin ceidwad y gwragedd: ac Eſther oedd yn cael ffafor yng-olwg pawb a'r a oedd yn edrych arni.

16 Felly Eſther a gymmerwyd at y brenin Ahaſſerus iw frenhin-dŷ ef yn y decfed mîs hwnnw [yw] mîs Tebeth: yn y ſeithfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef.

17 A'r brenin a hoffodd Eſther rhagor yr holl wragedd, a hi a gaffodd ffafor, a thrugaredd yn ei ŵydd ef rhagor yr holl weryſon: ac efe a oſododd deyrn-goron ar ei phen hi, ac ai gwnaeth yn frenhines yn lle Faſthi.

18 Yna y gwnaeth y brenin wledd fawr iw holl dywyſogion, ai weiſion, ſef gwledd Eſther: ac efe a wnaeth rydd-did i'r talaithau, ac a roddodd rannau yn ôl gallu y brenin.

19 Pan gaſclwyd y gweryſon yr ail waith: yna Mordoceus oedd yn eiſtedd ym mhorth y brenin,

20 Nid oedd Eſther yn mynegu ei chenedl, nai phobl, megis y gorchymynnaſe Mordoceus iddi: canys Eſther oedd yn gwneuthur yr hyn a ddywede Mordoceus fel [cynt pan] oedd hi yn ei meithrino gyd ag ef.

21 Yn y dyddiau hynny pan oedd Mordoceus yn eiſtedd ym mhorth y brenin: yna y llidiodd Bigthan, a Theres dau o ſtafellyddion y brenin, [ſef] o'r rhai oeddynt yn cadw y trothwy, a cheiſiaſant eſtyn llaw yn erbyn y brenin Ahaſſerus.

22 A'r peth a hyſpyſſwyd i Mordoceus, ac efe ai mynegodd i Eſther y frēhines: ac Eſther ai dywedodd wrth y brenin yn enw Mordoceus.

23 A phan chwiliwyd y peth, yna efe a gafwyd [felly,] am hynny y crogwyd hwynt ill dau ar bren: ac ſcrifennwyd [hynny] mewn llyfr Cronicl ger bron y brenin.

## PEN. III.

Haman yn ceiſio difetha yr holl Iddewon, am na pharchaſe Mordocêus ef.

WEdi y pethau hyn, y brenin Ahaſſerus a fawrhaodd Haman fab Hammedatha *'r Agagiad, ac ai derchafodd ef: goſododd hefyd ei orſeddfaingc ef goruwch yr holl dywyſogion y rhai [oeddynt] gyd ag ef. Num.24.7. 1.ſam.15.8.

2 A holl weiſion y brenin y rhai [oeddynt] ym mhorth y brenin oeddynt yn ymgrymmu, ac yn ymoſtwng i Haman, canys felly y gorchymynnaſe'r brenin am dano ef: ond nid ymgrymmodd Mordoceus, ac nid ymoſtyngodd.

3 Yna gweiſion y brenin y rhai [oeddynt] ym mhorth y brenin, a ddywedaſant wrth Mordoceus: pa ham yr ydwyt ti yn troſſeddu gorchymyn y brenin?

4 Ac er eu bod hwy beunydd yn dywedyd wrtho ef [fel hyn,] etto ni wrandawe efe arnynt hwy: am hynny y mynegaſant i Haman i edrych a ſafe geiriau Mordoceus, canys efe a

fynegaſe wrthynt mai Iddew [ydoedd] efe.

5 Pan welodd Haman nad oedd Mordoceus yn ymgrymmu, nac yn ymoſtwng iddo: yna Haman a lawnwyd o ddigllonedd.

6 Er hynny dibyſtyr oedd ganddo yn ei olwg ei hun eſtyn llaw yn erbyn Mordoceus eu hunan (canys mynegaſent iddo [pwy oedd] bobl Mordocêus) am hynny Haman a geiſiodd ddifetha 'r holl Iddewon y rhai [oeddynt] drwy holl frenhiniaeth Ahaſſerus, [ſef] pobl Mordocêus.

7 Yn y mîs cyntaf (hwnnw [yw]* Niſan) yn y ddeuddecfed flwyddyn i'r brenin Ahaſſerus: efe a barodd fwrw Pwr (hwnnw [yw] y coelbren) ger bron Haman o ddydd i ddydd, ac o fîs i fîs [hyd] y deuddecfed [mîs] hwnnw [yw] mis Adar.

8 Yna Haman a ddywedodd wrth y brenin Ahaſſerus, y mae rhyw bobl waſcaredic, a gwahanedic ym mhlith y bobloedd, drwy holl dalaithau dy frenhiniaeth: ai cyfreithiau hwynt ſy yn ymrafaelio oddi wrth [gyfraith] yr holl bobl, ac nid ydynt yn gwneuthur [ar ôl] cyfreithiau y brenin, am hynny nid buddiol i'r brenin eu dioddef hwynt.

9 O bydd bodlon gan y brenin, ſcrifenner am eu difetha hwynt: a deng mil o dalentau arian a dalaf ar ddwylo y rhai a wnânt y weithred hon, iw dwyn i dryſſorau y brenin.

10 Yna y tynnodd y brenin ei fodrwy oddi am ei law: ac ai rhoddes i Haman fab Hammedatha yr Agagiad gwrthwyneb-wr yr Iddewon.

11 A'r brenin a ddywedodd wrth Haman, rhodder yr arian i ti: a'r bobl i wneuthur a hwynt fel y byddo dâ yn dy olwg.

12 Yna y galwyd ſcrifennyddion y brenin yn y mîs cyntaf, ar y trydydd dydd ar ddêc o'r [mîs] hwnnw, ac yr ſcrifennwyd yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe Haman at bendefigion y brenin, ac at y dugiaid y rhai [oeddynt] ar bob talaith, ac at dywyſogion pob pobl, i bob talaith, yn ôl ei ſcrifen, ac [at] bob pobl yn ôl eu tafod-iaith: yn enw y brenin Ahaſſerus yr ſcrifennaſid, ac a modrwy y brenin y ſeliaſid [hyn.]

13 A'r llythŷrau a anfonwyd gyd a'r rhedeg-wŷr i holl dalaithau y brenin: i ddiniſtrio, i ladd, ac i ddifetha'r holl Iddewon yn ieuangc, ac yn hên, yn blant, ac yn wragedd mewn vn dydd, [ſef] ar y trydydd [dydd] ar ddêc o'r deuddecfed mis (hwnnw [yw] mîs Adar:) ac i ſclyfaethu eu hyſpail hwynt.

14 Teſtyn yr ſcrifen [oedd] goſod cyfraith ym mhobtalaith yn eglur i'r holl bobloedd: i fod yn barod erbyn y diwrnod hwnnw.

15 Y rhedeg-wŷr a aethant wedi eu cymmell drwy air y brenin, a'r gorchymyn a roddaſid yn Suſan y brenhin-lys: y brenin hefyd, a Haman a eiſteddaſant i yfed, a dinaſyddion Suſan oeddynt yn athriſt.

## PEN. IIII.

Mordocêus yn mynegu i Eſther beth a ddychymygaſid yn erbyn yr Iddewon gan ei hannog hi i geiſio ymwared iddynt hwy. 16 Hithe yn erchi iddynt hwy ymprydio, a gweddio troſti hi.

PAN ŵybu Mordocêus yr hyn oll a wnelſid, yna Mordocêus a rwygodd ei ddillad, ac a wiſcodd ſach-liain a lludw: ac a aeth allan i ganol y ddinas, ac a waeddodd a chwerw lef vchel.

2 Ac efe a ddaeth hyd o flaen porth y brenin: ond ni [cheid] dyfod i borth y brenin mewn gwiſc o ſach.

3 Ac ym mhob talaith, [a] lle, a'r y daethe gair y brenin ai orchymyn [iddo, yr oedd] galar mawr gan yr Iddewon, ac ympryd, wylofain hefyd, ac oer-nad: ſach-liain, a lludw a danâſid ar laweroedd.

4 Yna llangceſau Eſther, ai ſtafellyddion hi a ddaethant, ac a fynegaſant [hynny] iddi hi, a'r frenhines a driſtaodd yn ddirfawr: a hi a ddanfonodd wiſcoedd i ddilladu Mordocêus, ac i dynnu ymmaith ei ſach-liain ef oddi am dano, ond ni chymmere efe [hwynt.]

5 Am hynny Eſther a alwodd ar Hathac [vn] o ſtafellyddion y brenin, yr hwn a oſodaſe efe [i waſanaethu] oi blaen hi, a hi a orchymynnodd iddo am Mordocêus, fynnu gwybod pa beth [oedd] hyn, ac am ba beth [yr ydoedd] hyn.

6 Yna Hathac a aeth at Mordocêus i heol y ddinas, yr hon [ſydd] o flaen porth y brenin.

7 A Mordocêus a fynegodd iddo 'r hyn oll a ddigwyddaſe iddo ei hun: ac hyſbyſrwydd am yr arian y rhai a ddywedaſe Haman y tale efe [hwynt] i dryſſorau y brenin yn erbyn yr Iddewon iw difetha hwynt.

8 Ac efe a roddodd iddo deſtynn ſcrifen y gorchymyn yr hwn a oſodaſid yn Suſan (am beri eu diniſtrio hwynt) iw ddangos i Eſther, ac i fynegu iddi: ac i orchymyn iddi fyned i mewn at y brenin i ymbil ag ef, ac i ymnhedd oi flaen ef dros ei phobl.

9 Yna Hathac a ddaeth, ac a fynegodd i Eſther eiriau Mordocêus.

10 Ac Eſther a ddywedodd wrth Hathac, ac a orchymynnodd iddo [ddywedyd] wrth Mordocêus.

11 Holl weiſion y brenin, a phobl talaithau y brenin ydynt yn gwybod mai pa ŵr bynnac, neu wraig a'r a ddelo i mewn at y brenin i'r cyntedd neſaf i mewn heb ei alw, ei vnic gyfraith ef [yw] ei farwolaethu oddieithr yr hwn yr eſtynno 'r brenin y deyrn-wialen aur iddo, fel y byddo byw: ac ni'm galwyd i ddyfod i mewn at y brenin bellach [er] ys deng-nhiwrnod ar hugain.

12 Pan fynegaſant hwy i Mordocêus eiriau Eſther,

13 Yna Mordocêus a ddywedodd am iddynt atteb Eſther [fel hyn]: na feddwl yn dy

galon y diengi di [yn] nhŷ 'r brenin rhagor yr holl Iddewon.

14 O herwydd os tewi a ſôn a wnei di y pryd hyn, cyſſur ac ymwared a gyfyd i'r Iddewon o le arall, tithe hefyd a thŷ dy dâd a gyfrgollir: a phwy ſydd yn gwybod ai o herwydd y fath amſer a hwn y daethoſt ti i'r frenhiniaeth?

15 Yna Eſther a ddywedodd am atteb Mordocêus [fel hyn,]

16 Dos di, [a] chaſcl yr holl Iddewon y rhai a geffir yn Suſan, ac ymprydiwch droſofi, na fwytewch hefyd, ac nac yfwch [dros] dri-diau nôs na dydd, minne hefyd a'm llanceſau a ymprydiaf felly: ac yna 'r âf i mewn at y brenin yr hwn [beth] nid yw gyfraithlon, ac o derfydd am danaf, darfydded am danaf.

17 Felly Mordocêus a aeth ymmaith: ac a wnaeth yn ôl yr hyn oll a orchymynnaſe Eſther iddo ef.

## PEN. V.

Eſther yn hydêru myned at y brenin, ac yn ei wahodd ef, ac Haman i wledd. 14 Haman yn peri gwneuthur croc-pren i Mordochêus.

AR y trydydd dydd Eſther a ymwiſcodd [mewn] brenhinawl [wiſcoedd,] ac a ſafodd yng-hyntedd tŷ 'r brenin o'r tu fewn, ar gyfer tŷ 'r brenin: a'r brenin oedd yn eiſtedd ar ei deyrn-gader yn y brenhin-dŷ gyferbyn a drws y tŷ.

Pen.4.11.

2 A phan welodd y brenin Eſther y frenhines yn ſefyll yn y cyntedd, hi a gafodd ffafor yn ei olwg ef: am hynny y brenin a eſtynnodd * y deyrn-wialen aur, yr hon [oedd] yn ei law ef tu ag at Eſther, ac Eſther a neſſaodd, ac a gyffyrddodd a phenn y deyrn-wialen.

Marc.6.23.

3 Yna y brenin a ddywedodd wrthi, beth [ſydd] gennit ti y frenhines Eſther? a pha beth [yw] dy ddeiſyfiad? [gofyn] * hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe ai rhoddir it.

4 A dywedodd Eſther, o rhynga bodd i'r brenin: deled y brenin, a Haman heddyw i'r wledd yr hon a wneuthum iddo ef.

5 A'r brenin a ddywedodd, perwch i Haman fryſſio i wneuthur yn ôl gair Eſther: felly y daeth y brenin a Haman i'r wledd yr hon a wnaethe Eſther.

6 Yna y brenin a ddywedodd wrth Eſther yng-hyfeddach y gwîn, beth yr wyt ti yn ei ofyn, ac fe a roddir i ti? a pheth yr wyt ti yn ei geiſio? [gofyn] hyd yn hanner y frenhiniaeth, ac fe ai cwpleuir.

7 Ac Eſther a attebodd, ac a ddywedodd: fy nymuniad, a'm deiſyfiad [yw,]

8 O chefais ffafor yng-olwg y brenin, ac o rhyglydda bodd i'r brenin roddi fy nymuniad, a gwneuthur fy neiſyfiad: deled y brenin a Haman i'r wledd yr hon a arlwywyf iddynt, ac y foru y gwnaf yn ôl gair y brenin.

9 Yna Haman a aeth allan y dwthwn hwnnw yn llawen, ac yn hyfryd ei galon: ond pan welodd Haman Mordocêus ym mhorth y brenin, ac na chyfodaſe efe, ac na ſyflaſe erddo ef, yna Haman a gyflawnwyd o ddigllonedd yn erbyn Mordocêus.

10 Er hynny Haman a ymataliodd, ac a ddaeth iw dŷ ei hun: yna efe a anfonodd, ac a wahoddodd ei garedigion, a Zeres ei wraig.

11 A Haman a adroddodd iddynt ogoniant ei gyfoeth ef, ac amldra ei feibion: a'r hyn oll y mawrhauſe [y brenin] ef, ac fel y derchafaſe [y brenin] ef goruwch y tywyſogion, a gweiſion y brenin.

12 A dywedodd Haman hefyd, ni wahoddodd Eſther y frenhines [neb] gyd a'r brenin i'r wledd yr hon a wnaethe hi onid myfi: ac y foru hefyd i'm gwahoddwyd atti hi gyd a'r brenin.

13 Ond nid yw hyn oll yn lleſſau i mi: bob amſer a'r yr ydwyfi yn gweled Mordocêus 'r Iddew yn eiſtedd ym-mhorth y brenin.

14 Yna y dywedodd Zeres ei wraig, ai holl garedigion wrtho ef, paratoer prenn yn ddec cufydd a deugain o uchter, a'r boreu dywet wrth y brenin am iddynt grogi Mordocêus arno ef, yna dos gyd a'r brenin i'r wledd yn llawen: a dâ oedd y peth ger bron Haman, am hynny efe a baratôdd y croc-prenn.

## PEN. VI.

Ahaſſerus yn darllen mewn llyfr am ffyddlondeb Mardocêus. 10 Ac yn peri ei anrhydeddu ef yn rhagorol.

YNoſwaith honno cwſc y brenin a giliodd ymmaith: am hynny efe a archodd ddwyn llyfr y coffadwriaethau, [ac] haneſſion yr amſeroedd, a darllenwyd hwynt ger bron y brenin.

2 Yna y cafwyd yn ſcrifennedic * yr hyn a fynegaſe Mordocêus am Bigthana, a Theres dau o ſtafellyddion y brenin o'r rhai oeddynt yn cadw y trothwy: [ſef] y rhai a geiſiaſent eſtynn llaw yn erbyn brenin Ahaſſerus. Pen.2.21.

3 Yna y dywedodd y brenin, pa anrhydedd, neu fawredd a wnaed i Mordocêus am hyn? a llangciau y brenin [ſef] ei weinidogion ef a ddywedaſant, ni wnaed dim erddo ef.

4 Ar hynny y brenin a ddywedodd, pwy [ſydd] yn y cyntedd? (a Haman a ddaethe i gyntedd tŷ y brenin neſaf allan i ddywedyd wrth y brenin am grogi Mordocêus ar y prenn yr hwn a barotôaſe efe iddo.)

5 A llangciau y brenin a ddywedaſant wrtho, wele Haman ſydd yn ſefyll yn y cyntedd: a dywedodd y brenin, deled efe i mewn.

6 Pan ddaeth Haman i mewn, yna y dywedodd y brenin wrtho ef, beth a wneir i'r gŵr yr hwn y mae y brenin yn ewyllyſio ei anrhydeddu? (yna Haman a ddywedodd yn ei galon: i bwy yr ewyllyſia y brenin wneu-

thur anrhydedd yn fwy nac i mi?)

7 A Haman a ddywedodd wrth y brenin y gŵr yr hwn y mae y brenin yn chwenychu ei anrhydeddu,

8 Dygant wiſc frenhinawl[iddo ef ]yr hon yr ymwiſcodd y brenin ynddi : a march yr hwn y marchogodd y brenin arno, ac yna rhodder brenhinawl goron am ei benn ef.

9 A rhodder y wiſc, a'r march yn llaw un o dywyſogion y brenin y rhai [ydynt] raglawiaid, a gwiſcant am y gŵr yr hwn y mae y brenin yn chwenychu ei anrhydeddu : a pharant iddo farchogeth ar y march drwy heol y ddinas, a chyhoeddant oi flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr yr hwn y mae y brenin yn chwenychu ei anrhydeddu.

11 Yna y brenin a ddywedodd wrth Hamã; bryſia, cymmer y wiſc a'r march fel y lleferaiſt, a gwna felly i Mordoceus yr Iddew 'r hwn ſydd yn eiſtedd ym mhorth y brenin : na âd heb wneuthur ddim o'r hynn oll a leferaiſt.

11 Felly Haman a gymmerth y wiſc, a'r march, ac a wiſcodd am Mordocêus, gwnaeth hefyd iddo farchogeth drwy heol y ddinas, a gwaeddodd oi flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr yr hwn y mae y brenin yn mynnu ei anrhydeddu.

12 Yna y dychwelodd Mordocêus i borth y brenin : a Haman a yrrwyd iw dŷ yn alarus wedi gorchguddio ei benn.

13 A Haman a adroddodd i Zeres ei wraig ac iw holl garedigion yr hyn oll a ddigwyddaſe iddo : yna ei ddoethion ef, a Zeres ei wraig a ddywedaſant wrtho, os o hâd yr Iddewon [y mae] Mordocêus yr hwn y dechreuaiſt ſyrthio oi flaen ni orchfygi mo honaw, onid gan ſyrthio y ſyrthi oi flaen ef.

14 Tra 'r oeddynt hwy etto 'n ymddiddan ag ef, ſtafellyddion y brenin a ddaethant : ac a gyrchaſant Haman ar frys i'r wledd yr hon a wnelſe Eſther.

## PEN. VII.

Gweddi Eſther. 6 A dihenydd Haman.

PAn ddaeth y brenin a Haman i gyfeddach gyd ag Eſther y frenhines,

2 Yna y dywedodd y brenin wrth Eſther, ie ar yr ail dydd wrth * gyfeddach y gwîn, beth [yw] dy ddymuniad Eſther frenhines, ac fe a roddir i ti? neu beth[yw]dy ddeiſyfiad?[gofyn] hyd yn hanner y deyrnas, ac fe ai cwpleuir.

3 A'r frenhines Eſther a attebodd, ac a ddywedodd, o chefais ffafor yn dy olwg di ô frenin, ac o rhyglydda bodd i'r brenin rhodder i mi fy einioes ar fy nymuniad, a'm pobl ar fy neiſyfiad.

4 Canys gwerthwyd ni, [ſef] myfi a'm pobl i'n diniſtrio, i'n lladd, ac i'n difetha : ond pe gwerthaſid ni yn weiſion, ac yn waſanaethferched, mi a dawſwn a ſôn, er nad yw y gwrthwyneb-wr yn cyſtadlu niwed y brenin.

5 Yna y llefarodd y brenin Ahaſſerus, ac y dywedodd wrth Eſther y frenhines : pwy yw hwnnw, a pha le y mae efe yr hwn a glywe ar ei galon wneuthur felly?

6 A dywedodd Eſther, y gwrthwynebwr a'r gelyn[yw]'r Haman drygionus hwn: yna Haman a ddychrynnwyd rhac ofn y brenin, a'r frenhines.

7 A'r brenin a gyfododd yn ei ddigllonedd o gyfeddach y gwîn, [ac a aeth]i ardd y palas : a Haman a ſafodd i ymbil am ei einioes gan Eſther y frenhines, canys efe a welodd fod y drygioni wedi ei gwplau yn ei erbyn ef oddi wrth y brenin.

8 Pan ddychwelodd y brenin o ardd y palas i dŷ cyfeddach y gwin, yna Haman oedd yn gorwedd ar y gwely yr hwn [yr oedd] Eſther arno, am hynny y dywedodd y brenin, ai treiſio y frenhines hefyd [y mae efe] yn tŷ gyd a mi? [hwyn gyntaf ac] yr aeth y gair allan o enau y brenin, yna y gorch-guddiaſant wyneb Haman.

9 Ac Harbona un o'r ſtafellyddion a ddywedodd yng-wydd y brenin, wele hefyd y crocbrenn (yr hwn a baratôdd Haman i Mordocêus yr hwn a lefarodd ddaioni am y brenin) yn ſefyll wrth dŷ Haman, yn ddec cufydd a deugain o uchter: yna y dywedodd y brenin, crogwch ef ar hwnnw.

10 Felly hwynt a grogaſant Haman ar y prenn, yr hwn a baraſe efe ei ddarparu i Mordocêus : yna digllonedd y brenin a lonyddodd.

## PEN. VIII.

Mawredd Mordocêus. 14 Ac ymwared yr Iddewon.

YDwthwn hwnnw y rhoddodd y brenin Ahaſſerus i'r frenhines Eſther dŷ Haman gwrthwyneb-wr yr Iddewon : a Mordocêus a ddaeth o flaen y brenin, canys Eſther a fynegaſe*beth[oedd]efe iddi hi. Pen.2.7.

2 A'r brenin a dynnodd ymmaith y fodrwy yr hon a gymmeraſe efe oddi wrth Haman, ac ai rhoddodd i Mordocêus : ac Eſther a oſododd Mordocêus yn nhŷ Haman.

3 Yna Eſther a lefarodd eilwaith ger bron y brenin, ac a ſyrthiodd o flaen ei draed ef : wylodd hefyd, ac ymbiliodd ag ef am fwrw ymmaith ddrygioni Haman yr Agagiad, ai amcan yr hwn a amcanaſe efe yn erbyn yr Iddewon.

4 A'r brenin a eſtynnodd * y deyrn-wialen aur tu ag at Eſther : yna Eſther a gyfododd, ac a ſafodd o flaen y brenin, Pen.5.2.

5 Ac a ddywedodd, o bydd bodlon gan y brenin, ac o chefeis ffafor oi flaen ef, ac [od] ydyw y peth yn iawn ger bron y brenin, a minne 'n gymmeradwy yn ei olwg ef : ſcrifenner am alw yn ôl lythyrau amcan Haman fab Hammedatha 'r Agagiad, y rhai a ſcrifennodd efe i ddifetha 'r Iddewon y rhai [ydynt] drwy holl dalaithau y brenin.

6 Canys pa fodd y gallaf edrych ar y drygfyd yr hwn a gaiff fy mhobl? a pha fodd y gallaf edrych ar ddifethiaid fyng-henedl?

7 A'r brenin Ahaſſerus a ddywedodd wrth Eſther y frenhines, ac wrth Mordocêus yr

Iddew: wele tŷ Haman a roddais i Eſther, a hwynt ai crogaſant ef ar y prenn, am iddo ef eſtyn ei law yn erbyn yr Iddewon.

8 Gan hynny ſcrifennwch chwitheu dros yr Iddewon fel y gweloch yn dda yn enw y brenin, ac inſeiliwch a madrwy y brenin: canys yr ſcrifen yr hon a ſcrifennwyd yn enw y brenin, ac a ſeliwyd a modrwy y brenin nid [yw] iw datroi.

9 Yna y galwyd ſcrifennyddion y brenin yr amſer hwnnw yn y trydydd mis (hwnnw [yw] y mis Sifan) ar y trydydd [dydd] ar hugain o honaw ef, ac ſcrifennwyd yn ôl yr hyn oll a'r a orchymynnodd Mordocêus i'r Iddewon, ac i'r pendefigion, y pennaduriaid hefyd, a thywyſogion y talaithau, y rhai [oeddynt] o India hyd Ethiopia, [ſef] cant a ſaith ar hugain o dalaithau, [i] bob talaith wrth ei ſcrifen, ac [at] bob pobl yn ôl eu tafod-iaith: at yr Iddewon hefyd yn ôl eu ſcrifen hwynt, ac yn ôl eu tafod-iaith.

10 Ac efe a ſcrifennodd yn enw y brenin Ahaſſerus, ac ai ſeliodd a modrwy y brenin: ac efe a anfonodd lythyrau gyd a'r rhedegwŷr yn marchogeth ar feirch, dromedariaid, y mulod buanaf [ac] ebolion ceſſig.

11 [Drwy] y rhai y caniadhaodd y brenin i'r Iddewon y rhai [oeddynt] ym mhob dinas ymgynnull, a ſefyll am eu henioes i ddiniſtrio, i ladd, ac i ddifetha holl lu y bobl a'r dalaith y rhai oeddynt yn eu gorthrymmu hwynt, yn blant, ac yn wragedd: ac i ſclyfaethu eu hyſpail hwynt,

12 Mewn un dydd drwy holl dalaithau y brenin Ahaſſerus: yn y trydydd [dydd] ar ddec o'r deuddecfed mis hwnnw [yw] mis * Adar.

Pen.3.13.

13 Teſtyn yr ſcrifen [oedd] rhoddi gorchymyn ym mhob talaith yn eglur i'r holl bobl: ſef ar fod yr Iddewon yn barod erbyn y diwrnod hwnnw i ymddial ar eu gelynnion.

14 Y rhedeg-wŷr y rhai oeddynt yn marchogeth y dromedariaid [a'r] mulod buanaf a aethāt ar frŷs wedi eu gyrru gyd a gair y brenin: ſef a'r gorchymyn a roddaſid yn Suſan y brenhin-lys.

15 A Mordocêus a aeth allan o ŵydd y brenin mewn brenhinawl wiſc rudd-goch, a gwēn, ac [a] choron fawr o aur, ac [mewn] dillad ſidan, a phorphor: a dinas Suſan a orfoleddodd, ac a lawenychodd.

16 I'r Iddewon yr oedd goleuni a llawenydd: hyfrydwch hefyd, ac anrhydedd.

17 Ac ym mhob talaith, ac ym mhob dinas, [a] lle, i'r hwn y daith gair y brenin ai orchymyn [yr oedd] llawenydd ac hyfrydwch gan yr Iddewon, gwledd [hefyd] a diwrnod daionus: canys llaweroedd o bobloedd y wlâd [honno] a aethant yn Iddewon, o blegit arſwyd yr Iddewon a ſyrthiaſe arnynt hwy.

## PEN. IX.

Yr Iddewon yr cael difetha eu gelynnion. 13 Ac yn cael crogi Deng-mab Haman.

FElly yn y deuddecfed mis (hwnnw [yw] mis Adar) ar y trydydd dydd ar ddêc o honaw ef, pan neſſaodd gair y brenin ai orchymyn ef iw cwplau: yn yr hwn ddydd y tŷbiaſe gelynnion yr Iddewon [y caent] fuddugoliaethu arnynt, ond yn y gwrthwyneb i hynny [y bu,] canys hwynt hwy yr Iddewon a arglwyddiaethaſant ar eu caſeion.

2 Yr Iddewon a ymgynnullaſant iw dinaſoedd eu hun, drwy holl dalaithau y brenin Ahaſſerus, i eſtynn llaw yn erbyn y rhai oddynt yn ceiſio niwed iddynt: ond ni ſafodd neb yn eu hwynebau, canys eu harſwyd a ſyrthiaſe ar yr holl bobloedd.

3 A holl dywyſogion y talaithau, y pendefigion hefyd a'r dugiaid, a'r rhai oeddynt yn gwneuthur y gwaith yr hwn [oedd] eiddo 'r brenin oeddynt yn derchafu yr Iddewon, canys arſwyd Mordocêus a ſyrthiaſe arnynt hwy.

4 Canys mawr [oedd] Mordocêus yn nhŷ 'r brenin, ai glôd ef oedd yn myned drwy 'r holl dalaithau: o herwydd y gŵr Mordocêus oedd yn myned rhagddo, ac yn cynnyddu.

5 Felly 'r Iddewon a darawſant eu holl elynnion â dyrnodiau y cleddyf, lladdedigaeth hefyd a deſtruw: a gwnaethant iw caſeion yn ôl eu hewyllys eu hun.

6 Ac yn Suſan y brenhin-lys, yr Iddewon a laddaſant, ac a ddifethaſant bum cant o wŷr.

7 Parſandatha hefyd, a Dalphon, ac Aſpatha.

8 Poratha hefyd, ac Adalia, ac Aridatha.

9 Parmaſta hefyd, ac Ariſai, Aridai hefyd, a Faiezatha.

10 Deng-mab Haman fab Hammedatha gwrthwyneb-wŷr yr Iddewon a laddaſant hwy: ond nid eſtynnaſant eu llaw ar yr anrhaith.

11 Y dwthwn hwnnw y daeth nifer y lladdedigion i Suſan y brenhin-dŷ ger bron y brenin.

12 A dywedodd y brenin wrth Eſther y frenhines, yr Iddewon a laddaſant, ac a ddifethaſant yn Suſan y brenhin-lys bum cant o wŷr a deng-mab Haman, yn y rhan arall o dalaithau y brenin beth a wnaethant [debygi di?] beth gan hynny [yw] dy ddymuniad, ac fe a roddir it? a pheth [yw] dy ddeiſyfiad mwyach ac fe ai gwneir?

13 Yna y dywedodd Eſther, o rhyglydda bodd i'r brenin, caniadhaer y foru i'r Iddewon y rhai [yddynt] yn Suſan wneuthur yn ôl y gorchymyn heddyw: a chrogant ddeng-mab Haman ar y pren.

14 A'r brenin a ddywedodd am wneuthur felly, a'r gorchymyn a roddwyd yn Suſan: a hwyntau a grogaſant ddeng-mab Haman.

15 Felly 'r Iddewon y rhai [oeddynt] yn Suſan a ymgynnullaſant ar y pedwerydd dydd ar ddêc o fis Adar, ac a laddaſant drychant o wŷr yn Suſan: ond nid eſtynnaſant eu llaw ar yr yſpail.

16 A'r rhann arall o'r Iddewon y rhai [oeddynt] yn nhalaithau y brenin a ymgaſclaſant,* ac a ſafaſant am eu henioes, a chawſant lonyddwch gan eu gelynnion, lladdaſant hefyd bymtheng-mîl a thri vgain oi caſeion: ond nid eſtynnaſant eu llaw ar yr anrhaith.

17 Ar y trydydd dydd ar ddec o fis Adar [y lladdaſant eu gelynnion,] ac ar y pedwerydd [dydd] ar ddec o honaw ef y gorphywyſaſant, ac y cynhaliaſant ef yn ddydd gwledd a gorfoledd.

18 Ond yr Iddewon y rhai [oeddynt] yn Suſan a ymgynnullaſant ar y trydydd [dydd] ar ddêc o honaw ef, ac ar y pedwerydd [dydd] ar ddec o honaw: ar y pymthecfed hefyd o honaw ef y gorphywyſaſant, a chynhaliaſant ef yn ddydd cyfeddach a llawenydd.

19 Am hynny Iddewon y pentrefydd y rhai oeddynt yn trigo mewn dinaſoedd heb gaerau oeddynt yn cynnal y pedwerydd dydd ar ddêc o'r mîs Adar mewn llawenydd a chyfeddach, ac yn ddiwrnod daionus: a phawb yn anfon rhoddion iw gilydd.

20 A Mordocêus a ſcrifennodd y geiriau hyn: ac a anfonodd lythyrau at yr holl Iddewon y rhai [oeddynt] drwy holl dalaithau y brenin Ahaſſerus yn agos ac ym mhell,

21 Gan ordeinio iddynt hwy fod yn cynnal y pedwerydd dydd ar ddec o fis Adar a'r pymthecfed dydd o honaw, bob blwyddyn.

22 Yn ôl y dyddiau yn y rhai y cawſe yr Iddewon ynddynt lonydd gan eu gelynnion, a'r mîs yr hwn a ddychwelaſe iddynt o dristwch i lawenydd, ac o alar yn ddydd daionus: gan eu cynnal hwynt yn ddyddiau gwledd, a llawenydd, a phawb yn anfon anrhegion iw gilydd, a rhoddion i'r rhai anghenus.

23 A'r Iddewon a gymmeraſant arnynt yr hyn a ddechreuaſent ei wneuthur: a'r hyn a ſcrifennodd Mordecêus attynt,

24 Canys Haman mab Hãmedatha 'r Agagiad gwrthwyneb-ŵr yr holl Iddewon a arfaethaſe yn erbyn yr Iddewon am eu difetha hwynt: ac efe a fwriaſe Pwr (hwnnw [yw] y coelbren) iw diniſtrio hwynt, ac iw difetha.

25 A phan ddaeth hi o flaen y brenin, efe a archodd drwy lythyrau, ddychwelyd ei ddrwg fwriad ef yr hwn a fwriadodd efe yn erbyn yr Iddewon ar ei benn ei hun: ai grogi ef ai feibion ar y pren.

26 Am hynny y galwaſant y dyddiau hynny Pwrim ar enw y Pwr, o herwydd holl eiriau y llythr hwnnw: ac [o herwydd] y peth a welſent hwy am hynny, a'r peth a ddigwyddaſe iddynt.

27 Yr Iddewon a ordeiniaſant, ac a gymmeraſant arnynt, ac ar eu hâd, ac ar yr holl rai oeddynt yn vn a hwynt na phallid fod yn cynnal y ddau ddydd hynny yn ól eu ſcrifen hwynt, ac yn ôl eu tymmor, bob blwyddyn,

28 Ac [y bydde] y dyddiau hynny iw cofio, ac iw cynnal drwy bob cenhedlaeth, a phob teulu, pob talaith hefyd, a phob dinas: ſef na phalle y dyddiau Pwrim hynny o fyſc yr Iddewon, ac na ddarfydde eu coffadwriaeth hwynt o blith eu hâd.

29 Ac Eſther y frenhines merch Abihail a ſcrifennodd, a Mordocêus yr Iddew drwy eu holl rymm: i ſiccrhau llythr y Pwrim hynny yr ail waith.

30 Ac efe a anfonodd lythyrau at yr holl Iddewon drwy y cant a'r ſaith dalaith ar hugain o frenhiniaeth Ahaſſerus, a geiriau heddwch a gwirionedd,

31 I ſiccrhau y dyddiau Pwrim hynny yn eu tymhorau, fel yr ordeiniaſe Mordocêus yr Iddew, ac Eſther y frenhines iddynt hwy, ac fel y cadarnhauſent troſtynt eu hun, a thros eu hâd eiriau yr ymprydiau, ai gweddi.

32 Ac ymadrodd Eſther a gadarnhaodd achoſion y [dyddiau] Pwrim hynny: ac ſcrifennwyd [hynn] mewn llyſr.

## PEN. X.

Treth Ahaſſerus. 3 a pharch Mordocêus.

AR brenin Ahaſſerus a oſododd drêth ar y wlâd, ac ar ynyſoedd y môr.

2 A holl weithredoedd ei rymm ef, ai gadernid, ac yſpyſrwydd o fawredd Mordocêus a'r hwn y mawrhaodd y brenin ef: onid ydynt hwy yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl brenhinoedd Media, a Pherſia.

3 Canys Mordocêus yr Iddew [oedd] yn ail i frenin Ahaſſerus, ác yn fawr gan yr Iddewon, ac yn gymmeradwy ym myſc lluoſogrwydd ei frodyr: yn ceiſio daioni iw bobl, ac yn dywedyd [am] heddwch iw holl hiliogaeth.

# Llyfr Iob.

## PENNOD. I.

Buchedd Iob ai blant: ei gyfoeth, ai ofal tros ei blant 13 Colled Iob am ei dda, ai blant. 20 Ai ddioddefgarwch.

YR oedd gŵr yng-wlâd Hus ai enw Iob: ac yr oedd y gŵr hwnnw yn berffaith, ac yn iniawn, yn ofni Duw hefyd, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni.

2 Ac iddo ef y ganwyd ſaith o feibion, a thair merched.

3 Ai olud ef oedd ſaith mîl o ddefaid, a thair mil o gamêlod, a phum cant iaû o ŷchen, a phum cant o aſſynnod, a llawer iawn o waſanaethyddion: ac yr oedd y gŵr hwnnw yn fwy na holl feibion y dwyrain.

4 Ai feibion ef a aent, ac a wnaent wlêdd, pob un [yn ei] dŷ [ar] ei ddiwrnod: anfonent hefyd, a gwahôddent eu tair chwiorydd i fwyta, ac i yfed gyd a hwynt.

5 A phan ddele dyddiau y wlêdd oddi amgylch, yna Iob a anfone, ac ai ſancteiddie hwynt, cyfode hefyd yn foreu, ac offrymme boeth offrymmau [yn ôl] eu rhifedi hwynt oll, canys dywede Iob, fy meibion ond odid a bechaſant, ac a felldithiaſant Dduw yn eu calonnau: felly y gwnae Iob yr holl ddyddiau hynny.

6 A'r dydd a ddaeth i feibion Duw ddyfod, a ſefyll ger bron yr Arglwydd: a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt.

7 Yna 'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, o bale 'r ydwyt yn dyfod? a Satan a attebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, o amgylchu y ddaiar, ac o ymrodio ynddi.

8 A dywedodd yr Arglwydd wrth Satan, a ddelaiſt ti ſulw ar fyng-wâs Iob, nad [oes] gyffelib iddo ef ar y ddaiar? yn ŵr perffaith, ac iniawn yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni.

9 Yna Satan a attebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd: ai yn ddiachos y mae Iob yn ofni Duw?

10 Oni chaeaiſt oi amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ, ac yng-hylch yr hyn oll [ſydd] eiddo ef oddi amgylch? [oni] fendithiaiſt waith ei ddwy-law ef, fel y cynnyddodd ei ddâ ef ar y ddaiar?

11 Eithr eſtyn yn awr dy law, a chyffwrdd a'r hyn oll [ſydd] ganddo: [i weled] oni felldiga efe di o flaen dy wyneb. Pen.2.5.

12 Yna 'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, wele 'r hyn oll [ſydd] eiddo ef yn dy law di, yn unic yn ei erbyn ef ei hun nac eſtyn dy law: felly Satan a aeth allan oddi ger bron yr Arglwydd.

13 A'r dydd a ddaeth, pan oedd ei feibion ef ai ferched yn bwyta, ac yn yfed gwin yn nhŷ eu brawd hynaf,

14 Yna cennad a ddaeth at Iob, ac a ddywedodd: yr ŷchen oeddynt yn aredic, a'r aſſynnod oeddynt yn pori ger eu llaw hwynt,

15 Ond y Sabeaid a ruthraſant, ac ai dugaſant ymmaith, y llangciau hefyd a darawſant hwy a mîn y cleddyf: a minne fy hunan a ddiengais yn unic i fynegu i ti.

16 Tra'r ydoedd hwn yn llefaru, yna arall a ddaeth, ac a ddywedodd, tân Duw a ſyrthiodd o'r nefoedd, ac a loſcodd y defaid, a'r gweiſion, ac ai hyſſodd hwynt: ond myfi fy hun a ddiengais yn unic i fynegu i ti.

17 Tra'r ydoedd hwn yn llefaru, yna arall a ddaeth, ac a ddywedodd, y Caldeaid a ymoſodaſant yn dair byddin, ac a ruthraſant i'r camêlod, ac ai dugaſant ymmaith, tarawſant hefyd y llangciau a min y cleddyf: a minne fy hun yn unic a ddiengais i fynegu i ti.

18 Tra 'r ydoedd hwn yn llefaru, yna arall a ddaeth, ac a ddywedodd: dy feibion a'th ferched oeddynt yn bwyta, ac yn yfed gwîn yn nhŷ eu brawd hynaf,

19 Ac wele gwynt mawr a ddaeth oddi tros yr anialwch, ac a darawodd wrth bedair congl y tŷ, fel y ſyrthiodd efe ar y llangciau, ac y buant feirw: ond myfi fy hun yn unic a ddiengais i fynegu i ti.

20 Yna y cyfododd Iob, ac a rwygodd ei fantell, ac a eilliodd ei benn: ſyrthiodd hefyd i lawr, ac addolodd.

21 Ac efe a ddywedodd, noeth y daethum o grôth fy mam, a noeth y dychwelaf yno, yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd

ymmaith: bendigedic fyddo enw'r Arglwydd.

22 Er hynny ei gyd ni phechodd Iob, ac ni roddodd efe [eiriau] ynfydion am Dduw.

## PEN. II.

Satan wedi cael cennad gan Dduw yn cyſtuddio corph Iob. 9 Ei wraig yn ceiſio ganddo felldithio Duw, A heb gael. 11 Cyfeillion Iob yn dyfod i ymweled ag ef.

A'R dydd a ddaeth i feibion Duw ddyfod i ſefyll ger bron yr Arglwydd: a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt i ſefyll ger bron yr Arglwydd.

2 Yna'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, o ba le'r ydwyt yn dyfod? a Satan a attebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd, o amgylchu y ddaiar, ac * o ymrodio ynddi.

Pen.1.7.

3 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, a ddelaiſt ti ſulw ar fyng-wâs Iob, nad [oes] gyffelib iddo ef ar y ddaiar? yn ŵr perffaith, ac iniawn, yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni, ac yn parhau yn ei berffeithrwydd, er it fy annog i yn ei erbyn ef, iw ddifa ef heb achos?

4 A Satan a attebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd: croen [arall] am [ei] groen [ei hun,] a'r hyn oll [ſydd] gan ŵr a ddyry efe am ei einioes.

5 Eithr eſtyn yn awr dy law, a chyffwrdd ai eſcyrn ef, ac ai gnawd: [i weled] oni felldiga efe dy di o flaen dy wyneb.

Pen.1.11.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, wele ef yn dy law di: etto cadw ei hoedl.

7 Felly Satan a aeth allan oddi ger bron yr Arglwydd: ac a darawodd Iob a chornwydydd drwg, o wadn ei droed hyd ei goryn.

8 Ac efe a gymmerth gragen i ymgrafu â hi: ac yntef oedd yn eiſtedd yng-hanol y llwch.

9 Yna ei wraig a ddywedodd wrtho, a wyt ti etto'n parhau yn dy berffeithrwydd? melldithia Dduw, a bydd farw.

10 Ac efe a ddywedodd wrthi, lleferaiſt fel y llefare vn o'r rhai ynfydion, a dderbynnwn ni gan Dduw'r hyn ſydd dda, ac heb dderbyn yr hyn ſydd ddrwg hefyd? er hyn ei gyd ni phechodd Iob ai wefuſau.

11 Pan glybu tri chyfell Iob yr holl ddrwg ymma'r hwn a ddigwyddaſe iddo ef, yna y daethant bob vn oi fangre ei hun, [ſef] Eliphaz y Themaniad, Bildad hefyd y Suhiad, a Zophar y Naamathiad: ac a ymgyfarfuant ynghyd i ddyfod i gyd-ofidio ag ef, ac iw gyſſuro.

12 Pan dderchafaſant eu llygaid o bell, yna nid adnabuant ef, am hynny y derchafaſant eu llef, ac yr ŵylaſant: rhwygaſant hefyd bob vn ei fantell, a thanaſant lwch ar eu pennau tua yr nefoedd.

13 Felly hwynt a eiſteddaſant gyd ag ef ar y ddaiar ſaith niwrnod, a ſaith noſwaith: ac nid oedd [neb] a ddywede air wrtho ef, canys gwelent fwyhau ei ddolur ef yn ddirfawr.

## PEN. III.

Iob yn rhegu dydd ei anedigaeth. 11 Ac yn chwēnychu marwolaeth, 14 Lle y mae cyrchfa pob math ar ddyn, 17 A diwedd pob gofid bydol, 23 Yr hwn oedd drwm arno ef.

WEdi hynny Iob a agorodd ei enau, ac a felldigodd ei ddydd.

2 Canys Iob a lefarodd, ac a ddywedodd,

3 Darfydded am y dydd i'm ganwyd ynddo: a'r nôs y dywedwyd, fe a ennillwyd gŵr.

4 Bydded y dydd hwnnw yn dywyllwch, [a] Duw oddi vchod heb ei yſtyried, ac na thywynned llewyrch arno.

5 Dued tywyllwch, a chyſcod marwolaeth ai halogo ef, ac arhoſed cwmwl arno ef: gwnelont ef mor erchill a'r diwrnod chwerwaf allan.

6 Cymmered niwl y nôs honno, na chydier hi a dyddiau y flwyddyn: ac na ddeued hi i rifedi y miſoedd.

7 Bydded y noſwaith honno yn vnic: ac na fydded gorfoledd ynddi.

8 A'r rhai a felldigant [eu] dydd, ac ſy barod i gyffroi eu galar ai melldithio hi.

9 A bydded ſêr ei chyfddydd hi yn dywyll, diſgwilied hi am oleuni, ac na [ddeued ddim:] ac na chaffed hi weled y wawr ddydd.

10 Am na chaeodd hi ddryſſau croth fy [mam,] ac na chuddiodd hi ofid oddi wrth fy llygaid.

11 Pa ham na bum farw [wrth ddyfod] o'r bru? [na] threngais [pan] ddaethum allan o'r groth?

12 Pa ham y derbynnodd gliniau fyfi? a pha ham [y cefais] fronnau i ſugno?

13 O herwydd [oni buaſe hynny] yn awr mi a gawſwn orwedd, a gorphywys [a] huno, yna [y buaſe] llonyddwch i mi,

14 Gyd a brenhinoedd, a chynghor-wŷr y ddaiar y rhai a adailadaſant iddynt eu hunain [fannau] anghyfannedd.

15 Neu gyd a thywyſogion [ac] aur ganddynt: y rhai a lanwaſant eu tai ag arian.

16 Neu [pa ham] na'm cuddiwyd fel erthyl? [neu] megis plant bychain heb weled goleuni?

17 Yno yr annuwolion a beidiant ai cyffro: ac yno y gorphywys y rhai lluddedic o nerth.

18 Y rhai a gyd garcharwyd a gaent [yno] lonydd, [ac] ni chlywant lais y gorthrymmudd.

19 Bychan a mawr [ſydd] yno: a'r gwâs yr hwn a ryddhauwyd oddi wrth ei feiſtr.

20 Pa ham y rhoddir goleuni i'r hwn ſydd mewn llafur? a bywyd i'r rhai gofidus?

21 Y rhai ſy'n diſgwil am farwolaeth ac heb ei [chael,] er cloddio o honynt am dani hi yn fwy nac am dryſſorau cuddiedic.

22 Y rhai a lawenychant mewn hyfrydwch: ac a orfoleddant pan gaffant y bedd.

23 [Pa ham y roddir goleuni] i'r gŵr yr hwn y mae ei ffordd yn guddiedic? ac y caeodd Duw arno?

24 O blegit o flaen fy mwyd y daw fy vchenaid: a'm rhuadau a dywelltir megis dyfroedd.

25 Canys yr hyn a ofnais a ddaeth attafi: a'r hyn a arſwydais a ddigwyddodd i mi.

26 Ni bum lonydd na diſtaw, ac ni orphywyſais: er hynny daeth cynnwrf [arnaf.]

## PEN. IIII.

Eliphaz yn ceryddu Iob am ei fod yn anioddefgar. 7 Ac yn ymddyried yn ei gyfiawnder ei hun.

YNa Eliphaz y Themaniad a attebodd, ac a ddywedodd:

2 Pe profem ni [ddywedyd] gair wrthit ti a fydde blin gennit ti? ond pwy a all attal [ei] ymadroddion?

3 Wele ti a ddyſcaiſt lawer, ac a ſiccrheaiſt ddwylo wedi llaeſu.

4 Dy ymadroddion di a godaſant i fynu yr hwn oedd yn llithro: a thi a nerthaiſt y gliniau y rhai oeddynt yn cammu.

5 Blin gennit ti am ddyfod [hyn] i ti 'n awr: cyffroaiſt [pan] gyffyrddwyd a thi.

6 Onid [dymma] dy ofn di, dy hyder di, dy obaith di, a pherffeithrwydd dy ffyrdd di?

7 Coſia atolwg pwy [ac] efe 'n ddiniwed a gollwyd? a pha lé y torrwyd y rhai iniawn ymmaith?

8 Hyd y gwelais i, y rhai a arddent oferedd, ac a hauent flinder, ai medent.

9 Gan anadl Duw y difethid hwynt, a chan chwythad ei ffroenau ef y darfyddent hwy.

10 Rhuad llew, a llais llewes, a dannedd cenawon llewod a dynnwyd.

11 Y llew a fethodd o eiſieu ſclyfaeth: a chenawon y llew mawr a waſcarwyd.

12 Ac attafi y dygwyd gair yn ddirgel: am cluſt a dderbynniodd ychydig o honaw.

13 Ym mhlith meddyliau [yn dyfod] o weledigaethau y nôs: pan ſyrthio trym-gwſc ar ddynion:

14 Ofn a ddaeth arnaf, a dychryn: ac a wnaeth i'm holl eſcyrn grynu.

15 A'r gwynt a aeth heibio o flaen fy wyneb: ac a wnaeth i flew fyng-nhawd ſefyll yn hyll.

16 Efe a ſafodd, ac nid adwaenwn ei agwedd ef, drychiolaeth [oedd efe] gyferbyn a'm llygaid: ac yn ddiſtaw mi a glywais y llef [ymma.]

17 A fydd dŷn yn gyfiawnach na Duw? a fydd gŵr yn burach nai wneuthur-wr?

18 Wele yn ei waſanaeth-wŷr ni chafodd efe ffyddlondab: ac yn erbyn ei angelion y goſododd efe ynfydrwydd. Pen.15.15.

19 Pa faint mwy y rhai ydynt yn trigo mewn tai o glai, y rhai [ſy] ai ſail mewn pridd? y rhai a falurir yn gynt na gwyfyn?

20 O'r borau hyd hwyr y coethir hwynt, difethir hwynt yn dragywydd heb [neb] yn yſtyried.

21 Onid aeth eu rhagoriaeth hwy gyd a hwynt ymmaith? hwy a fyddant feirw, ac nid mewn doethineb.

## PEN. V.

Eliphaz yn dangos rhagor rhwng y duwiol a'r annuwiol. 3 Cwymp yr annuwiol. 9 Gallu Duw yn difetha y drygionus: ac yn achub y daionus.

GAlw yn awr, a oes [neb] yn atteb i ti? ac at bwy o'r ſainct y troi di?

2 Canys digllondeb a ladd yr ynfyd, a chenfigen yr annoeth.

3 Mi a welais yr ynfyd yn gwreiddio: ac a felldithiais ei drigfa ef yn ddiſymmwth.

4 Ei feibion ef a bellhauir oddi wrth iechydwriaeth: drylliir hwynt hefyd yn y porth, ac ni bydd gwaredudd.

5 Yr hwn y bwytty y newynog ei gynhaiaf, wedi iddo ei gymmeryd ef o blith drain: a'r ſychedic a ŷf eu cyfoeth hwynt.

6 Canys ni ddaw trueni allan o'r pridd, ac ni flagura gofid allan o'r ddaiar.

7 Ond dŷn a aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen yn vchel.

8 Etto myfi a ymgynghorwn a Duw: ac a Duw yr ymddiddanwn.

9 Yr hwn ſydd yn gwneuthur pethau mawrion, anchwiliadwy, rhyfeddol heb rifedi.

10 Yr hwn ſydd yn rhoddi glaw ar wyneb y ddaiar: ac yn danfon dyfroedd ar wyneb yr heolydd.

11 Gan oſod rhai iſel mewn vchelder: fel y dercheſir y galârus [i] iechydwriaeth.

12 Yr hwn ſydd yn diddymmu amcannion y cyfrwys: fel na wnelo eu dwylo hwynt ddim a ffrwyth ynddo.

13 *Yr hwn ſydd yn dal y doethion yn eu cyfrwyſdra: fel y byddo ynfyd cyngor y rhai dichellgar. 1.Cor.3.19.

14 Lliw dydd y cyfarfyddāt â thywyllwch, a hwy a balfalant am ffordd hanner dydd, megis lliw nos.

15 Yr hwn hefyd a achub yr anghenog rhac y cleddyf, rhac eu genau hwy, a rhac llaw y cadarn.

16 Felly y mae efe yn obaith i'r tlawd, ond anwiredd a gaeodd ei ſafn.

17 Wele gwyn ei fyd y dŷn a gerydda Duw, am hynny na ddiyſtyra gerydd yr Hollalluog.

18 Canys efe a glwyfa, ac a feddiginiaetha: efe a friw, ai ddwylaw ef a iachâant.

19 Mewn chwech o gyfyngderau efe a'th wared ti: ac yn y ſeithfed ni chyffwrdd drwg a thi.

20 Mewn newyn efe a'th wared ti oddi wrth farwolaeth: ac mewn rhyfel oddi wrth fin y cleddyf.

21 Rhac ffrywill tafod i'th guddir: ac ni ofni rhac diniſtr pan ddelo.

22 Mewn diniſtr, a newyn y chwerddi: ac ni ofni rhac bwyſt-filod y ddaiar.

23 Canys a cherrig y maes y [bydd] dy ammod ti: a bwyſtfil y maes hefyd fydd heddychol i ti.

24 A thi a gei ŵybod [y bydd] heddwch [yn] dy lueſt: a phan ymwelech a'th drigfa ni phechi.

25 A chei ŵybod hefyd mai lluoſog [fydd]

dy hâd: a'th hiliogaeth megis gwellt y ddaiar.

26 Ti a ddeui mewn henaint i'r bedd: fel y codir yſcafn yn ei hamſer.

27 Wele ni a chwiliaſom hyn,[ac] felly [y mae] efe: gwrando hynny, a gwybydd di er dy fwyn dy hun.

## P E N. VI.

Iob yn atteb nad heb achos yr oedd efe yn cwynfan. 8 Yn ewyllyſio marw. 13 Ac yn achwyn rhac eu gyfeillion.

AC Iob a attebodd, ac a ddywedodd:

2 O gan bwyſſo na phwyſſid fy nigllondeb: ac na chydgodent fy-nhrychineb mewn clorian.

3 Canys yn awr trymmach fydde na thyſod y môr: am hynny y pallodd fyng-eiriau.

4 O herwydd [y mae] ſaethau'r Holl-alluog ynof, y rhai y mae eu gwenwyn yn yfed fy yſpryd: dychrynſâu Duw a ymfyddinaſant i'm herbyn.

5 A rûa aſſyn wyllt vwch benn glaſ-wellt? a frêf ŷch vwch benn ei borthiant?

6 A fwyteir peth diflas heb hâlen? a oes flâs ar wynn ŵy?

7 [Y pethau] a wrthododd fy enaid eu cyffwrdd, y rhai hynny gan ofid [ydynt] yn lle bwyd i mi.

8 O na ddeue fy nymuniad, ac na rodde Duw'r hyn yr ydwyf yn ei ddiſgwil.

9 O [na] ddechreue Duw fy nryllio, na ollynge efe ei law yn rhydd, ac na'm torre fi ymmaith.

10 Yna cyſſur a fydde etto (er fynghaledu mewn clefyd heb [fy] arbed) na chelais ymadroddion y ſanctaidd [Dduw.]

11 Pa nerth [ſydd] i mi i barhau? a pha ddiwedd [fydde] i mi pe eſtynnwn fy hoedl?

12 Ai [fel] cryfdwr cerrig [y mae] fyng-hryfdwr? a ydyw fyng-nhawd o brês?

13 Onid [y dyw] fy amdeffyn gennifi? a fwriwyd rheſwm ymmaith oddi wrthif,

14 Yn erbyn yr hwn y toddwyd [ei] drugaredd oddi wrth ei gyfell, ac a adawodd ofn yr Holl-alluog?

15 Fy mrodyr [a'm] twyllaſant megis afon: aethant heibio fel llifeiriant afonydd:

16 Y rhai a ddûaſant gan rew: ac yr ymguddiodd eira ynddynt:

17 Mewn amſer hwy a redant, [ac] hwy a dorrir ymmaith: pan wreſogo [yr hin] hwy a ddarfyddant allan oi lle:

18 Llwybrau eu ffordd hwynt a giliant: dringant hefyd i wagedd, a hwy a gollir.

19 Y rhai a aent i Thema a edrychaſant: y rhai a deithient i Saba a ddiſgwiliaſant am danynt hwy.

20 Hwynt a gywilyddiwyd am obeithio [ynddynt:] hwynt a ddaethant hyd yno, ac a wladeiddiaſant.

21 Felly yn awr diau nad [ydych chwi y rhai] oeddych: chwi a welſoch ddychryn, ac a ofnaſoch.

22 A ddywedais i, dygwch i mi? ac o'ch ffrwyth chwi rhoddwch roddion troſofi?

23 Neu gwaredwch fi o law y gelyn: a rhyddhewch fi o law y cedyrn.

24 Dyſcwch fi, ac myfi a dawaf: a gwnewch i mi ddeall [ym] mha beth y dywedais yn amryfus.

25 Mor gryfion ydyw geiriau iniondeb: ond pa beth a argyoedda argyoeddiad [vn] o honoch chwi?

26 Ai argyoeddu ymadroddion a amcenwch chwi? fel [y bydd] geiriau [dŷn] truan megis gwynt.

27 Chwi a ruthrwch hefyd am benn yr ymddifad, ac a gloddiwch yn erbyn eich cyfaill.

28 Eithr yn awr byddwch fodlon, edrychwch arnafi: canys ni ddywedaf gelwydd 'och blaen chwi.

29 Dychwelwch attolwg, na fydded anwiredd [ynoch]: îe troiwch etto [cewch weled] fyng-hyfiawnder yn hyn.

30 A oes anwiredd yn fy nhafod? oni ddeall taflod fyng-enau gamwedd?

## P E N. VII.

Iob yn achwyn fyrred, a blined oedd ei oes.

ONid amſer terfynedic [ſydd] i ddŷn ar y ddaiar? ai ddyddiau ef megis dyddiau gwâs cyflog?

2 Megis y dyheûa gwâs am gyſcod: ac y diſgwil cyflog-ddyn [ddiwedd] ei waith:

3 Felly y gwnaethpwyd i mi feddiannu miſoedd o oferedd: a noſweithiau o boen a oſodwyd i mi.

4 Os gorweddwn, yna y dywedwn, pa bryd y codaf, ac yr ymedu y nos? canys caf ddigon o ymdroi hyd y cyfddydd.

5 Fyng-nhawd a wiſcodd bryfed, a llwch priddlyd: fyng-hroen a agennodd, ac a aeth yn ffiaidd.

6 Fy nyddiau oedd gynt na gwennol gwehydd: ac a ddarfuant heb obaith.

7 Coſia mai gwynt [ydyw] fy hoedl: ni ddychwel fy llygad i weled daioni.

8 Y llygad a'm gwelodd ni'm gwel [mwyach:] dy lygaid ti [ydynt] i'm herbyn fel na [byddwyf] i [mwyach.]

9 [Fel] y derfydd cwmwl, ac yr aiff ymmaith: felly'r hwn fydd yn deſcyn i'r bedd ni ddaw i fynu [mwyach.]

10 Ni ddychwel mwy iw dŷ: ai lê ni's edwyn ef mwy.

11 Gan hynny ni orafunaf i'm genau, mi a lefaraf yng-hyfyngdra fy yſpryd: myfi a gŵynaf gan ofid fyng-halon.

12 Ai môr ydwyf, ai morfil, gan dy fod yn goſod cadwrieth arnaf?

13 Pan ddywedwn fyng-wely am cyſſura: fyng-orweddfa a eſmwythâ oherwydd fy myfyrdod:

14 Yna ti a'm brawychit a breuddwydion:

ac a'm dychrynit â gweledigaethau.

15 Am hynny y dewiſe fy enaid ymddagu: [a] marwolaeth yn fwy na'm hoedl.

16 Ffieiddiais [einioes,] ni byddafi byw byth: paid a mi, canys ofered [ydyw] fy nyddiau.

17 Pa beth [ydyw] dŷn pan fawrhceit ef: a phan oſodit dy feddwl arno ef:

18 Ac ymweled ag ef bob boreu: ai brofi ef ar bob moment:

19 Pa hŷd [y byddi] heb droi oddi wrthif, ni adewi fi yn llonydd tra llyngcwyf fy mhoeryn.

20 Myfi a bechais, beth a wnaf i ti, ô geidwad dŷn, pa ham y goſodaiſt fi yn nôd i ti: fel y byddwyf yn faich i mi fy hun:

21 A pha ham na faddeui di fyng-hamwedd, ac na fwrri heibio fy anwiredd: canys yn awr yn y pridd y gorweddaf, a thi a'm ceiſi yn forau, ond ni'm [ceir.]

## P E N. VIII.

Bildad yn ceryddu Iob gan ddangos mai yr annuwiol a goſpa Duw yn ddirfawr. 20 Ac morr ddaionus fydd efe i'r rhai duwiol.

YNa Bildad y Suhiad a atebodd, ac a ddywedodd:

2 Hyd pa hŷd y dyweddi di hynny: ac [y bydd] geiriau dy enau yn wynt cryf:

3 A wyra Duw farn: ac a wyra'r Holl-alluog gyfiawnder:

4 Os dy feibion a bechâſant yn ei erbyn ef: am hynny y gollyngodd efe hwy i feddiant eu camwedd eu hun.

5 Os tydi a foreu-godi at Dduw, ac a weddii ar yr Holl-alluog,

6 Os pur, ac iniawn [fyddi] di, yn wîr efe a ddeffru attat ti yr awron, ac a wna drigfa dy gyfiawnder yn llwyddiannus.

7 Er bod dy ddechreuad yn fychan: etto dy ddiwedd a gynnydda yn ddirfawr.

8 Oblegit gofyn attolwg i'r oes gyntaf, ac ymbaratôa i chwilio eu henafiaid hwynt.

9 Canys [er] doe'r ydym ni, ni ŵyddom [ddim,] o herwydd cyſcod [yw] ein dyddiau ni ar y ddaiar.

10 Onid hwynt a'th ddyſcant di, oni ddywedant i ti: ac [oni] ddygant ymadroddion allan oi calon.

11 A gyfyd brŵyn heb wlybaniaeth: a dyf gwairglodd heb ddwfr:

12 Tra fyddo hi etto yn ei ffrwyth heb ei thorri, y gwywa hi o flaen pôb glaſ-welltyn.

13 Felly [y mae] llwybrau pawb a'r ſydd yn gollwng Duw dros gof: ac y derfydd am obaith y rhagrhithiwr.

14 Yr hwn y torrir ymmaith ei hyder: ac [fel] tŷ pryf-copyn [y bydd] ei obaith ef.

15 Efe a bwyſſa ar ei dŷ, ac ni ſaif: efe a ymeifl ynddo, ac ni pheru.

16 Y mae efe [fel pren] ir o flaen yr haul: a thros ei ardd y daw ei frig.

17 Plethir ei wraidd ef yng-hylch ffynnon, [o amgylch] tŷ cerrig y trŷ efe.

18 Os diwreiddia efe allan oi lê: efe ai gwâd ef [gan ddywedyd,] ni'th welais.

19 Wele dymma y modd y llawenycha efe: ſef gallu o honaw flaguro mewn pridd arall.

20 Wele ni ddiyſtyra Duw y perffaith: ac nid ymeifl efe yn llaw y rhai drygionus,

21 Oni lanwo efe dy enau di a chwerthin: a'th wefuſau o orfoledd.

22 [Oni] wiſcer dy gaſedigion di â chywilydd, fel na byddo llueſtŷ'r annuwiol.

## P E N. IX.

Iob yn cydnabod gallu, cyfiawnder, a doethineb Duw: a diffig dyn, ac er hynny yn cwyno rhac ei adfyd.

AC Iob a atebodd, ac a ddywedodd,

2 Yn wîr mi a wn mai felly [y mae:] canys pa fodd y cyfiawnheuir dŷn, [o chyd-ymdrech] ...

3 Os myn efe ymryſon ag efo: nid ettyb iddo ef [am] vn [peth] o fil.

4 Y mae efe yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth: pwy a galedodd [ei galon] yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd:

5 Yr hwn ſydd yn ſymmud mynyddoedd: heb wybod iddynt: yr hwn ſydd yn eu dymchwelyd hwynt yn ei ddigofaint.

6 Yr hwn ſydd yn cynhyrfu y ddaiar allan oi lle: fel y cryno ei cholofnau hi.

7 Yr hwn a ddywed wrth yr haul, ac ni chyfyd: ac a ſelia ar y ſêr.

8 Yr hwn ſydd yn tanu y nefoedd yn vnic: ac yn ſathru ar donnau y môr.

9 Yr hwn ſydd yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleiades, ac ſtafelloedd y dehau.

10 Yr hwn ſydd yn gwneuthur [pethau] mawrion anchwiliadwy: a rhyfeddodau aneirif.

11 Wele efe aiff troſofi, ac nis gwelaf: ac efe a aiff heibio, ac ni chanfyddaf mo honaw.

12 Wele efe a ſclyfaetha, pwy a wna iddo dalu: pwy a ddywed wrtho ef, pa ham y gwnei di [felly:]

13 Ni thrŷ Duw ei ddigllonedd ymmaith: tano ef y crymmwyd cynhorthwy-wŷr balchder.

14 Pa faint llai'r attebaf iddo ef: [ac] y gallaf ddewis fyng-eiriau [iw dywedyd] wrtho ef:

15 I'r hwn pe bawn cyfiawn nid atebwn, eithr ymbiliwn a'm barn-wr.

16 Os galwn, a phe atebe efe i mi, ni chredwn y gwrandawe efe fy lleferydd.

17 Yr hwn a'm dryllia a chorwynt: ac a amlhâ fy archollion yn ddi-achos.

18 Ni ddioddef efe i mi gymmeryd fy anadl attaf: canys efe a'm lleinw a chwerwder.

19 Os am gadernid, wele ef yn gadarn: ac os am gyfraith, pwy a ddadleua troſofi:

20 Os myfi a ymgyfiawnhaf fyng-enau a'm barn yn euog: [os] perffaith [y cymmerwn]

wn i arnaf fy mod]efe a'm barn fi yn drofaus.

21 [Pe byddwn berffaith[etto]nid adwen i fy enaid: ffiaidd gennif fy enioes.

22 Dymma vn peth, am hynny y dywedais: y mae efe yn difetha y perffaith fel yr annuwiol.

23 Er lladd o honaw ef a ffrewyll yn ddiſymmwth: a watwar efe am benn coſpedigaeth rhai diniwed?

24 Y ddaiar a roddwyd yn llaw 'r annuwiol, efe a fwrw hûg dros wynebau ei barn-wŷr hi: onid ê, pa le [y mae efe? a] phwy[yw efe a ddengys y gwrthwyneb?]

25 A'm dyddiau mau fi fuant gynt na rhedeg-wr: ffoaſant heb wêled daioni.

26 Aethant heibio [megis] gyd a llongau buan: megis yr eheda eryr at ymborth.

27 Os dywedaf, gollyngaf fyng-hŵyn dros gof: mi a adawaf fy nigllondeb, ac a gryfhâf.

28 [Yna yr]ofnaf fy holl ddoluriau: gwn na'm berni yn wirion.

29 [Os] euog fyddaf: pa ham yr ymflinaf felly yn ofer?

30 Os ymolchaf mewn dwfr eira: ac [os] glanhaf fy nwylaw yn lân:

31 Yna di a'm trochi mewn pwll: a'm dillad a'm drewant.

32 Canys nid gŵr fel myfi [ydyw yr hwn] y mae yn rhaid i mi atteb iddo ef, [pan]ddelom yng-hyd i'r farn.

33 Nid oes rhyngom ni gryf ddyd diwr yr hwn:]a oſodo ei law arnom ein dau.

34 Tynned ymmaith ei wialen oddi arnaf: ac na ddychryned ei ddychryn ef fi.

35 Yna y dywedaf, ac nid ofnaf ef: canys nid ydwyfi felly ynof fy hûn.

## PEN. X.

Iob yn attolwg i Dduw yſtyried wrth ei adfyd ef, ac edrych ar ei fuchedd ef: a byrhau ei oes rhac ei blyned.

Marw ydwyf er fy mod yn fyw: arnaf fy hun y gadawaf fyng-hŵyn, ac yn chwerwder fy enaid y llefaraf.

2 Dywedaf wrth Dduw, na farna fi yn euog: gwna i mi ŵybod pa ham yr ymryſoni a mi.

3 Ai dâ i ti orthrymmu, a diyſtyru llafur dy ddwylaw? a llwyddo cyngor yr annuwolion?

4 Ai llygaid o gnawd ſy i ti? ai fel y gwêl dŷn y gweli di?

5 A ydyw dy ddyddiau di fel dyddiau dŷn? [a ydyw] dy flynyddoedd di fel blynyddoedd gŵr?

6 Pan geiſi fy anwiredd: a phan ofynni am fy mhechod?

7 Ti a ŵyddoſt nad ydwyf euog: ac nid [oes] a waredo allan o'th law di.

8 Dy ddwylaw di a'm gweithiaſant, ac am cyd-wnaethant o amgylch: gan hynny a ddifethi di fi?

9 Coffa attolwg mai fel clai y gwnaethoſt fi: ac i'r pridd y dygi fi drachefn.

10 Oni thywelltaiſt fi fel llaeth? ac oni cheulaiſt fi fel caws?

11 Ti a'm gwiſcaiſt i â chroen, ac â chnawd: ti a'm cyſſylltaiſt fi ag eſcyrn, ac â giau.

12 Bywyd, a thrugaredd a ddarperaiſt i mi, a'th ymgeledd a gadwodd fy yſpryd.

13 A'r rhai hynny a guddiaiſt di yn dy galon: [er hynny] gwn fod hyn [mewn côf]gennit.

14 O phechais, ti a'm gwiliaiſt: ac ni'm glanhei oddi wrth fy anwiredd.

15 Os ydwyf annuwiol gwae fi, ac os cyfiawn ydwyf [er hynny] ni chodaf fy mhen, [yr ydwyf mor] llawn o warthrudd, ac yn gweled fyng-hyſtudd.

16 Cynnydded [fyng-hyſtudd,] hêla fi fel llew: er hynny ti a ddychweli, ac a wnei yn rhyfedd a mi.

17 Yr wyt ti yn adnewyddu dy dyſtion i'm herbyn, ac yn amlhau dy ddigofaint wrthif: llawer, ac amryw[ddialeddau ydynt]arnaf.

18 Pa ham gan hynny y dygaiſt fi allan o'r groth: [ô na] buaſwn farw, fel na'm gwelſe llygad.

19 [O na] byddwn megis pe na buaſwn: [ac na'm]ducſid o'r bru i'r bedd.

20 Ond ychydig[yw]fy nyddiau, peidied, cilied oddi wrthif: fel y cryfhawyf ychydig.

21 Cyn myned o honof lle ni ddychwelaf, i dîr tywyllwch a chyſcod angeu.

22 Tîr cyn dywylled a'r fagddu, [ac a] chyſcod angeu, ac heb drefn: lle y mae y goleuni fel y tywyllwch.

## PEN. XI.

Zophar yn ceryddu Iob am ymddyried yn ei gyfiawnder ei hun. 7 Gan ddangos anfeidroldeb doethineb Duw, ai gyfiawnder. 13 Efe yn cynghori Iob i edifarhau, gan ddangos fod daioni Duw yn barod i bawb onid i'r annuwiol anedifeiriol.

A Zophar y Naamathiad a attebodd, ac a ddywedodd:

2 Oni attebir yr aml o eiriau? ac a gyfiawnheuir gŵr ſiarâdus.

3 Ai dy gelwyddau a wnânt i wŷr dewi? a phan watwarech oni bydd a'th wradwyddo?

4 Canys dywedais, pur[ydyw] fy nyſceidieth: a glân ydwyf yn dy olwg di.

5 Ond ô na lefare Duw: ac[nad] agore efe ei wefuſau yn dy erbyn,

6 A mynegu i ti ddirgeledigaethau doethineb, mai dau cymmeint wrth gyfiawnder[a haeddaiſt]: cydnebydd gan hynny i Dduw dy anghofio di am dy anwiredd.

7 A gei di ddyfnder [doethineb] Duw? a gei di berffeithrwydd yr Holl-alluog?

8 Uwch na'r nefoedd[ydyw efe,]beth a wnei di? dyfnach nag vffern [yw efe,]pa fodd yr adweini di ef?

9 [Mae]ei feſur ef yn hwy na'r ddaiar: ac yn llêd na'r môr.

10 Os tyrr efe ymmaith, os carchâra efe: os caſcla efe yng-hyd, pwy ai dychwel ef?

11 Canys efe a edwyn ofer ddynnion: ac a wêl anwiredd, oni ddeall efe gan hynny?

12 Dŷn gwag er hynny a gymmer arno ei fod yn ddoeth: er geni dŷn fel llwdn aſſyn wyllt.

13 Os dydi a baratoi dy galon, ac a eſtynni dy ddwylaw atto ef.

14 Od oes ddrygioni yn dy law, bwrw ef ymmaith ym-mhell: ac na ddioddef i anwiredd drigo yn dy lueſtai,

15 Canys yna y codi dy wyneb o'r brychau: y byddi hefyd ſafadwy, ac nid ofni:

16 Eithr ti a ollyngit ofid dros gôf: fel dyfroedd [y rhai] a aethant heibio y cofit [ef.]

17 Dy oedran hefyd a dderchafe vwch law [haul] hanner dydd: llewyrchit [a] byddit fel y boreu-ddydd.

18 Hyderus fyddit hefyd, canys bydde gobaith: pan gloddit lueſtfa y gorweddit mewn diogelwch.

19 Yna ti a ellit orwedd, ac ni [bydde a'th] ddychrynne: a llawer a ymbilient a'th wyneb.

20 Llygaid yr annuwolion a ddeffygiant, metha ganddynt ffoi: ai gobaith [fydd] gofid calon.

## PEN. XII.

Iob yn datcuddio ynfydrwydd ei gyfeillion, ac yn cydnabod doethineb Duw, ai allu.

AC Iob a attebodd, ac a ddywedodd,

2 Diau mai chwy chwi [ſy] bobl: a chyd a chwi y bydd marw doethineb.

3 Eithr [y mae] gennifi ddeall fel chwithau: nid ydwyfi waeth na chwithau, a phwy ni ŵyr y fath bethau a hyn?

4 Yr ydwyf [fel vn a fydde] yn watwor-gerdd iw gyfell, yr hwn a eilw ar Dduw, ac efe ai hettyb: gwatworgerdd [yw] y cyfiawn [a'r] perffaith.

5 Pentewyn diyſtyr ym meddwl y llwyddiannus [yw] 'r hwn ſydd barod i lithro oi draed.

6 Lueſtai heddychol ſydd i yſpeil-wŷr, a diogelwch i'r rhai ſydd yn cyffroi Duw: y rhai a gyfoethogodd Duw ai law.

7 Ond gofyn yn awr i'r anifeiliaid, a hwynt a'th ddyſcant, ac i ehediad yr awyr, a hwy a fynegant i ti.

8 Neu ddywet wrth y ddaiar, a hi a'th ddyſc: a phyſcod y môr a yſpyſant i ti.

9 Pwy ni ŵyr am y rhai hyn oll, mai llaw'r Arglwydd ai gwnaeth hwy?

10 Yr hwn [y mae] enioes pob peth byw yn ei law: ac anadl pob mâch ar ddŷn.

11 Onid y gluſt a ddirnad ymadroddion, a'r genau a archwaetha ei fwyd?

12 Doethineb [ſydd] mewn henuriaid: a deall mewn hir ddyddiau.

13 Gyd ag ef [y mae] doethineb, a chadernid: cyngor, a deall [yrynt] eiddo ef.

14 Wele efe a ddeſtruwia, ac nid adailedir: efe a gae ar ŵr, ac nid agorir arno.

15 Wele efe a attal y dyfroedd, a hwy a ſychant: efe ai denfyn hwynt, a hwy a ddifethant y ddaiar.

16 Gyd ag ef y mae nerth a doethineb: efe piau y twylledic, a'r twyllodrus.

17 Efe ſydd yn gwneuthur i gynghoriaid fyned yn anrhaith: ac efe a ynfyda farn-wŷr.

18 Efe ſydd yn datod rhwym brenhinoedd: ac yn rhwymo gwregis am eu lwynau hwynt.

19 Efe ſydd yn gwneuthur i dywyſogion fyned yn anrhaith: ac a blyga y rhai cedyrn.

20 Efe ſydd yn dwyn ymadrodd yr araith-wŷr: ac yn dwyn ſynnwyr y rhai hên.

21 Efe ſydd yn tywallt diyſtyrwch ar dywyſogion: ac yn gwanhaû y rhai cryfion o nerth.

22 Efe ſy yn dadcuddio [pethau] dyfnion allan o dywyllwch: ac yn dwyn cyſcod angeu allan i oleuni.

23 Efe ſydd yn amlhau y cenhedloedd, ac efe ai deſtruwiau hwynt: efe ſydd yn ehangu ar y cenhedloedd, ac efe ai dwg hwynt [i gyfyng-dra.]

24 Efe ſydd yn dwyn calon pennaethiaid pobl y ddaiar: ac efe a wna iddynt hwy fyned ar gyfrgoll mewn gwag-le heb ffordd.

25 Hwynt a balfalant â thywyllwch, ac nid â goleuni: ac efe a wna iddynt hwy gyfeiliorni fel meddwyn.

## PEN. XIII.

Iob yn ymgyſtadlu ai gyfeillion mewn doethineb. 15 Gobaith Iob. 20 Ai ddeiſyfiad ar Dduw.

WEle fy llygad a welodd [hyn] oll: fyng-hluſt a glywodd, ac ai deallodd.

2 Mi a wn yn gyſtal a chwithau, nid ydwyf waeth na chwithau.

3 Yn wîr myſt a lefaraf wrth yr Holl-alluog: ac yr ydwyf yn chwennychu ymryſymmu a Duw.

4 Ond rhai yn iaſſio celwydd [ydych] chwi: meddygon diddim ydych chwi oll.

5 Oh gan dewi na thawech: a [hynny] a fydde i chwi yn ddoethineb.

6 Clywch attolwg fyng-herydd: a gwrandewch ar reſwm fyng-wefuſau.

7 A ddywedwch chwi anwiredd tros Dduw? ac a ddywedwch chwi dwyll er ei fwyn ef?

8 A dderbynniwch chwi ei wyneb ef: a ymryſonwch chwi tros Dduw?

2 Ai da [fydd hyn] pan chwilio efe chwi? a dwyllwch chwi ef fel twyllo dyn?

10 Gan geryddu efe a'ch cerydda chwi: os derbynniwch chwi wyneb yn ddirgel.

11 Oni ddychryna ei ardderchawgrwydd ef chwi? ac oni ſyrth ei arſwyd ef arnoch?

12 Cyffelyb i ludw [ydyw] eich coffadwriaeth chwi: a'ch cyrph chwi i gyrph o glai.

13 Tewch yn fyng-ŵydd i fel y llefarwyf inne: a deued arnaf yr hyn [a ddelo.]

14 Pa ham y cymmeraf fyng-nhawd a'm dannedd? ac y goſodaf fy enaid yn fy llaw?

15 Pe lladde efe fi, mi a obeithiwn ynddo ef: er hynny fy ffyrdd fy hun a argyoeddaf ger ei fron ef.

16 Hefyd efe [ſydd] yn iechydwriaeth i mi: canys ni ddaw rhagrithiwr yn ei ŵydd ef.

17 Gan wrando gwrandewch fy ymadrodd: ac [yſtyrwich a fynegwyf i'ch cluſtiau.

18 Wele yn awr paratoais farn : gwn i'm cyfiawnheûir fi.

19 Pwy ydyw ['r hwn] a ymryſon a mi? canys yn awr [os] tawaf mi a drengaf.

20 Ond dau [beth] na wna di i mi: yna nid ymguddiaf rhagot.

21 Pellhâ dy law oddi arnaf: ac na ddychrynned dy ddychryn fi.

22 Galw yna, ac myfi a atebaf: neu myfi a lefaraf, ac atteb di fi.

23 Pa faint o gamweddau, ac o bechodau ſy yn ôl? par di i mi adnabod fyng-hamwedd a'm pechod.

24 Pa ham y cuddi di dy wyneb? ac y cyfrifi di fi yn elyn i ti?

25 A ddrylli di ddeilen eſcwydedic? a ymlidi di ſoflun ſych?

26 Canys yr .wyt ti yn ſcrifennu pethau chwerwon yn fy erbyn: ac yn gwneuthur i mi feddiannu [coſp] camweddau fy ieuengctid.

27 Ie yr ydwyt ti yn goſod fy nhraed mewn cyffion, ac yn gwilied fy holl lwybrau: [ac] yn peri [i'r cyffion] ymnoddi am fy ffêrau.

28 A'r cyfryw un megis pydrni a heneiddia, fel dilledyn yr hwn a yſſa gwyfyn.

## PEN. XIIII.

Iob drachefn yn dangos fyrred, a blined oes dyn.

DYN [yr hwn] a aned o wraig [ſydd] fyrr o ddyddiau, a llawn o hebbul.

2 Fel blodeun y daw allan, ac y torrir ef ymmaith: ac efe a gilia fel cyſcod, ac ni ſaif.

3 A agori di dy lygaid ar y fath ymma? ac a ddygi di fi i gyfraith a thi?

4 Pwy a rydd [beth] glân o [beth] aflan? neb.

5 Ond [ydyw] ei ddyddiau ef wedi eu rhacderfynu? rhifedi ei fiſoedd ef [ydynt] gyd a thi: [os] gwnaethoſt ei derfynau fel nad el efe troſtynt,

6 Tró oddi wrtho ef fel y gorphywyſo, oni orphenno efe yn ewyllyſcar ei ddydd fel gwâs cyflog.

7 Canys y mae gobaith i bren er ei dorri y blagura efe etto: ac na phaid ei frig ef [athyfu.]

8 Os heneiddia ei wreiddin ef yn y ddaiar: ac [os] marweiddia ei fon-cyff ef yn y pridd,

9 Efe a flagura oddi wrth arogl dyfroedd: ac a fwrw ganghennau fel planhigin.

10 Ond gŵr a fydd marw, ac a dorrir ymmaith: a dyn a drenga a pha le y [bydd] efe?

11 [Fel] y mae dyfroedd yn myned allan o'r môr: ac afon yn myned yn ddiſpydd, ac yn ſychu:

12 Felly gŵr a orwedd ac ni chyfyd, ni ddihunant, ac ni ddeffroant oi cwſc hyd oni byddic heb nefoedd.

13 O na oſodit fi mewn bedd, [na'm] cuddit fi hyd oni throit dy lid ymmaith: [na] oſodit ti derfynniad i mi, a'm cofio.

14 Os bydd gŵr marw, a fydd efe byw [drachefn?] diſgwiliaf holl ddyddiau fy milwriaeth hyd oni ddelo fyng-hyfnewidiad.

15 Gelwi, ac myfi a'th attebaf: hiraethi am waith dy ddwylaw.

16 Canys yr awr hon y rhifi fyng-hamreu: nid oedi [goſp] am fy mhechod.

17 Fyng-hamwedd a ſelied mewn côd: a thi a chwanegaiſt ar fy anwiredd.

18 Ac yn wir mynydd yr hwn a ſyrthio a ddiflanna: a chraig a ſymmudir oi lle.

19 Dyfroedd a dreuliant gerric, ti a godi trwy liſciriant [o] bridd y ddaiar ei chnwd hi, yr hwn ſydd yn tyfu o hono ei hun: felly'r wyt ti yn gwneuthur i obaith dŷn golli.

20 Yr wyt ti yn ei orchfygu ef yn dragywydd, fel yr elo efe ymmaith: ac yr wyt ti yn ei ddanfon ef i ffordd gan newidio ei wyneb ef.

21 Ei feibion ef a gyfoethogi, ac nis gŵybydd efe: a hwy a dlodir, ac ni ŵyr efe oddi wrthynt hwy.

22 Ond ei gnawd tra [fyddo] efe arno a ddoluria, ai enaid a alara [tra fyddo] ynddo ef.

## PEN. XV.

Eliphaz yn beio ar Iob am annoethineb, a rhyfyg yn erbyn Duw, gan ddangos iddo gyfiawnder Duw yn coſpi yr annuwiol.

YNA Eliphaz y Themaniad a attebodd, ac a ddywedodd,

2 A etteb [gŵr] doeth wybodaeth o wynt? ac a leinw efe ei fol a dwyrein-wynt?

3 A argyoedda efe a gair [yr hwn] ni fuddia? ac ag ymadroddion [y rhai] ni wna efe leſſâd â hwynt.

4 Yn ddiau ti a dorraiſt ymmaith ofn: yr ydwyt yn attal [dy] weddi [oddi] ger bron Duw.

5 Canys dy enau ſy yn dangos dy anwiredd: gan i ti ddewis tafod y rhai dichellgar.

6 Dy enau ſydd yn dy fwrw yn euog, ac nid myfi: a'th wefuſau ſydd yn teſtiolaethu yn dy erbyn.

7 A aned tydi yn gyntaf dŷn? a lunied tydi o flaen y brynnau?

8 A glywaiſt ti gyfrinach Duw? ac a attelli di ddoethineb gyd a thi?

9 Beth a ŵyddoſt ti ar na's gwyddom ni? [beth] a ddealli di heb fod hynny hefyd gennym ninnau?

10 Y mae yn ein myſc ni hên, ac oedrannus hefyd: hynach o oedran na'th dâd ti.

11 Ai bychan gennit ti ddiddanwch Duw? neu a oes dim yn ddirgel ynot ti?

12 Pa beth ſydd yn dwyn dy feddwl oddi arnat?

arnaf: a pha ham yr amneidia dy lygaid:

13 Gan i ti droi dy feddwl yn erbyn Duw: a dwyn y [fath] eiriau allan o'th enau:

14 Pa beth [yw] dŷn i fod yn bûr: a'r hwn a aned o wraig i fod yn gyfiawn:

15 Wele ni chafodd efe ffyddlondeb yn ei ſainct: a'r nefoedd nid ydynt bûr yn ei olwg ef.

16 Pa faint mwy ffiaidd, a drewedic [ydyw] dŷn, yr hwn ſydd yn yfed anwiredd fel dyfroedd:

17 Dangoſaf i ti, gwrando arnaf: a'r hyn a welais a fynegaf.

18 Yr hyn y mae gwŷr doethion yn ei fynegu: ac nid ydynt hwy yn celu [yr hyn a gawſant] gan eu henafiaid.

19 I'r rhai hynn y rhoddwyd y ddaiar yn unic: ac ni ddaeth alltud yn eu plith hwy.

20 Holl ddyddiau 'r annuwiol y bydd efe yn ymofidio: a [thros] rifedi y blynyddoedd y rhai a guddiwyd oddi wrth y cadarn.

21 Llais ofnadwy [ſydd] yn ei gluſtiau ef: mewn heddwch y daw y diniſtrudd atto ef.

22 Ni chrêd efe ddychwelyd allan o dywyllwch: canys y mae efe yn canfod y cleddyf.

23 Y mae efe yn crwydro am fara lle [y byddo:] efe a wŷr fod dydd tywyllwch yn barod wrth ei law.

24 Cyſtudd, a chyfyngdra ai brawycha ef: [ac] ai gorchfyga ef fel brenin parod i ryfel.

25 Canys efe a eſtynnodd ei law yn erbyn Duw: ac yn erbyn yr Holl-alluog yr ymnerthodd efe.

26 Efe a rêd yn y gwddf iddo ef: trwy dewdwr torrau ei dariannau.

27 Canys tôdd efe ei wyneb ai fraſder: ac a wnaeth dyrch [o floneg] ar [ei] dynewyn.

28 A thrigodd mewn dinaſoedd wedi eu diniſtrio, [a] thai anghyfanneddol: y rhai oeddynt barod [i fod] yn garneddau.

29 Ni chyfoethoga efe, ni pheru ei olud ef ychwaith: ac nid ymeſtyn eu perffeithrwydd hwy ar y ddaiar.

30 Nid ymedu efe allan o dywyllwch, y fflam a wywa ei frig ef: ac efe a ymedu trwy yſpryd ei enau ef.

31 Ni chrêd [yr hwn] a dwylled drwy oferedd, mai oferedd fydd ei obr ef.

32 Efe a dorrir ymmaith cynn ei ddydd: ai gangen ni laſſâ.

33 Efe a ddihidla ei rawn ſurion fel gwinwydden: ac a fwrw ei flodeun fel oli-wydden.

34 Canys cynnulleidfa rhagrith-wŷr ſydd unic: a thân a yſſa lueſtai gwobr-wŷr.

35 O herwydd eu bol hwy a ddarpare dwyll, gan ymddwyn gofid, ac eſcor ar anwiredd.

## PEN. XVI.

Y rhagoriaeth oedd rhwng naturiaeth Iob, a naturiaeth ei gyfeillion. 7 Iob yn dangos pa ſawl amryw ddrychineb a ddigwyddaſe iddo ef. 19 Ac yn cymmeryd Duw yn dyſt oi ddiniweidtra.

AC Job a attebodd, ac a ddywedodd,

2 Clywais fel hyn lawer [gwaith:] cyſſur-wŷr gofidus [ydych] chwi oll.

3 Oni [cheir] diwedd ar eiriau ofer: neu pa beth ſydd yn dy gryfhau di i atteb?

4 A ddywedwn i fel chwithau, pe byddec eich enaid chwi yn lle fy enaid i, a gydiwn i â chwi mewn geiriau: ac eſcydwn i fy mhen arnoch chwi:

5 Mi a'ch cyſſurwn chwi a'm genau: a ſymmudiad fyng-weſuſau a luddie [eich gofyd.]

6 Os llefaraf i, nid eſmwythâ fy nolur: ac os peidiaf, nid llai fyng-ofid.

7 Ond yn awr efe a'm blinodd i: anrheithiaiſt fy holl gynnulleidfa.

8 A chroen-grychu o honot fi oedd yn deſtiolaeth: fyng-hulni a gododd yn fy erbyn, efe a deſtiolaetha yn fy wyneb.

9 Ei ddigllondeb ef [a'm] rhwygodd, ac efe am gwrthwynebodd, efe a eſcyrnygodd ai ddannedd arnaf: fyng-wrthwynebwr a flaenllymmodd ei lygaid yn fy erbyn.

10 Hwy a ledaſant ei ſafnau yn fy erbyn, tarawſant fyng-hernau yn ddremygus: ymgaſclaſant yng-hyd yn fy erbyn.

11 Duw a'm caeuodd gyd a'r anwir: ac a'm trôdd i ddwylo 'r annuwolion.

12 Yr oeddwn yn oludog, ond efe a'm cyſtuddiodd, ac a ymaflodd yn fyng-wddf, ac a'm drylliodd yn chwil-friw: ac a'm cododd fi yn nôd iddo ei hun.

13 Ei ſaethyddion ef ſy yn fy amgylchu, y mae efe yn hollti fy arennau, ac nid ydyw efe yn arbed, y mae efe yn tywallt fy muſtl ar y ddaiar.

14 Y mae efe yn fy rhwygo a rhwygiad ar rwygiaid: y mae efe yn rhedeg yn fy erbyn fel cawr.

15 Gwnîais ſachlen ar fyng-hroen: ac halogais fyng-horn mewn pridd.

16 Fy wyneb ſy cyn futtred a'r clai gan wŷlo: a chyſcod marwolaeth [ſydd] ar fy amrantau,

17 Er nad [oes] gam yn fy nwy-law: a [bod] fyng-weddi yn bûr.

18 O ddaiaren na orchguddia di fyng-waed: ac na fydded lle i'm gwaedd.

19 Wele hefyd yn awr fy nhŷſt yn y nefoedd: a'm teſtiolaeth-wŷr yn yr uchelder.

20 Fyng-hyfeillion [ydynt] gynnnen [i'm herbyn:] fy llygad a ddiferodd [ddagrau] wrth Dduw.

21 [O na] chai gŵr ymryſymmu a Duw, fel mab dŷn ai gyfaill.

22 Canys [fy] ychydig flynyddoedd a ddaethant: ac mi a rodiaf lwybr [ar hyd yr hwn] ni ddychwelaf.

## PEN. XVII.

Iob yn amddeffyn ei ddiniweidtra. Iob yn ewyllyſio cael barn-gyfiawn am ei fuchedd. 5 Ac yn cwyno faint ei adfyd.

Fy chwythad a lygrwyd, fy nyddiau a ddiffoddwyd, beddau [ſy] barod i mi.

2 Onid gwatwar-wŷr [ydynt] gyd a'm fi: a'm llygad ſydd yn aros yn eu chwerwedd hwynt.

3 Caniadhâ atolwg gyd-fachnio a mi: pwy [ydyw] efe [a] deru ei law yn fy llaw i?

4 Canys cuddiaiſt eu calon hwynt oddi wrth ddeall: am hynny ni dderchefi di [hwynt.]

5 Yr hwn a ddywed weniaith iw gyfeillion, llygaid ei feibion ef a ballant.

6 Yn ddiau efe a'm goſododd yn ddihareb i'r bobl, fel y byddwn yn watwargerdd oi blaen hwynt.

7 Am hynny y crychodd fy llygad gan ddigllonedd: [y mae] fy aelodau oll fel cyſcod.

8 Y rhai iniawn a ſynnant am hynn: a'r diniwed a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithwŷr.

9 Yna y cyfiawn a ddeil ei ffordd: a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfdwr.

10 Ond dychwelwch chwithau oll, a deuwch atolwg: ac ni chafi [ŵr] doeth yn eich plith chwi.

11 Fy nyddiau aethant heibio, fy amcannion a dynned ymmaith: [a] meddyliau fyng-halon.

12 Goſodant nos liw dydd, a'r goleuni cyfagos yn dywyllwch.

13 Er a ddiſgwiliaf, y bedd [fydd] tŷ i mi: mewn tywyllwch y cyweiriaf fyng-wely.

14 Gelwais ar y pwll, ty di [yw] fy-nhad: [ac] ar y pryf, fy mam a'm chwaer [wyt.]

15 A pha lê yn awr [y mae] fyng-obaith: pwy hefyd a genfydd fyng-oglud?

16 [Fyng-obaith] a ddeſcyn gyd a mi i'r bedd: cyd-orphywyſwn yn y llŵch.

## PEN. XVIII.

Bildad yn beio ar Iob am dybied yn well o honaw ei hũ nag oi gyfeillion. 5 Ac yn mynegu trychineb yr annuwiol, gan feddwl mai y cyfryw vn oedd Iob.

A Bildad y Suhiad a attebodd, ac a ddywedodd,

2 Pa [bryd] y derfydd eich ymadrodd: yſtyriwch, wedi hynny ninneu a lefarwn.

3 Pa ham y cyfrifed nyni fel anifeiliaid: [ac] yr ydym aflan yn eich golwg chwi:

4 O yr hwn ſydd yn rhwygo ei enaid yn ei ddigllondeb, ai er dy fwyn di y gadewir y ddaiar: neu y ſymmudir craig allan oi llê?

5 Goleuni'r annuwolion a ddiffoddir yn hytrach: a gwreichionen ei dân ef ni lewyrcha.

6 Goleuni a dywylla yn ei lueſtŷ ef: ai luſern a ddiffydd gyd ag ef.

7 Camrau ei gryfdwr ef a gyfyngir: ai gyngor ei hun ai bwrw ef i lawr.

8 Canys efe a ddanfonir i'r rhwyd erbyn ei draed: ac ar faglau y rhodia efe.

9 Magl a ymeifl yn ei ſodl [ef:] gwilliad fydd trêch nag ef.

10 Hoenyn a guddied iddo ef yn y ddaiar: ai ddalfa ar y llwybr.

11 Braw ſydd yn ei frawychu ef o amgylch: ac yn peri iddo ef gymmeryd ei draed.

12 Ei gryfdwr ef a fydd newynog: a thrueni [fydd] parod wrth ei yſtlys.

13 Efe a yſſa ei gryfdwr ei hun: angeu a fwyta ei gryfdwr ef.

14 Ei hyder ef a dynnir allan oi lueſtŷ: a [hynny] ai harwain ef at frenin dychrynniadau.

15 [Arall] a drig yn ei lueſt ef, [canys] nid yr eiddo ef [ydyw:] brwmſtan a waſcerir ar ei drigfa ef.

16 Ei wraidd ef a ſychant oddi tanodd, ai frig ef a dorrir oddi arnodd.

17 Ei goffadwriaeth ef a gollir o'r ddaiar, ac ni [bydd] enw iddo ef ar wyneb yr heol.

18 Efe a wthîr allan o oleuni i dywyllwch: efe a yrrir allan o'r bŷd.

19 Ni [bydd] iddo ef fab, nac ŵyr ym myſc ei bobl: ac ni bydd [vn] wedi adel yn fyw yn ei drig-fannau ef.

20 Y rhai olaf a ryfeddaſant o herwydd ei ddydd ef: a'r rhai blaenaf a gawſant fraw.

21 Yn wir dymma drigleoedd yr anwir: ac dymma lê [y dŷn] nid edwyn Dduw.

## PEN. XIX.

Iob yn ymeſcuſodi wrth ei gyfeillion, 7 Yn cwyno rhac maint digofaint Duw yn ei erbyn ef, 21 Yn annog ei gyfeillion i doſturio wrtho ef, 25 Ac yn cymmeryd mawr gyſſur o adgyfodiad y meirw.

AC Iob a atebodd, ac a ddywedodd,

2 Pa hyd y cyſtuddiwch fy enaid? ac y blinwch fi â geiriau:

3 Deng-waith i'm gwradwyddaſoch, ac nid cywilydd gennych ymgaledu o honoch i'm herbyn.

4 Hefyd pe [bydde] wir bechu o honofi yn amryfus: gyd a mi y trige fy amryfuſedd.

5 Yn wîr os ymfawrygwch yn fy erbyn, ac [os] dannodwch fyng-wradwydd i mi,

6 Gwybyddwch yn awr mai Duw a'm rhwyſtrodd i, ac a'm rhwydodd.

7 Os llefaf [rhac] trawſter ni'm attebir: [os] gwaeddaf ni [chaf] farn.

8 Efe a gaeodd fy ffordd fel nad elwyf troſodd: wele y mae efe yn goſod tywyllwch ar fy llwybrau.

9 Efe a ddioſcodd fyng-ogoniant oddi am danaf: ac a ddygodd ymmaith goron fy mhen.

10 Y mae efe yn fy neſtruwio oddi amgylch ac yr ydwyf yn myned ymmaith: ac efe a ſymmudodd fyng-obaith fel [diwreiddio] pren.

11 Gwnaeth hefyd iw ddigofaint gynneu yn fy erbyn: ac a'm cyfrifodd iddo ei hun fel [vn oi] elynnion.

12 Ei dorfoedd ef a ddaethant yng-hyd: ac a balmãtaſant eu ffyrdd yn fy erbyn: ac a werſyllaſant o amgylch fy mhabell,

13 Efe a bellhâodd fy nghydnabyddus oddi wrthif: y rhai oeddynt yn fy adnabod hefyd a ymddieithriaſant oddi wrthif.

14 Fyng-hyfneſaf a beidiaſant [a mi,] a'r rhai oedd o'm cydnabod a'm anghofiaſant.

15 Y rhai oedd yn trigo yn fy nhŷ, a'm morwynion sy'n fyng-hyfrif yn ddieithr: alltud ydwyf yn eu golwg hwy.

16 Gelwais ar fyng-wasanaeth-wr, ac nid attebe efe, ac ymbiliais ag ef a'm genau.

17 Dieithr oedd fy anadl i'm gwraig: er ymbil o honof [a hi] er mwyn fy mhlant cnawdol.

18 Plant hefyd a'm diystyrant: [pan] godwyf, dywedant i'm herbyn.

19 Fy holl gyfrinach-wŷr sy'n fy ffieiddio: a'r rhai a gerais a droesant yn fy erbyn.

20 Fy escyrn a lynodd wrth fyng-hroen, ac wrth fyng-nhawd: â chroen fy nannedd yn unic y diengais i.

21 Trugarhewch wrthif, trugarhewch wrthif chwychwi fyng-hyfeillion: canys llaw Duw a gyffyrddodd a mi.

22 Pa ham yr ydych chwi yn fy erlid i fel Duw? heb gael digon ar fyng-nhawd?

23 Oh nad yſcrifennid fyng-eiriau yn awr: ô na argrephid hwynt mewn llyfr.

24 Oh nad ſcrifennid hwynt mewn carreg dros byth: a phin o haiarn, ac a phlwm.

25 Ond myfi a wn fod fy mhryn-wr yn fyw ac y cyfodir o'r diwedd ar y ddaiar.

26 Ac wedi gwiſco fyng-hroen hwn y caf fi weled Duw yn fyng-nhawd.

27 Yr hwn a gaf fi fy hun ei weled: a'm llygaid ai gwelant [ef] ac nid arall: [wedi] i'm arennau ddarfod ynof.

28 Eithr chwi a ddylech ddywedyd, pa ham yr erlidiwn ef? canys gwreiddin gair a gaed ynof.

29 Ofnwch am danoch rhac y cleddyf, canys [y mae] digofaint yn erbyn anwireddau y cleddyf: fel y gwybyddech [fod] barn.

## PEN. XX.

Zophar yn dangos trychineb yr annuwiol, megis pe buaſe adfyd Iob am annuwioldeb.

YNa Zophar y Naamathiad a attebodd, ac a ddywedodd:

2 Am hynny y mae fy meddyliau yn peri i mi atteb: ac am [hynny] y [mae] brys arnaf.

3 Yr ydwyf yn clywed cerydd gwradwyddus gennif: ond y mae yſpryd fy neall yn peri i mi atteb.

4 A wyddoſt ti hyn er ioed? er pan oſododd [Duw] ddŷn ar y ddaiar?

5 Mai gorfoledd yr annuwiolion [sydd] dros ychydig [amſer:] a llawenydd y rhagrithwŷr dros funud awr.

6 Pe cyrhaedde ei odidawgrwydd ef i'r nefoedd: a phe chyffyrdde ei benn ef a'r wybren,

7 Efe a gollir yn dragywydd fel ei dom: y rhai ai gwelant ef a ddywedent, pa le y mae efe?

8 Efe a eheda megis breuddwyd, fel na cheir ef: ac efe a ffŷ fel gweledigaeth y nos.

9 Y llygad ai gwelodd ef ni chwanega [ei weled:] ai lê ni chenfydd ef mwy.

10 Ei feibion ef a fodlonant dlodion: ai ddwy-law ef a roddant adref ei olud ef.

11 Ei escyrn ef sy'n llawn [o bechod] ei ieuengctid: a hwnnw a orwedd gyd ag ef yn y pridd.

12 Os bydd drygioni yn felus yn ei enau ef: efe a gêla hwnnw dan ei dafod.

13 Efe a arbed hwnnw, ac ni âd efe hwnnw: eithr efe a attal hwnnw o fewn taflod ei enau.

14 Ei fwyd a drŷ yn ei emyſcaroedd ef: buſtl aſpiaid [fydd] oi fewn ef.

15 Efe a lyngcodd gyfoeth, ond efe ai chwyda: Duw ai tynn allan oi fol ef.

16 Efe a ſugna wenwyn aſpiaid: tafod gwiber ai llladd ef.

17 Ni chaiff efe edrych ar ffrydau, afonydd, [ac] aberoedd o fêl, ac ymenyn.

18 Y mae efe yn rhoddi llafur adref heb ei fwynhau: fel golud a gyfnewidie efe, ac heb gael llawenydd o honaw.

19 Canys drylliodd, a gadawodd dlodion: ſclyfaethodd dŷ, ac nid adailadodd efe hwnnw.

20 O blegit nid adnabu efe [ddim] heddychol oi fewn: ni ddiangc efe ai ddymuniad [gandddo.]

21 Ni [bydd dim] gweddill oi fwyd ef: am hynny ni ddiſgwilir am ei ddâ ef.

22 Pan gyflawnir ei ddigonoldeb ef, cyfyng [fydd] arno: llaw pob blinderog a ddaw yn ei erbyn ef.

23 [Pan] fyddo efe ar lenwi ei fol, Duw a ddenfyn yn ei erbyn ef angerdd ei ddigofaint: ac ai glawia [hi] arno ef yn ymyſc ei fwyd ef.

24 Efe a ffŷ oddi wrth arfau o haiarn: bŵa o ddûr ai trywana ef.

25 Efe a dynn [gleddyf,] a [hwnnw] a ddaw allan oi gorph ef, a gloiw-lafn allan oi fuſtl ef: [felly] y daw dychryn arno ef.

26 Pob tywyllwch [a fydd] guddiedic yn ei ddirgeloedd ef, tân heb ei chwythu ai hyſſa ef: yr hyn a weddillir yn ei lueſtŷ ef a ddrygir.

27 Y nefoedd a ddatcuddiant ei anwiredd ef: a'r ddaiar a gyfyd yn ei erbyn ef.

28 Ffrwyth ei dŷ ef a ſymmud: hwy a redant i ffordd yn nydd ei ddigofaint ef.

29 Dymma ran dŷn annuwiol gan Dduw: a'r etifeddiaeth [yr hon a gaiff] efe gan Dduw am ei ymadrodd.

## PEN. XXI.

Iob yn atteb Zophar ai gyfeillion gan ddangos y bydd gwyn-fyd yn fynych i'r annuwiol, ac adfyd i'r Duwiol.

AC Iob a attebodd, ac a ddywedodd:

2 Gan wrando gwrandewch fy ymadrodd: a bydd hyn [yn] lle eich cyſſur [i mi.]

3 Dioddefwch fi, a minne a lefaraf: ac wedi i mi ddywedyd, gwatwar dithe.

4 A ydwyfi [yn gwneuthur] fy ng-hŵyn wrth ddyn? ac os [ydwyf,] pa ham na bydd cyfyng ar fy yſpryd?

5 Edrychwch arnaf, a ſynnwch: a goſodwch [eich] llaw ar [eich] genau.

6 Eithr pan gofiwyf [fy hun,] yna y ſynna arnaf: a dychryn a ymeifl yn fy ng-nhawd.

7 Pa ham y mae'r annuwolion yn byw, yn heneiddio, ac yn cryfhau [mewn] cyfoeth?

8 Eu hâd hwy [ſydd] ſafadwy oi blaen gyd â hwynt: ai hiliogaeth yn eu golwg hwynt.

9 Eu tai hwynt [ſy mewn] heddwch allan o ofn: ac nid [ydyw] gwialen Duw arnynt hwy.

10 Y mae ei darw ef yn cyfloi, ac ni chyll ei hâd: ei fuwch ef a fwrw lô yn rhwydd, ac nid erthyla hi.

11 Danfonant allan eu rhai bychain fel defaid: ai bechgyn a neidiant.

12 Cymmerant dympan a thelyn: a llawenychant wrth lais organ.

13 Treuliant eu dyddiau mewn daioni: ac yn ebrwydd deſcynnant i'r bedd.

14 Dywedant hefyd wrth Dduw, cilia oddi wrthym: canys ni fynnwn adnabod dy ffyrdd di.

15 Pa beth [ydyw]'r Holl-alluog fel y gwaſanaethem ef? a pha fudd [fydd] i ni pan weddiom arno ef?

16 Wele nid [ydyw] eu ffynniant hwy yn eu llaw eu hun: pell fyddo cyngor yr annuwolion oddi wrthif fi.

17 Pa ſawl gwaith y diffydd cannwyll yr annuwolion, ac y daw eu diniſtr arnynt hwy? [ac] y rhanna [Duw] ofidiau yn ei ddig?

18 Byddant hwy fel gwellt o flaen gwynt: ac fel mân-us yr hwn a gippia y corwynt.

19 Duw a guddia ei anwiredd iw feibion: [ac] efe a dâl iddo fel y gwypo.

20 Ei lygaid ef a welant ei ddiniſtr ei hun: ac efe a ŷf o ddigofaint yr Holl-alluog.

21 Canys pa wynfyd ſydd ganddo ef yn ei dŷ ar ei ôl, pan gwttogir rhifedi ei fiſoedd ef.

22 A ddyſc dyn ŵybodaeth i Dduw? gan ei fod yn barnu y rhai vchaf?

23 Y naill ſydd yn marw yn ei gyflawn berffeithrwydd: ac efe ei gyd yn eſmwyth, ac yn heddychol.

24 Ei gelyrnau ef ſy yn llawn llaeth: a mêr ei eſcyrn ef [ydynt] iraidd.

25 A'r llall [ſydd] yn marw mewn blinder: ac ni fwytâdd mewn hyfrydwch.

26 Hwynt a orweddant yng-hŷd yn y pridd: a'r pryfed a doant troſtynt hwy.

27 Wele mi a adwen eich meddyliau: a'r bwriadau'r ydych chwi yn eu dychymmygu ar gam yn fy erbyn.

28 Canys dywedwch, pa lê [y mae] tŷ y pendefig? a pha lê [y mae] llueſtŷ anneddau 'r annuwolion?

29 Oni ofynnaſoch chwi i'r rhai oeddynt yn myned heibio rhyd y ffordd: ac oni chydnabyddwch chwi eu harwyddion hwy?

30 Canys yn nydd trueni yr attelir y drygionus: yn nydd cynddaredd y dygir hwynt allan.

31 Pwy a fynega ei ffordd ef yn ei ŵydd ef? pwy a dâl iddo ef fel y gwnaeth?

32 Yntef a ddygir i'r bedd, ac a erys mewn twr [o bridd.]

33 Y mae priddellau y dyffryn yn fêlus ganddo ef, ac efe a dynn bob dŷn ar ei ôl: megis [yr aeth] oi flaen [rai] aneirif.

34 Pa fodd gan hynny y cyſſurwch fi ag oferedd: canys camwedd a adawed [yn] eich attebion chwi?

## PEN. XXII.

Eliphaz yn teuru mai am ei annuwioldeb y coſpaſid Iob, 6 Gan roddi yn ei erbyn ef fod yn anrhugarog i bob math ar ddyn, ai fod efe yn ammau rhagluniaeth Duw, ai lywodraeth. 21 Yna y mac Eliphaz yn cynghori Iob i edifarhau.

YNA Eliphaz y Themaniad a attebodd, ac a ddywedodd:

2 A wna gŵr leſſâd i Dduw? iddo ei hun yn hytrach y gwna y ſynhwyrol leſſâd.

3 Ai digrifwch [ydyw] i'r Holl-alluog pan ymgyfiawnhech? neu ai êlw [ydyw] pan berffeithiech di dy ffyrdd?

4 Ai rhac dy ofn y cerydda efe dydi: [neu] yr aiff efe gyd â thi i farn?

5 Onid ydyw dy ddrygioni di yn aml? ac heb ddiwedd ar dy anwireddau?

6 Canys cymmerit ŵyſtl gan dy frodyr yn ddiachos: a dioſcit ddillad y rhai noethion.

7 Ni roddit ddwfr iw yfed i'r lluddedic: a thi a attelit fara oddi wrth y newynoc.

8 Y ddaiar hefyd oedd eiddo y gŵr cadarn: yr anrhydeddus a drige ynddi.

9 Danfonit ymmaith wragedd gweddwon yn wag-law: a breichiau y rhai ymddifaid a ddryllit ti.

10 Am hynny [y mae] maglau o'th amgylch: ac y mae ofn yn dy ddychrynu di yn ddiſymmwth:

11 Neu dywyllwch rhac gweled o honot: a llawer o ddyfroedd a'th orchguddiant.

12 Onid [ydyw] Duw yn vchelder y nefoedd? gwel hefyd benn y ſêr mor vchel ydynt hwy.

13 A ddywedi di gan hynny, pa fodd y gŵyr Duw? a farn efe drwy dywyllwch?

14 Y cwmylau [ydynt] loches iddo ef, ac ni wêl: ac y mae efe yn rhodio [ar] gylch y nefoedd.

15 A yſtyriaiſt ti lwybr y byd, yr hwn a fathrodd ofer-wŷr [arno?]

16 Y rhai a dorrwyd pan nid [oedd] eu hamſer hwynt: afon a dywalltwyd ar eu ſylfaen hwy.

17 Hwynt a ddywedaſant wrth Dduw, cilia oddi wrthym: a pha beth a wnaeth yr Holl alluog iddynt hwy?

18 Ac efe a lanwaſe eu tai hwy o ddaioni: am hynny pell [ſyddo] cyngor yr annuwolion oddi wrthiſt.

19 Y rhai cyſtiawn a welant, ac a lawenychant: a'r diniwed ai gwatwar hwynt.

20 Gan na thorred ymmaith ein ſylwedd ni: ac yſſu o'r tân eu gweddill hwy.

21 Ymarfer attolwg ag ef, a bydd heddychlon: o hyn y daw i ti ddaioni.

22 Cymmer y gyfraith attolwg oi enau ef: a goſot ei eiriau ef yn dy galon.

23 Os dychweli at yr Holl-alluog ti a adailedir: os ſymmudi anwiredd ym mhell oddi wrth dy lueſtai.

24 Goſodi [aur] mor aml a'r pridd: ac [aur] Ophir fel calleſtr yr afonydd.

25 A'r Holl-alluog fydd yn amddeffyn i ti: a thi a gei amldra o arian.

26 Os yna'r ymhoffi yn yr Holl-alluog: tithe a dderchefi dy wyneb at Dduw.

27 Ti a weddii arno ef, ac efe a'th wrendu di: tithe a dêli dy addunedau.

28 Pan raglunieth di beth, efe a ſicrhâ [hynny] i ti: a goleuni a lewyrcha ar dy ffyrdd.

29 Pan oſtynger hwynt yna y dywedi, [caf] oruchafiaeth: canys efe a achub y goſtyngedic [ei] olwg.

30 Y diniwed a wareda yr ynys: a thrwy lendid dy ddwylaw di y gwaredir hi.

## PEN. XXIII.

Iob yn atteb ei fod yn ewyllyſcar i gymmeryd barn Duw, gan ddangos nad am annuwioldeb y daethe'r adfyd hwnnw iddo ef.

AC Iob a attebodd, ac a ddywedodd:

2 Er bod fy ymadrodd heddyw yn chwerw: [a] bod fy nialedd yn drymmach na'm uchenaid,

3 Oh nas adwaenwn, ac [nas] cawn ef: fel y deuwn at ei eiſteddfa ef.

4 Dadleuwn ger ei fron ef: a llanwn fyng-enau a rheſymmau.

5 Mynnwn ŵybod [a pha] eiriau i'm hattebe: a mynnwn ddeall pa beth a ddywede efe wrthif.

6 A ymryſône efe â mi ag helaethrwydd [ei] gadernid? na [wnai:] ond efe a oſode [nerth] ynof.

7 Yno 'r iniawn a ymryſymme ag ef: ac mi a ddiangwn bych gan fy marn-wr.

8 Wele [os] ym mlaen yr âf nid ydyw efe [yno: os] yn ôl hefyd, nid ydwyf yn ei ganfod ef.

9 [Os] ar y llaw aſſwy lle y mae efe yn gweithio ni chanfyddaf [ef:] [os] ar y llaw ddehau, y mae efe yn ymguddio, fel na chaf [ei] weled.

10 Ond efe a edwyn fy ffordd, y mae efe yn fy mhrofi, myfi a âf allan fel aur.

11 Fy nhroed a ddilyn ei gerddediad ef: cedwais ei ffordd ef, ac ni ŵyrais.

12 Nid ydwyf ychwaith yn cilio oddi wrth orchymyn ei wefuſau ef: hoffais eiriau ei enau ef yn fwy n'am harferol [ymborth.]

13 Y mae efe hefyd yn un [air,] a phwy ai trŷ ef? y mae ei enaid ef yn chwennychu, ac efe a gyflawna.

14 Canys efe a gyflawna 'r hyn a orchymynnodd efe am danafi: ac [y mae] ganddo ef lawer o'r fath bethau a hyn.

15 Am hynny y dychrynais rhag ei ofn ef: yſtyriais, ac ofnais rhagddo ef.

16 Canys Duw a feddalhâodd fyng-halon: a'r Holl-alluog a'm dychrynodd.

17 O herwydd na thorrwyd fi ymmaith o flaen tywyllwch: ac [na] chuddiodd efe niwl o'm gŵydd.

## PEN. XXIIII.

Iob yn dangos na wyr y rhai duwiolaf mo ddirgelwch barnedigaethau Duw, onid ei fod efe pan fynno, ar modd a fynno yn coſpi y drygionus: a hynny o'r diwedd yn ddigon dwys.

PA ham na chuddio yr amſeroedd gan yr Holl-alluog? fel nas rhac-wele y rhai ydynt yn ei adnabod ef ei ddyddiau ef?

2 Y mae [rhai] yn ſymmudo terfynau: yn ſclyfaethu defaid, ac yn ymborthi [arnynt.]

3 Y maent yn gyrru aſſynnod yr ymddifad ymmaith: maent hwy yn cymmeryd ŷch y wraig weddw ar wyſtl.

4 Maent hwy yn gwneuthur i'r anghenog droi allan o'r ffordd: [am hynny] tlodion y ddaiar a gyd-lechaſant [rhagddynt.]

5 Wele y maent [fel] aſſynnod gwylltion yn yr anialwch, yn myned allan iw gwaith gan geiſio ſclyfaeth yn foreu: y diffaethwch [ſydd yn dwyn] iddynt fwyd, [ac] iw plant.

6 Medant y macs yr hwn nid yw eiddynt: a gwin-llan yr annuwiol a gaſclant hwy yn ddiweddar.

7 Gwnant [i'r] tlawd letteu yn noeth heb ddillad: ac heb wiſc mewn oerni.

8 Gwlychant gan lifeiriant mynyddoedd: ac o eiſieu diddoſrwydd cofleidiant graig.

9 Tynnant yr ymddifad oddi wrth y fron: cymmerant wyſtl gan y tlawd.

10 Gwnaethant [iddo ef] fyned yn noeth heb ddillad: a dygaſant ddyrneidiau [lloffa] y rhai newynog.

11 Y rhai ſy yn gwneuthur olew rhwng eu parwydydd: [ac] ſy yn ſathru y cafnau gwîn ydynt yn ſychedic.

12 Y mae gwŷr yn griddfan o'r dref: ac y mae eneidiau y rhai lladdedic yn gweiddi, ac ni eſid Duw ddial.

13 Y rhai hynny ſy ym mhlith y rhai ydynt yn gwrthwynebu goleuni, nid ydynt hwy yn adnabod ei ffyrdd ef: nid ydynt yn aros yn ei lwybrau ef.

14 Gyd a'r goleuad y cyfyd y lleiddiad, ac y lladd efe y tlawd, a'r anghenog: a'r nôs y bydd efe fel lleidr.

15 A llygad y godineb-wr ſydd yn gwilied y cyfnos gan ddywedyd, ni chaiff llygad fyng-weled: ac efe a eſyd hûg ar ei wyneb.

16 Y maent hwy yn cloddio trwy dai mewn tywyllwch: [y rhai] a nodaſent iddynt eu hunain liw dydd, nid adwaenent hwy oleuni.

17 Canys cyſcod marwolaeth [ydyw] y borau iddynt hwy eu gyd: dychryn cyſcod marwolaeth [yw] os gwybydd [neb.]

18 Yſcafn ydyw [r anuwiol] ar wyneb y dyfroedd, melltigedic ydyw eu rhan-dir hwŷ ar y ddaiar: ni thrŷ efe ei wyneb [at] ffordd y gwin-wŷdd.

19 Fel y mae ſychdwr, a gwres yn cippio dyfroedd eira: [felly y cippia] y bedd [y rhai] a bechaſant.

20 Y coſturiol ai gollwng ef dros gof, melus gan y pryf ef, ni chofir ef mwy: felly y dryllir anwiredd fel pren.

21 Y mae efe yn dryllio yr amhlantadwy [yr hon] ni phlanta: ac nid ydyw efe yn gwneuthur daioni i'r wraig weddw.

22 Ac y mae efe yn tynnu rhai cedyrn wrth ei nerth: [pan] gododd efe nid oedd [neb] ddiogel oi einioes.

23 Er rhoddi iddo fod mewn diofalwch: etto [y mae] ei lygaid ef ar eu ffyrdd hwy.

24 Hwyntwy a dderchafwyd ychydig, ac a ddarfuant hefyd, hwynt a oſtyngwyd, ac a eſcydwyd i lawr fel pawb [eraill:] ac a dorrwyd ymmaith fel pen twyſen.

25 Ac onid [ydyw hyn] yn awr, pwy a'm gwnaiff i yn gelwyddoc? ac a eſyd fy ymadrodd yn ddiddym?

## PEN. XXV.

Bildad yn dangos na ddichon Iob, na neb arall yngyſtadlu a mawredd, ac a phuredd Duw.

YNa Bildad y Suhiad a attebodd, ac a ddywedodd,

2 Arglwyddiaeth, ac ofn [ſydd] ganddo ef: y mae efe yn gwneuthur heddwch yn ei uchelder.

3 A oes gyfrif oi ddorfoedd ef? ac ar bwy ni chyfyd ei oleuni?

4 Pa fodd y cyfiawnheuir dŷn [os cyſtedlir ef] a Duw? a pha fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn bûr?

5 Wele hyd yn oed y lleuad, ac ni lewyrcha hi: a'r ſêr nid ydynt bûr yn ei olwg ef:

6 Pa faint llai dŷn [yr hwn ſydd] bryf? a mab dŷn [yr hwn ſydd] abwydyn?

## PEN. XXVI.

Iob yn dangos ei fod ef yn cydnabod gallu Duw yngyſtal a Bildad, neu arall, gan ddwyn llawer o reſymmau i brofi hynny.

AC Iob a attebodd, ac a ddywedodd,

2 Pwy a gynnorthwyaiſt ti? ai yr dinerth? a achubaiſt ti y braich [ſydd] heb gadernid?

3 Pa fodd y cynghoraiſt ti yr annoeth? ac y mynegaiſt reſwm yn aml?

4 Wrth bwy y mynegaiſt yr ymadroddion? ac enaid pwy a ddaeth allan o honot ti.

5 [Pethau] wedi meirw a lunnir oddi tann y dyfroedd, a'r rhai ſydd yn trigo ynddynt hwy.

6 Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes dô ar ddeſtryw.

7 Y mae efe yn tanu y gogledd ar wag-le: y mae efe yn crogi y ddaiar ar ddiddim.

8 Y mae efe yn rhwymo dyfroedd yn ei gwmmylau: ac nid ydyw'r cwmmwl yn hollti tanynt hwy.

9 Y mae efe yn attal wyneb [ei] orſeddfaingc: y mae efe yn tanu ei gwmmwl arni hi.

10 Efe a amgylchynodd derfyn goſodedic ar wyneb y dyfroedd: hyd orphenniad goleuni, a thywyllwch.

11 Y mae colofnau y nefoedd yn eſcwyd: ac yn crynu rhac ei gerydd ef.

12 Efe a oſtêgodd y môr ai nerth: ac a darawodd [ei] falchter ai ddoethineb.

13 Efe a addurnodd y nefoedd ai yſpryd: ei law ef a luniodd y ſarph dorchoc.

14 Wele dymma rannau ei ffyrdd ef, ac mor fychan [ydyw]'r peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef? ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?

## PEN. XXVII.

Perffeithrwydd Iob. 7 Diwedd ei wrthwyneb-wyr ef. 12 A dialedd y rhai annuwiol oll.

AC Iob a barablodd eil-waith, ac a ddywedodd,

2 Y mae Duw yn fyw [yr hwn] a ſymmudodd fy marn: a'r Holl-alluog [yr hwn] a ofidiodd fy enaid.

3 Etto tra [fyddo] fy enaid ynof: ac yſpryd Duw yn fy ffroenau,

4 Ni ddywed fyng-wefuſau anwiredd: ac ni thraetha fy nhafod dwyll.

5 Na ato Duw i mi eich cyfiawnhau chwi: oni threngwyf ni ſymmudaf fy mherffeithrwydd oddi wrthif.

6 Yn fyng-hyfiawnder yr ymeſlais, ac nis gollyngaf hi: ni wradwydda fyng-halon [fi] byth.

7 Bydd fyng-elyn fel yr annuwiol: a'r hwn ſydd yn codi yn fy erbyn fel yr anwir.

8 Canys pa obaith [ſydd] i'r rhagrithiwr er elwa o honaw ef, pan dynno Duw ei enaid ef allan?

9 A wrendu Duw ei lef ef, pan ddêlo cyfyngder arno ef?

10 A ymlawenycha efe yn yr Arglwydd? a eilw efe Dduw bob amſer?

11 Myſi a'ch dyſcaf chwi am allu Duw: ni chelaf yr hyn ſydd gan yr Holl-alluog.

12 Wele chwychwi chwychwi oll a welſoch: a pha ham yr ydych chwi felly yn ofera

[mewn] oferedd ?

13 Dymma rân dŷn annuwiol gyd a Duw: ac etifeddiaeth y rhai traws [yr hon] a gaſant hwy gan yr Holl-alluog.

14 Os ei feibion ef a amlheuir [hwynt hwy a amlheuir] i'r cleddyf: ai hiliogaeth ef ni ddigonir â bara.

15 Ei weddillion ef a gleddir ym marwolaeth: ai wragedd gweddwon ni ŵylant.

16 Os pentyrra efe arian fel pridd: ac os paratoa efe ddillad fel clai,

17 Efe a baratôa, ond y cyfiawn a wiſc: a'r arian, y cyfiawn [ai] cyfranna.

18 Efe a adailadodd ei dŷ fel gwyfyn, ac fel blŵth [yr hwn] a wnai y gwili-ŵr.

19 Y cyfoethog a hûna, ac nis cleddir, [un] a egyr ei lygaid, ac ni [bydd] efe.

20 Dychrynniadau ai goddiweddant ef fel dyfroedd: corwynt ai cippia ef liw nôs.

21 Y dwyrein-wynt ai cymmer ef i ffordd, ac efe a aiff ymmaith: ac ai teifl ef fel corwynt allan oi lê.

22 Je [Duw] a deifl arno ef, ac nid arbed: gan ffoi efe a ffŷ rhag ei law ef.

23 [Pob dyn] a gûr ei ddwylaw arno ef: ac a chwibana arno ef allan oi lê.

## PEN. XXVIII.

Iob yn dangos morr anfeidrol yw doethineb Duw, ac anhawſed ei holrhein hi allan.

DIau fod gwythien i'r arian: a lle i'r aur [yr hwn] a doddant hwy.

2 Haiarn a dynnir allan o'r pridd: ac [allan] o'r garreg y toddir prês.

3 [Duw] ſydd yn goſod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd: [hyd yn oed] y meini [a guddiwyd mewn] tywyllwch, a chyſcod angeu.

4 Y mae yr afonydd yn torri allan yn erbyn y trigolion, [a'r dyfroedd] dyfnion uwch na dŷn a giliaſant.

5 Y ddaiaren o'r hon y daw bara allan, y troiwyd megis tân tani.

6 Ei cherrig hi [a ſyddant] lê i Saphir: ai phriddellau yn aur.

7 Llwybr [yw hwn] nid adnabu aderyn ef: ac ni chanfu llygad barcud ef.

8 Yr hwn ni ſathrodd cenawon llew: nid aeth hên lew troſto ef.

9 Y mae efe yn eſtyn ei law at y galleſtr: y mae efe yn dymchwelyd mynyddoedd o'r gwraidd.

10 Y mae efe yn peri afonydd dorri allan o'r creigiau: ac y mae ei lygad ef yn gweled pob peth gwerthfawr.

11 Y mae efe yn rhwymo'r afonydd rhag llifo: ac y mae efe yn dwyn dirgelwch allan i'r goleuni.

12 O ba le gan hynny y ceir doethineb? a pha le y mae trigle deall?

13 Ni ŵyr dŷn beth a dâl hi: ac ni cheir hi yn nhir y rhai byw.

14 Y mae'r dyfnder yn dywedyd, nid [ydyw] hi ynof: ac y mae'r môr yn dywedyd, nid [ydyw hi] gyd a myfi.

15 Ni cheir hi er aûr pûr: ac ni ellir pwyſo ei gwerth hi o arian.

16 Ni chyffelybir hi i'r aur o Ophir: nac i'r Onix gwerthfawr, nac i'r Saphyr.

17 Nid aur nac Adamant ai cyſtadla hi: na lleſtr o aur dilin [ſydd] gydwerth iddi.

18 Ni chofir y Cwrel, na'r Gabis, canys [gwell yw] caffaeliad doethineb na gemmau.

19 Ni ellir cyffelybu y Topaz o Ethiopia iddi hi: ni chyd-briſir hi ag aur pûr.

20 Gan hynny o ba lê y daw doethineb? a pha lê y mae mangre deall?

21 Canys hi a guddied oddi wrth lygaid pob dŷn byw: a hi a guddiwyd oddi wrth ehediaid y nefoedd.

22 Colledigaeth, a marwolaeth ſydd yn dywedyd: ni a glywſom â'n cluſtiau ſôn am dani hi.

23 Duw [yn unic] ſydd yn deall ei ffordd hi: ac efe a edwyn ei lle hi.

24 Canys y mae efe yn edrych ar eithafoedd y ddaiar: y mae efe yn gweled dann yr holl nefoedd.

25 Wrth wneuthur pwys i'r gwynt: pan bwyſodd efe y dyfroedd mewn meſur.

26 Pan wnaeth efe derfyn i'r glaw: a ffordd i fellt taranau.

27 Yna efe ai gwelodd hi, ac ai mynegodd hi: efe ai paratôdd hi, a hefyd efe ai chwiliodd hi allan.

28 Ac wrth ddŷn efe a ddywedodd, wele ofn Duw ſydd ddoethineb: a chilio oddi wrth ddrwg ſydd ddeall.

## PEN. XXIX.

Iob yn hiraethu am y gwynfyd gynt. 12 Yn datcan ei fuchedd. 21 Ac yn mynegu ei barch.

YNa Iob a barablodd trachefn, ac a ddywedodd,

2 Oh na bawn i fel yn y miſoedd o'r blaen: fel yn y dyddiau pan gadwe Duw fyfi.

3 Pan wnae efe iw oleuni lewyrchu uwch fy mhen: wrth oleuni yr hwn y rhodiwn drwy dywyllwch.

4 Pan oeddwn yn nyddiau fy ieuengtid, ac ymgeledd Duw ar fy mhabell.

5 Pan [oedd] yr Holl-alluog etto gyd a myfi: a'm llangciau o'm hamgylch.

6 Pan olchid fy nhraed ag ymenyn: a [phan] dywallde y graig arnafi afonydd o olew.

7 Pan awn i allan i'r porth trwy 'r dref: par wn baratoi fy eiſteddfa yn yr heol.

8 Llangciau a'm gwelent, ac a ymguddient: a henuriaid a gyfodent, ac a ſafent.

9 Tywyſogion a attalient eu ymadroddion: ac a oſodent [eu] llaw ar eu genau.

10 Pendefigion cymmen a ymguddient: ai tafod hwy a lyne wrth daflod eu genau.

11 Canys y gluſt [a'm] clywe a'm bendithie:

a'r llygad[a'm]gwele a deſtiolaethe o honof.

12 Canys gwaredwn y tlawd yr hwn a fydde yn gweiddi: a'r ymddifad, a'r[hwn]ni[bydde] gynnorthwy-wr iddo.

13 Bendith y colledig a ddeue arnaf: a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu.

14 Gwiſcwn gyfiawnder, a hithe a wiſce am danafi: a'm barn[fydde]fel mantell, a choron.

15 Llygaid oeddwn i'r dall: a thraed oeddwn i'r cloff,

16 Tâd oeddwn i'r rhai anghenog: a'r cŵyn[yr hwn] nid adwaenwn, a chwiliwn i allan.

17 Drylliwn hefyd gilddannedd yr anghyfiawn: a gwnawn iddo ef fwrw 'r ſclyfaeth allan oi ddannedd.

18 Am hynny y dywedwn, byddaf farw yn fy nŷth: a byddaf morr aml[fy]nyddiau a'r tywod.

19 Fyng-wreiddin[oedd]yn agored i'r dyfroedd: a'r gwlith a arhoſodd yn fy mrig.

20 Fyng-ogoniant oedd ir gyd a mi: a'm bŵa a adnewydde yn fy llaw.

21 Hwynt a wrandawent arnaf, ac a ddiſgwilient: diſtawent am fyng-hyngor.

22 Ar ôl fy ymadrodd ni ddywedent hwy ailwaith: canys fy ymadrodd a ddifere arnynt hwy.

23 A hwy a'm diſgwilient i fel glaw: ac a agorent eu genau fel[am]y diweddar-law.

24 Chwarddwn arnynt hwy,[ond]ni chredent: ac ni wnaent hwy i lewyrch fy wyneb ſyrthio.

25 Dewiſwn eu ffordd hwynt, eiſteddwn yn bennaf, a thrigwn fel brenin mewn llu: megis yr hwn a gyſſuro rai galarus.

## PEN. XXX

Iob yn mynegu yr adfyd yr ydoedd efe ynddo. 17 Gan gydnabod nad allaſe hynny ddyfod iddo ef heb fod Duw yn caniadhau. 25 Ac yn cwyno er ei fod efe yn doſturiol wrth eraill yn eu hadfyd, nad oedd dim toſturiaeth wrtho ef.

ONd yn awr y rhai ſy ieuangach na mi o edran ſy yn fyng-watwar, y rhai y gwrthodaſwn eu tadau, iw goſod gyd a chŵn fy neſaid.

2 I ba beth[y gwaſanaethaſe]cryfdwr eu dwylaw hwynt i mi: darfuaſe am henaint ynddynt hwy.

3 Y rhai a ffoeſant rhac angen, a newyn i anialwch ſych: i dywyllwch, diffaethwch, a gwylltineb.

4 Y rhai a dorrent ddanadl mewn bryſclwyni: a gwraidd meryw[oedd]eu bwyd hwynt.

5 Hwy a yrrid ymmaith o ganol[y ddinas: pobl]a waeddent yn eu herbyn hwy fel[yn erbyn]lleidr.

6 I drigo mewn holltau afonydd:[mewn] tyllau yridd, a chreigiau[y gyrrid hwynt.]

7 Hwynt a ruent ym mhlith perthi: hwynt a ymgaſclent dann ddanadl.

8 Meibion yr ynfyd, a meibion heb henw [ydynt hwy,] gwaelach ydynt hwy na'r ddaiar.

9 Ac yn awr eu cân hwy ydwyfi: ac myfi ydwyf yn deſtyn iddynt.

10 Y maent hwy yn fy ffieiddio, yn cilio ym mhell oddi wrthif: ac yn poeri yn fy wyneb.

11 Canys efe a ddatododd fy rhaff, ac a'm cyſtuddiodd: a hwy a ollyngaſant y ffrwyn yn fyng-olwg i.

12 Bechgyn ſy yn codi ar fy llaw ddeheu, y maent hwy yn gwthio fy nrhaed: ac maent hwy yn palmantu arnaf eu llwybrau diniſtriol.

13 Hwy a anrheithiaſant fy llwybr, chwanegaſant fy nhrueni: heb fod iddynt hwy help.

14 Y maent hwy yn dyfod[arnaf]megis [dwfr trwy]adwy lydan: y maent hwy yn ymdreiglo tann anrhaith.

15 Braw a droiwyd yn fy erbyn i, fel gwynt yr erlidir fy[enaid]bonheddig: a'm iechydwriaeth a aiff heibio fel cwmwl.

16 Am hynny 'r ymdywallt fy enaid yn awr ynof:[ac]y dell dyddiau cyſtudd fi.

17 Y nos y tyllir fy eſcyrn o'm mewn: a'm gîau nid ydynt yn gorphywys.

18 Yn amldra cryfdwr[fyng-hlefyd]fyngwiſc ſydd yn ymnewidio:[yr hwn]a'm hamgylcha fel coler fy mhais.

19 Efe a'm taflodd yn y clai: fel y gallaf fyng-hyffelybu i brîdd, a lludw.

20 Yr ydwyf yn llefain arnat ti, ac nid ydwyt yn gwrando: ſefais[ger dy fron,]ac[nid] yſtyriaiſt wrthif.

21 Yr wyt yn troi yn greulon yn fy erbyn: yr wyt yn fyng-wrthwynebu â nerth dy law.

22 Yr ydwyt yn fy nerchafu ar y gwynt, ydwyt yn gwneuthur i mi farchogeth[arno ef:]yr ydwyt yn fy nhoddi fi[o'm]ſylwedd.

23 Canys myfi a wn y troi di fi i farwolaeth: ac i'r tŷ rhacderfynedic i bôb dŷn byw.

24 Diau nad eſtyn[Duw ei]law i'r bedd: er[bod] gwaedd ganddynt yn ei ddrychineb ef.

25 Oni wŷlais i dros yr hwn oedd galed [ei]fyd:[oni]chyd-ofidiodd fy enaid a'r anghenog?

26 Ond pan obeithiais i ddaioni, drygfyd a ddaeth: pan ddiſgwiliais am oleuni, tywyllwch a ddaeth.

27 Fy emyſcaroedd a ferwaſant, ac ni orphywyſaſant: dyddiau cyſtudd a'm rhacflaenaſant.

28 Yr ydwyf yn rhodio yn ddû heb haul: yr ydwyf yn gweiddi yn y gynnulleidfa.

29 Yr ydwyf yn frawd i'r ddraig: ac yn gyfaill i gywion yr Eſtris.

30 Fyng-hroen a dduodd oddi am danaf: a'm heſcyrn a loſcaſant rhac ſychdwr.

31 Am hynny y mae fy nhelyn yn alarus: am horgan[fel]llais rhai yn wylo.

## PEN. XXXI.

Iob yn attolwg cael iniawn-farn : gan fynegu ei fuchedd dda oll.

MYfi a wneuthum ammod a'm llygaid, nad edrychwn ar forwyn?

2 Canys pa rann [ſydd oddi wrth] Dduw oddi vchod? a [pha] etifeddiaeth [ſydd oddi wrth] yr Holl-alluog o'r vchelder?

3 Ond [oes] trychineb i'r anwir? a dieithr [ddiniſtr] i'r rhai ſy yn gwneuthur anwiredd?

4 Onid ydyw efe yn gweled fy ffyrdd i? ac [onid] ydyw efe yn cyfrif fyng-hamrau i?

5 Os rhodiais mewn oferedd: ac [os] pryſurodd fy nhroed i dwyllo,

6 Pwyſed fi mewn clorianau cyfiawn: a mynned Duw ŵybod fy mherffeithrwydd.

7 Os gŵyrodd fyng-herddediad allan o'r ffordd: a myned o'm calon ar ôl fy llygaid: neu lŷnu dim aflan yn fy nwy-law:

8 Bwytaed arall yr hyn a hauwyf: a dadwreiddier fy hiliogaeth i.

9 Os twylled fyng-halon at wraig: ac os cynllwynais wrth ddrws fyng-hymydog,

10 Maled fyng-wraig inne i [ŵr] arall: a gorwedded eraill gyd a hi.

11 Canys ſcelerder ydyw hyn, ac anwiredd iw farnu ydyw efe.

12 Canys tân ydyw efe a yſſa oni anrheithio: ac efe a ddadwreiddiaſe fy holl ffrwyth.

13 Os diyſtyrais farn fyng-wâs a'm gwaſanaeth-ferch, pan ymryſonent hwy a myfi:

14 Canys pa beth a wnawn pan gode Duw? a phan ymwele efe, pa beth a attebwn iddo?

15 Ond yr hwn a'm gwnaeth i yn y grôth, ai gwnaeth yntef? a'r vn a'n cymhwyſodd ni yn y bru?

16 Os atteliais [ddim] o ddeiſyfiad y tlodion: ac os gwneuthum i lygaid y wraig weddw ddeffygio,

17 Ac os bwyteais fy mwyd yn vnic, ac oni fwytaodd yr ymddifad o honaw ef,

18 (Canys efe a gynnyddodd [gyd â] mi fel [gyd â] thâd o'm hieuengtid: ac ó grôth fy mam mi a dywyſais y weddw.)

19 Os gwelais [neb] yn marw o eiſieu dillad: ac [am] nad [oedd] wiſc i'r anghenog,

20 Os ei lwynau ef ni'm bendithiaſant, ac [oni] chynheſodd efe gan gnû fy ŵyn i,

21 Os codais fy llaw yn erbyn yr ymddifad, pan welwn fyng-hymmorth yn y porth:

22 Syrthied fy mhalfais oddi wrth fy yſcwydd: a dryllier fy mraich allan o'r cymmal.

23 Canys ofn diniſtr Duw [oedd] arnaf: o herwydd ni allwn [ddiangc] gan ei vchelder ef.

24 Os goſodais fyng-obaith [mewn] aur: ac os dywedais wrth aur coeth, fy ymddyried [wyt.]

25 Os llawenychais pan [fydde] fyng-hyfoeth yn aml: a phan gaffe fy llaw [gyfoeth] mawr,

26 Os edrychais ar yr haul pan dywynne: a'r lleuad yn cerdded yn odidog,

27 Os twyllodd fyng-halon yn guddiedic [iw hâddoli:] ac [os] cuſſanodd fy llaw i fyng-enau:

28 Hyn hefyd [fuaſe] anwiredd iw barnu: canys gwadaſwn Dduw oddi vchod.

29 [Felly] a lawenychais i am drychineb yr hwn a'm caſâe i, ac a ymgodais pan ddigwyddodd drwg iddo ef?

30 Canys ni ddioddefais i daflod fyng-enau bechu: gan ofyn ei enioes ef drwy felldigo.

31 Oni ddywedodd dynnion fy mwthi, pwy a ddyru oi gnawd ef? [er hynny] ni ddigonid ni.

32 Ni letteuodd dieithr-ddyn allan: agorais fy nrysau i'r fforddolion.

33 Ni thoais fyng-hamweddau fel Adda gan guddio fy anwiredd yn fy monwes,

34 Canys gallaſwn orthrymmu tyrfa luoſog, ond y teulu gwaelaf a'm dychryne i, fel y tawn heb fyned allan [o'm] drŵs,

35 Oh am vn a'm gwrandawe, wele fy nymyniad, yr Holl-alluog a deſtiolaetha gyd a mi er ſcrifennu o'm gwrthwyneb-wr lyfr [i'm herbyn.]

36 Oni ddygwn ef ar fy yſcwydd: [oni] rwymwn ef yn [lle] coron i mi?

37 Mynegwn iddo ef rifedi fyng-hamrau: fel ac dywyſog y neſſawn atto ef.

38 Os ydyw fy nhir i yn llefain yn fy erbyn: ac [os] ydyw ei gwyſau ef yn cyd-ŵylo,

39 Os bwyteais i ei gryfdwr ef yn ddiardreth: ac [os] cyſtuddiais enaid ei berchennogion ef,

40 Deued yſcall allan yn llê gwenith, a bulwg yn lle haidd: [felly] Y DIWEDDWYD GEIRIAV IOB.

## PEN. XXXII.

Elihu (pan dawodd Iob ai dri chyfaill) yn gofyn canniad i ddywedyd ei feddwl.

FElly y tri gŵr ymma a beidiaſant ag atteb i Iob: am ei [fod] efe yn gyfiawn yn ei olwg ei hun.

2 A digofaint Elihu mab Berachel y Buziad o genedl Ram a gynneuodd, ei ddigofaint ef a enynnodd yn erbyn Iob am farnu o honaw ef ei enaid yn gyfiawn ger bron Duw.

3 Ai ddigofaint ef a gynneuodd yn erbyn ei dri chyfaill, am na chawſent hwy atteb, gan farnu o honynt hwy Iob yn euog.

4 Elihu hefyd a arhoſaſſe ar Iob yn ei eiriau: canys yr oeddynt hwy yn hynach nag ef o oedran.

5 Pan welodd Elihu nad [oedd] atteb [cymmwys] gan y try-ŵyr, yna y cynneuodd ei ddigofaint ef.

6 Am hynny Elihu mab Barachel y Buziad a attebodd, ac a ddywedodd, ieuangc ydwyf o oedran, chwithau [ydych] henuriaid: am

hynny 'r arſwydais, ac yr ofnais ddangos fyng-wybodaeth i chwi.

7 Meddyliais [fel hyn,] dyddiau a draethant, a lliaws o flynyddoedd a ddyſcant ddoethineb.

8 Ond y mae yſpryd mewn dŷn: ac yſprydoliaeth yr Holl-alluog ſydd yn gwneuthur iddynt hwy ddeall.

9 Nid [gwŷr] mawrion fyddant ddoeth: ac nid henaf-gwŷr a ddeallant farn [yn vnic.]

10 Am hynny y dywedais, gwrando fi: minne a ddangoſaf fyng-wybodaeth.

11 Wele diſgwiliais am [ddiwedd] eich geiriau, cluſt-ymwrandewais hyd oni [welais] eich deall chwi, tra y chwiliaſoch chwi am eiriau.

12 Yſtyriais hefyd wrthych chwithau, ac wele nid [oedd vn] o honoch yn argyoeddu [Job] gan atteb ei eiriau ef.

13 Rhac dywedyd o honoch, ni a gawſom ddoethineb: y mae Duw yn ei chwalu ef, ac nid dŷn.

14 Er na hwyliodd efe [ei] ymadroddion yn fy erbyn i: myfi ai hattebaf ef, ond nid fel yr attebaſoch chwi.

15 Hwy a ddychrynnaſant, nid attebaſant mwy: gwrthodaſant lefaru.

16 Wedi diſgwil o honof, gan na lefarant, eithr ſefyll heb atteb mwy,

17 Minne a attebaf fy rhan, minne a ddangoſaf fyng-wybodaeth.

18 Canys yr ydwyf yn llawn geiriau: y mae yſpryd ynof yn fyng-hymmell i.

19 Wele fy mol [ſydd] fel gwîn yr hwn nid agorid: y mae efe yn hollti fel coſtrélau newyddion.

20 Dywedaf fel y caffwyf fy anadl: agoraf fyng-wefuſau, ac attebaf.

21 Ni dderbynniaf yn awr wyneb neb: ni ragrithiaf wrth ddŷn.

22 Canys ni wn pe rhagrithiwn pa gynted ſ'm cymmere fyng-wneuthur-wr fi ymmaith.

## PEN. XXXIII.

Rheſymmau Elihu yn erbyn y geiriau a ddywedodd Job vchod, gan ddangos fod Duw trwy amryw foddion yn denu dyn atto.

GAn hynny Job clyw attolwg fy ymadroddion: a gwrando fy holl eiriau.

2 Wele 'r ydwyf yn awr yn agorid fyng-enau: mae fy nhafod yn dywedyd yn haflod fyng-enau.

3 Inionddeb fyng-halon [fydd] fyng-eiriau: a'm gwefuſau a adroddant wybodaeth bur.

4 Yſpryd Duw a'm gwnaeth i: a chwythad yr Holl-alluog a'm bywioccaodd i.

5 Os gelli fy atteb i: ymbaratoa [a] ſaf o'm blaen i.

6 Wele yr ydwyfi o flaen Duw fel tithe: allan o'r clai y torrwyd finne.

7 Wele ni'th ddychryna fy arſwyd i: ac ni bydd fy llaw drom arnat.

8 Ond ti a ddywedaiſt lle y clywais i: ac myfi a wrandewais ar lais [dy] ymadroddion di.

9 Pûr [ydwyf] fi heb gamwedd: glân [ydwyf] ac heb anwiredd ynof.

10 Wele efe a gafodd achoſion yn fy erbyn: y mae efe yn fyng-hyfrif yn elyn iddo.

11 Y mae efe yn goſod fy nhraed mewn cyffion: y mae efe yn gwilied fy holl lwybrau.

12 Wele [yn] hyn mi a'th attebaf, nid ydwyt gyfiawn: canys mwy ydyw Duw na dŷn.

13 Pa ham yr ymryſonaiſt yn ei erbyn ef? o herwydd nad ydyw efe yn atteb am ei holl eiriau.

14 Pan ymdiddano Duw vn-waith neu ddwy-waith, ni ddeall [dŷn] hynny.

15 Drwy hûn, [a thrwy] weledigaeth y nos, pan ſyrthio trym-gwſc ar ddynnion, wrth heppian ar wely,

16 Yna 'r egyr efe gluſt dynnion: ac y ſelia efe eu coſpedigaeth hwy,

17 I dynnu dŷn [oddi wrth] waith [drwg:] ac fel y gorchguddio efe falchter oddi wrth ŵr,

18 [Fel] yr attalio efe ei enaid ef o'r pwll: ai hoedl ef rhag myned o'r cleddyf trwyddi hi.

19 Ac efe a geryddir trwy ofid ar ei wely: a lliaws ei eſcyrn ef [â gôfid] caled.

20 Fel y ffieiddio ei fywyd ef fara: ai enaid fwyd blaſus.

21 [Fel] y darfyddo ei gnawd ef allan o olwg: fel y ſafo ei eſcyrn allan [y rhai] ni welyd [o'r blaen.]

22 Ac y neſſao ei enaid i'r clawdd: ai fywyd i [loeſion] anghefol.

23 Os bydd ganddo ef gennad o ladmerudd, vn o fil, i ddangos i ddyn ei inionddeb ef:

24 Yna efe a drugarhâ wrtho ef, ac a ddywed, gollwng ef rhac deſcyn o honaw i'r clawdd, myfi a gefais iawn.

25 Ireiddiach [fydd] ei gnawd ef na bachgen: efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuengctid.

26 Pan weddio ar Dduw yntef a fydd bodlon iddo ef, fel yr edrycho yn ei wyneb ef mewn gorfoledd: canys efe a rydd i ddŷn ei gyfiawnder drachefn.

27 Efe a edrych ar ddynnion [eraill,] ac a ddywed, pechais, a gŵyrais inionddeb, ac ni lwyddodd i mi.

28 Efe a ollyngodd fy enaid rhag myned heibio i'r clawdd: a'm bywyd a wêl oleuni.

29 Wele hyn oll a wna Duw ddwy-waith [neu] dair â dŷn,

30 I ddwyn ei enaid ef o'r pwll: i oleuo yng-oleuni y rhai byw.

31 Gwrando Iob clyw fi: taw fel y llefarwyf inne.

32 Od oes geiriau gennit ti, atteb fi: llefara, canys chwennychwn dy gyfiawnhau di.

33 Onid e gwrando di arnafi, bydd ddiſtaw, ac myfi a ddyſcaf i ti ddoethineb.

### PENN. XXXIIII.

Yn erbyn cyfiawnder Iob, y mae Elihu yn dangos cyfiawnder Duw ai allu.

AC Elihu a lefarodd, ac a ddywedodd:

2 [Chwi] wŷr doethion gwrandewch fy ymadroddion: a [chwychwi] y rhai ydych yn gwybod, clust-ymwrandewch.

3 Canys y glust a farna ymadroddion: fel yr archwaetha y genau fwyd.

4 Dewiſwn i ni ein hunain iniondeb, fel y gwybyddom rhyngom pa beth ſydd ddâ.

5 Canys dywedodd Iob, cyfiawn ydwyf: a Duw a ſymmudodd fyng-hyfiawnder.

6 A ddywedaf i gelwydd yn erbyn fy matter fy hun? trwm [ydyw] dy ſaeth heb gamwedd ynof.

7 Pa ŵr [ſydd] fel Iob, [yr hwn] a ŷf watworgerdd fel dyfroedd?

8 Ac a rodiodd yng-hymdeithas gyd â gweithred-wŷr anwiredd: ac i fyned gyd â dynion annuwiol.

9 Canys dywedodd, ni fuddia i ŵr, ewyllyſio o honaw ef [rodio] gyd â Duw.

10 Am hynny chwychwi wŷr calonnoc, gwrandewch arnaf, pell ſydd Duw oddi wrth annuwioldeb, a'r Holl-alluoc oddi wrth anwiredd.

11 Canys efe a dâl i ddyn ei waith: ac efe a wnaiff i ŵr gael yn ôl ei lwybr ei hun.

12 Diau hefyd na wna Duw yn annuwiol: ac na ŵyra'r Holl-alluoc farn.

13 Pwy heb ei law ef ſydd yn llywodraethu y ddaiar iddo ef? a phwy a oſododd yr holl fyd?

14 Pe goſodaſe [Duw] ei feddwl yn erbyn [dŷn: a phe] caſcle efe atto ei hun ei yſpryd, ai chwythad ef,

15 [Yna] pôb cnawd a gyd-drenge: a dŷn a ddychwele i'r prîdd.

16 Od [oes] ddeall [ynot] gwrando hyn: clust-ymwrando a llef fy ymadroddion.

17 A gaiff yr hwn ſydd yn caſſaû barn lywodraethu? ac a elwi di yr hwn ſydd gyfiawn odiaeth yn annuwiol?

18 A ddywedir wrth frenin, ô [ŵr] drygionus: [ac] ô annuwiol, wrth dywyſogion?

19 Yr hwn ni dderbyn wynebau tywyſogion, lle nid adwaenir y goludoc o flaen y tlawd: canys gwaith ei ddeheu-law ef ydyw pawb.

20 Hwy a fyddant meirw mewn moment, a hanner nos y cynhyrfa y bobl, ac yr ânt heibio: a'r cadarn a ſymmudir heb law.

21 Canys ei lygaid ef [a fyddant] ar ffyrdd dŷn: ac efe a wêl ei holl gamrau ef.

22 Nid [oes] dywyllwch, ac nid [oes] gyſcod angeu: lle y gall y rhai ſydd yn gweithio anwiredd ymguddio.

23 Canys ni eſyd [Duw] ar ddyn y chwaneg [nac a haeddo efe,] fel y gallo efe fyned i'r gyfraith â Duw.

24 Efe a ddryllia rai cedyrn yn anifeiriol: ac a eſyd eraill yn eu lle hwynt.

25 Am hynny efe a gyhoedda eu gweithredoedd hwy: a phan newidio efe y nos, hwy a ddryllir.

26 Efe ai tery hwynt megis rhai annuwiol yn amlwg.

27 Am iddynt hwy gilio oddi ar ei ôl ef: ac na ddeallent ei holl ffyrdd ef.

28 Gan ddwyn gwaedd y tlawd arnynt hwy: canys efe a wrendu waedd y trueniaid.

29 Canys pan eſmwythâo efe, pwy a aneſmwythâ? a phan guddio efe ei wyneb, pwy a edrych arno ef? ſef ar genhedlaeth, neu ar ddŷn unic.

30 Fel na theyrnaſe dŷn ffuantus, [ac] na rwyder y bobl.

31 Ond wrth Dduw 'r hwn a ddywedodd, mi a faddeuais, nid anrheithiaf, [y dylid dywedyd,]

32 Heblaw a welaf dyſc di fi: o gwneuthum anwiredd, ni wnafi mwy.

33 A ydyw [hyn] o honot ti? efe a dâl hynny os diyſtyri di [y neb a'th rybuddio,] os dewiſi di hynny, ond ni [wnawn] i: dywet yn awr yr hyn a ŵyddoſt.

34 Gwŷr call a ddywedant gyd â mi: a'r gŵr doeth yr hwn a'm clywe.

35 Iob a ddywedodd yn annoeth: ai eiriau nid ydynt mewn deall.

36 Fy nhâd profer Iob hyd y diwedd: am [roddi] attebion tros ddynion anwir.

37 Canys efe a chwanegodd ſcelerder at ei bechod, efe a gurodd ei ddwylo yn ein plith ni: ac a amlhâodd ei eiriau yn erbyn Duw.

### PEN. XXXV.

Nad yw duwioldeb neu anuwioldeb yn dda, nac yn drwg i Dduw, onid i ddyn. 13 Ac na wrendu Duw ar bechadur.

AC Elihu a lefarodd, ac a ddywedodd:

2 A gyfrifaiſt di yn llê iniondeb, ddywedyd o honot, [y mae] fyng-hyfiawnder i yn fwy na [chyfiawnder] Duw?

3 Os gofynni, pa lês a wnaiff [hynny] i ti [gan ddywedyd,] pa beth a ennillaf oddi wrth fy mhechod?

4 Myfi a attebaf i ti eiriau, ac i'th gyfeillion gyd a thi.

5 Edrych ar y nefoedd a gwêl: ac edrych ar y cwmylau [y rhai] ydynt uwch na thi.

6 Os pechi, pa [niwed] a wnei di iddo ef? os aml fydd dy anwireddau, pa [fudd] a wnei di iddo ef?

7 Os cyfiawn fyddi, pa beth a roddi di iddo ef? neu pa beth a gymmer efe o'th law di?

8 I ŵr fel ty di dy annuwioldeb: ac i fab dŷn dy gyfiawnder a wna [ryw beth.]

9 Hwynt a wnant wrth ſawredd i'r gorthrymmedic lefain: hwy a floeddiant rhac braich gwŷr mawr.

10 Ond ni ddywed [neb,] palê y mae Duw'r hwn a'm gwnaeth i? yr hwn ſydd yn rhoddi achoſion i ganu y nôs [iddo ef.]

11 Yr hwn ſydd yn ein diſcu yn fwy nag anifeiliaid y ddaiar: ac yn ein gwneuthur yn ddoethach nag ehediaid y nefoedd.

12 Yna hwy a waeddant rhac balchder y rhai drwg, ac ni chlyw efe.

13 Diau na wrendu Duw oferedd: ac nad edrych yr Holl-alluoc arno.

14 Er dywedyd o honot [oh Dduw] nid edrychi di ar hyn: [y mae] barn ger ei fron ef, diſgwil di wrtho ef.

15 Ac yn awr am nad ymwelodd ei ddigofaint ef, ac na fynnodd efe ŵybod y dirfawr amldra [o bechodau,]

16 Am hynny y llêda Iob ei ſafn [mewn] oferedd: ac yr amlhâ efe eiriau heb ŵybodaeth.

## PEN. XXXVI.

Elihu yn dangos gallu, doethineb, a thrugaredd Dduw.

AC Elihu a lefarodd, ac a ddywedodd:

2 Diſgwil wrthif ychydig, ac myfi a fynegaf iti: canys [y mae] gennif ymadroddion etto tros Dduw.

3 O bell y cymmeraf fyng-ŵybodaeth: ac i'm gwneuthur-wr y rhoddaf fi gyfiawnder.

4 Canys yn wîr nid celwyddog fydd fy ymadroddion: [y mae un] perffaith o ŵybodaeth gyd a thi.

5 Wele cadarn ydyw Duw, ac ni ddiyſtyra efe [neb:] cadarn o gadernid a doethineb [yw efe.]

6 Nid achub efe fywyd yr annuwiol: ac efe a rydd uniondeb [i'r] trueniaid.

7 Ni thynn efe ei olwg oddi ar y cyfiawn, eithr efe ai geſyd hwynt gyd a brenhinoedd ar yr orſedd-faingc yn dragywydd, ac felly y derchefir hwynt.

8 Ac os hwy wedi eu rhwymo â gefynnau, a gaethiwir â rhaffau gorthrymder,

9 Yna efe a ddengys iddynt hwy eu gwaith: a'r modd y gorthrechodd eu hanwireddau hwynt.

10 Ac a egyr eu clustiau iddynt hwy i [dderbyn] cerydd: ac a ddywed am droi o honynt hwy oddi wrth anwiredd.

11 Os gwrandawant hwy, ac [os] gwaſanaethant hwy [ef,] hwynt a dreuliant eu dyddiau mewn daioni, ai blynyddoedd mewn hyfrydwch.

12 Ac oni wrandawant, cleddyf a aifferwyddynt hwy: a hwynt a drengant heb ŵybod.

13 Ond y rhai rhagrithiol o galon a chwanêgant ddig: ni waeddant [arno ef] pan rwymo efe hwynt.

14 Eu henaid hwythau fydd marw mewn ieuengctid: ai bywyd gyd a'r puttein-wŷr.

15 Efe a wared y truan oi orthrymder: ac a egyr eu clustiau hwynt mewn gorthrymder.

16 Felly hefyd efe a'th wthiaſe di o enau cyfyngdra i ehangder, dann yr hwn ni [buaſe] waſcfa: a ſaig dy fwrdd di [fuaſe] yn llawn braſder.

17 Ond ti a gyflawnaiſt farn yr annuwiol: [am hynny] barn a chyfiawnder [a'th] ddaliant.

18 Pan [ddigwyddo] digofaint [gochel] rhac gyrru o honaw ef dydi ymmaith yn [dy] gyfoeth, ac na'th wared iawn mawr.

19 A briſſia efe ar dy olud ti? ni [phriſſia efe] ar aur, nac ar holl gadernid nerth.

20 Na fefyrria liw nos pa fodd y torrir ymmaith pobloedd oi llê.

21 Ymochel, nac edrych ar anwiredd, canys hynny a ddewiſaiſt o flaen cyſtudd.

22 Wele Duw ai nerth a dderchafa: pwy ſydd yn dyſcu fel ef?

23 Pwy a orchymynnodd ei ffordd ef iddo? a phwy a ddywed, gwnaethoſt anwiredd.

24 Coffa am fawrhau o honot ei waith ef: ar yr hwn yr edrych dynion.

25 Yr hwn a welodd pob dŷn: ac a ganfu dŷn o bell.

26 Wele mwy [ydyw] Duw nac y gwyddom ni: ac ni fedrir chwilio allan nifer ei flynyddoedd ef.

27 Canys efe a wna y defnynnau dyfroedd yn fân, [y rhai] a dywallcaſant law oi gwmwl ef,

28 Pan ddiferodd yr wybrennau i lawr [pan] ddefnynnaſant hwy ar ddynion lawer.

29 Hefyd a yſtyria [dŷn] danadau y cwmplau: [a] thwrwf ei babell ef?

30 Wele efe a dânodd ei oleuni arno: ac a orchguddiodd waelod y môr.

31 Canys â hwynt y barna efe y bobloedd: [ac] y rhydd efe fwyd yn helaeth.

32 Efe a orchguddia oleuni â chwmylau [megis] a dwylaw: ac efe a rydd orchymyn yn erbyn hynny er mwyn cyfryng-wr.

33 Efe a ddengis ei garedigrwydd iddo ef, i anifeiliaid hefyd, [ac] i ffrwyth [y ddaiar.]

## PEN. XXXVII.

Elihu yn dangos gallu Duw yn y tarânau, a'r eira, a'r gwynt, a'r glaw.

AM hyn hefyd y cryn fyng-halon, ac y dychlamma hi oi lle.

2 Gan wrando gwrandewch ar gynhyrfiad ei leferydd ef: ac ar y ſain [yr hwn] a ddaw allan oi enau ef.

3 Efe ai hyfforddia dann yr holl nefoedd: ai oleuni hyd eithafoedd y ddaiar.

4 Swn a rua ar ei ôl ef, efe a wna darânau â llais ei odidawgrwydd: ac ni oeda efe hwynt

pan glywir ei dwrwf ef.

5 Efe a wna darânau ai lais yn rhyfedd: y mae efe yn gweuthur [pethau] mwy nag a ŵyddom ni.

6 Pan ddywed efe wrth eira, bydd [ar] y ddaiar, ac wrth gafod o law: yn y man cafod glaw ei nerth ef [a ddaw.]

7 Efe a ſelia law pob dŷn, fel yr adwaeno efe ei holl weith-wŷr.

8 Y bwyſt-fil a aiff iw loches: ac a drig yn ei dyllau.

9 O'r deau y daw corwynt: ac oerni oddi wrth y gogledd-wynt.

10 Ai wynt y rhydd Duw rew: ac a gyfynga lêd y dyfroedd.

11 Hefyd efe a flina gwmwl yn dwfrhau [y ddaiar:] efe a waſcar gwmwl ei lewyrch.

12 Ac y mae [y cwmwl] hwnnw yn ymdroi oddi amgylch wrth ei lywodraeth ef: fel y gwnelont hwy beth bynnac a orchymynno efe iddynt hwy ar hŷd wyneb y bŷd, a'r ddaiar:

13 Ai [bod] yn goſpedigaeth, ai [yn lles] iw ddaiar ef, ai yn ddaioni, efe a bar gael hynny.

14 Gwrando hyn Iob: ſaf, ac yſtyria ryfeddodau Duw.

15 A ŵyddoſt ti pan eſid Duw y rhai hynny: a phan wnel efe i oleuni ei gwmwl ef lewyrchu:

16 A wyddoſti oddi wrth bwyſau y cwmylau: [a] rhyfeddodau Duw [yr hwn ſydd] berffaith-gwbl o ŵybodaeth:

17 Fod dy ddillad yn wreſog, pan baro efe y ddaiar yn dawel o'r dehau:

18 A denaiſt ti gyd ag ef yr wybrennau, y rhai a ſiccrhauwyd fel drych toddedic:

19 Gwna i ni ŵybod pa beth a ddywedwn wrtho ef: ni allwn ni gyfleu [ein geiriau] gan dywyllwch [ein meddyliau.]

20 A fynegir iddo ef os llefaraf, pe dywede neb, diau y difethid ef:

21 Canys yn awr nid edrych [neb] y goleuni [pan] fyddo efe ddiſclaer yn yr wybrennau: wedi myned o'r gwynt troſodd ai puro hwynt.

22 Trwy ogledd-wynt y daw [goleuni] euraid: ond [y mae] yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy.

23 [Y mae] efe yn Holl-alluog, ni allwn ni ei gael ef: yn ardderchawg o nerth a barn, ac yn aml o gyfiawnder, ni chyſtuddia efe.

24 Am hynny ofned dynnion ef: nid edrych efe ar neb doeth [yn eu] meddwl [eu hun.]

## P E N. XXXVIII.

Duw yn ymddiddan ag Iob, ac yn ei ddyſcu ef trwy ddangos iddo odidawgrwydd ei greaturiaid.

YNA 'r Arglwydd a attebodd Iob o'r corwynt, ac a ddywedodd,

2 Pwy yw hwnnw ſydd yn tywyllu cyngor ag ymadroddion heb ŵybodaeth:

3 Gwregyſa dy lwynau yn awr fel gŵr: a mynega i mi yr hyn a ofynnwyf i ti.

4 Pa le 'r oeddit ti pan ſylfaenais i y ddaiar: mynega os medri ddeall:

5 Pwy a oſododd ei meſurau hi os gwyddoſt: neu pwy a eſtynnodd linin meſur arni hi:

6 Ar ba beth y ſiccrhauwyd ei gwadnau: neu pwy a fwriodd ei chongl-faen hi?

7 Pale 'r oeddit ti pan gyd ganodd ſêr y borau: ac y gorfoleddodd holl feibion Duw:

8 A phwy a gaeodd y môr â dôrau, pan ruthrodd efe allan megis y deue vn allan o'r grôth:

9 Pan oſodais i y cwmwl yn wiſc iddo ef: a niwl yn rhwymyn iddo ef:

10 Pan oſodais fyng-orchymyn arno ef, a phan oſodais ei drosolion ai ddôrau,

11 Gan ddywedyd, hyd ymma y deui di, ac na thyrret ym-mhellach: ac ymma 'r ymeſyd y traeth yn erbyn ymchwydd dy donnau di.

12 A orchymynnaiſt ti y borau yn dy ddyddiau: a ddangoſaiſt ti i'r wawr-ddydd ei lê?

13 I ymaflyd yn eithafoedd y ddaiar, fel yr eſcydwer rhai annuwiol o honi hi:

14 Canys hi a ymnewidia fel clai ſeliedic: a hwy a ſafant fel dillad.

15 Fel yr attelid oddi wrth y rhai annuwiol eu goleuni: ac fel y drillid y braich derchafedic.

16 A ddaethoſt ti i waelod dyfnderoedd y môr? ac a rodiaiſti yng-hilfach y dyfnder:

17 A ddatcuddied pyrth marwolaeth i ti? ac a welaiſt ti byrth cyſcod angeu:

18 A yſtyriaiſt ti ehangder y ddaiar: mynega os adwaenoſt ti y hi ei gyd.

19 Pa ffordd yr eir lle y trig goleuni? a pha lê y mae lle tywyllwch:

20 Gan i ti ddeall hyn oi gwrr, a medru llwybrau ei dŷ ef.

21 A wyddit ti yna y genid ty di: ac y bydde rhifedi dy ddyddiau yn fawr?

22 A aethoſt ti i dryſſorau 'r eira: neu a weli di dryſſorau y cenllyſc:

23 Y rhai a atteliais i hyd amſer cyfyngder: hyd dydd ymladd, a rhyfel.

24 Pa ffordd yr ymranna goleuni? ac yr ymwaſcar y dwyrein-wynt ar y ddaiar:

25 Pwy a rannodd dymheſtlaw yn aberoedd: ac a wnaeth ffordd i fellt a tharânau:

26 I lawio ar ddaiar lle ni byddo gŵr: a'r anialwch yr hwn ſydd heb ddŷn ynddo:

27 I gyflawni lle wedi ei ddiffwyno, a lle anrhaithiedic: ac i beri i gnŵd o laſ-wellt dyfu?

28 A oes dad i'r glaw: neu pwy a genhedlodd ddefnynnau 'r gwlith?

29 O grôth pwy y daeth yr iâ allan? a phwy a genhedlodd llwyd-rew y nefoedd:

30 Fel yr ymguddio y dyfroedd megis carreg pan rewo wynebau y dyfnder.

31 A rwymi di hyfrydwch Pleiades? neu a

ddatodi di rwymau Orion:

32 A ddygi di allan Mazzaroth yn eu hamſer: neu a dwyſi di Arcturus ai feibion:

33 A adwaenoſt ti anſodd y nefoedd: a oſodi di ei lywodraeth ef ar y ddaiar:

34 A dderchefi di dy lêf ar y cwmwl, hyd oni orchguddio helaethrwydd o ddyfroedd dydi?

35 A ddanfoni di fellt allã fel yr elant: a ddywedant hwy wrthit, wele ni:

36 Pwy a oſododd ddoethineb yn yr arennau: neu pwy a roddodd ddeall i'r galon:

37 Pwy a gyfrif yr ŵybrennau drwy ddoethineb: a phwy a dywallt i lawr goſtrêlau y nefoedd:

38 Gan wlychu pridd wrth y tywalldiad hwnnw, fel y glŷno y priddellau:

39 A elli di hela ſclyfaeth i hên lew? neu a elli di lenwi gwangc cenawon llewod:

40 Pan ymgrymmant hwy mewn llochesau: pan eiſteddant mewn ffau i gynllwyn:

41 Pwy a baratoa i'r cig-frain eu bwyd, pan lefo eu cywion ar Dduw, [pan] wibiant hwy o eiſieu bwyd:

## PEN. XXXIX.

Duw yn dangos ei allu i Iob yn yr aſſyn wyllt, yr vnicorn, a'r march.

A Adwaenoſt ti yr amſer i eifr gwylltion i fwrw rhai bychain: a wilii di ['r amſer] y bwrw 'r ewîgod loi:

2 A gyfrifi di y miſoedd y [rhai] a gyflawnant hwy: ac a adwaenoſt ti 'r amſer pan ſwriant hwy rai bychain:

3 Pa fodd y gorweddant, y bwriant hwy eu llydnod, [ac] yr ymadawant ai goſid?

4 [Pa fodd] yr ymgryfhâ eu llydnod hwy, y cynnyddant hwy yn y maes: yr ânt hwy allan, ac ni ddychwelant attynt hwy?

5 Pwy a ollyngodd anifail gwyllt yn rhydd? a phwy a ddatododd rwymau 'r aſſyn wyllt?

6 [Myſi] yr hwn a oſodais yr anialwch yn dŷ iddo: a'r morfa yn drigfa iddo ef.

7 Efe a chwardd am [benn] gwerin tref: ni wrendu efe ar lais geilwad.

8 Cilfachau mynyddoedd [ydyw] ei borfa ef: ac efe a gais bob glaſ-wellt.

9 A gydtuna 'r vnicorn i'th waſanaethu di: a erys efe tros nos wrth dy breſêbau di:

10 A rwymi di vnicorn ai did mewn rhŷch: a lyfna efe ddolydd ar dy ôl di:

11 A ymddyriedi di iddo ef er bod ei gryfdwr ef yn fawr: a adewi di dy lafur iddo ef:

12 A gredi di iddo ef, y dŵg efe dy hâd ti drachefn: ac y caſcl efe i'th lawr-dyrnu di:

13 [A roddaiſt ti] adenydd hyfryd i'r peunod: neu adenydd a phlû i'r Eſtris:

14 Canys hi a âd ei hwyau ar y ddaiar: ac ar y pridd y cynheſa hi [hwynt.]

15 Ac y mae hi yn gollwng tros gof y galle troed eu dryllio hwynt: neu anifail y maes eu ſathru hwynt.

16 Caled yw hi wrth ei chywion, [fel pe] na [byddent] eiddo hi: ei gwaith hi [ſydd] yn ofer, ac yn ddifraw.

17 Canys Duw a wnaeth iddi hi ollwng doethineb dros gof: ac ni chyfrannodd iddi hi ddeall.

18 Yn y cyfamſer ac yr ymgodo hi yn vchel: hi a ddiyſtyra y march, ai farchog.

19 A roddaiſt ti gryfdwr i farch: neu a ddyſcaiſt iddo ef werŷru:

20 A ddychryni di ef fel celiog rhedyn: dychryn [ydyw] ardderchawgrwydd ei ffroen ef.

21 [Ei draed ef] a gloddiant mewn glynn, ac efe a lawenycha o [wir] gryfdwr: efe a aiff allan i gyfarfod arfau.

22 Efe a ddiyſtyra arſwyd: canys ni ddychryna efe, ac ni ddychwel efe rhag ofn cleddyf.

23 [Pan] dryſtio cawell ſaethau arno ef: pan ddiſclaerio gwaiw-ffon neu laif:

24 [Yna] mewn cynnwrf a dychryn y cloddia efe y ddaiar: ac ni chred mai llais yr vdcorn [a glyw efe.]

25 Pan [glywo] efe vdcorn, efe a werŷra, ac efe a arogla o bell ryfel, [a] chynnwrf tywyſogion, a gwaedd.

26 Ai trwy dy ddeall di 'r ehêda y gwalch: [ac] y llêda efe ei adenydd tua'r dehau:

27 Ai wrth dy orchymyn di 'r ymgyfyd eryr, ac y derchafa efe ei nŷth:

28 Y trig efe, ac yr erys [mewn] craig: [ac] ar fin craig megis [mewn] caſtell:

29 Oddi yno y chwilia efe am fwyd: ei lygaid ef a ganfyddant o bell.

30 Ei gywion ef hefyd a ſugnant waed: a lle [y byddo] celanedd yno [y bydd] efe.

31 Yr Arglwydd hefyd a attebodd Iob, ac a ddywedodd:

32 Ai dyſceidieth yw ymryſon a'r Holl-alluog: attebed argyoedd-wr Duw i hynny.

33 Ac Iob a attebodd yr Arglwydd, ac a ddywedodd,

34 Wele gwael ydwyf, i ba beth yr attebaf i ti: mi a oſodais fy llaw ar fyng-enau.

35 Dywedais vn-waith ond nid attebaf [mwy:] ac eil-waith ond ni chwanegaf.

## PFN. XL.

Gallu Duw yn ymddangos yn yr Elephant. 20 A'r Lefiathan.

A'R Arglwydd a attebodd Iob o'r corwynt, ac a ddywedodd,

2 Gwregyſa yn awr dy lwynau fel gŵr: a mynſi a ofynnaf i ti, mynega dithe imi.

3 A wnei di fy marn i yn ofer: a fwrii di fi yn ang-hyfiawn i'th gyfiawnhau di:

4 Neu a oes i ti fraich fel i Dduw: neu a wnei di darânau a'th lais fel yntef:

5 Ymdrwſſia yn awr â goruchafiaeth, ac â goruchelder: ac ymwiſc â gogoniant ac â phrydferthwch.

6 Tywallt gynddaredd dy ddigofaint: ac edrych ar bob balch, a thaſl ef i lawr.

7 Edrych ar bob balch a goſtwng ef: a dry-

llia y rhai annuwiol yn eu llê.

8 Cuddia hwynt yng-hyd yn y pridd: rhwym eu hwynebau hwy mewn [lle] cuddiedic.

9 Yna hefyd myfi a gyfaddefaf i ti, mai dy ddeheu-law dy hun a'th achub.

10 Yn awr wele'r Eliphant yr hwn a wneuthum gyd a thi: gwair a fwytta efe fel ŷch.

11 Wele yn awr ei gryfder ef [ſydd] yn ei lwynau: ei nerth ym mogel ei fol.

12 Efe a gyfyd ei gynffon fel cedr-wŷdden: gewynnau ei arennau ef ſy blethedic.

13 Pibellion o ddûr [ydyw] ei eſcyrn ef: ei eſcyrn [ydynt] fel ffyn heirn.

14 Pennaf o ffyrdd Duw [ydyw] efe: yr hwn ai gwnaeth ef a oſododd [wrtho ef] ei gleddyf.

15 Y mynyddoedd yn ddiau a ddygant laſwellt iddo ef: ac yno y chwêru holl anifeiliaid y maes.

16 Efe a orwedd dann goedydd cyſcod-fawr: mewn lloches o gorſennau a ſiglennydd.

17 Coedydd cyſcod-fawr ai gorchguddiant ef yn gyſcod iddo: helyg yr afon ai hamgylchant ef.

18 Wele efe a orthrymma afon [fel] na phryſſuro hi i [redeg:] efe a obeithie y rhuthre Iorddonen iw ſafn ef.

19 [Yr heliwr] ai deil ef o flaen ei lygaid: [ac] a ddylla ei drwyn [ef] â bachau:

20 A dynni di y Lefiathan allan â bâch? neu a rwymi di ei dafod ef â rhaff?

21 A oſodi di fâch yn ei drwyn ef? neu a dylli di aſcwrn ei ên ef â mynawyd.

22 A fawr ymbil efe â thi? a ddywed efe wrthit ti yn dêg?

23 A wna efe ammod â thi? a gymmeri di ef yn wâs tragywyddol?

24 A chwarei di ag ef fel ag aderyn? neu a rwymi di ef ith langceſau?

25 A ſwpera cyfeillion arno ef? a gyfrannant hwy ef rhwng marſiandi-wŷr?

26 A lenwi di faſced ai groen ef? neu gawell pyſcod ai benn ef?

27 Goſot dy law arno ef: cofia y rhyfel, [ac] na wna di mwy.

28 Wele ofer ydyw ei obaith ef [oi ddal:] oni leddid [vn] gan ei olwg ef?

## PEN. XLI.

Duw yn treuthu chwaneg i Iob am y Lefiathan.

NId [oes neb mor] hyderus ai godi ef: a phwy [yw] efe a ſaif ger fy mron?

2 Pwy a roddodd i mi yn gyntaf? ac myfi a dalaf: [beth bynnac ſydd] dann yr holl nefoedd eiddofi [yw] hynny.

3 Ni thawaf am ei aelodau ef: ac am gryfder a gweddeidd-dra ei oſodiad ef.

4 Pwy a ddatcuddiodd wyneb ei wiſc ef? pwy a ddaw [atto ef] ai ffrwyn ddau ddyblyg ef?

5 Pwy a agorodd ddôrau ei wyneb ef? dychryn [yw] amgylchoedd ei ddannedd ef.

6 Rhagorol gryfder [ei] emmau [ef] a gaewyd â ſêl gyfyng.

7 Y mae'r naill mor agos at y llall, fel na ddelo gwynt rhyngddynt hwy.

8 Pob vn a lŷn wrth ei gilydd: hwynt a ymglaſbyſant fel na wahanant hwy.

9 Ei diſian ef a gynneu yn ffagl: ai lygaid ef [ſydd] fel amrantau y borau.

10 Ffaglau a ânt allan, [a] gwreichion tânllyd a ddiangant oi enau ef.

11 Mwg a ddaw allan oi ffroenau ef: fel [o] bair, neu grochan berwedic.

12 Ei anadl ef a wna i'r glo loſci: a fflam a ddaw allan oi enau ef.

13 Yn ei wddf ef y trig cryfder: a thriſtwch a drŷ yn llawenydd oi flaen ef,

14 Llywethau ei gnawd a lynant yng-hyd: caledodd ynddo ei hun fel na ſyflo.

15 Caled ydyw ei galon ef fel carreg: a chaled fel y maen iſſaf i felin.

16 Rhai cryfion a ofnant ei ardderchawgrwydd ef: [ac] a wallgofant rhag ei derfyſc ef.

17 Ni ſyfl efe [rhac] y cleddyf a gyffyrddo ag ef, y waiw-ffon, y biccell, na'r llurig.

18 Efe a gyfrif haiarn fel man-ûs: [a] dûr fel prenn pwdr.

19 Ni phâr ſaeth iddo ef ffoi: cerrig tafl a droed iddo ef yn ſofl.

20 Bŵa croes a gyfrifir fel ſoflun, ac efe a chwardd wrth eſcwyd glaif.

21 Tano ef [y bydd] megis darniau llymmion o leſtr pridd: efe a dana bethau llymmion ar hŷd y clai.

22 Efe a wna i'r dyfnder ferwi fel crochan: efe a eſyd y môr fel morter apothecari.

23 Efe a wna lwybr golau ar ei ôl: [fel] y tebygid [fod] y dyfnder yn frig-wynn.

24 Nid [oes] ar y ddaiar gyffelyb iddo ef: yr hwn a wnaethpwyd heb ddychryn.

25 Efe a genfydd bob peth vchel: brenin [ydyw] efe ar holl feibion balchder.

## PEN. XLII.

Iob yn edifarhau, 9 Ac yn gweddio tros ei gyfeillion, 12 Ac yn cael adref ddau cymmaint o dda, a phlant hefyd.

AC Iob a attebodd yr Arglwydd ac a ddywedodd:

2 Myfi a wn y gelli di bob peth: ac na chuddiir [vn] meddwl oddi wrthit.

3 Pwy [ydyw]'r hwn ſydd yn cuddio [ei] gyfrinach fel nas gwyddir? am hynny y lleferais yr hyn nis deallais, [ſef pethau] rhy ryfedd i mi y rhai ni's gwyddwn.

4 Gwrando attolwg, ac myfi a lefaraf: gofynnaf i ti, dyſc dithe finne.

5 Myfi a glywſwn ſôn am danat: ac yn awr fy llygad a'th welodd di.

6 Am hynny y bydd ffiaidd gennif fi [fy hun,] ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch, a lludw.

7 Ac wedi dywedyd o'r Arglwydd y geiriau hynny wrth Iob: yr Arglwydd a ddywedodd wrth Eliphaz y Themaniad, fy nigofaint a

gynneuodd yn dy erbyn di, ac yn erbyn dy ddau gyfaill, am na ddywedaſoch am danafi yn iniawn fel fyng-waſanaeth-wr Iob.

8 Ond yn awr cymmerwch i chwi ſaith o fuſtych, a ſaith o faharynnod, ac ewch at fyng-waſanaethwr Iob: ac offrymmwch boeth aberth troſoch chwi, a gweddied fyng-waſanaeth-wr Iob troſoch: canys mi a dderbynniaf ei wyneb ef, fel na wnelwyf i chwi [yn ôl eich] ffolineb, am na ddywedaſoch yr iniawn am danafi, fel fyng-waſanaeth-wr Iob.

9 Felly Eliphaz y Themaniad, a Bildad y Suhiad, a Sophar y Naamathiad a aethant, ac a wnaethant fel y dywedaſe 'r Arglwydd wrthynt hwy: a'r Arglwydd a dderbynniodd wyneb Iob.

10 Yna'r Arglwydd a ddychwelodd gaethiwed Iob, pan weddiodd efe tros ei gyfeillion: a'r Arglwydd a chwanegodd yr hyn oll [a fuaſe] gan Iob yn ddau-ddyblyg.

11 Ei holl geraint ef hefyd, ai holl garêſau, a phawb oi gydnabod ef o'r blaen a ddaethant atto ef, ac a fwyttaſant fwyd gyd ag ef yn ei dŷ, ac a gyd-ofidiaſant ag ef, ac ai cyſſuraſant ef, am bob drwg a ddygaſe 'r Arglwydd arno ef: a hwy a roddaſant iddo ef bob vn, vn darn o arian, a phob vn, vn tlws o aur.

12 A'r Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Iob yn fwy nai ddechreuad ef: canys yr oedd ganddo ef bedair mîl ar ddêc o ddefaid, a chwe mîl o gamêlod, a mil o gyplau o ŷchen, a mil o aſſynnod.

13 Ac yr oedd iddo ef ſaith o feibion, a thair o ferched.

14 Ac efe a alwodd henw y gyntaf Iemima, a henw yr ail Cezia, a henw y drydedd Ceren-haphuc.

15 Ac ni cheid gwragedd mor lân a merched Iob yn yr holl wlâd honno: ai tâd a roddes iddynt hwy etifeddiaeth ym mhlith ei brodyr.

16 Ac Iob a fu fyw wedi hyn gant a deugain o flynyddoedd: ac a welodd oi feibion, a meibion ei feibion bedair cenhedlaeth.

17 Ac Iob a fu farw yn hên, ac yn gyflawn o ddyddiau.

Terfyn llyfr Iob.

HONI SOIT QVI MAL Y PENSE
DIEV ET MON DROIT

# Pſalmau Dafydd.

## Pſalm. j.

Boreuol weddi.

GWyn ei fyd y gŵr ni rodiodd yng-hyngor yr annuwolion, ac ni ſafodd yn ffordd pechaduriaid, ac nid eiſteddodd yn eiſteddfa gwatwar-wŷr:

Deut.6.6. Ioſua.1.8. Dehareb.6.20 Ierem,17.8.

2 Onid [bod] ei *ewyllys ef yng-hyfraith yr Arglwydd: a mefyrio o honaw yn ei gyfraith ef ddydd a nôs.

3 Canys efe *a fydd fel prenn wedi ei blannu ar lann dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei brŷd: ai ddalen ni wywa, a pha beth bynnac a wnêl, efe a lwydda.

Pſal 37.36.

4 Nid *felly [y bydd] yr annuwiol, onid fel mân us yr hwn a chwâl y gwynt ymmaith [oddi ar wyneb y ddaiar.]

5 Am hynny yr annuwolion ni ſafant yn y farn, na'r pechaduriaid yng-hynnulleidfa y rhai cyfiawn.

6 Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn, a ffordd yr annuwolion a ddifethir.

## Pſalm. ij.

Act.4.25.

PA ham *y terfyſca y cenhedloedd: ac y bwriâda y bobloedd yn ofer:

2 Y mae brenhînoedd y ddaiar yn codi i fynu, a'r pennaethiaid yn ymgyngori yng-hyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Griſt ef.

3 Dryllîwn eu rhwymau hwy: a thaflwn eu rheffynnau oddi wrthym.

Dihareb. 1.26.

4 *Yr hwn ſydd yn preſſwylio yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd ai gwatwar hwynt.

5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei lîd, ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt.

6 Minne a oſodais fy Mrenin ar Sion fy mynydd ſanctaidd.

Act.13.26.33. Heb.1.5.

7 Mynegaf y ddeddf [yr hon] a ddywedodd yr Arglwydd wrthif: *fy Mab [ydwyt] ti, myfi heddyw a'th genhedlais.

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti: a therfynau y ddaiar i'th feddiant.

9 Briwi hwynt â gwialen haiarn, maluri hwynt fel lleſtr pridd.

10 Gan hynny 'r awr hon ô frenhinoedd byddwch ſynhwyrol: barn-wŷr y ddaiar cymmerwch ddŷſc.

11 Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn ofn: ac ymlawenhewch mewn dychryn.

12 Cuſſênwch y mâb rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lîd ef ddim: gwyn eu byd pawb a ymddyriedant ynddo ef.

## Pſalm. iij.

*Pſalm Dafydd, pan ffôdd efe rhag Abſalom ei fab.*

ARglwydd mor aml yw fy nhrallod-wŷr llawer ſy 'n codi i'm herbyn.

2 Llawer ſy 'n dywedyd am fy enaid, nid [oes] iechydwriaeth iddo yn [ei] Dduw. Selah.

3 Tithe Arglwydd [ydwyt] darian i mi: fyng-ogoniant, a dderchafudd fy mhenn.

4 A'm llef y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm clybu oi fynydd ſanctaidd. Selah.

5 Mi a orweddais, ac a gyſcais, [ac] a ddeffroais: canys yr Arglwydd a'm cynhaliodd.

6 Nid ofnaf fyrddiwn [o] bobl: y rhai o amgylch a ymoſodâſant i'm herbyn.

7 Cyfot Arglwydd, achub fi fy Nuw, canys tarewaiſt fy holl elynnion [ar] garr yr ên: torraiſt ddannedd yr annwolion.

8 Iechydwriaeth [ſydd] eiddo 'r Arglwydd: dy fendith [ſydd] ar dy bobl. Selah.

## Pſalm. iiij.

*At y pen-cerdd ar y Neginoth, pſalm Dafydd.*

GWrando fi pan alwyf ô Dduw fyng-hyfiawnder, mewn cyfyngder yr ehengaiſt arnaf: trugarhâ wrthif, ac erglyw fyng-weddi.

2 O feibion dynnion pa hŷd [y troiwch] fyng-ogoniant yn warth: yr hoffwch wêgi, ac yr argeiſiwch gelwydd: Selah.

3 Gwybyddwch hefyd i'r Arglwydd ethol y duwiol iddo ei hûn: yr Arglwydd a wrendu pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch, meddyliwch

yn eich calon ar eich gwely, a thewch. Selah.

5 Aberthwch ebyrth cyfiawnder, a gobeithiwch yn yr Arglwydd.

6 Llaweroedd ſy'n dywedyd, pwy a ddengys i ni ddaioni ⁖ Arglwydd dercha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaiſt lawenydd yn fyng-halon, er pan yr amlhâodd eu hŷd, ai gwin [ai holew] hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti Arglwydd yn unic a'm cyfleaiſt mewn diogelwch.

### Pſalm. v.

*At y pen-cerdd ar y Nehiloth, pſalm Dafydd.*

GWrando fyng-eiriau Arglwydd: deall fy myfyrdod.

2 Erglyw ar lêf fyng-waedd, fy Mrenin, a'm Duw: canys arnat y gweddiaf.

3 Yn forew Arglwydd y clywi fy llêf: yn forew y cyfeiriaf attat, ac y diſgwiliaf.

4 O herwydd nad [wyt] ti Dduw 'n ewyllyſio anwiredd: y drwg ni thrig gyd â thi.

5 Ynfydion ni ſafant yn dy olwg: caſeaiſt holl weithred-wŷr anwiredd.

6 Difethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr Arglwydd a ffieiddia y gŵr gwaedlyd, a'r twyllodrus.

7 A minne a ddeuaf i'th dŷ di yn amlder dy drugaredd: ac a addolaf tu a'th Deml ſanctaidd yn dy ofn di.

8 Arglwydd arwain fi yn dy gyfiawnder o achos fyng-elynnion: a gwaſtadhâ dy ffordd o'm blaen.

Rhuſ.3.13.

9 Canys nid [oes] iniondeb yn eu genau, eu ceudod [ſydd] lwgredigaeth, * bedd agored [yw] eu gwddf hwynt, gweniaithiant ai tafod.

10 Deſtruwia hwynt ô Dduw, ſyrthiant oddi wrth eu cynghorion, gyrr ymmaith hwynt yn amlder eu camweddau: canys gwrthryfelâſant i'th erbyn di.

11 A llawenhaed y rhai oll a ymddyriedant ynot, yn dragywydd y cammolant, am i ti orchguddio troſtynt hwy: a'r rhai a gârant dy enw, a orfoleddant ynot.

12 Canys ti Arglwydd a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd megis tarian y corôni di ef.

### Pſalm vj.

*At ben-cerdd y Neginoth ar gyffurfyr wyth-dant, pſalm Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi.*
Ierem.10.24.

ARglwydd na cherydda fi yn dy lidiawgrwydd, ac na choſpa fi yn dy lîd.

2 Trugarhâ wrthif Arglwydd, canys lleſc ydwyf: iachâ fi ô Arglwydd, canys fy eſcyrn a gyſtuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: tithe Arglwydd pa hŷd [i'm cyſtuddi ⁖]

4 Dychwel Arglwydd, gwaret fy enaid: iachâ fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angeu nid [oes] goffa am danat: yn y bêdd pwy a'th fawl?

6 Deffygiais gan fy ochain, pob nos yr ydwyf yn gwneuthur fyng-wely yn foddfa: yr ydwyfi 'n gwlychu fyng-orweddfa a'm dagrau.

7 Tywyllodd fy llygad gan ddigter: heneiddiodd o herwydd fy holl elynnion.

8 Ciliwch oddi wrthif holl weithred-wŷr anwiredd: canys yr Arglwydd a glywodd lêf fy ŵylofain.

9 Clybu 'r Arglwydd fy neiſyfiad: yr Arglwydd a dderbyn fyng-weddi.

10 Fy holl elynnion a wradwyddir, ac a drallodir yn ddirfawr: dychwelir, [a] chywilyddir hwynt yn ddiſymmwth.

### Pſalm. vij.

*Sigaion Dafydd, yr hwn a ganodd efe i'r Arglwydd, o blegit geiriau * Chus fab Iemini.* 2.Sam.16.7.

ARglwydd fy Nuw, ynot yr ymddyriedais: achub fi rhag fy holl erlid-wŷr, a gwaret fi.

2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llew: gan [ei] rwygo, pryd na [byddo] gwaredudd.

3 Fy Arglwydd Dduw os gwneuthum hynn, od oes anwiredd yn fy nwylaw:

4 O thêlais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi: oni waredais y rhai a'm gwrthwynebent heb achos:

5 Erlidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded [fi:] ſathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a goſoded fyng-ogoniant i drigo yn y llŵch. Selah.

6 Cyfot Arglwydd yn dy ddigllonedd, ymddercha o herwydd llid fyng-elynnion: deffro hefyd droſof [yn] y farn a orchymynnaiſt.

7 Felly cynnulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel dithe i'r uchelder.

8 Yr Arglwydd a farn y bobloedd: barna di fi ô Arglwydd yn ôl fyng-hyfiawnder, ac yn ôl fy mherffeithrwydd [ſydd] ynof.

9 Darfydded weithian anwiredd yr annuwolion, eithr cyfarwydda di y cyfiawn: canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonnau, a'r arennau.

10 Fy amddeffyn [ſydd] yn Nuw, iachawdur y rhai iniawn o galon.

11 Duw ſydd farnudd cyfiawn, a Duw ſydd ddigllon beunydd [wrth yr annuwiol.]

12 Oni ddychwel [yr annuwiol,] efe a hôga ei gleddyf, efe a annelodd ei fŵa, ac ai paratôdd.

13 Paratôdd efe hefyd iddo arfau anghefol, efe a weithiodd ei ſaethau yn erbyn yr erlid-wŷr.

14 Wele efe a * ymddwg anwireddd, canys beichiogodd ar gamwedd, ac efe a eſcor ar gelwydd. Eſa.59.4. Iob.15.35.

15 Cloddiodd bwll, trychodd ef, ſyrthiodd hefyd yn y deſtruw a wnaethe efe.

16 Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ef ei hun: ai gamwedd a ddeſcyn ar ei goppa ei hun.

17 Clodforaf yr Arglwydd yn ôl ei gyfiawnder: a chan-molaf enw'r Arglwydd goruchaf.

### Pſalm. viii.

*At y pen-cerdd ar y Gittith: Pſalm Dafydd.*

ARglwydd ein Iôr ni, mor arddercog [yw] dy enw yn yr holl fŷd: yr hwn a roddaiſt dy ogoniant uwch y nefoedd.

Math.21.16. 2 O *enau bechgyn, a rhai yn ſugno y peraiſt nerth o achos dy elynnion: i oſtegu y gelyn, a'r ymddialudd.

3 Pan edrychwyf ar y nefoedd gwaith dy fyſedd, [ſef] y lloer a'r ſêr y rhai a ordeiniaiſt,

4 Pa beth [yw] dŷn i ti iw goffau? a mab dŷn i ti i ymweled ag ef?

5 Gwnaethoſt ef ychydig is na'r angelion: corônaiſt ef hefyd â gogoniant, ac â phrydferthwch.

6 Gwnaethoſt ef i arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylo: goſodaiſt bôb peth dann ei draed ef.

7 Defaid, ac ŷchen oll, ac anifeiliaid y maes hefyd:

8 Ehediaid y nefoedd, a physc y môr: y rhai a ydynt yn trammwyo llwybrau y moroedd.

9 Arglwydd ein Iôr mor arddercog [yw] dy enw yn yr holl fŷd.

### Pſalm.ix.

1.Sam.17.4. *At y pen-cerdd wrth farwolaeth ‡ Labben, Pſalm Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

CLodforaf yr Arglwydd a'm holl galon: mynegaf dy holl ryfeddodau.

2 Llawenychaf, a gorfoleddaf ynot: canaf i'th enw di, y Goruchaf.

3 Tra y dychwelid fyng-elynnion yn eu hôl, y llithrant, ac y difethir hwynt o'th flaen di,

4 Canys gwnaethoſt fy marn a'm matter yn dda: eiſteddaiſt ar orſedd-faingc ô farnudd cyfiawn.

5 Ceryddaiſt y cenhedloedd, deſtruwiaiſt yr annuwiol: eu henw hwynt a ddileâiſt hefyd byth bythol.

6 Hâ elyn, darfu am ddiniſtr yn dragywydd, diwreiddiaiſt y dinaſoedd, darfu eu coffadwriaeth [gyd â] hwynt.

7 Yr Arglwydd a erys yn dragywydd: efe a baratôdd ei orſedd-faingc i farn.

8 Canys efe a farn y bŷd mewn cyfiawnder: efe a farn y bobloedd mewn uniondeb.

9 Yr Arglwydd hefyd fydd amddeffyn i'r truan, [a] nawddfa mewn pryd, [ſef] mewn cyfyngder.

10 A'r rhai a adwaenant dy enw a ymddyriedant ynot: canys ni adewaiſt ô Arglwydd y rhai a'th geiſiant.

11 Can-molwch yr Arglwydd yr hwn ſydd yn preſſwylio yn Sion: a mynegwch i'r bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Canys pan ymofynno efe am waed, y coſia efe am danynt: ac nid anghofia waedd y tlodion.

13 Trugarhâ wrthif Arglwydd, fy nerchafudd o byrth angeu: gwêl fy mlinder gan fyng-haſeion,

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant ym mhyrth merch Sion: [ac] y llawenychwyf yn dy iechydwriaeth.

15 Y cenhedloedd a ſoddaſant yn y ffôs yr hon a wnaethant: yn y rhwyd a guddiaſant, y daliwyd eu troed hwynt.

16 Adweinir yr Arglwydd, [canys] efe a wnaeth farn: yr annuwiol a faglwyd yng-weithredoedd ei ddwylo. Higaion Selah.

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern: [ſef] yr holl genhedloedd a anghofiant Dduw.

18 Canis nid anghofir y tlawd byth, gobaith y trueniaid [ni] chollir byth.

19 Cyfod Arglwydd, na orfydded dŷn: barner y cenhedloedd ger dy fron di.

20 Goſod Arglwydd ofn arnynt, gwybydded y cenhedloedd [mai] dynnion ydynt hwy. Selah.

### Pſalm.x.

PA ham Arglwydd y ſefi o bell, yr ymguddi yn yr amſeroedd [pan ydym] mewn cyfyng-der?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tlawd: dalier hwynt yn y dichellion a ddychymmygaſant.

3 Canys yr annuwiol a ffroſtiodd wrth ewyllys ei galon: a'r cybydd a ymfendithiodd: diyſtyru y mae efe yr Arglwydd.

4 Yr annuwiol gan ei falchder ni chais [Dduw:] nid [ydyw] Duw [yn] ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd ef ydynt flîn bôb amſer, uchel [yw] dy farnedigaethau oi olwg ef: efe a chwyth yn erbyn ei holl elynnion.

6 Dywedodd yn ei galon ni'm ſymmudir, o herwydd ni [byddaf] mewn drwg-fyd hyd genhedlaeth, a chenhedlaeth.

7 Ei * enau ſydd yn llawn melldith, a dichel, a thwyll: tann ei dafod y mae camwedd, ac anwiredd. Rhuf.3.14.

8 Y mae efe yn eiſtedd yng-hynllwynfa yr heolydd, mewn cilfacheu y lladd efe y gwirion: ei lygaid a dremmiant ar y tlawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch megis llew yn ei ffau, bwriadu y bydd i dreiſio y tlawd: treiſia efe y tlawd gan ei dynnu i'w rwyd.

10 Efe a ymgyſtuddia, ac a ymoſtwng: fel y cwympo tyrfa trueniaid ym myſc ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, anghofiodd Duw: cuddiodd ei wyneb, ni wêl efe byth.

12 Cyfot Arglwydd Dduw, dercha dy law: nac anghofia y tlodion.

13 Pa ham y cabla 'r annuwol Dduw? gan ddywedyd yn ei galon, nad ymofynni.

14 Gwelaiſt [hyn,] canys ti a genfyddi anwiredd, a cham, i roddi [tâl] a'th ddwylo dy hun: arnat ti y gedu y tlawd [ei obaith,] ti ydwyt gynnorthwy-wr yr ymddifad.

15 Torr fraich yr annuwiol, a'r drygionus: cais ei ddrygioni ef, [ac] nis cei.

16 Yr Arglwydd [ſydd] Frenin byth, ac yn dragywydd: diniſtriwyd y cenhedloedd oi dîr ef.

17 Arglwydd clywaiſt ddymuniad y tlodion, cyweiria di eu calon hwynt, gwrandawed dy gluſt [arnynt.]

18 I farnu yr ymddifad a'r tlawd: fel na chwanego dŷn daiarol beri ofn mwyach.

### Pſalm.xj.

*At y pen-cerdd* Pſalm *Dafydd.*

YN yr Arglwydd yr ydwyf yn ymddyried, pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, eheda i'ch mynydd [fel] aderyn?

2 Canys wele y drygionus a anelâſant fwa, paratoâſant eu ſaetheu tu a'r llinin, i ſaethu mewn dirgelwch y rhai iniawn o galon.

3 Canys y ſeiliau a ddiniſtriwyd: pa beth a wnaeth y cyfiawn?

4 Yr Arglwydd [ſydd] yn Nhemhl ei ſancteiddrwydd, gorſeddfa yr Arglwydd [ſydd] yn y nefoedd, y mae ei lygaid ef yn gweled [y tlawd:] ei amrantau yn chwilio meibion dynnion.

5 Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn: eithr câs gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn ſydd hoff ganddo anwiredd.

6 Ar yr annuwolion y glawia efe faglau, tân, a brwmſtan, a gwynt yſtormus [fydd]
* rhan eu phiol hwy. Ezec.23.31.

7 Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ai wyneb a genfydd y rhai iniawn.

### Pſalm.xii.

*At y pen-cerdd ar yr wyth-dant, Pſalm Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi*

AChub Arglwydd, canys darfu [y rhai] trugarog: o herwydd pallodd y ffyddlonniaid o blith meibion dynnion.

2 Oferedd a ddywedant bôb vn wrth ei gymmydog, â gwefus wenhieithgar: [ac] â chalon ddau ddyblyg y llefârant.

3 Torred yr Arglwydd yr holl wefuſau gwẽhieithus, [a'r] tafod a ddywedo fawrhydry.

4 Y rhai a ddywedant, a'n tafod y gorfyddwn: nyni a allwn ddywedyd a fynnom, pwy [ſydd] Arglwydd arnom ni?

5 O herwydd anrhaith y rhai cyſtuddiedic, [ac] o herwydd vchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr medd yr Arglwydd: rhoddaf mewn iechydwriaeth [yr hwn] y magler iddo.

6 Geiriau yr Arglwydd [ydynt] eiriau purion, [fel] arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro ſeith-waith.

7 Ti Arglwydd ai cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwolion a rodiant o amgylch: pan [eu] derchefir, gwarth [fydd] i feibion dynnion.

### Pſalm.xiii.

*At y pen-cerdd, Pſalm Dafydd.*

PA hyd Arglwydd i'm anghofi? [ai] yn dragywydd? pa hyd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hŷd y goſodaf gynghorion yn fy meddwl, [a] blinder beunydd yn fyng-halon? pa hŷd y derchefir fyng-elyn arnaf?

3 Edrych, [ a ] chlyw fi ô Arglwydd fy Nuw: goleua fy llygaid rhag i'm hûno [yn] yr angeu.

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, gorchfygais ef: [canys] fyng-wrthwyneb-wŷr a lawenychant os llithraf.

5 Minne hefyd a ymddyriedais yn dy drugaredd di, fyng-halon a ymlawenycha yn dy iechydwriaeth: canaf i'r Arglwydd am iddo ſynnio arnaf [ie mi a ganaf i'r Arglwydd goruchaf.]

### Pſalm. xiiii.

*At y pen-cerdd* Pſalm *Dafydd.*

YR * ynfyd a ddywedodd yn ei galon, nid [oes vn] Duw: ymlygrâſant, [a] ffieiddwaith a wnaethant: nid oes a wnêl ddaioni. Pſalm.53.

2 Yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar feibion dynnion, i weled a [oedd neb] deallgar yn ymgeiſio â Duw.

3 Ciliodd pawb, cŷd-ymddifwynâſant, nid oes a wnêl ddaioni, nac oes vn.

4 * Bedd agored yw eu gwddf, ai tafodau y ſiomment: gwenwyn lindis y ſydd dann eu gwefuſau. Pſal.10.7. rhuf.3.14.

5 Eu genau ſydd yn llawn o felldith, a chwerwedd: eu traed ſy fuan i dywallt gwaed.

6 Deſtruw, ac anhap ſydd ar eu ffyrdd, a ffordd tangneddyf nid adnabûant: nid oes ofn Duw yn eu golwg.

7 Oni wŷr holl weithred-wŷr anwiredd, [eu bod] yn bwytta fy mhobl [fel] y bwyttaent fara? ni alwâſant ar yr Arglwydd. Pſal.53.4.

8 Yno y dechrynant gan ofn [lle nid oedd ofn,] am [fod] Duw yng-henhedlaeth y cyfiawn.

9 Cyngor y tlawd a wradwyddech chwi, am [fod] yr Arglwydd yn obaith iddo.

10 Pwy a ddyry iechyd i Iſrael o Sion? pan ddychwel yr Arglwydd gaethiwed ei bobl, yr hyfryda Iacob, ac y llawenhâ Iſrael.

## Pſalm.xv.

*Pſalm.Dafydd.*

*Boreuol weddi.* ARglwydd pwy a drig yn dy babell: pwy a breſſwylia ym mynydd dy ſancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnêl gyfiawnder, ac a ddywed wîr oi galon:

3 Heb abſennu ai dafod: heb wneuthur drwg iw gyfell, ac heb dderbyn enllyb yn erbyn ei gymmydog.

4 Yr hwn ſydd ddirmygus [a] diyſtyr yn ei olwg ei hun, ac a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn [os] twng, ([ie] iw niwed [ei hun)] etto ni newidia.

5 [Yr hwn] ni roddes ei arian ar vſuriaeth, ac ni chymmer obr yn erbyn y gwirion: a wnêlo hyn ni lithr yn dragywydd.

## Pſalm. xvi.

*Pſalm euroc Dafydd.*

CAdw fi ô Dduw, canys ynot yr ymddyriedais.

2 Fy enaid, dywedaiſt wrth yr Arglwydd, fy Arglwydd ydwyt ti: fy nâ nid [yw] ddim i ti.

3 Ar y ſainct y rhai ydynt ar y ddaiar, a'r rhai rhagorawl, y mae fy holl ewyllys.

4 Gofidiau a amlhânt [i'r rhai] a fryſſiant [ar ôl Duw] dieithr: eu diod offrwm o waed ni offrymmaf fi: ac * ni chymmeraf eu henwau yn fyng-wefuſau. Exod.23.13.

5 Yr Arglwydd [yw] rhann fy etifeddiaeth a'm phiol: ti a gynheli fyng-hoelbren i.

6 Etifeddiaeth a ſyrthiodd i mi mewn [lleoedd] hyfryd: ac [y mae] i mi etifeddiaeth dêg.

7 Bendithiaf yr Arglwydd yr hwn a'm cynghôrodd: fy arennau hefyd a'm dyſcant drwy'r nôs.

Act.2.25. 8 * Goſodais yr Arglwydd bôb amſer ger fy mron: canys [y mae efe] ar fy neheu-law fel na lithraf.

9 O herwydd hynny y llawenychodd fyng-halon, ac yr ymhyfrydodd fyng-ogoniant: fyng-nhawd hefyd a orphwys mewn gobaith.

Act.2.31. 10 Canys, * ni adêwi fy enaid yn vffern ac ni adewi i'th Sanct weled llwgredigaeth.

Act.2.28. 11 * Dangoſi i mi lwybr bywyd: digonolrwydd llawenydd [ſydd] ger dy fron: ar dy ddeheu-law y mae digrifwch yn dragywydd.

## Pſalm. xvij.

*Gweddi Dafydd.*

CLyw Arglwydd gyfiawnder: yſtyria fy llefain, gwrando fyng-weddi o wefuſau didwyll.

2 Deued fy marn oddi ger dy fron, edryched dy lygaid ar iniondeb.

3 Profaiſt fyng-halon, gofwyaiſt [fi] y nôs, chwiliaiſt fi, ni chefaiſt [ynof anwiredd] bwriêdais na throſedde fyng-enau.

4 Tu ag at am weithredoedd dynnion, wrth eiriau dy wefuſau yr ymgedwais [o] llwybrau yr ſpeiludd.

5 Cynnal fyng-herddediad yn dy lwybrau [fel] na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat, canys gwrandewi arnaf ô Dduw: goſtwng dy gluſt attaf, ac erglyw fy ymadrodd.

7 Dangos dy ryfedd drugarêddau, ô achubudd y rhai a ymddyriedant [ynot,] rhag y ſawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheu-law.

8 Cadw fi fel cannwyll llygad: cudd di fi dann gyſcod dy adenydd,

9 Rhag yr annuwolion y rhai a'm gorthrymment: [rhag] fyng-elynnion [y rhai] am [yr] enaid a amgylchant i'm herbyn.

10 Caeâſant gan fraſder, ai genau a lefarant mewn balchder.

11 Ein cynniweirfa ni a gylchynâſant hwy yr awrhon, goſodâſant eu llygaid i dynnu i'r ddaiar.

12 Eu dull [ſydd] fel llew [yr hwn] a chwennyche ſclyfaethu, ac megis llew ieuangc yn aros mewn lloches.

13 Cyfot Arglwydd, achub flaen iddo, [a] chwympa ef: gwaret fy enaid rhag yr annuwiol [yr hwn yw] dy gleddyf di.

14 Oh Arglwydd [gwaret] fi oddi wrth ddynnion dy law [ſef] oddi wrth ddynnion y bŷd, [y rhai] y mae eu rhann yn y bywyd [ymma,] ac yn llenwi eu boliau a'th guddiedic dryſſor: llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill iw rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: pan ddihunwyf, digonir fi gan dy ddelw.

## Pſalm. xviij.

*At y pen-cerdd* Pſalm *Dafydd gwâs yr Arglwydd, yr hwn a lefarodd wrth yr Arglwydd eiriau y gân hon yn y dydd y gwaredodd yr Arglwydd ef o law ei holl elynnion, ac o law Saul: ac efe a ddywedodd,*

CAraf di Arglwydd fyng-hadernid. *Prydnhawnol weddi.*

2 * Yr Arglwydd [yw] fyng-hraig, a'm hamddeffynfa, a'm gwâredudd, fy Nuw fyng-hadernid, ynddo ef * yr ymddyriedaf: fy nharian, a chorn fy iechydwriaeth, a'm noddfa. 2.Sam.22.2. Hebr.2.13.

3 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly i'm cedwir rhag fyng-elynnion.

4 Gofidion angau a'm cylchynâſant: ac afonydd y fall a'm dychrynnâſant i.

5 Gofidion vffern a'm 'gogylchynâſant: maglau angeu a achubaſant fy mlaen.

6 Yn fyng-hyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw: efe a glybu fy llef oi Deml, a'm gwaedd ger ei fron ef a ddaeth iw gluſtiau ef.

7 Yna y cynhyrfodd, ac y crynodd y ddaiar, a ſeiliau y mynyddoedd a gyffroâſant: ac a ymſiglâſant, am iddo ef ddigio.

8 Derchafodd mwg oi ffroenau, a thân a yſſodd oi enau ef: glô a enynnâſant ganddo ef.

9 Efe hefyd a oſtyngodd y nefoedd, ac a ddeſcynnodd: a thywyllwch [oedd] tann ei draed ef.

10 Marchogodd efe hefyd ar y Cerub, ac a ehedodd: ie efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.

11 Efe a oſododd y tywyllwch yn ddirgelfa iddo ef, [ai] babell oi amgylch: [ſef] tywyllwch y dyfroedd, [a] chwmylau yr awyr.

12 Gan y diſcleirdeb [yr hwn ſydd] ger ei fron ef, cwmylau a aethant heibio: cenllyſc a marwor tanllyd.

13 Yr Arglwydd hefyd a darânodd yn y nefoedd: a'r Goruchaf a roddes ei lef: cenllyſc a marwor tanllyd.

14 Anfonodd hefyd ei ſaethau, a gwaſcârodd hwynt: amlhâodd hefyd [ei] fellt, a diniſtriodd hwynt.

15 Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, a ſeiliau y bŷd a ddinoethwyd gan dy gerydd di ô Arglwydd, [a] chan chwythad anadl dy ffroenau di.

16 Anfonodd oddi uchod, cymmerodd fi, [a] thynnodd fi o ddyfroedd lawer.

17 Efe a'm gwaredodd oddi wrth fyng-elyn cadarn, a rhag fyng-haſeion: canys y maent yn drech nâ mi.

18 A chubâſant fy mlaen yn nydd fyng-ofid: ond yr Arglwydd oedd yn gynhaliad i mi.

19 Dûg fi i ehangder, gwaredodd fi: canys ymhoffodd ynof.

20 Yr Arglwydd a'm gobrwya yn ôl fyng-hyfiawnder: yn ôl glendid fy nwylo y tâl efe:

21 Canys cedwais ffyrdd yr Arglwydd: ac ni wneuthum yn annuwiol yn erbyn fy Nuw.

22 O herwydd ei holl farnedigaethau ef [ydynt] ger fy mron i: ai ddeddfau ni fwriais oddi wrthif.

23 Bum hefyd yn berffaith gyd ag ef: ac ymgedwais rhag fy anwiredd.

24 A'r Arglwydd a'm gobrwyodd yn ôl fyng-hyfiawnder: [ac] yn ôl purdeb fy nwylo o flaen ei lygaid ef.

2.Sam.22.26. 25 A'r *trugarog y gwnei drugaredd: a'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.

26 A'r glân, y gwnei lendid: ac a'r cyndyn yr ymgyndynni.

27 Canys ti a warêdi y bobl gyſtuddiedic: [ac] a oſtyngi olygon uchel.

28 O herwydd ti a oleui fyng-hânwyll: yr Arglwydd fy Nuw a lewyrcha fy nhywyllwch.

29 O blegit ynot ti y rhedaf trwy fyddin: ie yn fy Nuw y llammaf dros fûr.

30 Duw [ſydd] berffaith ei ffordd, gair yr Arglwydd ſydd buredic: tarian yw efe i bawb a ymddyriedant ynddo.

31 Canys pwy [ſydd] Dduw heblaw yr Arglwydd? a phwy [ſydd] graig eithr ein Duwni?

32 Duw a'm gwregyſſodd â nerth: ac a roddes fy ffordd yn berffaith.

33 Goſod y mae efe fy nhraed fel [traed] ewigod: ac ar fy uchel-fannau i'm ſefydlodd.

34 Efe ſy yn dyſcu fy nwylo i ryfel: fel y dryllid bwa dûr [yn] fy mreichiau.

35 Rhoddaiſt hefyd i mi darian dy iechydwriaeth, a'th ddeheu-law a'm cynhaliodd: a'th fwynder a'm lluoſogodd.

36 Ehengaiſt fyng-herddediad tanaf: fel na lithrodd fy ſodlau.

37 Erlidiais fyng-elynnion, ac ai goddiweddais: ac ni ddychwelais nes i mi eu difa hwynt.

38 Archollais hwy fel na allent ſefyll: ſyrthiaſant dann fy nhraed.

39 Canys gwregyſaiſt fi â nerth i ryfel: cwympaiſt tanaf y rhai a ymgododd i'm herbyn.

40 Rhoddaiſt hefyd i mi warrau fyng-elynnion: fel y difethwn fyng-haſeion.

41 Gwaeddâſant, ac nid [oedd] achubudd: [ſef] ar yr Arglwydd, ond nid attebodd efe hwynt.

42 Maluriais hwynt hefyd fel llŵch o flaen y gwynt: melais hwynt megis pridd yr heolydd.

43 Gwarêdaiſt fi rhag cynhennau y bobl, goſodaiſt fi yn ben cenhedloedd: pobl ni's adnabum a'm gwaſanaethent.

44 Pan glywant, gwrandawant arnaf: meibion dieithr a gymmerant arnynt ymddaroſtwng i mi.

45 Meibion dieithr a ballant: ac a ddychrynant oi carchârau.

46 Byw fyddo'r Arglwydd, a bendithier fyng-hraig: a derchafer Duw fy iechydwriaeth.

47 Duw ſydd yn rhoddi i mi allu ymddial: ac a dyws y bobloedd tanaf fi.

48 Fyng-waredudd oddi wrth fyng-elynnion [ydwyt:] canys ti a'm derchefaiſt hefyd oddi wrth y rhai a gyfodent i'm herbyn: achubaiſt fi rhag y gŵr traws.

49 Am hynny *y moliannaf di ô Arglwydd ym mhlith y cenhedloedd: ac y cânaf i'th enw. Rhuf.15.9.

50 Efe ſydd yn mawrhau iechydwriaeth ei frenin, ac yn gwneuthur trugâredd iw eneiniog, i Ddafydd, ac iw hâd ef byth.

## Pſal.xix.

*At y pen-cerdd Pſalm Dafydd.*

Y Nefoedd ſy yn datcan gogoniant Duw: a'r ffurfafen ſy yn mynegu gwaith ei ddwy-law ef. Borenol weddi.

2 Dydd i ddydd a draetha ymadrodd: a nôs i nôs a ddengys wybodaeth.

3 Nid [oes] air nac ymadrodd, [lle] ni chlywyd eu lleferydd hwynt.

Rhuf.10.18. 4 I *bob tîr yr aeth eu ſain hwynt, ai geiriau hyd eithafoedd bŷd: i'r haul y goſododd efe babell ynddynt.

5 Ac efe fel gŵr prîod a ddaw allan oi ſtafell: ac a ymlawenhâ fel cawr yn rhedeg gyrfa.

6 O eithaf y nefoedd [y mae] ei fynediad ef allan, ai amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt: ac nid ymgudd [dim] oddi wrth ei wrês ef.

7 Cyfraith yr Arglwydd [ſydd] berffaith yn troi yr enaid: teſtiolaeth yr Arglwydd [ſydd] ſiccr, ac yn pêri doethineb i'r ehud.

8 Deddfau yr Arglwydd [ydynt] iniawn yn llawenhaû y galon: gorchymyn yr Arglwydd [ſydd] bûr, [ac] yn goleûo y llygaid.

9 Ofn yr Arglwydd [ſydd] lân, [ac] yn parhau yn dragywydd: barnau 'r Arglwydd [ydynt] wirionedd, cyfiawn [ydynt] eu gyd.

10 Mwy dymunol [ynt] nag aur, îe nag aur coeth lawer: melyſach hefyd na'r mêl, ac na diferiad diliau mêl.

11 Ynddynt hwy hefyd y dyſcir dy wâs: oi cadw [y mae] gobr lawer.

12 Pwy a ddeall [ei] gamweddau? glanhâ fi oddi wrth fy [meiau] cuddiedic.

13 Attal hefyd dy wâs oddi wrth bechodau rhyfygus, na arglwyddiaethant arnaf: yna i'm perffeithir, ac i'm glanheir oddi wrth anwiredd lawer.

14 Bydded ymadroddion fyng-enau, a myfyrdod fyng-halon yn gymmeradwy ger dy fron, ô Arglwydd fyng-hraig, a'm gwaredudd.

## Pſalm. xx.

*At y pen-cerdd. Pſalm Dafydd.*

GWrandawed yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngder: enw Duw Iacob a'th ddeffynno.

2 Anfoned i ti gymmorth or cyſſegr: a nerthed di o Sion.

3 Cofied dy holl offrymmau: a bydded fodlon i'ch boeth offrwm. Selah.

4 Rhodded i ti wrth [fodd] dy galon: a chyflawned dy holl arfaeth.

5 Gorfoleddwn yn dy iechydwriaeth di, a derchafwn fâner yn enw ein Duw: cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniadau.

6 Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei eneiniog, ac y gwrendu arno ef o nefoedd ei ſancteiddrwydd, yn nerth iechyd ei ddeheu-law ef.

7 [Ymddyried] rhai mewn cerbydau, ac eraill mewn meirch: ond nyni a goffawn enw yr Arglwydd ein Duw.

8 Hwynt a gwympaſant, ac a ſyrthiaſant: a nynneu a gyfodaſom, ac a ſafaſom.

9 Cadw Arglwydd: gwrandawed y Brenin arnom yn y dydd y llefom.

## Pſalm. xxj.

*At y pen-cerdd. Pſalm Dafydd.*

ARglwydd yn dy nerth y llawenycha y brenin: ac yn dy iechydwriaeth yr ymhyfryda efe yn ddirfawr.

2 Deiſyfiad ei galon a roddaiſt iddo: a dymyniad ei wefyſau ni's gommeddaiſt; Selah.

3 Canys achubaiſt ei flaen ef â bendithion daioni: goſodaiſt ar ei ben ef goron o aur coeth.

4 Gofynnodd oes gennit: [a] rhoddaiſt iddo hir-oes byth ac yn dragywydd.

5 Mawr [yw] ei ogoniant yn dy iechydwriaeth: goſodi arno ogoniant a phrydferthwch.

6 Canys goſodi ef yn fendithion tragywyddôl, llawenychi ef â llawenydd dy wyneb.

7 O herwydd bod y brenin yn ymddyried yn yr Arglwydd, ac yn-hrugaredd y Goruchaf, ni lithr efe.

8 Dy law a gaiff allan dy holl elynnion: dy ddeheu-law a gaiff allan dy gaſeion.

9 Goſodi hwynt fel ffwrn danllyd yn amſer dy lid: yr Arglwydd yn ei ddigllonedd ai difa hwynt, a'r tân ai hyſſa hwynt.

10 Eu ffrwyth hwynt a ddiniſtri di oddi ar y ddaiar: ai hâd o blith meibion dynnion.

11 Canys bwriadaſant ddrwg i'th erbyn: meddyliaſant amcan heb allu o honynt [ei gwplau.]

12 Canys goſodi hwy [ar naill] du: yn dy linynnau y paratoi di [ſaethau] yn erbyn eu hwynebau.

13 Ymddercha Arglwydd yn dy nerth: canwn, a chan-molwn dy gadernid.

## Pſalm, xxij.

*At y pen-cerdd ar Aieleth haſbachar.*
*Pſalm. Dafydd.*

FY *Nuw, fy Nuw, pa ham i'm gadewaiſt? pell [ydwyt] oddi wrth fy iechydwriaeth, a geiriau fy llefain.

*Prydnhawnol weddi.* Matth.27.46.

2 Fy Nuw llefain yr ydwyf y dydd, ac ni attebi: y nôs hefyd, ac nid [oes] oſteg i mi.

3 A thithe moliant Iſrael ydwyt yn parhau yn ſanctaidd.

4 Ein tadau a obeithiâſant ynot: gobeithiaſant, a gwaredaiſt hwynt.

5 Arnat ti y llefâſant, ac achubwyd hwynt: ynot yr ymddyriedâſant, ac ni's gwradwyddwyd hwynt.

6 A minne [ydwyf fel] pryf, ac nid gŵr: gwarthrudd dynnion, a dirmyg y bobl.

7 Pawb a'r a'm gwêlant a'm gwatwârant: llaesant wefl, [ac] eſcydwant bennau [gan ddywedyd,]

8 Ymddyriedodd yn yr Arglwydd, gwareded ef: achubed ef, gan ei fod yn ddâ ganddo.

9 Canys ti a'm tynnaiſt o'r grôth: gwnaethoſt i mi obeithio [pan oeddwn] ar fronnau fy mam.

10 Arnat ti i'm bwriwyd o'r brû: o grôth fy mam fy Nuw ydwyt.

11 Nac ymbellhâ di oddi wrthif, o herwydd cyfyngder [ſydd] agos: ac nid [oes] gynnorthwy-wr.

12 Buſtych lawer a'm cylchynâſant: gwrdd deirw Baſan, a'm hamgylchâſant.

13 Agorâſant arnaf eu génau: [fel] llew rheipus, a rhuadwy.

14 Fel dwfr i'm tywalltwyd, a'm heſcyrn oll a ymwahanâſant: fyng-halon ſydd doddedic fel cŵyr yng-hanol fy mherfedd.

15 Fy nerth a ŵywodd fel pridd-leſtr, a'm tafod a lŷnodd wrth daflod fyng-enau: ac yn llŵch angeu i'm cyfleaiſt.

16 Canys cŵn a'm cylchynáſant, a chynnulleidfa y drygionus a'm hamgylchynâſant: cloddiâſant fy nwy-law a'm traed.

17 Gallaf gyfrif fy holl eſcyrn: y maent yn tremmio, ac yn edrych arnaf fi.

Matth.27.25.

18 *Y maent yn rhannu fy nillad yn eu myſc: ac ar fyng-wiſc y maent yn bwrw coelbren.

19 A thithe Arglwydd nac ymbellhâ: fyng-hadernid bryſſia i'm cynnorthwyo.

20 Gwaret fy enaid rhag y cleddyf: fy vnic [enaid] o feddiant y cî.

21 Achub fi rhag ſafn y llew: o blith cyrn vnicorniaid atteb fi.

Heb.2.12.

22 *Mynegaf dy enw i'm brodyr: yng-hanol y gynnulleidfa i'th folaf.

23 Y rhai ſy yn ofni 'r Arglwydd molwch ef, holl hâd Iacob gogoneddwch ef: holl hâd Iſrael ofnwch ef.

24 Canys ni ddirmygodd, ac ni ffieiddiodd gyſtudd y tlawd, ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo: ond pan lefodd efe arno y gwrandawodd ef.

25 Fy mawl [fydd] o honot ti yn y gynnulleidfa fawr: fy addunedau a dâlaf ger bron y rhai ai hofnant ef.

26 Y tlodion a fwyttânt, ac a ddiwellir, y rhai a geiſiant yr Arglwydd ai moliannant ef: eich calon fydd byw yn dragywydd.

27 Holl derfŷnau y ddaiar a goſiant, ac a ddychwêlant at yr Arglwydd: a holl dylwythau y cenhedloedd a addôlant ger dy fron di.

28 Canys eiddo 'r Arglwydd [yw] 'r deyrnas: ac efe ſydd yn llywodraethu ym mhlith y cenhedloedd.

29 Yr holl rai breiſion [ar y] ddaiar a fwyttânt, ac a addôlant: y rhai a ddeſcynnant i'r llŵch a gwympant ger ei fron ef: hyd yn oed [yr hwn] ni fywhá ei enaid.

30 [Eu] hâd ai gwaſanaetha ef: cyfrifir ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth.

31 Deuant, ac adroddant ei gyfiawnder ef i'r bobl a enir: gan iddo ef [eu] gwneuthur.

## Pſalm. xxiij.

*Pſalm Dafydd.*

YR Arglwydd [yw] fy mugail: ni bydd eiſieu arnaf.

2 Efe a bar i'm orwedd mewn porfeudd gwelltoc: efe a'm tywys ger llaw dyfroedd tawel.

3 Efe a ddychwel fy enaid, ac a'm harwain ar hŷd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

4 A phe rhodiwn ar hŷd glynn cyſcod angeu nid ofnaf niwed, o herwydd dy [fod] ti gyd â mi: dy wialen, a'th ffon a'm cyſſûrant.

5 Ti a arlwyi fort ger fy mron, yn erbyn fyng-wrthwyneb-wŷr: îraiſt fy mhen ag olew, fy phiol [ſydd] lawn.

6 Daioni, a thrugâredd yn ddiau a'm canlynant oll ddyddiau fy mywyd: a phreſſwyliaf yn nhŷ'r Arglwydd yn dragywydd.

## Pſalm. xxiiij.

*Pſalm Dafydd.*

EIddo * yr Arglwydd y ddaiar, ai chyflawnder: y bŷd, ac a breſſwylia ynddo.

2 Canys efe ai ſeiliodd ar y môroedd: ac ai paratôdd ar yr afonydd.

*Boreuol weddi.*
Deut.10.14.
Iob.28.24.
1.Cor.10.26.

3 Pwy a eſcyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a ſaif yn ei lê ſanctaidd ef?

4 Y diniwed [ei] ddwylo, a'r glân [ei] galon: yr hwn ni dderchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo [ei gymmydog.]

5 Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iechydwriaeth.

6 Dymma genhedlaeth y rhai ai ceiſiant ef: [ſef] y rhai a geiſiant dy wyneb di ô Iacob. Selah.

7 O byrth derchefwch eich pennau, ac ymdderchefwch ddrysau tragywyddol: a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

8 Pwy yw yr brenin gogoneddus hwnnw? yr Arglwydd nerthol, a chadarn: yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.

9 O byrth derchefwch eich pennau, ac ymdderchefwch ddrysau tragywyddol, a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

10 Pwy yw 'r brenin gogoneddus hwnnw? Arglwydd y lluoedd, efe [yw] brenin y gogoniant. Selah.

## Pſalm. xxv.

*[Pſalm] Dafydd.*

ATtat ti ô Arglwydd y derchafaf fy enaid.

2 Fy Nuw, ynot ti'r ymddyriedais, na'm

gwradwydder: na lawenyched fyng-elynnion o'm plegit.

3 Hefyd pawb a'r a obeithiant ynot ti ni wradwyddir hwynt: gwradwyddir y rhai a droſſeddant heb achos.

4 Par di i mi ŵybod dy ffyrdd ô Arglwydd: dyſc i mi dy lwybrau.

5 Tywys fi yn dy wirionedd, a dyſc fi: canys ti [yw] Duw fy iechydwriaeth, ynot y gobeithiais ar hŷd y dydd.

6 Cofia Arglwydd dy doſturiaethau, a'th drugareddau: canys er ioed [y maent] hwy.

7 Na chofia bechodau fy ieuengctid, na'm camweddau: yn ôl dy drugaredd meddwl di am danaf er mwyn dy ddaioni Arglwydd.

8 Dâ ac iniawn [yw] yr Arglwydd: o herwydd hynny y dyſc efe bechaduriaid yn y ffordd.

9 Y rhai difalch a hyfforddda efe mewn barn: ai ffordd a ddyſc efe i'r rhai goſtyngedic.

10 Holl lwybrau 'r Arglwydd [ydynt] drugaredd, a gwirionedd i'r rhai a gadwant ei gyfammod, ai deſtiolaethau ef.

11 Er mwyn dy enw Arglwydd maddeu di fy anwiredd: canys mawr yw.

12 Pa ŵr yw efe ſy 'n ofni yr Arglwydd? efe ai dyſc ef yn y ffordd a ddewiſo.

13 Ei enaid ef a erys mewn daioni: ai hâd a etifedda y ddaiar.

14 Dirgelrwydd yr Arglwydd [a ddatcuddir] i'r rhai ai hofnant ef: ai gyfammod hefyd iw cyfarwyddo hwynt.

15 Fy llygaid [ydynt] yn waſtad ar yr Arglwydd: canys efe a ddŵg fy nhraed allan o'r rhwyd.

16 Trô attaf, a thrugarhâ di wrthif: canys vnic, a thlawd ydwyf.

17 Gofidion fyng-halon a ymehangaſant? dwg fi allan o'm cyfyngdêrau.

18 Gwêl fyng-hyſtudd, a'm helbul: a maddeu di fy holl bechodau.

19 Cenfydd fyng-elynnion, canys amlhauſant: â chaſineb traws hefyd i'm caſſauſant.

20 Cadw fy enaid, ac achub fi: na'm gwradwydder, canys ymddyriedais ynot.

21 Cadwed perffeithrwydd, ac iniondeb fi, canys gobeithiais ynot.

22 O Dduw gwaret Iſrael oi holl gyfyngdêrau.

## Pſalm, xxvj.
Pſalm *Dafydd.*

BArn fi Arglwydd, o herwydd rhodio o honof mewn perffeithrwydd, ac ymddyried o honof yn yr Arglwydd, ni lithraf.

2 Hôla fi Arglwydd, a phrawf di fi: chwilia fy arennau, a'm calon.

3 Canys dy drugaredd [ſydd] o flaen fy llygaid: am hynny y rhodiais yn dy wirionedd.

4 Nid eiſteddais gyd â dynnion celŵyddoc: a chyd a'r rhai dichellgar nid aethum.

5 Caſſeais gynnulleidfa y drygionus: a chyd a'r annuwolion nid ydwyf yn eiſtedd.

6 Golchaf fy nwylo mewn gwiriondeb: a'th allor ô Arglwydd a amgylchŷnaf,

7 I draethu mewn llef clodforedd: ac i fynegu dy holl ryfeddodau.

8 Arglwydd hoffais drigfan dy dŷ: a llê preſſwylfa dy ogoniant.

9 Na chaſcl fy enaid gyd a'r pechaduriaid: na'm bywyd gyd a'r dynnion gwaedlyd:

10 Y rhai [y mae] ſcelerder yn eu dwylo: ai deheu-law yn llawn gobr.

11 Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd: gwaret fi, a thrugarhâ wrthif.

12 Fy nhroed ſydd yn ſefyll mewn iniondeb: yn y cynnulleidfaoedd i'th glodforaf ô Arglwydd.

## Pſalm. xxvij.
Pſalm *Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi.*

YR Arglwydd [yw] fyng-oleuni, a'm iechydwriaeth, rhag pwy yr ofnaf? yr Arglwydd [yw] nerth fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?

2 Pan neſſaodd y rhai drygionus, [ſef] fyng-wrthwyneb-wŷr, a'm gelynnion i'm herbyn i fwytta fyng-nhawd: hwynt a dramgwyddâſant, ac a ſyrthiâſant.

3 Pe gwerſylle llu i'm herbyn, nid ofne fyng-halon: pe cyfode câd i'm herbyn, er hyn mi a fyddwn hydêrus.

4 Un peth a ddeiſyfiais i gan yr Arglwydd, hynny a geiſiaf, [ſef] caffel trigo yn nhŷ 'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd: i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymweled ai Deml.

5 Canys yn y dydd drwg efe a'm cuddia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei breſſwylfod y cuddia efe fi, ar graig i'm dercha efe fi.

6 Ac yn awr y dercha efe fy mhen goruwch fyng-elynnion o'm hamgylch: am hynny 'r aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd: canaf a chan-molaf yr Arglwydd.

7 Clyw ô Arglwydd fy lleferydd, trugarhâ hefyd wrthif, a gwrando arnaf [pan] lefwyf [arnat.]

8 Y mae fyng-halon yn ymddiddan â thi [fel hyn,] ceiſiwch fy wyneb: dy wyneb a geiſiaf ô Arglwydd.

9 Na chuddia dy wyneb oddi wrthif, na fwrw ymmaith dy wâs mewn ſorriant: fyng-hymmorth i fuoſt: gan hynny na âd fi, ac na wrthot fi ô Dduw fy iechydwriaeth.

10 Er i'm tâd, a'm mam fyng-wrthod: etto yr Arglwydd a'm derbynnie.

11 Dyſc i mi dy ffordd Arglwydd: ac arwain fi ar hŷd llwybr iniondeb, o herwydd fyng-elynnion.

12 Na ddyro fi wrth ewyllys fyng-wrthwyneb-wŷr: canys gau dyſtion, a [rhai] a adroddant drawſter a gyfodâſant i'm herbyn.

13 [Deffygiaſwn,] pe na chredaſwn weled daioni 'r Arglwydd yn nhir y rhai byw.

14 Diſgwil wrth yr Arglwydd, ymwrola, ac efe a nertha dy galon: ac ymddyriet yn yr Arglwydd.

### Pſalm. xxviij.

Pſalm *Dafydd.*

ARnat ti Arglwydd y galwaf, fyng-hadernid na fydd fyddar wrthif: rhag o thewi yna i'm cyffelybir i rai yn deſcyn i'r pwll.

2 Erglyw lef fy ymbil, pan waeddwyf arnat, pan dderchafwyf fy nwylo tu ag at dy gafell ſanctaidd.

3 Na thynn fi gyd a'r annuwolion, a chyd â gweithred-wŷr anwiredd, y rhai a lefârant heddwch wrth eu cymmydogion, a drwg yn eu calon.

4 Dyro iddynt yn ôl eu gweithred, ac yn ôl drygioni eu dychymmygion, dyro iddynt yn ôl gweithredoedd eu dwylo: tâl iddynt eu gobr.

5 Am nad yſtyriant weithredoedd yr Arglwydd, na gwaith ei ddwylo ef, y diniſtria efe hwynt, ac nis adailada hwynt.

6 Bendigêdic fyddo 'r Arglwydd: canys clybu lêf fyng-weddiau.

7 Yr Arglwydd [yw] fy nerth a'm tarian, ynddo ef yr ymddyriedodd fyng-halon, ac i'm cynnorthwywyd: o herwydd hyn y llawenychodd fyng-halon, ac [ar] fyng-hân y clodforaf ef.

8 Yr Arglwydd [ſydd] nerth i'r cyfryw rai, a chadernid iechydwriaeth ei eneiniog [yw] efe.

9 Cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth: portha hwynt hefyd, a dercha hwynt yn dragywydd.

### Pſalm. xxix.

*Pſalm Dafydd.*

MOeſwch i'r Arglwydd [chwi] feibion cedyrn: [Moeſwch i'r Arglwydd hyrddod ieuaingc,] moeſwch i'r Arglwydd ogoniant, a nerth.

2 Moeſwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw: addolwch yr Arglwydd ym mhrydferthwch [ei] gyſſegr.

3 Llef yr Arglwydd [ſydd] ar y dyfroedd, Duw y gogoniant a darâna: yr Arglwydd [ſydd] ar y dyfroedd mawrion.

4 Llef yr Arglwydd [ſydd] mewn grym: llêf yr Arglwydd mewn prydferthwch.

5 Llef yr Arglwydd ſy yn dryllio y cedr-wŷdd: îe dryllia 'r Arglwydd cedr-wŷdd Libanus.

6 Efe a wna iddynt lammu fel llô: Libanus a Syrion fel llwdn vnicorn.

7 Llef yr Arglwydd a waſcâra y fflammau tân.

8 Llef yr Arglwydd a ddychryna yr anialwch: yr Arglwydd a ddychryn anialwch Cades.

9 Llef yr Arglwydd a wnaeth i'r ewigod lydnu, ac a ddinoethodd y coedydd: gan hynny ei holl [bobl] yn ei Deml ef a draethant ei ogoniant.

10 Yr Arglwydd ſydd yn eiſtedd ar y llifeiriant, yr Arglwydd hefyd a eiſtedd yn Frenin yn dragywydd.

11 Yr Arglwydd a ddyry nerth iw bobl: yr Arglwydd a fendithia ei bobl â thangneddyf.

### Pſalm. xxx.

*Pſalm [neu] gân o gyſſegriad ty Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

MAwrygaf di ô Arglwydd, canys derchefaiſt fi: ac ni lawenhêaiſt fyng-elynnion o'm plegit.

2 Arglwydd fy Nuw, llefais arnat: a thithe a'm hiachêaiſt.

3 Arglwydd derchefaiſt fy enaid o vffern: cedwaiſt fi yn fyw, oddi wrth y rhai ſy yn deſcyn i'r pwll.

4 Cenwch i'r Arglwydd ei ſainct ef: a chlodforwch ger bron coffadwriaeth ei ſanctaiddrwydd ef.

5 Canys ennyd fechan y bydd yn ei lid, ac yn ei fodlonrwydd [y mae] bywyd: tros brŷd nawn yr erys wylofain, ac erbyn y boreu [y bydd] gorfoledd.

6 A mi a ddywedais yn fy llwyddiant, ni'm ſyflir yn dragywydd.

7 O'th ddaioni Arglwydd y cyfleaiſt gryfder yn fy mynydd: cuddiaiſt dy wyneb, a bum helbulus.

8 [Yna] arnat ti Arglwydd y llefais: ac a'r Arglwydd yr ymbiliais.

9 Pa fudd [ſydd] yn fyng-waed pan ddeſcynnwyf i'r ffôs? a glodfora y llwch di ⁖ [neu] a fynêga efe dy wirionedd ⁖

10 Clyw Arglwydd, a thrugarhâ wrthif: Arglwydd bydd gynnorthwy i mi.

11 Troaiſt fyng-alar yn llawenydd: dattodaiſt fy ſach-wiſc a gwregyſaiſt fi â llawenydd.

12 Am hynny [fy] nhafod a gân iti, ac ni thau: ô Arglwydd fy Nuw yn dragywyddol i'th glodforaf.

### Pſalm. xxxj.

*Pſalm Dafydd at y pen-cerdd.*

YNot ti Arglwydd yr ymddyriedais, na'm gwradwydder yn dragywydd: gwared fi yn dy gyfiawnder.

2 Gogwydda dy gluſt attaf, bryſſia i'm gwarêdu: bydd i mi yn graig gadarn, yn dŷ amddeffyn i'm cadw.

3 Canys fyng-hraig a'm caſtell [ydwyt] ti: gan hynny er mwyn dy enw, tywys fi, ac arwain fi.

4 Dwg fi allan o'r rhwyd yr hon a guddiâ-

ſanc

ſant i'm herbyn: canys ti [yw] fy nerth.

5 *I'th law y gorchymynnaf fy yſpryd: gwaredaiſt fi ô Arglwydd Dduw y gwirionedd. Luc.23.46.

6 Caſeais y rhai ſy yn cadw ofer-wagedd: minne hefyd a obeithiaf yn yr Arglwydd.

7 Ymlawenhaf, ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd, yr hwn a welaiſt fy adfyd: adnabuoſt fy enaid mewn cyfyngder.

8 Ac ni warcheaiſt fi yn llaw y gelyn, [onid] ſefydlaiſt fy nhraed mewn ehangder.

9 Trugarhâ wrthif Arglwydd canys cyfyng [yw] arnaf: dadwinodd fy llygaid, fy enaid, a'm bol gan gyſtudd.

10 Canys fy mywyd a hallodd gan ofid, a'm blynyddoedd gan alar: fy nerth a ſyrthiodd o herwydd fy anwiredd, a'm heſcyrn a bydrâſant.

11 Yn warthrudd yr ydwyf gan fy holl elynnion, a [hynny] yn ddirfawr gan fyng-hymmydogion: ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant, y rhai a'm gwelent allan a gilient oddi wrthif.

12 Anghofiwyd fi allan o feddwl, fel [un] marw: yr ydwyf fel lleſtr methedic.

13 Canys clywais ogan llaweroedd, dychryn [oedd] o bob parth: pan gyd-ymgynghorâſant yn fy erbyn, yr amcanâſant fy nieneidio.

14 Ond mi a obeithiais ynot ti Arglwydd, dywedais, fy Nuw ydwyt.

15 Yn dy law di [y mae] fy amſerau: gwaret fi oddi wrth law fyng-elynnion, ac oddi wrth fy erlid-wŷr.

16 Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs: achub fi yn dy drugaredd.

17 Arglwydd na wradwydder fi, canys gelwais arnat: gwradwydder yr annuwolion, torrer hwynt i'r bedd.

18 Goſteger eu gwefuſau celwyddoc, y rhai a ddywedant yn galed drwy falchder, a diyſtyrwch yn erbyn y cyfiawn.

19 Mor fawr [yw] dy ddaioni yr hwn a roddaiſt i gadw i'r ſawl a'th ofnant, [ac] a wnaethoſt i'r rhai a ymddiriedant ynot ger bron meibion dynnion.

20 Cuddi di hwynt yn nirgel ger dy fron rhag balchder dynnion: cuddi hwynt mewn pabell rhag cynnen tafôdau.

21 Bendigêdic fyddo'r Arglwydd, canys dangoſodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi mewn dinas gadarn.

22 A mi a ddywedais yn fy ffrwſt, fo'm bwriwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaiſt lais fyng-weddiau pan lefais arnat.

23 Cerwch yr Arglwydd ei holl ſainct ef: yr Arglwydd a geidw [ei] ffyddlonniaid, ac a dâl yn ebelaeth i'r neb a wnant falchder.

24 Ymnerthwch oll a'r ſydd yn gobeithio yn yr Arglwydd: ac efe a gryfhâ eich calon.

## Pſalm. xxxij.

Pſalm *Dafydd er athrawaieth.*

GWyn ei fyd [y neb] y maddeuwyd ei drosedd: [ac] y cuddiwyd [ei] bechod. *Prydnhawnol weddi.*

2 Gwyn ei fyd y dŷn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd: ac ni [bo] dichell yn ei yſpryd.

3 Tra y tewais, heneiddiodd fy eſcyrn gan fy rhuad bob dydd.

4 Canys trwmhâodd dy law arnaf ddydd a nos: fy irder a drowyd yn ſychter haf. Selah.

5 Cydnabyddaf fy mhechod [wrthit,] a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, cyffeſſaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaiſt boen fy mhechod. Selah.

6 Am hynny y gweddia pob duwiol arnat ti yn yr amſer i'th geffir: eithr yn llifeiriant dyfroedd mawrion ni chânt neſſau atto ef.

7 Ti [ydwyt] loches i mi: cedwi fi rhag ing: amgylchyni fi â chaniâdau ymwared. Selah.

8 Cyfarwyddaf di, a dyſcaf di yn y ffordd yr elech: a'm llygad arnat [i'th] gynghoraf.

9 Na fyddwch fel march [neu] fûl heb ddeall [yr hwn y mae rhaid] attal ei ên â genfa, ac â ffrwyn, rhag ei ddineſau attat.

10 Gofidiau lawer [fydd] i'r annuwiol, a'r neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd trugaredd ai cylchŷna ef.

11 Y rhai cyfiawn byddwch lawen, a hyfryd yn yr Arglwydd: a'r rhai iniawn o galon oll, clodforwch.

## Pſalm. xxxiij.

YMlawenhewch y rhai cyfiawn yn yr Arglwydd: i'r rhai iniawn gweddus [yw] diolchgarwch.

2 Molwch yr Arglwydd ar y delyn: cênwch iddo ar y nabel [ac ar y] dectant.

3 Cênwch iddo ganiad newydd: cênwch yn gerddgar, ac yn ſoniarus.

4 Canys iniawn [yw] gair yr Arglwydd, ai holl weithredoedd [ydynt] ffyddlon.

5 Efe a gâr gyfiawnder, a barn: o drugaredd yr Arglwydd [y mae] y ddaiar yn gyflawn.

6 Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd: ai holl luoedd hwy trwy yſpryd ei enau ef.

7 Caſclu y mae efe ddyfroedd y môr ynghyd, megis yn ben-twr: gan roddi y dyfnderoedd mewn tryſorau.

8 Ofned yr holl ddaiar yr Arglwydd: holl drigolion y byd arſwydant ef.

9 Canys efe a ddywedodd, ac [felly] y bu: efe a orchymynnodd, a [hynny] a ſafodd.

10 Yr Arglwydd ſydd yn diddymmu cyngor y cenhedloedd: y mae efe yn diddymmu amcannion pobloedd, [ac yn llyſu cyngor tywyſogion.]

11 Cyngor yr Arglwydd a ſaif yn dragywydd: [a] meddyliau ei galon o genhedlaeth, i genhenlaeth.

12 Gwyn ei fyd y genedl yr hon [y mae] yr Arglwydd yn Dduw iddi: a'r bobl a ddetholes efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.

13 Yr Arglwydd ſy yn edrych i lawr o'r nefoedd: [ac] yn gweled holl feibion dynnion.

14 O breſſwyl ei drigfa yr edrych efe ar holl drigolion y ddaiar.

15 Yr hwn a gyd-lunniodd eu calon hwynt: gan ddeall eu holl weithredoedd.

16 Ni warêdir brenin gan liaws llu: ni ddiangc cadarn drwy amlder cryfder.

17 Palledic [yw] 'r march i ymwared: ac nid achub efe neb drwy ei fawr-gryfder.

18 Wele lygad yr Arglwydd ar y rhai ai hofnant ef: [ſef] ar y rhai a ymddyriedant yn ei drugaredd ef,

19 Er mwyn gwaredu eu heneidiau rhag angeu: ac iw cadw yn fyw yn [amſer] newyn.

20 Ein henaid ſydd yn diſgwil am yr Arglwydd: efe yw ein porth a'n tarian.

21 Canys ynddo ef y llawenycha ein calon, o herwydd i nî obeithio yn ei enw ſanctaidd ef.

22 Bydded dy drugaredd Arglwydd arnom ni, megis yr ymddyriedom ynot.

## Pſalm, xxxiiij.

*Pſalm Dafydd pan newidiodd efe ei agwedd o flaen Abimelech, yr hwn ai gyrrodd ef i fyned ymmaith.*

DIolchaf i'r Arglwydd bob amſer: ei foliant [fydd] yn fyng-ênau yn waſtad.

2 Yn yr Arglwydd y gorfoledda fy enaid: yr rhai goſtyngedic a glywant [hyn,] ac a lawenychant.

3 Mawrygwch yr Arglwydd gyd â mi: a chyd-dderchafwn ei enw ef.

4 Ceiſiais yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandawodd: gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn.

5 Edrychant arno, a hwynt a eglurir: ai hwynebau ni chywilyddir [eithr dywedant:]

6 Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd [ai] clybu, ac ai gwaredodd oi holl drallodau.

7 Angel yr Arglwydd a gaſtella o amgylch y rhai ai hofnant ef, ac ai gwared hwynt.

8 Profwch, a gwelwch mor ddâ yw'r Arglwydd: gwyn ei fyd y gŵr a ymddyriedo ynddo.

9 Ofnwch yr Arglwydd ei ſainct ef: canys nid [oes] eiſieu ar y rhai ai hofnant ef.

10 Y mae eiſieu, a newyn ar y llewod, a'r ſawl a geiſiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eiſieu dim daioni.

11 Deuwch feibion, gwrandewch arnaf: dyſcaf i chwi ofn yr Arglwydd.

12 Pwy [yw] 'r gŵr a chwennych fywyd, gan garu [hir] ddyddiau i weled daioni?

13 Cadw dy dafod rhag drwg: a'th wefuſau rhag traethu twyll.

14 Ymwrthot a'r drwg, a gwna ddâ: ymgais a thangneddyf, a dilyn hi.

15 Llygaid yr Arglwydd [ydynt] ar y rhai cyfiawn: ai gluſtiau [ydynt yn agored] iw llefain hwynt.

16 Wyneb yr Arglwydd [ſydd] yn erbyn y rhai a wna ddrwg: i dorri eu coffa oddi ar y ddaiar.

17 [Yr rhai cyfiawn] a lefâſant, a'r Arglwydd a glybu, ac ai gwarêdodd oi holl drallodion.

18 Agos [yw] 'r Arglwydd at y rhai drylliedic o galon: ac efe a geidw y rhai briwedic o yſpryd.

19 Llawer o ddrygau [a gaiff] y cyfiawn: ond yr Arglwydd ai gwared ef oddi wrthynt oll.

20 Efe a geidw ei holl eſcyrn: ni ddryllir un o honynt.

21 Drygioni a ladd yr annuwiol: a'r rhai a gaſânt y cyfiawn a anrheithir.

22 Yr Arglwydd a warêda eneidiau ei weiſion: a'r rhai oll a ymddyriedant ynddo ef nid anrheithir hwynt.

## Pſal. xxxv.

*Pſalm Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

DAdle Arglwydd a'r rhai a ddadleuant i'm herbyn: rhyfêla yn erbyn y rhai a ryfêlant â mi.

2 Ymâfel yn y tarian a'r aſtalch, a chyfot i'm cymmorth.

3 Dwg allan y waiw-ffon, ac argaea yn erbyn fy erlid-wŷr: dywet wrth fy enaid, myfi [yw] dy iechyd.

4 Cywilydder, a gwaradwydder y rhai a geiſiant fy enaid: ymchweler yn [eu] hôl, a gwarthaer y ſawl a fwriadant fy nrygu.

5 Byddant fel us o flaen y gwynt: ac angel yr Arglwydd yn [eu] gwaſcâru.

6 Bydd eu ffordd yn dywyllwch, ac yn llithrigfa: ac angel yr Arglwydd yn eu hymlid.

7 Canys heb achos y cuddiaſant bydew ai rhwyd i mi: heb achos y cloddiaſant [bydew] i'm henaid.

8 Deued arno ddeſtruw ni ŵypo, ai rwyd yr hon a guddiodd efe ai dalio: ſyrthied yn y deſtruw hynny.

9 Eithr llawenyched fy enaid yn yr Arglwydd: [ac] ymhyfryded yn ei iechydwriaeth ef.

10 Fy holl eſcyrn a ddywedant, ó Arglwydd, pwy [ſydd] fel tydi, yn gwaredu y tlawd rhag yr hwn a fyddo trêch nag ef? y truan hefyd a'r tlawd rhag y neb ai hyſpeilio?

11 Tyſtion gau a gyfodaſant: holaſant i mi yr hyn nis gwn oddi wrtho.

12 Talâſant i mi ddrwg dros dda, gan yſpeilio fy enaid.

13 A minne pan glefychent hwy [oeddwn] a'm gwiſc o ſach-len, goſtyngais fy enaid ag ympryd: a'm gweddi a ddymchwelodd i'm mynwes fy hun.

14 Ymddygwn fel [pe buaſe]'n gyfaill, [neu] fel [pe buaſe] yn frawd i mi: ymoſtyngwn mewn galar-wiſc fel [vn] yn galâru am [ei] fam.

15 Ond ymlawenhaſant hwy yn fy adfyd i, ac ymgaſclaſant, ymgaſclodd efryddion yn fy erbyn, ac nis gwyddwn: min-gammaſant [fi,] ac ni pheidient.

16 Ym myſc y rhag-rithwŷr [yr oedd] gwattwarwyr mwys-air yn eſcyrnygu eu dannedd arnaf.

17 Arglwydd hyd pa brŷd yr edrychi di [ar hyn?] gwaret fy enaid rhag eu deſtruw hwynt, fy vnic [enaid] rhag y llewod.

18 [Yna] i'th glodforaf mewn cynnulleidfa fawr: moliannaf di ym mhlith pobl lawer.

19 Na lawenyched fyng-elynnion i'm herbyn yn anghyfiawn: y ſawl a'm caſânt yn ddiachos [nac] amneidiant â llygad.

20 Can nad ymddiddanant yn dangneddyfus: eithr dychymmygant eiriau dichellgar yn erbyn y rhai llonydd ar y ddaiar.

21 Lledâſant eu ſafn arnaf, gan ddyweded: ffei, ffei, gwelodd ein llygad.

22 Gwelaiſt [hyn] Arglwydd, na thaw dithe: nac ymbellhâ oddi wrthif ô Arglwydd.

23 Cyfot, a deffro i'm barn [ſef] i ddadle gyd â mi, fy Nuw, a'm Harglwydd.

24 Barn fi Arglwydd fy Nuw, yn ôl dy gyfiawnder: ac na lawenhânt o'm plegit.

25 Na ddywedant yn eu calon, ô ein gwynfyd: ac na ddywedant, llyngcaſom ef.

26 Cywilyddier, a gwradwydder hwy eu gyd y rhai ſy lawen am fy nryg-fyd: gwiſcer â gwarth, ac â chywilydd y rhai a ymfawrygant i'm herbyn.

27 Caned a llawenyched y rhai a hoffant fyng-hyfiawnder, a dywedant hefyd yn waſtad, mawryger yr Arglwydd yr hwn a gâr lwyddiant ei wâs.

28 Fy nhafod inne, a fyfyria [ar] dy gyfiawnder, a'th foliant bob dydd.

## Pſalm xxxvj.

Pſalm *Dafydd gwâs yr Arglwydd at y pen-cerdd.*

Y Mae anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fyng-halon, nad [oes] ofn Duw o flaen ei lygaid ef.

2 O herwydd ymwenheithio y mae efe iddo ei hun, yn ei olwg ei hunan, nes cael allan ei anwiredd ef [yr hwn ſydd] iw gaſſâu.

3 Geiriau ei enau [ydynt] anwiredd, a thwyll: peidiodd a bod yn gall i wneuthur daioni.

4 Anwiredd a ddychymmyg efe ar ei wely, efe ai geſyd ei hun ar ffordd nid [yw] ddâ: ni wrthyd efe ddrygioni.

5 Dy drugaredd Arglwydd [ſydd] hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd yr wybrennau.

6 Fel mynyddoedd cedyrn [y mae] dy gyfiawnder, dyfnder mawr [yw] dy farnedigaethau: dŷn, ac anifail a achubi di Arglwydd.

7 Mor werth-fawr [yw] dy drugaredd ô Dduw, am hynny'r ymddyried meibion dynnion yng-hyſcod dy adênydd.

8 Llenwir hwynt â braſder dy dŷ: ac ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt.

9 Canys gyd â thi [y mae] ffynnon y bywyd: yn dy oleuni di y gwêlwn oleuni.

10 Eſtyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai iniawn o galon.

11 Na ddeued troed balchder i'm herbyn: ac na ſyfled llaw y rhai annuwiol fi.

12 Yno y ſyrthiodd gweith-wŷr anwiredd gwthiwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi.

## Pſalm. xxxvij.

Pſalm *Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi.*

NAc ymddigia o herwydd yr annuwolion, ac na chenfigenna wrth y rhai a wnant anwiredd.

2 Canys yn ebrwydd y torrir hwynt i'r llawr fel glaſ-wellt, ac y gwywant fel gwyrdd lyſſiau.

3 Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna ddâ: trig yn y tir, a thi a borthir yn ddiau.

4 Ymddigrifa yn yr Arglwydd, ac efe a ddyry i ti ddymuniadau dy galon.

5 Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddyriet ynddo, â efe a gyflawna [dy ewyllys.]

6 Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y goleuni: a'th inionded di fel [yr haul] hanner dydd.

7 Diſgwil yn ddiſtaw wrth yr Arglwydd, ac ymddyriet ynddo: nac ymddigia wrth yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd, nac wrth y gŵr yr hwn ſydd yn gwneuthur [ei] amcan.

8 Paid â digofaint, a gad ymmaith gynddaredd: nac ymofidia chwaith i ddrygu.

9 Canys torrir ymmaith y drwg-ddynnion, a'r rhai a ddiſgwiliant wrth yr Arglwydd, hwyntwy a etifeddant y tir.

10 Am hynny etto ychydigyn, ac ni [welir] yr annuwiol, a thi a edrychi am y lle y bu efe, ac ni [bydd] dim [o] honaw.

11 Eithr y rhai goſtyngedic a feddant y ddaiar, ac ai diddenir gan liaws tangneddyf.

12 Yr annuwiol a amcâna yn erbyn y cyfiawn, ac a eſcyrnyga ei ddannedd arno.

13 Yr Arglwydd ai gwatwar ef, canys gwelodd fod ei ddydd ar ddyfod.

14 Yr annuwolion a dynnâſant eu cleddyf, ac a annelâſant eu bŵa, i fwrw i lawr y tlawd, a'r anghenog, [ac] i ladd y rhai iniawn [eu] ffordd.

15 [Eithr] eu cleddyf a aiff yn eu calon eu hunain, ai bwâu a ddryllir.

16 Gwell [yw] prinder y cyfiawn, na mawr olud yr annuwolion cedyrn.

17 Canys breichiau 'r annuwolion a ddryllir: a'r Arglwydd a gynnal y rhai cyfiawn.

18 Yr Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith, ai hetifeddiaeth hwy fydd yn dragywydd.

19 Ni's gwradwyddir hwy yn amſer y dryg-fyd, ac yn amſer newyn y cânt ddigon.

20 Eithr collir yr annuwolion, a gelynnion yr Arglwydd fel braſter ŵyn a ddiflannant: [ſef] gyd a'r mŵg y diflannant.

21 Yr annuwiol a echŵyna, ac ni thâl adref: a'r cyfiawn ſydd drugarog, ac yn rhoddi.

22 Canys y rhai a fendîgo efe a etifeddant y tir: a'r rhai a felldithio efe a dorrir ymmaith.

23 Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gŵr: a da fydd ganddo ei ffordd ef.

24 Er iddo gwympo, ni fwrir ef ymmaith: canys yr Arglwydd ſydd yn [ei] gynnal [ef] ai law.

25 Mi a fum ieuangc, ac yr ydwyf yn hên: ac ni welais [er ioed] y cyfiawn wedi ei adu, nai hâd yn cardota [eu] bara.

26 Pob amſer y mae y cyfiawn yn drugarog, ac yn rhoddi benthyg: ai hâd [a fwynhâ] y fendith.

27 Cilia di oddi wrth ddrwg, a gwna ddâ, a chyfannedda yn dragywydd.

28 Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edu ei ſainct: cedwir hwynt yn dragywydd, a hâd yr annuwolion a dorrir ymmaith.

29 Y rhai cyfiawn a etifeddant y ddaiar, ac a breſſwyliant arni yn dragywydd.

30 Genau y cyfiawn a fynêga ddoethineb, ai dafod a draetha farn.

31 Deddf ei Dduw ſydd yn ei galon ef, ai draed ni lithrant.

32 Yr annuwiol a graffa ar y cyfiawn, ac a gais ei ladd ef.

33 Ni ad yr Arglwydd ef yn ei law ef, ac ni âd ef yn euog pan ei barner.

34 Gobeithia yn yr Arglwydd, a chadw ei ffordd ef, ac efe a'th dderchafa fel yr etifeddech y tir: gwêli pan ddifether yr annuwolion.

35 Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigoc, fel y lawryf gwŷrdd.

36 Er hynny efe a aeth ymmaith, ac wele nid [oedd mwy o] honaw: a mi ai ceiſiais, [ac] ni cheid ef.

37 Yſtyr yr hyn ſydd berffaith, ac edrych ar yr iniawn, canys diwedd y gŵr hwnnw [fydd] tangneddyf.

38 Canys y trawſion a gŷd ddeſtruwir, [a] diwedd yr annuwolion a ddiwreiddir.

39 Ac iechydwriaeth y rhai cyfiawn [fydd] gan yr Arglwydd: efe fydd eu nerth hwynt yn amſer trallod.

40 Canys yr Arglwydd ai cymmorth hwynt, ac ai gwared, efe ai gwared hwynt rhag yr annuwolion, ac ai ceidw hwynt, gan iddynt ymddyried ynddo.

## Pſalm. xxxviij.

*Pſalm Dafydd er coffa.*

ARglwydd na cherydda fi yn dy lid: ac na choſpa fi yn dy ddigllonedd.

*Boreuol weddi.*

2 Canys dy ſaethau a ddeſcynnaſant ynof: a'th law a ddeſcynnodd arnaf.

3 Nid oes iechyd yn fyng-nhawd o herwydd dy ddigllonedd: ac nid oes heddwch i'm heſcyrn o blegit fy mhechod.

4 Canys fyng-hamweddau a aethant dros fy mhen, megis baich gorthrwm y maent yn rhy drwm i mi.

5 Fyng-hleiſiau a bydrâſant, [ac] a lygrâſant gan fy ynfydrwydd.

6 Crymmwyd a daroſtyngwyd fi 'n ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alârus.

7 Canys fy lwynau a lawnwyd o boethder, ac nid [oes] iechyd yn fyng-nhawd.

8 Gwanhauwyd, a drylliwyd fi 'n dramawr: rhuais gan ofid fyng-halon.

9 O'th flaen di Arglwydd [y mae] fy holl ddymuniad, ac ni chuddiwyd fy ochenaid oddi wrthit.

10 Fyng-halon ſydd yn cynhyrfu, fy nerth a'm gadâwodd, a llewyrch fy llygaid nid [yw] ychwaith gennif.

11 Fyng-haredigion, a'm cyfeillion a ſafent oddi ar gyfer fy mhlâ, a'm cyfneſeifiaid a ſafent o hir-bell.

12 Yna y rhai a geiſient fy enaid a oſodaſant faglau, a'r rhai a geiſient fy niwed a draethent anwirêddau, ac a ddychymmŷgent ddichellion beunydd.

13 A minne fel byddar ni clywn, eithr [oeddwn] fel mudan heb agorid ei enau.

14 Felly 'r oeddwn fel gŵr yr hwn ni chlywe, ac heb argyoeddion yn ei enau.

15 O herwydd i'm obeithio ynot Arglwydd, ti fy Arglwydd Dduw a wrandêwi.

16 Canys dywedais, [edrych] rhag llawenychu [o'm gelynnion] i'm herbyn, pan lithre fy nhroed ymfawrygent i'm herbyn.

17 Yn ddiau i ddialedd i'm paratowyd, a'm dolur [ſydd] ger fy mron yn waſtad.

18 Diau y mynegaf fy anwiredd, [ac] y prydêraf o herwydd fy mhechod.

19 Ac y mae fyng-elynnion yn fyw, ac yn gedyrn, amlhawyd hefyd y rhai a'm caſſânt ar gam:

20 A'r rhai a dâlant ddrwg dros ddâ a'm gwrthwy-

thwynêbant: am ddilyn o honof ddaioni.

21 Na ad ti fi ô Arglwydd fy Nuw, nac ymbellhâ oddi wrthif.

22 Bryſſia i'm cynnorthwyo ô Arglwydd fy iechyd.

### Pſalm.xxxix.

*Pſalm Dafydd at Ieduthun y pen-cerdd.*

Dywedais, cadwaf fy ffyrdd rhag pechu a'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fyng-enau tra[fyddo]'r annuwiol yn fyng-olwg.

2 Tewais yn ddiſtaw,[ie]tewais a[dywedyd]daioni: a'm dolur a gyffrôdd.

3 Gwreſôgodd fyng-halon o'm mewn: tra y myfyriais, ennynnodd tân,[a]mi a leferais a'm tafod,

4 Arglwydd gâd ti i mi ŵybod fy niwedd, a pheth yw nifer fy nyddiau: gad ti i mi ŵybod o ba oedran[y byddaf]fi.

5 Wele rhoddaiſt fy nyddiau[fel]dyrnfedd, a'm henioes[ſydd]megis diddim yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd[yw]pôb dŷn byw. Selah.

6 Dyn yn ddiau ſydd yn rhodio mewn cyſcod, ac yn ymdraffertho yn ofer: efe a dyrra [olud,]ac ni's gŵyr pwy ai caſcl.

7 Ac yn awr beth a obeithiaf ô Arglwydd: fyng-obaith ſydd ynot ti.

8 Gwaret fi o'm holl gamweddau: [ac]na oſot fi yn wradwydd i'r ynfyd.

9 Aethum yn fûd,[ac] nid agorais fyng-enau: canys ti a wnaethoſt[hyn.]

10 Tynn dy blâ oddi wrthif: [canys] gan ddyrnod dy law y darfûm i.

11 [Pan]goſpit ddyn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gŵyfyn ei ardderchawgrwydd ef: gwagedd am hynny[yw] pôb dŷn. Selah.

12 Gwrando fyng-weddi Arglwydd, a clyw fy llef, na thaw wrth fy wylofain: canys ymdeithudd ydwyf gyd â thi, ac alltud fel fy holl dadau.

13 Paid ti â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned: ac na byddwyf[mwy.]

### Pſalm. xl.

*Pſalm Dafydd at y pen-cerdd.*

Dyſgwiliais yn ddyfal am yr Arglwydd, ac efe a oſtyngodd[ei gluſt]attaf: ac a glybu fy llefain.

2 Cyfododd fi hefyd o'r pydew terfyſcus allan o'r pridd tomlyd: ac a oſododd fy nhraed ar graig, gan hwylio fyng-herddediad.

3 A rhoddodd yn fyng-enau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni: llawer a wêlant [hyn,]ac a ofnant, ac a ymddyriedant yn yr Arglwydd,

4 Gwyn ei fyd y gŵr yr hwn a oſodo'r Arglwydd yn ymddyried iddo: ac ni thrŷ at feilchion, nac at y rhai a droant at gelwydd.

5 Lluoſog y gwnaethoſt ti fy Arglwydd Dduw dy ryfeddodau, a'th amcannion i ni, ni [ellir]yn drefnus eu cyfrif[hwynt]i ti: mi ai mynegwn, ac[ai]traethwn[hwynt,[eithr] amlach ydynt nag y gellir eu rhifo hwynt.

6 Aberth a bwyd offrwm ni's ewyllyſiaiſt, [eithr]agoraiſt i'm gluſtiau: poeth offrwm a phech aberth ni's gofynnaiſt.

7 Yna y dywedais, wele'r ydwyf yn dyfod, yn rhol y llyfr yr ſcrifennwyd am danaf.

8 Ewyllyſiais wneuthur dy fodd fy Nuw: a'th gyfraith[ſydd]o fewn fyng-halon.

9 Pregêthais[dy]gyfiawnder yn y gynnulleidfa fawr: wele nid attaliaf fyng-wefuſau, ti Arglwydd ai gwyddoſt.

10 Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fyng-halō, treuthais dy wirionedd a'th iechydwriaeth: ni chelais dy drugâredd na'th wiriônedd yn y gynnulleidfa luoſog.

11 Tithe Arglwydd nac attal dy drugarêddau oddi wrthif: cadwed dy drugaredd, a'th wirionedd fi bŷth.

12 Canys drŷgau anifeiriol a gylchynâſant o'm hamgylch, fy mhechodau a'm daliaſant fel na allwn edrych[i fynu:]amlach ydynt nâ gwallt fy mhen, am hynny y pallodd fyng-halon gennif.

13 Rhynged bodd it Arglwydd fyng-waredu: bryſſia Arglwydd i'm cymmorth.

14 Cyd-gywilyddier, a gwradwydder y rhai a geiſiant fy enioes iw diſetha, troer yn eu hôl, a chywilyddier y rhai a ewyllyſiant i mi ddrwg.

15 Diffeithier yn lle gobrwy eu gwradwyddo, y rhai a ddywedant wrthif, ffei, ffei.

16 Llawenyched, ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geiſant di: dywedêd y rhai a garant dy iechydwriaeth bôb amſer, mawryger yr Arglwydd.

17 Er fy mod i yn wann, ac yn druan, yr Arglwydd a feddwl am danaf, fyng-hymmorth a'm gwaredudd[ydwyt] ti: fy Nuw na hîr drîga.

### Pſalm. xlj.

*Pſalm Dafydd at y pen-cerdd.*

*Prydnhawnol weddi.*

Gwyn ei fydd a yſtyria wrth y tlawd, yr Arglwydd ai gwared ef yn amſer adfyd.

2 Yr Arglwydd ai ceidw, ac ai bywhâ, gwynfydedic fydd ar y ddaiar: na ddod tithe ef wrth ewyllys ei elynnion.

3 Yr Arglwydd ai nertha ef ar ei glaf-wely: cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd.

4 Mi a ddywedais, Arglwydd trugarhâ wrthif: iachâ fy enaid, canys pechais i'th erbyn.

5 Fyng-elynnion a lefarent ddrwg am danaf[gan ddywedyd:] pa bryd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei enw ef?

6 Ac os daw i'm hedrych efe a ddywed gelwydd, ei galon a gaſcl ynddo anwiredd: efe a aiff allan, [ac ai] traetha.

7 Fy holl gaſeion a gyd-huſtyngant i'm herbyn: [ac] a ddychymmygant ddrwg i mi.

8 Aſlwydd a dywalltwyd arno ef: a'r hwn ſydd yn gorwedd ni chyfyd mwy.

9 Hefyd y gŵr annwylaf gennif, yr hwn yr ymddyriedais iddo, [ac] * a fwytaodd fy mâra, a dderchafodd [ei] ſodl i'm herbyn.

10 Eithr ti Arglwydd trugarhâ wrthif, a chyfot fi, fel y talwyf iddynt.

11 Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi: am na chaiff fyng-elyn orfolaethu i'm herbyn.

12 Ond am danaf fi yn fy mherffeithrwydd i'm cynheli, ac i'm goſodi ger dy fron yn dragywydd.

13 Bendigedic fyddo Arglwydd Dduw Iſrael o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, Amen, Amen.

## Pſal.xlij.

*Athrawiaeth at y pen-cerdd o feibion Corah.*

Fel y brefa'r hŷdd am yr afônydd dyfroedd: felly 'r hiraetha fy enaid am danat ti ô Dduw.

2 Sychedic yw fy enaid am Dduw, [ſef] am Dduw byw: pa bryd y deuaf, ac yr ymddangoſaf ger bron Duw?

3 Fy neigr oedd fwyd i'm dydd a nôs: pan ddywedyd wrthif bôb dydd, pa le [y mae] dy Dduw?

4 Tywalltwn fy enaid wrthif fy hun pan gofiwn hynny: [ſef] mai gyd a'r gynnulleidfa 'r awn, ac y cerddwn gyd â hwynt hyd tŷ Dduw mewn ſain cân, a moliant, fel] tyrfa yn cadw gŵyl.

5 Pa ham fy enaid i'th ddaroſtyngir, ac yr ymderfyſci ynof? gobeithia yn Nuw, o blegit moliannaf ef etto [am] iechydwriaeth ei wyneb-pryd.

6 Fy Nuw, fy enaid a ymddaroſtwng ynof: am hynny y cofiaf di o dîr yr Iorddonen, a Hermon y mynydd bychan,

7 Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth ſŵn dy biſtylloedd di: dy holl donnau a'th lifeiriant a aethant troſof.

8 Yr Arglwydd a orchymyn i mi ei drugaredd liw dydd, ai gân liw nôs, [ſef] gweddi ar Dduw fy enioes.

9 Dywedaf wrth Dduw fyng-hadernid, pa ham yr anghofiaiſt fi, pa ham y rhodiaf yn alârus trwy orthrymder y gelyn?

10 [Taro] â chleddyf trwy fy eſcyrn [y mae] fyng-wrthwyneb-wŷr am gwradwyddent, pan ddywedant wrthif bôb dydd, pâ le [y mae] dy Dduw?

11 Pa ham i'th ddaroſtyngir fy enaid? a pha ham y terfyſci ynof? ymddyried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, [ſef] iechydwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

## Pſalm.xliij.

Barn fi ô Dduw, a dadle fy nadl yn erbyn y genhedlaeth anrhugarog: gwaret fi rhag y dŷn twyllodrus, ac anwir.

2 Canys ti [ydwyt] Dduw fy nerth, pa ham i'm ffieiddiaiſt? pa ham yr âf [mor] alarus trwy orthrymder y gelyn?

3 Anfon dy oleuni, a'th wirionedd, tywyſant hwy fi, ac arweiniant fi i fynydd dy ſancteiddrwydd, ac i'th breſwylfod.

4 Yna'r âf at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fyng-orfoledd, ac mi a'th foliannaf ar delyn ô Dduw, fy Nuw.

5 Pa ham i'th ddaroſtyngir fy enaid? a pha ham y terfyſci ynof? gobeithia yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, [ſef] iechydwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

## Pſalm.xliiij.

*Athrawiaeth at y pen-cerdd o feibion Corah.*

*Borenol weddi.*

Duw clywſom a'n cluſtiau, ein tadau a fynegâſant i ni y gweithredoedd a wnaethoſt yn eu hamſer hwynt, yn y dyddiau gynt.

2 Ti a'th law a oreſcynnaiſt y cenhedloedd, ac ai plennaiſt hwythau, ti a ddygaiſt y bobloedd, ac ai cynnyddaiſt hwythau.

3 Canys nid ai cleddyf eu hun y goreſcynnaſant y tîr, nid eu braich a barodd iechydwriaeth iddynt, eithr dy ddeheu-law di, a'th fraich, a llewyrch dy wyneb, o herwydd it eu hoffi hwynt.

4 Ti Dduw yw fy Mrenin: gorchymyn iechydwriaeth [i] Iacob.

5 Ynot ti y difethwn ni ein gelynnion: yn dy enw di y ſathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn.

6 O herwydd nid yn fy mŵa 'r ymddyriedaf. nid fyng-hleddyf hefyd a'm hachub.

7 Eithr ti a'n hachubaiſt ni oddi wrth ein gwrthwyneb-wŷr, ac a wradwyddaiſt ein caſeion:

8 Am hynny y moliannwn Dduw bôb dydd: ac y clodforwn dy enw yn dragywydd. Selah.

9 Ond ti a gilliaiſt, ac a'n gwradwyddaiſt ni, ac nid wyt yn myned allan gyd a'n lluoedd ni.

10 Gwnaethoſt i ni droi yn ôl oddi wrth y gelyn: a'n caſeion a anrhaithiâſant [ein da ni] iddynt eu hun.

11 Rhoddaiſt ni fel defaid iw bwytta, a gwaſceraiſt ni ym myſc y cenhedloedd.

12 Gwerthaiſt dy bobl heb êlw, ac ni chwanêgaiſt

anégaiſt [olud] oi gwerth hwynt.

13 Goſodaiſt ni yn warthrudd i'n cymmydogion, yn watwargerdd, ac yn ddiyſtyrwch ym mhlith y rhai ydynt o'n hamgylch.

14 Goſodaiſt ni yn ddihareb ym myſc y cenhedloedd, [ac] yn rhai i eſcwyd pen arnynt ym myſc y bobloedd.

15 Fyng-warthrudd [ſydd] beunydd ger fy mron, a chywilydd fy wyneb a'm tôdd.

16 Gan lais y gwarthrudd-wr, a'r cabl-wr, o herwydd y gelyn, a'r ymddial-wr.

17 Hyn oll a ddaeth arnom: etto ni'th anghofiaſom di, ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod.

18 Ni thrôdd ein calon yn [ei] hôl, ac ni lithrodd ein cerddediad o'th lwybr di.

19 Er i ti ein curo i drig-fa dreigiau, a thoi troſom â chyſcod angeu.

20 Os anghofiaſom enw ein Duw: neu eſtyn ein dwylo at Dduw dieithr:

21 Oni chwilia Duw hyn allan? canys efe a ŵyr ddirgêloedd calon.

22 O herwydd mai * er dy fwyn di i'n lleddir beunydd, [ac] i'n cyfrifir fel defaid iw lladd:

23 Cyfod i fynu, pa ham y cyſci ô Arglwydd: deffro, na chilia yn dragywydd.

24 Pa ham y cuddi dy wyneb, [ac] yr anghofi ein cyſtudd, a'n gorthrymder:

25 Canys goſtyngwyd ein henaid i'r llwch: glŷnodd ein bol wrth y ddaiar.

26 Cyfot yn gynnorthwy i ni, ac gwaret ni er mwyn dy drugaredd.

### Pſalm. xlv.

*At y pen-cerdd ar y chwe-thant o feibion Corah, Can cariadau er athrawiaeth.*

TRaethodd fyng-halon beth dâ, dywedyd yr ydwyf [am] fyng-weithredoedd i'r Brenin, fy nhafod [ſydd fel] pin ſcrifennudd buan.

2 Tegach ydwyt na meibion dynnion, tywalltwyd rhâd ar dy wefuſau, o herwydd i Dduw dy fendithio di yn dragywydd.

3 Gwregyſa dy gleddyf ar dy glûn ô gadarn, [ſef] dy ogoniant, a'th harddwch.

4 Llwydda hefyd a'th ogoniant, marchog di ar air y gwirionedd, a lledneiſrwydd [a] chyfiawnder: a'th ddeheu-law a ddyſc i ti [bethau] ofnadwy.

5 Pobl â ſyrthiant tanat: [o herwydd] dy ſaethau llymmion [yn glynu] yng-halon gelynnion y brenin.

6 Dy orſedd di ô Dduw a [beru] byth, ac yn dragywydd: teyrn-wialen inionded [yw] teyrn-wialen dy frenhiniaeth di.

7 Ceraiſt gyfiawnder, a chaſeaiſt ddrygioni: am hynny i'th eneiniodd Duw, [ſef] dy Dduw di ag olew llawenydd yn fwy na'th gyfeillion.

8 [Arogl] Myrr, Aloes, [a] Chaſia [ſydd ar] dy holl wiſcoedd: [pan ddelech] o'r palâſau Iforí, lle i'th lawenhauſant,

9 Merched brenhinoedd [oedd] ym mhlith dy bendefigeſau, ſafe y frenhines ar dy ddeheu-law mewn aur coeth o Ophir.

10 Gwrando ferch, a gwêl hefyd, a goſtwng dy gluſt: anghofia dy bobl, a thŷ dy dâd.

11 A'r brenin a chwennych dy degwch: canys efe yw dy Iôr di: ymoſtwng dithe iddo ef.

12 Merch Tyrus hefyd [a] chyfoethogion y bobl a ymbiliant a'th wyneb ag anrheg.

13 Merch y brenin [ſydd] oll yn anrhydeddus o fewn: gem-waith aur [yw] ei gwiſc hi.

14 Mewn gwaith edyf a nodwydd y dygir hi at y brenin: y morwynion [y rhai a ddeuant] ar ei hôl yn gyfeillesau iddi a ddygir attat ti.

15 Mewn llawenydd, a gorfoledd y dygir hwynt, [ac] y deuant i lŷs y brenin.

16 Dy feibion fyddant yn lle dy dadau: goſodi hwynt yn dywyſogion ym mhob gwlâd.

17 Coffâf dy enw ym mhob cenhedlaeth, ac oes: am hynny y bobl a'th foliannant byth, ac yn dragywydd.

### Pſalm.xlvj.

*At y pen-cerdd o feibion Corah cân gyd a'r Alamoth.*

DUw ſydd obaith, a nerth i ni, hawdd ei gael mewn cyfyngder.

2 Am hynny nid ofnem pe ſyfle y ddaiar, a phe ſymmude y mynyddoedd i ganol y môr.

3 [Pe] terfyſce, a chymmyſce ei ddyfroedd, [pe] cynhyrfe y mynyddoedd gan ei forddwy ef. Selah.

4 Ffrydiau ei afon ef a lawenhânt ddinas Dduw: [ſef] cyſſegr preſſwylfeudd y Goruchaf.

5 Duw [ſydd] oi mewn hi, nid yſcog hi: Duw ai cynnorthwya yn foreu iawn.

6 Y cenhedloedd a derfyſcâſant, y teyrnaſoedd a yſcogâſant [pan] roddes efe ei lef, toddodd y ddaiar.

7 [Y mae] Arglwydd y lluoedd gyd â ni: [y mae] Duw Iacob yn amddeffynfa i ni. Selah.

8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd pa anghyfannedd-dra a oſododd efe ar y ddaiar.

9 Gwnaiff i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaiar, efe a ddryllia'r bŵa, ac a dyr y waywffon, [ac] a lyſc y cerbydau â thân.

10 Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi [ſydd] Dduw: derchefir fi ym myſc y cenhedloedd, derchefir fi ar y ddaiar.

11 [Y mae] Arglwydd y lluoedd gyd â ni: amddeffynfa i ni [yw] Duw Iacob. Selah.

### Pſalm. xlvij.

*Pſalm at y pen-cerdd o feibion Corah.*

*Prydnhawnol weddi.*

YR holl bobl curwch ddwylo: llafar genwch i Dduw â llef gorfoledd.

2 Canys yr Arglwydd goruchaf ſydd ofnadwy: [a] brenin mawr ar yr holl ddaiar.

3 Efe a ddwg y bobl tanom ni: a'r cenhedloedd tann ein traed.

4 Efe a ddethol ein etifeddiaeth i ni, ſef ardderchawgrwydd Iacob, yr hwn a hoffodd efe. Selah.

5 Derchafodd Duw mewn gorfoledd, [ſef] yr Arglwydd â ſain vdcorn.

6 Cenwch, cenwch i Dduw: cenwch, cenwch i'n Brenin.

7 Canys Brenin yr holl ddaiar [yw] Duw: cenwch yn ddeallus,

8 Teyrnaſodd Duw ar y cenhedloedd: eiſteddodd Duw ar orſedd-faingc ei ſancteiddrwydd.

9 Pendefigion y bobl a ymgaſclâſant at bobl Duw Abraham: canys tariannau y byd [ydynt] eiddo Duw, dirfawr y derchafwyd ef.

Pſalm.xlviij.

*Càn* neu *Pſalm i feibion Corah.*

MAwr [yw'r] Arglwydd, a thra moliannus yn ninas ein Duw ni, [ſef yn] ei fynydd ſanctaidd.

2 Tegwch bro [a] llawenydd yr holl wlâd [yw] mynydd Sion [yn] yſtlyſau y gogledd: [ſef] dinas y Brenin mawr.

3 Duw yn ei phalâſau a adwaenir yn amddeffynfa.

4 Canys wele y brenhinoedd a ymgyfarfuant: [ac] a aethant yng-hyd.

5 Hwynt a welſant, felly y rhyfeddâſant: brawychâſant [ac] aethant ymmaith ar ffrwſt.

6 Dychryn a ddaeth arnynt hwy yno, [a] dolur megis gwraig yn eſcor.

7 A gwynt y dwyrain y drylli longau y môr.

8 Megis y clywſom, felly y gwelſom yn ninas Arglwydd y lluoedd, [ſef] yn ninas ein Duw ni: Duw ai ſiccrhâ hi yn dragywydd. Selah.

9 Diſgwiliaſom ô Dduw am dy drugaredd o fewn dy Deml.

10 Megis [y mae] dy enw ô Dduw, felly [y mae] dy fawl hyd eithafoedd y tîr: cyfiawn o gyfiawnder yw dy ddeheu-law.

11 Llawenched mynydd Sion: ac ymhyfryded merched Iuda, o herwydd dy farnedigaethau.

12 Amgylchwch Sion, a chylchŷnwch hi, rhifwch ei thŷrau hi.

13 Yſtyriwch ar ei magwyr, cadarnhewch ei phalâſau, fel y mynegoch i'r oes a ddêlo yn ôl

14 Canys y Duw hwn [yw] ein Duw ni byth, ac yn dragywydd: efe a'n tywys ni hyd angeu.

Pſalm.xlix.

*Pſalm at y pen-cerdd o feibion Corah.*

CLywch hyn yr holl bobloedd, gwrandewch [hyn] holl drigolion y bŷd.

2 Yn gyſtal gwerin a boneddigion, cyfoethog a thlawd yng-hyd.

3 Fyng-enau a draetha ddoethineb: a myfyrdod fyng-halon [ſydd am] ddeall.

4 Goſtyngaf fyng-hluſt at ddihareb, fy nammeg a ddatganaf gyd a'r dêlyn.

5 Pa ham yr ofnaf yn amſer adfyd, [pan] ymgylchyno anwiredd fy ſodlau i?

6 Rhai a ymddyriedant yn eu golud: ac a ymffroſtiant yn lluoſogrwydd eu cyfoeth.

7 Gan waredu ni wareda neb [ei] frawd: [ac] ni all efe roddi iawn troſto ef i Dduw.

8 (Canys gwerth-fawr yw prynniad eu henaid, fel y gorfyddo peidio [â hynny] byth.

9 Fel y byddo efe byw byth, ac na welo 'r bedd,

10 Canys efe a wêl fod y doethion yn meirw, y cyd-dderfydd am ffôl, ac ynfyd: ac y gadawant eu golud i eraill:

11 Eu meddwl [yw y peru] eu tai yn dragywydd, ai trigfeudd hyd genhedlaeth, a chenhedlaeth: am hynny] yr henwaſant eu henwau eu hun ar eu tiroedd.

12 Eithr nid erys dŷn mewn anrhydedd: tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir.

13 Dymma eu ffordd yn ynfydrwydd iddynt: etto eu hiliogaeth ydynt fodlon i'w hymadrodd. Selah.

14 Fel defaid y goſodir hwynt yn uffern, angeu a ymborth arnynt a'r rhai cyfiawn ai llywodraethant y boreu: ai tegwch [aiff] i ddarfod i'r bedd oi cartref.

15 Etto Duw a wared fy enaid o feddiant uffern: canys efe a'm derbyn i, Selah.

16 Nac ofna pan gyfoethogo un, pan chwanêgo gogoniant ei dŷ ef.

17 Canys wrth farw ni ddwg efe ddim, ac ni ddeſcyn ei ogoniant ar ei ôl ef.

18 O herwydd yn ei fyw iddo wneuthur yn fawr am ei enioes: can-molant dithe o hyddi ddâ wrthit dy hun.

19 Efe a aiff at genhedloedd ei dâdau, [ac] ni welant oleuni byth.

20 Dŷn mewn anrhydedd, ac heb ddeall a gyffelybir i anifeiliaid a ddifethir.

Pſalm. l.

*Pſalm Aſaph.*

*Boreuol weddi.*

DUw y duwiau, [ſef] yr Arglwydd a lefarodd, ac a alwodd y ddaiar o godiad haul hyd ei fachludiad.

2 O Sion [mewn] perffeithrwydd tegwch y llewyrchodd Duw.

3 Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd ddiſtaw. tân a yſa oi flaen ef: a themheſtl ſydd oi amgylch ef yn ddirfawr.

4 Ceilw

4 Geilw am y nefoedd oddi vchod: ac am y ddaiar i farnu ei bobl.

5 Ceſclwch fy ſainct attafi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.

6 A'r nefoedd a fynêgant ei gyfiawnder ef, canys Duw ei hun [ſydd] farn-wr. Selah.

7 Clywch fy mhobl, a mi a lefaraf, teſtiolaethaf i'th erbyn dithe Iſrael: Duw [ſef] dy Dduw di [ydwyf] fi.

8 Nid am dy aberthau i'th geryddaf, na'th boeth offrymmau [am nad oeddynt] ger fy mron i yn wastad.

9 Ni chymmeraf fuſtach o'th dŷ, na bychod o'th gorlannau.

10 Canys holl fwyſt-filod y coed ydynt eiddo fi: [a'r] anifeiliaid ar fîl o fynyddoedd.

11 Adwen holl adar y mynyddoedd: a gwyllt anifeiliaid y maes [ydynt] gyd â mi.

12 Os bydd newyn arnaf ni ddywedaf i ti: canys y bŷd ai gyflawnder [ſydd] eiddo fi.

13 A fwyttafi gîg teirw? neu a ŷfaf fi waed bychod?

14 Abertha foliant i Dduw, a thâl i'r Goruchaf dy addunedau.

15 A galw arnafi yn nydd trallod, [yna] i'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.

16 Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, beth [ſydd] i ti a fynêgech ar fy neddfau mau fi? ac a gymmerech ar fyng-hyfammod yn dy enau?

17 Canys ti a gaſeaiſt addyſc, ac a deflaiſt fyng-eiriau i'th ôl.

18 Pan welaiſt leidr, rhedaiſt gyd ag ef: a'th gyfran [oedd] gyd a'r godineb-wŷr.

19 Gollyngaiſt dy ſafn i ddrygioni, ac â'th dafod y cyd-blethaiſt ddichel.

20 Eiſteddaiſt, [a] dywedaiſt yn erbyn dy frawd: rhoddaiſt enllib i fab dy fam.

21 Hyn a wnaethoſt, a mi a dewais, tybiaiſt dithe fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyoeddaf, ac a oſodaf [yr hyn a wnaethoſt] o flaen dy lygaid.

22 Dehallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi [eich] rhwygo, ac na [byddo] gwaredudd.

23 Yr hwn a abertho foliant a'm gogoneddafi: a'r neb a oſodo ei ffordd [yn iawn] dangoſaf iddo iechydwriaeth Duw.

## Pſalm. lj.

2.Sam.12.1. *Pſalm Dafydd at y pen-cerdd, pan ddaeth * Nathan y prophwyd atto ef, wedi iddo ef fyned i mewn at Bathſeba.*

TRugarhâ wrthif ô Dduw yn ôl dy drugarogrwydd: yn ôl lliaws dy doſturiaethau delea fy anwireddau.

2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddi wrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddi wrth fy mhechod.

3 Canys adwen fyng-hamweddau: a'm pechod ſydd yn wastad ger fy mron.

4 Yn dy erbyn di dy hunan y pechais, ac y gwneuthum yr hyn oedd ddrwg yn dy olwg di: fel i'th gyfiawnhaer pan lefarech, [ac] y byddit bûr pan farnech.

5 Wele mewn anwiredd i'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6 Wele ceraiſt wirionedd oddi mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn ddirgel.

7 Glanhâ fi *ag Yſſop, a mi a lanheuir: golch fi, a byddaf wynnach na'r eira. Lefit.14.6.

8 Pâr di i mi glywed gorfoledd, a llawenydd, [fel] y llawenycho'r eſcyrn a ddrylliaiſt di.

9 Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau: a delea fy holl anwireddau.

10 Crea galon lân ynof ô Dduw, ac adnewydda yſpryd iniawn o'm mewn.

11 Na fwrw fi ymmaith oddi ger dy fron: ac na chymmer dy Yſpryd ſanctaidd oddi wrthif.

12 Dwg trachefn i mi orfoledd dy iechydwriaeth: ac a'th hael Yſpryd cynnal fi.

13 Dyſcaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droant attat.

14 Gwaret fi oddi wrth waed ô Dduw [ſef] Duw fy iechydwriaeth: a'm tafod a gân o'th gyfiawnder.

15 Arglwydd agor fyng-wefuſau, a'm genau a fynega dy foliant.

16 Canys ni chwennychi aberth, pe amgen, mi ai rhoddwn, [a] phoeth offrwm ni fynni.

17 Aberthau Duw [ydynt] yſpryd drylliedic: calon ddrylliog gyſtuddiedic ô Dduw ni ddirmygi.

18 Bydd ddâ wrth Sion o herwydd dy ewyllyſcarwch: adailada furau Ieruſalem.

19 Yna y byddi fodlon i ebyrth cyfiawnder [ſef] poeth offrwm; ac aberth lloſc: yna'r offrymmant fuſtych ar dy allor.

## Pſalm. lij.

*Athrawiaeth Dafydd at y pen-cerdd: pan ddaeth Doeg yr Edomiad, a mynegu i Saul, a dywedyd wrtho ef, Dafydd a ddaeth i dy Ahimelech.*

PA ham yr ymffroſti ô gadarn mewn drygioni? [gan fod] trugaredd Dduw beunydd.

2 Dy dafod a ddychymmyg ſcelerder: [ac] fel ellyn llym ſydd yn gwneuthur twyll.

3 Hoffaiſt ddrygioni yn fwy ná daioni: [a] chelwydd yn fwy nâ thraethu cyfiawnder. Selah.

4 Hoffaiſt bob geiriau deſtruw, ô dafod twyllodrus.

5 Duw a'th ddeſtruwia dithe yn dragywydd, a'th ddryllia, ac a'th ddelea o'th babell: ac a'th ddiwreiddia o dir y bywyd. Selah.

6 Y cyfiawn a wêlant [hyn,] ac a ofnant, ac

a chwarddant am ei ben [gan ddywedyd,]

7 Wele 'r gŵr ni oſododd Dduw yn gadernid iddo: eithr ymddyriedodd yn lluoſogrwydd ei olud, ac ymnerthodd yn ei ddrygioni.

8 Minne a [ſyddaf] fel oliwŷdden werdd yn nhŷ Dduw: ymddyriedais yn nhrugaredd Duw byth, ac yn dragywydd.

9 Clodforaf di yn dragywydd, o herwydd i ti wneuthur [hyn:] gobeithiaf heſyd yn dy enw: canys dâ yw [hyn] ger bron dy ſainct.

### Pſalm. liij.

*At y pen-cerdd ar y Machaloth athrawiaeth Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi.*

Dywedodd yr ynfyd yn ei galon nid [oes] Duw: ymlygrâſant a gwnaethant ffiaidd anwiredd, nid [oes un] yn gwneuthur daioni.

2 Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd ar feibion dynnion, i edrych a [oedd neb] yn ddeallus, [ac] yn ceiſio Duw.

3 Ciliaſe pob un yn ŵyſc ei gefn, cyd ymddifwynaſent, nid oedd a wnêle ddaioni nac [oedd] un.

Pſal.14.7.

4 Oni ŵydde gweithred-wŷr anwiredd [eu bod] yn bwytta fy mhobl [fel] y bwytaent fara: ni alwâſant ar Dduw.

5 Yno 'r ofnaſant [gan] ofn, [lle] nid oedd ofn: canys Duw a waſcârodd eſcyrn yr hwn a'th warchâodd, gwradwyddaiſt [hwynt,] am i Dduw eu gwrthod hwy.

6 Oh na roddit iechydwriaeth [i] Jſrael o Sion, pan ymchwelo Duw gaethiwed ei bobl, [yna] y llawenycha Jacob, ac y gorfoledda Jſrael.

### Pſalm. liiij.

*At y pẽ-cerdd ar y Neginoth Athrawiaeth Dafydd: Pan ddaeth y Ziphiaid a dywedyd wrth Saul: * onid ydyw Dafydd yn ymguddio gyd â ni?*

1.Sam.23.19.

ACHub fi ô Dduw yn dy enw: a barna fi yn dy gadernid.

2 Duw clyw fyng-weddi, gwrando ymadrodd fyng-enau.

3 Canys dieithriaid a gyfodâſant i'm herbyn: a chedyrn a geiſiâſant fy enaid, [y rhai] ni oſodâſant Dduw oi blaen. Selah.

4 Wele Duw ſydd yn fyng-hynnorthwyo: 'r Arglwydd [ſydd] ym myſc y rhai a gynhaliant fy enaid.

5 Efe a dâl ddrwg i'm gelynnion: torr di hwynt ymmaith yn dy wirionedd.

6 Aberthaf it yn ewyllyſcar, clodforaf dy enw ô Arglwydd canys dâ yw.

7 Canys efe a'm gwaredodd o bob trallod, a'm llygad a welodd [ei wynfyd] ar fyng-elynnion.

### Pſalm. lv.

*At y pen-cerdd ar y Neginoth athrawiaeth Dafydd.*

GWrando fyng-weddi ô Dduw, ac nac ymguddia rhag fy neiſyfiad.

2 Gwrando arnaf ac erglyw fi, cŵynfan yr ydwyf yn fyng-weddi, a thuchan.

3 Gan lais y gelyn, a chan orthrymder yr annuwiol, o herwydd iddynt ddywedyd celwydd arnaf, a'm gwrthwynebu yn llidioc.

4 Fyng-halon a ofidia o'm mewn: ac ofn angeu a ſyrthiodd arnaf fi.

5 Ofn, ac arſwyd a ddaeth arnaf: a dychryn a'm gorchguddiodd.

6 A dywedais, ô na bai i mi adenydd fel colommen: [yna] 'r ehedwn, ac y gorphywyſwn.

7 Wele cyrwydrwn ym mhell, [ac] arhoſwn yn yr anialwch. Selah.

8 Bryſſiwn i ddiangc rhag y gwynt yſtormus, a'r demheſtl.

9 Diniſtria ô Arglwydd, [a] gwahan eu tafodau, canys gwelais drawſder, a chynnen yn y ddinas.

10 Dydd a nôs yr ymgylchant hi ar ei muriau, ac [y mae] anwiredd a blinder oi mewn.

11 Anwireddau [ydynt] oi mewn, ac ni chilia twyll a dichell oi heolydd hi.

12 Nid gelyn yn ddiau a'm difenwodd, canys dioddefâſwn [hynny:] nid fyng-haſ-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn, canys [ond odit] mi a ymguddiaſwn rhagddo ef.

13 Eithr tydi fyng-hydymmaith, fy fforddwr, a'm cydnabod.

14 Y rhai oedd felys gennym gyd gyfrinachu: [ac] a rodiaſom yn gymydeithgar yn nhŷ Dduw.

15 Rhuthred marwolaeth arnynt: [fel] y deſcynnant i uffern yn fyw, canys drygioni [ſydd] yn eu cartref oi mewn.

16 Myfi a waeddaf ar Dduw, a'r Arglwydd a'm hachub fi.

17 Hwyr a boreu, a hanner dydd y gweddiaf, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.

18 Efe a waredodd fy enaid mewn heddwch oddi wrth y rhyfel yr hwn [oedd] i'm herbyn: canys llawer oedd gyd â mi.

19 Duw a glyw, ac ai daroſtwng hwynt yr hwn ſydd yn teyrnaſu er ioed, Selah: am nad [oes] ſymmudiadau iddynt, am hynny nid ofnant Dduw.

20 Efe a eſtynnodd ei law yn erbyn y rhai oeddynt heddychlon ag ef, [ac] a dorrodd ei gyfammod.

21 Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn: a rhyfel yn ei galon, tynêrach oedd ei eiriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion.

22 Bwrw dy ofal ar yr Arglwydd, ac efe a'th faetha di, ni âd i'r cyfiawn ſyrthio byth.

23 Tithe Dduw ai deſcynni hwynt i bydew llwgr: gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau, onid myfi a obeithaf ynot ti.

## Pſalm. lvj.

*At y pen-cerdd am y golommen fud o bell, euroc pſalm Dafydd: pan ddaliodd y Philiſtiaid ef yn Gath.*

*Boreuol weddi.* TRugarhâ wrthif ô Dduw, canys dŷn a'm llyngce: beunydd yr ymladd, [ac] i'm gorthrymma.

2 Beunydd i'm llyngce fyng-elynnion, canys llawer ydynt yn rhyfêla i'm herbyn ô [Dduw] goruchaf.

3 Y dydd yr ofnwn, mi a ymddyriedwn ynot ti.

4 Duw a glodforaf [o herwydd] ei air, yn Nuw y gobeithaf, [ac] nid ofnaf beth a wnêl cnawd i mi.

5 Beunydd i'm cyſtuddiant a'm geiriau fy hun, eu holl feddyliau [ydynt] i'm herbyn er drwg i mi.

6 Hwynt a ymgaſclant, a lechant, [ac] a wiliant fyng-hamrau, pan ddiſgwiliant am fy enaid.

7 A ddiangant hwy am [eu] hanwiredd? deſcyn y bobloedd [hyn] ô Dduw yn dy lidiawgrwydd.

8 Ti a gyfrifaiſt fy ſymmudiad, goſod fy nagrau yn dy goſtrel: onid [yw hyn] yn dy lyfr di?

9 Y dydd y llefwyf [arnat] yna y dychwelir fyng-elynniõ yn eu gwrthôl: hyn a wn am [fod] Duw gyd â mi.

10 Yng-air Duw y gorfoleddaf, yng-air yr Arglwydd y gorfoleddaf.

11 Yn Nuw 'r ymddyriedais, nid ofnaf beth a wnêl dyn i mi.

12 Arnat ô Dduw [y mae] dy addunedau: talaf i ti foliant.

13 Gan waredu o honot fy enaid rhag angeu, a'm traed rhag llithro, fel y rhodiwyf gerbron Duw yng-oleuni y rhai byw.

## Pſalm. lvij.

*Eurog pſalm Dafydd at y pen-cerdd.* Na ddifetha. *Pan ffôdd efe rhag Saul i'r ogof.* 1.Sam.24.4.

TRugarhâ wrthif ô Dduw, trugarhâ wrthif, canys ynot y gobeithiodd fy enaid: îe yng-hyſcod dy adenydd y gobeithaf, hyd onid êl yr aflwydd [hyn] heibio.

2 Galwaf ar Dduw goruchaf, [ſef] ar y Duw a gwplâ â mi.

3 Efe a enfyn o'r nefoedd, ac a'm gwared, [oddi wrth] warthrudd yr hwn a'm llyngce Selah: denfyn Duw ei drugaredd, ai wirionedd.

4 Fy enaid ſydd ym myſc llewod, gorwedd yr wyf ym myſc dynnion poethion: ai dannedd fel gwaiw-ffyn, neu ſaethau, ai tafod fel cleddyf llym.

5 Ymdercha Dduw uwch y nefoedd: [a bydded] dy ogoniant ar yr holl ddaiar.

6 Darparâſant rwyd i'm traed, crymmwyd fy enaid, cloddiâſant bydew o'm blaen, [a] ſyrthiâſant yn ei ganol. Selah.

7 Parod yw fyng-halon o Dduw, parod yw fyng-halon: canaf, a chan-molaf.

8 Deffro fyng-ogoniant, deffro Nabl a thêlyn, deffroaf yn foreu.

9 Clodforaf di Arglwydd ym myſc y bobloedd: can-molaf di ym myſc y cenhedloedd.

10 Canys mawr [yw] dy drugaredd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd yr wybrau.

11 Ymddercha Dduw uwch y nefoedd: [a bydded] dy ogoniant ar yr holl ddaiar.

## Pſalm. lviij.

*At y pen-cerdd, eurog pſalm Dafydd.* Na ddifetha.

AI cyfiawnder yn ddiau a draethwch chwi ô gynnulleidfa? [ac] a fernwch chwi iniondeb ô feibion dynnion?

2 Anwiredd yn hytrach a weithredwch yn eich calon: trawſter y mae eich dwylo yn ei drino ar y ddaiar.

3 O'r groth yr ymddieithrodd y rhai annuwiol, o'r brû y cyfeiliornâſant gan ddywedyd celwydd.

4 Gwenwyn [ſydd] ganddynt fel gwenwyn ſarph: megis y neidr fyddar [yr hon] a gae ei chluſtiau.

5 Yr hon ni wrendu ar lais y rhin-wŷr, [na'r] cyfarwydd ſwyn-wr ſwynion.

6 Dryllia ô Dduw eu dannedd yn eu geneuau: diniſtria ô Arglwydd gil-ddannedd y llewod [ieuaingc.]

7 Todder hwynt fel dwfr, a diflannant, [a phan ſaethant eu ſaethau, [byddant] fel pe torrid hwynt.

8 Aed ymmaith fel malwoden dawdd, [neu] erthyl gwraig: [ac] na wêlont yr haul.

9 Cythryblied ef megis [mewn] llid, fel [peth] amrwd cyn i'ch crochanau glywed gwrês y mieri.

10 Y cyfiawn a lawenycha pan wêlo ddial: [ac] a ylch ei draed yng-waed yr annuwiol.

11 Yna y dywed dŷn, diau [fod] ffrwyth i'r cyfiawn: diau fod Duw a farna ar y ddaiar.

## Pſalm. lix.

*At y pen-cerdd eurog pſalm Dafydd.* Na ddifetha. *pan yrrodd Saul rai i gadw y ty iw ladd ef.* 1.Sam.19.11.

FY Nuw gwaret fi oddi wrth fyng-elynnion: amddeffyn fi oddi wrth y rhai a ymgyfodant i'm herbyn. *Prydnhawnol wedds,*

2. Gwaret fi oddi wrth weithred-wŷr anwiredd: ac achub

fi rhag y gwŷr gwaedlyd.

3 Canys wele cynllwynâſant yn erbyn fy enaid,[ac] ymgaſclodd cedyrn i'm herbyn: nid [ar] fy mai na'm pechod mau fi ô Arglwydd.

4 Rhedant ymbarâtoant heb anwiredd [ynoſi:] cyfot tithe i'm cyfarfod,ac edrych.

5 A thi Arglwydd Dduw 'r lluoedd [ſef] Duw Iſrael, deffro i ymweled a'r holl genhedloedd: na thrugarhâ wrth neb a'r a wnânt anwiredd yn faliſus. Selah.

6 Ymdroant gyd a'r hwŷr, cyfarthant fel cŵn,ac amgylchant y ddinas.

7 Wele llefarant ai genau,[a] chleddyfau [fyddant] yn eu gweſuſau: canys pwy [meddant] a glyw?

8 Ond tydi ô Arglwydd ai gwattwari hwynt,[ac] a chwerddi am ben yr holl genhedloedd.

9 I ti y cadwaf ei nerth ef: canys Duw [yw] fy amddeffynfa.

10 Fy Nuw trugarog a'm rhagflaena: Duw a wnâ i mi weled [fy ewyllys] ar fyngelynnion.

11 Na ladd hwynt rhag i'm pobl anghofio [hynny,eithr] gwaſcar hwynt yn dy nerth, a daroſtwng hwynt ô Arglwydd ein tarian.

12 [Am] bechod eu genau,[ac] ym adrodd eu gweſuſau y delir hwynt yn eu balchder: canys melldith, a chelwydd a draethant hwy.

13 Difa[hwynt] yn [dy] lid, difa fel na [byddant] hwy [mwyach:] ac y gŵybyddant mai Duw ſydd yn llywodraethu yn Iacob, [ac] hyd eithafoedd y ddaiar. Selah.

14 A hwy a droant gyd a'r hwŷr, ac a gyfarthant fel cŵn,ac a amgylchant y ddinas.

15 Hwynt a gyrwydrant i fwytta, ac onis digonir, grwgnach a wnânt.

16 Minne a gânaf am dy nerth, ac a ddadcanaf dy drugaredd yn foreu: canys buoſt yn amddeffynfa i mi, ac yn noddfa yn y dydd [y bu] cyfyngder arnaf.

17 I ti fy nerth y canaf: canys Duw[yw] fy amddeffynfa,[ſef] fy Nuw trugarog.

## Pſalm. lx.

*At y pen-cerdd ar chwe-thant, teſtiolaeth [ac] euroc Pſalm Dafydd i ddyſcu. Pan aeth efe yn erbyn Syriaid Meſopotamia, a Syriaid Zoba * pan ddychwelodd Ioab a llad deuddeng mil o'r Edomiaid yn nyffryn yr halen.*

2.Sam.8.1.
1.Cron.18.3.

O Dduw ffieiddiaiſt ni,gwaſceraiſt ni, [a] ſorraiſt: dychwel attom.

2 Gwnaethoſt i'r ddaiar grynu,[a] holltaiſt hi: iachâ ei briwiau,canys y mae yn ſiglo.

3 Dangôſaiſt i'th bobl galedi: diodaiſt ni â gwîn madrondod.

4 Rhoddaiſt faner i'r rhai a'th ofnant, i fuddugoliaethu o herwydd y gwirionedd. Selah.

5 Fel y gwarêder dy rai annwyl: achub a'th ddeheu-law,a gwrando fi.

6 Duw a lefârodd yn ei ſancteiddrwydd, ([am hynny] y llawenychaf) rhannaf Sichem,a meſuraf ddyffryn Succoth.

7 Eiddo fi [yw] Gilead,ac eiddo fi Manaſſes: Ephraim hefyd [yw] nerth fy mhen, Iuda [yw] fy neddf-wr.

8 Moab [yw] fyng-hrochan golchi: ar Edom y bwriaf fy eſcid, Paleſtina ymorfoledda di ynofi.

9 Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn? pwy a'm harwain hyd yn Edom?

10 Onid tydi Dduw ['r hwn] a'n ffieiddiaiſt? ac nid eit ti allan ô Dduw gyd a'n lluoedd?

11 Dod ti i mi gynhorthwy rhag cyfyngder: canys ofer [yw] ymwared dŷn.

12 Yn Nuw y gwnawn wroldeb, canys efe a ſathr ein cyſtudd-wŷr.

## Pſalm. lxj.

*At y pen-cerdd ar y Neginoth* Pſalm *Dafydd.*

CLyw ô Dduw fy llefain, [a] gwrando di fyng-weddi.

2 O eithaf y ddaiar y llefaf attat, pan leſmeirio fyng-halon: arwain fi i graig a fydd uwch nâ mi.

3 Canys buoſt obaith i mi, [a] thŵr nertholrhag y gelyn.

4 Preſſwyliaf yn dy babell byth: a'm ymddyried fydd dann orchudd dy adenydd, Selah.

5 Canys ti Dduw a glywaiſt fy addunedau, rhoddaiſt etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy enw.

6 Hir-oes a roddi i'r brenin, ei flynyddoedd [fyddant] lawer oes.

7 Efe a breſſwylia byth ger bron Duw: darpar drugaredd a gwirionedd, [fel] y cadwant ef.

8 Felly y can-molaf dy enw yn dragywydd: gan dalu fy addunedau beunydd.

## Pſalm. lxij.

*At y pen-cerdd Ieduthun Pſalm Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

WRth Dduw yn unic y diſgwil fy enaid, o honaw ef [y daw] fy iechydwriaeth.

2 Efe yn unic[yw] fyng-hraig, a'm hiechydwriaeth: a'm hamddeffyn: [am hynny] ni'm mawr yſcogir.

3 Pa hŷd y bwriedwch aflwydd i bawb? lleddir chwi oll,[a byddwch] fel magwyr ogwyddedic,[neu] bared ar ei ogwydd.

4 Ymgynghorâſant yn unic i'w fwrw ef i lawr oi fawredd, hoffâſant gelwydd, ai genenau y bendithiâſant, ac oi mewn y melldithiâſant. Selah.

5 Oh fy enaid ymlonydda yn Nuw yn unic,canys ynddo ef [y mae] fyng-obaith.

6 Efe yn unic yw fyng-hraig a'm hiechydwriaeth: a'm hamddeffynfa, [am hynny] ni'm hyſcogir.

7 Yn Nuw [y mae] fy iechydwriaeth a'm gogoniant: [ſef] craig fyng-hadernid: yn Nuw [y mae] fyng-obaith.

8 Gobeithiwch ynddo ef bob amſer ô bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef: Duw [ſydd] obaith i ni. Selah.

9 Gwagedd yn unic [yw] meibion dynion geudab [yw] meibion gwŷr: pan gyfodant yn y clorian [yſcafnach ydynt] hwy eu gyd na gwêgi.

10 Nac ymddyriedwch mewn camwedd, ac mewn trawſedd na ddiflennwch: os cynnydda golud, na roddwch eich calon [arno.]

11 Un-waith y dywedodd Duw, clywais hynny ddwy-waith, mai eiddo Duw [yw] cadernid.

12 Trugaredd hefyd [ſydd] eiddo ti ô Arglwydd: * canys ti a dêli i bawb yn ôl ei weithred.

1.Cor.3.8.

## Pſalm.lxiij.

*Pſalm Dafydd *pan oedd efe yn nifaethwch Iuda.*

1.Sam.23.14.

TI ô Dduw [wyt] fy Nuw mau fi, yn foreu i'th geiſiaf, ſychêdodd fy enaid am danat, hiraethodd fyng-nhawd am danat mewn tîr crâs a ſychêdic heb ddwfr.

2 Felly i'th welais [megis] mewn cyſſegr, wrth weled dy nerth, a'th ogoniant.

3 Canys gwell [yw] dy drugâredd di na'r bywyd, fyng-weſuſau a'th foliannant di.

4 Felly i'th glodforaf yn fy mywyd, [ac] y derchafaf fy nwylo yn dy enw.

5 Megis â mêr, ac â braſder y digonir fy enaid: a'm genau a'th fawl â gwefuſau llafar:

6 Pan i'th gofiwyf ar fyng-wely, myfyriaf am danat yn y gwiliadwriaethau.

7 Canys buoſt gynnorthwy i mi, am hynny yng-hyſcod dy adenydd y gorfoleddaf.

8 Fy enaid a lŷnodd wrthit, a'th ddeheulaw a'm cynhaliodd.

9 A'r rhai a geiſiant fy enaid i ddeſtruw, a ânt i iſſelderau y ddaiar.

10 Syrthiant ar fin y cleddyf: [a] rhan llwynôgod fyddant hwy.

11 Ond y brenin a lawenycha yn Nuw: gorfoledda pob un a dyngo iddo ef, canys caeir genau y rhai a ddywedant gelwydd.

## Pſalm.lxiiij.

*Pſalm Dafydd at y pen-cerdd.*

CLyw fy llef ô Dduw yn fyng weddi: cadw fy enioes rhag ofn y gelyn.

2 Cuddia fi rhag cyfrinach y rhai drygionus, [a] rhag terfyſc gweithredwŷr anwiredd.

3 Y rhai a hogâſant eu tafod fel cleddyf, ac a ſaethaſant ſaeth geiriau chwerwon:

4 I ſaethu'r perffaith yn ddirgel, yn ddiſymmwth y ſaethant ef, ac nid ofnant.

5 Ymnerthant [mewn] peth drygionus, ymchwedleuant am guddio y rhwydau: dywedant, pwy ai gwêl hwynt?

6 Chwiliaſant allan anwireddau, [a] chwplaſant y dirgelwch, a chywiliwyd [yng-heudod,] a dyfnder calon pob un [o honynt.]

7 Eithr Duw ai ſaetha hwynt â ſaeth ddiſymmwth, [fel] yr archoller hwynt.

8 Ac hwy a wnant iw tafodau eu hun ſyrthio arnynt: pob un ai gwêlo a giliant.

9 Pob dŷn ai gwêlo a fynegant [mai] gweithred Duw [yw hyn:] canys deallant [mai] ei waith ef [yw hyn.]

10 Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo ef: a'r rhai iniawn o galon oll a orfoleddant.

## Pſalm.lxv.

*At y pen-cerdd Pſalm* neu *gân Dafydd.*

MAwl a'th erys di yn Sion ô Dduw: ac i ti y têlir yr adduned [yn Ierusalem.]

2 [Ti] 'r hwn a wrandewi weddi, attat ti y daw pob cnawd.

*Prydnhawnol weddi.*

3 Pethau anwir a'm gorchfygâſant, ti a drugarhei wrth ein camweddau.

4 Gwyn ei fyd [yr hwn] a ddewiſech, ac a neſſâech attat: efe a drig yn dy gynteddoedd, ac ni a ddigonir â daioni dy dŷ, [ſef] dy Deml ſanctaidd.

5 Attebi i ni [bethau] ofnadwy yn [dy] gyfiawnder ô Dduw ein iechydwriaeth: gobaith holl gyrrau y ddaiar, ac eithafoedd y môr.

6 Yr hwn a ſicrhâ y mynyddoedd yn ei nerth, [ac] a wregyſſir â chadernid.

7 Yr hwn a oſtêga dwrf y moroedd, twrf eu tonnau, a therfyſc y bobloedd.

8 A phreſſwyl-wŷr eithafoedd [y bŷd] a ofnant rhag dy arwyddion, gwnei i derfyn boreu a hwyr [dy] glodfôri.

9 Yr wyt yn gofwyo y ddaiar, ac yn ei dwfrhau hi, yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr, afon Duw ſydd yn llawn dwfr: yr wyt yn paratoi ŷd iddynt, canys felly y darperaiſt hi.

10 Gan ddwfrhau ei rhychau, [a] goſtwng ei chwyſau, yr ydwyt yn ei mwydo hi â chafodau, ac yn bendithio ei chnŵd hi.

11 Coroni yr ydwyt y flwyddyn a'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant fraſter.

12 Diferant [ar] llanerchoedd yr anialwch: a'r brynnau a ymwregyſant â hyfrydwch.

13 Y dolydd a wiſcir â defaid, a'r dyffryn-

noedd a orchguddir ag ŷd, [am hynny] y bloeddiant, ac y cânant.

### Pſalm.lxvj.

*At y pen-cerdd Pſalm* neu *gân.*

Y Mlawenhewch yn Nuw yr holl fŷd.

2 Dadcenwch ogoniant ei enw: goſodwch ei foliant yn ogoneddus.

3 Dywedwch wrth Dduw, mor ofnadwy [ydwyt yn] dy weithredoedd: o herwydd amlder dy nerth y cymmer dy elynnion arnynt fod yn ddaroſtyngedic iti.

4 Yr holl fyd a ymoſtyngant iti, ac a gânant iti, [îe] canant i'th enw. Selah.

5 Deuwch, a gwêlwch weithredoedd Duw, ofnadwy [yw yn ei] weithred tu ag at feibion dynnion.

6 Trôdd efe y môr yn ſych-dir, aethant drwy 'r afon ar draed: yna y llawenychâſom ynddo.

7 Efe a lywodraetha yn ei gadernid byth, ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd, y rhai annufydd nid ymdderchafant. Selah.

8 Oh bobloedd molwch ein Duw, a phêrwch glywed llais ei fawl ef.

9 Yr hwn ſydd yn goſod ein henaid mewn bywyd, ac ni âd i'n troed lithro.

10 Canys profaiſt ni ô Dduw, a choethaiſt ni fel coethi arian.

11 Dygaiſt ni i'r rhwyd, goſodaiſt waſcfa ar ein lwynau.

12 Peraiſt i ddynnion farchogeth ar ucha ein pennau, aethom drwy yr tân, a'r dwfr: a thi a'n dygaiſt allan i [le] diwall.

13 Deuaf i'th dŷ ag offrymmau poeth, talaf it fy addunedau,

14 Y rhai a addawodd fyng-wefuſau, ac a ddywedodd fyng-enau yn fyng-hyfyngder.

15 Offrymmaf it boeth offrymmau breiſion yng-hyd ag arogl-darth hyrddod: aberthaf ŷchen, a bychod. Selah.

16 Deuwch, gwrandewch y rhai oll a ofnwch Dduw: a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid.

17 Llefais arno a'm genau, ac efe a dderchafwyd a'm tafod.

18 Pe edrychaſwn ar anwiredd yn fyng-halon, ni wrandawſe 'r Arglwydd.

19 Duw yn ddiau a glybu, [ac] a wrandawodd ar lais fyng-weddi,

20 Bendigedic fyddo Duw 'r hwn ni fwriodd fyng-weddi [oddi wrtho,] nai drugaredd ef oddi wrthif inne.

### Pſalm. lxvij.

*At y pen-cerdd ar y Neginoth Pſalm* neu *gân.*

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio, [a] thywynned ei wyneb arnom, [a thugarhaed wrthym.] Selah.

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaiar a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dy di.

4 Llawenhaed y cenhedloedd, a byddant hyfryd: canys ti a ferni y bobl yn iniawn, ac a lywodraethi y cenhedloedd ar y ddaiar, Selah.

5 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl di.

6 [Yna] 'r ddaiar a rydd ei ffrwyth: [a] Duw [ſef] ein Duw ni a'n bendithia.

7 Duw a'n bendithio, a holl derfynau 'r ddaiar ai hofnant ef.

### Pſal. lxviij.

*At y pen-cerdd Pſalm neu gân Dafydd.*

CYfoded Duw [a] gwaſcerir ei elynnion: ffoed ei gaſeion oi flaen ef.

*Borenol weddi.*

2 Chweli [hwynt] fel chwalu mŵg: fel y tawdd cŵyr wrth y tân difether y rhai annuwiol o flaen Duw.

3 Ond llawenycher y rhai cyfiawn, a gorfoleddant ger bron Duw: a byddant hyfryd o lawenydd.

4 Cenwch i Dduw, can-molwch ei enw, derchefwch yr hwn ſydd yn marchogeth ar y nefoedd, yr Arglwydd [yw] ei enw: gorfoleddwch ger ei fron ef.

5 Tâd yr ymddifaid, a barn-wr y gweddwon [yw] Duw yn ei breſſwylfa ſanctaidd.

6 Duw ſydd yn goſod rhai [i fod] yn gyd-tun mewn tŷ, ac yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynnau: ond y rhai cyndyn a breſſwyliant graſ-dir.

7 Pan aethoſt ô Dduw o flaen dy bobl: pan gerddaiſt trwy yr anialwch, Selah.

8 Y ddaiar a grynodd, a'r nefoedd a ddiferâſant o flaen Duw: [felly] Sinai yntef o flaen Duw, [ſef] Duw Iſrael.

9 Dihidlaiſt law graſllawn ô Dduw [ar] dy etifeddiaeth: ti ai gwrteithiaiſt wedi ei blîno.

10 Dy gynnulleidfa di ſydd yn trigo ynddi, yn dy ddaioni ô Dduw yr wyt yn darparu i'r tlawd.

11 Yr Arglwydd a roddes y gair, mawr [oedd] mintai y rhai a bregethent.

12 Brenhinoedd byddinoc a ffoaſant, [ac] a yrrwyd i gilio: a'r hon a drigodd yn tŷ a rannodd yr yſpail.

13 Er gorwedd o honoch rhwng y crochânau, [byddwch fel] eſcyll colomen wedi eu gwiſco ag arian, ai hadenydd o aur melyn.

14 Pan waſcarodd yr Holl-alluog frenhinoedd ynddi, yr oedd hi cyn wynned ag eira yn Salmon.

15 Mynydd Duw [ſydd fel] mynydd Baſan, yn fynydd cribog [fel] mynydd Baſan.

16 Pa ham y llemmwch chwi fynyddoedd cribog? y mynydd [hwn] a chwenychodd Duw ei breſſwylio, ac a breſſwylia'r Arglwydd byth.

17 Cerbydau Duw [ydynt] ugain mil [ſef] miloedd o angelion: a'r Arglwydd yn eu plith megis yng-hyſſegr Sinai.

18 Derchefaiſt i'r uchelder, caeth-gludaiſt gaethiwed, derbynnaiſt roddion i ddynion: a'r rhai cyndyn hefyd [a gaethiwaiſt,] gan breſwylio ô Arglwydd Dduw [yno.]

19 Bendigedic [fyddo]'r Arglwydd beunydd, [yr hwn] a'n llwytha ni â daioni: [ſef] Duw ein iechydwriaeth ni. Selah.

20 Efe [yw] ein Duw ni ſef Duw iechydwriaeth: a thrwy'r Arglwydd Dduw [y mae] diangc oddi wrth farwolaeth.

21 Duw yn ddiau a archolla benn ei elynnion, [a] choppa walltoc yr hwn a rodio yn ei gamweddau.

22 Dywedodd yr Arglwydd, dygaf [fy mhobl] trachefn [megis] o Baſan, dygaf [hwynt] yn eu hôl [megis] o ddyfnder y môr.

23 Fel y trochech dy droed mewn gwaed, [a] thafod dy gŵn yn [y gwaed] yr hwn [a ddaw] oddi wrth y gelynnion.

24 Gwelſant dy fynediad ô Dduw, [ſef] mynediad fy Nuw a'm Brenin yn y cyſſegr.

25 Y cantorion a aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ôl: yn y canol yr oedd y llangcéſau yn canu tympanau.

26 Clodforwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd, [clodforwch] yr Arglwydd [y rhai ydych] o ffynnon Iſrael.

27 Yno [y mae] Beniamin fychan eu llywydd, [a] thywyſogion Iuda eu cynnulleidfa: tywyſogion Zabulon, a thywyſogion Nephthali.

28 Dy Dduw a ordeiniodd nerth i ti, cadarnhâ ô Dduw yr hyn a wnaethoſt ynom ni.

29 Brenhinoedd a ddygant i ti anrheg er mwyn dy Deml yn Ieruſalem.

30 Difetha dyrfa y gwaywffyn, [ſef] cynnulleidfa gwrdd deirw, ym myſc lloi y bobl fel y delont yn oſtyngedic a darnau arian: gwaſcar y bobl a ewyllyſiant ryfel.

31 [Yna] pendefigion a ddeuant o'r Aipht, Ethiopia a eſtyn ei dwylo 'n bryſur at Dduw.

32 Teyrnaſoedd y ddaiar cênwch i Dduw, can-molwch yr Arglwydd, Selah.

33 Yr hwn a ferchyg ar y nefoedd goruchaf o'r dechreu: wele efe a ddyry ai leferydd ſain nerthol.

34 Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder [ſydd] ar Iſrael, ai nerth yn yr wybrennau.

35 Ofnadwy wyt ô Dduw o'th gyſſegr, Duw Iſrael yw efe, yn rhoddi nerth, a chadernid i'r bobl: bendigedic [fyddo] Duw.

## Pſalm. lxix.

*At y pen-cerdd ar chwe-thant* pſalm *Dafydd.*

Achub fi ô Dduw, canys y dyfroedd a ddaethant hyd at [fy] enaid.

*Prydnhawnol weddi.*

2 Glŷnais yn y domm dyfn, lle ni [chawn] ſefyllfa: deuthum i ddyfnder y dyfroedd, a'r ffrŵd a lifodd troſof.

3 Blinais yn llefain, ſychodd fyng-hêg, [a] phallodd fy llygaid: [a mi] yn diſgwil wrth fy Nuw.

4 Amlach na gwallt fy mhenn yw y rhai a'm caſânt heb achos: cedyrn yw fyng-elynnion y rhai a'm difethent ar gamm: yna y têlais yr hyn ni chymmerais.

5 O Dduw ti a adwaenoſt fy ynfydrwydd, ac nid yw fyng-hamweddau guddiedic oddi wrthit ti.

6 Na chywilyddier o'm plegit i y rhai a obeithiant ynot ti Arglwydd Dduw y lluoedd: na wradwydder o'm plegit i y rhai a'th geiſiant ti ô Dduw Iſrael.

7 Canys er dy fwyn di y dygais warthrudd, [ac] y tôdd cywilydd fy wyneb,

8 Euthym yn ddieithr i'm brodyr, ac [fel] eſtron gan blant fy mam.

9 Canys * zêl dy dŷ a'm hyſſodd, a gwradwyddiad y rhai a'th wradwyddent di a ſyrthiodd arnafi.

10 Wylais [gan gyſtuddio] fy enaid ag ympryd, a [bu hynny] yn wradwydd i mi.

11 Gwiſcais hefyd ſach-liain, ac euthym yn ddihareb iddynt.

12 Am danafi y chwedleue y rhai a eiſteddent yn y porth, ac [y gwnae] y rhai meddwon wawd.

13 Ond mi [a wnaf] fyng-weddi attat ti ô Arglwydd mewn amſer cymmeradwy ô Dduw, yn lluoſogrwydd dy drugaredd: gwrando fi yng-wirionedd dy iechydwriaeth.

14 Gwaret fi o'r domm fel na ſoddwyf, rhyddhaer fi oddi wrth fyng-haſeion, ac o'r dyfroedd dyfnion.

15 Na lifed y ffrŵd ddwfr troſof, ac na lyngced y dyfnder fi: na chaeued pydew ychwaith ei ſafn arnaf.

16 Clyw fi Arglwydd, canys dâ [yw] dy drugaredd: yn ôl amlder dy doſturiaethau edrych arnaf.

17 Ac na chuddia dy wyneb oddi wrth dy wâs, canys [y mae] cyfyngder arnaf, bryſia, gwrando fi.

18 Neſâ at fy enaid, a gwaret ef, rhyddhâ fi o herwydd fyng-elynnion.

19 Ti a adwaenoſt fyng-warthrudd, am cywilydd, a'm gwradwydd: fy holl elynnion [ydynt] ger dy fron di.

20 Gwarthrudd a ddrylliodd fyng-halon, yr ydwyf yn goſidio: canys diſgwiliais [am rai] i doſturio [wrthif,] ac nid [oedd neb:] âc am gyſſur-wŷr, ac ni chefais [neb.]

21 Eithr rhoddâſant fuſtl yn fy mwyd, ac a'm diodâſant yn fy ſyched â finegr.

22 Bydded eu bwrdd hwythau yn fagl ger eu bron, ai llwyddiant yn dramgwydd.

23 Tywyller eu llygaid fel na welont, a gwna iw cefnau grymmu bob amſer.

24 Tywallt dy ddig arnynt, a goddiwedded llidiawgrwydd dy ddigofaint hwynt.

25 Bydded eu preſwylfod yn anghyfannedd, ac na fydded a drigo yn eu pebyll:

26 Canys erlidiâſant yr hwn a darawſit ti, ac am ofid y rhai a archollaiſt ti y crybwyllant.

27 Dod ti anwiredd ar anwiredd iddynt, ac na ddelont yn dy gyfiawnder di.

28 Tynner hwynt ymmaith o lyfr y bywyd: ac nac ſcrifenner hwynt gyd a'r rhai cyfiawn.

29 Pan [fyddwyf] druan, a gofidus, dy iechydwriaeth di ô Dduw a'm cyfyd fi.

30 Moliannaf enw Duw ar gân, a mawrygaf ef mewn mawl.

31 A [hyn] fydd gwell gan yr Arglwydd nag ŷch, [neu] fuſtach corniog, carnol.

32 Y trueniaid a lawenychant [pan] welant [hyn:] eich calon chwithau y rhai a geiſiwch Dduw a fydd byw.

33 Canys gwrendu 'r Arglwydd ar dlodion, ac ni ddiyſtyra efe ei garcharorion.

34 Nefoedd, a daiar, y môr a'r hyn oll a ymluſco ynddo ai molant ef.

35 Canys Duw a achub Sion, ac a adailada ddinaſoedd Iuda, fel y triger yno, ac y meddianner hi.

36 Ie hiliogaeth ei weiſion ai meddiannant hi: a'r rhai a hoffant ei enw ef a breſſwyliant ynddi.

## Pſalm. lxx.

*At y pen-cerdd pſalm Dafydd i goffa.*

O Dduw [pryſſura] i'm gwarêdu, bryſſia Arglwydd i'm cymmorth.

2 Cywilyddier, a gwarthrudder y rhai a geiſiant fy enaid: troer yn eu hôl, a gwradwydder y rhai a ewyllyſiant ddrwg i mi.

3 Datroer yn lle gwobr am eu cywilydd, y rhai a ddywedant, ha, ha.

o Llawenyched, a gorfoledded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant, a dyweded y rhai a gârant dy iechydwriaeth yn waſtad, mawryger Duw.

5 Minne [ydwyf] druan a thlawd, ô Dduw bryſſia attaf, fyng-hymmorth a'm gwaredudd [ydwyt] ti, ô Arglwydd na hîr drig.

*Boreuol weddi.*

## Pſalm. lxxj.

YNot ti ô Arglwydd y gobeithiais, na'm cywilyddier byth.

2 Achub fi, a gwaret fi yn dy gyfiawnder: goſtwng dy gluſt attaf, ac achub fi.

3 Bydd i mi 'n graig gadarn, i ddyfod iddi bob amſer: addewaiſt fy achub, canys ti yw fyng-hraig a'm hamddeffynfa.

4 Gwaret fi ô Dduw o law 'r annuwiol, o law y trofaus, a'r traws.

5 Canys ti yw fyng-obaith ô Arglwydd Dduw, [ſef] fyng-obaith o'm ieuengctid.

6 Wrthit ti i'm cynhaliwyd o'r bru, ti a'm tynnaiſt o grôth fy mam: fy mawl [fydd] yn waſtad am danat ti.

7 Oeddwn i lawer megis yn anghenfil, eithr ty di [wyt] fyng-hadarn obaith.

8 Llanwer fyng-enau a'th foliant, dy ogoniant [a ddadcanaf] beunydd, [a'th anrhydedd.]

9 Na fwrw fi ymmaith yn amſer henaint: na wrthot fi pan ddarfyddo fy nerth.

10 Canys fyng-elynnion ydynt yn chwedleua i'm herbyn, a'r rhai a ddiſgwiliaſant am fy enaid, a gyd-ymgyngorâſant

11 Gan ddywedyd, Duw ai gwrthododd ef, erlidiwch, a deliwch ef, canys nid [oes] gwaredudd.

12 O Dduw na fydd bell oddi wrthif, fy Nuw bryſſia i'm cymmorth.

13 Cywilyddier, a difether y rhai a wrthwynebant fy enaid, â gwarth ac â gwradwydd y gorchguddier y rhai a geiſiant ddrwg i mi.

14 Minne a obeithiaf yn waſtad, ac a'th foliannaf di fwy-fwy.

15 Fyng-enau a fynêga dy gyfiawnder, a'th iechydwriaeth beunydd: canys ni wn rifedi [arnynt.]

16 Yng-hadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf, dy gyfiawnder di yn unic a goffaf fi.

17 O'm ieuengctid i'm dyſcaiſt ô Dduw, am hynny y mynegaf dy ryfeddodau hyd yn hyn.

18 Na wrthot fi ychwaith ô Dduw mewn henaint, a phen-llwydni, hyd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth [hon,] a'th gadernid i bob un a ddelo.

19 Dy gyfiawnder ô Dduw a aeth yn uchel yr hwn a wnaethoſt [bethau] mawrion, pwy ô Dduw [ſydd] fel tydi?

20 Yr hwn a wnaethoſt i mi weled aml a drygionus gyſtudd, [etto] dychwelaiſt [a] bywheaiſt fi, dychwelaiſt a chyfodaiſt fi o orddyfnder y ddaiar.

21 Amlhei fy mawredd, troi hefyd [a] chyſſuri fi.

22 Minne a'th foliannaf ô Dduw ar offeryn nabl [am] dy wirionedd: cânaf it a'r delyn ô Sanct Iſrael.

23 Fyng-weluſau fyddant hyfryd pan ganwyf i ti, a'm henaid yr hwn a warêdaiſt.

24 Fy nhafod hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd, o herwydd cywilyddio, [ac] am wradwyddo y rhai a geiſiant niwed i mi.

## Pſalm. lxxij.

Pſalm *Salomon.*

O Dduw dod ti i'r brenin dy farnedigaethau: ac î fab y brenin dy gyfiawnder.

2 [Yna] y barn efe dy bobl mewn cyfiawnder: a'th drueniaid mewn iniondeb.

3 Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl a'r bryniau gyfiawnder.

4 Efe a farn drueniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghênus: ac a ddryllia y gorthrymmudd.

5 Tra fyddo haul a lleuad i'th ofnant,[yn] oes oeſoedd.

6 Efe a ddeſcyn fel glaw ar gnû gwlân,fel cafodydd yn dyfrhau y ddaiar.

7 Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyfiawn, ac amlder o heddwch fydd tra [fyddo] lleuad.

8 Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaiar.

9 Di flaen ef yr ymgrymma trigolion yr anialwch : ai elynnion a lŷfant y llŵch.

10 Brenhinoedd Tharſis,a'r ynyſoedd a dâlant anrheg, brenhinoedd Saba, ac Arabia a ddygant rodd.

11 Ie'r holl frenhinoedd a ymgrymmant iddo ef : yr holl genhedloedd ai gwaſanaethant ef.

12 Canys efe a wared yr anghênog pan waeddo,a'r truan hefyd, a'r[hwn] ni [byddo] cynnorthwy-wr iddo.

13 Efe a arbed y tlawd a'r rheidus : ac a achub enaid y rhai anghenus.

14 Efe a wareda ei henaid oddi wrth dwyll, a thrawſder : a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef,

15 Byw hefyd fydd efe, a rhoddir iddo o aur Arabia: gweddiãt hefyd arno ef yn waſtad: beunydd y clodforir ef.

16 Bydd dyrned o ŷd ar y ddaiar ym mhen y mynyddoedd, ei ffrwyth a eſcwyd fel Libanus : a[phobl]a tarddant o'r ddinas fel gwellt y ddaiar.

17 Ei enw fydd yn dragywydd,ei enw a beru tra fyddo haul,yr holl genhedloedd a fendithir ynddo ef, ac ai clodforant ef.

18 Bendigèdic[fyddo]'r Arglwydd Dduw [ſef]Duw Iſrael,yr hwn yn unic ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

19 Bendigedic hefyd[fyddo]enw ei ogoniant ef yn dragywydd : a'r holl ddaiar a lanwer oi ogoniant, Amen, Amen.

YMMA y gorphennir gweddiau Dafydd fab Iſai.

## Pſalm.lxxiij.

*Pſalm at Aſaph.*

*Prydnhawnol weddi*

YN ddiau dâ [yw] Duw i Iſrael : [ſef] i'r rhai glân o galon.

2 Etto braidd na lithrodd fy nhraed, prinn na thrippiodd fyng-herddediad.

3 Canys cenfigennais wrth y rhai ynfyd, [pan] welais lwyddiant y rhai annuwiol.

4 Canys heb ofid[ y deuant ]iw marwolaeth,ai cryfder [ſydd] heini.

5 Nid [ydynt] mewn blinder dynawl, ac ni ddialeddir arnynt hwy gyd â dynnion eraill.

6 Am hynny y cadwynodd balchder hwynt [ac] y gwiſc trawſder am danynt[fel]dilledyn.

7 Eu llygad a ſaif allan gan fraſder: aethãt tros feddwl calon[o gyfoeth.]

8 Y maent yn llygru, yn chwedleua yn ddrygionus[am]drawſder : [ac] yn dywedyd yn uchel.

9 Goſodâſant eu genau yn erbyn y nefoedd, ai tafod a gerdd trwy'r ddaiar.

10 Am hynny y dychwel ei bobl ef ymma, ac y gweſcir iddynt ddwfr[phiol]lawn.

11 Dywedant hefyd, pa fodd y gŵyr Duw, a oes gwybodaeth gan y Goruchaf?

12 Wele dymma y rhai annuwiol, a'r rhai ydynt lwyddiannus yn waſtad : [ ac ] a amlhâſant olud.

13 Diau [mai]yn ofer y glanhêais fyng-halon,ac y golchais fy nwylo mewn gwiriondeb.

14 Canys ar hyd y dydd i'm maeddwyd, fyng-hoſp [a ddeue]bôb boreu.

15 Os dywedwn,mynega fel hyn, wele [â] chenhedlaeth dy blant di y gwnawn gam.

16 Pan amcânwn ddeall hyn,blîn [ oedd] hynny yn fyng-olwg inau ſi,

17 Hyd onid euthum i gyſſegr Duw : yna y deallais eu diwedd hwynt.

18 Diau oſod o honot hwynt yn llithric[a] chwympo o honot ti hwynt i anghyfannedd-dra.

19 Mor ddiſymmwth yr aethant yn anghyfannedd, y pallhâſant,ac y darfuant yn aruthrol.

20 Fel breuddwyd wrth ddihuno[un,] y gwnei eu gwedd hwynt yn ddirmygus yn y ddinas ô Arglwydd.

21 Diau liwio fyng-halon : a'm trywanu trwy fy arennau.

22 Canys[yr oeddwn ]i yn ynfyd, ac heb wybod [dim : ]anifail oeddwn o'th flaen di.

23 Etto yr[oeddwn]yn waſtad gyd â thi : ymaflaiſt yn fy llaw ddehau.

24 Yn dy gyngor i'm harweini : ac wedi [hynny] i'm cymmeri [i]ogoniant.

25 Pwy [ſydd]gennifi yn y nefoedd [ond tydi:] ac ni ewyllyſiais ar y ddaiar [neb] gyd â thydi.

26 Pallodd fyng-nhawd a'm calon, nerth fyng-halon,a'm rhan [yw] Duw yn dragywydd.

27 Canys wele difethir y rhai a bellhânt oddi wrthit, peraiſt ddorri ymmaith bôb un a butteinio oddi wrthit.

28 Minne,neſſau [at] Dduw [ſydd ]dda i mi, yn yr Arglwydd Dduw y goſodais fyng-obaith, i draethu dy holl weithredoedd [ ym mhyrth merch Sion.]

## Pſalm,lxxiiij.

*Athrawiaeth i Aſaph.*

PA ham Dduw y cſtiaiſt yn dragywydd,[ac] y mwg a dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

2 Cofia dy gynnulleidfa ['r hon] a bryniaiſt gynt, [a] llwyth dy etifeddiaeth [yr hwn] a warêdaiſt: [ſef] mynydd Sion yr hwn y preſſwyliaiſt ynddo.

3 Dercha dy draed i ddiniſtrio yn dragywydd bôb gelyn yr hwn a wnaeth niwed yn dy gyſſegr.

4 Dy wrthwynebwŷr a ruâſant o fewn dy gynnulleidfa: goſodaſant eu banérau yn arwyddion.

5 Hynod fydde (fel un yn dwyn [peth] i odidogrwydd) [yr hwn a gode] fwŷill mewn dyrys-goed.

6 Ac yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau eu gyd â bwŷill, ac â morthwylion.

7 Bwriaſant dy gyſſegroedd yn tân, hyd lawr yr halogâſant breſſwylfa dy enw.

8 Dywedâſant yn eu calonnau, cyd-anrheithiwn hwynt, [felly] y lloſcâſant holl Demlau Duw yn y tir.

9 Ni welwn ein harwyddion, nid [oes] brophwyd mwy, nid oes gennym a ŵyr ddim mwpach.

10 Pa hŷd Dduw [ith] warthrudda 'r gwrchwyneb-wr? a gabla 'r gelyn dy enw yn dragywydd?

11 Pa ham y tynni yn ei hôl dy law? [ſef] dy ddeheu-law? [tynn hi allan] o ganol dy fonwes, [a] difetha hwynt.

12 Canys Duw [yw] fy Mrenin o'r dechreuad, gwneuthur-wr [pôb] iechydwriaeth o fewn y tîr.

13 Ti yn dy nerth a barthaiſt y môr, dryllïaiſt bennau dreigiau yn y dyfroedd.

14 Ti a ddrylliaiſt ben Lefiathan, rhoddaiſt ef yn fwyd i'r bobl [yn] yr anialwch.

Exod.17.6.
Num.20.11.

15 Ti *a hólltaiſt [y graig i fod] yn ffynnō, ac yn afon, ti a ddiyſpyddaiſt afonydd cedyrn.

16 Y dydd [ſydd] eiddo ti, y nôs hefyd [ſydd] eiddo ti: ti a baratoaiſt o leuni, a haul.

17 Ti a oſodaiſt holl derfynau 'r ddaiar, ti a luniaiſt hâf, a gaiaf.

18 Cofia hyn, y gelyn a gablodd yr Arglwydd, a phobl ynfyd a ddifenwaſant dy enw.

19 Na ddyro enaid dy durtur i gynnulleidfa [y gelynnion,] nac anghofia gynnulleidfa dy drueniaid byth.

20 Edrych ar y cyfammod, canys llawnwyd tywyll-leoedd y tir o gorlannau trawſter.

21 Na ddychweled y tlawd yn wradwyddus, molianned y truan, a'r anghênus dy enw.

22 Cyfot ô Dduw dadleu dy ddadl, coffa dy gabledd [yr hon a dderbynni] gan yr ynfyd beunydd.

23 Nac anghofia lais dy elynnion, dadwrdd y rhai a godant i'th erbyn ſydd yn dringo yn waſtadol.

### Pſalm. lxxv.

*At y pen-cerdd,* Na ddifetha. *Pſalm neu gân i Aſaph.*

Borenol weddi.

CLodforwn dydi ô Dduw, clodforwn, canys agos [yw] dy enw: dy ryfeddôdau a fynêgant [hynny.]

2 Pan dderbynnwyf y gynnulleidfa, mi a farnaf yn iniawn.

3 Ymddatododd y ddaiar, ai holl drigolion: [a] mi a ſiccrhêais ei cholofnau. Selah.

4 Dywedais wrth y rhai ynfyd, nac ynfydwch: ac wrth y rhai annuwiol, na dderchêfwch [eich] corn.

5 Na dderchêfwch eich corn yn uchel, na ddywedwch yn war-ſyth.

6 Canys nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewyn, nac o'r dehau [ydaw] goruchafiaeth,

7 O herwydd Duw ſydd yn barnu, efe a oſtwng y naill, ac a gyfyd y llall.

8 O blegit [y mae] phîol yn llaw 'r Arglwydd, a'r gwin ſydd gôch yn llawn cymmyſc, ac efe a dywalltodd o hwnnw: etto holl annuwolion y tîr a waſcant, [ac] yfant ei waelodion.

9 Minne a fynegaf yn dragywydd, [ac] a ganaf i Dduw Jacob.

10 Torraf hefyd holl gyrn y rhai annuwiol, [a] chyrn y rhai cyfiawn a dderchefir.

### Pſalm. lxxvj.

*At y pen-cerdd ar Neginoth Pſalm* neu *gân i Aſaph.*

HYnod yw Duw yn Juda, [a] mawr [yw] ei enw ef yn Jſrael.

2 Ei babell hefyd ſydd yn Salem, ai drigfa yn Sion.

3 Yna y drylliodd efe y ſaethau, y bwa, [a'r] tarian: y cleddyf hefyd a'r frwydr. Selah.

4 Diſcleiriach [wyt] ti, [a] chadarnach nâ mynyddoedd yr yſpeil-wŷr.

5 Yſpeiliwyd y cedyrn galon, hunâſant eu hûn, a'r holl wŷr cedyrn o nerth ni chawſant [ddim.]

6 Gan dy gerydd di ô Dduw Jacob, y rhoed y cerbyd a'r march i gyſcu.

7 Tydi, tydi wyt ofnadwy, pwy a ſaif o'th flaen pan [enynno] dy ddigter?

8 O'r nefoedd y cyhoeddaiſt [dy] farn, ofnodd, a goſtegodd y ddaiar.

9 Pan gyfododd Duw i farnu, [ac] i achub holl rai llednais y tîr. Selah.

10 Canys cynddaredd dŷn a'th folianna di, [a] gweddill [eu] cynddaredd a oſtegi di.

11 Addunedwch, a thêlwch i'r Arglwydd eich Duw: y rhai oll ydych oi amgylch ef dygwch anrheg i'r ofnadwy.

12 Efe a dynn ymmaith yſpryd tywyſogion, [ac efe ſydd] ofnadwy i frenhinoedd y ddaiar.

### Pſalm. lxxvij.

*At Iedutun y pen-cerdd Pſalm i Aſaph.*

A'M llef y gwaeddaf ar Dduw: a'm llef [y gwaeddaf] ar Dduw, ac efe a'm gwrendu.

2 Yn nydd fy nhrallod y ceiſiais yr Arglwydd, fy archoll a redodd liw nôs, ac ni pheidiodd : fy enaid a wrthododd [ei] ddiddânu.

3 Meddyliwn am Dduw pan i'm cythryblid, gweddiwn, pan derfyſcer fy yſpryd. Selah.

4 Deliaiſt fy llygaid yn neffro, fe ſynnodd arnaf, dychrynnais fel nad allwn leſaru.

5 [Yna]'r yſtyriais y dyddiau gynt, [a] blynyddoedd yr hên oeſoedd.

6 Meddylio yr ydwyf am fyng-hân, y nôs yr ydwyf yn myfyrio wrthif fy hun : fy yſpryd ſydd yn chwilio [fel hyn:]

7 Ai yn dragywydd y cilia 'r Arglwydd ? ac oni bydd efe bodlon mwy ?

8 A ddarfu ei drugaredd ef tros byth ? a balla gair ei [addewid ef] yn oes oeſoedd ?

9 A anghofiodd Duw drugarhaû, a gaeuodd efe ei drugareddau mewn ſorriant ? Selah.

10 A dywedais, dymma fyng-wendid, [etto coſiaf] flynyddoedd deheu-law y Goruchaf.

11 Coſiaf weithredoedd yr Arglwydd, ie coſiaf dy wrthiau gynt.

12 Myfyriaf hefyd am dy holl weithredoedd, ac am dy ddychymmygion y chwedleuaf.

13 Dy ffordd ô Dduw [ſydd] mewn ſancteiddrwydd, pa Dduw [ſydd mor] fawr a'n Duw [ni ?]

14 Ti Dduw ydwyt yn gwneuthur rhyfeddodau, yſpyſaiſt dy nerth ym myſc y bobloedd.

15 Gwarêdaiſt y bobl yn nerthol, [ſef] meibion Jacob, ac Joſeph, Selah.

16 Y dyfroedd a'th welſant ô Dduw, y dyfroedd a'th welſant, [ac] a ofnaſant : y dyfndêrau hefyd a gynhyrfwyd.

17 Y cwmylau a biſtyllaſant ddwfr, yr wybrennau a roddâſant dwrwf : dy ſaethau hefyd a gerddâſant.

18 Twrf dy daran [a glywyd] o amgylch, mellt a oleuâſant y bŷd : cyffrôdd, a chrynodd y ddaiar.

12 Dy ffordd [ſydd] yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion : ac nid adweinir dy ôl.

20 Tywyſaiſt dy bobl fel defaid drwy law Moſes, ac Aaron.

## Pſalm.lxxviij.

*Athrawiaeth i Aſaph.*

*Prydnhawnol weddi.*

GWrando fyng-hyfraith fy mhobl, goſtyngwch eich clust at eiriau fyng-enau.

2 Agoraf fyng-enau mewn dihareb, a thraethaf ddammegion o'r cynfyd.

3 Y rhai a glywſom, ac a wybûom, ac a fynêgodd ein tadau i ni.

4 Ni chêlwn rhag eu meibion, [eithr] mynegwn i'r oes neſaf foliant yr Arglwydd ai nerth, ai ryfeddodau, y rhai a wnaeth efe.

5 Fel y cyfododd efe deſtiolaeth yn Jacob, ac y goſododd gyfraith yn Iſrael : y rhai a orchymynnodd efe i'n tadau eu dyſcu iw plant.

6 Fel y gwybydde 'r oes neſaf, [ſef] y plant a ênyd, a [phan] gyfodent y mynegent [hwy] iw plant hwythau.

7 Fel y goſodent eu gobaith ar Dduw, heb anghofio gweithredoedd Duw, eithr cadw ei orchymynnion ef.

8 Ac na byddent fel eu tadau yn genhedlaeth gyndyn, ac annufydd, yn genhedlaeth nid yw iniawn ei chalon, ac nid yw ei hyſpryd ffyddlon i Dduw.

9 Meibion Ephraim yn arfog [ac] yn ſaethu [â] bŵa a droeſant yn nydd y frwydr.

10 Ni chadwâſant gyfammod Duw, eithr gwrthodâſant rodio yn ei gyfraith ef.

11 Ac anghofiâſant ei weithredoedd, ai ryfeddodau y rhai a ddangoſâſe efe iddynt.

12 Efe a wnaethe wrthiau o flaen eu tadau hwynt yn nhir yr Aipht, [ym] maes Zoan.

13 Efe a barthodd y môr, ac a aeth â hwynt drwodd, gwnaeth hefyd i'r dwfr ſefyll fel pen-twr.

14 Y dydd hefyd y tywyſodd efe hwynt mewn cwmwl, ac ar hŷd y nos wrth oleuni tân.

15 Hollodd efe y creigiau yn yr anialwch, a rhoddes ddiod [oddi yno] megis [o] ddyfnderau dirfawr :

16 Canys efe a ddug lifeiriant o'r graig, ac a dynnodd i lawr megis afonydd o ddyfroedd.

17 Er hynny chwanegâſant etto bechu yn ei erbyn ef, gan ddigio y Goruchaf yn y diffaethwch :

18 A themptiâſant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blŷs.

19 Llefarâſant hefyd yn erbyn Duw, [ac] a ddywedâſant, a ddichon Duw arlwyo bwrdd yn yr anialwch ?

20 Wele efe a darawodd y graig, fel y piſtyllodd dwfr, ac y llifodd afonydd, a ddichon efe roddi bâra hefyd ? a ddarpara efe gîg iw bobl ?

21 Am hynny y clybu 'r Arglwydd, ac y digiodd, a thân a enynnodd yn Jacob, a digofaint hefyd a gynneuodd yn Iſrael,

22 Am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei iechydwriaeth ef.

23 Er hynny efe a orchymynnaſe i'r wybrennau oddi uchod, ac a agorâſe ddryſau y nefoedd :

24 Ac a lawiaſe Manna arnynt iw fwyttai ac a roddâſe iddynt lynniaeth o'r nêfoedd.

25 Dŷn a fwyttaodd fara angelion, anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol.

26 Gyrrodd y dwyrein-wynt hyd y nefoedd : ac yn ei nerth y dûg efe ddeheu-wynt.

27 Glawiodd hefyd gîg arnynt fel llwch : ac adar aſcelloc fel tywod y môr.

28 Ac a wnaeth [iddynt] gwympo o fewn eu gwerſyll, o amgylch eu preſwylfeudd.

29 Felly y bwyttaſant, ac y llwyr ddiwallwyd hwynt, ac efe a barodd eu dymuniad iddynt.

30 Ni omeddwyd hwynt o'r hyn a flyſiaſât, [er hynny] tra yr ydoedd bwyd yn eu ſafnau,

31 Digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac efe a laddodd o'r rhai braſaf o honynt, ac a oſtyngodd etholedigion Iſrael:

32 Er hyn oll pechâſant etto, ac ni chredâſant iw ryfeddodau ef.

33 Am hynny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd, ai blynyddoedd mewn dychryn.

34 Pan lladde efe hwynt, os ceiſient ef, a dychwelyd, a cheiſio Duw yn foreu:

35 Os cofient mai Duw [oddd] eu craig, mai y goruchaf Dduw [oedd] eu gwaredudd,

36 Er iddynt ragrithio iddo ef ai gênau, a dywedyd celwydd wrtho ai tafod,

37 Ai calon heb [fod] yn iniawn gyd ag ef, nai bod yn ffyddlon yn ei gyfammod ef:

38 Er hynny efe yn drugarog a faddeuodd [eu] hanwiredd, ac ni ddifethodd [hwynt:] eithr trôdd ymmaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lid.

39 Eithr efe a gofie mai cnawd [oeddynt] hwy, [a] gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd.

40 Pa ſawl gwaith y digiaſant ef yn yr anialwch, ac y gofidiaſant ef yn y diffaethwch?

41 Canys troaſant, a phrofaſant Dduw, a themptiaſant Sanct yr Iſrael.

42 Ni chofiaſant ei nerth ef, [na'r] dydd y gwaredodd efe hwynt oddi wrth y gelyn.

43 Yr hwn a oſododd ei arwyddion yn yr Aipht, ai ryfeddodau ym maes Zoan.

44 Ac a drôdd eu hafonydd ai ffrydau yn waed, fel na allent yfed.

45 Anfonodd gymmyſc-blâ yn eu plith, ac ai difâodd hwynt: a llyffaint iw difetha hwynt.

46 Efe a roddodd eu cnŵd hwynt i'r Locuſt, ai llafur i'r celioc rhedyn.

47 Deſtruwiodd eu gwin-wŷdd â chenllyſc, ai Sycomor-wŷdd â cheſair.

48 Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllyſc, ai cyfoeth i'r mellt.

49 Anfônodd arnynt gynddaredd ei lid, llidiawgrwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon angelion drwg.

50 Cymhwyſodd ffordd iw ddigofaint, nid attaliodd eu henaid oddi wrth angeu: ai bywyd a roddodd efe i'r haint.

51 Tarâwodd hefyd bôb cyntaf-anedic yn yr Aipht, ſef blaenion eu nerth hwynt ym mhebyll Cam.

52 Ond efe a yrrodd ei bobl ei hun fel defaid, ac ai harweiniodd hwynt fel praidd trwy 'r anialwch.

53 Tywyſodd hwynt hefyd yn ddiogel fel nad ofnaſant: a'r môr a orchguddiodd eu gelynnion hwynt.

54 Hwychau a ddug efe i oror ei ſancteiddrwydd: [i'r] mynydd hwn a ennillodd ei ddeheulaw ef.

55 Ac efe a yrrodd allan genhedloedd oi blaen hwynt, ac a rannodd iddynt [eu] rhan-dir [hwynt] yn etifeddiaeth: a gwnaeth i lwythau Iſrael drigo yn eu pebyll hwynt.

56 Er hynny temptiâſant, a digiâſant Dduw goruchaf, ac ni chadwâſant ei deſtiolaethau.

57 Eithr ciliâſant a buant anffyddlon fel eu tadau: troâſant fel bŵa twyllodrus.

58 Digiâſant ef hefyd ai huchel-fannau: a llidiaſant ef ai cerfiedic ddelwau.

59 Clybu Duw [hyn] ac a ddigiodd, ac a ddiyſtyrodd Iſrael yn ddirfawr.

60 Gadawodd hefyd dabernacl Silo, y babell a oſodaſe efe ym myſc dynnion.

61 A rhoddes ei nerth mewn caethiwed, ai hrydferthwch yn llaw 'r gelyn.

62 Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf, a digiodd wrth ei etifeddiaeth.

63 Tân a yſſodd ei wŷr ieuaingc, ai forwynion ni phriodwyd.

64 Ei offeiriaid a laddwyd a'r cleddyf, ai wragedd gweddwon nid ŵylaſant.

65 Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel [un] o gyſcu: fel cadarn yn bloeddio wedi gwîn.

66 Ac efe a darawodd ei elynnion yn ei hôl: rhoddes iddynt warth tragywyddol.

67 Gwrthododd hefyd babell Ioſeph, ac ni etholodd lwyth Ephraim.

68 Ond efe a etholodd lwyth Iuda, ſef mynydd Sion yr hwn a hoffodd efe.

69 Ac a adailadodd ei gyſſegr fel [llŷs] uchel: fel y ddaiar yr hon a ſeiliodd efe yn dragywydd.

70 Etholodd hefyd Ddafydd ei wâs, ac ai cymmerth o gorlannau y defaid.

71 Oddiar ôl [y defaid] cyfebrion y daeth ag ef i borthi Iacob ei bobl, ac Iſrael ei etifeddiaeth.

72 Yntef ai porthodd hwynt yn ôl perffeithrwydd ei galon, ac ai trinodd wrth gyfarwyddyd ei ddwylo.

## Pſalm. lxxix.

*Pſalm i Aſaph.*

*Borewol weddi.*

Y Cenhedloedd ô Dduw a ddaethant i'th etifeddiaeth, halogâſant dy Deml ſanctaidd [a] goſodâſant Ieruſalem yn garneddau.

2 Rhoddâſant gelanedd dy weiſion yn fwyd i adar y nefoedd, [a] chîg dy ſainct i fwyſt-filod y ddaiar.

3 Tywalltaſant eu gwaed fel dwfr o amgylch Ieruſalem, ac nid [oedd ai] cladde.

4 Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymmydogion, dirmyg, a gwatwargerdd i'r rhai ydynt o'n hamgylch.

5 Pa hŷd Arglwydd? a ddigi di 'n dragywydd? a lyſc dy eiddigedd di fel tân?

6 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd, y rhai ni'th adnabuant: ac ar y teyrnasoedd y rhai ni alwâsant ar dy enw.

7 Canys yſſasant Jacob, ac a wnaethant ei breſſwylfa ef yn anghyfannedd.

8 Na chofia 'r anwireddau gynt i'n herbyn, bryſſia, [a] rhacflaened dy dostur drugareddau ni: canys llesc iawn ydym.

9 Cynnorthwya ni ô Dduw ein iechydwriaeth er mwyn gogoniant dy enw: gwaret ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau er dy enw.

10 Pa ham y dywed y cenhedloedd, pa lê [y mae] eu Duw hwynt? bydded hyſpys ym mhlith y cenhedloedd yn ein golwg ni [pa] ddial [a ddaw am] waed dy weiſion yr hwn a dywalltwyd.

11 Deued uchenaid y carcharorion ger dy fron, yn ôl mawredd dy nerth cadw blant marwolaeth.

12 Tâl i'm cymmydogion ar y seithfed i'w monwes y gabledd, drwy 'r hon i'th gablâsant di ô Arglwydd.

13 A ninneu dy bobl, a defaid dy borfa a'th foliannwn di yn dragywydd: ac a ddatcanwn dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth.

## Pſalm. lxxx.

*At y pen-cerdd ar chwe-thant testiolaeth [nen] gan i Aſaph.*

GWrando ô fugail Israel, yr hwn wyt yn arwain Joseph fel defaid: ymddiſcleiria yr hwn wyt yn eiſtedd ar y Cerubiaid.

2 Cyfod dy nerth o flaen Ephraim, Beniamin a Manaſſes, a thyret yn iechydwriaeth i ni.

3 Dychwel ni ô Dduw, a llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

4 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, pa hŷd y sorri wrth weddi dy bobl?

5 Gwnaethoſt iddynt fwytta bara dagrau, a diodaiſt hwynt â dagrau [wrth] fesur mawr.

6 Gosodaist ni yn gynnen i'n cymmydogion, a'n gelynnion a'n gwatwarent yn eu myſc eu hun.

7 O Dduw 'r lluoedd dychwel ni, a thywynna dy wyneb, ac ni a achubir.

8 Mudaiſt win-wydden o'r Aipht, bwriaiſt y cenhedloedd allan, a phlennaiſt hi.

9 Arloeſaiſt oi blaen, a pheraiſt i'r gwraidd wreiddio, a hi a lanwodd y tîr.

10 Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chyſcod: ai changhennau [oeddynt fel] cedr-wŷdd rhagorol.

11 Hi a eſtynnodd ei changau hyd y môr, ai brig hyd yr afon.

12 Pa ham y rhwygaiſt ei chaeau, fel y tynno pawb a'r a elo heibio [ar hŷd] y ffordd [ei] grawn hi?

13 Y baedd o'r coed ai turriodd, a bwyſt-fil y maes ai pôrodd,

14 O Dduw 'r lluoedd dychwel attolwg: edrych o'r nefoedd a chanfydd: ac ymwel a'r win-wydden hon,

15 A'r winllan yr hon a blannodd dy ddeheu-law, ac a'r planhigin [yr hwn] a gadarnheaiſt i ti dy hun.

16 Lloſcwyd hi â thân, [a] thorwyd hi i lawr: gan gerydd dy wyneb y difethir hwynt.

17 Bydded dy law dros ŵr dy ddeheu-law: a thros fab dyn [yr hwn] a gadarnheaiſt i ti dy hun.

18 Ac ni chiliwn ni oddi wrthit ti, bywhâ ni, ac ni a alwn ar dy enw.

19 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd trô ni: llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

## Pſalm. lxxxj.

*At y pen-cerdd ar y Gittith pſalm i Aſaph.*

CEnwch yn llafar i Dduw ein cadernid: cênwch yn llawen i Dduw Jacob.

2 Cymmerwch pſalm, a moeſwch dympan, telyn fwyn, a nabl.

3 Ud-cênwch udcorn ar loer newydd, ar amſer nodedic, yn nydd ein uchelŵyl.

4 Canys deddf [yw] hyn i Israel, [a] defod i Dduw Jacob.

5 Efe ai goſododd yn deſtiolaeth yn Joseph: pan aeth efe allan o dir yr Aipht [lle] y clywais iaith ni ddeallwn.

6 Tynnais ei yſcwydd oddi wrth y baich, ei ddwylo a ymadawſant a'r crochanau.

7 Mewn cyfyngder y gelwaiſt, ac mi a'th waredais: gwrandewais di yn nirgelwch y dâran, profais di wrth ddyfroedd Meribba. Selah. Exod.17.7.

8 Clyw fy mhobl, a mi a deſtiolaethaf i ti Israel, os gwrandewi arnaf,

9 Na fydded ynot Dduw arall, ac nac ymgrymma i Dduw dieithr.

10 Myfi 'r Arglwydd dy Dduw [yw] 'r hwn a'th ddûg i fynu o dîr yr Aipht: llêda dy safn, ac mi ai llanwaf.

11 Ond ni wrandawe fy mhobl ar fy llef, ac Israel nid ufuddhâe i mi.

12 Yna y gollyngais hwynt yng-hyndynrwydd eu calon, aethant wrth eu cyngor eu hunain.

13 Oh na wrandawe fy mhobl arnaf fi; [na] rodie Israel yn fy ffyrdd mau fi.

14 Buan y goſtyngwn eu gelynnion: ac y troiwn fy llaw 'n erbyn eu gwrthwyneb-wŷr.

15 Caſeion yr Arglwydd a gymmerent arnynt ymoſtwng iddo ef, ai hamſer hwythau fydde 'n dragywydd.

16 Bwydid ef hefyd â braſder gwenith: ac â mél o'r graig i'th ddiwallwn.

## Pſalm. lxxxij.

*Pſalm i Aſaph.*

*Prydnhawnol weddi.*

DUw ſydd yn ſefyll yng-hynnulleidfa duwiau: ym mhlith duwiau y barn efe.

2 Pa hŷd y bernwch ar gam? ac y cymmerwch blaid y rhai annuwiol? Selah.

3 Bernwch [yn iniawn] y tlawd a'r ymddifad, cyfiawnhewch y truan a'r rheidus.

4 Gwarêdwch y tlawd a'r anghênus: achubwch [hwynt] o law y rhai annuwiol.

5 Ni wyddant, ac ni ddeallant, mewn tywyllwch y rhodiaſant: [a] holl ſylfaenau y ddaiar a ſymmudwyd oi lle.

6 Myfi a ddywedais, * duwiau [ydych] chwi: a meibion y Goruchaf [ydych] chwi oll.

7 Diau y byddwch feirw fel dynnion, ac fel un o'r tywyſogion y ſyrthiwch.

8 Cyfod ô Dduw, [a] barna'r ddaiar, canys ti a etifeddi'r holl genhedloedd.

### Pſalm. lxxxiii.

*Càn* neu *Pſalm i Aſaph.*

O Dduw na oſtêga, na thaw, ac na fydd lonydd ô Dduw.

2 Canys wele dy elynnion ſydd yn terfyſcu, a'th gaſeion yn cyfodi eu pennau.

3 Ymgyfrinachâſant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghorâſant yn erbyn dy rai dirgel di.

4 Dywedâſant, deuwch, a difethwn hwynt fel na byddant yn genhedlaeth, ac na choffer enw Iſrael mwyach.

5 Canys ymgynghorâſant yn un-fryd, ac ymwnaethant i'th erbyn.

6 Pebyll Edom, a'r Iſmaeliaid, y Moabiaid a'r Hagariaid.

7 Y Gebaliaid, a'r Ammoniaid a'r Amaleciaid, y Philiſtiaid gyd â phreſſwyl-wŷr Tyrus.

8 Aſſur hefyd a ymgwplyſodd â hwynt, buant fraich i blant Lot, Selah.

9 Gwna di iddynt fel [i] Madian, megis i Siſara, [ac] megis [i] Iabin wrth afon Cizon.

10 Yn Endor y difethwyd hwynt, [ac] y buant yn dail i'r ddaiar.

Barn.7.25.& 8.21. Eſa.10.26.

11 Goſot hwy ai boneddigion fel * Oreb, a Zeb, ai holl dywyſogion fel Zeba, a Salmunah.

12 Y rhai a ddywedâſant, gorescynnwn i ni gyfanneddau Duw.

13 Goſot hwynt ô fy Nuw fel olwyn, [ac] fel ſofl o flaen y gwynt.

14 Fel y llyſc tân goed, ac fel y goddeithio fflam fynyddoedd:

15 Felly erlit ti hwynt a'th demheſtl, a dychryna hwynt a'th gor-wynt.

16 Llanw di eu hwynebau â gwarth, fel y ceiſiant dy enw ô Arglwydd.

17 Cywilyddier, a thralloder hwynt yn dragywydd: gwradwydder hefyd, a difether hwynt.

18 Fel y gwypont mai tydi yn unic [yr hwn wyt] Iehofa [wrth] dy enw, [wyt] Oruchaf ar yr holl ddaiar.

### Pſalm. lxxxiiij.

*At y pen-cerdd ar y Gittith Pſalm i feibion Corah.*

MOr hawddgar [yw] dy bebyll di ô Arglwydd y lluoedd.

2 Fy enaid a chwênychodd, ac a flyſiodd hefyd am dy gynteddau di ô Arglwydd: fyng-halon a'm cnawd a orfoleddant yn Nuw byw.

3 Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nŷth iddi, lle y geſid ei chywion: ſef dy allorau di ô Arglwydd y lluoedd fy Mrenin a'm Duw.

4 Gwynfyd preſſwylwŷr dy dŷ: yn waſtad i'th foliannant, Selah.

5 Gwyn ei fyd y dŷn y mae ei gadernid ynot, [a'th] ffyrdd yn ei galon.

6 Y rhai ſydd yn myned trwy ddyffryn wylofain ai goſodant yn ffynnon, a'r glaw a leinw y llynnau.

7 Aant o nerth i nerth, [ac] ymddengys [pob un] ger bron Duw yn Sion.

8 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd clyw fyng-weddi, gwrando ô Dduw Iacob. Selah.

9 O Dduw ein tarian gwel, ac edrych wyneb dy eneiniog.

10 Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mîl: dewiſwn gadw drws yn nhŷ fy Nuw o flaen trigo yn-mhebyll annuwioldeb.

11 Canys haul, a tharian yw'r Arglwydd Dduw, yr Arglwydd a rydd râd a gogoniant: ni attal efe ddaioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith.

12 O Arglwydd y lluoedd gwynfyd y dyn a ymddyriedo ynot.

### Pſalm. lxxxv.

*At y pen-cerdd o feibion Corah Pſalm.*

GRas-lawn wyt ô Arglwydd i'th dîr, dychwelaiſt gaethiwed Iacob.

2 Maddeuaiſt anwiredd dy bobl: a chuddiaiſt eu holl bechod, Selah.

3 Tynnaiſt ymmaith dy holl lid, troaiſt oddi wrth lidiawgrwydd dy ddigter.

4 Troa ni ô Dduw ein iechydwriaeth: a thorr dy ddigofaint wrthym.

5 Ai byth y digi wrthym? a eſtynni di dy ſorriant hyd genhedlaeth a chenhedlaeth?

6 Oni throi di a'n bywhau ni, fel y llawenycho dy bobl ynot ti?

7 Dangos i ni Arglwydd dy drugaredd: a dod ti i ni dy iechydwriaeth.

8 Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd

ydd Dduw [am danaf fi:] canys efe a draetha heddwch iw bobl, ac iw ſainct, fel na throant i ynfydrwydd.

9 Diau [fod] ei iechid ef yn agos i'r rhai ai hofnant ef: fel y trigo gogoniant yn ein tir ni.

10 Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfûant: cyfiawnder a heddwch a ymguſanâſant.

11 Gwirionedd a dardda o'r ddaiar, a chyfiawnder a edrych o'r nefoedd.

12 Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni a'n daiar a rydd ei chnŵd.

13 Cyfiawnder a aiff oi flaen ef: ac efe a eſid ei draed ar y ffordd.

## Pſalm. lxxxvj.

*Gweddi Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

GOſtwng ô Arglwydd dy glust, [a] gwrando fi: canys truan a thlawd [ydwyf] fi.

2 Cadw fy enaid canys duwiol [ydwyf]: achub di dy wâs ô Dduw 'r hwn ſydd yn ymddyried ynot.

3 Trugarhâ wrthif Arglwydd, canys arnat y llefaf beunydd.

4 Llawenhâ enaid dy wâs, canys attat y derchafaf fy enaid.

5 Canys ti ô Arglwydd [ydwyt] ddâ, a thrugarog: ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat.

6 Clyw Arglwydd fyng-weddi: ac yſtyria ar lais fy ymbil.

7 Yn nydd fyng-hyfyngder y llefaf arnat: canys gwrandewi fi.

8 Nid [oes] fel tydi ym myſc y duwiau: nac fel dy weithredoedd di ô Arglwydd.

9 Yr holl genhedloedd y rhai a wnaethoſt a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di ô Arglwydd: ac a ogoneddant dy enw.

10 Canys [ydwyt] fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: ti yn vnic [wyt] Dduw.

11 Dyſc i mi dy ffordd ô Arglwydd, ac mi a rodiaf yn dy wirionedd di: vna fyng-halon [â thi,] fel yr ofnwyf dy enw.

12 Moliannaf di ô Arglwydd fy Nuw a'm holl galon: a gogoneddaf dy enw yn dragywydd.

13 Canys mawr [yw] dy drugaredd tu ag attaf, a gwaredaiſt fy enaid o vffern iſſod.

14 Rhai beilchion a gyfodâſant i'm herbyn ô Dduw, a chynnulleidfa y cedyrn a geiſiaſant fy enaid, ac ni'th oſodaſant di ger eu bron.

15 Eithr ti ô Arglwydd Dduw [ydwyt] drugarog, a graſ-lawn: hwyrfrydic i lid, ac aml o drugaredd a gwirionedd.

16 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthif: dod ti dy nerth i'th wâs, ac achub fab dy wasanaethferch.

17 Gwna di i mi arwydd daioni, fel y gwelo fyng-haſeion, ac y gwradwydder hwynt, am i ti ô Arglwydd fyng-hynnorthwyo a'm diddânu.

## Pſalm. lxxxvij.

*Pſalm* neu *gân i feibion Corah.*

EI ſail [a oſodwyd] ar y mynyddoedd ſanctaidd.

2 Yr Arglwydd a gâr byrth Sion yn fwy nâ holl breſſwylfeudd Iacob.

3 Gogonêddus [bethau] a ddywedir am danat ti ô ddinas Dduw. Selah.

4 Coffâf Rahab a Babilon wrth fyng-hydnabod: wele Paleſtina a Thyrus yng-hyd ac Ethiopia: yno y ganwyd hwn.

5 Ac am Sion y dywedir, llawer gŵr a anwyd ynddi, a'r Goruchaf ei hun ai ſiccrha hi.

6 Yr Arglwydd a gyfrif pan ſcrifenno y bobl êni hwn yno. Selah.

7 Y cantorion a'r cerddorion [a'th folant,] fy holl ffynhonnau [ydynt] ynot ti.

## Pſalm. lxxxviij.

*Pſalm* neu *gân i feibion Corah at y pen-cerdd ar y Machalath i ganu, ſef athrawiaeth Heman yr Eſrehiad.*

O Arglwydd Dduw fy iechydwriaeth, gwaeddais o'th flaen ddydd a nôs.

2 Deued fyng-weddi ger dy fron, goſtwng dy glust at fy llefain.

3 Canys fy enaid a lawnwyd o ddrygau, a'm henioes a aeth i'r beddrod.

4 Cyfrifwyd fi gyd a'r rhai a ddeſcynnent i'r pwll: oeddwn fel gŵr heb nerth.

5 Yn rhydd ym myſc meirw, fel rhai wedi eu harcholli yn gorwedd mewn bedd: y rhai ni chofiaiſt mwy, canys hwynt a dorrwyd oddi wrth dy law.

6 Goſodaiſt fi yn y pwll iſſaf mewn tywyllwch, [ac] yn y dyfnder.

7 Arnaf y pwyſa dy ddigofaint, ac a'th holl donnau i'm cyſtuddiaiſt. Selah.

8 Pellheaiſt fyng-hydnabod oddi wrthif, [a] goſodaiſt fi 'n ffieidd-dra iddynt: gwarchawyd fi fel nad awn allan.

9 Fyng-olwg a ofidiodd gan fyng-hyſtudd, llefais arnat Arglwydd beunydd: [ac] eſtynnais fy nwylo attat.

10 Ai i'r meirw y gwnei ryfeddod? a gyfyd y meirw a'th foliannu di? Selah.

11 A draethir dy drugaredd di mewn bedd? a'th wirionedd yn neſtriw?

12 A adwaenir dy ryfeddod mewn tywyllwch? a'th gyfiawnder yn nhîr anghof?

13 Ond myfi a lefais arnat Arglwydd: yn foreu y daw fyng-weddi o'th flaen.

14 Pa ham Arglwydd y gwrthodi fy enaid? [ac] y cuddi dy wyneb oddi wrthif?

15 Truan ydwyf fi, ac ar drangedigaeth o'm hieuengctid, dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruſo.

16 Dy ſoriant a aeth troſof, dy arſwyd a'm torrodd ymmaith.

17 Fel dwfr i'm cylchynâſant beunydd: ac i'm cyd-amgylchâſant.

18 Pellhêaiſt [bob] câr a chyfaill oddi wrthif: fyng-hydnabod [ydynt] yn ymguddio.

## Pſalm. lxxxix.

*Athrawiaeth Ethan yr Eſrehiad.*

*Prydnhawnol weddi.*

TRugareddau 'r Arglwydd a ddatcanaf byth, a'm genau y mynêgaf dy wirionedd di o genhedlaeth hyd genhedlaeth.

2 Canys dywedais yr adailedir trugaredd yn dragywydd: yn y nefoedd y cadarnhei dy wirionedd.

3 Gwneuthum ammod a'm etholedig, tyngais i'm gwâs Dafydd.

4 Yn dragywydd y ſiccrhâf dy hâd ti: ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adailadaf dy orſeddfaingc di. Selah.

5 Am hynny ô Arglwydd, y nefoedd a foliannant dy ryfeddod, a'th wirionedd yng-hynnulleidfa y ſainct.

6 Canys pwy yn yr wybrennau a gyſtedlir a'r Arglwydd? [pwy] a gyffelybir i'r Arglwydd ym myſc y duwiau?

7 Duw ſydd ofnadwy iawn yng-hynnulleidfa 'r ſainct: ac i'w arſwydo yn ei holl amgylchoedd.

8 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd pwy ſydd fel tydi yn gadarn Ior, a'th wirionedd o'th amgylch?

9 Ti ydwyt yn llywodraethu ymchwydd y môr, pan gyfodo ei donnau ti ai goſtegi.

10 Ti a drybaeddaiſt yr Aipht fel [vn] lladdedic: drwy nerth dy fraich y gwaſceraiſt dy elynnion.

11 Y nefoedd [ydynt] eiddo ti, a'r ddaiar [ſydd] eiddo ti: ti a ſeiliaiſt y bŷd ac ſydd ynddo.

12 Ti a greaiſt ogledd a dehau: Thabor a Hermon a lawenŷchant yn dy enw.

13 [Y mae] i ti fraich, a chadernid, cadarn yw dy law, ac vchel yw dy ddeheu-law.

14 Cyfiawnder, a barn [yw] trigfa dy orſeddfaingc: trugaredd a gwirionedd a ragflænant dy wyneb.

15 Gwyn ei fyd y bobl y rhai a fedrant lawenychu [ynot:] yn llewyrch dy wyneb ô Arglwydd y rhodiant hwy.

16 Yn dy enw di y gorfoleddant beunydd, ac yn dy gyfiawnder yr ymdderchafant.

17 Canys godidawgrwydd eu cadernid hwynt [ydwyt] ti, ac o'th ewyllys dâ y dercheſi ein cyrn ni.

18 Canys o'r Arglwydd [y mae] ein tarian ac o Sanct Iſrael [y mae] ein Brenin.

19 Yna 'r ymddiddenaiſt mewn gweledigaeth a'th ſainct, ac a ddywedaiſt, goſodais gymmorth ar [vn] cadarn: ac a dderchefais [vn] etholedic o'r bobl.

20 Cefais Ddafydd fyng-waſanaeth-wr [ac] eneiniais ef a'm holew ſanctaidd.

21 Yr hwn y cadarnheuir fy llaw gyd ag ef: a'm braich ai nertha ef.

22 Ni orthrymma y gelyn ef, a'r mab anwir nis cyſtuddia ef.

23 Canys coethaf ei elynnion oi flaen, ai gaſeion a darawaf.

24 Fyng-wirionedd hefyd, a'm trugaredd [fyddant] gyd ag ef: ac yn fy enw y dercheſir ei gorn ef.

25 A goſodaf ei law ar y môr, ai ddeheulaw yn yr afonydd.

26 Efe a'm geilw [gan ddywedyd,] ti [yw] fy Nhâd, fy Nuw a chraig fy iechydwriaeth.

27 Minne ai rhoddaf yntef yn gynfab, goruchaf ar frenhinoedd y ddaiar.

28 Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd: a'm cyfammod fydd ffyddlon iddo ef.

29 Goſodaf hefyd ei hâd yn dragywydd: ai orſedd-faingc fel dyddiau y nefoedd.

30 Os ei feibion a adawant fyng-hyfraith: ac ni rodiant yn fy marnedigaethau,

31 Os fy neddfau a halogant: a'm gorchymynnion ni chadwant,

32 Yna gofwyaf eu camwedd â gwialen, ai hanwiredd â ffrewyllau.

33 Ond ni thorraf fy nhrugaredd oddi wrtho ef: ac ni phallaf o'm gwirionedd.

34 Ni thorraf fyng-hyfammod: ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau.

35 Tyngais vnwaith i'm ſancteiddrwydd na phallwn i Ddafydd [gan ddywedyd:]

36 Bydd ei hâd ef yn dragywydd: ai orſedd-faingc fel yr haul ger fy mron i.

37 Siccrheir ef yn dragywydd fel y lleuad, ac [fel] y tyſtion ffyddlon yn yr wybr. Selah.

38 Ond ti a ffieiddiaiſt, ac a ddiyſtyraiſt, [ac] a ddigiaiſt wrth dy eneiniog.

39 Diddymmaiſt gyfammod dy wâs, halogaiſt ei goron [gan ei thaflu] i lawr.

40 Drylliaiſt ei holl gaeau ef, goſodaiſt ei amddeffynfeudd yn adwyau.

41 Yr holl fforddolion ai hyſpeiliaſant ef: aeth yn warthrudd i'w gymmydogion.

42 Derchefaiſt ddeheu-law ei wrthwynebwŷr ef, [a] llawenheaiſt ei holl elynnion ef.

43 Troaiſt hefyd fin ei gleddyf, ac ni chadarn-heaiſt ef mewn rhyfel.

44 Peraiſt i'w lendid ddarfod, a bwriaiſt ei orſedd-faingc i lawr.

45 Byrhêaiſt ddyddiau ei ieuengctid, [a] thoaiſt gywilydd troſto ef. Selah.

46 Pa hŷd Arglwydd yr ymguddi? [ai]'n dragywydd? a lyſc dy ddigofaint ti fel tân?

47 Coſia pa oes ſydd [i] mi, pa ham y creaiſt holl blant dynnion yn ofer?

48 Pa ŵr a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth? [ac] a wared ei enaid o feddiant vffern? Selah.

49 Pa lê y mae dy hên drugareddau ô Arglwydd [y rhai] a dyngaiſt i Ddafydd yn dy wirionedd?

50 Coffa ô Arglwydd wradwydd dy weiſion, [yr hwn] a ddygais yn fy monwes [gan yr] holl bobloedd fawrion.

51 A'r hwn y gwarthruddodd dy elynnion [dydi] ô Arglwydd, y rhai a gablaſant ôl troed dy eneiniog.

52 Bendigêdic fyddo 'r Arglwydd yn dragywydd, felly y byddo, ac Amen.

## Pſalm xc.

*Gweddi Moſes gwr Duw.*

Boreuol weddi.

TI Arglwydd fuoſt yn breſwylfa i ni o genhedlaeth i genhedlaeth.

2 Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunnio o honot y ddaiar, a'r bŷd, ti hefyd oeddit Dduw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb.

3 Troi ddŷn i ddiniſtr, trachefn y dywedi, dychwelwch feibion dynnion.

4 Canys mil o flynyddoedd [ydynt] yn dy olwg di fel doe, wedi 'r êl heibio, ac [fel] gwiliadwriaeth nôs.

5 Pan waſcarech hwynt megis â llifeiriant y byddant fel hûn: yn forau fel llyſſieun y cyfnewidiant.

6 Y borau y blodeua, ac yr adnewydda, eithr prydnawn y torrir ef ymmaith, ac y gwywa.

7 Canys yn dy ddig y difethwyd ni, ac yn dy lidiawgrwydd ein brawychwyd.

8 Goſodaiſt ein anwiredd ger dy fron, a'n dirgel bechodau yng-oleuni dy wyneb.

9 Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di, treuliaſom ein blynyddoedd fel lleferydd.

10 Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng-mhlynedd a thrugain, ac os o gryfder y cyrheuddir pedwar ugain mhlynedd, yna eu nerth ſydd boen, a blinder: canys ebrwydd y derfydd, ac yr ehedwn ni ymmaith.

11 Pwy a edwyn nerth dy ſorriant di? canys fel y mae dy ofn y mae dy ddigter.

12 Dyſc i ni felly i gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb.

13 Dychwel Arglwydd, pa hŷd y ſorri? cymmer drugaredd ar dy weiſion.

14 Diwalla ni yn foreu a'th drugaredd, fel y gorfoleddom, ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

15 Llawenhâ ni yn ôl y dyddiau y cyſtuddiaiſt ni, a'r blynyddoedd y gwelſom ddrygfyd.

16 Gweler dy waith tu ag at dy weiſion a'th odidawgrwydd tu ag at eu plant hwy.

17 A bydded prydferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni, a threfna weithred ein dwylo ynom ni, ie trefna waith ein dwylo.

## Pſalm. xcj.

YR hwn ſydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf a erys yng-hyſcod yr Holl-alluoc.

2 Dywedaf wrth yr Arglwydd, fyng-obaith a'm hamddeffynfa [ydwyt,] yn fy Nuw y gobeithiaf.

3 Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr: [ac] oddi wrth haint echryſlon.

4 Ai aſcell y cyſcoda efe troſot, a than ei adenydd y byddi diogel: ei wirionedd [fydd] darian, ac aſtalch [i ti.]

5 Nid ofni rhag dychryn nôs, [na] rhag y ſaeth a ehedo 'r dydd.

6 [Na] rhag yr haint yr hwn a rodio yn y tywyllwch, [na] rhag y diniſtr a ddiniſtrio hanner dydd.

7 Wrth dy yſtlys y cwymp mîl, a deng-mil wrth dy ddeheu-law: ond ni ddaw yn agos attat ti.

8 Etto canfyddi a'th lygaid, a gwêli dâl y rhai annuwiol.

9 Canys ti ô Arglwydd [wyt] fyng-obaith uchel y goſodaiſt dy breſſwylfa.

10 Ni ddigwydd i ti niwed, ac ni ddaw plâ yn agos i'th babell.

11 Canys efe a * orchymyn iw angelion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd. Matth.4.6.

12 Ar eu dwylo i'th ddygant, rhag taro dy droed wrth garrec.

13 Ar y llew, a'r aſp y cerddi: ar genew llew, a'r ddraig y ſethri.

14 Gwaredaf ef hefyd am roddi o honaw ſerch arnaf: derchafaf ef am adnabod o honaw fy enw.

15 Efe a eilw arnaf, a mi ai gwrandawaf: mewn ing y byddaf fi gyd ag ef, y gwaredaf ef, ac y gogoneddaf ef.

16 Digonaf ef â hir ddyddiau: a dangoſaf iddo fy iechydwriaeth.

## Pſalm. xcij.

*Pſalm* neu *gân ar y dydd Sabboth.*

DA yw moliannu 'r Arglwydd: a chanu i'th enw di y Goruchaf.

2 A mynegu y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y noſweithiau.

3 Ar ddec-tant, ac ar nabl, [ac] ar delyn yn fyfyriol.

4 Canys llawenychaiſt fi ô Arglwydd a'th weithred: yng-waith dy ddwylo y gorfoleddaf.

5 Mor fawredic ô Arglwydd yw dy weithredoedd, dwfn iawn yw dy feddyliau.

6 Gŵr annoeth ni wŷr, a'r ynfyd ni ddeall hyn.

7 Pan flodeuo y rhai annuwiol fel llyſieun, y blagura holl weithredwŷr anwi-

redd iw diniſtrio byth bythoedd.

8 Tithe Arglwydd wyt dderchafedic yn dragywydd.

9 Canys wele dy elynnion ô Arglwydd, wele dy elynnion a ddifethir: gwaſcerir holl weithred-wŷr anwiredd.

10 A'm corn a dderchefi fel vnicorn, ag olew ir i'm taenellir.

11 Fy llygad hefyd a wêl [fyng-wynfyd] ar fyng-wrthwyneb-wŷr: fyng-hluſtiau a glywant [fy ewyllys] am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.

12 Y cyfiawn a flodeua fel palm-wŷdden, [ac] a gynnydda fel cedr-wŷdden yn Libanus.

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ'r Arglwydd a flodeuant yng-hynteddoedd ein Duw.

14 Ffrwythant etto yn [eu] henaint, tyrfion, ac iraidd fyddant,

15 I fynegu mai iniawn yw'r Arglwydd fyng-hraig: ac nad [oes] anwiredd ynddo.

### Pſalm. xciij.

*Prydnhawnol weddi.*

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu [ac] a wiſcodd ardderchawgrwydd, gwiſcodd yr Arglwydd [ac] ymwregyſodd â nerth: y bŷd hefyd a ſicrhaodd efe fel na ſyflo.

2 Darparwyd dy orſeddfaingc er ioed: ti [ydwyt] er tragywyddoldeb.

3 Y llifeiriaint ô Arglwydd a dderchafaſant, y llifeiriaint a dderchafaſant eu twrwf: y llifeiriaint a dderchafaſant eu tonnau.

4 Cadarn [yw] tonnau'r môr gan dwrwf dyfroedd lawer, cadarnach yw'r Arglwydd yn yr vchelder.

5 Siccr iawn yw dy deſtiolaethau, ſancteiddrwydd a wedde i'th dŷ ô Arglwydd byth.

### Pſalm, xciiij.

O Arglwydd Dduw'r dial, ô Dduw'r dial ymddiſcleiria.

2 Ymddercha farn-wr y bŷd: tâl [eu] gwobr i'r beiſchion.

3 Pa hŷd Arglwydd [y llawenycha] yr annuwolion? pa hyd y gorfoledda y rhai drygionus?

4 Yr ymfawrygâ holl weithred-wŷr anwiredd? y ſiarâdant, ac y dywedant yn galed?

5 Dy bobl Arglwydd a faeddant: a'th etifeddiaeth a gyſtuddiant.

6 Y weddw a'r dieithr a laddant, a'r ymddifad a liaſant.

7 Dywedâſant hefyd, ni wêl yr Arglwydd: ac ni ddeall Duw Iacob [hyn.]

8 Yſtyriwch chwi rhai annoeth ym myſc y bobl: ac ynfydion, pa bryd y deallwch?

9 Oni chlyw'r hwn a blannodd y gluſt? oni wêl yr hwn a lunniodd y llygaid?

10 Oni cherydda'r hwn a goſpa y cenhedloedd? [oni ŵyr] yr hwn ſydd yn dyſcu gwybodaeth i ddŷn.

11 Gŵyr yr Arglwydd feddyliau dŷn, mai gwagedd ydynt.

12 Gwyn ei fŷd y gŵr yr hwn a goſpi di ô Arglwydd, ac a ddyſci yn dy gyfraith,

13 I beri iddo lonydd oddi wrth ddyddiau drwg-fyd, hyd oni chloddier ffôs i'r annuwiol.

14 Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl, ac ni wrthid efe ei etifeddiaeth.

15 Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder, a'r holl rai iniawn o galon [a ânt] ar ei ôl ef.

16 Pwy a gyfyd gyd â mi yn erbyn y rhai drygionus? pwy a ſaif gyd â mi yn erbyn gweithred-wŷr anwiredd?

17 Oni [buaſe]'r Arglwydd yn gymmorth i mi, braidd na thrigâſe fy enaid [mewn] diſtawrwydd.

18 Pan ddywedwn, llithrodd fy nhroed, dy drugaredd di ô Arglwydd a'm cynhalie.

19 Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenyche fy enaid.

20 A fydd cydymdeithas i ti â gorſeddfaingc yr anwir: yr hwn a lunnia anwiredd yn lle cyfraith?

21 Yn finteioedd y deuant yn erbyn enaid y cyfiawn: a gwaed gwirion a farnant yn euog.

22 Eithr yr Arglwydd ſydd yn amddeffynfa i mi, a'm Duw [yw] craig fy ymddyried.

23 Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd, ac ai tyrr ymmaith yn eu drygioni: yr Arglwydd ein Duw ai tyrr hwynt ymmaith.

### Pſalm. xcv.

*Borenol weddi.*

DEuwch, canwn i'r Arglwydd, ymlawenhawn yn nerth ein hiechyd.

2 Deuwn ger ei fron ef â diolch: cânwn yn llafar iddo pſalmau.

3 Canys yr Arglwydd [ſydd] Dduw mawr, a brenin mawr ar yr holl dduwiau.

4 Yr hwn [y mae] gorddyfnder y ddaiar yn ei law: ac vchelder y mynyddoedd yn eiddo ef.

5 Yr hwn [y mae]'r môr yn eiddo, canys efe ai gwnaeth: ai ddwylo a luniaſant y ſychdir.

6 Deuwch, addolwn, ac ymgrymmwn, goſtyngwn ger bron yr Arglwydd ein gweithydd.

7 Canys efe yw ein Duw ni, a ninne yn bobl ei borfa, ac yn ddefaid ei ddwylaw, heddyw os gwrandewch ar ei leferydd,

8 Na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymryſonfa, fel yn nydd profedigaeth yn yr anialwch.

9 Lle y temptiodd eich tadau fi, y profâſant fi, ac y gwelſant fyng-weithredoedd.

10 Deugain mlynedd yr ymryſonais a'r genhedlaeth [hon,] a dywedais, pobl gyfeiliornus yn [eu] calon [ydynt] hwy: canys nid adnabûant hwy fy ffyrdd.

11 [Am] y rhai y tyngais yn fy llid na ddelent i'm gorphywyſfa.

### Pſalm. xcvj.

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd: cênwch i'r Arglwydd yr holl ddaiar.

2 Cênwch i'r Arglwydd, [a] bendigwch ei enw ef: cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iechydwriaeth ef.

3 Dadcenwch ym myſc y cenhedloedd ei ogoniant ef, [ac] ym mhlith yr holl bobloedd ei ryfeddodau,

4 Canys mawr [yw'r] Arglwydd, a chanmoladwy iawn, ofnadwy [yw] efe goruwch yr holl dduwiau.

5 Canys holl dduwiau'r bobloedd [ydynt] eulynnod, yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.

6 Gogoniant, a harddwch [ydynt] oi flaen ef, nerth a hyfrydwch [ſydd] yn ei gyſſegr.

7 Tylwythau y bobl rhoddwch i'r Arglwydd: rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

8 Roddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw, dygwch fwyd offrwm, a deuwch iw gynteddoedd.

9 Addolwch ger bron yr Arglwydd mewn prydferth ſancteiddrwydd: yr holl ddaiar ofnwch rhagddo ef.

10 Dywedwch ym myſc y cenhedloedd, yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu: a'r byd a ſiccrhaodd efe fel nad yſcogo: efe a farna y bobl yn iniawn.

11 Llawenhaed y nefoedd a gorfoledded y ddaiar: rhûed y môr ac ſydd ynddo.

12 Gorfoledded y maes, a'r hyn oll [ſydd] ynddo: a holl brennau'r coed a gânant o flaen yr Arglwydd:

13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod i farnu'r ddaiar: efe a farna'r bŷd drwy gyfiawnder, a'r bobloedd yn ei wirionedd.

### Pſalm. xcvij.

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, gorfoledded y ddaiar, [a] llawenyched ynyſoedd lawer.

2 Niwl a thywyllwch [ydynt] oi amgylch ef: cyfiawnder, a barn [yw] ſail ei orſeddfaingc ef.

3 Tân aiff allan oi flaen ef, ac a lyſc ei elynnion ef o amgylch.

4 Ei fellt a lewyrchâſant y byd, y ddaiar a welodd, ac â ofnodd.

5 Y mynyddoedd a doddaſant fel cŵyr o flaen yr Arglwydd: [ſef] o flaen Arglwydd yr holl ddaiar.

6 Y nefoedd a fynegâſant ei gyfiawnder ef: a'r holl bobl a welſant ei ogoniant.

7 Gwradwydder y rhai oll a waſanaethant ddelw gerfiedic, y rhai a orfoleddant mewn eulynnod: addolwch ef yr holl dduwiau.

8 Sion a glywodd, ac a lawenychodd: a merched Iuda a orfoleddaſant o herwydd dy farnedigaethau di ô Arglwydd.

9 Canys ti wyt Arglwydd goruchaf ar yr holl ddaiar: dirfawr y derchafwyt ti goruwch yr holl dduwiau.

10 Caſewch drygioni y rhai a gerwch yr Arglwydd: yr hwn ſydd yn cadw eneidiau ei ſainct, [ac] ai gwared o law y rhai annuwiol.

11 Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai iniawn o galon.

12 Y rhai cyfiawn llawenychwch yn yr Arglwydd: a moliennwch goffadwriaeth ei ſancteiddrwydd ef.

### Pſalm. xcviij.

*Pſalm.*

*Prydnhawnol weddi.*

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd, canys efe a wnaeth [bethau] rhyfedd: ai ddeheulaw, ac ai fraich ſanctaidd y parodd iddo ei hun iechydwriaeth.

2 Yſpyſſodd yr Arglwydd ei iechydwriaeth [a] dat-cuddiodd ei gyfiawnder yng-olwg y cenhedloedd.

3 Cofiodd ei drugaredd, ai wirionedd i dŷ Iſrael: holl derfynau y ddaiar a welſant iechydwriaeth ein Duw ni.

4 Cênwch yn llafar i'r Arglwydd bob daiar: llefwch, ac ymlawenhewch, a chênwch.

5 Cênwch i'r Arglwydd gyd a'r delyn: [ſef] gyd a'r delyn â llef canmoliaeth.

6 Cênwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenin ar yr vdcyrn, a ſain trwmpet.

7 Rhûed y môr ac ſydd ynddo, y bŷd a'r rhai a drigant oi fewn.

8 Cured y llifeiriaint eu Dwylo: a chydgâned y mynyddoedd

9 O flaen yr Arglwydd, canys efe a ddaeth i farnu y ddaiar: efe a farna'r bŷd mewn cyfiawnder, a'r bobloedd mewn iniondeb.

### Pſalm xcix.

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu [er maint] a ymderfyſco y bobloedd: eiſtedd y mae [rhwng] y Cerubiaid [er maint] a ymſiglo y ddaiar.

2 Mawr [yw'r] Arglwydd yn Sion, a derchafedic yw efe goruwch yr holl bobloedd.

3 Moliannant dy enw mawr ac ofnadwy, [canys] ſanctaidd yw.

4 A nerth y brenin a hoffa farn, ti a ddarperaiſt iniondeb, barn, a chyfiawnder a wnaethoſt ti yn Iacob.

5 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch o flaen ei ſtôl draed ef, [canys] ſanctaidd [yw] efe.

6 Moſes ac Aaron [oeddynt] ym mhlith ei offeiriaid ef: a Samuel ym myſc y rhai a alwent ar ei enw, galwaſant ar yr Arglwydd, ac efe ai gwrandawodd hwynt.

7 Llefarodd wrthynt mewn colofn o niwl, cadwaſant ei deſtiolaethau, a'r ddeddf [a] roddodd efe iddynt.

8 Gwrandewaiſt arnynt ô Arglwydd ein Duw: Duw oeddit yn eu harbed, pan ddielit am eu gweithredoedd.

9 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch ar ei fynydd ſanctaidd, canys ſanctaidd [yw] 'r Arglwydd ein Duw.

### Pſalm. c.

*Pſalm o foliant.*

CEnwch yn llafar i'r Arglwydd yr holl ddaiar:

2 Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch oi flaen ef â chan.

3 Gwybyddwch mai 'r Arglwydd ſydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef [ydym,] a defaid ei borfa.

4 Ewch iw byrth ef â diolch, ac iw gynteddau â mawl: clodforwch ef, [a] bendithiwch ei enw.

5 Canys dâ [yw] 'r Arglwydd, ai drugaredd [ſydd] yn dragywydd, ai wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

### Pſalm. cj.

*Pſalm Dafydd.*

DAdcanaf drugaredd a barn: i ti Arglwydd y canaf.

2 Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith hyd oni ddelech attaf: rhodiaf mewn perffeithrwydd fyng-halon o fewn fy nhŷ.

3 Ni oſodaf ddim anwir o flaen fy llygaid, câs gennif waith y rhai cildynnus, [ac] ni lŷn wrthif.

4 Calon gyndyn a gilia oddi wrthif, nid adnabyddaf [ddŷn] drygionus.

5 Torraf ymmaith yr hwn a enllibio ei gyfaill yn ddirgel, y balch o olwg a'r uchel galon ni allaf [ei ddioddef.]

6 Fy llygaid [fyddant] ar ffyddlōniaid y tîr, fel y trigant gyd â mi: 'r hwn a rodio mewn ffordd berffaith hwnnw a'm gwaſanaetha fi.

7 Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll, ni chadarnheuir yn fyng-olwg yr un a ddywedo gelwydd.

8 Yn foreu y torraf ymmaith holl annuwolion y tir: gan ddiwreiddio holl weithred-wŷr anwiredd o ddinas yr Arglwydd.

### Pſalm. cij.

*Gweddi y cyſtuddiedic, pan fyddo efe mewn blinder: ac yn tywallt ei ymadrodd ger bron yr Arglwydd.*

*Borenol weddi.*

ARglwydd clyw fyng-weddi, a deled fy llêf attat.

2 Na chudd dy wyneb oddi wrthif, yn nydd fyng-hyfyngder goſtwng dy glust attaf: yn y dydd y galwyf, bryſia, [a] gwrando fi.

3 Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mŵg: a'm heſcyrn a boethaſant fel pentewyn.

4 Fyng-halon a darawyd: ac a wywodd fel llyſieun: fel yr anghofiais fwytta fy mara.

5 Gan lais fy nhuchan y glŷnodd fy eſcyrn wrth fyng-nhawd.

6 Tebyg wyf i belican [mewn] anialwch ydwyf fel dylluan [mewn] diffaethwch.

7 Gwiliais, ac ydwyf fel aderyn y tô unic ar benn y tŷ.

8 Fyng-elynion a'm gwarthruddaſant beunydd: y rhai a ynfydant wrthif a dyngaſant yn fy erbyn.

9 Canys bwytteais ludw fel bâra: a chymmyſcais fy niod ag wylofain,

10 [A hynny] gan dy lid a'th ddigofaint: canys codaiſt fi, a theflaiſt fi i lawr.

11 Fy nyddiau [a aethant] fel cyſcod wedi cilio, a minne fel glaſwelltyn a wywais.

12 Tithe Arglwydd a barhei yn dragywyddol: a'th goffadwriaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

13 Ti a gyfodi, [ac] a drugarhei wrth Sion: canys madws [yw] trugarhau wrthi, o herwydd dyfod yr amſer nodedic.

14 O blegit y mae dy weiſion yn hoffi ei meini hi: ac yn toſturio wrth ei llŵch hi.

15 A'r cenhedloedd a ofnant enw 'r Arglwydd: a holl frenhinoedd y ddaiar dy ogoniant,

16 Pan adailado yr Arglwydd Sion, a phan weler efe yn ei ogoniant.

17 Edrychodd ar weddi y gwael: ac ni ddiyſtyrodd eu dymuniad,

18 Hyn a ſcrifennir i'r genhedlaeth neſſaf, a'r bobl a ênir a foliannant yr Arglwydd.

19 Canys edrychodd o uchelder ei gyſſegr: yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd,

20 I wrando uchenaid y carcharorion: ac i ryddhau plant angeu.

21 Fel y mynegent enw 'r Arglwydd yn Sion, ai foliant ef yn Jeruſalem,

22 Pan gesclid y bobl yng-hyd, a'r teyrnaſoedd i waſanaethu 'r Arglwydd.

23 Goſtyngodd efe fy nerth ar y ffordd, [a] byrhaodd fy nyddiau,

24 Dywedais, fy Nuw na chyfot fi ymmaith yng-hanol fy nyddiau: dy flynyddoedd di [ydynt] yn oes oeſoedd,

25 *Yn y dechreuad y ſeiliaiſt y ddaiar, a'r nefoedd [ydynt] waith dy ddwylo, Heb.1.10.

26 Hwynt a ddarfyddant a thi a barhei, ie hwynt oll a heneiddiant fel dilledyn: fel gwiſc y newidi hwynt, ac y newidiant.

27 Tithe 'r un [ydwyt,] a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.

28 Plant dy weiſion a breſſwyliant, ai hâd a gadarnheuir ger dy fron di.

### Pſalm. ciij.

Pſalm *Dafydd.*

Fy enaid bendithia'r Arglwydd, a chwbl ſydd ynof ei enw ſanctaidd.

2 Fy enaid bendithia'r Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddonniau ef.

3 Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau: a'r hwn ſydd yn iachau dy holl leſcedd.

4 Yr hwn ſydd yn gwaredu dy fywyd o ddeſtruw, yr hwn ſydd yn dy gorôni â thrugaredd, ac â thoſturi.

5 Yr hwn ſydd yn diwallu dy enau â daioni: [fel] yr adnewydder dy ieuengctid fel yr eryr.

6 Yr Arglwydd ſydd yn gwneuthur cyfiawnder, a barn i'r rhai gorthrymmedic oll.

7 Yſpyſſodd ei ffyrdd i Moſes, ai weithredoedd i feibion Iſrael.

8 Trugarog, a graſ-lawn [yw'r] Arglwydd: hwyrfrydic i lid, a mawr o drugarogrwydd.

9 Nid byth yr ymryſſon efe, ac nid byth y ceidw efe [ei ddigofaint.]

10 Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth efe i ni, ac nid yn ôl ein anwireddau y tâlodd efe i ni.

11 Canys cyfuwch ac yw'r nefoedd uwch law'r ddaiar y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai ai hofnant ef.

12 Cyn belled ac yw'r dwyrain oddi wrth y gorllewyn y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym.

13 Fel y toſturia tâd wrth ei blant, y toſturiodd yr Arglwydd wrth y rhai ai hofnant ef.

14 Canys efe a adwaene ein defnydd ni: coſiodd mai llŵch [oeddem] ni.

15 Dyddiau dŷn [ydynt] fel glaſ-welltun: megis blodeun y maes y blodeua efe.

16 Pan êl gwynt troſto, yna ni [bydd] mwy o honaw: ai le nid edwyn ddim o honaw ef mwy.

17 Ond trugaredd yr Arglwydd [ſydd] o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb ar y rhai ai hofnant ef:

18 Ai gyfiawnder i blant plant y rhai a gadwant ei gyfammod ef: ac a goſiant ei orchymynnion iw gwneuthur.

19 Yr Arglwydd a baratôdd ei orſeddfa yn y nefoedd: ai frenhiniaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bôb [peth.]

20 Bendithiwch yr Arglwydd ei angelion ef, cedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef gan wrando ar leferydd ei air ef.

21 Bendithiwch yr Arglwydd ei holl luoedd ef: [ſef] ei holl weiſion yn gwneuthur ei ewyllys.

22 Bendithiwch yr Arglwydd ei holl weithredoedd ef, ym mhob mann oi lywodraeth. Fy enaid bendithia'r Arglwydd.

## Pſalm. ciiij.

*Prydnhawnol weddi.*

Fy enaid bendithia'r Arglwydd, ô Arglwydd fy Nuw tra mawr ydwyt: gwiſcaiſt ogoniant, a hardwch.

2 Yr hwn ſydd yn gwiſco goleuni fel dilledyn: [ac] yn tânu y nefoedd fel llenn.

3 Yr hwn ſydd yn tŷlathu yn y dyfroedd, yn goſod y cwmylau yn gerbyd iddo: ac yn rhodio ar adenydd y gwynt.

4 * Yr hwn ſydd yn gwneuthur yſprydion yn gennadon iddo: ai weinidogion yn dân fflamllyd. Heb.1.7.

5 Efe a ſeiliodd y ddaiar ar ei ſylfeini: fel na ſiglo byth, nac yn dragywydd.

6 Toaiſt hi â gorddyfnder megis â gwiſc: y dyfroedd a ſafant ar y mynyddoedd.

7 Gan dy gerydd di y ffoant, rhag ſŵn dy daran y rhedant yn frawchus.

8 [Fel] mynyddoedd yr ymgodant, fel glynnoedd y deſcynnant i'r lle yr hwn a ſeiliaiſt iddynt.

9 Goſodaiſt derfyn fel nad elont troſodd, fel na ddychwelont i orchguddio'r ddaiar.

10 Yr hwn a yrraiſt ffynhonnau i'r afonydd [y rhai] a gerddant rhwng y mynyddoedd.

11 Diodant holl fwyſt-filod y maes: yr aſſynnod gwylltion a dorrant eu ſyched [ynddynt.]

12 Adar y nefoedd a drigant ger llaw iddynt, ac a leiſiant oddi rhwng y cangau.

13 Y mae efe yn dwfrhau y mynyddoedd oi uchelder: a'r ddaiar a gyflawnir o ffrwyth dy weithredoedd.

14 Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r aniſeiliaid, a llyſiau i waſanaethu dŷn: gan ddwyn bara allan o'r ddaiar,

15 A gwîn hefyd y llawenycha efe galon dŷn gan beri i wynêbau ddiſcleirio ag olew: ac â bara y cynnal efe galon dŷn.

16 Prennau'r Arglwydd ydynt lawn [o ſugn: [ſef] cedr-wŷdd Libanus y rhai a blannodd efe.

17 Lle y nytha'r adar: y ffynnidwydd [yw] tŷ y Ciconia.

18 Y mynyddoedd uchel [ſydd] i'r geifr, [a'r] creigiau yn lloches i gwnningod.

19 Efe a wnaeth y lleuad i amſerau nodedic: yr haul a edwyn ei fachludiad.

20 Goſodi dywyllwch a nôs fydd: ynddi'r ymlusca pôb bwyſt-fil coed.

21 Y llewod a ruant am ſclyfaeth, ac [a ânt] i geiſio eu bwyd gan Dduw.

22 [Pan] godo haul yr ymgaſclant, ac y gorweddant yn eu llochefau.

23 Dŷn [a] aiff allan iw waith, ac iw orchwyl hyd yr hwyr.

24 Mor lluoſog [yw] dy weithredoedd ô Arglwydd: gwnaethoſt hwynt oll mewn doethineb, llawn yw'r ddaiar o'th gyfoeth.

25 [Felly] mawr, a llydan [yw]'r môr: yno y mae ymlusciaid heb rifedi, [a] bwyſt-filod mawrion a bychain.

26 Yno'r aiff llongau: [a'r] Lefiathan [yr hwn] a luniaiſt i chware ynddo.

27 Hwynt oll a ddiſgwiliant wrthit am roddi eu bwyd yn ei brŷd.

28 Caſclant [pan] roddech iddynt: [pan] agorech dy law diwellir hwynt â daioni.

29 [Pan] guddiech dy wyneb y dychrynnant, [pan] gaſclech dy yſpryd y trengant, ac y dychwelant iw llwch.

30 [Pan] ollyngech dy yſpryd y creuir hwynt, ac yr adnewyddi di wyneb y ddaiar.

31 Gogoniant yr Arglwydd fydd yn dragywydd: yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd.

32 Yr hwn a edrych ar y ddaiar, a hi a gryna, [ac] a gyffwrdd a'r mynyddoedd, a hwynt a fygant.

33 Canaf i'r Arglwydd yn fy mywyd, canaf i'm Duw tra fyddwyf.

34 Bydd melys ganddo fy myfyrdod: mi a lawenychaf yn yr Arglwydd.

35 Derfydd y pechaduriaid o'r tîr, ni bydd yr annuwolion mwy: fy enaid bendithia di 'r Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm. cv.

*Boreuol weddi.*

GLodforwch yr Arglwydd, gelwch ar ei enw: mynegwch ei weithredoedd ym mysc y bobloedd.

2 Cenwch iddo, can-molwch ef: treuthwch am ei holl ryfeddodau ef.

3 Gorfoleddwch yn ei enw ſanctaidd, llawenyched calon y rhai a geiſiant yr Arglwydd.

4 Ceiſiwch yr Arglwydd ai nerth: ceſiwch ei wyneb bôb amſer.

5 Cofiwch ei ryfeddodau y rhai a wnaeth efe: ei wrthiau, a barnedigaethau ei enau.

6 O hâd Abraham ei wâs ef: ô meibion Jacob ei etholedigion.

7 Efe yw'r Arglwydd ein Duw ni, ei farnedigaethau ef [ydynt] trwy'r holl ddaiar.

8 Cofiodd ei gyfammod bôb amſer: [a'r] gair a orchymynnodd efe i fîl o genhedlaethau.

9 Yr hyn a ammododd efe ag Abraham, ai lŵ i Jſaac.

10 A'r [hyn] a oſododd efe yn ddeddf i Jacob, [ac] yn gyfammod tragywyddol i Jſrael,

11 Gan ddywedyd, i ti y rhoddaf dir Canaan rhandir eich etifeddiaeth,

12 Pan oeddynt anaml [ac] ychydig, a dieithriaid ynddi,

13 Pan rodiaſant o genhedlaeth i genhedlaeth: o'r [naill] deyrnas at bobl arall:

14 Ni adawodd i neb eu gorthrymmu, onid ceryddodd frenhinoedd oi plegit [gan ddywedyd:]

15 Na chyffyrddwch a'm rhai eneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.

16 Galwodd hefyd am newyn ar y tîr: a diniſtriodd holl gynhaliaeth bara.

17 Anfonodd ŵr oi blaen hwynt, Joſeph a werthwyd yn wâs.

18 Cyſtuddiaſant ei draed ef mewn gefyn: daeth yr haiarn hyd ei enaid,

19 Hyd yr amſer y daeth ei air ef [i ben,] gair yr Arglwydd ai profodd ef.

20 Y brenin a anfonodd, ac ai gollyngodd ef, a llywodraeth-wr y bobl ai rhyddhâodd ef.

21 Goſododd ef yn Arglwydd ar ei dŷ, ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth.

22 J athrawiaethu ei dywyſogion ef wrth ei ewyllys, ac i ddyſcu doethineb iw henuriaid ef.

23 Yna 'r aeth Jſrael i'r Aipht, ac Jacob a ymdeithiodd yn nhîr Ham.

24 Ac efe a gynnyddodd ei bobl yn ddirfawr: ac ai gwnaeth yn gryfach nai gwrthwynebwŷr.

25 Trôdd eu calon hwynt i gaſaû ei bobl ef, ac i wneuthur yn ddichellgar ai weiſion ef.

26 [Yna]'r anfonodd efe Moſes ei wâs, [ac] Aaron yr hwn a ddewiſaſe efe.

27 Goſodâſant eiriau ei arwyddion ef yn eu plith hwynt: a rhyfeddodau yn nhîr Ham.

28 Efe a anfonodd dywyllwch, ac a dywyllodd: ac nid anufyddhaſant hwy ei air ef.

29 Efe a drôdd eu dyfroedd yn waed, ac a laddodd eu pyſcod hwynt.

30 Eu tir a heigiodd lyffaint yn ſtafelloedd eu brenhinoedd.

31 Efe a ddywedodd, a daeth cymmyſc-blâ, [a] llau yn ei holl frô hwynt.

32 Efe a roddes eu glaw hwynt yn genllyſc, ac yn fflammau tân yn eu tîr.

33 Tarawodd hefyd eu gwinwŷdd, ai ffigus-wydd: ac a ddrylliodd goed eu gwlad hwynt.

34 Efe a ddywedodd, a daeth y celioc rhedyn a'r lindis yn anneirif,

35 Y rhai a ſwyrtâſant yr holl laſ-wellt yn eu tîr hwynt: ac a ddifâſant ffrwyth eu daiar hwynt.

36 Tarawodd hefyd bôb cyntaf-anedic yn eu tîr hwynt, [ſef] blaen-ffrwyth ei holl nerth hwynt.

37 Ac ai dug hwynt allan ag arian, ac ag aur: ac heb [un] llesc yn eu llwythau hwynt.

38 Llawenychodd yr Aipht pan aethant allan, canys ſyrthiaſe eu harſwyd arnynt hwy.

39 Efe a eſtynnodd gwmwl yn dô, a thân i oleuo liw nôs.

40 Gofynnaſant, ac efe a ddug ſofl-ieir, ac ai diwallodd â bara nefol.

41 Efe a holltodd y graig, a'r dwfr a ddelifodd, [ac] afonydd a gerddâſant ar hŷd [lleoedd] ſychion.

42 Canys efe a gofiodd ei air ſanctaidd, ac Abraham ei wâs.

43 Ac a ddûg ei bobl allan mewn llawenydd:

ai etholedigion mewn gorfoledd.

44 Ac a roddes iddynt dir y cenhedloedd: a goreſcynnaſant lafur y bobloedd.

45 Fel y cadwent ei ddeddfau ef, ac y cynhalient ei gyfreithiau. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm.cvj.

*Molwch yr Arglwydd.*

Prydnhawnol weddi.

GLodforwch yr Arglwydd canys dâ [yw:] o herwydd ei drugaredd [a beru] yn dragywydd.

2 Pwy a draetha gadernid yr Arglwydd: [ac] a fynega ei holl fawl ef:

3 Gwyn eu byd a gadwant farn: [a'r] hwn a wnêl gyfiawnder bôb amſer.

4 Coſia fi Arglwydd yn ôl [dy] raſlonrwydd i'th bobl, ymwel â mi a'th iechydwriaeth.

5 Fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, gan lawenychu yn llawenydd dy genhedlaeth: [a] chan orfoleddu gyd a'th etifeddiaeth.

6 Pechaſom gyd a'n tadau, gwnaethom gamwedd, anwir fuom.

7 Ein tadau ni ddeallaſant dy ryfeddodau yn yr Aipht, ni choſiaſant luoſogrwydd dy drugareddau: eithr annufydd fuant wrth y môr [ſef] y môr coch.

8 Etto efe ai hachubodd hwynt er mwyn ei enw: i beri adnabod ei gadernid.

9 Ac a geryddodd y môr coch fel y ſychodd efe: a gwnaeth iddynt fyned trwy'r dyfnder megis trwy'r anialwch:

10 Achubodd hwynt hefyd o law y digaſog: ac ai gwarêdodd o feddiant y gelyn.

11 A'r dyfroedd a doâſant eu gwrthwynebwŷr: ni adawyd vn o honynt.

12 Yna y credâſant iw eiriau ef: [ac] y canâſant ei fawl ef.

13 Yn y fan yr anghoſiaſant ei weithredoedd ef, ni ddiſgwiliaſant am ei gyngor ef.

14 Eithr blyſiâſant yn ddirfawr yn yr anialwch: a themptiâſant Dduw yn y diffaethwch.

15 Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt, ac a anfonodd gulni arnynt.

16 Cyffroaſant hefyd Moſes yn y gwerſyll: [ac] Aaron ſanct yr Arglwydd.

17 Y ddaiar a agorodd, ac a lyngcodd Dathan, ac a orchguddiodd gynnulleidfa Abiram.

18 Cynneuodd tân hefyd yn eu cynnulleidfa hwynt: fflam a loſcodd y rhai annuwiol.

19 Llô a wnaethant yn Horeb: ac ymgrymmaſant i'r ddelw dawdd.

20 Felly y troâſant eu gogoniant i lûn eidion yn poru glaſ-wellt.

21 Anghoſiaſant Dduw eu hachubwr, yr hwn a wnelſe [bethau] mawrion yn yr Aipht.

22 [Pethau] rhyfedd yn nhîr Ham: pethau ofnadwy wrth y môr coch.

23 Ac efe a ddywedaſe am eu diniſtrio hwynt, oni buaſe i Moſes ei etholedig ef ſefyll ar yr adwy oi flaen ef, i droi ei llidiawgrwydd rhag [eu] diniſtrio.

24. Diyſtyraſant hefyd y tîr dymunol: [ac] ni chredâſant ei air ef.

25 Grwgnachâſant hefyd yn eu pebyll: ac ni wrandawſant ar lais yr Arglwydd.

26 Yna y derchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt, iw cwympo yn yr anialwch,

27 Ac i gwympo eu had ym myſc y cenhedloedd, ac iw gwaſcâru hwynt drwy'r tiroedd.

28 Ymgymharâſant hefyd a Baalpeor, a bwyttaſant ebyrth y meirw.

29 Felly y digiaſant [ef] ai dychymmygion eu hunain: ac y tarawodd plâ yn eu myſc hwy.

30 Yna y ſafodd Phinehes, ac a iawn farnodd: a'r plâ a attaliwyd.

31 Achyfrifwyd [hyn] iddo yn gyfiawnder: o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

32 Llidiâſant ef hefyd wrth * ddyfroedd y gynnen: a drygwyd Moſes oi plegit hwynt.

Num 20.13.

33 O herwydd cythruddo o honynt ei yſpryd ef, fel y camddywedodd ai wefuſau.

34 Ni ddiniſtriâſant y bobloedd, megis y dywedaſe'r Arglwydd wrthynt.

35 Eithr ymgymmyſcâſant a'r cenhedloedd: a dyſcâſant eu gweithredoedd hwynt.

36 A gwaſanaethâſant eu gau dduwiau hwynt, y rhai a fuant yn fagl iddynt:

37 Aberthâſant hefyd eu meibion, ai merched i gythreuliaid,

38 Ac a dywalltâſant waed gwirion [ſef] gwaed eu meibion, ai merched, y rhai a aberthâſant i gau dduwiau Canaan, ac a halogwyd y tîr a'r gwaed.

39 Felly'r ymhalogâſant yn eu gweithredoedd eu hun, ac y puteiniaſant gyd ai dychymmygion.

41 Am hynny y cynneuodd dîg yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, ac y ffieiddiodd efe ei etifeddiaeth.

42 Ac efe ai rhoddes hwynt yn llaw'r cenhedloedd, ai caſeion a lywodraethâſant arnynt.

42 Eu gelynnion hefyd ai gorthrymmâſant, a goſtyngwyd hwynt tân eu dwylo hwy.

43 Llawer gwaith y gwarêdodd efe hwynt, hwythau ai digiâſant [ef] ai cyngor eu hun: a hwynt a gyſtuddiwyd am eu hanwiredd.

44 Ond efe a edrychodd pan oedd ing arnynt: pan glywodd eu llefain hwynt.

45 Ac efe a goſiodd ei gyfammod â hwynt, ac a doſturiodd yn ôl lluoſogrwydd ei drugareddau.

46 Ac ai rhoes hwynt i [gael] trugaredd o flaen y rhai oll ai caethiwaſent hwy.

47 Achub ni ô Arglwydd ein Duw: a chynnull ni o blith y cenhedloedd, i glodfori dy enw ſanctaidd: ac i orfoleddu yn dy foliant.

48 Bendigedic yw Arglwydd Dduw Iſrael er ioed, ac yn dragywydd: a dyweded yr holl bobl, felly y byddo. Molwch yr Arglwydd.

Pſalm. cvij.

*Borenol weddi.* Clodfoꝛwch yꝛ Arglwydd canys dâ yw: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

2 [Felly]dywededed gwaredigion yꝛ Arglwydd, y rhai a waredodd efe o law 'r gelyn,

3 Ac a gaſclodd efe o'ꝛ tiroedd,o'ꝛ dwyꝛain, ac o'ꝛ goꝛllewyn, o'ꝛ gogledd, ac o'ꝛ dehau.

4 Cyꝛwydꝛâſant yn yꝛ anialwch[ac]mewn diffaethwch[allan o'ꝛ] ffoꝛdd : heb gael dinas i aros ynddi.

5 Yn newynog ac yn ſychedig eu henaid a lewygodd ynddynt.

6 Yna y llefâſant ar yꝛ Arglwydd yn eu cyfyngder : [ ac ] efe ai gwaredodd oi goꝛthrymder.

7 Ac ai tywyſodd hwynt ar hŷd ffoꝛdd iniawn, i ddyfod i ddinas gyfanneddol.

8 Cyffeſſant o flaen yꝛ Arglwydd ei dꝛugaredd ef, ai ryfeddodau[a wnaeth efe]i feibion dynnion.

9 Canys diwallodd efe yꝛ enaid ſychedig,ac a lanwodd yꝛ enaid newynog â daioni.

10 Y rhai a bꝛeſſwyliant dywyllwch a chyſcod angeu,yn rhwym[mewn]cyſtudd a haiarn,

11 O herwydd annufyddhaû o honynt ciriau Duw, a dirmygu cyngoꝛ y Goꝛuchaf.

12 Yntef a oſtyngodd eu calon â blinder : ſyꝛthiâſant, ac nid oedd cynnoꝛthwy-wꝛ.

13 Pan waeddâſant ar yꝛ Arglwydd yn eu cyfyngder : efe ai hachubodd oi goꝛthꝛymder.

14 Dug hwynt allan o dywyllwch,a chyſcod angeu : a dꝛylliodd eu rhwymau hwynt.

15 Cyffeſſant hwythau o flaen yꝛ Arglwydd ei dꝛugaredd, ai ryfeddodau [a wnaeth efe ] i feibion dynnion.

16 Canys efe a doꝛrodd y pyꝛth pꝛês, ac a ddꝛylliodd y barrau heirn.

17 Ynfydion o blegit eu camweddau, ac o herwydd eu hanwireddau a gyſtuddir.

18 Eu henaid a ffieiddie bôb bwyd : a daethant hyd byꝛth angeu.

19 Yna y gwaeddaſant ar yꝛ Arglwydd yn eu cyfyngder: [ac]efe ai hachubodd oi goꝛthrymder.

20 Anfonodd efe ei air, ac iachâodd hwynt: ac ai gwaredodd oi methiant.

21 Cyffeſſant hwythau o flaen yꝛ Arglwydd ei dꝛugaredd ef : ai ryfeddodau[a wnaeth efe ] i feibion dynnion,

22 Aberthant hefyd aberth moliant:a mynêgant ei weithꝛedoedd ef mewn goꝛfoledd.

23 Y rhai a ddeſcynnant mewn llongau i'r môꝛ , gan wneuthur ei goꝛchwyl mewn dyfroedd mawrion :

24 Hwynt a welſant weithꝛedoedd yꝛ Arglwydd: ai ryfeddodau yn y dyfnder.

25 Canys dywedodd efe, a chyfododd temheſtl-wynt : ac a dderchafodd ei donnau.

26 [Y rhai] a eſcynnaſant i'r nefoedd,[ac]a ddeſcynnaſant i'r dyfnder ,[ fel ] y toddodd eu henaid gan flinder.

27 Ymdꝛoâſant,ac ymſymmudâſant fel meddwyn : a methodd eu holl ddoethineb.

28 Yna y gwaeddâſant ar yꝛ Arglwydd yn eu cyfyngder, ac efe ai dygodd hwynt allan oi goꝛthꝛymder.

29 Gwnaeth i'r ſtoꝛm ſefyll yn dawel: ai tonnau a oſtegâſant.

30 Yna y llawenhauſant am eu goſtêgu, ac efe ai dug i'r poꝛthladd a ddymunaſent.

31 Cyffeſſant hwythau o flaen yꝛ Arglwydd ei dꝛugaredd ef ai ryfeddodau[a wnaeth efe] i feibion dynnion.

32 A derchafed cynnulleidfa y bobl ef,a moliannant ef yn eiſteddfod yꝛ henuriaid.

33 Efe a oſododd y lliſeiriant yn ddiffaethwch : a ffynhonnau dyfroedd yn ddiſpydd.

34 [A]thîr ffrwyth-lawn yn ddiffrwyth ; am ddꝛygioni y rhai a dꝛigent ynddo.

35 Goſododd yꝛ anialwch yn llynn dwfr : a'r tîr crâs yn ffynhonnau dwfr.

36 Ac yno y gwnaeth i'r newynog aros: ac y darparaſant ddinas gyfanneddôl

37 Ac yꝛ hauâſant feuſydd, ac y plannâſant win-llânoedd,ac y dugâſant ffrwyth toꝛeithiog:

38 Canys bendithiâſe hwynt fel yꝛ amlhâſāt yn ddirfawꝛ,ac ni adawodd iw hanifeiliaid leihau

39 Wedi hynny y lleihauwyd hwynt, ac y goſtyngwyd gan gyfynder,dꝛyg-fyd a chŷni:

40 Tywalltodd ddirmyg ar foneddigion, a gwnaeth iddynt gyꝛwydꝛo mewn anialwch heb ffoꝛdd.

41 Ond efe a gododd y tlawd o gyſtudd, ac a oſododd[ei]deuluoedd fel pꝛaidd.

42 Y rhai iniawn a wêlant,ac a lawenŷchāt: a phob anwiredd a gaea ei ſafn.

43 Pwy[ſydd]ddoeth fel y cadwo hyn ⁖ ac y deallant dꝛugareddau 'r Arglwydd ⁖

Pſalm.cviiij.

*Can* neu *Pſalm Dafydd.*

*Prydnhawnol weddi* Pſal.57.7. Parod yw fyng-halon ô Dduw, [parod]yw fyng-halon : canaf a chanmolaf a'm gogoniant.

2 Deffro[dithe fyng-ogoniant, deffro]y nabl a'r delyn, deffroaf yn foꝛeu.

3 Clodfoꝛaf di Arglwydd ym myſc y bobloedd : canmolaf di ym myſc y cenhedloedd.

4 Canys mawꝛ yw dy dꝛugaredd oddi ar y nefoedd, a'th wirionedd hyd yꝛ wybꝛ.

5 Ymdderchaû Dduw uwch y nefoedd:a bydded dy ogoniant ar yꝛ holl ddaiar.

6 Fel y gwareder dy rai annwyl : achub a'th ddeheu-law,a gwꝛando fi.

7 Duw a lefarodd yn ei ſancteiddꝛwydd[(am hynny ] y llawenychaf ) rhannaf Sichem, a meſſuraf ddyffryn Succoth.

8 Eiddo fi [yw] Gilead,[ac]eiddo fi [ yw ] Manaſſes: Ephꝛaim hefyd[yw]nerth fy mhen: Iuda [yw] fy neddf-wꝛ.

9 Moab [ſydd] fyng-hrochan golchi, ar Edom y taflaf fy eſcid: buddugoliaethaf yn erbyn Paleſtina. Pſal.60.8.

10 Pwy a'm dwg fi i'r ddinas gadarn? pwy a'm dwg hyd yn Edom?

11 Onid tydi ô Dduw [’r hwn] a'n ffieiddiaiſt, ac nid eit ti allan ô Dduw gyd a'n lluoedd.

12 Dyro i mi gynnorthwy rhag y gelyn, canys gau yw ymwared dyn.

13 Trwy Dduw y gwnawn wroldeb, ac efe a ſathr ein gorthrym-wŷr.

### Pſalm. cix.

*At y pen-cerdd Pſalm Dafydd.*

NA thaw di ô Dduw fy moliant.

2 Canys genau'r annuwiol, a genau y twyllodrus a ymagorâſant arnaf: â thafod gau y llefaraſant i'm herbyn.

3 Cylchynaſant fi hefyd â geiriau câs, ac ymladdaſant â mi heb achos.

4 Am fyng-hariadigrwydd i'm gwrthwynebaſant: minne [a arferais] weddi.

5 Goſodaſant hefyd i'm herbyn ddrwg a'm dda: a châs am fyng-hariad.

6 Goſot [tithe un] annuwiol arno ef, a ſafed Satan wrth ei ddeheu-law ef.

7 Pan farner ef, eled yn euoc, a bydded ei weddi yn bechod.

8 Ychydig fyddo ei ddyddiau: [a] chymmered arall ei eſcobaeth ef.

9 Bydded ei blant yn ymddifaid: ai wraig yn weddw.

10 Gan gyrwydro hefyd crwydred ei blant ef, a chardottant: ceiſiant hefyd [eu bara] oi hang-hyfannedd leoedd.

11 Rhwyded y ceiſiad yr hyn oll [ſydd] ganddo: ac anrheithied dieithriaid ei lafur ef.

12 Na fydded [neb] a eſtynno drugaredd iddo: ac na fydded [neb] a drugarhâo wrth ei ymddifaid ef.

13 Bydded ei hiliogaeth ef yn ddiniſtr, delêer ei enw yn yr oes neſſaf.

14 Coffaer anwiredd ei dadau o flaen yr Arglwydd: ac na ddelêer pechod ei fam ef.

15 Byddant bob amſer ger bron yr Arglwydd: a thorred efe ddydd eu coffadwriaeth o'r tir.

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd, eithr erlyd o honaw y truan a'r tlawd, a'r cyſtuddiedic o galon iw ladd.

17 Hoffodd felldith, a hi a ddaeth iddo ef: ni fynne fendith, a hi a bellhaodd oddi wrtho ef.

18 Je gwiſcodd felldith fel dilledyn, a hi a ddaeth fel dwfr iw fewn, ac fel olew iw eſcyrn.

19 Bydded iddo fel dilledyn [yr hwn] a wiſco efe, ac fel gwregys a ymregyſo efe yn oeſtadol.

20 Hyn [fyddo] tâl fyng-wrthwyneb-wŷr gan yr Arglwydd: a'r rhai a ddywedant niwed yn erbyn fy enaid.

21 Tithe Arglwydd Dduw gwna â mi yn ôl dy enw, am fod yn dda dy drûgaredd, gwaret fi.

12 Canys truan a thlawd [ydwyf,] a'm calon a archollwyd o'm mewn.

23 Euthum fel cyſcod pan gilio, fel celiog rhedyn i'm heſcydwyd.

24 Fyng-liniau a aethant yn egwan gan ympryd, a'm cnawd a guriodd o eiſieu braſder.

25 Gwarthrudd hefyd oeddwn iddynt: [pan] welent fi ſiglent eu pennau.

26 Cynnorthwya fi ô Arglwydd fy Nuw, achub fi yn ôl dy drugaredd.

27 Fel y gwyppant mai dy waith di [yw] hyn: [ac mai] ti Arglwydd ai gwnaethoſt.

28 Melldithiant hwy, tithe a fendithi, cywilyddier y rhai a gyfodant [i'm herbyn:] a llawenycher dy wâs.

29 Gwiſcer fyng-wrthwyneb-wŷr â gwarth, ac ymwiſcant yn eu cywilydd megis â chochl.

30 Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr a'm genau: a moliannaf ef ym myſc llawer.

31 O herwydd efe a ſaif ar ddeheu-law 'r tlawd: iw achub oddi wrth y rhai a farnant ei enaid ef.

### Pſalm. cx.

*Pſalm Dafydd.*

DYwedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheulaw hyd oni oſodwyf dy elynnion yn faingc i'th draed. *Boreuol weddi.*

2 Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Sion: llywodraetha di ym myſc dy elynnion.

3 Dy bobl [a offrymmant] yn ewyllyſcar, yn nydd dy nerth mewn harddwch ſanctaidd: o groth y wawr [y mae] gwlith dy anedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr Arglwydd, ac nid edifarhâ efe: *ti [ydwyt] offeiriad yn dragywyddol yn ôl urdd Melchiſedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheu-law a archolla frenhinoedd yn nydd ei ddigofaint.

6 Efe a farn ym myſc y cenhedloedd, lleinw [llawer lle] â chelanedd: archolla benn llawer gwlad.

7 Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd, am hynny y dercha efe [ei] benn.

### Pſalm cxj.

*Molwch yr Arglwydd.*

CLodforâf yr Arglwydd a'm holl galon: yn nirgelfa y rhai iniawn, ac yn y gynnulleidfa.

2 Mawr [yw] gweithredoedd yr Arglwydd: hyſpys i bawb ai hoffant.

3 Gogoniant a harddwch [yw] ei waith ef: ai gyfiawnder ſydd yn parhau byth.

4 Gwnaeth goffa am ei ryfeddodau, graſlawn a thrugarog [yw]'r Arglwydd.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai ai hofnant ef, efe a goffa ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd iw bobl gadernid ei weithredoedd: gan roddi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn [yw] gweithredoedd ei ddwylaw ef: ei holl orchymynnion [ydynt] ffyddlon:

8 Wedi eu ſiccrhau byth yn dragywydd, [ai] gwneuthur mewn gwirionedd, ac iniawnder.

9 Anfonodd ymwared iw bobl, gorchymynnodd ei gyfammod yn dragywyddol: ſancteiddiol, ac ofnadwy [yw] ei enw ef.

10 Dechreuad doethineb [yw] ofn yr Arglwydd: deall da [ſydd] gan y rhai ai harferant hwy, y mae ei foliant ef yn parhau byth.

### Pſal. cxij.

*Molwch yr Arglwydd.*

GWyn ei fyd y neb a ofno 'r Arglwydd, [ac] ſydd yn hoffi ei orchymynnion ef yn ddirfawr.

2 Ei had fydd cadarn yn y tir, cenhedlaeth y rhai iniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth [fydd] yn ei dŷ ef: ai gyfiawnder ſydd yn parhau byth.

4 Cyfododd goleuni i'r rhai iniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thoſturiol, a chyfiawn [yw efe.]

5 Gŵr dâ [fydd] trugarog, a chymmwynaſcar: wrth farn y llywodraetha efe ei eiriau.

6 Canys byth nid yſcogir ef, y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl drwg, ei galon ſydd yn ddiſigl yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 Attegwyd ei galon [fel] nad ofno efe hyd oni wêlo ei ewyllys ar ei elynnion.

2.Cor.2.9. 9 *Rhannodd, [a] rhoddodd i'r tlodion, ai gyfiawnder ſydd yn parhau byth: ei gorn a dderchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wêl [hyn,] ac a ddigia, efe a eſcyrnyga ei ddannedd, ac a dawdd ymmaith: derfydd am ddymuniad y rhai annuwiol.

### Pſalm. cxiij.

*Molwch yr Arglwydd.*

GWeiſion yr Arglwydd molwch: [ie] molwch enw 'r Arglwydd.

2 Bendigedic fydd enw 'r Arglwydd o hyn allan yn dragywydd.

3 O godiad haul hyd ei fachludiad moliannus yw enw 'r Arglwydd.

4 Yr Arglwydd a dderchafwyd ar yr holl genhedloedd: ei ogoniant ef [ſydd] goruwch y nefoedd.

5 Pwy [ſydd] fel ein Harglwydd Dduw ni, yn preſwylio yn uchel?

6 [Ac] yn ymddaroſtwng i edrych [pethau] yn y nefoedd, ac yn y ddaiar?

7 Yr hwn ſydd yn codi y tlawd o'r llwch: [ac] yn derchafu yr anghenus o'r tommennau,

8 Iw oſod gyd â phendefigion: [ie] gyd â phendefigion ei bobl.

9 Yr hwn ſydd yn goſod yr amhlantadwy yn dylwythoc, [ac] yn llawen-fam plant, canmolwch yr Arglwydd.

### Pſalm. cxiiij.

PAn ddaeth Iſrael o'r Aipht [a] thŷ Iacob oddi wrth bobl ang-hyfiaith. *Prydnhawnol weddi.*

2 Iuda oedd ei ſancteiddrwydd ef: [ac] Iſrael ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd [hyn,] ac a giliodd: yr Iorddonen a drôdd yn ôl.

4 Y mynyddoedd a neidiaſant fel hyrddod, [a'r] brynnau fel wyn defaid.

5 Beth [ddarfu] i ti ô fôr pan giliaiſt? [ti-the] Iorddonen [pa ham] y troaiſt yn ôl?

6 [Pa ham] fynyddoedd y neidiech fel hyrddod? [a'r] brynnau fel wyn defaid?

7 Ofna di ddaiar rhag yr Arglwydd: [ſef] rhag Duw Iacob.

8 Yr hwn ſydd yn troi 'r graig yn llynn dwfr, [a'r] galleſtr yn ffynnon ddwfr.

### Pſalm. cxv.

NId i ni ô Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ti ogoniant o herwydd dy drugaredd a'th wirionedd.

2 Pa ham y dywed y cenhedloedd, pa le yn awr [y mae] eu Duw hwynt?

3 Canys ein Duw ni [ſydd] yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.

4 Eu delwau hwy [ydynt] o aur, ac arian, [ſef] o waith dynnion.

5 Genau [ſydd] iddynt, ac ni lefarant, llygaid [ſydd] ganddynt, ac ni welant.

6 [Y mae] clustiau iddynt, ac ni chlywant, ffroenau [ſydd] ganddynt, ac ni aroglant.

7 Dwylo [ſydd] iddynt, ac ni theimlant: traed [ſy] iddynt, ac ni cherddant: ni leiſiant [ychwaith] ai gwddf.

8 Y rhai ai gwnânt ydynt fel hwythau; [a] phob un a ymddyried ynddynt.

9 [Ti] Iſrael ymddyried ti yn yr Arglwydd, efe yw eu porth, ai tarian.

10 Tŷ Aaron ymddyriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, ai tarian.

11 Y rhai a ofnwch yr Arglwydd, ymddyriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, ai tarian.

12 Yr Arglwydd a'n coffaodd ni, efe [a'n]

bendithia, bendithia efe dŷ Iſrael: bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd, fychain, a mawrion.

14 Yr Arglwydd a chwanêga [ei ddonniau] arnoch [ſef] arnoch chwi, ac ar eich plant.

15 Bendigêdic ydych chwi gan yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

16 Y nefoedd [ie] 'r nefoedd [ydynt] eiddo yr Arglwydd: efe a roddes y ddaiar i feibion dynion.

17 Y meirw ni foliannant yr Arglwydd, na'r rhai oll a ddeſcynnant i ddiſtawrwydd.

18 Ond nyni a fendithiwn yr Arglwydd o hyn allan yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm. cxvj.

*Boreuol weddi.*

DA gennif wrando o'r Arglwydd a'r fy llef a'm gweddiau.

2 Am oſtwng o honaw ef ei gluſt attaf, llefaf tros fy nyddiau [arno ef.]

3 Maglau angeu a'm cylchynâſant, a goſidiau uffern a'm daliâſant, ing a blinder a gefais.

4 Ond mi a alwaf ar enw 'r Arglwydd, atolwg Arglwydd gwaret fy enaid.

5 Trugârog [yw] 'r Arglwydd, a chyfiawn, a thoſturiol yw ein Duw ni.

6 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y rhai annichellgar: tlodais, ac efe a'm hachubodd.

7 Dychwel ô fy enaid i'th orphywyſfa, canys yr Arglwydd fu ddâ wrthit.

8 O herwydd it waredu fy enaid oddi wrth angeu, fy llygaid oddi wrth ddagrau, a'm traed rhag llithro.

9 Rhodiaf o flaen yr Arglwydd yn nhiroedd y rhai byw.

10 Credais, am hynny y lleferais: cyſtuddiwyd fi'n ddirfawr.

11 Mi a ddywedais yn fy ffrwſt, pob dyn [ſydd] gelwyddoc.

12 Beth a dalaf i'r Arglwydd [am] ei holl ddaioni i mi?

13 Phiol iechydwriaeth a gymmeraf, ac ar enw 'r Arglwydd y galwaf.

14 Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd, yn awr o flaen ei holl bobl ef.

15 Gwerthfawr yng-olwg yr Arglwydd [yw] marwolaeth ei ſaincts ef.

16 Wele ô Arglwydd, o herwydd mai dy wâs di [ydwyf,] (dy wâs di [ydwyf,] [ſef] mab dy wasanaeth-wraig,) y datodaiſt fy rhwymau.

17 Aberthaf i ti aberth moliant: a galwaf ar enw 'r Arglwydd.

18 Talaf fy addunedau i'r Arglwydd yn awr o flaen ei holl bobl,

19 Yng-hynteddoedd tŷ 'r Arglwydd, o'th fewn di ô Ieruſalem. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm. cxvij.

MOlwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd: clodforwch ef yr holl bobloedd.

2 O herwydd ei drugaredd ef wrthym ni ſydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd [a bery] yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm cxviij.

CLodforwch yr Arglwydd, canys dâ yw, o herwydd ei drugaredd [a bery] yn dragywydd.

2 Dyweded Iſrael yr awr hon [mai daionus yw efe, ac] mai yn dragywydd [y pery] ei drugaredd ef.

3 Dyweded tŷ Aaron yn awr, mai 'n dragywydd [y pery] ei drugaredd ef.

4 Yn awr dyweded y rhai a ofnant yr Arglwydd mai 'n dragywydd [y mae] ei drugaredd ef.

5 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd, yr Arglwydd a'm clybu, [ac a'm goſododd] mewn ehangder.

6 *Yr Arglwydd [ſydd] gyd â mi, nid ofnaf beth a wnel dŷn i mi. Heb.13.6.

7 Yr Arglwydd [ſydd] gyd â mi ym mhlith fyng-hynnorthwy-wyr: a mi a gâf weled [fy ewyllys] ar fyng-haſeion.

8 Gwell [yw] gobeithio yn yr Arglwydd, na gobeithio mewn dŷn.

9 Gwell [yw] gobeithio yn yr Arglwydd, na gobeithio mewn tywyſogion.

10 Yr holl genhedloedd a'm hamgylchynâſant: ond yn enw 'r Arglwydd y torraf hwynt ymmaith.

11 Amgylchynâſant fi, ie amgylchynâſant fi, ond yn enw 'r Arglwydd y torraf hwynt ymmaith.

12 Amgylchynâſant fi fel gwenyn, diffoddâſant fel tân drain: o herwydd yn enw 'r Arglwydd y torraf hwynt ymmaith.

13 Gan wthio y gwthiaiſt fi i ſyrthio: a'r Arglwydd a'm cynnorthwyodd.

14 Yr Arglwydd [yw] fy nerth [a'm] cân: ac ſydd iechydwriaeth i mi.

15 Llef gorfoledd, ac iechydwriaeth [ſydd] ym mhebyll y cyfiawn: deheulaw 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

16 Deheulaw'r Arglwydd a dderchafwyd, deheulaw 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

17 Ni byddaf farw eithr byw fyddaf: a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd.

18 Gan goſpi i'm coſpodd yr Arglwydd: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.

19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder [fel] yr elwyf iddynt, [ac] y clodforwyf yr Arglwydd.

20 Dymma borth yr Arglwydd, y rhai cyfiawn a ânt iddo,

21 Clodforaf di, o herwydd i ti fyng-wrando, a'th fod yn iechydwriaeth i mi.

22 Y maen a wrthododd yr adailad-wŷr a aeth yn benn congl.

23 O'r Arglwydd y daeth hyn, hynny [oedd] ryfedd yn ein golwg ni.

24 Dymma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd, gorfoleddwn, a llawenychwn ynddo.

25 Attolwg Arglwydd achub yn awr, attolwg Arglwydd pâr yn awr lwyddiant.

26 Bendigedic yw a ddelo yn enw 'r Arglwydd: bendithiâſom chwi o dŷ'r Arglwydd.

27 Yr Arglwydd [ſydd] Dduw, ac a lewyrchodd i ni: rhwymwch yr aberth â rhaffau wrth gyrn yr allor.

28 Fy Nuw [ydwyt] ti, am hynny i'th glodforaf, derchafaf di fy Nuw.

29 Clodforwch yr Arglwydd canys da [yw:] o herwydd yn dragywydd [y pery] ei drugaredd ef.

## Pſalm. cxix.

### Aleph. א

Prydnhawnol weddi.

GWynfyd y rhai perffaith [eu] ffordd: y rhai a rodiant yng-hyfraith yr Arglwydd.

2 Gwyn-fyd y rhai a gadwant ei deſtiolaethau ef: [ac] ai ceiſiant ef ai holl galon.

3 Yn ddiau [y rhai] ni wnant anwiredd a rodiant yn ei ffordd ef.

4 Ti a orchymynnaiſt gadw dy orchymynnion yn ddyfal.

5 O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau.

6 Yna ni'm gwradwyddid, pan edrychwn ar dy holl orchymynnion.

7 Clodforaf di mewn uniondeb calon, pan ddyſcwyf farnedigaethau dy gyfiawnder.

8 Cadwaf dy ddeddfau: na âd fi 'n dragywydd.

### Beth. ב

9 PA fodd y glanhâ llangc ei lwybr? wrth ymgadw yn ôl dy air di.

10 A'm holl galon i'th geiſiais, na âd i mi gyfeiliorni oddi wrth dy orchymynnion.

11 Cuddiais dy ymadroddion yn fyng-halon, er mwyn na phechwn i'th erbyn.

12 Ti Arglwydd [wyt] fendigedic: dyſc i mi dy ddeddfau.

13 A'm gwefuſau y creuthais holl farnedigaethau dy enau.

14 Bu mor llawen gennif ffordd dy deſtiolaethau a'r holl olud.

15 Yn dy orchymynnion y myfyriaf, ac ar dy lwybrau yr edrychaf.

16 Yn dy ddeddfau 'r ymddigrifaf, [ac] nid anghofiaf dy air.

### Gimel. ג

17 BYdd ddâ wrth dy wâs, [fel] y byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.

18 Dadcuddia fy llygaid, fel y gwelwyf [bethau] rhyfedd yn dy gyfraith.

19 Dieithr ydwyfi yn y tir, na chudd di rhagof dy orchymynnion.

20 Drylliwyd fy enaid gan âwydd i'th farnedigaethau bob amſer.

21 Ceryddaiſt y beilchion: melltigédic [yw] y rhai a gyfeiliornant oddi wrth dy orchymynnion.

22 Trô oddi wrthif gywilydd a dirmyg, o blegit dy deſtiolaethau di a gedwais.

23 Tywyſogion hefyd a eiſteddâſant: [ac] a ddywedâſant i'm herbyn, dy wâs dithe a fyfyrie yn dy ddeddfau.

24 A'th deſtiolaethau [oeddynt] fy hyfrydwch a'm cyngor-wŷr.

### Daleth. ד

25 GLynodd fy enaid wrth y llwch, bywhâ fi 'n ôl dy air.

26 Fy ffyrdd a fynegais, a gwrandewaiſt fi: dyſc i mi dy ddeddfau.

27 Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynnion, ac mi a fyfyriaf yn dy ryfeddodau.

28 Diferodd fy enaid gan ofid: bywhâ fi 'n ôl dy air.

29 Cymmer oddi wrthif ffordd y celwydd, ac yn drugarog dod ti i mi dy gyfraith.

30 Dewiſais ffordd dy wirionedd: goſodais dy farnedigaethau [o'm blaen.]

31 Glynais wrth dy deſtiolaethau ô Arglwydd na'm gwradwydda.

32 Ffordd dy orchymynnion a redaf, pan ehangech fyng-halon.

### He. ה

Borenol weddi.

DYſc i mi ô Arglwydd ffordd dy ddeddfau, a'i chadwaf hi [hyd] y diwedd.

34 Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith: ie cadwaf hi a'm holl galon.

35 Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynnion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

36 Goſtwng fyng-halon at dy deſtiolaethau: ac nid at gybydd-dra.

37 Tro heibio fy llygaid rhag gweled gwagedd: [a] bywhâ fi yn dy ffyrdd.

38 Cyflawna dy air i'th wâs, fel [y ymroddwyf] i'th ofn di.

39 Tro heibio fyng-wradwydd yr hwn a ofnais: canys dy farnedigaethau [ydynt] dda.

40 Wele awyddus ydwyf i'th orchymynnion: gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder.

Faw. ו

41 DEued i mi dy drugaredd Arglwydd, a'th iechydwriaeth yn ôl dy air.

42 Yna'r attebaf i'm cabludd: o herwydd yn dy air y gobeithiais.

43 Na ddwg dithe air y gwirionedd o'm genau yn llwyr: o herwydd yn dy farnedigaethau di y gobeithais.

44 A'th gyfraith a gadwaf yn waſtadol byth ac yn dragywydd.

45 Rhodiaf hefyd mewn ehangder, o herwydd dy orchymynnion di a geiſiaf.

46 Ac am dy deſtiolaethau di y llefaraf o flaen brenhinoedd, ac ni'm cywilyddir.

47 Onid ymddigrifaf yn dy orchymynnion y rhai a hoffais.

48 A'm dwylo a dderchafaf at dy orchymynnion y rhai a gêrais, ac mi a fefyrriaf yn dy ddeddfau di.

Zain. ז

49 COfia [dy] air i'th wâs yn yr hwn y peraiſt i mi obeitho.

50 Dymma fyng-hyſſur mewn cyſtudd, mai dy air di a'm bywha fi.

51 Y beilchion a'm gwatwaraſant yn ddirfawr: [er hynny] ni throais oddi wrth dy gyfraith di.

52 Cofiais ô Arglwydd dy farnedigaethau er ioed, ac ymgyſſurais.

53 Ofn a ddaeth arnaf o blegit yr annuwolion, y rhai ſydd yn gadu dy gyfraith di.

54 Dy ddeddfau oeddynt fyng-hân yn nhŷ fy mhererindod.

55 Cofiais dy enw Arglwydd liw nôs, a chedwais dy gyfraith.

56 Hyn oedd gennif, a'm gadw o honof dy orchymynnion di.

Cheth. ח

57 O Arglwydd fy rhan [ydwyt,] meddyliais gadw dy eiriau.

58 Gweddiais ger dy fron [a'm] holl galon: trugarhâ wrthif yn ôl dy air.

59 Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy deſtiolaethau di.

60 Bryſſiais, ac nid oedais gadw dy orchymynnion.

61 Minteioedd yr annuwolion a'm hyſpeiliaſant: [ond] nid anghofiais dy gyfraith di.

62 Hanner nôs y cyfodaf i'th foliannu am farnedigaethau dy gyfiawnder.

63 Cyfaill [ydwyſt] i'r rhai oll a'th ofnant, ac i'r rhai a gadwant dy orchymynnion.

64 Llawn yw 'r ddaiar o'th drugaredd ô Arglwydd: dyſc i mi dy ddeddfau.

Teth. ט

65 GWnaethoſt yn dda a'th wâs ô Arglwydd yn ôl dy air.

66 Dyſc i mi iawn ddeall, a gwybodaeth, o herwydd yn dy orchymynnion di y credais.

67 Cyn fy narostwng yr oeddwn yn cyfeiliorni: ond yr awr cedwais dy air di.

68 Da [ydwyt,] a daionus, dyſc i mi dy ddeddfau.

69 Y beilchion a glyttiaſant gelwydd i'm herbyn: minne a gadwaf dy orchymynnion a'm holl galon.

70 Cyn fraſed a'r bloneg yw eu calon: minne a ymddigrifais [yn] dy gyfraith di.

71 Da yw i mi fy narostwng, fel y dyſcwn dy ddeddfau.

72 Gwell i mi gyfraith dy enau, na miloedd [o ddarnau] aur, ac arian.

Iod. י

73 DY ddwylo a'm gwnaethant, ac a'm llunniaſant: pâr i mi ddeall fel y dyſcwyf dy orchymynnion.

yr Anhawdd
[illegible]

74 Y rhai a'th ofnant a'm gwelant, ac a lawenychant, o blegit gobeitho o honof yn dy air di.

75 Gwn Arglwydd mai cyfiawn [yw] dy farnedigaethau: a chyſtuddio o honot fi yn ffyddlon.

76 Bydded attolwg dy drugaredd i'm cyſſuro yn ôl dy air i'th wasanaeth-wr.

77 Deued i mi dy drugareddau, fel y byddwyf byw: o herwydd dy gyfraith [yw] fy nigrifwch.

78 Cywilydder y beilchion, canys ar gam i'm plygent [ond] myfi a fefyrriaf yn dy orchymynnion di.

79 Troer attafi y rhai a'th ofnant di, a'r rhai a adwaenant dy deſtiolaethâu.

80 Bydded fyng-halon yn berffaith yn dy ddeddfau, fel na'm cywilydder.

Caph. כ

81 DEffygiodd fy enaid am dy iechydwriaeth, wrth dy air yr ydwyf yn diſgwil.

82 Y mae fy llygaid yn pallu [yn edrych] am dy air gan ddywedyd: pa bryd i'm diddêni?

83 Canys ydwyf fel coſtrel mewn mwg [ond] nid anghofiais dy ddeddfau.

84 Pa nifer [yw] dyddiau dy wâs: pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant?

85 Y beilchion a gloddiaſant byllau i mi, yr hyn nid yw wrth dy gyfraith di.

86 Dy holl orchymynnion [ydynt] wirionedd, ar gam i'm herlidiaſant, cymmorth fi.

87 Braidd na'm difaſant fi ar y ddaiar, a minne ni adewais dy orchymynnion.

88 Bywhâ fi yn ôl dy drugaredd: fel y cadwyf deſtiolaeth dy enau.

Lamed. ל

89 DY air ô Arglwydd ſydd yn parhau byth yn y nefoedd.

90 Dy wirionedd [ſydd] dros genhedlaeth a chenhedlaeth: ſeiliaiſt y ddaiar, a hi a ſaif.

91 Wrth dy farnedigaethau y ſafant heddyw: canys dy weiſion [ydynt] oll.

92 Oni bai [fod] dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, darfuaſe yna am danaf yn fyng-hyſtudd.

93 Byth ni anghofiaf dy orchymynnion: canys â hwynt i'm bywheaiſt.

94 Eiddo ti ydwyf fi, achub fi ô herwydd dy orchymynnion a geiſiais.

95 Y rhai annuwiol a ddiſgwiliaſant am danaf i'm difetha, dy deſtiolaethau di a yſtyriaf.

96 Yr ydwyf yn gwêled diwedd ar bob perffeithrwydd, [ond] dy orchymyn di ſydd dra ehang.

Mem. מ

97 MOr gu gennif dy gyfraith di: hi yw fy myfyrdod beunydd.

98 A'th orchymynnion yr ydwyt yn fyng-wneuthur yn ddoethach na'm gelynnion: canys byth [y maent] gyd â mi.

99 Deallais fwy na'm holl athrawon: o herwydd dy deſtiolaethau [ydynt] fy myfyrdod i.

100 Deallais yn well na'r henuriaid, am gadw o honof dy orchymynnion di.

101 Atteliais fy nhraed oddi wrth bob llwybr drwg, fel y cadwn dy air di.

102 Ni chiliais oddi wrth dy farnedigaethau, o herwydd ti a'm dyſcaiſt.

103 Mor felus yw dy eiriau i'm genau: [meluſach] na mêl i'm ſafn.

104 Trwy dy orchymynnion di y pwyllais: am hynny y caſeais bob gau lwybr.

Nun. נ

*Boreuol weddi.*

105 LLuſern [yw] dy air i'm traed: a llewyrch i'm llwybr.

106 Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

107 Cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr: bywha fi ô Arglwydd yn ôl dy air.

108 Attolwg Arglwydd bydd fodlon i ewyllyſcar offrymmau fyng-enau, a dyſc i mi dy farnedigaethau.

109 [Y mae] fy enaid yn fy llaw yn oeſtadol: er hynny nid anghofiais dy gyfraith.

110 Y rhai annuwiol a oſodaſant fagl i mi: ond ni chyfeiliornais oddi wrth dy orchymynnion di.

111 Cymmerais dy orchymynnion yn etifeddiaeth dros byth: o herwydd llawenydd fyng-halon ydynt hwy.

112 Goſtyngais fyng-halon i wneuthur dy ddeddfau byth [hyd] y diwedd.

Samec. ס

113 DYchymmygion [ofer] a gaſêais, a'th gyfraith di a hoffais i.

114 Fy lloches a'm tarian ydwyt: wrth dy air y diſgwiliais.

115 Ciliwch oddi wrthif rai drygionus: canys cadwaf orchymynnion fy Nuw.

116 Cynnal fi yn ôl dy air, fel y byddwyf byw: ac na phâr i mi gywilyddio am fyng-obaith.

117 Cynnal fi, ac iach fyddaf, ac yn dy ddeddfau yr ymddigrifaf yn waſtadol.

118 Sathraiſt y rhai oll a gyrwydrent oddi wrth dy ddeddfau: canys ofer [oedd] eu dichell hwynt.

119 Gwnaethoſt i holl annuwolion y tîr ddarfod [fel] ſothach: am hynny 'r hoffais dy deſtiolaethau.

120 Dychrynnodd fyng-nhawd rhag dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedigaethau.

Ain. ע

121 GWneuthum farn, a chyfiawnder: na ad fi i'm gorthrym-wŷr.

122 Par i'th wâs roddi ei fryd ar ddaioni: [ac] na âd i'r beilchion fyng-orthrymmu.

123 Fy llygaid a ballaſant [yn edrych] am dy iechydwriaeth, ac am dy ymadrodd cyfiawn.

124 Gwna i'th wâs yn ôl dy drugaredd: a dyſc i mi dy ddeddfau.

125 Dy wâs ydwyf fi, pâr i mi ddeall: fel yr adwaenwyf dy deſtiolaethau.

126 Amſer [yw] i'r Arglwydd wneuthur [barn:] torraſant dy gyfraith di.

127 Am hynny 'r hoffais dy orchymynnion yn fwy nag aur, ie nag aur coeth.

128 Am hynny y cyfrifais yn iniawn [dy] orchymynnion eu gyd oll: [ac] y caſeais bob gau lwybr.

Pe. פ

129 RHyfedd yw dy deſtiolaethau, am hynny y cadwodd fy enaid hwynt.

130 Agoriad dy air a rydd oleuni, gan beri deall i rai annichellgar.

131 Agorais fyng-enau a dyheais, o blegit awyddus oeddwn i'th orchymynnion di.

132 Edrych arnaf a thrugarhâ-wrthif yn ôl [dy] arfer i'r rhai a garant dy enw.

133 Cyfarwydda fyng-hamrau wrth dy air, ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf.

134 Gwaret fi oddi wrth drawſedd dynnion: felly y cadwaf dy orchymynnion.

135 Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs, a dyſc i mi dy ddeddfau.

136 Afonydd o ddyfroedd a ddeſcynnaſant o'm llygaid, am na chadwaſant dy gyfraith di.

Tſade. צ

137 CYfiawn [ydwyt] ti ô Arglwydd, ac iniawn yw dy farnedigaethau.

138 Gorchymynnaiſt gyfiawnder [yn] dy deſtiolaethau: a gwirionedd yn ddirfawr.

139 Fy Zêl a'm difaodd o herwydd i'm gelynnion anghofio dy eiriau di.

140 Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr: a'th wâs ai hoffodd hwynt.

141 Bychan [ydwyf,] a dirmygus, [ond] nid anghofiais dy orchymynnion.

142 Dy gyfiawnder [ſydd] gyfiawnder byth: a'th gyfraith [ſydd] wirionedd.

143 Adfyd a chyſtudd a'm goddiweddaſant: a'th orchymynnion [oeddynt] fy nigrifwch.

144 Cyfiawnder dy deſtiolaethau [a beru] yn dragywydd: gwna i mi ddeall, a byw fyddaf.

Coph.

*Prydnhawnol weddi.*

LLefais a'm holl galon, clyw fi ô Arglwydd, dy ddeddfau di a gadwaf.

146 Llefais arnat, achub fi: a chadwaf dy deſtiolaethau.

147 Achubais flaen y cyfddydd, a gwaeddais, wrth dy air y diſgwiliais.

148 Fy llygaid a achubaſant flaen gwiliadwriaethau y [nos] i fyfyrio yn dy air di.

149 Clyw fy llef yn ôl dy drugaredd, Arglwydd, bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.

150 Y rhai a ddilynant ſcelerder a neſſaſant [arnaf;] ac a ymbellhaſant oddi wrth dy gyfraith di.

151 Tithe Arglwydd [bydd] agos: canys dy holl orchymynnion [ydynt] wirionedd.

152 Er yſtalm y gwyddwn am dy deſtiolaethau, ſelio o honot hwynt yn dragywydd.

Reſh.

153 GWêl fyng-hyſtudd, a gwaret fi; canys nid anghofiais dy air di.

154 Dadle fy nadl, a rhyddhâ fi: bywhâ fi o herwydd dy air.

155 Pell [yw] iechydwriaeth oddi wrth y rhai annuwiol: o herwydd na cheiſiaſant dy ddeddfau di.

156 Dy drugareddau Arglwydd [ydynt] aml: bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.

157 Llawer ſydd yn fy erlid, ac yn fyngwrthwynebu: [er hynny] ni throais oddi wrth dy deſtiolaethau.

158 Gwelais y troſedd-wŷr, a greſſynnais am na chadwent dy air di.

159 Gwêl hoffi o honof dy orchymynnion di: Arglwydd bywhâ fi'n ôl dy drugaredd.

160 Gwirionedd [yw] dechreuad dy air: a'th holl gyfiawn farn [a beru] yn dragywydd.

Schin.

161 TYwyſogion a'm herlidiaſant heb achos, er hynny fyng-halon a gryne rhag dy air di.

162 Llawen ydwyf fi o blegit dy air, fel [un] yn cael ſclyfaeth lawer.

163 Celwydd a gaſeais, ac a ffieiddiais: a'th gyfraith di a hoffais,

164 Seith-waith yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori: o herwydd dy gyfiawn farnedigaethau.

165 Heddwch mawr [ſydd] i'r rhai a garant dy gyfraith: ac nid [oes] dramgwydd iddynt.

166 Diſgwiliais wrth dy iechydwriaeth di ô Arglwydd: a gwneuthum dy orchymynnion.

167 Fy enaid a gadwodd dy deſtiolaethau: a hoffiawn gennif hwynt.

168 Cedwais dy orchymynnion a'th deſtiolaethau: am [fod] fy holl ffyrdd ger dy fron di.

Taw.

169 NEſſaed fyng-waedd o'th flaen Arglwydd: gwna i mi ddeall yn ôl dy air.

170 Deued fyng-weddi ger dy fron; gwaret fi yn ôl dy ymadrodd.

171 Fyng-wefuſau a draethant [dy] foliant: pan ddyſcech i mi dy ddeddfau.

172 Fy nhafod a ddatcân dy air: o herwydd dy holl orchymynnion [ydynt] gyfiawnder.

173 Bydded dy law i'm cynnorthwyo: o herwydd dy orchymynnion di a ddewiſais.

174 Awyddus ydwyf ô Arglwydd i'th iechydwriaeth: a'th gyfraith [yw] fy hyfrydwch.

175 Bydded byw fy enaid fel i'th folianno di: a chynnorthwyed dy farnedigaethau fi.

176 Cyfeiliornais fel oen wedi colli: cais dy wâs, o blegit nid anghofiais dy orchymynnion.

## Pſalm. cxx.

*Caniad y graddau.*

*Boreuol weddi.*

ARyr Arglwydd y gelwais yn fyng-hyfyngder: ac efe a'm gwrandawodd i.

2 Arglwydd gwaret fy enaid oddi wrth wefuſau celwyddoc, [ac] oddi wrth dafod twyllodrus.

3 Beth a rydd [dy] dafod twyllodrus i ti? neu pa beth a chwanega efe arnat?

4 [Geiriau fel] llymmion ſaethau cawr yng-hyd a marwor mêryw.

5 Gwae fi breſſwylio o honof [ym] Meſech: a chyfanneddu o honof ym mhebyll Cedar.

6 Rhyhir y trigodd fy enaid gyd a'r hwn oedd yn caſaû tangneddyf.

7 Heddychol ydwyf, ond pan ddywedwyf [am hedd,] hwynt [a godant] i ryfel.

## Pſalm cxxj.

*Caniad y graddau.*

DErchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd o'r lle y daw fyng-hymmorth i.

2 Fyng-hymmorth [a ddaw] oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

3 Ni âd efe i'th droed lithro, ac ni huna dy geidwad.

4 Wele ni huna, ac ni chwſc ceidwad Iſrael.

5 Yr Arglwydd [yw] dy geidwad, yr Arglwydd [yw] dy gyſcod ar dy ddeheu-law.

6 Ni'th deru 'r haul y dydd, na'r lleuad y nôs.

7 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.

8 Yr Arglwydd a geidw dy fynediad, a'th ddyfodiad o'r pryd hyn, hyd yn dragywydd.

### Pſalm. cxxij.

*Caniad y graddau o'r eiddo Dafydd.*

LLawenychais pan ddywedent wrthif, awn i dŷ 'r Arglwydd.

2 Ein traed ni a ſafant o fewn dy byrth di ô Jeruſalem.

3 Jeruſalem a adailadwyd fel dinas yn cydtuno ynddi ei hun.

4 Canys yno 'r eſcynnodd y llwythau, [ſef] llwythau 'r Arglwydd, yn deſtiolaeth i Iſrael, i foliannu enw 'r Arglwydd.

5 Canys yno y goſodwyd gorſedd-feingciau barn: [ſef] gorſedd-feingciau tŷ Dafydd.

6 Dymunwch heddwch Jeruſalem: llwydded y rhai a'th hoffant.

7 Heddwch fydd o fewn dy ragfur: [a] ffynniant yn dy balaſſau.

8 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, llwyddiant [fydd] i ti.

9 Er mwyn tŷ 'r Arglwydd ein Duw y ceiſiaf i ti ddaioni.

### Pſalm. cxxiij.

*Caniad y graddau.*

ATtat ti y derchefais fy llygaid, yr hwn a breſſwyli yn y nefoedd.

2 Wele fel [y mae] llygaid gweiſion ar law eu meiſtred, [neu] fel [y mae] llygaid llawforwyn ar law eu meiſtres: felly [y mae] ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni.

3 Trugarhâ wrthym Arglwydd, trugarhâ wrthym, canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.

4 Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerdd y rhai goludog, [ac] â diyſtyrwch y beilchion.

### Pſalm. cxxiiij.

*Caniad y graddau o'r eiddo Dafydd.*

DYwedet Iſrael yr awr hon, oni buaſe i'r Arglwydd fod gyd â ni:

2 Oni buaſe 'r Arglwydd gyd a ni pan gyfododd dynnion yn ein herbyn ni,

3 Yna ein llyngcaſent ni yn fyw, pan enynnodd eu llid hwynt i'n herbyn.

4 Yna y dyfroedd a'n boddaſent ni: afon a aethe tros ein henaid.

5 Yna 'r aethe tros ein henaid ddyfroedd chwyddedig:

6 Bendigedic yw 'r Arglwydd, yr hwn ni roddodd ni yn ſclyfaeth i'w dannedd hwynt.

7 Ein henaid a ddiangodd fel aderyn o faglau 'r adarwŷr: y fagl a dorrwyd, a ninneu a ddianghaſom:

8 Ein porth ni ſydd yn enw 'r Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

### Pſalm. cxxv.

*Caniad y graddau.*

YRhai a ymddyriedant yn yr Arglwydd [ſyddant] fel mynydd Sion: [yr hwn] ni ſyfl, ond a beru yn dragywydd.

2 Fel [y mae] Jeruſalem [a'r] mynyddoedd oi hamgylch: felly [y mae] 'r Arglwydd o amgylch ei bobl o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

3 Ni orphywys gwialen annuwioldeb ar etifeddiaeth y rhai cyfiawn: rhag i'r rhai cyfiawn eſtyn eu dwylo at anwiredd.

4 Oh Arglwydd gwna ddaioni i'r rhai daionus: ac i'r rhai iniawn yn eu calonnau.

5 Ond y rhai a ymdroânt [yn] eu trofeudd yr Arglwydd ai gyrr gyd â gweithred-wŷr anwiredd, [a bydd] tangnheddyf ar Iſrael.

### Pſalm. cxxvj.

*Caniad y graddau.*

*Prydnhawnol weddi.*

PAn ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Sion, yr oeddẽ fel rhai yn breuddwydio.

2 Yna y llawnwyd ein gênau â chwerthyn a'n tafod â gorfoledd: yna y dywedâſant ym myſc y cenhedloedd, yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn.

3 Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, [am hynny] 'r oeddem yn llawen.

4 Dychwel Arglwydd ein caethiwed ni, fel yr afonydd yn y dehau.

5 Y rhai ydynt yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfoledd.

6 [Yr hwn] ſydd yn myned rhagddo, ac yn ŵylo gan ddwyn hâd gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dann gludo ei yſcubau.

### Pſalm. cxxvij.

*Caniad y graddau i Salomon.*

OS yr Arglwydd nid adailada y tŷ, ofer y llafuria ei adailad-wŷr wrtho: os yr Arglwydd ni cheidw 'r ddinas, ofer y gwilia y ceidwad.

2 Ofer i chwi foreu-godi, orwedd yn hwyr, [a] bwytta bara gofidus: felly y rhydd efe hûn iw annwylyd.

3 Wele plant [ydynt] yn etifeddiaeth yr Arglwydd, ei obr [ef yw] ffrwyth y groth.

4 Fel [y mae] ſaethau yn llaw cadarn, felly y [mae] plant ieuengtid.

5 Gwyn ei fyd y gŵr yr hwn a lanwodd ei gawell ſaethau â hwynt: ni's gwradwyddir hwy pan ymddiddanant a'r gelynnion yn y porth.

### Pſalm. cxxviij.

*Caniad y graddau.*

GWyn ei fyd pob vn y ſydd yn ofni 'r Arglwydd: [ſef] yr hwn ſydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhei lafur dy ddwylo: gwyn dy fyd, a dâ yw it.

3 Dy wraig fydd fel gwin-wŷdden ffrwythlawn ar hŷd yſtlyſau dy dŷ: a'th blant fel planhigion oliwydd o amgylch dy ford.

4 Wele fel hyn yn ddiau y bendithir y gŵr a ofno 'r Arglwydd.

5 Yr Arglwydd a'th fendithia o Sion, fel y gwelech Ieruſalem mewn llwyddiant holl ddyddiau dy einioes.

6 Ac y gwelech blant dy blant, [a] thangneddyf ar Iſrael.

### Pſalm. cxxix.

*Caniad y graddau.*

LLawer gwaith i'm cyſtuddiaſant o'm hieuengtid, (y dichon Iſrael ddywedyd yn awr.)

2 Llawer gwaith i'm cyſtuddiaſant o'm hieuengctid, etto ni'm gorfuant.

3 Yr arddwŷr a arddaſant ar fyng-hefn, [ac] a eſtynnaſant eu cwyſau yn hirion.

4 Yr Arglwydd cyfiawn a dorrodd raffau y rhai annuwiol.

5 Y rhai a gaſânt Sion gŵradwydder hwy oll, a chiliant yn ôl.

6 Byddant fel glaſ-wellt penn tai, yr hwn a wywa cynn y tynner ef ymmaith.

7 A'r hwn ni leinw y pladur-wr ei law: na'r hwn fyddo yn rhwymo yr yſcubau ei fonwes.

8 Fel na ddywed y rhai a ânt heibio, bendith yr Arglwydd arnoch: bendithiwn chwi yn enw 'r Arglwydd.

### Pſalm. cxxx.

*Caniad y graddau.*

O'R dyfnder y gelwais arnat ô Arglwydd.

2 Arglwydd clyw fy llefain, yſtyried dy gluſtiau wrth leferydd fyng-weddiau.

3 Os creffi ar anwireddau Arglwydd: ô Arglwydd pwy a ſaif?

4 Onid [y mae] gennit ti faddeuant fel i'th ofner.

5 Diſgwiliais yr Arglwydd, diſgwiliodd fy enaid [ef,] ac yn ei air ef y gobeithiais.

6 Fy enaid [ſydd] yn diſgwil am yr Arglwydd yn fwy nag y mâe y boreu wil-wŷr yn gwilied am y boreu.

7 Diſgwilied Iſrael am yr Arglwydd o herwydd [y mae] trugaredd gyd a'r Arglwydd, ac aml ymwared gantho.

8 Ac efe a wareda Iſrael oddi wrth ei holl anwiredd.

### Pſal. cxxxj.

*Caniad y graddau o'r eiddo Dafydd.*

O Arglwydd nid ymchwyddodd fyng-halon, ac nid ymdderchafodd fy llygaid.

2 Ni rodiais ychwaith mewn pethau rhy fawr, a rhy ryfedd i mi.

3 Eithr goſodais, a goſtêgais fy enaid fel vn wedi ei ddiddyfnu oddi wrth ei fam: fy enaid ſydd ynof fel vn wedi ei ddiddyfnu.

4 Diſgwilied Iſrael wrth yr Arglwydd o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

### Pſalm. cxxxii.

*Caniad y graddau.*

O Arglwydd coſia Ddafydd ai holl flinder.

*Borenol weddi.*

2 Y modd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd, [ac] yr addunodd i rymmus [Dduw] Iacob, [gan ddywedyd:]

3 Nid âf i fewn pabell fy nhŷ, ni ddringaf ar erchwyn fyng-wely,

4 Ni roddaf gwſc i'm llygaid, na hun i'm amrantau:

5 Hyd oni chaffwyf le i'r Arglwydd: [ſef] preſſwylfod i rymmus [Dduw] Iacob.

6 Wele clywſom am dani yn Ephrata: cawſom hi ym meuſydd y coed.

7 Awn iw bebyll ef, ymgrymmwn o flaen ei faingc draed ef.

8 Cyfot Arglwydd i'th orphywyſfa, ti ag Arch dy gadernid.

9 Gwiſced dy offeiriaid gyfiawnder: a gorfoledded dy ſainct.

10 Er mwyn Dafydd dy wâs na wrthod wyneb dy eneiniog.

11 Tyngodd yr Arglwydd wirionedd i Ddafydd, ni thrŷ efe oddi wrth hynny: o ffrwyth dy groth y goſodaf ar dy orſedd-faingc.

12 Os ceidw dy feibion fyng-hyfammod a'm teſtiolaeth: eu meibion hwythau yn dragywydd a eiſteddant ar dy orſedd-faingc.

13 Canys dewiſodd yr Arglwydd Sion, [ac a'i] dymunodd yn drigfa iddo ei hun [gan ddywedyd,]

14 Dymma fyng-orphywyſfa yn dragywydd: ymma y trigaf canys chwennychais hi.

15 Gan fendithio y bendithiaf ei llynniaeth, [ac] mi a ddiwallaf ei thlodion â bara.

16 Ei hoffeiriaid hefyd a wiſcaf ag iechydwriaeth: a'i ſainct dan ganu a ganant.

17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro:

[canys] darparais luſern i'm heneiniog.

18 Ei elynnion ef a wiſcaf â chywilydd, arno yntef y blodeua ei goron.

## Pſalm.cxxxiij.

*Caniad y graddau o'r eiddo Dafydd.*

WEle mor ddaionus, ac mor hyfryd [yw] trigo o frodyr yng-hyd.

2 [Y mae] fel olew gwerthfawr ar y penn yn deſcyn ar hŷd y farf, ſef barf Aaron: yr hwn [oedd] yn deſcyn ar hyd ymyl ei wiſcoedd ef.

3 [Ac] fel gwlith Hermon yr hwn ſydd yn deſcyn ar fynydd Sion: canys yno y gorchymynnodd yr Arglwydd y fendith [a'r] bywyd yn dragywydd.

## Pſalm.cxxxiiij.

*Caniad y graddau.*

WEle holl weiſion yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd: y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd y nôs [ſef yng-hynteddoedd tŷ yr Arglwydd.]

2 Derchefwch eich dwylo [tu] a'r cyſſegr: a bendithiwch yr Arglwydd.

3 Yr Arglwydd yr hwn a wnaeth nefoedd, a daiar a'th fendithio di o Sion.

## Pſalm. cxxxv.

*Molwch yr Arglwydd.*

MOlwch enw 'r Arglwydd gweiſion yr Arglwydd molwch [ef.]

2 Y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd yng-hynteddoedd tŷ ein Duw ni.

3 Molwch yr Arglwydd canys da [yw] 'r Arglwydd: cenwch iw enw canys hyfryd yw.

4 O blegit yr Arglwydd a ddetholodd Iacob, [ac] Iſrael yn bobl unic iddo ef.

5 Canys mi a wn mai mawr yw 'r Arglwydd, a [bod] ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau.

6 Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn oll a fynne yn y nefoedd, ac yn y ddaiar, yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderau.

7 Y mae yn codi mwgdarth o eithafoedd y ddaiar, mellt a wnaeth efe yng-hyd a'r glaw: gan ddwyn y gwynt allan oi dryſſorau.

8 Yr hwn a darawodd holl gyntaf-anedic yr Aipht, yn ddyn ac yn anifail.

9 Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau i'th ganol di 'r Aipht, ar Pharao, ac ar ei holl weiſion.

10 Yr hwn a darawodd genhedloedd lawer, ac a laddodd frenhinoedd cryfion:

11 Sehon brenin yr Amoriaid: ac Og brenin Baſan: a holl frenhiniaethau Canaan.

12 Ac a roddodd eu tir hwynt yn etifeddiaeth, [ſef] yn etifeddiaeth i Iſrael ei bobl.

13 Dy enw ô Arglwydd [a beru] yn dragywydd: dy goffadwriaeth ô Arglwydd [a fydd] o genhedlaeth i genhedlaeth.

14 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl, ac a doſturia wrth ei weiſion.

15 Delwau y cenhedloedd [ydynt] arian ac aur, gwaith dwylo dŷn.

16 Genau [ſydd] iddynt, ac ni lefarant: llygaid [ſydd] ganddynt, ac ni welant.

17 [Y mae] cluſtiau iddynt, ac ni chlywant: nid oes ychwaith anadl yn eu genau.

18 Fel hwynt y mae y rhai ai gwnelont, a phob un a ymddyriedo ynddynt.

19 Tŷ Iſrael bendithiwch yr Arglwydd: bendithiwch yr Arglwydd tŷ Aaron.

20 Tŷ Lefi bendithiwch yr Arglwydd: y rhai a ofnwch yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd.

21 Bendithier yr Arglwydd o Sion, yr hwn ſydd yn trigo yn Ieruſalem. Molwch yr Arglwydd.

## Pſalm.cxxxvj.

*Prydnhawnol weddi*

CLodforwch yr Arglwydd canys da [yw,] o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

2 Clodforwch Dduw 'r duwiau: o blegit ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

3 Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

4 Yr hwn yn unic ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

5 Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

6 Yr hwn a eſtynnodd y ddaiar ar y dyfroedd: o blegit ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

7 Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

8 Yr haul i lywodraethu 'r dydd: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

9 Y lleuad, a'r ſêr i lywodraethu 'r nos: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

10 Yr hwn a darawodd yr Aipht, ai chyntaf-anedic: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

11 Ac a ddug Iſrael oi myſc hwynt: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

12 A llaw gref, ac â braich eſtynnedic: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

13 Yr hwn a rannodd y môr côch yn dau: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

14 Ac a wnaeth i Iſrael fyned trwy ei ganol: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

15 Ac a eſcytiodd Pharao ai lû yn y môr côch: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

16 Ac a dywyſodd ei bobl drwy 'r anialwch:

o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

17 Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog: o herwydd ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

19 Sehon brenin yr Amoriaid: o herwydd ei drugaredd [ſydd]yn dragywydd.

20 Ac Og brenin Baſan: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

21 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifediaeth: o herwydd ei drugaredd [ſydd]yn dragywydd.

22 Yn etifeddiaeth i Iſrael ei wâs: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

23 Yr hwn yn ein cyſtudd a'n cofiodd ni: o herwydd ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

24 Ac a'n hachubodd ni oddi wrth ein gelynnion: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

25 Yr hwn ſydd yn rhoddi ymborth i bôb cnawd: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

26 Clodforwch Dduw 'r nefoedd: canys ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

27 Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi: o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

### Pſalm. cxxxvij.

VVRth afonydd Babilon yr eiſteddaſom, ac yno 'r ŵylaſom pan feddyliaſom am Sion.

2 Ar yr helyg oi mewn y crogaſom ein telynau.

3 Yna pan ofynnodd y rhai a'n caethiwaſent i ni gân a llawenydd yn ein griddfan[gan ddywedyd, cenwch i ni [rai] o ganiadau Sion:

4 Pa fodd[eb ni] y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr?

5 Os angofiaf di Jeruſalem, anghofied fy neheu-law[ganu.]

6 Glyned fy nhafod wrth daflod fyng-enau oni chofiaf di: oni chodaf Jeruſalem yn benn llawenydd i mi.

7 Cofia Arglwydd blant Edom yn nydd Jeruſalem: y rhai a ddywedent, dinoethwch, dinoethwch hi hyd ei ſylfaen.

8 Oh anrhaithiedic ferch Babilon, gwyn ei fyd a dalo i ti fel y telaiſt i ninnau.

9 Gwyn ei fyd, a gymmero, ac a darawo dy blant wrth y meini.

### Pſalm. cxxxviij.

Pſalm *Dafydd.*

CLodforaf di a'm holl galon: yng-ŵydd y duwiau y canaf it.

2 Ymgrymmaf tu a'th deml ſanctaidd: a chlodforaf dy enw am dy drugaredd a'th wirionedd: o blegit ti a fawrheaiſt dy enw [a'th]air vwchlaw pôb[dim.]

3 Y dydd y gelwais[arnat] i'm gwrandewaiſt: [a]chadarnheaiſt nerth yn fy enaid.

4 Holl frenhinoedd y ddaiar a'th glodforant di ô Arglwydd: canys clywſant eiriau dy enau.

5 Canant hefyd a'm ffyrdd yr Arglwydd: canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd.

6 O herwydd vchel yw 'r Arglwydd, ac efe a edrych ar yr iſſel, a'r balch a edwyn efe o hirbell.

7 Pe rhodiwn yng-hanol cyfyngder, ti a'm bywhaut: eſtynnit dy law yn erbyn digofaint fyng-elynnion: a'th ddeheulaw a'm hachube.

8 Yr Arglwydd a gyflawna[ei drugaredd] â mi: dy drugaredd Arglwydd[ſydd]yn dragywydd: nac eſceuluſa waith dy ddwylo.

### Pſalm. cxxxix.

*At y pen-cerdd Pſalm Dafydd.*

ARglwydd chwiliaiſt, ac adnabuoſt fi.

*Borenol weddi.*

2 Ti a adwaenoſt fy eiſteddiad, a'm cyfodiad: dealli fy meddwl ym mhell o'r blaen.

3 Amgylchynaiſt fy llwybr a'm gorweddfa: ac yſpys wyt yn fy holl ffyrdd.

4 Canys nid[oes]air ar fy nhafod, ond wele Arglwydd ti a'i gŵyddoſt oll.

5 Lluniaiſt fi yn ôl, ac ym mlaen: a goſodaiſt dy law arnaf.

6 [Dymma]ŵybodaeth ry ddirgel i mi: vchel yw, ni fedraf oddi wrthi.

7 I ba le 'r âf oddi wrth dy yſpryd? ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd?

8 Os dringaf i'r nefoedd yno y [byddi] di: os gorweddaf yn vffern wele di[yno].

9 Yno pe cymmerwn adenydd y wawr[a phe trigwn yn eithafoedd y môr:

10 Yna hefyd i'm tywyſe dy law, ac i'm cynhalie dy ddeheu-law.

11 Pe dywedwn, etto tywyllwch a'm cuddia: yna[y bydde]y nos yn oleuni o'm hamgylch.

12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti, ond y nôs a oleua fel dydd: vn ffunyd[fydd] tywyllwch a goleuni[i ti.]

13 Canys ti a feddiannaiſt fy arennau, toaiſt fi yng-hroth fy mam.

14 Clodforaf dydi canys ofnadwy, a rhyfedd i'm gwnaed: rhyfedd[yw]dy weithredoedd, a'm henaid a ŵyr[hynny]yn dda.

15 Ni chuddiwyd fy eſcyrn oddi wrthit, er fyng-wneuthur yn ddirgel, a'm llunio yn iſſelder yn ddaiar.

16 Dy lygaid a welſant fy annelwig ddefnydd, ac yn dy lyfr di yr ſcrifennwyd hwynt oll y dydd y lluniwyd hwynt, pan nad oedd yr vn o honynt.

17 Am hynny mor werth-fawr yw dy gynghorau gennif ô Dduw? mor fawr yw eu ſwm hwynt?

18 [Pe]cyfrifwn hwynt, amlach fydent na'r tywod: [pan] ddeffroiwyf, gyd â thi 'r [ydwyf] yn wastad.

[canys]darparais luſern i'm heneiniog.

18 Ei elynnion ef a wiſcaf â chywilydd, arno yntef y blodeua ei goꝛon.

### Pſalm.cxxxiij.

*Caniad y graddau o'r eiddo Dafydd.*

WEle moꝛ ddaionus, ac moꝛ hyfryd [yw]trigo o frodyꝛ yng-hyd.

2 [Y mae]fel olew gwerthfawꝛ ar y penn yn deſcyn ar hŷd y farf, ſef barf Aaron: yꝛ hwn [oedd] yn deſcyn ar hyd ymyl ei wiſcoedd ef.

3 [Ac] fel gwlith Hermon yꝛ hwn ſydd yn deſcyn ar fynydd Sion: canys yno y goꝛchymynnodd yꝛ Arglwydd y fendith [a'r] bywyd yn dꝛagywydd.

### Pſalm.cxxxiiij.

*Caniad y graddau.*

WEle holl weiſion yꝛ Arglwydd bendithiwch yꝛ Arglwydd: y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd y nôs [ſef yng-hynteddoedd tŷ yꝛ Arglwydd.]

2 Derchefwch eich dwylo[tu] a'r cyſſegr: a bendithiwch yꝛ Arglwydd.

3 Yꝛ Arglwydd yꝛ hwn a wnaeth nefoedd, a daiar a'th fendithio di o Sion.

### Pſalm. cxxxv.

*Molwch yr Arglwydd.*

MOlwch enw 'r Arglwydd gweiſion yꝛ Arglwydd molwch [ef.]

2 Y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd yng-hynteddoedd tŷ ein Duw ni.

3 Molwch yꝛ Arglwydd canys da [yw] 'r Arglwydd: cenwch iw enw canys hyfryd yw.

4 O blegit yꝛ Arglwydd a ddetholodd Jacob,[ac] Iſrael yn bobl vnic iddo ef.

5 Canys mi a wn mai mawꝛ yw 'r Arglwydd, a[bod] ein harglwydd ni goꝛuwch yꝛ holl dduwiau.

6 Yꝛ Arglwydd a wnaeth yꝛ hyn oll a fynne yn y nefoedd, ac yn y ddaiar, yn y môꝛ, ac yn yꝛ holl ddyfnderau.

7 Y mae yn codi mwgdarth o eithafoedd y ddaiar, mellt a wnaeth efe yng-hyd a'r glaw: gan ddwyn y gwynt allan oi dꝛyſſoꝛau.

8 Yꝛ hwn a darawodd holl gyntaf-anedic yꝛ Aipht, yn ddyn ac yn anifail.

9 Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau i'th ganol di 'r Aipht, ar Pharao, ac ar ei holl weiſion.

10 Yꝛ hwn a darawodd genhedloedd lawer, ac a laddodd frenhinoedd cryſion:

11 Sehon bꝛenin yꝛ Amoꝛiaid: ac Og bꝛenin Baſan: a holl frenhiniaethau Canaan.

12 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth,[ſef]yn etifeddiaeth i Iſrael ei bobl.

13 Dy enw ô Arglwydd[a beru]yn dꝛagywydd: dy goffadwꝛiaeth ô Arglwydd[a fydd]o genhedlaeth i genhedlaeth.

14 Canys yꝛ Arglwydd a farna ei bobl, ac a doſturia wꝛth ei weiſion.

15 Delwau y cenhedloedd[ydynt] arian ac aur, gwaith dwylo dŷn.

16 Genau[ſydd]iddynt, ac ni lefarant: llygaid[ſydd]ganddynt, ac ni welant.

17 [Y mae]cluſtiau iddynt, ac ni chlywant: nid oes ychwaith anadl yn eu genau.

18 Fel hwynt y mae y rhai ai gwnelont, a phob vn a ymddyꝛiedo ynddynt.

19 Tŷ Iſrael bendithiwch yꝛ Arglwydd: bendithiwch yꝛ Arglwydd tŷ Aaron.

20 Tŷ Lefi bendithiwch yꝛ Arglwydd: y rhai a ofnwch yꝛ Arglwydd bendithiwch yꝛ Arglwydd.

21 Bendithier yꝛ Arglwydd o Sion, yꝛ hwn ſydd yn trigo yn Jeruſalem. Molwch yꝛ Arglwydd.

### Pſalm.cxxxvj.

*Prydnhawnol weddi*

CLodfoꝛwch yꝛ Arglwydd canys da [yw,] o herwydd ei dꝛugaredd [ſydd] yn ddꝛagywydd.

2 Clodfoꝛwch Dduw 'r duwiau: o blegit ei dꝛugaredd [ſydd]yn dꝛagywydd.

3 Clodfoꝛwch Arglwydd yꝛ arglwyddi: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

4 Yꝛ hwn yn vnic ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau: canys ei dꝛugaredd [ſydd] yn dꝛagywydd.

5 Yꝛ hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb: o herwydd ei dꝛugaredd [ſydd]yn dꝛagywydd.

6 Yꝛ hwn a eſtynnodd y ddaiar ar y dyfroedd: o blegit ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

7 Yꝛ hwn a wnaeth oleuadau mawꝛion: canys ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

8 Yꝛ haul i lywodꝛaethu 'r dydd: canys ei dꝛugaredd [ſydd] yn dꝛagywydd.

9 Y lleuad, a'r ſêr i lywodꝛaethu 'r nos: canys ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

10 Yꝛ hwn a darawodd yꝛ Aipht, ai chyntaf-anedic: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd] yn dꝛagywydd.

11 Ac a ddug Iſrael oi myſc hwynt: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd] yn dꝛagywydd.

12 A llaw gref, ac â bꝛaich eſtynnedic: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd] yn dꝛagywydd.

13 Yꝛ hwn a rannodd y môꝛ côch yn dau: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd]yn dꝛagywydd.

14 Ac a wnaeth i Iſrael fyned trwy ei ganol: o herwydd ei dꝛugaredd [ſydd] yn dꝛagywydd.

15 Ac a eſcyttiodd Pharao ai lû yn y môꝛ côch: o herwydd ei dꝛugaredd[ſydd] yn dꝛagywydd.

16 Ac a dywyſodd ei bobl dꝛwy 'r anialwch:

o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

17 Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog: o herwydd ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

19 Sehon brenin yr Amoriaid: o herwydd ei drugaredd [ſydd]yn dragywydd.

20 Ac Og brenin Baſan: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

21 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth: o herwydd ei drugaredd [ſydd]yn dragywydd.

22 Yn etifeddiaeth i Jſrael ei wâs: o herwydd ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

23 Yr hwn yn ein cyſtudd a'n cofiodd ni: o herwydd ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

24 Ac a'n hachubodd ni oddi wrth ein gelynnion: o herwydd ei drugaredd[ſydd] yn dragywydd.

25 Yr hwn ſydd yn rhoddi ymborth i bôb cnawd: canys ei drugaredd [ſydd] yn dragywydd.

26 Clodforwch Dduw'r nefoedd: canys ei drugaredd[ſydd]yn dragywydd.

27 Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi: o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

## Pſalm. cxxxvij.

WRth afonydd Babilon yr eiſteddaſom, ac yno 'r ŵylaſom pan feddyliaſom am Sion.

2 Ar yr helyg oi mewn y crogaſom ein telynau.

3 Yna pan ofynnodd y rhai a'n caethiwaſent i ni gân a llawenydd yn ein griddfan[ gan ddywedyd, cenwch i ni [rai] o ganiadau Sion:

4 Pa fodd[ eb ni ] y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr?

5 Os angofiaf di Jeruſalem, anghofied fy neheu-law[ganu.]

6 Glyned fy nhafod wrth daflod fyng-enau oni chofiaf di: oni chodaf Jeruſalem yn bemn llawenydd i mi.

7 Cofia Arglwydd blant Edom yn nydd Jeruſalem: y rhai a ddywedent, dinoethwch, dinoethwch hi hyd ei ſylfaen.

8 Oh anrhaithiedic ferch Babilon, gwyn ei fyd a dalo i ti fel y telaiſt i ninnau.

9 Gwyn ei fyd, a gymmero, ac a darawo dy blant wrth y meini.

## Pſalm. cxxxviij.

Pſalm *Dafydd.*

CLodforaf di a'm holl galon: yng-ŵydd y duwiau y canaf it.

2 Ymgrymmaf tu a'th deml ſanctaidd: a chlodforaf dy enw am dy drugaredd a'th wirionedd: o blegit ti a fawrheaiſt dy enw [a'th]air uwchlaw pôb[dim.]

3 Y dydd y gelwais[ arnat] i'm gwrandewaiſt: [a]chadarnheaiſt nerth yn fy enaid.

4 Holl frenhinoedd y ddaiar a'th glodforant di ô Arglwydd: canys clywſant eiriau dy enau.

5 Canant hefyd a'm ffyrdd yr Arglwydd: canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd.

6 O herwydd uchel yw 'r Arglwydd, ac efe a edrych ar yr iſſel, a'r balch a edwyn efe o hirbell.

7 Pe rhodiwn yng-hanol cyfyngder, ti a'm bywhaut: eſtynnit dy law yn erbyn digofaint fyng-elynnion: a'th ddeheulaw a'm hachube.

8 Yr Arglwydd a gyflawna[ei drugaredd] â mi: dy drugaredd Arglwydd[ ſydd ]yn dragywydd: nac eſceuluſa waith dy ddwylo.

## Pſalm. cxxxix.

*At y pen-cerdd Pſalm Dafydd.*

ARglwydd chwiliaiſt, ac adnabuoſt fi. *Boreuol weddi.*

2 Ti a adwaenoſt fy eiſteddiad, a'm cyfodiad: dealli fy meddwl ym mhell o'r blaen.

3 Amgylchynaiſt fy llwybr a'm gorweddfa: ac yſpys wyt yn fy holl ffyrdd.

4 Canys nid[oes]air ar fy nhafod, ond wele Arglwydd ti a'i gŵyddoſt oll.

5 Lluniaiſt fi yn ôl, ac ym mlaen: a goſodaiſt dy law arnaf.

6 [Dymma]ŵybodaeth ry ddirgel i mi: uchel yw, ni fedraf oddi wrthi.

7 J ba le'r âf oddi wrth dy yſpryd? ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd?

8 Os dringaf i'r nefoedd yno y [byddi ]di: os gorweddaf yn uffern wele di[yno].

9 Yno pe cymmerwn adenydd y wawr[a phe trigwn yn eithafoedd y môr:

10 Yna hefyd i'm tywyſe dy law, ac i'm cynhalie dy ddeheu-law.

11 Pe dywedwn, etto tywyllwch a'm cuddia: yna[y bydde]y nos yn oleuni o'm hamgylch.

12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti, ond y nôs a oleua fel dydd: un ffunyd[ fydd ] tywyllwch a goleuni[i ti.]

13 Canys ti a feddiannaiſt fy arennau, toaiſt fi yng-hroth fy mam.

14 Clodforaf dydi canys ofnadwy, a rhyfedd i'm gwnaed: rhyfedd [yw]dy weithredoedd, a'm henaid a ŵyr [hynny] yn dda.

15 Ni chuddiwyd fy eſcyrn oddi wrthit, er fyng-wneuthur yn ddirgel, a'm llunio yn iſſelder yn ddaiar.

16 Dy lygaid a welſant fy annelwig ddefnydd, ac yn dy lyfr di yr ſcrifennwyd hwynt oll y dydd y lluniwyd hwynt, pan nad oedd yr un o honynt.

17 Am hynny mor werth-fawr yw dy gynghorau gennif ô Dduw? mor fawr yw eu ſwm hwynt?

18 [Pe]cyfrifwn hwynt, amlach fyddent na'r tywod: [pan] ddeffroiwyf, gyd â thi 'r [ydwyf] yn waſtad.

19 O Dduw na leddit yr annuwiol, a'r gwŷr gwaedlyd, [wrth y rhai y dywedais] ciliwch oddi wrthif.

20 Y rhai a ddywedant ſcelerder am danat, dy elynnion a gymmeraſant [dy enw] yn ofer.

21 Onid câs gennif ô Arglwydd dy gaſeion di: a ffiaidd gennif y rhai a gyfodant i'th erbyn:

22 A chas cyflawn y caſehais hwynt: [fel pe] byddent i mi yn elynnion.

23 Chwilia fi ô Dduw, a gŵybydd fyng-halon: prawf fi, a gŵybydd fy meddyliau.

24 A gwêl, a oes ffordd annuwiol gennif: a thywys fi yn ffordd tragywyddoldeb.

## Pſalm. cxl.

*At y pen-cerdd, Pſalm Dafydd.*

GWaret fi ô Arglwydd oddi wrth y dynnion drwg, cadw fi rhag y gwŷr traws.

2 Y rhai ydynt yn bwriadu drygioni yn [eu] calon: [ac] yn ymgaſclu beunydd [i] ryfel.

3 Golymmaſant eu tafodau fel ſarph: gwenwyn aſp ſydd tann eu gwefuſau, Selah.

4 Cadw fi ô Arglwydd o ddwylo 'r annuwiol, [a] chadw fi rhag y gwŷr traws: y rhai a fwriadaſant fachellu fy nhraed.

5 Y beilchion a guddiaſant faglau i mi, ac a eſtynnaſant rwyd [wrth] dannau ar ymmyl y llwybrau: goſodaſant hoenynnau ar fy medr. Selah.

6 Dywedais wrth yr Arglwydd, fy Nuw ydwyt ti, clyw ô Arglwydd lef fyng-weddiau.

7 Arglwydd Dduw nerth fy iechydwriaeth gorchguddiaiſt fy mhenn yn nydd brwydr.

8 Na chaniadhâ Arglwydd ddymuniad yr annuwiol: na chwpla eu drwg feddwl [rhag] eu balchio hwynt. Selah.

9 Y pennaf a'm hamgylchyno, blinder eu gwefuſau ai tôa hwynt.

10 Syrthied marwor arnynt, a bwried efe hwynt yn tân: [ac] mewn ceu-ffoſydd fel na chyfodant.

11 Dŷn ſiaradus ni waſtateuir ar y ddaiar: drwg a hêla y gŵr traws iw ddeſtruw.

12 Gwn y dial yr Arglwydd y truan, ac y barna efe y tlodion.

13 Y cyfiawn yn ddiau a glodforant dy enw di: y rhai iniawn a drigant ger dy fron di.

## Pſalm. cxlj.

*Pſalm Dafydd.*

ARglwydd gelwais arnat: bryſia attaf: clyw fy llais pan lefwyf arnat.

2 Cyfeirier fyng-weddi i'th ŵydd di [fel] arogldarth, [a] derchafiad fy nwylo [fel] offrwm prydnhawnol.

3 Goſot Arglwydd gadwriaeth o flaen fyng-enau: cadw ddrws fyng-wefuſau.

4 Na oſtwng fyng-halon at ddim drwg i ddychymmygu dychymmygion mewn drygioni gyd a'r gwŷr a weithredant anwiredd: ac na ad ti i mi fwyta oi danteithion hwynt.

5 Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: [ond] na thorred [eu] holew, pennaf [hwynt] fy mhen: canys fyng-weddi [fydd] etto yn erbyn eu drygioni hwynt.

6 Tafler eu barn-wŷr i lawr mewn lleoedd carregoc, fel y clywant fyng-eiriau, canys melus ydynt.

7 Y mae ein heſcyrn ar waſcar ar fin y bedd, megis [un] yn torri, neu yn cymmynu [coed] ar y ddaiar.

8 Eithr arnat ti ô Arglwydd Dduw [yr edrych] fy llygaid: ynot ti y gobeithiais, na fwrw fy enaid allan.

9 Cadw fi rhag y fagl a oſodaſant i mi: a hoenynnau gweithred-wŷr anwiredd.

10 Cyd-gwymped y rhai annuwiol yn eu rhwydau eu hun, hyd onid elwyfi heibio.

## Pſalm. cxlij.

*A thrawiaeth Dafydd* ai *weddi pan oedd efe yn yr ogof.*

*Prydnhawnol weddi.*

GWaeddais a'm llef ar yr Arglwydd: a'm llef yr ymbiliais a'r Arglwydd.

2 Tywelltais fy myfyrdod oi flaen ef: a mynegais fyng-hyſtudd ger ei fron ef.

3 Pan ofidiodd fy yſpryd o'm mewn, tithe a adwaenit fy llwybr, yn y ffordd y rhodiwn y cuddiaſant i mi fagl.

4 Edrychais ar y tu dehau, ac wele, ac nid [oedd] gydnabod gennif: pallodd nodded i mi, nid [oedd neb] yn ymofyn a'm fy enaid.

5. Llefais arnat ô Arglwydd, [a] dywedais, ti [yw] fyng-obaith, a'm rhann, yn nhir y rhai byw.

6 Yſtyr wrth fyng-waedd, canys truan iawn ydwyf: gwaret fi oddi wrth fy erlid-wŷr canys trêch ydynt nâ mi.

7 Dŵg fy enaid allan o garchar i foliannu dy enw: y rhai cyfiawn a'm cylchynant pan fyddech dâ wrthif.

## Pſalm. cxliij.

*Pſalm Dafydd.*

ARglwydd clyw fyng-weddi, a gwrando ar fy neiſyfiad: erglyw fi er mwyn dy wirionedd, a'th gyfiawnder.

2 Ac na ddos i gyfraith a'th wâs, o herwydd ni chyfiawnheuir neb byw ger dy fron di.

3 Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid, curodd efe fy enaid i lawr, a gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch, fel y rhai a fuaſent feirw er yſtalm.

4 Yna 'r ymofidiodd fy yſpryd o'm mewn: [ac] y ſynnodd fyng-halon ynof.

5 Cofiais [er hynny] y dyddiau gynt, myfyriais ar dy holl waith: ac yng-weithredoedd dy ddwylo y myfyriaf.

6 Lledais fy nwylaw attat: fy enaid fel tir ſychedic [ſydd yn hiraethu] am danat.

7 Oh Arglwydd gwrando fi yn ebrwydd: pallodd fy yſpryd, na chuddia dy wyneb oddi wrthif, rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

8 Pâr i mi glywed dy drugaredd yn forau: o herwydd ynot ti y gobeithiais, pâr di i mi wybod pa ffordd y rhodiaf, o blegit attat ti y derchefais fy enaid.

9 Gwaret fi oddi wrth fyng-elynnion ô Arglwydd: [canys] gyd â thi 'r ymguddiais.

10 Dyſc i mi wneuthur dy ewyllys di: canys ti [ydwyt] fy Nuw: tywysed dy Yſpryd daionus fi i dir yr uniondeb.

11 Bywhâ fi ô Arglwydd er mwyn dy enw, dwg fy enaid allan o ing er mwyn dy gyfiawnder.

12 Ac er dy drugaredd diniſtria fyng-elynnion, a difetha holl wrthwyneb-wŷr fy enaid: o blegit dy wâs di ydwyfi.

## Pſalm. cxliiii.

*Pſalm Dafydd.*

*Boreuol weddi.*

BEndigedic [fyddo] 'r Arglwydd fy nerth, yr hwn ſydd yn dyſcu fy nwylo i ymladd; a'm byſsedd i ryfela.

2 Fy nhrugaredd a'm hamddeffynfa, fy nhŵr, a'm gwaredudd, fy amddeffynnudd [yw efe,] ac ynddo y gobeithiais: yr hwn ſydd yn daroſtwng fy mhobl tanaf.

3 Arglwydd beth [yw] dŷn, pan gydnabyddit ef? [neu] fab dŷn pan wnaeit gyfrif o honaw?

4 Dyn ſydd debyg i wagedd, fel cyſcod y mae ei ddyddiau yn myned heibio.

5 Arglwydd goſtwng dy nefoedd a deſcyn, cyffwrdd a'r mynyddoedd a mygant.

6 Gwna fellt, a gwaſcar hwynt, gyrr dy ſaethau a difa hwynt.

7 Anfon dy law oddi vchod, achub, a gwaret fi o ddyfroedd mawrion, [ſef] o law plant eſtron.

8 Y rhai y llefarodd eu genau wagedd, ac [y mae] eu deheu-law yn ddeheu-law ffalſter.

9 Canaf i ti ô Dduw ganiad newydd, ar y nabl, [a'r] dectant y canaf i ti.

10 Efe ſydd yn rhoddi iechydwriaeth i frenhinoedd, ac yn gwaredu Dafydd ei wâs oddi wrth gleddyf niweidiol.

11 Achub fi, a gwaret fi o law meibion eſtron, y rhai y llefarodd eu genau am wagedd, ac y mae eu deheu-law yn ddeheu-law ffalſter.

12 Fel [y byddo] ein meibion fel plan-wŷdd yn tyfu oi hieuengctid, a'n merched fel conglfaen nadd yn adailadaeth teml.

13 [Fel y byddo] ein conglau yn llawn [ac] yn aml o amryw bethau, a'n defaid yn dwyn miloedd, a myrddiwn yn ein heolydd.

14 A'n hŷchen yn gryfion i lafurio, heb na rhuthro i mewn na myned allan, na gwaedd yn ein heolydd.

15 Gwyn ei fyd y bobl [y mae] felly iddynt, gwyn ei fyd y bobl y [mae] 'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

## Pſalm. cxlv.

*Clodforedd Dafydd.*

DErchafaf dy di fy Nuw [a'm] Brenin: a bendithiaf dy enw byth, ac yn dragywydd.

2 Beunydd i'th fendithiaf, a'th enw a folaf byth, ac yn dragywydd.

3 Mawr [yw 'r] Arglwydd, a chanmoladwy iawn: ac ar ei fawredd nid [oes] ddiben.

4 Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd, ac a fynegant dy gadernid.

5 Ardderchawgrwydd gogoniant dy fawl a'th bethau rhyfedd a fefyrriaf.

6 Traethant hwy gadernid dy [weithredoedd] ofnadwy: mynegaf inne dy fawredd.

7 Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant: a'th gyfiawnder a ddadcanant.

8 Graſlawn, a thrugarog [yw 'r] Arglwydd: hwyrfrydic [i] ddig, a mawr [ei] drugaredd.

9 Daionus [yw 'r] Arglwydd i bawb: ai drugaredd [ſydd] ar ei holl weithredoedd.

10 Dy holl weithredoedd di a'th glodforant ô Arglwydd: a'th ſainct a'th fendithiant.

11 Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth: a thraethant dy gadernid,

12 I beri i feibion dynnion adnabod ei gadernid ef: a gogoniant ardderchawgrwydd ei frenhiniaeth.

13 Dy frenhiniaeth di [ſydd] frenhiniaeth dragywyddol: a'th lywodraeth [a beru] yn oes oeſoedd.

14 Yr Arglwydd ſydd yn cynnal y rhai oll a ſyrthiant: ac ſydd yn codi pawb a ddaroſtyngwyd.

15 Llygaid pawb a ddiſgwiliant wrthit, ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd:

16 Gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw [a'th] ewyllys da.

17 Cyfiawn [yw 'r] Arglwydd yn ei holl ffyrdd: a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.

18 Agos [yw 'r] Arglwydd i'r rhai oll a alwant arno: [ſef] i'r holl rai a alwant arno mewn gwirionedd.

19 Efe a wnaiff ewyllys y rhai ai hofnant: gwrendu hefyd eu llefain, ac ai hachub hwynt.

20 Yr Arglwydd ſydd yn cadw pawb ai carant ef, a'r holl rai annuwiol a ddifetha efe.

21 Traethed fyng-enau foliant yr Arglwydd: a bendithied pob cnawd ei enw ſanctaidd ef byth ac yn dragywydd.

## Pſalm. cxlvj.

*Molwch yr Arglwydd.*

FY enaid mola di 'r Arglwydd.

2 Molaf yr Arglwydd yn fy myw: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

3 Na hyderwch ar dywyſogion [nac] ar fab dyn, yr hwn nid [oes] iechydwriaeth ganddo.

4 Ei anadl a aiff allan, efe a ddychwel iw ddaiar: y dydd hwnnw y derfydd am ei [holl] amcannion ef.

5 Gwyn ei fyd yr hwn [y mae] Duw Iacob yn gymmorth iddo: [ac y ſydd] ai obaith yn yr Arglwydd ei Dduw.

6 Yr hwn a wnaeth nefoedd, a daiar, y môr a'r hyn oll [ſydd] ynddynt: yr hwn ſydd yn cadw [ei] wirionedd yn dragywydd.

7 Yr hwn ſydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymmedic, [ac] yn rhoddi bara i'r newynoc: yr Arglwydd ſydd yn gollwng carcharorion yn rhydd.

8 Yr Arglwydd ſydd yn agoryd [llygaid] y deillion, yr Arglwydd ſydd yn codi y rhai a ddaroſtyngwyd: yr Arglwydd ſydd yn hoffi y rhai cyfiawn.

9 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y dieithriaid, efe a gynnal yr ymddifad a'r weddw: ac a ddryſſa ffordd y rhai annuwiol.

10 Yr Arglwydd a deyrnaſa byth: dy Dduw di Sion [ſydd] dros genhedlaeth a chenhedlaeth. Molwch yr Arglwydd.

### Pſalm. cxlvij.

*Prydnhawnol weddi.*

MOlwch yr Arglwydd, canys da [yw] canu i'n Duw ni: o herwydd hyfryd yw, [ie] prydferth yw mawl.

2 Yr Arglwydd ſydd yn adailadu Ieruſalem, efe a gaſcl waſcaredigion Iſrael.

3 Yr hwn ſydd yn iachau y rhai briwedic o galon, ac yn rhwymo eu doluriau.

4 Y mae efe yn rhifo rhifedi y ſêr, geilw hwynt oll wrth eu henwau.

5 Mawr [yw] ein Harglwydd, ac aml ei nerth, anneirif [yw] ei ddoethineb.

6 Yr Arglwydd ſydd yn cynnal trueniaid, gan oſtwng y rhai annuwiol hyd lawr.

7 Cenwch i'r Arglwydd mewn clodforedd: cenwch i'n Duw a'r delyn.

8 Yr hwn ſydd yn toi y nefoedd â chwmylau: [ac] yn paratoi glaw i'r ddaiar: gan beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd [a llyſiau i waſanaeth dŷn.]

9 Yr hwn ſydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant: [ac] i gywion y gig-fran pan lefant.

10 Nid oes ewyllys ganddo yn nerth march: ac nid ymhoffa efe yn yſceiriau gŵr.

11 Yr Arglwydd ſydd yn hoffi y rhai ai hofnant ef: [ſef] y rhai a ddiſgwiliant wrth ei drugaredd ef.

12 Ieruſalem mola di 'r Arglwydd, Sion molianna dy Dduw.

13 O herwydd efe a gadarnhaodd farrau dy byrth, ac a fendithiodd dy blant o'ch fewn.

14 Yr hwn ſydd yn goſod dy fro yn heddychol, [ac] a'th ddiwalla di â braſter gwenith.

15 Yr hwn ſydd yn anfon ei orchymyn [ar] y ddaiar: ai air a rêd yn dra buan.

16 Yr hwn ſydd yn roddi eira fel gwlân: [ac] a dâna rew fel lludw.

17 Yr hwn ſydd yn bwrw iâ fel tammeidiau, pwy â erys gan ei oerni ef?

18 Efe a enfyn ei air, ac ai tawdd hwynt, ai wynt y chwyth efe, a'r dyfroedd a lifant.

19 Y mae efe yn mynegu ei eiriau i Iacob: ei ddeddfau ai farnedigaethau i Iſrael.

20 Ni wnaeth efe felly ag un genedl: ac nid adnabuant farnedigaethau ['r Arglwydd.] Molwch yr Arglwydd.

### Pſalm. cxlviij.

*Molwch yr Arglwydd.*

MOlwch yr Arglwydd o'r nefoedd: molwch ef yn yr uchelder.

2 Molwch ef ei holl angelion ef: molwch ef ei holl luoedd.

3 Molwch ef haul a lleuad: molwch ef yr holl ſêr [a] goleuni.

4 Molwch ef nef y nefoedd: a'r dyfroedd y rhai [ydych] oddi ar y nefoedd.

5 Molant enw 'r Arglwydd: o herwydd [efe a ddywedodd y gair, a hwynt a wnaed,] efe a orchymynnodd, a hwynt a grewyd.

6 A gwnaeth iddynt barhau byth yn dragywydd: goſododd ddeddf, ac nis troſſeddir hi.

7 Molwch yr Arglwydd a'r y ddaiar, y dreigiau a'r holl ddyfnderau.

8 Tân a chenllyſc, eira, a tharth: [a] gwynt yſtormus yn gwneuthur ei air ef.

9 Y mynyddoedd a'r brynnau oll, y coed ffrwythlawn a'r holl cedr-wŷdd.

10 Y bwyſt-filod, a phob anifail: yr ymluſciaid, ac adar aſcelloc.

11 Brenhinoedd y ddaiar a'r holl bobloedd, tywyſogion a holl farnwŷr y byd.

12 Gwŷr ieuaingc a gweryſon hefyd: henaf-gwŷr a llangciau:

13 Molant enw 'r Arglwydd: o herwydd ei enw ef yn unic ſydd dderchafadwy: ei ardderchawgrwydd ef [ſydd] uwch law daiar a nefoedd.

14 Ac efe ſydd yn derchafu corn ei bobl, yn foliant iw holl ſainct [ſef] i feibion Iſrael pobl agos iddo. Molwch yr Arglwydd.

### Pſalm. cxlix.

*Molwch yr Arglwydd.*

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd: [bydded] ei foliant ef yng-hynnulleidfa y ſainct.

2 Llawenhaed Iſrael yn yr hwn ai gwnaeth: gorfoledded meibion Sion yn eu brenin.

3 Molant ei enw ef ar y dawns: canant iddo ar dympan a thelyn.

4 O herwydd hoffodd yr Arglwydd ei bobl: efe a brydfertha y rhai llednais ag iechydwriaeth.

5 Gorfoledded y ſainct mewn gogoniant: a chanant yn eu gwelau.

6 [Bydded] arddercog weithredoedd Duw yn eu genau: a chleddyf [dau] finioc yn eu dwylo,

7 I beri dial ar genhedloedd, a choſb ar bobloedd:

8 I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau: ai pendefigion â gefynnau heirn,

9 I wneuthur arnynt farn ſcrifennedic: yr ardderchawgrwydd hyn fydd iw holl ſainct ef. Molwch yr Arglwydd.

### Pſalm. cl.

*Molwch yr Arglwydd.*

MOlwch Dduw yn ei ſancteiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth.

2 Molwch ef yn ei gadernid: molwch ef yn ôl amlder ei fawredd.

3 Molwch ef â llais udcorn: molwch ef â nabl, ac â thelyn.

4 Molwch ef â thympan, ac â dawns: molwch ef â thannau, ac ag organ.

5 Molwch ef â ſymbalau ſoniarus: molwch ef â ſymbalau llafar.

6 Pob [perchen] anadl molianned yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

*Terfyn Pſalmau Dafydd.*

# Diharebion Salomon.

## PENNOD. I.

1 Ffrwyth gair Duw, ai ofn. 10 Mor enbyd yw cydtuno a'r drygionus, 20 A dirmygu doethineb.

DIharebion Salomon fab Dafydd brenin Iſrael,

2 I ddyſcu doethineb, ac addyſc, i ddeall geiriau ſynhwyrol.

3 I gymmeryd Deallus athrawiaeth, cyfiawnder, a barn, ac iniondeb.

4 I roi callineb i'r anghall, ag i'r bachgennyn ŵybodaeth, a ſynnwyr.

5 Y doeth a wrendu, ac a chwanega ei athrawiaeth, a'r deallgar a ddaw i bwyll,

6 I ddeall parabl ai ddeongl, geiriau 'r doethion ai dammegion.

7 Ofn yr Arglwydd yw dechreuad gwybodaeth: ffoliaid a ddiyſtyrant ddoethineb, ac addyſc.

8 Fy mab gwrando addyſc dy dâd, ac nac ymado â chyfraith dy fâm.

9 Canys cynnydd grâs a fyddant hwy i'th ben, a chadwyn i'th wddf di.

10 Fy mab os pechaduriaid a'th ddênant, na chydtuna â hwynt.

11 Os dywedant, tyret gyd â ni, cynllwynwn am waed, nyni a ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddiachos:

12 Nyni ai llyngcwn hwy yn fyw fel y bedd, ac yn gyfan fel rhai yn deſcynn i'r pydew:

13 Nyni a gawn bôb cyfoeth gwerth-fawr, nyni a lanwn ein teiau ag yſpail:

14 Bŵrw dy goel-bren yn ein myſc, bydded un pwrs i ni oll:

15 Fy mab na rodia yn y ffordd gyd â hwynt, attal dy droed rhag eu llwybr hwy.

16 Canys eu traed a redant i ddrygioni, ac a bryſurant i dywallt gwaed.

17 Gwaith ofer yw tânu rhwyd yng-olwg pôb perchen aden:

18 Felly y maent hwy yn cynllwyn am eu gwaed hwynt: am eu henioes hwynt y maent yn llechu.

19 Dymma llwybrau y rhai oll a ydynt chwannog i olud, [golud] â ddwg enioes ei pherchennogion.

20 Doethineb ſydd yn gweiddi oddi allan,

y mae hi yn lleſain yn yr heolydd.

21 Y mae hi yn galw mewn lleoedd uchel, mewn tyrfau yn nrysau y pyrth, ym [mhob] dinas y mae hi yn traethu ei hymadroddion.

22 Pa hŷd chwi ynfydion y cerwch chwi ynfydrwydd? a pha hŷd ô watwarwŷr y bydd hoff gennych watwariaeth? a pha hŷd y caſâ ffoliaid ŵybodaeth?

23 Dychwelwch at fyng-hoſpedigaeth, wele mi a dywalltaf fy yſpryd i chwi, fyng-eiriau a ddangoſaf i chwi.

24 Yn gymmeint ac i mi eich gwahodd, a chwithau yn necau o ddyfod, i mi yſtynu fy llaw oddi wrthif, a neb heb droi attafi:

25 Onid bod pawb yn tynnu yn ôl eu cefnau oddi wrth fy holl gyngor i, heb fod yn fodlon i'm coſpedigaeth:

26 Minne hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi, mi a eſcydwaf fy mhen, pan ſyrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni.

27 Pan ſyrthio yr hyn yr ydych yn ei ofni arnoch megis deſtruw diſymmwth, a phan neſao eich dialedd attoch megis tro-wynt, pan ruthro arnoch waſcfa a chaledi:

28 Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf, yn foreu i'm ceiſiant, ond ni'm caant.

29 Canys câs fu ganddynt ŵybodaeth, ac ofn yr Arglwydd ni ddewiſaſant.

30 Ni chymmerent ddim o'm cyngor i, ond dirmygu fy holl goſpedigaeth.

31 Ac am hynny hwy a gânt fwyta ffrwyth eu ffordd eu hunain, ai llenwi ai cynghorion eu hunain.

32 Canys eſmwythtra y rhai anghall ai lladd hwy: a llwyddiant y rhai ffôl ai difetha hwynt.

33 Er hynny y ſawl a wrandawo arnafi a gaiff aros yn ddiogel, ac a gaiff lonyddwch oddi wrth fraw drwg.

### PEN. II.

Duw yn rhoddi doethineb yr hon ſydd yn dyſcu ofni Duw, 10 Ac yn cadw oddi wrth ddrygioni.

FY mab os derbynni di fyng-eiriau, ac os cuddi fyng-orchymynnion gyd â thi.

2 Os peri i'th glustiau wrando ar ddoethineb, os gogwyddi dy galon at ddeall:

3 Ac hefyd os gelwi ar ôl gŵybodaeth, os llefi am ddeall,

4 Os chwili am dani fêl am arian, os cloddi am dani fel am drysorau,

5 Yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei ŵybodaeth o Duw.

6 Canys yr Arglwydd pie rhoi doethineb, allan oi enau ef y mae gŵybodaeth a deall [yn dyfod.]

7 Y mae ganddo ef yng-hadw i'r rhai iniawn iechydwriaeth: tarian yw efe i'r ſawl a rodiant yn ddiragrith.

8 Y mae efe yn cadw ffordd ei ſainct, fel y gallant gadw llwybrau barn.

9 Yna y cei di ddeall cyfiawnder, a barn, ac iniondeb, a phob llwybr daionus.

10 Pan ddelo doethineb i mewn i'th galon, a phan fyddo hyfryd gan dy enaid ŵybodaeth,

11 Yna cyngor a'th warche, a ſynnwyr a'th geidw.

12 Hi a'th achub di oddi wrth y ffordd ddrwg, ac oddi wrth y dŷn a lefaro drawſedd.

13 Ac oddi wrth y rhai a ymadawant a'r llwybrau iniawn er mwyn rhodio mewn ffyrdd tywyll.

14 Y rhai a ymlawenychant yn gwneuthur drwg, ac a ymddigrifant yn anwiredd y drygionus.

15 Y rhai ſydd ai ffyrdd yn geimion, ac yn war-ſych yn eu llwybrau.

16 Ac yna i'th waredir oddi wrth y fenyw eſtronaidd, oddi wrth y ddieithr wenieithus ei geiriau,

17 Yr hon a ymedu a llywodraeth-wr ei hieuengctid, ac a ollwng dros gof gyfammod ei Duw.

18 Canys y mae ei thŷ yn gŵyro at angeu: ai llwybrau at y meirw.

10 Y rhai oll a elont i mewn atti hi ni dychwelant, ac nid ymafaelant yn ffyrdd y bywyd.

20 Am hynny rhodia di rhyd ffordd gwŷrda, a chadw ffordd y cyfiawn.

21 Canys y gwŷr cyfiawn a breſwyliant y ddaiar, a'r rhai diragrith a gânt aros ynddi.

22 * Ond yr annuwolion a dorrir oddi ar y ddaiar, ar troſedd-wŷr a ddiwreiddir allan o honi hi. Iob.19.17.

### PEN. III.

Cyngor i wrando tâd, 5 I waſanaethu Duw, 11 I dderbyn ei goſpedigaeth, 22 Ac i ddilyn ei air ef.

FY mab na ollwng fyng-hyfraith i tros gof, ond * cadwed dy galon di fyng-orchymynnion. Deu.8.1.30.16

2 Canys hwynt a eſtynnant dy ddyddiau, a blynyddoedd dy fywyd a'th heddwch.

3 Na âd ti i drugaredd a gwirondeb ymadel â thi: cylymma hwy am dy wddf, ſcrifenna hwy ar lech dy galon.

4 Felly y cei di râs, a deall da ger bron Duw, a dynnion.

5 Gobeithia yn yr Arglwydd a'th holl galon, ac nac ymddyried i'th ddoethineb dy hûn.

6 Yn dy holl ffyrdd cydnebydd di ef, ac efe a hyfforddda dy lwybrau di.

7 Na fydd ddoeth yn dy olwg dy hûn, ond ofna yr Arglwydd, a thynn ymmaeth oddi wrth ddrygioni. Rhuf.12.16.

8 Hynny a fydd iechyd i'th fogel, a mêr i'th eſcyrn.

9 * Anrhydedda yr Arglwydd a'th gyfoeth, ac a'r peth pennaf o'th holl ffrwyth: Exod.23.19. Deut.26.2.

10 Felly y llenwir dy yſcuboriau â digonoldeb, a'th win-wryfoedd a lenwir o win newydd.

11 Fy mab na wrthot gerydd yr Arglwydd, ac na laeſa er ei goſpedigaeth ef.

12 Canys * y neb a fyddo Duw yn ei garu, efe ai cerydda megis tâd ei fab ammwyl. Hebr.12.5. Gweled.3.19

13 Gwyn ei fyd y dŷn a gaffo ddoethineb, a'r dŷn a ddygo ddeall allan.

14 Canys gwell yw ei marſiandiaeth hi, na marſiandiaeth o arian, ei chynnyrch hi ſydd well nag aur.

15 Gwerthfawrocach yw hi nâ gemmau, a'r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi hi.

16 Hir hoedl ſydd yn ei llaw ddehau hi, ac yn ei llaw aſſwy y mae cyfoeth a gogoniant.

17 Ei ffyrdd hi ſydd ffyrdd hyfryd, ai holl lwybrau hi ydynt lwyddiannus.

18 Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo ynddi: gwyn ei fyd ef a ddalio ei afael ynddi hi.

19 Yr Arglwydd trwy ddoethineb a ſeiliodd y ddaiar, trwy ddeall y ſiccrhaodd efe y nefoedd.

20 Drwy ei wybodaeth ef yr holltodd y dyfadêrau a'r cwmylau, ac y defnynna yr wybrennau wlith.

21 Fy mab, na ollwng hwynt allan o'th olwg, cadw ddoethineb, a challineb.

22 Yna y byddant yn fywyd i'th enaid, ac yn râs i'th wddf.

23 Yna y cei di rodio dy ffordd yn ddiofal, ac ni friwi dy droed.

24 Pan orweddech, nid ofni, a'th gwſc fydd melys tra orweddech.

25 Nid rhaid it ofni [rhag] braw diſymmwth, na rhag diniſtriad yr annuwiol pan ſyrthio arnynt.

26 Canys yr Arglwydd a fydd dy hyder di, ac a geidw dy droed rhag ei ddal.

27 Na attal ddaioni oddi wrth y rhai y byddo ei eiſieu arnynt, pan allech ei wneuthur.

28 Na ddywet wrth dy gymmydog, cerdda ymmaith, a thyret amſer arall, y foru mi a roddaf i ti [beth,] a chennyt [beth yn awr iw roddi iddo.]

29 Na feddylia ddrwg yn erbyn dy gymmydog, ac yntef yn trigo yn ddiofal yn dy ymyl.

30 Nac ymryſon â neb heb achos, oddieithr iddo wneuthur drwg i ti.

31 Na chenfigenna wrth ŵr traws, ac na ddewis yr vn oi ffyrdd ef.

32 Canys ffiaidd gan yr Arglwydd y [dyn] cyndyn, ond gyd a'r rhai iniawn y mae ei gyfrinach ef.

33 Melldith yr Arglwydd ſydd yn-nhŷ yr annuwiol, ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn.

34 Efe a watwar y gwatwarus, ond ei râs a rydd efe i'r vfydd.

35 Y doethion a etifeddant anrhydedd, a gwarth [fydd] dderchafiad ffyliaid.

## PEN. IIII

Cyngor i geiſio doethineb 14 i ochelyd drygioni
20 ac i'n llywodraethu wrth air Duw.

GWrandewch y plant addyſc [eich] tâd, ac erglywch i ddyſcu deall.

2 Canys yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi addyſc dda, am hynny na wrthodwch fyng-hyfraith.

3 Pan oeddwn fab fy nhâd, yn dyner, ac yn annwyl yng-olwg fy mam,

4 Efe a'm dyſce, ac a ddywede wrthif, dalied dy galon fyng-eiriau. cadw fyng-orchymynnion, a thi a gei fywyd.

5 Cais ddoethineb, cais ddeall, na âd dros gof, ac na ŵyra oddi wrth eiriau fyng-enau.

6 Na ollwng hi oddi wrthit, ac hi a'th geidw, câr hi, ac hi a'th wared di.

7 Cyntaf peth yw doethineb, cais ddoethineb, ac vwch law dy holl gyfoeth cais ddeall.

8 Derchafa di hi, ac hi a'th dderchafa dithe, hi a'th ddwg di i anrhydedd, os cofleidi hi.

9 Hi a rydd chwaneg o râs i'th ben di, [ie] hi a rydd i ti goron gogoniant.

10 Gwrando fy mab, a derbyn fyng-eiriau, a blynyddoedd dy fywyd a amlheuir.

11 Yr ydwyf yn dy ddyſcu yn ffordd doethineb, ac yn dy dywys yn llwybrau cyfiawnder.

12 Pan roddech dy gerddediad ni bydd gyfyng, a phan redech ni ſyrthi.

13 Ymafel mewn addyſc, ac na phaid, cadw hi, canys bywyd yw hi.

14 Na ddos i ffordd yr annuwolion, ac na rodia ar hyd ffordd y drygionus.

15 [Gochel] hi, na ddos ar hyd-ddi, cilia oddi wrthi hi, a dos heibio.

16 Canys ni chyſcant, nes gwneuthur drwg, ai cwſc a gollant nes iddynt gwympo [dyn.]

17 Canys y maent yn bwyta bara annuwioldeb, ac yn yfed gwin trais.

18 [Onid] llwybr y cyfiawn a lewyrcha, fel y llewyrch yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol dydd.

19 Onid ffordd y drygionus ſydd fel y tywyllwch, ni ŵyddant pa le y ſyrthiant.

20 Fy mab gwrando ar fyng-eirian gogŵydda dy gluſt at fy ymadroddion.

21 Na âd iddynt fyned ymmaith o'th olwg, cadw hwynt yng-hanol dy galon.

22 Canys bywyd ydynt i'r neb ai caffant, ac iechyd iw holl gnawd.

23 Cadw dy galon yn dra ddiyſceulys, canys allan o honi y daw bywyd.

24 Bwrw oddi wrthit enau cauog, a gwefuſau trofaus ym mhell oddi wrthit.

25 Edryched dy lygaid ar yr iniawn, a chyfarwydded amrantau dy lygaid dy ffordd o'th flaen.

26 Yſtyria lwybr dy draed, a threfna dy ffyrdd yn iniawn.

27 Na thro a'r y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy, ond ſymmut dy droed oddi wrth ddrygioni.

## PEN. V.

Cyngor yn erbyn dilyn puttain.

FY mab, gwrando ar fy noethineb, a goſtwng dy gluſt at fyng-ŵybodaeth, 2 Fel y gellech yſtyrio cynghorau, a'th wefuſau gadw gŵybodaeth.

3 Canys gwefuſau y ddieithr a ddiferant [fel] y dil mêl, ai génau yn llyfnach nag olew.

4 Ond ei diwedd hi fydd chwerw fel y wermod, [ac] yn llym fel cleddyf dau-finiog.

5 Ei thraed hi a ddeſcynnant i angeu, ai cherddediad a ſang vffern.

6 Rhag i ti yſtyrio ffordd bywyd, y ſymmud ei chamrau hi heb ŵybod i ti.

7 Yr awr hon yntef blant gwrandewch arnaf fi, ac nac ymadewch â geiriau fyng-enau.

8 Cadw dy ffordd ym mhell oddi wrthi hi, ac na neſſa at ddrws ei thŷ hi,

9 Rhag i ti roddi dy brydferthwch i eraill, a'th flynyddoedd i'r creûlon.

10 Rhag llenwi'r eſtron a'th gyfoeth di, ac i'th lafur fod yn-nhŷ dieithr.

11 Ac o'r diwedd i ti uchan, wedi i'th gnawd a'th gorph gurio,

12 A dywedyd, pa fodd y-caſeais i addyſc? pa ffodd y dirmygodd fyng-halon goſpedigaeth?

13 Ac ni wrandewais ar lef fy athrawon, ac ni oſtyngais fyng-hluſt i'm diſcawdwŷr.

14 Bu agos i bôb drwg a dyfot arnaf fi, ynghanol y gynnulleidfa, ar dyrfa.

15 Yf ddwfr o'th bydew dy hun, ac o'r ffrydau a fyddant yn rhedeg allan o'th ffynnon dy hun.

16 Tardded dy ffynhonnau allan, a'th ffrydau dwfr yn yr heolydd.

17 Ond byddant yn eiddo ti dy hun yn vnic, ac nid yn eiddo dieithraid gyd â thi.

18 Bydded dy ffynnon yn fendigedic, ac ymlawenhâ gyd a gwraig dy ieuengctid.

19 [Bydded fel] ewig gariadus, ac fel iwrch hawddgar i ti: gâd iw bronnau hi dy lenwi bob amſer, ac ymfodlona yn ei chariad hi yn oeſtadol.

20 Pa ham fy mab yr ymddigrifi yn y wraig ddiethr, ac y cofleidi fonwes yr hon nid yw eiddo ti?

21 Canys ffyrdd dŷn ydynt yng-olwg yr Arglwydd, ac y mae efe yn dal ar ei holl lwybrau ef.

22 Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol, ac efe a rwymir â rhaffau ei bechod ei hun.

23 Efe fydd farw o eiſieu addyſc, ac rhag maint ei ffolineb yr aiff ar gyfeiliorn.

## PEN. VI.

Am fachniaeth. 5 Diogi 12 cynneddf y drygionus 16 y chwe pheth câs gan Dduw. 20 gair Duw. 24 a drygioni puttain.

Fy mab os machniaiſt dros dy gymmydog, [ac os] tarewaiſt dy law [yn llaw] y dieithr.

2 Ti a faglwyd â geiriau dy enau, ti a ddaliwyd â geiriau dy enau.

3 Gwna hyn yr awr hon (fy mab), a gwaret dy hun gan i ti ſyrthio i law dy gymmydog, cerdda, ac ymoſtwng iddo, ac ymbil a'th gymmydog.

4 Na ddyro gwſc i'th lygaid, na hûn i'th amrantau.

5 Gwaret dy hun fel yr iwrch o law [yr heliwr,] ac fel adêryn o law yr adar-wr.

6 Cerdda at y morgrugyn tydi ſegurllyd, edrych ar ei ffyrdd ef, a dyſc ſynnwyr.

7 Nid oes ganddo neb iw arwain, iw lywodraethu, nac iw feiſtroli.

8 [Ac er hynny] y mae efe yn paratoi ei fwyd amſer haf, ac yn caſclu ei lynniaeth amſer cynhaiaf.

9 Pa hŷd ddiogyn y gorweddi? pa brŷd y cyfodi o'th gwſc? Pen.24.33.

10 *Ychydig chwaneg o gyſcu, ychydig chwaneg o hepian, ychydig chwaneg o waſcu dwylaw i gyſcu.

11 Am hynny yn y cyf-amſer y daw tlodi arnat fel ymdeithudd, a'th angen fel gŵr arfog.

12 Dŷn i'r fall, [a] gŵr anwir a rodia â genau traws.

13 Efe a amneidia ai lygaid, efe a fynega [eiriau] ai draed, [ac] a ddyſc ai fyſedd.

14 Y mae pob rhyw drawſedd yn ei galon, y mae yn dychymmyg drygioni bob amſer, ac yn peri cynnen.

15 Am hynny ei ddiniſtr a ddaw arno: yn ddiſymmwth y dryllir ef, fel na byddo meddiginiaeth.

16 Y chwe pheth hyn ſydd gâs gan yr Arglwydd: ie ſaith beth ſydd ffiaidd ganddo ef.

17 Llygaid beilchion, tafod celwyddog, a'r dwylo a dywalltant waed gwirion.

18 Y galon a ddychymmygo feddyliau drwg, traed yn rhedeg yn fuan i wneuthur drwg.

19 Tyſt celwyddog yn dywedyd celwydd, a'r neb a gyfodo gynnen rhwng brodyr.

20 Fy mab cadw orchymyn dy dad, ac nag ymado â chyfraith dy fam.

21 Rhwym hwynt * ar dy galon yn oeſtadol cylymma hwynt am dy wddf. Pen.33.

22 Pan rodiech, hi a'th gyfarwydda, pan orwedech hi a'th wilia di, pan ddeffroech, hi a gŷd ymddiddan â thi.

23 Canys canwyll yw'r gorchymyn, a goleuni yw'r gyfraith, a ffordd i fywyd yw coſpedigaeth addyſc.

24 I'th gadw rhag y fenyw ddrwg, a rhag gweniaeth tafod y ddieithr.

25 Na chwennych ei phryd yn dy galon, ac na âd ti iddi dy ddal ag amrantau ei llygaid.

26 O blegit y fenyw buteinig [y dâw gŵr i gardotta] tammaid o fara, a gwraig gŵr arall a hela yn ôl yr enaid gwerthfawr.

27 A ddichon gŵr arwain tân yn ei fynwes, heb loſci ei ddillad?

28 A dichon gŵr rodio ar hyd marwor, ac heb loſci ei draed?

29 Felly pwy bynnac a êl at wraig ei gymmydog, ac a gyffyrddo â hi ni bŷdd digerydd.

30 Ni wradwyddir lleidr yr hwn a ledrattao i ddadebru ei enaid, pan fyddo arno newyn.

31 Ond os delir ef, rhaid iddo dalu yn ſaith ddyblyg neu, fe orfydd iddo roi cymaint oll ag a feddo efe yn ei dŷ.

32 Ond y neb a wnêl odineb â benyw, ſydd heb ſynnwyr, y neb ai gwnél a lygra ei enaid ei hun.

33 Clais, a gwarth a gaiff efe, ai gywilydd ni ddeleir.

34 Cynddaredd yw eiddigedd gwr, am hynny nid erbyd efe yn nydd dial.

35 Ni bydd ganddo bris am iawn ac ni fodloneir ef, er rhoi rhoddion lawer.

## PEN. VII.

Cyngor yn erbyn dichellion puttain.

FY mab cadw fyng-eiriau, a chuddia fyng-orchymynnion gyd â thi.

2 Cadw fyng-orchymynnion, a byw fyddi, a'm cyfraith fel cannwyll dy lygaid.

3 Rhwyma hwynt yng-hylch dy fyſedd, ac ſcrifenna hwynt ar lech dy galon.

4 Dywet wrth ddoethineb, fy chwaer wyt ti, a galw ŵybodaeth yn gâres.

5 Fel i'th gadwer oddi wrth y wraig ddieithr, a rhag y fenyw a'r ymadrodd gwenieithus.

6 Canys a mi yn ffeneſtr fy nhŷ, mi a edrychais drwy fy ffeneſtr.

7 Ac mi a welais ym myſc y ffyliaid [ie] mi a ganfûm ym mhlith y plant, ddŷn ieuangc annehallus,

8 Yn ymdaith drwy yr heol, ger-llaw ei chongl hi, ac yn myned ar hŷd y ffordd iw thŷ hi;

9 Yn y cyfnos gyd a'r hŵyr pan dedd hi yn nôs du ac yn dywyll.

10 Ac wele fenyw yn cyfarfod ag ef, a chanthi ymddygiad puttain, ac â chalon ddichellgar.

11 Siaradus anufuddgar yw hi, ei thraed ni arhôant yn ei thŷ.

12 Weithie yn y drŵs, weithie yn yr heolydd, ac yn cynllwyn ym mhob congl.

13 Hi a ymafaelodd ynddo, ac ai cuſſanodd, ac yn ddigywilydd hi a ddywedodd wrtho ef:

14 [Yr oedd] arnafi aberthau hedd, heddyw y cywirais fy adduned:

15 Ac am hynny y daethum allan i gyfarfod â thi, i chwilio am dy wyneb, a chefais afael arnat.

16 Mi a drwſiais fyng-wely â chortinau, ac â thaſſelau, a llieiniau o lin yr Aipht.

17 Mi a fwgdarthais fyng-hyfugl â myrh, aloes, a Synnamon.

18 Tyret moes ymlenwi o garu hyd y boreu, gwnawn yn llawen a'r faſwedd.

19 Canys nid yw fyng-wr gartref, efe aeth i ffordd bell,

20 Efe a gymmerth goded o arian yn ei law, efe a ddaw adref ar y dydd ammodol.

21 Hi ai troes ef, ai haml eiriau melyſion, ac â gweniaith ei gwefuſau hi ai gyrrodd ef.

22 Efe ai canlynodd hi ar frys, fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa, ac fel ynfyd yn myned i'r cyffion iw goſpi:

23 Hŷd oni ddryllio yr ſaeth ei afu ef, fel yr aderyn yn pryſſuro i'r fagl, heb ŵybod ei bod yn erbyn ei enioes ef.

24 Am hynny (fy meibion) gwrandewch arnafi, ac yſtyriwch wrth eiriau fyng-enau.

25 Na thuedded dy galon at ei ffyrdd hi, na chyrwydra ar hyd ei llwybrau hi.

26 Canys llawer a gwympodd hi yn archolledic, gwŷr grymmus oll a laddodd hi.

27 Ffyrdd *i uffern [yw] ei thŷ hi, [yn] deſcyn i ſtafelloedd angeu. Pen. 2.18.

## PEN. VIII.

Doethineb yn dangos ei godidogrwydd.

ONd yw doethineb yn gweiddi, ac ond yw deall yn llefain?

2 Ym mhen lleoedd uchel, ger llaw'r ffordd, ac ym mhen llwybrau lawer y mae hi yn ſefyll.

3 Ger-llaw pyrth y drêf, yn ymyl drysau y mae hi yn llefain,

4 Ha wŷr ardderchog arnoch chwi yr wyf yn galw, ac at feibion dynnion yr wyf yn derchafu fy llais.

5 Ha ynfydion deallwch gyfrwyſder, a chwi wŷr anghall troiwch ymma eich calon i ddeall.

6 Gwrandewch, canys myfi a draethaf i chwi bethau ardderchog, mi a agoraf fyng-wefuſau, ac a lefaraf uniondeb.

7 Canys, fyng-enau a draethant wirionedd ffiaidd gan fyng-wefuſau ddrygioni.

8 Holl eiriau fyng-enau ydynt gyfiawn, nid oes ynddynt, na gŵyrni, na thrawſedd.

9 Y maent hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo, ac yn uniawn i'r rhai a chwennychent ŵybodaeth.

10 Derbynnwch fy addyſc, ac nid arian, a gŵybodaeth o flaen aur etholedig.

11 Canys gwell yw doethineb na gemmau, nid oes hyfrydwch cyffelyb iddi.

12 Myfi doethineb wyf yn glŷnu wrth gallineb: yr ydwyf yn cael gŵybodaeth, a chyngor.

13 Ofn yr Arglwydd [yw] caſaû drygioni: balchder a thraha, a ffordd y drygioni, a'r genau trawſion ſydd gâs gennifi.

14 Mi pie cyngor, a pherffeithrwydd, deall ydwyfi, mi pie nerth.

15 Drwofi y teyrnaſa brenhinoedd, ac y barna y penaethiaid gyfiawnder.

16 Drwofi y rheola tywyſogion a phendefigion, a holl farn-wŷr y ddaiar.

17 Y neb a'm cârant a garaf inne, a'r neb am ceiſiant yn fore am cânt.

18 Gennifi y mae cyfoeth, ac anrhydedd golud parhaus, a chyfiawnder.

19 Gwell yw fy ffrwyth i nag [aur, ie] nag [aur] coeth, a'm cynnyrch ſydd well na'r arian detholedig.

20 Rhyd ffordd cyfiawnder i'th arweiniaf ar hŷd canol llwybrau barn.

21 Mi a baraf i'r rhai a'm carant berchennogi'r peth a beru byth: ac mi a lanwaf eu tryſſorau.

22 Yr Arglwydd a'm meddiannodd i yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd, a chyn vn amſer.

23 Cyn y bŷd i'm heneiniwyd, cyn y dechreuad, cyn gwneuthuriad y ddaiar.

24 Prŷd nad oedd dyfnder i'm cenhedlwyd, cyn bôd ffynhonnau yn llawn o ddyfroedd.

25 Cyn ſylfaenu y mynyddoedd, ac o flaen y brynnau i'm cenhedlwyd.

26 Cyn gwneuthur o honaw ef y ddaiar, na'r meuſydd, na dechreuad llwch y bŷd.

27 Pan baratôdd efe y nefoedd yr oeddwn i yno: pan amgylchodd efe wyneb y dyfnder:

28 Pan gadarnhaodd efe y cwmylau vwch ben, a phan ffurfiawdd efe ffynhonnau y dyfnder,

29 Pan roddes efe ei ddeddf i'r môr, ac i'r dyfroedd, fel na thorrent orchymyn ei enau ef, pan ſeiliodd efe y ddaiar,

30 Yna yr oeddwn i gyd ag ef yn magu [pob peth] yn ddaintaeth beunyddol, ac yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amſer.

31 Ac yn llawenychu o amgylch ei ddaiar ef, ac a'm daenteithion yn llawenhau meibion dynnion.

32 Yr awron (o feibion) gwrandewch arnaf, canys gwyn eu bŷd a gadwant fy ffyrdd i.

33 Gwrandewch addyſc, a byddwch ddoethion, nac ymwrthodwch â hi.

34 Gwyn ei fŷd y dyn a wrandawo arnaf, ac a wilio yn ddyfal beunydd fy nrysau, gan warchod pyſt fy mhyrth i.

35 Canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddianna ewyllyſ da yr Arglwydd.

36 Onid y neb a becho yn fy erbyn a dreiſia ei enaid: fy holl gaſeion a garant angeu.

## PEN. IX.

Y modd y mae doethineb yn gwahodd atti. 7 A'r gwatwar-wr yn gwrthod addyſc. 10 Daioni ofn Duw. 13 A digywilydd-dra gwraig ddrwg.

DOethineb a adailadodd ei thŷ, ac a naddodd ei ſaith gôlôfn.

2 Hi a laddodd ei hanifeiliaid, hi a gymmyſcodd ei gwîn, ac a huliodd ei bwrdd.

3 Hi a yrrodd ei llawforwynion, ac a alwodd oddi ar fannau vchel y ddinas [gan ddywedyd,]

4 Pwy bynac ſydd annichellgar, deued ymma, ac wrth yr annoeth y mae hi yn dywedyd,

5 Deuwch, a bwytewch o'm bara, ac o'r gwin a gymmyſcais:

6 Gwrthodwch ffolineb, a byddwch fyw, a rhodiwch yn ffordd deall.

7 Yr hwn a geryddo watwar-wr a gaiff wradwydd, a'r hwn a feio ar y drygionus, a gaiff anaf.

8 Na cherydda watwar-wr rhag iddo dy gaſau, cerydda y doeth, ac efe a'th gâr di.

9 Dyro [rybudd] i'r doeth, ac efe fydd doethach, dyſc y cyfiawn, ac efe a chwanega ei ddyſceidiaeth.

10 Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd, a gŵybodaeth [mewn pethau] ſanctaidd yw deall.

11 Canys drwofi yr amlheuir dy ddyddiau, ac yr eſtynnir blynyddoedd dy einioes.

12 Os doeth fyddi, doeth fyddi i ti dy hûn, ac as gwatwar-wr fyddi, ty di dy hun ai dygi.

13 Gwraig ffol a fydd ſiaradus, anghall, ac ni ŵyr ddim:

14 Eithr hi a eiſtedd ar ddrws ei thŷ, ar faingc mewn lleoedd vchel yn y ddinas,

15 I alw atti y neb a fyddant yn myned heibio, y neb a rodiant yn iniawn [gan ddywedyd,]

16 Pwy bynac ſydd ehud troed ymma, a phwy bynac ſydd ddiſynnwyr: ac hi a ddywed wrtho ef,

17 Dyfroedd lledrad ydynt felus, a bara cudd ſydd beraidd.

18 Ni ŵyr efe mai meirw yw y rhai ſydd yno, a bod ei gwahodd-wŷr hi yn nyfnder vffern.

## PEN. X.

DIharebion Salomon. Mâb doeth a lawenhâ ei dâd, a mâb ffôl a dristhâ ei fam. Pen.15.20.

2 Ni thyccia tryſſorau drygioni, ond cyfiawnder a wared rhag angeu.

3 Ni edu yr Arglwydd i enaid y cyfiawn newynu: ond efe a chwâl ymmaith gyfoeth y drygionus.

4 Y neb a weithio â llaw dwyllodrus fydd tlawd: ond llaw y rhai llafurus ai cyfoethoga hwynt.

5 Mab ſynhwyrol yw yr hwn a gaſcl amſer haf: ond mab gwradwyddus yw yr hwn a gwſc amſer cynhaiaf.

6 Bendithion a fyddant ar ben y cyfiawn, ond trawſedd a gâe ênau y drygionus.

7 Coffadwriaeth y cyfiawn ſydd fendigedic, ond enw y drygionus a bydra.

8 Y galon ddoeth a dderbyn y gorchymynnion, ond y ffôl ai blina ai weſuſau ei hun.

9 Y neb a rodio yn ddiragrith a rodia yn ddiogel, ond y neb a gamdrê ei ffyrdd a fydd hynod·

10 Y neb a amneidio ai lygad a bair flynder, ar ffôl ei weſuſau ai blina ei hunan.

11 Ffynnon bywyd yw genau y cyfiawn, ond trawſedd a gâe ênau y drygionus.

12 Caſineb a gyfyd cynnen, *ond cariad a guddia bob camwedd. 1.Cor.13.4. 1.Pet.4.8.

13 Yng-weſuſau y ſynhwyrol y ceir doethineb, a gwialen [a wedde] i gefn yr angall.

14 Y doethion a ſtoriant ŵybodaeth, ond diniſtr ſydd gyfagos i enau y ffôl,

15 Cyfoeth y cyfoethog yw caer ei gadernid ef, ond ofn y tlodion yw eu tlodi.

16 Gwaith y cyfiawn ſydd tu ag at fywyd,

ond gwaith y drygionus ſydd tu ag at bechod.

17 Ffordd i fywyd yw 'r neb a gadwo addyſc, ond y neb a wrthodo [goſpedigaeth] ſydd yn cyfeiliorni.

18 Gwefuſau celwyddog a guddiant gâs, a'r neb a ddywed enllib ſydd ffôl.

19 Yn amlder geiriau ni phalle fod pechod, ond y neb a attalio ei wefuſau ſydd ſynhwyrol.

20 Tafod y cyfiawn ſydd arian detholedig, ond calon y drygionus ni thâl ddim.

21 Gwefuſau y cyfiawn a borthant lawer, ond y ffyliaid o ddiffic ſynwyr a fyddant feirw.

22 Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga, ac ni ddwg orthrymder gyd â hi.

23 Hyfryd gan ffôl wneuthur drwg, a chan ŵr ſynhwyrol [ymarfer] â doethineb.

24 Y peth a ofno y drygionus a ddaw iddo, ond y peth a ddeiſyfio y rhai cyfiawn [Duw] ai rhydd iddynt.

25 Ni ſaif y drygionus mwy na'r tro-wynt yn myned heibio: ond y cyfiawn fydd fel ſylfaen a beru byth.

26 Megis finegr i'r dannedd, a mŵg i'r llygaid, felly y bydd y diog i'r neb ai gyrrant [i un-lle.]

27 Ofn yr Arglwydd a chwanega y dyddiau: ond blynyddoedd y drygionus a fyrheir.

28 Gobaith y cyfiawn yw llawenydd, ond hyder y drygionus a dderfydd am dano.

29 Ffordd yr Arglwydd [ſydd] gadernid i bôb dŷn perffaith: a braw i'r rhai a wnant anwiredd.

30 Y cyfiawn nid yſcog byth, ond y drygionus ni phreſſwyliant y ddaiar.

31 Genau y cyfiawn a draetha ddoethineb yn ddigonol, a'r tafod anwir a dorrir ymmaith.

32 Gwefuſau y cyfiawn a gânt ŵybod ewyllys da [Dûw,] ond genau 'r drygionus a [gânt wŷbod] eu trawſedd.

## PEN. XI.

Cloriannau anghywir ydynt ffiaidd gan yr Arglwydd, ond pwys cymmwys ſydd fodlon ganddo ef.

2 Pan ddêl balchder, fe a ddaw gwarth, ond gyd a'r goſtyngedig y mae doethineb.

3 Perffeithrwydd yr iniawn ai tywys hwynt, ond trawſedd yr anffyddloniaid ai difa hwynt.

4 Ni thyccia *cyfoeth yn nydd digofaint, ond cyfiawnder a wared rhag angeu.

5 Cyfiawnder yr iniawn ai hyfforddа ef, ond o achos ei ddrygioni y ſyrth y drygionus.

6 Cyfiawnder y cyfiawn ai gwared hwynt, ond y rhai anffyddlon a ddelir yn eu drygioni.

Doeth.5.15. 7 *Pan fyddo marw y drygionus, fe a ddarfu am ei obaith ef, ai obaith gadarn a gyfergollir.

8 Y cyfiawn a waredir o gyfyngder, a'r drygionus a ddaw yn ei lê ef.

9 Y rhagrithiwr ai enau a lygra ei gymmydog, ond y cyfiawn a waredir drwy [ei] ŵybodaeth.

10 Yr holl ddinas a ymlawenhâ o herwydd llwyddiant y cyfiawn: a phan gyfergoller y drygionus y bydd gorfoledd.

11 Trwy fendith y cyfiawn y derchefir y ddinas, ond trwy enau y drygionus y dinistrir hi.

12 Y neb a ddiyſtyro ei gymmydog ynfyd yw, ond y ſynhwyrol a daw a ſôn.

13 Yr hwn a rodia ag athrod a ddatguddia gyfrinach, ond y ffyddlon ei galon a geidw beth yn gyfrinachol.

14 Lle ni byddo callineb y bobl a ſyrthiant: ond lle y byddo llawer o gyngor-wŷr y bydd iechydwriaeth.

15 Dryllir yn ddrylliau y neb a fachnio dros ddieithr-ddyn: ond y neb a gaſâo fachniaeth fydd diofal.

16 Gwraig raſol a gaiff afael ar anrhydedd, fel y caiff y galluog afael ar gyfoeth.

17 Gŵr trúgarog a fydd dâ wrth ei enaid ei hun: ond yr hwn a flino ei gnawd ei hûn ſydd greulon.

18 Y drygionus a wna waith twyllodrûs, ond i'r neb a hauo gyfiawnder y bydd gwobr ſiccr.

19 Fel yr arwain cyfiawnder i fywyd: felly, dilyn drygioni a dywys i angeu.

20 Ffiaidd gan yr Arglwydd y neb ydynt gyndyn eu calonnau, eithr cymmeradwy ganddo ef yw y rhai ſy berffaith yn eu ffyrdd.

21 Er maint fyddo cymmorth y drygionus ni bydd yn eûog: ond hâd y cyfiawn a waredir.

22 Fel modrwy aûr yn nrhwyn hŵch yw benyw lân heb ddeall.

23 Deiſyfiad y cyfiawn ſydd ar ddaioni yn unic: ond gobaith y drygiomis ſydd ddigter.

24 Rhyw un a waſcar ei dda, ac a gyfoethogir yn fwy: a rhyw un arall a arbed ei dda, ac a ſyrth i dlodi.

25 Y gŵr hael a gaiff ddigon: a'r neb a ddwfrhâo a ddwfrhêir.

26 Y neb a guddio ei ŷd, y bobl ai melldithia: ond bendith a fydd ar ben y neb ai gwertho.

27 Y neb a geiſio ddaioni a ennill ewyllys da: ond y nêb a geiſio ddrwg, iddo [ei hûn] y daw.

28 Y neb a roddo ei goel ar ei gyfoeth a ſyrthia: ond y rhai cyfiawn a flodeûant megis cangen.

29 Y neb a flino ei dŷ ei hun a berchennoga 'r gwynt: ar ffôl a wneir yn wâs i'r ſynhwyrol.

30 Ffrwyth y cyfiawn ſydd megis pren y bywyd: a'r neb a ennillo eneidiau ſydd ddoeth.

31 Os y cyfiawn a goſpir ar y ddaiar hon: pan nad mwy y drygionus a'r pechadur?

## PEN. XII.

YNeb a garo addyſc a gâr ŵybodaeth: ond y neb a gaſâo gerydd anifeilaidd yw.

2 Gŵr dâ ſydd gymmeradwy gan yr Arglwydd: ond y gŵr ſceler a ddamna efe.

3 Ni chadarnheir dŷn drwy ddrygioni: ond gwraidd y cyfiawn ni yſcôga.

4 Gwraig rymmus ſydd goron iw gŵr: ond y wradwyddus ſydd lwgr yn ei eſcyrn ef.

5 Meddyliau y cyfiawn ſydd gyfiawn: a dichellion y drygionus ſydd dwyllodrus.

6 Geiriau y drygionus ſy yn cynllwyn am waed: ond genau yr iniawn ai gwared hwynt.

7 Duw a ddifetha y drygionus, fel na byddant hwy: ond teulu y cyfiawn a ſaif.

8 Yn ôl ei ddeall y canmolir gŵr: ond gŵr traws ei galon a ddiyſtyrir.

9 Gwell yw'r hwn ai cydnebyddo ei hun yn wael, ac ſydd yn wâs iddo ei hun: na'r ffroſtiwr yr hwn ſydd arno eiſieu bara.

10 Y cyfiawn a fydd ofalus am ei anifail: ond toſturiaeth y drygionus ſydd greulon.

11 Y neb a lafurio ei dîr a ddigonir o fara: ond y neb a ganlyn ofer-wŷr angall yw.

12 Y drygionus ſydd yn deiſyf rhwyd drygioni: ond gwreiddin y cyfiawn a rydd [ffrwyth]

13 Drwy ddrigioni ei wefuſau y meglir y drygionus: ond y cyfiawn a ddiangc allan o gyfyngder.

14 Trwy ffrwyth ei enau y digonir gŵr â daioni: a dŷn a dderbyn daledigaeth yn ôl ei weithredoedd.

15 Ffordd yr ynfyd ſydd iniawn yn ei olwg ei hun: ond y neb a wrādawo gyngor ſydd gall.

16 Mewn un-dydd y dengys ynfyd ei ddigter: ond y call a guddia gywilydd.

17 Y neb a ddywedo'r gwir a ddengys gyfiawnder: ond gau dyſt [a draetha] dwyll.

Pen.14.5. 18 *Rhyw ddyn a ddywed eiriau fel brath cleddyf: ond tafod doethion ſydd feddiginiaeth.

19 Gwefus gwirionedd a ſaif byth: ond tafod celwyddog ni ſaif funyd awr.

20 Dichell ſydd yng-halon y rhai a ddychymmygant ddrwg: ond i gynghor-wyr heddwch y bydd llawenydd.

21 Ni fwrir y cyfiawn i ddim blinder: ond y drygionus a lenwir â drwg.

22 Ffiaidd gan yr Arglwydd wefuſau twyllodrus: ond y rhai a wnant yn ffyddlon a ryngant fodd iddo ef.

23 Gŵr pwyllog a gudd ŵybodaeth: ond calon ffyliaid a gyhoedda ffolineb.

Ped.10.4. 24 Llaw'r diyſceulus a deyrnaſa: a llaw'r twyllodrus a dâl deyrn-ged.

25 Gofid yng-halon gŵr a bar iddi grymmu: ond gair dâ ai llawenhâ.

26 Y cyfiawn a ragora ar ei gymmydog: ond ffordd y rhai drygionus ai twylla hwynt.

27 Ni roſtia y twyllodrus mo'r peth a heliodd: ond y dyn diyſceulus a fwynhâ gyfoeth gwerthfawr.

28 Yn ffordd cyfiawnder y mae bywyd: ac yn ei llwybrau hi nid oes marwolaeth.

## PEN. XIII.

MAb doeth [a wrendu] ar athrawiaeth ei dad: ond gwatwar-wr ni wrendu ar gerydd.

2 Gŵr da a fwynhâ ffrwyth ei enau ei hun: ac enaid yr anghyfiawn [a gaiff] ffrwyth trawſedd.

3 Y neb a geidw ei enau a geidw ei enaid: ond y neb a eſtynno ei wefuſau a ddiniſtrir.

4 Enaid y diog a ddeiſyf, ac ni chaiff ddim: ond enaid y diyſceulus a ddigonir.

5 Câs gan y cyfiawn eiriau celwyddog: ond [celwydd] a wna'r drygionus yn ffiaidd, ac ai cywilyddia ef.

6 Cyfiawnder a geidw y perffaith yn ei ffordd: ond annuwioldeb a ddymchwel y pechadur.

7 Rhyw un a ymffroſtia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo: ac arall ei fod yn dlawd a chyfoeth lawer iddo.

8 Iawn am enioes gŵr yw ei ddâ: ond y tlawd ni chlyw gerydd.

9 Goleuni y cyfiawn a fydd diſclaer: ond cannwyll y drygionus a ddiffodir.

10 Drwy falchedd yn unic y cyffru cynnen: ond gyd a'r pwyllog y mae doethineb.

11 Golud yr hwn a geſclir drwy anwiredd a ddiflanna: ond y neb a gaſclo â llaw [gywir] a chwanega ei [gyfoeth.]

12 Gobaith diweddar a wanhâ'r galon: ond pren y bywyd yw'r deiſyfiad pan ddel i ben.

13 Yr hwn a ddirmygo'r gair, a ddifethir oi blegit: ond yr hwn ſydd yn ofni y gorchymyn a obrwyir.

14 Cyfraith y doeth [ſydd] ffynnon y bywyd, i gilio oddi wrth faglau angeu.

15 Deall dâ a ddyry râs: ond ffordd y dirmyg-wŷr [ſydd] galed.

16 Pob call a wnâ [bethau] trwy ŵybodaeth: ond yr ynfyd a draetha ynfydrwydd,

17 Cennad annuwiol a ſyrth i ddrygioni: ond cennad-wr ffyddlon [ſydd] iechyd.

18 Tlodi a gwradwydd [ſydd] i'r hwn a wrthodo addyſc: ond yr hwn a gadwo gerydd a anrhydeddir.

19 Dymuniad wedi ei gyflawni ſydd hyfryd gan yr enaid: ond ffiaidd gan ynfydion gilio oddi wrth ddrygioni.

20 Yr hwn a rodio gyd â doethion fydd doeth: ond yr hwn ſydd gyfaill i ynfydion a gyſtuddir.

21 Drygfyd a ganlyn bechaduriaid: ond [Duw] a dâl ddaioni i'r rhai cyfiawn.

22 Y [gŵr] daionus a ranna etifeddiaeth i feibion [ei] feibion: a golud y pechadur a roddwyd i gadw i'r cyfiawn.

23 Llawer o ymborth [ſydd] ym maes y

tlodion: ond [maes] heb iawn drefn [ſydd] anffrwythlon.

24 Yr hwn a arbedo y wialen, ſydd yn caſâu ei fab: ond yr hwn ai câr ef ai cerydda ef mewn amſer.

25 Y cyſiawn a fwyta hyd oni ddigonir ef: ond bol yr annuwolion fydd mewn eiſieu.

### P E N. XIIII.

GWraig ddoeth a gynnal ei thŷ: ond y ffolog ai deſtruwia ef ai dwylo.

Iob 12 4.2. 2 Yr*hwn ſydd yn rhodio yn ei iniawnder ſydd yn ofni yr Arglwydd, a'r hwn ſydd gyndyn yn ei ffyrdd ſydd yn ei ddirmygu ef.

3 Yng-ênau y ffôl y mae gwialen balchder: ond gweſuſau y doethion ai ceidw hwynt.

4 Lle nid oes mo'r ŷchen, gwag yw y preſebau: ond llawer o gnŵd [ſydd yn dyfod] drwy lafur yr ŷch.

Dihar.12.17. 5 Tyſt gwirion ni ddywed gelwydd: ond gau-dyſt a draetha gelwyddau.

6 Y gwatwar-ŵr a gais ddoethineb, ac ni's [caiff:] ond gŵybodaeth ſydd yſcafn i'r hwn a fynno ddeall.

7 Dos di ymmaith oddi wrth ŵr ffol, pan wypech di nad [oes ganddo ef] weſuſau gŵybodaeth.

8 Doethineb y call [yw] deall ei ffordd ei hun: ond ffolineb y ffyliaid [yw] twyll.

9 Y ffyliaid a hyfrydant mewn camwedd: ond ym mhlith y rhai iniawn [y mae] ewyllys dâ.

10 Y galon ſydd yn gŵybod chwerwder ei henaid ei hun: a'r dieithr ni chaiff fod yn gyfrannog ei llawenydd hi.

11 Tŷ yr annuwolion a ddiniſtrir: a phabell y rhai iniawn a flodeua.

12 Y mae ffordd iniawn ger bron gŵr: ond ei diwedd hi yw ffordd angeu.

13 Ie wrth chwerthyn y bydd blîn ar y galon: a diwedd y llawenydd hwnnw [yw] triſtwch.

14 Y gwrthnyſig o galon á gaiff ddigon oi ffyrdd ei hun: ond y gŵr daionus [a gilia] oddi wrtho ef.

15 Yr ehud a goelia bob gair: a'r call a ddeall ei gamrau.

16 Y doeth ſydd yn ofni, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni: ond y ffôl ſydd ddigllon, a diofal.

17 Gŵr digllon a wna ffolineb: a châs yw 'r gŵr dichellgar.

18 Y rhai ehud a etifeddant ffolineb: ond y rhai call a goronir o herwydd eu gwybodaeth.

19 Y rhai drygionus a ymoſtyngant ger bron y daionus: a'r anuwiol ym mhyrth y cyſiawn.

20 Y tlawd a gaſeîr, îe gan ei gymmydog ei hun: ond llawer fydd yn caru y cyfoethog.

21 Y pechadur a ddirmyga ei gymmydog: ond gwyn ei fyd y trugarog wrth y tlawd.

22 Onid ydyw y rhai a ddychymmygant ddrwg yn cyfeiliorni? eithr trugaredd a gwirionedd a fydd i'r neb a ddychymmygant ddaioni.

23 Ym mhôb llafur y mae rhyw elw: ond mewn geiriau gweigion nid oes dim ond tlodi.

24 Coron y doethion yw eu cyfoeth: ond ffolineb y ffyliaid ſydd wir ffolineb.

25 Tŷſt ffyddlon a wared eneidiau: ond y twyllodrus a ddywed gelwyddau.

26 Yn ofn yr Arglwydd y mae gobaith cadarn: ac iw blant ef y bydd diogelwch.

27 Ofn yr Arglwydd yw ffynnon y bywyd i ddiangc rhag maglau angeu.

28 Mewn amlder y bobl y bydd anrhydedd y brenin: ac o ddiffig pobl y diniſtrir y brenin.

29 Y diog i ddigofaint ſydd yn llawn o ſynwyr: ond y gŵr digllon a gyffru gynnen.

30 Llawenydd y galõ yw bywyd y cnawd: ond cenfigen a bydra 'r eſcyrn. Pen.17.5.

31 Y neb a wnelo gam a'r tlawd a gywilyddia ei greawdudd: ond y neb a drugarhâo wrth yr anghenus ai anrhydedda ef.

32 Y drygionûs a ſyrth yn ei ddrŷgioni ei hûn: ond y cyſiawn a obeithia ym mron marw.

33 Doethineb ſydd yn gorphywys yng-halon y call: ac ym myſc ffyliaid yr adweinir [ffolineb.]

34 Cyſiawnder a dderchafa y genhedlaeth: ond [y mae] trugaredd [rhyw] bobl yn bechod.

35 Ewyllys da 'r brenin fydd ar ei wâs ſynhwyrol: ond ei ddigofaint a fydd ar wâs gwradwyddus.

### P E N. XV.

ATteb arafaidd a ddetrŷ lîd: ond gair *garw a gyffru ddigofaint. Pen.25.15.

2 Tafod y ſynhwyrol a draetha ŵybodaeth yn dda: ond genaû y ffyliaid a dywallt ffolineb.

3 Ym mhob lle y mae llygaid yr Arglwydd yn canfod y drygionûs a'r daionûs.

4 Pren y bywyd yw tafod iach: ond y trawſedd yr hwn ſydd ynddo ef ſydd megis terfyſc gwynt.

5 Dŷn ffôl a ddiyſtyra addyſc ei dad, ond y neb a ddioddefo gerydd ſydd gall.

6 Yn nhŷ 'r cyſiawn y bydd mawr gyfoeth: ond am olud yr annuwiol y mae trallod.

7 Gweſûſau y doethion a waſcarant ŵybodaeth: ond calon y ffŷliaid y peth nid yw iniawn.

8 Aberth yr annuwiol ſydd ffiaidd gan yr Arglwydd: ond gweddi 'r iniawn ſydd gymmeradwy ganddo ef.

9 Ffordd yr annuwiol ſydd ffiaidd gan yr Arglwyd: ond efe a gâr y neb a ddilyn gyſiawnder.

10 Cerydd ſydd flin gan y neb a drŷ oddi ar y ffordd: a'r neb a gaſâo gâſpedigaeth a fydd marw.

11 Uffern a diniſtr ydynt gerbron yr Arglwydd: pa faint mwy calonnau plãt dynnion?

12 Ni châr y gwatwar-wr mo'r neb ai ceryddo: ac ni ddaw ym myſc y doethion.

13 Calon lawen a wna wyneb ſiriol: ond drwy ddolûr y triſteir y galon.

14 Calon y ſynhwyrol a ymgais a gwybodaeth: ond genau y ffyliaid a borthir â ffolineb.

15 Oll ddyddiau y tlawd ydynt flin: ond gwledd oeſtadol yw calon lawen.

16 Gwell yw ychydig gyd ag ofn yr Arglwydd: na thryſſor mawr â thrallod gyd ag ef.

17 Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad: nag ŷch paſcedig â châs gyd ag ef.

18 Gŵr digllon a gyffru gynnen: ond gŵr dioddefgar a dyrr ymryſon. Pen.29.22.

19 Ffordd y diog ſydd fel clawdd drain: ond ffordd yr iniawn ſydd waſtad.

20 Mab doeth a lawenhâ ei dad: ond dyn ffol a diyſtyra ei fam.

21 Ffolineb ſydd hyfryd gan yr ynfyd: ond gŵr deallus a rodia yn iniawn.

22 Ofer yw medd yliau ni byddo cyngor: ac mewn amlder cyngorwŷr y ſicrheir[meddwl.]

23 Llawenydd fydd i ŵr o herwydd ymadrodd ei enaû, ac ô mor dda yw gair yn ei amſer.

24 Ffordd y bywyd ſydd frŷ i'r ſynhwyrol, i ochel uffern obrŷ.

25 Yr Arglwydd a ddiwreiddia dŷ 'r beilchion: ond efe a gadarnhâ derfyn y weddw.

26 Meddyliau 'r annûwiol ſydd ffiaidd gan yr Arglwydd: ond geiriau 'r glan ŷnt beraidd.

27 Y neb a fyddo drachwãnog ei olwg a derfyſca ei dŷ: ond y neb a gaſâo roddion fydd byw.

28 Calon y cyfiawn a fyfyria i atteb: ond genau y drygionûs a draetha ddrwg.

29 Pell yw'r Arglwydd oddi wrth y rhai annuwiol: ond efe a wrendu weddi y cyfiawn.

30 Llewyrch y llygaid a lawenhâ 'r galon: a henw da a fraſſâ 'r eſcyrn.

31 Y glûſt a wrandawo ar gerydd y bywyd, a gaiff breſſwylio ym mhlith y doethion.

32 Y neb a wrthodo addyſc, a ddiyſtyra ei enaid ei hûn: ond y neb a wrandawo ar gerydd a feddianna ddeall.

33 Addyſc doethineb yw ofn yr Arglwydd: ac o flaen anrhydedd yr aiff goſtyngeiddrwydd.

## PEN. XVI.

YM meddiant dŷn y mae meddyliau 'r galon: ond ymadrodd y tafod ſydd oddi wrth yr Arglwydd.

2 Gŵr a dyb yn ei olwg ei hûn fod ei hôll ffyrdd yn lan: ond yr Arglwydd a bwyſa yr yſprydion.

3 Treigla dy holl weithredoedd ar yr Arglwydd: a'ch feddyliau a gyfarwyddir.

4 Yr Arglwydd a wnaeth bôb peth er ei fwyn ei hûn: a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.

5 Ffiaidd gan yr Arglwydd bôb dŷn uchel galon: er maint fyddo ei gymmorth ni bydd efe dieuog.

6 Drwy drûgaredd a gwirionedd y deleuir pechod: am hynny trwy ofn yr Arglwydd ymado oddi wrth ddrwg.

7 Pan fydd ffyrdd gŵr yn rhyngû bodd i'r Arglwydd: efe a bar i'w elynnion fod yn heddychol ag ef.

8 *Gwell yw ychydig drwy gyfiawnder, na chnwd mawr drwy gam. Pen.15 16. psal 37.16.

9 Calon dŷn a ddychymmyg ei ffordd: ond yr Arglwydd a gyfarwydda ei gerddediad ef.

10 Bydded pwyll yng-wefuſau 'r brenin: rhag gŵyro ei enau ef mewn barn.

11 Pwyſau a chloriau cywir yr Arglwydd ai pie: ei waith ef yw hôll gerrig y gôd.

12 Ffiaidd yw i frēhinoedd wneuthur annuwioldeb: canys drwy gyfiawnder y cadarnheir yr orſedd.

13 Gwefûſau cyfiawn ſydd gymmeradwy gan frenhinoedd, a'r brenin a gâr a draetho iniawndeb.

14 Digofaint y brenin ſydd megis cennad angeu: ond gŵr doeth ai bodlona hi.

15 Yn ſiriol wynebpryd y brenhin y mae bywyd: ai ewyllys da ef ſydd megis cwmylau glaw diweddar.

16 Cael doethineb, ô mor well yw nag aur cloddiedig: a chael pwyll, mwy dymunol yw nag arian.

17 Sarn y cyfiawn yw dychwelyd oddi wrth ddrwg: y neb a gadwo ei ffordd a geidw ei enaid.

18 Balchder ſydd yn myned o flaen diniſtr: ac uchelder yſpryd o flaen cwymp.

19 Gwell yw bod yn oſtyngedig gyd a'r goſtyngedig: na rhannu 'r yſpail gyd a'r beilchion.

20 Y call yn ei fatter a ddaw i ddaioni: a'r * neb a ymddyriedo yn yr Arglwydd, ô gwyn ei fyd hwnnw. Deut.11.14. pen,8.10. psal,125.1.

21 Y doeth ei galon a elwir yn ddeallus, a melúſder y gwefuſau a chwanega ddyſceidiaeth.

22 Ffynnon y bywyd yw deall i'w pherchennog: ond addyſc ffyliaid yw[ ffynnon ] ffolineb.

23 Calon y doeth a reola ei enau yn ſynhwyrol: a thrwy ei wefuſau y chwanega addyſc.

24 Geiriau têg ydynt megis dil mel, yn felus i'r enaid, ac yn iachus i'r eſcyrn.

25 *Mae ffordd a dybir ei bod yn iniawn yng-olwg gŵr; ond ei ddiwedd a dywys i farwolaeth. Pen.14.12.

26 Y dŷn blîn a bar flinder iddo ei hun: canys ei ymadrodd ſydd yn troi arno ei hun.

27 Dŷn i'r fall ſydd yn cloddio drwg: ac ar ei wefuſau yr erys efe fel tân poeth.

28 Dŷn cyndyn a bar ymryſon: a'r athrodwr a nailltua dywyſogion.

29 Gŵr traws a huda ei gymmydog: ac ai tywys ar hyd ffordd nid yw dda.

30 Y neb a gâeo ei lygaid wrth ddychymmyg trawſedd, ac a friwa yn [ ſân ] ei eiriau a wna ddrwg.

31 Coron anrhydeddus yw henaint, os bydd hi mewn ffordd cyfiawnder.

32 Gwell pwr diog i ddigofaint na'r cadarn: a'r neb â reola ei yſpryd ei hûn ſydd well na'r hwn â enillo ddinas.

33 Y coel-bren â fwrir i'r arffed: ond oddiwrth yr Arglwydd y mae ei holl lywodraethiad ef.

## PEN. XVII.

GWell yw tammed o [fara] ſych, â llonyddwch gyd ag ef: na chŷ yn llawn o aberthau ag ymryſon.

2 Gwâs ſynhwyrol a feiſtrola ar fab gwaradwyddûs: ac a ranna'r etifeddiaeth rhwng brodyr.

3 Y tawdd lleſtr ſydd i'r arian, a'r bibell i'r aûr, ond yr hwn â brawf y calonnau yw'r Arglwydd.

4 Y drygionus a wrendu ar wefus anwir: y celwyddog a rydd glûſt i dafod drwg.

Pen.14.31. 5 Y * neb a watwar y tlawd ſydd yn gwaradwyddo ei greawdr ef: a'r neb â ymddigrifo mewn trallod ni bydd dieuog.

6 Coron yr henaf-gwŷr yw eu hwyrion: ac anrhydedd y plant yw eu tadau.

7 Anweddaidd yw i ffol ymadrodd rhagorawl: mwy o lawer i bendefig ymadrodd celwyddog.

8 Maen gwerth-fawr yw anrheg yng-olwg y dŷn ai caro: â pha le bynnac y trô hi a ffynna.

9 Y neb a guddia bechod, ſydd yn ceiſio cariad: ond y neb a adnewydda fai ſydd yn naillduo cywyſogion.

10 Un ſenn a ddychryn y call yn fwy na phe baeddit y ffol gan-waith.

11 Y dyn terfyſcus ſydd ai fryd ar ddrwg yn vnic: a chennad greulon a anfonir yn ei erbyn.

12 Gwell i ŵr gyfarfod ag arthes wedi difetha ei chenawon, nag a'r ffôl yn ei ffolineb.

Rhuf.12.17. 13 Y neb a dalo ddrwg dros dda: nid ymedû

1.Theſ.5.15. drwg ai dŷ ef.

1.Pet.3.9. 14 Pen y gynnen ſydd megis yn agoryd argae: ac am hynny cyn rhedeg o honi yn rhy bell gad ymmaith ymryſon.

15 Y neb a gyfiawnhao y drygionus ac a

Eſay 5.23. * gondemnio y gwirion: cyn ffiaiddied gan yr

Pen.24.24. Arglwydd y naill ar llall.

16 Pa ham y bydd prîs yn llaw 'r ffol, ac yntef heb galon i berchennogi doethineb.

17 Cydymaith a gâr bob amſer: ond gwir frawd a ymddengys mewn angen.

18 Dŷn heb pwyll a gymmig ei law i fachnio dros ei gymmydog.

19 Y neb ſydd hoff ganddo ymſennu ſydd hoff ganddo bechod, a'r hwn ſydd yn gwneuthur ei ddrws yn vchel ſydd yn ceiſio niwed.

20 Y traws ei galon ni chaiff ddaioni: a'r hwn ſydd drofaus yn ei dafod a ſyrth i ddrwg.

21 Y neb a genhedlo ffol [a ênill] iddo ei hûn driſtwch: ac ni bydd llawen tad yr ynfyd.

22 * Calon lawen a bar iechyd: ond me-

Pen.15.13. ddwl trwm a ſŷch yr eſcyrn.

23 Yr annuwiol a dderbyn rodd o fynwes, i gamdroi llwybrau barn.

24 Doethineb ſydd yn wyneb y deallgar: ond llygaid y ffyliaid [a wibbiant] drwy gyrrau 'r bŷd.

25 Mab ffôl a bar ddigllonedd iw dâd: * a chwerwder * iw fam.

26 Hefyd nit da dirwyo'r cyfiawn: a baeddû Eccleſ.2.14.

y penaethiaid [pan fyddant] ar yr iawn.

27 Gŵr ſynhwyrol a attal ei ymadroddion: a gŵr pwyllog ſydd ymarhoeûs ei yſpryd.

28 Y ffôl tra tawo a ſon a gyfrifir yn ddoeth: a'r neb a gaeo ei wefuſau ſydd bwyllog.

## PEN. XVIII.

YNaillduol a gais ei ddeiſyfiad [ei hûn:] ac a ymmyr â phob peth.

2 Y ffôl nid hoff ganddo wybodaeth: ond traethu ei feddwl ei hûn a gâr efe.

3 Wrth ddyfodiad y drugionus y daw diyſtyrwch: a chyd a'r gwael gwaradwydd.

4 Geiriau yng-enau gŵr [ardderchawg] ynt fel dyfroedd dyfnion: a ffynnon doethineb ſydd megis afon redegog.

5 Nic da derbyn wyneb yr annuwiol: gan wneuthur cam ar cyfiawn mewn barn.

6 Gwefuſau y ffôl a ddechreûant gynnen: ai enau a eilw am ddyrnodiau.

7 Genau y ffôl ai diniſtr ei hun: ai wefuſau ef ynt fagl iw enaid.

8 Geiriau'r athrod-wr ydynt megis archollion: ac a ddeſcynnant i gilfachau y bol.

9 Y neb a fyddo diog yn ei waith ſydd wir frawd i'r llygrwr.

10 Tŵr cadarn yw enw 'r Arglwydd: atto y rhed y cyfiawn, ac efe a ddercheſir yn ddiogel.

11 *Cyfoeth y cyfoethog ſydd iddo yn ddi-

nas gadarn, ac yn fûr vchel yn ei dŷb ei hun. Pen.10.15.

12 * Cyn diniſtr y balchia calon gŵr: a

chyn anrhydedd yr aiff goſtyngeiddrwydd. Pen.16.18.

13 Y * neb a attebo beth cyn ei glywed, ffo-

lineb a chywilydd fydd iddo. Eccls.11.8.

14 Yſpryd gŵr a gynnal ei ddolur: ond yſpryd cyſtuddiedig pwy ai cyſſura?

15 Calon y pwyllog a berchennoga wybodaeth: a chlûſt y doethion a gais ddeall.

16 Rhodd dŷn a ehanga arno: ac ai dwg ef ger bron penaethiaid.

17 Y cyntaf yn ei hawl a dybbir ei fod yn gyfiawn: hyd pan ddelo ei gymmydog ai chwilio ef.

18 Y coel-bren a wna i gynhennau beidio, ac a athrywyn rhwng cedyrn.

19 Anhawſ yw ennill ewyllys da brawd pan ddigier, na dinas gadarn: ac ymryſon rhwng brodyr ſydd megis troſol caſtell.

20 A ffrwyth genau gŵr y diwellir ei fol: ac o ffrwyth y gwefuſau y digonir pob dŷn.

21 Angeu a bywyd ydynt ym meddiant y tafod: ac fel i bo hoff [ei arfer] ef y bwyteir ei ffrwyth ef.

22 Y neb ſydd yn cael gwraig [rinweddol] ſydd yn cael peth daionus: ac yn derbyn ewyllys da gan yr Arglwydd.

23 Y tlawd a ymbil: a'r cyfoethog â ettyb yn erwin.

24 Y neb y mae iddo gefeillion, cadwed gariad: canys nês yw gŵr caredig na brawd.

## PEN. XIX.

Pen.28.6. GWell *yw'r tlawd â rodio yn ddiragrith: na'r [cyfoethog] yr hwn ſydd drawſ ei wefuſau, ac yntef yn ffôl.

2 Yr enaid ni ŵyr ddrwg [dros dda] ar traed rhy gyflym a bechant yr un ffunyd.

3 Ffolineb dŷn ai trŷ oddiar y ffordd: ai galon a ddigia yn erbyn yr Arglwydd.

4 Cyfoeth a chwanega lawer o gefeillion: a'r tlawd a ddidolir oddi wrth ei gymmydog.

Dan.19.19. 5 *Tyſt celwyddog ni bydd dieuog: a lluniwr celwyddau ni ddiangc.

6 Llawer a ymbiliant o flaen pendefig: a phawb ſydd gefaill i'r hael.

7 Holl frodyr y tlawd ai caſânt ef: îe ei gyfeillion ai gadawant: er maint a ymnheddo, ni throant atto.

8 Y neb ſydd gall a gâr ei enaid: ac a geidw ddeall er mwyn ennill daioni.

9 Tyſt celwyddog ni bydd dieuog: a thraethwr celwyddau a ddifethir.

10 Nid gweddaidd i ffol lawenfyd: anweddeiddiach o lawer i wâs arglwyddiaethu ar bennaethiaid.

11 Synnwyr dŷn a oeda ei ddigofaint: a harddwch yw iddo fyned tros fai.

12 Llid y brenin ſydd megis rhuad llew ieuangc: ond ei ewyllys da ſydd megis gwlith ar laſ-wellt.

Pen.20.1. Pen.17.21. Pen.21.9. 13 *Mab ffôl ſydd orthrymder iw dad: ac ymſerth gwraig ſydd megis defni parhaus.

Pen.18.22. 14 Tŷ, a chyfoeth ynt etifeddiaeth y tadau: ond* rhodd yr Arglwydd yw gwraig bwyllog.

15 Syrthni a bar drym-gwſc: ac enaid twyllodrus a newyna.

16 Y neb a gadwo'r gorchymyn a geidw ei enaid: a'r neb a yſceuluſa ei ffyrdd ſydd marw.

17 Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, ſydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd: ai rodd a delir iddo drachefn.

18 Cerydda dy fab tra fyddo gobaith: ac nac arbeded dy enaid ef iw ddifetha.

19 Bydd dra digofus wrth fadden bai: [gan ddywedyd,] os ti ai gwaredi y waith honno, y coſpi [ef] amſer arall yn fwy o lawer.

20 Gwrando gyngor a chymmer addyſc, fel y byddech ddoeth yn dy ddiwedd.

21 Bwriadau lawer ſydd yng-halon dŷn: ond cyngor yr Arglwydd a ſaif.

22 Trugaredd yw'r peth a ddyle ddŷn fwyaf ei ddeiſyfu: ond gwell yw'r tlawd na'r gwr celwyddog.

23 Ofn yr Arglwydd a dywys i fywyd: a'r neb fyddo llawn o honaw a erys heb i ddrwg ymweled ag ef.

24 Y dŷn ſwrth a gudd ei law yn ei fynwes: ac ni eſcyn hi at ei enau.

Pen.26.15. Pen.21.11. 25 *[Os] tarewi di watwarwr yna'r ehud fydd cyfrwyſach, a phan geryddech y deallus efe a ddeall wybodaeth.

26 Mab gwradwyddus gwarthus a anrheithia ei dad: ac a yrr ei fam ar grwydr.

27 Fy mab paid a gwrando yr addyſc a bar i ti gyfeiliorni oddi wrth eiriau gwybodaeth.

28 Tyſt y fall a watwar farn: a genau'r drygionus a lwngc anwiredd.

29 Barn ſydd barod i'r gwatwar-wŷr: a chleiſiau i gefn y ffyliaid.

## PEN. XX.

GWatwarus yw gwin, a therfyſcaidd yw diod gadarn: pwy bynnac a ſommer ynddi nid yw ddoeth.

Pen.19.12. 2 *Megis rhuad llew ieuangc yw ofn y brenin: y mae pwy bynnag ai cyffrô ef i ddigofaint yn pechu yn erbyn ei enaid ei hun.

3 Anrhydeddus yw i ŵr beidio ag ymryſon: ond pob ffôl a fynn ymmyrreth.

4 Y diog'r hwn nid ardd o herwydd [oerder] y gaiaf, a aiff i gardotta yr haf, pryd na byddo dim ganddo ef.

5 Megis dyfroedd dyfnion yw pwyll yng-halon gŵr: etto'r gŵr call ai tynn allan.

6 Llawer dŷn a gyhoedda ei drugaredd, ond pwy a gaiff ŵr ffyddlon?

7 Plant y cyfiawn a rodio yn iniawn, gwyn eu bŷd ei blant ar ei ôl.

8 Brenin yn eiſtedd ar orſedd barn a waſcar ai lygaid bob drwg.

1.Bren.8.46. 2.Cron.6 46. Ecclus.7.21. 1.Ioan.1.8. 9 *Pwy a ddichon ddywedyd: mi a garthais fyng-halon: glân wyf oddi wrth fy mhechod.

10 Amryw bwyſau ac amryw feſurau: ffiaidd gan yr Arglwydd bob un o'r ddau.

11 Bachgen a adweinir wrth ei ymddygiad: ai pûr ai iniawn yw ei waith.

12 Yr Arglwydd a wnaeth bob un o'r ddau, y glust i glywed, ar llygad i weled.

13 Na char gyſcu rhag dy fyned yn dlawd: agor dy lygaid, fel i'th ddigonir a bara.

14 Drwg, drwg, medd y prynwr: ond pan el o'r naill du efe a ganmola ei hun.

15 [Gwerth-fawr] yw aur a gemmau lawer: ond gwefuſau gwybodaeth ydynt ddodrefn gwerthfawroccach.

Pen.27.13. 16 *Cymmer wiſc y gwr a fachnio dros eſtron: a chymmer wyſtl gan y neb a fachnio dros eſtrones.

17 Melus gan ŵr fara [trwy] ffalſedd: ond o'r diwedd ei enau a lenwir a gro.

18 Siccrhâ dy fwriadau drwy gyngor: a thrwy gyngor diyſceulus dos i ryfela.

Pen.11.13. 19 Y neb a ddadcuddia *gyfrinach, y neb a fyddo yn athrodwr, a'r ehud ei wefuſau na ymmyr â hwynt.

Exod.21.17. Lefit.20.9. Matth.15.4. 20 *Y neb a felldithio ei dad ai fam, ei gannwyll a ddiffodir yn y tywyllwch dû.

21 Yr etifeddiaeth a geir ar frys yn y dechreuad, ni ffynna yn y diwedd.

Deut.32.35. Pen.17.13. 22 Na ddywet, * mi a dala ddrwg: diſgwil wrth yr Arglwydd ac efe a'th achub.

Pen.11.1.10. 23 *Ffiaidd gan yr Arglwydd amryw bwyſau: a chlorian twyllodrus nid yw dda.

Iere.10.23. 24 Gan yr Arglwydd [y fforddir] llwybrau gŵr: ond beth a ddeall dŷn oi ffordd.

25 Magl yw i ŵr lyngcu peth cyſſegredig: ac wedi ei addunedau ymofyn.

26 Brenin doeth a waſcar yr annûwiol: ac a drŷ 'r olwyn arnynt.

27 Megis cannwyll yr Arglwydd yw enaid dŷn yr hon ſydd yn chwilio holl gelloedd y bol.

Pen.29.14. 28 * Trûgaredd a ffyddlondeb a gadwant y brenin, ai orſeddfa a gadarnheir drwy drugaredd.

29 Harddwch gwŷr ieuaingc [yw] eu nerth: ac anrhydedd henafgwŷr yw gwallt gwyn.

30 Cleiſiau, briwiau, a dyrnodiau yn curo celloedd y bol, ydynt ſcrafellau [i goſi]'r annuwiol.

## PEN. XXI.

Fel afonydd o ddwfr y mae calon y brenin yn llaw'r Arglwydd: efe ai trŷ hi lle y mynno ei hun.

2 Gŵr ſydd yn tybied yn ei olwg ei hun ei fod yn iniawn ym mhob ffordd: ond yr Arglwydd a bwyſa y calonnau.

Pen.16.2. 3 * Gwneuthur cyfiawnder a barn ſydd well gan yr Arglwydd nag aberth.

4 Uchelder golwg, balchder calon [a] brynar annuwiol ſydd bechod.

5 Bwriadau y diyſceulus ydynt êlw yn vnic: ond [bwriadau] pob yſceulus [ai dygant mewn] eiſieu.

Mich.6.8. 6 * Tryſſorau a gaſcler â thafod celwyddog, a chwelir megis gwagedd: y neb [ai ceiſiant] ſydd yn ceiſio angeu.

7 Anrhaith yr annuwiol a erys gyd â hwynt: canys gwrthodant wneuthur cyfiawnder.

8 Y dyn dauddyblig yn ei ffyrdd ſydd eſtronaidd: ond y pur ſydd iniawn ei waith.

Pen.13.11. 9 * Gwell yw bod mewn congl yn nenn tŷ: na bod gyd â gwraig anynad mewn tŷ ehang.

10 Enaid yr annuwiol a ddeiſyfia ddrwg: nid graſuſol yw ei gymmydog yn ei olwg ef.

11 Pan goſper gwatwar-wr y bydd yr ehud callach: a phan ddyſcer y doeth, efe a dderbyn ŵybodaeth:

12 Call y mae y cyfiawn yn yſtyried am dŷ yr annuwiol [fod Duw] yn defetha y rhai annuwiol am [eu] drygioni.

13 Y neb a gaeo ei gluſt rhag llef y tlawd: a lefain ei hunan, ac ni's gwrandewir ef.

14 Rhodd yn y dirgel a dyrr ddigofaint: a rhoddiad yn y fynwes [a dyrr ymmaith] lîd cryf.

15 Llawen gan y cyfiawn wneuthur cyfiawnder: ond diniſtr [fydd] hynny i weithwyr anwiredd.

16 Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddi ar ffordd callineb a orphywys yng-hynnulleidfa y meirw.

17 Y neb a garo wledda a ddaw i dlodi: a'r neb a garo wîn, ac olew ni bydd cyfoethog.

18 Yr annuwiol [a roddir] yn iawn dros y cyfiawn, a'r anffyddlon dros yr iniawn.

19 Gwell yw aros yn yr anialwch, na chyd â gwraig anynad ddigllon.

20 Tryſſor deiſyfiadwy, ac olew ſydd ym mhebyll y doeth: ond dŷn ffôl ai llyngc hwynt.

21 Y neb a ddilyno gyfiawnder, a thrugaredd a gaiff fywyd, cyfiawnder, ac anrhydedd.

22 Y doeth a ddringa [i ben] dinas y cedyrn, ac a fwrw i lawr y cadernid y mae hi yn hydêru arno.

23 Y neb a gadwo ei enau ai dafod, a geidw ei enaid rhag cyfyngder.

24 Y balch, y gwar-galed, [a'r] gwatwarus, yw henw y gŵr a wnelo yn falch yn ei ddigllondeb.

25 Deiſyfiad y diog ai lladd ef: canys ei ddwylo a wrthodant weithio.

26 Yn hêb y dydd y deiſyf efe ryw beth: ond y cyfiawn a rydd, ac ni attal efe [ei law.]

27 *Aberth y rhai annuwiol ſydd ffiaidd: pa faint mwy, pan offrymmant yn ſceler: Pen.15.8. Eſay.1.13.

28 * Tyſt celwyddog a ddifethir: ond y gŵr a wrandawo a lefara bob amſer. Ecclus.34.21. Pen.19.5.

29 Gŵr annuwiol a galêda ei wyneb: ond yr iniawn a drefna ei ffordd.

30 Nid oes ddoethineb, na deall, na chyngor yn erbyn yr Arglwydd.

31 Y march a ddarperir erbyn dydd rhyfel: ond iechydwriaeth ſydd eiddo yr Arglwydd.

## PEN. XXII.

Mwy dymunol * yw enw da, na chyfoeth llawer: a gwell yw grâs nag arian ac nag aur. Ecclus.7.3.

2 *Y tlawd a'r cyfoethog a gyd cyfarfuant: ond yr Arglwydd yw gwneuthydd y rhai hyn oll. Pen.29.13.

3 Y call a genfydd ddrwg, ac a ymgudd: ond y ffyliaid a ânt rhagddynt, a hwy a goſpir. Pen.27.12.

4 Gobr goſtyngeiddrwydd, ac ofn yr Arglwydd yw cyfoeth, anrhydedd, a bywyd.

5 Drain a maglau ŷnt yn ffordd y cyndyn: y neb a gadwo ei enaid a ffŷ ym mhell oddi wrthynt hwy.

6 Hyfforddia fâb ym mhen ei ffordd: a phan heneiddio nid ymedu â hi.

7 Y cyfoethog a arglwyddiaetha ar y tlawd: a gwâs fydd yr hwn a gaffo fenthyg i'r gŵr a roddo fenthyg.

8 Y neb a hauo anwiredd a feda flinder: ac a balla trwy wialen ei ddigofaint ef.

9 *Yr hael ei lygad a fendithir: canys efe a rydd oi fara i'r tlawd. Ecclus.31.23.

10 Bwrw

10 Bwꝛw allan y gwatwar-wꝛ, a'r gynnen a aiff allan[gyd ag ef]ie 'r ymryſon,a'r gwarth a dderfydd.

11 Y neb a garo lendid calon [trwy] rás ei wefuſau a[gaiff] y bꝛenin yn gydymmaith.

12 Llygaid yꝛ Arglwydd a gadwant ŵybodaeth,ac efe a ddiniſtria eiriau yꝛ anwir.

13 Medd y diog,y mae llew oddi allan:fo'm lleddir yng-hanol yꝛ heolydd.

14 Ffôs ddyfn yw genau gwꝛagedd dieithꝛ: y neb y byddo 'r Arglwydd yn ddig wꝛtho a ſyꝛth iddi.

15 Ffolineb ſydd yn rhwym yng-halō bachgen : ond gwialen cerydd ai gyꝛr ymmaith.

16 Y neb a waſco ar y tlawd er chwanegu [ei gyfoeth,] a'r neb a roddo i'r cyfoethog a ddaw i dlodi.

17 Gŵyꝛa dy gluſt, a gwꝛando eiriau y doethion, a goſot dy galon ar fyng-wybodaeth mau fi.

18 Canys peth pêraidd yw,os cedwi hwynt yn dy galon : ac os cymhwyſir hwynt yn dy wefuſau:

19 Fel y byddo dy obaith yn yꝛ Arglwydd y dangoſais i ti [hyn] heddyw [yſtyꝛia] dithe.

20 Oni ſcrifennais i ti[eiriau] ardderchog o gyngoꝛ,a gwybodaeth?

21 I beri i ti adnabod ſiccrwydd gwir eiriau,fel y gallit atteb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonent attat.

22 Nac yſpeilia mo'ꝛ tlawd o herwydd ei fod yn dlawd ; ac na ſathꝛ yꝛ anghenus mewn barn.

23 Canys * yꝛ Arglwydd a ddadle dꝛoſtynt, ac a oꝛthꝛymma enaid y neb ai goꝛthꝛymmo hwynt. Pen.23.11.

24 Na fydd gydymmaith i'r digllon : ac na chyd-gerdda â gŵꝛ llidiog?

25 Rhag i ti ddyſcu ei lwybꝛau ef, a chael niwed i'th enaid.

26 Na fydd vn o'ꝛ rhai a roddant eu dwylo, [ſef] o'ꝛ rhai a fachniant am ddylêd.

27 Oni bydd gennit i dalu, pa ham y cymmer efe dy welŷ di oddi tanat?

28 * Na ſymmut mo'ꝛ hên derfyn yꝛ hwn a oſododd dy dadau. Deut.27.17. Pen.23.10.

29 A welaiſt ti ŵꝛ diyſceulus yn ei oꝛchwyl? efe a ſaif ger bꝛon bꝛenhinoedd, ac ni ſaif ger bꝛon yꝛ iſſel-radd.

## PEN. XXIII.

Pan eiſteddech i fwyta gyd â thywyſog, yſtyria yn ddyfal beth ſydd ger dy fron.

2 Ac os amgen ti a oſodi gyllell ar dy wddf os byddi ddŷn blyſig.

3 Na ddeiſyf ei ddanteithion ef : canys twyllodꝛus yw bwyd.

4 Na ddeffygia mo honot dy hun,yn ymgyfoethogi: dod ti heibio dy gyfryw fwꝛiad.

5 A beri di i'th lygaid ehedeg arnynt? yn y man y darfyddant, ac y cymmerant adenydd, ac megis eryꝛ yꝛ ehedant ymmaith tu a'r wybꝛ.

6 Na fwyta fwyd y cenfigennus dꝛwg ei lygad : ac na chwennych moi ddanteithion ef.

7 Canys fel ye meddylie efe felly yn ei galon, y dyweid efe wꝛthit, bwyta, ac ŷf, ai galon heb fod gyd â thi.

8 Y tammaid a fwyteiſt a fwꝛi di i fynu:a'th eiriau melus a golli di.

9 Na lefara lle y clywo y ffôl : canys efe a'th ddiyſtyꝛa di, a hôll ddoethineb dy eiriau.

10 Na * ſymmut mo'ꝛ hên derfyn,ac na thyret i feuſydd yꝛ ymddifaid. Deut.27.17. Pen.22.28.

11 Canys eu dial-wꝛ hwynt ſydd nerthol:ac a * amddeffyn eu cweryl hwynt yn dy erbyn di. Pen.22.23.

12 Goſot dy galon ar addyſc, a'th gluſtiau ar eiriau ſynhwyꝛol.

13 * Na thyn gerydd oddi wꝛth dy blentyn: er ei guro â gwialen ni bydd efe farw. Pen.13.24. & 19.18. Ecclus.30.1.

14 Cur ef â gwialen, a thi a achubi ei enaid rhag vffern.

15 Fy mab os dy galon di fydd doeth, fyng-halon inne a lawenycha,

16 Ie fy arennau a grych-neidiant,pan dꝛaetho dy wefuſau di gyfiawnder.

17 Na wynfyded dy galon wꝛth bechaduriaid : ond [aros] yn ofn yꝛ Arglwydd yn hŷd y dydd. Pſal.37.1. Pen.24.1.

18 Canys yn ddiau y mae gobꝛ, ac ni phalla dy obaith.

19 Erglyw fy mab, a bydd ddoeth : a chyfarwŷdda dy galon yn y ffoꝛdd.

20 Na fydd vn o'ꝛ rhai ydynt yn meddwi ar wîn : nac vn o'ꝛ rhai glythion ar gig.

21 Canys y meddw, a'r glwth a ddeuant i dlodi : a goꝛmod cyſcu a bar fyned mewn gwiſc ddꝛylliog.

22 Gwꝛando ar dy dad a'th genhedlodd : ac na ddiyſtyꝛa dy fam pan heneiddio.

23 Pꝛyn y gwir, ac na werth, felly doethineb, addyſc a deall.

24 Tâd y cyfiawn a oꝛfoledda yn fawꝛ : a'r neb a genhedlo fab doeth a lawenhâ ynddo ef.

25 Par i'th dâd ac i'th fam lawenychu : ac i'r hon a'th ymddug oꝛfoleddu.

26 Fy mab moes i mi dy galon : ac ymfodloned dy lygaid yn fy ffyꝛdd i.

27 Canys * ffos ddyfn yw puttain : a phydew cyfyng yw'r ddieithꝛ. Pen.22.14.

28 Ie hi * a ddiſgwil fel gwilliaid : ac a chwanega bechaduriaid ym myſc dynnion. Pen.7.12.

29 I bwy y mae gwae? i bwy [y mae] ochain? i bwy y mae cynnen? i bwy y mae dadwꝛdd? ac i bwy y mae gweliau heb achos? i bwy y mae llygaid cochion?

30 I'r neb ſydd yn aros wꝛth y gwin : ac i'r neb ſydd yn chwilio am win cymmyſcedig.

31 Nac edꝛych ar y gwîn moꝛ gôch fydd pan ddangoſo ei liw yn y cwpan : yn ddiſymmwth efe a aiff[i wared] yn iniawn.

32 Yn y diwedd efe a frath fel ſarph : ac a biga fel gwiber.

33 Dy lygaid a edrychant ar wragedd dieithr: a'th galon a draetha drawſedd.

34 Ti fyddi megis vn yn cyſcu yng-hanol y môr: ac fel vn yn cyſcu ym mhen yr hwylbren.

35 Pan i'm curent [meddi] ni chlafychais: pan i'm dulient nis gwybum: pan ddeffroaf mi a af rhagof, mi ai ceiſiaf drachefn.

## PEN. XXIIII.

Pſal.37.1. Pen.23.17. *NA chenfigenna wrth wŷr annuwiol: ac na ddeiſyf fod gyd â hwynt.

2 Canys eu calon a fefyrria anrhaith: ai gwefuſau a draethant flinder.

3 Adailadir y tŷ drwy ddoethineb, a thrwy ddeall y ſiccrheuir ef.

4 Trwy ddeall y llenwir y celloedd o bob peth gwerth-fawr a hyfryd.

5 Gŵr doeth ſydd nerthol: a gŵr pwyllog a chwanega ei nerth.

6 Canys * trwy gallineb y gwnei dy ryfel: ac iechydwriaeth [a gei] drwy laweroedd o gynghorion. Pen.20.18.

7 Rhy vchel yw doethineb i ffôl: canys ni egyr ei enau yn y porth.

8 Y neb a ddychymmygo ddrwg a elwir yn ſceler.

9 Scelerder y ffôl ſydd bechod: a ffiaidd [yw ſcelerder] y dŷn gwatwarus.

10 Os llwfrhêi mewn amſer cyfyngder, bychan fydd dy nerth.

11 Gwaret y rhai a luſcir i angeu: canys pa ham yr ymmadewit a'r neb a dywyſir iw lladd?

12 Os dywedi, wele, ni wyddom ni hyn: onid yw meſurwr y calonnau yn dêall? a'r neb ſydd yn cadw dy enaid, oni ŵyr efe? ac oni thâl efe i bawb yn ôl ei weithred?

13 Fy mab bwyta fêl, canys da yw: a'r dil mêl canys blaſus yw i'th enau.

14 Felly gwybydd [y bydd] doethineb [yn felus] i'th enaid, os cei di hi, yn ddiau ti a gei obr, a'th obaith ni phalla.

15 Na chynllwyn di yr annuwiol wrth drigfa'r cyfiawn, ac na anrheithia ei orphywyſfa.

16 Canys ſeith-waith y ſyrth y cyfiawn, ac efe a gyfyd drachefn: ond yr annuwolion a dramgwyddant mewn drygioni.

17 Pan ſyrthio dy elyn na lawenycha: a phan dramgwyddo, na orfoledded dy galon:

18 Rhag i'r Arglwydd weled, a bod hynny yn ddrwg yn ei olwg ef, ac iddo droi ei ddig oddi wrtho ef [attat ti.]

Pſal.37.1. Pen.23.17. 19 * Nac ymddigia o herwydd y drwg weithredwŷr, na chynfigenna wrth yr annuwolion.

Pen.13.9. 20 Canys ni bydd diben ar [eu] drygfyd * a channwyll yr annuwolion a ddiffodir.

21 Fy mab ofna'r Arglwydd a'r brenin: ac nac ymmyr a'r annwadal.

22 Canys yn ddiſymmwth y cyfyd eu deſtruw hwy: a phwy a ŵyr eu dinistr hwynt ill dau?

23 Dymma hefyd [eiriau] y doethion: nit da cydnabod braint mewn barn.

24 Y neb a ddywedo wrth yr annuwiol, *cyfiawn wyt, y bobl ai melldithiant ef: y cenhedloedd fydd ffiaidd ganddynt ef. Pen.17.15. Eſay 5.23.

25 Ond i'r neb ai ceryddo y bydd hyfrydwch: a bendith dda a ddigwydd iddynt.

26 Pawb a guſâna wefuſau 'r neb a attebo eiriau iniawn.

27 Trîn dy orchwyl oddi allan, a doſpartha yr hyn ſydd i ti yn y maes: ac wedi hynny adailada dy dŷ.

28 Na fydd dyſt heb achos yn erbyn dy gymmydog, ac na fydd ehud a'th wefuſau.

29 * Na ddywet ti, mi a wnaf iddo ef fel y gwnaeth yntef i minne, mi a dalaf i bawb yn ôl ei weithred. Pen.20.22.

30 Mi a euthym heibio heb dyddyn y dyn diog, ac heb win-llan yr angall.

31 Ac wele codaſe yſcall ar hyd-ddo oll: danadl poethion a guddiaſent ei wyneb: a'r fagwyr gerrig a ſyrthiaſe i lawr.

32 Pan welais i hyn, mi a yſtyriais, mi a edrychais, ac a gymmerais addyſc.

33 Ychydig gyſcu, ychydig heppian, ychydig waſcu 'r dwylo i orwedd:

34 Yng-hyfwng hyn y daw tlodi arnat, megis ymdeithudd, a'th angen fel gŵr arfog.

## PEN. XXV.

### DYMMA HEFYD DDIHAREBION Salomon y rhai a gaſclodd gwŷr Ezecia brenin Juda.

2 ANrhydedd Duw yw celu cyfrinach: ond anrhydedd brenin yw chwilio am beth.

3 Uchder y nefoedd, dyfnder y ddaiar: a chalon brenin ni ellir eu chwilio.

4 Wrth dynnu 'r amhuredd oddi wrth yr arian y daw i'r gof arian-leſtr.

5 Felly wrth dynnu 'r annuwiol ô olwg y brenin: y cadarnhêir drwy gyfiawnder ei orſeddfa ef.

6 Na ogonedda di dy hun ger bron y brenin: ac na ſaf yn lle gwŷr mawr.

7 Canys gwell it ddywedyd wrthit, tyret i fynu: na'th fwrw yn îs ger bron pendefig yr hwn beth a wel dy lygaid.

8 Na ddechreu di gynnen yn rhy ebrwydd: rhag ofn or diwedd i'r peth oedd yn dy fryd ti ei wneuthur ſyrthio i ti dy hun, ac yna dy gywilyddio gan dy gymmydog.

9 Dadle a'th gymmydog: ond na ddatcuddia gyfrinach gŵr arall:

10 Rhag i'r neb a fyddo yn gwrando ddwyn gwarth arnat ti: ac i'th gywilydd na [illegible] oddi wrthit.

11 Gair a ddyweder mewn amſer ſydd megis afalau aur mewn gwaith o arian cerfiedig.

12 Cerydd-wr doeth i'r glûſt a wrandawo ſydd fel annwyl-dlws euraid, a gwiſc o aur rhagorol.

13 Megis oerder eira yn amſer cynhaiaf yw cennad ffyddlon i'r rhai ai gyrrant ef: canys efe a lawenycha enaid ei feiſtred.

14 Y neb a ymffroſtio yn fawr heb roddi dim ſydd gyffelyb i gwmylau a gwynt heb law.

15 Drwy hir-ymaros y bodlonir pendefig: a thafod teg a dyrr greulondeb.

16 Pan gaffech fêl, bwyta a'th waſanaetho: rhag wedi dy lenwi ô honaw, i ti ei chwdu ef.

17 Cadw dy droed allan o dŷ dy gymmydog rhag iddo flino arnat, a'th gaſau.

18 Y neb a ddygo gam deſtiolaeth yn erbyn ei gymmydog, ſydd megis gordd, a chleddyf, a ſaeth flaen-llem.

19 Coel ar ffalſwr yn nŷdd cyfyngder, ſydd megis dant wedi ei dorri, a throed wedi tyrfu.

20 Yr hwn a dynno ymmaith wiſc [oddi am ddŷn] ar amſer oerfeloc, [ſydd fel] finegr ar neitr, neu [vn] yn cânu caniadau i galon driſt.

Rhuf.12.20.
21 * Os dy elyn a newyna portha ef â bara, ac os ſychêda, dod ti iddo ddiod iw yfed.

22 Canys marwor a bentyrri ar ei ben ef: a'r Arglwydd a dâl i ti.

23 Megis y par gwynt y gogledd law: felly y par tafod athrodgar wyneb-pryd digllon.

Pen.21.9.
24 * Gwell yw aros mewn congl yn nenn tŷ, na chyd â gwraig anynad mewn tŷ ehang.

25 Fel dyfroedd oerion i enaid ſychedig yw newyddion da ô wlâd bell.

26 Gŵr cyfiawn wedi ſyrthio i lawr ger bron y drygionus, ſydd megis ffynnon wedi ei chymmyſcu â gofer rhydlyd.

Ecclus.3.22.
27 Nit da bwyta llawer o fêl, ac felly * chwilio eu hanrhydedd nid anrhydeddus yw.

28 Y neb ni byddo ganddo attaliaeth ar ei chwant, ſydd megis dinas ddrylliog heb gaer.

### PEN. XXVI.

Nid gweddus i'r ffôl anrhydedd, mwy nac i'r haf eira neu i'r cynhaiaf law.

2 Fel yr aderyn a gyrwydra, a'r wennol a chêda: felly y felldith yr hon ni haedder ni ddeſcyn.

3 Ffrewyll i farch, ffrwyn i aſſyn: a gwialen a [berthyn] i gefn yr ynfyd.

4 Na atteb ynfyd fel [y mynne] ei ynfydrwydd, rhag dy gyffelybu iddo.

5 Atteb yr ynfŷd fel [yr haedde] ei ynfydrwydd: rhag iddo fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun.

6 Y neb a yrro negeſau gyd ag vn angall a gaiff gam megis pe torre draed [ei] gennad.

7 Nid gogyhyd yſceiriau y clôff: felly dammeg o enau ffyliaid.

8 Fel vn yn rhwymo carreg mewn tafl: felly y gwna'r neb a anrhydeddo ffôl.

9 Fel draen yn myned i law dŷn meddw: felly y mae dihareb yng-enau yr angall.

10 Y cadarn yr hwn a lunniodd bob peth ſydd yn gobrwyo y ffôl, ac yn talu i'r troſeddwŷr.

2.Pet.2.22.
11 * Megis ci yn dychwelyd iw chwdfa: felly y mae y ffôl yr hwn a ddechreu ei ffolineb drachefn o newydd.

12 A welaiſt di ŵr doeth yn ei olwg ei hun? gwell yw'r gobaith am ffôl nag am hwnnw.

13 Y mae llew mawr ar y ffordd [medd y diog,] y mae llew yn yr heôlydd.

14 Fel y drws yn troi ar ei golyn, felly [y trŷ] 'r diog yn ei welŷ.

Pen.19.24.
15 Y * diog a guddia ei law yn ei fynwes, a blin ganddo ei heſtyn at ei enau trachefn.

16 Doethach yw 'r diog yn ei olwg ei hun, na ſeith-wŷr yn adrodd rheſwm.

17 Y neb wrth fyned heibio a ymmyrro mewn cweryl ni pherthyn iddo ei hun, ſydd megis vn yn cymmeryd cî erbyn ei gluſtiau.

18 Fel dŷn gwall-gofus yr hwn a daflo bētewynion tân, ſaethau, ac arfau marwolaeth:

19 Felly y gwna gŵr twyllodrus ai gymmydog gan ddywedyd, ond cellwair yr oeddwn i?

20 Megis pan ddarfyddo 'r coed y diffodda 'r tân: felly pryd na byddo athrodwr y derfydd y gynnen.

Ecclus.28.10.
21 Gŵr cynhennus * a ennynna gynnen, fel glô y marwor, a'r coed y tân.

Pen.18.8.
22 * Geiriau 'r athrodwr ydynt megis rhai yn ymguro, a hwy a ddeſcynnant i gelloedd y bol.

23 Fel ſorod arian wedi eu bwrw dros ddryll lleſtr pridd: felly y mae gwefuſau poeth a chalon ddrwg.

24 Y digaſog a ragrithia ai wefuſau: ac yn ei galon yn dychymmyg twyll.

25 Pan ddywedo efe yn dêg nac ymddiried iddo: canys y mae ſaith ffieidd-dra yn ei galon ef

26 Drwy gyfrwyſder y cuddir digaſedd: ond ei ddrygioni a ddatguddir yn y gynnulleidfa

Ecclus.10.8. & 27.26.
27 * Y neb a gloddio bydew a ſyrth ynddo, a'r neb a dreiglo garreg, atto y dychwel trachefn.

28 Y tafod celwyddog a gaſâ 'r neb a gyſtuddio efe, a'r genau gweniaithus a wna ddiniſtr.

### PEN. XXVII.

Nac ymffroſtia o'r dydd y foru: canys ni ŵyddoſt beth a ddigwydda [mewn] diwrnod.

2 Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun: eſtron, ac nid dy wefuſau dy hunan.

Ecclus.
3 * Trom yw'r garreg a phwyſ-fawr yw'r tywod, ond digofaint y ffôl ſydd drymmach na hwynt ill-dau.

4 Creûlon yw llid, fel llif-ddwfr yw cynddaredd, a phwy a ddichon ſefyll o flaen cenfigen?

5 Gwell yw cerydd cyhoeddus, na chuddiedig gariad.

6 Ffyddlon yw archollion y caredig: ond cuſſanau y digaſog ydynt greulon.

7 Y dŷn llawn a ſathra 'r dil mêl: ond i'r newynog pop peth chwerw ſydd fêlus.

8 Gŵr yn ymdaith oi lê ei hun ſydd debyg i aderyn yn cilio oi nŷth.

9 Olew ac arogl-darth a lawenychant y galon, felly [y gwna] mwynder cyfaill yn-fwy nai gyngor ei hun.

10 Nac ymâdo a'th gydymaith dy hun a chydymaith dy dad: ac na ddôs i dŷ dy frawd yn amſer dy orthrymder: canys gwell yw cymmydog yn agos, na brawd ym mhell.

11 Bydd ddoeth fy mab a llawenycha fyng-halon, fel y gallwyf atteb i'r neb a'm gwradwyddo.

12 Y call a wêl y drwg [yn dyfod] ac a ymgudd: ond ffyliaid a ânt rhagddynt, a hwy a goſpir.

13 * Cymmer wiſc yr hwn a fachnio dros y dieithr: a'r neb a fachnio dros y ddieithr, cymmer wyſtl ganddo. Pen.20.16.

14 Y neb a ganmolo ei gydymmaith â llef vchel y boreu pan gyfodo y cyfrifir [hyn] yn wradwydd iddo.

15 * Defni parhaus ar ddiwrnod glawog, a gwraig anynad cyffelyb ydynt. Pen 19.13.

16 Y mae yr hwn ai gorchguddio hi [megis] yn gorchguddio y gwynt: canys hi a ymddengys megis olew yn ei ddeheu-law ef.

17 Un arf a hoga 'r llall: ac vn gŵr a fywhâ'r llall.

18 Y neb a gadwo ei ffigusbren, a fwyty oi ffrwyth ef, a'r neb a waſanaetho ei feiſtr a ddaw i anrhydedd.

19 Megis [mewn] dwfr [y mae] amryw wynebau: felly y mae calonnau amryw ddynnion.

20 Ni lenwir vffern na deſtruw, felly ni lenwir llygaid dŷn.

21 Fel y tawddleſtr i'r arian, ar ffwrnes i'r aur: felly y mae genau'r neb ai can-molo i'r neb a gan-moler.

22 Er i ti bwnnio ffôl mewn morter â phestl ym mhlith grawn: etto ni ymêdu ei ffolineb ag ef.

23 Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid, gofala am dy braidd.

24 Canys cyfoeth ni pheru byth: a choron ni pheru o genhedlaeth i genedlaeth.

25 Pan flaendarddo 'r gwair, pan ymddangoſo 'r glaſ-wellt: yna y caſclir llyſieu y mynyddoedd.

26 Yr ŵyn a'th ddillâdant, ac o'r geifr y [cei] werth tîr.

27 Hefyd ti a gei ddigon o laeth geifr yn fwyd i ti, yn fwyd i'th dŷlwyth ac yn ymborth i'th lanceſau.

## PEN. XXVIII.

YR annuwiol a ffŷ heb neb yn ei erlid: ond y rhai cyfiawn ydynt gyffelyb i lew ieuangc hyf.

2 O herwydd camwedd gwlâd, aml fydd ei phennaethiaid: ond lle y byddo gŵr pwyllog ſynhwyrol y peru [teyrnas] yn hir.

3 Gŵr tlawd yn gorthrymmu rhai tlodion ſydd debyg i lif-ddwfr yn difetha llynniaeth.

4 Y neb a dorrant gyfraith a ganmolant yr annuwiol: ond y neb a gadwant y gyfraith a ymladdant â hwynt.

5 Dynnion annuwiol ni ddehallant farn: ond y neb a geiſiant yr Arglwydd a ddeallant bob peth.

6 * Gwell yw yr tlawd a rodio yn iniawn, na'r traws ei ffyrdd, ac yntef yn gyfoethog. Pen.19.1.

7 Y neb a gadwo 'r gyfraith ſydd fab dehallus: ond y neb a fyddo cydymmaith i loddeſt-wŷr a gywilyddia ei dâd.

8 Y neb a chwanego ei gyfoeth drwy vſuriaeth ac occreth ſydd yn tyrru i'r neb a fydd trugarog wrth y tlawd.

9 Y neb a drŷ ei glust [ymmaith] rhag gwrando 'r gyfraith, fydd ffiaidd ei weddi hefyd.

10 Y neb a ddêno 'r cyfiawn i ffordd ddrwg, a ſyrth yn ei bydew ei hun: ond y cyfiawn a feddianna ddaioni.

11 Gŵr cyfoethog ſydd ddoeth yn ei olwg ei hun: ond y tlawd dehallus ai chwilia ef.

12 * Pan fyddo llawen y cyfiawn, mawr yw yr anrhydedd: ond pan dderchafer yr annuwolion y chwilir dŷn. Pen.29.2.

13 Y neb a guddio ei bechodau ni lwydda: ond y neb ai haddefo ac ai gedŷ, efe a gaiff drugaredd.

14 Gwyn ei fyd y dŷn a ofno yn oeſtadol: ond y neb a galedo ei galon a ddigwydda i ddrwg.

15 Fel y llew ruadus, ac arth newynog yw llywydd annuwiol i bobl dlodion.

16 Pennadur heb ddeall fydd yn fawr ei drawſedd: ond y neb a gaſâo gybydd-dra a eſtyn ei ddyddiau.

17 Dŷn a erlidier o herwydd gwaed dŷn a ffŷ i'r pwll, ac nac amddeffynned neb ef.

18 Y neb a rodio yn iniawn a waredir: ond y neb a fyddo traws ei ffyrdd a ſyrth am hynny.

19 Y neb a wrteithio ei dîr a ddigonir o fara: Pen.12.11.
ond y neb a ganlyno ofer-wŷr a lenwir o dlodi. Eccl.20.21.

20 Gŵr ffyddlon a fydd aml ei fendithion: ond y neb a bryſuro i fod yn gyfoethog ni bydd dieuog.

21 Nid da derbyn wyneb, canys y cyfryw ŵr am dammaid o fara a wna gam.

22 Gŵr drwg ei lygaid a bryſura i chwanegu ei gyfoeth: ond bychan y gŵyr efe y daw tlodi arno ef.

23 Y neb a geryddo ddyn a gaiff yn y diwedd fwy o ffafr, na'r neb a draetho weniaith ai dafod.

24 Y neb a yſpeilio ei dâd ai fam, ac a ddywed, nid yw hyn bechod, ſydd gymmar i ddiniſtriwr.

25 Gŵr vchel ei feddwl a enynna gynnen: ond y neb a ymddyriedo yn yr Arglwydd a borthir yn frâs.

26 Y neb a ymddyriedo yn ei galon ei hun

ſydd ffôl: ond y neb a rodio yn bwyllog a achub ei hun.

27 Y neb a roddo i'r tlawd ni bydd angen arno: ond y neb a drŷ ei lygaid oddi wrtho a gaiff lawer o felldithion.

Pen.29 2. 28 Pan *dderchafer yr annuwiolion, rhaid i'r dŷn [duwiol] ymguddio, ond wedi darfod am danynt yr amlhêir y cyfiawn.

## PEN XXIX.

GWr a gerydder yn fynych ac a galeda ei warr, a ddryllir yn ddiſymmwth fel na byddo meddiginiaeth.

2 Pan amlhaer y cyfiawn y bobl a lawenychant: ond pan fyddo 'r annuwiol yn llywodraethu y bobl a ocheneidiant.

Luc.15.13. 3 Gŵr a garo ddoethineb a lawenycha ei dad: ond y neb a fyddo gyfaill i buttenaid a ŷſſa ei ddâ.

4 Brenin drwy farn a gadarnhâ ei deyrnas, ond y neb a garo anrhegion, ai diniſtria hi.

5 Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymmydog ſydd yn goſod magl iw draed ef.

6 Croglath ddrwg ſydd i'r neb a becho: ond y cyfiawn a gân, ac a fydd lawen.

7 Y cyfiawn a wrendu ar fatter y tlodion, ond yr annuwiol nid yſtyria am wŷbod.

8 Dynnion gwatwarus a ddiſothant ddinas, ond y doethion a droant ymmaith ddigofaint.

9 Gŵr doeth a ymryſono â dŷn ffôl pa un bynnac a wnel efe ai digio, ai chwerthin, etto ni bydd llonyddwch.

10 Gwŷr gwaedlyd a gaſânt yr iniawn ond [gwŷr] iniawn a ymgais ag ef.

11 Y ffôl a dywallt ei hôll feddwl: ond gŵr doeth ai hattall hyd yn ôl llaw.

12 Pan fyddo 'r llywydd yn gwrando ar ffalſedd, ei hôll weiſion fyddant annuwiol.

13 Tlawd a'r cyfoethog a gŷdgyfarfyddant, a'r Arglwydd a lewyrcha eu llygaid hwy ill dau.

14 Y brenin a farno 'r tlodion yn ffyddlon ei orſedd a deru byth.

15 Y wialen a cherydd a rydd ddoethineb: ond mab a gaffo ei rwyſc ei hun a gywilyddia ei fam.

16 Pan amlhâo 'r rhai annuwiol yr amlhâ pechod: ond y rhai cyfiawn a welant eu cwymp hwynt.

17 Dyſc dy fab ac ti a gei lonyddwch: ac efe a bar hyfrydwch i'th enaid.

18 Lle ni byddo gweledigaeth methu a wna 'r bobl: ond y neb a gadwo 'r gyfraith gwyn ei fŷd ef.

19 Ni chymmer gwâs addyſc ar eiriau: canys er ei fod yn deall etto ni ettyb.

20 A weli di ddŷn pryſſur yn ei eiriau: gwell yw'r gobaith am y ffôl nag am dano ef.

21 Y neb a ddygo ei wâs i fynu yn foethus oi febŷd, o'r diwedd efe a fydd [fel] mab [iddo.]

22 Gŵr digllon a enynna gynnen, a'r digllon ſydd amlëi gamwedd.

23 Balchder dŷn ai bwrw i lawr, ond goſtyngedig yſpryd a gynnal anrhydedd.

24 Y neb a gyfranno â lleidr a gaſâ ei enaid ei hun: a'r neb hefŷd a wrandawo ar beth melldigedig heb ei gyhuddo.

25 Yr hwn ſydd yn ofni dŷn ſydd yn goſod magl yn ei erbyn ei hun: ond y neb a ymddyriedo yn yr Arglwydd a dderchefir yn ddiogel.

26 Llawer a ymgeiſiant ag wyneb y llywydd: ond yr Arglwydd pie barnu pob dŷn.

27 Ffiaidd gan y cyfiawn ŵr anwir: a ffiaidd gan yr annuwiol ŵr iniawn ei ffordd.

## PEN. XXX.

1 Geiriau Agur mab Iace: y brophwydoliaeth, „
a lefarodd gŵr am Ithiel, am Ithiel meddaf „
ac Ucal. „
2 YN wir yr ydwyf yn ffolach na neb, ac „
nid oes ddeall dŷn gennif. „
3 Ni ddyſcais ddoethineb, ac nid oes gennif „
wŷbodaeth am bethau ſanctaidd. „
4 Pwy a eſcynnodd i'r nefoedd, a phwy a „
ddeſcynnodd? a phwy a gaſclodd y gwynt yn ei „
ddyrnau? „
5 Pwy a rwymodd y dyfroedd mewn dilledyn? „
pwy a gadarnhâodd ôll derfynnau y ddaiar? „
beth yw ei enw ef, a pheth yw enw ei fab, „
os gwyddoſt? „
6 *Gair Duw oll ſydd bur: tarian yw efe „ Pſa..19.8.
i'r neb a ymddiriedant ynddo. „
7 *Na ddyro ddim at ei eiriau ef, rhag iddo „ Deut.4 2.
dy geryddu, a'th gael di yn gelwyddog. „ & 12.32.
7 Dau beth yr ydwyf yn eu gofyn gennit „
cyn fy marw, na ommedd hwynt i mi. „
8 Tynn ym mhell oddi wrthif wagedd a „
chelwydd, na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth, „
portha fi a'm digon o fara: „
9 Rhag i mi pan fyddwyf lawn dy wadu di, „
a goſyn, pwy yw'r Arglwydd? a rhag pan ſyrthwyf „
mewn tlodi i mi ledratta: a rhag i mi „
gymmeryd enw Duw [yn ofer.] „
10 Nac achwyn ar wâs wrth ei feiſtr, rhag „
iddo ddywedyd drwg am danat a'th gael yn „
euog. „
11 Y mae cenhedlaeth a felldithia ei thâd, ai „
mam ni fendithia. „
12 Y mae cenhedlaeth lân yn ei golwg ei „
hun, er nas glanhawyd oddi wrth ei haſlendid. „
13 Y mae cenhedlaeth ai llygaid yn feilchion, „
ac amrantau ei llygaid yn uchel. „
14 Y mae cenhedlaeth ai dannedd yn gleddyfau, „
ai chil-ddânedd yn gyllill: i lyngcu 'r tlodion „
oddi ar y ddaiar a'r anghênus o blith dynion. „
15 I'r gele y mae dwy ferch [yn dywedyd,] „
moes, moes: y tri pheth hyn ni ddiwellir [ie] „
pedwar peth ni ddywedant byth, digon. „
16 Y Bedd, crôth amhlantadwy, y ddaiar ni „
ddiwellir â dyfroedd, a'r tân ni ddywed, digon. „
17 Llygad yr hwn a wattwaro ei dâd ne a „
ddiystyro lywodraeth ei fam a dynno cyg-frain „
y dyffryn, a'r eryrod ai bwytâo. „
18 Tri pheth ydynt guddiedig i mi: ie pedwar „

“ war peth nid adwen.
“ 19 Ffordd yr êryr yn yr awyr, ffordd neidr
“ ar graig, ffordd llong yng-hanol y môr, a ffordd
“ gŵr gyd â môrwyn.
“ 20 Dymma arfer merch odinebus, hi a
“ fwytu, ac a ſych ei ſafn, ac a ddywed, ni wneuthym
“ i anwiredd.
“ 21 Tann dri pheth y cryn y ddaiar, îe tann
“ bedwar ni ddichon hi ddioddef:
“ 22 Tann wâs pan deyrnaso, tann un ffol
“ pan lanwer ef o fwyd,
“ 23 Tann [ wraig ] atgâs pan brioder hi, a
“ thann lawforwyn pan wneler hi yn aeres iw
“ meiſtres.
“ 24 Y pedwar hyn ar y ddaiar ſydd bethau bychain,
“ ac etto y maent yn ddoethaf o'r doethion.
“ 25 Nid yw'r morgrug bobl nerthol, etto
“ y maent yn darparu eu llynniaeth yn amſer
“ haf.
“ 26 Y cwningôd nid ydynt bôbl rymmus,
“ etto hwy a wnânt eu tai yn y graig.
“ 27 Y ceiliôgod rhêdyn nid oes brenin iddynt,
“ ac etto hwynt a godant allan yn dorfeudd.
“ 28 Y pryf coppyn a afaela ai law, [ yn ei
“ wê, ] ac a êrys yn llŷs y brenin.
“ 29 Y tri pheth hyn a rodiant yn hardd, îe
“ pedwar peth a rodiant yn hardd weddus,
“ 30 Hên lew crŷf ym mhlith yr anifeiliaid
“ yr hwn ni chrŷ yn ôl ei gefn er ofn nêb.
“ 31 Y milgi crŷf yn ei feingefn, a hwrdd, a
“ brenin, [yr hwn] ni chyfŷd neb yn ei erbyn.
“ 32 Os buoſt ffôl yn ymdderchafu, ac os
“ aincenaiſt, dyro dy law ar dy enau :
“ 33 Canys megis y dwg yr hwn a gorddo
“ laeth ymênyn allan, ac y gwna yr hwn a waſco
“ ffroenau i'r gwaed ddyfod allan: felly cymmell
“ llid a ddwg allan gynnen.

## PEN. XXXI.

Geiriau Lemuel frenin: [a'r] brophwydoliaeth, yr hon a ddyſcodd ei fam iddo ef.

2 Beth [ a ddywedaf ] fy mab ⁏ pa beth fy
mab cnawdol ⁏ îe pa beth a ddywedaf fy mab
annwyl ⁏

3 Na ddyro i wragedd dy nerth: na'th ffyrdd
i'r rhai a ddifethant frenhinoedd.

4 Nid [gweddaidd] i frenhinoedd, o Lemuêl,
nid gweddaidd i frenhinoedd ŷfed gwin:
nac i bennaduriaid ddeiſyfu diod gadarn,

5 Rhag iddo ef ŷfed, ac ebergôft deddf: a
chyfnewidio barn yr hôll rai gorthrymmedig.

6 Rhoddwch ddiod gadarn i'r neb ſydd ar
ddarfod am dano: a rhoddwch wîn i'r trîſt [ei ]
feddwl.

7 Yfed efe fêl yr anghoffo ei dlodi : ŷfed fel
na's meddylio am ei flîn-fŷd.

8 Agor dy enau dros y mud : ac yng-hweryl
plant angeu.

9 Agor dy enau, barn yn gyfiawn : a dadle
dros y tlawd a'r anghenus.

10 Pwy bynnac a gaffo wraig rinweddol :
gwerthfawrocach yw hi na'r carbwncl.

11 Calon ei gŵr a ymddyrried ynddi : ac ni
bydd arno ddim eiſieu.

12 Hi a wna iddo lês, ac nid drwg, hôll ddyddiau
ei bywyd.

13 Hi a gais wlân neu lîn, ac ai gweithia ai
dwy-law yn ewyllyſcar.

14 Tebyg yw hi i long marſiandwr, hi a
gluda ei bywyd o bêll.

15 Hi a gŷfyd liw nôs, ac a rydd fwyd iw
thylwyth, ai taſc iw llangceſau.

16 Hi a rydd ei brŷd ar dŷddyn, ac ai pryn ef:
ac â gwaith ei dwylo hi a blanna win-llan.

17 Hi a wregŷſa ei lwynau â nerth : ac a
grŷfhâ ei breichiau.

18 Os hi a wêl fôd ei marſiandiaeth yn fuddiol,
ni ddiffydd ei chanwyll ar hŷd y nôs.

19 Hi a rŷdd ei llaw ar ei chwarfan, ai llaw
a ddeil y werthyd.

20 Hi a egyr gledr ei llaw i'r tlawd, ac a estyn
ei dwylo i'r anghenus.

21 Nid ofna hi am ei thylwyth rhag yr eirâ,
canys ei holl dŷ hi a wiſc ſcarlat.

22 Hi a weithia iddi ei hun garpêdau, ei
gwiſc yw lliain main a phorphor.

23 Hynod yw ei gŵr hi yn y pyrth, pan eiſteddo
gyd â henafiaid y wlâd.

24 Hi a weithia liain, ac ai gwerth, ac a werth
wregyſau i'r marſiandwŷr.

25 Nerth ac anrhydedd yw ei gwiſc, ac yn
yr amſer a ddaw hi a chwardd.

26 Hi a egyr ei genau yn ddoeth, a chyfraith
trugaredd [ſydd] ar ei thafod hi.

27 Hi a graffa pa ffordd y rhodia tylwyth ei
thŷ : ac ni fwytu hi fwyd [mewn] ſyrthni.

28 Ei phlant a godant, ac ai galwant yn ddedwydd
: ei gŵr yn yr un modd ai can-mol hi:

29 Gan ddywedyd, llawer merch a weithiodd
yn rymmus, ond ti a ragoraiſt arnynt ôll.

30 Siomêdig yw ffafr, ac ofer yw tegwch:
ond benyw yn ofni yr Arglwydd a gaiff glôd.

31 Rhoddwch iddi o weithredoedd ei dwylo,
a chan-moled ei gweithredoedd hi yn y pyrth.

*Terfyn Diharebion Salomon.*

# Llyfr y Pregeth-vvr.

## PENNOD. I.

Oferedd y byd

GEiriau y Pregeth-wr mâb Dafydd frenin[ yr hwn oedd ] yn Jeruſalem.

2 Gwagedd o wagedd medd y Pregeth-wr, gwagedd o wagedd, gwagedd[ yw'r ]cwbl.

3 Pa fudd ſydd i ddŷn oi hôll lafur, a gymmero efe dann yr haul?

4 Un genhedlaeth a aiff ymmaith, a chenhedlaeth arall a ddaw : ond y ddaiar a ſaif byth.

5 Yr haul hefyd a gyfŷd, a'r haul a fachluda, ac a dynn iw le, lle y mae yn codi.

6 Efe a aiff i'r dehau , ac a amgylcha i'r gogledd: y mae'r gwynt yn myned oddi amgylch, ac yn dychwelyd yn ei gwmpas.

7 Yr hôll afônydd a rêdant i'r môr, ac etto nid yw'r môr yn llawn: i ba le bynnac y rhêdo'r afonydd oddi yno y dychwêlant eil-waith.

8 Pôb peth ſydd yn llawn blinder, ni ddichon nêb ei dreuthu : ni chaiff y llygad ddigon o edrych, na'r gluſt o wrando.

9 Y pêth a fu a fydd, a'r peth a wnaed a wnêir, ac nid oes dim newydd dann yr haul.

10 A oes dim y gellir dywedyd , edrych ar hwn, dymma beth newydd ? canys efe fu yn yr hên amſer o'n blaen ni.

11 Nid oes goffa am y pethau gynt, ac ni bydd coffa am y pethau a ddaw yn ôl, gan y rhai a ddaw ar eu hôl hwynt.

12 Myfi y Pregeth-wr oeddwn frenin Iſraêl yn Jeruſalem:

13 Ac a roddais fy mrŷd ar geiſio, ac ar chwilio am ddoethineb, am bôb peth a wnaed tann y nefoedd : ( dymma drafael flin a roddes Duw ar feibion dynnion i ymguro ynddi)

14 Mi a welais yr holl weithredoedd y rhai ſydd tann haul, ac wele y rhai hynny ôll ydynt wagedd a gorthrymder yſpryd.

15 Ni ellir iniawni yr hyn ſydd gam, na chyfrif yr hyn ſydd ddeffygiol.

16 Mi a feddyliais yn fyng-halon gan ddywedyd, wele mi a gynnyddais, ac a geſclais ddoethineb tu-hwnt i bawb a fu o'm blaen i yn Jeruſalem, a'm calon a ddeâllodd lawer o ddoethineb, a gŵybodaeth.

17 Mi a roddais fy mrŷd hefyd ar ŵybod doethineb, gŵybodaeth, ynfydrwydd, a ffolineb, ac mi a ŵybum fod hyn hefyd yn orthrymder yſpryd.

18 Canys mewn llaweroedd o ddoethineb y mae llawer o ddig: a'r neb a chwanêgo ŵybodaeth a chwanêga ei flinder.

## PEN. II.

Oſered adailadaeth, a chyfoeth . 14 Bod yr vn farwolaeth gorphorol i'r doeth, ac i'r annoeth.

AC mi a ddywedais yn fyng-halon, tyret yn awr mi a gymmyſcaf win yn llawen , cymmer dy fyd yn eſmwyth, ac wele hyn hefyd ſydd wagedd,

2 Mi a ddywedais wrth y chwerthinog, yr ydwyt ti yn ynfydu, ac wrth y llawen, pa beth yr ydwyt yn ei wneuthur felly ?

3 Mi a fwriedais yn fyng-halon roddi fyngnhawd i'r gwîn (pan oeddwn yn arwain fynghalon mewn doethineb) ac i gofleidio ffolineb, hyd oni welwn ai da i feibion dynnion yw yr hyn a wnânt hwy tann y nefoedd hôll ddyddiau eu bywyd.

4 Mi a wneuthum fyng-waith mawr, mi a adailadais i mi dai, ac a blennais win-llannoedd.

5 Mi a wneuthym erddi a pherllannau, lle y goſodais brennau o bôb ffrwyth.

6 Mi a wneuthym lynnau dwfr i ddwfrhau â hwynt y llwynau i'r-goed.

7 Mi a dderparais weiſiō, a morwyniō : hefyd yr oedd i mi wenidogion caeth, îe yr oeddwn i yn berchen llawer o wartheg a defaid tu hwnt i bawb ôll a fuaſent o'm blaen i yn Jeruſalem.

8 Mi a bentyrrais i mi arian ac aur, a thryſſor pennaf brenhinoedd, a thalaithau: mi a ddaperais i mi gantorion a chantoreſſau a phôb rhyw offer cerdd, difyrrwch meibion dynnion.

9 A mi a dyfaſwn, ac a gynnyddaſwn yn fwy nâ neb a fuaſe o'm blaen i yn Jeruſalem: o blegit fy noethineb oedd yn ſefyll gyd â mi.

10 Beth bynnac a ddeiſyfie fy llygaid, ni ommeddwn hwynt, ni attaliwn fyng-halon o-

ddi wrth ddim hyfryd: ond fyng-halon a lawenyche yn fy holl lafur, a hyn oedd fy rhan i o'm holl lafur.

11 Mi a edrychais ar fy holl weithredoedd a wnaethe fy nwylaw, ac ar y llafur a lafuriais yn ei wneuthur, ac wele hyn oll[oedd]wagedd a gorthrymder yſpryd, megis ac nad oes dim buddiol tann yr haul.

12 Ac am hynny mi a droais i edrych ar ddoethineb,ac ar bob ynfydrwydd a ffolineb (canys beth[a wnae]'r dyn a geiſie ganlyn y brenin? y peth a wnaed euſus)

13 Mi a welais yn ddiau fôd êlw doethineb uwch law ffolineb,fel élw goleuni uwch law tywyllwch.

Dihare.17.24. 14 *Y doeth ſydd ai lygaid yn ei benn: ond y ffôl a rodia yn y tywyllwch, ac etto mi a welais yr un damwain yn digwyddo iddynt oll.

15 Ac am hynny y dywedais yn fyng-halon y peth a ddigwyddа i'r ffôl a ddigwydda i minne, pa beth gan hynny a dâl i mi fôd yn ddoeth mwyach? ac mi a ddywedais yn fyng-halon, fôd hyn hefyd yn wagedd.

16 Canys ni bydd coffa am y doeth mwy nag am yr annoeth yn dragywydd,y pethau ſydd yr awr hon yn y dyddiau a ddaw a ollyngir oll dros gof: ac y mae y doeth yn marw fel yr annoeth.

17 Ac am hynny câs gennif y bywyd hwn, canys drwg gennif y gorchwyl a wneir tann haul,canys hyn oll ydynt wagedd a gorthrymder yſpryd.

18 Câs gennif fy holl lafur, yr hwn yr ydwyf yn ei gymmeryd tann haul, am fod yn rhaid i mi ei adel i'r neb a fydd ar fy ôl i.

19 A phwy a ŵyr ai doeth ai annoeth fydd y neb a fydd feiſtr ar fy holl lafur mauſt,yr hwn mor gall a gymmerais tann haul? dymma wagedd hefyd.

20 Ac am hynny mi a droais ymmaith heb obaith gennif am gael budd oddi wrth fy holl lafur yr hwn a gymmerais i tann yr haul.

21 Canys y mae dŷn a lafuria yn bwyllog, yn ſynhwyrol,ac yn iniawn: ac y mae yn gorfod iddo roi rhan i'r neb ni lafuriodd yn ei geiſio: hyn hefyd ſydd wagedd a gorthrymder mawr.

22 Canys beth ſydd yng-weddill i'r dyn hwnnw oi oll lafur a gorthrymder ei galon yr hwn a gymmerodd efe tann haul,

23 Yn ei holl ddyddiau y mae gorthrymder, yn ei oll lafur y mae dig,ie ni chymmer ei galon ſeibiant liw nôs:hyn hefyd ſydd wagedd.

24 Nid oes daioni mewn dŷn oddieithr i'ddo ef fwyta ac yfed, a pheri i'w enaid gael daioni oi lafur: hyn hefyd a welais i [yn dyfod] o law Dduw ei hun.

25 Pwy a ddichon fwynhau [daioni?]a phwy ai mwynhae mor fuan a'm fi?

26 Canys i'r dŷn y gwelo efe yn dda y rhydd Duw ddoethineb,a gwybodaeth a llawenydd: ond i'r pechadur y rhydd efe boen i gaſclu, ac i dyrru,i'w roddi i'r neb y gwelo Duw yn dda: hynny hefyd ſydd wagedd a gorthrymder yſpryd.

## PEN. III.

1 Amſer ſydd i bob peth. 14 Gweithredoedd Duw ſy berffaith, ac yn peri i ni eu hofni. 17 Duw a farn y cyfiawn a'r anghyfiawn.

Y Mae amſer i bob peth,ac amſer i bob ewyllys tann y nefoedd.

2 Amſer ſydd i eni, ac amſer i farw, ac amſer i blannu, ac amſer i ddiwreiddio y peth a blannwyd.

3 Amſer i ladd,amſer i iachau,amſer i fwrw i lawr,ac amſer i adailadu.

4 Amſer i ŵylo,ac amſer i chwerthin,amſer i alaru,ac amſer i ddawnſio.

5 Amſer i daflu cerrig,ac amſer i gaſclu cerrig,amſer i ymgofleidio,ac amſer i ochel cofleidio.

6 Amſer i geiſio, ac amſer i golli, amſer i gadw,ac amſer i fwrw ymmaith.

7 Amſer i rwygo, ac amſer i wnio, amſer i dewi,ac amſer i ddywedyd.

8 Amſer i garu,ac amſer i gaſaû,amſer i ryfel, ac amſer i heddwch.

9 Pa fudd i'r gweithudd o'r blinder a gymmero efe?

10 Mi a welais fod hyn yn flinder a roddes Duw ar feibion dynnion i ymflino yndd.

11 [Duw]a wnaeth bôb pêth yn dêg,ac yn ei amſer,îe tra fyddo yr bŷd Duw a esyd yn eu calonnau hwy y gwaith a wnaeth efe o'r dechreuad hyd y diwedd(o ddieithr pêth ni ddichon dyn ei gyrheuddyd.)

12 Mi a wn nad oes ddim well iddynt,nag i bawb fôd yn llawen, a gwneuthur daioni yn ei fywyd.

13 Hefyd pa ddyn bynnac ſydd yn bwyta, ac yn yfed,ac yn mwynhau daioni oi holl lafur, rhodd Dduw yw hynny.

14 Mi a wn beth bynnac a wnêl Duw ei fôd yn parhau byth, ac na ellir na bwrw at [ei waith ef] na thynnu dim oddi wrtho: a bôd Duw yn gwneuthur hyn fel yr ofne dynnion ei wyneb ef.

15 Y peth a fu o'r blaen ſydd yr awron: a'r peth ſydd ar ddyfod a fu o'r blaen: canys Duw ei hun a adnewydda y peth a aeth heibio.

16 Hefyd mi a welais dann yr haul yn lle barn annuwioldeb: ac yn lle cyfiawnder, annuwioldeb.

17 Mi a ddywedais yn fyng-halon y barna Duw y cyfiawn a'r anghyfiawn: canys y mae amſer i bôb ewyllys,a goruwch pôb gwaith yno.

18 Mi a ddywedaſwn yn fyng-halon ar ôl rheſwm dynawl,(wedi i Dduw ei hun eu hamlygu hwynt,a gweled fod y rhai hyn yn anifeiliaid i'r rhai eraill)

19 Fôd digwydd meibiõ dynniõ fel digwydd yr anifeiliaid, yr un digwydd,ſydd iddynt, fel y mae'r naill yn marw, felly y bydd marw'r y

llall, a bôd yr vn chwythad iddynt oll: ac am hynny nid oes mwy rhagoriaeth i ddŷn nag i anifail ond eu bôd ôll yn wagedd:

20 Y mae y cwbl yn myned i'r vn lle, vn o honynt ſydd o'r pridd, a phob vn o honynt a drŷ i'r pridd eil-waith.

21 Pwy a edwyn yſpryd dŷn yr hwn ſydd yn eſcynn i fynu, a chwythat anifail yr hwn ſydd yn deſcynn i wared i'r pridd?

22 Ac am hynny ni welwn i ddim yn well i ddyn nag ymlawenychu yn ei weithredoedd ei hun, canys hyn yw ei rãn ef: canys pwy ai dwg ef i weled y peth fydd ar ei ôl ef?

## PEN. IIII.

Gorthrymder y diniwed. 4 Ofered llafur dyn. 9 Mor anghenrhaid yw cyfeillach. 13 A bod yr ieuangc call yn well na'r hên angall.

OND drachefn wrth edrych ar yr hôll rai gorthrymmedig tann yr haul, yna wele ddagrau y rhai gorthrymmedig heb nêb iw cyſſuro, ac heb nerth ynddynt[i ddiangc]allan o law eu treiſ-wŷr, ac heb ganddynt neb iw cyſuro.

2 Mi a ganmolais y meirw y rhai ſydd yn barod wedi marw, yn fwy na'r byw y rhai ydynt yn fyw etto.

3 Gwell na'r ddau-yw'r neb ni bu yr ioed, canys ni welodd efe y blinder mawr ſydd tann haul.

4 Ac mi a welais fôd pob llafur, a phob iniondeb gwaith dŷn yn peri iddo genfigen gan ei gymmydog, hyn hefyd ſydd wagedd a gorthrymder yſpryd.

5 Y ffôl a waſc ei ddwylo yng-hŷd, ac a fwytu ei gnawd ei hun[gan ddywedyd:]

6 Gwell yw lloned llaw trwy lonyddwch, na lloned dwy law trwy flinder a gorthrymder yſpryd.

7 Ond mi a drois, ac a welais[ fôd hyn] yn wagedd tann yr haul.

8 Y mae vn heb hiliogaeth iddo: i'r hwn nid oes na mâb na brawd, ac etto nid oes diwedd ar ei lafur ef oll: ie ni chaiff ei lygaid ddigon o gyfoeth,[ni ddywed efe,] i bwy yr ydwyf yn llafurio, gan ddiddyfnu fy enaid oddi wrth hyfrydwch? hyn hefyd ſydd wagedd, ac dymma drueni blin.

9 Gwell yw dau nag vn, o achos bod iddynt obr da am eu llafur,

10 Canys os ſyrthiant, y naill a gyfyd y llall ond gwae yr vnic: canys pan ſyrthio efe nid oes ail iw gyfodi.

11 Hefyd os dau a gŷd orweddant hwy a ymgynheſant, ond yr vnic pa fodd y cynneſa efe?

12 Os cryfach fydd rhyw vn nar naill o honynt hwy, hwythau ill dau ai gorchfygant yntef, ond rhaff deircaingc ni thorrir ar frys.

13 Gwell yw bachgen tlawd a doeth, na brenin hên ac ynfyd, yr hwn ni feidr gymmeryd rhybydd mwyach.

14 Canys y[naill] ſydd yn dyfod allan o'r carchar-dŷ i deyrnaſu, a'r llall a anwyd yn y frenhiniaeth[ i fod] yn dlawd.

15 Mi a welais y rhai byw oll y rhai ydynt yn rhodio dann yr haul, yn neſau at yr ail mâb yr hwn ſydd i deyrnaſu yn ei ôl ef.

16 Nid oes diben ar yr holl bobl[ſef] ar bawb a fu oi blaen hwynt, a'r rhai olaf ni lawenychât ynddo yntef: gwagedd yn ddiau a blinder yſpryd[yw ] hyn hefyd.

17 Gwilia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barottach i wrando nag i roi aberth ffoliaid, canys ni wyddant hwy eu bôd yn gwneuthur drwg.

## PEN. V.

Mor dda yw ymadroddion pwyllog. 9 A maint chwant y cybydd.

NA fydd [ry]bryſur a'th enau, ac na fryſied dy galon i draethu dim ger bron Duw: canys Duw ſydd yn y nefoedd a thithe ſydd ar y ddaiar, ac am hynny bydded dy eiriau yn anaml.

2 Canys megis ag y daw breuddwyd o drallod llawer: felly [ y daw] ymadrodd ffôl o laweroedd o eiriau.

3 Pan *adduneddech adduned i Dduw, nac oeda ei thâlu, canys nid oes ganddo flâs ar rai ynfyd, y peth adduneddaiſt tâl. Deut.23.21.

4 Gwell yw i ti fôd heb adduneddu, nag i ti adduneddu, a bôd heb ei dalu.

5 Na âd i'th enau beri i'th gnawd bêchu, ac na ddywet ger bron yr angel, anŵybodaeth yw hyn: pa ham[y peri]i Dduw ddigio o herwydd dy eiriau, fel y difetho efe weithred dy ddwylaw di?

6 Canys mewn llaweroedd o freuddwydion y mae gwagedd, felly mewn llawer o eiriau: ond ofna di Dduw.

7 Os gweli dreiſio y tlawd, a bwrw i lawr farn a chyfiawnder yn y wlâd: na ryfedda o achos hyn, canys y mae vchel yn gwilied ar vchel, y mae[vn] ſydd vwch na hwynt.

8 Cynnyrch y ddaiar ſydd vwch law pôb peth: wrth dir llafur y mae y brenin yn byw.

9 Y nêb a garo arian ni ddigonir ag arian, a'r neb a hoffo olud ni chaiff leſâd: hyn hefyd ſydd wagedd.

10 Lle y byddo llawer o dda y bydd llawer iw ddifa: pa fudd gan hynny i'r perchennog ond gôlwg ei lygaid.

11 Melus yw hun y gweith-wr pa vn bynnac ai bychan ai llawer a fwytu efe: ond llawnder y cofoethog ni âd iddo gyſcu.

12 Y mae trueni a welais tann yr haul, cyfoeth wedi eu cadw yn niwed iw perchennog.

13 Derfydd am y cyfoeth hynny trwy drueni blin, ac os ennill efe fab ni[ddaw] dim i law hwnnw.

14 Yn noeth y daeth allan ô groth ei fâm, yn noeth drachefn yr aiff ymmaith modd y daeth, ac nid arwain ddim oi lafur gyd ag ef.

15 Am hynny hefyd dymma ofid blin yn

hollawl, y modd y daeth, felly yn hollawl yr aiff efe ymmaith, pa fudd [ſydd] iddo am lafurio yn ofer?

16 Ei hôll ddyddiau y bwyty efe mewn tywyllwch, mewn digter mawr, goſid, a llid.

17 Wele beth a welais i, yn dda a theg [i ddyn,] bwyta, ac ŷfed a chymmeryd hyd da oi hôll lafur a lafurio tann yr haul hôll ddyddiau ei fywyd y rhai a roddes Duw iddo: canys hynny yw ei ran ef.

18 Ie i bwy bynnac y rhoddes Duw gyfoeth a golud, ac i bwy bynnac y rhoddes efe rydd-did i fwyta o honynt, ac i gymmeryd ei rā, ac i lawenychu yn ei lafur, rhodd Duw yw hyn:

19 Canys ni fawr goſia efe ddyddiau ei fywyd am fôd Duw yn fodlon i lawenydd ei galon ef.

## PEN. VI.

Oferedd yw cael cyfoeth heb gael eu mwynhau.

Y Mae drwg a welais tann haul, a hwnnw yn fawr ym myſc dynnion.

2 Gŵr i'r hwn y rhoddo Duw gyfoeth â thryſſorau, ac anrhydedd, heb arno eiſieu dim a ddymune: a Duw heb roi gallu iddo iw mwynhau: ond gŵr eſtron ai mwynhâ, dymma wagedd a goſid blin.

3 Os gŵr a ennill gant ô blant, ac a fydd byw lawer ô flynyddoedd, er bod dyddiau ei flynyddoedd yn aml, os ei enaid ni ddiwellir â'r golud hwnnw, ac oni's bydd iddo gladdedigaeth, mi a ddywedaf mai gwell yw yr erthyl.

4 Canys mewn oferedd y daeth [hwnnw,] ac yn y tywyllwch y rhodia, ei enw a guddir â thywyllwch.

5 Ni welodd chwaith mo'r haul, ac ni's adnabu, [a] mwy o llonyddwch ſydd i hwn nag i'r llall.

6 Pe bydde efe fyw ddwy-fil ô flynyddoedd, heb fwynhau hyd da: onid i'r un lle yr aiff pawb?

7 Holl lafur dŷn ſydd yn myned i'r ſafn, ac etto ni ddiwellir ei feddwl ef.

8 Canys pa ragoriaeth ſydd rhwng y doeth a'r annoeth? pa [ragor] rhwng y cyfoethog a'r tlawd, tra fyddant yn rhodio ym myſc y byw?

9 Gwell yw golwg y llygaid nag ymdaith yr enaid: hyn hefyd ſydd wagedd a gorthrymder yſpryd.

10 Beth bynnac ſydd, y mae henw arno: ac mae yn hyſpys mai dŷn yw efe: ac ni ddichon efe ymryſon a'r neb ſydd drechach nag ef.

11 Lle y byddo llawer o bethau, hwy a amlhânt wagedd, beth ſydd mwyach i ddyn?

12 Canys pwy a ŵyr beth ſydd dda i ddyn yn y bywyd hwn ôll ddyddiau ei fywyd ofer, y rhai a baſſia efe fel cyſcod? pwy a ddengys i ddŷn y peth a ddigwydd iddo ar ôl hyn tann yr haul?

## PEN. VII.

Cynghorion i ganlyn yr hyn ſydd dda, ac i ochelyd yr hyn ſydd ddrygionus.

GWell yw enw da nag ennaint gwerthfawr, a gwell yw dydd marwolaeth na dydd genedigaeth,

2 Gwell yw myned i dŷ y galar na myned i dŷ 'r wledd, canys yno y mae diwedd pôb dŷn, a'r neb ſydd fyw a eſyd hynny at ei galon.

3 Gwell yw digter na chwerthin: canys trwy driſtwch yr wyneb-prŷd y gwellheir y galon.

4 Calon doethion fydd yn nhŷ y galar: ond calon ffŷliaid fydd yn nhŷ llawenydd.

5 Gwell yw gwrando ſenn y doeth na gwrando cân ffyliaid.

6 Canys chwerthiniad dŷn ynfŷd ſydd fel clindarddach drain tann grochan, dymma wagedd hefyd.

7 Trawſedd a ynfyda 'r doeth, a rhôdd a ddifwyna yr galon.

8 Gwell yw diweddiad peth nai ddechreuad, gwell yw yr dioddefgar na'r balch.

9 Na fydd gyflym yn dy yſpryd i ddigio: o blegit dîg ſydd yn gorphywys ym mynwes ffyliaid.

10 Na ddywet, pa ham y bu yr dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn? canys nid doethineb yw goſyn am y peth hyn.

11 Da yw doethineb gyd ag etifeddiaeth, ac elw i'r rhai ſydd yn edrych ar yr haul.

12 Canys rhai a lechant yng-hyſcod doethineb, a rhai eraill yng-hyſcod arian, ond mwy yw 'r êlw oddi wrth wybodaeth, a doethineb yr hon a geidw ei pherchennog yn fyw.

13 Edrych ar orchwyl Duw: * canys pwy a all inioni 'r peth a gammodd efe? Pen.1.15.

14 Pan fyddo i ti fyd da, cymmer dy fyd yn dda, a phan fyddo i ti ddrwg-fyd ymarfer ag ef: Duw ei hûn ſydd yn gwneuthur y naill yng-wrthwyneb y llall, yn y fâth wedd na ddichon dŷn gael dim [yn feius] ar ei ôl ef.

15 Hyn ôll a welais yn nyddiau fyng-wagedd, y cyfiawn yn diflannû yn ei gyfiawnder, a'r annuwiol yn eſtyn [ei ddyddiau] yn ei ddrygioni.

16 Na fydd rhy gyfiawn, ac na chymmer arnat fôd yn rhy ddoeth: rhag dy ddifetha dy hun.

17 Na fydd [rhŷ] annûwiol, na [rhŷ] ffôl, rhag dy farw cyn dy amſer.

18 Da i ti ymafel yn hyn, ac oddi wrth hyn na ollwng dy law: y nêb a ofno Ddûw a ddiangc allan o hyn oll.

19 Doethineb a nertha 'r doeth, yn fwy na dêc o bennaethiaid, y rhai a fyddant mewn dinas.

20 * Yn ddiau nid oes dyn cyfiawn ar y ddaiar, yr hwn a wna ddaioni ac in phecha. 1.Bren.8.46. 2.Cron.6.36. Dihar.20.9. 1.Ioan.1.8.

21 Na ddod ti dy feddwl ar bob gair a ddyweder: canys ni ddyleit ti wrando ar dy wâs yn dy felldithio.

22 Canys llawer gwaith y gŵyr dy galon ddarfod iti dy hun felldithio eraill.

23 Hyn ôll a brofais mewn doethineb, mi a ddywedais, yr ydwyf yn ddoeth, a hithe ym mhell oddi wrthif.

24 Y peth pellaf a fu, a'r peth dyfnaf pwy ai

caiff?

25 Mi a drois, a'm holl galon i ddeall, ac i chwilio, ac i geiſio doethineb, a rheſwm: ac i adnabod annuwioldeb ffolineb, ac ynfydrwydd amryfuſedd

26 Ac mi a welais beth chwerwach nag angeu, ſef gwraig: yng-halon yr hon y mae rhwydau a maglau, a rhwyminau yn ei dwylo: y neb ſydd dda gan Dduw a waredir oddi wrthi hi, ond hi a ddeil bechadur.

27 Wele hyn a gefais (medd y pregeth-wr) wrth chwilio o'r naill [beth] i'r llall i geiſio rheſwm:

28 Yr hwn beth y chwiliodd fy enaid am dano, ac ni chefais, un gŵr a gefais ym mhlith mil, ond un wraig yn eu plith hwynt oll ni's cefais.

29 Wele hyn yn unic a gefais [ſef] gwneuthur o Dduw ddŷn yn iniawn: ond hwy a chwiliaſant am lawer o ddychymmygion.

30 Pwy ſydd debyg i'r doeth? a phwy ſydd debyg i'r nêb a fedro ddeongl peth? doethineb gŵr a lewyrcha ei wyneb, a nerth ei wyneb ef a newidir.

## PEN. VIII.

Am vfyddhau i dywyſogion, a phennaethiaid. 17 gweithredoedd Duw ſy vwch law pob gwybodaeth.

YR ydwyf [yn dy rybuddio di] i gadw gorchymyn y brenin, a gair llw Dduw

2 Na ddôs oi olwg yn gyffrous, na ſaf mewn peth drwg: canys efe a wna a fynno ei hun.

3 Lle y bydd gair y brenin y mae awdurdod: pwy a ddywed wrtho? beth yr wyt ti yn ei wneuthur?

4 Y nêb a gadwo y gorchymyn ni wêl ddrwg: eithr calon y doeth a edwyn amſer, a barn.

5 Canys y mae amſer a barn i bob ewyllys: ond drygioni dŷn ſydd yn fawr yn ei erbyn ef.

6 Ni ŵyr [dŷn] bêth ſydd ar ddyfod, canys pwy a ddengys iddo pa fâth beth a ddaw?

7 Nid yw dŷn yn arglwyddiaethu ar yr yſpryd i attal yr yſpryd, ac nid oes rhydd-did yn nydd marwolaeth, ac nid oes arf a wareda yn y rhyfel, ac nid achub annuwioldeb ei pherchennog.

8 Yr holl bethau hyn a welais i, ac mi a yſtyriais bob gorchwyl a wneir dan haul, y mae amſer pan arglwyddiaetha dŷn ar ddyn er drwg iddo.

9 Mi a welais gladdu y rhai annuwiol, ac hwy a ddaethant eilwaith: ac [eraill] a aethant o'r lle ſanctaidd, a hwy a ebergôfwyd yn y ddinas, lle y gwnaethent gyfiawnder: gwagedd yw hyn hefyd.

10 O herwydd nad oes gyfraith i goſpi drwg yn fuan: am hynny calon plant dynnion ſydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg.

11 Er bôd i Dduw eſtyn dyddiau pechadur yr hwn a wnaeth ddrwg gan-waith: etto mi a wn y daw daioni i'r rhai a ofnant Dduw, ac a arſwydant rhagddo ef.

12 Ond ni bydd daioni i'r annuwiol, ac ni eſtyn efe ei ddyddiau: cyffelyb i gyſcod yw efe: canys nid ofna efe wyneb Duw.

13 Y mae gwagedd a wneir ar y ddaiar, bod y cyfiawn yn damwain iddynt yn ôl gwaith y drygionus: ac drygionus yn digwydd iddynt yn ôl gwaith y cyfiawn: mi a ddywedais fod hyn hefyd yn wagedd.

14 Ac am hynny mi a gan-molais lawenydd, nid oes dim da i ddyn dãn haul, ond bwyta ac ŷfed, a gwneuthur yn llawen, hynny ſydd i ddyn oi lafur ddyddiau ei fywyd y rhai a roddes Duw iddo tann yr haul.

15 Pan oſodais i fyng-halon i ddeall doethineb, ac i edrych ar y drafferth a wneir ar y ddaiar, er i ddyn na welo hûn ai lygaid na dydd na nôs,

16 Yna mi a welais am holl orchwyl Duw, na ddichon dŷn ddeall y gwaith a wneir tann haul, er i ddyn lafurio i geiſio, etto nis caiff, ie pe meddylie y doeth fynnu gŵybod, etto ni chae efe [hynny.]

## PEN. IX.

Drwy arwydd gweledig ni ellir gwybod pwy y mae Duw yn ei garu neu yn ei gaſaũ. 12 Ni wyr neb ei ddiwedd. 16 Doethineb ſydd yn rhagori ar nerth.

AC mi a yſtyriais hyn oll yn fyng-halon ar fedr dangos hyn hefyd: bod y cyfiawn a'r doethion, ai gweithredoedd yn llaw Dduw, fel na ŵyr dynnion [pa un a gânt] ai'r peth a garant, ai'r peth a gaſânt o'r hyn oll ſydd oi blaen.

2 Yr un peth [a ddamwain] i bawb yn gyſtal ai gilydd, yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn, ac i'r annuwiol, i'r da, i'r glân, ac i'r aflân, i'r neb a abertha, ac i'r neb ni abertha, i'r gŵr da megis i'r pechadur, i'r neb a dyngo [yn hawdd,] ac i'r neb a ofno dyngu.

3 Dymma'r peth gwaethaf o'r holl bethau tann haul [ſef] bod yr un diben i bawb, hefyd bod calon meibion dynnion yn llawn drygioni, ai calon yn [cynnwys] pob ynfydrwydd tra fyddant fyw, ac yn ôl hynny eu bod yn myned at y meirw.

4 Tra fyddo neb yng-hymdeithas y rhai byw oll, y mae iddo ef obaith: canys gwell yw cî byw na llew marw.

5 O herwydd y rhai byw a ŵyddant y byddant feirw, ond nid oes dim gŵybodaeth gan y meirw, ac nid oes iddynt obr mwyach, canys eu coffa hwynt a anghofir.

6 Methodd y peth a gârant, a'r peth a gâſant, a'r peth a ddeiſyfant, ac nid oes iddynt gyfran byth o ddim oll ſydd tann yr haul.

7 Dos, bwyta dy fwyd yn llawen, ac ŷf dy win â chalon hyfryd, canys pa bryd bynnac, cymmeradwy fydd gan Dduw dy weithredoedd.

8 Bydded dy ddillad yn lân bob amſer, ac na fydded diffig olew [iw dywallt] ar dy benn.

9 Dwg dy fŷd gyd a'th wraig annwyl

holl ddyddiau dy fywyd ofer y rhai a roddes Duw i ti tann yr haul [ſef] dy holl ddyddiau ofer, canys dyna dy rann di yn dy fywyd, ac yn dy lafur yr hwn a gymmeri tann yr haul.

10 Beth bynnac a ymafel dy law ynddo iw wneuthur, gwna a'th oll egni, canys nid oes na gwaith na dychymmyg, na gŵybodaeth, na doethineb yn y bedd lle yr wyt ti yn myned.

11 Mi a drois ac a welais tann haul, nad yw rhedfa eiddo'r cyflym, na'r rhyfel yn eiddo'r cedyrn, na'r bwyd yn eiddo'r doethion, na chyfoeth yn eiddo'r pwyllôg, na ffafr yn eiddo'r dyſcêdig: ond amſer, a damwain a ddigwydd iddynt oll.

12 Je ni ŵyr dŷn ei amſer mwy na'r pyſc a ddelir a'r rhwyd, mwy na'r adar a ddelir yn y delm: fel y rhai hyn, felly y delir plant dynnion yn amſer blinder, pan ſyrthio efe arnynt hwy yn ddiſymmwth.

13 Hefyd y doethineb hyn a welais i tann haul, ac ſydd fawr gennif fi.

14 [Yr oedd] rhyw ddinas fechan, ac ynddi ychydig o bobl, a brenin galluog a ddaeth yn ei herbyn hi, ac ai hamgylchynodd, ac a gododd glawdd vchel yn ei herbyn.

15 A chafwydd ynddi ŵr tlawd doeth, yr hwn ei hunan a waredodd y ddinas honno ai ddoethineb, etto ni choffâe neb am y gŵr tlawd hwnnw.

16 Yna y dywedais, mai gwell yw doethineb nâ nerth, er bôd yn dirmygu doethineb y tlawd, ac heb wrando ar ei eiriau ef.

17 Geiriau y doethion iſel eu gradd a ddylid eu gwrando rhagor bloedd pen-llywydd ai ffyliaid gyd ag ef.

18 Gwell yw doethineb nag arfau rhyfel, ond vn pechadur a ddiniſtria lawer o ddaioni.

## PEN. X.

1 Y rhagoriaeth ſydd rhwng ynfydrwydd a doethineb.
16 Am frenhinoedd ffôl, a thywyſogion meddwon.

GWybêd meirw a ddrewant, ac a ddifwynāt ennaint yr apothecari: felly ychydig ffôlineb [a ddifwyna] ŵr ardderchog o herwydd ei ddoethineb ai anrhydedd.

2 Calon y doeth ſydd yn ei ddeheu-law, a chalon y ffôl yn ei law aſſwy.

3 Canys y ffôl pan rodio ar y ffordd ſydd ynfyd ei galon, ac yn dywedyd wrth bawb ei fod yn ffôl.

4 Pan gyfodo yſpryd pennadur yn dy erbyn di, nac ymâdo a'th lê canys gŵr goſtyngêdig a oſtêga bechodau mawrion.

5 Y mae drwg [yr hwn] a welaf fi tann yr haul cyffelyb i gyfeiliorni yr hwn ſydd yn dyfod oddi wrth y llywydd,

6 Goſod ffyliaid mewn graddau vchel, a'r cyfoethog yn eiſtedd mewn llê iſel.

7 Mi a welais weiſion yn marchôgaeth ar feirch, a thywyſogion yn myned fel gweiſion ar eu traed.

8 *Y ſawl a gloddio bwll a ſyrth ynddo, a'r neb a fwrio gae i lawr ſarph ai brâth ef.

Pſal 7.16.
Dihar 26.27.
Ecclus 27.26.

9 Y ſawl a yſmudo gerrig a geiff ddolur oddi wrthynt: a'r nêb a hollto goed a gaiff niwed oddi wrthynt,

10 Os wedi i'r fwyall bŷlu ni hogir ei mîn hi, ond ymdrechu â hi, etto doethineb a iniawne'r [gwaith] yn rhagorol.

11 Os brâth ſarph heb [ei] ſwyno, ni [bydd] rhagor rhyngddi a pherchen tafod [drwg.]

12 Geiriau genau'r doeth ydynt râſol: ond gwefuſau'r ffôl ai difetha ef ei hun.

13 Ffolineb yw dechreuad geiriau ei enau ef, a diweddiad geiriau ei enau ſydd anfad ynfydrwydd.

14 Er i'r ffol ddadwrdd llawer ô eiriau: etto ni ŵyr neb beth a ddywed, a phwy a fynega iddo ef, pa beth fydd ar ei ôl ef?

15 Llafur y ffyliaid ai blina eu hunain: canys nid oes vn o honynt a ŵyr y ffordd i'r ddinas.

16 Gwae di'r wlâd ſydd a bachgen yn frenin iti, a'th dywyſogion yn bwyta yn foreu.

17 Ond gwyn dy fŷd di y deyrnas ſydd a'th frenin wedi ei eni o bendefigion, a'th dywyſogion yn bwyta eu bwyd yn ei hamſer, er cryfder, ac nid er diotta.

18 Drwy ſeguryd y pydra y tylâthau, ac wrth laeſu'r dwylo y gollwng y tŷ ddefni.

19 Arlwyant wledd i wneuthur yn llawen, a gwin a lawenycha y rhai byw, a thrwy arian y ceir hyn oll.

20 Na felldithia'r brenin yn dy galon, ac yn dy ddirgel ſtauell na felldithia'r cyfoethog: canys ehediaid yr awyr a gyhoeddant dy lais, a'r aderyn a ddatguddia'r gair.

## PEN. XI.

Am haelioni a gobaith da. 8 Ofered yw pethau bydol.

BWrw dy fara rhyd wyneb y dyfroedd, ac ti ai cei o fewn llawer ô ddyddiau.

2 Dyro ran i ſaith, neu hefyd i ŵyth: canys ni ŵyddoſt pa ddrwg a ddigwydd ar y ddaiar.

3 Pan fo'r cwmŷlau yn llawn, hwy a ddefnynnant ar y ddaiar: pa vn bynnac ai i'r dehau ai i'r gogledd y ſyrth pren, pa le bynnac y ſyrthio y pren, yno y bydd efe.

4 Y nêb a wilio ar y gwynt ni haua: a'r neb a edrycho ar y cwmylau ni fêda.

5 Megis ac nis gwyddoſt ffordd y gwynt, nac pa fodd y [ffurfheir] yr eſcyrn yng-hrôth y feichiog: felly ni ddealli waith Duw yr hwn ſydd yn gwneuthur y cwbl.

6 Yn foreu haua dy hâd, a phrydnawn na laeſa dy law, canys ni wyddoſt beth ſydd iniawn, ai hyn ymma, ai hyn accw, ai yntef da fyddant ill dau.

7 Melus yn ddiau yw'r goleuni, a da yw i'r llygaid weled yr haul.

8 Ond pe bydde dyn fyw lawer o flynyddoedd, a gwneuthur yn llawen ynddynt oll, etto

rhain

rhaid yw meddwl am ddyddiau tywyllwch er bôd i ddyn flynyddoedd lawer, etto beth bynnac a ddigwydda ofêredd yw.

9 Gwna yn llawen ŵr ieuangc yn dy ieuengtid, a llawenyched dy galon yn nyddiau dy ieuenctid, rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ôl trachwantau dy lygaid, ond gwybydd y geilw Duw ci hun di i'r farn am hyn ôll.

PEN. XII.

Na ddylid oedi duwioldeb. 8 Iba le yr aiff dyn. 12 Pa athrawiaeth ſydd iw dilyn.

BWrw ddig allan o'th galon a thro ymmaith ddrwg oddi wrth dy gnawd: canys mêbyd ac ieuengtid ydynt wagedd:

2 A choffa dy greawdr yn nyddiau dy ieuengtid cyn dyfod dyddiau blin, a neſau'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, nid oes i mi yn yr rhai hyn ddim diddânwch:

3 Cyn tywyllû'r haul, a'r goleuni a'r lleuad, a'r ſêr, a chyn dymchwelyd y cwmylau ar ôl glaw:

4 Yr amſer y cryna ceidwaid y tŷ, ac y crymma y gwŷr cryſion, ac y metha y rhai ſydd yn malu wedi eu treulio, ac y tywylla y rhai ſydd yn edrych drwy ffeneſtri.

5 A chaeu'r pyrth oddi allan, pan ballo ſwn y félin, a chyfodi wrth lais yr aderyn, a thynnu i lawr hôll ferched cerdd.

6 Ie [yr amſer] yr ofnant beth vchel, ac yr arſwydant yn y ffordd, ac y blodeua'r pren Almon, ac yr ymlwytha y ceiliog rhêdyn, a thorri chwant pan êlo dyn i dŷ ei dragwyddoldeb, a'r galarwyr yn myned o bôb tu [iddo] yn yr heól.

7 Cyn torri rhêdef arian, a chyn torri yr cawg aur, a chyn torri'r piſer ger llaw'r ffynnon, a chyn torri'r olwyn wrth y pydew.

8 Pan ddychwelo 'r pridd i'r ddaiar fel y bu gynt, ac i'r yſpryt ddymchwelyd at Dduw rhwn ai rhoes ef.

9 Gwagedd ô wagedd (medd y pregeth-wr) gwagedd yw 'r cwbl.

10 Yr oedd y pregeth-wr etto yn ddoethach, efe a ddyſcodd ŵybodaeth i'r bobl, a thrwy feſyrrio a thrwy chwilio efe a wnaeth lawer o ddiharebion.

11 Chwiliodd y pregeth-wr am eiriau melus, ac ſcrythur iniawn, a geiriau gwirionedd.

12 Geiriau'r doethion ydynt gyffelyb i ſymbylau, a chyffelyb i hoelion cynhull-wŷr wedi eu gyrru i mewn y rhai a roes yr vn bugail.

13 Am hynny, yn hytrach fy mâb cymmer rybudd wrth hyn, canys nid oes diben ar wneuthur llyfrau lawer, darllen llawer o lyfrau a ddeffygia y cnawd.

14 Swm y cwbl a glywyd [yw,] ofna Dduw a chadw ei orchymynnion: canys hyn yw holl ddylêd dyn.

15 Canys Duw a ddwg bôb gweithred i'r farn, a phôb peth dirgel, pa vn bynnac ai drwg ai da.

*Terfyn llyfr y pregeth-wr.*

# Llyfr Caniadau Salomon yr hwn yn Hebræ-aec a elwir *Shir haſhirim*, ac yn lladin *Canticum canticorum.*

TRydydd llyfr Salomon yr hwn a elwyr can y caniadau, neu gywydd y cywyddau : ſef yr ardderchoccaf* o fil a phump o ganiadau y rhai a wnaeth efe . Y mae y pedair pennod 1.Bren.4.32. cyntaf yn cynnwys geiriau mwyn-ſerch rhwng Criſt ai eglwys : i ddangos hoffed a thecceg gan bob vn ei gilydd . Yn y bummed bennod y mae'r eglwys drwy edifeiriol ofid yn cydnabod ei yſceuluſtra yn peri i Griſt ſorri : gan ddangos ei dolurus gwyn am ei golli tros amſer, ai diwyd ofal iw geiſio trachefn, ai diſigl ffydd na's collaſe hi ef morr llwyr, nad oedd efe yn eiddo hi, a hithe yn eiddo yntef etto . Ac yn y tair pennod diweddaf y mae Criſt yn gymmodlon yn ei diddanu hi, a phob vn yn dangos brydferthed ganddynt ei gilydd . Er bod geiriau y llyfr hwn yn ſerchogaidd , etto y mae y deall yn yſprydol : heb ynddo na gwyn cnawdol , nac anlladrwydd anianol. Eithr fel y dealle dyn odidawgrwydd Criſt ynddo ei hun, ai ſerch iw ffyddloniaid : Y mae yr Yſpryd glan ymma yn arfer ymadroddion hyſpus i ddyn, ac yn rhodddi i Griſt, ac iw eglwys eiriau arferol rhwng dau ddyn ieuangc yn caru ; neu ddau briod yn hoffi ei gilydd. Felly mewn mannau eraill o'r ſcrythur lan y mae yr vn Yſpryd yn cyffelybu vndeb, a thegwch Criſt ai eglwys i ddyweddi, neu briodas ar ammodau cariad, a gwychter a berthynant i hynny , fel y gwelir. *Ezeciel.16.8. Oſea.2.19. Pſal.45.10, Matth.22.2.*

## PENNOD I.

Mwynaidd a hyfryd ymddiddannion rhwng Criſt ai eglwys mewn ſerch yſprydol.

## CÂN CANIADAV SALOMON.

CUſaned fi â chuſanau ei fin, canys gwell yw dy gariad nâ gwîn.

3 O herwydd arogl dy enaint daionus, olew tywalltedic [yw] dy enw : am hynny y llangceſau a'th garant.

Ioan 6.44. 4 *Tynn fi [attat, ac] ni a redwn ar dy ôl, y brenin a'm dug fi iw ſtafellau, ni a ymhyfrydwn, ac a ymlawenhawn ynot, ni a goffawn dy gariad yn fwy nâ gwin, y rhai iniawn ydynt yn dy gâru.

5 Du [ydwyf] fi (merched Jeruſalem) a hawddgar fel pebyll Cedar, [ac] fel llenni Salomon.

6 Nac edrychwch arnaf am fy [mod] yn ddu [ac] am i'r haul fyng-hanfod : meibion fymam a ddigiâſant wrthif, goſodâſant fi i gadw gwin-llannoedd [eraill,] fyng-winllan fy hun ni's cedwais.

7 Mynêga i mi'r hwn a hoffodd fy enaid pa lê y porthi [dy ddefaid ;] pa le y gorweddfeſi [hwynt] hanner dydd ; canys pa ham y byddaf megis yn ymdroi ym myſc diadellau dy gyfeillion ;

8 Oni wyddoſt, o honot ty hun y deccaf o'r gwragedd ; dos allan rhagot ar hŷd ôl y praidd, a phortha dy fynnod ger llaw preſſwylfeudd y bugeiliaid.

9 I'r meirch yng-herbydau Pharao i'th gyffelybais fyng-hyfeilles.

10 Hawddgar yw dy ruddiau yn y tlyſſau, a'th wddf yn y cadwyni.

11 Tlyſſau o aur, a boglynnau o arian a wnawn i ti.

12 Tra [ydoedd] y brenin ar ei fwrdd, fy Nardus i a roddodd ei arogl.

13 Fy annwylyd ſydd i'm yn bwyſi myrh, rhwng fy mronnau 'r erys.

14 Cangen o rawn Camphyr yw fy annwylyd i mi yng-winllannoedd Engedi.

15 Wele di yn deg fyng-hyfeilles, wele di yn hyfryd, [y mae i] ti lygaid colomennod.

16 Wele di fy annwylyd yn deg, ac yn hawddgar : ein gwely hefyd [ſydd] ir.

17 Swmmerau ein tai [ydynt] cedr-wŷdd, ein diſtau [ydynt] ffynnid-wŷdd.

## PEN. II.

Yr eglwys yn dymuno cael aros yng-hyſcod Criſt. 8 Ac yn hyfryd ganddi ei glywed ai weled. 14 Cyffelybir hi i golomen, ai gelynnion i lwynogod, ai hannwylyd i lwdn hydd.

RHoſyn y maes, a lili y dyffryn [ydwyf] fi.

2 Megis lili ym myſc y drain: felly [y mae] fyng-hyfeilles ym myſc y merched.

3 Megis afallen ym myſc prennau 'r coed, felly [y mae] fy annwylyd ym mhlith y meibion: chwennychais eiſtedd o honof dan ei gyſcod ef, canys ei ffrwyth [ſydd] felus i'm genau,

4 Efe a'm dug fi i'r gwin-dŷ, ai fâner arnaf [ydoedd] cariad.

5 Cynheliwch fi â gwîn, cryfhewch fi ag afalau, canys claf [ydwyf fi] o gariad.

6 Ei law aſſwy [ſydd] tann fy mhen, ai ddeheu-law ſydd yn fyng-hofleidio.

7 Merched Jeruſalem tynghedais chwi trwy iwrchod a hyddod y maes, na chyffrôch, ac na deffrôch fyng-hariad ymma hyd oni fynno hi ei hun.

8 [Dymma] lais fy annwylyd, wele ef yn dyfod, yn neidio ar y mynyddoedd, [ac] yn llammu ar y brynnau.

9 Tebyg yw fy annwylyd i iwrch neu lwdn hydd, wele ef yn ſefyll dann ein pared yn edrych trwy 'r ffeneſtri, [ac] yn ymddangos trwy 'r pilêrau.

10 Fy annwylyd a attebodd, ac a ddywedodd wrthif, cyfod ti fyng-hyfeilles, a thyret ti fy mhrydferth.

11 Canys wele y gaiaf a aeth heibio, y glaw a baſſiodd, [ac] aeth ymmaith.

12 Gwelwyd y blodau ar y ddaiar, daeth amſer pwngc-leiſio, clywyd llais y durtur yn ein gwlâd.

13 Y ffigus-bren a fwriodd allan ei ffigus irion, a'r gwin-wŷdd [eu] hegin grawn, [ac] a roddâſant arogl [teg:] cyfot ti fyng-hyfeilles, a thyret ti fy mhrydferch.

14 Fyng-holomen o holltau y graig, o loches y griſiau, gad ti i mi weled dy wyneb, [a] gad i mi glywed dy lais: canys dy lais [ſydd] beraidd, a'th olwg yn hawddgar.

15 Deliwch i ni y llwynogod, [ie] 'r llwynogod bychain y rhai a ddifwynant y gwinllannoedd, tra [fyddo] ein gwinllannoedd yn egin grawn-wîn.

16 Fy annwylyd [ſydd] eiddo fi, a minne yn eiddo yntef: yr hwn a ymborth ym myſc y lili.

17 Hyd oni wawrio 'r dydd, a chilio o'r cyſcodau: tro, bydd debyg fy annwylyd i iwrch, neu lwdn hydd yn y mynyddoedd Bather.

## PEN. III.

Yr eglwys mewn awydd i fwynhau Criſt, yn myned allan o anialwch y byd hwn iw drigfa nefol ef, yr hon ymma a gyffelybir i neuadd Salomon.

LLiw nos yn fyng-wely y ceiſiais 'r hwn a hoffodd fy enaid, ceiſiais ef, ac ni's cefais ef.

2 Codaf yn awr ac âf o amgylch i'r ddinas, trwy 'r heolydd a'r ſtrydoedd: ceiſiaf yr hwn a hoffodd fy enaid, ceiſiais ef, ac ni's cefais.

3 Y gwil-wŷr y rhai aent o amgylch i'r ddinas a'm cawſant: [gofynnais,] a welſoch chwi yr hwn ſydd hoff gan fy enaid?

4 Nid aethwn i nepell oddi wrthynt, hyd oni chefais yr hwn ſydd hoff gan fy enaid, deliais ef, ac ni's gollyngaf, hyd oni ddygwyf ef i dŷ fy mam, ac i gell yr hon a'm hymddug.

5 Merched Jeruſalem tynghedais chwi trwy iwrchod a hyddod y maes, na cyffrôch, ac na deffrôch fyng-hariad ymma hyd oni fynno hi ei hun.

6 Pwy [yw] hon ſydd yn dyfod i fynu o'r anialwch, megis colofnau mwg wedi ei phêr aroglu â Myrh, ac â thus [ac â] phob pêrlyſiau yr apothecari.

7 Wele wely Salomon, [y mae] tri vgain o gedyrn oi amgylch ef, [ſef] o gedyrn Iſrael,

8 Hwynt oll a wiſcant gleddyf, [ac] a ddyſcwyd [i] ryfel, pob vn ai gleddyf ar ei glun rhag ofn liw nôs.

9 Gwnaeth y brenin Salomon iddo balas o goed Libanus.

10 Ei bŷſt ef a wnaeth efe o arian, ei lawr o aur, ei lenni o borphor, ei ganol a balmantwyd â chariad i ferched Jeruſalem.

11 Ewch allan merched Sion, ac edrychwch ar y brenin Salomon yn y goron a'r hon y coronodd ei fam ef, yn y dydd y dyweddiwyd ef, ac yn y dydd y llawenychodd ei galon ef.

## PEN. IIII.

Amryw dlyſau rhianaidd yn arwyddoccau aml ddoniau 'r eglwys. 6 Criſt yn addo chwanegu y donniau hyn, a bod yn gydrychol ei hun: 9 Efe yn dangos ei ſerch ai awydd iw eglwys. 15 A gweddi 'r eglwys.

VVEle di yn deg fyng-hyfeilles, wele di yn deg, dy lygaid [ydynt] golomennaidd, rhwng dy lywethau dy wallt [ſydd] fel diadell o eifr, y rhai a ymlyfnhaſant ym mynydd Gilead.

2 Dy ddannedd [ydynt] fel diadell [o ddefaid] gogyfuwch, y rhai a ddaethant i fynu o'r olchfa, y rhai [oeddynt] bob vn yn dwyn dau oen, ac nid [oedd vn] ynddynt yn ddi-hepil.

3 Dy wefuſau [ydynt] fel edef loiw-goch, a'th barabl yn weddus: dy arleiſiau rhwng dy lywethau [ydynt] fel darn o bomgranad.

4 Dy wddf [ſydd] fel tŵr Dafydd, yr hwn a adailadwyd yn amddeffynfa, tariannau fîl ſydd yn crogi ynddo, [a] holl eſtylch y cedyrn.

5 Dy ddwy fron [ydynt] fel dau lwdn iwrch o efellion yn pori ym myſc lili.

6 Hyd oni wawrio 'r dydd, a chilio o'r cyſcodau âf i fynydd y Myrh, ac i fryn y Thus.

7 Ti oll [ydwyt] deg fyng-hyfeilles, ac nid oes ynot frychewyn.

8 [Tyret] gyd a'm fi o Lybanus [fy] nyweddi, tyret gyd a'm fi o Lybanus, cei edrych o benn Amana, o goppa Sanir, a Hermon, o

locheſau y llewod, [ac] o fynydd y llewpardiaid.

9 Lladratteaiſt fyng-halon, fy chwaer a'm dyweddi, lladratteaiſt fyng-halon ag vn o'th lygaid, [ac] ag vn gadwyn oddi wrth dy wddf.

10 Môr deg [yw] dy gariad fy chwaer, [a'm] dyweddi, pa faint gwell yw dy gariad na gwin? ac arogl dy olew, na'r holl bêr aroglau:

11 Dy wefuſau [fy] nyweddi ydynt yn diferu [fel] dil mêl, [y mae] mêl a llaeth tann dy dafod, ac arogl dy wiſcoedd fel arogl Libanus.

12 Gardd gloedic [yw] fy chwaer a'm dyweddi: ffynnon gloedic, [ie] ffynnon ſeliedic [yw.]

13 Dy blanhigion [ydynt fel] perllan o Bomgranadau, a ffrwyth peraidd: Camphir, a Nardus.

14 [Je] Nardus, a ſaphrwm, Calamus a Synamwn a phob prenn Thus, Myrh, ac Aloes, yng-hyd â phob rhagorol aroglau.

15 O ffynnon y gerddi, ô ffynnon y dyfroedd bywy rhai hefyd a ddiferant allan o Libanus.

16 Cyffroa di ogledd-wynt, a thyret ddeheuwynt, chwyth [ar] fyng-ardd, [fel y] gwaſcarer ei phêr aroglau: deued fy annwylyd iw ardd, a bwyttaed ffrwyth ei beraidd-dra ei hun.

## PEN. V.

Ydifeirwch yr eglwys am iddi beri iw chariad Criſt ddigio, a chilio oddi wrthi. 10 Godidawgrwydd Criſt yr hwn a ddigiaſe hi.

DEuthum i'm gardd fy chwaer [a'm] dyweddi, ceſclais fy Myrh gyd a'm pêr arogl, bwytteais fy nil gyd a'm mêl, yfais fyngwîn gyd a'm llaeth: bwytewch gyfeillion, yfwch, a gwnewch yn llawen [fy] rhai annwyl.

1 Myfi [oeddwn] yn cyſcu, a'm calon yn neffro [pan glywais] lais fy annwylyd yn curo [gan ywedyd]: fy chwaer, fyng-hyfeilles, fyng-holomen, fy mherffaith [riain] agor i mi, canys llawnwyd fy mhen â gwlith, a'm gwallt â defnynnau 'r nôs.

2 Dioſcais fy mhais, pa fodd y gwiſcaf hi: golchais fy nhraed pa fodd yr halogaf hwynt:

3 Fy annwylyd a eſtynnodd ei law drwy 'r twll, a'm calon a gyffrôdd ynof.

4 Mi a gyfodais i agori i'm annwylyd, yna fy nwylo a ddiferaſant Myrh, a'm byſedd Fyrh diferol ar hyd heſpennau y clô.

5 Agorais i'm annwylyd, yna fy annwylyd, a droaſe, ac a aethe heibio, llewygais pan leſarodd, ceiſiais, ac ni's cefais, gelwais ef, ond ni'm hattebodd.

6 Y gwil-wŷr y rhai a aent o amgylch y ddinas a'm cawſant, a'm tarawſant, [ac] a'm harchollaſant: gwil-wyr y caerau a ddugaſant fy moled oddi am danaf.

7 Merched Jeruſalem gorchymynnais i chwi, os caech fy annwylyd fynegu iddo ef, mai claf ydwyfi o gariad.

8 Beth [yw] dy anwylyd rhagor anwylyd [arall] y teccaf o'r gwragedd: beth [yw] dy anwylyd rhagor anwylyd [arall] pan orchymynnaiſt i ni felly:

9 Fy anwylyd [ſydd] wynn a gwridoc, yn rhagori ar ddeng-mil.

10 Ei benn [fel] darn o aur coeth, ei wallt yn grych-ddû fel brân.

11 Ei lygaid fel colomennod wrth afonydd dyfroedd, wedi eu golchi â llaeth wedi eu goſod fel gemmau mewn aur.

12 Ei ruddiau fel gardd-wely arogl-ber, o flodau pêr aroglau, ei wefuſau [fel] lili yn diferu Myrh diferol:

13 Ei ddwylo [ydynt fel] modrwyau aur, yn llawn o [feini] Tharſys, ei fol [fel] diſcleirdeb Jfori llawn o Saphyr.

14 Ei forddwydydd fel coloſnau Marmor wedi eu ſeilio ar wadnau o aur coeth, ei bryd fel Libanus, mor ddewiſol a Chedr-wydd.

15 Meluſter [yw geiriau] ei enau, ac efe oll yn hawddgar, dymma fy anwylyd, dymma fyng-hyfaill mau fi (ô ferched Jeruſalem.)

16 J ba le 'r aeth dy anwylyd di, y teccaf o wragedd: i ba le y troawdd dy anwylyd di, ac ni ai ceiſiwn ef gyd â thi:

## PEN. VI.

Yr eglwys yn credu yng-Hriſt, ac yn ymſicrhau oi drugaredd. 3 A Chriſt oi drugaredd yn ei gweled hithe trwy rym ei waed ef megis yn riain hawddgar.

FY anwylyd aeth i waered iw ardd, i'r pêr aroglaidd welau gerddi, i ymborthyn y gerddi, ac i gaſclu lili.

2 Myfi [ydwyf] eiddo fy anwylyd, a'm anwylyd eiddo finne, 'r hwn a ymbortha ym myſc y lili.

3 Teg [ydwyt] ti fyng-hyfeilles megis Thirza, gweddus megis Jeruſalem, [ac] ofnadwy megis rhai baneroc.

4 Troa dy lygaid oddi wrthif, canys hwynt a'm gorchfygaſant, dy wallt [ſydd] fel mintai o eifr, y rhai a ymlyfnhauaſant yn Gilead.

5 Dy ddannedd [ydynt] fel mintai o ddefaid y rhai a ddaethant i fynu o'r olchfa: y rhai ydynt bob vn yn dwyn dau oen, ac heb [vn] yn ddi-heppil yn eu myſc.

6 Dy arleiſiau rhwng dy lywethau [ſydd] fel darn pom-granad.

7 Tri vgain [ydynt] hwy y brenhineſau, a'r gordderch-wragedd yn bedwar vgain: a'r llangceſau heb rifedi.

8 Un [ydyw] hi fyng-holomen, fy mherffaith [riain,] vnic ei mam [yw] hi, cû [yw] hi gan yr hon ai heſcorodd: y merched ai gwelſant, ac a ddywedaſant, gwyn ei byd: y brenhineſau a'r gordderch wragedd ai canmolaſant.

9 Pwy [yw] hon a welir fel y wawr: yn deg fel y lleuad, yn bûr fel yr haul, yn ofnadwy

fel y rhai baneroc:

10 Euthum i wared i berllan y cnau, i edrych am ir-goed y dyffryn, i weled a flodeuaſe y win-wydden, i edrych a flodeuaſe y Pom-granadau.

11 Heb wybod o honof i'm goſododd fy enaid ar gerbydau fy mhobl foneddigaidd [i ddywedyd,]

12 Dychwel, dychwel y Sulamithes, dychwel, dychwel ac ni a edrychwn arnat: beth a welwch chwi yn y Sulamithes: megis tyrfa gwerſylloedd.

## PEN. VII.

Criſt i gadarnhau ffydd ei eglwys ſydd ymma yn dangos decced y gwele efe hi. 10 A'r eglwys er ei bod yn mwynhau Criſt ymma trwy ffydd ſydd yn chwennych bod gartref gyd ag ef, yn rhodio hyfryd feuſydd teyrnas nef.

MOr deg [yw] dy draed mewn eſcidiau ferch pendefig, cymmalau dy forddwydydd [ydynt] fel tlyſau o waith dwylo 'r cywraint.

2 Dy fogel [ſydd fel] gorflwch crwn heb eiſieu diod: dy fru fel twr gwenith wedi gaeu â lili.

3 Dy ddwy fron megis dau lwdn iwrch o efellion.

4 Dy wddf fel tŵr o Ifori, dy lygaid [fel] llynnoedd yn Heſbon wrth borth Bath-rabbim, dy drwyn fel tŵr Libanus yn edrych tua Damaſcus.

5 Dy ben [ſydd] arnat fel Carmel, a gwallt dy ben fel porphor-wiſc brenin wedi ei rhwymo ym myſc piſtyllau dyfroedd.

6 Mor deg ydwyt, ac mor hawddgar fyng-hariad mewn hyfrydwch.

7 Dy vchter ymma ſydd debyg i balm-wydden, a'th fronnau i ganghennau grawn.

8 Dywedais y dringaf i'r balm-wydden, ac ymaflaf yn ei cheingciau, ac yn awr dy fronnau fyddant megis grawn-ganghennau y win-wydden: ac arogl dy ffroenau megis afâlau.

9 A thaflod dy enau megis gwin da, yn myned at fy annwylyd yn iniawn, ac yn peri i wefuſau y rhai a gyſcant lefaru.

10 Eiddo fy annwylyd [ydwyf] fi, ac arnafi [y mae] ei ſerch ef.

11 Tyret fy annwylyd awn i'r maes, a lleteuwn yn y pen-trefydd.

12 Boreu-godwn i'r gwinllānoedd, edrychwn a flodeuodd y win-wydden, a agorodd egin y grawn-win, a flodeuodd y pomgranadau, yno y rhoddaf fy ſerch arnat.

13 Y Mandragorau a roddaſant arogledd wrth ein dryſſau, [a] phob godidawg ffrwythau newydd a hên y rhai a guddiais it fy annwylyd.

## PEN. VIII.

Awydd yr eglwys (yr hon oedd yn amſer Salomon o'r Iddewon yn vnic) i Griſt. 8 Ai gofal am ei chwaer yr hon oedd iw galw o'r cenhedloedd. 11 Gofal Criſt am ei eglwys, ac am bregethu 'r efengyl. 14 Yr eglwys yn hiraethu am ddydd y farn.

PWy a'th rydd megis brawd i'm, yn ſugno bronnau fy mam: [pe] i'th gawn allan cuſſanwn di, ac ni'm dirmygent.

2 Tywyſaf, [ac] arweiniaf di i dŷ fy mam [fel] i'm dyſcech fi, [ac fel] y parwyf it yfed o win arogl-ber [ac] o ſugn fy mhomgranadau.

3 Ei law aſſwy [ſydd] tann fy mhen, ai law ddehau a'm cofleidia.

4 Tyngedais chwi ferched Ieruſalem: na chyffroech, ac na ddeffroech fyng-hariad ymma hyd oni fynne hi ei hun:

5 Pwy [yw] hon ſydd yn dyfod i fynu o'r anialwch [ac] yn bwrw ei phwys ar ei hannwylyd? tann yr afallen i'th gyffroais, yno i'th eſcorodd dy fam, yno i'th eſcorodd yr hon a'th ymddug.

6 Goſot fi megis ſêl ar dy galon, [ac] fel ſêl ar dy fraich, canys cariad [ſydd] mor gryf ag angeu, [ac] eiddigedd mor greulon ag vffern, ei farwor [ydynt] farwor tanllyd, [o] fflam yr Arglwydd.

7 Dyfroedd lawer ni allant ddiffoddi y cariad, ac afonydd nis boddant: pe rhodde ŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid hynny.

8 [Y mae] i ni chwaer fechan, ac nid [oes] fronnau iddi, beth a wnawn i'n chwaer y dydd y chwedleuer am dani:

9 Os caer [yw] hi, adailadwn arni balas arian, os porth [yw] hi, caewn am dani yſtyllod Cedr-wŷdd.

10 Caer [ydwyfi] a'm bronnau fel tŷrau, yna 'r oeddwn yn ei olwg ef megis wedi cael tangneddyf.

11 Yr oedd gwin-llan i Salomon yn Baalhamon, efe a roddes y winllan at warcheidwaid, pob vn a ddyge am ei ffrwyth fil o [ſiclau] arian. Matth.22'33.

12 Fyng-winllan mau fi [fydd] ger fy mron, y mil [o ſiclau a roddir] i ti Salomon, a dau cant i'r rhai a gadwant ei ffrwyth.

13 O yr hon a drigi yn y gerddi, pregetha fi i'th gyfeillion, y rhai a wrandawant ar dy lais.

14 Bryſſia fy annwylyd a bydd debyg i iwrch neu lwdn hydd ar fynyddoedd y pêr-arogl.

*Terſyn Cân y Caniadau.*

# Llyfr Prophvvydoliaeth Eſay.

## PENNOD. I.

Aniolchgarwch a chyndynrwydd y bobl. 11 Eu llygredic waſanaeth i Dduw. 14 A dialedd Duw am hynny.

Num.12.6. 2.Bren.15.32. GWeledigaeth Eſay fab Amos yr hon a welodd efe am Iuda, ac Ieruſalem yn nyddiau Uzia, Iotham, Ahas, [ac] Hezecia brenhinoedd Iuda.

Deut.32.1. Deut.10.15. 2 Gwrandewch nefoedd, clyw dithe ddaiar, canys yr Arglwydd a lefarodd: megais, a meithrinais * feibion, a hwynt a wrthryfelaſant i'm herbyn.

3 Yr ŷch a edwyn ei feddiannudd, a'r aſſyn breſeb ei berchennog: [ond] Iſrael nid edwyn, fy mhobl ni ddeall.

4 Oh genhedlaeth bechadûrus, pobl llwythoc o anwiredd, hâd y rhai drygionus, meibion llygredic, gwrthodaſant yr Arglwydd, dirmygaſant Sanct Iſrael, [a] chiliaſant yn ôl.

5 I ba beth i'ch tarewir mwy ? cildynrwydd a chwanegwch: y pen oll [ſydd] glwyfus, a'r holl galon yn lleſc.

6 O wadn y troed hyd y pen, nid [oes] ddim cyfan ynddo [onid] archollion, a chleiſiau, a gweliau crawnllyd: [y rhai] ni waſcwyd, ac ni rwymwyd, ac ni chynêrwyd ag olew.

7 Y mae eich gwlâd yn anrhaithiedic, eich dinaſoedd wedi eu lloſci â thân, eich tîr a dieithriaid yn ei yſſu yn eich gŵydd, ac wedi ei anrheithio fel pe ymchwele eſtroniaid ef.

8 A merch Sîon a adewir megis llueſtŷ mewn gwinllan, megis lletŷ mewn gardd cucumerau, megis dinas warchaedic.

9 Oni buaſe i Arglwydd y lluoedd adel i ni megis ychydig weddill: fel Sodoma y buaſem, a chyffelyb fuaſem i Gomorra.

10 Gwrandewch air yr Arglwydd tywyſogion Sodoma: clywch gyfraith ein Duw ni pobl Gomorra.

Pſalm.50.13. ierem.6 20. amos.5.21. mich.6.7. 11 Beth [a fuddia] lluoſogrwydd eich aberthau i mi medd yr Arglwydd ? llawn ydwyf o boeth aberthau hyrddod, ac o fraſder [anifeiliaid] breiſion: * gwaed buſtych hefyd, ac ŵyn, a bychod ni ewyllyſiais.

12 Pan ddeloch i ymddangos ger fy mron, pwy a geiſiodd hyn ar eich llaw [ſef] ſathru fy llyſoedd ?

13 Na chwanegwch ddwyn offrwm yn ofer, arogl-darth ſydd ffiaidd gennif: ni allaf oddef [eich] newydd-loerau na'r Sabbothau gan gyhoeddi cymanfa, ac uchel-ŵyl, [canys] anwiredd [ydynt.]

14 Eich lleuadau newydd, a'ch gwylau goſodedic a gaſaodd fy enaid, y maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn.

15 A phan eſtynnoch eich dwylo y cuddiaf fy llygaid rhagoch: hefyd pan weddioch lawer ni wrandawaf: * eich dwylo ydynt lawn o waed. Eſay.59.3.

16 Ymolchwch, ymlanhewch, bwriwch ymmaith ddrygioni eich gweithredoedd oddi ger bron fy llygaid: peidiwch a gwneuthur drwg.

17 Dyſcwch wneuthur daioni, ceiſiwch farn, cyfarwyddwch y gorthrymmedic, bernwch [gyd a'r] ymddifad, dadleuwch [tros] y weddw.

18 Deuwch yr awr hon, ac ymreſymmwn medd yr Arglwydd, pe bydde eich pechodau fel porphor, ânt cyn wynned a'r eira, pe cochent fel ſcarlat, byddant fel gwlân.

19 Os mynnwch, ac os gwrandewch: daioni y tîr a fwyttewch.

20 Ond os gwrthodwch, ac [os] anufyddhewch, â chleddyf i'ch yſſir: canys genau yr Arglwydd ai llefarodd.

21 Pa wedd yr aeth y ddinas ffyddlawn yn buttain ? cyflawn [fu] o farn, lletuodd cyfiawnder ynddi: ac yr awr hon lleiddiaid [ſydd ynddi.]

22 Dy arian a aeth yn ſothach, dy wîn ſydd gymmyſclyd o ddyfroedd.

23 Dy dywyſogion [ydynt] gyndyn, ac yn gyfrannogion â lladron, pob un yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau: ni farnant yr ymddifad, a chwyn y weddw ni chaiff ddyfod attynt.

24 Am hynny medd Arglwydd Dduw y lluoedd [ſef] cadarn [Dduw]'r Iſrael: aha, ymgyſſuraf yn erbyn fyng-wrthwyneb-wŷr, a dialaf ar fyng-elynnion.

25 Yna y dychwelaf fy llaw arnat, ac a loſ-

caf hefyd dy ſothach fel pureiddfa: ac a baraf ymmaith dy holl alcam.

26 Cyweiriaf hefyd dy farn-wŷr fel cynt, a'th gynghoriaid megis yn y dechreu: wedi hynny i'th elwir yn ddinas gyfiawn, ac yn dref ffyddlon.

27 Sion a ryddheuir mewn barn, a'r rhai a ddychwelant ynddi mewn cyfiawnder.

Pſalm.92 9. 28 *Deſtruw y trawſion, a'r pechaduriaid [fydd] yng-hyd: a gwrthod-wŷr yr Arglwydd a ddarfyddant.

Deut.16.22. 29 Canys cywilyddiant o achos y *prennau y rhai a chwennychaſoch: a gwarthruddir chwi am y gerddi y rhai a ddetholaſoch.

30 Canys byddwch fel pren wedi ſyrthio ei ddalen, ac fel gardd yr hon nid [oes] ddyfroedd ynddi.

31 A'r cadarn fydd fel ſofl, ai weithudd fel gwreichionen: lloſcant ill dau yng-hyd, ac ni [bydd] diffoddudd.

### PEN. II.

Prophwydoliaeth am frenhiniaeth Criſt. 6 Beiau y bobl, a dialedd Duw am danynt.

Y Gair yr hwn a welodd Eſay mab Amos am Juda, ac Jeruſalem.

Mic.4.1. 2 Yna *y bydd yn y dyddiau diwethaf, fod mynydd tŷ 'r Arglwydd wedi ei barattoi ym mhen y mynyddoedd, ac yn dderchafedic goruwch y brynnau: a'r holl genhedloedd a ddylifant atto.

3 A phobloedd lawer a ânt, ac a ddywedant, deuwch, ac eſcynnwn i fynydd yr Arglwydd i dŷ Duw Jacob, ac efe a'n dyſc ni yn ei ffyrdd, a rhodiwn yn ei lwybrau ef: canys y gyfraith a aiff allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Jeruſalem.

4 Ac efe a farna rhwng y cenhedloedd, ac a gerydda bobloedd lawer. fel y dylliant eu cleddyfau yn geibiau, ai gwaew-ffyn yn bladuriau: ni chyfyd cenhedlaeth gleddyf yn erbyn cenhedlaeth, ac ni ddyſcant ryfela mwyach.

5 Tŷ Jacob deuwch, ac ni a rodiwn yngoleuni yr Arglwydd.

6 Canys gwrthodaiſt dy bobl [ſef] tŷ Jacob, o herwydd o'r dwyrain y llawnwyd hwynt [â drygioni,] a ſwyn-wŷr [ydynt] megis y Philiſtiaid: ac mewn plant dieithriaid yr ymddigonant.

7 Ai tîr hwynt oedd gyflawn o arian, ac aur, ac nid [oedd] diwedd ar eu tryſſorau, ai tîr hwynt oedd lawn o feirch, ac nid [oedd] diwedd ar eu cerbydau.

8 Eu tîr hwynt hefyd oedd gyflawn o eulynnod, i waith eu dwylo yr ymgrymmaſant [ſef] i'r hyn a wnelſe eu byſedd eu hun.

9 Je ymgrymmodd dŷn, ac ymoſtyngodd gŵr [ger bron delwau:] am hynny nac arbet tithe hwynt.

10 Dôs i'r graig, ac ymgudd yn y llwch rhac ofn yr Arglwydd, a rhac gogoniant ei fawredd ef.

11 Vchel-drem dŷn a iſelir, ac vchter dynnion a oſtyngir: a'r Arglwydd yn vnic a dderchefir yn y dydd hwnnw.

12 Canys dydd Arglwydd y lluoedd [fydd] ar bôb balch, ac vchel, ac ar bôb derchafedic, fel y goſtyngir ef,

13 Ac ar holl vchel, a derchafedic cedr-wydd Libanus: ac ar holl dderi Baſan,

14 Ac ar yr holl fynyddoedd vchel: ac ar yr holl frynnau derchafedic,

15 Ac ar bôb tŵr vchel: ac ar bôb magwyr gadarn,

16 Ac ar holl longau Tharſis: ac ar yr holl ddelwau prydferth.

17 Yna yr iſelir vchelder dŷn, ac y goſtyngir vchter dynnion: a'r Arglwydd yn vnic a dderchefir yn y dydd hwnnw.

18 A'r eulynnod yn hollawl a dyrr efe ymmaith.

19 Yna 'r ânt i *dyllau y creigiau, ac i ogofau llychlyd rhac ofn yr Arglwydd, a rhac gogoniant ei fawredd ef: pan gyfodo efe i ddeſtruwio y ddaiar. Oſea.10.8. luc 23.30. gwel.6.16. gwel.9.6.

20 Yn y dydd hwnnw y teifl dyn ei eulynnod arian, ai eulynnod aur (y rhai a wnaethant iddynt iw haddoli) i'r wadd, ac i'r ſtlymmod.

21 Gan fyned i agennau y creigiau, ac i goppâu y clogwyni rhac ofn yr Arglwydd, a rhac gogoniant ei fawredd ef: pan gyfodo efe i ddeſtruwio 'r ddaiar.

22 Peidiwch chwithau â'r dŷn yr hwn [ſydd] ag anadl yn ei ffroenau: canys am ba beth y perchir ef?

### PEN. III.

Coſpedigaeth ar y wlad. 9 Am ddigywilydd-dra y bobl. 14 Chwant y ſwyddogion. 16 A balchder y gwragedd.

CAnys wele Arglwydd Dduw y lluoedd a dynn ymmaith o Jeruſalem, ac o Juda y cynhaliaeth, a'r cryfder: [ſef] holl gynhaliaeth bara, a holl gynhaliaeth dwfr.

2 Y cadarn, a'r rhyfel-wr, y brawd-wr, a'r prophwyd, y ſynhwyrol, a'r hen-wr.

3 Tywyſog dêc a deugain, a'r anrhydeddus, y cynghor-wr hefyd, a'r doeth celfydd, a'r araithi-wr hyawdl.

4 A rhoddaf langciau yn dywyſogion iddynt, a bechgyn a arglwyddiaethant arnynt.

5 Felly y bobl a orthrymmir y naill gan y llall, a phob vn gan ei gyfaill: y bachgen yn erbyn yr hen-wr, a'r gwael yn erbyn yr anrhydeddus a ymfalchiant.

6 Canys gŵr a ymaifl yn ei frawd o dŷ ei dâd [gan ddywedyd] dillad [ſydd] gennit, tywyſog a fŷddi di i ni: fel [y gochelom] y cwymp hwn tann dy law di.

7 Yntef a dwng yn y dydd hwnnw gan ddywedyd, ni byddaf lywodraeth-wr, canys yn fy nhŷ nid [oes] fwyd, na dillad: na oſodwch fi yn dywyſog y bobl.

8 Canys cwympodd Jeruſalem, a ſyrthiodd

Juda,

Iuda, o herwydd eu tafod hwynt, ai gweithredoedd [fuant] yn erbyn yr Arglwydd, i gyffroi llygaid ei ogoniant ef.

9 Dull eu hwynebau hwynt a deſtiolaetha yn eu herbyn, eu pechod hefyd fel Sodoma a fynegant [ac] ni chelant: gwae eu heneidiau, canys talaſant ddrwg iddynt eu hunain.

10 Dywedwch mai da[fydd] i'r cyfiawn: canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhânt.

11 Gwae yr anwir drygionus: canys taledigaeth ei ddwy-law ei hun a fydd iddo.

12 Fy mhobl[ſydd]ai treth-wŷr yn fechgyn: a gwragedd a arglwyddiaethant arnynt: ô fy mhobl y rhai a'th dywyſant di[dy] gefeilliorni y maent, a ffordd dy lwybrau a guddiaſant.

13 Yr Arglwydd ſy yn ſefyll i ymryſon: yr Arglwydd ſy yn ſefyll i farnu y bobloedd.

14 Yr Arglwydd a ddaw mewn barn gyd â henuriaid ei bobl, ai dywyſogion: canys chwi a boraſoch fyng-winllan, anrhaith y tlawd[ſydd] yn eich tai chwi.

15 Beth[ſydd] i chwi a guroch ar fy mhobl? ac a friwoch ar wynebau y tlodion? medd Arglwydd Dduw y lluoedd,

16 A'r Arglwydd a ddywedodd, o herwydd balchio o ferched Sion, a rhodio â gwddf eſtynnedic, ac yn amneidio ai llygaid: gan rodio a rhygyngu y cerddent, ac y tryſtient ai traed,

17 Am hynny y clafria yr Arglwydd gorynnau merched Sîon: yr Arglwydd hefyd a ddinoetha eu gwarthle hwynt.

18 Yn y dydd hwnnw y tynn yr Arglwydd ymmaith addurn yr eſcidiau, y rhwyd-waith hefyd, a'r lloerawc wiſcoedd,

19 Y pêr-arogl, a'r breichledau, a'r moledau.

20 Y pen-guwch a'r llawdrau, a'r ſnodennau, a'r ddwyfronegau, a'r cluſt-dlyſau,

21 Y modrwyau, ac addurn-wiſc y trwyn,

22 Y gwiſcoedd ſymmud-liw, ai hefyſau: y miſyrnau hefyd, a'r pyrſau.

23 Y drychau hefyd, ar lliain main-wych y coccwllau hefyd a'r gynau,

24 A bydd yn lle per-arogl ddrewi, bydd hefyd yn lle gwregys rwygiad, ac yn lle iawn drefniad[gwallt]foelni, ac yn lle dwyfronec gwregys o ſach-liain: [a] lloſcfa yn lle prydferthwch.

25 Dy ddynnion a ſyrthiant drwy 'r cleddyf: a'th gadernid drwy ryfel.

26 Felly ei phyrth hi a oſidiant, ac a alarant: ac yn wâg yr eiſtedd hi ar y ddaiar.

## PEN. IIII.

Anamled dyn wedi diſetha Ieruſalem. 2 A daioni Duw i'r gweddill.

AC yn y dydd hwnnw ſaith o wragedd a ymaflant mewn vn gŵr gan ddywedyd: ein bara ein hun a fwyttawn, a'n dillad ein hun a wiſcwn, yn vnic galwer dy enw di arnóm ni: cymmer ymmaith ein gwarth ni.

2 Y pryd hynny y bydd blaguryn yr Arglwydd yn brydferthwch, ac yn ogoniant: a ffrwyth y ddaiar yn rhagoriaeth, ac yn degwch i'r rhai a ddiangaſant o Iſrael.

3 Yna y bydd[am]yr hwn a adewir yn Sîon, ac a weddillir yn Ieruſalem, y dywedir wrtho, ô ſanct: [ſef]pawb a'r a ſcrifennwyd* ym mhlith y rhai byw yn Ieruſalem. Exod.32.32.

4 Pan olcho 'r Arglwydd frynti merched Sîon, a charthu gwaed Ieruſalem oi chanol mewn yſpryd barn, ac mewn yſpryd gwres,

5 Yna 'r Arglwydd a grea ar bôb trigfa o fynydd Sîon, ac ar ei gymanfaoedd*gwmwl y dydd, mŵg hefyd, a llewyrch tân fflamllyd y nôs: canys ar bôb gogoniant [y bydd]amddeffyn. Exod.13.21.

6 A phabell fydd yn gyſcod y dydd rhac gwrês, yn ddiogelwch hefyd, ac yn ymguddfa rhac temeſtl, a rhac glaw.

## PEN. V.

Dammeg y winllan yn dangos daioni Duw iw bobl. 7 Eu drigioni hwythau. 13 A choſpedigaeth Duw am hynny.

CAnaf yr awr hon i'm hannwylyd ganiad fy annwylyd am ei winllan: * gwinllan ſydd i'm hânwylyd mewn brynn tra ffrwythlon. Iere.2.21. mat.21.33.

2 Ac efe ai cloddiodd hi, ac ai digarregodd, ac ai plannodd o'r win-wydden oref, ac a adailadodd dŵr yn ei chanol, a thrychodd hefyd winwryf ynddi: yna y diſgwiliodd [wrthi] ddwyn gwrawn-win, ond hi a ddûg rawn gwyllion.

3 Ac yr awr hon preſwylwŷr Ieruſalem, a gwŷr Iuda, bernwch attolwg rhyngofi a'm gwinllan.

4 Beth[oedd] iw wneuthur ychwaneg i'm gwinllan nag a wneuthum ynddi? pa ham a mi yn diſgwil iddi ddwyn grawn-wîn, y dûg hi rawn gwyllion?

5 Ac yr awr hon yr hyſpyſaf i chwi yr hyn yr ydwyf ar ei wneuthur i'm gwinllan: tynnaf ymmaith ei chae fel y porer hi, gan dryllio ei chlawdd fel y byddo hi yn ſathrfa.

6 A mi ai goſodaf hi yn ddifrod, ni yſcythrir hi, ac ni chwynnir hi, onid mieri a drain a gyfyd: ac i'r cwmylau y gorchymynnaf na lawiont law arni.

7 Diau gwinllan Arglwydd y lluoedd[yw] tŷ Iſrael, a gwŷr Iuda [yw] ei blanhigyn hyfryd ef: ac efe a ddiſgwiliodd am farn, ac wele blâ, am gyfiawnder, ac wele lef.

8 Gwae y rhai ſy yn cyſylldu tŷ at dŷ, ac yn cwplyſſu maes wrth faes: hyd oni byddo eiſieu lle, ac y trigoch chwi yn vnic yng-hanol y tîr.

9 Lle y clywais[y dywedodd]Arglwydd y lluoedd, nid[byw fi]oni bydd tai lawer, mawrion a thêg yn anrhaith heb drigiannudd.

10 Canys dêc cyfer o winllan a ddygant vn Bath, a lle Gomer a ddwg Epha.

11 Gwae y rhai a gyfodant yn foreu,[ac] a ddilynant ddiod gadarn, a arhoſant hyd yr hwyr [hyd oni]enynno y gwîn hwynt.

12 Ac yn eu gwleddoedd hwynt, y mae y delyn, a'r nabel, y tympan, y bibell hefyd, a'r

gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwy-law ef ni welant.

13 Am hynny y caeth-gludwyd fy mhobl mau fi o eiſie gwybodaeth, ai gogoniāt [ydyw] dynnion newynog, ai gweryn a wywodd gan ſyched.

14 Herwydd hynny 'r ymehangodd vffern ei hun, ac yr agorodd ei ſafn yn anferth, fel y diſcynne [yno] eu gogoniant, ai gweryn, ai rhwyſc, a'r hwn a lawenycho ynddi.

15 Felly y crymmir dyn, ac y daroſtyngir gŵr: a llygaid y rhai vchel a iſſelir.

16 Ac Arglwydd y lluoedd a dderchefir mewn barn: a'r Duw ſanctaidd a ſancteddiwyd mewn cyfiawnder.

17 Yr ŵyn hefyd a borant yn ôl eu harfer: a dieithriaid a fwyttânt ddiffaithfaoedd y breiſion.

18 Gwae y rhai a dynnant anwiredd â rheffynnau oferedd: a phechod megis â rhaffau menn:

2.Pet 3.4

19 Y rhai a ddywedant, bryſſied, a chyflymmed ei orchwyl fel y gwelom: neſaed hefyd, a deued cyngor Sanct yr Iſrael fel y gwyypom.

20 Gwae y rhai a ddywedant am y drwg da [yw,] ac am y da, drwg [yw:] gan oſod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch, y rhai a oſodant chwerw am felys, a melys am chwerw.

21 Gwae y rhai ydynt ddoethion yn eu golwg eu hun: a'r rhai deallgar yn eu bryd eu hun.

22 Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynnion nerthol i gymmyſcu diod gadarn.

23 Y rhai a gyfiawnhânt yr anwir er gobr, ac a gymmerant ymmaith gyfiawnder y rhai cyfiawn oddi ganddynt.

24 Am hynny megis ac yr yſſa y fflagl dân y ſofl, ar y difâ y fflam y mân-us: [felly] y bydd eu gwreiddyn hwynt yn bydredd, ai blaguryn a gyfyd i fynu fel llŵch: canys dirmygaſant gyfraith Arglwydd y lluoedd, a diyſtyraſant ymadrodd Sanct yr Iſrael.

25 Am hynny 'r enynnodd llîd yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, ac yr eſtynnodd efe ei law arnynt, ac ai tarawodd hwynt, fel y dychrynodd y mynyddoedd, a bu eu celanedd hwynt yn rhwygedic yng-hanol yr heolydd: er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond etto [y mae] ei law ef yn eſtynnedic.

26 Ac efe a gyfyd fâner i'r cenhedloedd o bell, ac a chwibiana arnynt hwy o eithaf y ddaiar: ac wele ar frŷs yn fuan y deuant.

27 Ni [bydd vn] blin, na thrangwyddedic yn eu plith, ni huna, ac ni chwſc, ac ni ddatodir gwregys ei lwynau: ac ni ddryllir carre ei eſcidiau.

28 Yr hwn [fydd] ai ſaethau yn llymmion, ai holl fwâu yn anneloc: carnau ei feirch ef ydynt fel calleſtr, ai olwynion ef fel corwynt.

29 Ei ruad [fydd] fel llew, efe a rua fel cenawon llew, efe a chwyrna hefyd, ac a ymeifl yn yr yſclyfaeth, efe a ddiangc hefyd, ac ni [bydd] achubudd.

30 Ac efe a rua arnynt y dydd hwnnw, fel rhuad y môr: yna yr edrychir tua 'r ddaiar, ac wele dywyllwch, [a] chyfyngder, a'r goleuni a dywyllir yn ei nefoedd.

### PEN. VI.

Eſay yn dangos ei alwedigaeth, 9 Cyndynrwydd y bobl, 11 Diniſtr y wlâd. 13 Am y gweddill a ddiango.

YN y flwyddyn y bu farw y brenin Uzíah y gwelais hefyd yr Arglwydd yn eiſtedd ar eiſteddfa vchel, dderchafedic: ai odrau ef yn llenwi y Deml.

2 Y Seraphiaid oeddynt yn ſefyll oddi ar hynny: chwech aden ydoedd i bôb vn: â dwy y toe ei wyneb, ac â dwy y toe ei draed, ac â dwy yr eheda.

3 A llefodd y naill wrth y llall, ac a ddywedodd: Sanct, Sanct, Sanct Arglwydd y lluoedd, yr holl ddaiar ſydd lawn oi ogoniant ef.

4 A phyſt y rhiniogau a ſymmudaſant gan y llef yn llefain: a'r tŷ a lanwyd gan fŵg.

5 Yna y dywedais, gwae fi, canys darfu am danaf, o herwydd gŵr halogedic [ei] wefuſau [ydwyf,] ac ym myſc pobl halogedic o wefuſau yr ydwyf yn trigo: canys fy llygaid a welſant y brenin [ſef] Arglwydd y lluoedd.

6 Yna yr ehedodd attaf vn o'r Seraphiaid, ac yn ei law farworyn yr hwn a gymmeraſe efe oddi ar yr allor mewn gefail.

7 Ac efe a gyffyrddodd a'm genau, ac a ddywedodd, wele cyffyrddodd hwn a'th wefuſau, fel yr ymadawo dy anwiredd, ac y glanhauir dy bechod.

8 Clywais hefyd lêf yr Arglwydd yn dywedyd: pwy a anfonaf? a phwy a aiff troſom ni? yna y dywedais, (wele fi) anfon fi.

9 Ac efe a ddywedodd, dôs, a dywet wrth y bobl hyn: * gan glywed y clywch, ond ni ddeallwch, a chan weled y gwelwch, ond nis gwybyddwch.

Mat.13.14. act.28.26. rhufei.11.8.

10 Braſſha galon y bobl hyn, a thrymha eu cluſtiau, a chaea di eu llygaid: rhag iddynt weled ai llygaid, a chlywed ai cluſtiau, a deall ai calon, a dychwelyd, ai meddiginiaethu.

11 A dywedais, hyd pa hyd Arglwydd? ac efe a attebodd, hyd oni anrheithir y dinaſoedd heb drigiannudd, a'r tai heb ddŷn, a gwneuthur y wlâd yn ddiffaethwch.

12 A'r Arglwydd a bellhâ ddynion, a [bydd] diniſtr mawr yng-hanol y wlâd.

13 Ac etto [bydd] ynddi ddegymmiad, a hi a ddychwel, yna y bydd yn ddifrod: yr hâd ſanctaidd [yw] ei battaliaeth hi, fel y llwyfen a'r dderwen y rhai wrth fwrriad eu [dail y bydd] ſylwedd ynddynt.

### PEN. VII.

Am ryfel y Syriaid yn erbyn Ieruſalem. 14 Ac am fab y forwyn.

2.Bren.16.5. A Chyn nyddiau * Ahaz fab Jotham, fab Uzia frenin Juda, y daeth Rezin brenin Syria,a Phecah mab Remaliah brenin Jſrael i fynu [yn erbyn] Jeruſalem i ryfela arni: ond ni allodd efe ymladd iw herbyn.

Geneſ.48.19. 2 A mynegwyd i dŷ Ddafydd gan ddywedyd, Syria a gydtunodd ag *Ephraim: am hynny ei galon ef a gyffrôdd, a chalon ei bobl, megis y cyffrû prennau y coed o flaen y gwynt.

3 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrth Eſay, dôs allan yr awr hon i gyfarfod ag Ahaz ti a Sear Jaſub dy fâb, wrth ymyl aber y llynn vchaf, ar lwybr maes y pann-wr:

4 A dywet wrtho ef, ymgadw a bydd lonydd, nac ofna, ac na feddalhaed dy galon rhag dwy gloren y pentewynnion myglyd hyn: [ſef] rhag enynniad llid Rezin, a Syria, a mab Remaliah.

5 Canys Syria a ymgynghorodd gyngor drwg yn dy erbyn: [felly] Ephraim, a mab Remaliah gan ddywedyd:

6 Eſcynnwn yn erbyn Juda, a blinwn hi, torrwn hi hefyd attom, ac vrddwn fab Tabel yn frenin ynddi.

7 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ni ſaif, ac ni bydd [hyn.]

8 Canys pen Syria [yw] Damaſcus, a phen Damaſcus Rezin: ac o fewn pum mlynedd a thri vgain y difeir Ephraim o [fod] yn bobl.

9 Hefyd pen Ephraim [yw] Samaria, a phen Samaria [yw] mab Remaliah: oni chredwch, diau na'ch ſiccrheuir chwi.

10 A'r Arglwydd a chwanegodd lefaru wrth Ahaz gan ddywedyd.

11 Gofyn it arwydd gan yr Arglwydd dy Dduw: cais o'r dyfnder, neu o'r vchelder oddi arnodd.

12 Yna y dywedodd Ahaz, ni ofynnaf, ac ni themptiaf yr Arglwydd.

13 A dywedodd yntef, gwrandewch yr awr hon tŷ Ddafydd, ai bychan gennwch flino dynion, yni flinoch hefyd fy Nuw?

14 Am hynny yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd: wele y forwyn a fydd feichiog, ac y hi a eſcor ar fab, a thi a elwi ei enw ef, Jmmanu-El.

15 Ymenyn a mêl a fwyttu efe, hyd onni fedro efe ymwrthod a'r drwg, ac ethol y dâ.

16 Canys cyn medru o'r bachgen ymwrthodd a'r drwg, ac ethol y da, y gwrthodir y wlâd yr hon a ffieiddiaiſt heb ei dau frenin.

17 Yr Arglwydd a ddŵg arnat ti, ac ar dy bobl, ac ar dŷ dy dadau ddyddiau y rhai ni ddaethant er y dydd yr ymadawodd Ephraim oddi wrth Juda, ſef brenin Aſſyria.

18 A bydd yn y dydd hwnnw i'r Arglwydd chwibianu ar y gwybedyn yr hwn [ſydd] yn eithaf afonydd yr Aipht, ac ar y wenynen yr hon [ſydd] yn nhir Aſſyria.

19 A hwynt oll a ddeuant, ac a orphwyſant yn nyffrynnoedd y diffaethwch, ac ynghromlechydd y creigiau: hefyd yn yr yſpydded oll, ac yn y perthi oll.

20 Yn y dydd hwnnw yr eillia'r Arglwydd (a'r ellin yr hwn a gyflogir o'r tu hwnt i'r afon [ſef] â brenin Aſſyria) y pen, a blew'r traed, a'r farf hefyd a ddifa efe.

21 A bydd yn y dydd hwnnw i ŵr fagi anneir-fûwch, a dwy ddafad.

22 Bydd hefyd o amlder y llaeth a roddant, iddo fwytta ymenyn, a mêl a fwyttu y ſawl a adewir o fewn y tîr.

23 A bydd y dydd hwnnw, fod pob lle yr hwn y mae ynddo fil o win-wydd [yn talu] mîl o arian [bathol] yn ddrain, ac yn fieri.

24 A ſaethau, ac â bwâu y daw yno: canys yn ddrain, ac yn fieri y bydd yr holl wlâd.

25 Eithr yr holl fynyddoedd y rhai a geibiir â cheibiau ni ddaw yno ofn drain na mieri: ond bydd yn hebryngfa gwarthec, ac yn ſathrfa defaid.

## PEN. VIII.

Yr Aſſyriaid yn caethiwo Iſrael ac Iuda. 9 Diniſtr yr Aſſyriaid: 14 y maen tramgwydd. 19 Am ddewiniaeth.

A'R Arglwydd a ddywedodd wrthif, cymmer it ddalen fawr, ac ſcrifēna arni â phin dyn: Bryſsiwch i'r yſpail, pryſſurwch i'r anrhaith.

2 Yna y gelwais yn dyſt i mi dyſtion ffyddlon, ſef Uria yr offeiriad, a Zecariah fab Barachiah.

3 Yna y neſſeais at y brophwydes, ac hi a feichiogodd, ac a eſcorodd ar fab: a dywedodd yr Arglwydd wrthif, galw ei enw ef, Bryſsiwch i'r yſpail, pryſſurwch i'r anrhaith.

4 Canys cyn y medro 'r bachgen alw fy nhad, neu fy mam, golud Damaſcus, ac yſpail Samaria a ddygir o flaen brenin Aſſyria.

5 A chwanegodd yr Arglwydd lefaru wrthif y chwaneg gan ddywedyd,

6 O herwydd i'r bobl hyn wrthod dyfroedd Siloh y rhai ynt yn myned yn ddiſtaw, [a chymmeryd] llawenydd o Rezin, a mab Remaliah:

7 Am hynny wele'r Arglwydd yn dwyn arnynt ddyfroedd yr afon yn gryfion, ac yn fawrion [ſef] brenin Aſſyria, ai holl gadernid ef, ac efe a eſcyn ar ei holl afonydd, ac ar ei holl geulannau ef.

8 Je trwy Juda y treiddia efe, y llifa, ac yr aiff trwodd, efe a aiff hyd y gwddf: ac eſtynniad ei adenydd ef fydd lloned lléd dy dîr di ô Jmmanu-El.

9 Ymrwygwch bobloedd, ac ymddrylliwch, gwrandewch holl belledigion y tir: ymwregyſwch, ac ymddrylliwch, ymwregyſwch, ac ymddrylliwch.

10 Ymgynghorwch gyngor, ac fe a ddiddymmir, treuthwch chwedl, ac ni ſaif: canys Duw [ſydd] gyd â ni.

11 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif mewn prophwydoliaeth gref: ac efe a'm dyſcodd rhac myned i ffordd y bobl hyn, gan ddywedyd:

12 Na ddywedwch, [gwnawn] gyngrair a'r rhai oll y dywedo y bobl hyn [gwnawn] gyngrair: nac ofnwch ychwaith fel hwynt, ac nac arſwydwch.

13 [Ond] Arglwydd y lluoedd a ſancteiddiwch, ac efe [fydd] eich ofn, efe hefyd [fydd] eich arſwyd.

Luc.2.34. Rhuf.9.33. 1.Pet.2.7. 14 Ac efe a fydd yn noddfa, ac yn faen tramgwydd, ac yn graig ſyrthiad i ddau dŷ Iſrael, yn fagl, ac yn rhwyd i breſſwylwŷr Jeruſalem.

15 A llawer wrth y rhai hyn a dramgwyddant, ac a ſyrthiant, ac a ddryllir, a rwydir hefyd, ac a ddelir.

16 Rhwym y deſtiolaeth, ſelia y gyfraith gyd a'm diſcyblion.

17 A minnef a ddiſgwiliaf am yr Arglwydd ſydd yn cuddio ei wyneb oddi wrth dŷ Jacob, ac a wiliaf wrtho.

18 Wele fi a'r plant y rhai a roddes yr Arglwydd i mi yn arwyddion, ac yn rhyfeddodau yn Iſrael, oddi wrth Arglwydd y lluoedd yr hwn ſydd yn trigo ym mynydd Sion.

19 A phan ddywedant wrthych, ymofynnwch a'r ſwynyddion, ac a'r dewiniaid y rhai ſy yn huſting, ac yn ſibrwd: [dywedwch,] onid ai Duw'r ymofyn pobl [heb fyned] oddi wrth y byw, at y meirw?

20 [Ewch] at y gyfraith, ac at y deſtiolaeth: onid y rhai nid [oes] oleuni ynddynt a ddywedant yn ôl y gair hwn?

21 Yna y gorthrymmedic, a'r newynoc a dramwya ynddi: a bydd pan newyno efe yr ymddigia, ac y melldiga ei frenin, ai Dduw, os tremmia i fynu,

22 Neu edrych ar y ddaiar, wele yna drallod, a thywyllwch, niwl, cyfyngder: a bydd wedi ei wthio mewn tywyllni.

23 Etto ni [bydd] tywyllwch yn ôl ei gofid megis yn yr amſer cyntaf y cyffyrddodd yn yſcafn dir Zabulon, a thîr Nephthali, ac wedi hynny yn ddwyſach y cyffyrddodd [wrth] ffordd y môr tu hwynt i'r Iorddonen yn Galilee y cenhedloedd,

## PEN. IX.

Etholedigaeth y cenhedloedd. 6 Ganedigaeth
Griſt ai lywodraeth. 14 Coſp ei ddirmyg-wyr ef.

Y Bobl a rodiaſant mewn tywyllwch, a welſant oleuni mawr: y rhai oeddynt yn aros yn nhir cyſcod angeu * y llewyrchodd goleuni arnynt. Mat.4.15.

2 Amlheaiſt y genhedlaeth, ni fawrheaiſt lawenydd, llawenychaſant ger dy fron, megis y llawenydd yr hwn fydd amſer cynhaiaf, [ac] megis y llawenychant wrth rannu yſpail.

Barn.7.22. 3 Canys iau ei faich ef, a ffon ei yſcwydd ef, gwialen ei orthrymder ef a ddrylliaiſt megis yn nydd Madian.

4 Diau pob rhyfel-wr a ryfela mewn trwſt, a dillad wedi try baeddu mewn gwaed: ond bydd efe [a ryfelo drwy loſciad [ac] yſſiad tân.

5 Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei yſcwydd ef: a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghor-wr, Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywyſog tangneddyf.

6 A'r amlder ei lywodraeth, a thangneddyf ni [bydd] diwedd: [efe a eiſtedd] a'r orſeddfa Dafydd, ac ar ei frenhiniaeth ef iw threfnu hi, ac iw chadarnhau mewn barn, ac mewn cyfiawnder, o'r pryd hyn, ac hyd byth: zêl Arglwydd y lluoedd a wna hyn.

7 Yr Arglwydd a anfonodd air i Jacob: ac a ſyrthiodd ar Iſrael.

8 Holl bobl Ephraim hefyd, a thrigiannudd Samaria a fedrant ddywedyd mewn balchder, ac mewn mawredd calon,

9 Y priddfeini a ſyrthiaſant, ond â cherric nadd yr adailadwn: y Sycomor-wŷdd a dorrwyd, ond ni ai cyweiriwn â chedr-wydd.

10 Er hynny'r Arglwydd a dderchafa wrthwyneb-wŷr Rezin yn ei erbyn, ac a gymmyſc ei elynnion.

11 Y Syriaid [fydd] o'r blaen, y Philiſtiaid hefyd o'r ôl, fel yr yſſant Iſrael yn ſafnrhwth: er hyn ei gyd ni ddychwelodd ei lid ef, onid etto [y mae] ei law ef yn eſtynnedic.

12 A'r bobl ni ddychwelaſant at yr hwn ai tarawodd: ac ni cheiſiaſant Arglwydd y lluoedd.

13 Am hynny y torrodd yr Arglwydd o Iſrael y pen a'r gynffon, y gangen a'r gorſen yn yr un dydd.

14 Yr hen-wr a'r anrhydeddus yw'r pen: y prophwyd yr hwn ſydd yn dyſcu celwydd yw'r gynffon.

15 Canys cyfarwydd-wŷr y bobl hyn ydynt yn cyfeiliorni: a llyngcwyd y rhai a gyfarwyddaſant.

16 Am hynny ni lawenhâ'r Arglwydd wrth ei wŷr ieuaingc ef, ac wrth ei ymddifaid ef ai weddwon ni thoſturia: canys pob vn o honynt [ſydd] ragrithi-wr, a drygionus, a phob genau yn traethu ynfydrwydd: er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, onid etto [y mae] ei law ef yn eſtynnedic.

17 O herwydd anwiredd a lyſc fel tân, drain, a mieri a yſſa efe: ac a gynne yn nryſni y coed: ac hwynt a dderchafant [fel] ymdderchafiad mwg.

18 Gan ddigofaint Arglwydd y lluoedd y tywylla'r ddaiar, a bydd y bobl fel ymborth tân: nid eiriach neb ei gilydd.

19 Ond efe a rwyga ar y llaw ddehau, ac a newyna, bwytta hefyd ar y llaw aſſwy, ond ni's digonir: pawb a fwytta gig ei fraich ei hun.

20 Manaſſes [a fwytta] Ephraim, ac Ephraim Manaſſes, hwythau yng-hyd yn erbyn Juda: er hyn oll ni ddychwelodd ei lid ef, ond

etto [y mae] ei law ef yn eſtynnedic.

## PEN. X.

Trawsſter ſwyddogion Iſrael. 5 Duw yn eu coſpi hwynt trwy 'r Aſſyriaid: y rhai hefyd a ddiniſtriwyd am eu creulondeb. 21 Iechydwriaeth gweddill Iſrael.

GWae y rhai ſy yn gwneuthur deddfau anwir, a'r rhai ſy yn peri iw ſcrifennyddion ſcrifennu blinder,

2 I ymchwelyd y tlodion oddi wrth [eu] cyfiawnder, ac i dreiſio barn anghenogion fy mhobl: fel y byddo y gweddwon yn yſpail iddynt, ac yr anrheithiant yr ymddifaid.

3 A pha beth a wnewch yn nydd yr ymweliad, a'r deſtruw a ddaw o bell? at bwy y ffoiwch am gynhorthwy? a pha le y gedwch eich gogoniant?

4 Hebo fi y cwympant tann yr hwn a rwymwyd, a thann y rhai a laddwyd y ſyrthiant: er hyn oll ni ddychwelodd ei lîd ef, onid etto [y mae] ei law ef yn eſtynnedic.

5 Gwae Aſſur gwialen fy llîd, canys y ffon yn eu llaw hwynt [yw] fy nigofaint.

6 At genhedlaeth druthiawc yr anfonaf ef, ac oddi ar bobl [wedi haeddu] fy nigter gorchymynnaf iddo yſpeilio yſpail, ac yſclyfaethu yſclyfaeth, ai goſod hwynt yn ſathrfa megis tom yr heolydd.

7 Ond nid felly y tybia efe, ac nid felly y meddwl ei galon, eithr [bydd] yn ei fryd ddifetha, a thorri ymmaith genhedlaethau [lawer] nid ychydig.

8 Canys efe a ddywed: onid [yw] fy nhywyſogion eu gyd yn frenhinoedd?

9 Onid fel Carcamis [yw] Calno? onid fel Arphad [yw] Hamath? onid fel Damaſcus [yw] Samaria?

10 Megis y cyrhaeddodd fy llaw deyrnaſoedd yr eulynnod: felly [y cyredd fy llaw i] eu delwau hwynt [allan] o Jeruſalem, ac o Samaria.

11 Ond megis y gwneuthum i Samaria, ac iw heulynnod? felly y gwnaf i Jeruſalem ac iw delwau hithe?

12 A bydd pan gyflawno 'r Arglwydd ei holl waith ym mynydd Sion, ac yn Jeruſalem: yr ymwelaf â ffrwyth mawredd calon brenin Aſſur, ac â gogoniant vchelder ei lygaid ef.

13 Canys dywedodd efe, drwy nerth fy llaw fy hun y gwneuthum [hyn] ac yn fy noethineb fy hun, o herwydd deallgar ydwyf: am hynny y ſymmudais derfynau pobloedd, ai tryſſorau a yſpeiliais, ac a fwriais i'r llawr yn rymmus y trigolion.

14 A'm llaw a gafodd gyfoeth y bobloedd fel nŷth, ac megis y ceſclir ŵyau wedi eu gado y ceſclais yr holl ddaiar, ac nid oedd a ſymmude aden, nac a agore ſafn, nac a yngene.

15 A ymffroſtia 'r fwyall yn erbyn yr hwn a gymmyno â hi? a ymfawrhyga y llif yn erbyn yr hwn ai cyfodo? megis pe ymdderchafe gwialen yn erbyn y rhai ai codent hi i fynu, [neu] megis pe ymdderchafe ffon na [bydde] yn bren.

16 Am hynny 'r hebrwng Arglwydd Dduw y lluoedd ym mhlith ei freiſion ef gulni: a thān ei ogoniāt ef y llyſc lloſciad megis lloſciad tân.

17 A bydd goleuni Iſrael yn dân, ai Sanct ef yn fflam: yna y llyſc efe ef, ac yr yſſa ei ddrain, ai fieri mewn vn dydd.

18 Gogoniant ei goed hefyd, ai ddol-dir a yſſa efe yn gwbl: a bydd megis [llu wedi] lleſmeirio yr baner-wr.

19 A phrennau gweddill ei goed ef a fyddant [o] rifedi: fel y rhifo plentyn hwynt.

20 A bydd yn y dydd hwnnw, na chwanega mwyach weddill Iſrael, a'r rhai a ddiangodd o dŷ Jacob ymgynnal ar yr hwn ai tarawodd: onid pwyſant ar yr Arglwydd [ſef] Sanct Iſrael mewn gwirionedd.

21 Y gweddill a ddychwel [ſef] gweddill Jacob at y Duw cadarn.

22 Canys pe bydde dy bobl di ô Iſrael fel tywod y môr, y gweddill a ddychwel atto ef: darfodiad terfynedic a lifa drosodd [o] gyfiawnder.

23 Canys darfodigaeth a [honno] yn derfynedic a wna Arglwydd Dduw y lluoedd ynghanol yr holl dir.

24 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd: fy mhobl y rhai a breſſwylia yn Sion nac ofna rhag yr Aſſyriaid: â gwialen i'th deru di, ac a gyfyd ei ffon i'th erbyn fel y gwnaeth yr Aiphtiaid [gynt.]

25 Canys [aros] etto ychydig bach, ac fe a dderfydd y llid, a'm digofaint [fydd] yn ddarfodigaeth iddynt hwy.

26 Ac Arglwydd y lluoedd a gyfyd ffrywill yn ei erbyn ef, megis * plâ Madian yng-hraig Horeb: fel [y cyfododd efe] ei wialen *ar y môr, felly y cyfyd efe hi yn ffordd yr Aipht.

Eſa.9.4.
Exod.14.28.

27 A bydd yn y dydd hwnnw ſymmudo ei faich ef oddi ar dy yſcwydd di, ai iau ef oddi ar dy warr di: a dryllir y iau gan yr olew.

28 Daethat Aiath, trammwyodd i Migron, ym Michmas y rhydd ei arfau i gadw.

29 Aethant trwy y rhŷd, yn Geba y lletteuaſant [mewn] llettŷ: dychrynodd Rama, Gibea [eiddo] Saul a ffoes.

30 Bloeddia [a'th] lêf merch Galim: gwrando [ar] Laiſa, Anathoth druan.

31 Ymbellâodd Madmena, trigolion Gebim a ymgaſclaſant.

32 Etto y [bydd] dydd i ſefyll yn Nob, yna efe a gyfyd ei law [tua] mynydd merch Sion, bryn Jeruſalem.

33 Wele Arglwydd Dduw y lluoedd yn yſcythru y gangen mewn dychryn: a'r rhai vchel o gyrph a dorrir ymmaith, a'r rhai goruchel a oſtyngir.

34 Ac efe a dyr ymmaith fryſclwyni y coed â haiarn: a Libanus drwy gryfa gwymp.

## PEN XI.

Achau, rhinweddau, brenhiniaeth, a hedd Criſt. 10 Galwedigaeth y cenhedloedd.

YNa y daw allan wialen o gyff Iſai: a blaguryn a dŷf oi wraidd ef.

2 Ac Yſpryd yr Arglwydd a orphywys arno ef: Yſpryd doethineb a deall, Yſpryd cyngor a chadernid, Yſpryd gwybodaeth, ac ofn yr Arglwydd.

3 Ei ddeall hefyd [fydd] yn ofn yr Arglwydd, ac nid wrth olwg ei lygaid y barn efe, nac wrth glywedigaeth ei glustiau y cerydda efe.

4 Ond efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyoedda tros drueniaid y ddaiar mewn inionddeb: ac a dery y ddaiar â gwialen ei enau ef, ac ag anadl ei wefuſau y lladd efe yr anwir.

5 A chyfiawnder fydd gwregys ei lwynau ef, a ffydd yn wregys ei arennau.

6 A'r blaidd a drig gyd a'r oen, a'r llewpard a orwedd gyd a'r myn: y llô hefyd a chenew y llew a'r anifail brâs fyddant yng-hyd, a bachgen bychan yn eu harwain.

7 Y fuwch hefyd a'r arth a borant yng-hyd, eu llydnod a [gyd] orweddant: y llew fel yr ŷch a bawr wellt.

8 A'r [plentyn] ſugno a chwery wrth dwll yr aſp: ac ar ffau y wiber yr eſtyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law.

9 Ni ddrygant ac ni lygrant yn holl fynydd fy ſancteiddrwydd: canys y ddaiar a gyflawnwyd o wybodaeth yr Arglwydd, megis y dyfroedd y rhai ſydd yn toi y môr.

10 Yn y dydd hwnnw gwreiddyn Iſai fydd yr hwn a ſaif yn arwydd i'r bobloedd, ag ef yr ymgais y cenhedloedd: ai orphywyſfa ef [fydd] yn ogoniant.

11 Bydd hefyd yn y dydd hwnnw i'r Arglwydd fwrw eilwaith ei law i feddiannu gweddill ei bobl, y rhai a weddillir gan Aſſyria, a chan yr Aipht a chan Pathros, a chan Ethiopia a chan Helam, gan Sinear hefyd, a chan Hamath, a chan ynyſoedd y môr.

12 Ac efe a gyfyd faner i'r cenhedloedd, ac a gynnull gyrwyddriaid Iſrael: ac a gaſcl waſcaredigion Iuda o bedwar man byd.

13 Cenfigen Ephraim a ymedu hefyd, a gwrthwynebwŷr Iuda a dorrir ymmaith: ni chenfigenna Ephraim wrth Iuda, ac ni chyfynga Iuda ar Ephraim.

14 Ond hwy a ehedant ar yſcwyddau y Philiſtiaid tua'r gorllewyn, yng-hyd yr yſpeiliant feibion y dwyrain: Edom a Moab [fyddant dann] eſtynniad eu llaw hwynt, a meibion Ammon [mewn] ufydd-dod iddynt.

15 Yr Arglwydd hefyd a ddifroda dafod môr yr Aipht, ac ai wynt nerthol efe a gyfyd ei law ar yr afon: ac ai tery hi yn ſaith o ffrydau, ac a wna rodio [ynddi] yn droed-ſych.

16 A bydd yn briffordd i weddill ei bobl ef, y rhai a adewir o'r Aſſyriaid, megis ac y bu i Iſrael yn y dydd y daeth efe i fynu o dir yr Aipht.

## P E N. XII.

Eglwys Dduw yn canu moliant am ei goruwchafiaeth.

YNa y dywedi yn y dydd hwnnw, molaf di ô Arglwydd, canys ſorraiſt wrthif: dychwel dy lîd, a thi a'm cyſſuri.

2 Wele Duw [yw] fy iechydwriaeth, gobeithiaf ac nid ofnaf, canys yr Arglwydd Dduw [yw] fy nerth a'm cân: efe hefyd yw fy iechydwriaeth.

3 Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iechydwriaeth.

4 Chwi hefyd a ddywedwch yn y dydd hwnnw, *molwch yr Arglwydd, gelwch ar ei enw Exod.15.2.
ef, hyſpyſſwch ei weithredoedd ef ym mhlîth y Pſal.111.4.
bobloedd, coſiwch mai derchafedic yw ei enw 1.Cron.16.8.
ef.

5 Cenwch i'r Arglwydd canys mawrhydri a wnaeth efe: bydded hyſpys hyn yn yr holl dir.

6 Bloeddia, a chan-mola preſſwyl-ferch Sion: canys mawr [yw] Sanct yr Iſrael o'th fewn di.

## P F N. XIII.

Diniſtr Babilon trwy 'r Mediaid.

BAich Babilon yr hwn a welodd Eſay mab Amos.

2 Derchefwch faner ar y mynydd goruchel, derchefwch lef attynt, cyſodwch law, ac ânt i fewn pyrth y pendefigion.

3 Myfi a orchymynnais i'm rhai ſancteiddiol, gelwais hefyd fyng-hedyrn yn fy nigter, y rhai a ymhyfrydant yn fy mawredd.

4 Llêf tyrfa [ſydd] yn y mynyddoedd, yn gyffelyb i bobl lawer: ſŵn twrwf teyrnaſoedd y cenhedloedd wedi ymgynnull, Arglwydd y lluoedd ſydd yn cyfrif llu y rhyfel.

5 Dyfod y maent o wlâd bell, o eithaf y nefoedd: [ſef] yr Arglwydd, ac arfau ei lidiawgrwydd ef i ddifa'r holl dîr.

6 Udwch, canys agos yw diwrnod yr Arglwydd: megis anrhaith oddi wrth yr Holl-alluog y daw.

7 Am hynny 'r holl ddwylo a laeſir: a phob calon dyn a dawdd.

8 A hwynt a ddychrynir, gwewyr, a doluriau ai dcil hwynt, megis [gwraig] yn eſcor yr ymofidiant, pawb wrth ei gyfaill a ryfeddant, ai hwynebau [fyddant] wynebau fflamllyd.

9 Wele ddydd yr Arglwydd yn dyfod yn greulon, a digofaint, a digter llidiog, i oſod y wlâd yn ddiffaethwch: ai phechaduriaid a ddifa efe o honi.

10 Canys ſêr y nefoedd ai planedau ni roddant eu llewyrch: yr haul a dywyllir yn ei go- Ezec.32.7.
diad, a'r lloer ni oleua ai llewyrch. Ioel 3.15.
Matt.24.29.

11 A mi a ymwelaf a'r byd [am ei] ddrygioni, ac a'r annuwolion [am] eu hanwiredd: a gwnaf i falchder y rhai rhyfygus beidio: goſtyngaf hefyd uchder y rhai ofnadwy.

12 Gwnâf ddŷn yn werthfawrysach nag aur coeth, ie dŷn [yn werthfawrysach] ná chun o aur Ophir.

13 Am hynny y cyffroaf y nefoedd, a'r ddaiar

ar a grypna oi lle gan ddigofaint Arglwydd y lluoedd, yn nydd llîd ei ddigter ef.

14 A [Babilon] fydd megis ewig darfedic, ac fel dafad heb neb ai coleddo: pawb a wynebant at eu pobl eu hun, a phawb iw gwlad eu hun a ffoant.

15 Pob vn a geffir ynddi a drywenir: a phawb a chwaneger [atti] a ſyrth drwy 'r cleddyf.

Pſal.137.9. 16 Eu * plant hefyd a ddryllir o flaen eu llygaid: eu tai hwynt a yſpeilir, ai gwragedd a dreiſſir.

17 Wele fi yn cyfodi y Mediaid yn eu herbyn hwy: y rhai ni roddant frî ar arian: a'r aur ni hyfrydant ynddo.

18 A bwâu y drylliant y plant, ac [wrth] ffrwyth bru ni thoſturiant: eu llygad nid eiriach morr meibion.

19 Yna Babilon (prydferthwch y teyrnaſoedd, gogoniant [a] rhyſyg y Caldeaid) fydd megis y diniſtr [a wnaeth] Duw * ar Sodoma, a Gomorra.

Gen.19.24.
Ier.50.40.

20 Ni chyfanneddir hi yn dragywydd, ac ni phreſſwylir hi o genhedlaeth i genhedlaeth: ac ni phabella Arabiad yno, a'r bugeiliaid ni chorlannant yno.

Eſa.34.14.
Ier.50.39.
Soph.2.14.

21 Ond * anifeiliaid gwylltion a orweddant yno, ai tai hwynt a lenwir o ormeſſiaid, a chywion yr eſtris a drigant yno: a'r ellyllon a lammant yno.

22 A'r cathod a gydattebant yn ei gweddwdai hi, a'r dreigiau yn y palaſoedd hyfryd: ai hamſer [ſydd] yn agos i ddyfod, ai dyddiau nid oedir.

## PEN. XIIII.

Dychweliad y bobl o gaethiwed. Diniſtr y Babiloniaid, a'r Philiſtiaid.

CAnys yr Arglwydd a doſturia wrth Iacob, ac a ddethol Iſrael etto, ac a bar iddynt orphywys yn eu tir eu hunain: a'r dieithr a ymgyſſyllta â hwynt, ac hwy a lynant wrth dŷ Iacob.

2 Y bobl hefyd ai cymmer hwynt, ac ai dygant iw llê eu hun, a thŷ Iſrael ai meddianna hwynt yn * nhŷ yr Arglwydd yn weiſion, ac yn forwynion: a hwynt a gaethiwant y rhai ai caethiwodd hwythau, ac a lywodraethant ar eu gorthrym-wŷr.

2.Co.10.5.

3 A bydd yn y dydd y rhoddo 'r Arglwydd lonyddwch i ti oddi wrth dy flinder, ac oddi wrth dy ddychryn, ac oddi wrth y caethiwed caled yr hon a waſanaethaiſt,

4 Yna y cymmeri y ddammeg hon yn erbyn brenin Babilon, ac y dywedi: pa wedd y peidiodd y gorthrymmwr: ac y peidiodd y dreth aur?

5 Yr Arglwydd a ddrylliodd ffonn yr anwiriaid [a] theyrn-wialen y llywawd-wŷr,

6 Yr hon ſydd yn taro y bobloedd mewn ddigllonedd â phlâ gwaſtadol, yr hon ſydd yn llywodraethu y cenhedloedd mewn llidiawgrwydd, heb luddio erlid [neb.]

7 Gorphywyſodd [a] llonyddodd yr holl dîr, canaſant o lawenydd.

8 Y ffynnid-wŷdd hefyd [a] chedr-wŷdd Libanus a lawenhaſant yn dy erbyn [gan ddywedyd:] er pan orweddaiſt ni ddringodd cymmynydd arnom.

9 Vffern oddi tanodd a grynodd i'th erbyn wrth gyfarfod a'th ddyfodiad, cyfododd rhai meirw [a] holl dywyſogion y tîr: cyfododd holl frenhinoedd y cenhedloedd oi gorſeddfaon.

10 Y rhai hynny oll a attebant, ac a ddywedant wrthit: a wanhauwyd tithe fel ninnau: a aethoſt ti yn gyffelyb i ni:

11 Diſcynnwyd dy falchder i vffern, [er] trwſt dy nablau: tannat y tênir pryf, pryfed hefyd a'th doant.

12 Pa fodd y ſyrthiaiſt o'r nefoedd Luſiffer mab y wawr ddydd? [ac] i'th dorrwyd ti i lawr yr hwn a wanheaiſt y cenhedloedd:

13 Canys ti a ddywedaſyd yn dy galon, mi a ddringaf * i'r nefoedd, oddi ar ſêr Duw y derchafaf fyng-orſeddfa, ac mi a eiſteddaf ym mynydd y gynnulleidfa ar yſtlyſſau y gogledd. Pſal.48.2.

14 Dringaf yn vwch na'r cwmplau, tebyg fyddaf i'r Goruchaf.

15 Er hynny i vffern i'th ddeſcynnir i yſtlyſau yr ffôs.

16 Y rhai a'th welant a edrychant arnat, [ac] a feddyliant am danat: ai dymma y gŵr a ddychrynnodd y tîr, gan gynhyrfu teyrnaſoedd:

17 A oſododd y byd fel anialwch, ac a ddiniſtriodd ei ddinaſoedd, heb ollwng ei garcharorion adref?

18 Holl frenhinoedd y cenhedloedd a orweddaſant mewn gogoniãt bob vn yn ei dŷ ei hun.

19 Eithr ty di a fwriwyd allan o'th fedd fel cangen ffiaidd [neu] wîſc y lladdedigion y rhai a drywanwyd â chleddyf: y rhai [hefyd] a ddeſcynnent ym myſc cerric y ffôs, fel celen ſathredic

20 Ni byddi mewn vn bedd â hwynt, o herwydd dy dîr dy hun a ddifethaiſt, a'th bobl a lleddaiſt: ni bydd hâd yr annuwiol enwog bŷth.

21 Darperwch laddfa iw feibion ef, am anwiredd eu tadau, rhac codi o honynt a goreſcyn y tîr, a llenwi wyneb y byd â gelynnion.

22 Minne a gyfodaf yn eu herbyn hwynt medd Arglwydd y lluoedd, ac a dorraf allan o Babilon henw a hiliogaeth, ſef mab ac ŵyr medd yr Arglwydd.

23 Ac ai goſodaf hi yn feddiant draenogiaid, ac yn byllau dyfroedd: yſcubaf hi hefyd, ag yſcubau deſtruw medd Arglwydd y lluoedd.

24 Tyngodd Arglwydd y lluoedd gan ddywedyd: [nid geir-wir fi,] onid megis yr amcenais, felly y bydd: ac fel yr ymgynghorais, hynny a ſaif,

25 Am ddryllio Aſſur yn fy nhîr, canys ſathraf ef ar fy mynyddoedd, fel y eilio ei iau ef oddi arnynt, ac y ſymmuder ei faich ef oddi ar eu hyſcwyddau hwynt.

26 Dymma y cyngor a gymmerwyd am yr holl ddaiar, ac dymma y llaw a eſtynnwyd ar yr

holl genhedloedd.

27 O herwydd Arglwydd y lluoedd a ymgynghorodd, a phwy ai diddymma? ei law ef hefyd a eſtynnwyd, a phwy ai detru.

Eſa.13.1. 28 Yn y flwyddyn y bu farw brenin Ahaz, y bu * y bygwth hwn.

29 Paleſtina na lawenycha di yn hollawl er torri gwialen dy darawudd: o herwydd o wreiddyn y ſarph y daw gwiber allan, ai ffrwyth hi fydd ſarph danllyd hedegoc.

30 Yna y porthir cyn-blant y tlodion, a'r rhai anghenus a orweddant mewn diogelwch: eithr lladdaf dy wreiddyn di â newyn, yntef a ladd dy weddill.

31 Uda borth, gwaedda ddinas, Paleſtina ti oll a doddwyd: canys mwg ſydd yn dyfod o'r gogledd, ac ni [bydd neb] neullduol yn ei amſeroedd nodedic ef.

32 A pha beth a attebir i gennadau y cenhedloedd? eithr ſeilio o'r Arglwydd Sion, ac y gobeithia trueniaid ei bobl ef ynddi.

## PEN. XV.

Eſa.13.1.

Prophwydoliaeth yn erbyn Moab.

BAich Moab. Diau mai mewn noſwaith y diniſtriwyd [ac] y deſtruwiwyd * Ar Moab: diau mewn noſwaith y diniſtriwyd, ac y deſtruwiwyd Cir Moab.

2 Aeth i fynu i Baitha, Dibon, i'r uchelfaon i wylo: am Nebo, ac am Medba yr uda Moab, [bydd] moelni ar eu holl bennau, a phob barf wedi ei heillio.

3 Yn ei heolydd hi yr ymwregyſant â ſachliain, ar ei thai hi, ac yn ei heolydd yr uda hi oll: mewn wylofain y mae yn deſcyn.

4 Gwaedda Heſbon hefyd, ac Eleale, hyd Iahaz y clywir eu llefain hwynt: am hynny arfogion Moab a floeddiant, [pob un] a flina oi enioes.

5 Fyng-halon a waedda am Moab, ei ffoaduriaid hi a ânt hyd Zoar [fel] anner deir-blwydd, mewn wylofain y dring hi hyd allt Luith: canys codant waedd diniſtr [a'r hŷd] fford Horonaim.

6 O herwydd dyfroedd Nimrim a fyddant yn anrhaith, canys gwywodd y llyſiau, darfu y gwellt, nid oes gwyrdd-leſni.

7 Am hynny yr hynn a weddillwyd, ai golud a ddygant i afon yr helyg.

8 Canys y gweiddi a amgylchynodd derfyn Moab, eu hudfa [ydoedd] hyd Eglaim, ai hochain [hyd] Beer-Elim.

9 Dyfroedd Dimon a lawnwyd o waed, canys goſodaf ychwaneg ar Dimon: llewod [fyddant] yn erbyn y rhai a ddiangant ym Moab, ac yn erbyn gweddill y wlad.

## PEN XVI.

Achoſion diniſtr Moab.

ANfonwch oen i lywodraeth-wr y tir o graig yr anialwch, i fynydd merch Sion.

2 Ac fel y bydd aderyn yn gwibio wedi ei ollwng [o'r] nŷth, y bydd merched Moab [wrth] rydau Arnon.

3 Dwg gyngor, gwna farn, goſot yng-halon hanner dydd dy gyſcod fel nôs: cuddia y rhai gwaſcaredic, na ddatcuddia y cyrwydrad.

4 Triged fyng-waſcaredigion yn dy fyſc di, Moab bydd di loches iddynt rhag y diniſtrudd, canys diweddwyd y gorthrymmudd, yr anrheith-wŷr a ballaſant, y mathr-wŷr a ddarfuant o'r tir.

5 A gorſedd-faingc a ddarperir mewn trugaredd, ac arni yr eiſtedd mewn gwirionedd o fewn pabell Dafydd [un] yn barnu, ac yn ceiſio barnedigaeth, ac yn pryſſuro at gyfiawnder.

6 Clywſom falchder Moab, balch iawn [yw, er] ei falchder, ai draha, ai ddigllonedd nid felly [y daw] * ei gelwyddau. Ier.48.2.

7 Am hynny'r uda Moabiad wrth Moabiad, pob un a uda: am ſylfeini Cir Hareſeth y griddfenwch, er hynny hwynt a darewir.

8 Canys gwin-wŷdd Heſbon a dorrwyd i lawr, [ac am] win-wydden Sibma arglwyddi y cenhedloedd a eſcydwaſant ei phêr winwydd hi, hyd Iazer y cyrhaeddaſant, cyrwydraſant ar hŷd yr anialwch, ei changhennau a ymeſtynnaſant, [ac] a aethant tros y môr.

9 Am hynny'r wylaf tros Iazer, [a] gwinwydden Sibma, dwfrhaf dithe Heſbon, ac Eleale a'm dagrau: canys ar dy ffrwythydd haf, ac ar dy gynhaiaf y ſyrthiodd bloedd.

10 Y llawenydd hefyd a'r gorfoledd a ddarfydd o'r dolydd, ni chenir, ac ni chrechwenir yn y gwinllannoedd, ni ſathr ſathrudd wîn yn y gwryfoedd: gwnaf i gân hyfrydaidd beidio.

11 Am hynny y rhûa fy emyſcaroedd am Moab fel telyn, a'm perfedd am Cir Hares.

12 A phan weler blino o Moab ar yr uchel fann, yna y daw efe iw gyſſegr i weddio, ond ni thyccia.

13 Dymma yr gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd yn erbyn Moab yr amſer hwnnw.

14 Llefarodd yr Arglwydd yr awr hon hefyd gan ddywedyd: o fewn tair blynedd fel blynyddoedd gwâs cyflog y dirmygir gogoniant Moab ym mhob tyrfa fawr, a'r gweddill [fydd] ychydig bach, [a] dirym.

## PEN. XVII.

Prophwydoliaeth yn erbyn Damaſcus. Eſa.13.1.

BAich Damaſcus. Wele Ddamaſcus wedi ſymmud o [fod] yn ddinas, a charnedd wedi ei ſyrthio a fydd hi.

2 Gwrthodedic ddinaſoedd Aroer a fyddant eiddo'r preiddiau: yno y gorweddant, ac ni [bydd] dychrynnudd.

3 Yna y derfydd amddeffynfa o Ephraim, a brenhiniaeth o Ddamaſcus, a gweddill Syria: fel gogoniant meibion Iſrael y byddant medd Arglwydd y lluoedd.

4 Ac ar y dydd hwnnw y bydd i ogoniant Iacob feinhau, a braſder ei gîg ef a gulhâ.

5 Ac efe a fydd fel pe caſcle [un] gynhaiaf

ŷd,ac y medr ei fraich dwyſennau : a bydd fel caſgludd twyſſennau yng-lynn Rephaim.

6 Ac ynddo y gadewir grawn-wîn , fel eſcydwad oliwŷdden,[ſef] dau[neu] dri o rawn ymlaen y brig, [a] phedwar [neu] bump yn ei changhennau ffrwythlawn, medd Arglwydd Dduw Iſrael.

7 Yn y dydd hwnnw yr edrych dŷn am ei wneuthur-wr, ai lygaid a edrychant am Sanct Iſrael.

8 Ac nid edrych am yr allorau[y rhai ydynt] waith ei ddwylo,îe nid edrych am yr hyn a wnaeth ei fyſſedd,ſef llwyni a delwau.

9 Yn y dydd hwnnw y bydd eu dinaſoedd cedyrn fel y blagur a'r brîg gwrthodedic y rhai a adawſant o herwydd meibion Iſrael : felly y bydd [y wlad] yn ddiffaethwch.

10 O herwydd anghofio o honot Dduw dy iechydwriaeth, ac na choffaiſt graig dy gadernid : am hynny y plenni blanhigion hyfryd, ac yr impi hwynt â changhennau dieithr.

11 Y dydd y gwnei i'th blanhigin dyfu, a'r borau y gwnei i'th hâd flodeuo, cogwrn cynhaiaf [fydd] ar ddydd lleſcedd, a dolur gofidus.

12 Gwae dyrfa pobloedd lawer, fel twrwf y môr y tryſtiant,îe twrwf y bobloedd a dryſtiant fel ſŵn dyfroedd lawer.

13 Fel ſŵn dyfroedd lawer y tryſtia y bobl, a [Duw] ai cerydda hwynt , yna y ffoant ym mhell, ac yr erlidir hwynt fel peiſwyn mynydd o flaen gwynt,ac fel troell ym mlaen corwynt.

14 Ac wele ddychryn ar brŷd nawn,a chynn y borau ni bydd : Dymma rann y rhai a'n ſathrant ni, a choel-bren y rhai a'n yſpeiliant ni.

## PEN. XVIII.

Diniſtr yr Ethiopiaid , a'r cenhedloedd a gynnorthwyent Senacherib, yn erbyn Ieruſalem. 7 Galwedîgaeth y cenhedloedd.

GWae 'r tîr cyſcodol ei ymylau, yr hwn [ſydd] tu hwnt i afonydd Ethiopia.

2 Yr hwn a hebrwng gennadau hyd y môr, ac ar hyd wyneb y dyfroedd mewn lleſtri brŵyn [gan ddywedyd : ]ewch gennadon cyflym at genhedlaeth waſcaredic,ac yſpailiedic * at bobl ofnadwy,er pan ydynt,ac etto:cenhedlaeth wedi ei ſathru bob ychydig,ac ychydig yr hon yr yſpeiliodd yr afonydd ei thîr.

Deut.28.37.

3 Holl drigolion y byd, a phreſſwyl-wŷr y tîr, cewch weled pan gyfoder bâner[ar]y mynyddoedd, a chewch glywed pan vdcenir vdcorn.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif, byddaf lonydd, a chaf weled yn fy anhedd megis gwrês yn diſcleirio ar y llyſſiau,fel niwl gwl'th yng-wres cynhaiaf.

5 Canys o flaen cynhaiaf, pan ddarfyddo y blodeun a bod y grawn-win ſurion yn addfedu, yna y tyrr efe y brig â chrymman, ac y tynn efe ymmaith,[ac] y tyrr y canghennau.

6 Gadewir hwynt yng-hyd i adar y mynyddoedd, ac i anifeiliaid y tîr, ac arno ef y bwrw yr adar yr hâf, a holl anifeiliaid y tîr a aiâfant arno ef.

7 Yr amſer hwnnw y dygir rhodd i Arglwydd y lluoedd [gan] bobl waſcaredic,ac yſpailiedic, a chan bobl ofnadwy er pan ydynt ac etto : cenedl wedi ei ſathru bob ychydig, ac ychydig, yr hon yr yſpeiliodd yr afonydd ei thîr,) i le enw Duw yr lluoedd, [ſef i] fynydd Sion.

## PEN XIX.

Prophwydoliaeth am ddiniſtr yr Aipht. 18 A galwedigaeth y cenhedloedd.

BAich yr Aipht:Wele 'r Arglwydd yn marchogaeth ar gwmwl yſcafn , ac efe a ddaw i'r Aipht, ac eulynnod yr Aipht a ſymmudant rhagddo ef : a chalon yr Aipht a dawdd yn ei chanol hi.

Eſa.13.1.

2 Gyrraf hefyd Aiphtiad yn erbyn Aiphtiad,fel yr * ymladdant bob vn yn erbyn ei frawd, a phob vn yn erbyn ei gyfaill,dinas yn erbyn dinas [ a] theyrnas yn erbyn teyrnas.

2.Cron. 20.22.
Eſa.49.26.

3 Ac yſpryd yr Aipht a balla yn ei chanol hi, ac mi a ddiddymmaf ei chyngor hi : yna'r ymofynnant ag eulynnod, ac â ſwynyddion, ac â dewiniaid,ac â brŷd-wŷr.

4 Ac mi a gaeaf yr Aipht yn llaw Arglwyddi caledion, a brenin cadarn a lywodraetha arnynt medd Arglwydd Dduw y lluoedd.

5 A'r dyfroedd a ddarfyddant o'r môr, yr afon hefyd a ſych,ac a aiff yn heſb.

6 Yr afonydd a giliant,y ffynhonnau caeroc a feinhânt, ac a ſychant : torrir ymmaith [bob] corſen a heſcen.

7 Y glaſ-wellt wrth yr afon, ar fîn yr afon, a phob peth fyddo yn tyfu wrth yr afon a wywa, a chwelir,ac ni[bydd]efe[mwy.]

8 Y pyſcod-wŷr hefyd a driſtânt, a'r rhai oll a fwriant fachau a alârant : felly y rhai a dânant rwydau ar hŷd wyneb y dyfroedd a leſcânt.

9 Yna y gwradwyddir y rhai a weithiant fein-llîn,a'r rhai a wenant rwydau.

10 Yna y bydd ei rhwydau hi 'n ddrylliedic [a'r] rhai oll a wnânt byſcod-lynnau.

11 Er hynny ynfydion tywyſogion Zoan, doethion gyngor-wŷr Pharao , ynfyd yw [eich] cyngor, pa fodd y dywedwch wrth Pharao, mab y doethion [ydwyſti,a] mab hen frenhinoedd ?

12 Mae hwynt, mae dy ddoethion ? mynegant it yr awr hon, a mynnant wŷbod pa gyngor a gymmerodd Arglwydd y lluoedd yn erbyn yr Aipht.

13 Tywyſogion Zoan a ynfydâſant, twyllwyd tywyſogion Noph, a phennaethiaid eu llwythau a hudâſant yr Aipht.

14 Cymmyſcodd yr Arglwydd ynddi yſpryd gwrthnyſſigrwydd, fel y gwnaethant i'r Aipht amryfuſo yn ei holl waith fel yr amryfuſa meddwyn yn ei chwdfa.

15 Ac ni bydd yn yr Aipht waith , yr hwn a wnelo yr pen na'r gloren, y gangen na'r gorſen.

16 Y dydd hwnnw y bydd yr Aipht fel gwragedd, canys hi a ddychryna, ac a ofna rhag eſcydwad llaw Arglwydd y lluoedd, yr hon a gyfyd efe yn ei herbyn hi.

17 Yna y bydd Iuda yn arſwyd i'r Aipht, pwy bynnac ai cofio hi a ofna ynddo ei hũ rhag cyngor Arglwydd y lluoedd, yr hwn a gymmer efe yn ei herbyn hi.

18 Y dydd hwnnw y bydd pum dinas yn nhir yr Aipht yn llefaru iaith Canaan, ac yn tyngu i Arglwydd y lluoedd: dinas ddeſtruw y gelwir vn.

19 Y dydd hwnnw y bydd allor i'r Arglwydd yng-hanol tir yr Aipht, a delw i'r Arglwydd ger llaw ei therfyn hi.

20 Yn arwydd hefyd, ac yn deſtioliaeth y bydd i Arglwydd y lluoedd yn nhir yr Aipht, canys llefant ar yr Arglwydd rhag eu gorthrymwŷr, ac efe a hebrwng iddynt Iachawdur a Phennaeth, ac efe ai gwared hwynt.

21 Yna yr adweinir yr Arglwydd yn yr Aipht, ie yr Aiphtiaid a adwaenant yr Arglwydd yn y dydd hwnnw: gwnânt hefyd aberth ac offrwm, ac addunant adduned i'r Arglwydd, ac [ai] talant.

22 Yr Arglwydd hefyd a dery yr Aipht, gan daro ac iachau, hwythau a droant at yr Arglwydd, ac efe ai gwrendu hwynt, ac ai hiachâ hwynt.

23 A'r dydd hwnnw y bydd ſarn o'r Aipht i Aſſyria, ac yr aiff Aſſyria i'r Aipht, a'r Aipht i Aſſyria: a'r Aipht gyd ag Aſſyria a waſanaethant [Dduw.]

24 Y dydd hwnnw y bydd Iſrael yn drydedd i'r Aipht, ac i Aſſyria, [ſef] yn fendith o fewn y tîr.

25 Yr hwn [dîr] a fendithia Arglwydd y lluoedd gan ddywedyd: bendigedic yw 'r Aipht fy mhobl mau fi, ac Aſſyria gwaith fy nwylo, ac Iſrael fy etifeddiaeth.

## PEN. XX.

Arwydd tair blynedd o gaethiwed ar yr Aipht, ac Ethiopia.

2.Bren.18.7.

YN y flwyddyn y daeth * Tharthan i Aſdod, (pan ddanfonodd Sargon brenin Aſſyria ef,) ac yr ymladdodd yn erbyn Aſdod, ac ai hennillodd hi,

2 Yr amſer hwnnw y bu gair yr Arglwydd trwy law Eſay fab Amos gan ddywedyd, dos a dattod y ſach-liain oddi am dy lwynau, a dioſc dy eſcidiau oddi am dy draed: ac efe a wnaeth felly gan rodio yn noeth-lwm, ac heb eſcidiau.

3 Dywedodd yr Arglwydd hefyd, megis y rhodiodd fyng-wâs Eſay yn noeth, ac heb eſcidiau dair blynedd, yn arwydd, ac yn argoel yn erbyn yr Aipht, ac yn erbyn Ethiopia:

4 Felly yr arwein brenin Aſſyria gaethiwed yr Aipht, a chaethglud Ethiopia, [ſef] yn llangciau, ac henaf-gwŷr, yn noethion, ac heb eſcidiau, ac yn din-noeth [yr hyn yw] gwarth yr Aiphtiaid.

5 Brawychant a chywilyddiant gan Ethiopia eu gobaith hwynt, a chan yr Aipht eu gogoniant hwy.

6 A'r dydd hwnnw y dywed preſſwylwŷr yr ynys hon, wele fel hyn [y mae] ein gobaith ni lle y ffoeſom am gymmorth i'n gwared ni rhag brenin Aſſyria: pa fodd gan hynny y diangwn?

## PEN. XXI.

Prophwydoliaeth yn erbyn Babilon, Edom, ac Arabia.

BAich anialwch y môr: fel y cor-wynt yn dyfod o'r dehau tros yr anialwch, [felly] y daw efe o wlâd ofnadwy.

2 Gweledigaeth galed a fynegwyd i mi, yr anffyddlon ſydd yn anffyddloni, ar diniſtrudd ſydd yn diniſtrio: Elam dring, Media gwarche, gwnaf iw holl riddfan hi ddarfod.

3 Am hynny y llawnwyd fy lwynau o ddolur, gwewyr a'm daliaſant fel gwewyr gwraig yn eſcor, ymdroais wrth glywed, [a] brawychais wrth weled.

4 Cyfeiliornodd fyng-halon, braw a'm dychrynnodd, efe a oſododd fyng-hyfnos dymunol yn ddychryn i mi.

5 Goſot y bwrdd, gwilia y ddiſgwilfa, bwytta [ac] ŷf, cyfodwch dywyſogion, irwch darian.

6 O herwydd fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif, dôs, goſot wiliedydd i fynegu yr hynn a welo.

7 Ac efe a welodd gerbyd, [a] dau o wŷr meirch: [ſef] cerbyd aſſyn, a cherbyd camel, ac efe a yſtyriodd yn ddyfal iawn.

8 Ac efe a lefodd [fel] llew: fy Arglwydd, ar y ddiſgwilfa yr wyfi'n ſefyll liw dydd yn waſtad, ac ar fyng-hadwriaeth yr ydwyf yn ſefyll bob nôs.

9 Ac wele ymma y daeth cerbyd gŵr [a] dau o wŷr meirch, ac efe a attebodd ac a ddywedodd, ſyrthiodd, ſyrthiodd * Babilon: holl delwau ei duwiau hi a ddrylliodd efe i lawr.

Ier.51.8.
Gwel.14 8.

10 O fy nyrniad, a chnŵd fy llawr dyrnu, yr hyn a glywais gan Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael a fynegais i chwi.

11 Baich Duma. Arnafi y galwodd efe o Seir, y gwarcheidwad beth am y nôs? y gwarcheidwad beth am y nôs?

12 Dywedodd y gwarcheidwad, daeth y boreu a'r nôs hefyd: os ceiſiwch, ceiſiwch: dychwelwch, deuwch.

13 Baich ar Arabia. Yn y coed yn Arabia y lletteuwch chwi, [yn] llwybrau Dedanim.

14 Deuwch ddyfroedd i gyfarfod a'r ſychedig, trigolion tir Thema achûbwch flaen y cyrwydrus ai fara.

15 O herwydd rhag cleddyfau y cyrwydraſant, rhag cleddyf noeth, a bŵa anneloc, a rhag trymder rhyfel.

16 O herwydd fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthifi, cynn pen blwyddyn o fath blwyddyn gwâs cyflog, y derfydd hefyd holl anrhydedd Cedar.

17 A'r gweddill o rifedi ſaethyddion cedyrn meibion Cedar a leiheuir : canys Arglwydd Dduw Iſrael a lefarodd [hynn.]

## PEN. XXII.

Prophwydoliaeth yn erbyn Ieruſalem.

Baich glynn gweledigaeth : beth [a ddarfu] i ti yn awr? pan ddringaiſt ti oll i nennau yr tai?

2 Yn llawn terfyſc, ac yn ddinas derfyſcol [yr aeth] y ddinas lawen, dy laddedigion ni laddwyd â chleddyf, na'th feirw â rhyfel.

3 Dy holl dywyſogion di a gyd ffoâſant rhag y bŵa, rhwymwyd hwynt : y rhai oll a gafwyd ynot a gyd-rwymwyd, a'r rhai a ffoâſant ym mhell.

Iere.9.1. 4 *Am hynny y dywedais, peidiwch â mi, mi a alaraf mewn wylofain, na lafuriwch fyng-hyſſuro am ddiniſtr merch fy mhobl.

5 O herwydd diwrnod blinder, ac ymſathru ac ymddryſſu [fydd] gan Arglwydd Dduw'r lluoedd yng-lynn gweledigaeth; yn diniſtrio y gaer, ac yn gweiddi ar y mynydd.

6 Yna Elam hefyd a arweiniodd y cawell ſaethau mewn cerbyd dynion [traed, a] gwŷr meirch : Cir hefyd a ddinoethodd y tarian.

7 A'th ddyffrynnoedd dewiſol a lanwyd â cherbydau, ac â gwŷr meirch, gan oſod goſodaſant tua'r porth.

8 Ac efe a ddinoethodd dô Iuda, ac yn y dydd hwnnw yr edrychaiſt ar arfogaeth tŷ y goedwic.

9 A gwelſoch rwygiadau dinas Ddafydd, mai aml oeddynt, a chaſclaſoch ddyfroedd y pyſcodlyn iſſaf:

10 Rhifaſoch hefyd dai Ieruſalem, a diwreiddiaſoch y tai i gadarnhau y mûr.

11 A rhwng y ddau fûr y gwnaethoch lynn i ddyfroedd yr hên byſcodlyn : ond nid edrychaſoch am yr hwn ai lluniodd ef er yſtalm.

12 A'r dydd hwnnw y gwahadd Arglwydd Dduw y lluoedd [rai] i wylofain, ac i alar-nad, i foeledd hefyd; ac i ymwregyſſiad â ſach-liain.

13 Eithr wele lawenydd, a gorfoledd, gan ladd gwarthec, a lladd defaid, gan fwytta cîg, ac yfed gwîn : gan fwytta, ac yfed, canys y foru [meddant] y byddwn feirw.

14 A datcuddiwyd [hynn] lle y clywais i Arglwydd y lluoedd : [na choelier fi,] o chymmodir â hwynt am yr anwiredd hyn, hyd oni byddant feirw, medd Arglwydd Dduw y lluoedd.

15 Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd, cerdda, dos at y treſſorudd hwn [ſef] at Sebna, yr hwn [ſydd] ben teulu.

16 Beth a wneidi ymma? a phwy [ſydd] gennit ti ymma? pan drychaiſt i ti ymma fedd? ô yr hwn a drychodd ei fedd yn vchel, ac a oſododd ei anneddfa yn y graig :

17 Wele'r Arglwydd yn dy fudo di fel mudo gŵr, a chan wiſco, yn dy wiſco di [â gwarth.]

18 Gan dreiglo i'th dreiglo di [fel] treigliad pêl ar hŷd gwlâd lŷdan ei hymylau : yno y byddi farw, ac yno [y bydd] cerbydau dy ogoniant ti yn warth tŷ dy feiſtr.

19 Yna i'th wthiaf o'th ſefyllfa, ie o'th ſefyllfa y diniſtria efe di,

20 Ac yn y dydd hwnnw y galwaf ar fyng-wâs Eliacim fab Helcia.

21 A'th ddillad ti hefyd y gwiſcaf ef, ac a'th wregys di y nerthaf ef: a thann ei law ef y rhoddaf dy lywodraeth di, ac efe a fydd yn dâd i breſſwylwŷr Ieruſalem, ac i dŷ Iuda

22 Rhoddaf hefyd agoriad tŷ Ddafydd ar ei yſcwydd ef, yna yr egyr efe, ac ni [bydd] a gaeo : ac efe a gaea, ac ni [bydd] a agoro.

23 A mi ai hoeliaf ef fel hoel mewn mann ſicer, fel y byddo yn orſeddfa gogoniant i dŷ ei dâd.

24 Ac arno ef y croga hîl, ac eppil holl ogoniant tŷ ei dâd, [ſef] yr holl faen leſtri, o'r lleſtri meiliau, hyd yr holl offer cerdd.

25 Yn y dydd hwnnw medd Arglwydd y lluoedd, y ſymmudir yr hoel a hoeliwyd yn y mân ſicer, a hi a dorrir, ac a ſyrth: torrir hefyd y llwyth yr hwn [oedd] arni, canys Arglwydd y lluoedd a lefarodd [hyn.]

## PEN. XXIII.

Prophwydoliaeth am ddiniſtr Tyrus ai hail gyweiriad.

Baich Tyrus : llongau Tharſis vdwch, canys anrheithiwyd [hi] fel nad oes dŷ i fyned iddo: o dîr Cittim yr ymddangoſodd [hyn] iddynt.

2 Diſtewch drigolion yr ynys, marchnadyddion Zidon yn tramwy'r môr a'th lanwaſant.

3 Hâd Nilus hefyd [yn tyfu] wrth ddyfroedd lawer, [a] chynhaeaf yr afon [oedd] ei chnwd hi : felly marchnad y cenhedloedd ydoedd hi.

4 Cywilyddia Zidon, canys y môr, [ie] cryfder y môr a lefarodd gan ddywedyd : nid ymddygais, ac nid eſcorais, ni fegais wŷr ieuaingc ychwaith, ac ni feithrinais forwynion.

5 Pan glywir [hynn] ym mhlith yr Aiphtiaid, hwynt a ymofidiant pan glywer ſôn am Tyrus.

6 Ewch troſodd i Tharſis, vdwch preſſwyl-wŷr yr ynys.

7 Ond hon yw eich [dinas] chwi, [yr hon] fu ogoneddus er yſtalm byd? ei thraed ai harweiniant hi i ymdaith ym mhell.

8 Pwy a ddychymmygodd hyn yn erbyn Tyrus goronog? yr hon [yr ydoedd] ei marchnadyddion yn dywyſogion, ai marſiand-wŷr yn bendefigion y bŷd.

9 Arglwydd y lluoedd a ddychymmygodd hyn, i ddiſwyno balchder pôb gogoniant, [ac] i ddirmygu holl bendefigion y bŷd.

10 Dos drwy dy wlâd fel afon [at] ferch Tharſis, nid [oes] nerth mwyach.

11 Eſtynnodd ei law ar y môr, dychrynodd y teyrnaſoedd, gorchymynnodd yr Arglwydd

am Canaan, ſef ddiniſtrio ei nerth hi.

12 Ac efe a ddywedodd, na chwanega ymffroſtio mwyach yr orthrymedic forwyn merch Zidon, cyfot dos i Cittim: yno ychwaith ni bydd it lonyddwch.

13 Wele dir y Caldeaid, nid oedd y bobl hyn [oddi]yno: Aſſur ai ſylfaenodd hi i drigolion yr anialwch, derchafaſant ei thyrau, cyfodaſant ei phalaſau, efe ai tynnodd hi i lawr.

14 Llongau Tharſis vdwch: canys anrheithiwyd eich nerth.

15 A'r dydd hwnnw yr anghofir Tyrus ddeng-mlynedd a thrugain, megis dyddiau vn brenin: ym mhen y deng-mlynedd a thrugain y cân Tyrus megis puttain.

16 Cymmer y delyn, amgylchyna'r ddinas ti buttain anghofiedic, cân gerdd yn dda, a dattcan lawer fel i'th goſier.

17 Ac ym mhen y deng-mlynedd a thrugain yr Arglwydd a ymwel â Thyrus, a hi a ddychwel at ei hêlw, ac a butteinia â holl deyrnaſoedd y bŷd ar wyneb y ddaiar.

18 Yna y bydd ei marchnad ai hêlw yn gyſſegredic i'r Arglwydd, ni's cedwir, ac ni's cuddir, canys eiddo y rhai a drigant o flaen yr Arglwydd fydd ei merſiandiaeth, i fwytta hyd ddigon, ac yn wiſc barhaus.

## PEN. XXIIII.

Cyſpedigaeth yr Arglwydd yn erbyn pechod: a llawenydd y ffyddloniaid wrth weled hynny.

WEle yr Arglwydd yn gwneuthur y ddaiar yn wâg, ac yn ei difwyno hi, canys efe a oſtwng ei hwyneb hi, ac a waſcar ei thrigolion.

2 Yna y bydd vn fath y bobl a'r offeiriad, y gwâs a'r meiſtr, y llaw-forwyn a'r feiſtres, y prynudd a'r gwerthudd, yr hwn a roddo, ac a gymmero echwyn, yr hwn a dalo lôg, a'r hwn ai cymmero ganddo.

3 Gan waghau y gwaghêir, a chan yſpeilio 'r yſpeilir y wlâd, canys yr Arglwydd a lefarodd hyn.

4 Galarodd [a] diflannodd y tir, llescâodd [a] dadwinodd y byd, dihoenodd pobl feilchion y ddaiar.

5 Y ddaiar hefyd a halogwyd tann ei phreſſwyl-wŷr, canys troſheddâſant gyfreithiau, newidiâſant ddeddfau, diddymmâſant y cyfammod tragywyddol.

6 Am hynny melldith a yſſodd y tîr, a'r rhai oeddynt yn trigo ynddo a anrheithiwyd am hynny: preſſwyl-wŷr y tîr a loſcwyd, ac ychydig ddynnion a weddillwyd.

7 Pallodd y gwîn, llescaodd y win-wŷdden, y rhai llawen o galon oll ariddfanâſant.

8 Darfu llawenydd y tympânau, peidiodd trwſt y gorfoledd-wŷr, darfu hyfrydwch y delyn,

9 Nid yfant win dan gânu, chwerw fydd diod gref i'r rhai ai hyfant hi.

10 Drylliwyd dinas gwagedd, caewyd pôb tŷ fel na ddeler i mewn.

11 [Y mae] llefain am y gwîn yn yr heolydd, tywyllodd pôb llawenydd, hyfrydwch y tîr a fudodd ymmaith.

12 Yn y ddinas y gadawyd anghyfannedd-rwydd, ag anrhaith hefyd y dryllir y porth.

13 Diau y bydd o fewn y tîr yng-hanol y bobloedd megis eſcydwad oliwŷdden, [ac] fel grawn lloffa pan ddarffo cynhaiaf y gwîn.

14 Y rhai hyn a dderchafant eu llef, [ac] a ganant: o'r gorllewyn y gorfoleddant o herwydd godidawgrwydd yr Arglwydd.

15 Am hynny gogoneddwch yr Arglwydd yn y dyffrynnoedd: ac enw Arglwydd Dduw Iſrael yn ynyſoedd y môr.

16 O eithafoedd y ddaiar y clywſom gâniadau, [fod] gogoniant i'r cyfiawn: yna y dywedais ô fyng-hulni, ô fyng-hulni gwae fi, y rhai anffyddlon a wnaethant yn anffyddlon, îe gwnaethant o'r fath anfyddlonaf.

17 Dychryn, a ffôs, a magl [fyddant] i'th erbyn breſſwyludd y tîr.

18 Felly 'r hwn a ffŷ rhag trwſt y dychryn a ſyrth yn y ffôs, a'r hwn a gyfodo o ganol y ffôs a ddelir yn y fagl: o herwydd ffenestri yn yr vchelder a agorwyd, a ſeiliau y ddaiar ydynt yn crynu.

19 Gan ddryllio 'r ymddrylliodd y tîr, gan rwygo 'r ymrwygodd y ddaiar, gan ſymmud yr ymſymmudodd y ddaiar.

20 Y ddaiar gan ſymmud a ymſymmud fel meddwyn, ac a ymſigla megis pabell, ai chamwedd fydd trwm arni, ac hi a ſyrth fel na chyfodo mwy.

21 Yr amſer hwnnw 'r ymwel yr Arglwydd â llu 'r vchelder yn yr vchelder, ac â brenhinoedd y ddaiar ar y ddaiar.

22 A chesclir hwynt yn gasclfa, wedi eu rhwymo mewn daiar-dŷ, ac hwy a garcherir mewn carchar, ac ym mhen llawer o ddyddiau 'r ymwelir â hwynt.

23 Yna y lleuad a wrîda, a'r haul a gywilyddia pan deyrnaſo Arglwydd y lluoedd ym mynydd Sion, ac yn Ieruſalem, ac o flaen ei henuriaid [mewn] gogoniant.

## PEN. XXV.

Moliant y ffyddloniaid o achos y llawenydd vchod.

YR Arglwydd fy Nuw [ydwyt] ti, derchafaf di, [a] moliannaf dy enw, canys gwnaethoſt ryfeddod, [dy] gynghorion er yſtalm [ydynt] wirionedd [a] ſiccrwydd.

2 Canys goſodaiſt ddinas yn garnedd, a chaer gadarn yn ddiniſtr, o ddinas nid adailedir byth dŷ dieithriaid.

3 Am hynny pobl nerthol a'th ogoneddant, dinaſoedd cenhedloedd ofnadwy a'th arſwydant,

4 Canys buoſt nerth i'r tlawd, a chadernid i'r anghenog, ynnodded rhag tymheſtl, yn gyſcod rhag gwrês, pan [oedd] gwynt y cedyrn fel llifeiriant [trwy] fagwyr.

5 Fel gwrês mewn ſychder y daroſtyngi

dwrwſ

dwrwf dieithriaid :[ fel ] gwrês mewn cyſcod cwmwl y daroſtyngir cangen y cedyrn.

6 A gwnaiff Arglwydd y lluoedd i'r holl bobl yn y mynydd hwn wledd frâs,[a] gwledd loiw[o] baſcedigion breiſion [ a ] gloiw-win puredic.

7 Efe a ddiſâ yn y mynydd hwn y gorchudd yr hwn ſydd yn gorchguddio yr holl bobloedd, a'r llenn yr hon a dânwyd ar yr holl genhedloedd.

8 Efe a ddiſa angeu tros bych, a'r Arglwydd Dduw a ſych ymmaith ddeigr oddi ar bôb wyneb : ac efe a dyn ymmaith warthrudd ei bobl oddi ar yr holl ddaiar:canys yr Arglwydd a leſarodd[hyn.]

9 A'r dydd hwnnw y dywedi, wele dymma ein Duw ni, gobeithiaſom ynddo ef, ac efe a'n ceidw: dymma 'r Arglwydd,gobeithiaſom ynddo ef, gorfoleddwn, a llawenychwn yn ei iechydwriaeth ef.

10 Canys llaw 'r Arglwydd a orphywys yn y mynydd hwn, a Moab a ſethrir tano ef,fel ſathru gwellt mewn commen.

11 Ac efe a eſtyn ei ddwylo yn eu myſc hwynt,fel yr eſtyn nofiedudd[ei ddwylo]i nofio,ac efe a oſtwng eu balchter hi â nerth ei ddwylo.

12 Felly y gogwydda, y goſtwng [ ac ] y bwrw efe i lawr hyd y llwch gadernid vchelder dy gaerau.

## PENN. XXVI.

Câno ddiolch am ryddhâd y bobl.

YDydd hwnnw y cênir y gân hon yn nhîr Iuda,Dinas gadarn[ſydd] i ni, efe a eſyd iechydwriaeth yn gaerau ac yn rhacfur.

2 Agôrwch y pyrth fel y delo i mewn genhedlaeth gyfiawn,yr hon a geidw wirionedd.

3 A meddwl dianwadal y cedwi dangnheddyf heddychol, am ymddyried ynot.

4 Ymddyriedwch yn yr Arglwydd bych: o herwydd yn yr Arglwydd Dduw [ y mae ] cadernid yn dragywydd.

5 Canys efe a oſtwng breſſwyl-wŷr yr vchelder, tref vchel a oſtwng efe : efe ai daroſtwng hi i'r llawr, ac ai bwrw hi i'r llwch.

6 Troed ai ſathr hi, [ſef] traed y trueniaid, a chamrau y tlodion.

7 Iniondeb [yw] llwybr y cyfiawn, yn iniawn y cyfarwyddi ffordd y cyfiawn.

8 [Ar] lwybr dy farnedigaethau hefyd i'th ddiſgwiliaſom Arglwydd, dymuniad [ein] henaid[ſydd]am dy enw, ac am dy goffadwriaeth.

9 A'm henaid i'th ddymunais liw nôs, a'm hyſpryd hefyd o'm mewn i'th foreu-geiſiaf : canys preſſwyl-wŷr y byd a ddyſcâſant gyfiawnder, tra [ydoedd] dy farnedigaethau ar y ddaiar.

10 [Er] trugarhau wrth yr annuwiol, ni ddyſcodd gyfiawnder, yn nhir iniondeb y gwyra efe, ac ni wêl vchelder yr Arglwydd.

11 Ni welant Arglwydd pan dderchafer dy law, cânt weled, a chywywilyddiant [ag] eiddigedd [i'th] bobl : a thân dy elynnion ai hyſſa hwynt.

12 Arglwydd tia drefni i ni heddwch,canys gwnaethoſt i ni hefyd ein holl weithredoedd.

13 O Arglwydd ein Duw, meiſtred eraill heb dy law di a'n perchennogaſant ni, yn vnic trwot ti y coffawn dy enw.

14 Y meirw ni byddant fyw, y meirw ni chyfodant, am hynny gofwyaiſt, a difethaiſt hwynt, diniſtriaiſt hefyd bôb coffa am danynt.

15 Chwanegaiſt ar y genedl[ hon ]ô Arglwydd chwanegaiſt ar y genedl, ti a ymogoneddaiſt: helaethaiſt, holl gyrrau y tîr.

16 Mewn adfyd Arglwydd yr ymwelſant â thi, tywalltaſant weddi, pan [ oedd ] dy goſpedigaeth arnynt.

17 Fel y gofidia,[ac] y gwaedda[gwraig] feichiog dan ei gwewyr [ pan ] fyddo agos i eſcor: felly 'r oeddem o'th flaen di Arglwydd.

18 Beichiogaſom,gofidiaſom, fel pe eſcorem wynt: ni wnaed iechydwriaeth[i'r]ddaiar, phreſſwyl-wŷr y byd ni ſyrthiaſant.

19 Dy feirw a fyddant byw, [ fel ] fynghorph i yr adgyfodant, deffroiwch, a chênwch preſſwylwŷr y llwch: canys dy wlith[ſydd fel] gwlith llyſiau, a'r ddaiar a fwrw y meirw.

20 Tyret fy mhobl, dos i'th ſtafelloedd, a chaea dy ddrws arnat: llecha megis ennyd awr hyd onid elo y llid heibio.

21 Canys wele 'r Arglwydd yn dyfod allan oi fangre i ofwyo anwiredd preſſwyl-wŷr y ddaiar yn eu herbyn: Yna y dadcuddia y ddaiar ei gwaed, ac ni chuddia hi mwyach ei lladdedigion.

## PEN. XXVII.

Dialedd Duw iw elynnion : ai ymgeledd iw bobl.

YDydd hwnnw yr ymwel yr Arglwydd ai gleddyf caled,mawr a chadarn yn erbyn Lefiathan y ſarph hir-braff, ie yn erbyn Lefiathan y ſarph dorchog: ac efe a ladd y ddraig yr hon [ſydd] yn y môr.

2 Yn y dydd hwnnw[y ffynna ]gwinllan y gwîn coch : cenwch iddi.

3 Myfi 'r Arglwydd ai ceidw, ar [bob] moment y dyfrhaf hi, cadwaf hi nôs a dydd rhac ymweled â hi.

4 Nid[oes] llidiawgrwydd ynof,pwy a oſode fieri a drain yn fy erbyn mewn rhyfel ? myfi a awn trwyddynt,mi ai lloſcwn hwynt yng-hyd.

5 Neu[pwy] a ymeifl a'm nerth i: gwnaed heddwch â mi,gwnaed heddwch â mi.

6 Efe a wna thiliogaeth Iacob wreiddio, Iſrael a flodeua,ac a flaendardda, fel y llanwant wyneb y byd â chnwd.

7 A darawodd efe ef, fel y tarawyd yr hwn ai tarawſe ef? a laddwyd ef fel lladdfa lladdedigion hwnnw?

8 Wrth feſſur y berni hon gan ei bwrw allan, efe a fwriodd ymmaith [y llall] ai wynt caled, ar ddydd dwyrein-wynt.

9 Am hynny trwy hyn y maddeuir anwiredd Iacob, ac dymma'r holl ffrwyth, tynnu

ymmaith ei bechod: pan oſodo efe holl gerric yr allor fel cerric calch briwedic, ni ſaif y llwyni, na'r delwau.

10 Os amgen, y ddinas gadarn[fydd]vnic, [fel]annedd wedi ei adel, ai wrthod megis yn anialwch, yno y pawr y llô, ac y gorwedd, ac y difa ei blagur hi.

11 Pan wywo ei brig hi, hwynt a ddryllir, gwragedd a ddeuant, ac ai lloſgant hi: canys nid pobl ddeallgar ydynt: am hynny 'r hwn ai gwnaeth ni thoſturia wrthynt, a'r hwn ai lluniodd ni thrugarhâ wrthynt.

12 A'r dydd hwnnw y bydd i'r Arglwydd ddyrnu o gamlas yr afon[Euphrates]hyd afon yr Aipht: yna chwi meibion Iſrael a geſclir bôb yn vn.

13 Ac yn y dydd hwnnw 'r vdcenir ag vdcorn mawr, yna y daw y rhai a ddifethwyd yn nhir Aſſyria, a'r rhai a waſcarwyd yn nhir yr Aipht, ac a addolant yr Arglwydd yn y mynydd ſanctaidd yn Ieruſalem.

## PEN. XXVIII.

Dialedd Duw ar Ephraim ac Iuda. 5 Duw yn caru Iuda: ac yn ei geryddu ef i wellhau.

GWae goron balchder meddwon Ephraim: canys ardderchawgrwydd ei ogoniant ef [ſydd] flodeun diflannedic yr hwn[ſydd] ar benn dyffryn y breiſion, y rhai a orchfygwyd â gwin.

2 Wele[ddydd]grymmus a nerthol yr Arglwydd, fel llifeiriant cenllyſc, [neu] gorwynt diniſtriol, fel llifeiriant dyfroedd mawrion, yn llifo troſodd, yr hwn a fwrw i lawr drwy ei gryfder.

3 Tann draed y ſethrir hwynt, [ſef] coron balchder meddwon Ephraim.

4 Ac ardderchawgrwydd ei ogoniant fydd blodeun diflannedic, yr hwn [fydd] ar ben dyffryn y breiſion: [bydd] megis ffiguſen gynnar cyn yr haf, yr hon[pan]welo 'r hwn a edrycho arni, efe ai llyngc hi, ac hi etto yn ei law.

5 Yn y dydd hwnnw y bydd Arglwydd y lluoedd yn goron ardderchawgrwydd, ac yn goron gogoniant i weddill ei bobl,

6 Ac yn yſpryd barn, i'r hwn a eiſteddo ar y farn, ac yn gadernid[i'r]rhai a ddychwelant y rhyfel i borth[y gelyn.]

7 Ac er hynny hwynt a gyfeiliornaſant drwy win, ac a ymryſuſaſant drwy ddiod gadarn: yr offeiriad a'r prophwyd a gyfeiliornaſant drwy ddiod gadarn, difawyd hwy gan win, cyfeiliornaſant trwy ddiod gadarn, amryſuſaſant mewn gweledigaeth, tramgwyddaſant [mewn] barn.

8 Canys y byrddau oll a lanwyd [o]chwdfa [a]budreddi, heb le [glân.]

9 I bwy y dyſc efe wybodaeth? ac i bwy y pâr efe ddeall yr hyn a glywo? i'r rhai a ddiddyfnwyd oddi wrth laeth, y rhai a dynnwyd oddi wrth fronnau.

10 Canys[rhoddir] gorchymyn ar orchymyn, gorchymyn ar orchymyn, llinin ar linin, llinin ar linin, ychydig ymma,[ac]ychydig accw.

11 Canys â bloeſcni tafod, ac â thafodiaith ddieithr y llefarir wrth y bobl hyn.

12 Y rhai y dywedodd efe wrthynt, dymma orphywyſdra, gadewch i'r deffygiol orphywyſo, canys dymma eſmwythder: ond ni fynnent wrando,

13 Eithr bod gair yr Arglwydd iddynt yn orchymyn ar orchymyn, yn orchymyn ar orchymyn, yn llinin ar linin, yn llinin ar linin: ychydig ymma[ac]ychydig accw, fel yr elont ac y ſyrthiont yn ôl, fel y dryllier, ac y magler, ac y dalier hwynt.

14 Am hynny gwrandewch air yr Arglwydd ddynnion gwatwarus: llywodraethwŷr y bobl hyn y rhai[ydynt]yn Ieruſalem.

15 Canys dywedaſoch, gwnaethom ammod ag angeu, ac a'r bedd y gwnaethom gyngrair: pan ddel ffrywill lifeiriol ni ddaw attom ni: canys goſodaſom ein gobaith [ar] gelwydd a thann ffalſter y llechâſom.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn ſylfaenu maen yn Sion, [ſef] congl-faen gwerth-fawr profedic, [ſef] ſylfaen ſafadwy, ni fryſia 'r hwn a gredo.

17 Yna y goſodaf farn wrth linin, a chyfiawnder wrth bwys, y cenllyſc a yſcuba obaith celwydd, a'r dyfroedd a foddât loches[ffalſter.]

18 Yna y diddymmir eich ammod ag angeu, a'ch cyngrair ag vffern ni ſaif, eithr pan ddel ffrywill lifeiriol, byddwch ſathrfa iddi.

19 O'r amſer y dêl o y cymmer chwi, canys daw bôb boreu ddydd, a nôs, a chyffro yn vnic fydd[i]beri deall yr hyn a glywir.

20 Canys byrrach yw'r gwely nag[y galler]ymeſtyn[ynddo], cûl yw 'r cwrlid pan gaſcler [tano.]

21 Canys yr Arglwydd a gyfyd megis ym mynydd Perazim, efe a ddigia megis ynglynn Gibeon i wneuthur ei waith [ſef] ei ddieithr-waith: i wneuthur ei weithred [ſef] ei ddieithr weithred.

22 Ac yn awr na ſiommwch eich hunain, rhag cadarnhau eich rhwymau: canys clywais [fod] darfodigaeth derfynol oddi wrth Arglwydd Dduw 'r lluoedd ar yr holl dir.

23 Clywch, a gwrandewch fy llais, yſtyriwch a gwrandewch fy lleferydd.

24 Onid yw yr arddwr yn aredic ar hyd y dydd? yn agoryd, ac yn llyfna ei dîr fel yr haeuo?

25 Onid pan lyfnhao ei wyneb, yna y tâna efe ffacpys, ac y gwaſcar gwmin, ac y gefyd wenith ardderchawg, a haidd meſurol, a rhŷg [yn]ei gyffe?

26 Canys [Duw] ai hyfforddia ef mewn barn: [ie] ei Dduw ai dyſc ef.

27 Canys nid ag og y dyrnir ffacpys, ac [ni]throir olwyn menn ar gwmin: eithr dyrnir ffacpys â ffonn, a chwmin â gwialen.

28 [Defnydd] bara a felir, ond gan ddyrnu ni ddyrn ydyrn-wr ef yn waſtadol, ac ni yſſiga olwyn ei fenn ef, ac nis mâl ef ai dannedd.

29 Hyn hefyd a ddaeth oddi wrth Arglwydd y lluoedd: rhyfedd yw ei gyngor, mawr yw ei ddoethineb.

## PEN. XXIX.

Coſpedigaeth Duw yn erbyn Ieruſalem, am druth, rhagrith, ffuant, a gau grefydd y bobl.

GWae Ariel, Ariel, y gaer y gwerſyllodd Dafydd [ynddi:] chwanegwch flwyddyn at flwyddyn, lladder wyn.

2 Etto mi a warchâf ar Ariel, fel y byddo galar, a griddfan, ac y byddo hi i mi fel allor.

3 Yna y gwerſyllaf yn grwnn i'th erbyn, ac a warchaeaf i'th erbyn [mewn] gwarch-dŵr, ac a gyfodaf warch-glawdd yn dy erbyn.

4 Felly i'th oſtyngir, o'r ddaiar y lleferi, ac o'r llwch y bydd iſſel dy leferydd: dy lais fydd hefyd o'r ddaiar, fel [llais] ſwyn-wr, a'th ymadrodd a ddrydar o'r llwch.

5 A thyrfa dy ddieithriaid fydd fel llwch mân, a thyrfa y cedyrn fel peiſwyn yn myned heibio, ac a dderfydd yn ddiſymmwth ddiattrec.

6 Oddi wrth Arglwydd y lluoedd y goſwyir drwy daran, a thrwy gryndſa, a thwrwf mawr, [trwy] gorwynt, a rhyferthwy, a fflam dân yſſol.

7 Yna y bydd tyrfa 'r holl genhedloedd y rhai a ryfelant yn erbyn Ariel, fel breuddwyd [neu] weledigaeth nôs, ſef y rhai oll a ymladdant yn ei herbyn hi, ai hamddeffynfa, ac a warchânt arni.

8 Je bydd megis newynoc yr hwn a freuddwydo, ac wele ef yn bwytta, a phan ddeffru gwâg fydd ei enaid: ac megis y ſychedic yr hwn a freuddwydo, ac wele ef yn yfed, a phan ddeffru wele ef yn ddeffygiol, ai enaid yn chwênych [diod:] felly y bydd tyrfa y rhai oll a luyddant yn erbyn mynydd Sion.

9 Pwyllwch, a rhyfeddwch, bloeddiwch, a gwaeddwch, meddwaſant, ac nid [trwy] wîn ymſiglaſant, ac nid [trwy] ddiod gadarn.

10 Canys tywalltodd yr Arglwydd arnoch yſpryd trym-gwſc, ac a gaeodd eich llygaid chwi, eich prophwydi a'ch pennaethiaid creifftion a orchguddiodd efe.

11 A gweledigaeth pob vn [o honynt] fydd i chwi fel geiriau llyfr ſelledic, yr hwn [os] rhoddant ef at [vn] a fedr [ar] y llyfr, gan ddywedyd, agor hwn attolwg: yna y dywed, ni allaf, canys ſeliwyd ef.

12 Os rhoddir y llyfr at yr hwn ni fedr [ar] lyfr, gan ddywedyd, darllen hwn attolwg: yna y dywed, ni fedraf [ar] lyfr.

13 Dywedodd yr Arglwydd hefyd, o herwydd neſſau y bobl hyn a i genau, a'm anrhydeddu ai gwefuſau, a phellhau eu calon oddi wrthif, a bod eu parch hwynt arnaf, wedi ei ddyſcu allan o athrawiaeth dynion,

14 Am hynny wele fi yn gwneuthur yn rhyfedd a'r bobl hyn [trwy] wrthiau a rhyfeddod, canys difethir doethineb eu doethion hwynt, a deall eu rhai deallgar hwynt a ymguddia.

15 Gwae y rhai a ymgyfrwyſant i guddio [eu] cyngor oddi wrth yr Arglwydd: ac y mae eu gweithredoedd mewn tywyllwch, ac a ddywedant, pwy a'n gwel ni? a phwy a'n hedwyn?

16 Onid fel clai crochenudd y cyfrifir eich troſa chwi, canys a ddywed y gwaith am y gweithudd, ni'm gwnaeth i? ac a ddywed y peth a luniwyd am yr hwn ai lluniodd, nid yw ddeallus?

17 Onid ychydig bach fydd etto hyd oni throir Libanus yn ddol-dir, a'r dol-dir a gyfrifir yn goed,

18 A'r dydd hwnnw y rhai byddar a glywant eiriau llyfr, a llygaid y deillion a welant o gwmmwl, a thywyllwch.

19 Yna 'r trueniaid a chwanegant lawenychu yn yr Arglwydd: a'r dynnion tlodion a ymhyfrydant yn Sanct Jſrael.

20 Pan ddarfyddo y cadarn, a phallu y gwatwarus, yna y diwreiddir y rhai oll a wiliant anwiredd,

21 Y rhai a wnant i ddyn bechu mewn gair, ac a oſodant faglau yn y porth i'r hwn [ai] ceryddo, ac a wnant i'r cyfiawn wyro trwy goegni.

22 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd (yr hwn a waredodd Abraham) am dŷ Jacob, weithian ni chywilyddir Jacob, ac ni laſſâ ei wyneb ef.

23 Eithr pan welo efe ei feibion, gwaith fy nwylo mau fi yn ei fewn, y ſancteiddiant fy enw, ie ſancteiddiant Sanct Jacob, ac ofnant Dduw Jſrael.

24 Yna y rhai cyfeiliornus o yſpryd a fedrant ddeall, a'r grwgnach-wŷr a ddyſcant athrawiaeth.

## PEN. XXX.

Duw yn bygwth y rhai oeddynt gyndyn yn Iuda: ac er a ddywedyd wrthynt a fynnent fynod i'r Aipht.

GWae'r meibion a gildynnant medd yr Arglwydd i wneuthur cyngor, a [hwnnw] nid o honofi: ac i geiſio cymmorth, a [hwnnw] nid o'r yſpryd mau fi, er mwyn chwanegu pechod ar bechod:

2 Y rhai ſydd yn myned i ddeſcyn i'r Aipht, heb ymofyn â mi, gan ymnerthu yn nerth Pharao, ac ymddiried yng-hyſcod yr Aipht.

3 Canys nerth Pharao fydd yn gywilydd i chwi, a'r ymddiried yng-hyſcod yr Aipht yn wradwydd.

4 Canys bu ei dywyſogion yn Zoan, ai gennadau a ddaethant i Hanes.

5 Pob vn a gywilyddir o herwydd y bobl, ni fuddiant iddynt, ni [byddant] yn gymmorthwy nac yn lleſâd, eithr yn warth, ac yn wradwydd.

6 Baich anifeiliaid y dehau: mewn tîr cyſtudd, ac ing, [lle y daw] o honynt yr hen lew,

a'r llew ieuangc, y wiber, a'r ſarph danllyd [yn erbyn y rhai] a ddygant eu golud ar gefnau aſſynnod, ai tryſſorau ar gefnau eu camelod, at bobl ni wnant lês.

7 Canys diwin yw yr Aiphtiaid, ac yn ofer y cynnorthwyant, am hynny y llefais ar hon, eu nerth hwynt [yw] aros yn llonydd.

8 Dos yn awr, ſcrifenna hyn mewn llech iddynt, ie ſcrifenna ef mewn llyfr, ac efe fydd hyd y dydd diweddaf, yn oes oeſoedd.

9 Canys dymma bobl wrthryfelgar plant celwyddoc, plant ni fynnant wrando cyfraith yr Arglwydd.

10 Y rhai a ddywedaſant wrth y rhai a welant, na welwch, ac wrth y rhai a ganfyddant, na chanfyddwch i ni gymwyſora: treuthwch i ni weniaith, canfyddwch i ni ſiomedigaeth.

11 Ciliwch o'r ffordd, ciliwch o'r llwybr, perwch i Sanct Iſrael beidio â ni.

12 Am hynny, fel hyn y dywed Sanct Iſrael, am wrthod o honoch y gair hwn, ac ymddyried o honoch mewn twyll, a cham, a phwyſo a'r hynny:

13 Am hynny y bydd yr anwiredd hyn i chwi fel rhwygiad chwyddedic mewn mur uchel ar ſyrthio: yr hon y daw ei drylliad yn ddiſymmwth heb attrec.

14 Canys efe ai dryllia hi, fel dryllio ſtên crochenydd, gan guro heb arbed, fel na chaffer ym myſc ei darnau gragen i gymmeryd tân o'r aelwyd, nac i dynnu dwfr o'r ffôs.

15 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw Sanct Iſrael, trwy orphywyſfa a llonyddwch y byddwch gadwedic, mewn llonyddwch, a gobaith y bydd eich cadernid: ond ni fynnech:

16 Eithr dywedaſoch, nid [felly,] canys ffoiwn ar feirch, am hynny y ffoiwch: a marchogwn ar [feirch] buain, am hynny y bydd yſcafnach y rhai a'ch erlidio.

17 Mil [a ffoant] rhac ofn un, a rhac ofn pump y ffoiwch hyd oni i'ch gadawer, megis hwyl-bren ar benn mynydd, ac fel baner ar frynn.

18 Ac am hynny y diſgwil yr Arglwydd am drugarhau wrthych, ie am hynny 'r ymdderchyf i doſturio wrthych: canys Duw cyfiawn [yw'r] Arglwydd, gwyn eu byd y rhai oll a obeithiant ynddo.

19 Canys pobl a drig yn Sion o fewn Ieruſalem: gan ŵylo nid ŵyli, gan drugarhau efe a drugarha wrthit, pan wrandawo efe ar lêf dy waedd, efe a'th atteb di.

20 A'r Arglwydd a rydd i chwi fara ing, a dwfr gorthrymder, ond ni chornelir dy athrawon mwy, eithr dy lygaid fyddant yn gweled dy athrawon.

21 A'th gluſtiau a glywant y gair o'th ôl yn dywedyd, dymma 'r ffordd, rhodiwch ynddi, pan bwyſoch ar y llaw ddehau, neu pan bwyſoch ar y llaw aſſwy.

22 Yna 'r halogwch ball dy gerf-ddelw arian, ac Ephod dy dawdd-ddelw aur, gwaſceri hwynt fel miſ-glwyf, a dywedi wrthynt, dos ymmaith.

23 Ac efe a rydd law i'th hâd, pan hauech dy dîr, a bara cnwd y ddaiar fydd yna 'n dew, ac yn frâs, a'r dydd hwnnw y pawr dy anifeiliaid borfa helaeth.

24 Dy ŷchen hefyd a'th aſſynnod y rhai a lafuriant y tir a borant ebran pur, yr hwn a nithiwyd â gwintill ac â gogr.

25 Bydd hefyd ar bob mynydd uchel, ac ar bob brynn derchafedic ffrydau dyfroedd yn afonydd yn nydd y lladdfa fawr, pan ſyrthio yr tŷrau.

26 A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fydd ſaith mwy, megis llewyrch ſaith niwrnod: yn y dydd y rhwyma yr Arglwydd friw ei bobl, ac yr iachâ archoll eu dyrnod hwynt.

27 Wele enw 'r Arglwydd yn dyfod o bell, ei ddigofaint ef ſydd yn lloſci, ai loſciad ſydd drwm: ei wefuſau a lawnwyd o ddigter, ai dafod [ſydd] megis tân yſſol.

28 Ei yſpryd hefyd [ſydd] megis afon lifeiriol [yr hon] a gyredd hyd y gwddf, i nithio y cenhedloedd â gogr oferedd, ac yn ffrwyn yngênau 'r bobloedd yn gyrru ar gyfeiliorni.

29 Y gân fydd gennych megis y noſwaith yr ymſancteiddir [i'r] uchel-ŵyl, a llawenydd calon megis yr hwn elo â phibell i fyned i fynydd yr Arglwydd at gadarn yr Iſrael.

30 A'r Arglwydd a wna glywed ardderchawgrwydd ei lais, ac a ddengys ddeſcynniad ei fraich mewn digter llidioc a fflam dân yſſol, a gwaſcariaeth, ac â chorwynt, ac â cherrig cenllyſc.

31 Canys â llais yr Arglwydd y deſtruwir Aſſur [yr hwn] a darawe a'r wialen.

32 A pha le bynnac yr elo efe, y wialen a ymlyn [wrtho ef,] yr hon a eſyd yr Arglwydd arno ef, gyd â thympanau, â thelynau: ac â rhyfel tôſt yr ymladd efe yn ei erbyn.

33 Canys darparwyd uffern er doe, ie paratoiwyd hi i'r brenin, efe ai dyfnhaodd hi, [ac] ai ehanghodd [hi,] ei chynneuad [ſydd] dân a choed lawer, anadl yr Arglwydd megis afon o frwmſtan ſydd yn ei hennyn hi.

## PEN. XXXI.

Melldith i'r rhai a elent i'r Aipht, ac a obeithient i ddim ond Duw. 5 Addewidion Duw i'r edifeiriol.

GWae y rhai a ddeſcynnant i'r Aipht am gynnorthwy, ac a ymddyriedant mewn meirch, ac a ymhyderant mewn cerbydau am eu [bod] yn aml, ac mewn gwŷr meirch am eu bod yn nerthol iawn: ond nid edrychaſant am Sanct Iſrael, ac ni cheiſiaſant yr Arglwydd.

2 Etto y mae efe yn ddoeth, ac a ddaw â choſpedigaeth, ac ni chilia [oddi wrth] ei air, eithr cyfyd yn erbyn tŷ y rhai drygionus,

ac yn erbyn cynnorthwy y rhai a weithredant anwiredd.

3 Yr Aiphtiaid hefyd [ydynt] ddynion, ac nid Duw, ai meirch yn gig, ac nid yn yſpryd: pan eſtynno'r Arglwydd ei law, yna y ſyrth y cynnorthwywr, ac y cwymp y cynnorthwyedic, a hwynt oll a gyd-ddarfyddant.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif, megis y rhua hen lew, a'r llew ieuangc ar ei ſclyfaeth, yr hwn er galw llawer bugail yn ei erbyn, ni ddychryn rhac eu llef hwynt, ac nid ymoſtwng er eu twrwf hwynt: felly y deſcyn Arglwydd y lluoedd i ryfela tros fynydd Sion, a thros ei brynn hi.

5 Megis adar yn ehedec, felly 'r ymaſcella Arglwydd y lluoedd tros Ieruſalem, gan dderbyn a gwared, gan baſſio heibio, ac achub.

6 Dychwelwch at yr hwn y llwyr giliodd meibion Iſrael [oddi wrtho.]

7 O herwydd yn y dydd hwnnw, gwrthodant bob vn ei eulynnod arian, ai eulynnod aur, y rhai a wnaeth eich Dwylo eich hun yn bechod i chwi.

8 Ac Aſſur a ſyrth nid trwy gleddyf gŵr eithr cleddyf nid dynawl ai difa ef: ac efe a ffŷ rhac y cleddyf, ai wŷr ieuaingc a fyddant tann drêth.

9 Ac efe aiff iw graig rhac ofn, ai dywyſogion a ofnant rhac y faner medd yr Arglwydd, yr hwn y mae ei dân yn Sion, ai ffwrn yn Ieruſalem.

## PEN. XXXII.

Brenhiniaeth Criſt ai lywodraeth.

WEle brenin a deyrnaſa mewn cyfiawnder, a thywyſogion a flaenorant mewn barn.

2 A'r gŵr [hwnnw] fydd megis yn ymguddfa [rhac] gwynt, a lloches [rhac] llifeiriant, megis afonydd dyfroedd mewn ſychder, megis cyſcod craig fawr mewn tîr ſychedic.

3 Yna llygaid y rhai a welant ni chaeir, a chluſtiau y rhai a glywant a wrandawant.

4 Calon hefyd y rhai ehud a ddeall wybodaeth, a thafod y rhai bloeſc a bryſſura draethu [geiriau] eglur.

5 Ni elwir mwy 'r ynfyd yn fonheddig, ac ni ddywedir am y cubydd, hael [yw.]

6 Canys yr ynfyd a draetha ynfydrwydd, ai galon a wnaiff anwiredd, gan ragrithio, a chan draethu cabledd yn erbyn yr Arglwydd: gan ddiddymmu enaid y newynog, a chan dynnu ymmaith ddiod y ſychedic.

7 Arfau y cubydd [ydynt] annuwiol, efe a ddychymyga ddichellion i ddifwyno y trueniaid trwy ymadroddion gau: ac i draethu [yn erbyn] y tlawd mewn barn.

8 Felly yr hael a ddychymyg haelioni: ac ar haelioni y ſaif efe.

9 Cyfodwch wragedd difraw, clywch fy llais, gwrandewch fy ymadrodd ferched diofal.

10 Dyddiau gyd â blwyddyn y trallodir chwi wragedd difraw, canys darfu y cynhaiaf gwin, [ac] ni ddaw cynnull [mwyach.]

11 Ofnwch rai diſtraw, dychrynnwch rai diofal, ymddioſc, ac ymnoetha, ymwregyſa hefyd am dy lwyni.

12 Galaru y maent am y tethau, am feuſydd hyfryd, am win-wydden ffrwythlon,

13 Cyfyd drain, a mieri ar dir fy mhobl, ie ar bob tŷ llawenydd [a] dinas hyfryd.

14 Canys y palas a ddiniſtrir, lluoſogrwydd y ddinas a adewir, yr ymddeffynfa, a'r tŵr fyddant yn ogfeudd hyd byth, yn hyfrydwch aſſynnod gwylltion, [ac] yn borfa diadellau [defaid.]

15 Hyd oni thywallter arnom yſpryd o'r vchelder, a bod yr anialwch yn ddol-dir, a chyfrif y dol-dir yn goed-tir,

16 Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y dol-dir.

17 A gwaith cyfiawnder fydd heddwch, ie gweithred cyfiawnder [fydd] llonydddwch a diogelwch hyd byth.

18 Canys fy mhobl a drig mewn preſſwylfa heddychlon, ac mewn anneddau diogel, ac mewn gorphywyſtra llonydd.

19 Yna y bydd cenllyſc yn deſcyn [ar] y coed, a'r ddinas fydd iſſel mewn gwaſtad.

20 Gwyn eich byd y rhai a hauwch ger llaw pob dyfroedd, y rhai a yrrwch yr ŷch a'r aſſyn [yno.]

## PEN. XXXIII.

Dialedd Duw ar yr Aſſyriaid: Ai ymgeledd iw ffyddloniaid.

GWae [di] anrheithiwr, a thi heb dy anrheithio, a [thi] anffyddlon, er na wnaed yn anffyddlon â thi: pan ddarffo it anrheithio i'th anrheithir, a phan ddarffo it fod yn anffyddlon y byddant anffyddlon i ti.

2 Arglwydd trugarha wrthym, ynot y gobeithiaſom, bydd fraich iddynt yn forau, a'n iechydwriaeth ninneu yn amſer cyſtudd.

3 Wrth lais y twrwf y gwibiodd y bobl, wrth ymdderchafu o honot y gwaſcarwyd y cenhedloedd.

4 A'ch yſpail a gynhullir [fel] cynhulliad locuſt, fel mynediad ceiliogod rhedyn [y byddir] yn myned yn ei erbyn ef.

5 Derchafwyd yr Arglwydd, canys preſſwylio y mae yn yr vchelder: efe a lanwodd Sion o farn a chyfiawnder.

6 Efe fydd ſiccrwydd dy amſer, nerth, iechydwriaeth, doethineb, a gwybodaeth: ofn yr Arglwydd fydd ei dryſſor ef.

7 Wele eu rhai gorcheſtol a waeddaſant oddi allan, cennadon heddwch a wylaſant yn chwerw.

8 Anrheithiwyd y priffyrdd, darfu cynniweirydd llwybr, diddymmodd gyfammod, diyſtyrodd ddinaſoedd, ni wnaeth gyfrif o ddynion.

9 Galarodd [a] lleſcaodd y ddaiar, cywilyddiodd Libanus [a] thorrwyd ef: Saron aeth

megis anialwch, eſcydwyd Baaſan hefyd a Charmel.

10 Cyfodaf yn awr medd yr Arglwydd ymdderchafaf weithian, ymgodaf bellach.

11 Chwi a eſcorwch ar us, [ac] a ymddygwch ſofl, eich yſyryd [fel] tân a'ch yſa chwi.

12 A'r bobloedd fyddant[fel]odynau calch, [fel]drain wedi eu torri y lloſcir hwynt yn tân.

13 Gwrandewch belledigion yr hyn a wneuthum, a gwybyddwch gymmydogion fy nerth mau fi.

14 Pechaduriaid a ofnaſant yn Sion, dychryn a ddaliodd y rhagrithwŷr: pwy o honom [meddant] a drig [wrth] dân yſol: pwy o honom a breſſwylia [wrth] loſcfeudd tragywyddol.

15 Yr hwn a rodio [mewn] cyfiawnder, ac a draetha iniondeb, a wrthid elw twyllodrus, a eſcydwo ei law rhac derbyn gobrwy, a gaeo ei gluſt rhac clywed celanedd, ac a gaeo ei lygaid rhac edrych ar ddrygioni,

16 Efe a breſſwylia'r uchelder, ceſtyll y creigiau fydd ei amddeffynfa ef: ei fara a roddir iddo, ei ddwfr [fydd] ſiccr.

17 Dy lygaid a welant y brenin yn ei degwch: gwelant dir pell.

18 Dy galon a fefyria ofn, pa le [y mae'r] ſcrifennudd: pa le [y mae] y pwyſudd, pa le [y mae] rhifudd y tŷrau:

19 Ni chei weled pobl greulon, pobl ddieithr-iaith fel na's dealler, [neu] floeſc dafod heb ei ddirnad.

20 Gwel Sion dinas ein cyfarfod, dy lygaid a welant Jeruſalem, y breſſwylfa lonydd, y babell ni thynnir i lawr, [ac] ni ſyfl ei hoelion byth, ai rhaffau oll ni ddrylliant.

21 Eithr yr Arglwydd ardderchawg[fydd] yno i ni yn fangre afonydd [neu] ffrydau ymyl lydain: y rhwyf-long nid aiff trwyddo, a llong odidawg nid aiff troſtaw.

22 Canys yr Arglwydd [yw] ein barn-wr, yr Arglwydd [yw] ein deddf-wr, yr Arglwydd [yw] ein brenin, efe a'n ceidw.

23 Gollyngaſant dy raffau, ni chadarnhauſant yr hwyl-bren yn iawn, ni thanâſant yr hwyl, rhannwyd yn awr ſclyfaeth yſpail fawr: y cloffion a ſclyfaethaſant yr ſclyfaeth.

24 Ac na ddyweded y preſſwylydd, claf ydwyf: maddeuwyd anwiredd y bobl a drigant ynddi.

## PEN. XXXIIII.

Amryw ddialeddau Duw yn erbyn pechaduriaid.

NEſſewch genhedloedd i glywed, a gwrandewch bobloedd: gwrandawed y ddaiar ac y ſydd ynddi, y byd ai holl gnwd.

2 Canys llidiawgrwydd yr Arglwydd ſydd yn erbyn yr holl genhedloedd, ai ſorriant yn erbyn eu holl lû hwynt: diſtrododd hwynt, rhoddes hwynt i'r lladdedigaeth.

3 Ai lladdedigion a fwrir allan, a drewiant eu celanedd a gyfyd i fynu, y mynyddoedd hefyd a ffrydiant oi gwaed hwynt.

4 Holl lu y nefoedd hefyd a doddant, a'r nefoedd a blygir fel llyfr: ai holl lu a ſyrth, fel y ſyrthie deilen o'r win-wydden, ac fel y ſyrthie hi o'r ffiguſ-bren.

5 Canys fyng-hleddyf a drochir yn y nefoedd, wele ar Edom y deſcyn i farn, ac ar y bobl y rhai a eſcymmunais.

6 Cleddyf yr Arglwydd a lawnwyd o waed tewhaodd o fraſter, [ſef] o waed ŵyn a bychod, o fraſter arennau hyrddod: canys [bydd] i'r Arglwydd aberth yn Bozra, a lladdfa fawr yn nhir Edom.

7 Yna y deſcyn yr unicorniaid gyd â hwynt, a'r buſtych gyd a'r teirw, ai tir hwynt a feddwa oi gwaed hwynt, ai llwch fydd tew o fraſter.

8 Canys diwrnod dialeddiad yr Arglwydd, blwyddyn taledigaeth yn achos Sion [yw.]

9 Yna y troir ei hafonydd hi'n bŷg, ai llwch yn frwmſtan, ai daiar yn bŷg lloſcedic.

10 Nis diffoddir nos na dydd, ei mŵg a ddring byth, o genhedlaeth i genhedlaeth y diffeithir hi, ni [bydd] cynniwerydd trwyddi byth bythoedd.

11 Y Pelican hefyd a'r draenoc ai goreſcyn, Soph.2.14. y ddylluan a'r gigfran a drigant ynddi, ac efe a eſtyn arni linin afluniaidd-dra, a meini gwagedd.

12 Ei phendefigion a alwant, ac nid oes yno frenhiniaeth, ai holl dywyſogion hi ydynt ddiddym.

13 Cyfyd hefyd [yn] ei phalaſau ddrain, danadl, ac yſcall yn ei cheurydd, ac hi a fydd yn drigfa dreigiau, yn gyntedd i gywion yr eſtris.

14 * Yno yr anifeiliaid gwylltion a'r cathod a ymgyfarfyddant, yr ellyll a eilw ar ei gyfaill, yr ŵyll a orphywys yno hefyd, ac a gaiff orphywyſtra iddi. Ier.50.39. Eſa.13.21. Soph.2.14.

15 Yno y nŷtha y ddylluan, ac y dodwa, ac y dehôra, ac a gaſcl yn ei chyſcod, y fulturiaid a ymgaſclant yno hefyd, pob un at ei gymmar.

16 Ceiſiwch o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch, ni phalla un o hyn, ni bydd un yn eiſieu i'r llall, canys ei enau ef a orchymynnodd, ai yſpryd ef ai caſclodd hwynt.

17 Efe hefyd a fwriodd y coel-bren iddynt, ai law ef ai rhannodd hi iddynt wrth linin: meddiannant hi hyd byth, a phreſſwyliant hi o genhedlaeth i genhedlaeth.

## PEN. XXXV.

Godidawgrwydd brenhiniaeth Griſt, a llawenydd y ffyddlonniaid wrth yſtyried hynny.

YR anialwch, a'r gwylltineb a lawenychant o hyn, y diffaethwch hefyd a orfoledda, ac a flodeua fel rhoſyn.

2 Gan flodeuo y blodeua, ac y llawenycha hefyd â llawenydd ac â chân: gogoniant Li-

banus a roddir iddo, [a] godidogrwydd Carmel a Saron: hwynt a welant ogoniant yr Arglwydd [a] godidogrwydd ein Duw ni.

3 Cadarnhewch y dwylo lleſc, a chryfhewch y gliniau gwenniaid.

4 Dywedwch wrth y rhai gwan galon, ymgryfhêwch, nac ofnwch, wele eich Duw chwi a ddaw â dial, cewch weled taledigaeth Duw, efe a ddaw, ac a'ch achub chwi.

5 Yna 'r agorir llygaid y deillion, a chluſtiau y byddarion a ymagorant.

9 Yna y llamma y cloff fel hydd, ac y cân tafod y mudan, am dorri dyfroedd allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffaethwch.

7 Y craſ-dir hefyd fydd yn llynn, a'r tîr ſychedic yn ffynhonnau dyfroedd, yn nhrigfa y dreigiau ai gorweddfa [y bydd] cyfle corſennau a brwyn.

8 Yna y bydd ſarn, a ffordd, ffordd ſanctaidd hefyd y gelwir hi, yr halogedic ni's cyniwer hi, canys hyn [fydd] eiddynt hwy: a rodio 'r ffordd pe [byddent] ynfydion, ni chyfeiliornant.

9 Ni bydd yno lew, bwyſt-fil gormeſol hefyd ni ddring iddi, ac ni's ceir yno, eithr y rhai gwaredig a rodiant [yno.]

10 Sef gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant, ac a ddeuant i Sion â chanmoliaeth, ac â llawenydd tragywyddol yn eu penn: goddiweddant lawenydd, ac hyfrydwch, cyſtudd hefyd a galar a ffoant ymmaith.

## PEN. XXXVI.

Senacherib yn anfon Rabſaceh i warche ar Ieruſalem. 15 ei gabledd yntef yn erbyn Duw.

AC yn y bedwaredd flwyddyn ar ddec i'r brenin Hezecia y daeth Senacherib brenin Aſſyria i fynu yn erbyn holl gaeroc ddinaſoedd Juda, ac ai goreſcynnodd hwynt.

2 Yna brenin Aſſyria a anfonodd Rabſaceh o Lachis tu ag Jeruſalem at y brenin Hezecia â llû dirfawr, ac efe a ſafodd wrth aber y llynn vchaf yn llwybr maes y pann-wr.

3 Ac aeth atto ef Eliacim mab Helcia, yr hwn [oedd] pen-teulu, a Sobna yr ſcrifennydd, ac Joah mab Aſaph y cofiadur.

2.Bren.18.19. 4 A dywedodd Rabſâceh wrthynt, dywedwch yn awr wrth Hezecia: fel hyn y dywed y brenin mawr [ſef] brenin Aſſyria, pa hyder [yw] hwn', yr hwn yr ymddyriedaiſt [ynddo⁏]

5 Dywedais yn ddiau, [coelio 'r wyt] i eiriau ofer, cyngor a nerth [ſydd raid] i ryfel: ar bwy attolwg yr hyderaiſt, pan wrthryfelaiſt i'm herbyn⁏

7 Wele hyderaiſt ar y ffon gorſen ddrylliedic honno, [ſef] ar yr Aipht, yr hon pwy bynnac a bwyſo arni, yna hi a aiff i gledr ei law ef, ac a dylla trwyddi: felly [y mae] Pharao brenin yr Aipht i bawb a hyderant arno.

7 Ac os dywedi wrthif, yn yr Arglwydd ein Duw 'r ydym yn ymddyried, onid efe [yw] 'r hwn a ddarfu i Hezecia dynnu i lawr ei vchelfeydd ai allorau, ac a ddywedodd wrth Juda, ac Jeruſalem, o flaen yr allor hon yr addolwch chwi⁏

8 Ac yn awr dod wyſtl attolwg i'm harglwydd, brenin Aſſyria, ac mi a roddaf i ti ddwy fil o feirch os gelli di roddi iddo ef farchogion arnynt.

9 A pha fodd y gwrth-wynebi di vn capten o'r gweiſion lleiaf i'm harglwydd, ac yr ymddyriedi di yn yr Aipht am gerbydau a marchogion⁏

10 Ai o anfodd yr Arglwydd y daethum i fynu yr awr hon yn erbyn y wlad hon iw diniſtrio? yr Arglwydd a ddywedodd wrthif, dos i fynu yn erbyn y wlad hon a diniſtria hi.

11 Yna y dywedodd Eliacim, Sobna hefyd ac Joah wrth Rabſaceh, llefara attolwg wrth dy weiſion yn Syrian-aec, canys yr ydym ni yn ei deall: ac na lefara wrthym ni yn iaith yr Iddewon lle y clywo 'r bobl y rhai [ydynt] ar y mur.

12 Yna y dywedodd Rabſaceh, ai at dy feiſtr di, ac attat tithe, yr anfonodd fy meiſtr fi, i lefaru y geiriau hyn⁏ onid at y dynnion y rhai ydynt yn eiſtedd ar y mur, fel y bwytâant eu tomm, ac yr yfant eu trwngc gyd â chwi⁏

13 A ſafodd Rabſaceh, a gwaeddodd â llêf vchel yn iaith yr Iddewon, ac a ddywedodd, gwrandewch eiriau y brenin mawr [ſef] brenin Aſſyria.

14 Fel hyn y dywed y brenin, na thwylled Hezecia chwi: canys ni ddichon' efe eich gwaredu chwi.

15 Ac na phared Hezecia i chwi ymddyried yn yr Arglwydd gan ddywedyd: yr Arglwydd gan waredu a'ch gwared chwi, ni roddir y ddinas hon yn llaw brenin Aſſyria.

16 Na wrandewch ar Hezecia, canys fel hyn y dywed brenin Aſſyria, gwnewch heddwch â mi, a deuwch attaf, a bwytewch bob vn oi win-wydden ei hun, a phob vn [oi] ffiguſ-bren, ac yfed pawb ddwfr ei ffynnon ei hun,

17 Nes i'm ddyfod a'ch dwyn chwi i wlad megis eich gwlad eich hun: gwlad ŷd a gwîn, gwlad bara, a gwinllannoedd,

18 Rhac i Hezecia eich hudo chwi gan ddywedyd: yr Arglwydd a'ch gwared chwi: a waredodd duwiau y cenhedloeth, pob vn ei wlad o law brenin Aſſyria⁏

19 Mae duwiau Hemath, ac Arphad⁏ mae duwiau Sepharfaim⁏ a waredaſant hwy Samaria o'm llaw i?

20 Pwy [ſydd] ym mhlith holl dduwiau y gwledydd hyn a'r a waredaſant eu gwlad o'm llaw i⁏ fel y gwarede yr Arglwydd Jeruſalem o'm llaw mau fi⁏

21 Yna y tawſant, ac nid attebaſant air iddo: canys gorchymyn y brenin [oedd] hynn gan ddywedyd: nac attebwch ef.

22 Yna y daeth Eliacim mab Helcia yr hwn [oedd] ben teulu, a Sobna'r ſcrifennudd, ac Ioah mab Aſaph y cofiadur at Hezecia â gwiſcoedd rhwygedic, a mynegaſant iddo eiriau Rabſaceh.

## PEN. XXXVII.

Hezecia yn gofyn cyngor i Eſay, ac yntef yn addo iddo y fuddugoliaeth. 10 Cabledd Senacherib. 16 Gweddi Hezecia. 36 Angel yr Arglwydd yn lladd llu Senacherib. 38 Ai ddau fab gnawdol yn ei ladd yntef.

2.Bren.19.1. APhan glybu y brenin Hezecia [hynny,] yna efe a rwygodd ei ddillad, ac a ymwiſcodd mewn ſachliain, ac a aeth i dŷ'r Arglwydd:

2 Ac a anfonodd Eliacim y pen-teulu, ac Sobna'r ſcrifennudd, ac henuriaid yr offeiriaid wedi ymwiſco mewn ſach-liain at Eſay fab Amos y prophwyd.

3 A dywedaſant wrtho, fel hyn y dywedodd Hezecia, diwrnod cyfyngder, a cherydd, a chabledd [yw]'r dydd hwn: canys y meibion a ddaethant hyd yr anedigaethfa, ond nid [oes] rym i eſcor.

4 Ond odid gwrandawodd yr Arglwydd dy Dduw eiriau Rabſaceh (yr hwn a anfonodd brenin Aſſyria ei feiſtr ef i gythruddo y Duw byw) ac a gerydda am y geiriau y rhai a glybu yr Arglwydd dy Dduw: am hynny dercha dy weddi dros y gweddill yr hwn ſydd iw gael.

5 Felly gweiſion y brenin Hezecia a ddaethant at Eſay.

6 A dywedodd Eſay wrthynt, fel hyn y dywedwch wrth eich meiſtr: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, nac ofna rhac y geiriau y rhai a glywaiſt, [drwy] y rhai y cablodd gweiſion brenin Aſſyria fi.

7 Wele fi yn rhoddi yn ei erbyn ef wynt, fel y clywo ddwrwf, ac y dychwelo iw wlad: gwnaf hefyd iddo ſyrthio ar gleddyf yn ei wlad ei hun.

8 Yna y dychwelodd Rabſaceh, ac a gafodd frenin Aſſyria yn rhyfela yn erbyn Libna: canys efe a glywſe ddarfod iddo fyned o Lachis.

9 Ac efe a glywodd [ſôn] am Thirhaca frenin Ethiopia gan ddywedyd: efe a aeth allan i ryfela â thi, pan glywodd [hynny,] yna'r anfonodd gennadau at Hezecia gan ddywedyd:

10 Fel hyn y dywedwch wrth Hezecia brenin Iuda, gan ddywedyd: na thwylled dy Dduw di yr hwn yr wyt yn ymddyried ynddo gan ddywedyd: ni roddir Ieruſalem yn llaw brenin Aſſyria.

11 Wele ti a glywaiſt yr hyn a wnaeth brenhinoedd Aſſyria i'r holl wledydd gan eu difrodi hwynt: ac a waredir di?

12 A waredodd duwiau y cenhedloedd hwynt y rhai a ddarfu i'm tadau eu diniſtrio, ſef Goſan, a Haran, a Reſeph, a meibion Eden y rhai [oeddynt] o fewn Thalaſſar.

13 Mae brenin Hemath? a brenin Arphad? a brenin dinas Sepharfaim, Hena, ac Iſah?

14 A chymmerth Hezecia y llythyrau o law y cennadau, ac ai darllenodd: yna'r aeth i fynu i dŷ'r Arglwydd, a Hezecia ai lledodd hwynt ger bron yr Arglwydd.

15 Yna Hezecia a weddiodd at yr Arglwydd gan ddywedyd:

16 Arglwydd y lluoedd, Duw Iſrael yr hwn wyt yn eiſtedd [rhwng] y Cerubiaid, ti yn unic ydwyt Dduw ar holl deyrnaſoedd y ddaiar: ti a wnaethoſt y nefoedd ar ddaiar.

17 Gogwydda Arglwydd dy gluſt, a gwrando, agor dy lygaid Arglwydd, ac edrych: gwrando hefyd holl eiriau Senacherib, yr hwn a anfonodd i gythruddo y Duw byw.

18 Gwir [yw] ô Arglwydd i frenhinoedd Aſſyria ddifa'r holl wledydd ai tir,

19 A rhoddi eu duwiau hwynt yn tân: canys nid [oeddynt] hwy dduwiau, onid gwaith dwylo dŷn [o] goed, a maen, am hynny y diniſtriaſant hwynt.

20 Ac yr awr hon ô Arglwydd ein Duw ni achub ni oi law ef: fel y gwyppo holl deyrnaſoedd y ddaiar, mai ti yn unic [yw]'r Arglwydd.

21 Yna Eſay mab Amos a anfonodd at Hezecia gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael, o herwydd it weddio attafi yn erbyn Senacherib brenin Aſſyria,

22 Dymma'r gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd yn ei erbyn ef: y forwyn merch Sion a'th ddirmygodd, [ac] a'th watwarodd, merch Ieruſalem a eſcydwodd ben ar dy ôl.

23 Pwy a gythruddaiſt, ac a geblaiſt? [ô Senacherib? ac yn erbyn pwy y dyrchefaiſt [dy] lêf? ac y cyfodaiſt yn uchel dy lygaid? yn erbyn Sanct Iſrael.

24 Trwy law dy weiſion y ceblaiſt yr Arglwydd, ac y dywedaiſt: yn amlder fyng-herbydau y daethum i fynu i uchelder y mynyddoedd, [i] yſtlyſau Libanus: torraf uchelder ei cedr-wydd, ai ddewiſedicaf ffynnid-wydd, âf hefyd iw gwrr uchaf [ac i] goed ei ddol-dir.

25 Myfi a gloddiais, ac a yfais ddwfr: â gwadnau fy nhraed hefyd y ſychais yr holl afonydd gwarchaedic.

26 Oni chlywaiſt wneuthur o honof hyn er yſtalm, ai lunio er y dyddiau gynt? yn awr y dygym hynny i ben, pan ydwyt ti yn deſtruwis dinaſoedd caeroc yn garneddau diniſtriol.

27 Am hynny eu trigolion yn gwttog-law a ddychrynnwyd, ac a gywilyddiwyd: oeddynt [megis] gwellt y maes, fel eginin breſech, [neu] laſ-wellt ar nennau [tai,] neu oloſciad ŷd cynn corſi.

28 Dy eiſteddiad hefyd, a'th fynediad, a'th ddyfodiad a adnabûm: a'th gynddeiriogrwydd i'm herbyn.

29 Am it ymgynddeiriogi i'm herbyn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fynu i'm cluſtiau: am hynny y rhoddaf fy mâch yn dy ffroen di, a'm ffrwyn yn dy weſlau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd yr vn-ffordd ac y daethoſt.

30 A hyn [fydd] yn arwydd i ti [Hezecia,] y flwyddyn [hon] y bwyttei a dyfo o honaw ei hun, ac yn yr ail flwyddyn yr attwf, ac yn y drydedd flwyddyn, hauwch, a medwch, plennwch winllannoedd hefyd, a bwytewch eu ffrwyth hwynt.

31 A'r gweddill o dŷ Juda [yr hwn] a adewir a wreiddia eilwaith i wared, ac a ddẃg ffrwyth i fynu.

32 Canys gweddill aiff allan o Jeruſalem, a rhai diangol o fynydd Sion: zêl Arglwydd y lluoedd a wnaiff hyn.

33 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am frenin Aſſyria, ni ddaw efe i'r ddinas hon, ac nid ergydia efe ſaeth yno: hefyd nid achub ei blaen â tharian, ac ni ſwrw glawdd iw herbyn.

34 Ar hŷd yr vn ffordd ac y daeth y dychwel, ac ni ddaw i mewn i'r ddinas hon medd yr Arglwydd.

35 A mi a ddeffynnaf y ddinas hon, gan ei chadw hi er fy mwyn i, ac er mwyn Dafydd fyng-wâs.

36. Yna 'r aeth Angel yr Arglwydd, ac a darawodd yng-werſyll yr Aſſyriaid gant a phedwar-vgain, a phum mil: a'r [gweddill] a gyfodaſant yn fore, ac wele hwynt oll yn gelaneddau meirw.

37 Felly Senacherib brenin Aſſyria a gychwynnodd, aeth hefyd, a dychwelodd, ac a drigodd yn Ninife.

38 Pan ydoedd efe yn addoli yn nhŷ Neſroch ei dduw ef, yna Adramalech, a Sarazer ei feibion ai tarawſant ef â chleddyf, a hwynt a ddiangaſant i wlad Armenia: ac Aſarhadon ei fâb a deyrnaſodd yn ei le ef.

## PEN. XXXVIII.

1 Hezecia yn clafychu. 5 Yr Arglwydd yn ei iachau ef, ac yn eſtyn ei oes ef bymtheng-mhlynedd. 10 Hezecia yn ddiolchgar am hynny.

2.Bren.20.1. YN y dyddiau hynny y clafychodd Hezecia i farw: Ac Eſay mab Amos y prophwyd a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: treſna dy dŷ, canys marw fyddi di, ac ni byddi byw.

2 Yna Hezecia a droes ei wyneb at y pared, ac a weddiodd at yr Arglwydd:

3 A dywedodd, attolwg Arglwydd coſia yr awr hon i mi rodio ger dy fron di mewn gwirionedd, ac mewn calon berffaith, a gwneuthur yr hyn [oedd] dda yn dy olwg: a Hezecia a wylodd ag wylofain mawr.

4 Yna y bu gair yr Arglwydd wrth Eſay gan ddywedyd:

5 Dos, a dywet wrth Hezecia, fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Dafydd dy dad: clywais dy weddi di, gwelais dy ddagrau, wele fi yn chwanegu at dy ddyddiau di bymtheng-mhlynedd.

6 Ac o law brenin Aſſyria i'th waredaf di, a'r ddinas: canys mi a ddeffynnaf y ddinas hon.

7 A [bydded] hyn i ti yn arwydd oddi wrth yr Arglwydd, y gwna 'r Arglwydd y gair hwn, yr hwn a lefarodd.

8 Wele fi yn dychwelyd cyſcod y graddau (yr hwn a ddeſcynnodd yn neial Ahaz gyd a'r haul) ddêc o raddau yn ei ôl: felly 'r haul a ddatrôdd ddêc o raddau ar hŷd y graddau y rhai y deſcynnaſe [ar hyd-ddynt.]

9 Scrifen Hezecia brenin Juda pan glafychaſe, a byw o honaw ef oi glefyd.

10 Myfi a ddywedais, yn nhorriad fy nyddiau yr âf i byrth y bedd: difeddwyd fi o weddill fy mlynyddoedd.

11 Dywedais, ni chaf weled yr Arglwydd Jor yn nhir y bywion, ni chanfyddaf ddŷn mwyach ym myſc trigolion y byd.

12 Fy mhreſſwylfod a aeth, ac a fudodd oddi wrthif fel llueſt bugail: torrais ymaith fy hoedl megis y gwehydd, gā gulni efe a'm dryllia: o ddydd hyd nos ti a'm gorphenni.

13 Bwriedais hyd y boreu, megis llew y drylliodd efe fy holl eſcyrn: o ddydd hyd nos y gwnei ddiben arnaf.

14 Megis garan [neu] wennol, felly drydar a wneuthum, griddfenais megis colomen: fy llygaid a ddyrchafaſyd i'r vchelder, ô Arglwydd [fy mlinder] a'm gorthrymmodd, eſmwythâ arnaf.

15 Beth a draethaf, canys dywedodd wrthif ac efe ai gwnaiff: mi a gyrwydraf fy holl flynyddoedd mewn chwerwedd fy enaid.

16 Arglwydd iddynt hwy a fyddant byw, ac i bawb drwyddynt hwythau [yr yſpyſſir] bywyd fy yſpryd i, am hynny 'r iachei fi, ac y bywhei fi.

17 Wele yn lle heddwch i mi chwerwder chwerw: rhyngodd it fodd hefyd [waredu] fy enaid o bwll llygredigaeth: canys ti a deflaiſt fy holl bechodau tu ôl i'th gefn.

18 Canys y bedd ni'th fawl di, angeu [ni'th] glodfora: y rhai ſy yn ddeſcyn i'r pwll ni obeithiant yn dy wirionedd.

19 Y byw, y byw efe a'th fawl di fel fyfi heddyw: y tâd a hyſpyſſa iw feibion dy wirionedd.

20 Yr Arglwydd [ſydd] i'm cadw i: am hynny y canwn fyng-haniadau holl ddyddiau ein henioes yn nhŷ 'r Arglwydd.

21 Ac Eſay a ddywedodd, cymmerant ſwp o ffigus, a rhwymant at y cornwyd, ac efe a fydd byw.

22 Yna y dywedodd Hezecia, pa arwydd [a geiſiaf?] canys âf i fynu i dŷ 'r Arglwydd,

## PEN. XXXIX.

Eſay yn ceryddu Hezecia am iddo ef ddangos ei dryſſor, ai gyfoeth i'r cennadon a ddaethent o Babilon.

2.Bren. 20. 12. YN * yr amſer hwnnw Merodac Baladan, mab Baladan brenin Babilon a anſonodd lythyrau, ac anrheg at Hezecia: canys efe a glywſe ei fod ef yn glaf, ai fyned yn iach.

2 Ac Hezecia a lawenychodd oi herwydd hwynt, a dangoſodd iddynt dŷ ei dryſſorau, yr arian, a'r aur, a'r llyſſieuau, a'r olew goref, a holl dŷ ei arfau ef, a'r hyn oll a gafwyd yn ei dryſſorau ef: nid oedd dim yn nhŷ Hezecia, nac yn ei holl gyfoeth ef, a'r na's dangoſodd efe iddynt.

3 Yna y daeth Eſay y prophwyd at y brenin Hezecia, ac a ddywedodd wrtho, beth a ddywedodd y gwŷr hynny, ac o ba le y daethant attat? a dywedodd Hezecia, o wlâd bell y daethant attaf [ſef] o Babilon.

4 Yntef a ddywedodd, beth a welſant yn dy dŷ di? a dywedodd Hezecia, yr hyn oll [oedd] yn fy nhŷ i a welſant, nid oes dim yn fy nhryſſorau a'r na's dangoſais iddynt.

5 Yna Eſay a ddywedodd wrth Hezecia, gwrando air Arglwydd y lluoedd:

6 Wele y dyddiau 'n dyfod pan ddygir i Babilon yr hyn oll [ſydd] yn dy dŷ di, a'r hyn a gynhiliodd dy dadau di hyd y dydd hwn: ni adewir dim medd yr Arglwydd.

7 Cymmerant hefyd o'th feibion di, y rhai a ddaethant o honot [ſef] y rhai a genhedlaiſt, fel y byddant ſtafellyddion yn llys brenin Babilon.

8 Yna y dywedodd Hezecia wrth Eſay, da [yw] gair yr Arglwydd yr hwn a leferaiſt: dywedodd hefyd, os bydd heddwch a gwirionedd yn fy nyddiau i [da yw.]

## PEN. XL.

Efangylaidd gyſſur i'r eglwys. 3 Galwedigaeth Ioan fedyddiwr. 12 Gallu Duw i gyflawni y cyſſur vchod. 18 Ofered yw pob delw. 22 Duw 'n vnic ſydd Oll-alluog.

CYſſurwch, cyſſurwch fy mhobl, medd eich Duw.

2 Dywedwch wrth fodd Jeruſalem, llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth: canys maddeuwyd ei hanwiredd, o herwydd derbynniodd o law 'r Arglwydd yn ddau ddyblyg am ei holl bechodau.

3 Canys llêf ſydd yn llefain yn yr anialwch, paratoiwch ffordd yr Arglwydd, inionwch lwybr ein Duw ni yn y diffaethwch.

4 Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a brynn a oſtyngir, y gŵyr a fydd yn iniawn, a'r anwaſtad yn waſtadedd.

5 A gogoniant yr Arglwydd a ymeglura fel y cyd-welo pob cnawd mai genau 'r Arglwydd a lefarodd [hyn.]

6 Llef a ddywedodd [wrth y prophwyd,] gwaedda di, yntef a ddywedodd, beth a waeddaf, [bod] pob cnawd yn wellt, ai holl odidawgrwydd fel blodeun y maes.

7 Gwywodd y gwelltyn, [a] ſyrthiodd y blodeun, canys Yſpryd yr Arglwydd a chwythodd arno, gwellt yn ddiau [yw] 'r bobl.

8 Gwywodd y gwelltyn, ſyrthiodd y blodeun, a gair ein Duw ni a ſaif byth.

9 Dring rhagot yr efangyles Sion i fynydd vchel, derchafa dithe dy lef trwy nerth ô efangyles Jeruſalem: derchafa nac ofna, dywet wrth ddinaſoedd Juda, wele eich Duw chwi.

10 Wele 'r Arglwydd Dduw a ddaw 'n erbyn y cadarn, ai fraich a lywodraetha arno ef, wele ei obrwy gyd ag ef, ai waith oi flaen.

11 Fel bugail y portha efe ei braidd, âi fraich y caſcl ei ŵyn, ac [ai] dŵg yn ei fonwes, ac a goledda y mamogiaid.

12 Pwy a feſſurodd y dyfroedd yn ei ddwrn? ac a feſſurodd y nefoedd âi rychwant, ac a gymhwyſodd bridd y ddaiar mewn meſſur, ac a bwyſodd y mynyddoedd mewn pwys, a'r brynnau mewn cloriannau?

13 Pwy a gyfarwyddodd Yſpryd yr Arglwydd? ac yn ŵr oi gyngor ai hyfforddiodd ef?

14 A phwy 'r ymgynghorodd efe, ie [pwy] ai hyfforddiodd ac ai dyſcodd mewn llwybr barn? ac a ddyſcodd iddo ŵybodaeth, ac a gyfarwyddodd iddo ffordd deallgarwch?

15 Wele 'r cenhedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel brychewyn oddi wrth gloriannau: wele fel brychewyn y bwrw efe ymaith yr ynyſoedd.

16 Ac nid digon Libanus yn dân, nid digon ei fwyſt-filod ychwaith yn boeth offrwm.

17 Yr holl genhedloedd [ydynt] megis diddim ger ei frō ef, yn llai na dim, ac [na] gwagedd y cyfrifwyd hwynt ganddo.

18 J bwy gan hynny y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a oſodwch chwi i fynu iddo ef?

19 Y ſaer a lunia gerf-ddelw, a'r aurych ai goreura, ac a dawdd gadwyni o arian.

20 Yr hwn ſydd arno eiſieu offrwm a ddewis bren heb bydru, cais ef atto ſaer cywraint i baratoi cerf-ddelw yr hon ni ſyfl.

21 Oni ŵyddoch, oni chlywch, oni fynegwyd i chwi o'r dechreuad, oni ddeallwch ſeiliad y ddaiar?

22 [Myſi ydwyf] yr hwn a eiſtedd ar amgylchoedd y ddaiar, (pan [yw] ei thrigolion fel locuſtiaid) yr hwn a eſtyn y nefoedd fel cortyn, ac ai lleda fel pabell i drigo [ynddi.]

23 Yr hwn a rydd lywodraeth-wŷr yn ddiddim, fel gwagedd y gwnaeth efe farnwŷr y tir.

24 Ac ni phlannwyd hwynt, ni's hauwyd ychwaith, ei foncyff hefyd ni wreiddiodd yn y ddaiar, eithr efe a chwythodd arnynt, ac hwynt a wywaſant, a chorwynt ai dwg hwynt ymmaith fel vs.

25 J bwy gan hynny i'm cyffelybwch, ac i'm cyſtedlir medd y Sanct?

26 Derchefwch eich llygaid yn vchel, ac edrychwch pwy a greawdd y rhai hyn, yr hwn a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi, efe ai geilw hwynt oll wrth eu henwau: drwy amlder [ei] rymm [ef,] ai gadarn allu ni phallhâ dim.

27 Pa ham y dywedi Jacob, ac y lleferi Jſrael?

rael : cuddiwyd fy ffordd oddi wrth yr Arglwydd a'm barn aiff heibio i'm Duw.

28 Oni wyddoſt, oni chlywaiſt na ddeffygia, ac na flina Duw tragywyddoldeb? yr Arglwydd a greawdd gyrrau 'r ddaiar, ni ellir chwilio allan ei ſynnwyr ef.

29 Yr hwn a rydd nerth i'r deffygiol, ac a amlhâ gryfder i'r dirym.

30 Canys llangciau a ddeffygiant, ac a flinant, a gwŷr ieuaingc gan ſyrthio a ſyrthiant.

31 Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a wellhânt o nerth, ehedant fel eryrod, rhedant ac ni flinant, rhodiant ac ni ddeffygiant.

## PEN. XLI.

Daioni Duw iw bobl.

YNyſoedd deuwch yn ddiſtaw attaf, adnewydded y cenhedloedd nerth, deuant yn nês, yna llefarant, cydneſſawn i farn.

2 Pwy a gyfododd y cyfiawn o'r dwyrain, [ac] ai galwodd ef iw ganlyn : [pwy] a roddodd y cenhedloedd oi flaen ef, ac a ddaroſtyngodd frenhinoedd : efe ai rhoddodd [hwynt] fel llŵch iw gleddyf ef, [ac] fel ſofl gwaſcaredic iw fŵa ef.

3 Y mae efe yn eu herlid hwynt, [ac] yn myned yn heddychol, [ar hyd] llwybr ni cherddodd efe ai draed [mo honaw o'r blaen.]

4 Pwy a weithredodd, ac a wnaeth [hyn :] yr hwn a alwodd y cenhedlaethau o'r dechreuad, myfi 'r Arglwydd [ydwyf] gyntaf, myfi hefyd fydd gyd a'r diweddaf.

5 Yr ynyſoedd a welſant, ac a ofnaſant, eithafoedd y ddaiar a ddychrynnaſant, neſſauaſant a daethant.

6 Pôb un a gynnorthwyodd ei gyfaill, ac a ddywedodd wrth ei frawdd, ymgryfhâ.

7 Ie y ſaer a gyſſurodd yr eurych, [a'r] morthwyl-wr, yr hwn oedd yn curo yr einion, gan ddywedyd: ei iaſſio ſydd dda, a hwynt ai cadarnhant â hoelion fel nad yſcogir.

8 Eithr ti Iſrael fyng-wâs, ti Iacob yr hwn a etholes, hâd Abraham fy annwylyd.

9 Yr hwn a ymeflais ynot o eithafoedd y ddaiar, ac i'th elwais oddi wrth ei hetholedigion, ac y dywedais wrthit, fyng-wâs [wyt] ti, dewiſais di, ac ni'th wrthodaf,

10 Nac ofna, canys yr [ydwyfi] gyd â thi, na lwfrha, canys myfi [ydwyf] dy Dduw : cadarnheais di, cynnorthwyais di hefyd, a chynheliais di â deheulaw fyng-hyfiawnder.

11 Wele cywilyddir, a gwradwyddir y rhai oll a lidiant wrthit, dy wrthwyneb-wŷr a fyddant ddiddim, ac a ddifethir.

12 Ti ai ceiſi, ac ni's cei hwynt, [ſef] y dynnion a ymgynhennant â thi : y gwŷr a ryfelant â thi, fyddant megis diddim, a megis darfodigaeth.

13 Canys myfi 'r Arglwydd dy Dduw wyf yn cryfhau dy ddeheulaw, yr hwn a ddywed wrthit, nac ofna, myfi a'th gynnorthwyais.

14 Nac ofna di pryf Iacob, pobl Iſrael : myfi a'th gynnorthwyaf medd yr Arglwydd, ſef Sanct Iſrael dy waredydd,

15 Wele goſodaf di yn fenn ddyrnu newydd ddanheddoc, y mynyddoedd a ddyrni, ac a fêli, goſodi hefyd y bryniau fel mwlwg.

16 Nithi hwynt, a'r gwynt ai dwg ymmaith, y corwynt hefyd ai gwaſcar hwynt, a thi a lawenychi yn yr Arglwydd, yn Sanct Iſrael y gorfoleddi,

17 Y trueniaid a'r tlodion y rhai a geiſiant ddwfr, ac ni's [cânt: pan] ballo eu tafod o ſyched, myfi 'r Arglwydd ai gwrandawaf hwynt, [myfi] Duw Iſrael ni's gadawaf hwynt.

18 Agoraf afonydd yn y bryniau, a ffynhonnau yng-hanol y dyffrynnoedd : goſodaf y diffaethwch yn llynn dwfr, a'r craſ-dir yn ffrydau dyfroedd.

19 Goſodaf yn yr anialwch cedr-wŷdd, box, myrr, ac oliwydd, goſodaf yn y diffaethwch ffynnidwydd, ffawydd, ac yſpyddaid yng-hyd.

23 Fel y gwelant ac y gwybyddant, yr yſtyriant hefyd, ac y deallant ar unwaith mai llaw 'r Arglwydd a wnaeth hyn, a Sanct Iſrael ai creawdd.

21 Deuwch yn nês a'ch cwyn medd yr Arglwydd, dugwch eich [rheſymmau] cadarnaf medd Brenin Iacob.

22 Neſſaed [eich eulynnod,] a mynegant i ni y pethau a ddigwyddant, mynegwch beth yw y pethau cyntaf, fel yr yſtyriom, ac y gwypom eu diwedd hwynt : neu traethwch i ni y pethau a ddeuant.

23 Mynegwch y pethau a ddeuant yn ôl [hyn ?] fel y gwypom mai duwiau [ydych] chwi, gwnewch hefyd lêſſâd neu niwed : fel y mynegom ac y gwelom yng-hyd.

24 Wele peth heb ddim ydych chwi, a'ch gwneuthuriad ſydd ddiddim : ffiaidd [ywr gŵr] a'ch dewiſodd chwi.

25 Cyfodais [un] o'r gogledd, ac efe a ddaw o gyfodiad haul, efe a eilw ar fy enw, pan ddelo [efe a ſathra] dywyſogion fel clai, ac fel y ſathr crochenudd bridd.

26 Pwy a fynegodd o'r dechreuad, fel y gwybyddem, ac ym mlaen llaw fel y dywedem, cyfiawn [yw :] eithr nid oes mynegudd, nid oes traethudd ychwaith, ac nid oes a wrandawo eich ymadroddion.

27 Pennaeth a ddywed i Sion, wele, wele hwynt, rhoddaf hefyd efangyl-wr i Ierusalem.

28 Ond pan edrychais nid oedd neb, ie o honynt nid [oedd] gyngor-wr, pan ofynnais iddynt, nid attebaſant air.

29 Wele hwynt oll yn anwiredd, ai gweithredoedd yn ddiddim, gwynt a gwagedd yw eu tawdd-ddelwau.

## PEN. XLII.

Swydd Criſt. 10 Dylêd y ffyddloniaid, 18 Cerydd y rhai diog aniolchgar.

WEle fyng-wâs ar no ef y pwyſſaf, boddlon yw fy enaid i'm dewiſedic, rhoddaf fy Yſpryd arno: efe a draetha farn i'r cenhedloedd.

2 Ni waedda, ac ni ymdderchafa, ni phar glywed ei lef oddi allan.

3 Ni dryllia gorſen wedi ei hyſſigo, ac ni ddiffudd efe lîn yn mygu: mewn gwirionedd y traetha efe farn.

4 Ni thriſtâ efe, ac ni phrydera hyd oni oſodo farn yn y tir, yr ynyſoedd hefyd a ddiſgwiliant am ei gyfraith ef.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw creawdudd y nefoedd ai heſtynnudd, lledudd y ddaiar ai chnwd, rhoddudd enaid i'r bobl arni, ac yſpryd i'r rhai a rodiant ynddi.

6 Myfi'r Arglwydd a'th elwais mewn cyfiawnder, ac ymafelaf yn dy law, cadwaf di hefyd, a rhoddaf di yn gyfammod pobl, [ac] yn oleuni cenhedloedd:

7 I agoryd llygaid y deillion, i ddwyn allan y carcharor o'r carchar a'r rhai a eiſteddant [mewn] tywyllwch o'r carchar-dŷ.

8 Myfi [ydwyf] yr Arglwydd, dymma fy enw, a'm gogoniant ni roddaf i arall: na'm mawl i ddelw gerfiedic.

9 Wele y pethau cyntaf a ddaethant, amynegu'r ydwyf fi bethau newydd, traethaf [hwynt] i chwi cyn eu blaen-darddu.

10 Cenwch i'r Arglwydd gân newydd [mynegwch] ei fawl ef o eithaf y tir: y rhai a ddeſcynnant i'r môr, ac ſydd ynddo, yr ynyſoedd ai trigolion.

11 Y diffaethwch ai ddinaſoedd a dderchafant [lef, a'r] maeſ-drefi y rhai a breſſwylia Cedar: preſſwyl-wŷr y graig a ganant, o ben y mynyddoedd y llefant.

12 Goſodant ogoniant i'r Arglwydd, ai fawl a fynegant yn yr ynyſoedd.

13 Yr Arglwydd a ddaw allan fel cawr, ac fel rhyfel-wr yr ymwrola: efe a rua, ac a waedda, [ac] a fydd trech nai elynnion.

14 Tewais er yſtalm, diſtewais, ymatteliais, llefaf fel gwraig yn eſcor, difwynaf, a difethaf ar vn-waith.

15 Mi a oſodaf y mynyddoedd a'r brynnau yn ddiffaethwch, ai holl wellt a wywaf, a goſodaf hefyd yr afonydd yn ynyſoedd, a'r llynnoedd a ſychaf.

16 Arweiniaf y deilliaid ar hyd ffordd nid adwaenant, a gwnaf iddynt gerdded ar hyd llwybrau ni wyppont, goſodaf dywyllwch yn oleuni oi blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn iniawn: dymma y pethau a wnaf iddynt, ac ni's gadawaf hwynt.

17 Troed yn eu hôl [a] llwyr wradwyddwyd y rhai a ymddyriedant mewn delw gerfiedic, y rhai a ddywedant wrth ddelw dawdd, chwi [ydych] ein duwiau ni.

18 O fyddariaid gwrandewch, a'r deillion edrychwch i weled.

19 Pwy [ſydd] ddall onid fyng-wâs i? ac mor fyddar a'm cennad yr [hwn] a anfonaf, pwy mor ddall a'r llwyddiannus? ie mor ddall a gwâs yr Arglwydd?

20 [Er] gweled llawer, etto nid yſtyri, [er] agoryd ei gluſtiau etto ni wrendu.

21 Yr Arglwydd ſydd yn fodlon er mwyn ei gyfiawnder i fawrhau, ac i anrhydeddu y gyfraith.

22 Etto'r bobl hyn a yſpeiliwyd, ac a anrheithiwyd, gan eu maglu hwynt oll mewn tyllau, mewn carchar-dai hefyd y cuddiwyd hwynt, oeddynt yn yſpail, ac heb waredudd, yn anrhaith, ac heb a ddywede gollwng adref [hwynt.]

23 Pwy o honoch a wrendu hyn, a yſtyr, ac a glyw rhac-llaw?

24 Pwy a roddes Iacob yn anrhaith, ac Iſrael i yſpeil-wŷr? onid yr Arglwydd yr hwn y pechaſom iw erbyn, ac ni fynnent rodio yn ei ffyrdd, ac ni wrandawent ar ei gyfraith?

25 Am hynny y tywalltodd efe arno lidiawgrwydd ei ddigter, a chryfder rhyfel ai ffaglodd efe oddi amgylch, ond ni chydnabu efe, lloſcodd ef hefyd ond nid yſtyriodd.

## PEN. XLIII.

Daioni Duw yn cadw ei eglwys. 14 yn daroſtwng ei gelynnion hi. 25 Ac yn maddeu ei phechodau er ei fwyn ei hun.

AC yr awr hon fel hyn y dywed yr Arglwydd, dy greawdur di Iacob, a'th luni-wr di Iſrael: nac ofna canys gwaredais di: gelwais [di] erbyn dy enw, eiddo fi [ydwyt ti.]

2 Pan elech trwy'r dwfr myfi a [fyddaf] gyd â thi, a thrwy'r afonydd [fel] na'th foddant, pan rodiech drwy'r tân ni'th loſcir, ac ni ennyn y fflam arnat.

3 Canys myfi'r Arglwydd dy Dduw, Sanct Iſrael dy waredudd a roddais yr Aipht yn iawn troſot, Ethiopia, a Saba am danat.

4 Er pan aethoſt yn gu yn fyng-olwg i'th ogoneddwyd, canys mi a'th hoffais, am hynny y rhoddaf [ddynnion] am danat ti, a phobloedd er dy fwyn di.

5 Nac ofna, canys yr ydwyf fi gyd â thi, o'r dwyrain y dygaf dy hâd, ac o'r gorllewyn i'th gaſclaf.

6 Dywedaf wrth y gogledd, dod, ac wrth y dehau nac attal: dŵg fy meibion o bell, a'm merched o eithaf y tîr:

7 [Sef] pob vn a elwir ar fy enw, canys i'm gogoniant y creais ef, y lluniais ef, ac y gwneuuthum ef hefyd.

8 Dug allan y bobl ddall a llygaid iddynt, byddariaid a chluſtiau iddynt.

9 Caſcler yr holl genhedloedd yng-hyd, cynhuller y bobloedd, pwy o honynt a fynega hyn? ac a draetha i ni y pethau cyntaf? rhoddant eu tyſtion fel y cyfiawnhaer hwynt, neu gwrandawant, a dywedant, gwir [yw.]

10 Fy nhyſtion mau fi [ydych] chwi medd yr Arglwydd, a'm gwâs yr hwn a ddewiſais, fel y gwyppoch, ac y credoch i mi, ac y ddealloch mai myfi [yw]'r hwn nid [bedd] duw wedi ei

ffurfio oi flaen,ac ni bydd ar ei ôl.

11 Myfi, myfi [ ſydd ] Arglwydd: ac nid [oes] geidwad onid myfi.

12 Myfi a fynegais,ac a achubais, ac a draethais pryd nad [oedd] duw dieithr yn eich myſc, chwi hefyd [ydych] fy nhyſtion (medd yr Arglwydd) mai myfi [ſydd] Dduw.

13 Ie cyn [bod] dydd yr ydwyfi,ac nid [oes] a waredo o'm llaw, gwnaf, a phwy a luddia hynny?

14 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd eich gwaredudd chwi Sanct Iſrael, er eich mwyn chwi'r anfonais i Babilon, ac y tynnais i lawr yr holl ffoaduriaid, a'r Caldeaid, ai gorfoledd mewn llongau.

15 Myfi'r Arglwydd [ydwyf] eich Sanct chwi, creawdudd Iſrael, eich Brenin chwi.

16 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, yr Arglwydd, yr hwn a rydd ffordd yn y môr, a llwybr yn y dyfroedd cryfion.

17 Yr hwn a ddwg allan y cerbyd a'r march, y llu a'r cryfder: cyd-orweddant, fel na chodant, darfuant,fel llîn y diffoddâſant.

18 Na chofiwch y pethau cyntaf, nac yſtyriwch y pethau gynt.

19 Wele fi yn gwneuthur peth newydd, yr awr hon y dechreu,oni chewch ei ŵybod? gosodaf ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffaethwch.

20 Bwyſt-fil y maes,y dreigiau,a chywion y Eſtrys a'm gogoneddant, am roddi o honof ddwfr yn yr anialwch, [ac] afonydd yn y diffaethwch i roddi diod i'm pobl ddewiſedic.

21 Y bobl hyn a luniais i'm fy hun, fy moliant a fynêgant.

22 Ni elwaiſt arnaf Iacob, eithr blinaiſt arnaf Iſrael.

23 Ni ddugaiſt i'm filin dy offrymmau poeth,ac ni'm anrhydeddaiſt a'th ebyrth: ni cheiſiais gennit fyng-waſanaethu â bwyd offrwm, ac ni'th flinais ag arogl-darth.

24 Ni phrynaiſt i'm Galannus ag arian, ac ni'm trochaiſt â braſter dy ebyrth, eithr ti a'm llwythaiſt a'th bechodau, blinaiſt fi a'th anwireddau.

25 Myfi, myfi [yw]'r hwn a ddelea dy gamweddau er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau.

26 Dwg ar gof i'm,cyd-ymgyfreithiwn, adrodd di [ryw beth] fel i'th gyfiawnhaer.

27 Dy dad cyntaf a bechodd,a'th athrawon a wnaethant gamwedd i'm herbyn.

28 Am hynny yr halogais dywyſogion y cyſſegr, ac y rhoddais Iacob yn ddiofryd-beth, ac Iſrael ym wradwydd.

## PEN. XLIIII.

Duw yn addo daioni iw eglwys. *6* Efe yn vnic yn Dduw. *9* Ofered delwau a'r rhai ai gwnelont. 22 Duw-yn drugarog yn maddeu pechodau: ac yn alluog i wneuthur a fynno.

ACyn awr gwrando Iacob fyng-wâs, ac Iſrael yr hwn a ddewiſais.

2 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd yr hwn a'th wnaeth, ac a'th luniodd er pan oeddit yn y groth,efe a'th gynnorthwya, nac ofna fyng-wâs Iacob nac ofna, a'r cyfiawn yr hwn a ddewiſais.

3 Canys tywalltaf ddyfroedd ar y craſ-dir, a ffrydau ar y ſych-dir, tywalltaf fy Yſpryd ar dy hâd, a'm bendith ar dy hiliogaeth.

4 A hwynt a dyfant yng-hyd megis y glaſwellt, [ac] fel helyg wrth ffrydau dyfroedd.

5 Hwn a ddywed eiddo'r Arglwydd ydwyfi, a'r llall ai geilw ei [hun] ar enw Iacob, ac arall a ſcrifenna ai law eiddo'r Arglwydd [ydwyf,] ac a ymgyfenwa ar enw Iſrael.

6 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Brenin Iſrael ai waredudd, Arglwydd y lluoedd *myfi [ydwyf] gyntaf, diweddaf [ydwyf] fi hefyd,ac nid [oes] Duw onid myfi.

Eſay,41.5.
gweledi. 1.17.

7 Pwy hefyd fel fi a eilw,a fynega,ac a eſyd hyn yn drefnus o'm blaen i, [ſef beth a fu] er pan oſodais bobl y byd? neu mynegant iddynt yr arwyddion a'r pethau a ddeuant.

8 Nac ofnwch ac nac arſwydwch, onid er hynny y treuthais it, ac y mynegais? a'm tyſtion [ydych] chwi,a oes Duw onid myfi? canys nid [oes] duw nad adwen.

9 Oferedd ydynt hwy oll y rhai a luniant ddelw gerfiedic, ni wna'r hyn a ddymunant leſâd: eu tyſtion ydynt hwy eu hun na welant, ac na ŵyddant [ddim] fel y cywilyddier hwynt.

10 Pwy a lunie dduw, neu a fwrie ddelw gerfiedic heb wneuthur lles?

11 Wele eu holl gyfeillion a gywilyddir, y ſeiri hefyd o ddynnion [y maent] hwy: hwynt oll a gesclir, a ſafant,a ofnant, [ac] a gyd-gywilyddiant.

12 Y gof [a gymmer] fwyall,ac a weithia â glô, ac ai llunia â morthoelion, ie o nerth ei fraich y gweithia hi: newynog [fydd] hefyd, ac heb nerth, nid ŷf ddwfr hyd oni ddeffygio.

13 Y ſaer pren a eſtyn linin, ac ai llunia hi wrth linin côch,efe ai gweithia hi â bwyall,ac ai cymhwyſa hi wrth gwmpas, ac ai gwna ar ôl delw ddŷn, fel prydferthwch dŷn i aros [mewn] tŷ.

14 [Efe] a aiff i dorri iddo cedr-wŷdd,ac efe a gymmer gelynen,neu dderwen,ac a ymegnia ar brennau'r coed: plannodd bin-wŷdden, a'r glaw ai maethodd.

15 A hi a aeth [yn dda] i ddyn i gynneu tân, ac efe a gymmer o honi, ac a ymdwyma, llyſc hefyd fel y pobo bara, gweithia efe dduw hefyd,ac ai addola ef, gwnaiff ef yn ddelw gerfiedic, ac efe a ymgrymma iddo.

16 Rhan o honaw a lŷſc efe yn tân, wrth ran o honaw y bwytty gig, rhoſtia roſt, fel y diwaller ef: efe a ymdwyma hefyd, ac a ddywed, aha ymdwymais, gwelais dân.

17 A'r rhan arall yn dduw y gwnaeth, [ac] yn ddelw gerfiedic iddo,efe a ymgrymma iddo,

ac a ymoſtwng, ac a ſyrth oi flaen, ac a ddywed: gwared fi, canys fy nuw [ydwyt] ti.

18 Ni wyddant, ac ni ddeallant, canys [Duw] a gaeodd eu llygaid hwynt rhag gweled, ai calonnau rhag deall,

19 Ie ni feddwl [un] yn ei galon, ie nid [oes] wybodaeth, na deall i ddywedyd, lloſcais ei hanner ef yn tân, ac ar ei farwor y pobais fara, y rhoſtiais gig, ac y bwytteais: ac a wnaf fi yr rhan arall yn ffiaid-beth? a ymgrymmaf i ddarn o bren?

20 Pori lludw y mae, calon ſiommedic ai twyllodd ef, fel na waredo ei enaid, ac na ddywedo, onid geudeb ſydd yn fy neheu-law?

21 Meddwl hyn Iacob, ac Iſrael, canys fyng-wâs [ydwyt] ti: lluniais di, gwâs i mi [ydwyt,] nac anghofia fi Iſrael.

22 Deleais dy gamweddau fel cwmwl, a'th bechodau fel niwl: dychwel attafi canys gwaredais di.

23 Cênwch nefoedd canys yr Arglwydd a wnaeth [hyn,] gorfoleddwch gwaelodion y ddaiar: bloeddiwch ganu fynyddoedd, y coed a phob pren ynddo: canys gwaredodd yr Arglwydd Iacob, ac yn Iſrael yr ymogoneddâ efe.

24 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd dy waredudd, a'r hwn a'th luniodd o'r grôth: myfi 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur oll, yn eſtyn y nefoedd fy hunan, [ac] yn lledu y ddaiar o honof fy hun.

25 Yr hwn a ddiddymma arwyddion y bryd-wŷr, ac a ynfyda ddewiniaid, a drŷ y doethion yn eu hôl, ac a wna eu gwybodaeth yn ynfyd.

26 Yr hwn a gyflawna air ei wâs, ac a gwplhâ gyngor ei gennadon, yr hwn a ddywed wrth Ieruſalem, ti a breſſwylir, ac wrth ddinaſoedd Iuda, chwi a adeiledir, a chyfodaf ei hadwyau.

27 Yr hwn wyf yn dywedyd wrth y dyfnder, bydd ſych, ac mi a ſychaf dy afonydd.

28 Yr hwn wyf yn dywedyd wrth Cyrus fy mugail, am gyflawni o honaw ef fy holl ewyllys, ac am ddywedyd wrth Ieruſalem, ti a adeiledir, ac wrth y deml, ti a ſylfeinir.

## PEN. XLV.

Duw yn gwaredu ei bobl drwy Cyrus, 14 Er mwyn helaethu teyrnas Griſt pan ddele efe.

FEl hyn y dywedodd yr Arglwydd wrth Cyrus ei eneiniog, yr hwn yr ymaflais i yn ei ddehau-law, gan ddanu cenhedloedd oi flaen ef: fel y dattodwn lwynau brenhinoedd, [a] chau agoryd dôrau, a phyrth oi flaen ef fel na's caeid,

2 Mi âf oi flaen ef, ac a inionaf yr amgylch-ffyrdd, y dorau prês a dorraf, a'r barrau heirn a ddrylliaf.

3 Ac a roddaf it dryſſorau cuddiedic, a chudd-feudd dirgel, fel y gwypech mai myfi 'r Arglwydd Duw Iſrael [a'th] alwodd erbyn dy enw.

4 Er mwyn Iacob fyng-wâs, ac Iſrael fy etholedic y gelwais arnat erbyn dy enw, ac i'th gyfenwais pan ni'm hadwaenit.

5 Myfi [ydwyf] yr Arglwydd, ac nid neb amgen, nid [oes] Duw onid myfi: darperais di pan ni'm hadwaenit.

6 Fel y gwypent o godiad haul, ac o'r gorllewyn, nad dim onid myfi, myfi [yw'r] Arglwydd, ac nid neb amgen:

7 Yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygfyd: myfi 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur hyn oll.

8 Defnynnwch y nefoedd oddi uchod, a difered yr wybrennau gyfiawnder, ymagored y ddaiar, ffrwythed hefyd iechydwriaeth, a chyfiawnder, gwnaed [y ddaiar iddynt] gyd-tarddu, myfi 'r Arglwydd ai creais.

9 Gwae a ymryſono ai luni-wr, [ymryſoned] priddell â phriddellau 'r ddaiar, a ddywed y clai wrth ei luni-wr, beth a wnei? neu [y] mae dy waith heb ddwylo iddo?

10 Gwae a ddywedo wrth dâd, beth a genhedli? neu wrth wraig, beth a escori?

11 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Sanct Iſrael, ai luni-wr, gofynnwch i mi arwyddion am fy meibion, a gorchymynnwch fi am waith fy nwylo.

12 Myfi a wneuthum y ddaiar, ac a greais ddŷn arni, fy nwylo mau fi a eſtynnaſant y nefoedd, a rhoddais orchymynnion am eu holl luoedd.

13 Myfi ai cyfodais ef mewn cyfiawnder, ai holl ffyrdd a gyfarwyddaf, efe a adailada fy ninas, efe a ollwng fyng-harcharorion heb werth na gobrwy, medd Arglwydd y lluoedd.

14 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, llafur yr Aipht, a marſiandiaeth Ethiopia, a'r Sabeaid hirion a ddeuant attat ti, eiddo ti fyddant, ar dy ôl y deuant, mewn hualau yr ânt, ac yr ymgrymmant i ti, attat y gweddiant [gan ddywedyd:] ynot ti yn unic [y mae] Duw, ac nid [oes] un Duw arall.

15 Ti yn ddiau wyt Dduw yn ymguddio, Duw Iſrael [ſydd] achubudd.

16 Cywilyddiwyd a gwradwyddwyd hwynt oll, ſeiri delwau a gyd-aethant mewn gwradwydd.

17 Iſrael a achubir yn yr Arglwydd [trwy] iechydwriaeth dragywyddol: ni'ch cywilyddir, ac ni'ch gwradwyddir byth bythoedd.

18 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd creawdudd y nefoedd, efe [yw] y Duw a luniodd y ddaiar, ac ai gwnaeth: efe ai ſiccrhaodd hi, ni chreawdd hi yn wag, eithr iw phreſſwylio y lluniodd hi: myfi [yw'r] Arglwydd, ac nid neb amgen.

19 Ni lefarais mewn dirgelwch, mewn mân tywyll o'r ddaiar, ni ddywedais wrth hâd Iacob [mewn] gwegi, ceiſiwch fi: myfi [yw'r] Arglwydd yn llefaru cyfiawnder, [ac] yn mynegu iniondeb.

20 Ymgeſclwch, a deuwch, cyd-neſſewch gweddillion y cenhedloedd, ni ŵydde y rhai a dderchâfaſant goed eu cerf-ddelw, ac a weddient dduw nid alle achub.

21 Mynêgwch, a neſſewch cyd-ymgynghorer hefyd, pwy a draethodd hyn er gynt? [ac] ai mynegodd y pryd hynny? onid myfi 'r Arglwydd? canys nid oes Duw arall onid myfi: yn Dduw cyfiawn, ac yn achubudd nid [oes] onid myfi.

22 Troiwch attafi holl gyrrau 'r ddaiar fel i'ch achuber: canys myfi [ydwyf] Duw, ac nid neb arall.

23 I'm fy hun y tyngais, aeth gair o'm genau [mewn] cyfiawnder, ac ni ddychwel, mai i mi y plŷga pob glin, [ac] y twng pob tafod.

24 Yn unic yn yr Arglwydd (medd efe) [y mae] i mi gyfiawnder, a nerth, atto ef y deuir, a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho.

25 Yn yr Arglwydd y cyfiawnheuir, ac yr ymogonedda holl hâd Israel.

## PEN. XLVI.

Digofaint Duw yn erbyn delwau. 3 A chyngor i'r ffyddlonniaid iw ffieiddio hwynt.

SYrthiodd Bel, corrwyd i lawr Nebo: aeth eu delwau hwynt ar fwyſt-filod, ac ar anifeiliaid: eich clud a lwythwyd yn drwm ar y deffygiol.

2 Goſtyngâſant, cyd-grymmâſant, ni allent achub y llwyth, canys aethant mewn caethiwed eu hunain.

3 Tŷ Iacob gwrandewch arnafi, a holl weddill tŷ Iſrael, y rhai a gludwyd o'r groth, ac a arweiniwyd o'r brû.

4 Hyd henaint hefyd myfi fy hun, ie myfi [a'ch] cludaf hyd oni ben-wynnoch: gwneuthum, arweiniaf hefyd, cludaf, a gwaredaf [chwi.]

5 I bwy i'm gwnewch yn debyg, ac i'm cyſtedlwch, ac i'm cyffelybwch, fel i'm tebyger [iddo?]

6 Y rhai a waſtraffant aur o'r pwrs, ac a bwyſant arian mewn clorian, a gyflogant eurych, ac efe ai gweithia yn dduw, goſtyngant, ac ymgrymmant [iddo.]

7 Dygant ef ar yſcwyddau, cludant ef a goſodant fel y ſafo yn ei lê, ni ſyfl oi le, os llefa [un] ar hwnnw, nid etyb, ac ni's gwared ef oi gyſtudd.

8 Cofiwch hyn, ac ymwrolwch, yſtyriwch bechaduriaid.

9 Cofiwch y pethau cyntaf er ioed, canys myfi [ydwyf] Duw, ac nid neb arall, Duw [ydwyf,] ac heb fy math:

10 Yn mynegu y diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed [etto,] yn dywedyd, fyng-hyngor a ſaif, a'm hewyllys a wnaf.

11 Yn galw aderyn o'r dwyrain, a'm cynghor-wr o wlad bell, dywedais, ac mi ai dygaf i benn, lluniais, ac mi ai gwnaf.

12 Gwrandewch arnafi y rhai cedyrn galon, y rhai pell oddi wrth gyfiawnder.

13 Neſſeais fyng-hyfiawnder, [fel] na phellhao, a'm hiechydwriaeth nid erys: rhoddaf hefyd iechydwriaeth yn Sion, a'm gogoniant yn Iſrael.

## PEN. XLVII.

Diniſtr y Babyloniaid a'r achos o hynny.

DEſcyn, ac eiſtedd yn y llwch [ti] forwyn, ferch Babilon: eiſtedd i lawr heb orſeddfaingc [ti] ferch y Caldeaid: canys ni'th alwant mwy yn dyner, ac yn foethus.

2 Cymmer feini melin, a mâla di flawd, datcuddia dy lywethau, noetha dy ſodlau, dinoetha dy forddwydydd, dos drwy afonydd.

3 Dy frynti a ddatcuddir, dy warth hefyd a welir, dialaf, ac ni adawaf i ddŷn fyng-wrthwynebu.

4 Ein gwaredudd ni, ei enw [yw] Arglwydd y lluoedd, Sanct Iſrael.

5 Eiſtedd yn ddiſtaw, a dôs mewn tywyllwch [ti] ferch y Caldeaid, canys ni'th alwant mwy yn arglwyddes y teyrnaſoedd.

6 Digiais wrth fy mhobl, halogais fy etifeddiaeth, rhoddais hwynt yn dy law di, ni chymmeraiſt drugaredd arnynt, rhoddaiſt dy iau yn drwm iawn ar yr henuriaid.

7 A dywedaiſt, byth y byddaf arglwyddes, felly nid yſtyriaiſt hyn, ac ni chofiaiſt ei diwedd hi.

8 Ond yn awr gwrando hyn y foethus yr hon a drig yn ddiofal, yr hon a ddywed yn ei chalon, myfi ſydd ac nid neb amgenach: nid eiſteddaf yn weddw, ac ni chaf ŵybod beth yw dihepiledd.

9 Y ddau beth hyn a ddeuant it yn ddiſymmwth yr un dydd, dihepiledd, a gweddwdod, yn gwbl y deuant arnat, er amlder dy hudolion, a mawr nerth dy ſwynyddion.

10 Canys ymddyriedaiſt yn dy ddrygioni, dywedaiſt ni'm gwel [neb,] dy ddoethineb, a'th ŵybodaeth a'th hurtiant, fel y dywedi yn dy galon, myfi [ſydd,] ac nid neb amgen.

11 Am hynny y daw arnat ddrygfyd yr hwn ni chei ŵybod ei ddechreuad, a ſyrth arnat ddiniſtr ni's gelli ei ochelyd: ie daw arnat ddeſtruw heb ŵybod it.

12 Saf yn awr gyd a'th ſwynyddion, a chyd ag amlder dy hudolion yn y rhai 'r ymflinaiſt o'th ieuengctid, i edrych a elli wneuthur llês, i edrych a fyddi grymmus.

13 Ymflinaiſt yn amlder dy gynghorion dy hun, ſafed yn awr aſtronomyddion y nefoedd y rhai a dremmiant ar y ſêr, y rhai a yſpyſant am y miſoedd, ac achubant di oddi wrth y petheu a ddeuant arnat.

14 Wele hwynt hwy a fyddant fel ſofl, tân ai llyſc hwynt, ni waredant eu henioes o feddiant y fflam, nid [oes] farwor yn i ymdwymo, [na] thân i eiſtedd ar ei gyfer.

15 Felly 'r aethant hwy it, gyd a'r rhai y blinaiſt, [ſef] dy farſiand-wŷr o'th ieuengtid,

crwycyrwydraſant bob vn ar ei gyfer, heb [vn] yn dy achub di.

## PEN. XLVIII.

Ffugioliaeth yr Iddewon. 11 A Duw yn maddeu iddynt, ac yn eu gwared er ei fwyn ei hunan.

GWrandewch hyn tŷ Iacob, y rhai a elwir ar enw Iſrael, ac a ddaethant allan o ddyfroedd Iuda, y rhai a dyngant i enw 'r Arglwydd, ac a goffânt am Dduw Iſrael, nid mewn gwirionedd, nac mewn cyfiawnder,

2 Er eu henwi o'r ddinas ſanctaidd, a phwyſo o honynt ar Dduw Iſrael, enw yr hwn [yw] Arglwydd y lluoedd.

3 Y pethau cyntaf a fynegais er y pryd hynny, ac a ddaethant o'm genau, a draethais, a wnaethum yn ddiſymmwth, ac a ddaethant i benn.

4 O herwydd i'm wybod dy [fod] ti yn galed, a'th warr [fel] geûn haiarn, a'th dalcen yn brês.

5 Am hynny mynegais i ti er y pryd hynny, adroddais it cyn ei ddyfod, rhac dywedyd o honot, fy nelw a wnaeth hynny, fyng-herfddelw, a'm tawdd ddelw a ordeiniodd hynny.

6 Clywaiſt [hyn o'r blaen] wele ef oll, oni fynegwch chwitheu [ef?] adroddais it bellach bethau newyddion, a phethau cuddiedic y rhai ni wyddit oddi wrthynt.

7 Yn awr y crewyd hwynt, ac nid er y pryd hynny, cyn heddyw ni chlywaiſt ſôn am danynt: rhac dywedyd o honot, wele gwyddwn hynny.

8 Ie nis clywſit ac nis gwyddit ychwaith, nid agoraſit dy glust y pryd hynny, canys gwyddwn y byddit yn wir anffyddlon: am hynny o'r groth i'th alwyd yn gamweddol.

9 Er mwyn fy enw 'r oedaf fy llid, ac [er] fy mawl yr attaliaf oddi wrthit heb dy ddifetha.

10 Wele myfi a'th burais, ond nid fel arian, dewiſais di mewn pair cyſtudd.

11 Er fy mwyn fy hun, er fy mwyn fy hun y gwnaf [hyn] (canys onide [fy enw i] a halogid, diau ni roddaf fyng-ogoniant i arall.

12 Gwrando arnafi Iacob, ac Iſrael yr hwn a elwais: myfi fy hun [wyf] gyntaf, a mi fy hun [wyf] y diwethaf.

13 Fy llaw hefyd a ſeiliodd y ddaiar, a'm deheulaw a ddyrnfeddodd y nefoedd: pan alwyf arnynt cyd-ſafant.

14 Ymgeſclwch chwi oll a gwrandewch pwy o honynt hwy a fynegodd hyn? yr Arglwydd yr hwn ai hoffa ef a wna ei ewyllys ar Babilon, ai fraich ef [a ddifetha] y Caldeaid.

15 Myfi, myfi a leferais, ac ai gelwais ef: dygais ef, ai ffordd a lwydda.

16 Neſewch attaf, gwrandewch hyn, ni leferais o'r cyntaf mewn dirgelwch er y pryd y mae hynny 'r [ydwyf] inne yno: ac yn awr yr Arglwydd Dduw ai Yſpryd a'm hanfonodd.

17 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd dy waredudd, Sanct Iſrael, myfi 'r Arglwydd dy Dduw [ydwyf] yn dy ddyſcu di i wellhau, gan dy arwein yn y ffordd a rodiech.

18 O na wrandawſit ar fyng-orchymynnion, yna y buaſe dy lwyddiant fel afon, a'th gyfiawnder fel tonnau 'r môr.

19 Yna y buaſe dy hâd fel tywod, ac eppil dy gorph fel ei raian ef: ni thorrid, ac ni ddiniſtrid ei enw oddi ger fy mron.

20 Ewch allan o Babilon, ffoiwch oddi wrth y Caldeaid, mynegwch, [ac] adroddwch hyn â llêf gorfoledd: treuthwch ef hyd eithafoedd y ddaiar: dywedwch, gwaredodd yr Arglwydd ei wâs Iacob.

21 Ac ni ſychedaſant yn yr anialwch, arweiniodd hwynt, gwnaeth i ddwfr biſtyllu iddynt o'r graig: canys holltodd y graig, a'r dwfr a ddiferodd.

22 Nid [oes] heddwch (medd yr Arglwydd) i'r rhai annuwiol.

## PEN. XLIX.

Swydd Criſt yw caſclu ei eglwys o bob cenhedlaeth. 7 addewidion cyſſurus i Griſt, ac iw eglwys.

GWrandewch arnaf ynyſoedd, ac yſtyriwch bobl o bell, yr Arglwydd a'm galwodd o'r grôth, y parodd goffau fy enw o fru fy mam.

2 Goſododd hefyd fyng-enau fel cleddyf llym, a than gyſcod ei law i'm cuddiodd: goſododd fi yn ſaeth loyw, cuddiodd fi yn ei gawell ſaethau.

3 Efe a ddywedodd wrthif, fyng-wâs i [ydwyt] ti Iſrael, yr hwn yr ymogoneddaf ynot.

4 Minne a ddywedais, yn ofer y blinais, yn ofer, ac yn ddiddim y treuliais fy nerth: er hynny [y mae] fy marn gyd a'r Arglwydd, a'm gwaith gyd a'm Duw.

5 Ac yn awr medd yr Arglwydd (yr hwn a'm lluniodd o'r groth yn wâs iddo, i ddychwelyd Iacob atto ef, er nad ymgaſcle Iſrael, etto gogoneddus fyddafi yng-olwg yr Arglwydd, a'm Duw fydd fy nerth,

6 Ie dywedodd, gwael yw dy fod yn wâs i mi, i gyfodi llwythau Iacob, ac i ddychwelyd rhai cadwedic Iſrael, am hynny i'th roddais yn oleuni y cenhedloedd fel y byddit fy iechydwriaeth mau fi hyd eithaf y ddaiar.

7 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, gwaredudd Iſrael, ai Sanct, am y dirmygedic o enaid, am gẽhedlaeth ffiaidd, a'm wâs llywodraeth-wŷr, brenhinoedd a welant, ac a gyfodant, tywyſogion hefyd a ymgrymmant [iddo,] er mwyn yr Arglwydd yr hwn [ſydd] ffyddlon, Sanct Iſrael yr hwn a'th ddewiſodd di.

8 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, mewn amſer bodlon-gar i'th wrandewais, ac yn nydd iechydwriaeth i'th gynorthwyais, am hynny i'th gadwaf, ac i'th roddaf yn gyfammod pobl, i ſiccrhau y ddaiar, i beri etifeddu etifeddiaethau anghyfaneddol,

9 Gan ddywedyd wrth y carcharorion, ewch allan, ac wrth y rhai [ſyddant] mewn tywyllwch ymddangoſwch, ar y ffyrdd y porant, ac yn yr holl riwiau [y bydd] ei porfa hwynt.

10 Ni newynant, ac ni ſychedant, ac ni's teru gwꝛês, na haul hwynt: o herwydd [vn] a doſturria wꝛthynt, ai tywys, ac ai harwein i ffynhonnau dyfroedd.

11 Yna y goſodaf fy holl fynyddoedd yn ffoꝛdd, a'm pꝛiffyꝛdd a gyfodir.

12 Wele y rhai hyn a ddeuant o bell, ac wele y rhai accw o'ꝛ gogledd, ac o'ꝛ goꝛllewyn: a'r rhai ymma o dir Sinim,

13 Cenwch nefoedd, a goꝛfoledda ddaiar, bloeddiwch ganu y mynyddoedd, canys yꝛ Arglwydd a gyſſurodd ei bobl, ac a dꝛugarha wꝛth ei dꝛueniaid.

14 Etto dywedodd Sion, yꝛ Arglwydd a'm gwꝛthododd, a'r Arglwydd a'm anghofiodd.

15 A anghofia gwꝛaig ei phlentyn ſugno? fel na thoſturio wꝛth fâb ei chꝛoth? pe anghofie y rhai hyn, etto myfi nid anghofiwn di.

16 Wele ar gledꝛ [fy] nwylo i'th ſcrifennais, dy furiau [ydynt] ger fy mron bob amſer.

17 Dy adailad-wŷꝛ a fryſſiaſant, y rhai a'th ddiniſtriant, ac a'th ddeſtruwiant a ânt ymmaith oddi wꝛthit.

18 Dercha dy lygaid oddi amgylch, ac edꝛych, hwynt oll a ymgaſclaſant, [ac] a ddaethant attat: [os] byw fi medd yꝛ Arglwydd, diau y gwiſci hwynt oll fel hardd-wiſc, ac yꝛ ymwꝛegyſi di â hwynt fel pꝛiod-ferch.

19 Canys dy ddiffaithwch, a'th anialwch a'th dir diniſtriol yn ddiau fydd yn awꝛ yn rhy gyfyng iw bꝛeſſwyl-wŷꝛ: a'r rhai a'th lyngcant a ymbellhânt.

20 Plant dy rai di-heppil, a ddywedant lle y clywech, cyfyng yw y lle hwn i mi, neſſa oddi wꝛthif fel y pꝛeſſwyliwyf.

21 Yna y dywedi yn dy galon, pwy a genhedlodd y rhai hyn i mi? am fi yn ddi-heppil, ac yn vnic, yn gaeth, ac ar engcil: a phwy a fagodd y rhai hyn? wele myfi a adawyd fy hunan, o ba le y [daeth] y rhai hyn?

22 Fel hyn y dywedodd yꝛ Arglwydd Dduw, wele cyfodaf fy llaw ar genhedloedd, a derchafaf fy mâner ar bobloedd, fel y dygant dy feibion yn eu monwes, ac y cluder dy ferched ar yſcwyddau.

23 Bꝛenhinoedd hefyd fyddant dy dadmaethod, ai bꝛenhineſau dy fammaethod: crymmant it eu hwynebau [hyd] lawꝛ, a llyfant lwch dy dꝛaed, a chei wybod mai myfi [yw'r] Arglwydd, canys ni chywilyddir y rhai a ymddyꝛiedant ynofi.

24 A ddygir y caffaeliad oddi ar y cadarn? neu a ddiangc y rhai a garcherir yn gyfiawn?

25 Canys fel hyn y dywedodd yꝛ Arglwydd, ie carcharoꝛion y cadarn a ddygir, ac anrhaith y creulon a ddiangc: canys myfi a ymryſſonaf a'th ymryſſonudd, ac myfi a achubaf dy feibion.

26 Gwnaf hefyd i'th oꝛthꝛm-wŷꝛ fwytta eu cig eu hunain, ac ar eu gwaed eu hun y meddwant fel ar win, fel y gwypo pob cnawd mai myfi 'r Arglwydd [ydwyf] dy achubudd, a'th gadarn waredudd di Iacob.

## PEN. L

Yr Iddewon yn gwrthod Criſt yn ddiachos, ei nerth, ei ddioddefaint, ai oruwchaſiaeth yntef.

FEl hyn y dywedodd yꝛ Arglwydd, pa le y mae llythꝛ yſcar eich mam, [trwy]'r hwn y gollyngais hi ymmaith? neu pwy o'm dyledwyꝛ y gwerthais chwi iddo? wele i'ch anwireddau y gwerthwyd chwi, ac am eich camweddau y gollyngwyd ymmaith eich mam.

2 Pa ham y deuthum, ac na [dderbynnodd] neb? y gelwais, ac nad attebodd [neb?] ai fy llaw gan gwttogi a gwttogodd fel na alle ymwared? onid [oes] ynof nerth i achub? wele a'm cerydd y ſychais y môꝛ, goſodais yꝛ afonydd yn ddiffaethwch, eu pyſcod a ddꝛewant o eiſieu dwfr, ac a fyddant feirw o ſyched. Ioan.1.11.

3 Gwiſcaf y nefoedd â thywyllwch, a goſodaf ſach-liain yn dô iddynt.

4 Yꝛ Arglwydd a roddes i'm dafod dyſcedic, i fedꝛu mewn pꝛyd lefaru gair i'r deffygiol, deffru fi bob boꝛeu, deffru i'm gluſt i glywed megis rhai dyſcedic.

5 Yꝛ Arglwydd Dduw a agoꝛodd fynghluſt, a minne ni wꝛthwynebais, [ac] ni chiliais yn [fy] ôl.

6 Fyng-hoꝛph * a roddais i'r cur-wŷꝛ, a'm cernau i'r cernod-wŷꝛ, ni chuddiais fy wyneb oddi wꝛth wꝛadwydd, a phoeredd. Matt.26.67.

7 O herwydd yꝛ Arglwydd Dduw a'm cymmoꝛth, am hynny ni'm cywilyddiwyd, am hynny goſodais fy wyneb fel calleſtr am y gwyddwn na'm cywilyddid.

8 Agos [yw]'r hwn a'm cyfiawnhâ, pwy a ymryſſon â mi? ſafant yng-hyd, pwy a ymgyfreithia â mi neſſaed attaf.

9 Wele'r Arglwydd Dduw a'm cynnoꝛthwy, a phwy [yw]'r hwn am anghyfiawnha? wele hwynt oll a heneiddiant fel dilledyn, gwyfyn ai hyſſa hwynt.

10 Pwy yn eich myſc ſydd yn ofni'r Arglwydd? gwꝛandawer lais ei wâs ef, yꝛ hwn a rodiodd [mewn] tywyllwch, ac heb lewyꝛch iddo, gobeithied yn enw'r Arglwydd, ac ymddyꝛieded yn ei Dduw.

11 Wele chwi oll yn cynneu tân [ac] yn ymwꝛegyſſu â gwꝛeichion: rhodiwch wꝛth lewyꝛch eich tân, ac wꝛth y gwꝛeichion a gynneuaſoch, o'm llaw i y mae hyn i chwi, mewn gofid y goꝛweddwch.

## PEN. LI.

Cyngor i'r Iddewon i edifarhau, ac addewidió cyſſurol i Sion ac Ieruſalem.

GWrandewch arnafi ddilyn-wŷꝛ cyfiawnder, y rhai a geiſiwch yꝛ Arglwydd edꝛychwch ar y graig i'ch naddwyd, ac ar geudod y ffôs i'ch cloddiwyd [o honynt,]

2 Edꝛychwch ar Abꝛaham eich tâd, ac ar Sara a'ch heſcoꝛodd, canys ei hunan y gelwais ef, yna y bendichiais, ac yꝛ amlheuais ef,

3 Am hynny yr Arglwydd a gyſſura Sion, efe a gyſſurodd ei holl ddiniſtr hi, goſododd hefyd ei hanialwch hi fel paradwys, ai rhoſſydd fel gardd yr Arglwydd: ceir ynddi lawenydd ac hyfrydwch, moliant a llais cân.

4 Gwrandewch arnaf fy mhobl, cluſt-ymwrandewch â mi fyng-henedl, canys cyfraith a aiff allan oddi wrthif, a goſodaf fy marn yn oleuni pobloedd.

5 Agos yw fyng-hyfiawnder, fy iechydwriaeth aeth allan, fy mrechiau a farnant bobloedd: ynyſoedd a obeithiant ynof, ac a ymddyriedant [yn] fy nerth.

6 Derchefwch eich llygaid tua 'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaiar iſſod, canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaiar a heneiddia fel dilledyn, ai phreſſwyl-wŷr yr un modd fyddant meirw: ond fy iechydwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd.

7 Gwrandewch arnaf y rhai a adwaenoch gyfiawnder, pobl a'm cyfraith yn eu calon: nac ofnwch warthrudd dyn, ac nac arſwydwch rhac eu coddiant.

8 Canys y pryf ai bwyttu fel dilledyn, a'r gwyfyn ai hyſſa fel gwlân: eithr fyng-hyfiawnder mau fi a fydd yn dragywydd, a'm iechydwriaeth hŷd yn oes oeſoedd.

9 Deffro, deffro fraich yr Arglwydd gwiſc nerth, deffro fel y dyddiau gynt, [er yr] oeſoedd tragywyddol: onid ti [yw] 'r hwn a dorraiſt y balch, [ac] a archollaiſt y ddraig⁖

10 Onid ti [yw] 'r hwn a ſychaiſt y môr, [a] dyfroedd y dyfnder mawr, yr hwn a oſodaiſt ddyfnderoedd y môr yn ffordd fel yr ele y gwaredigion trwodd.

11 Felly y dychwel gwaredigion yr Arglwydd, a hwynt a ddeuant i Sion â chân, ac â llawenydd tragywyddol yn eu pennau, goddiweddant lawenydd, ac hyfrydwch: goſid a griddfan a ffoant ymmaith.

12 Myfi myfi [ydwyf] yr hwn a'ch diddâna chwi, pwy [wyt] ti a ofni rhac dyn [yr hwn] fydd marw⁖ a rhac mab dyn [yr hwn] a roddir fel gweltyn⁖

13 Ac yr anghofiaiſt yr Arglwydd dy wneuthurwr, yr hwn a eſtynnodd y nefoedd, ac a ſeiliodd y ddaiar, ac yr ofnaiſt bob dydd yn waſtad rhac llid y gorthrymmudd, pan ddarpare i ddiniſtrio⁖ etto pa le [y mae] llid y gorthrymmudd⁖

14 Y carcharor ſydd yn bryſſio i gael ei ollwng yn rhydd fel na byddo efe farw yngharchar, ac na phallo ei fara ef.

15 Myfi hefyd [ydwyf] yr Arglwydd dy Dduw yr hwn a barthodd y môr pan ruodd ei donnau: ei enw [yw] Arglwydd y lluoedd.

16 Goſodais hefyd fyng-eiriau yn dy enau, ac â chyſcod fy llaw i'th doais, fel y plannwn y nefoedd, ac y ſeiliwn y ddaiar, ac y dywedwn wrth Sion, fy mhobl mau fi [ydwyt] ti.

17 Deffro, deffro, cyfot Ieruſalem, yr hon a yfaiſt o law'r Arglwydd gwppan ei lidiawgrwydd ef: yfaiſt [a] ſugnaiſt waddod cwppan erchyll.

18 Nid [oes] arweinudd iddi o'r holl feibion a eſcorodd, ac nid [oes] a ymaflo yn ei llaw o'r holl feibion a fagodd.

19 Y ddau beth hyn a ddigwyddaſant it, pwy a ofidia troſot, diniſtr, a deſtruw, a newyn, a chleddyf, [trwy] bwy i'th gyſſuraf⁖

20 Dy feibion a lewygaſant, gorweddaſant yn mhen pob heol fel ŷch gwyllt [mewn] magl, yn llawn o lidiawgrwydd yr Arglwydd [a] cherydd dy Dduw.

21 Am hynny gwrando fi yn awr, ô druan, yr hon a feddwodd hefyd, ac nid [trwy] wîn.

22 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, ſef dy Dduw di [yr hwn] a ddadle [tros] ei bobl: wele cymmerais o'th law y cwppan erchyll, ſef gwaddod cwppan fy llidiawgrwydd ni chwanegi yfed mwy.

23 Eithr rhoddaf ef yn llaw dy orthrymwŷr, y rhai a ddywedaſant wrth dy enaid, goſtwng fel yr elom troſot [ti:] a thi a oſodaiſt dy gorph fel daiar, ac fel heol i'r rhai a elent troſto ef.

## PEN. LII.

Cyſſur i bobl Dduw o gydrycholdeb Criſt.

DEffro, deffro, gwiſc dy nerth Sion, gwiſc wiſcoedd dy ogoniant, ſanctaidd ddinas Ieruſalem: canys ni ddaw ynot mwy ddienwaededic, nac aflan.

2 Ymeſcwyt o'r llŵch, cyfot, eiſtedd Ieruſalem, dattot rwymau dy wddf [ti] gaeth-ferch Sion.

3 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, yn rhad i'ch gwerthwyd, ac nid ag arian i'ch gwaredir.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, fy mhobl aeth i waered i'r Aipht yn y dechreuad i ymdaith yno: Aſſur hefyd ai gorthrymmodd yn ddiachos.

5 Ac yn awr beth [ſydd] ymma i mi medd yr Arglwydd⁖ canys dygwyd fy mhobl yn rhad, eu llywodraethwŷr a wnant [iddynt] wylo medd yr Arglwydd: a phob dydd yn waſtad y ceblir fy enw.

6 Am hynny y caiff fy mhobl adnabod fy enw, am hynny [y cânt wybod] y dydd hwnnw, mai myfi [ydwyf] yr hwn ſy'n dywedyd: wele fi.

7 Mor weddaidd ar y mynyddoedd [yw] traed yr hwn ſydd yn mynegu [ac] yn cyhoeddi heddwch⁖ a'r hwn ſydd yn mynegu daioni, yn cyhoeddi iechydwriaeth, [ac] yn dywedyd wrth Sion, dy Dduw di ſydd yn teyrnaſu.

8 Llef dy wil-wŷr [a glywir,] derchafant lef, cyd-ganant, canys gwelant yn eglur pan ddychwelo'r Arglwydd Sion.

9 Bloeddiwch, cyd-genwch diffaethwch Ieruſalem, canys y Arglwydd a gyſſurodd ei

bobl,[ac] a waredodd Ieruſalem.

10 Dioſcodd yr Arglwydd fraich ei ſancteiddrwydd yng-olwg yr holl genhedloedd, a holl gyrrau 'r ddaiar a welant iechydwriaeth ein Duw ni.

11 Ciliwch, ciliwch, ewch allan oddi yno, na chyffyrddwch a'r halogedic, ewch allan oi chanol, ymlanhewch y rhai a arweiniwch leſtri 'r Arglwydd.

12 Canys nid ar frys yr ewch allan, ac nid ar ffô y cerddwch, eithr yr Arglwydd a aiff o'ch blaen chwi, a Duw Iſrael a'ch caſcl chwi.

13 Wele fyng-wâs a lwydda, a godir, a dderchefir, ac a fydd vchel iawn.

14 Megis y rhyfeddodd llawer wrthit, mor llygredic [oedd] ei wedd yn anad neb, ai brŷd ef yn anad meibion dynion:

15 Felly y gwaſcar efe genhedloedd lawer, brenhinoedd a gaeant eu geneu wrtho ef, am weled o honynt yr hyn ni fynegaſid iddynt, a deall o honynt yr hyn ni chlywſent.

## PEN. LIII.

Prophwydoliaeth, na chrede 'r Iddewon i Griſt o herwydd gwaeled yr olwg arno: a maint y gwrthwyneb iddo: gan ddangos y bydde hyn oll er ein mwyn ni, ac y troent yn ogoniant i Griſt.

Ioan.12.28. Rhuf.10.16. PWy * a gredodd i'n ymadrodd? ac i bwy y datcuddiwyd braich yr Arglwydd?

2 Canys cyfyd oi flaen ef fel blaguryn, ac fel gwreiddin o dîr ſychedic, heb brŷd na thegwch iddo: pan edrychom ni arno ef ni bydd prŷd fel y dymunem ef.

Marc.9.12. 3 * Dirmygedic oedd, a gwaelaf o'r gwŷr, gŵr gofidus, a chynefin â dolur, a [phob vn] megis yn cuddio ei wyneb oddi wrtho: dirmygedic oedd, ac ni wnaethant gyfrif o honaw.

Math.8.17. 1.Pet.2.24. 4 Diau * efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau: etto ni ai cyfrifaſom ef wedi ei blagio, ei daro, ai ddaroſtwng o Dduw.

5 Ac efa archollwyd am ein camweddau ni, ac a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni, coſpedigaeth ein heddwch ni [a roddwyd] arno ef, a thrwy ei gleiſiau ef yr iachauwyd ni.

6 Nyni oll a gyrwydraſom fel dafad, troeſom bawb iw ffordd ei hun, a'r Arglwydd a roddes yn ei erbyn ef ein holl anwiredd ni.

Ioan.10.17. Mat.26.63. Act.5.32. 7 * Efe a orthrymmwyd, ac efe a gyſtuddiwyd, ac nid agore ei enau, fel oen yr arweinid i'r lladdfa, * fel dafad o flaen y rhai ai cneifie y tawe, ac nid agore ei enau.

8 O garchar, ac o farn y dygwyd ef, etto pwy a draetha ei oes ef? canys ef a dorrwyd o dir y rhai byw, [rhoddwyd] pla arno ef am gamwedd fy mhobl.

1.Pet.2.21. 9 Ac efe a roddes ei fedd gyd a'r rhai anwir, a chyd a'r cyfoethog yn ei farwolaeth: * er na wnaethe gam, ac nad [oedd] twyll yn ei enau.

10 Eithr yr Arglwydd a fynne ei ddryllio ef, [ac] ai clwyfodd, pan oſodd ei enaid yn aberth dros bechod, efe a wêl hâd, ac a eſtyn ddyddiau: ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef.

11 O lafur ei enaid y gwêl [ffrwyth, ac] y diwellir, fyng-wâs cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth, ac efe a ddwg eu hanwiredd.

12 Am hynny y rhoddaf iddo rann gyd â llawer, ac efe a ranna 'r yſpail gyd a'r cedyrn, am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth, ai gyfrif gyd a'r troſedd-wŷr: ac efe a dynnodd ymmaith bechodau llaweroedd, ac a eiriolodd dros y troſedd-wŷr. Marc.15.28. Luc.22.37.

## PEN. LIIII.

Duw yn addo helaethu ei eglwys, 4 maddeu ei phechodau, 11 A rhoddi iddi hi ogoniant, ac ar ei gelynnion ddiniſtr.

CAn [di] amhlantadwy heb eſcor, bloeddia ganu, a gorfoledda [yr hon] nid eſcorodd: o herwydd amlach meibion yr anrhaithiedic na'r wriog medd yr Arglwydd. Luc.23.29. Gal.4.27.

2 Helaetha lê dy babell, ac eſtynned cortynau dy breſwylfeudd, nac attal: eſtyn dy raffau, cadarnhâ dy hoelion.

3 Canys ti a amlheir tu a'r llaw ddehau, a thua 'r llaw aſſwy, a'th hâd a oreſcyn y cenhedloedd, a dinaſoedd anrhaithiedic a gyfanneddant hwy.

4 Nac ofna, canys ni'th gywilyddir, ac ni'th wradwyddir, ac ni'th warthruddir, eithr anghofi wradwydd dy ieuengtid, a gwarthrudd dy weddwdod ni chofi mwyach.

5 Canys dy briod [yw 'r] hwn a'th wnaeth, Arglwydd y lluoedd [yw] ei enw: dy waredudd hefyd Sanct Iſrael a elwir Duw 'r holl ddaiar.

6 Canys fel gwraig wrthodedic, a chyſtuddiedic o yſpryd i'th alwodd yr Arglwydd, ac fel gwraig ieuangc pan oeddit ti wrthodedic medd dy Dduw.

7 Tros ennyd fechan i'th adewais, ond â mawr drugaredd i'th gaſclaf.

8 Mewn ychydig ſorriant y cuddiais fy wyneb oddi wrthit ennyd [awr,] ond â thrugaredd dragywyddol y trugarheais wrthit medd yr Arglwydd dy waredudd.

9 Canys [fel] dyfroedd Noah [y mae] hynn i mi, megis y tyngais nad ele dyfroedd Noah mwy dros y ddaiar: felly y tyngais na ſorraf wrthit, ac na'th geryddaf.

10 Canys y mynyddoedd a giliant, a'r brynnau a ſiglant: eithr fy nhrugaredd mai fi ni chilia, a chyfammod fy hedd ni ſyfl medd dy drugarog Arglwydd.

11 Y druan helbulus ddigyſſur, wele mi a'th furiaf di â Charbunculus, ac a'th ſylfaenaf â [meini] Saphyr.

12 Goſodaf hefyd dy ffeneſtri o riſſial, a'th byrth o feini diſclair, a'th holl derfyn â cherric dymunol.

13 Dy holl feibion hefyd [fyddant] * wedi eu dyſcu gan yr Arglwydd, a mawr [fydd] heddwch dy feibion. Ioan.6.50.

14 Mewn cyfiawnder i'th ſiccrheuir, cilia ym mhell oddi wrth orthrymder canys nid ofni, ac oddi wrth ddychryn, canys ni neſſâ attat.

15 Wele [pwy bynnac] gan ymgaſclu a ymgaſclo [i'th erbyn] ni [bydd efe] o honofi: pwy bynnac o honot ti a ymgaſclo i'th erbyn efe a ſyrth.

16 Wele myfi a greais y gof, yr hwn a chwytha y marwor yn tân, ac efe a ddefnyddia arf oi waith ei hun: myfi hefyd a greais y diniſtrudd i ddeſtruwio.

17 Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn, a thi a orchfygi bob tafod a gyfodo i'th erbyn mewn barn: dymma etifeddiaeth gweiſion yr Arglwydd, ai cyfiawnder hwynt [ſydd] oddi wrthifi medd yr Arglwydd.

## PEN. LV.

Duw yn annog y bobl iſtydd, ac i edifeirwch trwy ei efangylaidd addewidion.

O Deuwch i'r dyfroedd bob un y mae ſyched arno, ie yr hwn nid [oes] arian ganddo, deuwch, prynwch, a bwyttewch, ie deuwch prynwch wîn, a llaeth heb arian, ac heb werth.

2 Pa ham y telwch arian am [yr hyn] nid [ydyw] fara? a'ch llafur am [yr hyn] nid [yw] yn ddigonoldeb: gan wrando gwrandewch arnafi, a bwyttewch yr hyn ſydd dda: ac ymhyfryded eich enaid mewn braſder.

3 Gogwyddwch eich cluſtiau, a deuwch attaf, gwrandewch fel y byddo byw eich enaid, ac mi a wnâf gyfammod tragywyddawl â chwi [ſef] ſiccr drugareddau Dafydd.

Pſal.132.11. 4 Wele rhoddais ef yn dyſt i'r bobl, yn flaenor, ac yn athro i'r bobloedd.

5 Wele cenedl nid adweini a elwi, a chenhedlaeth nid adwaenant ti a redant attat, er mwyn yr Arglwydd dy Dduw, ac o herwydd Sanct Iſrael: canys efe a'th ogoneddodd.

6 Ceiſiwch yr Arglwydd tra y caffer ef, gelwch arno tra fyddo yn agos.

7 Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei amcannion, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni o herwydd y mae efe yn barod iawn i faddeu.

8 Canys nid fy amcannion i [yw] eich amcannion chwi, ac nid eich ffyrdd chwi [yw] fy ffyrdd i medd yr Arglwydd.

9 Canys [fel] y mae 'r nefoedd yn uwch na'r ddaiar, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm amcannion i na'ch amcannion chwi.

10 Canys fel y deſcyn y glaw, a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dwfrhâ y ddaiar, ac a wna iddi darddu a thyfu fel y rhoddo hâd i'r hau-wr, a bara i'r bwytta-wr:

11 Felly y bydd fyng-air yr hwn a ddaw o'm genau ni ddychwel attaf yn wâg: eithr efe a wna yr hyn a fynnwyf, ac a lwydda lle 'r anfonwyf ef.

12 Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac mewn hedd i'ch arweinir [i mewn,] y mynyddoedd a'r bryniau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwylo.

13 Yn lle drain y cyfyd ffynnid-wydd, yn lle danadl y cyfyd myrt-wydd, a [hyn] fydd i'r Arglwydd yn enw, ac yn arwydd tragywyddol yr hwn ni thorrir.

## PEN. LVI.

Cyngor i ddilyn barn, a chyfiawnder, a chrefydd, bygwth ar ſugeiliaid drwg.

FEl hyn y dywedodd yr Arglwydd, cedwch farn a gwnewch gyfiawnder, canys fy iechydwriaeth [ſydd] ar ddyfod, a'm cyfiawnder ar ymddangos.

2 Gwyn ei fyd y dyn a wnelo hyn, a mâb y dyn a ymafelo yn hyn, gan gadw 'r Sabboth heb ei halogi, a chadw ei law rhac gwneuthur dim drwg.

3 Ac na lefared y dieithr-fab yr hwn a lyno wrth yr Arglwydd gan ddywedyd, yr Arglwydd gan ddidoli a'm didolodd oddi wrth ei bobl, ac na ddyweded y diſpaddedic, wele fi yn bren crîn.

4 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrth y rhai diſpaddedic, y rhai a gadwant fy Sabbothau, ac a ddewiſant yr hyn a ewyllyſiwyf, ac a ymafelant yn fyng-hyfammod,

5 Rhoddaf iddynt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd lê, ac enw gwell na meibion, ac na merched: rhoddaf iddynt enw tragywyddol yr hwn ni dderfydd.

6 A'r meibion dieithr y rhai a lynant wrth yr Arglwydd gan ei waſanaethu ef, a chan garu enw 'r Arglwydd, a chan fod yn weiſion iddo ef, pob un yn cadw Sabboth heb ei halogi, ac a ymaflo yn fyng-hyfammod,

7 Dygaf hwynt hefyd i fynydd fy ſancteiddrwydd, a llawenychaf hwynt yn nhŷ fyngweddi: eu poeth offrymmau hefyd ai hebyrth fyddant gymmeradwy ar fy allor: canys fy nhŷ mau fi a elwir yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd.

8 Medd yr Arglwydd Dduw yr hwn a gaſcl waſcaredigion Iſrael, etto mi a gaſclaf attynt hwy rhai yſy iw caſclu attynt.

9 Pob bwyſt-fil y maes, a phob bwyſt-fil yn y coed deuwch i ddifa.

10 Deillion [yw] ei wiliedyddion, ni wyddant hwy oll [ddim,] cŵn mudion [ydynt] hwy oll heb allu cyfarth: y maent yn cyſcu, yn gorwedd, [ac] yn caru heppian.

11 Ie y cŵn creulon ni chydnabyddant ai digon, a'r bugeiliaid hwythau ni fedrant ddeall, troeſant hwy oll iw ffordd eu hun: pob un at ei elw ei hun oi cwrr.

12 Deuwch [meddant,] cymmerwn win, ac ymlawnwn o ddiod grêf, a bydded y foru megis heddyw [neu] fwy o lawer iawn.

## PEN. LVII.

Marwolaeth y duwiol. 3 Cerydd yr annuwiol. 18 Cyſſur yr edifeiriol.

Darfu am y cyfiawn, ac nid yſtyriodd neb, a'r gwŷr trugarog a gaſclwyd ymmaith, heb ddeall mai o flaen drygfyd y caſclwyd y cyfiawn.

2 [Y cyfiawn] a ddaw i dangneddyf, hwynt a orphywyſant yn eu ſtafelloedd [ſef pob vn] ar a rodiodd ger ei fron ef.

3 Neſſewch ymma meibion yr hudoles hâd y godinebus, a'r buttain.

4 Yn erbyn pwy 'r ymddigrifwch, yn erbyn pwy y lledwch ſafn [ac] yr eſtynnwch dafod: onid meibion camweddol, a hâd geuoc [ydych] chwi:

5 Y rhai a ymwreſſogwch ym myſc y llwyni tann bob pren deilioc, gan *aberthu y plant yn y glynnoedd, tann gromlechydd y creigiau.

Lefit.18.21.
2.Bren.23.20.

6 Yng-habolfaen yr afon [y mae] dy rann, hwynt hwy [ydynt] dy goel-bren: iddynt hwy hefyd y tywelltaiſt ddiod offrwm, [ac] yr offrymmaiſt fwyd offrwm, ai am y rhai hynn yr ymgyſſuraf:

7 Ar fynydd vchel a derchafedic y goſodaiſt dy wely, dringaiſt hefyd yno i aberthu aberth.

8 Yng-hil y drws hefyd, a'r orſyn: y goſſodaiſt dy goffadwriaeth: canys ymddinoethaiſt oddi wrthif fi, a dringaiſt, helaethaiſt dy wely, a thi a wnaethoſt ammod rhyngot ti â hwynt, ti a hoffaiſt eu gorweddle hwynt [ym mhob] lle ar y gwelaiſt.

9 Cyfeiriaiſt hefyd at y brenin ag olew, ac amlheaiſt dy eliau: anfonaiſt hefyd dy gennadau i bell, ac ymoſtyngaiſt hyd vffern.

10 Yn amlder dy ffordd yr ymflinaiſt heb ddywedyd, nid oes obaith, cefaiſt y bywyd a fynnit, am hynny ni chlafychaiſt.

11 Pwy hefyd a arſwydaiſt, ac a ofnaiſt: gan ddywedyd o honot gelwydd, ac na chofiaiſt fi, ac nac yſtyriaiſt fi yn dy galon, ai o herwydd fy mod i yn tewi a ſôn er yſtalm yr ydwyt ti heb fy ofni:

12 Myfi a fynegaf dy gyfiawnder a'th weithredoedd, ac ni wnant it lês,

13 Pan waeddech gwareded y rhai a geſclaiſt yng-hyd dy di, eithr gwynt ai dwg hwynt ymmaith oll, oferedd ai cymmer hwynt: a'r hwn a obeithia ynofi a etifedda y tir, ac a feddianna fynydd fy ſancteiddrwydd.

14 Ac efe a ddywed, palmentwch, palmentwch, cymhwyſwch y ffordd, cyfodwch y rhwyſtr o ffordd fy mhobl.

15 Canys fel hyn y dywedodd y goruchel, a'r derchafedic, yr hwn a breſſwylia yn dragywyddol, ac [y mae] ei enw 'n ſanctaidd: y goruchelder a'r cyſſegr a breſſwyliaf, a chyd a'r cyſtuddiedic a'r iſſel o yſpryd, i fywhau y rhai iſſel o yſpryd, ac i fywhau y rhai cyſtuddiedic o galon.

16 Canys nid byth yr ymryſonaf, ac nid yn dragywydd y digiaf, o herwydd yr yſpryd [yr hwn ſydd] o'm blaen i a ymwiſc mewn corph, ac myfi a wneuthum yr anadl.

17 Am anwiredd ei gybydd-dod ef y digiais, ac y tarewais ef, gan ymguddio pan ddigiais, canys efe a aethe 'n gildynus, ar hŷd y ffordd a fynne.

18 Ei ffordd a welais, ac mi ai iachâf ef, tywyſaf ef hefyd, a thalaf gyſſur iddo ef, ac iw alarwŷr.

19 Gan greu ffrwyth gwefuſau, [i fod] yn heddwch heddychlon i bell, ac i agos medd yr Arglwydd, fel yr iachawyf ef.

20 A'r rhai anwir [ydynt] fel môr yn dygyfor, canys ni ddichon oſtegu, ai ddyfroedd a fwrw allan dom, a chlai.

21 Ni [bydd] heddwch medd fy Nuw i'r rhai annuwiol.

## PEN. LVIII.

Duw yn ceryddu llwgr crefydd, a buchedd y bobl: Ac yn addo trugaredd i'r edifeiriol.

LLefa a'th gêg, nac ymatal, derchafa dy lais fel vdcorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, ai pechod i dŷ Iacob.

2 Canys beunydd i'm ceiſiant, ac y mynnant wybod fy ffyrdd fel cenhedlaeth yr hon a wnele gyfiawnder, ac ni wrthode farnedigaeth ei Duw: gofynnant i mi farnedigaethau cyfiawnder, ewyllyſiant neſſau [ac] Dduw.

3 Pa ham [meddwch] yr ymprydiaſom, ac ni's gwelaiſt: y cyſtuddiaſom ein henaid, ac ni's gwybuoſt? wele yn y dydd yr ymprydioch y cewch wynfyd: ac y mynnwch eich holl ddyledion.

4 Wele i ymryſon a chynnen yr ymprydiwch, ac i daro â dwrn anwir: nac ymprydiwch fel y dydd [hwn,] gan beri clywed eich llais yn vchel.

5 Ai fel hyn y bydd yr ympryd yr hwn a ddewiſaf? y dydd y cyſtuddio dyn ei enaid, ai trwy grymmu ei ben fel brwynen, pan dano [arno] ſach-liain a lludw, ai hyn a elwi yn ympryd, ac yn ddiwrnod bodlon gan yr Arglwydd:

6 Onid dymma 'r ympryd a ddewiſaf, dattod cylymmau anwiredd, tynnu ymmaith feichiau trymmion, a gollwng y rhai gorthrymedic yn rhyddion, a thorri o honoch bob rhwym:

7 Onid torri dy fara i'r newynoc, a dwyn o honot y cyrwydraid i dŷ: a phan welech noeth ei ddilladu, ac nad ymguddiech oddi wrth dy gnawd:

8 Yna y tyrr dy oleuni allan fel y wawr, dy iechyd a dardda yn fuan, a'th gyfiawnder aiff o'th flaen: gogoniant yr Arglwydd a'th ddilyn.

9 Yna y gelwi, a'r Arglwydd a etyb, y gweiddi, ac efe a ddywed wele fi: os bwri oddi wrthit yr iau, eſtyn bŷs, a dywedyd anwiredd,

10 O thoſturi di wrth y newynoc, a diwallu yr enaid cyſtuddiedic, yna dy oleuni a gyfyd mewn tywyllwch, a'th dywyllwch [fydd] fel hanner dydd.

11 A'r Arglwydd a'th arwein yn waſtad, ac

a ddiwalla dy enaid ar ſychder, ac a wna dy eſcyrn yn freiſion: a thi a fyddi fell gardd wedi ei dwfrhau, ac megis ffynnon ddwfr yr hon ni phalla ei dwfr.

12 [Rhai] o honot ti a adailadant ddiffaethwch tragywyddol, ti a gyfodi ſylfeini i lawer cenhedlaeth, a thi a elwir yn gae-wr adwy, yn gyweiri-wr llwybrau i gyfanneddu.

13 O throi dy droed oddi wrth fy Sabboth [heb] wneuthur dy ewyllys ar fy nydd ſanctaidd, ai alw [ef] yn hyfryd, ſanctaidd, ogoneddus Sabboth yr Arglwydd, ai anrhydeddu ef heb wneuthur dy ffyrdd, heb geiſio dy ewyllys, na dywedyd gair [drwg,]

14 Yna yr ymhyfrydi yn yr Arglwydd, ac y gwnaf it farchogeth ar vchelfeudd y ddaiar, gwnaf hefyd it fwynhau etifeddiaeth Iacob dy dad: canys genau yr Arglwydd a lefarodd [hyn.]

## P E N. LIX.

Achoſion dialedd Duw yw pechodau y bobl. 16 Gallu Duw ai drugaredd i ymgeleddu 'r edifeiriol.

VVEle ni fyrhauwyd llaw 'r Arglwydd fel na allo achub, ac ni thrymhâodd ei glust ef, fel na allo glywed.

2 Eithr eich anwireddau chwi a yſcarodd rhyngoch chwi a'ch Duw: a'ch pechodau a guddiaſant ei wyneb oddi wrthych rhag clywed.

3 Canys eich dwylo a halogwyd â gwaed, a'ch byſſedd â chamwedd: eich gwefuſau a draethaſant ffalſter, eich tafod a fefyrria anwiredd.

4 Nid [oes] a alwo am gyfiawnder, nac a farno mewn gwirionedd: [y maent] yn gobeithio mewn gwagedd, yn dywedyd celwydd, yn beichiogi ar flinder, ac yn eſcor ar anwiredd.

5 Wyau aſp a ddodwaſant, a gweoedd y pryf copyn a weuant, yr hwn a fwyttu oi hwyau a fydd marw, a'r hwn a ſathrer a dyrr allan yn wiber.

6 Eu gweoedd hwynt ni byddant yn wiſcoedd, ac ni's gwiſcir hwynt ai gweithredoedd, eu gweithredoedd [ydynt] weithredoedd anwiredd, ai gwaith yn drawſder yn eu dwylo.

7 Eu traed hwynt a redant i ddrygioni, ac a fryſſiant i dywallt gwaed gwirion, eu meddyliau [ydynt] feddyliau anwir, deſtruw a diniſtr [ſydd] ar eu ffyrdd hwynt.

8 Ffordd heddwch nid adnabuant, ac nid [oes] gyfiawnder yn eu llwybrau hwynt: eu llwybrau a ŵyraſant ganddynt, pwy bynnac a rodio yno nid edwyn heddwch.

9 Am hynny y ciliodd barnedigaeth oddi wrthym, ac ni'n goddiweddodd cyfiawnder: diſgwiliaſom am oleuni, ac wele dywyllwch, am ddiſcleirdeb, [ac] yn y fagddu y rhodiaſom.

10 Palfalaſom fell deillion a'r pared, ie fel [rhai] heb lygaid y palfalaſom: tramgwyddaſom ar hanner dydd fel y cyfnos, [oeddem] ym myſc y beddau fel rhai meirw.

11 Nyni oll a ruaſom fel eirth, a chan riddfan y griddfanaſom fel colomennod: diſgwiliaſom am farn, ac ni's [ceid,] am iechydwriaeth, [a] chiliodd oddi wrthym.

12 Canys amlhâodd ein camweddau ni ger dy fron, a theſtiolaethodd ein pechodau i'n herbyn: o herwydd ein camweddau [ydynt] ynom, a'n hanwireddau ni a adwaenom.

13 Camweddu a dywedyd celwydd yn erbyn yr Arglwydd, a chilio oddi ar ôl ein Duw, dywedyd trawſder, ac anufudd-dod, dychymmyg a myfyrio o'r galon eiriau gau.

14 Barn hefyd a droed yn ei hôl, a chyfiawnder a ſafodd o hirbell, canys gwirionedd a dramgwyddodd yn yr heol, ac inionded ni alle ddyfod i mewn.

15 Ie gwirionedd ſydd yn pallu, a'r hwn ſydd yn cilio oddi wrth ddrygioni a yſpeilir, pan welodd yr Arglwydd [hyn] yna drwg oedd yn ei olwg, am nad [oedd] barn.

16 Gwelodd hefyd nad [oedd] ŵr, a ſynnodd arno, am nad [oedd] eiriol-wr: yna ei fraich ai achubodd, ai gyfiawnder ei hun ai cynhaliodd.

17 Ac efe a wiſcodd gyfiawnder fel lluric, a helm iechydwriaeth am ei benn, ac a wiſcodd wiſcoedd dial yn ddillad: ie gwiſcodd zel fel mantell.

18 Yn ddiau yn ôl y gweithredoedd, ie yn [eu] hôl [hwynt] y tâl efe [ei] lîd ar ei wrthwyneb-wŷr, taledigaeth iw elynnion, [a] thaledigaeth i'r ynyſoedd a dâl efe.

19 Ac ofnant enw yr Arglwydd o'r gorllewyn, ai ogoniant ef o godiad haul: pan ddelo y gelyn fel afon, Yſpryd yr Arglwydd ai hymlid ef ymmaith.

20 Ac i Sion y daw gwaredudd, ac i'r rhai â droant [oddi wrth] anwiredd yn Iacob, medd yr Arglwydd.

21 Ac mi [a wnaf] fyng-hyfammod hwn â hwynt medd yr Arglwydd, fy yſpryd yr hwn [ſydd] ynot, a'm geiriau y rhai a oſſodais yn dy enau ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd dy hâd medd yr Arglwydd o hyn allan byth.

## P E N  L X.

Galwedigaeth y cenhedloedd drwy bregethiad yr efangyl. 15 Daioni Duw iw eglwys.

CYfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a thywynnodd gogoniant yr Arglwydd arnat [ô Ierusalem.]

2 Canys wele tywyllwch a orchguddia y ddaiar, a chwmwl y bobloedd: ond arnat ti y tywynna yr Arglwydd, ai ogoniant a welir arnat.

3 Cenhedloedd hefyd a rodiant yn dy oleuni, a brenhinoedd yn niſcleirdeb dy dywyniad,

4 Cyfot dy lygaid oddi amgylch, ac edrych, ymgaſclaſant hwy oll [ a ] daethant attat : dy feibion a ddeuant o bell, a'th ferched a dadmeithir wrth dy yſtlys.

5 Yna y cei weled, ac yr ymddiſcleiri, dy galon hefyd a ddychryna, ac a helaethir, pan droir attat luoſogrwydd y môr, golud y cenhedl[illegible] a ddeuant i ti.

6 Mintai o gamêlod a'th orchguddia[illegible]] cyflym gamêlod Madian, ac Epha: hwynt oll o Saba a ddeuant, aur a thus a ddygant, a moliant yr Arglwydd a fynegant.

7 Holl ddefaid Cedar a ymgaſclant attat ti, hyrddod Nebaioth a'th waſanaethant : hwy a ddeuant i fynu yn ewyllyſcar ar fy allor, ac mi a anrhydeddaf dŷ fyng-ogoniant.

8 Pwy [yw] y rhai hyn a ehedant fel cwmwl ? ac fel colomennod iw ffeneſtri ?

9 Canys yr ynyſoedd a'm diſgwiliant, a llongau Tharſis yn bennaf, i ddwyn dy feibion o bell, eu harian[hefyd]ai haur gyd â hwynt i enw'r Arglwydd dy Dduw, ac i Sanct Iſrael, canys efe a'th ogoneddodd di.

10 Meibion dieithr a adailadant dy furiau, ai brenhinoedd a'th waſanaethant, canys yn fy nîg i'th darewais, ac o'm trugaredd fy hun y toſturiais wrthit.

11 A'th byrth a agorir yn waſtad, ni cheuir hwynt ddydd na nôs, i ddwyn attat olud y cenhedloedd, eu brenhinoedd hwynt hefyd a ddygir [attat.]

12 Canys y genhedlaeth ar deyrnas yr hon ni'th waſanaetho di a ddifethir: a'r cenhedloedd hynny a lwyr ddiniſtrir.

13 Gogoniant Libanus a ddaw attat, y ffynnid-wŷdd, ffawydd, ac yſpyddaid yng-hyd, i harddu lle fyng-hyſſegr, harddaf hefyd le fy nhraed.

14 A meibion dy gyſtudd-wŷr a ddeuant attat yn oſtyngedic: a'r rhai oll a'th ddiyſtyrâſāt a ymoſtyngant hyd wadnau dy draed, ac a'th alwant yn ddinas yr Arglwydd, yn Sion Sanct Iſrael.

15 Lle y buoſt yn wrthodedic, ac yn gâs, ac heb gynniwerudd [trwot, ] goſodaf di yn ogoniant tragywyddol, [ac] yn llawenydd drwy yr holl oeſoedd.

16 Sugni hefyd laeth y cenhedloedd, îe bronnau brenhinoedd a ſugni, a chei ŵybod mai myfi 'r Arglwydd [ydwyf] dy achubudd, a'th waredudd [yw] cadarn [Dduw] Iacob.

17 Yn lle prês y dygaf aur, ac yn lle haiarn y dygaf arian, ac yn lle coed, prês, ac yn lle cerrig, haiarn, a goſodaf dy ſwyddogion yn heddychol, a'th dreth-wŷr yn gyfiawn.

18 Ni chlywir mwy [ſôn am] drais yn dy wlâd, [na] deſtruw, na diniſtr yn dy derfynau: eithr cyhoeddi iechydwriaeth [ ar ] dy fagwyrydd, a moliant [yn] dy byrth.

19 Ni bydd yr haul it mwyach yn oleuni y dydd, a'r lleuad ni oleua yn llewyrch it : eithr yr Arglwydd fydd it yn oleuni tragywyddol, a'th Dduw yn ogoniant it.

20 Ni fachluda dy haul mwyach, a'th leuad ni phalla, o herwydd yr Arglwydd dy Dduw fydd it yn oleuni tragywyddol, a dyddi[illegible]y alar a ddarfyddant.

21 Dy bobl hefyd fyddant gyfiawn oll, etifeddant y tîr byth, [ſef] impin fy mhlanhigion, gwaith fy nwylo fel i'm gogonedder.

22 Y bychan a fydd yn fil, a'r gwael yn genhedlaeth gref, myfi 'r Arglwydd a bryſſuraf hynny yn ei amſer.

## PEN. LXI.

Donniau, a ſwydd Criſt. 5 Rhagor-fraint yr eglwys. 10 Criſt yn hyfryd ganddo ei eglwys.

YSpryd yr Arglwydd Dduw [ſydd] arnaf, o herwydd yr Arglwydd a'm eneiniodd i efangylu [i'r ] trueniaid, efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai yſig calon, i bregethu rhydd-did i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai a rwymwyd, Luc.4.18.

2 I bregethu blwyddyn bodlonrwydd yr Arglwydd, a dydd dial ein Duw ni, gan gyſſuro pob galarus,

3 I oſod i alarwŷr Sion, [ac] i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwiſc moliant yn lle yſpryd cyſtuddiedic, a hwynt a elwir * yn brennau cyfiawnder, yn blanhigin yr Arglwydd i ymogoneddu, Mat.3.8.

4 Adailadant hefyd hên ddiffaethwch, cyfodant anghyfanneddfa y rhai gynt, ac adnewyddant ddinaſoedd diffaethwch, a'r [ lleoedd y rhai a fuant] anghyfannedd drwy lawer oes.

5 Yna y dieithriaid a ſafant, ac a borthant eich praidd, a meibion dieithr [ fyddant ] eich ardd-wŷr a'ch gwin-llanwŷr.

6 Chwithau a elwir yn offeiriaid i'r Arglwydd, gwenidogion ein Duw ni meddir wrthych, golud y cenhedloedd a fwynhewch, ac yn eu gogoniant hwy 'r ymddercheſwch.

7 Yn lle eich cywilydd dau ddyblyg, a'r gwradwydd a ganent, [dymma] eu rhan hwynt, am hynny yn eu tîr hwynt y meddiannant [ran] yn ddwbl, llawenydd tragywyddol fydd iddynt.

8 Canys myfi 'r Arglwydd a hoffaf gyfiawnder, gan gaſſau trais mewn poeth offrwm, ac a roddaf eu gwaith mewn gwirionedd, ac a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol.

9 Eu hâd hwynt hefyd a adweinir ym myſc y cenhedloedd, ai hiliogaeth hwynt yng-hanol y bobl: y rhai ai gwelant ai hadwaenant, mai hwynt hwy [yw] 'r hâd a fendithiodd yr Arglwydd.

10 Gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd, a'm henaid a orfoledda yn fy Nuw, canys gwnaeth i mi wiſco gwiſcoedd iechydwriaeth, gwiſcodd fi â mantell cyfiawnder :

a ddiwalla dy enaid ar ſychder, ac a wna dy eſcyrn yn freiſion: a thi a fyddi fell gardd wedi ei dwfrhau, ac megis ffynnon ddwfr yr hon ni phalla ei dwfr.

12 [Rhai] o honot ti a adailadant ddiffaethwch tragywyddol, ti a gyfodi ſylfeini i lawer cenhedlaeth, a thi a elwir yn gae-wr adwy, yn gyweiri-wr llwybrau i gyfanneddu.

13 O throi dy droed oddi wrth fy Sabboth [heb] wneuthur dy ewyllys ar fy nydd ſanctaidd, ai alw [ef] yn hyfryd, ſanctaidd, ogoneddus Sabboth yr Arglwydd, ai anrhydeddu ef heb wneuthur dy ffyrdd, heb geiſio dy ewyllys, na dywedyd gair [drwg,]

14 Yna yr ymhyfrydi yn yr Arglwydd, ac y gwnaf it farchogeth ar vchelfeudd y ddaiar, gwnaf hefyd it fwynhau etifeddiaeth Iacob dy dad: canys genau yr Arglwydd a lefarodd [hyn.]

## PEN. LIX.

Achoſion dialedd Duw yw pechodau y bobl. 16 Gallu Duw ai drugaredd i ymgeleddu 'r edifeiriol.

VVEle ni fyrhauwyd llaw 'r Arglwydd fel na allo achub, ac ni thrymhâodd ei gluſt ef, fel na allo glywed.

2 Eithr eich anwireddau chwi a yſcarodd rhyngoch chwi a'ch Duw: a'ch pechodau a guddiaſant ei wyneb oddi wrthych rhag clywed.

3 Canys eich dwylo a halogwyd â gwaed, a'ch byſſedd â chamwedd: eich gwefuſau a draethaſant ffalſter, eich tafod a fefyrria anwiredd.

4 Nid [oes] a alwo am gyfiawnder, nac a farno mewn gwirionedd: [y maent] yn gobeithio mewn gwagedd, yn dywedyd celwydd, yn beichiogi ar flinder, ac yn eſcor ar anwiredd.

5 Wyau aſp a ddodwaſant, a gweoedd y pryf copyn a weuant, yr hwn a fwyttu oi hwyau a fydd marw, a'r hwn a ſathrer a dyrr allan yn wiber.

6 Eu gweoedd hwynt ni byddant yn wiſcoedd, ac ni's gwiſcir hwynt ai gweithredoedd, eu gweithredoedd [ydynt] weithredoedd anwiredd, ai gwaith yn drawſder yn eu dwylo.

7 Eu traed hwynt a redant i ddrygioni, ac a fryſſiant i dywallt gwaed gwirion, eu meddyliau [ydynt] feddyliau anwir, deſtruw a diniſtr [ſydd] ar eu ffyrdd hwynt.

8 Ffordd heddwch nid adnabuant, ac nid [oes] gyfiawnder yn eu llwybrau hwynt: eu llwybrau a ŵyraſant ganddynt, pwy bynnac a rodio yno nid edwyn heddwch.

9 Am hynny y ciliodd barnedigaeth oddi wrthym, ac ni'n goddiweddodd cyfiawnder: diſgwiliaſom am oleuni, ac wele dywyllwch, am ddiſcleirdeb, [ac] yn y fagddu y rhodiaſom.

10 Palfalaſom fell deillion a'r pared, ie fel [rhai] heb lygaid y palfalaſom: tramgwyddaſom ar hanner dydd fel y cyfnos, [oeddem] ym myſc y beddau fel rhai meirw.

11 Nyni oll a ruaſom fel eirth, a chan riddfan y griddfanaſom fel colomennod: diſgwiliaſom am farn, ac ni's [ceid,] am iechydwriaeth, [a] chiliodd oddi wrthym.

12 Canys amlhâodd ein camweddau ni ger dy fron, a theſtiolaethodd ein pechodau i'n herbyn: o herwydd ein camweddau [ydynt] ynom, a'n hanwireddau ni a adwaenom.

13 Camweddu a dywedyd celwydd yn erbyn yr Arglwydd, a chilio oddi ar ôl ein Duw, dywedyd trawſder, ac anufudd-dod, dychymmyg a myfyrio o'r galon eiriau gau.

14 Barn hefyd a droed yn ei hôl, a chyfiawnder a ſafodd o hirbell, canys gwirionedd a dramgwyddodd yn yr heol, ac iniondeb ni alle ddyfod i mewn.

15 Ie gwirionedd ſydd yn pallu, a'r hwn ſydd yn cilio oddi wrth ddrygioni a yſpeilir, pan welodd yr Arglwydd [hyn] yna drwg oedd yn ei olwg, am nad [oedd] barn.

16 Gwelodd hefyd nad [oedd] ŵr, a ſynnodd arno, am nad [oedd] eiriol-wr: yna ei fraich ai achubodd, ai gyfiawnder ei hun ai cynhaliodd.

17 Ac efe a wiſcodd gyfiawnder fel lluric, a helm iechydwriaeth am ei benn, ac a wiſcodd wiſcoedd dial yn ddillad: ie gwiſcodd zel fel mantell.

18 Yn ddiau yn ôl y gweithredoedd, ie yn [eu] hôl [hwynt] y tâl efe [ei] lîd ar ei wrthwyneb-wŷr, taledigaeth iw elynnion, [a] thaledigaeth i'r ynyſoedd a dâl efe.

19 Ac ofnant enw yr Arglwydd o'r gorllewyn, ai ogoniant ef o godiad haul: pan ddelo y gelyn fel afon, Yſpryd yr Arglwydd ai hymlid ef ymmaith.

20 Ac i Sion y daw gwaredudd, ac i'r rhai â droant [oddi wrth] anwiredd yn Iacob, medd yr Arglwydd.

21 Ac mi [a wnaf] fyng-hyfammod hwn â hwynt medd yr Arglwydd, fy yſpryd yr hwn [ſydd] ynot, a'm geiriau y rhai a oſodais yn dy enau ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd dy hâd medd yr Arglwydd o hyn allan byth.

## PEN LX.

Galwedigaeth y cenhedloedd drwy bregethiad yr efangyl. 15 Daioni Duw iw eglwys.

CYfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a thywynnodd gogoniant yr Arglwydd arnat [ô Ieruſalem.]

2 Canys wele tywyllwch a orchguddia y ddaiar, a chwmwl y bobloedd: ond arnat ti y tywynna yr Arglwydd, ai ogoniant a welir arnat.

3 Cenhedloedd hefyd a rodiant yn dy oleuni, a brenhinoedd yn niſcleirdeb dy dywynniad,

4 Cyfot dy lygaid oddi amgylch, ac edrych, ymgaſclaſant hwy oll [ a ] daethant attat : dy feibion a ddeuant o bell, a'th ferched a dadmeithir wrth dy yſtlys.

5 Yna y cei weled, ac yr ymddiſcleiri, dy galon hefyd a ddychryna, ac a helaethir, pan ddo[illegible] attat luoſogrwydd y môr, golud y cenhedl[illegible] a ddeuant i ti.

6 Mintai o gamêlod a'th orchguddia[illegible] cyflym gamêlod Madian, ac Epha: hwynt oll o Saba a ddeuant, aur a thus a ddygant, a moliant yr Arglwydd a fynegant.

7 Holl ddefaid Cedar a ymgaſclant attat ti, hyrddod Nebaioth a'th waſanaethant : hwy a ddeuant i fynu yn ewyllyſcar ar fy allor, ac mi a anrhydeddaf dŷ fyng-ogoniant.

8 Pwy [yw] y rhai hyn a ehedant fel cwmwl ? ac fel colomennod i'w ffeneſtri ?

9 Canys yr ynyſoedd a'm diſgwiliant, a llongau Tharſis yn bennaf, i ddwyn dy feibion o bell, eu harian [hefyd] ai haur gyd â hwynt i enw'r Arglwydd dy Dduw, ac i Sanct Iſrael, canys efe a'th ogoneddodd di.

10 Meibion dieithr a adeiladant dy furiau, ai brenhinoedd a'th waſanaethant, canys yn fy nîg i'th darewais, ac o'm trugaredd fy hun y toſturiais wrthit.

11 A'th byrth a agorir yn waſtad, ni cheuir hwynt ddydd na nôs, i ddwyn attat olud y cenhedloedd, eu brenhinoedd hwynt hefyd a ddygir [attat.]

12 Canys y genhedlaeth ar deyrnas yr hon ni'th waſanaetho di a ddifethir: a'r cenhedloedd hynny a lwyr ddiniſtrir.

13 Gogoniant Libanus a ddaw attat, y ffynnid-wŷdd, ffawydd, ac yſpyddaid yng-hyd, i harddu lle fyng-hyſſegr, harddaf hefyd le fy nhraed.

14 A meibion dy gyſtudd-wŷr a ddeuant attat yn oſtyngedic: a'r rhai oll a'th ddiyſtyrâſãt a ymoſtyngant hyd wadnau dy draed, ac a'th alwant yn ddinas yr Arglwydd, yn Sion Sanct Iſrael.

15 Lle y buoſt yn wrthodedic, ac yn gâs, ac heb gynniwerudd [trwot, ] goſodaf di yn ogoniant tragywyddol, [ac] yn llawenydd drwy yr holl oeſoedd.

16 Sugni hefyd laeth y cenhedloedd, îe bronnau brenhinoedd a ſugni, a chei ŵybod mai myfi 'r Arglwydd [ydwyf] dy achubudd, a'th waredudd [yw] cadarn [Dduw] Iacob.

17 Yn lle prês y dygaf aur, ac yn lle haiarn y dygaf arian, ac yn lle coed, prês, ac yn lle cerrig, haiarn, a goſodaf dy ſwyddogion yn heddychol, a'th dreth-wŷr yn gyfiawn.

18 Ni chlywir mwy [ſôn am] drais yn dy wlâd, [na] deſtruw, na diniſtr yn dy derfynau: eithr cyhoeddi iechydwriaeth [ ar ] dy fagwyrydd, a moliant [yn] dy byrth.

19 Ni bydd yr haul it mwyach yn oleuni y dydd, a'r lleuad ni oleua yn llewyrch it : eithr yr Arglwydd fydd it yn oleuni tragywyddol, a'th Dduw yn ogoniant it.

20 Ni fachluda dy haul mwyach, a'th lleuad ni phalla, o herwydd yr Arglwydd dy Dduw fydd it yn oleuni tragywyddol, a dyddi[illegible]y alar a ddarfyddant.

21 Dy bobl hefyd fyddant gyfiawn oll, etifeddant y tîr byth, [ſef ] impin fy mhlanhigion, gwaith fy nwylo fel i'm gogonedder.

22 Y bychan a fydd yn fil, a'r gwael yn genhedlaeth gref, myfi 'r Arglwydd a bryſſuraf hynny yn ei amſer.

## PEN. LXI.

Donniau, a ſwydd Criſt. 5 Rhagor-fraint yr eglwys. 10 Criſt yn hyfryd ganddo ei eglwys.

YSpryd yr Arglwydd Dduw [ſydd] arnaf, o herwydd yr Arglwydd a'm eneiniodd i efangylu [i'r ] trueniaid, efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai yſſig calon, i bregethu rhydd-did i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai a rwymwyd, Luc.4.18.

2 I bregethu blwyddyn bodlonrwydd yr Arglwydd, a dydd dial ein Duw ni, gan gyſſuro pob galarus,

3 I oſod i alarwŷr Sion, [ac] i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwiſc moliant yn lle yſpryd cyſtuddiedic, a hwynt a elwir * yn brennau cyfiawnder, Mat.3.&
yn blanhigin yr Arglwydd i ymogoneddu,

4 Adailadant hefyd hên ddiffaethwch, cyfodant anghyfanneddfa y rhai gynt, ac adnewyddant ddinaſoedd diffaethwch, a'r [ lleoedd y rhai a fuant] anghyfannedd drwy lawer oes.

5 Yna y dieithriaid a ſafant, ac a borthant eich praidd, a meibion dieithr [ fyddant ] eich ardd-wŷr a'ch gwin-llanwŷr.

6 Chwithau a elwir yn offeiriaid i'r Arglwydd, gweinidogion ein Duw ni medd'ir wrthych, golud y cenhedloedd a fwynhewch, ac yn eu gogoniant hwy 'r ymddercheſwch.

7 Yn lle eich cywilydd dau ddyblyg, a'r gwradwydd a ganent, [dymma] eu rhan hwynt, am hynny yn eu tîr hwynt y meddiannant [ran] yn ddwbl, llawenydd tragywyddol fydd iddynt.

8 Canys myfi 'r Arglwydd a hoffaf gyfiawnder, gan gaſſau trais mewn poeth offrwm, ac a roddaf eu gwaith mewn gwirionedd, ac a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol.

9 Eu hâd hwynt hefyd a adweinir ym myſc y cenhedloedd, ai hiliogaeth hwynt yng-hanol y bobl : y rhai ai gwelant ai hadwaenant, mai hwynt hwy [yw ] 'r hâd a fendithiodd yr Arglwydd.

10 Gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd, a'm henaid a orfoledda yn fy Nuw, canys gwnaeth i mi wiſco gwiſcoedd iechydwriaeth, gwiſcodd fi â mantell cyfiawnder :

megis y priod-fab [i'm] cyſegrodd â gogoniant, ac fel yr ymdrwſſia priod-ferch ai chlyſſau.

11 Megis y gwna 'r ddaiar iw gwellt dyfu, ac fel y gwna gardd iw hadau egino, felly y gwna 'r Arglwydd Iôr t gyfiawnder, a moliant darddu ger bron yr holl genhedloedd.

## PEN. LXII.

Swydd Criſt ai wenidogion.

ER mwyn Sion ni thawaf, ac er mwyn Ieruſalem ni oſtegaf, hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel diſcleirdeb, ac enynnu oi hiechydwriaeth hi fel ffagl,

2 Yna y ceuhedloedd a welant dy gyfiawnder, a'r holl frenhinoedd dy ogoniant, yna y gelwir arnat enw newydd yr hwn a yſpyſſa genau 'r Arglwydd.

3 Byddi hefyd yn goron ogoniant yn llaw 'r Arglwydd, ac yn gylch brenhinawl yn llaw dy Dduw.

4 Ni ddywedir am danat mwy, gwrthodedic [yw,] am dy dîr hefyd ni ddywedir mwy, anghyfannedd [yw,] eithr am danat ti y llefir, y mae] fy ewyllys arni: ac am dy dir, perchennogwyd ef: canys bodlon yw 'r Arglwydd i ti, a'th dir, a berchennogir.

5 Canys [fel] y prioda gŵr ieuangc forwyn, y prioda dy feibion dithe, ac â llawenydd priod-fab am briod-ferch, y llawenycha dy Dduw o'th blegit ti.

6 Ar dy furiau di Ieruſalem y goſodais geidwaid, ni thawant ddydd na nôs yn wastad, y rhai ydych yn coffio yr Arglwydd na [fydded] gennych ddiſtawrwydd,

7 Ac na roddwch ddiſtawrwydd iddo, hyd oni ſiccrhao, ac hyd oni oſodo Ieruſalem yn foliant ar y ddaiar.

8 Tyngodd yr Arglwydd iw ddeheu-law, ac iw fraich nerthol ef, [nid byw fi] os rhoddaf dy wenith mwyach yn ymborth i'th elynnion, ac os meibion dieithr a yfant dy win yr hwn y llafuriaſt am dano.

9 Eithr y rhai a gaſclant hwnnw ai bwyttânt, ac a foliannant yr Arglwydd, a'r rhai a gaſclant hwn ai hŷfant o fewn cynteddoedd fyng-hyſſegr.

10 Cynniwerwch, cynniwerwch trwy 'r pyrth, gwaſtattewch ffordd y bobl, palmentwch, palmentwch brifford, digarregwch [hi:] cyfodwch faner ar y bobloedd.

11 Wele 'r Arglwydd a gyhoeddodd hyd eithaf y ddaiar, dywedwch wrth ferch Sion, wele dy iechydwriaeth yn dyfod, wele ei gyflog gyd ag ef, ai weithred oi flaen.

12 Galwant hwynt hefyd yn bobl ſanctaidd yn waredigion yr Arglwydd: tithe a elwir, yr hon a geiſiwyd, dinas ni's gwrthodwyd.

## PEN. LXIII.

Criſt yn diniſtrio ei elynnion, ac yn cynneſcaeddu ei ffyddlonniaid ag amryw ddaioni.

PWy [yw] hwn yn dyfod o Edom, yn wŷch ei ddillad o Bozra? hwn [ſydd] hardd yn ei wiſc, yn ymdaith yn amlder ei rymm: myfi yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder, [ac ydwyf] gadarn i iachau.

2 Pa ham [yr ydwyt] yn gôch yn dy ddillad, a'th wiſcoedd fel yr hwn a ſathre mewn gwinwryf?

3 Sethrais y gwin-wryf fy hunan, ac o'r bobl nid [oedd] un gyd â mi, am hynny y ſathraf hwynt yn fy nig, ac y mathraf hwynt yn fy llidiawgrwydd, ai gwaed hwynt a daenellir ar fy nillad, a'm holl wiſcoedd a lychwinaf.

4 Canys dydd dial wrth [fodd] fyng-halon a blwyddyn fyng-waredigion a ddaeth.

5 Edrychais hefyd, ac nid [oedd] gynnorthwyudd, rhyfeddais hefyd am nad [oedd] gynhaliwr, yna fy mraich a'm hachubodd, a'm llidiawgrwydd a'm cynhaliodd.

6 Felly y ſathraf bobl yn fy nig, ac y meddwaf hwynt yn fy llidiawgrwydd: ai goruwchaſtaeth a ddeſcynnaf i'r llawr.

7 Coffâf drugaredd yr Arglwydd, [a] moliant Duw, megis am yr hyn oll a dalodd Duw i ni, ac amlder lleſâd tŷ Iſrael, yr hyn a dalodd efe iddynt yn ôl ei doſturiaethau, ac yn ôl amlder ei drugareddau.

8 Ac efe a ddywedodd diau fy mhobl mauſt [yddynt] hwy, meibion ni ddywedant gelwydd, ac efe a aeth yn iachawdur iddynt,

9 Yn eu holl gyſtudd hwynt nid [oedd] cyſtudd, ac Angel ei gydrycholdeb ai hachubodd hwynt, er mwyn ei gariad, ac er mwyn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt: efe ai cludodd hwynt, ac ai harweiniodd bôb amſer.

10 A hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiaſant ei Yſpryd ſanctaidd ef, fel y trôdd efe yn elyn iddynt, [ac] yr ymladdodd efe yn eu herbyn hwynt.

11 Yna y coffodd [Iſrael] ddyddiau Moſes gynt, ai bobl, [gan ddywedyd:] mae 'r hwn ai dygodd hwynt i fynu o'r môr gyd â bugeiliaid ei braidd: mae'r hwn a oſododd ei Yſpryd ſanctaidd oi fewn ef:

12 Yr hwn ai tywyſodd [hwynt] â deheulaw Moſes, ac ai ogoneddus fraich, gan hollti y dyfroedd oi blaen hwynt, i wneuthur iddo ei hun enw tragywyddol,

13 Gan eu harwein hwynt trwy y dyfnderau, fel march yn yr anialwch heb dramgwyddo o honynt.

14 Fel y deſcyn anifail i'r dyffryn, y gwnaiff Yſpryd yr Arglwydd iddo orphywys: felly y tywyſaiſt dy bobl i wneuthur it enw gogoneddus.

15 Edrych o'r nefoedd a gwêl, [ſef] o'annedd dy ſancteiddrwydd, a'th ogoniant: mae dy zêl, a'th gadernid, lluoſogrwydd dy doſturiaethau, a'th drugareddau: hwynt a ymattaliaſant oddi wrthif:

16 Canys ti yw ein tâd ni, er nad edwyn

Abraham ni, ac na'n cydnebydd Iſrael, ti Arglwydd [ſyddi] dâd i ni, a'n gwaredudd: dy enw [ſydd]'r ioed.

17 Pa ham Arglwydd y gwnaethoſt i ni gyfeiliorni o'th ffyrdd? [ac] y caledaiſt ein calonnau oddi wrth dy ofn: dychwel er mwyn dy weiſion, [ſef] llwythau dy etifeddiaeth.

18 Tros ychydig ennyd y meddiannodd dy bobl ſanctaidd [dy gyſſegr,] ein gwrthwynebwŷr a ſathraſant dy gyſſegr di.

19 Nyni oeddem [eiddo ti] er ioed [pryd] nad oeddit ti yn arglwyddiaethu arnynt hwy, [ac] na elwid dy enw arnynt.

## PEN. LXIIII.

Y Prophhwyd yn gweddio tros bechodau y bobl, ac yn dangos frynted cyfiawnder gweithredoedd dyn.

Oh na rwygit y nefoedd, a deſcyn, [yna] y mynyddoedd a doddent o'th flaen di,

2 Fel y llyſc y tân greiſion, [ac] y berw y tân ddwfr: i yſpyſſu dy enw i'th wrthwynebwŷr, [fel] yr ofne y cenhedloedd rhagot.

3 Pan wnaethoſt [bethau] ofnadwy ni ddiſgwiliaſom [am danynt,] y deſcynnaiſt, [a'r] mynyddoedd a ddiferaſant o'th flaen.

4 Ac er ioed ni chlywſant, ni dderbynnaſant â chluſtiau, ac ni welodd llygad Dduw, onid tydi [yr hwn] a wna [felly] i'r neb a obeithia ynddo.

5 Cynnorthwyaiſt y llawen, a'r hwn a wnaeth gyfiawnder, yn dy ffyrdd i'th goffânt di, wele ti a ddigiaiſt pan bechaſom [pe arhoſaſẽ] ynddynt hwy byth, yna cadwedic fuaſem.

6 Eithr ni oll fuom megis [peth] aflan, ac megis dilledyn o frattiau yw ein holl gyfiawnderau, a megis deilen y ſyrthiaſom ni oll: a'n anwiredd megis gwynt a'n dûg ni ymmaith.

7 Ac nid oes a alwo ar dy enw, nac a ymgyfyd i ymaflyd ynot: canys cuddiaiſt dy wyneb oddi wrthym, difeaiſt ni o herwydd ein anwiredd.

8 Ac yn awr Arglwydd ein Tâd ni [ydwyt] ti, nyni [ydym] glai, a thithe ein lluni-wr ni, ie gwaith dy law [ydym] ni oll.

9 Na ddigia Arglwydd yn ddirfawr, ac na chofia anwiredd yn dragywydd, wele edrych attolwg dy bobl di [ydym] ni oll.

10 Dy ſanctaidd ddinaſoedd ydynt anialwch, Sion [ſydd] yn ddiffaethwch, ac Jeruſalem yn anghyfannedd.

11 Tŷ ein ſancteiddrwydd, a'n holl ogoniant, lle y moliannie ein tadau ydi ſydd yn lloſcfa dân, a'n holl ddymunol [leoedd,] ſydd yn ddiffaethwch.

12 A ymattali di Arglwydd wrth hyn: a dewi di, ac a gyſtuddi di ni yn ddirfawr?

## PEN. LXV.

Galwedigaeth eglwys Griſt o'r cenhedloedd, ac o weddill yr Iddewon. 11 Dryg-fyd yr anffyddloniaid a gwyn-fyd y rhai duwiol.

Yſpyſſwyd fi i'r [rhai] ni ofynnaſant am [danaf,] cafwyd fi gan [y rhai] ni'm ceiſiaſant: dywedais, wele fi, wele fi, wrth genhedlaeth ni alwodd ar fy enw. Rhuf.10.20.

2 Eſtynnais fy llaw hyd y dydd at bobl wrthryfelgar, y rhai a rodient y ffordd nid [oedd] dda, ar ôl eu meddyliau eu hun.

3 Pobl y rhai a'm llidient i yn waſtad yn fyng-wŷdd, yn aberthu mewn gerddi, ac yn arogl-darthu ar bridd-lechau,

4 Y rhai a arhoent ym myſc y beddau, ac a letteuent yn y gwilfeudd, y rhai a fwyttaent gîg môch, ac iſcell ffiaidd gig [yn] eu lleſtri,

5 Y rhai a ddywedent, neſſa attat, na neſſa attafi, canys ſancteiddiach ydwyf na thi, y rhai hyn [ydynt] fŵg yn fy ffroenau, [a] thân yn lloſci ar hŷd y dydd.

6 Wele ſcrifennwyd ger fy mron, ni thawaf: eithr talaf ie talaf yn eu monwes.

7 Eich anwireddau chwi, ac anwireddau eich tadau chwi yng-hyd medd yr Arglwydd: y rhai a fwg-darthaſant ar y mynyddoedd, ac a'm cablaſant ar y bryniau: am hynny y meſſuraf eu hên weithredoedd hwynt iw monwes.

8 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, megis y ceir gwin mewn cangen o rawn, ac y dywedir, na ddifwyna hi, canys [y mae] rhâd ynddi: felly y gwnaf er mwyn fyng-weiſion, na ddifwyner y cwbl.

9 Eithr dygaf hâd allan o Jacob, ac o Juda [un] a etifeddo fy mynyddoedd: yna fy etholedigion ai hetifeddant, a'm gweiſion a drigant yno.

10 Saron hefyd fydd yn gorlan defaid, a glynn Achor yn orweddfa gwarthec i'm pobl y rhai a'm ceiſiant.

11 Ond chwi y rhai a wrthodaſoch yr Arglwydd, y rhai a anghofiaſoch fy mynydd ſanctaidd, y rhai a arlwyaſoch fwrdd, ac a lanwaſoch ddiod offrwm i'r planedau.

12 Rhifaf chwithau i'r cleddyf, a chwi oll a ymoſtyngwch i'r lladdedigaeth, o herwydd gelwais chwi, ac nid attebaſoch, lleferais, ac ni wrandawſoch, gwnaethoch hefyd ddrygioni yn fyng-olwg, a dewiſaſoch yr hyn ni fynnaſwn.

13 Am hynny fel hynn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, wele fyng-weiſion a fwyttant, a chwithau a newynwch, wele fyng-weiſion a yfant, a chwithau a ſychedwch: wele fyng-weiſion a lawenychant a chwitheu a gywilyddir.

14 Wele fyng-weiſion a ganant o hyfrydwch calon, a chwithau a waeddwch rhac gofid calon, ac a udwch rhac [illegible] yſpryd.

15 A'ch enw a adewch yn rhegen ym myſc fy etholedigion, canys yr Arglwydd Dduw a'ch lladd chwi, ac a eilw ei weiſion [ar] enw arall.

16 Yr hwn a ymfendigo ar y ddaiar a ymfendiga yn y gwîr Dduw, a'r hwn a dyngo ar y ddaiar, a dwng i'r gwîr Dduw: am anghofio y trallodau cyntaf, ac am ymguddio o honynt o'm golwg.

17 Canys wele fi yn creu nefoedd newydd, a daiar newydd, a'r rhai cyntaf ni chofîr, ac ni feddylîr am danynt.

18 Eithr llawenychwch, a gorfoleddwch yn dragywydd, [o herwydd] y rhai a grewyfi, canys wele fi yn creu Jeruſalem yn orfoleddus, ai phobl yn llawen.

19 Gorfoleddaf hefyd yn Jeruſalem, a llawenychaf yn fy mhobl, ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd.

20 Ni bydd o hynny allan blentyn o oed, na henaf-gwr yr hwn ni chyflawna [Duw] ei ddyddiau, canys y bachgen fydd marw yn fab can-mlwydd, a'r pechadur yn fab can-mlwydd a felldithir.

21 Yna 'r adailadant dai, ac y cyfanneddant: plannant hefyd winllannoedd, a bwyttânt eu ffrwyth.

22 Nid adailadant fel y cyfanneddo arall, ac ni phlannant fel y bwyttao arall: eithr megis dyddiau 'r pren [y bydd] dyddiau fy mhobl, a'm hetholedigion a fwynhânt waith eu dwylo.

23 Ni lafuriant yn ofer, ac ni chenhedlant mewn dychryn, canys hâd rhai bendigedic yr Arglwydd [ydynt] hwy ai heppil gyd â hwynt.

24 A bydd cyn galw o honynt, i mi atteb, a hwynt etto yn llefaru mi a wrandawaf.

25 Y blaidd a'r oen a borant yn gydtûn, y llew fel ŷch a bawr welle: ond am y ſarph llwch [fydd] ei bwyd hi: ni ddrygant, ac ni lygrant yn fy holl fynydd ſanctaidd medd yr Arglwydd.

## PEN. LXVI.

Ofered gan Dduw bob gwaſanaeth gweledic heb ffydd oddi fewn. 5 Cyſſur i'r ffyddloniaid truain, o gwymp y drygionus, a chynnydd yr eglwys. 18 Diolchgarwch y duwiol am amryw ddoniau Duw.

FEl hyn y dywedodd yr Arglwydd, y nefoedd [ydynt] fyng-orſedd-faingc, a'r ddaiar [yw] lleithic fy nhraed: mae 'r tŷ hwnnw 'r hwn a adailedwch i mi? ac mae 'r fan honno y gorphywyſaf?

2 A hyn oll a wnaeth fy llaw, a [thrwofi] y mae hyn oll medd yr Arglwydd, ac ar hwn yr edrychaf [ſef] ar y truan a'r cyſtuddedic o yſpryd, a'r hwn ſydd yn ofni fyng-air.

3 Yr hwn a laddo ŷch [ſydd fel] yr hwn a laddo ŵr, yr hwn a abertho oen [ſydd fel] yr hwn a dorfynyglo gî: yr hwn a offrymma fwyd offrwm [ſydd yn offrymmu] gwaed môch, yr hwn a arogl-dartha thus, ſydd yn bendigo gwagedd: etto hwynt a ddewiſaſant eu ffyrdd eu hun, eu henaid a ewyllyſiodd eu ffieidd-dra.

4 Minne hefyd a ddewiſaf eu gwatwar h[illegible]ynt, ac a ddygaf arnynt yr hyn a ofnant, am alw o honof, ac nad [oedd] a attebe, llefarais, ac ni wrandawſant: eithr gwnaethant yr hyn oedd ddrwg yn fyng-olwg, a'r hyn ni fynnwn a ddewiſaſant,

5 Gwrandewch air yr Arglwydd, y rhai a grynwch rhag ei air ef, eich brodyr y rhai a'ch caſânt [ac] a'ch gyrrant ar encil, er mwyn fy enw i, a ddywedaſa[illegible]goneddir yr Arglwydd: etto yn eich lla[illegible]ydd chwi y gwelir ef, a hwynt a wradw[illegible]nt,

6 Llef ſoniarus [a glywir] o'r ddinas, llef o'r Deml, llef yr Arglwydd yn gobrwyo ei elynnion.

7 Cyn ei hanhwylo 'r eſcorodd, a chyn dyfod gwewyr arni y rhydd-hauwyd hi ar fab.

8 Pwy a glybu y fath beth â hyn? pwy a welodd y fath beth â hyn? a wneir i'r ddaiar dyfu mewn un dydd? a ênir cenhedlaeth [ar] unwaith? pan anhwylodd Sion yr eſcorodd hefyd ar ei meibion.

9 A ddaccodaf fi, ac ni pharaf eſcor? ai myfi yr hwn ſydd yn peri eſcor a luddiaf hefyd medd dy Dduw?

10 Llawenhewch gyd ag Jeruſalem, a byddwch hyfryd oi phlegit y rhai oll ai cerwch hi, llawenychwch gyd â hi yn llawen, y rhai oll a alerwch am dani.

11 Fel y ſugnoch, ac i'ch diwaller o fronnau ei diddanwch, fel y godrôch, ac y byddoch hyfryd o ddiſcleirdeb ei gogoniant.

12 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn eſtyn iddi heddwch fel afon, a gogoniant y cenhedloedd fel ffrŵd lifeiriol: yna y ſugnwch [hwynt,] ar ei hyſtlys [hi] i'ch dugir, ac ar ei gliniau i'ch diddanir:

13 Fel un yr hwn y diddano ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi, ac yn Jeruſalem i'ch diddanir.

14 Yna y gwelwch, ac y llawenycha eich calon, eich eſcyrn hefyd a flodeuant fel llyſieuyn: pan adweinir llaw 'r Arglwydd gyd ai weiſion, ai lidiawgrwydd wrth ei elynnion.

15 Canys wele 'r Arglwydd a ddaw mewn tân, ai gerbydau fel trô-wynt, i dalu ei ddigter mewn llidiawgrwydd, ai gerydd mewn fflammau tân.

16 Canys yr Arglwydd a ymgyfreithia â thân, ac ai gleddyf yn erbyn pôb cnawd, a lladdedigion yr Arglwydd fyddant aml.

17 Y rhai a ymſancteiddiant, ac a ymlanhant yn y gerddi yn ôl eu gilydd yn amlwg: gan fwytta cîg môch, a ffiaidd-dra, a llygod, a gyd-ddiweddir medd yr Arglwydd.

18 Ac mi a [adwen] eu gweithredoedd hwynt ai dychymmygion, y mae ['r amſer] yn dyfod i gaſclu 'r holl genhedloedd ar ieithoedd, a phan ddelant y gwelant fyng-ogoniant.

19 A goſodaf arnynt arwydd, ac anfonaf y

rhai

[illegible]ngol o honynt at y cenhedloedd, Thar-[illegible] Affrica, a Lydia, y rhai a dynnant [mewn] bwa, Italia, a Groec yr ynyſoedd pell, y rhai ni chlywſant ſôn am danaf, ac ni welſant fyng-ogoniant: a mynegant fyng-ogoniant ym myſc y cenhedloedd.

20 A hwynt a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genhedloedd yn offrwm i'r Arglwydd ar feirch, ac ar gerbydau, ac ar elorau meirch, ac ar fulod, ac ar anifeiliaid buain i'm mynydd ſanctaidd Ieruſalem medd yr Arglwydd, megis y dyge meibion Iſrael offrwm mewn lleſtr glân [i] dŷ'r Arglwydd.

21 Ac o honynt hwy y cymmeraf [rai] yn offeiriaid, ac yn Lefiaid medd yr Arglwydd.

22 Canys megis y ſaif ger fy mron y nefoedd newydd, a'r ddaiar newydd y rhai a wnaf fi medd yr Arglwydd: felly y ſaif eich hâd chwi, a'ch enw chwi.

23 Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabboth i Sabboth i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron medd yr Arglwydd.

24 A hwynt a ânt allan, ac a welant gelanedd y rhai a wnaethant gamwedd i'm herbyn, canys eu pryf ni bydd marw, ai tân ni ddiffudd, a byddant yn ddirmyg gan bob cnawd.

Terfyn llyfr y prophwyd Eſay.

# Llyfr prophvvydoliaeth Ieremi.

## PENNOD I.

Ieremi yn ceiſio gwrthod bod yn brophwyd, gan ddangos ei ddiffig. 7 Yr Arglwydd yn ei gyſſuro ef. 11 yn dangos hefyd iddo ef ddiniſtr Ieruſalem. 17 Ac yn gorchymyn iddo eu rhybuddio hwynt o hyn yn ddiofn.

2.Bren.22.8. GEiriau Ieremi fab * Helciah [un] o'r offeiriaid y rhai [oeddynt]
Ioſ.21.18. yn * Anathoth o fewn tir Beniamin,

2 Yr hwn y daeth gair yr Arglwydd atto yn nyddiau Ioſiah fab Amon brenin Iuda: yn y drydedd flwyddyn ar ddêc o'i deyrnaſiad ef.

3 Ac yn nyddiau Iehoacim fab Ioſiah brenin Iuda yr oedd efe: nes darfod un mlynedd ar ddêc i Zedeciah fab Ioſiah brenin Iuda: hyd ddygiad Ieruſalem i gaethiwed y pummed mîs.

4 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

Eſa.49.1. Gal.1.15. 5 Cyn i mi dy *lunio di mewn croth mi a'th adnabûm, a chyn dy ddyfod o'r grôth y ſancteiddiais di: [ac] mi a'th roddais yn brophwyd i'r cenhedloedd.

Eſa.6.11. Exod.3.11. Exod.4.1. 6 Yna y dywedais, *ô Arglwydd Dduw, wele ni fedraf ymadrodd i: canys bachgen ydwyf fi.

7 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, na ddywet, bachgen ydwyf fi: canys ti a ei at yr rhai oll i'th anfonwyf di, a'r hyn oll a orchymynnwyf it, ti ai dywedi.

8 Nac ofna rhag eu hwynebau hwynt, canys yr ydwyf fi gyd â thi i'th waredu di medd yr Arglwydd.

9 Yna'r estynnodd yr Arglwydd ei law, ac a *gyffyrddodd â'm genau, a'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, wele rhoddais fyng-eiriau yn dy enau di. Exod.4.12. Eſa.6.7. Mat.10.20.

10 Gwel, heddyw i'th oſodais * ar y cenhedloedd, ac ar y teyrnaſoedd, i ddiwreiddio ac i ddiniſtrio, i ddifetha, ac i ddeſtruwio, i adailadu ac i blannu. Mat.18.18. 2.Cor.10.4. Heb.4.12.

11 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd: ô Ieremi beth a weli di? a minne a ddywedais, gwialen almon a welaf fi.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrthif: da y gwelaiſt, canys mi a fryſiaf i gyflawni fyng-air.

13 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf yr ail waith gan ddywedyd: beth a weli di? mi a ddywedais, mi a welaf grochan berwedic ai wyneb yn edrych oddi wrth y gogledd.

14 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif:

O'r

16 Yr hwn a ymfendigo ar y ddaiar a ymfendiga yn y gwir Dduw, a'r hwn a dyngo ar y ddaiar, a dwng i'r gwir Dduw: am anghofio y trallodau cyntaf, ac am ymguddio o honynt o'm golwg.

17 Canys wele fi yn creu nefoedd newydd, a daiar newydd, a'r rhai cyntaf ni chofir, ac ni feddylir am danynt.

18 Eithr llawenychwch, a gorfoleddwch yn dragywydd, [o herwydd] y rhai a grewyfi, canys wele fi yn creu Jeruſalem yn orfoleddus, ai phobl yn llawen.

19 Gorfoleddaf hefyd yn Jeruſalem, a llawenychaf yn fy mhobl, ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd.

20 Ni bydd o hynny allan blentyn o oed, na henaf-gwr yr hwn ni chyflawna [Duw] ei ddyddiau, canys y bachgen fydd marw yn fab can-mlwydd, a'r pechadur yn fab can-mlwydd a felldithir.

21 Yna'r adailadant dai, ac y cyfanneddant: plannant hefyd winllannoedd, a bwyttânt eu ffrwyth.

22 Nid adailadant fel y cyfanneddo arall, ac ni phlannant fel y bwyttao arall: eithr megis dyddiau'r pren [y bydd] dyddiau fy mhobl, a'm hetholedigion a fwynhânt waith eu dwylo.

23 Ni lafuriant yn ofer, ac ni chenhedlant mewn dychryn, canys hâd rhai bendigedic yr Arglwydd [ydynt] hwy ai heppil gyd â hwynt.

24 A bydd cyn galw o honynt, i mi atteb, a hwynt etto yn llefaru mi a wrandawaf.

25 Y blaidd a'r oen a borant yn gydtûn, y llew fel ŷch a bawr wellt: ond am y ſarph llwch [fydd] ei bwyd hi: ni ddrygant, ac ni lygrant yn fy holl fynydd ſanctaidd medd yr Arglwydd.

## PEN. LXVI.

Ofered gan Dduw bob gwaſanaeth gweledic heb ffydd oddi fewn. 5 Cyſſur i'r ffyddloniaid truain, o gwymp y drygionus, a chynnydd yr eglwys. 10 Diolchgarwch y duwiol am amryw ddoniau Duw.

FEl hyn y dywedodd yr Arglwydd, y nefoedd [ydynt] fyng-orſedd-faingc, a'r ddaiar [yw] lleithic fy nhraed: mae'r tŷ hwnnw'r hwn a adailedwch i mi? ac mae'r fan honno y gorphywyſaf?

2 A hyn oll a wnaeth fy llaw, a [thrwofi] y mae hyn oll medd yr Arglwydd, ac ar hwn yr edrychaf [ſef] ar y truan a'r cyſtuddedic o yſpryd, a'r hwn ſydd yn ofni fyng-air.

3 Yr hwn a laddo ŷch [ſydd fel] yr hwn a laddo ŵr, yr hwn a abertho oen [ſydd fel] yr hwn a dorfynyglo gî: yr hwn a offrymma fwyd offrwm [ſydd yn offrymmu] gwaed môch, yr hwn a arogl-dartha thus, ſydd yn bendigo gwagedd: etto hwynt a ddewiſaſant eu ffyrdd eu hun, eu henaid a ewyllyſiodd eu ffieidd-dra.

4 Minne hefyd a ddewiſaf eu gwatwar hwynt, ac a ddygaf arnynt yr hyn a ofnant, am alw o honof, ac nad [oedd] a attebe, lleferais, ac ni wrandawſant: eithr gwnaethant yr hyn oedd ddrwg yn fyng-olwg, a'r hyn ni fynnwn a ddewiſaſant,

5 Gwrandewch air yr Arglwydd, y rhai a grynwch rhag ei air ef, eich brodyr y rhai a'ch caſânt [ac] a'ch gyrrant ar encil, er mwyn fy enw i, a ddywedaſāt, gogonedder yr Arglwydd: etto yn eich llawenydd chwi y gwelir ef, a hwynt a wradwyddir,

6 Llef ſoniarus [a glywir] o'r ddinas, llef o'r Deml, llef yr Arglwydd yn gobrwyo ei elynion.

7 Cyn ei hanhwylo'r eſcorodd, a chyn dyfod gwewyr arni y rhydd-hawyd hi ar fab.

8 Pwy a glybu y fath beth â hyn? pwy a welodd y fath beth â hyn? a wneir i'r ddaiar dyfu mewn un dydd? a énir cenhedlaeth [ar] unwaith? pan anhwylodd Sion yr eſcorodd hefyd ar ei meibion.

9 A ddattodaf fi, ac ni pharaf eſcor? ai myfi yr hwn ſydd yn peri eſcor a luddiaf hefyd medd dy Dduw?

10 Llawenhewch gyd ag Jeruſalem, a byddwch hyfryd o'i phlegit y rhai oll ai carwch hi, llawenychwch gyd â hi yn llawen, y rhai oll a alerwch am dani,

11 Fel y ſugnoch, ac i'ch diwaller o fronnau ei diddanwch, fel y godróch, ac y byddoch hyfryd o ddiſcleirdeb ei gogoniant.

12 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn eſtyn iddi heddwch fel afon, a gogoniant y cenhedloedd fel ffrwd lifeiriol: yna y ſugnwch [hwynt,] ar ei hyſtlys [hi] i'ch dugir, ac ar ei gliniau i'ch diddanir:

13 Fel un yr hwn y diddano ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi, ac yn Jeruſalem i'ch diddanir.

14 Yna y gwelwch, ac y llawenycha eich calon, eich eſcyrn hefyd a flodeuant fel llyſſieun: pan adweinir llaw'r Arglwydd gyd ai weiſion, ai lidiawgrwydd wrth ei elynnion.

15 Canys wele'r Arglwydd a ddaw mewn tân, ai gerbydau fel trô-wynt, i dalu ei ddigter mewn llidiawgrwydd, ai gerydd mewn fflammau tân.

16 Canys yr Arglwydd a ymgyfreithia â thân, ac ai gleddyf yn erbyn pôb cnawd, a lladdedigion yr Arglwydd fyddant aml.

17 Y rhai a ymſancteiddiant, ac a ymlanhant yn y gerddi yn ôl eu gilydd yn amlwg: gan fwytta cig môch, a ffieidd-dra, a llygod, a gyd-ddiweddir medd yr Arglwydd.

18 Ac mi a [adwen] eu gweithredoedd hwynt ai dychymmygion, y mae ['r amſer] yn dyfod i gaſclu'r holl genhedloedd ar ieithoedd, a phan ddelant y gwelant fyng-ogoniant.

19 A goſodaf arnynt arwydd, ac anfonaf y

rhai diangol o honynt at y cenhedloedd, Tharſis, Affrica, a Lydia, y rhai a dynnant [mewn] bwa, Italia, a Groec yr ynyſoedd pell, y rhai ni chlywſant ſôn am danaf, ac ni welſant fyng-ogoniant: a mynegant fyng-ogoniant ym myſc y cenhedloedd.

20 A hwynt a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genhedloedd yn offrwm i'r Arglwydd ar feirch, ac ar gerbydau, ac ar elorau meirch, ac ar fulod, ac ar anifeiliaid buain i'm mynydd ſanctaidd Jeruſalem medd yr Arglwydd, megis y dyge meibion Iſrael offrwm mewn lleſtr glân [i] dŷ'r Arglwydd.

21 Ac o honynt hwy y cymmeraf [rai] yn offeiriaid, ac yn Lefiaid medd yr Arglwydd.

22 Canys megis y ſaif ger fy mron y nefoedd newydd, a'r ddaiar newydd y rhai a wnaf fi medd yr Arglwydd: felly y ſaif eich hâd chwi, a'ch enw chwi.

23 Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabboth i Sabboth i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron medd yr Arglwydd.

24 A hwynt a ânt allan, ac a welant gelanedd y rhai a wnaethant gamwedd i'm herbyn, canys eu pryf ni bydd marw, ai tân ni ddiffydd, a byddant yn ddirmyg gan bob cnawd.

Terfyn llyfr y prophwyd Eſay.

# Llyfr prophvvydoliaeth

## Ieremi.

### PENNOD I.

Ieremi yn ceiſio gwrthod bod yn brophwyd, gan ddangos ei ddiffig. 7 Yr Arglwydd yn ei gyſſuro ef. 11 yn dangos hefyd iddo ef ddiniſtr Ieruſalem. 17 Ac yn gorchymyn iddo eu rhybuddio hwynt o hyn yn ddiofn.

2.Bren.22.8. Geiriau Jeremi fab * Helciah [un] o'r offeiriaid y rhai [oeddynt]
Ioſ.21.18. yn * Anathoth o fewn tir Beniamin.

2 Yr hwn y daeth gair yr Arglwydd atto yn nyddiau Joſiah fab Amon brenin Juda: yn y drydedd flwyddyn ar ddêc oi deyrnaſiad ef.

3 Ac yn nyddiau Jehoacim fab Joſiah brenin Juda yr oedd efe: nes darfod un mlynedd ar ddêc i Zedeciah fab Joſiah brenin Juda: hyd ddygiad Jeruſalem i gaethiwed y pummed mîs.

4 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

Eſa.49.1. 5 Cyn i mi dy *lunio di mewn croth mi a'th
Gal.1.15. adnabum, a chyn dy ddyfod o'r grôth y ſancteiddiais di: [ac] mi a'th roddais yn brophwyd i'r
Eſa.6.11. cenhedloedd.

Exod.3.11. 6 Yna y dywedais, *ô Arglwydd Dduw,
Exod.4.1. wele ni fedraf ymadrodd: canys bachgen ydwyf fi.

7 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, na ddywet, bachgen ydwyf fi: canys ti a ei at yr rhai oll i'th anfonwyf di, a'r hyn oll a orchymynnwyf it, ti ai dywedi.

8 Nac ofna rhag eu hwynebau hwynt, canys yr ydwyf fi gyd â thi i'th waredu di medd yr Arglwydd.

9 Yna'r eſtynnodd yr Arglwydd ei law, ac a
*gyffyrddodd a'm genau, a'r Arglwydd a ddy- Exod.4.12.
wedodd wrthif, wele rhoddais fyng-eiriau yn Eſa.6.7.
dy enau di. Mat.10.20.

10 Gwel, heddyw i'th oſodais * ar y cenhed- Mat.18.18.
loedd, ac ar y teyrnaſoedd, i ddiwreiddio ac i ddi- 2.Cor.10.4.
niſtrio, i ddifetha, ac i ddeſtruwio, i adailadu ac i Heb.4.12.
blannu.

11 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd: ô Jeremi beth a weli di? a minne a ddywedais, gwialen almon a welaf fi.

12 A dywedodd yr Arglwydd wrthif: da y gwelaiſt, canys mi a fryſiaf i gyflawni fyng-air.

13 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf yr ail waith gan ddywedyd: beth a weli di? mi a ddywedais, mi a welaf grochan berwedic ai wyneb yn edrych oddi wrth y gogledd.

14 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif:

o'r gogledd yr ymlêda dialedd ar holl drigolion y ddaiar.

15 Canys wele, myfi a alwaf holl deuluoedd teyrnaſoedd y gogledd medd yr Arglwydd, fel y delont, ac y goſodant bob vn ei eiſteddfa wrth ddrws porth Ieruſalem, ac wrth ei muroedd oll o amgylch, ac wrth holl ddinaſoedd Iuda.

16 A mi a draethaf wrthynt fy marn i, a'm holl anwiredd y rhai a'm gadawſant, ac a arogldarthaſant i dduwiau eraill, ac a addolâſant weithredoedd eu dwylo eu hunain.

17 Gwregyſsa dithe dy lwynau, a chyfot, a dywet wrthynt yr hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn it, nac ofna rhagddynt: * rhag i mi dy ddeſtruwio di ger eu bron hwynt.

18 Canys wele heddyw yr ydwyf yn dy roddi di yn ddinas gaeroc, ac yn goloſn haiarn, ac yn fûr prês yn erbyn yr holl dîr, yn erbyn brenhinoedd Iuda, yn erbyn ei thywyſogion, yn erbyn ei hoffeiriaid, ac yn erbyn pobl y tir. Ioſ.1.5. Heb.13.5. Eſa.50.7. Ezec.3 8.

19 Ymladdant hefyd yn dy erbyn, ond ni'th orchfygant, canys myfi [ydwyf] gyd â thi i'th ymwared medd yr Arglwydd.

## PEN. II.

Daioni Duw iw bobl: hwythau hyd yn oed yr offeiriaid a'r prophwydi yn yſceuluſſo *Duw*, ac yn dilyn gaudduwiaeth.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf fi gan ddywedyd:

2 Cerdda, a llefa yng-hluſtiau Ieruſalem gan ddywedyd: fel hyn y dywed yr Arglwydd, * coſiais am danat [ſef am] garedigrwydd dy ieuengtid, a ſerch dy ddyweddiad, pan i'm canlynaiſt yn y diffaethwch mewn tîr ni's hauwyd. Ezec.16.8.

3 Iſrael [ydoedd] gyſſegredic i'r Arglwydd, [a] blaen-ffrwyth ei gnwd ef: pawb oll a'r ai bwyttâe a anrheithid, a drwg a ddigwydde iddynt medd yr Arglwydd.

4 Gwrandewch air yr Arglwydd tŷ Iacob, a holl deuluoedd tŷ Iſrael.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, pa anwiredd a gafodd eich tadau chwi ynofi, pan giliaſant oddi wrthif? ac y rhodiaſant ar ôl oferedd, ac yr aethant yn ofer?

6 Ac ni ddywedâſant, pa le y mae'r Arglwydd a'n dug ni i fynu o dîr yr Aipht? ac a'n harweiniodd trwy'r anialwch, trwy roſ-dîr, a phyllau, trwy dîr ſychter, a chyſcod angeu, trwy dîr nid aeth gŵr trwyddo, ac ni thrigodd dŷn ynddo.

7 Dygais chwi hefyd i ddol-dir i fwytta y ffrwyth ai leſâd: eithr * pan ddaethoch i mewn halogaſoch fy nhir i, a goſodaſoch fy etifeddiaeth i yn ffieidd-dra. Pſal.78.58. Pſal.106.38.

8 Yr offeiriaid ni ddywedaſant, pa le y mae'r Arglwydd? a'r cyfraith-wŷr nid adnabuant fi, y bugeiliaid hefyd a fuant anffyddlon i mi, y prophwydi a brophwydâſant yn [enw] Baal, ac a aethant ar ôl [y pethau] ni wnaent leſâd.

9 O blegit hyn, mi a ddadleuaf â chwi etto medd yr Arglwydd: ie dadleuaf â meibion eich meibion chwithau.

10 Canys ewch i ynyſoedd Chitim, ac edrychwch: danfonwch i Cedar, ac yſtyriwch yn ddiwyd, ac edrychwch a fu y cyfryw beth.

11 A newidiodd [vn] genhedlaeth eu duwiau, a hwynt heb [fod] yn dduwiau: eithr fy mhobl i a newidiodd eu gogoniant am [yr hyn] ni wna leſâd.

12 O chwi nefoedd ſynnwch wrth hyn, aruthrwch, a llwyr wladeiddiwch medd yr Arglwydd.

13 Canys dau ddrwg a wnaeth fy mhobl mau fi, * hwynt a'm gadawſant fi ffynnon y dyfroedd byw, i gloddio iddynt eu hunain bydewau, ie bydewau wedi eu torri ni ddaliant ddyfroedd. Ionas.2.8. Zac.10.2.

14 Ai gwâs ydyw Iſrael, ai mab tŷ [yw] efe? pa ham gan hynny'r yſpeiliwyd ef?

15 Y llewod a ruâſant arno ef, [ac] a floeddiaſant, ai dir ef a oſodaſant yn anrhaith, ai ddinaſoedd yn boeth anghyfanneddol.

16 Meibion Noph hefyd a Thahapanes a dorrant dy gorun di.

17 Ond ti a beri hyn it dy hun, am wrthod o honot yr Arglwydd dy Dduw, pan ydoedd efe yn dy arwain di ar hŷd y ffordd.

18 A'r awr hon beth [ſydd] i ti [a wnelech] yn ffordd yr * Aipht, i yfed dwfr Nilus? a pheth [ſydd] i ti yn ffordd Aſſyria i yfed dwfr afon [Euphrates?] Eſa.31.1.

19 Dy ddrygioni dy hun a'th * goſpa di, a'th drofeudd a'th geryddant di: gwybydd dithe, a gwêl mor ddrwg, ac mor chwerw ydyw gwrthod o honot yr Arglwydd dy Dduw, ac nad [ydyw] fy ofn i ynot ti medd Arglwydd Dduw'r lluoedd. Eſa.3.9.

20 O blegit er yſtalm mi a dorrais dy iau di, ac a ddrylliais dy rwymau di, a thi a ddywedaiſt, ni throſeddaf, * er hynny ti a wibiaiſt yn buttain i bob bryn vchel, a thann bob pren deiliog. Ioſ.24.16. Ezec.10.12. Nehem.8.6.

21 Myfi hefyd a'th blennais yn ber-winwŷdden, yn hâd gwirionedd oll: pa fodd gan hynny i'th drowyd i'm yn blanhigin afrywiog gwinwŷdden ddieithr?

22 Pe bydde it ac ymolchi â nitrwm, a chymmeryd it lawer o Borith, etto hynodwyd dy anwiredd di ger fy mron i medd yr Arglwydd Dduw.

23 Pa fodd y dywedi, ni halogwyd fi, ac ni ddeuthym yn ôl Baalim? edrych dy ffordd yn y glyn hwn, a gŵybydd beth a wnaethoſt [fel] camel buan yn amgylchu ei ffyrdd.

24 [Ac fel] aſſyn wyllt wedi ei chenefino a'r annialwch, wrth ddymuniad ei chalon yn yſed gwynt: [oddi wrth] ei hachlyſur pwy ai trŷ hi, pawb a'r ai ceiſiant hi ni flinant, yn ei mis y cânt hi.

25 Cadw dy droed rhag noethni, a'th gêg rhag ſyched: tithe a ddywedaiſt, nid oes obaith

[ô

[o hynn:] nac [oes,] canys cerais ddieithriaid, ac ar eu hôl hwynt yr âf.

26 Megis y cywilyddir lleidr pan ddalier: felly y cywilyddir tŷ Iſrael: hwyntwy eu brenhinoedd, eu tywyſogion, ai hoffeiriaid, ai prophwydi.

27 Y rhai a ddywedant wrth brenn, tydi [yw] fy nhád, ac wrth garrec, ti a'm cenhedlaiſt: canys hwynt a droâſant attaf wegil, ac nid wyneb: er hynny yn amſer eu hadfyd y dywedant, cyfot, a chadw di ni.

28 Eithr pa lê [y mae] dy dduwiau di y rhai a wnaethoſt iti: codant os gallant dy gadw yn amſer dy adfyd: canys [wrth] rifedi dy ddinaſoedd y mae dy dduwiau di ô Iuda.

29 Pa ham yr ymryſſonwch â mi? chwi oll a wrthryfelaſoch i'm herbyn medd yr Arglwydd.

30 Yn ofer y maeddais eich plant chwi, ni dderbynniaſant hwy goſpedigaeth: eich cleddyf eich hun a ddifaodd eich prophwydi, megis llew yn deſtruwio.

31 Oh genhedlaeth edrychwch air yr Arglwydd: a fum i anghyfannedd i Iſrael: neu dîr tywyll: pa ham y dywed fy mhobl, arglwyddi ydym ni, ni ddeuwn ni mwy attat ti:

32 A anghofia morwyn ei hardd-wiſc: neu yr briodaſ-ferch ei thlyſſau: etto fy mhobl i a'm ang-hofiaſant ddyddiau aneirif.

33 Pa ham yr wyt ti yn teccau dy ffordd i geiſio caredigrwydd: am hynny hefyd y dyſcaiſt dy ffyrdd di i rai drygionus.

34 Canys yn dy adenydd di y cafwyd gwaed eneidiau y tlodion diniwed, nid mewn cloddfa y cefais hyn: eithr ar yr holl [leoedd] hynn.

35 A thi a ddywedit, am fy mod yn ddiniwed yn ddiau y trôdd ei lîd ef oddi wrthif: wele fi yn dy farnu di am ddywedyd o honot, ni phechais.

36 Pa ham y gwibi di i newidio dy ffordd: canys ti a wradwyddir gan yr Aipht, fel i'th wradwyddwyd gan Aſſyria.

37 Hefyd ti a ddeui allan oddi yno * a'th ddwylo ar dy benn: o blegit yr Arglwydd a wrthodes dy hyder di, fel na byddo it ffynniant yndddynt.

2.Sam.13.19.

## PEN. III.

Trugâredd Dduw iw bobl bechadurus. 20. Hwynt o'r diwedd trwy ei gyngor efyn edifarhau.

Deut.24.24.

AC efe * a ddywedodd, o gyrr gŵr ei wraig ymmaith, a myned o honi oddi wrtho ef, ac iddi fod yn eiddo gŵr arall: a ddychwel efe atti hi mwyach: onid gan halogi'r halogwyd y tir hwnnw: a thi a butteiniaiſt [gyd â] chyfeillion lawer, etto dychwel attaf medd yr Arglwydd.

2 Derchafa di dy lygaid i'r lleoedd uchel, ac edrych pa le ni phutteiniaiſt, ti a eiſteddaiſt ar y ffyrdd iddynt hwy megis Arabiad yn yr anialwch, ac a halogaiſt y tir a'th butteindra, ac a'th ddrygioni.

3 Am hynny'r attaliwyd y cawodau, ac ni bu * glaw diweddar, er hynny talcen putteinwraig oedd i ti, gwrthodaiſt wladeiddio.

Deut.18.24.

4 Oni elwi di arnaf o hyn allan [gan ddywedyd,] ty di yw fy nhad, [a] thywyſog fy ieuengtid:

5 A ddeil [Duw ei ddîg] byth: ai ceidw yn dragywydd: wele dywedais [hyn,] a gwnaethoſt yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaiſt ti.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif fi yn amſer Ioſiah y brenin, oni welaiſt ti hyn a wnaeth Iſrael wrthnyſig: hi a aeth i bob mynydd uchel, a thann bob pren deiliog, ac a butteiniodd yno.

7 A mi a ddywedais wedi iddi hi wneuthur hyn ei gyd, dychwel attaf, ond ni ddychwelodd: ac Iuda ei chwaer anffyddlon hi a welodd [hyn.]

8 Am hynny y gwelais yn dda am yr achoſion oll y putteiniodd Iſrael wrthnyſſic, ollwng o honofi hi ymmaith, ac a roddais iddi ei llythr yſcar: er hyn ni ofnodd Iuda ei chwaer anffyddlon: eithr aeth a phutteiniodd hithe hefyd.

9 A chann yſcafnder ei phutteindra yr halogodd hi y tîr, canys gyd a'r maen, a'r prenn y putteiniodd hi,

10 Ac er hyn oll hefyd ni ddychwelodd Iuda ei chwaer anffyddlon attaf ai holl galon, eithr mewn trûch medd yr Arglwydd.

11 A dywedodd yr Arglwydd wrthif, Iſrael wrthnyſig 'a gyfiawnhâodd ei henaid rhagor Iuda anffyddlon.

12 Cerdda a chyhoedda y geiriau hyn tua'r gogledd, a dywet: ti Iſrael wrthnyſig dychwel medd yr Arglwydd: ni adawaf i'm llîd ſyrthio arnoch, canys trugarog ydwyfi medd yr Arglwydd, ni ddaliaf [lîd] yn dragywydd.

13 Er hynny gŵybydd dy anwiredd, mai yn erbyn yr Arglwydd dy Dduw y gwnaethoſt ti ar fai, a lledu o honot dy ffyrdd i ddieithriaid, dann bob prenn deiliog: ac ni wrandawech chwi fy llef medd yr Arglwydd.

14 Troiwch eil-waith chwi blant gwrthnyſig, medd yr Arglwydd: canys myfi ydwyf berchennog arnoch chwi, ac a'ch cymmeraf chwi, un o ddinas, a dau o deulu, ac a'ch dygaf chwi i Sion:

15 Ac a roddaf i chwi fugeiliaid wrth [fodd] fyng-halon, a hwynt a'ch porthant chwi â gwybodaeth, ac â deall.

16 Ac wedi darfod iwch amlhau, a chynnyddu ar y ddaiar yn y dyddiau hynny medd yr Arglwydd, ni ddywedant mwy, Arch cyfammod yr Arglwydd, ac ni's meddwl calon, ac ni choffânt am dani, nid ymwelant ychwaith, ac ni's gweithir mwy.

17 Yn yr amſer hwnnw y galwant Ieruſalem yn * orſeddfa'r Arglwydd, ac y cesclir iddi yr holl genhedloedd yn enw'r Arglwydd i Ieruſalem: ac nid ânt mwy yn ôl cildynrwydd eu calon ddrygionus.

Matth.28.20.

18 Yn y dyddiau hynny 'r aiff tŷ Iuda at dŷ

Iſrael, ac a ddeuant yng-hyd, o dîr y gogledd i'r tîr a roddais i yn etifeddiaeth i'ch tadau chwi.

19 Ac mi a feddyliais pa fodd i'ch goſodwn di yn blant [*i mi,*] ac y rhoddwn i ti dir dymunol, [*ſef*] etifeddiaeth ardderchawgrwydd lluoedd y cenhedloedd: ac a ddywedais, ti a elwi arnafi fy nhâd, ac na chilia di yn dy ôl oddi wrthif.

20 Yn ddiau fel yr anffyddlona gwraig oddi wrth ei chyfaill, felly tŷ Iſrael y buoch anffyddlon i mi, medd yr Arglwydd.

21 Llêf a glywyd yn y mannau uchel, wylofain dymuntadau meibion Iſrael, am ŵyro o honynt eu ffordd, ac anghofio yr Arglwydd eu Duw.

22 Ymchwelwch feibion gwrthnyſig, [ac] iachâf eich gwrthnyſigrwydd chwi: wele nyni a ddaethom attat ti, o blegit ti [wyt] yr Arglwydd ein Duw.

23 Diau [fod] ofer [ymddyried] i'r brynnau ac i liaws y mynyddoedd: diau fod iechydwriaeth Iſrael yn yr Arglwydd ein Duw ni.

24 Gwarth a yſodd lafur ein tadau ni o'n hieuengtid ni: eu defaid, ai gwartheg, eu meibion ai merched.

25 Gorweddwn yn ein cywilydd, a'n gwarth a'n hamddodd ni: canys yn erbyn yr Arglwydd ein Duw y pechaſom, nyni a'n tadau ni, o'n ieuengtid, hyd y dydd heddyw, ac ni wrandawſom ar lêf yr Arglwydd ein Duw.

## PEN. IIII.

Diniſtr ar Iuda o eiſieu edifeirwch.

Iocl.2.12. ISrael os troi di, * troa attafi, medd yr Arglwydd: hefyd os rhoi heibio dy ffieidd-dra oddi ger fy mron, yna ni'th ſymmudir.

2 A thi a dyngi, byw yw'r Arglwydd mewn gwirionedd, mewn barn, ac mewn cyfiawnder, a'r cenhedloedd a ymſendithiant ynddo ef: ie ynddo ef yr ymglodforant.

Oſea.10.12. 3 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth wŷr Iuda, ac wrth Ierusalem: * branerwch i chwi franar, ac na heuwch mewn drain.

4 Ymenwaedwch i'r Arglwydd, a rhoddwch heibio ddienwaediad eich calon chwi gwŷr Iuda, a thrigolion Ierusalem: rhag i'm digofaint ddyfod allan fel tân, a lloſci fel na [byddo] diffoddudd, o herwydd drygioni eich dychymmygiō.

5 Mynegwch yn Iuda a chyhoeddwch yn Ierusalem, a dywedwch, udcenwch udcorn yn y tir, gelwch, ymgeſclwch, a dywedwch, ymgynhullwch, ac awn i'r dinaſoedd cedyrn.

6 Codwch arwydd yn Sion, ffoiwch, ac na ſefwch: canys drygioni a ddygaf o'r gogledd, a diniſtr mawr.

2.Bren.24.1. 7 Y * llew a gyfododd oi ffau, a difeth-wr y cenhedloedd a gychwnnodd, ac a aeth allan oi lê ei hun i wneuthur dy dîr yn orwag: a'th ddinaſoedd a ddiniſtrir yn anghyfannedd.

8 Am hyn ymwregyſwch â lliain-ſach, galêrwch ac udwch: canys digofaint llid yr Arglwydd ni throes oddi wrthym ni.

9 Ac yn y dydd hwnnw medd yr Arglwydd y derfydd am galon y brenin, ac am galon y pennaethiaid: yr offeiriaid hefyd a ſynnant, a'r prophwydi a ryfeddant.

10 Yna y dywedais, ô Arglwydd Dduw yn ſiccr ti a dwyllaiſt y bobl ymma ac Ierusalem, gan ddywedyd: bydd heddwch i chwi, ac etto fe a ddaeth y cleddyf hyd at yr enaid. 1.Bren.22.23. Ezec.14.9. 2.Theſ.2.11.

11 Yn yr amſer hwnnw y dywedir wrth y bobl hyn, ac wrth Ierusalem: gwynt ſych [ar] yr uchel-leoedd yn y diffaethwch [ſy'n dyfod ar hyd] ffordd merch fy mhobl, nid i nithio, ac nid i buro.

12 Gwynt aruthrach na'r rhai hynny a ddaw i mi, ac weithian hefyd myfi a draethaf farn arnynt hwy.

13 Wele megis niwlen y cyfyd, ai gerbydau ef megis cor-wynt ei feirch ef ſy yſcafnach na'r eryrod, gwae nyni, canys ni a anrheithiwyd.

14 O Ierusalem golch dy galon oddi wrth ddrygioni, fel y byddech gadwedic: pa hyd y lletteui o'th fewn goec amcannion.

15 Canys llêf ſydd yn mynegu allā o Dan, ac ſydd yn cyhoeddi anwiredd allan o fynydd Ephraim.

16 Coffewch i'r cenhedloedd, wele cyhoeddwch yn erbyn Ierusalem, y gwil-wŷr a ddaethant o wlâd bell, ac a lefarâſant yn erbyn dinaſoedd Iuda.

17 Megis gwil-wŷr y meuſydd yr oeddynt wrthi hi o amgylch: am iddi fy nigllonifi medd yr Arglwydd.

18 Dy ffordd di a'th ddychymmygion di a wnaethant hyn i ti, dymma dy ddrygioni di, canys chwerw yw, am hynny y cyrhaeddodd hyd at dy galon di.

19 O'm bol, o'm bol gofidus wyf, [ac o] barwydennau fyng-halon, mae fyng-halon yn terfyſcu ynof: ni allaf dewi, canys ſain yr udcorn a glywaiſt ti ô fy enaid, [a] gwaedd rhyfel.

20 Diniſtr ar ddiniſtr a gyhoeddwyd, canys yr holl dîr a anrheithiwyd, yn ddiſymmwth y deſtruwiwyd fy lluestai i a'm corlenni yn ddiattrec.

21 Pa hyd y gwelaf faner? ac y clywaf ſain udcorn?

22 Tra [fyddó] fy mhobl i yn ynfyd heb adnabod o honynt fi: meibion angall [ydynt] hwy, ac nid deallgar hwynt: maent yn ſynhwyrol i wneuthur drwg, eithr gwneuthur da ni fedrant.

23 Mi a edrychais ar y ddaiar, * ac wele afluniaidd, a gwâg [oedd,] ac ar y nefoedd, a goleuni nid [oedd.] Eſai.13.10. Eſa.24.23. Ezec.32.7. Iocl.2.31. Ioel.3.15.

24 Mi a edrychais y mynyddoedd, ac wele yr oeddynt yn crynu: a'r holl frynnoedd a ymeſcydwent.

25 Mi a edrychais, ac wele nid [oedd] dŷn, a holl adar y nefoedd a giliaſent.

26 Mi a edrychais, ac wele y dol-dir yn anialwch, ai holl ddinaſoedd a ddeſtruwiaſid o flaen yr Arglwydd, gan lidiawgrwydd ei ddigter ef.

27 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd,

Eſa.2.9. y tir oll fydd diffaethwch, *ac etto ni wnafi ddiben.

28 Am hynny y galâra y ddaiar, ac y tywylla y nefoedd oddi uchod: o herwydd dywedyd o honofi, mi a fwriedais, ac ni bydd edifar genif, ac ni thrôf oddi wrtho.

29 Rhag trŵſt y gwŷr meirch a'r ſaethyddion, y ffy'r holl ddinas, hwy a ânt i'r anialwch, ac a ddringant y creigiau: yr holl ddinaſoedd a adawyd, ac nid oes neb yn trigo ynddynt.

30 A thithe'r anrhaithiedic beth a wnei? er ymwiſco o honot â ſcarlat, er ymdrwſſio â thlyſſau aur, er i ti lliwio dy wyneb â lliwiau, yn ofer yr ymdrwſſi, dy gariadau a'th ffieiddiant [ac] a geiſiant dy enioes.

31 Canys clywais lêf megis [gwraig] yn eſcor, cyfyngder fel benyw yn eſcor etifedd cyntaf, ie llef merch Sion: hi a ucheneidia, [ac] a eſtyn ei dwylo [gan ddywedyd,] gwae fi yr awr hon, o blegit deffygiodd fy enaid gan y lleiddiaid.

## PEN. V.

Iuda heb vn cyfiawn oi mewn, y Caldeaid yn ei diniſtrio hithe am hynny.

CHwiliwch ar hyd heolydd Jeruſalem, ac edrychwch yr awr hon, mynnwch wybod hefyd, a cheiſiwch yn ei heolydd hi, o chewch ŵr, [ac] od oes a wnel barn, [ac] a gais wirionedd, ac myfi ai harbedaf hi.

2 Er dywedyd o honynt, byw yw'r Arglwydd, etto yn gelwyddog y tyngant.

Eſa.9.13. 3 O Arglwydd onid tua'r gwirionedd [y mae] dy lygaid di? ti *ai maeddaiſt hwynt, ac nid ymofidiaſant: difeaiſt hwynt, [eithr] gwrthodâſant dderbyn coſpedigaeth, hwy a wnaethant eu hwynebau yn galetach na'r garreg, ac a wrthodâſant droi.

4 Ac mi a ddywedais, yn ſicr tlodion ydynt, ac ynfydion, o herwydd nad adwaenent ffordd yr Arglwydd, [a] barn eu Duw.

5 Mi a âf rhagof at y gwŷr mawr, ac a ymddiddanaf â hwynt, canys hwy a wybuant ffordd yr Arglwydd, [a] barn eu Duw, eithr y rhai hyn a gyd-dorraſant yr iau, [ac] a ddrylliaſant y rhwymau.

6 O blegit hyn, llew o'r coed ai teru hwy, blaidd o'r anialwch ai deſtruwia hwy, llewpard a wilia ar eu dinaſoedd hwy: pawb a'r a ddel allan o honynt a rwygir, canys eu camweddau a amlhauſant, eu gwrthdroſeudd hwynt a chwanegâſant.

7 Pa fodd i'th arbedwn am hyn? dy blant ti a'm gadawſant i, ac a dyngaſant i'r [rhai] nid [ydynt] dduwiau: a phan ddiwellais hwynt y gwnaethât odineb, ac a heidiaſant i dŷ'r buttain.

8 Oeddynt [fel] meirch porthiannus yn boreu godi, *gweryrent bob vn at wraig ei gymmydog. Ezec.22.11.

9 Onid ymweliaf am y pethau hyn medd yr Arglwydd? onid dial fy enaid ar gyfryw genhedlaeth a hon?

10 Dringwch ar ei muroedd hi, llygrwch hefyd, ac na lwyr ddiniſtriwch [hwynt,] tynn i ffordd ei chanllawiau, canys nid eiddo'r Arglwydd hwynt.

11 O blegit tŷ Iſrael, a thŷ Juda a wnaethant yn anffyddlon iawn â mi, medd yr Arglwydd.

12 *Celwyddog fuant yn erbyn yr Arglwydd, a dywedâſant, ni [bydd] hyn, ac ni ddaw drygfyd arnom: ac ni welwn gleddyf, na newyn. Eſa.28.15.

13 A'r prophwydi a fuant fel gwynt, a'r gair nid yw ynddynt: fel hyn y gwneir iddynt hwy.

14 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd, am i chwi ddywedyd y peth hyn, wele fi yn rhoddi fyng-air yn dy enau di yn dân, a'r bobl hyn yn gynnyd, ac efe ai difâ hwynt.

15 Wele fi yn dwyn arnoch chwi tŷ Iſrael genhedlaeth o bell medd yr Arglwydd, cenhedlaeth nerthol ydyw, cenhedlaeth [a fu] er ioed, cenhedlaeth ni ŵyddoſt eu hiaith, ac ni ddealli beth a ddywedant.

16 Ei chawell ſaethau hi [ſydd] fel bedd agored, cedyrn [ydynt] oll.

17 Hi a fwyttu dy gynhaiaf di, a'th fara, dy feibion di a'th ferched a fwyttu hi: hi a fwyttu dy ddefaid ti a'th ychen, hi a fwyttu dy winwŷdden a'th ffigyſ-bren, dy ddinaſoedd cedyrn y rhai yr wyt yn ymddyried ynddynt a dlôda hi trwy'r cleddyf.

18 Ac er hyn yn y dyddiau hynny medd yr Arglwydd, ni wnafi gwbl benn â chwi.

19 Yna bydded pan ddywedoch chwi, pa ham y gwnaeth yr Arglwydd ein Duw ni hyn oll i ni? ddywedyd o honot tithe wrthynt, megis y gwrthodaſoch fi, ac y gwaſanaethaſoch dduwiau dieithr yn eich tir eich hun: felly y gwaſanaethwch ddieithriaid mewn tir ni [byddo] eiddo chwi. Ier.16.10.

20 Mynêgwch hyn yn nhŷ Jacob: a chyhoeddwch hyn yn Juda gan ddywedyd:

21 Gwrando hyn ti bobl ynfyd, a digalon,* llygaid [ſydd] iddynt, ac ni welant: cluſtiau [ſydd] iddynt, ac ni chlywant. Eſa.6.9. Mat.13.14. Act.28.27. Rom.11.8.

22 Onid ofnwch chwi fi medd yr Arglwydd? onid ymofidiwch rhagofi? yr hwn a oſodais y tywod yn derfyn i'r môr, [trwy] ddeddf dragywyddawl, fel nad elo tros hynny, er i'r tonnau ymgyrchu, etto ni orchfygant, er iddynt derfyſcu, etto ni ddeuant tros hwnnw. Iob.26.10.

23 Eithr i'r bobl hyn y mae calon wrthnyſig, ac anufuddgar: hwynt hwy a giliaſant, ac a aethant [ymmaith.]

24 Ac ni ddywedaſant hwy yn eu calon, ofnwn weithian yr Arglwydd ein Duw, yr hwn ſydd yn rhoi glaw boreu, a hŵyr yn ei amſer: [ac] a geidw i ni ddefodol wythnoſau cynhaiaf.

25 *Eich anwiredd chwi a drôes heibio y rhai hyn, a'ch pechodau chwi a attaliaſant Eſa.59.1.

ddaioni oddi wrthych.

26 Canys ym myſc fy mhobl y ceir anwiriaid, edrychant megis [vn] yn goſod maglau: goſodant ddiniſtr, [a] dynnion a ddaliant.

27 Fel rhwyd yn llawn o adar, felly [y mae] eu tai hwynt yn llawn o dwyll: am hynny y cynnyddâſant, ac yr ymgyfoethogâſant.

Eſai.1.23.
Zac.7.9.

28 Tewychâſant, diſcleiriâſant, aethant hefyd tros eiriau drygionus, * ni farnâſant farn, [na-ddo] farn yr ymddifad: ffynnâſant, ac ni farnâſant farn y tlodion.

29 Onid ymwelaf am y pethau hyn medd yr Arglwydd? oni ddial fy enaid ar gyfryw genhedlaeth â hon?

30 Aruthredd a brynti a wnaed yn y tir.

31 Y prophwydi a brophwydâſant gelwydd, yr offeiriaid hefyd a dderbynnâſant [rodd'on] ai dwylo, a'm pobl a hoffâſant hynny: ecto beth a wnaech yn ôl hynny?

## PEN. VI.

Beiau Ieruſalem, ai diniſtr gan y Babiloniaid.

Nehem.3.14.

FFoiwch meibion Beniamin o ganol Ieruſalem, ac yn Thecoa vdcenwch vdcorn: a chodwch ffagl *ar Beth-haccarē, canys dialedd a welir [yn dyfod] o'r gogledd, a diniſtr mawr.

2 Cyffelybais ferch Sion [i wraig] dêg foethus.

3 Atti hi y daw bugeiliaid ai diadellau, wrthi hi o amgylch y goſodant eu lluestai: pôrant bob vn yn ei le ei hunan.

4 Cyhoeddwch ryfel yn ei herbyn hi, codwch, ac awn i fynu ar hanner dydd, gwae ni o herwydd ciliodd y dydd, canys cyſcodau'r hŵyr a ymeſtynnaſant.

5 Codwch, ac awn i fynu ar [hŷd] nos, a deſtrywiwn ei phalaſau hi.

6 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, torrwch goed, a bwrwch glawdd wrth Ieruſalem, ymwelir a'r ddinas hon: gorthrymder ſydd oi mewn hi oll.

7 Megis y gwna ffynnon iw dwfr darddu allan, felly y mae hi yn bwrw allan ei drygioni, trais ac yſpail a glywir ynddi, gofid a dyrnodiau [ſy] yn waſtad ger fy mron.

1 Cymmer addyſc ô Ieruſalem, rhag i'm henaid i ymado oddi wrthit, rhag i mi oſod dy dîr di yn anrhaithiedic, [ac] yn anghyfannedd.

9 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gan loffa y lloffânt weddill Iſrael fel gwinwydden: troa dy law trachefn megis caſclwdd grawn-wîn i'r faſcet.

10 Wrth bwy y dywedaf fi, ac y teſtiolaethaf, fel y clywant? wele eu clustiau hwynt [ydynt] ddienwaededic, ac ni allant wrando: wele dirmygus ganddynt air yr Arglwydd, nid oes ganddynt ewyllys iddo.

11 Am hynny'r ydwyf yn llawn o lid yr Arglwydd, blinais yn atal [ef] dywallt ar y plant yn yr heol: ac ar gynnulleidfa y gwŷr ieuaingc hefyd: canys y gŵr a'r wraig a ddelir, yr hen-wr a'r cyflawn o ddyddiau.

12 Eu tai a ddigwyddant i eraill, eu meuſydd ai gwragedd hefyd: canys eſtynnaf fy llaw ar drigolion y wlad hon medd yr Arglwydd.

13 O blegit o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf, pob vn ſydd yn chwennychu golud: ac o'r prophwyd hyd yr offeiriad pob vn ſydd yn gwneuthur ffalſter.

14 Ac * a iachaaſant friw merch fy mhobl i yn eſmwyth gan ddywedyd: heddwch, heddwch: ac nid [oedd] heddwch. Ier.8.11.

15 A ydoedd arnynt hwy gywilydd pan wnelent ffieidd-dra? nid ydoedd arnynt hwy ddim cywilydd, ac ni fedrent gywilyddio: am hynny y cwympant ym myſc y celaneddau, yn yr amſer yr ymwelwyf â hwynt y cwympant medd yr Arglwydd.

16 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, ſefwch ar y ffyrdd, ac edrychwch, a gofynnwch am yr hên lwybrau lle mae ffordd ddâ, a rhodiwch yndi: a chwi a gewch eſmwythder i'ch eneidiau: ond hwynt a ddywedaſant, ni rodiwn [yndi.]

17 Mi a oſodais wil-wŷr arnoch chwi [i ddywedyd,] gwrandewch ar ſain yr vdcorn, ond hwythau a ddywedaſant, ni wrandawn ni.

18 Am hynny clywch genhedloedd: a thi gynnulleidfa gŵybydd pa bethau ſy yn eu plith hwynt.

19 Gwrando tydi'r ddaiar, wele fi yn dwyn drŷg-fyd ar y bobl hyn, [ſef] ffrwyth eu dychymmygion eu hunain: canys nid yſtyriaſant fyng-eiriau, na'm cyfraith, eithr gwrthodâſant hi.

Eſa.1.11.
Amos.5.21.

20 I ba beth y daw i mi * thus o Seba, Calamus peraidd o wlad bell? eich poeth offrymmau nid ydynt gymmeradwy: ac nid melus eich aberthau gennif fi.

21 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn rhoddi tramgwyddiadau i'r bobl hyn, fel y tramgwyddo wrthynt y tadau a'r meibion hefyd, cymmydog ai gyfaill a ddifethir.

22 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele bobl yn dyfod o dîr y gogledd: a chenhedlaeth fawr a gyfyd o eithafoedd y ddaiar.

23 Yn y bwa a'r aſtalch yr ymaflant, creulon ydynt, ac ni chymmerant drugaredd: eu llais hwynt a rua megis môr, ac ar feirch y marchogant yn daclus, megis gŵr i ryfel yn dy erbyn di merch Sion.

24 Clywſom ſon am danynt, ein dwylo ni a laeſaſant, blinder a'n daliodd fel gofid gwraig yn eſcor.

25 Na ddos allan i'r maes, ac na rodia rhyd y ffordd: canys cleddyf y gelyn [ſydd] arſwyd oddi amgylch.

26 Merch fy mhobl ymwregyſa â ſach-liain, ac ymdroa yn y lludw: gwna it gwynfan a galar tôſt, [megis am dy] vnic [fab,] canys y deſtrywi-wr a ddaw yn ddiſymmwth arnom ni.

27 Mi a'th roddais di [fy mhrophwyd] yn

amddeffynniad, [ac] yn gadernid ym mysc fy mhobl, i wybod ac i brofi eu ffordd hwy.

28 Cyndyn o'r fath gyndynnaf ydynt oll, yn rhodio yn athrodus: efydd, a haiarn [ynt,] llygrwyr maent hwy oll.

29 Lloſcodd y fegin gan dân, a darfu'r plwm, yn ofer y toddodd y toddudd, canys ni thynnwyd y rhai drygionus ymmaith.

30 Yn arian gwrthodedic y galwâsant hwynt: am wrthod o'r Arglwydd hwynt.

## PEN. VII.

Duw yn danfon Ieremi i ddyſcu y bobl. 13 I ddangos eu coſpedigaeth hwynt. 21 Ac i yſpyſſu oferedd aberthau, a'r cyfryw weithredoedd crefyddol heb ffydd.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd, gan ddywedyd:

21 Saf di ym mhorth tŷ yr Arglwydd, a phregetha 'r gair hwn yno, a dywet: Gwrandewch air yr Arglwydd chwi oll Iuda, y rhai a ddeuwch i mewn trwy 'r pyrth hyn i addoli 'r Arglwydd.

3 Fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, * gwellhewch eich ffyrdd, a'ch gweithredoedd, ac mi a adawaf i chwi drigo yn y mann ymma.

Iere.26.13.

4 Nac ymddyriedwch chwi mewn geiriau celwyddog, gan ddywedyd: Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd yw hon.

15 Canys os gan wellhau y gwellhewch eich ffyrdd, a'ch gweithredoedd: os gan wneuthur y gwnewch farn rhwng gŵr ai gymmydog,

6 [Ac] na orthrymmwch y dieithr, yr ymddifad, a'r weddw, ac na thywelltwch waed gwirion yn y fann hon, ac na rodiwch ar ôl duwiau dieithr i'ch niwed eich hun,

7 Yna y gadawaf i chwi drigo yn y fân hon, yn y tîr a roddais i'ch tadau chwi yn oes oesoedd.

8 Wele chwi yn ymddyried mewn geiriau celwyddog heb fudd.

9 Ai yn lladratta, yn lladd, ac yn godinebu, a thyngu anudon, ac arogl-darthu i Baal, a rhodio ar ôl duwiau dieithr, y rhai nis adwaenoch,

10 Y deuwch, ac y ſefwch ger fy mron i yn y tŷ hwn, yr hwn y gelwir fy enw i arno, ac y dywedwch: rhyddhawyd ni i wneuthur o honom y ffieidd-dra hyn oll?

11 * Ai yn lloches lladron yr aeth y tŷ ymma, ar yr hwn y gelwîr fy enw i ger bron eich llygaid? wele minne a welais [hynn] medd yr Arglwydd.

Matt.21.13.

12 Eithr attolwg, ewch i'm lle mau fi yr hwn [ſydd] yn Sylo, lle y cyfleais fy enw yn y dechreuad, ac edrychwch beth a wneuthym i hwnnw o herwydd anwiredd fy mhobl Iſrael.

13 Am hynny weithian gan wneuthur o honoch yr holl weithredoedd hyn medd yr Arglwydd, (a minne yn codi yn foreu, ac er dywedyd wrthych, etto ni wrandewech fi: a phan alwn nid attebech)

14 Am hyn y gwnaf i'r tŷ yr hwn y gelwir fy enw arno, yr hwn yr ydych yn ymddyried ynddo, ac i'r lle hwn a roddais i chwi, ac i'ch tadau, megis y gwneuthum i Silo.

15 Ac mi a'ch taflaf o'm golwg, fel y teflais eich holl frodyr [ſef] holl hâd Ephraim.

16 Na weddia dithe tros y bobl hyn, ac na dderchafa waedd, na gweddi trostynt, ac na eiriol attaf, canys ni'ch gwrandawaf.

17 Oni weli di beth y maent hwy yn ei wneuthur yn ninasoedd Iuda, ac yn heolydd Ierusalem?

18 Y plant ſydd yn casclu briwydd, a'r tadau yn cynneu tân, a'r gwragedd yn tylino toes, i wneuthur teiſennau * i frenhines y nef, [ac i dywallt] diod offrwm i dduwiau dieithr, i'm digio.

2.Bren.23.5. Iere.44.17.

19 Ai fi y maent hwy yn ei ddigio, medd yr Arglwydd, nid hwynt eu hun, er cywilydd i'w hwynebau?

20 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fy llid a'm digofaint a dywelltir ar y mann hwnnw, ar ddyn, ac ar anifail, ar goed y maes, ac ar ffrwyth y ddaiar, fel y llosco, ac na's diffodder.

21 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: rhoddwch eich poeth-offrymmau, at eich aberthau, a bwyttewch y cig.

22 Canys ni ddywedais i wrth eich tadau, ac ni orchymynnais iddynt y dydd y dugym hwynt o dîr yr Aipht, am boeth offrwm, nac aberth:

23 Eithr y peth hyn a orchymynnais iddynt, gan ddywedyd: gwrandewch ar fy llêf, ac mi a fyddaf Dduw i chwi, a chwithau fyddwch yn bobl i minne, a rhodiwch ym mhob ffordd a orchymynnais i chwi fel y byddo yn ddaionus i chwi.

24 Eithr ni wrandawſant, ac ni oſtyngâſant eu clustiau, ond rhodiaſant yn ôl cynghorion, [a] childynrwydd eu calon ddrygionus, ac aethant yn ôl, ac nid ym mlaen.

25 O'r dydd y daeth eich tadau chwi allan o wlâd yr Aipht hyd y dydd hwn, mi a ddanfonais attoch fy holl waſanaeth-wŷr, y prophwydi, [bob] dydd gan foreu-godi, ac anfon:

26 Er hynny ni wrandawent arnafi, ac ni oſtyngent eu clustiau, eithr caledâſant eu harch-ollion, gwaeth oeddynt nâi tadau.

27 Am hynny ti a ddywedi y geiriau hyn oll wrthynt, ond ni wrandâwant arnat, gelwi hefyd arnynt, ond nid attebant di.

28 Eithr ti a ddywedi wrthynt, dymma genhedlaeth yr hon ni wrandawodd ar lais yr Arglwydd ei Duw, ac ni dderbynnaſant goſpedigaeth: darfu am y gwirionedd, a thorrwyd hi ymmaith oi genau hwynt.

29 * Cneifia dy wallt [ô Ierusalem] a bŵrw i ffordd, a chyfod gwynfan ar y lleoedd uchel: canys yr Arglwydd a fwriodd i ffordd, ac a wrthododd genhedlaeth ei ddigofaint.

Iob.1.2. Mich.1.16.

30 Canys meibion Iuda a wnaethant ddrwg yn fyng-olwg medd yr Arglwydd: goſodâſant eu ffiedd-dra yn y tŷ (yr hwn y gelwir fy enw arno) gan ei halogi ef.

2.Bren.23.10. 31 Ac hwynt a adailadaſant vchel-faon Tophet, yr hon [ſydd] yng-lynn mab Hinnon: i loſci eu meibion, ai merched yn tân, yr hyn ni orchymynnais, ac ni feddyliodd fyng-halon.

Lefit.18.21. Lefit.20.3. Deut.18.10. 32 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd, ac nis gelwir mwy Tophet, na glynn mab Hinnom, namyn glynn celanedd: canys claddant o fewn Tophet, o eiſieu lle.

33 A bydd celanedd y bobl hyn yn fwyd i adar y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaiar, ac ni [bydd] ai tarfo.

Ezec.26.13. 34 * Yna y gwnafi i lais llawenydd, a llais digrifwch, llais priod-fab, a llais priod-ferch ddarfod allan o ddinaſoedd Iuda, ac o heolydd Ieruſalem; canys yn anrhaith y bydd y wlâd.

## PEN. VIII.

Diniſtr yr Iddewon, a'r pechodau y rhai oeddynt yn peru hynny.

YN yr amser hwnnw medd yr Arglwydd y dygant hwy eſcyrn brenhinoedd Iuda, ac eſcyrn ei thywyſogion, ac eſcyrn yr offeiriaid, ac eſcyrn y prophwydi, ac eſcyrn trigolion Ieruſalem allan oi beddau,

2 Ac ai tanant o flaen yr haul, ac o flaen y lleuad, a holl lu y nefoedd y rhai a garâſant, a'r rhai a waſanaethaſant, a'r rhai a rodiaſant ar eu hôl, a'r rhai a geiſiâſant, a'r rhai a addolâſant: ni cheſclir hwynt, ac ni's cleddir, yn dommen ar wyneb y ddaiar y byddant.

3 Ac angeu a ddewiſir o flaen bywyd gan yr holl weddillion a adewir o'r teulu drwg hwn, y rhai a adewir yn y lleoedd oll y gwaſcerais i hwynt, medd Arglwydd y lluoedd.

4 Ti a ddywedi wrthynt hefyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: a gwympant hwy ac ni chodant eilwaith? os troir oni thrŷ ynteu?

5 Pa ham y camdroes pobl Ieruſalem ymma, a chamder tragywyddol? ymafelaſant mewn twyll, gwrthodaſant ddattroi.

6 Mi a yſtyriais ac a wrandewais, ni ddywedent yn iawn, nid edifarhaodd neb am ei anwiredd gan ddywedyd, beth a wneuthum i, pob vn oedd yn troi iw yrfa megis march yn rhuthro i'r frwydr.

7 Y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau, y durtur hefyd, a'r garan, a'r wennol a gadwant amſer eu dyfodiad: eithr fy mhobl i ni wyddant farn yr Arglwydd.

8 Pa fodd y dywedwch ſynhwyrol [ydym] ni, a chyfraith yr Arglwydd [ſydd] gyd â ni, y pinn yn ddiau a weithiodd ar ffalſter, a'r ſcrifennydd a [ſcrifennodd] gelwydd.

9 Y doethion a wradwyddwyd, a ddychrynwyd, ac a ddaliwyd: wele gwrthodaſant air yr Arglwydd, a pha ddoethineb [ſydd] ganddynt?

10 Am hynny y rhoddaf eu gwragedd hwynt i eraill, ai meuſydd i oreſcyn-wŷr: * canys o'r lleiaf hyd y mwyaf, pob vn ſy yn chwennychu elw: o'r prophwyd hyd at yr offeiriad, pawb ſydd yn gwneuthur ffalſter. Eſa.56.11. Ier.5.31. Ier.6.13.

11 Iachauaſant hefyd archoll merch fy mhobl yn yſcafn, gan ddywedyd, * heddwch, heddwch, pryd nad [oedd] heddwch. Ier.6.14.

12 A fu gywilydd arnynt hwy am wneuthur o honynt feynci? na fu ddim cywilydd arnynt, gan gywilyddio ni chywilyddiaſant ychwaith: am hynny y ſyrthiant hwy ym myſc y rhai lladdedic: yn amſer eu hymweledigaeth y ſyrthiant medd yr Arglwydd.

13 Gan ddiniſtrio y diniſtriaf hwynt medd yr Arglwydd: ni [bydd] grawn-win ar y winwydden, na ffigus ar y ffigus-bren, a'r ddeilen a ſyrthia, a'r hyn a roddais i iddynt a ymedu â hwynt.

14 Pa ham yr ydym ni yn aros? ymgeſclwch yng-hyd, ac awn i'r dinaſoedd cedyrn, a diſtawn yno: canys yr Arglwydd ein Duw an goſtegodd, ac a roes i ni ddwfr buſtlaidd iw yfed, o herwydd pechu o honom yn erbyn yr Arglwydd.

15 * Diſgwyl am heddwch, etto ni ddaw daioni: am amſer meddyginiaeth, ac wele ddychryn. Iere.14.19.

16 * O Ddan y clywir ffroeniad ei feirch ef, gan lais gweryrfa ei [feirch] mawrion ef y crynodd yr holl ddaiar: hwy a ddaethant, ac a fwyttaſant y tir, ac oll a oedd ynddo, y ddinas a'r rhai ſy yn trigo ynddi. Ier.4.15.

17 Canys wele mi a * ddanfonaf ſeirph [a] gwiberod i'ch myſc y rhai nid [oes] ſwyn rhac-ddynt: a hwynt a'ch brathant chwi medd yr Arglwydd. Ier.4.19.

18 Fyng-hyſur [ſydd] mewn goſid, fyng-halon ſydd yn goſidio ynof.

19 Wele lais gwaedd merch fy mhobl rhag y rhai o wlâd bell: ond [ydyw] yr Arglwydd yn Sion? onid [yw] ei Brenin hi ynddi? pa ham i'm digiaſant â delwau? ac ag oferedd dieithr?

20 Y cynhaiaf aeth heibio, darfu 'r hâf, er hyn nid ydym ni yn gadwedic.

21 Am friw merch fy mhobl i'm briwyd i, galerais, daliodd ſynder fi.

22 Onid [oes] driacl * yn Gilead? onid [oes] yno byſygwr? pa ham na wellhâ iechyd merch fy mhobl? Oſea.6.8.

## PEN. IX.

Cwynfan y bobl o herwydd eu coſpedigaeth am eu pechodau.

PWy a ddyru fy mhen yn ddwfr, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau? fel yr wylwyf ddydd a nôs, am laddedigion merch fy mhobl i. Ier.4.19.

2 Oh na bydde i mi mewn anialwch lettŷ fforddolion, fel y gadawn fy mhobl, ac yr elwn oddi wrthynt, canys hwynt oll [ydynt] odinebus [a] chymanfa anffyddloniaid.

3 Ac hwy a annelaſant eu tafod [fel] eu

bwa celwyddoc, ac nid at wirionedd yr ymgryfhaſant ar y ddaiar: canys aethant o ddrwg i ddrwg, ac nid adnabuant mo honofi medd yr Arglwydd.

4 Gocheled pawb rhag ei gymydog, ac na choelied neb ei frawd: canys pôb brawd gan dwyllo a dwylla, a phob cymydog a rodia yn dwyllodrus.

5 Pôb un hefyd a dwylla ei gyfaill, a'r gwîr ni's dywedant: hwy a ddyſcaſant eu tafodau i ddywedyd celwydd, poenaſant yn gwneuthur drwg.

6 Dy drigfan di [ſydd] yng-hanol twyll: o herwydd twyll y gwrthodaſant fy adnabod i medd yr Arglwydd.

7 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: wele fi yn eu toddi hwynt, ac yn eu profi hwynt, canys pa wedd y gwnaf rhac merch fy mhobl?

8 Saeth lem * yw eu tafod hwy yn dywedyd twyll, â'i enau y [traetha un] heddwch wrth ei gymydog, eithr oi fewn y geſyd gynllwyn iddo. Psal.28.3. psal.120.4.

9 Onid ymwelaf â hwynt am hyn medd yr Arglwydd? oni ddial fy enaid ar gyfryw genhedlaeth a hon?

10 Ar y mynyddoedd y codaf wŷlofain, a chwynfan, a galar ar lannerchau yr anialwch: canys lloſcwyd hwynt fel na thramwyo neb ynddynt, ac na chlywir llais yſcrubliaid: adar y nefoedd, a'r anifeiliaid hefyd a giliant, ac a ânt ymmaith.

11 Ac mi a roddaf Ieruſalem yn garneddau, trigfan dreigiau, a dinaſoedd Iuda a roddaf yn ddiffaethwch heb breſſwylydd.

12 Pa ŵr [ſydd] ddoeth, ac a ddeall hynn? ac a fynega yr hyn a draethodd genau yr Arglwydd wrtho ef? pa ham y darfu am y tîr? [ac] yr anrheithiwyd fel anialwch, heb gynniwerudd?

13 A dywedodd yr Arglwydd, gan wrthod o honynt fyng-hyfraith yr hon a roddais ger eu bron hwynt, ac na wrandawſant ar fy llef na rhodio ynddi:

14 Eithr myned yn ôl cyndynrwydd eu calon, ac yn ôl Baalim, yr hyn a ddyſcodd eu tadau iddynt,

15 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Iſrael, wele mi a fwydaf y bobl hyn a'r wermod, ac a'i diodaf hwynt â * dwfr buſtlaidd. Ierem.8.14.

16 Gwaſcaraf hwynt hefyd ym myſc cenhedloedd ni's adwaenant hwy, nai tadau hwy, ac mi a ddanfonaf ar eu hôl hwynt gleddyf hyd oni ddifethwyf hwynt.

17 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, edrychwch, a gelwch am alar-wragedd i ddyfod, a danfonwch at y rhai cyfarwydd i beri iddynt ddyfod,

18 A bryſſio, a chodi cwynfan am danom ni fel y gollyngo ein llygaid ni ddagrau, ac y difero ein amrantau ni o ddwfr.

19 Canys llais cwynfan a glywyd o Sion [yn dywedyd,] pa wedd i'n anrheithiwyd, ac i'n llwyr wradwyddwyd? canys gadawſom y tîr, am fwrw o honynt ein hanneddau [i lawr.]

20 Am hynny gwrandewch air yr Arglwydd wragedd, a derbynnied eich cluſtiau air ei enau ef: dyſcwch hefyd gwynfan i'ch merched, a galar bôb un iw gilydd.

21 O herwydd dringodd angeu i'n ffeneſtri [ac] efe a ddaeth i'n palaſau i ddeſtrywio y rhai bychain oddi allã a'r gwŷr ieuaingc o'r heolydd.

22 Dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, ſerydau dynnion a ſyrthiant megis tom ar wyneb y maes, ac megis y dyrned ar ôl y medelwr, ac ni chynnull [neb hwynt.]

23 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, nac ymffroſtied y doeth yn ei ddoethineb, ac nac ymffroſtied y cryf yn ei gryfder, ac nac ymffroſtied y cyfoethog yn ei gyfoeth.

24 Eithr y neb a ymffroſtio, ymffroſtied am hyn, [ei fod] yn deall, ac yn fy adnabod i, canys myfi ydwyf yr Arglwydd a wna drugaredd, barn, a chyfiawnder yn y ddaiar, o herwydd y rhai hynny a ewyllyſiais, medd yr Arglwydd. 1.Cor.1.31. 2.cor.10.17.

25 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd pan ymwelwyf â phob enwaededic [yn bod] mewn dienwaediad:

26 A'r Aipht, ac ag Iuda, ac ag Edom, ac â meibion Ammõ, ac â Moab, ac a'r rhai oll y torrwyd cwrr eu llechwedd, a'r rhai a drigant yn yr anialwch: canys yr holl genhedloedd [ydynt] ddienwaededic, a holl dŷ Iſrael ſydd â chalon ddienwaededic.

## PEN. X.

Gwendid gau-dduwiau y cenhedloedd, a chadernid y gwir Dduw. 21 Eglwyſ-wyr angall.

GWrandewch y gair yr hwn a ddywedodd yr Arglwydd wrthych chwi tŷ Iſrael.

2 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, na ddyſcwch ffordd y cenhedloedd, ac * nac ofnwch arwyddion y nefoedd, er ofni o'r cenhedloedd hwynt. Deut 18.10.

3 Canys * deddfau'r bobloedd ynt ofeedd: o herwydd cymmynnwyd pren o'r coed, (gwaith llaw'r ſaer) â bwyall. Deut.12.30.

4 Ag * arian, ac ag aur y harddwyd hwynt, â hoelion, ac â morthoelion y ſiccrhauwyd hwynt rhag cwympo. Eſa.44.12.

5 Megis palm-wydden ſyth [fyddant] hwy, ac ni lefarant: gan ddwyn y dygir hwy am na allant gerdded: nac ofnwch hwynt canys ni allant wneuthur drwg, a gwneuthur da nid [oes] ynddynt.

6 Nid [ oes neb ] fel ti Arglwydd, mawr wyt, a mawr [yw] dy enw mewn cadernid.

7 *Pwy ni'th ofna di Brenin y cenhedloedd? canys i ti y gwedde [cadernid:] o herwydd ym myſc holl ddoethion y cenhedloedd ac ym myſc eu holl deyrnaſoedd hwy nid [oes neb ] fel ti. Gweled. 15.4.

8 Eithr cyd-ynfydaſant, ac amhwyllaſant athrawiaeth * ofeedd yw cyff. Habac.2.18.

9 Arian gyrredic a ddygir o Tharſis, ac aur o Uphas [drwy] waith celfydd, a dwylaw 'r toddudd: ſidan glâs a phorphor [yw] eu gwiſc hwy, gwaith y celfyddion [ynt] oll.

10 Eithr yr Arglwydd ſydd wîr Dduw, efe yw 'r Duw byw a'r Brenin tragywyddol, rhag ei lid ef y cryna 'r ddaiar, a'r cenhedloedd ni allant ddioddef ei ſorriant ef.

11 Fel hyn y dywedwch wrthynt, difether o'r ddaiar, ac oddi tann y nefoedd y duwiau y rhai ni wnaethant nefoedd a daiar.

Iere.51.15.

12 [Duw] * a wnaeth y ddaiar trwy ei nerth, ac a ſicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, ac a eſtynnodd y nefoedd trwy ei ſynnwyr.

13 Pan roddo efe ei lais [y bydd] twrwf dyfroedd yn y nefoedd, efe a wna i'r cwmplau dderchafu o eithafoedd y ddaiar: efe a wna fellt gyd a'r glaw, ac a ddŵg allan y gwynt oi dryſorau.

Iere.51.17.

14 *Ynfyd yw pôb dyn o wybodaeth, gwradwyddwyd pôb toddudd am y ddelw: canys gwagedd [yw] ei doddiad, ac nid oes anadl ynddynt.

15 Oferedd ynt [a] gwaith cyfeiliorni: yn amſer eu gofwy y difethir hwynt.

Deut.32.9.
pſal.16.5.

16 Nid fel y rhai hyn, eithr lluni-wr y cwbl oll yw *rhan Iacob: ac Iſrael yw gwialen ei etifeddiaeth ef: Arglwydd y lluoedd [yw] ei enw.

17 Caſcl o'r tîr dy farchnadaeth yr hon wyt yn trigo mewn cadernid.

18 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele fi yn taflu trigolion y tîr ar y waith hon, a chyfyngaf arnynt, fel y caffant [achos i ddywedid:]

19 Gwae fi am fy mriw, dolurus [yw] fy mhlâ, mi a ddywedais yn ddiau, dymma ofid, a mi ai dygaf.

20 Fy mhabell i a anrheithiwyd, a'm rhaffau oll a ddrylliwyd, fy mhlant a aethant oddi wrthif, ac nid ydynt: nid [oes] mwy a lêdo fy mhabell, nac a gyfyd fy llennau.

21 Canys y bugeiliaid a ynfydâſant, a'r Arglwydd ni cheiſiâſant, am hynny ni ddeallhâſant, a [defaid] eu porfa hwy oll a waſcarwyd.

Iere.4.15.

22 Wele llêf uchel a ddaeth, a chynnwrf mawr * o dir y gogledd, i oſod dinaſoedd Iuda yn ddiffaethwch [ac] yn drigfan dreigiau.

23 Gwn Arglwydd nad eiddo dyn ei ffordd, ac nad eiddo gŵr a rodio lywodraeth ei gerddediad.

24 Coſpa fi Arglwydd, etto mewn barn, ac nid yn dy lid, rhag it fy nifetha.

25 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwaſant ar dy enw di, canys bwyttaſant Iacob, ie bwyttaſant ef, difaſant ef hefyd, ac anrheithiaſant ei gyfannedd.

## PEN. XI.

Melldith, a choſpedigaeth am gau dduwiaeth.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd gan ddywedyd:

2 Gwrandewch eiriau y cyfammod hwn, a dywedwch wrth wŷr Iuda, ac wrth breſwylwŷr Ieruſalem.

Deut.27.26.

3 Dywet ti hefyd wrthynt, fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael: * melldigedic yw 'r gŵr ni wrendu eiriau y cyfammod hwn,

4 Yr hwn a orchymynnais i'ch tadau chwi y dydd y dugym hwynt o wlâd yr Aipht o'r ffwrn haiarn, gan ddywedyd: gwrandewch ar fy llêf, a gwnewch ar ôl yr hyn oll a orchymynnwyf i chwi: felly chwi a fyddwch yn bobl i mi, a minne a fyddaf yn Dduw i chwithau.

5 Fel y gallwyf ſicrhau y llw a dyngais wrth ei'ch tadau, [ſef] y rhoddwn iddynt dîr yn llifeirio o laeth, a mêl, megis [y gwelir] heddyw: yna yr attebais, ac y dywedais, ô Arglwydd felly y byddo.

6 Yna yr Arglwydd a ddywedodd wrthif, pregetha y geiriau hyn oll yn ninaſoedd Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem gan ddywedyd: gwrandewch eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt.

7 Canys gan deſtiolaethu y teſtiolaethais wrth eich tadau er y dydd y dugym hwynt i fynu o dîr yr Aipht hyd y dydd hwn, *drwy godi yn foreu, a theſtiolaethu gan ddywedyd: gwrandewch ar fy llais.

Iere.7.13.

8 Ond ni wrandawſant, ac ni ogwyddaſant eu cluſtiau, eithr rhodiaſant bôb un ar ôl cyndynrwydd ei galon ddrygionus: am hynny y dygais arnynt * holl eiriau y cyfammod hwn, yr hwn a orchymynnais iddynt ei wneuthur, ond ni wnaethant.

Lefit.26.14.
deut.28.16.

9 A dywedodd yr Arglwydd wrthif, cydfradwriaeth a gafwyd yng-wŷr Iuda: a thrigolion Ieruſalem.

10 Troeſant at anwiredd eu tadau gynt, y rhai a wrthodaſant wrando fyng-eiriau, ac hwynt a aethant ar ôl duwiau dieithr iw gwaſanaethu hwy: [felly] tŷ Iuda, a thŷ Iſrael a dorraſant fyng-hyfammod i yr hwn a wneuthum ai tadau hwy.

11 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele fi yn dwyn drwg arnynt, yr hwn ni's gallant fyned oddi wrtho, yna y gwaeddant arnaf, ac ni wrandawaf hwynt.

Dihar.1.28.

12 Yna dinaſoedd Iuda, a thrigolion Ieruſalem a ânt, ac a waeddant ar y duwiau y rhai yr arogl-darthant hwy iddynt, ond gan waredu ni allant eu gwared hwynt yn amſer eu dryg-fyd.

13 Canys [yn ôl] rhifedi dy ddinaſoedd y mae dy dduwiau ô Iuda, ac yn ôl rhifedi heolydd Ieruſalem y goſodaſoch allorau gwradwyddus [ie] allorau i fwg-darthu i Baal.

Iere.7.16.
ierem.14.11.

14 Am hynny * na weddia di dros y bobl hyn, ac na chyfot waedd neu weddi troſtynt: canys ni wrandawaf pan waeddant arnaf yn eu dryg-fyd.

15 Beth [a wna] fy annwyl yn fy nhŷ, gan ei fod yn gwneuthur ſcelerder lawer: canys y

cîg cyſegredic a aeth ymmaith oddi wrthit [ô Juda:] canys pan wnelit ti ddrygioni, yna y llawenychit.

16 Olîwydden ddeiliog deg, o ffrwyth prydferth y galwodd yr Arglwydd dy enw di: ond trwy drwſt cynnwrf mawr y cynneuodd tân ynddi, a'i changhennau a dorrwyd.

17 Canys Arglwydd y lluoedd yr hwn a'th blannodd, a draethodd ddrwg yn dy erbyn, o herwydd drygioni tŷ Israel a thŷ Juda, y rhai a wnaethant iddynt eu hun i'm digio, drwy arogdarthu i Baal.

18 Yr Arglwydd a yſpyſodd i'm fel y gwybum: yna y dangoſaiſt i'm eu gweithredoedd hwynt.

19 A minne [oeddwn] fel oen neu fuſtach a ddygid iw ladd, ac ni wyddwn fwriadu o honynt fwriadau yn fy erbyn i [gan ddywedyd,] deſtrywiwn y pren yng-hyd a'i ffrwyth, a thorrwn ef o dir y rhai byw, fel na choffaer ei enw ef mwyach.

20 Eithr ô Arglwydd y lluoedd, barn-wr cyfiawnder, a chwiliwr yr arennau a'r galon, gwelwyf dy ddialedd arnynt, canys i ti y datcuddiais fyng-hwyn.

21 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am wŷr Anathoth, y rhai a geiſiant dy einioes gan ddywedyd: na phrophwyda mwy yn enw yr Arglwydd rhac dy farw trwy ein dwylo ni.

22 Am hynny fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd: wele fi yn ymwel â hwynt: y gwŷr ieuaingc a fyddant feirw trwy 'r cleddyf, eu meibion, a'i merched a fyddant feirw o newyn.

23 Ac ni bydd gweddillion iddynt, canys mi a ddygaf ddrygfyd ar wŷr Anathoth, [ſef] blwyddyn eu gofwy.

## P E N. XII.

Rhyfedd yw gan y prophwyd weled ffynniant y rhai annuwiol. 6 Coſpedigaeth y drygionus. 15 A maddeuant yr edifeiriol.

OS dadleuwn â thi cyfiawn [fyddit] ti ô Arglwydd, er hynny rhesymmaf â thi [am] farnedigaethau: * pa ham y llwydda ffordd yr anwir? ac y ffynna 'r anffyddloniaid oll?

Iob 21.7. psal.37.1. psal.73.1. habac.1.3.

2 Plennaiſt hwy a gwreiddiaſant, cynnyddaſant, a dugaſant ffrwyth: agos wyt at eu genau, a phell oddi wrth eu meddyliau.

3 Ond ti Arglwydd a'm adwaenoſt, a'm gwelaiſt, ac a broſaiſt fyng-halon tu ag attat: tynn allan hwynt megis defaid i'r lladdedigaeth, a pharatoa hwynt erbyn dydd y lladdfa.

4 Pa hŷd y galara yr ddaiar, ac y gwywa gwellt yr hollfaes, o blegit drygioni y rhai ſy yn trigo ynddi: methodd yr anifeiliaid a'r adar, o blegit dywedaſant, ni wêl efe ein diwedd ni.

5 O rhedaiſti gyd a'r gwŷr traed, a hwy yn dy flino, pa fodd yr ymdrewi a'r meirch? ac er dy fod yn ddiogel mewn tir heddychlawn: etto pa fodd y gwnei yn uchelder yr Iorddonen?

6 Canys dy frodyr a thŷ dy dâd, ie y rhai hynny a anghywiraſant â thi, hwynt hwy hefyd a waeddaſant ar dy ôl, na choelia hwy er dywedyd yn deg wrthit.

7 Gadewais fy nhŷ, gadewais fy etifeddiaeth, mi a roes anwylyd fy enaid yn llaw ei elynnion ef.

8 Fy etifeddiaeth a aeth i mi megis llew yn y coed: rhuodd i'm herbyn, am hynny caſeais hi.

9 A [fydd] fy etifeddiaeth i mi fel aderyn brith? onid [yw] yr adar o amgylch yn ei herbyn hi [yn dywedyd:] deuwch ymgeſclwch holl fwyſt-filod y maes, deuwch iw bwytta.

10 Bugeiliaid lawer a ddeſtrywiaſant fyngwinllan, ſathraſant fy rhandir, fy rhandir ddiddan a roddaſant yn ddiffaethwch anrheithiol.

11 Goſodaſant hi yn anrhaith, ac wedi ei hanrheithio y galarodd hi wrthif: y tir ei gyd a anrheithiwyd, am nad [oes] neb yn yſtyried [hynn] yn ei galon.

12 Anrheith-wŷr a ddaethant ar yr hollfrynnau yn yr anialwch: canys cleddyf yr Arglwydd ſy yn diſetha o'r [naill] gwrr i'r ddaiar hyd y cwrr [arall] i'r ddaiar: nid [oes] heddwch i ddim cnawdol.

13 Hauaſant wenith, a hwynt a fedaſant ddrain, ymboenaſant, ac ni chawſant leſâd: cywilyddiaſant gan hynny am eich ffrwythydd chwi rhag llid digofaint yr Arglwydd.

14 Fel hyn y dywed yr Arglwydd yn erbyn fy holl gymydogion drwg, y rhai ſy yn cyffwrdd a'r etifeddiaeth yr hon a berais i'm pobl Israel ei hetifeddu: wele mi a'i tynnaf hwy allan o'i tîr, ac a dynnaf dŷ Juda o'i myſc hwynt.

15 Ac wedi i mi eu tynnu hwynt allan, troaf a thrugarhâf wrthynt, a dychwelaf hwynt pôb un iw etifeddiaeth, a phob un iw dir ei hun.

16 Ac os gan ddyſcu y dyſcant ffyrdd fy mhobl, i dyngu i'm enw, (byw yw 'r Arglwydd) megis y dyſcaſant fy mhobl i dyngu i Baal, yna yr adeiledir hwy yng-hanol fy mhobl.

17 Eithr oni wrandawant, yna y diwreiddiaf y genhedlaeth hon, a chan ddiſetha myfi a'i diniſtriaf hi, medd yr Arglwydd.

## P E N. XIII.

Dau beth (ſef gwregys a choſtrel) yn arwyddoccau diniſtr Iuda.

FEl hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif: dos a phryn it wregys lliain, a goſot ef am dy lwynau, ac na oſot ef mewn dwfr.

2 Felly y prynais y gwregys yn ôl gair yr Arglwydd, ac a'i goſodais am fy lwynau.

3 A daeth gair yr Arglwydd attaf eilwaith gan ddywedyd:

4 Cymmer y gwregys yr hwn a brynaiſt, ac y ſydd am dy lwynau, a chyfod, dos i Euphrates, a chuddia ef mewn hollt o'r graig.

5 Ac felly 'r aethum, ac mi ai cuddiais ef yn Euphrates, megis y gorchymynnaſe yr Arglwydd i mi.

6 Ac ar ôl dyddiau lawer y dywedodd yr Arglwydd wrthif, cyfod, a dôs i Euphrates, a chymmer oddi yno y gwregys yr hwn a orchymynnais i ti ei guddio yno.

7 Yna 'r aethum i Euphrates, ac a gloddiais, ac a gymmerais y gwregys o'r man lle y cuddiaſwn ef: ac wele pydraſe y gwregys [ac] ni wnai leſâd [i ddim.]

8 A daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

9 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, felly y gwnaf i falchder Juda, a mawr falchder Jeruſalem bydru.

10 Y bobl ddrygionus hyn a wrthodaſant wrando fyng-air i, rhodio y maent mewn cildynrwydd eu calon, ac aethant ar ôl duwiau dieithr iw gwaſanaethu hwynt, ac i ymoſtwng iddynt hwy: am hynny y byddant fel y gwregys ymma, yr hwn ni wnâ lês i ddim.

11 Canys megis ac yr ymwaſc gwregys am lwynau gŵr, felly y gwneuthum i holl dŷ Iſrael waſcu attaf, a holl dŷ Juda medd yr Arglwydd, i fod i mi yn bobl, ac yn enw, ac yn foliant, ac yn ogoniant, ond ni wrandawſant.

12 Am hynny y dywedi wrthynt y gair ymma: fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, pôb coſtrel a lenwir â gwîn, a dywedant wrthit ti: gan ŵybod oni wyddom ni y llenwir pôb coſtrel â gwîn?

13 Yna y dywedi wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: wele fi yn llenwi holl drigolion y tîr hwn, a'r brenhinoedd y rhai ſy yn eiſtedd yn lle Dafydd ar ei orſeddfaingc ef, yr offeiriaid hefyd a'r prophwydi, a holl breſſwyl-wŷr Jeruſalem â meddwdod.

14 Tarawaf hwy y naill wrth y llall, y tadau a'r meibion yng-hyd, medd yr Arglwydd, nid arbedaf, ni thrugarhâf, ac ni reſſynnaf, onid eu difetha hwynt.

15 Clywch, a gwrandewch, na falchiwch: canys yr Arglwydd a lefarodd [hyn.]

16 Rhoddwch ogoniant i'r Arglwydd eich Duw, cyn iddo ef ddwyn tywyllwch, a chyn i chwi daro eich traed wrth y mynyddoedd tywyll, a diſgwil o honoch am oleuni, ac iddo ef ei droi yn gyſcod angeu, [ai] oſod yn dywyllwch.

17 Ac oni wrandewch chwi hyn, fy enaid a ŵyla yn ddirgel am eich balchder: a'm llygaid gan ŵylo a wylant, ac a ollyngant ddagrau o achos dwyn diadell yr Arglwydd i gaethiwed.

2.Bren.24.12. 18 Dywet wrth * y brenin a'r frenhines, ymoſtyngwch, eiſteddwch i lawr: canys deſcynnodd eich pendefigaeth, [a] choron eich anrhydedd.

19 Dinaſoedd y deau a gaewyd, ac nid [oes] agorudd; Juda ei gyd a gaeth-gludwyd, yn llwyr y dygwyd i gaethiwed.

20 Codwch i fynu eich llygaid, a gwelwch y rhai ſydd yn dyfod o'r gogledd, pa le [y mae] y ddiadell a roddwyd i ti: [ſef,] dy ddefaid hardd?

21 Beth a ddywedi pan ymweler â thi? ti ai dyſcaiſt hwynt yn dywyſogion, ac yn ben arnat: oni oddiwedd gofid di megis gwraig yn eſcor?

22 Ac o dywedi yn dy galon, paham y digwydd hyn i mi? o herwydd amlder dy anwiredd y noethwyd dy odrau, ac y dinoethwyd dy ſodlau.

23 A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu 'r llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur dâ, y rhai a gynneſinwyd i wneuthur drwg.

24 Am hynny y chwâlaf hwynt megis ſofl yn myned ymmaith gyd â gwynt y dehau.

25 Dymma dy gyfran di y rhan a feſurais i ti, medd yr Arglwydd, am i ti fy anghofio fi, ac ymddiried mewn celwydd.

26 Am hynny y dinoethais inne dy odrau di tros dy wyneb, fel yr amlyger dy warth.

27 [Gwelais] dy odineb, a'th weryriadau, brynti dy butteindra ar y bryniau yn y maes dy ffieidd-dra a welais: gwae di Jeruſalē onid ymlanhei di mwyach? pa hyd bellach?

## PEN. XIIII.

Y prophwyd yn bygwth drudanieth. 7 Duw yn gwrthod gweddi, ac ympryd y bobl. 13 Coſpedigaeth y gau brophwydi ai canlyn-wyr.

GAir yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Jeremi o achos y drudaniaeth.

2 Galarodd Juda, ai pyrth a leſcauaſant, [ac] a oſtyngwyd i lawr dan dduwch, a gwaedd Jeruſalem a dderchafodd i fynu.

3 Eu boneddigion a hebryngaſant eu gwerryn am ddwfr, daethant i'r ffynhonnau, ni chawſant ddwfr: dychwelaſant ai lleſtri yn weigion, cywilyddio, a gwladeiddio a wnaethant, a chuddio eu pennau.

4 O blegit anrheithio 'r ddaiar am nad oedd glaw ar y ddaiar, cywilyddiodd y llafur-wŷr a chuddiaſant eu pennau.

5 Je, yr ewig hefyd a lydnodd yn y maes, ac [ai] gadawodd, am nad oedd wellt.

6 A'r aſſynnod gwylltion a ſafaſant yn y lleoedd uchel: yſſaſant wynt fel dreigiau: eu llygaid hwynt a ballaſant, am nad oedd gwellt.

7 O Arglwydd, os ein anwiredd ni a deſtiolaetha i'n herbyn, gwna [drugaredd] er mwyn dy enw dy hun: canys aml yw ein cildynrwydd ni, pechaſom i'th erbyn.

8 Gobaith Iſrael ai geidwad yn amſer adfyd, pa ham y byddi megis pererin ar y ddaiar? ac fel ymdeithudd yn troi i letteua?

9 Pa ham y byddi megis gŵr ſynn? [ac] fel gŵr cadarn heb allu achub? yr ydwyt ti yn ein myſc ni Arglwydd, a'th enw di a elwir arnom, nac ymado â ni.

10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth y bobl hyn, fel hyn y chwennychaſant hwy grwydro, ac ni attaliaſant eu traed: am hynny ni's mynne yr Arglwydd hwy: yr awr hon y coffa efe eu hanwiredd hwy, ac a ymwel ai pechodau.

Ier.7.16. Ier.11.14. 11 Dywedodd yr Arglwydd hefyd wrthif: *na weddia tros y bobl hyn am ddaioni.

12 Pan ymprydiant ni wrandawaf eu gwaedd hwynt, a phan offrymmant boeth offrwm a bwyd offrwm ni byddaf bodlon iddynt: canys a'r cleddyf, ac â newyn, ac â haint y difâf hwynt.

13 A dywedais, ô Arglwydd Dduw, wele mae yr prophwydi yn dywedyd wrthynt ni welwch chwi gleddyf, ac ni ddaw newyn attoch, eithr mi a roddaf heddwch ſicer i chwi yn y lle ymma.

Ier.23.21. Ier.27.10. 14 Dywedodd yr Arglwydd hefyd wrthif: y *prophwydi ſy yn prophwydo celwydd yn fy enw i, nid anfonais hwy, ni orchymynnais iddynt ychwaith, ac ni ddywedais wrthynt: gau weledigaeth a dewiniaeth, a choegedd, a thwyll eu calonnau eu hun y maent hwy yn eu prophwydo i chwi.

15 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, am y prophwydi ſy yn prophwydo yn fy enw i, a minne heb eu hanfon hwynt, y rhai hyn a ddywedant, cleddyf a newyn ni bydd yn y tir hwn, trwy gleddyf a newyn y difethir y prophwydi hynny.

16 A'r bobl y rhai y maent yn prophwydo iddynt a fwrir yn heolydd Ieruſalem o herwydd y newyn a'r cleddyf, ac ni bydd neb i'w claddu hwynt: y nhwy, ai gwragedd, ai meibion, ai merched: felly y tywalltaf arnynt eu drygioni.

17 Am hynny y dywedi wrthynt y gair ymma, difered fy llygaid i ddagrau nos a dydd, ac na pheidiant: canys â briw mawr y briwyd y wyryf merch fy mhobl, [ac] a phlâ toſt iawn.

18 Os âf allan i'r maes wele gelaneddau y cleddyf: ac o deuaf i mewn i'r ddinas wele rai lleſc o newyn: canys y prophwyd, a'r offeiriad hefyd ſy yn amgylchu i dir ni's adwaenant.

19 Gan wrthod a wrthodaiſt ti Iuda? neu a ffieiddiodd dy enaid ti Sion? pa ham y tarewaiſt ni fel nad oes i ni feddiginiaeth? diſgwil am heddwch etto ni [bydd] daioni, ac am amſer iechyd, ac wele flinder.

20 Yr ydym yn cydnabod Arglwydd ein camwedd [ac] anwiredd ein tadau, o blegit ni a bechaſom yn dy erbyn di.

21 Na ddirmyga ni er mwyn dy enw, ac na fwrw i lawr eiſteddfa dy ogoniant: coffa, ac na thor â ni dy gyfammod?

Ier.10.15. 22 A oes neb ym mhlith *oferedd y cenhedloedd a wna glawio? neu a rydd y nefoedd gafodau? ond ti ô Arglwydd [wyt] ein Duw ni? am hynny arnat ti y diſgwiliwn ni, canys ti a wnaethoſt y rhai hynny oll.

## PEN. XV.

Ofered eiriol tros yr anedifeiriol. 3 Duw yn bygwth pedwar dialedd, ac yn dangos yr achos. 10 Ieremi yn galaru tros yr eglwys. 11 Duw yn ei gyſſuro ef, ac yn ei gadarnhau yn ei ſwydd.

A Dywedodd yr Arglwydd wrthif: *pe ſafe Moſes a Samuel ger fy mron, etto ni bydd fy ſerch ar y bobl ymma: gollwng [hwy] fel yr elont o'm golwg. Ezec.14.14.

2 Ac o dywedant wrthit, i ba le yr awn? tithe a ddywedi wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, *y ſawl [a drefnwyd] i angeu, i angeu, a'r ſawl i'r cleddyf, i'r cleddyf, a'r ſawl i newyn, i newyn: a'r ſawl i gaethiwed, i gaethiwed.

3 Mi a oſodaf arnynt bedwar rhywogaeth [blâ] medd yr Arglwydd, y cleddyf i ladd, a'r cwn i larpio, ac adar y nefoedd, ac anifeiliaid y ddaiar i yſſu, ac i ddifa.

4 Ac ai rhoddaf hwynt yngyrwydraid i holl deyrnasoedd y ddaiar, *herwydd Manaſſes mab Hezecia brenin Iuda, am yr hyn a wnaeth efe yn Ieruſalem. 2.Bren.21.9.

5 Pwy gan hynny a drugarhâ wrthit ti ô Ieruſalem? a phwy a doſturia wrthit ti? a phwy a aiff i eiriol am heddwch it?

6 Ti a'm gadewaiſt medd yr Arglwydd, ac a aethoſt yn ôl: am hynny yr eſtynnaf fy llaw arnat ti i'th ddifetha, [canys] myfi a flinais yn edifarhau.

7 Ac mi ai chwalaf hwynt a'r gwintill ym mhyrth y wlad: yſpeiliais, a difethais fy mhobl, etto ni throeſant oddi wrth eu ffyrdd.

8 Eu gweddwon a amlhauſant trwoſt, tu hwynt i dyfod y môr: dugum arnynt anrheithwr ganol dydd, ac yn erbyn cynnulleidfa eu gwyr ieuaingc: perais ſyrthio yn ddiſymmwth arni hi, [ſef] ar y ddinas, a [hynny] mewn dychryn.

9 Yr hon a blantodd ſaith a leſcaodd: ei henaid hi a llyſmeiriodd, ei haul a fachludodd, tra oedd hi yn ddydd, hi a gywilyddiwyd, ac a wradwyddwyd: rhoddaf eu gweddillion i'r cleddyf ger bron eu gelynnion medd yr Arglwydd.

10 Gwae fi fy mam, ymddwyn o honot fi, yn ŵr ymryſongar, ac yn ŵr cynhennus a'r holl wlad: ni logais, ac ni logwyd i mi, [etto] pawb ſy yn fy melldigo i.

11 Yr Arglwydd a ddywedodd, oni [bydd] dy weddill di mewn daioni? oni achubaf flaen y gelyn troſot ti yn amſer adfyd, ac yn amſer cyſtudd?

12 A dyrr haiarn yr haiarn, a'r pres o'r gogledd?

13 Dy gyfoeth, a'th dryſſorau a roddaf yn yſpail nid am werth, onid o blegit dy holl bechodau, y rhai [a wnaethoſt] drwy dy holl derfynau.

14 Gyrraf [di] hefyd gyd a'th elynnion i dir nid adwaenoſt: canys tân a ynynnodd yn fy nigofaint, [ac] arnoch y llyſc.

15 Ti a wyddoſt Arglwydd, coffa am danaf,

ac ymwel â mi, a dial troſof ar fy erlidwŷr, na ddwg fi i'th hir ddigofaint, gwybydd ddwyn o honof wradwydd er dy fwyn di.

16 Dy eiriau a gaed, a mi ai bwyteais hwynt, ac yr oedd dy air di i mi yn llawenydd, ac yn hyfrydwch fyng-halon: canys dy enw di a alwyd arnafi ô Arglwydd Dduw y lluoedd.

17 Nid eiſteddais yng-hymanfa y gwatwarwŷr, ac [nid] ymhyfrydais: eiſteddais fy hunan rhac dy law di, canys ti a'm llenwaiſt i o lîd.

18 Pa ham y mae fy nolur i yn dragywyddol? a'm plâ yn ddiobaith, fel nad ellir ei iachau? a fyddi di i mi megis celwyddoc, [neu] fel dwfr anwadal?

19 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, os dychweli, yna i'th ddygaf eilwaith fel y ſefech ger fy mron, os tynni ymmaith y gwerthfawr oddi wrth y gwael, byddi fel fyng-enau mau fi: dychwelant hwy attat ti, ond na ddychwel di attynt hwy.

20 Rhoddaf di hefyd i'r bobl ymma yn fagwyr efydd gadarn, a hwy a ryfelant yn dy erbyn di, eithr ni'th orchfygant, canys yr ydwyfi gyd â thi i'th achub, ac i'th wared medd yr Arglwydd.

21 Mi a'th waredaf di o law y rhai drygionus: ac a'th ryddhaf di o law y cedyrn.

### PEN. XVI.

Trueni yr Iddewon am addoli delwau. 13 Eu caethgludiad i Babilon. 15 Eu rhydd-dab eilwaith. 19 Galwedigaeth y cenhedloedd.

GAir yr Arglwydd a ddaeth hefyd attafi, gan ddywedyd:

2 Na chymmer i ti wraig, ac na fydded i ti feibion na merched yn y lle hwn.

3 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am y meibion, ac am y merched y rhai a anwyd yn y lle hwn, ac am eu mammau y rhai ai hymddug hwynt, ac am eu tadau y rhai ai cenhedlodd hwynt yn y wlâd hon.

4 O angeu nychlyd y byddant feirw, ni alerir am danynt, ac nis cleddir hwynt, byddant fel tail ar wyneb y ddaiar, a darfyddant drwy yr cleddyf, a thrwy newyn: ai celaneddau fyddant yn ymborth i adar y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaiar.

5 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, na ddôs i dŷ y galar, ac na ddos i alaru, ac nac ymofidia di troſtynt: canys myfi a gymmerais ymmaith heddwch oddi wrth y bobl hyn, yng-hyd â mwynder a thrugaredd.

6 A byddant feirw yn y wlâd hon, fawr a bychan, ni chleddir hwynt, ac ni alerir am danynt, ni thorrir [gwallt,] ac nid eillir am danynt.

7 Ni rannant iddynt [fwyd] mewn galar, i roddi cyſſur am y marw, ac ni pharant iddynt yfed o phiol cyſſur, am eu tâd, neu am eu mam.

8 Na ddos i dŷ gwledd, i eiſtedd gyd â hwynt, i fwyta, ac i yfed.

9 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele myfi a baraf i lais cerdd a llawenydd, i lais y priod-fab, ac i lais y briod-ferch ddarfod o'r lle hwn o flaen eich llygaid, ac yn eich dyddiau chwi.

10 A phan ddangosoch i'r bobl ymma yr holl eiriau hyn, ac iddynt hwythau ddywedyd wrthit ti, am ba beth y llefarodd yr Arglwydd yr holl fawr-ddrwg hyn i'n herbyn ni? neu pa anwiredd, a pha bechod [yw] yr hwn a bechaſom yn erbyn yr Arglwydd ein Duw?

11 Yna y dywedi wrthynt, o herwydd i'ch tadau fyng-adel medd yr Arglwydd, a myned ar ôl duwiau dieithr, ai gwaſanaethu hwynt, ac ymgrymmu iddynt, a'm gwrthod fi, ac heb gadw fyng-hyfraith,

12 (A chwithau a wnaethoch yn waeth na'ch tadau, canys wele chwi yn rhodio, bob un yn ôl cyndynrwydd ei galon ddrwg heb wrando arnaf)

13 Am hynny mi a'ch taflaf chwi o'r tir hwn i wlad yr hon nid adwaenoch chwi, na'ch tadau, ac yno y gwaſanaethwch dduwiau dieithr ddydd a nôs, lle ni roddaf i chwi râs.

14 Gan hynny wele yr dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd, pryd na ddywedir, byw yw 'r Arglwydd yr hwn a ddug feibion Iſrael i fynu o dir yr Aipht:

15 Eithr byw yw 'r Arglwydd yr hwn a ddug i fynu feibion Iſrael o dir y gogledd, ac o'r holl diroedd lle y bwriaſe efe hwynt: canys mi ai dygaf hwynt trachefn i'r wlad yr hon a roddais iw tadau.

16 Wele fi yn anfon am byſcod-wŷr lawer medd yr Arglwydd y rhai ai pyſcottânt hwynt, ac wedi hynny mi a anfonaf am hel-wŷr lawer, y rhai ai heliant hwynt oddi ar bob mynydd, ac oddi ar bob brynn, ac o gromlechudd y creigiau.

17 Canys [y mae] fyng-olwg ar eu holl ffyrdd hwynt, nid ydynt guddiedic oddi ger fy mron: ac nid yw eu hanwiredd hwynt guddiedic oddi ar gyfer fy llygaid.

18 Ac yn gyntaf myfi a dalaf yn ddwbl am eu hanwiredd ai pechod hwynt, am iddynt halogi fy nhir ai ffiaidd gelanedd: ie ai ffieiddra y llanwaſant fy etifeddiaeth.

19 O Arglwydd fy nerth a'm cadernid, a'm noddfa yn nydd blinder: attat ti y daw y cenhedloedd o eithafoedd byd, ac a ddywedant, diau mai celwydd a ddarfu i'n tadau ni ei etifeddu, [ac] oferedd heb lês ynddynt.

20 A wna dŷn dduwiau iddo? a hwyntau heb [fod] yn dduwiau?

21 Am hynny wele mi ai dyſcaf hwynt y waith hon, dangoſaf iddynt fy llaw a'm grym: a chânt wybod mai yr Arglwydd [yw] fy enw.

### PEN. XVII.

Cyndynrwydd yr Iddewon, melldith i'r rhai a hydero ar ddyn, llwgr calon dyn, Duw yn ei gweled, Sancteiddio y Sabboth.

PEchod Iuda a ſcrifennwyd â phinn o haiarn, ag ewin o adamant y cerfiwyd [ef] ar dabl eu calon, ac wrth gyrn eich allorau:

2 Gan fod eu meibion yn cofio eu hallorau ai plan-wydd wrth y pren deiliog, [ac] ar y brynnau vchel.

3 O fy mynydd [yr hwn] wyt yn y maes, dy olud [a'th] holl drysorau di a roddaf yn anrhaith am dy bechod ar dy vchelfeudd drwy dy holl derfynau.

4 Ti a adewir dy hunan heb dy etifeddiaeth yr hon a roddais i ti, ac mi a wnaf i ti waſanaethu dy elynnion mewn tîr nid adwaenoſt: canys cynneuaſoch dân yn fy nîg yr hwn a lyſc byth.

Eſa.2.12. Ier.48.6.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd,* melldigedic yw 'r gŵr a hydero mewn dŷn, ac a roddo gnawd yn fraich iddo, a'r [hwn] y cilio ei galon oddi wrth yr Arglwydd.

6 Canys efe a fydd fel y grûg yn y diffaethwch, ac ni wêl pan ddêl daioni: eithr efe a gyfannedda boeth-fannau yn yr anialwch, tîr hallt, ac anghyfanneddol.

7 Bendigedic yw 'r gŵr yr hwn a ymddyriedo yn yr Arglwydd: ac y byddo yr Arglwydd yn hyder iddo.

Pſal.1.3.

8 Canys efe a fydd megis prenn wedi ei blãnu wrth y dyfroedd, yr hwn a eſtyn ei wraidd i'r afon, ac ni chaiff niwed er dyfod ſychder, ni ofala efe, ac ni phaid a ffrwytho.

9 Y galon ſydd fwy ei thwyll na dim, a gofidus yw, pwy ai hedwyn?

1.Sam.16.7. 1.Cro.28.9. Pſal.7.10. Ier.11.20. Ier.20 12. Gweled.2.23.

10 Myfi yr Arglwydd * ſydd yn chwilio y galon, yn profi yr arennau, ac yn rhoddi i bob vn yn ôl ei ffyrdd, [ac] yn ôl ffrwyth ei weithredoedd:

11 [Fel] petrris yn eiſtedd ac heb ddodwi [yw] yr hwn a helio gyfoeth yn anheilwng: yn hanner ei ddyddiau y gedu hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd efe.

12 Gorſedd ogoneddus dderchafedic o'r dechreuad [yw] lle ein cyſſegr ni.

13 O Arglwydd gobaith Iſrael y rhai oll a'th wrthodant a wradwyddir, ſcrifenner yn y ddaiar y rhai a giliant [oddi wrthit ti:] am iddynt adel yr Arglwydd ffynnon dyfroedd y bywyd.

14 Iachâ fi ô Arglwydd, a mi a iacheuir, achub di fi, a mi a achubir: canys tydi [yw] fy moliant.

15 Wele hwynt yn dywedyd wrthif: pa le [y mae] gair yr Arglwydd? deuet bellach.

16 Ond ni wrthodais i yn daer fod yn fugail i ti, ac ni ddymunais y ſwydd flîn [hon,] ti a wyddoſt [hynny:] y mae yr hyn a ddaeth o'm gwefuſau ger dy fron di.

17 Na fydd yn ddychryn i mi, ti [yw] fyngobaith yn nydd adfyd.

18 Gwradwydder fy erlidwŷr ac na'm gwradwydder fi, brawycher hwynt, ac na'm brawycher fi: dwg arnynt ddydd drygionus, a dryllia hwynt â dryllliad dau ddyblyg.

19 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif, cerdda, a ſaf ym mhorth meibion y bobl trwy yr hwn yr aiff brenhinoedd Iuda, a thrwy yr hwn y deuant allan: ac yn holl byrth Ieruſalem,

20 A dywet wrthynt, gwrandewch air yr Arglwydd brenhinoedd Iuda, a holl Iuda, a holl breſſwyl-wŷr Ieruſalem y rhai a ddeuwch drwy yr pyrth hyn:

21 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, diſgwiliwch ar eich eneidiau, ac na ddygwch feichiau ar y dydd Sabboth, ac na ddygwch hwynt i mewn drwy byrth Ieruſalem.

22 Ac na ddygwch feichiau allan o'ch tai ar y dydd Sabboth, ac na wnewch ddim gwaith: eithr ſancteiddiwch y dydd Sabboth * fel y gorchymynnais i'ch tadau. Exod.20.9.

23 Ond ni wrandawſant, ac ni ogwyddaſant eu cluſtiau, eithr caledaſant eu gwarrau rhac gwrando, ac rhac derbyn cerydd.

24 Er hynny os llwyr wrandewch arnaf medd yr Arglwydd, heb ddwyn baich trwy byrth y ddinas hon ar y dydd Sabboth, ond ſancteiddio y dydd Sabboth heb wneuthur dim gwaith arno:

25 Yna y daw drwy byrth y ddinas hon frenhinoedd a thywyſogion yn eiſtedd ar * orſedd Dafydd yn marchogeth mewn cerbydau, ac ar feirch hwynt ai tywyſogion, gwŷr Iuda a phreſſwyl-wŷr Ieruſalem: a'r ddinas hon a gyfanneddir byth. Ier.22.4.

26 Ac o ddinaſoedd Iuda, ac o amgylchoedd Ieruſalem ac o wlâd Beniamin, ac o'r gwaſtadedd, ac o'r mynydd, ac o'r deau y daw rhai yn dwyn poeth offrwm, ac aberth, a bwyd offrwm, a thus, ac yn dwyn diolch i dŷ yr Arglwydd.

27 Ond os chwi ni wrendu arnaf i ſancteiddio y dydd Sabboth heb ddwyn baich, a dyfod i byrth Ieruſalem ar y dydd Sabboth: yna mi a gynneuaf dân yn ei phyrth hi, yr hwn a yſſa balaſau Ieruſalem, ac ni's diffoddir.

## PEN. XVIII.

Y mae efe yn dangos fod dyn yn llaw Dduw fel y pridd yn llaw y crochenydd. 18 Y bobl yn codi yn erbyn Ieremi. 19 Ei weddi ef yn eu herbyn hwynt: nid er llîd wrthynt, onid drwy brophwydo dialedd iddynt.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd gan ddywedyd.

2 Cyfod, a dos i waered i dŷ y crochenydd, ac yno y paraf i ti glywed fyng-eiriau.

3 Yna mi a euthym i waered i dŷ y crochenydd, ac wele ef yn gwneuthur ei waith ar droellau.

4 A'r lleſtr a ddrylliodd yn llaw y crochenydd yr hwn yr oedd efe yn ei wneuthur * o glai: yna y trôdd efe, ac y gwnaeth leſtr arall fel y gwelodd y crochenydd yn dda [ei] wneuthur. Eſa.45.9. Doeth.15.7.

5 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd,

6 Oni allaf fi fel y crochenydd hwn wneuthur i chwi tŷ Iſrael medd yr Arglwydd? wele megis ac [y mae] y pridd yn llaw y crochenydd,

felly [yr ydych] chwithau yn fy llaw i tŷ Iſrael.

7 [Os] dywedaf yn ddiſymmwth am ddiwreiddio, a thynnu i lawr, a difetha cenhedlaeth neu frenhiniaeth,

8 A'r genhedlaeth honno yn troi oddi wrth ei drwg (yr hwn a ddywedais yn ei erbyn:) yna yr edifarhaf am y drwg yr hwn a amcenais ei wneuthur iddi.

9 Os yn ddiſymmwth y dywedaf am adailadu, ac am blannu cenhedlaeth neu frenhiniaeth,

10 A hi yn gwneuthur drygioni yn fyng-olwg heb wrando ar fy llais, minnef a edifarhaf am y daioni yr hwn a amcenais ei wneuthur er llês iddi.

11 Dywet bellach, wrth bob vn o Iuda, ac wrth breſſwyl-wŷr Ieruſalem gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: wele fi yn llunio drwg i'ch erbyn, ac yn dychymygu dychymyg i'ch erbyn: dychwelwch yr awr hon, bob vn oi lwybrau drwg, a gwellhewch eich ffyrdd, a'ch gweithredoedd.

12 Hwythau a ddywedaſant, nid oes obaith [o hynn] o herwydd ar ôl ein dychymygion ein hunain yr awn, a gwnawn bob vn amcan ei ddrwg calon ei hunan.

13 Am hynny fel hyn y dywet yr Arglwydd, gofynnwch atolwg ym myſc y cenhedloedd pwy a glywodd [bethau] fel y rhai hynn: gwnaeth y forwyn Iſrael frynti mawr.

14 A wrthodir eira Libanus yr hwn [ſydd yn dŷfod] o graig y maes: neu a wrthodir y dyfroedd oerion y rhai ſydd yn rhedeg o leoedd oerion eraill:

Ier.6.16. 15 O herwydd i'm pobl fy anghofio i, [ac] arogl-darthu i wagedd, ac [iw prophwydi] wneuthur iddynt dramgwyddo yn eu ffyrdd, o lwybrau tragywyddoldeb * i gerdded llwybrau ffordd ddiſathr,

16 I oſod eu tir yn anghyfannedd, ac yn ffiaidd bŷth: pawb a elo heibio iddo a ryfeddant, ac a eſcydwant eu pennau,

17 A gwynt y dwyrain y chwalaf hwynt o flaen y gelyn: fyng-wegil, ac nid [fy] wyneb a ddangoſaf iddynt yn amſer eu methiant.

18 Yna y dywedaſant, deuwch a dychymygwn ddychymygion yn erbyn Ieremi, canys ni fetha y gyfraith gan yr offeiriad, na chyngor gan y doeth, na'r gair gan y prophwyd: deuwch, tarawn ef a'r tafod, ac nac yſtyriwn ar ei holl eiriau.

19 Yſtyria di wrthif ô Arglwydd, a chlyw lais y rhai ſydd yn ymryſon â mi.

20 A dêlir drwg dros dda: canys cloddiaſant ffôs i'm henaid: cofia i mi ſefyll ger dy fron di i ddywedyd daioni am danynt, [ac] i ddychwelyd dy ddig oddi wrthynt.

21 Am hynny gad ti iw meibion feirw o newyn, a gwna iddynt ſyrthio ar fin y cleddyf: a bydded eu gwragedd heb eu plant, ac yn weddwon: lladder hefyd eu gwŷr yn feirw, a tharawer eu gwŷr ieuaingc a'r cleddyf yn y rhyfel.

22 Clywer eu gwaedd oi tai pan ddygech y fyddin arnynt yn ddiſymmwth: canys cloddiaſant ffôs i'm dal, a chuddiaſant faglau i'm traed.

23 A thi ô Arglwydd a wyddoſt [fod] eu holl gyngor hwynt am fy llâdd i: na faddeu di eu hanwiredd, ac na ddelea eu pechodau o'th wydd eithr byddant dramgwyddedic ger dy fron: gwna di [hyn] iddynt yn amser dy ddigofaint.

## PEN. XIX.

Y mae efe yn prophwydo diniſtr ar Ieruſalē am ei gau-dduwiaeth.

FEl hyn y dywed yr Arglwydd, dos a phryn ſtên bridd, a [chymmer] o henuriaid y bobl, ac o henuriaid yr offeiriaid,

2 A dos allan i ddyffryn-meibion Hinnom yr hwn ſydd wrth ddrws porth y dwyrain, a chyhoedda yno y geiriau y rhai a ddywedwyf wrthit.

3 A dywet, brenhinoedd Iuda a phreſſwyl-wŷr Ieruſalem clywch air yr Arglwydd: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele fi yn dwyn ar y lle hwn ddrwg, yr hwn, *pwy bynnac ai clyw ei glustiau a ferwiniant. 1.Sam.3.11.

4 Am iddynt fyng-wrthod i, a halogi y lle hwn ac arogl-darthu ynddo i dduwiau dieithr, y rhai nid adwaenent hwynt, nai tadau, na brenhinoedd Iuda: a llenwi o honynt y lle hwn o waed gwirioniaid,

5 Ac adailadu vchelfeudd i Baal, i loſci eu meibion â thân yn boeth offrwm i Baal: yr hyn ni orchymynnais, ac nid erchais, ac ni feddyliodd fyng-halon:

6 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd, pryd na elwir y lle hwn *Tophet, na dyffryn meibion Hinnom, onid dyffryn y lladdfa. Ierc.7.31. 2.Bren.23.10. Eſai.30.33.

7 A mi a wnaf yn ofer gyngor Iuda, ac Ieruſalem, yn y lle hwn, a pharaf iddynt ſyrthio ar y cleddyf o flaen eu gelynion, ac yn llaw y rhai a geiſiant eu henioes hwynt: rhoddaf hefyd eu celaneddau hwynt yn fwyd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaiar.

8 A *mi a oſodaf y ddinas hon yn anghyfannedd, ac yn ffiaidd, pob vn a elo heibio iddi a ryfedda, ac a chwibiana, o herwydd ei holl ddialeddau hi. Ier.18.16. Ier.49.13. Ier.50.13.

9 A mi *a baraf iddynt fwytta cnawd eu meibion, a chnawd eu merched, bwytânt hefyd bob vn gnâwd ei gyfaill yn y gwarche a'r blinder, a'r hwn y blina eu gelynion hwynt, a'r rhai a fyddant yn ceiſio eu henioes hwynt. Deut.28.53. Galar.4.10.

10 Yna dryllia di yr ſtên yng-wydd y gwŷr a elont gyd â chi.

11 A dywet wrthynt, fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, y modd hwn y dryllaf y bobl hyn, a'r ddinas hon fel y dryllia [vn] leſtr pridd yr hwn ni ellir ei feddiginiaethu mwyach: ac yn Tophet y cleddir hwynt o eiſieu lle i gladdu.

12 Fel hyn y gwnaf i'r lle hwn, ac i'r rhai ſy yn trigo ynddo: ac mi a wnaf y ddinas hon megis Tophet,

13 Canys tai Ieruſalem, a thai brenhinoedd Iuda a ſyddant halogedic fel y fangre Tophet: ie yr holl dai y rhai yr arogldarthaſant ar eu pennau i holl lu y nefoedd, ac y tywalltaſant ddiod offrwm i dduwiau dieithr.

14 Yna y daeth Ieremi o Tophet lle yr anfonaſe yr Arglwydd ef i brophwydo, ac a ſafodd ym mhorth tŷ yr Arglwydd, ac a ddywedodd wrth yr holl bobl,

15 Fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele fi yn dwyn ar y ddinas hon, ac ar ei holl drefydd yr holl ddrygau y rhai a leferais iw herbyn, am galedu o honynt eu gwarrau rhac gwrando fyng-eiriau.

## PEN. XX.

Ieremi wedi ei daro ai garcharu. 3 Y mae efe yn prophwydo caethiwed Babilon. 7 Y mae efe yn achwyn ei fod yn watworgerdd am ei brophwydoliaeth, yr hon ni ddichon efe beidio â hi er ceiſio. 11 Yr Arglwydd yn ei amddeffyn pan oedd galedaf arno ef.

PAn glybu Phaſhur mab Immer yr offeiriad, yr hwn oedd yn benn golygwr yn nhŷ yr Arglwydd i Ieremi brophwydo y geiriau hyn.

2 Yna Phaſhur a darawodd Ieremi y prophwyd, ac ai rhoddodd ef yn y carchar yr hwn [oedd] yn y porth vchaf i Beniamin yr hwn [oedd] wrth dŷ yr Arglwydd.

3 A thrannoeth Phaſhur a ddug Ieremi allan o'r carchar, yna Ieremi a ddywedodd wrtho ef: ni eilw yr Arglwydd dy enw di Phaſhur, onid Magor Miſſabib.

4 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele fi yn rhoddi arnat ti ofn, [ie] arnat ti, ac ar y rhai oll a'th garant: a hwynt a ſyrthiant ar gleddyf eu gelynnion, a'th lygaid di yn gweled: rhoddaf hefyd holl Iuda yn llaw brenin Babilon, ac efe ai caethgluda hwynt i Babilon, ac ai lladd hwynt a'r cleddyf.

5 Rhoddaf hefyd holl olud y ddinas hon, ai holl lafur, a phob dim a'r y ſydd werthfawr ganddi: a holl dryſſorau brenhinoedd Iuda a roddaf i law eu gelynnion, y rhai ai difrodant hwynt, ac ai cymmerant, ac ai dygant i Babilon.

6 A thithe Phaſhur, a phawb a'r ſydd yn trigo yn dy dŷ a ewch mewn caethiwed, a thi a ddeui i Babilon: yno y byddi farw, ac yno i'th gleddir, ti a phob annwylyd i ti, y rhai y prophwydaiſt iddynt yn gelwyddoc.

7 O Arglwydd ti a'm hudaiſt, ac mi a hudwyd, cryfach oeddit na mi, am hynny y gorchfygaiſt: yr ydwyf yn watwargerdd ar hŷd y dydd, pob vn ſydd yn fyng-watwar.

8 Canys er pan leferais, mi a waeddais [yn erbyn] trais, ac [yn erbyn] anrhaith y llefais: am hynny y bu gair yr Arglwydd yn wradwydd, ac yn watwargerdd i mi beunydd.

9 Yna y dywedais, ni ſonniaf am dano ef, ac ni phregethaf yn ei enw ef mwyach: onid [ei air ef] oedd yn lloſci fel tân yn fyng-halon, wedi ei gaeu o fewn fy eſcyrn, ac mi a flinais yn ceiſio ymatal, ond ni allwn.

10 Canys clywais enllibiaeth llawer [a] dychryn o amgylch [gan ddywedyd,] mynegwch [ei fai ef] i ni, a ninnau ai mynegwn [i'r ſwyddogion:] pob dyn heddychol â mi [oeddynt] yn diſgwil cael bai arnaf [gan feddwl] ond odid efe a dwyllir, ac ni ai gorchfygwn ef, ac a ymddialwn arno.

11 Ond yr Arglwydd oedd gyd â mi fel cawr ofnadwy, am hynny y ſyrthiodd fy erlidwŷr, ac ni orchfygaſant, gwradwyddwyd hwynt yn ddirfawr, canys angall y gwnaethant, nid anghofir [eu] gwarth byth.

12 A thi Arglwydd y lluoedd yr hwn wyt yn profi y cyfiawn, gan weled yr arennau a'r galon, pâr i mi weled dy ddialedd arnynt: canys wrthit y treuthais fyng-hwŷn.

1.Sam 16.7.
1.Cron.28 9.
Pſal.7.9.
Ier.11.20.
Ier.17.10.

13 Cenwch i'r Arglwydd, moliennwch yr Arglwydd: canys efe a achubodd enaid y tlawd o law y drygionus, [pan oedd barod i ddywedyd,]

14 *Melldigedic [fyddo] y dydd i'm ganwyd arno: na fendiger y dydd i'm hescorodd fy mam.

Ioh 3.1.

15 Melldigedic fyddo y gwr yr hwn a fynegodd i'm tâd, gan ddywedyd: ganwyd i ti blentyn gwrryw, iw lawenychu ef.

16 A bydded y gwr hwnnw fel y dinaſoedd y rhai a ymchwelodd yr Arglwydd, ac ni bu edifar ganddo: a chaffed efe glywed gwaedd y borau, a bloedd hyd hanner dydd,

17 Am na laddodd fi [wrth ddyfod] o'r grôth, neu na buaſe fy mam yn fedd i mi, ai chroth yn feichiog byth.

18 Pa ham y deuthum i o'r grôth i weled poen a blinder? ac y darfydde fy nyddiau mewn gwarth?

## PEN. XXI.

Caethiwed Sedecia, a lloſciad y ddinas.

YGair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd, pan anfonodd y brenin Sedecia atto ef Phaſhur fab Malciah, a Sephania fab Maaſiah yr offeiriad gan ddywedyd:

2 Ymofyn attolwg a'r Arglwydd droſom ni (canys Nabuchodonoſor brenin Babilon ſydd yn rhyfela i'n herbyn ni) ond odid gwna yr Arglwydd â ni yn ôl ei holl ryfeddodau, ac efe â wnaiff [i hwn] fyned i fynu oddi wrthym ni.

3 Yna y dywedodd Ieremi wrthynt: fel hyn y dywedwch wrth Sedecia.

4 Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, wele fi yn troi yr arfau rhyfel y rhai ſy yn eich dwylo, y rhai yr ydych chwi yn rhyfela â hwynt yn erbyn brenin Babilon, a'r Caldeaid y rhai ydynt yn gwarche arnoch or tu allan i'r gaer: ac mi ai caſclaf hwynt i ganol y ddinas hon.

5 Ac mi a ryfelaf i'ch erbyn â llaw eſtynnedic, ac a braich gref mewn ſorriant, a llid, a digofaint mawr.

6 Tarawaf hefyd drigolion y ddinas hon yn ddŷn, ac yn anifail: fel y byddant feirw o farwolaeth fawr.

7 Ac wedi hynny medd yr Arglwydd y rhoddaf Sedecia frenin Iuda, ai weiſion, ai weryn, a'r rhai a weddillir yn y ddinas hon gan haint gan y cleddyf, a chan newyn, i law Nabuchodonoſor brenin Babilon, ac i law eu gelynnion, ac i law y ſawl ſydd yn ceiſio eu henioes: ac efe ai tery hwynt â mîn y cleddyf: ni choſturia wrthynt, ac nid erbyd, ac ni chymmer drugaredd

8 Ac wrth y bobl hyn y dywedi, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd: wele fi yn rhoddi ger eich bron ffordd enioes, a ffordd angeu.

Ier.38.2. 9 *Yr hwn a drigo yn y ddinas hon a leddir gan y cleddyf, a chan newyn, a chan haint a'r neb a elo allan, ac a gilio at y Caldeaid y rhai ydynt yn gwarche arnoch a fydd byw, ai enioes fydd *yn ſclyfaeth iddo. Ier.37.2. Ier.39.18. Ier.45.5.

10 Canys mi a oſodais fy wyneb yn erbyn y ddinas hon er drwg, ac nid er lles [iddi:] yn llaw brenin Babilon y rhoddir hi, ac efe ai llyſc hi â thân.

11 A [dywet] wrth dŷ brenin Iuda, gwrandewch air yr Arglwydd.

12 O tŷ Ddafydd fel hyn y dywed yr Arglwydd: bernwch iniondeb yn foreu, ac achubwch Ier.22.3. y *truan o law y traws: rhac i'm llid dorri allan fel tân a lloſci fel nad ellir ei ddiffodd o herwydd drygioni eich gweithredoedd.

13 Wele fi [yn dyfod] i'th erbyn yr hon wyt yn preſſwylio y dyffryn, y graig, [a'r] maes medd yr Arglwydd: ac yn dywedyd, pwy a yrr ofn arnom? neu pwy a ddaw i'n hanneddau?

14 Onid mi a ymwelaf â chwi yn ôl ffrwyth eich gweithredoedd medd yr Arglwydd: ac mi a gynneuaf dân yn eich coed-wig, yr hwn a yſa bob dim oi amgylch.

## PEN. XXII.

2 Y mae efe yn annog brenin Iuda i fod yn gyfiawn. 9 y mae yn dangos pa ham y caethiwyd Ieruſalem. 11 ac yn prophwydo marwolaeth Selum mab Ioſia.

FEl hyn y dywed yr Arglwydd, dos di i wared i dŷ brenin Iuda, a llefara yno y geiriau hyn:

2 A dywet, gwrando air yr Arglwydd frenin Iuda yr hwn wyt yn eiſtedd ar frenhin-faingc Dafydd, ti a'th weiſion a'th bobl y rhai ydynt yn dyfod trwy yr pyrth hynn.

Ier.21.12. 3 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, * gwnewch farn a chyfiawnder, a gwaredwch y gorthrymmedig o law y gorthrymmwr: na thriſtewch, ac na threiſiwch y dieithr, yr ymddifad na'r weddw, ac na thywelltwch waed gwirion yn y lle hwn.

4 Canys os gwnewch y peth hyn, daw drwy byrth y tŷ hwn frenhinoedd yn eiſtedd ar deyrngader Dafydd, * yn marchogaeth mewn cerbydau, ac ar feirch, efe ai weiſion, ai bobl. Ier.17.25.

5 Ac oni wrandewch y geiriau hyn, i'm fy hun y tyngais (medd yr Arglwydd) mai yn anghyfannedd y bydd y tŷ hwn.

6 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am dŷ brenin Iuda, Gilead ti [a fuoſt] i mi yn benn a'r Libanus, on i'th oſodaf yn ddiffaethwch [fel] y dinaſoedd anghyfanneddol?

7 Paratoaf hefyd i'th erbyn anrheith-wŷr, pob un ai arfau, a hwynt a dorrant dy ddewis cedr-wŷdd, ac ai bwriant i'r tân.

8 A chenhedloedd lawer a ânt heb law y ddinas hon, * ac a ddywedant pob un wrth ei gilydd: pa ham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn, i'r ddinas fawr hon? Deut.29.24. 1.Bren.9.8.

9 Yna yr attebant, am iddynt ymwrthod â chyfammod yr Arglwydd eu Duw hwynt, ac addoli duwiau dieithr ai gwaſanaethu hwynt.

10 Nac wylwch dros y marw, ac nac ymofidiwch am dano: gan wylo wylwch am yr hwn ſydd yn myned [i gaethiwed:] canys ni ddychwel mwyach i weled gwlad ei anedigaeth.

11 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd am Selum fab Ioſia brenin Iuda yr hwn a deyrnaſodd yn lle Ioſia ei dâd: yr hwn aeth ymmaith o'r lle hwn, ni ddychwel efe yno mwyach

12 Eithr yn y lle y caeth-gludir ef iddo, yno y bydd efe marw: ac ni wêl efe y wlad hon mwyach.

13 Gwae yr hwn a adailado ei dŷ mewn anghyfiawnder, ai ſtafellau yn anheilwng: gan beri iw gymmydog ei waſanaethu yn rhâd, ac heb roddi iddo ei gyflog.

14 Yr hwn a ddywed, mi a adailadaf i mi dŷ mawr, a ſtafellau helaeth, ac efe a nadd iddo ffeneſtri a llofft o cedr-wŷdd wedi ei liwio â fermilō.

15 A gei di deyrnaſu, am i ti ymgaeu mewn cedr-wŷdd? oni fwytaodd, ac oni yfodd dy dâd, ac oni bu dda iddo, tra y gwnaeth efe farn, a chyfiawnder?

16 Tra y rhoddodd efe farn am gŵyn y truan, a'r tlawd, yna y llwyddodd: ond [o herwydd] fy adnabod i [yr oedd] hyn medd yr Arglwydd?

17 Er hynny dy lygaid ti a'th galon nid [ydynt] onid ar dy fudd, ac ar dywallt gwaed gwirion, ac ar wneuthur trais, a cham.

18 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd am Iehoacim fab Ioſia frenin Iuda, ni alarant am dano [gan ddywedyd,] ô fy mrawd, neu ô fy chwaer: ni alarant am dano ef [gan ddywedyd,] oh Ior, neu oh ei ogoniant ef.

19 Fel *aſſyn y cleddir ef wedi ei luſco ai daflu allan o byrth Ierusalem. 2.Bren.24.9.

20 Dring i Libanus a gwaedda, dod ti dy lef yn Baſan, a bloeddia yn y bylchau: canys pob annwylyd i ti a ddiniſtriwyd.

21 Dywedais wrthit pan oedd eſmwyth arnat, tithe a ddywedaiſt, ni wrādawaf: dymma dy arfer o'th ieuenctid, ſef na wrandewit ar fy llais.

22 Y gwynt a bortha dy holl fugeiliaid, a'th gariadau a ânt i gaethiwed: yna i'th gywilyddir ac i'th wradwyddir am dy holl ddrygioni.

23 Ti yr hon wyt yn trigo yn Libanus, wedi nythu yn y cedr-wŷdd, pa hawddgarwch fydd i ti pan ddelo gwewyr arnat [fel] enofeudd [gwraig] yn eſcor?

24 [Fel] yr ydwyf yn fyw medd yr Arglwydd,

ydd, pe bydde Conanias mab Jehoacim brenin Juda yn fodrwy ar fy neheulaw: diau y tynnwn di oddi yno.

25 Ac mi a'th roddaf di yn llaw y rhai ſy yn ceiſio dy einioes, ac yn llaw y rhai y mae arnat ofn eu hwynebau, ſef i law Nabuchodonoſor brenin Babilon, ac i law y Caldeaid.

26 Bwriaf dithe hefyd: a'th fam yr hon a'th eſcorodd i wlâd ddieithr yr hon ni'th anwyd yn-ddi: ac yno y byddi farw.

27 Ac am y wlâd yr hon y bydd arnynt hiraeth am ddychwelyd iddi, ni ddychwelant yno.

28 Ai delw ddirmygus, dryllîedic [yw] y gŵr hwn Conanias? ai yſte lleſtr heb hoffter iddo? paham y bwriwyd ymmaith ef ai hâd, ac y taflwyd ef i wlâd yr hon nid adwaenent?

29 O ddaiar, ddaiar, ddaiar, gwrando air yr Arglwydd.

30 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, ſcrifennwch y gŵr hwn yn ddiblant: gŵr ni ffynna yn ei ddyddiau, ie ni ffynna o'i hâd ef vn a eiſteddo ar orſeddfa Dafydd, nac a lywodraetho mwyach yn Juda.

## PEN. XXIII.

Bygwth yn erbyn y bugeiliaid y rhai ydynt yn yſceuluſo y praidd. 5 Dyfodiad y bugail Criſt. 9 Beiau y gau brophwydi.

Ezec.34.2. GWae * y bugeiliaid y rhai ydynt yn difecha, ac yn gwaſcaru defaid fy mhorfa, medd yr Arglwydd.

2 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Israel, am y bugeiliaid y rhai ydynt yn bugeilio fy mhobl: chwi a waſcaraſoch fy nefaid, ac ai hymlidiaſoch, ac nid ymwelſoch â hwynt: wele fi yn ymweled â chwi, am ddrygioni eich gweithredoedd medd yr Arglwydd.

3 Ac mi a gasclaf weddill fy nefaid o'r holl wledydd [lle y] gyrrais hwynt, ac mi ai dychwelaf hwynt i'w corlannau: yna yr amlhânt, ac y chwanegant.

4 Goſodaf hefyd arnynt fugeiliaid y rhai ai bugeiliant hwynt, fel nad ofnant, ac na ddychrynant, ac na byddant yn eiſieu, medd yr Arglwydd.

5 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd fel y cyfodwyf i Ddafydd * flaguryn cyfiawn yr hwn a deyrnaſa yn Frenin, ac a lwydda, ac a wna farn, a chyfiawnder yn y tir. Eſa.11.1. Eſa.45.8.

6 Yn ei ddyddiau ef yr achubir Juda, ac *Israel a breſſwylia yn ddiogel: a hyn fydd ei enw [ar] yr hwn y gelwir ef, Yr Arglwydd ein cyfiawnder. Deut.33.28. Ier.33.16.

7 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd pryd na ddywedant mwyach, byw yw'r Arglwydd yr hwn a ddug feibion Israel i fynu o wlad yr Aipht:

8 Eithr, byw yw'r Arglwydd yr hwn a ddug i fynu, ac a dywyſodd hâd tŷ Israel o dir y gogledd, ac o bob gwlad lle y bwriaſwn i hwynt: a hwy a gânt aros yn eu gwlad eu hun.

9 O herwydd y gau-brophwydi y drylliodd fyng-halon ynof, a'm holl eſcyrn a grynaſant: yr ydwyf fel vn meddw, ac fel vn wedi i win ei orchfygu: rhac ofn yr Arglwydd, ac rhac ofn ei eiriau ſanctaidd ef.

10 Canys llawn yw yr ddaiar o odinebwŷr, o herwydd llwon y gofidiodd y ddaiar, ac y gwywodd trigleoedd yr anialwch, ie eu helynt ſydd ddrwg, a'i cadernid nid [yw] iniawn.

11 Canys y prophwyd a'r offeiriad hefyd a ragrithiaſant, yn fy nhŷ fy hun hefyd y cefais eu drygioni hwynt, medd yr Arglwydd.

12 Am hynny y bydd eu ffordd yn llithric iddynt, mewn tywyllwch y byrrir hwynt ymmaith, a ſyrthiant ynddi: canys myfi a ddygaf arnynt ddrygfyd [ſef] blwyddyn eu gofwy medd yr Arglwydd.

13 Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd ddiflaſter: prophwydaſant yn enw Baal, a hudaſant fy mhobl Israel.

14 Ac ar brophwydi Jeruſalem y gwelais frynti mawr, ſef torri priodas, a rhodio mewn celwydd, cynnorthwyaſant hefyd ddwylo y drygionus fel na ddychwele neb oddi wrth ei ddrygioni: pob vn o honynt ſydd i mi fel Sodoma ai thrigolion, [ac] fel Gomorra.

15 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd am y prophwydi hyn: wele mi ai bwydaf hwynt a'r wermod, ac ai diodaf hwynt â dwfr buſtl: canys oddi wrth brophwydi Jeruſalem yr aeth lledrith allan i'r holl dîr. Iere.8.14.

16 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, na wrandewch ar eiriau y prophwydi ſy yn prophwydo i chwi, dyſcu oferedd y maent i chwi: gweledigaethau eu calon eu hunain a leſarant, [ac] nid o enau yr Arglwydd.

17 Gan ddywedyd y dywedant wrth fy nirmygwŷr, yr Arglwydd a ddywedodd y bydde i chwi heddwch, ac [wrth] bob vn ſydd yn rhodio wrth amcan ei galon ei hun y dywedaſant, ni ddaw arnoch niwed.

18 Canys pwy a ſafodd yng-hyfrinach yr Arglwydd? ac a welodd, ac a glywodd ei air ef? pwy hefyd a yſtyriodd, ac a wrandawodd ei air ef.

19 Wele rhyferthwy yr Arglwydd [ſef] llidiawgrwydd aiff allan, a rhyferthwy angerddol a ſyrth ar benn y drygionus.

20 Digofaint yr Arglwydd ni ddychwel nes iddo wneuthur, a ſiccrhau meddwl ei galon: * yn y dyddiau diwethaf y deallwch hynny yn eglur. Ier.14.13. Ier.27.15. Ier.29.8.

21 Ni hebryngais i y prophwydi [hyn,] etto hwynt a redaſant: ni leferais wrthynt, er hynny hwynt a brophwydaſant.

22 Pe ſafaſent yn fyng-hyfrinach, yna hwy y a ddangoſaſent fyng-eiriau i'm pobl: gwnaethent hefyd iddynt ddychwelyd oi ffordd ddrwg, ac oddi wrth eu dychymygion drygionus.

23 Ai Duw o agos ydwyf fi medd yr Arglwydd, ac nid Duw o bell?

24 A lecha vn yn ei loches fel na's gwel-

wyfi ef medd yr Arglwydd? onid ydwyfi yn llenwi y nefoedd a'r ddaiar medd yr Arglwydd?

25 Mi a glywais beth a ddywedodd y prophwydi y rhai ydynt yn prophwydo celwydd yn fy enw, gan ddywedyd: breuddwydiais, breuddwydiais.

26 Pa hyd y bydd [hyn] yng-halon y prophwydi [ſef] prophwydo celwydd, a prophwydo dichell eu calon eu hunain?

27 Y rhai ydynt yn meddylio peri i'm pobl anghofio fy enw trwy eu breuddwydion, y rhai a fynegant bob un iw gymydog: megis yr anghofiodd eu tadau fy enw drwy Baal.

28 Y prophwyd yr hwn y del breuddwyd iddo, dangoſed ei freuddwyd, a'r hwn y dél fyng-air atto llefared fyng-air [mewn] gwirionedd: *beth [a wna] yr col gyd a'r gwenith? medd yr Arglwydd. Ezec.3.17. 1.Cor.2.17. 1.Pet.4.11.

29 Ond yw fyng-air i megis tân medd yr Arglwydd, ac fel gordd yn dryllio y graig?

30 Am hynny wele mi a[ddeuaf] yn erbyn y prophwydi (medd yr Arglwydd) y rhai ydynt yn lledrata fyng-eiriau bob un oddi ar ei gymydog.

31 Wele fi yn erbyn y prophwydi (medd yr Arglwydd) y rhai a wenhiaithant, ac a ddywedant [yr Arglwydd] ai dywedodd.

32 Wele fi yn erbyn y rhai a brophwydant freuddwydion celwyddoc medd yr Arglwydd, ac ai mynegant, ac a hudant fy mhobl trwy eu celwydd, ai gwagedd, a mi heb eu gyrru hwynt, ac heb orchymyn iddynt: am hynny ni wnant ddim lles i'r bobl hyn medd yr Arglwydd.

33 A phan ofynno y bobl hynn, neu y prophwyd neu yr offeiriad i ti gan ddywedyd: beth [yw] baich yr Arglwydd? ti a ddywedi iddynt beth [yw] yr baich, [ſef] mai eich gwrthod a wnaf medd yr Arglwydd.

34 A'r prophwyd a'r offeiriad, a'r bobl y rhai a ddywedo, baich yr Arglwydd: myfi a ymwelaf a'r gwr hwnnw, ac ai dŷ.

35 Fel hyn y dywedwch bob un wrth ei gilydd, a phob un wrth ei frawd, beth a atebodd yr Arglwydd, neu beth a lefarodd yr Arglwydd?

36 Ond am faich yr Arglwydd na choffewch mwyach, canys baich i bawb fydd ei air ei hun: o herwydd chwychwi a wyrasoch eiriau y Duw byw, Arglwydd y lluoedd ein Duw ni.

37 Fel hyn y dywedi wrth y prophwyd: pa ateb a roddodd yr Arglwydd i ti? a pha beth a lefarodd yr Arglwydd?

38 Ac os dywedwch chwi, baich yr Arglwydd, yna fel hynn y dywed yr Arglwydd: am i chwi ddywedyd y gair hwn, baich yr Arglwydd a mi wedi anfon attoch gan ddywedyd, nac yngenwch am faich yr Arglwydd,

39 Am hynny wele myfi a'ch codaf chwi yn faich, ac a'ch taflaf chwi, a'r ddinas yr hon a roddais i chwi, ac i'ch tadau o'm golwg.

Ierem.20.11. 40 Ac mi a roddaf arnoch warthrudd tragywyddol, a gwradwydd tragywydd, yr hwn nid anghofir.

## PEN. XXIIII.

Gweledigaeth y ddau gawelled ffigus, ai dirnad.

YR Arglwydd a ddangoſodd i mi weledigaeth, ac wele ddau *gawel o ffigus wedi eu goſod ar gyfer teml yr Arglwydd, wedi i Nabuchodonoſor brenin Babilon gaethgludo Iechonias fab Iehoacim brenin Iuda, a thywyſogion Iuda gyd a'r cywraint, a'r celſydd o Ieruſalem ai dwyn i Babilon. Ierem.21.8.

2 Un cawell [oedd] o ffigus da iawn fel ffigus yr addfediad cyntaf: a'r cawell arall oedd o ffigus drwg iawn, ac ni ellid moi bwyta rhag eu drycced.

3 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif, beth a weli di Ieremi? ac mi a ddywedais ffigus: y ffigus da yn dda iawn, a'r rhai drwg yn ddrwg iawn, fel na ellir eu bwyta rhac eu drycced.

4 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw Iſrael, fel [yr adwaenost ti] y ffigus dâ hyn, felly yr adwen i gaeth-glud Iuda y rhai a anfonais o'r lle hwn i wlad y Caldeaid er daioni [iddynt.]

6 Ac mi a osodaf fyng-olwg arnynt er daioni, ac ai dygaf trachefn i'r wlad hon, ac ai hadailadaf hwynt, ac ni ddifethafi hwynt, plannaf hefyd hwynt, ac ni's diwreiddiaf hwynt.

7 Rhoddaf hefyd iddynt galon i'm hadnabod, mai yr Arglwydd ydwyf: a hwynt a fyddant yn bobl i mi, a minnef a fyddaf yn Dduw iddynt: canys hwy a droant attafi ai holl galon.

8 Ac fel yr adwaenost y ffigus drwg y rhai nid ellir eu bwyta rhac eu drycced (canys fel hyn y dywed yr Arglwydd) felly y rhoddaf Sedecia frenin Iuda, ai bennaethiaid, a gweddill Ieruſalem, y rhai a weddillwyd yn y wlad hon, a'r rhai ſydd yn aros yn nhir yr Aipht. Iere.31.33. Heb.8.10.

9 Ie rhoddaf hwynt i drallod [a] drygfyd drwy holl deyrnasoedd y ddaiar, yn wradwydd ac yn ddihareb, yn watworgedd, ac yn felldith ym mhob man lle y gyrrwyf hwynt.

10 Ac mi a anfonaf arnynt y cleddyf, newyn a haint: nes eu darfod oddi ar y ddaiar yr hon a roddais iddynt, ac iw tadau.

## PEN. XXV.

Ieremi yn prophwydo y parhâu eu caethiwed hwynt ddeng-mhlynedd a thrugain. 12 Dinistr ar Babilon. 15 Ac ar genhedloedd eraill wedi hynny.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi am holl bobl Iuda, yn y bedwaredd flwyddyn i Iehoacim fâb Ioſiah frenin Iuda: hon [oedd] y flwyddyn gyntaf i Nabuchodonoſor frenin Babilon,

2 Yr hwn a lefarodd y prophwyd Ieremi wrth holl bobl Iuda, ac wrth holl breſwyl-wyr Ieruſalem, gan ddywedyd:

3 Er y drydedd flwyddyn, ar ddeci Ioſiah fâb Amon frenin Iuda, hyd y dydd hwn, hon yw y drydedd flwyddyn ar hugain y mae gair yr Arglwydd gyd â mi: ac mi a ddywedais wrthych *gan foreu godi, a llefaru, ond ni wrandawsoch Ierem.7.13.

4 A'r Arglwydd a anfonodd attoch chwi, ei holl weiſion, y prophwydi, gan foreu-godi: (ond ni wrandawſoch, ac ni ogwyddaſoch eich cluſtiau i glywed.)

5 [A] chan ddywedyd, dychwelwch yr awr hon bôb un oddi wrth ei ffordd ddrwg, ac oddi wrth ddrygioni eich gweithredoedd: a chwi a gewch drigo yn y tir yr hwn a roddodd yr Arglwydd i chwi, ac i'ch tadau byth, ac yn dragywydd.

6 Ac nac ewch ar ôl duwiau dieithr i'w gwaſanaethu, ac i ymgrymmu iddynt: ac na llidiwch fi â gweithredoedd eich dwylo, fel na wnelwyf niwed i chwi.

7 Er hynny ni wrandawſoch arnaf medd yr Arglwydd, eithr digiaſoch fi â gweithredoedd eich dwylo, er drwg i chwi eich hunain,

8 Am hynny fel-hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, o herwydd na wrãdawſoch fyng-eiriau,

9 Wele mi a anfonaf am, ac a gymmeraf holl deuluoedd y gogledd medd yr Arglwydd, a Nabuchodonoſor brenin Babilon fyng-wâs, ac mi ai dygaf hwynt yn erbyn y wlâd hon, ac yn erbyn ei phreſſwyl-wŷr, ac yn erbyn yr holl genhedloedd hyn oddi amgylch: difrodaf hwynt hefyd, a goſodaf hwynt yn chwithter, ac yn chwibaniad, ac yn anrhaith tragywyddol.

Ierem.16.9.
10 * Paraf hefyd i lais hyfrydwch, ac i lais llawenydd, i lais y priod-fab, ac i lais y briod-ferch, i ſŵn y meini melinau, ac i lewyrch y canhwyllau ballu ganddynt.

11 A'r holl dir hwn fydd yn ddiffaethwch, ac yn anghyfannedd, a'r cenhedloedd hyn a waſanaethant frenin Babilon ddeng-mhlynedd a thrugain.

2.Cron.36.22.
dan.9.2.
12 A phan gyflawner * deng-mhlynedd a thrugain myfi a ymwelaf â brenin Babilon, ac a'r genhedlaeth honno medd yr Arglwydd am eu hanwiredd hwynt, ie ag â gwlad y Caldeaid: ac mi ai goſodaf hi yn anghyfannedd tragywyddol.

13 Dygaf hefyd ar y wlâd honno yr holl eiriau y rhai a leferais i yn ei herbyn, ſef cwbl a'r y ſydd yn ſcrifennedic yn y llyfr hwn: yr hyn a brophwydodd Ieremi yn erbyn yr holl genhedloedd.

14 Canys cenhedloedd lawer, a brenhinoedd mawrion a wnant i'r rhai hynn eu gwaſanaethu: felly y talaf iddynt yn ôl eu gweithredoedd, ac yn ôl gwaith eu dwylo.

Pſal.75.8.
eſa.51.17.
15 Canys fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Duw Iſrael wrthifi: derbyn di * y phiol hon o win[fy]nigofaint o'm llaw, a dot ti hi i'w hyfed i'r holl genhedloedd, y rhai i'th yrrais di attynt.

16 Fel yr yfant, ac y brawychant, ac y gwallgofant rhag y cleddyf yr hwn a anfonaf yn eu plith.

17 Yna mi a dderbynnais y phiol o law yr Arglwydd, ac ai rhoddais i'w hyfed i'r holl genhedloedd, y rhai yr anfonaſe yr Arglwydd fi attynt:

18 I Ieruſalem, ac i ddinaſoedd Iuda, i'w brenhinoedd hi, ac i'w thywyſogion: i'w rhoddi hwynt yn ddiffaethwch, yn anghyfannedd yn chwibianad, ac yn felldith fel [y gwelir] heddyw,

19 I Pharao frenin yr Aipht, ac i'w weiſion, i'w dywyſogion ef hefyd, ac i'w holl bobl,

20 Ac i bôb math ar bobl, ac i holl frenhinoedd gwlâd * Hus, a holl frenhinoedd gwlâd y Philiſtiaid, ac i Aſcalon, Azah, Accaron, a gweddill Aſood, Iob.1.1.

21 I'r Edomiaid, a'r Moabiaid, ac i feibion Ammon,

22 I holl frenhinoedd Tirus hefyd, ac i holl frenhinoedd Sidon, ac i frenhinoedd yr ynyſoedd y rhai [ydynt] tros y môr,

23 I Dedan, a Thema, a Buz: ac i bawb o gyrrau eithaf y bŷd,

24 Ac i holl frenhinoedd Arabia [gyfoethog,] ac i holl frenhinoedd yr Arabiaid y rhai ydynt yn trigo yn yr anialwch,

25 Ac i holl frenhinoedd Zimri, ac i holl frenhinoedd Elam, ac i holl frenhinoedd y Mediaid,

26 Ac i holl frenhinoedd y gogledd, agos, a phell, pob vn at ei gilydd, ac i holl deyrnaſoedd y bŷd y rhai ydynt ar wyneb y ddaiar: brenin * Seſach a ŷf ar eu hôl hwynt, Ierc.51.41.

27 Am hynny dywet wrthynt, fel hynn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: yfwch a meddwwch, a chwdwch, a ſyrthiwch, ac na chyfodwch gan y cleddyf yr hwn a anfonwyf i'ch plith.

28 Ac os gwrthodant dderbyn y phiol o'th law di i yfed, yna dywet, fel hynn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, diau yr yfwch.

29 Canys wele mi a ddechreuais ddrygu y ddinas yr hon y gelwir fy enw arni, ac a ddiengwch chwi? na ddiengwch, canys yr ydwyfi yn galw am gleddyf ar holl drigolion y ddaiar medd Arglwydd y lluoedd,

30 Am hynny prophwyda wrthynt yr holl eiriau hynn, a dywet wrthynt: * yr Arglwydd oddi vchod a rua, ac a rydd ei lef o drigle ei ſancteiddrwydd, gan ruo y rhua efe yn ei lŷs, bloedd a ddyru efe ar holl breſſwyl-wŷr y ddaiar fel rhai yn ſathru [grawn-win.] Ioel.3.16. amos.1.2.

31 Daw twrwf hyd eithafoedd y ddaiar, canys [y mae] cŵyn rhwng yr Arglwydd a'r cenhedloedd, efe a ymddadle â phob cnawd, y drygionus a ddyru efe i'r cleddyf medd yr Arglwydd.

32 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, wele ddrwg yn myned allan o genhedlaeth i genhedlaeth: a * rhyferthwy mawr yn cyfodi o yſtlyſoedd y ddaiar. Ierem.30.23.

33 A lladdedigion yr Arglwydd a fyddant y dwthwn hwnnw o'r naill gwrr i'r ddaiar hyd y cwrr arall i'r ddaiar, ni alerir droſtynt, ac ni's ceſclir, ac ni's cleddir hwynt, fel tommen y byddant ar wyneb y ddaiar.

34 Udwch fugeiliaid, a gwaeddwch, ac ym-

dreiglwch mewn lludw, chwi flaenoriaid y praidd, canys cyflawnwyd dydd eich lladdfa, a'ch gwaſcarfa, a chwi a ſyrthiwch fel lleſtr annwyl.

35 Methodd gan y bugeiliaid gael lle i ffoi: a chan flaenoriaid y praidd ddiangc.

36 [Clywir] llef gwaedd y bugeiliaid, ac udfa blaenoriaid y praidd: am i'r Arglwydd anrheithio eu porfa hwynt.

37 A'r anneddau heddychlon a ddryllir gan lîd [a] digofaint yr Arglwydd.

38 Efe a wrthododd ei babell fel cenew llew: am fod eu tîr yn anghyfannedd, gan lîd y gorthrymmwr, a chan lîd ei ddigofaint ef.

## PENN. XXVI.

Pregeth Ieremi: 7 yr offeiriaid yn ei ddal ef, ac yn achwyn rhacddo. 23 Lladdiad Vrias.

YN nechreu teyrnaſiad Iehoacim fab Ioſia brenin Iuda y daeth y gair hwn oddi wrth yr Arglwydd, gan ddywedyd:

2 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, ſaf di ymmhorth tŷ yr Arglwydd, a lleſara wrth holl ddinaſoedd Iuda, y rhai a ddelont i addoli i dŷ yr Arglwydd yr holl eiriau y rhai a orchymynnaf i ti eu lleſaru wrthynt, * nac attal air.

Act.20.27.

3 Ond odid hwy a wrandawant, ac a ddychwelant bôb vn oi ffordd ddrwg: ac mi a edifarhaf am * y drwg yr hwn a amcenais ei wneuthur iddynt am ddrygioni eu gweithredoedd.

Iere.18.8.

4 A dywet wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, oni wrandewch arnaf gan rodio yn fyng-hyfraith yr hon a roddais ger eich bron,

5 [A] chan wrando ar eiriau fyng-weiſion y prophwydi y rhai a anfonais i attoch, gan godi yn foreu, ac anfon, a chwi heb glywed:

6 Yna y rhoddaf y tŷ hwn fel Silo, a'r ddinas hon a roddaf yn felldigedic gan holl genhedloedd y ddaiar.

7 Yr offeiriaid hefyd, a'r prophwydi, a'r holl bobl a glywſant Ieremi yn lleſaru y geiriau hyn yn nhŷ yr Arglwydd.

8 A phan ddarfu i Ieremi leſaru yr hyn oll a'r a orchymynnaſe yr Arglwydd ei ddywedyd wrth yr holl bobl: yna yr offeiriaid a'r prophwydi, a'r holl bobl ai daliaſant ef gan ddywedyd, ti a leddir yn farw.

9 Paham y prophwydaiſt yn enw yr Arglwydd? gan ddywedyd, fel Silo y bydd * y tŷ hwn, a'r ddinas hon a wneir yn anghyfannedd heb vn preſſwylwr: felly yr ymgaſclodd yr holl bobl at Ieremi yn nhŷ yr Arglwydd.

Pſalm.132.14.
mat.26.61.
act.6.13.

10 Pan glybu tywyſogion Iuda y geiriau hyn, yna hwy a ddaethant i fynu o dŷ yr brenin i dŷ'r Arglwydd: ac a eiſteddaſant ar ddrws porth newydd [yr] Arglwydd.

11 Yna yr offeiriaid a'r prophwydi a leſarâſant wrth y tywyſogiō, ac wrth yr holl bobl gan ddywedyd: barn marwolaeth [ſydd ddyledus] i'r gŵr hwn, canys efe a brophwydodd yn erbyn y ddinas hon, megis y clywſoch a'ch cluſtiau.

12 Yna y lleſarodd Ieremi wrth yr holl dywyſogion, ac wrth yr holl bobl, gan ddywedyd: yr Arglwydd a'm hanfonodd i brophwydo yn erbyn y tŷ hwn, ac yn erbyn y ddinas hon, yr holl eiriau a'r a glywſoch.

13 Gan hynny gwellhewch yn awr eich ffyrdd, a'ch gweithredoedd, a gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw: ac fe a edifarhâ yr Arglwydd am y drwg yr hwn a leſarodd efe i'ch erbyn.

14 Ac wele fyfi yn eich dwylo: gwnewch i mi fel y gwelech yn ddâ ac yn iniawn.

15 Onid gwybyddwch yn ſiccr os chwi a'm lladd, mai gwaed gwirion yr ydych chwi yn ei roddi arnoch, ac ar y ddinas hon, ac ar ei thrigolion: canys mewn gwirionedd yr Arglwydd a'm hanfonodd attoch i leſaru lle y clywech yr holl eiriau hyn.

16 Yna y tywyſogion, a'r holl bobl a ddywedaſant wrth yr offeiriaid, a'r prophwydi, ni [[illegible]ddwn] ar y gŵr hwn farn marwolaeth: canys yn enw yr Arglwydd ein Duw y lleſarodd efe wrthym.

17 Yna rhai o henuriaid y wlâd a godâſant, ac a leſaraſant wrth holl gynnulleidfa y bobl, gan ddywedyd:

18 Micheas y Moraſthiad * oedd yn prophwydo yn nyddiau Hezeciah brenin Iuda, ac efe a leſarodd wrth holl bobl Iuda gan ddywedyd: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Sion a erddir [fel] maes, ac Ieruſalem a fydd yn garneddau, a mynydd tŷ [yr Arglwydd] yn vchelfa goedoc.

Mic.1.1.
mic.3.12.

19 A roddodd Hezeciah, a holl Iuda ef i farwolaeth? oni ofnodd efe yr Arglwydd, ac [oni] weddiodd efe ger bron yr Arglwydd? fel yr edifarhaodd yr Arglwydd am y drwg yr hwn a amcanaſe efe yn eu herbyn? wrth hynny a wnawni ninnau y drwg mawr hwn yn erbyn ein heneidiau?

20 Ac yr oedd hefyd ŵr yn prophwydo yn enw yr Arglwydd [ſef] Vrias mab Semaiah o Ciriathiarim, ac efe a brophwydodd yn erbyn y ddinas hon, ac yn erbyn y wlâd hon yr vn modd ag Ieremi.

21 Pan glywodd y brenin Iehoacim, ai holl gedyrn, ai dywyſogion ei eiriau ef, yna y brenin a geiſiodd ei ladd ef: a phan glywodd Vrias, yna efe a ofnodd, ac a ffôdd, ac a aeth i'r Aipht.

22 A'r brenin Iehoacim a anfonodd wŷr i'r Aipht [ſef] Elnathan fab Achbor a gwŷr gyd ag ef i'r Aipht.

23 A hwynt a gyrchaſant Vrias allan o'r Aipht, ac ai dygaſant ef at y brenin Iehoacim: yr hwn ai lladdodd ef â'r cleddyf, ac a fwriodd ei gelain ef i feddau y cyffredin.

24 Eithr llaw Ahicham fab Saphan oedd gyd ag Ieremi, fel na roddwyd ef i law y bobl iw ladd.

## PEN. XXVII.

Yr Arglwydd yn peri i Ieremi anfon rhwymau i frenin Iuda, ac i'r brenhinoedd oi amgylch iw rhybuddio hwynt, ac i arwyddocau y byddent hwy gaethion i Nabuchodonoſor. 9 Rhybudd rhac y gau brophwydi.

YN nechreu teyrnaſiad Iehoacim fab Ioſia brenin Iuda y daeth y gair hwn at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd gan ddywedyd:

2 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthif: gwna i ti rwymau, a gefynnau, a dot hwynt am dy wddf.

3 Ac anfon di hwynt at frenin Edom, ac at frenin Moab, ac at frenin meibion Ammon, ac at frenin Tyrus, ac at frenin Sidon yn llaw y cennadau a ddelont i Ieruſalem at Sedecia frenin Iuda.

4 A dot orchymyn gyd â hwynt at eu harglwyddi gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, fel hyn y dywedwch wrth eich arglwyddi:

5 Myfi a wneuthum y ddaiar, a'r dynion, a'r anifeiliaid y rhai [ydynt] ar wyneb y ddaiar â grym mawr, ac â braich eſtynnedic, ac ai rhoddais hwynt i'r neb y gwelais yn dda.

6 Ac yn awr mi a roddais yr holl diroedd hyn yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon fyngwâs: rhoddaf hefyd anifeiliaid y maes iw waſanaethu ef.

7 A'r holl genhedlaethau ai gwaſanaethant ef, ai fab, a mab ei fab: nes dyfod amſer ei wlâd ef, ai [amſer] yntef, yna cenhedloedd lawer a brenhinoedd mawrion a wnant iddo ef eu gwaſanaethu.

8 Ond y genhedlaeth a'r deyrnas yr hon ni's gwaſanaetho ef ſef Nabuchodonoſor brenin Babilon, ſef y rhai ni roddant eu gwddf tann iau brenin Babilon: â haint yr ymwelaf a'r genhedlaeth honno medd yr Arglwydd, nes i mi eu difetha hwynt trwy ei law ef.

9 Am hynny na wrandewch chwi ar eich prophwydi, nac ar eich dewiniaid, nac ar eich aſtronomiwŷr, nac ar eich hudolion y rhai ydynt yn llefaru wrthych gan ddywedyd: nid rhaid i chwi waſanaethu brenin Babilon:

10 Canys celwydd y mae y rhai hyn yn ei brophwydo i chwi, i'ch gyrru chwi ym mhell o'ch gwlâd fel y bwriwyf chwi ymmaith, ac y methoch,

11 Ond y genhedlaeth yr hon a roddo ei gwddf dann iau brenin Babilon, ac ai gwaſanaetho ef, y rhai hynny a adawaf yn eu gwlâd eu hun medd yr Arglwydd, a hwynt ai coleddant hi, ac a arhoſant ynddi.

12 Ac mi a leferais wrth Sedecia frenin Iuda yr holl eiriau hyn gan ddywedyd: rhoddwch eich gwarrau dann iau brenin Babilon, a gwaſanaethwch ef, ai bobl fel y byddoch byw.

13 Pa ham y byddwch feirw, ti a'th bobl trwy y cleddyf, trwy newyn, a thrwy haint: fel y dywedodd yr Arglwydd am y genhedlaeth yr hon ni waſanaethe frenin Babilon?

14 Am hynny na wrandewch ar eiriau y prophwydi y rhai a lefarant wrthych chwi gan ddywedyd, nid rhaid i chwi waſanaethu brenin Babilon: canys y maent yn prophwydo celwydd i chwi.

15 O herwydd nid myfi ai hanfonodd hwynt * medd yr Arglwydd, er hynny hwy a brophwydaſant yn fy enw ar gelwydd, i beri i mi eich bwrw chwi ymmaith fel y darfydde am danoch chwi, a'r prophwydi y rhai ydynt yn prophwydo i chwi.

Ierem.14.14.
ierem 23.21.
ierem.29.9.

16 Myfi a leferais hefyd wrth yr offeiriaid, a'r holl bobl hynn gan ddywedyd: fel hynn y dywed yr Arglwydd, na wrandewch ar eiriau y prophwydi, y rhai ydynt yn prophwydo i chwi gan ddywedyd: wele lleſtri tŷ yr Arglwydd a ddygir yn eu hôl bellach ar frŷs, canys celwydd y maent yn ei brophwydo i chwi.

17 Na wrandewch arnynt, gwaſanaethwch chwi frenin Babilon, fel y byddoch byw: pa ham y bydd y ddinas hon yn ddiffaethwch?

18 Ond os prophwydi ydynt hwy, ac od ydyw gair yr Arglwydd gyd â hwynt, * eiriolant yr awr hon ar Arglwydd y lluoedd, nad elo y lleſtri y rhai a adawyd yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn nhŷ brenin Iuda, ac yn Ieruſalem i Babilon.

Gene.20.7.

19 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, am y * colofnau, ac am y gerwyn, ac am yr ſtolion, ac am y rhann arall o'r lleſtri y rhai a adawyd yn y ddinas hon,

2.bren.25.13.

20 Y rhai ni ddug brenin Babilon ymmaith *pan gaeth-gludodd efe Iechonias fab Iehoacim frenin Iuda o Ieruſalem i Babilon, ynghyd â holl bendefigion Iuda, ac Ieruſalem,

2.Bren. 24.12.

21 Canys fel hynn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael am y lleſtri y rhai a adawyd yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn nhŷ brenin Iuda ac Ieruſalem:

22 Hwynt a ddygir i Babilon, ac yno y byddant hyd y dydd yr ymwelwyf â hwynt medd yr Arglwydd: yna y dygaf fi hwynt i fynu, ac y dychwelaf hwynt i'r lle hwn.

## PEN. XXVIII.

Gau brophywydoliaeth Hananias, 12 A chywir brophwydoliaeth Ieremi.

AC yn y flwyddyn honno yn nechreu teyrnaſiad Sedecia brenin Iuda, yn y bedwaredd flwyddyn, ac y pummed mis y llefarodd Hananias mab Azzur y prophwyd yr hwn oedd o * Gibeon wrthifi yn nhŷ yr Arglwydd yngŵydd yr offeiriaid, a'r holl bobl gan ddywedyd:

Ioſu.21.17.

2 Fel hyn y llefarodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael gan ddywedyd: myfi a dorrais iau brenin Babilon.

3 O fewn yſpaid dwy flynedd myfi a ddygaf trachefn i'r lle hwn holl leſtri tŷ yr Arglwydd y rhai a ddug Nabuchodonoſor brenin Babilon ymmaith o'r lle hwn, ac ai cludodd i Babilon.

4 Ac mi a ddygaf Iechonias fab Iehoacim frenin Iuda, a holl gaeth-glud Iuda (y rhâi a aethant i Babilon) trachefn i'r lle hwn, medd yꝛ Arglwydd: canys mi a doꝛraf iau bꝛenin Babilon.

5 Yna Ieremi y pꝛophwyd a ddywedodd wꝛth Hananias y pꝛophwyd yng-ŵydd yꝛ offeiriaid, ac yng-ŵydd yꝛ holl bobl y rhai oeddynt yn ſefyll yn nhŷ yꝛ Arglwydd.

6 A'r pꝛophwyd Ieremi a ddywedodd, Amen, poed felly y gwnelo yꝛ Arglwydd: yꝛ Arglwydd a gyflawno dy eiriau di, y rhai a bꝛophwydaiſt, am ddwyn trachefn leſtri tŷ yꝛ Arglwydd, a'r holl gaeth-glud o Babilon i'r lle hwn.

7 Etto gwꝛando di yꝛ awꝛ hon y gair ymma yꝛ hwn a lefarafi lle y clywech di, ac lle y clywo yꝛ holl bobl.

8 Y pꝛophwydi y rhai a fuant o'm blaen i, ac o'th flaen dithe er ioed, ac a bꝛophwydâſant am wledydd lawer, ac am deyꝛnaſoedd mawꝛion, am ryfel, ac am ddꝛyg-fyd, ac am haint.

9 Y pꝛophwyd yꝛ hwn a bꝛophwydo am heddwch, pan ddele gair y pꝛophwyd [i benn] yꝛ adnabyddid y pꝛophwyd, mai yꝛ Arglwydd ai hanfonaſe ef mewn gwirionedd.

10 Yna Hananias y pꝛophwyd a gymmerodd y gefyn oddi am wddf Ieremi y pꝛophwyd, ac ai toꝛrodd ef.

11 A Hananias a lefarodd yng-ŵydd yꝛ holl bobl gan ddywedyd, fel hynn y dywedodd yꝛ Arglwydd, y modd hynn y toꝛrafi iau Nabuchodonoſoꝛ bꝛenin Babilō o fewn yſpaid dwy flynedd oddi ar warr pob cenhedlaeth: ac Ieremi y pꝛophwyd a aeth i ffoꝛdd.

12 Yna y daeth gair 'r Arglwydd at Ieremi wedi i Hananias y pꝛophwyd doꝛri y gefyn oddi am wddf y pꝛophwyd Ieremi, gan ddywedyd:

13 Dos di a dywet wꝛth Hananias gan ddywedyd, fel hynn y dywedodd, yꝛ Arglwydd: gefynnau pꝛenn a doꝛraiſt ti, ond ti a wnei yn eu lle hwynt efynnau o haiarn.

14 Canys fel hynn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, Duw Iſrael, rhoddaf iau o haiarn, ar warr yꝛ holl genhedloedd hynn, fel y gwaſanaethont Nabuchodonoſoꝛ frenin Babilon, ie hwynt ai gwaſanaethant ef: mi a roddais hefyd anifeiliaid y maes iddo ef.

15 Yna Ieremi y pꝛophwyd a ddywedodd wꝛth Hananias y pꝛophwyd, gwꝛando atolwg Hananias, ni anfonodd yꝛ Arglwydd mo honoti, a thi a wnaethoſt i'r bobl hyn goelio celwydd.

16 Am hynny fel hynn y dywedodd yꝛ Arglwydd, wele mi a'th anfonaf di allan o'ꝛ wlâd [ofewn] y flwyddyn hon y byddi farw: canys ti a leferaiſt yn wꝛthryfelgar yn erbyn yꝛ Arglwydd.

17 Felly Hananias y pꝛophwyd a fu farw y flwyddyn honno, yn y ſeithfed mis.

## PEN. XXIX.

Llythr Ieremi at y caethion o fewn Babilon. 10 Y mae efe yn prophwydo amſer eu rhydd-did.

DYmma eiriau y llythꝛ yꝛ hwn a anfonodd Ieremi y pꝛophwyd o Ieruſalem at weddill henuriaid y gaeth-glud, ac at yꝛ offeiriaid, ac at y pꝛophwydi, ac at yꝛ holl bobl y rhai a gaeth-gludaſe Nabuchodonoſoꝛ o Ieruſalem i Babilon,

2 (Wedi mynediad Iechonias y bꝛenin, a'r frenhines a'r ſtafellyddion, tywyſogion Iuda, ac Ieruſalem a'r celfydd, a'r cywꝛaint hefyd allan o Ieruſalem) Iere.24.2.

3 Yn llaw Elaſah fab Saphan, a Gemaria fab Helcia (y rhai a anfonodd Sedecia bꝛenin Iuda at Nabuchodonoſoꝛ frenin Babilon i Babilon) gan ddywedyd:

4 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael wꝛth yꝛ holl gaeth-glud, yꝛ hon a berais ei chaeth-gludo o Ieruſalem i Babilon:

5 Adeiledwch dai a phꝛeſwyliwch, a phlennwch erddi, a bwytewch eu ffrwyth hwynt.

6 Cymmerwch wꝛagedd, ac ennillwch feibion, a merched, a chymmerwch wꝛagedd i'ch meibion, a rhoddwch eich merched i wŷꝛ fel yꝛ eſcoꝛant feibion, a merched, ac yꝛ amlhaoch chwi yno, ac na leihâoch.

7 Ceiſiwch hefyd heddwch y ddinas yꝛ hon i'ch caeth-gludais iddi, a gweddiwch ar yꝛ Arglwydd dꝛoſti hi: canys yn ei heddwch hi, y bydd heddwch i chwithau.

8 O herwydd fel hynn y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, na thwylled eich pꝛophwydi y rhai [ydynt] yn eich myſc chwi mo honoch, na'ch dewiniaid, ac na wꝛandewch ar eich bꝛeuddwydion y rhai yꝛ ydych chwi yn eu bꝛeuddwydio:

9 Canys y maent hwy yn pꝛophwydo i chwi gelwydd yn fy enw i: ni anfonais i hwynt medd yꝛ Arglwydd.

10 O herwydd fel hynn y dywed yꝛ Arglwydd, pan gyflawner yn Babilon ddeng-mlynedd a thꝛugain yꝛ ymwelaf â chwi: yna y cyflawnafi â chwi fyng-air daionus, am eich dwyn chwi trachefn i'r lle hwn.

11 O blegit myfi a wn yꝛ amcannion y rhai a amcenais i am danoch chwi medd yꝛ Arglwydd [ſef] amcannion heddwch, ac nid niwed, i roddi i chwi y diwedd yꝛ hwn yꝛ ydych chwi yn ei ddiſgwil.

12 Yna y gelwch chwi arnaf, ac yꝛ ewch, ac y gweddiwch arnafi, a minne a'ch gwꝛandawaf.

13 Ceiſiwch fi hefyd, ac chwi a'm cewch 2.Cron.36.22.
canys chwi a'm ceiſiwch fi a'ch holl galon. ezra.1.1.
14 Gadawaf i chwi fyng-hael medd yꝛ Arglwydd, iere.25.12.
ac mi a ddychwelaf eich caethiwed, dan.9.2.
ac a'ch caſclaf chwi o'ꝛ holl genhedloedd, ac o'ꝛ holl leoedd y rhai i'ch gyꝛrais chwi iddynt medd yꝛ Arglwydd, ac mi a'ch dygaf chwi trachefn i'r lle yꝛ hwn y perais eich caeth-gludo chwi allan o honaw.

15 O herwydd i chwi ddywedyd, yꝛ Arglwydd a gyfododd bꝛophwydi i ni yn Babilon.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd am y brenin yr hwn ſydd yn eiſtedd ar deyrn-gader Dafydd, ac am yr holl bobl y rhai ydynt yn aros yn y ddinas hon, a'ch brodyr y rhai nid aethant allan gyd â chwy yn y gaeth-glud:

17 [Ie] fel hyn y dywedodd Arglwydd y lluoedd, wele fi yn anfon arnynt y cleddyf, a'r newyn, a haint, ac mi ai rhoddaf hwynt fel y ffigus ffiaidd y rhai nid ellir eu bwytta rhac eu drycedd.

18 Ac mi ai herlidiaf hwynt â chleddyf, â newyn, ac â haint, ac mi ai rhoddaf hwynt, i [fod] yn derfysc i holl deyrnasoedd y ddaiar * yn felldith, ac yn chwithdra, yn chwibaniad hefyd, ac yn warth ym mysc yr holl genhedloedd lle y gyrrais i hwynt.

Ier.26.6.

19 Am na wrandawſant ar fyng-eiriau medd yr Arglwydd y rhai a anfonais i attynt gyd a'm gweiſion y prophwydi, gan gyfodi yn foreu, ac anfon: ond ni wrandawech medd yr Arglwydd.

20 Gan hynny gwrandewch chwi air yr Arglwydd yr holl gaeth-glud yr hon a anfonais o Jeruſalem i Babilon.

21 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael am Ahab fab Colaiah, ac am Sedecia fab Maaſiah y rhai ſy yn prophwydo celwydd i chwi yn fy enw i: wele myfi ai rhoddaf hwynt yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon, ac efe ai lladd hwynt yngŵydd eich llygaid.

22 A holl gaeth-glud Juda yr hon [ſydd] yn Babilon a arferant y rhegen [hon] oddi wrthynt hwy, gan ddywedyd: goſoded yr Arglwydd dy di fel Sedecia, ac Ahab y rhai a bobodd brenin Babilon wrth tân.

23 Am iddynt wneuthur ffolineb yn Iſrael a'gwneuthur godineb gyd â gwragedd eu cymydogion, a llefaru o honynt eiriau iddynt: a minne yn gwybod, ac yn dyſt [o hyn] medd yr Arglwydd.

24 Ac wrth Semeiah y Nehelamiad y lleferi di gan ddywedyd:

25 Fel hyn y llefarodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael gan ddywedyd: am i ti anfon yn dy enw dy hun lythyrau at yr holl bobl y rhai [ſy] yn Jeruſalem, ac at Sophoniah fab Maaſiah yr offeiriad, ac at yr holl offeiriaid gan ddywedyd:

26 Yr Arglwydd a'th oſododd di yn offeiriad yn lle Jehoiada yr offeiriad i fod yn olygwyr yn nhŷ yr Arglwydd ar bob gŵr gorphwyllioc, ac yn cymmeryd arno brophwydo, iw roddi ef mewn carchar a chyphion.

27 Ac yn awr paham na cheryddi di Jeremi o Anathoth yr hwn ſydd yn prophwydo i chwi?

28 Canys efe a anfonodd attom ni i Babilon, gan ddywedyd, hir ſydd [y gaethiwed hon,] adeiledwch, a phreſſwyliwch a phlennwch erddi, a bwyttewch oi ffrwyth hwynt.

29 A Sophoniah yr offeiriad a ddarllenodd y llythyr hwn lle y clywodd Jeremi y prophwyd.

30 Yna y daeth gair yr Arglwydd at Jeremi gan ddywedyd:

31 Anfon di at yr holl gaeth-glud gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd am Semeiah y Nehelamiad: o herwydd i Semeiah brophwydo i chwi, a minne heb ei anfon ef, a pheri o honaw ef i chwi goelio celwydd,

32 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele fi yn ymweled â Semeiah y Nehelamiad, ac ai hâd ef, ni bydd iddo un a eiſteddo ym mysc y bobl hyn, ac ni chaiff efe weled y daioni yr hwn a wnafi i'm pobl medd yr Arglwydd, am iddo ddywedyd yn wrthryfelgar yn erbyn yr Arglwydd.

## PEN. XXX.

Dychweliad y bobl o Babilon. 16 Dialedd ar eu gwrthwyneb-wyr hwynt. 18 Cyſſur i'r eglwys.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Jeremi oddi wrth yr Arglwydd gan ddywedyd:

2 Fel hyn y llefarodd yr Arglwydd Duw Iſrael gan ddywedyd: ſcrifenna i ti yr holl eiriau y rhai a leferais i wrthit mewn llyfr.

3 Canys wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd i mi ddychwelyd caethiwed fy mhobl Iſrael, ac Juda medd yr Arglwydd: canys mi ai dygaf hwynt trachefn i'r wlad yr hon a roddais iw tadau, ac hwynt ai etifeddant hi.

4 Dymma hefyd y geiriau y rhai a lefarodd yr Arglwydd am Iſrael, ac am Juda.

5 O herwydd fel hyn y dywed yr Arglwydd, * llef dychryn a glywſom ni, ofn, ac nid heddwch.

Eſa.13.8.

6 Goſynnwch yr awr hon, ac edrychwch a eſcor gwryw; paham yr ydwyf fi yn gweled pob gŵr ai ddwylo ar ei lwynau, fel gwraig wrth eſcor: ac y troiwyd yr holl wynebau yn leſni?

7 Och rhac maint y dydd hwn, heb gyffelyb iddo, ſef amſer blinder [yw] hwn i Jacob: ond efe a waredir o honaw.

8 Canys y dydd hwnnw medd Arglwydd y lluoedd y torrafi ei iau ef oddi ar dy warr di, ac mi a ddrylliaf dy rwymau, ac ni chaiff dieithriaid wneuthur iddo ef eu gwaſanaethu hwynt mwyach.

9 Eithr hwynt a waſanaethant yr Arglwydd eu Duw, * a Dafydd eu brenin yr hwn a godafi iddynt.

Ezec.34.23.
Oſe.3.5.

10 Nac ofna di ô fyng-wâs Jacob medd yr Arglwydd, ac na ddychryna di ô Iſrael: canys wele mi a'th achubaf di o bell, a'th hâd o dir eu caethiwed hwynt, ac Jacob a ddychwel, ac a orphwys, ac a gaiff lonydd, ac heb ddychrynnudd.

11 Canys yr ydwyfi gyd â chi medd yr Arglwydd i'th achub di, o herwydd mi a wnaf ddiangc ar yr holl genhedloedd lle i'th waſcerais: etto ni ddiſethafi mo honot ti, eithr mi a'th goſpaf di mewn barn, ac * ni thorrafi di ym maith yn llwyr.

Ier.46.28.

12 O blegit fel hyn y dywed yr Arglwydd

angheſol yw dy yſſigtod, a dolurus yw dy bla.

13 Nid [oes] a farno dy gwyn [nac a'th] iachao: nid [oes] feddiginiaeth o iechyd i ti.

14 Dy holl gariadau a'th anghofiaſant, ni cheiſiant mo honot ti, o herwydd i mi dy daro â dyrnod gelyn [ſef] a choſpedigaeth greulon: am amlder dy anwiredd: [canys] dy bechodau a'th orchfygaſant.

15 Paham y bloeddi am dy yſſigtod? angheſol [yw] dy ddolur: am amlder dy anwiredd, dy bechodau a'th orchfygaſant, [a] minne a wneuthum hyn i ti.

16 Am hynny y rhai oll a'th yſant a yſir, a chwbl o'th holl elynion a ânt mewn caethiwed: a'th anrheith-wŷr di a fyddant yn anrhaith, a'th holl yſpeil-wŷr a roddaſi yn yſpail.

17 Canys myfi a roddaf iechyd i ti, ac a'th iachaf di o'th friwiau medd yr Arglwydd: o blegit hwynt a'th alwaſant di, yr hon a fwriwyd ymmaith [gan ddywedyd,] Sion yr hon nid yw [neb] yn ei cheiſio.

18 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, wele myfi a ddychwelaf gaethiwed lluestai Jacob, ac a gymmeraf drugaredd ar ei anneddau ef: a'r ddinas a adailedir â'r ei charnedd, a'r llŷs a erys ar ei iawn lê.

19 A moliant a aiff allan o honynt, a llais gorfoledd: ac mi ai hamlhâf hwynt, ac ni phrinheuir hwynt, ac mi ai hanrhydeddaf hwynt, fel na's amherchir.

20 Eu meibion hefyd fydd megis cynt, ai cynnulleidfa a ſiccrheuir ger fy mron: ac mi a ymwelaf ai holl orthrym-wŷr hwynt.

21 Ai pendefig fydd o honynt eu hun, ai llywiawdr a ddaw allan oi myſc eu hun, ac mi a baraf iddo neſſau, a dyfod attaf: canys pwy [yw] yr hwn a glywai ar ei galon neſſau attafi medd yr Arglwydd?

22 A chwi a fyddwch yn bobl i mi, a minne a fyddaf yn Dduw i chwithau.

23 Wele corwynt yr Arglwydd yn dyfod allan [mewn] digter [fel] corwynt parhaus: ar benn yr annuwolion yr erys.

24 Ni ddychwel digofaint llidioc yr Arglwydd nes iddo wneuthur, ac nes iddo gyflawni meddwl ei galon ef: yn y dyddiau diweddaf y deallwch hyn.

## PEN. XXXI.

Daioni Duw i'r bobl. 23 Llawenydd yſprydol y ffyddloniaid.

YR amſer hwnnw medd yr Arglwydd y byddaf Dduw i holl deuluoedd Iſrael: a hwyntau a fyddant bobl i mi.

2 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, y bobl y rhai a ddiangodd rhac y cleddyf a gafodd ffafor yn yr anialwch; [trwy i mi] fyned i beri llonyddwch iddo ef Iſrael.

3 Er yſtalm yr ymddangoſe yr Arglwydd i mi [meddant; gan ddywedyd:] â chariad tragywyddol i'th gerais, am hynny yr eſtynnais i ti drugaredd.

4 Myfi a'th adailadaf etto, a thi a adailedir, ô forwyn Iſrael: ymdrwſſia etto a'th dympanau a dos di allan gyd a'r chwaryddion dawns.

5 Ti a blenni etto winllannoedd ym mynyddoedd Samaria: plan-wŷr a blannant, ac a fwynhânt.

6 Canys rhyw ddydd y geilw y ceidwaid ym mynydd Ephraim, codwch, ac awn ni i fynu i Sion at yr Arglwydd ein Duw.

7 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, cenwch orfoledd i Jacob, a chrechwenwch am benn y cenhedloedd, cyhoeddwch, molwch, a dywedwch, ô Arglwydd cadw dy bobl gweddill Iſrael.

8 Wele mi ai harweiniaf hwynt o dir y gogledd, ac mi ai caſclaf hwynt o yſtlyſſoedd y ddaiar, y dall, a'r clôff, y feichiog, a'r eſcores ar unwaith gyd â hwynt: cynnulleidfa fawr a ddychwelant ymma.

9 Mewn wylofain y deuant, ac mewn toſturiaethau y dygaf hwynt trachefn: tywyſaf hwynt ar hyd ffrydiau dyfroedd, mewn ffordd iniawn [fel] na thrippiant ynddi: o blegit myfi fydd yn dâd i Iſrael, ac Ephraim yw fyng-hyntafanedic.

10 Gwrandewch air yr Arglwydd ô genhedloedd, a mynegwch yn yr ynyſoedd o bell, a dywedwch yr hwn a waſcarodd Iſrael, ai caſcl ef, ac ai ceidw, fel [y ceidw] bugail ei braidd.

11 O herwydd yr Arglwydd a waredodd Jacob, ac ai hachubodd ef o law yr hwn [oedd] drech nag ef.

12 Am hynny y deuant, ac y canniſant yn uchelder Sion, a hwynt a redant at ddaioni yr Arglwydd, am wenith, ac am win, ac am olew, ac am lwdyniaint y defaid, a'r gwartheg: ai henaid fydd fel gardd ddyfradwy, ac ni oſidiant hwyach.

13 Yna y llawenycha y forwyn yn y dawns a'r gwŷr ieuaingc, a'r henaf-gwŷr yng hyd: canys myfi a drôaf eu galar i hyfrydwch, ac ai diddanaf hwynt, ac ai cyſſuraf oi triſtwch.

14 Ac mi a wrteithiaf enaid yr offeiriaid â braſter: a'm pobl a ddigonir a'm daioni medd yr Arglwydd.

15 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, *llef a glywyd yn Rama, cwynfan, ac wylofain chwerw, Rahel yn wylo am ei meibion: ni fynne ei chyſſuro am ei meibion o herwydd nad oeddynt. Mat.2.18.

16 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, attal dy lêf rhac wylo, a'th lygaid rhac deigr, canys y mae tâl i'ch llafur medd yr Arglwydd, a hwynt a ddychwelant o dir y gelyn:

17 Ac y mae gobaith am dy ddiwedd di medd yr Arglwydd: a'th blant a ddychwelant i'w brô eu hun.

18 Clywais Ephraim yn cwynfan [fel hyn,] coſpaiſt fi, ac mi a goſpwyd fel llo heb ei ddofi: dychwel di fi, ac myfi a ddychwelir, o blegit ti ydwyt yr Arglwydd fy Nuw.

19 Yn ddiau wedi i mi ddychwelyd yr edifarheais, ac wedi i mi wybod y tarewais [fy] morddwyd: myfi a gywilyddiwyd, ac a wara-

wyddwyd hefyd am i mi ddwyn gwarth fy ieuengctid.

20 Onid mab hôff i mi yw Ephraim? onid plentyn diddanwch? canys er pan leferais i yn ei erbyn ef gan gofio y cofiais ef etto, am hynny fy mherfedd a ruasant am dano ef: gan drugarhau y trugarhaf wrtho ef medd yr Arglwydd.

21 Cyfōt ti it arwyddion, goſot i ti garneddau, goſot dy galon ar y briffordd yr hon a rodiaiſt: dychwel morwyn Iſrael, dychwel i'th ddinaſoedd hynn.

22 Pa hŷd yr ymgyrwydri di ô ferch wrthnyſig? o blegit yr Arglwydd a greawdd beth newydd yn y tîr, benyw a amgylchyna ŵr.

23 Fel hynn y dywet Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, etto hwynt a ddywedant y gair hwn yng-wlad Iuda, ac yn ei dinaſoedd pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt: yr Arglwydd a'th fendithio di ô annedd cyfiawnder, mynydd ſancteiddrwydd.

24 Yna yr ardd-wŷr a'r bugeiliaid a breſſwyliant ynddi hi Iuda, ai holl ddinaſoedd ar ynwaith.

25 O herwydd yr enaid deffygiedic a ddigonais, a phob enaid triſt a lenwais.

26 Am hynny y deffroais i, ac yr edrychais, a melys oedd fy hun gennif.

27 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd i mi hau tŷ Iſrael, a thŷ Iuda â hâd dŷn, ac â hâd anifail.

28 Ac megis y gwiliais arnynt i ddiwreiddio, ac i dynnu i lawr, ac i ddiniſtrio, ac i ddifetha, ac [iw] drygu [hwynt:] felly y gwiliaf arnynt hwy, i adailadu, ac iw plannu medd yr Arglwydd.

29 Yn y dyddiau hynny ni ddywedant mwyach, y *tadau a fwytasant rawn-win ſurion: ac Ezec.18.3. ar ddannedd y plant y mae dingcod.

30 Onid pob vn a fydd farw am ei anwiredd ei hun, pob dŷn a'r a fwytu rawn-wîn ſurion, ar ei ddannedd ef y bydd dingcod.

31 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd i mi wneuthur cyfammod newydd â thŷ Iſrael, ac â thŷ Iuda,

32 Nid fel y cyfammod yr hwn a wneuthum i ai tadau hwynt ar y dydd yr ymaflais yn eu llaw hwynt iw dwyn allan o dîr yr Aipht, yr hwn gyfammod mau fi a ddarfu iddynt hwy ei ddiddymmu, er fy mod i yn briod iddynt medd yr Arglwydd.

33 Ond dymma y cyfammod yr hwn a wnafi â thŷ Iſrael ar ôl y dyddiau hynn medd yr Arglwydd: myfi a roddaf fyng-hyfraith yn eu myſc hwynt, ac mi ai ſcrifennaf hi ar eu calonnau hwynt, ac mi a fyddaf iddynt yn Dduw, a hwyntau a fyddant yn bobl i mi.

34 Ac ni ddyſcant mwyach bob vn ei gymydog, a phob vn ei frawd, gan ddywedyd: adnebyddwch yr Arglwydd, o herwydd hwynt oll a'm hadnabyddant mawr a bychan medd yr Arglwydd, o blegit mi a feddeuaf eu hanwiredd, ai pechod ni chofiaf mwyach.

35 Fel hyn y dywed yr Arglwydd yr hwn a roddodd yr haul yn oleuni dydd, defodau y lloer, a'r ſêr yn oleuni nôs, yr hwn ſydd yn rhwygo yr môr fel y terfyſco ei donnau: Arglwydd y lluoedd [yw] ei enw.

36 Os cilia y defodau hynn o'm gŵydd i medd yr Arglwydd, yna hâd Iſrael a baid a bod yn genhedlaeth ger fy mron i yn dragywydd.

37 Fel hynn y dywed yr Arglwydd, pe meſurid y nefoedd oddi vchod, a chwilio ſylfeini y ddaiar hyd iſod, yna minne a ddiyſtyrwn holl hâd Iſrael, am yr hynn oll a wnaethant hwy medd yr Arglwydd.

38 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd pan *adailedir y ddinas i'r Arglwydd Nehem.1.2. o dŵr Hananeel, hyd borth y gongl.

39 A llinin meſur aiff allan etto oi flaen ef, hyd frynn Gareb: ac a amgylcha tu a Goath.

40 A holl ddyffryn y celaneddau, a'r lludw, a'r holl feuſydd hyd afon Cedron, [ac] hyd gongl porth y meirch tua 'r dwyrain [a fydd] ſanctaidd i'r Arglwydd, ni's diwreiddir, ac ni's diniſtrir mwyach byth.

## PEN. XXXII.

Carcharu Ieremi am y caſ-wir. 7 Yntef yn dangos y dychwele y bobl iw gwlad trachefn. 38 Yr Arglwydd yn Dduw iw bobl. 40 Cyfammod yr Arglwydd.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd yn y ddecfed flwyddyn i Sedecia frenin Iuda: honno [oedd] y ddeu-nawfed flwyddyn i Nabuchodonoſor.

2 A'r pryd hynny yr oedd llu brenin Babilon yn gwarche ar Ieruſalem, ac Ieremi y prophwyd ydoedd yngarcharor yng-hyntedd y carchar yr hwn [oedd] yn nhŷ brenin Iuda.

3 Lle y carcharaſe Sedecia brenin Iuda ef gan ddywedyd, pa ham y prophwydaiſt ti gan ddywedyd, fel hynn y dywedodd yr Arglwydd wele mi a roddaf y ddinas hon i law brenin Babilon, ac efe ai hennill hi.

4 Ac ni ddiangc Sedecia brenin Iuda o law Iere.29.16. y Caldeaid, canys diau y rhoddir ef i law brenin Iere.34.2. Babilō, ac efe a ymddiddan ag ef wyneb yn wyneb, ac a edrych ŵydd yng-ŵydd.

5 Ac efe ai harwain ef [ſef] Sedecia i Babilon, ac yno y bydd efe hyd oni *ymwelwyf ag Iere.34.4. ef medd yr Arglwydd: er i chwi ymladd a'r Caldeaid ni ffynnwch.

6 Ac Ieremi a lefarodd, gair yr Arglwydd a ddaeth attafi gan ddywedyd:

7 Wele Hanameel fab Salum dy ewythr frawd dy dâd yn dyfod attat gan ddywedyd, pryn i ti fy maes yr hwn [ſydd] yn Anathoth *o blegit i ti [y mae] cyfiawnder o garennydd Ruth.4.4. iw brynu.

8 Felly Hanameel mab fy ewythr frawd fy nhâd a ddaeth attafi i gyntedd y carchardŷ yn ôl gair yr Arglwydd, ac a ddywedodd wrthif: prynn atolwg fy maes yr hwn [ſydd] yn Anathoth, yr hon [ſydd] yn nhîr Beniamin, canys i ti [y Lefit.25.32. mae]

mae]cyfiawnder o etifeddiaeth,ac i ti y perthyn ei ollwng, pryn [ef] i ti: yna y gwybum mai gair yr Arglwydd [oedd] hwn.

9 Ac mi a brynais y maes yr hwn oedd yn Anathoth gan Hanameel fab fy ewythr frawd fy nhâd, ac mi a bwyſais iddo ef ſaith ſicl o arian, a dêc [darn] o arian.

10 Ac mi a ſcrifennais[hynn]mewn llyfr, ac ai ſeliais: cymmerais hefyd dyſtion,a phwyſais yr arian mewn cloriannau.

11 Yna mi a gymmerais lyfr y prynniad wedi ei ſelio[wrth]gyfraith a defod, ac yn agored.

12 Ac mi a roddais lyfr y prynedigaeth at Baruc fab Neriah,fab Maaſiah yng-wydd Hanameel[mab]fy ewythr, ac yng-wydd y tyſtion y rhai a ſcrifennaſid yn llyfr y prynedigaeth,yng-wydd yr holl Iddewon y rhai oeddynt yn eiſtedd yng-hyntedd y carchar-dŷ.

13 Ac mi a orchymynnais i Baruc yn eu gwydd hwynt gan ddywedyd:

14 Fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, cymmer y llyfrau hynn [ſef] y llyfr hwn o brynedigaeth, yr hwn ſydd ſeliedic, a'r llyfr agored hwn, a dot hwynt mewn lleſtr pridd fel yr arhôant ddyddiau lawer.

15 O herwydd fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: hwynt a brynant etto dai a meuſydd, a gwinllannoedd yn y wlad hon.

16 Ac wedi i mi roddi llyfr y prynedigaeth at Baruc fab Neriah, myfi a weddiais ar yr Arglwydd gan ddywedyd,

17 Arglwydd Dduw wele ti a wnaethoſt y nefoedd a'r ddaiar, a'th fawr allu, ac a'th fraich eſtynnedic, nid oes dim cuddiedic rhagot ti,

Exod.34.7. Deut.5.9. 18 [Yr hwn]wyt*yn gwneuthur trugaredd i filoedd, ac yn talu anwireddau y tadau i fonwes eu meibion ar eu hôl hwynt: y Duw mawr cadarn, Arglwydd y lluoedd[yw]ei enw ef.

19 Mawr o gyngor, a rhagorol o weithred canys[y mae]dy lygaid yn agored ar holl ffyrdd meibion dynion, i roddi i bob vn yn ôl ei lwybr, ac yn ôl ffrwyth ei weithredoedd ei hun.

20 Yr hwn a oſodaiſt arwyddion, a rhyfeddodau yng-wlad yr Aipht hyd y dydd hwn, ac ar Iſrael, ac ar ddynion eraill: ac a wnaethoſt i ti henw megis[y gwelir]heddyw,

21 Ac a ddygaiſt dy bobl Iſrael allan o dîr yr Aipht, mewn arwyddion, a rhyfeddodau, ac mewn llaw gref, a braich eſtynnedic, ac ag ofn mawr.

22 Ac a roddaiſt iddynt y wlâd ymma, yr hon a dyngaiſt ti wrth eu tadau hwynt y rhoddit ti iddynt [ſef] gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.

23 A' hwynt a ddaethant i mewn, ac ai hetifeddaſant hi, ond ni wrandawſant ar dy lais, ac ni rodiaſant yn dy gyfraith, ni wnaethant yr hynn oll ar a orchymynnaiſt iddynt: am hynny y peraiſt i'r holl niwed hynn ddigwyddo iddynt.

24 Wele y peiriannau rhifel a ddaethant i'r ddinas iw goreſcyn hi, a'r ddinas a roddir i law y Caldeaid y rhai ydynt yn ymladd yn ei herbyn â mîn y cleddyf, â newyn, ac â haint: a'r hynn a ddywedaiſt ti a gwplhauwyd, ac wele di yn [ei] weled.

25 Ac ti a ddywedaiſt wrthif ô Arglwydd Dduw, pryn i ti y maes ag arian, a chymmer dyſtion: er bod y ddinas wedi ei rhoddi i law y Caldeaid.

26 Yna y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi gan ddywedyd:

27 Wele myfi [ydwyf] Arglwydd Dduw pob cnawd, a guddir dim oddi wrthifi?

28 Am hynny fel hynn y dywed yr Arglwydd, wele fi yn rhoddi y ddinas hon yn llaw y Caldeaid, ac yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon, ac efe ai hennill hi,

29 A'r Caldeaid a ddeuant ac a ryfelant yn erbyn y ddinas hon, ac a ffaglant y ddinas hon â thân, ac ai lloſcant hi a'r tai y rhai yr arogl-darthwyd ar eu pennau i Baal, ac y tywalltwyd diod offrwm i dduwiau dieithr i'm diglloni fi.

30 O blegit meibion Iſrael, a meibion Iuda oeddynt yn gwneuthur yn ddiau yr hynn oedd ddrwg yn fyng-olwg i oi mebyd: o herwydd meibion Iſrael oeddynt yn ddiau yn fy niglloni fi â gweithredoedd eu dwylo.

31 Canys i'm digofaint, ac i'm llid y bu y ddinas hon er y dydd yr adailadaſant hi, hyd y dydd hwn, i beri ei ſymmud oddi ger fy mron.

32 Am holl ddrygioni meibion Iſrael, a meibion Iuda y rhai a wnaethant i'm diglloni fi[ſef] hwyntwy, eu brenhinoedd, eu tywyſogion, eu hoffeiriaid, ai prophwydi, a gwŷr Iuda, a phreſſwyl-wŷr Ieruſalem:

Dehar.1.24 Iere.7.13. Iere.16.7. Iere.25.3. 33 [Er i mi eu] dyſcu,* gan foreu-godi i roddi addyſc[iddynt,]etto ni wrandawſant i gymmeryd athrawiaeth, eithr troeſant attafi eu gwarrau, ac nid eu hwynebau.

34 Goſodaſant hefyd eu heulynnod yn y tŷ (yr hwn y gelwir fy enw arno) iw halogi ef.

35 A hwynt a adailadaſant vchelfeudd Baal y rhai ydynt yn nyffryn meibion Hinnom i beri iw meibion, ai merched fyned trwy [yr tân] i Moloch, yr hynn nî orchymynnaſwn i iddynt, ac ni feddyliaſe fyng-halon am wneuthur y ffieidd-dra hynn i beri i Iuda bechu.

36 Ac yn awr am hynny fel hynn y dywed yr Arglwydd Duw Iſrael am y ddinas hon, yr hon meddwch chwi a roddir i law brenin Babilon trwy y cleddyf, a thrwy newyn, a thrwy haint,

Deut 30.3. 37 Wele *myfi ai cynhullaf hwynt, o'r holl diroedd (y rhai yn fy nig a'm llid, a'm ſorriant mawr y bwriais hwynt iddynt) i'r lle hwn, ac mi a wnaf iddynt breſſwylio yn ddiogel.

38 A hwynt a fyddant yn bobl i mi, a minne a fyddaf yn Dduw iddynt hwythau.

39 Ac mi a roddaf iddynt vn galon, ac vn ffordd i'm hofni fi bych, er lles iddynt, ac iw meibion ar eu hôl hwynt.

40 Ac mi a wnaf â hwynt gyfammod tragywydol

wyddol nid amgen, nad ymadawyſt oddi wrthynt, eithr gan wneuthur llês iddynt mi a oſodaf fy ofn yn eu calonnau fel na chiliant oddi wrthif.

41 Ie mi a lawenychaf ynddynt gan wneuthur llês iddynt, ac mi ai plãnaf hwynt yn y tîr hwn yn ſiccr a'm holl galon, ac a'm holl enaid.

42 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, megis y dygais i ar y bobl hyn yr holl fawr ddrwg hyn: felly y dygaf arnynt yr holl ddaioni, yr hwn a addewais i iddynt.

43 A'r meuſydd a feddiennir yn y wlad ymma [am] yr hon yr ydych chwi yn dywedyd: anghyfannedd [yw] hi heb ddŷn, nac anifail, yn llaw y Caldeaid y rhoddwyd hi.

44 Meuſydd a brynir a'm arian, ac a ſcrifennir mewn llyfr, ac a ſeliir, a chymmerir tyſtion yn nhîr Beniamin, ac o amgylch Ieruſalem, ac yn ninaſoedd Iuda, ac yn ninaſoedd y mynydd, ac yn ninaſoedd y gwaſtad, ac yn ninaſoedd y deau: canys mi a ddychwelaf eu caethiwed hwynt medd yr Arglwydd.

## PEN. XXXIII.

Duw yn peri i Ieremi weddio am rydd-did i'r bobl, ac yn addo eu rhyddhau. 8 Bod Duw yn maddeu pechodau er ei ogoniant ei hun. 15 Am anedigaeth Criſt. 20 Duw yn ſiccrhau y cyfammod newydd.

Ier.32.1.

GAir yr Arglwydd hefyd a ddaeth at Ieremi yr ail waith, ac efe etto * yn garcharor yn y carchar-dŷ gan ddywedyd:

Eſa.37.26.

2 Fel hyn y dywed yr Arglwydd yr hwn ai gwnaeth hi, yr Arglwydd *yr hwn ai lluniodd hi, ac ai ſiccrhaodd: yr Arglwydd [yw] ei enw ef.

3 Galw arnaf, ac mi a'th attebaf, ac a ddangoſaf i ti [bethau] mawrion, a chedyrn y rhai nid adwaenoſt.

Ier.32.24.

4 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw Iſrael am dai y ddinas hon, ac am dai brenhinoedd Iuda y rhai a ddiniſtriwyd â *pheiriannau rhyfel, ac â chleddyf.

5 Hwynt a ddaethant i ryfela a'r Caldeaid, ac i ymlenwi â chelanedd dynion y rhai a leddais yn fy llid a'm digofaint, pan guddiais i fy wyneb oddi wrth y ddinas hon am ei holl ddrygioni hi.

6 Wele myfi a roddaf iddi hi iechyd a meddiginiaeth, ac mi ai meddiginiaethaf hwynt, ac a ddadcuddiaf iddynt amlder o heddwch a gwirionedd.

7 Ac mi a ddychwelaf gaethiwed Iuda, a chaethiwed Iſrael, ac mi ai hadailadaf hwynt megis yn y dechreuad.

8 Ac mi ai puraf hwynt oi holl anwiredd a'r a bechaſant i'm herbyn, ac mi a faddeuaf iddynt eu holl bechodau drwy y rhai y pechaſant i'm herbyn, a thrwy y rhai y gwrthryfelaſãt yn fy erbyn

9 A [hyn] fydd i mi yn enw, yn llawenydd, yn glod, ac yn ogoniant o flaen holl genhedloedd y ddaiar, y rhai a glywant yr holl ddaioni yr hwn yr ydwyf yn ei wneuthur iddynt: a hwyntau a ofnant, ac a grynant am yr holl ddaioni, a'r holl dangneddyf y rhai yr ydwyf yn eu gwneuthur i'r ddinas hon.

10 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, clywir etto yn y lle hwn ([am] yr hwn y dywedwch anialwch yw efe heb ddŷn, ac heb anifail, yn ninaſoedd Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem, y rhai a wnaed yn anghyfannedd, ac heb breſwylwr, ac heb anifail)

11 Llef gorfoledd, a llef llawenydd, llef y priodfab a llef y briodferch, llef rhai yn dywedyd, * molwch chwi Arglwydd y lluoedd o herwydd daionus yw yr Arglwydd, o blegit ei drugaredd ef [a bery] yn dragywydd, [a llef] rhai yn offrymmu moliant yn nhŷ yr Arglwydd: canys mi a ddychwelaf gaethiwed y wlad megis yn y dechreuad medd yr Arglwydd.

1.Cron.16.8.
Pſal.105.1.
Eſa.12.4.

12 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, bydd etto yn y lle ymma yr hwn ſydd anghyfãneddol heb ddŷn, ac heb anifail, ac yn ei holl ddinaſoedd drigfa bugeilliaid yn gorweddfau y praidd

13 Yn ninaſoedd y mynydd, yn ninaſoedd y gwaſtad, ac yn ninaſoedd y deau, ac yng-wlad Beniamin, ac yn amgylchoedd Ieruſalem, ac yn ninaſoedd Iuda yr aiff defaid etto tann law y rhifedudd medd yr Arglwydd.

14 Wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd fel y cyflawnwyf y peth daionus yr hwn a addewais i dŷ Iſrael, ac i dŷ Iuda.

15 Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amſer hwnnw y paraf i flaguryn cyfiawnder flaguro i Ddafydd, ac efe a wna farn, a chyfiawnder yn y tir.

16 Yn y dyddiau hynny Iuda a waredir, ac Ieruſalem a breſwylia yn ddiogel, a'r hwn ai geilw hi [yw] yr Arglwydd ein cyfiawnder.

17 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, ni thorrir ymmaith [fel na byddo] i Ddafydd ŵr yn eiſtedd ar frenhin-fainge tŷ Iſrael,

18 Ac ni phalla fod gan y Lefiadaidd offeiriaid ŵr ger fy mron i, yn offrymmu poeth offrwm, ac yn offrymmu bwyd offrwm, ac yn gwneuthur aberth yn dragywydd.

16 A gair yr Arglwydd a ddaeth at Ieremi, gan ddywedyd,

20 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, os diddymmwch chwi fyng-hyfammod a'r dydd, a'm cyfammod a'r nôs; fel na byddo [na] dydd na nôs yn eu hamſer,

21 Yna y diddymmir fyng-hyfammod â Dafydd fyng-wâs, fel na byddo iddo ef fab yn teyrnaſu ar ei deyrn-gader ef, ac a'r Lefiadaidd offeiriaid fyng-weinidogion.

22 Megis na ellir cyfrif llu y nefoedd, ac na ellir meſur tyfod y môr: felly myfi a amlhaf hâd Dafydd fyng-wâs, a'r Lefiaid y rhai ydynt yn gweini i mi.

23 Gair yr Arglwydd a ddaeth at Ieremi gan ddywedyd,

24 Oni weli di pa beth y mae y bobl hyn yn ei lefaru gã ddywedyd, dau deulu yw y rhai a ddewiſodd yr Arglwydd, ac efe ai gwrthododd hwynt: felly y dirmygaſant fy mhobl fel nad ydynt mwyach yn genhedlaeth yn eu golwg hwynt.

25 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, os ſyng-hyfammod a'r dydd, ac a'r nôs ni [ſaif, ac oni] oſodais i ddefodau y nefoedd, a'r ddaiar,

26 Yna hâd Iacob a Dafydd ſyng-wâs a wrthodafi fel na chymmerwyf oi hâd ef lywodraeth-wŷr ar hâd Abraham, Iſaac, ac Iacob: canys mi a ddychwelaf eu caethiwed hwynt, ac a drugarhâf wrthynt.

## PEN. XXXIIII.

Dialedd ar Sedecia ai farwolaeth. 8 y bobl yn torri eu cyfammod, a Duw yn eu coſpi am hynny.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd (pan oedd Nabuchodonoſor brenin Babilon ai hôll lû, a holl deyrnaſoedd y ddaiar [y rhai oeddynt] tann lywodraeth ei law ef: a'r holl bobloedd yn rhyfela yn erbyn Ieruſalem, ac yn erbyn ei holl ddinaſoedd hi) gan ddywedyd:

2.Cron.36.19.
Ier.29.16.
Ier.32.3.

2 Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, dos a llefara wrth Sedecia frenin Iuda, a dywet ti wrtho, fel hyn y dywed yr Arglwydd, *wele fi yn rhoddi y ddinas hon i law brenin Babilon, ac efe ai llyſc hi â thân.

3 Ac ni ddiengi dithe oi law ef, canys diau i'th ddelir, ac i'th roddir iw law ef, dy lygaid ti a gânt weled llygaid brenin Babilon, ai enau ef a ymddiddan a'th enau di, a thithe a ei i Babilon.

4 Er hynny ô Sedecia brenin Iuda gwrando di air yr Arglwydd: fel hyn y dywed yr Arglwydd am danat ti, ni byddi di farw drwy gleddyf,

5 Mewn heddwch y byddi di farw, a hwynt a loſcant i ti fel y lloſcwyd i'th dadau y brenhinoedd cyntaf y rhai oeddynt o'th flaen di, a hwynt a alarant am danat ti [gan ddywedyd,] ôh arglwydd: canys myfi a ddywedais y gair medd yr Arglwydd.

6 Yna Ieremi y prophwyd a lefarodd wrth Sedecia frenin Iuda yr holl eiriau hyn yn Ieruſalem,

7 Pan oedd brenin Babilon yn rhyfela yn erbyn Ieruſalem, ac yn erbyn holl ddinaſoedd Iuda y rhai a weddillaſid, ſef Lachis, ac Azecah: y rhai hynny a adawſid o ddinaſoedd Iuda o herwydd [eu bod] yn ddinaſoedd caeroc.

8 Y gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd, wedi i'r brenin Sedecia wneuthur cyfammod a'r holl bobl y rhai [oeddynt] yn Ieruſalem am gyhoeddi iddynt rydd-did,

9 I ollwng o bob vn ei waſanaeth-wr, a phob vn ei waſanaeth-ferch [y rhai fyddent] Hebræad neu Hebræes yn rhyddion, ac na cheiſient waſanaeth ganddynt, [ſef] pob vn gan ei frawd o Iddew.

10 Pan glybu yr holl bennaethiaid, a'r holl bobl y rhai a ddaethent i'r cyfammod am ollwng o bob vn ei waſanaeth-wr, a phob vn ei waſanaeth-ferch yn rhyddion fel na cheiſient waſanaeth ganddynt mwyach: yna hwynt a wrandawſant, ac ai gollyngaſant ymmaith.

11 Ond wedi hynny yr ediſarhaodd arnynt, a hwynt a ddugaſant yn eu hôl eu gweiſion, ai morwynion y rhai a ollyngaſent yn rhyddion, ac ai caethiwaſant hwynt yn weiſion, ac yn forwynion.

12 Am hynny y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd, gã ddywedyd:

13 Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, mi a wneuthum gyfammod a'ch tadau, ar y dydd y dygais hwynt allan o dir yr Aipht o dŷ y caethiwed gan ddywedyd:

14 Ym mhen ſaith mlynedd y gollyngwch bob vn ei frawd o Hebræad yr hwn a werthwyd i ti, ac a'th waſanaethodd chwe blynedd: gollwng ef yn rhydd oddi wrthit, ond ni wrãdawodd eich tadau arnaf, ac ni ogwyddaſant eu cluſtiau.

15 A chwithau a gymmeraſech edifeirwch heddyw, ac a wnaethech yr hyn oedd iniawn yn ſyng-olwg, am gyhoeddi rhydd-did pob vn iw gyfaill, a chwi a wnaethoch gyfammod yn ſyngwydd i, yn y tŷ yr hwn y gelwir ſy enw arno.

16 Ond chwi a ddychwelaſoch, ac a halogaſoch ſy enw, canys chwi a ddugaſoch yn eu hôl pob vn ei waſanaeth-wr, a phob vn ei waſanaeth ferch y rhai a ollyngaſech yn rhyddion wrth eu hewyllys eu hun: caethiwaſoch hwynt hefyd i fod yn weiſion, ac yn forwynion i chwi.

17 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, ni wrandawſoch arnafi, i gyhoeddi rhydd-did pob vn iw frawd, a phob vn iw gyfaill: wele fi yn cyhoeddi i'ch erbyn medd yr Arglwydd rydd-did i'r cleddyf, i haint, ac i newyn, ac mi a'ch rhoddaf chwi mewn trallod trwy holl deyrnaſoedd y ddaiar.

18 Ac mi a roddaf y dynnion y rhai a droſeddaſant ſyng-hyfammod, ac ni chwplauſant eiriau y cyfammod yr hwn a wnaethont ger ſy mron wedi iddynt fyned rhwng rhannau y llô * yr hwn a holltaſent yn ddau,

Gen.15.10.

19 Tywyſogion Iuda a thywyſogion Ieruſalem, yr ſtafellyddion a'r offeiriaid, a holl bobl y wlad y rhai a aethant rhwng rhannau y llô,

20 Ie mi ai rhoddaf hwynt yn llaw eu gelynnion, ac yn llaw y rhai ſydd yn ceiſio eu henioes, ai celain fydd yn fwyd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y ddaiar.

21 Ac mi a roddaf Sedecia frenin Iuda, ai dywyſogion i law ei elynnion, ac i law y rhai ſy yn ceiſio eu henioes: ac yn llaw llu brenin Babilon y rhai a aethant i fynu oddi wrthych.

22 Wele fi yn gorchymyn medd yr Arglwydd iddynt hwy droi yn ôl at y ddinas hon, fel y rhyfelant yn ei herbyn hi, ac y goreſcynnant hi, ac y lloſcant hi â thân: ac mi a roddaf ddinaſoedd Iuda yn anghyfannedd heb breſſwylydd.

## PEN. XXXV.

Vfydd-dod yr Rechabiaid: ac anufydd-dod yr Iddewon.

Y Gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd *yn nyddiau Iehoacim mab Ioſia brenin Iuda gan ddywedyd:

Ier.27.1.

2 Dos di i dŷ yr Rechabiaid, a llefara wrthynt,

thynt, a phâr di iddynt ddyfod i dŷ yr Arglwydd i vn o'r ſtafelloedd, a dod iddynt wîn iw yfed.

3 Yna myfi a gymmerais Iazaniah fab Ieremi fab Habazziniah ai frodyr, ai holl feibion, a holl deulu y Rechabiaid.

4 Ac mi ai dugym hwynt i dŷ yr Arglwydd i ſtafell meibion Hanaan fab Igdalia gŵr i Dduw: yr hon oedd wrth ſtafell y tywyſogion, yr hon ſydd goruwch ſtafell Maaſiah mab Salum ceidwad y tryſſor.

5 Ac mi a roddais ger bron meibion tŷ y Rechabiaid phiolau yn llawn o wîn, a chwpanau: ac mi a ddywedais wrthynt, yfwch win.

6 Ond hwy a ddywedaſant, nid yfwn ni wîn, o herwydd Ionadab mab Rechab ein tad ni a roddodd i ni orchymyn gan ddywedyd: nac yfwch wîn, chwy chwi na'ch plant yn dragywydd.

7 Nac adailedwch dŷ, ac na heuwch hâd, ac na phlennwch win-llan, ac na fydded [dim] gennwch chwi: o blegit mewn pebyll y preſſwyliwch eich holl ddyddiau, fel y byddoch chwi fyw ddyddiau lawer ar wyneb y ddaiar lle yr ydych chwi yn ddieithriaid.

8 Ac nyni a wrandawſom ar lais Ionadab mab Rechab ein tâd am bob peth a orchymynnodd efe i ni: [ſef] nad yfem ni win ein holl ddyddiau, nyni ein gwragedd, ein meibion, a'n merched.

9 Ac nad adailadem ni dai iw preſſwylio, ac na bydde i ni na gwin-llan, na maes na hâd.

10 Eithr trigo o honom ni mewn pebyll: felly nyni a wrandawſom, ac a wnaethom yn ôl yr hynn oll a orchymynnodd Ionadab ein tâd i ni.

11 A phan ddaeth Nabuchodonoſor brenin Babilon i fynu i'r wlad, nyni a ddywedaſom, deuwch, ac awn i Ieruſalem rhac llu y Caldeaid, a rhac llu yr Aſſyriaid, ac yn Ieruſalem yr ydym ni yn preſſwylio.

12 Yna y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi gan ddywedyd,

13 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Iſrael, dôs di, a dywet wrth wŷr Iuda, ac wrth breſſwyl-wŷr Ieruſalem: oni chymmerwch chwi addyſc i wrando ar fyng-eiriau medd yr Arglwydd;

14 Geiriau Ionadab mab Rechab y rhai a orchymynnodd efe iw feibion a ſiccrhawyd [ſef] nad yfent win, canys nid yfaſant hwy [wîn] hyd y dydd hwn, o blegit hwynt a wrandawſant ar orchymyn eu tâd: A minne a ddywedais wrthych chwi, gan godi yn foreu a lleſaru, ond ni wrandawſoch arnaf.

15 Myfi a anfonais hefyd atoch chwi fy holl weiſion [ſef] y prophwydi gan godi yn foreu ac anfon i ddywedyd, dychwelwch yn awr bawb oddi wrth ei ffordd ddrwg, a gwellhewch eich gweithredoedd, ac nac ewch yn ôl duwiau dieithr iw gwaſanaethu hwynt, fel y trigoch yn y wlad yr hon a roddais i chwi: ac i'ch tadau, ond ni ogwyddaſoch eich clustiau, ac ni wrandawſoch chwi arnaf.

16 Yn ddiau meibion Ionadab mab Rechab a gyflawnaſant orchymyn eu tad, yr hwn a orchymynnodd efe iddynt: ond y bobl ymma ni wrandawſant arnafi.

17 Am hynny fel hynn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd Duw Iſrael, wele fi yn dwyn ar Iuda, ac ar holl drigolion Ieruſalem yr holl ddrwg yr hwn a leferais yn eu herbyn: canys mi a ddywedais wrthynt, ond ni wrandawſant, gelwais arnynt, ond nid atebaſant.

18 Ac Ieremi a ddywedodd wrth dŷlwyth y Rechabiaid, fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: o herwydd i chwi wrando ar orchymyn Ionadab eich tad, a chadw ei holl orchymynnion ef, a gwneuthur yn ôl yr hynn oll a'r a orchymynnodd efe i chwi,

19 Am hynny fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: ni phallha na byddo gŵr i Ionadab fab Rechab yn ſefyll ger fy mron yn dragywydd.

## PEN. XXXVI.

1 Baruc wedi ſcrifennu o benn Ieremi felldithion Iuda ac Iſrael. 10 Yn eu darllen oll ger bron y bobl. 14 A cher bron y ſwyddogion. 20 Gwedi hynny ger bron y brenin. 23 Y brenin yn lloſci y llyfr. 20 Gorfod ſcrifennu vn arall. 29 Coſp Iehoacim.

YN y bedwaredd flwyddyn i Iehoacim fab Ioſia frenin Iuda y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi gan ddywedyd: Iere.25.1.

2 Cymmer i ti lyfr, ac ſcrifenna di ynddo yr holl eiriau y rhai a leferais i yn erbyn Iſrael, ac yn erbyn Iuda, ac yn erbyn yr holl genhedloedd o'r dydd y lleferais i wrthit ti [ſef] o ddyddiau Ioſia hyd y dydd hwn.

3 Onid odid pan glywo tŷ Iuda yr holl ddrwg yr hwn yr ydwyfi yn amcanu ei wneuthur iddynt, hwynt hwy a ddychwelant bob vn oi ffordd ddrygionus fel y maddeuwyf eu hanwiredd hwynt ai pechodau.

4 Yna Ieremi a alwodd am Baruc fab Neriah, a Baruc a ſcrifennodd o enau Ieremi holl eiriau yr Arglwydd, y rhai a lefaraſe efe wrtho, mewn llyfr.

5 Ac Ieremi a orchymynnodd i Baruc, gan ddywedyd: carcharor ydwyfi, ni allafi fyned i dŷ yr Arglwydd.

6 Am hynny dos ti a darllen o'r llyfr (yr hwn a ſcrifennaiſt o'm genau) eiriau yr Arglwydd lle y clywo y bobl [yn] nhŷ yr Arglwydd ar y dydd ympryd: ac lle y clywo holl Iuda y rhai a ddelont oi dinaſoedd y darllen di hwynt.

7 Fe allé y daw eu gweddi hwynt ger bron yr Arglwydd, ac y dychwelant bob vn oi ffordd ddrygionus: canys mawr [yw] yr llid, a'r digofaint y rhai a draethodd yr Arglwydd yn erbyn y bobl hynn.

8 Felly Baruc mab Neriah a wnaeth yn ôl yr hynn oll a'r a orchymynnaſe Ieremi y prophwyd iddo ef, am ddarllen o'r llyfr eiriau yr Arglwydd [yn] nhŷ yr Arglwydd.

9 Ac yn y bummed flwyddyn i Iehoacim fab Ioſia brenin Iuda, ar y nawfed mis y cyhoeddaſant ympryd ger bron yr Arglwydd [i'r] holl bobl o Ieruſalem, ac i'r holl bobl y rhai oeddynt yn dyfod o ddinaſoedd Iuda i Ieruſalem.

10 Yna Baruc a ddarllenodd o'r llyfr eiriau Ieremi[yn]nhŷ'r Arglwydd yn ſtafell Gemariah mab Saphan yr ſcrifennydd, yn y cyntedd vchaf i ddrws y porth newydd i dŷ yr Arglwydd lle y clybu yr holl bobl.

11 Pan glybu Micheas mab Gemariah fab Saphan holl eiriau yr Arglwydd o'r llyfr:

12 Yna efe a aeth i wared i dŷ y brenin i ſtafell yr ſcrifennydd, ac wele yr holl dywyſogion oeddynt yno yn eſtedd: [ſef] Eliſama yr ſcrifennydd, Dalaiah mab Semei, Elnathan mab Achbor, Gamariah mab Saphan, Sedecia mab Hananias, a'r holl dywyſogion.

13 A Micheas a fynegodd iddynt yr holl eiriau y rhai a glywſe efe pan ddarllenaſe Baruc o'r llyfr lle y clybu y bobl.

14 Yna yr holl dywyſogion a anfonaſant at Baruc, Iehudi fab Nathaniah fab Selemia, fab Cuſi gan ddywedyd: cymmer yn dy law y llyfr yr hwn y darllenaiſt ti o honaw lle y clybu y bobl, a thyret: felly Baruc mab Neriah a gymmerodd y llyfr yn ei law, ac a ddaeth attynt.

15 A hwynt a ddywedaſant wrtho ef, eiſtedd di yn awr, a ddarllen ef: felly Baruc ai darllenodd lle y clywſant hwy.

16 A phan glywſant yr holl eiriau, ſynnu a wnaethant pob vn wrth ei gilydd: a hwynt a ddywedaſant wrth Baruc, gan fynegu y mynegwn ni yr holl eiriau hynn i'r brenin.

17 A hwynt a ofynnaſant i Baruc gan ddywedyd, mynega i ni yn awr, pa fodd yr ſcrifennaiſt ti yr holl eiriau hynn oi enau ef?

18 Yna Baruc a ddywedodd wrthynt, efe a draethodd yr holl eiriau hynn wrthifi ai enau: a minne [ai] ſcrifennais [hwynt] yn y llyfr ag ingc.

19 Yna y tywyſogion a ddywedaſant wrth Baruc, dos ti ac ymguddia ti ag Ieremi, fel na wypo neb pa le [y byddoch] chwi.

20 Ac hwy a aethant at y brenin i'r cyntedd, (ond hwy a gadwaſant y llyfr yn ſtafell Elizamah yr ſcrifennydd) ac a fynegaſant yr holl eiriau lle y clybu y brenin.

21 A'r brenin a anfonodd Iehudi i ddwyn y llyfr, ac efe ai dug ef o ſtafell Elizamah yr ſcrifennydd, ac Iehudi ai darllenodd lle y clybu y brenin, a lle y clybu yr holl dywyſogion, y rhai oeddynt yn ſefyll yn ymyl y brenin.

22 A'r brenin oedd yn eiſtedd yn y gaiaf-dŷ, ar y nawfed mis, a thân wedi ei gynneu ger ei fron ef.

23 A phan ddarllenodd Iehudi dair dalen, neu bedair, [yna] efe ai torrodd â chyllell ſcrifennydd, ac ai bwriodd i'r tân, yr hwn [oedd] yn yr aelwyd, nes darfod yr holl lyfr gan y tân yr hwn oedd ar yr aelwyd.

24 Ac ni ſynnodd arnynt, ac ni rwygaſant eu dillad: [ſef] y brenin, nai holl weiſion ef y rhai a glywſant yr holl eiriau hynn:

25 Er i Elnathan, a Dalaiah, a Gamariah ymbil a'r brenin am na loſce efe y llyfr: etto ni wrandawodd efe arnynt:

26 Onid y brenin a orchymynnodd i Ierahmeel fab Hamelech, Saraiah fab Ezriel, a Selemiah fab Abdiel, ddala Baruc yr ſcrifennydd, ac Ieremi y prophwyd: ond yr Arglwydd ai cuddiodd hwynt.

27 Yna y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi (wedi i'r brenin loſci y llyfr, a'r geiriau y rhai a ſcrifennaſe Baruc o enau Ieremi) gan ddywedyd:

28 Dychwel, cymmer i ti lyfr arall, ac ſcrifenna di arno yr holl eiriau cyntaf y rhai oeddynt yn y llyfr cyntaf, yr hwn a loſcodd Iehoacim brenin Iuda,

29 A dywet ti wrth Iehoacim frenin Iuda, fel hynn y dywed yr Arglwydd, ti a loſcaiſt y llyfr hwn gan ddywedyd, pa ham yr ſcrifennaiſt ynddo drwy ddywedyd? diau y daw brenin Babilon ac a anrheithia y wlad hon: ac efe a wnaiff i ddŷn ac i anifail ddarfod o honi.

30 Am hynny fel hynn y dywed yr Arglwydd am Iehoacim frenin Iuda: ni bydd iddo Ierc.22.19.
ef a eiſteddo ar frenhin-faingc Dafydd, ai gelain ef a fwrir allan i wrês y dydd, ac i rew y nôs.

31 Ac mi a ymwelaf ag ef, ac ai hâd, ac ai weiſion am eu hanwiredd, ac mi a ddygaf arnynt hwy, ac ar drigolion Ieruſalem, ac ar wŷr Iuda yr holl ddrwg yr hwn a leferais iw herbyn, am na wrandawſant.

32 Yna Ieremi a gymmerth lyfr arall, ac ai rhoddodd at Baruc fab Neriah yr ſcrifennydd, ac efe a ſcrifennodd ynddo o enau Ieremi holl eiriau y llyfr yr hwn a loſcaſe Iehoacim brenin Iuda yn tân: ac yn bytrach fe a chwanegwyd attynt eiriau lawer fel hwyntau.

## PEN. XXXVII.

1 Sedecia yn ymbil ag Ieremi am weddio troſto ef. 13 Dala Ieremi, ei guro ef ai garcharu. 17 A Sedecia yn ei ryddhau ef.

A'R brenin Sedecia, *mab Ioſia (yr hwn 2.Bren.24.17.
a wnaeth Nabuchodonoſor brenin Babi- 2.Cron.36.10.
lon yn frenin yng-wlad Iuda) a deyrnaſodd yn Ierem.52.1.
lle Cononiah mab Iehoacim.

2 Ond ni wrandawodd efe, nai weiſion, na phobl y tir ar eiriau yr Arglwydd y rhai a draethodd efe trwy Ieremi y prophwyd.

3 Er hynny y brenin Sedecia a anfonodd Iehucal fab Selemiah, a Sephaniah fab Maaſiah yr offeiriad at Ieremi y prophwyd i ddywedyd: gweddia attolwg troſom ni ar yr Arglwydd ein Duw.

4 Ac Ieremi oedd yn myned mewn rhyddid ym myſc y bobl: canys ni roddaſent hwy ef [etto] yn y carchar-dŷ.

5 Llu Pharao hefyd a ddaethe allan o'r Aipht, a'r Caldeaid y rhai oeddynt yn gwarche ar Ieruſalem a glywſant oddi wrthynt, ac a aethant i fynu oddi wrth Ieruſalem.

6 Yna gair yr Arglwydd a ddaeth at Ieremi y prophwyd gan ddywedyd,

7 Fel hynn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, fel hynn y dywedwch chwi wrth frenin Iuda yr hwn a'ch anfonodd chwi attaf i ymofyn â mi: wele llu Pharao yr hwn a ddaeth allan yn gynhorthwy i chwi, a ddychwel iw wlad ei hun i'r Aipht.

8 Ond y Caldeaid a ddychwelant, ac a ryfelant yn erbyn y ddinas hon, ac ai hennillant, ac ai lloſcant hi â thân.

9 Fel hynn y dywed yr Arglwydd, na thwyllwch eich hunain, gan ddywedyd: diau yr aiff y Caldeaid oddi wrthym ni, o blegit nid ânt hwy.

10 Canys pe tarawech chwi holl lu y Caldeaid, y rhai ydynt yn rhyfela i'ch erbyn, fel [na] weddillid o honynt [onid] gwŷr archolledic, [etto] hwynt a ſafant bôb vn yn ei babell, ac a loſcant y ddinas hon â thân.

11 A phan aeth llu y Caldeaid ymmaith oddi wrth Ieruſalem, rhac llu Pharao,

12 Yna Ieremi a aeth allan o Ieruſalem i fyned i wlâd Beniamin, i ymado oddi yno o fyſc y bobl.

13 Pan ddaeth efe i borth Bẽiamin, yr [oedd] yno benn ſwyddog ai enw ef [oedd] Ieriah mab Selemiah fab Hananiah, ac efe a ddaliodd Ieremi y prophwyd gan ddywedyd: cilio at y Caldeaid yr ydwyt ti.

14 Yna y dywedodd Ieremi, nid gwir [hynny,] nid ydwyf fi yn cilio at y Caldeaid, ond ni wrandawe efe arno: felly Ieriah a ymaflodd yn Ieremi, ac ai dygodd ef at y tywyſogion.

15 Am hynny y tywyſogion a ddigiaſant wrth Ieremi, ac a baraſant ei faeddu ef, ac ai rhoddaſant ef yn y carchar-dŷ yn nhŷ Ionathan yr ſcrifennydd: o herwydd hwnnw a wnaethent hwy yn garchar-dŷ.

16 Pan ddaeth Ieremi i'r daiar-dŷ a'r carchar, ac [wedi] i Ieremi aros yno ddyddiau lawer,

17 Yna y brenin Sedecia a anfonodd, ac ai cymmerodd ef allan, a'r brenin a ofynnodd iddo yn gyfrinachol yn ei dŷ ei hun, ac a ddywedodd: a oes gair oddi wrth yr Arglwydd? yntef a ddywedodd, oes, canys tydi (eb efe) a roddir yn llaw brenin Babilon.

18 Ieremi hefyd a ddywedodd wrth y brenin Sedecia, pa bechod a wneuthum i i'th erbyn di? neu yn erbyn dy weiſion, neu yn erbyn y bobl hyn pan i'm rhoddaſoch fi yn y carchar-dŷ?

19 Pale [y mae] eich prophwydi y rhai a brophwydâſant i chwi gan ddywedyd: ni ddaw brenin Babilon i'ch erbyn, nac yn erbyn y wlâd hon.

20 Ac yn awr gwrando di atolwg ô arglwydd frenin, ac atolwg deued fyng-weddi ger dy fron di: ac na ddychwel fi i dŷ Ionathan yr ſcrifennydd rhac fy marw yno.

21 Yna y brenin Sedecia a orchymynnodd iddynt hwy oſod Ieremi yng-hyntedd y carchar-dŷ, a rhoddi iddo ef deiſen o fara beunydd o heol y pobyddion, nes darfod yr holl fara o'r ddinas: felly Ieremi a arhoſodd yng-hyntedd y carchar-dŷ.

## PEN. XXXVIII.

Y ſwyddogion yn peri rhoi Ieremi mewn pydew. 14 Ebedmelech yn ei gael ef allan. 17 Ieremi yn cynghori y brenin. 27 Ac yn cadw hynny yn gyfrinachol.

YNa Saphatiah mab Mathan, a Gedaliah mab Phaſhur, ac Iucal mab Semeliah, a Phaſhur mab * Malciah a glywſant y geiriau y rhai a draethaſe Ieremi wrth yr holl bobl, gan ddywedyd: Iere.21.1.

2 Fel hynn y dywedodd yr Arglwydd, yr hwn a arhoſo yn y ddinas hon a fydd farw trwy 'r cleddyf, trwy newyn, a thrwy haint: a'r neb a elo allan at y Caldeaid a fydd byw, ai einioes fydd ſclyfaeth iddo, canys byw fydd efe.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, y ddinas hon a lwyr roddir yn llaw llu brenin Babilon, ac efe ai hennill hi.

4 Yna y tywyſogion a ddywedâſant wrth y brenin, rodder atolwg y gŵr hwn i farwolaeth, o blegit fel hyn y mae efe yn gwanhau dwylo y rhyfel-wŷr y rhai a adawyd yn y ddinas hon, a dwylo yr holl bobl gan ddywedyd wrthynt hwy yn ôl y geiriau hyn: o herwydd nid yw y gŵr hwn yn ceiſio llês i'r bobl hyn, onid niwed.

5 A'r brenin Sedecia a ddywedodd, wele ef yn eich llaw chwi: canys ni ddichon y brenin [necau] dim i chwi.

6 Yna hwynt a gymmeraſant Ieremi, ac ai bwriaſant ef i bydew Malchial mab Hamelech yr hwn oedd yng-hyntedd y carchar-dŷ a hwynt a ollyngâſant Ieremi wrth raffau: ac nid [oedd] dwfr yn y pydew onid tomm, felly Ieremi a lynodd yn y domm.

7 Pan glybu Ebedmelech yr Ethiopiad (vn o'r yſtafellyddion, yr hwn oedd yn nhŷ y brenin) iddynt hwy roddi Ieremi yn y pydew,

8 Yna Ebedmelech a aeth allan o dŷ 'r brenin, ac a leſarodd wrth y brenin yr hwn oedd ym mhorth Beniamin gan ddywedyd:

9 O fy arglwydd frenin drwg y gwnaeth y gwŷr hyn gwbl a'r a wnaethant i Ieremi y prophwyd yr hwn a fwriaſant hwy i'r pydew: canys efe a fydd marw o newyn yn y fan lle y mae, o herwydd nid oes bara mwyach yn y ddinas.

10 Yna y brenin a orchymynnodd i Ebedmelech yr Ethiopiad gan ddywedyd: cymmer di oddi ymma ddeng-wr ar hugain gyd â thi, a chyfot ti Ieremi y prophwyd o'r pydew cynn ei farw,

11 Felly Ebedmelech a gymmerodd y gwŷr gyd ag ef, ac a aeth i dŷ 'r brenin tann y tryſſor-dŷ, ac efe a gymmerodd oddi yno hên

garpiau, a hên bwdr-frattiau, ac ai gollyngodd hwynt at Ieremi i'r pydew wrth raffau.

12 Ac Ebedmelech yr Ethiopiad a ddywedodd wrth Ieremi, goſot yn awr yr hên garpiau, a'r pwdr frattiau hyn dan dy geſſeiliau oddi tān y rhaffau: ac Ieremi a wnaeth felly.

13 Felly hwynt a dynnâſant Ieremi wrth y rhaffau, ac ai cyfodâſant ef o'r pydew: ac Ieremi a arhoſodd yng-hyntedd y carchar-dŷ.

14 Yna y brenin Sedecia a anfonodd, ac a gymmerodd Ieremi y prophwyd atto ef i'r trydydd cyntedd yr hwn ſydd yn nhŷ yr Arglwydd: a'r brenin a ddywedodd wrth Ieremi, mi a ofynnaf i ti beth, na chela ddim oddi wrthifi.

15 Ac Ieremi a ddywedodd wrth Sedecia, os mynegaf i ti, oni roddi di fi i farwolaeth? ac os rhoddaf i ti gyngor, ni wrandewi di arnaf.

16 Felly y brenin Sedecia a dyngodd wrth Ieremi yn gyfrinachol gan ddywedyd, fel y mae yr Arglwydd yn fyw yr hwn a wnaeth i ni yr eneidiau hyn, ni roddafi di i farwolaeth, ac ni roddaf di yn llaw y gwŷr hyn y rhai ydynt yn ceiſio dy einioes.

17 Yna y dywedodd Ieremi wrth Sedecia, fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd, Duw Iſrael, os gan fyned yr ei di allan at dywyſogion brenin Babilon yna y bydd dy enaid fyw, ac ni loſcir y ddinas hon â thân, a thithe a fyddi fyw, ti a'th dylwyth.

18 Ac onid ei di allan at dywyſogion brenin Babilon, yna y ddinas hon a roddir i law y Caldeaid, a hwynt ai lloſcant hi â thân: ac ni ddiengi dithe oi llaw hwynt.

19 A'r brenin Sedecia a ddywedodd wrth Ieremi, yr ydwyfi yn ofni yr Iddewon y rhai a giliaſant at y Caldeaid, rhac iddynt hwy fy rhoddi fi yn eu llaw hwynt, ac i'r rhai hynny fyng-watwar.

20 Ac Ieremi a ddywedodd, ni roddāt ddim: gwrando atolwg ar lais yr Arglwydd yr hwn yr ydwyfi yn ei draethu i ti, felly y bydd yn dda i ti, a'th enaid a fydd byw.

21 Ond os gwrthodi di fyned allan, dymma y gair yr hwn a fynegodd yr Arglwydd i mi:

22 Wele yr holl wragedd y rhai a adawyd yn nhŷ brenin Iuda a ddygir allan at dywyſogion brenin Babilon: ac wele hwynt a ddywedant, dy gyfeillion a'th hudaſant, ac a'th orchfygaſant, dy draed a lynâſant yn y domm, [a] hwyntau a droâſant yn eu hôl.

23 Am hynny hwynt a ddygant dy holl wragedd a'th blant at y Caldeaid, ac ni ddiengi dithe, canys yn llaw brenin Babilon i'th ddelir; a'r ddinas hon a loſcir â thân.

24 Yna y dywedodd Sedecia wrth Ieremi, na chaffed neb wybod y geiriau hyn, ac ni'th roddir i farwolaeth.

25 Os y tywyſogion a glywant i mi ymddiddan â thi, ac [os] deuant attat ti, a dywedyd wrthit, mynega yn awr i ni beth a draethaiſti wrth y brenin, na chela oddi wrthym ni, ac ni roddwn ni mo honot ti i farwolaeth: a pha beth a draethodd y brenin wrthit tithe?

26 Yna dywet wrthynt, myfi a weddiais yn oſtyngedic ger bron y brenin, na pare efe fi trachefn i dŷ Ionathan i farw yno.

27 Yna yr holl dywyſogion a ddaethant at Ieremi, ac ai holaſant ef: ac efe a fynegodd iddynt yn ôl yr holl eiriau hynny y rhai a orchymynnaſe y brenin: felly hwynt a beidiaſant ag ef, am na chafwyd clywed y peth.

28 Ac Ieremi a arhoſodd yng-hyntedd y carchar-dŷ hyd y dydd yr ennillwyd Ieruſalem: ac [yno] yr oedd efe pan ennillwyd Ieruſalem.

## PEN. XXXIX.

1 Nabuchodonoſor yn gwarche ar Ieruſalem. 4 Y Caldeaid yn dala Sedecia wrth ffoi. 6 Yn lladd ei blant, ac yn tynnu ei lygaid yntef. 11 Rhydd-did Ieremi. 15 Diogelwch Ebedmelech.

YN y * nawfed flwyddyn i Sedecia frenin Iuda ar y decfed mîs, y daeth Nabuchodonoſor brenin Babilon ai holl lu yn erbyn Ieruſalem, ac a warchauaſant arni.

2.Bren.25.1.
ierem.52.4.

2 Yn yr unfed flwyddyn ar ddêc i Sedecia, y pedwerydd mîs, ar y nawfed [dydd] o'r mis y rhwygwyd y ddinas.

3 Yna holl dywyſogion brenin Babilon a ddaethant, ac a eiſteddaſant dann y porth canol, [ſef] Meregal, Sarezer, Samgarnebo, Sarſechim, Rabſaris, Meregal, Sarezer, Rabmag, a holl dywyſogion eraill brenin Babilon.

4 Pan welodd Sedecia brenin Iuda ai holl ryfel-wŷr hwynt hwy, yna y ffoâſant, ac yr aethant hwy o'r ddinas liw nôs trwy ardd y brenin i'r porth [yr hwn ſydd] rhwng y ddau fûr: ac efe a aeth allan tua 'r anialwch.

2.Bren.25.4.

5 A llu y Caldeaid a erlidiaſant ar eu hôl hwynt, ac a ddaliaſant Sedecia yn rhoſſydd Iericho, ac ai cymmeraſant ef, ac ai dugaſant at Nabuchodonoſor brenin Babilon i Riblah yng-wlâd Hemath: lle y rhoddodd efe farn arno.

6 Yna brenin Babilon a laddodd feibion Sedecia yn Riblah yn ei olwg ef: brenin Babilon hefyd a laddodd holl-bendefigion Iuda.

7 Ac efe a dynnodd lygaid Sedecia, ac ai rhwymodd ef â chadwynau iw ddwyn i Babilō.

8 A'r Caldeaid a loſcaſant dŷ yr brenin, a thai y bobl â thân: a hwynt a ddrylliaſant furau Ieruſalem.

9 A Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr a gaeth-gludodd i Babilon weddill y bobl y rhai a adawſid yn y ddinas, a'r encil-wŷr y rhai a giliaſent atto ef, a gweddill y bobl y rhai a adawſid.

10 A Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr a adawodd i'r bobl dlodion (y rhai nid oedd dim ganddynt) [drigo yn llonydd] yng-wlâd Iuda, ac efe a roddodd iddynt win-llannoedd a meuſydd y pryd hynny.

11 A Nabuchodonoſor brenin Babilon a roddodd orchymyn am Ieremi i Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr, gan ddywedyd:

12 Cymmer di ef, a dot dy olwg arno ef, ac na wna iddo ddim niwed: onid megis y dywedo efe wrthit ti, felly gwna di ag ef.

13 Felly Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr a anfonodd, Nebuſazban hefyd, Rabſaris, a Neregal, Sareſer, Rabmag, a holl bennaethiaid brenin Babilon [a anfonaſant,]

14 Ie hwynt a anfonaſant, ac a gyrchaſant Ieremi o gyntedd y carchar-dŷ, ac ai rhoddaſant ef at Gedaliah fab Ahicam fab Saphan iw ddwyn ef adref: felly efe a arhoſodd ym myſc y bobl.

15 A gair yr Arglwydd a ddaeth at Ieremi, pan oedd efe yn rhwym yng-hyntedd y carchar gan ddywedyd:

16 Dos ti, a dywet i Ebedmelech yr Ethiopiad gan ddywedyd: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele mi a baraf i'm geiriau ddyfod yn erbyn y ddinas hon er niwed, ac nid er llês, a hwynt a gwplheuir o flaen dy wyneb y dwthwn hwnnw.

17 Ond myfi a'th waredaf di y dydd hwnnw medd yr Arglwydd: ac ni'th roddir yn llaw y dynnion y rhai yr ydwyt ti yn ofni rhagddynt.

18 Canys gan achub mi a'th achubaf, ac ni ſyrthi drwy'r cleddyf: eithr bydd dy einioes yn yſclyfaeth i ti, am it ymddyried ynof fi medd yr Arglwydd.

## P E N. XL.

Ieremi yn cael cennad i fyned lle y mynne. 8 Ac yn dewis aros gyd â Gedaliah. 14 Iohanan yn rhybuddio Gedaliah am y bwriad [illegible] oedd iddo.

DYmma y gair yr hwn a ddaeth at Ieremi oddi wrth yr Arglwydd wedi i Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr ei ollwng ef yn rhydd o Ramah, pan ddaliaſid ef, ac y rhwymaſid ef mewn cadwyni ym myſc holl gaeth-glud Ieruſalē, ac Iuda y rhai a gaeth-gludaſid i Babilon.

2 A phennaeth y mil-wŷr a gymmerodd Ieremi, ac a ddywedodd wrtho ef: yr Arglwydd dy Dduw di a lefarodd y drwg ymma yn erbyn y lle hwn,

3 A'r Arglwydd a ddug i benn, ac a wnaeth megis y lefarodd, chwi] a bechaſoch yn erbyn yr Arglwydd, ac ni wrandawſoch ar ei lais ef: am hynny y daeth y peth hyn i chwi.

4 Yn awr wele mi a'th ryddheais di heddyw o'r cadwynau y rhai [oeddynt] am dy ddwylo, os da gennit ti ddyfod gyd â mi i Babilon tyret, ac myfi a fyddaf dâ wrthit, ond os drwg y gweli di ddyfod gyd â mi i Babilon paid: gwêl di yr holl dîr o'ch flaen di, i'r fann [y byddo] da, a boddlon gennit fyned, yno dos di.

5 Ac yr oedd efe etto heb ddychwelyd, pan [y dywedodd Nabuzaradan] dychwel di at Gedaliah fab Ahicam, fab Saphan yr hwn a ſwyddodd brenin Babilon ar ddinaſoedd Iuda, ac aros di gyd ag ef ym mhlith y bobl, neu dos di lle y gwelech di yn dda fyned: felly pennaeth y mil-wŷr a roddodd iddo ef lyniaeth, a rhodd, ac ai gollyngodd ef ymaith.

6 Yna y daeth Ieremi at Gedaliah fab Ahicam i Miſpah: ac efe a arhoſodd gyd ag ef ym myſc y bobl y rhai a adawſid yn y wlâd.

7 Pan glybu holl dywyſogion y lluoedd, ai gwŷr hwynt y rhai oeddynt ar hŷd y wlâd, i frenin Babilon ſwyddo Gedaliah fab Ahicam ar y wlad, ac iddo ei oſod ef yn llywydd ar y gwŷr, a'r gwragedd, a'r plant, a'r [rhai hynny] o ddodion y wlâd, o ba rai ni chaeth-gludaſid [yr vn] i Babilon,

8 Yna hwynt a ddaethant at Gedaliah i Miſpah [ſef] * Iſmael mab Nathaniah, ac Iohanan, ac Ionathan meibion Careah, a Seraiah mab Thanehumeth, a meibion Ephai y Netophathiad, ac Iezaniah mab Maachati, hwynt hwy ai gwŷr. Ierem.41.2.

9 A Gedaliah mab Ahicam fab Saphan * a dyngodd wrthynt hwy, ac wrth eu gwŷr gan ddywedyd, nac ofnwch chwi waſanaethu y Caldeaid: trigwch yn y wlâd, a gwaſanaethwch frenin Babilon, felly y bydd daioni i chwi. 2.Bren.25.24.

10 Am danaf finne, wele fi yn aros ym Miſpah i waſanaethu y Caldeaid y rhai a ddeuant attom ni: am hynny cesclwch chwi win, a [ffrwythydd] hâf, ac olew, a goſodwch [hwynt] yn eich lleſtri, a thrigwch yn eich dinaſoedd y rhai yr ydych yn eu meddiannu.

11 A phan glybu yr holl Iddewon y rhai [oeddynt] ym Moab, ac ym myſc meibion Ammō, ac yn Edom, ac ym yr holl wledydd, i frenin Babilō adel gweddill o Iuda, a goſod Gedaliah fab Ahicam fab Saphan yn llywydd arnynt hwy:

12 Yna yr holl Iddewon a ddychwelaſant, o'r holl leoedd lle y gyrraſid hwynt, ac a ddaethant i wlâd Iuda at Gedaliah i Miſpah: a hwynt a gaſclaſāt win, a [ffrwythydd] hâf lawer iawn.

13 Iohanan hefyd mab Careah a holl dywyſogion y lluoedd y rhai [oeddynt] ar hŷd y wlâd a ddaethant at Gedaliah i Miſpah,

14 Ac a ddywedaſant wrtho ef, oni wyddoſt ti yn hyſpys i Baalis brenin meibion Ammon anfon Iſmael fab Nathaniah i'th ladd di? ond ni chredodd Gedaliah mab Ahicam iddynt hwy.

15 Yna Iohanan mab Careah a ddywedodd wrth Gedaliah ym Miſpah, yn gyfrinachol gan ddywedyd: gat ti i mi fyned atolwg, ac mi a laddaf Iſmael fab Nathaniah, fel na chaffo neb wybod: paham y lladde efe di fel y gwaſcerid yr holl Iddewon y rhai a ymgaſclaſant attat ti, ac y darfydde am weddill Iuda?

16 Gedaliah mab Ahicam a ddywedodd wrth Iohanan fab Careah, na wna di y peth hyn, canys celwydd yr ydwyt ti yn ei ddywedyd am Iſmael.

## P E N. XLI.

Iſmael yn lladd Gedaliah, ac eraill o dwyll wrth ymddyried. 11 Iohanan yn ymlid Iſmael.

AC yn y ſeithfed mis, Iſmael mab Nathaniah fab Eliſama [(yr hwn oedd] o frenhinawl hâd) a ddaeth gyd â phendefigion y brenin a deng-wŷr gyd ag ef at Gedaliah, fab Ahicam 2.Bren.25.25.

i Miſpah: ac hwynt a fwytaſant yno fara ynghyd ym Miſpah.

2 Ac Iſmael mab Nathaniah a gyfododd, [efe] a'r deng-wr y rhai oeddynt gyd ag ef, ac a darawſant Gedaliah fab Ahicam, fab Saphan a'r cleddyf, ac ai lladdaſant ef yr hwn a oſodaſe brenin Babilon yn llywydd ar y wlâd.

3 Iſmael hefyd a laddodd yr holl Iddewon y rhai oeddynt gyd â Gedaliah ym Miſpah: a'r Caldeaid y rhai a gafwyd yno yn rhyfel-wŷr.

4 A'r ail dydd wedi iddo ef ladd Gedaliah (pan nad oedd neb yn gwybod[hynny)]

5 Yna y daeth gwŷr o Sichem, o Silo, ac o Samaria, [ſef] pedwar vgein-ŵr wedi eillio eu barfau, a dryllio eu gwiſcoedd, ac ymrwygo, â bwyd offrwm, ac â thus yn eu dwylo iw hoffrymmu yn nhŷ yr Arglwydd.

6 Ac Iſmael mab Nathaniah a aeth allan iw cyfarfod hwynt o Miſpah gan gerdded rhacddo, ac ŵylo, a phan gyfarfu efe â hwynt, efe a ddywedodd wrthynt, deuwch chwi at Gedaliah fab Ahicam.

7 A phan ddaethant hwy i ganol y ddinas, yna Iſmael mab Nathaniah ai lladdodd hwynt [ac ai bwriodd] i ganol y pydew, efe a'r gwŷr y rhai[oeddynt]gyd ag ef.

8 A deng-wr a gafwyd yn eu mysc hwynt, y rhai a ddywedaſant wrth Iſmael, na ladd ni o blegit y mae gennym ni dryſſor yn y maes, o wenith, a haidd, olew, a mêl: felly efe a beidiodd, ac ni laddodd efe hwynt hwy ym mysc eu brodyr.

9 A'r pydew i'r hwn y bwriodd Iſmael holl gelaneddau y gwŷr y rhai a laddaſe efe er mwyn Gedaliah[yw]yr hwn a wnaethe y brenin Aſa rhac Baaſa brenin Iſrael: hwnnw a ddarfu i Iſmael mab Nathaniah ei lenwi a'r rhai a laddaſid.

10 Yna Iſmael a gaethiwodd yr holl weddill o'r bobl y rhai[oeddynt] ym Miſpah,[ſef] merched y brenin a'r holl bobl, y rhai a adawſid ym Miſpah ar y rhai y goſodaſe Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr Gedaliah fab Ahicam yn llywydd: ac Iſmael mab Nathaniah ai caethgludodd hwynt, ac a aeth troſodd at feibion Ammon.

11 Pan glybu Iohanan mab Careah, a holl dywyſogion y llu y rhai[oeddynt]gyd ag ef yr holl ddrwg a'r a wnaethe Iſmael mab Nathaniah,

12 Yna hwynt a gymmeraſant [eu] holl wŷr, ac a aethant i ymladd ag Iſmael mab Nathaniah, ac ai cawſant ef wrth y dyfroedd mawrion y rhai ydynt yn Gibeon.

13 A phan welodd yr holl bobl y rhai[ oeddynt]gyd ag Iſmael, Iohanan fab Careah a holl dywyſogion y llu y rhai[oeddynt]gyd ag ef, yna hwynt a lawenychaſant.

14 Felly yr holl bobl y rhai a gaeth-gludaſe Iſmael ymmaith o Miſpah, a droeſant yn eu hôl, dychwelaſant hefyd, ac aethant at Iohanan fab Careah.

15 Ond Iſmael mab Nathaniah a ddiangodd yng-hyd ag wyth nyn oddi gan Iohanan, ac efe a aeth at feibion Ammon.

16 Yna Iohanan mab Careah a holl dywyſogion y llu y rhai[oeddynt]gyd ag ef a gymmeraſant yr holl weddill o'r bobl y rhai a ddygaſe efe yn eu hôl oddi ar Iſmael fab Nathaniah o Miſpah: wedi iddo ef ladd Gedaliah fab Ahicam: [ſef] cedyrn ryfel-wŷr, a gwragedd a phlant, ac ſtafellyddion y rhai a ddugaſe efe o Gibeon.

17 Ac hwy a aethant oddi yno, ac a eiſteddaſant yn Geruth Chimham yn agos at Bethlehem: i fyned i'r Aipht rhac y Caldeaid.

18 O herwydd eu bod yn eu hofni hwynt, am i Iſmael mab Nathaniah ladd Gedaliah fab Ahicam yr hwn a roddaſe brenin Babilon yn ſwyddog yn y wlâd.

## PEN. XLII.

Y tywyſogion yn gofyn cyngor i Ieremi. 13 Yntef yn cynghori iddynt nad elent i'r Aipht.

FElly holl dywyſogion y llu, ac Iohanan mab Careah, ac Iezaniah mab Oſiah, a'r holl bobl o fychan hyd fawr a neſaſant, Iere.36.7.

2 A hwynt a ddywedaſant wrth Ieremi y prophwyd, *atolwg gwrando di ein deiſyfiad ni, a gweddia troſom ni ar yr Arglwydd dy Dduw [ſef]tros yr holl weddill hyn, canys nyni a adawyd o lawer yn ychydig, fel y mae dy lygaid ti yn ein gweled ni:

3 Fel y dangoſo yr Arglwydd dy Dduw i ni y ffordd yr hon y mae i ni rodio yndi: a'r peth yr hwn a wnelom.

4 Yna Ieremi y prophwyd a ddywedodd wrthynt, myfi a'ch clywais[ chwi:] wele mi a weddiaf ar yr Arglwydd eich Duw yn ôl eich geiriau chwi: a pheth bynnac a ddywedo yr Arglwydd am danoch, myfi ai mynegaf i chwi, nid ataliaf ddim oddi wrthych.

5 A hwynt a ddywedaſant wrth Ieremi, yr Arglwydd fyddo tyſt gwirion a ffyddlon rhyngom ni, y gwnawn yn ôl pôb gair a'r a anfono yr Arglwydd dy Dduw[gyd â]chi attom ni.

6 Os da neu os drwg[fydd,]ar lais yr Arglwydd ein Duw (yr hwn yr ydym ni yn dy anfon atto) y gwrandawn ni: fel y byddo da i ni pan wrandawom ar lais yr Arglwydd ein Duw.

7 Ac *ym mhen y deng-nhiwrnod y daeth gair yr Arglwydd at Ieremi. Iere.40.1.

8 Yna efe a alwodd ar Iohanan fab Careah, ac ar holl dywyſogion y llu y rhai [ oeddynt] gyd ag ef, ac [ar] yr holl bobl o fychan hyd fawr,

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſrael, yr hwn yr anfonaſoch chwi fi atto, i roddi i lawr eich gweddiau ger ei fron ef:

10 Os mynnwch chwi drigo yn y wlâd hon, myfi a'ch adailadaf chwi, ac ni's diniſtriaf, myfi a'ch plannaf chwi, ac ni's diwreiddiaf: o blegit

y mae yn edifar gennifi am y drwg yr hwn a wneuthum i chwi.

11 Nac ofnwch rhac brenin Babilon, yr hwn y mae arnoch chwi ei ofn, nac ofnwch ef ddim medd yr Arglwydd: canys myſi a fyddaf gyd â chwi i'ch achub chwi, ac i'ch gwaredu chwi oi law ef.

12 Ac mi a ganiadhaf i chwi drugaredd, fel y trugarhao efe wrthych, ac y dygo efe chwi trachefn i'ch gwlad eich hun.

13 Ond os dywedwch, ni thrigwn ni yn y wlad hon: heb wrando ar lais yr Arglwydd eich Duw,

14 Gan ddywedyd ná-gê, o blegit i wlad yr Aipht yr awn ni, lle ni welir rhyfel, ac ni chlywir ſain vdcorn, ac ni bydd arnom newyn bara, ac yno y trigwn ni.

15 Am hynny ô gweddill Iuda gwrandewch bellach air yr Arglwydd, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: os chwi gan oſod a oſodwch eich wynebau i fyned i'r Aipht, ac a ewch i ymdeithio yno,

16 Y cleddyf yr hwn yr ydych chwi yn ei ofni a fydd yno, [ac] efe a'ch *goddiwedda chwi yn nhir yr Aipht: a'r newyn yr hwn yr ydych chwi yn gofalu rhagddo a'ch dilyn chwi i'r Aipht, ac yno y byddwch feirw.

Ier.45.25.

17 A'r holl wŷr ar a oſodant eu hwynebau i fyned i'r Aipht i aros yno a leddir a'r cleddyf, â newyn, ac â haint, ac ni bydd vn o honynt yn weddill, neu yn ddiangol gan y dialedd yr hwn a ddygaſi arnynt.

18 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, megis y tywalltwyd fy llid, a'm digofaint ar breſſwyl-wŷr Ieruſalem, felly y tywelltir fy nigofaint arnoch chwithau pan ddeloch i'r Aipht: a chwi a fyddwch yn felldith, yn angbyfanneddol, yn ddirmyg, ac yn warth, ac ni chewch chwi weled y lle hwn mwyach.

19 O gweddill Iuda, yr Arglwydd a ddywedodd wrthych, nac ewch chwi i'r Aipht: gwybyddwch chwi yn hyſpys i mi eich rhybuddio heddyw.

20 Diau eich bod chwi yn dwyllodrus yn eich calonnau, am fy anfon i at yr Arglwydd eich Duw gan ddywedyd: gweddia di troſom ni ar yr Arglwydd ein Duw, a mynega di i ni yn ôl yr hyn oll a ddywedo yr Arglwydd ein Duw ni, ac nyni ai gwnawn.

21 Am hynny y mynegais i chwi heddyw, ond ni wrandawſoch ar lais yr Arglwydd eich Duw, nac ar ddim oll a'r a anfonodd efe [gyd â] mi attoch chwi.

22 Ac yn awr gwybyddwch chwi yn hyſpys mai drwy'r cleddyf, [a] thrwy newyn, a thrwy haint y byddwch chwi feirw yn y lle, yr hwn yr ydych yn ewyllyſio myned i ymdeithio ynddo.

## PEN. XLIII.

Iohanan yn myned a'r bobl i'r Aipht. 8 Ieremi yn prophwydo diniſtr yr Aipth.

A Phan ddarfu i Ieremi lefaru holl eiriau yr Arglwydd eu Duw hwynt wrth yr holl bobl, y rhai 'r anfonaſe yr Arglwydd eu Duw hwynt ef attynt: [ie] yr holl eiriau hynny,

2 Yna y llefarodd Azariah mab Oſaiah, ac Iohanan mab Careah, a'r holl ddynnion beilchion gan ddywedyd wrth Ieremi, celwydd yr ydwyt ti yn ei ddywedyd, ni anfonodd yr Arglwydd ein Duw ni mo honot ti i ddywedyd, nac ewch i'r Aipht i ymdeithio yno:

3 Eithr Baruc mab Neriah a'th annogodd di i'n herbyn ni, i gael ein rhoddi ni yn llaw y Caldeaid i'n lladd, ac i'n caeth-gludo i Babilon.

4 Ond ni wrandawodd Iohanan mab Careah na holl dywyſogion y llu, na'r holl bobl ar lais yr Arglwydd i drigo yn nhir Iuda:

5 Eithr Iohanan mab Careah a holl dywyſogion y llu a ddygaſant ymmaith holl weddill Iuda y rhai a ddychwelaſent oddi wrth yr holl genhedloedd (lle y bwriaſid hwynt) i aros yng-wlad Iuda,

6 Yn wŷr a gwragedd a phlant, a merched y brenin, a phob [perchen] enaid a'r a adawſe Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr gyd â Gedaliah mab Ahicam fab Saphan, y prophwyd Ieremi hefyd, a Baruc fab Neriah [a gymmeraſant hwy ymmaith:]

7 Felly hwynt a ddaethant i wlâd yr Aipht, canys ni wrandawſant ar lais yr Arglwydd: yna y daethant i Thaphnis.

8 A gair yr Arglwydd a ddaeth at Ieremi yn Thaphnis gan ddywedyd:

9 Cymmer di yn dy law gerrig mawrion, a chuddia di hwynt yn yr odyn briddfaen yr hon [ſydd] yn nrws tŷ Pharao yn Thaphnis yng-olwg gwŷr Iuda:

10 A dywet ti wrthynt, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele mi a anfonaf, ac a ddygaf Nabuchodonoſor frenin Babilon* fyng-wâs, ac mi a oſodaf ei frenhin-faingc ef ar y cerrig hyn, y rhai a guddiais, ac efe a dana babell arnynt.

Ier.25.9.

11 A phan ddelo efe, efe a dery wlâd yr Aipht *rhai ag angeu, a rhai â chaethiwed, â rhai a'r cleddyf.

Ier.15.2.

12 Ac mi a gynneuaf dân yn nhai duwiau yr Aipht, ac efe ai lloſc hwynt, ac ai caethiwa hwynt, ac efe â ymwiſca â gwlad yr Aipht fel y gwiſco bugail ei ddillad: ac efe a â allan oddi yno mewn heddwch.

13 Ac efe a dyrr ddelwau tŷ yr haul yr hwn [ſydd] yng wlâd yr Aipht, a efe a lyſc dai duwiau yr Aipht â thân.

## PEN. XLIIII.

Ieremi yn ceryddu y bobl am eu gau-dduwiaeth, ac yn dangos y deue dialedd Duw arnynt, a diniſtr ar yr Aipht.

[Dymma] y gair yr hwn a ddaeth at Ieremi, am yr holl Iddewon y rhai oeddynt yn trigo yng-wlad yr Aipht, [ac] yn preſſwylio ym Migdol, ac yn Thaphnis, ac yn Noph, ac yng-wlad Pathros, gan ddywedyd,

2 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, chwi a welwch yr holl ddrwg yr hwn a ddygais i ar Ieruſalem, ac ar holl ddinaſoedd Iuda: ac wele hwynt heddyw yn anghyfannedd, ac heb breſſwylydd ynddynt,

3 [A hynny] er mwyn eu drygioni hwynt yr hwn a wnaethant i'm digllonifi, gan fyned i arogl-darthu [ac] i waſanaethu duwiau dieithr y rhai nid adwaenent hwy, [na] chwithau, na'ch tadau.

Ier.7.25. Ier.25.3. Ier.26.5. Ier.29.19. & 32.33.

4 Er i mi anfon attoch chwi fy holl weiſion, y prophwydi, * gan foreu-godi, ac anfon i ddywedyd, na wnewch attolwg y ffieidd-beth hyn, yr hwn ſydd gâs gennifi,

5 Etto ni wrandawſant, ac ni ogwyddaſant eu cluſtiau i ddychwelyd oddi wrth eu drygioni, fel nad arogldarthent i dduwiau dieithr.

6 Am hynny y tywalltwyd fy llîd, a'm digofaint, ac y lloſcodd efe yn ninaſoedd Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem, ac y maent hwy yn anghyfannedd, ac yn ddiffaethwch fel [y gwelir] heddyw.

7 Ac yn awr fel hyn y dywed Arglwydd Dduw y lluoedd Duw Iſrael: pa ham y gwnewch y mawr ddrwg hwn yn erbyn eich eneidiau? i beri diniſtrio i chwi [bob] gŵr a gwraig, plentyn, a'r hwn ſydd yn ſugno, ymmaith o Iuda, fel na adawer i chwi weddill?

8 I'm digllonifi â gweithredoedd eich dwylo, gan arogl-darthu i dduwiau dieithr yng-wlad yr Aipht yr hon y daethoch chwi i aros ynddi, i'ch diſetha eich hunain, ac i fod yn felldith, ac yn warth ym myſc holl genhedloedd y ddaiar.

9 A anghofiaſoch chwi ddrygioni eich tadau, a drygioni brenhinoedd Iuda, a drygioni eu gwragedd hwynt, a'ch drygioni eich hunain, a drygioni eich gwragedd y rhai a wnaethant hwy yng-wlad Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem?

10 Nid ydynt ediſeiriol hyd y dydd hwn, ac nid ofnaſant, ni rodiaſant ychwaith yn fyng-hyfraith, nac yn fy neddfau y rhai a roddais i o'ch blaen chwi, ac o flaen eich tadau.

11 Am hynny fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele myfi a oſodaf fy wyneb yn eich erbyn chwi, er niwed [i chwi,] ac i ddiſetha holl Iuda.

12 Ac mi a gymmeraf weddill Iuda y rhai a oſodaſant eu hwynebau i fyned i wlad yr Aipht i aros yno, ac hwynt a ddiſethir oll, yng-wlad yr Aipht y ſyrthiant drwy yr cleddyf, [a] thrwy newyn y diſethir hwynt o fychan hyd fawr, trwy'r cleddyf a thrwy newyn y byddant feirw: * a hwynt a fyddant yn felldith, yn anghyfanneddol, yn ddirmyg, ac yn warth.

Ier.26.6. & 41.18.

13 Canys myfi a ymwelaf â thrigolion gwlad yr Aipht fel yr ymwelais ag Ieruſalem, â chleddyf, â newyn, ac â haint.

14 Fel na byddo vn a ddiango, nac a adawer yn fyw o weddill Iuda (y rhai a aethant i ymdeithio yno i wlad yr Aipht) i ddychwelyd i wlad Iuda yr hon y mae eu hewyllys ar ddychwelyd i aros ynddi, canys ni ddychwel ond y rhai a ddiangant.

15 Yna yr holl wŷr y rhai a wyddent iw gwragedd arogl-darthu i dduwiau dieithr, a'r holl wragedd y rhai oeddynt yn ſefyll yn gynnulleidfa fawr, a'r holl bobl y rhai oeddynt yn trigo yn yr Aipht, yn Pathros a attebaſant Ieremi gan ddywedyd:

16 [Am] y gair yr hwn a leferaiſt ti wrthym ni yn enw yr Arglwydd, ni wrandawn ni arnat,

17 Onid gan wneuthur y gwnawn ni bob peth a'r a ddelo allan o'n genau, gan arogl-darthu i frenhines y nefoedd, a thywallt iddi hi ddiodydd offrwm, megis y gwnaethom ni, a'n tadau, ein brenhinoedd, a'n tywyſogion yn ninaſoedd Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem: canys [yna] yr oeddem ni yn ddigonol o fara, ac yn dda, ac heb weled drwg.

18 Ond er pan beidiaſom, ac arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac a thywallt diod-offrwm iddi hi bu arnom eiſieu pob [dim:] trwy gleddyf hefyd, a thrwy newyn y darfuom ni.

19 A phan oeddem ni yn arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac yn tywallt diod offrwm iddi: ai heb fodd ein gwŷr y gwnaethom ni iddi hi deiſennau iw llawenhau hi, a diod offrwm iw dywallt iddi?

20 Yna Ieremi a ddywedodd wrth yr holl bobl, wrth y gwŷr, ac wrth y gwragedd, ac wrth yr holl bobl, (y rhai ai attebaſent ef) gan ddywedyd:

21 Oni chofiodd yr Arglwydd yr arogldarth yr hwn a arogldarthaſoch chwi yn ninaſoedd Iuda, ac yn heolydd Ieruſalem, [ie] chwychwi a'ch tadau, eich brenhinoedd a'ch tywyſogion, a phobl y wlad? ac oni yſtyriodd efe hyn yn ei galon?

22 Fel na alle yr Arglwydd gyd-ddwyn gan ddrygioni eich gweithredoedd [a] chan y ffieiddbethau y rhai a wnaethech: am hynny yr aeth eich tir yn anghyfannedd, ac yn ddiffaethwch, ac yn felldith heb breſſwylydd, megis [y gwelir] y dydd hwn.

23 O herwydd i chwi arogl-darthu, ac am i chwi bechu yn erbyn yr Arglwydd, ac na wrandawſoch ar lais yr Arglwydd, ac na rodiaſoch yn ei gyfraith ef, nac yn ei ddeddfau ef, nac yn ei deſtiolaethau: am hynny y digwyddodd i chwi yr aſlwydd hwn fel [y gwelir] heddyw.

24 Ac Ieremi a ddywedodd wrth yr holl bobl, ac wrth yr holl wragedd, gwrandewch air yr Arglwydd holl Iuda y rhai [ydych] yng-wlad yr Aipht.

25 Fel hyn y llefarodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael gan ddywedyd: chwychwi,

a'ch gwragedd a gyflawnaſoch a'ch dwylo yr hynn a draethaſoch a'ch genau, gan ddywedyd: gan wneuthur nyni a wnawn ein haddunedau y rhai a addunaſom ni, am arogl-darthu i frenhines y nefoedd, ac am dywallt diod offrwm iddi hi, llwyr y cwblhaſoch eich addunedau, a llwyr y gwnaethoch yr hynn a addunaſech chwi.

26 Am hynny gwrandewch air yr Arglwydd holl Iuda, y rhai ſy yn aros yng-wlad yr Aipht: wele myfi a dyngais i'm enw mawr medd yr Arglwydd, na elwir fy enw i mwyach o fewn holl wlâd yr Aipht yng-enau un gŵr o Iuda gan ddywedyd, byw yw 'r Arglwydd Dduw.

27 Wele mi a wiliaf arnynt hwy er niwed, ac nid er daioni, a holl wŷr Iuda y rhai [ydynt] yng-wlad yr Aipht a ddifethir a'r cleddyf, ac â newyn, hyd oni ddarfyddant.

28 A'r rhai a ddiangant gan y cleddyf, [ac] a ddychwelant o wlâd yr Aipht i wlâd Iuda [fyddant] ychydig o nifer: a holl weddill Iuda y rhai a ddaethant i wlâd yr Aipht i aros yno, a gânt wybod gair pwy a ſaif, ai fy eiddo i, ai yr eiddo hwynt.

29 A hynn [fydd] yn arwydd i chwi medd yr Arglwydd, ſef yr ymwelaf â chwi yn y lle hwn, fel y gwypoch y ſaif fyng-eiriau i'ch erbyn chwi er niwed.

30 Fel hynn y dywed yr Arglwydd, wele myfi a roddaf Pharao Hophra frenin yr Aipht yn llaw ei elynnion, ac yn llaw y rhai ſy yn ceiſio ei enioes ef, fel y rhoddais i Sedecia frenin Iuda yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon ei elyn, yr hwn oedd yn ceiſio ei enioes.

## PEN. XLV.

Ieremi yn rhoddi cyſſur i Baruc.

DYmma y gair yr hwn a lefarodd Ieremi y prophwyd wrth Baruc fab Neriah pan ſcrifennaſe efe y * geiriau hynn o enau Ieremi mewn llyfr, yn y bedwaredd flwyddyn i Iehoacim fab Ioſia brenin Iuda, gan ddywedyd: Iere.36.10.

2 Fel hynn y dywedodd Arglwydd Dduw Iſrael wrthit ti Baruc:

3 Tydi a ddywedaiſt, gwae fi yn awr, canys yr Arglwydd a chwanegodd driſtwch ar fyng-ofid: * myfi a ddeffygiais yn fy ochain, ac ni chefais orphywyſtra. Pſal. 6.6.

4 Fel hynn y dywedi di wrtho ef, yr Arglwydd a ddywedodd fel hynn, wele myfi a ddeſtruwiaf yr hynn a adeiledais, ac mi a ddiwreiddiaf yr hynn a blennais, nid amgen yr holl wlâd hon.

5 Gan hynny a geiſi di fawredd i ti? na chais: canys wele myfi a ddygaf ddialedd ar bob cnawd medd yr Arglwydd, ond mi a roddaf dy enioes di * yn ſclyfaeth ym mha le bynnac yr elech di. Iere.21.9.

## PEN. XLVI.

Ieremi yn prophwydo diniſtr i'r Aipht. 27 A gwared i Iſrael.

DYmma y gair yr hwn a ddaeth at Ieremi y prophwyd yn erbyn y cenhedloedd,

2 Yn erbyn yr Aiphtiaid, yn erbyn llu * Pharao Necho brenin yr Aipht yr hwn oedd wrth afon Euphrates yn Carchamis, yr hwn a ddarfu i Nabuchodonoſor brenin Babilon ei ladd yn y bedwaredd flwyddyn i Iehoacim fab Ioſia brenin Iuda. 2.Bren.23.29. 2.Cron.35.20

3 Tecclwch chwi y tarian, a'r aſtalch, a neſewch i ryfel.

4 Cenglwch y meirch, ac aed y marchogion arnynt, ſefwch mewn helmau, gloiwwch y gwaiw-ffynn, a gwiſcwch chwi y llurigau.

5 Pa ham y gwelaſi hwynt yn ddychrynnedic wedi cilio yn eu hôl, ai cedyrn hwynt wedi eu lladd? ie hwynt a ffoaſant ymmaith ac nid edrychaſant yn eu hôl, dychryn [ſydd] o amgylch medd yr Arglwydd.

6 Ni chaiff y buan ffoi, na'r cadarn ddiange: tua 'r gogledd ger llaw afon Euphrates y tripiant, ac y ſyrthiant.

7 Pwy [yw] hwn [ſydd] yn ymgodi fel afon? ai ddyfroedd yn dygyfor fel y prif afonydd?

8 Yr Aipht ſydd fel afon yn ymgodi, ai dyfroedd ſy yn dygyfor fel y prif afonydd: ac hi a ddywedodd, mi a âf i fynu [ac] a orchguddiaf y ddaiar, myfi a ddifethaf y ddinas a'r rhai ydynt yn trigo ynddi.

9 O feirch deuwch i fynu, ô gerbydau ymdreiglwch a deuwch allan y cedyrn, yr Ethiopiaid, a'r Libiaid y rhai ſy yn dwyn tarian, a'r Lydiaid y rhai ydynt yn teimlo, [ac] yn tynnu bwa.

10 Canys dydd Arglwydd Dduw y lluoedd [yw] hwn [ſef] dydd dial, fel yr ymddialo efe ar ei elynnion o herwydd y cleddyf a yſſa ac a ddigonir, efe hefyd a drochir yn eu gwaed hwynt: canys * aberth i Arglwydd Dduw y lluoedd [fydd] yn nhîr y gogledd wrth afon Euphrates. Eſa.34.6.

11 O forwyn ferch yr Aipht dos di i fynu i Gilead a dwg driagl: yn ofer yr arferi di lawer o feddiginiaethau, ni [bydd] iechyd i ti.

12 Y cenhedloedd a glywſant dy wradwydd, dy waedd a lanwodd y wlâd, canys cadarn wrth gadarn a dramgwyddodd, a hwynt ill dau a gyd-ſyrthiaſant.

13 Y gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd wrth Ieremi y prophwyd, am ddyfodiad Nabuchodonoſor brenin Babilon i ddiniſtrio gwlad yr Aipht.

14 Mynegwch yn yr Aipht, cyhoeddwch ym Migdol, hyſpyſwch yn Noph, ac yn Thaphnis: dywedwch, ſaf di, a bydd barod, o blegit y cleddyf a yſſa dy amgylchoedd,

15 Pa ham y ſyrthiodd dy rai cryfion? ni allent hwy ſefyll, am i'r Arglwydd eu gwthio hwynt.

16 Efe a wnaeth i lawer ſyrthio, pob un a ſyrthiodd ar ei gilydd, a hwynt a ddywedaſant, cyfodwch, a dychwelwn at ein pobl i wlad ein ganedigaeth rhac cleddyf y gorthrymmwr.

17 Yno y gwaeddaſant, Pharao brenin yr

Aipht [ſydd frenin] terfyſc, yr amſer nodedic a aeth heibio.

18 Fel yr ydwyf fi yn fyw medd y Brenin (enw yr hwn [yw] Arglwydd y lluoedd) cynn ſiccred [a bod] Thabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, y daw [diniſtr ar yr Aipht.]

19 O ferch drigiannol yr Aipht gwna i ti offer caeth-glud: canys Noph a fydd anghyſannedd, ac a ddiffeithir heb breſſwylydd.

20 Yr Aipht [ſydd] anner brydferth, diniſtr ſydd yn dyfod: o'r gogledd, y mae efe yn dyfod.

21 Ei [rhyfel-wŷr] cyflog hefyd [ydynt] oi mewn hi, fel lloi paſcedic, etto hwynt a droant eu hwynebau, ac a gyd-ffoant [ac] ni ſafant, o herwydd dydd eu deſtruw hwynt, [ac] amſer eu gofwy ſydd yn dyfod arnynt.

22 Ei llais hi a aiff allan fel [lleiſin] ſarph, canys â llû yr ânt hwy ac â bwyill y deuant yn ei herbyn hi, fel cymyn-wŷr coed.

23 Hwynt a gymynant ei choed hi medd yr Arglwydd, diau nid ellir eu cyfrif hwynt: canys amlach fyddant na'r ceiliogod rhedyn, ac heb rifedi arnynt.

24 Merch yr Aipht a gywilyddiwyd: hi a roddwyd yn llaw pobl y gogledd.

25 [Fel hynn] y dywedodd Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael, wele myfi a ymwelaf â gweryn Alexandria, ac â Pharao, ac a'r Aipht, ac ai duwiau hi, ac ai brenhinoedd hi, ſef â Pharao, ac a'r rhai ydynt yn ymddyried ynddo.

26 Ac mi ai rhoddaf hwynt yn llaw y rhai ydynt yn ceiſio eu henioes, ſef yn llaw Nabuchodonoſor brenin Babilon, ac yn llaw ei weiſion ef: ac wedi hynny hi a gyfanneddir megis y dyddiau gynt medd yr Arglwydd.

Iere.30.11. 27 Ond nac ofna di ô fyng-wâs Iacob, a thithe Iſrael na ddychrynna, canys wele myfi a'th gadwaf di o bell, a'th hâd o wlâd eu caethiwed: ac Iacob a ddychwel, ac a orphywys, ac a fydd lwyddiannus, ac heb neb [ai] dychrynno.

28 O fyng-wâs Iacob nac ofna medd yr Arglwydd, canys yr ydwyf fi gyd â thi, ac mi a wnaf drangc ar yr holl gēhedloedd y rhai i'th fwriais di attynt, ond ni wnafi drang carnat ti: eithr mi
Iere.10.24. a'th goſpaf di mewn barn, ac ni'th dorraf ymmaith yn llwyr.

## PEN. XLVII.

Prophwydoliaeth yn erbyn y Philiſtiaid.

GAir yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Ieremi y prophwyd yn erbyn y Philiſtiaid cynn i Pharao ddiniſtrio Azah.

2 Fel hynn y dywedodd yr Arglwydd, wele
Eſa.8.8. dyfroedd a gyfodant i fynu * o'r gogledd, ac a fyddant fel afon lifeiriol, a hwynt a lifant tros y wlad, a'r hynn ſydd ynddi, [tros] y ddinas a'r rhai ſy yn aros ynddi: yna y dynion a waeddant, a holl breſſwyl-wŷr y wlâd a udant,

3 Rac ſŵn twrwf carnau [y meirch] cryfion, rhac trwſt ei gerbydau, [a] thrwſt ei olwynion ef: y tadau nid edrychant ar y plant gan wendid dwylo.

4 Ar y dydd y delo efe i ddeſtruwio yr holl Philiſtiaid [y daw efe] i ddiniſtrio Tyrus a Sidon a phob cynhorthwy arall [iddynt:] o blegit yr Arglwydd a ddiniſtria y Philiſtiaid gweddill ynys Caphtor.

5 Moelni a ddaeth ar Azah, goſtegwyd Aſcalon gyd a'r rhan arall oi dyffrynnoedd hwynt:
* pa hŷd yr ymrwygi di? Deut.14.1.

6 O cleddyf yr Arglwydd, pa hyd ni lonyddi? dychwel i'th wain, gorphywys di, a thaw di a ſôn.

7 Pa fodd y llonydda efe, gan i'r Arglwydd ei orchymyn ef, ai oſod ef yno yn erbyn Aſcalon, ac yn erbyn glann y môr?

## PEN. XLVIII.

Prophwydolîaeth yn erbyn y Moabiaid, 26 Am eu balchder, ai creulondeb.

FEl hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael yn erbyn Moab: gwae Nebo, canys hi a wnaed yn anghyfannedd [ac] a wradwyddwyd, Ciriathaim a ennillwyd, Miſgab a wradwyddwyd, ac a ddychrynnwyd.

2 Nid ymfroſtia Moab mwy o Heſbon, hwynt a ddychymmygaſant ddrwg iw herbyn hi [gan ddywedyd:] deuwch, diniſtriwn hi i lawr, fel na byddo yn genhedlaeth, tithe ô Madmena a dorrir i lawr, [a'r] cleddyf a'th erlid ti.

3 Llef yn gweiddi [a glywir] o Horonaim: anrhaith, a diniſtr mawr [a ddaw arnynt.]

4 Moab a ddeſtruwiwyd, gwaeddodd ei rhai bychain hi.

5 Canys * wrth riw Luith y galarus a aiff i Eſa.15.5.
fynu mewn wylofain, ac yng-orwared Horonaim y gelynnion a glywſant waedd diniſtr.

6 Ffoiwch chwi ymmaith, achubwch eich enioes: a byddwch chwi fel y grug yn yr anialwch.

7 O herwydd i ti ymddyried yn dy weithredoedd a'th dryſſorau dy hun, tithe a ddelir: * Cha- 1.Bren.11.7.
mos hefyd a aiff allan mewn caethiwed, ai offeiriaid, yng-hyd ai dywyſogion.

8 A'r anrheithiwr a ddaw i bob dinas, ac ni ddiangc dinas, eithr derfydd am y dyffrynn, a'r gwaſtad a ddifwynir: megis y dywedodd yr Arglwydd.

9 Rhoddwch adenydd i Moab, canys gan ehedec yr eheda hi: ai dinaſoedd hi a fyddant anghyfannedd heb breſſwylydd ynddynt.

10 Melldigedic yw yr hwn a wnelo waith yr Arglwydd yn dwyllodrus, a melldigedic yw yr hwn a attalio ei gleddyf oddi wrth waed.

11 Moab a fu eſmwyth arni er ei hieuengtid, ac hi a orphywyſodd ar ei gwaddod, ac ni thywalltwyd hi o leſtr i leſtr, ſef nid aeth hi mewn caethiwed: am hynny y ſafodd ei blâs hi arni, ac ni newidiodd ei harogl.

12 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd pan anfonwyf fud-wŷr, y rhai ai mudant hi, ac a waghânt ei lleſtri hi, ac a ddrylliant ei choſtrêlau.

13 Yna y cywilyddia Moab o blegit Chamos,

mos, fel y cywilyddiodd tŷ Iſrael o blegit Bethel eu hyder hwynt.

14 Pa ham y dywedwch chwi, cedyrn ydym ni, a rhyfel-wŷr nerthol?

15 Moab a anrheithiwyd, a'i dinaſoedd hi a ddyrchafaſant [yn fflam,] a'i dewiſol wŷr ieuaingc a ddeſcynnaſant i'r lladdfa, medd y Brenin a'i enw yn Arglwydd y lluoedd. 14.1.

16 Agos yw diniſtr Moab i ddyfod: a'i dialedd hi ſydd yn bryſſio yn ffeſt.

17 Alaethwch chwi droſti hi y rhai ydych o'i hamgylch, a phawb a'r a edwyn ei henw hi dywedwch, pa fodd y drylliwyd y ffonn gref, a'r wialen hardd?

18 O breſſwyl-ferch Dibon, deſcyn di o'th ogoniant, ac eiſtedd mewn ſyched: canys anrheithi-wr Moab a ddaw i'th erbyn, ac a ddiniſtria dy amddeffynfeydd.

19 Preſſwyl-ferch Aroer, ſaf di ar y ffordd, a gwilia, gofyn di i'r hwn a ſyddo yn ffoi, a dywetwch yr hon a ddiango, beth a ddarfu [i'ch dinaſoedd?]

20 Gwradwyddwyd Moab, canys hi a ddiniſtriwyd: udwch a gwaeddwch, yſpyſwch chwi yn Arnon anrheithio Moab.

21 A barn a ddaw ar y tir gwaſtad, ar Holon, ac Iahaza, ac ar Mephaath,

22 Ar Dibon hefyd, ac ar Nebo, ac ar Beth Diblathaim,

23 Ac ar Ciriathaim, ac ar Beth-gamul, ac ar Beth Maon, 5.5.

24 Ac ar Carioth, ac ar Bozra, ac ar holl ddinaſoedd gwlad Moab ym mhell, ac yn agos.

25 Corn Moab a dorrwyd, a'i braich hi a ddrylliwyd medd yr Arglwydd.

26 Meddwwch hi o blegit hi a ymfawrygodd yn erbyn yr Arglwydd, fel y Moab a ymdrybaeddodd yn ei chwdredd, am hynny y bydd hi hefyd yn watwargerdd. n.11.7.

27 Ac oni bu Iſrael yn watwargerdd i ti, fel pes cawſid ef ym mysc lladron? canys pan ſonniech di am dano yr ymgyffroit.

28 Trigolion Moab gadewch y dinaſoedd, ac arhoſwch chwi yn y graig, a byddwch megis colommen yr hon a nytha ar fin eithaf y twll.

29 Nyni * a glywſom falchder Moab [y mae hi] yn falch iawn: ei balchder a'i thraha, a'i hymchwydd, ac uchder ei chalon [a glywſom.] Eſa.16.6.

30 Myfi a adwen ei llid hi medd yr Arglwydd, ac nid yw iniawn: ei chelwyddau hi ni wnaethant iniondeb.

31 Am hynny yr udaf drôs Moab, ac y gwaeddaf trôs Moab ei gyd: [ſyng-halon] a riddfana dros wŷr Cir-hares.

32 Myfi a wylaf droſot ti gwin-wydden Sabamah fel yr wylwyd dros Iezer, dy gangau a aethant dros y môr, hyd fôr Iazer y daethant: yr anrheithi-wr a ruthrodd ar dy ffrwythydd haf, ac ar dy gynhaiaf gwîn.

33 Yna y dygir ymmaith y llawenydd, a'r digrifwch o'r doldir, ac o wlâd Moab, ac mi a wnaf i'r gwîn ddarfod o'r caſtiau, ni ſathrir [y grawn-wîn] drwy floddeſt, eu bloddeſt ni bydd mwy.

34 O herwydd y floedd [yr hon a glywir] o Heſbon hyd Eleale, y llefant hyd Iahaz, [ac] o Zoar hyd Horonaim [fel] anner dair blwydd: canys dyfroedd Nimrim ſyddant diſpydd.

35 Mi a wnaf hefyd medd yr Arglwydd i Moab beidio a phoeth offrymmu mewn uchelfeydd, ac ag arogl-darthu i'w duwiau.

36 Am hynny y lleiſia ſyng-halon am Moab fel pibellau, ac am wŷr Cir-hares y lleiſia ſyng-halon fel pibellau: canys y golud yr hwn a gaſclaſant a ddiniſtrir.

37 O blegit pob penn a eillir, a phob barf a gwttogir, ar bob llaw [y bydd] rhwygiadau, ac am y lwynau ſach-liain.

38 Ar holl bennau tai Moab a'i heolydd oll [y bydd] alaeth: o blegit myfi a dorraf Moab fel llestr heb hoffter iddo, medd yr Arglwydd.

39 Hwynt a udant [gan ddywedyd,] pa fodd y diniſtriwyd hi? pa fodd y trôdd Moab [ei] gwarr, hi a gywilyddiwyd: felly Moab a fydd yn watwargerdd, ac yn ddychryn i bawb o'i hamgylch.

40 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele [y gelyn] * a eheda fel eryr, ac a leda ei adenydd dros Moab. Ier.49.22.

41 Y dinaſoedd a oreſcynnir, a'r amddeffynfeydd a ennillir, a chalon cedyrn Moab fydd y dydd hwnnw fel calon gwraig wrth eſcor.

42 A Moab a ddifethir o fod yn bobl, am iddi hi ymfawrygu yn erbyn yr Arglwydd.

43 Braw, a ffôs, a magl [a ddeuant] arnat ti trigiannol Moab medd yr Arglwydd.

44 Y neb a ffŷ rhag y braw a ſyrth yn y ffôs, a'r hwn a gyfyd o'r ffôs a ddelir yn y fagl, canys myfi a ddygaf arni [ſef] ar Moab flwyddyn eu hymwelediad hwynt medd yr Arglwydd.

45 Yng-hyſgod Heſbon y ſaif y rhai a ffoant rhac cadernid: canys tân a aiff allan o Heſbon, a fflam o ganol Sion, ac a yſa yſtlys Moab, a chorun y meibion terfyſcar.

46 Gwae di Moab, darfu am bobl Chamos, canys cymmerwyd ymmaith dy feibion mewn alltudaeth, a'th ferched mewn caethiwed.

47 Etto myfi a ddychwelaf gaethiwed Moab yn y dyddiau diwethaf medd yr Arglwydd: hyd ymma [y traethwyd am] farn Moab.

## PEN. XLIX.

Prophwydoliaeth yn erbyn yr Ammoniaid, 7 A'r Edomiaid, 23 Damaſcus, 28 Cedar, 34 Ac Elam.

AM feibion Ammon fel hyn y dywed yr Arglwydd, onid oes feibion i Iſrael? onid oes etifedd iddo ef? pa ham y mae eu brenin hwynt yn etifeddu Gad? a'i bobl yn aros yn ei ddinaſoedd ef?

2 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd pan wnelwyf glywed trwſt rhy-

fel wꝛth Rabbath meibion Ammon, ac hi a fydd yn garnedd anghyfanneddol, ai phen-trefydd hi a loſcir â thân, ac Iſrael a oꝛeſcyn ei oꝛeſcynwŷꝛ medd yꝛ Arglwydd.

3 Uda di Heſbon am anrheithio Ai, gwaeddwch chwi pentre-ſydd Rabbath, ymwꝛegyſwch mewn ſach-liain, alaethwch a gwibiwch o amgylch y muroedd, o blegit eu bꝛenin a aiff mewn caethiwed, ei offeiriaid, ai bennaethiaid hefyd.

4 Paham yꝛ ymffroſti di yn y dyffrynnoedd? llifodd dy ddyffryn di ymmaith ô ferch wꝛthnyſig, ymddyꝛied y mae hi yn ei thꝛyſſoꝛau [gan ddywedyd:] pwy a ddaw attafi ?

5 Wele myfi a ddygaf arſwyd arnat ti(medd Arglwydd Dduw y lluoedd) o'th holl amgylchoedd: a chwi a waſcerir bob un oi flaen, ac ni [bydd] a gaſclo y gwaſcaredic.

6 Ac wedi hynny myfi a ddychwelaf gaethiwed meibion Ammon medd yꝛ Arglwydd.

7 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd am Edom: onid [oes] doethineb mwy yn Theman, a fethodd cyngoꝛ gan y rhai deallgar ? a lygrwyd eu doethineb hwynt ?

8 Ffoiwch, troiwch eich cefnau, ewch yn iſel i dꝛigo pꝛeſſwyl-wŷꝛ Dedan: canys mi a ddygaf ddiniſtr Edom arno ef, [ac] amſer ei ofwy.

9 Pe deue y cynhaiaf-wŷꝛ gwin attat ti, oni weddillent hwy ganghennan grawn ? pe [deue] lladꝛon liw nôs, oni lygrent eu digon ?

10 Ond myfi a ddinoethais Eſau, [ac] a ddadcuddiais ei guddfeudd ef, fel na allo lechu: ei hâd ef a ddifethwyd, ai frodyꝛ ai gymmydogion, ac ni bydd efe [i ddywedyd:]

11 Gat ti dy ymddifaid, myfi ai cadwaf hwynt yn fyw: ac ymddyꝛieded dy weddwon i mi.

12 Canys fel hyn y dywed yꝛ Arglwydd, wele y rhai nid oedd gymmwys iddynt yfed o'ꝛ phiol, gan yfed a yfaſant, a ddiengi dithe debygi di ? na ddiengi: eithꝛ tithe a yfi hefyd.

13 Canys i mi ſy hun y tyngais medd yꝛ Arglwydd, mai yn anghyfannedd-le, yn warth, yn anialwch, ac yn felldith y bydd Boꝛrah: ai holl ddinaſoedd hi a fyddant yn ddiffaethwch tragywyddol.

14 Myfi a glywais chwedl oddi wꝛth yꝛ Arglwydd, ſef bod cennad ym myſc y cenhedloedd [yn dywedyd,] ymgeſclwch chwi, a deuwch yn ei herbyn hi, a chyfodwch i'r rhyfel.

15 O herwydd wele myfi a'th roddaf di yn fychan ym myſc y cenhedloedd, ac yn wael ym mhlith y dynion.

16 Dy ryfyg a'th dwyllodd, a balchder dy galon, ti yꝛ hon ydwyt yn aros yng-hꝛomlechydd y graig, ac yn meddiãnu uchelder y bꝛynn: er i ti oſod dy nŷth cynn uched â'r eryꝛ, myfi a wnafi ti ddeſcyn oddi yno medd yꝛ Arglwydd.

17 Edom hefyd a fydd yn anghyfannedd, pawb a'r a elo heibio iddi a ſynnant, ac a ryſeddant am ei holl ddialeddau hi.

18 Fel diniſtr Sodoma, a Gomoꝛra ai chymydogeſau [y bydd] hi medd yꝛ Arglwydd: ni phꝛeſſwylia neb yno, ac nid erys mab dŷn ynddi.

19 Wele fel llew y daw [yꝛ anrheithiwꝛ] i Ier.50.44.
fynu oddi wꝛth ddꝛerchafiad yꝛ Ioꝛddonen i'r dꝛigfa gadarn, eithꝛ mi a wnaf iddo ef redeg yn ddiſymmwth oddi wꝛthi hi, a'r neb a ddewiſwyd a oſodafi arni hi: canys pwy [ſydd] fel mau fi ? a phwy a eſid i mi amſer ? a phwy [yw] y bugail hwnnw a ſaif o'm blaen i ?

20 Am hynny gwꝛandewch chwi gyngoꝛ yꝛ Arglwydd yꝛ hwn a ymgyngoꝛodd efe yn erbyn Edom, ai fwꝛiadau y rhai a fwꝛiadodd efe yn erbyn pꝛeſſwyl-wŷꝛ Theman: [celwyddoc ydwyf] onid y rhai lleiaf o'ꝛ pꝛaidd ai lluſcant hwynt, [ac] oni wna efe yn anghyfannedd eu trig-leoedd gyd â hwynt.

21 Gan lef eu cwymp hwynt y cryn y ddaiar, llais eu gwaedd hwynt a glywir yn y môꝛ côch.

22 Wele fel eryꝛ y daw [y gelyn] i fynu, ac efe a eheda, ac a leda ei adenydd ar Boꝛꝛah: yna y bydd calon cedyꝛn Edom y dydd hwnnw fel calon gwꝛaig wꝛth eſcoꝛ.

23 Ar Ddamaſcus, Hemath, ac Arphad y daw gwarth, o herwydd hwynt a glywſant chwedl dꝛwg, lleſmeiriaſant [fel un] ofnus ar y môꝛ heb fedꝛu goꝛphywys.

24 Damaſcus a leſceiddia, ac a ymdꝛy i ffoi, ond dychꝛyn ai goddiwedd [hi,] gwaſcfa a phoenau ai deil hi fel gwꝛaig yn eſcoꝛ.

25 Paham na adewir [yn llonydd] y ddinas glodfawꝛ, caer fy llawenydd ?

26 Am hynny ei gwŷꝛ ieuaingc a ſyꝛthiant yn ei heolydd: a'r holl ryfel-wŷꝛ a ddifethir y dydd hwnnw medd Arglwydd y lluoedd.

27 Ac mi a gynneuaf dân ym muroedd
Damaſcus: ac efe a ddifa lyſoedd * Benhadad. 1.Bren.20.26.

28 Am * Cedar, ac am deyꝛnas Hazer y rhai a ddiniſtriodd Nabuchodonoſoꝛ bꝛenin Babilon, fel hyn y dywed yꝛ Arglwydd: cyfodwch, ac ewch chwi i fynu yn erbyn Cedar, a difethwch feibion y dwyꝛain.

29 Eu lluestai ai defaid a gymmerant ymmaith, eu llenni, ai holl leſtri, ai camelod a ddygant gyd â hwynt, a hwynt a floeddiant arnynt [gan ddywedyd,] ofn [ſydd] o amgylch.

30 Ffoiwch, ciliwch chwi ym mhell, ewch yn iſel i dꝛigo pꝛeſſwyl-wŷꝛ Hazoꝛ medd yꝛ Arglwydd: o herwydd Nabuchodonoſoꝛ bꝛenin Babilon a gymmerodd gyngoꝛ, ac a fwꝛiadodd fwꝛiad yn eich erbyn chwi.

31 Cyfodwch chwi, ac ewch i fynu at y genhedlaeth oludog yꝛ hon ſydd yn trigo yn ddifraw medd yꝛ Arglwydd heb ddoꝛau na barrau iddi, eu hunain y maent yn trigo.

32 Ai camelod a fyddant yn anrhaith, ai minteioedd o anifeiliaid yn yſpail, ac mi ai gwaſcaraf hwynt tua phob gwynt, ac i'r conglau eithaf: ac myfi a ddygaf o bob yſtlys iddo eu diniſtr hwynt medd yꝛ Arglwydd.

33 Hazoꝛ hefyd fydd yn dꝛigfa dꝛeigiau, [ac]

yn anghyfannedd byth: ni preſſwylia neb yno, ac nid erys mab dŷn ynddi.

34 [Dymma] air yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Jeremi y prophwyd am Elam yn nechreuad teyrnaſiad Sedecia brenin Juda, gan ddywedyd,

35 Fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd, wele fi yn torri bŵa Elam eu cadernid pennaf hwynt.

36 Ac mi a ddygaf ar Elam bedwar gwynt o bedwar eithafoedd y nefoedd, ac mi ai gwaſcaraf hwynt gyd a'r holl wyntoedd hynn: ac ni bydd cenhedlaeth, ac yr hon ni ddelo [rhai] o gyrwyraid Elam.

37 Canys mi a yrraf ar Elam ofn eu gelynnion, a'r rhai a geiſiant eu heinoes, ac myfi a ddygaf arnynt aflwydd, ſef angerdd fy nigofaint medd yr Arglwydd, ac mi a anfonaf y cleddyf ar eu hôl hwynt, nes i mi eu difetha hwynt.

38 Ac mi a oſodaf fy nheyrn-gader yn Elam, ac mi a ddifethaf oddi yno y brenin a'r tywyſogion medd yr Arglwydd.

39 Ac o'r diwedd myfi a ddychwelaf gaethiwed Elam medd yr Arglwydd.

## PEN. L.

Diniſtr Babilon: a rhydd-did Iſrael.

Y Gair yr hwn a lefarodd yr Arglwydd trwy law Jeremi y prophwyd am Babilon [ac] am wlâd y Caldeaid.

2 Mynegwch ym myſc y cenhedloedd, a chyhoeddwch chwi, a chodwch arwydd, cyhoeddwch, na chelwch, dywedwch, goreſcynnwyd Babilon, gwradwyddwyd Bel, drylliwyd Merodach, ei heulynnod a gywilyddiwyd ai delwau a ddrylliwyd.

3 Canys o'r gogledd y daw cenhedlaeth yn ei herbyn hi yr hon a eſid ei gwlâd hi yn anghyfannedd, fel na byddo preſſwylydd ynddi: yn ddyn ac yn anifail y mudant, ac y ciliant ymmaith.

4 Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amſer hwnnw medd yr Arglwydd, *meibion Jſrael a ddeuant, hwynt a meibion Juda yng-hyd, dann gerdded ac ŵylo yr ânt, ac y ceiſiant yr Arglwydd eu Duw. Iere.31.9.

5 Hwynt a ofynnant y ffordd i Sion, tu ag yno [y bydd] eu hwynebau hwynt: deuwch [meddant,] a glynwch chwi wrth yr Arglwydd [drwy] gyfammod tragywyddol, [yr hwn] nid anghofir.

6 Fy mhobl a fuant [fel] praidd colledic, eu bugeiliaid ai gyrraſant hwynt ar gyfeiliorn, i'r mynyddoedd y troſaſant hwynt, o'r mynydd yr aethant i'r brynn, [felly] yr anghofiaſant eu gorweddfa.

7 Pawb a'r ai cawſant hwynt ai difaſant, ai gelynnion a ddywedaſant, ni wnaethom ni ar fai, canys hwynt a bechâſant yn erbyn yr Arglwydd, [yr hwn ſydd] drigle cyfiawnder, ſef Arglwydd gobaith eu tadau.

8 Ciliwch chwi o ganol Babilon, ac ewch allan o wlâd y Caldeaid: a byddwch chwi fel hyrddod o flaen y praidd.

9 O herwydd wele myfi a ddeffroaf, ac a ddygaf i fynu yn erbyn Babilon gynnulleidfa y cenhedloedd mawrion o dir y gogledd: hwynt a ymddaclant yn ei herbyn, oddi yno y goreſcynnir hi, eu ſaethau fel [ſaethau] cadarn cyfarwydd ni ddychwelant yn ofer.

10 A Chaldea fydd yn yſpail, pawb a'r ai yſpeiliant hi a ddigonir medd yr Arglwydd.

11 Er i chwi fod yn llawen, ac yn hyfryd wrth ſathru fy etifeddiaeth, er i chwi fraſhâu fel llô [mewn] glaſ-wellt, a beichio fel teirw,

12 Eich mam a gywilyddir yn ddirfawr, a'r hon a'ch ymddug a wradwyddir: wele yr eithaf o'r cenhedloedd yn anialwch craſ-le, ac yn rhoſdir.

13 O herwydd digofaint yr Arglwydd ni's preſſwylir hi, eithr hi a fydd ei gyd yn anghyfannedd: pawb a'r a elo heibio i Babilon a ſynna, ac a ryfedda am ei holl ddialeddau hi.

14 Ymddeclwch yn erbyn Babilō o amgylch, holl berchen bwâu ſaethwch atti, nac arbedwch y ſaethau, o blegit hi a bechodd yn erbyn yr Arglwydd.

15 Bloeddiwch chwi arni hi o amgylch, hi a ymrydd, ei ſylfeini hi a ſyrthiant, ei muroedd a ddiniſtrir, o herwydd dial yr Arglwydd [yw] hynn: dielwch chwi arni, fel y gwnaeth hi gwnewch iddi.

16 Torrwch chwi ymmaith yr hau-wr oddi wrth Babilon, a'r hwn a ddalio grymman ar amſer cynhaeaf: rhag cleddyf y gorthrym-wr y troant bob vn at ei bobl ei hun, ac y ffoant bob vn iw wlâd.

17 Praidd ar gyfrgoll [yw] Jſrael, llewod ai gwaſcaraſant [hwynt:] brenin Aſſyria yn gyntaf ai hyſſodd hwynt, a'r Nabuchodonoſor ymma brenin Babilon yn olaf ai dieſcyrnodd hwynt.

18 Am hynny fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Jſrael: wele myfi a ymwelaf â brenin Babilon, ac ai wlâd ef, fel yr ymwelais â brenin Aſſyria.

19 Ac mi a ddychwelaf Jſrael iw drigfa, ac efe a bawr [ar] Carmel, a Baſan, ac ar fynydd Ephraim a Gilead y digonir ei enaid ef.

20 Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amſer hwnnw medd yr Arglwydd y ceiſir anwiredd Jſrael, ac ni's [gwelir] ef, a phechodau Juda ond nis ceir hwynt: canys myfi a faddeuaf i'r hwn a weddillwyf.

21 Dos di i fynu yn erbyn gwlad y gwrthryfel-wŷr, [ie] yn ei herbyn hi, *ac ymwel di ai thrigolion: anrheithia di a difroda ar eu hôl hwynt medd yr Arglwydd, a gwna di yn ôl yr hynn oll a orchymynnais i ti. Ezec.23.23.

22 Trwſt rhyfel [ſydd] yn y wlad: a diniſtr mawr.

23 Pa fodd y drylliwyd, ac y torrwyd gordd yr holl dir? pa fodd yr aeth Babilon yn ddiffaethwch ym myſc y cenhedloedd?

24 Myfi a oſodais fagl i ti, a thithe Babilon a ddaliwyd, ac heb wybod o honot, ti a gafwyd, ac a ddaliwyd, o herwydd yn erbyn yr Arglwydd yr ymryſonaiſt.

25 Yr Arglwydd a agorodd ei dryſſor, ac a ddug allan arfau ei ddigofaint: canys gwaith Arglwydd Dduw y lluoedd [yw] hynn yng-wlâd y Caldeaid.

26 Deuwch chwi yn ei herbyn o'r cwr eithaf, agorwch ei yſcuborau hi, dyrnwch hi fel dâs [ŷd,] a diniſtriwch hi, na fydded gweddill iddi.

27 Lleddwch ei holl gedyrn hi, deſcynnant hwy i'r lladdfa, gwae hwynt, canys eu dydd hwynt a ddaeth [ac] amſer eu hymwelediad.

28 Llef y rhai a ffoant, ac a ddiangant o wlâd Babilon [a glywir,] i ddangos yn Sion ddial yr Arglwydd ein Duw ni, [a] dial ei Deml ef.

29 Gelwch chwi laweroedd yn erbyn Babilon, y perchen bwâu oll gwerſyllwch chwi wrthi hi o amgylch, na chaffed neb ddiangc o honi, * telwch iddi hi yn ôl ei gweithredoedd, ac yn ôl yr hynn oll a'r a wnaeth hi gwnewch iddi: o herwydd hi a falchiodd yn erbyn yr Arglwydd, [ſef] yn erbyn Sanct Iſrael. Gwel.18.6.

30 Am hynny ei gwŷr ieuaingc a ſyrthiant yn ei heolydd hi: ai holl ryfel-wŷr a ddifethir y dydd hwnnw medd yr Arglwydd.

31 Wele fi [yn dyfod] attat ti ô falch medd Arglwydd Dduw y lluoedd, o herwydd dy ddydd a ddaw [ſef] yr amſer yr ymwelwyf â thi.

32 A'r balch a dramgwydda, ac a ſyrth, ac ni [bydd] ai cyfodo: ac mi a gynneuaf dân yn ei ddinaſoedd, ac efe a ddifa ei holl amgylchoedd ef.

33 Fel hynn y dywed Arglwydd y lluoedd, meibion Iſrael, a meibion Iuda a orthrymmwyd yng-hyd, a phawb a'r ai caethiwodd hwynt ai daliâſant, ac a wrthodâſant eu gollwng hwynt ymmaith.

34 Eu rhyddhau-wr [ſydd] gryf, Arglwydd y lluoedd [yw] ei enw, efe a ddyru farn ar eu ymryſon hwynt i beri llonydd i'r wlâd, a dychryn i breſſwyl-wŷr Babilon.

35 Cleddyf [a ddaw] ar y Caldeaid, medd yr Arglwydd, ac ar drigolion Babilon, ac ar ei thywyſogion, ac ar ei doethion.

36 Cleddyf [a ddaw] ar y dewiniaid fel yr ynfydant: a'r cleddyf [a ddaw] ar ei chedyrn fel y dychrynant.

37 Cleddyf [a ddaw] ar ei meirch, ac ar ei cherbydau, ac ar yr holl werin y rhai ydynt yn ei chanol, fel y byddant fel y gwragedd, cleddyf [a ddaw] ar ei thryſſorau, a hwynt a yſpeilir.

38 Sychder a ddaw ar ei dyfroedd hi fel y ſychant: o herwydd gwlâd [yn addoli] delwau [yw] hi, ac mewn eulynnod y maent yn ymlawenychu.

39 Am hynny * anifeiliaid gwylltion, a chathod a arhoſant, a chywion yr eſtrys a drigant ynddi, ac ni phreſſwylir hi mwyach byth, ac ni's cyfanneddir hi o genhedlaeth i genhedlaeth. Eſa.13 20.

40 Fel yr ymchwelodd Duw Sodoma, a Gomorra ai chymydogeſau medd yr Arglwydd, [felly] ni preſſwylia neb yno, ac ni erys mab dŷn ynddi. Gen.19.24. Eſa.13.19.

41 Wele bobl yn dyfod o'r gogledd, a chenhedlaeth fawr, a brenhinoedd lawer a godir o eithafoedd y ddaiar.

42 Bŵa a tharian a ddaliant, creulon ydynt ac ni thoſturiant, eu llef fel môr a rûa, ac ar feirch y marchogant yn daclus i'th erbyn di merch Babilon fel rhyfel-wŷr.

43 Brenin Babilon a glywodd ſôn am danynt, ai ddwylo ef a leſcauâſant: gwaſcfa ai daliodd ef, [a] gwewyr fel gwraig wrth eſcor.

44 Wele fel llew y daw [yr anrheithi-wr] i fynu oddi wrth dderchafiad yr Iorddonen i'r drigfa gadarn: eithr mi a wnaf iddo ef redeg yn ddiſymmwth oddi wrthi hi, a'r neb a ddewiſwyd a oſodaſi arni hi: canys pwy [ſydd] fel inau fi? a phwy a eſid i mi amſer? a phwy [yw] y bugail hwnnw a ſaif o'm blaen i? Iere.49.19.

45 Am hynny gwrandewch chwi gyngor yr Arglwydd yr hwn a ymgynghorodd efe yn erbyn Babilon, ai fwriadau y rhai a fwriadodd efe yn erbyn gwlâd y Caldeaid [celwyddoc ydwyf] onid y rhai lleiaf o'r praidd ai lluſcant hwynt, [ac] oni wna efe yn anghyfannedd eu trigleoedd gyd â hwynt.

46 Gan drwſt goreſcynniad Babilon y cryn y ddaiar, ac y clywir gwaedd ym myſc y cenhedloedd.

## PEN. LI.

Diniſtr Babilon. 59 Ieremi yn rhoddi ei lyfr i Sariah.

FEl hynn y dywed yr Arglwydd, wele myfi a godaf wynt diniſtriol yn erbyn Babilon, ac yn erbyn [ei] thrigolion y rhai a godant [eu] calon yn fy erbyn i.

2 Ac mi a anfonaf i Babilon nith-wŷr, a hwynt ai nithiant hi, ac a waghânt ei thir hi, o herwydd hwynt a fyddant yn ei herbyn hi o amgylch ar y dydd blinderoc.

3 Wrth y perchen bwâu, ac wrth yr hwn a ymdderchafo mewn llurig [y dywed yr Arglwydd,] na chymmerwch drugaredd ar ei gwŷr ieuaingc, difrodwch chwi ei holl lu hi.

4 Felly y rhai lladdedig a ſyrthiant yng-wlad y Caldeaid, a'r rhai archolledic yn ei heolydd hi.

5 Canys Iſrael nid yw weddw, nac Iuda oi Duw, [ſef] o Arglwydd y lluoedd: er bod eu gwlâd hwynt yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct yr Iſrael.

6 Ffoiwch chwi o ganol Babilon, ac achubwch bawb ei einioes ei hun, na adewch chwi eich difetha yn ei hanwiredd hi, o blegit amſer dial [yw] hwn i'r Arglwydd, efe a dâl y pwyth iddi hi.

7 Phiol aur [oedd] Babilon yn llaw yr Arglwydd, yn meddwi pôb gwlâd: yr holl genhedloedd a yfaſant oi gwin hi, am hynny y cenhedloedd a ynfydâſant.

Eſa.21 9. gwel.14.9. 8 *Yn ddiſymmwch y ſyrthiodd Babilon, ac y drylliwyd hi: vdwch chwi droſti, cymmerwch driacl iw harcholl hi, iedrych a iachâ hi.

9 Nyni a iachauaſom Babilon [meddant hwy,] ond nid aeth hi yn iach[ddim,] gedwch chwi hi ymmaith, ac awn bawb iw wlâd: canys ei barn a gyrhaeddodd i'r nefoedd, ac a dderchafwyd hyd yr wybrau.

10 Yr Arglwydd a ddug allan ein cyfiawnder ni: deuwch a thraethwn ni yn Sion waith yr Arglwydd ein Duw ni.

11 Gloiwwch y ſaethau, ceſclwch chwi y tariannau, yr Arglwydd a gyffru yſpryd brenhinoedd Media, o blegit y mae ei fryd ef yn erbyn Babilon iw diniſtrio hi: *canys dial yr Arglwydd yw hynn, [a] dial ei Deml ef. Ierem.50.28.

12 Derchefwch chwi faner ar furoedd Babilon, cadarnhewch y wiliadwriaeth, goſodwch i fynu y gwil-wŷr, darperwch chwi gynllwynwŷr, canys yr Arglwydd a fwriadodd, ac efe a wna hefyd yr hyn a lefarodd am drigoliõ Babilon.

13 Tydi yr hon ydwyt yn aros ar ddyfroedd lawer, yn aml dy dryſſorau, dy ddiwedd di a ddaeth [ſef] meſur dy gybydd-dod.

Amos.6.8. 14 Arglwydd y lluoedd a dyngodd iddo ei hun[gan ddywedyd,] diau i'ch lenwir di o ddynion megis y mywion aſcelloc[o nifer:] a hwynt a ganant floddeſt i'th erbyn.

Ierem.10.12. 15 *Yr hwn a wnaeth y ddaiar drwy ei nerth[ac] a ſiccrhaodd y bŷd trwy ei ddoethineb, ac a danodd y nefoedd drwy ei ddeall.

16 Pan roddo efe ei lêf y terfyſca y dyfroedd yn y nefoedd, ac y mae efe yn codi y niwloedd o eithaf y ddaiar, ac efe ſydd yn gwneuthur y mellt yn law, ac yn dwyn y gwynt allan oi dryſſorau.

Ierem.10.14. 17 *Ynfyd yw pôb dŷn o ŵybodaeth, gwradwyddwyd pôb toddydd o achos y ddelw: canys celwyddoc[yw]ei doddiad, ac nid oes chwythad ynddynt.

18 Oferedd[ydynt]hwy[a] gwaith cyfeiliorni: yn amſer eu hymweliad y difethir hwynt.

19 Nid fel y rhai hynn, eithr lluni-ŵr y cwbl oll yw rhan Iacob: * ac [Iſrael yw] gwialen ei etifeddiaeth ef, Arglwydd y lluoedd [yw] ei enw. Ierem.10.16.

20 Ti ydwyt forthwyl i mi, [ac] arfau rhyfel, â thi y drylliaf genhedloedd, ac â thi y diniſtriaf deyrnaſoedd,

21 A thi hefyd y gwaſcaraf y march a'r march-ŵr, ac â thi y drylliaf y cerbyd ai farchog.

22 A thi y drylliaf ŵr a gwraig, ac â thi y drylliaf hên ac ieuangc, ac â thi y drylliaf y gŵr ieuangc a'r forwyn.

23 A thi hefyd y drylliaf y bugail ai braidd, ac â thi y drylliaf yr arddd-ŵr ai iau ŷchen, ac â thi y drylliaf y tywyſogion a'r pennaethiaid.

24 Ac mi a dalaf yn eich golwg chwi i Babilon, ac i holl breſſwyl-wŷr Caldea eu holl ddrygioni hwynt yr hyn a wnaethant hwy yn Sion medd yr Arglwydd.

25 Wele fi [yn dyfod] i'th erbyn di ô fynydd diniſtriol, yr hwn [wyt] yn diniſtrio yr holl dîr medd yr Arglwydd, ac myfi a eſtynnaf fy llaw arnat, ac a'th dreiglaf di i lawr o'r creigiau, ac a'th roddaf di yn fynydd lloſc:

26 Fel na chymmerant o honot ti faen congl, na ſylfaen: o blegit diffaethwch tragywyddol a fyddi di medd yr Arglwydd,

27 Derchefwch chwi faner yn y tir, lleiſiwch vdcorn ym myſc y cenhedloedd, darperwch chwi y cenhedloedd yn ei herbyn hi, gelwch chwi deyrnaſoedd Ararat, Minni, ac Aſcanez yn ei herbyn hi: goſodwch dywyſog arni, gwnewch chwi i feirch ddyfod i fynu cyn amled a'r mywion aſcelloc.

28 Darperwch chwi y cenhedloedd yn ei herbyn hi, ſef brenhinoedd Media, ai thywyſogion, ai holl bennaethiaid hi, a'r holl wlâd, [yr hon ſydd tann] ei llywodraeth ef.

29 Y ddaiar hefyd a gryna, ac a ofidia pan gyflawner amcan yr Arglwydd yn erbyn Babilon, am roddi gwlâd Babilon yn anghyfannedd heb drigiannol [ynddi.]

30 Cedyrn Babilõ a beidiaſant ag ymladd, ac y maent hwy yn aros o fewn yr amddeffynfeudd: pallodd eu cadernid hwynt, aethant yn wrageddos, ei hanneddau hi a loſcwyd, ai barrau a dorrwyd.

31 Redeg-ŵr a rêd i gyfarfod â rhedeg-ŵr, a chennad i gyfarfod â chennad, i fynegu i frenin Babilon oreſcyn ei ddinas ef oi chwrr,

32 Ac ennill y rhydau, a lloſci y llynnoedd â than, a ſynnu ar y rhyfel-wŷr.

33 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Iſrael: merch Babilon [ſydd] fel llawr dyrnu, amſer ei dyrnu hi [a ddaeth:] ac ar fyrder y daw amſer cynhaiaf iddi.

34 Nabuchodonoſor brenin Babilon a'm hyſodd fi, [ac] a'm diniſtriodd, efe a'm goſododd fel lleſtr gwag, efe a'm llyngcodd fel draig, ac a lanwodd ei fol o'm dainteithion, [ac] a'm bwriodd fi allan.

35 Y cam a wnaed i mi, ac i'm cnawd [a ddelo] ar Babilon medd preſſwyl-ferch Sion: a'm gwaed i ar drigolion Caldea medd Ieruſalem.

36 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele myfi a ddadleuaf dy ddadle di, ac a ddialaf troſot ti: ac mi a ddiyſpyddaf ei môr hi, ac a ſychaf ei ffynhonnau hi.

37 Yna y bydd Babilon yn garneddau, yn drigfa dreigiau, yn ſyndra, ac yn aruthr, heb breſſwylydd.

38 Cyd-rûant fel llewod: bloeddiant fel cenawon llewod.

39 *Yn eu gwrês hwynt y goſodaf wledd iddynt, ac mi ai meddwaf hwynt fel y llawen- Dan.5.2.

ychant, ac y cyſcant hûn dragywyddol: ac ni ddeffroant medd yr Arglwydd.

40 Myfi ai dygaf hwynt i wared fel ŵyn iw lladd, [ac] fel hyrddod a bychod.

41 Pa fodd y gorescynnwyd Seſach ? ac yr ennillwyd gogoniant yr holl dîr ? pa fodd yr aeth Babilon yn rhyfeddod ym myſc y cenhedloedd ?

42 Y môr a dderchafodd tros Babilon: hi a orchguddiwyd ag amlder ei donnau ef.

43 Ei dinaſoedd hi a aethant yn anghyfannedd, yn graſ-dîr, ac yn rhôs: gwlâd ni thrîg vn gŵr ynddi, ac ni thrammwya mab dŷn trwyddi.

44 Ac mi a ymwelaf â Bel yn Babilon, ac mi a dynnaf oi ſafn ef yr hyn a lyngcodd efe: a'r cenhedloedd ni ddilifant atto ef mwyach, a mûr Babilon a ſyrth.

45 Deuwch chwi allan oi chanol ô fy mhobl, ac achubwch chwi bôb vn ei einioes, rhac llid digofaint yr Arglwydd,

46 Ac rhac llwfrhau eich calonnau, ac ofni rhag y chwedl a glywir yn y wlâd: canys y flwyddyn [hon y daw] chwedl newydd, ac ar ôl hynny chwedl newydd y flwyddyn [neſaf,] a thrais yn y wlâd, a llywodraeth-ŵr ar lywodraeth-ŵr.

47 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod pan yr ymwelwyf â delwau Babilon, ai holl wlâd hi a wradwyddir, ai holl rai lladdedig hi a ſyrthiant yn ei chanol.

48 Yna y nefoedd a'r ddaiar a'r hyn oll [ſydd] ynddynt a gânant yn llafar o herwydd Babilon: o blegit o'r gogledd y daw yr anrheith-wŷr medd yr Arglwydd.

49 Fel y gwnaeth Babilon i'r rhai lladdedic o Jſrael ſyrthio: felly y Babiloniaid a ſyrthiant yn lladdedig drwy yr holl dîr.

50 Y rhai a ddiangant gan y cleddyf ewch chwi ymmaith na ſefwch, coſiwch chwi yr Arglwydd o bell, a bydded Jeruſalem yn eich cof chwi.

51 Yr oedd cywilydd arnom pan glywſom ni y cabledd, gwarth a orchguddiodd ein hwynebau ni pan ddaeth yr eſtroniaid i gyſſegr tŷ yr Arglwydd.

52 Am hynny wele y dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd, pan ymwelwyſi ai delwau hwynt: a thrwy ei holl wlâd hi y clwyfus a riddfan.

53 Er i Babilon dderchafu i'r nefoedd, ac er iddi gadarnhau ei hamddeffynfa yn vchel: [etto] anrheith-wŷr a ddeuant oddi wrthiſi medd yr Arglwydd.

54 Sain gwaedd [a glywir] o Babilon: a diniſtr mawr o wlâd y Caldeaid,

55 O herwydd yr Arglwydd a anrheithiodd Babilon, ac a ddiniſtriodd y mawr-air o honi hi: er rhuo oi tonnau fel dyfroedd lawer [a] rhoddi twrwf eu llef hwynt.

56 Canys yr anrheith-ŵr, a ddaeth yn ei herbyn hi, ſef yn erbyn Babilon, ai chedyrn hi a ddaliwyd, ei bwa hi a dorrwyd: canys Arglwydd Dduw y gobr, a obrwya yn gwbl.

57 Myfi a feddwaf ei thywyſogion hi, ai doethion, ei phennaethiaid, ai ſwyddogion, ai chedyrn fel y cyſcant hûn dragywyddol, ac na ddeffroant medd y Brenin, enw yr hwn [yw] Arglwydd y lluoedd.

58 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gan ddryllio y dryllir helaeth furoedd Babilon, ai huchel byrth a loſcir â thân: a'r bobl a ymboenant mewn oferedd, a'r cenhedloedd mewn tân, a hwynt a ddeffygiant.

59 Y gair yr hwn a orchymynnodd Jeremi y prophwyd i Saraiah fab Neriah, fab Maaſiah pan oedd efe yn myned gyd â Sedecia frenin Juda i Babilon, y bedwaredd flwyddyn oi deyrnaſiad ef: a Saraiah oedd dywyſog llonydd.

60 Felly Jeremi a ſcrifennodd yr holl niwed a'r a oedd ar ddyfod yn erbyn Babilon mewn vn llyfr: ſef yr holl bregethau y rhai a ſcrifennwyd yn erbyn Babilon.

61 Ac Jeremi a ddywedodd wrth Saraiah, pan ddelech di i Babilon, yna edrych di a darllen y geiriau hynn,

62 A dywet ti: ô Arglwydd ti a leferaiſt yn erbyn y lle hwn, am ei ddiniſtrio fel na byddo ynddo breſſwylydd, na dŷn nac anifail, eithr yn anghyfannedd tragywyddol.

63 A phan ddarfyddo i ti ddarllen y llyfr hwn, rhwym di faen wrtho, a bwrw di ef i ganol Euphrates,

64 A dywet, fel hynn y ſoddir Babilon, ac ni chyfyd hi gan y drwg yr hwn a ddygaſi arni, oni ddeffygiant. HYD HYN [Y MAE] PREGETHAV IEREMI.

## PEN. LII.

Daliad Sedecia, ac ennill Ieruſalem. 10 Lladd meibion Sedecia, a thynnu ei lygaid. 13 Anrheithio y ddinas a'r Deml. 31 Iehoacim yn cael dyfod allan o garchar.

MAb *vn mlwydd ar hugain [oedd] Sedecia pan ddechreuodd efe deyrnaſu, ac vn mlynedd ar ddêc y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem, ac enw ei fam ef oedd Hamutal, merch Jeremi o Libna. 2.Bren. 24.18. 2.cron.36.11.

2 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd, yn ôl yr hyn oll a'r a wnaethe Jehoacim.

3 O herwydd [bod] digofaint yr Arglwydd ar Jeruſalem, ac ar Juda, hyd oni fwriodd efe hwynt allan oi olwg ef, y gwrthryfelodd Sedecia yn erbyn brenin Babilon.

4 Ond yn y nawfed flwyddyn oi deyrnaſiad ef, yn y decfed mis, ar y decfed [dydd] o'r mis y daeth Nabuchodonoſor brenin Babilon, efe ai holl lu yn erbyn Jeruſalem, ac a warchauâſant arni hi: ac a adailadâſant gyferbyn â hi amddeffynfa o amgylch.

5 Felly y ddinas a drigodd yng-warche hyd yr vnfed flwyddyn ar ddêc i'r brenin Sedecia.

6 Y pedwerydd mis, ar y nawfed [dydd] o'r mis newyn a orchfygodd y ddinas, fel nad oedd bara i bobl y wlâd.

7 Yna y torrwyd y ddinas, a'r holl ryfel-wŷr a ffoaſant, ac a aethant allan o'r ddinas liw nôs, i ffordd y porth rhwng y ddau fûr yr hwn [oedd] wrth ardd y brenin, (a'r Caldeaid [oeddynt] wrth y ddinas o amgylch) a hwynt a aethant tua'r rhôs.

8 Ond llû y Caldeaid a ymlidiaſant ar ôl y brenin, ac a oddiweddaſāt Sedecia yn rhoſſydd Jericho, ai holl lu ef a waſcaraſāt oddi wrtho ef.

9 Yna hwynt a ddaliaſant y brenin, ac ai dygaſant ef at frenin Babilon yn Riblah yng-wlad Hemath, ac efe a roddodd farn arno.

10 A brenin Babilon a laddodd feibion Sedecia yng-wydd ei lygaid ef: efe a laddodd hefyd holl dywyſogion Juda yn Riblah.

11 Yna efe a dynnodd lygaid Sedecia, ac ai rhwymodd ef â chadwyni, a brenin Babilon ai harweiniodd ef i Babilon, ac ai rhoddodd ef mewn carchar-dŷ hyd ddydd ei farwolaeth.

12 Ac yn y pummed mîs, ar y decfedd [dydd] o'r mîs, (hon [oedd] y bedwaredd flwyddyn ar bymthec i'r brenin Nabuchodonoſor [ſef] brenin Babilō) y daeth Nabuzaradan pennaeth y milwŷr (yr hwn a ſafe ger bron brenin Babilon) i Jeruſalem,

13 Ac efe loſcodd dŷ yr Arglwydd, a thŷ yr brenin, a holl dai Jeruſalem: a phob tŷ mawr a loſcodd efe â thân.

14 A holl lû y Caldeaid y rhai [oeddynt] gyd â phennaeth y mil-wŷr a ddeſtruwiaſant holl furoedd Jeruſalem o amgylch.

15 Yna Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr a gaeth-gludodd [rai] o'r bobl waelaf, a'r gweddill o'r bobl y rhai a adawſid yn y ddinas, a'r ffoaduriaid y rhai a giliaſent at frenin Babilon ſef y gweddill o'r bobl.

16 Ond Nabuzaradan pennaeth y mil-wŷr a adawodd [rhai] o dlodion y wlâd yn winllanwŷr, ac yn ardd-wŷr.

17 A'r Caldeaid a ddrylliaſant y colofnau prês y rhai [oeddynt] yn nhŷ'r Arglwydd, a'r ſtolion, a'r gerwyn brês yr hon [oedd] yn nhŷ'r Arglwydd: a hwynt a ddugaſant eu holl brês hwynt i Babilon.

18 A hwynt a ddugaſant ymmaith y crochânau, a'r rhawiau, ar pſaltringau, a'r cawgiau, a'r thuſſerau, a'r holl leſtri prês y rhai yr oeddyd yn gwaſanaethu â hwynt.

19 A'r phiolau, a'r pedill tân, a'r cawgiau, a'r crochânau, a'r canhwyll brennau, a'r thuſſerau, a'r cwppanau y rhai [oeddynt] yn aur, ac yn arian a gymmerodd pennaeth y mil-wŷr ymmaith.

20 Y ddwy golofn, vn gerwyn, a deu-ddec o ychen prês y rhai [oeddynt] tann yr ſtolion, y rhai a wnaethe y brenin Salomon yn nhŷ'r Arglwydd: nid oedd pwys ar brês yr holl leſtri hyn.

21 Am y colofnau, deu naw cufydd [oedd] vchter pôb colofn, a llinin o ddeuddec cufydd oedd yn ei hamgylchu: ai phraſſter yn bedair modfedd, ac yn gau.

22 A chnap prês [oedd] arni, a phump cufydd [oedd] vchter vn cnap, a rhwyd-waith, a phomgranâdau [oeddynt] ar y cnap o amgylch yn brês ei gyd: ac fel hynn yr oedd yr ail golofn ai phomgrânadau.

23 A'r pomgranadau oeddynt onid pedwar cant ar yſtlys: yr holl bomgranadau ar y rhwyd-waith o amgylch oeddynt gant.

24 A phennaeth y mil-wŷr a gymmerodd Seraiah yr arch-offeiriad, a Sephaniah yr ail offeiriad; a'r tri oeddynt yn cadw y drws.

25 Ac efe a gymmerodd o'r ddinas vn ſtafellydd yr hwn oedd ſwyddog ar y rhyfel-wŷr, a ſeith-wŷr o weiſion pennaf y brenin y rhai a gafwyd yn y ddinas: a Sopher tywyſog y llû, yr hwn a fydde yn byddino pobl y wlâd [honno,] a thri vgein-wŷr o bobl y wlâd y rhai a gafwyd yng-hanol y ddinas.

26 Felly Nabuzaradan pennaeth y milwŷr ai cymmerodd hwynt ymmaith, ac a aeth â hwynt i Riblah at frenin Babilon.

27 A brenin Babilon ai tarawodd hwynt, ac ai lladdodd hwynt yn Riblah yng-wlad Hemath: fel hyn y caeth-gludwyd Juda oi wlad ei hun.

28 Dymma y bobl y rhai a gaeth-gludodd Nabuchodonoſor: yn y ſeithfed flwyddyn [oi deyrnaſiad] efe a gaeth-gludodd o'r Iddewon dair mil, a thri ar hugain.

29 Yn y ddeu-nawfed flwyddyn i Nabuchodonoſor ef a gaeth-gludodd o Jeruſalem wyth gant a deuddec ar hugain o ddynnion.

30 Yn y drydedd flwyddyn ar hugain i Nabuchodonoſor, Nabuzaradan pennaeth y milwŷr a gaeth-gludodd ſaith gant, a phump a deugain o Iddewon: yr holl ddynniō hyn [oeddynt] bedair mîl, a chwe chant.

31 Ac yn yr ail flwyddyn ar bymthec ar hugain wedi caeth-gludo Jehoacim frenin Juda y deuddecfed mîs, ar y pummed [dydd] ar hugain o'r mîs, Efilmerodach brenin Babilon (yn y flwyddyn [gyntaf] oi deyrnaſiad ef) a dderchafodd benn Jehoacim brenin Juda, ac ai dug ef allan o'r carchar-dŷ,

32 Ac a ddywedodd yn dêg wrtho, ac a oſododd ei frenhin-faingc ef vwch law meingciau y brenhinoedd y rhai [oeddynt] gyd ag ef yn Babilon.

33 Ac efe a newidiodd ei garchar-wiſc ef: yntef a fwytâodd fwyd ger ei fron ef yn oeſtad holl ddyddiau ei einioes.

34 Ai lynniaeth ef [ſef] llynniaeth gwaſtadol a roddwyd iddo ef oddi wrth frenin Babilon, dogn dydd yn ei ddydd, hyd ddydd ei farwolaeth: [ſef] holl ddyddiau ei einioes ef.

*Terfyn llyfr Ieremi.*

# Galar-nad y Prophvvyd

Ieremi.

## PENNOD I.

PA fodd y mae y ddinas aml[ei]phobl yn eiſtedd ei hunan: [pa fodd] y mae y luoſog ym mhl'th y cenhedloedd megis yn weddw: [pa fodd] y mae tywyſoges y talaithau tann deyrn-ged:

2 Y mae hi yn ŵylo yn hidl liw nos, ac [y mae]ei dagrau ar ei gruddiau hi heb [neb] oi chariadau yn toſturio wrthi hi:ai holl gyfeillion a fuant anghywir iddi,[ac]a aethant yn elynnion iddi.

3 Iuda a fudodd ymmaith gan flinder, a chan amlder caethiwed, y mae hi yn aros ym myſc y cenhedloedd, ac heb gael gorphywyſtra: ei holl erlid-wŷr ai goddiweddaſant hi mewn lloedd cyfyng.

4 Y mae ffyrdd Sion yn galaru o eiſieu rhai yn dyfod i'r ŵyl arbennic: ei holl byrth hi [ydynt] anghyfannedd, ei hoffeiriaid yn vcheneidio, ei morwynion yn ofidus, a hithe yn flîn arni.

5 Ei gwrthwyneb-wŷr ydynt bennaf, y mae ei gelynniō yn ffynnu, am fod yr Arglwydd yn ei gofidio hi am amlder ei chamweddau, ei phlāt a aethant i gaethiwed o flaen y gelyn.

6 Holl harddwch merch Sion a ymadawodd â hi, y mae ei thywyſogion hi fel hyddod heb gael porfa, ac yn myned yn ddi-nerth o flaen yr ymlid-wŷr.

7 Y mae Ieruſalem yn nyddiau ei blinder, ai gwrthryfelgarwch yn cofio ei holl hyfrydwch, y rhai oedd[eiddo hi] gynt pan ſyrthiodd ei phobl hi yn llaw yr gelyn heb [neb] yn ei chynnorthwyo hi: y gelynnion a welſant[hyn,] ac a chwarddaſant am[benn]ei Sabbothau.

8 Ieruſalem a wnaeth bechod, am hynny y methodd hi, yr holl rai ai hanrhydeddent hi [o'r blaen] ſy yn ei diyſtyru hi, o herwydd iddynt hwy weled ei noethni hi: îe y mae hi yn vcheneidio wedi ei throi yn ei hôl.

9 Y mae ei godreu hi yn aflan, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd, am hynny y ſyrthiodd hi yn rhyfedd, heb [neb] yn toſturio wrthi hi: edrych Arglwydd ar fy mlinder, am falchio o'r gelyn.

10 Y gwrthwyneb-ŵr a eſtynnodd ei law ar ei holl dlyſau hi, hi a welodd y cenhedloedd yn dyfod i mewn iw chyſſegr, i'r rhai y gorchymynnaſit ti, na ddelent i'ch gynnulleidfa.

11 Y mae ei holl bobl hi yn vcheneidio, ac yn ceiſio bwyd: hwy a roddaſant eu tlyſau am fwyd i ddadebru yr enaid, edrych Arglwydd a gwêl di mai dirmygus ydwyf fi.

12 Onid gwaeth gennych chwi y fforddolion oll[er hynny:] gwelwch ac edrychwch a oes y fâth ofid a'm gofid i, yr hwn a wnaethpwyd i mi:[ac]a'r hwn y mae yr Arglwydd yn fyng-ofidio yn nydd ei ddigter.

13 O'r vchelder yr anfonodd efe dân i'm heſcyrn i, yr hwn ai lloſcodd hwynt: efe a ledodd rwyd o flaen fy nhraed, ac a'm dychwelodd fi yn [fy]ôl, efe a'm gwnaeth fi yn anrhaithiedic[ac] yn ofidus byth;

14 Rhwymwyd iau fyng-hamweddau ai law ef, hwy a ymblethaſant, ac a ddaethant i fynu am fyng-wddf: efe a wnaeth i'm nerth ſyrthio, yr Arglwydd a'm rhoddodd mewn dwylo, [oddi tann ba rai] ni allaf gyfodi.

15 Yr Arglwydd a ſathrodd fy holl rai grymmus [y rhai oeddynt] o'm mewn, efe a gyhoeddodd i'm herbyn amſer terfynedic i ddifetha fyng-wŷr ieuaingc: [fel] gwin-wryf y ſathrodd yr Arglwydd y forwyn [ſef] merch Iuda.

16 Am hyn yr ydwyf yn ŵylo,[ac]y mae fy llygaid yn diferu y dwfr, o herwydd pellhau oddi wrthif [pob] diddanwr yr hwn a ddadebre fy enaid,[a] bôd fy meibion yn anrhaithiedic, am i'r gelyn orchfygu.

17 Sion a ledodd ei dwylo, heb [fod] a doſturie wrthi hi, yr Arglwydd a oſododd ei elynnion yng-hylch Iacob,[ac]Ieruſalem ſydd ffiaidd yn eu myſc hwynt.

18 Cyfiawn yw'r Arglwydd, o blegit myfi a fum anufydd iw air ef, gwrandewch atolwg chwi bobloedd oll, a gwelwch fyng-ofid: fy morwynion, a'm gwŷr ieuaingc a aethant i gaethiwed.

19 Gelwais am fyng-hariadau, [ac] hwy a'm twyllaſant fi, fy offeiriaid a'm henaf-gwŷr a fuant feirw yn y ddinas: tra fuant hwy yn ceiſio iddynt fwyd i ddadebru eu henaid.

20 Gwel di ô Arglwydd fod yn gyfyng arnaf, fy emyſcaroedd a gyffroaſant, fyng-halon a drôdd ynof, o herwydd fy mod yn rhy anufydd: y mae y cleddyf yn difetha oddi allan, fel[y mae] marwolaeth gartref.

21 Clywſant fy mod i yn vcheneidio, [ac] nid [oes] a doſturio wrthifi, fy holl elynnion [pan] glywſant fy nryg-fyd a lawenychaſant, am i ti wneuthur [hynny: ond] ti a ddygi i benn y dydd a gyhoeddaiſt, pan fyddant hwy fel [yr ydwyf] innef.

22 Deued eu holl ddrygioni hwynt o'ch flaen di, a gwna di iddynt hwy fel y gwnaethoſt i minnef am fy holl gamweddau o blegit [y mae] fy vcheneidiau yn aml, a'm calon yn ofidus.

## PEN. II.

PA fodd y tywyllodd yr Arglwydd ar ferch Sion yn ei ſorriant: efe a fwriodd ogoniant

ant Iſrael i lawr o'r nefoedd, ac yn ei ddigter ni chofiodd leithic ei draed.

2 Yr Arglwydd a ddifethodd heb arbed holl anneddau Iacob, efe a ddifrododd yn ei ddigter amddeffynfeudd merch Iuda, efe ai tynnodd [hwynt] i lawr, [ac] a ddifethodd y deyrnas ai thywyſogion.

3 Mewn ſorriant digllon y torrodd efe holl gyrn Iſrael, efe a dynnodd [ei] ddeheu-law yn [ei] hôl oddi wrth y gelyn: ac yn Iacob y cynneuodd megis fflam danllyd [yr hon] a ddifaodd o amgylch.

4 Efe a dynnodd ei fwa fel gelyn, goſododd ei ddeheu-law fel gwrth-wyneb-wr, ac a laddodd bob dim hyfryd i'r golwg ym mhabell merch Sion, fel tân y tywalltodd efe ei ddigofaint.

5 Yr Arglwydd ſydd megis gelyn, efe a ddifethodd Iſrael, efe a ddifethodd ei holl balaſau hi, efe a ddifwynodd ei hamddeffynfeudd, ac a wnaeth gwynfan a galar yn aml i ferch Iuda.

6 Efe a anrheithiodd ei babell fel gardd, efe a lygrodd ei gymanfa: yr Arglwydd a wnaeth anghofio yn Sion yr vchel ŵyl a'r Sabboth, ac yn llidiawgrwydd ei ſorriant y dirmygodd y brenin a'r offeiriad.

7 Yr Arglwydd a wrthododd ei allor, a ffieiddiodd ei gyſſegr, [ac] a roddodd gaerau ei phalaſau hi yn llaw y gelyn: [y gelynnion] a roddaſant lef yn nhŷ yr Arglwydd, megis ar vchel-ŵyl.

8 Yr Arglwydd a amcanodd ddifwyno mûr merch Sion, efe a eſtynnodd linin meſur, ac ni pheidiodd a difetha: am hynny y gwnaeth efe i'r rhacfur, ac i'r mûr alaru, [y rhai] a gyd-fethaſant.

9 Ei phyrth a ſoddaſant i'r ddaiar, efe a ddifethodd, ac a ddrylliodd ei barrau hi, ei brenin, ai thywyſogion [a gaeth-gludwyd] i fyſc y cẽhedloedd, heb gyfraith [y mae] ei phrophwydi hi, [ac] heb gael gweledigaeth gan yr Arglwydd.

10 Henuriaid merch Sion a eiſteddaſant i lawr, a dawaſant a ſôn, a oſodaſant lwch ar eu pennau, [ac] a wiſcaſant ſachliain: merched Ieruſalem a oſtyngaſant ei pennau i lawr.

11 Fy llygaid i a ddarfuant gan wylofain, fy emyſcaroedd á gyffroaſant, fy afu a dywalltwyd ar y ddaiar, o herwydd diniſtr merch fy mhobl, pan lewygodd y plant a'r rhai bychain yn heolydd y ddinas.

12 [Y rhai] a ddywedant wrth eu mammau, pa le [y cawn ni] ŷd a gwîn: gan lewygu fel vn archolledic yn heolydd y ddinas, [a] chan farw ar freichiau eu mammau.

13 Pa deſtiolaeth a roddaf i ti, beth a gyffelybaf i ti ô merch Ieruſalem, beth a gyſtadlaf â thi fel i'th ddiddanwyf di ô forwyn [ſef] merch Sion: canys [y mae] dy ddiniſtr gymmeint a'r môr, pwy a'th iachâ di:

14 Y mae dy brophwydi yn gweled i ti gelwydd a diflaſrwydd, ac ni ddadcuddiaſant dy anwiredd fel y dychwelyd dy gaethiwed: eithr hwynt a welſant i ti brophwydoliaethau [am] oferedd a herwriaeth.

15 Y rhai oll a dramwyent y ffordd, á gurent eu dwylo arnat ti, a chwibanent, ac a eſcydwent eu pennau ar ferch Ieruſalem [gan ddywedyd:] ai dymma y ddinas yr hon y dywedpwyd [ei bod] yn berffeith-gwbl o degwch, [ac] yn llawenydd i'r holl wlad:

16 Dy holl elynnion a ledaſant eu ſafnau arnat ti, a chwibanaſant, a eſcyrnygaſant ddannedd, ac a ddywedaſant: llyngcwn [hi,] yn ddiau dymma y dydd yr hwn a ddiſgwiliaſom ni, ni ai cawſom, [ac ai] gwelſom.

17 *Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn a ddychymygodd, ác a gyflawnodd ei air yr hwn a amcanodd efe er y dyddiau gynt, efe a ddifrododd, ac nid arbedodd, efe a wnaeth i'r gelyn lawenychu yn dy erbyn di, ac a dderchafodd gorn dy wrthwyneb-wŷr di.

Lefit.26.15. 25.
Deut.28.15,25

18 Eu calon hwynt * a waeddodd ar yr Arglwydd, ô ſûr merch Sion difera ddagrau ddydd a nôs fel afon: na orphywys di, ac na pheidied cannwyll dy lygad.

Ier.14.17.
Pen.1.16.

19 Cyfot, cyhoedda liw nôs, yn nechreu y wiliadwriaeth, tywallt dy galon fel dyfroedd ger bron yr Arglwydd: derchafa dy ddwylo atto ef, am enioes dy blant y rhai ydynt yn llewygu o newyn ym mhen pob heol.

20 Edrych Arglwydd, a gwêl, i bwy y gwnaethoſt fel hyn: a fwytu y gwragedd eu ffrwyth eu hun [ſef] plant o rychwant o hŷd: a leddir yn dy gyſſegr di yr offeiriaid a'r prophwydi?

21 Ieuangc a hên ydynt yn gorwedd ar lawr [yn] yr heolydd: fy morwynion, a'm gwŷr ieuaingc a ſyrthiaſant drwy yr cleddyf: ti ai lleddaiſt [hwynt] yn nydd dy ſorriant, lleddaiſt [hwynt] heb arbed.

22 Gelwaiſt am rai i'm dychrynnu fi o amgylch megis i vchel-ŵyl yn nydd ſorriant yr Arglwydd: nid oedd [vn] a ddiangodd, nac a adawyd yn fyw, y gelyn a ddifethodd y rhai a faethais, ac a fegais i.

## PEN. III.

MYfi [ydwyf] y gŵr [yr hwn] a welodd flinder gan wialen ei ddigofaint ef.

2 I dywyllwch, ac nid i oleuni yr arweiniodd, ac y tywyſodd efe fi.

3 Yn fy erbyn i yn ddiau y trôdd efe, [ac] y mae efe yn troi ei law beunydd.

4 Efe a wnaeth fyng-nhawd, a'm croen yn hên, efe a ddrylliodd fy eſcyrn.

5 Efe a adailadodd i'm herbyn, ac [a'm] hamgylchodd â buſtl ac â blinder.

6 Efe a'm goſododd mewn tywyllwch, fel y rhai ydynt wedi marw byth.

7 Efe a gaeodd o'm hamgylch fel nad elwyf allan: efe a wnaeth fy lleffether i yn drom,

8 Ac er galw a gweiddi o honof, efe a ome-

ddodd fyng-weddi.

9 Efe a gaeodd fy ffyrdd â cherrig nàdd, ac a ŵyrodd fy llwybrau.

10 Y mae efe yn fyng-hynllwyn [fel] arth, [neu] lew mewn lloches.

11 Efe a rwyſtrodd fy ffyrdd, ac a'm drylliodd, yn anrhaithiedic y goſododd efe fi.

12 Efe a dynnodd ei fŵa, ac a'm goſododd fel nôd i ſaethu atto.

13 Efe a ſaethodd ei ſaethau trwy fy arennau mau fi.

14 Gwatworgerdd ydwyf i'm holl bobl, ai cân hwynt ar hŷd y dydd.

15 Efe a'm llanwodd â chwerwder, [ac] a'm meddwodd i a'r wermod.

16 Efe a dorrodd fy nannedd â cherrig, ac a'm trybaeddodd yn y llŵch.

17 Fy enaid a ymadawodd â heddwch, ac a anghofiodd ddaioni.

18 Ac mi a ddywedais, darfu a'm fy nerth a'm gobaith oddi wrth yr Arglwydd.

19 Cofia di fy mlinder a'm gofid, y wermod, a'r buſtl.

20 Fy enaid gan gofio a gofia, ac a ymddaroſtwng ynofi.

21 Hyn yr ydwyf yn ei yſtyried, am hynny y gobeithiaf.

22 Trugaredd yr Arglwydd [yw] na ddarfu am danom ni: o herwydd ni ddarfu ei drugaredd ef.

23 Bob boreu [y daw dy drugaredd] o newydd: mawr yw dy ffyddlondeb.

24 Yr Arglwydd yw fy rhan i, medd fy enaid: am hynny y gobeithiaf ynddo ef.

25 Daionus [yw] yr Arglwydd i'r rhai a obeithiant ynddo ef: ac i'r enaid ai ceiſio ef.

26 Da [yw] gobeithio, ac aros yn iechydwriaeth yr Arglwydd.

27 Da [yw] i ŵr ddwyn yr iau yn ei ieuengtid.

28 [Hwnnw] a eiſtedd ei hunan, ac a daw â ſon: am iddo ddioddef [iau yr Arglwydd] arno ef.

29 Efe a ddyru ei wyneb yn y llwch [i edrych] a oes obaith.

30 Efe a ddyru [ei] gern i'r hwn ai tarawo, [ac] efe a lenwir â gwradwydd.

31 O blegit nid yn dragywydd y gwrthid yr Arglwydd.

32 Canys er iddo ef gyſtuddio, efe a doſturia eil-waith yn ôl amlder ei drugaredd.

33 Nid oi fodd y blina efe, nac y cyſtuddia efe ddynion,

34 Gan fathru holl garcharorion y ddaiar tann ei draed,

35 [A] chan ŵyro barn gŵr o flaen y Goruchaf.

36 Nid yw yr Arglwydd yn gweled [yn dda] wneuthur cam â gŵr yn ei fatter.

37 Pwy a ddywed y bydd peth heb i'r Arglwydd ei ordeinio?

38 Onid o enau y Goruchaf y daw niwed a daioni?

39 Paham yr ymofidia dŷn byw? [ymofidied] gŵr am ei bechod.

40 Ceiſiwn a chwiliwn am ein ffyrdd, a dychwelwn at yr Arglwydd.

41 Derchafwn ein calonnau a'n dwylo ac Dduw [yr hwn ſydd] yn y nefoedd.

42 Nyni a wnaethom gamwedd, ac a fuom annufydd, tithe nid arbedaiſt.

43 Gorchguddiaiſt [ni] â ſorriant, ac erlidiaiſt ni: lleddaiſt [ni] heb arbed.

44 Ymguddiaiſt mewn cwmwl fel na ddeue [ein] gweddi [attat.]

45 Goſodaiſt ni yn ddiyſtyr, ac yn ffiaidd ym myſc y bobl.

46 Ein gelynnion a ledaſant eu ſafnau arnom ni.

47 Dychryn a magl, anrhaith a diniſtr a ddaeth arnom ni.

48 Fy llygaid a ddiferaſant ffrydau o ddwfr, o herwydd diniſtr merch fy mhobl.

49 Fy llygad a ddiferodd, ac ni pheidiodd, am nad oes gorphywyſtra.

50 Hyd onid edrycho, ac [onid] yſtyrio yr Arglwydd o'r nefoedd.

51 Y mae fy llygad yn blino fy enaid o herwydd holl ferched fy ninas.

52 Fyng-elynnion gan hela a'm heliaſant yn ddi-achos fel aderyn.

53 Rhwymaſant fy enioes yng-harchar: a bwriaſant gerrig arnaf fi.

54 Y dyfroedd a liſaſant tros fy mhen, dywedais darfu am danaf.

55 Gelwais ar dy enw di ô Arglwydd o'r pwll iſaf.

56 Ti a glywaiſt fy llef: na chae di dy gluſt rhac fy uchenaid a'm gwaedd.

57 Ti a ddaethoſt yn nês y dydd y gelwais arnat, [ac] a ddywedaiſt, nac ofna.

58 Ti ô Arglwydd a ddadleuaiſt gyd a'm henaid, [ac] a waredaiſt fy enioes.

59 Ti ô Arglwydd a welaiſt fyng-ham: barna di fy matter.

60 Ti a welaiſt eu holl ddial hwynt, ai holl amcanion i'm herbyn i.

61 Clywaiſt eu gwradwydd hwynt ô Arglwydd, a'r hyn oll a ddychymygaſẽt i'm herbyn.

62 Geiriau fyng-wrthwyneb-wŷr, ai myfyrdod ydynt i'm herbyn ar hŷd y dydd.

63 Edrych ar eu heiſteddiad ai cyfodiad, myfi ydwyf eu cân hwynt.

64 Tâl iddynt ô Arglwydd yn ôl gweithredoedd eu dwylo.

65 Dot ti iddynt ddallineb calon, [dot] dy felldith iddynt.

66 Erlit ti hwynt â digofaint, a difetha hwynt oddi tann y nefoedd ô Arglwydd.

## PEN. IIII.

PA fodd y rhydodd yr aur? y newidiodd yr aur coeth da? [ac] y taſlwyd cerrig y cyſſegr ym mhen pob heol?

2 Anrhydeddus [oedd] meibion Sion, a chyſtal ag aur pur : pa fodd y cyfrifwyd hwynt fel ſtenau pridd [o] waith dwylo y crochenydd.

3 Y dreigiau a dynnaſant allan eu bronnau, ac a roddaſant ſugniw cenawon : [ond] merch fy mhobl [a aeth] yn greulon * fel yr eſtriſiaid yn yr anialwch.

Iob.39.17.

4 Tafod [pob] plentyn ſydd yn glynu wrth daflod ei enau gan ſyched : y plant a ofynnaſant fara, [ond] nid [oedd neb] a dorre iddynt.

5 Y rhai a fwytaent [gynt] yn foethus a ddifethwyd yn awr yn yr heolydd : y rhai a feithrinwyd mewn ſcarlat a goſleidiaſant y dom.

6 Mwy yw anwiredd merch fy mhobl i na phechod Sodoma yr hon a ddiniſtriwyd megis yn ddiſymmwth, ac heb gadernid yn gwerſyllu iw herbyn.

7 Glânach oedd ei Nazareaid hi na'r eira, a gwynnach na'r llaeth : gwridogach oeddynt o gorph na'r cwrel, ai trwſſiad [oedd] fel ſaphyr.

8 [Yn awr] duach yw 'r golwg arnynt na'r gloun, nid adweinir hwynt yn yr heolydd : eu croen a lŷnodd wrth eu heſcyrn, ac a wywodd fel prenn.

9 Gwell yw y rhai a laddwyd â chleddyf na'r rhai a laddwyd a newyn : o blegit y rhai hyn a ddihoenaſant wedi eu lladd o eiſieu cnwd y maes.

10 Dwylo gwragedd toſturiol a ferwaſant eu plant eu hun : [y rhai] oeddynt yn ymborth iddynt hwy yn adfyd merch fy mhobl i.

11 Yr Arglwydd a gyflawnodd ei ddigter, a dywalltodd lidiawgrwydd ei ſorriant, ac a gynneuodd dân yn Sion yr hwn a ddifaodd ei ſeiliau hi.

12 Ni choelie brenhinoedd y ddaiar, na holl drigolion y bŷd y deue y gwrthwyneb-wr a'r gelyn i mewn i byrth Jeruſalem,

13 Am bechodau ei phrophwydi hi, [ac] anwiredd ei hoffeiriaid y rhai a ollyngaſant waed y rhai cyfiawn oi mewn hi.

14 Gwibiaſant [fel] deillion yn yr heolydd, [ac] ymddiſwynaſant gan waed, fel na ellyd cyffwrdd ai dillad hwynt.

15 Gwaedde [pawb] arnynt, ciliwch ô aflan, ciliwch, ciliwch na chyffyrddwch [â ni :] felly y ciliaſant, ac yr aethant ymmaith, yna y dywedwyd ym myſc y cenhedloedd, ni thrigant hwy [ymma] mwyach.

16 Sorriant yr Arglwydd ai gwaſcarodd hwynt, nid edrych efe arnynt hwy mwy, ni pharchent hwy yr offeiriaid, [ac] ni thoſturient wrth yr henaf-gwŷr.

17 Ein llygaid a ballaſant tra yr'oeddem ni yn diſgwil am ein cymmorthwy ofer : diſgwil yr oeddem ni yn vnic wrth genhedlaeth yr hon nid achube.

18 Hwynt a ddiſgwiliaſant ein cerddediad fel nad allem fyned ar hŷd ein heolydd, y mae ein diwedd ni yn agos : ein dyddiau ni a gyflawnwyd, diau ddyfod ein diwedd ni.

19 Yſcafnach yw ein erlid-wŷr nag eryrod yr awyr, y maent yn ein herlid ni ar y mynyddoedd, ac yn ein cynllwyn ni yn yr anialwch.

20 Anadl ein ffroenau [ſef] eneiniog yr Arglwydd a ddaliwyd yn eu rhwydau hwynt : [am] yr hwn y dywedaſem, tann ei gyſcod ef y byddwn ni byw ym myſc y cenhedloedd.

21 Bydd lawen a hyfryd merch Edom yr hon wyt yn trigo yn nhir Hus : daw cwppan heibio i tithe hefyd, ti a feddwi ac a ymnoethi.

22 Gorphennwyd dy goſpedigaeth di merch Sion ni chaeth-gludir di mwy : efe a ymwel a'th anwiredd di merch Edom, ac a ddadcuddia dy bechodau.

## PEN V.

COfia ô Arglwydd beth a ddaeth i ni : edrych a gwêl ein gwradwydd.

2 Ein etifeddiaeth ni a roddwyd i eſtroniaid : a'n tai i ddieithriaid.

3 Ymddifaid ydym heb dadau, a'n mammau [ydynt] megis gweddwon.

4 Yr ydym yn yfed ein dwfr am arian : ein coed ſy yn dyfod mewn cyfnewid.

5 Yr ydys yn ein herlid ni yn dôſt : blinaſom [ac] nid oes gorphywyſtra i ni.

6 Gwaſanaethaſom yr Aiphtiaid [gynt, a'r] Aſſyriaid yn awr i gael digon o fara.

7 Ein tadau a bechaſant, y rhai nid ydynt yn awr : [a] ninnau ſy yn dwyn eu coſp hwynt.

8 Gweiſion ſy yn llywodraethu arnom ni, heb [fod] a'n gwaredo [ni] oi llaw hwynt.

9 [Mewn enbydrwydd] am ein henioes y dygaſom ni ein bara i mewn o herwydd y cleddyf [yr hwn ſydd yn] yr anialwch.

10 Ein croen a dduodd fel ffwrn gan newyn tôſt.

11 Hwynt a dreiſiaſant y gwragedd yn Sion : [a'r] morwynion yn ninaſoedd Juda.

12 Crogaſant dywyſogion ai dwylo, ni pherchid wynebau yr henaf-gwŷr.

13 Hwynt a gymmeraſant y gwyr ieuaingc i falu : a'r llangciau a lewygaſant tann [y beichiau] coed.

14 Yr henaf-gwŷr a beidiaſant a'r porth : [a'r] gwŷr ieuaingc ai cerdd.

15 Darfu llawenydd ein calon : a'n dawns a drôdd yn alar.

16 Syrthiodd y goron oddi am ein penn ni : gwae ni yn awr bechu o honom.

17 Am hyn y mae ein calon yn ofidus, am hyn y tywyllodd ein llygaid,

18 O herwydd mynydd Sion yr hwn a anrheithiwyd : ac y mae llwynogod [yn vnic] yn rhodio ynddo.

19 Ti Arglwydd a barhei byth : a'th orſeddfaingc yn oes oeſoedd.

20 Pa ham yr anghofi dy nyni byth : [ac] y gadewi di ni dros hîr ddyddiau?

21 Dychwel nyni ô Arglwydd attat ti, ac ni a ddychwelwn : adnewydda di ein dyddiau megis

gis cynt.

22 Eithr yr ydwyt ti yn hytrach yn ein llwyr wrthod ni : ti a ddigiaiſt wrthym ni yn ddirfawr.

*Terfyn Galar-nad Ieremi.*

# Llyfr y prophwyd Ezeciel.

## PENNOD. I.

1 Yr amſer, a'r llê y prophwydodd Ezeciel. 3 Ei draſeu ef. 5 Gweledigaeth y pedwar anifail. 26 Gweledigaeth yr orſedd-faingc.

ADarfu yn y ddecfed flwyddyn ar hugain yn y pedwerydd [mîs] ar y pummed [dydd] o'r mis, (a mi ym myſc y gaeth-glud wrth afon Chebar) agorid y nefoedd : a gwelwn weledigaeth Dduw.

2 Yn y pummed [dydd] o'r mîs (honno oedd y bummed flwyddyn o gaeth-gludiad brenin Ioacin)

Ezec.3,22. Ezec.17.1. 3 Y daeth gair yr Arglwydd at Ezeciel yr offeiriad mab Buzi yn nhîr y Caldeaid, wrth afon Chebar,* ac yno y bu llaw 'r Arglwydd arno ef.

4 Yna'r edrychais, ac wele 'n dyfod o'r gogledd wynt cethrawl, [a] chwmwl mawr, a thân yn ymgymmeryd, a diſcleirdeb o amgylch iddo : ac oi ganol, [ſef] o ganol y tân fel lliw amber.

5 Hefyd oi ganol [y daeth] cyffelybrwydd i bedwar anifail,* ac dymma eu hagwedd hwynt, dull dŷn oedd iddynt, Ezec.3.23.

6 A phedwar wyneb [i bôb] vn, a phedair aden oedd [i bob] vn o honynt,

7 Ai traed yn draed iniawn, a gwadn eu traed, fel gwadn troed llô : a diſcleirio yr oeddynt fel lliw efydd gloiw.

8 Ac [yr oedd] dwylo dŷn oddi tann eu hadenydd hwynt ar eu pedwar ochr, eu hwynebau hefyd, ai hadenydd [oedd] ganddynt ill pedwar,

9 Eu hadenydd hwynt oeddynt yng-hwplws y naill wrth y llall: pan gerddent ni throent, aent bob vn yn wyſc ei wyneb.

10 Dymma ddull eu hwynebau hwynt, wyneb dyn, ac wyneb llew [oedd] ar y tu dehau iddynt ill pedwar : ac wyneb ŷch o'r tu aſſwy iddynt ill pedwar, ac wyneb eryr iddynt ill pedwar.

11 Eu hwynebau hefyd ai hadenydd oeddynt wedi eu doſparthu oddi arnodd, dwy i bob vn yng-hwplws, a dwy i bob vn yn cuddio eu cyrph hwynt.

12 Aent hefyd bob vn yn wyſc ei wyneb, i'r lle y bydde 'r yſpryd ar fyned, yno 'r aent : ni throent pan gerddent.

13 Dymma ddull yr anifeiliaid, eu gwelediad oedd fel marwor tanllyd yn lloſci, [ac] fel gwelediad ffaglau : [y tân] hwn oedd yn ymgerdded rhwng yr anifeiliaid, a diſcleirdeb i'r tân, a mellt yn dyfod allan o'r tân.

14 Cerdde hefyd a dychwele 'r anifeiliaid, fel gwelediad mellden,

15 Edrychais hefyd ar yr anifeiliaid, ac wele ar lawr yn ymyl yr anifeiliaid vn olwyn [i bob vn] o flaen ei bedwar wyneb.

16 Dull yr olwynion, ai gwaith hwynt oedd fel lliw Tharſis, a'r vn ddull oedd iddynt ill pedair, ai gwedd hwynt, ai gwaith fel pe bydde y [naill] olwyn o fewn yr olwyn [arall.]

17 Pan elent, aent ar ei pedwar ochr: ni throent pan gerddent.

18 Eu cantau hefyd ac vchder [oedd] iddynt, ac ofnadwy [oedd yr olwg] arnynt : ai cantau oeddynt yn llawn llygaid oddi amgylch ill pedwar.

19 A phan gerdde 'r anifeiliaid, yr olwynion a gerddent wrthynt, a phan ymgode 'r anifeiliaid oddi ar y ddaiar, yr ymgode 'r olwynion.

20 I'r lle y bydde 'r yſpryd ar fyned yr aent, yno 'r [oedd] yr yſpryd ar fyned : a'r olwynion a ymgodent ar eu cyfer hwynt, canys yſpryd yr anifeiliaid [oedd] yn yr olwynion.

21 Cerddent pan gerddent hwythau, a ſafent pan ſafent hwythau : a phan ymgodent hwy oddi ar y ddaiar, yr olwynion a ymgodent ar eu cyfer hwyntau : canys yſpryd yr anifeiliaid [oedd] yn yr olwynion.

22 Ac [yr oedd] ar bennau 'r anifeiliaid ddull ffurfafen, fel lliw Griſial ofnadwy, wedi ei heſtyn tros eu pennau hwynt oddi arnodd.

23 A than y ffurfafen yr oedd eu hadenydd hwynt, yn iniawn y naill at y llall: dwy i bob vn yn eu cuddio hwynt, a dwy i bob vn yn eu cuddio hwynt [ſef] eu cyrph.

24 Ac mi a glywn ſŵn eu hadenydd hwynt, fel ſŵn dyfroedd lawer, fel ſŵn yr Holl-alluoc pan gerddent: ſŵn eu lleferydd [oedd] fel ſŵn llû: pan ſafent llaeſent eu hadenydd.

25 Ac yr oedd llais oddi ar y ffurfafen yr hon [oedd] ar eu pennau hwynt: pan ſafent llaeſent eu hadenydd.

26 Ac oddi ar y ffurfafen yr hon [oedd] ar eu pennau hwynt yr oedd cyffelybrwydd gorſedd-faingc fel gwelediad maen Saphyr, ac ar gyffelybrwydd yr orſedd-faingc yr [oedd] oddi arnodd arno ef gyffelybrwydd megis gwelediad dŷn.

27 Gwelais hefyd megis lliw Ambr, fel gwelediad tân oi fewn o amgylch, o welediad ei lwyni ac vchod, ac o welediad ei lwyni ac iſſod y gwelais megis gwelediad tân, a diſcleirdeb iddo oddi amgylch.

28 Fel gwelediad y bŵa 'r hwn ſydd yn y cwmwl ar ddydd glawoc, fel hyn [yr oedd] gwelediad y diſcleirdeb o amgylch: dymma weledigaeth cyffelybrwydd gogoniant yr Arglwydd: a phan welais, ſyrthiais ar fy wyneb, a chlywais lais yn llefaru.

## PEN. II.

Hebryngiad y prophwyd i alw 'r bobl i'r iawn oi beiau, ai camweddau.

AC efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn ſaf ar dy draed: ac mi a lefaraf wrthit.

2 Yna y daeth yſpryd arnaf, pan lefarodd efe wrthif, ac a'm goſododd ar fy nhraed, fel y clywais yr hwn a lefarodd wrthif.

3 Ac efe a ddywedodd wrthif, mâb dŷn, yr ydwyf fi yn dy ddanfon di at feibion Iſrael, at genhedlaeth wrthryfelgar, y rhai a wrthryfelaſant i'm herbyn, hwynt hwy, ai tadau a droſeddaſant i'm herbyn hyd gorph y dydd hwn.

4 Meibion wyneb-galed hefyd, a chadarn galon, yr ydwyf fi yn dy ddanfon di attynt: dywet tithe wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw.

5 A pha vn bynnac a wnelont ai clywed ai peidio, (canys tŷ gwrthryfelgar ydynt hwy) etto cânt wybod mai prophwyd a fu yn eu myſc hwynt.

6 Tithe fab dŷn, *nac ofna rhagddynt, ac na arſwyda er ei geiriau hwynt, er [bod] gwrthryfel-wyr a drain gyd a thi, a thithe yn trigo ym myſc ſcorpionau: nac ofna rhag eu geiriau hwynt, ac na ddychryna gan eu hwynebau hwynt, canys tŷ gwrthryfelgar [ydynt] hwy. Ier.1.17.

7 Etto llefara di fyng-eiriau wrthynt, pa vn bynnac a wnelant ai clywed ai peidio, canys tŷ gwrthryfelgar [ydynt] hwy.

8 Tithe fab dŷn gwrando 'r hyn yr ydwyf fi yn ei lefaru wrthit, na fydd wrthryfelgar fel y tŷ gwrthryfelgar hwn: llêda dy ſafn, a bwytta 'r hyn yr ydwyf fi yn ei roddi iti.

9 Yna 'r edrychais, ac wele law wedi ei heſtyn attaf, ac wele ynddi blyg llyfr.

10 Ac efe ai dadblygodd o'm blaen i, ac yr oedd efe wedi ei ſcrifennu wyneb, a chefn, ac yr oedd wedi ſcrifenni arno, galar, a griddfan, a gwae.

## PEN. III.

Y prophwyd yn cael ei borthi ar air Duw, a nerth yſprydol, cyn ei anfon at y bobl, y rhai oeddynt drwy gaethiwed wedi eu caeth-gludo i Babylon. 17 Swydd eglwyſ-wyr lle y mae iddynt weled gymmeint yw 'r baich a'r gofal yr hwn a ddyle fod arnynt.

AC efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn bwytta 'r hyn a geffech, *bwytta y llyfr hwn, a dos, [a] llefara wrth dŷ Iſrael. Ier.15.16. Gwel.10.10.

2 Yna mi a agorais fy ſafn, ac efe a wnaeth i mi fwytta y llyfr hwn.

3 Dywedodd hefyd wrthif, bwyda dy fol, a llanw dy berfedd fab dŷn a'r llyfr hwn: yr hwn yr ydwyf fi yn ei roddi attat: yna y bwytteais, ac yr oedd efe yn fy ſafn fel mêl o felyſter.

4 Ac efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn cerdd, dos at dŷ Iſrael, a thraetha fyng-eiriau wrthynt.

5 Canys nid at bobl o iaith anhyſbus, nac o dafod-iaith ddieithr i'th anfonir di, [onid] at dŷ Iſrael,

6 Nid at bobloedd lawer o iaith anhyſbus, ac o dafod-iaith ddieithr y rhai ni ddeallit eu hymmadroddion, oni wrandawe y rhai hynny arnat [pe] i'th anfonwn di attynt:

7 Etto tŷ Iſrael ni fynnant wrando arnat ti, canys ni fynnant wrando arnaf fi: y blegit tal-gryſion, a chaled galon [ydynt] hwy, holl dŷ Iſrael.

8 Wele rhoddais dy wyneb yn grŷf yn erbyn eu hwynebau hwynt, a'th dâl yn grŷf yn erbyn eu talcennau hwynt.

9 Rhoddais dy dalcen fel adamant yn galetach na'r gallestr, nac ofna hwynt, ac na ddychryna rhag eu hwynebau hwynt, canys tŷ gwrthryfelgar [ydynt] hwy.

10 Dywedodd hefyd wrthif, ha fab dŷn derbyn a'th galon, a chlyw a'th gluſtiau fy holl eiriau y rhai a lefarwyf wrthit.

11 Cerdda hefyd, [a] dos at y gaeth-glud, [ſef] at feibion dy bobl, a llefara hefyd wrthynt, a dywet wrthynt: fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, pa vn bynnac a wneloch ai gwrando ai peidio.

12 Yna yſpryd a'm cymmerodd, a chlywn ſŵn

cynnwrf mawr o'm-hôl: [yn dywedyd,] Bendigedic [fyddo] gogoniant yr Arglwydd o'i lê.

13 A ſŵn adenydd yr anifeiliaid yn taro wrth eu gilydd, a ſŵn yr olwynion ar eu cyfer hwynt: a ſŵn cynnwrf mawr.

14 A'r yſpryd a'm cyfododd, ac a'm cymmerodd, a mi a euthym yn chwerw fy yſpryd o ddig: ond llaw'r Arglwydd [oedd] yn gref arnaf.

15 Ac mi a ddeuthym i Thelabib, at y gaeth-glud y rhai oeddynt yn aros wrth afon Chebar, ac mi a eiſteddais lle'r oeddynt hwytheu yn eiſtedd, îe eiſteddais yno ſaith niwrnod yn ſynn yn eu plith hwynt.

16 Ac ym mhen y ſaith niwrnod y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

17 Mab dyn, rhoddais di yn *wiliedudd i dŷ Iſrael: fel y clywit air o'm genau, ac y rhybuddit ti hwynt oddi wrthif.

Ezec.33.2.

18 Pan ddywedwyf wrth y drygionus, gân farw y byddi farw, oni rybuddi efe, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrygffordd, fel y byddo byw: y drygionus hwn a fydd farw yn ei anwiredd, ond ei waed ef a ofynnaf o'th law di.

19 Ond os rhybuddi ti y drygionus, ac efe ni thrŷ oddi wrth ei ddrygioni, [ac] o'i ffordd ddrygionus, efe a fydd farw yn ei ddrygioni, onid ti a achubaiſt dy enaid.

20 Hefyd pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur camwedd, yna y rhoddaf dramgwydd o'i flaen ef: efe fydd marw am na rybuddiaiſt ef, am ei bechod y bydd efe farw, a'i gyfiawnder yr hwn a wnaeth efe ni choffeir: ei waed hefyd a ofynnaf o'th law di.

21 Ond os ty di a rybuddi y cyfiawn, rhag pechu o'r cyfiawn, fel na phecho efe, gan fyw y bydd efe byw am gymmeryd rhybudd: a thi a achubaiſt dy enaid.

22 Ac yno y bu llaw'r Arglwydd arnaf, ac efe a ddywedodd wrthif, cyfot, dôs i'r dyffryn, ac yno y llefaraf wrthit.

23 Yna y cyfodais, ac yr euthym i'r dyffryn, ac wele ogoniant yr Arglwydd yn ſefyll yno, fel y gogoniant yr hwn a welſwn wrth afon Chebar: ac mi a ſyrthiais ar fy wyneb.

24 Yna y daeth yr yſpryd ynof, ac a'm goſododd ar fy nhraed, ac a ymddiddanodd â mi, ac a ddywedodd wrthif, dôs, a chae di arnat o fewn dy dŷ.

25 Tithe fab dŷn, wele hwynt a roddant rwymau arnat, ac a'th rwymant â hwynt, fel nad elech allan yn eu plith.

26 Yna y gwnaf i'th dafod lênu wrth daflod dy enau, a thi a wneir yn fûd, fel na byddech iddynt yn geryddwr: canys tŷ gwrthryfelgar [ydynt] hwy.

27 Ond pan lefarwyf wrthit yr agoraf dy ſafn: yna y dywedi wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, yr hwn a wrandawo, gwrandawed,* a'r hwn a beidio peidiet: canys tŷ gwrthryfelgar [ydynt] hwy.

Gwel.22.1.

## PEN. IIII.

1 Arwyddocâd hir warche ar Ieruſalem. 9 Hir barhâd ar gaethiwed Iſrael. 16 Newyn mawr yn Ieruſalem.

Tithe fab dŷn cymmer it briddlech, a dôd hi o'th flaen, a llunia arni ddinas Ieruſalem.

2 A gwarche di yn ei herbyn hi, ac adeilada wrthi gaſtell, a bwrw o'i hamgylch hi glawdd: dôd hefyd werſylloedd wrthi, a goſot offer ryfel yn ei herbyn o amgylch.

3 Cymmer di it hefyd badell haiarn, a dôd hi yn fûr haiarn rhyngot ti a'r ddinas, cyfeiria dy wyneb atti, bydd hefyd mewn gwarchaedigaeth, a gwarche di arni: arwydd fydd hyn i dŷ Iſrael.

4 Gorwedd di hefyd ar dy yſtlys aſſwy, a goſot anwiredd tŷ Iſrael arno ef, [wrth] rifedi y dyddiau y rhai y gorweddech arno y dygi eu hanwiredd hwynt.

5 Canys rhoddais it flynyddoedd eu hanwiredd hwynt dan rifedi dyddiau, [ſef] try-chan nhiwrnod a dêc a phedwar ugain: felly y dygi anwiredd tŷ Iſrael.

6 Pan orphennech hynny, yna gorwedd ailwaith ar dy yſtlys dehau, fel y dygech anwiredd tŷ Iuda ddeugain nhiwrnod: pob diwrnod a'm flwyddyn y rhoddais hynny it.

7 A chyfeiria dy wyneb at warchaedigaeth Ieruſalem, a'th fraich yn noeth: felly y prophwydi yn ei herbyn hi.

8 Wele hefyd rhoddais rwymau arnat, fel na throech o yſtlys i yſtlys: nes gorphen o honot ddyddiau dy warchaedigaeth.

9 Cymmer it hefyd wenith, a haidd, a ffa, a ffacbys, a miled, a chor-bys, a dod ti hwynt mewn un lleſtr, a gwna hwynt i ti yn fara, [tros] rifedi y dyddiau y rhai y gorweddych ar dy yſtlys, [ſef] try-chan nhiwrnod a dêc a phedwar ugain y bwyttei hynny.

10 A'th fwyd yr hwn a fwyttei wrth bwys ugain ſicl yn y dydd y bwytei ef, o amſer hyd amſer.

11 Dwfr hefyd a yfi mewn meſur, chweched [ran] *Hin a yfi, o amſer hyd amſer.

Exod.29.40.

12 Ac fel teiſen haidd y bwyttei hynny, crâſi hi hefyd wrth dail tom dŷn yn eu gŵydd hwynt.

13 A dywedodd yr Arglwydd, felly y bwytty meibion Iſrael eu bara halogedic ym myſc y cenhedloedd, y rhai y gyrraf hwynt attynt.

14 Yna y dywedais, ô Arglwydd Dduw, wele ni halogwyd fy enaid, ac ni fwytteais furgyn, neu ſclyfaeth o'm hieuengtid etto: ac ni ddaeth i'm ſafn gig ffiaidd.

15 Yna efe a ddywedodd wrthif, rhoddais it fiſwel gwarthec yn lle tail dŷn, ac â hwnnw y gwnei dy fara.

16 Dywedodd hefyd wrthif, mab dŷn, wele
Eſa 3.1. fi yn torri * ffon y bara yn Ieruſalem, fel y
Ezec.5.17. bwyttânt fara tann bwys, ac mewn gofal, ac yr
Ezec.14.13. yfant ddwfr dan feſur, ac mewn ſynder.

17 Fel y byddo arnynt eiſieu bara, a dwfr, ac y rhyfeddant vn, ac arall, canys toddant yn eu hanwiredd.

## PEN V.

Cneifiad gwallt y prophwyd yn arwyddocau deſtruwiad y bobl.

TIthe fab dŷn cymmer it gyllell lem, yn ellyn eillio y cymmeri hi it, ac eillia dy bên a'th farf: yna y cymmeri it gloriannau pwys, ac y rhenni hwynt.

2 Traian o loſci mewn tân, yng-hanol y ddinas, pan gyflawnir dyddiau y gwarche: traian a gymmeri hefyd, ac ai tarewi a'r gyllell oi hamgylch, a thraian a deni gyd a'r gwynt, a thynnaf gleddyf ar eu hôl hwynt.

3 Cymmer hefyd oddi yno ychydig dann rif, a chylymma hwynt yn dy arffed.

4 A chymmer eilwaith [rai] o honynt hwy, a thafl hwynt i ganol y tân, lloſc hwynt yn tân, o hynny y daw allan dân ac holl dŷ Iſrael.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Ieruſalem [yw] hon, goſodais hi ym myſc y cenhedloedd, a'r tiroedd oi hamgylch.

6 Canys hi a newidiodd fy marnedigaethau iddrygioni yn fwy na'r cenhedloedd, a'm deddfau yn fwy na'r gwledydd, y rhai ydynt oi hamgylch: canys dirmygaſant fy marnedigaethau, ac nirodiaſant yn fy neddfau.

7 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am [fod] eich cynnydd yn fwy na'r cenhedloedd y rhai ydynt o'ch amgylch heb rodio o honoch yn fy neddfau, na gwneuthur fy marnedigaethau, (ie ni wnaethoch yn ôl barnedigaethau y cenhedloedd y rhai ydynt o'ch amgylch)

8 Am hynny fel hynu y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi, i'th erbyn hefyd [y byddaf] fi, a gwnaf yn dy blith di farnedigaethau yng-olwg y cenhedloedd.

9 A gwnaf ynot yr hyn ni's gwneuthum, a'r hyn ni's gwnaf ei fath mwy: am dy holl ffieidd-dra.

Lefit.26.29. 10 Am hynny y tadau a * fwyttânt y plant
Deut.28.35. yn dy fyſc di, a'r plant a fwyttu eu tadau: felly
2.Bren.6.29. y gwnaf ynot farnedigaethau, ac mi a danaf dy
Galar.4.10. holl weddill gyd â phob gwynt.
Baruc.2.4. 11 Am hynny [nid] byw fi medd yr Arglw-
ydd Dduw, onid (am halogi o honot fyng-hyſſegr, a'th holl ffiaidd-dra, ac a'th holl frynti)

12 Felly hefyd y minhaf innef, fel nad arbedo fy llygad, ac na thoſturiwyf innef ychwaith.

13 Dy draian fyddant feirw o haint, ac a ddarfyddant o newyn yn dy blith, a thraian a ſyrthiant ar y cleddyf o'th amgylch, a thraian a danaf gyd â phob gwynt, a thynnaf gleddyf ar eu hôl hwynt.

14 Yna y derfydd fy nîg, ac y llonyddaf fy
llidiawgrwydd yn eu herbyn hwynt, ac * ym- Eſa.1.24.
gyſſuraf, yna y cânt wybod mai myfi'r Arglwydd a leferais yn fyng-wŷn pan ddarfyddo fy llid wrthynt.

15 Canys rhoddaf di 'n anrhaith, ac yn warth ym myſc y cenhedloedd y rhai ydynt o'th amgylch, yng-olwg pob trammwyudd.

16 Yna y bydd y gwradwydd a'r gwarthrudd, yn ddyſc, ac yn rhyfeddod i'r cenhedloedd y rhai ydynt o'th amgylch: pan wnelwyf ynot farnedigaethau mewn dîg, a llidiawgrwydd, a cherydd llidioc: myfi'r Arglwydd ai lleferais.

17 Pan * anfonwyf arnynt ddrwg ſaethau Ezec.14.13.
yr newyn, y rhai fyddant yn ddifethiad, y rhai a ddanfonaf i'ch difetha: caſclaf hefyd newyn arnoch, a thorraf i chwi ffonn y bara.

18 Anfonaf hefyd arnoch newyn, a bwyſtfil drwg, ac efe a'ch diblanta chwi: haint hefyd, a gwaed a dramwya yn eich plith: a dygaf gleddyf arnoch, myfi yr Arglwydd a leferais [hyn.]

## PEN VI.

Prophwydo y mae ddiniſtr y bobl. 8 Ediſeirwch am waredu eu gweddill hwynt. 11 A dialedd yr annediſeiriol.

YNa y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd:

2 Mab dŷn, goſot dy wyneb tua * mynyddoedd Iſrael, a phrophwyda am danynt.

3 A dywet, mynyddoedd Iſrael gwrande- Ezec.36.1.
wch air yr Arglwydd Dduw: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw wrth fynyddoedd, ac wrth frynnau, wrth nentydd, ac wrth ddyffrynnoedd: wele fi [ie] myfi 'n dwyn cleddyf arnoch, ac mi a ddiniſtriaf eich vchel-loedd.

4 Eich allorau hefyd a ddifwynir, a'ch haul ddelwau a dryllir, a chwympaf eich archolledigion o flaen eich eulynnod.

5 A rhoddaf gelanedd meibion Iſrael ger
bron eu heulynnod: a thanaf eich eſcyrn o am-
gylch eich allorau. 2.Bren.21.20.

6 Yn eich holl drigfaon y dinaſoedd a anrheithir, a'r vchelfaon a ddifwynir, fel yr anrheithier, ac y difwyner eich allorau, ac y torrer, ac y peidio eich eulynnod: ac y torrer ymmaith eich haul ddelwau, ac y deleir eich gweithredoedd.

7 Yr archolledic hefyd a ſyrth yn eich myſc fel y gwypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

8 Etto gadawaf weddill, fel y byddo i chwi rai wedi diangc gan y cleddyf ym myſc y cenhedloedd, pan waſcarer chwi trwy'r tiroedd.

9 Yna dy rai diangol a'm coffânt i ymmyſc y cenhedloedd y rhai y caethgludwyd hwynt attynt, y modd i'm drylliwyd, ai calon butteinllyd, yr hon a giliodd oddi wrthif,

ac ai llygaid y rhai a butteiniaſant ar ôl eu heulynnod: yna'r ymffieiddiant ynddynt eu hun, am y drygioni y rhai a wnaethant yn eu holl ffieidd-dra.

10 A chânt wybod mai myfi [yw]'r Arglwydd [ac] na leferais yn ofer, am wneuthur iddynt y drwg hwn.

11 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, taro a'th law, ac eſtyn a'th droed, a dywet, ôh rhac holl ffieidd-dra drygioni tŷ Iſrael, y rhai trwy gleddyf, trwy newyn, a thrwy haint a ſyrthiant.

12 Y pelledic a fydd marw o haint, a'r cyfagos a ſyrth ar y cleddyf: y gweddilledic hefyd, a'r gwarchaedic a fydd marw o newyn: felly y derfydd fy llidiawgrwydd wrthynt.

13 A chewch wybod mai myfi yw'r Arglwydd, pan fyddo eu harcholledigion hwynt ym myſc eu heulynnod hwynt o amgylch eu hallorau, ar bob bryn uchel, ar holl bennau y mynyddoedd, a thann bob pren ir, a thann bob derwen gaead-frig, lle y rhoddaſant arogl eſmwyth iw holl eulynnod.

14 Felly'r eſtynnaf fy llaw arnynt, a rhoddaf y tir yn anrhaith, ie'n anrhaithiedic o'r anialwch hyd Diblath trwy eu holl drigfaon hwynt: a chânt wybod mai myfi [yw'r] Arglwydd. Ezec.5.14.

## PEN. VII.

Diwedd diſymmwth i dy Iſrael.

BU hefyd gair yr Arglwydd wrthif, gan ddywedyd:

2 Tithe fab dyn fel hyn y traethodd yr Arglwydd Dduw ddiwedd i dŷ Iſrael, a diwedd a ddaeth ar bedair congl y tîr.

3 [Daw] yr awr hon ddiwedd arnat, canys anfonaf fy nîg i'th erbyn: a barnaf di hefyd yn ôl dy ffyrdd dy hun, a rhoddaf dy holl ffieidd-dra i'th erbyn.

4 Fy llygad hefyd ni'th arbed di, hefyd ni thoſturiaf, eithr rhoddaf dy ffyrdd i'th erbyn: a'th ffieidd-dra fydd o'th fewn, fel y gwypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele ddrwg yn dyfod ar ôl drwg.

6 Diwedd a ddaeth, daeth diwedd, y mae yn gwilio arnat, wele efe a ddaeth.

7 Daeth y foreu-farn attat preſwylydd y tîr, daeth yr amſer, agos [yw] y dydd terfyſc, ac nid adſain mynyddoedd.

8 Weithian ar fyrder y tywalldaf fy llid arnat, ac y gorphennaf fy nîg wrthit: barnaf di hefyd yn ôl dy ffyrdd dy hun, a rhoddaf dy holl ffieidd-dra i'th erbyn.

9 A'm llygad nid arbed, ac ni thoſturiaf, rhoddaf i'th erbyn yn ôl dy ffyrdd, a'th ffieidd-dra a fyddant o'th fewn, fel y gwypoch mai myfi yr Arglwydd ſydd yn taro.

10 Wele'r dydd, wele [ef] yn dyfod, y foreu-farn a aeth allan, blodeuodd y wialen, [a] blagurodd y balchder.

11 Cyfododd y traha'n wialen drygioni, ni [bydd dim] o honynt, nac oi cyfoeth, nac oi terfyſc-wŷr hwynt, na galar drostynt.

12 Yr amſer a ddaeth, y dydd a neſaodd, na lawenyched y prynwr, ac na thriſtaed y gwerthwr, canys daw digllonedd ar eu holl weryn.

13 Canys y gwerthudd ni ddychwel at yr hynn a werthodd, er eu bod etto'n fyw, o blegit y weledigaeth [ſydd] am ei holl weryn, na ddychwelant ac nad ymgryfhânt bob un yn anwiredd ei fuchedd.

14 Udcanaſant udcorn, a darparaſant oll, etto nid oedd a ele i ryfel: am [fod] fy nigllonedd yn erbyn eu holl weryn.

15 Y cleddyf [ſydd] oddi allan, haint hefyd a newyn o fewn: yr hwn [a fyddo] yn y maes a fydd farw gan gleddyf, a'r hwn a fyddo yn y ddinas, newyn, a haint ai difa ef.

16 Etto eu rhai diangol hwynt a ddiangant, ac ar y mynyddoedd y byddant hwy oll yn griddfan fel colomennod y dyffryn, pob un am ei anwiredd.

17 *Yr holl ddwylo a laeſant, a'r holl liniau a ânt yn ddwfr.

18 Yna * yr ymwregyſant [mewn] ſachliain, ac arſwyd ai toa hwynt, yna [y bydd] cywilydd ar bob wyneb, a moelni ar eu holl bennau hwynt.

Eſa.13.7.
Ier.6.24.
Eſa.15.3.
Ier.48.37.
Diarn.11.4.
Zoph.1.18.
Eccl.5.10.

19 Eu harian a daflant i'r heolydd, ai haur fydd mewn dirmig: eu haur, nai harian ni ddichon eu gwared hwynt yn nydd digter yr Arglwydd: eu heneid ni ddiwallant, ai coluddion ni lanwant, pan fyddo tramgwydd eu hanwiredd hwynt.

20 Gogoniant hefyd ei harddwch ef yn rhagorieth y goſodaſe [Duw] ef: onid gwnaethant ynddo ddelwau eu ffieidd-dra ai brynti: am hynny y rhoddais ef ym-mhell oddi wrthynt.

21 Canys rhoddaf ef yn llaw dieithriaid yn yſpail, ac yn anrhaith i rai drygionus y tîr, a hwynt ai halogant ef:

22 Troaf hefyd fy wyneb oddi wrthynt, ac halogir fy nirgelfa: ie anrheith-wŷr a ddeuant iddi, ac ai halogant.

23 Gwna gadwyn, canys llanwyd y tir o farn waedlyd, a'r ddinas ſydd lawn o drais,

24 Am hynny y dygaf rai gwaethaf y cenhedloedd fel y goreſcynnant eu tai hwynt: felly y difethaf falchder y cedyrn, ai * cyſſegroedd a halogir. Pſal.68.35.

25 Y mae torr yn dyfod, yna y ceiſiant heddwch, ac ni's [cânt.]

26 Daw trychineb ar drychineb, a bydd chwedl ar chwedl, yna y ceiſiant weledigaeth gan y prophwyd: onid cyfraith a gyll gan yr offeiriaid, a chyngor gan yr henuriaid.

27 Y brenin a alara, a'r tywyſog a wiſcir ag anrhaith, a dwylo pobl y tir a gynhyrfir: gwnaf â hwynt yn ôl eu ffordd eu hun, ac â i

barnedigaethu eu hun y barnaf hwynt, fel y gwybyddant mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

## PEN. VIII.

1 Yr amſer y gwelodd Ezeciel gyffelybrwydd Duw, ac y dug yr yſpryd ef i Ieruſalem. 6 Duw yn dangos iddo ef fryntni, a gau-dduwiaeth y bobl.

A Bu yn y chweched flwyddyn, yn y chweched [mîs,] ar y pummed [dydd] o'r mîs, [a] mi yn eiſtedd yn fy nhŷ, a henuriaid Jſrael yn eiſtedd ger fy mron, yna ſyrthio llaw 'r Arglwydd Dduw arnaf.

2 Yna 'r edrychais, ac wele gyffelybrwydd, * fel rhith tân, o welediad ei lwyni ac iſſod yn dân: ac oi lwyni, ac vchod fel gwelediad diſcleirdeb, megis lliw ambr.

Ezec.1.27.

3 Ac efe a eſtynnodd lûn llaw, ac a'm cymmerodd erbyn gwallt fy mhen, a chododd yſpryd fi rhwng y ddaiar a'r nefoedd, ac a'm dug i Jeruſalem mewn gweledigaeth Dduw, hyd ddrws y porth neſaf i mewn, yr hwn ſydd yn edrych tua 'r gogledd, lle'r [ydoedd] eiſteddfa delw 'r eiddigedd, yr hon a wnae eiddigedd.

4 Ac wele yno ogoniant Duw Jſrael, fel y weledigaeth yr hon a welſwn yn y dyffryn.

5 Ac efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn cyfot attolwg dy lygaid [tua] ffordd y gogledd, felly y cyfodais fy llygaid [tua] ffordd y gogledd, ac wele tua 'r gogledd wrth borth yr allor ddelw'r eiddigedd hon, yn y drws.

6 Ac efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn, a weli di beth y maent hwy yn ei wneuthur? ſ. y ffieidd-dra mawr yr hwn y mae tŷ Jſrael yn ei wneuthur ymma, i'm gyrru ymmaith oddi wrth fyng-hyſſegr: ac etto dychwel, cei ymma weled ffieidd-dra mwy.

7 Ac efe a'm dug i ddrws y cyntedd, yno 'r edrychais, ac wele ryw dwll yn y pared.

8 Ac efe a ddywedodd wrthif, mab dŷn cloddia drwy 'r pared: yna y cloddiais drwy 'r pared, ac wele ryw ddrws.

9 Ac efe a ddywedodd wrthif, dôs i mewn, ac edrych y ffieidd-dra drygionus y rhai y maent hwy yn eu gwneuthur ymma.

10 Felly 'r euthym, ac edrychais, ac wele bôb mâth ymluſciad, ac anifail ffiaidd, a holl eulynnod tŷ Jſrael wedi eu portreio ar y pared o amgylch ogylch.

11 A deng-wŷr a thrugain o henuriaid tŷ Jſrael yn ſefyll ar eu cyfer hwynt, ac Jaazaniah mab Saphan yn ſefyll ym myſc y rhai hynny: a phôb vn ai thuſſer yn ei law, ac amlder niwl y mwg-darth oedd yn derchafu.

12 Ac efe a ddywedodd wrthif, a weli di fab dŷn yr hyn y mae henuriaid Jſrael yn ei wneuthur mewn tywyllwch, bôb vn o fewn ei ddelwgelloedd: canys dywedant nid yw 'r Arglwydd yn ein gweled, gadawodd yr Arglwydd y ddaiar.

13 Ac efe a ddywedodd wrthif eil-waith: cei weled ffieidd-dra mawr y rhai a wnaethant hwy.

14 Ac efe a'm dûg i ddrws porth tŷ 'r Arglwydd yr hwn [ſydd] tua 'r gogledd, ac wele yno wragedd yn eiſtedd gan wylo am Thammuz.

15 Ac efe a ddywedodd wrthif, a weli di fab dŷn, dychwel etto, cei weled ffieidd-dra mwy na hyn.

16 Ac efe a'm dûg i gyntedd tŷ 'r Arglwydd oddifewn, ac wele [wrth] ddrws Teml yr Arglwydd, rhwng y porth a'r allor, yng-hylch pump-wŷr ar hugain, pob vn ai gefn at deml yr Arglwydd, ai hwynebau tua 'r dwyrain, a'r rhai hyn oeddynt yn ymgrymmu i'r haul tua 'r dwyrain.

17 Ac efe a ddywedodd wrthif, a weli di fab dŷn, ai yſcafnach [dim] gan dŷ Juda, na gwneuthur y ffiaidd-dra y rhai a wnaethant ymma? canys llanwaſant y tîr â thrais, a gwrthdroaſant i'm cyffroi fi, ac wele hwynt yn bwrw cangheniau wrth eu ffroenau.

18 Minne hefyd a wnaf yn fy llid, nid arbed fy llygad, ac ni thoſturiaf: yna * y llefant yn fyng-hluſtiau â llefain mawr, ac ni wrandawaf hwynt.

Diar.21.19.
eſa.46.7.
iere.11.11.
mic.3.4.

## PEN. IX.

Diniſtr Ieruſalem. 4 Y rhai cadwedic. 8 Achwyn y prophwyd am y diniſtr.

LLefodd hefyd â llef vchel lle y clywais gan ddywedyd, wele ſwyddogion y ddinas, a phob vn ai arf diniſtr yn ei law.

2 Ac wele chwech o wŷr yn dyfod o ffordd y porth vchaf, yr hwn ſydd yn edrych tua 'r gogledd, a phob vn ai arf diniſtr yn ei law: ac [yr oedd] vn gŵr yn eu myſc hwynt, wedi ei wiſco â lliain, a chorn dû ſcrifennudd wrth ei glûn, a hwy a aethant i mewn, ac a ſafaſant wrth yr allor brês.

3 A gogoniant Duw Jſrael a gyfododd, oddi ar y Cerub yr hwn yr ydoedd efe arno, hyd rhiniog y tŷ, ac a lefodd ar y gŵr yr hwn oedd wedi ei wiſco â lliain, yr hwn [yr oedd] corn dû ſcrifennudd wrth ei glun.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, dôs trwy ganol y ddinas, [ſef] trwy ganol Jeruſalem, a noda nôd ar dalcennau y dynion y rhai ydynt yn vcheneidio, ac yn gweiddi am y ffieidd-dra oll, yr hwn a wneir oi mewn hi.

5 Ac wrth y lleill y dywedodd efe lle y clywais, ewch trwy'r ddinas ar ei ôl ef, a tharewch, nac arbeded eich llygad, ac na thoſturiwch.

6 Lleddwch yn farw yr hen-ŵr, y gŵr ieuangc a'r forwyn, y plant hefyd a'r gwragedd: ond na ddeuwch yn agos at vn gŵr yr hwn y byddo y nôd arno, ac ar * fyng-hyſſegr y dechreuwch: felly y dechreuaſant ar y gwŷr hên y rhai oeddynt ger bron y tŷ.

7 Dywedodd wrthynt hefyd, halogwch y tŷ, a llenwch y cynteddoedd o rai archolledic, ewch allan: felly hwy a aethant allan, ac a darawſant trwy 'r ddinas.

8 A phan darawyd hwynt, a'm gadu inne,

yna mi a ſyrthiais ar fy wyneb, gwaeddais hefyd *a dywedais, ô Arglwydd Dduw, a ddifethi di holl weddill Iſrael, wrth dywallt dy lîd ar Jeruſalem? Eſa 1.15.

9 Ac efe a ddywedodd wrthif, anwiredd tŷ Iſrael, a thŷ Juda ſydd fawr ddieth: canys llawnwyd y tir o waed, a llawnwyd y ddinas o wyrni: o herwydd dywedaſant, gwrthododd yr Arglwydd y tir, ac nid yw'r Arglwydd yn gweled.

10 Ac am danafi [diau] nad erbyd fy llygad, ac na thoſturiaf [wrthynt:] rhoddaf eu ffordd eu hun ar eu pennau.

11 Ac wele y gŵr wedi ei wiſco â lliain yr hwn yr [oedd] y corn dû wrth ei glun, yn dwyn gair trachefn gan ddywedyd: gwneuthum fel y gorchymynnaiſt i mi.

## PENN. X.

Gweledigaeth marwor yn arwyddocau lloſciad Ieruſalem, ac adroddiad gweledigaeth y Cerubiaid a'r olwynion, yr hon ſydd yn y bennod gyntaf.

Ezec.1.22. YNa'r edrychais, ac wele ar y *ffurfafen, yr hon [oedd] vwch benn y Cerubiaid, megis maen Saphyr, fel dull cyffelybrwydd gorſeddfa a welid arnynt hwy.

2 Ac efe a lefarodd wrth y gŵr a wiſcaſid â lliain, ac a ddywedodd, dôs i mewn rhwng yr olwynion, hyd tann y Cerub, a llanw dy ddwylo o farwar tanllyd, oddi rhwng y Cerubiaid, a thâna ar y ddinas: felly efe a aeth o flaen fy llygaid.

3 A'r Cerubiaid oeddynt yn ſefyll o du dehau y tŷ pan ddaeth y gŵr i mewn: a'r niwl a lanwodd y cyntedd neſaf i mewn.

4 Yna y cyfododd gogoniant yr Arglwydd oddi ar y Cerub hyd rinniog y tŷ, a'r tŷ a lanwyd o niwl: felly y llanwyd y cyntedd o ddiſcleirdeb gogoniant yr Arglwydd.

Ecc.1.5.24. 5 A *ſŵn adenydd y Cerubiaid a glywyd hyd y cyntedd neſaf allan, fel ſŵn Duw holl alluog pan lefare efe.

6 Bu hefyd pan orchymynnodd efe i'r gŵr a wiſcaſid â lliain gan ddywedyd: cymmer dân oddi rhwng yr olwynion [ſef] oddi rhwng y Cerubiaid, felly fyned o honaw ef, a ſefyll wrth yr olwynion.

7 Yna'r eſtynnodd y Cerub ei law oddi rhwng y Cerubiaid i'r tân, yr hwn [oedd] rhwng y Cerubiaid: ac a gododd, ac a roddodd, [peth] yn nwylo'r hwn a wiſcaſid â lliain: yntef a gymmerodd, ac a aeth allan.

8 A gwelid gan y Cerubiaid law dŷn tann eu hadenydd.

Ezec.1.16. 9 Edrychais hefyd, ac wele bedair olwyn, wrth y Cerubiaid, vn olwyn wrth bôb Cerub: a gwelediad yr olwynion oedd fel *lliw maen Tharſys.

10 Ai gwelediad oedd vn wedd iddynt ill edwar, fel pe bydde olwyn o fewn olwyn.

11 Pan gerddent, ar eu pedwar ochr y cerddent, ni throent pan gerddent, canys lle'r edryche y penn y cerddent ar ei ôl ef, ni throent pan gerddent.

12 Eu holl gnawd hefyd, ai cefnau, ai dwylo, ai hadenydd, a'r olwynion oeddynt yn llawn llygaid oddi amgylch: eu holwynion oeddynt iddynt ill pedwar.

13 Galwyd hefyd lle y clywais arnynt [ſef] ar yr olwynion, ô olwyn.

14 A phedwar wyneb [oedd] i bôb vn, wyneb y cyntaf yn wyneb Cerub, ac wyneb yr ail yn wyneb dŷn, a'r trydydd yn wyneb llew, a'r pedwerydd yn wyneb eryr.

15 Yna y Cerubiaid a dderchafaſant, dymma *'r anifail yr hwn a welais wrth afon Chebar. Ezec.1.5.

16 A phan gerdde y Cerubiaid, y cerdde'r olwynion wrthynt, a phan gode y Cerubiaid eu hadenydd i ymdderchafu oddi ar y ddaiar, yr olwynion hwythau ni throent ychwaith oddi wrthynt,

17 Safent, pan ſafent hwytheu, a chodent gyd â hwy pan godent hwytheu, canys yſpryd yr anifail [oedd] ynddynt.

18 Yna gogoniant yr Arglwydd a aeth allan oddi ar rinniog y tŷ, ac a ſafodd ar y Cerubiaid.

19 A'r Cerubiaid a godaſant eu hadenydd, ac a dderchafaſant oddi ar y ddaiar o flaen fy llygaid: a'r olwynion ar eu cyfer pan ddaethant allan: a ſafodd [pob vn wrth] ddrŵs porth y dwyrain i dŷ'r Arglwydd: a gogoniant Duw Iſrael arnynt oddi arnodd.

20 Dymma'r anifail yr hwn a welais tann Dduw'r Iſrael wrth afon Chebar: a gwybûm mai y Cerubiaid hynny [oedd] efe.

21 Pedwar wyneb oedd i bôb vn, a phedair aden [i bôb] vn, a chyffelybrwydd dwylo dŷn dann eu hadenydd.

22 Cyffelybrwydd eu hwynebau hwynt [oedd] yr wynebau hynny, y rhai a welais wrth afon Chebar, eu dull hwynt, a hwythau: cerddent bôb vn ar gyfer ei wyneb.

## PEN. XI.

Pwy ſy yn twyllo y bobl, ai coſpedigaeth. 19 Duw yn addo adnewyddu rhai, ac yn bygwth coſpi'r lleill.

YNa i'm cyfododd yſpryd, ac i'm dûg hyd borth dwyrain tŷ'r Arglwydd, yr hwn ſydd yn edrych tua'r dwyrain: ac wele bum-ŵr ar hugain yn nrŵs y porth, ac yn eu myſc hwynt y gwelwn Jaazaniah fab Azur, a Phelatiah fab Benaiahu, tywyſogion y bobl.

2 Ac efe a ddywedodd wrthif, ha fab dŷn, dymma y gwŷr y rhai ydynt yn dychymygu coegni, ac yn ymgynghori â drwg gyngor yn y ddinas hon.

3 Y rhai a ddywedant, nid madws adailadu tai, hi yw'r crochan, ninneu'r cîg.

4 Am hynny prophwyda di i'w herbyn hwynt, prophwyda fab dŷn.

5 Yna y ſyrthiodd yſpryd yr Arglwydd arnaf, ac a ddywedodd wrthif: dywet, fel hynn y dywedodd yr Arglwydd, tŷ Iſrael felly y dywedaſoch: canys mi a adwen amcannion eich yſpryd.

6 Amlhaſoch eich lladdedigion o fewn y ddinas hon, a llanwaſoch ei heolydd hi â chelanedd.

7 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, eich lladdedigion y rhai a oſodaſoch oi mewn hi yw 'r cig, a hithe yw yr crochan: a chwithau a ddygaf allan oi chanol.

8 Cleddyf a ofnwch, a chleddyf a ddwg arnoch medd yr Arglwydd Dduw.

9 Dygaf chwi hefyd allan oi chanol, a rhoddaf chwi yn llaw dieithriaid, a gwnaf farn arnoch.

2.Bren.25.7. 10 Ar y cleddyf y *ſyrthiwch, ar derfyn Iſrael y barnaf chwi, fel y gwypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

11 Hon ni bydd i chwi yn grochan, ac ni byddwch chwithau yn gig oi mewn: ar derfyn Iſrael y barnaf chwi.

12 A chewch wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, canys ni rodiaſoch yn fy neddfau: ac ni wnaethoch fy marnedigaethau: onid yn ôl barnedigaethau y cenhedloedd y rhai [ydynt] o'ch amgylch y gwnaethoch.

13 A phan brophwydais, bu farw Phelatiah mab Benaiahu: yna ſyrthiais ar fy wyneb, a gwaeddais â llef uchel, a dywedais: ô Arglwydd Dduw a wnei di drangc ar weddill Iſrael?

14 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd,

15 Ha fab dŷn dy frodyr, dy frodyr, dy ddynion cyfneſaf, a holl dŷ Iſrael yn gwbl [ydynt y rhai] y dywedodd preſwylwŷr Ierusalem wrthynt, ymbellhewch oddi wrth yr Arglwydd, i ni y rhodded y tir hwn yn etifeddiaeth.

16 Dywet am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: er gyrru o honof hwynt ym mhell ym myſc y cenhedloedd, ac er gwaſcaru o honof hwynt trwy y tiroedd, etto byddaf yn gyſſegr bychan iddynt yn y tiroedd lle y daethant.

17 Dywet gan hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, caſclaf chwi hefyd o fyſc y bobloedd, a chynhullaf chwi o'r tiroedd y rhai i'ch gwaſcarwyd ynddynt, a rhoddaf i chwi dir Iſrael.

18 A phan ddelant yno ſymmudant ei holl frynti hi, ai holl ffieidd-dra o honi hi.

Iere.32.39. ezec.36.26. 19 A rhoddaf iddynt un galon, ac yſpryd newydd a roddaf yn eu ceudod: ſymmudaf hefyd y galon garreg oi cnawd hwynt, ac mi a roddaf iddynt galon gîg:

20 Fel y rhodiant yn fy neddfau, ac y cadwant fy marnedigaethau, ac y gwnant hwynt: byddant yn bobl i mi, minne a fyddaf Dduw iddynt hwy.

21 Os wrth feddwl eu brynti ai ffieidd-dra 'r aiff eu calon, rhoddaf eu ffordd ar eu pennau eu hun, medd yr Arglwydd Dduw.

22 A'r Cerubiaid a gyfodaſant eu hadenydd, a'r olwynion ar eu cyfer hwynt, a gogoniant Duw Iſrael [oedd] arnynt oddi arnodd.

23 Yna gogoniant yr Arglwydd a dderchafodd oddi ar ganol y ddinas, ac a ſafodd ar y mynydd yr hwn [oedd] o'r tu dwyrain i'r ddinas.

24 Yna yſpryd a'm cododd fi, ac a'm dûg hyd Caldea, at y gaeth-glud mewn gweledigaeth drwy Yſpryd Duw: a'r weledigaeth yr hon a welſwn a dderchafodd oddi wrthif.

25 Yna y lleferais wrth y gaeth-glud holl eiriau 'r Arglwydd y rhai a ddangoſaſe efe i mi.

## PEN. XII.

Y prophwyd ar ddammeg yn dangos y caeth-gludid Sedecia ai bobl i Babilon, 18 Ac ar ddammeg arall yn bygwth newyn a phrinder mawr.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf, gan ddywedyd:

2 Trigo 'r ydwyt ti fab dyn, yng-hanol tŷ anufyddgar, y rhai [y mae] llygaid iddynt i weled, ac ni welant, a chlustiau iddynt i glywed, ac ni chlywant: canys tŷ anufyddgar ydynt hwy.

3 A thithe fab dŷn gwna it offer caethfud, a muda liw dydd o flaen eu llygaid hwynt, ie muda o'th le dy hun i le arall, yng-wydd eu llygaid hwynt: ond odid gwelant mai tŷ anufyddgar [ydynt] hwy.

4 A dwg allan dŷ ddodrefn liw dydd yng-wydd eu llygaid fel dodrefn caethfud: dos dithe allan yn yr hwyr yng-wydd eu llygaid, fel rhai yn myned allan i gaeth-glud.

5 Cloddia o flaen eu llygaid hwynt i ti [dwll] mewn mûr, a dwg allan trwy hwnnw:

6 Llwytha ar dŷ yſcwydd yng-wydd eu llygaid hwynt, mewn tywyllni y dygi allan, dy wyneb a guddi fel na welech y ddaiar: canys yn arwydd i'th roddais i dŷ Iſrael.

7 Ac mi a wnaethum felly fel i'm gorchymynnwyd, dygais fy offer, allan liw dydd fel offer caeth-fud: ac yn yr hwyr y cloddiais i'm [dwll] mewn mûr a'm llaw: mewn tywyllwch y dygais allan, ar fy yſcwydd y llwythais o flaen eu llygaid hwynt.

8 A'r borew y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd:

9 Ha fab dyn onid ddywedodd tŷ Iſrael (ſef y tŷ anufyddgar) wrthit, beth yr wyt ti yn ei wneuthur?

10 Dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: y tywyſog yn Ierusalem [a ddwg] y baich hwn, a holl dŷ Iſrael y rhai y maent hwy yn eu myſc. 2.Bren.25.

11 Dywet eich arwydd chwi ydwyf fi, fel y gwnaethum i felly y gwneir i chwithau: mewn caeth-glud yr ewch, [ac] mewn caethiwed.

12 A'r tywyſog yr hwn [ſydd] yn eu canol a lwytha ar ei yſcwydd, mewn tywyllwch yr aiff allan: cloddiant trwy 'r mûr fel yr elont

allan trwyddo, ei wyneb a guddia efe fel na welo efe y ddaiar ai lygaid.

Ezec.17.20. ezec.32.3. 13 Canys tanaf fy rhwyd * arno ef, fel y dalier ef yn fy rhwyd, a dygaf ef i Babilon tir y Caldeaid, ac ni wêl efe hi, etto yno y bydd efe marw.

14 A gwaſcaraf ei holl nerth ef ſef y rhai a [fyddant] oi amgylch, ai holl lu gyd â phob gwynt, a thynnaf gleddyf ar eu hôl hwynt.

15 Felly y cânt wybod mai myfi ydwyf yr Arglwydd, wedi gwaſcaru o honof hwynt ym myſc y cenhedloedd, ai tânu hwynt ar hŷd y tiroedd.

Ezec.11.15. 16 Etto gweddillaf o honynt *ychydig ddynion oddi wrth y cleddyf, oddi wrth newyn, ac oddi wrth haint: fel y mynegant eu holl ffieidd-dra ym myſc y cenhedloedd lle y delant: a gŵybyddant mai myfi ydwyf yr Arglwydd.

17 Gair yr Arglwydd hefyd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

18 Ha fâb dŷn bwyttei dy fara mewn cynnwrf, a'th ddwfr a yf mewn dychryn, a gofal:

19 A dywet wrth bobl y tîr, fel hyn a dywed yr Arglwydd Dduw am drigolion Ieruſalem, [ac] am wlâd Iſrael: eu bara a fwyttânt mewn gofal, ai dwfr a yfant mewn anrhaith, fel yr anrheithir ei thîr oi chyflawnder am drais y rhai oll a drigant ynddi.

20 A'r dinaſoedd cyfanneddol a anghyfanneddir, a'r tîr a fydd anrhaithiedic, felly y gŵybyddwch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

21 A daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd:

22 Ha fab dŷn beth [yw] y ddihareb hon a genwch am dîr Iſrael gan ddywedyd, y dyddiau a eſtynnaſant, a darfu am bôb gweledigaeth?

23 Am hynny dywet ti wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gwnaf i'r ddihareb hon beidio, fel nad arferant hi mwy yn Iſrael: ond yn hytrach dywet wrthynt, y dyddiau a ſylwedd pob gweledigaeth a neſauaſant.

24 Canys ni bydd mwy ûn weledigaeth ofer, na dewiniaeth weniaithus o fewn tŷ Iſrael.

25 Canys myfi 'r Arglwydd a lefaraf y peth a lefarwyf, ac ef a wneir, nid oedir efe mwy: o herwydd yn eich dyddiau chwi ô dŷ anufuddgar y llefaraf air, ac efe a wneir, medd yr Arglwydd Dduw.

26 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

27 Ha fab dŷn wele dŷ Iſrael yn dywedyd, y weledigaeth yr hon a welodd efe [fydd] wedi dyddiau lawer: a phrophwydo y mae efe am amſeroedd pell.

28 Am hynny dywet wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, nid oedir dim o'm geiriau mwy, canys y gair yr hwn a ddywedais a gwpleir, medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XIII.

Bygwth ar y gau brophwydi.

A Gair yr Arglwydd a daeth attaf gan ddywedyd:

2 Prophwyda fab dŷn yn erbyn prophwydi *Iſrael, y rhai ydynt yn prophwydo, a dywet wrth y rhai a brophwydant oi meddwl eu hun, gwrandewch air yr Arglwydd. Ezec.14.9.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gwae 'r prophwydi ynfyd y rhai a rodiant yn ôl eu hyſpryd eu hun, ac heb weled [dim.]

4 Dy brophwydi Iſrael ydynt fel llwynogod yn yr anialwch.

5 Ni ſafaſoch yn yr adwyau, ac ni chaeaſoch gae o amgylch tŷ Iſrael: i ſefyll yn y rhyfel ar ddydd yr Arglwydd.

6 Gwagedd, a gau ddewiniaeth a welſant, y rhai a ddywedant, dywedodd yr Arglwydd: a'r Arglwydd heb eu hanfon hwynt: a pharaſant ddiſgwil am gyflawni [eu] gair.

7 Onid gau weledigaeth a welſoch, a gau ddewiniaeth a draethaſoch, pan ddywedaſoch, yr Arglwydd a ddywedodd, a minnef heb ddywedyd?

8 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: am lefaru o honoch wagedd, a gweled o honoch gelwydd: am hynny wele fi i'ch erbyn medd yr Arglwydd Dduw.

9 A bydd fy llaw yn erbyn y prophwydi y rhai ydynt yn gweled gwagedd, ac yn dewino celwydd, yng-hyfrinach fy mhobl ni byddant, ac o fewn ſcrifen tŷ Iſrael ni ſcrifennir hwynt: i dîr Iſrael hefyd ni ddeuant, fel y gŵybyddant mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd Dduw.

10 O achos, ac o herwydd hudo o honynt fy mhobl gan ddywedyd, heddwch, lle nid [oedd] heddwch: pan yw hwn yn adailadu mûr, wele hwythau yn ei galchu ef â ſalwedd.

11 A dywet wrth y rhai a galchant â ſalwedd, y ſyrth efe: canys cur-law a fydd, a chwithau gerric cenllyſc a ſyrthiwch: a gwynt temheſtloedd a rwyga.

12 Wele pan ſyrthio 'r mûr, oni ddywedir wrthych? mae 'r calch a'r hwn y calchaſoch?

13 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, minne a rwygaf â gwynt yſpryd temheſtloedd yn fy llid, a chur-law fydd yn fy nig: a cherric cenllyſc mewn llidiawgrwydd i ddifetha.

14 Felly y diniſtriaf y mûr yr hwn a galchaſoch â ſalwedd, a tharawaf ef i'r llawr, fel y gŵypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

15 Pan orphennwyf fy llid ar y mûr, ac ar y rhai ai calchant â ſalwedd: yna y dywedaf wrthych: y mûr nid [yw,] na'r rhai ai calchaſant,

16 [Sef] prophwydi Iſrael y rhai a brophwydant am Ieruſalem, ac a welant iddi weledigaeth heddwch, pan nad [oes] heddwch medd yr Arglwydd Dduw.

17 Tithe fâb dŷn goſot dy wyneb yn erbyn

merched dy bobl y rhai a brophwydant wrth eu meddwl eu hun: a phrophwyda yn eu herbyn hwynt.

18 Dywet hefyd, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gwae y gwniadyddeſau cluſtôgau tann holl elinoedd dwylo fy mhobl, a'r rhai a weithiant foledau am benn pob ſefyll-berth, i hela eneidiau. Ai eneidiau fy mhobl a helwch chwi, i gadw yn fyw enioes i chwi?

19 A halogwch chwi fi wrth fy mhobl er dyrneidiau o haidd, ac am dãmeidiau o fara, gan ladd yr eneidiau y rhai ni byddent farw, ac addo enioes i'r rhai ni byddent fyw, gan ddywedyd o honoch gelwydd wrth fy mhobl y rhai a wrandawent gelwydd?

20 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, wele fi at eich cluſtogau chwi, â'r rhai yr ydych yn hela eneidiau i beri iddynt ehedec, a rhwygaf hwynt oddi wrth eich breichiau: a gollyngaf yr eneidiau [ſef] yr eneidiau y rhai yr ydych yn eu hela i beri iddynt ehedeg.

21 Rhwygaf hefyd eich moledau chwi, a gwaredaf fy mhobl o'ch llaw chwi, ac ni byddant mwy yn eich llaw chwi yn helfa, fel y gŵyppoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

22 Am dristau calon y cyfiawn drwy gelwydd, a minne heb ei ofidio ef, ac am gadarnhau dwylo 'r annuwiol, fel na ddychwele oi ffordd ddrygionus iw fywhau,

23 O herwydd hynny, ni welwch wagedd, ac ni ddewiniwch ddewiniaeth mwy, canys gwaredaf fy mhobl o'ch llaw chwi, fel y gŵyppoch mai myfi [yw'r] Arglwydd.

## PEN. XIIII.

Yr Arglwydd yn neccau y bobl oi air am eu pechod. 9 Ac yn gadu i'r gau-brophwydi dwyllo dirmyg-wyr ei air ef. 22 Cyſſur y rhai a ffoaſent i Babilon.

YNa y daeth attaf wŷr o henuriaid Iſrael, ac a eiſteddaſant o'm blaen.

2 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd:

Ier.10.15. 3 Y gwŷr hyn ô fab dyn, a dderchafaſant* yn eu calonnau, rhoddaſant hefyd dramgwydd eu hanwiredd ar gyfer eu hwynebau: a attebwn i hwynt er iddynt ymofyn â mi?

4 Am hynny chwedleua di â hwynt, a dywet wrthynt: fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, pob vn o dŷ Iſrael, yr hwn a dderchafa ei eulynnod yn ei galon, ac a oſodo dramgwydd ei anwiredd ar gyfer ei wyneb, ac a ddaw at brophwyd: myfi 'r Arglwydd ai hattebaf ef pan ddelo yn

2.Theſ.2.10. * amlder ei eulynnod,

5 Er mwyn dal tŷ Iſrael erbyn eu calonnau y rhai a ymddieithriaſant oddi wrthif oll, trwy eu heulynnod.

6 Am hynny dywet wrth dŷ Iſrael, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: troiwch a dychwelwch oddi wrth eich eulynnod, a throiwch eich wynebau oddi wrth eich holl ffiaidd-dra.

7 Canys pob vn o dŷ Iſrael, ac o'r dieithr yr hwn a ymdeithio o fewn Iſrael, ac a ymddieithro oddi ar fy ôl i, ac a dderchafo ei eulynnod yn ei galon, ac a oſodo dramgwydd ei anwiredd ar gyfer ei wyneb, ac a ddêl at brophwyd i ymofyn a'm fi trwyddo ef: myfi 'r Arglwydd a attebaf iddo ef trwof fy hun.

8 Goſodaf hefyd fy wyneb yn erbyn y gŵr hwnnw, a goſodaf ef yn arwydd, ac yn ddiharebion, a gwnaf ei dorri ef ymmaith o fysc ei bobl: fel y gŵyppoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

9 Ac os twyllir y prophwyd pan lefaro air, myfi 'r Arglwydd a dwyllodd y prophwyd hwnnw: ac mi a eſtynnaf hefyd fy llaw arno ef, ac ai difethaf ef o fysc fy mhobl Iſrael.

10 Felly y dygant eu hanwiredd, vn fath fydd anwiredd yr ymofynnudd, ac anwiredd y prophwyd:

11 Fel na chyfeiliorno tŷ Iſrael mwy oddi ar fy ôl: ac na haloger hwynt mwy yn eu holl anffyddlondeb, onid byddant i mi yn bobl, minne a fyddaf iddynt hwy 'n Dduw, medd yr Arglwydd Dduw.

12 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

13 Ha fab dyn, os pecha gwlâd trwy wneuthur camwedd i'm herbyn, yna 'r eſtynnaf fy llaw arni,* a thorraf iddi ffon y bara, ac anfonaf arni newyn, fel y torrwyf ymmaith o honi ddyn, ac anifail. Ezec.4.16. Ezec.5.17. Eſa.3.1.

14 Pe bydde yn ei chanol y trŷ-wŷr hyn, Noah, Daniel, ac Iob, hwynt yn ei cyfiawnder a achubẽt eu henaid eu hũ, medd yr Arglwydd Dduw.

15 Os bwyſt-fil niweidiol a drosclwyddwn i'r tîr ai ddifa o hwnnw, fel y bydde yn anrhaith, heb gynniwerydd rhag ofn y bwyſt-fil,

16 [Pe bydde] y try-wŷr hyn yn ei ganol, [nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw os gwaredent feibion, na merched: hwynt hwy yn vnic a waredid, a'r tîr a fydde yn anrhaith.

17 Os cleddyf a ddygwn ar y tîr hwn, a dywedyd o honof, cynniwer gleddyf trwy 'r tîr, a thorr ymmaith o honaw ddyn, ac anifail,

18 A'r try-wŷr hyn yn ei ganol, [os] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, ni achubent feibion, na merched: onid hwynt hwy yn vnic a achubid,

19 Os haint a anfonwn i'r wlâd hon, a thywallt o honof fy llid arni mewn gwaed, gan dorri ymmaith ddyn, ac anifail,

20 A Noah, Daniel, ac Iob yn ei chanol hi, [nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, os gwaredent fab, nâ merch, hwynt hwy yn eu cyfiawnder a waredent eu heneidiau eu hun.

21 Ac fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, pa faint mwy pan anfonwyf * fy mhedair drygfarn, cleddyf, a newyn, a bwyſt-fil niweidiol, a haint ar Ieruſalem i dorri ymmaith o honi ddyn, ac anifail. Ezec.5.17.

22 Etto wele ynddi weddill diangol, y rhai a ddygir allan yn feibion a merched: wele hwynt yn dyfod allan attoch, a chewch weled eu

ffyrdd hwynt, ai gweithredoedd, fel yr ymgyſſuroch, o herwydd yr adfyd yr hwn a ddygais ar Jeruſalem, ſef yr hyn oll a ddygais arni.

23 Ie cyſſurant chwi pan weloch eu ffordd, ai gweithredoedd, a chewch wybod nad heb achos y gwneuthum, yr hyn oll a wneuthum iw herbyn hi, medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XV.

Y mae yn cyffelybu Ieruſalem i ddiddefnydd goed y win-wydden.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

2 Ha fâb dŷn beth yw coed y win-wydden, [ſwy] nâ phob coed [arall, neu] 'r winwŷddgaingc yr hon ſydd ym myſc prennau y coed?

3 A gymmerir o honi goed i weithio mewn gwaith, a gymmerant o honi hoel i grogi vn offeryn arni?

4 Wele yn ymborth i'r tân y rhoddir hi, difaodd y tân ei dau gwrr hi, ei chanol a loſcwyd, ac a waſanaetha hi mewn gwaith?

5 Wele pan oedd gyfan ni weithid hi mewn gwaith, pa faint llai gan ei difa o dân, ai goloſci y gweithir hi etto mewn gwaith?

6 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, megis pren y win-wŷdden ym myſc prennau y coed yr hon a roddais yn ymborth i'r tân: felly y rhoddaf drigolion Jeruſalem.

7 A rhoddaf fy wyneb yn eu herbyn hwynt, o'r [naill] dân y deuant, a thân [arall] ai difa hwynt, fel y gwŷpoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd pan oſodwyf fy wyneb iw herbyn hwynt.

8 Rhoddaf hefyd y wlâd yn anrhaith, am wneuthur o honynt gamwedd, medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XVI.

1 Daioni Duw i Ieruſalem. 15 ei hanniolchgarwch, ai gau-dduwiaeth hitheu. 46 y mae yn cyſtadlu ag Ieruſalem y dinaſoedd gwaethaf. 49 Achlyſur pechod y Sodomiaid. 60 Duw yn ei lîd yn coffau ei gyfammod am drugaredd.

WEdi hynny y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Ha fab dŷn gwna i Jeruſalem adnabod ei ffieidd-dra,

3 A dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw am Jeruſalem: dy drigfa, a'th enedigaeth [oeddynt] o * wlâd Canaan, dy dâd [oedd] Amoriad, a'th fam yn Hittees.

Eſa.1.4.
Eſa.57.3.

4 Ac [dymma] dy enedigaeth, ar y dydd i'th anwyd ni thorrwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd yn feddal, ni'th gyweiriwyd ychwaith â halen, ac ni'th rwymmwyd â rhwymyn:

5 Ni thoſturiodd llygad wrthit, i wneuthur it vn o hyn, gan drugarhau wrthit: onid ar wyneb y maes i'th daſlwyd, yn diyſtyrwch dy einioes, ar y dydd i'th aned.

6 Yna y tramwyais heibio it, ac mi a'th welais yn ymdrybaeddu yn dy waed, a dywedais wrthit yn dy waed, bydd fyw: ie dywedais wrthit yn dy waed, bydd fyw.

7 Yn fyrddiwn i'th roddais fel gwellt y maes: ie ti a amlheuit, ac a fawrheuit, ac a ddeuit i harddwch mawr, addfedodd dy fronnau, a thyfodd dy wallt, a thi yn llom, ac yn noeth [o'r blaen.]

8 A phan dramwywais heibot canfûm di, ac wele dy amſer yn amſer ſerchawgrwydd, yna lledais fy aden droſot, a chuddiais dy noethni: tyngais hefyd it, ac euthym mewn cyfammod â thi medd yr Arglwydd Dduw, felly 'r aethoſt yn eiddof fi.

9 Golchais di hefyd mewn dwfr, ie golchais dy waed oddi wrthit, ac irais di ag olew:

10 Mi a'th wiſcais hefyd â gwaith edef a nodwydd, rhoddais it hefyd eſcidiau o groen daiar-foch: a gwiſcais di mewn lliain main, a gorchguddiais di â ſidan,

11 Felly i'th herddais â harddwch, a rhoddais freichledau am dy ddwylo, a chadwyn am dy wddf,

12 Rhoddais hefyd ſiwrn ar dy wyneb, a thlyſau wrth dy gluſtiau: a choron hardd am dy benn.

13 Felly i'th harddwyd o aur, ac arian, ac i'th wiſcwyd â lliain main, ac â ſidan, ac â gwaith edef a nodwydd: peillied, a mêl, ac olew a fwyteit, têg hefyd odiaeth oeddit, a ffynnaiſt yn frenhiniaeth.

14 Aeth allan hefyd it enw ym myſc y cenhedloedd, o'th degwch: canys cyflawn oedd, o achos fy hyfrydwch yr hwn a oſodaſwn arnat, medd yr Arglwydd Dduw.

15 Yna 'r ymddyrchedaiſt i'th degwch, a phutteiniaiſt wrth dy enw: a thywelltaiſt dy butteindra ar bob cynniweirudd, [dy degwch] oedd eiddo ef.

16 Cymmeraiſt hefyd o'th ddillad, a gwnaethoſt it vchel-feudd brithion, a phutteiniaiſt â hwynt, [dy fath] ni ddeuant, ac ni bydd [dy gyffelyb.]

17 A chymmeraiſt offer dy harddwch o'm haur, ac o'm harian i y rhai a roddaſwn i ti, a gwnaethoſt it ddelwau gwŷr: a phutteiniaiſt gyd â hwynt.

18 Cymmeraiſt hefyd dy wiſcoedd o waith edef a nodwydd, ac ai gwiſcaiſt hwynt, fy olew hefyd, a'm harogl-darth a roddaiſt oi blaen hwynt.

19 Felly fy mwŷd yr hwn a roddaſwn i ti, yn beillied, ac yn olew, ac yn fêl, [a'r rhai] i'th borthaſwn di: rhoddaiſt hynny hefyd oi blaen hwynt i fod yn arogl eſmwyth: fel hyn y bû medd yr Arglwydd Dduw.

20 Cymmeraiſt hefyd dy feibion, a'th ferched, y rhai a blantaaſit i mi, * a lleddaiſt hwynt yn fwyd iddynt hwy: ai bychan [hyn] o'th butteindra?

Lefit.18.21.
2.Bren.23.10.

21 Lleddaiſt hefyd fy meibion, a rhoddaiſt hwynt, gan eu tynnu [trwy'r tân] iddynt.

22 A chyd a'th holl ffieidd-dra, a'th butteindra, ni choffaiſt ddyddiau dy ieuengtid: pan oeddit lomm, a noeth, dy fod yn ymdrybaeddu yn dy waed.

23 A bu ar ôl dy holl ddrygioni (gwae, gwae it medd yr Arglwydd Dduw)

24 Adailadu o honot it uchelfa, a gwneuthur it uchelfa ym mhob heol.

25 Ym mhen pob ffordd yr adailedaiſt dy uchelfa, a gwnaethoſt dy degwch yn ffiaidd: canys lledaiſt dy draed i bob cynniweirudd, ac amlheaiſt dy butteindra.

26 Putteiniaiſt hefyd gyd â meibion yr Aipht, dy gymydogion cigog: ac amlheaiſt dy butteindra i'm digio.

27 Am hynny wele eſtynnais fy llaw arnat, a phrinheais dy rann, a rhoddais di wrth ewyllys dy gaſeion [ſef] merched y Philiſtiaid: y rhai a wradwyddwyd am dy ffordd ſceler.

28 Yna y putteiniaiſt gyd â meibion Aſſur, o eiſieu dy ddigoni: a hefyd wedi putteinio gyd â hwynt ni'th ddigonwyd.

29 Onid chwanegaiſt dy butteindra yngwlâd Canaan gyd a'r Caldeaid: ac etto ni'th ddigonwyd yn hyn.

30 Mor lleſc yw dy galon medd yr Arglwydd Dduw, gan it wneuthur hynny oll: [ſef] gwaith puttein-wraig anllywodraethus.

31 Pan adailedaiſt dy uchelfa ym mhenn pob ffordd, ac y gwnaethoſt dy uchelfa ym mhob heol, ac nid oeddit fel puttain yn dirmygu gwobr.

32 Ond fel gwraig a dorre ei phriodas, ac a gymmere ddieithraid yn lle ei gŵr.

33 I bob puttain y rhoddant wobr, ond ty di a roddaiſt dy wobr i'th holl gariadau: ac ai gobrwyaiſt hwynt i ddyfod attat oddi amgylch yn dy butteindra.

34 Am hynny yr wyt ti yn y gwrthwyneb i wragedd [eraill] yn dy butteindra, ac ni phutteiniwyd ar dy ôl di: canys lle y rhoddi wobr, ac ni roddir it, yna'r wyt yn y gwrthwyneb.

35 Gan hynny ô buttain clyw air yr Arglwydd,

36 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am dywallt dy frynti, a datcuddio dy noethni yn dy butteindra gyd a'th gariadau, a chyd a'th holl eulynnod ffiaidd: ie yngwaed dy feibion y rhai a roddaiſt iddynt:

37 Am hynny wele fi yn caſclu * dy holl gariadau y rhai y cydiaiſt â hwynt: ie y rhai oll a geraiſt, gyd a'r rhai oll a gaſeaiſt, pan gaſclwyf hwynt i'th erbyn oddi amgylch: yna y dinoethaf dy noethni iddynt, fel y gwelant dy holl frynti. Ezec.23.9.

38 Barnaf di hefyd â barnedigaethau putteiniaid, a'r rhai a dywalltant waed: a rhoddaf di yn waed llidiawgrwydd, ac eiddigedd.

39 Ie rhoddaf di yn eu dwylo hwynt, yna y diniſtriant dy uchelfannau, a diwreiddiant dy uchel-leoedd: dioſcant di hefyd o'th ddillad, a chymmerant ddodrefn dy harddwch, ac a'th adawant yn llomm, ac yn noeth.

40 Dygant hefyd dyrfa i'th erbyn, ac a'th labyddiant â meini, ac ai cleddyfau i'th drywanant.

41 * Lloſcant hefyd dy dai â thân, a gwnant arnat farnedigaethau yngolwg gwragedd lawer: felly y gwnaf it beidio â phutteinio, ac hefyd na roddech wobr mwy. 2.Bren.25.9.

42 Ie llonyddaf fy llid i'th erbyn, a ſymmudaf fy eiddigedd oddi wrthit: llonyddaf hefyd ac ni ddigiaf mwy.

43 Am na choffaiſt ddyddiau dy ieuengctid, onid ânogaiſt fi i lid yn hyn oll, am hynny wele myfi a roddaf dy ffordd ar [dy] benn, medd yr Arglwydd Dduw: fel na wnelech yr ſcelerder hynn, gyd a'th holl ffieidd-dra.

44 Wele pob diharebudd a ddihareba am danat gan ddywedyd: fel y fam y mae yr ferch.

45 Merch dy fam yr hon a ffieiddiodd ei gŵr ai meibion [ydwyt] ti: a chwaer dy chwiorydd, y rhai a ffieiddiaſant eu gwŷr ai meibion [ydwyt] ti: eich mam [ſydd] Hittees, a'ch tâd yn Amoriad.

46 A'th chwaer hynaf yw Samaria ai merched, yr hon ſydd yn trigo ar dy law aſſwy: a'th chwaer ieuangach nâ thi 'r hon ſydd yn trigo ar dy law ddehau [yw] Sodoma ai merched.

47 Ac ni rodiaiſt yn eu ffyrdd hwynt, nid yn ôl eu ffieidd-dra hwynt y gwnaethoſt, megis ychydig bach [oedd hynny,] ymlygraiſt yn fwy na hwy yn dy holl ffyrdd.

48 [Nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, os gwnaeth Sodoma dy chwaer, hi ai merched, fel y gwnaethoſt ti a'th ferched.

49 Wele hynn oedd anwiredd dy chwaer Sodoma, * balchder, digonedd bara, ac amlder o ſeguryd oedd iddi, ac iw merched, ac ni chryfhaodd hi law yr anghenog, na'r tlawd. Gen 19.24.

50 Onid ymdderchafaſant, a gwnaethant ffiaidd-dra o'm blaen, am hynny y ſymmudais hwynt fel y gwelais yn dda.

51 Samaria hefyd ni phechodd fel hanner dy bechod ti, canys amlheaiſt dy ffieidd-dra yn fwy nâ hwynt, a chyfiawnheaiſt dy chwiorydd yn dy holl ffieidd-dra y rhai a wnaethoſt.

52 Dwg dithe dy wradwydd, (yr hon a fernaiſt ar dy chwaer) am dy bechod [yn] yr hwnn y buoſt ffieiddiach nâ hwynt: cyfiawnach ydynt nâ thi: cywilyddia dithe, a dwg dy wradwydd, gan gyfiawnhau o honot dy chwiorydd.

53 Pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt, ſef caethiwed Sodoma ai merched, a chaethiwed Samaria ai merched: yna y [dychwelaf] gaethiwed dy gaethion dithe, a'th ferched.

54 Fel y dygech dy warth, ac i'th wradwydder, am yr hyn oll a wnaethoſt, gan gyſſuro o honot hwynt.

55 Dy chwiorydd hefyd ai Sodoma, mer-

ched pan ddychwelant iw cynnefyn, a Samaria ai merched pan ddychwelant iw cynnefyn: yna tithe a'th ferched a ddychwelwch i'ch cynnefyn.

56 Canys nid oedd mo'r ſôn am Sodoma dy chwaer yn dy enau, yn nydd dy falchder.

2.Cron.28.19. 57 Cyn * dinoethi dy ddrygioni, megis [yn] amſer gwradwydd merched Syria, a holl ferched y Philiſtiaid oi hamgylch: y rhai a'th ddiyſtyrant di o bob-parth.

58 Dy ſcelerder, a'th ffieidd-dra hefyd, ti ai dygaiſt hwynt medd yr Arglwydd.

59 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, felly y gwnaf â thi fel y gwnaethoſt, yr hon a ddiyſtyraiſt lŵ, i ddiddymmu y cyfammod.

60 Etto mi a gofiaf fyng-hyfammod â thi, yn nyddiau dy ieuengtid, ac a ſiccrhaf it gyfammod tragywyddol.

61 Yna y coffei dy ffyrdd, ac y cywilyddi pan dderbynniech dy chwiorydd hŷn nâ thi, gyd a'r rhai ieuangach nâ thi: canys rhoddaf hwynt yn ferched it, a [hynny] nid o'th ammod di.

62 Ie ſiccrhaf fyng-hyfammod â thi, a chei ŵybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

63 Fel y cofiech di, ac y cywilyddi, ac na byddo it mwy agoryd ſafn gan dy wradwydd, pan wnelwyf iawn troſot am yr hyn oll a wnaethoſt medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XVII.

Dammeg y ddau eryr.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd,

2 Mâb dyn, dammega ddammeg, a dihareba ddihareb wrth dŷ Iſrael:

3 A dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, yr eryr mawr, mawr ei adenydd, hîr ei aſcell, llawn plû, yr hwn [y mae] ſymmudliw iddo a ddaeth i Libanus, ac a gymmerth frigin y cedr-wŷdden.

4 Torrodd frig ei blagur hi, ac ai dug i dir marchnadyddion, yn ninas marchnadyddion y goſododd ef.

2.Bren.24.17.
Iere.37.1. 5 A chymmerth * o hâd y tîr, ac ai rhodd mewn maes ffrwythlon: cymmerodd, a goſododd ef wrth ddyfroedd lawer, [fel] helygen.

6 Yna y tyfodd ac yr aeth yn win-wŷdden waſcaroc, iſſel o dŵf, ai changau yn troi atti: ai gwraidd oeddynt tani: felly yr aeth yn win-wŷdden, ac y dug geingciau, ac y bwriodd frîg.

7 Yr oedd hefyd ryw eryr mawr, aſcelloc, a phluoc, ac wele y win-wŷdden hon yn caſclu ei gwraidd atti, ac yn bwrw ei cheingciau tu ag atti: iw dwfrhau o rigolau ei phlanniad.

8 Mewn maes da wrth ddyfroedd lawer y plannaſid hi, i fwrw brîg, ac i ddwyn ffrwyth gan fod yn win-wŷdden ardderchoc.

9 Dywet, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, a lwydda hi? oni rwyga efe ei gwraidd hi? oni thyrr, ac oni ſych efe ei ffrwyth hi? ſychodd holl ddail ei brig, a [hynny] nid trwy fraich mawr, na thrwy bobl lawer, iw thynnu hi oi gwraidd.

10 Gan hynny wele hi wedi ei phlannau, a lwydda hi? gan wywo, oni wywa pan gyffyrddo gwynt y dwyrain â hi? yn rhigolau ei thŵf y gwywa.

21 Daeth hefyd gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

12 Dywet yr awr hon wrth y tŷ anufyddgar, oni ŵyddoch beth [yw] hynny? dywet, wele daeth brenin Babilon i Jeruſalem, ac efe a gymmerodd * ei brenin hi, ai thywyſogion, ac ai dûg hwynt atto ef i Babilon: 2.Bren.24.15.

13 Ac a gymmerodd o hâd y frenhiniaeth, ac a wnaeth ag ef gyfammod, ac ai dûg ef tann lw: cymmerodd hefyd gedyrn y wlâd,

14 Fel y byddei y deyrnas yn iſſel, heb ymdderchafu, i ſefyll o honi trwy gadw ei gyfammod ef.

15 Ond gwrthryfelodd iw erbyn gan anfon ei gennadau i'r Aipht, i geiſio iddo feirch, a phobl lawer: a lwydda, ac a ddiangc yr hwn a wnelo hynny? ac a ddiangc efe gan ddiddymmu o honaw ef gyfammod?

16 [Nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, onid yng-hartref y brenin yr hwn ai gwnaeth ef yn frenin, (yr hwn y diyſtyrodd efe ei lw, a'r hwn y diddymmodd efe ei gyfammod) y bydd efe marw yng-hanol Babilon gyd ag ef.

17 Ac ni wna Pharao [ddim] gyd ag ef mewn rhyfel, wrth godi clawdd, ac wrth adeiladu caſtell, i dorri ymmaith lawer enioes.

18 Gan ddiyſtyru o honaw lw, gan ddiddymmu y cyngrair (canys wele efe a roddaſe ei law) a gwneuthur o honaw hynny oll ni ddiangc.

19 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, [nid] byw fi onid fy llw mauſi yr hwn a ddiyſtyrodd efe, a'm cyfammod mauſi yr hwn a ddiddymmodd efe a roddaf ar ei benn ef.

20 Canys * tânaf fy rhwyd arno ef, fel y dalier ef yn fy rhwyd, a dygaf ef i Babilon, ac yna yr ymddadleuaf ag ef [am] ei gamwedd yr hwn a wnaeth i'm herbyn. Ezec.12.13. Ezec.32.3.

21 Ai holl ffoaduriaid oi holl luoedd a ſyrthiant ar y cleddyf, a'r lleill a waſcerir gyd â phob gwynt: fel y gŵypoch mai myfi'r Arglwydd ai lleferais.

22 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, etto mi a gymmeraf frig y cedr-wŷdden uchel, ac ai goſodaf: o frig ei blagur y torraf [un] tŷner, ac mi ai plannaf ar fynydd uchel, a mawr.

23 Ar uchel fynydd Iſrael y plannaf ef, fel y dygco frig, ac y gwnelo ffrwyth, ac y byddo yn cedr-wŷdden ardderchoc: yna pob aderyn a drigant tani hi, pob ehediad dan gyſcod ei cheingciau.

24 Fel y gwypo holl brennau'r maes, mai myfi'r Arglwydd a oſtyngais y prenn vchel, ac a dderchefais y prenn iſſel, a ſychais y prenn îr, ac a ireiddiais y prenn crin: myfi'r Arglwydd a leferais, ac a wneuthum.

## PEN. XVIII.

Pawb a fernir yn ôl ei weithredoedd ei hun. 21 Ac wrth ei ddydd diwedd.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

2 Pa ham gennych ddiharebu o honoch y ddihareb hon am dir Iſrael gan ddywedyd: * y tadau a fwyttaſant rawn-win ſurion, ac ar ddannedd y plant y mae dingcod.

Ier.31.29.

3 [Mal] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, os bydd i chwi mwy ddiharebu y ddihareb hon yn Iſrael.

4 Wele 'r holl eneidiau eiddo fi [ydynt] hwy, fel enaid y tâd felly enaid y mâb eiddo fi [ydynt] hwy: yr enaid a becho hwnnw a fydd marw.

5 Canys os bydd gŵr yn gyfiawn, ac yn gwneuthur barn, a chyfiawnder:

6 Heb fwytta ar y mynyddoedd, na chyfodi ei lygaid at eulynnod tŷ Iſrael, ac heb halogi gwraig ei gymmydog, na neſſau at * wraig fiſglwyfol:

Lefit.20.18.

7 Ac ni orthrymmia neb, gwyſtl y dyledwr a rydd yn ei ôl, ni threiſia drais, * ei fara a rydd i'r newynog, ac a ddillada y noeth:

Eſa.58.7.
Mat.25.35.

8 Ni rydd * ar vſuriaeth, ac ni chymmer y chwaneg, ei law a dynnodd yn ei hôl oddi wrth anwiredd, gwir farn a wna rhwng gŵr, a gŵr:

Exod.22.25.
Lefit.25.37.
Deut.23.19.
Pſal.15.5.

9 Yn fy neddfau y rhodia, a'm barnedigaethau a geidw gan wneuthur gwirionedd, y cyfiawn hwnnw gan fyw a fydd byw medd yr Arglwydd Dduw.

10 Os cenhedla efe fab yn lleidr, [ac] yn tywallt gwaed: ac a wna [ai] frawd yn erbyn vn o hyn:

11 Ac ni wna efe hyn oll, onid ar y mynyddoedd y bwytty, a gwraig ei gymmydog a haloga:

12 Yr anghenus a'r tlawd a orthrymma, trais a dreiſia, gwyſtl ni rydd trachefn: neu at eulynnod y cyfyd ei lygaid, gan wneuthur ffieidd-dra:

13 Ar vſuriaeth y rhydd, ac y chwaneg a gymmer, gan hynny a fydd efe byw? ni bydd byw: gwnaeth yr holl ffiaidd-dra hyn, gan farw y bydd farw, ei waed a fydd arno ei hun.

14 Ac wele cenhedlodd fâb, yntef a wêl bechodau ei dâd, ac a ofna, ac ni wna felly:

15 Ar y mynyddoedd ni fwytty, ai lygaid ni chyfyd at eulynnod tŷ Iſrael, ni haloga wraig ei gymmydog:

16 Ni orthrymma neb ychwaith, ni attal efe wyſtl, ac ni threiſia drais, ei fara a rydd i'r newynoc, a'r noeth a ddillada efe:

17 [Ni] thry ei law oddi wrth yr anghenoc, vſuriaeth, na llôg ni chymmer, fy marn a wna, yn fy neddfau y rhodia, hwnnw ni bydd farw am anwiredd ei dâd, gan fyw y bydd efe byw.

18. Ei dâd am gamattal attaliaeth, a threiſio trais, [oddi ar ei] frawd, a gwneuthur yr hyn nid oedd dda ym myſc ei bobl: am hynny wele ef yn marw yn ei anwiredd.

19 A chwi a ddywedwch, pa ham na ddwg y mab anwiredd y tâd? am wneuthur o'r mab farn, a chyfiawnder, fy holl ddeddfau a gadwodd, ac ai gwnaeth hwynt: gan fyw y bydd byw.

20 Yr * enaid a becho, hwnnw a fydd marw, y mab ni ddwg anwiredd y tâd, a'r tâd ni ddwg anwiredd y mâb: cyfiawnder y cyfiawn fydd arno: a drygioni y drygionus fydd arno yntef.

Deut.24.16.
2.Bren.14.6.
2.Cron.25.4.

21 Ond os yr annuwiol a ddychwel oddi wrth ei holl bechodau, y rhai a wnaeth, a chadw fy holl ddeddfau, a gwneuthur barn a chyfiawnder, efe gan fyw a fydd byw: ni bydd efe marw.

22 Ni chofféir iddo yr holl gamweddau y rhai a wnaeth, yn ei gyfiawnder yr hwn a wnaeth y bydd efe byw.

23 Gan ewyllyſio, a ewyllyſiwn i farw yr annuwiol, medd yr Arglwydd Dduw? neu yntef fyw o honaw trwy ddychwelyd oi ffyrdd?

24 A phan ddychwelo y cyfiawn oi gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a gwneuthur yn ôl yr holl ffieidd-dra a'r a wnelo 'r ânuwiol: a fydd efe byw? ni chofféir yr holl gyfiawnderau y rhai a wnaeth efe: yn ei gamwedd yr hwn a wnaeth, ac yn y pechod yr hwn a bechodd y bydd efe farw oi plegit.

25 A chwi a ddywedwch, nid cymmwys yw ffordd yr Arglwydd, gwrandewch yr awr hon tŷ Iſrael, onid yw gymmwys fy ffordd i? onid eich ffyrdd chwi nid ydynt gymmwys?

26 Pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd, a marw ynddynt, yn ei anwiredd ei hun yr hwn a wnaeth y bydd efe marw.

27 A phan ddychwelo yr annuwiol oddi wrth ei ddrygioni 'r hwn a wnaeth, a gwneuthur barn, a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid.

28 Pan welo a dychwelyd oddi wrth ei holl gamweddau y rhai a wnaeth, gan fyw, y bydd byw, ni bydd marw.

29 Etto tŷ Iſrael a ddywedant, nid cymmwys yw ffordd yr Arglwydd, tŷ Iſrael onid cymmwys fy ffyrdd mau fi? onid eich ffyrdd chwi nid ydynt gymmwys?

30 Am hynny barnaf chwi tŷ Iſrael bob vn yn ôl ei ffyrdd ei hun medd yr Arglwydd Dduw: dychwelwch a throiwch o'ch holl gamweddau, fel na byddo anwiredd yn dramgwydd i chwi.

31 Bwriwch oddi wrthych eich holl gamweddau y rhai y camweddaſoch ynddynt, a gwnewch iwch galon newydd, ac yſpryd newydd:

a pha ham tŷ Iſrael y byddwch feirw?

32 Canys ni bydd gwynfyd gennif ym marwolaeth y marw medd yr Arglwydd Dduw: dychwelwch gan hynny, a byddwch fyw.

## PEN. XIX.

Cenawon y llew yn arwyddocau caethiwed brenhinoedd Iuda. 10 Llwyddiant Ieruſalem o'r blaen, ai haflwyddiant yna.

CYmmer dithe alar-nâd am dywyſogion Iſrael,

2 A dywet, pa ham y gorweddodd dy fam yn llewes rhwng llewod? yng-hanol y llewod ieuaingc y maethodd hi ei chenawon,

3 Pan ddygodd hi i fynu un o'i chenawon, llew ieuangc oedd: dyſcaſe hefyd yſclyfaethu yſclyfaeth, [a] bwyttaſe ddynion.

4 Yna y cenhedloedd a glywſant am dano, daliwyd ef yn eu rhwyd hwynt, a dugaſant ef mewn cadwynau i dir yr Aipht.

5 Ac hi a welodd pan ddiſgwiliodd, ddarfod am ei gobaith, a hi a gymmerodd un [arall] oi chenawon, [ac] ai goſododd ef yn llew ieuangc.

6 Yntef a rodiodd ym myſc llewod, llew ieuangc ydoedd efe: dyſcodd hefyd ſclyfaethu ſclyfaeth, a bwyttâodd ddynion.

7 Adnabu hefyd eu gweddwon hwynt, ai dinaſoedd a anrheithiodd efe: ie anrheithiwyd y tîr, ai gyflawnder gan lais ei ruad.

8 Yna y cenhedloedd a ymoſodaſant yn ei erbyn ef o amgylch y talaithiau, ac a danâſant eu rhwyd arno ef: ac ai daliaſant ef yn eu ffôs,

9 A hwynt ai rhoddaſant ef mewn carchar, ac ai dugaſant mewn cadwyni at frenin Babilon: dugaſant ef i geſtyll, fel na chlywid ei lais ef mwy ar fynyddoedd Iſrael.

10 Dy fam [ſydd] fel gwinwydden wedi ei phlannu wrth ddyfroedd yn dy waed: ffrwythlon, a brigoc oedd wrth ddyfroedd lawer.

11 Ac yr oedd iddi wiail cryfion, yn deyrnwiail llywodraethwŷr, ai huchter [oedd] uchel hyd rhwng y tew-frîg: fel y gwelid hi yn ei huchter yn amlder ei changhennau.

12 Onid hi a dynnwyd mewn llidiawgrwydd: bwriwyd hi i'r llawr: a gwynt y dwyrain a wywodd ei ffrwyth hi, ei [changau] a yſigaſant, ac a wywaſant: am wialen ei chryfder, tân ai hyſodd.

13 Ac yr awr hon hi a blannwyd mewn anialwch, mewn tîr crâs, a ſychedic.

14 A thân a aeth allan o wialen ei changhennau, yſodd ei ffrwyth hi fel nad oedd ynddi wialen grêf, yn deyrn-wialen i lywodraethu. Alar-nad yw hynn: ac yn alar-nad y bydd.

## PEN. XX.

Yr Arglwydd yn gommedd gwrando y bobl am eu drygioni. 33 Er hynny y mae yn addo rhydd-did iw bobl. 46 Gweledigaeth am loſci coed yn arwyddocau lloſciad Ieruſalem.

YN y ſeithfed flwyddyn, o fewn y pummed [mis,] ar y decfed [dydd] o'r mis y daeth gwŷr o henuriaid Iſrael i ymgyngori â'r Arglwydd: ac eiſteddaſant o'm blaen i.

2 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

3 Ha fab dŷn, lleſara wrth henuriaid Iſrael a dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: ai i ymofyn â mi yr ydych chwi yn dyfod? [nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, os attebaf i chwi.

4 A ferni di hwynt? mab dŷn, a ferni di hwynt? gwna di iddynt wybod ffieidd-dra eu tadau:

5 A dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ar y dydd y dewiſais Iſrael, ac y tyngais wrth hâd tŷ Iacob, ac i'm hyſpyſſwyd iddynt yn nhîr yr Aipht: ac y tyngais wrthynt gan ddywedyd: myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi,

6 Yn y dydd hwnnw y tyngais wrthynt, ar eu dwyn hwynt allan o dîr yr Aipht, i wlad yr hon a ddarparaſwn iddynt yn llifeirio o laeth, a mêl: honno yw gogoniant yr holl diroedd.

7 A dywedais wrthynt, bwriwch ymmaith bob un ffieidd-dra ei lygaid, * ac nac ymhalogwch wrth eulynnod yr Aipht, myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

Exod.23.13.
Pſal.16.4.

8 Er hynny gwrthryfelaſant i'm herbyn, ac ni fynnent wrando arnaf, ni fwriaſant ymmaith ffieidd-dra eu llygaid bob un, ac ni adawſant eulynnod yr Aipht: yna y dywedais, tywalltwn arnynt fy llidiawgrwydd, gan orphen fy nig arnynt yng-hanol gwlad yr Aipht.

9 Etto gwneuthum [drugaredd] er mwyn fy enw, rhac eu halogi yng-olwg y cenhedloedd yr rhai yr [oeddynt] hwy yn eu myſc: yng-ŵydd pa rai yr yſpyſſais iddynt hwy, wrth eu dwyn hwynt allan o dîr yr Aipht.

10 Am hynny dygais hwynt o dir yr Aipht, ac arweiniais hwynt i'r anialwch.

11 A rhoddes iddynt fy neddfau, a'm barnedigaethau a yſpyſſais iddynt: * fel y bydde fyw ynddynt y dŷn yr hwn ai gwnae hwynt.

12 Felly y rhoddais iddynt hwy * fy Sabbothau, i fod yn arwydd rhyngofi â hwynt, i wybod mae myfi yw yr Arglwydd ai ſancteiddiodd hwynt.

Leſit.18.5.
Rom.10.5.
Gal.3.12.
Exod.20.8.
Exod.31.13.
Deut.5.12.

13 Er hynny tŷ Iſrael a wrthryfelaſant i'm herbyn yn yr anialwch, ni rodiaſant yn fy neddfau, onid diyſtyraſant fy marnedigaethau, (y rhai y bydd fyw ynddynt, y dŷn ai gwnelo hwynt) fy Sabbothau hefyd a halogaſant yn ddirfawr: fel yr amcenais dywallt fy llid arnynt yn yr anialwch iw difetha hwynt.

Num.14 28.
Num.26.65.

14 Etto gwneuthum [drugaredd] er mwyn fy enw, fel na halogyd ef yng-olwg y cenhedloedd, y rhai y dygais hwynt allan yn eu gŵydd.

15 Ac etto mi a dyngaſwn iddynt yn yr anialwch, na ddygwn hwynt i'r wlâd yr hon a roddais yn llifeirio o laeth, a mêl: honno [yw] gogoniant yr holl wledydd:

16 O herwydd fy marnedigaethau a ddiyſtyraſent,

styrasent, fy neddfau hefyd ni rodiasent ynddynt, a'm Sabbothau a halogasent: canys eu calon oedd yn myned ar ôl eu heulunnod.

17 Etto tosturiodd fy llygaid wrthynt rhag eu dinistrio, ac ni wneuthum drangc arnynt yn yr anialwch.

18 Ond mi a ddywedais wrth eu meibion hwynt yn yr anialwch, na rodiwch yn neddfau eich tadau, ac na chedwch eu barnedigaethau hwynt, nac ymhalogwch chwaith wrth eu heulynnod hwynt.

19 Myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi, rhodiwch yn fy neddfau, a chedwch fy marnedigaethau, a gwnewch hwynt.

20 Sancteiddiwch hefyd fy Sabbothau fel y byddant yn arwydd rhyngofi â chwithau, i wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd eich Duw chwi.

21 Y meibion hefyd a wrthryfelasant i'm herbyn, yn fy neddfau ni rodiasant, a'm barnedigaethau ni chadwasant ddim eu gwneuthur hwynt, (y rhai y bydd fyw ynddynt y dyn ai gwnelo hwynt) halogasant fy Sabbothau, fel yr amcenais dywallt fy llid arnynt gan orphen fy nig wrthynt yn yr anialwch.

22 Etto troais fy llaw, a gwneuthum drugaredd er mwyn fy enw, fel na halogid ef yng-olwg y cenhedloedd, y rhai y dygaswn hwynt allan yn eu gŵydd.

23 Etto mi a dyngaswn wrthynt yn yr anialwch, ar eu gwascaru hwynt ym mysc y cenhedloedd, ai taenu hwynt hyd y gwledydd.

24 O herwydd fy marnedigaethau ni wnaethent, a'm deddfau a ddiystyrasent, fy Sabbothau hefyd a halogasent, ai llygaid oeddynt ar ôl eulynnod eu tadau.

25 Minne hefyd a roddaswn iddynt ddeddfau nid oeddynt dda, a barnedigaethau ni byddent fyw ynddynt.

26 Ac halogaswn hwynt yn eu hoffrymmau, wrth ddwyn [trwy dân] bob cyntafanedic, fel y dinistriwn hwynt: megis y gwybyddent mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

27 Am hynny fab dŷn llefara wrth dŷ Israel, a dywet wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, hyd yn hyn i'm cablodd eich tadau, gan wneuthur o honynt gamwedd i'm herbyn.

28 Canys dygais hwynt i'r tir, yr hwn a dyngaswn ar ei roddi iddynt, a gwelsant bob bryn uchel, a phob pren brigoc, ac aberthasant yno eu hebyrth, ac yno y rhoddasant eu hoffrymmau digllonedd: yno hefyd y gosodasant eu harogl esmwyth, ac yno y tywalltasant eu diod offrwm.

29 Yna y dywedais wrthynt, beth [yw] yr uchelfa yr hon yr ydych chwi yn dyfod iddi? a Bamah y galwyd ei henw hyd y dydd hwn.

30 Am hynny dywet wrth dŷ Israel, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ai yn ffordd eich tadau yr ymhalogwch chwi? ac a butteiniwch chwi ar ôl eu ffieidd-dra hwynt?

31 Pan offrymmoch eich offrymmau, gan ddwyn eich meibion drwy'r tân yr ymhalogech chwi wrth eich holl eulynnod hyd heddyw: a attebaf fi i chwi, gan hynny tŷ Israel? [nid] byw fi medd yr Arglwydd os attebaf i chwi.

32 Eich amcan hefyd ni bydd, ddim [sef] yr hwn a ddywedwch, byddwn fel y cenhedloedd, wrth dylwythau y gwledydd i wasanaethu pren, a maen.

33 [Nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, onid â llaw gadarn, ac â braich estynnedic, ac â llidiawgrwydd tywalltedic y teyrnasaf arnoch.

34 A dygaf chwi allan o fysc y bobloedd, a chasclaf chwi o'r gwledydd y rhai i'ch gwascerais rhyd-ddynt â llaw gadarn, ac â braich estynnedic, ac mewn llidiawgrwydd tywalltedic.

35 Ac dygaf chwi i anialwch y bobloedd, ac ymddadleuaf â chwi yno wyneb yn wyneb.

36 Fel yr ymddadleuais â'ch tadau yn anialwch tir yr Aipht: felly yr ymddadleuaf â chwithau medd yr Arglwydd Dduw.

37 A gwnaf iwch fyned tan y wialen, fel y dygwyf chwi mewn rhwym y cyfammod.

38 A detholaf o honoch y rhai anufyddgar, a'r rhai anffyddlon i mi, dygaf hwynt o wlâd eu hymddaith, ac i wlad Israel ni ddeuant [hwy:] fel y gwypont mae myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

39 Chwithau tŷ Israel, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ewch a gwasanaethwch bob un ar ôl ei eulynnod, oni wrandewch arnafi: ond na halogwch yno mwy fy enw sanctaidd drwy eich offrymmau, a thrwy eich eulynnod.

40 Canys yn fy mynydd sanctaidd, yn uchel fynydd Israel medd yr Arglwydd Dduw, yno i'm gwasanaetha holl dŷ Israel ei gyd trwy yr wlad: yno y byddaf fodlon iddynt, ac yno yr ymofynnaf am eich offrymmau derchafel, a blaen-ffrwyth eich offrymmau, gyd a'ch holl sanctaidd bethau.

41 Byddaf fodlon i chwi mewn arogl esmwyth, pan ddygwyf chwi allan o blith y bobloedd, a'ch casclu chwi o'r tiroedd y rhai i'ch gwascerais chwi ar hyd-ddynt, ac ymsancteiddio o honof ynoch yng-olwg y cenhedloedd.

42 Yna y cewch wybod mai myfi ydwyf yr Arglwydd, pan ddygwyf chwi i dir Israel, i'r tir yr hwn y tyngais ar ei roddi i'ch tadau.

43 Ac yno y cofiewch eich ffyrdd, a'ch holl weithredoedd y rhai yr ymhalogasoch ynddynt, fel yr alaroch arnoch eich hun am yr holl ddrygioni y rhai a wnaethoch.

44 A chewch wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, pan wnelwyf [drugaredd] â chwi, er mwyn fy enw, nid yn ôl eich ffyrdd drygionus chwi, nac yn ôl eich gweithredoedd llygredic, ô tŷ Israel medd yr Arglwydd Dduw.

45 Daeth trachefn gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

46 Gosot dy wyneb fab dŷn, tua ffordd Themanah, ie difera [eiriau] tua yr deau, a

phrophwyda am goed y maes tua'r dehau.

47 A dywet wrth goed y dehau, gwrando air yr Arglwydd, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn cynneu ynot ti dân, ac efe a yſſa ynot ti bob pren ir, a phob pren ſych, ffagl y fflam ni ddiffydd ynddo, onid yr holl wynebau o'r dehau hyd y gogledd a loſcir ynddi.

48 A phob cnawd a welant, o herwydd mai myfi yr Arglwydd ai cynneuais, na's diffoddir.

49 Yna y dywedais, ô Arglwydd Dduw, y maent hwy yn dywedyd am danaf: onid dammegion y mae hwn yn eu hadrodd?

## PEN. XXI.

Cwymp Ieruſalem, ai brenin. 28 Diniſtr yr Ammoniaid, 30 A Nabuchodonoſor hefyd.

YNa y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd.

2 Goſot dy wyneb fab dyn tu ag Ieruſalem, a difera [eiriau] tua'r cyſſegroedd, a phrophwyda am wlad Iſrael.

3 A dywet wrth wlad Iſrael, fel hyn y dywed yr Arglwydd: wele fi i'th erbyn, tynnaf hefyd fyng-hleddyf oi wain, a thorraf o honot gyfiawn, ac anghyfiawn,

4 O herwydd hyn y torraf o honot gyfiawn ac anghyfiawn: am hynny y daw fyng-hleddyf allan oi wain yn erbyn pob cnawd o'r dehau hyd y gogledd.

5 A chaiff pob cnawd wybod, am i mi yr Arglwydd dynnu fyng-hleddyf allan oi wain na ddychwel efe mwy.

6 Ochain dithe fab dyn am yſictod [dy] lwyni, ie ochain di yn chwerw yn eu golwg hwynt.

7 A bydded pan ddywedant wrthit: am ba beth yr ydwyt yn ochein, yna dywedyd o honot, am y chwedl newydd, canys daw fel y toddo pob calon, ac y llaesio y dwylo oll, ac y pallo pob yſpryd, a'r gliniau oll a ânt yn ddwfr: wele efe yn dyfod, ac a fydd medd yr Arglwydd Dduw.

8 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

9 Prophwyda fab dyn a dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, dywet, cleddyf, cleddyf hogedic a gloiwedic hefyd.

10 Efe a hogwyd fel y lladde laddfa, gloiwyd fel y byddo iddo ddiſcleirdeb: a lawenychwn ni? y mae efe'n dirmygu gwialen fy mâb fel pob pren [arall.]

11 Canys efe ai rhodd yn loyw iw ddal mewn llaw, y cleddyf hwn a hogwyd, ac a loywwyd iw roddi yn llaw y lleiddiad.

12 Gwaedda ac uda fab dyn, canys hwn fydd yn erbyn fy mhobl i, hwn [fydd] yn erbyn holl dywyſogion Iſrael, ſyrthiedic ar gleddyf fyddant gyd a'm pobl: am hynny taro [law] ar forddwyd.

Iere.31.19.

13 Canys profedigaeth [fydd,] a pheth os ddiyſtyra efe y wialen? ni bydd efe mwy, medd yr Arglwydd Dduw.

14 Tithe fab dyn phrophwyda, a tharo law, wrth law, canys dyblir y cleddyf dair gwaith: cleddyf lladdedigion [yw] efe, cleddyf lladdedigaeth fawr, yn eu lladd hwynt yn eu ſtafelloedd.

15 Rhoddais fin cleddyf at eu holl byrth hwynt er mwyn toddi [pob] calon, ac amlhau y tramgwyddiadau, oh gwnaed ef yn ddiſclair, hogwyd ef i ladd.

16 Ymmaſcla, dos ar y llaw ddehau, ymoſot, dos ar y llaw aſſwy lle y pwyſo dy wyneb.

17 Minne hefyd a darawaf fy llaw yn y llall, ac a lonyddaf fy llid: myfi yr Arglwydd a leferais.

18 A daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

19 Tithe fab dyn goſot i ti ddwy ffordd, fel y delo cleddyf brenin Babilon, o untir y deuant ill dwy, a dewis le, yn mhen ffordd y ddinas y dewiſ [ef.]

20 Goſot ffordd i ddyfod o'r cleddyf tua Rabbath meibion Ammon, a thu ag Iuda yn erbyn Ieruſalem gaerog.

21 Canys ſafodd brenin Babilon ar groesffordd i ddewino dewiniaeth, gloywodd ei ſaethau, ymofynnodd â delwau, edrychodd mewn afu.

22 Yn ei law ddehau yr oedd dewiniaeth Ieruſalem, am oſod capteniaid i agoryd ſafn ymewn lladdedigaeth, i dderchafu llef mewn bloedd, i oſod offer rhyfel wrth byrth, i fwrw clawdd, i adeiladu caſtell.

23 A [hynn] fydd ganddynt, fel dewino dewiniaeth gwagedd yn eu golwg hwynt, y rhai a dyngaſant lwon iddynt: a hynn fydd yn coffau anwiredd iw dal [hwynt.]

24 Am hynny fel hynn y dywed yr Arglwydd Dduw, am beri o honoch goffau eich anwiredd, pan amlygodd eich camweddau wrth ymddangos o'ch holl bechodau yn eich holl weithredoedd: am beri o honoch [eich] coffau i'ch delir â llaw.

25 Tithe halogedic annuwiol dywyſog Iſrael yr hwn y daeth ei ddydd diwedd yn amſer anwiredd,

26 Fel hynn y dywed yr Arglwydd Dduw, ſymmut y meitr, a chyfot y goron, nid felly [y bydd] hon: cyfot y goſtyngedic, a gyſtwng yr uchel.

27 Yn wyrni, yn wyrni, yn wyrni y goſodaf hi, ac ni bydd hon hyd oni ddelo, yr hwn [y mae] cyfiawnder iddo, ai roddi o honof.

28 Prophwyda dithe fab dyn a dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw am feibion Ammō, ac am eu gwradwydd hwynt, dywet gan hynny, cleddyf, cleddyf ſydd noeth i ladd, gloyw o herwydd diſcleirdeb i ddifetha.

29 Wrth weled gwagedd iti, wrth ddewino it gelwydd, gan dy roddi yng-yddfau y lladdedigion drygionus y rhai y daeth eu dydd diwedd mewn amſer anwiredd.

30 Dychwel

30 A ddychwelaf fi [y cleddyf] i'w wain? yn y lle i'th greuwyd, yn nhir dy gynnefin i'th farnaf.

31 A thywalltaf fy nigllonedd arnat, a thân fy llidiawgrwydd a chwythaf arnat, a rhoddaf di yn llaw dynion poethion, ſeiri diniſtr.

32 I'r tân y byddi yn ymborth, dy waed fydd yng-hanol y tîr, ni'th goffeir, canys myfi yr Arglwydd ai dywedais.

## P E N. XXII.

Adrodd y mae amryw bechodau Ieruſalem, ai choſp.

GAir yr Arglwydd a ddaeth attaf trachefn gan ddywedyd:

2 Tithe fab dŷn a ferni di? a ferni ddinas y gwaed? a wnei di iddi wybod ei holl ffieidd-dra?

3 Dywet tithe, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, tywallt gwaed y mae yr ddinas yn ei chanol, i ddyfod oi hamſer, ac eulynnod a wnaeth hi oi hamgylch i ymhalogi.

4 Euog wyt o'th waed yr hwn a dywelltaiſt, a halogedig wrth dy eulynnod y rhai a wnaethoſt: felly y neſſeaiſt dy ddyddiau, a daethoſt hyd at dy flynyddoedd, am hynny i'th roddais yn warth i'r cenhedloedd, ac yn watwargerdd i'r holl wledydd.

5 Y rhai agos a'r rhai pell oddi wrthit a'th watwarant, yr halogedic o enw ac aml o gynnwrf.

6 Wele tywyſogion Iſrael oeddynt ynot bôb vn yn ei allu i dywallt gwaed.

7 Dirmygaſant ynot dâd, a mam, gwnaethant yn dwyllodrus a'r dieithr o'th fewn: gorthrymmaſant ynot yr ymddifad a'r weddw.

8 Dirmygaiſt fyng-hyſſegroedd, ac halogaiſt fy Sabbothau.

9 Athrod-wŷr oeddynt ynot, er mwyn tywallt gwaed, ar y mynyddoedd hefyd y bwyttaſant ynot ti: gwnaethant ſcelerder o'th fewn.

10 Ynot ti * y datcuddie [y mab] noethni y tâd: yr aflan o fiſ-glwyf a ddaroſtyngent ynot. Lefit.20.11.

11 Gwnae * ŵr hefyd ffieidd-dra â gwraig ei gymmydog, a gŵr a haloge ei waudd ei hun mewn ſcelerder: ie daroſtynge gŵr ynot ei chwaer ei hun [ſef] merch ei dâd. Iere.5.8.

12 Gwobr a gymmerent ynot am dywallt gwaed, cymmeraiſt uſuriaeth ac occraeth, ac elwaiſt ar dy gymmydogion trwy dwyll, ac anghofiaiſt fyfi, medd yr Arglwydd Dduw.

13 Am hynny wele tarewais fy llaw ar dy gybydd-dod yr hwn a wnaethoſt, ac am y gwaed yr hwn oedd o'th fewn.

14 A ſaif dy galon? a gryfhâ dy ddwylo yn y dyddiau y rhai y gwnelwyf [farn â thi?] myfi yr Arglwydd a leferais, ac a wnaf.

15 Canys gwaſgaraf di ym mysc y cenhedloedd, a thanaf di ar hŷd y gwledydd: a gwnaf i'th aflendid ddarfod o honot.

16 Ac ymhalogi ynot dy hun, yng-wydd y cenhedloedd, a chei wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

17 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

18 Ha fab dŷn, tŷ Iſrael ydynt gennif yn amhuredd, [aethant] hwy oll yn [amhuredd] prês, ac alcam, a haiarn, a phlwm yng-hanol y pair: amhuredd arian ydynt.

19 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am eich bôd chwi oll yn amhuredd, am hynny wele fi yn eich caſclu chwi i ganol Ieruſalem.

20 Fel caſclu arian, a phrês, a haiarn, a phlwm, ac alcam i ganol y ffwrn gan chwythu tân arnynt i'w toddi: felly yn fy llid, a'm dig, y caſclaf, y goſodaf, ac y toddaf chwi.

21 Ie caſclaf chwi, a chwythaf arnoch â thân fy llidiawgrwydd fel y todder chwi yn ei chanol hi.

22 Fel y toddir arian o fewn pair, felly y toddir chwi oi mewn hi: fel y gwypoch mai myfi yr Arglwydd a dywelltais fy llidiawgrwydd arnoch.

23 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

24 Dywet wrthi hi fab dŷn, ti ſydd dir heb ei buro, heb lawio arno yn nydd digter.

25 Cydfradwriaeth ei phrophwydi oi mewn [ſydd] fel llew rhuadwy yn ſclyfaethu ſclyfaeth, dynion a fwyttaſant, golud a thryſſor a gymmeraſant: ei gweddwon a amlhâſant oi mewn.

26 Ei hoffeiriaid a dreiſiaſant fyng-hyfraith, ac a halogaſant fyng-hyſſegroedd: ni wahanaſant rhwng cyſſegredic a halogedic, ac ni wnaethant wybod [rhagor] rhwng yr aflan, a'r glân: cuddiaſant hefyd eu llygaid oddi wrth fy Sabbothau, fel i'm halogwyd yn eu mysc hwynt.

27 Eu pennaethiaid oeddynt yn * ei chanol, fel bleiddiaid yn ſclyfaethu ſclyfaeth, gan dywallt gwaed, gan ddifetha eneidiau er elwa elw Mic.3.11. ſoph.3.

28 Ei phrophwydi hefyd a galchaſant iddynt ſalwedd, gan weled gwagedd, a dewino iddynt gelwydd, gan ddywedyd, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: a'r Arglwydd heb ddywedyd. Ezec.13.5.

29 Pobl y tîr a dwyllant dwyll, ac a dreiſiant drais, ac a orthrymmant y truan, a'r tlawd, y dieithr hefyd a dwyllant trwy anghyfiawnder.

30 Ceiſiais hefyd ŵr o honynt yn caeu cae, ac yn ſefyll ar yr adwy o'm blaen tros y wlâd, rhag ei diniſtrio, ac ni's cefais.

31 Am hynny y tywalltaf fy nigofaint arnynt, â thân fy llidiawgrwydd y difethaf hwynt, eu ffordd eu hun a roddaf ar eu pennau hwynt medd yr Arglwydd Dduw.

## P E N. XXIII.

Gau-dduwieth Samaria yr hon a elwir yma Aholah, ac Ieruſalem yr hon a elwir yma Aholibah: ai coſpedigaeth hwynt hefyd.

YNa y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Ha fab dŷn, dwy wraig oeddynt yn ferched i'r vn fam:

3 A phutteiniaſant yn yr Aipht, yn eu hieuengtid y putteiniaſant, yno y llethaſant eu

bronnau, ac yno yr yſſigaſant dethau eu morwyndod.

4 Ai henwau hwynt [oedd] Aholah yr hynaf, ac Aholibah ei chwaer; oeddynt hefyd eiddo fi, a phlantaſant feibion, a merched: ac [am] eu henwau, Samaria [oedd] Aholah, ac Jeruſalem [oedd] Aholibah.

5 Ac Aholah a butteiniodd pan oedd eiddo fi ac a ymorddercodd ai chariadau, [ſef] a'r cymmydogion yr Aſſyriaid:

6 Y rhai a wiſcaſid â ſidan glâs, yn ddugiaid, ac yn dywyſogion, o wŷr ieuaingc dymunol hwynt oll: yn farchogion yn marchogaeth meirch.

7 A hi a oſododd ei phutteindra arnynt hwy o ddewis meibion Aſſur oll, a chyd a'r rhai oll yr ymorddercodd, yr ymhalogodd wrth eu holl eulynnod.

8 Etto ni adawodd ei phutteindra [yr hwn a ddyſcaſe hi] gan yr Aiphtiaid: canys gorweddaſent gyd â hi yn eu hieuengtid, a hwynt a yſſigaſent dethau ei morwyndod: ac a dywalltaſent eu putteindra arni.

9 Am hynny y rhoddais hi yn llaw ei chariadau, [ſef] yn llaw meibion Aſſur y rhai yr ymorddercodd hi â hwynt.

10 Y rhai hynny a ddatcuddiaſant ei noethni hi, ac a gymmeraſant ei meibion, ai merched, ac ai lladdaſant hithe a'r cleddyf, fel yr oedd yn enwoc i wragedd, pan wnaethant farn arni.

11 Pan welodd ei chwaer Aholibah, hithe a lygrodd ei gordderchiad yn fwy na hi: ai phutteindra yn fwy na phutteindra ei chwaer.

12 Ymorddercodd â meibion Aſſur, y dugiaid a'r tywyſogion o gymmydogion wedi eu gwiſco yngwbl, yn farchogion yn marchogaeth meirch; yn wŷr ieuaingc dymunol hwynt oll.

13 Yna y gwelais ei halogi hi: [a bod] un ffordd ganddynt ill dwy.

14 Ond hi a chwanegodd ar ei phutteindra, ac a welodd wŷr wedi ei llunio ar y pared: [ſef] delwau y Caldeaid wedi eu llunio â fermilen,

15 Wedi eu gwregyſu â gwregys am eu lwynau hwynt, [a] gwaſcar-wiſc liwiedic am eu pennau (o ddrych tywyſogion hwynt oll, o ddull meibion Babilon yn Caldea, yn nhir eu genedigaeth)

16 Hi a ymorddercodd â hwynt pan eu gwelodd, ac a anfonodd gennadau attynt i Caldea.

17 A meibion Babilon a ddaethant atti i wely ſerchawgrwydd, ac ai halogaſant hi ai putteindra, a phan ymhalogodd wrthynt, llaeſodd ei meddwl oddi wrthynt.

18 Felly y datcuddiodd ei phutteindra, ac y datcuddiodd ei noethni: a llaeſodd fy meddwl oddi wrthi, fel y llaeſaſe fy meddwl oddi wrth ei chwaer hi.

19 Hi hefyd a chwanegodd ei phutteindra, gan goffa dyddiau ei hieuengtid [yn] y rhai y butteiniodd hi yn nhir yr Aipht,

20 Ac yr ymorddercodd ai gordderch-wŷr, y rhai [yr oedd] eu cnawd [fel] cnawd aſſynnod, ai diferlif [fel] ddiferlif meirch.

21 Felly y coffaiſt ſcelerder dy ieuengtid, pan yſſigodd dy dethau gan yr Aiphtiaid, am fronnau dy ieuengtid.

22 Am hynny Aholibah, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn cyffroi dy gariadau i'th erbyn y rhai y llaeſodd dy feddwl oddi wrthynt, ie dygaf hwynt i'th erbyn o amgylch,

23 Meibion Babilon, a'r holl Galdeaid, ſwyddogion, cyfoethogion, a chedyrn, holl feibion Aſſur gyd â hwynt, yn wŷr ieuaingc dymunol, yn ddugiaid, a thywyſogion: hwynt oll yn bennaethiaid ac yn enwoc, yn marchogeth meirch hawb oll.

24 A deuant i'th erbyn â menni, cerbydau, ac olwynion, ac â thyrfa o bobl, goſodant i'th erbyn oddi amgylch aſtalch, a tharian a helm: a rhoddaf oi blaen hwynt farnedigaeth, fel y barnant di ai barnedigaethau eu hun.

25 Canys rhoddaf fy llid arnat, fel yr yſſigant di mewn llidiawgrwydd, dy drwyn, a'th gluſtiau a dorrant, a'th gwyr ôl a ſyrth ar y cleddyf: hwynt a ddaliant dy feibion a'th ferched, a'th gwyr ôl a yſſir gan dân.

26 Dioſcant hefyd dy ddillad, a dygant dy ddodrefn hyfryd.

27 Felly y gwnaf i'th ſcelerder, a'th butteindra o dir yr Aipht beidio â thi: fel na chodech dy lygaid attynt, ac na chofiech yr Aiphtiaid mwy.

28 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn dy roddi yn llaw y rhai a gaſaodd [dy galon,] yn llaw y rhai y llaeſodd dy feddwl oddi wrthynt.

29 A gwnant â thi yn atcas, canys cymmerant dy holl lafur, a gadawant di yn llom, ac yn noeth: a datcuddir noethni dy butteindra: ie dy ſcelerder, a'th butteindra.

30 Mi a wnaf hynny i ti, am butteinio o honot ar ôl y cenhedloedd, am dy halogi gyd ai heulynnod hwynt:

31 Am rodio o honot yn ffordd dy chwaer, y rhoddaf inne ei chwppan hi yn dy law di.

32 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, dwfn, a helaeth gwppan dy chwaer a yfi, ti a fyddit i'th watwar, ac i'th ddirmygu o herwydd bôd llawer yngenni ynddo.

33 Ti a lenwir â meddwdod, ac â goſid: o gwppan diſtrywiad, ac anrhaith, [ſef] o gwppan dy chwaer Samaria.

34 Canys ti ai yfi, ac a ſugni o honaw, dryllii hefyd ei fliſc, a diwreiddi dy fronnau dy hun: canys myfi a lefarais, medd yr Arglwydd Dduw.

35 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: o herwydd fy anghofio o honot, a'm bwrw o honot tu ôl dy gefn: am hynny dwg dithe dy ſcelerder, a'th butteindra,

36 Dywedodd yr Arglwydd hefyd wrthif: a farni di fab dyn Aholah, ac Aholibah? ac a fy-

negi di iddynt eu ffieidd-dra:

Ezec.16.20.

37 Canys torraſant brîodas, a gwaed [ſydd] yn eu dwylo hwynt, îe gyd ai heulynnod y putteiniaſant, eu meibion hefyd y rhai a blantâſant i mi, a dynnaſant drwy [dân] iddynt * yn fwyd.

38 Gwnaethant hyn ychwaneg i'm herbyn, fyng-hyſſegr a aflanhaſant yn y dydd hwnnw a'm Sabbothau a halogaſant.

39 Canys pan laddaſant eu meibion i'w heulynnod, yna y daethant i'm cyſſegr yn y dydd hwnnw i'w halogi, ac wele fel hyn y gwnaethant o fewn fy nhŷ.

40 A pha feint fwy gan anfon o honynt at wŷr yn dyfod o bell, y rhai yr anfonwyd cennad attynt, ac wele daethant: er mwyn pa rai yr ymolchaiſt, y lliwiaiſt dy lygaid, ac yr ymherddaiſt â harddwch.

41 Eiſteddaiſt hefyd ar wely anrhydeddus a bord drefnus oi flaen, a goſodaiſt arno fy arogl-darth a'm holew,

42 A llais tyrfa heddychol wrthi, ac at wŷr lawer y dygwyd y Sabeaid o'r anialwch, a hwynt a roddaſant freichledau am eu dwylo hwynt, a choronau hyfrydwch am eu pennau hwynt.

43 Yna y dywedais, am yr hen ei phutteindra, bellach derfydd ei phutteindra, a hithe.

44 Etto daethant atti fel dyfod at butteinwraig, felly y daethant at Aholah, ac Aholibah gwragedd ſceler.

Ezec.16.38.

45 Am hynny y gwŷr cyfiawn hwythau ai barnant hwy â barnedigaeth * putteiniaid, ac â barnedigaeth rhai yn tywallt gwaed: canys putteinio y maent, a gwaed [ſydd] yn eu dwylo hwynt.

46 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, dygaf i fynu dyrfa yn eu herbyn hwynt, a rhoddaf hwynt yn gyffro, ac yn anrhaith.

47 A'r dyrfa ai llabyddiant hwynt â meini, ac ai torrant hwynt ai cleddyfau: eu meibion ai merched a laddant, ai tai a loſcant â thân.

48 Yna y gwnaf inne i ſcelerder beidio a'r wlâd, ac y dyſc yr holl wragedd na wnelant yn ôl eich ſcelerder chwi.

49 Pan roddant eich ſcelerder i'ch erbyn, a dwyn o honoch bechodau eich eulynnod, yna y cewch wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XXIIII.

Y crochan berwedic yn arwyddocau lloſciaid Ieruſalem. 16 Ammynedd Ezeciel am farwôlaeth ei wraig yn arwyddocau y rhyw fath adfyd i'r bobl: fel na alarent am eu meirw.

YN y nawfed flwyddyn, yn y decfed mis, ar y decfed [dydd] o'r mis y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd,

2 Scrifenna i ti henw y dydd hwn (fab dyn) ie corph y dydd hwn: neſſaodd brenin Babilon yn erbyn Ieruſalem o fewn corph y dydd hwn.

3 A dihareba ddihareb am y tŷ gwrthryfelgar, a dywet wrthynt: fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, goſot y crochan, goſot, a thywallt hefyd ddwfr ynddo.

4 Caſcl ei ddrylliau iddo, pob dryll têg, y morddwyd a'r yſcwyddoc, llanw [ef,] â dewis eſcyrn.

5 Cymmer ddewis o'r praidd, a chynneu yr eſcyrn tano, a berw ef yn ferwedic, ie berwed ei eſcyrn oi fewn.

6 Am hynny yr Arglwydd Dduw a ddywedodd fel hyn, gwae ddinas y gwaed, y crochan, yr hwn [y mae] ſcumm ynddo, ac nid aeth ei ſcumm allan o honaw, tynn ef allan bôb yn ddryll: na ſyrthied coel-bren arno.

7 O herwydd ei gwaed ſydd yn ei chanol, a'r grîb y graig y goſododd ef, ni's tywalltodd ar y ddaiar, i fwrw arno lwch.

8 I beri i lid godi, ac i wneuthur dial, rhoddais ei gwaed hi ar grîb craig, rhag ei guddio.

Nahu.3.1. habac.2.12.

9 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gwae ddinas y gwaed, minne a wnaf ei thân yn fawr.

10 Gan amlhau y coed, gan gynneu yr tân, gan ddifa y cîg, a choginiaethu coginiaeth, fel y lloſco yr eſcyrn.

11 A chan ei roddi i ſefyll ar ei farwar yn wâg fel y twymno, ac y lloſco ei brês, ac y toddo ei aflendid ynddo: ac y darfyddo ei ſcumm.

12 Blinodd â chelwyddau, ac nid aeth ei ſcumm lawer allan o honi; yn tân [y bwrir] ei ſcumm hi.

13 Yn dy aflendid [y mae] ſcelerder, o herwydd glanhau o honof di, ac nid wyt lân o'th aflendid: ni'th lanheuir mwy, hyd oni lonyddwyf fy llid wrthit.

14 Myfi yr Arglwydd a lleferais, daw, a gwnaf, ni pheidiaf, ac nid arbedaf, ac nid edifarhaf, yn ôl dy ffyrdd a'th weithredoedd y barnant di, medd yr Arglwydd Dduw.

15 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

16 Wele fab dyn fi yn cymmeryd oddi wrthit ddymuniant dy lygaid, mewn plâ, etto nac alara, ac nac wyla, ac na ddeued dy-ddagreu.

17 Taw a lleſain, na wna farw-nâd, rhwym dy gap am dy [ben] a goſot dy eſcidiau am dy-draed, ac na chae ar [dy] enau, na fwytta ychwaith fara dynion [yn alarus.]

18 Felly y lleferais wrth y bobl y boreu, a bu farw fyng-wraig yn yr hwyr, a gwneuthum drannoeth fel y gorchymynaſid i mi.

19 Yna y bobl a ddywedaſant wrthif fi, oni fynegi i ni beth [a arwyddocca] hynny i ni, gan it wneuthur [felly?]

20 Yna y dywedais wrthynt: gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd.

21 Dywet wrth dy Iſrael, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi yn halogi fyng-hyſſegr, rhagoriaeth eich nerth chwi, dymuniant eich llygaid chwi, ac annwyldra eich enaid:

eich meibion, a'ch merched, y rhai a adawſoch a ſyrthiant ar y cleddyf.

22 O nid fel y gwneuthum i y gwnewch, ni chaewch ar eich geneuau, ac ni fwyttewch fara nêb [yn alarus.]

23 [Byddwch] a'ch cappiau am eich pennau, a'ch eſcidiau am eich traed: ni alerwch, ac nid wylwch, onid yn eich anwiredd y toddwch: ac ymdoſturiwch bôb un wrth ei gilydd.

24 Felly y mae Ezeciel yn arwydd i chwi, yn ôl yr hyn oll a wnaeth efe y gwnewch pan ddelo hyn, fel y gŵyppoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd Dduw.

25 Tithe fab dŷn onid yn y dydd y cymmeraf oddi wrthynt [ſef] eu llawenydd hyfryd, dymuniant eu llygaid, ac annwyldra eu henaid, [ſef] eu meibion, ai merched,

26 Y dydd hwnnw y daw yr hwn a ddiango attat â chwedl newydd.

27 Yn y dydd hwnnw yr agorir dy ſafn wrth yr hwn a ddiango, llefari hefyd, ac ni byddi fûd mwy: felly y byddi iddynt yn arwydd, fel y gŵyppont, mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

## PEN. XXV.

Prophwydoliaeth yn erbyn yr Ammoniaid, 8 Y Moabiaid, 12 Yr Edomiaid, 15 A'r Philiſtiaid.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

2 Ha fab dŷn goſot dy wyneb at feibion Ammon: a phrophwyda yn eu herbyn hwynt,

3 A dywet wrth feibion Ammon, gwrandewch air yr Arglwydd Dduw, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: am ddywedyd o honot, haha, am fyng-hyſſegr pan halogwyd, ac am dîr Iſrael pan ddiniſtriwyd, ac am dŷ Iuda, pan aethant mewn caeth-glud:

4 Am hynny wele fi yn dy roddi di yn etifeddiaeth i feibion y dwyrain, fel y goſodant eu tŷrau ynot, ac y rhoddant eu pebyll o'th fewn, hwynt a yſſant dy ffrwyth, a hwynt a yfant dy laeth.

2.Sam.12.27. 5 Rhoddaf hefyd * Rabbah ym drigfa camelod: a meibion Ammon yn orweddfa defaid: fel y gŵyppoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

6 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, o herwydd curo o honot law, ac eſtyn o honot droed, a llawenychu o honot trwy holl diyſtyrwch dy galon yn erbyn tir Iſrael,

7 Am hynny wele mi a eſtynnaf fy llaw i'th erbyn fel i'th roddwyf yn fwyd i'r cenhedloedd, ac i'th dorrwyf o'r bobloedd, ac i'th ddifethwyf o'r tiroedd: diniſtriaf di fel y gŵyppech mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

8 Fel hynn y dywed yr Arglwydd Dduw, am ddywedyd o Moab a Seir, wele dŷ Iuda fel yr holl genhedloedd:

9 Am hynny wele fi yn agori yſtlys Moab o'r dinaſoedd, [ſef] oi ddinaſoedd ef, [y rhai ydynt] yn ei gwrr: gogoniant y tir, [ſef] Bethieſimoth, Baalmeon a Chiriathaim,

10 I feibion y dwyrain, yng-hyd â meibion Ammon, canys rhoddaf hithe yn etifeddiaeth: fel na choffeir meibion Ammon ym myſc y cenhedloedd.

11 Gwnaf farn hefyd ar Moab, fel y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

12 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am i Edom wneuthur yn erbyn tŷ Iuda, pan wnaeth ddial: (canys gwnaethant gamwedd mawr pan ddialaſant arnynt)

13 Am hynny medd yr Arglwydd Dduw, yr eſtynnaf inne fy llaw ar Edom, a thorraf o honi ddŷn, ac anifail: ſyrthiant ar gleddyf, fel y rhoddwyf hi yn anrhaith o Theman, hyd Dedanah.

14 A rhoddaf fy nial ar yr Edomiaid trwy law fy mhobl Iſrael, a hwynt a wnant ag Edom yn ôl fy nigllonedd a'm llîd: fel yr adwaenant fy nial medd yr Arglwydd Dduw.

15 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am wneuthur o'r Philiſtiaid trwy ddial, a dialu dial drwy ddiyſtyrwch calon, gan ddiniſtrio drwy elynniaeth tragywyddol:

16 Am hynny, fel hynn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn eſtyn fy llaw ar y Philiſtiaid, fel y torrwyf ymmaith y Cerethiaid, ac y difethwyf weddill porthladd y môr.

17 Yna y gwnaf arnynt ddial mawr, trwy gerydd llidioc, fel y gwyppont mai myfi ydwyf yr Arglwydd, pan roddwyf fy nial arnynt.

## PEN. XXVI.

Diniſtr Tyrus.

AC yn yr unfed flwyddyn ar ddéc, ar [y dydd] cyntaf o'r mîs, y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd.

2 Ha fab dŷn o herwydd yr hyn a ddywedodd Tyrus am Ieruſalem, eho, torrwyd porth y bobloedd, troir attafi, fo'm llenwir, anrhaithiedic yw hi.

3 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi i'th erbyn ô Tyrus, a chodaf genhedloedd lawer i'th erbyn, fel y cyfode y môr ai donnau.

4 Yna y llygrant gaerydd Tyrus, ai thŷrau a ddiniſtriant, minne a grafaf ei llwch o honi, ac ai rhoddaf yn grîb craig.

5 Yn eſtynfa rhwydau y bydd yng-hanol y môr, canys myfi a lefarodd [hyn] medd yr Arglwydd Dduw: ie hi a fydd yn yſpail i'r cenhedloedd.

6 Ei merched hefyd y rhai [ydynt] yn y maes a leddir a'r cleddyf: fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

7 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn dwyn at Tyrus o'r gogledd Nabuchodonoſor brenin Babilon brenin y brenhinoedd, â meirch, ac â cherbydau, ac â marchogion, a thyrfa, a phobl lawer.

8 Dy ferched a ladd efe yn y maes a'r cleddyf, ac a eſyd gaſtell i'th erbyn, ac a fwrw glawdd o'th amgylch, ac a gyfyd darian i'th erbyn.

9 Ac efe a eſyd beiriannau rhyfel wrth dy geurydd, a'th dyrau a ddinistria efe â'i gleddyfau.

10 Gan liaws ei feirch eu llwch a'th doant, [dy] geurydd a grynant gan ſŵn y marchogion, a'r olwynion, a'r cerbydau pan ddelo i mewn i'th byrth, fel [yr eir] i mewn i ddinas rwygedic.

11 A charnau ei feirch y ſathr efe dy heolydd oll, dy bobl a ladd efe a'r cleddyf, a'th ſefyllfannau cedyrn a ddeſcynnant i'r ddaiar.

12 Yna'r anrheithiant dy gyfoeth, ac yr yſpeiliant dy farchnadaeth, ac y dinistriant dy geurydd, a'th dai dymunol a ddistrywiant: ie dy gerrig, a'th goed, a'th bridd a oſodant yng-hanol y dyfroedd.

Ier.7.34.

13 Felly y gwnaf i ſŵn dy ganiadau beidio, ac ni chlywir mwy lais dy delynau.

14 A rhoddaf di yn graig lefn, ellynfa rhwydau fyddi, ni'th adeiledir mwy: canys myfi yr Arglwydd a leferais [hyn,] medd yr Arglwydd Dduw.

15 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw am Dyrus, onid gan dwrw dy gwymp, pan waeddo'r archolledic, pan lader lladdfa yn dy ganol y crynna yr ynyſoedd?

16 A holl dywyſogion y môr a ddeſcynnant o'i gorſedd-feingciau, ac a fwriant ymaith eu mantellau, ac a ddioſcant eu gwiſcoedd ſymmud-liw, dychryn a wiſcant, ar y ddaiar yr eiſteddant, ac a ddychrynant ar [bob] moment, ac a ryfeddant wrthit.

17 Codant hefyd alar-nad am danat, a dywedant wrthit: pa fodd i'th ddifethwyd yr hon a breſwylit o'r môr, y ddinas ganmoladwy yr hon ſydd grêf o'r môr, hi a'i thrigolion: y rhai a roddaſant eu harſwyd ar ei holl breſwylwyr hi:

18 Yr awr hon yr ynyſoedd a ddychrynant [yn] nydd dy gwymp, a'r ynyſoedd y rhai ydynt yn y môr a ddychrynant gan dy fynediad allan.

19 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, pan roddwyf di yn ddinas anrhaithiedic, fel y dinaſoedd y rhai ni's cyfanneddir, pan ddygwyf arnat ddyfnder fel i'th guddio dyfroedd lawer,

20 A'th ddeſcyn o honof gyd â'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll, at y bobl gynt, a'th oſod yn y tir iſſaf, fel yr hên anrhaith gyd â'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll, fel na'th breſwylier: a rhoddi o honof ogoniant yn nhir y rhai byw,

21 Rhoddaf di yn ddychryn fel na [byddech,] yna i'th geiſir, ac ni'th geir mwy medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XXVII.

Pa ddinistr fydde i Tyrus, a pha ogoniant oedd iddo o'r blaen.

GAir yr Arglwydd a ddaeth attaf trachefn gan ddywedyd:

2 Tithe fab dyn cyfod alar-nad am Tyrus,

3 A dywet wrth Tyrus yr hon ſydd yn trigo wrth ddorthfeudd y môr, marchnadyddes y bobloedd mewn ynyſoedd lawer, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Tyrus ti a ddywedaiſt, myfi ydwyf berffaith o degwch,

4 Dy derfynau [ydynt] yng-halon y môr, dy adeilad-wŷr a berffeithiaſant dy degwch.

5 Yr adeiladaſant dy holl yſtyllod o ffynnid-wŷdd allan o Senir, cymmeraſant cedr-wŷdd o Libanus i wneuthur hwyl-bren ynot.

6 Gwnaethaſant rwyfau o dderw o Baſan: gwnaethant dy feingciau [o] Ifori pur o ynyſoedd Cittim.

7 Lliain main o'r Aipht a ſymmud-liw oedd yr hwn a ledit yn hwyl it: ſidan glâs, a phorphor o ynyſoedd Eliſa oedd dy do.

8 Trigolion Sidon, ac Arfad oeddynt dy rwyf-wŷr: dy ddoethion di Tyrus oeddynt o'th fewn, hwynt [oeddynt] dy lywodraeth-wŷr.

9 Henuriaid Gebal, a'i doethion oeddynt ynot yn cadarnhau dy * rwygiadau, holl longau y môr, a'i llong-wŷr oeddynt ynot i yn marchnatta dy farchnad.

1 Bren.5.18.

10 Y Perſiaid, a'r Lydiaid, a'r Phutiaid oeddynt dy ryfelwŷr yn dy luoedd: tarian a helm a grogaſant ynot, hwynt a roddaſant it harddwch.

11 Meibion Arfad oeddynt gyd â'th luoedd ar dy gaerau oddi amgylch, a'r Gammadiaid, ar dy dyrau: crogaſant eu tariannau ar dy gaerau oddi amgylch, hwynt a berffeithiaſant dy degwch.

12 Tharſis [ydoedd] dy farchnadyddes o amlder pob golud, am arian, haiarn, alcam, a phlwm y marchnattaſant [yn] dy ffeiriau.

13 Iafan, Tubal, a Meſech hwyntau [oeddynt] dy farchnadyddion, marchnattaſant [yn] dy farchnad am ddynion, a llestri prês.

14 [Y rhai] o dŷ Togarmah, a farchnattaſant [yn] dy ffeiriau feirch a marchogion a mûlod.

15 Meibion Dedan dy farchnadwŷr [ac] ynyſoedd lawer [am] farchnadoedd dy law a dalaſant gyrn, Ifori, ac Hebenus yn werth it.

19 Aram [oedd] dy farchnadudd, o amlder dy weithredoedd, am Garbuncl, porphor, a gwaith, edef a nodwydd, a lliain mein-lin, a chwrel, a gemmau y marchanattaſant [yn] dy ffeiriau.

17 Iuda, a thir Iſrael, hwythau [oeddynt] dy farchnadyddion: marchnattaſant [yn] dy farchnat, am wenith Minith, a Phanag, a mêl, ac olew, a thriagl.

18 Damaſcus oedd dy farchnadudd, am amlder dy waith o liaws pob golud, am win Helbon, a gwlân gwynn.

19 Dan hefyd, ac Iafan yn cyrhwydro yn dy farchnadoedd, a farchnattaſant am haiarn wedi ei weithio: yr oedd yn dy farchnad y Caſſia, a'r Calamus.

20 Dedan oedd dy farchnadudd mewn gwiſcoedd gwerth-fawr am gerbydau.

21 Yr Arabiaid, a holl dywyſogion Cedar [oeddynt] hwythau farchnadyddion dy law, am ŵyn, hyrddod, a bŷchod, o'r rhai hynny [yr oedd] dy farchnadyddion.

22 Marchnadyddion Seba, a Raema, hwythau [oeddynt] dy farchnadyddion: marchnataſant [yn] dy ffeiriau, am bob pryſ bêr-arogl-au, ac am bob maen gwerth-fawr, ac aur.

23 Haran, a Channe, ac Eden, marchnadyddion Seba, a Syria, a Chelmad [oeddynt] yn marchnatta [â] thi.

24 Dyimma dy farchnadyddion, am bethau perffaith, am wiſcoedd o ſidan glâs, a gwaith edef a nodwydd, ac am giſtiau gwiſcoedd gwerth-fawr, wedi eu rhwymo â rhaffau, ai gweithio â chedr-wŷdd yng-hylch dy farchnadaeth.

25 Llongau Tharſis oeddynt bennaf yn dy farchnad, felly i'th lanwyd, ac y trymheaiſt yn odiaeth yng-hanol y môr.

26 Y rhai a'th rwyfâſant, a'th ddugaſant i ddyfroedd lawer: gwynt y dwyrain a'th ddrylliodd yng-hanol y môr.

27 Dy olud, a'th ffeiriau, dy farchnadaeth, dy for-wŷr, a'th feiſtred llongau, cadarnhawŷr dy rwygiadau, a marchnadwŷr dy farchnad, a'th ryfel-wŷr oll, y rhai [ydynt] ynot, a'th holl gynnulleidfa, yr hon [ſydd] yn dy ganol di, a ſyrthiant yng-hanol y môr ar ddydd dy gwymp di.

28 Wrth lêf gwaedd dy feiſtred llongau, y tonnau a gyffroant.

29 Yna pob rhwyf-wr, y mor-wŷr, holl lywyddion y moroedd a ddeſcynnant oi llongau, [ac] ar y tir y ſafant.

30 Llefant hefyd am danat, a gwaeddant yn chwerw, a chodant lŵch ar eu pennau, ac ymlutrodant mewn lludw.

31 Moelant hefyd foelni am danat, ac ymwregyſant â ſach-liain, ŵylant hefyd am danat chwerw alar mewn chwerw feddwl.

32 A chodant am danat ti alar-nad yn eu cwynfan, a galarant am danat [gan ddywedyd:] pwy [oedd] fel Tyrus, fel yr hon a dorrwyd yng-hanol y môr?

33 Pan ddele dy ffeiriau o'r moroedd, diwallaiſt bobloedd lawer: ag amlder dy olud, a'th farchnadoedd y cyfoethogaiſt frenhinoedd y ddaiar.

34 Y pryd i'th dorrwyd gan y môr i ddyfnderau y dyfroedd, dy farchnad, a'th holl gynnulleidfa a ſyrthiaſant yn dy ganol.

35 Holl breſſwyl-wŷr yr ynyſoedd, a ryfeddaſant am danat, ai brenhinoedd a ddychrynaſant ddychryn: [ac] a grynaſant wynebau.

36 Y marchnadyddion ym myſc y bobloedd a chwibanaſant am danat, dychryn ydwyt: canys ni [byddi] bŷth.

## PEN. XXVIII.

Prophwydoliaeth yn erbyn Tyrus, ai brenin. 20 Ac yn erbyn Sidon. 25 Duw yn addo ail gaſclu'r Iſraeliaid.

Wedi hynny y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Ha fab dŷn dywed wrth dywyſog Tyrus, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: am ſalchio dy galon, a dywedyd, Duw [ydwyf] fi, ymaſwylio 'r ydwyf eiſteddfa Duw yng-hanol y môr, a thi yn ddŷn, ac nid yn Dduw, er rhoddi o honot dy galon fel calon Duw.

3 Wele dydi yn ddoethach nâ Daniel, ni chuddir dim dirgelwch oddi wrthit.

4 Trwy dy ddoethineb, a'th ddeallgarwch y darperaiſt gyfoeth i ti, ie y darperaiſt aur, ac arian yn dy dryſſorau.

5 O amlder dy ddoethineb yn dy farchnadaeth yr amlheaiſt dy gyfoeth, a'th galon a falchiodd o herwydd dy gyfoeth. Jer.7.34.

6 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, am oſod o honot dy galon fel calon Duw:

7 O herwydd hynny wele fi yn dwyn i'th erbyn gedyrn ddieithriaid y cenhedloedd, a thynnant eu cleddyfau ar degwch dy ddoethineb: ac halogant dy loiwder.

8 Deſcynnant di i'r ffôs, a byddi farw yng-hanol y môr, o farwolaeth [un] archolledic.

9 Gan ddywedyd a ddywedi o flaen dy leiddiad, Duw [ydwyf] fi, a thi yn ddŷn, ac nid yn Dduw yn llaw dy archollydd?

10 Byddi farw o farwolaeth y dienwaededic, yn llaw dieithriaid, canys myfi a'i dywedais, medd yr Arglwydd Dduw.

11 Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf trachefn gan ddywedyd:

12 Cyfod fab dŷn, alar-nâd am frenin Tyrus, a dywet wrtho ef, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ti ſeliwr nifer, llawn o ddoethineb, a chyflawn o degwch:

13 O fewn Eden gardd Duw 'r oeddit, pob maen gwerth-fawr a'th orchguddie di: Sardius, Tophas, ac Adamant, Turcas, Onix, ac Jaſpis: Saphir, Rubi, Smaragdus hefyd, ac aur: gwaith dy dympanau, a'th bibellau, a baratoiwyd ar y dydd i'th greuwyd.

14 Cerub eneiniog [oeddit] ti yn gorchguddio, felly i'th roddaſwn: oeddit yn ſanctaidd fynydd Duw: ymrodiit yng-hanol cerric tanllyd.

15 Perffaith [oeddit] ti yn dy ffyrdd, er y dydd i'th greuwyd hyd oni chaed ynot anwiredd.

16 Yn amlder dy farchnadaeth y llanwaſant dy ganol â thraiſ, fel y pechaiſt: am hynny i'th archollaf o fynydd Duw, ac i'th ddifethaf di Gerub yn gorchguddio, o ganol y cerric tanllyd.

17 Balchiodd dy galon yn dy degwch, llygraiſt dy ddoethineb o herwydd dy loiwder: bwriais di i'r llawr, o flaen brenhinoedd i'th oſodais i graffu arnat.

18 O amlder dy anwiredd, y llygraiſt dy gyſſegr ag anwiredd dy farchnadaeth: am hynny y dygais dân allan o'th ganol, hwnnw a'th yſſodd: a rhoddais di yn lludw ar y ddaiar, yng-

olwg pawb a'r a'th welant.

19 Y rhai a'th adwaenent oll ym myſc y cenhedloedd a ryfeddant wrthit: dychryn fuoſt ond ni [pharhei] di hyd byth.

20 Yna gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

21 Goſot fab dyn dy wyneb yn erbyn Sidon: a phrophwyda am deni.

22 A dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: wele fi i'th erbyn Sidon, fel i'm gogonedder yn dy ganol, ac y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd: pan wnelwyf ynot farnedigaethau, ac ymſancteiddio o honof ynot.

23 Canys anfonaf arni haint, a gwaed i'w heolydd: fel y barner yr archolledic o'i mewn a'r cleddyf [yr hwn fydd] yn ei herbyn oddi amgylch: a chânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

24 Ac ni bydd mwy i dŷ Iſrael [un] o'r holl rai a'i dirmygant o'i hamgylch, yn ſyddaden bigog, nac yn ddraenen oſidus, fel y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

25 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, pan gasclwyf dŷ Iſrael o fysc y bobloedd, y rhai y gwascarwyd hwy yn eu plith, ac yr ymſancteiddiwyf ynddynt yng-olwg y cenhedloedd: yna y trigant yn eu gwlâd eu hun, yr hon a roddais i'm gwâs Iacob.

26 Ie trigant ynddi yn ddiogel, ac adeiladant dai, a phlannant winllannoedd, a phreſwyliant mewn diogelwch: pan wnelwyf farnedigaethau â'r rhai oll a'i dirmygant hwy o'i hamgylch, fel y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu Duw hwynt.

## PEN. XXIX.

Prophwydoliaeth yn [erbyn] yr Aipht. 13 Amſer ei hymwared hi. 20 Nabuchodonoſor yn cael yr Aipht yn wobr am ei waith yn coſpi Tyrus.

Iere.27.1 Yn y * decfed [mis] o'r ddecfed flwyddyn, ar y deuddecfed [dydd] o'r mis, y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Goſot fab dyn dy wyneb yn erbyn Pharao brenin yr Aipht, a phrophwyda yn ei erbyn ef, ac yn erbyn yr Aipht oll.

3 Llefara, a dywet, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi i'th erbyn Pharao brenin yr Aipht, y * morfil mawr, yr hwn sydd yn gorwedd yng-hanol ei afonydd, yr hwn a ddywedodd, eiddo fi fy afon, canys mi [a'i] gwneuthum i mi. Esa.51.9.

4 Eithr goſodaf fachau yn dy fochgernau, a gwnaf i byſcod dy afonydd lynu yn dy emmau, a chodaf di o ganol dy afonydd, a holl byſc dy afonydd a lynant yn dy emmau.

5 A gadawaf di yn yr anialwch, ti a holl byſcod dy afonydd, syrthi ar wyneb y maes, ni'th gesclir, ac ni'th gynhullir: i fwyſt-filod y maes, ac i ehediaid y nefoedd i'th roddais yn ymborth.

6 Yna holl drigolion yr Aipht a gânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd: am eu bod hwynt * yn ffon gorſen i dŷ Iſrael. 2.Bren.18.21. Esa.36.6.

7 Pan ymaflant ynot â llaw, drylli di, a rhwygi iddynt hwy bob yſcwydd: a phan bwyſant arnat, torri, er ſiccrhau o honot iddynt [dy] holl nerth.

8 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi yn dwyn arnat gleddyf, a thorraf ymmaith o honot ddŷn, ac anifail.

9 Yna y bydd tir yr Aipht yn ddiffaith, ac yn anrhaith, a chânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd: am ddywedyd, eiddo fi yr afon, a myfi a'i gwneuthum.

10 Am hynny wele fi attat, ac at dy afonydd, a goſodaf dir yr Aipht yn ddiffaethwch anrhaithiedic [ac] yn ang-hyfannedd, o dŵr Syene hyd yn nherfyn Ethiopia.

11 Ni chynniwer troed dŷn trwyddi, ac ni chynniwer troed anifail trwyddi, ac ni's cyfanneddir ddeugain mlynedd.

12 Canys rhoddaf dir yr Aipht yn ang-hyfannedd yng-hanol tiroedd ang-hyfannedd, a'i dinaſoedd fyddant yn ang-hyfannedd ddeugain mlynedd yng-hanol dinaſoedd anrhaithiedic: pan wascarwyf yr Aiphtiaid yn mysc y cenhedloedd, a phan wasgarwyf hwynt ar hyd y gwledydd.

13 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, * ym mhen deugain mlynedd y casclaf yr Aiphtiaid o fysc y bobloedd, y rhai y gwascarwyd hwynt yno. Iere.46.26.

14 A dychwelaf gaethiwed yr Aipht, ie dychwelaf hwynt i dir Pathros, i dir eu preſwylfa: ac yno y byddant yn frenhiniaeth iſſel.

15 Iſſaf fydd o'r brenhiniaethau, ac nid ymddyrchyf mwy ar y cenhedloedd, canys lleihâf hwynt rhag arglwyddiaethu ar y cenhedloedd.

16 Ac ni bydd hi mwy i dŷ Iſrael yn ddiogelwch yn coffau anwiredd, pan edrychant hwy ar eu hôl hwythau: eithr cânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd Dduw.

17 Yn y [mis] cyntaf, o'r seithfed flwyddyn ar hugain, ar y [dydd] cyntaf o'r mis y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

18 Ha fab dŷn, Nabuchodonoſor brenin Babilon a gynnullodd ei lu mewn gwaſanaeth mawr yn erbyn Tyrus: pob pen a foelwyd, a phob yſcwydd a ddinoethwyd, ond nid oedd gan Dyrus gyflog iddo ef, ac i'w lu, am y gwaſanaeth yr hwn a waſanaethodd efe yn ei herbyn hi.

19 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi yn rhoddi tir yr Aipht i Nabuchodonoſor brenin Babilō, ac efe a gymmer ei gweryn hi, ac a yſpeilia ei hyſpail hi, ac a yſclyfaetha ei yſclyfaeth hi, fel y byddo yn gyflog i'w lû.

20 [Am] ei waith yr hwn a waſanaethodd efe ynddi, y rhoddais iddo dir yr Aipht, o herwydd i mi y gweithiaſant medd yr Arglwydd Dduw.

21 Yn y dydd hwnnw y gwnaf i gorn tŷ Iſrael flaguro, a rhoddaf i tithe hyſder ymadrodd:

fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

### PEN. XXX.

Galarnad am ddiniſtr yr Aipht a'i dinaſoedd.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

2 Prophwyda fab dŷn a dywet, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: udwch ôch rhac heddyw.

3 Canys agos dydd, ie agos dydd yr Arglwydd: dydd cwmmwloc, amſer y cenhedloedd fydd efe.

4 A'r cleddyf a ddaw i'r Aipht, a bydd gofid yn Ethiopia, pan ſyrthio yr archolledic yn yr Aipht, a chymmeryd o honynt ei gweryn hi, a diſtrywio ei ſeiliau.

5 Ethiopia, a Libia, a Lidia, a'i gweryn oll, Chub hefyd, a meibion tir y cyfammod a ſyrthiant gyd â hwynt ar y cleddyf.

6 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, attegion yr Aipht a ſyrthiant hefyd: a balchder ei nerth hi a ddeſcyn: ſyrthiant ynddi ar y cleddyf o dwr Seſeneh, medd yr Arglwydd Dduw.

7 A hwynt a wneir yn anghyfannedd ym mhlith gwledydd anghyfanneddol, a'i dinaſoedd fyddant yng-hanol dinaſoedd anrhaithiedic.

8 A chânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, pan roddwyf dân yn yr Aipht, ac y torrer eu holl gymmorth hwynt.

9 A'r dydd hwnnw cennadau a ânt allan o'm blaen mewn llongau i ddychrynu Ethiopia ddiofal, yna y bydd gofid arnynt fel [yn] nydd yr Aipht: canys wele efe yn dyfod.

10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, yna y gwnaf i weryn yr Aipht ddarfod trwy law Nabuchodonoſor brenin Babilon.

11 Efe a'i bobl gyd ag ef, [ſef] cedyrn y cenhedloedd a ddugwyd i ddifetha'r tîr: am hynny y tynnaſant eu cleddyfau ar yr Aipht, a llanwaſant y wlâd â chelanedd.

12 Rhoddaf hefyd yr afonydd yn ſychder, a gwerthaf y wlâd i law rhai drygionus, ie diniſtriaf y wlad a'i chyflawnder trwy law dieithriaid: myfi'r Arglwydd [a'i] dywedodd.

13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, yna y difethaf y delwau, a gwnaf i'r eulynnod ddarfod o Noph, ac ni bydd tywyſog mwyach o dir yr Aipht: eithr ofn a roddaf ar dîr yr Aipht.

14 Pathros hefyd a ddiniſtriaf, a rhoddaf dân yn Zoan: a gwnaf farnedigaethau yn No.

15 A thywalltaf fy llid ar Sin, cryfder yr Aipht: ac mi a dorraf ymmaith weryn No.

16 Pan roddwyf dân yn yr Aipht, gan ofidio y gofidia Sin, a No fydd i'w rhwygo, felly Noph [gan] elynnion beunyddol.

17 Gwŷr ieuaingc Afen, a Phibeſeth a ſyrthiant ar y cleddyf, ac wele mewn caethiwed yr ânt hwythau.

18 Ac ar Tehaphnehes y tywylla y diwrnod, pan dorrwyf yno droſſolion yr Aipht: a balchder ei chryfder a dderfydd ynddi: cwmwl a'i cuddia hi, a'i merched a ânt mewn caethiwed.

19 Felly y gwnaf farnedigaethau ar yr Aipht, fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

20 Ac yn y [mîs] cyntaf o'r unfed flwyddyn ar ddêc, ar y ſeithfed [dydd] o'r mîs, y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

21 Ha fâb dŷn, dylliais fraich Pharao brenin yr Aipht: ac wele ni's rhwymir, i roddi meddiginiaethau [wrtho,] gan oſod rhwymynnau i'w rhwymo, er ei gryfhau i ymaflyd mewn cleddyf.

22 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn erbyn Pharao brenin yr Aipht, ac mi a dorraf ei freichiau ef, yr hwn oedd gryf, ac y ſydd ddrylliedic, a gwnaf i'r cleddyf ſyrthio o'i law ef.

23 Yna y gwaſcaraf yr Aiphtiaid ymmyſc y cenhedloedd, ac mi a'i tânaf hwynt ar hyd y gwledydd.

24 Ac mi a gadarnhaf freichiau brenin Babilon, a rhoddaf fyng-hleddyf yn ei law ef: a thorraf freichiau Pharao, fel y llefo â llef un archolledic o'i flaen ef.

25 Ie cadarnhaf freichiau brenin Babilon, a breichiau Pharao a ſyrthiant, fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, wedi i mi roddi fyng-hleddyf yn llaw brenin Babilon, ac iddo yntef ei eſtyn ef ar wlâd yr Aipht.

26 Felly y gwaſcaraf yr Aiphtiaid ymmyſc y cenhedloedd, ac y tânaf hwynt ar hyd y gwledydd: fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

### PEN. XXXI.

Y mae yn dangos mai cyffelyb lwyddiant fuaſe: ac mai cyffelyb ddiniſtr fydde i'r Aſſyriaid ac i'r Aiphtiaid.

AC yn y trydydd [mîs] o'r unfed flwyddyn ar ddêc, ar y [dydd] cyntaf o'r mis y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Dywet fab dŷn wrth Pharao brenin yr Aipht, ac wrth ei weryn, i bwy yr ydwyt tebyg yn dy fawredd?

3 Wele Aſſur yn gedr-wŷdden yn Libanus yn dêg ei cheingciau, a'i brig yn cyſcodi, ac yn uchel ei huchter, a'i brigin oedd rhwng y tewfrig.

4 Dyfroedd a'i maethaſe hi, y dyfnder a'i derchafaſe, gan fyned a'i hafonydd o amgylch ei phlanfa, hwyliodd hefyd ei ffrydau at holl goed y maes:

5 Am hynny yr ymddyrchafodd ei huchder hi goruwch holl goed y maes, a'i cheingciau a amlhauſant, a'i changhennau a ymeſtynnaſant o ddyfroedd lawer pan [illegible] hi [hwynt.]

6 Holl ehediaid y nefoedd a nythent yn ei cheingciau hi, a holl fwyſt-filod y maes a lydnent dan ei changhennau hi, ie yr holl genhedloedd lluoſog a eiſteddent yn ei chyſcod hi.

7 Felly têg ydoedd hi yn ei mawredd [ac] yn hŷd ei brig, o herwydd ei gwraidd ydoedd wrth ddyfroedd lawer,

8 Y cedr-wŷdd yng-ardd Duw ni allent ei chuddio hi, y ffynnid-wŷdd nid oeddynt debyg iw cheingciau hi, a'r ffawydd nid oeddynt fel ei changhennau hi, pren yng-ardd yr Arglwydd nid ydoedd debyg iddi hi yn ei thegwch.

9 Gwnaethwn hi yn dêg gan liaws ei changhennau, a holl goed Eden y rhai oeddynt yng-ardd Duw a genfigennaſant wrthi hi.

10 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, o herwydd ymdderchafu o honot mewn uchter, a rhoddi o honi ei blaguryn hŷd y tew-frig, ac ymdderchafu ei chalō yn eu huchder:

11 Am hynny y rhoddais hi yn llaw cadarn y cenhedloedd, gan wneuthur y gwna efe [ddiniſtr] iddi, am ei drygioni y gwthiais hi allā.

12 Ie cedyrn ddieithriaid y cenhedloedd ai torrant hi ymmaith, ac ai gadawant hi ar y mynyddoedd, ei brig hefyd a ſyrthiant yn yr holl ddyffrynnoedd, ai changhennau a dorrant yn holl geu-nentydd y ddaiar: a holl bobloedd y tîr a ddeſcynnant oi chyſcod hi, ac ai gadawant hi.

13 Holl ehediaid y nefoedd a drigant ar ei bôn hi, a holl fwyſt-filod y maes fyddant wrth ei changhennau hi.

14 Fel nad ymdderchafo holl goed y dyfroedd yn eu huchter, ac na roddant eu brigin hŷd rhwng y tew-frig, ac na ſafo 'r holl [goed] dyfradwy: canys rhoddaf hwynt oll i farwolaeth yn y tîr iſſod, yng-hanol meibion dynion, gyd a'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

15 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, yn y dydd y deſcynnodd hi i uffern, gwneuthum alaru, toais y dyfnder [â galar] am dani hi: canys atteliais ei hafonydd, fel yr attaliwyd dyfroedd lawer: gwneuthum i Libanus alaru am dani hi, ac [yr ydoedd ar] holl goed y maes ddeſſygio am dani hi.

16 Gan ſŵn ei chwymp hi y cyffroais y cenhedloedd, pan wneuthum iddi ddeſcyn i uffern gyd a'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll: a holl goed Eden [ſef] dewis a gorau Libanus yn ddyfradwy oll a ymgyſſurant yn y tîr iſſod.

17 Hwythau hefyd gyd â hi a ddeſcynnant i uffern at laddedigion cleddyf, ſef ei braich hi [y rhai] a drigaſant tann ei chyſcod hi yng-hanol y cenhedloedd.

18 I bwy felly o goed Eden yr oeddit tebyg mewn gogoniant, a mawredd? ti a ddeſcynnir gyd â choed Eden i'r tîr iſſod: gorweddi yng-hanol y rhai *dienwaededic gyd â lladdedigion cleddyf, dymma Pharao ai holl liaws, medd yr Arglwydd Duw.

Ezec.28.10.

## PEN. XXXII.

Galar-nad y prohwyd am ddifetha Pharao. 11 Pwy ai difethe ef.

AC yn y deuddecfed mis o'r ddeuddecfed flwyddyn, ar y [dydd] cyntaf o'r mis y daeth gair yr Arglwydd attaf: gan ddywedyd,

2 Ha fab dŷn cyfot alar-nad am Pharao brenin yr Aipht, a dywet wrtho: tebygaiſt i lew y cenhedloedd, ac yr [ydwyt] ti fel morfarch yn y moroedd: canys dygaiſt allan dy afonydd, cythryblaiſt hefyd y dyfroedd a'th draed, a methraiſt eu hafonydd hwynt.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw* minnau a daenaf fy rhwyd arnat mewn cynnulleidfa pobloedd lawer: fel i'th godant yn fy rhwyd mau fi.

Ezec.12.13.

4 Gadawaf di hefyd ar y tir, paraf dy daflu ar wyneb y maes, a gwnaf i holl ehediaid y nefoedd drigo arnat ti: ie o honot ti y diwallaf fwyſt-filod yr holl dîr.

5 Rhoddaf hefyd dy gîg ar y mynyddoed, a llanwaf y dyffrynnoedd a'th uchder di.

6 Mwydaf hefyd dy dir llaith a'th waed hŷd y mynyddoedd, fel y llanwer yr afonydd o honot.

7 Ie cuddiaf y nefoedd *wrth dy ddiffoddi, a thywyllaf ei ſêr hwynt, yr haul a guddiaf â chwmwl, a'r lleuad ni wna iw goleuni oleuo.

Eſa.13.10.
Ioel.2.31.
Mat.24.29.

8 Tywyllaf arnat holl lewyrch goleuni yn y nefoedd: a rhoddaf dywyllwch ar dy dîr medd yr Arglwydd Duw.

9 A digiaf galon pobloedd lawer, pan ddygwyf dy ddiniſtr ym myſc y cenhedloedd i diroedd y rhai nid adwaenoſt.

10 A gwnaf i bobloedd lawer ryfeddu wrthit, ai brenhinoedd a ofnant yn fawr o'th blegit, pan wnelwyf i'm cleddyf ddiſcleirio yn erbyn eu hwynebau hwynt, îe dychrynant yn ddiſymmwth bob un am ei enioes yn nydd dy gwymp.

11 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, cleddyf brenin Babilon a ddaw arnat.

12 A chleddyfau y rhai cedyrn y cwympaf dy werin, [byddant] hwy oll yn gedyrn y cenhedloedd, a hwy a ddiniſtriant falchder yr Aipht: fel yr anrheithier ei holl werin hi.

13 Difethaf hefyd ei holl anifeiliaid hi oddi wrth ddyfroedd lawer, fel na ſathro troed dŷn hwynt mwy, ac na ſathro carnau anifeiliaid hwynt.

14 Yna y ſoddaf eu dyfroedd hwynt, ai hafonydd a yrraf fel olew, medd yr Arglwydd Duw.

15 Pan roddwyf dîr yr Aipht yn anrhaith, ac anrheithio 'r wlad oi llawnder, pan darawyf y rhai oll a breſſwyliant ynddi, yna y cânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

16 Dymma alar-nad, galerwch chwithau [am dani] hi, merched y cenhedloedd a alarant [am dani] hi: galarant [am dani] hi [ſef] am yr Aipht, ac am ei gwerin oll, medd yr Arglwydd Duw.

17 Ac yn y ddeuddecfed flwyddyn, ar y pymthecfed [dydd] o'r mis y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd,

18 Cwyna fab dŷn am werin yr Aipht, a deſcynn hi, hi a merched y cenhedloedd godidog i'r tîr iſſaf, gyd a'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

19 O bwy 'r oeddit hyfryd? deſcynn a gorwedd

wedd gyd a'r rhai dienwaededic.

20 Syrthiaſant yng-hanol y rhai a laddwyd [a'r] cleddyf: i'r cleddyf y rhoddwyd hi: luſcwch hi ai gweryn oll.

21 Llefared y rhai cryfiawn cedyrn wrthi hi, [ac] wrth ei chynnorthwy-wŷr o ganol uffern: [y rhai] a ddeſcynnaſant, [ac] a orweddaſant gyd a'r rhai dienwaededic a laddwyd â chleddyf.

22 Yno [llefared] Aſſyria ai holl gynnulleidfa ai beddau oi hamgylch hi, y rhai hynny oll a laddwyd, [ac] a ſyrthiaſant drwy gleddyf.

23 Yr hon y rhoddwyd ei beddau yn yſtlyſſau y pwll, ai chynnulleidfa ydoedd o amgylch ei bedd hi, y rhai hynny oll a laddwyd, [ac] a ſyrthiaſant drwy gleddyf: y rhai a roddaſent eu harſwyd yn nhîr y rhai byw.

24 Yno [llefared] Elam, ai holl weryn o amgylch ei bedd, y rhai hynny oll a laddwyd, [ac] a ſyrthiaſant drwy gleddyf, a ddeſcynnaſant yn ddienwaededic i'r tîr iſſod, y rhai a roddaſent eu harſwyd yn nhir y rhai byw: ac a ddugaſant eu gwradwydd gyd a'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

25 Yng-hanol y rhai lladdedic y goſodaſant iddi orweddfa ym myſc ei holl weryn, ai beddau oi hamgylch: y rhai hynny oll yn ddienwaededic a laddwyd â chleddyf, am roddi eu harſwyd yn nhîr y rhai byw: a dwyn o honynt eu gwradwydd gyd a'r rhai a ddeſcynnent i'r pwll, yng-hanol y lladdedigion y rhoddwyd [hwynt.]

26 Yno [llefared] Meſech, a Thubal ai holl weryn ai beddau oi hamgylch, y rhai hynny oll yn ddienwaededic a laddwyd â chleddyf: am roddi o honynt eu harſwyd yn nhir y rhai byw.

27 Ac ni orweddant gyd a'r cedyrn a ſyrthiaſant o'r rhai dienwaededic, y rhai a ddeſcynnaſant i uffern mewn arfau rhyfel, a rhoddaſant eu cleddyfau tann eu pennau: eithr eu hanwiredd fydd ar eu heſcyrn hwy, am [fod] arſwyd [eu] cedyrn yn nhîr y rhai byw.

28 A thithe a ddryllir ym myſc y rhai dienwaededic, ac a orweddi gyd a'r rhai a laddwyd â chleddyf.

29 Yno [llefared] Edom ai brenhinoedd, ai holl dywyſogion y rhai a roddwyd yn eu cadernid gyd â'r rhai a lladwyd â chleddyf: hwynt a orweddant gyd a'r rhai dienwaededic, a chyd â'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

30 Yno [llefared] holl dywyſogion y gogledd, a'r holl Sidoniaid y rhai yn eu hofn a ddeſcynnaſant gyd a'r lladdedigion: gan gywilyddio am eu cadernid: gorweddant hefyd yn ddienwaededic gyd a'r rhai a laddwyd â chleddyf, ac a ddygant eu gwradwydd eu hun gyd a'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

31 Pharao ai gwêl hwynt, ac a ymgyſſura yn ei holl weryn: lladdedigion cleddyf [fydd] Pharao ai holl wŷr medd yr Arglwydd Dduw.

32 Canys rhoddais fy ofn yn nhir y rhai byw, fel y gwnaethbwyd iddo orwedd yng-hanol y rhai dienwaededic gyd â lladdedigion cleddyf [ſef] i Pharao ac iw holl weryn, medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XXXIII.

Yn erbyn yſceuluſtra gwenidogion gair Duw, a rhyfyg y bobl. 10 Addewidion cyſſurus yn erbyn annobaith. 23 A bygwth yn erbyn yr anedifeiriol.

A Daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Llefara fab dŷn wrth feibion dy bobl, a dywet wrthynt: pan ddygwyf gleddyf ar wlâd, a chymmeryd o bobl y wlâd ryw ŵr oi myſc, ai roddi ef yn wiliedudd arnynt,

3 Os gwel efe gleddyf yn dyfod ar y wlâd, ac udcanu mewn udcorn, a rhybuddio y bobl,

4 A'r hwn a glyw lais yr udcorn, ac ni ochel, eithr dyfod o'r cleddyf ai ddal ef, ei waed fydd ar ei benn ei hun.

5 [Yr hwn] a glybu lais yr udcorn, ac ni ochelodd, bydded ei waed arno ei hun: a'r hwn a ochelo a waredodd ei enaid.

6 Ond pan welo y gwiliedudd y cleddyf yn dyfod, ac ni udcana mewn udcorn, a'r bobl heb ochelyd, eithr dyfod o'r cleddyf a dal un o honynt, hwnnw a ddelir yn ei anwiredd, ond mi a ofynnaf ei waed ef o law y gwiliedudd.

7 Tithe fab dyn yn wiliedudd i'th roddais i dŷ Iſrael, fel y clywech air o'm genau, ac y rhybuddiech hwynt oddi wrthiffi.

8 Pan ddywedwyf wrth yr annuwiol, [ti] annuwiol gan farw a fyddi farw: oni leferi i rybuddio yr annuwiol oi ffordd: yr annuwiol hwn a fydd marw yn ei anwiredd, ond o'th law di y gofynnaf ei waed ef.

9 A phan rybuddiech di yr annuwiol oi ffordd i ddychwelyd o honi, os efe ni ddychwel oi ffordd, hwnnw fydd marw yn ei anwiredd, a thithe a ryddheuaiſt dy enaid.

10 Llefara hefyd wrth dŷ Iſrael ti fab dŷn, fel hyn gan ddywedyd y dywedwch, am [fod] ein anwireddau, a'n pechodau i'n herbyn a ninne yn toddi ynddynt, pa fodd weithian y byddwn ni byw?

Ezec.18.23.

11 Dywet wrthynt, [nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw * os ymhoffaf mewn marwolaeth yr annuwiol, onid a'r droi o'r annuwiol oddi wrth ei ffordd ei hun a byw: dychwelwch, dychwelwch oddi wrth eich ffyrdd drygionus: canys (tŷ Iſrael) pa ham y byddwch feirw?

12 Dywet ti hefyd fab dŷn wrth feibion dy bobl: cyfiawnder y cyfiawn ni's gwared ef yn nydd ei anwiredd: felly am annuwioldeb yr annuwiol ni thramgwydda efe oi herwydd yn y dydd y dychwelo oi anwiredd: ni ddichon y cyfiawn ychwaith fyw oi blegit yn y dydd y pecho.

13 Pan ddywedwyf wrth y cyfiawn gan fyw y caiff fyw: os efe a hydera ar ei gyfiawnder, ac a wna anwiredd, ei holl gyfiawnderau ni chofir, onid yn ei anwiredd yr hwn a wnaeth, [ie] yn hwnnw y bydd efe farw.

14 A phan ddywedwyf wrth yr annuwiol, gan farw y byddi farw: os dychwel oddi wrth ei bechod, a gwneuthur barn, a chyfiawnder,

15 [Os] yr annuwiol a ddadrydd ŵyſtl, ac a dâl yr hyn a ddreiſiodd, a rhodio yn neddfau y bywyd heb wneuthur anwiredd: gan fyw y bydd efe byw, marw ni bydd efe.

16 Ni choffeir iddo yr holl bechodau y rhai a bechodd, barn, a chyfiawnder a wnaeth efe gan fyw y bydd efe byw.

Ezec.18.25.

17 A meibion dy bobl a ddywedant, ni bydd iniawn *ffordd yr Arglwydd, eithr eu ffordd hwynt ni bydd iniawn.

18 Pan ddychwelo y cyfiawn oddi wrth ei gyfiawnder, a gwneuthur anwiredd: yna y bydd farw ynddynt.

19 A phan ddychwelo'r annuwiol oddi wrth ei annuwioldeb, a gwneuthur barn, a chyfiawnder, yn y rhai hynny y bydd hwnnw byw.

20 Lle y dywedaſoch nad iniawn ſydd ffordd yr Arglwydd barnaf chwi tŷ Iſrael bob vn yn ôl ei ffyrdd ei hun.

21 Ac yn y decfed [mis] o'r ddeuddecfed flwyddyn o'n caethgludiad ni, ar y pummed [dydd] o'r mis y daeth vn a'r a ddiangaſe o Jeruſalem attaf fi gan ddywedyd, diniſtriwyd y ddinas.

22 A llaw 'r Arglwydd fuaſe arnaf yn yr hŵyr cyn dyfod y diangudd, ac a agorodd fy ſafn ni's ei ddyfod attaf y boreu: ie agorodd fy ſafn, ac ni thewais i mwyach.

23 Yna y daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

24 Ha fab dŷn, preſſwyl-wŷr y diffaethwch hyn yn nhir Iſrael ydynt yn llefaru gan ddywedyd: Abraham oedd vn, ac a feddiannodd y tir: ninnau [ydym] lawer, i ni y rhoddwyd y tir mewn meddiant.

25 Am hynny dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, chwi a ymborthwch ar waed, a dercheſwch eich llygaid at eich gau dduwiau, tywelltwch waed hefyd: ac a feddiannwch chwi y tîr?

26 Safaſoch ar eich cleddyfau, gwnaethoch ffiaidd-dra, halogaſoch hefyd bob vn wraig ei gymydog: ac a feddiannwch chwi y tîr?

27 Felly y dywedi wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, [nid] byw fi onid drwy y cleddyf y ſyrth y rhai [ydynt] yn y diffaethwch, a'r hwn [ſydd] a'r wyneb y maes, i'r bwyſt-fil y rhoddaf ef iw fwytta: a'r rhai [ydynt] mewn ceurydd, ac mewn ogofeudd a fyddant feirw o haint.

Ezec.7.24.
Ezec.24.21.

28 Rhoddaf hefyd y tîr yn anrhaith, [ie] yn anrhaith, fel y peidio * balchder ei nerth ef, ac yr anrheithir mynyddoedd Iſrael [i fod] heb gynniwerudd.

29 A chânt wybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, pan roddwyf y tir yn anrhaith, ie yn anrhaith am eu holl ffiedd-dra hwynt y rhai a wnaethant.

30 Tithe fab dŷn, meibion dy bobl ydynt yn dywedyd i'th erbyn wrth parwydydd, ac o fewn dryſſau y tai, canys ymddiddan y naill wrth y llall, pob vn wrth ei gilydd gan ddywedyd: deuwch yr awr hon, a gwrandewch beth [yw]'r gair yr hwn a ddaeth oddi wrth yr Arglwydd.

31 Deuant hefyd attat fel y daw pobl [eraill] ac eiſteddant o'th flaen [fel] fy mhobl mau fi, gwrandawant hefyd dy eiriau, ond ni's gwnant hwy: canys âi geneuau y gwnant hwy watwor-gerdd, ai calon hwy ſydd yn myned ar ôl eu cybydd-dod hwy eu hun.

32 Wele di hefyd iddynt fel cân gwatwor-gerdd vn hyfryd-lais, ac yn canu yn dda, canys gwrandawant dy eiriau, ond ni's gwnant hwy.

33 A phan ddelo hyn (wele ef yn dyfod) yna y cânt wybod mai prophwyd fu yn eu myſc hwynt.

## PEN. XXXIIII.

Prophwydoliaeth yn erbyn bûgeiliaid Iſrael: am yſceulyſſo praidd Criſt, a dilyn eu hêlw eu hun.

A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

2 Prophwyda fab dyn yn erbyn bugeiliaid Iſrael: prophwyda, a dywet wrthynt [ſef] wrth y bugeiliaid: fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gwae fugeiliaid Iſrael y rhai ydynt yn eu porthi eu hunain: oni phortha y bugeiliaid y praidd?

3 Y braſder a fwyttewch, a'r gwlân a wiſcwch, y brâs a leddwch, [ac] ni phorthwch y praidd.

4 Ni chryfhauſoch y rhai llesc, ac ni feddiginiaethaſoch y gwann, ni rwymaſoch y drylliedic ychwaith, a'r cyfeiliornus ni ddugaſoch adref: y colledic hefyd ni cheiſiaſoch, eithr llywodraethaſoch hwynt mewn caledi, a chreulondeb.

5 Am hynny y gwaſcarwyd hwynt o eiſieu bugail, ac y buant yn ymborth i holl fwyſt-filod y maes pan waſcarwyd hwynt.

6 Fy mhraidd a gyrwydraſant ar hŷd yr holl fynyddoedd, ac ar bob bryn vchel: ie gwaſcarwyd fy mhraidd ar hŷd holl wyneb y ddaiar, ac nid oedd [ai] gofynne, nac [ai] ceiſie.

7 Am hynny fugeiliaid, gwrandewch air yr Arglwydd.

8 [Nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, onid am fod fy mhraidd yn yſpail, a bod fy mhraidd yn ymborth i holl fwyſt-filod y maes o eiſieu bugail (canys fy mugeiliaid ni cheiſiaſant fy mhraidd, eithr y bugeiliaid ai porthaſant eu hun, ac ni phorthaſant fy mhraidd mau fi)

9 Am hynny o fugeiliaid gwrandewch air yr Arglwydd,

10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi at y bugeiliaid, a gofynnaf fy mhraidd oi dwylo hwynt, a gwnaf iddynt beidio a phorthi y praidd: ie y bugeiliaid ni phorthant eu hun mwy, eithr gwaredaf fy mhraidd oi ſafn hwy, fel na byddant yn ymborth iddynt.

11 Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd

Dduw, wele myfi, ie myfi a ymofynnaf fy mhraidd, ac ai ceiſiaf hwynt.

12 Fel y cais bugail ei fintai ar y dydd y byddo ym myſc ei braidd gwaſcaredic, felly y ceiſiaf fy mhraidd, ac y gwareda[illegible]wynt o bob lle yr hwn y gwaſcarer hwynt iddo ar ddydd cwmyloc a niwloc.

13 A dygaf hwynt allan o fyſc y bobloedd, a chaſclaf hwynt o'r tiroedd, dygaf hwynt iw tir eu hun, a phorthaf hwynt ym mynyddoedd Iſrael, yn y cymmau, ac yn holl drigleoedd y wlâd.

14 Mewn porfa dda y porthaf hwynt, ac yn vchel fynyddoedd Iſrael y bydd eu porfa hwynt: yno y gorweddant mewn porfa dda, îe mewn porfa frâs y porant ar hŷd mynyddoedd Iſrael.

15 Myfi a borthaf fy mhraidd, a myfi ai gorweddfâf hwynt medd yr Arglwydd Dduw.

16 Y colledic a geiſiaf: a'r tarfedic a ddychwelaf, a'r briwedic a rwymaf, a'r llesc a gryfhaf: eithr diniſtriaf y brâs a'r cryf, mewn barn y porthaf hwynt.

17 Chwithau fy mhraidd fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi yn barnu rhwng milin a milin, [ſef] rhwng yr hyrddod a'r bychod.

18 Ai bychan gennych bori o honoch y borfa dda, a ſathru dan eich traed y rhan arall o'ch porfa? ac yfed o honoch y dyfroedd tra yr oeddynt ddyfnion, a mathru o honoch y rhan arall a'ch traed?

19 Felly y pôrodd fy mhraidd ſathrfa eich traed: a mathrfa eich traed a yfaſant.

20 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrthynt hwy, wele minne a farnaf hefyd rhwng milin brâs, a milin cûl.

21 O herwydd gwthio o honoch ag yſtlys, ac ag yſcwydd, a chornio o honoch a'ch cyrn y rhai llesc oll hyd oni waſcaraſoch hwynt allan:

22 Am hynny y gwnaf iechydwriaeth i'm praidd, fel na byddant mwy yn yſpail, a barnaf rhwng milin a milin.

23 Cyfodaf hefyd vn bugail arnynt, ac efe ai portha hwynt, ſef fyngwâs* Dafydd, efe ai portha hwynt, ac efe a fydd yn fugail iddynt. Iere.30.9. Oſe.3.5.

24 A minnef yr Arglwydd a fyddaf yn Dduw iddynt, a'm gwâs Dafydd yn dywyſog yn eu myſc: myfi yr Arglwydd a leferais [hyn.]

25 Gwnaf hefyd â hwynt gyfammod heddwch, a gwnaf i'r bwyſt-fil drwg beidio o'r tîr, fel y trigant mewn anialwch, ac y cyſcant mewn coedydd yn ddiogel.

26 Hwynt hefyd, ac amgylchoedd fy mrynn a roddaf yn fendith, a gwnaf i'r glaw ddeſcyn yn ei amſer: glaw bendithiol fydd.

27 Yna y rhydd pren y maes ei ffrwyth, a'r tîr a rydd ei gynnyrch, a byddant yn eu tîr eu hun mewn diogelwch: yna y caſant ŵybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd: pan dorrwyf rwymau eu iau hwynt, ai gwared hwynt o law y rhai ai caethiwant.

28 Ac ni byddant hwy mwyach yn yſpail i'r cenhedloedd, a bwyſt-fil y tir ni's bwyttu hwynt, eithr trigant mewn diogelwch, ac ni [bydd] dychrynudd.

29 Cyfodaf iddynt hefyd *blanhigin enwoc, ac ni byddant mwy wedi trengu o newyn yn y tîr, ac ni ddygant mwy wradwydd y cenhedloedd. Eſa.11.1.

30 Eithr caſant ŵybod mai myfi 'r Arglwydd eu Duw [ſydd] gyd â hwynt, a hwythau tŷ Iſrael [ydynt] fy mhobl maufi, medd yr Arglwydd Dduw.

31 Chwithau fy mhraidd mau fi, defaid fy mhorfa, dynion [ydych] chwi, myfi [ydwyf] eich Duw chwi, medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XXXV.

Coſpedigaeth yr Edommiaid am flino pobl Dduw.

A Daeth gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd:

2 Goſot dy wyneb fab dŷn tu ag at fynydd Seir, a phrophwyda yn ei erbyn.

3 Dywet hefyd wrtho, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, wele fi i'th erbyn di mynydd Seir, eſtynnaf hefyd fy llaw arnat, a rhoddaf di yn anghyfannedd, ac yn ddiffaethwch.

4 Goſodaf dy ddinaſoedd yn ddiffaethwch, a thithe a fyddi yn anghyfannedd, fel y gwypech mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

5 Am fod gennit alanaſtra tragywyddol, ac ymlit o honot feibion Iſrael â mîn y cleddyf yn amſer eu gofid hwynt [ſef] yn amſer diwedd [eu] hanwiredd [hwynt:]

6 Am hynny [nid] byw fi medd yr Arglwydd Dduw, oni wnaf di yn waed, a gwaed a'th ymlyd di, îe gwaed a'th ddilyd oni chaſei waed.

7 Rhoddaf hefyd fynydd Seir yn anrhaith, ac yn ddiffaethwch, a thorraf ymmaith o honaw ef yr hwn a elo, a'r hwn a ddychwelo.

8 Llanwaf hefyd ei fynyddoedd ef ai laddedigion, yn dy frynnau, a'th ddyffrynnoedd, a'th holl afonydd, rhai wedi lladd â chleddyf a ſyrchiant ynddynt.

9 Rhoddaf di yn anrhaith tragywyddol, a'th ddinaſoedd ni chyfanneddir, fel y gŵypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

10 Am ddywedyd o honot y ddwy genhedlaeth, a'r ddwy wlad fyddant eiddo fi: canys goreſcynnwn hwy er bod yr Arglwydd yno:

11 Am hynny byw [ydwyf] fi medd yr Arglwydd Dduw, a gwnaf yn ôl dy ddîg, ac yn ôl dy wŷn y rhai o'th gâs yn eu herbyn hwynt a wnaethoſt: fel i'm hadwaener yn eu myſc hwynt pan i'th farnwyf di.

12 A chei ŵybod ddarfod i mi 'r Arglwydd glywed dy holl ddirmyg yr hyn a draethaiſt yn erbyn mynyddoedd Iſrael gan ddywedyd: anrheithiwyd hwynt, [ac] i ni y rhoddwyd hwynt yn ymborth.

13 Ymfawrygaſoch hefyd a'ch geneuau yn fy erbyn i, ac amlhauſoch eich geiriau i'm herbyn: mi [ai] clywais.

* 14 Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, anrhaith a wnaf it fel y llawenycho'r holl wlâd.

15 Fel dy lawenydd di am etifeddiant tŷ Iſrael o herwydd ei anrheithio, felly y gwnaf i tithe: anrhaith fyddi dy fynydd Seir, ac Edom oll ei gyd: fel y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

## PEN. XXXVI.

Addewid o ymwared i Iſrael oddi wrth y cenhedloedd.
22 Bod ymgeledd Iſrael o drugaredd Dduw, ac nid oi haeddedigaeth eu hun.

Ezec.6.2. Tithe fab dŷn prophwyda wrth fynyddoedd Iſrael, a dywet: gwrandewch * fynyddoedd Iſrael air yr Arglwydd.

2 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, o herwydd dywedyd o'r gelyn hyn am danoch chwi, a ha, aeth uchelfaon tragywyddol hefyd yn etifeddiaeth i ni.

3 Am hynny prophwyda, a dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: o herwydd eich anrheithio a'ch llyngcu o amgylch, i fod o honoch yn etifeddiaeth i weddill y cenhedloedd, a myned o honoch yn watwargerdd, ac yn gablaeth pobl:

4 Am hynny mynyddoedd Iſrael gwrandewch air yr Arglwydd Dduw, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth y mynyddoedd, ac wrth y brynnau, wrth yr afonydd, ac wrth y dyffrynnoedd, wrth y diffaethwch anghyfanneddol, ac wrth y dinaſoedd gwrthodedic y rhai oeddynt yn yſpail, ac yn watwar i'r rhan arall o'r cenhedloedd y rhai [oeddynt] oi hamgylch:

5 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, [nid geir-wir fi] onid yng-wrês fyng-wŷn y lleferais wrth y rhan arall o'r cenhedloedd, ac wrth holl Edom: y rhai a roddaſant fy nhir mau fi yn etifeddiaeth iddynt eu hun mewn llawenydd pob calon, trwy ddiyſtyrwch meddwl, am ei gyrru yn yſpail.

6 Am hynny prophwyda am dîr Iſrael, a dywet wrth y mynyddoedd, ac wrth y brynnau, wrth yr afonydd, ac wrth y dyffrynnoedd, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: wele fi yn fyng-wŷn, ac yn fy llid y lleferais, o herwydd dwyn o honoch wradwydd y cenhedloedd,

7 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, myfi a * dyngais [nad geir-wir fi] oni ddwg y cenhedloedd y rhai ydynt o'ch amgylch chwi eu gwradwydd. Ezec.20.5.

8 A chwithau mynyddoedd Iſrael a roddwch eich ceingciau, ac a ddygwch eich ffrwyth i'm pobl Iſrael: canys agos ydynt ar ddyfod.

9 Canys wele fi attoch, îe troaf attoch, fel i'ch coledder, ac i'ch hauer.

10 Amlhâf ddynnion ynoch chwi hefyd holl dŷ Iſrael ei gyd, fel y cyfanneddir y dinaſoedd, ac yr adailader y diffaethwch.

11 Ie amlhâf ynoch ddŷn ac anifail, fel y chwanegant ac y ffrwythant, a gwnaf i chwi breſſwylio fel yr oeddech gynt: ie gwnaf well nag [yn] eich dechreuad, fel y gŵypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

12 Dygaf hefyd ddynnion arnoch [ſef] fy mhobl Iſrael, canys etifeddant dydi, a byddi yn etifeddiaeth iddynt, ac ni chwanegi eu gwneuthur hwynt yn ymddifaid mwy.

13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, o herwydd eu bod yn dywedyd wrthych, ti a fuoſt yn bwytta dynnion, ac yn gwneuthur dy genedl dy hun yn ymddifad,

14 Am hynny ni fwyttei ddŷn mwy, ac ni wnei i'th genedl dy hun ſyrthio medd yr Arglwydd Dduw:

15 Ac ni adawaf glywed gwradwydd y cenhedloedd ynot ti mwy: ni ddygi ychwaith warth y cenhedloedd mwyach; ac ni wnei mwy i'th genedl dy hun ſyrthio, medd yr Arglwydd Dduw.

16 Daeth hyfyd gair yr Arglwydd attaf gan ddywedyd.

17 Ha fab dŷn tŷ Iſrael oeddynt yn trigo yn eu tîr eu hun: ac ai halogaſant ef ai ffordd, ac ai gweithredoedd eu hun: eu ffordd hwynt ydoedd o'm blaen i fel aflendid gwraig fiſ-glwyfus.

18 Yna y tywelltais fy llid arnynt, am y gwaed yr hwn a dywalltâſent ar y ddaiar, ac am eu delwau [drwy'r rhai] yr halogaſent hi.

19 Am hynny gwaſcerais hwynt ym mhlith y cenhedloedd, a chwelais hwynt ar hŷd y gwledydd yn ôl eu ffyrdd eu hun, ac yn ôl eu gweithredoedd eu hun y bernais hwynt.

20 Pan *ddaethant at y cenhedloedd y rhai yr aethant attynt, yna yr halogaſant fy enw ſanctaidd, pan ddywedid am danynt: dymma bobl yr Arglwydd, ac oi gwlâd eu hun y daethant. Eſa.52.5. rhufein.2.24.

21 Er hynny arbedais [hwynt] er mwyn fy enw ſanctaidd yr hwn a halogodd tŷ Iſrael ym myſc y cenhedloedd y rhai yr aethant attynt.

22 Am hynny dywet wrth dŷ Iſrael, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: nid er eich mwyn chwi tŷ Iſrael yr ydwyf fi yn gwneuthur [hyn,] ond er mwyn fy enw ſanctaidd yr hwn a halogaſoch chwi ym myſc y cenhedloedd lle yr aethoch.

23 Canys ſancteiddiaf fy enw mawr, yr hwn a halogwyd ym myſc y cenhedloedd [(ſef] yr hwn a halogaſoch chwi yn eu myſc hwynt) fel y gŵypo y cenhedloedd mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd medd yr Arglwydd Dduw: pan ymſancteiddiwyf ynoch o flaen eich llygaid.

24 Ac mi a'ch cymmeraf chwi o fyſc y cenhedloedd, ac a'ch caſclaf chwi o'r holl wledydd, ac a'ch dygaf i'ch tîr eich hun,

25 Ac a daenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân oddi wrth eich halogedd oll: glanhâf chwi hefyd oddi wrth eich gau-dduwiau oll.

26 A *rhoddaf i chwi galon newydd, yſpryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi, a thynnaf y galon garrec o'ch cnawd chwi, ac mi a Iere.32.29. ezec.11.19.

roddaf i chwi galon gîg.

27 Rhoddaf hefyd fy yſpryd mau fi o'ch mewn, ac a ŵnaf i chwi rodio yn fy neddfau mau fi, a chadw, a gwneuthur fy marnedigaethau.

28 Cewch drigo hefyd yn y tîr yr hwn a roddais i'ch tadau: a byddwch yn bobl i mi, a minne a fyddaf Dduw i chwithau.

29 Achubaf chwi hefyd oddi wrth eich holl halogedd, a galwaf am ŷd, ac ai amlhaf, ac ni adawaf arnoch newyn.

30 Amlhâf hefyd ffrwyth y coed, a chynnyrch y maes, fel na ddygoch mwy waradwydd newyn ym myſc y cenhedloedd.

31 Cofiwch hefyd eich ffyrdd drygionus, a'ch gweithredoedd y rhai nid [ydynt] dda, yna y byddwch yn ffiaidd gennych eich hunain am eich anwireddau, ac am eich ffieidd-dra:

32 Byddet hyſpys i chwi nad er eich mwyn chwi yr ydwyf fi yn gwneuthur [hyn] medd yr Arglwydd Dduw: tŷ Iſrael gwridwch, a chywilyddiwch am eich ffyrdd.

33 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, yn y dydd y glanhauwyf chwi o'ch holl anwireddau, y paraf gyfanneddu dinaſoedd, ac yr adailadir yr anghyfannedd-leoedd.

34 A'r tîr anrhaithiedic a goleddir, am ei fod yn anrhaith yng-olwg pôb cynniwerudd.

35 Yna y dywedant, y tîr anrhaithiedic hwn oedd fel gardd Eden a'r dinaſoedd ang-hyfannedd anrhaithiedic a diniſtriol, a gyfanneddir yn gaeroc.

36 Felly y cenhedloedd y rhai a weddillir o'ch amgylch a gânt ŵybod mai myfi'r Arglwydd a adailedais eich lleoedd diniſtriol, [ac] a blennais eich mannau anrhaithiedic: myfi yr Arglwydd a leferais, ac a wneuthum [hyn,]

37 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, tŷ Iſrael a'm caiff fi etto i wneuthur hyn iddynt: amlhâf hwynt fel mintai o ddynnion.

38 Fel praidd ſanctaidd, fel praidd Ieruſalem yn eu tymmorau, felly y dinaſoedd ang-hyfannedd fyddant llawn o finteioedd o ddynnion fel y gwypont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

## PEN. XXXVII.

Prophwydoliaeth am ddychweliad y bobl o gaethiwed.
16 Ac am vno dêc llwyth Iſrael wrth y ddau lwyth eraill.

BU llaw'r Arglwydd arnaf, hi a'm dûg fi allan hefyd yn yſpryd yr Arglwydd, ac a wnaeth i mi orphywys yng-hanol dyffryn, a hwnnw [oedd] yn llawn eſcyrn.

2 Ac efe a wnaeth i'm fyned heibio iddynt o amgylch o gylch, ac wele [hwynt] yn aml iawn ar wyneb y dyffryn, wele hefyd ſychion oddieth [oeddynt.]

3 Ac efe a ddywedodd wrthifi, ha fâb dŷn a fydd byw'r eſcyrn hyn? yna y dywedais, [goref] y gwyddoſt ti ô Arglwydd Dduw.

4 Ac efe a ddywedodd wrthif, prophwyda am yr eſcyrn hyn, a dywet wrthynt: ô eſcyrn ſychion, clywch air yr Arglwydd.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth yr eſcyrn hyn, wele fi yn dwyn yſpryd arnoch fel y byddoch byw.

6 Giau hefyd a roddaf ynoch, a pharaf i gîg gyfodi arnoch, gwiſcaf chwi hefyd â chroen, a rhoddaf yſpryd ynoch, fel y byddoch byw, ac y gwypoch mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

7 Yna y prophwydais fel i'm gorchymynaſid, ac fel yr oeddwn yn prophwydo bu llêf, ac wele gynnwrf, a'r eſcyrn a ddaethant [bob] aſcwrn at ei aſcwrn.

8 Edrychais hefyd, ac wele cyfodaſe giau a chîg arnynt, gwiſcaſe hefyd groen am danynt, ond nid [oedd] yſpryd ynddynt.

Ezec.6.3.

9 Ac efe a ddywedodd wrthif, prophwyda tua'r gwynt, prophwyda fab dyn, a dywet wrth y gwynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: ô chwythad tyret oddi wrth y pedwar gwynt, a chwyth ar y lladdedigion hyn fel y byddant byw.

10 Felly y prophwydais fel i'm gorchymynaſid, a'r chwythad a ddaeth ynddynt, fel y buãt byw, ac y ſafaſant ar eu traed yn llu mawr iawn.

11 Ac efe a ddywedodd wrthif, ha fab dŷn yr eſcyrn hyn ydynt dŷ Iſrael oll: wele dywedant, ein heſcyrn a wywâſant, a'n gobaith a gollodd, torrwyd ni ymmaith yn llwyr.

12 Am hynny prophwyda, a dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn agori eich beddau fy mhobl, codaf chwi hefyd o'ch beddau, a dygaf chwi i dŷ Iſrael.

13 A chewch ŵybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd pan agorwyf eich beddau, a phan gyfodwyf chwi o'ch beddau fy mhobl.

14 Rhoddaf hefyd fy yſpryd ynoch fel y byddoch byw, a gwnaf i chwi orphywys yn eich tir eich hun, a chewch ŵybod mai myfi'r Arglwydd a leferais, ac a wnaf hyn, medd yr Arglwydd.

15 A gair yr Arglwydd a ddaeth attaf, gan ddywedyd,

16 Tithe fab dŷn cymmer it vn prenn, ac ſcrifenna arno at Iuda, ac at feibion Iſrael ei gyfeillion, a chymmer it brenn arall, ac ſcrifenna arno at Ioſeph cŷff Ephraim, a holl dŷ Iſrael ei gyfeillion.

17 A neſsã hwynt y naill at y llall yn vn prên i ti, fel y byddant yn vn yn dy law di.

18 Pan lefaro meibion dy bobl wrthit gan ddywedyd, oni fynegi i ni beth [yw] hyn gennit:

19 Dywet wrthynt, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi yn cymmeryd cŷff Ioſeph yr hwn [ſydd] yn llaw Ephraim, a llwythau Iſrael ei gyfeillion, ac mi ai rhoddaf hwynt wrtho ef, ſef [wrth] gŷff Iuda, ac ai gwnaf hwynt yn vn prên fel y byddãt yn fy llaw yn vn.

20 A byddet yn dy law o flaen eu llygaid hwynt y prennau y rhai'r ſcrifennech arnynt.

21 A dywet wrthynt, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, wele fi yn cymmeryd meibion Iſrael o fyſc y cenhedloedd y rhai'r aethãt attynt, ac mi ai caſclaf hwynt o amgylch, ac ai

dygaf hwynt i'w tîr eu hun.

John.10.16. 22 A gwnaf hwynt yn vn genhedlaeth o fewn y tir ym mynyddoedd Iſrael, ac vn *Brenin fydd yn Frenin iddynt oll: ni byddant hefyd mwy yn ddwy genhedlaeth, ac ni rennir hwynt mwyach yn ddwy frenhiniaeth.

23 Ac ni ymhalogant mwy wrth eu gau dduwiau, na thrwy eu ffieidd-dra, nac yn eu holl anwiredd: eithr cadwaf hwynt oi holl drigfaon y rhai y pechaſant ynddynt, ac mi ai glanhaf hwynt, fel y byddant yn bobl i mi, minneu a fyddaf yn Dduw iddynt hwythau.

Eſa.40.11. iere.23.5. ezec.34.23. dan.9.24. 24 A'm *gwâs Dafydd [fydd] brenin arnynt, ie vn bugail fydd iddynt oll: yn fy marnedigaethau mau fi hefyd y rhodiant, a'm deddfau mau fi a gadwant, ac ai gwnant hwynt.

25 Trigant hefyd yn y tîr yr hwn a roddais i'm gwâs Iacob, yr hwn y trigodd eich tadau ynddo, ie hwynt a drigant ynddo ai meibion, a meibion eu meibion byth: Dafydd hefyd fyng-wâs [fydd] tywyſog iddynt yn dragywydd.

Pſal.109.4. pſal.116.2. 26* Gwnaf hefyd â hwynt gyfammod hêdd, ammod tragywyddol a fydd iddynt: canys rhoddaf hwynt lle'r amlhauwyf hwynt, a rhoddaf fy ſancteiddrwydd yn eu myſc hwynt yn dragywydd.

27 A'm tabernacl fydd gyd â hwynt, ie byddaf iddynt yn Dduw, a hwythau a fyddant i mi yn bobl.

28 A'r cenhedloedd a gânt ŵybod mai myfi yr Arglwydd ydwyf yn ſancteiddio Iſrael: trwy fod fy ſancteiddrwydd yn eu myſc hwynt yn dragywydd.

## PEN. XXXVIII.

Prophwydoliaeth am Gog a Magog.

Gen.10.2. gwel.20.8. A Gair yr Arglwydd a ddaeth attaf, gan ddywedyd:

2 Goſot dy wyneb fab dyn yn erbyn Gog: [a] thîr Magog, pen-tywyſog Meſech, a Thubal, a prophwyda yn ei erbyn:

3 A dywet, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, wele fi [yn dyfod] attat ti Gog pen-tywyſog Meſech a Thubal,

4 Dychwelaf di hefyd a rhoddaf fachau yn dy toch-gernau, ac mi a'th ddygaf allan, a'th holl lû: y meirch a'r marchogion wedi eu gwiſco hwynt oll â phôb rhyw arfau yn gynnulleidfa fawr, [yn arferu] helmau a thariannau, [ac] hwynt oll yn dwyn cleddyfau.

5 Y Perſiaid, yr Ethiopiaid, a'r Phutiaid gyd â hwynt, a hwynt oll yn dwyn tarian a helm.

6 Gomer ai holl lu, tŷ Togarma, [perchennog] yſtlyſſau y gogledd, ai holl lu, [a] phobl lawer gyd â thi.

7 Ymbarattoa, ie parattoa rhagot, ti a'th holl gynnulleidfa, y rhai a ymgynhullant attat, fel y byddech yn ddiogelfa iddynt.

8 Wedi dyddiau lawer yr ymwelir â thi, ac yn y blynyddoedd diwethaf y deui i dir wedi dychwelyd oddi wrth y cleddyf, wedi ei gaſclu o bobloedd lawer ar fynyddoedd Iſrael, y rhai fuaſent yn ang-hyfannedd bôb amſer: ie efe a ddaw allan o'r bobloedd, a hwynt oll a drigant mewn diogelwch.

9 Dringi hefyd fel temmeſtl, deui [a] byddi fel cwmwl i guddio 'r ddaiar, ti a'th holl lu a phobloedd lawer gyd â thi,

10 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, bydd yn y dydd hwnnw i bethau ddyfod i'th feddwl, fel y meddyliech feddwl drwg.

11 A thi a ddywedi, mi a âf i fynu i wlâd maeſ-drefydd, deuaf at y rhai llonydd, y rhai ydynt yn preſſwylio yn ddiofal, gan drigo oll mewn trefydd heb gaerau, ac heb droſſolion na dorau iddynt:

12 I yſpeilio yſpail, i ſclyfaethu ſclyfaeth, i ddychwelyd dy law ar anghyfannedd [leoedd] y rhai a gyfanneddir [yr awr hon,] ac ar bobl a gaſclwyd o'r cenhedloedd y rhai a ddarparaſant anifeiliaid, a golud, [ac] ydynt yn trigo yng-hanol y wlâd.

13 Seba, a Dedan, a marchnadyddion Tharſis hefyd, ai holl lewod a ddywedant wrthit, ai i yſpeilio yſpail y daethoſt di, ai i ſclyfaethu ſclyfaeth y caſclaiſt dy gynnulleidfa, [ai] i ddwyn arian, ac aur, i gymmeryd anifeiliaid, a golud, i yſpeilio yſpail fawr?

14 Am hynny prophwyda fab dyn, a dywet wrth Gog, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: oni chei di wybod y dydd hwnnw, pan breſſwylio fy mhobl Iſrael yn ddiofal?

15 Ie ti a ddeui o'th fangre dy hun, o yſtlyſau y gogledd, ti a phobl lawer gyd â thi, hwynt oll a farchogânt feirch yn dyrfa fawr, ac yn llu lluoſog.

16 A thi ei i fynu yn erbyn fy mhobl Iſrael, gan guddio y ddaiar fel cwmwl, yn y dyddiau diwethaf y byddi, a mi a'th ddygaf yn erbyn fy nhîr fy hun, fel yr adwaeno y cenhedloedd fi pan *ymſancteiddiwyf ynot ti Gog o flaen eu llygaid hwynt. Ezec.36.23. ezec.37.28.

17 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ai tydi yw'r hwn y lleferais [am] dano yn y dyddiau gynt trwy law fyng-weiſion [ſef] prophwydi Iſrael, y rhai a brophwydaſant yr amſer hwnnw, am dy ddwyn di yn eu herbyn hwynt?

18 A bydd yn y dydd hwnnw [ſef] yn y dydd y delo Gog yn erbyn tir Iſrael (medd yr Arglwydd Dduw) i'm llid gyfodi yn fy ſorriant.

19 Canys yn fyng-wŷn, [ac] yng-wrês fy nigllonedd y dywedais [nad geirwir fi] oni bydde yn y dydd hwnnw ddychryn mawr ar dîr Iſrael,

20 Fel y dychryne o'm blaen i byſcod y môr, ac ehediaid yr awyr, a bwyſt-filod y maes, a phob ymluſciad yr hwn a ymluſco ar y ddaiar: a phob dŷn yr hwn [fyddo] ar wyneb y ddaiar, yna y mynyddoedd a ddryllir i lawr, a'r griſſiau a ſyrthiant, a'r holl furiau a gwympant i lawr.

21 Canys galwaf am gleddyf yn ei erbyn yn fy holl fynyddoedd medd yr Arglwydd Dduw: cleddyf pôb vn fydd yn ei gyfaill ei hun.

22 Mi a ddadleuaf hefyd ag ef drwy haint,

a thrwy waed: glawiaf heſyd gur-law, a cherrig cenllyſc, tân a brwmſtan arno ef, ac ar ei holl lluoedd ef, ac ar bobloedd lawer y rhai [ſyddant] gyd ag ef.

Ezec.36.23.
ezec.37.28.

23 Ie * ymfawrygaf ac ymſancteiddiaf, a pharaf fy adnabod yng-olwg cenhedloedd lawer, fel y gŵyppont mai myfi ydwyf yr Arglwydd.

## PEN. XXXIX.

Diſethiad Gog, a Magog.

PRophwyda di heſyd fab dŷn yn erbyn Gog, a dywet: fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, wele fi attat Gog pen-tywyſog Meſech, a Thubal.

2 Ac mi a'th ddychwelaf, ac a'th dreiaf hyd y chweched ran, ac a'th ddygaf i fynu o yſtlyſau y gogledd, ac a'th ddygaf ar fynyddoedd Iſrael.

3 Paraf heſyd daro dy fŵa o'th law aſſwy, a gwnaf i'th ſaethau ſyrthio o'th law ddehau.

4 Ar fynyddoedd Iſrael y ſyrthi ti a'th holl luoedd, a'r bobloedd y rhai [ſyddant] gyd â thi, i'r ehediaid [a] phob rhyw aderyn, ac [i] fwyſt-filod y maes i'th roddaf yn ymborth.

5 Ar wyneb y maes y ſyrthi, canys myfi ai dywedais medd yr Arglwydd Dduw.

6 Anfonaf heſyd dân ar Magog, ac ar y rhai a breſſwyliant yr ynyſoedd yn ddifraw, fel y gwyppont mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd.

7 A gwnaf adnabod fy enw ſanctaidd yng-hanol fy mhobl Iſrael, ac ni adawaf halogi fy enw ſancteiddiol mwy: fel y gŵyppo'r cenhedloedd mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd, Sanct yr Iſrael.

8 Wele efe a ddaeth, ac a fu, medd yr Arglwydd Dduw, dymma'r diwrnod am yr hwn y dywedais.

9 Preſſwyl-wŷr dinaſoedd Iſrael a ânt allan, cynneuant heſyd, a lloſcant yr arfau, a'r tarian a'r aſtalch, a'r bŵa, a'r ſaethau, y llaw-ffon heſyd a'r waiw-ffon: ie lloſcant hwynt mewn tân ſaith mlynedd.

10 Yna ni ddygant goed o'r maes, ac ni thorrant [ddim,] canys a'r arfau y cynneuant dân, yr yſpeiliant eu hyſpeil-wŷr, ac yr ſclyfaethant [oddi ar] eu ſclyfaeth-wŷr medd yr Arglwydd Dduw.

11 Bydd heſyd yn y dydd hwnnw i'm roddi yno i Gog le bedd yn Iſrael, ſef y dyffryn trwy yr hwn y trammwyant tua môr y dwyrain: efe a gae [ffroenau] y trammwy-ŵr, canys yno y claddant Gog ai holl dyrfa, a galwant [ef] dyffryn tyrfa Gog.

12 A thŷ Iſrael fyddant yn eu claddu hwynt ſaith mîs, er mwyn glanhaû y tîr.

13 Ie holl bobl y tîr ai claddant, a [hyn] fydd enwoc iddynt, y dydd yr ymogoneddwyf medd yr Arglwydd Dduw.

14 Dewiſant heſyd bôb amſer wŷr y rhai a gynniwerant trwy'r wlâd gyd a'r rhai a drammwyant i gladdu y rhai a adewir ar wyneb y ddaiar, iw glanhaû hi: ym mhen ſaith mîs y chwiliant.

15 A'r trammwy-wŷr a gynniwerant trwy'r tîr, a phan welo [un] aſcwrn dŷn, efe a gyfyd nôd wrtho ef: hyd oni chladdo y claddwŷr ef yn nyffryn tyrfa Gog.

16 Henw y ddinas heſyd [fydd] Hamonah: felly y glanhânt y wlâd.

17 Tithe fab dŷn fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw: dywet wrth bôb rhyw aderyn, ac wrth holl fwyſt-filod y maes, ymgeſclwch, a deuwch, ymgynhullwch oddi amgylch at fy aberth yr hwn yr ydwyf yn ei aberthu i chwi, yn aberth mawr ar fynyddoedd Iſrael: yna y bwyttewch gîg, ac yr yfwch waed.

18 Cîg y cedyrn a fwyttewch, a gwaed tywyſogion y wlâd a yfwch [ſef] hyrddod, ŵyn, a bŷchod, byſtych, [a] phaſcedigion Baſan hwythau oll.

19 Bwyttewch heſyd fraſder hyd ddigon, ac yfwch waed hyd oni feddwoch arno, o'm haberth yr hwn a aberthais i chwi.

20 Felly i'ch diwellir ar fy mwrdd mau fi, o farch a cherbyd, o gadarn, a phob rhyfel-ŵr, medd yr Arglwydd Dduw.

21 Felly y goſodaf allan fyng-ogoniant ym myſc y cenhedloedd, a'r holl genhedloedd a gânt weled fy marnedigaeth yr hon a wneuthum, a'm llaw 'r hon a oſodais arnynt.

22 A thŷ Iſrael a gânt ŵybod mai myfi [ydwyf] yr Arglwydd eu Duw hwynt, o'r dydd hwnnw allan,

23 Y cenhedloedd heſyd a gânt ŵybod mai am eu hanwiredd eu hun y caeth-gludwyd tŷ Iſrael, o herwydd gwneuthur o honynt gamwedd i'm herbyn, am hynny y cuddiais fy wyneb oddi wrthynt, ac y rhoddais hwynt yn llaw eu gelynnion: a hwynt oll a ſyrthiaſant trwy 'r cleddyf.

24 Yn ôl eu haflendid eu hun, ac yn ôl eu hanwireddau y gwneuthum â hwynt, ac y'cuddiais fy wyneb oddi wrthynt.

25 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, yr awr hon y dychwelaf gaethiwed Iacob, toſturiaf heſyd wrth holl dŷ Iſrael, a gwynfydaf dros fy enw ſanctaidd:

26 Wedi dwyn o honynt eu gwradwydd, ai holl gamwedd yr hyn a wnaethant i'm herbyn: pan drigent yn eu tîr eu hun yn ddifraw, ac heb ddychrynudd:

27 Pan ddychwelwyf hwynt oddi wrth bobloedd, ai caſclu hwynt o wledydd eu gelynniõ, *yna yr ymſancteiddiaf ynddynt yng-olwg cenhedloedd lawer:

Ezec.36.23.

28 A chânt ŵybod mai myfi yr Arglwydd eu Duw hwynt [oeddwn] yn eu caeth-gludo hwynt at y cenhedloedd, ac ai caſclaf hwynt iw tîr eu hun, ac ni adawaf mwy [un] o honynt yno.

29 Ni chuddiaf ychwaith fy wyneb mwy oddi wrthynt, o herwydd tywalltais fy Yſpryd ar dŷ Iſrael medd yr Arglwydd Dduw.

* PEN

## PEN. XL.

Prophwydoliaeth am adnewyddiad y ddinas, a'r deml yſprydol.

YN y bummed ſlwyddyn ar hugain o'n caeth-gludiad ni, yn nechreu y ſlwyddyn, ar y decfed [dydd] o'r mîs, yn y bedwaredd ſlwyddyn ar ddêc wedi taro y ddinas: o fewn corph y dydd hwnnw y daeth llaw 'r Arglwydd arnaf, ac efe a'm dûg fi yno.

2 Yng-weledigaethau Duw y dûg efe fi i dir Iſrael, ac efe a'm goſododd ar fynydd vchel iawn, ac arno o'r tu dehau [yr oedd] megis adailadaeth dinas.

3 A phan ddûg efe fi yno, wele ŵr ai welediad fel gwelediad prês, ac yn ei law linin llîn, a chorſen feſſur, ac yr ydoedd efe yn ſefyll o fewn y porth.

4 A dywedodd y gŵr wrthif, ha fab dyn gwel a'th lygaid, gwrando hefyd a'th gluſtiau, a goſot dy feddwl ar yr hyn oll a ddangoſwyf it: oherwydd er mwyn dangos i ti [hyn,] i'th ddugwyd ymma: dangos dithe i dŷ Iſrael yr hyn oll a weli di.

5 Ac wele fûr o'r tu allan i'r tŷ o amgylch ogylch, a chorſen feſſur yn llaw 'r gŵr yn chwe chufydd, o gufydd a dyrnfedd [bob vn:] ac efe a feſurodd lêd yr adailadaeth ag vn gorſen, a'r vchter â chorſen arall.

6 Ac efe a ddaeth i'r porth yr hwn [oedd] ai wyneb tu a'r dwyrain, ac a ddringodd ar hŷd ei riſſiau ef, ac efe a feſurodd orſing y porth yn vn gorſen o lêd, a'r gorſing arall yn gorſen arall o lêd.

7 Stafell hefyd [oedd] vn gorſen o hŷd, a chorſen arall o lêd, a phump cufydd [oedd] rhwng y ſtafelloedd: a gorſing y porth wrth gyntedd y porth o'r tu mewn [oedd] vn gorſen.

8 Efe a feſurodd hefyd gyntedd y porth oddi fewn yn vn gorſen.

9 Ac a feſurodd gyntedd y porth yn wyth gufydd, ai ractaloedd yn ddau gufydd, ſef cyntedd y porth oddi fewn.

10 Stafelloedd hefyd y porth tu a'r dwyrain [oeddynt] dair o'r tu ymma, a thair o'r tu accw, vn feſſur [oedd] iddynt ill tair, vn feſſur i'r rhactaloedd o'r ddeu-tu.

11 Ac efe a feſurodd lêd drŵs y porth yn ddêc cufydd, [ac] vchter y porth yn dri chufydd ar ddêc.

12 A'r terfyn o flaen y ſtafelloedd [oedd] vn cufydd, a'r terfyn o'r tu arall yn vn cufydd, [pob] ſtafell hefyd [oedd] chwe chufydd o bob tu.

13 Ac efe a feſurodd y porth o nenn y ſtafell hyd ei nenn yntef, yn bum cufydd ar hugain o lêd ddrws yn ddrws.

14 Ac efe a wnaeth y rhactaloedd yn dri vgain cufydd, a [hynny] hyd ractal cyntedd y porth oddi amgylch.

15 Ac o [du] wyneb porth y dyfodiad i mewn hyd du wyneb cyntedd y porth oddi mewn [yr oedd] dec cufydd a deugain.

16 A ffeneſtri caeedic [oeddynt] yn y ſtafelloedd, ac yn eu rhactaloedd, o fewn y porth o amgylch ogylch, ac felly [yr oedd] yn y bwâu meini, a'r ffeneſtri [oeddynt] o amgylch ogylch o fewn, ac [yr oedd] palm-wŷdd ar [bob] rhactal.

17 Ac efe am dug i i'r cyntedd neſaf allan, ac wele ſtafelloedd, a phalmant wedi ei wneuthur o amgylch ogylch i'r cyntedd: dêc ſtafell ar hugain [oedd] ar y palmant.

18 A'r palmant [oedd] gan yſtlys y pyrth ar gyfer hŷd y pyrth: a'r palmant [oedd] oddi tanodd.

19 Ac efe a feſurodd y llêd o du wyneb y porth iſſaf hyd du wyneb y cyntedd oddi fewn, yn gant cufydd oddi allan, tua dwyrain a gogledd.

20 A'r porth yr hwn [oedd] ai wyneb tua 'r gogledd, ar y cyntedd neſaf allan a feſurodd efe ei hyd, ai lêd.

21 Ei ſtafelloedd ef [oeddynt] dair o bobtu, ac yr ydoedd ei ractaloedd, ai fwâu meini wrth feſſur y porth cyntaf yn ddêc cufydd a deugain ei hŷd, a'r llêd yn bump cufydd ar hugain.

22 Eu ffeneſtri hefyd ai bwâu meini, ai palm-wŷdd [oeddynt] wrth feſſur y porth yr hwn [oedd] ai wyneb tua 'r dwyrain: ar hŷd ſaith o riſſiau hefyd y dringent iddo: ai fwâu meini [oeddynt] oi blaen hwynt.

23 A phorth y cyntedd neſaf i mewn [oedd] ar gyfer porth y gogledd, a'r dwyrain: ac efe a feſurodd o borth i borth gant cufydd.

24 Ac efe a'm dûg i tua 'r deau, ac wele borth tua'r deau, ac efe a feſurodd ei ractaloedd, ai fwâu meini wrth y meſſurau hyn.

25 Ffeneſtri hefyd [oeddynt] iddo, ac iw fwâu meini o amgylch ogylch fel y ffeneſtri hyn yn ddêc cufydd a deugain o hŷd, ac yn bump cufydd ar hugain o lêd.

26 Saith o riſſiau hefyd [oedd] ei ddringfa ef, ai fwâu meini oi blaen hwynt: [yr oedd] hefyd iddo balm-wŷdd vn o bob tu ar ei ractaloedd:

27 Ac [yr oedd] porth ar y cyntedd neſſaf i mewn tua 'r deau, ac efe a feſurodd o borth i borth tua'r deau gant cufydd.

28 Ac efe a'm dug i'r cyntedd neſſaf i mewn trwy borth y deau, ac a feſurodd borth y deau wrth y meſſurau hyn.

29 Ie ei ſtafelloedd, ai ractaloedd, ai fwâu meini [oedd] wrth y meſſurau hyn: yr oedd hefyd ffeneſtri arno, ac ar ei fwâu meini o amgylch ogylch, dêc cufydd a deugain [oedd] yr hŷd, a phum cufydd ar hugain y llêd.

30 A'r bwâu meini o amgylch ogylch [oeddynt] yn bump cufydd ar hugain o hŷd, ac yn bump cufydd o lêd.

31 Ai fwâu meini [oeddynt] tua 'r cyntedd neſſaf allan, a phalm-wŷdd ar ei ractaloedd, ac wyth o riſſiau [oedd] ei ddringfa ef.

32 Ac efe a'm dûg i i'r cyntedd neſaf i mewn tua'r dwyrain, ac a feſurodd y porth wrth y meſſurau hyn:

33 Sef ei ſtafelloedd ai ractaloedd, ai fwau meini [oeddynt] wrth y meſſurau hyn: [yr oedd] hefyd ffeneſtri iddo ef, ac iw fwâu meini o amgylch ogylch: yr hŷd [oedd] ddêc cufydd a deugain, a'r lled yn bump cufydd ar hugain.

34 Ai fwâu meini [oeddynt] tua'r cyntedd neſaf allan, a phalm-wŷdd ar ei ractaloedd o bob tu, ai ddringfa [oedd] wyth o riſſiau.

35 Ac efe am dûg fi i borth y gogledd, ac ai meſurodd wrth y meſſurau hyn,

36 Ei ſtafelloedd, ei ractaloedd, ei fwâu meini: ac [yr oedd] ffeneſtri iddo o amgylch ogylch, yr hŷd [oedd] ddêc cufydd a deugain, a'r llêd [oedd] bump cufydd ar hugain.

37 Ai ractaloedd [oeddynt] tua'r porth neſaf allan, a phalm-wŷdd ar ei ractaloedd o bob tu, ai ddringfa [oedd] wyth o riſſiau.

38 Ac [yr oedd] celloedd a drysau o fewn rhactaloedd y pyrth, yno y golchent y poeth offrwm.

39 Ac yng-hyntedd y porth [yr oedd] dau fwrdd o'r tu ymma, a dau fwrdd o'r tu accw, i ladd y poeth offrwm, a'r pech-aberth, a'r aberth tros gamwedd arnynt.

40 Ac ar yr yſtlys oddi allan lle y dringir i ddrws porth y gogledd [yr oedd] dau fwrdd, a dau fwrdd ar yr yſtlys arall yr hwn [oedd] wrth gyntedd y porth.

41 Pedwar bwrdd [oedd] o'r tu ymma, a phedwar bwrdd o'r tu accw ar yſtlys y porth: ar yr wyth bwrdd hyn y laddent [eu haberthau.]

42 A phedwar bwrdd y poeth offrwm [oeddynt] o gerric nadd, yn vn cufydd a hanner o hŷd, ac yn vn cufydd a hanner o lêd, ac yn vn cufydd o vchter: arnynt hwy hefyd y goſodent yr offer, y rhai y lladdent yr offrwm poeth, a'r aberth â hwynt.

43 Hefyd [yr oedd] bachau o vn ddyrnfedd wedi eu paratoi o fewn o amgylch ogylch, a chig yr offrwm [oedd] ar y byrddau.

44 Ac o'r tu allan i'r porth neſaf i mewn [yr oedd] ſtafelloedd y cantorion o fewn y cyntedd neſaf i mewn, yr hwn [oedd] ar yſtlys porth y gogledd, ai hwynebau tua'r deau: vn [oedd] ar yſtlys porth y dwyrain tua ffordd y gogledd.

45 Ac efe a ddywedodd wrthif, yr ſtafell hon yr hon [ſydd] ai hwyneb tua'r deau [ſydd] i'r offeiriaid y rhai a orchwyliant y Deml.

46 A'r ſtafell yr hon [ſydd] ai hwyneb tua'r gogledd [ſydd] eiddo yr offeiriaid y rhai a orchwyliant yr allor: y rhai hynny [ydynt] feibion Zadoc, y rhai ydynt o feibion Lefi yn neſſau at yr Arglwydd i weini iddo ef.

47 Ac efe a feſurodd y cyntedd yn ſcwâr, ſef yn gant cufydd o hŷd, ac yn gant cufydd o lêd, a'r allor [oedd] o flaen y Deml.

48 Ac efe a'm dûg fi i borth y Deml, ac a feſurodd ractal y porth yn bump cufydd o'r naill du, ac yn bump cufydd o'r tu arall, a llêd y porth [oedd] dri chufydd o'r naill du, a thri chufydd o'r tu arall.

49 Y cyntedd oedd vgain cufydd o hŷd, ac vn cufydd ar ddêc o lêd, a griſiau ar hŷd y rhai y dringent iddo: hefyd [yr ydoedd] colofnau wrth y rhactaloedd, vn o'r naill du, ac vn o'r tu arall.

## PEN. XLI.

Gweledigaeth am adailadu y Deml ai meſur yn arwyddocau adailadaeth a chynnydd eglwys Griſt.

Ac efe a'm dûg i i'r Deml, ac a feſurodd y rhactaloedd yn chwech chufydd o lêd o'r naill dû, ac yn chwech chufydd o lêd o'r tu arall, [fel yr oedd] llêd y babell.

2 Llêd y drws hefyd [oedd] ddêc cufydd, ac yſtlysau y drŵs yn bump cufydd o'r naill du, ac yn bump cufydd o'r tu arall: ac efe a feſurodd ei hŷd ef yn ddeugain cufydd, a'r llêd yn vgain cufydd.

3 Ac efe a ddaeth i mewn, ac a feſurodd ractal y drŵs yn ddau gufydd, a'r drŵs yn chwech chufydd, a llêd y drŵs yn ſaith gufydd.

4 Ac efe a feſurodd ei hŷd ef yn vgain cufydd, a'r llêd yn vgain cufydd o flaen y Deml, ac efe a ddywedodd wrthif, dymma y cyſſegr ſancteiddiolaf.

5 Ac efe a feſurodd pared y tŷ yn chwech chufydd, a llêd yr yſtlys-gell yn bedwar cufydd o amgylch ogylch i'r tŷ.

6 A'r celloedd [oeddynt] gell ar gell yn dair troedfedd ar ddêc ar hugain [o vchter,] a [ſwmmerau] y celloedd oeddynt yn cyrhaeddyd ar bared y tŷ o amgylch ogylch, fel y byddent yng-lyn, ac nid oeddynt yng-lyn o fewn pared y tŷ.

7 Felly [y lle oedd] yn ehangach, a'r griſiau oeddynt yn myned i fynu i'r celloedd, o herwydd griſiau y tŷ oeddynt yn myned i fynu o amgylch i'r tŷ, am hynny y tŷ oedd ehangach oddi arnodd: ac felly y dringid o'r iſſaf i'r vchaf trwy 'r ganol.

8 Gwelais hefyd vchter y tŷ o amgylch ogylch, ſeiliau gwadnau y celloedd [oeddynt] gorſen helaeth o chwech chufydd hyd y geſeil.

9 Llêd y pared yr hwn [oedd] i'r gell o'r tu allan [oedd] bump cufydd, a'r gweddill [oedd] le i'r celloedd y rhai oeddynt o fewn.

10 A rhwng yr ſtafelloedd [yr oedd] llêd vgain cufydd yng-hylch y tŷ o amgylch ogylch.

11 Drysau yr yſtlys-gell [oeddynt] tua'r [llannerch] weddill: vn drŵs tua'r gogledd, ac vn drws tua'r deau, a lêd y fan a weddillaſid [oedd] bump cufydd o amgylch ogylch.

12 A'r adailadaeth yr hon [oedd] o flaen y llannerch naillduol tu ag yſtlys y gorllewyn [oedd] ddêc cufydd a thrugain o lêd, a phared yr adailadaeth [oedd] bump cufydd o lêd o amgylch ogylch, ai hŷd [oedd] ddêc cufydd a phedwar

war vgain.

13 Ac efe a feſurodd y tŷ yn gant cufydd o hŷd, a'r llannerch naillduol, a'r adailadaeth, ai pharwydydd yn gant cufydd o hŷd.

14 A llêd talcen y tŷ, a'r llannerch naillduol tua'r dwyrain [oedd] gant cufydd.

15 Ac efe a feſurodd hŷd yr adailadaeth ar gyfer y llannerch naillduol yr hon [oedd] o'r tu cefn iddo, ai ſtafelloedd o'r ddau tu yn gant cufydd, a'r Deml oddi fewn, a dryſſau y cyntedd.

16 Y gorſingau, a'r ffeneſtri caeedic, a'r ſtafelloedd o amgylch ar dri thu, ar gyfer y rhiniog, a yſtyllennaſid â choed o amgylch ogylch: o'r llawr hyd y ffeneſtri, a'r ffeneſtri hefyd a yſtyllennaſid.

17 Uwch benn y drws, ac hyd y tŷ o fewn, ac allan; ac ar bob pared o amgylch ogylch o fewn ac allan [y cymmerodd efe] feſurau.

18 Cerubiaid hefyd a phalm-wŷdd a weithiaſid, ſef palm-wydden rhwng pob dau Gerub, a dau wyneb [oedd] i [bob] Cerub.

19 Canys wyneb dyn [oedd] tua'r balm-wydden o'r naill du, ac wyneb llew tua'r balm-wydden o'r tu arall, wedi weithio ar hŷd y tŷ o amgylch ogylch.

20 Cerubiaid a phalm-wŷdd a weithiaſid o'r ddaiar hyd oddi ar y drws: felly [yr oedd] pared y Deml.

21 Pedwar ochroc [oedd] pyſt y Deml: a gwedd y cyſſegr ydoedd yr vn môdd.

22 Yr allor bren [oedd] dri chufydd ei huchter, ai hŷd yn ddau gufydd: ei chonglau ai huchter, ai hyſtlyſau [oeddynt] o bren: ac efe a ddywedodd wrthif, dymma y bwrdd yr hwn [ſydd] ger bron yr Arglwydd.

23 Ac [yr ydoedd] dau ddrws i'r Deml, ac i'r cyſſegr.

24 A dwy ddôr i'r dryſſau [ſef] dwy ddôr blygedic, dwy ddôr i'r naill ddrws, a dwy i'r llall.

25 Ac arnynt y gwneuthid yn nryſſau y Deml Gerubiaid a phalm-wŷdd, fel y gwneuthid ar y parwydydd: ac [yr oedd] trawſtiau o flaen y cyntedd o'r tu allan.

26 Ffeneſtri caeedic hefyd, a phalm-wŷdd [oeddynt] o bob tu ar yſtlyſoedd y porth: ac ar yſtlyſau y tŷ, a thrawſtiau.

## PEN. XLII.

Trefn y ſtafelloedd y rhai oeddynt yn y Deml i'r offeiriaid, ac i'r petheu cyſſygredic.

AC efe a'm dûg i'r cyntedd neſaf allan, tua ffordd y gogledd, ac a'm dûg i ſtafell'r hon [oedd] ar gyfer y llannerch neillduol yr hon [oedd] ar gyfer yr adail, tua'r gogledd.

2 Drws y gogledd [oedd] ar gyfer hŷd y cant cufydd, a llêd y dêc cufydd a deugain.

3 Ac ar gyfer yr vgain [cufydd] y rhai [oeddynt] i'r cyntedd neſaf i mewn, ac ar gyfer y palmant, yr hwn [oedd] i'r cyntedd neſaf allan, [yr ydoedd] ſtafell ar gyfer ſtafell yn dair [rhês.

4 Ac ar gyfer yr ſtafelloedd [yr oedd] rhodfa yn ddêc cufydd o lêd, y ffordd o fewn [oedd] vn cufydd, ai dryſſau [oeddynt] tua'r gogledd.

5 A'r ſtafelloedd vchaf [oeddynt] gulion, o herwydd yr ſtafelloedd [hyn] oeddynt [megis] yn llyngcu y lleill [ſef] y rhai iſaf, a'r rhai canol o'r adailadaeth.

6 Canys traianoc [oeddynt] hwy, ac heb golofnau iddynt, fel colofnau y cynteddoedd: am hynny yr oeddynt hwy yn gyfyngach na'r rhai iſaf, ac na'r rhai canol o'r llawr [i fynu.]

7 A'r clawdd yr hwn oedd o'r tu allan ar gyfer yr ſtafelloedd tua'r cyntedd neſaf allan o flaen yr ſtafelloedd [oedd] ddêc cufydd a deugain ei hŷd,

8 O herwydd hŷd yr ſtafelloedd yr rhai [oeddynt] yn y cyntedd neſaf allan [oedd] ddêc cufydd a deugain: ac wele o flaẽ y Deml [yr oedd] cant cufydd.

9 Ac oddi tann y ſtafelloedd hyn [yr ydoedd] drws o du'r dwyrain, ffordd yr elid iddynt hwy o'r cyntedd neſaf allan.

10 O fewn llêd clawdd y cyntedd tua'r dwyrain ar gyfer y llannerch neillduol, ac ar gyfer adail yr ſtafelloedd.

11 A'r ffordd oi blaen hwynt [oedd] yn ôl dull y ſtafelloedd y rhai oeddynt tua'r gogledd, vn hŷd â hwynt [oeddynt,] felly [yr oedd] eu llêd hwynt: ai holl ddryſau, ie vn wedd oeddynt, ac yn agoryd yr vn modd.

12 Ac [yr ydoedd] drws (fel dryſau y ſtafelloedd y rhai [oeddynt] tua'r deau) ym mhen y ffordd [ſef] y ffordd ym mhen y clawdd yn iniawn tua'r dwyrain yn y ddyfodfa i mewn.

13 Ac efe a ddywedodd wrthif, ſtafelloedd y gogledd [ac] ſtafelloedd y deau y rhai [ydynt] ar gyfer y llannerch neillduol, ſtafelloedd y cyſſegr [ydyw] y rhai hynny lle y bwytteu'r offeiriaid y rhai a neſſaant at yr Arglwydd y petheu ſanctaidd cyſſegredic, ac yno y goſodant y ſanctaidd betheu cyſſegredic, a'r bwyd offrwm, a'r pechaberth, a'r aberth tros gamwedd, canys lle cyſſegredic [yw.]

14 A phan ddelo yr offeiriaid i mewn iddynt, nid ânt allan o'r cyſſegr i'r cyntedd neſaf allan, eithr yno y goſodant eu dillad, y rhai y gwaſanaethant ynddynt, am [eu bod] hwy yn ſanctaidd: a gwiſcant hwy wiſcoedd eraill, pan neſſaont i'r lle yr hwn [ſydd] i'r bobl.

15 Pan orphennodd efe feſuro y tŷ o fewn, yna efe a'm dug i tua'r porth yr hwn [ſydd] ai wyneb tua'r dwyrain, ac ai meſurodd ef o amgylch ogylch.

16 Efe a feſurodd du'r dwyrain â chorſen feſſur, yn bump cant o gorſennau, wrth gorſen feſſur oddi amgylch.

17 Efe a feſurodd du yr gogledd yn bump cant corſen, wrth gorſen feſur oddi amgylch.

18 Y tu deau a feſurodd efe yn bump cant corſen wrth gorſen feſur.

19 Efe a aeth o amgylch i du y gorllewyn, ac a feſſurodd bump cant corſen wrth gorſen feſſur.

20 Ef

20 Efe a feſurodd ei bedwar yſtlys ef, mûr [oedd] iddo ef o amgylch ogylch, yn bump cant [corſen] o hŷd, ac yn bump cant [corſen] o lêd, i wahanu rhwng y cyſſegr a'r digyſſegr.

## PEN. XLIII.

Y prophwyd yn gweled gogoniant Duw yn myned i'r Deml: gan arwyddoccau y bydde gogoniant eilwaith i eglwys Dduw. 7 Gau-dduwiaeth y bobl. 9 Y prophwyd yn eu hannog hwy i edifeirwch: ac yn gweled arwyddion o faddeuant eu pechodau.

AC efe a'm dug fi i'r porth [ſef] y porth yr hwn ſydd yn edrych tua'r dwyrain.

2 Ac wele ogoniant Duw 'r Iſrael yn dyfod oddi wrth y dwyrain, ai lais fel ſŵn dyfroedd lawer, a'r ddaiar yn diſcleirio oi ogoniãt ef.

Ezec.9.3. 3 A'r golwg [oedd] *fel y golwg a welſwn, [ſef] fel y golwg yr hwn a welais pan ddaethwn yng-hylch difetha y ddinas: ie y gweledigaethau [oeddynt] fel y weledigaeth yr hon a welſwn wrth afon Chebar: yna y ſyrthiais ar fy wyneb.

Ezec.10.4. Ezec. 11.22. 4 A *gogoniant yr Arglwydd a ddaeth i'r tŷ [ar hŷd] ffordd y porth yr hwn [ſydd] ai wyneb tua'r dwyrain.

5 Yna yſpryd a'm cododd fi, ac a'm dûg i'r cynteddneſſaf i mewn, ac wele llanwaſe gogoniant yr Arglwydd y tŷ.

6 Clywn hefyd [vn] yn llefaru wrthif o'r tŷ: ac yr ydoedd gŵr yn ſefyll yn fy ymyl:

7 Ac efe a ddywedodd wrthif, ha fab dyn [dymma] lle fyng-orſeddfa, a lle gwadnau fy nhraed, (lle y trigaf ym myſc meibion Iſrael yn dragywydd) a'm henw ſanctaidd ni haloga tŷ Iſrael mwy, hwynt ai brenhinoedd trwy eu putteindra, na thrwy gyrph meirw eu brenhinoedd [yn] eu huchel-leoedd,

8 Er rhoddi o honynt eu rhinniog wrth fy rhinniog mau fi, ai gorſyn wrth fyng-orſyn mau fi, a phared rhyngof fi â hwynt, etto hwynt a halogaſant fy enw ſanctaidd ai ffieidd-dra hwynt y rhai a wnaethant: am hynny mi ai hyſſais hwynt yn fy llid.

9 Pellhânt yr awr hon eu putteindra, a chelanedd eu brenhinoedd oddi wrthif fi, ac mi a drigaf yn eu myſc hwy yn dragywydd.

10 Ti fab dŷn, mynega am y tŷ hwn i dŷ Iſrael fel y cywilyddiant am eu hanwireddau, ac y meſurant ſiampl [iddynt eu hun.]

21 Ac os cywilyddiant am yr hyn oll a wnaethant, yſpyſſa iddynt, ac yſcrifenna o flaen eu llygaid hwynt bortreiad y tŷ ai lun, ai fynediadau allan, ai ddyfodiadau i mewn, ie ei holl ddull, ai holl ddeddfau, ai holl luniau, ai holl gyfreithiau, fel y cadwant ei holl ddull ef, ai holl ddeddfau, ac y gwnelant hwynt.

12 Dymma ddull y tŷ, ar ben y mynydd [y bydd] ei holl derfyn ef, yn gyſſegr ſancteiddiolaf o amgylch ogylch: wele dymma ddull y tŷ.

13 Dymma feſurau 'r allor wrth gufyddau, o gufydd a dyrnfedd [bob] cufydd: y gwaelod [fydd] gufydd, a'r llêd yn gufydd, a'r ymylwaith ar ei min yn vn rhychwant o amgylch: ac dymma vchter yr allor.

14 Ac o'r gwaelod [yr hwn ſydd ar] y llawr hyd y darn iſſaf [y bydd] dau gufydd ac vn cufydd o lêd a phedwar cufydd o'r darn lleiaf hyd y mwyaf, a chufydd o lêd.

15 A'r allor [oedd] bedwar cufydd, ac o'r allor [yr oedd] hefyd tu ag i fynu bedwar o gyrn.

16 A'r allor [oedd] ddeuddec [cufydd] o hŷd, a deuddec o lêd, yn ſcwâr yn ei phedwar yſtlys.

17 A'r ffrâm [oedd] bedwar [cufydd] ar ddêc o hŷd, a phedwar ar ddêc o lêd hyd ei phedair congl, a'r ymyl-waith o amgylch iddi yn hãner cufydd, a gwaelod iddi yn gufydd o amgylch: ai griſſiau yn edrych tua'r dwyrain.

18 Ac efe a ddywedodd wrthif, ha fâb dyn, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: dymma ddeddfau 'r allor, yn y dydd y gwneler hi, i boeth-offrymmu poeth offrwm, ac i daenellu gwaed arni.

19 Yna y rhoddi at y Lefiadaidd offeiriaid (y rhai ydynt o hâd Zadoc, yn neſſau attafi medd yr Arglwydd Dduw i'm gwaſanaethu) fuſtach ieuangc yn bech-aberth.

20 A chymmer oi waed ef, a dyro ar ei phedwar corn hi, ac ar bedair congl y ffrâm, ac ar yr ymyl o amgylch: felly glanhâ, a chyſſegra hi.

21 Cymmer hefyd fuſtach y pech-aberth, a llosc ef yn y lle nodedig i'r tŷ, o'r tu allan i'r cyſſegr.

22 Ac ar yr ail dydd offrwm di fwch geifr perffaithgwbl yn bech-aberth, fel y cyſſegront yr allor megis y cyſſegraſant hi a'r buſtach.

23 Pan orphennech gyſſegru, offrwm di fuſtach ieuangc perffaith-gwbl, a hwrdd perffaith-gwbl o'r praidd.

24 Hefyd o flaen yr Arglwydd yr offrymmi hwynt, a'r offeiriaid a fwriant halen arnynt, ac ai hoffrymmant hwy yn boeth offrwm i'r Arglwydd.

25 Saith niwrnod yr offrymmi fwch yn bech-aberth bob dydd: felly yr offrymmant fuſtach ieuangc a hwrdd o'r praidd o rai perffaith-gwbl.

26 Saith niwrnod y cyſſegrant yr allor, ac y glanhânt hi, ac yr ymgyſſegrant.

27 A phan ddarffo y dyddiau hyn, bydd ar yr wythfed dydd ac o hynny allan i'r offeiriaid offrymmu ar yr allor eich poeth offrymmau, a'ch ebyrth hedd, ac mi a fyddaf fodlon i chwi medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN XLIIII.

Yr achos yr oedd porth dwyrain y deml yn gaead. 6 Cerydd Iſrael am ddwyn dieithriaid i waſanaethu yn Nheml yr Arglwydd. 9 Pwy a waſanaethant yno, ac ym mha râdd.

AC efe a wnaeth i'm ddychwelyd tua phorth neſſaf allan y cyſſegr, yr hwn oedd yn edrych tua'r dwyrain, ac efe oedd yn gaead.

2 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif, y porth hwn ſydd caead, * nid agorir ef, ac nid Ezec.46.8.

aiff neb trwyddo ef, o herwydd Arglwydd Dduw Iſrael aeth trwyddo ef, am hynny y bydd yn gaead.

3 Y tywyſog [ai piau ef,] y tywyſog ei hun a eiſtedd ynddo, i fwytta bara o flaen yr Arglwydd: ar hŷd ffordd cyntedd y porth y daw efe i mewn, a'r vn ffordd yr aiff efe allan.

4 Ac efe a'm dûg i tua phorth y gogledd o flaen y tŷ, yna yr edrychais, ac wele, llawnaſe gogoniant yr Arglwydd dŷ Dduw: a mi a ſyrthiais ar fy wyneb.

5 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif, goſot dy galon fab dŷn, a gwel a'th lygaid, clyw hefyd a'th gluſtiau 'r hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthit, am holl ddeddfau tŷ 'r Arglwydd, ac am ei holl gyfreithiau, a goſot dy feddwl ar ddyfodfa y tŷ, ac ar bob mynedfa allan o'r cyſſegr.

6 A dywet wrth anufyddgar dŷ Iſrael, fel hyn y dywedodd yr Arglwydd Dduw, digon yw i chwi [hyn] (tŷ Iſrael) o'ch holl ffieidd-dra,

Ezec.23.40.
7 Gan ddwyn o honoch *ddieithriaid dienwaededic o galon a dienwaededic o gnawd i fod yn fyng-hyſſegr, gan halogi fy nhŷ mau fi, pan offrymmaſoch fy mara, braſder, a gwaed, a halogi o honynt hwythau fyng-hyfammod yn eich holl ffiedd-dra chwi,

8 Ac na chadwaſoch gadwriaeth fy [mhethau] cyſſegredic, eithr goſſod o honoch i chwi eich hunain geidwaid [ar] fyng-hadwriaeth yn fyng-hyſſegr:

9 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, ni ddaw i'm cyſſegr vn mab dieithr, dienwaededic o galon, a dienwaededic o gnawd, o'r holl feibion dieithr y rhai [ydynt] ym myſc meibion Iſrael.

2.Bren.23.9.
10 Eithr y *Lefiaid (y rhai a giliaſant oddi wrthif, y rhai pan gyfeiliornodd Iſrael, a gyrwydraſant oddi wrthif ar ôl eu delwau) a ddygant hefyd eu hanwiredd eu hunain.

11 Ac a fyddant yn fyng-hyſſegr yn weinidogion [mewn] ſwydd ym mhyrth y tŷ, ac yn weinidogion y tŷ: hwynt a laddant yr offrwm poeth, a'r aberth i'r bobl, a hwynt a ſafant oi blaen hwy iw gwaſanaethu hwynt.

12 O herwydd gwaſanaethu o honynt hwynt o flaen eu gau-dduwiau, a bod o honynt i dŷ Iſrael yn dramgwydd anwiredd, am hynny y derchefais fy llaw yn eu herbyn hwynt medd yr Arglwydd Dduw, a hwy a ddygant eu hanwiredd.

13 Ac ni ddeuant yn agos attaf fi i offeiriadu i mi, nac i neſſau at fy holl [bethau] ſanctaidd i'r cyſſegr ſancteiddiolaf: eithr dygant eu cywilydd ai ffieidd-dra y rhai a wnaethant.

14 A rhoddaf hwynt yn geidwad cadwriaeth y tŷ yn ei holl waſanaeth, ac yn yr hyn oll a wneir ynddo ef.

15 A'r offeiriaid [ſef] y Lefiaid, meibion Zadoc y rhai a gadwaſant gadwriaeth fyng-hyſſegr, pan gyfeiliornodd meibion Iſrael oddi wrthif, hwynt a neſſânt attafi i'm gwaſanaethu, ac a ſafant o'm blaen, i offrymmu i mi fraſter a gwaed, medd yr Arglwydd Iôr.

16 Hwynt a ddeuant i'm cyſſegr mau fi, a hwynt a neſſânt at fy mwrdd i'm gwaſanaethu, ac a gadwant fyng-hadwriaeth.

17 A phan ddelont i byrth y cyntedd neſſaf i mewn, gwiſcant wiſcoedd lliain, ac na ddeued gwlan am danynt, tra y gwaſanaethant ym mhyrth y cyntedd neſſaf i mewn, ac o fewn.

18 Cappiau lliain fyddant am eu pennau hwynt, a llawdrau lliain fyddant am eu lwynau hwynt: nac ymwiſcant mewn chwŷſlyd [wiſc.]

19 A phan elont i'r cyntedd neſſaf allan (ſef at y bobl i'r cyntedd oddi allan) dioſcant eu gwiſcoedd y rhai y gwaſanaethant ynddynt, a goſodant hwynt o fewn celloedd y cyſſegr, a gwiſcant ddillad eraill, ac na chyſſegrant y bobl ai gwiſcoedd.

20 Eu pennau hefyd ni eilliant, ac na ollyngant [eu] gwallt [yn hîr] gan dalgrynnu talgrynnant eu pennau.

21 Hefyd *nac yfed vn offeiriad win, pan ddelont i'r cyntedd neſſaf i mewn.
Lefit.21.13.

22 Na chymerant ychwaith yn wragedd iddynt wraig weddw, neu yſcaredic, eithr morwynion o hâd tŷ Iſrael, neu'r weddw, yr hon a fyddo gweddw o offeiriad a gymmerant.

23 A dyſcant i'm pobl [ragoriaeth] rhwng cyſſegr, a digyſſegr, a gwnant iddynt wybod [gwahan] rhwng aflan a glân.

24 A hwynt a ſafant mewn barn am ymryſon, ac a farnant yn ôl fy marnedigaethau mau fi: cadwant hefyd fyng-hyfreithiau a'm deddfau yn fy amſeroedd goſſodedic, a ſancteiddiant fy Sabbothau.

25 Ni ddeuant ychwaith *at ddŷn marw i ymhalogi, eithr wrth dâd, ac wrth fam, ac wrth fab, ac wrth ferch, wrth frawd, ac wrth chwaer, yr hon ni byddo eiddo gŵr yr ymhalogant.
Lefi.21.1.2.11

26 Ac wedi ei buredigaeth y cyfrifir iddo ſaith niwrnod.

27 A'r dydd y delo i'r cyſſegr, o fewn y cyntedd neſſaf i mewn, i weini yn y cyſſegr, offrymmed ei bech-aberth medd yr Arglwydd Dduw.

28 *A'r offeiriadaeth fydd yn etifeddiaeth iddynt hwy: myfi [ydwyf] eu etifeddiaeth hwy, am hynny na roddwch etifeddiaeth iddynt hwy yn Iſrael, myfi [ydwyf] eu etifeddiaeth hwy.
Deut.18 1.
Num.18.20.

29 Y bwyd offrwm a'r pech-aberth, a'r áberth tros gamwedd a fwyttânt hwy, a phob dioſryd-beth yn Iſrael fydd eiddo hwynt.

30 *Blaenion hefyd pob cyntafanedic oll, a derchâfel offrwm pob dim oll o'ch holl dderchafel offrymmau fydd eiddo 'r offeiriaid: blaen-ffrwyth eich toes hefyd a roddwch i'r offeiriad i oſod bendith ar dy dŷ.
Exod.13.2.
Exod.22.29.
Exod.34.19.
Num.3.13.

31 Na fwyttaed yr offeiriaid ddim burgyn, neu yſclyfaeth o aderyn, neu o anifail.
Exod.22.31.
Lefit.22.8.

## PEN. XLV.

Bod pedair rhan naillduol yn nhîr yr addewid, y gyntaf yn perthynu i'r offeiriaid a'r Deml. Yr ail i'r Lefiaid. Y drydedd i'r ddinas. A'r bedwaredd i'r tywyſog.

wyſog. 10 Am bwyſau a meſſurau iniawn. 13 Am flaen-ffrwyth, ac offrwm.

A Phan rannoch y tîr yn etifeddiaeth yr offrymmwch i'r Arglwydd offrwm cyſſegredic o'r tîr, yn hŷd pum mil ar hugain [o gorſennau] o hŷd, a deng-mil o lêd: cyſſegredic [fydd] hynny yn ei holl derfyn o amgylch.

2 O hyn [y bydd] wrth y cyſſegr bump cant [ar hŷd,] a phump cant [ar lêd,] yn bedair-ongloc oddi amgylch: a dêc cufydd a deugain yn faes pentre-fol iddo o amgylch.

3 Ac o'r meſſur hwn y meſſuri bum mîl ar hugain o hŷd, a deng-mil o lêd, ac yn hwnnw y bydd cyſſegrfa y cyſſegr ſancteiddiolaf.

4 Hyn o'r tir fydd gyſſegredic i'r offeiriaid, y rhai a waſanaethant y cyſſegr, y rhai a neſſânt i waſanaethu yr Arglwydd: ac efe a fydd iddynt yn lle tai, ac yn gyſſegrfa i'r cyſſegr.

5 A phum mîl ar hugain o hŷd, a deng-mil o lêd fydd hefyd i'r Lefiaid, y rhai a waſanaethant y tŷ yn etifeddiaeth vgain o ſtafelloedd iddynt.

6 Rhoddwch hefyd bum mîl o lêd, a phum mil ar hugain o hŷd yn etifeddiaeth y ddinas, ar gyfer yr offrwm cyſſegredic: i holl dŷ Iſrael y bydd [hyn.]

7 Ac i'r tywyſog [y bydd] o bob tu i'r offrwm cyſſegredic, ac i etifeddiaeth y ddinas, ar gyfer yr offrwm cyſſegredic, ac ar gyfer etifeddiaeth y ddinas o du 'r gorllewyn hyd y gorllewyn, ac o du 'r dwyrain hyd y dwyrain: a'r-hŷd [fydd] ar gyfer [pob] vn o'r rhannau o derfyn y gorllewyn hyd derfyn y dwyrain.

8 [Hyn] o'r tîr fydd iddo yn etifeddiaeth yn Iſrael, fel na orthrymmo fy nhywyſogion fy mhobl i mwy, a'r [rhan] arall o'r tir a roddant i dŷ Iſrael yn ôl eu llwythau.

9 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, digon i chwi hyn dywyſogion Iſrael, bwriwch ymmaith drawſder a difrod, gwnewch hefyd farn a chyfiawnder, tynnwch ymmaith eich trethau oddi ar fy mhobl medd yr Arglwydd Dduw.

Lefit.5.11. 1.Bren.5.11. 10 Bydded gennwch bwyſau iniawn, ac * Epha iniawn, a Bath iniawn.

11 Bydded yr Epha a'r Bath vn feſur gan gynnwys o'r Bath ddecfed rann Homer, a'r Epha ddecfed rann Homer: wrth yr Homer y bydd eu meſſur hwynt.

Exod.30.13. Lefit.27.25. Num.3.47. 12 Y Sicl [fydd] vgain Gerah, [ac] vgain Sicl, a phump Sicl ar hugain, a phymthec Sicl fydd Maneh i chwi.

13 Dymma 'r offrwm derchafel yr hwn a dderchefwch, chweched rann Epha o Homer o wenith, felly y rhoddwch chweched rann Epha o Homer o haidd.

14 A deddf yr olew [ſef] Bath o olew, decfed rann Bath a roddwch o'r Corus: dêc Bath [yw] Homer: o herwydd dêc Bath [a lanwant] Homer.

15 Un millin hefyd o'r praidd [a offrymmwch] o [bob] deucant allan o ddolydd Iſrael, yn fwyd offrwm, ac yn boeth offrwm, ac yn aberthau hedd i wneuthur iawn troſtynt medd yr Arglwydd Dduw.

16 Holl bobl y tîr fyddant tann yr offrwm hwnn dros y tywyſog yn Iſrael.

17 Ac ar y tywyſog y bydd poeth offrwm, a bwyd offrwm, a diod offrwm, ar yr vchel wyliau, ar newydd loerau, a'r Sabbothau drwy holl oſſodedic wyliau tŷ Iſrael: efe a offrymma bech-aberth, a bwyd offrwm, a phoeth offrwm, ac aberthau hedd i wneuthur iawn tros dŷ Iſrael.

18 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, o fewn y [mis] cyntaf, a'r y [dydd] cyntaf o'r mîs y cymmeri fuſtach ieuangc perffaith-gwbl, ac y puri y cyſſegr.

19 Yna y cymmer yr offeiriad o waed y pech aberth, ac ai rhydd ar orſing y tŷ, ac ar bedair congl ffrâm yr allor, ac ar orſing porth y cyntedd neſſaf i mewn.

20 Felly y gwnei hefyd ar y ſeithfed [dydd] o'r mîs tros y neb a becho yn amryfus, a thros yr ehud, felly y purwch y tŷ.

21 Yn y [mis] * cyntaf ar y pedwerydd dydd ar ddêc o'r mis y bydd i chwi Baſc, vchel-wyl [fydd] i chwi ſaith niwrnod, [a] bara croiw a fwyttewch. Exo.12.18. Lefit.23.5.

22 A'r tywyſog a offrymma ar y dydd hwnnw droſto ei hun, a thros holl bobl y wlad fuſtach yn bech-aberth.

23 A ſaith niwrnod yr vchel-wyl yr offrymma efe yn offrwm poeth i'r Arglwydd ſaith o fuſtych, a ſaith o hyrddod perffaith-gwbl bob dydd o'r ſaith niwrnod, a bwch geifr yn bech-aberth bob dydd.

24 Bwyd offrwm hefyd a offrymma efe ſef Epha gyd â [phob] buſtach, ac Epha gyd â [phob] hwrdd: a Hin o olew gyd a'r Epha. Exod.29.40.

25 Yn y ſeithfed [mis,] ar y pymthecfed dydd o'r mis, offrymmed ar yr vchel-wyl [tros] ſaith niwrnod fel hyn: [ſef] fel y pech-aberth, fel y poeth offrwm, ac fel y bwyd offrwm, ac fel yr olew [hyn.]

## .PEN. XLVI.

Pa aberthau fyddent ar y Sabbothau, a'r newydd-loerau. 8 Pa ffordd y delid i'r Deml, ac yr elid allan o honi.

FEl hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, porth y cyntedd neſſaf i mewn, yr hwn ſydd yn edrych tua 'r dwyrain fydd yn gaead y chwe diwrnod gwaith, ond ar y dydd Sabboth yr agorir ef: felly 'r agorir ef ar ddydd y newydd loer.

2 A'r tywyſog a ddaw oddi allan [ar hŷd] ffordd cyntedd y porth, ac a ſaif wrth orſing y porth, yna yr offrymma 'r offeiriad ei boeth offrwm ef, ai aberthau hedd, ac yr addola efe wrth riniog y porth, ac a aiff allan, a'r porth ni chauir hyd yr hwyr.

3 Pobl y tîr a addolant hefyd [wrth] ddrws y porth hwnnw ar y Sabbothau, ac ar y newydd

wydd-loerau o flaen yr Arglwydd.

4 A'r offrwm poeth yr hwn a offrymmo 'r tywyſog i'r Arglwydd ar y dydd Sabboth [ſydd] chwech o ŵyn perffaith-gwbl, a hwrdd perffaith-gwbl.

5 A bwyd offrwm o Epha gyd a'r hwrdd, a rhodd ei law o fwyd offrwm gyd a'r ŵyn, a ĥin o olew gyd a'r Epha:

6 Ac ar ddydd y newyddloer, bustach ieuangc perffaith-gwbl, a chwech o ŵyn, a hwrdd [y rhai hynny ſyddant perffaith-gwbl.

7 Offrymmed hefyd Epha gyd a'r bustach, ac Epha gyd a'r hwrdd yn fwyd offrwm: a chyd a'r ŵyn fel y cyrhaeddo ei allu ef, a ĥin o olew gyd â [phob] Epha.

8 A phan ddelo yr tywyſog i mewn [ar hŷd] ffordd cyntedd y porth y daw: ac ar hŷd y ffordd honno yr aiff allan.

9 A phan ddelo pobl y tir o flaen yr Arglwydd ar y gwyliau goſodedic, yr hwn a ddelo trwy borth y gogledd i addoli a aiff allan trwy borth y deau: a'r hwn a ddelo trwy borth y deau a aiff allan trwy borth y gogledd, na ddychweled i'r hwn y daeth i mewn trwyddo, eithr eled allan ar ei gyfer.

10 A phan ddelont hwy i mewn y daw 'r tywyſog yn eu myſc hwy, a phan elont allan yr aiff yntef allan.

11 Ar yr vchel wyliau hefyd y bydd y bwyd offrwm o Epha gyd â [phob] bustach, ac Epha gyd â [phob] hwrdd, a rhodd ei law gyd a'r ŵyn, a ĥin o olew gyd a'r Epha.

12 A phan offrymmo yr tywyſog offrwm gwirfodd neu aberth hedd gwirfodd i'r Arglwydd, yna 'r egir iddo 'r porth yr hwn ſydd yn edrych tua 'r dwyrain, ac yr offrwm ei boeth offrwm, a'i aberthau hedd, fel y gwnae ar y dydd Sabboth: ac a aiff allan ac a gaea 'r porth ar ol ei fynediad allan.

13 Oen blwydd perffaith-gwbl hefyd a offrwmmi yn boeth offrwm i'r Arglwydd beunydd: o foreu i foreu yr offrymmi ef.

14 Offrymmi hefyd yn fwyd offrwm gyd ag ef o foreu i foreu, chweched ran Epha [o beillied, a thrydedd rann ĥin o olew i gymmyſcu 'r peillied: [fel] yn fwyd offrwm i'r Arglwydd [trwy] ddeddfau tragywyddol byth.

15 Felly 'r offrymmant yr oen a'r bwyd offrwm, a'r olew, o foreu i foreu yn boeth offrwm byth.

16 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, os rhydd y tywyſog rodd i neb oi feibiõ oi etifeddiaeth eiddo ei feibion ſydd hynny, eu cyfiawnder hwy [yw] hynny o etifeddiaeth.

Lefit.25.9. 17 Ond pan roddo efe rodd oi etifeddiaeth i vn oi weiſion, bydd hefyd eiddo hwnnw hyd flwyddyn y *rhydd-did, yna y dychwel i'r tywyſog, etto ei etifeddiaeth [ſydd eiddo] ei feibion, [ac] eiddynt hwy fydd.

Ezec 45.8. 18 Ac na *chymmered y tywyſog o etifeddiaeth y bobl, gan eu gorthrymmu hwynt am eu cyfiawnder, rhodded etifeddiaeth iw feibion, oi gyfiawnder ei hun, fel na wascarer fy mhobl bob vn allan oi etifeddiaeth.

19 Ac efe am dûg trwy 'r ddyfodfa yr hon [oedd] ar yſtlys porth yr offeiriaid i'r stafelloedd cyſſegredic y rhai oeddynt yn edrych tua 'r gogledd: ac wele yno le yn yr yſtlyſſau neſſaf i'r dwyrain.

20 Ac efe a ddywedodd wrthif, dymma 'r fãn lle y beirw 'r offeiriaid yr aberth tros gãwedd, a'r pech aberth, [ac] lle y pobant y bwyd offrwm heb ddwyn [dim] i'r cyntedd neſſaf allan i gyſſegru 'r bobl.

21 Ac efe a'm dûg i'r cyntedd neſſaf allan, ac a'm tywyſodd i bedair congl y cyntedd, ac wele gyntedd ym mhob congl i'r cyntedd.

22 Ym mhedair congl y cyntedd [yr ydoedd] gynteddau cyſſylltiedic, o ddeugain [cufydd] o hŷd, a dêc ar hugain o lêd: vn feſſur [oedd] i'r conglau ill pedair.

23 Ac [yr ydoedd] mûr o amgylch ogylch iddynt ill pedair, a cheginau wedi eu gwneuthur oddi tann y muroedd oddi amgylch.

24 Ac efe a ddywedodd wrthif, dymma dŷ y cogau, lle y beirw gwenidogion y tŷ aberth y bobl.

## PEN. XLVII.

Gweledigaeth y dyfroedd y rhai a ddaethant o'r Deml.
13 Terfynau a rhanniad y tir.

AC efe a wnaeth i'm ddychwelyd i ddrws y tŷ, ac wele ddwfr yn dyfod allan oddi tann riniog y tŷ tua 'r dwyrain, o herwydd talcen y tŷ [oedd tua] 'r dwyrain: a'r dyfroedd oeddynt yn deſcyn oddi tann yſtlys dehau 'r tŷ, o du 'r deau i'r allor.

2 Ac efe a'm dug i [ar hŷd] ffordd porth y gogledd, ac a wnaethim amgylchu y ffordd oddi allan, hyd y porth neſſaf allan [ar hŷd] y ffordd yr hon ſydd yn edrych tua 'r dwyrain: ac wele ddyfroedd yn tarddu o'r yſtlys dehau.

3 Pan aeth y gŵr (yr hwn oedd â'r llinin yn ei law) allan tua 'r dehau, yno y meſſurodd fil o gufyddau, ac a'm tywyſodd i'r dwfr, a'r dwfr hyd y fferau.

4 Ac efe a feſſurodd fil [eraill,] ac a'm tywyſodd i'r dwfr, [a'r] dwfr hyd y gliniau, ac a feſſurodd fil [eraill,] ac a'm tywyſodd, a'r dyfroedd hyd y lwynau.

5 Ac a feſſurodd fil [eraill mewn] afon yr hon ni allwn fyned trwyddi, canys codaſſe y dyfroedd yn ddyfroedd nofiadwy, [ac] yn afon yr hon nid eid trwyddi.

6 Ac efe a ddywedodd wrthif, oni welaiſt di [hyn] fab dŷn? yna i'm tywyſodd, ac i'm dychwelodd hyd lann yr afon.

7 A phan i'm dychwelodd, wele ar lann yr afon goed lawer iawn o bob tu.

8 Ac efe a ddywedodd wrthif, y dyfroedd hyn ydynt yn myned allan tua brô y dwyrain, ac a ddeſcynnant ar y gwaſtad, ac a ânt *tua 'r môr, ac wedi myned i'r môr yr iecheuir y dyfroedd. Zach.14.8.

9 Yna y bydd pob peth byw, yr hwn a ymluſco i'r lle oll y delo 'r afonydd [hyn] fyw, ac fe a fydd pyſcod lawer iawn, o herwydd dyfod y dyfroedd hynn yno: canys iachus fyddāt, a phob dim lle y delo 'r afon fydd byw.

10 A bydd i'r pyſcod-wŷr ſefyll arni o En Gedi, hyd En Eglaim, [y rhai] fyddant yn danfa rhwydau: eu pyſcod fyddant yn ôl eu rhyw fel pyſcod y môr mawr, yn aml iawn.

11 Ei chorſydd, ai ffoſydd ni iacheuir, yn halen y rhoddir hwynt.

12 Eithr ar yr afon y cyfyd ar ei glann o'r ddau tu bob prenn ymborth, ei ddalen ni ſyrth, ai ffrwyth ni dderfydd, yn ei bryd yr addfeda, o herwydd ei ddyfroedd ydynt yn dyfod allan o'r cyſſegr: am hynny y bydd ei ffrwyth yn ymborth, ai afalau yn feddiginiaeth.

13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, dymma y terfyn wrth yr hwn y rhennwch y tir yn etifeddiaeth i ddeuddec llwyth *Iſrael, Ioſeph a [gaiff ddwy] o rannau.

Gen. 48. 22.

14 Hefyd chwi ai hetifeddwch hi, yr hon a *dyngais ar ei rhoddi i'ch tadau bob vn fel ei gilydd, felly y ſyrth y tir hwn i chwi yn etifeddiaeth.

Gen.12.7.
Gen.13.15.
Gen.15.18.
Gen.26.4.
Deut.34.4.

15 Dymma derfyn y tir o du yr gogledd, o'r môr mawr tua Hethlon, ffordd yr eir i Zedada.

16 [Sef] Hamath, Berotha, [a] Sabarim, y rhai [ydynt] rhwng terfyn Damaſcus, a therfyn Hamath, Hazar, [ac] Hatticon, y rhai [ydynt] ar derfyn Hauran.

17 Felly y bydd terfyn o fôr Hazar, Enan, [ſef] terfyn Damaſcus, a [therfyn] y gogledd tua 'r gogledd, a therfyn Hamath: ac dymma du y gogledd.

18 Ac yſtlys y dwyrain a feſurwch chwi oddi rhwng Hauran a Damaſcus, a Gilead, a thîr Iſrael [wrth] yr Iorddonen [ſef] o'r terfyn hyd fôr y dwyrain: ac dymma du y dwyrain.

19 A thu 'r deau tu a Theman o Thamar hyd ddyfroedd cynnen Cades, [a'r] afon hyd y môr mawr: ac dymma du yr deau tua Theman.

20 A thu yr gorllewyn [fydd] y môr mawr o'r terfyn hyd oni ddelir ar gyfer Hamath: dymma du 'r gorllewyn.

21 Felly y rhennwch y tîr hwn i chwi yn ôl llwythau Iſrael.

22 Bydded hefyd rannu o honoch y hi yn etifeddiaeth i chwi, ac i'r dieithriaid y rhai a ymdeithiant yn eich myſc chwi, y rhai a genhedlant blant yn eich plith chwi, a byddant i chwi fel vn wedi ei eni ym myſc meibion Iſrael: gyd â chwi y bwriant am etifeddiaeth ym myſc llwythau Iſrael.

23 A bydded ym mha llwyth bynnac yr ymdeithio y dieithr gyd ag ef, yno y rhoddwch ei etifeddiaeth ef medd yr Arglwydd Dduw.

## PEN. XLVIII.

Rhan rhai o'r llwythau. 9 Rhannau y Deml, y Leſiaid y ddinas, a'r tywyſog. 24 Rhannau y llwythau eraill. 31 Pyrth y ddinas.

A Dymma henwau y llwythau: Dan [fydd] vn ar y cwrr neſſaf i'r gogledd ar fin ffordd Hethlon, ffordd yr eir i Hamath, Hazar, Enan, [a] therfyn Damaſcus tua 'r gogledd ar fin Hamath [y rhai hyn] oeddynt eiddo ef [o] du yr dwyrain [hyd] y gorllewyn.

2 Ac ar derfyn Dan, o du yr dwyrain hyd du 'r gorllewyn Aſer [fydd] vn.

3 Ac o derfyn Aſer, o du 'r dwyrain hyd du yr gorllewyn Nephthali [fydd] vn.

4 Ac ar derfyn Nephthali, o du 'r dwyrain hyd du 'r gorllewyn Manaſſes [fydd] vn.

5 Ac ar derfyn Manaſſes, o du 'r dwyrain, hyd du 'r gorllewyn Ephraim [fydd] vn.

6 Ac ar derfyn Ephraim, o du 'r dwyrain hyd du 'r gorllewyn Ruben [fydd] vn.

7 Ac ar derfyn Ruben, o du 'r dwyrain hyd du 'r gorllewyn Iuda [fydd] vn.

8 Ac ar derfyn Iuda, o du 'r dwyrain hyd du 'r gorllewyn [y bydd] yr offrwm yr hwn a offrymmoch yn bum mil ar hugain [o gufyddau] o hŷd, ac o lêd fel vn o'r rhannau [hyn: ſef] o du 'r dwyrain hyd du 'r gorllewyn: a'r cyſſegr fydd yn ei ganol.

9 Yr offrwm yr hwn a offrymmoch i'r Arglwydd [fydd] bum mil ar hugain o hŷd, a deng-mil o lêd,

10 Ac eiddo y rhai hyn fydd yr offrwm cyſſegredic [ſef] eiddo 'r offeiriaid [fydd] pum mil ar hugain tua 'r gogledd [o hŷd,] a deng-mil tua 'r gorllewyn o lêd: felly deng-mil tua 'r dwyrain o lêd, a phum-mil ar hugain tua 'r dehau o hŷd: a chyſſegr yr Arglwydd fydd yn ei ganol,

11 I'r offeiriaid cyſſegredic o feibion *Zadoc y rhai a gadwaſant fyng-hadwriaeth, y rhai ni chyfeiliornaſant pan gyfeiliornodd plant Iſrael, megis y cyfeiliornodd y Leſiaid.

Ezec.44.15.

12 Am hynny y bydd eiddynt yr hyn a offrymmir o offrwm y tir, yn ſancteidd-beth cyſſegredic wrth derfyn y Leſiaid.

13 A'r Leſiaid a [gânt] ar gyfer terfyn yr offeiriaid bum mil ar hugain o hŷd, a deng-mil o lêd: pob hŷd [fydd] bum mil ar hugain, a'r llêd yn ddeng-mil.

14 Hefyd na werthant [ddim] o honaw, na chyfnewidied [neb] ychwaith, ac na throſclwydded flaen-ffrwyth y tîr, o herwydd cyſſegredic [yw] i'r Arglwydd.

15 A'r pum mil eraill o lêd, ar gyfer y pum mil ar hugain fydd ddigyſſegredic, yn drigfa ac yn faes pentrefol i'r ddinas, a'r ddinas fydd yn ei ganol.

16 Ac dymma ei feſurau ef, yſtlys y gogledd [fydd] bump cant, a phedair mil, ac yſtlys y deau bump cant, a phedair mil: felly o du 'r dwyrain yn bump cant, a phedair mil, a thu 'r gorllewyn yn bump cant, a phedair mil.

17 Maes pentrefol y ddinas fydd hefyd tua

“ 'r gogledd yn ddau cant cufydd, a dêc a deugain,
“ ac yn ddeucant a dêc a deugain tua'r deau, ac
“ yn ddeucant a dêc a deugain tua'r dwyꝛain, ac
“ yn ddeucant a dêc a deugain tua 'r goꝛllewyn.
“ 18 A'r rhan arall o hŷd ar gyfer yꝛ offrwm
“ cyſſegredic [fydd] yn ddeng-mil [o gufyddau]
“ tua'r dwyꝛain, yn deng-mil tua 'r goꝛllewyn,
“ ac ar gyfer yꝛ offrwm cyſſegredic y bydd, ai
“ gnwd fydd yn ymboꝛth i weinidogion y ddinas.
“ 19 A gweinidogion y ddinas ai gwaſanaethant
“ o holl lwythau Iſrael.
“ 20 Yꝛ holl offrwm [fydd] bum mil ar hugain
“ [o hŷd,] gyd â phum mil ar hugain [o
“ lêd,] yn bedair ongloc yꝛ offrymmwch yꝛ offrwm
“ cyſſegredic gyd ag etifeddiaeth y ddinas.
“ 21 A'r hyn a adewir i'r tywyſog o ddeu-tu
“ 'r offrwm cyſſegredic, ac etifeddiaeth y ddinas,
“ ar gyfer y pum mil ar hugain o [gufyddau] yꝛ
“ offrwm, hyd terfyn y dwyꝛain, a thua 'r goꝛllewyn,
“ ar gyfer y pum mil ar hugain [o gufyddau]
“ ar derfyn y goꝛllewyn: gyferbyn a'r rhannau
“ [hyn] fydd eiddo 'r tywyſog: felly yꝛ offrwm
“ cyſſegredic, a chyſſegrfa'r tŷ fydd yng-hanol
“ hynny.
“ 22 Felly o etifeddiaeth y Lefiaid, ac o etifeddiaeth
“ y ddinas yng-hanol yꝛ hyn fyddo i'r
“ tywyſog, rhwng terfyn Iuda, a therfyn Beniamin,
“ eiddo 'r tywyſog fydd:
“ 23 Ac [am] y rhann arall o'ꝛ llwythau,
“ Beniamin [fydd] vn o du'r dwyꝛain hyd du yꝛ
“ goꝛllewyn.
“ 24 Ac ar derfyn Beniamin, Simeon [fydd]
“ vn o du 'r dwyꝛain hyd du 'r goꝛllewyn.

25 Ac ar derfyn Simeon, Iſſachar [fydd] ”
vn o du 'r dwyꝛain hyd du'r goꝛllewyn. ”
26 Ac ar derfyn Iſſachar, Zabulon [fydd] vn ”
o du 'r dwyꝛain hyd du 'r goꝛllewyn. ”
27 Ac ar derfyn Zabulon, Gad [fydd] vn o ”
du 'r dwyꝛain hyd du 'r goꝛllewyn. ”
28 Ac ar derfyn Gad, ar y tu dehau tua Theman, ”
y terfyn fydd o Thamar [hyd] ddyfroedd ”
cynnen Cades [ac] hyd yꝛ afon [yꝛ hon ſydd yn ”
rhedeg] i'r môꝛ mawꝛ. ”
29 Dymma y tîr yꝛ hwn a rennwch yn etifeddiaeth ”
i lwythau Iſrael, ac dymma eu rhannau ”
hwynt medd yꝛ Arglwydd Dduw. ”
30 Dymma hefyd amgylch y ddinas, o du ”
'r gogledd pump cant, a phedair mil [cufydd] ”
o feſſur. ”
31 A phyꝛth y ddinas [fyddant] ar henwau ”
llwythau Iſrael, yn dꝛi phoꝛth tua 'r gogledd, ”
poꝛth Ruben yn vn, poꝛth Iuda yn vn, poꝛth ”
Lefi yn vn [arall.] ”
32 Ac ar du yꝛ dwyꝛain pump cant a phedair ”
mîl [cufydd] a thꝛi phoꝛth, ſef poꝛth Ioſeph ”
yn vn, poꝛth Beniamin yn vn, poꝛth Dan ”
yn vn. ”
33 A thua 'r deau pump cant, a phedair mîl ”
[cufydd] o feſſur, a thꝛi phoꝛth: poꝛth Simeon ”
yn vn, a phoꝛth Iſſachar yn vn, a phoꝛth Zabulon ”
yn vn. ”
34 Tua 'r goꝛllewyn [y bydd] pump cant ”
a phedair mîl [o gufyddau,] ai tri phoꝛth: poꝛth ”
Gad yn vn, poꝛth Aser yn vn, [a] phoꝛth Nephthali ”
yn vn. ”
35 Deu-naw mîl o [gufyddau fydd] o amgylch, ”
a henw y ddinas o'ꝛ dydd [hwnnw allan ”
fydd] YR ARGLVVYDD [SYDD] YNO.

## Terfyn llyfr y Prophwyd Ezeciel.

# Llyfr y Prophvvyd Daniel.

## PENNOD. I

1 Caethiwed Ioachim brenin Iuda. 4 Nabuchodonoſor yn peri dyſcu rhai o feibion pendeſigion Iuda yn iaith, a gwybodaeth y Caldeaid. 5 Y rhai hynny yn cael eu hymborth o fwyd y brenin. 8 Daniel yn ymgadw oddi wrth y bwyd hwn: am ei fod yn erbyn y gyfraith.

2.Bren. 24 1 Ierem.25.1. YN y *drydedd flwyddyn o deyrnaſiad Ioachim brenin Iuda y daeth Nabuchodonoſor brenin Babilon i Ieruſalem, ac a warchaodd arni.

2 A'r Arglwydd a roddes iw law ef Ioachim brenin Iuda, a rhan o leſtri tŷ Dduw, yntef ai dûg hwynt i wlâd Sennar i dŷ ei dduw ef: îe i dryſſor-dŷ ei dduw y dûg efe y lleſtri.

3 A dywedodd y brenin wrth Aſphenaz ei ben-ſtafellud, am ddwyn o feibion Iſrael y rhai oeddynt o'r hâd brenhinawl, ac o'r tywyſogion,

4 Fechgyn (y rhai ni [bydde] ynddynt ddim gwrthyni, eithr yn dda yr olwg, a deallgar ym mhob doethineb, ac yn gŵybod gŵybodaeth; ac yn dirnad cyfarwyddyd, a'r rhai [y bydde] grym ynddynt) i ſefyll yn llŷs y brenin: iw dyſcu [ar] lyfr, ac [yn] iaith y Caldeaid.

5 A'r brenin a ddognodd iddynt hwy bêth o ran bwyd y brenin, dydd yn ei ddydd, ac o'r gwîn a yfe efe, felly iw maethu hwynt dair blynedd: fel y ſafent yn ôl hynny ger bron y brenin.

6 Ac yr ydoedd yn eu plith hwynt o feibion Iuda, Daniel, Ananias, Miſael, ac Azarias.

7 A'r pen-ſtafelludd a oſododd arnynt enwau, ſef ar Ddaniel y goſododd efe Baltaſſar, ar Ananias Sidrach, ac ar Miſael Miſach, ac ar Azarias Abednego.

8 A Daniel a roddes ei frŷd nad ymhaloge efe drwy ran [ o ] fwyd y brenin, na thrwy 'r gwîn a yfe efe: gan hynny efe a ddymunodd ar y pen-ſtafelludd, ar na bydde raid iddo ef ymhalogi.

9 A Duw a roddes Ddaniel mewn hawddgarwch a thiriondeb oflaen y pen-ſtafellud.

10 A'r pen-ſtafellud a ddywedodd wrth Ddaniel, ofni yr ydwyf fi fy arglwydd y brenin yr hwn a ddognodd eich bwyd chwi, a'ch diod chwi: o herwydd pa ham y gwele efe eich wynebau yn gulach na'r bechgyn y rhai ydynt fel chwithau: felly y parech fy mhen yn ddyledus i'r brenin,

11 Yna y dywedodd Daniel wrth Melaſſar yr hwn a oſodaſe y pen-ſtafellud ar Ddaniel, Ananias, Miſael, ac Azarias:

12 Prawf attolwg dy weiſion ddêc diwrnod, a rhoddant i ni ffâ iw bwytta, a dwfr iw yfed.

13 Yna edrycher ger dy fron di ein prŷd ni, a phrŷd y bechgyn y rhai ydynt yn bwytta rhan o fwyd y brenin, ac fel y gwelech, gwna di a'th weiſion.

14 Ac efe a wrandawodd arnynt yn y peth hyn, ac ai profodd hwynt ddêc o ddyddiau.

15 Ac ym mhen y dêng nhiwrnod y gwelid eu prŷd hwynt yn degach, ac yn dewach o gig na'r holl fechgyn y rhai oeddynt yn bwytta rhan o fwyd y brenin.

16 Yna y darfu i Melaſſar gymmeryd ymmaith rhan eu bwyd hwynt a'r gwîn a yfent, a rhoddi iddynt ffâ,

17 A'r bechgyn hynny ill pedwar, Duw a roddes iddynt ŵybodaeth, a deall ym mhob dyſc, a ſynnwyr: Daniel a hyfforddiodd efe ym mhob gweledigaeth, a breuddwydion.

18 Ac ym mhen y dyddiau yn y rhai y dywedaſe y brenin am eu dwyn hwynt i mewn: yna y pen-ſtafellud ai dûg hwynt ger bron Nabuchodonoſor.

19 A'r brenin a chwedleuodd â hwynt, ac ni chafwyd o honynt oll [vn] fel Daniel, Ananias, Miſael, ac Azarias: am hynny y ſafaſant ger bron y brenin.

20 Ac [ym] mhob rhyw ſynnwyr, a deall, a'r a geiſie y brenin ganddynt, efe ai cafodd hwynt o'r ddecfed ran goruwch yr holl ddewiniaid [a'r] aſtronomyddion, y rhai [oeddynt] o fewn ei holl frenhiniaeth ef.

21 Felly y bu Daniel, hyd y flwyddyn gyntaf i'r brenin Cyrus.

## PEN. II.

Nabuchodonoſor yn breuddwydio, ac yn erchi lladd dewiniaid Babilon am na fedrent fynegu iddo ei freuddwyd ai ddeongliaid 16. Daniel yn dywedyd y breuddwyd, ac yn ei ddeongl, i arwyddocau amryw frenhiniaethau bydol, 44 A thragywyddol frenhiniaeth Griſt hefyd.

AC yn yr ail ſlwyddyn o deyrnaſiad Nabuchodonoſor y breuddwydiodd Nabuchodonoſor freuddwydion: a chynhyrfodd ei yſpryd ef, ai gwſc a dorrodd arno.

2 A'r brenin a archodd alw am y dewiniaid, ac am yr aſtronomyddion, ac am yr hudolion, ac am y Caldeaid i fynegu i'r brenin ei freuddwydion: a hwynt a ddaethant, ac a ſafaſant ger bron y brenin.

3 A'r brenin a ddywedodd wrthynt, breuddwydais freuddwyd, a chynhyrfodd fy yſpryd am ŵybod y breuddwyd.

4 Yna y Caldeaid a lefaraſant wrth y brenin, yn Syrian-aec: ô frenin bydd fyw yn dragywydd, adrodd dy freuddwyd i'th weiſion, a mynegwn y deongliad.

5 Attebodd y brenin a dywedodd wrth y Caldeaid: aeth y peth oddi wrthif, oni fynegwch y breuddwyd i'm, ai ddeongliad, gwneir chwi yn ddrylliau, a'ch tai a oſodir yn dommen.

6 Ond os y breuddwyd ai ddeongliad a ddangoſwch i'm, cewch roddion, a gwobrau, ac anrhydedd mawr o'm blaen i: am hynny dangoſwch y breuddwyd ai ddeongliad.

7 Attebaſant eil-waith a dywedaſant: dyweded y brenin y breuddwyd iw weiſion, ac ni a ddangoſwn ei ddeongliad ef.

8 Attebodd y brenin a dywedodd, mi a ŵn yn hyſbys mai oedi'r amſer yr ydych chwi: canys gwelwch fyned y peth oddi wrthif.

9 Oni wnewch i'm ŵybod y breuddwyd un gyfraith ſydd i chwi: canys gair celwyddoc, a llwgredic a ddarparaſoch ei ddywedyd o'm blaẽ nes darfod yr amſer: am hynny dywedwch i'm y breuddwyd fel y gŵyppwyf mai ei ddeongliad ef a ddangoſwch i mi.

10 Y Caldeaid a attebaſant o flaen y brenin, ac a ddywedaſant, nid oes ddyn ar y ddaiar, yr hwn a ddichon dangos yr hyn y mae 'r brenin yn ei ofyn: ni cheiſiodd un brenin, pennaeth na llywydd y fath beth a hwn gan un dewin, nac aſtronomydd, na Chaldead.

11 Canys anhawdd [yw'r] pêth yr hwn a gais y brenin, ac nid oes [neb] arall yr hwn ai dengys o flaen y brenin onid y duwiau y rhai nid yw eu trigfa gyd â chnawd.

12 O achos hyn y creulonodd y brenin, ac y digiodd yn ddirfawr, a dywedodd am ddifetha holl ddoethion Babilon.

13 Yna 'r aeth cyfraith allan, ac y lladdwyd y doethion, ceiſiaſant hefyd Ddaniel, ai gyfeillion iw lladd.

14 Yna y trôdd Daniel yn ei ôl y cyngor, a'r gyfraith [ymma,] yng-hyd ag Arioch penn diſtain y brenin, yr hwn a aethe allan i ladd doethion Babilon.

15 [Canys] efe a lefarodd, ac a ddywedodd wrth Arioch capten y brenin, pa ham y mae yr gyfraith [hon] yn myned ar y fath frys oddi wrth y brenin? yna Arioch a fynegodd y peth i Ddaniel.

16 Yna Daniel a aeth i mewn, ac a ymbiliodd a'r brenin am roddi iddo amſer i ddangos y deongliad i'r brenin.

17 Yna 'r aeth Daniel iw dŷ ei hun, ac a fynegodd y peth iw gyfeillion Ananias, Miſael, ac Azarias:

18 Fel y ceiſient drugaredd o flaen Duw y nefoedd yn achos y dirgelwch hyn, fel na ddifethyd Daniel ai gyfeillion gyd a'r rhan 'arall o ddoethion Babilon.

19 Yna y datcuddiwyd [y] dirgelwch i Ddaniel mewn gweledigaeth nôs: yna Daniel a fendithiodd Dduw 'r nefoedd.

20 Attebodd Daniel, a dywedodd: * bendigedic fyddo enw Duw ô dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb: canys doethineb, a nerth ydynt eiddo ef.

Pſal.113.2.
pſal.115.18.

21 Ac efe ſydd yn newid amſerau, a thymhorau, gan ſymmud brenhinoedd, a ſicrhau brenhinoedd [eraill,] gan roddi doethineb i'r doethion a gŵybodaeth i'r rhai a fedrant ddeall.

22 Efe ſydd yn datcuddio y [pethau] dyfnion, a chuddiedic, efe a ŵyr beth [ſydd] yn y tywyllwch, a chyd ag ef yr erys y goleuni.

23 Tydi Dduw fy nhad yr ydwyſti yn ei glodfori, ac yn ei foliannu, o herwydd rhoddi o honot ddoethineb, a nerth i mi: a pheri i mi ŵybod yr hyn a geiaſiaſom gennit: canys gwnaethoſt i ni ŵybod yr hyn a ofynnodd y brenin.

24 O herwydd hyn yr aeth Daniel at Arioch yr hwn a oſodaſe y brenin i ddifetha doethion Babilon: efe a aeth, ac a ddywedodd wrtho fel hyn: na ddifetha ddoethion Babilon, dŵg fi o flaen y brenin, ac mi a ddangoſaf i'r brenin y deongliad.

25 Yna y dûg Arioch Ddaniel o flaen y brenin ar frŷs, ac efe a ddywedodd wrtho fel hyn: cefais ŵr o blant caethiwed Iuda, yr hwn a fynega i'r brenin y deongliad:

26 Attebodd y brenin, a dywedodd wrth Ddaniel (yr hwn oedd ei henw [arall] Baltaſſar) a elli di fynegu i mi y breuddwyd yr hwn a welais, ai ddeongliad?

27 Attebodd Daniel o flaen y brenin, a ddywedodd: nid doethion, aſtronomyddion, dewiniaid, [na] brud-wŷr a allant ddangos i'r brenin y dirgelwch yr hwn y mae'r brenin yn ei geiſio.

28 Ond y mae Duw yn y nefoedd yn datcuddio dirgeledigaethau, ac efe a fynegodd i'r brenin Nabuchodonoſor beth [yw]'r hyn [ſydd] ar fod yn y dyddiau diweddaf: dy freuddwyd, a gweledigaethau dy ben yn dy wely [ydoedd] hyn ymma:

29 Ti frenin [pan oeddit] yn dy wely, dy feddyliau a godaſant yn dy ben, beth [oedd] i ddyfod ar ôl hyn, a'r hwn ſydd yn datcuddio dirgeledigaethau a fynegodd i ti beth [oedd] i fod.

30 Minne hefyd nid drwy ddoethineb (yr hon ſydd ynof fi yn fwy na neb byw) y datcuddiwyd i'm y dirgelwch hwn: ond oi hachos [hwynt] y rhai a fynegant y deongliad i'r brenin, fel y gwyddit feddyliau dy galon.

31 Ti frenin oeddit yn gweled, ac wele ryw ddelw fawr yn ſefyll gyferbyn â thi, y ddelw hon [ydoedd] fawr, ai diſcleirdeb yn rhagorol, a'r olwg arni [ydoedd] ofnadwy,

32 Pen y ddelw hon [ydoedd] o aur da, ei dwyfron ai breichiau o arian, ei bol, ai morddwydydd o brês,

33 Ei choeſau o haiarn, ei thraed [oeddynt beth] o honynt o haiarn, a [pheth] o honynt o bridd:

34 Edrych yr oeddit hyd oni thorrwyd allan garrec yr hon ni [thorrwyd] â dwylo, a hi a darawodd y ddelw ar ei thraed o haiarn a phridd, ac ai maluriodd hwynt.

35 Yna'r haiarn, y pridd, y prês, yr arian, a'r aur a gyd-faluriaſant, ac oeddynt fel manus yn [dyfod] o yſcuborau hâf: a'r gwynt ai dug hwynt, ac ni chaed un lle iddynt: yna'r garrec yr hon a darawodd y ddelw a aeth yn fynydd mawr, ac a lanwodd yr holl ddaiar.

36 Dymma'r breuddwyd, dywedwn hefyd ei ddeongliad o flaên y brenin.

37 Ti frenin [ydwyt] frenin brenhinoedd, canys Duw y nefoedd a roddodd i ti frenhiniaeth, gallu, a nerth, a gogoniant,

38 A pha le bynnac y preſſwylio plant dynnion efe a roddes dann dy law fwyſt-fil y maes, ac ehediaid y nefoedd, ac a'th oſododd di yn arglwydd arnynt oll: ti yw ei phen hi o aur.

39 Ac ar dy ôl di y cyfyd brenhiniaeth arall îs nâ thi, felly y drydedd waith y [bydd] brenhiniaeth arall ô brês, yr hon a lywodraetha yn yr holl dîr.

40 Bydd hefyd y bedwaredd frenhiniaeth yn gref fel haiarn, megis haiarn y maluria, ac y mala hi oll: îe fel haiarn yr hwn a ddryllia bôb peth y maluria ac y dryllia hi.

41 A lle y gwelaiſt y traed a'r byſſedd, peth o honynt o bridd crochenydd, a [pheth] o honynt o haiarn, brenhinaeth hannêroc fydd, ac [y mae] i fod ynddi [beth] o gryfder haiarn, o herwydd gweled o honot haiarn wedi ei gymmyſcu â phrîdd clailyd.

42 [Fel yr ydoedd] byſedd y traed [beth] o honynt yn haiarn, a [pheth] o honynt yn bridd, [felly] y bydd peth o'r frenhiniaeth o ran yn grêf, a [pheth] o honi fydd brau.

43 A lle y gwelaiſt haiarn wedi ei gymmyſcu â phrîdd cleilyd, ymgymmyſcant â hâd dŷn, ond ni lŷnant y naill wrth y llall, megis nid ymgymmyſc haiarn â prîdd.

44 Ac yn nyddiau y brenhinoedd hynny y cyfyd Duw nefol frenhiniaeth yr hon ni lygrir byth, a'r frenhiniaeth hon ni adewir i bobl eraill: hi a faluria, ac a dreulia'r holl frenhiniaethau hyn, ac hi a ſaif yn dragywydd.

45 Lle y gwelaiſt dorri carrec o'r mynydd yr hon ni [thorrwyd] â llaw, a malurio o honi yr haiarn, y prês, y prîdd, yr arian, a'r aur, hyſpyſodd y Duw mawr i'r brenin beth [yw]'r hyn [ſydd] i fod wedi hyn: felly y breuddwyd ſydd wîr, ai ddeongliad yn ffyddlon.

46 Yna y ſyrthiodd Nabuchodonoſor y brenin ar ei wyneb, ac a oſtyngodd i Ddaniel, dywedodd hefyd am offrymmu iddo ef offrwm, ac arogl-darth.

47 Attebodd y brenin a dywedodd wrth Ddaniel, mewn gwirionedd y [gwn] mai eich Duw chwi [yw] Duw y duwiau, ac Arglwydd y brenhinoedd a datcuddiudd dirgeledigaethau, o herwydd medru o honot ddatcuddio y dirgelwch hyn.

48 Yna y brenin a fawrygodd Ddaniel, ac a roddes iddo ef roddion mawrion lawer: ac efe ai gwnaeth ef yn bennaeth ar holl dalaethau Babilon, ac yn ben ſwyddog ar holl ddoethion Babilon.

49 Yna Daniel a ymbiliodd a'r brenin, ac yntef a oſododd Sidrach, Miſach, ac Abednego i lywodraethu talaith Babilon: a Daniel [a eiſteddodd] ym mhorth y brenin.

## PEN. III.

Nabuchodonoſor yn gwneuthur delw fawr, ac yn peri ei haddoli. 8 Sidrach, Miſach, ac Abednego am nad addolent y ddelw a fwriwyd i'r ffwrn danllyd. 23 Duw yn eu gwaredu hwynt oddi yno.

NAbuchodonoſor y brenin a wnaeth ddelw aur, ei huchder [oedd] yn dri ugain cufydd, ei llêd yn chwe chufydd, [ac] efe ai goſododd hi yng-waſtadedd Dura o fewn talaith Babilon.

2 Yna Nabuchodonoſor y brenin a anfonodd i gaſclu y tywyſogion, dugiaid, a phendefigion, y rhaglawiaid, y tryſſor-wŷr, y cyfreith-wŷr, y treth-wŷr, a holl lywodraeth-wŷr y talaithau, i ddyfod wrth gyſſegru y ddelw yr hon a gyfodaſe Nabuchodonoſor y brenin.

3 Yna y tywyſogion, dugiaid, a phendefigion, y rhaglawiaid, y tryſor-wŷr y cyfreith-wŷr, y treth-wŷr a holl lywodraeth-wŷr y talaithau a ymgaſclaſant wrth gyſſegru y ddelw yr hon a gyfodaſe Nabuchodonoſor y brenin: ac a ſafaſant o flaen y ddelw yr hon a gyfodaſe Nabuchodonoſor.

4 A chyhoedd-wr a lefodd yn grôch, wrthych chwi bobloedd, genhedloedd, ac ieithoedd y dywedir:

5 Pan glywoch ſŵn y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulcimer, y ſaltringau, y ſymphon, a phob rhyw gerdd, y ſyrthiwch, ac y goſtyngwch i'r ddelw aur, yr hon a gyfododd Nabuchodonoſor y brenin.

6 A'r hwn ni ſyrthio, ac ni chrymmo iddi yr awr honno, a fwrir i ganol ffwrn o dân poeth.

7 Am hynny'r amſer hwnnw pan glywodd yr holl bobloedd ſain y cornet, y chwibanogl,

y

y delyn, y dulcimer, y ſaltringau, a phob rhyw gerdd, y bobloedd, y cenhedloedd a'r ieithoedd oll a ſyrthiaſant gan ymgrymmu i'r ddelw aur yr hon a gyfodaſe Nabuchodonoſor y brenin.

8 O ran hynny gwŷr Caldea a gyhuddâſant gyhuddiad [ar] yr Iddewon.

9 Adroddaſant a dywedaſant wrth Nabuchodonoſor y brenin, bydd fyw frenin yn dragywydd.

10 Ti frenin a oſodaiſt orchymyn, ar i bwy bynnac a glywe ſain y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulcimer, y ſaltringau, a'r ſymphon, a phob rhyw gerdd, ſyrthio, ac ymgrymmu i'r ddelw aur.

11 A phwy bynnac ni ſyrthie, ac [nid] ymgrymme, y teflyd ef i ganol ffwrn o dân poeth.

12 Y mae gwŷr o Iddewon y rhai y goſodaiſt hwynt ar orchwyliaeth talaith Babilon, Sydrach, Miſach, ac Abednego: y gwŷr hyn ô frenin ni wnaethant gyfrif o honot ti, dy dduwiau nid addolant, ac nid ymgrymmant i'r ddelw aur yr hon a gyfodaiſt.

13 Yna Nabuchodonoſor mewn llidiawgrwydd a digter a ddywedodd am gyrchu Sydrach, Miſach, ac Abednego: yna y cyrchwyd y gwŷr hyn o flaen y brenin.

14 Adroddodd Nabuchodonoſor a dywedodd wrthynt, ai gwir [hyn] Sydrach, Miſach, ac Abednego, na addolwch chwi fy nuwiau mau fi, ac nac ymgrymmwch i'r ddelw aur yr hon a berais ei chyfodi?

15 Yr awr hon wele byddwch chwi barod pan glywoch ſain y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulcimer, y ſaltringau, a'r ſymphon, a phob rhyw gerdd, i ſyrthio, ac i ymgrymmu i'r ddelw 'r hon a wneuthum: ac onid ymgrymmwch, yr awr hōno y bwrir chwi i ganol ffwrn o dân poeth, a pha Dduw [yw] efe yr hwn a'ch gwared chwi o'm dwylo mau fi?

16 Sydrach, Miſach, ac Abednego a attebaſant, ac a ddywedaſant wrth y brenin: Nabuchodonoſor nid ydym ni yn gofalu am atteb it am y peth hyn:

17 Wele y mae ein Duw ni yr hwn yr ydym ni yn ei addoli yn gallu ein gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth: ac efe a'n gwared [ni] o'th law di ô frenin.

18 Ac onid-ê, bydded hyſpys it frenin na addolwn dy dduwiau, ac nad ymgrymmwn i'th ddelw aur, yr hon a gyfodaiſt.

19 Yna y llannwyd Nabuchodonoſor o lidiawgrwydd, a gwedd ei wyneb a newidiodd ar Sydrach, Miſach, ac Abednego: llefarodd [hefyd,] a dywedodd am dwymno'r ffwrn ſeithwaith mwy nag y gwelſid ei thwymno hi.

20 Ac efe a ddywedodd wrth wŷr cryſion nerthol y rhai [oeddynt] yn ei lu ef, am rwymo Sydrach, Miſach, ac Abednego, i'w bwrw i'r ffwrn o dân poeth.

21 Yna y rhwymwyd y gwŷr hynny yn eu peiſiau, eu llawdrau, ai cwccyllau, ai gwiſcoedd [eraill,] ac ai bwriwyd i ganol y ffwrn o dân poeth.

22 O achos [bod] gorchymyn y brenin yn gaeth, a'r ffwrn yn boeth ragorawl, fflamm y tân a laddodd y gwŷr hynny y rhai a fwriaſant i fynu Sydrach, Miſach, ac Abednego.

23 A'r tri-wŷr hynny Sydrach, Miſach, ac Abednego, a ſyrthiaſant yng-hanol y ffwrn o dân poeth yn rhwym.

24 Yna y rhyfeddodd Nabuchodonoſor y brenin, ac y cyfododd ar frŷs, attebodd [hefyd] a dywedodd wrth ei gyng-horiaid, onid tri-wŷr a fwriaſom ni i ganol y tân yn rhwym? attebaſant a dywedaſant wrth y brenin, ie yn wîr ô frenin.

25 Attebodd a dywedodd yntef, wele fi yn gweled pedwar-gwŷr rhyddion yn rhodio yng-hanol y tân, ac nid oes niwed arnynt, a dull y pedwerydd ſydd debyg i fab Duw.

26 Yna y daeth Nabuchodonoſor at enau y ffwrn o dân poeth, ac a lefarodd, ac a ddywedodd ô Sydrach, Miſach, ac Abednego, ei waſanaeth-wŷr ef y Duw goruchaf euwch allan, a deuwch [ymma:] yna Sydrach, Miſach, ac Abednego a ddaethant allan o gânol y tân.

27 A'r tywyſogion, dugiaid, a phendefigion, a chynghoriaid y brenin a ymgaſclaſant i weled y gwŷr hyn, na ſmiaſe y tân ar eu cyrph hwynt, ac na loſcaſe gwallt eu penn hwy: ni newidiaſe eu peiſiau ychwaith, ac nid aethe ſawyr tân arnynt.

28 Attebodd Nabuchodonoſor, a dywedodd, bendigedic yw Duw Sydrach, Miſach, ac Abednego, yr hwn a anfonodd ei Angel, ac a waredodd ei weiſion y rhai a ymddyriedaſant ynddo ef, ac a dorraſant orchymyn y brenin, ac a roddaſant eu cyrph rhag gwaſanaethu, nac ymgrymmu o honynt i un duw onid iw Duw eu hun.

29 Am hynny y goſodir gorchymyn oddi wrthifi, mai pob pobl, cenhedlaeth, ac iaith, yr hon a ddywedo gabledd am eu Duw hwynt (ſef Sidrach, Miſach, ac Abednego) a wneir yn ddrylliau, ai dŷ ef a oſodir yn dommen: o herwydd nad oes Duw arall yr hwn a ddichon ymwared fel hyn.

30 Yna y mawrhaodd y brenin Sydrach, Miſach, ac Abednego, o fewn talaith Babilon.

## PEN. IIII.

Ail breuddwyd Nabuchodonoſor: ai ddeongliad. 29
Cwymp Nabuchodonoſor, ai gyfodiad.

NAbuchodonoſor frenin at yr holl bobloedd, cenhedloedd, ac ieithoedd, y rhai a drigant yn yr holl dir, aml fyddo heddwch i chwi.

2 Mi a welais yn dda fynegu yr arwyddion a'r rhyfeddodau y rhai a wnaeth y goruchaf Dduw â mi.

3 Mor fawrion [yw] ei arwyddion ef, ac mor gedyrn [yw] ei ryfeddodau, ei deyrnas ef [ſydd] deyrnas dragywyddol, ai lywodraeth ef [ſydd] o genhedlaeth i genhedlaeth.

4 Myſi Nabuchodonoſor oeddwn eſmwyth arnaf yn fy nhŷ, ac yn hoiw yn fy llŷs.

5 Gwelais freuddwyd, a [hwnnw] a'm hofnodd, meddyliau hefyd yn fyng-wely, a gweledigaethau fy mhen a'm dychrynnâſant.

6 Am hynny y goſodwyd gorchymyn oddi wrthifi, ar ddwyn ger fy mron holl ddoethion Babilon fel yr yſpyſſent i mi ddeongliad y breuddwyd.

7 Yna y dewiniaid, yr aſtronomyddion, y Caldeaid, a'r brud-wŷr a ddaethant, a mi a ddywedais fy mreuddwyd oi blaen hwynt, ond ei ddeongliad nid yſpyſſaſant i mi.

8 Ac o'r diwedd daeth Daniel o'm blaen i, yr hwn [yw] ei henw Baltaſſar, yn ôl henw fy nuw i, yr hwn hefyd [y mae] yſpryd y duwiau ſanctaidd ynddo, a'm breuddwyd a dreuthais oi flaen ef [gan ddywedyd,]

9 Baltaſſar pennaeth y dewiniaid, o herwydd i'm ŵybod mai yſpryd y duwiau ſanctaidd [ſydd] ynot ti, ac nad yw un dirgelwch yn anhawdd i ti: dywet weledigaethau fy mreuddwyd yr hwn a welais, ai ddeongliad.

10 Ac [dymma] weledigaethau fy mhen ar fyng-wely: edrych yr oeddwn, ac wele bren yng-hanol y tîr, ai vchter yn fawr.

11 Mawr oedd y prenn a chadarn, ai vchter a gyrhaedde hŷd y nefoedd, yr [ydoedd] hefyd iw weled hyd yn eithaf yr holl dir.

12 Ei ganghennau [oeddynt] dêg, ai ffrwyth yn aml, ac ymborth arno i bawb, tano yr ymgyſcode bwyſt-filod y maes, ac adar y nefoedd a drigent yn ei ganghennau ef: a phob cnawd a ſwyttae o honaw ef.

13 Edrych yr oeddwn yng-weledigaethau fy mhen ar fyng-wely, ac wele wiliedudd, a ſanct yn deſcyn o'r nefoedd,

14 Gan lefain yn grôch ac yn dywedyd fel hyn, torrwch y prenn, ac yſcythrwch ei wryſc ef, eſcydwch ei ddail ef, a gwaſcerwch ei ffrwyth: cilied y bwyſt-fil oddi tano, a'r adar oi ganghennau.

15 Er hynny gadewch ſônnion ei wraidd ef yn y ddaiar, a [bydded] mewn rhwym o haiarn, a phrês ym mhlith gwellt y maes, gwlycher ef hefyd â gwlith y nefoedd, ai rann [fydd] gyd a'r bwyſt-filod ym mhlith gwellt y ddaiar.

16 Newidiant ei galon ef o [fod yn galon] dŷn, a rhoddir iddo ef galon bwyſt-fil, a ſaith amſer a gyfnewidir arno ef.

17 O ordinhâd y gwiliedyddion [y mae] y farn hon, a'r dymuniad wrth ymadrodd y rhai ſanctaidd, hŷd oni ŵyppo y rhai byw mai yr Goruchaf a lywodraetha frenhiniaeth dŷn, ac ai rhydd i'r neb y mynno efe, ac a eſid arni y gwaelaf [o] ddynion.

18 Dymma yr breuddwyd a welais i Nabuchodonoſor y brenin, tithe Baltaſſar, dywet ei ddeongliad ef: o herwydd ni alle holl ddoethion fy nheyrnas yſpyſſu y deongliad i mi, eithr ti elli, am [fod] yſpryd y duwiau ſanctaidd ynot ti.

19 Yna Daniel yr hwn [ydoedd] ei henw Baltaſſar a ſynnodd tros un awr, ai feddyliau ai dychrynnaſant ef, [yna]'r attebodd y brenin, ac y dywedodd: Baltaſſar na ddychrynned y breuddwyd ti, nai ddeongliad, attebodd Baltaſſar a dywedodd, fy arglwydd [deued] y breuddwyd i'th elynnion, ai ddeongliad i'th wrthwynebwŷr.

20 Y prenn yr hwn a welaiſt, yr hwn a dyfaſe, ac a gryfhauſe, ac a gyrhaeddaſe ei vchter hyd y nefoedd, ac [oedd] iw weled ar hŷd yr holl dîr,

21 Ai ddail yn dêg, ai ffrwyth yn aml, ac ymborth i bob peth ynddo ef, tann [yr hwn] y trige bwyſt-fil y maes, ac y preſſwylie adar y nefoedd yn ei ganghennau,

22 Ti frenin [yw] efe, yr hwn a dyfaiſt, ac a gryfheaiſt, a'th fawredd a gynnyddodd, ac a gyrhaeddodd hyd y nefoedd, a'th lywodraeth di hyd eithaf y ddaiar.

23 A lle y gwelodd y brenin wiliedudd, a ſanct yn deſcyn o'r nefoedd, ac yn dywedyd: torrwch y prenn, a diniſtriwch ef, er hynny gadewch ſonnion ei wraidd ef yn y ddaiar, a [bydded] mewn rhwym o haiarn a phrês ym mhlith gwellt y maes, a gwlycher ef hefyd â gwlith y nefoedd, a bydded ei rann gyd â bwyſt-fil y maes, hyd oni gyfnewidio ſaith amſer arno ef.

24 Dymma 'r deongliad ô frenin, ac dymma ordinhâd y Goruchaf yr hwn ſydd yn dyfod ar fy arglwydd frenin.

25 Canys gyrrant ti oddi wrth ddynion, a chyd â bwyſt-fil y maes y bydd dy drigfa, â gwellt hefyd i'th borthir fel eidionnau, ac i'th wlychir â gwlith y nefoedd, a ſaith amſer a gyfnewidia arnat ti, hyd oni ŵyppech mai yr Goruchaf ſy yn llywodraethu ar frenhiniaeth dyn, ac ai rhydd i'r neb a fynno efe.

26 A lle y dywedaſant am adel bonnion gwraidd y prenn, dy frenhiniaeth fydd ſiccr it wedi i ti ŵybod mae o'r nefoedd y mae llywodraeth.

27 Am hynny frenin bydded fodlon gennit fyng-hyngor, a thorr di ymmaith dy bechodau â chyfiawnder, a'th anwireddau trwy drugarhau wrth drueniaid [i edrych] a fydd eſtynniad ar dy hêddwch.

28 Daeth hyn oll ar Nabuchodonoſor y brenin.

29 Ym mhen deuddeng mis yr oedd efe yn rhodio yn llŷs brenhiniaeth Babilon.

30 Llefarodd y brenin a dywedodd, onid hon yw Babilon fawr yr hon a adeiledais i yn frenhin-dŷ yng-hryfder fy nerth, ac er gogoniant fy anrhydedd?

31 A'r gair etto yng-enau y brenin, ſyrthiodd llef o'r nefoedd [yn dywedyd,] wrthit ti frenin Nabuchodonoſor y dywedir, aeth y frenhiniaeth oddi wrthit.

32 A thi a fwrir oddi wrth ddynion, a'th drigfa [fydd] gyd â bwyſt-filod y maes, â gwellt i'th borthir fel eidionnau, a chyfnewidir ſaith amſer arnat: hyd oni ŵypech mai yr Goruchaf ſydd yn llywodraethu ar frenhiniaeth dyn, ac ai rhydd i'r neb y mynno.

33 Yr awr honno y cyflawnwyd y gair am Nabuchodonoſor, ac y gyrrwyd ef oddi wrth ddynion, ac y porodd wellt fel eidion, ac y gwlychwyd ei gorph ef gan wlith y nefoedd, hyd oni thyfodd ei flew ef fel [plû] eryrod: ai ewinedd fel adar.

34 Yn niwedd y dyddiau hyn, myfi Nabuchodonoſor a dderchefais fy llygaid tua 'r nefoedd, a'm gwybodaeth a ddychwelodd attaf, yna y bendithiais y Goruchaf, y moliennais hefyd ac y gogoneddais yr hwn ſydd yn byw byth, am [fod] ei * lywodraeth ef yn llywodraeth dragywyddol, ai frenhinniaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

Dan.7.14.
Mic.4.7.
Luc.1.33.

35 A holl drigolion y ddaiar a gyfrifir megis yn ddiddim: ac yn ôl ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llû y nefoedd, ac â thrigolion y ddaiar, ac nid oes â attalio ei law ef, nac a ddywedo wrtho: beth a wnaethoſt?

36 Yn yr amſer hwnnw y dychwelodd fyngwybodaeth attaf, a [deuthym] i ogoniant fy mrenhiniaeth, fy harddwch a'm hoiwder a ddychwelodd attaf: fyng-hynghoriaid, a'm tywyſogion a'm ceiſiaſant, felly i'm ſiccrhawyd yn fy nheyrnas, a chwanegwyd i'm fawredd fwy.

37 Yr awr hon myfi Nabuchodonoſor ydwyf yn moliannu, ac yn mawrygu, ac yn gogoneddu Brenin y nefoedd, am [fod] ei holl weithredoedd ef yn wirionedd, ai lwybrau yn gyfiawnder, ac o herwydd y dichon efe ddaroſtwng y rhai a rodiant mewn balchter.

## PEN. V.

Balthaſar y brenin yn amherchi cyſſegredic leſtri Ieruſalem. 5 Ac yn gweled llaw yn ſcrifennu ar y pared 8 Yr hon ſcrifen ni fedre neb ei darllen, nai deall onid Daniel. 30 Marwolaeth Balthaſar, a Darius yn cael ei frenhiniaeth ef.

BAlthaſar y brenin a wnaeth wledd fawr i fil oi dywyſogiō: ac a yfodd wîn o flaen y mil.

2 Wrth flâs y gwîn y dywedodd Balthaſar am ddwyn y lleſtri aur, ac arian, y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor ei dad ef o'r Deml yr hon [oedd] yn Ieruſalem: fel yr yfe y brenin ai dywyſogion, ei wragedd, ai orderchadon ynddynt.

3 Yna y dygwyd y lleſtri aûr y rhai a ddugaſent o'r Deml, (ſef Tŷ Dduw yr hwn oedd yn Ieruſalem) a'r brenin ai dywyſogion, ei wragedd, ai orderchadon a yfâſant ynddynt.

4 Yfâſant wîn, a moliannâſant dduwiau o aur, ac o arian, o brês, o haiarn, o goed, ac o faen.

5 Byſſedd llaw dyn a ddaethant allan yr awr honno, ac a ſcrifennaſant ar gyfer y canhŵyll-bren ar galchiad pared llŷs y brenin, a gwelodd y brenin ddwrn y llaw yr hon a ſcrifennodd.

6 Yna y newidiodd lliw 'r brenin, ai feddyliau ai cyffroaſant ef, rhwymau ei lwynau ef a ddattodaſant, ai liniau ef a gurâſant y naill wrth y llall.

7 Wedi galw o'r brenin yn grôch am ddwyn i mewn yr aſtronomyddion, y Caldeaid, a'r brud-wŷr, y llefarodd y brenin, ac y dywedodd wrth ddoethion Babilon: pa ddyn bynnac a ddarlleno yr ſcrifen, ac a ddangoſo i mi ei deongliad, efe a wiſcir â phorphor, a [rhoddir] cadwynau aur am ei wddf ef, a chaiff lywodraethu yn drydydd yn y deyrnas.

8 Yna holl ddoethion y brenin a ddaethant i mewn, ond ni fedrent ddarllen yr ſcrifen, na mynegu i'r brenin ei deongliad.

9 Yna y mawr gyffrôdd y brenin Balthaſar, ai liw a newidiodd ynddo ef, ai dywyſogion a ſynnaſant.

10 Y frenhines o herwydd geiriau y brenin ai dywyſogion a ddaeth i dŷ 'r wledd, [yna] y llefarodd y frenhines, ac y dywedodd: bydd fyw byth frenin, na chyffroed dy feddyliau di, ac na newidied dy liw.

11 Y mae gŵr yn dy deyrnas yr hwn [y mae] yſpryd y duwiau ſanctaidd ynddo, ac yn nyddiau dy dâd y caed ynddo ef oleuni, deall, a doethineb, fel doethineb y duwian: a'r brenin Nabuchodonoſor dy dad ai goſododd ef yn benaeth y dewiniaid, aſtronomyddion, Caldeaid, [a] brud-wŷr, [ſef] dy dad ti ô frenin.

12 O herwydd cael ynddo ef, ([ſef] yn Daniel, yr hwn y goſododd y brenin ei enw Baltaſſar) yſpryd rhagorol, a gŵybodaeth, a deall, yn deongl breuddwydion, ac eglurhâd dammegion, a dattodiad cylymmau: galwer Daniel yr awr hon, ac efe a ddengis y deongliad.

13 Yna pan dducpwyd Daniel o flaen y brenin, llefarodd y brenin, a dywedodd wrth Ddaniel, ai tydi yw Daniel yr hwn ydwyt o feibion caeth-glud Iuda, y rhai a ddug y brenin fy nhâd o Iuda?

14 Myfi a glywais [ſôn] am danat, mai yſpryd y duwiau [ſydd] ynot, a chael ynot ti oleuni a deall, a doethineb ragorawl.

15 Ac yr awr hon dygwyd yr aſtronomyddion doethion o'm blaen i ddarllen yr ſcrifen hon, ac i fynegu i'm ei deongliad: ond ni fedrant ddangos deongliad y peth.

16 Yna y clywais am danat ti, y medri ddeongl dirgeledigaethau, a dattod cylymmau, yr awr hon os medri ddarllē yr ſcrifen, ac hyſpyſſu i mi ei deongliad, yna i'th wiſcir â phorphor, [rhoddir] hefyd gadwyni o aur am dy wddf, a chei lywodraethu yn drydydd yn y deyrnas.

17 Yna yr attebodd Daniel, ac y dywedodd o flaen y brenin: bydded dy roddion i ti, a dod dy anrhegion i arall: er hynny yr ſcrifen a ddarllenaf i'r brenin, a'r deongliad a yſpyſſaf iddo ef.

18 O frenin, y Duw goruchaf a roddes i

Nabuchodonoſor dy dâd frenhiniaeth, a mawredd, a gogoniant. ac anrhydedd.

19 Ac o herwydd y mawredd yr hwn a roddaſe efe iddo, y bobloedd, y cenhedloedd, a'r ieithoedd oll oeddynt yn crynu rhagddo ef: y rhai a fynne efe a ladde efe, a'r hwn a fynne efe a darawe efe, hefyd y rhai a fynne efe a gyfode efe, a'r rhai a fynne a oſtynge efe.

20 Eithr pan ymgododd ei galon ef, ac ymgryfhau oi yſpryd ef mewn balchder, efe a ddeſcynnwyd o orſeddfa ei frenhiniaeth, a'r gogoniant a dynnwyd oddi wrtho ef.

21 Gyrrwyd ef hefyd oddi wrth feibion dynion gosodwyd ei galon fel bwyſt-fil, a chyd a'r aſſynnod gwylltion [yr ydoedd] ei drigfa: â gwellt y porthwyd ef fel eidion, ai gorph a wlychwyd gan wlith y nefoedd, hyd oni ŵybu mai yr Duw goruchaf oedd yn llywodraethu ar frenhiniaeth dyn: ac y goſode efe arni y neb a fynne efe.

22 A thithe Balthaſar ei fab ef ni oſtyngaiſt dy galon er gŵybod o honot hyn oll.

23 Yn erbyn Arglwydd y nefoedd yr ymdderchefaiſt, a lleſtri ei dŷ ef a ducpwyd ger dy fron di: tithe a'th dywyſogion, dy wragedd a'th ordderchadon a yfaſoch win ynddynt hwy, a thi a foliennaiſt dduwiau o arian, ac o aur, o brês, o haiarn, o brenn, ac o faen: y rhai ni welant, ac ni chlywant, ac ni ŵyddant [ddim:] ac ni anrhydeddaiſt y Duw yr hwn [y mae] dy anadl di yn ei law ef, a'th holl ffyrdd di ganddo ef.

24 Yna'r anfonwyd dwrn y llaw oddi ger ei fron ef, ac yr ſcrifennwyd yr ſcrifen hon.

25 Ac dymma yr ſcrifen yr hon a ſcrifennwyd MENE, MENE, THECEL, VPHARSIN.

26 Dymma ddeongliad yr ymadrodd, MENE, Duw a rifodd dy frenhiniaeth, ac ai gorphennodd.

27 THECEL, ti a bwyſwyd yn y cloriānau, ac i'th gaed yn brinn.

28 PHERES, rhannwyd dy frenhiniaeth, a rhoddwyd hi i'r Mediaid, a'r Perſiaid.

29 Yna y dywedodd Balthaſar am wiſco o honynt Ddaniel â phorphor, ac â chadwynau o aur am ei wddf, a chyhoeddi am dano ef, y bydde efe yn drydydd yn llywodraethu yn y frenhiniaeth.

30 Y noſſon honno y lladdwyd Balthaſar brenin y Caldeaid.

31 A Darius Medus a gymmerodd y frenhiniaeth, ac efe yn ddwy flwydd a thri ugain.

## PEN. VI.

Daniel yn bennaf ar arglwyddi Babilon. 4 Hwythau yn cenfigennu, ac yn dychymygu cyfraith yr hon ni alle Daniel ei chadw. 16 Ac felly yn cael ei fwrw ef i ffau y llewod. 22 Duw yn cadw Daniel. 24 Darius yn peri bwrw cyhudd-wyr Daniel at y llewod: ac yn cyhoeddi moliant i *D*duw Daniel.

Heſt.1.1.

GWelodd Darius yn dda oſod o honaw ef ar y deyrnas *chwe ugain o dywyſogion i fod ar yr holl deyrnas.

2 Ac arnynt hwy [yr oedd] tri rhaglaw, y rhai [yr oedd] Daniel yn un o honynt, i'r rhai y rhodde y tywyſogion gyfrif, fel na bydde y brenin mewn colled.

3 Yna y Daniel hwn oedd yn rhagori ar y rhaglawiaid, a'r tywyſogion, o herwydd [bod] yſpryd rhagorawl ynddo ef: a'r brenin a amcanodd ei oſod ef ar yr holl deyrnas.

4 Yna y rhaglawiaid a'r tywyſogion oeddynt yn ceiſio cael achos yn erbyn Daniel o ran y frenhiniaeth, ond ni allent gael un achos na llwgr, o herwydd ffyddlon [oedd] efe, fel na cheid arno ddim bai, na llygredigaeth.

5 Yna y dywedodd y gwŷr hyn, ni chawn yn erbyn y Daniel hwn ddim achos, oni chawn [beth] yng-hyfraith ei Dduw yn ei erbyn ef.

6 Yna y rhaglawiaid a'r tywyſogion hyn a aethant yng-hyd at y brenin, ac a ddywedaſant wrtho ef fel hyn: Darius frenin bydd fyw byth.

7 Holl raglawiaid y deyrnas, y ſwyddogion a'r tywyſogion, y cynghoriaid a'r dugiaid a ymgynghorâſant am oſod deddf frenhinol, a chadarnhau gorchymyn, mai i ffau y llewod y bwrir pwy bynnac a arche arch gan un duw na dyn tros ddeng-nhiwrnod ar hugain, onid gennit ti ô frenin.

8 Yr awr hon ô frenin ſiccrha y gorchymyn, a ſelia'r ſcrifen, fel na's newidier: megis cyfraith y Mediaid a'r Perſiaid, yr hon ſydd ſafadwy.

9 O herwydd hyn y ſeliodd brenin Darius yr ſcrifen a'r gorchymyn.

10 Yna Daniel (pan ŵybu ſelio'r ſcrifen) a aeth iw dŷ: a'r ffeneſtri oeddynt agored iddo ef yn ei ſtafell ar gyfer Ieruſalem: a thair gwaith yn y dydd y goſtynge efe ar ei liniau, ac y gweddie efe, ac y cyffeſſe o flaen Duw, megis y gwnae efe cyn hynny.

11 Yna y gwŷr hyn a ddaethant yng-hyd, ac a gawſant Ddaniel yn gweddio, ac yn ymbil o flaen ei Dduw.

12 Yna y daethant, ac y dywedaſant o flaen y brenin am orchymyn y brenin: oni ſeliaiſt ti orchymyn, mai i ffau y llewod y bwrid pa ddyn bynnac a geiſie gan un duw, na dyn [ddim] tros ddeng-nhiwrnod ar hugain, onid gennit ti ô frenin? atteboddy brenin, a dywedodd, gair ſafadwy [yw hwnnw] fel cyfraith y Mediaid, a'r Perſiaid yr hon ni throſſedda [neb.]

13 Yna'r attebaſant, ac y dywedaſant o flaen y brenin: Daniel yr hwn ſydd o feibion caeth-glud Iuda ni wnaeth gyfrif o honot ti frenin, nac o'r gorchymyn yr hwn a ſeliaiſt: eithr tair gwaith yn y dydd y mae yn gweddio ei weddi ei hun.

14 Yna'r brenin (pan glybu'r gair hwn) a aeth yn ddrwg iawn arno, ac a oſododd ei fryd gyd â Daniel ar ei waredu ef, ac a fu hyd fachludiad haul yn ei achub ef.

15 Yna y gwŷr hynny a ddaethant yng-hyd at y brenin, ac a ddywedaſant wrth y brenin,

gŵybydd

gwybydd frenin mai cyfraith y Mediaid a'r Perſiaid [yw] na newidier vn gorchymyn na deddf o'r rhai a oſodo y brenin.

16 Yna yr archodd y brenin, a hwynt a ddugáſant Ddaniel, ac ai bwriaſant i ffau y llewod: [yna] y brenin a lefarodd, ac a ddywedodd wrth Ddaniel, dy Dduw yr hwn yr ydwyt yn ei waſanaethu yn waſtad, efe a'th achub di.

17 Yna y dygwyd vn gàrrec, ac ai goſodwyd ar enau y ffau, a'r [brenin] ai ſeliodd hi ai ſêl ei hun, ac â ſêl ei dywyſogion, fel na newidid yr hyn a ewyllyſiaſid am Ddaniel.

18 Yna yr aeth y brenin iw lŷs, ac a fu y noſſon honno heb fwyd, ac ni adawodd ddwyn difyrwch oi flaen, ei gŵſc hefyd a giliodd oddi wrtho ef.

19 Yna y cododd y brenin ar wawr ddydd, ac a aeth ar frŷs hyd ffau y llewod:

20 A phan neſſaodd efe at y ffau, efe a alwodd am Ddaniel â llais triſt, llefarodd y brenin [hefyd,] a dywedodd wrth Ddaniel, Daniel, gwaſanaeth-wr y Duw byw, oni alle dy Dduw di yr hwn yr wyt ti yn ei waſanaethu yn oeſtad dy gadw di rhag y llewod?

21 Yna y dywedodd Daniel wrth y brenin, ô frenin bydd fyw byth.

22 Fy Nuw a anfonodd ei Angel, ac a gaeodd ſafn y llewod, fel na wnaethant i'm niwed, o herwydd puredd a gaed ynof ger ei fron ef: a hefyd ni wnaethwn niwed o'th flaen dithe frenin.

23 Yna y brenin fu dda iawn ganddo, ac a archodd gyfodi Daniel o'r ffau, yna y codwyd Daniel o'r ffau, ac ni chaed niwed ynddo, a herwydd credu o honaw yn ei Dduw.

24 Yna y brenin a ddywedodd am ddwyn y y gwŷr hynny y rhai a gyhuddâſent Ddaniel, ai bwrw i ffau y llewod, hwynt, ai plant, ai gwragedd: ac ni ddaethent i waelod y ffau hyd oni orchfygodd y llewod hwynt, a dryllio eu heſcyrn.

25 Yna yr ſcrifennodd y brenin Darius at y bobloedd, ac y cenhedloedd, a'r ieithoedd oll, y rhai oeddynt yn trigo yn yr holl dir: Heddwch a amlhaer i chwi.

26 O'm blaen i y goſodwyd cyfraith trwy holl lywodraeth fy nheyrnas, ar fod o honynt yn crynu, ac yn ofni rhag Duw Daniel, o herwydd efe [ſydd] Dduw byw, ac yn parhau byth: ei frenhiniaeth ef hefyd ni dderfydd, nai lywodraeth byth.

27 Y mae yn gwaredu, ac yn achub, ac yn gwneuthur arwyddion, a rhyfeddodau yn y nefoedd, ac ar y ddaiar, yr hwn a waredodd Ddaniel o feddiant y llewod.

28 A'r Daniel hwn a lwyddodd yn nheyrnaſiad Darius, ac yn nheyrnaſiad Cyrus y Perſiad.

## PEN. VII.

Daniel yn gweled pedwar anifail, 14 Ac vn dyn, 17 Y rhai a arwyddocânt bedair brenhiniaeth, 27 A thragywyddawl lywodraeth Griſt.

YN y flwyddyn gyntaf i Balthaſar frenin Babilon y gwelodd Daniel freuddwyd, a gweledigaethau [oeddynt yn] ei benn ar ei wely: yna efe a ſcrifennodd y breuddwyd, [ac] a draethodd ſwm y geiriau.

2 Llefarodd Daniel, a dywedodd, edrych yr oeddwn yn fyng-weledigaeth gyd a'r nôs, ac wele bedwar gwynt y nefoedd yn ymrwygo yn y môr mawr.

3 A phedwar bwyſt-fil mawr a ddaethant i fynu o'r môr yn amrywio y naill oddi wrth y llall.

4 Y cyntaf [oedd] fel llew, ac iddo adenydd eryr, edrychais [arno] hyd oni thynnwyd ei adenydd, ai gyfodi oddi wrth y ddaiar, a ſefyll o honaw ar ei draed fel dŷn, a rhoddi iddo galon dyn.

5 Ac wele'r ail anifail arall yn debyg i arth, ac ar y naill yſtlys y ſafe, ac yr oedd tair aſſen yn ei ſafn ef rhwng ei ddannedd, ac fel hyn y dywedent wrtho ef: cyfot, bwytta gig lawer.

6 Wedi hyn yr edrychais, ac wele vn arall megis llewpard, ac iddo bedair aden aderyn ar ei gefn, a phedwar pen bwyſt-fil, a rhoddwyd iddo lywodraeth.

7 Wedi hyn yr oeddwn yn edrych mewn gweledigaethau nôs, ac wele y pedwerydd bwyſt-fil yn ofnadwy, ac yn aruthrol, ac yn gryf ragorol, ac iddo ddannedd mawrion o haiarn: yr oedd yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn ſathru y gweddill tann ei draed: hefyd [yr ydoedd] efe yn amryw oddi wrth y bwyſt-filod oll, y rhai [fuaſent] oi flaen ef, ac [yr oedd] iddo ef ddêc o gyrn.

8 Yr oeddwn yn yſtyried am y cyrn, ac wele cyfododd corn bychan arall rhyngddynt hwy, a thynnwyd tri o'r cyrn cyntaf oi flaen ef: ac wele lygaid fel llygaid dyn yn y corn hwnnw, a genau yn traethu mawrhydri.

9 Edrychais hyd oni chyfodwyd gorſeddfeudd, yna yr eiſteddodd hen ddihenydd, ei wiſc [oedd] cynn wynned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlân pûr: ei orſeddfa yn fflammau tân, ai olwynion yn dân poeth.

10 Afon danllyd oedd yn rhedeg, ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef, mil o filoedd ai gwaſanaethent, a myrdd myrddion a ſafent ger ei fron ef: eiſteddwyd [ar] y farn, ac agorwyd y llyfrau.

11 Edrychais yna o [ddechreuad] llais y geiriau mawrion y rhai a draethodd y corn, [ie] edrychais hyd oni laddwyd y bwyſt-fil, a difetha ei gorph ef, ai roddi iw loſci yn tân.

12 A llywodraeth y rhann arall o'r bwyſt-filod a dducpwyd, a rhoddwyd iddynt enioes tros yſpaid, ac amſer.

13 Oeddwn yn edrych mewn gweledigaethau nôs, ac wele megis mab dŷn oedd yn dyfod gyd â chwmmylau y nefoedd, ac hyd at hên ddihenydd y daeth efe, ac o flaen hwnnw y dug-

wyd ef.

14 Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth fel y gwaſanaethe yr holl bobloedd, cenhedloedd, ac ieithoedd ef: ei lywodraeth [ſydd] lywodraeth dragywyddol, yr hon ni ddygir, ai frenhiniaeth ni lygrir:

15 Dyrlliwyd fy yſpryd mau fi Daniel yng-hanol fyng-horph, a gweledigaethau fy mhen a'm dychrynnaſant.

16 Deuthym at vn o'r rhai a ſafent [yno,] a cheiſiais ganddo ſiccrwydd am hyn oll: ac efe a ddywedodd i mi, ac a ddyſcodd i mi ddeongliad y geiriau.

17 Y bwyſt-filod mawrion hyn (y rhai oeddynt bedwar) [ynt] bedwar brenin [y rhai] a gyfodant o'r ddaiar.

18 Ac a dderbynniant frenhiniaeth y ſainct goruchaf, ac a feddiannant y frenhiniaeth hyd byth, ac hyd byth bythoedd.

19 Yna'r ewyllyſiais ſiccrwydd am y pedwerydd bwyſt-fil, yr hwn oedd yn amrywio oddi wrthynt oll, yn ofnadwy odieth, ai ddannedd o haiarn, ai ewinedd o brês, yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn ſathru y gweddill ai draed,

20 Ac am y dêc corn y rhai [oeddynt] ar ei benn ef, a'r llall yr hwn a gyfodaſe, ac y ſyrthiaſe tri oi flaen, ſef y corn yr hwn [oedd] llygaid iddo, a genau yn traethu mawrhydri, a'r olwg arno oedd yn arwach na i gyfeillion.

21 Edrychais, a'r corn hwn oedd yn gwneuthur rhyfel a'r ſainct, ac yn drêch na hwynt,

22 Hyd oni ddaeth hen ddihenydd, a rhoddi barn i'r ſainct goruchaf, a dyfod o'r amſer a meddiannu o'r ſainct y frenhiniaeth.

23 Fel hyn y dywedodd efe, y pedwerydd bwyſt-fil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaiar, yr hon a amrywia oddi wrth yr holl frenhiniaethau: hefyd hi a ddifa yr holl ddaiar, ac ai ſathr hi, ac ai dryllia.

24 A'r dêc corn o'r frenhiniaeth honno [fyddant] ddêc brenin [y rhai] a gyfodant, ac arall a gyfyd ar eu hôl hwynt, ac efe a amrywia oddi wrth y rhai cyntaf, ac a ddaroſtwng dri brenin.

25 Ac efe a draetha eiriau yn erbyn y Goruchaf, ac a ddifa ſainct y Goruchaf: efe hefyd a amcana newidio amſeroedd, a chyfraith, a hwynt a roddir yn ei law ef * hyd amſer, ac amſeroedd, a hanner amſer.

Mat.24.22.

26 Yna yr eiſteddir [ar] farn, ai awdurdod a ddygant, gan anrheithio a difetha hyd y diwedd.

27 Yna brenhiniaeth, a llywodraeth, a mawredd y frenhiniaeth tann yr holl nefoedd a roddir i bobl ſainct y Goruchaf: ei frenhiniaeth [ſydd] brenhiniaeth dragywyddol, a phôb llywodraeth a waſanaethant, ac a vfyddhânt iddo.

28 Hyd ymma [y mae] diwedd y gair: fy meddyliau i Daniel a'm dychrynnodd yn ddirfawr, a'm lliw a newidiodd ynof: a chedwais y gair yn fyng-halon.

## PEN. VIII.

Ymladdiad hwrdd a bwch yn arwyddocâu rhyfel rhwng y Perſiaid a'r Groegiaid.

YN y drydedd flwyddyn o deyrnaſiad Balthaſar y brenin yr ymddangoſodd i mi weledigaeth: myfi Daniel [ai gwelais] wedi [yr hon] a ymddangoſaſe i mi yn y dechreuad.

2 Gwelais hefyd mewn gweledigaeth, a bu pan welais, mai yn Suſan y brenhin-lys yr hwn [ſydd] o fewn talaith Elam [yr oeddwn] i: ie gwelais mewn gweledigaeth, ac yr oeddwn i wrth afon Ulai.

3 Yna y cyfodais fy llygaid, ac edrychais, ac wele ryw hwrdd yn ſefyll wrth yr afon, a dau-gorn iddo, a'r ddau gorn oeddynt vchel, ac vn yn vwch na'r llall: a'r vchaf a gyfodaſe yn olaf.

4 Gwelwn yr hwrdd yn cornio tua'r gorllewyn, tua'r gogledd, a thua'r deau, ac ni ſafe vn bwyſt-fil oi flaen ef, ac nid [oedd] a achube rhagddo ef: ond efe a wnaeth yn ôl ei ewyllys ei hun, ac a ymfawrygodd.

5 Ac yr oeddwn yn yſtyried [hyn,] wele hefyd fwch geifr yn dyfod o'r gorllewyn, ar hŷd wyneb yr holl ddaiar, ac heb gyffwrdd a'r ddaiar, ac i'r bwch [yr oedd] corn amlwg rhwng ei lygaid.

6 Ac efe a ddaeth hyd at yr hwrdd corniog yr hwn a welſwn yn ſefyll wrth yr afon, ac efe a redodd atto ef oi holl nerth.

7 Gwelais ef hefyd yn dyfod at yr hwrdd, ac efe a ymchwerwodd wrtho ef, ac a darawodd yr hwrdd, ac a dorrodd ei ddau gorn ef, ac nid oedd gryfder yn yr hwrdd i ſefyll oi flaen ef, eithr efe ai bwriodd ef i lawr, ac ai ſathrodd ef, ac nid oedd a achube yr hwrdd oi law ef.

8 A'r bwch geifr a ymfawrygodd yn fawr, ac wedi ei gryfhau torrodd y corn mawr, a chododd megis pedwar corn yn ei lê ef tua phedwar gwynt y nefoedd.

9 Ac o vn o honynt y daeth allan vn corn bychan, ac a dyfodd yn rhagorol tua'r deheu a thua'r dwyrain, a thua'r hardd-wlâd.

10 Tyfodd hefyd hyd lu y nefoedd, a bwriodd i lawr [rai] o'r llu, ac o'r ſêr, ac ai ſathrodd hwynt.

11 Ymfawrygodd hefyd hyd at dywyſog y llu, yna y dygwyd ymmaith yr [offrwm] gwaſtadol oddi wrtho [illegible] bwriwyd ymmaith le ei gyſſegr ef.

12 Felly y goſodir llu yn erbyn yr [offrwm] gwaſtadol mewn camwedd, ac efe a fwrw y gwirionedd i lawr, felly y gwna, ac y llwydda.

13 A chlywais ryw ſanct yn lleſaru, a dywedodd rhyw ſanct wrth ryw vn rhagorol yr hwn oedd yn lleſaru: pa hŷd [yr erys] gweledigaeth yr offrwm gwaſtadol, gan roddi y cyſſegr a'r llu yn ſathrfa?

14 Ac efe a ddywedodd wrthif, hyd ddwy fil a thry-chant o ddiwrnodau: yna y purir y cyſſegr.

15 A phan welais i Daniel y weledigaeth a

cheiſio o honof ddeall, yna wele ſafodd ger fy mron megis rhith gŵr.

16 A chlywais lais dyn rhwng [glannau] Ulai, ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, Gabriel gwna i hwn ddeall y weledigaeth.

17 Ac efe a ddaeth wrth y lle y ſefais, a phan ddaeth efe mi a ddychrynnais, ac a ſyrthiais ar fy wyneb, ac efe a ddywedodd wrthif: deall fab dŷn o herwydd y weledigaeth [ſydd] dros amſer terfynol.

18 A thra y llefarodd wrthif ſyrthiais mewn trymgwſc â'm wyneb ar fy wyneb: ac efe a gyffyrddodd â mi, ac a'm cyfododd yn fy ſefyll.

19 Dywedodd hefyd: wele fi yn yſpyſſu it yr hyn a fydd yn niwedd y digter, canys ar amſer gosodedic [y bydd] diben.

20 Yr hwrdd yr hwn a welaiſt yn berchen deu-gorn [yw] brenin y Mediaid, a'r Perſiaid.

21 A'r bwch blewog [yw] brenin Groec, a'r corn mawr yr hwn [oedd] rhwng ei lygaid, dyna y brenin cyntaf.

22 Lle y drylliwyd ef, ac y cyfododd pedwar yn ei le, pedair brenhiniaeth a gyfodant o'r [un] genhedlaeth, ac nid yn nerth ag ef.

23 Ac yn niwedd eu brenhiniaeth hwynt, (pan gyflawner [rhifedi] y troſeddwŷr) y cyfyd brenin caled ei wyneb, ac yn deall dammegion.

24 Ai nerth efe a gadarnheuir, ond nid yn ei nerth ei hun, efe a ddiniſtria yn rhyfedd ac a lwydda, ac a orphen: ie efe a ddiniſtria y cedyrn, a'r bobl ſanctaidd.

25 A thrwy ei gyfrwyſtra ef y llwydda dan ddo dwyllo, ac efe a ymfawrhâ yn ei galon ac a thrwy lonyddwch y diniſtria efe lawer, ac efe a ſaif yn erbyn tywyſog y tywyſogion, yna y dryllir ef heb law.

26 A gweledigaeth yr hwyr, ac boreu, yr hon a draethwyd ſydd wirionedd, ſelia dithe y weledigaeth, o herwydd wedi dyddiau lawer [y bydd.]

27 Minne Daniel a leſceais, ac a fum glaf ennyd, yna y cyfodais, ac y gwneuthum orchwyl y brenin, ac a ryfeddais o herwydd y weledigaeth, gan nad [oedd] a fedre ddirnad.

## P E N. I X.

Gweddi Daniel a'i gyffes. 21 Gabriel yn dangos iddo ei ddirgelwch y deng-hwythnos a thrugain, a pha beth a fydde ynddynt.

YN y flwyddyn gyntaf i Ddarius fab Ahaſ-ferus o hâd y Mediaid, yr hwn a wnaethid yn frenin ar deyrnas y Caldeaid.

2 Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, myfi Daniel a ddeallais mewn llyfrau rifedi y blynyddoedd [am] y rhai y daethai gair yr Arglwydd at Jeremi y prophwyd, am gyflawni y deng-mlhynedd a thrugain [yn y rhai y byddai] Jeruſalem yn anghyfannedd. Iere.29.10.

3 Yna y troais fy wyneb at yr Arglwydd Dduw, i geiſio [trwy] weddi ac ymbil mewn ympryd, a ſach-liain a lludw.

4 A gweddiais ar yr Arglwydd fy Nuw, a chyffeſſais, a dywedais, attolwg Arglwydd Dduw mawr ac ofnadwy, cedwad cyfammod, a thrugaredd i'r rhai a'i carant ef, ac a gadwant ei orchymynion:

5 Pechaſom a gwyraſom, a buom anwir, gwrthryfelaſom hefyd, a [hynny] gan gilio oddi wrth dy orchymynnion, a'th farnedigaethau.

6 Ni wrandawſom ychwaith ar y prophwydi dy weiſion, y rhai a lefaraſant yn dy enw di wrth ein brenhinoedd ein tywyſogion ein tadau, ac wrth holl bobl y tîr.

7 I ti Arglwydd y [perthyn] cyfiawnder, ac i ninne gywilydd goleu: megis heddyw [y mae] i wŷr Juda, ac i drigolion Jeruſalem, ac i holl Iſrael yn agos ac ym mhell, yn yr holl wledydd lle y gwaſcaraiſt hwynt, am eu camwedd yr hwn a wnaethant i'th erbyn.

8 Arglwydd [y mae] cywilydd goleu i ni, i'n brenhinoedd i'n tywyſogion ac i'n tadau, y rhai a bechaſom i'th erbyn.

9 Gan yr Arglwydd ein Duw y mae trugaredd a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn.

10 Ni wrandawſom ychwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, gan rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni trwy law ei weiſion y prophwydi.

11 Ie holl Iſrael a droſeddaſant dy gyfraith di, a [hynny] gan gilio heb wrando ar dy lais di: am hynny y tywalltwyd arnom ni y felldith, a'r llw y rhai a ſcrifennwyd yng-hyfraith Moſes gwaſanaeth-wr Duw, am bechu o honom yn ei erbyn ef. Deu.27.15.

12 Ac efe a gyflawnodd ei eiriau y rhai a lefarodd efe am danom ni, ac am ein barn-wŷr y rhai a'n barnent, gan ddwyn arnom ni ddialedd mawr, yr hwn ni bu tan yr holl nefoedd megis y mae yn Jeruſalem.

13 Megis yr ſcrifennaſid yng-hyfraith Moſes y daeth yr holl ddrwg-fyd hyn arnom ni: ac ni ymbiliaſom o flaen yr Arglwydd ein Duw, gan droi oddi wrth ein anwiredd, a chael deall dy wirionedd di.

14 Am hynny y [illegible] yr Arglwydd am ddialedd, ac ai dûg arnom ni, o herwydd cyfiawn [yw] 'r Arglwydd ein Duw yn ei holl weithredoedd a'r a wnaeth: canys ni wrandawſom ni ar ei lais ef.

15 * Etto yr awr hon ô Arglwydd ein Duw yr hwn a ddygaiſt dy bobl o wlad yr Aipht â llaw gref, ac a wnaethoſt i ti enw megis heddyw, pechaſom [ac] ni a wnaethom anwiredd. Exod.14.28. Baru.2.11.

16 Troer weithian yn ôl dy holl gyfiawnderau Arglwydd, ymchweler dy ddigter oddi wrth dy ddinas Jeruſalem dy fynydd ſanctaidd, o herwydd am ein pechodau, ac am anwireddau ein tadau y mae Jeruſalem a'th bobl yn

[illegible]

14 Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth fel y gwaſanaethe yr holl bobloedd, genhedloedd, ac ieithoedd ef: ei lywodraeth ef [ſydd] lywodraeth dragywyddol, yr hon ni ddarfydd, a'i frenhiniaeth ni lygrir:

15 [illegible] fy yſpryd innau fi Daniel yng-hanol fy ng-horph, a gweledigaethau fy mhen a'm dychrynaſant.

16 Deuthym at un o'r rhai a ſafent [yno,] a cheiſiais ganddo ſicrwydd am hyn oll: ac efe a ddywedodd i mi, ac a ddyſcodd i mi ddeongliad y geiriau.

17 Y bwyſt-filod mawrion hyn (y rhai oeddynt bedwar) [ynt] bedwar brenin [y rhai] a gyfodant o'r ddaiar.

18 Ac a dderbyniant frenhiniaeth y ſainct goruchaf, ac a feddiannant y frenhiniaeth hyd byth, ac hyd byth bythoedd.

19 Yna'r ewyllyſiais ſicrwydd am y pedweredd bwyſt-fil, yr hwn oedd yn amrywio oddi wrthynt oll, yn ofnadwy odieth, ai ddannedd o haiarn, ai ewinedd o brês, yn bwytta, ac yn dryllio, ac yn ſathru y gweddill ai draed,

20 Ac am y dec corn y rhai [oeddynt] ar ei benn ef, a'r llall yr hwn a gyfodaſe, ac y ſyrthiaſe tri oi flaen, ſef y corn yr hwn [oedd] llygaid iddo, a genau yn traethu mawrhydri, a'r olwg arno oedd yn arwach na'i gyfeillion.

21 Edrychais, a'r corn hwn oedd yn gwneuthur rhyfel a'r ſainct, ac yn drêch nâ hwynt,

22 Hyd oni ddaeth hen ddihenydd, a rhoddi barn i'r ſainct goruchaf, a dyfod o'r amſer a meddiannu o'r ſainct y frenhiniaeth.

23 Fel hyn y dywedodd efe: y pedweredd bwyſt-fil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaiar, yr hon a amrywia oddi wrth yr holl frenhiniaethau: hefyd hi a ddifa yr holl ddaiar, ac ai ſathr hi, ac ai dryllia.

24 A'r dec corn o'r frenhiniaeth honno [fyddant] ddêc brenin [y rhai] a gyfodant, ac arall a gyfyd ar eu hôl hwynt, ac efe a amrywia oddi wrth y rhai cyntaf, ac a ddaroſtwng dri brenin.

25 Ac efe a draetha eiriau yn erbyn y Goruchaf, ac a ddifa ſainct y Goruchaf: efe hefyd a amcâna newidio amſeroedd, a chyfraith, a hwynt a roddir yn ei law ef * hyd amſer, ac amſeroedd, a hanner amſer.

Mat.24.22.

26 Yna yr eiſteddir [ar] farn, ai awdurdod a ddygant, gan anrheithio a difetha hyd y diwedd.

27 Yna brenhiniaeth, a llywodraeth, a mawredd y frenhiniaeth tann yr holl nefoedd a roddir i bobl ſainct y Goruchaf: ei frenhiniaeth [fydd] brenhiniaeth dragywyddol, a phôb llywodraeth a waſanaethant, ac a ufyddhânt iddo.

28 Hyd ymma [y mae] diwedd y gair: fy meddyliau i Daniel a'm dychrynodd yn ddirfawr, a'm lliw a newidiodd ynof: a chedwais y gair yn fyng-halon.

## PEN. VIII.

Ymladdiad hwrdd a bwch yn arwyddocâu rhyfel rhwng y Perſiaid a'r Groegiaid.

YN y drydedd flwyddyn o deyrnaſiad Balthaſar y brenin yr ymddangoſodd i mi weledigaeth: myfi Daniel [ai gwelais] wedi [yr hon] a ymddangoſaſe i mi yn y dechreuad.

2 Gwelais hefyd mewn gweledigaeth, a bu pan welais, mai yn Suſan y brênhin-lys yr hwn [ſydd] o fewn talaith Elam [yr oeddwn] i: ie gwelais mewn gweledigaeth, ac yr oeddwn i wrth afon Ulai.

3 Yna y cyfodais fy llygaid, ac edrychais, ac wele ryw hwrdd yn ſefyll wrth yr afon, a deugorn iddo, a'r ddau gorn oeddynt uchel, ac un yn uwch na'r llall: a'r uchaf a gyfodaſe yn olaf.

4 Gwelwn yr hwrdd yn cornio tua'r gorllewyn, tua'r gogledd, a thua'r deau, ac ni ſafe un bwyſt-fil oi flaen ef, ac nid [oedd] a achube rhagddo ef: ond efe a wnaeth yn ôl ei ewyllys ei hun, ac a ymfawrygodd.

5 Ac yr oeddwn yn yſtyried [hyn,] wele hefyd fwch geifr yn dyfod o'r gorllewyn, ar hyd wyneb yr holl ddaiar, ac heb gyffwrdd a'r ddaiar, ac i'r bwch [yr oedd] corn amlwg rhwng ei lygaid.

6 Ac efe a ddaeth hyd at yr hwrdd corniog yr hwn a welſwn yn ſefyll wrth yr afon, ac efe a redodd atto ef oi holl nerth.

7 Gwelais ef hefyd yn dyfod at yr hwrdd, ac efe a ymchwerwodd wrtho ef, ac a darawodd yr hwrdd, ac a dorrodd ei ddau gorn ef, ac nid oedd cryfder yn yr hwrdd i ſefyll oi flaen ef, eithr efe ai bwriodd ef i lawr, ac ai ſathrodd ef, ac nid oedd a achube yr hwrdd oi law ef.

8 A'r bwch geifr a ymfawrygodd yn fawr, ac wedi ei gryfhaû torrodd y corn mawr, a chododd megis pedwar corn yn ei le ef tua phedwar gwynt y nefoedd.

9 Ac o un o honynt y daeth allan un corn bychan, ac a dyfodd yn rhagorol tua'r dehau a thua'r dwyrain, a thua'r hardd-wlâd.

10 Tyfodd hefyd hyd lu y nefoedd, a bwriodd i lawr [rai] o'r llu, ac o'r ſêr, ac ai ſathrodd hwynt.

11 Ymfawrygodd hefyd hyd at dywyſog y llu, yna y dugwyd ymmaith yr [offrwm] gwaſtadol oddi wrtho [illegible] y bwriwyd ymmaith le ei gyſſegr ef.

12 Felly y goſodir llu yn erbyn yr [offrwm] gwaſtadol mewn camwedd, ac efe a fwrw y gwirionedd i lawr, felly y gwna, ac y llwydda.

13 A chlywais ryw ſanct yn llefaru, a dywedodd rhyw ſanct wrth ryw un rhagorol yr hwn oedd yn llefaru: pa hŷd [yr erys] gweledigaeth yr offrwm gwaſtadol, gan roddi y cyſſegr a'r llu yn ſathrfa?

14 Ac efe a ddywedodd wrthif, hyd ddwy fil a thry-chant o ddiwrnodau: yna y purir y cyſſegr.

15 A phan welais i Daniel y weledigaeth a

cheiſio o honof ddeall, yna wele ſafodd ger fy mron megis rhith gŵr.

16 A chlywais lais dyn rhwng [glannau] Ulai, ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, Gabriel gwna i hwn ddeall y weledigaeth.

17 Ac efe a ddaeth wrth y lle y ſefais, a phan ddaeth mi a ddychrynnais, ac a ſyrthiais ar fy wyneb, ac efe a ddywedodd wrthif: deall fab dŷn o herwydd y weledigaeth [ſydd] dros amſer terfynol.

18 A thra y llefarodd wrthif ſyrthiais mewn trym-gwſc i lawr ar fy wyneb: ac efe a gyffyrddodd â mi, ac a'm cyfododd yn fy ſefyll.

19 Dywedodd hefyd: wele fi yn yſpyſſu it yr hyn a fydd yn niwedd y digter, canys ar amſer goſodedic [y bydd] diben.

20 Yr hwrdd yr hwn a welaiſt yn berchen deu-gorn [yw] brenin y Mediaid, a'r Perſiaid.

21 A'r bwch blewog [yw] brenin Groec, a'r corn mawr yr hwn [oedd] rhwng ei lygaid, dyna y brenin cyntaf.

22 Lle y drylliwyd ef, ac y cyfododd pedwar yn ei le, pedair brenhiniaeth a gyfodant o'r [un] genhedlaeth, ac nid un nerth ag ef.

23 Ac yn niwedd eu brenhiniaeth hwynt, (pan gyflawner [rhifedi] y troſſedd-wŷr) y cyfyd brenin caled ei wyneb, ac yn deall dammegion.

24 Ai nerth ef a gadarnheuir, ond nid yn ei nerth ei hun, efe a ddiniſtria yn rhyfedd ac a lwydda, ac a orphen: ie efe a ddiniſtria y cedyrn, a'r bobl ſanctaidd.

25 A thrwy ei gyfrwyſtra ef y ffynna ganddo dwyllo, ac efe a ymfawrhyga yn ei galon a thrwy lonyddwch y diniſtria efe lawer, ac efe a ſaif yn erbyn tywyſog y tywyſogion, yna y dryllir ef heb law.

26 A gweledigaeth yr hwyr, ar boreu, yr hon a draethwyd ſydd wirionedd, ſelia dithe y weledigaeth, o herwydd wedi dyddiau lawer [y bydd.]

27 Minne Daniel a leſceais, ac a fum glaf ennyd, yna y cyfodais, ac y gwneuthum orchwyl y brenin, ac a ryfeddais o herwydd y weledigaeth, gan nad [oedd] a fedre ddirnad.

## PEN. IX.

Gweddi Daniel ai gyffes. 21 Gabriel yn dangos iddo ef ddirgelwch y deng-hwythnos a thrugain, a pha beth a fydde ynddynt.

YN y flwyddyn gyntaf i Ddarius fab Ahaſferus o hâd y Mediaid yr hwn a wnaethid yn frenin ar deyrnas y Caldeiaid,

2 Yn y flwyddyn gyntaf oi deyrnasiad ef myfi Daniel a ddeallais mewn llyfrau rifedi y blynyddoedd [am] y rhai y daethe gair yr Arglwydd at Ieremi y prophwyd, am gyflawni y deng-mlhynedd a thrugain, [yn y rhai y bydde] Ieruſalem yn anghyfannedd.

Iere.29.10.

3 Yna y troais fy wyneb at yr Arglwydd Dduw, i geiſio [trwy] weddi ac ymbil mewn ympryd, a ſach-liain a lludw.

4 A gweddiais ar yr Arglwydd fy Nuw, a chyffeſſais, a dywedais, attolwg Arglwydd Dduw mawr ac ofnadwy, ceidwad cyfammod, a thrugaredd i'r rhai ai carant ef, ac a gadwant ei orchymynnion:

5 Pechaſom a gwyraſom, a buom anwir, gwrthryfelaſom hefyd, a [hynny] gan gilio oddi wrth dy orchymynnion, a'th farnedigaethau.

6 Ni wrandawſom ychwaith ar y prophwydi dy weiſion, y rhai a lefarâſant yn dy enw di wrth ein brenhinoedd ein tywyſogion ein tadau, ac wrth holl bobl y tîr.

7 I ti Arglwydd y [perthyn] cyfiawnder, ac i ninne gywilydd goleu: megis heddyw [y mae] i wŷr Iuda, ac i drigolion Ieruſalem, ac i holl Iſrael yn agos ac ym mhell, yn yr holl diroedd lle y gwaſceraiſt hwynt, am eu camwedd yr hwn a wnaethant i'th erbyn.

8 Arglwydd [y mae] cywilydd goleu i ni, i'n brenhinoedd i'n tywyſogion ac i'n tadau, y rhai a bechaſom i'th erbyn.

9 Gan yr Arglwydd ein Duw y mae trugaredd a maddeuant, er gwrthryfelu o honom iw erbyn.

10 Ni wrandawſom ychwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, gan rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni trwy law ei weiſion y prophwydi.

11 Ie holl Iſrael a droſſeddaſant dy gyfraith di, a [hynny] gan gilio heb wrando ar dy lais di: am hynny y tywalltwyd arnom ni y felldith a'r llw y rhai a ſcrifennwyd yng-hyfraith Moſes gwaſanaeth-wr Duw, am bechu o honom yn ei erbyn ef.

Deu.27.15.

12 Ac efe a gyflawnodd ei eiriau y rhai a lefarodd efe am danom ni, ac am ein barn-wŷr y rhai a'n barnent, gan ddwyn arnom ni ddialedd mawr, yr hwn ni bu tann yr holl nefoedd megis y mae yn Ieruſalem.

13 Megis ac yr ſcrifennaſid yng-hyfraith Moſes y daeth yr holl ddrwg-fyd hyn arnom ni: ac ni ymbiliaſom o flaen yr Arglwydd ein Duw, gan droi oddi wrth ein anwiredd, a chael ddeall dy wirionedd di.

14 Am hynny y gw[illegible]dd yr Arglwydd am ddialedd, ac ai dûg arnom ni, o herwydd cyfiawn [yw] 'r Arglwydd ein Duw yn ei holl weithredoedd a'r a wnaeth: canys ni wrandawſom ni ar ei lais ef.

15 *Etto yr awr hon ô Arglwydd ein Duw yr hwn a ddygaiſt dy bobl o wlâd yr Aipht â llaw gref, ac a wnaethoſt i ti enw megis heddyw, pechaſom [ac] ni a wnaethom anwiredd.

Exod.14.28.
Baru.2.11.

16 Troer weithian yn ôl dy holl gyfiawnderau Arglwydd lidiawgrwydd dy ddigter oddi wrth dy ddinas Ieruſalem dy fynydd ſanctaidd, o herwydd am ein pechodau, ac am anwireddau ein tadau y mae Ieruſalem a'th bobl yn

wradwydd i bawb o'n hamgylch.

17 Ond yr awr hon gwrando ein Duw ni ar weddi dy wâs, ac ar ei ddeiſyfiadau ef, a llywyrcha dy wyneb ar dy gyſſegr anrhaithiedic, er mwyn yr Arglwydd.

18 Goſtwng dy glust fy Nuw a chlyw, agor dy lygaid a gwêl ein hanrhaith ni, a'r ddinas yr hon y galwyd dy enw di arni: o herwydd nid yn ein cyfiawnderau ein hun yr ydym ni yn tywallt ein gweddiau ger dy fron, eithr yn dy aml drugareddau di.

19 Clyw Arglwydd, arbed Arglwydd, yſtyr ô Arglwydd, a dwg i ben, nac oeda er dy fwyn dy hun ô fy Nuw, o herwydd dy enw di a alwyd ar y ddinas hon, ac ar dy bobl.

20 A mi etto yn llefaru ac yn gweddio, ac yn cyffeſſu fy mhechod, a phechod fy mhobl Iſrael, ac yn tywallt fyng-weddi ger brō yr Arglwydd fy Nuw tros fynydd ſanctaidd fy Nuw:

Dan.8.16.

21 [Ie] a mi etto yn llefaru mewn gweddi, yna y gŵr * Gabriel yr hwn a welſwn mewn gweledigaeth yn y dechreuad gan ehedec yn fuan a ddaeth attaf yng-hylch pryd yr hwyr offrwm.

22 Ac efe a barodd [i'm] ddeall, ac a lefarodd wrthif, ac a ddywedodd: Daniel yr awr hon y daethum allan i beri it fedru deall.

23 Yn nechreu dy weddiau yr aeth gorchymyn allan, ac mi a ddeuthum iw fynegu, canys annwyl [ydwyt] ti: yſtyr dithe y peth, a deall y weledigaeth.

24 Deng-hwythnos a thri ugain a derfynwyd ar dy bobl, ac ar dy ddinas ſanctaidd i ddifa camwedd, ac i ſelio pechodau, ac i wneuthur iawn am anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddawl: ac i ſelio'r weledigaeth, a'r brophwydoliaeth, ac i eneinio y cyſſegr ſancteiddiolaf.

25 Gwybydd gan hynny a deall [y bydd] o fynediad y gorchymyn allan am ddychwelyd [o'r bobl] ac am adailadu Jeruſalem hyd y blaenor Meſſiah ſaith wythnos, a dwy wythnos a thrugain, yna y cyweirir, ac yr adailedir yr heol, a'r mur mewn amſer blin.

26 Ac wedi dwy wythnos a thrugain y lleddir y Meſſiah, ond nid oi achos ei hun, a phobl y tywyſog yr hwn a ddaw a ddiniſtria y ddinas a'r cyſſegr, a'i ddiwedd ef fydd trwy lifeiriant, ac hyd ddiwedd y rhyfel [y caiff efe] ddiniſtr anrheithiol.

27 Hefyd mewn un wythnos y gwnaiff efe gyfammod â llawer, ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth, a'r bwyd offrwm beidio: yna trwy lu ffiaidd yr anrheithia efe, hyd oni ymdywallto diben, a thrallod ar yr anrhaithiedig.

## PEN. X.

Angel yr Arglwydd yn cyſſuro Daniel.

YN y drydedd flwyddyn i Cyrus brenin Perſia y datcuddiwyd peth i Daniel, (yr hwn y gelwyd ei enw Balteſaſar) a'r peth [ſydd] wir, ond y cyfamſer [ſydd] hir: ac efe a ddeallodd y peth, ac â gafodd wybod y weledigaeth.

2 Yn y dyddiau hynny y galerais i Daniel dair wythnos o ddyddiau.

3 Ni ſwpperais fara blaſus, ac ni ddaeth cig na gwin yn fyng-enau, gan ird hefyd nid ymirais, nes cyflawni tair wythnos o ddyddiau.

4 Ac yn y pedwerydd dydd ar ddec o'r mîs cyntaf yr oeddwn i wrth ymyl yr afon fawr, honno [yw] Hiddecel.

5 Yna y cyfodais fy llygaid, ac yr edrychais, ac wele ryw ŵr wedi ei wiſco â lliain, ai lwynau wedi eu gwregyſu ag aur coeth o Uphaz.

6 Ai gorph ef [oedd] fel maen Turcas, ai wyneb fel gwelediad mellten, ai lygaid fel ffaglau tân, ai freichiau ai draed, fel lliw prês gloiw, a ſain ei eiriau ef fel ſain tyrfa.

7 A mi Daniel yn unic a welais y weledigaeth, a'r dynion y rhai oeddynt gyd â mi ni welſant y weledigaeth: eithr ſyrthiodd arnynt ddychryn mawr, fel y ffoaſant hwy i ymguddio.

8 A mi a adawyd fy hunan, ac a welais y weledigaeth fawr hon, ac ni thrigodd nerth ynof, a'm lliw a drôdd ynof yn llygredigaeth, ac ni ellais attal [fy] nerth.

9 Yna y clywais ſain ei eiriau ef, a phan glywais ſain ei eiriau ef, yna y llewygais ar fy wyneb, a'm hwyneb tua'r ddaiar.

10 Ac wele llaw a gyffyrddodd â mi, ac a'm goſododd a'r fyng-liniau, ac ar gledr fy nwylo.

11 Ac efe a ddywedodd wrthif: Daniel ŵr hoff, deall y geiriau y rhai a lefaraf wrthit, a ſaf di yn dy ſefyll, canys attat ti i'm hanfonwyd yr awr hon: a phan ddywedodd efe wrthif y gair hwn, ſefais gan grynu.

12 Hefyd, dywedodd wrthif, nac ofna Daniel, o herwydd er y dydd cyntaf y rhoddaiſt dy galon i ddeall, ac i ymgyſtuddio ger bron dy Dduw y gwrandawyd dy eiriau, ac o herwydd dy eiriau di y daethum i.

13 Ond tywyſog teyrnas Perſia a ſafodd yn fy erbyn un diwrnod ar hugain, ac wele Michael, un o'r tywyſogion pennaf a ddaeth i'm cynhorthwyo: a mi a arhoes gyd â brenhinoedd Perſia.

14 A mi a ddaethum i beri it ddeall yr hyn a ddigwydd i'th bobl yn y dyddiau diweddaf, o herwydd y weledigaeth [a oedd] tros ddyddiau etto.

15 A phan lefarodd efe wrthif fel hyn, rhoddais fy wyneb tua'r ddaiar, a thewais.

16 Ac wele, peth tebyg i ddyn a gyffyrddodd â'm gwefuſau, yna yr agorais fy ſafn, ac y lleferais, ac y dywedais wrth yr hwn oedd yn ſefyll ar fyng-hyfer, ô fy Arglwydd fyng-ofidiau a droeſant arnaf yn y weledigaeth hon, ac ni ellais attal [fy] nerth.

17 A pha fodd y dichon gwaſanaeth-wr fy Arglwydd yma, lefaru wrth fy Arglwydd yma: ac o hynny allan ni ſafodd fy nerth ynof, ac nid arhodd [illegible] ynof.

18 Yna y cyffyrddodd efe eil-waith â mi, fel dull dyn, ac a'm cyſſurodd,

19 Ac efe a ddywedodd, nac ofna ŵr annwyl, heddwch it, ymgyſſura, ac ymnertha: a phan lefarodd efe wrthif yr ymgyſſurais ac y dywedais: llefared fy Arglwydd o herwydd cyſſuraiſt fi.

20 Ac efe a ddywedodd, a ŵyddoſti pa ham y deuthum attat: canys weithian y dychwelaf i ryfela â thywyſog Perſia: ac a mi yn myned allan, wele dywyſog Groec yn dyfod i mewn.

21 Eithr mynegaf it yr hyn a yſpyſſwyd it mewn ſcrifen wirionedd, ac nid [oes] un yn ymegnîo gyd â mi yn hyn onid Michael eich tywyſog.

## PEN. XI.

Prophwydoliaeth am amryw frenhiniaethau.

AC yn y flwyddyn gyntaf i Ddarius Medas y ſefais i, yn gyſſur ac yn nerth iddo ef.

2 Ac yr awr hon gwirionedd a fynegaf i ti, wele tri brenin etto a ſafant o fewn Perſia, a'r pedwerydd a fydd cyfoethogach nâ hwynt oll: ac fel yr ymgadarnhao efe yn ei gyfoeth, y cyfyd efe bawb yn erbyn teyrnas Groec.

3 A brenin cadarn a gyfyd, ac a lywodraetha yn gadarn, ac a wna fel y mynno.

4 A phan ſafo efe, dryllir ei deyrnas, a rhennir hi tua phedwar gwynt y nefoedd, ond nid iw hiliogaeth ef, nac fel y llywodraeth yr hon a lywodraethodd efe: o herwydd ei frenhiniaeth ef a ddiwreiddir, ac [a roddir] i eraill heb law y rhai hyn.

5 Yna y cryfhâ brenin y deau, ac [un] oi dywyſogion, ſe efe a gryfha, ac a lywodraetha uwch ei law ef, llywodraeth fawr [fydd] ei lywodraeth ef.

6 Ac yn niwedd blynyddoedd yr ymgymharant hwy, yna merch brenin y deau a ddaw at frenin y gogledd i wneuthur cymmod, ond ni cheidw hi nerth braich, ac ni ſaif ei fraich yntef: canys [i farwolaeth] y rhoddir hi a'r rhai ai dygaſant hi, ei mab hefyd, ai chymmorth-wr yn yr amſeroedd [hynny.]

7 Eithr yn ei lê ef y ſaif [un] o fônion ei gwraidd hi, ac a ddaw â llu, ac a aiff i gaſtell brenin y gogledd, ac a wna yn eu herbyn hwy [i yr hyn a fynno,] ac a orchfyga,

8 Ac a ddwg hefyd mewn caethiwed i'r Aipht eu duwiau hwynt, ai tywyſogion ai dodrefn annwyl o arian, ac aur, ac efe a bery flynyddoedd [yn drech] nâ brenin y gogledd.

9 A brenin y deau a ddaw iw deyrnas, ac a ddychwel iw dir ei hun.

10 Ai feibion a ymoſodant, ac a gaſclant gymanfa o luoedd mawrion, a chan ddyfod y daw [un,] ac a lifeiria, ac a aiff troſodd, yna efe a ddychwel, ac a ymeſyd hyd ei amddeffynfa yntef.

11 Yna y cyffru brenin y deau, ac a aiff allan ac a ymladd ag ef [ſef] â brenin y gogledd, ac efe a gyfyd dyrfa fawr, a'r dyrfa a roddir iw law ef.

12 Pan gymmerir ymmaith y dyrfa y dercha efe ei galon, ond pe cwympe efe fyrddiwn, er hynny ni bydde efe [ddim] cryfach.

13 Canys brenin y gogledd a ddychwel, ac a gyfyd gymanfa fwy na'r gyntaf, ac ym mhen ennyd o flynyddoedd gan ddyfod y daw â llu mawr, ac â chyfoeth mawr.

14 Ac yn yr amſeroedd hynny llawer a ſafant yn erbyn brenin y deau, â chyndyn feibion dy bobl a ymddyrchafant i ſiccrhau'r weledigaeth, ond hwy a ſyrthiant.

15 Yna y daw brenin y gogledd, ac a fwrw glawdd, ac a ennill y dinaſoedd caeroc, ond breichiau y deau ni ſafant, na'r bobl a ddewiſo efe: ac ni bydd nerth i barhau.

16 A'r hwn a ddaw atto ef, a wna fel y mynno, ac ni [bydd] a ſafo oi flaen, yna y ſaif yn y wlâd hyfryd, a thrwy ei law ef y derfydd hi.

17 Ac efe a eſyd ei wyneb ar fyned â chryfder ei holl deyrnas, a rhai iniawn gyd ag ef, felly y gwnaiff: ac efe a rydd iddo ferch wreigaidd, gan ei llygru hi, ond nid erys hi, ac ni bydd ar ei du ef.

18 Yna y trŷ efe ei wyneb at ynyſoedd, ac a ennill lawer, a phennaeth a luddia ei warth ef atto, [ac] yn ddiwarth ai dettry arno ef.

19 Ac efe a drŷ ei wyneb at geſtyll ei dîr, ac a dramgwydda, ac a ſyrth, ac ni's ceir ef.

20 Ac yn ei le ef y ſaif un a gyfyd drethau yng-ogoniant y deyrnas, ac o fewn ychydig ddyddiau y deſtruwir ef: a [hynny] nid mewn dig, nac mewn rhyfel.

21 Ac yn ei le yntef y ſaif [un] dirmygus, ac ni roddant iddo ef ogoniant y deyrnas: eithr efe a ddaw yn llonydd, ac a ymeifl yn y frenhiniaeth trwy weniaith.

22 A llifeiriant a lifa tros y breic[illegible] oi flaen ef, yna y dryllir hwynt, a thywyſog y cyfammod hefyd.

23 Ac wedi ymgyfeillach ag ef, y gwna efe dwyll, ac y daw efe i fynu, ac a orchfyga ag ychydig bobl.

24 I dalaith lonydd a brâs y daw efe, ac a wna yr hyn ni wnaeth ei dadau ef, na thadau ei dadau ef: yſclyfaeth, ac yſpail, a golud a ddoſpartha efe iddynt, ac ar geſtyll y bwriada efe fwriadau, a [hynny] tros amſer.

25 Ac efe a gyfyd ei nerth, ai galon yn erbyn brenin y deau â llu mawr, a brenin y deau a ymeſyd, i ryfel â llu mawr, a chrŷf iawn: ond ni ſaif efe, canys bwriadant fwriadau yn ei erbyn ef.

26 Y rhai a fwyttânt ran oi fwyd ef, ai briwant ef, ai lu ef a lifeiria, a lladdedigion lawer a ſyrthiant.

27 Calon y ddau frenin hyn [fydd] ar wneuthur drwg, ac ar un bwrdd y traethant gelwydd, ond ni thyccia: canys bydd etto ddiwedd ar amſer nodedic.

28 Ac efe a ddychwel iw dîr ei hun â chyfoeth mawr, ai galon [fydd] yn erbyn y cyfammod

mod ſanctaidd: felly y gwna efe, ac y dychwel iw wlâd.

29 Ar amſer nodedic y dychwel, ac y daw i'r deau, ac ni bydd y waith olaf fel y waith gyntaf.

30 Canys llongau Chittim a ddeuant yn ei erbyn ef, yna'r ymofidia, ac y dychwel, ac y digia wrth y cyfammod ſanctaid: felly y gwna efe, ac y dychwel, ac efe a ymgyngһora a'r rhai a adawant y cyfammod ſanctaidd.

31 Breichiau hefyd a ſafant ar ei du ef, ac a halogant gyſſegr yr amddeffynfa, ac a ddygant ymmaith y gwaſtadol [aberth,] ac a roddant [yno] ffieidd-dra anrheithiol.

32 Ac efe a wna i droſſeddwŷr y cyfammod bechu trwy weniaith: eithr y bobl a adwaenant eu Duw a orchfygant, ac a ffynnant.

33 A'r rhai ſynhwyrol ym myſc y bobl a ddyſcant lawer, etto ſyrthiant trwy'r cleddyf, ac mewn tân, mewn caethiwed, ac mewn yſpail ddyddiau lawer.

34 A phan ſyrthiant, â chymmorth bychan y cymhorthir hwynt, eithr llawer a lŷnant wrthynt hwy yn wenhieith gar.

35 A'r rhai deallgar a ſyrthiant iw puro, ac iw glanhau, ac i w cannu hyd ddiwedd yr amſer, canys ar amſer nodedic etto [y bydd diwedd.]

36 A'r brenin a wna wrth ei ewyllys ei hun, ac a ymddercha, ac a ymfawrhyga yn erbyn pôb Duw: îe yn erbyn Duw yr duwiau y traetha efe bethau rhyfedd, ac a lwydda hyd ddiwedd digter, am ei ordeinio y gwnaed [hyn.]

37 Nid yſtyr efe am Dduw ei dadau, nac am ſerch ar wragedd, îe nid yſtyr am vn duw: canys goruwch pawb yr ymddercha efe.

38 Ac efe a anrhydedda y duw Mauzzim yn ei le ef, îe duw yr hwn nid adwaene ei dadau a ogonedda efe ag aur, ac ag arian, ac â meini gwerthfawr, ac ag annwyl bethau.

39 Fel hyn y gwna efe yng-heſtyll Mauzzim gyd â duw dieithr, efe a chwanega ogoniant y rhai a gydnabyddo efe, ac a wna iddynt lywodraethu ar lawer, ac a ranna y tir am werth.

40 Ac yn niwedd amſer yr ymgornia brenin y deau ag ef, a brenin y gogledd a chwyrth fel corwŷnt yn ei erbyn ef, â cherbydau, ac â marchogion, ac â llongau lawer, ac efe a ddaw i'r tiroedd, ac a lifa ac a dramwya.

41 Ac efe a ddaw i'r hardd-wlad, a llawer a ſyrthiant, a'r rhai hyn a ddiangant o'i law ef, Edom, a Moab, a phennaethiaid meibion Ammon.

42 A phan eſtynno efe ei law ar wledydd, gwlad yr Aipht ni bydd ddiangol.

43 Eithr efe a lywodraetha ar dryſſorau aur, ac arian, ac ar holl annwyl bethau yr Aipht: y Lybiaid hefyd, a'r Ethiopiaid [fyddant] gyd ag ef.

44 Eithr chwedlau o'r dwyrain, ac o'r gogledd ai dychrynnant ef, ac efe a aiff allan mewn llid mawr i ddifetha, ac i ddifrodi llawer.

45 Ac efe a eſyd babellau ei lŷs rhwng y moroedd, ar yr hardd fynydd ſanctaidd, ac a ddaw hyd ei derfyn, ac ni [bydd] cynnorthwywr iddo.

## PEN. XII.

Cyſſur y ffyddloniaid o ail cyfodiad y meirw. 8 Mor dywyll yw prophwydoliaeth Daniel.

AC yn yr amſer hwnnw y ſaif Michael y tywyſog mawr, yr hwn ſydd yn ſefyll tros feibion dy bobl: yna y bydd amſer blinder, y cyfryw ni bu er pan yw cenhedlaeth hyd yr amſer hwnnw: ac yn yr amſer hwnnw y diangc dy holl bobl y rhai a gaffer yn ſcrifennedic yn y llyfr.

2 A llawer o'r rhai ſydd yn cyſcu [mewn] daiar lychlyd a ddeffroant, rhai i fywyd tragywyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol.

3 A'r athrawon a ddiſcleiriant fel diſcleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder [fyddant] fel ſêr byth yn dragywydd,

4 Tithe Daniel, caea di y geiriau, a ſelia y llyfr hyd amſer y diwedd, llawer a gynniwerant, ac amlheuir gŵybodaeth.

5 Yna myfi Daniel a edrychais, ac wele ddau eraill yn ſefyll, vn o'r tu ymma ar fin yr afon, ac vn [arall] o'r tu arall ar lann yr afon.

6 Ac [vn] a ddywedodd wrth yr hwn a wiſcaſid â lliain, yr hwn [ydoedd] ar ddyfroedd yr afon, hyd pa bryd [yr oedir] diwedd y rhyfeddodau?

7 Clywais hefyd y gŵr a wiſcaſid â lliain, yr hwn [ydoedd] oddi ar ddwfr yr afon, pan dderchafodd efe ei law ddehau, ai aſſwy tua'r nefoedd, ac y tyngodd i'r hwn ſydd yn byw yn dragywydd, mai wedi tymmor, tymmorau, a hanner, ac wedi darfod gwaſcaru nerth y bobl ſanctaidd y darfydde hyn oll.

8 Yna y clywais, ond ni ddeallais, eithr dywedais, ô fy Arglwydd beth [fydd] diwedd hyn?

9 Ac efe a ddywedodd, dos Daniel, caewyd, a ſeliwyd y geiriau hyn hyd amſer y diwedd.

10 Llawer a ymlanhânt, ac a yngannant, ac a ymburant: eithr y rhai drygionus a wnant ddrygioni, îe y rhai drygionus oll ni ddeallant: ond y rhai ſynhwyrol a ddeallant.

11 Ac o'r amſer y ſymmudir y gwaſtadol [aberth,] ac y goſodir ffieidd-dra anrheithiol, [y bydd] mil, dau cant, a dêc a phedwar vgain o ddyddiau.

12 Gwyn ei fyd a ddiſgwilio, ac a gyrhaeddo hyd fil, try-chant, a phymthec ar hugain o ddyddiau.

13 Dos dithe hyd y diwedd, canys gorphywyſi, a ſefi ar dy ran yn niwedd y dyddiau.

*Terfyn llyfr y Prophwyd Daniel.*

# Llyfr Prophvvydoliaeth Oſea.

## PENNOD. I

Yr amſer y Prophwydodd Oſea. 2 Duw trwy gyffelybiaeth o wraig odinebus ai phlant yn ceryddu gau-dduwiaeth 'y bobl. 10 Galwedigaeth y cenhedloedd. 11 Addewid o vn pen, ſef Criſt.

GAir yr Arglwydd, yr hwn a ddaeth at Oſea fab Beeri yn nyddiau Oſea, Iotham, Abas, ac Hezecia brenhinoedd Iuda, ac yn nyddiau Ieroboam fab Ioas, brenin Iſrael.

2 Pan ddechreuodd yr Arglwydd lefaru drwy Oſea, yna yr Arglwydd a ddywedodd wrth Oſea, dos, cymmer it wraig odinebus a phlant [o] odineb: o herwydd y mae y wlâd gan butteinio yn putteinio oddi ar ôl yr Arglwydd.

3 Ac efe a aeth, ac a gymmerodd Gomer ferch Deblaim, a hi a feichiogodd ac a ymddug iddo ef fâb.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef, galw ei enw ef * Iezrahel: canys ar fyrder yr ymwelaf â gwaed Iezrahel ar dŷ Iehu, ac y gwnaf i frenhiniaeth tŷ Iſrael ddarfod. 2.Bren. 10.11.

5 A'r dydd hwnnw y torraf fwa Iſrael, yng-lynn Iezrahel.

6 A hi a feichiogodd eil-waith, ac a eſcorodd ar ferch, a dywedodd [yr Arglwydd] wrtho, galw ei henw hi Loruchamah, am na chwanegaf drugarhau wrth dŷ Iſrael, eithr gan ddwyn dygaf hwynt ymmaith.

7 Ac etto trugarhâf wrth dŷ Iuda, a chadwaf hwynt drwy yr Arglwydd eu Duw, nid â bwa, nac â chleddyf, nac â rhyfel, [nac] â meirch, nac â marchogion y cadwaf hwynt.

8 A hi a ddiddyfnodd Loruchamah, ac a feichiogodd ac a eſcorodd ar fâb.

9 Ac efe a ddywedodd, galw ei enw Loammi, am nad ydych bobl i mi, am hynny ni byddaf i chwithau [yn Dduw.]

10 Etto bydd niſer meibion Iſrael * fel tyfod y môr, y rhai ni's meſurir, ac ni's cyfrifir: a bydd yn y man lle y dywedwyd wrthynt, nid pobl i mi [ydych] chwi, y dywedir wrthynt, meibion i Dduw byw [ydych.] Rhuf.9.26.

11 Yna meibion Iuda, a meibion Iſrael a geſclir yng-hyd, ac hwy a oſodant iddynt vn pen: a deuant i fynu o'r tir: canys mawr [fydd] dydd Iezrahel.

## PEN. II.

Denu y bobl i edifeirwch y mae efe, 5 Gan ddangos eu gau-dduwiaeth hwynt, ai coſpedigaeth.

DYwedwch wrth eich brodyr, ô fy mhobl: wrth eich chwiorydd, ô yr hon y trugarhawyd wrthi.

2 Ymddadleuwch a'ch mam, îe ymddadleuwch, nad fyng-wraig yw hi, ac nad ei gŵr hi [ydwyf] finne: fel y bwrio hi ymmaith ei phuteindra oi golwg, ai godineb * oddi rhwng ei bronnau: Ezec.16.25.

3 Rhag i mi ei dioſc hi yn noeth-lymmun, ai goſod fel y dydd y ganed hi, ai rhoi fel anialwch, ai goſod fel tir diffaeth, ai lladd â ſyched. Ezec.16.4.

4 Ac ar ei phlant ni chymmeraf drugaredd: am eu bod yn blant godineb.

5 Canys eu mam hwynt a butteiniodd, a gwradwyddwyd yr hon ai hymddug hwynt: canys dywedodd hi, âf ar ôl fyng-hariadau, y rhai ſydd yn rhoi fy mâra, a'm dwfr, fyng-wlân, a'm llîn, fy olew, a'm diodydd.

6 Am hynny wele, mi a gaeaf i fynu dy ffordd di â drain, ac a furiaf fûr, fel na chaffo hi ei llwybrau.

7 Yna hi a ddilyn ei chariadau, ac ni's goddiwes hwynt, ac hi ai cais hwynt, ac ni's caiff: ac hi a ddywed, âf, a dychwelaf at fyng-ŵr cyntaf, gwell oedd arnafi yna, nag yr awr hon.

8 Ni ŵydde hi mai myfi a roddais iddi 'r ŷd, a'r gwîn, a'r olew, ac a amlheais iddi arian, ac aûr, [y rhai] a weithiasant hwy i Baal.

9 Am hynny y dychwelaf, a chymmeraf fy ŷd yn ei amſer, a'm gwîn yn ei dymmor: a thynnaf fyng-wlân, a'm llîn o guddio ei gwarth hi,

10 Ac mi a ddatcuddiaf bellach ei brynti hi, yng-olwg ei chariadau, ac ni's gwared neb hi o'm llaw.

11 Gwnaf hefyd iw holl orfoledd hi, ei gwyliau, ei newydd-leuadau, ai Sabbothau, ai holl vchel-wyliau beidio.

12 A mi a anrheithiaf ei gwin-wŷdd hi, ai ffiguſ-wŷdd, am y rhai y dywedodd, dymma fyng-obrwyon, y rhai a roddodd fyng-hariadau i mi: ac mi ai goſodaf yn goedwic, a bwyſt-filod y maes ai difa hwynt.

13 Ymwelaf â hi am ddyddiau Baalim [yn] y rhai y lloſcodd hi arogl-darth iddynt, ac y gwiſcodd ei chlust-fodrwyau, ai thlyſſau, ac yr aeth ar ôl ei chariadau, ac yr anghofiodd fi, medd yr Arglwydd.

14 Am hynny wele, mi ai denaf hi, ac ai dygaf i'r anialwch, ac a ddywedaf wrth fodd ei chalon.

Ioſua.7.26. 15 Ac mi a roddaf iddi ei gwin-llannoedd o'r ſan honno, a dyffryn * Achor yn ddrws gobaith: yno y cân hi, fel yn nyddiau ei hieuengtid, ac megis [yn] y dydd y daeth hi i fynu o wlâd yr Aipht.

16 Y dydd hwnnw medd yr Arglwydd, i'm gelwi fyng-ŵr, ac ni'm gelwi mwyach Baali.

17 Bwriaf henwau Baalim allan oi genau hi: ni's coffeir mwyach wrth eu henwau.

18 A'r dydd hwnnw y gwnaf ammod drostynt ag anifeiliaid y maes, ac ag ehediaid y nefoedd, ag ymluſciaid y ddaiar: a'r bwa, a'r cleddyf, a'r rhyfel a dorraf o'r wlâd: a gwnaf iddynt gyſcu yn ddiogel.

19 A mi a'th ddyweddiaf â mi fy hun yn dragywydd, ie dyweddiaf di â mi fy hun mewn cyfiawnder, ac mewn barn, mewn tirionder, ac mewn trugaredd.

20 A dyweddiaf di â mi mewn ffyddlondeb, a rhaid it adnabod yr Arglwydd.

21 A'r dydd hwnnw y gwrandawaf medd yr Arglwydd, ar y nefoedd y gwrandawaf, a hwythau a wrandawant ar y ddaiar.

22 A'r ddaiar a wrendu ar yr ŷd, a'r gwîn, a'r olew: a hwythau a wrandawant ar Iezrahel.

Rhuf.9.25. 1.pet.2.10. 23 A mi ai hauaf hi i'm fy hun yn y tir, ac a drugarhâf wrth yr hon ni chawſe drugaredd, ac a ddywedaf wrth yr hwn nid oedd bobl i'm, * fy mhobl mauſi wyt ti, ac yntef a ddywed, ô fy-Nuw.

## P E N. III.

Gwrthodiad yr Iddewon am eu gau-dduwiaeth. 5 Eu dychweliad at yr Arglwydd.

YNa yr Arglwydd a ddywedodd wrthif, dos etto câr wraig hoff gan ei chyfaill, a hithe wedi torri ei phriodas, yn ôl cariad yr Arglwydd ar feibion Iſrael, a hwythau yn edrych ar ôl duwiau dieithr, ac yn hoffi y coſtrêlau gwin.

Exod.21.32. 2 A mi ai prynais hi er * pymthec [dryll o] arian, er Homer, a hanner Homer o haidd.

3 A dywedais wrthi hi, aros gyd â mi lawer o ddyddiau, na phutteinia, ac na fydd i ŵr [arall,] a minef hefyd [a fyddaf] felly i tithe.

4 Canys llawer o ddyddiau 'r erys meibion Iſrael heb frenin, ac heb dywyſog, ac heb aberth, ac heb ddelw, ac heb Ephod na Theraphim.

Pſal.72.17. 5 Wedi hynny y trŷ meibion Iſrael, ac y ceiſiant yr Arglwydd eu Duw, * a Dafydd eu brenin: ac yn y dyddiau diwethaf y parchant yr Arglwydd ai ddaioni.

## P E N. IIII.

Drygioni pobl, ac offeiriaid Iſrael.

Eſa 7.13. mic.6.1. zachar.12.10. MEibion Iſrael gwrandewch air yr Arglwydd, * canys [y mae] cŵyn rhwng yr Arglwydd a thrigolion y wlâd, am nad [oes] gwirionedd, na thrugaredd, na gŵybodaeth o Dduw yn y wlâd.

2 [Onid] tyngu, dywedyd celwydd, lladd celain, lladratta, a thorri priodas a orchfygaſant: a gwaed a gyffwrdd a gwaed.

3 Am hynny y galara y wlâd, ac y lleſceir yr hyn oll a'r y fydd yn trigo ynddi o fwyſt-filod y maes, ac o ehediaid y nefoedd: pyſc y môr hefyd a ddarfyddant.

4 Er hynny nac ymryſoned, ac na cheryдded neb ei gilydd: canys dy bobl [ſydd] megis yn ymryſon â'r offeiriad.

5 Am hynny ti a ſyrthi y dydd, a'r prophwyd hefyd a ſyrth gyd â thi y nôs: a mi a ddifethaf dy fam.

6 Fy mhobl a ddifethir o eiſieu gŵybodaeth, a'm it ddiyſtyru gŵybodaeth, minne a'th ddiyſtyraf dithe, fel na byddech offeiriad i mi: ac [am] it anghofio cyfraith dy Dduw, minne a anghofiaf dy blant dithe hefyd.

7 Fel yr amlhauſant, felly y pechâſant i'm herbyn: [am hynny] eu gogoniant a newidiaf i warth.

8 Bwytta y maent bechod fy mhobl, ai hannog i'w hanwiredd hwynt:

9 A bydd yr un fâch bobl ac offeiriad, ac ymwelaf ai ffyrdd ef yn ei erbyn: a thalaf iddo ei weithredoedd.

10 Bwyttânt, ac ni's diwellir, putteiniant, ac nid amlhânt, am iddynt beidio ag yſtyried [cyfraith] yr Arglwydd.

11 Godineb, a gwîn, a gwîn newydd a ddwg y galon ymmaith.

12 Fy mhobl a ofynnant gyngor i'w cyffion, ai ffonn a ddengys iddynt, o herwydd i yſpryd godineb eu cyfeiliorni [hwynt:] a phutteiniaſant oddi wrth eu Duw.

13 A'r bennau y mynyddoedd yr aberthant, ac ar y bryniau y lloſcant arogl-darth, tann y dderwen, a'r boplyſen, a'r llwyfen: am fod yn dda eu cyſcod, am hynny y putteinia eich merched chwi, a'ch rhianod a dorrant briodas.

14 Ac nid ymwelaf a'ch merched am butteinio, na'ch rhianod am dorri priodas: am fod y rhai hyn yn ymddidoli gyd â phutteiniaid, ac aberthaſant gyd â merched dâ, a'r bobl ni ddeallant a drawgwyddant.

15 Er i ti Iſrael butteinio, na pheched Iuda, nac ewch i Gilgal, na ddringwch i Bethafen: ac na thyngwch, byw yw'r Arglwydd.

16 Fel anner anhywaith yr anhywethiodd Iſrael, yr Arglwydd yr awr hon ai portha hwynt fel oen mewn ehangder.

17 Ephraim a ymgyfeilliodd ag eulynnod: gâd iddo.

18 Drewi y mae eu meddwdod, gan butteinio y putteiniaſant, hoffant [ddywedyd,] moeſwch: gwarthus yw eu llywodraeth-wŷr.

19 Y gwynt a rwymodd [y genhedlaeth] hon yn ei adenydd, a bydd arnynt gywilydd oi haberthau.

## P E N. V.

Beiau offeiriaid, ſwyddogion, a phobl Iſrael: ai coſpedigaeth.

CLywch hyn chwi offeiriaid, gwrandewch tŷ Israel, a thŷ y brenin rhoddwch glust, [y mae] barn i'ch erbyn, am eich bod yn fagl ar Mizpah: ac yn rhwyd wedi ei lledu ar Thabor.

2 Pan bwysasant i ladd, aethant i'r glynnoedd: myfi [a roddaf] gerydd iddynt oll.

3 Myfi a adwen Ephraim, ac nid yw Israel guddiedic oddi wrthif: canys ti Ephraim bellach a buteiniaist, ac Israel a halogwyd.

4 Ni roddant eu meddwl ar droi at eu Duw am [fod] yspryd godineb oi mewn, ac nid adnabuant yr Arglwydd.

5 Balchder Israel a ddwg tystiolaeth yn ei wyneb: Israel ac Ephraim a syrthiant yn eu hanwiredd: Juda hefyd a syrth gyd â hwynt.

6 Ai defaid, ac ai gwarthec y deuant i geisio yr Arglwydd, ond nis cafant ef: ciliodd efe oddi wrthynt.

7 Yn erbyn yr Arglwydd y pechâsant, am iddynt genhedlu plant dieithr: mis bellach ai difa hwynt yng-hyd ai rhannau.

8 Cenwch y corn yn Gibea, yr ud-corn yn Ramah, bloeddiwch [yn] Bethafen: ar dy ôl di Beniamin [y cenir.]

9 Ephraim fydd yn anrhaith yn-nydd y cerydd, perais wybod gwirionedd ym mysc llwythau Israel.

10 Bu tywysogion Juda fel symud-wŷr terfyn, [am hynny] y tywalltaf arnynt fy llid fel dwfr.

11 Gorthrymmwyd Ephraim, drylliwyd mewn barn: am ewyllysio o honaw ef fyned ar ôl y gorchymyn.

12 A mi a fyddaf fel gwyfyn i Ephraim, ac fel pydredd i dŷ Juda.

13 Pan welodd Ephraim ei lescedd, ac Juda ei archoll: aeth Ephraim i Assyria ac a ddanfonodd at frenin Jareb: etto ni allai efe eich meddyginiaethu, ac ni iachae efe eich archoll.

14 Canys mi a fyddaf i Ephraim fel llew, ac i dŷ Juda fel cenew llew: myfi a sclyfaethaf ac a âf ymmaith, dygaf ymmaith, ac ni [bydd] achubudd.

15 Af a dychwelaf i'm lle hyd oni welant eu bai, a cheisio fy wyneb: pan fyddo adfyd iddynt i'm boreu-geisiant.

## PEN. VI.

Y bobl yn ymchwelyd at yr Arglwydd rhag gofid. 9 Drygioni'r offeiriaid.

DEuwch, a dychwelwn at yr Arglwydd, canys efe a sclyfaethodd, ac efe a'n iachâ ni, efe a darawodd, ac a'n meddyginiaetha ni.

2 Efe a'n bywhâ ni ar ôl dau ddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fynu: a byddwn byw ger ei fron ef.

3 Yna y gwybyddwn, [ac] y dilynwn adnabod Duw: ei fynediad allan a ddarperir fel y wawr ddydd, ac efe a ddaw fel cafod attom, fel y diweddar-law a'r cynnar-law i'r ddaear.

4 Beth a wnaf i ti Ephraim? beth a wnaf i ti Juda, eich mwynder sydd yn ymado fel cwmmwl y boreu, ac fel gwlith boreuol.

5 Am hynny y difethais trwy y prophwydi, lleddais hwynt â geiriau fyng-enau: a goleuni dy farnedigaethau a aeth allan.

6 Canys ewyllysiais drugaredd, ac nid aberth, a gwybodaeth o Dduw yn fwy na phoeth offrymmau.

7 A'r rhai hyn fel Adda a dorrasant y cyfammod: yna y buant anffyddlon i mi.

8 Dinas gweithred-wŷr anwiredd [yw] Gilead, wedi ei halogi gan waed.

9 Cyfeillach o offeiriaid a laddant [ar] y ffordd tua Sichem megis llu [o rai] yn disgwil dyn: canys gwnant scelerder.

10 Gwelais yn nhŷ Israel halogedigaeth: yno [trwy] odineb Ephraim yr halogwyd Israel.

11 Gosododd hefyd gynhaiaf i tithe Juda, a mi yn dychwelyd caethiwed fy mhobl.

## PEN. VII.

1 Drygioni y bobl. 12 Ai cospedigaeth.

A'M fi'n iachau Israel, datcuddiwyd anwiredd Ephraim, a drygioni Samaria: canys gwnant ffalsder: y lleidr a ddaw i mewn, a'r yspeilydd a anrheithia oddi allan.

2 Nid ydynt yn meddwl yn eu calonnau, fy mod i yn cofio eu holl ddrygioni hwynt: weithian eu gweithredoedd eu hun ai hamgylchynâsant, [ac] y maent ger fy mron.

3 Llawenhânt y brenin ai drygioni, a'r tywysogion ai celwyddau.

4 Pawb o honynt sydd yn torri priodas, [ac] fel ffwrn wedi ei phoethi o'r pobydd: [er pan] beidio a chodi [ac] a thylino y toes hyd oni suro efe.

5 Diwrnod ein brenin [yw] hwn, y tywysogion ai clwyfasant ef a'r gostrel win: estynnodd ei law i watwar-wŷr.

6 Fel yr oeddynt yn cynllwyn, darparasant eu calon fel ffwrn, y pobydd a gyscodd ar hŷd y nôs, [a'r] boreu y lloscodd fel fflamm dân.

7 Pawb o honynt a wresogant fel y ffwrn, ac a yssant eu barn-wŷr: eu holl frenhinoedd a gwympâsant, heb [un] o honynt yn galw arnaf.

8 Ephraim a ymgymmyscodd a'r bobloedd, Ephraim sydd [fel] teisen heb ei throi.

9 Estroniaid a fwytasant ei olud ef, ac nis gŵyr efe: gwascarodd pen-wynni ar hyd-ddo ef ac nis gŵybu efe.

10 Mae balchder Israel yn testiolaethu yn ei wyneb: er hynny oll ni throant at yr Arglwydd eu Duw, ac nis ceisiant ef.

11 Ephraim [sydd] fel colommen ynfyd heb galon, [weithie] y galwant ar yr Aipht [weithie] yr ânt i Assyria.

12 Pan elont, taenaf fy rhwyd arnynt, a thynnaf hwynt i lawr fel ehediaid y nefoedd: cospaf hwynt, fel y clybu eu cynnulleidfa hwynt.

13 Gwae hwynt, canys ffoaſant oddi wrthif, [daw] diniſtr arnynt, o herwydd gwnaethant gamwedd i'm herbyn: myfi ai gwaredais hwynt, a hwythau a ddywedaſant gelwydd arnaf.

14 Ni alwaſant arnaf â'i calon, pan ddâſant ar eu gwelau: am ŷd, a melyſ-wîn yr ymgaſclaſant, [yna] ciliaſant oddi wrthif.

15 Mi a rwymais, [ac] a nerthais eu breichiau hwynt: etto meddyliâſant ddrwg i mi.

16 Dychwelâſant nid at y Goruchaf, ydynt fel bŵa twyllodrus, eu tywyſogion a ſyrthiaſant ar y cleddyf, am * ddirmyg eu tafod: dymma eu gwatwargerdd hwynt yng-wlad yr Aipht. Pſal.73.9.

## PEN. VIII.

Diniſtr ar Iuda, ac Iſrael am eu gau-dduwiaeth.

AT dy ſafn â'r udcorn, fel eryr [y daw y gelyn] yn erbyn tŷ'r Arglwydd: am iddynt drosseddu fyng-hyfammod, a phechu yn erbyn fyng-hyfraith.

2 Iſrael a lefant arnaf, fy Nuw, nyni a'th adwaenom di.

3 Ffieiddiodd Iſrael ddaioni: y gelyn ai herlid yntef.

4 Hwynt a wnaethant frenhinoedd, ac nid o honof, gwnaethant dywyſogion, ac ni chefais ŵybod: oi harian, ai haur y gwnaethant iddynt eu hun ddelwau, ac am hynny y torrir [Iſrael] ymmaith.

5 Samaria, ciliodd dy lô, fy nig a lidiodd wrthynt, pa hŷd ni fedrant [ddilyn] diniweidrwydd?

6 Canys o Iſrael [y mae] efe, y ſaer ai gwnaeth, ac nid yw efe Dduw, canys yn ddryllau y bydd llô Samaria.

7 Gwynt a hauaſant, a chorwynt a fedant, corſen ni bydd iddo, y dwyſen ni wna flawd, ac os gwnaiff, dieithriaid ai llwngc.

8 Iſrael a lyngcwyd, bellach y byddant ym myſc y cenhedloedd fel offeryn heb hoffter yndDo.

9 Canys hwynt a aethant i fynu i Aſſyria, yn aſſyn wyllt unic iddo ei hun: Ephraim a gyflogodd gariadau.

10 Hefyd am iddynt gyflogi [rhai] ym myſc y cenhedloedd, mi ai caſclaf hwynt: a dechreuaſant [ddeffygio] tippin ar faich brenin y tywyſogion.

11 Canys amlhaodd Ephraim o allorau i bechu: allorau fyddynt ganddo i bechu.

12 Mi a ſcrifennais iddo helaethder fyng-hyfraith, [ac] fel dieithr-beth y cyfrifwyd.

13 [Yn lle] ebyrth fy rhoddion, cig a aberthant, ac a fwytânt, yr Arglwydd nid yw fodlon iddynt: efe a goffa bellach eu hanwiredd, ac efe a ofwya eu pechodau, [ſef] dychwelyd o honynt i'r Aipht.

14 Anghofiodd Iſrael ei wneuthurwr, ac a adailadodd balaſau, ac Iuda a amlhaodd ddinaſoedd caeroc: ond myfi a anfonaf dân i'w dinaſoedd, ac a yſſa eu palaſau.

## PEN. IX.

Newyn, a chaethiwed Iſrael.

ISrael na orfoledda, na lawenycha fel y cenhedloedd, canys puteiniaiſt oddi wrth dy Dduw: gwobrau a hoffaiſt ar bob llawr dyrnu ŷd. Ier.44.17.

2 Y llawr dyrnu na'r gwin-wryf ni's portha hwynt, a'r gwin newydd a dwylla y [genhedlaeth] hon.

3 Ni thrigant yng-wlâd yr Arglwydd, ond Ephraim a ddychwel i'r Aipht: ac yn Aſſyria y bwytânt [beth] aflan.

4 Ni chywalltant win i'r Arglwydd, ai haberthau ni [byddant] melus ganddo, byddant iddynt fel bara galar-wŷr: pawb a fwytânt o honaw a halogir: o herwydd eu bara dros eu heneidiau ni ddaw i dŷ yr Arglwydd.

5 Beth a wnewch ar ddydd uchel-ŵyl, ar ddydd gŵyl yr Arglwydd?

6 Canys wele aethant oddi wrth ddiniſtr, yr Aipht ai caſcl hwynt, Memphis ai cladd hwynt, danadl a oreſcyn hyfrydwch eu harian hwynt, [a] drain [a fydd] yn eu pebyll.

7 Dyddiau i ymweled a ddaethant, dyddiau talu'r pwyth a ddaethant: Iſrael a gânt ŵybod [hyn:] y prophwyd [sydd] ffôl, ynfyd, ac anwadal: ac am amlder dy anwiredd y bydd aml câs.

8 Gwiliedydd Ephraim [a fu] gyd a'm Duw, [aeth] y prophwyd yn fagl adar-wr [yn maglu] yn ei holl lwybrau, [ac] yn gaſineb yn nhŷ ei Dduw.

9 Aethant i'r glynnoedd, llygrâſant megis yn amſer Gibea: efe a goffa eu hanwiredd, ac a ymwel â'i pechod. Iudic.19 22.

10 Cefais Iſrael fel grawn-win yn yr anialwch, gwelais eich tadau megis y ffrwyth cyntaf yn y ffigus-bren yn ei ddechreuad: [ond] hwynt a aethant at Baal Peor, ymddidolaſant i warth, ac aethant yn ffiaidd fel y carâſant.

11 Ephraim eu gogoniant hwynt a ehed fel aderyn o enedigaeth, o grôth, ac o feichiogiad.

12 Ac er iddynt fagu eu plant, rhoddaf hwynt heb un plentyn: a gwae hwynt pan ymadawyf oddi wrthynt.

13 Ephraim hyd y gwelaf a blannwyd fel Tyrus mewn cyfannedd-le: etto [rhaid] i Ephraim ddwyn ei blant allan at y lleiddiad.

14 Dyro iddynt Arglwydd: beth a roddi? crothau erthylgar a bronnau heſbion.

15 Eu holl ddrygioni hwynt [sydd] yn Gilgal, yno y caſeais hwynt: am ddrygioni eu gweithredoedd eu hun y bwriaf hwynt allan o'm tŷ: ni chwanegaf eu caru hwynt: eu holl dywyſogion [ynt] anhywaith.

16 Ephraim a drawyd i'r llawr, eu gwraidd a wywodd, ffrwyth ni's gwnânt,

ac os cenhedlant, lladdaf anwyl-blant eu crothau.

17 Fy Nuw ai gwrthyd hwynt, am na wrandawsant arno ef: am hynny y byddant grwydraid ym mhlith y cenhedloedd.

## PEN. X.

Gau-dduwiaeth Israel, ai cosp am hynny.

GWinwydden wâg [yw] Israel, efe a ddwg ffrwyth iddo ei hun: yn ôl amlder ei ffrwyth yr amlhaodd efe allorau: yn ôl daioni ei dir y gwellhâsant ar ddelwau.

2 Eu calon a ymrannodd, distrywir hwynt bellach, efe a dyr i lawr eu hallorau hwynt, efe a ddestruwia eu delwau.

3 Canys yr awr hon y dywedant, nid [oes] i ni frenin, am nad ofnasom yr Arglwydd: a pheth a wnae y brenin i ni?

4 Dywedasant eiriau, gan dyngu anudon [wrth] wneuthur ammod: tarddodd barn megis y wermod yn rhychau fy meusydd.

5 Preswyl-wyr Samaria a ofnant o herwydd llo Bethafen, ei bobl a alarant drosto, * offeiriaid * Baal [y rhai] a lawenychant ynddo o achos eu gogoniant [a alarant] pan ymadawo oddi wrtho ef.

1.Bren.18.27.
2.Bren.23.5.

6 Hefyd efe a ddygir i Assyria yn anrheg i frenin Jareb: Ephraim a dderbyn gywilydd, ac Israel a wradwyddir gan ei ddychymmyg ei hun.

7 Samaria ai brenin a dorrir ymmaith fel ewyn ar wyneb y dwfr.

8 Uchelfeudd Afen a ddestruwir, [sef] pechod Israel, drain a mieri ar eu hallorau, a dywedant wrth y mynyddoedd, gorchguddiwch dyni, ac wrth y bryniau, syrthiwch arnom.

Osea.4.15.
Esay.2.19.
Luc.23.30.
Gwel.6.16.
&9.6.

9 O Israel ti a bechaist er dyddiau Gibea, yno y safasant, a'r rhyfel yn Gibea yn erbyn plant anwiredd ni chyffyrddodd â hwynt.

10 Wrth fy ewyllys y cospaf hwynt, a phobl a gesclir yn eu herbyn, pan rwymer hwynt yn eu dwy gwys.

11 Ac Ephraim [sydd] anner wedi ei dyscu yn dda genddi ddyrnu: a minne a âf dros degwch ei gwddf, paraf i Ephraim farchogeth, Juda a ardd, ac Jacob a lyfna iddo.

12 Heuwch iwch mewn cyfiawnder, a medwch yn ôl trugaredd: braenerwch iwch fraenar, canys [y mae] yn amser i geisio yr Arglwydd hyd oni ddelo a glawio iwch gyfiawnder.

13 Arddasoch iwch ddrygioni, medasoch anwiredd, bwytasoch ffrwyth celwydd, am it ymddyried yn dy ffordd dy hun, [ac] yn lliosogrwydd dy gedyrn.

14 Cyfyd terfysc yn dy bobl, a'th holl ddinasoedd cedyrn a ddinistrir, fel y darfu i Salma ddinistrio Beth Arbel yn amser rhyfel: [lle] y drylliwyd wrth gefn begnau y famm, a'r plant.

15 Fel hynny y gwna Bethel i chwithau, am eich mawr-ddrwg: gan ddifetha y difethir brenin Israel ar y wawr ddydd.

## PEN. XI.

1 Daioni 'r Arglwydd i Israel. 5 Ai hanniolchgarwch hwythau.

PAn [oedd] Israel langc mi ai cerais ef, * ac a elwais fy mab o'r Aipht. Mat.2.13.

2 [Fel] y galwent arnynt, felly hwythau a aent oi golwg hwynt: aberthasant i Baalim, a llosgasant arogl-darth i ddelwau cerfiedic.

3 Myfi hefyd a berais i Ephraim gerdded, cymmerodd ymaef hwynt yn ei freichiau, ond ni chydnabuant mai fi ai meddiginiaethodd hwynt.

4 Tynnais hwynt mewn rheffynnau dynol, mewn rhaffau cariad; oeddwn iddynt megis y rhai a godant yr iau ar eu llechweddau hwynt: a bwriais attynt fwyd.

5 Ni ddychwel efe i wlâd yr Aipht, ond Assur fydd ei frenin, am iddynt wrthod troi.

6 A'r cleddyf a erys ar ei ddinasoedd ef, ac a dreulia hefyd, ac a ysa ei geingciau ef am ei ddychymmygion ei hun.

7 Fy mhobl sydd ar ddau feddwl am fy nychweliad, a'r [prophwydi] ai galwasant ef at y Goruchaf, [ond] ni chyd-dderchafodd efe [Dduw.]

8 Pa fodd i'th roddaf ymmaith Ephraim? i'th roddaf i fynu Israel? pa fodd i'th roddaf fel * Adama, ac i'th osodaf megis Zeboim? trodd fyng-halon ynof, a'm edifeiriol ymyscaroedd a gyd loscasant. Deut.29.23.

9 Ni chyflawnaf angerdd fy llid, ni ddychwelaf i ddinistrio Ephraim: canys Duw ydwyf ac nid dyn, Sanct [ydwyf] yn dy blith ac nid af i'r ddinas.

10 Ar ôl yr Arglwydd yr ânt; efe a rua fel llew, pan ruo efe, yna meibion y gorllewyn a ddychrynant.

11 Dychrynant fel aderyn y tô o'r Aipht, ac fel colomen o dir Assur: ac mi ai gosodaf yn eu tai medd yr Arglwydd.

12 Ephraim a'm hamgylchynodd â chelwydd, a thŷ Israel â thwyll: Juda etto sydd yn llywodraethu gyd â Duw, ac yn ffyddlon gyd a'r sainct.

## PEN. XII.

Yn-Nuw, ac nid yn nyn, y mae ymddyried.

EPhraim sydd yn ymborthi [ar] y gwynt, ac yn dilyn gwynt y dwyrain, ac hyd y dydd yr amlhaodd gelwydd a dinistr, ammod a wnaethant a'r Assyriaid: [eu] holew a ddygwyd i'r Aipht.

2 Ac [y mae] gan yr Arglwydd gwyn ar Juda, ac efe a ymwel ag Jacob yn ôl ei ffyrdd, yn ôl ei ddychymmygion y tâl iddo y pwyth.

3 Yn y groth y daliodd efe sodl ei frawd, ac yn ei nerth yr ymdrechodd â Duw.

4 Ac * ymdrechodd a'r angel, a gorchfygodd, wylodd, ac ymbiliodd ag ef: cafodd ef yn Bethel, ac yno'r ymddiddanodd â ni. Gene.32.31.

5 Ac Arglwydd Dduw y lluoedd [ie] yr Arglwydd [yw] ei goffadwriaeth.

6 Trô dithe at dy Dduw, cadw drugaredd, a barn, ac ymddyriet yn dy Dduw bob amſer.

7 Yn ei law ef Canaan [y mae] cloriannau twyll: da ganddo orthrymmu.

8 A dywedodd Ephraim, etto mi a gyfoethogais, cefais i'm olud, ni chafodd fy holl boenau arnaf [vn] anwiredd yr hwn [ſydd] bechod.

9 A mi [ydwyf] yr Arglwydd dy Dduw [a'th ddûg] o dir yr Aipht, gwnaf it drigo etto mewn pebyll: megis ar ddyddiau vchel-ŵyl.

10 Ymddiddenais trwy y prophwydi, a mi a amlheais weledigaethau, a mynegais gyffelybiaethau trwy law y prophwydi.

11 Ai anwir Gilead ∴ gwagedd ydynt yn vnic: yn Gilgal yr aberthaſant ŷchen, eu hallorau hefyd [ydynt] fel carneddau yn rhychau y maes.

12 Ffôdd Iacob hefyd i wlad Syria, a gwaſanaethodd Iſrael am wraig, am wraig y cadwodd ddefaid.

13 Trwy brophwyd y dug yr Arglwydd Iſrael o'r Aipht: a thrwy brophwyd y cadwyd ef.

14 Cyffrôdd Ephraim chwerwedd: ai waed ei hun a dywelltir arno: ai Arglwydd a dâl iddo ei wradwydd.

## PEN. XIII.

Ffieidd-dra Iſrael, 9 Ac achos eu diniſtr hwynt.

PAn leſarodd Ephraim, arſwyd [oedd,] ymdderchafodd efe yn Iſrael: onid pechodd gyd â Baal, a bu farw.

2 Ac yr awr hon chwanegaſant bechu, ac oi harian y gwaethant iddynt eu hun yn ôl eu meddyliau eu hun, [ſef] delwau tawdd yn eulynnod: a'r cwbl yn waith y celfydd, am y rhai y maent yn dywedyd, y rhai a aberthant ddŷn, cuſanant y lloi.

3 Am hynny y byddant fel y boreu gwmmwl, megis y gwlith a ymedu yn foreu, fel man-us a chwaler o'r llawr dyrnu, ac fel mŵg o ffumer.

4 Ac myfi [yw]'r Arglwydd dy Dduw, [dy waredudd] o dir yr Aipht: ni chei gydnabod Duw onid myfi: ac nid [oes] iachawdur onid myfi.

5 Mi a'th adnabum yn y diffaethwch, yn nhir y poethni.

6 Fel [yr oedd] eu porfa y cawſãt eu gwala, a phan gawſant eu gwala, codaſant eu calonnau, ac anghofiaſant fi.

7 Onid mi a fyddaf fel llew iddynt, megis llewpard ar ffordd Aſſur.

8 Cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli ei chenawon: rhwygaf linynnau eu calon hwynt yna fel llew y difâf hwynt, bwyſt-fil y maes ai llarpia hwynt.

9 [Dy bechod] a'th ddiniſtriodd Iſrael: onid ynofi [y mae] dy gymmorth.

10 Dy Frenin ydwyf, pa le [y mae arall] a'th waredo di yn dy holl ddinaſoedd ∴ mae dy frawd-wŷr, am y rhai y dywedaiſt, dyro i mi frenin, a thywyſogion?

11 Rhoddaf it frenin yn fy nig: a dygaf ef ymmaith yn fy llid.

12 Rhwymmwyd anwiredd Ephraim, cuddiwyd ei bechod. Ier.17.1.

13 Goſid un yn eſcor a ddaw arno ef, mab angall yw efe: canys ni ddyleaſe efe ſefyll yr amſer [hwn] yn eſcoreddfa plant.

14 O law vffern yr achubaf hwynt, oddiwrth angeu y gwaredaf hwynt, byddaf angeu i ti ô angeu, byddaf drangc i ti vffern: cuddiwyd edifeirwch o'm golwg.

15 Canys efe a ffrwytha ym mysc brodyr, daw gwynt y dwyrain, [ſef] gwynt yr Arglwydd o'r anialwch a dderchafa, ac a ſycha ei wythiennau, ai ffynnon a aiff yn heſp: efe a yſpeilia bob lleſtr dymunol.

16 Diffeithir Samaria am ei bod yn anufydd iw Duw, ſyrthiant ar y cleddyf, eu plant a ddryllir wrth gelſi, ai [gwragedd] beichiogion a rwygir i fynu.

## PEN. XIIII.

Cyngor i Iſrael i droi at Dduw.

YMchwel Iſrael at yr Arglwydd dy Dduw: canys ti a ſyrthiaiſt trwy dy anwiredd dy hun.

2 Cymmerwch gyd â chwi y geiriau [hyn] a dychwelwch at yr Arglwydd, a dywedwch wrtho, maddeu di ein holl anwiredd, cymmer [ni] yn ddaionus, a thalwn [it] * loi ein gweſuſau. Heb.13.15.

3 Nid Aſſur a'n hachub ni, ni farchogwn mwy ar feirch, ac ni ddywedwn mwyach wrth waith ein dwylo, ô ein duwiau, o herwydd ynot ti y caiff yr ymddifad drugaredd.

4 Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt, caraf hwynt yn ewyllyſcar, canys trôdd fy nig oddi wrtho.

5 Byddaf fel gwlith i Iſrael, efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis [prennau] Libanus.

6 Ei geingciau a gerddant, bydd ei degwch fel yr oliwydden, ai arogl fel Libanus.

7 Y rhai a arhoſant dann ei gyſcod ef a ddychwelant, ac a dyfant [fel] ŷd, blodeuant hefyd fel y win-wŷdden, bydd ei goffadwriaeth fel gwin Libanus.

8 Ephraim beth [ſydd] i mi mwyach [a vnelwyf] ag eulynnod ∴ gwrandewais, ac edrychais arno: myfi [ydwyf] fel ffynnid-wydden ir, o honofi y ceir dy ffrwyth di.

9 Yr hwn [ſydd] ddoeth a ddeall hyn, a'r deallgar ai cydnebydd: iniawn yw ffyrdd yr Arglwydd, y rhai cyfiawn a rodiant ynddynt: ond yr annuwolion a dramgwyddant ynddynt.

*Terſyn llyfr Oſea.*

# Llyfr y prophvvyd Ioel.

## PENNOD. I.

Duw yn bygwth ar y bobl amryw ddialeddau, ac yn eu hannog i edifeirwch.

GAIR yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Ioel fab Pethuel.

2 Gwrandewch hyn chwi henuriaid, a rhoddwch glust holl drigolion y wlâd: a fu y fath beth yn eich dyddiau? neu yn nyddiau eich tadau?

3 Mynegwch hyn i'ch plant, a'ch plant i'w plant hwythau, a'i plant hwythau i'r genhedlaeth neſaf.

4 Gweddill y lindys a ſwyttaodd y ceiliog rhedyn, a gweddill y ceiliog rhedyn a ddifaodd pryf y rhwd, a gweddill pryf y rhwd a yſodd y Locuſt.

5 Deffroiwch feddwyr, ac wylwch, ac udwch holl yf-wŷr gwîn am y gwin newydd: canys torrwyd ef oddi wrth eich mîn chwi.

6 Oherwydd cenhedlaeth gref anifeiriol a ddaeth i fynu ar fy nhîr, dannedd llew [yw] ei dannedd, a chil ddannedd hen lew [ſydd] iddi.

7 Goſododd fyng-winwydden yn ddiffrod, a'm ffigus-bren yn ddiriſcledd, gan ddinoethi dinoethodd hi, a thaflodd ymaith, ei changau a wynnaſant.

8 Uda fel gweryf wedi ymwregyſu [mewn] ſach-liain am briod ei hieuengtid.

9 Torrwyd oddi wrth dŷ'r Arglwydd offrwm bwyd, ac offrwm diod: y mae'r offeiriaid [ſef] gweinidogion yr Arglwydd yn galaru.

10 Diffrodwyd y maes, y ddaiar a alara am wneuthur diffrawd ar yr ŷd, ſychodd y gwîn newydd, lleſcaodd yr olew.

11 Cywilyddiwch y llafur-wŷr, udwch y gwin-wŷr am y gwenith, ac am yr haidd: canys darfu am gynhaiaf y maes.

12 Gwywodd y win-wydden, lleſcaodd y ffigus-bren, pren y pomgranat, y balm-wydden, a'r afallen, [a] holl brennau y maes a wywâſant am wywo llawenydd oddi wrth feibion dynion.

13 Ymwregyſwch a griddfenwch chwi offeiriaid, udwch weinidogion yr allor, deuwch weinidogion fy Nuw dros nôs mewn ſach-liain, am yr attelir oddi wrth dŷ eich Duw offrwm bwyd, ac offrwm diod.

14 Goſodwch ympryd, gelwch gymmulleidfa, caſclwch yr henuriaid [a] holl drigolion y wlad [i] dŷ'r Arglwydd eich Duw, a gwaeddwch ar yr Arglwydd.

15 Och rhag heddyw, canys dydd yr Arglwydd ſydd yn neſau, ac a ddaw fel difrod oddi wrth yr Holl-alluog.

16 Oni thorrwyd ymg-wydd ein llygaid ni oddi wrth dŷ ein Duw y bwyd, y llawenydd, a'r digrifwch?

17 Pydrodd yr hadau dann eu priddellau, yr yſcuboriau a anrheithiwyd, yr yd-lannau a ſwriwyd i lawr, am wywo'r ŷd.

18 Oh o'r griddfan y mae'r aniſeiliaid, y mae yn gyfing ar y minteioedd gwartheg, am nad [oes] borfa iddynt, y bagadau defaid hefyd a anrhaithiwyd.

19 Arnat ti Arglwydd y galwaf, am i'r tân ddifa porfeudd yr anialwch, a'r fflam a oddeithiodd holl brennau y maes.

20 Aniſeiliaid y maes hefyd ſydd yn brefu arnat, am ſychu o'r ffrydau dwfr, a'r tân a yſodd borfeudd yr anialwch.

## PEN. II.

Prophwydo y mae efe ddyfodiad gelynnion aruthrol. 13 Cyngor i edifarhau. 18 Cariad Duw iw bobl.

CEnwch yr udcyrn yn Sion, ac udcenwch ar fynydd fy ſancteiddrwydd: dychryned holl breſſwyl-wŷr y wlâd, am ddyfod dydd yr Arglwydd, canys y mae yn agos.

2 Diwrnod tywyll dû, diwrnod cwmmylog, a niwlog, fel y wawr wedi ymwaſcaru ar y mynyddoedd: felly pobl lawer a chryfion [a ddaw,] ni bû ei fâth er ioed, ac ni bydd ei fath ar ei ôl hyd byth.

3 Di flaen y difa y tân, ac ar ei ôl y fflam, [mae]'r wlad o'i flaen fel gardd baradwys, ac ar ei ôl yn ddiffaethwch anrhaithiedic: a hefyd ni ddiange dim ganddo.

4 Yr olwg [arno] ef [ſydd] megis golwg o feirch, ac fel marchogion, felly y rhedant.

5 Megis ſŵn cerbydau ar bennau y mynyddoedd y llammant, fel ſŵn tân yſſol yn difa y ſofl, [ac] fel pobl gryfion parod i ryfel.

6 Di flaen yr ofna y bobl, * pob wyneb a gaſgl barddu. Nahum.2.10.

7 Rhedant fel glewon, a dringant y mûr fel rhyfelwŷr, cerddant pob un yn ei ffordd ei hun, ac ni rwyſtrant eu llwybrau.

8 Ni waſcant y naill y llall, cerddant bob un ei lwybr ei hun: ac er eu ſyrthio ar y cleddyf ni's archollir hwynt.

9 Gwibiant ar hŷd y ddinas, rhedant ar y mûr dringant i'r tai, deuant trwy'r ffenestri fel lleidr.

10 * Di flaen ef y crŷn y ddaiar, y nefoedd a gyffroir, yr haul a'r lleuad a dywyllir, a'r ſêr a gaſclant eu llewyrch [attynt.] Eſai.13.10. Ezec.32.7. Mat.24.29. Ioel.2.31.

11 A'r Arglwydd a rydd ei lêf o flaen ei lû, canys mawr odiaeth yw ei werſyll ef, canys cryf yw'r hwn ſydd yn gwneuthur ei air ef: * o herwydd mawr yw dydd yr Arglwydd, ac ofnadwy iawn: a phwy a'i herys? Ierem.30.7. Amos 5.18. Sephon.1.15.

12 Ond yr awr hon medd yr Arglwydd, dychwelwch attaf a'ch holl galon, mewn ympryd, mewn wylofain, ac mewn galar.

13 A rhwygwch eich calonnau, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich

Duw: o herwydd graſlawn, a thrugarog [yw] efe, hwyrfrydic i ddigofaint, ac aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.

14 Pwy a ŵyr a drŷ efe, ac edifarhau, a gweddillo bendith ar ei ôl, [ſef] bwyd offrwm, a diod offrwm i'r Arglwydd eich Duw chwi?

15 Cenwch vdcorn yn Sion, goſodwch ympryd, gelwch y gynnulleidfa.

16 Ceſclwch bobl, goſodwch gymanfa, cynhullwch henuriaid, ceſclwch blant, a'r rhai yn ſugno bronnau: deued y priod-fab allan oi ſtafell, a'r briod-ferch allan o ſtafell ei gwely.

Pſal.79.10.

17 Wyled yr offeiriaid gweinidogion yr Arglwydd rhwng y porth a'r allor, a dywedāt: arbed dy bobl ô Arglwydd, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r bobloedd arnynt: *pa ham y dywedant ym mhlith y bobloedd, pa le [y mae] eu Duw hwynt?

18 Yna'r Arglwydd a eiddiga am ei dîr, ac a arbed ei bobl.

19 A'r Arglwydd a etteb, ac a ddywed wrth ei bobl: wele fi yn anfon i chwi ŷd, a gwîn, ac olew, a diwellir chwi o honaw ef, ac ni roddaf chwi mwyach yn wradwydd ym myſc y cenhedloedd.

20 Bwriaf yn bell oddi wrthych y gogledd [lu,] a gyrraf ef i dir ſych diffaeth, ei wyneb [a fydd] tua môr y dwyrain, ai [ben] tua'r môr eithaf, ei ddrewi a gyfyd, ai ddrwg ſawr a ddring, am iddo wneuthur mawrhydri.

21 Nac ofna di ddaiar, ymddigrifa, a llawenycha, canys yr Arglwydd a wnaeth fawredd.

22 Nac ofnwch anifeiliaid y maes, am darddu porfeudd yr anialwch: canys y prenn a ddug ei ffrwyth, y ffiguſ-bren, a'r win-wydden a roddaſant eu cnwd.

Leuit.26.4.
Deut.11.14.

23 Plant Sion, ymddigrifwch, ac ymlawenhewch yn yr Arglwydd eich Duw: canys *efe a roddes i chwi gynhar-law cyfiawnder, ac a wnaeth i'r cynhar-law, a'r diweddar-law ddeſcyn i chwi yn y [mis] cyntaf.

24 A'r ſcuboriau a lenwir, o ŷd, a'r gwîn newydd a'r olew a aiff tros y gwryſau.

25 A mi a dâlaf i chwi y blynyddoedd a ddifaodd y ceſliog rhedyn, pryf y rhwd, y Locûſt, a'r lindis, fy llu mawr mau fi yr hwn a anfonais yn eich plith.

26 Yna y bwyttewch, gan fwytta, ac ymddigoni: a moliennwch enw 'r Arglwydd eich Duw, 'r hwn a wnaeth â chwi yn rhyfedd, ac ni wradwyddir fy mhobl byth.

27 A chewch ŵybod mai ym-myſc Iſrael [yr ydwyf] fi, ac mai myfi [yw] yr Arglwydd eich Duw, ac nid [neb] arall: a'm pobl ni's gwradwyddir byth.

Eſai.44.3.

28 A bydd ar ôl hyn *y tywalltaf fy Yſpryd ar bob cnawd, a'ch meibion, a'ch merched a brophwydant, eich henuriaid a welant freuddwydion, a'ch gwŷr ieuaingc a welant weledigaethau

29 Ac ar weiſion hefyd a morwynion y tywalltaf fy Yſpryd yn y dyddiau hynny.

30 A rhoddaf ryfeddodau yn y nefoedd, ac yn y ddaiar, gwaed, a thân, a cholofnau mwg.

Eſay 13.10.
Ioel.2.10.

31 *Yr haul a droir i dywyllwch, a'r lleuad i waed, o flaen dyfod mawr, ac ofnadwy ddydd yr Arglwydd.

32 A bydd yr achubir pob vn a alwo ar enw 'r Arglwydd: canys bydd ymwared fel y dywedodd yr Arglwydd ym mynydd Sion, ac yn Ieruſalem: ac yn y gweddillion a alwo 'r Arglwydd.

## PEN. III

Barn Duw ar elynnion ei bobl.

CAnys wele yn y dyddiau hynny, ac yn yr amſer hwnnw, pan ddatroaf gaethiwed Iuda, ac Ieruſalem,

2 Caſclaf hefyd yr holl genhedloedd, a dygaf hwynt i wared i'r glynn Iehoſaphat, a dadleuaf â hwynt yno dros fy mhobl a'm hetifeddiaeth Iſrael, y rhai a waſcaraſant hwy ym myſc y cenhedloedd, a rhannaſant fy-nhîr.

3 Ac ar fy mhobl y bwriaſant goel-brennau, a rhoddaſant y bachgen er puttain, a gwerthaſant y fachgennes er gwîn, ac yfâſant.

4 Tyrus hefyd, a Sidon, a holl ardaloedd Paleſtina beth a [wnewch] chwi i mi? a delwch i mi y pwyth? ac os telwch i mi, buan iawn y dychwelaf eich tâl ar eich pen eich hunain.

5 Canys cymmeraſoch fy arian a'm haur, a dugaſoch i'ch temlau fy nhlyſſau goref.

6 Gwerthaſoch hefyd feibion Iuda, a meibion Ieruſalem i'r Groegiaid: er eu pellhau oddi wrth eu hardaloedd eu hunain.

7 Wele mi ai codaf hwynt o'r lle y gwerthaſoch hwynt iddo: ac a ddatroaf eich tâl ar eich pen eich hunain.

8 A minne a werthaf eich meibion, a'ch merched i law meibion Iuda, a hwythau ai gwerthant i'r Sabeaid i genhedlaeth bell: canys yr Arglwydd a lefarodd [hyn.]

9 Cyhoeddwch hyn ym myſc y cenhedloedd, goſodwch ryfel, deffroiwch y gwŷr cryfion, neſaed y gwŷr o ryfel, a deuant i fynu.

10 Gyrrwch eich ceibiau yn gleddyfau, a'ch pladuriau yn waiw-ffyn: a dyweded y lleſc, cadarn ydwyfi.

11 Ymgeſclwch y cenhedloedd, a deuwch o amgylch ogylch, ac ymgynhullwch: yno y deſcyn yr Arglwydd dy gedyrn di.

12 Coded y cenhedloedd a deuant i fynu i'r glynn Iehoſaphat: o herwydd mai yno 'r eiſteddaf i farnu 'r holl genhedloedd o amgylch.

13 Medwch canys addfedodd y cynhaiaf, deuwch i wared o herwydd y gwryf a lanwodd, a'r gwaſc-gafnau a aethant troſodd, am amlhau eu drygioni hwynt.

14 Gwerynn lawer [a fydd] yng-lynn diwedd-brawd: canys agos yw dydd yr Arglwydd yng-lynn diwedd-brawd.

15 Yr haul, a'r lloer a dywyllant, a'r ſer a gaſclant eu llewyrch [attynt.]

16 A'r Arglwydd a rua o Sion, ac a rydd

ei lêf o Jeruſalem, y nefoedd hefyd, ar ddaiar a grynant: onid yr Arglwydd [fydd] gobaith ei bobl, a chadernid meibion Iſrael.

17 Felly y cewch wybod mai myfi [yw]'r Arglwydd eich Duw 'n trigo yn Sion fy mynydd ſanctaidd: yna y bydd Jeruſalem ſanctaidd, ac nid aiff dieithriaid trwyddi mwyach.

Ezec.47.1. Amos.9.13.

18 A'r dydd hwnnw y bydd i'r mynyddoedd ddefnynnu melyſ-win, a'r bryniau a lifant o laeth, a holl ffrydau Juda a redant o ddwfr, a ffynnon a ddaw allan o dŷ'r Arglwydd, ac a ddyfrha ddyffryn Sittim.

19 Yr Aipht a fydd anghyfannedd, ac Edom fydd anialwch anghyfanedd, am y traha [ar] feibion Juda, am iddynt dywallt gwaed gwirion yn eu tir hwynt.

20 Ond Juda a drig byth, ac Jeruſalem o genhedlaeth i genhedlaeth.

21 Glanhâf hefyd waed y rhai ni's glanheais: a'r Arglwydd fydd yn trigo yn Sion.

*Terfyn llyfr Joel.*

# Llyfr y prophvvyd Amos.

## PENNOD I.

1 Hanes Amos, ei brophwydoliaeth yn erbyn Damaſcus, Azza, Edom, ac Ammon.

Geiriau Amos (yr hwn oedd ym myſc bugeiliaid Thecoa) y rhai a welodd efe ar Iſrael yn nyddiau Oſia brenin Juda, ac yn nyddiau Jeroboam fab Joas brenin Iſrael, ddwy flynedd o flaen y ddaiar-gryn.

2 Ac efe a ddywedodd, yr Arglwydd a rua o Sion, ac a rydd ei lêf o Jeruſalem, a chyfanneddau y bugeiliaid a alarant, a phen Carmel a wywa.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, o herwydd tair [o] anwireddau Damaſcus, ac o herwydd pedair, ni's dychwelaf hyn yn ei ôl: am iddynt ddyrnu Gilead â ffuſtiau heirn.

4 Am hynny anfonaf dân i dŷ Hazael, ac efe a ddifa balaſau Benhadad.

5 Drylliaf droſolion Damaſcus, diwreiddiaf y preſſwylwyr o ddyffryn Afen, a'r hwn a gynhalio deyrn-wialen tŷ Edom: a phobl Syria a ânt yn gaeth i Cir, medd yr Arglwydd.

6 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair [o] anwireddau Azza, ac am bedair ni throaf hyn yn ei ôl, am iddynt gaeth-gludo caethiwed gyflawn i Edom iw gwarche.

7 Am hynny anfonaf dân ar fûr Azza: ac efe a ddifa ei phalaſau hi.

8 Ac mi a dorraf y preſſwyl-wyr o Aſdod, a'r hwn a ddeil deyrn-wialen o Aſcalon, a throaf fy llaw at Ecron, a derfydd am weddill y Philiſtiaid, medd yr Arglwydd Dduw.

9 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau Tyrus, ac am bedair ni ddychwelaf hyn, o herwydd iddynt hwy warche cwbl gaethiwed yn Edom: ac na chofiaſant y cyfammod brawdol:

10 Am hynny anfonaf dân i fûr Tyrus, ac efe a ddifa ei phalaſau hi.

11 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau Edom, ac am bedair ni ddychwelaf hyn, am iddo erlid ei frawd â'r cleddyf, a llygru ei drugaredd, ai yſpeilio byth yn ei ddig, a chadw ei lid yn waſtad.

12 Am hynny anfonaf dân i Theman, yr hwn a ddifa balaſau Bozra.

13 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau meibion Ammon, ac am bedair ni ddychwelaf hyn, am iddynt hwy rwygo gwragedd beichiogion Gilead, er helaethu eu terfynau eu hun.

14 Cynneuaf dân ar fûr Rabba, ac efe a ddifa ei phalaſau, mewn gwaedd ddydd y rhyfel, ac mewn temheſtl ddydd y cor-wynt.

15 Ai brenin a aiff yn gaeth, efe ai bennaethiaid gyd ag ef, medd yr Arglwydd.

## PEN. II.

Prophwydoliaeth yn erbyn Moab, Iuda, ac Iſrael.

Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau Moab, ac am bedair ni throaf hynn yn ei ôl: am iddo loſci eſcyrn brenin Edom yn lludw.

2 Am hynny anfonof dân i Moab, yr hwn a ddifa balaſau Cerioth: a Moab fydd marw mewn terfyſc, gweiddi, a llais udcorn.

3 Mi a ddorraf ymmaith ei barn-wr of myſc: ai holl bendifigion a laddaf gyd ag ef, medd yr Arglwydd.

4 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau Juda, ac am bedair ni throaf hyn yn ei ôl: am iddynt ddirmygu cyfraith yr Arglwydd, ac na's cadwaſant ei ddeddfau ef: onid eu celwyddau ai cyfeiliornodd hwynt, y rhai'r aeth eich tadau ar eu hôl.

5 Am hynny'r anfonaf dân i Juda, ac efe a ddifa balaſoedd Jeruſalem.

6 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, am dair o anwireddau Iſrael, ac am bedair ni throaf hyn yn ei ôl, am ichwi werthu y cyfiawn am arian, a'r tlawd er pâr o eſcidiau.

7 Dyheuaſant wrth ben y tlodion yn llwch y ddaiar, a gwyraſant ffordd y trueniaid: gŵr, ai dad a ânt at yr un llangces, i halogi fy

enw ſanctaidd.

8 Ac ar ddillad wedi eu rhoi yng-wyſtl y gorweddant wrth bob allor; a gwin y dirwyus a yfant [yn] nhŷ eu Duw.

9 A myfi a ddiniſtriais yr Amoriaid o'u blaen hwynt, yr hwn oedd fel vchter y cedr-wŷdd ei hŷd, ac efe oedd grŷf fel derw: etto mi a ddiniſtriais ei ffrwythau oddi arnodd, a'i wraidd oddi tanodd.

10 Myfi hefyd a'ch dugym chwi i fynu o wlad yr Aipht, ac a'ch arweiniais chwi ddeugain mlynedd trwy 'r anialwch i oreſcyn gwlad yr Amoriaid.

11 A mi a gyfodais o'ch meibion chwi [rai] yn brophwydi, ac o'ch gwŷr ieuaingc rai yn Nazareaid: oni [bu] hyn ô meibion Iſrael, medd yr Arglwydd?

12 Ond chwi a roeſoch i'ch Nazareaid wîn iw yfed, ac a orchymynnaſoch i'ch prophwydi, gan ddywedyd: na prophwydwch.

13 * Wele fi wedi fy llethu tanoch, fel y llethir y fenn lawn o yſcubau. Eſay.4.14.

14 Methodd gan y buan ddiangc, a'r crŷf ni chadarnhaodd ei rym, a'r cadarn ni waredodd ei enaid ei hun.

15 Ni ſaif a ddalio y bŵa, ni ddiangc y buan o draed, nid achub marchog y march ei enioes ei hun.

16 A'r cryfaf ei galon o'r cedyrn a ffŷ y dwthwn hwnnw yn noeth-lymmun, medd yr Arglwydd.

## PEN. III.

Dangos y mae efe aniolchgarwch ty Iſrael, ai rhybuddio o'r goſp a ydoedd yn dyfod am hynny.

GWrandewch y gair yr hwn a leſarodd yr Arglwydd i'ch erbyn chwi plant Iſrael: yn erbyn yr holl deulu a ddugym i i fynu o wlâd yr Aipht, gan ddywedyd:

2 Chwi yn vnic a adnabum o holl deuluoedd y ddaiar: am hynny ymwelaf â chwi [am] eich holl anwireddau.

3 A rodia dau yng-hyd heb iddynt gytuno?

4 A rua y llew yn y goedwic heb [fod] iddo yſglyfaeth? neu a leiſia cenew llew oi wâl heb iddo ddal?

5 A ſyrth yr aderyn yn y fagl [i] lawr heb fod adar-wr? a'gyfyd efe y fagl oddi ar y ddaiar heb ddal dalfa?

6 A genir vdcorn mewn dinas heb ddychrynu y bobl? a fydd niwed mewn dinas heb i'r Arglwydd ei wneuthur?

7 Canys ni wnaiff yr Arglwydd ddim, a'r na's dangoſo ei ddirgelwch iw weiſion y prophwydi.

8 Rhuodd y llew, pwy nid ofna? yr Arglwydd Iôr a leſarodd, pwy ni prophwyda?

9 Cyhoeddwch o fewn y palaſau yn Aſdod, ac yn y palaſau yng-wlad yr Aipht: a dywedwch, deuwch yng-hyd ar fynyddoedd Samaria, a gwelwch derfyſcoedd lawer oi mewn, a'r gorthrymmedigion yn ei chanol hi.

10 Ac ni fedrant wneuthur iniondeb medd yr Arglwydd: pentyrru y maent drais, ac yſpail yn eu palaſau.

11 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, gelyn [fydd] o amgylch y tir, ac a dynn i lawr dy nerth oddi wrthit, a'th balaſoedd a yſpeilir.

12 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, fel yr achub y bugail o ſafn y llew y ddwy goes, neu dryll y glust: felly 'r achubir meibion Iſrael y rhai ydynt yn trigo yn Samaria, mewn cwrr gwely o fewn Damaſcus [megis mewn] gorweddle.

13 * Gwrandewch a thestiolaethwch yn nhŷ Iacob medd yr Arglwydd, [ſef] Arglwydd Dduw y lluoedd. Eſa.1.14.

14 Mai y dydd yr ymwelaf ag anwiredd Iſrael yn ei erbyn, y gofwyaf hefyd allorau Bethel: cyrn yr allorau a ddrylliwyd, ac a ſyrthiaſant i'r llawr.

15 A mi a darawaf y gaiaf-dŷ, a'r hafodtŷ, a derfydd am y tai Ifori: drylliaf hefyd y teiau mawrion ymmaith medd yr Arglwydd.

## PEN. IIII.

Coſpedigaeth ſwyddogion Samaria (y rhai a eilw efe gwarthec Baſan) am eu gau-dduwiaeth. 8 Eu cyndynrwydd hwythau i wellhau ar ôl eu holl goſpedigaethau.

GWrandewch y gair hwn gwartheg Baſan y rhai ydych ym mynydd Samaria, y rhai ydych yn treiſio y tlawd, yn yſigo 'r anghenog, ac yn dywedyd wrth y meiſtred, moeſwch fel y gallom yfed.

2 Tyngodd yr Arglwydd Dduw iw ſancteiddrwydd, wele mai dyddiau a ddaw arnoch ac efe a'ch dŵg chwi ymmaith â drain, a'ch hiliogaeth â bachau pyſcotta.

3 Ewch allan i'r adwyau pob vn ar ei gyfer, ac ymadewch a'r palas, medd yr Arglwydd.

4 Deuwch i Bethel, a throſeddwch, i Gilgal, a throſeddwch fwy-fwy, dygwch yn foreu eich aberthau, a'ch degymmau * wedi tair blynedd. Deut.14.28.

5 Offrymmwch * ſurdoes [aberth] diolch, cyhoeddwch [ac] yſpyſwch aberthau gwirfodd: canys hyn a hoffwch meibion Iſrael, medd yr Arglwydd Dduw. Lefit.7.13.

6 A rhoddais iwch lendid dannedd yn eich holl ddinaſoedd, ac eiſieu bara yn eich holl leoedd, ac ni ddychwelaſoch atafi medd yr Arglwydd.

7 Myfi hefyd a luddiais i chwi law, pan [oedd] etto dri mis hyd gynhaiaf, glawiais hefyd ar vn ddinas, ac ni lawiais ar ddinas arall, vn rhan a gafodd law, a'r rhan ni chafodd law a wywodd.

8 Gwibiodd dwy ddinas neu dair i vn ddinas i yfed dwfr, ond ni's diwallwyd: etto ni ddychwelaſoch attafi medd yr Arglwydd.

9 Tarewais chwi â diſlanniad, ac â mallder, eich aml erddi, a'ch gwinllanoedd, a'ch ffigyſbrennau,

brennau, a'ch olíwydd a yſſodd y lindis: etto ni throeſoch attafi medd yr Arglwydd.

Exod.9.10.

10 Anfonais arnoch haint megis yn ffordd * yr Aipht, eich gwŷr ieuaingc a leddais a'r cleddyf, gyd â chaeth-glud eich meirch: codais ddrewi eich gwerſyllau i'ch ffroenau: etto ni throeſoch attafi medd yr Arglwydd.

11 Mi a ddymchwelais [rai] o honoch, fel yr ymchwelodd Duw Sodoma, a Gomorra, ac yr oeddech fel pentewyn wedi ei achub o loſci: etto ni throeſoch attafi medd yr Arglwydd.

12 O herwydd hynny y modd ymma y gwnaf it Iſrael, ac o herwydd mai hyn a wnaf it, bydd barod Iſrael i gyfarfod a'th Dduw.

13 Canys wele lluniwr y mynyddoedd, a chreawdur y gwynt, yr hwn a fynega i ddyn beth [yw] ei fyfyrdawd, [ac] a wnaiff y boreu yn dywyll, ac a gerdd ar vchelder y tîr: Arglwydd Dduw y lluoedd [yw] ei enw.

PENN. V.

1 Y mae y prophwyd yn dangos y triſtwch a'r galar a ddoe i Iſrael. 4 Ac yn eu hannog i droi at Dduw a daioni. 8 Ac yn goſod allan weithredoedd Duw, a dydd eu hymweledigaeth. 21 Yn beio hefyd ar eu gwaſanaeth.

GWrandewch y gair gofidus ymma, 'r hwn a dderchafaf arnoch tŷ Iſrael.

2 Y weryf Iſrael a ſyrthiodd, ac ni chyfyd mwy: gadawyd hi ar ei thîr, nid [oes] ai cyfyd.

3 Canys y modd hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, y ddinas a êl allan [â] mîl a weddill gant, a'r hon a êl allan [ar] ei chanfed a weddill ddêc i dŷ Iſrael.

4 O herwydd fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth dŷ Iſrael, ceiſiwch fi, a byw fyddwch.

5 Ac nac ymgeiſiwch â Bethel, ac nac ewch i Gilgal, ac na thrammwywch Beerſeba: o herwydd gan gaeth-gludo y caeth-gludir Gilgal, a Bethel a fydd yn ddiddim.

6 Ymgeiſiwch a'r Arglwydd a byw fyddwch rhac iddo ef fyned tros dŷ Ioſeph fel tân, ai ddifa, ac na byddo ai diffoddo yn Bethel.

7 Troi y maent farn yn wermod: a chyfiawnder a adawant ar y llawr.

Iob.9.9.

8 Yr hwn a wnaeth Pleiades, ac Orîon, yr hwn a dry gyſcod angeu yn foreu-ddydd, ac a dywylla y dydd yn nôs: yr hwn a eilw ddyfroedd y môr, ac ai tywallt ar wyneb y ddaiar: yr Arglwydd [yw] ei enw.

9 Yr hwn ſydd yn nerthu diniſtrudd yn erbyn y cryf fel y delo y diniſtrudd ar yr amddeffynfa.

10 Câs ganddynt a geryddo yn y porth, a ffiaidd ganddynt a lefaro yn berffaith.

11 O herwydd hynny am iwch ſathru y tlawd, a dwyn y baich ŷd oddi arno: chwi a adeiladaſoch dai o gerric nadd, ac ni thrigwch ynddynt: plannaſoch winllanoedd blyſſiol, ac nid yfwch eu gwîn hwynt.

12 Canys mi a adwen eich anwireddau lawer, a'ch pechodau cryfion, y rhai ydych yn blino y cyfiawn, yn cymmeryd iawn, ac yn gŵyro y tlawd yn y porth.

13 Am hynny y neb a fyddo call a oſtega 'r amſer hwnnw, canys amſer drwg yw.

14 Ymgeiſiwch â daioni, ac nid â drygioni fel y byddoch fyw, ac felly Arglwydd Dduw y lluoedd fydd gyd â chwi fel y dywedaſoch.

15 Caſewch ddrygioni, a hoffwch ddaioni, a goſodwch farn yn y porth: galle Arglwydd Dduw y lluoedd fod yn raſlawn i weddill Ioſeph.

16 Am hynny fel hyn y dywedodd yr Arglwydd [ſef] Arglwydd Dduw y lluoedd, ym mhob heol [y bydd] triſtwch, ac ym mhob priffordd y dywedant, oh, oh, a galwant yr arddwr i driſtwch, a galar i'r neb a fedro alaru.

17 Ac ym mhob gwinllan [y bydd] triſtwch, canys trammwyaf trwy dy ganol di, medd yr Arglwydd.

18 Gwae y neb ſydd yn dymuno dydd yr Arglwydd, beth [yw] hwn i chwi? tywyllwch ac nid goleuni yw dydd yr Arglwydd.

19 Megis pe ffoe gŵr o flaen y llew, ac arth yn cyfarfod ag ef, a myned i'r tŷ a phwyſo ei law ar y pared, ai frathu o ſarph:

20 Oni [bydd] dydd yr Arglwydd yn dywyllwch ac nid yn oleuni, yn dywyllwch ac heb lewyrch iddo?

21 Caſeais, a ffieiddiais eich gwiliau, ac nid aroglaf yn eich cynnulleidfaoedd.

22 Canys er i chwi offrymmu i mi boeth offrymmau, a'ch offrymmau bwyd, ni fyddaf fodlon, ac nid edrychaf ar hedd offrwm eich paſcedigion.

23 Symmud oddi wrthif luoſogrwydd dy ganiadau: canys ni wrandawaf beroriaeth dy nablau.

24 Ond barn a ymdreigla fel dwfr, a chyfiawnder fel ffrŵd grêf.

25 A offrymmaſoch chwi i mi aberthau, a bwyd offrymmau yn y diffaethwch ddeugain mlhynedd tŷ Iſrael?

26 Ond dugaſoch Siccwth eich brenin, Chiwn hefyd eich delwau, [a] ſeren eich duwiau yr hon a wnaethoch iwch eich hunain.

27 Am hynny y caeth-gludaf chwi i'r tu hwnt i Ddamaſcus medd yr Arglwydd, Duw y lluoedd [yw] ei enw ef.

PEN. VI.

Prophwydoliaeth yn erbyn tywyſogion Iſrael. 8 A ſiccrwydd o ddialedd iddynt.

GWae y rhai eſmwyth arnynt yn Sion, ac ſydd yn ymddyried ym mynydd Samaria, y rhai oeddynt enwoc yn nechreuad y cenhedloedd: â thŷ Iſrael a ddaethant attynt hwy.

2 Trãmwywch i Chalneh, ac edrychwch, ac ewch oddi yno i Hemath fwyaf, a deſcynwch i Gath y Philiſtiaid: ai gwell ydynt na'r teyrnaſoedd hyn? ai helaethach eu terfyn hwynt na'ch terfyn chwi?

3 Y rhai ydych yn pellhau y dydd drwg, ac

yn neſau eiſteddle trais.

4 Gorwedd y maent ar welau Iſori, ac yn ymeſtyn ar eu gwâl, ac yn bwytâ yr wyn o'r praidd, a'r lloi o ganol y cytt.

5 Y rhai a ddatcanant gyd â llais y nablau dychymygaſāt iddynt eu hun offer cerdd megis Dafydd.

6 Y rhai a yfant win mewn phiolau, ac a ymirant a'r olew pennaf, ac nid ymofidiaſant am ddryllio Ioſeph.

7 Am hynny 'r awr hon hwynt a ddygir yn gaeth gyd a'r cyntaf a ddygir yn gaeth: a galar y rhai a ymeſtynnant a neſſâ.

Iere.51.14. 8 *Tyngodd yr Arglwydd Dduw iw enaid ei hûn, ffiaidd gennifi draha Iacob, a chaſeais ei balaſau, a mi a roddaf i fynu y ddinas ac ſydd ynddi, medd Arglwydd Dduw y lluoedd.

9 A bydd os gweddillir mewn vn tŷ ddêc o ddynnion y byddant feirw.

10 Ei ewythr ai cyfyd i fynu, ac ai llŷſc, i ddwyn yr eſcyrn allan o'r tŷ, ac a ddywed wrth yr hwn a fyddo wrth yſtlyſau y tŷ, a oes neb gyd â thi? ac efe a ddywed, nac [oes:] a dywed yntef, taw, am na [waſanaetha] coffau enw 'r Arglwydd.

11 O herwydd wele 'r Arglwydd yn gorchymyn, ac efe a dery y tŷ mawr â defni, a'r tŷ bychan â holltau.

12 A rêd meirch ar y graig? *a ardd [neb hi] ag ŷchen? canys troeſoch farn yn fuſtl, a ffrwyth *cyfiawnder yn wermod. Amos.5.7.

13 Llawenychu 'r ydych heb achos gan ddywedyd: o'n nerth ein hun y cymmeraſom i ni gryfder.

14 Ond wele mi a gyfodaf i'ch erbyn chwi tŷ Iſrael medd Arglwydd Dduw y lluoedd genhedlaeth, ac hwynt a'ch gwaſcant chwi, o'r ffordd yr ewch chwi i Hemath hyd afon y diffaethwch.

## PEN. VII.

1 Y mae Duw drwy weledigaethau yn dangos fel yr anrheithir Iſrael. 10 Amazia yn athrod Amos. 17 Atteb Amos i Amazia.

FEl hyn y dangoſodd yr Arglwydd i mi: ſef wele ef yn ffurfio ceiliogod rhedyn, pan ddechreuodd yr adledd godi, ac wele adledd wedi lladd [gwair] y brenin [oedd hwn.]

2 A phan ddarfu iddynt fwytta glaſ-wellt y tîr, yna y dywedais, arbed Arglwydd atolwg: pwy a gyfyd Iacob? canys bychan [yw] efe

3 Edifarhaodd yr Arglwydd o hyn: ni bydd [hyn] eb yr Arglwydd.

4 Fel hyn y dangoſodd yr Arglwydd Dduw i mi, ſef wele 'r Arglwydd Dduw yn galw i farn trwy dân: a difaodd y [tân] y dyfnder mawr, ac a yſſodd beth.

5 A [phan] ddywedais, Arglwydd Dduw paid attolwg, pwy a gyfyd Iacob? canys bychan [yw] efe.

6 Edifarhaodd yr Arglwydd o hyn, ni bydd hyn hefyd eb yr Arglwydd Dduw.

7 Fel hyn y dangoſodd efe i mi, ſef wele 'r Arglwydd yn ſefyll ar gaer [a wnaethpwyd wrth] linin, ac yn ei law yntef linin.

8 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, beth a weli di Amos? a mi a ddywedais, llinin: a'r Arglwydd a ddywedodd, goſodaf linin ynghanol fy mhobl Iſrael, ac ni chwanegaf fyned heibio iddynt mwyach.

9 Vchelfeudd Iſaac hefyd a wneir yn anghyfannedd, a themlau Iſrael a ddifethir, ac mi a gyfodaf yn erbyn tŷ Ieroboam â cleddyf.

10 Yna Amazia offeiriad Bethel a anfonodd at Ieroboā frenin Iſrael, gan ddywedyd: cydfwriadodd Amos i'ch erbyn yng-hanol tŷ Iſrael, ni ddichon y ddaiar ddwyn ei holl eiriau ef.

11 Canys fel hyn y dywedodd Amos: Ieroboam a fydd farw trwy 'r cleddyf, ac Iſrael a gaeth-gludir yn llwyr allan oi wlâd.

12 Dywedodd Amazia hefyd wrth Amos, y gweledydd, dôs ffô ymmaith i wlâd Iuda, a bwytta fara yno, a phrophwyda yno.

13 Na chwanega brophwydo yn Bethel mwy canys cappel y brenin, a llŷs y brenin [yw] hi.

14 Yna Amos a attebodd, ac a ddywedodd wrth Amazia, nid prophwyd [oeddwn] i, ac nid mab i brophwyd [oeddwn] i: namyn bugail [oeddwn] i, a chaſcludd ffigus gwylltion.

15 A'r Arglwydd a'm cymmerodd oddi ar ôl y praidd, a'r Arglwydd a ddywedodd wrthif: dos, a phrophwyda i'm pobl Iſrael.

16 Ac yr awr hon gwrando air yr Arglwydd, ti a ddywedi, na phrophwyda yn erbyn Iſrael, ac nac yngen yn erbyn tŷ Iſaac.

17 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, dy wraig a butteinia yn y ddinas, dy feibion, a'th ferched a ſyrthiant ar y cleddyf: a'th dîr a rennir â llinin, a thitheu a fyddi farw mewn tîr halogedic, a chan gaeth-gludo y caeth-gludir Iſrael oi dîr. Ierem.28.12, iere.29.21.

## PEN. VIII.

1 Gweledigaeth yn arwyddocau diwedd brenhiniaeth Iſrael. 4 Traha ar dlodion: 7 Dialedd Duw am dyngu i'r gau-dduwiau.

FEl hyn y dangoſodd yr Arglwydd i mi, ſef wele gawelled o ffrwythydd hâf.

2 Ac efe a ddywedodd, beth a weli di Amos? a mi a ddywedais, cawelled o ffrwythydd hâf: yna y dywedodd yr Arglwydd wrthif, daeth diwedd ar fy mhobl Iſrael, ac nid âf heibio mwyach.

3 Caniadau y Deml hefyd a droir i udo ar y dydd hwnnw medd yr Arglwydd Dduw: llawer o gelaneddau a fyddant ym mhob lle: bwrir hwynt allan yn ddiſtaw.

4 Gwrandewch hyn y ſawl ydych yn llyncu yr anghenog i ddifa tlodion y tîr,

5 Gan ddywedyd, pa bryd yr aiff y mis heibio, fel y gwerthom ŷd? a'r Sabboth, fel yr agorom y gwenith, a phrinhau 'r Epha, a helaethu y Sicl, a gwyro y cloriannau [drwy] dwyll?

6 I brynu y tlawd er arian, a'r anghenus er

eſcidiau, ac i werthu gwehilion y gwenith?

7 Tyngodd yr Arglwydd i rogor-fraint Iacob: nid anghofiaf byth eu holl weithredoedd hwynt.

8 Oni chryn y ddaiar am hyn? ac oni alara ei holl breſſwyl-wŷr? cyfyd hefyd ei gyd fel llif, a bwrir hi ymmaith, a hi a foddir megis [gan] afon yr Aipht.

9 A'r dydd hwnnw medd yr Arglwydd Dduw, y gwnaf i'r haul fachludo hanner dydd, a thywyllaf y ddaiar [liw] dydd goleu.

10 Trôf hefyd eich gwyliau yn alar, a'ch holl ganiadau yn oer-nad, a dygaf ſach-liain ar yr holl lwynau, a moelni ar bôb pen: ac mi ai goſodaf fel galar [dros] un mab, ai ddiwedd [fydd] fel dydd chwerw.

11 Wele y mae dyddiau yn dyfod medd yr Arglwydd Dduw, a mi a anfonaf newyn i'r tîr: nid newyn am fara, ac nid ſyched am ddwfr, onid am wrando gair Duw.

12 Yna y crwydrant o fôr i fôr, a gwibiant o'r gogledd hyd y dwyrain i geiſio gair yr Arglwydd, ac ni's cânt.

13 Y diwrnod hwnnw y gwyryfon têg, a'r meibion ieuaingc a ddiffoddant o ſyched.

14 Y rhai a dyngant i bechod Samaria, ac a ddywedant, byw yw dy dduw di ô Dan: a byw yw ffordd Beerſeba, a ſyrthiant, ac ni chodant mwy.

PEN. IX.

1 Dialedd Duw am bechodau Iſrael. 11 Duw oi drugaredd yn arbed ei bobl.

Gwelais yr Arglwydd yn ſefyll ar yr allor, ac efe a ddywedodd, taro gappan y ddôr, a'r gorſingau a eſcydwant, a dryllia hwynt oll yn eu pen blaen: minnau a laddaf a'r cleddyf yn ôl, ni ffŷ o honynt a geiſio ffoi, ac ni ddiangc o honynt a geiſio ddiangc.

2 Pe chloddient hyd uffern, fy llaw ai tynne hwynt oddi yno, a phe dringent i'r nefoedd, mi ai deſcynnwn hwynt oddi yno.

3 A phe llechent ar benn Carmel, chwiliwn a chymmerwn hwynt oddi yno, a phe ymguddient o'm golwg yng-waelod y môr gorchymynwn i'r ſarph eu brathu hwynt oddi yno.

4 Ac os ânt i gaethiwed o flaen eu gelynion, oddi yno gorchymynnaf i'r cleddyf, ac efe ai lladd hwynt: a goſodaf fy ng-olwg yn eu herbyn, er drygioni, ac nid er daioni [iddynt.]

5 Ac Arglwydd Dduw y lluoedd a gyffwrdd a'r ddaiar, a hi a dawdd: a galara pawb a'r a drig ynddi, a hi a gyfyd oll fel llifeiriant, ac a foddir megis [gan] afon yr Aipht.

6 Yr hwn a adailadodd yn y nefoedd ei gylchau, ac a ſylfaenodd ar y ddaiar ei gaſcl [elmentau:] yr hwn a alwodd ddyfroedd y môr, ac ai tywalltodd ar wyneb y ddaiar, yr Arglwydd [yw] ei enw.

7 Onid [ydych] chwi meibion Iſrael i mi fel meibion yr Ethiopiaid, medd yr Arglwydd? oni ddygais i fynu feibiō Iſrael o dîr yr Aipht, a'r Philiſtiaid o * Cappadocia, a'r Syriaid o Cirene? Ierem.47.4.

8 Wele lygaid yr Arglwydd ar y deyrnas bechadurus, ac mi ai difethaf oddi ar wyneb y ddaiar: ond ni ddifethaf dŷ Iacob, medd yr Arglwydd.

¶ 9 Canys wele myfi a orchymynnaf, ac a ogrynnaf dŷ Iſrael ym mysc yr holl genhedloedd: fel y gogrynnir ŷd mewn gogr, ac ni ſyrth graienyn i'r llawr.

10 Holl bechaduriaid fy mhobl a fyddant feirw ar y cleddyf, y rhai a ddywedant, ni ddaw drwg yn agos attom, ac ni ddwg ein blaen.

11 Y dydd hwnnw y codaf babell Ddafydd yr hon a ſyrthiodd, mi a gaeaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac ai hadailadaf fel yn y dyddiau gynt. Act.15.16.

12 Fel y meddianno y rhai y gelwir fy enw arnynt, weddill Edom, a'r holl genhedloedd medd yr Arglwydd, yr hwn a wna hyn.

13 Wele y dyddiau a ddaw medd yr Arglwydd y cyffwrdd yr ardd-wr a'r cynhaiaf-wr, a ſathrudd y grawn-win a'r hau-wr, a'r mynyddoedd a ddafnynnant felyſ-win, a'r holl frynnau a doddant. Leuit.26.5. Ioel.3.18.

14 A dychwelaf gaethiwed fy mhobl Iſrael, ac adailadant y dinaſoedd anghyfannedd, a phreſſwyliant, a phlannant winllānoedd, ac yfant oi gwîn hwynt, gwnant hefyd erddi, a bwyttânt eu ffrwyth hwynt.

15 Ac mi ai plannaf hwynt yn y tîr, ac ni's diwreiddir hwynt mwyach oi tîr yr hwn a roddais i iddynt medd yr Arglwydd dy Dduw.

*Terfyn llyfr Amos.*

# Llyfr y Prophvvyd Abdias.

PENNOD. I

Prophwydoliaeth yn erbyn Edom.

Ierem.49.14. Gweledigaeth Abdias, fel hyn y dywed yr Arglwydd yn erbyn Edom: * clywſom air oddi wrth yr Arglwydd, a chennad a hebryngwyd at y cenhedloedd [i ddywedyd:] codwch, a chyfodwn i ryfela yn ei herbyn hi.

2 Wele mi ath roddais yn fychan ym mysc y cenhedloedd, a dibris iawn [wyt.]

3 Balchder dy galon a'th dwyllodd, ti yr hwn wyt yn trigo yn holltau y graig, [yn] uch-

elder ei drigfa y mae yn dywedyd yn ei galon, pwy a'm tynn fi i'r llawr:

4 Ped ymdderchefyt megis yr eryr, a phe rhoit dy nŷth ym mhlith y ſêr, mi a'th ddeſcynnwn oddi yno, medd yr Arglwydd.

Iere.49.9. 5 Ai lladron a ddaethant attat: neu yſpeil-wŷr nôs: pa fodd i'th oſtegwyd: oni ladrattaſent hwynt eu digon: pe daethe cynhull-wŷr grawn-win attat, oni weddillaſent rawn:

6 Pa fodd y chwiliwyd Eſau, [ac] y ceiſiwyd ei guddfeudd ef:

7 Yr holl wŷr y rhai oedd ammod rhyngot â hwynt a'th yrraſant hyd y terfyn, a'r gwŷr yr oedd heddwch rhyngot â hwynt a'th dwyllaſant, ac a'th orfuant, [bwyttawŷr] dy fara a roddaſant archoll danat: nid [oes] ddeall ynddo.

8 Oni ddiniſtriaf y dydd hwnnw medd yr Arglwydd y doethion allan o Edom, a'r deall allan o fynnydd Eſau?

10 Dy gedyrn di o Theman a ofnant, am y torrir ymmaith bôb vn o fynydd Eſau gan y lladdfa.

10 Am y traha[ar] dy frawd Iacob, gwarth a'th orchguddia, a thi a dorrir ymmaith bŷth.

11 Y dydd y ſefaiſt o'r tu arall, pan gaethgludodd eſtroniaid ei olud, a myned o ddieithraid iw byrth ef, a bwrw coel-brennau am Ieruſalem, tithe hefyd oeddit megis vn o honynt.

12 Ni ddyleſit ti edrych ar ddydd dy frawd, pan ddieithrîwyd ef, ac ni ddyleſit lawenychu yn erbyn plant Iuda y dydd y diſethwyd hwynt: ac ni ddyleſit ledu dy ſafn ar ddydd y cyſtudd.

13 Ni ddyleſit ddyfod o fewn porth fy mhobl y dydd y diniſtriwyd hwynt, ni ddyleſit edrych ar eu hadfyd yn nydd eu diniſtr, ac ni ddyleſit eſtyn [dy law] ar eu golud yn nydd eu diſethiad hwynt.

14 Ac ni ddyleſit ſefyll ar y croeſ-ffyrdd i dorri ymmaith ei rai diãgol ef, ac ni ddyleſit ti fradychu y gweddill o honaw ef ddydd yr adfyd

15 Canys agos yw dydd yr Arglwydd ar yr holl genhedloedd, fel y gwnaethoſt y gwneir i tithe: dy wobr a ddychwelir ar dy ben.

16 Canys megis yr yfaſoch ar fy mynydd ſanctaidd, [felly]'r holl genhedloedd a yfant yn oeſtad: yfant, a llyngcant, a byddant fel pe na buaſent.

17 Ac ar fynydd Sion y bydd ymwared, ac y bydd ſancteiddrwydd: a thŷ Iacob a oreſcyn eu hetifeddiaethau hwynt.

18 Yna y bydd tŷ Iacob * yn dân, a thŷ Ioſeph yn fflam, a thŷ Eſau yn ſofl, a chynneuant ynddynt, a difânt hwynt, ac ni bydd gweddill i dŷ Eſau, am i'r Arglwydd [ei] ddywedyd. Eſai.10.17. deut.4.24. heb.12.29.

19 Goreſcynnant hefyd du dehau i fynydd Eſau, a gwaſtadedd y Philiſtiaid, a goreſcynnant feuſydd Ephraim, a meuſydd Samaria, a Beniamin a [oreſcyn] Gilead.

20 A chaeth-glud y llû hwn o blant Iſrael [a oreſcynnant] yr hyn [a fu eiddo] y Canaaneiaid hyd Zarephath, a chaethion Ieruſalem y rhai [ydynt] yn Sepharad a oreſcynnant ddinaſoedd y dehau.

21 Dring gwaredwŷr hefyd fynydd Sion i farnu mynydd Eſau, a'r frenhiniaeth fydd eiddo 'r Arglwydd.

*Diweddiad llyfr Abdias.*

# Llyfr y Prophvvyd Ionas.

## PENNOD. I.

Ionas yn ffoi tua Tharſis, rhag myned i bregethu i Niniſe. 4 Temheſtl yn cyfodi fel y gorfu ei fwrw ef i'r môr.

GAir yr Arglwydd a ddaeth at Ionas fab Amittai, gan ddywedyd:

2 Cyfod, dôs i Niniſe y ddinas fawr, a llefa yn ei herbyn: canys eu drygioni hwynt a dderchafodd ger fy mron.

Ionas.4.2. 3 Ac Ionas a gyfododd * i ffôi i Tharſis oddi ger bron yr Arglwydd, ac efe a aeth i wared i Ioppa, ac a gafodd long yn myned i Tharſis ac a roddes ei phorth-lôg hi, ac a aeth i wared iddi hi, i fyned gyd â hwynt i wared i Tharſis oddi ger bron yr Arglwydd.

4 Yna 'r Arglwydd a gyfododd wynt mawr yn y môr, a bu yn y môr ryferthwy mawr, fel y tebygwyd y dryllie y llong:

5 Y mor-wŷr a ofnaſant, ac a lefaſant bôb vn ar ei dduw, a bwriaſant yr offer y rhai [oeddynt] yn y llong i'r môr er yſcafnhau arnynt: ond Ionas a aethe i wared i gilfachau y llong, ac a orweddaſe, ac a gyſcaſe.

6 A meiſtr y llong a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho: beth [a ddarfu] it gyſcadur: cyfod, a galw ar dy Dduw: ond odid y Duw [hwnnw] a yſtyr wrthym fel na'n coller.

7 A dywedaſant bôb vn wrth ei gyfaill, deuwch, a bwriwn goel-brênau, a mynnwn wybod o achos pwy [y mae] y drwg hwn: a bwriaſant goel-brênau, a'r coel-brên a ſyrthiodd ar Ionas.

8 A dywedaſant wrtho, attolwg dangos i ni er mwyn pwy [y mae] i ni y drwg hwn: beth [yw] dy waith: ac o ba le y daethoſt: pa le [yw] dy wlâd: ac o ba bobl [yr wyt] ti?

9 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hebræad ydwyf, ac ofni 'r wyf Arglwydd Dduw y ne-

foedd, yr hwn a wnaeth y môr, a'r ſych-dîr.

10 A'r gwŷr a ofnaſant [gan] ofn mawr, ac a ddywedaſant wrtho, pa ham y gwnaethoſt hyn? (canys y dynion a wyddent iddo ffoi oddi ger bron yr Arglwydd, o herwydd efe a fynegaſe iddynt)

11 A dywedaſant wrtho, beth a wnawn iti, oſtegu o'r môr oddi wrthym? canys gweithio 'r oedd y môr, a therfyſcu.

12 Ac efe a ddywedodd wrthynt, cymmerwch fi, a bwriwch fi i'r môr, a'r môr a oſtega i chwi, canys gwn [ddyfod] y rhyferthwy mawr hwn arnoch er fy mwyn i.

13 Er hynny y gwŷr a rwyfaſant i ddychwelyd i dîr, ond ni's gallent, am i'r môr weithio, a therfyſcu yn eu herbyn hwynt.

14 Llefaſant gan hynny ar yr Arglwydd, a dywedaſant, attolwg Arglwydd na ddifether ni am einioes y gŵr hwn, ac na ddyro i'n herbyn waed gwirion: canys ti ô Arglwydd a wnaethoſt fel y gwelaiſt yn dda.

15 Yna y cymmeraſant Ionas, a bwriaſant ef i'r môr a pheidiodd y môr ai gyffro.

16 A'r gwŷr a ofnaſant yr Arglwydd ag ofn mawr, ac a aberthaſant, [ac] a addunedaſant addunedau i'r Arglwydd.

17 A'r Arglwydd a ddarparaſe byſcodyn mawr i lyngcu Ionas, ac Ionas a fu ym mol y pyſcodyn dri diwrnod, a thair nôs.

## PEN. II.

1 Gweddi Ionas o fol y pyſcodyn. 11 Yr Arglwydd yn ei wared ef oddi yno.

AC Ionas a weddiodd ar yr Arglwydd ei Dduw o fol y pyſcodyn,

2 A dywedodd, o'm hing y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm hattebodd: o fol uffern y gwaeddais, a chlywaiſt fy llêf.

3 Ti a'm bwriaiſt i'r dyfnder, i ganol y môr, y llanw a'm hamgylchynodd, dy donnau a'th gefn-foroedd a aethant droſof.

4 A minnef a ddywedais, bwriwyd fi o wydd dy lygaid, er hynny chwanegaf edrych tu a'th Deml ſanctaidd.

5 Y dyfroedd a amgylchynaſant hyd fy enaid, y dyfnder a ddaeth o'm hamgylch, rhwymodd yr heſc am fy mhenn.

6 Deſcynnais i odrau y brynnau, y ddaiar [a aeth] o'm hamgylch ai throſolion yn dragywydd: a'm hArglwydd Dduw a dderchafodd fy einioes o'r ffôs.

7 Pan ymofidiodd fy enaid ynof, coffeais yr Arglwydd, am gweddi a ddaeth attat i'th Deml ſanctaidd.

8 Y neb a gadwant oferedd celwydd, a wrthodant eu trugaredd.

9 A minnef mewn llais clodforedd a aberthaf i ti, talaf fy adduned: iechydwriaeth [ſydd] eiddo 'r Arglwydd.

10 A dywedodd yr Arglwydd wrth y pyſcodyn, ac efe a fwriodd Ionas ar y tîr ſych.

## PEN. III.

Ail hebryngiad Ionas i Ninife. 5 Ac edifeirwch y Ninifeaid.

AGair yr Arglwydd a ddaeth yr ail-waith at Ionas gan ddywedyd:

2 Cyfod, dôs i Ninife y ddinas fawr, a phregetha iddi y bregeth a lefarwyf wrthit.

3 Ac Ionas a gyfododd, ac a aeth i Ninife yn ôl gair yr Arglwydd, a Ninife ydoedd ddinas fawr iawn o daith tri diwrnod.

4 Ac Ionas a ddechreuodd fyned i'r ddinas daith un diwrnod, ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, deugain nhiwrnod [fyddant] etto, yna Ninife a gwympir.

5 A gwŷr Ninife a gredaſant i Dduw, a chyhoeddaſant ympryd, a gwiſcaſant ſach-liain o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt.

6 A'r gair a ddaeth at frenin Ninife, ac efe a gyfododd oi frenhin-faingc, ac a ddioſcodd oddi am dano ei frenhin-wiſc, ac a roddes am dano liain ſach, ac a eiſteddodd mewn lludw.

7 Yna y cyhoeddwyd, ac y dywedwyd yn Ninife drwy orchymyn y brenin ai bendefigion, gan ddywedyd: dyn, ac anifail, eidion, a dafad, na phrofant ddim, na phorant, ac nac yfant ddwfr.

8 Gwiſced dyn, ac anifail ſach-len, a galwed ar Dduw yn lew, a dattroed pob un oddi wrth ei ffordd ddrygionus, ac oddi wrth y camwedd yr hwn [ſydd] yn eu dwylo hwynt.

9 Pwy a wyr a drŷ Duw, ac edifarhau, a dattrol o angerdd ei ddig fel na difether ni?

10 A gwelodd Duw eu gweithredoedd hwynt, ſef troi o honynt oi ffyrdd drygionus, ac edifarhaodd Duw o'r drwg a ddywedaſe y gwnae efe iddynt, ac ni's gwnaeth.

## PEN. IIII.

Dîg Ionas am eſmwythdra Duw iw greaduriaid.

ABu ddrwg iawn gan Ionas [hyn,] ac efe a ddigiodd ynddo ei hun.

2 Ac efe a weddiodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: attolwg it Arglwydd, oni ddywedais hyn pan oeddwn yn fyng-wlâd? am hynny 'r achubais flaen i ffoi i Tharſis, am y gwyddwn dy fod ti yn Dduw graſlawn, a thrugarog, araf i ddîg, aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg.

3 Am hynny fy Arglwydd cymmer fy enaid bellach oddi wrthif: canys gwell i'm farw na byw.

4 A'r Arglwydd a ddywedodd, ai da yw 'r gwaith, ymddigio o honot?

5 Ac Ionas a aeth allan o'r ddinas, ac a eiſteddodd o'r tu dwyrain i'r ddinas, ac a wnaeth yno gaban iddo ei hun, ac a eiſteddodd dano yn y cyſcod, hyd oni wele beth a fydde yn y ddinas.

6 A'r Arglwydd Dduw a ddarparodd Cicaion, ac a wnaeth iddo dyfu tros Ionas i fod yn gyſcod uwch ei ben ef, iw waredu ef oi ofid: a bu Ionas lawen iawn am y Cicaion.

7 A'r Arglwydd a baratôdd bryf ar godiad y wawr drannoeth, ac efe a darawodd y Cicaion, ac yntef a wywodd.

8 A phan gododd haul, darfu i Dduw ddarparu poeth-wynt y dwyrain: a'r haul a darawodd ar ben Ionas fel y llewygodd, ac y deiſyfiodd farw oi enioes, ac a ddywedodd, gwell i'm angeu nag enioes.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Ionas, ai [gwaith] da yw ymddigio o honot am y Cicaion? ac efe a ddywedodd: da oedd ymddigio o honof hyd angeu.

10 A'r Arglwydd a ddywedodd, ti a doſturi am y Cicaion yr hwn ni lafuriaiſt wrtho, ac ni's meithrinaiſt, yr hwn mewn noſwaith y bu, ac mewn noſwaith y darfu.

11 Ac oni thoſturiwn i wrth Ninife y ddinas fawr, yr hon y mae ynddi mwy nâ deuddec myrdd o ddynion y rhai ni wyddant [ragor] rhwng eu llaw ddehau ai llaw aſſwy: ac anifeiliaid lawer?

*Terfyn llyfr Ionas.*

# Llyfr y Prophvvyd Micheas.

## PENNOD. I.

Anrhaith Samaria am eu gau-dduwiaeth.

GAIR yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Micheas y Moraſthiad yn nyddiau Iotham, Ahas, a Hezeciah brenhinoedd Iuda: yr hwn a welodd efe am Samaria, ac Ieruſalem.

2 Gwrandewch bobl oll, yſtyria dithe y ddaiar ac ſydd ynddi, a bydded yr Arglwydd Dduw yn dŷſt i'ch erbyn, [ſef] yr Arglwydd oi Deml ſanctaidd.

3 Canys wele 'r Arglwydd yn dyfod oi [ſanctaidd] le, efe hefyd a ddeſcyn, ac a gerdd ar uchelderau y ddaiar.

4 A'r mynyddoedd a doddant tano ef, a'r glynnoedd a ymholldant fel cŵyr o flaen y tân, [ac] fel y dyfroedd a fwrir ar y goriwared.

5 Hyn ei gyd [a fydd] am anwiredd Iacob, ac am bechod tŷ Iſrael, beth [yw] anwiredd Iacob? onid Samaria? pa rai [ynt] uchel-leoedd Iuda? onid Ieruſalem?

6 Am hynny y goſodaf Samaria yn garnedd faes[dda] i blannu gwin-llan, a gwnaf iw cherric lithro i'r dyffryn, a datcuddiaf ei ſylfaenau.

7 Ai holl ddelwau cerfiedic a ddryllir, ai holl wobrau a loſcir yn tân, ai holl eulynnod a oſodaf yn anrhaithiedic: o herwydd o wobr puteindra y caſclwyd [hwynt,] ac yn wobr puteindra y dychwelir hwynt.

8 O herwydd hyn galaraf, ac udaf, cerddaf yn noeth, ac yn llwm, dygaf alar fel dreigiau, a gofid fel cywion yr eſtris.

9 O herwydd dolurus yw eu harcholl, canys daeth hyd at Iuda, ac hyd borth fy mhobl hyd Ieruſalem.

10 Na fynegwch [hyn] yn Gath, gan ŵylo nac ŵylwch: ymdreiglwch [mewn] llŵch dros dŷ * Aphra.

Ioſua.18.23.

11 Dos heibio preſſwyl-ferch Saphir yn noeth warthus: ni ddaw preſſwyl-ferch Zaanan allan wrth alar Bethezel: cymmer efe gennwch ei ſefyllfan.

12 Canys trig-ferch Maroth a fydd ddrwg genddi am y da, canys drwg a ddeſcynn oddi wrth yr Arglwydd ar borth Ieruſalem.

13 Preſſwyl-ferch Lachis rhwym y cerbyd wrth y buan-farch, dechreuad pechod [oedd] hi i ferch Sion, canys ynot ti y cafwyd anwiredd Iſrael.

14 Am hynny y rhoddi anrhegion i Moreſheth Gath: tai Achzib [a fyddant] yn gelwydd i frenhinoedd Iſrael.

15 Dygaf etto oreſcynn-wr i ti preſſwyl-ferch Mareſa, daw hyd Adulam [yr hon yw] gogoniant Iſrael.

16 Ymfoela, ac ymeillia am dy blant moethus: helaetha dy foelder fel eryr: canys caethgludir hwynt oddi wrthit.

## PEN. II.

Bygwth ar y bobl am eu chwant, ai traha, ai diyſtyrwch ar y prophwydi.

GWae a ddychymygo anwiredd, ac a wnelo ddrygioni ar eu gwelau, pan oleuo y boreu-ddydd y gwnant hyn: am ei fod ar eu dwylo.

2 Meuſydd a chwennychant hefyd, a thai a dreiſiant, ac a ddygant: gorthrymmant hefyd ŵr ai dŷ, dŷn ai etifeddiaeth.

3 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, wele yn erbyn y teulu hwn y dychymmygais ddrwg, yr hwn ni chymmwch eich gyddfau o honaw, ac ni rodiwch yn falch: canys amſer drygfyd fydd efe.

4 Yn y dydd hwnnw y cyfyd [y bobl] ddammeg am danoch chwi, ac a ofidia ofid gofidus, gan ddywedyd: gan ddiniſtrio diniſtriwyd ni, newidiwyd rhan fy mhobl, pa fodd y dug efe oddi arnaf? [ac] y rhannodd ein meuſydd [y rhai oeddynt] iw rhoddi trachefn [i ni?]

5 Am hynny ni bydd i ti a fwrio teſſyn coelbren yng-hynnulleidfa'r Arglwydd.

6 Na phrophwydwch [meddant,] prophwydant: ond ni phrophwydant i'r rhai hyn, [ac] ni dderbyniant [gywilydd.]

7 Oh yr hon a elwir tŷ Iacob, a fyrhaodd

Yſpryd yr Arglwydd? ai y rhai hynn [ynt] ei weithredoedd ef? oni bydd da fyng-eiriau i'r neb a rodio yn iniawn?

8 [Y rhai oeddynt] fy mhobl mauſt ddoe, a godaſant yn y gwrthwyneb yn elyn, dioſcant y dilledyn gwych oddi am y rhai a ânt heibio yn llonydd, [fel] rhai yn dychwelyd o ryfel.

9 Gwragedd fy mhobl a fwriaſoch allan o dŷ eu hyfrydwch, a dugaſoch oddi ar eu plant fy harddwch byth.

10 Codwch, ac ewch ymmaith, canys nid gorphywyſfa yw ['r wlâd] hon: am halogedigaeth y diniſtria hi [chwi,] a'r diniſtr fydd cryf.

11 Os un yn rhodio yn y gwynt, a'r celwydd a ddywed yn gelwyddoc, prophwydaf it a'm win, a diod gadarn: yna y caiff fod yn brophwyd i'r bobl hynn.

12 Gan gaſclu i'th gaſclaf Iacob oll, gan gynnull cynnhullaf weddill Iſrael, goſodaf hwynt yng-hyd fel defaid Bozra, fel y praidd yng-hanol eu corlan: tryſtiant rhag [amled] dŷn.

13 Daw y rhwygydd i fynu oi blaen hwynt, rhwygant, trammwyant y porth, ac ânt allan trwyddo, a thrammwya eu brenin oi blaen: a'r Arglwydd yn eu pennau hwynt.

## PEN. III.

Yn erbyn trais, chwant a hyder y ſwyddogion a'r prophwydi.

DYwedais hefyd, gwrandewch attolwg pennaethiaid Iacob, a thywyſogion tŷ Iſrael, onid i chwi [y perthyn] gŵybod barn?

2 Caſâu [y maent] ddaioni, a hoffi drygioni, gan flingo eu croen oddi am danynt, ai cig oddi wrth eu heſcyrn.

3 A chig fy mhobl [yw]'r hyn a fwytânt, ai croen a flingant oddi am danynt, ai heſcyrn a ddrylliant, ac a friwant megis i'r crochan, ac fel cîg yn y badell.

4 *Yna y llefant ar yr Arglwydd, ac ni's etteb hwynt, efe a guddia ei wyneb oddi wrthynt y pryd hwnnw, am iddynt lygru eu gweithredoedd.

Eſa.1.15.
Ezec.8.18.
Iam.2.13.*
1.Pet.3.11.12.

5 Fel hyn y dywed yr Arglwydd am y prophwydi ſydd yn cefeiliorni fy mhobl, y rhai gan frathu ai dannedd a leſant heddwch: a'r neb ni roddo yn eu pennau hwynt cyhoeddant ryfel yn ei erbyn.

6 Am hynny [y bydd] nôs i chwi yn lle gweledigaeth, a thywyllwch i chwi yn lle prophwydoliaeth: yr haul hefyd a fachluda ar y prophwydi, a'r dydd a ddua arnynt.

7 Yna y gweledyddion a gywilyddiant, a'r prophwydi a wradwyddir, a phawb o honynt a gaeant eu genau: am na [rydd] Duw atteb.

8 Er hynny llawn wyd fi o rym gan Yſpryd yr Arglwydd, ac o farn a nerth, i ddangos ei anwiredd i Iacob, ai bechod i Iſrael.

9 Gwrandewch hyn attolwg pennaethiaid tŷ Iacob, a thywyſogion tŷ Iſrael: ffiaidd ganddynt farn, a gŵyro y maent bob iniondeb.

10 Adeiladu Sion y maent â gwaed, ac Ieruſalem ag anwiredd.

11 Ei phennaethiaid a roddant farn er gwobr, ai hoffeiriaid a ddyſcant er cyflog, a'r prophwydi a brophwydant er arian: etto wrth yr Arglwydd yr ymgynhaliant, gan ddywedyd: onid yw'r Arglwydd i'n plith? ni ddaw drwg i'n herbyn.

12 Am hynny o'ch achos chwi 'r erddir Sion yn faes, ac Ieruſalem a fydd yn garnedd, a mynydd y tŷ fel uchel leoedd y goedwic.

## PEN. IIII.

Galwedigaeth y cenhedloedd i'r eglwys, dedwyddwch yr eglwys, bod yr Iddewon yn perthyn iddi.

A Bydd yn niwedd dyddiau i fynydd tŷ 'r Arglwydd fod yn barod ym mhen y mynyddoedd; ac efe a dderchefir goruwch y bryniau: a phobloedd * a ddylifant atto.

Eſa.2.2.

2 Ie cenhedloedd lawer a ânt, ac a ddywedant, deuwch, a dringwn i fynydd yr Arglwydd, ac i dŷ Duw Iacob: ac efe a ddyſc ini ei ffyrdd, ac yn ei lwybrau y rhodiwn: canys o Sion yr aiff y gyfraith allan, a gair yr Arglwydd o Ieruſalem.

3 Ac efe a farna rhwng pobloedd lawer, ac a gerydda genhedloedd cryfion hyd ym mhell, a thorrât eu cleddyfau yn geibiau, ai gwaiw-ffyn yn bladuriau, ac ni chyfyd cenhedlaeth gleddyf yn erbyn cenhedlaeth, * ac ni ddyſcant ryfela mwyach.

Eſa.2.4.

4 Onid eiſteddant bob un dann ei win-wydden, a than ei ffigusbren, heb neb iw dychrynu: canys genau Arglwydd y lluoedd ai lleſarodd.

5 Canys yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ei dduw ei hun, a ninneu a rodiwn yn enw 'r Arglwydd ein Duw byth, ac yn dragywydd.

6 Yn y dydd hwnnw medd yr Arglwydd y caſclaf y gloff, a chynhullaf y waſcaredic, a'r hon a ddrygais.

7 A goſodaf y gloff yn weddill, a'r hon a daſlwyd ym mhell yn genhedlaeth grêf: a'r Arglwydd a deyrnaſa arnynt ym mynydd Sion o hyn allan byth.

8 A thithe tŵr y praidd, caſtell merch Sion, hyd attat y daw, ac y neſâ 'r arglwyddiaeth bennaf, teyrnas merch Ieruſalem.

9 Pa ham gan hynny y gweiddi di [un] waedd? onid oes ynot frenin? a ddarfu am dy gynghorudd, gan i ddolur dy ddal megis gwraig yn eſcor?

10 Ymofidia, a griddfana merch Sion fel gwraig yn eſcor, o herwydd yr awr hon yr ei di allan o'r ddinas, a thrigi yn y maes: ti a ei hyd Babilon, yno i'th waredir, yno 'r achub yr Arglwydd di o law dy elyn.

11 Yr awr hon hefyd llawer o genhedloedd a ymgaſclant i'th erbyn, gan ddywedyd: haloger hi, a gweled ein llygaid [hynny] yn Sion.

12 Ac ni wyddent hwy feddyl-fryd yr Arglwydd, ac ni ddeallhaſant ei amcan: canys efe ai

caſcl hwynt fel yſcubau i'r yſcubor.

13 Cyfot merch Sion, a dyrna, canys goſodaf dy gyrn yn haiarn, a'th garnau yn bres fel y dryllich bobloedd lawer, a chyſſegraf i'r Arglwydd eu golud hwynt, ai cyfoeth i lywydd yr holl ddaiar.

## PEN. V.

Diniſtr Ieruſalem, a braint Bethlehem.

YR awr hon ymfyddina merch y fyddin, goſododd gynllwyn i'n herbyn: tarawant farn-wr Iſrael â gwialen ar [ei] lechwedd.

Matt.2.6.

2 A *thithe Beth-lehem Ephrata, er [dy] fod yn fechan ym mhlith miloedd Iuda, o honot ti y daw allan i mi [un] i fod yn llywydd yn Iſrael: ai fynediad ef allan [oedd] o'r dechreu, [ac] er dyddiau tragywyddoldeb.

3 Am hynny y rhydd efe hwynt [i fynu] hyd amſer eſcor o'r hon a eſcoro: yna gweddill ei frodyr ef a ddychwelant at feibion Iſrael.

4 Ac efe a ſaif, ac a bortha â nerth yr Arglwydd, trwy ragoriaeth enw 'r Arglwydd ei Dduw, ac hwynt a drigant: canys yr awr hon efe a fawrheuir hyd eithafoedd y ddaiar.

5 A hwn fydd heddwch i ni pan ddel Aſſur i'n tir ni, a phan ſathro o fewn ein palaſau: yna cyfodwn yn ei erbyn ſaith bugail, ac wyth o'r dynion pennaf.

6 Yna y diniſtriant dir Aſſur â'r cleddyf, a thir Nimrod â'r cleddyf noeth, ac efe a achub rhag Aſſur pan ddêl i'n tir, a phan ſathro ar ein terfynau.

7 A bydd gweddill Iacob ym myſc llawer o bobl fel y gwlith oddi wrth yr Arglwydd, megis defnynnau glaw ar y gwellt glâs, yr hwn ni ddiſgwil wr, ac nid erys am ddynion.

8 A gweddill Iacob a fydd ym myſc y cenhedloedd yng-hanol pobl lawer, fel llew ym myſc bwyſt-filod y goedwic, ac fel cenew-llew ym mhlith y preiddiau defaid: yr hwn pan el trwodd a ſathr, ac a ſclyfaetha, ac ni [bydd] achubudd.

9 A'th law a ddercheſir yn erbyn dy wrthwynebwyr: a'th holl elynion a dorrir i lawr.

10 A bydd y dydd hwnnw medd yr Arglwydd, i mi dorri ymmaith dy feirch, a diniſtrio dy gerbydau.

11 Torraf hefyd i lawr ddinaſoedd dy wlâd, a diſtrywiaf dy holl geſtyll.

12 A thorraf ymmaith o'th law y ſwynion, ac ni bydd i ti ddewiniaid.

13 Torraf hefyd i lawr dy luniau cerfiedic, a'th ddelwau o'th blith: ac ni chei ymgrymmu mwyach i weithredoedd dy ddwylo dy hun.

14 Diwreiddiaf dy blan-wydd o'th fyſc hefyd: a diniſtriaf dy ddinaſoedd.

15 Ac yn fy nig a'm llid y gwnaf ar y cenhedloedd y fath ddialedd a'r na chlywſant.

## PEN. VI.

1 Dyſyn ar y bobl i atteb i gwyn yr Arglwydd. 3 Daioni 'r Arglwydd iw bobl. 6 Y gwaſanaeth y mae Duw yn ei ofyn. 10 Anwiredd y bobl. 13 Ai coſp.

GWrandewch atolwg y peth a ddywed yr Arglwydd: cyfot, ymddadle â'r mynyddoedd, a chlywed y brynnau dy lais.

2 Gwrandewch y mynyddoedd, a chedyrn ſylfeini y ddaiar gŵyn yr Arglwydd, canys [y mae] cwyn rhwng yr Arglwydd ai bobl, ac efe a ymddadle ag Iſrael.

3 Fy mhobl beth a wneuthym i'th erbyn? ar ba beth i'th flinais? atteb fi.

4 Canys mi a'th ddygais o dir yr Aipht, ac a'th rydheais o dŷ y caethiwed, ac a anfonais o'th flaen Moſes, Aaron, a Miriam.

5 Fy mhobl coffa atolwg beth a ddychymmygodd Balac brenin Moab, a pha atteb a roddes Balaam mab Beor iddo, o Sittim hyd Gilgal, fel y gallech wybod cyfiawnder yr Arglwydd.

6 A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymmaf i'r uchel Dduw? a ddeuaf ger ei fron ef â phoeth offrymmau, ac â dyniewod?

7 A fodlonir yr Arglwydd â miloedd o hyrddod, a myrddiwn o ffrydiau olew? a roddaf fyng-hyntaf-anedic [dros] fy anwiredd? [ſef] ffrwyth fyng-hroth [dros] bechod fy enaid?

8 Dangoſodd efe i ti ddyn beth [ſydd] dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genit: [dim] onid gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymoſtwng i rodio gyd a'th Dduw.

9 Llef yr Arglwydd a lefa ar y ddinas, a doethineb a wel dy enw, gwrandewch y wialen a phwy a'i darpar.

10 Y mae etto dryſſorau anwiredd yn-tŷ y gwr anwir, a'r Epha brin, peth ffiaidd.

11 A gyfrifwn yn lân [un] â thafolannau anwir, ac â chôd o gerric twyllodrus?

12 Canys y mae ei chyfoethogion yn llawn trais, ai thrigolion a ddywedaſant gelwydd: a thafod twyllodrus [ſydd] yn eu genau.

13 A minne hefyd a ddechreuais dy daro [a'th] anrheithio am dy bechodau.

14 Ti a fwytei, ac ni'th ddigonir, a'th ddarſyngiad [fydd] o'th fewn dy hun, peri encilio hefyd ac ni's achubi, a'r hyn a achubech a roddaf i'r cleddyf.

15 Ti a heui, ond ni fedi, ti a ſethri 'r olewydd, ond ni'th iri ag olew, [[illegible]] win newydd ac nid yfi win.

16 Canys cedwir deddfau Omri, a holl weithredoedd tŷ Ahab, a rhodio 'r ydych yn eu cyngorion: am hynny mi a'th roddaf yn anrhaith, a'th drigolion iw hiſſio, a gwarth fy mhobl a ddygwch.

2.Bren.6.6.
Luc.12.47.

## PEN. VII.

1 Avamled y rhai duwiol. 5 Prinned yw ffyddlondeb. 10 Coſp gelynion yr eglwys. 14 Ai llwyddiant hithe.

GWae fi canys ydwyf fel caſcliadau ffrwythydd hâf, fel grawn-win y cynhaiaf gwin, nid oes grawnen o fewn iw bwytta, fy enaid a flyſia, 2 Darfu am y duwiol ar y ddaiar, ac nid oes vn iniawn ym mhlith dynion, cynllwyn y maent oll am waed, pob vn ſydd yn erlid ei frawd [â] rhwyd.

3 I ymenuthur iawn am ddrygioni eu dwylo, y tywyſog a ofyn, a'r barnwr [ſydd] er gwobr, a'r hwn ſydd fawr [o honynt] dyweid ynte lwgredigaeth ei feddwl, felly y plethant ef.

4 Y gorey o honynt [ſydd] fel mieri, yr vniownaf [yn waeth] na chae drain, y mae dydd dy wilwyr [ſef] dy ofwy yn dyfod, bellach y bydd eu dyryſwch hwynt.

5 Na chredwch i'r cyfaill, nac ymddiriedwch i'r capten, cadw ddrws dy enau rhag yr hon a orwedd yn dy fynwes.

6 Canys y mab a anharcha ei dâd, a'r ferch a gyfyd yn erbyn ei mam, a'r waudd yn erbyn ei chwegr: a gelynion gŵr [fydd] dynion ei dŷ.

7 Ond myfi a edrychaf ar yr Arglwydd, gobeithiaf ar Dduw fy iechydwriaeth: a'm Duw a'm gwrendy.

8 Na lawenycha ein herbyn fy-ngelynes, pan ſyrthiwyf cyfodaf, pan eiſteddwyf mewn tywyllwch, yr Arglwydd a lewyrcha i mi.

9 Dioddefaf ddig yr Arglwydd, canys pechais iw erbyn: hyd oni farno fy-nghwyn, a gwneuthur i mi farn; ef a'm dwg allan i'r goleuad, [yno] y gwelaf ei gyfiawnder.

10 A'm gelynes a gaiff weled, a chywilydd a'i gorchguddia hi yr hon a ddywed wrthif, mae 'r Arglwydd dy Dduw? fy llygaid a'i gwiliant hi, bellach y bydd hi yn ſathrfa megis tomm yr heolydd.

11 Y dydd yr adailedir dy furydd, y dydd hwnnw yr ymbellha y ddeddf.

12 Y dydd hwnnw y daw efe hyd attat o Aſſur, a'r dinaſoedd cedyrn, ac o'r cadernid hyd y ffrwd, ac o fôr i fôr, ac o fynydd i fynydd.

13 A'r wlâd a fydd yn anrhaith o achos ei thrigolion, [ac] am ffrwyth eu gweithredoedd eu hun.

14 Portha dy bobl â'th fagl, defaid dy etifeddiaeth y rhai ydynt yn trigo yn y goedwig yn vnic, porant yng-hanol Carmel, Baſan a Gilead, megis [yn] y dyddiau gynt.

15 Dangoſaf iddo ryfeddodau megis y dyddiau pan ddaethoſt allan o dir yr Aipht.

16 Y cenhedloedd a welant, ac a gywilyddiant gan eu holl gryfder hwynt, rhoddant eu llaw ar eu genau, eu clustiau a fyddarant.

17 Llŷfant y llwch fel ſarph, fel pryfed y ddaiar y dychrynant o'i llochesau, arſwydant rhac yr Arglwydd ein Duw ni, a thi a ofnant.

18 Pa Dduw [ſydd] fel tydi, yn maddeu pechod, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? ni ddal efe ei ddig byth, canys ewyllyſio trugaredd [y mae] efe.

19 Efe a ddychwel, ac a drugarha wrthym, ac a ddarostwng ein anwiredd, ac a deifl ein holl bechodau i ddyfnderoedd y môr.

20 Ti a roddi dy wirionedd i Jacob, dy drugaredd [hefyd] i Abraham, yr hwn a dyngaiſt i'n tadau er y dyddiau gynt.

*Terfyn llyfr Micheas.*

# Llyfr y prophvvyd Nahum.

## PENNOD. I.

Diniſtr Aſſyria, ac ymwared Iſrael.

Esai.13.1.

B*AICH Ninife, llyfr gweledigaeth Nahum yr Elcoſiad.

2 Duw [ſydd] eiddigus, a'r Arglwydd ſydd yn dial, ac yn berchen llid: dialwr [yw] 'r Arglwydd ar ei wrthwynebwyr, a dal [dig] y mae efe i'w elynion.

3 Yr Arglwydd [ſydd] hwyrfrydig i ddig, a mawr ei nerth, ac ni ddieuoga ['r anuwiol,] yr Arglwydd [ſydd] a'i lwybr yn y corwynt, ac yn y rhyferthwy, a'r cwmwl [yw] llwch ei draed ef.

4 Efe a gerydda y môr, ac a'i ſych, yr holl afonydd a ddeſych efe: lleſcaodd Baſan, a Charmel, a lleſcaodd blodeuyn Libanus.

5 Y mynyddoedd a grynant rhagddo, a'r bryniau a ymollyngant, a'r ddaiar a lyſc rhag ei olwg, a'r byd hefyd, a chwbl a'r a drigant ynddo.

6 Pwy a ſaif o flaen ei lid? a phwy a gyfyd yng-hynddaredd ei ddigofaint? ei lid a dywelltir fel tân, a'r creigiau a dyrr efe [illegible].

7 Daionus [yw] 'r Arglwydd, yn noddfa yn erbyn blinder, ac a edwyn y rhai a ymddiriedant ynddo.

8 A heolif y gwnaiff efe drangc [ar] ei lle hi, a thywyllwch hefyd a erlid ei elynion ef.

9 Beth a ddychymmygwch yn erbyn yr Arglwydd? efe a wna drangc, ni chyfyd blinder ddwy-waith.

10 Canys tra'r ymddyryſſo y drain, a thra meddwo y gwledd-wyr, yſſir hwynt fel ſofl wedi llawn wywo.

11 O honot y daeth allan a ddychymmyga ddrwg yn erbyn yr Arglwydd, [ſef] cynghorwr drygionus.

12 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, pe byddent heddychol, ac felly mor aml, etto torrir hwynt felly fel yr ele efe heibio: er dy flino ni'th flinaf mwyach.

13 Ac yr awrhon torraf ei iau ef oddi arnat, a dattodaf dy rwymau.

14 Yr Arglwydd hefyd a orchymynnodd o'th blegit na hauer o'th enw mwyach: torraf o

dŷ dy dduw y gerfiedic a'r dawdd ddelw, goſodaf dy fedd [yno,] am it fyned yn wael.

Eſa.52.7. Rhuf.10.15. 15 Wele ar y mynyddoedd draed yr efangylwr, cyhoeddwr heddwch: cadw di ô Juda dy wyliau, tâl dy addunedau, nid aiff y drygionus trwot mwy, cwbl dorrwyd ef ymmaith.

## P E N. II.

Goſodir ymma allan oruwchafiaeth y Caldeaid yn erbyn yr Aſſyriaid.

DAeth y chwalwr i fynu o flaen dy wyneb, cadw y caſtell, edrych ar y ffordd, nertha dy lwynau, cadarnhâ dy nerth yn fawr.

2 Canys dychwelodd yr Arglwydd ardderchawgrwydd Jacob, fel ardderchawgrwydd Iſrael: canys y dieſpyddwyr ai dieſpyddaſant hwynt, ac a lygraſant eu cangheuau.

3 Tarian ei [ſil-wŷr] dewrion a liwiwyd yn gôch, ei wŷr o ryfel a wiſcwyd ag yſcarlat, [ei] gerbydau [fyddant] yn fflamm dân y dydd y byddo ei arlwy, a'r ffynnidwydd a wenwynwyd.

4 Y cerbydau a gynddeiriogant yn yr heolydd, ac a ymwthiant yn y priffyrdd, a [byddant] i'w gweled fel fflammau, ac fel mellt y ſaethant.

5 Efe a gofia ei [weiſion] gwychion, tramgwyddant wrth gerdded, pryſurant at ei chaer hi, paratoiwyd y gorchudd.

6 Pyrth y dwfr a agorwyd, a'r Deml a ymddatododd.

7 Huzab a gaeth-gludwyd, a gwnaed iddi ddringo, ai morwynion yn ei harwain, megis â llais colomennod yn curo eu dwyfronnau.

8 A Ninife a fu er yſ-dyddiau fel llyn o ddwfr: onid hwynt a ffoant, [dywedir wrthynt,] ſefwch, ſefwch, ac ni bydd a edrycho.

9 Yſclyfaethwch yr arian, yſclyfaethwch aur, ac nid oes diwedd ar y da parod, [a'r] gogoniant o bob dodrefn dymunol.

Ioel.2.6. 10 Gwâg, a gorwâg, ac anrhaithiedic yw hi, a'r galon yn toddi, a diffrwytho y gliniau, a llescedd ar bob lwynau, * ai hwynebau oll a gaſclant barddu.

11 Pa le [y mae] trigfa y llew? a'r borfa yr hon [ſydd] i genawon y llew? lle y rhodie y llew ieuangc a'r hên? yno y trigodd y llew, ac nid [oedd] tarfudd.

12 Y llew a yſclyfaethodd ddigon i'w genawon, ac a dagodd ei lewneſod, ac a lanwodd ag yſclyfaeth ei ffau: ai loches ag yſpail.

13 Wele fi attat medd Arglwydd y lluoedd, ac mi a loſcaf ei cherbydau yn fwg, a'r cleddyf a ddifa dy lewod ieuaingc: a thorraf ymmaith o'r tîr dy yſclyfaeth, ac ni chlywir mwy lais dy genadau.

## P E N. III.

Cwymp Ninife.

GWae ddinas y gwaed, celwydd ei gyd, a llawn o yſpail [yw:] heb ymado â thrais.

2 [Bydd] ſŵn y ffrewyll, a ſŵn cynnwrf olwyn, a'r march yn prangcio, a'r cerbyd yn neidio.

3 Y marchog yn codi ei gleddyf fflamllyd, ai ddiſclair waiw-ffon, llawer yn glwyfus, a lluoſogrwydd o gelanedd heb ddiwedd ar y cyrph, a thripiant wrth eu cyrph hwynt.

4 O herwydd aml buttreindra y buttein deg, meiſtres ſwynion [ſerch,] yr hon a werth genhedlaethau ai phutteindra, a theuluoedd trwy ei ſwynion.

5 Wele fi i'th erbyn medd Arglwydd y lluoedd, a datcuddiaf dy odrau hyd dy wyneb, a gwnaf i genhedloedd weled dy noethni, a theyrnaſoedd dy warth.

6 A thaflaf ffiaidd bethau arnat, gwradwyddaf di hefyd, a goſodaf di fel tommen.

7 A bydd i bawb a'th welo ffoi oddi wrthit, a dywedyd, anrheithiwyd Ninife, pwy a ddoſtura wrthi? o ba le y ceiſiaf ddiddanwyr it?

8 Ai gwell ydwyt ti nâ No boblog, yr hon a drîg rhwng yr afonydd, ac a amgylchir â dyfroedd, i'r hon y mae y môr yn glawdd, ai magwyr o'r môr.

9 Ethiopia oedd ei chadernid, a'r Aipht, ac [eraill] heb ddiwedd: Put a Lubiaid oeddynt yn gynhorthwy iti.

10 Er hynny hi ſydd yn gaeth-glud i garchar, ai phlant a ddrylliwyd wrth gelli yn mhen pob heol, ac am ei phendefigion y bwriaſant goel-brennau, ai holl bennaethiaid a rwymwyd mewn gefynnau.

11 Tithe hefyd a feddwi, byddi guddiedic, ceiſi hefyd gadernid rhag y gelyn.

12 Dy holl geſtyll a fyddant fel ffigus-wŷdd, yng-hyd ai blaen-ffrwyth, os ſyſlir hwynt ſyrthiant yn ſafn y bwytawr.

13 Wele dy bobl yn wragedd yn dy blith, pyrth dy dîr a agorir i'th elynnion, tân a yſſodd dy farrau.

14 Tynn it ddwfr gwarchae, cadarnhâ dy geſtyll, dôs i'r domm, ſathr y clai, cryfha dy odyn briddfaen.

15 Yno y tân a'th ddifa, a'r cleddyf a'th dyrr i lawr, yſſa efe dydi fel pryf y rhŵd, [er] it ymchwanegu fel pryf y rhŵd, [ac] ymchwanegu fel y celiog rhedyn.

16 Amlhêaiſt dy farchnad-wŷr rhagor ſêr y nefoedd: diſpeiliodd pryf y rhŵd, ac ehedodd.

17 Dy dywyſogion [ydynt] fel y celiogod rhedyn, a'th lywodraeth-wŷr fel Locuſt y locuſtiaid y rhai a heidiant yn y caeau ar amſer oerfeloc: a phan godo yr haul ehedant ymmaith, ac ni adwaenir eu man lle y buant.

18 Dy fugeiliaid brenin Aſſur a heppiant, a'th bendefigion a orweddant, gwaſgerir dy bobl ar y mynyddoedd, ac ni [bydd] a'i caſclo.

19 Ni thynnir dy weli yng-hyd, clwyfus yw dy archoll, pawb a glywo ſôn am danat a gurant eu dwylo arnat: o herwydd ar bwy nid aeth dy ddrygioni bob amſer?

*Terſyn llyfr Nahum.*

# Llyfr y prophwyd Habacuc.

## PENNOD. I.

1 Pechod yr Iddewon. 5 Duw yn danfon y Caldeaid iw coſpi hwynt. 12 Dialedd ar y Caldeaid am eu creulondeb hwynt.

1 Y Baich yr hwn a welodd y prophwyd Habacuc.

2 Pa hyd Arglwydd y gwaeddaf, ac ni's gwrandewi? y bloeddiaf arnat [rhag] trais, ac ni's achubi?

3 Pa ham y gwnei i mi weled coegni, ac y peri i'm edrych ar flinder? anrhaith, a thrais [ydynt] ar fyng-hyfer, ac y mae a gyfodo ddadl, ac ymryſon.

4 Am hynny y torrir cyfraith, ac nid aiff barn allan, am fod yr annuwiol yn amgylchu y cyfiawn: am hynny cam farn a aiff allan.

5 Gwelwch chwi mysc y cenhedloedd, ac edrychwch, aruthrwch, [a] rhyfeddwch, canys gweithredaf weithred yn eich dyddiau ni choelwch er ei mynegu i chwi.

6 Canys wele fi yn codi y Caldeaid, cenhedlaeth chwerw, a phryſur, yr hon a rodia ar hŷd llêd y tîr i etifeddu cyfanneddfeydd ni [buant] eiddi hi.

7 Y mae iw hofni, ac iw harſwydo, o honi ei hun y daw allan ei barn, a'i rhagoriaeth.

8 A'i meirch fyddant fuanach na'r lleopardiaid: * a llymmach fyddant na bleiddiau'r hwyr, ei marchogion hefyd a amlhânt, a'i marchogion a ddeuant o bell, ehedant fel eryr yn pryſuro at fwyd.

Soph.3.3.

9 Hi oll a ddaw i dreiſio: ar gyfer ei hwyneb y [bydd] gwynt y dwyrain, ac hi a gaſcl garcharorion fel y tywod.

10 Ac hi a watwar frenhinoedd, a thywyſogion a fyddant watwargerdd iddi, hi a watwar yr holl geſtyll, ac a gaſcl lŵch, ac a'i goreſcyn.

11 Yna y newidia hi yſpryd, ac y troſedda [gan ddiolch am] ei grym ymma iw duw ei hun.

12 Onid [wyt] ti er cynt ô Arglwydd fy Nuw, fy Sanctaidd [un?] ni byddwn feirw ô Arglwydd, ti a'i goſodaiſt hi er barn, ac a'i ſylfaenaiſt ô Dduw er coſpedigaeth.

13 Ydwyt lanach dy lygaid na [gallu] gweled drwg, ac ni elli edrych ar anwiredd: pa ham yr edrychi ar yr anffyddloniaid, [ac] y tewi pan lyngco'r anwir [un] cyfiawnach nag ef ei hun?

14 Ac y gwnei ddynion fel pyſc y môr, fel yr ymluſciaid heb lywydd arnynt.

15 Cyfyd hwynt oll â'i fach, tynn hwynt yn ei rwyd, a chynnull hwynt yn ei ffynnell: am hynny efe a lawenycha ac a ymddigrifa.

16 Am hynny yr [aberth]a efe i'w rwyd, ac yr arogl-darth i'w fagl: canys trwyddynt hwy y mae ei ran yn dew, a'i fwyd yn fras.

17 A gaiff efe gan hynny wacau ei rwyd? ac nid arbed ladd cenhedlaethau bob amſer?

## P E N. II.

Gweledigaeth yn erbyn balchder, Chwant meddwdod a gau-dduwiaeth.

1 Safaf ar fy nghwilfa, ac ymſefydlaf ar y caſtell, ac edrychaf i weled beth a ddywed efe wrthif, a pha beth a attebaf i'm cerydd-wr.

2 A'r Arglwydd a'm attebodd, ac a ddywedodd, ſcrifenna y weledigaeth, ac eglura ar lechau, fel y rhedo yr hwn a'i darlleno.

3 Canys y weledigaeth [ſydd] etto tros amſer goſodedic, ac a ddywed o'r diwedd, ac ni thwylla, os erys, diſgwil am dani, canys gan ddyfod y daw [ac] nid oeda.

4 Wele [yr hwn] a ymddyrcha nid [yw] uniawn ei enaid ynddo, ond y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd ei hun.

Rhuf.1.17.
Heb.10.38.

5 A hefyd gan fod y gŵr balch yn pechu [ar] win, am hynny ni pherai, yr hwn a helaetha ei feddwl fel uffern, ac ydyw fel angeu ni's digonir: onid efe a gaſcl atto 'r holl genhedlaethau, ac a gynnull atto 'r holl bobloedd.

6 Oni chodant hwy ythau oll yn ei erbyn ddihareb, a gair du iddo? a dywedyd, gwae a helaetho y peth nid [yw] eiddo ef? (pa hŷd?) ac a lwytho arno y clai tew.

7 Oni chyfyd yn ddiſymmwth y rhai a'th frathant? ac oni ddeffru y rhai a'th chwalant? ac oni byddi yn yſpail iddynt?

8 Am it yſpeilio cenhedlaethau lawer, holl weddill y bobloedd a'th yſpeilia dithe: am waed dynion, a thrais [ar] y tir, y ddinas, ac oll a drigant ynddi.

9 Gwae a elwo elw drwg iw dŷ, i oſod ei nyth yn vchel i ddiangc o law y drwg.

10 Cymmeraiſt gyngor gwarthus i'th dŷ dy hun: wrth ddeſtrywio pobloedd lawer, a phechaiſt yn erbyn dy enaid.

11 O herwydd y garrec a leſa o'r mûr, a'r traweſt a etteb o'r [gwaith] coed.

12 Gwae a adailado dref trwy waed, ac a ddarparo ddinas mewn anwiredd.

13 Wele onid oddi wrth Arglwydd y lluoedd y daw i'r bobl ymflino mewn tân? ac i'r cenhedlaethau ymddeffygio mewn coegni.

14 Canys y ddaiar a lenwir o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr.

15 Gwae a roddo ddiod iw gymydog gan gyd-oſod dy goſtrel, ai feddwi hefyd er cael gweled eu noethni.

16 Digonwyd ti o warth, yn lle gogoniant, yf dithe hefyd, ac ymnoetha: ymchwelir cwppan deheu-law'r Arglwydd attat ti, a chwdiad gwarth ar dy ogoniant di.

17 Canys trais Libanus a'th anhudda, ac anrhaith yr anifeiliaid [yr hwn] a'i dychryn hwynt: o achos gwaed dynion, a thrais y tir, y dref ac oll a drigant ynddi.

18 Pa lês a wnaiff delw gerfiedic? canys ei lluni-wr ai lluniodd yn ddelw, ac yn athro celwydd: o herwydd y lluni-wr a ymddyried yn ei waith ei hun, pan wnelo eulynnod mudion.

19 Gwae a ddywedo wrth bren, deffro, wrth garreg fud, cyfot, efe a ddyſc, wele gwiſcwyd ef ag aur, ac arian: a dim anadl nid [oes] ynddo.

20 Ond yr Arglwydd [ſydd] yn ei Deml ſanctaidd: y ddaiar oll goſteged ger ei fron ef.

## PEN. III.

Gweddi Habacuc.

GWeddi Habacuc y prophwyd dros anwybodaethau.

2 Clywais ô Arglwydd dy air [ac] ofnais, ô Arglwydd bywha dy waith yng-hanol y blynyddoedd, par di ei wybod yng-hanol y blynyddoedd, yn [dy] gyffro coffa drugarhau.

3 Duw ſydd yn dyfod o Theman, a'r Sanctaidd o fynydd Paran, Selah, ei foliant a doa y nefoedd, a'r ddaiar a lanwyd oi fawl.

Pſal.31.16. 4 Ai lewyrch oedd fel goleuni, [oedd] cyrn iddo oi law ei hun: ac yno [yr oedd] cuddiad ei gryfder.

5 Aeth haint oi flaen ef, ac aeth marwor allan o flaen ei draed ef.

6 Safodd a meſurodd y ddaiar, edrychodd, a datododd y cenhedloedd: mynyddoedd tragywyddol hefyd a ddrylliwyd, a bryniau oeſol a grymmaſant, llwybrau tragywyddol [ydynt] iddo.

7 O herwydd anwiredd gwelais werſyllau Cuſan crynodd llennau tir Midian.

8 A ſorodd yr Arglwydd wrth yr afonydd? ai wrth yr afonydd [y mae] dy ddig? ai wrth y môr [y mae] dy ddigofaint gan it farchogeth ar dy feirch? dy gerbydau a ddugaſant iechydwriaeth.

9 Llwyr noethwyd dy fwa, llwon y llwythau hefyd [oeddynt] wir, Selah. *holldaiſt y ddaiar ag afonydd. Num.20.11.

10 Y mynyddoedd a'th welſant [ac] a grynaſant, yr llifeiriant dwfr a aeth heibio, y dyfnder a wnaeth ei lef: cyfododd [hefyd] ei ddwylo yn uchel.

11 *Yr haul [a'r] lleuad a ſafodd yn eu preſwylfa, wrth oleuad dy ſaethau yr aethant, [ac] wrth lewyrch diſclairdeb dy waiw-ffon. Ioſua.10.12.

12 Yn dy lid y ſethri y ddaiar, dyrnit y cenhedloedd yn dy ffrommder.

13 Aethoſt allan er iechydwriaeth dy bobl, er iechydwriaeth yng-hyd a'th enneiniog; torraiſt y pen oddi wrth dŷ'r annwir hyd y gwddf: gan ddinoethi y ſylfaen, Selah.

14 Gwanaiſt hen ei faeſ-drefydd ai ffyn ei hun, rhyferthwyaſant i'm gwaſcaru, ymlawenhaſant megis i fwytta y tlawd mewn dirgelwch.

15 Rhodiaiſt a'th feirch ar y môr, [ar] dwrr o ddyfroedd lawer.

16 Clywais, a'm bol a ddychrynodd, fyng-wefuſau a grynaſant wrth y llef: daeth pydredd i'm heſcyrn, ac yn fy lle y crynais, am fod yn llonydd ddydd trallod, pan ddercha fo [y gelyn] at y bobl, yn llunedd y difetha efe hwynt.

17 Canys y ffigyſ-bren ni flodeua, ac ni [bydd] ffrwyth ar y gwin-wŷdd, gwaith yr oliwydd a balla, a'r meuſydd ni roddant fwyd: torrir ymmaith y praidd o'r gorlan, ac ni [adewir] eidion yn eu beudai.

18 Onid mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, mi a fyddaf hyfryd yn-Nuw fy iechydwriaeth.

19 Yr Arglwydd Dduw [yw] fy nerth, a'm traed a oſododd efe fel [traed] ewigod: ac a wnaeth i'm rodio ar fy uchel leoedd. At y pencerdd ar y Neginoth.

*Terfyn prophwydoliaeth Habacuc.*

# Llyfr y Prophvvyd Sophonia.

## PENNOD. I.

Bygwth y mae efe Iuda, ac Ieruſalem am eu gau-dduwiaeth.

2.Bren.22.1. 2.bren.21.19.

GAir yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Sophonia fab Cuſi fab Gedaliah fab Amariah, fab Hezeciah yn amſer * Joſia fab * Amon brenin Juda.

2 Gan ddeſtruwio y deſtruwiaf bôb dim oddi ar wyneb y ddaiar, medd yr Arglwydd.

3 Deſtruwiaf ddyn, ac anifail, deſtruwiaf adar yr awyr, a phyſc y môr, a thramgwydd a ddilyn yr annuwolion, a diwreiddiaf ddyn oddi ar wyneb y ddaiar, medd yr Arglwydd.

4 Eſtynnaf hefyd fy llaw ar Juda, ac ar holl breſſwylwŷr Jeruſalem : a diwreiddiaf o'r lle hwn weddill Baal, [ ac ] enw y * Cemariaid, a'r offeiriaid.

2.Bren.23.5. oſea.10.5.

5 Felly y neb a ymgrymmant ar nennau y tai i lû y nefoedd, a'r addolwŷr a dyngant i'r Arglwydd, a hefyd a dyngant i Malchom.

6 A'r rhai a giliant oddi ar ôl yr Arglwydd; a'r rhai ni cheiſiant yr Arglwydd, ac nid ymgynghorant ag ef.

7 Goſtega ger bron yr Arglwydd Dduw, canys agos yw dydd yr Arglwydd, o herwydd arlwyodd yr Arglwydd aberth, galwodd ei wahaddedigion.

8 A bydd ar ddydd aberth yr Arglwydd i'm ymweled, a'r tywyſogion, ac â phlant y brenin, ac â phawb * a wiſcant wiſcoedd dieithr.

Ezec.23.14.

9 Ymwelaf hefyd â phawb a neidiant dros y rhinnioc y dydd hwnnw, y ſawl a lanwant dŷ eu meiſtr â thrais, ac â thwyll.

10 A'r dydd hwnnw medd yr Arglwydd, y bydd llais gwaedd o borth y pyſcod, ac udo, o'r ail [porth,] a dryllio mawr o'r brynnau.

11 Udwch breſſwylwŷr y glyn, canys anrhaithiwyd yr holl farchnadyddion, a diwreiddiwyd holl glud-wŷr arian.

12 A'r amſer hwnnw y chwiliaf Jeruſalem â luſernau, ac yr ymwelaf a'r dynion ſydd yn ceulo ar eu ſorod, y rhai a ddywedant yn eu calonnau : ni wnaiff yr Arglwydd dda, ac ni wnaiff ddrwg.

13 Am hynny eu cyfoeth aiff yn yſpail, ai teiau yn anghyfannedd, adailadant hefyd dai, ac ni's preſſwyliant, a phlannant winllānoedd, ac nid yfant o'r gwîn.

14 Agos yw mawr ddydd yr Arglwydd, agos a phryſur iawn, chwerw yw llais dydd yr Arglwydd, yna y bloeddia y dewr.

Iere.30.7. ioel.2.11. amos.5.18.

15 *Diwrnod llidioc yw'r diwrnod hwnnw, diwrnod blîn, a thrîſt, diwrnod diniſtr a deſtruw, diwrnod tywyllwch a niwl, diwrnod cwmylau, a thywyllni.

16 Diwrnod udcorn ac alarwm, yn erbyn y dinaſoedd caeroc, ac yn erbyn y tŷrau uchel.

17 Yna y cyfyngaf ar ddynion, ac hwy a rodiant megis deillion, am bechu o honynt yn erbyn yr Arglwydd, ai gwaed a dywelltir fel llŵch, ai cnawd fel tôm.

Ezec.7.19. Soph.3.8.

18 Nid * eu harian, nai haur ychwaith a ddichon eu hachub hwynt ar ddiwrnod llid yr Arglwydd, onid â thân ei eiddigedd ef * yr yſſir yr holl dir : canys gwnaiff yr Arglwydd drange pryſſur ar holl breſſwyl-wŷr y ddaiar.

## PEN. II.

Y mae yn eu cynghori i edifarhau, gan ddangos dialedd Duw i'r neb ni's gwnelo.

YMgeſclwch, a deuwch yng-hyd genhedlaeth anhawddgar.

2 Cyn iddo ddwyn ei amcan i ben, [cyn] i'r dydd fyned heibio fel peiſſwyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint yr Arglwydd, cyn dyfod arnoch ſorriant yr Arglwydd,

3 Ceiſiwch yr Arglwydd holl waredigion y ddaiar, y rhai ſydd yn gwneuthur ei farn ef ceiſiwch gyfiawnder, ceiſiwch warder, fe alle y cuddiir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd.

4 Canys bydd Azza wrthodadwy, ac Aſcalon yn anghyfannedd, teſlir allan Aſdod hanner dydd, a diwreiddir Accaron.

5 Gwae breſſwylwŷr glann y môr, [ ſef ] cenhedlaeth y Cerethiaid : [ daw ] gair yr Arglwydd i'ch erbyn : ô Canaan gwlâd y Philiaid mi a'th ddifethaf, fel na byddo cyfaneddwr [ynot.]

6 A bydd glann y môr yn fythod tywyrch y bugeiliaid, ac yn gorlannau y defaid,

7 A bydd yn rhan i weddill tŷ Juda, ymborthant arnynt, yn nheiau Aſcalon y gorweddant yn yr hwyr: canys yr Arglwydd eu Duw a ymwel â hwynt, ac a ddychwel eu caethiwed.

8 Clywais wradwyddiad Moab, a chabledd meibion Ammon a'r hwn y gwradwyddaſant fy mhobl, ac a ymfawrygaſant ar eu terfynau hwynt.

9 Am hynny [os] byw ydwyf medd Arglwydd y lluoedd Duw Jſrael, fel Sodoma y bydd Moab, a meibion Ammon fel Gomorra, diffaethle y ddanhadlen, a phylleu halen, ac anghyfanneddle tragywyddol : gweddill fy mhobl ai difroda, a gweddill fyng-henhedlaeth ai meddianna hwynt.

10 Hyn a ddaw iddynt am eu balchder, am

iddynt wneuthur dirmig, ac ymfawrygu ar bobl Arglwydd y lluoedd.

11 Ofnadwy a fydd yr Arglwydd iddynt, canys efe a ddifetha holl dduwiau y ddaiar, a holl ynyſoedd y cenhedloedd ai addolant ef bôb vn oi fann.

12 Chwithau hefyd yr Ethiopiaid a leddir a'm cleddyf mau fi [gyd â] hwynt.

13 Ac efe a eſtyn ei law ar y gogledd, ac a ddifetha Aſſur, ac a rydd Ninife yn anghyfannedd [ac] yn ſych fel y diffaethwch.

Eſa.34.11. 14 Minteioedd, a holl anifeiliaid y cenhedloedd a orweddant yn ei chanol hi, y pelican a'r ddylluan hefyd a letteuant ar gap y drŵs, llais a gân yn y ffeneſtr, anrhaith [a fydd] yn yr orſing, canys dinoethwyd y cedr-wŷdd.

15 Hon yw'r ddinas hoiwfryd y ſydd yn trigo mewn diofalwch, yn dywedyd yn ei chalon, myfi [ſydd,] ac nid [oes] onid myfi, pa fodd yr aeth yn angyfannedd orweddfa anifeiliaid: pawb a'r a el heibio iddi a ffeia, ac a eſcwyd ei law arni.

## PEN. III.

1 Prophwydo y mae yn erbyn Ieruſalem, ai ſwyddogion. 8 Galwedigaeth y cenhedloedd. 11 A chyſſur i weddill Iſrael.

GWae'r fudr a'r halogedic ddinas orthrymmus,

2 Ni wrandawodd ar y llef, ni dderbyniodd goſp, nid ymddyriedodd yn yr Arglwydd, ni neſaodd at ei Duw.

Ezec.22.25.27 mica.3.11. habac.1.8, 3 Ei ſwyddogion oi mewn yn llewod rhuadwy, ei barn-wŷr yn fleiddiau yr hwyr ni adawant aſcwrn erbyn y boreu.

4 Ai phrophwydi [ydynt] yn yſcafn, yn wŷr anffyddlon, ei hoffeiriaid a lygraſant y cyſſegr, treiſiaſant y gyfraith.

5 Yr Arglwydd cyfiawn yn ei chanol ni wnaiff anwiredd, yn foreu foreu y rhydd ei farn yn oleuni, ni phalla, onid yr anwir ni fedr gywilyddio.

6 Drylliais y cenhedloedd eu tŷrau ſydd anghyfannedd, diffeithiais 'eu heolydd, fel nad elo neb heibio, eu dinaſoedd a ddifwynwyd heb ŵr nac heb drigiannol.

7 Dywedais, ofna fi, derbyn goſp, felly ei thrigfa ni ddiwreiddir er yr hyn oll a ymwelais â hi: etto boreu godaſant, [a] llygraſant eu holl weithredoedd.

8 Am hynny diſgwiliwch arnafi medd yr Arglwydd hyd y dydd y cyfodwyf i'r ſclyfaeth, canys fy marn [ſydd] ar gymmell y cenhedloedd, ar gaſclu y teyrnaſoedd i dywallt arnynt fy llid, holl angerdd fy nigofaint: canys â thân fy eiddigedd yr yſſir yr holl ddaiar.

9 Oherwydd yna y troaf wefuſau fy mhobl yn lân fel y galwo pôb vn o honynt ar enw'r Arglwydd iw waſanaethu ef ag vn yſcwŷdd.

10 O'r tu hwnt i afonydd Ethiopia y dŵg fyng-weddi wraig (merch fyng-waſcaredic) fy offrwm.

11 Y dydd hwnnw ni'th wradwyddir am dy holl weithredoedd yn y rhai y pechaiſt i m herbyn, canys yna y ſymudaf o'th blith y neb ſydd yn hyfryd ganddynt dy draha, ac ni chwanegi orfoleddu mwyach yn fy mynydd ſanctaidd.

12 Gadawaf ynot hefyd bobl druain dlodion, ac yn enw'r Arglwydd y gobeithiant.

13 Gweddill Iſrael ni wnaiff anwiredd, ac ni ddywedant gelwydd, ac ni cheir yn eu geneuau dafod twyllodrus, canys hwynt a borthir, ac a orweddant, ac ni [bydd] tarfudd.

14 Merch Sion cân, Iſrael crechwenna, merch Ieruſalem ymlawenycha, a gorfoledda a'th holl galon.

15 Symmudodd yr Arglwydd dy farn, bwriodd allan-dy elynnion: yr Arglwydd Brenin Iſrael [ſydd] i'th blith, nac ofna ddrŵg mwyach.

16 Y dydd hwnnw y dywedir wrth Ieruſalem, nac ofna, [wrth] Sion, na ddiffrwythed dy ddwylo.

17 Yr Arglwydd dy Dduw yn dy blith yn gadarn a achub, efe a gân it mewn llawenydd, efe a lonydda yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dann ganu.

18 Wedi amſer terfynedic y caſclaf o honot y rhai a fuant gyſtuddiedic, a'r rhai a ddugaſant y gwradwydd troſti hi.

19 Wele mi a ddifethaf yr amſer hwnnw bawb a'th flinant, ac a* achubaf y gloff, a chaſclaf y waſcaredic, ac ai goſodaf yn glodfawr, ac yn enwoc yn holl dîr eu gwarth. Mic.4.6.

20 Yr amſer hwnnw'r arweiniaf chwi, a'r amſer hwnnw i'ch caſclaf chwi: canys rhoddaf chwi yn enwoc, ac yn glodfawr ym myſc holl bobl y bŷd, pan ddychwelwyf eich caethiwedger eich bron, medd yr Arglwydd.

*Terfyn Prophwydoliaeth Sophonia.*

# Llyfr y Prophvvyd Aggeus.

### PENNOD. I

Dannod y mae efe nad adailadaſent Deml yr Arglwydd

YN yr ail flwyddyn i'r brenin Darius yn y chwechedd mîs, ar y dydd cyntaf o'r mîs y daeth gair yr Arglwydd trwy law Aggeus y prophwyd at Zorobabel fab Salathiel tywyſog Iuda: ac Ioſua fab Ioſedec yr arch-offeiriad gan ddywedyd,

2 Fel hyn y llefarodd Arglwydd y lluoedd gan ddywedyd, y bobl hyn a ddywedant, ni ddaeth [yr] amſer, [ſef] pryd adeiladu tŷ'r Arglwydd.

3 Yna y daeth gair yr Arglwydd trwy law Aggeus y prophwyd gan ddywedyd:

4 Ai amſer [yw] i chwi eich hunain drigo yn eich tai byrddiedic: a'r tŷ hwn yn anghyfãnedd?

5 Fel hyn gan hynny y dywed Arglwydd y lluoedd: yr awran yſtyriwch eich ffyrdd.

6 Hauaſoch lawer, a chludaſoch ychydig, bwyttaſoch, ond nid hyd ddigon: yfaſoch, ac nid hyd fod yn ddiwall: gwiſcaſoch [bôb vn] ac nid hyd glydwr iddo, a'r hwn a ymgyflogo ſydd yn caſclu cyflog i gôd dylloc.

7 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, yſtyriwch eich ffyrdd.

8 Derchefwch i'r mynydd, a dygwch goed, ac adeiledwch y tŷ, * a mi a ymfodlonaf ynddo, ac i'm gogoneddir medd yr Arglwydd.

1.Bren.8.21. 29.

9 Edrychaſoch am lawer, ac wele yn ychydig, dygaſoch adref, a chwythais arno: am ba beth medd Arglwydd y lluoedd? am y tŷ mau fi'r hwn ſydd yn anghyfannedd, a chwithau yn rhedeg bawb i'w dŷ ei hun.

10 Am hynny gwaharddwyd i'r nefoedd wlitho arnoch, a gwaharddwyd i'r ddaiar roddi ei ffrwyth.

11 Gelwais hefyd am ſychder ar y ddaiar, ac ar y mynyddoedd, ac ar yr ŷd, ac ar y gwîn, ac ar yr olew, ac ar yr hyn a ddwg y ddaiar allan: ar ddŷn hefyd, ac ar anifail, ac ar holl lafur dwylo.

12 Gwrandawodd Zorobabel mab Salathiel, ac Ioſua mab Ioſedec yr arch-offeiriad, a holl weddill y bobl, ar lais yr Arglwydd eu Duw, ac ar eiriau Aggeus y prophwyd, megis yr anfonodd eu Harglwydd Dduw hwynt ef: a'r bobl a ofnaſant ger bron yr Arglwydd.

13 Yna Aggeus cennad yr Arglwydd a ddywedodd oddi wrth yr Arglwydd, wrth y bobl, gan ddywedyd: [byddaf] fi gyd â chwi medd yr Arglwydd.

14 Felly y cyffrôdd yr Arglwydd yſpryd Zorobabel fab Salathiel tywyſog Iuda, ac yſpryd Ioſua fab Ioſedec yr arch-offeiriad, ac yſpryd holl weddill y bobl, fel yr aethant, ac y gweithiaſant y gwaith yn-nhŷ Arglwydd y lluoedd eu Duw hwynt.

### PENN. II.

Aggeus ſydd yn dangos y bydd mwy gogoniant yr ail Deml, na'r Deml gyntaf.

Y Pedwerydd dydd ar hugain o'r chwechedd mis yn yr ail flwyddyn i Ddarius y brenin,

2 Y ſeithfed [mîs] yr vnfed [dydd] ar hugain o'r mîs y daeth gair yr Arglwydd trwy law y prophwyd Aggeus, gan ddywedyd:

3 Dywet yn awr wrth Zorobabel fab Salathiel tywyſog Iuda, ac wrth Ioſua fâb Ioſedec yr arch-offeiriad, ac wrth weddill y bobl gan ddywedyd:

4 Pwy yn eich plith a adawyd yr hwn a welodd y tŷ hwn yn ei ogoniant cyntaf? a pha fodd y gwelwch chwi ef yr awr hon? onid [yw] wrth hwnnw yn eich golwg, fel peth heb ddim?

5 Ac yr awr hon cymmer gyſſur Zorobabel medd yr Arglwydd, ac Ioſua mab Ioſedec yr arch-offeiriad, cymmer gyſſur, a chymmered holl bobl y tîr gyſſur, medd yr Arglwydd, a gweithiwch, canys yr [ydwyf] fi gyd â chwi, medd Arglwydd y lluoedd.

6 Fy Yſpryd a ſaif gyd â chwi [yn ôl] y gair yr hwn a ammodais â chwi, pan eich dygais allan o'r Aipht: nac ofnwch.

7 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, vnwaith etto (bychan [yw] hynny) a mi a eſcydwaf y nefoedd, a'r ddaiar, a'r môr, a'r [tîr] ſych.

8 Cynhyrfaf hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant y cenhedloedd a ddaw: llanwaf hefyd y tŷ hwn â gogoniãt medd Arglwydd y lluoedd.

9 Eiddo fi'r arian, eiddo fi'r aur, medd Arglwydd y lluoedd.

10 Bydd mwy gogoniant y tŷ diwethaf hwn na'r cyntaf medd Arglwydd y lluoedd, ac yn y lle hwn y rhoddaf dangnheddyf, medd Arglwydd y lluoedd.

11 Ar y pedwerydd dydd ar hugain o'r nawfed [mîs] yn yr ail flwyddyn i Ddarius y daeth gair yr Arglwydd at Aggeus y prophwyd gan ddywedyd:

12 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gofyn yr awr hon i'r offeiriaid y gyfraith gan ddywedyd:

13 Os dwg vn gîg ſanctaidd yng-hwrr ei wiſc, ac ai gwrr â gyffwrdd a'r bara, neu a'r cawl, neu a'r gwîn, neu a'r olew, neu â dim o'r bwyd, a fydd ſanctaidd [hynny?] a'r offeiriaid a attebaſant, ac a ddywedaſant, na [fydd.]

14 Ac Aggeus a ddywedodd, os vn halogedic a gyffwrdd â dim o'r rhai hyn, a halogir efe? a'r offeiriaid a attebaſaſãt, ac a ddywedaſãt, halogir

15 Yna 'r attebodd Aggeus, ac a ddywedodd, felly hefyd y bobl hyn, felly y genhedlaeth hon, ger fy mron medd yr Arglwydd: ac felly holl weithredoedd eu dwylo, a'r hyn a aberthāt yno ſydd halogedic.

16 Ac yr awr hon meddyliwch atolwg o'r diwrnod hwn [allan,] a chynt, cyn rhoddi carrec ar garrec yn Nheml yr Arglwydd:

17 Cyn eu bôd hwynt, pan ddelid at dwrr o vgain [ lleſtred ] dêc fydde, pan ddelid at y gwin-wryf i dynnu dêc [ lleſtred ] a dau vgain o'r cafn, vgain a fydde yno.

18 Tarewais chwi â diflanniad, ac â mallder, ac â chenllyſc yng-hyd ag oll weithredoedd eich dwylo, a chwithau ni [ throeſoch ] attafi medd yr Arglwydd.

19 Yſtyriwch yr awr hon o'r dydd hwnnw, ac er cynt, o'r pedwerydd dydd ar hugain o'r nawfed [mis:] ac yſtyriwch o'r dydd y ſylfaenwyd Teml yr Arglwydd.

20 A yw 'r hâd yn yr yſcubor? y winwydden hefyd, y ffiguſbren, a'r pomgranad, a'r pren oliwydd ni ffrwythaſant etto: o'r dydd hwn allan y bendithiaf [chwi.]

21 A gair yr Arglwydd a ddaeth ailwaith at Aggeus y pedwerydd [dydd] ar hugain o'r mîs gan ddywedyd?

22 Llefara wrth Zorobabel tywyſog Iuda, gan ddywedyd: myfi a eſcydwaf y nefoedd, a'r ddaiar.

23 Ymchwelaf deyrn-gader teyrnaſoedd, a diniſtriaf gryfder brenhiniaethau y cenhedloedd, ymchwelaf hefyd y cerbyd ai lwyth, y meirch, ai marchogion a ſyrthiant bôb vn ar gleddyf ei gilydd.

24 Y diwrnod hwnnw i'th gymmeraf di fyng-wâs Zorobabel mab Salathiel, medd yr Arglwydd, ac i'th oſodaf fel ſêl, canys mi a'th ddewiſais di, medd Arglwydd y lluoedd.

*Terfyn llyfr Prophwydoliaeth Aggeus.*

# Llyfr y Prophvvyd Zacharias.

## PENNOD. I.

Y mae yn annog y bobl i droi at yr Arglwydd oddi wrth feiau eu henafiaid, gan ddangos morr ymgoleddgar yw'r Arglwydd iddynt.

YR wythfed mîs o'r ail flwyddyn i Ddarius y daeth gair 'r Arglwydd at Zacharias fâb Baracias fab Ido y prophwyd, gan ddywedyd:

2 Llwyr ddigiodd yr Arglwydd wrth eich tadau:

3 A dywet wrthynt, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: * dychwelwch attaf fi, medd Arglwydd y lluoedd: a mi a ddychwelaf attoch chwithau, medd Arglwydd y lluoedd.

Iere 31.18.
eſa.21.8.
eſa.31.6.
eſa.45.21.

4 Na fyddwch fel eich tadau, y rhai y galwodd y * prophwydi cyntaf arnynt, gan ddywedyd: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, dychwelwch yn awr oddi wrth eich llwybrau drwg, a'ch gweithredoedd drygionus: ond ni chlywent, ac ni wrandawent arnaf, medd yr Arglwydd.

Iere.3.12.
ezec.18.20.
oſea.14.2.
ioel.2.12.

5 Pa le y mae eich tadau? ac a fydd y prophwydi fyw byth?

6 Oni ddarfu er hynny i'm geiriau, a'm deddfau y rhai a orchymynnais wrth fyng-weiſion y prophwydi oddiwes eich tadau? fel y dychwelaſant, ac y dywedaſant, megis yr amcanodd Arglwydd y lluoedd wneuthur i ni: felly yn ôl ein llwybrau, a'n dychymygion ein hun y gwnaeth efe â ni.

7 Y pedwerydd dydd ar hugain o'r vnfed mîs ar ddêc (hwnnw yw Sebat) o'r ail flwyddyn i Ddarius y daeth gair yr Arglwydd at Zacharias fab Baracias fab Ido y prophwyd gan ddywedyd,

8 Gwelais noſwaith, ac wele ŵr yn marchogeth ar farch côch, ac efe yn ſefyll rhwng y myr-wŷdd, y rhai [oeddynt] mewn pant, ac oi ôl ef feirch cochion, brithion, a gwynnion.

9 Yna y dywedais, beth [yw] y rhai hyn fy Arglwydd? a dywedodd yr Angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi: mi a ddangoſaf it beth yw y rhai hyn.

10 A'r gŵr yr hwn oedd yn ſefyl rhwng y myr-wŷdd, a attebodd, ac a ddywedodd, dymma y rhai a hebryngodd yr Arglwydd i fyned trwy 'r bŷd.

11 A hwyntau a attebaſant Angel yr Arglwydd yr hwn oedd yn ſefyll rhwng y coed myrr, ac a ddywedaſant, rhodiaſom yr holl ddaiar, ac wele 'r holl fŷd yn eiſtedd, ac yn gorphywys.

12 Ac Angel yr Arglwydd a attebodd, ac a ddywedodd, ô Arglwydd y lluoedd, pa hŷd ni thrugarhei wrth Ierusalem, a dinaſoedd Iuda, [wrth] y rhai y digllonaiſt y deng-mhlynedd a thrugain hyn?

13 A'r Arglwydd a attebodd yr Angel a oedd yn ymddiddan â mi eiriau daionus, [a] geiriau cyſſurus.

14 A'r Angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi a ddywedodd wrthif: gwaedda gan ddywedyd, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, deliais eiddigedd mawr dros Ierusalem, a thros Sion.

15 A digiais yn ddir-fawr wrth y cenhedloedd difraw, y rhai [pan] ddigiais ychydig, hwythau a gynnorthwyaſant wneuthur niwed.

16 Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd, dychwelaf at Jeruſalem mewn tirionder, fy nhŷ a adeiledir ynddi medd Arglwydd y lluoedd: a llinyn a eſtynnir ar Jeruſalem.

17 Gwaedda etto gan ddywedyd, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, fy ninaſoedd a waſcerir drwy ddaioni, a'r Arglwydd a rydd gyſſur i Sion etto, ac a ddewis Jeruſalem trachefn.

18 A chodais fy llygaid, ac edrychais, ac wele bedwar corn.

19 A dywedais wrth yr angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi, beth [yw] y rhai hyn? dywedodd yntef wrthif, y rhai hyn yw'r cyrn a waſcarant Juda, Jſrael, ac Jeruſalem.

20 A'r Arglwydd a ddangoſodd i mi bedwar ſaer hefyd.

21 Yna y dywedais, i wneuthur pa beth y daw y rhai hyn? ac efe a lefarodd, gan ddywedyd, y rhai hyn [yw'r] cyrn a waſcaraſant Juda, fel na chode un ei ben: a'r rhai hyn a ddaethant iw tarfu hwynt, ac i daflu allan gyrn y cenhedloedd, y rhai a godant eu cyrn ar wlâd Juda, iw gwaſcaru hi.

## PEN. II.

Adnewyddiad Ieruſalem, ac Iuda.

DErchefais fy llygaid, ac edrychais, ac wele ŵr, ac yn ei law linin meſur.

2 A dywedais, i ba le'r ei di, ac efe a ddywedodd wrthif, i feſuro Jeruſalem, i weled beth [a fydd] ei lled hi, a pheth [fydd] ei hŷd hi.

3 Ac wele angel yr Arglwydd yr hwn a oedd yn ymddiddan â mi yn myned allan: ac angel arall yn myned allan iw gyfarfod.

4 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, rhêd, a llefara wrth y llangc hwn gan ddywedyd: Jeruſalem a gyfanneddir [fel] maes drefi rhac amled dŷn, ac anifail ôi mewn.

5 Canys byddaf fy hun yn fur o dân amgylchadwy iddi, medd yr Arglwydd, a byddaf yn ogoniant ynddi.

6 Ho ho ffoiwch o wlad y gogledd medd yr Arglwydd, canys gwaſcerais chwi i bedwar gwynt y nefoedd medd yr Arglwydd.

7 O Sion ymachub, yr hon ydwyt yn preſwylio gyd â merch Babilon.

8 Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, ar ôl y gogoniant [hwn] i'm anfonodd at y cenhedloedd, y rhai a'ch yſpeiliaſant chwi: canys a gyffyrddo â chwi ſydd yn cyffwrdd â channwyll ei lygad. Pſal.17.8.

9 Canys wele fi yn eſcwyd fy llaw arnynt, a byddant yn ſclyfaeth iw gweiſion eu hun, neu iw deiliaid eu hun: a chânt wybod mai Arglwydd y lluoedd a'm hanfonodd.

10 Cân di a llawenycha merch Sion, canys wele fi yn dyfod: a mi a drigaf ynot medd yr Arglwydd.

11 A'r dydd hwnnw cenhedloedd lawer a ymlynant wrth yr Arglwydd, ac a fyddant bobl i mi: yna y trigaf ynot, a chei wybod mai Arglwydd y lluoedd am hanfonodd attat.

12 A'r Arglwydd a etifedda Juda, yn ei ran o'r tîr ſanctaidd, ac a ddewis Jeruſalem etto.

13 Pob cnawd taw yng-ŵydd yr Arglwydd: canys cyfododd oi ſanctaidd-le.

## PEN. III.

Prophwydoliaeth am Griſt.

AC efe a ddangoſodd i mi Joſuah 'r arch-offeiriad yn ſefyll ger bron Angel yr Arglwydd, a Satan yn ſefyll ar ei ddeheu-law ef iw wrthwynebu.

2 A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, cerydded yr Arglwydd dy di Satan, a'r Arglwydd yr hwn a ddewiſodd Jeruſalem a'th geryddo: onid pentewyn [yw] hwn wedi ei achub o'r tân?

3 Ac Joſuah ydoedd wedi ei wiſco â dillad budron, ac yn ſefyll yng-ŵydd yr Angel.

4 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oeddynt yn ſefyll ger ei fron, gan ddywedyd, bwriwch ymmaith y dillad budron oddi am dano ef: wrtho yntef y dywedodd, wele bwriais heibio dy anwiredd oddi wrthit, a gwiſcaf di hefyd â newid ddillad.

5 A dywedais hefyd, rhoddant meitr têg ar ei ben ef, a rhoddaſant meitr têg ar ei ben ef, ac ai gwiſcaſant â dillad, ac Angel yr Arglwydd oedd yn ſefyll [yno.]

6 Ac Angel yr Arglwydd a deſtiolaethodd wrth Joſuah gan ddywedyd:

7 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, os rhodi di yn fy llwybrau, ac os cedwi fyng-hadwriaethau, tithe hefyd a farni fy nhŷ, ac a gedwi fyng-hynteddoedd, rhoddaf it hefyd lê ym myſc y rhai ſydd yn ſefyll [ymma.]

8 Gwrando attolwg Joſuah 'r arch-offeiriad, ti a'th gyfeillion ſydd yn eiſtedd ger dy fron, canys gwŷr rhyfeddol yw y rhai hyn: o herwydd wele gwnaf i'm * gwâs y blagurun ddyfod. Eſa.11.1. Ier.23.5. Ier.33.14.

9 Canys wele carrec a roddais ger bron Joſuah, ar un garrec [y bydd] ſaith o lygaid, wele fi yn naddu ei naddiad hi, medd Arglwydd y lluoedd: a mi a ſymmudaf ymmaith anwiredd y tîr hwn mewn un diwrnod.

10 Y dwthwn hwnnw medd Arglwydd y lluoedd, y geilw un ar ei gymmydog i ddyfod tan winwydden, a than ffigus-bren. Eſa.2.2. Mic.4.4. Agg.2.10.

## PEN. IIII.

Gweledigaeth y canhwyll-bren aur ai deongliad.

A'R Angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi a ddychwelodd, ac a'm deffrôdd fel y deffroir un oi gwſc.

2 Ac efe a ddywedodd wrthif, beth a weli? yna y dywedais: edrychais, ac wele ganhwyll-bren oll o aur, ai gaead ar ei ben, ai ſaith luſern arno, a ſaith o bibellau i'r luſernau y rhai oeddynt ar ei benn ef.

3 A dwy oliwydden wrtho, y naill o'r tu dehau, a'r llall o'r tu aſſwy i'r caead:

4 Ac mi a attebais, ac a ddywedais wrth yr Angel a oedd yn ymddiddan â mi, gan ddywedyd, beth [yw] y rhai hyn fy Arglwydd?

5 A'r Angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi, a attebodd, ac a ddywedodd wrthif: oni wyddoſt beth [yw] y rhai ymma? yna y dywedais, na wn fy Arglwydd.

6 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthif, gan ddywedyd: hyn [yw] gair yr Arglwydd at Zorobabel gan ddywedyd: nid â llu, ac nid â nerth, onid a'm Yſpryd mau fi medd Arglwydd y lluoedd.

7 Pwy [wyt] ti y mynydd mawr? ger bron Zorobabel [y byddi] yn waſtad: ac efe a ddŵg allan y maen pennaf [gan] weiddi, rhâd, rhâd iddo.

8 Daeth gair yr Arglwydd attaf trachefn gan ddywedyd:

9 Dwylo Zorobabel a ſylfaenaſant y tŷ hwn, ai ddwylo ef ai gorphen, a chei ŵybod mai Arglwydd y lluoedd am hebryngodd attoch.

10 Canys pwy a ddiyſtyrodd ddydd y [pethau] bychain? llawenychant pan welant y garrec alcam yn llaw Zorobabel, dymma ſaith lygaid yr Arglwydd; y rhai [ydynt] yn myned trwy 'r holl dir.

11 A mi a attebais, ac a ddywedais wrtho ef, beth [yw] y ddwy oliwydden hyn, ar y tu dehau i'r canhwyll-bren, ac ar ei aſſwy?

12 Ac mi a attebais trachefn, ac a ddywedais wrtho ef, beth [yw] y ddau bingcin oliwydden, y rhai trwy y ddwy bibell aur ſydd yn tywallt o honynt aur?

13 Ac efe a leſarodd wrthif gan ddywedyd, oni ŵyddoſt pa beth [yw] y rhai hyn? a dywedais, [na wn] fy Arglwydd.

14 Ac efe a ddywedodd, dymma y ddwy gaingc oliwydden y rhai ydynt yn ſefyll ger bron Arglwydd yr holl dir.

## PEN. V.

Gweledigaeth y llyfr hedegoc, a'r meſur Epha, ai deongliad.

YNa y troais, a chodais fy llygaid, ac edrychais, ac wele lyfr yn hedeg.

2 A dywedodd wrthif, beth a weli di? a dywedais, mi a welaf lyfr yn hedeg, ai hŷd yn ugain cufydd, ai lêd yn ddêc cufydd.

3 Ac efe a ddywedodd wrthif, dymma 'r felldith yr hon ſydd yn myned allan ar wyneb yr holl fŷd, canys pawb a ledratto o'r [bobl] hyn, a fernir wrth hwn: a phawb o'r [bobl] hyn a oferddyngant, a fernir wrth hwn.

4 Dygaf hi allan medd Arglwydd y lluoedd, a hi a ddaw i dŷ y lleidr, ac i dŷ y neb a dyngo f'm henw, ac hi a erys yng-hanol ei dŷ, ac a dreulia ei goed, ai gerric.

5 Yna yr angel yr hwn oedd yn ymddiddan â mi a aeth allan, ac a ddywedodd wrthif, cyfod yn awr dy lygaid, ac edrych beth [yw] hynn ſydd yn myned allan.

6 Ac mi a ddywedais, beth [yw] hynny? ac efe a ddywedodd, hwn yw'r Epha y ſydd yn myned allan: ac efe a ddywedodd, dymma eu gwelediad yn yr holl ddaiar.

7 Ac wele dalent o blwm wedi ei godi i fynu, ac dymma wraig yn eiſtedd yng-hanol yr Epha.

8 Ac efe a ddywedodd, anwiredd yw hon, ac efe ai taflodd hi i ganol yr Epha: a bwriodd y pwys plwm ar ei enau.

9 A chyfodais fy llygaid, ac edrychais, ac wele ddwy wragedd yn dyfod allan, a gwynt yn eu heſcill, (canys eſcill oedd ganddynt fel eſcill y Ciconia) a chyfodaſant yr Epha rhwng y ddaiar a'r nefoedd.

10 Yna y dywedais wrth yr Angel yr hwn a oedd yn ymddiddan â mi, i ba le 'r aiff y rhai hyn a'r Epha?

11 Dywedodd yntef wrthif, i adailadu iddi dŷ yng-wlad Sinnaar: ac hi a ddarperir, ac a oſodir yno ar ei ſtôl.

## PEN. VI.

Gweledigaeth y pedwar cerbyd.

HEfyd mi a droais, ac a dderchefais fy llygaid, ac a edrychais, ac wele bedwar o gerbydau yn dyfod allan oddi rhwng dau fynydd, a'r mynyddoedd [oeddynt] fynyddoedd o brês.

2 Yn y cerbyd cyntaf [yr oedd] meirch cochion: ac yn yr ail cerbyd meirch duon.

3 Ac yn y trydydd cerbyd meirch gwynnion, ac yn y pedwerydd cerbyd meirch brithion, [a] gwineuon.

4 Yna 'r attebais, ac y dywedais wrth yr hwn a oedd yn ymddiddan â mi: beth [yw] y rhai hyn fy Arglwydd?

5 A'r Angel a attebodd, ac a ddywedodd: dymma bedwar yſpryd y nefoedd, yn dyfod allan o ſefyll ger bron Arglwydd yr holl ddaiar.

6 Yr hon [yr oedd] meirch duon ynddi, a aethant allan i dîr y gogledd, a'r gwynnion a aethant allan ar eu hôl hwythau, a'r brithion a aethant allan i'r deheu-dir.

7 A'r gwineuon a aethant allan, ac a geiſiaſant fyned i rodio 'r bŷd, ac efe a ddywedodd, ewch, rhodiwch y byd: felly y rhodiaſant y byd.

8 Efe a waeddodd, ac a leſarodd wrthif, gan ddywedyd: edrych y rhai a aethant i dîr y gogledd, a lonyddaſant fy Yſpryd yn nhîr y gogledd.

9 Yna y bu gair yr Arglwydd wrthif gan ddywedyd:

10 Cymmer gan y carcharorion a ddaethant o Babilō, gan Heldai, Tobiah, ac Iedaia, a thyret y dydd hwnnw, a dos i dŷ Ioſiah fab Sophonia.

11 A chymmer arian, ac aur, a gwna goron, a goſod am ben Ioſuah fab Ioſedec yr arch-offeiriad.

12 A dywet wrtho gan ddywedyd: fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd: wele y gŵr ai enw Blagurun, oi lê hefyd y blagura, ac yr adailada Deml yr Arglwydd.

13 Teml yr Arglwydd a adailada efe, ac efe a ddŵg glod, ac a eistedd, ac a lywodraetha ar ei frenhin-faingc, bydd yn offeiriad hefyd ar ei frenhin-faingc, a chyngor hedd a fydd rhyngddynt ill dau.

14 A'r goron fydd i Helem, ac i Tobia, ac i Iedaia, ac i Hen fab Zophonia: er coffadwriaeth yn Nheml yr Arglwydd.

15 Canys pelledigion a ddeuant, ac a adailadāt yn Nheml yr Arglwydd, a chewch wybod mai Arglwydd y lluoedd a'm anfonodd attoch, a [hynn] a fydd, os gan wrando y gwrandewch ar lais yr Arglwydd eich Duw.

## PEN. VII.

1 Am ymprydio. 11 Bod cyndynrwydd y bobl yn peri eu cystudd hwynt.

Y Bedwaredd flwyddyn i'r brenin Darius, y daeth gair yr Arglwydd at Zacharias, y pedwerydd [dydd] o'r nawfed mis [ſef] o Cisleu.

2 Ac anfonodd [y bobl] Sareser, a Rogom-melec, ai wŷr i dŷ Dduw i weddio ger bron yr Arglwydd,

3 Gan ddywedyd wrth yr offeiriaid y rhai [oeddynt] yn-nhŷ Arglwydd y lluoedd, ac wrth y prophwydi, gan ddywedyd: a wylaf fi y pummed mis, gan ymneilltuo, fel y gwneuthym weithian gymmaint o flynyddoedd?

4 Yna gair Arglwydd y lluoedd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

5 Dywet wrth holl bobl y tir, ac wrth yr offeiriaid, gan lefaru: pan oeddech yn ymprydio, ac yn galaru y pummed, a'r ſeithfed [mis] y dêng mlynedd a thrugain hyn, a ymprydiasoch chwi ymprydi i mi?

6 A phan fwyttasoch, a phan yfasoch, onid oeddech yn bwytta [i chwi] eich hunain, ac yn yfed [i chwi] eich hunain?

7 Oni [ddylech wrando] y geiriau a gyhoeddodd yr Arglwydd trwy law y prophwydi cyntaf, pan oedd Jeruſalem yn gyfannedd, ac yn llwyddiannus, a'r dinasoedd oi hamgylch: a [phobl] yn cyfanneddu y deheu-dir, a'r dyffryn-dir.

8 A daeth gair yr Arglwydd at Zacharias gan ddywedyd:

9 Fel hyn y llefara Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd: bernwch farn gywir, gwnewch fwynder, a thrugaredd bob un iw gilydd.

10 Ac na orthrymmwch [y] weddw, a'r ymddifad, y dieithr, a'r anghenog, ac na feddyliwch ddrwg bob un iw gilydd yn eich calonnau.

11 Er hyn gwrthodasant wrando, a rhoddasant yscwydd anhydyn, a thrymhasant eu clustiau rhag clywed.

12 Gosodasant hefyd eu calonnau yn adamant rhag clywed y gyfraith, a'r geiriau y rhai a anfonodd Arglwydd y lluoedd drwy ei yspryd yn llaw y prophwydi cyntaf: am hynny y bu digofaint mawr oddi wrth Arglwydd y lluoedd.

13 A bu megis y galwodd efe, ac ni wrandawent: felly y galwent, ac nis gwrandawn medd Arglwydd y lluoedd.

14 Onid chwalwn hwynt i blith yr holl genhedloedd, y rhai nid adwaenent, a'r tîr a anghyfaneddwyd ar eu hôl hwynt, fel nad oedd a ele heibio, nac a ddele yn ei ôl: felly y gosodasant y wlad ddymunol yn ddiffaethwch.

## PEN. VIII.

Dychweliad y bobl i Ierusalem, Daioni Duw iddynt. Gwir wasanaeth Duw. Galwedigaeth y cenhedloedd.

YNa y daeth gair Arglwydd y lluoedd [attaf] gan ddywedyd:

2 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, eiddigeddais eiddigedd mawr dros Sion, ac mewn llid mawr yr eiddigeddais drosti.

3 Fel hyn y dywed yr Arglwydd, dychwelaf at Sion, a thrigaf yng-hanol Jeruſalem, ac Jeruſalem a elwir, dinas y gwirionedd, a mynydd Arglwydd y lluoedd, mynydd ſanctaidd.

4 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, hên wŷr, a hên wragedd a eisteddant etto yn heolydd Jeruſalem, a'r gŵr ai ffon yn ei law o amlder dyddiau.

5 Heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn, a genethod, yn chware yn ei heolydd.

6 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, os anhawdd yw [hyn] yn y dyddiau hynny yng-olwg gweddill y bobl hyn: ai anhawdd fydde hefyd yn fyng-olwg innef, medd Arglwydd y lluoedd?

7 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, wele fi yn gwaredu fy mhobl o dir codiad, ac o dir machludiad haul.

8 A gwnaf iddynt ddyfod fel y preswyliant yng-hanol Jeruſalem: a byddant yn bobl i mi, a byddaf iddynt hwythau yn Dduw, mewn gwirionedd, ac mewn cyfiawnder.

9 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd cryfhaer eich dwylo chwi y rhai ydych yn clywed (yn y dyddiau hyn) y geiriau hyn o enau y prophwydi (y rhai [oeddynt] yn y dydd y ſylfaenwyd tŷ Arglwydd y lluoedd) am adailadu y Deml.

10 Canys cyn y dyddiau hyn nid oedd tâl [llafur] i ddŷn, na thâl i anifail, na heddwch i'r [un] a ele allan, nac a ddele i mewn gan y gorthrymmwr: o blegit gyrrais ddynion bob un yn erbyn ei gymydog.

11 Ond bellach ni [byddaf] fi i weddill y bobl hyn, megis yn y dyddiau cyntaf, medd Arglwydd y lluoedd.

12 Canys [bydd] hâd heddwch, y winwydden a rydd ei ffrwyth, a'r ddaiar a ddyd ei chynnyrch, a'r nefoedd a roddant eu gwlith, a pharaf i weddill y bobl hyn etifeddu yr holl bethau hyn.

13 A bydd mai megis y buoch chwi tŷ Iuda, a thŷ Iſrael yn felldith ym myſc y cenhedloedd: felly i'ch gwaredaf chwi, a byddwch yn fendith, nac ofnwch, cryfhaer eich dwylo.

14 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, fel yr amcenais eich drygu chwi, pan i'm cyffrôdd eich tadau chwi fi, medd Arglwydd y lluoedd, ac nid arbedais: Ezec.18.20.

15 Felly y trois, [ac] yr amcenais y dyddiau hyn wneuthur llês i Ieruſalem, ac i dŷ Iuda, nac ofnwch.

16 Hyn [yw'r] pethau a wnewch chwi, dywedwch y gwir bawb wrth ei gymydog, a bernwch farn gwirionedd [a] thangneddyf yn eich pyrth.

17 Ac na fwriedwch ddrwg neb iw gilydd yn eich calonnau, ac na hoffwch lw celwyddoc: canys yr holl bethau hyn a gaſeais, medd Arglwydd y lluoedd.

18 A gair Arglwydd y lluoedd a ddaeth attaf gan ddywedyd:

19 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: ympryd y pedwerydd [mîs] ac ympryd y pummed, ac ympryd y ſeithfed, ac ympryd y decfed a fydd i dŷ Iuda, yn llawenydd a hyfrydwch, ac yn uchel wyliau daionus: gan hynny cerwch wirionedd, a heddwch.

20 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, [bydd] etto y daw pobloedd, a phreſwylwŷr dinaſoedd lawer.

21 Ac aiff preſwylwŷr y naill i'r llall, gan ddywedyd: *awn i fyned i weddio ger bron yr Arglwydd, ac i ymgais ag Arglwydd y lluoedd, minne a ddeuaf hefyd. Eſa.2.2. Mic.4.1.

22 Ie pobloedd lawer, a chenhedlaethau cryfion a ddeuant i geiſio Arglwydd y lluoedd yn Ieruſalem: ac i weddio ger bron yr Arglwydd.

23 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd. yn y dyddiau hynny [y bydd] i ddêc o ddynion o bob tafod-iaith y cenhedloedd, ymafelyd yn ympyl [dilledyn] un Iddew, gan ddywedyd: awn gyd â chwi, canys clywſom [fod] Duw gyd â chwi.

## PEN. IX.

Diniſtr gelynion yr eglwys. 7 Dychweliad y cenhedloedd. 9 Dyfodiad Criſt ar yr aſſyn.

BAich gair yr Arglwydd yn erbyn tir Hadrac: a Damaſcus [fydd] ei orphwyſfa ef: o blegit ar yr Arglwydd y bydd llygad dŷn, a llwythau Iſrael oll.

2 Felly Hemath hefyd a derfyna oi mewn ei hun: Tyrus, a Sidon hefyd, canys doeth odiaeth ydynt.

3 A Thyrus a adailada iddi ei hun gaſtell, ac a gynnull arian fel llwch, ac aur coeth fel tomm yr heolydd.

4 Wele'r Arglwydd ai ſpeilia, ac a dery ei nerth hi yn y môr, a hi a yſir â thân.

5 Aſcalon a wêl, ac a ofna, a Azza a ymofidia yn ddirfawr, felly Accaron hefyd am ei chywilyddio oi gobaith, difethir hefyd y brenin allan o Azza, ac Aſcalon nid erys.

6 Eſtron hefyd a drig yn Aſdod, a thorraf i lawr falchder y Philiſtiaid.

7 A mi a ſymmudaf ymmaith ei waed oddi wrth ei enau, ai ffiaidd-dra oddi rhwng ei ddannedd, ac efe a weddillir i'n Duw ni, fel y byddo megis pennaeth yn Iuda, ac Accaron megis Iebuſiad.

8 A gwerſyllaf wrth fy nhŷ rhac y llu, rhac a êl heibio, a rhac a ddatrô, fel nad elo gorthrymmwr arnynt mwyach: canys weithian gwelais am llygaid.

9 Bydd lawen iawn ti ferch Sion, a chrechwenna ha ferch Ieruſalem, wele dy Frenin yn dyfod attat yn gyfiawn, ac achubudd yw efe, [y mae] efe yn dlawd, ac yn marchogeth ar aſſyn, ac ar lwdn aſſyn. Math.21.5.

10 Torraf hefyd y cerbyd oddi wrth Ephraim, a'r march oddi wrth Ieruſalem, a'r bwa rhyfel a dorrir, ac efe a lefara heddwch i'r cenhedloedd, ai lywodraeth [fydd] o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithafoedd y tir.

11 A thithe yng-waed dy ammod [a waredir:] gollyngaiſ dy garcharorion o'r pydew heb ddwfr ynddo.

12 Troiwch i'r ceſtyll chwi garcharorion gobeithiol, heddyw i'r ydwyf yn dangos y talaf it yn ddau ddyblyg.

13 Canys anelais Iuda i'm yn fwa, llenwais Ephraim, a'th feibion di Sion a gyfodais yn erbyn dy feibion di the Groec, ac a'th oſodais fel cleddyf cawr.

14 Yr Arglwydd a welir trostynt, ai ſaeth ef a ânt allan fel mellt, a'r Arglwydd Dduw a gân ag udcorn, ac a gerdd yn rhyferth-wynt y dehau.

15 Arglwydd y lluoedd ai hamddiffyn hwynt, fel y bwyttânt, ac y gorſyngant gerric y dafl, yfant [a] therfyſcant megis [mewn] gwin, llanwyd hwynt fel mail, ac fel conglau 'r allor.

16 A'r Arglwydd eu Duw ai gwared hwynt y dydd hwnnw fel mintai ei bobl: canys fel meini coron y byddant wedi eu dyrchafu ar ei dir ef.

17 Canys pa ſeint [yw] ei lês ef, a pha ſeint ei degwch ef? yr ŷd a lawenycha ei wŷr ieuaingc ef, a'r gwin ei weryſon.

## PEN. X.

Cyngor i'r bobl weddio ar Dduw: ac addewid o yngêledd iddynt.

EРchwch gan yr Arglwydd law mewn pryd diweddar-law: [a'r] Arglwydd a wnaiff ddiſclair [gymylau,] ac a ddŷd iwch gawod-law, [ac] i bob un laſ-wellt y maes.

2 Canys y delwau a ddywedant wagedd, a'r dewiniaid a welant gelwydd, ac a ddywedant freuddwydion oferedd, cyſurant yn ofer: am hynny y ſymmudaſant fel defaid, cyſtuddiwyd hwynt am nad [oedd] bugail.

3 Wrth y bugeiliaid yr ennynodd fy llid,

ac ymwelaf a'r bychod: canys Arglwydd y lluoedd a ymwel ai braidd tŷ Juda, ac ai geſyd fel ei glod-fawr farch yn y rhyfel.

4 Y gongl a ddaw allan oddi wrtho ef, yr hoel oddi wrtho ef, y bwa rhyfel oddi wrtho ef, [a] phob gorthrymmwr ar unwaith oddi wrtho ef.

5 A byddant fel cewri yn ſathru [eu gelynion] yn nhom yr heolydd yn y rhyfel: a rhyfelant, canys yr Arglwydd [ſydd] gyd â hwynt, a chywilyddiir marchogion meirch.

6 Nerthaf dŷ Juda, a gwaredaf dŷ Joſeph, a pharaf iddynt ddychwelyd, canys trugarheais wrthynt, a byddant fel pe na's gadawſwn hwynt: o herwydd myfi ydwyf yr Arglwydd eu Duw hwynt, ac ai gwrandawaf hwynt.

7 Bydd Ephraim hefyd fel cawr, ai calonnau a lawenychant fel trwy win: ai meibion a gânt weled, ac a lawenychant, a bydd eu calon hwynt hyfryd yn yr Arglwydd.

8 Chwibianaf arnynt, a chaſclaf hwynt, canys gwaredaf hwynt, ac amlhânt fel yr amlhaſant.

9 Hauaf hwynt ym myſc y bobloedd, ac o bell i'm coffânt, a byddant fyw hefyd gyd ai plant, a dychwelant.

10 A pharaf iddynt ddychwelyd o dîr yr Aipht, a chaſclaf hwynt o Aſſyria, ac arweiniaf hwynt i dîr Gilead a Libanus, ac ni cheir [lle] iddynt.

11 Ac efe a drāmwya dros fôr blinder, a theru y tonnau yn y môr: a holl ddyfnderoedd yr afon a ſyddant ddieſpydd: yno y deſcynnir balchder Aſſur, a theyrn-wialen yr Aipht a gilia.

12 Nerthaf hwynt hefyd yn yr Arglwydd, ac yn ei enw ef yr ymrodiant medd yr Arglwydd.

## PEN. XI.

1 Diniſtr y Deml. 4 y Tad yn gorchymyn, ei ddefaid i Griſt ein bugail ni. 7 Gweledigaeth yn erbyn Ieruſalem, ac Iuda.

LIbanus agor dy ddorau, ac yſſed y tân dy cedr-wydd.

2 Y ffynnidwydd udwch, canys cwympodd y cedr-wydd, difwynwyd y rhai ardderchoc, udwch dderw Baſan, canys ſyrthiodd y goedwic gaeedic.

3 [Clywir] llef udfa y bugeiliaid, am ddifwyno eu hardderchawgrwydd, llef rhuad y llewod ieuaingc, am ddifwyno balchder yr Iorddonen.

4 Fel hyn y dywed yr Arglwydd fy Nuw, portha ddefaid y lladdfa.

5 Y rhai a ddarfu i'w perchennogion eu lladd, ac ni phechent, ai gwerth-wyr a ddywedant, bendigedic [yw]'r Arglwydd am fyng-hyfoethogi, ai bugeiliaid nid ai arbedaſant hwynt.

6 Am hynny nid arbedaf mwyach drigolion y wlâd medd yr Arglwydd, ond wele fi yn rhoddi y dynion, bob un i law ei gymmydog: ac i law ei frenin: a phan darawant y tir, nid achubaf oi llaw hwynt.

7 Canys mi a borthais ddefaid y lladdfa, trueniaid y praidd: a chymmerais i'm ddwy ffon, un a elwais Hyfrydwch, ac un [arall] a elwais Rhwymau, felly mi a borthais y praidd.

8 A thorrais ymmaith dri bugail mewn un mîs, a'm henaid ai ffieiddiodd hwynt, ai henaid hwytheu a alarodd arna finne.

9 Dywedais hefyd, ni phorthaf chwi, a fyddo farw, bydded farw: ac â fetho, methed, a'r gweddill a yſſant bob un gnawd y llall.

10 A chymmerais fy ffon Hyfrydwch, a thorrais hi, i dorri fyng-hyfammod yr hwn a ammodaſwn a'r holl bobl.

11 A'r dydd hwnnw y torrwyd hi, ac felly y gwybu trueniaid y praidd, (y rhai oeddynt yn yſtyr o honof) mai gair yr Arglwydd [oedd] hyn.

12 A dywedais wrthynt, os gwelwch yn dda dygwch fyng-hyflog, ac onid ê peidiwch: a'm cyflog * a bwyſaſant yn ddêc ar hugain o arian. Math.27.9.

13 A dywedodd yr Arglwydd wrthif, bwrw i'r crochenydd yr ardderchog brîs i'm prisiwyd ganddynt: a chymmerais y dêc ar hugain o arian, a bwriais hwynt i dŷ 'r Arglwydd i'r crochenydd.

14 Yna mi a dorrais fy ail ffon, [ſef] Rhwymau, i dorri y brawdoliaeth rhwng Juda ac Iſrael.

15 A'r Arglwydd a ddywedodd wrthif, cymmer etto it offer bugail ffôl.

16 Canys wele fi yn codi bugail yn y tir [yr hwn] ni ofwya y rhai cuddiedic, ni chais y rhai ieuaingc, ni feddyginiaetha y rhai briwedic: a ſyddo ſafadwy ni faetha, onid bwytty gîg yr un brâs, ac efe a ddryllia eu hewinedd hwynt.

17 Gwae'r eulun bugail yn gadel y praidd, y cleddyf [ſydd] ar ei fraich, ac ar ei lygad deheu: ei fraich gan wywo a wywa, ai lygad deheu gan dywyllu a dywylla.

## PEN. XII.

Am ddiniſtr, ac ail adailadaeth Ieruſalem.

BAich gair yr Arglwydd ar Iſrael, medd yr Arglwydd yr hwn ſydd yn eſtyn y nefoedd, ac yn ſylfaenu y ddaiar, ac yn ffurfio yſpryd dyn ynddo.

2 Wele fi yn goſod Jeruſalem yn phiol gwſc i'r bobloedd oll o amgylch: ac efe hefyd a fydd gyd ag Juda wrth warche ar Jeruſalem.

3 A bydd y diwrnod hwnnw i'm goſod Jeruſalem yn faen trwm i'r holl bobloedd: pawb ai cyfodo yn ddiau a rwygir, er caſclu atto holl genhedloedd y ddaiar.

4 Y diwrnod hwnnw medd yr Arglwydd, y tarawaf bob march â ſyndra, ai farchog ag ynfydrwydd, ac agoraf fy llygaid ar dŷ Juda, a tharawaf holl feirch y bobl â dallineb.

5 A chywyſogion Juda a ddywedant yn eu

calonnau, nerth i mi [fydd] preſſwylwŷr Jeruſalem, trwy Arglwydd y lluoedd eu Duw hwynt.

6 Y dydd hwnnw y goſodaf bennaethiaid Juda fel marworyn tân yn y coed, ac fel pentewyn tân yn y gwellt, ac yſant ar y llaw ddeheu, ac ar yr aſſwy yr holl bobloedd: ac Jeruſalem a erys rhac llaw yn ei lle ei hun yn Jeruſalem.

7 Yr Arglwydd a geidw bebyll Juda [fel] yn y dechreu, megis nad ymfawrygo gogoniant tŷ Ddafydd, a gogoniant preſſwylwŷr Jeruſalem ar Juda.

8 Y dydd hwnnw 'r amddeffyn yr Arglwydd breſſwylwŷr Jeruſalem, a bydd y lleſcaf o honynt y dydd hwnnw fel Dafydd: a thŷ Ddafydd [fydd] fel [tŷ] Dduw, [ac] fel Angel yr Arglwydd oi blaen hwynt.

9 Y dydd hwnnw bydd i'm geiſio difetha 'r holl genhedloedd y ſy yn dyfod yn erbyn Jeruſalem.

10 A thywalltaf ar dŷ Ddafydd, ac ar breſſwylwŷr Jeruſalem yſpryd rhâd, a thoſturiaeth, ac edrychant arnaf yr hwn a wanaſant, galarant hefyd am dano, fel vn yn galaru am [ei] vnigenedic, ac ymofidiant am dano ef, megis vn yn gofidio am [ei] gyn-fab.

2.Cron.35.22. 11 Y dwthwn hwnnw y bydd galar mawr yn Jeruſalem, megis galar Adadrimmon yn nyffryn Megidon.

12 A'r wlâd a alara, pob teulu wrtho ei hun, ai gwragedd wrthynt eu hunain, teulu tŷ Ddafydd wrtho ei hun, ai gwragedd wrthynt eu hunain, teulu tŷ Nathan wrtho ei hunan, ai gwragedd wrthynt eu hunain.

13 Teulu tŷ Lefi wrtho ei hunan, ai gwragedd wrthynt eu hunain, teulu tŷ Semei wrtho ei hunan, ai gwragedd wrthynt eu hunain.

14 Yr holl deuluoedd eraill, pob teulu wrtho ei hun: ai gwragedd wrthynt eu hunain.

## PEN. XIII.

Prophwydo y mae am Griſt, ffynnon y grâs: ac am ddiniſtr y gau dduwiau, a'r gau brophwydi.

Y Dydd hwnnw y bydd ffynnon agored i dŷ Ddafydd, ac i breſwyl-wŷr Jeruſalem i [olchi] pechod, ac aflendid.

2 A bydd y dwthwn hwnnw medd Arglwydd y lluoedd, i'm dorri enwau 'r eulynnod allan o'r tir, ac ni's coffeir mwyach: a gyrraf hefyd y [gau] brophwydi, ac yſpryd aflendid allan o'r wlâd.

3 A bydd os prophwyda vn mwyach, y dywed ei dâd ai fam ai cenhedlaſant ef wrtho, ni chei fyw, canys dywedaiſt gelwydd yn enw 'r
Deut.13.6.9. Arglwydd: ai dad ai fam ai cenhedlaſant ef, ai *gwanant ef, pan fyddo yn prophwydo.

4 A bydd y dydd hwnnw i'r prophwydi gywilyddio bob vn am ei weledigaeth, pan brophwydo, ac ni wiſcant gryſ rhawn er twyllo.

5 Ond efe a ddywed, nid prophwyd [ydwyf] fi, llafur-wr y ddaiar ydwyf fi: canys dŷn a'm dyſcodd [felly] o'm ieuengtid.

6 Os dywed [vn] wrtho, beth [a wna] y gweliau hyn rhwng dy ddwylo? yna efe a ddywed, [dymma y gweliau,] drwy y rhai i'm clwyfwyd yn nhŷ fyng-haredigion.

7 Deffro gleddyf yn erbyn fy mugail, ac yn erbyn y gŵr y ſydd gyfaill i mi, medd Arglwydd y lluoedd: taro y bugail, a'r praidd a waſcerir, a dychwelaf fy llaw ar y rhai bychain.

8 A bydd yn yr holl dir medd yr Arglwydd y diwreiddir, ac y difethir dwy ran ynddo a'r drydedd a adewir ynddo.

9 A dygaf y drydedd i'r tân, a phuraf hwynt fel puro arian, a choethaf hwynt fel coethi aur: efe a eilw ar fy enw, a minne ai gwrandawaf: dywedaf, pobl i mi [yw] efe, ac yntef a ddywed, yr Arglwydd ſydd Dduw i mi.

## PEN. XIIII.

Diniſtr ar yr eglwys, yr Arglwydd yn taro gyd â hi. Ac yn darparu iddi ogoniant rhagorol.

WEle y dydd yn dyfod i'r Arglwydd, pan rennir dy yſpail ynot ti.

2 A chaſclaf yr holl genhedloedd i ryfel yn erbyn Jeruſalem, a'r ddinas a oreſcynnir, y tai a fethrir, a'r gwragedd a dreiſir, a hanner y ddinas a aiff allan mewn caethiwed, a'r rhan arall o'r bobl ni's difethir o'r ddinas.

3 A'r Arglwydd a aiff allan, ac a ryfela yn erbyn y cenhedloedd hynny, megis y dydd y rhyfelodd efe yn nydd y gâd.

4 Ai draed a ſafant y dydd hwnnw ar fynydd yr oliwydd, yr hwn [ſydd] ar gyfer Jeruſalem, o du 'r dwyrain: a mynydd yr oliwydd a hyllt ar draws ei hanner, tua 'r dwyrain, a thua'r gorllewyn yn geunant mawr odieth: a hanner y mynydd a ſymmud tua 'r gogledd, ai hanner tua 'r dehau.

5 Yna y ffoiwch i geunant fy mynyddoedd mau fi, canys ceunant fy mynyddoedd a gyredd hyd Azal, a ffoiwch fel y ffoaſoch rhac y ddaiargryn yn nyddiau Uzziah brenin Juda: a daw 'r Arglwydd fy Nuw [a'r] holl ſainct gyd â thi.

6 A'r dydd hwnnw y daw i benn, na byddo goleuad gwerth-fawr, onid tywyllwch.

7 A bydd vn diwrnod, hwnnw a adweinir gan yr Arglwydd, nid dydd, ac nid nôs, onid bydd goleuni yn amſer cyfnos.

8 A bydd y dwthwn hwnnw y daw allan o Jeruſalem ddyfroedd enioes: eu hanner hwynt tua môr y dwyrain, ai hanner hwynt tua 'r môr eithaf, tros hâf, a gaiaf y bydd [hyn.]

9 A'r Arglwydd a fydd yn Frenin ar yr holl dir: y dydd hwnnw y bydd vn Arglwydd ai henw yn vn.

10 Troir yr holl dir megis yn waſtad, o Gibea hyd Rimmon, o'r tu dehau i Jeruſalem, hi a dderchefir, ac a erys yn ei lle, o borth Beniamin hyd le y porth cyntaf, hyd borth y conglau, ac o dŵr Hananeel hyd win-wryf y brenin.

11 Yno y trigant ynddi, ac ni bydd yn ddifrod mwyach: onid Jeruſalem a eiſtedd yn ddierbyd.

12 A hyn fydd y blâ a'r hon y teru 'r Arglwydd yr holl bobloedd y rhai a ryfelant yn erbyn Jeruſalem: eu cnawd a dderfydd er eu bod yn ſefyll ar eu traed, ai llygaid a ddarfyddant yn eu tyllau, ai tafod a dderfydd yn eu ſafn.

13 Y dydd hwnnw y bydd mawr derfyſc yr Arglwydd yn eu plith hwynt, a phob vn a ddeil law ei gymydog, ac a dderchaf ei law ar law ei gymydog.

14 Ac Juda hefyd a ryfela yn erbyn Jeruſalem, a cheſclir golud yr holl genhedloedd o amgylch, ſef aur ac arian, a gwiſcoedd yn lliaws mawr.

15 Ac felly y bydd pla [ar] y march, y mûl, y camel, yr aſſyn, a phob anifail yr hwn a fyddo yn y gwerſſylloedd hynny fel y blâ hon.

16 A bydd i bob vn a adawer o'r holl genhedloedd a ddaethant yn erbyn Jeruſalem fyned i fynû o flwyddyn i flwyddyn, i addoli y Brenin, [ſef] Arglwydd y lluoedd, ac i gadw gŵyl y pebyll.

17 A phwy bynnac nid êl i fynu o deuluoedd y bŷd i Jeruſalem, i addoli y Brenin Arglwydd y lluoedd ni bydd glaw arnynt.

18 Ac os teulu 'r Aipht nid aiff i fynu, ac ni ddaw, ni [bydd glaw] arnynt: [hyn] fydd y blâ, a'r hon y teru 'r Arglwydd y cenhedloedd, y rhai nid eſcynnant i gadw gŵyl y pebyll.

19 Hyn a fydd coſp yr Aipht, a choſp yr holl genhedlaethau y rhai nid elont i fynu i gadw gŵyl y pebyll.

20 Y dydd hwnnw y bydd [yn ſcrifennedic] ar ſinclys ffrwyn y march SANCTEIDDRVVYDD I'R ARGLVVYDD: bydd y crochanau yn nhŷ 'r Arglwydd fel meiliau ger bron yr allor.

21 Bydd pob crochan yn Jeruſalem, ac yn Juda yn ſancteiddrwydd i Arglwydd y lluoedd: a daw pob aberth-wr, ac a gymmerant o honynt, ac a ferwant ynddynt: ac ni bydd Canaanead mwyach yn-nhŷ Arglwydd y lluoedd y dydd hwnnw.

*Terfyn prophwydoliaeth Zacharias.*

# Llyfr y prophvvyd Malachi.

## PENNOD. I.

Cwyn yn erbyn Iſrael, a'r offeiriaid.

Eſa.13.1.

BAich gair yr Arglwydd, at Iſrael drwy law Malachi.

2 Hoffais chwi medd yr Arglwydd, a chwi a ddywedwch, ym mha beth yr hoffaiſt ti ni⁏ onid brawd [oedd] Eſau i Jacob, medd yr Arglwydd⁏ etto Jacob a hoffais.

3 Ac Eſau a gaſſeais, ac a oſodais ei fynyddoedd yn ddiffaethwch, ai etifeddiaeth yn anialwch dreigiau.

4 Os dywed Edom, tlodwyd ni, etto dychwelwn, ac adailadwn yr anghyfānedd [leoedd:] fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, hwynt a adailadant, ond minne a ddiniſtriaf, a gelwir hwynt yn gyffinid drygioni: a'r bobl [wrth] y rhai y llidiodd yr Arglwydd yn dragywydd.

5 Eich llygaid hefyd a welant, a chwitheu a ddywedwch, mawrheuir yr Arglwydd oddi ar derfyn Iſrael.

6 Mab a anrhydedda ei dâd, a gwenidog ei feiſtr, ac os [ydwyf] fi dâd, pa le [y mae] fy anrhydedd⁏ ac os [ydwyf] fi feiſtr, pa le y mae fy ofn, medd Arglwydd y lluoedd wrthych chwi'r offeiriaid, y rhai ydych yn dirmygu fy enw⁏ a chwi a ddywedwch, ym mha beth y dirmygaſom dy enw di⁏

7 Offrymmu yr ydych ar fy allor fara halogedic, a chwi a ddywedwch, ym mha beth yr halogaſom di⁏ am i chwi ddywedyd, dirmygus yw bwrdd yr Arglwydd.

8 Pan ddygech hefyd [anifail] dall iw aberthu, onid drwg [hynny⁏] a phan ddygech gloff, neu glwyfus, onid drwg [hynny⁏] dŵg ef yr awron i'th dywyſog, a fydd efe fodlon it? neu a dderbyn efe dy wyneb, medd Arglwydd y lluoedd⁏

9 Ac yn awr gweddiwch attolwg ger bron Duw fel y trugarhao wrthych: o'ch llaw chwi y mae hyn, a dderbyn efe wyneb [vn] o honoch, medd Arglwydd y lluoedd⁏

10 A phwy hefyd o honoch a gaeue y dôrau⁏ neu a oleue fy allor yn rhâd? nid [oes] genif fodlonrwydd ynoch chwi medd Arglwydd y lluoedd: ac ni byddaf bodlon i fwyd offrwm o'ch llaw.

11 Canys o gyfodiad haul hyd ei fachludiad hefyd, mawrheuir fy enw ym myſc y cenhedloedd: ac ym mhob lle arogldarth a offrymmir i'm henw, a bwyd offrwm pûr: canys mawr [yw] fy enw ym mhlith y cenhedloedd, medd Arglwydd y lluoedd.

12 Ond chwi ai halogaſoch ef, pan ddywedaſoch, bwrdd yr Arglwydd [ſydd] halogedic, ai ffrwyth [ſef] ei fwyd ſydd ddirmygus.

13 Chwi hefyd a ddywedaſoch, wele flinder, a ffroenaſſoch arno medd Arglwydd y lluoedd: Dygaſoch hefyd y treiſiedic, a'r cloff, a'r

clwyfus pan ddygaſoch fwyd offrwm: a fyddaf fi fodlon i hynny o'ch llaw chwi, medd yr Arglwydd?

14 Melldigedic yw y dichellgar, pan fyddo yn ei gorlan wryw, os efe a adduna, ac a abertha [un] llygredic i'r Arglwydd: canys Brenin mawr [ydwyf] medd Arglwydd y lluoedd, a'm henw [ſydd] ofnadwy ym-mhlith y cenhedloedd.

## PEN. II.

Bygwth coſpedigaeth i'r offeiriaid

AC yr awr hon yr offeiriaid arnoch chwi [y mae] y gorchymyn hwn.

2 Oni wrandewch, ac oni yſtyriwch i roddi anrhydedd i'm henw i, medd Arglwydd y lluoedd, yna mi a anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldigaf eich bendithion chwi: hefyd myfi ai melldigais hwynt, am nad ydych yn yſtyried.

3 Wele fi yn difetha i chwi 'r hâd, a thanaf domm ar eich wynebau, [ſef] tomm eich gwyliau, ac efe a'ch cymmer chwi atto.

4 Hefyd cewch ŵybod mai myfi a anfonais attoch y gorchymyn hwn, fel y bydde fyng-hyfammod â Lefi medd Arglwydd y lluoedd.

5 Fyng-hyfammod ag ef oedd fywyd, a heddwch, a mi ai rhoddais hwynt iddo [am yr] ofn, canys efe a'm hofnodd, ac a ddychrynnodd rhac fy enw.

6 Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd o fewn ei wefuſau: mewn hêdd, ac iniondeb y rhodiodd gyd â mi, a llaweroedd a ddychwelodd efe oddi wrth anwiredd.

7 Canys gwefuſau 'r offeiriad a gadwant ŵybodaeth: a chyfraith a geiſiant oi enau ef: o herwydd angel Arglwydd y lluoedd yw efe.

8 Onid chwi a giliaſoch o'r ffordd, ac a baraſoch i laweroedd drippio yn y gyfraith: llygraſoch gyfãmod Lefi medd Arglwydd y lluoedd.

9 Am hynny minnef hefyd a'ch rhoddais chwi yn ddirmygus, ac yn ddiyſtyr gan yr holl bobl: o herwydd nad ydych chwi yn cadw fy ffordd i, onid bôd yn derbyn-wynebau yn y gyfraith.

10 Onid un tâd [ſydd] i ni oll? onid un Duw a'n creawdd ni? pam y twyllir gŵr trwy ei frawd, gan halogi cyfammod ein tadau?

11 Juda a anffyddlonodd, a ffieidd-dra a wnaethpwyd yn Jſrael, ac yn Jeruſalem: canys Juda a halogodd ſanctaiddrwydd yr Arglwydd yr hwn a hoffaſſe, ac a briododd ferch duw dieithr.

12 Yr Arglwydd a dyrr ymmaith y gŵr a wnel hyn, y gwiliwr, a'r attebwr o bebyll Jacob: ac offrymmudd bwyd offrwm i Arglwydd y lluoedd.

13 Hyn hefyd eilwaith a wnaethoch, gan orchguddio â dagrau allor yr Arglwydd drwy wylofain, a gweiddi: fel nad edrycher mwyach ar eich bwyd offrwm, ac na chymerer yn fodlon o'ch llaw chwi.

14 Er hynny chwi a ddywedwch, pa herwydd? o herwydd mai 'r Arglwydd a deſtiolaethodd rhyngot ti, a rhwng gwraig dy ieuengtid, yr hon y buoſt anffyddlon iddi, er ei bod yn gymmar it, ac yn wraig dy gyfammod.

15 Onid un a wnaeth efe? a ffun yn weddill ganddo, a pha ham un? gan geiſio hâd duwiol: am hynny ymgedwch yn eich yſpryd, ac na fydded [dy yſpryd] anffyddlon yn erbyn gwraig dy ieuengtid.

16 Pan gaſêch di [hi] gollwng hi ymmaith medd Arglwydd Dduw 'r Jſrael: etto gorchguddio y mae efe y camwedd tann ei wiſc medd Arglwydd y lluoedd: gan hynny ymgedwch yn eich yſpryd, ac na fyddwch anffyddlon.

17 Blinaſoch yr Arglwydd a'ch geiriau chwi, a chwi a ddywedwch ym-mha bêth y blinaſom [ef,] am iwch ddywedyd, pob gwneuthurwr drwg [ſydd] dda yng-olwg yr Arglwydd, ac iddynt y mae efe yn fodlon: neu pa lê [y mae] Duw y farn?

## PEN. III.

Am gennadwriaeth yr Arglwydd, ac am ſwydd Criſt.

VVEle fi yn anfon *fyng-hennad, ac efe a arloeſa y ffordd o'm blaen: ac yn ddiſymmwth y daw 'r Arglwydd yr hwn yr ydych yn ei geiſio i'w Deml, ac angel y cyfammod yr hwn a ddymunwch: wele ef yn dyfod medd Arglwydd y lluoedd.

Luc.7.27.

2 A phwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a ſaif pan ymddangoſo efe? canys y mae efe fel tân puradwy, ac fel ſebon y golchyddion.

3 Efe a eiſtedd [fel] purudd, a glanheudd arian, ac efe a burhâ feibiõ Lefi, ac ai coetha hwynt fel aur, ac fel arian: fel y bŷddant yn offrymmu i'r Arglwydd fwyd offrwm mewn cyfiawnder.

4 Yna y bydd melys gan yr Arglwydd fwyd offrwm Juda, ac Jeruſalem: megis yn y dyddiau gynt, ac fel blynyddoedd y cynfyd.

5 A mi a neſâf attoch chwi mewn barn, a byddaf dyſt cyflym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godineb-wŷr, ac yn erbyn yr anudonwŷr, ac yn erbyn camattal-wŷr cyflog y cyflogedic, y weddw, a'r ymddifad, ac yn gorthrymmu y dieithr, ac heb fy ofni i medd Arglwydd y lluoedd.

6 Canys myfi 'r Arglwydd ni'm newidîr: am hynny ni ddifethwyd chwi meibion Jacob.

7 Er dyddiau eich tadau y ciliaſoch oddi wrth fy neddfau, ac ni chadwaſoch [hwynt:] *dychwelwch attaf fi, a mi a ddychwelaf attoch chwitheu, medd Arglwydd y lluoedd: a chwi a ddywedwch ym-mha beth y dychwelwn?

Zach.1.3.

8 A yſpeilia dyn Dduw? etto chwi a'm hyſpeiliaſoch i: a chwi a ddywedwch ym-mha beth i'th yſpeiliaſom? [yn] y degwm, ac offrwm.

9 Melldigedic ydych drwy felldith, canys chwi a'm hyſpeiliaſoch i, [ſef] yr holl genhedlaeth.

10 Dygwch eich holl ddegwm i'r tryſſor-dŷ,

fel y bydde bwyd yn fy nhŷ: a phrofwch fi 'r awr hon yn hyn medd Arglwydd y lluoedd: onid agoraf i chwi ffeneſtri y nefoedd, a thywallt arnoch chwi fendith yn anfeidrol.

11 Myfi hefyd a argyoeddaf er eich mwyn chwi 'r ormes, fel na ddifwyno i chwi ffrwyth y ddaiar: a'r winwydden yn y maes ni bydd ddiffrwythlon i chwi medd Arglwydd y lluoedd

12 A'r holl genhedloedd a'ch [ galwant ] chwi yn wynfydedig, canys byddwch chwi wlâd hyfrydaidd, medd Arglwydd y lluoedd.

13 Eich geiriau chwi a'm gorchfygaſant medd yr Arglwydd: a chwi a ddywedwch, pa beth ydym ni yn ei ddywedyd yn dy erbyn di?

14 Dywedaſoch, oferedd yw gwaſanaethu Duw, a pha leſiant [ſydd] er i ni gadw ei orchymynnion ef? ac er i ni rodio yn oſtyngedig ger bron Arglwydd y lluoedd?

15 Ac yr awr hon yr ydym ni yn galw y beilchion yn wynfydedig, a gweithred-wŷr drygioni a adailadwyd: temptiaſant hefyd Dduw a gwaredwyd hwynt.

16 Yna 'r rhai oeddynt yn ofni 'r Arglwydd a lefaraſant bôb un wrth ei gymydog: a'r Arglwydd a wrandawodd, ac a glybu, ac ſcrifennwyd llyfr coffadwriaeth ger ei fron ef i'r rhai oeddynt yn ofni 'r Arglwydd, ac i'r rhai oeddynt yn yſtyried ei enw ef.

17 A byddant eiddo fi medd Arglwydd y lluoedd y dydd yn yr hwn y gwnelwyf briodoledd: arbedaf hwynt hefyd fel yr arbed gŵr ei fâb yr hwn ſydd yn ei waſanaethu ef.

18 Yna y dychwelwch, ac y gwelwch [ ragor ] rhwng y cyfiawn, a'r drygionus, rhwng gwaſanaethudd Duw, a'r hwn ni's gwaſanaetho ef.

## PEN. IIII.

Dyfodiad Elias o flaen dydd yr Arglwydd.

CAnys wele y dydd y dyfod yn lloſci megis ffwrn, a'r holl feilchion, a'r holl weithred-wŷr anwiredd a fyddant ſofl: a'r dydd ſydd yn dyfod ai llyſc hwynt medd Arglwydd y lluoedd, yr hwn ni âd iddynt na gwreiddin, na changen.

2 Onid haul cyfiawnder a gyfyd i chwi y rhai ydych yn ofni fy enw, a meddiginiaeth [ a fydd ] tân ei aſcell: chwi a ewch allan, ac a gynnyddwch megis lloi paſcedic.

3 A chwi a waſernwch yr annuwolion, canys byddant yn llwch tann wadnau eich traed chwi: yn y dydd yr hwn a baraf i, medd Arglwydd y lluoedd.

4 Cofiwch gyfraith Moſes fyng-wâs yr hon a orchymynnais iddo ef yn Horeb, am holl Iſrael yn ddeddfau, a barnedigaethau.

5 Wele mi a anfonaf attoch chwi Elias y prophwyd, cyn dyfod y mawr a'r ofnadwy ddydd yr Arglwydd.

6 Ac efe a dychwel galon y tadau at y plant, a chalon y plant at eu tadau, rhag i mi daro y ddaiar â difrod.

*Terfyn y Prophwyd Malachi, ac hefyd o'r holl brophwydi.*

HONI SOIT QVI MAL Y PENSE
DIEV ET MON DROIT

# Y llyfrau Apocryphaidd.

## *Y llyfr yr hwn a elwir yn gyffredinol y trydydd o Eſdras.*

### PENNOD. I.

Ioſias yn goſod offeiriaid, ac yn cynnal y Paſc. 7 Ioſias yn offrymmu. 11 Doſparthiadau y Leſiaid. 23 Buchedd Ioſias, 25 ai farwolaeth. 34 Gwneuthur Ioachaz mab Ioſias yn frenin. 53 Diniſtr Ieruſalem.

2.Bren.23.21.
2.cron.35.1.

A ¶ * Ioſias a gadwodd [ŵyl] y Paſc i'w Arglwydd yn Ieruſalem, ac a offrymmodd yr [oen] Paſc ar y pedwerydd dydd ar ddêc o'r mîs cyntaf,

2 Ac a gyfleuodd yr offeiriaid yn eu beunyddawl wchwyliaethau, wedi eu dilladu mewn gwiſcoedd lleiſion yn nhŷ yr Arglwydd.

3 Ac efe a ddywedodd wrth y Leſiaid, ſanctaidd weinidogion Iſrael, am iddynt hwy eu ſancteiddio eu hunain i'r Arglwydd, i oſod Arch ſanctaidd yr Arglwydd yn y tŷ 'r hwn a adailadaſe y brenin Salomon mab Dafydd:

4 [Gan ddywedyd,] na fydded hi mwyach yn faich i chwi ar yſcwydd: gwaſanaethwch yn awr yr Arglwydd eich Duw, a gofelwch am ei bobl ef o Iſrael, ac ymbaratoiwch drwy eich teuluoedd, yn ôl eich doſparthiadau, fel yr ſcrifennodd Dafydd brenin Iſrael, ac yn ôl mawredd Salomon ei fab ef.

1.Cron.23.2. & 25.26.

5 A ſefwch yn y Deml yn ôl doſparthiad teulu eich tâdau chwi y Leſiaid, ger bron eich brodyr chwi meibion Iſrael.

6 Mewn trefn offrymmwch y Paſc, a pharatoiwch yr aberthau i'ch brodyr: a cheidwch y Paſc yn ôl gorchymyn yr Arglwydd drwy [law] Moſes.

7 Ac Ioſias a roddodd i'r bobl y rhai oeddynt yn breſennol ddeng-mil ar hugain o ŵyn a mynnod, a thair mil o eidionnau: hyn o gyfoeth y brenin a roddwyd i'r bobl, ac i'r offeiriaid, ac i'r Leſiaid yn ôl yr addewid.

8 Yna Helcias, a Zacharias, a Syelus llywodraeth-wŷr y Deml a roddaſant i'r offeiriaid tu ag at y Paſc, ddwy fil [a chwe chant] o ddefaid, a thrychant o eidionnau.

9 Iechonias hefyd, a Samaias, a Nathanael ei frawd, a Sabaias, ac Ochiel, ac Ioram milwriaid a roddaſant i'r Leſiaid yng-hyfer y Paſc bum mil o ddefaid, a ſeith-cant o eidionnau.

10 Pan orphennwyd hyn yn drefnus, yr offeiriaid a'r Leſiaid a ſafaſant drwy yr llwythau a chanddynt fara croiw,

11 Yn ôl doſparthiadau teuluoedd eu tadau hwynt, yng-ŵydd y bobl i offrymmu i'r Arglwydd, fel y mae yn ſcryfennedic yn llyfr Moſes: ac felly [y gwnaeth efe] y borau.

12 A hwynt a roſtiaſant yr [oen] Paſc wrth dân * yn ôl y ddefod, a'r offrymmau a ferwaſant gyd â phêr aroglau mewn pedill, a chrochanau: ac a'i rhoddaſant ger bron yr holl bobl.

Exod.12.8.

13 Wedi hynny y paratoaſant hwy iddynt eu hunain, ac i'w brodyr yr offeiriaid meibion Aaron.

14 Canys yr offeiriaid a offrymment y braſder hyd yr hwyr: a'r Leſiaid a baratoent iddynt eu hunain, ac i'w brodyr yr offeiriaid meibion Aaron.

15 A'r cantorion ſanctaidd meibion Aſaph oeddynt yn eu cyflê yn ôl gorchymyn Dafydd, ſef Aſaph, Zacharias ac Edinus gweledydd y brenin.

16 A'r porthorion oeddynt ym mhob porth, ni chaent hwy ymado o'i gwaſanaeth, canys eu brodyr y Leſiaid a baratoent iddynt hwy.

17 Felly y gorphennwyd holl waſanaeth yr Arglwydd y diwrnod hwnnw:

18 Gan gynnal y Paſc, ac offrymmu poeth offrymmau ar allor yr Arglwydd, yn ôl gorchymyn y brenin Ioſias.

19 Felly meibion Iſrael y rhai oeddynt breſennol a gynhaliaſant y Paſc yr amſer hwnnw: a gŵyl y bara croiw dros ſaith niwrnod.

20 Ac ni chynhaliaſid Paſc fel hwnnw yn Iſrael er amſer Samuel y prophwyd.

21 Ac ni chynhaliodd neb o frenhinoedd Iſrael y cyffelyb Paſc a'r a gynhaliodd Ioſias, a'r Leſiaid, a'r Iddewon, a holl Iſrael, a'r rhai oeddynt breſennol o drigolion Ieruſalem.

22 Yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnaſiad Joſias y cynhaliwyd y Paſc hwnnw.

23 A gweithredoedd Joſias oeddynt iniawn ger bron ei Arglwydd â chalon gyflawn o dduwioldeb.

24 Ac am y pethau y rhai a ddigwyddaſant yn ei amſer ef, y maent hwy yn ſcrifennedic o'r blaen, o rann y rhai a bechaſant ac a fuant annuwiol yn erbyn yr Arglwydd rhagor pôb cenhedlaeth a theyrnas, gan ei driſtâu ef [ai] ſynwŷr, fel y cyfododd geiriau yr Arglwydd yn erbyn Iſrael.

2 Cron. 35.20. 25 Wedi darfod i Joſias y pethau hyn, y digwyddodd i *Pharao brenin yr Aipht ddyfod i ryfêla yn erbyn Carchamis ar Euphrates: ac Joſias a aeth iw gyfarfod ef.

26 Ond brenin yr Aipht a anfonodd atto ef, gan ddywedyd: beth ſydd i mi a wnelwyf â thi ô frenin Juda?

27 Nid yn dy erbyn di i'm gyrrodd yr Arglwydd Dduw, ond fy rhyfel i ſydd ar Euphrates, ac yn awr yr Arglwydd ſydd 'gyd â mi, a'r Arglwydd ſydd yn peri i mi fryſſio: ymado â mi, ac na wrthwyneba yr Arglwydd.

28 Ond ni throe Joſias ei gerbyd oddi wrtho ef, eithr efe a ymdaclodd i ymladd ag ef, heb yſtyried geiriau Jeremi y prophwyd [y rhai oeddynt] o enau yr Arglwydd.

29 Ac efe a fyddinodd yn ei erbyn yn nyffryn Megido, a'r tywyſogion a ddaethant i wared at frenin Joſias.

30 A'r brenin a ddywedodd wrth ei weiſion, dygwch fi allan o'r gâd, canys yr ydwyf yn ddeffygiol iawn: ac yn ebrwydd ei weiſion ai dugaſant ef allan o'r gâd:

31 Yna efe a eſcynnodd iw ail cerbyd, ac wedi iddo ddychwel i Jeruſalem efe a fu farw, ac a gladdwyd ym meddrod ei dadau.

32 A thrwy holl Juda y galarwyd am Joſias, ac Jeremi y prophwyd a alar-nadodd am Joſias, a'r llywodraeth-wŷr ai gwragedd a wnaethant gwynfan mawr am Joſias hyd y dydd heddyw: ac fe aeth hynny yn ddefod yn oeſtad ym mhlith holl genedl Iſraël.

33 Ond y mae y pethau hyn yn ſcrifennedic yn llyfr hyſtoriau brenhinoedd Juda: a phob gweithred a'r a wnaeth Joſias, ai ogoniant ai wybodaeth yng-hyfraith yr Arglwydd, a'r pethau a wnaethe efe o'r blaen, a'r pethau [a yſpyſſwyd] y pryd hyn ſy ſcrifennedic yn llyfr brenhinoedd Iſrael, ac Juda.

2.Bren. 23.31. 2,cron.36.1. 34 Yna y rhai oeddynt o genedl [yr Iddewon] a gymmeraſant *Joachas fab Joſias, ac ai vrddaſant ef yn frenin yn llê Joſias ei dad, pan oedd efe dair blwydd ar hugain o oed.

35 Ac efe a deyrnaſodd yn Juda, ac yn Jeruſalem dri mis: canys brenin yr Aipht ai tynnodd ef ymmaith o deyrnaſu yn Jeruſalem.

36 Ac efe a drethodd ar y bobl gant talent o arian, ac vn talent o aur.

37 A brenin yr Aipht a wnaeth Joacim ei frawd ef yn frenin Juda, ac Jeruſalem.

38 Ac efe a rwymodd Joachaz ai lywodraeth-wŷr: ac efe a ddaliodd Zaraces ei frawd, ac ai dug ef ymmaith i'r Aipht.

39 Joacim oedd bum mlwydd ar hugain pan ddechreuodd efe deyrnaſu yn Juda, ac Jeruſalem, ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

40 Am hynny Nabuchodonoſor brenin Babilon a ddaeth i fynu yn ei erbyn ef, ac efe ai rhwymodd ef â chadwyn brês, ac ai dug ef ymmaith i Babilon.

41 Yna Nabuchodonoſor a gymmerth o leſtri ſanctaidd yr Arglwydd, ac ai dug hwynt ymmaith, ac ai rhoddes yn ei Deml ei hun o fewn Babilon.

42 Ond ei holl weithredoedd ef, ai halogedigaeth ai gabledd ef ſydd yn ſcrifennedic yn llyfr Cronicl y brenhinoedd.

43 Ac Joacim ei fab a deyrnaſodd yn ei lê ef: a deu-nawmlwydd oed oedd efe pan vrddwyd ef yn frenin.

44 A thri mis a deng-nhiwrnod y teyrnaſodd efe yn Jeruſalem: ac yntef a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd.

45 Felly ym mhen y flwyddyn Nabuchodonoſor a anfonodd, ac ai dug ef i Babilon, gyd â lleſtri ſanctaidd yr Arglwydd.

46 Ac efe a wnaeth Zedecias yn frenin Juda ac Jeruſalem, pan oedd efe yn mlwydd ar hugain o oed: ac efe a deyrnaſodd vn mlynedd ar ddêc.

47 Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yng-olwg yr Arglwydd, ac nid ofnodd efe y geiriau* y rhai a ddywedaſe Jeremi y prophwyd o enau yr Arglwydd. Ierem.38.28.

48 Canys yn ôl iddo ef fod wedi ei dyngu i Nabuchodonoſor, efe a dyngodd yn anudon i enw yr Arglwydd, ac a wrthryfelodd, ac a galedodd ei warr ai galon, ac a droſſeddodd gyfreithiau Arglwydd Dduw Iſrael.

49 A phennaethiaid y bobl, a'r offeiriaid a wnaethant lawer o anwiredd yn erbyn y cyfreithiau, ac a ragoraſant ar holl frynti yr holl genhedloedd, ac a halogaſant Deml yr Arglwydd, yr hon â gyſſegraſid yn Jeruſalem.

50 Er hynny Duw eu tadau hwynt a ddanfonodd ei gennad iw galw hwynt trachefn, am iddo ef fod yn eu harbed hwynt, ai Dabernacl ei hun.

51 Ond hwynt-hwy a watwarent ei gennadau ef, a'r dydd yr ymddiddane yr Arglwydd [â hwynt] hwynt a ddynwarent ei brophwydi ef.

52 [illegible] efe a ddigllonodd wrth ei bobl am eu camweddau mawrion hwynt, ac efe a barodd i frenhinoedd y Caldeaid ddyfod i fynu yn eu herbyn hwynt.

53 Y rhai hyn a laddaſant eu gwŷr ieuaingc â'r cleddyf o amgylch eu Teml ſanctaidd, ac ni pharchaſant na gwŷr ieuaingc, na morwyn, na hên-wr, na phlentyn yn eu plith hwynt.

54 Eithr efe ai rhoddes hwynt oll yn eu dwylo hwynt, a holl leſtri ſanctaidd yr Arglwydd, mawrion a bychain, a lleſtri Arch Dduw: a hwynt a gymmeraſant, ac a ddugaſant, ymmaith dryſſorau y brenin i Babilon.

55 Ac a loſcaſant Deml yr Arglwydd, ac a ddrylliaſant i lawr furoedd Ieruſalem, ac a loſcaſant eu tŷrau â thân.

56 Difwynaſant hefyd ei holl bethau gwerthfawr, ac ai diniſtriaſant: ac efe a ddug ymmaith y rhai a weddillaſe y cleddyf i Babilon.

57 Y rhai a fuant yn gaeth-weiſion iddo ef, ac iw feibion, nes teyrnaſu o'r Perſiaid: fel y cyflawnid * gair yr Arglwydd [yr hwn a ddywedaſe efe] drwy enau Ieremi,

Ier.25.11. & 29.10.

58 Fel y mwynhae yr wlâd ei Sabbothau yr holl amſer a'r y bu hi yn ddiffaethwch, [ſef] oni chyflawnwyd deng mhlynedd a thrugain.

## PEN. II.

1 Cyrus yn caniadhau i'r Iddewon ddychwelyd, 10 yn anfon y lleſtri ſanctaidd yn eu hôl. 13 Enwau y rhai a ddychwelâſant. 16 Eu gwrthwynebwyr yn rhwyſtro eu hadailadaeth: 17 a llythyrau y brenin o herwydd hynny.

YN y flwyddyn gyntaf o deyrnaſiad Cyrus brenin y Perſiaid, (i gyflawni gair yr Arglwydd o enau Ieremi)

2 Yr Arglwydd a annogodd yſpryd Cyrus brenin y Perſiaid, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas, a [hynny] hefyd mewn ſcrifen,

3 Gan ddywedyd: fel hyn y dywedodd Cyrus brenin y Perſiaid: Arglwydd yr Iſrael, ie yr Arglwydd goruchaf a'm gwnaeth ſi yn frenin ar yr holl fŷd,

4 Ac efe a orchymynnodd i mi adailadu iddo ef dŷ yn Ieruſalem, yr hon ſydd yn Iuda.

5 [Am hynny] od oes nêb o honoch chwi oi bobl ef, bydded yr Arglwydd [ſef] ei Arglwydd gyd ag ef, ac eled i fynu i Ieruſalem yr hon ſydd yn Iuda, ac adailaded dŷ Arglwydd yr Iſrael: efe yw'r Arglwydd yr hwn ſydd yn preſſwylio yn Ieruſalem,

6 A phwy bynnac ſydd yn cyfanneddu y lleoedd hynny oi hamgylch, cynnorthwyant ef (y rhai ydynt yno] ag aur, ac ag arian,

7 A rhoddion, â meirch, ac anifeiliaid, gyd ag addunawl offrymmau i Deml yr Arglwydd, yr hon ſydd yn Ieruſalem.

8 Yna pennaethiaid teuluoedd Iuda, a llwyth Beniamin a'r offeiriaid, a'r Lefiaid a gyfodâſant, a chymmeint oll a'r y cynhyrfodd yr Arglwydd eu meddwl i fyned i fynu, ac i adailadu tŷ i'r Arglwydd yn Ieruſalem.

9 A'r rhai oeddynt oi hamgylch hwynt ai cynnorthwyâſant ym mhob peth ag arian, ac ag aur, â meirch, ac anifeiliaid, ac ag ymrafael addunawl roddion y rhai yr oedd eu meddwl wedi eu cynhyrfu [at hynny.]

10 Brenin Cyrus hefyd a ddug allan leſtri ſanctaidd yr Arglwydd, y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor ymmaith o Ieruſalem, ac ai cyſſegraſe yn nheml ei eulynnod

11 A phan ddug Cyrus brenin y Perſiaid hwynt allan, efe ai rhoddodd hwynt at Mithridates ei dryſſorydd,

12 Iw rhoddi hwynt i Abaſſar rhaglaw Iuda.

13 Dymma eu rhifedi hwynt: mil o gawgiau aur, a mil o gawgiau arian, o noiau arian i'r ebyrth naw ar hugain, dêc ar hugain o phiolau aur, ac o arian dwy fil, pedwar cant a dêc, a mil o leſtri eraill.

14 Felly yr holl leſtri aur ac arian, y rhai a ddugaſid ymmaith oeddynt bum mil, a phedwar-cant, a naw a thrugain.

15 A Sanabaſſar ai dug hwynt gyd a'r [rhai a aethant] o gaethiwed Babilon i Ieruſalem.

16 Ond yn amſer Artaxerxes brenin y Perſiaid: Belemus, a Mithridates, a Thabelius, a Rathumus, a Beelteethmus, a Semelius yr ſcrifennydd, ac eraill oi cyd-ſwydd-wŷr hwynt, y rhai oeddynt yn aros yn Samaria, ac mewn lleoedd eraill, a ſcrifennaſant y llythr hwn yn erbyn y rhai oeddynt yn preſſwylio yn Iuda, ac Ieruſalem: AT Y BRENIN ARTAXERXES [EIN] HARGLWYDD,

17 Dy weiſion di, Rathumus ſcrifennydd pethau digwyddawl, a Semelius yr ſcrifennydd, ac eraill oi cyd-gynghor-wŷr, a'r barnwŷr y rhai ydynt yn Coeloſyria, ac yn Phenice:

18 Bydded hyſpys i'n harglwydd frenin fod yr Iddewon y rhai a ddaethant oddi wrthych chwi attom ni i Ieruſalem (y ddinas wrthryfelgar ddrygionus honno) yn adailadu y farchnad-lê, ac yn adnewyddu ei muroedd hi, ac yn goſod ſylfaenau y Deml.

19 Am hynny os adailedir y ddinas hon, ac adnewyddu ei muroedd hi, ni wrthodant yn unic dalu teyrn-ged, eithr hwynt a wrthwynébant frenhinoedd.

20 Ac o herwydd bod y pethau y rhai ydynt yn perthynu i'r Deml yn myned rhagddynt, ni thybiaſom fod yn weddaidd gollwng heibio y fath beth:

21 Eithr ei ddangos ef i'n harglwydd y brenin, modd y gellech ti o rhynge fodd i ti chwilio yn llyfrau dy dadau,

22 A thi a gei yn ſcrifennedic yn yr hyſtoriâu am y pethau hyn, fel y cefferch di wybod fod y ddinas hon bob amſer yn gwrthryfêla, ac yn gwneuthur blinder i frenhinoedd, ac i ddinaſoedd,

23 A bod yr Iddewon yn wrthryfelgar, ac yn magu terfyſcau ynddi er ioed: o herwydd yr hwn beth y gorfu diniſtrio y ddinas hon.

24 Am hynny yn awr ô frenin yr ydym ni yn hyſpyſu i ti, os adailedir y ddinas hon, ac os cyweirir ei muroedd hi, ni bydd i ti ffordd i fyned i Coeloſyria, nac i Phenice.

25 Yna y brenin a ſcrifennodd trachefn at

Rathumus, yr hyſtoria-wr, ac at Beeltethmus, ac at Samelius yr ſcryfennydd, ac at eraill oi cyd-ſwydd-wŷr, a thrigolion Samaria, Syria, a Phenice, yn y wedd hon.

26 Wyſt a ddarllenais y llythr yr hwn a ddanfonaſoch chwi attaſi: am hynny mi a orchymynnais chwilio, ac fe a gafwyd, fod y ddinas hon bob amſer yn gwrthwynebu brenhinoedd,

27 A bod ei phobl yn gwneuthur terfyſcoedd, a rhyfeloedd, a bod brenhinoedd cryſion, a chedyrn yn teyrnaſu yn Jeruſalem, y rhai oeddynt yn mynnu teyrn-ged o Coeloſyria, a Phenice.

28 O herwydd hynny y gorchymynnais yn awr wahardd i'r gwŷr hyn adeiladu y ddinas, a gwilied rhac gwneuthur o honynt ddim mwyach,

29 Ac na chaffe y pethau drygionus hynny (y rhai fyddent yn blîno y brenin) fyned rhagddynt.

30 Ac wedi i Rathumus, a Semelius yr ſcrifennydd, ac eraill eu cyd-ſwydd-wŷr ddarllen y pethau a ſcrifennaſe y brenin Artaxerxes, yna hwynt a ddaethant ar ffrŵſt i Jeruſalem ai byddinau o wŷr meirch, ac o wŷr traed,

31 Ac a ddechreuaſant rwyſtro yr adeiladwŷr, fel y peidiodd adeiladaeth y Deml yn Jeruſalem hyd yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Darius brenin y Perſiaid.

## PEN. III.

Gwlêdd Ddarius. 16 y tair dammeg doethion.

A Phan oedd Darius yn teyrnaſu, efe a wnaeth wledd fawr i'w holl ddeiliaid, ac i'w holl deulu, ac i holl lywodraeth-wŷr Media, a Phersia,

2 Ac i'r holl bennaethiaid, blaenoriaid hefyd, a ſwydd-wŷr y rhai oeddynt tano ef o India hyd Ethiopia, drwy gant, a ſaith ar hugain o dalaithau.

3 Ac wedi iddynt fwyta, ac yfed, ai digoni, hwynt a aethant ymmaith: a'r brenin Darius a aeth i'w ſtafell, ac a gyſcodd [ychydig,] ac a ddeffrôdd,

4 Yna y try-wŷr ieuaingc y rhai oeddynt yn cadw y brenin a ddywedaſant y naill wrth y llall,

5 Dyweded pob vn o honom ni ddammeg oddiwrth, a'r hwn a orchfygo, ac y gweler ei ddadl yn ddoethach na'r lleill, Darius y brenin a ddyry iddo ef fawr roddion, yn arwydd o fuddugoliaeth;

6 Sef gwiſco porphor, ac yfed mewn lleſtri euraid, a chyſcu mewn dillad goreuraid, a cherbyd a ffrwynau o aur, a gwiſc penn o ſidan, a chadwyn am ei wddf.

7 Ac efe a gaiff eiſtedd yn neſaf at Darius o herwydd ei ddoethineb, ac efe a elwir yn gâr i Ddarius.

8 Yna pob vn a ſcrifennodd ei ddammeg, ac ai ſeliodd, ac ai rhoddaſant tann ôbennydd y brenin Darius,

9 Ac a ddywedaſant, pan ddeffrô yr brenin y rhoddir iddo yr ſcrifen, a phwy bynnac y barno y brenin, a thri thywyſog Perſia fod ei ddammeg yn ddoethaf, efe a gaiff y fuddugoliaeth fel yr ſcrifennwyd.

10 Un a ſcrifennodd, trechaf yw gwîn.

11 Y llall a ſcrifennodd, trechaf y brenin.

12 Y trydydd a ſcrifennodd, trechaf yw gwragedd, ond gwirionedd a orchfyga bob peth

13 A phan ddeffrôdd y brenin, hwynt a gymmeraſant eu ſcrifenniadau, ac ai rhoddaſant iddo, ac efe ai darllenodd hwynt,

14 Ac efe a yrrodd i alw am holl bendefigion Perſia, a Media, a'r pennaethiaid, blaenoriaid, llywodraeth-wŷr, a ſwydd-wŷr,

15 Ac efe a eiſteddodd yn y frawd-lê, a'r ſcrifēniadau a ddarllenwyd ger eu bronnau hwynt

16 Yna efe a ddywedodd, gelwch y gwŷr ieuaingc fel y mynegant eu dāmegion eu hunain, felly hwynt ai galwaſant hwy, a hwythau a ddaethant i mewn.

17 Ac efe a ddywedodd wrthynt, hyſpyſwch i ni yr ſcrifenniadau: yna y cyntaf a ddechreuodd, yr hwn a ddywedaſe am ragoriaeth y gwîn,

18 Ac a ddywedodd fel hyn, ô chwy-chwi wŷr [gwelwch] mor nerthol yw gwîn, yr hwn ſydd yn twyllo pob dyn a'r ai hyfo.

19 Y mae efe yn gwneuthur yr vn meddwl gan y brenin a chan yr ymddifad, yr vn meddwl gan y caeth a'r rhydd, gan y tlawd a'r cyfoethog.

20 Y mae efe yn troi pob meddwl i ddigrifwch a llawenydd, fel na chofia efe na thriſtwch na dylêd.

21 Y mae efe yn gwneuthur pob calon yn hael, ac ni feddwl am frenin na phennaeth, ac efe a bar adrodd y cwbl drwy dalentau.

22 Pan fyddont wedi yfed nid argofiant garu na cheraint na brodyr, ac wedi hynny ar fyrder y tynnant gleddyfau.

23 Ac wedi iddynt ddadebru o'r gwin, ni ddaw yn eu côf beth a wnaethant.

24 Oh hawŷr onid trechaf yw gwin, yr hwn ſydd yn peri y cyfryw-bethau? ac wedi iddo ef ddywedyd felly, efe a ddiſtawodd.

## PEN. IIII.

Am nerth brenin. 13 Am nerth gwragedd. 34 Am nerth gwirionedd.

YNa yr ail yr hwn a ddywedaſe am ragoriaeth y brenin a ymadroddodd,

2 Oh chwychwi wŷr onid trechaf yw dynion y rhai ydynt yn llywodraethu tir, a môr, a'r hyn oll a'r y ſydd ynddynt?

3 Ond y mae y brenin yn drechaf, ac yn rheoli y cwbl, efe ſydd yn arglwyddiaethu arnynt hwy: a'r hyn oll a archo efe iddynt, hwynt ai gwnânt.

4 Oddeirch efe iddynt ryfela y naill ar y llall, hwynt hwy a wnant hynny: os denfyn efe hwynt yn erbyn y gelynion, hwynt a ânt, ac a dorrant i lawr fynyddoedd, muriau, a thŷrau.

5 Hwynt a laddant, ac a leddir, ac ni thorrant orchymyn y brenin: os gorchfygant, i'r brenin yr adferant y cwbl, yn gyſtal yr anrhaith a phob peth arall:

6 A'r ſawl nid elont i derfyſc, ac i ryfel, eithr llafurio yr ddaiar: wedi iddynt ei hau, hwynt ai medant, ac ai dygant i'r brenin, ac a gymhellant y naill y llall i dalu teyrn-ged i'r brenin.

7 Ac etto nid yw efe eithr un unic, od eirch efe ladd, fe a leddir: od eirch efe arbed, fe a arbedir.

8 Od eirch efe daro, hwynt a darawant; od eirch efe ddiffeithio, hwynt a ddiffeithiant: od eirch efe adailadu, hwynt a adailadant.

9 Od eirch efe ddiniſtrio, hwynt a ddiniſtriant, od eirch efe blannu, hwynt a blannant.

10 Felly ei holl bobl ai holl luoedd ef ydynt yn uſyddhau iddo ef ei hun: ac yn y cyfamſer efe a eiſtedd i lawr, ac a fwyttu, ac a ŷf, ac a huna.

11 Canys y rhai hyn ai cadwant ef o amgylch ogylch: ac ni ddichon nêb fyned ymmaith iw negeſſau ei hun, ac ni byddant anufydd iddo ef.

12 Oh chwychwi, ond trechaf y brenin, gan ei fod efe yn cael y cyfryw rwyſc? ar hynny efe a ddiſtawodd.

13 Yna y trydydd yr hwn a ddywedaſe am wragedd, a gwirionedd, (hwnnw oedd Zorobabel) a ddechreuodd ymadrodd,

14 Ochwychwi wŷr, nid brenin mawr, na llaweroedd o ddynion, na gwin ſydd drechaf: pwy yntef a feiſtrola arnynt hwy, a phwy ai gorchfyga hwynt? onid gwragedd?

15 Gwragedd a eſcoraſant ar y brenin, ac ar yr holl bobl y rhai ydynt yn llywodraethu môr a thir.

16 Ac o honynt hwy y ganwyd hwynt, a hwynt hwy a fagaſant y rhai a blannodd y gwinwŷdd, o ba rai y gwneir y gwin.

17 Hwynt hwy hefyd ſy yn gwneuthur dillad dynion, ac yn gwneuthur gwŷr yn anrhydeddus, ac ni ddichon gwŷr fod heb y gwragedd.

18 Pe caſclent aur ac arian, a phob peth gwerth-fawr, oni chârent hwy wraig lân hyfrydweddol?

19 Oni ymadawent hwy a'r rhai hynny oll, ac oni ymroddent atti hi, gan lygadrythu arni? a phawb a ddewiſe ei chael hi o flaen aur, ac arian, a phob peth gwerth-fawr?

20 Dŷn a ymedu ai dâd yr hwn ai magodd ef, ac ai wlâd, ac a ymlŷn wrth ei wraig.

21 Ac efe a antûria ei hoedl dros ei wraig, ac ni feddwl am dâd, na mam, na gwlâd.

22 Wrth hyn y gellwch wybod mai gwragedd ſy yn meiſtroli arnoch chwi: onid ydych chwi yn llafurio, ac yn poeni, ac er hynny yn rhoddi, ac yn dwyn y cwbl i'r gwragedd?

23 Gŵr a gymmer ei gleddyf, ac a aiff allan i ladd, ac i ledrata, ac i fordwyo ar fôr, ac afonydd,

24 Efe a wêl lew, ac a gerdd yn y tywyllwch, ac wedi hynny efe a ddwg gwbl oi ledrad, ai drais, ai anrhaith at ei gariad.

25 Am hynny gŵr a gâr ei wraig ei hun yn fwy nai dâd, neu ei fam.

26 Je llawer a aethant allan oi pwyll o herwydd gwragedd, a llaweroedd a fuant yn weiſion er mwyn gwragedd.

27 Llawer hefyd a gyfrgollwyd, ac a gyfeiliornwyd wedi iddynt bechu er mwyn gwragedd.

28 Ac yn awr oni choeliwch chwi fi? ond mawr yw'r brenin yn ei allu? onid yw pob teyrnas yn ofni cyffwrdd ag ef?

29 [Etto] mi ai gwelais ef, ac Apame (gordderch y brenin, merch Bartacus ardderchog) yn eiſtedd ar ddêheu-law yr brenin,

30 Ac yn cymmeryd y goron oddi am benn y brenin, ac yn ei rhoddi am ei [phenn] ei hun, ac yn cernodio'r brenin ai llaw aſſwy.

31 Ac yntef yn ſafn-rhythu, ac yn edrych arni, ac os chwarddde hi arno ef, yntef a chwarddei: ac os dig fydde hi wrtho ef, yna y gwenieithie efe iddi hi i gael ei chymmod.

32 Oh chwi wŷr, ond trechaf yw'r gwragedd, gan eu bod hwy yn gwneuthur fel hyn?

33 Yna'r brenin a'r tywyſogion a edrychaſant bawb ar ei gilydd: ac yntef a ddechreuodd ymadrodd am y gwirionedd.

34 O chwi wŷr, onid nerthol yw gwragedd? mawr yw y ddaiar, ac uchel yw'r wybr, a buan yw'r haul yn ei gwrs: canys efe a drŷ o amgylch y nêf mewn un dydd, ac a rêd eil-waith iw lê ei hun.

35 Ond mawr yw efe yr hwn ſydd yn gwneuthur y pethau hyn? am hynny y gwirionedd ſydd fwy a chryfach nâ dim oll.

36 Yr holl ddaiar ſydd yn galw am wirionedd, a'r nef ſydd yn ei bendithio: a phob peth ſydd yn eſcwyd, ac yn crynu [rhagddi,] ac nid oes dim anghyfiawn gyd â hi.

37 Drygionus yw gwin, drygionus yw yr brenin, a drygionus yw'r gwragedd, a holl feibion dynion ydynt ddrygionus, ai holl weithredoedd ſy anwir, ac nid oes ynddynt wirionedd, eithr yn eu hanwiredd eu hun y darfyddant.

38 Ond y gwirionedd ſydd yn aros, ac ſydd nerthol yn dragywydd, ac ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu yn oes oeſoedd.

39 Gyd â hi nid oes gymmeriad na rhagoriaeth ar neb: eithr y mae yn gwneuthur cyfiawnder, ac yn ymgadw rhag anghyfiawnder a drygioni, a phawb a ganmôlant ei gweithredoedd hi.

40 Ac nid oes yn ei barn hi ddim anghyfiawn, ac y hi yw'r cadernid, a'r deyrnas, a'r gallu, a'r mawredd drwy yr holl oeſoedd: bendigêdic fyddo Duw y gwirionedd.

41 Ar hynny efe a beidiodd a llefaru; Yna yr holl bobl a lefaſant, ac a ddywedaſant yna, mawr yw gwirionedd a threchaf.

42 Yna y dywedodd y brenin wrtho ef, go-

fyn di y peth a fynnech heb law yr hyn ſydd yn ſcrifennedic, ac ni ai rhoddwn ef i ti, am dy gael di yn ddoethaf, a thi a gei eiſtedd yn neſſaf attaf, ac yn gâr i mi i'th elwir.

43 Yna efe a ddywedodd wrth y brenin, cofia yr adduned yr hon a addunaiſt y dydd y daethoſt i'r frenhiniaeth, ſef ar i ti adailadu Ieruſalem,

44 A danfon eil-waith y lleſtri y rhai a ddugaſid ymmaith o Ieruſalem, y rhai a roddaſe Cyrus ar naill-tu, pan addunodd efe ddiniſtrio Babilon, a danfon hwythau yno.

45 Tithe hefyd a addunaiſt adailadu y Deml yr hon a loſcodd yr Edomiaid, pan ddeſtruwiodd y Caldeaid Iuda.

46 Ac yn awr ô arglwydd frenin dymma y peth yr hwn yr ydwyf yn ei ddeiſyf, ac yn ei ofyn gennit, ac dymma y mawredd a geiſiaſt gennit: am hynny yr ydwyf yn dymuno arnat ti gyflawni yr adduned yr hon a addunedaiſt ti a'th enau dy hun i Frenin y nêf.

47 Yna Darius y brenin a gyfododd i fynu, ac ai cuſanodd ef, ac a roddodd iddo lythŷrau at bawb oi oruwch-wil-wŷr, ai lywodraethwŷr, a'r blaenoriaid, a'r ſwydd-wŷr, ar iddynt hwy ei hebrwng ef, a'r ſawl oeddynt gyd ag ef yn myned i fynu i adailadu Ieruſalem.

48 Ac efe a ſcrifennodd lythyrau at holl lywodraethwŷr Coeloſyria a Phenice, ac at y rhai oeddynt yn Libanus, ar iddynt hwy gludo coed cedr o Libanus i Ieruſalem, ac adailadu y ddinas gyd ag ef.

49 Ac efe a ſcrifennodd am yr holl Iddewon y rhai oeddynt yn myned i fynu oi deyrnas ef i Iuda yng-hylch eu rhydd-deb hwynt, ſef na bydde i un pennaeth, na ſwyddog, na llywodraeth-ŵr, na goruwch-wiliwr fyned o fewn eu drysau hwynt,

50 Ac i'r holl wlad yr hon yr oeddent hwy yn ei pherchennogi fod yn rhydd iddynt hwy oddi wrth deyrn-ged, a bod i'r Edomiaid roddi iddynt hwy y trefydd y rhai yr oeddynt yn eu dal o'r eiddo yr Iddewon,

51 A rhoddi ugain o dalentau bob blwyddyn tu ag at adailadaeth y Deml hyd oni ddarfydde ei hadeiladu hi,

52 Ac i gynnal y poeth offrymmau ar yr allor beunydd (fel yr oedd y gorchymyn i offrwm dwy ar bymthec) dec eraill o dalentau bob blwyddyn.

53 A bod i bawb a'r a elê o Babilon i adailadu y ddinas, gael rhydd-deb yn gyſtal iddynt eu hunain, ac iw plant, a'r holl offeiriaid a'r a aethent ymmaith.

54 Ac efe a ſcrifennodd am gyfreidiau, a dillad yr offeiriaid, y rhai y gwaſanaethent ynddynt.

55 Ac efe a ſcrifennodd am iddynt hwy roddi i'r Leſiaid eu cyfreidiau nes gorphen y tŷ, ac adeiladu Ieruſalem.

56 Efe hefyd a ſcrifennodd am iddynt hwy roddi dognau, a chyflog i'r rhai oeddynt yn gwilied y ddinas.

57 Ac efe a anfonodd trachefn o Babilon yr holl leſtri y rhai a roddaſe Cyrus ar naill-tu: a pheth bynnac a archaſe Cyrus, efe a orchymynnodd ei wneuthur, ac anfon i Ieruſalem.

58 A phan aeth y gŵr ieuangc allan, efe a dderchafodd ei wyneb i fynu tu ag Ieruſalem, ac a ddiolchodd i Frenin nef,

59 Gan ddywedyd, oddi wrthit ti y mae y fuddugoliaeth, oddi wrthit ti y mae y doethineb, ac o honot ti y mae'r gogoniant, a minnef ydwyf dy wâs di.

60 Bendigedic wyt ti ô Arglwydd yr hwn a roddaiſt i mi ddoethineb, clodforaf di ô Arglwydd [Dduw ein] tadau.

61 Felly efe a gymmerth y llythŷrau, ac a aeth ymmaith, ac a ddaeth i Babilon, ac a fynegodd iw holl frodyr.

62 A hwynt a fendithiaſant Dduw eu tadau, o herwydd iddo ef roddi iddynt hwy rydd-deb ac eſmwythdra,

63 I fyned i fynu, ac i adailadu Ieruſalem, a'r Deml, lle yr 'ydys yn galw ar ei enw ef: a hwynt a lawenychaſant ag offer gerddgar, ac a gorfoledd tros ſaith niwrnod.

## PEN. V.

Rhifedi y rhai a ddychwelaſant o'r caethiwed. 44 Eu haddunedau hwynt. 57 Dechreuad ail adailadu y Deml. 68 Eu gelynion mewn malis yn cynnig help.

WEdi* y pethau hyn y detholwyd pennaethiaid tai eu tadau, yn ôl eu llwythau, ai gwragedd, ai meibion, ai merched, ai gweiſion, ai morwynion, ai hanifeiliaid. Ezra.2.1.

2 [A'r brenin] Darius a anfonodd fil o wŷr meirch gyd â hwynt, iw hebrwng hwynt yn ddiogel i Ieruſalem, yng-hyd ag [offer] gerddgar, tympanau a phibellau.

3 Ai holl frodyr hwynt oeddynt yn chware: felly y gwnaeth efe iddynt fyned i fynu gyd â hwynt.

4 Ac dymma henwau y gwŷr y rhai a aethant i fynu yn ôl eu teuluoedd wrth eu llwythau, [ac] yn ôl eu rhagor-fraint.

5 Yr offeiriaid, meibion Phinees fab Aaron, Ieſus [mab] Ioſedec, [fab] Saraias, ac Ioacim [mâb] Zorobabel [fab] Salathiel o dylwyth Dafydd, o genhedlaeth Phares, o lwyth Iuda.

6 Yr hwn a leſarodd eiriau doethion wrth Ddarius brenin y Perſiaid yn yr ail flwyddyn oi deyrnaſiad ef ar y mis Niſan, hwnnw yw y mîs cyntaf.

7 Ac dymma hwynt o Iuda y rhai a ddaethant i fynu o gaethiwed y gaeth-glud y rhai a gaeth-gludaſe Nabuchodonoſor brenin Babilon i Babilon,

8 Ac a ddychwelaſant i Ieruſalem, ac at y rhann arall o Iuda, pob un iw ddinas ei hun, y rhai a ddaethent gyd â Zorobabel, ac Ieſus,

Nehemias, Zacharias, Reſaias, Enenius, Mardocheus, Beelſarus, Aſpharaſus, Reelius, Roimus, [a] Baana eu blaenoriaid hwynt.

9 Eu rhifedi hwynt o'r genedl, ai blaenoriaid: meibion Phares, dwy fil, a chant [a] deuddec a thrugain, meibion Saphat, pedwar cant, [a] deuddec a thrugain.

10 Meibion Areh, ſaith gant, vn ar bymthec a deugain.

11 Meibion Phaath Moab, dwy fil, wyth gant, a dec.

12 Meibion Elã, mîl, deucant, pedwar ar ddec a deugain: meibion Zathui, naw cant, pump a deugain: meibion Corbe ſaith gant a phump: meibion Bani, chwe chant, wyth a deugain.

13 Meibion Bibai, chwe chant, tri ar hugain: meibion Aſgad, tair mil, daucant, dau ar hugain

14 Meibion Adonican, chwe chant, ſaith a thrugain: meibion Bagoi, dwy fil, chwech a thrugain: meibion Adin, pedwar cant, pedwar ar ddec a deugain.

15 Meibion Aterhezetia, deuddec a phedwar vgain: meibion Ceilan, ac Azota, ſaith a thrugain: meibion Azuram, pedwar cant, deuddec ar hugain.

16 Meibion Ananias, cant ac vn: meibion Arom, a meibion Baſſa, try-chant, tri ar hugain: meibion Aſſiphurith, cant a dau.

17 Meibion Meterus, tair mîl, a phump: meibion Bethleem, cant a thri ar hugain.

18 Hwynt hwy o Netopha, pymthec a deugain: hwynteu o Anathoth, cant, tri ar bymthec a deugain: hwynt o Bethſamos, dau a deugain

19 Hwynt o Ciriathiarim, pump ar hugain: hwynt o Caphiras, a Beroth, ſaith gant, tri a deugain: hwynt hwy o Pirath ſaith gant.

20 Hwynt o Chadias, ac Ammidioi, pum cant, dau ar hugain: hwynt o Cyrama, a Gabdes, chwe chant, vn ar hugain.

21 Hwynt o Macamos, cant, dau ar hugain: hwynt o Bethel, deuddec a deugain: meibion Nebus cant, dêc a deugain, a chwech.

22 Meibion Calamolan, ac Onus, ſaith gant, pump ar hugain: meibion Jerechus, try chant, pump a deugain.

23 Meibion Saanah, tair mîl, try chant, a dec ar hugain.

24 Yr offeiriaid meibion Jedu fâb Jeſus [y rhai a gyfrifir] ym mhlith meibion Sanaſib, naw cant, deuddec a thrugain: meibion Meruth mîl deuddec a deugain.

25 Meibion Paſhur, mîl, a ſaith a deugain: meibion Charim, mîl, a dêc a thrugain.

26 Y Leſiaid, meibion Jeſue, Cadmiel, Banua, a Suta, pedwar ar ddêc a thrugain.

27 Y meibion [y rhai oeddynt] gantorion ſanctaidd, meibion Aſaph, cant, wyth a deugain.

28 Y porthorion, meibion Salum, meibion Jattal, meibion Tolman, meibion Dacobi, meibion Teta, meibion Sami, y cwbl [oeddynt,] gant, pedwar ar bymthec, ar hugain.

29 Gwenidogion y Deml, meibion Eſau, meibion Aſipha, meibion Taboath, meibion Ceras, meibion Sud, meibion Phalen, meibion Labana, meibion Hagaba.

30 Meibion Acub, meibion Uta, meibion Cetab, meibion Agab, meibion Sibe, meibion Anan, meibion Cathua, meibion Gedur.

31 Meibion Raia, meibion Daiſan, meibion Neroda, meibion Chaſeba, meibion Gazema, meibion Azias, meibion Phinees, meibion Aſara, meibion Baſthai, meibion Aſana, meibion Meunim, meibion Naphiſon, meibion Bacubub, meibion Acupha, meibion Aſſur, meibion Pharacim, meibion Baraloth.

32 Meibion Mehida, meibion Coutha, meibion Chareſca, meibion Bareus, meibion Aſerar, meibion Thomoth, meibion Naſib, meibion Atiphan.

33 Meibion gweſion Salomon, meibion Hazophereth, meibion Pharuda, meibion Geelah, meibion Lozon, meibion Jſdael, meibion Staphelia.

34 Meibion Agia, meibion Pharareth, meibion Sabin, meibion Spartia, meibiõ Maſias, meibion Gar, meibion Adu, meibion Subah, meibion Apherra, meibion Barodis, meibion Sabat, meibion Alon.

35 Holl wenidogion y Deml, a meibiõ gweiſion Salomon: try chant, a deuddec a thrugain.

36 Y rhai hyn a ddaethant i fynu o Thelmiah, a Thelharſa: Caralathar, ac Alar yn eu harwain hwynt.

37 Ac ni fedrent hwy ddangos eu teuluoedd, nai bônedd, pa fodd yr oeddynt o Jſrael: meibion Dalaias, meibion Thuba, meibion Necodan, chwe chant, [a] deuddec a deugain.

38 Ac o'r offeiriaid y rhai oeddynt yn offeiriadu, ac heb eu cael, meibion Hobia, meibion Hacoz, meibion Adus yr hwn a gymmeraſe [iddo] yn wraig Augia [vn] o ferched Barzeleus.

39 A hi a alwyd ar ei enw ef: ac ſcrifen y genhedlaeth hon a geiſiwyd ym myſc yr achau, ond ni's cafwyd, ac am hynny y gwaharddwyd iddynt offeiriadu.

40 Canys Nehemias, ac Atharias a ddywedaſant wrthynt na chaent hwy fod yn gyfrannogion o'r pethau cyſſegredic, oni gyfode arch-offeiriad dyſcedic o addyſc a gwirionedd.

41 Felly hwynt oll o Jſrael, o'r rhai oeddynt ddeuddeng-mlwydd, ac yn blant bychain oeddynt o gyfrif dwy fil a deugain, try chant a thri vgain heb law gweiſion a morwynion.

42 Eu gweiſion ai llaw-forwyniõ [oeddynt] ſaith mîl, try chant, a ſaith a deugain: a'r cantorion, a'r cantoreſau, dau cant, pump a deugain.

43 Pedwar cant, a phymthec a'r hugain o gamelod, ſaith gant ac vn a'r bymthec a'r hugain o feirch, dau cant a phump a deugain o fulod, pum mil a phum cant, a phump a'r hugain o aniſeiliaid arferol o'r iau.

44 Ac [rhai] oi llywiawd-wŷr hwynt yn ôl eu teuluoedd, pan ddaethant i Deml Dduw yn

Jeruſalem, a addunaſant adailadu y tŷ yn ei le ei hun yn ôl eu gallu.

45 A rhoddi i dryſſor y gwaith fil o bunnau o aur, a phum mil o bunnau o arian, a chant o offeiriadaidd wiſcoedd.

46 Felly yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r bobl a drigaſant yn Jeruſalem, ac yn y wlad [o amgylch,] a'r cantorion ſanctaidd, a'r porthorion, a holl Jſrael yn eu pentrefydd.

47 Ond pan ddaeth y ſeithfed mis, pan oedd pawb o feibion Jſrael ar ei eiddo ei hun, hwynt a ymgaſclaſant eu gyd o vn frŷd mewn lle amlwg wrth y porth cyntaf yr hwn ſydd tua yr dwyrain.

48 Jna Jeſus mab Joſedec, ai frodyr yr offeiriaid, a Zorobabel mab Salathiel ai frodyr, gā godi i fynu a barataoaſant allor Duw Jſrael,

49 J offrymmu poeth offrymmau arni hi, megis y mae yn ſcrifennedic yn llyfr Moſes gŵr Duw.

50 Ac yno yr ymgaſclodd yn eu herbyn hwynt [rai] o holl genhedloedd y wlad, ond hwynt hwy a drefnaſant yr allor yn ei chyfle er bod holl gēhedloedd y wlad yn elynnion iddynt: a hwynt a offrymmaſant ebyrth wrth yr amſer, a phoeth offrymmau i'r Arglwydd borau a hwyr.

Lefit.23.34. 51 Hwynt hefyd a gadwaſant ŵyl y pebyll, fel y mae yn orchymynnedic * yn y gyfraith, ac [a offrymmaſant] ebyrth beunydd fel yr oedd yn ddyledus.

52 Ac wedi hynny yr offrymmau gwaſtadol, ac offrymmau y Sabbothau, a'r newydd loerau, a'r holl vchel-wyliau ſanctaidd.

53 A'r rhai vll a'r a wnaethent adduned i Dduw a ddechreuaſant offrymmu aberthau i Dduw yn y dydd cyntaf o'r ſeithfed mis, er nad adailadaſyd etto Deml Duw.

54 A hwynt a roddaſant i'r ſeiri maen, ac i'r ſeiri prenn arian, a bwyd, a diod yn llawen.

55 A [hwynt a roddaſant] geir i'r Sidoniaid, ac i'r Tyriaid i ddwyn cedr-wydd o Libanus, y rhai a gludid yn fflodiau i borthladd Joppe, fel y gorchymynnaſid iddynt hwy drwy Cyrus frenin y Perſiaid.

56 Ac yn yr ail flwyddyn, ar yr ail mis y daeth i Deml Duw yn Jeruſalem Zorobabel mab Salathiel, ac Jeſus mab Joſedec, ai brodyr, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r holl rai a'r a ddaethent i Jeruſalem allan o gaethiwed [Babilō]

57 A hwynt a ſylfaenaſant dŷ Dduw ar y dydd cyntaf o'r ail mis, yn yr ail flwyddyn ar ôl eu dychweliad hwynt i Juda, ac Jeruſalem.

58 A hwynt a oſodaſant y Lefiaid [y rhai oeddynt] tros vgain-mlwydd oed ar waith yr Arglwydd, ac Jeſus ai fab, ai frodyr, a Chadmiel ei frawd, a meibion Madiabon gyd â meibion Joda fâb Eliadon, ai meibion, ai brodyr, [ſef] yr holl Lefiaid o vn frŷd a ddilynaſant gan wneuthur y gwaith yn nhŷ Duw: felly y gweithwŷr a adailadaſant Deml yr Arglwydd.

59 A'r offeiriaid a ſafaſant (wedi eu gwiſco mewn gwiſcoedd lleiſion) ag [offer] gerddgar, ac ag vdcyrn, a'r Lefiaid meibion Aſaph â ſymbalau,

60 Yn canu, ac yn moliannu yr Arglwydd, fel yr ordeiniaſe Dafydd brenin Jſrael.

61 A hwynt a ganaſant ganiadau yn llafar er moliant i'r Arglwydd, o herwydd bod ei drugaredd ai ogoniant yn dragywydd ar holl Jſrael

62 Yna yr holl bobl a leiſiaſant mewn vdcyrn, ac a waeddaſant â llêf vchel, baſſin gyd foliannu yr Arglwydd, am godi i fynu tŷ yr Arglwydd.

63 Rhai hefyd o'r offeiriaid a'r Lefiaid, a'r pennaethiaid [ſef] yr henuriaid, y rhai a welſent y tŷ cyntaf,

64 A ddaethant [i edrych] adailadaeth hwn drwy wylofain a nâd fawr: llawer hefyd ag vdcyrn, ac â llawenydd [mawr a waeddaſant] â llêf vchel,

65 Fel nad alle y bobl glywed yr vdcyrn gan nâd y bobl: etto yr oedd tyrfa fawr yn lleiſio mewn vdcyrn, fel y clywyd hwynt ym mhell.

66 Am hynny pan glybu gelyniō llwythau Juda, a Beniamin hynny, hwy a ddaethant i gael gwybod beth oedd ſain yr vdcyrn [yn ei arwyddoccau.]

67 Yna y gwybuant hwy mai y rhai a ddaethent o'r caethiwed a adailadaſent y Deml i Arglwydd Dduw Jſrael.

68 Am hynny hwy a aethant at Zorobabel, ac Jeſus, ac at bennaethiaid y teuluoedd gan ddywedyd wrthynt, a gawn ni adailadu gyd â chwi hefyd?

69 Canys yr ydym ni yn vfyddhau i'ch Arglwydd chwi fel yr ydych chwithau, ac yn aberthu iddo ef er dyddiau Aſbazareth brenin Aſſyria, yr hwn a'n dug ni ymma.

70 Yna Zorobabel, ac Jeſus, a phennaethiaid teuluoedd Jſrael a ddywedaſant wrthynt hwy, ni pherthyn i chwi, ac i ni adailadu tŷ i'r Arglwydd ein Duw ni.

71 Canys nyni ein hunain a adailadwn i Arglwydd Dduw Jſrael fel y mae yn weddus i ni, [ac fel] y gorchymynnodd Cyrus brenin Perſia i ni.

72 Er hynny pobl y wlad a wnaethant i'r rhai oeddynt yn Juda ddiogi, ac a rwyſtraſant iddynt adailadu y gwaith, a thrwy eu cynllwyn hwynt, ai terfyſcoedd, ai bradwriaeth, hwynt hwy a luddiaſant orphen yr adailadaeth,

73 Tra fu brenin Cyrus yn fyw: felly y rhwyſtrwyd hwynt rhac adailadu dros yſpaid dwy flynedd, hyd deyrnaſiad [brenin] Darius.

## PEN. VI.

1 Aggeus a Zacharias yn prophwydo. 2 Adailadaeth y Deml. 3 Siſinnes yn gadel iddynt. 7 Ei lythr ef at frenin Darius. 23 Atteb y brenin.

AC yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Darius, Aggeus a Zacharias mab Jddo y prophwydi a brophwydaſant i'r Jddewon, ac i'r rhai [oeddynt] in Juda, ac yn Jeruſalem, [ie] yn enw Arglwydd Dduw Jſrael wrthynt hwy.

2 Yna Zorobabel mab Salathiel, ac Jeſus mab Joſedec a ſafaſant i fynu, ac a ddechreuaſant adailadu tŷ yr Arglwydd yr hwn ſydd yn Jeruſalem, y prophwydi yr Arglwydd oeddynt gyd â hwynt yn eu cynnorthwyo.

3 Yn y cyfamſer hwnnw Siſinnes llywawdr Syria a Phenice, a Sathrabuzanes ai gyfeillion a ddaethant attynt hwy, ac a ddywedaſant wrthynt,

4 Drwy orchymyn pwy 'r ydych chwi yn adailadu y tŷ hwn, a'r adailadaeth ymma? ac yn deſnyddio yr holl bethau eraill ymma? a phwy yw 'r adailad-wŷr y rhai ydynt yn bwriadu y fâth bethau?

5 Onid henuriaid yr Iddewon a gawſent ffafor gan yr Arglwydd wedi iddo ef ymweled a'r caethiwed,

6 Fel na rwyſtrwyd hwynt i adailadu nes hyſpyſſu i Ddarius y pethau hynn, a chael atteb [oddi wrtho ef.]

7 Coppi o'r llythr yr hwn a ſcrifennodd efe ac a anfonodd at Ddarius. Siſinnes llywiawdr Syria a Phenice, a Sathrabuzanes ai cyfeillion pennaethiaid Syria a Phenice yn annerch brenin Darius.

8 Bydded hyſpys oll i'n harglwydd frenin mai pan ddaethom ni i wlad Juda, a myned i mewn i ddinas Jeruſalem nyni a gawſom yn ninas Jeruſalem henuriaid yr Iddewon y rhai oeddynt o'r gaeth-glud,

9 Yn adailadu tŷ i'r Arglwydd, mawr a newydd, o gerric nâdd gwerthfawr, a'r coed wedi eu goſod euſus ar y magwyrydd.

10 Ac yr ydys yn gwneuthur y gwaith hwn ar frŷs, ac y mae y gwaith yn myned yn llwyddiannus yn eu dwylo hwynt, a thrwy ogoniant, ac aſtudrwydd y gorphennir ef:

11 Yna nyni a ofynnaſom i'w henuriaid gan ddywedyd: drwy orchymyn pwy yr ydych chwi yn adailadu y tŷ hwn, ac yn ſylfaenu y gwaith ymma?

12 Nyni a ofynnaſom y pethau hyn iddynt hwy, ar fedr eu hyſpyſſu hwynt i ti, ac ſcrifennu attat ti [enwau] y gwŷr y rhai ydynt yn lywodraeth-wŷr arno: am hynny nyni a ofynnaſom iddynt enwau y llywawd-wŷr yn ſcrifennedic.

13 Ond hwynt a'n hattebaſant gan ddywedyd: gweiſion ydym ni i'r Arglwydd yr hwn a greawdd y nefoedd a'r ddaiar.

14 A'r tŷ hwnn a adailadwyd er ys llawer o flynyddoedd drwy frenin Iſrael, mawr a chadarn, ac a orphennwyd.

15 Ond pan annogodd ein tadau ni [Dduw] i ddigllonedd, [a phan] bechaſant yn erbyn Arglwydd Iſrael [yr hwn ſydd] yn y nefoedd, efe ai rhoddes hwynt yn nwylo Nabuchodonoſor brenin Babilon, a'r Caldeaid,

16 [Y rhai] a ddrylliaſant y tŷ, [ac] ai lloſcaſant ef, ac a gaeth-gludaſant y bobl i Babilon.

17 Ond yn y flwyddyn gyntaf o deyrnaſiad Cyrus ar wlad Babilon, y brenin Cyrus a ſcrifennodd [orchymyn] am adailadu y tŷ hwn [eil-waith.]

18 A'r lleſtri ſanctaidd o aur, ac o arian, y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor allan o'r tŷ yn Jeruſalem, ac ai cyſſegraſe hwynt yn ei Deml ei hun, Cyrus y brenin ai dug hwynt allan o'r Deml yn Babilon, ac ai rhoddodd hwynt i Zorobabel, ac i Sanabaſſarus y llywawdr.

19 Gan orchymyn iddo ef ddwyn ymmaith y lleſtri hynny, ai goſod hwynt o fewn y Deml yn Jeruſalem, ac adailadu Teml yr Arglwydd yn ei chyfle.

20 A phan ddaeth Sanabaſſarus ymma, efe a ſylfaenodd dŷ yr Arglwydd yn Jeruſalem, ac er y pryd hynny hyd yr awr hon yr ydys yn ei adailadu, [ac] ni's gorphennwyd ef [etto.]

21 Ac yn awr o rhynga bodd i'r brenin, ceiſier allan yn nhŷ llyfrau y brenin [ſicrwydd] am [yr hyn a wnaeth] Cyrus.

22 Ac o cheir, fod adailadaeth tŷ yr Arglwydd yn Jeruſalē, wedi ei gwneuthur drwy gyd cundeb brenin Cyrus, ac os rhynga bodd i'r arglwydd ein brenin attebed efe i ni am y pethau hyn.

23 Yna y brenin Darius a orchymynnodd *chwilio tŷ llyfrau y brenin yr hwn oedd yn Babilon, ac fe a gafwyd yn Ecbatane, yr hon ſydd yn y tŵr yng-wlad Media fann lle y byddid yn goſod y fath bethau a hynny yn goffadwriaeth. Eſdra.6.1.

24 Yn y flwyddyn gyntaf o deyrnaſiad Cyrus, y brenin Cyrus a orchymynnodd adailadu tŷ yr Arglwydd yn Jeruſalem lle yr aberthent â thân gwaſtadol.

25 Uchter yr hwn [fydde] drugain cufydd, ai lêd yn drugain cufydd, a thair rhês o gerric nâdd, ac un rhês o goed newydd o'r wlad honno, a'r draul a roddid o dŷ brenin Cyrus.

26 A'r lleſtri ſanctaidd o dŷ yr Arglwydd, yn aur ac yn arian y rhai a ddugaſe Nabuchodonoſor ymmaith o'r tŷ yn Jeruſalem, ac ai cludaſe i Babilon a roddid trachefn i'r tŷ yn Jeruſalem ac a oſodid yn y fann lle yr oeddynt.

27 Hefyd efe a orchymynnodd i Siſinnes llywawdr Syria a Phenice, ac i Sathrabuzanes ai cyfeillion, ac i eraill y rhai oeddynt wedi eu goſod yn lywodraeth-wŷr yn Syria a Phenice ochelyd gorafyn y fann honno, eithr gadel i Zorobabel gwâs yr Arglwydd a llywydd Juda, ac i henuriaid yr Iddewon adailadu tŷ yr Arglwydd yn y fann honno.

28 Ac mi a orchymynnais hefyd ei adailadu ef yn gyfan eil-waith, ac iddynt hwy fod yn aſtud i gynnorthwyo y rhai oeddynt o gaeth-glud yr Iddewon nes gorphenn tŷ yr Arglwydd,

29 A rhoddi dogn allan o deyrn-ged Coeleſyria a Phenice yn ddyfal i'r gwŷr hynny tu ag at ebyrth i'r Arglwydd, ac i Zorobabel y llywydd tu ag at deirw, hyrddod, ac ŵyn.

30 Yd hefyd, a hâlen, a gwîn, ac olew yn oeſtadol bob blwyddyn heb ballu, fel y teſtiolaetho yr offeiriaid y rhai ydynt yn Jeruſalem fod yn ei dreulio beunydd,

31 Fel yr offrymment beunydd i Dduw goruchaf tros y brenin, a thros ei blant ef, ac y gweddient gyd ai hennioes hwynt.

32 Efe a orchymynnodd hefyd am bwy bynnac a droſſedde ddim a'r a ddywedpwyd o'r blaen, neu a'r a ſcrifennwyd uchod, neu a ddiddymme ddim o hynny, gymmeryd prenn allan oi feddiant ef, ai grogi ef arno, a bod ei gyfoeth ef yn eiddo y brenin.

33 Am hynny yr Arglwydd yr hwn yr ydys yn galw ar ei enw yno a ddeſtrywio bob brenin, a chenhedl a'r a eſtynno ei law i luddies, neu i wneuthur niwed i dŷ yr Arglwydd yr hwn ſydd yn Ieruſalem.

34 Myfi y brenin Darius a orchymynnais drwy gyfraith yn ddyfal am gwblhau hynn oll.

## PEN. VII.

1 Siſinnes ai gyfeillion yn gwneuthur gorchymyn y brenin, ac yn cynnorthwyo yr Iddewon i adailadu y Deml: 5 Yr amſer yr adailadwyd hi. 10 Hwynt hwy yn cynnal y Paſc.

YNa Siſinnes llywydd Coeloſyria a Phenice, a Sathrabuzanes ai cyfeilliõ a ufyddhauſant i orchymynnion Darius frenin,

2 Ac a gynnorthwyaſant yn ddyfal y gwaith ſanctaidd, gan weithio gŷd a'r henuriaid, a llywodraeth-wŷr y cyſſegr.

3 Ac felly y gwaith ſanctaidd a lwyddodd, pan ydoedd Aggeus a Zacharias y prophwydi yn prophwydo.

4 Felly hwynt a orphennaſant bob peth drwy orchymyn Arglwydd Dduw Iſrael, ac o gydtundeb Cyrus a Darius, ac Artaxerxes brenhinoedd Perſia.

5 Fel hyn y gorphennwyd y tŷ ſanctaidd ar y trydydd dydd ar hugain o'r mis Adar yn y chweched flwyddyn i Ddarius frenin y Perſiaid.

6 A meibion Iſrael, a'r offeiriaid, a'r Lefiaid, a'r rhann arall a'r a oeddynt o'r gaeth-glud mewn ſwydd a wnaethant yn ôl yr hyn [ſydd ſcrifennedic] yn llyfr Moſes.

7 Ac wrth gyſſegru Teml yr Arglwydd hwynt a offrymmaſant gant o deirw, deu cant o hyrddod, a phedwar cant o wŷn.

8 [A] deuddec gafr tros bechod holl Iſrael, yn ôl rhifedi pennaethiaid llwythau Iſrael.

9 Ar offeiriaid, a'r Lefiaid a ſafaſant yn ôl eu llwythau (wedi ymwiſco mewn gwiſcoedd lleiſion) yng-waith Arglwydd Dduw Iſrael yn ôl llyfr Moſes, a'r porthorion hefyd wrth bob porth.

10 A meibiõ Iſrael gyd a'r rhai a ddaethent allan o'r caethiwed a gynhaliaſant y Paſc ar y pedwerydd [dydd] ar ddec o'r mîs cyntaf, wedi ſancteiddio yr offeiriaid, a'r Lefiaid.

11 Ond ni ſancteiddiaſid holl feibion y gaethiwed yng-hyd, eithr y Lefiaid a gyd-ſancteiddiaſid oll.

12 Felly hwynt a offrymmaſant yr [oen] Paſc tros holl feibion y gaeth-glud, a thros eu brodyr yr offeiriaid, a throſtynt hwy eu hunain.

13 Yna holl feibion Iſrael y rhai a ddaethent o'r caethiwed a fwytawſant, [ie] y rhai oll a'r a ymneilltuaſent oddi wrth ffieidd-dra pobl y wlad honno, ac a geiſiaſant yr Arglwydd.

14 A hwynt a gadwaſant wŷl y bara croyw ſaith niwrnod gan lawenychu ger bron yr Arglwydd.

15 O herwydd iddo ef droi cyngor brenin yr Aſſyriaid tu ag attynt hwy i nerthu eu dwylo hwynt at waith Arglwydd Dduw Iſrael.

## PEN. VIII.

Eſdras yn dyfod o Babilon i Ieruſalem. 10 Coppi o'r awdurdod a roddaſid drwy Artaxerxes. 29 Eſdras yn diolch i'r Arglwydd. 32 Rhifedi y bobl y rhai a ddaethant gyd ag ef. 76 Ei weddi ef, ai gyffes,

WEdi y pethau hyn pan oedd Artaxerxes brenin y Perſiaid yn teyrnaſu y daeth [atto ef] Eſdras [mâb] Saraias, [fâb] Ezerias, [fâb] Helciah, [fâb] Salum,

2 [Fâb] Sadoc, [fâb] Achitob; [fâb] Amarias, [fâb] Ezias, [fâb] Menuerath, [fâb] Saraias. [fâb] Sanias, [fâb] Boccas, [fâb] Abiſun, [fâb] Phinees, [fâb] Eleazar, [fâb] Aaron yr offeiriaid cyntaf,

3 Yr Eſdras hwn a ddaeth allan o Babilon, ac yr oedd efe yn ſcrifennydd dyſcedic yng-hyfraith Moſes, yr hon a roddaſid drwy Arglwydd Dduw Iſrael.

4 Y brenin hefyd a roddodd iddo ef anrhydedd [mawr, ac] efe a gafodd ffafor ger ei fron ef yn ei holl ddymuniadau.

5 Gyd ag ef hefyd yr aeth rhai o feibion Iſrael, ac o'r offeiriaid, a'r Lefiaid, ac o'r cantorion ſanctaidd, ac o'r porthorion, ac o weinidogion y Deml i Ieruſalem,

6 Yn y ſeithfed flwyddyn o deyrnaſiad Artaxerxes ar y pummed mis: hon ydoedd y ſeithfed flwyddyn i'r brenin (canys hwy a aethant o Babilon y dydd cyntaf, o'r mis cyntaf,

7 Ac a ddaethant i Ieruſalem, fel y rhoddodd yr Arglwydd rwydd-deb iddynt yn eu taith)

8 O herwydd Eſdras a gawſe wybodaeth mawr, fel na adawe efe i ddim fyned heibio a'r a ydoedd yng-hyfraith yr Arglwydd, ac yn y gorchymynnion, ac efe a ddyſcodd i holl Iſrael yr holl ddeddfau a'r barnedigaethau.

9 Felly awdurdod yn ſcrifennedic drwy Artaxerxes a roddwyd i Eſdras yr offeiriad a darllenydd cyfraith yr Arglwydd: [a] choppi o honi ſydd yn canlyn.

10 BRENIN ARTAXERXES at Eſdras yr offeiriad, a darllenydd cyfraith yr Arglwydd [yn anfon] annerch.

11 Yn gymmeint am bod i yn yſtyried pethau drwy dosturiaeth, myfi a orchymynnais i'r neb a fynnẽt ac a ewyllyſient o genedl yr Iddewõ, ac o'r offeiriaid, ac o'r Lefiaid y rhai ydynt yn ein brenhiniaeth ni, gael myned gyd â chi i Iſrael.

12 Am hynny cyd-ymadawed y ſawl a fynnant, fel y gwelais i yn ddâ mi a'm ſaith garedigion [ſef] fyng-hyngoriaid,

13 Fel yr ymwelant a'r pethau y rhai ydynt yn Juda, ac Jeruſalem yn ddyfal, megis y mae gennit ti yng-hyfraith yr Arglwydd:

14 Ac y dygant y rhoddion i Arglwydd Iſrael, y rhai a addunais i, mi a'm caredigion i Jeruſalem: a'r holl aur, a'r arian ar a geſir yngwlad Babilon [yn perthynu] i'r Arglwydd yn Jeruſalem.

15 Gyd a'r hyn a roddodd y bobl i Deml yr Arglwydd eu Duw yn Jeruſalem: fel y ceſclyd hynny yn arian, ac yn aur, tu ag at deirw, a hyrddod, ac wyn, a phethau eraill yn perthynu at hynny.

16 Fel yr offrymmant ebyrth i'r Arglwydd ar allor yr Arglwydd eu Duw, yr hon ſydd yn Jeruſalem.

17 A pha beth bynnac a'r y wnelech di ti a'th frodyr o'r arian ac o'r aur, gwna di hynny yn ôl ewyllys dy Dduw.

18 A'r lleſtri ſanctaidd y rhai a roddwyd i ti tu ag at waſanaeth teml dy Dduw, yr hon ſydd yn Jeruſalem, tydi ai goſodi hwynt ger bron dy Dduw yn Jeruſalem.

19 A pha beth bynnac arall a'r a feddyliech di tu ag at gyfraid Teml dy Dduw, ti ai rhoddi ef allan o dryſſor y brenin.

20 Ac myfi brenin Artaxerxes a orchymynnais i dryſſor-wŷr Syria a Phenice, am iddynt hwy roddi yn rhwydd i Eſdras yr offeiriad, a darllenydd cyfraith y Duw goruchaf beth bynnac a'r a anfone efe am dano, hyd gant talent o arian.

21 Ac hefyd hyd gant meſur o ŷd, a chan tunnell o wîn, a phethau eraill yn ddiandlawd,

22 Gwneler pôb peth i'r goruchaf Dduw yn ddyfal yn ôl cyfraith Duw, fel na ddelo digofaint ar frenhiniaeth y brenin ai feibion.

23 Hefyd yr ydys yn gorchymyn i chwi na cheiſſer na theyrn-ged, na thrêth gan yr offeiriaid, na'r Lefiaid, na'r cantorion ſanctaidd, na'r porthorion, na gwenidogion y Deml, nac oddi ar weith-wŷr y Deml, ac na byddo awdurdod i neb drethu dim arnynt hwy.

24 A thithe ô Eſdras yn ôl doethineb Duw goſot farn-wŷr, a llywawd-wŷr y rhai a farnant drwy holl Syria a Phenice y rhai ôll ydynt ddyſcedic yng-hyfraith dy Dduw, a dyſc di y rhai annyſcedic.

25 A cholpher yn ddyfal y rhai oll a'r a droſheddant gyfraith Duw a'r brenin, ynaill ai trwy farwolaeth neu ryw goſpedigaeth arall, ai ynte trwy ddirwy o arian, neu herwriaeth.

26 Yna Eſdras yr ſcrifennydd a ddywedodd, bendigedic fyddo Arglwydd Dduw fy nhadau, yr hwn a roddodd y meddwl ymma yng-halon y brenin i ogoneddu ei dŷ ef, yr hwn ſydd yn Jeruſalem,

27 Ac a'm hanrhydeddodd fi ger bron y brenin, a'r cynghoriaid, ai holl garedigion ef ai bendefigion ef.

28 Am hynny yr oeddwn i yn gyſſurus drwy gynnorthwy yr Arglwydd fy Nuw: ac mi a geſclais wŷr o Iſrael i fyned i fynu gyd â mi.

29 Dymma y blaenoriaid yn ôl eu teuluoedd ai rhagor-fraint, y rhai a ddaethant gyd â mi allan o Babilon yn nheyrnaſiad brenin Artaxerxes.

30 O feibion Phinees, Gerſom: o feibion Ithamar, Gamaliel: o feibion Dafydd Hattus mab Cechemah:

31 O feibion Pharez Zacharias, a chyd ag ef y cyfrifwyd can-nŵr a dêc a deugain.

32 O feibion Pahath Moab, Elioenai mâb Zacharias: a chyd ag ef ddeucant o wŷr.

33 O feibion Zathoe, Sechenias mab Jezolus, a chyd ag ef dry-chant o wŷr: o feibion Adin, Obed mab Jonathã, a chyd ag ef ddeu-cant a dêc a deugain o wŷr.

34 O feibion Elam, Joſias mab Gotholias: a chyd ag ef ddeng-ŵr a thrugain.

35 O feibion Saphatias, Zarias mab Machael: a chyd ag ef ddeng-ŵr a thrugain.

36 O feibion Joab, Badias mab Jezelus: a chyd ag ef ddeuddeng-ŵr a dau cant.

37 O feibion Banid, Aſſalimoth mab Joſaphias: a chyd ag ef drugein-ŵr a chant.

38 O feibion Babi, Zacharias mab Bebai: a chyd ag ef wyth-wŷr ar hugain,

39 O feibion Aſtath, Johannes mab Acatan: a chyd ag ef ddeng-ŵr a chant.

40 O feibion Adonicam y diwethaf: ac dymma eu henwau hwynt, Eliphalet, Jeonel, a Maias, a chyd â hwynt ddeng-ŵr a thrugain: o feibion Bagouthi [fâb] Iſcacourus, a chyd ag ef ddeng-ŵr a thrugain.

41 Ac mi ai ceſclais hwynt yng-hyd wrth yr afon yr hon a elwir Thia, ac yno y gwerſſyllaſom dri diwrnod, ac y byddinais i hwynt.

42 Ond ni chefais yno yr vn o feibion yr offeiriaid na'r Lefiaid.

43 Yna mi a anfones at Eleaſar, ac wele fe a ddaeth Maaſman, ac Aluathan, a Samaian, ac Joribon, Nathan, Ennatan, Zacharian, a Moſolamon y pennaf, a'r cyfarwyddaf.

44 Ac mi a erchais iddynt fyned at Dadeus y pennaeth, yr hwn oedd yn y dryſſorfa:

45 Ac mi a orchymynnais iddynt erchi i Dadeus ac iw frodyr, a'r tryſſor-wŷr y rhai oeddynt yno, anfon i ni rai i offeiriadu yn nhŷ ein Harglwydd.

46 A hwynt a ddugaſant i ni drwy law nerthol yr Arglwydd wŷr dyſcedic o feibion Molt [mâb] Lefi fâb Iſrael [ſef] Seredia, ai feibion, ai frodyr y rhai oeddynt dri ar bymthec.

47 Ac Aſebia, ac Amon, ac Oſaian ei frodyr ef o feibion Canaineus, ai meibion hwythau yr oedd vgain-ŵr.

48 Ac o wenidogion y Deml y rhai a ordeiniaſe Dafydd, a'r rhai oeddynt oruch-wil-wŷr ar waith y Lefiaid [ſef] gwenidogion y Deml, [yr oedd] vgain, a dau cant, enwau y rhai a oſodwyd i fynu mewn ſcrifen.

49 Ac yna mi a gyhoeddais ympryd i'r gwŷr ieuaingc ger bron yr Arglwydd, fel y gelſid ceiſio ganddo ef daith lwyddiannus i ni, ac i'r rhai oeddynt gyd â ni, i'n plant ac i'n hanifeiliaid.

50 Canys mi a arſwydais ofyn i'r brenin wŷr traed, na gwŷr meirch i'n tywys ni yn ddiogel yn erbyn ein gelynnion,

51 O herwydd nyni a ddywedaſem wrth y brenin y bydde nerth ein Harglwydd ni gyd a'r neb ai ceiſient ef, iw cyfarwyddo hwynt ym mhob peth.

52 Am hynny nyni a weddiaſom ar ein Harglwydd eil-waith o herwydd y pethau hyn: ac ni ai cawſom ef yn raſ-lawn i ni.

53 Yna myfi a ddetholes o blith pennaethiaid y llwythau a'r offeiriaid ddeuddeng-ŵr: [ſef] Eſebrias, ac Aſſanias, a dêc oi brodyr gyd â hwynt.

54 Ac mi a bwyſais iddynt hwy yr arian, a'r aur, a'r lleſtri ſanctaidd o dŷ ein Harglwydd, y rhai a roddaſe y brenin, ai gynghoriaid, ai dywyſogion, a holl Iſrael hefyd.

55 Ac mi a bwyſais iddynt chwe chant, a dêc a deugain o dalentau arian, a lleſtri arian o gant talent, a chant talent o aur,

56 Ac vgain o gawgiau aur, a deuddec o leſtri prês, o brês gloiw yn diſcleirio fel aur.

57 Ac mi a ddywedais wrthynt, yr ydych chwi yn ſanctaidd i'r Arglwydd, a'r lleſtri hefyd ydynt ſanctaidd, a'r aur, a'r arian a addunwyd i Arglwydd [Dduw] eich tadau.

58 Gwiliwch, a chedwch chwi [hwynt] hyd ynni roddoch chwi hwynt i bennaethiaid y teuluoedd, yr offeiriaid, a'r Lefiaid, a thywyſogion teuluoedd Iſrael yn Ieruſalem, o fewn ſtafelloedd ein Duw ni.

59 Felly yr offeiriaid a'r Lefiaid a gymmeraſant yr arian, a'r aur, a'r lleſtri, ac ai dugaſant hwynt i Ieruſalem i Deml yr Arglwydd.

60 Ac nyni a ymadawſom oddi wrth afon Thia ar y deuddecfed [dydd] o'r mîs cyntaf, ac a ddaethom i Ieruſalem drwy nerthol law ein Harglwydd yr hon oedd gyd â ni: a'r Arglwydd a'n gwaredodd ni o ddechreu ein taith rhag ein gelynnion fel y daethom ni i Ieruſalem.

61 Ac wedi myned tri-diau heibio, ar y pedwerydd dydd y rhoddwyd yr arian pwyſedic, a'r aur yn nhŷ ein Harglwydd ni i Marimoth yr offeiriad mab Iori,

62 A chyd ag ef i Eleazer [mâb] Phinees: a chyd â hwynt yr oedd Ioſabdus [mâb] Ieſus, a Moeth mâb Sabbanus y Lefiaid: y cwbl [a roddwyd iddynt] tann rifedi, a phwys.

63 Ai holl bwys hwynt a ſcrifennwyd yr awr honno.

64 Wedi hynny y rhai a ddaethent o'r gaeth-glud a offrymmaſant ebyrth i Arglwydd Dduw Iſrael, [ſef] deuddec o deirw tros holl Iſrael, vn ar bymthec a phedwar vgain o hyrddod.

65 Deuddec a thrugain o ŵyn, deuddec o cifr am iechydwriaeth, y cwbl yn aberth i'r Arglwydd.

66 A hwynt a roddaſant orchymyn y brenin i ddiſtain y brenin, ac i lywawdwŷr Coeloſyria a Phenice, y rhai a anrhydeddaſant y bobl, a Theml Dduw.

67 Wedi gwneuthur y pethau hyn y llywawdwŷr a ddaethant attafi gan ddywedyd: pobl Iſrael, y tywyſogion a'r offeiriaid, a'r Lefiaid ni fwriaſant ymmaith [oddi wrthynt] y bobl ddieithr o'r wlâd,

68 Nac aflendid y cenhedloedd, [ſef] y Canaaneaid, yr Hethiaid, y Phereſiaid, y Iebuſiaid, a'r Moabiaid, yr Aiphtiaid hefyd a'r Edomiaid.

69 Canys hwynt a drigaſant gyd ai merched hwy, hwynt hwy ai meibion, a'r hâd ſanctaidd a gymmyſcwyd â phobl ddieithr y wlâd, a'r llywawd-wŷr ar pennaethiaid a fuant gyfrannogion o'r anwiredd ymma er dechreuad y peth.

70 A phan glywais y pethau hyn, yna mi a rwygais fy nillad, a'r wiſc ſanctaidd, ac a dynnais flew fy mhenn, a'm barf, ac a eiſteddais i lawr yn drwm, ac yn drîſt.

71 Yna y rhai oll a'r a oeddynt wedi eu cynhyrfu drwy air Arglwydd Dduw Iſrael a ddaethāt attafi tra'r oeddwn i yn ŵylo am yr anwiredd, ond myfi a eiſteddais yn driſt iawn hyd y prynhawnol aberth.

72 Yna myfi a gyfodais o ymprydio, a'm dillad yn rhwygedic, a'r wiſc ſanctaidd, ac a benlinais i lawr, ac a eſtynnais [fy] nwylo tua'r Arglwydd,

73 Ac a ddywedais, ô Arglwydd gwradwyddus a chywilyddus ydwyf ger dy fron di.

74 Canys ein pechodau ni a amlhauſant tros ein pennau ni, a'n amryfuſedd ni a dderchafwyd i'r nefoedd.

75 Ie er amſer ein tadau ni, yr ydym ni mewn pechod mawr hyd y dydd hwn.

76 Am ein pechodau ni, a'n tadau, nyni a'n brodyr, a'n brēhinoedd, a'n hoffeiriaid a roddwyd i fynu i frenhinoedd y ddaiar, i'r cleddyf, ac i gaethiwed, ac yn ſclyfaeth drwy bôb [cywilydd a] gwarth hyd y dydd hwn.

77 Ac yn awr ô Arglwydd mor fawr yw dy drugaredd di, pan adewit i ni wreiddin, ac enw yn llê dy ſancteiddrwydd,

78 A phan dadcuddit ti oleuni i ni yn nhŷ yr Arglwydd ein Duw, a rhoddi i ni fwyd yn amſer ein caethiwed:

79 Canys pan oeddem ni mewn caethiwed, ni wrthododd [yr Arglwydd] ein Duw mo honom ni, eithr efe a'n gwnaeth ni yn gymmeradwy ger bron brenhinoedd Perſia, fel y rhoddaſant hwy fwyd i ni.

80 Ac yr anrhydeddaſant Deml ein Harglwydd ni, ac y cyweiriaſant anrheithiol-leoedd Sion, ac y rhoddaſant i ni ſiccrwydd yn Iuda,

ac yn Ieruſalem.

81 Ac yn awr ô Arglwydd beth a ddywedwn ni ſy yn cael y pethau hyn? canys nyni a droſeddaſom dy orchymynnion di y rhai a roddaiſt ti [i ni] drwy law dy weiſion y prophwydi gan ddywedyd:

82 O herwydd bod y wlâd yr hon yr ydych chwi yn myned iw hetifeddu yn halogedic drwy aflendid dieithriaid y wlad, y rhai ai llanwaſant hi ai brynti,

83 Am hynny na chyſſylltwch chwi [eu] merched a'ch meibion chwi, ac na roddwch eich merched chwi iw meibion hwythau,

84 Ac na cheiſiwch chwi heddychu â hwynt byth, fel i'ch gwneler yn gryſion, ac y caffoch chwi fwyta daioni y wlâd, ai gadel hi i'ch meibion ar eich ôl chwi.

85 Am hynny yr hyn oll a'r a ddaeth i bennu á wnaed, o blegit ein drwg weithredoedd ni, a'n pechodau mawrion: er hynny ô Arglwydd tydi a yſcafnheaiſt ein pechodau ni,

86 Ac a roddaiſt i ni wreiddin: [ond] nyni a droeſom yn ein hôl, gan dorri dy gyfraith di, [ac] a ymgymmyſcaſom ag aflendid pobl y wlâd.

87 Oni ddylit ti fod yn ddigllon wrthym ni, i'n diniſtrio ni, fel na adewit ti i ni, na gwreiddin, na hâd, nac enw?

88 [Ond] tydi ô Arglwydd [Dduw] Iſrael ydwyt eir-wîr: canys gadawyd gwreiddin [i ni] hyd y dydd hwn.

89 Ac yn awr wele ni ger dy fron di yn ein pechodau, ac ni allwn ni ſefyll o'th flaen di gan ddynt hwy.

90 A phan oedd Eſdras yn gweddio, ac yn cyffeſſu, ac yn ŵylo, ac yn gorwedd ar y llawr o flaen y Deml, yna tyrfa fawr a ymgaſclaſant atto ef o Ieruſalem, o wŷr a gwragedd, a phlant: canys yr oedd galar mawr ym myſc y dyrfa.

91 Yna Iechonias mab Ieheli vn o feibion Iſrael a waeddodd, ac a ddywedodd: ô Eſdras, nyni a bechaſom yn erbyn yr Arglwydd Dduw [o achos] i ni briodi gwragedd dieithr o genhedloedd y wlâd.

92 Ac yn awr holl Iſrael ſy yn petruſſo: gan hynny tyngwn ni lw i'r Arglwydd ar yru ymmaith ein holl wragedd ni y rhai ydynt eſtroneſau gyd âi plant.

93 Os ty di, a'r holl rai ydynt yn vfyddhau cyfraith yr Arglwydd a wêl yn dda hynny, cyfot i fynu [a] chadarnhâ hynny.

94 Canys i ti y perthyn hyn, ac yr ydym ni gyd â thi i'th gryfhau di.

95 Yna Eſdras a gyfododd ac a wnaeth i holl bennaethiaid teuluoedd yr offeiriaid, a'r Lefiaid a holl Iſrael dyngu y gwnaent hwy felly: a hwynt a dyngaſant.

## PEN. IX.

7 Wedi i Eſdras ddarllen y gyfraith am y gwragedd dieithr. 18 Hwynt hwy a addawſant eu gollwng hwynt ymmaith.

YNa Eſdras a gyfododd o gyntedd y Deml, [ac] a aeth i ſtafell Ioannan mab Eliaſib,

2 Ac a arhoſodd yno, [ond] ni fwytaodd fwyd, ac nid yfodd ddiod, eithr wylodd tros anwireddau mawrion y dyrfa.

3 Ac fe a gyhoeddwyd drwy holl Iuda, ac Ieruſalem, am i'r holl rai a'r a oeddynt o'r gaeth-glud ymgaſclu yng-hyd i Ieruſalem,

4 A phwy bynnac ni chyfarfydde yno o fewn dau ddydd neu dri, fel y gorchymynnaſe yr henuriaid y rhai oeddynt yn llywodraethu, eu hanifeiliaid hwynt a attafaelyd i gyfraid y Deml, ai wthio yntef allan o blith y rhai oeddynt o'r gaeth-glud.

5 Yna yr holl rai a'r a oeddynt o lwyth Iuda a Beniamin a ddaethant yng-hyd o fewn tridiau i Ieruſalem y nawfed mîs, ar yr vgainfed [dydd] o'r mîs.

6 A'r holl gynnulleidfa yn crynu [rhac anwyd] a eiſteddaſant yn ehangder y Deml, canys gaiaf ydoedd hi.

7 Yna Eſdras a gyfododd, ac a ddywedodd wrthynt hwy, chwi a bechaſoch: o herwydd i chwi briodi eſtroneſau, ac felly amlhau pechodau Iſrael.

8 Yn awr gan hynny cyfaddefwch chwi, a rhoddwch ogoniant i Arglwydd Dduw ein tadau:

9 A gwnewch ei ewyllys ef, ac ymnailltuwch chwi oddi wrth bobl y wlâd, ac oddi wrth y gwragedd dieithr.

10 Yna yr holl dyrfa a waeddaſant, ac a ddywedaſant â llef vchel, nyni a wnawn fel y dywedaiſt ti.

11 Ond o herwydd bod y gynnulleidfa yn fawr, ac yn amſer gaiaf, fel nad allom ni ſefyll allan, ac o herwydd nad ellir gorphen y gwaith ymma mewn vn diwrnod, neu ddau, gan i lawer o honom ni bechu yn yr achos ymma,

12 Arhoſed pennaethiaid y dyrfa, a'r holl rai o'n teuluoedd ni, a'r y ſy ganddynt wragedd dieithr:

13 A deued yr offeiriaid, a'r barn-wŷr allan o bôb lle ar yr amſer goſodedic, hyd oni lonyddâ't ddigofaint yr Arglwydd yn ein herbyn, am y peth hyn.

14 Yna Ionathas mab Azaiel, ac Ezecias [mab] Thecan a ſwyddwyd o herwydd yr achos ymma, a Moſolam, a Lefis, a Sabatheus ai cynnorthwyodd hwynt.

15 A hwynt y rhai oeddynt o'r gaeth-glud a wnaethant ar ôl hyn oll.

16 Ac Eſdras yr offeiriad a ddetholodd iddo y gwŷr pennaf o'r teuluoedd erbyn eu henwau oll: ac ar y dydd cyntaf o'r decfed mis hwynt a gyd-eiſteddaſant i holi yr achos ymma.

17 Felly yr oedwyd y pethau hyn [(ſef] am y gwŷr y rhai a briodaſent wragedd dieithr) hyd y dydd cyntaf o'r mîs cyntaf.

18 Ac o'r offeiriaid y rhai a briodaſent wra-

gedd diethr, fe a gaſwyd yno,

19 O feibion Jeſus [fâb] Joſedec, ai frodyr, Mathelas, Eleazar, Joribus, ac Joadanus:

20 Y rhai a roddaſant eu dwylo hefyd i fwrw allan eu gwragedd, ac a offrymmaſant hwrdd, yn iawn wrth eu ſancteiddio hwynt.

21 Ac o feibion Emmer, Ananias, a Zabdeus, a Chanes, a Samaius, a Hiereel, ac Azarias.

22 Ac o feibion Phaiſu, Elionas, Maſſias, Eſmaelus, a Nathanael, ac Oſidelus, a Thalſas.

23 Ac o'r Lefiaid, Jozabadus, a Semis, a Cholius, yr hwn a elwid hefyd Calitas, a Putheus, ac Ondas, ac Jonas.

24 O'r cantorion ſanctaidd, Eleazarus, Bacchurus.

25 O'r porthorion, Salumus, 'a Tholbães.

26 O hwyntau o Iſrael, o feibion Phorus, Hiermas, ac Edias, a Melchias, a Maelus, ac Eleazar, ac Aſibias, a Banaias.

27 O feibion Ela, Mathanias, Zacharias, ac Hierelas, ac Hieremoth, ac Aedias.

28 Ac o feibion Zamoth, Eliadas, Eliſimus, Othonias, Jarimoth, a Sabatus, a Sardeus.

29 O feibion Bebai, Joannes, ac Ananias ac Joſabad, ac Ematheas.

30 O feibion Mani, Olamus, Mamuchus, Jedaias, Jaſubus, Jaſael, ac Jeremoth.

31 Ac o feibion Adi, Naathus, Mooſias, Caleus, a Naidus, a Matthanias, a Seſchel, a Balnuus, a Manaſſeas.

32 Ac o feibion Annas, Elionas, ac Aſeas, a Melchias, a Sabbeus, a Simon, a Choſamite.

33 Ac o feibion Aſom, Altaneus, a Matthias, a Banais, Eliphalet, a Manaſſes, a Semi.

34 Ac o feibion Maani, Jeremias, Momdis, Omairus, Jnel, Mamai, a Phaclias, ac Amos, Carabaſion, ac Eſaſibus, a Mamnimatanaius, Eliſiaſis, Famus, Eliali, Samis, Selemias, Nathanias: ac o feibion Ozoras, Seſis, Eſril, Ezailus, Samatas Sambis, Joſiphus,

35 Ac o feibion Ethna, Mazitias, Zabadias, Ethes, Jnel, Banaias.

36 Yr holl rai hyn a briodaſent wragedd dieithr, a hwynt ai gyrraſant hwy ymmaith ai plant.

37 A'r offeiriaid a'r Lefiaid a'r rhai oeddynt o Iſrael a drigaſant yn Jeruſalem, ac yn y wlâd y dydd cyntaf o'r ſeithfed mis, a meibion Iſrael yn eu tai eu hun.

38 Yna yr holl dyrfa a ddaethant yng-hyd, o un frŷd i'r fann ehang o flaen porth y Deml yr hwn ſydd tua yr dwyrain,

39 A hwynt a ddywedaſant wrth Eſdras yr arch-offeiriad a'r darllenydd am iddo ef ddwyn cyfraith Moſes yr hon a roddaſc Arglwydd Dduw Iſrael.

40 Yna Eſdras yr arch-offeiriad a ddug y gyfraith at yr holl dyrfa yn wŷr ac yn wragedd, ac at yr holl offeiriaid, fel y clywent hwy y gyfraith ar y dydd cyntaf o'r ſeithfed mis.

41 Ac efe a ddarllenodd yn y lle ehang cyntaf yr hwn ſydd o flaen porth y Deml o'r boreu [glâs] hyd hanner dydd, o flaen y gwŷr a'r gwragedd: a'r holl dyrfa a wrandawſant ar y gyfraith.

42 Felly Eſdras yr offeiriad a darllenydd y gyfraith a ſafodd i fynu mewn pulpud o goed yr hwn ydoedd wedi ei ddarparu.

43 A' Mathathias, Samus, Ananias, Azarias, Urias Ezecias a Balaſan a ſafaſant yno wrth ei ymyl ef ar ei law ddehau ef.

44 Ac ar ei law aſſwy ef [y ſafodd] Phaldeus, Sael, Melchias, Aoſathuphus, a Nabarias.

45 Yna Eſdras a gymmerth lyfr y gyfraith o flaen y dyrfa (canys efe oedd anrhydeddusaf o honynt hwy eu gyd)

46 A thra yr ydoedd efe yn yſpyſſu y gyfraith hwynt hwy a ſafaſant yn eu hiniawn ſefyll, ac Eſdras a fendithiodd yr Arglwydd Dduw goruchaf, holl-alluoc Dduw y lluoedd.

47 A'r holl gynnulleidfa a attebaſant, Amen.

48 Yna Jeſus, Anus, Sarabias, Adimas, Jacobus, Battaias, Autamas, Maianias, a Chalitas, Azarias, Johaſabdus, Ananias, a Biatas y Lefiaid a godaſant eu dwylo, ac a ſyrthiaſant i lawr, ac a addolaſant yr Arglwydd,

49 Ac a ddyſcaſant gyfraith yr Arglwydd, ac a ſafaſant hefyd yn ddyfal wrth ei darllen.

50 Yna y dywedodd Atharates wrth Eſdras yr arch-offeiriad a'r darllenydd, ac wrth y Lefiaid y rhai oeddynt yn dyſcu y dyrfa ym mhob peth: y dydd hwn ſydd ſanctaidd i'r Arglwydd a phawb a ŵylaſant wrth glywed y gyfraith.

51 Ewch chwi gan hynny a bwytewch ſwydydd breiſion, ac yfwch ddiodydd melys, ac anfonwch roddion i'r rhai nid oes dim ganddynt.

52 Canys y dydd hwn ſydd ſanctaidd i'r Arglwydd, ac na fyddwch chwi drîſt: canys yr Arglwydd a'ch gogonedda chwi.

53 Felly y Lefiaid a orchymynnaſant yr holl bethau hyn i'r bobl gan ddywedyd: y dydd hwn ſydd ſanctaidd i'r Arglwydd, na thriſtewch.

54 Yna hwynt a ymadawſant bawb i fwyta, ac i yfed, ac i lawenychu, ac i roddi rhoddion i'r rhai nid oedd dim ganddynt, ac i wneuthur yn llawen.

55 O herwydd yr oeddynt hwy etto yn gyflawn o'r geiriau a'r rhai y dyſcaſid hwynt, pan ymgaſclaſent hwy yng-hyd.

*Terſyn tryddyd llyfr Eſdras.*

# Yr ail llyfr o Eſdras yr hvvn a elwir yn gyffredinol y pedwerydd llyfr i *Eſdras.*

## PENNOD. I.

1 Cerydd y bobl am eu hanniolchgarwch. 30 Duw a ddewis bobl eraill os y rhai hyn ni wellhânt.

AIL llyfr y prophwyd Eſdras mab Saraias, mab Azarias, mab Helchias, mab Sadanias, mab Sadoc, mab Achitob,

2 Mab Achia, mab Phinees, mab Heli, mab Amerias, mab Aziei, mab Marimoth, mab Arna, mab Ozias, mab Borith, mab Abiſei, mab Phinees, mab Eleazar,

3 Mab Aaron o lwyth Lefi, yr hwn Eſdras oedd garcharor yn nhîr y Mediaid, yn amſer Artaxerxes brenin Perſia.

4 A gair 'r Arglwydd a ddaeth attaf fi gan ddywedyd,

Eſai.58.5. 5 Dos ymmaith, a mynega i'm pobl eu pechodau, ac iw plant eu hanwireddau a wnaethant i'm herbyn, fel y mynegant i blant eu plāt yr un peth.

6 Canys pechodau eu tadau a chwanegodd ynddynt, am iddynt fyng-ollwng fi dros gof, ac offrwm i dduwiau dieithr.

7 Onid myfi ai dug hwynt o dîr yr Aipht, o dŷ y caethiwed? er hynny hwyntwy a'm hannogaſant i ddigofaint, ac a ddiystyrâſant fyng-hyngor.

8 Tynn wallt dy benn, a bwrw yr holl ddrygioni arnynt hwy, o achos ni buant vfydd i'm cyfraith: ond pobl ydynt anhyddyſc.

9 Pa hŷd y cyd-ddygaf a'r rhai y gwneuthum cymmaint o ddaioni erddynt?

Exod.14.28. 10 Llawer o frenhinoedd a ddifethais i er eu mwyn hwynt, Pharao ai weiſion, ai holl lu a darewais i.

Num.21.24. Ioſ.8.12. 11 A'r cenhedloedd a ddifethais i oi blaen hwynt, ac yn y dwyrain yr anrheithiais bobl dwy dalaith [ſef] Tyrus a Sidon, ac a leddais eu holl wrthwyneb-wŷr hwynt.

12 Llefara dithe wrthynt gan ddywedyd, fel hyn y dywed yr Arglwydd,

Exod.14.29. Exod.3.10. & 4.24. 13 *Mi a'ch harweinais drwy 'r môr, ac a roddais i chwi heolydd diogel o'r dechreuad, mi *a roddais i chwi Moſes yn dywyſog, ac Aaron yn offeiriad.

Exod.13.21. 14 Rhoddais i chwi oleuni mewn paladr o dân, a rhyfeddodau mawrion a wnaethym yn eich plith: er hyn oll chwi a'm gollyngaſoch dros gof medd 'r Arglwydd.

Exod.16.13. Pſal.104.40. 15 Fel hyn y dywed 'r hollalluoc Arglwydd, *ſofl-ieir oedd yn arwydd i chwi, rhoddais i chwi babellau yn amddeffyn, a grwgnach a wnaethoch ynddynt.

16 Ac nid ymlawenhaſoch yn fy enw mau fi am ddiniſtr eich gelynniō, ond grwgnachaſoch hyd y dydd hwn.

17 Mae 'r daioni a wneuthym i chwi? *oni waeddaſoch arnaf pan oeddech newynog yn 'r anialwch? Num.14.3.

18 Gan ddywedyd, pa ham y dygaiſt ni i'r anialwch hwn i'n lladd? gwell a fuaſe i ni waſanaethu 'r Aiphtiaid na marw yn 'r anialwch hwn.

19 Y pryd hynny y toſturiais wrth eich galar, a rhoddais i chwi Manna iw fwytta, ac felly y bwyttaſoch fwyd angelion. Doethi.16.20.

20 Pan oedd ſyched arnoch, mi a holltais y graig, a'r dwfr a lifodd i'ch diwallu chwi, ac mi a'ch cyſcodais rhag y gwrês â dail y coedydd. Num.20.11.

21 Rhoddais i chwi wlâd frâs, a thêg, a bwriais allan o'ch blaen chwi y Canaaneaid, y Phereziaid a'r Philiſtiaid, beth mwy a wnaf eroch chwi medd 'r Arglwydd? Eſai.5.4.

22 Fel hyn y dywed 'r holl-alluoc Arglwydd, pan oeddech yn 'r anialwch * wrth ddwfr chwerw 'r Amoriaid yn ſychedic, ac yn cablu fy enw, Exod.15.25.

23 Ni roddais i chwi dân am eich cabl, ond bwrw prenn a wneuthym i'r dwfr, a'r afon a aeth yn groiw.

24 Pa beth a wnaf i ti Iacob? tithe Iuda nid vfuddheit i mi: mi a droaf at y cenhedloedd eraill, ac a roddaf iddynt fy henw fel y cadwant fyng-hyfreithiau.

25 Gan i chwi fyng-wrthod, minnef a'ch gwrthodaf chwithau, pan ddymunoch arnaf fod yn drugarog wrthych ni's trugarhâf.

26 Pan * alwoch arnaf ni's gwrandawaf chwi, o achos i chwi halogi eich dwylo â gwaed, a'ch traed ſydd gyflym i lladd celain. Eſai.1.13.

27 Ni wrthodaſoch fi (yn vnic) medd 'r Arglwydd, ond eich hunain a wrthodaſoch.

28 Fel hyn y dywed 'r holl-alluog Arglwydd, oni ddeiſyfiais arnoch fel y deiſyf y tâd ar ei feibion, neu fam ar ei merched, ne fammaeth ar ei rhai bychain,

29 Fod o honoch yn bobl i mi, a minne a fyddwn Dduw i chwithau, fôd o honoch yn blant i mi, minne a fyddwn dâd i chwithau?

30 *Mi a'ch ceſclais yng-hyd megis y caſcle 'r iâr ei chywion dann ei hadenydd: ond yn awr beth a wnaf i chwi? mi a'ch bwriaf allan o'm golwg. Math 23.37.

31 Pan *offrymmoch i mi, mi a drof fy wyneb oddi wrthych, canys mi a wrthodais eich gŵyl arbennic, eich lleuadau newydd a'ch enwaidiadau. Eſai.1.13.

enwaediadau.

32 Danfonais attoch fyng-waſanaeth-wŷr y prophwydi, y rhai a ddaliaſoch, ac a laddaſoch a drylliaſoch eu cyrph hwynt yn ddarniau, eu gwaed hwy a ddialaf i, medd yr Arglwydd.

33 Fel hyn y dywed 'r holl-alluog Arglwydd: eich tŷ a fydd yn anghyfannedd, mi a'ch bwriaf allan fel y gwna y gwynt i'r ſofl.

34 Ni bydd eich plant yn genhedlog am iddynt ddiyſtyru fyng-orchymyn, a gwneuthur 'r hyn oedd ddrwg ger fy mron mau fi.

35 Eich tai a roddaf i bobl y rhai a ddeuant, y rhai er na's clywſant ſôn am danaf, etto a gredant ynof, i'r rhai ie er na ddangoſais arwyddion, er hynny hwynt wy a wnânt 'r hyn a orchymynnwyf.

36 Ni welſant brophwydi, er hynny y meddyliant am eu pechodau.

37 Mynegaf y grâs a ddangoſaf i'r bobl a ddaw, plant pa rai a orfoleddant mewn llawenydd, ac er na's gwelſant fi â llygaid cnawdol, etto yn 'r yſbryd hwy a gredant yn 'r hyn a ddywedais i.

38 Ac weithian (fy mrawd) yſtyr pa anrhydedd, a gwêl y bobl ſydd yn dyfod o'r dwyrain.

39 Rhoddaf iddynt i'w harwain, Abraham, Iſaac, ac Iacob, Oſeas, Amos, a Micheas, Ioel, Abdias, ac Ionas,

40 Nahum, a Habacuc, Sophonias, Aggeus, Zachari, a Malachi 'r hwn a elwyr hefyd Angel 'r Arglwydd. Mal.3.1.

## PEN. II.

3 Yr Eglwys yn beio ar ei phlant. 18 galwedigaeth y cenhedloedd.

Fel hyn y dywed yr Arglwydd, dygais y bobl hyn o gaethiwed, a rhoddais iddynt fyng-orchymynnion drwy enau fyng-weiſion y prophwydi y rhai ni wrandawent hwy, ond diyſtyru fyng-hyngor a wnaethant.

2 Eu mam ('r hon ai magodd) a ddywed wrthynt, ewch ymmaith chwi blant, canys gweddw ydwyf, ac mi a wrthodwyd.

3 Mi a'ch megais drwy lawenydd, ond mi a'ch collais drwy alar a thrymder: canys pechaſoch yn erbyn 'r Arglwydd eich Duw, a gwnaethoch y peth oedd ddrwg yn ei olwg ef.

4 A pha beth a wnaf i chwi y pryd hyn fy mhlant? gweddw ydwyf a gwrthodedic, ewch, gofynnwch drugaredd gan 'r Arglwydd.

5 A minneu (ô dâd) a alwaf arnat ti am deſtiolaeth yn erbyn mam y plant y rhai ni chadwent fyng-hyfammod.

6 Fel y dygech hwy yn wrâdwydd, ai mam yn anrhaith, fel na chenhedler mwy o honynt hwy.

7 Gwaſcarer eu henwau ar llêd ym mhlith y cenhedloedd, bwrier hwy ymmaith oddi ar y ddaiar: canys diyſtyraſant fyng-hyfammod.

8 Gwae tydi Aſſur 'r hon a guddiaiſt 'r anwir gyd â thi: tydi genhedlaeth anwir, cofia beth a wnaethym i Sodoma a Gomorra.

9 Eu tir a droed yn briddellau pŷg, ac yn ſyppiau o ludw: felly hefyd y gwnaf i'r ſawl ni'm gwrandawant, medd 'r Arglwydd holl-alluog.

10 Fel hyn y dywed 'r Arglwydd wrth Eſdras, dywet i'm pobl y rhoddaf iddynt deyrnas Ieruſalem yr hon a roeswn i Iſrael.

11 Eu gogoniant hefyd a gymmeraf i mi, a rhoddaf iddynt hwy babellau tragywyddol, y rhai a ddarperais i'r lleill.

12 Hwy a gânt bren y bywyd wrth eu hewyllys fel arogl enaint, ni lafuriant, ac ni ddeffygiant.

13 Cerddwch, a chwi ai derbynnwch, gweddiwch ar aros o honynt ychydig ddyddiau, paratoiwyd teyrnas i chwi eiſus, (am hynny) gwiliwch.

14 Cymmer deſtiolaeth o nef a daiar, canys drylliais y drwg a gwneuthum y dâ: canys byw ydwyf medd 'r Arglwydd.

15 Tydi fam, cofleidia dy blant, a mâg hwynt drwy lawenydd, gwna eu traed yn ſicr fel colofn, canys ty di a ddywiſais i medd yr Arglwydd.

16 A'r meirw a atgyfodaf i o'i lle, ac ai dygaf allan o'r beddau: canys adnabum fy enw yn Iſrael.

17 Tydi fam y plant nac ofna, canys dewiſais di, medd 'r Arglwydd.

18 A danfonaf i'th gynnorthwyo Eſay, ac Ieremi fyng-waſanaeth-wŷr, wrth gyngor y rhai y ſancteiddiais, ac y darperais i ti ddeuddec pren yn llawn o amryw ffrwythau.

19 A'r un rhifedi o ffynhonnau yn llifeirio o laeth a mêl: a ſaith fynydd uchel yn dwyn roſau a Lili, a'r rhai y llanwaf dy blant o lawenydd.

20 Gwna di gyfiawnder i'r weddw, a chyfiawnder a'r ymddifaid, dillada 'r noeth.

21 Iachâ 'r clwyfus a'r afiachus, na watwar y cloff, amddeffyn 'r efrydd, a gâd ti i'r dall weled fy niſclaerdeb.

22 Cadw hên ac ieuangc a'r y ſydd o fewn dy gaerau.

23 Pa le bynnag y caffech y marw amdoa, a chladd hwynt, a rhoddaf i ti eiſtedd yn flaenaf yn fy ail-gyfodiad. Tobit.1.22.

24 Gorphwys (ô fy mhobl,) a chymmer dy yſmwythdra, canys y mae dy heddwch yn dyfod.

25 Mâg dy blant ti fammaeth dda, a chyfhâ eu traed hwynt.

26 Ni dderfydd am neb o'th waſanaeth-wŷr a roddais i ti, canys ceiſiaf hwynt o fyſc dy rifedi di.

27 Na ddeffygia, canys pan ddel dyddiau blinder ac ing, eraill a wylant, ac a alârant, ond ty di a fyddi lawen a diwall. Eſai.14.1.

28 Y cenhedloedd a genfigennant, er hynny ni's gallant wneuthur dim yn dy erbyn di medd yr Arglwydd.

29 Fy nwylaw mau fi a'th waſcoda di, fel na welo dy blant uffern.

30 Ymlawenha tydi fam gyd a'th blant, canys mi a'th achubaf medd yr Arglwydd. Eſai.56.1.2.

31 Coſia dy blant y rhai ſydd yn cyſcu, canys dygaf hwynt o gyrrau 'r ddaiar, a byddaf drugarog wrthynt, canys trugarog ydwyf medd yr holl-alluog Arglwydd.

32 Coſleidia dy blant hyd oni ddelwyf i roddi trugaredd iddynt, canys y mae fy ffynhonnau yn myned troſodd, a'm grâs ni phalla.

33 Myfi Eſdras a gefais orchymyn gan yr Arglwydd ar fynydd Horeb, i fyned at Iſrael: ond pā ddaethum attynt hwy, hwy a'm diyſtyraſant, ac a wrthodaſant orchymyn yr Arglwydd.

34 Am hynny y dywedaf wrthych chwi genhedloedd y pethau a glywch, ac a ddeallwch, edrychwch am eich bugail, efe a rydd i chwi orphywyſfa dragywyddol, canys yr hwn a ddaw ar ddiwedd y bŷd ſydd ger llaw.

35 Byddwch barod i wobr y deyrnas, canys goleuni tragywyddawl a lewyrcha arnoch byth.

36 Ffoiwch rhag cyſcod y bŷd hwn, derbynniwch lawenydd eich gogoniant: datcanaf fy achub-wr ar gyhoedd.

37 Derbynniwch yn llawen yr anrheg a roddwyd i chwi, gan ddiolch i'r hwn a'ch galwodd i'r deyrnas nefol.

38 Codwch, a ſefwch, gwelwch rifedi y rhai a nodwyd yng-wledd yr Arglwydd.

39 Y rhai a ymadawſant â chyſcod y bŷd, ac a dderbynnaſant wiſcoedd diſclaer gan yr Arglwydd.

40 Cymmer dy rifedi (ô Sion,) caea di ar dy rhai puredig y rhai a gadwaſant gyfraith yr Arglwydd.

41 Cyflawnwyd rhifedi dy blant y rhai a hiraethaiſt am danynt, dymuna ar ymerodraeth yr Arglwydd ſancteiddio dy bobl y rhai a alwyd o'r dechreuad.

42 Myfi Eſdras a welais ar fynydd Sion dyrfa o bobl allan o rifedi a hwyntwy eu gyd oeddynt yn moli 'r Arglwydd ar gerdd.

43 Ac yn eu canol hwynt yr ydoedd gŵr ieuangc hîr yn vwch nâ hwynt oll, ac efe a oſodes goronau ar bennau pob vn o honynt oll, ac efe oedd yn myned fwyfwy o vchder, a hynny oedd ryfedd genif.

44 Yna y gofynnais i'r Angel, gan ddywedyd, beth yw y rhai hyn Arglwydd?

45 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthif, dymma y rhai a ddioſcaſant y dillad marwol, ac a wiſcaſant y dillad anfarwol, ac a gyfaddefaſant enw Duw, yn awr y coronwyd hwynt, ac y cawſant eu taledigaeth.

46 A dywedais wrth yr Angel, pwy yw yr gŵr ieuangc ſydd yn eu coroni hwynt, ac yn rhoddi y Palm-wŷdd yn eu dwylo?

47 A chan atteb efe a ddywedodd wrthif, Mab Duw yw efe, 'r hwn a gyfaddefaſant yn y bŷd, yna y dechreuais inne eu cammol hwynt yn fawr, y rhai a ſafaſent mor bybyr wrth enw yr Arglwydd.

48 Yna y dywedodd yr Angel wrthif, dôs ymmaith a dangos i'm pobl pa fath bethau, a pha gymmaint o ryfeddodau yr Arglwydd Dduw a welaiſt ti.

## PEN. III.

4 Y rhyfeddodau a wnaeth Duw iw bobl. 31 Eſdras yn rhyfeddu fod Duw yn dioddef i'r Babiloniaid pechadurus gael y llaw vchaf ar ei bobl ei hun.

Y Ddeccfed flwyddyn ar hugain yn ôl deſtruwiad y ddinas, yr oeddwn o fewn Babilon yn gorwedd ar fyng-wely yn drallodus, a'm meddyliau oeddynt yn dyfod i fynu ar fyng-halon.

2 Canys gwelais ang-hyfanneddrwydd Sion, a digonolrwydd trigolion Babilon.

3 A'm hyſbryd a gynhyrfwyd yn ddirfawr, a dechreuais ddywedyd wrth y Goruchaf eiriau ofnadwy, gan ddywedyd,

4 O Arglwydd a llywydd, dywedaiſt yn y dechreu pan oſodaiſt y ddaiar (a hyn dy hun yn vnic) a phan roddaiſt orchymyn i'r bobl.

5 A phan roddaiſt i Adda gorph marw, ond efe oedd greadur dy ddwylaw, a chwythaiſt ynddo ef anadl bywyd, ac efe a wnaethbwyd yn fyw ger dy fron di. Gene.2.7.

6 A dygaiſt ef i Baradwys yr hon a blannaſe dy ddwylo di cyn dwyn o'r ddaiar ei ffrwyth.

7 A gorchymynnaiſt iddo ef garu dy ffordd di, ac efe ai gwrthododd hi: ac allan o law ti a ordeiniaiſt iddo ef farwolaeth, ac iw heppil o honaw ef y daeth cenhedloedd, llwythau, pobl, a chenhedlaethau aneirif.

8 A * phob cenedl a rodiodd wrth ei hewyllys ei hun, a gwnaethant bethau rhyfedd yn dy olwg di, a diyſtyraſant dy orchymynnion. Gen.6.12.

9 Ond * yn ôl ennyd o amſer ti a ddugaiſt y diluw ar vchaf preſſwylwŷr y ddaiar, a diſechaiſt hwynt. Gen.7.10.

10 Ac felly y digwyddodd i bawb o honynt, fel i Adda farw, a dyfod y diluw ar y rhai hynn.

11 Er hynny * ti a adewaiſt vn Noah ai deulu, ac o honaw ef y daeth pôb cyfiawn. 1.Pet.3.20.

12 A digwyddodd, pan ddechreuodd y rhai oeddynt yn preſſwylio ar y ddaiar amlhau, a phā oedd eiddynt lawer o blant, a phan oeddynt yn bobl ac yn genedl fawr, dechreuaſant wneuthur mwy o anwiredd nâ'r rhai cyntaf.

13 A digwyddodd, pan oeddynt yn annuwiol ger dy fron di, * ddewiſ o honot it ŵr o honynt a elwyd * Abraham. Gene.12.1. Gene.17.5.

14 A hwnnw a geraiſt, a dangoſaiſt iddo ef yn vnic dy ewyllys.

14 A gwnaethoſt ag ef gyfammod tragywyddol, a dywedaiſt wrtho, na wrthodit byth ei hâd ef.

16 A rhoddaiſt iddo ef * Iſaac, ac i Iſaac y rhoddaiſt * Iacob ac Eſau, ac Iacob o ddewiſaiſt, * a gwrthodaiſt Eſau, ac Iacob a aeth yn genedl fawr. Gene.21.2. Gene.25.25. Mal.1.2.3. Rhuf.9.13.

17 A phan ddygaiſt ei heppil ef allan o'r Aipht, * ti ai derchefaiſt hwynt i fynydd Sinai, Exod.19.1. Deut.4.10.

18 A gogwyddaiſt y nefoedd, ac a ſiccrheaiſt y tir, a chynhyrfaiſt y ddaiar, a gwnaethoſt i'r dyfnderoedd ofni, a thrallodaiſt y bŷd.

19 A'th ogoniant a aeth drwy bedwar porth o dân, a daiar-gryniadau, gwynt, ac oerni, fel y gellit roddi cyfraith i hâd Iacob, a diwydrwydd i genhedlaeth Iſrael.

20 Ac ni thynnaiſt oddi wrthynt hwy y galon ddrwg, fel y galle dy gyfraith ddwyn ffrwyth ynddynt hwy.

Gene.3.6. 21 Canys yr Adda cyntaf yn dwyn calon ddrwg a droſeddodd ac a orchfygwyd, a phawb a'r a anwyd o honaw ef.

22 Fel hyn yr arhoſodd gwendid, a'r gyfraith yng-halonnau 'r bobl, gyd â drygioni 'r gwreiddin, a'r hyn oedd dda a ymadawodd, a'r drwg a arhoſodd.

23 Ac felly 'r amſeroedd a gerddaſant, a'r
1.Sam.16.3. blynyddoedd a ddarfuant, a *chodaiſt i fynu it wâs a elwyd Dafydd,

2.Sam.5.1. & 7.5. 24 A pheraiſt iddo ef adailadu dinas i'th enw di, ac offrwm it yno thûs ac aberthau.

25 A hynny a wnaethpwyd dros lawer o flynyddoedd, a phreſſwyl-wŷr y ddinas a ymadawſant [â thi.]

26 Gan wneuthur ym mhob peth fel Adda ai holl genhedlaeth, canys calon ddrwg oedd ganddynt hwythau hefyd.

27 Ac felly y rhoddaiſt dy ddinas i ddwylo dy elynion.

28 A wnant hwy ſydd yn preſſwylio yn Babilon ddim gwell, fel y caent hwy lywodraethu Sion?

29 A phan ddaethum yno, a gweled drygioni aneirif, a'm henaid a welodd lawer o droſeddwŷr yn y ddecfed flwyddyn ar hugain hon, a'm calon a ddeffygiodd.

30 Canys gwelais fel y cyd-ddygaiſt â hwynt yn pechu, ac arbedaiſt y drwg weithredwŷr, a difethaiſt dy bobl dy hun, a chedwaiſt dy elynion, ac ni's dangoſaiſt hyn.

31 Ni fedraf feddwl pa fodd y dylid gadel y ffordd hon, ai gwell y gwnânt hwy o Babilon, na hwy o Sion?

32 Neu a oes bobl yw cael a'th edwyn di heb law pobl Iſrael: neu, pa hiliogaeth a gredodd i'th gyfammodau di fel Iacob?

33 Ac er hynny ni's gwelir moi gwobr hwynt, ac nid oes ffrwyth iw llafur hwy: canys aethym yma a thraw drwy 'r cenhedloedd, a gwelaf hwynt yn oludog ac ni's meddyliant am dy orchymynnion di.

34 Am hynny, pwyſa mewn clorian ein pechodau ni, ai hanwireddau hwynt ſy yn preſſwylio yn y bŷd: ac ni cheffir dy enw ond yn Iſrael.

35 Neu pa bryd ni phechodd yn dy olwg di y rhai ſydd yn preſſwylio ar y ddaiar? neu pa bobl a gadwodd felly dy orchymynnion?

36 Cei wybod mai Iſrael a gadwodd dy orchymynnion, ac nid y cenhedloedd.

## PEN. IIII.

Yr Angel yn beio ar Eſdras am iddo chwilio barnedigaethau Duw yn rhy fanwl.

A'R Angel yr hwn a ddanfonwyd (attaf ei enw oedd Uriel) a'm hattebodd,

2 Ac a ddywedodd wrthif, cymmeraiſt ormod arnat yn dy galon yn y bŷd hwn, a thybied yr ydwyt y gelli ddeall ffordd y Goruchaf.

3 Yna y dywedais inne, gwir fy arglwydd ac efe a'm hattebodd gan ddywedyd, fe a'm hanfonwyd i ddangos i ti dair ffordd, ac i roddi tri cyffelybrwydd o'th flaen di.

4 Os dangoſi i mi un o honynt, minne a ddangoſaf i tithe y ffordd a ewyllyſſi gael ei gweled: a dangoſaf it o ba le y mae yr galon ddrwg.

5 A dywedais, dywet fy arglwydd, yna y dywedodd efe wrthif, dôs a phwyſa bwys y tân, neu feſur i mi 'r awel wynt, neu alw yn ei ôl y dydd a aeth heibio.

6 Yna yr attebais ac y dywedais, pa ddyn ganedig a all wneuthur hynny? pa ham y ceiſi genif hynny?

7 Ac efe a ddywedodd wrthif, pe gofynnaſwn it pa faint o drigfanau ſydd yng-hanol y môr, ne pa rifedi o aberoedd ſydd yn nechreu y dyfnder, neu pa gymmaint o ffynhonnau ſydd ar y ffurfafen, neu pa le y mae terfynau paradwys:

8 Ond antur ti a ddywedit wrthif, ni bûm i er ioed yn y dyfnder, nac yn uffern, ac ni ddringais i'r nefoedd.

9 Ac yn awr ni ofynnais i ti ond yn unic am y tân, a'r gwynt, a'r dydd yr hwn a dreuliaiſt, ac oddi wrth y rhai ni's gellir dy naillduo di, er hynny ni fedri di roddi i mi atteb am danynt.

10 Ac efe a ddywedodd wrthif eil-waith, nid adwaenoſt yr eiddot ty hun, na'r pethau a gyd-tyfant â thi:

11 A pha fodd y gall dy leſtr di ymgyffred ffordd y Goruchaf? ac yn awr yn y bŷd llygredic hwn pa fodd y gelli di ddeall y llygredigaeth ſydd yn amlwg yn fyng-olwg i?

12 A dywedais wrtho ef, gwell a fuaſe i ni na buaſem, na byw mewn anwireddau a dioddef heb wybod pa ham.

13 Efe a'm hatebodd, ac a ddywedodd, daethum i goed mawr ar faes, *a'r prennau oeddynt, yn ymgynghori, Barn.9.8. 2.Cron.25.18.

14 Gan ddywedyd, deuwch, awn i ymladd a'r môr hyd oni chilio efe rhagom, fel y gallom wneuthur mwy o goedydd.

15 A llifeiriant y môr hefyd yr un modd a ymgynghoraſant, gan ddywedyd, deuwch awn i fynu i ymladd yn erbyn coedydd y maes, fel y gallom wneuthur i ni wlâd arall.

16 A gwnaethbwyd bwriad y coed yn ofer, canys tân a ddaeth ac ai lloſcodd ef.

17 Hefyd bwriad llifeiriant y môr a ballodd, canys y tywod a ſafodd ac ai rhwyſtrodd ef.

18 Pe byddit ti yn farn-wr ar y rhai hyn, pa

un

vn a gyfiawnheit ti, a pha vn a gondemnit ti:

19 Attebais gan ddywedyd, yn wir ofer oedd eu hamcanion ill dau, canys y tir a roddwyd i'r coedydd, ac y mae hefyd i'r môr le i fwrw ei donnau.

20 Yna i'm hattebodd gan ddywedyd, bernaiſt yn gyfiawn, ond pa ham na ferni dy hun hefyd:

21 Canys fel y rhoddwyd y tir i'r coed, a'r môr iw donnau: yn yr vn modd *y rhai a drigant ar y ddaiar ni ddeallant ddim ond y pethau ſydd ar y ddaiar yn vnic, a'r hwn ſydd yn aros vwch law y nefoedd yn vnic a gaiff ddeall y pethau ſydd goruwch y nefoedd.

Eſai.55.8.9.
Ioan.3.31.
1.Cor.2.13.14.

22 Yna yr attebais gan ddywedyd, attolwg Arglwydd dyro i mi ddeall.

23 Canys ni chwẽnychais ymofyn yn fanwl am dy bethau goruchaf di, ond am y pethau ſy yn myned heibio i ni beunydd, (hynny yw) pa ham y rhoddwyd Iſrael yn wradwydd i'r cenhedloedd, ac y rhoddwyd y bobl a geraiſt i genhedloedd anwir, a pha ham y difethwyd cyfraith ein tadau, ac y dirymmwyd yr ammodau ſcrifennedic:

24 Ac yr ydym yn myned o'r byd fel ceilioc rhedyn, a ein henioes nid yw ddim ond ofn a braw, ac ni haeddwn ni drugaredd.

25 Pa beth a wna efe gan hynny iw enw'r hwn a alwn ni arno: a hyn a ofynnais iddo ef.

26 Yna efe a'm hattebodd gan ddywedyd, pa mwyaf yr ymofynnech, rhyfeddach fydd gẽnit, canys mae'r byd ar frŷs i ymado,

27 Ac ni fedr efe ddeall y pethau a addawyd i'r rhai cyfiawn yn yr amſeroedd ſydd yn dyfod, canys llawn yw'r byd o anwiredd a gwendid.

28 Ond am y pethau a ofynnaiſt i mi, mi a ddywedaf: drygioni a hauwyd, ond ni ddaeth ei ddiniſtr ef etto.

29 Oni ddymchwelir y drwg a hauwyd, ac onid aiff ymmaith y fann lle yr hauwyd y drwg, yna ni ddaw'r hyn a hauwyd â daioni.

30 Canys grawn yr hâd drwg a hauwyd yng-halon Adda o'r dechreu, a pha gymmaint o anwiredd a ddug efe hyd yn hyn, a pha gymmaint a ddwg efe etto oni ddel i'r yſcubor:

31 Myfyria ynot ty hun pa gymmaint ffrwyth o anwiredd y mae grawn'r hâd drwg yn ei ddwyn.

32 A phan fedir y tywys y rhai ſy allan o rifedi, pa yſcubor ei maint a ddechreuant hwy ei gwneuthur:

33 Yna yr attebais gan ddywedyd, pa fodd, a pha bryd y bydd hyn: pa ham y mae ein blynyddoedd yn ychydig, ac yn ddrwg:

34 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, na phrysura di i fod yn vwch na'r Goruchaf, canys yn ofer y prysuri di fod vwch ei law ef: [ac] oblegit bod dy fagoriaeth yn fawr [euſus.]

35 Oni ymofynnodd eneidiau y rhai cyfiawn am y pethau hyn yn eu ſtafellau, gan ddywedyd: pa hŷd y gobeithiaf fel hyn: pa bryd y daw ffrwyth ein yſcubor a'n gwobr:

36 Ieremiel yr arch-angel a attebodd hynny gan ddywedyd, pan gyflawner rhyfedi'r hâd ynoch, canys efe a bwyſſodd y byd mewn clorian,

37 Mewn meſur y meſurodd efe'r amſeroedd, ac mewn rhifedi y rhifodd efe'r oeſoedd, ac ni chynhyrfodd efe ddim o honaw, ac ni's eſcydwodd nes cyflawni'r meſur.

38 Yna yr attebais gan ddywedyd, ô Arglwydd llywydd, yr ydym ni oll yn llawn anwiredd.

39 [Ac edrych] rhag na lanwer yſcuborau y rhai cyfiawn er ein mwyn ni [ſef] o achos pechodau y rhai ydynt yn aros ar y ddaiar.

40 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, dôs ymmaith, a gofyn i wraig feichiog, pan gyflawner ei naw mis hi, a all ei chroth hi gadw'r etifedd yn hwy oi mewn hi:

41 Ac mi a ddywedais, na all Arglwydd, ac efe a ddywedodd wrthif, yn vffern y mae llochesau yr eneidiau yn debyg i'r groth.

42 Canys fel y pryſſura gwraig wrth eſcor i ddiang oddi wrth angen y drafael, felly y pryſſura hithe i roddi trachefn yr hyn a roddwyd yno.

43 Dangoſir it o'r dechrau y pethau a ewyllyſi gael eu gweled.

44 Yna yr attebais gan ddywedyd, os cefais ffafor yn dy olwg di, ac od yw boſſibl, ac os ydwyf gymmwys,

45 Dangos i mi, ai mwy ſydd i ddyfod nag a aeth heibio, neu a baſſiodd mwy nag ſydd i ddyfod.

46 Gwn beth a baſſiodd, ond ni wn y peth ſydd i ddyfod.

47 Ac efe a ddywedodd wrthif, ſâf di o'r tu dehau, a dangoſaf it ddeongliad y ddammeg.

48 Ac felly mi a ſefais, ac wele, gwelais ffwrn boeth yn myned heibio o'm blaen i, a digwyddodd (pan aeth y fflam heibio) i mi edrych ac wele'r mwg a orchfygodd.

49 Yn ôl hyn fe aeth heibio o'm blaen i gwmwl yn llawn o ddwfr, a gollyngodd i lawr law mawr cryf, a phan ddarfu nerth y glaw, defnynnau a barhauſant.

50 Yna y dywedodd efe wrthif, myfyria ynot ty hun: megis y chwanega'r glaw mwy na'r defnynnau, a'r tân yn fwy na'r mwg, felly y rhagora meſur y pethau a aethant heibio,

51 Yna y gofynnais gan ddywedyd, a dybygit ti y byddaſi byw hyd y dyddiau hynny? neu pa beth a ddigwydd yn y dyddiau hynny?

52 Efe a'm hatebodd gan ddywedyd, am yr arwyddion y rhai a ofynnaiſt i mi, mi a fedraf ddywedyd peth it, ond am dy enioes ni'm danfonwyd i ddangos it, ac ni's medraf.

## PEN. V.

1 Yn y dyddiau dywethaf y bydd y gwirionedd yng-hudd, 10 anghyfiawnder, ac anwiredd a gaiff y llaw vchaf yn y byd.

AC am yr arwyddion, wele, y dyddiau a ddaw pan ddalier trigolion y ddaiar yn rifedi mawr, a ffordd y gwirionedd a guddir, a'r byd yn anffyddlawn. Math 24.4.

2 A drygioni a chwanega yn fwy nag y gweli yn awr, ac yn fwy nag y clywaiſt ſôn am dano o'r blaen.

3 A'r wlâd ymma yr hon a weli di yn teyrnaſu a weli di yn anghyfannedd, er cynted y troedir hi.

4 Ond os Duw a rydd i ti hoedl, ti a gei weled yn ôl y trydydd udcorn, yr haul yn tywynnu yn ddiſymmwth liw nôs, a'r lleuad dair gwaith yn y dydd.

5 A'r coed a waeda, a'r garrec a lefara, a'r bobl a gyffroir.

6 A'r neb ni's gobeithia preſſwylwŷr y ddaiar ynddo a deyrnaſa: a'r adar a newidiant drigfannau.

7 A môr Sodom a fwrw allan byſcod, ac a rua 'r nôs yn ddiethr i lawer, ond pawb a gaiff glywed ei lais ef.

8 A phob peth fydd allan o drefn yn llawer lle, a'r tân a yrrir allan trachefn yn fynych, a'r anifeiliaid gwylltion a yſmudât, a'r gwragedd miſ-glwyfus a eſcorant ar anghenfilod.

9 A dwfr hallt a geir yn y dwfr croiw, a phob cydymmaith a ymladd yn erbyn ei gilydd, a'r ſynnwyr a guddir, a deall a naillduir i le dirgel.

10 A llawer ai ceiſiant, ac ni's cânt hi, ac anghyfiawnder, ac aniweirdeb a amlheir ar y ddaiar.

11 A'r naill wlâd a ofyn i'r llall gan ddywedyd, a aeth cyfiawnder (yr hon a wna ŵr yn gyfiawn) heibio i ti: ac hithe a wada hyn.

12 Y pryd hynny y gobeithia pobl, ac ni's caffant, llafuriant ai ffyrdd ni lwyddant.

13 Cefais ganad i ddangos it yr arwyddion hyn: os tydi a weddii eil-waith, ac os ŵyli fel yn awr, ac os ymprydi ſaith nhiwrnod, cei glywed pethau mwy nâ hyn.

14 Yna mi a ddeffroais, a'm corph a ofnodd yn ddirfawr, a'm henaid a boenodd fel y llewŷgodd efe.

15 A'r Angel yr hwn a ddaethe i ymddiddan â mi a'm daliodd, ac a'm cyſſurodd, ac a'm goſododd ar fy nhraed.

16 A digwyddodd yr ail nôs i Salathiel tywyſog y bobl ddyfod attaf gan ddywedyd, pa le y buoſti: a pha ham y mae mor drwm yr olwg arnat:

17 Oni ŵyddoſt ddarfod gorchymyn Iſrael i ti yng-wlad eû caethiwed:

18 Cyfod (gan hynny) a bwytta fara, ac na âd ddim o honom ni fel y bugail yr hwn a âd ei ddefaid i'r bleiddiaid creulawn.

19 Yna y dywedais wrtho ef, dôs ymaith oddi wrthif, ac na thyret attaf, ac efe a'm clybu fel y dywedais, ac a aeth oddi wrthif.

20 A mi a ymprydiais ſaith niwrnod drwy ŵylo ac vdo, fel y gorchymynnodd yr angel Uriel i mi.

21 A ym mhen y ſaith niwrnod myddyliau fyng-halon oeddynt yn drymmion aruthr genif eil-waith.

22 A'm henaid a gymmerodd trachefn yſpryd deall, ac mi a ddechreuais draethu ymadroddion ger bron y Goruchaf.

23 A dywedais, ô Arglwydd a llywydd, o holl goedydd y ddaiar, ac oi holl brennau dewiſaiſt vn win-llan.

24 O holl ddaiarfeudd y byd ti a ddewiſaiſt i ti vn ffau, ac o holl flodau y byd ti a ddewiſaiſt i ti vn lili.

25 Ac o holl ddyfnder y môr llanwaiſt ti vn afon, ac o'r holl ddinaſoedd ſancteiddiaiſt Sion it dy hun.

26 Ac o'r holl ehediaid henwaiſt it vn golomen, ac o'r holl anifeliaid darperaiſt it vn ddafad.

27 Ac o'r holl gynnulleidfa bobl ennillaiſt it vn genedl, a rhoddaiſt i'r genhedlaeth hon (yr hon a geraiſt) gyfraith yr hon a brofodd pawb.

28 Ac yn awr Arglwydd, pa ham y rhoddaiſt yr vnic genedl hon i lawer, ac y goſodaiſt eraill ar yr vn gwreiddin, ac y gwaſceraiſt dy vnic bobl ym mhlith llaweroedd:

29 A hwy ai ſathraſant hwynt, ac a wrthwynebaſant dy addewidion, ac ni chredaſant dy gyfammodau.

30 Os gan gaſau y caſeaiſt dy bobl, dy ddwylaw di a ddylent eu coſpi hwynt,

31 Ac wedi i mi ddywedyd y geiriau hyn, danfonwyd yr angel attaf yr hwn a ddaethe attaf y nôs o'r blaen,

32 Ac efe a ddywedodd wrthif; gwrando arnaf, a mi a'th ddyſcaf, yſtyr y peth a draethwyf a dangoſaf it fwy.

33 Ac mi a ddywedais, dywet fy arglwydd, ac efe a ddywedodd wrthif, yr ydwyt yn fawr iawn dy ofal dros Iſrael, a geraiſt di hwynt yn fwy na'r neb ai gwnaeth hwynt?

34 A dywedais wrtho ef, na ddo fy arglwydd, ond o doſturi y lleferais, canys fy arennau a'm penydiant bob awr wrth geiſio llwybr y Goruchaf, ac wrth chwilio am rann oi farnedigaethau ef.

35 Ac efe a ddywedodd wrthif, ni's gelli hynny, a dywedais inne, pa ham arglwydd: i ba beth i'm ganwyd, neu pa achos na bu groth fy

mam yn fedd i mi, fel na chawſwn weled poen Iacob, a blinder hâd Iſrael.

36 Ac efe a ddywedodd wrthif, rhifa i mi y pethau ſydd etto heb ddyfod, a chaſcl yng-hŷd y dafnynnau ſydd ar lled, a gwna 'r llyſſiau gwywon yn leiſion eilchwel.

37 Ac agor i mi y llocheſau caedig, a dwg allan i mi y gwyntoedd y rhai a gaewyd yndo: dangos i mi ſun lleferydd, ac yna y dangoſaf i tithe y peth yr ydwyt yn dymuno ei weled.

38 Ac mi a ddywedais, ô Arglwydd lywydd, pwy a all wybod hyn, ond y neb nid yw ei drigfa ym mhlith dynion?

39 A minnef anoeth ydwyf, pa fodd wrth hynny y gallaf ddywedyd dim am y pethau a ofynnaiſt i mi?

40 Ac efe a ddywedodd wrthif, fel na's medri wneuthur vn o'r pethau a hênwyd, felly ni's gelli ŵybod fy marn mau fi, na'r caredigrwydd a addewais i'm pobl yn y diwedd.

41 Yna mi a ddywedais, wele ô Arglwydd cyfagos ydwyt ti at y pethau a fyddant yn y diwedd, a pha beth a wna y rhai a fuant o'm blaen i? a pha beth a wnawn ni, neu y rhai ſydd ar ein hôl ni?

42 Ac efe a ddywedodd wrthif, cyffelybaf fy marn i fodrwy, fel nad oes anibenrwydd o'r diwethaf, felly nid oes bryſurdeb yn y cyntaf.

43 Minne a atebais gan ddywedyd, ac oni allaſit ti wneuthur y pethau ſydd wedi eu gwneuthur yn awr, a'r pethau ſydd, a'r pethau a ddaw ar vn-waith, fel y dangoſech dy farn yn gynt?

44 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, ni all y creadur bryſſuro o flaen y creawdr, ac ni all yr holl fyd gynnwys ar vn-waith y rhai a wneir ynddo ef.

45 A minne a ddywedais, fel y dywedaiſt i'th wâs mai ty di yr hwn a fywheiſt y creadur, a roddaiſt fywyd ar vn-waith i'r creadur a wnaethoſt, ac yntef ai dygodd: felly y galle efe gynnwys pob peth yn awr ar vn-waith.

46 Ac efe a ddywedodd wrthif, gofyn i groth gwraig a dywet wrthi, os ty di a blanta, pa ham [y plenti] wrth dymp? dymuna arni gan hynny ddwyn dêc ar vn-waith.

47 A dywedais, ni ddichon hi hynny, eithr wrth dymp.

48 Ac efe a ddywedodd wrthif, minne a roddais groth y ddaiar i'r rhai a hauwyd ynddi wrth dymp.

49 Canys, megis na ddichon dŷn bach ieuangc ddwyn i'r byd y pethau a berthynant i ŵr hên, felly 'r ordemais i y bŷd yr hwn a wneuthum.

50 Ac mi a ofynnais ac a ddywedais, gan it yn awr roddi i mi y ffordd, myfi a ymddiddanaf o'th flaen di: canys ein mam ni (yr hon a ddywedaiſt i mi ei bod yn ieuangc) ſydd yn awr yn heneiddio.

51 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, gofyn i wraig ſydd yn planta, a hi a ddywed i ti.

52 Dywet wrthi hi, pa ham nad yw y plant a ddygaiſt yn awr debyg i'r rhai oeddynt o'th flaen di, ond yn llai o gorpholaeth?

53 A hithe a'th ettyb, rhai a anwyd yng-hryfder ieuengtid, ac eraill a anwyd yn amſer henaint pan oedd y groth yn pallu.

54 Yſtyria dithe gan hynny, ei'ch bod yn llai o gorpholaeth na'r rhai ydoedd o'ch blaen chwi.

55 A'r rhai ar eich ôl chwi ſydd llai na chwithau, megis creaduriaid bellach yn heneiddio, ac yn myned tros gryfder ieuengtid.

56 A dywedais, atolwg it Arglwydd os cefais ffafor yn dy olwg di, dangos i'th wâs drwy bwy yr ymweli a'th greadur.

## PEN. VI.

1 Duw a welodd y cwbl o'r blaen yn ei ddirgelwch, ac efe ſydd awdur iddynt.

AC efe a ddywedodd wrthif, yn nechreuad y byd, a chyn goſod ei derfynau, a chyn chwythu o'r gwyntoedd,

2 Cyn clywed trwſt y taranau, a chyn gweled diſclaerdeb y mellt, a chyn goſod ſail Paradwys,

3 A chyn gweled y blodau prydferth, a chyn cadarhau y rhinweddau, a chyn caſclu yng-hyd y llu aneirif o angelion.

4 Cyn derchafu vchelder yr awyr, cyn henwi meſuroedd y ffurfafen, a chyn gwreſogi o'r ffumerau yn Sion:

5 Ac o flaen chwilio am y blynyddoedd preſennol, a chyn gwrthod dychymygiadau y neb ſydd y pryd hyn yn pechu, a chyn ſelio y rhai a gadwaſant y ffydd fel tryſſor,

6 Y pryd hynny meddyliais, a gwnaethbwyd hwynt oll trwoſt, ac nid trwy arall: ai diwedd hwynt ſydd hefyd trwoſt, ac nid trwy arall.

7 Atebais gan ddywedyd, pa beth yw rhanniad yr amſeroedd? a pha bryd y bydd diweddiad y cyntaf, a dechreuad yr olaf?

8 Ac efe a ddywedodd wrthif, o Abraham hyd Iſaac, pan anwyd iddo ef Iacob ac Eſau, *llaw Iacob yn y dechreu a ddaliodd ſodl Eſau:

*Gene.25.26.

9 Canys Eſau yw diwedd y byd hwn a Iacob yw dechreu y byd ſydd i ddyfod.

10 Llaw dyn rhwng ſodl a llaw, na ofyn i mi mwy Eſdras.

11 Atebais gan ddywedyd, ô Arglwydd lywydd, os cefais ffafor yn dy olwg di,

12 Attolwg dangos i'th wâs derfyn dy arwyddion, y rhai y dangoſaiſt i'm rann o honynt y nos ddiwethaf.

13 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, cyfot ar dy draed, a gwrando lef gref ſoniarus.

14 Daw fel daiar-gryn, ond y lle yr ydwyt yn ſefyll arno nid yſcog.

52 Efe a'm hatebodd gan ddywedyd, am yr arwyddion y rhai a ofynnaiſt i mi, mi a fedraf ddywedyd peth it, ond am dy enioes ni'm danfonwyd i ddangos it, ac ni's medraf.

## PEN. V.

1 Yn y dyddiau dywethaf y bydd y gwirionedd yng-hudd, 10 anghyfiawnder, ac anwiredd a gaiff y llaw vchaf yn y byd.

AC am yr arwyddion, wele, y dyddiau a ddaw pan ddalier trigolion y ddaiar yn rifedi mawr, a ffordd y gwirionedd a guddir, a'r byd yn anffyddlawn. Math 24.4.

2 A drygioni a chwanega yn fwy nag y gweli yn awr, ac yn fwy nag y clywaiſt ſôn am dano o'r blaen.

3 A'r wlâd ymma yr hon a weli di yn teyrnaſu a weli di yn anghyfannedd, er cynted y troedir hi.

4 Ond os Duw a rydd i ti hoedl, ti a gei weled yn ôl y trydydd udcorn, yr haul yn tywynnu yn ddiſymmwch liw nôs, a'r lleuad dair gwaith yn y dydd.

5 A'r coed a waeda, a'r garrec a lefara, a'r bobl a gyffroir.

6 A'r neb ni's gobeithia preſſwylwŷr y ddaiar ynddo a deyrnaſa: a'r adar a newidiant drigfannau.

7 A môr Sodom a fwrw allan byſcod, ac a rua'r nôs yn ddiethr i lawer, ond pawb a gaiff glywed ei lais ef.

8 A phob peth fydd allan o drefn yn llawer lle, a'r tân a yrrir allan trachefn yn fynych, a'r anifeiliaid gwylltion a yſmudât, a'r gwragedd miſ-glwyfus a eſcorant ar anghenfilod.

9 A dwfr hallt a geir yn y dwfr croiw, a phob cydymmaith a ymladd yn erbyn ei gilydd, a'r ſynnwyr a guddir, a deall a naillduir i le dirgel.

10 A llawer ai ceiſiant, ac ni's cânt hi, ac anghyfiawnder, ac aniweirdeb a amlheir ar y ddaiar.

11 A'r naill wlâd a ofyn i'r llall gan ddywedyd, a aeth cyfiawnder (yr hon a wna ŵr yn gyfiawn) heibio i ti: ac hithe a wada hyn.

12 Y pryd hynny y gobeithia pobl, ac ni's caffant, llafuriant ai ffyrdd ni lwyddant.

13 Cefais ganad i ddangos it yr arwyddion hyn: os tydi a weddii eil-waith, ac os ŵyli fel yn awr, ac os ymprydi ſaith nhiwrnod, cei glywed pethau mwy nâ hyn.

14 Yna mi a ddeffroais, a'm corph a ofnodd yn ddirfawr, a'm henaid a boenodd fel y llewŷgodd efe.

15 A'r Angel yr hwn a ddaethe i ymddiddan â mi a'm daliodd, ac a'm cyſſurodd, ac a'm goſododd ar fy nhraed.

16 A digwyddodd yr ail nôs i Salathiel tywyſog y bobl ddyfod attaf gan ddywedyd, pa le y buoſti: a pha ham y mae mor drwm yr olwg arnat:

17 Oni ŵyddoſt ddarfod gorchymyn Iſrael i ti yng-wlad eû caethiwed:

18 Cyfot (gan hynny) a bwytta fara, ac na âd ddim o honom ni fel y bugail yr hwn a âd ei ddefaid i'r bleiddiaid creulawn.

19 Yna y dywedais wrtho ef, dôs ymaith oddi wrthif, ac na thyret attaf, ac efe a'm clybu fel y dywedais, ac a aeth oddi wrthif.

20 A mi a ymprydiais ſaith niwrnod drwy ŵylo ac udo, fel y gorchymynnodd yr angel Uriel i mi.

21 A ymmhen y ſaith niwrnod myddyliau fyng-halon oeddynt yn drymmion aruthr gennif eil-waith.

22 A'm henaid a gymmerodd trachefn yſpryd deall, ac mi a ddechreuais draethu ymadroddion ger bron y Goruchaf.

23 A dywedais, ô Arglwydd a llywydd, o holl goedydd y ddaiar, ac oi holl brennau dewiſaiſt un win-llan.

24 O holl ddaiarfeudd y byd ti a ddewiſaiſt i ti un ffau, ac o holl flodau y byd ti a ddewiſaiſt i ti un lili.

25 Ac o holl ddyfnder y môr llanwaiſt ti un afon, ac o'r holl ddinaſoedd ſancteiddiaiſt Sion it dy hun.

26 Ac o'r holl ehediaid henwaiſt it un golomen, ac o'r holl anifeliaid darperaiſt it un ddafad.

27 Ac o'r holl gynnulleidfa bobl ennillaiſt it un genedl, a rhoddaiſt i'r genhedlaeth hon (yr hon a geraiſt) gyfraith yr hon a brofodd pawb.

28 Ac yn awr Arglwydd, pa ham y rhoddaiſt yr unic genedl hon i lawer, ac y goſodaiſt eraill ar yr un gwreiddin, ac y gwaſceraiſt dy unic bobl ym mhlith llaweroedd:

29 A hwy ai ſathraſant hwynt, ac a wrthwynebaſant dy addewidion, ac ni chredaſant dy gyfammodau.

30 Os gan gaſau y caſeaiſt dy bobl, dy ddwylaw di a ddylent eu coſpi hwynt,

31 Ac wedi i mi ddywedyd y geiriau hyn, danfonwyd yr angel attaf yr hwn a ddaethe attaf y nôs o'r blaen,

32 Ac efe a ddywedodd wrthif, gwrando arnaf, a mi a'th ddyſcaf, yſtyr y peth a draethwyf a dangoſaf it fwy.

33 Ac mi a ddywedais, dywet fy arglwydd, ac efe a ddywedodd wrthif, yr ydwyt yn fawr iawn dy ofal dros Iſrael, a geraiſt di hwynt yn fwy na'r neb ai gwnaeth hwynt?

34 A dywedais wrtho ef, na ddo fy arglwydd, ond o doſturi y lleferais, canys fy arennau a'm penydiant bob awr wrth geiſio llwybr y Goruchaf, ac wrth chwilio am rann oi farnedigaethau ef.

35 Ac efe a ddywedodd wrthif, ni's gelli hynny, a dywedais inne, pa ham arglwydd? i ba beth i'm ganwyd, neu pa achos na bu groth fy

mam yn fedd i mi, fel na chawſwn weled poen Jacob, a blinder hâd Iſrael.

36 Ac efe a ddywedodd wrthif, rhifa i mi y pethau ſydd etto heb ddyfod, a chaſcl yng-hŷd y dafnynnau ſydd ar lled, a gwna 'r llyſſiau gwywon yn leiſion eilchwel.

37 Ac agor i mi y llocheſau caedig, a dwg allan i mi y gwyntoedd y rhai a gaewyd yno: dangos i mi lun lleferydd, ac yna y dangoſaf i tithe y peth yr ydwyt yn dymuno ei weled.

38 Ac mi a ddywedais, ô Arglwydd llywydd, pwy a all wybod hyn, ond y neb nid yw ei drigfa ym mhlith dynion?

39 A minneu anoeth ydwyf, pa fodd wrth hynny y gallaf ddywedyd dim am y pethau a ofynnaiſt i mi?

40 Ac efe a ddywedodd wrthif, fel na's medri wneuthur un o'r pethau a henwyd, felly ni's gelli wybod fy marn mau fi, na'r caredigrwydd a addewais i'm pobl yn y diwedd.

41 Yna mi a ddywedais, wele ô Arglwydd cyfagos ydwyt ti at y pethau a fyddant yn y diwedd, a pha beth a wna y rhai a fuant o'm blaen i? a pha beth a wnawn ni, neu y rhai ſydd ar ein hôl ni?

42 Ac efe a ddywedodd wrthif, cyffelybaf fy marn i fodrwy, fel nad oes anſhenrwydd o'r diwethaf, felly nid oes bryſurdeb yn y cyntaf.

43 Minne a atebais gan ddywedyd, ac oni allaſit ti wneuthur y pethau ſydd wedi eu gwneuthur yn awr, a'r pethau ſydd, a'r pethau a ddaw ar un-waith, fel y dangoſech dy farn yn gynt?

44 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, ni all y creadur bryſſuro o flaen y creawdr, ac ni all yr holl fyd gynnwys ar un-waith y rhai a wneir ynddo ef.

45 A minne a ddywedais, fel y dywedaiſt i'th wâs mai ty di yr hwn a fywheiſt y creadur, a roddaiſt fywyd ar un-waith i'r creadur a wnaethoſt, ac yntef ai dygodd: felly y galle efe gynnwys pob peth yn awr ar un-waith.

46 Ac efe a ddywedodd wrthif, gofyn i groth gwraig a dywet wrthi, os ty di a blanta, pa ham [y plenti] wrth dymp? dymuna arni gan hynny ddwyn dêc ar un-waith.

47 A dywedais, ni ddichon hi hynny, eithr wrth dymp.

48 Ac efe a ddywedodd wrthif, minne a roddais groth y ddaiar i'r rhai a hauwyd ynddi wrth dymp.

49 Canys, megis na ddichon dŷn bach ieuangc ddwyn i'r byd y pethau a berthynant i wŷr hên, felly 'r ordemais i y bŷd yr hwn a wneuthum.

50 Ac mi a ofynnais ac a ddywedais, gan it yn awr roddi i mi y ffordd, myfi a ymddiddanaf o'th flaen di: canys ein mam ni (yr hon a ddywedaiſt i mi ei bod yn ieuangc) ſydd yn awr yn heneiddio.

51 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, gofyn i wraig ſydd yn planta, a hi a ddywed i ti.

52 Dywet wrthi hi, pa ham nad yw y plant a ddygaiſt yn awr debyg i'r rhai oeddynt o'th flaen di, ond yn llai o gorpholaeth?

53 A hithe a'th etteb, rhai a anwyd yng-hryfder ieuengtid, ac eraill a anwyd yn amſer henaint pan oedd y groth yn pallu.

54 Yſtyria dithe gan hynny, eich bod yn llai o gorpholaeth na'r rhai ydoedd o'ch blaen chwi.

55 A'r rhai ar eich ôl chwi fydd llai na chwithau, megis creaduriaid bellach yn heneiddio, ac yn myned tros gryfder ieuengtid.

56 A dywedais, atolwg it Arglwydd os cefais ffafor yn dy olwg di, dangos i'th wâs drwy bwy yr ymwelit a'th greadur.

## PEN. VI.

1 Duw a welodd y cwbl o'r blaen yn ei ddirgelwch, ac efe ſydd awdur iddynt.

Ac efe a ddywedodd wrthif, yn nechreuad y byd, a chyn goſod ei derfynau, a chyn chwythu o'r gwyntoedd,

2 Cyn clywed trwſt y taranau, a chyn gweled diſclaerdeb y mellt, a chyn goſod ſail Paradwys,

3 A chyn gweled y blodau prydferth, a chyn cadarhau y rhinweddau, a chyn caſclu yng-hyd y llu aneirif o angelion.

4 Cyn derchafu uchelder yr awyr, cyn henwi meſuroedd y ffurfafen, a chyn gwreſogi o'r ffumerau yn Sion:

5 Ac o flaen chwilio am y blynyddoedd preſennol, a chyn gwrthod dychymygiadau y neb ſydd y pryd hyn yn pechu, a chyn ſelio y rhai a gadwaſant y ffydd fel tryſſor,

6 Y pryd hynny meddyliais, a gwnaethbwyd hwynt oll trwoſi, ac nid trwy arall: ai diwedd hwynt fydd hefyd trwoſi, ac nid trwy arall.

7 Atebais gan ddywedyd, pa beth yw rhanniad yr amſeroedd? a pha bryd y bydd diweddiad y cyntaf, a dechreuad yr olaf?

8 Ac efe a ddywedodd wrthif, o Abraham hyd Iſaac, pan anwyd iddo ef Jacob ac Eſau, *llaw Jacob yn y dechreu a ddaliodd ſodl Eſau:

Gene.25.26.

9 Canys Eſau yw diwedd y byd hwn a Jacob yw dechreu y byd ſydd i ddyfod.

10 Llaw dyn rhwng ſodl a llaw, na ofyn i mi mwy Eſdras.

11 Atebais gan ddywedyd, ô Arglwydd llywydd, os cefais ffafor yn dy olwg di,

12 Attolwg dangos i'th wâs derfyn dy arwyddion, y rhai y dangoſaiſt i'm rann o honynt y nos ddiwethaf.

13 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, cyfod ar dy draed, a gwrando lef gref ſoniarus.

14 Daw fel daiar-gryn, ond y lle yr ydwyt yn ſefyll arno nid yſcog.

15 Gan hynny pan leſaro efe, na ofna di, canys am y diwedd y bydd y gair, ac am ſylfaen y ddaiar y deallir ef.

16 O herwydd y gair o hynny a gryn ac a gynhyrfa, canys eu diwedd hwynt ſydd raid ei newid.

17 A digwyddodd pan glywais, mi a godais ar fy nhraed a gwrandewais, ac wele lef yn llefain, ai ſŵn ydoedd fel ſŵn llaweroedd o ddyfroedd.

18 Ac hi a ddywedodd, y dyddiau ſydd yn dyfod pan ddechreuwyf neſſau i ymweled â phreſſwylwŷr y ddaiar.

19 A phan ddechreuwyf a'r rhai a ddrygodd yn anghyfiawn ai hanghyfiawnder, a phan gyflawner daroſtyngiad Sion.

20 A phan ſelier y byd yr hwn a ddechreu fyned heibio, yr arwyddiō hyn a wnaf, y llyfrau a agorir o flaen yr holl ffurfafen, a phawb a gaiff weled ar unwaith.

21 A phlant blwyddiaid a leſarant, a gwragedd beichiogion a eſcorant ar blant cyn eu hamſer ar ben y tri-mis a'r pedwar-mis, a byw fyddant, a chyfodir hwynt i fynu.

22 Ac yn ddiſymmwth yr ymddengis y mānau a hauwyd fel y mannau ni's hauwyd, a'r celloedd llawn a fyddant wâg yn ddiſymmwth.

23 A'r udcorn a gân, a phwy bynnac ai clyw ef a ddychryn yn ddiſymmwth.

24 A'r pryd hynny yr ymladd cyfeillion ai gilydd fel pe byddent gelynion, a'r ddaiar a ddychryn gyd â hwynt, a'r ffynhonnau a ſafant, ac ni redant dros dair awr.

25 A phwy bynnac a ddiango rhag y pethau hyn oll a ddangoſais i ti, a fydd gadwedic, ac a gaiff weled fy iechydwriaeth, a diwedd eich byd chwi.

26 Y rhai a dderbynniwyd a welant, y rhai ni phrofaſant angeu er pan eu ganwyd hwynt, calon y preſſwylwŷr a newidir ac a droir i feddwl arall.

27 Canys bwrir ymmaith ddrygioni a diffoddir twyll.

28 A ffydd a flagura, a llygredigaeth a orchfygir, a gwirionedd yr hon a fu cyhyd yn ddiffrwyth a ddangoſir.

29 A phan ymddiddanodd efe â myfi, wele mi a edrychais arno ef (bob ychydig, ac ychydig) yr hwn a ſafe ger fy mron.

30 Ac efe a ddywedodd y geiriau hyn wrthif, daethum i ddangos it amſer y nos ſydd yn dyfod.

31 Os tydi a weddii etto, ac os ymprydi etto ſaith niwrnod, dangoſaf it trachefn fwy o'r hyn a glywais am y dydd hwn.

32 Canys y Goruchaf a glywodd dy leferydd, y Galluog a welodd dy uniondeb, ac a ragwelodd y diweirdeb yr hon oedd gennit o'th ieuengtid

33 Ac am hyn efe a'm hanfonodd i ddangos it y pethau hyn oll, ac i ddywedyd wrthit, bydd gyſſurus, ac nac ofna.

34 Ac na phryſſura gyda yr amſeroedd a aethant heibio i fyfyrio oferedd, fel na phryſſurech di oddi wrth yr amſeroedd diwethaf.

35 Ac yn ôl hyn yr wylais trachefn, ac ymprydiais ſaith niwrnod eraill, fel y gallwn gyflawni y tair wythnos y rhai a ddywedaſe efe wrthif.

36 A'r wythfed nôs yr oedd fyng-halon yn fy mlino trachefn, a dechreuais ddywedyd ger bron y Goruchaf.

37 Canys fy yſpryd a enynnodd yn ddirfawr a'm henaid oedd mewn caledi.

38 A dywedais, ô Arglwydd ti a ddywedaiſt wrth dy greadur o'r dechrau yn y dydd cyntaf gan ddywedyd, gwneler nef a daiar, a'th air a aeth yn weithred berffaith. Gene.1.1.

39 A'r amſer hwnnw yr ydoedd yr yſpryd, a'r tywyllwch oedd o amgylch, a diſtawrwydd a ſain lleferydd dŷn nid oedd oddi wrthit ti.

40 Yna y gorchymynnaiſt ddwyn allan oleuni diſclaer o'th dryſſorau fel yr ymddangoſe dy waith.

41 A'r ail dydd y gwnaethoſt yſpryd y ffurfafen a gorchymynnaiſt iddo ef ymrannu a gwneuthur doſparth rhwng y dyfroedd, fel y galle y naill ran fyned i fynu, a'r rhan arall aros i wared.

42 A'r trydydd dydd y gorchymynnaiſt i'r dyfroedd ymgaſclu yn ſeithfed ran o'r ddaiar, chwe rhan i'r byd a ſychaiſt ac a gedwaiſt fel y galle ddynion arnynt lafurio a hau ger dy fron di.

43 Dy air di a gerddodd, a'r gwaith a gyflawnwyd allan o law.

44 Canys yn ddiſymmwth yr oedd ffrwyth mawr aneirif, a llawer o felusdra o bob rhywogaeth, a llyſiau o ddigolledic liwiau, ac aroglau rhyfedd anianawl, a hyn a wnaethpwyd y trydydd dydd.

45 Y pedwerydd dydd y gorchymynnaiſt wneuthur goleuni yr haul, a llewyrch y lleuad, a threfn y ſêr.

46 A gorchymynnaiſt iddynt waſanaethu y dyn yr hwn a wnait. Deut.4.9.

47 A'r pumed dydd, dywedaiſt wrth y ſeithfed ran lle yr ydoedd y dyfroedd wedi ymgaſclu yng-hyd, am iddi ddwyn anifeiliaid, ac adar, a phyſcod ac felly y bu. Gene.1.21.

48 Y dwfr mud ac heb fywyd, y rhai a orchmynnwyd wrth amnaid Duw, a ddygodd anifeiliaid, fel y galle y cenhedloedd ddangos dy ryfeddodau.

49 Yna y cedwaiſt ddau enaid, un a elwaiſt Enoch, a'r ail a elwaiſt Leuiathan.

50 A didolaiſt y naill oddi wrth y llall: canys y ſeithfed ran lle yr ydoedd y dyfroedd wedi ymgynnull, ni's galle eu dal hwynt.

51 A rhoddaiſt i Enoch y naill ran yr hon a ſychwyd y trydydd dydd, fel y galle efe aros yno, lle y mae mil o frynnau.

52 Ond i Lefiathan y rhoddaiſt y ſeithfed rann yr hon ſydd wlyb a chedwaiſt ef i ddifetha y pethau a fynech a phan y mynech.

53 A'r chweched dydd y gorchymynnaiſt i'r ddaiar ddwyn o'th flaen di anifeiliaid, buſt-filod ac ymluſciaid.

54 Ac uwch y pethau hyn y rhoddaiſt Adda, 'r hwn a ordeiniaiſt yn dywyſog ar dy holl weithredoedd a wnaethoſt, ac o honaw ef y daethom oll, a'th bobl a ddewiſaiſt.

55 A'r pethau hyn oll a ddywedais ger dy fron di ô Arglwydd, canys er ein mwyn ni y gwnaethoſt y byd.

56 Ar bobl eraill a anwyd o Adda, dywedaiſt nad ynt ddim, ond tebyg ynt i boeryn, a chyffelybaiſt eu hamldra i ddiferiad o leſtr.

57 Ac yn awr ô Arglwydd, wele y cenhedloedd hynny y rhai a ddirmygit a ddechreuant arglwyddiaethu arnom ni, a'n difetha.

58 A ninnau dy bobl di (y rhai a elwaiſt yn unigenedic, yn gyntaf-anedic, a'r rhai a'th gar di yn gu) a roddwyd iw dwylo hwynt.

59 Ac os gwnaethbwyd y byd er ein mwyn ni, pan ham na chawn feddiannu etifeddiaeth gyd a'r byd: pa hyd y peri hyn?

## PEN. VII.

5 Ni ddichon neb ddyfod i'r bywyd tragywyddol heb adfyd. 12 Duw a ddatcuddia bob peth mewn amſer. 28 Dyfodiad a marwolaeth Criſt. 32 Yr ail gyfodiad a'r farn ddiwethaf.

A Phan ddarfu i mi ddywedyd y geiriau hyn, danfonwyd attaf angel yr hwn a ddanfonaſid attaf y noſweithiau cyntaf.

2 A dywedodd wrthif, cyfot Eſdras a gwrando y geiriau y daethym iw mynegi i ti.

3 A dywedais inne, dywet fy Nuw, ac efe a ddywedodd wrthif, y môr a oſodwyd mewn lle ehang, fel y byddo efe yn ddwfn ac yn fawr.

4 Mewn lle cyfyng y goſodir y ffordd i fyned iddo, hyd onid yw efe debyg i afonydd.

5 Pwy wrth hynny oi fodd a ai i'r môr, i edrych arno ef, ac iw lywodraethu ef? os efe nid ai drwy 'r lle cyfyng, pa fodd y galle efe ddyfod i'r lle ehang?

6 Hefyd trachefn, adeiladwyd dinas ar faes gwaſtad, ac y mae hi yn llawn o bob daioni.

7 Ai phorth hi ſydd gyfyng, a goſodwyd hi mewn lle ſerth, fel pe bydde dân ar y llaw ddehau, a dwfr dwfn ar y llaw aſſwy.

8 Ac un llwybr cyfyng a oſodwyd rhyngddynt, ſef, rhwng y dwfr a'r tân, fel na's galle fyned rhyd y llwybr ond un gŵr.

9 Pe rhoddid y ddinas yn etifeddiaeth i ŵr, ac efe er ioed heb fyned y ffordd beryglus honno, pa fodd y derbynie efe ei etifeddiaeth?

10 A dywedais, gwir fy Arglwydd, ac efe a ddywedodd wrthif, felly y mae rhan Iſrael.

11 Canys er eu mwyn hwyntwy y gwnaethum y byd: a phan dorrodd Adda fyng-orchymynnaion i, yr ordeiniwyd y peth ſydd yn awr wedi ei wneuthur.

12 A gwnaethbwyd dechreu y byd hwn yn gyfyng, yn drist, ac yn llafurus, yn ychydig, yn ddrwg, yn llawn perigl a phoen.

13 Canys dechreuad y byd cyntaf oedd ehang a diberigl, ac yn dwyn ffrwyth anfarwol.

14 Os gan hynny, y rhai ſydd fyw nid ânt i mewn drwy 'r cyfyngdra a'r oferedd hyn, ni's gallant dderbyn y pethau a roddwyd i gadw yn ddirgel.

15 Wrth hynny, pa ham i'th aflonyddi dy hun,, gan dy fod yn llygredic? a pha ham y cynhyrfi gan dy fod yn farwol?

16 A pha ham na feddyli yn dy galon am y pethau ſydd i ddyfod, ond am y pethau ſydd breſennol?

17 Atebais a dywedais, Arglwydd Llywydd, wele ordeiniaiſt drwy dy gyfraith i'r rhai cyfiawn feddiannu y pethau hyn, ac i'r anghyfiawn fethu.

18 A'r cyfiawn hefyd a ddioddefant gyfyngder, ac a obeithiant ehangder: a'r ſawl a wnaeth anghyfiawnder a ddioddefaſant gyfyngder, ac ni's caffant weled ehangder.

19 A dywedodd efe wrthif, nid oes farn-ŵr ar Dduw, na neb yn deall yn well na'r Goruchaf.

20 Canys llawer a gollir o'r rhai preſennol, o achos diyſtyru cyfraith Dduw 'r hon ſydd oi blaen hwynt.

21 Canys gan orchymyn y gorchymynnodd Duw i'r rhai a ddaeth pan ddaethant, pa beth a wnaent i fyw, a pha beth a gadwent fel na's ceryddid hwynt.

22 Er hynny y rhai hyn ni's coeliaſant ef, a dywedyd a wnaethant yn ei erbyn ef, a meddyliaſant oferedd,

23 A chann eu hamgylchu eu hun â beiau hwy a ddywedaſant am y Goruchaf nad oedd efe, ac ni chydnabuant ei ffyrdd ef.

24 Ai gyfraith ef a ddiyſtyraſant, a gwadaſant ei addewidion ef, ac ni buant ffyddlon yn ei gyfreithiau ef, ac ni chyflawnaſant ei weithredoedd ef,

25 Am hyn Eſdras, i'r gwag y mae y pethau gweigion, ac i'r llawn y pethau llawnion.

26 Ac wele, 'r amſer a ddaw, y cyflawner 'r arwyddion a ddangoſais i ti, a'r briodaſ-ferch a ymddengys, a dangoſir yr hon ſydd yn awr dann y ddaiar.

27 A phawb a'r a ddiango oddi wrth y drygioni uchod, a gaiff weled fy rhyfeddodau maufi.

28 Canys fy mab Ieſus a'r rhai ſydd gyd ag ef a ddangoſir, a'r rhai a adewir a lawenychant bedwar-cant o flynyddoedd.

29 Yn ôl y blynyddoedd hyn y bydd marw fy mab Criſt, a phob dyn byw.

30 A'r byd a droir i'r hên ddiſtawrwydd dros ſaith niwrnod, fel yn y barnedigaethau cyntaf, fel na's gadawer neb yn ôl.

31 A digwydd yn ôl ſaith niwrnod y cyfodir y byd hwn ſydd etto heb ddeffro, a'r peth

llygredic a fydd marw.

32 A'r ddaiar a ddyri trachefn y pethau ſydd yn cyſcu ynddi, a'r pridd y rhai ſydd yn aros ynddo ef mewn diſtawrwydd, a'r celloedd yr eneidiau y rhai a roddwyd ynddynt hwy.

33 A cheir gweled y Goruchaf ar orſeddfaingc y farn, a phob truêni a ânt ymmaith, a dioddefgarwch a geſclir yng-hyd.

34 Ond y farn a eris, y gwirionedd a ſaif, a ffydd a gryfhâ.

35 A'r weithred a galyn, a'r gwobr a ddangoſir, cyfiawnder a beru, ac anghyfiawnder ni reola.

36 A dywedais, yn gyntaf Abraham a weddiodd dros y Sodomiaid, a Moſes dros y tadau a bechaſant yn yr anialwch.

37 A'r rhai a fuant ar ei ôl yntef[ a weddiaſant] tros Iſrael yn nyddiau Achas a Samuel.

38 A Dafydd rhag y deſtruw, a Salomon dros y rhai a ddaethant i'r cyſſegr.

39 A Helias dros y rhai a gawſant law, a thros y marw er mwyn caffael o honaw ef fyw.

40 Ac Ezechias dros y bobl yn amſer Senacherib, a llawer dros laweroedd.

41 Wrth hynny os yn awr (pan dyfodd llwgredigaeth, ac amlhau anghyfiawnder) y cyfiawn a weddiaſant tros ar annuwiol: pa ham na bydd felly yr awron?

42 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, nid y byd hwn yw'r diwedd: anrhydedd a gcir ynddo ef yn fynych, am hynny y gweddiaſant dros y gweniaid.

43 Dydd y farn a fydd diwedd y byd hwn, a dechreuad y tragwyddoldeb ſydd i ddyfod, yn yr hwn y diflanna pôb llygredigaeth.

44 Anghymedroldeb a ryddhauwyd, anghredyniaeth a dorrwyd ymmaith: cynyddodd cyfiawnder, a gwirionedd a gododd.

45 Y prydd hynny, ni's gall neb achub yr hwn a gollwyd, na gorthrymmu y neb a orchfyga.

46 Ac atebais gan ddywedyd, dymma'r gair a ddywedais yn gyntaf ac yn ddiwethaf, mai gwell a fuaſe na roddaſid y ddaiar i Adda, neu pan roddwyd hi, lleſteir iddo ef bechu.

47 Canys pa leſſâd i ddynion fyw yn y byd preſennol hwn mewn trymder, ac yn ôl marwolaeth diſgwil am goſpedigaeth?

48 O ti Adda, pa beth a wnaethoſt? er i ti bechu, nid yw hynny yn gwymp i ti dy hun yn vnic, ond i ninnau hefyd y rhai a ddaethom o honot ti.

49 Canys pa les i ni os addawyd i ni fywyd tragywyddawl, a ninnau a wneuthom weithredoedd marwolaeth?

50 Ac er addo i ni obaith tragywyddawl: ninnau a wnaethpwyd yn wîr oferedd?

51 Ac er darparu i ni drigfannau iechyd a diogelwch, a ninnau yn byw yn annuwiol?

52 Ac er darparu gogoniant y Goruchaf i amddeffyn y rhai a fuant fyw yn ddioddefgar a ninnau yn rhodio ar hyd y ffordd waethaf?

53 Ac er dangos i ni baradwys ai ffrwyth yn parhau yn dragywyddol, yn yr hwn y mae diogelwch a meddiginiaeth:

54 A ninnau er hynny heb gael myned i mewn? (canys rhodio a wnaethom mewn lleoedd amhawddgar)

55 Ac er diſclaerio o wynebau y rhai a ymgoſpaſaſant yn oleuach na'r ſêr, a'n hwynebau ninnau yn dduach na'r tywyllwch?

56 Canys tra fuo'm fyw yn gwneuthur anwiredd, ni feddyliaſom ni y caem ddioddef am hynny yn ôl marwolaeth.

57 Ac efe a atebodd gan ddywedyd, dymma fodd yr ymrafael 'r hwn a ymrafailia dŷn a'r a âner ar y ddaiar.

58 Fel os gorchfygir ef, efe a gaiff ddioddef yr hyn a ddywedaiſt, ond os efe a orchfyga, efe a gaiff dderbyn y peth a ddywedaf.

59 Canys hon yw'r fuchedd am yr hon y dywedodd Moſes, pan ddaeth efe at y bobl gan ddywedyd, dewis i ti fuchedd i fyw.

60 Er- hynny ni choeliaſant ef na'r prophwydi ar ei ôl ef, na minne ychwaith yr hwn a ddywedais wrthynt,

61 Na chai triſtwch fod yn ddialedd arnynt, fel y daw llawenydd ar y rhai a dderbyniaſant ddyſceidiaeth i iechydwriaeth.

62 Atebais gan ddywedyd, gwn Arglwydd, mai trugarog y gelwir y Goruchaf, am iddo fod yn drugarog i'r rhai ni ddaethant etto i'r byd,

63 Ac yn drugarog wrth y rhai a rodio yn ei gyfraith ef.

84 A dioddefgar ydyw efe, am iddo hîr ddioddef i'r rhai a bechaſant yn erbyn ei greaduriaid ef.

65 A hael yw efe, am iddo roddi lle y byddo rhaid.

66 Ac y mae efe yn fawr ei drugaredd, o herwydd mwy yw ei drugaredd ef na'r rhai preſennol, a'r rhai a baſſiodd, a'r rhai a ddaw.

67 Os efe ni's chwanega ei drugareddau, ni bydd byw y byd a'r rhai ſydd yn aros ynddo.

68 Hefyd, efe a faddeu, canys oni faddeu efe oi ddaioni, fel yr eſmwythaer ar y rhai a wnaethant ddrwg, ni alle y ddecfed fîl o'r bobl fyw.

69 Ac oni bai iddo ef (yr hwn ſydd farn-wr) faddeu i'r rhai a iachauwyd drwy ei air ef, a phardynu eu haml ymryſon,

70 Os gatfydd ychydig iawn a adewid o laweroedd o honynt.

## PEN. VIII.

6 Gweithredoedd Duw ſydd yn rhagori. 20 Mae Eſdras yn gweddio droſto ei hun a thros y bobl. 39 A ddewid o iechydwriaeth i'r cyfiawn.

AC efe a'm hattebodd gan ddywedyd, y Goruchaf a wnaeth y byd hwn i lawer, ond y byd a ddaw i ychydig.

2 Eſdras, dangoſaf i ti gyffelybrwydd fel pan ofynech i'r ddaiar, hithe a'th atyb ei bôd yn rhoddi llawer o bridd, o'r hwn y gwneir lleſtripridd,

ond ychydig o'r hwnn y daw'r aur allan: felly y mae am waith y byd hwn.

3 Llawer a wnaethbwyd, ond ychydig a gedwir.

4 Yna yr atebais gan ddywedyd, (ô fy enaid) llwngc di ſynnwyr, ac thraflyngca ddeall:

5 Canys cytunaiſt i wrando, ac ewyllyſcar ydwyt i brophwydo: canys nid oes i ti hwy o amſer na'r fuchedd hon.

6 O Arglwydd, oni roddi genad i'th wâs i erfyn arnat, ar i ti roddi hâd ein calon, ac adeiladu ein deall fel y dêl ffrwyth o honaw, fel y gallo pôb dyn llygredic fyw: pwy a all aros yn lle dyn?

7 Canys ti wyt vnic, a ninnau oll ydym vn weithred dy ddwylaw, fel y dywedaiſt.

8 Canys pan lunier y corph yn y groth, a phan roddech yr aelodau, dy greadur a gedwir mewn tân ā dwfr, a naw mîs y dioddef dy waith y creadur a luniwyd ynddi.

9 Ond y peth ſydd yn cadw, a'r peth a gedwir, a ddiangant ill dau: a phan ddelo'r amſer, y groth a gadwed a geidw y pethau a fagwyd ynddi.

10 Canys gorchymynnaſe i'r aelodau, yn enwedic i'r dwyfronau roddi llaeth i ffrwyth y dwyfronnau.

11 Fel y gallo y peth a wnaethoſt, ac a luniaiſt gael ei fagu dros amſer, hyd oni threfnech ef a'th drugaredd.

12 Magaiſt ef drwy dy gyfiawnder, dyſcaiſt ef yn dy gyfraith, a cheryddaiſt ef a'th ddeall,

13 A marwoleithi ef fel dy greadur, a bywhei ef fel dy waith.

14 Os deſtruwi, gan hynny y peth a luniwyd, ac a wnaethbwyd drwy gymmaint o boen wrth dy orchymyn di, hawdd oedd i ti beri cadw y peth a wnaethbwyd.

15 Gan hynny Arglwydd mi a ddywedaf, (am bôb dŷn yn gyffredinol ti a wyddoſt fwy) ond dros dy bobl, am y rhai yr ydwyf yn driſt.

16 Ac am dy etifeddiaeth, dros y rhai yr ydwyf yn galaru, ac Iſrael am yr hwn yr ydwyf, driſt, ac Iacob er mwyn pwy yr ydwyf yn athriſt.

17 Am hynny y dechreuaf weddio ger dy fron di droſof fy hun, a thoſtynt hwy: canys gwelaf ein beiau ni y rhai ſy yn y bŷd.

18 Ond mi a glywais gyflymdra y barnwr ſydd yn dyfod.

19 Am hynny gwrando fy lleferydd, a deall fyng-eiriau, a pharablaf ger dy fron di. Dymma ddechreu geiriau Eſdras cyn ei eſcyniad ef:

20 O Arglwydd, ty di'r hwn ydwyt yn preſſwylio yn y byd yr hwn wyt o'r uchelder yn gweled pethau yn y nefoedd ac yn yr awyr:

21 Eiſteddle'r hwn ni's gellir ei phriſio, ai ogoniant ni's gellir moi gynnwys, o flaen yr hwn y mae'r lluoedd o angelion yn ſefyll dan grynu,

22 (Cadwedigaeth y rhai a droir mewn gwynt a thân) yr hwn y mae ei eiriau yn wîr, ai orchymynnion yn ddianwadal, ai ddeddfau yn oſnadwy,

23 Ai ôlwg ſydd yn ſychu'r dyfnder, ai ddicllonedd ef ſydd yn gwneuthur i'r mynyddoedd doddi, ai wirionedd ſydd yn dwyn teſtiolaeth:

24 O gwrando weddi dy wâs, ac yſtyria a'th gluſtiau ddeiſyfiad dy greadur,

25 Canys tra fyddwyf byw y llefaraf, a thra medrwyf ddeall yr atebaf.

26 Na edrych ar bechodau dy bobl, ond ar y rhai ſy yn dy waſanaethu mewn gwirionedd.

27 Na phriſia ar ddrwg amcannion y cenhedloedd: ond ar ddymuniad y rhai ſy yn cadw dy deſtiolaethau o ewyllys eu calonnau.

28 Na feddwl am y rhai a rodiodd yn ffuantus ger dy fronn di, ond meddwl am y rhai yn ôl dy ewyllys a adnabuant dy ofn.

29 Nac ewyllyſia ddifetha y rhai a ymddugaſant yn anifeiliaidd: ond edrych ar y rhai a ddyſcaſant dy gyfraith yn berffaith.

30 Na chymmer ddigofaint wrth y rhai ſydd waeth nag anifeiliaid: ond câr di hwynt a ymddyriedant yn waſtadol yn dy gyfiawnder a'th ogoniant.

31 Canys yr vn clefyd ſydd arnom ni a'n tadau, ac o'n plegid ni bechaduriaid y gelwir di yn drugarog.

32 Canys os trugarhei wrthym, fe a'th elwir yn drugarog wrthym ni y rhai ſy heb weithredoedd cyfiawnder.

33 Canys y rhai cyfiawn a'r a roddaſant yng-hyd lawer o weithredoedd da, a dderbyniant oi gweithredoedd wobr.

34 Ond pa beth yw dŷn pan ddigiech wrtho ef: ne pa beth yw'r genhedlaeth lygredig farwol hon, pan fyddech mor chwerw wrthi hi?

35 Canys yn wîr, nid oes vn ym mhlith y rhai a aned heb wneuthur drygioni, ac nid oes vn ym mhlith y rhai cyfiawn heb wneuthur ar fai.

36 Canys am hyn ô Arglwydd, canmholir dy gyfiawnder a'th ddaion di os byddi drugarog wrth y rhai nid ydynt gyfoethogion ô weithredoedd di.

37 Yna i'm hatebodd gan ddywedyd, peth a ddywedaiſt yn dda, a hynny a gyflawnir yn ôl dy eiriau.

38 Canys yn wir, nid yſtyriaf weithredoedd y rhai a bechaſant cyn marwolaeth, a chyn barnedigaeth a deſtruw:

39 Ond llawenychaf am weithredoedd a myddyliau y rhai cyfiawn, a myddyliaf hefyd y pererindod, yr iechydwriaeth, ar gwobr a gânt.

40 Fel y dywedais yn awr, felly y digwydd.

41 Canys fel y mae'r llafurwr yn hau llawer o hâd ar y ddaiar, ac yn plannu llawer o goed, ac etto nid yw y peth a hauwyd ac a blannwyd,

nwydd, bôb amſer yn ddiogel, nac yn gwreiddio: felly y mae am y bobl y rhai a hauwyd yn y byd, ni byddant oll gadwedic.

42 Yna yr atebais ac y dywedais, os cefais ras, gâd i'm ddywedyd.

43 Fel y diflanna hâd y llafurwr, oni daw efe i fynu, a derbyn dy law di yn ei amſer cyfaddas, ne os daw gormod glaw arno, ai lygru ef:

44 Felly hefyd y derfydd am ddyn, yr hwn a wnaeth dy ddwylaw di, ac ſydd debyg i'th ddelw di, ac am ei fod yn debyg i ti er mwyn yr hwn y gwnaethoſt bôb peth, a chyffelybaiſt ef i hâd y llafurwr.

45 Na fydd ddigllon wrthym ô Arglwydd, ond arbed dy bobl, a chymmer drugaredd ar dy etifeddiaeth: canys trugarog fyddi wrth dy greadur.

46 Yna efe a'm hatebodd gan ddywedyd, y pethau cydrychol ſy i'r rhai cydrychol, a phethau ar ddyfod ſydd i'r rhai ſydd yn dyfod.

47 Canys mae llawer i ti yn ôl etto, fel y gallech garu fyng-hreadur yn fwy na myfi: Ond mi a neſeais lawer gwaith attat ti ac atto yntef, ond ni neſeais er ioed at yr anghyfiawn.

48 Ac yn hyn hefyd yr ydwyt yn rhyfedd ger bron y Goruchaf,

49 Am i ti dy ufuddhau dy hun fel yr oedd weddus i ti, ac ni's tybiaiſt dy hun yn deilwng i heuddu clôd ym mhlith y rhai cyfiawn.

50 Canys llawer o drueni mawr ſydd i'r rhai a eris yn y byd yn y pen diwethaf, am iddynt rodio mewn balchder mawr.

51 Ond dyſc di drosot dy hun, ac edrych am ganmoliaeth y rhai tebyg i ti.

52 Canys i chwychwi yr agorwyd paradwys, plãnwyd pren y bywyd, yr amſer a ddaw a ddarparwyd, helaethrwydd ſydd barod, y ddinas a gorphwyſdra a ordeniwyd a adeiladwyd i chwi îe a doethineb a daioni perffaith.

53 Gwreiddin drygioni a gadwyd oddi wrthych, gwendid a llwgr a guddiwyd oddi wrthychi a llygrydigaeth a ffy i uffern tan angôf.

54 Galar a aeth ymmaith, a thryſſor tragwyddoldeb a ddangoſir yn y diwedd.

55 Ac am hynny nac ymofyn mwy am rifedi y rhai colledig.

56 Canys pan gawſãt rydd-did, dibriſiaſant y Goruchaf diyſtyraſant ei gyfraith, a gwrthodaſant ei ffyrdd ef.

57 Heb law hynny, ſathraſant ei rai cyfiawn ef.

58 A dywedaſant yn eu calonnau, nid oes Dduw, a hynny o'r gwir waith ddioddef, canys meirw fyddant.

59 Canys fel y darparwyd i chwi y pethau a ddywedais, felly y darparwyd iddynt hwythau ſyched a llafur: canys nid ewyllys Duw oedd i ddyn fethu.

60 Ond y rhai a wnaethbwyd a halogaſant enw y neb ai gwnaeth hwy, ac ydynt anniolchgar i'r hwn a ddarparodd iddynt fywyd.

61 Am hynny y mae fy marn i ger-llaw.

62 Ni ddangoſais i y pethau hyn i bawb ond i ychydic, hynny yw i ti, ac i'th gyffelyb: yna yr atebais gan ddywedyd,

63 Wele, Arglwydd, yn awr y dangoſaiſt i mi y rhifedi arwyddion, y rhai a ddechreui eu gwneuthur yn yr amſer diwethaf: ond ni ddangoſaiſt i mi pa amſer y gwnait hwy.

## PEN. IX.

Pob peth bydol ſydd a dechreu, ac a diwedd iddo. 10 Poenau i'r annuwiol ar ôl y fuchedd hon. 15 Mwy yw rhifedi y drwg na'r da.

YNa efe a'm hatebodd gan ddywedyd, meſura'r amſer yn ddyfal ynddo ei hun: a phan welech y naill rann i'r arwyddion ar a ddangoſais i ti o'r blaen wedi dyfod,

2 Yna i cei ddeall, mai'r gwir amſer yw yn yr hwn y dechreu y Goruchaf ymweled a'r hwn a wnaeth efe.

3 A phan weler daiar-gryn a chynnwrf ym mhlith pobl y byd,

4 Yna y cei yn ddiau ddeall, ddarfod i'r Goruchaf ddywedyd am y pethau hynny ar yr amſer a fu o'th flaen di, o'r dechreuad.

5 Canys fel y mae i bôb peth a'r y ſydd yn y bŷd ddechreu a diwedd, a'r diwedd ſydd eglur,

6 Felly y mae hefyd i amſeroedd y Goruchaf ddechreuad mewn rhyfeddodau a nerth, ac a ddiweddãt mewn gweithredoedd ac arwyddiõ.

7 A phob un a'r a gadwer, ac a allo ddiangc wrth ei weithredoedd, a ffydd, drwy'r honn y credaſoch,

8 A achubir oddi wrth y peryglon hynny, ac a gaiff weled fy iechydwriaeth yn fy nhîr mau fi, ac yn fy mroedd: canys ſancteiddiais fy hun oddi wrth y byd.

9 Yna y cwynir i'r rhai a gam-arferaſant fy ffyrdd mau fi: a'r ſawl ai taflodd hwynt allan yn ddiyſtyr a drigant mewn poenau.

10 Canys y rhai a dderbyniaſant dyrnau da yn eu bywyd, ac ni's adnabuant fi.

11 A'r ſawl a gaſſaodd fyng-hyfraith tra ydoedd iddynt rydd-did, a phan oedd iddynt amſer i wellhau ac i droi, ni's deallaſant, ond ei diyſtyru hi,

12 Rhaid i'r rhai hynny wybod, pa beth yw fyng-hyfraith yn ôl marwolaeth, mewn poenau.

13 Am hynny na ofala di pa fodd y coſbir yr anuwiol: ond ymofyn pa fodd y cedwir y cyfiawn a phwy bie'r byd, ac er mwyn pwy, a pha bryd.

14 Yna yr atebais, gan ddywedyd,

15 Dywedais o'r blaen, a dywedaf etto, ac ai dywedaf hefyd rhag-llaw: fôd mwy o'r rhai colledig nag o'r rhai cadwedig:

16 Fel y mae'r llifddwfr yn fwy na defnyn.

17 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, fel y mae'r maes, felly y mae'r hâd: fel y mae'r lliſiau, felly y mae eu lliw hefyd: fel y mae'r gweithiwr, felly y bydd y gwaith: ac fel y

byddo 'r llafur-wr, felly y bydd ei lafur hefyd: canys yr amſer oedd felly.

18 A phan arlwyais i'r rhai ſydd yn awr, cyn gwneuthuriad y byd, yn yr hwn y caent aros, nid oedd neb y pryd hynny yn dywedyd yn fy erbyn i.

19 Canys y pryd hynny, pawb (oedd yn vfydd,) arfer y rhai a wnaethbwyd yn y byd a lygrwyd wrth hâd tragywyddawl, ac wrth gyfraith o'r hon ni's gallant ymadel.

20 Felly yſtyriais y bŷd, ac wele yr ydoedd perigl, o herwydd y dychymygion a ddaethent iddo ef.

21 A gwelais, ac arbedais hwynt yn ddirfawr, a chedwais i mi vn o ffrwyth y winwydden, a phlanhigin o genedl fawr.

22 Darfydded am y gynnulleidfa a dyfodd yn ofer, a chadwer fyng-râwn a'm planhigin: canys drwy boen fawr y gwneuthum i hwynt.

23 Er hynny os gorphywyſi ſaith niwrnod etto, ond ni chei di ymprydio ynddynt,

24 Dôs gan hynny ymmaith i faes o lyſſiau heb dŷ arno, a bwytta yn vnic o lyſſieu 'r maes, na phrawf gig, nac ŷf win, ond bwytta lyſſiau yn vnic,

25 A gweddia ar y Goruchaf yn waſtadol, ac yna mi a ddeuaf i ymddiddan â thi.

26 Felly mi a aethym ymmaith i'r maes a elwir Ardath, fel y gorchymynnodd efe i'm, ac yno i'r eiſteddais ym myſc y llyſſiau, a bwytteis lyſſieu'r maes, a'r bwyd hwnnw a'm digonodd.

27 Ym mhenn y ſaith niwrnod eiſteddais ar y glaſ-wellt, a'm calon oedd yn ſlin o'm mewn fel o'r blaen.

28 Ac agorwyd fyng-enau, a dechreuais ymddiddan a'r Goruchaf gan ddywedyd,

Exod.19 9.
24.3.
Deut.4.12.

29 O Arglwydd ymddangoſaiſt i ni, a gwnaethoſt i'n tadau dy adnabod yn yr anialwch, mewn lle anghyfannedd, llwm, pan ddaethant allan o'r Aipht.

30 A lleferaiſt, gan ddywedyd, clyw fi ô Iſrael, ac yſtyria di fyng-eiriau ô hâd Iacob.

31 Canys mi a heuaf fyng-hyfraith ynoch, a hi a ddwg ffrwyth ynoch, ac anrhydeddir chwi er ei mwyn yn dragywyddawl.

32 Ond ein tadau y rhai a dderbyniaſant dy gyfraith ni's cadwaſant hi, ac ni chanlynaſant dy ordeiniadau, a ffrwyth dy gyfraith nid ymddangoſodd, ac ni's galle, canys eiddo ti oedd.

Deut.32.28.

33 Canys y neb ai derbyniodd a gollwyd, am na's cadwent y pethau a haueſid ynddynt.

34 Ac wele arfer yw, pan dderbynio 'r ddaiar hâd, ne'r môr y llong, ne leſtr fwyd a diod: pan fetho 'r ddaiar lle yr hauwyd, ne pan dorro y llong ne'r lleſtr lle y rhoeſid y peth:

35 Y pethau hefyd a roddwyd ynddynt a gollwyd: a'r pethau a dderbyniwyd nid arhoſant gyd â ni: ond nid felly y bydd ynom ni.

36 Canys ni y rhai a dderbyniaſom y gyfraith a gollir mewn pechod, ac felly y gwna ein calon a dderbyniodd y gyfraith:

37 Canys ni dderfydd am y gyfraith, ond aros a wna yn ei grym.

38 A phan ddywedais y pethau hyn yn fyng-halon, edrychais o'm hamgylch, ac ar fy llaw ddehau y gwelwn wraig yn galaru yn drist, yn gwneuthur cwynfan mawr, yn gweiddi yn vchel, ac yn drom ei chalon, ai dillad wedi rhwygo, a lludw oedd cenddi ar ei phenn.

39 Yna y bwriais y meddyliau oedd gennif o'r blaen heibio, a throais atti hi,

40 A dywedais wrthi hi, pa ham yr ydwyt yn ŵylo? a phaham yr ydwyt môr drist dy galon?

41 A hi a ddywedodd wrthif, arglwydd, gâd fi yn llonydd, fel y gallwyf alaru drosof fy hun, a chwanegu fyng-alar, canys wyf drist iawn fyng-halon, ac wedi dwyn yn iſel heb rôl.

42 A dywedais wrthi hi, beth a ddarfu i ti? dywet i mi,

43 Hithe a ddywedodd wrthif, myfi dy waſanaeth-wraig a fum heſb, ac heb planta, er bod i mi ŵr ddeng-mhlynedd ar hugain.

44 A'r deng-mhlynedd ar hugain hyn, yr ydwyf yn gweddio nôs a dydd a phob awr ar y Goruchaf.

45 Ar ben y deng-mhlynedd ar hugain, Duw a'm gwrandawodd fi dy waſanaeth-wraig, edrychodd ar fy nrhueni, yſtyriodd fy mlinder, a rhoddes i mi fâb: a mi a fum lawen am dano ef, ac felly yr oedd fyng-ŵr hefyd, a'm holl gymmydogion, a rhoeſom anrhydedd mawr i'r Goruchaf.

46 A megais ef drwy boen fawr.

47 Felly pan dyfodd efe, a dyfod i oedran gwreicca, mi a wneuthym wledd.

## PEN. X.

Eſdras a'r wraig a ymddangoſodd iddo ef, yn ymddyddan yng-hyd.

AC felly y digwyddodd i'm mab, pan aeth efe i'w ſtafell, efe a ſyrthiodd i lawr, ac a fu farw.

2 Yna nyni oll a ddiffoddaſom y canhwyllau, a'm holl gymmydogion a godaſant i fynu i'm cyſſuro: yna y gorphywyſais i hyd yr hwyr yr ail dydd.

3 A phan ddarfu iddynt hwy oll fyng-huſſuro, fel y byddwn lonydd, yna y cyfodais hŷd nos, ac y ffoais, ac a ddaethum i'r maes hwn fel y gweli,

4 Ac y mae yn fy mryd nad elwyf yn fy ôl i'r ddinas, ond aros ymma, heb na bwytta nac yfed, ond galaru yn waſtadol, ac ymprydio hyd oni byddwyf farw.

5 Yna y gollyngais ymmaith fy myfyrdod a'r meddyliau oedd ynof, ac attebais wrthi hi yn ddigllon gan ddywedyd,

6 Tydi ffolog vwch law neb arall, oni weli di ein trymder a'n galar ni, a pha beth a ddigwydd i ni?

7 Fel y mae Sion ein mam ni yn llawn triſtwch a galar, ac fel y dygwyd hi hyd lawr, ac

y mae hi yn galaru yn anianol?

8 Gan ein bôd ni oll yn awr mewn trymder, ac yn cŵyno, canys triſt ydym oll: wyt ti cyn drymmed ar ôl vn mab?

9 Gofyn i'r ddaiar, a hi a ddywed i ti, mai y hi a ddyle alaru, am gwymp cymmaint ac y ſydd yn tyfu arni.

10 Canys o'r dechreuad, pob dŷn a anwyd o honi hi, ac eraill a ddaw: ac wele, ymaent oll agos yn rhodio i ddeſtruw, a'r gynnullheidfa o honynt a ddadwreiddir.

11 Pwy wrth hynny a ddyle alaru fwyaf? ond y hi a gollodd gymmaint o rifedi? ac nid tydi 'r hon nid wyt yn driſt ond am vn mab?

12 Ond pe dywedit wrthif, nid yw fyng-alar debyg i alar y ddaiar: canys collais ffrwyth fyng-hroth, yr hwn a ddygais i'r bŷd drwy drymder, ac a ymddugum drwy driſtwch.

13 Ond y ddaiar ſydd megis y mae arferol i fôd, a'r gynnulleidfa breſennol ſydd yn myned iddi trachefn, fel y mae yn digwyddo.

14 Am hynny y dywedaf wrthit ti, fel y dygaiſt i'r bŷd drwy drafel a phoen, felly y mae'r ddaiar hefyd o'r dechreuad yn rhoddi ei ffrwyth i ddyn, yr hwn ai llafurio hi.

15 Ac am hynny, attal dy drymder a'th alar wrthit dy hun, ac edrych beth a ddigwydd i ti, a dioddef yn ŵrol.

16 Canys os berni nôd a diwedd Duw i fôd yn dda, ac os derbynni ei gyngor ef yn amſer, ti a gei glôd am hynny.

17 Dôs gan hynny ymmaith i'r ddinas at dy ŵr.

18 A hithe a ddywedodd wrthif, ni wnafi mo hynny: nid âf i'r ddinas, ond ymma y byddaf farw.

19 Felly, mi a chwedleuais fwy â hi, ac a ddywedais,

20 Paid â hynny, cymmer gyngor, pa ſawl cwymp a gafodd Sion? bydd gyſſurus am ddolur Jeruſalem.

21 Canys ti a weli fod ein cyſſegr ni yn anialwch, ein hallor wedi ei thorri, a'n Teml wedi ei hanrheithio,

22 Ein pſalteringau a fwriwyd i lawr, ein cân a ddiſtawyd, ein llawenydd a aeth ymmaith, ein canhwyllau a ddiffoddwyd, Arch ein cyfammod a ddygwyd oddi arnom, ein holl ſanctaidd bethau a halogwyd, a'r henw 'r hwn yr ydym ni yn galw arno agos a amharchwyd: ein plant a wrâdwyddwyd, ein hoffeiriaid a loſcwyd, ein Lefiaid a gaethgludwyd, ein morwynnion a anrhaithiwyd, ein gwragedd a dreiſiwyd, ein gwŷr cyfiawn a anrheithiwyd, ein plant a ddifethwyd, ein gwŷr ieuaingc a gaethiwyd, a'n gwŷr cryfion dihafarch a wanhauwyd.

23 A Sion ein ſêl (yr hyn ſydd fwyaf dim) a gollodd ei pharch: canys rhoddwyd hi yn nwylo y rhai a'n caſſant.

24 Ac am hynny, bwrw heibio dy drymder mawr, a'th fynych alar, fel y gallo 'r Galluog fod yn drugarog i ti, ac fel y rhoddo y Goruchaf i ti eſmwythdra a gorphywyſdra oddi wrth dy lafur a'th boenau.

25 Ac fel yr oeddwn yn ymddiddan â hi, ei hwyneb a ddiſcleiriodd yn ddiſymmwth ai phryd a dywynodd: ac ofnais, a myfyriais beth a alle hynny fôd.

26 Ac yn y mann hi a lefarodd yn gref, ac yn ofnadwy, hyd oni chrynodd y ddaiar gan nâd y wraig.

27 A mi a edrychais, ac wele, nid ymddangoſodd y wraig i mi mwy: ond yr oedd dinas wedi adeiladu, a lle a ddangoſwyd o ſylfeini mawrion: yna yr ofnais, a gwaeddais â lleferydd vchel gan ddywedyd,

28 Pa le y mae Vriel 'r angel, yr hwn a ddaeth attaf yn y dechrau? canys gwnaeth i mi ſyrthio mewn llawer o fyddyliau vchel a myfyrdod, a'm diwedd a ddychwelwyd i lygredigaeth, a'm gweddi i gerydd.

29 A minne yn dywedyd y geiriau hyn, efe a ddaeth attaf ac a edrychodd arnaf:

30 Ac wele, gorweddais fel vn marw, a'm deall a newidiwyd: ac efe a'm cymmerth erbyn fy llaw ddehau, ac a'm cyſſurodd, ac a'm goſododd ar fy nhraed, ac a ddywedodd wrthif,

31 Beth a ddarfu i ti? pa ham y mae dy feddwl a deall dy galon yn orthrymmedic? a pha ham yr wyt yn driſt?

32 A minnef a ddywedais, am i ti fyngwrthodi, a mi a wneuthym yn * ôl dy eiriau di, euthym i'r maes, ac yno y gwelais bethau, a gwn bethau ni's medraf eu hadrodd.

4.Eſdra.5.20.

33 Ac efe a ddywedodd wrthif, ſaf ar dy draed fel gŵr, a bydd ŵrol, a rhoddaf i ti gyngor.

34 Yna y dywedais, llefara di wrthifi fy arglwydd, na wrthot fi rhag i mi farw yn ofer.

35 Canys gwelais bethau ni's adwaenwn, a chlywais bethau ni's gŵyddwn.

36 Neu y mae fy neall yn fy nhwyllo, neu fy yſpryd yn breuddwydio.

37 Yn awr attolwg i ti, dangos i'th wâs y rhyfeddod hyn.

38 Yna efe a'm hatebodd gan ddywedyd, gwrando arnaf, a mi a'th ddyſcaf, a dangoſaf i ti pa ham yr wyt yn ofni: canys y Goruchaf a ddangoſodd i ti lawer o ddirgelwch.

39 Y Goruchaf a welodd fod dy ffordd yn iniawn, canys yr ydwyt yn cymmeryd trymder yn waſtadol tros dy bobl, ac yr ydwyt yn gwneuthur galar mawr am Sion.

40 Ac am hynny, deall y weledigaeth a welaiſt ychydig o'r blaen, fel hyn:

41 Gwelaiſt wraig yn galaru, a dechreuaiſt ei chyſſuro.

42 Er hynny ni's gweli mwy lun y wraig, ond ymddangoſodd i ti ddinas wedi adeiladu:

43 A lle y dywedodd i ti ſyrthio ei mab, hyn yw'r peth ſydd yw ddeall,

44 Y wraig hon a welaiſt ti, yw Sion: a lle y dywedodd i ti, (yr hon a weli yn awr fel dinas barod.)

45 A lle y dywedodd wrthit ei bod ddeng-mhlynedd ar hugain yn heſb: dyna 'r deng-mhlynedd ar hugain yn y rhai ni offrymmed offrwm ynddi.

46 Ond yn ôl deng-mhlynedd ar hugain Salomon a adailadodd ddinas, ac a offrymmodd offrymmau: ac yna'r heſb a ddûg fâb.

47 A lle y dywedodd hi i ti, mi ai megais ef drwy boen: hynny oedd preſwylio yn Jeruſalem.

48 Ond lle y dywedodd hi i ti, fe a fu farw fy mab yn ddiſymmwth wrth ddyfod iw ſtafell: dyna yr cwymp a ddaeth i Jeruſalem.

49 Ac wele, pan welaiſt hi fel vn yn galaru am ei mab, a phan ddechreuaiſt roddi cyſſur ynddi hi o'r pethau hyn a ddigwyddodd, hyn ſydd raid ei ddangos i ti,

50 Canys yn awr y Goruchaf ſydd yn gweled dy fod yn driſt dy enaid, a'th fod yn dioddef triſtwch troſti hi o'th galon, ac felly efe a ddangoſodd i ti ddiſcleirdeb ei goleuni, a thegwch ei hwyneb-pryd.

51 Ac am hynny y perais i ti aros yn y maes, lle nid oedd vn tŷ wedi ei adailadu.

52 Canys gwyddwn y dangoſe y Goruchaf hyn i ti,

53 Am hynny y gorchymynnais i ti fyned i'r maes, lle nid oes na ſail nac adailadaeth.

54 Canys yn y mann lle y dechreuo y Goruchaf ddangos ei ddinas, ni ddichon adailadaeth neb arall ſefyll yno.

55 Ac am hynny nac ofna, a nâd ti i'th galon arſwydo, ond dôs i mewn, ac edrych ar degwch a maint yr adailadaeth fwyaf ac a ellech.

56 Ac wedi hynny y cei di glywed cymmaint ac a allo dy gluſtiau ei glywed.

57 Canys bendigedic ydwyt ti vwch law llaweroedd, ac i'th alwyd gan y Goruchaf fel ychydig.

58 Ond y foru yr nos y cei di aros ymma.

59 Ac felly y Goruchaf a ddengys i ti weledigaethau o'r pethau mawrion a wnaiff efe i'r rhai a fyddo yn trigo ar y ddaiar yn y dyddiau diwethaf.

60 Felly y cyſcais y noſon honno a'r ail nôs, fel y gorchymynnodd efe i mi.

## PEN. XI.

1 Gweledigaeth eryr yn dyfod o'r môr. 37 A llew yn dyfod o'r fforeſt.

YNa y breuddwydiais, ac wele fe a ddaeth i fynu eryr o'r môr, i'r hwn yr ydoedd deuddeng haſcell bluog a thri phen.

2 Ac mi a edrychais, ac efe a ledodd ei eſcill dros yr holl ddaiar, a holl wynt yr awyr a chwythodd arno ef, ac ymgaſclaſant yng-hyd.

3 Ac edrychais, ac allan oi adenydd ef y tyfodd adenydd eraill yn y gwrthwyneb, a'r rhai hynny oeddynt adenydd bychain a mân.

4 Ond y pennau ni ſylfaſant, a'r pen yr hwn oedd yn y canol ydoedd fwy na'r llaill, er hynny efe a arhoſodd gyd â hwynt.

5 Heblaw hynny, gwelais yr eryr yn ehedeg âi adenydd, ac yn teyrnaſu ar y ddaiar, ac ar bawb a'r oedd yn trigo ar y ddaiar.

6 A gwelais bob peth tann y nef yn vfuddhau iddo ef, ac nid oedd neb yn dywedyd yn ei erbyn ef, nac oedd vn creadur ar y ddaiar.

7 A gwelais hefyd yr eryr yn ſefyll ar ei ewinedd, ac a leiſiodd ai adenydd gan ddywedyd,

8 Na wiliwch bawb ar vn-waith, cyſced pawb yn ei lê ei hun, a gwiliwch mewn cwrs.

9 A chadwer y pennau hyd yn ddiweddaf.

10 Er hynny, gwelais nad aethe y lleferydd allan oi bennau ef, ond o ganol ei gorph ef.

11 A rhifais ei adenydd gwrthwyneb ef, ac wele, yr oedd wyth o honynt.

12 Ac edrychais, ac wele, o'r tu dehau y cododd vn aden, a honno a deyrnaſodd dros yr holl ddaiar.

13 Ac felly y digwyddodd, pan deyrnaſodd, y daeth diwedd iddi, ai lle ni's gwelwyd mwy: felly 'r ail a ſafodd ac a deyrnaſodd, ac a gafodd amſer hir.

14 A digwyddodd pan deyrnaſodd y daeth diwedd iddi fel i'r gyntaf, fel na's gwelwyd mwy.

15 Yna y daeth lleferydd atto ef gan ddywedyd,

16 Gwrando tydi yr hwn a gedwaiſt y ddaiar cyhyd o amſer, hyn a ddywedaf wrthit ti, cyn dechreu o honot fod heb ymddangos mwy.

17 Ni chaiff neb yn dy ôl di ddyfod i'th amſer di, nac iw hanner.

18 Yna y cododd y drydedd, ac a deyrnaſodd fel y llaill o'r blaen, ac nid ymddangoſodd hithe mwy.

19 Ac felly y gwnaeth y llaill, y naill yn ôl ei gilydd, fel y teyrnaſodd pob vn, ac nid ymddangoſaſant mwy.

20 Yna 'r edrychais, ac wele mewn ennyd o amſer, yr adenydd eraill a ſafaſant o'r tu dehau, fel y gallent hwy deyrnaſu hefyd, a rhai o honynt a lywodraethaſant; ond o fewn ychydig o amſer nid ymddangoſaſant mwy.

21 Canys rhai o honynt, a oſodwyd i fynu, ac ni's rheolaſant.

22 Ac wedi hynny edrychais, ac wele, y deuddeng haden nid ymddangoſaſant mwy, na'r ddwy aſcell.

23 Ac nid oedd mwy ar gorph yr eryr ond dau benn, a chwech aſcell.

24 A gwelais hefyd ddwy aſcell wedi ymddidoli oddi wrth y chwech, ac yn aros dann y penn yr hwnn oedd o'r tu dehau: canys pedair a arhoſaſent yn eu lle.

25 Edrychais, ac wele yr adenydd y rhai oeddynt tann yr aſcell, a amcanaſant eu goſod eu hun i fynu, ac i reoli,

26 Yna y goſodwyd vn i fynu, ond ar fyrder nid ymddangoſodd mwy.

27 A'r ail a aeth ymmaith yn gynt na'r cyntaf.

28 Ac edrychais, wele, y ddwy a'r oedd yn aros a amcanaſant reoli hefyd.

29 A thra 'r oeddynt yn meddwl hynny, deffrôdd vn o'r ddau ben a'r a oedd yn cyſcu, (ſef) yr hwn oedd yn y canol, canys mwy oedd hwnnw nag yr vn o'r ddau eraill.

30 Ac yna gwelais fod y ddau ben wedi myned yn vn ag ef.

31 A'r penn hwnnw a drôdd at y pennau oedd gyd ag ef, ac a fwyttâodd y ddwy aſcell iſaf, y rhai a fynnaſent deyrnaſu.

32 Ond y penn hwnn a ddychrynodd yr holl ddaiar, ac a lywodraethodd ar bawb a'r oedd yn trigo ar y ddaiar drwy boen fawr: ac efe oedd yn rheoli yr holl fŷd, yn fwy na'r adenydd eraill a fuaſe.

33 Ac wedi hynny edrychais, ac wele, y pēn yr hwn oedd yn y canol, yn ddiſymmwth nid ymddangoſodd mwy fel yr eſcill.

34 Ond y ddau benn, y rhai oeddynt yn rheoli y ddaiar, a phob peth a'r oedd y trigo arni a arhoſaſant.

35 Edrychais, ac wele, y penn oedd o'r tu dehau a ddifethodd y pennn oedd o'r tu aſſwy.

36 Yna y clywais lef yn dywedyd wrthif, edrych o'th flaen, a dal ſulw ar y peth yr wyt yn ei weled.

37 Yna y gwelais, wele megis llew rhuadwy yn rhedeg ar frys allā o'r coed: a gwelais ef yn llefaru fel gŵr wrth yr eryr, gan ddywedyd,

38 Gwrando, mi a ymddiddanaf â thi: a'r Goruchaf a ddywed wrthit.

39 Onid tydi a gafodd yr oruchafiaeth ar y pedwar anifail, y rhai a wneuthum i lywodraethu ar yr holl fyd, fel y dele diwedd yr amſer trwyddynt hwy?

40 A'r pedwerydd a ddaeth, ac a orchfygodd yr holl anifeiliaid eraill o'r blaen, ac a gafodd allu ar y byd drwy ofn mawr, a thros holl derfynau y ddaiar trwy flinder o'r gwaethaf, a chŷd â hynny y preſſwyliodd efe ar y ddaiar yn ddichelgar.

41 Canys ni fernaiſt y ddaiar mewn gwirionedd.

42 Canys blinaiſt y goſtyngedic, briwaiſt yr heddychol, ceraiſt gelwydd-wŷr, difethaiſt drigfaon y rhai oeddynt yn dwyn ffrwyth, bwriaiſt i lawr fagwyr y rhai ni wnaethent niwed i ti.

43 Am hynny y daeth dy drawſineb i fynu at y Goruchaf, a'th falchder at y Galluog.

44 Y Goruchaf hefyd a edrychodd ar yr amſeroedd beilchion, ac wele hwy a ddarfuant, ai ffieidd-dra a gyflawnwyd.

45 Ac am hynny nac ymddangos mwy tydi eryr, a'th eſcill ffiaidd, a'th adenydd eſcymyn, a'th bennau anraſſon, a'th ewinedd gwaethaf, a'th holl gorph ofer

46 Fel y gallo yr holl ddaiar ddadflino, pan ddiango oddi wrth dy nerth di, ac fel y gallo obeithio barn a thrugaredd gan yr hwn ai gwnaeth hi.

## PEN. XII.

Deongliad y gweledigaethau vchod.

A Phan ddywedodd y llew y geiriau hynn wrth yr eryr, y gwelais:

2 Ac wele, y pen yr hwn a gawſe y llaw vchaf o'r blaen nid ymddangoſodd mwy, ac nid ynddangoſodd mwy y pedair aſcell a'r a ddaethent atto ef, ac a oſodaſid i fynu i deyrnaſu, ai teyrnas oedd fechan, a llawn cynnwrf.

3 A gwelais, wele, ac nid ymddangoſaſant mwy, a holl gorph yr eryr a loſcwyd fel yr ofnodd y ddaiar yn fawr: yna y deffroais i allan o'm blinder, a gweledigaeth fy meddwl, ac ofn mawr, a dywedais wrth fy yſbryd,

4 Wele, hyn a roddaiſt i mi, am i ti chwilio am ffyrdd y Goruchaf,

5 Wele, y mae etto yn flin fyng-halon, ac yn wann fy yſbryd: ac ychydig nerth ſydd ynof, o herwydd yr ofn mawr a fu arnaf neithwyr.

6 Am hynny yr attolygaf i'r Goruchaf, fyng-hyſſuro hyd y diwedd.

7 A dywedais, Arglwydd, Arglwydd, os cefais ffafor yn dy olwg di, ac os cyfiawnheuir fi ger dy fron di o flaen llawer eraill, ac os daeth fyng-weddi i yn ſiccr o'th flaen di:

8 Dyro gyſſur ynof, a dangos i'th wâs ddeall y weledigaeth hon, fel y gallech gyſſuro fy enaid yn berffaith.

9 Canys bernaiſt fi yn deilwng i ddangos i mi yr amſeroedd diweddaf.

10 Ac efe a ddywedodd wrthif, hyn yw deall y weledigaeth.

11 Yr eryr yr hwn a welaiſt yn dyfod i fynu o'r môr yw yr deyrnas a welodd dy frawd Daniel yn ei weledigaeth. Daniel.7.71.

12 Ond ni's deonglwyd iddo ef, am hynny y deonglaf hi i ti.

13 Wele, fe a ddaw yr dyddiau y cyfid teyrnas ar y ddaiar, ac ofnir y deyrnas honno yn fwy na'r holl deyrnaſoedd a fuant oi blaen.

14 Ac yn y deyrnas honno y llywodraetha deuddeng mbrenin ôl yn ôl.

15 Canys yr ail a ddechreu deyrnaſu, ac a deyrnaſa yn hwy na'r deuddec eraill.

16 A hyn y mae yr deuddeng haſcell a welaiſt ti yn ei arwyddocau.

17 Ac am y llef a glywaiſt yn dywedyd, yr hon nid aeth o'r pen, ond o ganol y corph honno ſydd yn arwyddocau,

18 Yn ôl amſer y deyrnas honno, y cyfyd ymryſonnion mawr, a hi a fydd debyg i ſyrthio: er hynny ni ſyrth y prŷd hynny, ond hi a adferir trachefn iw dechreuad.

19 A'r wyth adain dann ei eſcill, y rhai a welaiſt yn crogi dan ei adenydd ef, ſydd yn arwyddocau,

20 Y cyfid ynddo ef wyth o frenhinoedd ai

dyddiau ſyddant ſyrrion, ai blynyddoedd yn chwyrn, a dau o honynt a balla.

21 Ac yng-hanol hynny o amſer, pedwar a gedwir dros amſer, hyd oni ddél ei amſer ef: ond dau a gedwir hyd y diwethaf.

22 A lle y gwelaiſt dri phen yn gorphywys, hyn yw 'r deall.

23 Yn ei ddyddiau diwethaf y cyfid y Goruchaf dair teyrnas, a galwant lawer o bethau yn eu hôl, a hwy a lywodraethant y ddaiar,

24 A'r rhai a breſſwyliant ynddi drwy boen fawr, vwch law pawb a'r a fu oi blaen hwy: am hynny y gelwir hwynt pennau 'r eryr.

25 Canys hwynt hwy a ddygant allan ei ddrygioni ef trachefn, ac a gyflawnant ei ddiwedd ef.

26 A lle ni's gwelaiſt y pen mawr yn ymddangos mwy, hynny ſydd yn arwyddocau y bydd marw vn o honynt yn ei wely, ac er hynny mewn llafur.

27 Canys y ddau ſydd yn aros yn ôl a leddir a'r cleddyf.

28 Canys cleddyf y naill a ddifetha yr llall: ond o'r diwedd efe a ſyrth drwy 'r cleddyf ei hun.

29 A lle y gwelaiſt ddwy adain dan yr eſcill, yn myned tu a'r penn o'r tu dehau:

30 Mae hynny yn arwyddo y rhai a gadwodd y Goruchaf hyd eu diwedd: hon yw 'r deyrnas fechan, a llawn blinder, fel y gwelaiſt.

31 A'r llew a welaiſt yn codi allan o'r coed, ac yn rhuo, ac yn dywedyd wrth yr eryr, ac yn ei geryddu ef a'm ei anwiredd a'r holl eiriau fel y clywaiſt,

32 Yw gwynt, yr hwn a gadwodd y Goruchaf iw drygioni hwynt hyd y diwedd: efe ai cerydda hwynt, ac a ddyri oi blaen hwynt eu dialedd.

33 Canys efe ai rhydd hwynt mewn barnedigaeth yn fyw, ac ai cyhudda, ac ai cerydda hwynt.

34 Canys gweddill fy mhobl a weryd efe drwy drueni, y rhai a gadwer ar fy nherfynau, ac efe ai gwna hwynt yn llawen hyd dyfodiad dydd y farn, am yr hwn y dywedais wrthit ti o'r dechreuad.

35 Hwn yw 'r breuddwyd a welaiſt, a hyn yw ei ddeongliad ef.

36 Tydi yn vnic oeddit gymmwys i ŵybod y gyfrinach gan y Goruchaf.

37 Am hynny ſcrifenna y pethau hyn oll a'r a welaiſt mewn llyfr, a chuddia hwynt,

38 A dyſc hwynt i'r bobl ddoethion, y rhai a wyppech fod eu calonnau yn gallu eu deall, ac i gadw cyfrinach am hyn.

39 Ond gwilia di ymma etto ſaith niwrnod, fel y gallech ŵybod y peth a fynno y Goruchaf i ddangos i ti, a chyd â hynny efe a aeth ymmaith.

40 A phan ddeallodd yr holl bobl ddarfod y ſaith niwrnod, a minne heb ddyfod trachefn i'r ddinas, hwy a ymgaſclaſant yng-hyd o'r lleiaf hyd y mwyaf, a daethant attaf gan ddywedyd,

41 Pa beth a wnaethom ni yn dy erbyn di? a pha ddrwg a wnaethom i ti, pan ydwyt yn ein gwrthod ni, ac yn eiſtedd ymma?

42 Canys o'r holl bobl, ti yn vnic a adawyd i ni, fel grawn o'r winwydden, ac fel cannwyll mewn tywyllwch, neu fel porthladd neu long wedi eu diaingc rhag y dymheſtl.

43 Onid oes i ni hefyd adfyd ddigon yn digwyddo?

44 Os tydi a'n gwrthodi, ond gwell a fuaſe i ni ein lloſci gyd â Sion?

45 Canys nid gwell ydym na'r rhai a fuant feirw yno, ac ŵylaſant yn vchel, yna yr attebais hwy, ac y dywedais,

46 Bydd lawen ô Iſrael, ac na fydd drist tydi dŷ Iacob.

47 Canys y Goruchaf a feddwl am danoch, a'r Galluog ni's gollwng chwi dros gof mewn profedigaeth.

48 Ac myfi ni's gwrthodais chwi, ac nid aethum oddi wrthych: ond daethym i'r lle hwn i weddio dros drueni Sion, fel y gallwn geiſio trugaredd i iſel-radd eich cyſſegr.

49 Ac yn awr, ewch bawb adref, ac yn ôl y dyddyau hyn y deuaf attoch.

50 Felly y bobl a aethant ymmaith i'r ddinas fel y gorchymynnais iddynt:

51 Ond mi a arhoais yn y maes ſaith niwrnod, fel y gorchymynnodd efe i mi, a bwyteais yn vnic o flodeu y maes: ac o lyſieu y gwnaed bwyd i mi y dyddiau hynny.

## PEN. XIII.

2 Gweledigaeth y gwynt a'r a ddaeth o'r môr. 3 Yr hwn a aeth yn wr. 5 ei gyneddfau yn erbyn ei elynnion. 21 deongliad y weledigaeth hon.

AC yn ôl y ſaith niwrnod y gwelais freuddwyd liw nôs.

2 Ac wele, cododd gwynt o'r môr, ac a gynhyrfodd yr holl donnau.

3 Ac edrychais, wele, yr oedd gŵr mawr gyd â miloedd o'r nefoedd: a phan drodd efe ei wyneb i edrych, yr holl bethau a'r a welid tano ef a grynodd.

4 A phan aeth y lleferydd oi enau ef, pawb a'r ai clywodd a loſcaſant, fel y palle 'r ddaiar pan gyffyrdde y tân â hi.

5 Wedi hyn yr edrychais, ac wele, ymgaſclodd yng-hyd lu o bobl allan o rifedi o bedwar man byd, i ymladd yn erbyn y gŵr a ddaethe o'r môr.

6 Ac edrychais, ac wele, efe a gerfiodd iddo ei hun fynydd mawr, ac efe a ehedodd arno.

7 Ond mi a geiſiais weled y wlâd neu yr lle, o'r hwn y tynnaſe efe y mynydd, ac ni allwn ei weled ef.

8 A gwelais yn ôl hynn, pawb a'r a ddaeth

i ymladd yn ei erbyn ef, yn ofni yn fawr, ac er hynny hwy a lefaſent ymladd.

9 Er hynny pan welodd efe greulondeb a nerth y bobl a ddaethe yn ei erbyn ef, ni wnaeth efe na chodi llaw, na dal cleddyf nac arf arall:

10 Ond yn vnic, (hyd y gwelwn i) efe a chwythodd oi enau fel fflam o dân, ac oi wefuſau awel y fflam, ac oi dafod efe a daflodd wreichion a themheſtl.

11 Ac yr oeddynt eu gyd wedi cymmyſcu: y tân a'r gwynt, y fflam a'r demheſtl fawr: ac a ddeſcynnaſant yn ddiſymmwth a'r y bobl oedd yn barod i ymladd, ac ai lloſcodd hwynt eu gyd oll, hyd fel na welid o'r llu aneirif ddim ond llwch a ſawyr mwg: pan welais hyn, mi a ofnais.

12 Yn ôl hynny y gwelais yr vn gŵr yn dyfod i lawr o'r mynydd, ac yn galw atto bobl lonydd eraill.

13 A llawer o bobl a ddaethant atto ef, rhai oedd yn llawen, rhai yn drist, rhai yn rhwym, ac eraill a ddugaſant o'r pethau a offrymmaſid: yna yr oeddwn glaf gan ofn mawr, a deffroais, a dywedais,

14 Dangoſaiſt i'th wâs y rhyfeddodau hyn o'r dechreuad, a chyfrifaiſt fi yn deilwng fel y derbynit fyng-weddi:

15 Dangos i mi etto ddeall y breuddwyd hwn.

16 Canys hyn yr ydwyf yn ei deall, gwae 'r neb a adawer y pryd hynny: a mwy gwae i'r rhai ni's gadawer yn ôl.

17 Canys y rhai ni adawyd, oeddynt mewn triſtwch.

18 Yn awr yr ydwyf yn deall y pethau a roddwyd i gadw erbyn y dyddiau diwethaf, y rhai a ddigwydd iddynt, ac i'r ſawl a adawer yn ôl.

19 Am hynny y daethant i berigl mawr, ac i angen mawr, fel y dengys y breuddwydion hyn.

20 Etto haws i'r neb a fyddo mewn perigl ddyfod i hyn, a gweled o'r blaen y peth ſydd i ddyfod yn ôl, nag a fydd iddo ef fyned allan o'r byd hwn fel cwmwl: yna efe a'm hattebodd gan ddywedyd,

21 Deongliad y weledigaeth a ddangoſaf i ti, ac agoraf i ti y peth a ddymunaiſt.

22 Lle y ſoniaiſt am y rhai ſy wedi eu gadel yn ôl, hyn yw 'r deongliad.

23 Yr hwn a ddygo berigl y pryd hwnnw, ai cadwodd ei hun: a'r ſawl a ſyrthiodd mewn perigl, yw y rhai ſy a gweithredoedd, a ffydd canddynt i'r Galluog.

24 Am hynny gwybydd hyn, fod y rhai a adawer yn ôl yn ddedwyddach na'r rhai a fuant feirw.

25 Hyn yw deall y weledigaeth, lle y gwelaiſt ŵr yn dyfod i fynu o ddyfnder y môr,

26 Hwnnw yw 'r hwn a gadwodd y Duw Goruchaf yn hîr, yr hwn drwyddo ei hun a wareda ei greaduriaid, ac efe a lywodraetha y rhai a adawer yn ôl.

27 A lle y gwelaiſt yn dyfod oi ſafn ef fel chwa o wynt, tân a themheſtl:

28 Ac am na chododd efe na chleddyf nag arf, ond drwy ei ruthr efe a ddifethodd yr holl lu a ddaeth i ymladd ag ef: hynny ſydd yn arwyddo,

29 Fôd y dyddiau yn dyfod, pan ddechreuo 'r Goruchaf waredu y rhai ſy ar y ddaiar:

30 Ac mewn dieithrwch meddwl y daw efe ar vchaf y rhai a breſſwyliant ar y ddaiar.

31 A'r naill a ymladd a'r llall, a'r naill ddinas yn erbyn ei gilydd, a'r naill le yn erbyn ei gilydd, a'r naill bobl yn erbyn y llall, a'r naill deyrnas yn erbyn y llall.

32 A phan ddelo hyn i ben, yna y daw 'r arwyddion a ddangoſais iti o'r blaen: yna y ceſir gweled fy mâb yr hwn a welaiſt yn dringo i fynu fel gŵr.

33 A phan glywo 'r holl bobl ei leferydd ef, pawb yn eu gwlâd eu hun a beidiant a rhyfela yn erbyn ei gilydd:

34 A llu aneirif a geſclir yng-hyd, fel rhai yn ewyllyſcar i ddyfod, ac i'w orchyfygu ef drwy ymladd.

35 Ond efe a ſaif ar ben mynydd Sion.

36 A Sion a ddaw, ac ai dangoſir i bawb, wedi ei thrwſio ai hadeiladu, fel y gwelaiſt y bryn wedi ei gerfio allan heb ddwylo.

37 A hwn (fy mâb i) a gerydda y cenhedloedd hynny, y rhai a ſyrthiaſant i'r demheſtl, am eu hanwireddau ai drwg feddyliau,

38 Ac i'r poenau fel fflamm, â'r rhai y coſbir hwynt: ac heb boen y difetha efe hwynt, hynny yw, drwy 'r gyfraith a gyffelybir i dân.

39 A lle y gwelaiſt efe yn caſclu pobl lonydd eraill atto,

40 Y rhai hynny yw 'r dêc llwyth, y rhai a ddygwyd ymmaith oi gwlâd eu hun yn amſer Oſeas y brenin, y rhai a ddaliodd Salmanaſar brenin Aſſyria yn garcharwŷr, ac ai dug hwynt dros yr afon, ac felly y daethant i wlâd arall.

41 Ond hwy a gymmeraſant y cyngor hyn yn eu plith eu hunain, i adel llu 'r cenhedloedd, a myned ymmaith i wlâd bellach, lle ni thrigaſe neb er ioed.

42 Fel y gallent gadw yno eu cyfraith, yr hon ni's cadwaſent er ioed yn eu gwlad eu hunain.

43 Ac felly yr aethant trwy lwybrau cyfyng afon Euphrates.

44 Canys y Goruchaf a ddangoſodd yna iddynt arwyddion, ac a attaliodd yr afon nes iddynt fyned trwodd. Ioſua.3.15.

45 Canys yr ydoedd ffordd fawr drwy 'r wlâd o daith blwyddyn a hanner, a'r wlâd honno a elwir Arſareth.

46 Yna yr arhoſaſant yno hyd yr amſer diwethaf: a phan ddelant ymmaith trachefn,

47 Y Goruchaf a ettyl trachefn aberoedd y ffrwd, fel y gallant fyned trwodd: am hynny y gwelaiſt y lliaws mewn heddwch.

48 Ond y rhai a adawyd yn ôl o'r bobl yw y rhai a gafwyd o fewn fy nheyrnas mau fi.

49 Yn awr pan ddifetho efe y lliaws o'r cenhedloedd a ymgasclodd yng-hyd, efe a amddiffyn y bobl ſydd yn ôl:

50 Ac yna y dengys efe iddynt ryfeddodau mawrion.

51 Yna y dywedais innef, ô Arglwydd, Arglwydd, dangos i mi hyn: paham y gwelais y gŵr yn dyfod o ddyfnder y môr:

52 Ac efe a ddywedodd wrthif, fel na's gelli chwilio na gwybod y pethau ſydd yn nyfnder y môr: felly ni's gall neb ar y ddaiar weled fy mab i, na'r rhai ſy gyd ag ef, ond lliw dydd.

53 Hyn yw deongliad y breuddwyd a welaiſt ti, trwy'r hwn yn unic y gweli.

54 Canys gwrthodaiſt dy gyfraith dy hun, a buoſt ddyfal i geiſio yr eiddo fi.

55 Dy amſer a ſwriaiſt mewn doethineb, a gelwaiſt ddeall yn fam i ti:

56 Ac am hynny y dangoſais i ti drysſor y Goruchaf, ym mhen y tridiau etto yr ymddiddanaf i mwy â thi, ie pethau aruthr a rhyfedd a ddangoſaf i ti.

57 Yna yr euthum allan i'r maes, gan roddi gogoniant a diolch mawr i'r Goruchaf Dduw am y rhyfeddodau a wnaethe efe o amſer bwy gilydd,

58 Ac am ei fod efe yn llywodraethu pob amſer, a phob peth a'r a ddigwydd yn eu hamſeroedd: ac yno yr eiſteddais dri-diau.

## PEN. XIIII.

3 Y modd yr ymddangoſodd Duw i Moſes yn y berth. 10 Pob peth ſydd yn heneiddio. 16 Yr amſeroedd diwethaf yn waeth na'r cyntaf. 29 Aniolchgarwch Iſrael. 35 Yr ail-gyfodiad a'r farn.

Y Trydydd dydd yr eiſteddais dann dderwen, yna y daeth llef attaf o berth, gan ddywedyd, Esdras, Esdras.

2 A minnef a atebais gan ddywedyd, dymma fi ô Arglwydd: ac mi a ſefais ar fy nhraed.

3 Yna y dywedodd efe wrthif, yn y berth yr ymddangoſais i Moſes, ac yr ymddiddenais ag ef pan oedd fy mhobl yn gwaſanaethu yn yr Aipht. Exod.3.1.

4 A danfonais ef, a thywyſais fy mhobl allan o'r Aipht, a dygais ef i fynu i fynydd Sinai, lle y cedwais ef gyd â mi yn hir o amſer:

5 A dangoſais iddo lawer o ryfeddodau, a chyfrinach yr amſeroedd, a'r diwedd, a gorchymynnais iddo gan ddywedyd,

6 Y geiriau hyn a fynegi, a'r rhai hyn a gêli.

7 Ac yn awr y dywedaf wrthit ti,

8 Ystyria di yn dy galon yr arwyddion a ddangoſais i ti, a'r breuddwydion a welaiſt, a'r deongliad a glywaiſt.

9 Canys dygir di ymmaith oddi wrth y cwbl, ac o hyn allan yr arhoi gyd a'm cyngor mau fi, a chyd a'th gyffelyb, hyd ddiwedd yr amſeroedd.

10 Canys y byd a gollodd ei ieuengtid, a'r amſeroedd ſy yn dechreu heneiddio.

11 Canys y bŷd a rannwyd yn ddeuddec rhann, a dêc rhan o hynny a aeth ymmaith eusus, a hanner y ddecfed rann.

12 Ac y mae yn ôl yr hyn ſydd ar ôl hanner y ddecfed rann.

13 Am hynny goſot dy dŷ mewn trefn, a cheryddâ dy bobl, cyſura y rhai ſy oſtyngedic o honynt, ac ymwrthod a llygredigaeth.

14 Gollwng oddi wrthit bob meddwl marwol, bwrw ymmaith feichiau dynion, a dioſc y naturiaeth wann,

15 Bwrw heibio y meddyliau trymmaf ſydd gennit, a ffoa ar frys oddi wrth y pethau hynn.

16 Canys am y drygioni a'r anwiredd a welaiſt yn awr y digwydd, gwnant etto yn llawer gwaeth.

17 Canys pa gwannaf fyddo'r byd wrth oedran, mwy y tyf drygioni ar y rhai a erys ynddo. Matth.24.7.

18 Canys y gwirionedd a ffôdd ym mhell, a chelwydd ſydd yn agos: canys bellach y pryſura y weledigaeth a welaiſt i ddyfod.

19 Yna yr atebais o'th flaen di gan ddywedyd,

20 Wele Arglwydd, mi a âf i geryddu yr bobl ſydd gydrychol fel y gorchymynnaiſt i mi ond pwy a rybuddia y rhai a aner rhagllaw: fel hyn y goſodwyd y bŷd mewn tywyllwch, a'r rhai ſy yn trigo ynddo ſy heb oleuni.

21 Dy gyfraith a loſcwyd, am hynny ni's gŵyr neb y pethau a wnaethoſt ti, na'r gweithredoedd a wneir o hyn allan.

22 Ond os cefais ffafor ger dy fron di, danfon dy Yſbryd glân i mi, a mi a ſcrifennaf y cwbl a'r a wnaethbwyd yn y bŷd er y dechreuad, yr hyn a ſcryfennaſid yn dy gyfraith, fel y gallo gwŷr gaêl y llwybr, ac fel y byddo byw y ſawl a fyddo yn yr amſeroedd diweddaf.

23 Ac efe a'm hatebodd gan ddywedyd, dôs ymmaith, caſcl y bobl yng-hŷd, a dywet wrthynt, nad edrychant am danat dros ddeugain nhiwrnod.

24 Ac edrych ar gaſclu o honot lawer o goed box, a chymmer gyd â thi, Sarea, Dabria, Selemia, Ecanus, ac Aſiel, y pump hynn, y rhai a fedrant ſcrifennu yn chwyrn:

25 A thyret ymma, ac mi a oleuaf gannwyll o ddeall yn dy galon yr hon ni's diffoddir ne's cyflawni y pethau a ddechreuech di eu ſcryfennu.

26 Ac yna y dangoſi ryw bethau yn oleu i'r ſynhwyrol, a rhyw bethau yn gyfrinachol i'r

doethion : y prŷd hynn y foru y cei di ddechreu ſcrifennu.

27 Yna yr euthum allan fel y gorchymynnodd efe i mi, a cheſclais yr holl bobl yng-hyd, a dywedais,

28 Gwrando y geiriau hyn ô Iſrael,

29 Ein tadau yn y dechreu oeddynt ddieithriaid yn yr Aipht, o'r hwn le y gwaredwyd hwynt,

30 A derbynniaſant gyfraith y bywyd, yr hon ni's cadwaſant, a'r hon a droſeddaſoch chwithau hefyd ar eu hôl hwynt.

31 Yna y rhânwyd y wlâd ſef Sion rhyngoch chwi wrth goel-brennau, ond eich tadau a chwithau eich hunain hefyd a wnaethoch ar fai, ac ni chadwaſoch y ffordd a orchymynnodd y Goruchaf i chwi.

32 Ac yn gymmaint ai fod efe yn farnwr cyfiawn, efe a ddug oddi arnoch mewn amſer, y peth a roddaſe efe i chwi.

33 Ac yn awr ymma yr ydych, a'ch brodyr yn eich plith.

34 Am hynny os chwi a ddaroſtyngwch eich deall, ac a droiwch eich calonnau, chwi a gedwir yn fyw, ac yn ôl marwolaeth y cewch drugaredd.

35 Canys yn ôl marwolaeth y daw y farnedigaeth pan fyddom byw trachefn : ac yno y bydd henw y cyfiawn yn eglur, a gweithredoedd yr annuwiol yn olau.

36 Am hynny na ddeled neb ar fy ôl, ac na edryched am danaf y deugain nhiwrnod hynn.

37 Felly y cymmerais y pum gŵr, fel y gorchymynnodd efe i mi, ac a aethum i'r maes, ac a arhoſaſom yno.

38 Yr ail dydd, llef a'm galwodd gan ddywedyd, Eſdras, agor dy ſafn, ac ŷf y peth a roddwyf i ti iw ŷfed.

39 Yna yr agorais fy ſafn, ac wele, efe a eſtynnodd i mi gwppan llawn, yr hwn oedd yn llawn fel pe bydde o ddŵfr, ond ei liw ef oedd megis tân.

40 Ac mi ai cymmerais ef, ac ai hyfais, ac wedi i mi ei yfed, fyng-halon a ddeallodd, a doethineb a ddaeth i'm dwyfron, canys fy yſbryd a gryfhaodd mewn côf.

41 A'm genau a agorwyd, ac ni chaeodd mwy.

42 Y Goruchaf a roddes ddeall i'r pum gŵr, fel yr ſcrifennaſant y pethau a ddywedaſid am y nos, yr hyn ni's deallaſant.

43 Ond y nôs y bwytaſant fara, a minne a leferais liw dydd, ac ni thewais y nôs.

44 Mewn deugain nhiwrnod hwy a ſcrifennaſant ddau cant a phedwar o lyfrau.

45 A digwyddodd, pan gyflawnwyd y deugain nhiwrnod, y Goruchaf a lefarodd gan ddywedyd, y llyfr cyntaf a ſcrifennaiſt mynega ar gyhoedd, fel y gallo y teilwng a'r anheilwng ei ddarllen ef.

46 Ond cadw y dêc a thrugain diwethaf, fel y gallech eu rhoddi hwynt yn unic i'r rhai ſydd ddoethion ym myſc y bobl.

47 Canys ynddynt hwy y mae ffynnon y deall, a dechreu doethineb, a ffrŵd y gŵybodaeth.

48 Ac felly y gwneuthum.

## PEN. XV.

1 Prophwydoliaeth Eſdras ſydd wîr. 5 Y dialedd a ddaw ar y byd. 9 Duw a ddial y gwaed gwirion.

WEle dywet lle y clywo fy mhobl, eiriau y brophwydoliaeth yr hon a ddanfonaf yn dy enau di, medd yr Arglwydd.

2 A phar eu ſcrifennu hwynt mewn llyfr : canys ffyddlon a gwir ydynt.

3 Nac ofna fwriadau yn dy erbyn, ac na chyffroed anffyddlondeb y rhai a ddywedant yn dy erbyn, ddim o honot :

4 Canys pob dŷn anffyddlon a fydd marw yn ei anffyddlondeb.

5 Wele, (medd yr Arglwydd) dygaf ddialedd ar y bŷd, y cleddyf, newyn, marwolaeth, a diniſtr.

6 Canys anwiredd a gafodd y llaw uchaf ar y ddaiar, a chyflawnwyd eu gweithredoedd drygionus.

7 Am hynny y dywed yr Arglwydd,

8 Ni attaliaf mo'm tafod mwy am eu hanwiredd hwy, y rhai a wnant yn annuwiol, ac ni ddioddefaf iddynt yn y pethau a drinant mor ſceler : wele, y gwaed gwirion cyfiawn ſydd yn gweiddi arnaf, ac eneidiau y rhai cyfiawn ſy yn achŵyn beunydd.

Apoc.6.10. & 19.2.

9 Am hynny y dywed yr Arglwydd, mi a ddialaf yn ſiccr, ac a gymmeraf attaf yr holl waed gwirion oi myſc hwynt.

10 Wele fy mhobl a dwyſir fel mintai o ddefaid iw lladd, ni adawaf iddynt yn awr aros yn nhîr yr Aipht.

11 Ond dygaf hwy allan â llaw gadarn, ac â braich eſtynnedic, a tharawaf yr Aipht â dialeddau fel y gwneuthum o'r blaen, a difethaf yr holl dîr.

12 Yr Aipht a alara, ai ſylfeini hi a darewir â dialeddau, ac a cherydd, y rhai a ddwg Duw arni.

13 Y rhai a lafuria y ddaiar a alarant, canys eu hâd a ddifethir gan falldod, a chenllyſc, a thrwy ſeren ofnadwy.

14 Gwae yr holl fŷd, a'r rhai a drigant ynddo.

15 Canys y cleddyf, ai deſtruw hwynt ſydd yn neſau, a'r naill bobl a ſaif i ymladd yn erbyn y lleill â chleddyfau yn eu dwylo.

16 Canys gwŷr a fyddant yn anwadal, a'r naill a wna drais i'r llall, ni phriſiant ar eu brenin, a'r tywyſogion a feſurant eu gweithredoedd wrth eu gallu.

17 Gŵr a ewyllyſia fyned i ddinas, ac ni's gall fyned,

18 O herwydd eu balchder y trallodir y dinaſoedd, y tai a grynant, a'r gwŷr a ofnant.

19 Ni chymmer gŵr drugaredd ar ei gymmydog

mydog, ond difetha eu tai a wnânt a'r cleddyf, a dwyn eu dâ, o herwydd y newyn a'r blinder.

20 Wele, (medd Duw) galwaf holl frenhinoedd y ddaiar i'm anrhydeddu'r, y rhai ſydd o'ꝛ dwyꝛain a'r dehau, a'r goꝛllewyn, a Libanus, i dꝛoi yn eu herbyn hwy, ac i dalu y pwyth iddynt.

21 Fel y gwnânt y dydd heddyw i'm detholedigion, felly y gwnaf inne hefyd, a thalaf i'w mynwes: fel hyn y dywed yꝛ Arglwydd Dduw,

22 Nid arbed fy neheu-law y pechaduriaid, a'm cleddyf ni phaid a'r rhai a dywalltant waed gwirion ar y ddaiar.

23 Y tân a aeth allan oi ddigter, ac a ddifechodd ſylfeini y ddaiar, a'r pechaduriaid fel gwellt yn lloſci.

24 Gwae y rhai a bechant, ac ni chadwant fyng-oꝛchymynnion medd yꝛ Arglwydd.

25 Ni arbedaf hwynt: ewch ymmaith chwi blant oddi wꝛth y gallu, na lygꝛwch fyng-hyſſeger.

26 Canys yꝛ Arglwydd a edwyn bawb a'r a bechant yn ei erbyn ef, ac am hynny y rhydd efe hwynt i farwolaeth a deſtruw.

27 Canys yn awꝛ y daeth y dialedd ar y bŷd, a byddwch chwithau yn eu mysc: o herwydd ni wareda Duw chwi, am ichwi bechu yn ei erbyn ef.

28 Wele, gweledigaeth ofnadwy ſydd yn dyfod o'ꝛ dwyꝛain,

29 Lle y daw cenhedloedd a ddꝛeigiau o Arabia â llawer o gerbydau, ai lliaws hwy a ddygir fel gwynt ar y ddaiar, fel yꝛ ofno ac y cryno pawb a'r ai clywo,

30 Y Carmaniaid yn ynfydu mewn digter a ânt allant fel baeddod o'ꝛ coedydd, ac mewn nerth mawꝛ y deuant, ac y ſafant yn eu herbyn hwy i ymladd, ac a ddeſtruwiant rann o wlâd yꝛ Aſſyꝛiaid.

31 Ac yna y dꝛeigiau a gânt y llaw vchaf, ac wꝛth feddwl am eu naturiaeth hwy a dꝛoant o amgylch, ac a gydſwꝛiadant â nerth mawꝛ i'w herlid hwynt,

32 Yna y rhai hyn a flinir, ac a diſtawant yn eu nerth, ac a ffoant.

33 A'r gelyn a eſyd arnynt o wlâd yꝛ Aſſyriad, ac a ddifetha rai o honynt, ac yn eu llu hwynt y bydd ofn ac arſwyd, ac ymryſon rhwng eu bꝛenhinoedd.

34 Wele gwmylau o'r dwyꝛain, o'r gogledd, o'r dehau, ac erchyll yw edꝛych arnynt, yn llawn llid a thymheſtl.

35 A tharawant y naill ar y llall, a bwꝛiant i lawꝛ lliaws mawꝛ o ſer ar y ddaiar, ai ſêren eu hun hefyd: a'r gwaed fydd o'ꝛ cleddyf hyd y bobl.

36 A thail dyn hyd waſarn y camel.

37 A bydd ofn ac arſwyd mawꝛ ar y ddaiar, a'r rhai a welant y llid a ofnant, ac arſwyd a ddaw arnynt.

38 Ac yna y daw glawogydd mawꝛion o'ꝛ dehau a'r gogledd, a pheth o'ꝛ goꝛllewyn.

39 A gwyntoedd mawꝛion a gyfodant o'r dwyꝛain, ac ai agoꝛant hi, a'r cwmmwl yꝛ hwn a gyfododd efe mewn llid, a'r ſeren yꝛ hon a gynhyꝛfodd i beri ofn tua gwynt y dwyꝛain a'r goꝛllewyn, a ddifethir:

40 Y cwmylau mawꝛion yn llawn llid a'r ſeren a godir i fynu, fel y gallant ofni yꝛ holl ddaiar a'r neb a dꝛigo ynddi, fel y gallant fwꝛw ſeren erchyll ar bôb lle vchel,

41 Tân, a chenllyſc, a chleddyfau yn ehedeg, a llawer o ddwfr, fel y byddo pob maes a phob afon yn llawn o ddyfroedd.

42 A bwꝛiant i lawꝛ y dinaſoedd, a'r magwyꝛydd, y mynyddoedd, a'r bꝛynniau, y coedydd, a gweir y gweir-glodddiau, ai hŷd.

43 Ac a ânt yn hyf i Babilon, ac ai hofnant hi.

44 Deuant atti hi, a goſodant arni hi y ſêren a phôb llid a dywalltant arni hi, yna yꝛ âiff y llwch a'r mwg i'r nefoedd, a phawb a'r a fyddo vwch ei llaw a alarant am deni.

45 A'r ſawl a fyddo tani a waſanaethant y rhai ai hofnodd hi.

46 A thithe Aſia'r hon a ymlawenychi am obaith Babilon, yꝛ hon wyt yn ogoniant iddi:

47 Gwae tydi dꝛuan, am i ti dy wneuthur dy hun yn debyg iddi hi, a thꝛwſiedaiſt dy ferched mewn godineb, fel y gallent lawenychu a rhyngu bodd eu cariadau, y rhai a ddymunaſant bôb amſer odinebu â thi.

48 Canlynaiſt [y ddinas] ffiaidd yn ei holl weithꝛedoedd, ai dychymygion, am hynny y dywed Duw,

49 Danfonaf ddialedd arnat, gweddwdod, a thlodi, newyn a rhyfel, a chleddyf a haint i ddifetha dy dai â deſtruw ac â marwolaeth.

50 A gogoniant dy nerth a ddiflanna fel llyſieun, pan godo'r gwꝛês a ddanfonir arnat.

51 Byddi glâf fel gwꝛaig dlawd yꝛ hon a geryddir ac a gurir gan wꝛagedd, fel na's gallo y rhai galluog a'th gariadau dy dderbyn.

52 A ddaliwni eiddigedd wꝛthit ti felly medd yꝛ Arglwydd?

53 Oni bai ladd o honot bôb amſer fy netholedig, gan godi dyꝛnod dy ddwylaw, a dywedaiſt pan oeddit ti feddw am eu marwolaeth,

54 Dangos allan degwch dy wyneb-pꝛyd.

55 Gwobꝛ dy odineb a delir i'th fynwes, am hynny y cei di wobꝛ.

56 Fel y gwnaethoſt i'm detholedig medd yꝛ Arglwydd, felly y gwna Duw i tithe, ac y rhydd ddialedd arnat.

57 Dy blant a fyddant feirw o newyn, a thithe a ſyꝛthi dꝛwy'r cleddyf: dy ddinaſoedd o ſwꝛir i lawꝛ, a chwbl o'ꝛ eiddot a ddifetha'r cleddyf yn y maes.

58 Y rhai ſy yn y mynyddoedd a fyddant feirw o newyn, a bwytânt eu cîg eu hunain, ac yfant eu gwaed eu hunain, o wir eiſieu bara a dwfr.

59 Tithe yn anhappus a ddeui dꝛwy'r môꝛ,

a chei ddialedd trachefn.

60 Wrth fyned heibio y bwriant i lawr y ddinas golledig, a diwreiddiant vn rhan o'r wlâd, a difethant vn rhan o'th ogoniant, a dychwelant i hon a ddeſtruwiwyd,

61 Hwy a'th ſathrant i lawr fel ſofl, ac a'th loſcant:

62 A difethant di, dy ddinaſoedd, a'th wlâd, a'th fynyddoedd, a'th holl goedydd, a'th brēnau ffrwythlawn a loſcant â thân.

63 Dy blant a gaeth-gludant, ac a anrheithiant gwbl ag a feddech, ac a ddiſwynant degwch dy wyneb.

## PEN. XVI.

Y dialedd a ddaw ar y byd, cyngor pa fodd yr ymddygir mewn adfyd.

GWae dy di Babilon, ac Aſia, gwae dy di 'r Aipht, a Siria:

2 Ymwregyſwch eich hunain â lliain ſach, ac â rhawn, galerwch dros eich plant, byddwch driſt: canys eich deſtruw ſydd ger-llaw.

3 Cleddyf a ddanfonwyd arnoch, a phwy ai try ef oddi wrthych?

4 Tân a ddanfonwyd yn eich plith, a phwy ai diffodd ef?

5 Dialeddau a ddanfonwyd attoch, a phwy ai gyrr hwy ymmaith?

6 A all neb yrru ymmaith y llew newynog yn y coed? neu a all neb ddiffodd tân pan ddechreuo gynne yn y ſofl?

7 A âll vn droi yn ei hôl y ſaeth a ſaethodd perchen bwâ cryf?

8 Y galluog Arglwydd ſydd yn danfō y dialeddau, a phwy yw hwn ai gyrr hwy ymmaith?

9 Y tân a gynneuwyd, ac a enynnodd yn ei lîd, a phwy yw efe ai diffodd?

10 Efe a deifl y mellt, a phwy nid ofna? efe a darana, a phwy ni ddychryn?

11 Duw a fygwth, a phwy ni wneir yn friwſion ger ei fron ef?

12 Y ddaiar ai ſylfeini a eſcydwa, y môr a gyfid ei donnau o'r dyfnder, a'r tonnau ſy afrolus, a'r pyſcod hefyd ger bron yr Arglwydd, ac o flaen gogoniant ei allu ef.

13 Canys cref yw deheulaw 'r hwn ſydd yn annêlu 'r bwa, a'r ſaethau a ſaetha efe ydynt llymmion, ac ni phallant pan ddechreuer eu ſaethu hwynt i eithaf bŷd.

14 Wele, yr dialeddau a ddanfonwyd, ac ni ddychwelant nes eu dyfod hwy ar y ddaiar.

15 Y tân a gynneuwyd, ac ni's diffoddir ef, nes iddo loſci ſylfeini y ddaiar.

16 Fel na ddychwel y ſaeth yr hon a ſaetho perchen bwâ cryf: felly ni ddychwel y dialeddau a ddanfonir ar y ddaiar.

17 Gwae fi, gwae fi, pwy a'm gwared yn y dyddiau hynny?

18 Dechreuad triſtwch a galar mawr, dechreuad mudaniaeth a marwolaeth fawr, dechreuad rhyfeloedd, a'r gwŷr galluog a ofnant, dechreuad drygioni a phawb a grynant.

19 Beth a wnaf i yn hyn pan ddel y dialeddau?

20 Wele, newyn, a phlâ, blinder a chŷni a ddanfonwyd yn ffrywill i beri ini wellhau.

21 Onder hyn ei gŷd, ni throant oddi wrth eu hanwireddau, ac ni feddyliant bôb amſer am y ffrywillau.

22 Wele, bwyd a diod a fydd rhâd ar y ddaiar, fel y tebygant eu bôd wrth eu bodd: a'r prŷd hynny y daw dialedd ar y ddaiar, cleddyf, newyn, ac afrôl mawr.

23 Canys llawer o'r rhai ſy yn trigo ar y ddaiar a fyddant feirw o newyn, a'r lleill a ddiango rhag y newyn, y cleddyf ai difetha:

24 A'r meirw a deflir allan fel tail, ac ni bydd neb iw cyſuro hwynt: canys y ddaiar a anrheithir, a'r dinaſoedd a fwrir i lawr.

25 Ac yna ni adewir neb i lafurio 'r ddaiar ac iw hau.

26 Y coedydd a roddant ffrwyth, a phwy a dynn y ffrwyth i lawr, ac ai cynhaiafa hwynt?

27 Y gwinwŷdd a addfedāt, a phwy ai ſathr: canys pôb man a fydd yn ddi bobl:

28 Fel y dymuno y naill wr weled y llall, neu glywed ei leferydd ef.

29 Canys o ddinas, dêc a adewir, a dau o'r maes, y rhai a ymguddiant yn y perthi, ac yn ogofydd y creigiau,

30 Fel ped fai dair ne bedair o oliwydd wedi eu gadel yn y man lle y byddo 'r oliwŷdd yn tyfu, neu ym myſc coedydd eraill,

31 Ne fel pan gaſcler gwinllan, y rhai a chwiliant y winllan yn ddyfal a adawant rai o'r grawn-win yn eu hôl:

32 Felly y gedi y rhai a chwilio eu tai hwy a'r cleddyf dri neu bedwar yn ôl.

33 A'r ddaiar a adewir yn anghyfannedd, a'r meuſydd a heneiddiant, a'r ffyrdd a'r holl lwybrau a dyfant yn llawn o ddrain, am nad ymdeithia neb trwyddynt.

34 Y morwynion ieuaingc a alarant heb wŷr iddynt, y gwragedd a wnânt gwynfan heb eu gwŷr, ai merched a alarant am nad oes amddeffyn iddynt,

35 Yn y rhyfel y difethir eu priod hwy, ai gwŷr hwynt a fyddant feirw o newyn.

36 Ond chwychwi waſanaeth-wŷr yr Arglwydd, gwrandewch y pethau hyn a mercwch hwy.

37 Wele air yr Arglwydd, derbynniwch ef, na chredwch mo'r duwiau am y rhai y dywedodd yr Arglwydd.

38 Wele 'r dialeddau yn neſſau, ac ni oedant ddyfod.

39 Fel gwraig wrth eſcor yr hon a ddwg fâb yn mhen y naw-mis, pan ddel yr amſer i eſcor, poen a ddaw ar ei chorph awr, neu ddwy, neu dair o'r blaen, a phan ddel yr etifedd nid arhoſant ammaid llygad:

40 Felly nid oeda 'r dialeddau ddyfod ar y bŷd, a'r bŷd a alara, a thriſtwch a ddaw arno o bôb parth.

41 O fy mhobl gwrandewch arnaf, ymbaratoiwch i'r rhyfel,a byddwch ym mhob drygioni fel pererinnion ar y ddaiar.

42 Yr hwn a wertho, bydded fel vn yn ffoi ymmaith: a'r hwn ſydd yn prynu, bydded fel vn yn colli:

43 A'r hwn a farſiandio, bydded fel vn heb ennill: a'r hwn a adallado fel vn heb gael trigo ynddo.

44 Yr hwn a hauo, bydded fel yr hwn ni's medo: yr hwn a dorro y winllan fel yr hwn ni chaſclo y grawn-win:

45 Y rhai a briodant, byddant fel rhai ni chânt blant: a'r rhai ni phriodant, fel gweddwon.

46 Am hynny y rhai a lafuriant, a lafuriant yn ofer.

47 Canys dieithriaid a fedant eu ffrwyth, ac a ddifethant eu dâ,ac a fwriant i lawr eu tai,ac a gaethgludant eu plant:canys mewn caethiwed, a newyn y cânt blant.

48 A'r rhai a farſiandîa drwy ſpelio,pa mwyaf y trwſiant eu dinaſoedd, eu tai, eu meddiannau, ai cyrph eu hunain,

49 Mwyaf y coſbaf inne hwythau am eu pechodau medd yr Arglwydd.

50 Fel y cenfigenna puttain wrth wraig ônest rinweddol:

51 Felly y caſâ cyfiawnder anwiredd pan ymdrwſio hi, ac ai cyhudda hi yn ei hwyneb pan ddêl efe 'r hwn a attalio yr hwn ſydd yn ceiſio pechod ar y ddaiar.

52 Ac am hynny na fyddwch debyg iddi hi nac iw gweithredoedd:

53 Canys cyn pen nemor o ennyd,anwiredd a dynnir ymmaith oddi ar y ddaiar,a chyfiawnder a lywodraetha yn eich plith chwi.

54 Na ddyweded y pechadur na phechodd: canys marwor tãllyd a lyſc ar ben yr hwn a ddywedo o flaen Duw ai ogoniant, ni phechais.

55 Wele 'r Arglwydd a ŵyr holl weithredoedd dynion, eu bwriadau, eu myddyliau ai calonnau.

56 Canys ni ddywedodd efe ond y gair, (gwneler y ddaiar) a hi a wnaethbwyd: gwneler y nefoedd, a hwynt a wnaethbwyd.

57 Gan ei air ef y gwnaethbwyd y ſêr, ac efe a ŵyr eu rhifedi hwynt.

58 Efe a chwilia waelodion y dyfnderoedd, ai tryſſor, meſurodd y môr, a'r hyn ſydd ynddo.

59 Efe a gaeodd y môr yng-hanol y dyfroedd, ac ai air y crogodd efe y ddaiar ar y dyfroedd.

60 Efe a dana'r nefoedd fel crom-glwyd,ac ar y dyfroedd y gwnaeth efe hi.

61 Yn y diffaethwch a'r anialwch ſych y gwnaeth efe ffynhonnau o ddwfr, a llynnoedd ar bennau'r mynyddoedd, fel y galle 'r afonydd dywallt i lawr oddi ar y creigiau, i ddyfrhau y ddaiar.

62 Efe a wnaeth ŵr,ac a roddes ei galon yng-hanol ei gorph, a rhoddes iddo ef anadl enioes a deall.

63 Ie, ac Yſbryd y galluog Dduw, 'r hwn a wnaeth bôb peth, ac a chwiliodd waelodion dirgelwch y ddaiar,

64 Efe a ŵyr eich amcãnion a'ch bwriadau,a pha beth yw eich meddwl pan bechoch, a phan fynnoch guddio pechodau.

65 Am hynny y ceiſiodd, ac y chwiliodd yr Arglwydd am eich holl weithredoedd chwi, ac efe a'ch cyhudda.

66 A phan ddyger eich pechodau chwi allan, bydd cywilydd arnoch o flaen dynion, a'ch pechodau eich hunain a'ch cyhuddant yn y dydd hwnnw.

67 Pa beth a wnewch? neu pa fodd y cuddiwch chwi eich pechodau o flaen Duw ai angelion?

68 Wele, 'r Arglwydd ei hun ſydd farnwr, ofnwch ef: peidiwch a phechu, a gollyngwch dros gôf eich anwireddau, na fydded i chwi a wneloch mwy â hwynt: felly yr arwain Duw chwi, ac a'ch gwared chwi oddi wrth bôb blinder.

69 Canys wele,gwrês lliaws mawr a gynneuwyd arnoch chwi, a hwy a ddygant ymmaithrai o honoch,ac a'ch lladdant yn fwyd iw delwau.

70 A'r rhai a gydtunant â hwynt a watwarir, a ddiyſtyrir, ac a ſathrir dann draed.

71 Canys fe fydd ym mhob lle, ac ym mhob dinas lawer yn codi yn erbyn y rhai a ofnant yr Arglwydd.

72 Hwy a fyddant fel gwŷr ynfydion, nid arbedant neb, hwy a anrheithiant ac a laddant y rhai a fyddant etto yn ofni 'r Arglwydd:

73 Canys cymmerant eu da oddi arnynt, ac ai bwriant allan oi tai.

74 Yna y ceir gŵybod pwy yw fy netholedigion mau fi, a phrofir hwynt fel yr aur yn y tân.

75 Gwrandewch chwi fy annwylyd (medd yr Arglwydd) wele, dyddiau 'r helbul ſy ger llaw, ond mi a'ch gwaredaf rhagddynt.

76 Nac ofnwch,ac na ddigalõnwch, canys Duw yw eich capten.

77 Y rhai a gadwant fyng-orchymynnion a'm deddfau mau fi (medd yr Arglwydd) na phwyſed eich pechodau chwi i lawr, ac nac ymdderchafed eich anwireddau.

78 Gwae y rhai ſy yn rhwym gan eu pechodau,ac wedi eu gorchguddio ai hanwireddau, fel maes wedi ei gaeu â pherthi, ai lwybr wedi ei guddio â drain, fel na allo neb fyned y ffordd honno: caewyd ef i fynu, a bwriwyd ef i'r tân yn dragywyddol iw ddifetha.

*Terfyn pedwerydd llyfr Eſdras.*

# Llyfr Tobias.

## PENNOD. I

Achau, duwioldeb a ffyddlondeb Tobit, 13 Ei lwyddiant ef. 19 Am ei garedigrwydd iw bobl y ciliodd ymmaith oi wlâd. 22 Ei heddwch ef, ai ddychweliad adref.

Llyfr o ymadroddion Tobit [fab] Tobiel, [fab] Ananiel, [fab] Adui, [fab] Gabael, o hil Aſael, o lwyth Nephthalim,

2 Yr hwn yn amſer Enemeſſar brenin yr Aſſyriaid, a gaeth-gludwyd o Thiſbe yr hon ſydd goruwch Aſer, o'r tu dehau, yn agos i [ddinas] Nephthalim, yn Galilæa.

3 Myfi Tobit a rodiais holl ddyddiau fy hoedl yn ffyrdd gwirionedd a chyfiawnder, ac a wneuthum elyſenau lawer i'm brodyr, ac i'm cenedl y rhai a aethant gyd â mi i wlâd yr Aſſyriaid [ſef] i Ninife.

4 A phan oeddwn i yn fyng-wlad fy hun yn nhir Iſrael, a mi etto yn fachgen, cwbl o lwyth Nephthalim fy nhad a giliodd oddi wrth y tŷ Ieruſalem, yr hon a ddewiſaſid ym myſc holl lwythau Iſrael, megis [y galle] yr holl lwythau aberthu yno, lle yr oedd teml i babell y Goruchaf wedi ei chyſſegru ai hadeiladu yn dragywyddol.

5 A'r holl lwythau y rhai a giliaſent [oddi wrth y gwirionedd,] a thŷ fy nhad inef Nephthalim, a offrymmaſant i'r anner Baal:

6 Eithr myfi fy hunan (yn ôl yr ordinhâd tragywyddol a orchymynnaſid i holl Iſrael) a aethym yn fynych i Ieruſalem ar y gŵyliau [nodedic] gan ddwyn gyd â mi gynffrwyth a degwm cynnydd yr anifeiliaid, a'r cyn-gnaif, y rhai a roddais i i'r offeiriaid, ſef meibion Aaron [y rhai oeddynt yn gweini] wrth yr allor.

7 Y degwm cyntaf mi ai rhoddais i feibion Aaron, y rhai oeddynt weinidogion yn Ieruſalem: yr ail degwm mi ai gwerthais, ac a euthym, ac ai gweriais yn Ieruſalem bôb blwyddyn:

8 A'r trydydd mi ai rhoddais i'r ſawl y gweddei, megis y gorchymynnaſe Debbora mam fy nhâd imi: canys gadawſid fi yn ymddifad o'm tad,

9 Wedi i mi ddyfod [mewn oedran] gŵr, mi a briodais Anna gwraig o dy-lwyth fy nhâd, ac a ennillais o honi hi Tobias.

10 A phan i'm caeth-gludwyd [yn garcharor] i Ninife, fy holl frodyr, ac eraill o'm cenedl a fwytaent fara'r cenhedloedd:

11 Er hynny myfi a'm cedwais fy hun heb fwytta:

12 Am fy môd yn meddwl am Dduw o wîr ewyllys fyng-halon.

13 Ac [am hynny] y rhoddes y Goruchaf i mi ffafr a hawddgarwch ger bron Enemeſſar, fel y bum orchwyliwr iddo.

14 Felly mi a euthym i dîr Media, ac a adewais ddêc talent o arian yn llaw Gabael brawd Gabrias yn Rages ym Media.

15 Ond wedi marw Enemeſſar, Sennacherib ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

16 Yr hwn y rhwyſtrodd ei ffyrdd, fel na ellais i mwy mo'r ymdaith i dir Media.

17 Eithr yn nyddiau Enemeſſar mi a wneuthym lawer o elyſenau i'm brodyr, ac a roddais fy mara i'r newynog, a'm dillad i'r noethion: ac os gwelwn neb o'm cenedl wedi ei ladd, ai fwrw yng-hylch muriau Ninife, mi ai claddwn ef.

18 Ac os lladde Sennacherib y brenin, wrth ddyfod ar ffoi o Iudæa yr un, mi ai claddwn ef yn ddirgel, (canys llawer a laddodd efe yn ei wŷn) a phan geiſie 'r brenin y cyrph ni byddent iw cael.

19 Yna'r aeth un o'r Niniſeaid, ac a ddangoſodd i'r brenin, fy mod i yn eu claddu hwynt, a minne a ymguddiais: a phan wŷbum fod yn fyng-heiſio i'm lladd, mi a giliais ymmaith rhag ofn.

20 Ac [felly] y ducpwyd fy holl dda byd, ac ni adawyd i mi ddim, onid Anna fyng-wraig a Thobias fy mab.

21 A chyn pen pymtheng nhiwrnod a deugain, dau oi feibion ef ai lladdaſant ef, ac a ffoeſant i fynyddoedd Ararath. A Sarchedonus ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef: ac a oſodes Achiacarus fab Anael fy mrawd [yn olygwr] ar holl gyfrifon ei dad, ac ar ei holl orchwyliaeth.

22 Ac Achiacarus a eiriolodd droſof, oni chefais ddyfod [adref] i Ninife: canys goſodaſe Sarchedonus Achiacarus yn neſaf [iddo ei hun,] ac yr oedd efe yn drulliad, a ſeinedydd, gorchwyliwr, a cyfrifydd iddo: ac yr oedd efe yn nai fab brawd i minne.

## PEN. II.

Tobit yn galw y ffyddloniaid iw wleddau. 3 Yn gadel ei fwyd, ac yn myned i gladdu y meirw, ac er hynny yn colli ei olwg, 11 Ei gywirdeb ef, 14 A'r modd yr edliwiodd, ac y dannododd ei wraig iddo ei dduwioldeb.

Wedi i mi ddyfod adref i'm tŷ fy hun, a rhoddi i mi Anna fyng-wraig a Thobias fy mab: ar ŵyl y Pentecoſt, (yr hon yw vchel-wyl y ſaith wythnos) y gwnaethbwyd i mi ginio mawr.

2 Eithr pan eiſteddais i fwytta, a gweled amlder o fwyd, mi a ddywedais wrth fy mab: dôs a chyrch pa ddyn tlawd bynnac a gaffech o'n brodyr ni mewn eiſieu, ac ſydd yn meddwl am yr Arglwydd, ac wele mi a arhoſaf am danat.

3 Eithr efe pan ddaeth trachefn a ddywedodd wrthif, fy nhad, vn o'n cenedl ni ſydd wedi ei dagu, ai fwrw allan i'r heol,

4 [illegible]a cyn profi dim bwyd mi a neidiais ar fy n[illegible], ac ai dugym ef i dŷ nes machludo haul.

[illegible]wedi dychwelyd o honof, mi a ymolcha[illegible] fwytteis fy mara yn athriſt:

6 [illegible]n feddwl am brophwydoliaeth Amos, y modd y dywedaſe efe: eich vchel-wyliau a droir i alar, a'ch llawenydd oll i gwynfan:

7 Ac mi a ŵylais, a phan fachludodd yr haul, mi a euthym, ac a wneuthym fedd, ac ai cleddais ef.

8 A'm cymydogion a'm gwatwarent gan ddywedyd, onid ofna hwn etto ei angeu: am y peth ymma y ffôdd efe vn-waith, ac wele efe eilchwael yn claddu'r meirw.

9 Ac ar y nôs honno mi a ddychwelais o gladdu, ac a gyſcais [wedi] ymhalogi wrth bared y neuadd yn wyneb-noeth,

10 Heb ŵybod fod adar y to [yn aros] yn y fagwyr, y rhai a fwriaſant dail twymyn yn fy llygaid fel yr oeddynt yn agored: ac felly y daeth yr buchen ar fy llygaid: ac er fy myned at feddygon, ni wnaethant i'm ddim lles. Ac Achiacarus a'm porthodd i hyd onid euthym i Elimais.

11 Ac Anna fyng-wraig a weithie mewn nydd-dai gwragedd.

12 A phan aeth hi â'r gwaith adref i'r perchennogion, hwyntwy a dalaſant iddi ei chyflog gan roddi mynn yn ychwaneg:

13 Yr hwn pan ddaeth [adref] i'm tŷ a ddechreuodd frefu, yna y gofynnais iddi, o ba le [y daeth] y mynnyn, ai lledrad yw efe? Dod ef eilchwel iw berchennogion, canys nid cyfraithlon yw bwytta lledrat.

14 A hithe a ddywedodd, ei roi ef a wnaethpwyd i mi gyd a'm cyflog, etto nid oeddwn i yn ei chredu, ond erchi ei roddi ef iw berchēnogion, ac yr oedd yn wradwydd genif drosti, eithr hi a'm hattebodd gan ddywedyd: mae dy eluſenau a'th gyfiawnderau: wele y maent yn amlwg oll gyd â thi.

## PEN. III

Gweddi Tobit. 7 Cyſtudd Sarra ferch Raguel ai gweddi 17 Duw yn anfon Raphael iw cynorthwyo hwynt ill dau.

YNA 'r ŵylais yn athriſt, ac a weddiais mewn gorthrymder gan ddywedyd:

2 Cyfiawn wyt ô Arglwydd, a chwbl o'th weithredoedd a'th ffyrdd oll ydynt drugaredd a gwirionedd: dy farn hefyd a roddi yn iniawn, ac yn gyfiawn yn dragywydd.

3 Coſia am danaf, ac edrych arnaf, ac na wna ddial ar fy mhechodau, nac ar fy anŵybodaeth, na'm henafiaid y rhai a bechaſant ger dy fron di.

4 O achos nad vfuddhaent i'th orchymynnion: am hynny ti a'n rhoddaiſt yn yſpail, ac i gaethiwed, ac i angeu, ac yn ddihareb wradwyddus ym mysc y rhai oll i'n gwaſcarwyd ni yn eu plith.

5 Ac yn awr y mae i ti lawer o achoſion cyfiawn i wneuthur â mysi yn ôl fy mhechodau, a [phechodau] fy henafiaid, am na chadwaſom dy orchymynnion, (canys ni rodiaſom ddim yn y gwirionedd ger dy fron di)

6 Yr awran gan hynny gwna â mysi y peth a fyddo cymmwys yn dy olwg di: pâr gymmeryd fy hoedl oddi wrthif, fel i'm dattoder, ac yr elwyf yn ddaiar: canys gwell i mi farw na byw, o achos y gwarth anwir a glywais, a'r mawr driſtwch ſydd i'm gorchfygu. Am hynny pâr fyng-ollwng yn rhydd o'r cyfyngder ymma, [i fyned] i le tragywyddawl: na thro dy wyneb-pryd oddi wrthif.

7 A'r vn dydd fe a ddigwyddodd i Sarra merch Raguel yn Ecbatan [dinas] ym Media, gael ei gwradwyddo gan forwynion ei thad,

8 Sef ei rhoi hi i ſaith o wŷr, ac i Aſmodæus yr yſpryd drwg eu lladd hwynt, cyn bod iddynt a wnaent â hi yn ôl arfer gwragedd.

9 Oni ŵyddoſt (meddynt) dagu o honot ti dy wŷr: bu ſaith o wŷr i ti hyd yn hyn, ac ni'th gyfenwyd yn ôl yr vn o honynt:

10 Paham ein curi ni am danynt: os meirw ydynt, dos centhynt, na welom byth o honot na mab na merch.

11 A phan glybu hi y pethau hynny, triſtau yn ddirfawr a wnaeth, fel [y meddyliodd] ymdagu: ac etto hi a ddywedodd, vn-ferch fy nhad ydwyf, os gwnaf fi hyn, cywilyddus fydd ganddo ef, ai henaint a ddygaf i'r bedd mewn gorthrymder.

12 Ac yna hi a weddiodd tua'r ffeneſtr gan ddywedyd: Bendigaid wŷt ô Arglwydd fy Nuw, a bendigaid yw enw ſanctaidd dy ogoniant, ac anrhydeddus bych bythoedd, bendiged dy holl weithredoedd ydi yn dragywydd:

13 Ac yr awran ô Arglwydd y dychwelaf fy llygaid am hwyneb attat,

14 Gan ddeiſyf fyng-ollwng yn rhydd oddi ar y ddaiar, fel na chlywyf mwy haiach wradwydd.

15 Ti a ŵyddoſt Arglwydd fy mod yn lân oddi wrth bob pechod gyd â gŵr.

16 Ac ni halogais fy enw, nac enw fy nhad yn nhîr fyng-haethiwed. Vnic ferch wŷf i'm tad, ac nid oes ganddo fab i fod yn etifedd iddo, nac vn câr agos, na phlentyn i'r vn, fel y cadwn fy hun yn wraig iddo: ac [yr awran] wedi marw ſaith-ŵr i mi i ba beth y byddwn i byw: Eithr oni rynga bodd i ti fy lladd, pâr edrych arnaf, a thrugarhau wrthif, fel na chlywyf mwy wradwydd.

17 Ac

# Llyfr Tobias.

## PENNOD. I

Achau, duwioldeb a ffyddlondeb Tobit, 13 Ei lwyddiant ef. 19 Am ei garedigrwydd iw bobl y ciliodd ymmaith oi wlâd. 22 Ei heddwch ef, ai ddychweliad adref.

LLyfr o ymadroddion Tobit [fab] Tobiel, [fab] Ananiel, [fab] Adui, [fab] Gabael, o hil Aſael, o lwyth Nephthalim,

2 Yr hwn yn amſer Enemeſſar brenin yr Aſſyriaid, a gaeth-gludwyd o Thiſbe yr hon ſydd goruwch Aſer, o'r tu dehau, yn agos i[ddinas] Nephthalim, yn Galilæa.

3 Myfi Tobit a rodiais holl ddyddiau fy hoedl yn ffyrdd gwirionedd a chyfiawnder, ac a wneuthum elyſenau lawer i'm brodyr, ac i'm cenedl y rhai a aethant gyd â mi i wlâd yr Aſſyriaid [ſef] i Ninife.

4 A phan oeddwn i yn fyng-wlad fy hun yn nhir Iſrael, a mi etto yn fachgen, cwbl o lwyth Nephthalim fy nhad a giliodd oddi wrth y tŷ Ieruſalem, yr hon a ddewiſaſid ym myſc holl lwythau Iſrael, megis [y galle] yr holl lwythau aberthu yno, lle yr oedd teml i babell y Goruchaf wedi ei chyſſegru ai hadeiladu yn dragywyddol.

5 A'r holl lwythau y rhai a giliaſent [oddi wrth y gwirionedd,] a thŷ fy nhad inef Nephthalim, a offrymmaſant i'r anner Baal:

6 Eithr myfi fy hunan (yn ôl yr ordinhâd tragywyddol a orchymynnaſid i holl Iſrael) a aethym yn fynych i Ieruſalem ar y gŵyliau [nodedic] gan ddwyn gyd â mi gynffrwyth a degwm cynnydd yr anifeiliaid, a'r cyn-gnaif, y rhai a roddais i i'r offeiriaid, ſef meibion Aaron [y rhai oeddynt yn gweini] wrth yr allor.

7 Y degwm cyntaf mi ai rhoddais i feibion Aaron, y rhai oeddynt weinidogion yn Ieruſalem: yr ail degwm mi ai gwerthais, ac a euthym, ac ai gweriais yn Ieruſalem bôb blwyddyn:

8 A'r trydydd mi ai rhoddais i'r ſawl y gweddei, megis y gorchymynnaſe Debbora mam fy nhâd imi: canys gadawſid fi yn ymddifad o'm tad.

9 Wedi i mi ddyfod [mewn oedran] gŵr, mi a briodais Anna gwraig o dy-lwyth fy nhâd, ac a ennillais o honi hi Tobias.

10 A phan i'm caeth-gludwyd [yn garcharor] i Ninife, fy holl frodyr, ac eraill o'm cenedl a fwytaent fara'r cenhedloedd:

11 Er hynny myfi a'm cedwais fy hun heb fwytta:

12 Am fy môd yn meddwl am Dduw o wîr ewyllys fyng-halon.

13 Ac [am hynny] y rhoddes y Goruchaf i mi ffafr a hawddgarwch ger bron Enemeſſar, fel y bum orchwyliwr iddo.

14 Felly mi a euthym i dir Media, ac a adewais ddêc talent o arian yn llaw Gabael brawd Gabrias yn Rages ym Media.

15 Ond wedi marw Enemeſſar, Sennacherib ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

16 Yr hwn y rhwyſtrodd ei ffyrdd, fel na allais i mwy mo'r ymdaith i dir Media.

17 Eithr yn nyddiau Enemeſſar mi a wneuthym lawer o elyſenau i'm brodyr, ac a roddais fy mara i'r newynog, a'm dillad i'r noethion: ac os gwelwn neb o'm cenedl wedi ei ladd, ai fwrw yng-hylch muriau Ninife, mi ai claddwn ef.

18 Ac os lladde Sennacherib y brenin, wrth ddyfod ar ffoi o Iudæa yr vn, mi ai claddwn ef yn ddirgel, (canys llawer a laddodd efe yn ei wŷn) a phan geiſie 'r brenin y cyrph ni byddent iw cael.

19 Yna'r aeth vn o'r Ninifeaid, ac a ddangoſodd i'r brenin, fy mod i yn eu claddu hwynt, a minne a ymguddiais: a phan ŵybum fod yn fyng-heiſio i'm lladd, mi a giliais ymmaith rhag ofn.

20 Ac [felly] y ducpwyd fy holl dda byd, ac ni adawyd i mi ddim, onid Anna fyng-wraig a Thobias fy mab.

21 A chyn pen pymtheng nhiwrnod a deugain, dau oi feibion ef ai lladdaſant ef, ac a ffoeſant i fynyddoedd Ararath. A Sarchedonus ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef: ac a oſodes Achiacarus fab Anael fy mrawd [yn olygwr] ar holl gyfrifon ei dad, ac ar ei holl orchwyliaeth.

22 Ac Achiacarus a eiriolodd droſofi, oni chefais ddyfod [adref] i Ninife: canys goſodaſe Sarchedonus Achiacarus yn neſaf [iddo ei hun,] ac yr oedd efe yn drulliad, a ſeinedydd, gorchwyliwr, a cyfrifydd iddo: ac yr oedd efe yn nai fab brawd i minne.

## PEN. II.

Tobit yn galw y ffyddloniaid iw wleddau. 3 Yn gadel ei fwyd, ac yn myned i gladdu y meirw, ac er hynny yn colli ei olwg, 11 Ei gywirdeb ef, 14 A'r modd yr edliwiodd, ac y dannododd ei wraig iddo ei dduwioldeb.

WEdi i mi ddyfod adref i'm tŷ fy hun, a rhoddi i mi Anna fyng-wraig a Thobias fy mab: ar ŵyl y Pentecoſt, (yr hon yw vchel-wyl y ſaith wythnos) y gwnaethbwyd i mi ginio mawr.

2 Eithr pan eiſteddais i fwytta, a gweled amlder o fwyd, mi a ddywedais wrth fy mab: dôs a chyrch pa ddyn tlawd bynnac a gaffech o'n brodyr ni mewn eiſieu, ac ſydd yn meddwl am yr Arglwydd, ac wele mi a arhoſaf am danat.

3 Eithr efe pan ddaeth trachefn a ddywedodd wrthif, fy nhad, un o'n cenedl ni ſydd wedi ei dagu, ai fwrw allan i'r heol,

4 Yna cyn profi dim bwyd mi a neidiais ar fy nrh[illegible], ac ai dugym ef i dŷ nes machludo haul.

5 [illegible] wedi dychwelyd o honof, mi a ymolchais, [illegible] fwytteis fy mara yn athriſt:

6 Gan feddwl am brophwydoliaeth Amos, y modd y dywedaſe efe: eich uchel-wyliau a droir i alar, a'ch llawenydd oll i gwynfan:

7 Ac mi a ŵylais, a phan fachludodd yr haul, mi a euthym, ac a wneuthym fedd, ac ai cleddais ef.

8 A'm cymydogion a'm gwatwarent gan ddywedyd, onid ofna hwn etto ei angeu: am y peth ymma y ffôdd efe un-waith, ac wele efe eilchwael yn claddu'r meirw.

9 Ac ar y nôs honno mi a ddychwelais o gladdu, ac a gyſcais [wedi] ymhalogi wrth bared y neuadd yn wyneb-noeth,

10 Heb ŵybod fod adar y to [yn aros] yn y fagwyr, y rhai a fwriaſant dail twymyn yn fy llygaid fel yr oeddynt yn agored: ac felly y daeth yr huchen ar fy llygaid: ac er fy myned at feddygon, ni wnaethant i'm ddim lles. Ac Achiacarus a'm porthodd i hyd onid euthym i Elimais.

11 Ac Anna fyng-wraig a weithie mewn nydd-dai gwragedd.

12 A phan aeth hi â'r gwaith adref i'r perchennogion, hwyntwy a dalaſant iddi ei chyflog gan roddi mynn yn ychwaneg:

13 Yr hwn pan ddaeth [adref] i'm tŷ a ddechreuodd frefu, yna y gofynnais iddi, o ba le [y daeth] y mynnyn, ai lledrad yw efe? Dod ef eilchwel iw berchennogion, canys nid cyfraithlon yw bwytta lledrat.

14 A hithe a ddywedodd, ei roi ef a wnaethpwyd i mi gyd a'm cyflog, etto nid oeddwn i yn ei chredu, ond erchi ei roddi ef iw berchēnogion, ac yr oedd yn wradwydd genif drosti, eithr hi a'm hattebodd gan ddywedyd: mae dy eluſenau a'th gyfiawnderau: wele y maent yn amlwg oll gyd â thi.

## PEN. III

Gweddi Tobit. 7 Cyſtudd Sarra ferch Raguel ai gweddi 17 Duw yn anſon Raphael iw cynorthwyo hwynt ill dau.

YNA'r ŵylais yn athriſt, ac a weddiais mewn gorthrymder gan ddywedyd:

2 Cyfiawn wyt ô Arglwydd, a chwbl o'th weithredoedd a'th ffyrdd oll ydynt drugaredd a gwirionedd: dy farn hefyd a roddi yn iniawn, ac yn gyfiawn yn dragywydd.

3 Coſia am danaf, ac edrych arnaf, ac na wna ddial ar fy mhechodau, nac ar fy anwybodaeth, na'm henafiaid y rhai a bechaſant ger dy fron di.

4 O achos nad ufuddhaent i'th orchymynnion: am hynny ti a'n rhoddaiſt yn yſpail, ac i gaethiwed, ac i angeu, ac yn ddihareb wradwyddus ym myſc y rhai oll i'n gwaſcarwyd ni yn eu plith.

5 Ac yn awr y mae i ti lawer o achoſion cyfiawn i wneuthur â myfi yn ôl fy mhechodau, a [phechodau] fy henafiaid, am na chadwaſom dy orchymynnion, (canys ni rodiaſom ddim yn y gwirionedd ger dy fron di)

6 Yr awran gan hynny gwna â myfi y peth a fyddo cymmwys yn dy olwg di: pâr gymmeryd fy hoedl oddi wrthif, fel i'm datroder, ac yr elwyf yn ddaiar: canys gwell i mi farw na byw, o achos y gwarth anwir a glywais, a'r mawr driſtwch ſydd i'm gorchfygu. Am hynny pâr fyng-ollwng yn rhydd o'r cyfyngder ymma, [i fyned] i le tragywyddawl: na thro dy wyneb-pryd oddi wrthif.

7 A'r un dydd fe a ddigwyddodd i Sarra merch Raguel yn Ecbatan [dinas] ym Media, gael ei gwradwyddo gan forwynion ei thad,

8 Sef ei rhoi hi i ſaith o wŷr, ac i Aſmodæus yr yſpryd drwg eu lladd hwynt, cyn bod iddynt a wnaent â hi yn ôl arfer gwragedd.

9 Oni ŵyddoſt (meddynt) dagu o honot ti dy wŷr: bu ſaith o wŷr i ti hyd yn hyn, ac ni'th gyfenwyd yn ôl yr un o honynt:

10 Paham ein curi ni am danynt: os meirw ydynt, dos cenchynt, na welom byth o honot na mab na merch.

11 A phan glybu hi y pethau hynny, triſtau yn ddirfawr a wnaeth, fel [y meddyliodd] ymdagu: ac etto hi a ddywedodd, un-ferch fy nhad ydwyf, os gwnaf fi hyn, cywilyddus fydd ganddo ef, ai henaint a ddygaf i'r bedd mewn gorthrymder.

12 Ac yna hi a weddiodd tua'r ffeneſtr gan ddywedyd: Bendigaid wŷt ô Arglwydd fy Nuw, a bendigaid yw enw ſanctaidd dy ogoniant, ac anrhydeddus byth bythoedd, bendiged dy holl weithredoedd ydi yn dragywydd:

13 Ac yr awran ô Arglwydd y dychwelaf fy llygaid am hwyneb attat,

14 Gan ddeiſyf fyng-ollwng yn rhydd oddi ar y ddaiar, fel na chlywyf mwy haiach wradwydd.

15 Ti a ŵyddoſt Arglwydd fy mod yn lân oddi wrth bob pechod gyd â gŵr.

16 Ac ni halogais fy enw, nac enw fy nhad yn nhîr fyng-haethiwed. Unic ferch wŷf i'm tad, ac nid oes ganddo fab i fod yn etifedd iddo, nac un câr agos, na phlentyn i'r un, fel y cadwn fy hun yn wraig iddo: ac [yr awran] wedi marw ſaith-ŵr i mi i ba beth y byddwn i byw? Eithr oni rynga bodd i ti fy lladd, pâr edrych arnaf, a thrugarhau wrthif, fel na chlywyf mwy wradwydd.

# Llyfr Tobias.

## PENNOD. I

Achau, duwioldeb a ffyddlondeb Tobit, 13 Ei lwyddiant ef. 19 Am ei garedigrwydd iw bobl y ciliodd ymmaith oi wlâd. 22 Ei heddwch ef, ai ddychweliad adref.

Llyfr o ymadroddion Tobit [fab] Tobiel, [fab] Ananiel, [fab] Adui, [fab] Gabael, o hil Aſael, o lwyth Nephthalim,

2 Yr hwn yn amſer Enemeſſar brenin yr Aſſyriaid, a gaeth-gludwyd o Thiſbe yr hon ſydd goruwch Aſer, o'r tu dehau, yn agos i [ddinas] Nephthalim, yn Galilæa.

3 Myfi Tobit a rodiais holl ddyddiau fy hoedl yn ffyrdd gwirionedd a chyfiawnder, ac a wneuthum elyſenau lawer i'm brodyr, ac i'm cenedl y rhai a aethant gyd â mi i wlâd yr Aſſyriaid [ſef] i Ninife.

4 A phan oeddwn i yn fyng-wlad fy hun yn nhir Iſrael, a mi etto yn fachgen, cwbl o lwyth Nephthalim fy nhad a giliodd oddi wrth y tŷ Jeruſalem, yr hon a ddewiſaſid ym myſc holl lwythau Iſrael, megis [y galle] yr holl lwythau aberthu yno, lle yr oedd teml i babell y Goruchaf wedi ei chyſſegru ai hadeiladu yn dragywyddol.

5 A'r holl lwythau y rhai a giliaſent [oddi wrth y gwirionedd,] a thŷ fy nhad inef Nephthalim, a offrymmaſant i'r anner Baal:

6 Eithr myfi fy hunan (yn ôl yr ordinhâd tragywyddol a orchymynnaſid i holl Iſrael) a aethym yn fynych i Jeruſalem ar y gŵyliau [nodedic] gan ddwyn gyd â mi gynffrwyth a degwm cynnydd yr anifeiliaid, a'r cyn-gnaif, y rhai a roddais i i'r offeiriaid, ſef meibion Aaron [y rhai oeddynt yn gweini] wrth yr allor.

7 Y degwm cyntaf mi ai rhoddais i feibion Aaron, y rhai oeddynt weinidogion yn Jeruſalem: yr ail degwm mi ai gwerthais, ac a euthym, ac ai gweriais yn Jeruſalem bôb blwyddyn:

8 A'r trydydd mi ai rhoddais i'r ſawl y gweddei, megis y gorchymynnaſe Debbora mam fy nhâd i mi: canys gadawſid fi yn ymddifad o'm tad,

9 Wedi i mi ddyfod [mewn oedran] gŵr, mi a briodais Anna gwraig o dy-lwyth fy nhâd, ac a ennillais o honi hi Tobias.

10 A phan i'm caeth-gludwyd [yn garcharor] i Ninife, fy holl frodyr, ac eraill o'm cenedl a fwytaent fara'r cenhedloedd:

11 Er hynny myfi a'm cedwais fy hun heb fwytta:

12 Am fy môd yn meddwl am Dduw o wîr ewyllys fyng-halon.

13 Ac [am hynny] y rhoddes y Goruchaf i mi ffafr a hawddgarwch ger bron Enemeſſar, fel y bum orchwyliwr iddo.

14 Felly mi a euthym i dir Media, ac a adewais ddêc talent o arian yn llaw Gabael brawd Gabrias yn Rages ym Media.

15 Ond wedi marw Enemeſſar, Sennacherib ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

16 Yr hwn y rhwyſtrodd ei ffyrdd, fel na allais i mwy mo'r ymdaith i dir Media.

17 Eithr yn nyddiau Enemeſſar mi a wneuthym lawer o elyſenau i'm brodyr, ac a roddais fy mara i'r newynog, a'm dillad i'r noethion: ac os gwelwn neb o'm cenedl wedi ei ladd, ai fwrw yng-hylch muriau Ninife, mi ai claddwn ef.

18 Ac os lladde Sennacherib y brenin, wrth ddyfod ar ffoi o Judæa yr un, mi ai claddwn ef yn ddirgel, (canys llawer a laddodd efe yn ei wŷn) a phan geiſie 'r brenin y cyrph ni byddent iw cael.

19 Yna'r aeth un o'r Ninifeaid, ac a ddangoſodd i'r brenin, fy mod i yn eu claddu hwynt, a minne a ymguddiais: a phan ŵybum fod yn fyng-heiſio i'm lladd, mi a giliais ymmaith rhag ofn.

20 Ac [felly] y ducpwyd fy holl dda byd, ac ni adawyd i mi ddim, onid Anna fyng-wraig a Thobias fy mab.

21 A chyn pen pymtheng nhiwrnod a deugain, dau oi feibion ef ai lladdaſant ef, ac a ffoeſant i fynyddoedd Ararath. A Sarchedonus ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef: ac a oſodes Achiacarus fab Anael fy mrawd [yn olygwr] ar holl gyfrifon ei dad, ac ar ei holl orchwyliaeth.

22 Ac Achiacarus a eiriolodd droſofi, oni chefais ddyfod [adref] i Ninife: canys goſodaſe Sarchedonus Achiacarus yn neſaf [iddo ei hun,] ac yr oedd efe yn drulliad, a ſeinedydd, gorchwyliwr, a cyfrifydd iddo: ac yr oedd efe yn nai fab brawd i minne.

## PEN. II.

Tobit yn galw y ffyddloniaid iw wleddau. 3 Yn gadel ei fwyd, ac yn myned i gladdu y meirw, ac er hynny yn colli ei olwg, 11 Ei gywirdeb ef, 14 A'r modd yr edliwiodd, ac y dannododd ei wraig iddo ei dduwioldeb.

Wedi i mi ddyfod adref i'm tŷ fy hun, a rhoddi i mi Anna fyng-wraig a Thobias fy mab: ar ŵyl y Pentecoſt, (yr hon yw uchel-wyl y ſaith wythnos) y gwnaethbwyd i mi ginio mawr.

2 Eithr pan eiſteddais i fwytta, a gweled amlder o fwyd, mi a ddywedais wrth fy mab: dôs a chyrch pa ddyn tlawd bynnac a gaffech o'n brodyr ni mewn eiſieu, ac ſydd yn meddwl am yr Arglwydd, ac wele mi a arhoſaf am danat.

3 Eithr efe pan ddaeth trachefn a ddywedodd wrthif, fy nhad, vn o'n cenedl ni ſydd wedi ei dagu, ai fwrw allan i'r heol,

4 [illegible]a cyn profi dim bwyd mi a neidiais ar fy n[illegible], ac ai dugym ef i dŷ nes machludo haul.

5 [illegible]edi dychwelyd o honof, mi a ymolcha[illegible] fwytteis fy mara yn athriſt:

6 [illegible]n feddwl am brophwydoliaeth Amos, y modd y dywedaſe efe: eich vchel-wyliau a droir i alar, a'ch llawenydd oll i gwynfan:

7 Ac mi a wylais, a phan fachludodd yr haul, mi a euthym, ac a wneuthym fedd, ac ai cleddais ef.

8 A'm cymydogion a'm gwatwarent gan ddywedyd, onid ofna hwn etto ei angeu: am y peth ymma y ffôdd efe vn-waith, ac wele efe eilchwael yn claddu'r meirw.

9 Ac ar y nôs honno mi a ddychwelais o gladdu, ac a gyſcais [wedi] ymhalogi wrth bared y neuadd yn wyneb-noeth,

10 Heb wybod fod adar y to [yn aros] yn y fagwyr, y rhai a fwriaſant dail twymyn yn fy llygaid fel yr oeddynt yn agored: ac felly y daeth yr buchen ar fy llygaid: ac er fy myned at feddygon, ni wnaethant i'm ddim lles. Ac Achiacarus a'm porthodd i hyd onid euthym i Elimais.

11 Ac Anna fyng-wraig a weithie mewn nydd-dai gwragedd.

12 A phan aeth hi â'r gwaith adref i'r perchennogion, hwyntwy a dalaſant iddi ei chyflog gan roddi mynn yn ychwaneg:

13 Yr hwn pan ddaeth [adref] i'm tŷ a ddechreuodd frefu, yna y gofynnais iddi, o ba le [y daeth] y mynnyn, ai lledrad yw efe? Dod ef eilchwel iw berchennogion, canys nid cyfraithlon yw bwytta lledrat.

14 A hithe a ddywedodd, ei roi ef a wnaethpwyd i mi gyd a'm cyflog, etto nid oeddwn i yn ei chredu, ond erchi ei roddi ef iw berchēnogion, ac yr oedd yn wradwydd genif droſti, eithr hi a'm hattebodd gan ddywedyd: mae dy eluſenau a'th gyfiawnderau: wele y maent yn amlwg oll gyd â thi.

## PEN. III

Gweddi Tobit. 7 Cyſtudd Sarra ferch Raguel ai gweddi 17 Duw yn anſon Raphael iw cynorthwyo hwynt ill dau.

YNA 'r wylais yn athriſt, ac a weddiais mewn gorthrymder gan ddywedyd:

2 Cyfiawn wyt ô Arglwydd, a chwbl o'th weithredoedd a'th ffyrdd oll ydynt drugaredd a gwirionedd: dy farn hefyd a roddi yn iniawn, ac yn gyfiawn yn dragywydd.

3 Coffa am danaf, ac edrych arnaf, ac na wna ddial ar fy mhechodau, nac ar fy anwybodaeth, na'm henafiaid y rhai a bechaſant ger dy fron di.

4 O achos nad vfuddhaent i'th orchymynnion: am hynny ti a'n rhoddaiſt yn yſpail, ac i gaethiwed, ac i angeu, ac yn ddihareb wradwyddus ym myſc y rhai oll i'n gwaſcarwyd ni yn eu plith.

5 Ac yn awr y mae i ti lawer o achoſion cyfiawn i wneuthur â myfi yn ôl fy mhechodau, a [phechodau] fy henafiaid, am na chadwaſom dy orchymynnion, (canys ni rodiaſom ddim yn y gwirionedd ger dy fron di)

6 Yr awran gan hynny gwna â myfi y peth a fyddo cymmwys yn dy olwg di: pâr gymmeryd fy hoedl oddi wrthif, fel i'm dattoder, ac yr elwyf yn ddaiar: canys gwell i mi farw na byw, o achos y gwarth anwir a glywais, a'r mawr dristwch ſydd i'm gorchfygu. Am hynny pâr fyng-ollwng yn rhydd o'r cyfyngder ymma, [i fyned] i le tragywyddawl: na thro dy wyneb-pryd oddi wrthif.

7 A'r vn dydd fe a ddigwyddodd i Sarra merch Raguel yn Ecbatan [dinas] ym Media, gael ei gwradwyddo gan forwynion ei thad,

8 Sef ei rhoi hi i ſaith o wŷr, ac i Aſmodæus yr yſpryd drwg eu lladd hwynt, cyn bod iddynt a wnaent â hi yn ôl arfer gwragedd.

9 Oni wyddoſt (meddynt) dagu o honot ti dy wŷr: bu ſaith o wŷr i ti hyd yn hyn, ac ni'th gyfenwyd yn ôl yr vn o honynt:

10 Paham ein curi ni am danynt: os meirw ydynt, dos centhynt, na welom byth o honot na mab na merch.

11 A phan glybu hi y pethau hynny, triſtau yn ddirfawr a wnaeth, fel [y meddyliodd] ymdagu: ac etto hi a ddywedodd, vn-ferch fy nhad ydwyf, os gwnaf fi hyn, cywilyddus fydd ganddo ef, ai henaint a ddygaf i'r bedd mewn gorthrymder.

12 Ac yna hi a weddiodd tua'r ffeneſtr gan ddywedyd: Bendigaid wŷt ô Arglwydd fy Nuw, a bendigaid yw enw ſanctaidd dy ogoniant, ac anrhydeddus byth bythoedd, bendiged dy holl weithredoedd dydi yn dragywydd:

13 Ac yr awran ô Arglwydd y dychwelaf fy llygaid am hwyneb attat,

14 Gan ddeiſyf fyng-ollwng yn rhydd oddi ar y ddaiar, fel na chlywyf mwy haiach wradwydd.

15 Ti a wyddoſt Arglwydd fy mod yn lân oddi wrth bob pechod gyd â gŵr.

16 Ac ni halogais fy enw, nac enw fy nhad yn nhîr fyng-haethiwed. Vnic ferch wŷf i'm tad, ac nid oes ganddo fab i fod yn etifedd iddo, nac vn câr agos, na phlentyn i'r vn, fel y cadwn fy hun yn wraig iddo: ac [yr awran] wedi marw ſaith-ŵr i mi i ba beth y byddwn i byw: Eithr oni rynga bodd i ti fy lladd, pâr edrych arnaf, a thrugarhau wrthif, fel na chlywyf mwy wradwydd.

# Llyfr Tobias.

## PENNOD. I

[illegible] duwioldeb a ffyddlondeb Tobit, 13 Ei lwyddiant ef. 19 Am ei garedigrwydd iw bobl y ciliodd ymmaith o'i wlâd. 22 Ei heddwch ef, a'i ddychweliad adref.

LLyfr o ymadroddion Tobit [fab] Tobiel, [fab] Ananiel, [fab] Adui, [fab] Gabael, o hil Aſael, o lwyth Nephthalim,

2 Yr hwn yn amſer Enemeſſar brenin yr Aſſyriaid, a gaeth-gludwyd o Thiſbe yr hon ſydd goruwch Aſer, o'r tu dehau, yn agos i [ddinas] Nephthalim, yn Galilæa.

3 Myfi Tobit a rodiais holl ddyddiau fy hoedl yn ffyrdd gwirionedd a chyfiawnder, ac a wneuthum eluſenau lawer i'm brodyr, ac i'm cenedl y rhai a aethant gyd â mi i wlâd yr Aſſyriaid [ſef] i Ninife.

4 A phan oeddwn i yn fyng-wlad fy hun yn nhir Iſrael, a mi etto yn fachgen, cwbl o lwyth Nephthalim fy nhad a giliodd oddi wrth y tŷ Jeruſalem, yr hon a ddewiſaſid ym myſc holl lwythau Iſrael, megis [y galle] yr holl lwythau aberthu yno, lle yr oedd teml i babell y Goruchaf wedi ei chyſſegru ai hadeiladu yn dragywyddol.

5 A'r holl lwythau y rhai a giliaſent [oddi wrth y gwirionedd,] a thŷ fy nhad inef Nephthalim, a offrymmaſant i'r anner Baal:

6 Eithr myfi fy hunan (yn ôl yr ordinhâd tragywyddol a orchymynnaſid i holl Iſrael) a aethym yn fynych i Jeruſalem ar y gwyliau [nodedic] gan ddwyn gyd â mi gynffrwyth a degwm cynnydd yr anifeiliaid, a'r cyn-gnaif, y rhai a roddais i i'r offeiriaid, ſef meibion Aaron [y rhai oeddynt yn gweini] wrth yr allor.

7 Y degwm cyntaf mi ai rhoddais i feibion Aaron, y rhai oeddynt weinidogion yn Jeruſalem: yr ail degwm mi ai gwerthais, ac a euthym, ac ai gweriais yn Jeruſalem bôb blwyddyn:

8 A'r trydydd mi ai rhoddais i'r ſawl y gweddei, megis y gorchymynnaſe Debbora mam fy nhâd i mi: canys gadawſid fi yn ymddifad o'm tad.

9 Wedi i mi ddyfod [mewn oedran] gŵr, mi a briodais Anna gwraig o dy-lwyth fy nhâd, ac a enillais o honi hi Tobias.

10 A phan i'm caeth-gludwyd [yn garcharor] i Ninife, fy holl frodyr, ac eraill o'm cenedl a ſwyttaent fara'r cenhedloedd:

11 Er hynny myfi a'm cedwais fy hun heb ſwytta:

12 Am fy môd yn meddwl am Dduw o wir ewyllys fyng-halon.

13 Ac [am hynny] y rhoddes y Goruchaf i mi ffafr a hawddgarwch ger bron Enemeſſar, fel y bum orchwyliwr iddo.

14 Felly mi a euthym i dir Media, ac a adewais ddêc talent o arian yn llaw Gabael brawd Gabrias yn Rages ym Media.

15 Ond wedi marw Enemeſſar, Sennacherib ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef.

16 Yr hwn y rhwyſtrodd ei ffyrdd, fel na allais i mwy mo'r ymdaith i dir Media.

17 Eithr yn nyddiau Enemeſſar mi a wneuthym lawer o eluſenau i'm brodyr, ac a roddais fy mara i'r newynog, a'm dillad i'r noethion: ac os gwelwn neb o'm cenedl wedi ei ladd, ai fwrw yng-hylch muriau Ninife, mi ai claddwn ef.

18 Ac os lladde Sennacherib y brenin, wrth ddyfod ar ffoi o Judæa yr un, mi ai claddwn ef yn ddirgel, (canys llawer a laddodd efe yn ei wŷn) a phan geiſie'r brenin y cyrph ni byddent iw cael.

19 Yna'r aeth un o'r Niniſeaid, ac a ddangoſodd i'r brenin, fy mod i yn eu claddu hwynt, a minne a ymguddiais: a phan wybum fod yn fyng-heiſio i'm lladd, mi a giliais ymmaith rhag ofn.

20 Ac [felly] y ducpwyd fy holl dda byd, ac ni adawyd i mi ddim, onid Anna fyng-wraig a Thobias fy mab.

21 A chyn pen pymtheng nhiwrnod a deugain, dau oi feibion ef ai lladdaſant ef, ac a ffoeſant i fynyddoedd Ararath. A Sarchedonus ei fab a deyrnaſodd yn ei le ef: ac a oſodes Achiacarus fab Anael fy mrawd [yn olygwr] ar holl gyfrifon ei dad, ac ar ei holl orchwyliaeth.

22 Ac Achiacarus a eiriolodd droſofi, oni chefais ddyfod [adref] i Ninife: canys goſodaſe Sarchedonus Achiacarus yn neſaf [iddo ei hun,] ac yr oedd efe yn drulliad, a ſeinedydd, gorchwyliwr, a cyfrifydd iddo: ac yr oedd efe yn nai fab brawd i minne.

## PEN. II.

Tobit yn galw y ffyddloniaid iw wleddau. 3 Yn gadel ei fwyd, ac yn myned i gladdu y meirw, ac ei hynny yn colli ei olwg, 11 Ei gywirdeb ef, 14 A'r modd yr edliwiodd, ac y dannododd ei wraig iddo ei dduwioldeb.

WEdi i mi ddyfod adref i'm tŷ fy hun, a rhoddi i mi Anna fyng-wraig a Thobias fy mab: ar wyl y Pentecoſt, (yr hon yw uchel-wyl y ſaith wythnos) y gwnaethbwyd i mi ginio mawr.

2 Eithr pan eiſteddais i fwytta, a gweled amlder o fwyd, mi a ddywedais wrth fy mab: Dôs a chyrch pa ddyn tlawd bynnac a gaffech o'n brodyr ni mewn eiſieu, ac ſydd yn meddwl am yr Arglwydd, ac wele mi a arhoſaf am danat.

3 Eithr efe pan ddaeth trachefn a ddywedodd wrthif, fy nhad, vn o'n cenedl ni ſydd wedi ei dagu, ai fwrw allan i'r heol,

4 Yna cyn profi dim bwyd mi a neidiais ar fy nrhaed, ac ai dugym ef i dŷ nes machludo haul.

5 Ac wedi dychwelyd o honof, mi a ymolchais, ac a fwytteis fy mara yn athriſt:

6 Gan feddwl am brophwydoliaeth Amos, y modd y dywedaſe efe: eich vchel-wyliau a droir i alar, a'ch llawenydd oll i gwynfan:

7 Ac mi a wylais, a phan fachludodd yr haul, mi a euthym, ac a wneuthym fedd, ac ai cleddais ef.

8 A'm cymydogion a'm gwatwarent gan ddywedyd, onid ofna hwn etto ei angeu? am y peth ymma y ffôdd efe vn-waith, ac wele efe eilchwael yn claddu'r meirw.

9 Ac ar y nôs honno mi a ddychwelais o gladdu, ac a gyſcais [wedi] ymhalogi wrth bared y neuadd yn wyneb-noeth,

10 Heb wybod fod adar y to [yn aros] yn y fagwyr, y rhai a fwriaſant dail twymyn yn fy llygaid fel yr oeddynt yn agored: ac felly y daeth yr huchen ar fy llygaid: ac er fy myned at feddygon, ni wnaethant i'm ddim lles. Ac Achiacarus a'm porthodd i hyd onid euthym i Elimais.

11 Ac Anna fyng-wraig a weithie mewn nydd-dai gwragedd.

12 A phan aeth hi â'r gwaith adref i'r perchennogion, hwyntwy a dalaſant iddi ei chyflog gan roddi mynn yn ychwaneg:

13 Yr hwn pan ddaeth [adref] i'm tŷ a ddechreuodd frefu, yna y gofynnais iddi, o ba le [y daeth] y mynnyn, ai lledrad yw efe? Dod ef eilchwel iw berchennogion, canys nid cyfraithlon yw bwytta lledrat.

14 A hithe a ddywedodd, ei roi ef a wnaethpwyd i mi gyd a'm cyflog, etto nid oeddwn i yn ei chredu, ond erchi ei roddi ef iw berchēnogion, ac yr oedd yn wradwydd genif droſti, eithr hi a'm hattebodd gan ddywedyd: mae dy eluſenau a'th gyfiawnderau? wele y maent yn amlwg oll gyd â thi.

## PEN. III

Gweddi Tobit. 7 Cyſtudd Sarra ferch Raguel ai gweddi 17 Duw yn anfon Raphael iw cynorthwyo hwynt ill dau.

YNA 'r wylais yn athriſt, ac a weddiais mewn gorthrymder gan ddywedyd:

2 Cyfiawn wyt ô Arglwydd, a chwbl o'th weithredoedd a'th ffyrdd oll ydynt drugaredd a gwirionedd: dy farn hefyd a roddi yn iniawn, ac yn gyfiawn yn dragywydd.

3 Cofia am danaf, ac edrych arnaf, ac na wna ddial ar fy mhechodau, nac ar fy anwybodaeth, na'm henafiaid y rhai a bechaſant ger dy fron di.

4 O achos nad vfuddhaent i'th orchymynnion: am hynny ti a'n rhoddaiſt yn yſpail, ac i gaethiwed, ac i angeu, ac yn ddihareb wradwyddus ym myſc y rhai oll i'n gwaſcarwyd ni yn eu plith.

5 Ac yn awr y mae i ti lawer o achoſion cyfiawn i wneuthur â myfi yn ôl fy mhechodau, a [phechodau] fy henafiaid, am na chadwaſom dy orchymynnion, (canys ni rodiaſom ddim yn y gwirionedd ger dy fron di)

6 Yr awran gan hynny gwna â myfi y peth a fyddo cymmwys yn dy olwg di: pâr gymmeryd fy hoedl oddi wrthif, fel i'm dattoder, ac yr elwyf yn ddaiar: canys gwell i mi farw na byw, o achos y gwarth anwir a glywais, a'r mawr driſtwch ſydd i'm gorchfygu. Am hynny pâr fyng-ollwng yn rhydd o'r cyfyngder ymma, [i fyned] i le tragywyddawl: na thro dy wyneb-pryd oddi wrthif.

7 A'r vn dydd fe a ddigwyddodd i Sarra merch Raguel yn Ecbatan [dinas] ym Media, gael ei gwradwyddo gan forwynion ei thad,

8 Sef ei rhoi hi i ſaith o wŷr, ac i Aſmodæus yr yſpryd drwg eu lladd hwynt, cyn bod iddynt a wnaent â hi yn ôl arfer gwragedd.

9 Oni wyddoſt (meddynt) dagu o honot ti dy wŷr? bu ſaith o wŷr i ti hyd yn hyn, ac ni'th gyfenwyd yn ôl yr vn o honynt:

10 Paham ein curi ni am danynt? os meirw ydynt, dos centhynt, na welom byth o honot na mab na merch.

11 A phan glybu hi y pethau hynny, triſtau yn ddirfawr a wnaeth, fel [y meddyliodd] ymdagu: ac etto hi a ddywedodd, vn-ferch fy nhad ydwyf, os gwnaf fi hyn, cywilyddus fydd ganddo ef, ai henaint a ddygaf i'r bedd mewn gorthrymder.

12 Ac yna hi a weddiodd tua'r ffeneſtr gan ddywedyd: Bendigaid wŷt ô Arglwydd fy Nuw, a bendigaid yw enw ſanctaidd dy ogoniant, ac anrhydeddus byth bythoedd, bendiged dy holl weithredoedd ydi yn dragywydd:

13 Ac yr awran ô Arglwydd y dychwelaf fy llygaid am hwyneb attat,

14 Gan ddeiſyf fyng-ollwng yn rhydd oddi ar y ddaiar, fel na chlywyf mwy haiach wradwydd.

15 Ti a wyddoſt Arglwydd fy mod yn lân oddi wrth bob pechod gyd â gŵr.

16 Ac ni halogais fy enw, nac enw fy nhad yn nhîr fyng-haethiwed. Unic ferch wŷf i'm tad, ac nid oes ganddo fab i fod yn etifedd iddo, nac vn câr agos, na phlentyn i'r vn, fel y cadwn fy hun yn wraig iddo: ac [yr awran] wedi marw ſaith-wr i mi i ba beth y byddwn i byw? Eithr oni rynga bodd i ti fy lladd, pâr edrych arnaf, a thrugarhau wrthif, fel na chlywyf mwy wradwydd.

17 Ai gweddiau ill dau a wrandawyd ger bron gogoniant y Duw mawr.

18 A Raphael a anfoned i iachau 'r ddau [ſef] i dynny 'r huchen oddi ar lygaid Tobit, ac i roddi Sarra merch Raguel yn wraig i Tobias mab Tobit, ac i rwymo Asmodæus yr yſpryt drwg, o achos bod yn perthynu i Tobias o gyfiawnder ei chael hi: yn y cyfamſer hwnnw y dychwelodd Tobit, ac yr aeth efe iw dŷ, a Sarra merch Raguel a ddeſcynnodd oi ſtafell.

## PEN. IIII.

Cynghorion Tobit iw fab.

YNa y dydd hwnnw y meddyliodd Tobit am yr arian a roddaſe efe at Gabael yn Rages [dinas] ym Media,

2 Ac a ddywedodd wrtho ei hun, mi a chwennychwn farw, eithr pa ham nad ydwyf yn galw am Tobias fy mab, fel y gallwyf ei gynghori ef cyn fy marw?

3 Ac wedi [iddo] alw am dano ef y dywedodd, fy mab, pan fyddwyf marw cladd di fi, ac na ddiyſtyra dy fam, anrhydedda hi holl ddyddiau dy enioes, a gwna y peth a ryngo bodd iddi, ac na thriſtâ hi:

4 Coſia fy mab ei bod hi mewn llawer o beryglon, tra fuoſt yn ei bru hi.

5 Pan fyddo hi marw, cladd hi gyd â myfi yn yr un bedd.

6 Fy mab meddwl am yr Arglwydd ein Duw ni yn dy holl ddyddiau, ac na ddod ti dy fryd ar bechu, na thorri ei orchymynnion ef. Gwna gyfiawnder tra fyddech byw, ac na rodia yn ffyrdd anwiredd: canys o dilyni wirionedd dy holl weithredoedd a lwyddant, a phawb a'r a wnêl cyfiawnder.

7 Dod ti eluſen o'r peth a fyddo gennit, ac na chenfigenned dy lygad wrth roddi dy eluſen: ac na thro dy ŵyneb oddi wrth neb tlawd, ac ni thry Duw ei wyneb oddi wrthit tithe.

8 Fel y byddo gennit yr amlder, dod o honaw eluſen, os ychydig fydd gennit, o ychydig nac arſwyda roi eluſen.

9 Canys [felly] y tryſſori i ti dy hûn wobr daionus erbyn y dydd angheurheidiol.

10 O blegit eluſen a wared rhag angeu, ac a leſtair ddyfod i'r tywyllwch.

11 O herwydd cêd ddaionus yw eluſeni i bawb a'r ai gwnêl ger bron y Goruchaf.

12 Fy mab gochel bob godineb, a chymmer wraig o dylwyth dy henafiaid, ac na chymmer eſtrones yr hon nid ydyw o lwyth dy dâd: canys plant y prophwydi ydym: Noe, Abraham, Iſaac [ac] Iacob oeddynt ein tadau o'r dechreuad, coſia fy mab iddynt oll briodi gwragedd oi cenedl eu hûn, ac hwy a fuant ddedwydd yn eu plant, ai hîl a feddianna 'r ddaiar.

13 Ac yr awran fy mab câr dy frodyr, ac na fydded diyſtyr gennit yn dy galon, o'th dylwyth (meibion a merched dy bobl) gymmeryd it wraig: canys o ddiyſtyrwch y daw diniſtr a dirfawr gythryfwl: ac o drahuſdra y daw prinder a mawr eiſieu, o herwydd trahuſdra yw mam tlodi.

14 Nac attal gyd â thi gyflog neb a'r a wnaeth dy waith, eithr tâl iddo yn ebrwydd: ac os gwaſanaethi di Dduw, ti a gei daledigaeth: edrych arnat dy hun fy mab yn dy holl weithredoedd, a bydd ddieſceulys ym mhob tro a wnelech.

15 Y peth ſydd gâs gennit dy hûn na wnâ i arall: nac ŷf win i feddwdod, ac na fynn feddwdod gyd â thi i ymdaith.

16 Dod ti o'th fara i'r newynog, ac o'th ddillad i'r noeth: ac o bob amlder dod eluſen, ac na fydd lygad-genfigennus wrth roi eluſeni.

17 Bydd helaeth o'th fara ar fedd y cyfiawn, ac na ddod i'r pechaduriaid [ddim.]

18 Gofyn gyngor i bob un ſynhwyrol, ac na wrthod ti fyth gyngor buddiol.

19 Mola 'r Arglwydd dy Dduw bob amſer, a deiſyf arno iniawni dy ffyrdd a chwbl o'th lwybrau, a gwneuthur dy amcannion yn llwyddiannus: canys ni all un genhedlaeth roddi cyngor, eithr yr Arglwydd ei hun ſydd yn rhoddi pob daioni, ac efe a ddaroſtwng y neb a fynno, fel y mynno: yr awran gan hynny fy mab cadw i'th gof fyng-orchymynnion, ac na ddeleuer hwynt o'th feddwl.

20 Ac yn awr yr ydwyf yn dangos it, adel o honofi ddêc talent o arian gyd â Gabael brawd Gabrias yn Rages dinas Media.

21 Am hynny nac ofna fy mab o ran ein myned ni mewn tlodi, y mae i ti ddigon od ofni di Dduw, a gochelud pechod, a gwneuthur y peth a fyddo cymmeradwy ger ei fron ef.

## PEN. V.

Tobias yn cael Raphael i gyd ymdeithio i Rages.

YNa yr attebodd Tobias, ac y dywedodd, fy nhâd, cwbl oll ac a orchymynnaiſt i mi, mi ai gwnaf:

2 Eithr pa fodd y gallaf fi gael yr arian, a minne heb ei adnabod ef?

3 Yntef a roddes iddo yr ſcrifen-law, ac a ddywedodd wrtho, cais i ti ryw un, yr hwn (tra fyddwyfi yn y byd) a elo gyd â thydi, ac myfi a dalaf ei gyflog iddo ef, ac yna dos a chymmer yr arian.

4 Ac efe a aeth i geiſio un [gyd ag ef,] ac a gafodd Raphael, yr hwn oedd angel: (yr hyn ni's gŵyddied efe.)

5 Ac efe a ddywedodd wrtho: a elli di fyned gyd â mi i dîr Media? a wyt ti hyfedr ar y gwledydd hynny?

6 A'r angel a ddywedodd wrtho, mi a âf gyd â thydi, canys bum yn aros gyd â'n brawd Gabael.

7 Yna Tobias a ddywedodd wrtho, aros fi oni ddywedwyf i'm tâd.

8 Ac efe a ddywedodd wrtho, dos, ac na thrîg, ac efe a aeth i mewn, ac a ddywedodd wrth ei dâd, wele mi a gefais un i fyned gyd â mi: y-

na y dywedodd yntef: galw ef attaſi, modd y gallwyf ŵybod o ba lwyth y mae efe, a hefyd a ydyw efe ffyddlon i fyned gyd â thi.

9 Ac efe a alwodd arno, ac yntef a ddaeth i mewn, ac yna y cyfarchaſant ei gilydd:

10 A Thobit a ddywedodd wrtho, fy mrawd, dangos i mi o ba lwyth a theulu yr wyt yn dyfod.

11 Ac yntef a ddywedodd wrtho, a wyt ti yn ceiſio llwyth neu deulu? ai cyflog-ddyn i fyned gyd a'ch ſab? A Thobit ai hatebodd ef, mi a ewyllyſiwn fy mrawd gael gŵybod dy genedl a'th enw.

12 Yntef a ddywedodd, yr ydwyf fi o genedl Azarias ac Ananias [y gŵr] enwoc hwnnw, a'ch frawd dithe.

13 Yna y dywedodd Tobit, croeſo wrthit fy mrawd: na ddigia wrthif am i mi geiſio gŵybod y llwyth a'r teulu y daethoſt o honynt, canys fy mrawd wyt, o dylwyth da dedwyddol: o achos mi a adwaenwn Ananias ac Jonathas, meibion Samaias [y gŵr] enwoc, (am fy mod yn gorymdaith gyd â hwynt i Jeruſalem i addoli, gan ddwyn gyd â ni y cynffrwyth a degwm cynnydd yr anifeliaid) y rhai ni throſeddaſant yn amryfuſedd ein brodyr ni: yr wyt ti o wreiddin da fy mrawd.

14 Ond dywet i mi, pa gyflog a roddaf i ti? grod beunydd a thyfreidiau fel i'm mab fy hun [a gei di:]

15 A hefyd mi a chwanegaf i ti dy gyflog os dychwelwch trachefn yn iach [lawen.]

16 Ac felly y cydunaſant, yna y dywedodd efe wrth Tobias, ymdrwſia i'r daith a rhwydd-hynt i chwi: ac wedi i'r mab baratoi pob peth i'r daith, y dywedodd ei dad wrtho: dos gyd â'r gŵr hwn, a Duw yr hwn ſydd ai drigfa yn y nef a lwyddianna eich ffordd chwi: ac eled Angel Duw gyd â chwi. Yna yr aethant ill dau a chi yr llangc gyd â hwynt.

17 Eithr Anna ei fam ef a ŵylodd gan ddywedyd wrth Tobit, pa ham yr anfonaiſt ymmaith ein mab? ond efe yw ein llaw-ffon i fyned i mewn ac allan ger ein bronnau?

18 Mi a fynnwn na buaſe yr arian hynny erioed: eithr bod [ein] gweddill i'n mab.

19 O herwydd fel y rhoes yr Arglwydd i ni i fyw, hynny [ſy] ddigon i ni.

20 A Thobit a ddywedodd wrthi: na chymmer ofal fy chwaer, efe a ddaw yn iach [lawen] a'th lygaid ti ai gwelant ef.

21 Canys yr Angel daionus ſydd yn cydymdaith ag ef, ai ffordd ef a lwydda, ac efe a ddaw eilchwael yn iach [lawen.]

22 Ac yna hi a beidiodd ac ŵylo.

## PEN. VI.

Raphael yn gwared Tobias oddi wrth y pyſcodyn, ac yn peri iddo ei ddal ef, a chadw ei galon ai aſi ef. 10 Ac yn ei gynghori ef i briodi Sarra.

AC fel yr oeddynt yn ymdaith hwy a ddaethant yn hwyr i ymyl afon Tigrys, ac a arhoſaſant yno.

2 A'r llangc a aeth i wared i ymolchi, a phyſcodyn a neidiodd o'r afon, ac a fynaſe ei lyngcu ef:

3 Eithr yr angel a ddywedodd wrtho, cymmer afel yn y pyſcodyn, a'r llangc a ddaliodd y pyſcodyn, ac ai tynnodd i'r tir.

4 A'r angel a ddywedodd wrtho, torr y pyſcodyn, a chymmer y galon, a'r au, ar buſtl, a chadw [hwynt] yn ddieſceulys.

5 A'r llangc a wnaeth y modd yr archaſe yr angel iddo, ac wedi iddynt roſtio yr pyſcodyn, hwynt ai bwyttaſant, ac a aethant rhagddynt ill dau oni ddaethant yn gyfagos i Ecbatan.

6 A'r llangc a ddywedodd wrth yr angel, fy mrawd Azarias, i ba beth y mae calon, ac au, a buſtl y pyſcodyn yn dda?

7 Yntef a ddywedodd wrtho, am y galon a'r au, o bydd i gythrael neu yſpryd drwg flino neb, rhaid yw eu lloſci hwynt ger bron y gŵr hwnnw neu yr wraig, ac ni flinir ef mwyach.

8 Ac am y buſtl, ir ag ef y dŷn a fyddo a'r huchen ar ei lygaid, ac efe a iacheir.

9 A phan ddoethant yn gyfagos i Rages, yr angel a ddywedodd wrth y llangc:

10 Fy mrawd, heddyw y lletteuwn ni gyd â Raguel, yr hwn ſydd gâr i ti, ac y mae iddo ef vnic ferch a elwir Sarra: mi a ddywedaf am dani hi: [ſef] am ei rhoddi i ti yn wraig.

11 Canys i ti y mae ei hetifeddiaeth hi yn perthyn, a thydi yn vnic ſydd oi chenedl hi.

12 Ac y mae hi yn llangces lân ſynhwyrol, yn awr gan hynny gwrando fi, a mi a ymddiddanaf ai thad hi, a phan ddychwelom ni o Rages y gwnawn y neithior: o achos mi a wn na rydd Raguel hi i neb arall yn ôl cyfraith Moſes, heb fod yn euog o angeu, am fod yn rhaid i ti gael yr etifeddiaeth o flaen neb arall.

13 Yna y dywedodd y llangc wrth yr angel, fy mrawd Azarias, mi a glywais roi y llangces honn i ſaith o wŷr, a marw o honynt cymyn vn yn yr yſtafell briodas:

14 Ac yr awran myfi yn vnic [blentyn] fy nhad, ac yr ydwyf yn ofni od awn i mewn [atti hi] y darfydd am danaf, fel y rhai o'r blaen, am fod cythrael yn ei charu hi, yr hwn nid yw yn gwneuthur niwed ond i'r rhai ſydd yn dyfod atti hi, ac am hynny yr wyf yn ofni rhac fy marw a dwyn enioes fy nhad a'm mam mewn triſtwch iw beddau, a mab arall nid oes iddynt iw claddu.

15 A'r angel a ddywedodd wrtho, ond cof genit eiriau dy dâd, pan orchymynnodd i ti gymmeryd gwraig o'th genedl dy hun? ac [felly] yr awran gwrando fy mrawd, a chymmer hi yn wraig i ti, ac nac arſwyda mo'r cythrael: canys y nôs heno y rhoddir hi i ti yn wraig.

16 Eithr pan ddelech i'r yſtafell briodas, cymmer farwydos y per-aroglau, a dod ti beth o galon y pyſcodyn ac o'r aſi arnynt, a gwna fwgdarth:

17 Yna yr yſpryd pan glywo 'r arogl hwnnw a ffŷ ymmaith, ac ni ddychwel byth trachefn. Eithr pan ddelech di atti hi, codwch eich dau, a gelwch ar y trugarog Dduw, ac efe a'ch gweryd chwi, ac a doſturia wrthych:nac ofna, o herwydd tydi a ddarparwyd iddi o'r dechreuad. a thi ai gwaredi hi, a hi a ddaw adref gyd á thi: ac (wrth fy nhyb) ti a gei blant o honi. A phan glybu Tobias y pethau hynn, efe a rodd ei ſerch arni, ai galon ef a lynodd yn ddirfawr wrthi hi.

## PEN. VII.

Priodas rhwng Tobias a Sarra.

A Phan ddaethant i Ecbatane yr aethant i dŷ Raguel: a Sarra a aeth iw cyfarfod hwynt, ac a gyfarchodd iddynt, a hwythau iddi hithe, ac [felly] hi ai dug hwynt i'r tŷ:

2 Yna y dywedodd Raguel wrth Edna ei wraig, mor Debyg yw'r gŵr ieuangc ymma i'm cefnder Tobit?

3 A Raguel a ofynnodd iddynt, o ba le eich hannyw fy mrodyr? yna y dywedaſant wrtho, o feibion Nephthalim, y rhai ydynt gaethion yn Ninife.

4 Yna y dywedodd efe wrthynt, a adwaenoch chwi Tobit ein brawd? ac hwyntau a attebaſant, adwaenom: yna y dywedodd yntef wrthynt, a ydyw efe yn iach?

5 A hwynt a ddywedaſant, y mae efe yn fyw, ac yn iach [lawen.] A Thobias a ddywedodd, fy nhad yw efe.

6 Yna Raguel a neidiodd [i fynu,] ac ai cuſanodd ef, ac a ŵylodd,

7 Ac ai bendithiodd gan ddywedyd wrtho, yr wyt ti yn fab i ŵr honeſt, ac i wr-da: eithr pan glybu fyned Tobit yn ddall triſtau a wnaeth, ac ŵylo:

8 Ac Edna ei wraig, a Sarra ei ferch a ŵylaſant. Ac [wedi hynny] eu croeſawu hwynt a wnaethant yn ewyllyſcar, ac a laddaſant fyharē o'r defaid ac a roddaſant ger eu bronnau amryw ſeigiau. Yna y dywedodd Tobias wrth Raphael, fy mrawd Azarias, dywet am y pethau hynny a ſonniaiſt am danynt ar y ffordd, fel y gallo yr peth ddyfod i benn.

9 Ac yntef a ddywedodd am y chwedl wrth Raguel, a Raguel a ddywedodd wrth Tobias, bwytta ac ŷf, a gwna yn llawen,

10 Gweddus ydyw i ti gael fy merch i, etto mi a ddangoſaf y ti yr gwirionedd.

11 Mi a roddais fy merch i ſaith o wŷr, a'r nos yr honn yr aethant i mewn atti, y buant feirw: eithr bydd di gyſſurus a llawen: a Thobias a ddywedodd, ni fwytaf fi ddim ymma nes i chwi ddyfod ger bron, a gwneuthur penn á mynſt.

12 A Raguel a ddywedodd wrtho, cymmer dithe hi yn ôl y gyfraith, canys trâs wyt iddi, a hithe i tithe: ar trugarog Dduw a'ch llwyddo ymmhob daioni.

13 Ac efe a alwodd Sarra ei ferch, ac hi a ddaeth at ei thad, yna efe ai cymmerth hi erbyn ei llaw ac ai rhoddes yn wraig i Tobias, gan ddywedyd: wele cymmer hi yn ôl cyfraith Moſes, a dwg hi ymmaith at dy dad, ac efe ai bendithiodd hwynt:

14 Ac wedi iddo alw Edna ei wraig, efe a gymmerth lyfr, ac a ſcrifennodd ſcrifen o'r ammod, ac ai ſeliodd.

15 Ac yna y dechreuaſant fwytta.

16 A Raguel a alwodd Edna ei wraig, ac a ddywedodd wrthi, fy chwaer, trefna ſtafell arall, a dwg hi i mewn.

17 A hi a wnaeth fel y dywedodd efe, ac ai dug hi i mewn i'r ſtafell, a hithe a ŵylodd, ai mam a dderbynniodd ddagreu ei merch,

18 Gan ddywedyd wrthi, cymmer gyſſur fy merch, rhodded Arglwydd nef a daiar i ti lawenydd yn lle yr triſtwch ymma: bydd lawen fy merch.

## PEN. VIII.

Y modd y diangodd Tobias oddi wrth y diniſtr a gawſe gwyr cyntaf Sarra. 9 Raguel yn gwneuthur bedd Tobias. 15 A phan wybu ei fod efe yn fyw yn diolch Dduw.

AC wedi iddynt ſwpperu, hwy a ddugant Tobias i mewn atti.

2 Yr hwn wrth fyned a feddyliodd am eiriau Raphael, ac a gymmerth farwydos yr arogleuau, ac a roddes arnynt o galon y pyſcodyn ai au, ac ai gwnaeth i fygu.

3 Pan aroglodd y cythrael yr arogl hwnnw, efe a ffôdd i orachaſion yr Aipht, a'r angel ai rhwymodd ef.

4 Ac fel yr oeddynt ill dau wedi eu cau i mewn, Tobias a gyfododd oi wely, ac a ddywedodd [wrth Sarra,] cyfod fy chwaer a gweddiwn yr Arglwydd [ar iddo ef] fod yn drugarog wrthym.

5 Yna y dechreuodd Tobias ddywedyd: Bendigedic wyt ô [Arglwydd] Dduw ein tadau, a bendigaid yw dy enw ſanctaidd a gogoneddus yn dragywyddol. Bendiged y nefoedd a'th greaduriaid oll dy di.

6 Tydi a wnaethoſt Adda, ac a roddaiſt Efa ei wraig yn gymmorth ac yn nerth iddo: o honynt y daeth pob cyfryw ddyn: ti a ddywedaiſt: Nid da bod gŵr yn unic, gwnawn iddo gymmorth cyffelyb iddo.

Gen.2.7.18.22

7 Ac yr awran Arglwydd, nid er mwyn godineb yr wyf yn cymmeryd fy chwaer hon, eithr mewn iniawnfryd meddwl, pâr drugarhau wrthif, fel yr heneiddiwyf gyd â hi.

8 A hi a ddywedodd gyd ag ef Amen.

9 Ac felly y cyſcaſant ill dau y nôs honno, a phan gyfododd Raguel i fynu, efe a aeth, ac a gloddiodd fedd,

10 Gan ddywedyd, oni bu hwnn farw hefyd?

11 Ac wedi dyfod Raguel iw dŷ,

12 Efe a ddywedodd wrth Edna ei wraig, anfon un o'r morwynion i edrych ai byw efe: os

angen

amgen, fel y gallwyf ei gladdu ef heb ŵybod i neb.

13 A'r forwyn wedi iddi agoryd y drws a aeth i mewn, ac ai cafodd hwynt ill dau yn cyſcu.

14 A phan ddaeth allan, hi a ddangoſodd iddynt, ei fod efe yn fyw.

15 Yna Raguel a foliannodd Dduw, gan ddywedyd: Bendiger di ô Dduw â phob duwiol a ſanctaidd fendith, bendiged dy ſainct dy di a'th greaduraid oll, a chwbl o'th angelion a'th etholedig [bobl] a'th folant ti bych bythoedd.

16 Bendigedic fych ô Arglwydd, am i ti fy llawenhau, ac na ddaeth i mi, fel yr oeddwn yn tybied, eithr ti a wnaethoſt i ni yn ôl dy fawr drugaredd.

17 A bendigedic fyddech am i ti drugarhau wrth ddau un blant [tad a mam,] gan ddangos iddynt ragorol drugaredd: diwedda eu bywyd mewn iechyd gyd â llawenydd a thrugaredd.

18 Yna yr archodd efe iw weiſion lenwi'r bedd.

19 Ac efe a gadwodd y neithior bedwar diwrnod ar ddêc.

20 A Raguel a ymddiddanodd â Tobias, gan dyngu, nad ai efe ymmaith nes darfod cyflawni dyddieu'r neithior, nid amgen pedwar diwrnod ar ddêc.

21 Ac yna y cai efe ddychwelyd yn iach at ei dad, a chael hanner ei dda ef, a'r cwbl ar ei ôl ef ai wraig.

## PEN. IX.

Raphael yn cyrchu arian Tobias oddi wrth Gabael, ac yn ei ddwyn yntef i'r neithior.

Yna Tobias a alwodd Raphael, ac a ddywedodd wrtho.

2 Fy mrawd Azarias, cymmer gyd â thi wâs a dau gamel, a dos i Rages dinas Media at Gabael, a chyrch i mi yr arian, a dwg ef i'r neithior.

3 Canys tyngodd Raguel na chawn ymadel.

4 Eithr y mae fy nhad yn cyfrif y dyddiau, ac os trigaf fi yn hîr, athriſt fydd ganddo ef.

5 A Raphael a aeth ymmaith at Gabael, ac a roddes iddo yr ſcrifen-law, ac yntef a ddug godau wedi eu ſelio, ac ai rhoddes iddo.

6 A'r boreu y cyfodaſant, ac a ddaethant i'r neithior, a Tobias a feichiogodd ei wraig.

## PEN. X.

Tobit ai wraig yn hiraethu am eu mab. 10 Raguel yn ei ollwng ef adref, a Sarra gyd ag ef.

Ai dad ef Tobit a gyfrifodd bob dydd, ac wedi cyflawni dyddiau'r daith, a hwyntau heb ddyfod adref,

2 Y dywedodd Tobit, a ſommwyd ef: ai marw a wnaeth Gabael, fel nad oes neb i roddi'r arian iddo:

3 Ac efe a driſtaodd yn ddirfawr.

4 Ai wraig a ddywedodd wrtho, darfu am y bachgen: ac am ei fod efe yn aros cyhyd, hi a ddechreuodd ŵylo am dano gan ddywedyd:

5 Nid oes gennif ofal [am ddim] gan i mi dy ollwng ymmaith, llewyrch fy llygaid i.

6 Eithr Tobit a ddywedodd wrthi, taw ſôn, ac na ofala ddim, y mae efe yn holl-iach,

7 A hithe a ddywedodd wrtho, taw ſôn, na huda fi, darfu am fy machgen i: a beunydd yr ai hi allan i'r ffordd yr aethent hwy: y dydd ni fwytae mo'r bwyd, a'r nôs ni pheidie ag ŵylo am Tobias ei mab: [a hyn] nes darfod pedwar diwrnod ar ddêc y neithior, y rhai y tyngase Raguel y gorfydde i [Tobias] aros yno.

8 Yna y dywedodd Tobias wrth Raguel gollwng fi ymmaith, canys nid yw fy nhad a'm mam yn edrych am fyng-weled byth.

9 A'i chwegrwn a ddywedodd wrtho, aros gyd â myfi, ac mi a ddanfonaf rai a ddangoſo dy helynt i'th dad.

10 Eithr Tobias a ddywedodd, nage ddim, onid gollwng fi at fy nhad.

11 Yna y cyfododd Raguel i fynu, ac a roddes Sarra ei wraig iddo, a hanner ei dda [ſef] gweiſion, ac anifeiliaid, a da machol.

12 Ac wedi iddo eu bendithio, efe ai danfonodd ymmaith, gan ddywedyd, ô fy mhlant, Duw [ſef] Duw nef a wnel [i mi weled] i chwi lwyddiant cyn fy marw.

13 Ac efe a ddywedodd wrth ei ferch, anrhydedda dy chwegrwn a'th chwegr, canys hwynt-wy fydd bellach dad a mam i ti: dymunwn glywed gair da am danat, ac efe ai cuſanodd hwynt.

14 Ac Edna hefyd a ddywedodd wrth Tobias, fy annwyl frawd, Arglwydd y nef a'th ddygo trachefn, ac a wnêl i mi weled i ti o'm merch Sarra blant fel y llawenychwyf ger bron yr Arglwydd: ac wele yr ydwyf yn rhoddi fy merch i ti mewn ymddiried, na ofidia hi.

## PEN. XI.

Dyfodiad Tobias adref. 11 Ei dâd yn cael ei olwg, ac yn moliannu Duw.

Yn ôl hynny yr aeth Tobias ymmaith, gan foliannu Duw (o achos iddo lwyddo ei daith ef) ac efe a fendithiodd Raguel, ac Edna ei wraig. Ac yna efe a gerddodd rhagddo, oni ddaethant yn agos i Ninife.

2 Yna Raphael a ddywedodd wrth Tobias, ti a ŵyddoſt fy mrawd pa fodd y gadewaiſt dy dad.

3 Brysiwn o flaen dy wraig a threfnwn y tŷ.

4 A chymmer yn dy law fuſtl y pyſcodyn, ac felly yr aethant, a'r ci ai canlynodd hwynt.

5 Ac Anna oedd yn eiſtedd, ac yn diſgwil am ei mab ar y ffordd.

6 Ac ai adnabu ef yn dyfod, ac a ddywedodd wrth ei dad ef. Wele dy fab di yn dyfod, a'r gŵr a aeth gyd ag ef.

7 Yna y dywedodd Raphael, mi a wn Tobias, y caiff dy dâd ei olwg.

8 Am hynny ira ei lygaid ef â'r buſtl, a phan ferwinant efe ai crafa hwynt, ac a fwrw yr huchen ymmaith, ac a'th wêl di.

9 Yna y rhedodd Anna allan, ac hi a ſyrthiodd ar wddf ei mab, gan ddywedyd wrtho, mi a'th welais fy mab, ac weithian bodlon ydwyf i farw, ac hwy a wŷlaſant ill dau.

10 Tobit hefyd a aeth allan i'r drws, ac a ſyrthiodd, ai fab a redodd atto,

11 Ac a ymaflodd yn ei dad, ac a daenellodd beth o'r buſtl ar lygaid ei dad, gan ddywedyd, bydd gyſſurus fy nhad.

12 Ac wedi iw lygaid ddechreu merwino, efe ai dwys rwbbiodd hwynt,

13 A'r rhuchen a ddiriſclodd ymmaith oddi wrth gilieu ei lygaid ef, ac wedi iddo weled ei fab, efe a ſyrthiodd ar ei wddf ef,

14 Ac a ŵylodd gan ddywedyd, bendigedic wyt ô Dduw, a bendigedic yw dy enw yn dragywydd, dy holl angelion ſanctaidd ydynt fendigedic.

15 Canys ti a'm ffrewyllaiſt, ac a doſturiaiſt wrthif, wele fi yn gweled fy mab Tobias: yna yr aeth ei fab ef i mewn yn llawen, ac a ddangoſodd iw dâd y mawr bethau a ddigwyddaſent ym Media.

16 Yna 'r aeth Tobit allan i gyfwrdd ai waudd hyd ym mhorth Niniſe, gan ymlawenhau a moliannu Duw: a rhyfedd oedd gan y rhai oeddynt yn edrych arno ef yn myned, am ei fod yn gweled.

17 A Tobit a deſtiolaethodd yn eu gŵydd hwynt oll, ddarfod i Dduw doſturio wrtho; ac wedi iddo neſau at Sarra ei waudd, efe ai bendithiodd hi gan ddywedyd, croeſo wrthit fy merch: bendigaid fyddo Duw yr hwn a'th ddug di attom ni, a bendigedic fyddo dy dâd a'th fam: a llawenydd mawr oedd ym myſc ei holl frodyr ef, y rhai oeddynt yn Niniſe.

18 Ac Achiacharus a ddaeth yno, a Naſbas ei nai ef fab ei frawd.

19 A neithior Tobias a gadwyd mewn llawenydd mawr ſaith niwrnod.

## PEN. XII.

Raphael yn gwrthod cyflog, ac yn dangos mai angel Duw oedd efe.

YNa y galwodd Tobit ei fab Tobias, ac y dywedodd wrtho, edrych fy mab am ei gyflog i'r gŵr a aeth gyd â thi, a rhaid ydyw ei chwanegu.

2 A Tobias a ddywedodd wrtho, fy nhad, nid anfodd gennif roi iddo ef hanner yr hyn a ddugym [gyd â mi.]

3 O herwydd efe a'm dug i adref i ti trachefn yn iach [llawen,] ac a iachâodd fyng-wraig, ac a gyrchodd yr arian, ac a'th iachâodd dithe hefyd.

4 A'r henaf-gŵr a ddywedodd, mae yn gyfiawn iddo eu cael.

5 Yna y galwodd efe yr angel, ac a ddywedodd wrtho, cymmer hanner yr hyn oll a ddugaſoch, a dôs yn iach.

6 Eithr efe wedi eu galw ill dau ar neulltu a ddywedodd wrthynt: diolchwch i Dduw a moliennwch ef, a rhoddwch iddo ef fawr ogoniant, cyffeſwch ef yng-wŷdd pawb o'r byd, am y pethau a wnaeth efe i chwi. Peth daionus yw diolch i'r Arglwydd a mawrhau ei enw ef, gan adrodd gweithredoedd Duw yn barchedig: ac nac oedwch ei foliannu ef.

7 Cyfrinach y brenin ſydd weddus ei chelu: ond gweithredoedd Duw ſy ogoneddus eu cyhoeddi: gwnewch ddaioni, ac ni'ch goddiwes drwg.

8 Daionus yw gweddi gyd ag ympryd, eluſen a chyfiawnder: gwell yw ychydig gyd â chyfiawnder nâ llawer gyd ag anghyfiawnder, gwell yw rhoi eluſenau na phen-tyrru aur.

9 Canys eluſen a wared rhag angeu, ac a lanhâ bob pechod: y rhai a wnel eluſen a chyfiawnder a gyflawnir â bywyd.

10 Eithr pechaduriaid ſy elynnion iw bywyd eu hunain.

11 Ni chuddiaf rhagoch ddim: mi a ddywedais mai da yw cadw cyfrinach brenin, a gogoneddus dangos gweithredoedd Duw ar gyhoedd.

12 Ac yr awran pan weddiaiſt di, a'th waudd Sarra, myfi a ddugum gof am eich gweddiau ger bron y Sanctaidd: a phan gladdit y meirw yr oeddwn gyd â chi hefyd.

13 A phan nad oedaiſt godi a gadel dy ginio i fyned i gladdu 'r [dyn] marw, nid oedd dy weithred dda yn guddiedic rhagof, eithr yr oeddwn gyd â thi.

14 Ac yr awran Duw a'm danfonodd i i'th iachau di a'th waudd Sarra.

15 Myfi yw Raphael un o'r ſaith angel ſanctaidd, y rhai ſy yn arwain gweddiau rhai duwiol, ac ſydd yn trammwy ger bron gogoniant yr hwn ſydd ſanctaidd.

16 Yna y dychrynnaſant ill dau, ac hwy a ſyrthiaſant ar eu hwynebau o blegit hwy a ofnaſent.

17 Yna y dywedodd efe wrthynt, nac ofnwch, canys y mae tangneddyf i chwi, eithr rhoddwch ddiolch i Dduw.

18 Canys nid o'm caredigrwydd fy hun, eithr drwy ewyllys eich Duw chwi y daethym, am hynny rhoddwch ddiolch iddo ef yn dragywydd.

19 Beunydd yr ymddangoſais i chwi megis pe buaſwn yn bwytta, ac yn yfed, eithr nid oeddwn, namyn chwi a welech y fath beth.

20 Ac yr awran moliennwch Dduw, canys mi a eſcynnaf at yr hwn a'm danfonodd: ac ſcrifennwch yr hyn oll a wnaethpwyd mewn llyfr.

21 Yna y codaſant i fynu, ac ni welſant ef mwy: a chyffeſu rhyfedd-fawr weithredoedd

Duw a wnaethant, a'r modd yr ymddangoſaſſe Angel yr Arglwydd iddynt.

## PEN. XIII.

Clodforedd Tobit i Dduw.

A Thobit a ſcrifennodd weddi o orfoledd ac a ddywedodd, Bendigaid fyddo Duw yr hwnn ſydd yn byw ac yn teyrnaſſu yn dragywyddol.

2 Canys efe ſydd yn ffrewyllu ac yn trugarhau, yn dwyn i uffern ac yn dwyn eilchwel, ac nid oes neb a all ddiange oi law ef.

3 Clodforwch ef meibion Iſrael, ger bron y cenhedloedd, canys efe a'n gwaſcarodd ni yn eu plith hwynt.

4 Yno mynegwch ei fawredd, a derchefwch ef yng-ŵydd pawb ſydd fyw: o herwydd efe ei hun yw ein Harglwydd ni, a Duw yw ein tad byth bythoedd.

5 Ac efe a'n cerydda ni am ein camweddau, ac a drugarhâ eilchwel, ac a'n caſcl yng-hyd o fyſc yr holl genhedloedd ym mhlith y rhai i'n gwaſcarwyd.

6 Os dychwelwch atto ef a'ch holl galon ac a'ch holl feddwl, a gwneuthur yr iniawn ger ei fron ef, yna y dychwel yntef attoch chwi ac ni chuddia ei wyneb rhagoch, a chwi a gewch weled beth a wna efe i chwi: am hynny cyffeſwch ef a'ch holl enau, a moliennwch Arglwydd y gallu, a derchefwch Frenin y tragywyddolder. Myfi ai cyffeſaf ef yn nhir fyng-haethiwed, ac a fynegaf ei nerth ai fawredd ef i genhedlaeth y pechaduriaid, troiwch bechaduriaid a gwnewch gyfiawnder ger ei fron ef, pwy a wyr na fynn efe chwi, a gwneuthur trugaredd i chwi?

7 Clodforaf fy Nuw, a'm henaid a fawl Frenin y nefoedd, ac a lawenhâ yn ei fawredd ef.

8 Llefared pob dyn, a moled yr Arglwydd am ei gyfiawnder.

9 O Ieruſalem y ddinas ſanctaidd, efe a'th ffrewylla di am weithredoedd dy blant, ac efe a doſturia eilchwel wrth feibion y rhai cyfiawn.

10 Molianna yr Arglwydd yn ddyladwy, a bendithia yr Brenin tragywyddol modd yr adeilader trachefn ei babell ef ynot, mewn llawenydd, a llawenhaed efe dy gaethion, a chared ynot y truenuſaid yn oes oeſoedd.

11 Cenhedlaethau lawer a ddeuant o hirbell at enw yr Arglwydd â rhoddion yn eu dwylaw, gan offrwm rhoddion i Frenin y nefoedd: cenhedlaethau yr byd a'th foliannant ti, ac a roddant roddion gorfoledd.

12 Melldigedic yw pawb a'th gaſaant, a bendigedic yw pawb a'th garant yn dragywydd.

13 Bydd hyfryd a llawen am blant y rhai cyfiawn; canys hwynt a geſclir yng-hyd, ac a fendithiant Arglwydd y rhai cyfiawn.

14 Gwyn eu byd y rhai a'th garant di, canys hwynt a lawenychant yn dy dangnefedd: gwyn eu byd y rhai a driſtaſant a thriſtwch am dy holl ffrewyllau, canys hwynt hwy a fyddant hyfryd o'th blegit pan welant gwbl o'th ogoniant, ac a lawenychant yn dragywydd.

15 Moled fy enaid Dduw yr Brenin mawr.

16 O herwydd Ieruſalem a adeiledir â Saphir ac Smaragdus, ac â meini gwerth-fawr dy furiau, a'th dyrau a'th geſtyll ag aur coeth.

17 A heolydd Ieruſalem a balmentir â meini beryl, a charbuncul, ac â meini Ophir, ai heolydd hi oll a leſant Haleluiah, ac ai molant ef gan ddywedyd, Bendigaid fyddo Duw yr hwn ai derchafodd [hi] yn dragywydd.

## PEN. XIIII.

Tobit yn cynghori ei fab. 4 Yn darogan diniſtr Ninife a chyweiriaid Ieruſalem a'r Deml. 11 Morwolaeth Tobit ai wraig. 14 Oedran, a marwolaeth Tobias.

A Thobit a ddywedodd ei gyffes.

2 Ac yr oedd efe amyn dwy trugain o flynyddoedd pan gollodd oi olwg, ac yn ôl wyth mlynedd y cafodd ef eilwaith, ac efe a wnaeth eluſenau [lawer:] canys efe a roeſe ei fryd ar ofni yr Arglwydd ei Dduw, ai foliannu ef.

3 Ac wedi ei fyned yn hên iawn, efe a alwodd ei fab a chwech o blant ei fab, ac a ddywedodd wrtho: wele fy mab, mi a heneiddiais, ac ar fyrder yr ymadawaf â'r byd hwnn:

4 Cymmer dy blant fy mab a dos ymmaith i dir Media: o achos yr ydwyf yn credu, am bob peth ar a ddywedodd Ionas y prophwyd yng-hylch Ninife y cyflawnir hwynt [ſef] y deſtruwir hi, ac y bydd amlach heddwch yn nhir Media dros amſer, ac y gwaſcerir ein brodyr ni ar hŷd y gwledydd allan o'r tir da: ac y diffeithir Ieruſalem, a Theml yr Arglwydd yr hon ſydd ynddi a loſcir ac a ddiffeithir oni ddel y cyfnod.

5 A thrachefn y trugarhâ Duw wrthynt, ac ai dychwel hwynt i'r wlad. Yno yr adeiladant y Deml, nid o fath y gyntaf, oni gyflawner cyfnodau yr byd: Ac yn ôl hynny y dychwelant oi caethiwed, ac yr adeiladant Ieruſalem yn anrhydeddus, a thŷ Dduw a adailedir ynddi [hefyd] ag adeilad gogoneddus yn holl oeſoedd y byd, modd y dywedodd yr prophwydi am dani.

6 A'r holl genhedlaethau a wir ddychwelant i ofni yr Arglwydd Dduw, ac a gladdant eu delwau.

7 Yna y bendithia holl genhedlaethau [y byd] yr Arglwydd, ai bobl ef a gyffeſant Dduw, a'r Arglwydd a dderchaif ei bobl, a phawb a lawenychant a'r a garant yr Arglwydd Dduw mewn gwirionedd a chyfiawnder gan wneuthur trugaredd a'n brodyr ni.

8 Ac yn awr fy mab dos ymmaith o Ninife, o blegit diogel ſydd i'r pethau a ddywedodd y prophwyd Ionas ddyfod i ben.

9 Eithr cadw di yr ddeddf a'r gorchymynnion, a bydd drugarog a chyfiawn fel y byddo thwydd rhagot.

10 Cladd fi yn weddaidd a'th fam gyd â mi, ac

nac arhoſwch mwy haiach yn Ninife. Yſtyria fy mab beth a wnaeth Aman i Achiacharus yr hwnn ai magodd ef, y môdd yr arweiniodd efe ef o'r goleuni i'r tywyllwch, ac fel y gobrwyodd ef, ac etto er hynny Achiacharus a ddiangodd, eithr efe a gafodd ei haeddedigaeth ac a ddeſcynnodd i'r tywyllwch. Manaſſes a wnaeth drugaredd, ac a ddiangodd o fagl yr angeu a oſodaſent iddo, eithr Aman a syrthiodd i'r fagl, a darfu am dano.

11 Ac yr awran fy mhlentyn yſtyria beth a wna eluſendod a'r modd y gwared cyfiawnder. A phan ddywedodd efe y pethau hyn, ei enaid ef a ballodd yn y gwely: canys yr oedd efe yn gant ac amyn dwy trugain mlwydd oed. A [Tobias] ai claddodd ef yn anrhydeddus: a phan fu farw Anna, efe ai claddodd hi gyd âi dad. Ac aeth Tobias efe ai wraig ai blant i Ecbatan at Raguel ei chwegrwn.

12 Ac efe a heneiddiodd mewn vrddas, ac a gladdodd dad a mam ei wraig yn anrhydeddus, ac a berchennogodd eu da hwynt gyd â da Thobit ei dad:

13 Ac a fu farw yn Ecbatan yng-wlad Media pan oedd gant a ſaith ar hugain o flwyddau oed.

14 A chyn ei farw, efe a glybu ddiniſtrio Ninife, yr hon a ddugaſe Nabuchodonoſor ac Aſſerus i gaethiwed: felly efe a lawenychodd cyn ei farw am Ninife.

*Terfyn llyfr Tobias.*

# Llyfr Iudith.

## PENNOD. I.

Adailadaeth Ecbatan. 5 Nabuchodonoſor yn gorchfygu Arphaxad. 12 Ac yn bygwth y rhai ni ddaethent iw gynnorthwyo ef.

YN y ddeuddecfed flwyddyn o deyrnaſiad Nabuchodonoſor, yr hwn a deyrnaſodd yn Ninife y ddinas fawr (yn nyddiau Arphaxad, yr hwn a deyrnaſodd ar y Mediaid yn Ecbatan,

2 Ac a adailadodd yn Ecbatan y muroedd oddi amgylch o gerric nâdd, yn dri chufydd o lêd, ac yn chwe chufydd o hŷd, ac a wnaeth vchder y mur o ddêc cufydd a thrugain, ai dewdwr o ddêc cufydd a deugain,

3 Ai thŵrau hi a oſododd efe ar ei phyrth hi o gant cufydd, ai llêd a ſylfaenodd efe o dri vgain cufydd,

4 Ac efe a wnaeth ei phyrth hi yn byrth derchafedic o ddêc cufydd a thrugain o vchder, ai llêd yn ddeugain cufydd, yn ffordd iw luoedd galluoc ef fyned allan, ac i fyddinoedd ei wŷr traed ef)

5 Ie yn y dyddiau hynny y brenin Nabuchodonoſor a ryfelodd yn erbyn brenin Arphaxad yn y maes mawr, hwnn yw'r maes yn ardaloedd Ragau.

6 Yna holl drigolion y mynyddoedd, a'r holl rai a'r a oeddynt yn preſwylio wrth Euphrates, a Thygris, a Hyſdaſpes, a gwlâd Arioch brenin yr Elymiaid a ddaethant atto ef: a llawer iawn o genhedloedd a ymgynnullaſant i ryfel meibion Gelod.

7 A Nabuchodonoſor brenin yr Aſſyriaid a anfonodd at yr holl rai a'r a oeddynt yn trigo o fewn Perſia, a'r holl rai a'r a oeddynt yn trigo yn y gorllewyn, ac at y rhai oeddynt yn preſwylio yn Cilicia, a Damaſcus, a Libanus, ac Antilibanus, ac at yr holl rai a'r a oeddynt yn preſwylio ar hŷd wyneb y môr-dir.

8 Ac at y bobloedd y rhai oeddynt o fewn Carmel, a Galaad, a Galile vchaf, a maes mawr Eſdrelom,

9 Ac at yr holl rai a'r a oeddynt yn Samaria ai dinaſoedd, a thu hwnt i'r Iorddonen hyd Ierusalem, a Betan, a Chelus, a Chades, ac afon yr Aipht, a Thaphnes, a Rameſſe, a holl wlâd Geſem,

10 Hyd oni ddelir at Tanis, a Memphis, ac at holl drigolion yr Aipht, ac oni ddelir i fynyddoedd Ethiopia.

11 Ond holl drigolion y wlâd hon a ddiyſtyrâſant orchymyn Nabuchodonoſor brenin yr Aſſyriaid, ac ni ddaethant gyd ag ef i'r rhyfel, o herwydd nid ofnaſant rhagddo efe: ie yr oedd efe ger eu bronnau hwynt megis vn gŵr: am hynny hwynt a anfonaſant ymmaith ei gennadau ef oddi wrthynt yn ddiyſtyr drwy ammarch.

12 Am hynny Nabuchodonoſor a lidiodd yn erbyn yr holl wlâd hon yn ddirfawr, ac a dyngodd iw deyrn-gader ai frenhiniaeth, yr ymddiale efe ar holl derfynau Cilicia, a Damaſcus, a Syria, ac y lladde efe a'r cleddyf holl breſſwyl-wŷr gwlâd Moab, a meibion Ammon, a holl Iuda, a'r rhai oll oeddynt yn yr Aipht, hyd oni ddelir i derfynau y ddau-fôr.

13 Yna efe a fyddinodd ai nerth yn erbyn brenin Arphaxad, yn yr ail flwyddyn ar bymthec, ac efe a orchfygodd yn ei ryfel: canys efe a ymchwelodd holl nerth Arphaxad, ai holl feirch ef, ai holl gerbydau,

14 Ac efe a ennillodd ei ddinaſoedd ef, ac a ddaeth hyd Ecbatan, ac a oreſcynnodd y tyrau, ac a anrheithiodd ei heolydd hi, ac a oſododd ei harddwch hi yn wradwydd.

15 Ac efe a ddaliodd Arphaxad yn mynyddoedd Ragau, ac ai tarawodd trwyddo âi biccellau, ac ai deſtruwiodd ef ar hyd y dwthwn hwnnw.

16 Felly efe a ddychwelodd i Niniſe, efe ai holl fintei yn dyrfa fawr iawn o ryfel-wŷr, ac efe a fu yno yn ſegura, ac yn gwledda, efe âi lu dros gant ac ugain o ddiwrnodau.

## PENN. II.

*Nabuchodonoſor yn gorchymyn gorchfygu a difetha y rhai nid vfuddhauſent ef. 15 Holophernes yn byddino ei wyr, ac yn dechreu ei ryfel yn llwyddiannus*

AC yn y ddeunawfed flwyddyn, yr ail [dydd] ar hugain o'r mis cyntaf yr oedd y gair yn nhŷ Nabuchodonoſor brenin yr Aſſyriaid, yr ymddiale efe ar yr holl ddaiar fel y dywedaſe efe.

2 Felly efe a alwodd atto ei holl weiſion, ai holl benddefigion, ac a ymddiddanodd â hwynt yng-hylch ei gyfrinach ddirgel ef: ac efe a oſododd ger eu bron hwynt âi enau ei hun holl ddrygioni y ddaiar.

3 Yna hwynt a gyduniaſant ddifetha pôb cnawd a'r na chanlynaſe orchymyn ei enau ef.

4 A phan orphennodd efe ei gyfrinach, Nabuchodonoſor brenin yr Aſſyriaid a alwodd am Holophernes tywyſog ei filwriaeth, yr hwn oedd neſſaf iddo ef, ac a ddywedodd wrtho,

5 Fel hyn y dywed y brenin mawr arglwydd yr holl ddaiar, wele dos ti ymmaith o'm gŵydd i, a chymmer di gyd â thi wŷr yn ymddyried yn eu nerth eu hunain, o wŷr traed cant ac ugain mil, a rhifedi y meirch ai marchogion deuddeng-mil.

6 A dos di yn erbyn holl wlâd y gorllewyn, o herwydd hwynt a anufuddhauſant fyng-orchymyn i.

7 A thi a fynegi iddynt, am baratoi o honynt hwy i mi y ddaiar, a'r dwfr: canys myfi a af allan yn fy llîd yn eu herbyn hwynt, ac a orchguddiaf holl wyneb y ddaiar â thraed fy llu, ac mi ai rhoddaf hwynt yn yſpail iddynt,

8 Fel y llanwo eu rhai archolledig hwy eu dyffrynnoedd, ai hafonydd hwynt, a'r llifeiriant a lifa troſodd wedi ei lenwi âi celanedddau hwynt.

9 A mi a dywyſaf eu caethiwed hwynt i eithafoedd yr holl ddaiar.

10 Gan hynny dos di ymmaith, a goreſcyn i mi eu holl wlâd hwynt: ac os ymroddant hwy i ti, ti ai cedwi hwynt i mi, hyd y dydd y ceryddwyf hwynt.

11 Ond am y rhai a fuant anufydd, nac arbeded dy lygad hwynt, eithr dyro hwynt i farwolaeth, ac yn yſpail drwy dy holl dir di.

12 Canys fel yr ydwyf fi yn fyw, a gallu fy mrenhiniaeth, beth bynnac a ddywedais myfi ai cwplaf a'm llaw fy hunan.

13 Na throſedda di chwaith yr un o orchymynnion dy arglwydd, eithr cwpla di hwynt yn llwyr, fel y gorchymynnais i ti, ac nac oeda di iw gwneuthur hwynt.

14 Yna Holophernes a aeth allan o ŵydd ei arglwydd, ac a alwodd am yr holl benaethiaid, a thywyſogion, a ſwyddogion llû yr Aſſyriaid,

15 Ac efe a gyfrifodd y gwŷr etholedig i ryfel, fel y gorchymynnaſe ei arglwydd iddo ef, hyd yn gant [ac] ugain mil, a deuddeng-mil o ſaethyddion ar feirch.

16 Ac efe ai goſododd hwynt mewn trefn, fel y mae yr arfer o oſod llû mawr mewn trefn.

17 Ac efe a gymmerth fintai fawr iawn o gamelod, ac aſſynnod i [ddwyn] eu beichiau hwynt, a defaid, ac ychen, a geifr yn llynniaeth iddynt, ar y rhai nid oedd rifedi.

18 Ac ymborth i bôb gŵr o'r fyddin, a llawer iawn o aur, ac arian allan o dŷ yr brenin.

19 Yna yr aeth efe âi holl lu i ffordd, fel yr aent hwy o flaen brenin Nabuchodonoſor; ac y gorch-guddient holl ŵyneb y ddaiar tua'r gorllewyn âi cerbydau, ac âi gwŷr meirch, ac âi gwŷr traed detholedig.

20 A llawer o gymmyſc ddynion a ddaethant gyd â hwynt fel y ceiliogod rhedyn, ac fel tywod y ddaiar: canys nid oedd rifedi arnynt rhag cymmaint oedd o honynt.

21 A hwynt a aethant o Niniſe daith tri diwrnod tua gwlad Bectileth, ac a weſſyllaſant oddi wrth Bectileth yn gyfagos i'r mynydd yr hwn ſydd ar y llaw aſſwy i Cilicia vchaf.

22 Yna efe a gymmerth ei holl lu ef, ei wŷr traed, ai wŷr meirch a'r cerbydau, ac a aeth oddi yno i'r mynydd-dir.

23 Ac efe a ddiniſtriodd Phud, a Lud, ac a anrheithiodd holl feibion Raſſes, a meibion Iſmael y rhai oeddynt tua'r anialwch o du yr deau i Chelon.

24 Yna efe a aeth tros Euphrates, ac a aeth trwy Meſopotamia, ac a ddiniſtriodd yr holl ddinaſoedd vchel y rhai oeddynt ar afon Arbonai, hyd oni ddeuit hyd y môr.

25 Ac efe a oreſcynnodd derfynau Cilicia, ac a ddeſtruwiodd yr holl rai a'r ai gwrthwynebent ef, ac efe a ddaeth i ardaloedd Iapheth y rhai oeddynt tua 'r deau, ac ar gyfer Arabia.

26 Efe a amgylchodd hefyd holl feibion Madian, ac a loſcodd eu pebyll hwynt, ac a anrheithiodd ei lluestai hwynt.

27 Yna efe a aeth i wared i wlâd Damaſcus, yn nyddiau cynhaiaf y gwenith, ac a loſcodd eu holl feuſydd hwynt, ac a roddes eu defaid, ai gwartheg hwynt i ddiniſtr: efe a anrheithiodd eu dinaſoedd hwynt, ac a yſpeiliodd eu gwledydd, ac a laddodd eu holl wŷr ieuaingc hwynt â mîn y cleddyf.

28 Am hynny ofn a dychryn a ſyrthiodd ar

holl drigolion y mor-dir, y rhai oeddynt yn Sidon, ac yn Tyrus, ac yn trigo yn Sur, ac Ocina, a'r holl rai oeddynt yn preſſwylio yn Jemnaan: a preſſwyl-wŷr Azot, ac Aſcalon a ofnaſant rhagddo ef yn ddirfawr.

## PEN. III.

Y bobl yn ddaroſtyngedic i Holophernes. 8 Efe yn diniſtrio eu duwiau hwynt fel yr addolid Nabuchodonoſor yn vnic.

FElly hwynt a anfonaſant gennadau, a geiriau heddychlon atto ef: gan ddywedyd,

2 Wele gweiſion ydym ni i Nabuchodonoſor y brenin mawr, yr ydym ni yn ſefyll yn dy wydd di, gwna di i ni fel y gwelech di yn ddâ:

3 Wele ein tai ni, a'n holl leoedd, a'n holl feuſydd gwenith a'n defaid, a'n gwartheg, a'n holl lueſtai ni, a'n pebyll yn ſefyll o'th flaen di: gwna di iddynt fel y gwelech yn dda.

4 Wele hefyd ein dinaſoedd ni a'r rhai ſy yn trigo ynddynt ydynt dy weiſion, tyret ti a chymmer hwynt, fel y gwelech di yn dda.

5 Felly y gwŷr a ddaethant at Holophernes, ac a fynegaſant wrtho ef yn ôl y geiriau hynn.

6 Yna efe a ddaeth i wared tua'r mor-dîr, efe ai lu, ac a gadwodd y dinaſoedd vchel, ac a gymmerth allan o honynt wŷr etholedig yn gynhorthwy [iddo.]

7 Felly hwynt hwy a'r holl wlâd o amgylch ai croeſawaſant ef â choronau, â dawnſiau, ac â thympanau.

8 Er hynny efe a ddiſwynodd eu holl frôoedd hwynt, ac a dorrodd i lawr eu llwynau hwynt: canys fe a orchymynnaſid iddo ef ddiniſtrio holl dduwiau y tîr, fel yr addole yr holl genhedloedd Nabuchodonoſor yn vnic, ac y galwe pôb tafod a llwyth arno ef megis ar Dduw.

9 Ac efe a ddaeth ar gyfer Eſdraelon, yn gyfagos at Dothea, gyferbyn a'r gyfyng fawr i Juda.

10 Ac efe a werſyllodd rhwng Geba, a dinas y Scythiaid, ac efe a fu yno fis o ddyddiau: fel y caſcle efe wehilion ei lu ef.

## PEN. IIII.

Yr Iſraeliaid yn ymgadarnhau yn erbyn Holophernes. 9 Ac yn gweddio yn ddaroſtyngedig.

PAn glybu meibion Iſrael y rhai oeddynt yn preſſwylio yn Juda yr hyn oll a'r a wnaethe Holophernes tywyſog llu Nabuchodonoſor brenin yr Aſſyriaid i'r cenhedloedd, ac fel yr anrheithiaſe efe eu holl demlau hwynt, ac y deſtrywiaſe efe hwynt,

2 Yna hwynt a ofnaſant yn ddirfawr rhagddo ef, ac a gyffroaſant o herwydd Jeruſalem, ac o herwydd Teml yr Arglwydd eu Duw hwynt,

3 Canys newydd ddyfod i fynu oeddynt hwy o'r caethiwed, ac yn ddiweddar yr ymgaſclaſe yr holl bobl i Juda, ac y ſancteiddiaſid y lleſtri, a'r allor, a'r tŷ o'r halogedigaeth.

4 Am hynny hwy a anfonaſant i holl ardaloedd Samaria, a'r pentrefydd, ac i Bethoro, a Belmen, ac Jericho, ac i Choba, ac Eſora, ac i ddyffryn Salem,

5 Ac a gymmeraſant bennau y mynyddoedd vchel, ac a furiaſant y pentrefydd y rhai oeddynt ynddynt, ac a oſodaſant [ynddynt] llynniaeth yn ymborth erbyn rhyfel: canys yn ddiweddar y medaſid eu meuſydd hwynt.

6 Joacim hefyd yr arch-offeiriad yr hwn ydoedd yn y dyddiau hynny a ſcrifennodd at y rhai oeddynt yn trigo yn Bethulia, a Betomeſtham, yr hon ſydd ar gyfer Eſdraelon gyferbyn a'r maes amlwg yr hwn ſydd yn gyfagos i Dothaim,

7 Gan ddywedyd [wrthynt] am gadw bylchau y mynyddoedd: canys drwyddynt hwy yr ydoedd dyfodfa i Juda, ac yr ydoedd yn hawdd eu lluddies hwynt i ddyfod yno, o herwydd y bwlch ydoedd gyfyng i ddau ŵr o'r mwyaf.

8 A meibion Iſrael a wnaethant fel y gorchymynnaſe Joacim yr arch-offeiriad iddynt, a henuriaid holl bobl Iſrael, y rhai oeddynt yn trigo yn Jeruſalem.

9 Yna holl wŷr Iſrael a waeddaſant ar Dduw yn ddifrifol iawn, ac a gyſtuddiaſant eu heneidiau drwy ddyfalrwydd mawr.

10 Hwynt hwy, ai gwragedd, ai plant, ai hanifeiliaid a phôb dieithr, a gwâs cyflog, a gweiſion pryn a oſodaſant ſach-liain am eu lwynau.

11 Fel hyn pôb gŵr a gwraig, a'r plant, a thrigolion Jeruſalem a ſyrthiaſant o flaen y Deml, ac a danâſant ludw ar eu pennau, ac a ledâſant eu ſach-liain ger bron yr Arglwydd: a hwynt a wiſcaſant yr allor â ſach-liain,

12 A hwynt a waeddâſant ar Dduw Iſrael eu gyd oll o vn frŷd yn ddyfal, ar na rodde efe eu plant hwy yn ſclyfaeth, ai gwragedd hwy yn anrhaith, a dinaſoedd eu hetifeddiaethau hwynt yn ddeſtryw: a'r cyſſegr yn halogedigaeth, ac yn wradwydd, ac yn watwargerdd gan y cenhedloedd.

13 Felly Duw a wrandawodd ar eu gweddi hwynt, ac ai gwaredodd hwynt oi blinder: canys y bobl a ymprydiâſant ddyddiau lawer drwy holl Juda, ac Jeruſalem o flaen cyſſegr yr Arglwydd holl-alluog.

14 Ac Joacim yr arch-offeiriad, a'r holl offeiriaid y rhai oeddynt yn ſefyll ger bron yr Arglwydd, ac yn gweini i'r Arglwydd oeddynt wedi gwregyſu eu lwynau â ſach-liain, ac yn offrymmu poeth offrwm gwaſtadol, a gweddiau ac offrymmau gwirfodd y bobl, ac yr oedd lludw ar eu meitrau hwynt.

15 A hwynt a waeddaſant ar yr Arglwydd âi holl nerth, ar iddo ef ymweled yn raſol â holl dŷ Iſrael.

## PEN. V.

Achior yn dangos mawredd Duw yr Iſraeliaid.

YNa y mynegwyd i Holophernes tywyſog milwriaeth yr Aſſyriaid ddarfod i feibion Iſrael ymbaratoi i ryfel, a chaeu o honynt hwy fylchau y mynyddoedd, a murio holl goppa y mynydd uchel, a goſod rhwyſtrau yn y meuſydd:

2 Am hynny efe a ddigiodd yn ddirfawr, ac a alwodd am holl dywyſogion Moab, a chapteniaid Ammon, a holl lywodraeth-wŷr y mor-dîr.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, mynegwch i mi chwi feibion Canaan, pwy ydyw y bobl hyn y rhai ydynt yn preſwylio yn y mynyddoedd: a pheth yw y dinaſoedd yn y rhai y maent yn trigo: a pha gymmaint ſydd yn eu llu hwynt: ac ym mha beth y mae eu cadernid, ai nerth hwynt? a pha frenin, neu dywyſog a gyfododd yn eu mysc hwynt ar eu llu hwynt:

4 A pha ham y cydtunaſant na ddeuent i'm cyfarfod i, yn amgenach nâ holl drigiolion y gorllewyn?

5 Yna y dywedodd Achior tywyſog holl feibion Ammon, gwrandawed fy arglwydd air o enau dy wâs, ac myfi a fynegaf i ti y gwirionedd am y bobl hynny, y rhai ydynt yn preſwylio yn y mynyddoedd hynn, yn gyfagos i'r lle yr ydwyt ti yn cyfanneddu: ac ni ddaw celwydd allan o enau dy wâs.

6 Y bobl hyn ſy o hiliogaeth y Caldeaid,

7 Ac o'r blaen yr oeddynt hwy yn trigo ym Meſopotamia, o herwydd na chanlynent hwy dduwiau eu tadau, y rhai oeddynt yngwlâd Caldea.

8 Eithr hwynt a aethant o ffordd eu rhieni hwy, ac a addolaſant Dduw y nefoedd, y Duw yr hwn a adwaenent: felly hwyntau ai bwriaſant hwy o ŵydd eu duwiau, a hwythau a ffoaſant i Meſopotamia, ac a wladychâſant yno ddyddiau lawer.

9 Yna eu Duw hwynt a orchymynnodd iddynt ymado o'r lle yr oeddynt yn aros, a myned i wlâd Canaan, ac yno y trigâſant, ac y cynnyddâſant o aur, ac arian, ac o anifeiliaid lawer iawn.

10 Pan orchfygodd newyn holl wlâd Canaan, yna hwynt a aethant i wared i'r Aipht, ac a arhoſâſant yno hyd oni ddychwelaſant, a hwynt a wnaed yno yn dyrfa fawr, fel nad oedd rifedi ar eu hiliogaeth hwynt.

11 Am hynny brenin yr Aipht a gyfododd yn eu herbyn hwynt, ac ai poenodd hwynt, ac ai daroſtyngodd hwynt drwy lafur, a phridd-feini, ac ai gwnaeth hwynt yn gaethweiſion,

12 Yna hwynt a lefâſant ar eu Duw hwynt, ac efe â darawodd holl wlâd yr Aipht â phlagau yn y rhai nid oedd iechyd: felly yr Aiphtiaid ai bwriaſant hwy allan oi golwg.

13 A Duw a ſychodd y môr côch oi blaen hwynt.

14 Ac efe ai dug hwynt i fynydd Sina, a Chades Barne, ac a fwriodd ymmaith yr holl rai a'r a oeddynt yn trigo yn yr anialwch.

15 A hwynt a breſwyliâſant wlâd yr Amoriaid, ac a ddeſtruwiâſant drwy eu cryfder y rhai oll o Eſebon, a chan fyned tros yr Iorddonen hwynt a etifeddâſant yr holl fynyddoedd.

16 A hwynt a yrrâſant ymmaith oi blaen hwynt y Canaaneaid, a'r Phereſiaid, a'r Iebuſiaid, a'r Sichemiaid, a'r holl Gergeſiaid, ac a breſwyliâſant yno ddyddiau lawer.

17 A thra fuant hwy heb pechu ger bron eu Duw, hwynt a lwyddâſant, o herwydd y Duw yr hwn ſydd yn caſhau anwiredd oedd gyd â hwynt.

18 Ond pan giliaſant hwy o'r ffordd yr hon a oſodaſe efe iddynt, hwy a ddeſtruwiwyd drwy ryfeloedd lawer iawn tros benn, ac a gaethgludwyd i wlâd yr hon nid oedd eiddynt hwy: a Theml eu Duw hwynt a fwriwyd i'r llawr, ai dinaſoedd hwynt a ennillwyd drwy y gelynnion.

19 Ac yn awr y dychwelaſant at eu Duw, ac y daethant i fynu o'r waſcarfa lle y gwaſcaraſid hwynt, ac y meddiannaſant Ieruſalem lle y mae eu cyſſegr hwynt, ac y trigaſant yn y mynyddoedd y rhai oeddynt anialwch.

20 Yn awr gan hynny [fy] llywydd [a'm] harglwydd, od oes amryfuſedd yn y bobl hyn, o phechâſant yn erbyn eu Duw, cydnabyddwn ni mai hyn fydd yn rwyſtr iddynt, ac awn ni i fynu, a goreſcynnwn hwynt:

21 Ac onid oes anwiredd yn y genedl hon, eled fy arglwydd heibio, rhag iw Harglwydd hwy eu hamddeffyn hwynt, ac iw Duw hwynt [ymladd] troſtynt, ac i ninneu fod yn wradwydd yng-olwg yr holl fyd.

22 Pan orphennodd Achior y geiriau hyn, yr holl bobl y rhai oeddynt yn ſefyll o amgylch y babell a furmurâſant: a phendefigion Holophernes, a'r rhai oll a'r a oeddynt yn preſwylio y mor-dir a Moab, a ddywedaſant y lladdent hwy ef.

23 Canys [eb hwynt,] nid ofnwn ni rhag meibion Iſrael: o herwydd, wele pobl ydynt hwy heb na nerth na chadarnid yn erbyn llu mawr.

24 Am hynny awn ni i fynu, a hwynt a fyddant yn fwyd i'th lu di ô arglwydd Holophernes.

## PEN. VI.

Holophernes yn cablu Duw yr Iſraeliaid. 14 Ac yn peri rhoddi achior ym meddiant y Bethuliaid. 16 Y Bethuliaid pan glywſant y peth yn ei ollwng ef yn rhydd, ac yn ymroi i weddio.

APhan ddiſtawodd twrwf y gwŷr y rhai oeddynt o amgylch yr eiſteddfod, yna Holophernes tywyſog llu yr Aſſyriaid a ddywedodd wrth Achior ger bron yr holl bobl ddieithr, a cher bron holl feibion Moab, a'r rhai a gyflogaſid o Ephraim,

2 O herwydd i ti brophwydo yn ein myſc ni heddyw a dywedyd fod pobl Ieruſalem fel nad ellir eu goreſcyn, o blegit eu Duw hwynt ai hamddeffyn hwy, a phwy ſydd Dduw onid Nabuchodonoſor:

3 Efe a enfyn ei nerth, ac ai difetha hwynt oddi ar wyneb y ddaiar, ac nid amddeffyn eu Duw hwynt: eithr nyni ei weiſion ef ai deſtruwiwn hwynt fel vn gŵr: canys ni allant hwy gynnal nerth ein meirch ni.

4 Nyni ai ſathrwn hwy â hwynt, ai mynyddoedd hwynt a feddwir ai gwaed hwy, ai meuſydd o lenwir ai celaneddau hwy, ai camrau ni allant ſefyll o'n blaen ni: eithr llwyr ddifethir hwynt.

5 Y brenin Nabuchodonoſor, arglwydd yr holl ddaiar a ddywedodd, îe efe a ddywedodd, ni bydd fyng-eiriau i yn ofer.

6 A thithe Achior cyflog-was Ammon yr hwn a leferaiſt y geiriau hyn yn nydd dy anwiredd, ni cheî di weled mwyach fy wyneb i o heddyw allan hyd oni ddialwyf ar y genedl honno, yr hon a ddaeth o'r Aipht.

7 Yna haiarn fy llu i, a lliaws fyng-weiſion a aiff trwy dy yſtlyſau di, a thi a ſyrthi ym mhlith eu lladdedigion hwynt, pan ddychwelwyf.

8 A'm gweiſion i a'th ddygant ti i'r mynyddoedd, a hwynt a'th oſodant di yn vn o'r dinaſoedd vchel: ac ni ddifethir mo honot ti nes dy ddifetha gyd â hwynt.

9 Ac od ydwyt ti yn gobeithio yn dy galon na ddelir hwynt, na ſyrthied dy wyneb-pryd: myfi ai lleferais, ac ni bydd vn o'm geiriau yn ofer.

10 Yna Holophernes a orchymynnodd iw weiſion (y rhai oeddynt yn ſefyll yn ei babell ef) ddala Achior, ai ddwyn ef i Bethulia, ai roddi ef yn nwylo meibion Iſrael.

11 Felly ei weiſion ef ai dugaſant yntef allan o'r gwerſyll i'r gwaſtadedd, ac o ganol y gwaſtadedd i'r mynyddoedd, ac a ddaethant at y ffynhonnau y rhai ydynt tann Bethulia.

12 A phan welodd gwŷr y ddinas hwynt oddi ar benn y mynydd, yna pob gŵr a'r a oedd yn ergydio mewn taſl-ffon ai lluddiodd hwynt rhag dyfod i fynu, ac a daflaſāt gerric iw herbyn hwynt.

13 Yna hwynt a aethant tann y mynydd, ac a rwymâſant Achior, ac ai gadawſant ef yn ei orwedd yng-odr y mynydd, ac a aethant at eu harglwydd.

14 Yna meibion Iſrael a ddaethant i wared oi dinas, ac a ſafâſant yn ei gylch ef, ac ai gollyngâſant ef yn rhydd, ac ai dugâſant ef i Bethulia.

15 A hwynt ai goſodaſant ef rhwng tywyſogion eu dinas hwynt, y rhai oeddynt yn y dyddiau hynny, ſef Ozias mâb Micha o lwyth Simeon, a Chabris mâb Gothoniel, a Charmis mâb Melchiel.

16 A hwynt a alwâſant yng-hyd holl henuriaid y ddinas, ai holl wŷr ieuaingc hwy, ai gwragedd a redâſant yng-hyd i'r gymanfa: a hwynt a oſodaſant Achior yng-hanol eu pobl, yna Ozias a ofynnodd iddo ef yr hyn a ddigwyddâſe.

17 Ac efe a attebodd ac a fynegodd iddynt hwy eiriau cyngor Holophernes, a'r holl eiriau a'r a lefaraſe efe ym myſc tywyſogion yr Aſſyriaid, a'r pethau a ddywedaſe Holophernes yn rhyfygus yn erbyn tŷ Iſrael.

18 Yna y bobl a ſyrthiaſant i lawr, ac a addolâſant Dduw, ac a waeddaſant ar Dduw, gan ddywedyd,

19 O Arglwydd Dduw y nefoedd, edrych di ar eu balchder hwynt, a thrugarhâ wrth oſtyngeiddrwydd ein pobl ni, a chenfydd di y dydd hwn ŵyneb y rhai a ſancteiddiwyd i ti.

20 Yna hwynt hwy a gyſſurâſant Achior, ac ai canmolâſant ef yn ddirfawr.

21 Ac Ozias ai cymmerth ef o blith y gynnulleidfa iw dŷ, ac efe a wnaeth wledd i'r henuriaid: a hwynt a alwâſant Dduw Iſrael yn gynhorthwy iddynt ar hŷd y nôs honno.

## PEN. VII.

Holophernes yn gwarche ar Bethulia, 8 Cyngor yr Edomiaid yn erbyn yr Iſraeliaid. 23 Y Bethuliaid yn ddig wrth eu ſwyddogion am ddwfr.

ATrannoeth Holophernes a orchymynnodd iw holl lu, ac iw holl bobl (y rhai a ddaethent yn gynhorthwy iddo ef) ſymmud eu gwerſyllau yn erbyn Bethulia, a goreſcyn bylchau y mynyddoedd, a gwneuthur rhyfel yn erbyn meibion Iſrael.

2 Yna eu gwŷr cryfion hwynt a ſymmudaſant eu gwerſyllau y dwthwn hwnnw, a llu y rhyfel-wŷr oedd gan-mîl, a dêc a thrugain o wŷr traed, a deuddeng-mîl o wŷr meirch, heb law pobl gymmyſc, a gwŷr eraill y rhai oeddynt ar eu traed yn eu plîth hwynt, yn dyrfa fawr iawn.

3 A hwynt a werſyllâſant yn y dyffryn yn gyfagos i Bethulia, wrth y ffynnon: a hwynt a eſtynnâſant ar llêd o Dothaim hyd Belbaim, ac ar hŷd o Bethulia i Cyamon, yr hon ſydd ar gyfer Eſdraelom.

4 A phan welodd meibion Iſrael eu lluoſogrwydd hwynt, hwy a gyffroâſant yn aruthr, a phob vn a ddywedodd wrth ei gilydd, yn awr hwynt a oreſcynnant ŵyneb yr holl ddaiar: canys ni ddichon y mynyddoedd vchel, na'r dyffrynnoedd, na'r creigiau gynnal eu pwys hwynt,

5 Yna pob vn a gymmerth ei arfau rhyfel, ac a loſcâſant dân-llwythau ar eu tŷrau, ac a arhoſâſant yn gwilied ar hŷd y noſon honno.

6 Ac ar yr ail dydd Holophernes a ddug a-

llan ei holl wŷr meirch yng-olwg meibion Iſrael y rhai oeddynt yn Bethulia.

7 Ac efe a ddaliodd ſulw ar y ffordd yr elyd i fynu i'w dinas hwynt, ac efe a ddaeth at eu ffynhonnau dyfroedd hwy, ac a'i goreſcynnodd hwynt, ac a oſododd fyddinoedd o ryfel-wŷr arnynt hwy, ac a ſymmudodd ei werſyll tuag at ei bobl.

8 Yna holl dywyſogion meibion Eſau, a holl bennaethiaid pobl Moab, a holl gapteniaid y môr-dir a ddaethant atto ef, ac a ddywedaſant,

9 Gwrandawed ein harglwydd air yn awr, rhag dyfod aflwydd-deb yn dy lu di.

10 Canys y bobl hyn meibion Iſrael nid ydynt yn ymddiried yn eu gwaiwffyn, eithr yn uchelder y mynyddoedd, lle y maent hwy yn preſſwylio, o blegit anhawdd yw myned i fynu i bennau y mynyddoedd.

11 Yn awr gan hynny fy arglwydd nac ymladd di â hwynt mewn rhyfel byddinog, ac ni dderfydd am un gŵr o'th bobl di: aros yn dy werſyllau, gan gadw pob gŵr o'th lu di, a goreſcynned dy weiſion di y ffynnon ddwfr yr hon ſydd yn dyfod allan o odre y mynydd:

12 Canys holl drigolion Bethulia ydynt yn cael eu dwfr oddi yno: felly ſyched a'i lladd hwynt, ac hwy a roddant i fynu eu dinas: a ninnau a'n pobl a awn i fynu i bennau y mynyddoedd neſſaf, ac a werſyllwn yn eu herbyn hwynt, drwy wilied nad elo un gŵr allan o'r ddinas.

13 Felly hwynt hwy a'i gwragedd a'i meibion a drengant o newyn: a chyn dyfod y cleddyf yn eu herbyn hwynt, hwy a ymchwelir yn yr heolydd lle y maent yn trigo.

14 Fel hyn y teli di iddynt hwy ddialedigaeth ddrygionus, o herwydd iddynt hwy wrthryfela, ac nad vfyddhauſant i'th wyneb di yn heddychol.

15 A'i geiriau hwynt a fu fodlon gan Holophernes, a chan ei ryfel-wŷr ef: ac efe a orchymynnodd wneuthur megis y lleſaraſent hwy.

16 Felly gwerſyllau meibion Ammon a ymadawſant, a chyd â hwynt bum mil o'r Aſſyriaid, a hwynt a werſyllaſant yn y dyffryn, ac a oreſcynnaſant y dyfroedd, a ffynhonnau dwfr meibion Iſrael.

17 A meibion Eſau a aethant i fynu gyd â meibion Ammon, ac a werſyllaſant yn y mynydd-dir ar gyfer Dothaim, ac hwy a anfonâſant rai o honynt tua'r dehau, a thua'r dwyrain, gyferbyn a Rebel yr hon ſydd yn gyfagos i Chuſi, yr hon ſydd ar afon Mochmur: a'r rhann arall o lu yr Aſſyriaid a werſyllaſant yn y maes, ac a orchguddiaſant holl wyneb y wlad: canys eu pebyll hwynt a'i mud hwynt a werſyllaſent yn lliaws mawr iawn.

18 A meibion Iſrael a waeddaſant ar yr Arglwydd eu Duw hwynt, canys hwynt a ddigalonnaſent, o herwydd bod eu holl elynion hwynt o amgylch, fel nad allent ffoi o'i plith hwynt.

19 A holl gynnulleidfa yr Aſſyriaid, a'i gwŷr traed, a'r cerbydau, a'i gwŷr meirch a drigaſant o'i hamgylch hwynt bedwar diwrnod ar ddeg ar hugain, fel y pallodd eu holl lynnau dyfroedd gan holl drigolion Bethulia.

20 A'r ffynhonnau a ddiſpyddwyd, ac nid oedd ganddynt ddigon o ddwfr i'w yfed dros un diwrnod: canys tan feſur y rhoddent iddynt [ddwfr] i'w yfed.

21 Am hynny eu plant hwynt a leſmeiriaſant, a'i gwragedd a'i gwŷr ieuaingc a ballaſant gan ſyched, ac a ſyrthiaſant yn heolydd y ddinas, ac yng-hynniwerfeudd y pyrth: ac nid oedd nerth ynddynt.

22 Yna yr holl bobl a ymgaſclaſant at Oſias, ac at dywyſogion y ddinas, yn wŷr ieuaingc, ac yn wragedd, ac yn fechgyn, ac a waeddaſant â llef uchel, ac a ddywedaſant ger bron yr holl henuriaid,

23 Duw a farno rhyngom ni a chwi, canys chwi a wnaethoch gam mawr â ni, am na leſaraſoch yn heddychlon â meibion Aſſyria.

24 Canys yn awr nid oes gennym ni gynnorthwywr, eithr Duw a'n gwerthodd ni i'w dwylo hwynt, fel i'n cwympet ni i lawr o'i blaen hwynt drwy ſyched, a thrwy ddinistr mawr.

25 Yn awr gan hynny gelwch hwynt ynghyd, a rhoddwch yr holl ddinas yn anrhaith i bobl Holophernes, ac i'w holl lu ef.

26 Canys gwell i ni fod yn anrhaith iddynt hwy, nâ marw o ſyched: o blegit ni a fyddwn yn weiſion fel y byddo byw ein henioes, ac na welom farwolaeth ein plant o flaen ein llygaid, na'n gwragedd a'n meibion yn meirw.

27 Yr ydym yn galw yn dyſt yn eich erbyn chwi y nef a'r ddaiar, a'n Duw ni, ac Arglwydd ein tadau yr hwn ſydd yn dial arnom ni yn ôl ein pechodau, a phechodau ein tadau ni, a'r na wnelo efe fel hyn y dydd heddyw.

28 Yna yr oedd wylofain mawr ym myſc y gynnulleidfa gan bawb yn gytûn: felly hwynt a waeddaſant ar yr Arglwydd Dduw â llef uchel.

29 Yna y dywedodd Oſias wrthynt hwy, cymmerwch gyſſur frodyr, diſgwiliwn etto bum nhiwrnod yn y rhai y dichon yr Arglwydd ein Duw ni ddychwelyd ei drugaredd arnom ni: canys o'r diwedd ni wrthid efe mo honom ni.

30 Ac od aiff y dyddiau hyn heibio, heb ddyfod cynnorthwy i ni, mi a wnaf yn ôl eich gair chwi.

31 Felly efe a waſcarodd y bobl i'w gwerſyllau, a hwynt a aethant ymmaith i'r muroedd, ac i dŷrau eu dinas, ac a anfonâſant eu gwragedd a'i meibion i'w tai: a hwynt a fuant mewn goſtyngeiddrwydd mawr yn y ddinas.

## PEN. VIII.

Iudith yn ceryddu y ſwyddogion. 33 Ac yn cymmeryd meddwl i waredu ei phobl.

AC yn y dyddiau hynny Judith a glybu [hyn] hi yr oedd ferch Merari, fab Ox, fab Joſeph, fab Oziel, fab Elcia, fab Ananias, fab Gedeon, fab Raphaim, fab Acito, fab Eliu, fab Eliab, fab Nathanael, fab Samael, fab Saladai, fab Iſrael.

2 A Manaſſes oedd ei gŵr hi o'r un llwyth a gwaedoliaeth a hi: ac efe a fuaſe farw yn y dyddiau y cynhaiaf haidd.

3 Canys yr oedd efe yn dyfal yn gwilied y rhai oeddynt yn rhwymo yſgubau yn y maes, a'r gwrês a ddaeth ar ei benn ef, fel y ſyrthiodd efe yn ei wely: a hwynt a'i claddâſant ef gyd a'i dadau yn y maes yr hwn ſydd rhwng Dothaim a Balamo.

4 Ac Judith oedd yn ei thŷ ei hun yn weddw dair blynedd, a phedwar mîs.

5 Ac hi a wnaeth iddi babell yn y fann uchaf oi thŷ, ac a oſododd ſach-len am ei lwynau: a dillad ei gweddwdod oedynt am deni hi: ac hi a ymprydiodd holl ddyddiau ei gweddwdod, oddieithr y dydd cynn y Sabbothau, a'r Sabbothau, a'r dydd cynn y newydd-loerau, a'r gwyliau, ac uchel ddyddiau tŷ Iſrael.

6 Ac yr oedd hi yn lluniaidd, yn brydol, ac yn lân iawn yr olwg: a Manaſſes ei gŵr hi a adawodd iddi aur ac arian, a gweiſion, a morwynion, ac anifeiliaid, a meuſydd, lle yr oedd hi yn aros.

7 Ac nid oedd neb a'r a alle ddwyn drwg-air yn ei herbyn hi: canys yr ydoedd hi yn ofni Duw yn fawr.

8 Pan glybu hi eiriau drygionus y bobl yn erbyn y tywyſog, am eu bod hwynt yn lleſcau gan brinder dyfroedd, (canys Judith a glywſe yr holl eiriau y rhai a lefaraſe Oſias wrthynt hwy, fel y tyngaſe efe wrthynt hwy y rhoddid y ddinas ym mhen y pum nhiwrnod i'r Aſſyriaid)

9 Yna hi a anfonodd ei llaw-forwyn yr hon oedd yn llywodraethu ei holl olud hi i alw am Oſias, a Chabris, a Charmis henuriaid ei dinas: a hwy a ddaethant atti hi, a hithe a ddywedodd wrthynt, gwrandewch yn awr arnafi tywyſogion y rhai ydynt yn preſſwylio Bethulia, canys nid iawn eich geiriau chwi y rhai a lefaraſoch ger bron y bobl heddyw, na'r llw hwn yr hwn a oſodaſoch, ac a draethaſoch rhwng Duw a ninnau, pan ddywedaſoch y rhoddech y ddinas i'n gelynnion, oni ddychwele yr Arglwydd i'n cynnorthwyo ni o fewn y [dyddiau] hynny.

10 Ac yn awr pwy ydych chwi y rhai a demptiaſoch Dduw y dydd heddyw? ac a oſodaſoch eich hunain yn lle Duw ym mysc meibion dynion?

11 Ac yn awr yr ydych chwi yn ceiſio yr Arglwydd Holl-alluog: ond ni chewch wybod byth: gán na fedrwch gael allan ddyfnder calon dŷn, na deall y pethau y bydd efe yn eu meddwl, pa fodd wrth hynny y chwiliwch chwi allan am Dduw yr hwn a wnaeth yr holl bethau hyn? ac y gwybyddwch ei feddwl ef? ac y medrwch ddirnad ei amcannion ef?

12 Nid felly frodyr, na ddigiwch yr Arglwydd ein Duw ni, canys oni fynn efe ein cynnorthwyo ni o fewn pum nhiwrnod, y mae ganddo ef allu i'n hamddiffyn ni pan fynno, a phob dydd, neu i'n diniſtrio ni o flaen ein gelynnion.

13 Am hynny na fyddwch chwithau yn erbyn cynghorion yr Arglwydd ein Duw ni, canys nid fel dŷn y mae Duw, fel y gellir ei fygwth ef, ac nid fel mab dŷn fel y gellir ei farnu ef.

14 Gan hynny diſgwiliwn iechydwriaeth yr hon ſydd oddi wrtho ef, galwn arno ef i'n cynnorthwyo ni, ac efe a wrendy ar ein llef ni, os gwel efe yn dda: canys ni chyfododd yn ein heſoes ni, ac nid oes y dydd heddyw, na llwyth, na theulu, na phobl na dinas o honom ni a'r ſy yn addoli duwiau gwnneuthuredic â dwylo,

15 Megis y bu yn y dyddiau gynt, o herwydd pam y rhoddwyd ein tadau ni i'r cleddyf, ac yn anrhaith, fel y ſyrthiaſant hwy gwymp mawr yng-olwg ein gelynion.

16 Ond nid adwaenom ni Dduw arall, am hynny yr ydym ni yn gobeithio na ddirmyga efe mo honom ni, na [neb] o'n hiliogaeth.

17 Canys os delir nyni, ni elwir Juda [mwyach] felly, o herwydd ein cyſſegr ni a anrheithir, ac efe a gais ei halogedigaeth hi o'n genau ni, ac ofn ein brodyr ni, a chaethiwed y wlad, a diffaethwch ein etifeddiaeth a ddychwel efe ar ein pennau ni ym mysc y cenhedloedd pa le bynnac y gwaſanaethom ni, ac nyni a fyddwn yn gaſ-beth, ac yn wradwydd yng-olwg y rhai a'n meddiannant: canys ni arweinir ein caethiwed ni mewn hawddgarwch, eithr dwy warth y geſyd yr Arglwydd ein Duw ni y hi.

18 Yn awr gan hynny ô frodyr dangoſwn i'n brodyr, o herwydd ynom ni y mae eu hyder hwynt, a'r cyſſegr, a'r tŷ, a'r allor a ſiccrhawyd drwyom ni: heb law hyn oll, diolchwn i'r Arglwydd ein Duw ni yr hwn ſydd yn ein profi megis [y profodd efe] ein tadau ni.

19 Coffewch chwi yr hyn a wnaeth efe ag Abraham,

20 A pha fodd y profodd efe Iſaac, a'r hyn a wnaed i Jacob ym Meſopotamia Syria, pan ydoedd efe yn bugeilio defaid Laban brawd ei fam.

21 Canys ni phrofodd efe ni fel hwynt hwy, ac ni ddialodd arnom ni, eithr yr Arglwydd ſydd drwy rybudd yn ceryddu y rhai ydynt yn neſſau atto ef.

22 Yna Ozias a ddywedodd wrthi hi, â chalon dda y lleferaiſt yr hyn oll a ddywedaiſt: ac nid oes a ddichon gwrthwynebu dy eiriau di, o herwydd nid heddyw y cydnabuwyd a'th ddoethineb di, eithr er dechreu dy ddyddiau di y cydnabu yr holl bobl a'th ddoethineb di, canys dâ yw amcan dy galon di.

23 Ond y bobl oeddynt yn ddiffoddi o ſyched, ac a'n cymhellaſant ni i wneuthur iddynt fel y llefaraſom, ac a'n dugaſant ni i lŵ yr hwn nid allwn ei droſſeddu.

24 Am hynny gweddia di yn awr troſom ni, (o achos mai gwraig grefyddol ydwyt ti) ar i'r Arglwydd anfon glaw i lenwi ein ffynhōnellau ni, fel na leſcaom ni mwyach.

25 Yna y dywedodd Iudith wrthynt hwy, gwrandewch arnaf, ac mi a wnaf beth fel y bydd ſôn am dano drwy yr holl oeſoedd gan feibion ein cenhedlaeth ni.

26 Seſwch chwi yn y porth y nôs hon, ac myfi a âf allan mi a'm llaw-forwyn: ac o fewn y dyddiau, yn y rhai y dywedaſoch y rhoddech chwi y ddinas i'n gelynnion ni, yr Arglwydd a ymwel ag Iſrael drwy fy llaw i.

27 Ond na cheiſiwch chwi mo'r ymofyn am fyng-weithred i, canys ni fynegaf i chwi, nes gorphen yr hyn yr ydwyf yn ei wneuthur.

28 Yna Ozias a'r tywyſogion a ddywedaſant wrthi hi, dos mewn heddwch, a'r Arglwydd Dduw fyddo o'th flaen di yn ddialedd ar ein gelynnion: felly hwynt a ddychwelaſant o'r babell, ac a aethant ymmaith at eu byddinoedd.

## PEN. IX.

Iudith yn ymddaroſtwng ger bron yr Arglwydd, ac yn gweddio am ymwared iw phobl. 11 Yr Arglwydd ſydd yn cynnorthwyo y goſtyngedic.

YNa Iudith a ſyrthiodd ar ei hwyneb, ac a oſododd ludw ar ei phen, ac a ddioſcodd y ſachliain a'r hwn yr oedd hi wedi ymwiſco: ac yng-hylch yr amſer yr offrymmwyd yr arogldarth yn Ieruſalem o fewn tŷ yr Arglwydd y prydnawn-cwaith hwnnw, yna Iudith a waeddodd â llef uchel, ac a ddywedodd:

2 O Arglwydd Dduw fy nhâd Simeon, i'r hwn y rhoddaiſt gleddyf i ddial ar y dieithriaid y rhai a agoraſant groth y forwyn drwy halogedigaeth, ac a noethaſant y morddwyd drwy wradwydd, ac a halogaſant forwyndod drwy warth, (canys tydi a archeſit na wneid felly,

3 Etto hwynt a wnaethant bethau am yr hyn y rhoddaiſt ti eu tywyſogion hwynt i'r lladd-fa, canys wedi eu twyllo y golchaſant eu gwely drwy waed) a thithe a darewaiſt y gweiſion gyd a'r pennaethiaid, a'r pennaethiaid gyd ai gorſeddfeudd,

4 Ac a roddaiſt eu gwragedd hwynt yn ſclyfaeth, ai merched mewn caethiwed, ai holl anrhaith hwynt yn gyfran i feibion eu gennit: y rhai oeddynt yn greſſynnu o'th reſſynddod ti, ac yn ffiaidd ganddynt halogedigaeth eu gwaed, ac a alwaſant arnat ti yn gynnorthwy, ô Dduw, ô fy Nuw, gwrando arnaf [yr hon ſydd] weddw.

5 Canys ti a wnaethoſt y pethau cynn y rhai hyn, a'r rhai hyn hefyd, a'r rhai a fyddant rhac llaw: a thi ydwyt yn canfod y pethau preſennol, a'r pethau a ddeuant rhac llaw.

6 Canys y pethau y rhai yr ydwyt ti yn eu hamcanu ſy yn gydrychol, ac yn dywedyd, wele ni ymma: o herwydd dy holl ffyrdd di ſy barod, a'th farnedigaethau wedi eu rhaclunîaethu.

7 Wele yr Aſſyriaid wedi amlhau drwy eu nerth, ymdderchafaſant yn eu meirch ai marchogiō, ymogoneddaſant yng-hadernid y gwŷr traed, ymddyriedaſant i'r tarian, ac i'r bwa, ac i'r dafl-ffon, ac nid ydynt yn gwybod mai tydi ô Arglwydd ſydd yn torri y rhyfeloedd: yr Arglwydd yw dy enw.

8 Rhwyga di eu cadernid hwynt a'th nerth di, a dryllia eu cryfder hwynt a'th ddigllonedd: canys y maent hwy wedi bwriadu halogi dy gyſſegr, a diſwyno y Tabernacl lle y mae dy enw gogoneddus yn gorphywys, ac i fwrw i lawr ag arfau gyrn dy allor di.

9 Edrych ar eu balchder hwynt, anfon di dy ddigofaint ar eu pennau hwynt: dod ti yn fy llaw i yr hon ydwyf weddw y nerth yr hwn a arfaethais.

10 *Taro di drwy ddichell fyng-wefuſau y gwâs gyd a'r tywyſog, a'r tywyſog gyd ai wâs, torr di eu huchter hwynt drwy law benyw. Barn. 4.21.10. & 5,26.

11 *Canys nid yw dy nerth di mewn lliaws [o wŷr] na'th allu yn y rhai cedyrn: eithr tydi ydwyt Arglwydd y rhai goſtyngedic, a chynnorthwy-wr y rhai bychain, amddeffyn-wr y gweniaid, ymgeledd-wr y rhai gwrthodedic, [ac] achub-wr y rhai anobeithiol. Barn.7.2. 2.Cron. 14.11. & 16.8.& 20.6.

12 Yn ddiammeu [ti ydwyt] Dduw fy nhad i, a Duw etifeddiaeth Iſrael, llywiawdur nefoedd a daiar, creawdur y dyfroedd, brenin dy holl greaduriaid gwrando fyng-weddi,

13 A channiadhâ i'm air, a dichell, ac archoll ac anaf yn eu herbyn hwynt, y rhai ydynt yn amcanu pethau ſceler yn erbyn dy deſtiolaeth di, a'th dŷ ſanctaidd, a choppa Sion, a thŷ meddiant dy feibion.

14 Dangos ym mhlith dy holl bobl [dy] holl allu, a'th gadernid: canys nid oes neb arall yn amddeffyn-wr i genhedlaeth Iſrael onid tydi.

## PEN. X.

Iudith yn ymwiſco yn drefnus, ac yn myned allan o'r ddinas. 11 Gwil-wyr yr Aſſyriaid yn ei dala hi, ac yn ei dwyn at Holophernes.

APhan ddarfu iddi hi weiddi ar Dduw Iſrael, a gorphen yr holl eiriau hyn, yna hi a gyfododd oi gorwedd,

2 Ac a alwodd ei llaw-forwyn, ac a aeth i waered i'r tŷ, yn yr hwn yr arhoſodd hi tros ddyddiau y Sabbothau, a thros ei gwyliau: ac hi a fwriodd ymmaith y ſachliain a'r hwn yr ydoedd hi wedi ymwiſco, ac a ymddioſcodd o ddillad ei gweddwdod.

3 A hi a olchodd ei hwyneb â dwfr, ac ai eneiniodd ag enaint gwerthfawr, ac a oſododd wallt ei phen mewn trefn, ac a roddodd feitr arno, ac a wiſcodd ei dillad parchedic y rhai y bydde hi arferol eu gwiſco ym myw ei gŵr Manaſſes.

4 A hi a gymmerodd ſandalau am ei thraed, ac a wiſcodd fraichledau, a llewis, a modrwyau, a chluſt-dlyſau, ai holl deganau.

5 Ac y hi a ymbingciodd yn wŷch iawn i hudo llygaid pa wŷr bynnac ai gwelent hi.

6 Yna hi a roddodd iw llaw-forwyn goſtrel o win, ac ſtened o olew, ac a lanwodd gwd o beillied, ac o ffigus, ac o fara peillied, ac hi a ddyblygodd ei holl leſtri hyn yng-hyd, ac ai goſododd arni.

7 A hwynt a aethant yng-hyd i borth dinas Bethulia, ac a gawſant Ozias, ā henuriaid y ddinas, Chabris, a Charmis yn ſefyll wrtho.

8 A phan welſant hwy hi, a bod ei hwyneb-pryd hi wedi ei newid, ai dillad wedi eu newid, hwynt hwy a ryfeddaſant yn ddirfawr o herwydd ei glendid hi,

9 Ac a ddywedaſant wrthi, Duw, Duw ein tadau a roddo i ti râs, ac a gwblhao dy amcānion i ogoniant meibion Iſrael, a derchafiad Ieruſalem: yna hwynt a addolaſant Dduw.

10 A hi a ddywedodd wrthynt, gorchymynnwch agori i mi borth y ddinas, fel yr elwyf allan i gyflawni y geiriau y rhai a lefaraſoch chwi wrthifi: felly hwynt a orchymynnaſant i'r llangciau agori iddi megis ac y dywedaſe hi: a hwyntau a wnaethant felly.

11 Yna yr aeth Iudith allan, hi ai llaw-forwyn gyd â hi, a gwŷr y ddinas a edrychaſant ar ei hôl, nes iddi ddeſcyn o'r mynydd, a myned trwy'r dyffryn, ac ni allent wedi hynny ei gweled hi: ac hwy a aethant ar hyd y dyffryn yn iniawn.

12 Yna giliadwriaeth gyntaf yr Aſſyriaid a gyfarfu â hi, ac ai daliaſant hi, ac a ofynnaſant iddi, eiddo pwy ydwyt ti? ac o ba le yr ydwyt yn dyfod?

13 A hi a ddywedodd, merch ydwyf o'r Hebræaid, a ffoi yr ydwyf oddi wrthynt hwy, canys ar fyrder hwynt a roddir yn ſclyfaeth i chwi.

14 Ac yr ydwyfi yn dyfod ger bron Holophernes pen tywyſog eich llu chwi, fel y mynegwyf eiriau gwir, ac y dangoſwyf ger ei fron ef y ffordd ar hyd yr hon yr aiff efe, ac y goreſcyn yr holl fynydd-dir, ac ni dderfydd am gnawd, nac enioes un oi wŷr ef.

15 Pan glybu y gwŷr ei geiriau hi, hwy a ddalaſant ſulw ar ei hwyneb-pryd hi, ac yr oedd hi yn lan-deg odieth ger eu bron hwynt.

16 A hwynt a ddywedaſant wrthi hi, ti a gedwaiſt dy enioes, gan i ti ddyfod i wared ar frŷs ger bron ein harglwydd ni.

17 Yn awr gan hynny tyret yn nes at ei babell ef, a [rhyw rai] o honom a'th arweiniant di, nes iddynt hwy dy roddi di yn ei law ef: a phan ſefech di ger ei fron ef, nac ofna yn dy galon, eithr mynega yn ôl dy ymadroddion [hyn] ac efe a wna yn dda i ti: yna hwynt a etholaſant gan-ŵr o honynt, ac a baratoaſant gerbyd iddi hi, ac iw llaw-forwyn.

18 Ac hwynt ai dugaſant hi i babell Holophernes, yna yr oedd rhedegen drwy'r holl werſylloedd, canys ei dyfodiad hi a wnaed yn honnaid yn y pebyll, ac hwy a ddaethant ac a ſafaſant oi hamgylch hi, canys yr oedd hi yn ſefyll o'r tu allan i babell Holophernes, nes iddynt hwy fynegu iddo ef oi herwydd hi.

19 A hwynt a ryfeddaſant o herwydd ei glēdid hi, ac a ryfeddaſant o herwydd meibion Iſrael, a dywedodd pob un wrth ei gilydd, pwy a ddirmyge y bobl hyn, y rhai ſy a'r fath yn eu myſc? diau, nid yw dda adel un gŵr o honynt, canys pe gadewid hwynt, hwy a allent dwyllo holl [drigolion] y ddaiar.

20 A'r rhai oeddynt yn cyſcu gyd â Holophernes a aethant allan, ai holl weiſion ef, ac ai dugaſant hi i'r babell,

21 A Holophernes oedd yn gorphywys ar ei wely mewn canopi yr hwn ydoedd wedi ei weû o borphor, ac aur, a ſmaragdus, a meini gwerth-fawr.

22 A hwynt a fynegaſant iddo ef oi phlegit hi, ac efe a aeth allan i'r cyntedd, a luſernau arian yn myned oi flaen ef.

23 A phan ddaeth Iudith ger ei fron ef, ai weiſion, hwynt oll a ryfeddaſant o herwydd glendid ei hwyneb-pryd hi, a hi gan ſyrthio oi flaen ef a ymgrymmodd iddo, ai weiſion ef ai codaſant hi i fynu.

## PEN. XI.

Holophernes yn cyſſuro Iudith. 3 Yn gofyn achos ei dyfodiad hi. 5 Hithe yn ei dwyllo ef ai geiriau têg.

YNa Holophernes a ddywedodd wrthi hi, cymmer gyſſur wraig, nac ofna di yn dy galon, canys ni wneuthum i niwed i'r neb a fynne waſanaethu Nabuchodonoſor brenin yr holl ddaiar.

2 Ac yn awr dy bobl di y rhai ydynt yn aros yn y mynyddoedd, oni buaſe iddynt hwy fy nirmygu, ni dderchafaſwn fyng-waiwffon yn eu herbyn hwynt: ond hwy a wnaethant hyn iddynt eu hunain.

3 Ond yn awr dywet i mi pa ham y ffoaiſt ti oddi wrthynt hwy, ac y daethoſt attom ni? yn ddiau ti a ddaethoſt i ddiogelwch, cymmer gyſſur, byw fyddi di y nôs hon, ac rhac llaw: nid oes [neb] a'r a wna niwed i ti, ond a wnêl yn ddâ i ti, megis ac y gwneir i weiſion fy arglwydd frenin Nabuchodonoſor.

4 Yna Iudith a ddywedodd wrtho ef, derbyn eiriau dy waſanaeth-ferch, a gad ti i'th law-forwyn lefaru ger dy fron di, ac ni fynegaf gelwydd i'm harglwydd y nôs hon.

5 Ac os tydi a ganlyni eiriau di law-forwyn, Duw a wnaiff yn gwbl y peth trwot ti, ac ni phalla fy arglwydd oi amcannion.

6 Fel y mae Nabuchodonoſor brenin yr holl ddaiar yn fyw, ac mai byw ei nerth ef yr hwn a'th anfonodd di i geryddu pob dŷn, nid yn unic dynion ai gwaſanaethant ef drwot ti, eithr bwyſt-filod y maes, a'r ſcrubliaid, ac ehediaid y nefoedd a fyddant byw trwy dy nerth di tann

Nabuchodonoſor ai dŷ ef.

7 Canys nyni a glywſom [ſôn] am dy ddoethineb di, a chyfrwyſtra dy galon, ac fe a fynegwyd drwy 'r holl daiar, dy fod ti yn vnic yn rhagorol drwy yr holl deyrnas, ac yn alluoc mewn gwybodaeth, ac yn rhyfedd mewn llu rhyfeloc.

8 Ac yn awr am y peth yr hwn a lefarodd Achior yn dy eiſteddfod ti, nyni a glywſom ei ymadroddion ef: canys gwŷr Bethulia ai daliaſant ef, ac efe a fynegodd iddynt yr hyn oll a'r a lefaraſe efe wrthit ti: am hynny ô arglwydd, llywawdur na ddiyſtyra di ei air ef, ond goſod ef at dy galon, canys gwîr yw.

9 O herwydd nid oes ddial iw gymmeryd yn erbyn ein cenedl ni, ac ni ddichon y cleddyf eu gorchfygu hwynt, oddi eithr iddynt hwy bechu yn erbyn eu Duw.

10 Ac yn awr (rhac bod fy arglwydd yn anobeithiol, a yn rhyſſo ar yr hyn a amcanodd efe) marwolaeth a ſyrthiodd arnynt hwy, a phechod ai daliodd hwynt, drwy yr hwn y digllonaſant eu Duw, o herwydd hwynt a wnaethant frynti.

11 O blegit iw llyniaeth hwynt ddarfod, ac iw dwfr hwynt brinhau, hwynt a ymgynghoraſant ar ruthro i'r anifeiliaid, ac y maent ar fedr gwaſtraffu yr hyn oll a'r a waharddodd Duw iddynt hwy trwy ei gyfraith ei fwytta.

12 Ac y maent hwy ar fedr treulio blaenffrwyth yr ŷd, a degwm y gwîn, a'r olew y rhai a gadwaſant yn ſanctaidd i'r offeiriaid y rhai ydynt yn ſefyll yn Jeruſalem ger bron ein Duw ni: y rhai ni pherthyn i neb o'r bobl gyffwrdd â hwynt ai dwylo.

13 Hefyd hwynt a anfonaſant i Jeruſalem, (o herwydd y rhai ſy yn trigo yno a wnaethant felly) rai i ddwyn iddynt hwy ganiad o'r ſenedd.

14 A phan ddygant hwy air trachefn iddynt, yna hwynt a wnant [felly,] [ac] hwy a roddir i ti iw diniſtrio y dwthwn hwnnw.

15 Am hynny myfi dy waſanaeth-ferch oeddwn yn gwybod hyn oll, mi a ffoais oi gŵydd hwynt: a Duw a'm hanfonodd i wneuthur â thi y cyfryw beth, a'r y rhyfedda yr holl fyd, [a'r] ſawl ai clywant.

16 Canys dy waſanaeth-ferch ſydd grefyddol, ac yn addoli Duw nefol ddydd a nôs, ac yn awr gad ti i mi aros gyd â thi fy arglwydd; a gad i'th waſanaeth-ferch fyned allan i'r dyffryn, ac mi a weddiaf Dduw a'r iddo ef fynegu i mi pa brŷd y gwnant hwy eu pechodau: a minnef a ddeuaf [ac] a adroddaf i ti, fel yr elech dithe allan a'th holl lu di, ac ni bydd neb o honynt hwy a allo dy wrthwynebu di.

17 Ac mi a'th arweiniaf di drwy ganol Judea, nes i ti ddyfod o flaen Jeruſalem, ac mi a oſodaf dy eiſteddfa di yn ei chanol hi, a thi ai hymlidi hwynt fel defaid heb fugail, ac ni chyfarth ci ai dafod i'th erbyn: canys hyn a ddywetpwyd i mi drwy fy rhacluniaeth, ac a fynegwyd i mi, ac fe a'm hanfonwyd i fynegu i ti.

18 Ai geiriau hi a ryglyddaſant fodd Holophernes, ai holl weiſion ef, a hwynt a ryfeddaſant o herwydd ei doethineb hi, ac a ddywedaſãt,

19 Nid oes mor fath wraig o brŷd a gwedd, a doeth ymadrodd o gwrr bwygilydd i'r ddaiar.

20 Ac Holophernes a ddywedodd wrthi hi, dâ y gwnaeth Duw yr hwn a'th anfonodd di o flaẽ y bobl fel y bydde nerth yn eu dwylo hwynt, a deſtriw ar y rhai a ddirmygant fy arglwydd.

21 Ac yn awr yr ydwyt ti yn lan-deg yr olwg arnat, ac yn dêg dy ymadrodd, os tydi a wnei megis y lleferaiſt, dy Dduw di fydd yn Dduw i mi, a thi a gei aros yn nhŷ Nabuchodonoſor y brenin: ac a fyddi yn enwoc drwy yr holl ddaiar.

## PEN. XII.

2 Iudith nid ymhaloge drwy fwyd y cenhedloedd. 5 Iudith yn dymuno cael myned allã liw nôs i weddio. 11 Holophernes yn peri iddi hi ddyfod i'r wledd.]

YNa efe a orchymynnodd ei dwyn hi i mewn lle yr oedd ei dryſſorau ef yng-hadw, ac a archodd hulio bwrdd iddi hi oi fwydydd ei hun, ac oi wîn i yfed.

2 Ac Judith a ddywedodd, ni fwyttafi o honynt rhac bod niwed: eithr o'r pethau hyn y rhai ydynt gyd â mi y bydd [fy] nhrawl.

3 Yna Holophernes a ddywedodd wrthi hi, os derfydd y pethau y rhai ydynt gyd â thi, o ba lê y gallwn ni roddi eu cyffelyb hwynt i ti? nid oes gyd â ni [neb] o'th genedl di.

4 Ac Judith a ddywedodd wrtho ef, fel y mae dy enaid ty yn fyw fy arglwydd ni threulia dy waſanaeth-ferch yr hyn ſydd gyd a mi hyd oni wnêl yr Arglwydd trwy fy llaw i yr hyn y rhoddodd efe ei frŷd arno.

5 Yna gweiſion Holophernes ai dugaſant hi i'r babell, a hi a gyſcodd hyd hanner nôs, ac a gyfododd ar y wiliadwriaeth foreuol,

6 A hi a anfonodd at Holophernes, gan ddywedyd: gorchymynned fy arglwydd yn awr ollwng dy waſanaeth-ferch i fyned allã i weddio.

7 Yna Holophernes a orchymynnodd i'r gwil-wŷr na rwyſtrent hwy mo honi hi: felly hi a arhoſodd yn y gwerſſylloedd dri diwrnod:

8 A hi a ai allan liw nôs i ddyffryn Bethulia, ac a ymolche mewn ffynnon ddwfr wrth y gwerſſylloedd.

9 A phan ddeue hi i fynu hi a weddie ar Arglwydd Dduw Iſrael ar iddo ef gyfarwyddo ei ffordd hi er derchafiad meibion ei phobl hi.

10 Felly hi a ai i mewn yn lân, ac a drige yn y babell hyd oni ddyge [ei llaw-forwyn] ei bwyd [iddi] yn yr hwyr.

11 Ac ar y pedwerydd dydd Holophernes a wnaeth wledd iw weiſion ei hun yn unic, ac ni wahaddodd efe i'r wledd neb o'r rhai oeddynt a dim negeſau ganddynt: yna y dywedodd efe wrth Bagoas ei ſtafellydd yr hwn oedd ſwyddog ar yr hyn oll a'r a fedde efe, dos, cais gan yr Hebraeſ-wraig yn awr (yr hon ſydd gyd â thi) ddyfod attom ni, fel y bwytao hi, ac yr yfo hi gyd

a ni.

12 Wele yn ddiau brwnt yw i ni adel heibio y fath wraig a honno heb ymddiddan â hi: ont bydd i ni ei denu hi attom ni, hi a'n gwatwar ni.

13 Yna Bagoas a aeth ymmaith o ŵydd Holophernes, ac a ddaeth i mewn atti hi, ac a ddywedodd: na fydded blin gan y ferch lân ymma ddyfod at fy arglwydd iw hanrhydeddu ger ei frō ef, ac i yfed gyd â ni win yn hyfryd, ac i fod y dydd hwn fel vn o ferched meibion Aſſyria y rhai ydynt yn ſefyll yn nhŷ Nabuchodonoſor.

14 Ac Judith a ddywedodd wrtho ef, pwy ydwyfi fel y dywedwn yn erbyn fy arglwydd: canys beth bynnac a fyddo bodlon ganddo ef, myfi ai gwnaf yn ebrwydd: a hyn fydd i mi yn dderchafiad hyd ddydd fy marwolaeth.

15 Felly hi a gyfododd, ac a ymharddodd â dillad, ac â phôb addurn-wiſcoedd gwragedd, ai llaw-forwyn hi a ddaeth, ac a ledodd iddi hi ar y llawr ger bron Holophernes y crwyn y rhai a gawſe hi gan Bagoas iw chyfraid ei hun beunydd, fel yr eiſtedde hi, ac y bwytae arnynt.

16 Pan ddaeth Judith i mewn ac eiſtedd, yna calon Holophernes a ddychlaminodd oi herwydd hi, ai yſpryd ef a gynhyrfodd, ac yr oedd yn chwannog iawn i gyd-orwedd â hi: canys yr oedd efe yn gwilied amſer iw thwyllo hi er y dydd y gwelſe efe hi.

17 Yna Holophernes a ddywedodd wrthi hi, ŷfdi yn awr, a bydd di lawen gyd â ni.

18 Ac Judith a ddywedodd, mi a yfaf yn awr ô arglwydd, canys fy einioes a fawrygwyd heddyw rhagor yr holl ddyddiau er pā i'm ganed

19 Yna y cymmerodd hi, ac y bwytaodd, ac yr yfodd ger ei fron ef yr hyn a baratoaſe ei llaw-forwyn hi.

20 Am hynny Holophernes a wnaeth yn llawen oi phlegit hi, ac a yfodd o wîn fwy o lawer nag a'r a yfaſe efe mewn vn dydd er pan aneſid ef.

## PEN. XII.

Judith yn gweddio am nerth. 8 Ac yn torri gwddf Holophernes. 10 yn dychwelyd i Bethulia, ac yn llawenhau ei phobl.

A Phan hwyrhaodd hi, ei weiſion ef a fryſſiaſant i fyned ymmaith, a Bagoas a gaeodd ei babell o'r tu allan, ac a ollyngodd ymmaith y rhai oeddynt yn ſefyll ger bron ei arglwydd, ac hwy a aethant iw gwelâu.

2 Canys yr oeddynt hwy oll yn ddeffygiol, o herwydd hîr y buaſe y wledd: ac Judith a adawyd ei hun yn y babell.

3 Ac Holophernes oedd yn gorwedd ar ei wely, canys yr oedd efe wedi ymlenwi o wîn.

4 Ac Judith a ddywedodd wrth ei llaw-forwyn, am iddi hi ſefyll o'r tu allan iw ſtafell, a diſgwil am ei dyfodiad hi allan, megis [y bydde hi] beunydd: o blegit hi a ddywedodd ei bod hi yn myned allan iw gweddi, ac wrth Bagoas y dywedodd yr vn ffunyd.

5 Felly pawb a aethant ymmaith oi gŵydd hi, ac ni adawyd neb yn yr ſtafell o fychan i fawr: yna Judith yn ſefyll wrth ei wely ef a ddywedodd yn ei chalon, ô Arglwydd Dduw pob nerth, edrych di yr awr hon ar waith fy nwylo er derchafiad Jeruſalem.

6 Canys yn awr y mae yr amſer i gynnorthwyo dy etifeddiaeth, ac i gwplau fy amcannion i, er deſtruwio y gelynion y rhai a gyfodaſant i'n herbyn ni.

7 Yna hi a ddaeth at erchwyn y gwely yr hwn oedd wrth ben Holophernes, ac a dynnod i lawr ei gleddyf ef oddi yno: ac hi a ddaeth yn nes at y gwely, [ac] a ymaflodd yng-wallt ei ben ef, ac a ddywedodd:

8 Nertha di fi ô Arglwydd Dduw y dydd hwn, ac hi a darawodd ei wddf ef ddwy waith ai [holl] nerth, ac a dynnodd ymmaith ei ben ef oddi wrtho, ac a dreiglodd ei gorph ef o'r gwely, ac a dynnodd ymmaith y canopi oddi ar y colofnau, ac wedi ychydic [ennyd] hi a aeth allan, ac a roddes ben Holophernes iw llaw-forwyn, a hithe ai rhoddes ef yn y tudded [lle yr oedd] eu bwyd hwynt.

9 Yna hwy a aethant allan ill dwyoedd yng-hyd, fel y byddent arferol wrth fyned i weddio, a chan fyned trwy'r gwerſſylloedd hwy a amgylchaſant y dyffryn hwnnw, a hwynt a aethant i fynu i fynydd Bethulia, ac a ddaethant wrth ei phyrth hi.

10 Yna y dywedodd Judith o hir-bell wrth y rhai oeddynt yn cadw y pyrth, agorwch, agorwch weithian y porth: Duw, [ſef] ein Duw ni ſydd gyd â ni, i wneuthur etto rymmyſter yn Iſrael, a chadernid yn erbyn y gelynion, fel y gwnaeth efe heddyw.

11 A phan glybu gwŷr y ddinas honno ei llais hi, hwynt a fryſſiaſant ddyfod i wared at borth eu dinas, a hwynt a alwaſant yng-hyd henuriaid y ddinas.

12 A hwynt oll a redaſant o fychan i fawr canys ammeu oedd ganddynt y deue hi: felly hwynt a agoraſant y porth, ac ai derbynniaſant hwynt.

13 Ac a gynneuaſant dân yn oleu, ac a ſafaſant oi hamgylch hwynt ill dwy.

14 Yna hi a ddywedodd wrthynt hwy â llef vchel:

15 Moliennwch Dduw, moliennwch, moliennwch Dduw, canys ni thynnodd efe ymmaith ei drugaredd oddi wrth dŷ Iſrael, eithr efe a ddiniſtriodd ein gelynnion ni drwy fy llaw mau fi y nôs hon.

16 Yna hi a dynnodd ei ben ef allan o'r cŵd, ac ai dangoſodd, ac a ddywedodd wrthynt:

17 Wele ben Holophernes pen tywyſog milwriaeth yr Aſſyriaid, ac wele y llyccan yn yr hwn yr oedd efe yn gorwedd yn ei feddwdod: a'r Arglwydd ai tarawodd ef trwy law benyw.

18 Fel y mae yr Arglwydd yn fyw, yr hwn a'm cadwodd i yn y ffordd ar hyd yr hon y rhodiais, fy wyneb i ai twyllodd ef iw golledigaeth ei hun,

ac ni wnaeth efe bechod gyd â mi drwy halogedigaeth neu warth.

19 Yna y ſynnodd ar yr holl bobl yn aruthr, ac a ymgrymmaſant, ac a addolaſant Dduw, ac a ddywedaſant o vn fryd: bendigedic ydwyt ti ein Duw ni yr hwn a wnaethoſt elynnion dy bobl yn ddiddim y dydd heddyw.

20 Yna Ozias a ddywedodd wrthi hi, ô ferch bendigedic wyt ti gan Dduw goruchaf, rhagor yr holl wragedd y rhai ydynt ar y ddaiar.

21 A bendigedic yw 'r Arglwydd Dduw yr hwn a greawdd y nefoedd, a'r ddaiar, yr hwn a'th gyfarwyddodd di i archolli penn tywyſog ein gelynion ni.

22 Diau nad ymedu dy obaith di o galon dynion, canys hwy a goffant nerth Duw yn dragywydd: a Duw a wnêl hyn yn glôd tragywyddol i ti, ac a ymwelo â thi â daioni, o herwydd nad arbedaiſt dy einioes o achos cyſtudd dy genedl, eithr achubaiſt flaen ein cwymp ni, gan rodio yn iniawn yng-olwg ein Duw ni.

23 A'r holl bobl a ddywedaſant, poed gwîr fyddo, Amen.

## PEN. XIIII.

Iudith yn goſod i fynu ben Holophernes. 10 Achior yn ymroddi i fod yn vn o bobl Dduw. 11 Yr Iſraeliaid yn myned allan yn erbyn yr Aſſyriaid.

YNa Iudith a ddywedodd wrthynt hwy, clywch fi yn awr ô frodyr, cymmerwch y pen hwn a chrogwch ef ar y fan vchaf o'n mur ni.

2 A phan oleuo y borau, ac y cyfodo yr haul ar y ddaiar cymmerwch bob vn eich arfau rhyfel, ac eled pob gŵr cadarn allā o'r ddinas, a goſodwch dywyſog arnynt hwy, megis pe byddech chwi ar fedr myned i wared i'r maes at wiliadwriaeth yr Aſſyriaid, ond nac ewch chwi i wared.

3 Yna hwynt a gymmerant eu harfau, ac a ânt i'w gwerſſyllau, ac a godant dywyſogion llu yr Aſſyriaid, ac hwy a redant i babell Holophernes, ond ni's cafant ef: yna ofn a ſyrth arnynt hwy, a hwynt a ffoant o'ch gŵydd chwi.

4 Felly chwi, a holl drigolion ardaloedd Iſrael ai herlidiwch hwynt, ac ai ſethrwch hwynt ar hŷd eu ffyrdd.

5 Ond cyn i chwi wneuthur y pethau hyn gelwch i mi Achior yr Ammoniad, fel y gwelo efe, [ac] yr adwaeno yr hwn a ddiyſtyrodd dŷ Iſrael, a'r hwn ai hanfonodd ef attom ni i farwolaeth.

6 Yna hwynt a alwaſant Achior o dŷ Ozias, pan ddaeth efe, a gweled pen Holophernes yn llaw rhyw ŵr o gynnulleidfa y bobl, efe a ſyrthiodd ar ei wyneb, ai yſpryd ef a ballodd.

7 Pan godaſant hwy ef i fynu, efe a ſyrthiodd wrth draed Iudith, ac a ymgrymmodd ger ei bron hi, ac a ddywedodd: bendigedic ydwyt ti trwy holl bebyll Iuda, a thrwy yr holl genhedloedd, pwy bynnac a glywant dy enw di a gynhyrfir.

8 Yn awr gan hynny myneg i mi yr hyn a wnaethoſt yn y dyddiau hynn: yna Iudith a fynegodd iddo ef yng-hanol y bobl yr hyn oll a'r a wnaethe hi, er y dydd yr aethe hi allan, nes iddi hi lefaru wrthynt hwy.

9 A phan orphennodd hi lefaru [yna] y bobl a floeddiaſant â llef vchel, ac a roddaſant lef lawen yn eu dinas.

10 Pan welodd Achior yr hyn oll a'r a wnaethe Duw Iſrael, efe a gredodd i Dduw yn hollawl, ac a enwaedodd gnawd ei ddienwaediad: ac efe a gyſſylltwyd at dŷ Iſrael hyd y dydd hwn.

11 A phan gyfododd y wawr, hwynt a grogaſant ben Holophernes allan o'r mûr, a'r holl wŷr a gymmeraſant eu harfau, ac a aethant allan yn finteioedd i fylchau y mynydd.

12 A phan welodd yr Aſſyriaid hwynt, hwyntau a anfonaſant at y tywyſogion, a'r llywawd-wŷr, ac at eu holl bennaethiaid.

13 A hwy a ddaethant at babell Holophernes, ac a ddywedaſant wrth yr hwn oedd [ſwyddog] ar ei eiddo ef oll, deffro yn awr ein harglwydd ni: canys y caeth-weiſion a feiddiaſant ddyfod i wared yn ein herbyn ni i ryfel, fel y difether hwynt yn gwbl.

14 Yna yr aeth Bagoas i mewn, ac a gurodd wrth ddrws y babell: o blegit efe a dybiodd ei fod ef yn cyſcu gyd ag Iudith.

15 Pan nad attebodd neb, efe a agorodd, ac a aeth i mewn i'r ſtafell, ac ai cafodd ef yn gorwedd ar y llawr yn farw, ai ben wedi ei ddwyn ymmaith oddi wrtho ef.

16 Am hynny efe a waeddodd â llef vchel, ag ŵylofain, ac â griddfan, ac â bloedd ddirfawr ac a rwygodd ei ddillad.

17 Yna efe a aeth i'r babell lle y bydde Iudith arferol o aros, ac ni's cafodd hi, am hynny efe a neidiodd at y bobl, ac a waeddodd,

18 Y caeth-weiſion hyn a wnaethant ddirdra, vn wraig o'r Hebræaid a wnaeth wradwydd i dŷ brenin Nabuchodonoſor: canys wele Holophernes [yn gorwedd] ar y ddaiar ai ben heb fod gantho.

19 Pan glybu tywyſogion llu yr Aſſyriaid hyn, hwynt a rwygaſant yn y fan eu dillad, ai meddyliau hwynt a gythryblwyd yn ddirfawr: ac yr oedd llefain, a gweiddi mawr iawn o fewn y gwerſſylloedd.

## PEN. XV.

Yr Aſſyriad yn frawychus yn ffoi. 3 Yr Iſraeliaid yn eu hymlid hwynt. 9 Ioacim yr arch-offeiriad yn dyfod at Iudith.

APhan glywſant hwy y rhai oeddynt yn y pebyll, hwynt a ſynnaſant o herwydd y weithred: ac ofn a dychryn a ſyrthiodd arnynt hwy,

2 Fel nad oedd neb mwyach a alle aros yn wyneb ei gilydd, eithr yn waſcaredig y ffoaſant o vn frŷd i holl ffyrdd y gwaſtadedd, a'r mynydd-dir.

3 A'r rhai a werſſyllaſant yn y mynyddoedd

o amgylch Bethulia a yrrwyd i ffoi: yna meibion Iſrael [ſef] pob rhyfel-wŷr o honynt a ruthraſant arnynt hwy.

4 Yna Ozias a anfonodd i Bethomaſthem, ac i Bebai, ac i Chobai, ac i Chola, ac i holl derfynau Iſrael rai a fynegent iddynt hwy yr hyn a ddarfuaſe, ac i beri iddynt hwy oll ruthro ar y gelynnion iw difetha hwynt.

5 A phan glybu meibion Iſrael, hwynt oll o vn frŷd a ruthraſant iw herbyn hwynt hyd Chobai: felly hefyd y rhai a ddaethant o Ieruſalem, ac o'r holl fynydd-dir: canys [rhai] a fynegaſent iddynt hwy yr hyn a wnaethyd yngwerſſylloedd eu gelynnion.

6 A'r rhai oeddynt yn Galaad, ac yn Galile ai hymlidiaſant hwynt â phlâ mawr, nes iddynt fyned heibio i Ddamaſcus, ai hardaloedd.

7 A'r rhan arall y rhai oeddynt yn trigo yn Bethulia a ruthraſant i werſſylloedd yr Aſſyriaid, ac ai hyſpeiliaſant hwy, ac a ymgyfoethogaſant [yn gyfoethog] iawn.

8 A meibion Iſrael y rhai a ddychwelaſant o'r lladdedigaeth a berchēnogaſant y gweddill: a'r trefydd a'r dinaſoedd y rhai oeddynt yn y mynydd-dir, ac yn y dyffryn-dir a gawſant anrhaith fawr, canys [eu] lliaws oedd fawr iawn.

9 Yna Ioacim yr arch-offeiriad, a henuriaid meibion Iſrael y rhai oeddynt yn trigo yn Ieruſalem a ddaethant i ſicrhau y daioni yr hwn a wnaethe Duw Iſrael, ac i gael gweled Iudith, ac i ymddiddan yn heddychlon â hi.

10 A phan ddaethant hwy atti hi, hwynt ai bendithiaſant hi o vn frŷd, ac a ddywedaſant wrthi: ti ydwyt dderchafiad Ieruſalem, ti ydwyt fawr ogoniant Iſrael, ti ydwyt fawr barch ein cenedl ni.

11 Canys ti a wnaethoſt hyn oll a'th law di, gwnaethoſt ddaioni ag Iſrael, a Duw a gymmododd â hwynt: bendigedic fyddech di gan yr holl-alluoc Arglwydd byth yn dragywydd. A'r holl bobl a ddywedaſant, felly y byddo.

12 A'r bobl a yſpeiliaſant y gwerſſylloedd tros ddeng-nhiwrnod ar hugain, a hwynt a roddaſant i Iudith babell Holophernes a'r lleſtri arian, a'r gwelau, a'r cawgiau, ai holl ddodrefn ef: a hi ai cymmerth [hwynt, ac] ai goſododd ar ei mûl, ac a baratôdd ei cherbydau, ac ai llwythodd hwynt arnynt.

13 Yna holl wragedd Iſrael a ddaethant yng-hyd iw gweled hi, ac ai bendithiaſant hi, ac a wnaethant ddawns yn eu myſc eu hun iddi hi: a hi a gymmerodd ganghennau yn ei dwylo, ac ai rhoddes hefyd i'r gwragedd y rhai oeddynt gyd â hi.

14 Hwyntau hefyd ai coronaſant hi ag oliwydd, a'r hon oedd gyd â hi, a hi a aeth o flaen yr holl bobl mewn dawns, gan arwain yr holl wragedd: a holl wŷr Iſrael a ganlynaſant yn arfog, a choronau, ac â chaniâdau yn eu geneuau.

## PEN. XVI.

Iudith yn moli Duw â chân, 19 Yn offrymmu dodrefn Holophernes i'r Arglwydd. 23 Ei diweirdeb, buchedd, ai marwolaeth. 24 Iſrael yn galaru am deni.

YNa y dechreuodd Iudith ganu y gyffes hon ym mhlith holl Iſrael, a'r holl bobl a ganaſant y gân hon.

2 Ac Iudith a ddywedodd, dechreuwch i'm Duw i â thympanau, cenwch iddo ef pſalmau, derchefwch [ei] glôd [ef] a gelwch ar ei enw ef.

3 Canys Duw ſydd yn torri y rhyfeloedd, o herwydd yn y gwerſſylloedd, ym myſc y bobl y gwaredodd efe fi o law fy erlid-wŷr.

4 Aſſur a ddaeth o'r mynyddoedd allan o'r gogledd, efe a ddaeth â miloedd yn ei luoedd, ei liaws ef a argaeodd yr afonydd, ai farchogion ef a orchguddiaſant y brynnau.

5 Efe a ddywedodd y lloſce efe fy ardaloedd, ac y lladde efe fyng-wŷr ieuaingc â'r cleddyf, ac y goſode y plant ſugno yn balmant, ac y rhodde efe fy rhai bychain yn yſpail, a'm gweryſon yn ſclyfaeth.

6 Ond yr holl-alluog Arglwydd ai heſcydwodd hwynt trwy law benyw.

7 Canys ni ſyrthiodd y cadarn drwy wŷr ieuaingc, ac nid meibiō Titan ai tarawſant ef, ac nid y cawri vchel a ymoſodaſant yn ei erbyn ef: eithr Iudith merch Merari drwy ei hwynebpryd ai gorthrechodd ef.

8 O blegit hi a ddioſcodd ddillad ei gweddwdod, er derchafiad y rhai gorthrymmedig o Iſrael, hi a îrodd ei hwyneb ag enaint, ac a gylymmodd ei gwallt mewn meitr, ac a gymmerth wiſc liain iw dwyllo ef.

9 Ei ſandâlau hi a hudaſant ei lygaid ef, ai glendid hi a garchârodd ei feddwl ef, cleddyf a aeth trwy ei wddf ef.

10 Y Perſiaid a ſynnaſant o herwydd ei hyfder hi: a'r Mediaid, a gythryblwyd o herwydd ei hŷder hi.

11 Yna fy rhai goſtyngedig a orfoleddaſant, a'm rhai gweiniaid a floeddiaſant: a hwythau a ofnaſant, derchafaſant eu llef, a dychwelaſant.

12 Meibion llangceſan ai trywanaſant hwynt, ac ai harchollaſant hwy wrth ffoi fel plant: difethwyd hwynt o ryfel yr Arglwydd fy Nuw i.

13 Myfi o gânaf i'r Arglwydd gân newydd, ô Arglwydd ti ydwyt fawr, a gogoneddus, rhyfeddol, ac anorchfygol mewn nerth.

14 Gwaſanaethed yr holl greaduriaid dydi, * canys ti a ddywedaiſt, a hwynt a wnaed: ti a anfonaiſt dy Yſpryd, ac efe a adailadodd: ac nid oes nêb a wrthwynebo dy lef di. Gene.1.24. Pſal.33.9.

15 Canys y mynyddoedd a gyffroent oddi ar eu ſeiliau gyd a'r dyfroedd, y creigiau hefyd a doddent fel cŵyr yn dy ŵydd di: etto trugarog ydwyt i'r rhai a'th ofnant di.

16 Canys yr holl aberthau ydynt ry-fychan yn arogl peraidd, a'r holl fraſter ſydd ry fychan

yn

ſychan yn boeth offrwm i ti: ond yr hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd ſydd fawr bôb amſer.

17 Gwae yr cenhedloedd y rhai ydynt yn ymgodi yn erbyn fy-nghenedl mau fi: yr Arglwydd holl-alluog a ddial arnynt hwy yn nydd y farn, trwy anfon tân a phryfed i'w cnawd hwynt, a hwynt a wylant gan [eu] clywed yn dragywydd.

18 A phan aethant hwy i Jeruſalem, hwynt a addolaſant yr Arglwydd, a hwyn gyntaf ac y purwyd y bobl, hwynt a offrymmaſant eu poeth-offrymmau, ai haewinedau, ai rhoddion.

19 Judith hefyd a offrymmodd holl leſtri Holophernes, y rhai a roddaſe y bobl iddi hi: a hi a roddodd y canopi yr hwn a gymmeraſe hi oddi ar ei wely ef yn offrwm i'r Arglwydd.

20 Felly y bobl a fuant lawen yn Jeruſalem ger bron y cyſſegr tros dri mîs: ac Judith a arhoſodd gyd a hwynt.

21 Ac wedi y dyddiau hynny, pôb vn a ddychwelodd i'w etifeddiaeth, ac Judith a aeth i Bethulia, ac a drigodd yn ei chyfoeth ei hun: ac yr oedd hi yn ei hamſer yn ogoneddus drwy 'r holl wlâd.

22 A llawer oedd ai chwennychaſant hi, ond ni chafodd gŵr ei hadnabod hi holl ddyddiau ei heinioes, o'r awr y bu farw Manaſſes ei gŵr hi, ac y caſclwyd ef at ei bobl.

23 A hi a aeth rhagddi fwy-fwy, ac a heneiddiodd yn nhŷ ei gŵr yn bum mlwydd a chant: ac a ollyngodd ei llaw-forwyn yn rhydd: a hi a fu farw yn Bethulia, a hwynt ai claddaſant hi ym mêdd ei gŵr Manaſſes.

24 A thŷ Iſrael a alarodd am deni hi ſaith o ddyddiau: a chyn iddi hi farw hi a rannodd ei golud i'r holl rai neſſaf i Manaſſes ei gŵr, ac i'r rhai neſſaf oi chenedl ei hun.

25 Ac nid oedd mwyach nêb a ddychrynne feibion Iſrael yn holl ddyddiau Judith, nac wedi ei marwolaeth hi ddyddiau lawer.

*Terfyn llyfr Iudith.*

# ¶Darn o lyfr Eſther heb fod yn yr Hebræ-aec, nac yn y Calde-aec, ac yn y Groec yn dechreu yn y ddecfed bennod.

YNa y dywedodd Mardocheus, Duw a wnaeth hyn.

5 Canys côf gennif y breuddwyd yr hwn a welais am y pethau hyn: o blegit ni phallodd dim o hynny.

6 Ffynnon fechan a aeth yn afon, ac oedd yn oleuni, ac yn haul, ac yn ddwfr mawr: Eſther yr hon a briododd y brenin, ac a wnaeth efe yn frenhines yw'r afon.

7 A'r ddwy ddraig ydwyf finne, ac Aman:

8 A'r cenhedloedd y rhai a ddaethant i ddifetha henw yr Iddewon.

9 A'm cenedl i yw'r Iſrael ymma, y rhai a floeddiaſāt ar yr arglwydd, ac hwy a achubwyd: ie yr Arglwydd a achubodd ei bobl, a'r Arglwydd a'n gwaredodd ni o'r drygau hyn oll: a Duw a wnaeth arwyddion a gwrthiau mawrion, y rhai ni wneithid ym myſc y cenhedloedd

10 Am hynny y gwnaeth efe ddau goel-brē, vn i'w bobl ei hun, a'r llall i'r cenhedloedd oll.

11 A'r ddau goel-bren a ddaethant ger bron Duw tros yr holl genhedloedd, erbyn awr, ac amſer, a dydd farn.

12 Felly Duw a feddyliodd am ei bobl, ac a gyfiawnhaodd ei etifeddiaeth.

13 Am hynny y dyddiau hynny fyddant iddynt hwy yn y mîs Adar ar y pedwerydd [dydd] ar ddêc o'r mîs gyd ag ymgyfarfod, a llawenydd a hyfrydwch ym myſc ei bobl ef byth tros [bôb] oes.

## PEN. XI.

Breuddwyd Mardocheus.

YN y bedwaredd flwyddyn o deyrnaſiad Ptolomeus a Chleopatra, y dug Doſithêus (yr hwn a ddywedodd ei fod yn offeiriad ac yn Lefiad) ai fab Ptolomæus y dywededig lythr am y Purim (yr hwn y dywedaſant mai [hwnnw] oedd, ac i Lyſimachus fab Ptolomæus yr hwn oedd yn Jeruſalem ei gyfiaethu)

2 Yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Artaxerxes mawr y [dydd] cyntaf o Niſan y breuddwydiodd Mardocheus mab Jairus, fab Semei, fab Cis o lwyth Beniamin dŷn o Iddew yn trigo yn ninas Suſis, gŵr mawr, am ei fod yn wenidog yn llŷs y brenin.

3 Ac [vn] oedd efe o'r gaeth-glud a gaeth-gludaſe Nabuchodonoſor brenin Babilon o Jeruſalem gyd â Jechonia brenin Juda: ac dymma ei freuddwyd ef.

4 Wele ſain twrwf, taranau, a daiar-gryn, a chythrwfl ar y ddaiar: ac wele ddwy ddraig fawr a ddaethant allan yn barod bôb vn o honynt i ryfela, ac hwy a roddaſant lef fawr.

5 Ac wrth eu llef hwynt yr ymbaratôdd pôb cenhedlaeth i ryfel, fel y difethent genedl y rhai cyfiawn.

6 Ac wele ddiwrnod tywyll, a niwlog: cyſtudd, ac ing, drwg-fyd, a thrallod mawr ar y ddaiar.

7 Yna y trallodwyd pôb cenedl gyfiawn, y rhai gan ofni eu drwg-fyd a ymbaratoâſant i'w dinistr eu hun.

8 Eithr hwy a waeddaſant ar Dduw, ac wrth eu gwaedd hwynt y daeth megis o ffynnon fechan afon fawr [a] dwfr lawer.

9 Goleuni hefyd a haul a gyfododd, a'r rhai iſel-radd a dderchafwyd, ac a ddifâſant y pendefigion.

10 A phan gyfododd Mardochêus yr hwn a welſe y breuddwyd hwn, a'r hyn a fynne Duw ei wneuthur: bu y breuddwyd hwn ganddo yn ei galon, a thrwy bôb rheſwm y chwennyche efe ei wybod ef hyd onid oedd hi yn nôs.

## PENN. XII.

Mardocheus yn cyhuddo yr ſtafellyddion y rhai a amcanaſent ddifetha y brenin.

FEl yr oedd Mardochêus yn llonydd yn y llys gyd â Gabatha a Tharra, dau o ſtafellyddion y brenin y rhai oeddynt yn cadw y llys:

2 Efe a glybu eu hamcanion hwynt, ac a chwiliodd allan eu gofal hwynt, ac a gafodd wybod eu bôd hwynt yn barod i roi llaw ar y brenin Artaxerxes, ac efe a ddangoſodd i'r brenin am danynt hwy.

3 A'r brenin a holodd ei ddau ſtafelludd, ac hwy a gyffeſaſant, ac a grogwyd.

4 Yna 'r ſcrifennodd y brenin y pethau hyn mewn coffadwriaeth: Mardocheus hefyd a ſcrifennodd yr un pethau.

5 A'r brenin a orchymynnodd i Mardocheus waſanaethu yn y llŷs, ac a roddes iddo ef roddion am hyn.

6 Eithr Aman [mab] Amadathus yr Agagead yr hwn oedd ogoneddus yng-olwg y brenin a geiſiodd ddrygu Mardocheus ai bobl o achos dau ſtafelludd y brenin. Dymma hefyd gopi y llythr.

## PEN. XIII.

Llythyrau Artaxerxes yn erbyn yr Iddewon, a gweddi Mardocheus.

YBrenin mawr Artaxerxes ſydd yn ſcrifennu hyn at y tywyſogion a'r rhaglawiaid y rhai a orduiniwyd ar ſaith ar hugain a chant o dalaithau o India hyd Ethiop.

2 Gan fy mod i yn gorchymyn cenhedloedd lawer, ac yn llywodraethu yr holl fyd, mi a ewyllyſiais nad ymdderchafwn o herwydd cadernid, eithr gan lywodraethu yn addfwyn, ac yn llonydd bôb amſer cael goſod y deiliaid yn wastad, a chan wneuthur y deyrnas yn llonydd, ac yn hyffordd hyd y diwedd, [ac] i adnewyddu heddwch yr hwn [illegible] yn ei chwennychu.

3 A phan ymgynghorais â'm cynghorwyr pa fodd y dygid hyn i ben, Aman yr hwn a aeth yn rhagorol mewn doethineb gyd â nyni, ac ſydd hyſpys ei fod mewn diannwadal ewyllys da a ſicer ffyddlondeb, yr hwn ſydd yn cael yr ail anrhydedd yn y deyrnas, a fynegodd i ni fod pobl adcas wedi ymgymyſgu â holl dylwythau y bŷd, yn wrthwynebus eu cyfraith i bôb cenedl, ac yn eſceuluſo yn wastad orchymynnion brenhinoedd, fel na chynhelir y dywyſogaeth yr hon yr ydym ni yn ei llywodraethu yn ddiſai.

4 Pan gawſom ninnau wybod y modd y mae y genhedlaeth hon yn unic wedi ymoſod i wrthwynebu pôb dŷn yn wastad, gan newidio, ac ymrafaelio a'r pethau yr ydym ni yn eu gorchymyn, trwy ddwyn cyfreithiau dieithr, a chan gyflawni drygioni o'r gwaethaf, fel na chaffo ein brenhiniaeth ni gyflwr da:

5 Am hynny y gorchymynnaſom am y rhai a yſpyſir i chwi mewn ſcrifen oddi wrth Aman (yr hwn ſydd ſwyddog ar [ein] matterion, ac yn ail i ni) eu llwyr ddifetha hwynt oll gyd â'u gwragedd, a'r plant drwy gleddyfau y gelynnion heb ddim trugaredd na thoſturiaeth ar y pedwerydd dydd ar ddêc o Adar [hwnnw yw] 'r deuddecfed mis o'r flwyddyn breſennol hon:

6 Fel y gadawo o hyn allan y rhai oeddynt [gynt] ac yn awr ydynt elynnion (wedi iddynt ddeſcyn i uffern) y matterion yn gwbl gymmwys, ac yn llonydd i ni,

7 Yntef (gan feddwl am holl weithredoedd yr Arglwydd) a weddiodd, ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd: ô Arglwydd, Arglwydd hollalluog Frenin, diau fod pob peth yn dy feddiant: ac nad oes a'th wrthwynebo di pan fynnech achub Iſrael.

8 O blegit ti a wnaethoſt y nefoedd a'r ddaear, a phob dim rhyfedd yn yr hyn ſydd tann y nefoedd.

9 Arglwydd pôb dim ydwyt ti hefyd, ac nid oes a'th wrthwynebâ di, yr hwn ydwyt Arglwydd.

10 Ti a adwaenoſt bôb peth, ti a wyddoſt ô Arglwydd nad o draha, nac o falchder, nac o chwant gogoniant y gwneuthym i hyn, ſef nad anrhydeddwn Aman falch: canys buaſwn fodlon i guſſanu ôl ei draed ef er iechydwriaeth i Iſrael: ond mi a wneuthym hyn rhag goſod o honof ogoniant dŷn goruwch gogoniant Duw, ac rhag addoli o honof neb ond tydi, ac nid o falchder y gwneuthym hyn.

11 Yn awr gan hynny (ô Arglwydd Dduw Frenin) arbed dy bobl: o herwydd y maent hwy yn edrych arnom ni i'n diniſtrio, ac hwy a chwennychâſant ddifetha yr hon ſydd o'r dechreuad yn etifeddiaeth i ti:

12 Na ddirmyga y rann, yr hon a waredaiſt

iti dy hun o dir yr Aipht.

13 Gwrando fyng-weddi, a bydd drugarog wrth dy rann, a thro ein triſtwch yn hyfrydwch, fel y gallom ni fyw, a moliannu dy enw di: ô Arglwydd, nac yn ddifetha eneu y rhai ydynt yn dy glodfori di ô Arglwydd.

14 Felly Iſrael oll a leſâſant yn gryfaf y gallent: o blegit eu marwolaeth oedd o flaen eu llygaid.

## P E N. XIIII.

### Gweddi Eſther.

ESther hefyd y frenhines, wedi i loes angeu ei dal hi, a ffôdd at yr Arglwydd:

2 Ac wedi iddi hi ddioſc ei gogoneddus wiſc, hi a wiſcodd wiſc cyſtudd a galar, â lludw a thom yn lle ennaint balch y llanwodd hi ei phen, ac hi a ddaroſtyngodd ei chorph yn ddirfawr, a'i holl fannau hyfryd a lanwodd hi a'i gwallt wedi ei dynnu:

3 Ac hi a weddiodd at Arglwydd Dduw Iſrael, ac a ddywedodd:

4 O fy Arglwydd, ein Brenin ni ydwyt ti yn unic: cynnorthwya fi yr hon ydwyf unic, ac heb gynnorthwyudd gennif ond ty di: o blegit y mae yn enbyd iawn arnaf.

5 Mi a glywais er pan i'm ganed ym myſc llwyth fyng-henedl, gymmeryd o honot ti (ô Arglwydd) Iſrael a'r holl gênhedloedd, a'n tadau ni o'r holl rieni hwynt yn etifeddiaeth dragywyddol, a gwneuthur o honot ti yr hyn a leferaiſt.

6 Eithr yr awr hon ni a bechâſom yn dy erbyn di, a thi a'n rhoddaiſt yn nwylo ein gelynnion, am i ni ogoneddu eu duwiau hwynt: cyfiawn ydwyt ti ô Arglwydd.

7 Ac yr awr hon nid digon ganddynt chwerwed ein gwaſanaeth, eithr hwy a darawſant ddwylo ai heulynnod ar dderchafu barn eu genau, a deleu dy etifeddiaeth di, a chaeu ſafn y rhai ſy yn dy foliannu di, a diffoddi gogoniant dy dŷ di a'th allor, ac agoryd genau y cenhedloedd [i gyhoeddu] rhinweddau pethau ofer, ac i fawrygu brenin cnawdol byth.

8 Na ddod Arglwydd dy deyrn-wialen i'r rhai nid ydynt [ddim,] ac na âd iddynt chwerthin am ein cwymp ni: eithr trô eu cyngor yn eu herbyn eu hun, a difetha yr hwn a ddechreuodd arnom ni.

9 Coffa Arglwydd [ac] ymddangos yn amſer ein cyſtudd ni: cyſura fi ô Frenin y cenhedloedd, a llywydd pob tywyſogaeth, dod yn fyngenau ymadrodd cymmwys ger bron y llew, a thro ei galon ef i gaſau yr hwn ſydd yn ein gwrthwynebu, er diniſtr iddo ef, ac i'r rhai ſy yn debyg eu meddwl iddo yntef.

10 Ie gwaret ni a'th law dy hun, a chynnorthwya fi yr hon ydwyf unic, ac heb gynnorthwyudd gennif ond tydi: ô Arglwydd ti a ŵyddoſt bob dim.

11 Ie ti a ŵyddoſt mai câs gennif ogoniant y rhai anwir, a bôd yn ffiaidd gennif welŷ y rhai dienwaededig, a phob dieithr: ti a ŵyddoſt beth ſydd rhaid i mi, a bod yn ffiaidd gennif fy arwydd balchder yr hwn ſydd ar fy mhen ar y dyddiau yr ymddangoſwyf: mae mor ffiaidd gennif ef a chadach miſ-glwyf, ac nid ydwyf yn ei wiſco ef ar y dyddiau yr ydwyf yn cael llonydd.

12 [Gŵyddoſt] na fwytaodd dy waſanaethyddes ar fwrdd Aman, ac nad anrhydeddais wledd y brenin, ac nad yfais win offrwm, ac na lawenychodd dy lawforwyn di, o'r dydd i'm ſymmudwyd hyd yr awr hon ond ynot ti ô Arglwydd Dduw Abraham.

13 O Dduw cadarnach na neb gwrando lefain y rhai di-obaith, a gwaret ni o law y drygionus, ie gwaret fi o'm hofn.

## P E N N. XV.

Eſther trwy gyngor Mardocheus yn myned at y brenin i eiriol tros ei phobl.

AC ar y trydydd dydd pan beidiodd hi a gweddio, hi ddioſcodd ei galar-wiſc, ac a wiſcodd eu gwychter:

2 Ac wedi iddi fyned yn ddiſclaer, a galw ar weledudd, ac achubudd pawb, hi a gymmerodd ei dwy lawforwyn, ac hi a bwyſodd ar y naill, fel pe buaſe hi ſwrthus, a'r llall oedd yn dwyn ei thraen hi.

3 Gwridog hefyd oedd hi o ſerciddra ei thegwch, a'i hwyneb yn llawen [ac] megis yn hawddgar (eithr ei chalon hi oedd gyfyng arni gan ofn)

4 Ac wedi iddi fyned i mewn trwy'r holl ddryſau, hi a ſafodd ger bron y brenin, ac yr oedd efe yn eiſtedd ar orſeddfa ei frenhiniaeth, ac efe a wiſcaſe ei ddiſclaer-wiſc oll, ac efe oll mewn aur a meini gwerth-fawr oedd ofnadwy iawn:

5 A chan dderchafu ei wyneb yn diſcleirio gan ogoniant, efe a edrychodd yn llym o ddig, yna y ſyrthiodd y frenhines, ac hi a newidiodd ei llun mewn llewyg, ac a ogwyddodd ar ben y llaw-forwyn yr hon oedd yn myned o'r blaen.

6 A Duw a drôdd yſpryd y brenin yn addfwyn, fell y neidiodd efe ar frys oddi ar ei orſeddfa, ac y cymmerodd hi yn ei freichiau hyd oni ddadebrodd hi: ac efe a'i cyſurodd hi â geiriau heddychlon, ac a ddywedodd wrthi hi.

7 Eſther beth yw'r [matter?] dy frawd ti ydwyf fi cymmer gyſur, ni roddir di i farwolaeth o blegit cyffredin yw ein gorchymyn ni: tyret ymma.

8 Ac efe a gymmerodd y wialen aur, ac a'i goſododd ar ei gwddf hi:

9 Ac efe a'i coſſeidiodd hi, ac a ddywedodd, dywet wrthif fi.

10 Hithe a ddywedodd wrtho ef: ô arglwydd mi a'th welwn fel angel Duw, a'm calon a gyffrôdd rhag ofn dy ogoniant.

11 O blegit rhyſedd ydwyt ti ô arglwydd, a'th wyneb ſydd yn llawn grâs.

12 A thra yr ydoedd hi yn llefaru hi a ſyrthiodd yn ei llewyg.

13 Yna y cyffrôdd y brenin, ai weiſion ef oll ai cyſſuraſant hi.

## PEN. XVI.

Llythyrau Artaxerxes i ddiddymmu y llythyrau y rhai a yrraſe efe o flaen i beri diſetha yr Iddewon.

YBrenin mawr Artaxerxes at y rhai ydynt yn benaethiaid, ac yn dywyſogion, ac yn gynghorion i mi o India hyd Ethiopia ([ſef] ar gant a ſaith ar hugain o wledydd) yn anfon annerch.

2 Llawer wedi eu mynych anrhydeddu trwy fawr ddaioni gweithredwyr da, a aethant yn falchach, ac ydynt yn ceiſio nid yn unic ddrygu ein deiliaid ni: eithr hefyd (am na fedrant fyw mewn digonedd) y maent hwy yn ceiſio dychymig niwed yn erbyn y rhai a wnaeth ddaioni iddynt hwy.

3 Ac y maent nid yn unic yn tynnu diolchgarwch o blith dynion, eithr hefyd gan ymddyrchafu mewn balchder fel rhai heb wybod oddiwrth ddaioni, y maent yn ancanu diangc gan farn Duw, yr hwn ſydd yn gweled pob peth [yr hon farn] ſydd gâs ganddi ddrygioni.

4 Llawer gwaith y mae y cyſſur [hwn] yn amgylchu ag anfad drueni lawer o'r rhai ydynt wedi eu goſod mewn awdurdod, y rhai y credwyd iddynt am lywodraethu matterion cyfeillion gan eu gwneuthur yn euog o waed gwirion: am eu bod trwy gelwyddog dwyll drygfoes yn twyllo difalis ewyllys da eu llywodraeth-wyr.

5 Ac y mae [i mi] yſtyried nid yn gymmaint o'r hen hyſtoriau (fel y dywedaſom ni) pa faint ſydd tan ein traed ni (os ni ai ceiſiwn hwynt) wedi eu gwneuthur yn annuwiol trwy echrys y rhai oeddynt yn llywodraethu yn anheilwng.

6 Ac [y mae yn rhaid] edrych am y pethau fyddant ar ôl hyn, fel y gallom beri y deyrnas yn ddidrallod ac yn heddychol i bôb dŷn:

7 Gan arfer cyfnewidiadau, ac yſtyried y pethau ſy yn dyfod mewn golwg, trwy achub blaen [pethau] yn gyfiawn.

8 O herwydd megis y cafodd Aman mab Amadathus y Macedoniad (yr hwn mewn gwirionedd oedd eſtron i waed y Perſiaid a phell oddiwrth ein daioni ni) wedi ei dderbyn i ymdaith gyd â ni yr addfwynder ſydd gennym ni i bôb cenedl, fel y gelwid ef yn dad i ni, a'i addoli gan bawb megis yr ail i orſeddfa y brenin.

9 Am na fedre efe ochelyd balchder, efe a geiſiodd ein diddymmu ni o'r dywyſogaeth, ac o'n henioes hefyd,

10 Ac a geiſiodd trwy lawer o ffyrdd twyllodrus ddiſetha Mardocheus yr hwn a'n hachubaſe ni ac ym mhob peth a wnaethe ddaioni, ac Eſther yr hon ſydd gyfrannog o'r deyrnas, ac yn ddifai yng-hyd ai holl genedl. O blegit fel hyn y meddyliodd efe ein cael ni yn unic, a dwyn llywodraeth y Perſiaid i'r Macedoniaid.

11 Ac yr ydym ni yn cael, fod yr Iddewon yn ddiddrwg y rhai a rhoddaſe y diniſtrudd [hwnnw] iw diſetha, ai bôd hwynt yn arfer cyfreithiau o'r goref, ac yn blant i'r Duw byw goruchaf a mwyaf, yr hwn a gyfarwyddodd y deyrnas i ni, ac i'n rhieni mewn trefn o'r oref.

12 Am hynny y gwnewch yn dda os chwi nid arferwch y llythyrau y rhai a anfonodd Aman mab Amadathus.

13 O herwydd fe a grogwyd yr hwn a wnaeth hyn (yng-hyd ai holl dylwyth) o flaen pyrth Suſis trwy fod Duw llywydd pôb peth yn talu iddo yn fuan addas farn.

14 Eithr gan oſod copi o'r llythr hwn ym mhob lle, gadewch i'r Iddewon arfer eu cyfraith mewn rhydd-did,

15 A chynnorthwywch hwynt, fel y gallont y trydydd dydd ar ddêc o Adar y deuddecfed mis ar yr un dydd ddial ar y rhai a oſodwyd arnynt hwy yn amſer eu cyſtudd, o blegit Duw llywydd pôb peth yn lle diniſtr y genedl etholedig a wnaeth iddynt y llawenydd hyn.

16 Cedwch chwithau [hwn] yng-hyd â phob llawenydd yn ddydd uchel ym mysc eich uchel wyliau, fel y byddo iechydwriaeth yn awr, ac wedi hyn i ni, ac i'r Perſiaid da eu hewyllys, a choffadwriaeth diniſtr i'r rhai ſy yn cynllwyn i'n herbyn ni.

17 A phob dinas a gwlad yn hollawl yr hon ni wnelo fel hyn a ddiſethir â gwaywffyn, ac â thân, ac â llid, fel y goſoder hi bych yn anhyffordd, ac yn atcas nid yn unic i ddynion eithr i fwyſt-filod hefyd, ac adar.

*Terfyn Darn llyfr Eſther.*

# Doethineb Salomon.

## PENNOD. I.

Pa fodd y mae i ni geiſio Duw ai gael.

1.Bren.3.3. Eſa.56.1.

CErwch * gyfiawnder y rhai ydych yn barnu y ddaiar, yſtyriwch o'r Arglwydd yn ddaionus, a cheiſwch ef mewn puredd calon.

Deut.4.29. 1.Cron.15.4.

2 *O blegit efe a geir gan y rhai ni themptiant ef, ac a ymddengys i'r rhai ni anghredant iddo ef.

3 Meddyliau troſaus a ddidolant oddi wrth Dduw: eithr rhinwedd brofedic a gerydda yr ynfydion.

4 O herwydd nid aiff doethineb i galon ddrygionus, ac ni chyfannedda hi mewn corph caeth i bechod.

Ierem.4.22.

5 O blegit *ſanctaidd yſpryt addyſc a ffŷ oddi wrth dŵyll, ac a ymedu â meddyliau angall, ac a gyſtuddir lle y delo anwiredd.

Gal.5.22

6 Canys yſpryt yn caru dŷn yw doethineb, ac ni weryd hi yr hwn a gablo ai wefuſau, o blegit Duw ſydd dŷſt oi feddyliau ef, ac yn wir oolygudd ei galon ef, ac yn gwrando ei ymadroddion ef.

7 Yſpryt yr Arglwydd a lanwodd y bŷd, a'r hwn ſydd yn cynnal pob peth pie adnabod lleferydd.

8 Am hynny ni chaiff yr hwn a ddywedo bethau anghyfiawn lechu, ac nid aiff y farn a goſpo heibio iddo ef.

9 O blegit fe a geiſir meddyliau yr annuwiol allan, a'r Arglwydd a gaiff glywed ei eiriau ef, i goſpi ei anwireddau ef.

10 Canys cluſt eiddigus ſydd yn clywed y cwbl, fel na byddo ſŵn grwgnach yn guddiedic

11 Ymgedwch am hynny rhac grwgnach di-fudd, ac arbedwch enllibio a'ch tafod: o herwydd nid aiff ymadrodd dirgel yn ofer, a'r genau a ddywedo gelwydd ſydd yn lladd yr enaid.

12 Na chenfigennwch am farwolaeth yn amryfuſedd eich enioes, ac na thynnwch [arnoch] *ddiniſtr a gweithredoedd eich dwylo.

Deut.4.23.

13 O blegit ni wnaeth Duw farwolaeth, ac nid digrif gañddo ddiniſtr y byw.

Ezec.18 23. & 33.11.

14 Canys efe a wnaeth bob peth i fod, a chenhedlaethau y bŷd yn iachol heb fod meddiginiaeth ddiniſtriol ynddynt, na brenhiniaeth vffern yn y ddaiar.

15 Anfarwol hefyd yw cyfiawnder.

16 A'r rhai annuwiol ai cyrchaſant hi ai dwylo, ac ai hymadrodd: gan dybied ei bôd hi yn garedic y dihoenaſant hwy, ac hwy a wnaethant gyfammod â hi, am eu bôd yn haeddu bod yn gyfrannogion o honi hi.

## PEN. II.

Amcannion yr annuwiol yn erbyn y rhai duwiol.

Iob.7.1.& 41.1 Mat.22.23. 1.Cor.15.23.

OBlegit hwy a ddywedent ynddynt eu hun gan feddwl yn anghyfiawn, * berr a blîn yw ein hoes ni: yn niwedd dŷn nid oes meddiginiaeth, ac ni adnabuwyd neb a ddychwelodd o vffern.

2 Canys o honom ein hun y ganwyd ni, ac wedi hyn ni byddwn ni mwy na phe ni buaſem: oblegit mwg yw'r ffûn yn ein ffroenau ni, a gwreichionen yw 'r ymadrodd [yn dyfod] o ſymmudiad y galon.

3 Pan ddiffodder honno yr aiff y corph yn lludw, a'n hanadl a waſcerir fel awyr deneu.

4 A'n henw ni a anghofir mewn amſer, fel na feddylio neb am ein gweithredoedd ni, a'n henioes ni a aiff fel ôl niwl, ac fel y gwaſcerit cwmwl yr hwn a ymlidio pelydr yr haul, a'r hwn y byddo ei wrês ef drwm wrtho.

1.Cron.29.55. Pen.5.9.

5 *Ein hamſer ni ſydd fel mynediad cyſcod, ac nid oes rhwyſtr ar ein diwedd ni: canys efe a ſeliwyd, ac nid oes neb yn dychwelyd.

Eſai.22.13.& 56.12. 1.Cor.15.32.

6 *Deuwch gan hynny mwynhawn y da ſydd, ac arferwn yn bryſſyr yr hyn a feddwn megis mewn ieuengtid.

7 Ymlanwn â gwîn gwerthfawr, ac ag ennaint: ac na adawn i flodau yr awyr fyned heibio i ni.

8 Gwiſcwn goron o flodau rhôs cyn eu gweuwo.

9 Na fydded neb o honom ni heb ei wegi, gadawn ym mhob man arwyddion o'n llawenydd: o blegit hyn yw ein rhan ni, ac dymma [ein] dogn ni.

10 Gorthrymmwn y tlawd cyfiawn, nac arbedwn y weddw, ac na pharchwn hir-hoedloc henaint yr henaf-gwr.

11 Bydded ein cryfder ni yn lle cyfraith gyfiawn. Canys gwendid a geryddir fel peth di-fudd.

12 Bwriadwn frâd i'r cyfiawn am ei fod efe yn anfuddiol i ni: y mae efe hefyd yn erbyn ein gwaith ni, ac yn edliw y pechodau y rhai ydynt yn erbyn y gyfraith, ac yn datcân i ni y pechodau y rhai a ydynt yn erbyn ein haddyſc.

13 Y mae efe yn ymhonni fod ganddo wybodaeth o Dduw, ac yn ei alw ei hun yn blentyn i'r Arglwydd.

Ioan.7.7. Epheſ.5.13.

14 *Efe a aeth i'n ceryddu ni am ein meddyliau.

Eſa.53.3.

15 Trwm gennym ei weled ef: am fod ei fuchedd ef yn anhebyg i eraill, a bod ei ffyrdd ef ar ddull arall.

16 Y mae efe yn ein cyfrif ni yn blant o orderch, ac yn ymgadw rhag ein ffordd ni megis rhag peth aflan, y mae efe yn cyfrif diwedd y rhai cyfiawn yn ddedwydd, ac yn ymhonni bod

Duw yn dâd [iddo ef.]

17 Edrychwn ai gwîr ei eiriau ef, a mynnwn ŵybod yn ſicer beth a fydd ei ddiwedd ef.

Pſal 22.8.9. Math.27.43. 18 O blegit os * mab Duw yw 'r cyfiawn, efe ai cymmer ef, ac ai gwared ef o ddwylo ei wrthwyneb-wŷr.

Iercm.11.19. 19 * Holwn ef yn amharchus, ac yn gyſtuddiol, fel y caffom ŵybod ei addfwyneidd-dra ef, a phrofi ei ddioddefgarwch ef.

20 Barnwn ef i farwolaeth wradwyddus, o blegit fe a ſynnir arno ef medd efe.

21 Hyn a feddyliaſant hwy, ac hwy a gamgymmeraſant: o blegit eu drygioni ai dallodd hwynt.

22 Ac ni ŵybuant hwy ddirgeledigaethau Duw, ac ni obeithiaſant am wobr cyfiawnder, ac nid yſtyriaſant pa anrhydedd ſydd i'r eneidiau dihalogedic.

23 O blegit Duw a greodd ddŷn yn anllwgredic,* ac ai gwnaeth ef yn ddelw ei lun.

Gen.1.27.& 2.7.& 5.1. Eccleſ.17.2.3. Geneſ.3.1.2. 24 A * thrwy genfigen y cythrael y daeth marwolaeth i'r bŷd: a'r rhai a ydynt ar ei du ef ai caſant hi.

## PEN. III.

Diogelwch y duwiol 11 a thrueni yr annuwiol.

Deut.33.3. EIthr y mae * eneidiau y rhai cyfiawn yn llaw Duw, ac ni chyffwrdd cyſtudd â hwynt.

Pen.5.4. 2 Y * rhai angall oeddynt yn tybied eu bod hwynt yn meirw: niweidiol hefyd y cyfrifyd eu diwedd hwynt,

3 Ai myned oddi wrthym ni yn ddiniſtr: eithr y maent hwy mewn heddwch.

4 O blegit er eu cyſtuddio hwynt yng-olwg dynion, y * mae eu gobaith yn llawn tragywyddoldeb. Rhuf.8.24. 2.Cor.5.1. 1.Pet.1.13.

5 Ac lle y coſpir hwynt ychydig, hwynt a gânt lawer o fudd: * o blegit Duw ſydd yn eu profi hwynt, ac yn eu cael yn addas iddo ei hun. Exod.16.4. Deut.8.2.

6 Y mae efe yn eu profi hwynt fel aur yn y ffwrn, ac yn eu derbyn hwynt fel perffeith ffrwyth aberth.

Math.13.43. 7 Ac * yn amſer eu gofwy y diſcleiriant hwy, ac y rhedant fel gwreichion mewn ſofl.

Math.19.28. 1.Cor.6.2. 8 Hwynt * a farnant genhedloedd, ac a lywodraethant bobloedd, ai Harglwydd hwynt a deyrnaſa byth.

9 Y rhai a ymddyriedant iddo ef a ddeallant y gwirionedd, a'r rhai ffyddlon mewn cariad a arhoſant gyd ag ef: oblegit grâs a thrugaredd ſydd yn ei ſainct ef, ac fe a ſynnir ar ei etholedigion ef.

Math.25.41. 10 Eithr * yr annuwiol (fel y meddyliâſant) a gaſant goſpedigaeth, y rhai a ddiyſtyraſant y cyfiawn, ac a wrthodâſant yr Arglwydd.

11 Annedwydd yw yr hwn a ddiyſtyro ddoethineb ac addyſc: ac ofer yw eu gobaith: o blegit eu llafur a fydd ddiffrwyth, ai gwaith yn ddifudd.

12 Eu gwragedd ydynt yn angall, ai plant yn ddrygionus.

13 Melldigedic yw eu heppil hwynt. Canys dedwydd yw 'r amhlantadwy ddihalogedic yr hon ni phrofodd wely mewn pechod, hi * a gaiff ffrwyth pan ymweler a'r eneidiau. Eſa.56.5.

14 Felly yr diſpaidd yr hwn ni wnelo anwiredd ai ddwylo, ac ni feddwl ddrygioni yn erbyn yr Arglwydd: canys iddo ef y rhoddir dewiſol râd ffydd, a'r rhan gymeradwyaf yn nheml yr Arglwydd.

15 Enwoc yw ffrwyth poen dda, a gwreiddin ſynnwyr yr hon ni ddiflanna.

16 Eithr plant y godinebus fyddant amherffaith, a'r hâd [a gaffer] o wely anwir a ddiwreiddir.

17 O blegit os hir hoedloc fyddant ni wneir dim cyfrif o honynt hwy, ai henaint fydd amharchus yn y diwedd.

18 Eithr os yn fuan y diweddir hwynt ni chânt obaith, na chyſſur yn nydd cydnabyddiaeth.

19 O blegit aruthrol fydd diwedd cenhedlaeth anghyfiawn.

## PEN. IIII

Clôd y duwiol, ai diwedd: 19 Diwedd yr annuwiol.

GWell yw bod heb plant yn rhinweddol, o blegit tragywyddol fydd y coffa am hynny, ac hyſpys fydd i Dduw a dynion.

2 Dilynant hi pan fyddo preſennol, a dymunant hi pan elo ymmaith, y mae hi yn gorfoleddu wedi ei choroni byth am ennill o honi hi gynglwyſt dihalogedig wobr.

3 Eithr tŷlwythoc dyrfa yr annuwiol ni bydd fuddiol, ni ddwfn-wreiddia ychwaith yr hon ſydd yn dyfod o blanhigion baſtardaidd, ac ni ſeilir hi yn ſicer.

4 O blegit er iddi dyfu dros amſer yn wryſc, * gwynt ai ſymmud hwynt pan fyddant yn tyfu yn weniaid, ac hi a ddiwreiddir gan chwyrnder y gwynt. Math.7.19.

5 Yr amherffaith ganghennau a dorrir, ai ffrwyth hwynt a fydd difudd, heb fod yn addfed iw fwyta, nac yn gymmwys i ddim.

6 O herwydd y plant a genhedler' yn y gwelŷ anheilwng a fyddant dyſtion o anwiredd yn erbyn eu rhieni pan holer hwynt.

7 Eithr os diweddir y cyfiawn yn gynnar, efe a fydd mewn eſmwythdra.

8 O herwydd nid yr henaint hîr hoedloc ſydd barchedic, na'r hon a feſurir wrth rifedi blynyddoedd.

9 Synnwyr ſydd ben-llwydni i ddynion, a henaint oedranus yw buchedd ddihalog.

10 Yr hwn a * oedd gû gan Dduw a hoffwyd: a'r hwn oedd yn byw ym myſc pechaduriaid a fudwyd ymmaith. Gen.5.24. Hebr.11.5.

11 Efe a gippiwyd ymmaith rhag i ddrygioni newidio ei feddwl, ac i dwyll dwyllo ei enaid ef.

12 O blegit ofer raib a dywylla bethau da, ac anwadal chwant a ſymmud feddwl difalis.

13 Er iddo ef ddiweddu yn fuan, efe a gyflawnodd hir amſer.

14 Canys cu oedd ei enaid ef gan yr Arglwydd: am hynny yr aeth efe ar frys o fysc drygioni.

15 Y mae y bobl yn gweled ac heb ddeall, nac yſtyried, fod grâs a thrugaredd iw ſainct ef, ac ymgeledd iw etholedigion ef.

16 Pan fyddo y cyfiawn marw y mae efe yn rhoddi barn yn erbyn y rhai annuwiol byw: felly y mae yr ieuenctid a ddiweddir yn fuan yn erbyn hir hoedloc henaint yr anghyfiawn.

17 O blegit hwy a gânt weled diwedd y doeth, ac ni feddyliant beth a amcanâſant iddo ef, ac i ba beth y cadwodd yr Arglwydd ef yn ddiogel.

18 Gwelant a diyſtyrant, eithr yr Arglwydd [ai] gwatwar [hwynt.]

19 Wedi hyn hwy a ſyrchiant yn amharchedic, ac yn wradwyddus ym mysc y meirw byth, efe ai dryllia hwynt i lawr yn ddidrwſt, ac ai ſigl hwynt o'r ſylfaen, hwy a anrheithir hyd yr eithaf, ac a fyddant mewn gofid, ai coffadwriaeth hwynt a ddifethir.

20 Hwynt a ddeuant yn ofnus trwy feddwl am eu pechodau, ai hanwireddau ai ceryddant hwynt o flaen [eu hwynebau.]

## PEN. V.

1 Dioddefgarwch y rhai ffyddlon. 14 Ofered gobaith yr anffyddlon. 15 Dedwyddwch y duwiol.

YNa y ſaif y cyfiawn mewn hyder mawr o flaen ei orthrym-wŷr, a'r rhai a ddygâſant ei lafur ef.

2 Pan welant, hwy a gythryblir ag ofn aruthr, a ſynn fydd ganddynt ei iechydwriaeth ryfedd ef, ac hwy a ddywedant ynddynt eu hun yn edifeiriol,

3 Ie gan gyfyngder meddwl yr ocheneidiant ac y dywedant, dymma yr hwn yr oeddym ni gynt yn ei watwar, ac yn ei ddyfalu yn wradwyddus.

Pen.3.21. 4 *Nyni ffyliaid a feddyliaſom fod ei fuchedd ef yn ynfydrwydd, ai ddiwedd yn amharchus.

5 Pa fodd y cyfrifwyd ef ym mhlith meibion Duw, ac y mae ei ran ef ym mysc y ſainct?

6 Nyni gan hynny a gyfeiliornaſom o ffordd y gwirionedd, ac ni thywynnodd llewyrch cyfiawnder arnom ni, ac ni chododd haul cyfiawnder arnom ni.

7 Nyni a lanwyd o ffyrdd anwiredd a deſtruw, ac a rodiaſom trwy anialwch anhyffordd eithr nid adnabuom ni ffordd yr Arglwydd.

8 Pa fudd ſydd i ni o falchder? a pha lês a
1.Cron.29.15. wnaeth golud a ffrôſt i ni?

Pen.2.5. 9 Y pethau hynny oll * a aethant ymmaith fel cyſcod, ac fel cennad yn rhedeg.

10 Fel llong yn myned trwy 'r dwfr tonnoc, yr hon ni ellir caffael ei hôl wedi iddi fyned heibio, na'r llwybr yr aeth hi trwy 'r tonnau:

11 Neu megis ni cheir arwydd mynediad
*yr aderyn a ehedo trwy 'r awyr, eithr dyrnod yr Dihar.30.19.
eſcill ar y gwynt teneu yr hwn a gurir ac a rennir trwy nerth egniol gan guro yr adenydd a aiff trwodd:

12 Neu fel pan ſaether ſaeth at nôd, yr awyr wedi ei rhannu a waſcara iw lle, fel na wŷdder pa ffordd yr aeth hi.

13 Felly ninnau, pan ein ganwyd a ddarfuom:

14 Ac ni allaſom ddangos dim arwydd rhinwedd dda, eithr yn ein drygioni y darfuom ni.

15 O blegit * fel llwch yr hwn a arwain y Iob.8.9.
gwynt, ac fel ewyn teneu yr hwn a yrr y dem- Pſal.1.4.
heſtl, ac fel y gwaſcerir mwg gan wynt, neu fel & 143 4.
cof am ymdeithudd tros vn diwrnod, yr aiff go- Dihar.10.25.
baith yr annuwiol ymmaith. & 11.7.
Iam.1.10.11.

16 Eithr y mae y cyfiawn yn byw byth, ac yn yr Arglwydd y mae eu gwobr hwynt, a chan y Goruchaf y mae gofal am danynt hwy.

17 Am hynny y cânt hwy ar law yr Arglwydd deyrnas hardd, a thoron deg, oblegit efe ai gorchguddia hwynt ai ddeheu-law, ac ai hamddeffyn hwynt ai fraich.

18 Efe a gymmer ei eiddigedd yn lle pob arfogaeth, ac a arfoga y creaduriaid i ddial ar y gelynnion.

19 Efe a wiſc gyfiawnder yn ddwyfronnec, ac a wiſc farnedigaeth ddiragrith yn lle helmet.

20 Efe a gymmer ſancteiddrwydd yn darian, yr hwn ni ellir ei orchfygu.

21 Efe a hoga ei ddigter toſt yn gleddyf, ar bŷd a ryfela gyd ag ef yn erbyn ffyliaid.

22 Bylit y mellt a ânt yn iniawn, ac a gyrchant at y nôd, megis o annelog fŵa y cwmwlau.

23 A chan ei ddigofaint ef (yr hwn ſydd yn arfer o daflu meini) y bwrir cenllyſc yn llawn: dwfr y môr a lidiant wrthynt hwy, a'r afonydd a lifant yn doſt.

24 Gwynt nerthol a ſaif yn eu herbyn hwynt, ac ai nithia hwynt fel tro-wynt: ie anwiredd a ddifwyna yr holl dir, a drygioni a ddiniſtria eiſteddfeudd y cedyrn.

## PEN. VI.

Cyngor i bennaethiaid a ſwyddogion.

GWrandewch gan hynny (o frenhinoedd) a dehallwch, oh farn-wŷr eithafedd y ddaiar cymmerwch ddyſc.

2 Rhoddwch glust llywodraeth-wŷr y dyrfa, a'r rhai a ydych feilchion o werin cenhedloedd.

3 O blegit y cryfder * a gawſoch chwi gan Rhuf.13.2.
yr Arglwydd, a'r gallu gan y Goruchaf, yr hwn a ymofyn am eich gweithredoedd, ac a chwilia

allan eich meddyliau chwi.

4 Am i chwi yn weinidogion oi frenhiniaeth ef na farnaſoch yn iniawn, ac na chadwaſoch y gyfraith, ac na rodiaſoch yn ôl ewyllys Duw,

5 Yn aruthr ac yn ebrwydd y daw efe arnoch chwi, o herwydd barn doſt ſydd i'r llywodraeth-wŷr.

6 Y lleiaf a ddichon gael maddeuant yn drugarog, a'r cedyrn a gyſtuddir yn gadarn.

7 O blegit yr hwn ſydd Arglwydd ar bawb * nid yſtyr wyneb, ac ni ofna fawredd: canys efe a wnaeth y mawr a'r bychan, ac a ofala yr un modd am bawb.

Deut.10.17.
2.Cron.19.7.
Iob.34.19.
Eccl.35.12.16.
Act.10.34.
Rhuf.2.11.
Gal.2.6.
Ephes.6.9.
Coloſ.3.25.
1.Pet.1.17.

8 Ond ar y cedyrn y daw hawl gadarn.

9 Wrthych chwi am hynny frenhinoedd y mae fyng-eiriau mau fi, fel y dyſcoch chwi ddoethineb heb ballu.

10 O blegit y rhai a gadwant y pethau ſanctaidd yn ſanctaidd a ſancteiddir, a'r rhai ai dyſcant hwy a gânt beth iw atteb troſtynt eu hun.

11 Chwennychwch fyng-eiriau mau fi, dymunwch [hwynt,] ac chwi a fyddwch ddyſcedig.

12 Doethineb ſydd ddiſclaer, ac ni dderfydd: hawdd y canfyddir hi gan y rhai ai hoffant, a hawdd y ceir hi gan y rhai ai ceiſiant hi.

13 Y mae hi yn myned i gyfarfod y rhai ai chwennychant, fel yr adwaener hi yn gynt.

14 Nid rhaid poen i'r hwn a gyfodo yn foreu am dani hi: o blegit efe ai caiff hi yn eiſtedd wrth ei ddryſſau.

15 Canys perffeithrwydd ſynnwyr yw meddwl am dani hi, a'r hwn a wilio am dani hi a fydd ddiofal yn ebrwydd.

16 O blegit y mae hi yn myned o amgylch, dan geiſio y rhai ydynt deilwng o honi hi, y mae hi yn ymddangos yn llawen iddynt hwy ar bob llwybr, ac yn cyfarfod â hwynt ar bob meddwl.

17 Ei dechreuad hi yw gwir chwant i addyſc.

18 Gofal am addyſc yw cariad, a chariad yw ceidwad ei chyfreithiau hi, a ſiccrwydd o anllygredigaeth yw gwrando ar y gyfraith.

19 Anllygredigaeth ſydd yn peri bod yn agos i Dduw.

20 O blegit chwant doethineb ſydd yn dwyn i'r deyrnas.

21 Am hynny ô frenhinoedd y bobl os melus gennych orſeddfeingc, a theyrn-wielyn, anrhydeddwch ddoethineb fel y teyrnaſoch byth.

22 Eithr beth yw doethineb, a pha fodd y gwnaed hi: Mi a fynegaf ac ni chuddiaf rhagoch chwi y dirgelwch: eithr o ddechreuad ei genedigaeth hi yr òlrheiniaf, ac y goſodaf ei gwybodaeth hi yn amlwg, ac nid âf fi tros y gwirionedd.

23 Ac ni chydymdeithiaf fi â chenfigen ddihoenedic, oblegit ni bydd y neb ai gwenel yn gyfrannog o ddoethineb.

24 Iechydwriaeth y byd yw llawer o ddoethion, ac attec y bobl yw brenin call.

25 Am hynny cymmerwch addyſc trwy fyng-eiriau mau fi, ac chwi a gewch fudd.

## PEN. VII.

Y rhagor rhwng doethineb a phethau eraill.

DYn marwôl ydwyf finne, un fodd a phawb [eraill,] ac yn dyfod o hilogaeth yr hwn a luniwyd gyntaf o'r ddaiar.

2 Ac yng-hroth fy mam mi a luniwyd yn gnawd o fewn amſer deng-mis, * gan geulo o hâd gŵr mewn gwaed, ac o drythyllwch yn dyfod yng-hŷd â chwſc.

Iob. 10.10.11.

3 A phan i'm ganwyd mi a dynnais attaf yr awyr cyffredin i ni [oll,] ac a ſyrthiais ar yr un naturiaeth ddaiar, yn wylofain y rhoddais i y llais cyntaf fel pawb [eraill.]

4 Mewn cawiau, a thrwy ofal i'm magwyd.

5 Ni chafodd un brenin amgen ddechreuad iw enedigaeth.

6 * Un fath ddyfodiad i fywyd. ſydd i bawb ac un fath fynediad allan.

Iob. 1.21.
2.Tim.6.7.

7 Am hynny mi a ddymunais, ac fe a roddwyd i mi ddeall, mi a waeddais ac fe a ddaeth yſpryd doethineb i mi.

8 Mi ai cyfrifais hi yn well na theyrn-wielyn, ac na gorſeddfeudd: ac ni chyfrifais i ddim golud yn gyſtal â hi,

9 * Ni chyffelybais i feini gwerthfawr iddi hi. Canys graienyn bychan yw pob aur yn ei golwg hi, ac fel clai y cyfrifir arian oi blaen hi.

Iob 28.15.

10 Hoffais hi yn fwy nag iechyd, ac na thegwch: ac mi a arfaethais ei chael hi yn lle goleuni, oblegit ni fachluda y llewyrch [a ddaw] o honi hi.

11 * Pob daioni a ddaeth i mi gyd ag y hi, a golud anifeiriol trwy ei dwylo hi.

1.Bren.3.13.
Matth.6.33.

12 Mi a lawenychais am bob un, am fod doethineb yn eu blaenori hwynt, ond ni ŵyddwn i mai hi oedd eu mam hwynt.

13 Yn ddidwyll y dyſcais ac yn ddigenfigen yr ydwyf yn treuthu, heb gelu ei golud hi.

14 Diball dryſſor yw hi yr hwn pwy bynnac ai harfero y maent hwy yn ymgyfeillach â Duw, gan fod yn ganmoladwy trwy y dõniau y rhai [a geir] trwy addyſc.

15 Duw a roddes i mi ddywedyd yn ôl fy meddwl, a meddwl yn addas am y pethau a roddwyd, oblegit efe yw pob un o'r ddau, awdur doethineb, a chyfarwyddwr y doethion.

16 Yr ydym ni a'n geiriau yn ei law ef, felly y mae pob ſynnwyr a gwybodaeth gwaith.

17 Canys efe a roddes i mi wir wybodaeth am y pethau a ydynt: i wybod cyfanſoddiad y byd a gwneuthuriad yr elementau.

18 [Felly] dechreu, diwedd, a chanol yr amſerau.

19 Newid arſer, a chyfnewid amſer, amgylchiad y flwyddyn, a goſodiad y ſêr.

20 Naturiaethau anifeiliaid, llid bwyſtfilod, nerth gwyntoedd, rhagoriaeth planhigion a rhinweddau gwraidd.

21 Beth bynnac ſydd nac yn ddirgel, nac yn amlwg, mi ai gwn: o blegit doethineb yr hon a wnaeth y cwbl a'm dyſcodd i.

22 O herwydd y mae ynddi hi yſpryd deallgar, ſanctaidd, unic, amryw, teneu, cyflym, diſclaer, dihalogedic, eglur, anniodefadwy, yn hoffi daioni, yn llym, yn barod, yn dda ei weithredoedd.

23 Yn caru dŷn, yn ddianwadal, yn ſicr, yn ddiofal, yn holl-alluoc, yn edrych am bob peth, ac yn myned trwy bob yſpryd deallgar, pur, teneu.

24 Bywioccach yw doethineb na dim bywioc, hi a aiff, ac a dreiddia trwy bob peth o herwydd ei phuredd.

25 Canys angerdd gallu Duw yw hi, a phur ddiferiad oddi wrth ogoniant yr Holl-alluoc: am hynny ni ſyrth dim halogedic arni hi.

26 Canys * diſclaerdeb goleuni tragywyddôl yw hi, a difrycheulyd ddrŷch gweithrediad Duw, a delw ei ddaioni ef. Heb.1.3.

27 Er nad yw hi ond un, hi a ddichon bob dim, ac yn aros ynddi ei hun y mae hi yn adnewyddu pob dim, a thrwy ddeſcin trwy'r oeſoedd ar yr eneidiau ſanctaidd y mae hi yn darpâr caredigion, a phrophwydi i Dduw.

28 Nid hoff gan Dduw ddim, ond yr hwn a gyfanneddo gyd â doethineb.

29 O blegit y mae hi yn decach na'r haul, ac yn uwch na goſodiad y ſêr, os cyſtedlir hi âr goleuni, gorel y ceir hi.

30 Canys y nôs a ddaw arno ef, ond ni orchfyga y drygioni mo ddoethineb.

## PEN. VIII

Amryw ffrwythau doethineb.

Y Mae hi'n cyrheuddyd o gwrr bwygilidd yn rymmuſol: ac yn cyfleu pob peth yn fuddiol.

2 Hon a gerais i ac a geiſiais o'm hieuengtid, ac a geiſiais ei phriodi yn ddyweddi i mi: canys cu oedd gennif ei thegwch hi.

3 Y mae hi yn gwneuthur ei bonedd yn ogoneddus trwy gyttal gyd â Duw, a bod Arglwydd pob peth yn hoff ganddo hi.

4 Athro yw hi ar athrawiaeth Duw, ac hi ſydd yn dewis ei weithredoedd ef.

5 Os meddiant dymunol yn y bywyd [dŷn] yw cyfoeth, beth gyfoethogach na doethineb, yr hon ſydd yn gwneuthur pob peth?

6 Ac os ſynnwyr a wna, pwy un o'r pethau ydynt a wna yn well na hi?

7 Os cyfiawnder a hoffa neb, rhinweddau da yw ei llafur hi: canys y mae hi yn dyſcu ſobreiddrwydd, a ſynnwyr, cyfiawnder, a gwroldeb: na pha rai nid oes dim mwy ei fudd i ddynion yn [eu] bywyd.

8 Os chwennych neb gael ſicrwydd gwybodaeth lawer hi a ŵyr y pethau gynt, ac a ddychymig y pethau a fyddant, y mae hi yn gwybod dichellion geiriau, ac yn medru dirnad cweſtiwnau caled, ac yn gwybod yr arwyddion, a'r rhyfeddodau, a'r hyn a ddamwain mewn tymmor, ac amſer cyn eu dyfod.

9 Am hynny y parfaethais ddwyn hon i gyttal â mi, gan wybod y cynghore hi i mi bethau da, ac i'm diddane fi mewn gofal a thriſtwch.

10 Trwyddi hi y câf fi barch yn y dyrfa, ac anrhydedd gan henuriaid, a minne yn ieuangc.

11 Y ceir fi yn gyflym mewn barn, ac y byddaf fi rhyfedd yng-olwg cedyrn:

12 Hwy a arhoſant wrthif tra tawyf, ac y gwrandawant tra llefarwyf, ac y goſodant eu dwylo ar eu geneuau os fi a draethwyf lawer:

13 Trwyddi hi y caf fi dragywyddoldeb, ac y gadawaf goffadwriaeth tragywyddol i'r rhai a fyddant ar fy ôl i.

14 Y llywodraethaf fi y bobl, ac y daroſtyngir cenhedloedd i mi.

15 Teirannaid aruthrol a'm hofnant i, ym myſc y gwerin i'm gwelir i yn dda, ac yn y rhyfel yn gryf, pan elwyf fi i'm tŷ, mi a gŷd orphwyſaf gyd â hi.

16 O blegit nid oes chwerwder wrth gyttal â hi, na blinder wrth gyd fyw â hi, ond llawenydd a gorfoledd.

17 Wrth feddwl hyn ynof fy hûn, ac wrth goſio yn fyng-halon mai yng-harennydd doethineb y mae tragywyddoldeb,

18 A bod hyfrydwch daionus yn ei chyfeillach hi, a golud dihall yn llafur ei dwylo hi, a bod ſynnwyr o ymarfer ag ymddiddan â hi, a bod parch wrth fod yn gyfrannog o'i hymadroddion hi, mi a geiſiais o amgylch pa fodd y cawn hi attaf.

19 Yroeddwn i yn fachgen o athrylith dda, ac a gawſwn yſprydoliaeth dda.

20 Ie yn hytrach wedi i mi ddyfod yn dda y deuthwn i gorph dihalogedic.

21 Ond pan wybum nachawn hi oni rodde Duw hi, ac mai ſynnwyr oedd wybod rhodd pwy a oedd hi, mi a ddaethym at Dduw, ac a ymbiliais, ac a ddywedais o'm holl galon:

## PEN. IX.

Gweddi Salomon am ddoethineb.

Oh Dduw y tadau, ac Arglwydd y drugaredd, yr hwn a wnaethoſt bob peth a'th air.

2 A thrwy dy ddoethineb a oſodaiſt ddŷn * i lywodraethu ar y creaduriaid a wnaethoſt ti, Gen.1.28.

3 Ac i lywodraethu y byd yn iniawn, ac yn gyfiawn, ac i roddi barn a meddwl iniawn:

*4 * Dod ti i mi ddoethineb yr hon ſydd yn 1.Bren.3.9.

eiſtedd ar dy orſeddfeudd di, ac na wrthot fi yn blentyn i ti.

Pſal.116.16. 5 Canys myfi * dy wâs a mab dy law forwyn ydwyf ddyn lleſc, ac o amſer byr, ac yn llai mewn deall barnedigaeth a chyfraith.

6 O blegit yr hwn ſydd berffeithiaf ym myſc meibion dynion a gyfrifir yn ddiddym os ymmaith y bydd y ddoethineb yr hon ſydd oddi wrthit ti.

1.Cron.28.5. 2.Cron 1.9. 7 Ti am dewiſaiſt i yn frenin ar dy bobl, ac yn farn-wr ar dy feibion a'th ferched.

8 Dywedaiſt am adailiadu teml ar dy fynydd ſanctaidd, ac allor yn ninas dy breſwylfod, [ſef] portreiad y tabernacl ſanctaidd, yr hwn a ddarperaiſt ti o'r dechreuad.

Dihar.8.22. Ioan.1.1.2.3. 9 A chyd â chi yr oedd doethineb yr hon a adwaene dy weithredoedd di, ac a oedd breſennol pan wnaethoſt di y bŷd, ac a ŵyr beth ſydd yn rhyglyddu bodd yn dy olwg di, a pheth ſydd iniawn wrth dy orchymynnion di.

10 Anfon hi o'th nefoedd ſanctaidd, a gyrr hi o orſeddfaingc dy ogoniant, fel y cymero hi boen yn breſennol gyda â mi, ac y gwypwyf fi beth ſydd fodlon gennit ti.

11 Canys y mae hi yn gŵybod, ac yn deall pob peth: ac hi a'm harwain i yn fyng-weithredoedd yn ſobr, ac a'm ceidw i yn ei gogoniant hi.

12 Felly y bydd fyng-weithredoedd i yn gymmeradwy, ac y barnaf fi dy bobl di yn gyfiawn, ac y byddaf fi addas i orſeddfaingc fy nhâd.

Eſa.40.13. Rhuf.11.34. 1.Cor.2.16. 13 Canys pa ddŷn a ŵyr gyfrinach Duw? a phwy a feddwl beth a ewyllyſia Duw?

14 O blegit ofnus yw meddyliau dynion, ac anſicer yw ein hamcannion ni.

15 Canys y corph llwgredic ſydd yn drwm i'r enaid, a'r breſwylfod ddaiarol ſydd yn faich i'r meddwl, yr hwn ſydd yn gofalu am lawer o bethau.

16 A phrin y medrwn ni ddeall y pethau ydynt ar y ddaiar, a thrwy boen yr ydym ni yn cael y pethau ydynt yn ein dwylo ni: pwy gan hynny a ôlrhain allan y pethau ydynt yn y nefoedd?

17 Ie pwy a ŵyr dy gyfrinach di oddieithr i ti roddi doethineb, ac anfon dy Yſpryd ſanctaidd o'r uchelder?

18 Felly yr inionir ffyrdd y rhai ydynt ar y ddaiar, ac y ddyſcir i ddynion y pethau a'th fodlonant di, a thrwy ddoethineb y cadwyd hwynt.

## PEN. X.

Bod ymwared y rhai duwiol yng-hyd a dialedd eu gelynnion hwynt yn dyfod trwy ddoethineb.

HOn a gadwodd yr hwn a luniwyd yn gyntaf i fôd yn dâd i'r bŷd pan grewyd ef yn unic.

Gen.2.20. 2 Ac hi ai gwaredodd ef oi fai; ac * a roddes iddo ef nerth i lywodraethu pob peth.

Gen.4.8. 3 A * phan ymadawodd yr anghyfiawn â hi yn ei ddigter, efe a fethodd trwy lid i ladd ei frawd.

Gen.7.21. 4 Er mwyn * yr hwn y boddwyd y ddaiar: eithr doethineb drachefn ai cadwodd hi gan lywodraethu y cyfiawn ag ychydig bren.

Gen.11.1. Gen.12.1. 5 Hi hefyd yng-hyd-undeb drygioni y cenhedloedd cymyſcadwy a adnabu y cyfiawn, ac ai cadwodd ef yn ddifai ger bron Duw, ac yn ei fawr gariad iw fab, hi ai cadwodd ef yn gryf.

6 Hi a waredodd y cyfiawn oddi wrth yr annuwiol colledic, * pan ffôdd efe rhag y tân a Gen.19.16. ddeſcynnodd ar y pump dinas.

7 Am yr hwn ddrygioni y mae y diffaethdir myglyd a'r planwŷdd y rhai ydynt yn ffrwytho mewn pryd amherffaith yn deſtiolaeth, felly y mae y golofn halen yn ſefyll yn goffadwriaeth am yr enaid anghredadwy.

8 O blegit y rhai a ddiyſtyraſant ddoethineb ni chawſant yn unic y niwed hyn, ſef bod heb wybod pethau da: eithr hwy a adawſant goffadwriaeth i'r bŷd oi ffolineb, ac ni allant lechu yn y pethau a wnaethant yn amryfus.

9 Eithr y rhai ai parchent hi a waredodd doethineb o boen.

10 Mewn llwybrau iniawn yr arweiniodd hi y cyfiawn * yr hwn oedd yn ffoi rhag Gen.28.5. digofaint ei frawd, hi a ddangoſodd iddo ef deyrnas Duw, ac a roddes iddo ef wybodaeth am bethau ſanctaidd, hi a gyfoethogodd ei lafur ef, ac a gynnyddodd [ffrwyth] ei boen ef.

11 Yr oedd hi yn breſennol pan oedd y rhai oeddynt drech nag ef mor gybydd, ac hi ai cyfoethogodd ef.

12 Hi ai cadwodd ef rhag ei elynnion, ac ai diofalodd ef oddi wrth ei gynllwyn-wŷr, ac mewn ymdrech cryf hi a roddes y maes iddo ef fel y galle efe wybod fôd duwioldeb yn gryfach nâ dim.

Gen.37.28.& 39.7. Act.7.10. 13 Ni adawodd hi y cyfiawn * yr hwn a werthwyd, eithr hi ai achubodd ef rhag pechod, ac a aeth i waered gyd ag ef i'r carchar.

14 Ie ni adawodd hi ef yn ei rwymau hyd oni ddygodd hi iddo ef deyrn-wialen brenhiniaeth, a llywodraeth ar ei orthrymm-wŷr, hi a ddangoſodd fôd y rhai oeddynt yn beio arno ef yn gelwyddoc, ac a roddes iddo ef ogoniant tragywyddol.

Exod.1.10.& 12.42. 15 Hon * a waredodd y bobl ſanctaidd, a'r hâd difai oddi wrth y genhedlaeth orthrymmus.

16 Hi a aeth i mewn i wâs yr Arglwydd, ac a ſafodd yn erbyn brenhinoedd aruthr * Exod.5.1. gan [wneuthur] ryfeddodau a gwrthiau.

17 Hi a roddes i'r rhai cyfiawn wobr ſancteiddrwydd eu llafur, hi ai harweiniodd hwynt mewn ffordd ryfedd, ac oedd yn orchudd iddynt hwy y dydd, ac yn fflam o ſêr y nos.

18 Hi * ai dug hwynt trwy 'r môr coch, ac ai harweiniodd hwynt trwy ddwfr mawr.

Exo.14.21.22. Pſal.78.13.

19 Ac hi a foddodd eu gelynion hwynt, ac ai dug hwynt o waelod y dyfnder.

20 Am hynny y rhai cyfiawn a yſpeiliaſant y rhai annuwiol, ac a ddadcanaſant dy enw ſanctaidd di (ô Arglwydd) ac a glôdforaſant o unfrŷd dy law orchfygus di.

21 O blegit doethineb a agorodd enau y rhai mudion, ac a oſododd dafodau plant bychain yn ymmadroddus.

## PEN. XI.

1 Y gwrthiau a wnaed er Iſrael. 13 Dialedd Duw âr bechaduriaid. 28 Mawr allu a thrugaredd Dduw.

HI a gyfarwyddodd eu gweithredoedd hwynt yn llaw y prophwyd ſanctaidd.

2 Hwy a * ymdeithiaſant trwy y diffaethwch anghyfanneddol, ac a oſodaſant eu pebyll mewn lleoedd anhyffordd.

Exod.16.1.

3 Hwy * a ſafaſant yn erbyn y rhai a ryfelent iw herbyn hwynt, ac a ddialaſant ar eu gelynion.

Exo.17.10.11.

4 Daeth * ſyched arnynt hwy, ac hwy a alwaſant arnat ti, ac fe a roddwyd iddynt hwy ddwfr o'r graig ddibin, a meddiginiaeth rhag ſyched o'r maen caled.

Num.10.18.

5 Canys trwy y pethau y cyſtuddiwyd eu gelynion hwynt,

6 Trwy 'r un pethau y cawſant hwy fudd, pan oedd eiſieu arnynt.

7 Yn lle y ffynnon o afon redegog wedi ei chythryblu â gwaed, gwaedlyd yn gerydd i'r gorchymyn am ladd y plant,

8 Y rhoddaiſt di iddynt hwy amlder o ddwfr heb ei obeitho.

9 Gan ddangos trwy y ſyched a oedd yr amſer hwnnw, pa fodd y cyſtuddieſit ti y gwrthwyneb-wŷr.

10 O blegit pan demtiwyd hwynt (er eu dyſcu hwynt yn drugarog) hwy a wybuont pa fodd y dialeddwyd, y rhai annuwiol a farnwyd mewn digofaint.

11 Y rhai hyn a brofaiſt ti fel tâd gan eu rhybuddio, a'r lleill a holaiſt ti fel brenin toſt gân eu barnu yn euog.

12 Y rhai yn abſennol, ac yn preſennol a gyſtuddiwyd yr un modd.

13 O blegit triſtwch a goſid dau ddyblyg a ddaeth arnynt hwy wrth goffa y pethau a aethent heibio.

14 Canys pan glywſant hwy wrth eu cyſtudd ei hun gael o honynt hwy fudd, hwy a feddyliaſant am yr Arglwydd.

15 O blegit yr hwn a wadaſent hwy yn watwarus gynt wedi ei fwrw allan ai daflu ymmaith, a fu ryfedd ganddynt hwy yn niwedd damwain, gan fod arnynt ſyched amgen na'r rhai cyfiawn.

16 Am eu annehallgar feddyliau anghyfiawn hwynt trwy y rhai yn amryfus y gwaſanaethaſant ymluſciaid anrheſymmol a bwyſtfilod gwael, yr anfonaiſt lawer o anifeiliaid heb reſwm i ddial arnynt hwy:

17 Fel y gallent hwy wybod mai trwy y pethau y pecha neb y cyſtuddir ef.

18 O blegit ni rwyſtrwyd dy law yr hon ſydd holl alluog ac a wnaeth y bŷd * o afluniaidd ddefnydd fel na allaſe anfon arnynt hwy lawer o eirth, a llewod hŷf,

Gene.1.1. Leſit.26.22. Iere.8.16.17. Pen.16.1.

19 Neu anifeiliaid dieithr llawn o ddig diattrec: neu yn anadlu anadl tanllyd, neu yn gyrru allan dwrwf mŵg yr hwn a drŷ y gwynt: neu wreichion aruthrol oi llygaid fel mellt.

20 Y rhai ni alle eu niwed hwynt yn unic eu diniſtrio hwy, eithr eu golwg hwynt hefyd eu difetha hwynt trwy yrru dychryn.

21 Heb law hyn hefyd trwy un awel y gallent hwy ſyrthio, wrth gael eu hymlid gan ddialedd, ai gwaſcaru trwy yſpryt dy nerth di: eithr tydi a drefnaiſt bob peth wrth feſur, rhif, a phwys.

22 Bob amſer yr ydwyt ti yn gallu llawer, a phwy a wrthwyneba nerth dy fraich di?

23 O blegit megis tippin allan o gloriannau yw 'r holl fŷd, ac megis defnyn o wlith y boreu yr hwn a ddeſcyn ar y ddaiar.

24 Ond yr ydwyt ti yn trugarhau wrth bob peth, oblegit ti a elli bob dim, ac yr ydwyt heb gymmeryd arnat weled pechodau dynion fel yr edifarhaent hwy.

25 Y mae yn hoff gennit ti bob peth a'r y ſydd, ac nid ffiaidd gennit ddim a'r a wnaethoſt ie ni wnaethoſt ti ddim a'r a oedd gâs gennit ti.

26 Yr ydwyt ti yn arbed pob peth: o blegit yr eiddot ti ydynt hwy ô Arglwydd yr hwn ſydd yn caru eneidiau.

## PEN. XII.

1 Maint trugaredd Duw. 44 A phuredd ei weuthredoedd ef. 19 Yr ennyd y mae Duw yn ei rhoddi i bechaduriaid i edifarhau.

Y Mae dy yſpryd anllygredic di ym mhob peth.

2 Am hynny yr ydwyt ti yn ceryddu ychydig ar y rhai a ſyrthiant, ac yn eu rhybuddio trwy alw iw coff hwynt y pethau y pechaſant hwy ynddynt, fel yr ymadawent hwy â drygioni, ac y credent ynot ti.

3 Eithr * câs oedd gennit ti hên breſwylwŷr y tir ſanctaidd,

Deut.8.3. & 12.31. & 18.12.

4 Am iddynt hwy wneuthur câs weithredoedd, [ſef] ſwynion, ac aberthau halogedic,

5 Anrhugarog leiddiaid plant oeddynt: a bwytawŷr perfedd cnawd dynion, a thywalltwŷr gwaed oeddynt mewn gwleddau ffiaidd, ac offeiriaid amhwyllus oedd ganddynt.

6 Ar tadau oeddynt lofruddiaid pennaf e-

neidiau y rhai digymmorth, y rhai a fynnit ti eu difetha drwy ddwylo ein tadau.

7 Fel y galle y wlâd yr hon ſydd guaf gennit ti gael plant Duw iw chyfaneddu yn addas.

Exod.23.2. Deut.2.22. 8 Eithr *ti a arbedaiſt y rhai hyn megis dynion, ac a anfonaiſt gaccwn o flaen dy lu iw goreſcyn hwynt bob ychydig.

9 Nid o herwydd na's galleſit ti ddaroſtwng yr annuwiol i'r rhai cyfiawn trwy ryfel, neu eu difetha hwynt ar unwaith trwy fwyſt-filod creulon neu air caled:

10 Eithr gan farnu o feſur ychydig ac ychydig ti a roddaiſt le i edifeirwch, pā nad oedd anhyſpys i ti fod eu cenhedlaeth hwynt yn ddrygionus, ai drygioni yn gynhwynol, ac na newidie eu meddwl hwynt byth.

11 Canys hiliogaeth felldigedic oeddent hwy: ond ni rhoddaiſt ti ddiogelwch am y pethau a bechent hwy er ofn neb.

Rhuf.9.20. 12 O blegit pwy a ddywed, *Beth a wnaethoſt ti? neu pwy a wrthwyneba dy farn di? pwy a gwyna rhagot ti am y cenhedloedd a ddifethwyd y rhai a wnaethoſt ti? neu pwy a ddaw i ſefyll i'th erbyn i ddial tros ddyniō anghyfiawn?

1.Pet.5.7. 13 Nid oes Duw ond tydi *yn gofalu am bob peth, i ddangos nad wyt yn barnu yn anghyfiawn.

14 Nid oes na brenin na thyrn a ddichō ruthu llygaid arnat ti, am y rhai a gyſtuddiaiſt ti.

Iob.10.2.3. 15 Am dy fod ti yn gyfiawn, yr ydwyt ti yn trefnu pob peth yn gyfiawn *gan gyfrif yn beth amherthynol i'th allu di roddi barn yn erbyn yr hwn ni ddyle ei goſpi.

16 O blegit dechreuad cyfiawnder yw dy nerth di: a'th fod ti yn Arglwydd ar bob peth, ſydd yn peri it arbed pob peth.

17 Pan ni chredir dy fod ti yn dangos nerth yn ôl perffeithrwydd dy allu, yr ydwyt ti yn ceryddu hyder y rhai cyfarwydd.

18 Yn gyfiawn yr ydwyt ti yn barnu ô Arglwydd nerth, a thrwy lawer o arbed yr ydwyt ti yn ein llywodraethu ni: o blegit y mae gennit ti allu pan fynnech.

19 A thi a ddyſcaiſt dy bobl wrth y cyfryw weithredoedd fod yn rhaid i'r cyfiawn fod yn gu ganddo ddŷn, a thi a wnaethoſt dy blant yn dda eu gobaith: o herwydd i ti roddi edifeirwch am bechodau.

20 Os mor yſtyriol y cyſtuddiaiſt ti elynion dy weiſiō y rhai a ddylent farwolaeth gan roddi amſer a modd i newidio oddi wrth ddrygioni,

21 A pha ofal y bernaiſt ti dy blant dy hun, i rieni pa rai y rhoddaiſt di lwon, ac ammodau am addewidion da?

22 Am hynny lle yr ydwyt ti yn ein coſpi ni yr ydwyt ti yn ffrewyllu ein gelynion ni yn ddêng-mil mwy, fel pan farnom ni, y gallom ni feddwl am dy ddaioni di, a phan ein barner ddiſgwil am drugaredd.

23 Am yr hwn beth y roddaiſt ti ddialedd ar y rhai a fuāt fyw'n anghyfiawn mewn buchedd angall, trwy eu ffiaidd weithredoedd eu hun.

Pen.11.13.16. Rhuf.1.23. 24 Ac *hwy a gyfeiliornâſant yn ffordd cyfeiliorni ym mhellach, gan gymeryd y rhai oeddynt amharchus o aniſeiliaid eu gelynion yn lle duwiau wedi eu twyllo fel plant angall.

25 Am hynny yr anfonaiſt ti dy farnedigaeth [i fod] yn watwargedd iddynt hwy megis i blant direſwm.

26 Y rhai ni chymerant rybydd trwy y gwatwarus gerydd [hyn,] a gânt brofi addas farnedigaeth Duw.

27 O blegit y rhai yr oeddynt hwy yn grwgnach wrth ddioddef troſtynt, ſef y rhai a dybiaſent hwy eu bod yn dduwiau, pan welſant hwy eu coſpi â'r rhai hynny, hwy a gydnabaſant mae gwir Dduw oedd yr hwn a wadaſent hwy eu bod yn ei adnabod, am hynny y daeth dygyn golledigaeth arnynt hwy.

## PEN. XIII.

Ofered pob peth ond adnabod Duw. 10 A bod gau dduwiau yn oferaf dim.

Rhuf.1.19. Ofer o naturiaeth yw'r dynion oll y rhai y mae iddynt eiſieu adnabod Duw* heb fedru adnabod yr hwn ſydd, wrth y pethau da a welir: ac ni adnabuant y gweithudd, wrth yſtyried y gwaith.

Deut.4.19. & 17.3. 2 Eithr hwy *a dybiaſant mai y tân, neu yr gwynt, neu yr awyr buan, neu gylch o ſêr, neu ddwfr chwyrn, neu oleuni y nefoedd oeddynt dduwiau yn llywodraethu y byd.

3 Os am fod yn hyfryd ganddynt degwch y rhai hyn y cymmeraſant hwynt yn lle duwiau, gwybyddant pa faint gwell yw yr Arglwydd o blegit yr hwn ſydd o naturiaeth yn awdur tegwch a greawdd y pethau hyn.

4 Os eu gallu ai gweithrediad ſydd ryfedd ganddynt hwy, yſtyriant pa faint mwy yw gallu yr hwn ai gwnaeth hwynt.

5 Wrth faint, a thegwch y pethau a grewyd yn gymmwys, y gwelir yr hwn ai gwnaeth hwynt.

6 Er hynny bai bychan ſydd ar y rhai hyn, canys y maent hwy (mewn amryfus ond odit) yn ceiſio Duw ac yn ewyllyſio ei gael ef.

Rhuf.1.21. 7 O blegit *y maent hwy trwy drin ei waith ef yn chwilio ac yn coelio i'r golwg: o achos bod y pethau a welir yn dêg.

8 Ac etto nid ydynt hwy eſcuſodol.

9 O blegit os gallent hwy wybod cymmaint a medru amcanu ar y byd: pa ham na chawſant hwy yn gynt Arglwydd y pethau hynny?

10 Annedwydd ydynt hwy, ai gobaith ſydd ym myſc y meirw y rhai a alwaſant waith dwylo dynion yn dduwiau, ſef aur ac arian, pethau wedi eu dychymmyg trwy gelfyddyd, a lluniau aniſeiliaid, neu garreg ddiffrwyth o waith rhyw law gynt.

Eſay.44.13. Iere.10.3. 11 Ac os* bydde ſaer pren wedi iddo ef dori pren yſtymmol, a thynnu o amgylch ei holl riſcl ef, a gwneuthur lleſtr buddiol i waſanaethu ei fywyd trwy gelfyddyd hardd.

12 Ac ymlenwi wedi iddo ef dreulio yſclodion ei waith ar arlwy ei fwyd:

13 Efe a gymmere yr hyn a fwrid ymmaith o honynt hwy yn bren yſtwyrgam difudd i ddim, eithr yn llawn cangheunau: ac ai cerfie yn ofalus pan gaffe ennyd, ac ai llunie yn ddehallgar, ac ai gwnai ar lun dŷn.

14 Neu efe ai gwnai yn debyg i anifail gwael, gan ei amliwio â choch, ai beintio â lliw, a pheintio pôb gwrthyni ynddo.

15 Ac wedi iddo wneuthur iddo breſwylfod addas, efe ai goſode wrth y paret, ac ai ſiccrhae â haiarn.

16 Efe a ofale ym mlaen llaw rhag iddo ſyrthio, gan wybod na alle efe help iddo ei hun, o blegit delw yw efe, ac yn rhaid iddo wrth help.

17 Er hynny pan weddio efe am dda, neu am ddyweddi iddo ei hun, neu am blant,

18 Ni bydde arno ef gywilydd lefaru wrth y marw: eithr efe a alwe ar y gwan am iechyd, ac a ofynne hoedl i'r marw, ac a ymbilie am help gan yr hwn ni ŵydde ddim:

19 Am ei daith y gweddie efe at yr hwn ni alle gerdded, ac efe a fynne gael llwyddiant mewn elw gwaith a dedwyddwch llaw, gan yr hwn ſydd fyſcrell ei law.

## PEN. XIIII.

Athrawiaeth odiaeth am ddelwau.

TRacheſn pan fyddo un yn ymbaratoi i fordwyo, ac ar fyned trwy donnau geirwon, efe a waedda ar bren pyttrach na'r llong yr hon a fyddo yn ei ddwyn ef.

2 O blegit chwant i elw a ddychymygaſe hwnnw, a chywreinrwydd ai gwnaethe yn gelfydd.

3 Eithr dy ragluniaeth di o Dâd ſydd yn llywodraethu,* o blegit ti a roddaiſt ffordd yn y môr a llwybr diogel ym myſc y tonnau: Exod.14.22.

4 Gan ddangos y gelli di achub rhag pôb perygl, fel y gallo un fyned i fynu heb gelfyddyd.

5 A thi a fynni na byddo gweithredoedd dy ddoethineb yn ſegur: am hynny yr ymddyried dynion i dippin o bren am eu heinioes, mewn llong y byddant hwy cadwedic yn myned trwy y cefn-fôr.

6 Ac * yn y dechreuad (pan ddifethwyd y cywri beilchion) gobaith y bŷd trwy ffoi i long a adawodd i'r bŷd hâd genedigaeth: o herwydd ei llywodraethu a'th law di. Gen 6.4. & 7.10.

7 Canys bendigedic yw 'r pren trwy yr hwn y gwneir cyfiawnder.

8 Melldigedic yw 'r [ ddelw ] a wneler â llaw a'r hwn ai gwnelo. O blegit *hwn a weithiodd, a hwnnw er ei fôd yn llwgredig a elwir yn dduw. Pſal.115.8. baruc.6.3.

9 Yr *annuwiol ai annuwioldeb ydynt mor gâs gan Dduw bôb un ai gilydd. Pſal 5.5.

10 O herwydd yr hyn a wnaed yng-hyd a'r hwn ai gwnaeth a gyſtuddir.

11 Am hynny y bydd coſpedigaeth ar eulynnod y cenhedloedd am eu gwneuthur hwynt ym myſc creaduriaid Duw yn ffieidd-dra, * ac yn dramgwydd i eneidiau dynion, ac yn fagl i draed y rhai angall. Iere.10.8, habacuc.2.18.

12 Canys dechreuad godineb oedd dychymygu eulynnod, ai caffaeliad hwynt oedd llwgredigaeth buchedd.

13 O blegit nid o'r dechreuad yr oeddynt hwy, ac nid yn dragywydd y byddant hwy.

14 Trwy ofer-ffroſt dynion y daethant i'r bŷd, am hynny y bydd eu diwedd yn fyrr.

15 Y tâd yn gyſtuddiol trwy anamſerol alar am ei fab yr hwn a ddygwyd ymmaith yn gynnar ſydd yn awr yn addoli megis yn dduw yr hwn yna a fu farw yn ddŷn, ac a roddes iw ddeiliaid ddirgeledigaethau, ac aberthau.

16 Yna y cadwyd yn lle cyfraith yr annuwiol ddefod yr hon a gryfhaſe mewn amſer, ac wrth orchymyn teyrniaid yr addolwyd delwau cerfiedic.

17 Y rhai ni alle dynion eu anrhydeddu yn eu gŵydd, am eu bôd yn trigo ym mhell gan gymmeryd llun eu gwedd hwynt o bell, y gwaent hwy hynod ddelw y brenin yr hwn a anrhydeddent hwy i wenheithio iddo ef yn ddyfal, yn gyſtal yn ei abſen ac yn ei ŵydd.

18 A chwant y crefft-wr i gael anrhydedd a annogodd yr annyſcedic i addoli fwy-fwy.

19 O blegit efe ond odit yn ewyllyſio rhygluddu bodd y llywydd, a yſtymme y llun yn well trwy gelfyddyd.

20 A'r gwerin wedi eu denu trwy dêgwch y gwaith, a gyfrifent yna yn dduw yr hwn o'r blaen a berchid fel dŷn.

21 A hyn oedd fradychol fwriad i fywyd [dŷn:] o herwydd i'r dynion a waſanaethant mewn dryg-fyd a than drahauſdeb, roddi ar gerric a phrennau yr henw yr hwn nid yw iw wneuthur yn gyffredin i bethau eraill.

22 Wedi hynny nid oedd ddigon cyfeiliorni yng-hylch adnabod Duw, eithr y rhai oeddynt yn byw ym mawr ryfel annwybodaeth a alwent hynny yn heddwch.

23 O blegit am eu bôd hwy yn cadw naill ai ebyrth * yn peri lladd eu plant, ai dirgeledigaethau cuddiedig, ai gwallgofus gyfeddach yn dyfod o gyfreithiau dieithr: Deut.18.10. ierem.7.9. & 19.4.

24 Ni chadwent hwy nai buchedd nai priodas yn lan: Y naill a ladde y llall mewn cynllwyn, neu ai gofidie trwy odineb.

25 Pob peth oedd yn gymyſclyd, gwaed a chelanedd, lledrad a thwyll, llwgredigaeth anffyddlondeb, terfyſc, anudon, a chynnwrf ar y rhai daionus:

26 Angof am gymwynas, halogedigaeth eneidiau, cyfnewidiad genedigaethau, anweddeidd-dra mewn priodas, godineb ac anlladrwydd

27 O blegit gwaſanaeth eulynnod (y rhai ni ddylid eu henwi) yw dechreu, ac achos a diwedd

wedd pôb drygioni,

28 Canys tra fyddant hwy yn llawen, y maent hwy naill ai yn gwallgofi, ai yn prophwydo celwydd, ai yn byw yn anghyfiawn, ai yn tyngu anudon yn ebrwydd.

29 O blegit tra ydynt hwy yn coelio i eulynnod meirw, er iddynt dyngu yn ddrwg, nid ydynt yn diſgwil dialedd.

30 Eithr fe a ddaw iddynt hwy yr hyn ſydd gyfiawn am y ddau, ſef am feddwl am Dduw ar fai, gan ddilyn eulynnod: a thyngu yn anghyfiawn, ac yn dwyllodrus gan ddirmygu cyfiawnder.

31 O blegit nid gallu y rhai y tyngir iddynt, eithr coſp pechaduriaid a ddaw byth ar droſſeddiad y rhai anghyfiawn.

## PEN. XV.

Y rhai duwiol yn diolch i Dduw am ei drugaredd.

EIthr tydi ein Duw ydwyt ddaionus a geirwir, yn ddioddefgar, ac mewn trugaredd yn llywodraethu pôb peth.

2 O blegit os pechwn ni, eiddot ti ydym ni, y rhai a ŵyddom dy gryfder di: ond ni phechwn ni a ninnau yn gŵybod y cyfrifir ni yn eiddot ti.

3 Canys cyfiawnder cyflawn yw dy adnabod ti, a gwreiddin tragywyddoldeb yw gŵybod dy nerth di.

4 Canys ni thwyllodd drwg gelfyddus ddychymyg dŷn monom ni, na chyſcod portreiadau yr hwn ſydd boen ddiffrwyth: ſef llun wedi ei fricho ag anryw liwiau.

5 Golwg pa rai ſydd yn peri chwant i'r rhai angall, i ddymuno dieneidiol lun delw farwol.

6 Rhai yn hoffi pethau drygionus, ac yn haeddu coelio i'r fath bethau yw y rhai ai gwnant hwy, a'r rhai ai dymunant, a'r rhai ai gwaſanaethant.

Rhuf.9.21.

7 Y * crochenudd hefyd a delina bridd meddal, ac a lunia yn boenus bôb darn i'n gwaſanaethu ni: o'r vn clai y llunia efe rai lleſtri i waſanaethu mewn gwaith glân, a rhai yr vn modd yn y gwrthwyneb: i ba beth y gwaſanaetha pôb vn o'r ddau fath hyn, y crochenudd a fydd barnwr.

Luc.12.20.

8 Ac o'r vn clai trwy ddrygionus boen y llunia efe dduw ofer, yr hun a wnaethid ei hun o'r ddaiar ychydig o'r blaen, ac ychydig wedi a aiff i'r hon y cymmerwyd efo honi, * pan fyddo rhaid rhoddi cyfrif am yr enioes.

9 Nid am ei fod efe yn cymmeryd poen nac am fod ei hoedl ef yn ferr y mae ei ofal ef: eithr y mae efe yn ymryſon â gofaint aur, ac arian, ac yn dynwared y gofaint prês, ac y mae efe yn cyfrif yn anrhydedd ei fôd efe yn llunio pethau gau

10 Lludw yw ei galon ef, eu gobaith hefyd ſydd waelach na'r ddaiar, ai fywyd yn fwy amharchus na'r clai.

11 Am na'd adwaene efe yr hwn ai gwnaeth, yr hwn yn yſprydol a roddes enaid iddo ef, ac a roddes yſpryd byw yn anadl iddo ef.

12 Eithr cyfrif y maent hwy mai chware yw ein henioes ni, ac mai marſiandiaeth i elwa yw ein bywyd ni, o blegit rhaid meddant hwy elwa o ba le bynnac [y ceffir] hyd yn oed o ddrygioni.

13 Hwn yn anad neb a ŵyr ei fôd yn pechu yr hwn ſydd yn gwneuthur breuon leſtri, a delwau o ddefnydd daiarol.

14 Gelynion dy bobl di y rhai a arglwyddiaethant arnynt ydynt oll o'r fath ffolaf, ac yn anhappyſach nâ phlant bychain.

15 O herwydd iddynt dybied bôd holl eulynnod y cenhedloedd yn dduwiau, i'r rhai nid oes na llygaid yn gwaſanaethu i weled, na ffroenau i dynnu yr awŷr attynt, na chluſtiau i glywed, na byſedd dwylo i deimlo, ai traed hwy a ydynt fyſcrell i gerdded.

16 O blegit dŷn ai gwnaeth hwynt, a'r hwn nid oes ganddo ond benthyg yſpryd ai lluniodd hwynt: ni ddichon vn dŷn wneuthur duw tebyg iddo ei hun.

17 Peth marwol a weithia yr hwn ſydd farwol â dwylo anwir: gwell yw efe ei hun na'r pethau y mae efe yn eu gwaſanaethu, o blegit y mae efe yn byw, a hwythau nid ydynt.

18 Y maent hwy yn addoli yr anifeiliaid caſaf: o blegit ye cŷdyſtedlid hwynt mewn ffolineb, gwaeth a fyddent nag eraill.

19 Nid ydynt mor dêg ag anifeiliaid eraill iw dymuno: canys methodd ganddynt gael na chlôd gan Dduw, nai fendith ef.

## PEN. XVI.

Coſp addol-wyr gau dduwiau. 20 A daioni Duw i'r ffyddloniaid.

Pen.11.13.
num.26.6.

AM hynny y coſpwyd hwynt a'r cyffelyb, fel yr haeddent, * ac y dialeddwyd hwynt â lluoſogrwydd o anifeiliaid.

2 Yn lle yr hwn ddialedd y gwnaethoſt ti ddaioni i'th bobl dy hun, i ba rai o herwydd chwant eu blŷs hwynt y paratoaiſt ti ſofl-ieir yn ymborth o flâs dieithr.

3 Fel y cafodd y rhai hynny pan oeddynt yn blyſio eu troi oddi wrth y bwyd, o herwydd y chwant a ddangoſaſant hwy i'r pethau a anfonaſit er eu bôd yn anghenrheidiol, a'r rhai hyn weddi eu bôd tros ychydig ennyd mewn eiſieu a wnaed yn gyfrannogion o archwaeth newydd.

4 O blegit yr oedd yn rhaid i angen yr hwn ni ellid ei ochel ddyfod ar y rhai hynny a arferaſent drahuſdeb: eithr i'r rhai hyn digon oedd yn vnic ddangos pa fodd y rhoed dialedd ar eu gelynnion hwynt.

Num.21.6.
1.cor.10.9.

5 Canys * pan ddaeth creulon lid bwyſt-filod arnynt ai llygru hwynt â brathiadau ſeirph dolennoc,

6 Nid hyd y diwedd yr arhôdd dy ddigofaint di: iw rhybuddio y blinwyd hwynt ychydig o ennyd, gan gael gwyſtl am yr iechydwriaeth i feddwl am orchymyn dy gyfraith di.

7 O blegit yr hwn a droed [ at yr arwydd hwnnw, ] nid gan yr hyn o welid yr iecheid efe,

eithr gennit ti iachawdur pob peth.

8 A thrwy hyn y gwnaethoſt ti i'n gelynnion ni gredu mai tydi yw yr hwn ſydd yn achub o bôb drwg.

Exod.8.24. & 10.4. gwel.9 7.

9 Y rhai a laddodd * brath locuſtiaid a chacwn, ac ni chaed meddiginiaeth iddynt hwy: o blegit hwy a haeddent eu coſpi a'r cyfryw.

10 Ond ni wnai dannedd dreigiau gwenwynic niwed i'th blant di: o blegit dy drugaredd di a ddeue yn erbyn hynny, ac ai hiachae hwynt.

11 Canys i feddwl am dy ymadroddion di y brathwyd hwynt, ac hwy yn ebrwydd a iachawyd, rhag iddynt hwy ſyrthio mewn dyfn angof, ſyned fel na ellid eu ſyflir er dy ddaioni di.

12 O blegit nid llyſieun nac eli ai iachaodd hwynt, eithr dy air di (oh Arglwydd) yr hwn ſydd yn iachau pôb dim.

Deut.32.39. 1.ſam.2.6. tobias,13.2.

13 O herwydd y mae i ti feddiant ar einioes ac angeu, ac yr ydwyt ti yn dwyn i wared hyd byrth uffern, ac yn dwyn i fynu trachefn.

14 A dŷn yn ei ddrygioni a ladd [un,] a phan elo yr yſpryd allan ni ddychwel efe, ac ni ddettyd efe yr enaid a gymmerir ymmaith.

15 Eithr amhoſſibl yw diang rhag dy law di.

Exod 9.23.

16 O blegit * yr annuwiolion y rhai ydynt yn gwadu eu bôd yn dy adnabod di a ffrewyllwyd o nerth dy fraich di, gan gael eu herlid â rhyfedd law â chenllyſc, ac â chafodau heb allu eu gochelyd, ac hwy a ddifethwyd â thân.

17 A'r hyn ſydd ryfeddaf y tân oedd yn gweithio fwy-fwy o achos y dwfr yr hwn ſydd yn diffoddi pob peth: canys y byd ſydd yn ymladd tros y rhai cyfiawn.

18 Canys weithie fe a hydde llai y fflam, fel na loſce hi yr anifeiliaid a anfonid yn erbyn y rhai annuwiol, eithr trwy weled hwy a allent wybod mai trwy farn Duw y cyſtuddid hwynt.

19 Ac weithie efe a loſce yn myſc y dwfr yn fwy nag y gallei tân, i ddifetha ffrwyth tir yr anghyfiawn.

Exod.16.14. num.11.7. pſal.78.25. ioan.6.31.

20 Yn lle hynny * â bwyd angelion y porthaiſt ti dy bobl dy hun, a thi a anfonaiſt iddynt hwy fara parod o'r nefoedd yn ddiboen, yr hwn a waſanaethe i bôb hyfrydwch, ac i bôb cymmwys archwaeth,

21 Eithr dy ſylwedd di ſydd yn dangos felyſed gennit dy blant, yr hon ſydd yn gwaſaenacthu yr hwn a gyfarfyddo â hi, ac yn ymdymheru at yr hyn a ewyllyſio un.

Exod.9.23.

22 Yr * eira hefyd ar iâ a oeddynt yn dioddef y tân ac heb doddi, fel y gallent hwy wybod mai'r tân yr hwn oedd yn ffaglu yn y cenllyſc ac yn llewyrchu yn y glaw oedd yn difetha ffrwyth y gelynnion.

23 Hwn hefyd (fel y cae y rhai cyfiawn eu cynnal) a ollyngodd ei allu dros gof.

24 O blegit y creadur yr hwn ſydd yn dy waſanaethu di (yr hwn a wnaethoſt bôb peth) a ymnelir i beri dialedd ar yr anghyfiawn, ac a ddadannelir i wneuthur daioni i'r rhai a ymddiriedant ynot ti.

25 Am hynny efe yna yn ymrithio i bôb peth a waſanaethe dy râs di (yr hwn ſydd yn macchu pôb peth) wrth ewyllys y rhai anghenus.

Deut.8.3. matth.4.4.

26 Fel y dyſco dy blant di, y rhai ſydd hoff gennit ti (ô Arglwydd) * nad cynnyrch ffrwyth ſydd yn porthi dyn, eithr mai dy air di ſydd yn cadw y rhai a gredant ynot.

27 O blegit y peth ni lygrodd y tân wedi ei dwymno ychydig gan belydr yr haul a teiriolodd yn ebrwydd,

28 Fel y bydde hyſpys y dylid achub blaen yr haul i roddi diolch i ti, a gweddio atat ti cyn codi haul.

29 O blegit gobaith yr aniolchgar a dawdd fel iâ y gaiaf, ac a ddifera fel dwfr diffudd.

## PEN. XVII.

Dialedd Duw ar y rhai anwir.

DY farnedigaethau di ydynt fawr, ac anhawdd eu treuthu: am hynny yr aeth y rhai anyſcedic ar gyfeiliorn.

2 O blegit y rhai anwir yn amcanu cael llywodraeth ar y genedl ſanctaidd, wedi eu rhwymo mewn tywyllwch, ai llyffetheirio ai gwarchae tros hir-nos a orweddaſant i ffoi rhag [dy] ragluniaeth dragywyddol di.

3 Canys pan amcanaſant hwy lechu mewn cuddiedic bechodau tan dywyll orchudd angof, hwy a waſcarwyd wedi eu dechrynnu yn aruthrol, ai trallodi gan weledigaethau.

4 Er hynny ni alle y gilfach yr hon ai dalie hwynt eu cadw hwynt yn ddiofn: eithr yr oedd twrwf yn ſwnio o amgylch, yr hwn oedd yn eu blino hwynt, a gweledigaethau wyneb ſarric yn ymddangos.

5 Nid oedd dim gallu gan y tân i lewyrchu, ac ni alle ddiſclaer lewyrch y ſêr oleuo y nôs athriſt honno.

6 Canys tân yn unic yn cynneu o honaw ei hun yn llawn ofn, a ymddangoſodd iddynt hwy, ac wedi eu dychrynny hwynt a'r weledigaeth honno (yr hon ni welid,) hwy a dybiaſant fôd y pethau a welid yn waeth.

Exod.7.11. & 8.7.

7 Felly y * goſodwyd i lawr oferedd celfyddyd hudoliaeth, a'r gwradwyddus gerydd a gafodd y rhai a wnaent ffroſt oi ſynnwyr.

8 O blegit y rhai a addawſant yrru allan ofn a blinder o'r enaid llesc, a aethant yn llesc eu hun rhag ofn yr hwn y gellid chwerthin oi blegit.

9 O herwydd oni ddychrynne dim blîn hwynt, er hynny wrth fynediad bwyſt-filod heibio a chan chwibanniad ſeirph y byddent hwy feirw o ofn, gan ommedd edrych ar yr awyr yr hwn nid oes achos iw ochelyd.

10 Canys peth ofnus yw drygioni wedi rhoddi barn iw erbyn wrth ei deſtiolaeth ei hun, a chydwybod pan weſcid arni a faedde er

yed bethau creulon.

11 Canys nid yw ofn ddim, ond anobaith o'r help a gaffer gan reſwm.

12 O herwydd pa leiaf fyddo y gobaith oddi fewn, mwyaf y tebyg efe fôd anwybodaeth o'r achos yr hwn ſydd yn peri blinder.

13 Eithr y rhai [a ddioddefaſant] y nôs aruthrol, a gyſcaſāt yr vn hûn o gilfechudd vffern aruthrol,

14 Weithie a flinid â gweledigaethau rhyfedd, ac weithieu a lywygent gan anobaith meddwl: canys ofn diſymmwth, ac heb edrych am dano a ddeue arnynt hwy.

15 Wedi hynny fel hyn, pwy vn bynnac a ſyrthie yno efe a gedwid, ac a gaeid mewn carchar heb haiarn.

16 Os llafur-wr fydde vn, neu fugail neu vn yn gwneuthur y gwaith yr hwn ſydd yn y diffaethwch, pan gymmeryd ef ymmaith, efe a ddioddefe yr anghen ni's gellid ei ochelyd.

17 O blegit ag vn gadwyn tywyllwch y rhwymid hwynt oll,

18 Naill ai gwynt chwiban, ai hyfrydaidd ſain adar ym myſc y canghennau tewon, ai cyſſain dwfr yn cerdded yn chwyrn, neu erchyll ſŵn creigiau afwrid i lawr, neu redfa anifeiliaid yn moleſtotta heb eu gweled, neu lais creulon bwyſt-filod rhuadwy, neu yr adſain a ddadſeinie o gilfach y mynyddoedd ai dechrynnent hwynt fel y llewygent.

19 Canys yr holl fyd a oleuid yn oleu ddiſclaer, a [phawb] a barhae wrth ei waith heb rwyſtr.

20 Yn vnic arnynt hwy y daethe nôs drom ſef cyffelybrwydd i'r tywyllwch yr hwn a ddeue arnynt hwy, ac iddynt hwy yr oedd efe yn drymmach nâ thywyllwch.

## PEN. XVIII.

Coloſn dân yr Iſraeliaid. 4 Duw yn ymgeleddu ei bobl ei hun, ac yn difetha eu gelynnion hwynt.

Exod.10.23. EIthr i'th ſainct di yr oedd *goleuad o'r mwyaf, llais y rhai yr oeddynt hwy yn ei glywed, ond nid oeddynt hwy yn gweled eu gwêdd hwynt,

2 Ac hwy ai cyfrifaſant hwynt yn ddedwydd, am na ddioddefaſent hwythau: rhoddaſant hefyd iddynt hwy ddiolch am na wnaethant niwed wedi cael cam, a dymunaſant faddeuant am amryfaelio â hwynt.

Exod.13.21.& 14.24. pſal.78.24. & 105.39. 3 Am hynny y rhoddaiſt *goloſn o dân poeth i flaenori yn y daith anhyſpys, ac i fôd yn haul diniwed i'r ymdaith barchedic.

4 Yr oeddynt hwy yn ddiau yn heuddu bôd heb oleuni, a chael eu carcharu mewn tywyllwch, y rhai a gadwaſant dy blant di yng-harchar trwy y rhai y rhoddaiſt anllwgredic oleuad y gyfraith i'r bŷd.

5 Pan amcanâſent hwy ladd rhai bychain y ſainct, yna trwy vn plentyn yr hwn a fwrieſid allan, ac a gadweſid yn goſp, y cymmeraiſt ymmaith lawer oi plant hwy, ac ai difethaiſt hwynt ar vnwaith yn y dwfr crŷf.

6 Ein tadau ni a gawſant wybodaeth am y nôs honno o'r blaen: fel y byddent lawen, am eu bôd yn gwybod yn ddiogel i ba lwon y credaſent.

Exod.14.24. 7 Dy bobl di * a dderbyniaſant iechydwriaeth y rhai cyfiawn, a'r gelynnion [a dderbyniſant] ddiniſtr.

8 Canys megis y blinaiſt ein gwrthwynebwŷr, felly y rhoddaiſt anrhydedd i ni y rhai a elwaiſt di.

9 Sanctaidd blant y rhai daionus a aberthaſant yn ddirgel, ac a oſodaſant gyfraith dduwiol yn gytun, am fôd o'r rhai ſanctaidd yr vn modd yn gyfrannogion o'r pethau enbyd, ac o'r pethau da a ddeue iddynt hwy, gan flaenori yn canu mawl y tadau.

10 Eithr anghyſain waedd y gelynnion a ddadſeiniodd o'r tu arall: a greſynol lef y plant galarnadus oedd yn cerdded.

Exod.11.51. & 12.29. 11 A'r vn fath ddialedd y cyddfinwyd *y gwâs a'r meiſter, yr vn pethau yr oedd y gwrêng ar brenin yn eu dioddef.

12 Rhai aneirif oedd ganddynt hwy oll wedi meirw ar yr vn-waith o'r vn farwolaeth, fel nad oedd digon o rai byw iw claddu hwynt: canys mewn vn moment y difethwyd eu hiliogaeth anrhydedduſaf hwynt.

13 O blegit y rhai a reibieſid, fel na chredent hwy ddim: pan ddifethwyd y cyntaf-anedic a gyffeſſaſant, mai plant Duw oedd y bobl.

14 O herwydd pan oedd pob peth mewn diſtawrwydd tawel, a'r nôs wrth ei harferol fuandra wedi darfod ei hanner:

15 Dy holl-alluoc air di a neidiodd i gauol y wlâd ddiniſtriol yn rhyfel-wr creulon o'r nefoedd, ſef o'r gorſeddfeudd brenhinawl:

16 Gan arwain dy orchymyn diragrith di yn lle cleddyf llym, yr hwn a ſafodd, ac a lanwodd bôb peth â marwolaeth, ac oedd yn cyffwrdd a'r nefoedd er ei ddeſcyn i'r ddaiar.

17 Yna gweledigaethau breuddwydion aruthrol ai blinaſant hwy yn ddiſymmwth, ac ofn diattrec a barhâodd.

18 Ac wedi bwrw vn i lawr ymma, ac arall accw: hwy a fynegaſant am ba achos y buant feirw.

19 O blegit y breuddwydion y rhai oeddynt yn eu blino hwynt a arwyddocaſſent hyn, fel na ddifethid hwynt heb wybod pa ham yr oeddynt yn dioddef niwed.

Num.16.46. 20 Cyffyrddodd profedigaeth angeu weithie a'r rhai cyfiawn hefyd, a bu ddiniſtr ar y dyrfa yn y diffaethwch: ond ni hîr barhâodd y digter.

21 O blegit gwr difai a wrthwynebodd ar frŷs yr hwn gan arwain arfau eu ſwydd ef ei hun, ſef gweddi, ac iawn o arogldarth a ſafodd yn erbyn y llid, ac a ddibennodd y trueni gan ddangos mai dy wâs di oedd efe.

22 Ac efe a orchfygodd y diniſtrudd nid o gryfder corph, na thrwy waith arfau, eithr â gair y daroſtyngodd efe yr hwn oedd yn cyſtuddio gan goffau llw, a chyfammod y tadau.

23 Canys pan oedd y meirw yn ſyrthio at ei gilydd yn dyrrau, efe a ſafodd yn y canol, ac a dorrodd y digter, ac a rannodd y ffordd yr hon oedd yn myned at y byw.

24 O blegit *yn y wiſc laes yr oedd yr harddwch oll, a gogoniant y tadau yng-herfiad y pedair rhês o feini, a'th fawredd dithe yn y goron am ei ben ef.

Exod.28.6.

25 I'r rhai hyn y roddes y diniſtrudd le, ac ai hofnodd hwynt: canys digon oedd yn vnic brofi o honynt y digter.

## PEN. XIX.

Marwolaeth yr Aiphtiaid, a llawenydd yr Hebræaid. 18 Ymodd y porthwyd yr Hebræaid â ſoſl-ieir. 17 Bôd pob peth megis yn gydtun yn gwaſanaethu i wneuthur daioni i'r duwiol.

Eithr digter didrugaredd a barhâodd hyd y diwedd i'r annuwolion.

2 O blegit efe a wydde o'r blaen yr hyn a ddigwydde iddynt hwy: mai wedi iddynt adel iddynt fyned, ai gyrru hwynt yn daer: y bydde edifar ganddynt, ac yr erlidient hwynt.

3 Canys pan oeddynt hwy yn galaru, ac yn wylofain wrth feddau y meirw, hwy a ddychymmygaſant feddwl ynfyd arall, a'r rhai a yrraſent hwy allan dan ymbil â hwynt [am fyned] y rhai hynny a erlidiaſant hwy megis rhai yn ffoi.

4 O blegit addas anghenrhaid ai harweiniodd hwynt i'r diwedd hwn, ac a wnaeth [iddynt hwy] anghofio y pethau a ddigwyddaſent, fel y cyflawnent hwy mewn gofid y cyſtudd yr hwn oedd yn ôl.

5 Fel y cae dy bobl trwy brawf adnabod ffordd ryfedd, ac y caent hwythau farwolaeth ddieithr.

6 O blegit pob creadur yn ei ryw ei hun a luniwyd trachefn o newydd i waſanaethu y gorchymynnion hyn yn naillduol, fel, cadw dy blant di yn ddiniwed.

7 Y cwmmwl a gyſcododd tros eu gwerſyll hwynt, a lle y buaſe dwfr o'r blaen y gwelid llawr o dir ſych, ie yn y môr coch yr oedd ffordd ddirwyſtr, a maes yn dwyn gwellt glâs yn y ffrwd chwyrn:

8 Trwy yr hon y daeth yr holl genedl [fel] y rhai a amddeffynnodd dy law di, gan weled gwrthiau rhyfedd.

9 Fel meirch y porthesid hwynt, ac fel wyn y llamment hwy, gan dy foliannu di ô Arglwydd eu gwaredudd hwynt.

10 O blegit hwy a gofiaſant y pethau a ddigwyddaſe iddynt yn eu hymdaith, y modd yn lle eppiliaeth anifeiliaid y dygaſe y ddaiar allan wybed, ac y dygaſe yr afonydd allan lawer o lyffaint yn lle pyſcod.

11 Yn *ddiweddaf hwy a welſant eppiledd newydd o adar, pan ddygwyd hwynt trwy flŷs i ddymuno bwyd daintaethiol.

Exod.16.13.
Num.11.31.

12 O blegit *ſoſl-ieir a ddaethant o'r môr yn ddiddanwch iddynt hwy: ac ar y pechaduriaid y daeth dialedd.

Pen.16.2.

13 Nid heb wneuthur gwrthieu o'r blaen trwy egni taranau: o herwydd yr oeddynt hwy yn heuddu dioddef am eu hanwiredd: o blegit yr oeddynt hwy yn dwyn dygyngas i'r dieithriaid, y rhai hynny ni dderbynient, y rhai preſennol nid adwaenent hwy, a'r rhai hyn a gaethiwaſant [fel] y dieithriaid a wnaethent iddynt hwy ddaioni.

14 Ac nid hynny yn vnic, y mae rhyw ragor rhyngthynt hwy: o blegit yn anfodlon-gar yr oeddynt hwy yn derbyn dieithriaid.

15 Eithr y rhai hyn wedi eu derbyn hwynt yn llawen a gyſtuddiaſant â phoenau aruthrol, y rhai oeddynt gyfrannogion o'r vn gyfraith.

16 A'r rhai hyn a darawyd â dallineb fel [y tarawſid] y rhai hynny *wrth ddrws y cyfiawn pan geiſiodd pob vn y ffordd iw ddrws ei hun, wedi eu hamgylchu hwynt â thywyllwch anferthol.

Gen.19.11.

17 O blegit yr elementau a newidiwyd o honynt eu hun yn gyfleus fel y newidia ſain cynghanedd mewn pſaltring yr henw ei hun y ſwn yn aros bob amſer, megis y gellir yſtyried wrth edrych yn graff ar y pethau a wnaed.

18 Pethau daiarol a droed yn bethau o'r dwfr, a phethau nofiadwy a aethant ar y ddaiar.

19 Y tân oedd nerthol yn y dwfr wedi goſtwng tros gôf ei rinwedd ei hun, a'r dwfr a anghoffaſe ei naturiaeth i ddiffoddi.

20 Yn y gwrthwyneb ni wnaeth y fflam nac i gnawd yr anifeiliaid llygradwy y rhai a rodient arno, nac i'r hyn oedd o ymborth nefol (fel *iâ tawddadwy o rywogaeth i doddi) ddarfod.

Exod.16.14.
Num.11.7.

21 Dy bobl a fawrygaiſt, ac a anrhydeddaiſt ti ym mhob dim ô Arglwydd: ac ni bu ffiaidd gennit fod gyd â hwynt bob amſer, ac ym mhob lle.

*Terſyn doethineb Salomon.*

Prolog

# Llyfr doethineb Ieſus mab Sirach yr hwn a elwir Eccleſiaſticus.

## *Prolog doethineb Ieſus fab Sirach.*

GAN roddi i ni lawer a mawrion bethau trwy y gyfraith a'r prophwydi, ac eraill ai dilynaſant hwy, am ba rai y mae yn rhaid canmol Iſrael o herwydd addyſc a doethineb:

2 A hynny fel nad yw yn rhaid yn unic i'r darllenyddion fyned yn ddoethach, eithr hefyd i'r rhai ſy yn chwennychu dyſcu fod yn fuddiol i'r rhai oddi allan gan draethu, ac ſcrifennu hefyd:

3 Fy nhaid i Ieſus gan ei roddi ei hun yn fynychaf i ddarllen y gyfraith a'r prophwydi, ac eraill o lyfrau y tadau, ac wedi cael digonol hyfedrwydd ynddynt hwy,

4 A ddygwyd rhagddo i ſcrifennu peth o'r pethau cymmwys i addyſc a doethineb:

5 Fel y galle y rhai ydynt awyddus i ddyſc wedi bod yn gyfrannogion o hyn gynnyddu yn fwy trwy reol buchedd.

6 Am hynny cymmerwch gyngor yn ewyllyſcar, ac yn ymarhous i ddarllen, ac i faddeu os rhai wedi i mi gymmeryd poen yn cyfieuthu a welant na chawſom ni rym rhyw eiriau.

7 O blegit nid ydynt hwy o'r un rym â hwynt eu hun pan draether hwynt yn Hebræaec, a phan droer hwynt i iaith arall.

8 Ac nid hyn yn unic, eithr pethau eraill ſef y gyfraith a'r prophwydi a llyfrau eraill ſy iddynt ragoriaeth nid bechan pā draether hwynt yn eu hiaith eu hun.

9 O blegit yn y ddeunawfed flwyddyn ar hugain i'r brenin Euergetes wedi i mi ddyfod i'r Aipht, ac aros yno ennyd, mi a gefais gopi o addyſc nid bychan.

10 [Ac] mi a feddyliais fod yn angenrheidiaf i mi gymmeryd peth diwydrwydd a phoen yn cyfieuthu y llyfr.

11 Felly mi a ymroddais i fawr boen a chyfarwyddyd i ddwyn y llyfr i ben iw oſod allan, ac i ddarparu buchedd i fyw wrth y gyfraith i'r rhai yn y gôrymdaith ydynt yn chwennych dyſcu.

### PENNOD. I.

Mor ddaionus yw doethineb, ofn yr Arglwydd, a goſtyngeiddrwydd.

1.Bren.3.9.& 4.19. ODDI wrth yr Arglwydd [*y daeth] pob doethineb, a chyd ag ef y mae hi byth.

2 Pwy a rif dywod y môr: na'r dafnau glaw: na dyddiau y byd:

3 Pwy a ôlrhain allan uchder y nefoedd: na lled y ddaiar: na'r dyfnder: na doethineb?

4 Crewyd doethineb yn gyntaf o'r cwbl, a deall ſynwyr er ioed.

5 Ffynnon doethineb yw gair yr Arglwydd [yr hwn ſydd] yn y goruchelder: ai ffyrdd hi yw y gorchymynnion tragywyddol.

Rhuf.11.34. 6 I *bwy y datcuddiwyd gwreiddin doethineb, a phwy a wybu ei chyfrwyſdra hi?

7 Un ſydd ddoeth iw ofni yn fawr, [ac] yn eiſtedd ar ei orſedd-faingc.

8 Yr Arglwydd ai creawdd hi, ac [ai] gwelodd, ac ai rhifodd.

9 Ac ai tywalltodd hi ar ei holl waith, ynghyd â phob cnawd yn ôl ei ddawn ef, ac efe ai rhoddes hi i'r neb ai carant ef.

10 Gogoniant ac hyfrydwch a llawenydd a choron gorfoledd yw ofn yr Arglwydd.

11 Ofn yr Arglwydd ſydd ddifyrrwch i'r galon, ac a rydd lawenydd a hyfrydwch a hir hoedl.

12 Diwedd da fydd i'r hwn a ofno yr Arglwydd, ac efe a fendithir yn ei ddydd diwedd.

13 Dechreu doethineb yw ofni yr Arglwydd, ac efe a grewyd gyd a'r ffyddloniaid yn y groth.

14 Hi a oſododd ſylfaenau tragywyddol gyd â dynion, ac ymddyſc eu hiliogaeth hwynt fe a gredir iddi hi.

15 *Ofni yr Arglwydd yw cyflawnder doethineb, ac ſydd yn eu llenwi hwynt ai ffrwyth hi. Pſal.111.20. Dihar.9.10. Iob.28.28.

16 Hi a lanwodd eu holl dai hwynt ai chlyſſau, ai hyſcuboriau hwynt ai chnwd hi.

17 Dawn Duw i heddwch yw pob un o'r ddau.

18 Coron doethineb yn dwyn allan ffrwyth heddwch, ac iechydwriaeth iachol yw ofni yr Arglwydd: canys y mae gorfoledd yn ymhelaethu i'r rhai ai carant ef.

19 Doethineb a lawiodd ddeall a gwybodaeth ſynwyr, ac a dderchafodd ogoniant y rhai ai meddiannent hi.

20 Gwreiddin doethineb yw ofni yr Arglwydd, ai changhennau ydynt hir hoedl.

21 Ofn yr Arglwydd ſydd yn gyrru pechodau

ddau ymmaith, ac (os peru) ſydd yn troi digofaint ymmaith.

22 Ni ddichon gŵr digllon gael ei gyfrif yn gyfiawn: oblegit bôd achrylith ei ddigllonedd ef yn ddamgwyddus iddo ef.

23 Y dioddefgar a ddioddef tros amſer; ac wedi hynny y blagura llawenydd iddo ef.

24 Efe a guddia ei eiriau tros amſer, a gwefuſau llawer a fynegant ei ſynnwyr ef.

25 Yn nhryſorau doethineb y mae parablau gwybodaeth: eithr ffieidd yw duwioldeb gan bechadur.

26 Os chwennychi ddoethineb cadw y gorchymynnion, a'r Arglwydd a'i rhydd hi i ti.

27 O blegit doethineb ac athrawiaeth yw ofn yr Arglwydd, a'r hyn ſydd fodlon ganddo ef yw ffydd ac addfwynder.

28 Nac amme ofn yr Arglwydd pan fyddech mewn angen, ac na ddos atto ef â chalon ddau ddyblyg.

29 Na ragrithia o flaen dynion, eithr gochel rhag dy wefuſau.

30 Na dderchafa dydi dy hun rhag i ti ſyrthio a dwyn anniwarthrwydd i'th enaid dy hun.

31 O blegit yr Arglwydd a ddadcuddia dy holl gyfrinach di, ac a'th fwrw di i lawr ynghanol y gynnulleidfa.

32 Canys ni ddaethoſt ti mewn gwirionedd ofn yr Arglwydd, eithr y mae dy galon yn llawn twyll.

## PEN. II.

Ymma y cynghorir y ffyddloniaid i ddilyn amynedd a gobaith.

FY mâb os deui i waſanaethu yr Arglwydd, paratoa dy enaid i brofedigaeth.

2 Iniona dy galon a dioddef: ac na wna frys yn yr amſer y dygir [profedigaeth.]

3 Glyn wrtho heb ymado, fel i'th gynnydder hyd dy ddiwedd.

4 Derbyn yn llawen yr hyn a ddigwyddo, a bydd ymarhous am gyfnewid dy oſtyngiad.

Doeth.3.6. Dihar.17.3. 5 * O blegit aur a brofir yn tân: a dynion cymmeradwy yn ffwrn goſtyngiad.

6 Creda iddo ef, ac efe a'th dderbyn di: uniona dy lwybrau, a gobeithia ynddo ef.

7 Y rhai ydych yn ofni yr Arglwydd credwch iddo ef, ac ni phalla eich gwobr chwi.

8 Y rhai ydych yn ofni yr Arglwydd gobeithiwch am ddaioni, ac am lawenydd tragywyddoldeb a thrugaredd.

9 Y rhai ydych yn ofni yr Arglwydd ymarhoſwch am ei drugaredd ef, ac na chiliwch rhag eich ſyrthio.

10 Edrychwch ar y cenhedlaeth gynt a gwelwch: pwy a ymddiriedodd i'r Arglwydd ac a wradwyddwyd?

Pſal.37.25. 11 Neu pwy a arhoſodd yn ei ofn ef ac a adawyd? * neu pwy a alwodd arno ef ac yntef yn ei ddyſtyru ef?

12 O blegit toſturiol, a thrugarog, ymarhous, ac aml ô drugaredd yw'r Arglwydd: ac y mae efe yn maddeu pechodau, ac yn achub yn amſer trallod.

13 Gwae galonnau ofnus, a dwylo lleſc, a'r pechadur a gerddo * ddau lwybr. 1.Bren.18.21.

14 Gwae yr galon leſc: o herwydd nid yw yn credu: am hynny ni amddeffynnir hi.

15 Gwae chwi y rhai a gollaſoch amynedd.

16 A pha beth a wnewch chwi pan edrycho yr Arglwydd?

17 Y rhai a ofnant yr Arglwydd ni anghredant ei eiriau ef: * a'r rhai a'i carant ef a gadwant ei ffyrdd ef. Io.14.23.24.

18 Y rhai a garant yr Arglwydd a geiſiant ewyllys da ganddo ef.

19 A'r rhai a'i carant ef a lenwir a'r gyfraith.

20 Y rhai a garant yr Arglwyddd a baratoant eu calon, ac a oſtyngant eu heneidiau ger ei fron ef

21 [Gan ddywedyd,] ſyrthiwn yn nwylo Duw, ac nid yn nwylo dynion.

22 O herwydd fel y mae ei fawredd ef: felly y mae ei drugaredd ef.

## PEN. III.

1 Am anrhydeddu tâd a mam. 10 Am fendith tâd a mam. 21 Am ddirgelwch Duw. 22 Na ddylid manwl chwilio dirgeledigaethau Duw.

[FY] meibion clywch fi eich tâd, a gwnewch felly fel y byddoch gadwedig.

2 O blegit yr Arglwydd a roddes i'r tâd anrhydedd gan y plant, ac a ſicrhaodd farn y fam ar [ei] meibion.

3 Yr hwn ſydd yn perchi ei dâd ſydd yn cael maddeuant am [ei] bechod.

4 A'r hwn ſydd yn anrhydeddu ei fam ſydd fel [un] yn caſglu tryſor.

5 Yr hwn a barcho [ei] dâd a gaiff lawenydd oi blant, ac efe a wrandewir y dydd y gweddio efe.

6 Hirhoedloc fydd yr hwn a anrhydeddo [ei] dâd: a'r hwn a ufyddhao yr Arglwydd a bair orphwyſdra i'w fam.

7 Yr hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd a barcha [ei] dâd, ac a waſanaetha y rhai a'i cenhedlaſant ef fel arglwyddi.

8 Parcha * dy dad a'th fam ar weithred a gair, fel y delo i ti fendith gan ddynion. Exod.20.12. Deut.5.16. Matth.15.4. Ephe.6.2.3.

9 O blegit bendith y tâd a ſiccrha deiau y plant, a melldith y fam a ddiwreiddia ſylfeini.

10 Na ymffroſtia yn ammarch dy dad: o herwydd nid parch i ti fydd ammarch dy dad.

11 Canys anmharch ſydd i ddyn o amharch ei dad: a gwarth plant yw mam ddianſwarch.

12 [Fy mab] cymmorthwya [dy] dad yn [ei] henaint: ac na thriſta ef yn dy fywyd.

13 Os palla ei ſynnwyr, cyd ddwg: ac na amharcha [eithr parcha] ef yn dy holl gryfder.

14 O herwydd nid anghofir [dy] eluſen i'th dâd.

15 Eithr hi a fydd yn adailadaeth yn erbyn

pechodau: yn rhydd trallod y meddylir am danat ti, a'th bechodau a doddir megis [pan ddel] meiriol at iâ.

16 Mor enllibus yw yr hwn ſydd yn gadel ei dad, ac [mor] felldigedig gan Dduw yw yr hwn ſydd yn digio ei fam.

17 [Fy] mab gorphen dy waith yn llednais, a [phob] dŷn cymmeradwy a'th hoffa di.

Phil.2.3. 18 * Pa fwyaf fyddech, ymddaroſtwng dy hun yn fwyaf: a thi a gei ffafor yng-wydd yr Arglwydd.

19 Y mae llawer yn uchelradd ac yn anrhydeddus, eithr i'r rhai llednais y datcuddir dirgeledigaethau: canys mawr yw gallu yr Arglwydd a'r rhai goſtyngedig ai hanrhydeddant ef.

Pſal.131.1. Dihar.25.27. Rhuf.12.3. 20 Na * chais yn anehallgar bethau rhy-galed i ti, ac na chais yn angall bethau rhy gryfion i ti: y pethau a orchymynnwyd meddwl am hynny yn ſanctaidd.

21 O blegit nid rhaid i ti weled pethau cuddiedig a'th lygaid.

22 Na fydd fanylach yn dy ymadroddion nag y byddo rhaid.

23 Canys fe a ddangoſwyd i ti fwy nag a ddichon dynion eu deall.

24 Eu hofer dŷb a dwyllodd lawer, a drwg amcan a leſcaodd eu deall hwynt.

25 Oni bydd canhwyllau dy lygaid gennyt fe a fydd eiſieu goleuni arnat: ond os bydd eiſieu gwybodaeth na fynega [hynny.]

26 Drwg fydd ar galon galed yn y diwedd: a'r hwn a hoffo enbydrwydd a ddiſethir ag ef.

27 Calon galed a lwythir â phoenau: a'r pechadur a chwanega bechodau ar bechodau.

28 Yng-hoſpedigaeth y balch nid oes meddyginiaeth, ei lwybrau ef a ddiwreiddir: o herwydd gwreiddio planhigyn drygioni ynddo ef.

29 Calon y deallgar a feddwl am gyffelybrwydd, a chluſt y gwrandawydd yw dymuniad y doeth.

Dan.4.24. Pſal.41.1. 30 Dwfr a ddiffydd dân poeth, * a thrwy eluſen y ceir maddeuant am bechodau.

31 A'r Arglwydd yr hwn ſydd yn talu cymmwynaſau ſydd yn cofio wedi hynny: a'r [cyfryw] yn amſer ei dramgwydd a gaiff ganllaw.

## PEN. IIII.

Am eluſen. 12 A doethineb. 24 Am ba beth y dyle dyn gywilyddio.

Deut.15.7. FY mab * na chwylla y tlawd am ei fywyd: ac na wna i lygaid y tlawd hir ddiſgwil.

2 Na thriſtâ enaid newynog, ac na wna i ŵr yn ei eiſieu hir ddiſgwil.

3 Na chyffroa galon ddigllon, ac na wna i'r anghenog hir ddiſgwil am ei rodd.

Tob.4.7. 4 Na fwrw ymmaith ymbiliwr gorthrymmedig, ac * na thrô dy wyneb oddi wrth y tlawd.

5 Na thrô dy lygad oddi wrth yr anghenus: ac na ddod ti le iddyn i'th felldithio di.

6 Pan felldithio un dy di yn chwerwedd ei enaid, yr hwn ai gwnaeth ef a wrendu ei weddi ef.

7 Gwna dy hun yn hawddgar i'r gynnulleidfa, a goſtwng dy ben i ŵr mawr.

8 Goſtwng dy gluſt at y tlawd yn ddioriſt: ac atteb ef yn heddychol ac yn llednais.

9 Gwaret yr hwn ſydd yn cael cam o law yr hwn ſydd yn gwneuthur cam: ac na fydd lwfr pan farnech.

10 Bydd i'r ymddifad fel tâd, ac yn lle gŵr iw mam hwynt.

11 A thi a gei fod megis yn fab i'r Goruchaf, ac efe a'th gâr di yn fwy na'th fam.

12 Doethineb a dderchafa ei meibion, ac a dderbyn y rhai ai ceiſiant.

13 Yr hwn ſydd yn ei charu hi ſydd yn caru enioes, a'r rhai a ddiſgwiliant am dani hi yn foreu a lenwir â llawenydd.

14 Yr hwn ai dalio hi a etifedda ogoniant, a'r Arglwydd a fendithia y lle yr êl ef.

15 Y rhai ydynt yn ei gwaſanaethu hi ydynt yn gwaſanaethu y ſanctaidd [Dduw,] ac y mae yr Arglwydd yn caru y rhai a ydynt yn ei charu hi.

16 Yr hwn ſydd yn ei chlywed hi a farna genhedloedd, a'r hwn a wrandawo arni hi a breſwylia yn ddiogel.

17 Os efe a greda, efe ai caiff hi yn etifeddiaeth, ai hiliogaeth hwynt a fyddant yn y meddiant.

18 Canys yn gyntaf hi a rodia gyd ag ef ar ŵyr:

19 Hi a ddwg ofn ac arſwyd arno ef, ac ai poena ef ai haddyſc hyd oni ymddiriedo hi iw enaid ef, ac oni phrofo hi ef yn ei chyfiawnderau.

20 A thrachefn hi a ddaw yn iniawn atto ef, ac ai llawenycha ef.

21 Ac hi a ddadcuddia ei dirgelwch iddo ef.

22 Os cyfeiliorna efe, hi ai gâd ef, ac a âd iddo ef ſyrthio.

23 Cadw'r amſer, * ac ymgadw rhag drygioni. Rhuf.12.9. 1.Theſſ.5.22.

24 Er dy enioes na fydded cywilydd genit [ddywedyd gwir.]

25 Canys y mae cywilydd yn dwyn pechod, ac y mae cywilydd yn anrhydedd a grâs.

26 Na dderbyn wyneb yn erbyn dy enaid dy hun, ac na ymwradwydda i'th ddiniſtr dy hun.

27 Na attal air yn amſer iechydwriaeth,

28 Ac na chuddia dy ddoethineb er mwyn gweddeidd-dra.

29 O blegit wrth ymadrodd yr adweinir doethineb, ac addyſc wrth eiriau y tafod.

30 Na ddywet yn erbyn y gwirionedd mewn dim, rhag dy wradwyddo trwy dy gelwydd o eiſieu addyſc.

31 Na fydded gywilydd gennit gyfaddef dy bechodau, ac nac ymegnîa yn erbyn ffrwd yr afon.

32 Na ymddyro i ddŷn ffôl, ac na dderbyn ŵyneb y galluog.

33 Ymegnia gyd â'r gwirionedd hyd farwolaeth, a'r Arglwydd Dduw a ymladd gyd â thithe.

34 Na fydd chwyrn a'th dafod, a diog ac araf yn dy weithredoedd.

35 Na fydd megis llew yn dy dŷ, yn curo dy weiſion wrth dy phanſi.

Act.20.35. 36 Na *fydded dy law yn agored i gymmeryd, ac yn gaead i roddi.

## PEN. V.

1 Ni ddylid gobeitho mewn golud. 7 Nac oedi edifeirwch.

Luc.12.15. 19.20. Pen.11.18. Dihar.10.2. Ezec.7.19. Soph.1.18.

NAc edrych *ar dy olud, ac na ddywet, y mae gennif ddigon i fyw.

2 Na ddilyn dy ewyllys dy hun, a'th gryfder dy hun i rodio yn ffyrdd dy galon dy hun.

3 Na ddywet, pwy a'm daroſtwng i o herwydd fyng-weithredoedd, o blegit yr Arglwydd gan ddial a ddial dy draha di.

4 Na ddywet, mi a bechais, a pha driſtwch fu i mi, o blegit y mae yr Arglwydd yn ymarhous, [eithr] ni faddeu efe i ti.

5 Na fydd ry ddifraw o herwydd maddeuant, i chwanegu pechodau ar bechodau.

6 Ac na ddywet, aml yw ei drugaredd ef: efe a faddeu luoſogrwydd fy mhechodau i.

7 O blegit trugaredd a digofaint a fryſſia ganddo ef, ai ddigofaint ef a orphywys ar bechaduriaid.

8 Na fydd hwyrfrydig i droi at yr Arglwydd, ac nac oeda o ddydd i ddydd.

9 O blegit yn ddiſymmwth y daw digofaint yr Arglwydd a thra y byddech di yn ddifraw i'th ddryllir, a thi a ddifethir yn amſer dialedd.

10 Nac edrych ar olud anghyfiawn, o blegit ni fuddiant hwy yn amſer cyſpedigaeth.

11 Na ymdro gyd â phob gwynt, ac na ddos ym mhob llwybr, felly [y gwna] y pechadur dau dafodioc.

12 Bydd ddianwadl yn dy ddeall ſiccr, a bydded dy ymadrodd di yn gydtun.

Iago.1.19. 13 Bydd *fuan i glywed pethau da, a bydded dy fywyd mewn gwirionedd, a thraetha atteb iniawn yn ddioddefgar.

14 Od oes deall gennit atteb dy gymmydog: ac onid oes, bydded dy law di ar dy ſafn.

15 Yn yr ymadrodd [y mae] gogoniant a gwarth: a thafod dŷn fydd cwymp iddo ef.

Lefit.19.16. 16 Na alwer di * yn ſiaradus, ac na chynllwyn a'th dafod.

17 O blegit i leidr y mae anniwarthrwydd blin, a damniad drwg i'r ddau dafodiog.

18 Na fydd ddiwybod o ddim na mawr na bychan.

## PEN. VI.

Y modd y mae dewis cyfaill, 18 a dilyn addyſc.

NA fydd elyn yn lle cyfaill, canys enw drwg a gaiff warth a gwradwydd yn etifeddiaeth: felly y caiff y pechadur dau-dafodioc ammarch.

2 Na ymddyrchaf yng-hyngor dy enaid dy hun, rhag llarpio dy enaid fel tarw.

3 [Os] bwyttei di dy ddail ti a golli dy ffrwyth, ac a'th ollyngi dy hun fel pren crin.

4 Enaid drygionus ſydd yn difetha ei berchennog, ac yn ei wneuthur ei hun yn watwargerdd i'w elynnion.

5 Cêg felus ſydd yn amlhau ei chyfeillion, a thafod ymadroddus ſydd yn amlhau ymadroddion têg.

6 Bydded llawer yn heddychu i ti, eithr [bydded] dy gynghor-wŷr vn o fîl.

7 Os meddienni gyfaill, meddianna ef mewn profedigaeth, ac nac ymddyried ti dy hun iddo ef ar ffrwſt.

8 Canys y mae cyfaill tros ei amſer ei hun, ac nid erys efe yn nydd dy drallod ti.

9 Ac y mae cyfaill yr hwn a droir yn elyn, ac a ddadcuddio dy wradwyddus gynnen di.

10 Ac y mae cyfaill yr hwn a fydd cyfrannog o'r bwrdd: eithr yn nydd dy drallod ti nid erys efe. Pen.37.5.

11 Ac yn dy fyd da di, efe a fydd fel tithe, ac efe a fydd hŷ ar dylwyth dy dŷ di.

12 Os daroſtyngir di, efe a fydd i'th erbyn di: ac a ymguddia o'th ŵydd di.

13 Ymado a'th elynnion, a gochel dy gyfeillion.

14 Amddeffyn cadarn yw cyfaill ffyddlon a'r hwn ſydd yn ei gael ef ſydd yn cael tryſſor.

15 Nid oes cyfnewidwerth i gyfaill ffyddlon, ac nid oes a gŷd bwyſo ei degwch ef.

16 Eli einioes yw cyfaill ffyddlon: a'r rhai ſy yn ofni yr Arglwydd ydynt yn ei gael ef.

17 Yr hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd ſydd yn cyfarwyddo ei gyfeillach yn iniawn, ac fel y byddo efe y bydd ei gymmydog.

18 Hafab dewis addyſc o'th ieuengtid, a thi a gei ddoethineb hyd henaint.

19 Ymaros hefyd am ei ffrwythau daionus hi.

20 O blegit ychydig boen a gymmeri di yn ei gwaith hi, a buan y bwytei di oi chnwd hi.

21 Mor chwerw odiaeth yw hi i'r annyſcedig: a'r digalonnog nid erys ynddi hi.

22 Megis maen prawf cryf ydyw hi iddo ef, ac nid oeda efe ei bwrw hi ymmaith.

23 O blegit y mae doethineb yn ôl ei henw, ac nid yw hi amlwg i lawer.

24 Gwrando hafab, a dewis fy marn i, ac na wrthod fyng-hyngor i: bwrw dy draed i'w llyffetheiriau hi, a'th wddf i'w chadwyn hi.

25 Gostwng dy yſcwyddau a dwg hi, ac na fydd elyn i'w rhwymau hi.

26 Tyret atti hi â'th holl enaid, a chadw ei ffyrdd hi â'th holl allu.

27 Olrhain,a chais, a thi a gei ei hadnabod hi,a phan gaffech di afel,na ollwng hi.

28 O blegit o'r diwedd ti a gei ei gorphywyſtra hi,a [hynny] a drŷ yn llawenydd i ti.

29 Ai llyffetheiriau hi a fyddant i ti yn amddeffyn cadarn, ai chadwynau yn wîſc ogoneddus.

30 O herwydd y mae arni hi wychter euraid,ai rhwymau ydynt ſnoden lâs.

31 Fel gwiſc ogoneddus y gwiſci di hi, ac fel coron orfoleddus y goſodi di hi am danat.

32 Os mynni [fy] mab ti a fyddi ddyſcedig,ac os rhoddi dy feddwl, ti a fyddi gall.

33 Os ceri di wrando, ti a dderbyni ddeall, ac os goſtyngi di dy gluſt,ti a fyddi ddoeth.

34 Saf ym myſc henuriaid, a'r neb [a fyddo] doeth glŷn wrtho ef:* myn glywed pob traethiad duwiol, ac na ddianged diharebion dehallus oddi gennit ti. Pen.8.9.

25 Os gweli ŵr dehallgar cyfot yn foreu atto ef, a threulied dy droed ti rinniogau ei ddrws ef.

36 Meddwl am orchymynnion yr Arglwydd yn berffaith, a *myfyria ar ei orchymynnion ef bob amſer, efe a ſiccrhâ dy galon di, a dymuniad doethineb a roddir i ti. Pſal.1.2.3.

## PEN. VII.

Bod yn rhaid cilio oddi wrth ddrwg heb ein cyfiawnhau ein hunain. 19 Y modd y mae i ni arfer cyfaill,gwraig, gweiſion,plant, tâd a mam,ac eglwyſwyr.

NA wna ddrwg, ac ni oddiwes drwg dy di.

2 Ymado ag anwiredd,ac fe a gilia pechod oddi wrthit ti.

3 [Fy] mab na haua ym myſc cwyſau anghyfiawnder, rhag i ti eu medu yn ſaith ddyblyg.

4 Na chais gan yr Arglwydd lywodraeth, na chadair gogoniant gan y brenin.

5 Nac * ymgyfiawnha ger bron yr Arglwydd, ac na chymmer arnat fod yn ddoeth yngŵydd y brenin. Iob.9.2. Pſal.143.2. Preg.7.18. Luc.18.11.

6 Na chais fod yn farn-wr rhag na allech dynnu anghyfiawnder ymmaith, rhag vn amſer i ti ofni rhag y cadarn, a goſod o honot dramgwydd ar dy iniawn-ffordd.

7 Na pecha yn erbyn torf dinas, ac nac ymmwthia i dyrfa.

8 Na * ymrwym â phechod ddwywaith, o herwydd ni byddi di ddifai o vn. Pen.5.5.

9 Na ddywet, efe a edrych ar luoſogrwydd fy rhoddion i, a phan offrymmwyf i'r goruchaf Dduw, efe a dderbyn: na fydd egwan yn dy weddi,ac nac eſceuluſa wneuthur eluſen.

10 Na watwar y dŷn a fyddo yn chwerwder ei enaid, o herwydd y mae * goſtyngudd a derchafudd. 1.Sam.2.7.

11 Na ddychymmyg gelwydd ar dy frawd, ac na wna y fath beth i'th gyfaill.

12 Na fyn ddywedyd dim celwydd, o herwydd ni [ddaw] mynych arfer o honaw ef i ddaioni.

13 Na fydd ſiaradus ym myſc llawer o henuriaid,ac * nac ail-draetha dy ymadrodd yn dy weddi. Math.6.5.7.

14 Na * chaſâ waith poenus,nac hwſmonaeth yr hon a greodd y Goruchaf. Rhuf.12.11.

15 Na chyfrif di dy hun ym myſc pechaduriaid.

16 Coſia,nad oeda digofaint.

17 Daroſtwng dy enaid yn ddirfawr: canys dialedd yr annuwiol fydd tân a phryf.

18 Na newidia dy gyfaill am ddim cyffredinol,na'th wir frawd am aur da.

19 Nac ymado â gwraig ddoeth dda: canys gwell yw ei grâs hi nag aur.

20 Na * wna niwed i wenidog a fyddo yn gweithio mewn gwirionedd, na'r gwâs cyflog yr hwn ſydd yn rhoddi ei enioes. Lefit.19.13. Pen.33.29 & 34.23.

21 Cared dy enaid.ti wenidog ſynhwyrol, ac na thwylla ef am ei rydd-did.

22 [Os] * anifeiliaid ſy gennit, edrych arnynt: ac os buddiol ydynt i ti, arhoſant gyd â thi. Deut.25.4.

23 [Od] * oes i ti blant dyſc hwynt, a chrymma eu gyddfau hwynt oi hieuengtid. Pen.30.11.

24 [Od] oes merched i ti gwilia eu cyrph hwynt,ac na ddangos dy wyneb yn llawen wrthynt hwy.

25 Dôd dy ferch allan, a thi a fyddi wedi gwneuthur gwaith mawr: eithr dôd hi i wr ſynnhwyrol.

29 [Os] bydd i ti wraig wrth dy feddwl na fwrw hi ymmaith,ac na ddôd ti dy hun i [vn] atcâs.

27 * Anrhydedda dy dad â'th holl enaid, ac na anghofia ofidiau dy fam. Pen.3.9. Tob.4.3.

28 Coſia mai trwyddynt hwy i'th anwyd ti, a pha beth a deli di iddynt hwy o'r fath [a wnaethant] hwy i ti?:

29 Ofna yr Arglwydd â'th holl enaid, a pharcha ei offeiriaid ef: câr yr hwn a'th wnaeth di a'th holl nerth, ac * na âd ei wenidogion ef. Deut 12.18.

30 Ofna yr Arglwydd, ac anrhydedda yr offeiriad:

31 A dôd ti iddo ef * ran fel y gorchymynnwyd i ti: Lefit.2.3. Num.18.15.

32 [Sef] y blaen ffrwyth,ac [aberth] tros gamwedd:

33 A rhodd y palfeiſiau, ac aberth y cyſſegriad,a blaen-ffrwyth y pethau ſanctaidd.

34 Eſtyn hefyd dy law i'r tlawd fel y perffeithier dy fendith di.

35 Cymmwynas rhodd [a welir] o flaen pob vn byw, ac * na orafyn di gymmwynas tros y marw. Tob.2.4.7.& 4.17.

36 Na * phalla i'r ŵyloſus: eithr ŵyla gyd a'r ŵyloſus. Rhuf.12.15.

Matth.25.36. 37 Na * fydd ddiog i ofwyo y claf: canys trwy y cyfryw bethau i'th gerir di.

38 Yn dy holl eiriau meddwl am dy ddiwedd ac ni phechi di byth.

## PEN. VIII.

Y modd y mae i vn ei ymddwyn ei hun tu ag at amryw fath a'r ddynion.

NAc ymgynhenna â dŷn cadarn, rhag ſyrthio o honot ti yn ei law ef.

Matth.5.25. 2 * Nac ymſywyn â dyn cyfoethog, rhag iddo roddi pwys i'th erbyn di.

Pen.31.6. 3 Oblegit * aur a ddifethodd lawer, ac a wyrodd galonnau brenhinoedd.

4 Nac ymgynhenna â gŵr ſiaradus, ac na osod goed ar ei dân ef.

5 Na chware a'r annyſcedig, rhag amherchi dy rieni di.

Galath.6.1. 6 * Na ddannod i'r dŷn a drôdd oddi wrth bechod, cofia ein bod ni oll tan gerydd.

Lefit.19.32. 7 Nac * amharcha ddŷn yn ei henaint: canys y mae [rhai] o honom ninnau yn heneiddio.

8 Na lawenycha am farw yr hwn sydd fwyaf gelyn i ti: cofia ein bod ni oll yn darfod.

Pen.6.35. 9 * Na ddiyſtyra draethiad y doethion eithr ymdroa di ym myſc eu diharebion hwynt.

10 O blegit ganddynt hwy y dyſci di addyſc, a gwaſanaethu pendefigion yn hawdd.

11 Nag ymado a thraethiad henuriaid: o blegit hwynt hwy a ddyſcaſant gan eu tadau.

12 Canys ganddynt hwy y dyſci di ddeall, a rhoddi atteb pan fyddo rhaid.

13 Na chynneu farwor pechadur, rhag dy loſci yn ei flam dân ef.

14 Na chyfod o flaen y trahaus, rhag iddo eiſtedd fel cynllwyn yn erbyn dy enau.

Pen.29.4. 15 * Na echwyna i ddŷn cryfach nâ thi, ac os echwyni bydd fel vn yn colli.

16 Na fachnia am fwy nag a allech, ac os machnii, meddwl am dalu.

17 Nag ymgyfreithia ag vſtus, o blegit wrth ei feddwl ei hun y barnant hwy ef.

Gen.4.8. 18 Na * ddos ar hŷd y ffordd gyd a'r ffrom rhag iddo fod yn drwm wrthit ti, oblegit wrth ei ewyllys ei hun y gwna efe, a thrwy ei anghallineb ef y derfydd am danat tithe.

Pſal.22.24. 19 * Na wna gynnen a'r digllon, ac na ddos gyd ag ef i anialwch, felly diddim [y gwelid] gwaed yn ei olwg ef, ac efe a'th gwympe di yno lle nid oes help.

20 Nac ymgynghora a'r ffôl, o herwydd ni all efe gelu [vn] gair.

21 Na wna beth cyfrinachol o flaen y dieithr: o blegit ni wyddoſt ti beth a eſcor efe.

22 Na amlyga dy galon i bob dŷn, rhag iddo roddi gau ddiolch i ti.

## PEN. IX.

Cyngor yn erbyn eiddigedd, ac anlladrwydd. 12 Ac am ddewis a chadw cyfeillion a chydymdeithion.

NA ddal eiddigedd wrth wraig dy fonwes, ac na ddangos ynot dy hun ddrwg addyſc.

2 Na ddot dy hunan i wraig, i fyned o honi yn vwch nâ thi.

3 Na ddos i gyfarfod â gwraig butteinic, rhag i ti vn amser ſyrthio yn eu maglau hi.

4 Na fydd yn fynych gyd â chantores, rhag dy ddal di trwy ei chelfyddyd hi.

5 * Na chraffa ar forwyn rhag dy dramgwyddo wrth ei cheryddon hi. Gen.6.1. & 34.2.

6 Na ddôd dy feddwl ar butteiniaid, rhag colli o honot dy etifeddiaeth.

7 Nac edrych o amgylch mewn heolydd dinas, ac na wibia yn ei anghyfannedd leoedd hi.

8 * Na thro dy olwg at wraig brŷdweddol, ac nac yſtyr degwch arall. Dihar.5.2. Matth.5.28.

9 * Oblegit llawer trwy degwch gwraig a gyfeiliornaſant: a thrwy hynny y cynneuodd cariad fel tân: am hynny na orwedd â hi yn [dy] freichiau. 2.Sam.11.2. Iudith.10.17.

10 Na orwedd ddim gyd â gwraig a gŵr iddi.

11 Na chŷd ildia â hi mewn gwin, rhag pwyſo o'th feddwl atti hi, a llithro o honot yn dy yſpryd i ddeſtruw.

12 Na âd hên gyfaill: oblegit nid yw vn newydd gyſtadl ag ef.

13 [Megis] gwîn newydd yw cyfaill newydd: os heneiddia efe ti ai hyfi yn llawen.

14 * Na chenfigenna wrth ogoniant pechadur: o blegit ni wyddoſt ti pa ddiniſtr fydd iddo ef. Barn.9.3. 2.Sam.15.12.

15 Na fydded hoff gennit gael bodd y rhai annuwiol: cofia na chyfiawnheir hwynt nes [eu dyfod] i] vffern.

16 Ymgadw ym mhell oddi wrth ddŷn ac awdurdod iddo i ladd, fel nad amheuech di ofn angeu.

17 Ac os deui di atto [ef] na wna fai, rhag iddo yn ebrwydd ddwyn ymmaith dy einioes di.

18 Gwybydd mai ym myſc maglau yr ydwyt ti yn trãmwy, ac [mai] ar binnaclau y ddinas yr ydwyt ti yn rhodio.

19 Bwrw yr amcan goref y gallech am dy gymmydog, ac * ymgynghora a'r doethion * bydded dy ymrysymmiad ti a'r ſynhwyrol, a'th holl draethiad am gyfraith y Goruchaf. Pen.6.36. Deut.6.7. & 11 17.

20 Bydded gwŷr cyfiawn yn cydfwyta â thi, a bydded dy lawenydd di yn ofn yr Arglwydd.

21 Yn llaw rhai celfyddus y canmolir gwaith, a doeth dwyſog pobl yn ei ymadrodd.

22 Ofnadwy yn ei ddinas yw gŵr ſiaradus, a'r rhy bryſſur yn ei ymadrodd a gaseuir.

## PEN. X.

Am amryw gynneddfau llywodraethwyr. 6 Biau dîg balchder a chybydd-dod. 23 Gwir barch dyn.

BArnwr doeth a ddyſc ei bobl, a thywyſogaeth y ſynhwyrol a eſtynnir.

2 Fel y byddo barnwr y bobl y bydd ei ſwyddogion ef, ac fel y byddo tywyſog dinas y bydd y rhai oll a ydynt yn preſſwylio ynddi hi.

1.Bren.12.1. 13.14. 3 * Brenin diddyſc a ddiſetha ei bobl, a thrwy ſynnwyr [ei] chedyrn y bydd cyfannedd dinas.

4 Yn llaw yr Arglwydd y mae meddiant y ddaiar, ac efe a gyfyd vn buddiol mewn pryd.

5 Yn llaw yr Arglwydd y mae gwynfyd gŵr, ac i wyneb ſcrifennydd efe a eſyd ei anrhydedd.

Lefit.19.17. 6 * Na ddigia wrth dy gymydog am bob cam, ac na wna ddim mewn gweithredoedd trahaus.

7 Câs ger bron yr Arglwydd a dynion yw balchder, ac amryfuſedd anghyfiawn [a fwrir] oddi wrth y ddau.

Ier.25.6. Dan.4.14. 8 * Brenhiniaeth a ſymmudir o'r naill genhedlaeth i'r llall o achos anghyfiawnder, a thraha, a chyfoeth trwy dwyll: pa ham y mae pridd a lludw yn falch.

9 Nid oes dim anwirach na'r cubydd.

10 O blegit y mae y cyfryw yn rhoddi ei enaid ei hun ar werth: o herwydd ei ymyſcaroedd ai bwrraſant [ef] allan yn ei fywyd.

11 Meddig a dyrr ymmaith hir glefyd, a'r hwn ſydd frenin heddyw a fydd marw y foru.

12 Canys pan fyddo marw dŷn, efe a gaiff ſeirph a bwyſt-filod a phryfed yn etifeddiaeth.

13 Dechreuad balchder yw myned o vn oddi wrth Dduw, ac ymado oi galon ef oddi wrth yr hwn ai gwnaeth ef.

14 Dechreuad pechod yw balchder, a'r hwn ſydd yn ei ddal ef a wna ffieidd-dra yn drahaus, ac efe a ddiniſtrir byth.

15 Am hynny y dug yr Arglwydd goſpedigaeth ryfedd, ac y diniſtriodd hwynt byth.

Luc.1.52. & 14.11. & 18.4. 1.Sam.2.7. 16 Yr Arglwydd * a ddiniſtriodd orſeddfeingciau tywyſogion, ac a wnaeth i'r rhai llednais eiſtedd troſtynt hwy ynddynt hwy.

17 Yr Arglwydd a dynnodd ymmaith wraidd y rhai beilchion, ac a blannodd y rhai goſtyngedig yn eu lle hwynt mewn gogoniant.

18 Yr Arglwydd a ddiniſtriodd wledydd y cenhedloedd, ac ai diſethodd hwynt hyd ſylfeini y ddaiar.

19 Tynnodd [rai] o honynt ymmaith, diſethodd hwynt hefyd,

20 A gwnaeth iw coffadwriaeth hwynt ddarfod o'r tir.

21 Ni chrewyd balchder i ddynion, na digter meddwl i blant gwragedd.

22 Hâd diogel yw y rhai ſy yn ofni yr Arglwydd, a phlanhigyn gwerthfawr yw y rhai ſy yn ei garu ef: hâd amharchus yw y rhai nid yſtyriant y gyfraith, hâd cyfeiliornus yw y rhai a droſeddant y gorchymynnion.

23 Parchedig ym myſc brodyr yw eu tywyſog, felly y mae y rhai ſy 'n ofni yr Arglwydd yn ei olwg yntef.

24 Tywyſogaeth gyntaf yw ofn yr Arglwydd: eithr diniſtr tywyſogaeth yw creulondeb a balchder.

25 Ofn yr Arglwydd ſydd ogoniant, yn gyſtal i'r cyfoethog, i'r anrhydeddus, ac i'r tlawd.

26 Nid cyfiawn yw amherchi tlawd ſynhwyrol, ac nid gweddus anrhydeddu gŵr pechadurus.

27 Pendefigion, a barnwŷr, a chedyrn a anrhydeddir, ac nid mwy neb o'r rhai hynny na'r hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd.

28 * Rhai rhyddion a waſanaethant wâs ſynhwyrol, * a gŵr doeth ni wrwgnach pan ei cerydder ef. Dihar.17.2. 2.Sam 12.13.

29 Na chymmer arnat fod yn ddoeth wrth wneuthur dy waith, ac na chais anrhydedd tra fyddech mewn ing.

30 O blegit * gwell yw yr hwn ſydd yn gweithio ac mewn amldra o bob peth, na'r hwn ſydd anrhydeddus ac arno eiſieu bara. Dihar.12.9.

31 [Fy] mab anrhydedda dy enaid yn llednais: a dod iddo y peth ſydd addas iddo.

32 Pwy a gyfiawnhâ yr hwn a becho yn erbyn ei enaid ei hun? a phwy a barcha yr hwn a amharcho ei fywyd ei hun?

33 Y mae tlawd mewn parch o herwydd ei wybodaeth, ac y mae cyfoethog mewn parch o herwydd ei gyfoeth.

34 Yr hwn ſydd barchedic mewn tlodi, pa faint mwy pe bydde efe cyfoethog?

## PEN. XI.

Am oſtyngeiddrwydd ac iawn farn. 14 Bod Duw yn Awdur pob peth. 30 Nid yw pawb iw ddwyn i dy vn.

Doethineb y goſtyngedig * a dderchaiff ei ben ef, ac ai geſyd ef ym myſc pendefigion. Gen.41.40. Dan.6.3.

2 Na chanmol ŵr wrth ei brŷd, ac na ffieiddia ef wrth yr olwg arno ef.

3 Bechan ym myſc yr ehediaid yw'r wenynen, a phen melyſdra yw ei ffrwyth hi.

4 Na orfoledda o herwydd gwiſc o ddillad, ac * na ymdderchaf yn amſer anrhydedd: o blegit rhyfedd yw gweithredoedd yr Arglwydd, ai weithredoedd ef ydynt ddirgel i ddynion. Act.12.21.

5 Llawer teyrn a eiſteddaſant a'r lawr, * ar hwn ni thybie dŷn a ddug y goron. 1.Sam.15.28. Eſther.6.10.

6 Llawer cadarn a amharchwyd yn ddirfawr, a'r anrhydeddus a roddwyd i feddiant eraill.

7 * Nac achwyn cyn chwilio [y peth,] myn ŵybod yn gyntaf ac yna beia. Deut.13.14. & 17.4.6.

8 Na farna cyn clywed, ac na fwrw air ym myſc ymadroddion [rhai eraill.] Ioſ.7.22. Dihar.18.13.

9 Nac ymryſon am y peth nid yw [yn perthyn] iti, ac na chydeiſtedd ym marn pechaduriaid.

10 [Fy] mab na fydded dy waith ar lawer o bethau: * o herwydd os trini lawer peth ni byddi difai, os dilyni ni oddiweddi, ac os ffoi ni ddiengi. Matt.19 22. 1.Tim.6.9.

11 Y * mae a lafuria ac a boena ac a fryſſia, ac o hynny y mae yn fwy ei eiſieu ef. Dihar.10.3.

12 Y mae [vn] anniben ac arno * eiſieu help, yn fychan ei nerth, ac yn fawr ei dlodi, a golwg yr Arglwydd a edrychodd arno ef er daioni, ac ai derchafodd ef oi waeldra. Iob.42.10.

13 Ac efe a dderchafodd ei ben ef o drueni, a llawer pan welſant a fu ryfedd ganddynt oi blegit ef.

14 * Da a drwg, ennioes ac angeu, tlodi a chyfoeth oddi wrth yr Arglwydd y maent hwy. Iob. 1.21. Ezec.28.4.

15 Oddi wrth yr Arglwydd y mae doethineb a chyfarwyddyd a gwybodaeth cyfraith: oddi wrtho ef y mae cariad a ffyrdd gwerthredoedd da.

16 Cyfeiliorni a thywyllwch a gŷd grewyd â phechaduriaid, a drygioni a heneiddia yn y rhai ſy yn gorfoleddu mewn drygioni.

17 Rhodd yr Arglwydd a beru i'r rhai duwiol, ai ewyllys da ef a ffynna byth.

18 Y mae[dŷn]yn cyfoethogi trwy ei gallineb ai gynhilwch, ac dyna ei rann ef oi gyflog am iddo ddywedyd,

19 *Mi a gefais eſmwythdra, ac yn awr mi a ſwytâf o'm da bôb amſer: ac ni's gŵyr efe pa amſer a aiff heibio iddo ef, ac y gedu efe hwynt i arall, ac y bydd efe marw. Luc.12.15.

20 Saf di yn dy gyfammod, ac ymddiddan yn hwnnw, a heneiddia yn dy waith.

21 Na fydded rhyfedd gennit am waith pechadur, creda i'r Arglwydd, ac aros yn dy boen.

22 O blegit hawdd yw yng-olwg yr Arglwydd yn ddiſymmwth ddiacttreg gyfoethogi y tlawd.

23 Bendith yr Arglwydd ſydd yn gyflog i'r duwiol, ac mewn awr fuan y gwna efe iw fendith ef darddu.

24 Na ddywet, pa rhaid i mi ryngu bodd? a pha ddaioni ſydd i mi bellach?

25 Na ddywet y mae gennif fi ddigon, ac y mae gennif lawer, a pha niwed a gâf fi yn[fy] mywyd bellach?

26 *Yn amſer daioni yr ydys yn gollwng drygioni dros gof, ac yn amſer drygioni nid ydys yn coffau daioni. Pen.18.24.

27 Am fod yn hawdd o flaen yr Arglwydd dalu i ddŷn, yn ei ddydd diwedd yn ôl ei weithredoedd.

28 Cyſtudd awr a wna anghofio dainteithion, a dadcuddiad ei weithredoedd a bair ddiwedd dŷn.

29 Na chyfrif neb yn ddedwydd cyn marw, ac wrth ei blant yr adweinir gŵr.

30 Na ddŵg bôb dŷn i'th dŷ, o herwydd aml yw cynllwyn diafol.

31 Fel pettris wedi ei dal mewn ogof, felly y mae calon y balch: ac fel gwiliedudd yn dringo i le y caffo efe gwymp.

32 O blegit y mae efe yn cynllwyn gan droi y da yn ddrwg, ac efe a eſyd fai yn erbyn y rhai etholedig.

33 O wreichionē fechan y daw llawer o farwor, a dŷn pechadurus a gynllwyn am waed.

34 Gochel ddrwg-ddŷn(o blegit drygioni y mae efe yn ei lunio) rhag iddo roddi arnat ti anaf byth.

35 Derbyn ddieithr-ddŷn i dŷ, ac efe a'th drallodа di â blinder, ac a'th yrr di o'r eiddot dy hun.

## PENN. XII.

Y daioni a ddylem ni ei wneuthur i'r daionus 8 a'r modd y dylid gochelyd gelyn.

OS gwnei ddaioni, gŵybydd i bwy y gwnelech, ac fe a fydd diolch am dy ddaioni di. Gal.6.10. 1.tim.5.8.

2 *Gwna ddaioni i'r duwiol, a thi a gei dâl, onid ganddo ef, etto gan y Goruchaf.

3 Ni bydd daioni i'r hwn a ymgynnefino â drygioni, ac i'r hwn nid ymmedu ag eluſen: dod i'r duwiol ac na dderbyn bechadur.

4 Gwna ddaioni i'r goſtyngedic, ac na ddod ti i'r annuwiol, attal dy fara, ac na ddod iddo ef, rhag trwy hynny iddo ef dy orthrymmu di: o blegit am yr holl ddaioni a wnelech di iddo ef, efe a gaiff ddau cymmaint o ddrygioni i tithe.

5 O herwydd câs gan y Goruchaf bechaduriaid, ac efe a ddial y rhai duwiol, ac ai ceidw hwythau i gadarn ddydd eu dîaledd hwynt: dod i'r daionus, ac na dderbyn bechadur.

6 Nid adweinir cyfaill mewn gwyn-fyd, ac ni lecha gelyn mewn dryg-fyd.

7 Mewn gwyn-fyd gŵr [y bydd] ei elynnion ef yn drist, ac yn ei ddryg-fyd yr ymnailltua y cyfaill.

8 Nac ymddiriet ti i'th elyn byth.

9 O blegit fel y rhyda prês, felly[y gwna] ei ddrygioni yntef.

10 Er ymoſtwng o honaw ef, ac ymgrymmu, diſgwil ar dy enaid, ac ymgadw rhagddo ef, a bydd iddo ef fel un yn ſychu gwydr, a thi a gei ŵybod na ſychodd efe y rhŵd yn llwyr.

11 Na oſod ef yn agos attat, rhag iddo ef dy ddiniſtrio di, a ſefyll yn dy le di: na oſot ef ar dy law ddehau rhag iddo geiſio cael dy gadair di, ac o'r diwedd cael o honot ŵybod fyng-eiriau i, a'th bigo a'm hymadroddion maufi.

12 Pwy a doſturie wrth y ſwyn-wr a frathe neidr, nac wrth neb a ddeuent at fwyſt-filod? felly wrth yr hwn a ddaw at bechadur, ac a ymdru yn ei bechodau ef.

13 Un awr yr erys efe mewn ſefyllfod iawn, ond os gogwyddi di ni pheru efe.

14 Melus *fydd gelyn yn ei wefuſau, ac yn ei galon efe a ymgynghora am dy droi di i'r ffôs. Iere.41.56.

15 Efe a ŵyla ai lygaid, ac os caiff efe gyfamſer, ni chaiff efe ei loned o waed: os dryg-fyd a ddigwydd i ti, ti ai cei ef yno yn gynt nâ thi, ac fel dŷn yn helpio efe a'th ddiſodla di.

16 Efe a eſcwyd ei ben, ac a gura ai ddwylo, ac a ſiarad lawer, ac a newidia ei wynebpryd.

## PEN. XIII.

Cydymdeithâs pwy ſydd iw harfer.

YR hwn * a gyffyrddo a phŷg a halogir ganddo ef, a thebyg i hwnnw fydd yr hwn a fyddo gyfrannog a'r balch. Dan.7.1.

2 Na chyfod faich rhy-drwm i ti yn dy fywyd, ac na fydd gyfrannog ag un cryfach a chyfoethogach nâ thydi.

3 Pa gyfrannach a wna y crochan pridd â'r

pair: hwn a deru, a hwnnw a dyrr.

4 Os cyfoethog a wna gam yna'r ymbilir ag ef, os tlawd a wna gam yna y bygythir ef.

5 Os buddiol fyddi di, efe a gymmer dy waith di, ac os bydd eiſieu arnat ti, efe a'th gyſtuddia di,

6 Os bydd peth gennit, efe a gwmpenia â thi, ac a'th dloda di, ac ni bydd gwaeth gantho ef.

7 Os bydd arno dy eiſieu di, efe a'th dwylla di, ac a chwardd arnat ti, ac a rydd i ti obaith: efe a ddywed yn dêg wrthit ti, ac a ddywed, beth ſydd arnat ti ei eiſieu?

8 Efe a'th gywilyddia di ai fwyd, nes iddo ef dy dreio di ddwy-waith neu dair, ac yn y diwedd efe a'th watwar di: wedi hynny efe a'th wêl di, ac a'th âd ti, ac a eſcwyd ei ben arnat ti.

9 Gochel dy dwyllo yn dy feddwl.

10 Ac nac ymddaroſtwng yn llawenydd dy galon.

11 Pan i'th alwo vn cadarnach nâ thi dydi attorcilia ymmaith, ac efe a'th eilw di fwy-fwy.

12 Na ruthra i mewn rhag dy yrru allan yn ddiſarn, ac na ſaf ym mhell rhag dy ollwng tros gof.

13 Na phaid ag ef, ac nac ymddyried iw aml eiriau ef: oblegit trwy ymadrodd lawer y prawf efe dydi, ac megis dann chwerthin y cais efe dy gyfrinach di.

14 Anrhugarog yw yr hwn ni cheidw [ei] eiriau, ac ni arbed efe dy ddrygfyd na'th rwymau di.

15 Diſgwil ac edrych yn fanwl am wrando: o herwydd yr ydwyt ti yn rhodio lle y gallech di ſyrthio.

16 Pan glywech hyn yn dy gwſc deffro.

17 Yn dy] holl oes câr yr Arglwydd, a galw arno ef i'th iechydwriaeth.

18 Pob anifail a gâr ei gyffelyb, a phob dŷn ſydd dda ganddo ei gymmydog.

19 Pob cnawd a ymgymhâra wrth ryw, ac wrth ei gyffelyb y glŷn gŵr.

20 Pa gyfran a wna y blaidd a'r oen? felly [y gwna] y pechadur a'r duwiol.

21 Pa heddwch ſydd rhwng hyena a'r ci? a pha heddwch ſydd rhwng y cyfoethog a'r tlawd?

22 Yr aſſynnod gwylltion yn yr anialwch yw helfa y llewod: porfa y cyfoethogion yw'r tlodion.

23 Ffieidd-dra y beilchion yw goſtyngeiddrwydd: felly y mae y tlawd yn ffiaidd gan y cyfoethog.

24 Pan ſiglo y cyfoethog, ei gyfeillion ai ſicrhânt ef: ond pan ſyrthio y tlawd ei gyfeillion ai gwthiant ef.

25 Pan lithre y cyfoethog bydde llawer cynnorthwywyr: pe dywede efe bethau iw celu, hwy ai cyfiawnhaent ef.

26 Pan llithre y gwael-ddyn y ceryddit ef: pan maethe efe ſynnwyr ni roddit iddo ef le.

27 Pan leſare y cyfoethog pawb a dawnet ac a dderchafent ei ymadrodd ef hyd y cwmylau.

28 Pan leſare y tlawd hwy a ddywedent, pwy yw hwn? ac os tramgwyddé efe, hwy ai difethent ef.

29 Da yw'r cyfoeth nid oes ynddynt bechod, a drwg yw tlodi yng-enau yr annuwiol.

30 Calon dŷn ſydd yn newidio ei wyneb ef, pa vn bynnag ai er da ai er drwg: calon lawen ddigrif a wna wyneb da.

31 Arwydd calon mewn gwyn-fyd yw wyneb llawen, a meddyl-fryd poenus yw caffaeliad cyffelybiaethau.

## PEN. XIIII.

Am dafod, cydwybod, cenfigen ac oferedd dyn. 21. Clôd doethineb.

GWyn ei fyd y gŵr * ni lithrodd ai enau, ac ni phigwyd â llawer o bechodau. Pen.19.6. Iago.3.2.

2 Gwyn ei fyd yr hwn ni chondemno ei enaid ei hun ef, a'r hwn ni ſyrthio oddi wrth ei obaith yr hon ſydd yn yr Arglwydd.

3 Nid da yw cyfoeth i ŵr cybydd, a pha beth a wnae gŵr cenſigennus â golud.

4 Yr hwn ſydd yn caſclu [gan arbed] oddi wrtho ei hun, ſydd yn caſclu i arall: ac eraill a lothinebant ei dda ef.

5 Yr hwn ſydd ddrwg iddo ei hun, i bwy y mae efe yn dda? ac ni chaiff efe lawenydd oi olud.

6 Nid oes neb waeth na'r hwn ſydd yn cenſigenu wrtho ei hun, ac dymma wobr ei ddrygioni ef.

7 Os gwna efe ddaioni nid oi fodd y gwna efe, ac o'r diwedd efe a wna ei ddrygioni yn amlwg.

8 Drwg yw golwg y cenſigennus: efe a drŷ ei wyneb ac a ddirmyga ddynion.

9 Ni lenwir dim o lygad y cybydd, ac anghyfiawnder y drygionus a wywa ei enaid ef.

10 * Llygad drwg ſydd cenſigennus am fara, ac ag eiſieu arno ar ei fwrdd. Dihar.27.20.

11 [Fy] mab pa fodd bynnac y byddo i ti bydd dda wrthit ty hun, ac offrwm offrymmau i'r Arglwydd yn addas.

12 Coffa nad oeda angeu, ac ni ddangoſwyd i ti gyfammod vffern.

13 Cyn dy farw * bydd dda wrth [dy] gyfaill, ac yn ôl dy allu eſtyn, a dod iddo ef. Pen.4.1. tob.4.7.

14 Na thwylla dydi dy hun am y dydd da, ac nac aed rhan dymuniad da heibio i ti. luc.14.13.

15 Onid i arall y gadewi di dy lafur, a'r hyn y cymmeraiſt boen am dano iw rannu wrth goel-bren?

16 Dod a derbyn a ſancteiddia dy enaid,

17 O herwydd nid rhaid ceiſio bwyd yn vffern.

18 * Pob cnawd a heneiddia fel dilledyn, y cyfammod tragywyddol [yw] y byddi di farw yn ddiau fel deilen yn torri mewn pren brigog. Esa.40.6. 1.pet.1.24. iago.1.10.

19 Efe a furw rai, ac a dardd allan rai eraill: felly y mae cenhedlaeth cîg a gwaed, y naill ſydd yn marw, a'r llall a enir.

20 Pôb gwaith pwdr a dderfydd, a'r hwn ſydd yn ei weithio ef a aiff gyd ag ef.

Pſal.1.2. 21 * Gwyn ei fyd y gŵr mewn doethineb a feſyrio bethau da, a'r hwn yn ſynhwyrol a ymryſymma am bethau ſanctaidd.

22 Yr hwn a feddwl am ei ffordd hi yn ei galon, a fydd deallgar yn ei dirgeledigaethau hi: dos ar ei hôl hi fel ôlrhen-wr, a chynllwyn yn ei ffyrdd hi.

23 Yr hwn a edrycho trwy ei ffeneſtri hi, a thrwy ei dorau hi a gaiff glywed.

24 Yr hwn a letteuo yn agos iw thŷ hi, ac a yrro ei hoel iw pharwydydd hi a eſyd ei babell ger llaw iddi hi,

25 Ac a letteua yn llettŷ y rhai daionus, ac a eſyd ei feibion tann ei chyſcod hi, ac a erys tann ei brig hi.

26 Hi ai cyſcoda ef rhag y gwrês, ac efe a letteua yn ei gogoniant hi.

## P E N. XV.

Cynneddfau doethineb. 11 Atteb yn erbyn gau eſcuſodion pechaduriaid.

YR hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd a wna hynny, a'r hwn ſydd yn dal gŵybodaeth y gyfraith ai caiff hi.

2 Fel mam y cyfarfydd hi ag ef, ac fel gwraig forwynaidd y derbyn hi ef.

3 Hi ai portha ef â bara deall, a ai dioda ef â dwfr doethineb.

4 Os ſiccrheir ef wrthi hi, ni ogwydda efe: os yngymnal efe wrthi hi ni wradwyddir ef.

5 Hi ai cyfyd goruwch ei gymydogion, ac a egyr ei ſafn ef yng-hanol y gynnulleidfa.

6 Llawenydd a choron gorfoledd a gaiff efe: ac hi a rydd iddo enw tragywyddol yn etifeddiaeth.

7 Eithr dynnion anſynhwyrol ni chânt afel arni hi.

8 Gwŷr pechadurus hefyd ni chânt ei gweled hi: pell yw hi oddi wrth falchder, a gwŷr celwyddog ni choſtant hi.

9 Nid gweddus clôd yng-enau pechadur,

10 O blegit nid yr Arglwydd ai hanfonodd hi iddo ef: canys trwy ddoethineb y treuthir clôd, a'r Arglwydd ai llwydda ef.

11 Na ddywet o herwydd yr Arglwydd yr ydwyf fi yn ymaith: o blegit ni ddylit ti wneuthur yr hyn ſydd ddrwg ganddo ef.

12 Na ddywet, efe a'm lluniodd i, o blegit nid rhaid iddo ef wrth ŵr pechadurus.

13 Câs gan yr Arglwydd bôb ffieidd-dra, ac nid da yw hynny gan y rhai ai hofnant ef.

Gen.1.27. 14 Efe * a wnaeth ddŷn o'r dechreuad, ac ai gadawodd ef yn llaw ei gyngor ei hun [gan ddywedyd]

15 Os mynni, ti a elli gadw y gorchymynnion, a gwneuthur ffyddlondeb gymmeradwy.

16 Efe a oſododd o'th flaen di dân a dwfr eſtyn dy law at yr hwn a fynnech di.

17 [Y mae] * o flaen dynion einioes ac angeu.

18 A'r hyn a fynno efe a roddir iddo ef. Ier.21.8.

19 O blegit mawr yw doethineb yr Arglwydd, ac y mae yntef yn gryf o allu, ac yn gweled pôb peth.

20 Hefyd * y mae ei olwg ef ar y rhai ſy yn ei ofni ef, ac efe a fyn adnabod holl waith dŷn. Pſal.34.15,16. hebr.4.13.

21 Ni orchymynnodd efe i neb wneuthur yn annuwiol, ac ni roddes efe gennad i neb i bechu.

## P E N. XVI.

Am blant drygionus, 6 Dialedd Duw yn erbyn yr annuwiol. 25 Doethineb Duw yn ei weithredoedd.

NA ddymuna lawer o blant diriaid, ac na fydd lawen o blant annuwiol: os amlhânt na fydd lawen o honynt hwy, oni bydd ofn yr Arglwydd arnynt.

2 Nac ymddyriet iw henioes hwynt, ac na hydêra ar eu lluoſogrwydd hwynt.

3 Canys gwell yw un cyfiawn nâ mîl.

4 A gwell yw marw heb plant na chael plant annuwiol.

5 Un ſynhwyrol a wna ddinas yn gyfannedd, ac yn ebrwydd y gwneir tylwyth yr annuwiol yn anghyfannedd.

6 Llawer o'r fath hyn a welodd fy llygad i: a'm cluſt a glywodd bethau cadarnach nâ hyn. Pen.21.9,10.

7 *Yng-hynnulleidfa pechaduriaid y cynneu tân, ac yng-henhedlaeth anghredadwy y llyſc digofaint.

8 Ni bu * efe fodlan ir hên gewri oll, y rhai a ymmadawſant yng-hyfder eu ffolineb. Gen.6.4.

9 Nid * arbedodd efe gymmydogion Lot, y rhai a ffieiddiodd efe am eu balchder. Gen.19.21.25.

10 Ni thrugarhâodd efe wrth genedl ddeſtruw, y rhai a aethant allan yn eu pechodau y rhai a wnaethent hwy.

11 Ac felly y cadwodd yr Arglwyd trwy drugaredd ac addyſc chwe chant mil o wŷr traed y rhai a gaſcleſid yng-haledwch eu calon, gan guro a thoſturio gan daro ac iachau, ac os bydde un gwar-ſyth ym myſc y bobl rhyfedd oedd hyn os bydde efe difai. Num.14,15, 16.20.& 26.51

12 Gyd ag ef y mae trugaredd, a digofaint.

13 Yn fuan y bydd efe yn gadarn cymmodlon, neu yn tywallt digofaint: * yn ôl amldra ei drugaredd y bydd ei argyoeddiad ef: yn ôl ei weithredoedd y barna efe ŵr. Pen.5.6.

14 Ni ddiangc pechadur ai anrhaith, ac ni phalla amynedd y duwiol.

15 Dod le i bob eluſen: o blegit pob un a gaiff yn ôl ei weithredoedd: yr Arglwydd a galedodd Pharao fel nad adwaene efe ef, fel y bydde ei rym ef yn hyſpus i'r creadur tân y nefoedd, ei drugaredd ef ſydd amlwg i bob creadur: ag adamant y gwahanodd efe ei oleuni a'r tywyllwch.

16 Na ddywet, yr Arglwydd a'm cuddia fi, a phwy o'r uchelder a'm cofia fi?

17 Yn myſc pobl lawer ni'm cofir fi: canys beth yw fy enaid i wrth y creadur anfeidrol?

18 Wele y nef, ie *nef y nefoedd, y dyfnder a'r ddaiar a'r hyn ſydd ynddynt hwy a ſiglant, pan ofwyo efe: yr holl fyd a wnaed ac yr ydys yn ei wneuthur ſydd wrth ei ewyllys ef.

1.Pet.3.10.
1.bren.8.27.
2.cron.6.18.

19 Y mynyddoedd a ſeiliau y ddaiar, pan edrycho yr Arglwydd arnynt hwy, a gyd-eſcydwent gan ddychryn.

20 Hefyd ni feddwl calon am danynt hwy yn addas.

21 A phwy a ddeall ei ffyrdd ef? y mae temheſtl yr hon ni wêl dŷn, ac y mae mwy oi waith ef yn ddirgel.

22 Pwy a draetha neu a ddioddef weithredoedd ei gyfiawnder ef: o herwydd pell yw'r cyfammod a holiad pob peth wrth farw.

23 Y difalch a feddwl hyn, a'r gwr angall cyfeiliornus ſydd yn meddwl pethau ffôl.

24 Gwrando arnafi fy mab, a dyſc ŵybodaeth: ac wrth fyng-eiriau mau fi gwilia ar dy galon.

25 Mi a ddangoſaf addyſc tann bwys, ac a draethaf yn ofalus am ei gŵybodaeth hi.

26 Wrth farn yr Arglwydd y mae ei weithredoedd ef o'r dechreuad, ac efe a ddoſparthodd eu rhannau hwynt er pan wnaed hwynt.

27 Efe a addurnodd ei weithredoedd byth: y mae ei dywyſógaeth yn ei law ef byth bythol: ni newynaſant, ac ni flinaſant yn ei waith, ac ni pheidiaſant ai waith ef.

28 Ni flinodd yr un ei gymydog.

29 Ac nid anghredant ei air ef byth.

30 Wedi hyn yr edrychodd yr Arglwydd ar y ddaiar, ac efe ai llanwodd hi âi ddaioni.

31 Y mae efe yn cuddio ei hwyneb hi â chelanedd pob peth byw, ac iddi hi y maent hwy yn dychwelyd.

## PEN. XVII.

Daioni Duw yn creu, ac yn ymgoleddu dyn.

YR* Arglwydd a greawdd ddŷn o'r ddaiar, ac y mae efe yn ei droi ef iddi hi trachefn.

Gene.1.27.
&5.1.
doeth.2.23.
&7.1.
1.cor.11.7.
coloſ.3.10.

2 Efe a roddes iddynt hwy ddyddiau rhifedig, ac amſer, ac a roddes iddynt hwy feddiant ar y pethau ſy ynddi hi.

3 Ac efe ai gwiſcodd hwynt â nerth cymmwys iddynt, ac ai gwnaeth hwynt ar ei ddelw ei hun.

4 Efe a roddes ei ofn ef ar bob cnawd, ac iddo ef lywodraethu ar rith bwyſt-filod ac ehediaid.

5 Efe gan rannu a roddes iddynt hwy feddwl yn chweched, ac yn ſeithfed ymadrodd yr hwn ſydd yn mynegu ei rym ef:

6 Cyngor, a thafod, a llygaid, cluſtiau, a chalon a roddes efe iddynt hwy i feddwl: efe ai llanwodd hwynt â gŵybodaeth ſynnwyr, ac a ddangoſodd iddynt hwy dda a drwg.

7 Efe a oſododd ei olwg ar eu calonnau hwynt: rhoddes iddynt lawenychu byth yn ei ryfeddodau ef, fel y mynegent ei weithredoedd ef yn ſynhwyrol:

8 Ac y clódfore yr etholedigion ei enw ſanctaidd ef.

9 Rhoddes hefyd iddynt hwy ŵybodaeth: ac efe a roddes gyfraith y bywyd yn etifeddiaeth iddynt hwy i ddeall eu bod hwy yn awr, y rhai oeddynt farwol.

10 Efe a wnaeth gyfammod tragywyddol â hwynt, ac a ddangoſodd ei farnedigaethau iddynt hwy,

11 Eu llygaid a welſant fawredd gogoniant: ai cluſt a glywodd ogoniant eu lleferydd, ac efe a ddywedodd wrthynt hwy,

12 Gochelwch rhag pob anghyfiawn: hefyd * efe a orchymynnodd bob un o honynt hwy am ei gymydog.

Exod.20.16.
&22.23.

13 Ni chuddir eu ffyrdd hwynt oi olwg ef oi flaen ef[y maent hwy]bob amſer: a phob dŷn oi ieuengtid[ſydd yn pwyſo] i ddrygioni: am hynny ni allent hwy wneuthur eu calonnau o rai carregaidd yn rai cigaidd.

14 O herwydd wrth ddoſparthu cenhedloedd yr holl dir, efe a oſododd dywyſog ar bób cenedl, ac * a gymmerodd Iſrael yn rhan iddo ei hun, yr hwn ac efe yn gyntafanedic y mae efe yn ei faethu ag addyſc, ac wrth gyfrannu goleuni cariad nid yw yn ei ollwng ef ymmaith.

Deut.4.20.
&10.15.

15 Am hynny eu holl weithredoedd hwynt ydynt fel yr haul ger ei fron ef, ac y mae ei lygaid ef yn oeſtadol ar eu ffyrdd hwynt.

16 Nid yw eu anghyfiawnder hwynt guddiedig rhagddo ef: eithr y mae eu holl bechodau hwynt ger ei fron ef: a'r Arglwydd (am ei fod yn ddaionus, ac yn adnabod yr hyn a luniodd efe ei hun) ni's gadawodd hwynt, ac ni pheidiodd ai harbed.

17 Trugaredd gŵr ſydd megis ſêl gyd ag ef, ac efe a geidw gymmwynas dŷn, fel cannwyll llygad, gan rannu edifeirwch iw feibion ai ferched, ac * wedi hynny efe a gyfyd eil-waith ac a dâl iddynt hwy: îe eu taledigaeth a dâl efe ar eu pen hwynt.

Pen.29.13.
Matth.25.35.

18 Etto * efe a roddes i'r edifeiriol edifeirwch: ac a alwodd y rhai a adawſent amynedd.

Act.3.19.

19 Tro gan hynny * at yr Arglwydd a gâd [dy]bechodau, gweddia oi flaen ef, a gwna lai o fai.

Ier.3.12.

20 Dychwel at y Goruchaf, a thro oddi wrth anghyfiawnder: o herwydd efe a'th arwain di o dywyllwch i oleuni iechydwriaeth.

21 Caſaa hefyd ffieidd-dra yn ddirfawr.

22 Pwy * a folianna y Goruchaf yn uffern yn lle y rhai a ydynt yn byw, ac yn rhoddi mawl?

Pſal.6.5.
eſay.38.18,19.

23 Darfu mawl gan y marw megis gan un heb fod.

24 Yr hwn ſydd yn fyw ac yn iach a folianna yr Arglwydd âi galon.

25 Mor fawr yw trugaredd ein harglwydd

Dduw ni ai gymmod i'r rhai ſy yn troi atto ef yn ſanctaidd.

26 Ni all pob peth fod mewn dynion: am fod mab dŷn yn farwol.

27 Pa beth ddiſcleiriach na'r haul? ac y mae diffyg ar hwn: felly dŷn yr hwn ſydd yn meddwl [yn ôl] cig a gwaed.

28 Y mae efe yn yſtyried nerth y nefoedd uchaf: eithr daiar a lludw yw pob dŷn.

### PEN. XVIII.

Mawredd Duw. 6 trueni dyn 14 Haelioni, 18 a ſynnwyr.

YR hwn ſydd yn byw byth, yn gyffredinol a greodd bob peth. Gen.1.1.

2 Yr Arglwydd yn unic ſydd gyfiawn, ac nid oes neb ond efe: yr hwn â rhychwant ei law ſydd yn gwneuthur y byd yn gyfanneddol, ac y mae pob peth yn ufyddhau ei ewyllys ef: o blegit y mae efe yn ei nerth yn Frenin ar bawb gan wahanu yndynt hwy y pethau ſanctaidd oddi wrth y pethau halogedic.

3 I bwy y parodd efe fynegu ei weithredoedd ef? a phwy a ôlrheiniodd ei fawredd ef?

4 Pwy a rif gadernid ei fawredd ef? a phwy a eſyd ar draethu ei drugaredd ef?

5 Ni ellir lleihau na chwanegu, ac ni ellir ôlrhain rhyfeddodau'r Arglwydd.

6 Pan orphenno dŷn yna y dechreu efe, a phan beidio efe, bydd eiſieu arno ef.

7 Pa beth gan hynny yw dŷn? a pha fudd ſydd o honaw ef? pa dda neu ddrwg a dichõ efe?

8 Rhifedi dyddiau dŷn (pan fyddant lawer) ydynt gant mlynedd, eithr y mae i bawb hun [dros amſer] ni all neb ei gyfrif: fel defnyn o ddwfr o'r môr, ac fel graienyn o dywod yw *mîl o flynyddoedd ym myſc dyddiau tragywyddoldeb. Pſal.90.10. 2.Pet.3.8.

9 Am hynny y mae yr Arglwydd yn ymaros wrthynt hwy, ac yn tywallt ei drugaredd arnynt hwy.

10 Efe a welodd, ac a wybu mai diniſtr drwg fydd iddynt hwy.

11 Am hynny efe a wnaeth ei drugaredd yn aml.

12 Trugaredd dŷn ſydd tu ag at ei gymmydog:

13 A thrugaredd yr Arglwydd tu ag at bob cnawd.

14 Yn argyoeddu, ac yn addyſcu, ac yn athrawiaethu, ac yn troi fel y gwna bugail ei braidd.

15 Y mae efe yn trugarhau wrth y rhai ſy yn derbyn addyſc, ac wrth y rhai ydynt yn bryſſio at ei farnedigaethau ef.

16 [Fy] mab na cherydda wrth wneuthur cymmwynas, a phan ymbilio neb, na ddod air drwg ſarrig.

17 Onid yw'r gwlith yn goſtwng y gwrês? felly gwell yw gair na rhodd.

18 Wele onid gwell yw gair na rhodd dda? a gráſlon yw pob un o'r ddau gan ddyn.

19 Un ffôl a ddannod fel na haeddo efe ddiolch, a rhodd y cenfigennus a wna i'r llygaid wanhau.

20 Cyn llefaru, dyſc: a chyn afiechyd cymmer feddiginiaeth.

21 Cyn barn ymbaratoa i wneuthur yn dda, ac yn amſer gofwy ti a gei drugaredd. 1.Cor.11.31.

22 Cyn dy glafychu ymddaroſtwng trwy ddirweſt, ac yn amſer pechod dangos edifeirwch.

23 Na rwyſtra dalu adduned mewn prŷd: ac nac oeda ymgyfiawnhau hyd farwolaeth.

24 Ymbaratoa cyn gweddio, ac na fydd fel dŷn yn temptio'r Arglwydd.

25 Meddwl am y digofaint [a fydd] yn y dydd diwedd, ac am amſer dialedd pan droer wyneb [Duw] ymmaith. Pen.7.17.

26 Yn amſer amldra meddwl am amſer newyn, ac yn amſer cyfoeth am dlodi, ac eiſieu. Pen.11.14.

27 O'r boreu hyd yr hwyr y newidia amſer, ac ebrwydd yw hyn oll ger bron yr Arglwydd, ar ddŷn doeth y bydd ofn duwiol ym mhob peth, ac yn amſer pechod efe a ymochel rhag amryfuſedd, a'r angall ni cheidw amſer.

28 Pob un ſynhwyrol a edwyn ddoethineb, ac addyſc.

29 Ac efe a rydd fawl i'r hwn ſydd yn ei chael hi.

30 Y rhai ſynhwyrol a fuant ddoethion yn eu hymadroddion, ac a ddiferaſant fanwl ddiharebion i fywyd: goref yw hyder ar yr Arglwydd yn unic, o blegit calon farw ſydd yn glynu wrth beth marw.

31 Na ddos ar ôl dy chwant, eithr ymattal oddi wrth dy awydd. Rhuf.6.6.& 13.14.

32 Os rhoddi i'th enaid yr hyn a ryngo bodd iddo, yna y gwnei di i'th elynnion chwerthin y rhai ydynt yn cenfigennu wrthit ti.

33 Na ymlawenycha yn dy fawr fwythau: ac na âd arnat eiſieu ei chyngor hi.

34 Na ddos yn dlawd trwy wledda ar ocrech heb ddim yn dy bwrs, canys [felly] y byddit ti enwog gynllwynwr i'th einioes dy hun.

### PEN. XIX.

Yn erbyn glothineb a godineb. 6 am ymadrodd pwyllog, 22 gwir ddoethineb 27 y modd yr adweinir dyn.

NI chyfoethoga gweithiwr meddw: a'r hwn ſydd yn diyſtyru ychydig, a ſyrth o feſur ychydig.

2 Gwin a gwragedd ſydd yn gyrru doethion ar encil. Gen 19.33. 1.Bren.11.1.

3 A'r hwn a lyno wrth butteiniaid a fydd hŷf: eithr pydyrni a phryfed ai cânt ef yn etifeddiaeth, ac efe a wywa mewn mwy o ſiampl.

4 Yr hwn ſydd yn credu yn fuan ſydd yſcafn ei feddwl, a'r hwn ſydd yn pechu yn erbyn ei enaid ei hun a gyfeiliorna. Ioſ.22.12.

5 Yr hwn ſydd yn llawenychu mewn drygioni a gondemnir, yr hwn ſydd yn gwrthwynebu melus-chwant ſydd yn coroni ei fywyd.

6 Yr hwn a attalio ei dafod a gyd-fyw a'r anhywaith, a'r hwn ſydd yn caſau ſiarad ſydd yn llai ei niwed.

7 Na ddad-ddywet air, ac ni bydd i ti niwed.

8 Na fynega fuchedd arall wrth na chyfaill na gelyn, ac onid yn dy erbyn di y bydd y pechod na ddadcuddia ef.

9 Canys efe a'th wrendu, ac a ddeil arnat ti, ac mewn amſer efe a'th gaſâ di.

10 * Pan glywech air gâd iddo ef farw gyd â thi, a bydd ddiogel, o blegit ni rwyga efe di. Pen.22.22.

11 Un ffôl a oſidia gan air fel yr hon ſydd yn eſcor ar blentyn.

12 [Fel] ſaeth yng-lŷn ym morddwyd un, felly y mae gair ym mola y ffôl.

13 Cerydda dy gyfaill rhag iddo wneuthur, ac os efe a wnaeth rhag gwneuthur mwy.

14 * Cerydda dy gymmydog rhag iddo ddywedyd: ac os dywedodd, rhag iddo ddywedyd eil-waith. Lefit.19.17. Math.18.15.

15 Cerydda dy gyfaill: o blegit mynych y mae cwyn heb achos.

16 Hefyd na choelied dy galon di bob gair: y * mae un a lithro ganddo air, ac nid oi fodd: a phwy ni lithra ei dafod? Iago.3.2.

17 Cerydda dy gymmydog cyn bygwth, a dod le i gyfraith y Goruchaf, gan fod yn ddiddig: ofn yr Arglwydd yw dechreuad cymmeradwyaeth, a doethineb a bâr gariad ganddo ef: addyſc bywyd yw gwybodaeth gorchymynnion yr Arglwydd: a'r rhai ydynt yn gwneuthur yr hyn ſydd fodlon ganddo ef ydynt yn cael ffrwyth pren anfarwoldeb.

18 Yr ofn [a geir] gan yr Arglwydd yw pob doethineb, ac ym mhob doethineb y mae gwneuthuriad y gyfraith a gwybodaeth am ei holl alluogaeth ef: y gwâs yr hwn a ddywedo wrth ei feiſtr, ni wnaf yr hyn ſydd fodlon [gennit,] pe gwnae efe wedi hynny, y mae efe yn digio ei faethudd.

19 Nid doethineb yw gwybodaeth drygioni, ac lle y byddo cyngor pechaduriaid nid oes ſynnwyr.

20 Y mae drygioni a hwnnw yn ffiaidd, ac y mae angall annoeth.

21 Gwell yw 'r hwn ſydd yn ofnus ddychrynnedig mewn deall, na'r hwn ſydd yn rhagori mewn callineb, ac yn troſeddu cyfraith y Goruchaf.

22 Y mae cyfrwyſtra diwyd a hynny yn anghyfiawn, ac y mae a drŷ ymmaith ffafor i ddangos barn: a doeth yw yr hwn ſydd gyfiawn mewn barn.

23 Y mae yn gwneuthur drygioni ryw un wedi ymgrymmu, [ac] yn ddu: ac oi fewn yn llawn twyll tanllyd.

24 Efe gan gyd-oſtwng ei wyneb, a chymmeryd arno fod yn fyddar lle nid adweinir ef, a achub dy flaen di i wneuthur niwed.

25 Ac os o eiſieu gallu y rhwyſtrir iddo ef bechu, efe a wna ddrwg os caiff efe amſer.

26 Wrth y golwg yr adwainir gwŷr: ac wrth gyfarfod wyneb [yn wyneb] yr adwainir un dehallus.

27 * Gwiſc gŵr, a chwerthiniad dannedd, a cherddediad dŷn ſydd yn dangos yr hyn ſydd ynddo ef. Pen.21.20.

28 Y mae cerydd yr hwn nid yw dêg, ac y mae un diſtaw a hwnnw yn gall.

## PEN. XX.

Am amryw ffrwyth ymadrodd. 27 am lafurio tir. 28 am anrhegion a rhoddion.

MEgis y mae yn well ceryddu na digio yn ddirgel: felly yr attelir rhag niwed yr hwn a gydnabyddo [ei fai.]

2 Chwant diſpaidd yw torri morwyndod llangces: felly y mae yr hwn ſydd yn gweuthur barnedigaeth wrth nerth. Pen.30.20.

3 Y mae un diſtaw yr hwn a geir yn ddoeth, ac y mae ſydd adcas am ei ſiarad lawer.

4 Y mae a'r ſydd yn tewi am nad oes ganddo atteb, ac y mae a'r ſydd yn tewi am ei fod yn adnabod * yr amſer. Preg.3.7.

5 * Dŷn doeth a dau hyd oni byddo amſer, eithr yr ehud a'r angall a aiff tros amſer. Pen.32.4.

6 Yr aml ei eiriau a ffieiddir, ac adcâs ſydd yr hwn a gymmero awdurdod iddo ei hun.

7 Mor dda yw dangos o'r hwn a gerydder edifeirwch: felly y ffoi di oddi wrth bechod ewyllyſcar.

8 Gan ŵr pechadurus y mae dygrifwch mewn drygioni: ac yn niwed [iddo ei hun] y mae 'r caffaeliad.

9 Y mae rhodd yr hon nid yw fuddiol i ti, ac y mae rhodd yr hon a dâl ei dau cymmaint.

10 Y mae niwed er gogoniant, ac y mae a gododd ei ben trwy oſtyngeiddrwydd.

11 Y mae a bryn lawer am ychydig, ac ai tâl hwy yn ſaith gymmaint.

12 Yr * hwn ſydd ddoeth yn ei ymadrodd ſydd yn ei wneuthur ei hun yn gariadus, a ffafor ffyliaid a dywelltir allan. Pen.6.5.

13 Ni bydd rhodd yr angall fuddiol i ti yr hwn wyt yn derbyn: felly y cenfigennus o herwydd ei angen, o blegit y mae efe yn edrych am dderbyn llawer peth am yr un.

14 Ychydig a rydd efe a llawer a ddannod efe: ac efe a egir ei ſafn fel criwr.

15 Heddyw y nechwyna efe, ac y foru y cais efe: càs gan yr Arglwydd a chan ddynion yw y cyfryw.

16 Y ffôl a ddywed, nid oes gennif gyfaill, nid oes diolch am fy naioni.

17 Y rhai ydynt yn bwyta fy mara i, ydynt yn ddrwg eu tafod.

18 Pa ſawl gwaith a pha ſawl un ai gwatwarant ef: nid yw efe yn cymmeryd mewn deall da fod [peth] ganddo, a'r un fath iddo ef yw na bai.

19 Gwell yw llithro ar balmant na llithro o'r tafod, felly y daw cwymp y drygionus ar frŷs

20 Dŷn echryſlon ſydd fel chwedl allan o amſer, yr hwn fydd yn oeſtadol yng-enau yr hwn ſydd ddiaddyſc.

21 O enau y ffôl y llyſir dihareb, o blegit ni ddywed efe hi yn ei hamſer.

22 Y mae a luddir i bechu trwy eiſie, yr hwn pan orphwyſo ni ſwmbylir.

23 Y mae a gyll ei enaid ei hun o wladeidddra, a thrwy dderbyn wyneb y mae efe yn ei cholli hi.

24 Y mae a eddu iw gyfaill rhag cywilydd, ac ai gwna ef yn elyn iddo ei hun heb fod yn rhaid.

Pen.25.2. 25 * Anglod mawr ar ddyn yw celwydd, ac efe fydd yn oeſtadol yng-enau yr hwn ſydd ddiaddyſc.

26 Gwell yw lleidr na'r hwn a ymgynnefino â chelwydd: a phob vn o'r ddau a gaiff fethiant yn etifeddiaeth.

27 Amharchus yw arfer dyn celwyddog, ai anniwarthrwydd fydd gyd ag ef yn oeſtadol.

28 Y doeth ai geſyd ei hun rhagddo ai ymadrodd: a'r call a ryglydda bodd pendefigion.

Dihar.12.11. & 28.19. 29 * Yr hwn a goleddo ei dir a wna ei ddâs yn vwch, a'r hwn a ryglyddo bodd pendefigion a gaiff faddeuant am ei anghyfiawnder.

Exod.23.8. Deut.16.19. 30 * Anrhegion a rhoddion ydynt yn dallu llygaid y doethion, ac fel ffrwyn mewn ſafn y maent yn troi cerydd ymmaith.

31 Doethineb guddiedig a thryſſor heb ei weled, pa fudd ſydd o'r vn o'r ddau?

32 Gwell yw dŷn yn cuddio ei ffolineb, na dŷn yn cuddio ei ddoethineb: gwell yw angenrheidiol ddioddefgarwch yn ceiſio yr Arglwydd, nag vn yn llywodraethu ei fywyd ei hun heb Arglwydd.

## PEN. XXI.

Am edifeirwch. 6 Gweddi. 7 Pechod. 16 A'r rhagor ſydd rhwng y doeth a'r anoeth.

Pen.5.5. Pſal.14.4. Luc.15.21. [OS] pechaiſt [fy] mâb, na wna mwy: eithr * gweddia tros yr hyn a fu.

2 Ffô oddi wrth bechod megis rhag ſarph: o blegit os deui di atto ef, efe a'th dderbyn di.

3 Dannedd llew yw ei ddannedd ef, yn lladd eneidiau dynion.

4 Pob anwiredd [ſydd] fel cleddyf dau-finiog: ni ellir iachau ei archoll ef.

5 Ymſywen a cham a anrheithia gyfoeth: felly y gwneir tŷ y beilchion yn anghyfannedd.

Exod.3.9. & 22.23. 6 Gweddi y tlawd [a aiff] o'r genau i gluſtiau yr Arglwydd: ai farn ef a ddaw yn ebrwydd.

7 Yr hwn ſydd yn caſau cerydd [ſydd] ar lwybr pechadur: eithr yr hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd a drŷ o [ewyllys] ei galon.

8 Adweinir o bell y glew ai dafod: eithr y doeth a ŵyr pan lithro efe.

9 Yr hwn a adailado ei dŷ ag arian rhai eraill, [ſydd] megis yr hwn ſydd yn caſclu iddo ei hun gerrig i [wneuthur] carnedd ei feddrod.

Pen.16.6. 10 Swpp o garth * yw cynnulleidfa y rhai anwir, ai diwedd [fydd] tân diniſtriol.

11 Ffordd pechaduriaid a waſtâdhawyd â cherrig: ac yn ei chwr eithaf hi y mae ffôs vffern.

12 Yr hwn ſydd yn cadw cyfraith yr Arglwydd ſydd yn llywodraethu ei feddyliau,

13 A diwedd ofn yr Arglwydd yw derbyniad doethineb.

14 Yr hwn nid yw gall, ni chymmer ddyſc.

15 Canys y mae callineb yn amlhau chwerwedd.

16 Gwybodaeth y doeth a amlha fel llifeiriant, ai gyngor ef [fydd] fel pur ffynnon y bywyd.

17 Tu mewn y ffôl ſydd fel lleſtr twn, ni ddalie efe ddim gwybodaeth yn ei fywyd.

18 Gŵr doeth, os clyw air doeth ai cenmyl ac a chwanega atto.

19 Yr anoeth ai clybu ac nid oedd fodlon ganddo ef, eithr efe ai trôdd yn ôl ei gefn.

20 * Ymadrodd y ffôl ſydd megis baich ar y y ffordd, eithr yng-wefuſau y doeth y ceir grâs. Pen.33.5.

21 Megis tŷ wedi ei dynnu ymmaith yw doethineb i'r ffôl: pan feddylio rhai am ei eiriau ef yn [eu] calon, geiriau ni cheir pen arnynt fydd doethineb yr anoeth.

22 Megis lleffetheiriau ar draed, ac megis gefynnau dwylo ar y llaw dehau, yw addyſc gan y rhai anoeth.

23 Y ffôl yn chwerthin a gyfyd ei lêf, eithr prin y chwardd gŵr call yn ddiſtaw.

24 Megis tlŵs o aur yw addyſc gan y call: ac megis arddwrn-dlws ar y braich dehau.

25 Buan fydd troed y ffôl yn nhŷ [arall:] a'r gŵr a ŵyr lawer fydd gwradwyddus ganddo hynny.

26 Yr *angall a edrych i dŷ drwy 'r ffeneſtr: eithr gŵr medrus a ſaiff allan. Pen.19 27.

27 Anfedrusrwydd dŷn yw gwrando wrth ddryſſau, a'r call fydd blin ganddo ammarch.

28 Gwefuſau y rhai ſiaradus a draethant bethau nid ydynt yn perthynu iddynt eu hun, a geiriau y rhai call a bwyſſir mewn clorian.

29 Yn ſafn ffyliaid y mae eu calon, ac yng-halon doethion y mae eu ſafn.

30 Pan felldithio yr annuwiol y cythrael y mae efe yn melldithio ei enaid ei hun.

31 Y * ſiaradus ſydd yn halogi ei enaid ei hun, ac a gaſeuir pa le bynnac yr ymdeithio efe. Pen.28.13.

## PEN. XXII.

Am y diog. 12 A'r ffôl. 18 Am gydwybod ſiccr. 24 A chyfeillach dda.

Y Diog ſydd gyffelyb i garrec fydr, a phawb a chwibana er ammarch iddo ef.

2 I ſiſwail tommennau y cyffelybir y diog, pob vn ai cymmero i fynu a eſcwyd ei law.

3 Gwradwydd y tâd ſydd yng-anedigaeth [mab] ni chymmer addyſc: a merch [ffôl] ſydd mewn ammarch.

4 Merch gall fydd etifedd ei gŵr, a'r wradwyddus yn driſtwch iw thâd.

5 Yr hyf a wradwyddo dâd a gŵr, ac a amherchir gan y ddau.

6 [Megis] cerdd mewn triſtwch yw ymadrodd allan o amſer: ac mewn pryd [y bydd] ffrewyllau, ac addyſc doethineb.

7 Plant yn cael [eu] cynhaliaeth mewn buchedd dda ydynt yn cuddio difonedd eu rhieni, a phlant yn ymffroſtio mewn dirmyg ac annoethineb ydynt yn halogi bonedd eu carennydd.

8 [Megis] aſſio lleſtr pridd y mae yr hwn ſydd yn dyſcu y ffôl, a chodi y mae efe y rhai a ydynt yn cyſcu o ddyfnder cwſc:

9 Mynegu i un yn cyſcu y mae yr hwn ſydd yn mynegu [peth] i un ffôl: a phan ddarffo, efe a ddywed: beth yw [hyn?]

10 Wyla am y marw canys y mae diffig goleuni, ac wyla am y ffôl, canys y mae diffig ſynnŵyr.

Pen.38.16. 11 * Wyla yn felusach am y marw am iddo ef orphywys: canys [gwaeth] na marwolaeth yw bywyd y ffôl.

12 Saith niwrnod [ſydd] o alar am y marw, ac am y ffôl holl ddyddiau ei enioes ef.

Pen.12,12. 13 Na amlha eiriau gyd a'r angall, ac * na thyret at yr annoeth, o herwydd efe o eiſieu deall a ddiyſtyra bob dim.

14 Ymgadw oddi wrtho ef rhag cael blinder, ac na'th haloger di gan ei frynti ef.

15 Cilia oddi wrtho ef, a thi a gei orphywyſdra, ac na ddifrawa yn ei ynfydrwydd ef.

16 Beth ſydd drymmach na phlwm? a pha enw ſydd iddo ef ond plwm?

Pen.27.3. 17 * Haws yw dwyn tywod, a halen, a darn o haiarn na dŷn anſynhwyrol.

18 Cyſſwlt coed wedi ei rwymo yn adailadaeth ni ddettyd er ei eſcwyt: felly calon wedi ei ſiccrhau trwy feddylfryd cyngor nid arſwyda bob amſer gan ofn.

19 Calon wedi ei chadarnhau â deall ſynhwyrol ſydd fel gwchter o dywod ar bared llyfn.

20 Ni pheru cloddiau wedi eu goſod yn uchel yn erbyn y gwynt.

21 Felly calon ofnus gyd â meddwl un ffôl ni pheru yn erbyn pob ofn.

22 Yr hwn a bigo lygad a ddwg ddagrau allan, a'r hwn a bigo galon a ddwg allan ddioddefaint.

23 Yr hwn a deifl garreg at adar ai tarfa hwynt, a'r hwn ſydd yn gwradwyddo ei gyfaill ſydd yn dattod cefeillach.

24 Pe tynnit gleddyf ar [dy] gyfaill na anobeitha: o herwydd y mae cymmod.

25 Pe agorit dy ſafn yn erbyn [dy] gyfaill, nag ofna: oblegit y mae iawn: ond am wradwydd, a balchder, a datcuddiad cyfrinach, a dyrnod trwy dwyll: am y pethau hyn y ffŷ pob cyfaill ymmaith.

26 Cadw ffyddlondeb a'th gymydog yn [ei] dlodi, fel y gallech lawenychu yn ei wynfyd ef.

27 Aros wrtho ef yn amſer cyſtudd, fel y byddech gyd etifedd yn ei etifeddiaeth ef: nid yw tlodi bob amſer iw diyſtyru, na'r cyfoethog angall iw fawr berchi.

28 O flaen tân y mae tarth ffwmer a mwg: felly y mae difenwi o flaen celanedd.

29 Nid cywilydd ſydd gẽnif amddeffin fyng-hyfaill, ac nid ymguddiaf rhagddo ef.

30 Os digwydd i mi ddrwg oi blegit ef, pob un a glywo a ochel rhagddo ef.

31 Pwy a rydd i mi gadwriaeth ar fyng-enau, a ſêl gyfrwys ar fyng-wefuſau? fel na ſyrthiwn yn ddiſymmwth oddi wrthi hi, ac na'm difethe fy nhafod fi.

## PEN. XXIII.

Gweddi yr awdr. 6 Ai gyngor yn erbyn tyngu a difenwi. 19 Tri mawr fai: meddwl brwd, gwr godinebus, a gwraig butteinic.

Oh Arglwydd (tâd ac Arglwydd yr enioes oll) na âd fi yn eu cyngor hwynt, ac na âd i mi ſyrthio oi plegit hwynt.

2 Pwy a eſyd ffrewyllau yn fy meddwl, ac addyſc doethineb yn fyng-halon i? fel i'm arbedech ô Arglwydd am fy amryfuſedd: eithr na âd ti draha y rhai ydynt yn pechu o'r gwir-gwaith ddioddef.

3 Fel na chynnyddo fy anwybodaeth i, ac na amlhao fy mhechodau i yn ddiniſtr: ac na ſyrthiwyf fi o flaen fyng-wrthwynebwŷr na llawenychu o'm gelynion y rhai y mae eu gobaith yn bell oddi wrth dy drugaredd di.

4 Oh Arglwydd dâd a Duw fy mywyd i na ddod i mi olwg uchel: eithr tyn oddi wrth dy weiſion feddwl cawraidd.

5 Tro oddi wrthif fi ofer obaith a chwant a dal bob amſer yr hwn a fynne dy waſanaethu di, na oddiwedded awydd i'r bol fi, nac anlladrwydd: ac na ddod fi dy wâs i fod o feddwl digywilydd.

6 Gwrandewch blant addyſc genau cywir: a'r hwn ai cadwo ni ddelir ef yn ei ymadroddion.

7 Pechadur a ddelir yn ei anghallineb, trwyddynt hwy y tramgwydda y difenwr a'r balch.

8 * Na arfer dy enau i dyngu, ac na ymgynnefina a henwi yr hwn ſydd ſanctaidd. Exod.20.5. Pen.27.15. Matth.5.33.34

9 Oblegit megis ni bydd ychydig gleiſiau ar y gwâs a holer yn oeſtadol: felly yr hwn a dyngo ac a henwo [Duw] bob amſer ni bydd lân oddi wrth bechod.

10 Y gŵr a dyngo lawer a lenwir o anwiredd, ac nid ymedu dialedd ai dŷ ef.

11 Os pecha efe, ei bechod ſydd yn ei erbyn ef: ac os diyſtyr yw ganddo ef, y mae efe yn pechu y dau cymmaint.

12 Os yn ofer hefyd y tyngodd efe, ni chyfiawnheir ef: o blegit fe a lenwir ei dŷ ef o ddialedd.

13 Y mae ymadrodd wedi ei wiſco â marwolaeth: na chaffer [hwnnw] yn etifeddiaeth Jacob.

14 O herwydd hyn oll a dynnir ymmaith oddi wrth y rhai duwiol, ac ni threiglir hwynt mewn pechodau.

15 Nac arfer dy enau i anghymmeſurwydd o dyngu: o blegit y mae yn hynny ymadrodd pechadurus.

16 Meddwl am dy dâd a'th fam, o blegit ti a eiſteddi ym myſc pendeſigion.

17 Rhag dy anghofio di o honynt hwy, a dihoeni o honot o'th waith dy hun, ac ewyllyſio o honot na'th aneſid, a melldithio o honot ddydd dy anedigaeth.

2.Sam.16.7. 18 Y * dŷn a ymarfero â geiriau gwradwyddus, ni chymmer addyſc tra fyddo byw.

19 Dau fath ſydd yn pechu llawer, a'r trydydd ſyd yn dwyn digofaint.

20 Meddwl brwd fel y tân poeth yr hwn ni ddiffodd nes ei ddarfod.

21 A dŷn godinebus yn ei gorph cnawdol, yr hwn ni phaid hyd oni chynneuo efe dân.

22 Y mae pob bara yn felus gan ddŷn godinebus, ni phaid efe hyd oni ddarfyddo.

Eſa.29.15. 23 Dŷn yn troſſeddu oddi wrth ei wely ei hun a ddywed yn ei feddwl, * pwy ſydd yn fyng-weled?

24 Y mae tywyllwch o'm hamgylch i, ac y mae y parwydydd yn fyng-huddio i, ac nid oes neb yn fyng-weled i, beth ſydd arnafi ei ofn? ni chofia y Goruchaf fy mhechodau i: felly llygaid dynion y mae efe yn eu hofni.

25 Ac ni ŵyr efe fod llygaid yr Arglwydd goruchaf yn fil eglurach.

26 Y rhai ydynt yn canfod holl ffyrdd dynion, ac yn meddwl am y rhannau cuddiedig.

27 Cyn creu dim pob peth oedd hyſpus iddo ef, ac wedi eu gorphen y mae efe yn canfod y cwbl.

Lefit.20.10. Deut.22.22. 28 * Yn heolydd y ddinas y dielir ar hwn, ac ef a ddelir lle ni's amheuodd efe.

29 Felly y wraig yr hon ſydd yn gadel ei gŵr, ac yn ceiſio etifeddiaeth o arall.

Exod.20.14. 30 O blégit * yn gyntaf hi a anghredodd i gyfraith y Goruchaf, ac yn ail hi a bechodd yn erbyn ei gŵr, ac yn drydydd hi a dorrodd briodas trwy odineb, ac a geiſiodd blant o ŵr arall.

31 Honno a ddygir allan yn y gynnulleidfa, ac fe a fydd edrych ar ei phlant hi.

32 Ni wreiddia ei phlant hi, ac ni ddwg ei changhennau hi ffrwyth.

33 Ei choffadwriaeth hi a dderfydd yn felldith, ac ni ddelcuir ei hanniwarthrwydd hi.

34 A'r rhai a adewir a gânt wybod na'd oes dim well nag ofn yr Arglwydd: na dim feluſach nâr hwn ſydd yn gwilied ar orchymynnion Duw.

35 Gogoniant mawr yw dilyn Duw: a hîr hoedl yw derbyn o honnaw ef dy di.

## PEN. XXIIII.

Clod doethineb.

DOethineb a genmyl ei henaid, ac a orfoledda ym myſc ei phobl.

2 Hi a egyr ei ſafn yng-hynnulleidfa y Goruchaf, ac a orfoledda ger bron ei allu ef [gan ddywedyd,]

3 Mi a ddeuthym o enau y Goruchaf, ac a orchuddiais y ddaiar fel niwl.

4 Mi a breſſwyliais yn y goruchelder, a'm gorſeddfaingc i ſydd mewn colofn o gwmwl.

5 Myfi a amgylchais gylch y nefoedd fy hunan, ac a rodiais yng-waelod y dyfnder.

6 Cefais feddiant o donnau y môr, ac o'r holl dîr, ac o bob pobl a chenhedlaeth.

7 A chyd a'r rhai hyn oll y ceiſiais i orphywyſfa, fel y cyfannedwn yn etifeddiaeth rhyw un.

8 Yna i'm gorchymynnodd creawdudd pob peth, a'r hwn a'm creawddinne a wnaeth i'm pabell i orphywyſo, ac a ddywedodd:

9 Preſſwylia yn Jacob, a chymmer etifeddiaeth yn Jeruſalem.

10 * Efe a'm creawdd i o'r dechreuad cyn y byd, ac ni phallaf fi byth, mi a waſanaethais ger ei fron ef * yn y babell ſanctaidd. Dihar.8.23. Exod.31.3.

11 Ac felly im ſiccrhawyd i yn Sion, gwnaeth efe hefyd i mi orphywyſo yn y ddinas ſanctaidd, ac yn Jeruſalem y mae fyng-allu i.

12 Ac mi a wreiddiais ym myſc pobl anrhydeddus yn rhan yr Arglwydd ai etifeddiaeth.

13 Fel cedr yn Libanus y derchafwyd fi, ac fel cypreſwydden ym mynyddoedd Hermon.

14 Fel palmwydden Engadi y derchafwyd fi, ac fel planhigion rôs yn Jericho.

15 Fel oliwydden hardd mewn maes têg, fel planwydden wrth ddyfroedd i'm derchafwyd.

16 Fel Cinamwn, ac fel ſwpp o bêr-aroglau, ac megis myrr dewiſol y rhoddais fy mher arogl.

17 Fel galbanum, ac Onyx, ac ſtorax, ac fel tarth thus mewn papell.

18 Mi a eſtynnais fyng-hanghennau fel Tarebinthus, a'm canghennau ydynt ogoneddus a grawſlawn.

19 * Fel gwinwydden y tarddodd pêr arogl o honofi, a ffrwyth gogoniant a chyfoeth yw fy mlodau mau fi. Io.15.1.

20 Mam cariad da, ac ofn, a gwybodaeth, a gobaith ſanctaidd ydwyfi:

21 Yr ydwyfi yn rhoddi [y rhai hyn] yn dragywyddol i'm meibion y rhai a ddywedo efe.

22 Deuwch attafi y rhai a ydych yn fy chwennychu i, a llanwer chwi âm ffrwythau i.

23 Canys * meluſach yw fyng-hoffadwriaeth na'r mêl, a'm etifeddiaeth na'r dil mêl. Pſal.19.10.

24 Bydd ar y rhai am bwytânt i newyn etto, ac ar y rhai am hyfant i y bydd ſychedd etto.

25 Ni wradwyddir byth yr hwn a ufyddhao i mi, ac ni phecha y rhai a weithiant trwofi.

26 Llyfr cyfammod y goruchaf Dduw yw hyn oll.

Exod.20.1.& 24.3. Deut.4.1.& 29.9. 27 [Sef] * y gyfraith yr hon a orchymynnodd Moſes i ni yn etifeddiaeth yng-hynulleidfa Jacob, na phellwch fod yn gryfion yn yr Arglwydd, fel y cadarnhao efe chwi, glynwch wrtho ef: yr holl alluog Arglwydd ſydd Dduw yn unic, ac nid oes iachawdur ond efe.

Gen.2.11. 28 Yr hwn ai ddoethineb ſydd yn llenwi pob peth fel * Piſon, ac fel Tigrys yn nyddiau y [ffrwythau] newydd.

Ioſ.3.15. 29 Yr hwn ſydd yn llenwi deall fel Euphrates, ac fel yr * Iorddonen yn amſer cynhaiaf.

30 Yr hwn ſydd yn dangos addyſc gwybodaeth fel goleuni, ac fel Gêon yn nyddiau cynhaiaf gwin.

31 Ni orphennodd y cyntaf ei hadnabod hi: felly nid ôlrheiniodd y diweddaf hi allan.

32 O blegit y mae ei meddylfryd hi yn helaethach na'r môr, ai chyngor na'r dyfnder mawr.

33 Yr ydwyf fi doethineb, fel ffôs yn dyfod o afon:

34 Ac fel aber yr euthym i baradwys.

35 Mi a ddywedais y dwfrhawn fyng-ardd o'r oref, ac y mwydwn fyng-hyſtawn ireiddra.

36 Ac wele fe a aeth fy ffôs yn afon, a'm hafon i yn fôr.

37 Am fy mod i yn egluro addyſc fel y cyfddydd, ac yn ei dangos hi ym mhell.

38 O herwydd yr ydwyf fi yn tywallt athrawiaeth fel prophwydoliaeth, ac mi ai gadawaf hi i oeſoedd tragywyddol.

Pen.33.16. 39 Gwelwch * nad troſof fy hunan y cymmerais i boen, eithr tros bawb ai ceiſiant hi.

## PEN. XXV.

Y tri pheth hoff a'r tri pheth câs, 9 y naw dedwydd, 9 a'r wraig ſceler.

GAn dri pheth yr euthym i yn dêg, ac y codais i yn dêg ger bron yr Arglwydd a dynion.

Gen.13.2.5. Rhuf.12.10. 2 * Cydundeb brodyr, a chyfeillach cymmydog, a gŵr a gwraig yn cŷd-ddwyn ai gilydd.

3 A thri math [ar ddŷn] ſydd gâs gan fy enaid i, ac yr ydwyf yn anfodlon iawn iw buchedd.

4 Tlawd balch, a chyfoethog celwyddog, a hen-wr godinebus angall.

5 Oni cheſclaiſt ti yn dy ieuengtid, pa fodd y cei di yn dy henaint?

6 Mor dêg yw barn ar rai penllwyd: a medru cyngor ar henaf-gwŷr!

7 Mor dêg yw doethineb henafgwŷr, a meddylfryd a chyngor mewn rhai anrhydeddus!

8 Coron henaf-gwŷr yw gwybod llawer, ai gorfoledd yw ofn yr Arglwydd.

9 Naw meddwl a gyfrifais i yn ddedwydd yn fyng-halon, a'r decfed a draethaf fi a'm tafod.

10 Dŷn yn byw yn llawen oi blant, ac yn gweled cwymp ei elynnion.

11 Gwyn ei fyd yr hwn ſydd yn cyttal â gwraig ſynhwyrol, * a'r hwn ni lithrodd ei dafod, ac ni waſanaethodd yr hwn ſydd anaddas iddo ef. Pen.14.1.& 19.16. Iago.3.2.

12 Gwyn ei fyd yr hwn a gafodd ſynnwyr, ac ai mynego wrth y rhai ſy yn gwrando.

13 Mor fawr yw 'r hwn ſydd yn cael doethineb? ond nid oes neb uwch na'r hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd.

14 Cariad yr Arglwydd ſydd eglurach nâ dim.

15 I ba beth y cyffelybir yr hwn ſydd yn cael afael arno ef?

16 Ofn yr Arglwydd yw dechreuad ei gariad ef, a ffydd yw dechreuad glynu wrtho ef.

17 [Dewis] bob dyrnod ond dyrnod [ar] y galon: a phob drygioni ond drygioni gwraig.

18 [Dewis] bob niwed ond niwed caſeion, a phob dial ond dial gelynnion.

19 Nid oes pen waeth na phen ſarph, na digofaint waeth na digofaint gelyn.

20 Gwell gennifi gyttal â llew, ac â draig, na chyttal â gwraig ddrwg. Dihar.12.19.

21 Y mae drygioni gwraig yn newidio ei hwyneb hi, ac yn gwneuthur ei hwyneb-pryd hi cyn ddued ag arth.

22 Yng-hanol ei gymmydogion y ſyrthia ei gŵr hi, ac efe a ucheneidia oi anfodd oi hachos hi.

23 Bychan yw pob drwg wrth ddrwg gwraig, ſyrthied coel-bren pechadur arni hi.

24 Fel y mae dringfa dywodlyd i draed henaf-gwr, felly y mae gwraig ſiaradus i ŵr diſtaw.

25 * Na ſyrth at degwch gwraig, ac na chwennych wraig er trythyllwch. Pen.42.12. 2.Sam.11.2.& 13.2.

26 Dîg, a digywilydd-dra, a gwaith mawr yw gwraig, os rhydd hi iw gŵr [ei gynhaliaeth.]

27 Calon iſel, ac wyneb ſarrig ac archoll calon yw gwraig ddrwg.

28 Dwylo gweniaid, a gliniau rhyddion yw 'r hon ni chynorthwya ei gŵr yn ei uchenaid.

29 Trwy wraig * y daeth dechreu pechod, ac oi phlegit hi yr ydym ni yn meirw oll. Gen.3.6. 1.Tim.2.14.

30 Na ddod i ddwfr le i fyned troſodd, nac i wraig ddrwg rydd-did i fyned allan.

31 Onid aiff hi wrth dy law di, tor hi oddi wrth dy gnawd, dod [yſcar] a gollwng [hi] yn rhydd.

## PEN. XXVI.

Clod gwraig dda, 5 y pedwar peth erchyll, 8 eiddigedd gwraig ai drygioni, 33 y tri pheth anweddus.

GWyn ei fyd gŵr y wraig dda: canys dauddyblyg fydd rhifedi ei ddyddiau ef.

2 Gwraig ŵrol a lawenycha ei gŵr, ac a

gyſtawna

gyflawna flynyddoedd ei fywyd ef mewn heddwch.

3 Rhan dda yw gwraig dda, ac yn rhan y rhai ydynt yn ofni yr Arglwydd y rhoddir hi.

4 Y mae gan dlawd a chyfoethog galon dda at yr Arglwydd, ac hwy a orfoleddant bob amſer yn wyneb-lawen.

5 Rhag tri pheth yr arſwydodd fyng-halon i, a rhag y pedwerydd golwg yr ofnais i.

6 Enllib dinas, a thorf o bobl,

7 A gau deſtiolaeth : blinach nag angeu ydynt hwy oll.

8 Baich calon a galar yw gwrag yn dal eiddigedd wrth wraig, a ffrewyll tafod yw ’r hon ſydd yn cyfrannu â phawb.

9 Iau ŷchen yn ſiglo yw gwraig ddrwg, ac y mae ei pherchennog megis yn ymaflyd mewn ſcorpion.

10 Digter mawr yw gwraig feddw, ac ynfyd, ac ni chela hi ei gwarth ei hun.

11 Putteindra gwraig a adweinir wrth dderchafiad [ei] llygaid [hi,] ac wrth [ei] hamrantau [hi.]

Pen.42.11. 12 Dod ti gadwriaeth ſiccr * ar ferch anhywaith, rhag os caiff hi rydd-did iddi ei [cham] arfer ei hun.

13 Gwilia ar y llygad digywilydd, ac na ryfedda os gwna efe fai â thi.

14 Fel yr egyr fforddol ſychedig ei ſafn pan gaffo efe ffynnon : felly yr yf hi o bob dwfr cyfagos, yr eiſtedd hi wrth bob pawl, ac yr egyr gawell yn erbyn y ſaeth.

15 Grâs gwraig a wna ei gŵr yn hyfryd, ai gwybodaeth hi a wna ei eſcyrn ef yn freiſion.

16 Rhodd yr Arglwydd yw gwraig ddiſtaw gall, ac nid oes cydwerth i enaid a gymero addyſc.

17 Grâs ar râs yw gwraig gywilyddgar a ffyddlon,

18 Ac nid oes dim a ddichon bwyſo yn gyfaddas ei diwair feddwl hi.

19 Fel y mae yr haul yn codi yn vchelder yr Arglwydd : felly y mae tegwch gwraig dda yng-wychter ei thŷ.

20 Fel cannwyll yn goleuo mewn canhwyllbren ſanctaidd : felly y mae tegwch prŷd mewn oedran diwegi.

21 Fel colofnau aur mewn morteiſiau arian : felly y mae traed têg gyd a dwyfron ſiccr.

22 [Fy] mab cadw flodau dy ieuengtid yn iach, ac na ddod dy gryfder i ddieithriaid.

23 Wedi it geiſio y rhan ffaethaf o’r maes oll, haua dy hâd dy hun gan obeitho yn dy fonedd.

24 Felly dy hiliogaeth di y rhai a fyddant byw gan gael hyder o fonedd a gynnyddant.

25 Gwraig a’r wertha a gyfrifir i fod vn wedd a hŵch, a’r briod a gyfrifir yn dŵr rhag angeu i’r rhai ai harferant.

26 Gwraig annuwiol a roddir yn rhan i ŵr anwir, a’r dduwiol a roddir i’r hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd,

27 Gwraig anhoneſt a bair ammarch, eithr merch honeſt a barcha ei gŵr.

28 Megis ci y cyfrifir gwraig anhywaith, a’r gywilyddgar a ofna yr Arglwydd.

29 Y wraig yr hon ſydd yn perchi ei gŵr ei hun, a wêl pawb yn ddoeth, a’r hon ai amharcho ef a gydnebydd pawb ei bod yn annuwiol a balch.

30 Gwyn ei fyd gŵr y wraig dda : o blegit dau ddyblyg fydd rhifedi ei flynyddoedd ef.

31 Am wraig floeddgar a ſiaradus yr edrychir i darfu gelynnion.

32 Enaid pob dyn tebyg i’r rhai hyn a ddwg ei fywyd mewn terfyſcoedd rhyfel.

33 Am ddau beth y mae fyng-halon i yn athriſt, ac am y trydydd y daeth arnaf ddigter.

34 Bod rhyfelwr yn anghenus trwy eiſieu, ac os dirmygir gwŷr ſynhwyrol.

35 Yr hwn a ddychwelo o gyfiawnder i bechod yr Arglwydd ai paratoa ef i’r cleddyf : anhawdd yw cynnu marſiandwr heb fai, ac ni chyfiawnheir tafarn-wr oddi wrth bechod.

## PEN. XXVII.

Bod bai wrth brynu a gwerthu. 5 Y modd y mae adnabod dyn. 11 Cynneddf y ffôl. 16 Brynted yw dadcuddio cyfrinach. 27 Bod drygioni dyn yn dyfod arno ei hun.

O Achos peth cyffredinol y pechodd llawer : a’r * hwn ſydd yn ceiſio cael amldra a drŷ ei olwg ymmaith. 1.Tim.6.9. Dihar.26.4.

2 Rhwng cyſſwllt cerrig y gyrrir gwanas, a rhwng prynu a gwerthu yr ymwthia pechod.

3 Oni ddeil efe yn ofn yr Arglwydd yn ddiwyd, ebrwydd y diniſtrir ei dŷ ef.

4 Wrth eſcwyd y gogr yr erys y brynti, felly anrhaith dŷn yn ei ymryſymmiad ef.

5 Y ffwrn ſydd yn profi lleſtri pridd, * felly y mae profedigaeth dŷn yn ei ymadrodd ef. Dihar.27.21.

6 Ei * ffrwyth a ddengys goleddiad y pren, felly y gwna traethiad y meddwl yng-halon dŷn. Matth.7.17.

7 Na chanmol ŵr cyn [clywed ei] ymmadrodd : oblegit dyna brofedigaeth dŷn.

8 Os dilyni di gyfiawnder ti ai goddiweddi hi, ac ai gwiſci hi fel gwiſc laes ogoneddus.

9 Adar a athoaſant gyd âi cyffelyb; a’r gwirionedd a drŷ at y rhai a weithiant.

10 Fel y cynllwyn llew i helfa, felly y gwna pechod i’r rhai a weithredant ddrygioni.

11 Traethiad y duwiol ſydd bob amſer am ddoethineb, a’r angall a newidia fel lleuad.

12 Ym myſc yr anſynhwyrol cadw amſer; â thyret yn fynych i fyſc y rhai pwyllog.

13 Baich yw traethiaid ffyliaid, ai chwerthiniad fydd am ddigrifwch pechod.

14 Ymadrodd yr hwn a dyngo lawer a wna i’r Pen.23.9.10.

gwallt godi, ac ymſywyn y cyfryw a wna gaeu cluſtiau.

15 Ymſywyn beilchion a bair gelanedd, ai difenwad hwynt ſydd flin ei chlywed.

Pen.19.10. & 22.22. 16 Yr hwn *ſydd yn datcuddio cyfrinach a gollodd ei gredyniaeth, ac ni chaiff efe gyfaill wrth ei fodd.

17 Hoffa [dy] gyfaill, a gwna yn ffyddlon ag ef.

18 Eithr os datcuddi di ei gyfrinach ef, na ddilyn ar ei ôl ef.

19 Oblegit megis y mae dŷn yn difetha ei elyn, felly y mae efe yn difetha ei gymmydog.

20 Ac fel ye gollynge gŵr aderyn oi law, felly y gollyngaiſt dy gymmydog ac ni's deli ef.

21 Na chanlyn ef: oblegit y mae efe ym mhell, ac wedi ffoi fel iwrch o fagl.

22 O blegit fe a ellir iachau archoll, ac y mae cymmod am ddifenwad.

23 Eithr yr hwn a ddadcuddiodd gyfrinach a gollodd [ei] gredyniaeth.

Dihar.10.10. 24 Y mae * yr hwn ſydd yn amneidio ai lygad yn adailadu drŵg, a'r hwn ai hadwaeno ef a gilia oddi wrtho ef.

25 Efe a wna ei enau yn fwyn yn dy wydd di, a rhyfedd fydd ganddo ef dy ymadrodd di: wedi hynny efe a drŷ ei chwedl, ac a fwrw fai ar dy ymadrodd di.

26 Llawer a gaſeais i [arno ef] ac ni welwn ddim tebyg iddo ef: yr Arglwydd hefyd ai caſaodd [ef.]

27 Y neb ſydd yn taflu carreg yn uchel ſydd yn ei thaflu hi ar ei ben ei hun: a dyrnod twyllodrus a wahana archoll.

Pſal.7.15. 28 *Yr hwn a glodio ffôs a ſyrth ynddi hi.

Dihar.26.27. 29 A'r hwn a oſodo rwyd a ddelir â hi.

Preg.10.8. 30 Yr hwn a wnelo ddrwg, arno ef yr erys efe: ac ni chaiff efe wybod o ba le y mae efe yn dyfod iddo ef.

31 Gwatwargerdd, a dannodedd y beilchion, a dialedd a gynllwyn iddynt hwy fel llew.

32 Mewn magl y delir y rhai ydynt yn llawen ganddynt ſyrthio y rhai duwiol, a chyn eu marwolaeth y treulia gofid hwynt, digter, a llidffiaidd hefyd yw 'r pethau hyn, a'r pethau hyn y bydd gŵr pechadurus meddiannol o honynt.

## PEN. XXVIII.

Cyngor yn erbyn chwant i ddial. 10 A rhyfyg y tafod.

Deut.32.35. Rhuf.12.19. Y *Dialwr a gaiff ddialedd gan yr Arglwydd, ac efe gan gadw a geidw ei bechodau ef.

2 Maddeu i'th gymmydog ei gam, ac yna pan weddiech di y maddeuir dy bechodau dithe.

Matth.6.14. 3 Dŷn i ddŷn a geidw ddig, ac *a gais gan yr Arglwydd feddiginiaeth,

4 Ni thrugarha efe chwaith wrth ddŷn cyffelyb iddo ei hun, ac efe a ymbil tros ei bechodau.

5 Y mae efe yn gnawd yn cadw digter: pwy gan hynny a drugarha wrth ei bechod yntef?

6 Cofia y diwedd, a phaid a dal galanaſtra.

7 Na fygwth chwaith i'th gymmydog ddiniſtr, na marwolaeth: eithr aros wrth y gorchymynnion.

8 Cofia y gorchymynnion, ac na ddigia wrth dy gymmydog.

9 [Cofia] hefyd gyfammod y Goruchaf, a dirmyga annwybodaeth.

10 *Ymgadw rhag cynnen, a thi a wnei yn llai dy bechodau: o blegit gŵr digllon a gynneu gynnen. Pen.8.1.

11 Gŵr pechadurus a drallod a gyfeillion, ac a fwrw lid rhwng rhai heddychol.

12 Fel *y byddo defnydd y tân felly y llyſc efe, ac fel y byddo cadernid y gynnen y cynnydda y tân, fel y byddo cryfder dŷn y bydd ei ddigofaint ef, ac yn ôl cyfoeth dŷn y cyfyd efe ei lid. Dihar.26.21.

13 Y mae ymryſon pryſur yn cynneu y tân, a chynnen bryſſur yn tywallt gwaed.

14 Os chwythi di wreichionen hi a gynneu: ond os poeri di arni hi, hi a ddiffydd: ac y mae y ddau yn dyfod o'r genau.

15 Melldithiwch *yr athrodwr a'r ddau dafodiog: o blegit llawer-un heddychlon a ddifethaſant hwy. Pen.21.28.

16 Tafod dau ddyblyg a gynhyrfodd lawer ac ai gwaſcarodd hwynt o genhedlaeth i genhedlaeth.

17 Dinaſoedd cedyrn a ddiniſtriodd efe hefyd, a theiau pendefigion a ddifethodd efe.

18 Tafod dauddyblig a fwriodd wragedd gwrol allan, ac ai diddymmodd hwynt oi llafur.

19 Yr hwn a wrandawo arno ef ni chaiff efe lonydd, ac ni phreſſwylia yn ddiſtaw.

20 Dyrnod ffrewyll a wna glais, a dyrnod tafod a ddryllia eſcyrn.

21 Llawer a ſyrthiaſant o herwydd min y cleddyf, ond nid cymmaint ag a ſyrthiaſant o blegit y tafod.

22 Gwyn ei fyd yr hwn a amddeffynnwyd rhagddo, ac nid aeth yn ei ddigofaint ef.

23 Yr hwn ni thynnodd ei iau ef, ac ni rwymwyd ai rwymau ef: o blegit iau haiarn yw ei iau ef, a rhwymau prês yw ei rwymau ef.

24 Marwolaeth ddrwg yw ei farwolaeth ef, a mwy buddiol yw uffern nag ef.

25 Ni chaiff efe lywodraeth ar y rhai duwiol, ac ni loſcir hwynt yn ei flam ef.

26 Y rhai ydynt yn gadel yr Arglwydd a ſyrthiant tano, ac arnynt hwy y llyſc efe heb ddiffoddi: efe a yrrir arnynt hwy fel llew, ac fel lleopard y difa efe hwynt.

27 Wele cae dy dyddyn â drain, eithr gwna i'th enau ddorau a chlôau.

28 Rhwym dy arian a'th aur, pwyſa hefyd dy ymadrodd, a gwna i'th enau borth a chlo.

29 A gochel rhag llithro o honot trwyddynt hwy, ac rhag ſyrthio o honot o flaen y cynllwyn-wr.

PEN.

## PEN. XXIX.

Am echwyn. 14. eluſcu 17 machniaeth 15 am gartref er tylotted fyddo.

YR hwn ſydd yn gwneuthur trugaredd ſydd yn rhoddi echwyn iw gymmodog, a'r hwn ſydd yn ei gadarhau ef ai law, ſydd yn cadw y gorchymynnion.

Deut.15.7. math.5.42. luc.6.35. 2 Dod echwyn i'th gymmydog yr amſer y bydd rhaid iddo ef, a thâl trachefn i'th gymmydog yn yr amſer.

3 Cadw dy air yn ſiccr, a gwna yn ffyddlon ag ef, a thi a gei wrth dy raid bôb amſer.

4 Llawer a gyfrifaſant echwyn fel peth wedi ei gael, ac a baraſant flinder i'r rhai ai helpiaſant hwy.

5 Y mae efe yn cuſſanu ei ddwylo ef hyd oni dderbynio efe: ac efe a oſtwng ei leferydd am arian ei gymmydog.

6 Ac yn amſer talu efe a oeda yr amſer, ac a rydd atteb hwyr-frydig, ac a wna eſcus o'r amſer.

7 Ac os dichon efe roddi, prin y dwg efe yr hanner: ac efe a gyfrif hynny fel peth wedi ei gael.

8 Os amgen [wedi] iddo ef ei ddifuddio ef am ei arian, ai gael ef yn elyn heb achos:

9 Efe a dâl iddo ef felldithion a difenwad: efe a dâl iddo ef ammarch yn lle anrhydedd.

10 Llawer a droeſant ddŷn ymmaith rhag drwg, ac a ofnaſant ei difuddio.

11 Er hynny bydd ddioddefgar wrth drueni, ac nac oeda dy eluſen iddo ef.

12 Cynnorthwya y tlawd er mwyn y gorchymyn, ac na thro ef ymmaith yn ei angen.

13 Coll dy arian er mwyn cyfaill neu frawd, ac na chuddia hwynt tann garreg iw colli.

Dan 4.24. math.6.20. luc.11.41. & 12.33. act.10.4. 1.tim. 6.18,19. Tob.4.8,9,10, 11. 14 Goſod * dy dryſſor lle y mae y Goruchaf yn gorchymyn, ac efe a fydd mwy buddiol i ti nag aur.

15 Cae * dy eluſen yn dy gelloedd, ac hi a'th wared ti o bôb niwed.

16 Hi a ymladd troſot ti yn well na tharian cryf, ac na gwaiw-ffon gadarn yn erbyn y gelyn.

17 Gŵr da a fachnia tros ei gymmydog, a'r hwn a gollodd gywilydd-dra ai gâd ef.

18 Na angofia garedigrwydd meichie, o blegit efe ai rhoddes ei hun troſot ti,

19 Pechadur a anrheithia ferchie da.

20 Pechadur wedi machino a ffŷ, a'r difuddiol a âd yn [ei] feddwl yr hwn ai gwaredodd ef.

21 Machniaeth a ddifethodd lawer un goludog, ac ai ſymmudodd hwynt fel tonn o'r môr.

22 Hi a wnaeth i wŷr cedyrn fudo, fel y crwydraſant hwy ym myſc cenhedloedd dieithr.

23 Y pechadur a droſeddo orchymynnion yr Arglwydd a ſyrth mewn machniaeth, a'r hwn a ddilyn wobr a ſyrth mewn cyfraith.

24 Cynnorthwya dy gymmydog yn oref ac y gallech, a gwilia arnat dy hun rhag ſyrthio o honot.

Pen.39.21. 25 * Dechreu bywyd dŷn yw dwfr a bara a dillad, a thŷ yn gorchguddio gwarth.

26 Gwell yw bywyd y tlawd tann dô cledr, na gwleddau danteithiol o'r eiddo rhai eraill.

27 Am fawr a bychan bydd fodlon, ac ni chei di glywed gwradwydd i'th dŷ.

28 Bywyd drwg [yw gwibio] o dŷ i dŷ, ac lle yr ymdeithi di, ni elli agoryd dy ſafn.

29 Ti a letteui, ac a ddiodi rai anniolchgar, ac a gei glywed chwerwder am hynny.

30 Tyret ymdeithudd gwna 'r bwrdd yn drefnus, ac od oes dim gennit dod i mi fwyd.

31 Tyret allan ymdeithudd o flaen yr anrhydeddus, y mae yn rhaid i mi wrth fy nhŷ, y mae fy mrawd yn lletteua gyd â mi.

32 Trwm yw hyn i'r hwn ſydd ganddo ſynnwyr, goraſyn y tŷ, a gwradwydd y benthygiwr.

## PEN. XXX.

Am goſpedigaeth plant 14 mor felus yw iechyd a llawenydd.

Dihar.13.24. & 23.13. YR hwn ſydd yn caru ei fab ai mynych * ffrewylla ef, fel y llawenycho efe yn ei ddiwedd ef.

2 Yr hwn a addyſco ei fab a gaiff lawenydd o honaw ef, ac a orfoledda oi achos ef ym myſc ei gydnabod.

Dan.6.7. 3 Yr hwn ſydd * yn dyſcu ei fab a ddigia ei elynion, ac a orfoledda oi blegit ef o flaen ei gyfeillion.

4 Er marw ei dad ef, etto y mae efe megis heb farw, am adel o honaw ef ar ei ôl un cyffelyb iddo ei hun.

5 Yn ei fywyd efe ai gwelodd ef, ac a fu lawen oi blegit: ac yn ei ddiwedd ni bu efe athriſt.

6 Efe a adawodd un i ddial yn erbyn ei elynion, ac un i dalu diolch iw gyfeillion.

7 Yr hwn ſydd yn coſpi ei fab a rwym ei archollion ef, er cythryblu ei empyſcaroedd ef ar bob bloedd.

8 March gwyllt a aiff yn ſceler, a mab a adewir iddo a aiff yn anllywodraethus.

9 Llocha dy fab, ac efe a'th ddychrynna di: chware ag ef, ac efe a'th driſtâ di.

10 Na chyd chwardd ag ef rhag gofidio o honot, ac eſcwyd dy ddannedd o'r diwedd.

Pen.7.23. 11 Na * ddod iddo ef rydd-did yn ei ieuenctid, ac na fydd ddiyſtyr am ei annwybodaeth ef.

12 Goſtwng ei warr ef yn ei ieuẽgtid, a thorr ei yſtlys tra fyddo efe plentyn, rhag iddo annufyddhau i ti pan galedo efe, a bod yn ofid calon i ti.

13 Addyſca dy fab, a chymmer boen gyd ag ef, fel na thramgwyddech trwy ei anniwarthrwydd ef.

14 Gwell yw 'r iach cryf ei gyfanſoddiad, na'r cyfoethog yr hwn y curwyd ei gorph.

15 Iechyd a chyfanſoddiad da ſydd well na phob aur, a chorph iachus na golud anfeidrol.

16 Nid oes gyfoeth gwell nag iechyd

corph: ac nid oes llawenydd gwell na llawenydd calon.

17 Gwell yw marwolaeth nag enioes chwerw, neu nychtod barhaus.

18 Pethau da wedi eu cau mewn ſafn caead yw gwledd wedi ei goſod ar fedd.

19 Pa ludd a wna diod offrwm i eulyn? o blegit ni fwyttu efe, ac ni arogla: felly yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei erlid.

20 Yr hwn ſydd yn gweled â'i lygaid ac yn tuchan, ſydd fel diſpaidd yn canfod morwyn, ac yn vcheneidio.

21 Na ddod dy enaid i driſtwch, ac na chyſtuddia dy di dy hun a'th gyngor dy hun.

22 Llawenydd calon yw enioes dyn, a hirhoedl yw gorfoledd gŵr.

23 Hoffa dy enaid, a chyſſura dy galon: a gyrr driſtwch ym mhell oddi wrthit.

24 O blegit triſtwch a ddifethodd, ac a laddodd lawer.

25 Cenfigen a dig ydynt yn lleihau dyddiau: a gofal ſydd yn dwyn henaint cyn yr amſer.

26 Calon hoiw a da a ofala [yn vnic] am ei bwyd yn [ei] gwledd.

## PEN. XXX'I.

Cyngor yn erbyn gormod chwant i gyfoeth, ac i fwyd a diod.

2.Timoth.6.9.10. GWilio am olud * a wna i'r cnawd ddihoeni a gofal am danynt hwy a luddia gwſc.

2 Gofalu a gwilio o ſynne gael hun, a chwſc a wna glefyd trwm yn hamddenol.

3 Y goludog ſydd yn cymeryd poen yn caſclu cyfoeth, ac yn [ei] eſmwythdra ef a lenwir ai ddainteithion.

4 Y mae y tlawd yn cymmeryd poen ac eiſieu, er hynn pan beidio efe tlawd yw efe.

5 Ni chyfrifir yn gyfiawn yr hwn a hoffo aur, a'r hwn a ddilyno lwgredigaeth a gaiff ei wala [o honi hi.]

Pen.8.2. 6 * Llawer a ddifethwyd o achos aur, ac y daeth eu diniſtr oi blaen.

7 Pren tramgwydd yw efe i'r neb ai haddolo, ac wrtho ef y delir pôb angall.

Luc.6.24. 8 *Gwyn ei fyd y goludog yr hwn a geir yn ddifai, ac nid aeth ar ôl aur.

9 Pale y mae y fath vn: ac nyni ai galwn ef yn happus: canys pethau rhyfedd y mae yn ei wneuthur ym myſc ei bobl.

10 Pwy a brofwyd trwy [yr aur] hwn, ac a gafwyd yn berffaith: ac efe a gaiff fôd yn orfoleddus, pwy a allodd bechu ac ni's pechodd, ac a allodd wneuthur drygioni, ac ni's gwnaeth:

11 Am hynny y ſiccrheuir ei dda ef, a'r gynnulleidfa a fynega ei eluſenau ef.

12 Pan eiſteddech di ar fwrdd gŵr mawr na rytha dy gêg arno,

13 Ac na ddywet fod llawer arno.

14 Coſia mai peth drwg yw drwg lygad.

15 Pa beth a wnaeth waeth nâ llygad: am hynny yr ŵyla efe ger bron pôb ŵyneb.

16 Nag eſtyn dy law ar bôb peth a welech di.

17 Ac na fydd ar yr vn-waith ag ef yn y ddyſcl.

18 Yſtyria wrthit ty hun beth yw meddwl dy gymydog, a bydd bwyllog ym mhob peth, bwyta fel dŷn yr hyn a oſoder o'th flaen di, ac na fydd wangcus rhag dy gaſau.

19 Paid yn gyntaf o herwydd medruſrwydd, ac nac ymlanwa rhag gweled bai arnat.

20 Pan eiſteddech di ym myſc llawer, nag eſtyn dy law yn gyntaf.

Pen.37.29. 21 *Mor ddigonol ywychydig i'r medrus: ni frytheiria efe ar ei wely, cyſcu yn iachus a gaiff yr hwn a fwytu yr gymheſurol, efe a gyfyd yn foreu yn ei hŵyl ai enaid ganddo.

22 Gŵr a ymlanwa a gaiff anhunedd, a gofid a dolur.

23 Ond os gorchfygir di mewn gwledd, cyfot o'r canol, bwrw ac ymeſmwythâ.

24 Clyw fi fy mab, ac na ddiyſtyra fi, ac yn y diwedd ti a gei fyng-eiriau i [yn wir:].

25 Yn dy holl waith bydd aſtud, ac ni ddigwydd vn clefyd i ti.

26 Gwefuſau [llawer] a fendithiant yr hael oi fara: [a hynny fydd] deſtiolaeth ſiccr oi ddaioni ef.

27 Yr [holl] ddinas a wrwgnach yn erbyn yr anhael oi fara, a theſtiolaeth waſtadol oi ddrygioni ef [fydd hynny.]

28 Nac ymwrola mewn gwin: gwin a ddifethodd lawer.

29 Y tân a brawf yr haiarn caled: felly gwin yng-halon y beilchion yn [eu] meddwdod.

Pſal.104.15. 30 * Bywiocau dynion a wna gwin od yfi di ef yn gymheſur.

31 Beth yw enioes i'r hwn a orchfyger gan win: canys i lawenychu dynion y crewyd ef.

32 Llawenydd calon a hyfrydwch meddwl yw'r gwîn a yfer mewn pryd yn gymheſurol.

33 Chwerwder meddwl yw'r gwîn yr yfer llawer o honaw mewn dig a thramgwydd.

34 Meddwdod yr angall a chwanega ddig a thramgwydd, a wanhâ gryfder, ac a bair archollion,

Pen.20.1. 35 * Na cherydda dy gymydog wrth yfed gwîn, ac na ddirmyga ef: pan fyddo efe llawen na dywet air gwradwyddus.

36 Na ddywet air gwradwyddus am dano ef, ac na wrthwyneba lawer arno ef.

## PEN. XXXII.

Y modd y mae llywodraethu, ac vfyddhau. 15 Am ofn a gobaith.

OS gwnaethant di yn llywodraethwr na falchia, bydd iddynt megis vn o honynt hwy,

2 Gofala a bydd yſtyriol am danynt hwy.

3 Yna bydd di gymmwynaſcar, ac wedi it fyned yn gymmeradwy gorphywys fel y byddech lawen oi plegit hwynt, ac y derbyniech goron i'th harddu.

4 Dywet #

4 Dywet wrth henuriad, canys hyn ſydd weddus i ti.

5 Wrth [draethu] gofalus wybodaeth rhwyſtra gerdd.

6 Na thywallt ymadrodd pan fyddo amſer i wrando, ac * na ddangos dy ddoethineb allan o amſer. Preg.3.7. pen.20.7.

7 Megis ſêl o garbwncl mewn gwiſc o aur yw cyſſain muſic wrth gwmpeniaeth gwîn.

8 Megis ſêl o Smaragdus mewn boglyn o aur yw meluſdra muſic gyd âr gwîn melus.

9 Ti ŵr ieuangc llefara pan fyddo rhaid, a hynny yn brin pan i'th ofynner ddwy-waith.

10 Gwna ddibē ar dy ymadrodd: [cynnwys] llawer yn ychydig eiriau.

11 Bydd megis un a gŵybodaeth ganddo, ac yn ddiſtaw hefyd. Iob.32.6.

12 Nac* ymgyſtadla ym myſc gwŷr mawr, ac na ſiarad llawer lle y byddo henaf-gwŷr.

13 O flaen taran yn y man y daw mellten, ac o flaen y llednais yr aiff ffafor.

14 Cyfod mewn prŷd, ac na fydd olaf: rhêd i'th dŷ, ac na ſegura.

15 Yno chware, a gwna dy feddwl, ond nid mewn pechod na geiriau trahaus.

16 A bendithia am hyn [oll] yr hwn a'th wnaeth, ac a'th lanwodd âi ddaioni.

17 Y neb a ofna yr Arglwydd a dderbyn ei athrawiaeth ef: a'r hwn a foreu godo [atti hi] a gaiff ewyllys da.

18 Yr hwn a geiſio y ddeddf a lenwir â hi: a'r rhagrithiwr a dramgwydda wrthi hi.

19 Y rhai a ofnant yr Arglwydd a gânt farn [dda,] a chyfiawnder a gynneu fel goleuni.

20 Y pechadur a wrthyd gerydd, ac a gaiff ſiampl wrth ei ewyllys eu hun.

21 Gŵr [a gymmero] gyngor ni ddiyſtyra ddeall: ond y dieithr a'r balch nid ofna ofn:

22 Ac wedi iddo wneuthur [y peth] efe a fydd heb gyngor ganddo.

23 [Fy mab] na wna ddim heb gyngor, ac wedi gwneuthur nac edifarhâ.

24 Na ddôs rhyd ffordd lithrig, ac na thramgwydda wrth gerrig, nac ymddyried ychwaith i'r ffordd waſtad.

25 Gwilia dy blant dy hun.

26 Ym mhob gweithred dda coelia dydi dy hun, ac dymma gadwedigaeth y gorchymynniō.

27 Yr hwn a gredo i'r Arglwydd a ddiſgwil ar y gorchymyn, a'r hwn a obeithio ynddo ef, ni bydd eiſieu arno.

## PEN. XXXIII.

Ffrwyth a daioni ofn Duw. 8 Mai Duw ſydd yn rhoddi i bob peth ei ragoriaeth. 18 Fe a ddyle dyn gadw ei rogoriaeth tra fydde byw. 23 Y modd y mae arfer gweiſion a gwenidogion.

NI ddigwydd niwed i'r hwn a ofno yr Arglwydd, eithr mewn profedigaeth [Duw] ai gwared ef eil-waith.

2 Nid câs gan y doeth y gyfraith, ond yr hwn a ragrithio [ſydd] ynddi hi megis mewn rhyferthwy mawr.

3 Dŷn ſynhwyrol a ymddyried i'r gyfraith, a'r gyfraith a fydd ffyddlon iddo yntef.

4 Er eglured fyddo yr hyn a ofynner, darpar dy ymadrodd, ac felly i'th wrandewir: bydd ſicr o'r peth, yna atteb.

5 Calon y* ffol ſydd fel olwyn men: ai feddyliau ydynt fel echel dro. Pen.21.16.

6 Megis y gwerrya yſtalwyn tan bawb a eiſteddo arno ef, felly y gwna cyfaill gwatwarus.

7 Pa ham y mae diwrnod yn rhagori diwrnod, gan fod goleuni pob diwrnod yn y flwyddyn yn dyfod o'r haul?

8 Trwy wybodaeth yr Arglwydd y gwahanwyd hwynt,

9 Efe a gyfnewidiodd yr amſerau a'r gwiliau.

10 [Rhai] o honynt hwy a dderchafodd efe, ac a ſancteiddiodd efe, ac efe a oſododd [rai] o honynt hwy yn rhifedi y dyddiau.

11 Dynion * a wnaed oll o'r ddaiar, ac o bridd y crewyd Adda. Gene.1.27. & 2.7.

12 Yr Arglwydd trwy fawr wybodaeth ai naillduodd hwynt, ac a wnaeth eu ffyrdd hwynt yn amryw.

13 Rhai o honynt hwy a fendithiodd, ac a dderchafodd efe, a [rhai] o honynt hwy a ſancteiddiodd, ac a neſſaodd efe atto ei hun: [rhai] o honynt hwy a felldithiodd, ac a ddaroſtyngodd efe, ac ai trôdd hwynt allan oi lle.

14 *Megis [y mae] y clai yn llaw y crochenudd, ai holl ddigwydd wrth ei ewyllys ef: felly y mae dŷn yn llaw yr hwn ai gwnaeth ef, i roddi iddo efe fel y gwelo efe yn dda. Eſa.45.9. rhuf.9.20.

15 Y mae daioni yn erbyn drygioni, ac einioes yn erbyn angeu: felly y mae y duwiol yn erbyn y pechadur, a'r pechadur yn erbyn y gŵr duwiol.

16 Felly edrych ar holl weithredoedd y Goruchaf, bob yn ddau y maent hwy y naill yn erbyn y llall.

17 Minne a ddeffroais yn ddiweddaf fel un yn lloffa ar ôl cynhaiafwŷr y grawn-wîn: trwy fendith yr Arglwydd y cynnyddais: ac y llenwais fyng-winwryf fel cynhaiafwr grawn-wîn.

18 Dehallwch nad i mi fy hunan y cymerais i boen, ond i bawb a geiſiant athrawiaeth. Pen.24.39.

19 O bendefigion [a'r bobl oll] clywch: ô lywodraethwŷr y gynnulleidfa gwrandewch.

20 Na ddod awdurdod arnat ty hun i fab nac i wraig, i frawd nac i gydymmaith tra fyddech di byw: ac na ddod dy dda i arall rhag bod yn edifar i ti, a gorfod it ymbil â hwynt.

21 Tra fyddech di fyw a bod anadl ynot: na newidia dy gyflwr er un dŷn.

22 Canys gwell yw bod ar dy blant dy eiſieu di, nac i ti edrych yn nwylo dy blant.

23 Cymmer dy ragor yn dy holl weithredoedd: ac na anafa dy barch.

24 Yn y dydd y gorphennech di ddyddiau dy einioes, ac yn yr amſer diweddaf dod dy etifeddiaeth.

25 [Rhodder] gwellt a gwialen a phwn i'r aſſen: [felly] bara, a choſpedigaeth a gwaith i'r gwenidog.

26 Gwna iddo ef weithred trwy goſpedigaeth, ac efe a gais orphywyſdra, llaeſa [dy] law iddo ef, ac efe a gais rydd-did.

27 Iau ac irai a oſtwng warr [yr ŷch] ac ar wenidog drwg y mae yn rhaid rhoi coſpedigaeth a blinder.

28 Gyrr ef iw waith fel na byddo efe ſegur o blegit llawer o ddrygioni a ddyſcodd ſegurud.

29 Goſot ef ar ei waith canys felly y gwedde iddo ef.

30 Oni bydd vfydd dod heirn trymion arno ef: ond na ddod ormod ar vn cnawd, ac na wna ddim heb pwyll.

Pen.24.39. 31 Os bydd gennit *wenidog bydded ef i ti fel dy enaid dy hun: o blegit mewn gwaed y cefaiſt ti ef, os bydd gennit wenidog gwna o honaw ef fel o frawd: canys fe a fydd mor rhaid i ti wrtho ef ac wrthit dy hun.

32 Os coſpi di ef ar gam a chodi o honaw yntef a ffoi ymmaith, pa ffordd y ceiſi di ef?

## PEN. XXXIIII.

Oferedd dewiniaeth, coelion a breuddwydion. 6 Ar Dduw yn vnic y mae i ni roddi hyder. 20 Pa aberthau nid yw Duw fodlon iddynt.

OFer a chelwyddog obaith ſydd gan ŵr anſynhwyrol, a breuddwydion a falchiant y rhai angall.

2 Megis vn yn dala cyſcod, ac yn ymlid gwynt yw yr hwn a goelio i freuddwydion.

3 Hyn yn vnic yw gweledigaeth breuddwydion, cyffelybrwydd wyneb ar gyfer wyneb.

4 Pa lendid a geir o'r aflan, a pha wirioned o'r celwyddog?

5 Ofer yw dewiniaeth, coelion, a breuddwydion.

6 Llenwir dy feddwl di ag ofer ddychymygiō fel gwraig yn eſcor: o ddieithr i'r Goruchaf anfon gweledigaeth, na ddod dy feddwl arni hi.

7 Breuddwydion a dwyllaſant lawer, a'r rhai a obeithiaſant ynddynt hwy a fethaſant.

8 Heb gelwydd y perffeithir y gyfraith, a pherffeithrwydd genau ffyddlon yw doethineb.

9 Y gŵr a gerddodd lawer a ŵyr lawer.

10 A'r hwn a gafodd brawf o lawer o bethau a ddengys ſynnwŷr.

11 Echydig a ŵyr yr hwn ni phrofwyd: a'r hwn a dwyllwyd ſydd aml ei ddichell.

12 Mi a welais lawer yn fy amryfuſedd, a'm ſynnwyr i yw yr hyn a lunir yn fy ymadroddion.

13 Mi a fum yn fynych mewn perigl marwolaeth, ac mi a achubwyd trwy râs Duw.

14 Yſpryt y rhai a ofnant yr Arglwydd a gaiff fyw.

15 O blegit y mae eu gobaith hwynt ar eu Hachubwr.

16 Yr hwn ſydd yn ofni yr Arglwydd nid ofna ddim, ac ni ddychrynna, o blegit efe yw ei obaith ef.

17 Gwyn ei fyd enaid y neb a ofno yr Arglwydd.

18 I bwy y mae efe yn coelio? a phwy yw ei gadernid ef?

19 Y mae llygaid yr Arglwydd ar y rhai ai carant ef yn amddeffynfa nerthol, ac yn gadernid ſiccr, yn gyſcot rhag gwrês, ac yn gyſcot rhag brydaniaeth hanner dydd, ac yn geidwad rhag tramgwyddo, ac yn help rhag ſyrthio. Pſal.33.18. Pſal.91.1.

20 Yr hwn ſydd yn dderchafu yr enaid, ac yn llewyrchu y llygaid, ac yn rhoddi iechid, a bywyd, a bendith.

21 Dirmygus yw offrwm yr hwn a abertho dda anghyfiawn, ni byddir bodlon i roddion y rhai anwir. Dihar.21.2.7.

22 Nid yw y Goruchaf fodlon i offrymmau yr annuwiol, ac nid am lawer o aberthau y maddeu efe bechod.

23 Megis vn yn lladd y mab o flaen y tad yw'r yr hwn a offrymmo aberth o dda y tlodion.

24 Bywyd y tlodion yw bara yr anghenus, a dŷn gwaedlyd yw yr hwn trwy dwyll ai dygo ef.

25 Lladd ei gymmydog y mae yr hwn a ddygo ei luniaeth ef.

26 A thywallt gwaed y mae yr hwn a dwyllo y gwâs cyflog am ei gyflog. Deut.24.14. Pen.7.20.

27 Pan fyddo vn yn adailadu, ac arall yn tynnu i lawr, pa fudd a gânt hwy ond poen?

28 Pan fyddo vn yn gweddio ag arall yn melldithio, lleferydd pa vn a wrendu yr Arglwydd?

29 Y neb a ymolcho wedi cyffwrdd ar marw, ac a gyffyrddo, ac ef eil-waith: pa fudd a gaiff efe oi ymolchiad? Num.19 11.

30 Felly y dŷn a ymprydio o blegit ei bechodau, ac a aiff trachefn, ac ai gwna hwynt, pwy a wrendu ar ei weddi ef? a phâ fudd ſydd iddo ef am ymddaroſtwng? 2.Pet.2.20.

## PEN XXXV.

I ba aberthau y mae Duw bodlon. 14 Gweddi yr ym ddifad a'r weddw a'r goſtyngedic.

Y Mae y neb ſydd yn cadw y gyfraith yn dwyn digon o offrymmau. 1.Sam.15.22. Ier.7.3.

2 Y neb ſydd yn dilyn y gorchymynnion ſydd yn aberthu iechydwriaeth.

3 Ac y mae yr hwn a dalo ddiolch megis yn offrymmu peillied, ar hwn a roddo eluſen yn aberthu moliant. Phil.4.18.

4 Ewyllys yr Arglwydd yw troi oddi wrth ddrygioni: a bodloni yw ymado ag anghyfiawnder. Exod.23.15. & 34.20.

5 Nac ymddangos ger bron yr Arglwydd

9 yn wag-law.

6 O blegit hyn oll a wneir o achos y gorchymyn.

Gen.4.4. 7 Y mae offrwm y duwiol yn gwneuthur yr allor yn frâs, a pheraidd yw ei arogl ef ger bron y Goruchaf.

8 Aberth y gŵr cyfiawn ſydd gymeradwy, ac nis gollyngir tros gof ei goffadwriaeth ef.

9 Gogonedda Dduw yn ewyllyſcar, ac na ddod flaen-ffrwyth dy ddwylo yn brin.

2.Cor 9.7. 10 Dangos dy wyneb yn llawen ym mhob rhodd: a chyſſegra dy ddecfed yn ſiriol.

Tobit 4.8. 11 Dod i'r Arglwydd megis y rhoddes yntef i tithe, ac fel y mae dy allu yn ewyllyſcar.

12 O blegit diolchgâr yw yr Arglwydd, ac efe a dâl ſaith gymmaint: na wna dy rodd yn brinnach.

Deut.10.17. 2.Cron.19.7. Iob 34.19. Doeth.6.7. Act.10 34. Rhuf.2.11. Galat.2.6. Ephes.6.9. Colos.3.25. 1.Pet.1.17. 13 *Na phrinhâ mo'th offrwm, canys ni dderbyn efe mo honaw: ac nac edrych ar aberth anghyfiawn.

14 O blegit yr Arglwydd ſydd farn-wr, ac nid yw efe yn yſtyried wyneb neb.

15 Nid yſtyria efe berſon yn erbyn y tlawd, eithr efe a wrendaw weddi y gorthrymedic.

16 Ni ddiyſtyra efe ddeiſyfiad yr ymddifad na'r weddw, pan dywallto hi ei gweddi.

17 Onid yw dagrau y weddw yn deſcyn ar ei gruddiau hi, ai llefain yn erbyn y neb ſydd yn eu peri?

18 Yr hwn a addôlo [Dduw] a fydd cymmeradwy, ai weddi ef a gyredd hyd y cwmylau.

19 Gweddi y goſtyngedic a aiff trwy y cwmylau, ac nis diddenir hi nes ei dyfod yn agos, nid ymmedu hi nes i'r Goruchaf edrych arni hi a barnu y cyfiawn, a gwneuthur barn.

20 A'r Arglwydd nid oeda, ac nid erys y cadarn wrthynt hwy, nes dryllio cefn y rai creulon.

21 A rhoddi dial ar y cenhedloedd a dwyn ymmaith luoſogrwydd y rhai trahaus, a dryllio llwynau y rhai anghyfiawn.

22 Nes iddo ef dalu i [bob] dŷn yn ôl eu haeddedigaethau: a gobrwyo dynion yn ôl eu meddyliau.

23 Nes iddo farnu ei bobl, ai llawenychu hwynt ai drugaredd ef.

14 Mor hyfryd yw trugaredd yn amſer adfyd: fel y cwmylau glaw yn amſer ſychder.

## PEN. XXXVI.

Gweddi y ffyddloniaid yn erbyn gelynnion yr eglwys.
22 Clôd gwraig dda.

CYmmer drugaredd arnom ni ô Arglwydd, Duw pawb, ac edrych.

2 A gyrr dy ofn ar y cenhedloedd y rhai ni'th geiſiaſant.

Ier.10.25. 3 *Cyfod dy law ar y cenhedloedd dieithr: gâd iddynt weled dy allu di.

4 Megis i'th ſancteiddir yn ein myſc ni ger eu bron hwynt, felly mawrhaer di yn eu myſc hwythau ger ein bron ninnau.

5 Fel i'th adwaenant megis yr ydym ninnau yn dy adnabod, canys nid oes Duw ond tydi oh Arglwydd.

6 Adnewydda yr arwyddion, a chyfnewidia y rhyfeddodau.

7 Dangos dy law a'th ddeheu-fraich yn ogoneddus, fel y mynegant dy wrthiau.

8 Cyffroa dy lid a thywallt dy ddigter.

9 Cymmer y gwrthwynebwr ymmaith a dryllia y gelyn.

10 Gwna i'r amſer ddyfod yn fuan, cofia y digofaint fel i'th ddadcano dy ryfeddodau di.

11 Gâd i ddigofaint tanllyd ddifa y neb a ddiango, a chaffed y rhai a wnant niwed i'th bobl eu difetha.

12 Dryllia bennau tywyſogion y cenhedloedd y rhai a ddywedant, nid oes ond nyni.

13 Caſcl holl lwythau Iacob, a chymmer di hwynt yn etifeddiaeth i ti megis o'r dechreuad.

14 Oh Arglwydd trugarha wrth y bobl y rhai a elwir ar dy enw di, ac wrth Iſrael yr* hwn a elwaiſt di yn gyntaf-anedic. Exod.4.22.

15 Toſturia wrth Ieruſalem dinas dy gyſſegr, a'th orphywyſfa dy hun.

16 Llanw Sion â'th anfeidrawl rinweddau, a'th bobl â'th ogoniant.

17 Dod deſtiolaeth i'r pethau a greaiſt ti yn y dechreuad, a chyfot brophwydi yn dy enw.

18 Dod wobr i rhai ydynt yn aros wrthit ti, a chaffer dy brophwydi di yn ffyddlon.

19 Gwrando ô Arglwydd weddiau dy weiſion tros dy bobl *yn ôl bendith Aaron i'r bobl fel y gwyppo y rhai oll a ydynt ar y ddaiar dy fod ti yn Arglwydd tragywyddol. Num.6.23.

20 Y bol a dreulia bob bwyd, ond y mae rhyw fwyd yn well na bwyd arall.

21 Y genau a edwyn fwyd hela, felly yr edwyn calon gall eiriau celwyddoc.

22 Calon wrthnyſig a bair dristwch, ond dyn a ŵyr lawer a feddiginiatha hynny.

23 Gwraig a dderbyn bob gŵr: eithr y mae rhyw ferch yn well na merch arall.

24 Tegwch gwraig a lawenycha wyneb ei gŵr, ac a ddwg i ddŷn yr hyfrydwch mwyaf.

25 Os bydd yn ei thafod hi [ymmadrodd] trugaroc, llednais, ac iachol, nid fel eraill y mae ei gŵr hi.

26 Y mae perchen gwraig [dda] yn dechreu cael cyfoeth, ſef help fel ef ei hun, a cholofn gorphywyſdra.

27 Lle nid oes cae yr anrheithir y cnwd, ac lle nid oes gwraig yr ochneidia vn dã gyrwydro.

28 Pwy a goelia williad wedi ymdaclu, ac yn gwibio o ddinas i ddinas? felly y mae am y dŷn nid oes ganddo nyth, eithr lletteu ym mha le bynnac yr elo hi yn nos arno ef.

## PEN. XXXVII.

Pa fodd y mae i ni adnabod ein cyfeillion a'n cynghorwyr, 12 Mai âr duwiol y dylem ni ymgyfeillach.

POb cydymmaith a ddywed, da gennif finne ef: eithr y mae cydymmaith yn vnic o enw.

2 Onid erys triſtwch hyd angeu, pan droo cyfaill neu gydymmaith i fod yn elyn?

3 O ryfyg drygionus, o ba le yr ymdreiglaiſt ti i orchguddio y ddaiar â thwyll?

Pen.6.10. 4 Rhyw gyfaill a wna yn lawen gyd ai gydymmaith yn ei lawenydd, ac a fydd yn ei erbyn ef yn amſer adfyd.

5 Rhyw gyfaill a gymmer boen gyd ai gydymmaith er mwyn ei fol, ond efe a gymmer darian yn erbyn y gelyn.

6 Nac anghofia dy gydymmaith yn dy galon, eithr meddwl am dano ef pan fyddech yn gyfoethog.

7 Na ymgynghora a'r hwn ſydd yn dy wilied di, eithr cêl dy gyfrinach rhag y rhai ſy yn cenfigennu wrthit ti.

Pen.8.19.& 9.16. 8 *Pob cynghorwr a genmyl ei gyngor: ac y mae a gynghora ar ei fudd ei hun.

9 Cadw dy feddwl oddi wrth dy gynghorwr, a myn wybod yn gyntaf pa raid fydd i ti wrtho ef (o blegit y mae efe [ond odit] yn cynghori troſto ei hun) rhag iddo dy fradychu di:

10 A dywedyd wrthit ti, da yw dy ffordd, ac yna ſefyll gyferbyn â thi i weled beth a ddigwyddo i ti.

11 Na ymgynghora âr neb a'th amheuo di: a chêl dy gyfrinach oddi wrth y rhai a genfigennant wrthit,

12 Nag â gwraig am yr hon y mae eiddigedd rhyngthi hi â hi, nag â'r llwfr am ryfel, nac a'r marchnadwr am gyfnewid, nac a'r prynnwr am werthu, nac a'r cenfigennus am ddiolchgarwch, nac a'r anrhugaroc am gymwynas.

13 Nac a'r diog am ddim gwaith, nac a'r gwâs a gyfloger tros flwyddyn am orphen peth, nac â gwas diog am lawer o waith.

14 Na ddiſgwil wrth y fath hyn am ddim cyngor.

15 Eithr bydd yn fynych gyd â gŵr duwiol yr hwn a wyddoſt ti ei fod yn cadw gorchymynnion yr Arglwydd,

16 Yr hwn a fyddo yn ei feddwl fel dy feddwl dithe, yr hwn os tramgwyddi di a gydofidia â thi.

17 Cadw dy gyfrinach yn dy galon: o blegit nid oes neb ffyddlonach i ti nâ honno.

18 Canys y mae meddwl dyn yn arfer weithieu o fynegu mwy na ſaith o wilwyr yn eiſtedd mewn twr gwilio uchel.

19 Ac o flaen hyn oll gweddia ar y Goruchaf ar i wirionedd gyfarwyddo dy ffordd di

20 Dechreuad pob gwaith yw ymadrodd, ac o flaen pob gweithred [aed] cyngor.

21 Arwydd cyfnewidiad llawenydd yw'r wyneb, a phedwar peth ſydd yn codi da a drwg, enioes ac angeu, a'r tafod ſydd yn llywodraethu yn waſtad arnynt hwy.

22 Y mae rhyw wr dichellgar yn dyſcu llawer eraill, ac yn amhroffidiol iw enaid ei hun.

23 Y mae un atcâs doeth o eiriau: gan hwnnw nid oes dim doethineb.

24 O blegit ni roddes yr Arglwydd râs iddo ef, canys efe a adawyd heb bob doethineb.

25 Rhyw un ſydd gall iw enaid ei hun, a ffrwyth ei ſynnwyr ef ſydd ganmoladwy yn y genau.

26 Gwr doeth a ddyſc ei bobl, a ffrwyth ei ſynnwyr ef ydynt ſicer.

27 Gwr doeth a gaiff ddigon o fendith, a'r rhai oll ai gwelant ef ai cyfriſant ef yn happus.

28 Oes gŵr ſydd yn rhifedi ei ddyddiau ef, a dyddiau Iſrael ydynt anifeiriol.

29 Y doeth a etifedda ogoniant ym myſc ei bobl, ai enw a fydd byth.

30 Fy mab prawf dy enaid tra fyddech byw: gwêl yr hyn ſydd ddrwg iddo, ac na âd iddo ei wneuthur ef.

31 Nid yw pob peth yn fuddiol i bawb, ac nid yw pob enaid yn fodlon i bob peth.

32 Na ymlanw â phob danteithion, ac na ruthra i fwyd.

33 *O lawer o fwyd y daw clefydau, ac ymlenwi a ddaw i ormod gwrês. Pen.31.19,20.

34 Trwy ormodedd y bu feirw llawer, ond yr hwn a ymgeidw a eſtyn ei hoedl.

## PENN. XXXVIII.

Parch y meddig 19 Galar tros y marw. 24 Doethineb y dyſcedic.

Anrhydedda y meddig ag anrhydedd gweddus iddo, am fod yn rhaid wrtho ef: o blegit yr Arglwydd ai creawdd ef.

2 Canys oddi wrth y Goruchaf y daeth meddiginiaeth, ac efe a gaiff ogoniant gan y brenin.

3 Gwybodaeth y meddig a dderchafa ei ben ef, ac yng-wydd gwŷr mawr y perchir ef.

4 Yr Arglwydd a greawdd feddiginiaethau o'r ddaiar, ac ni bydd ffiaidd gan wr call hwynt.

5 *Oni wnaed y dwfr yn beraidd â phren, fel yr adwaene dynion ei rinwedd ef? Exod.15.25.

6 Ac efe a roddes wybodaeth i ddynion i gael eu perchi am ei ryfeddodau ef.

7 A'r rhai hynny y mae efe yn meddiginiaethu, ac y tynnu ymmaith boen dŷn.

8 A'r rhai hynny y gwna yr apothecari eli er hynny weithieu ni orphen efe ei waith o herwydd oddi wrth yr Arglwydd y daw ffynniant ar wyneb y ddaiar.

9 Na ddiyſtyra [hyn] fy mab yn dy glefyd, eithr *gweddia ar yr Arglwydd ac efe ath iachâ di. Eſa.38.2.5.

10 Tro oddiwrth anwiredd, ac iniona dy ddwylo, a glânha dy galō oddi wrth bob pechod.

11 Dod bêrarogl a choffadwriaeth o beillied, a dod offrwm brâs fel un nid yw y rhoddwr cyntaf.

12 Dod le i'r meddig o blegit yr Arglwydd ai creawdd ef, nag ymadawed â thi o herwydd fe a fydd rhaid wrtho ef.

13 Weithie y mae amſer pan fyddo eſmwythdra ar eu llaw hwynt.

14 Ac hwy a weddiant ar yr Arglwydd ar iddo ef roddi iddynt hwy eſmwythdra ac iechid i fyw.

15 Yr hwn a becha yn erbyn yr hwn ai gwnaeth ef a ſyrthia yn llaw y meddig.

Pen.22.11. 16 Fy mab * gollwng ddagrau tros y marw, dechre alaru fel pe bait ti yn dioddef anfad niwed, amdôa ei gorph ef fel y byddo gweddaidd iddo ef, ac na ddiyſtyra ei gladdedigaeth ef.

17 Wyla yn chwerw, a gofidia yn doſt.

18 Ac alara fel y byddo addas iddo ef ddiwrnod ne ddau, rhag cael anair: yna cymmer ddiddanwch o herwydd dy driſtwch.

Dihar.15.13. & 17.22. 19 O blegit' o driſtwch y daw marwolaeth, a thriſtwch calon a blyga gryfder.

20 Mewn colled yr erys triſtwch, a melldith calon yw bywyd y tlawd.

21 Na ddod triſtwch i'th galon, tro ef ymaith, meddwl am y diwedd.

22 Nac anghofia [hyn] o herwydd ni ddeuir drachefn, ni elli di ddaioni iddo ef, a thi a elli niwed i ti dy hun.

23 Coſia y farn ſydd i mi, felly y bydd yr eiddot tithe: i mi ddoe, ac i tithe heddyw.

2.Sam.12.20. 24 Gorphywyſed * coffadwriaeth y marw pan orphywyſo yntef, cymmer gyſur am dano ef, gan fyned ei yſpryt oddi wrtho ef.

25 Doethineb y dyſcedic a geir mewn prŷd, ac ennyd: a'r hwn a edrycho ychydig am ei waith ni bydd efe doeth.

26 Pa fodd y daw efe i ddoethineb yr hwn ſydd yn dal y penffeſtr, am hoffter am y wialen irai, ac ſydd yn gyrru yr ychen ac ſydd yn arfer eu gwaith hwynt, ac yn chwedleua am loi:

27 Y mae efe yn rhoi ei feddwl ar droi cwyſau, ac yn gwilied a'r roddi gwellt ir gwartheg.

28 Felly pob ſaer, a phenſaer, yr hwn a weithiant y nos yn gyſtal a'r dydd, yr hwn a gerfiant gerfiadau ſêliau, a fydd aſtud i wneuthur amryw gerfiadau, ac a rydd ei feddwl ar ddynwared portreiadau, ac a fydd ddiwyd i orphen ei waith.

29 Felly y gof a eiſtedd ger llaw yr einion, ac a yſtyria ar y gwaith haiarn, angerdd y tân a wna iw gnawd ef ddihoeni, ac efe a ymladd a gwrês yr aelwyd.

30 Y mae ſŵn y morthwyl a'r einion yn dyfod yn waſtad iw gluſtiau ef, ar wedd y dodrefnyn y mae ei lygaid ef.

31 Ei feddwl a rydd efe ar orphen ei waith, ai ofal fydd am ei orphen yn hardd.

32 Felly y mae y crochenudd yn eiſtedd wrth ei waith, ac yn troi y droell ai draed, yr hwn a eſydd ar ei waith bob amſer yn ofalus, ai holl waith ef fydd tan rif.

33 Efe a lunia y clai ai freichiau, ac ai meddalha ef ai draed,

34 Efe a eſyd ei feddwl ar orphen ei ffyrf ef, ac a fydd ofalus i yſcubo yr odyn.

35 Y rhai hyn oll ydynt yn ymddyried iw dwylo eu hun, a phob un a gais fod yn gelfydd yn ei waith.

36 Heb y rai hyn anghyfannedd yw dinas, nis cyfanneddir ac nis cynniwerir hi: er hynny ni cheiſir hwynt i fod o gyngor y bobl, ac ni ddercheſir hwynt yn y gynhulleidfa,

37 Nid eiſteddant hwy ar orſeddfaingc ynadon, ac ni ddeallant gyfammod y gyfraith: nid eglurant gyfiawnder a barn, ac ni ddychymygant ddammegion.

38 Ni cheir hwynt chwaith [yn gyfarwydd] mewn dammegion, eithr y maent hwy yn cynnal creaduriaid y bŷd: ai dymuniad yw gwneuthur celfyddyd:

39 O ddieithr yr hwn a roddo ei frŷd ai feddwl ar gyfraith y Goruchaf.

## PEN. XXXIX.

Cynneddfau y doeth i o Godidawgrwydd gweithredoedd yr Arglwydd 24 Bod pob peth er budd a lles ir duwiol ac er aſles a niwed i'r anuwiol.

HWnnw a gais ddoethineb y rhai oll a fuant gynt, ac a dreulia ei amſer yn y prophwydi.

2 Efe a geidw eiriau gwŷr enwoc, ac a aiff i drofeuydd dammegion.

3 Efe a gais ddirgelwch-diharebion, ac a erys yn waſtadol yng-haled gweſtiwnau dammegion.

4 Efe a waſanaetha ym myſc pendefigion ac a ymddengys yng-ŵydd tywyſogion.

5 Efe a aiff i wlâd cenhedloedd dieithr, ac a fyn ŵybod pa dda a pha ddrwg ſydd ym myſc dynion.

6 Efe a rydd ei feddwl ar fyned yn foreu at yr Arglwydd yr hwn ai gwnaeth ef, ac efe a weddia ger bron y Goruchaf.

7 Efe a egur ei enau mewn gweddi, ac a weddia tros ei bechodau.

8 Pan fynno yr Arglwydd mawr, efe a lenwir ag yſpryt deall,

9 Efe a draetha ei eiriau doethion, ac yn ei weddi efe a folianna yr Arglwydd.

10 Efe a gyfarwydda ei gyngor, ai ŵybodaeth ef, ac a feddylia am ei ddirgelwch ef.

11 Efe a ddengys athrawiaeth ei ddyſceidiaeth, ac a lawenycha yng-hyfraith cyfammod yr Arglwydd.

12 Llawer a ganmolant ei ſynnwyr ef, ac ni's deleir hi byth:

13 [Nid] ymmedu ei goffadwriaeth ef, eithr ei enw a beru yn oes oeſoedd.

14 Cenhedloedd a fynegant ei ddoethineb ef, a'r * gynnulleidfa a draetha ei glôd ef. Pen.44.19.

15 Tra parhao, efe a âd enw gwell na mil [eraill,] ac pan fyddo efe marw efe a bair iddo ei hun glôd.

16 Mynegaf etto yr hyn a feddyliais, o blegit yr ydwyf fi mor llawn a'r lleuad yn y llawn lloned.

17 Gwrandewch arnaf chwi rai ſanctaidd,

blodeuwch fel rhoſyn wedi ei blannu wrth afon mewn maes.

18 A dygwch flodau fel gardd lili, rhoddwch arogl a chênwch fawl,

19 Clôdforwch yr Arglwydd am ei holl weithredoedd, gan ganu â gwefuſau ac â thelynau, a dywedwch yn eich clôdforedd,

Gen.1.31. Mar.7.37. 20 * Holl weithredoedd yr Arglwydd ydynt dda odiaeth, ai holl orchymynnion ef ydynt mewn prŷd: nid rhaid dywedyd beth yw hyn?: mewn prŷd y ceiſir hyn holl:

21 Wrth ei air ef yr oedd y dwfr fel mur, a'r llynnau dyfroedd wrth air ei enau ef.

22 Yn ei orchymmyn ef y mae pob dim a ryglydda bodd, a phwy a ddichon lleihau ei iechydwriaeth ef?

23 Gweithredoedd pob cnawd ydynt ger ei fron ef, ac ni ellir cuddio dim oi olwg ef.

24 Y mae efe yn edrych o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, ac nid oes dim rhyfedd ger ei fron ef,

25 Nid rhaid gan hynny dywedyd beth yw hyn: o blegit efe a wnaeth bob peth ir peth y mae yn rhaid wrthynt hwy.

26 Ei fendith ef a orchguddia fel afon, ac a ddwfrha y ddaiar fel llif.

27 Fel y try efe y dyfroedd yn dir craſ-poeth: felly y caiff y cenhedloedd ei ddig ef yn etifeddiaeth.

28 Ei ffyrdd ef ydynt iniawn i'r rhai ſanctaidd, a thramgwyddus i'r anwir.

29 Pethau da a grewyd o'r dechreuad i'r rhai da, a phethau niweidiol i bechaduriaid.

Pen.29.33. 30 Y pethau * pennaf o anghenrheidiau bywyd dŷn yw dwfr, tân, a haiarn, a halen, a blawd gwenith, a llaeth, a mêl, a gwîn, ac olew, a dillad.

31 Y rhai hyn oll ydynt dda i'r duwiol, felly y troir hwynt yn niwed i'r pechaduriaid.

32 Y mae yſprydion a wnaed er dialedd, ac yn eu dig y cryfhaant hwy eu ffrewyllau: yn y diwedd hwy a dywalltant ddigter ac a oſtegant lid yr hwn ai gwnaeth hwynt.

Pen 40.9. 33 * Tân a môr, a newyn a marwolaeth, y rhai hyn oll a wnaed er dialedd.

34 Dannedd bwyſt-filod, ac ſcorpionau, a gwiberod, a'r cleddyf ydynt yn dial er diniſtr ar yr annuwolion.

35 Byddant lawer pan gyfodo efe.

36 A pharod fyddant hwy ar y. ddaiar pan fyddo rhaid wrthynt hwy, a phan dd elo eu hamſer nid ânt hwy tros y gorchymyn.

37 Am hynny yr ymnerthais i o'r dechreuad, ac a feddyliais, ac [ai] gadewais mewn ſcrifen.

38 Holl waith yr Arglwydd ydynt dda, ac hwy a geir wrth bob rhaid yn eu hamſer.

39 Ni ellir dywedyd, gwaeth yw hyn nâ hyn accw: o blegit cymmeradwy fydd pob un yn ei amſer.

40 Am hynny yn awr âr galon oll ac a'r genau, canmolwch a chlodforwch enw yr Arglwydd.

## PEN. XL.

Amryw drueni dyn. 11 Syccrwydd ffydd· 14 Braint y rhai duwiol, a rhagoriaeth ofn yr Arglwydd.

BLinder mawr a grewyd i bob dŷn, ac iau drom ſydd ar feibion dynion, o'r dydd y delont hwy o groth eu mam, hyd y dydd y dychwelant hwy i fam pob peth.

2 [Sef] eu meddyliau, ai braw calon, eu dychymygion am y pethau y maent hwy yn eu diſgwil, ai dydd diwedd.

3 O'r hwn ſydd yn eiſtedd ar deyrn-gader gogoniant, hyd yr iſelradd yr hwn ſydd yn y pridd a'r lludw.

4 O'r hwn ſydd yn dwyn porphor a choron, hyd yr hwn a wiſc liain cri,

5 Y mae dig a chenfigen, blinder a helbul, ac ofn marwolaeth, a llid, ac ymryſon: ac yn amſer cymmeryd eſmwythdra yn ei wely, ei gwſc liw nos a newidia ei wybodaeth ef.

6 Megis yn nydd amſer gwilio felly yn ei gwſc ychydig neu ddim yw ei eſmwythdra ef.

7 Efe a gythryblir yn ei galon megis un yn ffoi o flaen rhyfel, ac yn amſer ei iechid efe a ddeffru, ac a ryfedda nad oedd yr ofn ddim.

8 [Felly y mae] i bob cnawd yn ddyn ac yn anifail, ac i bechaduriaid y mae ſaith mwy na hyn.

9 [Heb law hyn y mae] marwolaeth, gwaed, ymryſon, y cleddyf, gorthrymder, newyn, diniſtr, a ffrewyll, yn erbyn yr annuwiol y gwnaed hyn oll, * ac er eu mwyn hwy y bu y dilyw. Gen.7.11.

10 Pob peth * a ddelo o'r ddaiar a ddychwel i'r ddaiar, ac o'r * dyfroedd y troir i'r môr. Gen.3.19. Pen.41.10.

11 Pob gwobr ac ang-hyfiawnder a ddeleuir, Preg.1.7.

12 A ffydd a beru hyd byth bythoedd.

13 Golud y rhai ang-hyfiawn a aiff yn ddiſpydd fel afon: ac a wna dwrwf fel taran fawr ar law.

14 [Y cyfiawn] a fydd llawen, pan agoro efe ei law: felly y derfydd am y troſeddwyr pan ddarfyddo eu golud hwynt.

15 Hiliogaeth yr annuwiol ni byddant ganghennog: a'r gwraidd aflan ydynt ar ddibin y graig.

16 Y gwellt glâs wrth bob dwfr ac ynglan yr afon a dynnir o flaen pob gwellt.

17 Caredigrwydd ſydd fel gardd baradwyſaidd o fendithion: a thrugaredd a beru byth.

18 Melus yw buchedd yr hwn a weithio ac * a fyddo bodlon iw gyflwr, gwell na'r ddau yw yr hwn a gaffo y tryſor. Phil.4.18. 1.Tim.6.6.

19 Plãta a cadailadu ddinas a ſiccrha enw:

20 Gwin a cherdd a lawenycha y galon, felly y gwna hoffi doethineb yn fwy na'r ddau.

21 Pibell a pſaltring a wnant gynghanedd felus: a thafod mwyn ſydd well na'r ddau.

22 Prŷd a thegwch a chwennych llygad: er hynny gwell yw egin glâs na'r ddau.

23 Cyfaill a chydymmaith a gyfarfyddant mewn pryd, gwraig gyd â ei gŵr ſydd well na'r ddau.

24 Brodyr a chymmorth ydynt dda yn amſer adfyd, eithr eluſen a wareda yn fwy na'r ddau.

25 Aur ac arian a ſefydlant y troed, a chyngor ſydd gymmeradwyach na'r ddau.

26 Golud a chryfder a dderchafant y galon, ac ofn yr Arglwydd yn fwy na'r ddau:

27 Nid oes eiſieu yn ofn yr Arglwydd, ac nid rhaid iddo ef geiſio help.

28 Paradwyſaidd ardd y fendith yw ofn yr Arglwydd, ac efe ai gorchguddiodd hi tu hwnt i bob gogoniant.

29 Fy mab na fydd fyw yn weſtai, gwell yw marw nâ gweſta.

30 Nid yw bywyd yr hwn a edrych ar fwrdd gŵr arall iw chyfrif yn fywyd, efe a ddifwyna ei enaid am fwyd eraill.

31 Eithr y gŵr call a ddyſcwyd yn dda a ymochel.

32 Melus yw cardotta yng-enau y digywilydd, ond yn ei fol ef y llyſc tân.

## PEN. XLI.

Am ofn angeu, 8 ac am goſpedigaeth y rhai annuwiol.

Oh angeu mor chwerw yw meddwl am danat ti i'r dŷn a fyddo yn ceiſio heddwch yn yr hyn a fyddo ganddo ef?

2 I'r gŵr a fyddo dihelbul, ac yn llwyddiannus ym mhob peth, ac i'r hwn a ddichon etto gymmeryd ei fwyd?

3 Oh angeu mor dda yw dy farn di i'r anghenus, ac i'r gwan:

4 Ac i'r hen ddihenudd, ac i'r hwn ſydd yn ofalus am bob peth, ac i'r anobeithiol, ac i'r anioddefgar?

5 Nac ofna angeu, coffa yr hyn a fu o'th flaen di, ac a fydd ar dy ôl di: dymma farn yr Arglwydd ar dy cnawd di.

6 Pa ham y gwrthwynebi di ewyllys y Goruchaf? pa un bynnac ai dec ai cant ai mîl o flynyddoedd [a roddo efe.]

7 Nid oes cerydd yn uffern am fyw.

8 Plant ffiaidd yw plant pechaduriaid: fel y mae y rhai a ydynt yn byw yn agos i'r annuwiol.

9 Etifeddiaeth plant annuwiol a ddifethir, a chyd ai hiliogaeth hwynt yr erys gwradwydd yn waſtad.

10 Rhag tâd annuwiol yr achwyn y plant: o blegit hwy a wradwyddir oi achos ef.

11 Gwae chwi wŷr annuwiol y rhai a adawſoch gyfraith y Duw goruchaf: o blegit er eich amlhau, chwi a ddifethir.

12 A phan aner chwi a enir i felldith, ac os meirw fyddwch chwi, i felldith y rhoddir chwi yn rhan.

Pen.40.11. 13 Aiff pob peth i'r ddaiar a ddelo o'r ddaiar, felly yr aiff yr annuwiol i ddeſtryw.

14 Galar dynion fydd am eu cyrph, ond enw dynion a ddeleuir pan nid yw efe dda.

15 Bydd ofalus am enw da: canys hwnnw a erys gyd â thi yn hwy na mîl o dryſſorau mawrion o aur.

16 Buchedd dda a gaiff nifer o ddyddiau, ac enw da a beru byth.

17 Fy meibion cedwch ddoethineb mewn heddwch.

18 Am *ddoethineb wedi ei chuddio, a thryſſor heb ei weled pa fudd ſydd o'r ddau? Pen.20.29.

19 Gwell yw'r dŷn a guddio ei ffolineb na'r dyn a guddio ei ddoethineb.

20 Gwladeiddied gan hynny o herwydd fyng-air i: o blegit nid da yw cadw pob gwladeidd-dra, ac ni chymmer pawb fod pob peth yn ffyddlon.

21 Cywilyddiwch yng-ŵydd tâd a mam am odineb, ac yng-ŵydd tywyſog neu bendefig am gelwydd.

22 Am fai o flaen yr ynad a'r tywyſog, am anwiredd yng-wydd y gynnulleidfa a'r bobl,

23 Ac am anghyfiawnder yng-wydd cydymmaith a chyfaill.

24 Felly am ledrad lle y byddech yn aros ond am wirionedd Duw ai gyfammod [na fydded arnat gywilydd, eithr cywilyddia am benlino ar y bara, a phan i'th geryddet di am roddi a derbyn.

25 Yr un modd am dewi wrth y rhai a'th gyfarchant, ac am edrych ar wraig butteinig ni byddo eiddo ti, ac am droi [dy] wyneb oddi wrth ŵr bonheddig:

26 Am ddwyn rhodd neu ran [neb,] ac am roddi ſerch ar wraig gŵr priod, ac am arfer maſwedd â morwyn, am hynny na ſaf wrth ei gwely hi,

27 [Bydded yn gywilydd gennit] edliw i'th gydymmaith, ac na ddannod wedi rhoddi,

28 Ac am adrodd drachefn yr hyn a glywech, a dadcuddio cyfrinach: felly y byddi di yn iawn gywilyddgar, ac y cei di ffafor gan bob dŷn.

## PEN. XLII.

Chwaneg o'r pethau nid rhaid i ddyn mor cywilydd o honynt, 9 am ferch gwr ai wraig, 15 anfeidrol wybodaeth Duw.

Nac yſtyr berſon i bechu, ac na fydded arnat gywilydd am y pethau hyn:

2 Sef am gyfraith y Goruchaf, ai gyfammod, nac am y farn a wnêl i'r annuwiol fod yn gyfiawn:

3 Am yſtyried wrth dy gyfeillion, ac ymdeithwŷr, nac am rannu etifeddiaeth rhwng cyfeillion:

4 Am fod yn ofalus am gloriannau a phwyſau, nac am feddiannu llawer neu ychydig:

5 Am iniondeb yn prynu a gwerthu, nac am ddyſcu llawer ar blant, nac am dynnu gwaed o yſtlys gwâs drwg.

6 Da yw ſelio rhag gwraig ddrwg, a chloi lle y byddo llawer o ddwylo.

7 Pan roddech beth at arall, dod tann rif a phwys, dod a derbyn wrth ſcrifen.

8 Trwy ddyſcu yr anoeth a'r angall a'r cleiriach a ymryſono ag ieuenctid y byddi di wîr ddyſcedic a chymeradwy ger bron pob dŷn byw.

9 Merch a bair iw thâd wilied yn ddirgel, ai ofal ef am dani hi a luddia ei gwſc ef, rhag iddi nac yn ei hieuengtid flodeuo yn rhy fuan, na chael ei chaſau wrth gyttal.

10 Rhag ei halogi hi yn ei morwyndod, ai beichiogi yn nhŷ ei thâd, ac iddi wneuthur bai pan fyddo gyd â gŵr, ac er cyttal fod yn ammhlantadwy.

11 Cadw yn ſiccr ferch wammal rhag iddi wneuthur dy elynnion yn llawen, a pheri i'r ddinas ſôn am danat, ac i'r bobl feio arnat, a'th wradwyddo ym myſc pobl lawer.

Pen.25.23. 12 * Nac edrych ar degwch pob dŷn, ac nac aros ym myſc gwragedd.

Gen.3.6. 13 O blegit o ddillad y daw gwyfyn: * a drygioni gwraig o wraig.

14 Gwell yw gŵr drygionus na gwraig fuddiol, [ſef] gwraig yr hon a wradwydda yn ddanodus.

15 Mi a goſtaf weithredoedd yr Arglwydd, ac a fynegaf yr hyn a welais: yng-eiriau yr Arglwydd [y ceir] ei weithredoedd ef.

16 Pan oleuo yr haul efe a oleua ar bob peth: felly y mae gwaith yr Arglwydd yn llawn oi ogoniant ef.

17 Oni wnaeth yr Arglwydd iw rai ſanctaidd fynegu ei holl ryfeddodau ef, y rhai a ſiccrhaodd yr Holl-alluoc, fel y bydde pob peth yn ſiccr yn ei ogoniant ef:

18 Y mae efe yn chwilio y dyfnder allan, a'r galon, ac yn deall eu cyfrwyſdra hwynt y mae y Goruchaf.

19 Canys y mae y Goruchaf yn gwybod gwybodaeth, ac yn gweled arwyddion yr amſeroedd, y mae efe yn mynegu pethau a fuant a phethau a fyddant, ac yn dadcuddio ôl pethau dirgel.

Iob.41.4. Eſa.29.15. 20 * Nid aiff vn meddwl heibio iddo ef, ac ni bydd vn gair yn guddiedic oddi wrtho ef.

21 Efe a harddodd fawredd ei ddoethineb, ac y mae efe o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb.

22 Ni ellir eſtyn atto ef na thynnu oddi wrtho ef: nid rhaid iddo ef wrth gyngor neb.

23 Mor hyfryd yw ei holl weithredoedd ef, ie hyd yn oed gwreichionen fe a ellir gweled.

24 Y mae y rhai hyn oll yn byw, * ac yn parhau byth, a pha bryd bynnac y mae yn rhaid wrthynt hwy, y maent hwy yn vfyddhau oll.

25 Y maent hwy oll yn ddau ddyblyg, y naill ar gyfer y llall, ac ni wnaeth efe ddim a diffic arno.

26 Y mae y naill yn ſiccrhau daioni y llall, a phwy a gaiff ddigõ o edrych ar ei ogoniant ef:

## PEN. XLIII.

Godidawgrwydd amryw creaturiaid Duw.

GOgoniant yr vchelder yw'r furfafen hyfryd, yn yr olwg ar ei ogoniant ef y mae tegwch y nefoedd.

2 Y mae yr haul hefyd wrth ymddangos yn mynegu am [Dduw gogoneddus] mai offeryn rhyfedd yw gwaith y Goruchaf.

3 Ar hanner dydd fe a lyſc y wlad, a phwy a ddichon aros ar gyfer ei wrês ef:

4 Y mae vn yn cadw ffwrn yn boeth, tri mwy y llyſc yr haul y mynyddoedd: gan chwythu allan angerdd tanllyd, a diſcleirio, ái belydr y mae efe yn dallu y llygaid.

5 Mawr yw yr Arglwydd yr hwn ai gwnaeth ef, ac wrth ei orchymyn ef, efe a beidiodd ai daith.

6 Y lleuad hefyd a wnaeth efe i ſefyll yn ei hamſer: i fod yn egluro yr amſer, ac yn arwydd i'r byd: Deut.12.2.

7 * Wrth y lleuad y' ceir gŵybod yr ŵyl, ſef goleuni yn lleihau tu ar diwedd.

8 Ar ei henw hi y mae y mis, ac efe a gynydda yn rhyfedd yn y cyfnewid.

9 Y mae llu gwerſyllol yn yr vchelder yn llewyrchu yn ffurfafen y nefoedd.

10 Diſclairdeb y ſêr ſydd yn degwch i'r nefoedd, ac yn harddwch yn diſcleirio yn vchelder yr Arglwydd.

11 Wrth y gorchymyn ſanctaidd y maent hwy yn ſefydlu coll-farn yn eu defod, ac nid ydynt yn lloſci yn eu gwiliadwriaeth. Gen.9.13.

12 * Gwêl yr enfys a chlodfora yr hwn ai gwnaeth hi, têg odieth yw hi yn ei diſclaerdeb. Eſa.40.12.

13 Y mae * hi yn amgylchu y nefoedd â chylch gogoneddus, dwylo yr Arglwydd ai hannelodd hi.

14 Y mae efe wrth ei orchymyn yn gwneuthur i'r eira beidio, ac i daranau ei farn ef bryſſuro.

15 Am hynny yr ymegyr y tryſſorau, ac yr hêd y cwmmylau fel adar.

16 Yn ei fawredd y cadarnhaodd-efe y cwmylau, ac y drylliwyd cerrig y cenllyſc.

17 Y mae twrwf ei daran ef yn cyſtuddio y ddaiar: a'r mynyddoedd a ſymmudant rhag ei olwg ef.

18 Wrth ei ewyllys ef y chwyth y gwynt, a themheſtl y gogledd wynt a'r trô-wynt.

19 Y mae efe yn tanu eira fel adar yn ehedeg, ac fel locuſtiaid diniſtriol y deſcyn efe.

20 Rhyfedd gan lygad [weled] tegwch ei wynder ef: a [phob] calon a ofna ei gafod ef.

21 Efe a dywallt rew ar y ddaiar fel halen, ac wedi iddo ef rewi, y mae efe yn bîg llym.

22 Pan chwytho y gogleddwynt oer y rhewa [megis] griſial o'r dwfr, ac a orphywys ar bob llyn dwfr, ac a wiſc y dyfroedd megis lluric.

23 Y mae efe yn difa y mynyddoedd, ac yn lloſci y diffaethwch, ac yn diffoddi pob gwyrddleſni fel tân.

24 Meddiginiaeth rhag y cwbl yw cwmwl a ddelo ar frŷs, a gwlith a ddelo yn erbyn gwrês ac ai llawenycha hwynt.

25 Wrth yr hyn a ddychymygodd efe y llonyddodd efe y dyfnder, ac efe a blannodd ynyſoedd yno.

26 Y rhai a hwyliant ar y môr a fynegant mor enbyd yw efe, a phan glywom ninnau a'n cluſtiau, nyni a ryfeddwn.

27 Yno y mae dieithr weithredoedd rhyfedd : pob amryw anifail a'r mor-feirch.

28 Trwyddo ef y mae ei angel ef yn cael hyffordd: a thrwy ei air ef y cyfãſoddwyd pob peth.

29 Nyni a ddywedwn lawer, er hynny ni chyrhaeddwn ni berffeithrwydd ymadrodd : efe yw'r cwbl.

30 Pa fodd y gallwn ni ei ogoneddu ef, canys y mae efe o'r tu hwynt iw holl waith?

Pſal.96.4. 31 Ofnadwy yw'r Arglwydd * a mawr odiaeth, a rhyfedd yw ei allu ef.

32 Pan ogoneddoch chwi yr Arglwydd derchefwch ef fwyaf ac y galloch, ac efe a ragora ar hynny.

33 A phan dderchafoch ef rhoddwch lawer o egni.

34 Na flinwch, canys ni chyrhaeddwch
Ioan.1.18. chwi : *pwy ai gwelodd ef, ac a fynega? a phwy
Pſal.106.2. ai mawryga ef megis y mae efe?

35 Y mae llawer peth mwy na hyn yn gudiedic: ychydic a welſom ni oi weithredoedd ef.

36 O blegit yr Arglwydd a wnaeth bob peth: ac i'r rhai duwiol y roddes efe ddoethineb.

### PEN. XLIIII.

Clôd Enoch, Noe ac Abraham.

Canmolwn y gwŷr enwoc y rhai a oeddynt dadau i ni wrth hiliogaeth.

2 Llawer o ogoniant a gafodd yr Arglwydd iw fawredd er ioed trwyddynt hwy.

3 Y rhai a lywodraethaſant ar eu teyrnaſoedd, ac a oeddynt wŷr enwoc o allu yn ymgynghori yn ſynhwyrol, ac yn treuthu prophwydollaethau.

Exod.18.25. 4 Hwy * a flaenoraſant y bobl trwy gyngor a thrwy ddeall cyfraith y bobl : geiriau doethion oeddynt yn eu hathrawiaeth hwynt.

5 Hwy a geiſiaſant allan feluſdra cerdd, ac a draethaſant ganiadau ſcrifennedic.

6 Gwŷr cyfoethogion cedyrn o nerth a heddychlon yn eu cartref oeddynt hwy.

7 Y rhai hyn oll yn eu cenhedlaethau a gawſant ogoniant, a gorfoledd yn eu dyddiau.

8 Bu [rhai] o honynt hwy y rhai a adawſant enw [ar eu hôl] fel yn mynegu [eu] clôd [hwynt.]

9 Bu hefyd rai heb fod coffa am danynt hwy,
Gen.7.22. ac * a ddifethwyd fel pe na's buaſſent, ac a aethant fel pe na's ganeſid hwynt, ai plant gyd â hwynt.

10 Eithr gwŷr trugarog oedd y rhai hyn, cyfiawnder pa rai ni's anghofiir.

11 Gyd ai hiliogaeth hwynt yr erys etifeddiaeth dda: y mae eu hiliogaeth hwynt yn y cyfammod.

12 Y mae eu hiliogaeth hwynt yn y cyfammod, ai plant hwynt gyd â hwythau.

13 Byth y peru eu hiliogaeth ai gogoniant ni ddelcuir.

14 Eu cyrph a gladdwyd mewn heddwch : ac y mae eu henw yn byw byth.

15 Y bobl*a fynegant eu doethineb hwy, a'r gynnulleidfa a draetha eu clôd hwynt. Pen.39.10.

16 * Enoch a ryglyddodd fodd i Dduw, ac a Gen.5.24.
fudwyd ymmaith yn ſiampl o edifeirwch i'r cen- Heb.11.5.
hedlaethau.

17 * Noe a gafwyd yn berffaith [ac] yn gy- Gen.6.9.
fiawn : ac yn amſer digter efe a wnaed yn gym- &7.1.
mod. Hebr.11.7.

18 An hynny [pan] fu y diluw,

19 Cyfammod tragywyddol a wnaed ag ef,
* na ddifethid pob cnawd trwy ddiluw [mwy.] Gen.9.11.

20 * Abraham ſydd dâd mawr i lawer o gen- Gen.12.3.
hedloedd, ac ni chafwyd ei fath ef mewn gogo- &15.5.
niant : efe a gadwodd gyfraith y Goruchaf, ac a &17.4.
ddaeth mewn cyfammod ag ef.

21 Hefyd efe a oſododd y cyfammod * yn ei gnawd, ac wrth ei brofi, efe a gafwyd yn ffyddlon. Gen.21.4.

22 Am hynny y ſiccrhaodd efe iddo ef* trwy Gen.22.16.
lw : y bendithid y cenhedloedd yn ei hâd ef, Gal.3.8.

23 Yr amlheid ef fel llwch y ddaiar, ac y caent hwy etifeddu o fôr i fôr, ac o'r afon i eithaf y ddaiar.

24 Felly* y ſiccrhaodd efe i Iſaac (er mwyn Abraham ei dad) fendith pob dŷn a'r cyfammod, ac a wnaeth iddynt orphwyſo ar ben Iacob. Gen.26.2.3.

25 Efe ai hadnabu ef* gan ei fendithio, ac a roddodd iddo ef etifeddiaeth, ac a naillduodd ei rãn ef, ac ai rhãnodd ym myſc y deuddec llwyth. Gen.27.28.

26 Ac efe a ddug allan o honaw ef wŷr trugarog, y rhai a gawſant ffafor yng-olwg pob dŷn.

### PEN. XLV.

Clôd Moſes Aaron a Phinees.

Moſes yr hwn a oedd * hoff gan Dduw a Exod.11.3.
dynion, ac y mae ei goffadwriaeth yn Act.7.22.
fendigedic.

2 Efe ai gwnaeth ef yn debyg i ogoniant y ſainct, ac ai mawrygodd ef gan beri iw elynion ei ofni ef: trwy ei eiriau ef y gwnaeth efe i ryfeddodau beidio.

3 Efe ai gwnaeth ef*yn ogoneddus yng-olwg brenhinoedd, efe a roddes gyd ag ef orchymyn at ei bobl, ac a ddangoſodd iddo ef ei ogoniant. Exod. 6.7.8.9.

4 Efe*ai ſancteiddiodd ef mewn ffydd a goſtyngeiddrwydd, ac ai dewiſodd ef o flaen pob dŷn. Num 12.3.

5 Efe a wnaeth iddo ef glywed ei lais ef, ac ai dug ef i'r cwmwl,

6 Ac efe a roddes y gorchymynnion oi flaen ef, ſef cyfraith bywyd a gŵybodaeth, efe a ddyſcodd y cyfammod i Iacob, ai farnedigaethau i Iſrael.

7 Efe a * dderchafodd Aaron ſanct, ei frawd Exod.4.28.

ef; yr hwn a oedd debyg iddo ef o lwyth Lefi.

8 Efe a ſiccrhaodd iddo ef gyſammod tragywyddol, ac a roddes iddo ef offeiriadaeth y bobl: efe ai gwnaeth ef yn ddedwydd mewn harddwch,

9 Ac efe ai gwiſcodd ef â gwiſc ogoneddus efe ai gwiſcodd ef â gorfoledd cyflawn, ac ai gwregyſodd ef ag offer cadernid,

10 Llawdr-wiſc, pais ac Ephod.

11 Efe ai hamgylchodd ef â phomgranadau [ac] â chlychau aur lawer o amgylch, i ſeinio * pan gerdde efe, i wneuthur ſŵn yr hwn a glywid yn y deml, ac i fod yn goffadwriaeth i feibion ei bobl ef. Exod.28.35.

12 Ac â gwiſc ſanctaidd o aur, â ſidan glâs, â phorphor, ac amryw waith, â dwyfronnec barn, ag arwyddion gwirionedd,

13 Ac â gwaith cywraint o ſcarlat ac â meini gwerthfawr wedi eu cerfio fel ſêl, ai goſod mewn aur trwy waith eurych er coffadwriaeth: ac ſcrifen wedi ei cherfio yn ôl niſer meibion Iſrael.

14 Ar y meitr [y gwiſcaſe efe] goron o aur fel cerfiedic bortreiad ſancteiddrwydd yn harddwch anrhydeddus, yn waith godidog, yn hyfryd i'r llygaid, yn hardd ac yn dêg.

15 Ni bu y fath oi flaen ef,

16 Ac er ioed ni wiſcodd neb dieithr hwynt, eithr ei feibiō ef yn unic, ai ŵyrion ef bob amſer.

17 Dwy waith yn y dydd yn waſtadol y poeth offrymmid eu haberthau hwynt.

18 Moſes ai cyſſegrodd ef, ac ai heneiniodd ag olew ſanctaidd.

19 Aeth yn gyſammod tragywyddol iddo ef, ac iw hâd cyhŷd ag y parhao y nefoedd, gael gwaſanaethu iddo ef, ac offeiriadu hefyd a bendithio y bobl yn ei enw ef.

20 Efe ai dewiſodd ef o flaen pob [dŷn] byw i offrymmu offrwm i'r Arglwydd a phêr arogldarth er coffadwriaeth, i wneuthur cymmod tros y bobl.

21 Efe a * roddes iddo ef ei orchymynnion ac yng-hyſammod y gyfraith awdurdod i ddyſcu ei deſtiolaethau ef i Iacob, ac i egluro ei gyfraith ef i Iſrael. Lefit.8.12. Deut.17.10. & 21.5.

22 * Dieithriaid a ſafaſant iw erbyn ef, ac a genfigennaſant wrtho ef yn yr anialwch, (ſef y gwŷr y rhai a oeddynt gyd â Dathan ac Abiram a chynulleidfa Core) mewn llid a digter. Num.16.1.

23 Yr Arglwydd a welodd hyn, ac ni bu fodlon: eithr hwy a ddifethwyd yn llidiawgrwydd ei ddigter ef.

24 Efe a wnaeth arnynt hwy wrthiau gan eu difetha â flam dân.

25 Ac * efe a roddes chwaneg o ogoniant i Aaron, ac a roddes iddo etifeddiaeth blaenffrwyth, y cyntaf-anedic a rannodd efe iddo. Num.17.8.

26 Yn gyntaf efe a arlwyodd iddo ef ddigon o fara: o blegit y maent hwy yn cael bwyta aberthau yr Arglwydd y rhai a roddes efe iddo ef, ac iw hâd.

27 Eithr * ni roddes efe etifeddiaeth iddo ef o dir y bobl, ac nid oes iddo ef etifeddiaeth ym myſc y bobl: oblegit efe ei hun yw rhan ei etifeddiaeth ef. Deut.12.12.

28 * Phinees mab Eleazar a oedd y trydydd mewn gogoniant: am iddo ef ddwyn zêl yn ofn yr Arglwydd: Num.25.12. 1.Mac.2.54.

29 A ſefyll o honaw ef i fynu ag ewyllys da a pharod, a gwneuthur cymmod tros Iſrael, pan droaſſe y bobl ymmaith.

30 Am hynny y gwnaeth efe ag ef gyſammod heddychlon, y cae efe fod yn ſwyddog ar y cyſſegr, ac ar ei bobl, fel y bydde braint yr offeiriadaeth iddo ef ac iw hâd byth.

31 [Efe a wnaeth] gyſammod â Dafydd mab o lwyth Iuda, [y bydde] etifeddiaeth y brenin o fab i fab yn unic: eithr etifeddiaeth Aaron a oedd iw hâd ef. Rhodded [Duw] ddoethineb yn eich calō chwi i farnu ei bobl ef yn gyfiawn fel na ddeleer eu daioni hwynt, ac [y coffânt hwy] ei ogonant ef trwy eu cēhedlaethau.

## PEN. XLVI.

Clôd Ioſua, Caleb a Samuel.

CRyf mewn rhyfel oedd * Ieſus mab Nafe, dilynwr Moſes mewn prophwydoliaethau. Num.27.18. Deut.34.9. Ioſ.1.2.

2 Yr hwn (yn ôl ei enw) a oedd fawr ei iechydwriaeth i etholedigion Duw i ymddial ar y gelynion a gyfodent iw herbyn hwynt, fel y cae Iſrael ei etifeddiaeth.

3 Pa * ogoniant a gafodd efe yn derchafu ei ddwylo, ac yn tynnu ei gleddyf yn erbyn dinaſoedd? Ioſ.8.1.

4 Pwy * a ſafodd felly oi flaen ef? canys efe oedd dywyſog ar ryfel yr Arglwydd. Ioſ.10.12.

5 Onid er ei fwyn ef y ſafodd yr haul, ac y gwnaed un diwrnod cyhŷd â dau?

6 Efe a alwodd ar y llywydd goruchaf, pan oedd y gelynion yn ei orthrymmu ef o bob parth a'r mawr Iôr ai gwrandawodd ef * gan roddi cerrig ceſſair mawr odieth. Ioſ.10.11.

7 Efe a ruthrodd ar y cenhedloedd â rhyfel, ac yn y gorwared efe a ddifethodd y gwrthwynebwŷr.

8 Fel y galle y cenhedloedd adnabod ei arfogaeth ef, mai o flaen yr Arglwydd yr oedd efe yn rhyfela, o blegit efe oedd yn ymlid ar ôl [un] cadarn.

9 Yn * amſer Môſes hefyd y gwnaeth efe â Chaleb hefyd fab Iephun waith eluſen, gan ſefyll yn erbyn y gelynion, ac attal y bobl rhag pechu, a lluddio y grwgnach drygionus. Num.14.8. 1.Mac.2.55.

10 Ac hwynt hwy ill dau a ddianghaſant: * o chwe chant mil o wŷr traed, iw dwyn hwynt i mewn i'r etifeddiaeth, ſef i'r wlâd a oedd yn llifeirio o laeth a mêl. Num.26.65. deut.1.35.

11 I Caleb hefyd y rhoddes yr Arglwydd gryfder, ac efe a arhoes gyd ag ef hyd ei henaint fel yr aeth efe i uchelder y wlâd, ai hâd ef ai goreſcynnodd yn etifeddiaeth. Ioſ.14.11.11.

12 Fel y galle holl feibion Iſrael weled

mai da yw dilyn yr Arglwydd.

13 Y barnwyr hefyd bôb vn erbyn ei henw,

14 Y rhai oll ni phutteiniodd eu calon, a pha rai bynnac ni throaſant oddi wrth yr Arglwydd a ydynt yn caffael coffadwriaeth enwoc.

Pen.49.10. 15 Y mae *eu heſcyrn yn ireiddio yn eu lle, ac y mae eu henw hwynt yn cyfnewidio ym mhlant y rhai a gânt anrhydedd.

1.Sam.10.1. & 16.13. 16 Samuel y prophwyd yr hwn a oedd hoff gan yr Arglwydd * a oſododd frenhiniaethau, ac a eneiniodd dywyſogion ar ei bobl.

17 Trwy gyfraith yr Arglwydd y barnodd efe y gynnulleidfa, a'r Arglwydd a yſtyriodd wrth Iacob.

18 Y prophwyd a gafwyd yn ddiwyd wrth ei ffydd, ac efe a adnabuwyd wrth ei eiriau.

1.Sam.7.9. 19 Canys efe * a alwodd ar yr Arglwydd galluoc, pan orthrymmodd y gelynnion ef o amgylch wrth offrymmu yr oen ſugno.

20 A'r Arglwydd a daranodd o'r nefoedd, ac a wnaeth glywed twrwf ei daran a ſŵn mawr.

21 Felly y drylliodd efe dywyſogion y Tyriaid a phenaethiaid y Philyſtiaid oll.

1.Sam.12.3. 22 A * chyn amſer ei hîr hun, efe a deſtiolaethodd o flaen yr Arglwydd ai eneinioc, na ddygaſe efe o dda neb gymmaint, ac eſcid: ac nid achwynodd neb rhagddo ef.

1.Sam.28.18 23 Ac *wedi iddo ef huno, efe a brophwydodd ac a ddangoſodd i'r brenin ei ddiwedd, ac a dderchafoed ei lef o'r ddaiar gan brophwydo y deleid anwiredd y bobl.

## PEN. XLVII.

Clòd Nathan, Dafydd, a Salomon.

2.Sam.12.10. WEdi hyn y cyfododd y *prophwyt Nathan yn nyddiau Dafydd.

2 Fel y neilltuir y braſder oddi wrth yr offrwm: felly [y nailltuwyd] Dafydd oddi wrth feibion Iſrael.

1.Sam.17.34. 3 *Ym myſc y llewod yr ymdeithiodd efe megis ym myſc mynnod: ac ym myſc yr eirth megis ym myſc ŵyn defaid.

4 *Oni laddodd efe gawr yn ei ieuengtid? ac oni thynnodd efe ymmaith wradwydd y bobl? 1.Sam.17.49.

5 Pan gyfododd efe ei law a charreg dafl: a bwrw i lawr falchder Goliah?

6 Canys efe a alwodd ar yr Arglwydd goruchaf, ac yntef a roddes nerth iw ddeheulaw ef i ladd y dŷn cryf yn y rhyfel, fel y derchafe efe gorn ei bobl.

1.Sam.18.7. 7 Felly [y bobl] ai * anrhydeddodd yntef â myrddiwn, ac ai canmolodd â chlôd fawr.

2.Sam.5.7. 8 Pan roddwyd iddo ef goron y gogoniant efe * a drylliodd y gelynnion o amgylch, ac a ddifethodd y Philyſtiaid y rhai a oeddynt wrthwyneb-wyr [iddo] ac efe a ddrylliodd eu corn hwynt hyd onid yw efe felly etto.

9 Yn ei holl waith y rhoddes efe glôdforedd i'r hwn ſydd ſanctaidd a goruchaf â geiriau anrhydeddus, ac â'i holl galon y clodforodd,

10 Ac y carodd efe yr hwn ai gwnaeth ef.

11 Ac *efe a oſododd gantorion o flaen yr allor, fel y cenid ei ganiadau ef yn felus ar dafod ac y clôdforent hwy [Dduw] beunydd âi caniadau. 2.Cron.16.4.

12 Efe a roddes drefn weddaidd am y gwiliau, ac a gymhwyſodd yr amſerau yn berffaith, fel y clôdforent hwy ei enw ſanctaidd ef, ac y gwnaent iw gyſſegr efſeinio yn foreu. 2.Sam.12.13.

13 *Yr Arglwydd a ddeleuodd ei bechodau ef, ac a dderchafodd ei gorn ef byth, ac a roddes iddo ef gyfammod y frenhiniaeth, a gorſeddfaingc gogoniant yn Iſrael.

14 Ar ôl hwn y cododd mab doeth, ac a breſwyliodd mewn ehangder trwyddo ef. 1.bren.4.24.

15 *Salomon a deyrnaſodd mewn amſer heddychlō, ac a oedd anrhydeddus: canys Duw a baraſe lonyddwch oi amgylch ef, fel yr adailade efe dŷ iw henw ef, ac y darpare gyſſegr tros byth: * mor ddoeth oedd efe yn ei ieuengtid? 1.Bren.4.29.

16 Ac mor llawn o ſynwyr fel llifeiriant?

17 Dy enaid a orchguddiodd yr holl ddaiar ac ai llanwodd â chyffelybiaethau dammegol.

18 Dy enw a aeth ym mhell i'r ynyſoedd, a chu oeddit am dy heddwch. 1.Bren.4.31.

19 *Ryfeddodd y gwledydd wrth dy ganiadau, a'th ddiharebion, a'th gyffelybiaethau, a'th ddeongliadau.

20 Trwy enw Arglwydd Dduw yr holl ddaiar, yr hwn a elwir dy Dduw di Iſrael, 1.Bren.10.27.

21 Y ceſclaiſt ti * aur fel alcam, ac y cefaiſt arian cyn amled a'r plwm, rhoddaiſt ormod ſerch ar wragedd, 2.Bren.11.1.

22 Ti a orchfygwyd yn dy gorph.

23 Ti a anefaiſt dy ogoniant, ac a halogaiſt dy hiliogaeth, gan ddwyn digofaint yn erbyn dy blant, a dwyn goſid am dy ynfydrwydd: fel y *rhannwyd y frenhiniaeth, ac y dechreuodd brenhiniaeth anufyddgar fod o Ephraim. 1.Bren.12.15. 2.Sam.7.15.

24 *Er hynny ni adawe yr Arglwydd ei drugaredd, ac ni ddifethwyd ef am ei weithredoedd.

25 Ni ddeleue efe hiliogaeth ei etholedic, ac ni ddyge ymmaith eppil yr hwn ai care ef:

26 Eithr efe a adawodd weddill i Iacob, a gwreiddin i Ddafyd o honaw ef.

27 Yna Salomon a orphywyſodd gyd ai dadau.

28 Ac a adawodd oi hiliogaeth ar ei ôl, ynfydrwydd y bobl, ac vn a diſig ſynnwyr arno, yr hwn a yrrodd y bobl ymmaith âi gyngor: 1.Bren.12.28.

29 *Ac Ieroboam mab Nabat yr hwn a wnaeth i Iſrael bechu, ac a roddes ffordd i Ephraim i bechu.

30 Ai pechodau hwynt a gynnyddaſant mor ddirfawr hyd oni throdd efe hwynt allā o'r wlâd.

31 [Ac] hyd oni ddaeth dig a dialedd arnynt hwy.

## PEN. XLVIII.

Clôd Elias, Elizeus, Ezechias ac Eſai.

YNa y cododd * Elias y prophwyd fel tân, ai air ef a loſce fel luſern. 1.Bren.17.1.

2 Yr hwn a ddug arnynt hwy newyn mawr a thrwy ei zêl ai gwnaeth hwy yn ychydig.

1.Bren.18.38. & 2.b.ren.1.10

3 Efe a gaeodd y nefoedd trwy air yr Arglwydd, a *thair gwaith y dug efe dân: ô Elias mor ogoneddus fuoſt ti yn dy ryfeddodau?

4 Pwy a ddichon ymffroſtio [ei fod] fel tydi?

1.Bren.17.21.

5 Yr hwn *a gyfodaiſt [y] marw o farwolaeth, a dŷn o'r bedd trwy air y Goruchaf.

6 Yr hwn a ddygaiſt frenhinoedd i ddiniſtr, a phendefigion oi heiſteddfa.

1.Bren.19.15.

7 Yr hwn a glywaiſt gerydd yr Arglwydd yn Sina, a barnedigaethau dialedd *yn Horeb.

1.Bren. 19.16.

8 Yr hwn *a eneiniodd frenhinoedd i dalu y pwyth, a phrophwydi i ddilyn ar ei ôl ef.

2.Bren.2.11. malach.4.5.

9 *Yr hwn a godwyd i fynu mewn tro-wynt o dân, ac mewn cerbyd meirch tânlyd.

10 Yr hwn a ordeiniwyd i geryddu mewn pryd, ac i oſtegu digter yr Arglwydd cyn iddo llidio, ac i droi calon y tadau at y meibion, ac i grynhoi llwythau Iacob.

11 Gwyn eu byd hwy a'th welſant di, ac a hunaſant mewn cariad:

12 Canys nyni a fyddwn byw.

2.Bren 2.11.

13 Elias *a orch-guddiwyd yn y dymeſtl, ac Elizeus a lanwyd âi yſpryt ef: ni ſyflodd efe er tywyſogion yn ei ddyddiau, ac ni allodd neb ei feiſtroli ef.

2.Bren. 13.21.

14 Ni orchfygodd dim ef, ac wedi ei huno ef, *fe a brophwydodd ei gorph ef.

15 Efe a wnaeth ryfeddod yn ei fywyd, ac yn ei ddiwedd rhyfedd oedd ei weithredoedd ef.

2.Bren. 18.11.

16 Er hyn oll ni chymerodd y bobl edifeirwch, ac ni chiliaſant oddi wrth eu pechodau, *hyd oni chaethgludwyd hwynt oi gwlâd, ai gwaſcaru yn mhob gwlâd:

17 A gadel ychydig bobl a thywyſog yn nhy Ddafydd.

18 Rhai o honynt hwy a wnaethant yr hyn a oedd yn rhyglyddu bodd, a rhai a wnaethant lawer o bechod.

2.Bren.18.2.

19 *Ezecias a gadarnhaodd ei ddinas, ac a ddug ddwfr iw chanol hi: efe a gloddiodd y graig â haiarn, ac a wnaeth ffynhônau i'r dwfr.

2.Bren.18.13.

20 Yn ei ddyddiau ef *y daeth Senacharib i fynu, ac a anfonodd Rabſaces o Lachis, ac a dderchafodd ei law yn erbyn Sion, ac a ymffroſtiodd yn ei falchder.

21 Yna y crynnodd eu calonnau, ai dwylo hwynt, ac yr ymofidiaſant hwy fel gwragedd yn eſcor.

22 Ond hwy a alwaſant ar yr Arglwydd trugarog, gan eſtyn eu dwylo atto ef.

23 A'r hwn ſanctaidd ai gwrandawodd hwynt o'r nefoedd, ac ai gwaredodd hwynt trwy law Eſai.

2.Bren. 19.35. eſa.37.36. tob.1.18. 1.mac.7.41. 2.mac.8.19.

24 Efe *a ddifethodd lu yr Aſſyriaid, ai angel ef ai diniſtriodd hwynt.

25 O blegit Ezecias a wnaethe yr hyn a oedd fodlon gan yr Arglwydd, ac a ddilynodd ffyrdd Dafydd ei dad yn lew, fel y gorchymynnaſe y prophwyd Eſai, yr hwn oedd fawr a pharchedic yn ei olwg ef.

2.Bren.20 10. eſa.38.8.

26 Yn *ei ddyddiau ef yr aeth yr haul yn ei ôl, ac efe a eſtynnodd hoedl y brenin.

27 Trwy yſpryd godidog y gwelodd efe y pethau a fyddent yn ddiweddaf, ac y cyſſurodd efe y rhai a oeddynt athriſt yn Sion tros byth.

28 Efe a ddangoſodd y pethau a ddeuent, byth, a phethau a oeddynt ddirgel cyn eu dyfod.

## PEN. XLIX.

Clôd Ioſias, Hezecias, Dafydd, Ieremi, Ezechiel, Zorobabel, Ieſus, Nehemias, Enoch, Ioſeph, Sem a Seth.

2.Bren.22.1. 2.cron.34.3.

COffadwriaeth *Ioſias ſydd fel cymmyſciad arogl-darth trwy gyfarwydd waith yr apothecari.

2 O mae hi cyn feluſed â'r mêl ym mhob genau, ac fel cerdd mewn gwledd o wîn.

3 Efe a gafodd gyfarwyddyd i ddadtroi y bobl, ac a ddug ymmaith ffieidd-dra anwiredd.

2.Bren.23.3.

4 Efe a gyfeiriodd ei galon at yr Arglwydd, ac a gadarnhaodd dduwioldeb yn amſer pechaduriaid.

5 Pob [brenin] ond Dafydd, Ezecias ac Ioſias a wnaethant fai.

6 Canys brenhinoedd Iuda heſyd a adawſant, ac a wrthodaſant gyfraith y Goruchaf.

7 Yntef a roddes eu corn hwynt i arall, ai gogoniant i genedl ddieithr.

2.Bren.25.9.

8 [Am hynny] y lloſcaſant hwy y ddinas etholedic ſanctaidd, ac *yr anrheithiwyd ei heolydd hi yn ôl prophwydoliaeth Ieremi.

Iere.1.5.

9 Canys efe ai cyſtuddiodd ef, ac yntef *wedi ei ſancteiddio yn brophwyd o groth ei fam i ddiwreiddio, a niweidio, a difetha, felly heſyd i adailadu ac i blannu.

Ezec.1.3.

10 *Ezeciel yntef a welodd weledigaeth ogoneddus, yr hon a ddangoſwyd iddo ef ar gerbyd o gerubiaid.

Ezec 13.9. & 38.11.

11 Efe a feddyliodd am y gelynnion yn y gafod, ac a gyfarwyddodd y rhai iniawn eu ffyrdd.

12 Felly bendigedic fyddo coffadwriaeth y deuddec prophwyd.

Hag.2.24. eſdr.4.2.

13 Pa fodd *y mawrygwn ni Zorobabel, ac yntef megis yn ſêl ar y llaw ddehau.

Zach.3.1. age.1.12. nehem.7.1.

14 Felly *Ieſus fab Ioſedec: y rhai hyn yn eu dyddiau a adailaſant y tŷ, ac a gyfodaſant Deml ſanctaidd i'r Arglwydd yr hon a ddarparwyd yn ogoniant tragywyddol.

15 Nehemias heſyd a oedd o'r rhai etholedic, am yr hwn y mae mawr goffa, yr hwn a gododd i ni y caerau a ſyrthiaſent, ac a oſododd i fynu y pyrth ar barrau, ac a gyfododd ein tai ni.

Gen.5.24. pen.44.16. heb.11.5.

16 Ni chreuwyd ar y ddaiar fath *Enoch, yr hwn a gyfodwyd i fynu oddi ar y ddaiar.

Gen.41.44. & 42.6. & 45.8. Gen.5.3. & 11.10.

17 Ac ni bu y fath wr ag *Ioſeph yr hwn a oedd bennaeth ar ei frodyr,

18 A chynhaliwr y bobl, am eſcyrn yr hwn yr edrychodd yr Arglwydd.

19 Sem a Seth a gawſant barch gan ddynion: ac Adda oedd yn y greadwriaeth goruwch pôb peth.

### PEN. L.

Clôd Simon fab Onias 22 cyngor i foliannu Dum.

2.Mac.3.4. Simon mab Onias yr arch-offeiriad, yw yr hwn yn ei fywyd a gyfododd y tŷ, ac yn ei ddyddiau a ſiccrhaodd y bobl.

2 Efe a barodd ſylfaenu yr uchder dauddyblyg, ar fagwyr uchel o amgylch y deml.

3 Yn ei ddyddiau ef yr oedd yn rhy fychan y noeau dwfr, [ac yr oedd] efyddyn yn cynnwys tri chymmaint i'r gerwyn.

4 Yr hwn wrth ofalu tros y bobl rhag eu difetha,

5 Ac wrth gadarnhau y ddinas ai hamgylchu a gefaiſt ogoniãt trwy ymwreddiad y bobl wrth ddyfod allan or tŷ tãn orchudd.

6 Fel y ſeren ddydd yn myſc y cwmylau, ac fel y lleuad yn ei llawn-lloned.

7 Ac fel enfys ddiſclaer yn y cwmylau teg.

8 Fel yr haul yn tywynnu ar deml y Goruchaf, fel blodau rhos pan fyddant newydd, fel lili wrth aberoedd dyfroedd, a llyſiau Libanus yn amſer haf.

9 Fel tân a thus mewn thuſſer,

10 Fel lleſter o aur wedi ei wneuthur o'r un darn, ai harddu â phob maen gwerthfawr.

11 Fel olewydden dêg ffrwythlawn, ac fel cypreſſwydden wedi tyfu i'r awyr pan gymere efe y wiſc ogoneddus, a phan wiſce efe yr hyfrydwch perffaith,

12 Wrth fyned i fynu at yr allor ſanctaidd, efe a wnai y wiſc ſanctaidd yn anrhydeddus.

13 Pan gymere efe yr aelodau o law yr offeiriaid, yna y ſafe efe wrth aelwyd yr allor.

14 Ai frodyr yn goron oi amgylch ef, fel llwyn cedrwydd yn Libanus ai hamgylchent ef fel canghennau palm-wydd: felly [y bydde] meibion Aaron oll yn eu gwychter.

15 Ac offrwm yr Arglwydd yn eu dwylo o flaen holl gynulleidfa Iſrael) ac efe a waſanaethid wrth yr allor yn berffaith gan wnethur offrwm yr Holl-alluoc goruchaf yn hardd,

16 Efe a eſtynne ei ddwylo at y ddiod offrwm, ac a gymyſce beth o'r gŵin.

17 Ac ai tywallte ar waelod yr allor yn arogl peraidd i'r hwn ſydd oruchaf Frenin ar bawb.

18 Yna meibion Aaron a waeddent, ac a ſeinient mewn udcyrn tawdd, ac a wnaent ſwn mawr eglur yn goffadwriaeth o flaen y Goruchaf.

19 Yna yr holl bobl a gydſyrthient i lawr ar eu hwynebau ar frys i addoli eu Harglwydd y goruchaf Dduw holl-alluoc.

20 Y cantorion hefyd a glôdforent ai lleiſiau, ac a wnaent gynghanedd felus a ſwn lawer.

21 A phobl yr Arglwydd goruchaf a ymbilient trwi weddi nes cyflawni anrhydedd yr Arglwydd, a gorphen ei waſanaeth ef.

22 Yna efe a ddiſcynne ac a dderchafe ei ddwylo ar holl gynulleidfa meibion Iſrael i draethu bendith yr Arglwydd ai wefuſau, ac i ymorfoleddu yn ei enw ef.

23 Ac hwy a addolent eilwaith i dderbyn y fendith gan y Goruchaf.

24 Yn awr gan hynny bendigwch Dduw yr hwn yn unic ſydd yn gwneuthur â nyni yn ôl ei drugaredd.

25 [Gweddiwch] ar fôd heddwch yn ein dyddiau ni bob amſer, a chadarnhau o honaw ef ffyddlondeb ei drugaredd i ni, a'n gwaredu ni tros ein hamſer.

26 Dwy genhedlaeth ſydd flin gan fy enaid, a'r drydedd nid yw genhedlaeth.

27 Y rhai a eiſteddant ym mynydd Samaria, a'r rhai a breſwylant Paleſtina, a'r bobl ynfyd y rhai a drigant yn Sichem.

28 Ieſus mab Sirach o Ieruſalem a ſcrifennodd yn y llyfr. hwn athrawiaeth ſynwyr a gwybodaeth, yr hwn a lawiodd ddoethineb oi galon.

29 Gwyn ei fŷd yr hwn a ymgynnefino a'r rhai hyn, a'r hwn ai goſodo hwynt yn ei feddwl a fydd doeth.

30 O blegit os gwna efe y pethau hyn efe a fydd nerthol i bob peth: canys goleuni yr Arglwydd a fydd yn gyfarwyddyd iddo ef, ac i'r rhai duwiol y rhoddes efe ddoethineb. Bendigedic fyddo yr Arglwydd byth: felly y byddo, felly y byddo.

### PEN. LI.

Gweddi Ieſus fab Sirach.

Clôdforaf di ô Arglwydd Frenin, a moliannaf di fy Nuw a'm iachawdwr.

2 Dy enw di a glôdforaf, o blegit ti ydwyt yn amddeffynnudd ac yn help i mi, ac a waredaiſt fyng-horph i rhag ddiniſtr.

3 Ac rhag rhwyd enllib tafod, rhag gwefuſau y rhai a weithredant gelwydd, ie yn erbyn y rhai a ydynt yn cyfodi i'm herbyn yr ydwyt ti yn help.

4 Gwaredaiſt fi yn ôl amldra trugaredd dy enw rhag y rhai rhuadwy a oeddynt barod im bwyta:

5 Ac o law y rhai a oeddynt yn ceiſio fy enaid i, ac o lawer o flinderau, y rhai a gefais i.

6 Rhag i'r tân fy mygu o amgylch, [ac] o ganol y tân rhag fy lloſci.

7 Felly [i'm gwaredaiſt] o waelod y dyfnder, ac rhag tafod aflan, ac rhag chwedl celwyddoc, ac rhag anair gyd â'r brenin trwy dafod anghyfiawn.

8 Fy enaid a aethe yn agos i farw.

9 Am heinioes a oedd agos i uffern iſaf.

10 Hwy a'm hamgylchynaſant i o amgylch, ac nid oedd a helpie: mi a edrychais am help dyn ac nid oedd [dim.]

11 Am hynny mi a gofiais dy drugaredd di oh Arglwydd, ai grym hi er ioed.

12 Dy fod ti yn achub y rhai dioddefgar, ac yn eu hachub hwynt o law y gelynnion.

13 Ac mi a dderchefais fyng-weddi rhag digter, ac a ddeiſyfiais [gael] ymwared yn lle marwolaeth.

14 Ac mi a ddeiſyfiais ar yr Arglwydd tâd fy Arglwydd, na adawe efe fyfi yn amſer trallod, y prŷd ni cheid help gan y beilchion.

15 Mi a foliannaf dy enw di yn waſtadol, ac a'th glôdforaf di yn fyng-hyffes, am wrando fyng-weddi.

16 O blegit ti a'n cedwaiſt ni rhag diniſtr, ac a'n gwaredaiſt ni o'r amſer drwg:

17 Am hynny y clôdforaf, ac y moliannaf di ô Arglwydd ac y canmolaf dy enw.

18 Am fi etto yn ieuangach cyn fy nhwyllo mi a ofynnais ddoethineb yn eglur yn fyng-weddi.

19 O flaen y Deml y gweddiais i am dani hi, ac hyd y diwedd y ceiſiaf hi.

20 Mor llawen a oedd fyng-halon o honi hi, ac o rawnwin yn addfedu o'r blodau, fy nrhoed a rodiodd yn iniawn, mi ai holrheiniais hi o'm hieuengtid.

21 Mi a oſtyngais ychydig ar fyng-hluſt, ac ai derbyniais [hi.]

22 Ac mi a gefais im fy hun lawer o athrawiaeth: mi a euthym rhagof ynddi hi.

23 I'r hwn a roddes i mi ddoethineb, y rhoddaf fi y gallu.

24 O blegit mi a feddyliais am ei gwneuthur hi, a dilyn daioni, ac ni'm gwradwyddir.

25 Fy enaid a ymderchodd am dani hi, ac mi a fum ddiwyd yn peri chwant [iddi hi.]

26 Mi a eſtynnais fy nwylo i fynu, pan ddehallais i beth a oedd bod heb ei hadnabod hi.

27 Mi a gyfarwyddais fy enaid atti hi, ac ai cefais hi mewn puredd.

28 O'r dechreuad yr ydwyf yn berchen calon wedi ei chyſſylltu â hon, am hynny ni'm gwrthodir.

29 Fyng-halon $\overset{a}{\underline{o}}$ gafodd helbul yn ei cheiſio hi: felly mi a gefais gyfoeth da.

30 Yr Arglwydd a roddes dafod yn wobr i mi ac mi ai moliannaf ef â hwnnw.

31 Neſſewch attafi (ô annyſcedic,) ac arhoſwch yn nhŷ athrawiaeth.

32 Paham yr ydych chwi yn oedi? neu beth a ddywedwch chwi am hyn, gan fod ar eich eneidiau chwi ſyched mor ddirfawr?

33 Mi a egorais fy ſafn, ac a leferais? prynwch [hi] i chwi heb arian.

34 Goſtyngwch eich gyddfau tann yr iau, a derbynied eich enaid athrawiaeth, hawdd yw ei chael hi.

35 Gwelwch âch llygaid gymeryd o honofi boen: a chael o honofi i'm fy hun eſmwythdra mawr.

36 Mynnwch gyfran o athrawiaeth, am niſer mawr o arian meddiennwch aur lawer trwyddi hi.

37 Llawenyched eich calon am ei drugaredd ef, ac na fydded yn gywilydd gennych ei foliannu ef.

38 Gwnewch eich gwaith cyn yr amſer, ac efe a rydd eich gwobr yn ei amſer.

*Terfyn llyfr Ieſus fab Sirach yr hwn a elwir*
*yn Lladin Eccleſiaſticus.*

# Llyfr y Prophvvyd Baruch.

## PENNOD. I.

Baruch yn ſcrifennu llyfr yn amſer caethiwed Babilon
10 Yr Iddewon yn anfon y llyfr o Babilon i Ieruſalem, ac arian hefyd,

Dymma hefyd eiriau y llyfr a ſcrifennodd Baruch mab Nerias, fab Maaſias, fab Sedechias, fab Aſodias, fab Helias yn Babilon:

2 Yn y bummed flwyddyn, y ſeithfed [dydd] o'r mîs, yr amſer yr ennillodd y Caldeaid Ieruſalem, ac y lloſcâſant hi â thân.

3 A Baruch a ddarllennodd eiriau y llyfr hwn o flaen Iechonias mab Ioachim, brenin Iuda, ac o flaen yr holl bobl y rhai a ddaethent i [wrando] y llyfr:

4 Ac o flaen yr holl gedyrn, a holl feibion y brenin, ac o flaen yr henuriaid, ac o flaen yr holl bobl o'r lleiaf hyd y mwyaf, y rhai oll a oeddynt yn trigo yn Babilon wrth afon Sodi.

5 Ac hwy a ŵylaſant, ac a ymprydiaſant, ac a weddiaſant ger-bron yr Arglwydd.

6 Hwy a gaſclaſant arian yn ôl gallu pawb:

7 Ac a anfonaſant i Ieruſalem at Ioachim fab Helchias fab Salom yr offeiriad, ac at yr holl offeiriaid [eraill,] ac at yr holl bobl, y rhai a geſſid gyd â hwynt yn Ieruſalem.

8 Wedi cael lleſtri tŷ yr Arglwydd (y rhai a ddugaſſid o'r deml) i'w dwyn trachefn i wlâd Iuda y decfed [dydd] o Sifan, [ſef] y lleſtri arian y rhai a wnaethe Sedechia mab Ioſias brenin Iuda.

9 Wedi caeth-gludo o Nabuchodonoſor brenin Babilō Iechonias ai dywyſogion, ai ge-

dyrn, a phobl y wlâd yn garcharorion o Ieruſalem, ai dwyn hwynt i Babilon.

10 Ac hwy a ddywedaſant, wele ni a anfonaſam attoch chwi arian: prynwch chwithau a'r arian offrymmau poeth, ac [aberthau] tros bechod, ac arogl-darth, a darperwch fwyd offrwm, ac offrymmwch ar allor yr Arglwydd ein Duw ni.

11 A gweddiwch tros hoedl Nabuchodonoſor brenin Babilon, a thros hoedl Baltaſar ei fab ef, ar fod eu dyddiau hwynt fel dyddiau y nefoedd ar y ddaiar.

12 Ac ar roddi o'r Arglwydd i ni nerth, a goleuo o honaw ef ein llygaid ni fel y byddō ni byw tan gyſcod Nabuchodonoſor brenin Balyn Babilon, a than gyſcod Baltaſar ei fab ef, ac y gwaſanaethom hwy lawer o ddyddiau, ac y caffom ffafr yn eu golwg hwynt.

13 Gweddiwch hefyd troſom ni at yr Arglwydd ein Duw, o herwydd ni a bechaſom yn erbyn yr Arglwydd ein Duw, ac ni thrôdd ei lid ai ddîg ef oddi wrthym ni etto.

14 Darllennwch hefyd y llyfr ymma yr hwn a anfonaſom ni attoch chwi iw draethu yn nhŷ yr Arglwydd ar ddyddiau gwylion, ac ar ddyddiau cymmwys.

Pen.2.6. 15 A dywedwch, yr *Arglwydd ein Duw ni ſydd gyfiawn, i ninnau y [mae] gwarthrudd goleu fel [y mae] heddyw i ddynion [Iuda] ac i drigolion Ieruſalem,

16 Ac i'n brenhinoedd, ac i'n tywyſogion ac i'n hoffeiriaid, ac i'n prophwydi, ac i'n tadau,

Dan.9.5. 17 Canys ni a *bechaſom ger bron yr Arglwydd ein Duw, ac a anghredaſom iddo ef.

18 Ac ni wrandawſom ar lais yr Arglwydd ein Duw, gan rodio yn ei orchymynnion ef y rhai a roddes efe o'n blaen ni.

19 Er y dydd y dug yr Arglwydd ein tadau ni o dîr yr Aipht hyd y dydd hwn, yr ydym ni yn anghredu i'r Arglwydd ein Duw, ac ni a fuom mor ehud ac na wrandawſom ni ar ei lais ef.

Deut.28.15. 20 *Am hynny y glŷnodd drwg wrthym ni, a'r felldith yr hon a ordeiniodd yr Arglwydd wrth Moſes ei wâs, y dydd y dug yr Arglwydd ein tadau ni allan o dîr yr Aipht, i roddi i ni dîr yn llifeirio o laeth a mêl fel [y gwelir] heddyw.

21 Ond ni wrandawſom ni ar lais yr Arglwydd ein Duw yn ôl holl eiriau y prophwydi y rhai a anfonodd efe attom ni:

22 Eithr ni a rodiaſom bob vn wrth feddwl ei galon ddrygionus ei hun gan waſanaethu duwiau dieithr, a gwneuthur drygioni yng-olwg yr Arglwydd ein Duw.

## PEN. II.

Y mae y bobl yn cyfaddef eu beiau am na chredaſent i'r Arglwydd, ac na waſanaethaſent frenin Babilon fel yr archaſe efe.

AM hynny y cyflawnodd yr Arglwydd ei air yr hwn a lefarodd efe wrthym ni, ac wrth ein barn-wŷr y rhai a farnent Iſrael, ac wrth ein brenhinoedd, ac wrth ein tywyſogion ac wrth wŷr Iſrael ac Iuda,

2 Gan ddwyn arnom ni ddrwg-fyd mawr, megis na bu tann y nefoedd fel y mae yn Ieruſalem, yn ôl *yr hyn a ſcrifennwyd yng-hyfraith Moſes:

Deut.28.53. 3 Y bwytae dyn gnawd ei fab ei hun, a chnawd ei ferch ei hun.

4 Efe hefyd ai rhoddes hwynt yn weiſion caethion i'r holl deyrnaſoedd y rhai [a ydynt] o'n hamgylch ni, i fod yn wradwyddus ac yn anghyfanhedd ym myſc yr holl bobloedd y rhai a ydynt o'n hamgylch, lle y gwaſcarodd yr Arglwydd hwynt.

5 Felly i'n dygwyd ni i waered, ac nid i fynu, am bechu o honom ni yn erbyn yr Arglwydd ein Duw heb wrando ar ei lais ef.

Pen.1.15. 6 Ein Harglwydd Dduw ſydd gyfiawn: i ninnau ac i'n tadau [y mae] gwarthrudd goleu fel [y gwelir] heddyw.

7 Yr Arglwydd a ddychymygodd yr holl ddrygau hyn, y rhai a ddaethant arnom ni.

8 Ac ni weddiaſom ni ger bron yr Arglwydd ar droi o bob vn oddi wrth feddyliau eu calon ddrygionus.

9 Am hynny y gwiliodd yr Arglwydd am ddrygfyd, ac ai dug arnom ni: o blegit cyfiawn yw 'r Arglwydd yn ei holl weithredoedd y rhai a orchymynnodd efe i ni.

10 Ond ni wrandawſom ni ar ei lais ef, gan rodio yn ei orchymynnion ef y rhai a roddes efe o'n blaen ni.

Dan.9.15. 11 *Ac yn awr ô Arglwydd Dduw Iſrael yr hwn a ddugaiſt dy bobl allan o dir yr Aipht trwy law gadarn, trwy arwyddion a rhyfeddodau a thrwy allu mawr a braich eſtynnedic, ac a wnaethoſt it enw fel [y gwelir] heddyw,

12 O ein Harglwydd Dduw, nyni a bechaſom, a fuom annuwiol, ac a wnaethom yn anghyfiawn yn dy holl gyfiawnder di.

13 Troer [attolwg] dy lid ti oddi wrthym ni, o herwydd ychydig a adawed o honō ni ym myſc y cenhedloedd lle y gwaſceraiſt ti nyni.

14 Gwrando Arglwydd ein gweddi a'n deiſyf, a rhyddhâ ni er dy fwyn dy hun, a gwna i ni gael ffafr yng-olwg y rhai a'n caethgludaſant ni,

15 Fel y gŵyppo pob gwlad mai ti ydwyt yr Arglwydd ein Duw ni, [ac] mai ar dy enw di y geilw Iſrael ai genedl.

16 Edrych i lawr o'th dŷ ſanctaidd, meddwl am danom ni, goſtwng dy gluſt ô Arglwydd a gwrando.

Deut.26.15. eſa.63.15. 17 *Agor dy lygaid a gwêl o herwydd nid y meirw yn vffern y rhai y dygwyd eu heneidiau ai cyrph a *roddant ogoniant a chyfiawnder i'r Arglwydd: Pſal.6.5. & 115.17. eſa.38.18.

18 Eithr yr enaid yr hwn ſydd athriſt am amldra [ei anwiredd] yr hwn ſydd yn peri iddo fyned yn grwm, ac yn lleſci a'r llygaid palledic, a'r enaid newynog a roddant ogoniant a chyfiawnder i ti ô Arglwydd.

19 O blegit nid am gyfiawnder ein tadau a'n brenhinoedd yr ydym ni yn tywallt ein gweddi ger dy fron di ein Harglwydd Duw,

20 [Eithr] am anfon o honot dy lid a'th ddigofaint arnom ni, fel y dywedaiſt trwy law dy weiſion y prophwydi gan ddywedyd:

Ier.25.7. 21 * Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, goſtyngwch eich yſcwyddau a'th gwarrau a gwaſanaethwch frenin Babilon, fel yr arhoſoch yn y wlâd yr hon a roddais i i'ch tadau chwi.

22 Ac oni wrandewch ar lais yr Arglwydd gan waſanaethu brenin Babilon,

23 Mi a wnaf ddiniſtr yn ninaſoedd Iuda, ac allan o Ieruſalem [y torraf ymmaith] lais gorfoledd a llais llawenydd, llais priodfab a llais priod-ferch, a'r holl wlâd a fydd anghyfannedd heb drigolion.

24 Ond ni wrandawſom ni ar dy lais di gan waſanaethu brenin Babilon, am hynny y cyflawnaiſt ti dy eiriau y rhai a leferaiſt trwy wenidogaeth dy weiſion y prophwydi [ſef] y dygid eſcyrn ein brenhinoedd, ac eſcyrn ein tadau oi lle.

25 Ac wele hwynt a daflwyd allan yngwrês y dydd, ac yn oerni y nôs, ac a fuant feirw mewn gofid mawr trwy newyn a chleddyf, ac mewn herwriaeth.

26 Dy dŷ hefyd (lle y gelwid ar dy enw) a wrthodaiſt di, fel [y gwelir] heddyw, am ddrygioni tŷ Iſrael a thŷ Iuda.

27 A chi a wnaethoſt â ni o Arglwydd ein Duw yn ôl dy gyfiawnder oll, ac yn ôl dy fawr drugaredd oll.

28 Fel y leferaiſt trwy dy wâs Moſes y dydd y gorchymynnaiſt ti iddo ef ſcrifennu dy gyfraith di o flaen meibion Iſrael gan ddywedyd,

Lefit.26.14. Deut.18.15. 29 * Oni wrandewch chwi ar fy llais i, y dyrfa fawr luoſoc hon a droir yn ddiau yn ychydic ym myſc y cenhedloedd lle y gwaſcaraf fi hwynt.

30 Er hynny mi a wn na wrandawant hwy arnafi: o blegit pobl wargaled ydynt hwy: eithr yn y tir lle y caethgludir hwynt y meddyliant hwy am danynt eu hun,

31 Ac y gwybyddant mai myfi ydwyf eu Harglwydd Duw hwynt pan roddwyf fi iddynt hwy galon [i ddeall,] a chluſtiau i wrando.

32 Yna i'm moliannant i yn y wlâd lle y caeth-gludir hwynt, ac y cofiant fy enw i.

33 Ac y troant oddi wrth eu hanufydd-dod ai drwg weithredoedd, o blegit mi a gofiaf ffordd eu tadau y rhai a bechaſant yng-ŵydd yr Arglwydd.

34 Felly y dygaf hwynt drachefn i'r tir yr hwn trwy lw a addewais i i'w tadau hwynt i Abraham, i Iſaac, ac i Iacob, ac hwy ai meddiannant, ac mi ai hamlhaf hwynt, ac ni's lleiheir hwynt.

35 Ac mi a wnaf â hwynt gyfammod tragywyddol, y byddaf fi yn Dduw iddynt hwy, ac y byddant hwythau yn bobl i mi, ac ni ſymudaf mwyach fy mhobl Iſrael o'r tir yr hwn a roddais iddynt hwy.

## PEN. III.

Gweddi y bobl am eu rhydd-dyd, 9 clôd doethineb, 36 Duw yn vnic awdur i ddoethineb, 37 ganedigaeth Criſt,

O Arglwydd holl-alluog, Duw Iſrael y mae yr enaid [yr hwn ſydd] mewn ing a'r yſpryd cyſtuddiol yn llefain arnat ti.

2 Clyw Arglwydd a thrugarha, o blegit Duw trugaroc ydwyt ti: cymmer drugaredd o blegit nyni a bechaſom i'th erbyn.

3 O herwydd yr ydwyt ti yn aros byth, a derfydd am danom ninnau yn dragywydd.

4 O Arglwydd holl-alluog, Duw Iſrael gwrando ar weddi y rhai a fuant feirw o Iſrael, a [gweddi] eu meibion hwynt y rhai a bechaſant i'th erbyn di, ac ni wrandawſant ar lais yr Arglwydd eu Duw, o ba achos y glynodd y dialeddau hyn wrthym ni.

5 Na chofia anwireddau ein tadau ni, eithr cofia dy allu a'th enw dy hun y prŷd hyn.

6 O herwydd tydi [ydwyt] ein Harglwydd Duw ni, a thydi ô Arglwydd a foliannwn ni.

7 O blegit er mwyn hyn y rhoddaiſti dy ofn yn ein calonnau ni [ſef] er mwyn galw [o honom ni] ar dy enw di a'th foliannu yn ein caethiwed, a meddwl am holl anwiredd ein tadau y rhai a bechaſant ger dy fron di.

8 Wele ni etto yn ein caethiwed lle y gwaſceraiſt ti nyni [i fod] yn wradwyddus yn felldigedic, ac yn drethoc yn ôl holl anwireddau ein tadau ni y rhai a enciliaſant oddi wrth yr Arglwydd ein Duw ni.

9 Clyw ô Iſrael orchymynnion y bywyd, gwrando i gael gwybod doethineb.

10 Pa ham Iſrael yr ydwyt ti yn nhir dy elynnion? yr heneiddiaiſt ti mewn gwlad ddieithr? [ac] i'th halogwyt gan y meirw?

11 [Pa ham] i'th gyfrifwyd gyd â'r rhai [a aethant] i vffern?

12 [Am] adel o honot ffynnon doethineb.

13 Pe rhodieſſit ti yn ffordd Duw, ti a drigeſit mewn heddwch byth.

14 Dyſc pa le y mae doethineb, pa le y mae grymmuſdra, pa le y mae deall, i gael gwybod hefyd pa le y mae hir hoedl, ac einioes, pa le y mae goleuni llygaid a thangneddyf.

15 Pwy a gafodd ei lle hi? a phwy a aeth i mewn i'w thryſſorau hi?

16 Pa le y mae tywyſogion y cenhedloedd a llywodraeth-wŷr yr anifeiliaid y rhai ydynt ar y ddaiar?

17 Y rhai oeddynt yn chwarae ag adar y nefoedd, ac yn tyrru arian, ac aur yn yr hwn yr ymddyried dynion, ac nid oes diben ar eu ceiſio hwynt,

hwynt y rhai a fathent arian, a [hynny] mor ofalus ac nad oedd diben ar eu gwaith hwynt?

19 Hwy a ddifethwyd ac a ddeſcynnaſant i vffern: a rhai eraill a godaſant yn eu lle hwynt.

20 Yn ieuainc y gwelſant hwy oleuni, ac a arhoeſant ar y ddaiar: ond nid adnabuant hwy ffordd gwybodaeth.

21 Ei llwybrau hi ni ddehallaſant hwy chwaith, ai plant ni dderbyniaſant hi, pell oedd hi oddi ar ei ffordd hwynt.

22 Ni chlywyd ſôn am dani hi yn Chanaan ac ni welwyd hi yn Theman.

23 Yr Hagareniaid ydynt yn ceiſio deall yn ddaiarol [fel] marchnadwyr y wlad, y Themaniaid ydynt yn chwedleua am, ac yn ceiſio deall ond nid adwaenant hwy ffordd doethineb, ac ni feddyliaſant am ei llwybrau hi.

24 O Iſrael mor fawr yw tŷ Duw, ac mor helaeth yw ei feddiant ef.

25 Mawr [yw efe] ac nid oes diwedd iddo ef: vchel yw efe ac anfeidrol.

26 Yna yr oedd y cewri enwoc y rhai a oeddynt gynt yn gorphol ac yn medru rhyfela.

27 Nid y rheini a ddewiſodd Duw, ac ni roddes iddynt [gael] ffordd gwybodaeth.

28 Am hynny y difethwyd hwy am nad oedd ganddynt ddoethineb: o ynfydrwydd y methaſant hwy.

29 Pwy a ddringodd i'r nefoedd ac ai cymmerodd hi, ac ai dugodd hi o'r cwmylau?

30 Pwy a aeth tros y môr ac ai cafodd hi, ac ai dug hi o flaen aur o'r goref?

31 Nid oes neb yn adnabod ei ffordd hi, nac yn yſtyried ei llwybr hi.

32 Ond yr hwn a ŵyr bob peth ai hedwyn hi [a] thrwy ei ddoethineb ai cafodd hi, yr hwn a ddarparodd y ddaiar tros amſer tragywyddol [ac] ai llanwodd hi ag anifeiliaid pedwarcarnol.

33 Pan anfono efe oleuni allan fe a aiff, a phan ei galwo ef, efe a vfydda mewn ofn.

34 Y ſêr a oleuaſant yn eu gwiliadwriaethau yn llawen: efe ai galwodd hwynt, ac hwy a ddywedaſant: dymma ni, goleuaſant yn llawen i'r hwn ai gwnaeth hwynt.

35 Dymma ein Duw ni, na chyffelyber [neb] arall iddo ef.

36 Efe a gafodd allan ffordd gwybodaeth, ac ai rhoddes hi i Iacob ei was, ac i Iſrael ei annwylyd.

37 Wedi hyn yr ymddangoſodd efe ar y ddaiar, ac y trigodd efe ym myſc dynion.

## PEN. IIII.

Gwobr y rhai a gadwant a choſp y rhai a dorrant y gyffraith.

Dymma lyfr gorchymynnion Duw, a'r gyfraith a beru byth: y rhai oll ai cadwant hi [a ddeuant] i fywyd, a'r rhai ai gadawant hi a leddir.

2 Dychwel Iacob, ac ymafl ynddi hi: rhodia mewn goleuni wrth ei llewyrch hi.

3 Na ddot dy ogoniant i arall: na'r budd i genhedlaeth arall.

4 Gwyn ein byd ni Iſrael am fod yn hyſpys i ni y pethau a ryglyddant fodd i Dduw.

5 O fy mhobl, coffadwriaeth Iſrael cymmer gyſſur.

6 Chwi a werthwyd i'r cenhedloedd nid i'ch difetha, ond o herwydd i chwi annog Duw i ddig y rhoddwyd chwi i'ch gelynion.

7 O herwydd chwi a ddigiaſoch yr hwn a'ch gwnaeth chwi, gan offrymmu i gythreiliaid ac nid i Dduw.

8 Anghofiaſoch Dduw tragywyddol: eich tâd a'ch mammaeth Ieruſalem a wnaethoch chwi yn drist.

9 O blegit hi a welodd y dig a oedd yn dyfod arnoch chwi, ac a ddywedodd, gwrandewch cymydogiō Sion, dygodd Duw arnafi driſtwch mawr.

10 O herwydd mi a welais gaethiwed fy meibion a'm merched: yr hon a ddug y tragywyddol [Dduw] arnynt hwy.

11 Canys yn llawen y megais i hwynt: eithr trwy wylofain a thriſtwch yr ymadawaf â hwynt.

12 Na lawenyched neb o'm plegit i yr hon ydwyf weddw, ac a wrthododd llawer: anghyſannedd ydwyfi o achos pechodau fy mhlant am gilio o honynt hwy oddi wrth gyfraith Dduw.

13 Nid adwaenent hwy ei gyfiawnder ef, ac ni rodient hwy yn ffyrdd gorchymynnion Duw, ac ni ddringaſant hwy lwybrau dyſc yn ei gyfiawnder ef.

14 Deued cymmydogiō Sion, cofiwch gaethiwed fy meibion i am merched yr hon a ddug y tragywyddol [Dduw] arnynt hwy.

15 O herwydd efe a ddug yn ei herbyn hwynt genhedlaeth o bell, cenhedlaeth annuwiol ag o iaith arall: y rhai ni pharchent yr hen, ac nid arbedent yr ieuangc.

16 Hwythau a ddygaſant ymmaith annwylyd y weddw, ac a wnaethant yr vnic yn anghyſannedd heb ferched.

17 A pha help a allaf fi i chwi?

18 O blegit yr hwn a ddug adfyd arnoch chwi a'ch gwared chwi o law eich gelynion.

19 Ymmaith a chwi, ymmaith a chwi [fy] mhlant, o blegit ſo'm gadawyd i yn ang-hyſannedd.

20 Mi a ddioſcais wiſc tangneddyf a gwiſcais ſachliain fyng-weddi: tra fyddwyf fi byw y llefaf fi ar [Dduw] tragywyddol.

21 Cymmerwch gyſſur blant, llefwch ar yr Arglwydd, ac efe a'ch gwared chwi oddi wrth gadernid [ſef] o ddwylo eich gelynion chwi.

22 O herwydd y mae gennif fi obaith byth o'ch iechydwriaeth chwi, ac fe a ddaeth i mi lawenydd oddi wrth hwn ſydd ſanctaidd, o herwydd y drugaredd yr hon a ddaw i chwi yn fuan gan ein tragywyddol iachawdwr.

23 O blegit trwy driſtwch ac wylofain yr

ymadewais, eithr Duw a'ch rhydd chwi i mi drachefn trwy lawenydd a hyfrydwch byth.

24 Megis ynawr y gwelodd cymydogion Sion eich caethiwed chwi, felly ar fyrder y gwelant hwy eich iechydwriaeth chwi yn Nuw, yr hon a ddaw i chwi trwy ogoniant mawr a harddwch tragywyddol.

25 O [fy] mhlant cymmerwch yn ddioddefgar y digter a ddaw i chwi oddi wrth Dduw, o herwydd y gelyn a'th erlidiodd di, ac ar fyrder ti a gei weled ei ddiniſtr ef ac a ſethri ar ei wddf ef.

26 Fy annwylyd a aethant rhyd ffyrdd geirwon, hwy a ddygwyd ymmaith fel praidd yr hwn a ſclyfaethe gelynion.

27 Cymmerwch gyſſur fy mhlant, a gelwch ar Dduw: o blegit y mae yr hwn a'ch dug chwi ymmaith yn meddwl am danoch chwi.

28 Megis y bu eich meddwl chwi ar gyrwydro oddi wrth Dduw, felly bydded yn ddec mwy ar droi iw geiſio ef.

29 O blegit yr hwn a ddug y drygfyd i chwi a ddwg i chwi gyd a'ch iechydwriaeth lawenydd tragywyddol.

30 Cymmer gyſſur Ieruſalē, y mae yr hwn a'th henwodd di yn dy gyſſuro.

31 Gwae y rhai a wnaethant niwed iti, ac a fu lawen ganddynt dy gwymp di.

32 Gwae y dinaſoedd y rhai y gwnaeth dy blant di waſanaeth iddynt, gwae yr hon a gymmerodd dy feibion di [oddi wrthit.]

33 O blegit megis y mae yn llawen ganddi dy gwymp di, ac yn hyfryd ganddi dy dramgwydd di, felly y bydd hi athriſt o blegit ei hanghyfannedd-dra ei hun.

34 Canys mi a dorraf ymmaith lawenydd ei gwerin, ai ffroſt hi a fydd yn driſtwch.

35 O herwydd tân a ddaw arni hi tros hir ddyddiau oddi wrth [Dduw] tragywyddol, a chythreiliaid a breſwyliant ynddi amſer mawr.

36 Edrych ô Ieruſalem tu ar dwyrain, a gwel yr hyfrydwch yr hwn ſydd yn dyfod i ti gan Dduw.

37 Wele y mae dy feibion y rhai yr ymadawaiſt â hwynt yn dyfod, y maent hwy yn dyfod wedi eu caſclu o'r dwyrain hyd y gorllewyn [ac] yn llawenychu yng-air yr hwn ſyd ſanctaid er gogoniant i Dduw.

## PEN. V.

Llawenydd Ieruſalem am lawenydd ei phobl o gaethiwed.

O Ieruſalem dioſc wiſc dy alar a'th driſtwch, a gwiſc harddwch y gogoniant yr hwn ſydd oddi wrth Dduw yn dragywydd.

2 Duw a wiſc bais cyfiawnder am danat ti [ac] a eſyd ar dy ben di goron gogoniant tragywyddol.

3 O blegit Duw a ddengis dy ddiſclaerdeb di i bob [cenhedlaeth] tann y nefoedd.

4 Canys Duw a eilw dy enw di byth, heddwch cyfiawnder, a gogoniant duwiolder.

5 Cyfot Ieruſalem a ſaf yn uchel ac edrych tu a'r dwyrain a gwel dy blant wedi eu caſclu o fachludiad haul hyd ei godiad trwy air yr hwn ſydd ſanctaid [ac] yn llawen ganddynt goffau Duw.

6 Ar eu traed yr aethant hwy oddi wrthit ti ai gelynion ai dugaſant hwynt ymmaith: eithr Duw ai dwg hwynt attat ti wedi eu derchafu mewn gogoniant fel meibion brenin.

7 O blegit Duw a ordeiniodd oſtwng pob mynydd uchel a'r brynniau tragywyddol, a llēwi y pantoedd yn ogyfuwch a'r ddaiar fel y gallo Iſrael rodio yn ddiogel er gogoniant i Dduw.

8 Y coedydd a phob pren aroglbêr a fuant lawen tros Iſrael wrth orchymyn Duw.

9 O herwydd Iſrael a ddygir [adref] yn llawen yng-oleuad ei ogoniant ef yng-hyd â thrugaredd, a'r cyfiawnder yr hwn ſydd oddi wrtho ef.

## PEN. VI.

Copi o'r llythyr a anfonodd Ieremi at y rhai a gaethglude brenin y Babiloniaid i Babilon i fynegu iddynt hwy yr hyn a orchymynnaſe Duw iddo ef.

O Blegit y pechodau y rhai a wnaethoch chwi yn erbyn Duw, y dwg Nabuchodonoſor brenin Babilon chwi yn garcharorion i Babilon.

2 Felly pan ddeloch chwi i Babilon chwi a fyddwch yno flynyddoedd lawer ac amſer hir, [ſef] nes bod ſaith genhedlaeth: wedi hynny mi a'ch dygaf chwi allan oddi yno mewn heddwch.

3 Yna y gwelwch chwi yn Babilon dduwiau o arian ac aur a phrennau y rhai a ddygir ar eſcwyddau, ac a yrrant ofn ar y cenhedloedd.

4 Gwiliwch chwithau rhag bod yn debig i'r dieithriaid hynny, ac ofni o honoch chwithau hwynt.

5 Pan weloch chwi y cenhedloedd yn eu haddoli hwynt oi blaen ac oi hôl, dywedwch chwithau yn eich meddwl, tydi ô Arglwydd a ddylid ei addoli.

6 Canys fy Angel mau fi a fydd gyd â chwi minne hefyd a ymorolaf am eich eneidiau chwi.

7 Y ſaer a drwſiodd eu tafod hwynt, ai goreurodd hwythau ac ai gorchguddiod ag arian, er hynny pethau gau ydynt hwy, ac ni allant lefaru.

8 Hwy a gymmerant aur, ac ai gweithiant megis i langces yn hoffi gwychter:

9 [Goſodant] goronau ar bennau eu duwiau, ac weithieu y dwg yr offeiriaid aur ac arian oddi ar eu duwiau ac ai treuliant arnynt eu hun.

10 Rhoddant hefyd o honynt hwy i'r puteiniaid y rhai a fyddant yn tŷ, [yna] y trwſſiant hwynt mewn gwiſcoedd megis dynion [ſef] y duwiau o arian ac aur a phrennau.

11 Er hynny ni allant hwy ymachub oddi wrth rwd a phryfed.

12 Wedi eu gwiſco hwynt mewn porphorfe a fydd rhai yn ſychu eu hwyneb hwynt, o blegit y llwch yn y tŷ yr hwn a fydd yn aml arnynt hwy.

13 [Gan vn o honynt hwy] y bydd teyrn-wialen, fel gŵr yn barnu glwâd: ond ni ddichon efe ladd yr hwn a becho yn ei erbyn ef.

14 [Gan arall] y bydd cleddyf neu fwyall yn ei law ddehau, er hynny ni ddichon efe ei wared ei hun rhag rhyfel neu ladron.

15 Wrth hyn y mae yn amlwg nad ydynt hwy dduwiau, am hynny nac ofnwch hwynt.

16 O herwydd megis ni thâl llestr dyn wedi ei dorri ddim, felly y mae eu duwiau hwynt: wedi eu goſod hwynt mewn tai, traed y rhai a ddeuant i mewn a lanwant eu llygaid hwynt o lwch.

17 Ac megis y caeir y cynteddoedd ar yr hwn a wnelo yn erbyn y brenin neu ar vn wedi ei ddwyn i farwolaeth, felly y mae yr offeiriaid yn cadw eu temlau hwynt â dorau â throſſolion, ac â chloau rhag i ladron eu ſpeilio hwynt.

18 Hwy a oſodant ganhwyllau oi blaen fwy nag oi blaen eu hun, ac ni allant hwy weled vn canys fel cyff y maent hwy yn y deml.

19 Yr ydys yn dywedyd fod y ſeirph y rhai ſy yn dyfod o'r ddaiar yn cnoi eu calonnau hwynt, ac yn eu bwyta hwynt ai gwiſcoedd, a hwythau heb ŵybod.

20 Y mae eu hwynebau hwynt wedi duo gan y mwg yn y deml.

21 Y dylluanod a'r gwennoliaid a'r adar [eraill] a hedant ar eu cyrph ai pennau hwynt, felly y cathod hefyd.

22 Wrth hyn y bydd hyſpys i chwi nad duwiau ydynt hwy: nac ofnwch chwithau hwynt.

23 O blegit yr aur yr hwn ſydd amdanynt hwy ſydd yn harddwch iddynt hwy, oni ſych rhyw vn y rhŵd ni ddiſcleiriant hwy, a phan doddwyd hwynt ni wybuant hwy oddi wrth hynny.

24 Am bob gwerth y gellir eu prynu hwy yn y rhai nid oes anadl.

25 [Fel rhai] heb draed yr arweinir hwynt ar yſcwyddau, [felly] y maent hwy yn dangos i ddynion eu gwaelder, gwradwyddus fyddo y rhai ai gwaſanaethant hwy.

26 O blegit os ſyrth [vn o honynt] hwy vn amſer i lawr ni chyfyd efe o honaw ei hun, os geſid vn ef yn ei iniawn ſefyll, ni ſylf efe o honaw ei hun, eithr y mae yn rhaid rhoi annellion tanynt hwy megis tan rai meirw.

27 Y mae eu hoffeiriaid hwynt yn gwerthu eu haberthau hwynt, ac yn eu cam arfer: felly y mae y gwragedd yn arlwy [peth] o honynt hwy heb roddi dim i'r tlawd a'r gwan.

28 Y mae y rhai miſglwyfus a'r rhai etifyddoc yn cyffwrdd ai haberthau hwynt: gwybyddwch wrth hynny nad duwiau ydynt hwy, ac nac ofnwch hwynt.

29 Pa ham gan hynny y gelwir hwynt yn dduwiau gan fod y gwragedd yn goſod [offrymmau] o flaen y duwiau o arian ac aur a phrenniau?

30 Y mae yr offeiriaid yn eiſtedd yn eu temlau hwynt ai gwiſcoedd wedi eu rhwygo, ai pennau, ac ai barfau weddi eu heillio, ac yn bennoethion.

31 Y maent hwy yn rhuo, ac yn gweiddi o flaen eu dduwiau fel rhai yng-wledd y marw.

32 Y mae yr offeiriaid yn cymmeryd oi gwiſcoedd hwynt, ac yn gwiſco eu gwragedd ai plant.

33 Os da os drwg a gâant hwy, ni allant hwy dalu y pwyth: ni allant na gwneuthur brenin nai ddiſwyddo ef.

34 Yr vn modd ni allant hwy roddi na chyfoeth nac arian: os adduneda vn adduned heb ei thalu ni's gofynnant hwy.

35 Ni waredant hwy ddyn oddi wrth angeu, ac nid achubant y gwan rhag y cadarn.

36 Ni roddant ei olwg i'r dall drachefn, ac ni waredant y dyn a fyddo mewn angen.

37 Ni ddangoſant hwy drugaredd i'r weddw, na ddaioni i'r ymddifad.

38 Fel y cerrig [a ddygir] o'r mynydd y mae y duwiau o brennau, o aur, ac o arian: y rhai ai anrhydeddant hwynt a wradwyddir.

39 Pa fodd gan hynny y meddyliir ne y dywedir eu bod hwynt yn dduwiau?

40 Y mae y Caldeaid eu hunain yn eu dibriſio hwynt y rhai pan welant vn heb fedru dywedyd ai dygant ef at Bel,

41 Ac a ddeiſyfiant beri iddo ef lefaru fel pe galle efe lefaru ei hun, ac er eu bod yn deall ni fedrant beidio â hwynt am nad oes ganddynt ſynnwyr.

42 Y gwragedd wedi eu gwreguſu â rheffynnau a eiſteddant yn yr heolydd yn lloſci gwellt.

43 Pan ddyger vn o honynt hwy a gorwedd gyd ag vn o'r rhai a elont heibio, hi a edliwia iw chymmydoges na thybiwyd yn gyſtal o honno, ac o honi hi, ac na ddattodwyd ei rheffyn hithe.

44 Gau yw yr hyn oll a wnaed ynddynt hwy: pa fodd gan hynny y meddylir ne y dywedir mai duwiau ydynt hwy?

45 Seiri a gofaint ai gwnaethant hwy, ni byddant hwy ddim ond a fynno y ſeiri iddynt hwy fod.

46 Ni bydd hir hoedloc y rhai ai gwant hwy: pa fodd yntef y bydd y pethau a wnelo y rhai hynny yn dduwiau?

47 Gadawſant oferedd a gwradwydd i rhai a ddeuant ar eu hol hwy.

48 Pan ddelo rhyfel neu ddrygfyd arnynt hwy yna y meddwl yr offeiriaid rhyngthynt a hwynt eu hun, pa le yr ymguddiant gyd â hwy.

49 Pa fodd gan hynny y gellir tybied mai duwiau yw y rhai nid ymachubant eu hunain rhag rhyfel a drygfyd?

50 Gan mai prenniau, aur, ac arian ydynt

hwy yſpys fydd wrth hynny, i'r holl genhedloedd mai ofer ydynt hwy, ac amlwg fydd i'r holl frẽhinoedd nad duwiau ydynt hwy, eithr gwaith dwylo dynion heb ddim o waith Duw arnynt hwy.

51 Pwy gan hynny ni's gŵyr nad ydynt hwy dduwiau?

52 Ni oſodant hwy frenin ar wlad, ac ni roddant hwy law i ddynion.

53 Nid ydynt hwy yn medru barnu materion: ni allant hwy achub rhag cam, mor wan ydynt hwy fel brain rhwng nef a daiar.

54 Pan ddamweinio tân yn nheml y dduwiau o goed, neu o aur, neu o arian, yna eu hoffeiriaid hwynt a ffoant, ac a ddiangant: hwythau a loſcant, fel y ſwmmer brennau.

55 Ni wrthwynebant hwy frenin ne ryfelwyr, pa fodd gan hynny y gellir tybied ne gredu mai duwiau ydynt hwy?

56. Y duwiau o brennau, ac o arian, ac o aur ni allant ddiang gan na lladron na gwilliaid.

57 Rhai cryfach nâ hwynt a ddygant yr aur a'r arian a'r gwiſcoedd y rhai a fyddant am danynt hwy, ac wedi eu cael a ânt ymaith, ac ni allant hwy help iddynt eu hun.

58 Felly gwell yw bod yn frenin yn dangos ei gadernid, neu yn leſtr buddiol mewn tŷ yr hwn a arfero ei berchennoc, neu yn ddôr ar dŷ yn cadw y pethau a fyddant yno, neu yn golofn bren mewn brenhin-dŷ, na bod yn vn o'r gau dduwiau.

59 Yr haul, a'r lleuad, a'r ſêr am eu bod yn oleu, ai hanfon i wneuthur lles, a ydynt vfydd.

60 Felly y mae y fellten yn ddiſclaer pan ymddangoſo hi.

61 Y gwynt a chwyth ym mhob gwlad, a phan orchymynno Duw i'r cwmylau fyned o amgylch y byd, hwy a gyflawnant y gorchymmyn.

62 Pan anfoner y tân oddi vchod i anrheithio mynyddoedd a choedydd, efe a wna y gorchymyn: ond y rhai hyn nid ydynt debig i'r rhai hynny, nac mewn pryd nac mewn gallu.

63 Am hynny ni ellir na meddwl na dywedyd eu bod hwynt yn dduwiau, gan na's gallant hwy na rhoddi barn na gwneuthur lles i ddynion.

64 Gan eich bod yn awr yn gwybod nad ydynt hwy dduwiau, nac ofnwch hwynt.

65 O blegit ni allant hwy ddywedyd nac yn ddrwg, nac yn dda am frenhinoedd.

66 Ni allant hwy ddangos arwyddion yn y nefoedd ym myſc y cenhedloedd: na thywyn haul na llewyrchu lleuad.

67 Y mae yr anifeiliaid (y rhai a ffoânt i ddiddos i wneuthur lles iddynt eu hun) yn well na'r rhai hyn.

68 Felly nid yw amlwg trwy fodd yn y byd eu bod hwynt yn dduwiau: am hynny nac ofnwch hwynt.

69 Megis mewn gardd lyſiau nid yw yr hudwg yn cadw dim, felly y mae eu duwiau hwynt o brennau, ac o aur, ac o arian ar vn dull.

70 Eu duwiau hwynt o brennau, ac o aur, ac o arian a ydynt fel ſpyddadden mewn perllan ar yr hon y deſcyn pob aderyn, ac yn debyg i vn marw wedi ei fwrw mewn tywyllwch.

71 Wrth y porphor a'r gwychter yr hwn ſydd yn pydru am danynt hwy y gellwch chwi wybod nad ydynt hwy dduwiau: hwythau o'r diwedd a yſſir, ac anniwarthrwydd fydd yn y wlad.

72 Am hynny gwell yw 'r gŵr cyfiawn yr hwn nid oes ganddo ddelwau, o blegit pell fydd efe oddi wrth wradwydd.

*Terfyn Baruch.*

Can

# Can y tri llangc, y rhai a fwriwyd i'r ffwrn boeth loſcadwy: yr hon ſydd yn canlyn y drydedd wers ar hugain o'r trydydd pennod i Ddaniel.

AC hwyntwy a rodiaſſant yng-hanol y fflã, gan folianny Duw, a bẽdithio'r Arglwydd.

25 Ac Azarias yn ſefyll a weddiodd fel hyn, ac a agorodd ei enau yng-hanol y tân, gan ddywedyd,

26 Bendigedig wyt ô Arglwydd Dduw ein tadau, ie canmoladwy a gogoneddus yw dy enw yn dragywydd.

27 Canys cyfiawn wyt ym mhob peth a'r a wnaethoſt i ni: a'th holl weithredoedd ſy ffyddlon, dy ffyrdd hefyd ydynt iniawn, a'th holl farnau mewn gwirionedd.

28 Canys barnau gwirionedd a wnaethoſt yn yr holl bethau a ddugoſt arnom, ac ar ddinas ſanctaidd ein tadau [ſef] Ieruſalem; o achos mewn gwirionedd a barn y dugaiſt hyn oll arnom am ein pechodau.

29 Canys pechaſom, a gwnaethom yn anghyfreithlon, drwy ymwrthod â thydi, ac ym mhob peth ni a wnaethom ar fai.

30 A'th orchymynnion di ni's gwrandawſom, ac ni's cadwaſom: ac ni wnaethom y modd yr archeſſit i ni, fel y bydde i ni yn ddaionus.

31 A chwbl a'r a ddugoſt arnom, a chwbl a'r a wnaethoſt i ni, mewn gwir farn y gwnaethoſt oll.

32 Ac a'n rhoddaiſt yn nwylo ein gelynion anwir, a'n caſaf fradych-wŷr, a'r brenin anghyfiawn gwaethaf ar yr holl ddaiar.

33 Ac yn awr ni allwn agori ein geneuau, yn gywilydd a gwradwydd i'n gwnaethbwyd i'th weiſion di a'r rhai a'th addolant.

34 Na fwrw ni ymmaith yn gwbl er mwyn dy enw: ac na ddiddymma dy gyfammod.

35 Ac na thyn dy drugaredd oddi wrthym, er mwyn Abraham dy annwylyd: ac er mwyn Iſaac dy wâs, ac Iſrael dy ſanctaidd.

36 Y rhai yr ymddiddenaiſt wrthynt, gan ddywedyd, yr amlhâit eu hâd hwynt fel ſer y nef, ac fel y tywod yr hwn ſydd gerllaw min y môr.

37 Etto Arglwydd yr ydym wedi ein lleihau tu hwnt i bob cenhedlaeth: ac yr ydym heddyw wedi ein tynnu i lawr ym mhob gwlad am ein pechodeu.

38 Ac nid oes y pryd hyn, na phennaeth na phrophwyd, na blaenor, na phoeth offrwm, nac aberth, na blaenffrwyth, nac arogl, na lle i offrwm blaenffrwyth ger dy fron di, modd y gallem gael dy drugaredd.

39 Etto yn enaid drylliedig, ac yn yſpryd goſtyngeiddrwydd derbynier ni.

40 Megis o herwydd ebyrth hyrddod, a theirw, ac fel o herwydd myrddiwn o ŵyn breiſion: felly heddyw bydded ein hoffrwm ni yn dy olwg di i ryglyddu bodd i ti: canys nid oes gwradwydd i'r rhai a ymddyriedant ynot ti.

41 Ac yr awran y dilynwn di a'n holl galon, ac yr ofnwn di, ac y ceiſſiwn dy wynebpryd.

42 Na ddod ni yn wradwydd, eithr gwna â ni yn ol dy addfwynder, ac yn ôl amlder dy drudrugaredd.

43 Ac achub ni yn ôl dy ryfeddodau ô Arglwydd, a dod ogoniant i'th enw.

44 A chywilyddier hwynt oll â'r ſy yn amcanu drwg i'th weiſion: a ſyrthiant yn wradwyddus oddi wrth bob gallu, ai nerth a ddryllier.

45 Fel y cydnabyddant mai tydi ſydd Arglwydd, unic Dduw, a gogoneddus drwy yr hollfyd.

46 Ac ni orphywyſodd gweinidogion y brenin, y rhai ai bwriaſent hwynt [i mewn] a phoethi'r ffwrn â naphtha, â ffyg, â charth, ac â briwydd.

47 A'r fflam a daſlodd uwch law yr ffwrn, naw cufydd a deugain.

48 Ac hi a ruthrodd ac a loſcodd y Caldeaid y rhai a gyrhaeddodd hi yng-hylch y ffwrn.

49 Eithr Angel yr Arglwydd a ddeſcynnodd i'r ffwrn gyd â'r rhai oeddynt gyd ag Azarias,

50 Ac a daſlodd fflam y tân allan o'r ffwrn: ac a wnaeth ganol y ffwrn megis gwlith-wynt chwiban, fel na chyffyrddodd y tân â hwynt: ni thriſtaodd ychwaith ac ni flinodd mo honynt.

51 Yna y tri megis o un geneu a ganmolaſant, ac a glodforaſant, ac a ogoneddaſant Dduw yn y ffwrn gan ddywedyd,

52 Bendigedig wyt Arglwyddd Dduw ein tadeu, moliannus a chlodforus yn dragywydd: a bendigedig yw enw dy ogoniant ſanctaidd a chanmoladwy a chlodforus yn dragywydd.

53 Bendigedig wyt yn nheml dy ſanctaidd ogoniant a thramoladwy a gogoneddus yn dragywydd.

54 Bendigedig wyt yr hwn ſydd yn gwe-

led yr eigion, ac yn eiſtedd ar y Cerubiaid, a thrachanmoladwy a chlodforus yn dragywydd.

55 Bendigedig wyt ar orſeddfaingc gogoniant dy deyrnas, a thrachanmoladwy a gogoneddus yn dragywydd.

56 Bendigedig wyt yn ffurfafen y nefoedd, a thrachanmoladwy a gogoneddus yn dragywydd.

57 Oll weithredoedd yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

58 Angelion yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

59 Y nefoedd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

60 Yr oll ddyfroedd goruwch y nef bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

61 Oll nerthoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

62 Yr haul a'r lloer bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

63 Ser yr awyr bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

64 Pob cafod a gwlith bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

65 Oll wyntoedd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

66 Tân a phoethni bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

67 Oerni a gwrês bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

68 Gwlith a rhewogydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

69 Nos a dydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

70 Goleuad a thywyllwch bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

71 Rhew ac oerfel bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

72 Ia ac eira bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

73 Mellt a chwmplau bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

74 Bendithied y ddaiar yr Arglwydd: moled a chlodfored hi ef yn dragywydd.

75 Mynyddoedd a brynnau bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

76 Yr holl betheu ſydd yn tyfu yn y ddaiar bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

77 Ffynhonneu bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

78 Moroedd a llifeiriant bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

79 Mor-filod a chwbl oll a'r a ſymmud yn y dyfroedd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

80 Oll ehediaid yr awyr bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

81 Oll fwyſtfilod ac anifeiliaid bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

82 Plant dynyon bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

83 Bendithied Iſrael yr Arglwydd: moled a chlodfored ef yn dragywydd.

84 Offeiriaid yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

85 Gwaſanaethwŷr yr Arglwydd bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

86 Yſbrydion ac eneidieu'r cyfiawn bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

87 Y rhai ſanctaidd a chalon oſtyngedig bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd.

88 Ananias, Azarias, a Miſael bendithiwch yr Arglwydd: molwch a chlodforwch ef yn dragywydd: Canys efe a'n achubodd o uffern, ac a'n cadwodd o law marwolaeth, ac a'n gollyngodd o'r ffwrn o ganol y fflam danllyd, ac a'n gwaredodd ni o ganol y tân.

89 Cyffeſſwch yr Arglwydd am ei fod yn ddaionus, am fod ei drugaredd yn dragywydd.

90 Pawb oll ac ſydd yn ofni'r Arglwydd bendithiwch Dduw'r duwiau, molwch ef a chydnabyddwch fod ei drugaredd ef yn dragywydd.

*Terfyn cân y trî llangc yn y ffwrn*
*boeth loſcadwy.*

# Hyſtoria Suſanna yr hon yvv 'r drydedd bennod ar ddêc o Ddaniel yn ôl y Lladin.

8 Y ddau lywodraeth-wyr yn chwennychu Suſanna. 19 Hwynt yn ei dal hi yn vnic yn yr ardd, 20 ac yn ceiſio ei hudo hi i gyd-orwedd â hwynt. 23 Hithe yn ddewiſach genddi beidio â phechu yn erbyn Duw, er bod hynny yn enbydrwydd am ei heinioes. 45 Daniel yn ei gwaredu hi. 62 Rhoddi y llywodraeth-wyr i farwolaeth.

YR oedd gŵr yn preſſwylio yn Babilon a'i enw Joacim.

2 Ac efe a briododd wraig a'i henw Suſanna merch Helcias, yr hon oedd lân iawn, ac yn ofni 'r Arglwydd.

3 Ei thad hi a'i mam oeddynt bobl ffyddlon, ac a ddyſcaſent eu merch yn ôl cyfraith Moſes.

4 Ac Joacim oedd gyfoethog iawn, ac iddo ef yr oedd gardd dêg yn gyfagos iw dŷ. Ac yr hwn yr ymgynhulle yr Iddewon, am ei fod efe yn anrhydeddusach nâ neb.

5 A'r vn flwyddyn hôno y rhoddwyd dau henuriad o'r bobl yn farnwŷr, am y rhai y dywedodd yr Arglwydd, mai o Babilon y daeth yr anwiredd, oddi wrth y barnwŷr hynaf, y rhai a gymmerent arnynt lywodraethu 'r bobl.

6 Y rhai hyn oeddynt yn aros yn nhŷ Joacim: ac atynt y trammwye pawb oll a'r a ymgyfreithient.

7 A (phan fydde 'r bobl yn myned ymmaith ganol y dydd) y bydde i Suſanna fyned i rodio i ardd ei gŵr.

8 A'r ddau henuriad a'i gwelent hi beunydd yn myned i mewn, ac yn rhodio: fel yr oeddynt mewn chwant iddi hi.

9 Ac hwy a lygraſent eu meddwl, fel na ddychwelent eu llygaid i edrych tu a'r nefoedd, ac nad argofient am gyfiawn farnau.

10 Ac er eu bod ill deuoedd yn gwŷnfydu o ei hachos hi: etto ni ddangoſe 'r naill y gofid oedd arno i'r llall,

11 O herwydd bod yn wradwydd ganddynt ddangos eu bod mewn chwant iw chorph hi.

12 A beunydd y diſgwilient am ei gweled hi.

13 A'r naill a ddywedodd wrth y llall: awn i'r tŷ, am ei bôd hi yn bryd ciniaw.

14 Yna 'r aethant y naill oddi wrth y llall: ac [er hynny] troi a wnaethant eilchwel a dyfod i'r vn man, ac wedi chwilio 'r achos rhyngddynt, cyffeſſu a wnaethant bôb vn iw gilydd eu chwant, ac yn vnfryd llunio amſer y gallent ei chael hi ei hunan.

15 Ac fel yr oeddent yn diſgwil amſer cyfaddas, Suſanna a aeth i mewn (fel yr arfere beunydd) a dwy forwyn gyd â hi yn vnic, arfedr ymolchi yn yr ardd, canys brwd oedd [yr hin.]

16 Nid oedd neb yn yr ardd onid y ddau henuriad, y rhai a ymguddiaſent yno iw diſgwil hi.

17 A hi a ddywedodd wrth ei morwynion, dygwch i mi olew a ſebon, a chaewch ddryſſau 'r ardd, fel y gallwyf i ymolchi.

18 A'r morwynion a wnaethant fel yr archaſe hi, ac wedi iddynt gaeu dryſſeu 'r ardd hwy a aethant allan i ddrws dirgel, i gyrchu 'r pethau a archaſid iddynt: eithr ni welſant mo'r henuriaid, o achos eu bod yn guddiedig.

19 Ag fe ddarfu wedi i'r morwynion fyned allan, i'r ddau henuriad godi a rhedeg atti hi a dywedyd:

20 Wele ddryſſeu 'r ardd yn gaead, fel na all neb ein gweled: yr ydym ni ein deuoedd mewn chwant i ti: cyd-orwedd â ni, a bydd gyd â ni.

21 Oſtydi ni wnei hynny, nyni a deſtiolaethwn yn dy erbyn fod gŵr ieuangc gyd â thi, ac anfon o honot y morwynion ymmaith oddi wrthit am hynny.

22 Yna 'r ocheneidiodd Suſanna gan dywedyd: yr ydwyf fi mewn cyfyngdra o'r ddeutu: os y peth hwn a wnaf fi, marwolaeth yw i mi, os minneu ni's gwnaf, ni allaf fi ddiangc o'ch dwylo chwi.

23 Etto mae yn ddewiſach gennif fi ſyrthio yn eich dwylo chwi yn ddieuog, na phechu gerbron yr Arglwydd. Yna Suſanna a ddolefawdd â llef vchel.

24 Felly y llefodd y ddau henuriad yn ei herbyn hi.

25 A'r naill a redodd, ac a agorodd ddryſſau 'r ardd.

26 Pan glybu tylwyth y tŷ y llefain yn yr ardd, myned a wnaethant i mewn i'r drws dirgel, i edrych beth a ddarfuaſe iddi hi.

27 Eithr wedi i'r henuriaid ddywedyd eu chwedl, cywilyddio yn ddirfawr a wnaeth y gweiſion, o herwydd ni buaſe 'r fath air i Suſanna o'r blaen.

28 A thrannoeth pan ddaeth y bobl i dŷ Joacim ei gŵr hi: y ddau henuriad hefyd a ddaethant yno, yn llawn drwg feddwl i Suſanna, ar ei rhoi hi iw marwolaeth.

29 A dywedaſant yng-ŵydd y bobl, cyrchwch ymma Suſanna ferch Helcias, gwraig

Ioacim, ac hwy ai cyrchaſant hi.

30 Hithe a ddaeth ai rhieni, ai phlant, ai holl genedl.

31 Suſanna oedd dyner a phrydferth ei gwedd.

32 A'r rhai anwir hyn a baraſant dynnu ymaith ei moled hi (canys yr oedd hi mewn moled) fel y gallent hwy borthi eu chwant âi thegwch hi.

33 Yna 'r ŵylodd cynnifer un a'r a oedd yn ei chylch hi, a'r rhai oll a'r ai hadwaenent hi.

34 A'r ddau henuriad a ſafaſant i fynu ym mhlith y bobl, ac a roddaſant eu dwylo ar ei phen hi.

35 A hithe yn ŵylo a edrychodd i'r nefoedd am fod ei chalon hi ai goglyd ar yr Arglwydd.

36 A'r henuriaid a ddywedaſant: pan oeddem ni yn rhodio ein hunein yn yr ardd, y daeth hi a dwy laweforwyn i mewn, ac wedi iddi hi eu hanfon hwynt ymmaith a chaeu'r dryſſau,

37 Fe a ddaeth gŵr ieuangc atti yr hwn oedd yno yn guddiedig, ac a orweddodd gyd â hi.

38 A phan welſom ninnau yng-hongl yr ardd y cyfryw anwiredd, ni a redaſom attynt, ac a welſom fel yr oeddynt yng-hyd,

39 Ac ni allaſſom moi ddala ef am ei fod yn gryfach nâ ni, eithr efe a agorodd y drws, ac a ddiangodd.

40 Wedi i ni ddala hon ni ai holaſſom hi, pwy oedd y gŵr ieuangc hwnnw, ac ni ddangoſe hi i ni: a hyn yr ydym ni yn ei deſtiolaethu.

41 A'r gynnulleidfa ai credodd hwynt megis henuriaid a barnwŷr y bobl: ac felly hwynt ai barnaſſant hi iw marwolaeth.

42 Yna Suſanna a lefodd â llef uchel gan ddywedyd, O Dduw tragywyddol i'r hwn y mae pob dirgelwch yn agored, ac a ŵyddoſt bob peth cyn ei ddigwydd,

43 Ti a wyddoſt gam deſtiolaethu o honynt yn fy erbyn, ac yn awr y mae yn rhaid i mi farw, er na wneuthym i'm hoes y pethau y mae'r gwŷr hyn wedi eu drwg ddychymyg i'm herbyn.

44 A'r Arglwydd a wrândawodd ar ei llef hi:

45 Ac a gyffrôdd yſpryd ſanctaidd bachgennyn ieuangc ai enw Daniel, yr hwn (a hi yn myned iw marwolaeth) a lefodd yn uchel:

46 Gwirion wyf fi oddi wrth waed y wraig hon.

47 A'r holl bobl a droeſant atto ef, ac a ddywedaſant, beth yw 'r ymadrodd hwn a ddywedaiſt ti?

48 Ac efe a ſafodd yn eu canol hwynt, ac a ddywedodd: ô Iſraeliaid a ydych chwi mor anſynhwyrol a gadel yn euog ferch ô Iſrael, heb lwyr chwilio a gwybod y gwirionedd?

49 Troiwch eilchwel i'r frawdle: canys teſtiolaethu a wnaethant gelwydd yn ei herbyn hi.

50 A'r holl bobl a droeſant ar ffrwſt: a'r henafgwŷr a ddywedaſſant wrtho, tyret eiſtedd yn ein plith a dangos i ni, gan i Dduw dy roddi di yn fraint henuriad.

51 A Daniel a ddywedodd wrthynt, naill-tuwch hwynt oddi wrth eu gilydd ym mhell, a mi ai holaf hwynt.

52 Pan ddarfu naillduo 'r naill oddi wrth y llall, efe a alwodd un o honynt, ac a ddywedodd wrtho: ô hên ddiffeithwr yr awran y daeth dy bechodau yn dy erbyn y rhai a wnaethoſt o'r blaen.

53 A'th gam farnau a fernaiſt, yn gadel yn euog y gwirion, ac yn rhyddhau 'r anwir: lle y dywedodd yr Arglwydd, na ladd y gwirion a'r cyfiawn.

54 Felly yn awr os hon a welaiſt ti, dangos dan ba ryw bren y gwelaiſt ti hwynt yng-hyd? yna 'r attebodd yntef, tann lentyſc-bren.

55 A Daniel a ddywedodd, gwych y dywedaiſt gelwydd yn erbyn dy ben dy hun, canys angel yr Arglwydd wrth farn Duw a'th wahana di yn ddau.

56 Yna wedi troi hwnnw heibio, efe a barodd ddyfod â'r llall, ac a ddywedodd wrtho: ô hiliogaeth Canaan, ac nid hil Iuda, tegwch a'th dwyllodd di, a chwant a lygrodd dy galon.

57 Fel hyn y gwnaethoch chwi â merched Iſrael, y rhai rhag ofn a gytunaſant â chwi: eithr merch Iuda

58 Ni chynhwyſodd ddim o'ch anwiredd, felly dywet i mi dan ba ryw bren y delaiſt di hwynt yng-hyd? Ac efe a attebodd, tann brinwydden.

59 A Daniel a ddywedodd wrtho: gwych y dywedaiſt dithau hefyd gelwydd yn erbyn dy ben dy hun: canys y mae angel yr Arglwydd yn aros â'r cleddyf ganddo i'th dorri di yn dy hanner, ac i'ch diſetha chwi eich deuoedd.

60 Yna y llefodd yr holl gynulleidfa â llef uchel gan foli'r Arglwydd yr hwn a wared y ſawl a ymddyriedo ynddo ef.

61 A hwynt a godaſant yn erbyn y ddau henuriad, (canys Daniel ai goſodaſe hwynt ar eu geiriau eu hunain o gam-deſtiolaeth)

62 Ac hwy a wnaethant iddynt y modd yr amcanaſent hwy wneuthur ar gam âi cymydog, ac ai rhoddaſant iw marwolaeth, yn ôl cyfraith Moſes: felly y gwaredwyd y gwaed gwirion y dydd hwnnw.

63 Yna Helcias ai wraig a glodforaſant Dduw dros ei merch Suſanna gyd ag Ioacim ei gŵr hi, ai holl genedl, am na chafwyd ynddi ddim gwradwyddus.

64 Ac o'r dydd hwnnw allan y daeth Daniel mewn parch mawr ym mhlith y bobl.

65 A'r brenin Aſtiages a roddwyd at ei henafiaid, a Cyrus y Perſiad a gymmerodd ei frenhiniaeth ef.

*Terſyn Hyſtoria Suſanna.*

# Hyſtoria Bel a'r Ddraig.

yr hon yw y bedwaredd bennod ar ddêc o
Ddaniel yn ôl y Lladin.

A Daniel oedd yng-hyfeddach y brenin, ac yn wr urddaſol ym mhlith ei holl gyfeillion ef.

2 Ac yr ydoedd eulun i'r Babiloniaid a elwid Bel ar yr hwnn yr oeddid yn treulio beunydd ddeuddeng mheſur o beillied, a deugein o ddefaid, a chwe chelyrned o win.

3 A'r brenhin ai anrhydedde ef, beunydd yr aei iw addoli: eithr Daniel a addole ei Dduw ei hun, a'r brenin a ddywedodd wrtho: pa ham nad wyt ti'n addoli Bel?

4 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd am nad anrhydeddaf i eulynnod gwneuthuredig â dwylaw onid y Duw byw, yr hwn a wnaeth y nef a'r ddaiar, ac ſydd iddo feddiant ar bob cnawd.

5 A'r brenhin a ddywedodd wrtho, onid wyt ti yn tybied mai Duw byw yw Bel? oni weli di faint y mae efe yn ei fwytta ac yn ei yfed beunydd?

6 A Daniel a ddywedodd dan chwerthin: na thwyller di ô frenin, hwn oddi mewn ſydd glai, ac oddi allan yn brês, ni fwytaodd, ac nid yfodd er ioed.

7 Yna'r brenin yn ddigllawn a alwodd ei offeiriaid, ac a ddywedodd wrthynt: oni ddywedwch i mi pwy ſydd yn mwynhau'r draul hon, meirw fyddwch.

8 Os gellwch chwi ddangos imi fod Bel yn bwytta y petheu hyn, marw a gaiff Daniel am iddo ddywedyd cabledd yn erbyn Bel. A Daniel a ddywedodd wrth y brenin: fel y dywedaiſt bydded.

9 (Offeiriaid Bel oeddynt ddêc a thrugein heblaw eu gwragedd ai plant:) a'r brenin a aeth gyd â Daniel i deml Bel.

10 A'r offeiriaid hefyd a ddywedaſant: wele ni a awn allan: dod ti i'r brenin y bwydydd [yn eu lle] a goſot y gwin wedi iti ei gymmyſcu, a chae'r drws, a ſelia â'th fodrwy:

11 Ar boreu pan ddelech, oni bydd Bel wedi bwytta'r cwbl, lladder ni: os amgen bydded Daniel yn gelwyddog yn ein herbyn ni.

12 Canys diarſwyd oeddynt, o herwydd dan y bwrdd y gwnaethent ffordd guddiedig, i'r hon yr aent i mewn bôb amſer, ac y cyrchent ymmaith y petheu hynny.

13 Yna wedi iddynt fyned allan, ac i'r brenin oſod y bwydydd (ger bron) Bel, y gorchymmynnodd Daniel iw weiſion ddwyn lludw, yr hwn a danaſant dros gwbl o'r deml yng-wydd y brenin ei hun, ac wrth fyned allan hwynt a gaeaſant y porth, ac ai ſeliaſant â modrwy y brenin, ac a aethant ymmaith.

14 A'r offeiriaid a aethant i mewn gefn y nos, yn ôl eu harfer ai gwragedd, ai plant, ac a fwyttaſant, ac a yfaſant y cwbl.

15 A'r boreu y brenin a gododd yn fore iawn, a Daniel gyd ag ef.

16 A'r brenin a ofynnodd, a ydyw y ſelau yn gyfan Daniel? ac yntef a attebodd, y maent yn gyfan ô frenin.

17 A chyn gynted ag yr agoraſſid y drws y brenin a edrychodd tua'r bwrdd, ac a lefodd yn uchel: mawr wyt ti ô Bel, ac nid oes dim twyll ynot.

18 Yna Daniel a chwarddodd, ac a ddaliodd y brenin rhag myned i mewn, ac a ddywedodd gwêl y llawr, ac edrych ôl pwy [yw'r] rhain.

19 A'r brenin a ddywedodd, mi a welaf ôl traed gwŷr a gwragedd, a phlant.

20 A llidio a wnaeth y brenin, a dala'r offeiriaid ai gwragedd ai plant y rhai o ddangoſaſſant iddo y dryſſeu cuddiedig i'r rhai yr oeddynt yn myned i mewn i fwytta 'r petheu oeddynt ar y bwrdd.

21 A'r brenin ai lladdodd hwynt, ac a roes Bel yn rhodd i Ddaniel, yr hwn ai diniſtriodd efâi Deml.

22 Yr oedd hefyd ddraig fawr yno, a'r Babiloniaid ai anrhydeddent hi.

23 A'r brenin a ddywedodd wrth Ddaniel: a ddywedi di mai efydd yw honn? Wele hi yn fyw, ac yn bwytta, ac yn yfed, ni elli di ddywedyd nad yw honn Dduw byw, am hynny addola hi.

24 Wrth yr hwn y dywedodd Daniel, myfi a addolaf yr Arglwydd fy Nuw: canys efe yw'r Duw byw.

25 Os ty di ô frenin a rydd y mi [gennad] mi a laddaf y ddraig hon heb na chleddyf na ffonn, a'r brenin a ddywedodd, mi a roddaf i ti gennad.

26 Yna y cymmerth Daniel bŷg, a gwêr a blew, ac ai berwodd yng-hyd, ac a wnaeth dammeidiau o honynt, ac ai rhoes yn ſafn y ddraig, a'r ddraig a rwygodd yn ddrylliau, ac efe a ddywedodd: wele 'r petheu yr ydych yn eu hanrhydeddu.

27 Ac fe a ddigwyddodd i'r Babiloniaid pan glywſant hynny ddirfawrlidio a throi yn erbyn y brenin gan ddywedyd, y brenin a aeth yn Iddew: Bel a ddeſtruwiodd efe, a'r ddraig a laddodd, ac a roes yr offeiriaid iw marwolaeth.

28 Ac wedi eu dyfot at y brenin y dywedaſant: dod imi Ddaniel: onis rhoi, ni a'th ladd-

wn di a'th holl dylwyth.

29 Pan welodd y brenin eu bôd hwynt yn rhy daer yn ei gymmell ef: yna y gorfu iddo oi anfodd roi Daniel iddynt.

30 A hwyntau ai bwriaſſant ef i ffau y llewod lle y bu efe chwe diwrnod.

31 Yn yr ffau y oedd ſaith o lewod, i'r rhai y rhoid beunydd ddau gorph a dwy ddafad y rhai y pryd hynny ni roeſid, fel y gallent lyngcu Daniel.

32 Ac Abbacuc y prophwyd oedd yn Iudea, yr hwn a ferwaſſe ſew ac a friwaſſe fara mewn cawg, ac oedd yn myned iw ddwyn i'r maes i fedelwyr.

33 Ac angel yr Arglwydd a ddywedodd wrth Abbacuc, dwg y cinio ſydd gennit hyd yn Babilon i Ddaniel [ yr hwn ſydd yn ffau ] y llewod.

34 Ac Abbacuc a ddywedodd, Arglwydd ni welais i er ioed Babilon, ac ni wn i pa le y mae yr ffau.

35 Yna Angel yr Arglwydd ai cymmerth ef erbyn ei gorun, ac wedi iddo ei ddwyn erbyn gwallt ei benn, y dodes ef yn Babilon ar y ffau drwy nerth ei yſpryd ef.

36 Ac Abbacuc a lefodd gan ddywedyd: Daniel, Daniel, cymmer y cinio a anſonodd Duw i ti.

37 Yna y dywedodd Daniel, ti a feddyliaiſt am danaf ô Dduw, ac ni adewiſt [ mewn gwall ] y rhai a ymgais â thi, ac a'th gâr.

38 Felly Daniel a gyfododd i fynu, ac a fwyttaodd, ac angel yr Arglwydd a ddodes Abbacuc yn ebrwydd yn ei le ei hun.

39 A'r brenin aeth ar y ſeithfed dydd i alaru, a phan ddaeth at y ffau, efe a edrychodd i mewn ac wele [yr oedd] Daniel yn eiſtedd.

40 Yna y llefodd y brenin â llef uchel, ac a ddywedodd mawr wyt ti ô Arglwydd Dduw Daniel, ac nid oes Duw arall onid ty di.

41 Ac efe ai tynnodd ef allan o'r ffau, ac ai bwriodd hwynt-hwy y rhai oedd achos oi ddifetha ef i'r ffau, ac hwy a lyngcwyd yn gyflym ger ei fron ef.

*Terfyn hyſtoria Bel a'r Draig.*

# Gweddi Manaſſes brenin Babilon pan ddaliwyd ef yn garcharor yn Babilon.

Oh Arglwydd holl-alluog Dduw ein tadau Abraham Iſaac, ac Iacob, ai cyfiawn hiliogaeth hwynt.

2 Yr hwn a wnaethoſt nefoedd a daiar, ai gwychter.

3 Yr hwn a rwymaiſt y môr a gair dy orchymyn, yr hwn a greaſt y dyfnder, ac ai ſeliaiſt a'th enw ofnadwy a chanmoladwy.

4 Yr hwn y mae pob peth yn ei ofni, ac yn crynu rhag wyneb dy nerth:

5 O blegit ni ellir dwyn mawredd dy ogoniant, na dioddef digter dy fygwth yn erbyn pechaduriaid.

6 A thrugaredd dy addewid ſydd anfeidrol, ac anchwiliadwy: o blegit ty di ydwyt Arglwydd goruchaf, daionus, ymarhous, mawr ei drugaredd hefyd, ac edifeiriol am ddrwg dŷn.

7 Tydi ô Arglwydd yn ôl amldra dy ddaioni a addewaiſt edifeirwch a maddeuant i'r rhai a bechaſāt i'th erbyn, ac yn amldra dy doſturiaeth a ordeiniaiſt edifeirwch i bechaduriaid er iechydwriaeth.

8 Am hynny ô Arglwydd Dduw y rhai cyfiawn ni oſodaiſt ti edifeirwch i'r rhai cyfiawn i Abraham Iſaac ac Iacob y rhai ni phechaſant i'th erbyn, ond ti a oſodaiſt edifeirwch er fy mwyn i bechadur.

9 Mi a bechais yn fwy nâ rhifedi tywod y môr, fy anwireddau a amlhauſant ô Arglwydd, fy anwireddau a amlhauſant, ac nid wyfi deilwng i edrych, ac i weled uchder y nefoedd gan amldra fy anwireddau.

10 Mi a grymmais i lawer mewn rhwym o haiarn, fel na allwyf godi fy mhen, ni allaf chwaith gymmeryd fy anadl, am gyffroi o honof dy lid ti, a gwneuthur yr hyn ſydd ddrwg yn dy olwg: dy ewyllys ni's gwneuthym a'th orchymynnion ni's cedwais: ordeiniais ffieidd-dra, ac amlheais gamweddau.

11 Ac yr awron yr ydwyfi yn plygu glin fyng-halon gan ddymuno daioni gennit: pechais ô Arglwydd pechais, ac yr ydwyf yn cydnabod fy anwireddau.

12 Am hynny yr ydwyfi yn dieſyf gan attolwg i ti, maddeu i mi ô Arglwydd, maddeu i mi, ac na ddifetha fi yng-hyd a'm hanwireddau, ac na chadw (gan ddigio byth) ddrwg i mi: ac na ddamnia fi i geudod y ddaiar: canys tydi ydwyt Dduw, Duw meddaf yr edifeiriol:

13 Ac yn dangos arnafi dy holl ddaioni: o blegit ti a'm hachubi fi (yr hwn ydwyf anheilwng) yn ôl dy fawr drugaredd.

14 Minnau a'th foliannaf di bob amſer holl ddyddiau fy einioes: o blegit y mae holl nerth y nefoedd yn dy foliannu di, ac i ti y mae gogoniant yn oes oeſoedd, Amen.

# Llyfr cyntaf y Machabæaid.

## PENNOD. I

1 Wedi marwolaeth Alexander brenin Macedonia. 11 Antiochus yn cymmeryd y deyrnas. 12 Llawer o blant Iſrael yn gwneuthur ammod â'r cenhedloedd. 22 Antiochus yn daroſtwng yr Aiphe, ac Ieruſalem tano. 43 Wedi lloſci Ieruſalem yn gwneuthur cyfreithiau, yn gorafun cadw cyfraith Dduw. 57 Ac yn goſod ffiaidd-beth anrheithiol ar allor Dduw.

WEdi i Alexander o Macedonia, mab Philip fyned allan o wlâd Cethim, a lladd Darius brenin y Perſiaid a'r Mediaid, a theyrnaſu yn ei le ef, fel y teyrnaſaſe efe o'r blaen yn Groec,

2 Efe a oſododd ryfeloedd lawer, ac a enillodd ddinaſoedd cedyrn, ac a laddodd frenhinoedd y ddaiar.

3 Ac a dramwyodd hyd eithafoedd y byd, ac a yſpeiliodd lawer o genhedloedd, a'r ddaiar a ddiſtawodd ger ei fron ef, ac am hynny ei galon ef a dderchafwyd, ac a falchiwyd.

4 Ac wedi iddo ef gaſclu llu cadarn iawn,

5 Efe a ddaroſtyngodd wledydd a chēhedloedd a theyrnaſoedd, ac ai gwnaeth hwy yn drethawl iddo ef,

6 Ac wedi hyn efe a glafychodd, ac a wybu y bydde marw.

7 Ac a alwodd am ei waſanaethwŷr anrhydeddus, y rhai a gydfaetheſid ag ef oi ieuengtid, ac a gyfrannodd ei deyrnas iddynt hwy, pan oedd efe etto yn fyw.

8 Wedi i Alexander deyrnaſu ddeu-ddeng mlhynedd a marw,

9 Ei dywyſogion ef a gadwaſant feddiant, bôb un yn ei fangre ei hun.

10 Ac hwy oll a oſodaſant goronau [ar eu pennau] wedi ei farw ef, ai meibion ar eu hôl hwy lawer o flynyddoedd; a drygioni a amlhaodd ar y ddaiar.

11 Ac o honynt hwy y daeth y gwreiddin pechadurus Antiochus Epiphanes mab Antiochus y brenin, yr hwn a fuaſe yn wyſtl yn Rhufain, ac efe a deyrnaſodd yn y ddwyfed flwyddyn ar bymthec ar hugain a chant o frenhiniaeth y Groeg-wŷr.

12 Yn y dyddiau hynny dynion afreolus a ddaethant allan o Iſrael, ac a hudaſant lawer gan ddywedyd, awn a gwnawn ammod a'r cenhedloedd y rhai ſy o'n hamgylch ni, canys er pan ein gwahaned oddi wrthynt hwy, nia gawſom lawer o ddrwg-fyd.

13 A'r ymadrodd hwnnw oedd dda yn eu golwg hwy.

14 A rhai o'r bobl a fuant barod, ac a aethant at y brenin, ac efe a roddes iddynt hwy awdurdod i wneuthur defodau y cenhedloedd.

15 Ac hwy a adailadaſant yſcol yn Ieruſalem yn ôl arfer y cenhedloedd.

16 Ac hwy a wnaethant ddienwaediad iddynt ei hunain, ac a giliaſant oddi wrth y cyfammod ſanctaidd, ac wedi iddynt hwy ymgyſſylltu a'r cenhedloedd, hwy a ymroeſant i wneuthur drwg.

17 A'r deyrnas oedd barod o flaen Antiochus, ac efe a fwriadodd deyrnaſu ar yr Aiphe fel y galle efe deyrnaſu ar ddwy deyrnas.

18 Ac efe a aeth i mewn i'r Aiphe â thorf fawr, â cherbydau, ag Elephannod â gwŷr meirch, ac â llynges fawr,

19 Ac a ddechreuodd ryfela yn erbyn Ptolemeus brenin yr Aiphe, a Ptolemeus a drôdd allan oi olwg ef, ac a ffôdd, a llawer a ſyrchiaſant yn archolledig.

20 Ac hwy a enillaſant y dinaſoedd amddeffynadwy yn nhir yr Aiphe, ac Antiochus a gymmerodd yſpail yr Aiphe.

21 Ac Antiochus a ddychwelodd wedi iddo ef daro yr Aiphe, yn y drydedd flwyddyn a deugein a chant:

22 Ac a aeth i fynu yn erbyn Iſrael ac Ieruſalem â chynnulleidfa fawr.

23 Ac efe a aeth i mewn yn falch i'r cyſſegr, ac a gymerodd yr allor aur a'r canhwyll-bren [yr hwn oedd yn dal] y goleuad, ai holl offer ef, a bwrdd [y bara] goſod, a'r cawgiau, a'r dyſclau, a'r llwyau aur, a'r llen, a'r coronau, a'r hardd wiſc aur yr hon oedd rhyd tu wyneb y Deml, ac efe a dynnodd yr aur oddi arnynt hwy oll.

24 Ac efe a gymmerodd yr arian a'r aur a'r ddodrefn annwyl, ac a gymmerodd y tryſſorau cuddiedic y rhai a gafodd efe, ac wedi iddo ef gymeryd y cwbl, efe a aeth ymmaith iw wlad ei hun.

25 Ac efe a wnaeth gelanedd ar ddynion, ac a ddywedodd yn falch tros ben.

26 Am hynny y bu galar mawr ym mhlith yr Iſraeliaid ym mhob lle o'r eiddynt hwy.

27 Canys y tywyſogion a'r henuriaid a ocheneidiaſant, y morwynion a'r gwŷr ieuaingc a leſcaſant, a thegwch y gwragedd a gyfnewidiwyd.

28 Pob priodaſ-fab a gymmerodd alar, yr hon oedd yn eiſtedd yn yr ſtafell briodas oedd mewn triſtwch.

29 A'r wlâd a gynhyrfodd o herwydd ei thrigolion, a holl dŷ Iacob a ſyrchiodd mewn cywilydd.

30 Wedi dwy flynedd gyflawn y brenin a ddanfonodd y tywyſog yr hwn oedd yn derbyn y deyrn-ged i ddinaſoedd Iuda, yr hwn a ddaeth i Ieruſalem â thorf drom.

31 Ac efe a ddywedodd wrthynt hwy eiriau

heddychol yn dwyllodrus, ac hwy ai credaſāt ef.

32 Felly efe a ruthrodd i'r ddinas yn ddiſymmwth, ac ai tarawodd hi â dyrnod mawr, ac a ddeſtrywiodd lawer o bobl o Iſrael.

33 Ac a gymmerodd yſpail y ddinas, ac ai lloſcodd hi â thân, ac a ddeſtrywiodd ei thai hi ai chaerau oddi amgylch.

34 Ac hwy a gaethiwaſant y gwragedd a'r plant, ac a feddiannaſant yr anifeiliaid.

35 Yna yr adeiladaſant ddinas Dafydd â chaer fawr gref, ac â thyrau cedyrn, ac ai gwnaethant hi yn gaſtell cadarn iddynt eu hun.

36 Heb law hyn hwy a oſodaſant y genhedlaeth bechadurus yno, ſef y dynion anneddfol, ac hwy a ymgadarnhaſant ynddi hi.

37 Ac hwy a gludaſant arfau a bwyd ac wedi iddynt hwy gaſclu yſpail Jeruſalem ynghyd, hwy ai goſodaſant ef yno, ac felly hwy a fuant yn rhwyd fawr.

38 Canys yr oedd yn cynllwyn y cyſſegr, ac yn gyhuddwr drygionus i Iſrael bob amſer.

39 Oddi yno hwy a ollyngent waed diniwed o amgylch y cyſſegr, ac a halogent y lle ſanctaidd.

40 A thrigolion Jeruſalem a ffoaſant oi plegit hwy, a'r dref oedd yn breſwylfa i ddieithriaid, ac oedd yn eſtronaidd iw meibion ei hun, ai phlant ei hun ai gadawſant hi.

41 Ei chyſſegr hi a anrheithiwyd fel diffaethwch, ei gwyliau hi a droiwyd yn alar, ei Sabbothau yn waradwydd, ei anrhydedd yn ddiddim.

42 Fel y buaſe ei pharch hi, felly y bu ei hammarch hi, ac y troiwyd ei huchelder hi yn alar.

43 A'r brenin a ſcrifennodd at ei holl deyrnas am fod o bawb yn bobl gyd un, ac ymadel o bob dŷn ai gyfreithiau ei hun.

44 A'r holl genhedloedd a dderbyniaſant orchymyn y brenin.

45 A llawer o Iſrael a gytunaſant iw waſaneuthu ef, ac a aberthaſant i eulynnod, ac a halogaſant y Sabboth.

46 Canys y brenin a ddanfonodd lyfrau gyd â chenadon i Jeruſalem, ac i ddinaſoedd Juda fel yr elent hwy ar ôl deddfau dieithriaid y wlad,

47 I wahardd poeth offrymmau, a bwyd offrwm, a diod offrwm yn y cyſſegr;

48 Ac i halogi y Sabbothau a'r gwyliau,

49 Ac i ddiſwyno y cyſſegr a'r ſainct,

50 I adeiladu allorau, a llwynau, a themlau eulynnod, ac i aberthu cig môch, ac anifeiliaid aflan,

51 Ac i ollwng eu meibion yn ddienwaededic i wneuthur eu heneidiau yn ffiaidd â phob peth aflan trwy halogrwydd fel y gollyngent hwy y gyfraith tros goſ, ac fel y cyfnewidient hwy'r holl ddeddfau.

52 A'r hwn ni wnele yn ôl gorchymyn y brenin y bydde rhaid iddo farw;

53 Efe a ſcrifennodd at ei holl deyrnas yn ôl yr holl eiriau hyn, ac a wnaeth wiliadwyr ar yr holl bobl.

54 Ac a orchymynnodd i ddinaſoedd Juda aberthu ym mhob cyfryw ddinas.

55 Am hynny llawer o'r bobl a ymgaſclaſant attynt hwy, pwy bynnac a adawſe 'r gyfraith: ac hwy a wnaethant ddrwg yn y wlad.

56 Ac hwy a wnaethant i Iſrael lechu mewn lleoedd cuddiedic, [ſef] yn eu holl lochesſau.

57 A'r pymthecfed dydd o'r mi's Caſleu yn y bummed flwyddyn a deugain a chant, hwy a adeiladaſant ffieiddbeth anrheithiol ar yr allor, ac o fewn dinaſoedd Juda oddi amgylch hwy a adeiladaſant allorau,

58 Ac a arogl-darthaſant yn-nrysau 'r tai, ac yn yr heolydd.

59 Ac a rwygaſant lyfrau yr gyfraith y rhai a gawſant hwy, [ac] ai lloſcaſant [hwy] â thân.

60 A pha le bynnac y ceid llyfr y cyfammod gyd â neb, ne os cydtune neb â'r gyfraith efe a leddid wrth orchymyn y brenin.

61 Wrth eu cryfder hwy a wnaent felly i'r Iſraeliaid a geid bob mis yn y dinaſoedd.

62 A'r unfed [dydd] ar hugain o'r mis wrth aberthu ar yr allor yr hon oedd yn lle yr allor [gyfreithlon,]

63 Hwy a laddaſant y gwragedd yn ôl gorchymyn Antiochus, y rhai a baraſe enwaedu ar eu meibion.

64 Ac a grogaſant y plant bychain wrth eu gyddfau, ac a yſpeiliaſant eu tai hwy, ac a laddaſant [y rhai] a enwaedaſe arnynt hwy.

65 A llawer yn Iſrael a ymgadarnhaſant, ac a ymſiccrhaſant ynddynt eu hunain, na ſwyttaent bethau aflan.

66 Ac hwy a gymmeraſant fodd i farw, rhac eu diſwyno â bwydydd, a rhag halogi o honynt hwy y cyfammod ſanctaidd.

67 Ac hwy a ddioddefaſant farwolaeth, am hynny y bu ddigofaint mawr iawn yn Jeruſalem.

## PEN. II.

1 Galar Mattathias ai feibion am ddeſtrywiad y ddinas ſanctaidd, 19 hwynt-wy yn gwrthod aberthu i eulynnod, 24 ſerch Mattathias i gyfraith Dduw, 33 yr Iddewon yn dioddef eu lladd, ac yn gwrthod ymladd ar y dydd Sabboth, 47 Mattathias cyn marw yn gorchymyn iw feibion lynu wrth air Duw yn ôl ſiampl yr henafiaid.

YN yr amſeroedd hynny Mattathias mab Joan, fab Simeon offeiriad o'r hiliogaeth Joarib o Jeruſalem a gododd i fynu, ac a drigodd ym Modin.

2 Ac iddo efe yr oedd pum mab, Joan yr hwn a elwid Gaddis.

3 Simon yr hwn a elwid Thaſi.

4 Judas yr hwn a elwid Machabeus.

5 Eleazar yr hwn a elwid Habaron, ac Jonathan yr hwn a elwid Apphus.

6 A phan welodd efe y cabledd a wneuthid o

fewn

ſcwn Juda, ac yn Jeruſalem.

7 Efe a ddywedodd, gwae fi fyng-eni i weled cyſtudd fy-mhobl a chyſtudd y ddinas ſanctaidd, ac i eiſtedd yno pan roddwyd hi yn llaw y gelynion.

8 Y mae 'r cyſſegr yn llaw dieithraid, ei theml hi a wnaethpwyd fel gŵr heb ogoniant.

9 Ei lleſtri parchedig hi a dducpwyd ymmaith yn gaethglud, ei phlant bychain hi a ladded yn yr heolydd, ai gwŷr ieuaingc hi â chleddyf y gelyn.

10 Pa genedl ſydd a'r ni etifeddodd ran o'r deyrnas, ac ni ymaflodd yn ei hyſpail hi?

11 Ducpwyd ymmaith ei holl harddwch hi, gwnaethpwyd hi yn forwyn gaeth yn lle [bod] yn rhydd.

12 Canys wele ein cyſſegr, a'n tegwch, a'n gogoniant a anrheithiwyd, a'r cenhedloedd ai halogaſant hwy.

13 I ba beth y byddwn fyw yn hwy nâ hyn?

14 A Mattathias ai feibion a rwygaſant eu dillad, ac a ymwiſcaſant mewn lliain ſach, ac a alaraſant yn ddirfawr.

15 A phan ddaeth gwenidogion y brenin i ddinas Modin, y rhai a gymhellod apoſtaſi[ſef] aberthu o honynt hwy,

16 Llawer o Iſrael a ddaethant attynt hwy, Mattathias hefyd ai feibion a gaſclwyd yng-hyd.

17 A gwenidogion y brenin a attebaſant, ac a lefaraſant wrth Mattathias gan ddywedyd, tywyſog a pharchedig a mawr wyt ti yn y ddinas hon, a chadarn o feibion, ac o frodyr.

18 Gan hynny tyret yn gyntaf yr awran, a gwna orchymmyn y brenin, fel y gwnaeth yr holl genedloedd, a gwŷr Iuda, a'r rhai a adawed yn Jeruſalem, felly ti a gei fod a'th dylwyth ymmhlith cyfeillon y brenin, a thydi a'th feibion a anrhydeddir ag arian, ac ag aur, ac â rhoddion lawer.

19 A Mattathias a attebodd, ac a ddywedodd â lleferydd uchel, pe gwrandawe holl genhedloedd y deyrnas, a'r rhai ſy yn nhŷ 'r brenin arno ef, gan ſefyll o bawb allan o grefydd ein henafiaid, a phe cydtunent hwy ai orchymynnion ef:

20 Etto myfi a'm meibion a'm brodyr a rodiem fel y mae ammod ein henafiaid.

21 Duw a drugarhao wrthym, rhag gadel o honom ei gyfraith ai ddeddfau ef.

22 Ni wrandawn ni ar eiriau y brenin i droſeddu ein gwaſanaeth [gan ŵyro] tu a'r llaw ddehau ne 'r llaw aſſwy.

23 Pan beidiodd efe a dywedyd y geiriau hyn rhyw Iddew a ddaeth yn eu gŵydd hwy i aberthu ar yr allor ym Modin, yn ôl gorchymmyn y brenin.

24 Pan welodd Mattathias hyn, efe a wynfydodd ai arennau ef a grynnaſant, ac efe a gymmerodd galon yn ôl barn y gyfraith, ac a ruthrodd ac ai lladdodd ef wrth yr allor.

25 Ac efe a laddodd yr amſer hwnnw waſanaeth-wr y brenin yr hwn oedd yn [eu] cymmell [hwy] i aberthu, ac a ddeſtrywiodd yr allor.

26 Ac efe a ddygodd zêl i'r gyfraith fel y gwnaeth Phinees i Zamri fab Salom.

27 A Mattathias a lefodd yn y ddinas â llef uchel gan ddywedyd, pwy bynag ſy 'n dwyn zêl i'r gyfraith, ac ſy 'n cadw y cyfammod, canlyned fi.

28 Ac efe ai feibion a ffoaſant i'r mynyddoedd, ac a adawſant beth bynnac oedd eiddynt hwy yn y ddinas.

29 Yna llawer a ddaethant i wared y rhai oeddynt yn ceiſio cyfiawnder a chyfraith i'r anialwch hwnnw.

30 I aros yno hwyntwy ai meibion, ai gwragedd ai hanifeiliaid, canys llawer o ddrwg a ddaeth arnynt hwy.

31 A mynegwyd i wŷr y brenin ac i'r lluoedd y rhai oeddynt yn Jeruſalem yn-ninas Dafydd ſyned o'r gwŷr i wared (y rhai a eſcydwaſe orchymyn y brenin ymmaith) i locheſau yn yr anialwch.

32 A llawer a redaſant ar eu hôl hwy, ac ai goddiweddaſant hwy, ac a werſyllaſant yn eu herbyn hwy, ac a oſodaſant ryfel yn eu herbyn hwy ar y dydd Sabboth,

33 Ac a ddywedaſant wrthynt hwy, digon bellach, deuwch allan a gwnewch yn ôl gorchymmyn y brenin, a chwi a gewch eich hoedl.

34 Ac hwy a ddywedaſant, ni ddeuwn ni allan, ac ni wnawn ni orchymyn y brenin i halogi yr dydd Sabboth.

35 Am hynny hwy a bryſuraſant i ryfel yn eu herbyn hwynt.

36 Ond nid attebaſant iddynt hwy, ac ni thaflaſant garreg attynt hwy, ac ni chaeaſant hwy y llocheſau, gan ddywedyd,

37 Ni a ddioddefwn farwolaeth oll yn ein diniweidrwydd, y nef, a'r ddaiar a deſtiolaetha troſom ni, eich bod chwi yn ein difetha heb farn.

38 Felly hwy a godaſant yn eu herbyn hwy mewn rhyfel ar y dydd Sabboth, ac hwy ai gwraged, ai plant, ai hanifeiliaid a fuant feirw hyd fîl o ddŷnion.

39 Pan ŵybu Mattathias ai gyfeillion [hynny] hwy a alaraſant am danynt hwy 'n ddirfawr.

40 Yna'r naill a ddywedodd wrth y llall, os gwnawn ni oll fel y gwnaeth ein brodyr, ac oni ymladdwn ni 'n erbyn y cenedloedd am ein henioes a'n deddfau, hwy a'n difethant ni yrywan yn gynt oddi ar y ddaiar.

41 Ac hwy a ymgynghoraſant y diwrnod hwnnw gan ddywedyd,

42 Pwy bynnac a ddelo attom ni i ryfela ar y dydd Sabboth ni a ymladdwn yn ei erbyn ef rhac meirw oll fel y bu feirw ein brodyr yn eu llocheſau.

43 Yna cynnulleidfa o'r Aſidaiaid a ymgaſ-

claſant attynt hwy [y rhai oeddynt] gryſion o allu [ſef] pwy bynnac o Iſrael oedd yn ewyllyſcar i'r gyfraith.

44 A phawb ar oedd yn ffoi rhag drygfyd a ymgyſylltaſant ag hwy, ac a fuant yn gadernid iddynt hwy.

45 Ac hwy a gaſclaſant lu [o wŷr] ac a laddaſant y pechaduriaid yn eu dig, a'r gwŷr aneddfol yn eu llidiogrwydd, a'r llaill a ffoaſant at y cenhedloedd ac a ddiangaſant.

46 Yna Mattathias ai gyfeillion a dramwyodd o amgylch, ac hwy a ddeſtruwiaſant yr allorau.

47 Ac hwy a enwaedaſant ar y plant dienwaededig cymmaint ag a gawſant hwy o fewn terfynau Iſrael,

48 Ac a erlidiaſant y dynion beilchion yn nerthol, a'r gwaith hwn a lwyddodd yn eu dwylo hwynt.

49 Ac hwy a waredaſant y gyfraith o law y cenhedloedd, ac o law y brenhinoedd, ac ni roeſant hwy gryfder i'r pechadur.

50 A phan neſaodd dyddiau Mattathias i farw, efe a ddywedodd wrth ei feibion, balchder a choſpedigaeth a ſiccrhaed yrywan, ac amſer deſtruw a dig llidiog.

51 Gan hynny fy meibion dygwch Zêl yrywan i'r gyfraith, a rhoddwch eich hoedl mewn perigl er mwyn cyfammod eich tadau.

52 Coſiwch weithredoedd ein tadau y rhai a wnaethant hwy yn eu hamſeroedd, felly chwi a dderbyniwch fawr barch ac enw tragywyddol.

53 Oni chaed Abraham yn ffyddlon mewn profedigaeth, a hynny a gyfrifwyd iddo ef yn gyfiawnder?

54 Ioſeph yn amſer ei gyfyngder a gadwodd y gorchymyn, ac a wnaethpwyd yn arglwydd ar yr Aipht.

55 Phinees ein tâd wrth ddwyn zêl a gafodd ammod am offeiriadaeth dragywyddol.

56 Ioſua am gyflawni gair [Duw] a wnaethpwyd yn farn-wr ar Iſrael.

57 Caleb am deſtiolaethu ger bron y gynnulleidfa a gafodd etifeddiaeth o'r tîr.

58 Dafydd yn eu drugaredd a etifeddodd eiſteddle y deyrnas dragywyddol.

59 Elias wrth ddwyn zêl i'r gyfraith a gymerwyd i fynu i'r nefoedd.

60 Ananias, Azarias, a Miſael a gredaſant [ac] a achubwyd o'r tân.

61 Daniel yn ei ddifaleiſrwydd a waredwyd oddi wrth ſafnau y llewod.

62 Ac felly yſtyriwch ym mhob oes pwy bynnac ſydd yn ymddyried ynddo ef, ni orchfygir hwynt.

63 Am hynny nac ofnwch rhac geiriau gŵr pechadurus: canys ei ogoniant ef [a ſyrth] yn dom a phryfed.

64 Heddyw efe a ddercheſir, ac y foru ni bydd ef iw gael, canys trodd iw bridd, a darfu am ei amcan.

65 Gan hynny chwychwi feibion, cymmerwch galonnau ac ymwrolwch yn y gyfraith, canys chwi a gewch barch oddi wrthi hi.

66 Ac wele Simon eich brawd gwn mai gŵr cynghorus yw efe, gwrandewch arno ef bob amſer, efe a fydd yn dâd i chwi.

67 Ac am Iudas Macchabæus yr oedd efe yn gryf ac yn nerthol oi ieuengtid bydded efe gapten i chwi, ac ordeiniwch ryfel y bobloedd.

68 Felly y dygwch attoch bawb a'r y ſy yn cadw yr gyfraith, a dielwch ddial eich pobl.

69 Talwch adref i'r cenhedloedd a glynwch wrth orchymynnion y gyfraith.

70 Yna efe ai bendithiodd hwy, ac efe a oſodwyd at ei henafiaid.

71 Ac efe a fu farw yn y chweched flwyddyn a deugain a chant, ai feibion ai claddaſant ef ymmedd ei henafiaid ym Modin, a holl Iſrael a alarodd am dano ef â galar mawr.

## PEN. III.

1 Iudas a wnaethpwyd yn llywodraethwr ar yr Iddewô. 11 Efe yn lladd Apollonius a Seron tywyſogion Syria, 44 Hyder Iudas ar Dduw. 55 Iudas yn bwriadu ymladd yn erbyn Lyſias yr hwn a wnaeth Antiochus yn gapten ar ei lu. 50 Gweddi tros Nazareaid.

YNa Iudas yr hwn a elwid Macchabæus ei fab ef a gododd i fynu yn ei lê ef,

2 Ai holl frodyr ai cymmorthaſant ef, a phawb a'r a lynaſe wrth ei dâd ef, ac hwy a ymladdaſant tros Iſrael yn llawen.

3 Felly efe a helaethodd barch ei bobl, ac a wiſcodd ddwyfronnec fel cawr ac a ymwregyſodd â'i luric, ac a oſododd ryfeloedd, ac a amddeffynnodd y gwerſyll a'r cleddyf.

4 Ac efe a fu debyg i lew yn ei weithredoedd, ac fel cenew llew yn rhuo ar ei helfa.

5 Ac efe a erlidiodd y rhai drwg gan eu chwilio [hwy] allan, ac a loſcodd y rhai oeddynt yn cythryblu ei bobl ef.

6 A'r rhai drwg a ſyrthiaſant mewn cyfyngder rhag ei ofn ef, a phawb a'r oeddynt yn gwneuthur drygioni a ſyrthiaſant mewn cythryfwl, felly y llwyddodd iechydwriaeth trwy ei lywodraeth ef.

7 Ac efe a wnaeth i lawer o frenhinoedd ofidio, ac a llawenychodd Iacob ai weithredoedd, ac y mae ei goffadwriaeth ef yn fendith [lawn] hyd yn dragywydd.

8 Ac efe a dramwyodd trwy ddinaſoedd Iudæa, ac a ddeſtruwiodd y rhai annuwiol allan o honi hi, ac a droodd heibio ddigofaint oddi wrth Iſrael.

9 Ai enw ef a gerddodd hyd eithafoedd y ddaiar, ac efe a gaſclodd y rhai oeddynt ar ddarfod am danynt.

10 Yna Apollonius a gaſclodd genhedloedd a llu mawr o Samaria i ryfela yn erbyn Iſrael.

11 Pan wybu Iudas, efe a aeth iw gyfarfod ef, ac ai tarawodd ef: ac ai lladdodd ef, a llawer a ſyrthiaſant yn archolledig, a'r llaill a ffoaſant, ac efe a gymmerodd eu hyſpail hwy.

12 Ac Judas a gymmerodd gleddyf Apollonius, ac a ymladdodd ag ef [ei] holl ddyddiau.

13 Pan glybu Seron tywyſog y llu o Syria gaſclu o Judas gynnulleidfa, ac eglwys o ffyddloniaid a rhyfel-wŷr gyd ag ef,

14 Efe a ddywedodd, myfi a wnaf enw i mi fy hun, ac myfi a gaf barch yn y deyrnas, ac mi a ryfelaf yn erbyn Judas a'r rhai ſy gyd ag ef a'r rhai ſy yn diyſtyru gorchymyn y brenin.

15 Ac efe a ymrôdd i ddyfod i fynu, a chyd ag ef y daeth gwerſyll cryf o rai annuwiol i fynu iw gynnorthwyo ef, ac i wneuthur dial ar feibion Iſrael.

16 Pan neſſaodd efe yn gyfagos i riw Bethoron, Judas a aeth allan iw gyfarfod ef â thorf fechan.

17 A phan welſant hwy lu yn dyfod iw cyfarfod, hwy a ddywedaſant wrth Judas: pa fodd y gallwn ni, a ninnau yn ychydig ymladd yn erbyn lliaws cymmeint, [a chyn] gryfed? yr ydym ni [heſyd] wedi deffygio heb fwyd heddyw.

18 Ac Judas a ddywedodd, hawdd ydyw caeu llawer yn nwylo ychydig, ac nid oes ragoriaeth ger bron [Duw] nef, rhwng achub â llawer neu ag ychydig.

19 Canys nid yn lliawſogrwydd y llu y mae buddugoliaeth y rhyfel, ond cadernid ſydd o'r nef.

20 Maent hwy yn dyfod attom ni mewn mawr draha a rhām-wedd i'n dwyn ni ymmaith, a'n gwragedd an plant i'n hyſpeilio.

21 Ond nyni ydym yn ymladd am ein heinioes a'n cyfreithiau.

22 Ac efe [Duw] ai dryllia hwy ger ein bron ni, gan hynny nac ofnwch chwi rhagddynt hwy.

23 A phan beidiodd efe a dywedyd, efe a neidiodd yn ddiarwybod arnynt hwy: felly y ddifethwyd Seron ai werſyll oi flaen ef.

24 Ac hwynt ai herlidiaſant hwy ar hyd goriwared Bethoron hyd y maes, ac yno y lladded yng-hylch wyth-cant o wŷr o honynt hwy, a'r lleill a ffoâſant i wlâd y Philiſtiaid.

25 Yna ofn ac arſwyd Judas ai frodyr a ddechreuodd ſyrthio ar y cenhedloedd oi hamgylch hwy,

26 Ai enw ef a gyrhaeddodd hyd at y brenin, a phob cenedl a fedre fynegu rhyfeloedd Juda.

27 A phan glybu Antiochus y brenin y geiriau hyn, efe a ddigiodd yn llidiog, ac a ddanfonodd allan, ac a gaſclodd holl luoedd ei deyrnas yn werſyll cryf iawn.

28 Ac efe a agorodd ei dryſſor-dŷ, ac a roddes gyflogau iw luoedd tros flwyddyn, ac a orchymynnodd iddynt hwy fod yn barod tros flwyddyn i bob gwaſanaeth.

29 Ond pan welodd efe yr arian a'r tryſſorau yn pallu a'r rhai oedd yn caſclu teyrn-ged y wlad yn anaml, o blegit yr anghydfundeb, a'r dialedd a wnaethe efe yn y wlâd gan dynnu ymmaith y cyfreithiau y rhai a fuaſe er y dyddiau cyntaf:

30 Yna efe a ofnodd rhag na bydde ganddo ef ddigon i atteb un waith neu ddwywaith y draul a'r rhoddion y rhai a roddaſe efe o'r blaen â llaw helaeth, fel y buaſe efe helaethach na'r brenhinoedd o'r blaen mewn haelioni,

31 Am hynny yr oedd efe mewn cyfyngder yn ei galon, ond efe a gymmerodd feddwl i fyned i Perſia i gymmeryd teyrn-gêd y gwledydd, ac i gaſclu llawer o arian.

32 Am hynny efe a adawodd Lyſias gŵr anrhydeddus, ac o genedl y brenin ar fatterion y brenin, o'r afon Euphrates hyd derfynau yr Aipht,

33 Ac i ddwyn Antiochus ei fab ef i fynu hyd oni ddychwele efe.

34 Ac efe a roddes iddo ef hanner y lluoedd, a'r Elephantiaid, ac a roes orchymynion iddo ef am bob peth a'r a ewyllyſie efe ei wneuthur, ac yng-hylch y rhai oeddynt yn trigo yn Juda, ac yn Jeruſalem,

35 Ddanfon llu yn eu herbyn hwy i ddeſtruwio, ac i ddiwreiddio nerth yr Iſraeliaid, a gweddill Jeruſalem, ac i dynnu ymmaith eu coffadwriaeth hwy o'r lle hwnnw.

36 Ac i oſod dynion dieithr i drigo yn eu holl derfynau hwy, ac i gyfrannu eu gwlad hwy wrth goel-brennau.

37 A'r brenin a gymmerodd hanner y lluoedd y rhai a weddillaſid, ac a gychwynnodd o Antioch dinas ei deyrnas ef y ſeithfed flwyddyn a deugain a chant, ac efe a aeth tros yr afon Euphrates, ac a drammwyodd trwy'r gwledydd uchaf.

38 A Lyſias a ddewiſodd Ptolomeus fab Dorymenus, Nicanor, a Gorgias gwŷr galluoc a chyfeillion y brenin.

39 Ac efe a ddanfonodd ddeugein-mil o wŷr [traed] gyd â hwy, a ſeith-mil o wŷr meirch i fyned i wlâd Juda, iw deſtruwio hi yn ôl gorchymyn y brenin.

40 Ac hwy a gychwynnaſant âi holl lu, ac a ddaethant, ac a werſyllaſant yn gyfagos i Emmaus ar y tir gwaſtad.

41 Pan glybu marchnad-wŷr y wlad ſôn am danynt, hwy a gymmeraſant arian, a llawer iawn o aur, a gweinidogion, ac a ddaethant i'r gwerſyll i brynu meibion Iſrael yn gaethion, â lluoedd o Syria a gwlâd y dieithraid a ddaethant attynt hwy.

42 Pan welodd Judas ai frodyr chwanegu o'r drwg a gwerſyllu o'r lluoedd o fewn eu terfynau hwy, pan yſtyriaſant hwy eiriau'r brenin, y rhai a orchymynnaſe efe [nid amgen, nac] i wneuthur deſtruw a phen am y bobl,

43 Yna'r naill a ddywedodd wrth y llall, goſodwn ein pobl trachefn allan o orthrymder, ac ymladdwn tros ein pobl a'r cyſſegr.

44 A'r gynnulleidfa a ymgaſclodd i fod yn

barod i ryfela, ac i weddio, ac i ofyn trugaredd a thoſturi.

45 Canys gwâg oedd Ieruſalem heb drigiolion fel anialwch, nid oedd neb oi phlant hi yn myned i mewn, nac yn dyfod allan, a'r cyſſegr oedd wedi ei ſathru, a meibion alltudion yn cadw 'r caſtell, lle-ty [oedd hi] i'r cenhedloedd, a'r hyfrydwch a dynnaſid ymmaith oddi wrth Iacob, a'r bibell a'r delyn a beidiaſent.

46 [A'r Iſraeliaid] a ymgaſclaſant yng-hyd, ac a ddaethant i Maſpha gyferbyn ag Ieruſalem, canys yr oedd lle ym-Maſpha o'r blaen i Iſrael i weddio.

47 Ac hwy a ymprydiaſant y diwrnod hwnnw, ac a wiſcaſant liain ſach, ac [a fwriaſant] lludw ar eu pennau, ac a rwygâſant eu dillad,

48 Ac a ledâſant lyfrau 'r gyfraith am y rhai yr oedd y cenhedloedd yn chwilio i orgraphu lluniau eu delwau ynddynt hwy.

49 Ac a ddugaſant ddillad yr offeiriaid, a'r pethau cyntaf-anedig, a'r degymmau, ac a gyffroaſant y Nazareiaid y rhai a gyflawnaſent [eu] dyddiau.

50 Ac a leſaſant â llef [vchel] tu a'r nef gan ddywedyd, pa beth a wnawn ni i'r rhai hyn? ac i ba le y dygwn ni hwy ymmaith?

51 Dy gyſſegr di a ſathred, ac a ddifwyned, a'th offeiriaid di ſy mewn galar a goſtyngiad.

52 Ac wele 'r cenhedloedd a ymgaſclaſant yn ein herbyn ni i'n deſtruwio ni, ti a wŷddoſt pa bethau y maent hwy yn eu bwriadu yn ein herbyn.

53 Pa fodd y gallwn ni ſefyll yn eu hwyneb hwy oddi eithr i ti ein cynnorthwyo ni?

54 Yna hwy a ganâſant âg vdcyrn, ac a waeddaſant â llef vchel.

55 Yna Iudas a oſododd gapteniaid ar y bobl, capteniaid ar fil, ar gant, ar ddec-a-deugain, ac ar ddêc.

56 Ac efe a ddywedodd wrth y rhai oeddynt yn adeiladu teiau, ac a briodaſent wragedd, ac a blannaſent win-llannoedd, a'r rhai ofnus am ddychwelyd o bob vn iw dŷ *yn ôl y gyfraith.

Deut.20.5.
Barn.7.3.

57 A'r llu a eſmudodd, ac a werſyllodd o'r tu deheu i Emmaus.

58 Ac Iudas a ddywedodd, ymwregyſwch, a byddwch wŷr gŵrol, a byddwch barod i ymladd y foru â'r cenhedloedd hyn y rhai a ymgaſclaſant yn ein herbyn ni, i'n deſtruwio ni a'n cyſſegr.

59 Canys gwell i ni feirw yn y rhyfel, na gweled drygfyd ein cenedl a'n cyſſegr.

60 Ond fel y byddo ewyllys [Duw] yn y nef, felly gwneled.

## PEN. IIII.

1 Iudas yn myned yn erbyn Gorgias, yr hwn oedd yn ei gynllwyn ef, 14 efe yn gwneuthur i Gorgias, ac iw lu ffoi, 28 Lyſias yn dyfod â llu o wyr i Iuda, 29 Iudas yn ei yrru ef allan, 43 Iudas yn glanhau'r Deml, ac yn cyſſegru 'r allor.

YNa Gorgias a gymmerod bum-mil o wŷr [traed,] a mil o wŷr meirch detholedig, ai lu efe a oſododd allan liw nôs,

2 Fel y galle efe ruthro i werſyll yr Iddewon ai taro hwy yn ddiſymmwth, a milwŷr y caſtell oeddynt yn ei dywyſo ef ar hyd y ffordd.

3 Pan glybu Iudas, efe a oſododd allan ei hun a'r gwŷr galluog gyd ag ef i daro llu y brenin yr hwn oedd yn Emmaus.

4 Ac yr oedd lluoedd etto wedi ymdannu oddi wrth y gwerſyll.

5 A Gorgias a ddaeth i werſyll Iudas liw nos, ac ni chafodd efe neb, ond efe ai ceiſiodd hwy yn y mynyddoedd, ac a ddywedodd, y maent hwy yn ffoi oddi wrthym ni.

6 Ond gyd ai dyddhau hi, Iudas a ymddangoſodd yn y maes, a thair mil o wŷr, ond nid oedd genddynt hwy na llurigau na chleddyfau fel yr ewyllyſient.

7 Pan welſont hwy werſyll y cenhedloedd yn gryf wedi ei wiſco mewn llurigau, a'r gwŷr meirch yn ei amgylchu, a'r rhai hynny wedi eu dyſcu i ryfela,

8 Yna Iudas a ddywedodd wrth y gwŷr y rhai oeddynt gyd ag ef, nac ofnwch eu lliosogrwydd hwy, ac nac ofnwch eu rhuthr hwy.

9 Coſiwch fel yr achubwyd ein henafiaid ni yn y môr côch, pan erlidiodd Pharao hwy â llu [mawr.]

10 Felly yr awran gadewch i ni leſain tu â'r nef [i edrych] a drugarhâo efe wrthym ni, ac a goffa efe ammod [ein] henafiaid, ac a ddryllia efe y gwerſyll hwn yn ein gŵydd ni heddyw.

11 Fel y gwyppo 'r holl genhedloedd fod a waredo, ac a achubo Iſrael.

12 Yna y dieithraid a godaſant eu golwg i fynu, ac ai canfuant hwy yn dyfod yn eu herbyn hwy.

13 Ac a ddaethant allan o'r gwerſyll i ryfela: â'r rhai oeddynt gyd ag Iuda a ganâſant vdcyrn.

14 Ac hwy a darawſant yng-hyd, â'r cenhedloedd a orchfyged, ac a ffoaſant i'r maes gwaſtad.

15 A'r holl rai diwethaf a laddwyd â'r cleddyf, ac hwy ai herlidiaſant hwy hyd ac Aſſaremoth, ac hyd at feuſydd Idumæa, ac Azot, ac Iamnia, ac yng-hylch teir-mil o wŷr o honynt hwy a laddwyd.

16 Ac Iudas a'r llu a ddychwelodd oi herlyd hwy.

17 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl, na chwennychwch yſpeilio, o blegit y mae rhyfel yn ein herbyn ni.

18 O blegit y mae Gorgias ai lu yn y mynydd yn agos attom ni, ond ſefwch yn awr yn erbyn ein gelynnion a gorchfygwch hwy, ac wedi hynny cymmerwch yr yſpail yn ddiogaſun.

19 Pan oedd Iudas etto yn dywedyd hyn, vn rhan [o honynt hwy] a welid yn edrych allan o'r mynydd.

20 Pan welodd [Gorgias] ffoi oi [blaid ef,]

a'r rhai oeddynt gyd ag Judas wedi lloſci y gwerſſyll (canys y mŵg yr hwn a welid a ddangoſodd yr hyn a wnaethid) a'r rhai a welſant hyn a ofnaſant yn ddirfawr.

21 A phan welſant hwy lu Juda yn y maes yn barod i ymladd,

22 Hwy a ffoeſant oll i wlâd y dieithraid.

23 Ac Judas a ddychwelodd i gymmeryd yſpail y gwerſſyll, ac a gymmerodd lawer o aur ac arian, a dillad o ſidan glâs, a phorphor y môr a chyfoeth mawr.

24 Felly hwy a aethant adref, ac a glodforaſant, ac a fendithiaſant Dduw nef, am ei fod efe yn ddaionus, ai drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

25 Ac felly Iſrael a gafodd fuddugoliaeth fawr y diwrnod hwnnw.

26 A'r cenhedloedd a ddiangaſent a ddaethant, ac a ddywedaſant i Lyſias bob peth a'r a ddigwyddaſe.

27 A Lyſias a ofnodd yn ddirfawr ac a ddigalonnodd am na ddigwyddaſe y cyfryw drychineb i Iſrael ac a fynnaſe efe, ac am na wneuthid iddo ef y cyfryw bethau ac a orchymynnaſe'r brenin.

28 A'r flwyddyn yr hon oedd yn canlyn, Lyſias a gaſclodd dri ugain mil o wŷr traed detholedic, a phum-mil o wŷr meirch i ryfela yn eu herbyn hwynt.

29 Ac hwy a ddaethāt i Idumæa, ac a werſſyllaſant yn Beth-ſura lle y daeth Judas yn eu herbyn hwy â deng-mil o wŷr.

30 A phan welodd efe werſſyll cyn gryfed,
1,Sam.17.50. efe a wnaeth ei weddi, ac a ddywedodd, bendigedic
wyt ti ô Achubwr Iſrael yr hwn a ddeſtruwiaiſt
1.Sam.14.13. ruthr y cawr trwy law Dafydd dŷ wâs,
ac a roddaiſt werſſyll y dieithraid yn llaw Jonathan
fab Saul, ac arwainydd ei arfau ef.

31 Cloa'r gwerſſyll hwn yn llaw dy bobl Iſrael, a chywilyddier hwy yn eu lliawſogrwydd ai gwŷr meirch.

32 Gwna iddynt hwy ofni, a thawdd eu hyfder hwy ai cadernid, fel y cynhyrfant hwy trwy eu deſtruw.

33 Taſl hwy i lawr â chleddyf y rhai ſy'n dy garu di: yna pawb a'r a adwaenant dy enw a'th glodfarant â hymnau.

34 Yna hwy a darawſant yng-hyd, a phum-mil o wŷr o werſſyll Lyſias a laddwyd.

35 Pan welodd Lyſias orchfygu ei wŷr, a gwrolaeth yr Iddewon, fel yr oeddynt hwy'n barod pa un bynnag ai i fyw, ai i farw fel gwŷr, efe a aeth i Anthioch, ac a ddetholodd ryfelwŷr, ac a feddyliodd eu caſclu hwy yng-hyd i ddyfod trachefn i Judæa.

36 Yna Judas a ddywedodd ai frodyr, wele, gorchfygwyd ein gelynnion, awn i fynu i lanhau, ac i adnewyddu y cyſſegr.

37 Wrth hyn yr holl lu a ymgaſclodd, ac hwy a aethant i fynu i fynydd Sion.

38 A phan welſant hwy y cyſſegr wedi ei anrheithio, yr allor wedi ei halogi, y dorau wedi eu lloſci, a'r manwydd yn tyfu yn y neuaddau fel mewn coed, neu ar y mynyddoedd, ac ſtafelloedd yr offeiriaid wedi eu deſtruwio:

39 Hwy a rwygaſant eu dillad, ac a alaraſant â galar mawr, ac a fwriaſant lludw ar eu pennau,

40 Ac a ſyrthiaſant i lawr ar eu hwynebau, ac a wnaethant ſŵn mawr ag uddcyrn, ac a weddiaſant tu a'r nef.

41 Yna Judas a orchymynnodd ei wŷr i ryfela yn erbyn y rhai oedd yn y caſtell, hyd oni ddarfydde iddo ef lanhau'r cyſſegr.

42 Ac efe a ddewiſodd offeiriaid diargyoedd y rhai oeddynt ewyllyſcar i'r gyfraith.

43 Ac hwy a lanhâſant y cyſſegr, ac a ddugaſant allan y cerric halogedic i le aflan.

44 A chan fod allor y poeth offrymmau wedi ei halogi, efe a ymgynghorodd beth a wnae efe iddi hi.

45 Felly efe a feddyliodd mai goref oedd ei deſtruwio hi rhag digwyddo iddi hi wneuthur cywilydd iddynt hwy, canys y cenhedloedd ai halogaſent hi: am hynny hwy a ddeſtruwiaſant yr allor.

46 Ac hwy a oſodaſant y cerric ar fynydd y tŷ mewn lle cyfaddas, hyd oni ddele prophwyd i fynegu pa beth a wneid â hwynt.

47 Ac hwy a gymmeraſant gerrig cyfan yn ôl y gyfraith, ac a adeiladaſant allor newydd fel yr oedd y gyntaf.

48 Ac a wnaethant y cyſſegr i fynu, a thu mewn y tŷ, ac a ſancteiddiaſant y cynteddau.

49 Ac a wnaethant leſtri ſanctaidd newydd, ac a ddygaſant y canhwyllbren, ac allor y poeth-offrymmau, yr arogl-aberthau a'r bwrdd i mewn i'r Deml.

50 Ac hwy a loſcaſant aroglau ar yr allor, ac a oleuaſant y canhwyllau y rhai oeddynt yn y canhwyllbren i loſci yn y Deml.

51 Ac hwy a oſodaſant y bara ar y bwrdd, ac a eſtynnaſant y llenni, ac a orphennaſant yr holl waith a wnaethent.

52 Ac ar y pummed dydd ar hugain o'r nawfed mîs (yr hwn a elwir mis Caſleu) yn yr wythfed flwyddyn a deugain a chant,

53 Hwy a godaſant yn foreu i fynu i aberthu yn ôl y gyfraith ar allor newydd y poeth offrymmau yr hon a wnaethent hwy.

54 Ar gyfer yr amſer ar diwrnod ac yr halogaſe y cenhedloedd hi, yn uniawn y goſoded hi i fynu o newydd, â chaniadau, â thelynau, â phibau ac â ſymbalau.

55 A'r holl bobl a ſyrthiaſant ar eu hwynebau, gan addoli a diolch i [Dduw] y nef ai llwyddaſe hwy.

56 Ac felly hwy a gadwaſant gyſſegriad yr allor wyth niwrnod gan offrymmu poeth-offrymmau a diolchoffrymmau mewn llawenydd.

57 Ac a harddaſant dalcen y Deml â choronau, ac â thariannau o aur, ac a ſancteiddiaſant

y pyrth a'r ſtafelloedd, ac a oſodaſant ddryſau arnynt hwy.

58 Ac yr oedd llawenydd mawr ym-mhlith y bobl am droi gwradwydd y cenhedloedd ymmaith.

59 Felly Iudas ai frodyr, a holl gynnulleidfa Iſrael a ordeiniodd gadw dyddiau cyſſegriad yr allor yn eu hamſerau yn vchel-wyl bob blwyddyn tros ŵyth niwrnod, gan ddechreu y pummed dydd ar hugain o'r mi's Caſleu trwy orfoledd a llawenydd.

60 Ac ar yr vn amſer hwy a adeiladaſant fynydd Sion i fynu â chaerau vchel, ac â thyrau cedyrn oddi amgylch rhag dyfod o'r cenhedloedd ai ſathru ef i lawr, fel y gwnaethent hwy o'r blaen. Am hynny [Iudas] a oſododd ryfelwŷr ynddo ef iw gadw ef, ac ai gwnaeth ef yn gadarn i gadw Beth-ſura, fel y cae yr bobl amddeffynfa yn erbyn yr Edomiaid.

## PEN. V.

3 Iudas yn gorchfygu y cenhedloedd y rhai oeddynt yn amcanu deſtruwio Iſrael, ac yn cael cymhorth gan ei frodyr Simon ac Ionathas. 50 Efe yn deſtruwio dinas Ephron am ei naccau o gennad i drammwy trwyddi hi.

DIgwyddodd hefyd pan glybu yr cenhedloedd oddi amgylch adeiladu yr allor a chyſſegru yr cyſſegr, fel yr oeddynt hwy o'r blaen, yna ddigio o honynt yn ddirfawr.

2 Am hynny hwy a ymgynghoraſant i ddeſtruwio cenhedl Iacob yr hon oedd yn eu plith hwy, ac a ddechreuaſant ladd ac erlid rhai o'r bobl.

3 Yna Iudas a ymladdodd yn erbyn plant Eſau yn Idumæa yn Arabathane, canys yr oeddynt hwy 'n trigo yn amgylch yr Iſraeliaid: ac efe a laddodd ac a yſpeiliodd dorf fawr o honynt hwy.

4 Efe a gofiodd hefyd falis ac anffyddlondeb plant Bean fel yr oeddynt hwy 'n rhwyd, ac yn rhwyſtr i'r bobl, ac yn eu cynllwyn hwy yn y ffyrdd:

5 Am hynny efe ai clôdd hwy i fynu mewn tyrau, ac a ddaeth attynt hwy, ac ai hamgylchodd hwy, ac ai deſtruwiodd hwy, ac a loſcodd eu tyrau hwy a phawb a'r oedd ynddynt hwy.

6 Wedi hynny efe a aeth yn erbyn plant Ammon, ac a gafodd lu cadarn, a llawer o bobl gyd â Thimothi eu capten hwynt.

7 Ac efe a darawodd ag hwynt mewn llawer o ryfeloedd, ac hwy a ddeſtruwied oi flaen ef.

8 Ac wedi iddo ef eu lladd hwy, efe a enillodd ddinas Gazer a'r trefydd yn perthynu iddi hi, ac a ddychwelodd i Iudæa.

9 Y cenhedloedd hefyd yn Galaad a ymgaſclaſant yn erbyn yr Iſraeliaid, y rhai oeddynt o fewn eu terfynau hwy iw lladd hwy, ond hwy a ffoâſant i gaſtell Dathema.

10 Ac a anfonaſant lythŷrau at Iudas ai frodyr gan ddywedyd, y cenhedloedd y rhai ſy o'n hamgylch ni a ymgaſclaſant yn eiu herbyn ni i'n deſtruwio.

11 Ac yrywan y maent hwy yn ymbaratoi i ddyfod ac i amgylchu'r caſtell lle y ffoaſom ni: a Thimothi ydyw capten eu gwerſſyll hwy.

12 Tyret gan hynny, a gwaret nyni allan oi dwylo hwy, canys llawer o honom ni a laddwyd euſus.

13 A'n holl frodyr y rhai oeddynt yn Tubin a laddwyd, ac a ddeſtruwiwyd yng-hylch mil o wŷr, a'r gelynnion a ddugaſant ymmaith yn gaethion eu gwragedd hwy ai plant, ai da.

14 Pan oedd y llythyrau hyn etto yn eu darllen, wele ganadon eraill a ddaethant o Galile wedi rhwygo eu dillad y rhai a fynegaſant yr vn fath newyddion,

15 Ac a ddywedaſant ymgaſclu o wŷr Ptolemais, a Thyrus a Sidon yn eu herbyn hwy, a llenwi holl Galilee â gelynnion i'n deſtruwio ni [eb hwynt.]

16 Pan glybu Iudas a'r bobl hyn ymma, cynnulleidfa fawr a ymgaſclodd i ymgynghori pa beth a wnaent hwy iw brodyr y rhai oeddynt mewn gorthymder, ac wedi eu hamgylchu gan eu gelynnion.

17 Ac Iudas a ddywedodd wrth Simon ei frawd, dewis allan wŷr, a dos i achub dy frodyr yn Galilee, ac myfi a'm brawd Ionathas a awn i wlâd Galaad.

18 Ac efe a adawodd Ioſephus fab Zachari, ac Azarias yn gaptenıaid ar y bobl, i gadw gweddill y llu yn Iuda.

19 Ac efe a orchymynnodd iddynt hwy gan ddywedyd, llywodraethwch y bobl ymma, a mogelwch oſod rhyfel yn erbyn y cenhedloedd hyd oni ddychwelom ni.

20 Ac fe a rannwyd teir mil o wŷr i Simon i fyned i Galilea, ond yr oedd ŵyth-mil o wŷr gan Iudas yn erbyn gwlâd Galaad.

21 Yna Simon a aeth i Galilea, ac a darawodd yng-hyd mewn llawer o ryfyloedd â'r cẽhedloedd, ac ai gorchfygodd hwy.

22 Ac efe ai canlynodd hwy hyd at byrth Ptolemais, ac yng-hylch teir mîl o wŷr o'r cenhedloedd a laddwyd.

23 Ac efe a gymmerodd eu hyſpail hwy, ac a ddygodd yr Iſraeliaid ymmaith y rhai oeddynt yn garcharorion yn Galilea, ac yn Arbatis, ai gwragedd, ai plant, ac ai dygodd hwy i Iudæa â llawenydd mawr.

24 Ac Iudas Macchabæus ai frawd Ionathas a aethant tros Iorddonen, ac a aethant daith tridiau yn yr anialwch.

25 I le y cyfarfuant hwy â'r Nabathaiaid, ac hwy ai derbyniaſant hwy yn heddychol, ac a fynegaſant iddynt hwy bob peth a'r a ddigwyddaſe iw brodyr hwy yng-wlâd Galaad.

26 Ac fel yr ymgylchaſid llawer o honynt hwy ym Maraſa, Boſor, Alimis, Caſcor, Maceda Charn aim dinaſoedd caerog mawrion ydyw y rhai hyn oll.

27 Ai bod wedi eu dal mewn dinaſoedd eraill o Gilead hefyd, ai bod hwy wedi bwriadu

dwyn llu o wŷr i'r dinaſoedd hyn iw dal hwy,ac i'w deſtruwio hwy oll yn yr vn dydd.

28 Ac ar hyn Judas ai lu a drôdd ar frys yn yr anialwch tu â Boſor,ac a ennillodd y ddinas, ac a lladdodd yr holl rai gwrywaid â'r cleddyf, ac a gymmerodd eu holl yſpail hwy,ac a loſcodd y ddinas â thân.

29 Ac hwy a ſymmudaſant oddi yno liwnos,ac a ddaethant tua'r caſtell.

30 A phan oedd hi yn foreu ddydd hwy a godaſant eu golwg i fynu,ac wele, lu anifeiriol o bobl yn codi yſtolion,ac offer-rhyfel i fynu i ennill y caſtell,ac i'w deſtruwio hwy.

31 Pan welodd Judas ddechreu o'r rhyfel, a gwaedd y ddinas yn derchafu tua'r nef gan vdcyrn,a llef vchel:

32 Efe a ddywedodd wrth ei lu, ymleddwch heddyw tros eich brodyr.

33 Ac efe a ddaeth o'r tu ôl iw gelynnion hwy mewn tair byddin, ac hwy a ganâſant yr vdcyrn,ac a lefaſant[ar Dduw]yn eu gweddi.

34 Pan wybu gwerſſyll Timotheus mai Macchabæus oedd yno,hwy a ffoâſant oddi wrtho ef,ond efe ai tarawodd hwy â dyrnod mawr, ac yng-hylch wyth-mil o wŷr a ladded o honynt hwy y diwrnod hwnnw.

35 Yna Judas a drodd tua Maſpha, ac ai hamgylchodd hi, ac ai hennillodd hi, ac a laddodd bôb gwryw ynddi,ac a gymmerodd ei hyſpail hi,ac ai lloſcodd hi â thân.

36 Efe a aeth oddi yno ac a ennillodd Caſbon, Maced, Boſor a'r dinaſoedd eraill yn Galaad.

37 Wedi hyn Timotheus a gaſclodd lu arall, ac a werſſyllodd o flaen Raphon o'r tu draw i'r afon.

38 Ac Judas a anfonodd i ſpio'r gwerſyll, ac hwy a ddygaſant air iddo ef gan ddywedyd, mae'r cenhedloedd y rhai ſy o'n hamgylch ni wedi ymgaſclu atto ef, ac mae'r llu yn lluoſog iawn.

39 Ac hwy a gyflogaſant yr Arabiaid iw cymmorth hwy,ac a werſſyllaſant o'r tu draw i'r afon,y maent hwy yn barod i ddyfod,ac i ymladd â chwi,ac Judas a aeth i gyfarfod â hwynt.

40 A Thimothi a ddywedodd wrth gapteniaid ei lu,pan ddelo Judas ai lu yn agos at yr afon, ôs daw efe troſodd yn gyntaf,ni allwn ni ei wrthwynebu ef,o blegit efe a fydd gwbl gadarnach nâ nyni.

41 Ond o's arſwyda efe ddyfod troſodd,a gwerſſyllu o'r tu draw i'r afon,nyni a awn troſodd atto ef, ac nyni a fyddwn gryfach nag ef.

42 Ond pan neſſaodd Judas at yr afon efe a oſododd ſcrifennyddion y bobl yng-lann yr afon,ac a orchymynnodd iddynt hwy gan ddywedyd,mogelwch adel vn dŷn o'r tu ymma i'r afon,ond deued pawb i'r rhyfel.

43 Ac efe a aeth troſodd yn gyntaf attynt hwy ai holl bobl ar ei ôl ef, a'r holl genhedloedd a orchfyged ger ei fron ef, ac hwy a daſlaſant eu harfau ymmaith,ac a ffoaſant i'r deml yr hon oedd yn Carnaim.

44 Ac Judas a ennillodd y ddinas, ac a loſcodd y deml a phawb âr oedd ynddi hi, felly y gorchfyged Carnaim,ac ni allodd hi wrthwynebu Judas.

45 Ac Judas a gaſclodd yr holl Iſraeliaid y rhai oeddynt yn Galaad o'r lleiaf hyd y mwyaf,ai gwragedd hwy ai plant ai mud,gwerſſyll mawr iawn, i ddyfod i wlâd Juda.

46 Ac hwy a ddaethant i Ephron yr hon oedd ddinas fawr gadarn iawn,ffordd y deuid i mewn, nid oedd fodd iddynt hwy i fyned heb ei llaw hi, nac ar y llaw ddehau, nac ar y llaw aſſwy, ond myned trwy ei chanol hi.

47 Etto y dinaſſyddion ai caeaſant hwynt allan,ac am hynny hwy a gaeaſant y pyrth â cherric,ac Judas a ddanfonodd attynt hwy â geiriau heddychol gan ddywedyd,

48 Gedwch i ni fyned trwy eich gwlâd chwi fel y gallom fyned i'n gwlâd ein hun,ac ni chaiff neb wneuthur i chwi ddrwg,nid awn ni trwodd ond ar [illegible] ni fynnēt hwy agoryd iddo ef.

49 Am hynny Judas a orchymynnodd gyhoeddi yn y gwerſſyll,a ruthro o bôb vn o'r lle y bydde ynddo.

50 Ac felly gwŷr y llu a ruthrâſant, ac a ryfelaſant yn erbyn y ddinas yr holl ddiwrnod hwnnw,a'r holl noſon honno,a'r ddinas a roddwyd yn ei law ef.

51 Ac efe a laddodd yr holl rai gwrywaid â mîn y cleddyf, ac a ddiwreiddiodd y ddinas,ac a gymmerodd ei hyſpail hi,ac a dramwyodd trwy 'r holl ddinas a'r draws y rhai a laddaſſid.

52 Yna hwy a aethant tros Jorddonen i'r maes gwaſtad yr hwn oedd ar gyfer Bethſam.

53 Ac Judâs oedd yn caſclu yng-hyd y rhai olaf,ac yn rhoddi cynghorion da i'r bobl rhyd yr holl ffordd,hyd oni ddaeth efe i wlâd Juda.

54 Ac hwy a aethant i fynu i fynydd Sion mewn gorfoledd,a llawenydd, ac a offrymmaſant boeth offrymmau,am na laddaſid neb o honynt hwy oni ddychwelaſāt hwy yn heddychol.

55 Ac yn y dyddiau hynny y rhai yr oedd Judas ac Jonathas yng-wlâd Galaad, a Simō eu brawd hwy yng-wlâd Galilea gyferbyn â Ptolemais,

56 Yna Joſephus mâb Zachari, ac Azarias capteniaid y llu a glywſant y gweithredoedd ardderchawg a'r rhyfeloedd a wnaethid, ac a ddywedaſant,

57 Gedwch i ninnau hefyd ennill enw i ni ein hunain,a myned i ymladd yn erbyn y cenhedloedd y rhai ſy o'n hamgylch ni.

58 Ac hwy a roddaſant orchymyn i'r rhai a oeddynt yn y llu, yr hwn oedd gyd â hwynt,ac a aethant tu ag Jamnia.

59 Yna Gorgias ai wŷr a ddaeth allan o'r ddinas i ymladd yn eu herbyn hwy.

60 Ond Joſeph, ac Azarias a ymlidiwyd hyd terfynau Juda, a dwy fil o wŷr o bobl Iſra-

el a laddwyd y diwrnod hwnnw, oni bu trueni mawr ym-mhith pobl Iſrael.

61 A'r cwbl, am na wrandawſent hwy ar Judas ai frodyr gan ſeddwl gwneuthur gwrolaeth.

62 Etto nid oeddynt hwy o hâd y gwŷr hynny y rhai a achubodd Iſrael.

63 Ond y gwr Judas ai frodyr hefyd a gannolid yn fawr ger bron yr holl Iſraeliaid a'r holl genhedloedd, pa le bynnac y clywid eu henwi hwy.

64 A'r bobl a ymgaſcle attynt hwy iw croeſawu hwy.

65 Wedi hynny Judas ai frodyr a aethant allan, ac a ryfelaſant yn y wlâd ſy yn gorwedd tu âr dehau yn erbyn meibion Eſau, ac yno efe a oreſcynnodd y ddinas ai phentrefydd, ac a lloſcodd y caerau a'r tyrau oi hamgylch hi.

66 Yna efe a ymadawodd i fyned i wlâd y dieithriaid, ac a aeth trwy Samaria.

67 Ar yr vn amſer y lladdwyd [llawer o] offeiriaid y dinaſoedd y rhai oeddynt yn ewyllyſio gwneuthur gwrolaeth wrth fyned o honynt i ymladd heb gyngor.

68 A phan ddaeth Juda i Azotus yng-wlâd y dieithriaid, efe a ddeſtruwiodd eu hallorau hwy, ac a loſcodd luniau eu duwiau hwy, ac a gymmerodd yſpail y dinaſoedd, ac a ddychwelodd i wlâd Juda.

## PEN. VI.

1 Antiochus yn ewyllyſio ennill dinas o fewn Elymais iw hyſpeilio, a'r dinaſſyddion yn ei yrru ef ymmaith. 8 Efe yn clafychu, ac yn marw. 17 Gwneuthur Antiochus ei fab yn frenin. 34 Hwnnw yn amgylchu Sion, Eupator yn dyfod i Iudea â llu mawr. 43 Gwrolaeth Elcazar.

AC Antiochus y brenin a dramwyodd trwy 'r gwledydd vchaf, ac a glybu fod yn Elymais o fewn Perſia ddinas anrhydeddus o olud [ſef] o arian ac aur.

2 A bod teml gyfoethog iawn ynddi hi, a gwiſcoedd, a llurigau, a thariãnau o aur y rhai a adawſe Alexander mab Philip brenin Macedonia yno, yr hwn a deyrnaſaſe o'r blaen a'r y Groec-wŷr.

3 Am hynny efe a aeth, ac a geiſiodd ennill y ddinas ai hyſpelio hi, ond ni alle efe, o blegit cael o'r dinaſyddion ŵybod y peth, ac am hynny hwy a godaſant yn ei erbyn ef i ryfel.

4 Ond efe a ffôdd, ac a ymadawodd oddi yno mewn triſtwch mawr, ac a ddychwelodd i Babilon.

5 Hefyd rhyw vn a ddaeth, ac a fynegodd iddo ef yn Perſia, ymlid ymmaith y gwerſylloedd y rhai a aethent i wlâd Juda,

6 Ac fel yr aethe Lyſias â llu cadarn yn gyntaf, ac yr ymlidieſid ef oi blaen hwynt, ac fel yr aethent hwy yn gryfach o ran arfau a llu, ac yſpail lawer y rhai a gymmeraſent hwy oddi ar y gwerſylloedd a doraſent hwy ymmaith.

7 Ac fel y deſtruwiaſent hwy 'r ffiaiddbeth yr hwn a adeiladaſe efe ar yr allor yn Jeruſalẽ, ac yr amgylchaſent hwy 'r cyſſegr â chaerau vchel fel y buaſe efe o'r blaen, a Bethſura ei ddinas ef hefyd.

8 Felly y digwyddodd pan glybu y brenin y geiriau hyn efe a ofnodd, ac a gythruddodd yn ddirfawr: am hynny efe a orweddodd ar ei wely, ac a ſyrthiodd mewn clefyd oddi wrth y triſtwch hwnnw, a'r cwbl am na ddigwyddaſe iddo ef fel yr amcanaſe efe.

9 Ac efe a arhôdd yno lawer o ddyddiau, canys ei driſtwch ef oedd fwyfwy, ac efe a wnaeth gyfrif y bydde efe farw.

10 Am hynny efe a ddanfonodd am ei holl garedigion, ac a ddywedodd wrthynt hwy, mae 'r cyſcu wedi ymadel â'm llygaid, ac mi a dorrais fyng-halon o wir ofid.

11 O blegit pan feddyliwyf yn fyng-halon i ba drallod y deuthym, ac ym-mha afonydd o drymder yr ydwyf yrywan, lle 'r oeddwn i o'r blaen yn llawen, ac yn gariadus yn fy awdurdod,

12 Ac yrywan yr ydwyf yn coffio 'r drwg a wneuthym i yn Jeruſalem, fel y dygais i ymmaith yr holl leſtri aur, ac arian a oedd ynddi hi, ac fel y danfonais i ddeſtruwio trigolion Juda yn ddiachos.

13 Mi wn mai am hynny y cefais y drwg ymma, ac wele darfu am danaf fi trwy alaeth mawr mewn gwlâd ddieithr.

14 Yna efe a alwodd am Philip vn oi garedigion, ac ai goſododd ef yn llywodraeth-wr ar ei holl deyrnas,

15 Ac a roddes iddo ef ei dalaeth, ai fantell, ai fodrwy, fel y galle efe gymmeryd Antiochus ei fab ef atto, ai ddwyn ef i fynu i deyrnaſu.

16 Ac Antiochus y brenin a fu farw yno yn y nawfed flwyddyn a deugain a chant.

17 Pan ŵybu Lyſias farw o'r brenin, efe a oſododd Antiochus ei fab ef i deyrnaſu yn ei lê ef, yr hwn a ddygaſe efe i fynu, ac ai galwodd ef Eupator.

18 A'r rhai oeddynt yn y caſtell [yn Jeruſalem] a gadwaſant yr Iſraeliaid i mewn yn amgylch y cyſſegr, ac a geiſiaſant eu drygu hwy yn waſtadol, er mwyn cadarnhau 'r cenhedloedd.

19 Am hynny yr amcanodd Judas eu deſtruwio hwy, ac efe a gaſclodd yr holl bobl yng-hyd iw hamgylchynu hwy.

20 Felly hwy a ddaethant yng-hyd, ac ai hamgylchynaſant hwy yn y ddecfed flwyddyn a deugain a chant, ac a wnaethant leoedd ir taſl-wŷr i ſefyll a rhyfel-offer.

21 Yna rhai o'r rhai yr oeddyd yn eu hamgylchu a aethant allan, ſef o'r gwŷr annuwiol o Iſrael, ac a lynâſant wrthynt hwy hefyd.

22 Ac a aethant at y brenin, ac a ddywedaſant, pa hŷd y byddi di heb wneuthur coſpedigaeth a dialedd ar ein brodyr ni?

23 Yr oeddem ni yn fodlon i waſanaethu dy dâd ti, i rodio fel y dywede efe, ac i vfyddhau

iw orchymynnion ef.

24 Am hynny ein pobl a ymddieithraſant oddi wrthym ni, a pha le bynnac y cawſant hwy neb o honom ni hwy ai lladdaſant hwy, ac hwy a yſpeiliaſant ein etifeddiaeth ni.

25 Ac nid eſtynnaſant hwy eu dwylo yn unic yn ein herbyn ni, ond yn erbyn ein holl gyffiniau.

26 Ac wele y maent hwy wedi gwerſyllu heddyw yn erbyn y caſtell yr hwn ſydd yn Jeruſalem i'w oreſcyn ef, a hwy a gadarnhaſant y cyſſegr, a Bethſura.

27 Ac o ddigerthi ti achub eu blaen hwy yn fuan, hwy a wnant bethau mwyn nâ'r rhain, fel na's gellech di eu hattal hwy.

28 Pan glybu'r brenin hynny, efe a ddigiodd, ac a gaſclodd ei holl garedigion yng-hyd, capteiniaid ei lu ai [holl wŷr traed] ai wŷr meirch.

29 Yna y daeth atto ef oddi wrth frenhinoedd eraill, ac o ynyſoedd y môr lu ar gyflog.

30 A rhifedi ei lu ef oedd gan-mil o wŷr traed, ac ugein mil o wŷr meirch, a deuddec ar hugain o elephantiaid wedi eu dyſcu i ryfela.

31 Y rhai a ddaethant trwy Idumæa i Bethſura, ac a werſyllaſant yn ei herbyn hi tros lawer o ddyddiau, ac a oſodaſant allan lawer o ryfel offer yn ei herbyn hi, ond [yr Iddewon] a ddaethant allan, ac a loſcaſant y rheini â thân, ac a ymladdâſant fel gwŷr.

32 Yna Judas a ymadawodd oddi wrth y caſtell, ac a werſyllodd yn Bethzacaran gyferbyn a gwerſyll y brenin.

33 A'r brenin a gyfododd yn fore, ac a ddygodd y llu ar ruthr i'r ffordd tua Bethzacaran: a'r llu a ymcannodd i ryfela, ac a ganodd udcyrn.

34 Ac hwy a ddangoſaſant ſugyn grawnwin, a mor-wŷdd i'r elephantiaid i'w hannog hwy i'r rhyfel.

35 Ac a rannaſant yr anifeiliaid ym myſc y byddinoedd, ac a ordeiniaſant fil o wŷr wedi eu gwiſco mewn llurigau o fodrwyau, ac â helmau o brês am eu pennau i bob elephant, a phump cant o wŷr meirch etholedic a ordeineid hefyd i bob elephant.

36 Y rhai a galynent 'r elephant, gan fyned i ba le bynnac yr ele efe, ac ni ymadawent hwy oddi wrtho ef.

37 A phob elephant a orchguddiaſid â thŵr cadarn o goed wedi ei ſiccrhau arno ef ag offer, ac yr oedd deuddec ar hugain o ryfel-wŷr ag arfau i ymladd oddi arno ef ym-mhob tŵr, a gŵr o India [i lywodraethu]'r anifail.

38 Ac efe a oſododd weddill y gwŷr meirch yn yr yſtlyſau yn ddwy ran ag udcyrn i annog, ac i gynhyrfu y rhai diweddaraf o'r llu.

39 A phan dywynne yr haul ar eu tariannau hwy o aur, y mynyddoedd a ddiſcleirient oddi wrthynt hwy, ac oeddynt cyn loewed a flam dân.

40 A'r naill ran o werſyll y brenin oedd yn cyrheddyd hyd at y mynyddoedd uchel, a'r llall hyd at y lleoedd iſel, ac felly hwy a aethant yn ddiofal ac mewn trefn.

41 A holl trigolion y wlâd a ſynnâſant wrth glywed ſŵn eu gwerſyll hwy, a therddediad y llu a'r arfau yn taro yng-hyd, canys yr oedd y llu yn fawr anianol ac yn gadarn.

42 Judas hefyd ai lu a neſſaodd i'r rhyfel, ac a laddodd chwe-chant o wŷr o werſyll y brenin.

43 Pan welodd Eleazar mab Aharon un o'r elephantiaid wedi ei wiſco â llurig y brenin, ac yr oedd efe yn uwch na'r anifeiliaid eraill, efe a feddyliodd mai ar hwnnw yr oedd y brenin.

44 Am hynny efe a ymroes i achub ei bobl, ac i ennill iddo ei hun enw tragywyddol.

45 Am hynny efe a redodd yn galonnog at yr elephant hwnnw trwy ganol y fyddin, ac ai lladdodd hwy ar y llaw ddehau, ac ar y llaw aſſwy, oni ymwahanaſont hwy oddi wrtho ef o bob tu.

46 Ac efe a aeth at draed yr elephant, ac a ymoſododd tano ef, ac ai lladdodd ef: yna 'r elephant a ſyrthiodd i lawr arno ef, ac efe a fu farw yno.

47 Ond pan welodd Judas ai wŷr gadernid y brenin a rhuthr y lluoedd, hwy a giliaſant oddi wrthynt hwy.

48 A'r rhai oeddynt o werſyll y brenin a aethant i fynu yn eu herbyn hwy tu ag Jeruſalem, fel y galle'r brenin werſyllu yn erbyn Juda a mynydd Sion.

49 Hefyd y brenin a wnaeth heddwch rhyngddo a'r Bethſuriaid, ond pan ddaethant hwy allan o'r ddinas (am nad oedd ganddynt hwy borthiant yno i ymgadw ynddi hi o blegit ei bod hi yn Sabboth i'r tir)

50 Y brenin a gymmerodd Bethſura, ac a oſododd wŷr iw chadw hi, ac a drôdd ei lu tu a'r cyſſegr,

51 Ac efe a oſododd ryfel wrtho ef tros lawer o ddyddiau, ac a wnaeth yno bôb math ar ryfel-offer, bwâu a gwaith i ſeuthu tân, a gwaith i ſeuthu cerrig, ſcorpionau i ſeuthu ſaethau o a thaflau.

52 Yr Iddewon hefyd a wnaethant ryfel-offer yn eu herbyn hwythau, ac a ymladdaſant yn hir o amſer.

53 Ond nid oedd mor bwyd yn y ddinas o blegit y ſeithfed flwyddyn oedd hi et pan ddechreuaſe y rhyfeloedd, âr cenhedloedd y rhai a drigaſent o fewn Juda a fwyttaſent eu holl ſtôr hwy.

54 Ac ni adawſid ond ychydig wŷr yn y cyſſegr, o blegit newyn ai gorchfygodd hwy oni thynnaſant hwy ymmaith pob un iw le ei hun.

55 Pan glybu Lyſias fod Philip (yr hwn a oſodaſe Antiochus y brenin pan oedd efe etto yn

fyw i ddwyn Antiochus ei fab i fynu i deyrnaſu)

56 Wedi dyfod trachefn o Perſia, a Media â llu 'r brenin, ai fod efe yn ceiſio ymyrryd â matterion y frenhiniaeth,

57 Yna hwy a fryſiaſant, ac hwy a annogwyd o'r caſtell i fyned a dywedyd wrth y brenin a chapteniaid y llu a'r gwŷr [eraill:] yr ydym ni yn deffygio beunydd, ac nid oes gennym ni ond ychydig borthiant, drachefn y lle yr ydym ni yn ei amgylchu ſy gadarn, ac angenrheidiol ydyw i ni gymmeryd gofal am y deyrnas.

58 Am hynny cymmodwn a'r gwŷr hyn, a gwnawn heddwch rhyngom â hwynt, ac âi holl bobl hwy:

59 A chaniatawn iddynt hwynt fyw yn ôl eu cyfraith, fel yr oeddynt hwy o'r blaen, canys y maent hwy wedi eu cythruddo: a hyn oll a wnaethāt hwy yn ein herbyn ni am ddiyſtyru o honom ni eu cyfreithiau hwynt.

60 A'r brenin a'r tywyſogion a fuant fodlon, ac a ddanfonaſant attynt hwy i gynnig heddwch, ac hwy ai derbynniaſant.

61 A'r brenin a'r tywyſogion a dyngaſant iddynt hwy, ac ar hynny hwy a ddaethant allan o'r caſtell.

62 A'r brenin a aeth i fynu i fynydd Sion, ond pan welodd efe gadernid y lle, efe a dorrodd y llw a dyngaſe efe, ac a orchymynnodd ddeſtruwio y caerau oddi amgylch.

63 Yna efe a ymadawodd ar frŷs, ac a ddychwelodd i Antioch, ac a gafodd Philip yn arglwyddiaethu ar y ddinas, ac a ymladdodd ag ef, ac a oreſcynnodd y ddinas wrth gryfder.

## PEN. VII.

1 Demetrius yn teynaſu wedi iddo ef ladd Antiochus a Lyſias. 5 Efe yn blino plant Iſrael trwy gyngor dynion drygionus. 37 Gweddi yr offeiriaid yn erbyn Nicanor. 41 Iudas yn lladd Nicanor.

YN yr unfed flwyddyn ar ddêc a deugain a chant, Demetrius mab Seleucus a ddaeth o Rufain ag ychydic wŷr i ddinas yng-lann y môr, ac a deyrnaſodd yno.

2 A phan ddaeth efe i frenhin-dŷ ei henafiaid, ei lu ef a ddaliaſant Antiochus a Lyſias iw dwyn atto ef.

3 A phan ŵybu efe hynny, efe a ddywedodd, na ddangoſwch i mi eu hwynebau hwy.

4 A'r llu ai lladdodd hwynt, a Demetrius a eiſteddodd ar orſeddfa ei frenhiniaeth.

5 Yna dynion drigionus annuwiol o Iſrael a ddaethant atto ef, ac Alcimus oedd eu capten hwy, yr hwn oedd yn chwennychu bod yn offeiriad.

6 A'r rhain a gyhuddaſant y bobl wrth y brenin gan ddywedyd, Iudas ai frodyr a laddaſant dy garedigion, ac a'n gyrraſant ni allan o'n gwlâd.

7 Am hynny danfon ryw ŵr credadwy yrywan i fyned, ac i weled yr holl ddeſtruw a wnaeth efe arnom ni, ac ar wlâd y brenin, ac iw goſpi ef ai gymhorth-wŷr.

8 Yna 'r brenin a ddewiſodd Bacchides caredig y brenin gŵr galluoc yn y deyrnas yn llywodraethu o'r tu draw i'r afon, ac yn ffyddlon i'r brenin, ac ai danfonodd ef.

9 Ac efe a wnaeth Alcimus annuwiol yn arch-offeiriad, ac a orchymynnodd iddo ef ddial ar blant Iſrael.

10 Ac hwy a ymadawſant [oddi wrth y brenin] ac a ddaethant â llu mawr i wlâd Iuda, ac a ddanfonaſant genadon at Iudas ai frodyr, ac a ddywedaſant eiriau heddychol yn dwyllodrus wrthynt hwy.

11 Am hynny ni chredodd Iudas ai bobl iw geiriau hwy: canys hwy a welſant ddyfod o honynt hwy â llu mawr.

12 Wedi hyn cynnulleidfa o'r ſcrifennyddion a ymgaſclodd at Alcimus a Bacchides i geiſio ammodau rhesymmol.

13 A'r Aſidaiaid oedd y rhai cyntaf ymmhlith plant Iſrael a geiſiaſant heddwch gandynt hwy,

14 Gan ddywedyd, o hâd Aarō y daeth rhyw offeiriad â llu, ac ni wna efe gam â nyni.

15 Ac efe a roes eiriau heddychol iddynt hwy, ac a dyngodd wrthynt hwy gan ddywedyd, ni wnawn ni ddrwg i chwi, nac i'n caredigion.

16 Ac hwy ai credaſant ef, ond efe a ddaliodd dri ugeinwr o honynt hwy y diwrnod hwnnw, ac ai lladdodd hwy yn ôl y geiriau a ſcrifennodd [Dafydd.]

17 Hwy * a daflaſant gnawd dy ſainct di, ac a dywalltaſant eu gwaed hwy o amgylch Ieruſalem, ac nid oedd neb ai cladde hwynt. Pſalm.79.2.

18 Ac ofn mawr a dychryn a ddaeth ar yr holl bobl gan ddywedyd, nid oes na gwirionedd na chyfiawnder ynddynt hwy, o blegit hwy a dorraſant y llw a'r ammod a wnaethant hwy.

19 A Bacchides a yſmudodd ei lu o Ieruſalem, ac a werſyllodd yn Beth-zecha, ac a ddanfonodd allan oddi yno, ac a ddaliodd lawer o'r bobl, ac ai taflodd hwy i glawdd mawr.

20 Yna efe a orchymynnodd y wlâd i Alcimus, ac a adawodd ryfel-wŷr gyd ag ef iw gymhorth ef, a Bacchides ei hun a aeth at y brenin.

21 Ac felly Alcimus a ymegniodd am yr arch-offeiriadaeth.

22 A'r holl rai oeddynt yn cythryblu y bobl a ymgaſclaſant atto ef, ac a ennillaſant wlâd Iuda, ac a wnaethāt ddrwg mawr i'r Iſraeliaid

23 Pan welodd Iudas yr holl ddrwg a wnaethe Alcimus, a'r rhai oeddynt gyd ag ef i'r Iſraeliaid, mwy nag a [wnaethe] yr cenhedloedd,

24 Efe a dramwyodd trwy holl derfynau Iuda oddi amgylch, ac a wnaeth ddialedd ar y gwŷr anffyddlon a ffoaſent ymmaith, oni pheidiaſant hwy a dyfod mwy i'r wlâd.

25 Pan welodd Alcimus fod Iudas a'r rhai oeddynt gyd ag ef yn drêch nag y galle efe eu haros hwy, efe a ddychwelodd at y brenin, ac ai cyhuddodd hwynt o ddrygioni.

26 Yna 'r brenin a ddanfonodd Nicanor un o'i dywyſogion pennaf yr hwn oedd yn caſau, ac yn dwyn gelyniaeth i Iſrael, ac a orchymynnodd iddo ef ddeſtrywio 'r bobl yn llwyr.

27 A Nicanor a ddaeth i Jeruſalem â llu mawr, ac a ddanfonodd eiriau heddychol at Judas ai frodyr ond trwy dwyll, gan ddywedyd,

28 Na fydded rhyfel rhyngof â chwychwi, mi a ddeuaf ag ychydig wŷr i weled eich wynebau chwi yn heddychol.

29 Felly efe a ddaeth at Judas, ac hwy a gyfarchaſant ei gilydd yn heddychol, ond yr oedd gelynion yn barod i gippio Judas i ffordd.

30 Etto hyſpyſwyd y peth i Judas, mai trwy dwyll y daethe efe atto ef: am hynny efe a darfwyd oddi wrtho ef, ac ni fynne efe edrych yn ei wyneb ef mwy.

31 Pan wybu Nicanor ddatcuddio ei fwriad ef, efe a aeth allan i ymladd yn erbyn Judas, yn ymyl Capharſalama.

32 Ac yng-hylch pump mîl o wŷr o lu Nicanor a laddwyd, a'r [llaill] a ffoaſant i ddinas Dafydd.

33 Wedi hyn Nicanor a aeth i fynu i fynydd Sion a rhai o'r offeiriaid, ac henaduriaid y bobl a aethant allan o'r cyſſegr i gyfarch iddo ef yn heddychol, ac i ddangos iddo ef y poeth offrymmau yr oeddyd yn eu hoffrwm tros y brenin.

34 Ond efe a chwarthodd am eu pennau hwy a'r bobl, ac ai gwatworodd hwy, ac a halogodd eu hoffrymmau hwy, ac a ddywedodd yn drahaus.

35 Ac efe a dyngodd yn ei ddig gan ddywedyd, oni roddir Judas ai werſyll yn fy-nwylo i, pan ddychwelwyf mewn heddwch, myfi a loſcaf y tŷ ymma: ac efe a aeth allan mewn digllonedd mawr.

36 Yna 'r offeiriaid a ddaethant i mewn, ac a ſafaſant o flaen allor y Deml, gan wylo a dywedyd,

37 O Arglwydd, ti a ddewiſaiſt y tŷ ymma, i alw ar dy enw di ynddo ef, ac i fod yn dŷ gweddi, ac ymbil i'th bobl.

38 Gwna ddialedd ar y gŵr hwn ai werſyll, oni ladder hwy â'r cleddyf, coffa eu cabledigaethau hwy. ac na ddioddef iddynt hwy barhau

39 A Nicanor a aeth allan o Jeruſalem, ac a werſyllodd yn Bethoron, ac yno llu o Syria a gyfarfu ag ef.

40 Ac Judas a werſyllodd yn Adaſa a thair-mîl o wŷr, ac a wnaeth ei weddi gan ddywedyd,

1.Bren.19.35. 41 O Arglwydd, am gablu o'r rhai a ddaethent oddi wrth y brenin dydi, yr angel a aeth allan, ac a laddodd gant a phump a phedwar ugain o filoedd o honynt hwy.

42 Deſtrywia felly y gwerſyll hwn o'n blaen ni heddyw, fel y gallo pobl eraill wybod, fel y dywedodd efe yn ddrwg am dy gyſſegr di, a choſpa ef yn ôl ei ddrygioni.

43 A'r gwerſylloedd a darawſant yng-hyd y trydydd dydd ar ddêc o'r mis Adar, a llu Nicanor a orchfyged, ac efe ei hun a ladded yn gyntaf yn y rhyfel.

44 Pan welodd rhyfelwŷr Nicanor ei ladd ef, hwy a daflaſant eu harfau ymmaith, ac a ffoaſant.

45 Ond [yr Iddewon] ai hymlidiaſant hwy daith un diwrnod, o Adaſa nes dyfod i Gazera, ac a ganaſant mewn udcyrn, gan ddangos arwyddion ar eu hôl hwynt.

46 A'r [Iddewon] a ddaethant allan o'r holl drefi Judea oddi amgylch, ac ai herlidiaſant hwy, ac hwy a droaſant yn eu herbyn hwynt, felly y lladded hwy oll â'r cleddyf, ac ni adawed neb o honynt hwy, naddo un.

47 Yna hwy a gymmeraſant yr yſpail, a'r ſclyfaeth, ac a dorraſant ben Nicanor ymmaith, ai law ddeheu ef, yr hon a eſtynnaſe efe allan cyn falched, ac ai dygaſant hi ymmaith gyd â hwy, ac ai crogaſant hi i fynu o flaen Jeruſalem.

48 Am hynny 'r bobl a lawenychaſant yn ddirfawr, ac a fwriaſant y diwrnod hwnnw trwy orfoledd mawr.

49 Ac Judas a ordeiniodd gadw y diwrnod hwnnw [ſef] y trydydd dydd ar ddêc o'r mis Adar yn ŵyl bob blwyddyn.

50 Ac felly gwlad Juda a gafodd heddwch tros ychydig amſer.

## PEN. VIII.

2 Iudas gan yſtyrio gallu a godidogrwydd llywodraeth y Rhufein-wyr, ſydd yn gwneuthur heddwch â hwy,
22 Llythyr y Rhufeinwyr yr hwn a ddanfoned at yr Iddewon.

IUdas hefyd a glybu ſôn am y Rhufein-wŷr eu bod hwy yn alluoc, ac yn wŷr cedyrn, ac yn fodlon i bob peth a oſodid attynt hwy, ac yn gwneuthur heddwch â phawb a'r oeddynt yn cyrchu attynt hwy, ai bod hwy yn nerthol o gryfder,

2 Heb law hyn, eu rhyfeloedd hwy ar gwroliaeth a wnaethent hwy yn Galatia, a fynegwyd iddynt hwy, ac fel y gorchfygaſent hwy y Galatiaid, ac y dygaſent hwy hwynt tann deyrn-ged,

3 A phara bethau a wnaethent hwy yng-wlad Hyſpaen, ac fel yr ennillaſent hwy y mwyn-gloddiau arian ac aur y rhai oeddynt yno trwy eu doethineb ai harafaidd ymwreddiad,

4 Ac fel yr ennillaſent bob lle trwy eu doethineb ai dioddefgarwch, er pelled fydde y lle oddi wrthynt hwy, fel y gorchfygaſent, ac y lladdaſent hwy y brenhinoedd a ddaethent yn eu herbyn hwy o eithaf y ddaiar, ac fel yr oedd pobl eraill yn talu teyrn-ged iddynt hwy bob blwyddyn,

5 Ac fel y lladdaſent, ac y gorchfygaſent hwy Philip, a Pherſeus brenin y Macedoniaid, ac eraill mewn rhyfel, y rhai a ymgodaſent yn eu herbyn hwy,

6 Fel y gorchfygaſent hwy Antiochus fawr

brenin Aſia, yr hwn a fynnei ymladd ag hwynt, ac yr oedd ganddo ef chw'eigain o Elephantiaid, a gwŷr meirch a cherbydau, a llu mawr iawn,

7 Ac fel y daliaſent hwy ef yn fyw, ac yr ordeiniaſent hwy iddo ef, ac i'r rhai a deyrnaſe ar ei ôl ef, dalu teirn-ged fawr iddynt hwy, a rhoddi meichiau a gwyſtlon iddynt hwy hefyd,

8 Fel y dygaſent hwy oddi arno ef wlad India a Media a Lydia, ei wledydd goref ef, ac y rhoddaſent hwy y rheini i'r brenin Eumenes.

9 Hefyd, pan wybuont hwy fod y Groec-wŷr yn dyfod iw blino hwy,

10 Y danfonaſant hwy gapten â llu yn eu herbyn hwy, ac a ryfelaſant â hwy, a lladdaſant lawer o honynt hwy, a chaethgludaſant eu gwragedd hwy ai plant, ac yſpeiliaſant hwy, ac a gymmeraſant feddiant yn eu tîr hwy, ac a ddeſtruwiaſant eu dinaſoedd cedyrn hwy, ac ai daroſtyngaſant hwy i fod yn gaeth-wŷr iddynt hyd y dydd heddyw:

11 Ac fel y darfaſe iddynt hwy ddeſtruwio a caethiwo teyrnaſoedd, ac ynyſoedd eraill, y rhai a fuaſe gynt yn eu gwrthwynebu hwy,

12 Ac fel yr oeddynt hwy yn cadw cydymdeithas ai cydymdeithion, ac â'r rhai oeddynt wedi gwneuthur ammodau â hwynt, ac fel yr ennillaſent hwy deyrnaſoedd ym mhell, ac yn agos, a bod pawb yn eu hofni hwy a'r a glywſe ſon am danynt hwy.

13 O blegit pwy bynnac a chwennychent hwy eu cymhorth i deyrnaſu, y rhai hynny oeddynt yn teyrnaſu, ac i bwy bynnac ni chwennychent hwy deyrnaſu, y rhai hynny a ddiſwyddaſid, ac fel yr oeddynt hwy wedi dyfod i oruchafiaeth.

14 Ac nad oedd ganddynt hwy un brenin yn eu plith er hynny, na neb yn gwiſco porphor iw fawrygu felly,

15 Ond gwneuthur o honynt hwy gynghor iddynt eu hunain, lle yr oedd trychant, ac ugain yn eiſtedd beunydd i ymgynghori, ac i ddiweddu matterion y bobl, ac iw cadw mewn trefn dda,

16 Ac fel yr oeddynt hwy yn ymddyried i un gŵr bob blwyddyn i gymmeryd llywodraeth oi holl dir hwy, i'r hwn yr oedd pawb yn ufydd, ac felly nid oedd na chenfigen nac ammeu yn eu plith hwy.

17 Yna Iudas a ddewiſodd Eupolemus fab Ioan, fab Accos, ac Iaſon fab Eleazar, ac ai danfonodd hwy i Rufain i wneuthur caredigrwydd a chydymdeithas â hwynt,

18 Fel y gallent hwy dynnu iau [y Groeg-wŷr] oddi arnynt hwy: o blegit yr Iddewon a welſant fod y Groeg-wŷr yn chwennychu daroſtwng teyrnas Iſrael.

19 Ac hwy a aethant i Rufain, ac yr oedd y ffordd yn bell iawn, ac aethant i mewn i dŷ'r cyngor, ac a ddywedaſant,

20 Iudas Machabæus ai frodyr a phobl yr Iddewon a'n danfonodd ni attoch chwi, i ymrwymmo mewn ammodau o gydymdeithas a heddwch a chwy-chwi, ac i chwithau ein ſcrifẽnu ninnau yn gydymdeithion, ac yn garedigion i chwithau.

21 Ac yr oedd y chwedl ymma yn rhyngu bodd iddynt yn dda iawn.

22 Ac dymma goppi o'r ſcrifen a orgraphodd [y cyngor] mewn llechau prês, ac ai danfonaſant hwy i Ieruſalem, fel y bydde coffadwriaeth gyd â hwy o'r heddwch, ac o'r gydymdeithas honno.

23 Duw a gadwo y Rhufein-wŷr a phobl yr Iddewon ar fôr, ac ar dir, a phell fyddo'r cleddyf a'r gelyn oddi wrthynt hwy yn dragywydd

24 Os daw rhyfel yn gyntaf yn erbyn y Rhufein-wŷr nac yn erbyn neb oi cydymdeithion hwy, trwy eu holl arglwyddiaeth hwy,

25 Pobl yr Iddewon ai cymhorthant hwy, fel y gofynno'r amſer ag ewyllys da,

26 Ac ni roddant, ac ni ddanfonant iw gelynnion hwy na bwyd, nac arfau, nac arian, na llongau: ond hwy a gadwant eu hammodau, fel y rhyngo bodd i'r Rhufein-wŷr, heb geiſio dim ganddynt hwy am hynny.

27 Trachefn os digwydd i bobl yr Iddewon yn gyntaf gaffael rhyfel, y Rhufein-wŷr a ymladdant gyd â hwy o ewyllys da, fel y dioddefo yr amſer.

28 Ac ni roddant hwy i elynnion yr Iddewon na bwyd nac arfau, nac arian na llongau fel hyn y mae'r Rhufein-wŷr yn fodlon i wneuthur, ac i gadw'r ammodau hyn yn ddidwyll.

29 Yn ôl y geiriau hyn y gwnaeth y Rhufein-wŷr yr ammod â'r Iddewon.

30 Ac os ewyllyſia yr un o'r ddwy blaid a hyn allan oſod at, neu dynu oddi wrth y geiriau hyn, gwnant o gytundeb, a pha beth bynnac a oſodant hwy attynt hwy, neu a dynnant hwy oddi wrthynt hwy, hynny a ſaif.

31 Ac am y drwg a wnaeth Demetrius i'r Iddewon, ni a ſcrifennaſom atto ef gan ddywedyd, pa ham y goſodaiſt ti dy iau trwm ar ein caredigion ni a'n cydymdeithion yr Iddewon?

32 Os achwynant hwy rhagot ti wrthym ni trachefn, nyni a wnawn gyfiawnder, ac a ymladdwn â thi ar fôr a thir.

## PEN. IX.

1 Wedi marwolaeth Nicanor Demetrius yn danfon ei lu yn erbyn Iudas, 18 lladd Iudas, 34 dewis Ionathas yn lle ei frawd, 47 ymladd rhwng Ionathas a Bacchides, 55 Alcimus yn ſyrthio yn y parlys mud, ac yn marw, Bacchides yn dychwelyd at y brenin, 68 ac yn dyfod trachefn yn erbyn Ionathas trwy gynghor rhai drygionus, ac yn colli 'r maes, 70 heddwch rhwng Ionathas a Bacchides.

A Phan glybu Demetrius orphen o Nicanor ai lu y rhyfel, efe a aeth rhagddo, ac a ddanfonodd Bacchides, ac Alcimus trachefn i Iuda, a chadernid ei lu gyd ag ef.

2 Ac hwy a aethant allan rhyd y ffordd ſydd yn myned tua Galgala, ac a werſyllaſant o flaen Maſaloth, yr hon ſy yn Arbelis, ac a ennillaſant

ſant y ddinas, ac a laddaſant lawer o bobl.

3 Y mîs cyntaf o'r ddeuddecfed flwyddyn a deugain a chant, hwy a werſyllaſant, ac a amgylchynaſant Jeruſalem.

4 Ond gan gyfodi y gwerſyll i fynu hwy a ddaethant i Berea, ag vgain-mil o wŷr traed a dwy-fil o wŷr meirch.

5 Judas yntef a werſyllaſe yn Eleaſa, a thair mil o wŷr detholedig.

6 A phan welſant hwy luoſogrwydd y llu arall, ei fod efe cymmaint, hwy a ofnaſant yn ddirfawr, a llawer a dynnaſant allan o'r gwerſyll, ac nid arhôdd yno ond wyth-cant o wŷr.

7 Pan welodd Judas fod ei lu ef wedi cilio yna y bu flin ganddo y rhyfel, ac efe a dorrodd ei galon o eiſieu caffael amſer iw caſclu hwy yng-hyd ac a lwfrhaodd.

8 Etto efe a ddywedodd wrth y rhai a drigaſent gyd ag ef, cyfodwn ac awn yn erbyn ein gelynion, nid hwyrach i ni allu ymladdd â hwynt.

9 Ond hwy a fynnaſent ei attal ef gan ddywedyd, ni allwn ni, am hynny achubwn ein heinioes, dychwel yn awr, canys ein brodyr a giliaſant: a ymladdwn ni yn eu herbyn hwy, a nin nau cyn anamled?

10 Yna Judas a ddywedodd, na adawo Duw i ni ffoi oddi wrthynt hwy: am hynny os ein hamſer ni a ddaeth, gedwch i ni farw fel gwŷr tros ein brodyr, ac na adawn fai yn y byd ar ein anrhydedd.

11 A'r llu a aeth allan o'r gwerſyll, ac a ſafodd yn eu herbyn hwy, a'r gwŷr meirch a gyfranned yn ddwy ran: y taflyddion a'r ſaethyddiō a gerddaſant o flaen y llu, a'r gwŷr cedyrn oll oeddynt yn blaenori y llu.

12 A Bacchides ei hun oedd yn yr adain ddehau i'r rhyfel, a'r fyddin a neſſaodd yn ddwy blaid, ac a ganaſant yr vdcyrn.

13 Gwŷr Judas a ganaſant yr vdcyrn hefyd, a'r ddaiar a gynhyrfodd wrth dwrf y lluoedd: ac hwy a darawſant yng-hyd o'r boreu hyd y nôs.

14 A phan welodd Judas fod llu Bacchides yn gryfach yn y tu dehau, efe a gymmerodd yr holl wŷr calonnog gyd ag ef,

15 Ac a ddrylliodd adain ddehau eu byddin hwy, ac ai herlidiodd hwy hyd fynydd Azot.

16 Pan welodd y rhai oeddynt yn yr adain aſſwy yr adain ddehau wedi ei dryllio, hwy a galynaſant Judas aei wŷr wrth eu ſodlau.

17 Ac yna yr oedd y rhyfel yn frwd, o blegit llawer a laddwyd, ac a archollwyd o'r ddwy blaid.

18 Judas hefyd ei hun a laddwyd, a'r llaill a ffoâſant.

19 Ac Jonathas a Simon a gymmeraſant Judas eu brawd, ac ai claddaſant ef ym medd ei dad yn ninas Modin.

20 A holl bobl Iſrael a wnaethant farw-nad mawr am dano ef, ac a alaraſant yn hir gan ddywedyd,

21 Pa fodd y lladdwyd y gŵr galluoc a achubodd yr Iſraeliaid?

22 Ond ni ſcrifennwyd y pethau eraill y rhai oeddynt yn perthynu i ryfeloedd Judas, ai weithredoedd ardderchog ef, ai fawredd ef, canys llawer oeddynt hwy.

23 Wedi marwolaeth Judas dynion drygionus a gyfodaſant o fewn holl derfynau Iſrael, a phawb a'r oeddynt yn gwneuthur anheilyngdod.

24 Yr oedd drudaniaeth mawr yn y wlad y dyddiau hynny, a'r holl wlad a ymadawodd â hwynt.

25 A Bacchides a ddewiſodd wŷr annuwiol, ac ai gwnaeth hwy yn arglwyddi ar y wlad.

26 Y rhai hynny a geiſiaſant, ac a chwiliaſant am garedigion Judas, ac ai dygaſant hwy at Bacchides, ac efe a ddialodd arnynt hwy, ac ai gwatworodd hwy yn ddirfawr.

27 A chyſtudd mawr a ddigwyddodd ar yr Iſraeliaid, ac ni buaſe y fath er pan na welſid prophwyd yn eu plith hwy.

28 A holl garedigion Judas a ymgaſclaſant, ac a ddywedaſant wrth Jonathas,

29 Yn gymmaint a marw dy frawd Judas, ac nad oes neb tebyg iddo ef i fyned allan yn erbyn ein gelynnion, yn erbyn Bacchides, ac yn erbyn caſedigion ein cenedl ni,

30 Am hynny yr ydym ni yn dy ddewis di heddyw yn ei le ef, i fod yn dywyſog, ac yn gapten i ni, i ymladd allan ein rhyfel ni.

31 Ac Jonathas a gymmerodd y dywyſogaeth arno yr amſer hwnnw, ac a lywodraethodd yn lle Judas ei frawd.

32 Pan ŵybu Bacchides hynny, efe a geiſiodd ei ladd ef.

33 Ond pan ŵybu Jonathas a Simon ei frawd hynny, hwy a ffoâſant i anialwch Thecoe a phawb a'r oedd gyd â hwy, ac a werſyllaſant wrth ddwfr llyn Aſphar.

34 Pan ddeallodd Bacchides hynny, efe a ddaeth aei holl lu tros yr Jorddonen ar y dydd Sabboth.

35 Ac [Jonathas] a ddanfonaſe ei frawd [Joan] capten y bobl, i ddymuno ar ei garedigion y Nabuthaiaid, gaffael o honynt hwy adel eu hoffer gyd â hwy iw cadw, o blegit yr oedd llawer ganddynt hwy.

36 Ond plant Jambri a ddaethant allan o Medaba, ac a ddaliaſant Joan, a'r holl bethau oeddynt ganddo ef, ac a aethant ymmaith â hwynt wedi eu cael.

37 Yna gair a ddaeth at Jonathas a Simon ei frawd, fod plant Jamri yn gwneuthur neithior fawr, ac yn dwyn y ferch o Medaba a mawredd mawr, o blegit merch oedd hi i vn o bennaethiaid mawrion Canaan.

38 Yna hwy a gofiaſant Joan eu brawd, ac a aethant i fynu, ac a ymguddiaſant yng-hyſcod y mynydd.

39 Ac hwy a godaſant eu golwg i fynu, ac a edrychaſant., ac wele, yr oedd cynnulleidfa a pharodrwydd mawr: canys y priodaſ-fab a ddaethe allan ai garedigion, ac ai frodyr iw cyfarfod hwy, â thympánau ag offer cerdd, ac ag arfau lawer.

40 Yna Ionathas a'r rhai oeddynt gyd ag ef a godaſant i fynu allan oi llocheſau yn eu herbyn hwy, ac a lladdaſant lawer o honynt hwy, a'r lleill a ffoâſant i'r mynyddoedd, ac hwy a gymmeraſant eu holl yſpail hwy.

41 Felly 'r briodas a droed i alar, a llais eu cerdd hwy i farw-nad.

42 Ac felly wedi iddynt hwy ddial gwaed eu brawd, hwy a ddychwelaſant i oror yr Iorddonen.

43 Pan glybu Bacchides hynny, efe a ddaeth i lan yr Iorddonen â llu mawr ar y dydd Sabboth.

44 Ac Ionathas a ddywedodd wrth y rhai oeddynt gyd ag ef, cyfodwn heddyw i fynu, ac ymladdwn am ein heneidiau, canys nid ydym heddyw yn ſefyll yn yr vn cyflwr ac yr oeddem ni er ys dyddiau.

45 Wele y mae 'r rhyfel ar ein cyfer ni, ac ar ein hôl, a dwfr yr Iorddonen o'r naill du, a ſuglennydd a choedydd o'r tu arall, ac nid oes i ni le i gilio.

46 Am hynny gwaeddwch yr awran tu a'r nef, fel yr achuber chwi o law eich gelynion: ac felly hwy a darawſant yng-hyd.

47 Ac Ionathas a eſtynnodd allan ei law i daro Bacchides, ond efe a ffödd yn ei wrthgefn.

48 Yna Ionathas a'r rhai oeddynt gyd ag ef a neidiaſant i'r Iorddonen, ac a nofiaſant troſodd i'r lann draw: ond nid aei 'r lleill tros yr Iorddonen ar eu hôl hwy.

49 Ac yng-hylch mil o wŷr Bacchides a laddwyd y diwrnod hwnnw.

50 Am hynny Bacchides ai lu a ddychwelodd i Ieruſalem, ac a adeiladodd i fynu y ceſtill a'r noddfeudd cedyrn oedd yn Iuda, Iericho, Bethel, Thamnaſa, Pharathoni, a Thepo, â chaerau vchel, â phyrth, ac â barrau.

51 Ac hwy a oſodaſant wŷr ynddynt hwy iw cadw hwy, ac i wneuthur gelyniaeth ag Iſrael.

52 Efe a adailadodd gaerau yng-hylch y ddinas Bethſura, Gazara, a'r caſtell, ac a oſododd wŷr a bwyd ynddynt hwy.

53 Efe a gymmerodd hefyd feibion pennaethiaid y wlad yn ŵyſtlon, ac ai goſododd hwy yn y caſtell yn Ieruſalem iw cadw.

54 Wedi hynny yn y drydedd flwyddyn ar ddêc a deugein a chant, yr ail mîs, Alcimus a orchymynnodd iddynt hwy ddeſtruwio caerau cyntedd y cyſſegr oddi mewn, ac efe a dynnodd i lawr, ac a ddechreuodd ddeſtruwio gwaith y prophwydi.

55 Ond [Duw] a blagiodd Alcimus yr amſer hwnnw, ac ſi tarawodd ef a'r paralys, ai orchwyl ef a rwyſtred, ai enau ef a gaewyd, fel na's galle efe ymddiddan mwy, na gorchymyn neb yng-hylch ei dŷ.

56 Ac Alcimus a fu farw yr amſer hwnnw mewn trueni mawr.

57 Pan welodd Bacchides farw Alcimus efe a ddychwelodd at y brenin, a gwlâd Iuda a gafodd lonyddwch ddwy flynedd.

58 Yna 'r holl wŷr annuwiol a ymgynghoráſant gan ddywedyd, wele y mae Ionathas ai wŷr mewn eſmwythdra, ac yn trigo mewn diofalwch, am hynny dygwn Bacchides ymma yn awr, ac efe ai deil hwy oll mewn vn noſwaith.

59 Ac felly hwy a aethant at a ymgynghorâſant ag ef.

60 Ac efe a gododd i ddyfod â llu mawr, ac a ddanfonodd lythyrau yn ddirgel at ei holl gyfeillion y rhai oeddynt yn Iuda, i ddal Ionathas a'r rhai oeddynt gyd ag ef: ond ni allent hwy, oblegit y lleill a wybuant eu bwriad hwy.

61 Ac Ionathas a ddaliodd ddéc a deugain o wŷr y wlad, y rhai oeddynt flaenorwŷr iddynt hwy, ac ai lladdodd hwy.

62 Yna Ionathas a Simon a'r rhai oeddynt gyd â hwy a aethãt ymmaith i ddinas Bethbaſi, yr hon ſydd yn yr anialwch, ac a adnewyddaſant yr hyn a ſyrthiaſe o honi hi, ac ai cadarnhaodd hi.

63 Pan ŵybu Bacchides hyn, efe a gaſclodd ei holl lu, ac a ddanfonodd air i'r rhai oeddynt yn Iudæa.

63 Yna efe a ddaeth ac a werſyllodd yn erbyn Bethbaſi, ac a ymladdodd yn ei herbyn hi lawer o ddyddiau, ac a wnaeth offer rhyfel.

65 Ac Ionathas a adawodd ei frawd Simõ yn y ddinas, ac a aeth allan i'r wlâd, ac a ddaeth â rhyfedi [o wŷr.]

66 Ac a laddodd Odomiras ai frodyr, a meibion Phaſiron yn eu lluest, ac felly efe a ddechreuodd gryfhau a chynnyddu mewn gallu.

67 Simon yntef a'r rhai oeddynt gyd ag ef a aethant allan o'r ddinas, ac a loſcaſant yr offer rhyfel,

68 Ac a ymladdaſant yn erbyn Bacchides, ac ai gorchfygaſant ef, ac ai cyſtuddiaſant ef yn ddirfawr, am fod ei fwriad ai ymdaith ef yn ofer.

69 Am hynny efe a fu llidiog wrth y gwŷr annuwiol ai cynghoraſent ef i ddyfod iw gwlâd, ac a laddodd lawer o honynt hwy, yna efe a amcanodd fyned ymmaith iw wlad ei hun.

70 Pan ŵybu Ionathas hynny, efe a ddanfonodd genadon atto ef, i wneuthur heddwch rhyngddo ag ef, ac i roddi iddynt hwy y carcharorion.

71 A Bacchides a gyduunodd i hynny, ac a wnaeth fel yr oedd ei ddymuniad ef, ac a dyngodd hefyd na wnai efe niwed fyth iddo ef holl ddyddiau ei enioes.

72 Ac a adferodd iddo ef yr holl garcharo-

rion a ddaliaſe efe o wlad Juda, ac yna efe a ddychwelodd ac a aeth ymmaith iw wlad ei hun, ac ni ddaeth efe mwy i'w terfynau hwynt.

73 Ac felly pan dynned y rhyfel allan o Iſrael Jonathas a drigodd ym-Machmas, a phan ddechreuodd Jonathas farnu 'r bobl, efe a ddiwreiddiodd y rhai annuwiol allan o Iſrael.

## PENNOD. X.

4 Demetrius yn dymuno heddychu ag Jonathas. 18. Alexander yn ceiſio heddwch gan yr Iddewon. 48. Alexander yn rhyfela yn erbyn Demetrius. 50. Lladd Demetrius. 51 cyfeillach Ptolomeus ag Alexander.

YN yr wyth ugeinfed flwyddyn, Alexander mab Antiochus y pendefig a ddaeth, ac a ennillodd Ptolemais, a'r dinaſſyddion ai derbyniaſant ef, ac efe a dyrnaſodd yno.

2 Pan glybu Demetrius hynny, efe a gaſclodd lu mawr anfeidrol, ac a aeth allan iw gyfarfod ef i ryfela.

3 Am hynny Demetrius a ddanfonodd lythyrau at Jonathas â geiriau heddychol, ac ai canmolodd ef yn fawr.

4 Canys efe a ddywedodd: nyni a wnawn dangnheddyf â hwynt yn gyntaf, cyn ymrwymo o honaw ef ag Alexander yn ein herbyn ni.

5 Os amgen efe a gofia yr holl ddrwg a wnaethom ni yn ei erbyn ef, yn erbyn ei frodyr a'i bobl.

6 Ac efe a roddes awdurdod i Jonathas i gaſclu llu o wŷr, i wneuthur arfau, ac i ymrwymo mewn ammodau ag ef, ac efe a orchymynnodd roddi y gwyſtlon y rhai oeddynt yn y caſtell iddo ef.

7 Yna Jonathas a ddaeth i Jeruſalem, ac a ddarllenodd y llythyrau, lle yr oedd yr holl bobl a'r rhai oeddynt yn y caſtell yn clywed.

8 Ac hwy a ofnaſant yn ddirfawr pan glywſant hwy roddi o'r brenin awdurdod iddo ef i gaſclu llu.

9 Ac felly y gwyſtlon a roddwyd i Jonathas, ac efe ai adferodd hwy iw tadau ai mãmau.

10 Jonathas hefyd a drigodd yn Jeruſalem ac a ddechreuodd adailadu, ac adnewyddu y ddinas.

11 Ac efe a orchymynnodd i'r gwaith-wŷr adailadu caerau di hamgylch hi a mynydd Sion â cherrig nâdd, i fod yn lle cadarn: ac felly y gwnaethant hwy.

12 A'r cenhedloedd y rhai oeddynt yn y ceſtill a wnaethe Bacchides a ffoaſant.

13 A phob un a adawodd ei le, ac a aeth ymmaith iw wlad ei hun.

14 Rhai o'r Iddewon a arhoaſant yn Bethſura yn unic, y rhai a wrthodaſent gyfraith a gorchymyn Duw, o blegit honno oedd eu noddfa hwy.

15 Pan glywodd Alexander y brenin yr addewidion a wnaethe Demetrius i Jonathas, a phan fynegaſant hwy iddo ef y rhyfeloedd, a'r boen a gymmeraſent hwy,

16 Efe a ddywedodd, pa le y cawn ni y fath wŷr: gan hynny, nyni ai gwnawn ef yn garwr ac yn gydymmaith i ni.

17 Ac ar hyn efe a ſcrifennodd lythyr atto efo 'r geiriau hyn.

18 Y mae 'r brenin Alexander yn cyfarch ei frawd Jonathas.

19 Ni a glywſom am danat ti dy fod ti yn wr galluog nerthol, ac yn gymmwys i fod yn un o'n caredigion ni,

20 Am hynny nyni a'th oſodaſom di heddyw yn arch-offeiriad ar dy bobl, ac i'th alw yn garedig-ddyn i'r brenin (ac efe a ddanfonodd wiſc o borphor, a choron o aur iddo ef) ac i ystyrio y pethau ſy i ni, ac i gadw caredigrwydd â nyni.

21 Ac Jonathas a wiſcodd y wiſc ſanctaidd am dano, y ſeithfed mis o'r wyth ugeinfed flwyddyn ar uchelwyl y pebyll, yna efe a gaſclodd lu, ac a baratôdd lawer o arfau.

22 Pan glywodd Demetrius y geiriau hyn, efe a dristâodd yn ddirfawr.

23 Ac a ddywedodd: Pa ham y gwnaethom ni hyn, pan ragflaene Alexander nyni, yn ceiſio cyfundeb â'r Iddewon iw amddeffyn ei hun.

24 Etto myfi a ſcrifennaf yn garedic attynt hwy, ac myfi a addawaf godiad a rhoddion iddynt hwy, fel y byddent hwy yn gymhorthwyr i ni.

25 Ac efe a ſcrifennodd y geiriau hyn attynt hwy: y brenin Demetrius ſydd yn cyfarch pobl yr Iddewon.

26 Yn gymmaint a chadw o honoch chwi yn ein cyfeillach ni, heb wyro at ein gelynion ni, pan glywſom ni a lawenychaſom.

27 Am hynny parhewch a byddwch ffyddlon i ni, ac nyni a dalwn i chwi yn dda am y pethau a wnaethoch chwi yn ein plaid ni.

28 Ni a faddeuwn i chwi lawer o ddyledion, ac ni a roddwn i chwi roddion.

29 Ac yn awr yr ydwyf yn eich rhyddhau chwi a'r holl Iddewon oddi wrth deyrn-ged, yr ydwyf yn maddeu i chwi y caledigaethau o halen, ac yn eich rhyddhau chwi oddi wrth tre[illegible] o goronau, ac oddi wrth y drydedd ran hâd,

30 Ac oddi wrth yr hanner o ffrwyth coed, yr hwn ſydd ddyledus i mi, yr ydwyf fi yn eu maddeu hwy o'r dydd heddyw allan, fel na's cymmerer hwy o wlad Juda, nac o'r tair talaith a fwried attynt hwy allan o Samaria a Galilea, o'r dydd heddyw allan yn dragywydd.

31 Bydded Jeruſalem hefyd ai therfynau yn ſanctaidd, ac yn rhydd oddi wrth ddegymmau ac ardrethion.

32 Ac am feddiant y caſtell yr hwn ſydd yn Jeruſalem, yr ydwyf yn ei ollwng, ac yn ei roddi ef i'r arch-offeiriad, fel y galle efe oſod ynddo ef y cyfryw wŷr, ac a ddewiſo efe iw gadw ef.

33 Ac yr ydwyf yn rhad, yn gollwng yn rhydd bob perchen enaid o ddyn o'r Iddewon a gaethgluded o wlad Juda i'm teyrnas i: a ma-

ddeued pawb eu teirn-ged hwy, a'r anifeiliaid ſy yn perthynu iddynt hwy.

34 A'r holl uchelwyliau, a'r Sabbothau a'r lloerau newydd, y dyddiau arſeredic, tridiau ym mlaen, ac yn ôl yr wyl a gânt fod yn ddydiau o rydd-did a maddeuant i'r holl Iddewon yn fy nheyrnas i.

35 Ac ni chaiff neb awdurdod i ymyrryd ar, nac i flino neb o honynt am ddim.

36 Dewiſer hefyd o'r Iddewon i fod o lu y brenin yng-hylch deng-mil ar hugain o wŷr, a rhodder iddynt roddion fel y mae yn weddus [rhoddi] i bawb o lu y brenin.

37 Goſoder hefyd o honynt hwy rai yng-heſtill mwyaf y brenin, a rhai o'r rhain a oſodir ar negeſau y brenin, y rhai ydynt o ymddyried, bydded hefyd y rhai ſyddant arnynt hwy, ac yn dywyſogion, o honynt hwy, a rhodiant yn eu cyfraith eu hun, megis y gorchymynnodd y brenin yn nhîr Iuda.

38 Chwaneger hefyd at Iuda y tair dinas a roddwyd o wlâd Samaria at Iudæa iw cyfrif yn un, fel nad ufuddhaont awdurdod neb arall ond yr arch-offeiriad.

39 Ptolemais ai chyffiniau yr ydwyf fi yn ei rhoddi yn rhodd i'r cyſſegr yr hwn ſydd yn Ierusalem, at gymheſur draul y cyſſegr.

40 Ac yr wyf fi yn rhoddi bob blwyddyn bymtheng-mil o ſiclau arian o gyfrif y brenin, allā o'r lleoedd y rhai ydynt yn perthynu i mi ef

41 A'r hyn ſydd yng-weddill heb iddynt eu rhoddi wrth raid, megis yn y blynyddoedd o'r blaen, o hyn allan rhoddant at waith y deml.

42 Ac heblaw hyn y pum-mil ſicl o arian y rhai a gymmeraſant hwy allan o raid y cyſſegr o'r cyfrif bob blwyddyn yr ydys yn maddeu hynny, am eu bod hwy yn perthynu i'r offeiriaid y rhai ydynt yn gwaſanaethu.

43 A phwy bynnag a ffoant i'r deml yr hon ſydd yn Ierusalem, a phwy bynnag yn ei holl gyffiniau ef y mae y brenin yn dylu iddynt ar-drech neu ddim arall, maddeuer iddynt, a'r hyn oll ſydd iddynt yn fy nheyrnas i.

44 Ac fel yr adailader, ac y cyweirier gwaith y cyſſegr, fe a roddir traul hefyd o gyfrif y brenin.

45 Felly y rhoddir traul o gyfrif y brenin i adailadu caerau Ierusalem, ac iw cadarnhau o amgylch, ac i adailadu y caerau yn Iuda.

46 Ond pan glybu Ionathas a'r bobl y geiriau ni roddaſant goel iddynt, ac ni's derbyniaſant: canys hwy a gofiaſant y mawr ddrygioni a wnaethe efe yn Israel, ac mor ddirfawr y cyſtuddiaſe efe hwynt.

47 Am hynny y cydunwyd ag Alexander, o blegit efe a fuaſe iddynt yn dywyſog heddychlon, ac hwy a ryfelaſant gyd ag ef [eu] holl ddyddiau.

48 A'r brenin Alexander a gaſclodd lu mawr, ac a werſyllodd yn erbyn Demetrius.

49 Felly y ddau frenin a gydiaſant mewn rhyfel, a llu Demetrius a ffôdd, a Alexander ai herlidiodd ef, ac ai gorchfygodd hwynt.

50 Eithr y rhyfel a fu gryf hyd fachludiad haul, a lladdwyd Demetrius y dydd hwnnw.

51 Ac Alexander a anfonodd gennadau at Ptolomeus brenin yr Aipht gan ddywedyd yn ôl y geiriau hyn:

52 Gan ddychwelyd o honof i dir fy mrenhiniaeth, ac eiſtedd ar orſedd-faingc fy nhadau, a chael y dywyſogaeth, a difetha Demetrius, ac ennill ein gwlâd:

53 A chydio o honof ag ef mewn câd, a difetha o honom ni ef ai lu, ac eiſtedd ar orſedd-faingc ei deyrnas ef,

54 Yn awr bellach gwnawn gyfeillach rhyngom, ac yr awron dod ti i mi dy ferch yn wraig, ac mi a fyddaf ddaw i ti, ac a roddaf i ti, ac iddi hithe roddion addas i ti.

55 A'r brenin Ptolomeus a attebodd gan ddywedyd: da [yw 'r] dydd yn yr hwn y dychwelaiſt i dir dy henafiaid, ac yr eiſteddaiſt ar orſedd-faingc eu brenhiniaeth hwynt.

56 Ac yr awron mi a wnaf i ti yr hyn a ſcrifennaiſt, eithr tyret i gyfarfod i Ptolemais, fel y gwelom ei gilydd, ac mi a fyddaf chwegrwn i ti fel y dywedaiſt.

57 Felly yr aeth Ptolomeus allan o'r Aipht, efe a Chleopatra ei ferch, ac hwy a ddaethant i Ptolemais yr ail flwyddyn a thrugain a chant.

58 A'r brenin Alexander ai cyfarfu ef, yntef a roddes ei ferch Cleopatra iddo ef, ac a wnaeth ei neithior ef yn Ptolemais mewn gogoniant mawr fel brenhinoedd.

59 A'r brenin Alexander a ſcrifennodd at Ionathas i ddyfod i gyfarfod ag ef.

60 Ac efe a aeth i Ptolemais yn ogoneddus, ac a gyfarfu a'r ddau frenin, ac a roddes arian, ac aur iddynt hwy ai caredigion a rhoddion lawer, ac efe a gafodd ffafr yn eu golwg hwynt.

61 A gwŷr ſceler o Israel [ſef] gwŷr annuwiol a ymgaſclaſant yn ei erbyn ef i achwyn arno ef: ond ni wrandawodd y brenin arnynt hwy.

62 Eithr y brenin a archodd ddioſc Ionathas oi ddillad, ai wiſco ef â phorphor, ac hwy a wnaethant felly.

63 A'r brenin a wnaeth iddo eiſtedd gyd ag ef, ac a ddywedodd wrth ei dywyſogion: ewch allan gyd ag ef i ganol y ddinas, a chyhoeddwch na achwyno neb yn ei erbyn ef am ddim matter, ac na flino neb ef am un achos.

64 A phan welodd y rhai oeddynt yn achwyn ei ogoniant ef, pa fodd y cyhoeddaſid, ac yntef wedi ei wiſco â phorphor, hwy a ffoaſant oll.

65 A'r brenin ai anrhydeddodd ef, ac ai ſcrifennodd ef ym myſc ei gyfeillion pennaf, ac ai goſododd ef yn flaenor, ac yn gyd dywyſog.

66 Ac Jonathas a ddychwelodd i Jeruſalem yn heddychlon, ac yn llawen.

67 Ac yn y bummed flwyddyn a thrugain a chant y daeth Demetrius mab Demetrius o Creta i dir ei henafiaid.

68 A'r brenin Alexander a glybu, ac a driſtaodd yn ddirfawr, ac efe a ddychwelodd i Antiochia.

69 A Demetrius a oſododd Apolonius yr hwn oedd ar Cæloſyria [yn flaenor,] ac efe a gaſclodd lu mawr, ac a werſyllodd yn Jamnia, ac a anfonodd at Jonathas yr arch-offeiriad gan ddywedyd,

70 Ai tydi dy hunan a ymddercheſi i'n herbyn ni : minne a euthym yn watwargerdd ac yn wradwydd o'th achos di, am dy fod yn cymmeryd awdurdod i'n herbyn ni yn y mynyddoedd.

71 Am hynny yn awr os ydwyt yn ymddiried yn dy lu, tyret i wared attom ni i'r maes, ac yno ymgyſtadlwn ai gilydd, canys y mae gennifi lu dinaſoedd.

72 Gofyn, a dyſc pwy ydwyfi, a'r lleill y rhai ydynt yn ein helpio ni : ac nid oes (meddant) fodd i droed ſefyll yn ein hwyneb ni : oblegit dy henafiaid a ffoâſant ddwy waith yn eu gwlad eu hun.

73 Ac yr awron ni elli di aros y fath feirch a llu yn y maes, lle nid oes na charreg, na maen, na lle i ffoi.

74 A phan glybu Jonathas eiriau Apolonius, efe a gyffrôdd yn ei feddwl, ac a etholodd ddeng-mil o wŷr, ac a aeth allan o Jeruſalem, ai frawd Simon a aeth i gyfarfod ag ef yn help iddo ef.

75 Ac efe a werſyllodd wrth Joppe, eithr hwy ai cadwaſant ef allan o'r ddinas, am fod gwarcheidwaid Apolonius yn Joppe : hwythau a ryfelaſant yn ei herbyn hi.

76 A'r rhai oeddynt o'r ddinas a ofnaſant, ac a agoraſant, ac Jonathas a ennillodd Joppe.

77 A phan glybu Apolonius efe a gymmerodd deir-mil o wŷr meirch, a llu mawr, ac a aeth i Azotus megis vn ar ei daith, ac efe a ddaeth ar yr vn waith i'r maes, am fod ganddo lawer o wŷr meirch, ai fod yn ymddiried yn hynny.

78 Yntef a ddilynodd ar ei ôl ef i Azotus, a'r llu a gydiodd mewn rhyfel oi ôl ef.

79 Ac Apolonius a adawſe gant o wŷr meirch yn ddirgel oi hôl hwynt.

80 Ac Jonathas a wybu fod cynllwyn oi ôl ef, ac hwy a amgylchaſant ei werſyll ef, ac a ſwriaſant biccellau yn erbyn y bobl o foreu hyd hwyr.

81 A'r bobl a ſafodd fel yr archodd Jonathas, ai meirch hwythau a flinaſant.

82 Simon hefyd a luſcodd ei lu yntef, ac a gydiodd a'r fyddin, (canys y meirch a flinaſent) ac efe ai difethodd hwynt, ac hwy a ffoaſant.

83 A'r gwŷr meirch a waſcarwyd ar hŷd y maes, ac a ffoaſant i Azotus, ac a ddaethant i deml Dagon eu heulyn i fod yn gadwedig.

84 Ac Jonathas a loſcodd Azotus a'r dinaſoedd oi hamgylch hi, ac a gymmerodd eu hyſpail hwynt : teml Dagon hefyd a'r rhai a ffoaſent a loſcodd efe â thân.

85 A'r rhai a laddwyd a'r cleddyf, yng-hŷd a'r rhai a loſcwyd â thân oeddynt yng-hylch ŵyth mil o wŷr.

16 Ac Jonathas a aeth oddi yno ac a werſyllodd wrth Aſcalon a'r rhai oeddynt o'r ddinas a ddaethant allan iw gyfarfod ef â gogoniant mawr.

87 Ac Jonathas a ddychwelodd i Jeruſalem a'r rhai oeddynt gyd ag ef, a chanddynt yſpail mawr.

88 A phan glybu y brenin Alexander y pethau hyn, efe a roddes fwy o anrhydedd i Jonathas.

89 Ac efe a anfonodd iddo gadwyn aur fel y mae yr arfer roddi i geraint y brenin, ac a roddes iddo Accaron ai holl gyffiniau yn etifeddiaeth o rodd.

## PEN. XI.

Twyll Ptolomeus yn erbyn Alexander. 17 Marwolaeth Alexander a Ptolomeus. 19 Teyrnasiad Demetrius ai helbul. 54 Teyrnasiad Antiochus fab Alexander.

A Brenin yr Aipht a gaſclodd lu mawr fel y tywod yr hwn ſydd ar lann y môr, a llongau lawer, ac a geiſiodd gael teyrnas Alexander trwy dwyll, ai goſod at yr eiddo ef ei hun.

2 Ac efe a aeth allan i Syria â geiriau heddychol, a'r rhai oeddynt yn y dinaſoedd a agoraſant iddo ef, ac a aethant iw gyfarfod ef, am fod gorchymmyn y brenin Alexander at gyfarfod ag ef, am ei fod efe yn chwegrwn iddo ef.

3 Ond pan aeth efe i mewn i ddinaſoedd Ptolomeus, efe a oſododd lu i warchod ym mhob dinas.

4 A phan ddaeth efe i Azotus hwy a ddangoſaſant iddo ef deml Dagon yr hon a loſcaſid, ac Azotus ai phentrefydd wedi eu difetha, a'r cyrph a daflaſid ymmaith, a'r rhai lloſcedig y rhai a loſcaſe [Jonathas] yn y rhyfel (oblegit hwy a wnaethent eu beddau hwynt ar ei ffordd ef)

5 Felly y mynegaſant i'r brenin yr hyn a wnaethe Jonathas iw oganu ef : a thewi a wnaeth y brenin.

6 Ac Jonathas a ddaeth i gyfarfod a'r brenin i Joppe yn ogoneddus, ac hwy a gyfarchaſant ei gilydd, ac a gyſcaſant yno.

7 Ac Jonathas a aeth gyd âr brenin hyd afon a elwir Eleutherus, yna efe a ddychwelodd i Jeruſalem.

8 A'r brenin Ptolomeus a gafodd feddiant ar ddinaſoedd glan y môr hyd Seleucia, ac a ddychymygodd gyngor drwg yn erbyn Alexander.

9 Ac efe a anfonodd gannadau at y brenin Demetrius gan ddywedyd: tyret gwnawn gyfammod rhyngom, ac mi a roddaf i ti fy merch yr hon ſydd gan Alexander, a thi a gei deyrnaſu yn nheyrnas dy dad.

10 Oblegit y mae yn edifar gennif roddi iddo ef fy merch: canys efe a geiſiodd fy lladd i.

11 Felly efe ai goganodd ef am ei fod efe yn chwennychu ei frenhiniaeth ef.

12 Ac efe a ddug ei ferch oddi arno ef, ac ai rhoddes i Demetrius, ac efe a ymddieithrodd oddi wrth Alexander: felly yr ymddangoſodd eu cas hwynt.

13 Yna yr aeth Ptolomeus i Antioch ac a oſododd ddwy goron ar ei ben: coron Aſia a choron yr Aipht.

14 A'r brenin Alexander oedd in Cilicia yn yr amſer hwnnw: oblegit y rhai oeddynt o'r lle hwnnw a wrthryfelaſent.

15 A phan glybu Alexander, efe a ddaeth yn ei erbyn ef i ryfel, a'r brenin Ptolomeus a arweiniodd [ei lu] allan, ac a gyfarfu ag ef â llaw gref, ac ai gyrrodd i ffoi.

16 Yna y ffôdd Alexander i Arabia i gael ſwccr yno, a'r brenin Ptolomeus a dderchafwyd.

17 A Zabdiel yr Arabiad a gymmerodd ben Alexander, ac ai hanfonodd i Ptolomeus.

18 A'r brenin Ptolomeus a fu farw y trydydd dydd, a'r rhai oeddynt yn ei geſtill ef a ddifethwyd gan y rhai oeddynt o fewn y ceſtill,

19 A theyrnaſodd Demetrius y ſeithfed flwyddyn a thrugain a chant.

20 Yn y dyddiau hynny y caſclodd Ionathas y rhai oeddynt o Iudæa i ryfela yn erbyn y tŵr yn Ieruſalem, ac efe a wnaeth yn ei erbyn lawer o offer rhyfel.

21 Yna yr aeth rhai gwŷr annuwiol y rhai oeddynt yn caſau eu cenedl eu hun at y brenin, ac a fynegaſant iddo fod Ionathas yn gwarchae ar y tŵr.

22 Pan glybu yntef [hyn] efe a ddigiodd, ac efe a gymmerodd ei daith yn ebrwydd, ac a ddaeth i Ptolemais, ac a ſcrifennodd at Ionathas na warchae efe [mwy,] ac ar ddyfod o honaw ef yn fuan iw gyfarfod ef i ymddiddā ynghyd yn Ptolemais.

23 Ond pan glybu Ionathas efe a archodd warche, ac a ddewiſodd [rai] o henuriaid Iſrael ac o'r offeiriaid ac a ymroddes i'r perigl.

24 Ac efe gan gymmeryd aur, ac arian, a gwiſcoedd, a llawer o roddion eraill a aeth at y brenin i Ptolemais, ac a gafodd ffafr yn ei olwg ef.

25 A rhai annuwiol o'r genedl a achwynaſant rhagddo ef.

26 Eithr y brenin a wnaeth iddo ef fel y gwnaethe y rhai a fuaſent oi flaen ef iddo ef, ac efe ai derchafodd ef o flaen ei holl garedigion.

27 Ac efe a roddes iddo ef yr arch-offeiriadaeth, a pha anrhydedd bynnag oedd ganddo ef o'r blaen, ac ai gwnaeth ef i fod yn bennaf oi garedigion.

28 Yna y dymunodd Ionathas ar y brenin wneuthur Iudæa yn ddidreth, a'r tair talaith Samaria, ac efe a addawodd iddo ef dry-chant talent.

29 A'r brenin oedd fodlon, ac a ſcrifennodd lythyrau i Ionathas am hyn oll fel hyn.

30 Y brenin Demetrius yn cyfarch y brawd Ionathas, a chenedl yr Iddewon.

31 Coppi o'r llythyr yr hwn a ſcrifennaſom ni at ein câr Laſthenes yn eich cylch chwi a ſcrifennaſom attoch chwi hefyd, fel y gallech ei weled.

32 Y brenin Demetrius yn cyfarch y tâd Laſthenes.

33 Y mae yn ein bryd ni wneuthur daioni i genedl yr Iddewon, ein caredigion, y rhai ydynt yn cadw cyfiawnder tu ag attom ni, am eu hewyllys da hwynt i ni.

34 Yr ydym ni yn goſod at gyffiniau Iudæa y tair talaith Apherema, Lyda, a Ramatha y rhai a chwanegwyd o Samaria at Iudæa, a'r hyn holl ſydd yn perthynu at y rhai oll ydynt yn aberthu yn Ieruſalem am yr ardreth brenin a gafodd y brenin o'r blaen o gnwd y ddaiar, a ffrwyth y coed bob blwyddyn.

35 A phethau eraill yn perthynu i ni o ddegymmau a theyrn-ged, a'r pyllau halen, a'r coronau y rhai ydynt yn perthynu i ni, nyni ai canhiadawn iddynt hwy o hyn allan.

36 Ac ni thorrir dim o hyn allan bych.

37 Am hynny cymmerwch ofal am wneuthur coppi o'r rhai hyn, a rhodder ef at Ionathas, a goſoder ef yn y mynydd ſanctaidd, mewn lle cyfleus hynod.

38 Yna pan welodd Demetrius oſtegu y tir oi flaen ef ac nad oedd dim yn ei wrthwynebu ef, efe a ollyngodd ei holl lu bob un iw fangre, ond y dieithr luoedd y rhai a gaſclaſe efe o ynyſoedd y cenhedloedd: a holl luoedd ei henafiaid ef a aethant yn elynion iddo ef.

39 Tryphon hefyd oedd [un] o'r rhai a fuaſent gyd ag Alexander o'r blaen, a phan welodd efe fod yr holl luoedd yn grwgnach yn erbyn Demetrius, efe a aeth at Simalcue yr Arabiad, yr hwn a fagaſe Antiochus fab Alexander,

40 Ac efe a fu daer arno ef, ar iddo ei roddi ef atto ef i deyrnaſu yn lle ei dad, ac efe a ddangoſodd iddo ef pa bethau a wnaethe Demetrius, a'r câs oedd gan ei lu iddo ef, ac efe a arhoſodd yno ddyddiau lawer.

41 Ac Ionathas a anfonodd lythyrau at y brenin Demetrius, i fwrw allan o'r tŵr yn Ieruſalem y rhai oeddynt yn y ceſtill: oblegit yr oeddynt hwy yn rhyfela yn erbyn Iſrael.

42 A Demetrius a anfonodd at Ionathas gan ddywedyd: nid hyn yn unic a wnaf i i ti, ac i'th genedl: eithr mi a'th anrhydeddaf di a'th genedl ag anrhydedd os caf gyfamſer.

43 Yn awr gan hynny ti a wnei yn dda, os anfoni di wŷr i ryfela gyd â mi; o blegit fy holl luoedd a'm gadawſant.

44 Ac Jonathas a anfonodd iddo ef i Antiochia dair mil o wŷr cedyrn o nerth, ac hwy a ddaethant at y brenin, a llawen iawn fu gan y brenin eu dyfodiad hwynt.

45 A'r rhai oeddynt o'r ddinas a ddaethant yng-hyd i ganol y ddinas yng-hylch deuddeng myrddiwn o wŷr, ac a fynnaſent ladd y brenin.

46 Yna y ffôdd y brenin i'r llŷs, a'r rhai oeddynt o'r ddinas a ennillaſant ffyrdd y ddinas, ac a ddechreuaſant ryfela.

47 A'r brenin a alwodd yr Iddewon yn help, ac hwy a ddaethant atto ef oll ar vn-waith, ac a ymwaſcaraſant trwy y ddinas.

48 Ac hwy a laddaſant y dydd hwnnw yn y ddinas gymmaint a dêg myrddiwn, ac a loſcaſant y ddinas, ac a gymmeraſant yſpail fawr y dydd hwnnw, ac a achubâſant y brenin.

49 A'r rhai oeddynt o'r ddinas a welſant i'r Iddewon ennill y ddinas fel y mynnent, ac hwy a lwfrhaſant, ac a waeddaſant wrth y brenin mewn gweddi gan ddywedyd,

50 Cymmod â ni, a pheidied yr Iddewon a rhyfela i'n herbyn ni a'r ddinas.

51 Felly hwy a fwriaſant ymmaith eu harfau, ac a wnaethant heddwch, a'r Iddewon a gawſant anrhydedd o flaen y brenin a phawb yn ei deyrnas ef, ac a ddychwelaſant i Ierusalem a chanddynt yſpail mawr.

52 Felly y brenin Demetrius a eiſteddodd ar orſedd-faingc ei frenhiniaeth, a'r tîr a oſtegodd o'i flaen ef.

53 Ac efe a ddywedodd gelwydd am beth bynnag a ddywedaſe efe, ac a ymddieithrodd oddi wrth Jonathas, ac ni thalodd yn ôl yr ewyllys da a dalaſe efe iddo ef, eithr efe ai cyſtuddiodd ef yn ddirfawr.

54 Wedi hyn y dychwelodd Tryphon a'r bachgen ieuangc Antiochus gyd ag ef, ac efe a deyrnâſodd, ac a wiſcodd y goron.

55 A'r holl luoedd y rhai a waſcaraſe Demetrius a ymgaſclaſant atto ef, ac hwy a ryfelâſant yn ei erbyn ef, yntef a ffôdd, ac a giliodd.

56 Yna Tryphon a gymmerodd yr anifeiliaid, ac a ennillodd Antiochia.

57 Ac Antiochus ieuangc a ſcrifennodd at Jonathas gan ddywedyd: yr ydwyf fi yn ordeinio yr arch-offeiriadaeth i ti, ac yn dy oſod ar bedair dinas i fod o garedigion y brenin.

58 Ac efe a anfonodd leſtri aur iddo ef i'w waſanaethu, ac a roddes iddo awdurdod i yfed mewn lleſtri aur, ac i fod mewn porphor, ac i gael cadwyn aur.

59 Ac efe a oſododd Simon ei frawd ef yn gapten o riw Tyrus hyd derfynau yr Aipht.

60 Ac Jonathas a aeth allan tros yr afon, ar hŷd y dinaſoedd, a holl luoedd Syria a ymgaſclaſant atto ef yn help, ac efe a ddaeth i Aſcalon a'r rhai oeddynt o'r ddinas a ddaethant i'w gyfarfod ef yn anrhydeddus.

61 Ac efe a ddaeth oddi yno i Gaza a'r Gaziaid a gaeâſant arnynt, yntef a warchâodd arni, ac a loſcodd ei phentrefydd hi, ac ai anrheithiodd hwynt.

62 A'r Gaziaid a ymbiliaſant ag Jonathas, ac efe a gymmododd â hwynt, ac a gymmerodd feibion eu tywyſogion hwynt yng-wyſtl, ac ai hanfonodd hwynt i Ierusalem, ac a rodiodd y wlâd hyd Damaſcus.

63 A phan glybu Jonathas ddyfod tywyſogion Demetrius i Cades, yr hon ſydd yn Galilea, â llu mawr a'r fedr ei yrru ef ymmaith o'r wlâd:

64 Yntef a aeth i'w cyfarfod hwynt, ac adawodd ei frawd Simon yn y wlâd.

65 A Simon a werſyllodd wrth Bethſura ac a ryfelodd yn ei herbyn ddyddiau lawer, ac ai caeodd hi.

66 Ac hwy a ddymunaſant gael cymmod, ac efe ai rhoddes: ac ai bwriodd hwynt allan oddi yno, ac a gymmerodd y ddinas, ac a oſododd warcheidwaid ynddi.

67 Jonathas hefyd ai lu a ddaethant i ddyfroedd Gennaſar, ac hwy a godaſant yn fore [i ddyfod] i faes Aſor.

68 Ac wele gwerſyll y dieithraid a ddaethant i'w gyfarfod ef yn y maes, ac hwy a yrraſāt gynllwyn yn ei erbyn ef yn y mynyddoedd.

69 A phan ddaethant hwy gyferbyn â hwynt yna y cynllwyn-wŷr a gyfodaſant o'i lle, ac a gydiaſant ryfel.

70 A'r rhai oeddynt gyd ag Jonathas a ffoaſant, ni adawyd neb ond Mattathias [fab] Abſalom, ac Judas [fab] Chalphus tywyſogion milwriaeth y lluoedd.

71 Ac Jonathas a rwygodd ei ddillad, ac a roddes ddaiar ar ei ben, ac a weddiodd.

72 Ond efe a drôdd yn eu herbyn hwynt yn y rhyfel, ac ai gyrrodd hwynt i ffoi, ac hwy a giliaſant.

73 A'r rhai a ffoâſent oddi wrtho ef a welſant, ac a droâſant atto ef, ac a ymlidiaſant gyd ag ef hyd Cades, hyd at eu gwerſyll hwynt, ac hwy a werſyllaſant yno.

74 Ac fe a laddwyd o'r dieithraid y dydd hwnnw gymmaint a thair-mil o wŷr, ac Jonathas a ddychwelodd i Ierusalem.

## PEN. XII.

Ionathas yn gyrru i Rufain, ac i Sparta i adnewyddu caredigrwydd rhyngddo â hwynt. 20 Ac yn gorchfygu tywyſogion Demetrius, 40 Tryphon yn dala Ionathas trwy dwyll.

AC Jonathas a welodd fod yr amſer yn gwaſanaethu iddo ef, ac efe a etholodd wŷr, ac a anfonodd i Rufain i wneuthur, ac i adnewyddu cyfeillach â hwynt.

2 Ac yr Spartiaid hefyd, ac i leoedd eraill, yr anfonodd efe lythyrau ar yr vn deſtyn.

3 Ac hwy a aethant i Rufain, ac a ddaethant

i'r cyng-horddŷ ac a ddywedaſant, Jonathas yr arch-offeiriad a chenedl yr Iddewon a'n hanfonodd ni i adnewyddu iddynt gyfeillach a chydymdeithas megis o'r blaen.

4 Ac hwy a roddaſant iddynt hwy lythŷrau at y bobl o le i le, a'r fod iddynt eu hâfon hwynt i dir Juda yn heddychlon.

5 Dymma hefyd goppi o'r llythyr yr hwn a ſcrifennodd Jonathas at yr Spartiaid.

6 Jonathas yr arch-offeiriad, a henuriaid y genedl, a'r offeiriaid, a'r rhan arall o bobl yr Iddewon ydynt yn cyfarch y brodyr yr Spartiaid.

7 Cyn hyn fe a anfonwyd llythyrau at yr arch-offeiriad Onias oddi wrth Darius yr hwn oedd yn frenin arnoch chwi, mai ein brodyr ni ydych chwi fel y mae y coppi yn cynnwys.

8 Ac Onias a dderbyniodd y gŵr a anfonaſid yn anrhydeddus, ac a dderbyniodd y llythŷrau yn y rhai yr yſpyſaſid am gyfeillach a chydymdeithas.

9 Felly ninnau (er nad yw raid i ni wrth hyn, am fod gennym y llyfrau ſanctaidd y rhai ydynt yn ein dwylo yn gyſſur)

10 A broſaſom anfon attoch chwi i adnewyddu brawdoliaeth, a chyfeillach, rhag eich myned yn ddieithr i ni: o blegit llawer o amſer a aeth heibio, er pan anfonaſoch attom ni.

11 Am hynny yr ydym ni bob amſer yn oeſtadol ar y gŵyliau a'r dyddiau cyfleus eraill yn eich coffio chwi yn yr aberthau y rhai yr ydym ni yn eu hoffrymmu, ac mewn gweddiau, megis y mae yn weddaidd ac yn gymmwys coffio brodyr.

12 Ac yr ydym ni yn llawen am eich anrhydedd chwi.

13 Eithr llawer o drallod, a rhyfeloedd lawer a'n hamgylchynaſant ni, a'r brenhinoedd y rhai ydynt o'n hamgylch a ryfelaſât i'n herbyn.

14 Nid ydym ni chwaith yn ewyllyſio eich blino chwi yn y rhyfeloedd hyn, na'n cydymdeithion a'n cyfeillion eraill:

15 O herwydd y mae gennym ni gymmorth o'r nefoedd yr hwn ſydd yn ein cymmorth ni, ac ni a waredwyd oddi wrth ein gelynion, a'n gelynion a oſtyngwyd.

16 Am hynny nyni a etholaſom Numenius fab Antiochus, ac Antipater fab Jaſon, ac a anfonaſom at y Rhufeiniaid i adnewyddu y gyfeillach, a'r gymdeithas gyntafâ hwynt.

17 Felly y gorchymynnaſom iddynt hefyd ddyfod attoch chwithau, a'ch cyfarch, a rhoddi i chwi ein llythyrau ni am adnewyddu ein brawdoliaeth ni.

18 Ac yr awron chwi a wnewch yn dda ar atteb i ni am hyn.

19 Ac dymma goppi y llythyrau a anfonaſant hwythau.

20 Oniares brenin yr Spartiaid yn cyfarch Onias yr arch-offeiriad.

21 Yr ydys yn cael mewn ſcrifen am yr Spartiaid a'r Iddewon mai brodyr ydynt hwy, ai bod o genedl Abraham:

22 Ac yn awr gan i ni wybod hyn, da y gwnaethoch ſcrifennu attom ni am eich heddwch.

23 Yr ydym ninnau yn ſcrifennu attoch chwithau, eich anifeiliaid chwi a'ch golud ſydd eiddom ni, a'r eiddom ninnau yn eiddoch chwi: ac yr ydym ni yn gorchymyn iddynt hwy fynegu i chwi fel hyn.

24 Ac Jonathas a glybu ddychwelyd tywyſogion Demetrius a llu mwy na'r cyntaf i ryfela yn ei erbyn ef,

25 Ac efe a aeth allan o Jeruſalem, ac a aeth i gyfarfod â hwynt i wlâd Hemath, ac ni roddes efe iddynt yſpaid i ddyfod iw wlâd ef.

26 Ac efe a anfonodd ſpiwŷr iw werſſyll ef, ac hwy a ddychwelaſant, ac a fynegaſant iddo mai felly yr oeddynt hwy yn amcanu rhuthro arnynt hwy liw nos.

27 Ac Jonathas pan fachludodd haul a archodd i'r rhai oeddynt gyd ag ef wilied, a bod mewn arfau i fod yn barod i ryfel ar hŷd y nos, ac efe a oſododd geidwaid o amgylch y gwerſſyll.

28 A'r gwrthwynebwŷr a glywſant fod Jonathas a'r rhai oeddynt gyd ag ef yn barot i ryfel, ac hwy a ofnaſant, ac a ddechreuynnaſant yn eu calon, ac a gynneuaſant dân yn eu gwerſſyll.

29 Ond Jonathas a'r rhai oeddynt gyd ag ef ni wybuant hyd y borеu: o blegit hwy a welent ganhwyllau yn lloſci.

30 Ac Jonathas a ymlidiodd ar eu hôl hwynt, ac ni's goddiweddodd hwynt: o blegit hwy a aethant tros yr afon Eleutherus.

31 Yna y trodd Jonathas yn erbyn yr Arabiaid, y rhai a elwid y Zabadiaid, ac ai tarawodd hwynt, ac a gymmerodd eu hyſpail hwynt.

32 Ac efe a fudodd, ac a ddaeth i Damaſcus ac a rodiodd trwy'r holl wlâd.

33 Simon hefyd a aeth allan, ac a ddaeth hyd Aſcalon, a'r ceſtill neſaf, ac a drôdd i Joppe, ac ai hennillodd hi,

34 O herwydd efe a glywſe eu bod hwy yn amcanu rhoddi y caſtell i'r rhai oeddynt o du Demetrius, ac efe a oſododd yno warcheidwaid iw chadw hi.

35 Ac Jonathas a ddychwelodd, ac a galwodd henuriaid y bobl, ac a ymgynghorodd â hwynt am adailadu ceſtill yn Judæa,

36 Ac am godi caerau Jeruſalem, a chodi uchder mawr rhwng y tŵr a'r ddinas, i wahanu rhyngddo ef a'r ddinas, i fod o honaw o'r naill tu, fel na phrynent hwy, ac na werthent [yno.]

37 A phan ddaethant hwy ynghyd i adailadu y ddinas, efe a aeth i'r mur [neſaf] i'r aber o du'r dwyrain: ac hwy adailadaſant yr hyn a elwir Caphenatha.

38 A Simon a adailadodd Adida yn Sephela, ac a gadarnhaodd y pyrth a'r clôau.

39 Tryphon hefyd a geiſiodd deyrnaſu yn

Aſia, a gwiſco y goron, ac eſtyn ei law yn erbyn y brenin Antiochus.

40 Ond efe a ofnodd na adawe Jonathas, ac rhac iddo ryfela yn ei erbyn ef, ac efe a geiſiodd ffordd iw ddal ef iw ddifetha: am hynny efe a gododd, ac a aeth i Bethſan.

41 Ac Jonathas a aeth allan i gyfarfod ag ef â deugain-mil o wŷr wedi eu dethol i ryfel, ac yntef a ddaeth i Bethſan.

42 A phan welodd Tryphon ei ddyfod ef â llu mawr, efe a ofnodd eſtyn ei law yn ei erbyn ef.

43 Am hynny efe ai derbyniodd ef yn anrhydeddus, ac ai gorchymynnodd ef iw holl garedigion, ac a roddes iddo ef roddion, ac a archodd iw holl garedigion ei vfyddhau ef megis yntef ei hun.

44 Ac efe a ddywedodd wrth Jonathas, i ba beth y blinaiſt ti y bobl hyn oll heb fod rhyfel rhyngom ni.

45 Yr awron gan hynny anfon y rhai hyn iw tai, ac ethol i ti ychydig wŷr y rhai fyddant gyd â thi, a thyret gyd am fi i Ptolemais, ac mi ai rhoddaf hi i ti a'r ceſtill eraill, a'r lluoedd eraill, a'r ſwyddogion, ac mi a ddychwelaf, ac a âf ymmaith: canys o achos hyn yr ydwyſt ymma.

46 Yntef yn ymddyried iddo ef a wnaeth fel y dywedodd efe, ac a anfonodd ymmaith ei lu ac hwy a aethant i dîr Juda.

47 Ac efe a adawodd gyd ag ef daiar mil o wŷr, o ba rai efe a adawodd ddwy fil yn Galilea, a mîl a ddaethant gyd ag ef.

48 Er cynted y daeth Jonathas i Ptolemais y Ptolemeaid a gaeaſant y pyrth, ac ai daliaſant ef, ac a laddaſant â'r cleddyf y rhai a ddaethent i mewn gyd ag ef oll.

49 Yna yr anfonodd Tryphon lu a gwŷr meirch i dîr Galilea, ac i'r maes mawr i ddifetha y rhai oeddynt gyd ag Jonathas.

50 Eithr pan ŵybuant hwy ei ddal ef, a difetha y rhai oeddynt gyd ag ef, hwy a ymgyſuraſant, ac a aethant, ac a droaſant drachefn yn barod i ryfel.

51 Felly pan welodd y rhai oeddynt yn ymlid y bydde [y rhyfel] iddynt am yr einioes, hwy a ddychwelaſant.

52 Hwythau a ddaethant oll i wlâd Juda, ac a alaraſant am Jonathas, a'r rhai oeddynt gyd ag ef, ac hwy a ofnaſant yn ddirfawr, ac Iſrael oll a alaraſant alar mawr.

53 A'r holl genhedloedd o amgylch a geiſiaſant eu difetha hwynt: canys hwy a ddywedaſant:

54 Nid oes ganddynt dywyſog na helpudd: am hynny y rhyfelwn yn eu herbyn hwynt yn awr, ac y deleuwn eu coffadwriaeth o blith dynion.

## PEN. XIII.

Gaudeb Tryphon yn dal Ionathas, 15 Yn twyllo Simon, 31 Ac yn lladd ei feiſtr. 34 Simon yn cael gan Demetrius rydd-did mawr i'r wlâd, ac wedi ennill Gaza yngoſod ei fab Ioan yno yn gapten.

Pan glybu Simon gaſclu o Tryphon lu mawr i ddyfod i dîr Juda iw difetha hi,

2 A gweled fod y bobl yn ddychrynnedig, ac yn ofnus, efe a aeth i fynu i Jeruſalem, ac a gaſclodd y bôbl yng-hyd:

3 Ac efe ai cyſſurodd hwynt, ac a ddywedodd wrthynt: chwi a ŵyddoch pa faint bethau a wneuthym i, a'm brodyr a thŷ fy nhâd tros y gyfraith, a'r cyſſegr: a'r rhyfeloedd, a'r ing a welſom ni.

4 O achos hyn y difethwyd fy mrodyr i oll er mwyn Iſrael, ac mi a adawyd fy hunan.

5 Ac yr awron na atto Duw i mi arbed fy einioes yn amſer cyſtudd: o blegit nid ydwyſt well na'm brodyr.

6 Eithr mi a ddialaf fyng-henedl, a'r cyſſegr, a'ch gwragedd a'ch plant chwi, o blegit yr holl genhedlaethau a ymgaſclaſant i'n difetha ni o herwydd gelyniaeth.

7 Ac yſpryd y bobl a gynneuodd er cynted y clywſant y geiriau hyn, ac hwy a attebaſant â llef vchel gan ddywedyd,

8 Tydi ydwyt ein capten ni yn lle Judas ac Jonathas dy frodyr.

9 Rhyfela ein rhyfel, a pha beth bynnag a ddywedech di wrthym, ni ai gwnawn.

10 Yntef a gaſclodd yr holl ryfelwŷr, ac a fryſiodd i orphen caerau Jeruſalem, ac ai cadarnhaodd hi o amgylch.

11 Ac efe a anfonodd Jonathas [fab] Abſalom â llu digonol gyd ag ef i Joppe, ac efe a fwriodd allan y rhai oeddynt ynddi hi, ac efe a arhôdd yno ynddi hi.

12 A Thryphon a aeth o Ptolemais â llu mawr i fyned i mewn i dîr Juda, ac Jonathas yng-harchar gyd ag ef.

13 A Simon a werſyllodd yn Adidis rhyd wyneb y maes.

14 Pan ŵybu Tryphon godi Simon yn lle Jonathas ei frawd, ac y cydie efe mewn rhyfel ag ef, efe a anfonodd gennadau atto ef gan ddywedyd,

15 Am yr arian yr hwn oedd ddyledus ar Jonathas dy frawd am yr ardrech brenin, am y ſwyddau y rhai oedd ganddo ef, y daliaſom ni ef.

16 Yr awron gan hynny anfon gant talent o arian a dau oi feibion ef yng-wyſtl, fel pan ollynger ef na chilio efe oddi wrthym ni, ac ni ai gollyngwn ef.

17 A gwybu Simon mai yn dwyllodrus yr oeddynt yn ymddiddan: er hynny efe a anfonodd yr arian ar ddau fachgen rhag iddo gael câs mawr gan y bobl, y rhai a ddywedent,

18 Am na anfonodd efe yr arian a'r bechgin y difethwyd ef.

19 Am hynny efe a anfonodd y bechgin a'r cant talent: yntef a fu gelwyddog, ac ni ollyngodd Jonathas.

20 Ac wedi hyn y daeth Tryphon i fyned i fynu i'r wlâd, ac iw difetha hi, ac efe a amgylchodd y ffordd yr hon ſydd yn Adora: a Simon

a aeth yn ei erbyn ef i bôb lle a'r y daeth yntef.

21 A'r rhai oeddynt yn y tŵr a anfonaſant at Tryphon gennadau i beri iddo ef fryſio i ddyfod attynt hwy trwy y diffaethwch, ac i yrru iddynt hwy ymborth.

22 Yna y paratôdd Tryphon ei feirch i ddyfod, a'r noſon honno y bu eira mawr iawn, ac ni ddaeth efe o blegit yr eira, eithr efe a gerddodd ac a aeth i wlâd Galaad.

23 A phan neſaodd at Baſcama, efe a laddodd Jonathas, ac yno y claddwyd ef.

24 Yna y dychwelodd Tryphon, ac yr aeth iw wlâd ei hun.

25 A Simon a yrrodd, ac a gymerodd eſcyrn ei frawd Jonathas, ac hwy ai claddaſant ym Modin dinas ei henaſtaid ef.

26 Ac Iſrael oll a alaraſant am dano ef â galar mawr, ie hwy a alaraſant am dano ef ddyddiau lawer.

27 A Simon a wnaeth adailadaeth ar fedd ei dad ai frodyr, ac ai gwnaeth yn vchel mewn golwg â cherrig nadd yn ôl, ac ym mlaen.

28 Ac efe a oſododd ar hynny ſaith goloſn y naill ar gyfer y llall, iw dad ai fam ai bedwar brawd.

29 A chyd â hyn efe a wnaeth ddychymygion eraill, ac a oſododd goloſnau mawrion o amgylch, ac ar y coloſnau efe a wnaeth arfau i gael enw tragywyddol, a chyd a'r arfau longau cerfiedig iw gweled gan bawb a fordwyent y môr,

30 Y mae y bedd ymma yr hwn a wnaeth efe ym Modin hyd y dydd hwn.

31 A Tryphon a aeth mewn twyll allan gyd ag Antiochus y brenin ieuangc, ac ai lladdodd ef.

32 Ac efe a deyrnaſodd yn ei le ef, ac a wiſcodd goron Aſia, ac a wnaeth ddialedd mawr yn y tîr.

33 A Simon a adailadodd geſtill yn Judæa, ac ai cadarhaodd â thŷrau vchel, ac â chaerau mawrion: ie â thŷrau, ac â phyrth, ac â chlôau, ac efe a oſododd ymborth yn y ceſtill.

34 Simon hefyd a etholodd wŷr, ac ai hanfonodd at y brenin Demetrius i geiſio gollwng y wlâd yn rhydd: o blegit yſpail oedd weithredoedd Tryphon oll.

35 A'r brenin Demetrius a anfonodd atto ynteſ fel hyn, ac ai hattebodd ef, ac a ſcrifennodd atto ef y llythr hwn.

36 Y brenin Demetrius yn cyfarch Simon yr arch-offeiriad a charedig i frenhinoedd, ac henuriad a chenedl yr Iddewon:

37 Nyni a gawſom y goron aur, a'r maen gwerth-fawr y rhai a anfonaſoch chwi, ac yr ydym ni yn barod i wneuthur mawr heddwch â chwi, ac i ſcrifennu at y ſwyddogion i faddeu yr hyn ſydd iw faddeu.

38 Ac y mae yr hyn a ordeiniaſom ni eu a g attoch chwi yn ſefyll: bydded y ceſtill y rhai a adailadaſoch chwi eiddoch chwi.

39 Ac yr ydym ni yn maddeu pob anwybodaeth a bai hyd y dydd hwn, a'r goron-dreth yr hon ſydd yn ddyledus arnoch chwi, ac os oedd teyrn-ged arall yn Jeruſalem na choder hi mwy.

40 Ac od oes neb o honoch yn gymmwys iw ſcrifennu ym myſc y rhai ſy yn ein cylch ni, ſcrifenner hwy, a gwneler heddwch rhyngom ni.

41 Y ddecfed flwyddyn a thrugain a chant y tynnwyd ymmaith iau y cenhedloedd oddi ar Iſrael.

42 A phobl Iſrael a ddechreuaſant ſcryfennu yn eu ſcrifennadau ai cyfnewidiadau. Y Flvvyddyn gyntaf i Simon yr arch-offeiriad mawr tywyſog a chapten yr Iddewon.

43 Yn y dyddiau hynny y gwerſyllodd efe wrth Gaza, ac efe ai hamgylchodd hi â gwerſylloedd, ac efe a wnaeth wrthryfel-dŵr, ac ai neſſâodd at y ddinas, ac a darawodd vn tŵr, ac ai hennillodd.

44 A'r rhai oeddynt yn y gwrthryfel-dŵr a ruthraſant allan i'r ddinas, ac fe a wnaethpwyd yn y ddinas gynnwrf mawr.

45 A'r rhai oeddynt yn y ddinas a aethant i fynu ar y gaer gyd ai gwragedd, ai plant, wedi rhwygo eu dillad, ac hwy a waeddaſant â llef vchel gan attolwg i Simon gymmodi â hwynt, ac a ddywedaſant:

46 Na wna â ni yn ôl ein drygioni ni, ond yn ôl dy drugaredd di.

47 A Simon a dosturiodd wrthynt, ac ni ddiniſtriodd efe hwynt, eithr efe ai bwriodd hwynt allan o'r ddinas, ac a lanhâodd y tai lle yr oedd eulynnod, ac a aeth i mewn iddi, gan foliannu a bendigo.

48 Ac efe a fwriodd allan bôb aflendid o honi hi, ac a oſododd yno wŷr y rhai oeddynt yn gwneuthur y gyfraith, ac ai cadarnhaodd hi, ac a adailadodd ynddi breſſwylfod iddo ei hun.

49 Lluddiwyd hefyd i'r rhai oeddynt yn y tŵr yn Jeruſalem fyned allan na dyfod i'r tîr i brynnu a gwerthu, ac hwy a newynaſant yn ddirfawr, a llawer o honynt a fuant feirw o newyn.

50 Ac hwy a waeddaſant ar Simon ar roddi cymmod iddynt, ac efe a'i rhoddes iddynt: ond efe ai bwriodd hwynt allan, ac a lanhâodd y tŵr oddi wrth halogedigaeth.

51 Ac efe a aeth i mewn iddi hi y trydydd dydd ar hugain o'r ail mis, yn yr vnfed flwyddyn a'r ddêc a thrugain a chant, â mawl, ac â changhennau palmwŷdd, ac â thelynau, â chrythau, â nablau, ac â hymnau, ac ag odlau am ddifetha gelyn mawr allan o Iſrael.

52 Ac efe a ordeiniodd gadw y dydd hwn yn llawen bob blwyddyn.

53 Ac efe a gadarnhâodd fynydd y deml, yr hwn oedd yn agos i'r tŵr, ac efe a arhoſodd yno,

a'r rhai oeddynt gyd ag ef.

54 A phan welodd Simon fod ei fab Ioan yn ŵr, efe ai goſododd ef yn gapten ar yr holl luoedd, ac efe a breſſwyliodd yn Gazaris.

## PEN. XIIII.

Arſaces yn peri dal Demetrius, 4 Clôd Simon, 18 ai gymydeithas ef â'r Rhufeiniaid, ac â'r Spartiaid.

AC yn y ddeuddecfed flwyddyn a thrugain a chant y caſclodd y brenin Demetrius ei luoedd, ac efe a aeth i Media i gaſclu iddo gymhorth i ryfela yn erbyn Tryphon.

2 Pan glybu Arſaces brenin Perſia a Media ddyfod Demetrius i fewn ei derfynau ef, efe a anfonodd vn oi dywyſogion iw ddal ef yn fyw

3 A hwnnw a aeth, ac a darawodd werſyll Demetrius, ac ai daliodd ef, ac ai dug ef at Arſaces, ac yntef ai goſododd ef yng-harchar.

4 A'r tîr a gafodd lonydd holl ddyddiau Simon: canys efe a geiſiodd ddaioni iw genedl, a bodlon oedd ganddynt ei awdurdod ef ai anrhydedd yr holl amſer.

5 Simon hefyd heb law ei anrhydedd a enillodd Ioppe yn borthladd, ac a wnaeth ffordd i ynyſoedd y môr.

6 Ac efe a helaethodd derfynau ei genedl, ac a enillodd iddynt dîr.

7 Hefyd efe a gaſclodd gaethglud mawr, ac a feddiannodd Gazaris a Bethſura a'r tŵr, ac a dynnodd yr aflendid allan o honi hi, ac nid oedd a ſafe yn ei erbyn ef.

8 Felly yr oeddynt hwy yn coledd eu tîr yn heddychlon, a'r ddaiar a roddes ei chnwd, a choed y maes eu ffrwythau.

9 Yr henuriaid a eiſteddent yn yr heolydd, am ddaioni yr ymgynghorent hwy oll, a'r gwŷr ieuaingc a wiſcent anrhydedd a gwiſcoedd rhyfel.

10 Efe a roddes ymborth i'r dinaſoedd, ac ai trefnodd hwynt ag offer cadernid, hyd oni ſonnid am ei enw anrhydeddus ef hyd eithafoedd y ddaiar.

11 Efe a wnaeth heddwch ar y ddaiar, fel y cafodd Israel lawenydd mawr.

12 Pob vn a eiſteddei tan ei winwŷdden ai ffigus-bren, ac nid oedd ai hofne hwynt.

13 Darfu am bawb a oedd yn rhyfela yn eu herbyn hwynt ar y ddaiar, a'r brenhinoedd a ddiniſtriwyd yn y dyddiau hynny.

14 Hefyd efe a gadarnhâodd bob vn goſtyngedic oi bobl, efe a chwiliodd allan y gyfraith, ac a dynnodd ymmaith bob annuwiol a drygionus.

15 Efe a harddodd y cyſſegr, ac a amlhâodd leſtri y cyſſegr.

16 Ac hwy a glywſant yn Rhufain farw Ionathas, ac hyd Sparta hefyd, a thriſt iawn fu ganddynt.

17 Ond pan glywſant hwy mai Simon ei frawd ef a wnaethid yn arch-offeiriad yn ei le ef, ac ennill o hono ef y wlad a'r dinaſoedd y rhai oeddynt ynddi:

18 Hwy a ſcrifennaſant atto ef mewn llechau prês i adnewyddu ag ef y gyfeillach a'r gymdeithas a wnaethant hwy ag Iudas, ac ag Ionathas ei frodyr ef.

19 Ac hwy a ddarllennwyd o flaen y gynnulleidfa yn Ieruſalem.

20 Ac dymma goppi y llythyrau y rhai a anfonodd yr Spartiaid: TYWYSOGION a dinas yr Spartiaid yn cyfarch yr arch-offeiriad Simon, a'r henuriaid, a'r offeiriaid a'r rhan arall o'r brodyr pobl yr Iddewon:

21 Y cennadon a anfonwyd at ein pobl ni a fynegaſant i ni am eich gogoniant, a'ch parch chwi, a llawen fu gennym eu dyfodiad hwynt.

22 Ac ni a ſcrifennaſom yr hyn a ddywedaſant hwy ym myſc cynghorion y bobl fel hyn: NUMENIUS [mab] Antiochus, ac Antipater [mab] Iaſon cennadau yr Iddewon a ddaethant attom ni i adnewyddu cyfeillach â ni.

23 A bodlon oedd y bobl i dderbyn y gwŷr yn anrhydeddus, ac i ſcrifennu coppi oi hymadrodd hwynt yn hynod lyfrau y bobl, fel y cae pobl yr Spartiaid goffadwriaeth: ac hwy a ſcrifennaſant goppi o hyn at Simon yr arch-offeiriad.

24 Wedi hyn fe a anfonodd Simon Numenius i Rufain â tharian fawr o aur ganddo o bwys mil o bunnoedd i wneuthur chyfeillach â hwynt.

25 A phan glybu y bobl y geiriau hyn, hwy a ddywedaſant: pa ddiolch a roddwn ni i Simon, ac iw feibion?

26 O blegit [yr eiddo] a gadarnhaodd efe, ai frodyr, a thŷ ei dad, ac hwy a ddiniſtriaſant elynnion Israel oi myſc: am hynny hwy a oſodaſant iddo ef rhydd-dyd, ac ai ſcrifennaſant mewn llechau prês, ac ai goſodaſant ar golofnau ym mynydd Sion.

27 Ac dymma goppi yr ſcrifen: Y DEUNAWFED dydd o Elul y deuddecfed flwyddyn a thrugain a chant, ac dymma y drydedd flwyddyn er pan yw Simon yn arch-offeiriad yn Saramel.

28 Mewn cyfarfod mawr o offeiriaid, a phobl, a thywyſogion y genedl, ac henuriaid y wlâd, y hyſpyſwyd i ni mai mynych y bu rhyfel yn y wlad.

29 A Simon mab Mattathias o feibion Iarib ai frodyr a ymroddaſant i'r perigl, ac a ſafaſant yn erbyn gwrthwyneb-wŷr eu cenedl, fel y parhae eu cyſſegr a'r gyfraith, ac hwy a anrhydeddaſant eu cenedl ag anrhydedd mawr.

30 Canys Ionathas a gaſclodd eu cenedl hwynt, ac a fu yn arch-offeiriad iddynt, ac a roddwyd at ei bobl.

31 Gelynion hwynt a fynnaſent ddyfod i fyny iw gwlâd hwynt i ddifetha eu gwlâd hwynt, ac i eſtyn eu dwylo yn erbyn eu cyſſegr hwynt.

32 Yna y cyfododd Simon, ac a ryfelodd tros ei genedl, ac a dreuliodd lawer oi arian ei

hun, ac a arfogodd wŷr nerthol oi genedl, ac a roddes iddynt hwy gyflog.

33 Ac efe a gadarnhaodd ddinaſoedd Judæa, a Bethſura yr hon ſydd yng-hyffiniau Judæa, lle yr oedd arfau y gelynnion o'r blaen, ac efe a oſododd yno wŷr o Iddewon i warchod.

34 Felly y cadarnhâodd efe Joppe yr hon ſydd wrth y môr, a Gazara yr hon ſydd yng-hyffiniau Azotus lle yr oedd y gelynnion yn aros o'r blaen: ac efe a oſododd Iddewon yno, ac a oſododd yno pa bethau bynnag oeddynt gymmwys i goſpi [y gelynnion] hyn.

35 A phan welodd y bobl ffyddlondeb Simon a'r anrhydedd yr oedd efe yn amcanu ei wneuthur iw genedl, hwychau ai goſodaſant ef yn gapten, ac yn arch-offeiriad am iddo ef wneuthur hyn oll, ſef y cyfiawnder a'r ffyddlondeb a gadwaſe efe iw genedl, a cheiſio o honaw ef dderchafu ei bobl trwy bob modd.

36 Ac yn ei ddyddiau ef y bu llwyddiant mawr oi achos ef, yn gymmaint a bwrw allan oi gwlad hwynt y cenhedloedd y rhai oeddynt yn ninas Ddafydd, ac yn Jeruſalem, y rhai a wnaethent iddynt dŵr, allan o'r hwn y deuent, ac yr halogent o amgylch y cyſſegr, ac y gwnaent ddialedd mawr yn erbyn ſancteiddrwydd.

37 Ac efe a oſododd ynddi hi wŷr o Iddewon, ac ai cadarnhâodd hi yn ddiogelwch i'r wlad, ac i'r ddinas, ac a gododd gaerau Jeruſalē

38 A'r brenin Demetrius a roddes yr arch-offeiriadaeth iddo ef yn hollawl.

39 Ac efe ai gwnaeth ef oi garedigion, ac ai anrhydeddodd ef ag anrhydedd mawr.

40 O blegit fe a glywſid fod y Rhufein-wŷr yn galw yr Iddewon yn gyfeillion, ac yn gymdeithon, a chyfarfod o honynt â chennadau Simon yn anrhydeddus.

41 A gweled o'r Iddewon yn dda a'r offeiriaid hefyd fod Simon yn gapten iddynt, ac yn arch-offeiriad byth, hyd oni chode prophwyd ffyddlon.

42 Ai fod efe yn gapten arnynt hwy, ac i ofalu am y cyſſegr, fel y goſode efe rai ar eu gwaith hwynt, ac ar y wlad, ac ar yr arfau, ac ar y ceſtill.

43 Ac fel y bydde arno ef y gofal am y cyſſegr, ac y gwrandawe pawb arno ef, ac fel yr ſcrifennid pob ſcrifen yn y wlad yn ei enw ef, ac fel y gwiſce efe borphor, ac y dyge aur.

44 Am hynny ni bydd gyfreithlon i neb o'r bobl nac o'r offeiriaid ddiddymmu dim o hyn, na dywedyd yn erbyn dim a ddywedo efe, na galw cymmanfa yng-hyd yn y wlad hebddo ef, na gwiſco porphor, nac arfer cadwyn aur.

45 A phwy bynnag a wnelo yn erbyn hyn, neu a ddiddymmo ddim o hyn euog fydd efe.

46 A bodlon oedd gan yr holl bobl oſod Simon i wneuthur fel hyn.

47 Simon hefyd a gymmerodd [hyn,] ac a fu fodlon i fod yn arch-offeiriad, ac yn gapten, ac yn dywyſog ar genedl yr Iddewon a'r offeiriaid, ac i lywodraethu pawb.

48 Ac hwy a baraſant oſod yr ſcrifen hon mewn llechau prês,

49 Ai goſod hwynt ar y mur yr hwn oedd o amgylch y cyſſegr mewn lle hynod: a goſod coppi o hynny yn y tryſſor-dŷ, fel y galle Simon ai feibion ei gael ef.

## PEN. XV.

Y Rhufein-wyr yn ſcrifennu at frenhinoedd a chenhedloedd yn achos yr Iddewon.

ANtiochus hefyd mab y brenin Demetrius a anfonodd lythyrau o ynyſoedd y môr at Simon yr offeiriad, a phen cenedl yr Iddewon, ac at y genedl oll.

2 Ac yr oeddynt hwy yn cynnwys y modd hyn: Y BRENIN Antiochus yn cyfarch Simon yr arch-offeiriad a'r tywyſog a phobl yr Iddewon.

3 O herwydd i wŷr ſceler gael gafael a'r deyrnas ein henafiaid ni,

4 A bod fy ewyllys ar roddi hawl i'r frenhiniaeth, iw hailgoſod fel yr oedd o'r blaen: am hynny mi a geſclais lawer o nerth, ac a baratoais longau rhyfel, ac yr ydwyf yn ewyllyſio myned trwy'r wlad i ddial ar y rhai a llygraſant ein gwlad ni, ac a wnaethant lawer o ddinaſoedd yn anghyfannedd yn y deyrnas.

5 Am hynny yn awr yr ydwyf yn rhoddi i ti yr holl offrymmau y rhai a faddeuodd y brenhinoedd y rhai a fuant o'm blaen i ti, a pha bethau bynnag eraill a faddeuaſant hwy i ti.

6 Megis y gadawſant i ti daro math o arian priodol i'th wlad ti,

7 A bod Jeruſalem yn ſanctaidd, ac yn rhydd, a'r holl arfau y rhai a wnaethoſt, a'r ceſtill y rhai a adeiladaiſt, y rhai yr ydwyt mewn meddiant o honynt, parhaed [hynny] i ti.

8 Maddeuer hefyd i ti holl ddyled y brenin, a'r hyn a fyddo o ardreth brenin o hyn allā byth.

9 A phan ddarffo gwaſtadhau ein teyrnas nyni a'th anrhyddeddwn di a'th genedl, a'r deml ag anrhydedd mawr fel y byddo eglur eich gogoniant chwi trwy yr holl dir.

10 Y bedwaredd flwyddyn ar ddêc a thrugain a chant yr aeth Antiochus i dir ei henafiaid, a'r holl luoedd a ddaethant yng-hyd atto ef fel nad oedd ond ychydig gyd â Tryphon.

11 A'r brenin Antiochus ai hymlidiodd ef, ac yntef a ddaeth i Dora, gan ffoi tu a'r môr.

12 O blegit efe a wybu yngaſclu o ddrygioni yn ei erbyn ef, a'r lluoedd ai gadawſant ef.

13 Ac Antiochus a werſyllodd yn erbyn Dora, a chyd ag ef ddeuddeng mil o ryfel-wŷr, ac wyth mîl o wŷr meirch.

14 Ac efe a amgylchodd y ddinas, ac a gaſclodd longau o'r môr, ac a flinodd y ddinas o'r tîr a'r môr, fel na adawodd efe i neb fyned allan na dyfod i mewn.

15 Yna y daeth Numenius a'r rhai oeddynt gyd ag ef o Rufain â llythyrau ganddynt at y brenhinoedd a'r gwledydd ym mha rai yr oedd

hyn y ſcrifennedig.

16 Lucius Conſul y Rhufeiniaid yn annerch y brenin Ptolomeus.

17 Cennadau yr Iddewon ein cyfeillion a'n cymdeithion, a ddaethant attom ni i adnewyddu y gyfeillach a'r gymdeithas a fuaſe o'r blaen, wedi eu hanfon oddi wrth Simon yr arch-offeiriad a phobl yr Iddewon.

18 Ac hwy a ddygaſant darian o aur o bum mil o bunnoedd.

19 Am hynny y ni a welſom yn dda ſcrifennu at y brenhinoedd a'r gwledydd, na cheiſient niwed iddynt, ac na ryfelent yn eu herbyn hwynt, nai dinaſoedd nai gwlad, ac na chynnorthwyent y rhai a ryfelent iw herbyn.

20 Ac ni a welſom yn dda dderbyn y tarian ganddynt hwy.

21 Am hynny os ffôdd rhai dynion ſceler oi gwlad hwynt attoch chwi, rhoddwch hwynt i Simon yr arch-offeiriad, i ddial arnynt yn ôl eu cyfraith hwynt.

22 A hyn a ſcrifennodd Demetrius at y brenin, ac Attalus ac Aratha,

23 Ac Arſaces, ac i bob gwlad megis i Samſanes, at yr Spartiaid, i Delus hefyd, ac i Myndus, ac i Sicion, ac i Caria, ac i Samos, a Phamphilia, ac i Lycia, ac i Alicarnaſſus, ac i Coo, ac i Sida, ac i Aradon, ac i Phaſelidis, ac i Gortyna, a Gnidum, a Cyprus, a Cyrene.

24 Ac hwy a ſcrifennaſant gopi o honynt at Simon yr arch-offeiriad.

25 A'r brenin Antiochus a werſyllodd yn erbyn Dora yr ail waith, gan ddwyn cryfder bob amſer yn ei herbyn hi, a gwneuthur offer rhyfel, ac efe a gaeodd ar Tryphon rhag myned nac i mewn nac allan.

26 A Simon a anfonodd iddo ef ddwy fil o wŷr dewiſol iw gynnorthwyo ef, ac aur ac arian a llestri lawer.

27 Ac ni fynne efe eu cymmeryd hwynt, eithr efe a dorrodd yr ammod a wnaethe efe ag ef o'r blaen, ac a ymddieithrodd oddi wrtho ef.

28 Ac efe a anfonodd Athenobius un oi garedigion i ymddiddan ag ef gan ddywedyd: yr ydych chwi yn meddiannu Ioppe, a Gazara, a'r tŵr yn Ierusalē dinaſoedd fy nheyrnas mauſi.

29 Chwi a wnaethoch eu cyffiniau hwynt yn anghyfannedd, ac a wnaethoch ddialedd mawr yn y tir, ac a feddiannaſoch lawer o fannau yn fy nheyrnas mauſi.

30 Am hynny yr awron moeſwch y dinaſoedd a gymmeraſoch chwi, ac ardreth y lleoedd a feddiannaſoch chwi, a'r cyffiniau y rhai ydynt o'r tu allan i Iudæa.

31 Ac onid é, moeſwch bum-cant o dalentau arian am danynt hwy, a phum cant eraill o dalentau am y diniſtr a wnaethoch, ac ardreth y lleoedd, onid ê nyni a ddeuwn, ac a ymladdwn yn eich erbyn chwi.

32 Felly y daeth Athenobius caredig y brenin i Ierusalem, ac efe a welodd ogoniant Simon, a'r cwpp-bwrdd a'r llestri aur, a'r llestri arian, ac arlwy mawr, a rhyfedd fu ganddo: ac efe a fynegodd iddo eiriau y brenin.

33 Yna Simon a attebodd ac a ddywedodd wrtho ef, ni chymmeraſom ni dir arall, ac nid attaliaſom yr eiddo arall, ond etifeddiaeth ein henafiaid: a [hynny] tros ennyd o amſer fu mewn meddiant gan ein gelynion yn anghyfiawn:

34 A phan gawſom ni amſer, ni a fynnaſom trachefn etifeddiaeth ein tadau.

35 Ac am Ioppe a Gazara y rhai wyt ti yn eu ceiſio, yr oeddynt hwy yn gwneuthur niwed mawr i'n pobl ni, ac i'n gwlad: ni a roddwn am y rhai hynny gant talent: ac nid attebodd yntef air:

36 Eithr efe a ddychwelodd at y brenin yn ddigllon, ac a fynegodd iddo y geiriau hyn, ac anrhydedd Simon, a'r hyn a welſe efe oll: a'r brenin a ddigiodd yn ddirfawr.

37 Yna yr aeth Tryphon i long, ac efe a ffôdd i Orthoſias.

38 A'r brenin a oſododd Cendebeus yn gapten ar lann y môr, ac a roddes iddo ef luoedd o wŷr traed, ac o wŷr meirch.

39 Ac efe a orchymynnodd iddo ef werſyllu o flaen Iudæa, ac a archodd iddo adailadu Cedron, a chadarnhau y pyrth i orchfygu y bobl, a'r brenin a ymlidiodd Tryphon.

40 Yna y daeth Cendebeus i Iamnia, ac efe a ddechreuodd gyffroi y bobl, a dyfod i dir Iudæa, a chaeth-gludo y bobl ai lladd,

41 Ac adailadu Cedron: ac efe a oſododd yno ei wŷr meirch a'r llu, fel y gallent fyned allan, a rhodio rhyd ffyrdd Iudæa, fel yr ordeiniaſe y brenin iddo ef.

## PEN. XVI.

Araith Simon wrth ei feibion. 4 Ioan yn myned yn erbyn Cendebeus, ac yn ei orchfygu ef. 15 A brâd Ptolomeus.

AC Ioan a aeth i fynu o Gazara, ac a fynegodd i Simon ei dad yr hyn a wnaethe Cendebeus.

2 A Simon a alwodd ei ddau fab hynaf Iudas ac Ioan, ac a ddywedodd wrthynt hwy: myfi a'm brodyr a thŷ fy nhad a ryfelaſom yn erbyn gelyniō Iſrael o'n ieuengtid hyd heddyw, ac fe a ffynnodd gennym ni waredu Iſrael lawer gwaith.

3 Ond yr awron mi a heneiddiais, a thrwy drugaredd [Dduw] yr ydych chwi yn ddigonol o oedran: byddwch chwi yn fy lle i a'm brawd ac ewch allan a rhyfelwch tros ein cenedl ni, a chymmorth o'r nefoedd fyddo gyd â chwi.

4 Ac efe a etholodd o'r wlad ugein-mil o ryfelwŷr, a gwŷr meirch: ac hwy a aethant yn erbyn Cendebeus, ac a gyſcaſant ym Modin.

5 Ac hwy a godaſant yn forau, ac a aethant i'r maes, ac wele lu mawr yn eu herbyn hwynt ar draed, ac ar feirch: ac yr oedd aber rhyngddynt hwynt.

6 Ac efe a werſyllodd oi blaen hwynt, efe

ai bobl, a phan welodd efe y bobl yn ofni myned trwy'r aber, efe a aeth trwodd yn gyntaf, a phan welodd y gwŷr ef, hwythau a aethant ar ei ôl ef.

7 Yna y rhannodd efe y bobl, a'r gwŷr meirch [a roddwyd] yng-hanol y gwŷr traed, oblegit gwŷr meirch y gelynion oeddynt lawer.

8 A phā ganodd efe ag udcyrn y ffôdd Cendebeus ai werſyll, a llawer o honynt a ſyrthiaſant yn archolledig, a'r lleill a ffoaſant i'r caſtell.

9 Yna y clwyfwyd Judas brawd Joan, ac Joan ai hymlidiodd hyd oni ddaeth efe i Cedron yr hon a adailadaſe [Cendebeus.]

10 Ac hwy a ffoaſant hyd y tyrau y rhai ydynt ym maes Azotus, ac yntef ai lloſcodd hi â thân, ac fe a ſyrthiodd o honynt hwy gymmaint a dwy-fil o wŷr, ac efe a ddychwelodd i dir Judæa yn heddychlon.

11 Ac yr oedd Ptolomeus mab Abubus wedi ei oſod yn gapten ym maes Jericho, ac yr oedd ganddo ef arian ac aur lawer.

12 O blegit daw yr arch-offeiriad oedd efe.

13 Ai galon ai cododd ef, ac efe a chwennychaſe feddiannu y wlâd, ac a fynnaſe trwy dwyll yn erbyn Simon ai feibion eu difetha hwynt.

14 Ac yr oedd Simon yn rhodio trwy ddinaſoedd y wlad, ac yn ofalus am eu llywodraeth hwynt, ac efe a aeth i wared i Jericho, efe a Mattathias, ac Judas ei feibion yn yr ail flwyddyn a'r bymtheg a thrugain a chant, yn yr unfed mis a'r ddeg, hwn yw'r mîs Sabbat.

15 A mab Abubus ai derbyniodd hwynt trwy dwyll i gaſtell a elwid Docus, yr hwn a adailadaſe efe, ac efe a wnaeth iddynt wledd fawr, ac a guddiodd yno wŷr.

16 Ac wedi meddwi Simon ai feibion y cododd Ptolomeus a'r rhai oeddynt gyd ag ef, ac hwy a gymmeraſant eu harfau, ac a ruthraſant i Simon yn y wledd, ac ai lladdaſant ef ai ddau fab, a rhai oi weiſion.

17 Felly y gwnaeth efe dwyll fawr, ac y talodd ddrwg am dda.

18 Ac Ptolomeus a ſcrifennodd hyn, ac a anfonodd at y brenin i anfon atto ef llu yn gymmorth, ac efe a roddai iddo ef y wlâd a'r dinaſoedd.

19 Ac efe a yrrodd eraill i Gazara i ddifetha Joan, ac a anfonodd lythyrau at y milwriaid [i erchi] iddynt ddyfod atto ef i roddi iddynt arian, ac aur a rhoddion.

20 Ac efe a yrrodd eraill i ennill Jeruſalem a mynydd y Deml.

21 Ac un a redodd o'r blaen ac a fynegodd i Joan yn Gazara ddifetha ei dad ef, ai frodyr: ac efe a anfonodd i'th ladd dithe [eb efe.]

22 Yntef pan glybu a ofnodd yn ddirfawr, ac a ddaliodd y gwŷr a ddaethent iw ddifetha ef ac ai lladdodd hwynt: oblegit efe a wybu eu bod hwynt yn ceiſio ei ddifetha ef.

23 A'r rhan arall o ymadroddion Joan, ai ryfeloedd, ai wrolaeth yr hyn a wnaeth efe, ac adailadaeth y caerau y rhai a adailadodd efe, ai weithredoedd,

24 Wele fe a ſcrifennwyd hyn yn llyfrau cronicl ei arch-offeiriadaeth ef, er pan wnaethpwyd ef yn arch-offeiriad ar ôl ei dâd.

*Terfyn y llyfr cyntaf o'r Machabæaid.*

# Ail llyfr y Machabæaid.

## PENNOD. I.

Yr Iddewôn y rhai oeddynt yn aros yn Ieruſalem yn anfō llythyr at eu ceraint y rhai oeddynt yn yr Aipht i attolwg iddynt hwy roddi diolch i Dduw am farwolaeth Antiochus. 19 Am y tân a guddiaſid yn y ddaiar. 24 Gweddi Nehemias.

YMae y brodyr Iddewôn y rhai ydynt yn Jeruſalem ac yng-wlâd Judæa yn cyfarch ac yn annerch y brodyr o Iddewon y rhai ydynt yn yr Aipht.

2 Duw a wnelo ddaioni i chwi ac a goffo ei gyfammodd yr hwn a wnaeth efe ag Abraham, ag Iſaac, ac ag Jacob ei ffyddlon weiſion,

3 Ac a roddo galon i chwi oll iw waſanaethu ef, ac i wneuthur ei ewyllys ef â chalon gwbl ac â meddwl ewyllyſcar,

4 Ac a agoro eich calon chwi iw gyfraith ai orchymynnion, ac a baro dangnheddyf,

5 A wrandawo ar eich gweddiau chwi, a gymmodo â chwi, ac nic'h gadawo byth yn amſer adfyd.

6 Ac yn awr yr ydym ni yn gweddio ymma troſoch chwi.

7 Pan deyrnaſodd Demetrius yn y nawfed flwyddyn a thrugain a chant: nyni yr Iddewon a ſcrifennaſom atoch chwi am y blinder a'r gorthrymder a ddaeth arnom ni o fewn y blynyddoedd hynny, wedi myned Jaſon a'r rhai oeddynt gyd ag ef o'r wlâd, a'r frenhiniaeth ſanctaidd,

8 Hwy a loſcaſant y porth, ac a dywalltaſant waed gwirion: ninnau a weddiaſom at yr Arglwydd

wydd,ac a gawſom ein gwrando, ac a offrymmaſom ebyrth a pheillied, ac a oleuaſom luſernau,ac a oſodaſom y bara.

9 Am hynny yn awr cedwch chwithau ddyddiau gŵyl y pebyll yn y mîs Caſleu.

10 Yr wythfed flwyddyn a phedwar vgain a chant y bobl oeddynt yn Ieruſalem,ac yn Iudæa a'n cyngor ac Iudas ſydd yn dymuno llwyddiant, ac iechyd i Ariſtobulus athro y brenin Ptolemeus yr hwn ſydd o hiliogaeth yr offeiriaid enneiniog,ac i'r Iddewon yn yr Aipht.

11 Yn gymmeint a bôd i Dduw ein gwaredu oddi wrth fawr beryglon, yr ydym yn rhoddi mawr ddiolch iddo, megis pe gorchfygaſem y brenin.

12 Canys efe ai dug hwynt i Perſia yn dyrfau, y rhai a ymladdaſant yn erbyn y ddinas ſanctaidd.

13 Canys pan oedd y capten [yno] â llu a dybbid yn anorchfygol, fe ai lladdwyd hwy yn nheml Nanea drwy ddichell offeiriaid Nanea.

14 Canys Antiochus a ddaeth yno ai fryd ar aros gyd â hi,efe,ai geraint gyd ag ef,i dderbyn arian yn enw cynhyſcaeth.

15 Ond wedi i offeiriaid Nanea eu rhiſo, a myned o honaw i mewn i'r deml heb nemor gyd ag ef,hwy a gaeaſant y deml,wedi dyfod Antiochus i mewn,

16 Ac a agoraſant ddrws dirgel ar y deml, ac a daflaſant gerrig megis taran ar y capten ai wŷr, ac wedi eu dryllio yn ddarnau, hwy a dorraſant eu pennau, ac ai taflaſant at y rhai oeddynt oddi allan.

16 Bendigedig fyddo Duw ym mhob peth, yr hwn a roddes i fynu yr annuwiol.

18 Gan ein bod ni a'n brŷd ar gadw puredigaeth y deml ar y pummed dydd ar hugain o fîs Caſleu, ni a welſom fôd yn angenrheidiol fynegu hyn i chwi: fel y gallech chwithau hefyd gadw dydd gŵyl y pebyll, a gŵyl y tân[yr hwn a roddwyd i ni] pan offrymmod Nehemias aberth wedi iddo adeiladu y deml a'r allor.

19 Canys yn y cyfamſer yr arwenwyd ein tadau i Perſia,yr offeiriaid addol wŷr Duw y pryd hynny a gymmeraſant y tân yn ddirgel oddi ar yr allor, ac ai cuddiaſant mewn dyffryn, lle yr oedd pydew dwfn a ſych: ac yno y cadwaſant,fel nas gŵydde neb y man hwnnw.

20 Yn awr wedi llawer o flynyddoedd, pan welodd Duw yn dda, Nehemias (pan yrrwyd ef oddi wrth frenin Perſia ) a yrrodd ŵyrion yr offeiriaid hynny y rhai a guddiaſe'r tân, iw geiſio: ac fel y mynegaſant wrthym, ni chawſant ddim tân ond dwfr tew.

21 Yna y gorchymynnodd efe iddynt ei gyrchu i fynu, ai ddwyn etto ef: ac wedi goſod yr aberthau Nehemias a orchymynnodd i'r offeiriaid daenellu y dwfr ar y coed a'r aberthau.

22 Wedi darfod hyn, a dyfod yr amſer i'r haul i lewyrchu, yr hwn or blaen oedd dan gwmwl,fe enynnodd tân mawr, yn gymmeint ac i bawb ryfeddu.

23 Ac tra 'r oeddyd yn gwaſanaethu 'r aberth, yr holl offeiriaid oeddynt yn gweddio, Ionathas yn gyntaf a'r lleill yn atteb fel Nehemias.

24 A'r weddi oedd fel hyn: ô Arglwydd Dduw gwneuthurwr pob pêth, yr hwn wyt ofnadwy a chadarn, cyfiawn a thrugarog; a'r hwn wyt vnic Frenin eneiniog,

25 Ti yn vnic wyt hael,iniawn,holl alluog, a thragywyddol, ti yr hwn wyt yn gwaredu Iſrael oi holl flinder, yr hwn a etholaiſt y tadau, ac ai ſancteiddiaiſt hwy,

26 Derbyn aberth dros dy holl bobl Iſrael, cadw dy ran, a ſancteiddia hi.

27 Caſgl ein gwaſcaredion, a gwaret y rhai ſynt yn gwaſanaethu y cenhedloedd: edrych ar y dirmygus a'r ffiaidd, fel y gwypyddo y cẽhedloedd mai ty di yw ein Duw ni.

28 Coſpa ein gorthrym-wŷr, a'r rhai ſynt drwy falchedd yn gwneuthur cam â ni.

29 Goſot dy bobl yn dy le ſanctaidd,*megis y llefarodd Moſes.

Deut.30.5.

30 Yr offeiriaid hefyd a ganent pſalmau, [tra oeddyd yn gwaſanaethu 'r aberth.]

31 Hefyd pan ddarfu gwaſanaethu 'r aberth, Nehemias a orchymynnodd gymmeryd o weddill y dwfr,a thaenellu y cerrig mwyaf.

32 Yr hwn beth pan wnaeth pwyd, fe a enynnodd flam o honynt: ond hi a ddiffoddwyd gan y goleuni yr hwn oedd yn llewyrchu oddi ar yr allor.

33 Pan ddatcuddiwyd y peth hyn,fe a fynegwyd i frenin Perſia, mai yn yn fan (lle y cuddiaſe'r offeiriaid a arweneſid ymmaith y tân) yr ymddangoſodd dwfr, â'r hwn y purodd Nehemias a'r rhai oeddynt gyd ag ef ebyrth.

34 Y brenin a yſtyriodd, ac a chwiliodd y peth yn ddyfal, ac a amgylchynodd y lle oi amgylch,ac ai gwnaeth yn ſanctaidd.

35 Ac i'r rhai a gare y brenin, y rhoes roddion lawer.

36 A Nehemias a alwodd y fan honno Ephtar,yr hwn yw oi ddeongl puredigaeth,ond llawer rhai ai galwant Nephthar.

## PEN. II.

Y modd y cuddiodd Ieremias y Tabernacl , yr Arch,a'r
allor yn y bryn, 23 am bump llyfr Iaſon ai cymhwyſiad hwynt yn vn.

CEir hefyd yn ſcrifennadau Ieremias brophwyd, erchi o honaw i'r rhai a arwenwyd ymmaith, gymmeryd y tân: megis y mynegwyd, ac megis y gorchymynnaſe efe i'r rhai a arwenwyd ymmaith,

2 Gan roddi iddynt gyfraith,nas gollyngent dros gof orchymynnion yr Arglwydd, ac na chyfeiliornent yn eu meddyliau pan welent ddelwau o aur ac arian,ai gwiſcoedd.

3 Cyfryw bethau eraill a lefarodd wrthynt, gan eu cynghori na adawent i'r gyfraith fy-

ned allan oi calonnau.

4 Ceir hefyd yn ei ſcrifennadau ef, fel y darfu i'r prophwyd, drwy atteb Dûw wrtho, orchymyn dwyn y pebyll a'r Arch gyd ag ef, hyd oni ddaeth i'r mynydd i'r rhwn yr eſcynnodd Moſes, lle y gwelodd etifeddiaeth Dûw.

5 Ac wedi dyfod yno, Jeremias a aeth allan, ac a gafodd ogof, yn yr hon y goſodes y pebyll, a'r Arch ac allor y poeth offrwn, ac a gaeodd y drws.

6 A rhai a ddaethant o'r rhai ai dilynent ef i nodi'r fann, ond nis medrent moi chael.

7 Pan wybû Jeremias hynny, efe ai ceryddodd hwy gan ddywedyd, ni chaiff neb wybod y lle, hyd oni chaſclo Dûw gynnulleidfa o bobl, a bod trûgaredd.

8 Yna y dengys Dûw y pethaû hyn, a gogoniant yr Arglwydd a ymddengys, a'r cwmwl hefyd, megis ag y datcûddiwyd i Moſes, ac fel y deiſyfiodd Solomon, bod ſancteiddio'r lle yn anrhydeddus.

9 Canys eglûr yw ddarfod iddo megis un a chanddo ddoethineb, offrymmû aberth cyſſegriad, a ſancteiddiad y deml.

10 Ac megis, pan weddiodd Moſes ar yr Arglwydd, y daeth tân i lawr o'r nefoedd, ac yr yſodd yr aberth, felly Solomon a weddiodd, a thân a ddaeth i lawr o'r nefoedd, ac a yſodd y poeth offrwm.

11 A Moſes a ddywedodd: am nas bwytawyd yr offrwm tros bechod, am hynny yr yſſwyd ef.

12 Ac felly Solomon a gadwodd yr wyth niwrnod hynny.

13 Y pethaû hyn hefyd a fynegir yn ſcrifennadau, ac yng-hof lythyraû Nehemias, fel y gwnaeth efe librari, ac y caſclodd actau y brenhinoedd a'r prophwydi, actau Dafydd, ac Epiſtolau y brenhinnoedd am y rhoddion ſanctaidd.

14 Yn yr un ffunyd Judas a gaſclodd yr holl bethau a ddyſcaſe efe am y rhyfel a ddigwyddodd arnom, ac y mae [hynny] gennym ni.

15 Am hynny os dymunwch chwi eu cael, danfonwch rai ai dycco i chwi.

16 Canys ô herwydd ein bôd ni a'n brŷd ar gadw y puredigaeth ni a ſcrifennaſom attoch: am hynny da y gwnewch chwithaû os cedwch y dyddiau hynn.

17 Dûw yr hwn a waredodd ei holl bobl, ac a roddes etifeddiaeth i bawb a theyrnas, ac offeiriadaeth, a ſancteiddrwydd.

18 Megis y gadawodd yn y gyfraith, yr ydym yn gobeithio y trûgarhâ efe wrthym ar fyrder, ac y caſcla ni yng-hŷd oddi tan y nefoedd iw le ſanctaidd.

19 Canys efe a'n gwaredodd ni oddi wrth fawr beryglon, ac a lânhaodd y lle.

20 Am Judas Machabêus ai frodyr, am bûredigaeth y deml fawr, a chyſſegriad yr allor,

21 Am y rhyfêloedd ſydd yn perthynû ir ardderchog Antiochus, ai fâb Eupator,

22 Am yr eglûr arwyddion a ddeûent o'r nefoedd ar y rhai a ſaſent yn wrol yng-hweryl crefydd yr Iddewon: (canys er nad oeddent ond ychydig, etto hwy a aethant drwy 'r ôll wlâd, ac a yrraſant i ffoi dyrfau y barbairiaid,

23 Ac a adeiladaſant y deml am yr hon yr oedd mawr ſôn drwy yr holl fŷd, ac a waredaſant y ddinas, ac a ſicrhaſant y cyfreithiaû y rhai yr oeddid ar eu dirymmu o herwydd bod yr Arglwydd yn drûgarog, ac yn addfwyn iawn wrthynt)

24 Y pethau hefyd a ddatclariodd Jaſon Cyrenæus mewn pûmp llyfr, ni a brofwn eu talfyrrû mewn un folum.

25 Canys wrth yſtyrio amlder y llyfraû, a'r dyrſni ſydd i'r rhai a gymmerent arnynt dreiglo hyſtoriau o herwydd aml facerrion.

26 Ein goſal oedd gael o'r rhai a ewyllyſient ddarllen diddanwch, a bôd i'r myfyrwŷr yn haws eu coffa, ac i bawb ai darllenẽt gael budd.

27 Am hynny nid oedd hawdd, ni a gymmeraſom arnom y drafael flin hon, wneuthur y talfyriad hwn, ond gwaith oedd yn llawn o chwys a gwiliadwriaeth.

28 Megis nid hawdd i'r hwn a wnelo wledd, ac a geiſio fudd rhai eraill, felly ninaû yn ewyllyſcar a gymmerwn arnom y blinder hyn er mwyn ennill diolch gan lawer.

29 Gan adel bod yn fanwl am bob peth i'r awdur, ac ymflino i ddilyn llun tâlfyrriad.

30 Canys fel y mae yn rhaid ir nêb a wnelo dŷ newydd ofalu am yr holl adeiladaeth: ond y nêb a elo iw baentio, nid rhaid iddo geiſio dim, ond a fyddo anghenrheidiol iw harddu:

31 Felly y tybiwn ninau, mai perthynaſol yw i'r ſcrifen-wr cyntaf o'r yſtori fyned ynddi yn ddyfni i ſôn am bôb peth, gan fôd yn dieſcûlys ym mhob rhan.

32 Ond y mae yn rhydd i'r neb ai talfyrro hi, arferu ychydig eiriau, ac ymadel a phôb manylwch ynddi.

33 Ymma am hynny y dechreuwn ein traethiad, am y rhagymadrodd digon yw a ddywedaſom ni, canys ffolineb yw arfer hîr ymmadrodd o flaen yr yſtori, a bôd yn fyrr yn yr yſtori.

## PEN. III.

2 Am yr anrhydedd a wnaethid i'r deml gan frenhinoedd y cenhedloedd, 6 Simon ſydd yn mynegu pa dryſſor ſydd yn y deml, 7 'yr ydys yn danfon Heliodorus iw gymmeryd ef ymmaith, 26 Duw yn eu taro hwynt am hynny, a thrwy weddi Onias yn eu hiachau hwynt.

Y Cyfâſer yr oeddid yn preſſwylio y ddinas ſanctaidd mewn heddwch, ac yn cadw 'r cyfreithiau yn dda iawn, o blegit duwioldeb Onias yr arch-offeiriad, a bod ei galon yn caſau pôb drygioni:

2 Digwyddodd i'r brenhinoedd a'r tywyſogion farnu 'r lle yn anrhydeddus, ac anrhegu 'r deml â roddion mawr.

3 Yn gymmeint ag i Seleucus brenin Aſia dalu oi ardrethion yr holl draul a berthyne i we-

nidogaeth yꝛ ebyꝛth.

4 Simon hefyd o lwyth Beniamin yꝛ hwn a wnaethid yn oꝛchwyliwꝛ y Deml, a ymryſonodd âr arch-offeiriad, i wneuthur diffeithwch yn y ddinas.

5 Ond pryd na's galle oꝛchfygu Onias efe a aeth at Apolonius fâb Tharſea, yꝛ hwn oedd yꝛ amſer hwnnw yn llywodꝛaethwꝛ Cœloſyꝛia a Phenicia,

6 Ac a fynegodd iddo fôd tryſſoꝛdŷ Ieruſalem yn llawn o ariã annifeiriol, y rhai ni pherthynent i wenidogaeth yꝛ ebyꝛth, a bod yn boſſibl y galle y rhain ddyfod i ddwylo'r bꝛenin.

7 Wedi ymgyfarfod o Apolonius a'r bꝛenin efe a fynegodd iddo am yꝛ arian a ddangoſaſid iddo: yntef a etholodd Heliodoꝛus golygwꝛ ei dꝛyſſoꝛdŷ, ac ai danfonodd â goꝛchymyn ganddo, i gyꝛchu'r arian y rhai y dywedwyd am danynt o'ꝛ blaen.

8 Am hynny Heliodoꝛus yn y man a oſododd i lawꝛ ei daith, yn rhith myned i ymweled a dinaſoedd Cœloſyꝛia a Phenicia, ond ai feddwl ar gyflawni arfaeth y bꝛenin.

9 Yn ôl dyfod o honaw i Ieruſalem, ai dderbyn yn groeſawus gan archoffeiriad y ddinas, efe a dꝛaethodd [iddynt] beth a ddangoſaſid iddo [am yꝛ arian,] ac a fynegodd pa ham y daethe efe yno, ac efe a ofynnodd a oedd y pethau hyn yn wîr.

10 Yna yꝛ arch-offeiriad a ddangoſodd iddo fod yno arian y gweddwon a'r ymddifaid,

11 A rhai yn eiddo Hyꝛcanus mab Tobias, gwꝛ ardderchog iawn ac nid fel y cam-ddywedaſe Simon y [dyn] annuwiol hwnnw, a bôd y cwbl yn bedwarcant talent ô arian, a dau cant ô aur.

12 Ac nad ydoedd boſſibl gwneuthur y cam hwnnw i'r rhai a gredaſent i ſancteiddꝛwydd y man hwnnw, ac i fawꝛedd, a diſrycheulyd grefydd y Deml, yꝛ hon oedd anrhydeddus dꝛwy'r holl fŷd.

13 Ond Heliodoꝛus, o herwydd goꝛchymynnion y bꝛenin y rhai oeddynt ganddo a ddywedodd yn hollawl y bydde raid dwyn hyn i dꝛyſſoꝛdŷ'r bꝛenin.

14 Ac wedi goſod dydd efe a aeth i mewn ar fedꝛ yn ôl eu gweled, gymmeryd trefn am danynt: am hynny nid bychan oedd y caledi yn yꝛ holl ddinas.

15 A'r offeiriaid a ſyꝛthiaſant i lawꝛ ger bꝛõ yꝛ alloꝛ yn eu gwiſcoedd ſanctaidd, ac a alwaſãt tu a'r nef ar [Dduw,] yꝛ hwn a roeſe gyfraith am y tryſſoꝛ ſanctaidd, ar iddo ei gadw yn gyfan i'r rhai ai rhoddaſe yno iw gadw.

16 A'r nêb a edꝛyche ar wynebpꝛyd yꝛ archoffeiriad a ddolurient yn eu calonnau: canys ei wynebpꝛyd a newidiad ei liw oedd yn dangos cyfyngder ei galon.

17 Canys rhyw ofn a dychꝛyn coꝛph a amgylchodd y gwꝛ hwnnw, fel y bydde eglur i'r rhai a edꝛychent arno y dolur oedd yn ei galon.

18 Rhai eraill hefyd a gyꝛchaſant allan oi tai i wneuthur gweddi gyfredin, o herwydd bôd y lle ar ddyfod i ddirmig.

19 Y gwꝛagedd hefyd wedi ymwꝛegyſu â llieinſach dan ei bꝛonnau, a lanwent yꝛ yſtrydoedd, a'r gweryſon y rhai a gaêſid i mewn a rêdent rhai i'r pyꝛth a rhai i'r caerau, a rhai eraill a edꝛychent allan dꝛwy'r ffeneſtri.

20 A phawb o honynt yn codi eu dwylo i'r nef, ac yn gweddio.

21 Galarus oedd gweled nifer y rhai a ſyꝛthient i lawꝛ ô bob mâth: a diſgwiliad yꝛ arch-offeiriad yn ei fawꝛ ofid.

22 Am hynny y rhai hyn a alwaſent ar yꝛ holl alluog Arglwydd, ar iddo gadw y tryſſoꝛ ſanctaidd yn gyfan ac yn ſiccr i'r rhai a gredaſent eu rhoddi yno.

23 Er hynny Heliodoꝛus a gyflawnodd y peth a arfaethaſe efe: eithꝛ fel yꝛ oedd efe etto yn bꝛeſennol gyd ai ſawdwyꝛ wꝛth y tryſſoꝛdŷ,

24 Efe'r hwn yw Arglwydd yꝛ yſpꝛydion a phen pôb gallu, a wnaeth ryfeddod mawꝛ yn gymmeint ac i bawb a feiddient ddyfod gyd ag ef, aruthꝛo [wꝛth weled] nerth rhinwedd Duw, a ſyꝛthio mewn lleſmeirieu a dychꝛyn.

25 Canys ymddangoſodd iddynt ryw farch mewn gwiſc hardd o'ꝛ ôꝛef, ac arno farchogwꝛ ofnadwy, ac a rêdodd yn egniol, ac a darawodd Heliodoꝛus â'i garnau blaen, a'r hwn oedd yn eiſtedd arno a dybbid fod ganddo arfau ô aur.

26 Hefyd fe a ymddangoſodd ger e fron ef ddau wꝛ ieuaingc eraill, nodedig ô nerth, rhagoꝛawl ô bꝛŷd, a hardd eu dillad yn ſefyll o bôb tu iddo, ac yn ffrewyllu y rhai oeddynt yn ſefyll o bob tu.

27 Am hynny pan ſyꝛthiodd efe i lawꝛ yn ddiſymmwth, ac wedi ei amgylchu â thywyllwch mawꝛ, ei [wŷꝛ] ai cipiaſant ef, ac ai goſodaſant mewn êloꝛ feirch.

28 Efe'r hwn a ddaethe ychydig o'ꝛ blaen i mewn i'r tryſſoꝛdŷ'r hwn y dywedyd am dano o'ꝛ blaen a thyꝛfa fawꝛ ac ai hôll gard gyd ag ef efe meddaf yꝛ hwn ni alle gael dim cymmoꝛth gan ei arfau, a ddygaſant hwy allan:

29 Yn cydnabod yn amlwg alluog nerth Duw: ond yꝛ oedd efe yn fud dꝛwy waith Duw, ac yn goꝛwedd wedi ei ddiddymmu oi holl obaith am ei iechyd.

30 Hwythau a foliannaſant yꝛ Arglwydd yꝛ hwn a ogoneddaſe ei le ei hunan: a'r Deml honno yꝛ hon oedd ychydig o'ꝛ blaen yn llawn o ofn a therfyſc, (pan ymddangoſodd yꝛ holl alluog Arglwydd) a lanwyd â llawenydd, ac â goꝛfoledd.

31 Ond yn y man rhai o gyfneſaf Heliodorus a attolygaſant i Onias weddio ar y Goꝛuchaf, ar iddo ganiadu yn raſuſol enioes iddo ef yꝛ hwn oedd yn goꝛwedd yn agos i farw.

32 Yna yꝛ arch-offeiriad yn ofni rhag i'r bꝛenin dybied i'r Iddewon wneuthur rhyw

ddrwg i Heliodorus, a offrymmodd am iechyd y gŵr hwnnw.

33 Ac yn ôl i'r arch-offeiriad weddio ar Dduw, yr vnrhyw wyr ieuaingc yn yr vnrhyw ddillad a ymddangoſaſant trachefn i Heliodorus, a chan ſefyll a ddywedaſant, dyro fawr ddiolch i Onias yr arch-offeiriad: canys er ei fwyn ef yn raſuſol y canhiadodd yr Arglwydd i ti dy enioes.

34 Tithe hefyd wedi dy guro o'r nefoedd, mynega i bawb alluocaf nerth Duw: ac yn ôl dywedyd hyn hwy a ddifannaſant.

35 Heliodorus hefyd (wedi iddo offrymmu aberth i'r Arglwydd, a gwneuthur mawr addunedau i'r hwn a ganhiadaſe iddo ei hoedl, ac wedi iddo ddiolch i Onias) â ddychwelodd, efe ai lu at y brenin.

36 Gan deſtiolaethu i bawb weithredoedd mawrion Duw, y rhai a welſe efe ai lygaid.

37 Hefyd pan ofynnodd y brenin i Heliodorus pwy oedd gymheſur iw ddanfon vnwaith drachefn i Jeruſalem, efe a ddywedodd,

38 Od oes gennit vn gelyn, ne vn bradwr, danfon hwn yno, ac ti ai derbynni wedi ei ffrewyllu os diangc rhag colli ei hoedl, oblegit yn y man hwnnw y mae rhyw allu Duw.

39 Canys yr hwn ſydd ganddo breſwylfa nefol, ſydd yn olygwr ac yn gynnorthwywr i'r lle hwnnw, yr hwn ſydd yn curo ac yn difetha y ſawl ſydd yn dyfod i wneuthur niwed iddo.

40 Hyn a fu am Heliodorus, a chadwedigaeth y tryſorfa.

## PEN. IIII.

Simon yn rhoddi anglod i Onias. 7 Iaſon yn ewyllyſio cael yr arch-offeiriadaeth, ac yn llygru y brenin â gwobr.

Y Simon hwnnw hefyd, am yr hwn y dywedaſom o'r blaen, yr hwn oedd fradychwr yr arian ai wlâd, a ddywedodd ddrwg am Onias, megis pe cymmellaſe efe Heliodorus i hyn, a phe buaſe yn awdur y drwg.

2 Ac efe a feiddiodd alw y gŵr yr hwn oedd yn dda gan y ddinas, ac yn ofalus am ei wladwyr, a gŵr mawr ei zêl am y cyfreithiau, yn fradych-wr.

3 Pan gynnyddodd y galanaſtra yn gymmaint a lladd o vn o'r rhai oeddynt gymmeradwy gan Simon gelanedd,

4 Onias gan yſtyrio enbydrwydd y gynnen hon, a bod Apolonius llywodraethwr Cœloſyria, a Phœnicia yn ynfydu, ac yn chwanêgu malis Simon, a aeth at y brenin,

5 Nid megis cyhuddwr y dinaſwyr, ond fel vn yn ſynnio beth oedd fuddiol i'r hôll bobl yn gyffredinol, ac i bob vn yn naillduol.

6 Canys efe a welodd fôd yn amhoſſibl cael heddwch o ddieithr i'r brenin gymmeryd trefn yn y materion hyn, ac nad oedd debyg y peidie Symon ai ynfydrwydd.

7 Ond wedi marw Seleucus, a chymmeryd o Antiochus a gyfenwid Epiphanes y frenhiniaeth, Jaſon brawd Onias a chwennychodd yr arch-offeiriadaeth:

8 Gan addo i'r brenin er ei chael drychant a thrugain talent o arian, ac o ryw ardreth arall wyth-vgain talent.

9 Am ben hyn efe a addawodd dalu dêc a deugain a chant êraill, os canhiadid iddo drwy ei awdurdod ef, i oſod campfa ac yſcol i'r gwŷr ieuaingc, ac i gydgyfrif dinaſyddion Jeruſalem ym myſc yr Antiochiaid.

10 A phan gafodd efe yr oruchafiaeth drwy fodd y brenin, yn y man efe a ddenodd ei geraint i arferion y Groeg-wŷr.

11 Ac a fwriodd i lawr garedigol ragorfraint yr Iddewon y rhai a gawſent drwy Joan tâd Eupolemus, (yr hwn a fuaſe yn gennadwr at y Rhufeiniaid i ddymuno caredigrwydd a chytundeb) ac trwy ddattod cyfreithlawn lywodraethau, efe a wnaeth ô newydd ordeiniadau anghyfreithlawn.

12 Canys efe a ſailiodd gampfa oi wirfodd dan y caſtell, ac a ddaroſtyngodd y rhai pennaf o'r gwŷr ieuaingc, ac a barodd iddynt wiſco hetiau.

13 Ac fel hyn y tyfodd ſerch i ganlyn arferau y cenhedloedd ac eſtroniaid drwy ragorol aflendid Jaſon, nid yr arch-offeiriad ond y dyn annuwiol.

14 Yn gymmeint ac nad oedd yr offeiriaid mwyach yn barod i waſanaeth yr allor: ond gan ddirmygu y Deml, ac eſceuluſo yr ebyrth, yr oeddynt yn pryſuro i fod yn gyfrannog o annuwiol edrychiad ei campau, yn ôl taflu'r garreg:

15 Ac heb ganddynt bris am anrhydedd ei tadau, gan gyfrif gogoniant y Groeg-wŷr yn oref.

16 O achos yr hyn bethau y daeth arnynt adfyd mawr, tra caffent hwy yn elynion ac yn ddialwyr iddynt, y rhai yr oeddynt yn eu canlyn, ac yn dymuno eu bôd yn gyffelyb iddynt ym mhôb peth.

17 Canys nid eſmwyth yw gwrthwynêbu cyfraith Dduw, ond yr amſer a ddaw a ddengys hyn.

18 Pan chwareid yn Tyrus y cynglwyſti a arferid bób pum mhlynedd, a'r brenin yn breſennol,

19 Jaſon y dŷn ſceler hwnnw a ddanfone edrychwŷr o Jeruſalem yn rhith Antiochiaid, i ddwyn trychant dryll ô arian tu ag at aberth Hercules, y rhai a ddeiſyfiene y nêb oedd yn eu dwyn, na threulid yng-hylch yr aberth, oblegit nad gweddaidd oedd, ond eu harbed i anghenrhaid arall.

26 Efe a ddanfonodd y pethau hyn tu ag at aberth Hercules: ond er mwyn y neb ai dygent, hwy a rhoddwyd tu ag at wneuthur llongau.

21 Wedi danfon Apolonius mâb Meneſteus i'r Aipht, i goronedigaeth brenin Ptolomeus yr hwn a gyfenwid Philometor, a gwe-

led ô Antichus ei fod efe yn anffyddlō yn ei facterion ef, efe a fu ofalus iw gadarnhau ei hun yn ei erbyn ef, am hynny efe a ddaeth i Joppe, ac oddi yno efe a aeth i Jeruſalem.

22 Lle y croeſawyd ef yn fawr gan Jaſon a'r ddinas, ac y ddygpwyt ef i mewn â ffaglau ac â llefain, ac yn ôl hyn efe a arweinodd ei lu i Phenicia.

23 Hefyd yn ôl tair blynedd Jaſon a ddanfonodd Menelaus brawd Simon, am yr hwn y coſtaſom o'r blaen, i ddwyn arian i'r brenin, ac i wneuthur ei orchymyn ef am bethau angenraid.

24 Ond efe, wedi ei ganmol wrth y brenin, ai mawrygodd yn ei ŵydd, ac a ſymmudodd yr arch-offeiriadaeth iddo ei hun: canys efe a roddes am dani hi dry-chant talent o arian mwy nag Jaſon.

25 Felly pan gafodd efe orchymynnion oddi wrth y brenin, efe a ddaeth adref heb ynddo ddim yn haeddu yr arch-offeiriadaeth, ond calon teiran creulon, a llid aniſail gwyllt.

26 Felly Jaſon, yr hwn a dwyllaſe ei frawd ei hun, wedi ei dwyllo gan arall, ai fwrw allan, a ffôdd i wlâd yr Ammoniaid.

27 Ond Menelaus pan gafodd yr oruchafiaeth ni ofalodd ddim am yr arian a addawaſe efe i'r brenin, ond Soſtratus ceidwad y caſtell ai gofynnodd hwy iddo.

28 Canys i hwn y perthyne codi'r pethau a gynhullid o'r trethau: am hynny y ddau hyn a gyrchwyd ger bron y brenin.

29 A Menelaus a adawodd yn yr arch-offeiriadaeth Lyſimachus ei frawd, a Soſtratus a adawodd Crates yr hwn oedd lywodraethwr Ciprus.

30 Wedi darfod hyn, y digwyddodd i wŷr Tarſus a Malot wneuthur terfyſc [yn erbyn y brenin] o blegit eu rhoddi hwynt i Antiochis gordderch y brenin.

31 Am hynny y brenin a ddaeth ar frŷs i oſtegu y [derfyſc] honno, gan adel Andronicus un o'r gwŷr pennaf ei awdurdod yn rhaglaw iddo.

32 Menelaus hefyd gan dybbio cael o honaw amſer cyfaddas, a gymmerth rai o leſtri aur y deml ac ai rhoddes i Andronicus, ac a werthodd eraill yn Tyrus a'r dinaſoedd oddi amgylch.

33 Ac pan ŵybu Onias hyn yn amlwg, efe ai hargyoeddodd, wedi iddo fyned o'r naill du, i noddfa yn Daphne yr hon ſydd yn ymyl Antiochia.

34 Am hynny Menelaus a gymmerth o'r naill du Andronicus, ac ai cymhellodd i ladd Onias: felly efe a ddaeth at Onias, ac ai cynghorodd ef yn gyfrwys, gan roddi iddo ei law ddeheu a llw (er ei fod efe yn ei ammeu ef) ac ai dênodd i ddyfod allan o'r noddfa, felly yn ddiſymmwth efe ai lladdodd heb gânddo bris am gyfiawnder.

35 O herwydd yr hwn nid yr Iddewon yn unic, ond hefyd llawer o'r cenhedloedd eraill a gyffroeſant, ac a fu drwm dros ben ganddynt ang-hyfiawn laddiad y gŵr hwn.

36 Hefyd pan ddychwelodd y brenin i dueddau Cilicia, yr Iddewon y rhai oeddynt yn y ddinas a achwynaſāt wrtho, gan fod y Groegwŷr hefyd yn cydſynnio â hwynt o achos adcaſrwydd y weithred, o blegit lladd Onias heb achos.

37 Am hynny Antiochus a driſtâodd yn fawr yn ei galon, ac a doſturiodd, ac a ŵylodd, o herwydd mawr ddirionded a goſtyngeiddrwydd yr hwn a laddaſid.

38 Ac am hynny wedi ei enynnu â digllonedd, efe a ddioſcodd Andronicus oi borphor, ac a rwygodd ei ddillad, ac a barodd ei ddwyn ef oddi amgylch y ddinas i'r fan lle y lladdaſe efe Onias, ac yno y dieneidiodd efe y llofrudd am fod yr Arglwydd yn talu iddo deilwng goſpedigaeth.

39 Ond yn ôl i Lyſimachus wneuthur llawer gweithred ddrwg yn y ddinas drwy gyngor Menelaus, a myned o'r chwedl allan: cynnulleidfa a ymddyrrodd yng-hŷd yn erbyn Lyſimachus, canys yn awr efe a ddugaſe allan lawer o leſtri aur [y deml.]

40 A phan gynhyrfwyd y dyrfa â dig, Lyſimachus a roes arfau yng-hylch teir mil o wŷr, ac a gymmerth arno anghyfreithlawn awdurdod, pan oedd un Auranus yn flaenor iddynt, yr hwn oedd wedi pallu mewn ſynnwyr ac oedran.

41 Ond pan ŵybuont amcan Lyſimachus, rhai a geiſiaſant gerrig, rhai baſtynau, a rhai a daſlaſant ddyrneidiau o'r llwch yr hwn oedd ger llaw ar y rhai oeddynt gyd â Lyſimachus, gan ei gymmeryd fel y dele.

42 Trwy ba fodd y clwyfaſant lawer o honynt, ac y lladdaſant rai, a rhai eraill a yrraſant i ffoi, ond anrheithiwr yr eglwys a laddaſant ger llaw'r tryſſor-dŷ.

43 O blegit hyn barn a oſodwyd yn erbyn Menelaus.

44 A phan ddaeth y brenin i Tyrus, fe â ddanfonwyd trywŷr oddi wrth y Senat y rhai a achwynaſant arno ef.

45 Ond Menelaus wedi ei ddal, a addawodd lawer o arian i Ptolomeus fâb Dorymenes, er gwneuthur y brenin yn foddlon.

46 Am hynny Ptolomeus a aeth at y brenin mewn gardd lle'r oedd efe yn ymoeri, ac a drôes ei feddwl.

47 Yn gymmeint ag iddo ryddhau Menelaus oddi wrth ei holl gyhuddwŷr (er ei fôd efe yn awdur pôb drygioni) a barnu y rhai truain hyn i angeu, y rhai pe dadleuaſent eu matter, ſeſ ger bron y Scythiaid, hwy a gawſent, eu gollwng yn ddieuog.

48 Fel hyn yn fuan y coſpwyd hwy yn anghyfiawn y rhai o'r blaen a ddadleuaſent dros y ddinas, dros y bobl, a thros y leſtri ſanctaidd.

49 Am hynny gwŷr Tyrus oedd yn gâs ganddynt yr anwiredd hyn, ac a roddaſant yn helaeth bôb peth a berthŷne iw claddedigaeth.

50 Ond Menelaus trwy gybydd-dod y rhai oeddynt mewn gallu a wnaed yn fradychwr y dinaſ-wŷr, ac a arhoes yn ei ſwydd gan chwanêgu ei falis.

## PEN. V.

2 Am yr arwyddion a welwyd yn Ieruſalem. 6 Am ddiwedd, ac anwiredd Iaſon. 11 Antiochus yn ymlid yr Iddewon. 15 Ac yn ſpeilio 'r Deml. 27 Machabeus yn ffoi i'r diffaethwch.

YNg-hylch yr amſer hwnnw Antiochus a gymmerth ei ail daith i'r Aipht.

2 Ac yno y gwelwyd trwy hôll ddinas Ieruſalem tros ddeugain nhiwrnod wŷr meirch yn rhedeg yn yr awyr, mewn gwiſcoedd aur, a lluoedd o wŷr a gwaiw-ffyn.

3 A megis tyrfau o wŷr meirch mewn byddin yn ymdrechu, ac yn rhedeg y naill yn erbyn y llall tan eſcwyd eu tariannau, a llawêroedd ó biccellau, a thynnu cleddyfau, a ſaethu ſaethau, a diſcleirdeb eu harfau aur, a phob math ar lurigau.

4 Am hynny pôb dyn a weddiodd a'r ddyfod o'r arwyddion hynny i ddaioni.

5 Yr awr hon pan aeth chwedl celwydd allan megis pe newidiaſe Antiochus fyd, Iaſon a gymmerth nid llai na mil o wŷr, ac a ruthrodd yn ddiſymmwth ar y ddinas, ac wedi gorchfygu y rhai oeddynt ar y gaer, ac o'r diwedd ennill y ddinas, fe a ffôdd Menelaus i'r caſtell.

6 Ond Iaſon a laddodd ei ddinaſwŷr ei hunan heb arbed un, heb feddwl fod llwyddiant yn erbyn ei genedl yn fwyaf afllwyddiant: ond gan dybied orchfygu ó honaw ei elynion, nid ei gydwladwŷr.

7 Er hynny ni chafodd mo'r oruchafiaeth, ond yn niwedd ei gynllwyn efe a gafodd gywilydd, ac a ffôdd trachefn, ac a aeth i wlâd yr Ammoniaid.

8 Am hynny efe a gafodd ddiwedd ei ddrwg fuchedd, [ſef] efe a garcharwyd gyd ag Areta brenin yr Arabiaid, ac a ffôdd o ddinas i ddinas, a phawb yn ei ymlid, ac yn ei gaſau megis gwrthodwr y gyfraith, ac yn ei felldithio megis gelyn ei wlâd ai ddinaſwŷr, ac efe a fwriwyd allan i'r Aipht.

9 A'r hwn a baraſe i lawer gyrwydro allan oi gwlâd, a ddarfu am dano ei hun allan oi wlâd wedi iddo fyned at y Lacedemoniaid, tann obaith i gael yno ſwccr, o herwydd carennydd.

10 A'r hwn a fwriaſe allan liaws heb eu claddu, ni alarodd neb troſto, ac ni chafodd fedd yn y byd, ie, ni chafodd mo feddrod ei dadau.

11 Ond pan wybu 'r brenin y pethau hynny, efe a feddyliodd y ſyrthie 'r Iddewon oddi wrtho am y pethau a wnaethid: am hynny efe a ddaeth yn gynddeiriog o'r Aipht, ac a ennillodd y ddinas ag arfau.

12 Ac efe a orchymynnodd iw fil-wŷr ladd, ac nad arbedent mo'r nêb a gyfarfydde â hwynt, a gwânu y nêb a ddringe iw tai.

13 Felly y gwnaed lladdfa ar wŷr ieuaingc ac henaf-gwŷr, a diniſtr ar wŷr a gwragedd a phlant, gweryſon heſyd a bechgyn a ddifethwyd.

14 Yn gymmaint a difa o honynt bedwar-ugain mîl mewn tri-diwrnod i deugain mil a gaeth-gludwyd, ac eraill nid llai na'r rhai a laddaſid, a werthwyd.

15 Ac heb fod yn fodlon er hyn efe a feiddiodd fyned i mewn i'r deml ſancteiddiaf yn yr holl fŷd, gan gael iddo yn flaenor Menelaus yr hwn oedd fradychwr ei wlâd a'r gyfraith.

16 Ac â dwylo ſceler efe a gymmerodd y lleſtri ſanctaidd, a pha beth bynnag a roddaſid yno iw cadw gan frenhinoedd eraill, er cynnydd, a gogoniant, ac anrhydedd y man hwnnw, efe ai teimlodd â dwylo aflân.

17 Balchiodd Antiochus heſyd, heb wybod, mai o blegit pechodau y rhai a breſſwylent y ddinas y digiaſe'r Arglwydd dros ychydig, ac am hynny bod dirmyg ar y man hwnnw.

18 Canys, oni buaſe iddynt hwy ſyrthio mewn cynniſer o bechodau, hwn heſyd er cynted ag y daethe i mewn wedi ei fflangellu yn ddiſymmwth a droeſid oddi wrth ei hyfder, megis Heliodorus yr hwn a ddanfonaſid oddi wrth Seleucus y brenin i weled y tryſor-dŷ.

19 Ond nid o herwydd y lle y dewiſaſe 'r Arglwydd y bobl, ond o herwydd y bobl y dewiſaſe efe y lle [hwnnw.]

20 Ac am hynny y lle hwnnw yr hwn a fu yn gyfrannog o adfŷd y bobl, a wnaed wedi hynny yn gyfrannog o ddoniau yr Arglwydd a'r hwn a wrthodwyd yn nigofaint yr Hôll-alluog, a gyweiriwyd trachefn â phôb gogoniant drwy gymmod yr Arglwydd goruchaf.

21 Am hynny Antiochus wedi dwyn allan o'r deml fil a phedwar ugain talent, a aeth yn gyflym i Antiochia, gan dybied o wir falchder y galle efe wneuthur y tir yn fôr, a'r môr héfyd yn dir i rodio, falchder oedd ynddo.

22 Ond efe a adawodd ſwyddogion i orthrymmu'r bobl: ſef, yn Ieruſalem, Philip gwr o Phrygia, yr hwn oedd yn ei arferion yn greulonach na'r hwn ai goſodaſe ef.

23 Ac yn Garizim Andronicus, ac heſyd Menelaus: yr hwn oedd ſlinach i'r dinaſwŷr nâ'r lleill eu gyd, a chanddo galon genfigennus yn erbyn yr Iddewon ei wlâd-wŷr.

24 Ac efe a ddanfonodd Apolonius tywyſog melldigedig â llu o ddwy fil ar hugain gan orchymyn iddo yntef ladd pawb a'r oedd mewn oedran: ond gwerthu'r gwragedd a'r rhai ieuaingc.

25 Yntef pan ddaeth i Ieruſalem a gymmerodd arno fôd yn heddychol, ac a arhoſodd ei hûn hyd ſanctaidd ddydd Sabboth: ac yna

yn cael yr Iddewon yn cadw gŵyl, efe a orchymynnodd iw ryfel-wŷr gymmeryd eu harfau.

26 Ac felly efe a laddodd bawb a'r a aethe allan i edrych arnynt, a chan redeg ymma a thraw trwy'r ddinas mewn arfau, efe a laddodd liaws.

27 Ond Iudas Machabæus a' naw eraill gyd ag ef a giliodd i'r anialwch, ac efe ai gydymdeithion a fû fyw yn y mynyddoedd fel anifeiliaid, gan fwytta beûnydd y glaswellt, rhag eu gwneuthur yn gyfrannogion o'r ffieidd-dra hwnnw.

## PEN. VI.

Y mae yn gorfod i'r Iddewon ymâdo â chyfraith Ddûw
4 Yr ydys yn halogi y deml, 10 ac yn coſpi'r gwragedd yn greûlon. 28 go fidfawr benyd Eleazarus.

YChydig yn ôl hynny y brenin a ddanfônodd hênaf-gŵr ô Antiochia, i ddenû 'r Iddewon i ymado â chyfreithiau eu tâdau, fel na's llywodraethid mwyach wrth gyfraith Dduw,

2 Ac i halogi'r deml yr hon oedd yn Ierusalem, efe ai galwodd [ym deml] Iupiter Olympius: a'r hon oedd yn Garizim (megis y rhai a gyfanneddent yn y man hwnnw) a alwodd efe [yn deml] Iupiter letteugar.

3 Ond llywodraeth y dŷn hwn oedd drwm a blin i'r bôbl.

4 Canys y deml a lanwyd o lothineb, a meddwdod y cenhedloedd, y rhai oeddynt yn ymchware â phutteiniaid, ac oddi amgylch y lleoedd ſanctaidd yn bôd iddynt a wnelent â gwragedd, a hefyd yn dwyn i mewn bethau nid ydoedd weddaidd.

5 A'r allor a lanwaſid o bethau anghyfreithlawn, y rhai a waharddaſe y gyfraith.

6 Nid rhydd oedd ychwaith gadw 'r Sabboth na chadw gŵylian eu hanafiaid, nac yn eglûr gyfaddef eu bod yn Iddewon.

7 Ac ddydd ganedigaeth y brenin, yr oedd yn gorfod iddynt heb ddiolch, fyned bôb mis i wledda: a phan gedwid gŵyl y Dionysiaid fe a orfydde iddynt fyned yn orfoleddus, ac eiddaw ganddynt er anrhydedd i Bacchus.

8 Ac fe a aeth gorchymyn allan i ddinaſoedd cyfneſaf y Groeg-wŷr, trwy gyngor Ptolomeus, yng-hylch gwneuthur yn erbyn yr Iddewon yr un rhyw arferion, a'r [un rhyw] wleddaû.

9 Ac yng-hylch lladd y rhai nis mynnent ganlyn arferion y Groegwŷr, am hynny nid oedd dim iw weled ond gofid preſennol.

10 Canys dygwyd allan ddwy o wragedd y rhai a enwaedaſent eu plant, ac wedi eu harwain yn amlwg oddi amgylch y ddinas, a'r rhai bychain wrth eu bronneû hwy a fwriwyd i lawr bendro-mwnwgl oddi a'r y gaer.

11 Rhai eraill yn cyd-rêdeg yn eu myſc eu hûnain i ogfeudd fel y gallent yn ddirgel gadw 'r ſeithfed dydd, a gyhuddwyd wrth Philip, ac a gyd-loſcwyd: o blegit ni feiddient eu helpû eu hûnain, o herwydd parch ar y dydd anrhydeddûs.

12 Am hynny yr wyf yn attôlwg i'r rhai a ddarllenant y llyfr hwn, na's digyſſûrer o herwydd yr adfyd hyn: ond meddyliant fod y coſpedigaethau hyn, yn perthynu nid i ddiniſtr, ond i geryddiad ein pôbl ni.

13 Canys gan nas goddefir y rhai a wnelant yn anûwiol, ond ſythio o honynt yn gyflym i goſpedigaeth, arwydd yw hyn o fawr ddaioni Dûw.

14 Canys nid yw yr Arglwydd yn hîr âros wrthym ni megis wrth genhedloedd eraill, y rhai y mae efe yn eu coſpi pan ddelont i lawndra oi pechodau,

15 Ond fel hyn y bû dda ganddo wneuthur â ni rhag gorfod iddo ddial arnom pan gyflawnid ein pechôdau.

16 Am hynny ni ddwg byth moi drûgaredd oddi wrthym, ond tan eu ceryddu ag adfyd, nid ymêdu efe ai bobl ei hûn.

17 Eithr hyn a ddywedaſom i'ch rhybuddio: bellach ni a ddewn at y traethiaid mewn ychydig o eiriaû.

18 Eleazar rhyw un o'r ſcrifennyddion pennaf yn ŵr oedrannus, a glân o bryd, a orfû iddo agoryd ei enaû, a bwytta cîg môch.

19 Ond efe yn well ganddo farw mewn anrhydedd, na byw mewn ffieidd-dra, a ymroes yn ewyllyſcar i'r poenau, ac ai poerodd allan.

20 Ac efe a aeth [i'r man] yn amlwg, megis ac y dyle y rhai a feiddient eu hamddeffyn eu hun oddi wrth y pethau nid ŷnt rŷdd eu bwytta, er ſerch i enioes.

21 A'r rhai a oſodaſid yn lywodraeth-wŷr y wlêdd anghyfreithlon honno, o blegit y gydnabod a oedd rhyng-ddynt er ys talm â'r gŵr hwn, ai cymmeraſant o'r naill du, ac ai hannogaſant i gymmeryd y cîg a ddarparaſe efe ei hûn, ac i arfer ŷ pethau oedd gyfreithlon iddo: ond cymmeryd ô honaw arno megis pe bwyttae o gîg y wledd, yn ôl y pethaû a orchymynnaſid [iddo] gan y brenin:

22 Fel y galle wrth hyn ei achub ei hûn o angeu a derbyn y ffafor hyn er mwyn yr hên gydnabod a oedd rhyngddynt.

23 Ond efe gan gymmeryd meddwl pwyllog, megis y gwedde iw oedran, ac i ragoriaeth ei henaint ai wallt llwyd parchedig, ac iw rinweddol fûchedd er yn fachgen, îe yn hytrach megis ag y gwedde i ſanctaidd a duwiol gyfraith Dduw a attebodd iddynt gan attolwg ei ollwng yn fûan iw feddrod,

24 Canys nid gweddaidd (eb efe) yw i'n hoedran ni ragrithio, fel y tybbio llawer o wŷr ieuaingc ddychwelyd o Eleazar yn ddengmlwydd a phedwar ugain o oed at arferion dieithr,

25 Ac yr hudid hwythau hefyd o blegit fy

rhagrithrwydd

rhagrithrwydd i, er mwyn ychydig amſer i fyw, ac y bydde i mi ddwyn gwradwydd a dirmyg i'm henaint.

26 Canys er i mi allu diangc oddi wrth goſpedigaeth ddynawl: etto ni's gallaf ffoi oddi wrth law yr Holl-alluog, nac yn fyw, nac yn farw.

27 Am hynny gan newidio bywyd yn wrol mi a ymddangoſaf yn addas i'm henaint.

28 Yna y gadawaf i'r rhai ieuaingc ſiampl ardderchog i farw yn ŵrol, ac yn rymmus tros y ſanctaidd a'r anrhydeddus gyfraith, ac wedi dywedyd hyn efe a aeth yn gyflym i boenau.

29 Yna y rhai ai harweinient, a droeſant eu hewyllys da iddo o'r blaen yn llid wrtho pan glywſant ei ymadrodd: canys tybbio a wnaethant ei fôd wedi ynfydu.

30 Hefyd pan oedd ar farw o blegit y dyrnodiau, efe a ddywedodd gan ocheneidio: eglur yw i'r Arglwydd, yr hwn ſydd ganddo ſanctaidd ŵybodaeth, mai pan allwn fyng-waredu fy hun o angeu, ddioddef o honof fyng-huro ar hŷd fyng-horph a'm bod yn ewyllyſcar yn dioddef y pethau hyn er mwyn parch ei enw ef.

31 Fel hyn y bu efe farw, gan adel ei farwolaeth yn ſiampl o galon ddihafarch, ac yn goffa am rinwedd nid yn unic i'r gwŷr ieuaing ond i lawer eraill o genhedloedd.

## PEN. VII.

Coſpedigaeth y ſaith mrodyr ai mam.

DIgwyddodd hefyd ddal ſaith mrodyr ai mam, gan orchymyn iddynt oddi wrth y brenin, fwytta cîg môch ang-hyfreithlon, a hwy a gurwyd â phlangellau, a gwiail.

2 Ond un o honynt yr hwn a ddadleuodd yn gyntaf a ddywedodd, pa beth yr wyti yn ei geiſio ? a pha beth a fynni di ei ŵybod gennym ni? canys yr ydym ni yn barod i farw yn gynt nag y torrwn ni gyfreithiau ein tadau.

3 Yna y cythruddodd y brenin, ac y parodd dwymno pedill a pheiriau, y rhai yn y man a wnaethpwyd yn boeth.

4 Ac efe a orchymynnodd dorri allan tafod yr hwn a ddadleuaſe yn gyntaf, ai flingo ef, a thorri ymmaith ei aelodau eithaf yng-olwg ei frodyr eraill ai fam.

5 Weithian pan ni ellid dim o honaw ef, efe a barodd ei ddwyn ef i'r tân, ai ffrio yn fyw: a thra yr oedd y mwg dros hir o amſer yn mygu allan o'r pair, y brodyr eraill ai mam a annogent eu gilydd i farw yn galonnog gan ddywedyd fel hyn:

6 Y mae yr Arglwydd Dduw yn edrych arnom, ac yn ddiau efe a gymmer ddiddanwch o honom ni, megis y mynegodd Moſes yn ei ganiad,* yn yr hwn y teſtiolaethodd gan ddywedyd, ac efe a gymmer ddiddanwch yn ei weiſion.

Deut.32.36.

7 Wedi marw o'r cyntaf fel hyn hwy a ddygaſant yr ail i'w wneuthur yn watwargerdd, ac wedi iddynt dynnu croen ei ben ai wallt, hwy a ofynnaſant iddo, a fwyttei di cyn merthyrû dy gorph bob yn aelod.

8 Ond efe a attebodd yn iaith ei wlâd, na wnaf.

9 Am hynny hwn hefyd fel y cyntaf a ferthyrwyd yn gyflym: a phan oedd yn rhoddi i fynû'r yſpryd, efe a ddywedodd: ty di loſrudd, wyt yn dwyn ein bywyd preſennol oddi arnom, ond Brenhin y byd a'n cyfyd ni (y rhai ydym yn meirw tros ei gyfreithiau) i dragywyddol gyfodiadigaeth y bywyd.

10 Yn ôl hwn y dygwyd y trydydd hefyd i'w watwar, a phan ofynnaſant am ei dafod, efe ai eſtynnodd allan yn ebrwydd, ac a ledodd ei freichiaû yn hŷf, ac a lefarodd yn wrol.

11 Y rhai hyn a gefais i gan Dduw o'r nef, a'r rhai hyn yr ydwyf fi yn eu dirmygu er mwyn ei gyfreithiau ef, ac yr ydwyf yn gobeithio derbyn y rhain ail-waith ganddo ef.

12 Yn gymmeint ag i'r brenin a'r rhai oeddynt gyd ag ef ſynnû a rhyfeddu wrth galondid y gŵr ieuangc, megis wrth un heb briſio am ei boenaû.

13 Ac yn ôl marw hwn hwy a ferthŷraſant y pedwerydd hefyd, gan ei ladd y cyffelyb fodd.

14 Yr hwn pan ydoedd agos a marw a ddywedodd, pêth deiſyfadwy yw i ni newidio y pethau ſydd raid eu gobeithio gan ddynion, a diſgwil am ein gobaith oddi wrth Dduw fel ein cyfoder eilwaith drwyddo ef: canys i ti ni bydd cyfodiadigaeth i fywyd.

15 Wedi hynny hwy a ddygaſant y pummed ac ai merthyrâſant.

16 Yr hwn gan edrych ar y brenin a ddywedodd, y mae genit allû ym myſc dynion, ac er i ti fôd yn farwol yr wyt ti yn gwneuthur a fynnech: ond na thybbia wrthod o Dduw ein cenhedl ni.

17 Ond diſgwil ennyd, a gwêl ei allû mawr ef, fel y coſpa efe dy di a'th hâd.

18 Yn ôl hwn hwy a ddygaſant y chweched yr hwn pan ydoedd yn marw a ddywedodd: na ſomma mo honot ty hûn yn ofer: canys nyni ydym yn dioddef y pethaû hyn o'n plegit ein hunain, o blegit pechu o honō yn erbyn ein Dûw: a'r pethau hyn a wnaethpwyd yn rhyfeddod [i bawb.]

19 Ond na feddwl di y diengi di heb dy goſpi, yr hwn wyt yn ceiſio rhyfela yn erbyn Duw.

20 Ond y fam oedd yn rhyfeddfawr ragorol ac yn haeddu cof ardderchog: yr hon tros yſpaid diwrnod a oddefodd â chalon rymmus weled ei ſaith mâb yn marw ar yr unwaith, o blegit ei gobaith a oſodaſe hi yn yr Arglwydd.

21 Ac hi a annogodd bôb un o honynt yn iaith ei gwlâd, ac yn llawn o yſpryd a doethineb hi a gynhyrfodd ei meddwl â chalon wrol, ac a ddywedodd wrthynt,

22 Ni wn pa fodd y daethoch i'm bru: canys

ni roddais i chwi nac yſprŷd na bywyd, ac nid myfi a ddoſparthodd aelôdau eich cyrph.

23 Ond yn ddiau gwneuthurwr y bŷd, yr hwn a luniodd anedigaeth dŷn, ac a gafodd naturiaeth pôb peth, a'r hwn a rydd eilwaith i chwi er ei drugaredd yſpryd a bywyd, yn gymmeint ag i chwi yn awr eich dirmygu eich hunain er mwyn ei gyfreithiau ef.

24 Antiochus hefyd gan dybbio ei fôd yn ddirmygus, a chan feddwl fod ei hymadrodd hi yn wradwyddus, tra ydoedd yr ieûangaf etto yn fyw, a geiſiodd ei ddênu nid yn unic â geiriau, ond hefyd trwy addo â llyfau ei wneuthur yn gyfoethog, ac yn oludog os efe a ymwrthode a chyfreithiau ei dadau, ac hefyd y cymmere efe ef megis yn gâr iddo, ac y rhodde iddo ſwyddau

25 Ac o blegit nas gwrandawe y gŵr ieuangc, efe a barodd gyrchu ei fam, ac a eiriolodd arni hi gynghori ei mâb am ei hoedl ef.

26 Ac wedi iddo ddeiſyfu arni hynny â geiriau lawer, hi a addawodd iddo y cynghore hi ei mab.

27 Yna ei fam a droes atto, a chan watwar y teirau creulon, hi a ddywedodd yn iaith ei gwlad.

28 Fy mab trugarha wrthif, yr hon a'th ddûg di naw mis yn fy mru, yr hon a roddais i ti laeth dair blynedd, yr hon a'th ddûg di i fynu hyd yn hyn, a'r hon a oddefais orthrymderau dy fagwriaeth, attolwg i ti fy mab edrych ar y nef a'r ddaiar, ac edrych ar bôb peth ag ſydd yndynt, cydnebydd wneuthur o Dduw y pethau hyn o'r pethau nid oeddynt, a gwneuthur rhywogaeth dŷn felly.

29 Nac ofna mor cigydd hwn, ond bydd debig i'th frodyr, cymmer dy farwolaeth, fel y gallwyf dy dderbyn gyd a'th frodyr yn yr unrhyw drugaredd.

30 A thra yr ydoedd hi yn dywedyd hyn, y gŵr ieuangc a lefarodd, beth yr ydych chwi yn edrych am dano? nid oes yn fy mryd uſyddhau gorchymyn y brenin, ond yr ydwyf yn gwrando ar orchymynnion y gyfraith, y rhai a roddwyd i'n tadau trwy law Moſes.

31 Tithe hefyd yr hwn wyt ddychymygwr pob drwg i'r Hebræaid, ni diengi rhag llaw Dduw.

32 Canys nyni ydym yn goddef [hyn] o blegit ein pechodau ein hunain.

33 Ond er bôd y Duw byw tros ennyd yn digio wrthym er athrawiaeth ac addyſc i ni, etto efe a gymmyd trachefn ai weiſion.

34 Ond ty di ô annuwiol ac ſceleraf o'r holl ddynion, nac ymddercha dy hun yn ofer gan ffrommi mewn anſicer obaith, a chan godi dy ddwylaw yn erbyn gweiſion Duw:

35 Canys ni ddiengaiſt di etto rhag barn Duw oll alluog, yr hwn ſydd yn gweled [pob peth.]

36 Fy mrodyr y rhai weithian a oddefaſant lafur byrr, ydynt yr awron dan ſanctaidd gyfammod bywyd tragywyddol: tithe hefyd trwy farn Duw, a dderbynni boenau addas o blegit dy falchder.

37 Minne hefyd megis ag y gwnaeth fy mrodyr a roddaf fyng-horph a'm henioes dros gyfreithiau ein teidiau, gan attolwg i Dduw, drugarhau o honaw yn gyflym wrth y genedl hon, a pheri i tithe drwy benyd a choſpedigaeth gyffeſſu, mai efe ſydd Dduw yn unic.

38 A diweddu hefyd ynoſt a'm brodyr o ddigofaint yr Holl-alluog, yr hwn yn addas a ſyrthiodd ar ein holl genedl.

39 Yna'r brenin wedi ei enynnu â chynddaredd, a wŷnfydodd yn erbyn hwn yn fwy na nêb, ac a fu drwm ganddo ei watwar.

40 Hwn hefyd a fu farw yn ſanctaidd, gan roddi ei gwbl ymddyried yn yr Arglwydd.

41 Yn ddiwethaf o'r cwbl y fam yn ôl ei meibion a fu farw.

42 Weithian bydded digon dywedyd hyn am [eu] gwleddau, ai creulondeb aruthrol.

## PEN. VIII.

Iudas yn caſclu yng-hyd ei lu, 9 Nicanor yn myned yn erbyn Iudas, 16 Iudas yn annog ei filwyr i fod yn ddi-anwadal, 20 yr ydys yn gorch-fygu Nicanor, 27 y mae yr Iddewon yn rhoddi diolch wedi yddynt yrru i ffoi eu gelynnion, gan rannu yr yſpail i'r ymddifaid a'r gweddwon, 30 yr ydys yn gorch-fygu Timotheus a Bacchides, 35 y mae Nicanor yn ffoi at Antiochus.

YNa Iudas Machabeus a'r rhai oeddynt gyd ag ef a aethant yn ddirgel i'r pentrefi, ac a alwaſant eu ceraint, ac a gymmeraſant y rhai oeddynt yn aros yn-hrefydd yr Iddewon, ac a gaſclaſant yng-hyd chwemil o wŷr.

2 Felly hwy a alwaſant ar yr Arglwydd, ar edrych o honaw ar ei bobl, y rhai yr oedd pawb yn eu cyſtuddio, ac ar fod o honaw yn drugarog wrth y deml, yr hon a ddarfaſe i'r dynion drwg ei halogi,

3 Ac ar doſturio o honaw wrth y ddinas (yr hon ydoedd wedi ei diniſtrio, ac agos yn un a'r llawr) ac ar wrando o honaw ar lef gwaed y rhai a laddaſid yn gweiddi arno ef,

4 Ac ar gofio o honaw anghyfreithlon laddiad y plant gwirion, a'r cabl eiriau a ddywedaſid yn erbyn ei enw, ac ar ddangos câs yn erbyn drygioni.

5 Yna Machabeus wedi cynnull yng-hyd ei lu, a'r cenedloedd heb allu ei wrthwynebu, gan droi o'r Arglwydd ei ddigofaint yn drugaredd,

6 Efe a ddaeth yn ddiſymmwth, ac a loſcodd y dinaſoedd ar pẽtrefi, ac a feddiãnodd y lleoedd cymhwyſaf, gan yrru llawer oi elynnion i ffoi,

7 Ond yn bennaf efe a arferodd liw nôs wneuthur cyfryw dderfyſcoedd, hyd onid aeth y gair oi wroldeb ef i bôb lle.

8 Ond pan welodd Philip dyfu o'r gŵr hwn yn fuan o feſur ychydig, ac ychydig, ai fôd yn llwyddiannus: efe a ſcrifennodd at Ptolemeus llywodraethwr Cæloſyria a Phenicia, yw ſwccrio ef yn achoſion y brenin.

9 Yna efe a etholodd Nicanor mab Patroclus, vn oi geraint pennaf, ac ai danfonodd ef, gan roddi o bob rhai o'r cenhedloedd nid llai nag vgain mîl, i ddiwreiddio allan holl genedl yr Iddewon: a hefyd efe a gyſylltodd yng-hyd ag ef Gorgias y capten, gŵr cyfarwydd mewn matterion rhyfel.

10 Nicanor hefyd a ordeiniodd am deyrnged y brenin o ddwyfil o dalentau, yr hon a ddyle'r Rhufein-wŷr ei chael, gan yr Iddewon y rhai a ddelid yn garchororion y cymmerid hi.

11 Am hynny efe anfonodd yn y man i'r dinaſoedd ar lan y môr, iw hannog hwy i brynu yr Iddewon i fôd yn weiſion iddynt, gan addo y gwerthe [idynt] ddêg a phedwar vgain er vn talent: ond nid ydoedd efe yn yſtyrio dial Duw, yr hwn a ddeſcynne arno ef.

12 Pan wybu Judas fod Nicanor yn dyfod, efe a fynegodd i'r rhai oeddynt gyd ag ef fôd y gelynnion yn neſau.

13 Weithieu yr oedd rhai [o honynt] yn ofnus, y rhai ni choelient i gyfiawnder Duw, ond ffoi a wnaethāt, a myned ymmaith o'r fan honno

14 Rhai eraill hefyd a werthaſent yr hyn oll a adawſid, ac ar yr vn waith a weddiaſant ar yr Arglwydd, ar waredu o honaw ef hwynt oddi wrth yr annuwiol Nicanor, yr hwn ai gwerthaſe hwynt cyn dyfod o honynt yng-hyd.

15 Ac er na's gwnele efe hyn er eu mwyn hwynt, etto [ar ei wneuthur] er mwyn ei gyfammod ai teidiau, ac er mwyn iddynt alw ar ei ſanctaidd ai ogoneddus enw ef.

16 Yna Machabeus wedi galw ei wŷr yng-hyd, hyd yn nifer chwe mîl, a attolygodd iddynt, na ddigalōnent o blegit eu gelynnion, ac nad ofnent amlder y cēhedloedd y rhai oeddynt yn dyfod arnynt yn ddiachos: ond rhyfela o honynt yn ŵrol, gan oſod ger bron eu llygaid y dirdra a wnaethent yn anheilwng i'r lle ſanctaidd,

17 A'r gurfa a roddaſid i'r ddinas yr hon a watwareſid, a dirymmiad y llywodraeth a dderbyniaſent hwy gan eu henafiaid.

18 Canys y maent hwy yn ymddyried mewn arfau a hyfder, ond nyni a ymddyriedwn yn Nuw oll alluog yr hwn a all ddifetha yr rhai ydynt yn dyfod yn ein erbyn, a'r holl fŷd hefyd ag amnaid.

19 Ac hefyd efe a gofiodd iddynt gymmorth Duw yr hwn a ddangoſaſid iw tadau, ſef pan ſyrthiodd cant a phewar vgain a phum mîl tann *Senacherib,

2.Bren.19.35.

20 A'r rhyfel a wnaethid yn Babilon yn erbyn y Galatiaid, fel y daethe o honynt hwy eu gyd i'r maes wyth mil, gyd â phedair mil o'r Macedoniaid: a phan ammheuodd y Macedoniaid, yr wyth cant hynny a laddaſant vgain mil a chant drwy gymmorth a roddaſid iddynt o'r nef, trwy ba vny derbyniaſant lawer o fudd.

21 Bellach wedi iddo eu cyſuru a'r pethau hyn ai gwneuthyd yn barod i farw dros y cyfreithiau a'r wlâd,

22 Efe a rannodd ei lu yn bedair rhann, ac a wnaeth ei frodyr ei hun yn gapteniaid ar y llu: ſef Simon, Joſeph, ac Jonathas, gan roddi i bob vn bymthec-cant o ryfel-wŷr.

23 Ac wedi i Eleazar ddarllen y llyfr ſanctaidd a rhoddi iddynt yn arwydd, DRWY help Duw, efe yn gapten y llu blaenaf a aeth yng-hyd â Nicanor.

24 Ac o herwydd bod yr Holl-alluog yn rhyfela troſtynt, hwy a laddaſant o'r gelynnion vwch law naw mîl, ac a glwyfaſant, ac a gloffaſant y rhan fwyaf, ac a yrraſant bawb i ffoi.

25 Ac a gymmeraſant yr arian oddi ar y rhai a ddaethent iw prynu, ac ai hymlidiaſant ym-mhell, ond am fod arnynt eiſieu amſer hwy a ddychwelaſant.

26 Canys y dydd o flaen y Sabboth oedd efe, am hynny ni fynnent eu hymlyd hwy ym-mhellach.

27 Fel hyn hwy a gymmeraſant eu harfau, ac a yſpeiliaſant y gelynnion, ac a gadwaſant y Sabboth gan fawr fendithio a moliannu 'r Arglwydd yr hwn ai gwaredaſe y dydd hwnnw, ac a dywalltaſe arnynt ddechreuad ei drugaredd.

28 Hefyd yn ôl y Sabboth hwy a rannaſant rann o'r yſpail i'r cleifion, i'r gweddwon, ac i'r ymddifaid, a'r hyn oedd yng-weddill a gymmeraſant iddynt eu hun ai plant.

29 Ac yn ôl gwneuthur y pethau hyn, a gwneuthur o honynt gyffredin weddi, hwy a attolygaſant i'r Arglwydd trugarog gymmodi o'r diwedd âi weiſion.

30 Wedi hynny ar vn waith hwy a ſyrthiaſant ar vchaf Timotheus a Bachis, ac a laddaſant vwchlaw vgain mîl, ac a ennillaſant vchel a chadarn geſtyll, ac a rannaſant yſpail lawer yn gyffredinol rhyngddynt hwy a'r cleifion, a'r ymddifaid, a'r gweddwon, a'r henaf-gwŷr diffrwyth.

31 Hefyd hwy a gaſclaſant eu harfau yng-hyd, ac ai dygaſant i leoedd cymmwys, a'r yſpail arall a arweiniaſant i Jeruſalem.

32 Hwy a laddaſant hefyd Philarches, yr hwn ydoedd gyd â Timotheus, dyn annuwiol, ac vn a ddygaſe orthrymderau lawer ar yr Iddewon.

33 Yn yr vn ffunyd pan oeddynt yn cadw gŵyl y goruchafiaeth yn eu gwlad, hwy a loſcaſant Caliſthenes yr hwn a loſcaſe 'r pyrth ſanctaidd, ac a ffoeſe i ryw dŷ bychan iw achub ei hun, am hynny efe a dderbyniodd wobr addas am ei anwiredd.

34 A Nicanor annuwiol (yr hwn a ddygaſe fil o farſiandwŷr i brynu 'r Iddewon)

35 Wedi ei ddaroſtwng trwy help yr Arglwydd gan yr rhai y tybiaſe efe nad oeddynt ddim, yn gymmaint a gorfod iddo fwrw ymmaith ei addurn wiſc, a ffoi trwy 'r canol tîr megis gwibbiad, a dyfod heb adel neb gyd ag ef i Antiochia, a'r aflwyddiant mwyaf a gafodd efe

oedd colliet lu.

36 Fel hyn yr hwn a addawſe dalu teyrn-ged i'r Rhufeinwyr o'r carcharorion y rhai oeddynt yn Ieruſalem, a ddygodd newyddion fod gan yr Iddewon amddeffynnwr, ſef Duw: ac o blegit hyn na's galle nêb wneuthur niwed iddynt, o herwydd eu bôd yn cadw y cyfreithiau a orchymynnaſe efe iddynt hwy.

## PEN. IX.

1 Antiochus yn ewyllyſcar i yſpeilio Perſepolis a yrred i ffoi. 5 Ag efe yn erlid yr Iddewon, fe ai tarawodd yr Arglwydd ef. 13 Ffuantus edifeirwch Antiochus. 28 Ei farwolaeth doſturus.

Yng-hylch y cyfamſer hwnnw y daeth Antiochus allan o wlâd Perſia yn wradwyddus.

2 Canys pan ddaeth efe i Perſepolis, efe a amcanodd yſpeilio 'r Deml a dwyn dano y ddinas: ond y bobl a redaſant yn gyffrous iw hamddeffyn eu hun â'i harfau, ac ai gyrraſant ef i ffoi: felly Antiochus, a'yrrwyd i ffoi gan y preſwylwyr, ac a ddychwelodd â chywilydd.

3 A phan ddaeth efe i Ecbatana y dywedwyd iddo ef y pethau a wnaethid i Nicanor ac i Timotheus.

4 Am hynny wedi i lid ei gyfodi ef, efe a feddyliodd droi drwg y rhai ai gyrraſe ef i ffoi ar yr Iddewon, am hynny efe a barodd i'r hwn a ydoedd bob amſer yn gyrru ei gerbyd bryſuro a dibennu ei daith, canys barn Duw ydoedd yn ei annog ef: o herwydd efe a ddywedaſe fel hyn yn ei falchedd, myfi a wnaf Ieruſalem yn gladdfa gyffredin yr Iddewon pan ddelwyf yno.

5 Ond yr Arglwydd oll alluog a Duw Iſrael, ai tarawodd ef â dialedd difeddiginiaethol, ac anweledig: canys er cynted ag y dywedaſe efe y geiriau hyn, dolur yn ei berfedd a ddaeth arno yr hwn ni's gellid ei iachau, a gofid aruthrol yn ei fol.

6 Ac iawn oedd hynny: canys efe a boenaſe berfedd gwŷr eraill ag amryw a dieithr boenau.

7 Hwn hefyd ni pheidie er hynny ai vchelfryd, ond a lenwid yn fwy â balchedd, gan anadlu allan dân yn ei ddig yn erbyn yr Iddewon, a pheri pryſuro ei daith: eithr digwyddodd ſyrthio o hono ef i lawr oi gerbyd, yr hwn ydoedd yn rhedeg yn gyflym, a gwneuthur oll aelodau ei gorph ef yn chwilfriw gan y cwymp mawr [hwnnw.]

8 Fel hyn efe yr hwn a dybbie ychydig o'r blaen y galle orchymyn tõnau y môr (cymmeint oedd ei falchedd tu hwynt i ddyn) a phwyſo y mynyddoedd vchel mewn cloriau tra ydoedd ar y ddaiar, a arwenid mewn elor feirch, gan fynegu i bawb amlwg allu Duw.

9 Yn gymmeint ac i bryfed heidio allan o gorph yr annuwiol hwnnw, a thra ydoedd efe etto yn fyw ei gnawd a ſyrthie [i lawr] gan boen a gofid, ai holl lu a ymofidient o blegit ei ddrwg-ſawyr ef.

10 Fel hyn nid oedd nêb abl i aros yr hwn o'r blaen a dybbie y galle gyrheuddyd ſêr y nefoedd, o blegit y dryg-ſawyr.

11 Am hynny wedi ei glwyfo fel hyn efe a ddechreuodd beidio ai falchder mawr, a dyfod iw adnabod ei hun drwy gurfa Duw, ai ofid yr hwn a chwanegid bôb mynudun [awr.]

12 A phan ni allodd efe aros ei ſawyr ei hun efe a ddywedodd hyn: iawn yw ymoſtwng i Dduw, ac i'r hwn ſydd yn farwol nag ymdrecho i fôd yn oguſtwch â Duw.

13 A'r dyn ſceler hwn a weddiodd at yr Arglwydd (yr hwn ni chymmere drugaredd arno mwyach) gan ddywedyd,

14 Y rhyddhâe efe y ddinas ſanctaidd i'r hon yr oedd efe yn pryſuro iw gwneuthur yn vn ar llawr, ac yn gladdfa.

15 A hefyd y gwnai efe yn oguſtwch a'r Antiochiaid yr holl Iddewon y rhai yr oedd efe [o'r blaen] yn eu barnu yn anheilwng o gladdedigaeth, ond iw bwrw iw llyngcu gan adar a bwyſtfilod yng-hyd ai plant.

16 Ac yr hardde efe y Deml ſanctaidd â rhoddiõ gwychion yr hon o'r blaen a ddarfaſe iddo ei hyſpeilio, ac y chwanege efe y lleſtri ſanctaidd, ac y rhodde efe oi ardreth ei hun yr holl gôſt a ydoedd yn perthynu i'r ebyrth.

17 Ac am ben hyn hefyd y bydde efe ei hun yn Iddew, ac y rhodie ym mhob lle cyfanneddol gan bregethu gallu Duw.

18 Ond pan na pheidie ei ofidfawr boenau (canys fe a ddaethe arno ef iawn farn Duw) gan anobeithio ei iechyd, efe a ſcrifennodd at yr Iddewon y llythyrau ſy yn canlyn, ac yndynt y fath deiſyfiad a hyn.

19 I'r Iddewon ei ddinaſwŷr, annerch ac iechyd a llywyddiant oddi wrth Antiochus y brenin a'r pen llywydd.

20 Os ydych chwi a'ch plant yn iach, ac os yw pob peth yn ôl eich dymuniant, mi a roddaf fawr ddiolch i Dduw, gan fôd gennif obaith yn y nef.

21 Wrth ddychwelyd o wledydd Perſia, wedi ſyrthio mewn clefyd mawr, mi a dybbiais fôd yn ang-henrheidiol i mi ofalu am gyffredin ddienbyddrwydd pawb,

22 Nid gan anobeithio o'm bywyd, ond gan fod gennif obaith mawr y diangaf o'r clefyd hwn.

23 Gan yſtyrio hefyd ddarfod i'm tâd yr amſer ac yr arwenodd lu i'r tueddau vchaf hyn, ſeinio pwy a llywodraethe ar ei ôl:

24 Fel os digwydde dim amgen nag yr oedd yn gobeithio, neu os dywedid newyddion drwg yn y byd, na bydde i wŷr y wlâd derfyſcu, gan eu bod yn gwybod i bwy i rhoeſid llywodraeth y matterion [hynny.]

25 Hefyd gan feddylio bod y pendefigion ſy oddi amgylch ac yn gymydogion i'm teyrnas, yn diſgwil amſer, ac yn edrych pa beth a ddigwyddo: myfi a ordeiniais fy mâb Antiochus

chus yn frenin, yr hwn pan oeddwn yn myned i'r gwledydd uchaf hyn, a orchymynnais yn fynych i lawer o honoch chwi, ac a ſcrifennais atto ef y modd y mae yn calyn yr ſcrifen ymma.

26 Am hynny yr wyf yn eiriol arnoch chwi ac yn ddeiſyfu ar goffa o honoch y cymmwynaſau a wneuthym i chwi yn amlwg ac yn ddirgel, a chadw o honoch bob amſer eich ewyllys da i mi a'm mâb.

27 Canys diau gennif y ceidw efe yn gyfan ac yn ddihalog y cyngor a roddais iddo yn eich cylch chwi.

28 Fel hyn y llofrudd a'r cabl-wr wedi iddo oddef gofid lawer, megis ag y gwnaethe efe i eraill, a fu farw yn ymdeithio ar y mynyddoedd.

29 A Philip ei frawd-maeth ef a ddug ymmaith ei gorph ef : yr hwn hefyd rhag ofn mâb Antiochus a ffôdd i'r Aipht at Ptolomeus Philometor.

## PEN. X.

1 Iudas Machabæus yn ennill trachefn y ddinas a'r Deml. 10 Gweithredoedd Eupator. 16 Yr Iddewon yn ymladd yn erbyn yr Idumeaid. 24 Timotheus yn goreſcyn Iudæa, yn erbyn yr hwn y mae Iudas yn rhyfêla. 29 Pum gwr ſydd yn ymddangos yn yr awyr i helpu yr Iddewon. 37 Lladdiad Timotheus.

MAchabæus hefyd a'r rhai oeddynt gyd ag ef, drwy fôd yr Arglwydd yn llywydd [iddynt] a ennillodd trachefn y ddinas a'r Deml.

2 Ac hwy a ſwriaſant i lawr yr allorau a'r Cappelau a wnaethe yr cenhedloedd yn yr heolydd.

3 Ac wedi glanhau'r Deml, hwy a weithiaſant allor arall : ac wedi iddynt daro tân allan o gerrig tanllyd, hwy a offrymmaſant aberth yn ôl dwy flynedd, ac a arlwyaſant arogl-darth a luſernau, a bara goſot.

4 Wedi hynny hwy a attolygaſant i'r Arglwydd gan ſyrthio i lawr ar eu hwynêbau, na bydde iddynt mwyach ſyrthio mewn cyfryw ddrygau : ond os pechent trachefn un amſer, bod iddo ef ei hun eu coſpi drwy drugaredd, ac nas rhodde ddim o honynt mwy i'r cablaidd a'r creulon genhedloedd.

5 A'r dydd hefyd yr halogaſid y Deml gan y dieithraid, y digwyddodd gwneuthur puredigaeth y Deml yr un dydd, ſef y pummed dydd ar hugain o fis Caſleu.

6 Hwy a gadwaſant â llawenydd tros wyth niwrnod ddydd gwyl y pebyll, gan gofio fel y gorfaſe iddynt ychydig o'r blaen gadw gŵyl y pebyll yn y mynyddoedd a'r ogfeuydd yn ôl modd anifeiliaid.

7 Am hynny hwy a gymmeraſant ganghenau îr, a cheingciau hardd, a blodau, ac a ganaſant pſalmau i'r hwn a roddaſe iddynt rwydd-deb i lânhau ei fangre [ei hun.]

8 Hwy a ordeiniaſant hefyd drwy gyffredin orchymyn a deddf ym myſc hôll genedl yr Iddewon, gadw y dyddiau hyn [yn ŵyl] bôb blwyddyn.

9 Ac fel hyn y bu ddiwedd Antiochus a gyfenwid Epiphanes.

10 Weithian hefyd ni a fynegwn y pethau a wnaethpwyd yn amſer Eupator Antiochus yr hwn ydoedd fâb yr annuwiol hwnnw) gan dalfyrru yng-hŷd y beunyddiol ddrygau y rhai oblegit rhyfêloedd a ganlynaſant.

11 Canys hwn wedi cymmeryd arno y deyrnas a ſeiniodd ryw un a elwid Lyſias, i fod yn olygwr ar [ei] faterrion, yr hwn a fuaſe yn gapten pennaf o Cœles Syria a Phenicia.

12 Canys Ptolomeus yr hwn a henwaſid Macron (ai fryd ar wneuthur cyfiawnder a'r Iddewon, o blegit y cam a wnaethe iddynt) a aeth yng-hylch dwyn eu materion hwy i benn yn heddychol.

13 Am hynny efe a gyhuddwyd ger bron Eupator gan ei geraint, ac efe a alwyd yn fynych yn fradychwr, o blegit gadel o honaw Cyprus, yr hon a roddaſe Philometor yn ei gadwriaeth ef, a myned o honaw at Antiochus Epiphanes : am hynny pan welſe a nad ydoedd mewn bri ardderchog, efe a gymmerth wenwyn, ac ai gwenwynodd ei hun, ac a fu farw.

14 Ond pan wnaethpwyd Gorgias yn ben llywydd y lleoedd hyn, efe a groeſawodd eſtroniaid, ac a ryfelodd yn fynych yn erbyn yr Iddewon.

14 Yr Idumeaid hefyd a gytunaſant ag ef, ac a flinent yr Iddewon, gan ennill y lleoedd cedyrn, a chwy derbyn y rhai a yrrid ar herw o Jeruſalem hwy a ymroddaſant i gadw rhyfel.

16 Am hynny y rhai oeddynt gid â Machabæus drwy weddio a ddeiſyfaſant ar Dduw fod yn gymmorthwr iddynt, ac yna hwy a ruthraſant ar gedyrn leoedd yr Idumeaid,

17 I'r rhai pan redaſant yn rymmus, hwy a wnaethpwyd yn gyfrannogion o'r lleoedd, ac wedi iddynt ddial ar yr hôll rai a oeddynt ar y gaer hwy a laddaſant y rhai a gyfarfyddent, ac a ddienaidaſant nid llai nag ugain mil.

18 Canys pan gyd-ffoeſe naw mil o'r lleiaf i ddau dŵr cadarn tros ben, gan fod ganddynt bôb peth ang-henrheidiol er gwarchau,

19 Machabæus a adawodd Simon ac Joſeph a Zaccheus hefyd, a'r rhai oeddynt gid ag hwynt i amgylchu [y tŷrau,] ac efe a aeth ei hun lle yr oedd mwy o eiſieu.

20 Ond y rhai oeddynt gyd â Simon, am eu bod yn chwannog i arian, a lygrwyd ag arian gan y rhai oeddynt yn y tyrau : ac wedi cymmeryd dêng mîl a thrugain drachmau hwy a ollyngaſant rai i ffoi.

21 Yr hwn beth pan fynegwyd i Machabæus efe a gynhullodd yng-hyd bendefigion y bobl, ac a gwynodd arnynt hwy ddarfod iddynt werthu eu brodyr am arian, gan ollwng eu gelynion yn eu herbyn hwynt.

22 Am hynny efe ai lladdodd hwynt wedi eu tittio o draeturiaeth, ac yn ddiſymmwth efe a ennillodd y ddau dŵr hynny.

23 Ac efe a arferodd yr arfau y rhai oeddynt yn [eu] dwylo yn llwyddiannus, ac a laddodd fwy nac ugain mil yn y ddau le hynny.

24 Timotheus hefyd yr hwn a ddarfuaſe i'r Iddewon ei orch-fygu o'r blaen, wedi caſclu llawer o luoedd dieithr a llawer o wŷr meirch o Aſia, a ddaeth yno ar fedr ennill Iudea wrth arfau.

25 Ond y rhai oeddynt gyd a Machabeus, pan ydoedd yn neſſau, a droeſont i weddio ar yr Arglwydd,

26 Gan daenu pridd ar eu pennau, a gwregyſu eu lwynau â llienſach, a ſyrthio ar eu hwynebau i'r llawr wrth droed yr allor, ac a attolygaſant iddo drugarhau wrthynt, a bod yn elyn i'w gelynnion, a gwrthwynebu eu gwrthwyneb-wŷr, megis ac y mynêga y gyfraith.

27 Ac wedi diweddu eu weddi, hwy a gymmeraſant eu harfau, ac a aethant ymmhellach oddi wrth y ddinas, a phan ddaethant yn agos at eu gelynnion hwy a gymmeraſant ofal am danynt eu hun.

28 Ac er cynted yr ymddangoſodd cyfodiad haul, hwy a aethant bob un yng-hŷd: y naill ran a'r Arglwydd ganddynt yn noddfa, ac yn wyſtyll llwyddiant, a buddugoliaeth ardderchog, a'r lleill yn goſod calondid yn llywydd rhyfel.

26 A thra'r oedd y gâd yn boeth fe a ymddangoſodd i'r gelynnion o'r nef bum gŵr hardd-wychion, yn eiſtedd ar feirch a ffrwynau aur, a dau [o honynt] yn blaenori'r Iddewon.

30 Y rhai gan gymmeryd Machabeus erbyn ei ganol ai gwiſcaſant ai harfau rhai ydoedd am danynt, ai cadwaſant yn ddiniwed: ac a ſaethaſant biceſſau a mellt yn erbyn y gelynnion: am hynny wedi eu gwaſcaru â dallineb, hwy a ſyrthiaſant i lawr yn llawn blinder.

31 Am hynny y lladdwyd o wŷr traed ugain mil a phymp cant, ac o wŷr meirch chwe-chant.

32 Ond Timotheus hwnnw a ffôdd i Gazara yr hon a elwid yn lle cadarn, lle yr ydoedd y pen llywydd Chereas.

33 Ond mil-wŷr Machabeus a ymgylchynaſant y lle hwnnw yn galonnog bedwar diwrnod ar hugain.

34 Ond y rhai oeddynt oddi mewn yn ymddyried yng-hadernid y lle [hwnnw] a gablaſant yn ddirfawr, ac a ddywedaſant eiriau ffiaidd.

35 Pan oleuodd hi y pummed dydd ar hugain, gwŷr ieuaingc y rhai oeddynt gyd â Machabeus, yn lloſci yn eu meddyliau o blegit y gabledd, a ddaethant at y gaer, ac a laddaſant yn wrol â chalon egnius bôb un a gyfarfyddent â hwynt.

36 Eraill hefyd a ddringaſant oddi amgylch yn erbyn y rhai oeddynt oddi mewn, ac a loſcaſant y tyrau, ac wedi cynneu tân hwy a loſcaſant y cabl-wŷr yn fyw.

37 Yn ddiweddaf rhai eraill a dorraſant y pyrth, ac a dderbyniaſant i mewn weddill y llu, ac a ennillaſant y ddinas, ac a laddaſant Timotheus yr hwn ydoedd wedi ymguddio mewn rhyw ffôs, efe ai frawd Chereas, ac Apollophanes.

38 Wedi darfod iddynt wneuthur y pethau hyn hwy a foliannaſant yr Arglwydd â chaniadau, ac a mawl, yr hwn ag ardderchog ddaioni a helpaſe Iſrael, ac a roddaſe iddo oruchafiaeth.

## PEN. XI.

Lyſias yn amcanu gorch-fygu'r Iddewon, 8 yr ydys yn danſon cymmorth i'r Iddewon o'r nef, 16 llythyr Lyſias at yr Iddewon, 20 llythyr brenin Antiochus at Lyſias, 27 llythyr yr vn-rhyw at yr Iddewon, 34 llythyr y Rhuſein-wyr at yr Iddewon.

AR fyrder o amſer yn ôl hyn Lyſias gorch-wyl-wr y brenin ai gâr, yr hwn ydoedd lywydd ar ei holl fatterion ef a gymmerth ddigofaint mawr am y pethau a wnaethid.

2 Wedi iddo ef gaſclu yng-hŷd yng-hylch pedwar ugain mîl, a'r holl wŷr meirch efe a ddaeth yn erbyn yr Iddewon, ai frŷd ar wneuthur y ddinas yn breſſwylfa i'r Groeg-wŷr:

3 A'r deml i gael arian oddi wrthi fel temlau eraill y cenhedloedd, ac ai frŷd ar werthu ſwydd yr offeiriaid bôb blwyddyn.

4 Heb feddwl dim am allu Duw ond yn ynfyd yn ei feddwl, o herwydd ei fyrddiwn o wŷr traed, ai filoedd o wŷr meirch, ai bedwar ugain Elephant.

5 Efe a ddaeth i wlâd yr Iddewon, ac a neſſaodd at Beth-ſura, yr hwn ydoedd gaſtell cadarn o fewn pum yſtâd at Ieruſalem; ac ai blinodd ef.

6 Ond pan glybu y rhai oeddynt gyd â Machabeus warchaeu ceſtyll cedyrn, hwy a lefain a dagrau hwy a weddiaſant ar Dduw ar iddo ef ddanfon Angel da i amddeffyn Iſrael.

7 Ond Machabeus gan gymmeryd arfau yn gyntaf ei hunan a gyffroodd eraill i gyd ddwyn perigl ag ef, i helpu eu brodyr, felly hwy a ruthraſant gydâ hwynt yn ewyllyſcar.

8 Ac fel yr oeddynt yno ger llaw Ieruſalem, gŵr ar farch a ymddangoſodd iddynt, oi blaen mewn gwiſc wenn yn eſcwyd ei arfau euraid.

9 Yna pawb o honynt a gyd ogoneddodd y trugarog Dduw, ac a gymmeraſant galonnau grymmus, fel yr oeddynt barod i ymladd, nid yn unic a gwŷr, ond hefyd a'r aniſeiliaid gwylltaf, ac ar parwydydd heyrn.

10 Felly hwy a aethant rhagddynt mewn byddin, a helpwr o'r nefoedd ganddynt, o blegit yr Arglwydd a gymmeraſe drugaredd arnynt.

11 A than ruthro ar eu gelynnion megis llewod hwy a laddaſant un mil ar ddeg o wŷr

traed, a mil a chwechant o wŷr meirch, ac a yrraſant y lleill oll i ffo.

12 Llawer o honynt wedi eu clwyſo a ddiangaſant yn noethion, a Lyſias ei hun a ffoes drwy gywilydd, ac a ddiangodd.

13 Ac fel nad oedd efe yn ŵr angall, gan feddylied ynddo ei hun pa golled a gawſe, a than gyd ſynnied fod yr Hebræaid heb allel eu gorfod, am fod yr ôll alluog Dduw yn eu helpu hwynt, a ddanfonodd attynt.

14 Ac a wnaeth addewid ar iddo ef gytuno i bôb peth rheſymol, ac am hynny y dene, ac y gyrre y brenin i fôd yn ffafrus iddynt.

15 Am hynny Machabêus a gytunodd ym mhob peth a ddeiſyfodd Lyſias gan ofalu am ei fod yn fuddiol, a pha beth bynnag a ſcrifennodd Machabêus at Lyſias dros yr Iddewon, hynny oll a ganiataodd y brenin.

16 O blegit yr oedd llythyrau wedi eu ſcrifennu at yr Iddewon oddi wrth Lyſias fel hyn: Lyſias yn annerch pobl yr Iddewon.

17 Ioan ac Abeſſalom y rhai a yrrwyd oddi wrthych, hwy a roddaſant attafi yr atteb ſcrifennedic, ac a ddymunaſant arnafi gyflawni y pethau yr oedd hwnnw yn eu harwyddocau.

18 Am hynny pa beth bynnag ydoedd raid ei adrodd i'r brenin, mi ai thaethais [iddo:] a pha beth bynnag a fai gyffelybol i wneuthur, efe ai caniadhaodd.

19 Am hynny os cedwch chwi yr ewyllys da hwn, yn y matterion hyn, ie yn ôl hyn hefyd mi a wnaf egni ar fod yn achos ddaioni [i chwi.]

20 Tu ag at am y pethau hyn oll mi a rois orchymyn i'r rhain, ac i'm cennadau inne i gyd ymddiddan â chwychwi.

21 Byddwch iach y ganfed ar wythfed flwyddyn a deugain, y pedwerydd dydd ar hugain o Ddioſ-corynthius.

22 Ond llythyrau'r brenin ydoedd fel hyn, Antiochus frenin yn danfon annerch at ei frawd Lyſias.

23 Wedi i'n tâd ni ymadel oddi ymma at y duwiau, ein ewyllys ni yw fôd y preſwylwŷr ein teyrnas yn ddigyffro fel y gallo pawb ofalu am yr eiddo ei hun.

24 Yn gymaint ac i ni glywed i'r Iddewon (y rhai ni chytunent a'r cyfnewidiad yr hwn a wnaethe fy nhâd yn ôl arfer y Groeg-wŷr, ond oedd well ganddynt eu harfer eu hun) fod yn dymuno caniadhau iddynt ei harferau cyfreithlawn eu hun.

25 O achos hynny ein ewyllys yw cael o'r cenhedloedd ymma fod yn ddiderfyſc, ac ni a roeſom ein brŷd ar edfryd iddynt eu teml, a gadel y g'waſanaeth iddynt yn ôl yr arfer a oedd yn amſer eu henafiaid.

26 O achos hynny da y g'wnei os danfoni attynt, a rhoi dy ddeheulaw iddynt megis pan wypont ein meddwl ni y byddant gyſſurus, ac y gallant drin yn hyfryd eu matterion eu hun.

27 Ac fel hyn yr oedd llythr y brenin at y cenhedloedd: Antiochus frenin, at henafiaid yr Iddewon, ac at yr Iddewon eraill ſydd yn danfon annerch.

28 Os iach ydych ein dymuniant yw, iach ydym ninnau hefyd.

29 Menelaus a ddangoſodd i ni fôd eich deiſyfiad chwi i droi adref, ac i drin eich matterion eich hun.

30 Am hynny y neb a ddeſcynno oddi wrthym attoch chwi addewid ffyddlon a fydd iddo drwy ddiofalwch hyd y decfed dydd ar hugain o fis Xanthicus.

31 Fel y gallo yr Iddewon fwynhau eu llyniaeth eu hunain ai cyfreithiau, megis o'r blaen, ac na chaffo neb o honynt flinder am bethau a wnelid yn amryfus.

32 Ac mi a yrrais hefyd Menelaus attoch chwi i'ch cyſſuro.

33 Byddwch iach y ganfed ar wythfed flwyddyn a deugain, a'r pymthecfed dydd o fis Xanthicus.

34 Danfon hefyd a wnaeth y rhufein-wŷr lythr attynt yn cynnwys y geirian hyn. QVINTVS Memmius, Titus Manlius, cennadau y Rufein-wŷr at bobl yr Iddewon ſydd yn danfon annerch.

35 Y pethau a ganhiataodd Lyſias carwr y brenin yr ydym ninnau hefyd yn eu caniadhau.

36 Y pethau y mae efe yn yn barnu eu bod iw dwyn at y brenin gyrrwch yn fuan ryw un i yſtyried y pethau hynny, fel y gallom ni ymgynghori am y pethau a fyddo addas i chwychwi o achos yr ydym ni yn myned i Antioch.

37 Am hynny bryſiwch a gyrrwch rywrai, fel y gallom wybod eich meddwl.

38 Byddwch iach y ganfed ar wythfed flwyddyn a deugain ar pymthecfed dydd o fis Xanthicus.

## PEN. XII.

2 Timotheus yn blino 'r Iddewon, 3 gweithred annuwiol gwyr Ioppe yn erbyn yr Iddewon a dial Iudas arnynt, 9 yr hyn a wnaeth Iudas i'r Iamniaid i'r Arabiaid i'r Caſpiaid, 19 i Timotheus ac i Gorgias.

VVEdi g'wneuthur yr ammodau hyn Lyſias a aeth at y brenin, a'r Iddewon a ymroeſant i goledd y ddaiar.

2 Ond y tywyſogion y lleodd [hynny,] ſef, Timotheus, ac Appolonius mab Genneus, hefyd Hieronymus, a Demophon, ac heb law'r rhain Nicanor pennaeth Cyprus, ni ddioddefent iddynt orphywys a g'weithio yn llonydd.

3 Gwyr Ioppe hefyd a ddibennaſant y weithred annuwiol hon, ie, hwy a gynghoraſant i'r Iddewon y rhai oedd yn trigo gyd â hwynt ar yddynt hwy ai g'wragedd ai plant fyned i long a ddeifeiſiaſſent hwy megis pe buaſe heb fod creulondeb calon yn eu herbyn hwynt.

4 Felly drwy gyfundeb y ddinas y cymmeraſant y gyfraith fel g'wŷr yn dymuno heddwch,

ac heb ddrwgdybied dim hwy a foddaſant o honynt wedi iddynt fyned i'r dyfnder nid llai na dau cant o wŷr.

5 O herwydd hynny pan glŷbu Judas wneuthur creulondeb yn erbyn ei genhedlaeth efe a ddangoſodd hynny i'r gwŷr oedd gyd ag ef.

6 Ac wedi galw ar Dduw y barn-wr cyfiawn, efe a ddaeth yn erbyn lladdwŷr ei frodyr ac a enynnodd y borthladd o hŷd nôs, ac a loſcodd yr yſcraffau, ac a laddodd y rhai a ffoaſent yno.

7 A phan oedd y lle wedi ei gaeu o amgylch efe a aeth ymmaith megis ar fedr dyfod eilwaith a diwreiddio holl bobl gyffredin Joppe.

8 Hefyd pan ddeallodd efe fod yr Jamniaid ar fedr dwyn i ben yr vnrhyw beth yn erbyn yr Iddewon y rhai oeddynt yn trigo gid â hwynt,

9 Efe a ddaeth am ben yr Jamniaid o hŷd nôs, ac a loſcodd y porthlo a'r llongau yn gymmeint ac i lewyrch y fflam [dân] ymddangos hyd yn Jeruſalem, pan ſafent ddeng-milldir ar hugain oddi wrthi hi.

10 A phan aethant oddi yno filldir a hanner cwarter pan oedd yn eu bryd fyned yn erbyn Timotheus y ruthrodd o'r Arabiaid arno ef nid llai na phum mil [o wŷr traed] a phum cant o wŷr meirch.

11 A phan ymladdaſant yn dôſt â rhyfelwŷr Judas o achos cymmorth Duw yn llwyddo: y Nomadeaid o Arabia wedi eu gorchfygu a ddeiſyfaſāt ar Judas roi eu deheulaw iddynt dan addo rhoi iddo anifeiliaid, a bôd yn fuddiol iddo ef mewn pethau eraill.

12 Ac Judas yn tybied y byddent fuddiol iddo mewn llawer o bethau a gennadhaodd iddynt heddwch, a phan darawſant ddwylo, hwy a ymadawſant [bawb] iw pebyll,

13 Daeth hefyd am ben rhyw ddinas wedi ei chadarnhau â phont, ai chwmpaſſu â chaerau yr hon a gyfanneddid gan lawer o genhedlaethau cymmyſcedig, yr hon a elwid Caſpis.

14 Ond y rhain am eu bod yn hyderu ynghadernid eu caeru, ac yn eu ſtôr o fwydydd, a fuant ddieſceulus, ac a ymſerthaſant a'r rhai oeddynt gyd ag Judas, ac ai cablaſant hwy, ac a ddywedaſant eiriau anghyfreithlawn iw dywedyd.

15 Wedi i ryfelwŷr Machabæus alw ar bennadur mawr y byd, yr hwn heb nac offer na deſnyddion rhyfel a fwriodd i lawr gaerau Jericho yn amſer Joſua, hwy a ruthraſant yn awchus yn erbyn y gaer,

16 Ac a orchfygaſant y ddinas trwy ewyllys Duw, ac a wnaethant laddfa anguriol, yn gymmeint a bôd llyn ger llaw, yr hwn oedd gwarter mîlldir ô lêd wedi colli gwaed ynddo hyd onid oedd yn llawn.

17 Hwy a aethant oddi yno ſeithcant a dêc a deugain o yſtadiau, ac a ddaethant i Characa at y rhai a elwid Iddewon * Tubin.

1.Mac.5.13.

18 Ond yn wir ni chawſent afel ar Timotheus yn y lleoedd hynny, o blegit efe a aethe ymmaith oddi yno heb ddwyn dim i ben: ond efe a adawſe lu mewn rhyw le yn gryf iawn tros ben.

19 Doſitheus hefyd a Soſipater y capteniaid a oeddynt gyd á Machabæus a aethant rhagddynt ac a laddaſant o'r rhai a adawſe Timotheus yn y lle [hwnnw] mwy na deng mil o wŷr.

20 Machabæus wedi goſod ei wŷr yn finteioedd ai goſododd hwynt ar y minteoedd, ac a ruthrodd ar Timotheus a chyd ag ef gan mil ac vgain mil o wŷr traed, a dwy fil a phum cant o wŷr meirch.

21 Ond Timotheus pan wybu ddyfodiad Judas, a ddanfonodd o'r blaen wragedd a phlāt a chlud arall i le a elwir Carnion, o blegit y lle hwnnw oedd anhawdd ei gwmpaſu a dyfod i mewn iddo, o achos y cyfyng leoedd o bôb tu.

22 A phan ymddangoſodd blaen câd Judas fe a ddaeth ofn ar y gelynion, o blegit y nêb ſydd yn gweled pob peth oedd yn breſennol yn dyfod arnynt, ac hwy a ffoeſant vn ar vcha'r llall yn gymmeint ag yn fynych iddynt gael eu clwyfo gan eu pobl eu hunain, ai gwânu â blaen eu cleddyfau eu hunain.

23 Am hynny yr erlidiodd Judas yn ddyſtach, ac y gwanodd efe y rhai halogedic hyd oni laddodd efe yng-hylch deng-mîl ar hugain o wŷr.

24 Timotheus ei hunan a ſyrthiodd yn nwylo Doſitheus a Soſipater, a thrwy fawr ddichell a ddeiſyfiodd arnynt ei ollwng ef yn rhydd yn fyw, am fod tan ei law ef dadau llawer a brodyr rhai, ac y digwydde na bydde gyfrif am y rhai hynny [os lleddid ef.]

25 Pan roes efe ei grêd i laweroedd ar iddo ef eu rhyddhau hwynt, hwy ai gollyngaſant ef yn rhydd o ran iechydwriaeth eu brodyr.

26 Yna yr aeth Machabæus yn erbyn Carnion, ac Atargation, ac a laddodd bum mîl ar hugain o wŷr.

27 Wedi eu gyrru i gilio ai diniſtr, efe a werſyllodd yn erbyn Ephron tref wedi ei chadarnhau yn yr hon yr oedd yn trigo gynnulleidfeudd o bôb cenedl, a gwŷr ieuaingc grymmus wedi eu goſod i amddeffyn y caerau, lle yr oedd hefyd fawr barodrwydd o offer rhyfel ac arfau.

28 Ond wedi iddynt alw ar y pennadur yr hwn ſydd yn gadarn yn gwanhau grym y gelynion hwy a gawſant y ddinas yn ddaroſtyngedig, ac a laddaſant o'r rhai oedd ynddi bum mil ar hugain.

29 Ar ôl hynny y ſymudaſant oddi yno, ac y ruthraſant yn erbyn Scythopolis yr hon ſydd oddi wrth Jeruſalem chwe chant yſtad.

30 Ond wedi i'r Iddewon y rhai oeddynt yno yn preſſwylio deſtiolaethu droſtynt, mor dda oedd ewyllys y Scythopoliaid tu ag attynt, ac mor dda oedd eu hymwared hwynt tu

ag attynt yn eu blin-fyd.

31 Gan roddi diolch iddynt, hwy a ddeiſyfaſſãt arnynt fôd yn gymmwynaſcar iw cenedl rhag llaw, ac am fôd yn gyfagos ŵyl yr wythnoſau hwy a ddaethant i Ieruſalem.

32 Ac wedi yr wyl a elwir Pentecoſt hwy a ruthraſant ar Gorgias capten Idumæa.

33 Ac a aethant rhagddynt â theirmil o wŷr traed, ac â phedwarcant o wŷr meirch.

34 A phan ymladdaſant yn ei erbyn ef, ymbell un o'r Iddewon a laddwyd.

35 Doſitheus hefyd rhyw farchog o lu Bacenor o wr grymmus, pan ddaliodd efe Gorgias, efe ai lluſcodd ef yn rymmus erbyn ei gochl, ai ewyllys ar ddal y gwr melldigedig hwnnw, ond fe ddaeth arno ef ryw ŵr march o Thracia ac a dorrodd ymmaith ei yſcwydd ef felly y diangodd Gorgias i Mareſa.

36 A phan oedd y rhai oeddynt o amgylch Eſryn yn ddeffygiol i ymladd chwaneg, Iudas a alwodd ar yr Arglwydd ar iddo ef ymddangos yn helpwr, yn gapten, ac yn flaenor i'r gâd.

37 Ac efe a ddechreuodd lef gymmyſcedig â pſalmau yn iaith ei wlâd, ac a ddaeth yn ddiſymmwth am ben rhyfelwŷr Gorgias, ac ai troes hwy i gilio.

38 Felly Iudas dan gaſclu ei lu a ddaeth i ddinas a elwyd Odola, yn yr hwn le pan ddaeth y ſeithfed dydd, fel yr oedd yr arfer, hwy ai glanhauſant eu hunain, ac a gadwaſant y dydd Sabboth yn y lle hwnnw.

39 Yr ail dydd fel yr oedd anghenraid y daeth y rhai oeddynt gyd ag Iudas i ddwyn ymmaith gyrph y rhai a laddaſid, ac iw claddu hwynt gyd ai cyfneſeifiaid ym meddau eu tadau.

40 Hwy a gawſant tan beiſiau pob un o'r rhai a laddaſid bethau wedi eu cyſſegru i ddelwau'r Iamniaid y rhai oedd waharddedig i'r Iddewon yn ôl y gyfraith yn gymmeint a bôd yn yſbys i bawb gael o'r rhai hyn eu lladd o achos hynny.

41 Yna pawb a roes ddiolch i'r Arglwydd y barnwr cyfiawn, yr hwn ſydd yn gwneuthur pethau cuddiedig yn amlwg.

42 Hwy a droaſant at eu gweddi, ac a ddeiſyfiaſant ar Dduw ddileu yn gwbl y pechod a wnaethant: ac Iudas yn nerthol a gynghorodd i'r gynnulleidfa ymgadw yn lân oddi wrth bechod, gan iddynt weled ai llygaid y pethau a ddaethe i benn am bechod y rhai a laddaſid.

43 Ac wedi iddo ddarpar treth o ddwyfil o ddragmau o arian, efe a ddanfonodd i Ieruſalem i offrymmu dros y pechod: gan wneuthur yn dda ac yn oneſt, o achos ei fod yn meddwl am yr adyfodiad.

44 O blegit oni buaſe iddo ef obeitho adcyfodiad y rhai a laddeſid, gwaith ofer fuaſe weddio tros y meirw.

45 Yna y deallodd efe fôd taledigaeth ynghadw i'r rhai a fuaſent feirw yn dduwiol.

46 Sanctaidd a duwiol oedd y meddwl trwy yr hwn y gwnaeth iawn tros y meirw fel y rhyddheid hwy oi pechod.

## PEN. XIII.

1 Eupator yn dyfod i Iudæa. 4 Marwolaeth Menelaus, 10 Machabæus yn myned i ymladd yn erbyn Eupator, ac yn peri iw ryfelwyr weddio. 15 Ac yn lladd pedair mil ar ddêc yng-werſyll Antiochus. 21 Daliad Rhodocus bradychwr yr Iddewon.

YN y nawed flwyddyn a deugain a chant y daeth y gair at Iudas fod Antiochus Eupator yn dyfod a lluoſogrwydd i Iudæa.

2 A chyd ag ef Lyſias gorchwyliwr a llywydd ei holl fatterion, a chan bôd [illegible]yn ei lu o'r Groegwŷr, gant a dengmil o wŷr traed, a phum mil o wŷr meirch, a dau Elephant a'r hugain, a thry-chant o gerbydau bachog.

3 Ac y rhai yr ymgyſylltodd Menelaus hefyd a thrwy fawr watwar y cynghorodd efe Antiochus nid gan feddwl am fudd i'r wlâd, ond ar fedr cael bôd ei hun yn bennadur.

4 Ond brenin y brenhinoedd a gyffroes galon Antiochus yn erbyn y [gŵr] ſceler [hwnnw,] a phan ddangoſodd Lyſias i'r brenin mai hwn oedd achos yr holl ddrygioni, efe a orchymynnodd iw ryfelwŷr (fel yr oedd yr arfer ei ddwyn) ef i Berea ac yno ei ddifetha ef.

5 Y mae hefyd yn y lle hwnnw dŵr o ddêc cufydd a deugain o uchder yn llawn o ludw yn yr hwn yr oedd rhyw offeryn yn troi yn grwn, ac o bôb tu yn llithro i lawr ar y lludw.

6 Yna y gyrre pawb i farwolaeth y nêb a fernid yn euog o gyſſegr-ladrad, a'r nêb a fydde yn rhanog mewn gweithredoedd drwg eraill.

7 O'r farwolaeth ymma y darfu i'r gŵr annuwiol hwnnw Menelaus farw, ac heb gael daiar iw gorph:

8 Tra chyfiawn [oedd:] canys yn gymmeint ac iddo ef wneuthur llawer o bechodau yng-hylch yr allor yr hon oedd ai lludw yn ſanctaidd [yntef] a ddioddefodd farwolaeth mewn lludw.

9 Ond y brenin yn gyffrous yn ei feddwl a ddefeiſiodd ryw ddiaiedd yn erbyn yr Iddewon yr hwn ni's gwnaethid yr ioed yn amſer ei dâd.

10 Ond pã ŵybu Iudas hynny, efe a orchymynnodd i'r gynnulleidfa megis y galwent ar yr Arglwydd ddydd a nôs os helpiaſe ef hwynt er ioed ar iddo yn awr helpio y rhai oedd yn debyg i golli eu cyfraith, eu gwlad ai Teml ſanctaidd.

11 Ac na adawe efe ddaroſtwng tan genhedlaeth ddirmygus y bobl y rhai a gawſent ychydig lonyddwch.

12 Ac wedi i bawb o honynt gyd wneuthur yr un peth a deiſyf ar yr Arglwydd trugarog drwy wylofain, ac ympryd dan ymoſtwng dri diwrnod yn ddiorphywys, Iuda a gynghorodd

rodd iddynt ddyfod [atto ef.]

13 Ac efe fel yr oedd efe gyd a'r henaſiaid o'r nailldu, cyn i lu y brenin ruthro i Judæa, a chael meddiannu y ddinas efe a ymgynghorodd am fyned o honynt hwy allan a phroſi y materion trwy help yr Arglwydd.

14 Felly gan fwrw ei ofal ar greawdur y byd efe a gynghorodd i'r nêb oedd gyd ag ef ymladd yn rymmus hyd farwolaeth yng-hweryl cyfreithiau eu Teml eu gwlâd ai pôbl gyffredin, ac a wnaeth werſſyllfa o amgylch Modin.

15 Yna wedi rhoddi iw ryfel-wŷr yn arwydd o oruchafiaeth Duw gyd â'r gwŷr ieuaingc gwrólaf, efe a ſymmudodd y gwerſſyll liw nôs at neuadd y brenin, ac a laddodd yng-hylch dwy fil o wŷr, a'r pennaf oll o'r Elephantiaid, a'r dyrfa yr hon oedd yn tŷ a laddodd efe gyd â hwynt.

16 Yna pan lanwaſant hwy yr hôll lu ag ofn, ac arſwyd, hwy a ymadawſant yn llwyddiannus.

17 Hyn a wnaethpwyd yn y boreuddydd am fod amddeffyn yr Arglwydd, yn ei gynnorthwyo ef.

18 Y brenin hefyd pan gafodd efe braw o hyfder yr Iddewon a brofodd gael lleoedd trwy gyfrwyſdra.

19 A phan ddaeth efe i Gethſura amddeffynfa gadarn yr Iddewon, efe a yrrwyd i ffoi, ac a dramgwyddodd, ac a wanhawyd.

20 Judas hefyd a ddanfonodd i'r rhai oeddynt yn y dref y pethau oeddynt angenrheidiol iddynt.

21 Ond Rhodocus, o lu yr Iddewon a gyhuddodd y gyfrinach i'r gelynion, ac wedi holi y matter hwy ai daliaſant, ac ai caeaſant mewn carchar.

22 Yna yr brenin a ymddiddanodd yr ail waith â'r Bethſuriaid, ac a roes, ac a gymmerth ddeheulaw, a aeth ymmaith, ac a gyfarfu â llu Judas, ac a orchfygwyd.

23 Pan wŷbu efe wrthryfela o Philip, (yr hwn a adawſid yn Antiochia i fod yn olygwr ar ei fatterion) efe a ddychrynnodd, a ymnheddodd a'r Iddewon, a ymoſtyngodd, ac a dyngodd [iddynt] ym mhôb cyfraith gyfiawn, ac wedi tangnheddefu efe offrymmodd, ac a anrhydeddodd y deml, ac fu gymmwynaſcar i'r lle.

24 Efe a gofleidiodd Machabeus, ac ai gadawodd ef yn gapten pennaf o Ptolemais hyd y Gerrenaid.

25 Yna pan ddaeth efe i Ptolemais pan oedd anfodlon gan bôbl Ptolemais yr ammodau hynny (o blegit digllon oeddynt o blegit i'r Iddewon fod yn chwennychu torri yr ammodau)

26 Lyſias a ddaeth i'r orſeddfa, ac a amddeffynnodd y weithred yn drefnus, efe a ennillodd [y bôbl] ai llonyddodd, ac ai gwnaeth hwynt yn ewyllyſcar, yna y troes efe i Antiochia, ac fal hyn y damweiniodd taith y brenin at ddychweliad.

## PEN. XIIII.

1 Demetrius wedi ei gyffroi gan Alcimus yn dânfon Nicanor i ladd yr Iddewon. 18 Nicanor yn gwneuthur ammôdau â'r Iddewon. 29 Ac yn gorfod iddo eu torri hwy oll, gan lid y brenin. 37 Nicanor yn gorchymyn dal Razis, 41 Yntef yn ei ladd ei hun.

YN ôl Tair blynedd y daeth y gair at Judas i Demetrius mâb Seleucus, ddyfod trwy borthladd Tripolis ar hyd y dwfr, a chynulleidfa rymmus, ac â llongau.

2 A goreſcyn y wlâd wedi iddo orchfygu Antiochus ai orchwylwr Lyſias.

3 Un Alcimus yr hwn o'r blaen a fuaſſe yr arch-offeiriad, ond oi wirfodd a ymddifwynaſe yn amſer helbul pan dybiodd nad ydoedd help iddo, na bod yn rhydd mwyach fyned i'r allor ſanctaidd.)

4 A ddaeth at Demetrius yn yr unfed flwyddyn ar ddêc a deugain a chant gan roddi iddo goron o aur, a blodeun, a hefyd y ceingciau y rhai oeddynt yn perthyn i'r deml, a'r dydd hwnnw efe fu lonydd.

5 Ond pan gafodd efe amſer cyfleus iw gynddâredd, Demetrius a ddanfonodd am dano ef i'r cyngor, ac a ofynnodd iddo mewn pa gyflwr, a pha gyngor yr oedd yr Iddewon yn ſefyll, yntef a attebodd i hyn.

6 Y rhai o'r Iddewon a elwir Aſchidiaid, ar ba rai y mae Judas Machabeus yn gapten, ſydd yn magu rhyfel, ac ymryſon, ac ni ddioddefant i'r deyrnas fôd yn heddychol.

7 O herwydd hynny myfi wedi fy eſpeilio am anrhydedd fy henaſiaid, ſef yr offeiriadaeth, yr awron a ddoethym ymma.

8 Yn gyntaf, o blegit fod gennif feddwl ffyddlon, ac y pethau perthynaſol i'r brenin, yn ail o blegit fy môd yn ymroddi i geiſio budd i'm dinaſwŷr, o blegit y mae anrheſwm y rhai y dywedwyd a'm danynt yn blino nid ychydig ar ein holl genedl ni.

9 Tithe hefyd ô frenin gan dy fod yn gŵybod yr hôll bethau hyn, cymmorth ein cenhedlaeth, an gwlâd yr hon ſydd mewn ing, ar fâth fwynder ag wyt ti yn ei ddangos i bawb.

10 O blegit tra fyddo Judas nid yw boſſibl i'r matterion hyn gael heddwch.

11 Wedi iddo ddywedyd hyn cyfeillion eraill y rhai oeddynt mewn gelyniaeth ag Judas a enynnaſant Ddemetrius yn fwy.

12 Yr hwn a ddanfonodd ar fyrder am Nicanor llywydd yr Elephantiaid, ac wedi ei wneuthur yn gapten ar Judea efe ai gyrrodd [allan,]

13 Gan roi iddo llythyrau i ladd Judas, ac i yrru y rhai oeddynt gyd ag ar waſcar, ac i wneuthur Alcimus yn arch-offeiriad y deml fawr.

14 Yna [y cenhedlaethau] y rhai a ffoaſent o Judea oddi wrth Judas a ymgaſclaſant yn dyrfau at Nicanor, gan dybied fod

blinder a chwympy yr Iddewon [eraill] yn llwyddiant iddynt hwy.

15 Ond pan glybu yr Iddewon ddyfod Nicanor, ac ymgaſclu o'r cenhedloedd, hwy gan danu pridd arnynt, a weddiaſant ar yr hwn a oſododd ei bôbl tros byth, a thrwy amlwg arwydd a amddeffynnodd ei rann ei hun bôb amſer.

16 Yn ôl hyn wrth orchymyn y capten yn y ſan y llu a ſymudodd oddi yno, ac a gyfarfu wrth gaſtell Deſſa u, ac a darawodd yng-hyd â hwynt.

17 Simon hefyd brawd Iudas a gyfarfu â Nicanor, ond fe a ſynnodd arno ef wrth ddiſymmwth ddyfodiad y gelynion.

18 Er hynny pan glybu Nicanor ddewrder Iudas, ai lwyddiant wrth ymdrechu yng-hweryl ei wlâd, efe a ofnodd ddibennu y matter wrth ryfel.

19 Am hynny efe a ddãfonodd Poſidonius, a Theodotus a Mathias i wneuthur tangneddyf.

20 Ac wedi cymmeryd o honynt hîr gyngor am y pethau hynny, ac i'r capten ddangos i'r [holl] dyrfa gan weled y farn yn gyſon, hwy a gytunaſant i'r ammodau.

21 Ac hwy a luniaſant ddiwrnod yn yr hwn yr oedd yn eu bryd hwy ddyfod yng-hyd yn gyfrinachol, a chadeiriau ydoedd wedi eu goſod i i bôb vn pan ddelent.

22 Ac Iudas a oſododd wŷr arfog wedi eu paratoi mewn lleoedd cyfleus rhag i'r gelynion gyfodi cynddrygedd yn y byd yn ddiſymmwth, ac felly yr oeddynt yn cyd-ymreſymmu yn eu plith eu hunain.

23 Yna y trigodd Nicanor yn Ieruſalem, ac heb wneuthur niwed efe a ollyngodd ymmaith y torfeudd a gaſclaſe efe o'r blaen.

24 Ac Iudas oedd bob amſer yn ei olwg ef, yn gymmaint ag iddo ymddyried yn y gŵr hwn ai hôll galon.

25 Ac efe yn deiſyf arno briodi, ac ennill plant, efe a briododd, ac hwy a fuant fyw yn gytun yng-hyd.

26 Alcimus pan ganfu efe ewyllys da 'r naill at y llall, a'r ammodau a wnaethid, a gymmerth gyfeillion, ac a ddaeth at Demetrius, ac a ddywedodd fod Nicanor yn ymyrryd mewn matterion dieithr: canys Iudas [heb efe] yr hwn oedd yn cynllwyn am ei frenhiniaeth ef a ordeiniodd efe yn ſucceſſor,

27 Y brenin am hynny a ddigiodd, ac a lidiodd wrth feiau y gŵr anraſol hwnnw, ac efe a ſcrifẽnodd at Nicanor gan ddywedyd ei fod efe yn dra anfodlon i'r ammodau, ac efe a orchymynnodd ddanfon Machabeus ar frys yn garcharor i Antiochia.

28 Pan ddaeth hyn at Nicanor fe ſynnodd arno ef, a chwith fu ganddo, orfod iddo wñeuthur yn ofer yr ammodau a fuaſe rhyngddynt, yn enwedig gan nas gwnaethe 'r gŵr hwnnw niwed.

29 Ond o rann nad oedd gymmwys iddo wrthwynebu 'r brenin, efe a wiliodd amſer cyfleus i ddwyn hyn i ben drwy gyfrwyſdra.

30 Ond Iudas gan wybod fod Nicanor yn afrywiogach wrtho, a'r gyfeilach arferol yn ddrengach, efe a ddeallodd na ddaeth yr afrywiogrwydd hwnnw o'r meddwl goref, am hynny efe a gaſclodd lawer o'r rhai oeddynt yn ei gylch ef, ac a ymnaillduodd oddi wrth Nicanor.

31 Y llall hefyd gan wybod iddo gael ei dwyllo gan y gŵr (yn ddichellgar) a ddaeth i'r deml fawr ſanctaidd, (pan oedd yr offeiriad yn offrymmu yr ebyrth cyfaddas) ac a orchymynnodd roddi y gŵr iddo ef.

32 Ond pan dyngaſant na wyddent pa le yr oedd y gŵr yr oedd efe yn ei geiſio, efe a eſtynnodd ei ddeheulaw tu a'r deml, ac a dyngodd fel hyn,

33 Oni roddwch Iudas i mi yn rhwym, mi a wnaf deml Dduw yn faes gwaſtad, ac a ddiſylfaenaf yr allor, ac a adeiladaf ymma deml odidog i Bacchus.

34 Ac yn ôl y geiriau hyn efe a aeth ymmaith, yna 'r offeiriaid a godaſant eu dwylo tu a'r nefoedd, ac a ddeiſyfiaſant ar yr hwn a fuaſe er ioed yn amddeffynnwr iw cenhedlaeth: gan ddywedyd fel hyn,

35 Ti Arglwydd pôb peth yr hwn wyt heb arnat eiſieu dim: gwelaiſt yn dda fôd Teml dy breſwylfa yn ein plith ni.

36 Herwydd hynny yn awr ti Arglwydd ſanctaidd pob ſancteiddrwydd, cadw byth y tŷ ymma yn ddihalog, yr hwn yn ddiweddar a lanhawyd.

37 Yna vn Razis (o'r henafiaid y rhai oeddynt yn Ieruſalẽ gŵr yn caru y ddinas, ac yn heuddu clod, ac am hynny o blegit ei ewyllys da, efe a elwid yn dâd i'r Iddewon) a ddygwyd at Nicanor.

38 Canys y gŵr hwn amſeroedd eraill o'r blaen, pan ydoedd yr Iddewon ai bryd ar eu cadw eu hun yn ddihalog, ac yn bur, a gynnigiodd dreulio ei gorph ai enioes yn ddianwadal er mwyn crefydd yr Iddewon.

39 Am hynny Nicanor gan ewyllyſio teſtiolaethu yn eglur ei genfigen yn erbyn yr Iddewon, a ddanfonodd chwaneg na phum-cant o ryfel-wŷr iw ddal ef.

40 Canys efe a dybbiodd wedi ei ddal ef, y galle efe ddwyn diniſtr ar yr Iddewon.

41 Ond y dorf ai bryd ar ennill y caſtell, a guraſant i lawr y porth, ac a baraſant gyrchu tân a lloſci 'r pyrth: ac o'r diwedd pan oddynt agos ai ddal, efe a ſyrthiodd ar ei gleddyf ei hun.

42 Gan fod yn well ganddo farw yn wrol, nai ddaroſtwng tann y rhai ſceler hynny, a goddef traha anweddaidd iw fonedd ef.

43 A phan fethodd ganddo ef gael ei ddyrnod yn iniawn, a rhuthro o'r lliaws o'r tu mewn i'r pyrth: efe a redodd yn hyf i'r gaer, ac ai bwriodd ei hun yn wrol bendro-mwnwgl ym myſc

y dorf.

44 A phan giliaſant hwy yn fuan, ac ymrannu, efe a ddaeth yn eu myſc hwynt ar ei fol.

45 Ac efe etto yn fyw yn lloſci o lid, efe a gododd i fynu, er bôd ei waed yn rhedeg fel ffrydau, a'i weliau yn oſidus, etto [er hynny] efe a rêdodd drwy ganol y bôbl.

46 Ac efe a aeth, ac a ſafodd ym mhen craig uchel, wedi colli ei waed oll, ac a dynnodd allan ei berfedd, ac ai cymmerth hwy yn ei ddwylo, ac ai taflodd ar y dyrfa: a chan alw ar Arglwydd y bywyd, a'r yſpryd, ac iddo eu rhoddi hwynt iddo drachefn, efe a fu farw fel hyn.

## PEN. XV.

2 Nicanor yn amcanu dyfod am ben Iudas ar y dydd Sabboth. 5 Cabl Nicanor. 14 Machabeus yn cyſſuro 'r Iddewon, gan ddeongl iddynt y weledigaeth. Gweddi Machabeus. 30 Machabeus yn peri torri ymmaith pen a dwylo Nicanor, a rhoddi ei dafod i'r ehediaid. 39 Yr awdur yn ei eſcuſodi ei hun.

NIcanor pan ddeallodd fod Iehudas yn nhueddau Samaria a gymmerth gyngor, pa fodd y galle ddyfod ar eu huchaf hwy ar y dydd Sabboth.

2 A phan ddywedodd yr Iddewon, y rhai ai canlynent o'i hanfodd, na ddifetha mo honynt hwy mor greulon, ac mor annhrugarog: eithr dyro ogoniant i'r dydd, yr hwn er yſtalm a anrhydeddwyd gan yr hwn ſydd yn gweled pôb pôb peth.

3 Ond y dyn ſceler ymma a ofynnodd, a ydoedd tywyſog yn y nef yr hwn a orchymynnaſe ſancteiddio y dydd Sabboth.

4 A phan attebaſant, Mae'r bywiol Arglwydd ydoedd y tywyſog hwnnw yn y nefoedd, yr hwn a baraſe gadw y ſeithfed dydd,

5 Yn wir (ebr ef) myfi wyf dywyſog arall ar y ddaiar, yr hwn wyf yn gorchymyn i chwi gymmeryd arfau a dwyn i ben fatterion y brenin: ond er hynny ni alle efe ddwyn i ben ei annuwiol amcan.

6 Ac yn wir y Nicanor hwnnw, gan ymdderchafu mewn mawr falchedd, oedd ai fryd ar wneuthur côf o'r oruchafiaeth a galle efe ar y rhai oedd gyd â Iudas.

7 Ond Machabeus oedd bôb amſer yn ymddyried trwy fawr obaith y byddei'r Arglwydd yn amddeffynnwr iddo.

8 Am hynny efe a annogodd ei wŷr na ofnent ddyfodiad y cenhedloedd, ond gan fod yn eu côf yr amddeffyn a wnaethe iddynt o'r blaen o'r nef, edrych o honynt yn awr hefyd am oruchafiaeth oddi wrth yr Holl-alluog.

9 Efe ai cyſſurodd hwy hefyd allan o'r prophwydi a'r gyfraith: ac am ben hynny efe a goffodd iddynt yr ymdrech a wnaethant o'r blaen, ac felly efe ai cyſſurodd [hwy,] ac ai gwnaeth yn ewyllyſcarach.

10 Ac fel yr oedd efe yn dangos iddynt y pethau hynny, efe a ddangoſodd iddynt hefyd dwyll ammodau y cenhedloedd, a pha fodd ni chadwaſent eu llwon.

11 Felly efe a arfogodd bob un o honynt nid â diogelwch tarianau a gwaiwffyn, eithr â chyſſur trwy eiriau da: ac hefyd efe a ddangoſodd iddynt freuddwyd credadwy, ac ai llawenychodd yn fawr.

12 A'r breuddwyd hwnnw ydoedd fel hyn: efe a dybbiodd weled o honaw Onias, yr hwn a fuaſe yn archoffeiriad, gŵr da tros ben, parchedig o bryd: llednais hefyd yn ei arferau, ac yn weddaidd yn treuthu ei eiriau, yr hwn hefyd a lafuriaſe er yn fachgen ym mhob pethau rhinweddol, yn codi ei ddwylo, ac yn gweddio tros holl bobl yr Iddewon.

13 Yna yn yr un ffunyd yr ymddangoſodd iddo ŵr rhagorol mewn oedran, ac anrhydedd, gogoniant pa un ydoedd ryfedd, a gweddus.

14 Yna'r attebodd Onias, gan ddywedyd: hwn yw Ieremias prophwyd Duw, yr hwn oedd hoff ganddo y brodyr yr hwn a weddiodd yn fynych tros y bobl a'r ddinas ſanctaidd.

15 [Breuddwydiodd hefyd] eſtyn o Ieremias ei ddeheulaw a rhoddi iddo gleddyf aur, a phan roddes dywedyd o honaw fel hyn,

16 Cymmer gleddyf ſanctaidd, rhodd Duw, a'r hwn y torri dy wrthwynebwŷr.

17 Yna y cymmeraſant gyſſur o eiriau Iudas y rhai oeddynt felyſſion, a galluog i gynhyrfu calonnau y gwŷr ieuaingc ar wroldeb, ac i'w gwneuthur yn wrol: [am hynny] hwy a fwriadaſant, na thale ddim werſyllu, ond rhuthro yn wrol [arnynt,] ac wedi iddynt ddyfod arnynt yn cymmyſc ar un waith, ddibennu o honynt law i law y matter, yn gymmeint a bod y ddinas, y lle ſanctaidd, a'r deml [hefyd] mewn perigl.

18 Canys yr oeddynt yn priſio llai ar berigl eu plant, eu gwragedd, ai brodyr, ai ceraint: ond yr ofn mwyaf a ydoedd arnynt am y deml ſanctaidd.

19 Hefyd yr oedd yn fawr gofal y rhai oeddynt yn y ddinas, dros y llu yr hwn ydoedd allan.

20 Ac fel yr oedd pawb yn diſgwil am yr ymladd yr hwn oedd ar ddyfod, a'r gelynnion weithian wedi cyfarfod ag hwynt, a'r llu wedi ymfyddino, a'r anifeiliaid wedi eu naill oſod i leoedd cymmwys, a'r gwŷr meirch wedi eu cyfleu yn yr eſcill.

21 Machabeus gan weled dyfodiad y bobl, ac amryw allwg ar arfau, a chreulondeb y bwyſt-filod, a gododd ei ddwylo tu a'r nef, ac a alwodd ar yr Arglwydd yr hwn ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau, gan gydnabod nad oedd goruchafiaeth mewn arfau: ond ei fod efe yn rhoddi goruchafiaeth i'r rhai teilwng, megis ac y gwelo efe yn dda.

22 Ac wrth weddio efe a ddywedodd fel hyn: ty di Arglwydd a ddanfonaiſt dy angel yn amſer Ezechias brenin Iuda,* yr hwn a ddifethodd o werſyll Sennachrrib gant a phump a pedwar ugain mil. 2.Bren.19.35.

23 Felly yr awron, ô dywyſog y nefoedd,

anfon dy Angel da o'n blaen ni, i [beri] ofn ac arſwyd.

24 Ym mawredd dy fraich di dychryner y rhai a ddaethant i gablu yn erbyn dy ſanctaidd bôbl, a gwedi dywedyd hyn efe a beidiodd.

25 Ond y rhai oeddynt gyd a Nicanor, a ddyneſaſant ag vdcyrn, ac â bloddeſt.

26 A'r rhai oeddynt gyd a Judas, a aethant yng-hyd ar gelynion drwy weddiau ac ymbil.

27 Felly yn wir, gan ymladd ai dwylo, a thywallt ai calonnau eu gweddiau at Dduw, hwy a fwriaſant i lawr nid llai na phymtheg mil ar hugain canys hwy oeddynt yn llawen iawn o herwydd bod Duw yn eglur yn gydrychol iddynt.

28 Hefyd fel yr oeddynt yn peidio ai gwaith, ac yn dychwelyd a llawenydd, hwy a ddeallaſant ladd Nicanor er maint ei arfau.

29 Am hynny hwy a lefaſant yn uchel, ac a fendithiaſant yr Arglwydd, yn iaith ei gwlâd.

30 Hefyd Judas pen ymddyffynnwr ei ddinaſwyr, yng-horph ac enaid, ac hwn erioed a ddygaſe ewyllys da i'r rhai oeddynt oi genedl ef, a orchymynnodd dorri pen Nicanor ai ddwylo ai yſcwydd, ai ddwyn i Jeruſalem.

31 A phan ddaeth efe yno wedi galw yng-hyd ei genedl ei hun, a goſod yr offeiriaid ger bron yr allor, efe a alwodd y rhai oeddynt yn y tŵr:

32 Ac a ddangoſodd ben Nicanor ſceler a dwylo y cabluwr, y rhai a dderchafaſe efe drwy fawr-falchedd yn erbyn tŷ ſanctaidd yr holl alluog.

33 Ac wedi iddo dorri ymmaith dafod Nicanor annuwiol, efe a ddywedodd y rhodde ef i'r adar iw fwytta yn ddrylliau, ac y croge ef yn obr ei ffolineb ef gyferbyn ar Deml.

34 Am hynny pawb a edrychaſant tu a'r nef ac a fendithiaſant yr Arglwydd, gan ddywedyd bendigedig fyddo yr hwn a gadwodd ei ſangre ei hun yn ddihalog.

35 Yna y crogodd ef ben Nicanor wrth yr allor fel y bydde yn arwydd eglur i bawb o gymmorth yr Arglwydd [iddynt.]

36 Am hynny hwy a ordeiniaſant eu gyd drwy ddeddf gyffredin, nas gollyngent ddim heibio y dydd hwn heb ei gadw yn ſanctaidd.

37 A bod cadw'r ŵyl y trydydd dydd ar ddeg o'r deuddegfed mis, yr hwn a elwir yn iaith y Syriaid Adar, un dydd o flaen gŵyl Mardocheus.

38 Am hynny gan ddibennu ô weithredoedd Nicanor felly a meddiannu o'r Hebræaid y ddinas er yr amser hynny ſinne hefyd a ddiweddaf ymma.

39 Ac os da y gwnaethum, ac megis y gweddei i un a ſcrifenne ei ſtori, hynny a fynnwn i, ond os yn lleſc ac yn anaeth, hynny ſy, yr hyn a allwn ei ddwyn i ben.

40 Canys megis ac y mae yn ddrwg yfed gwin o'r nailldu, a gwedi hynny yfed dwfr: ac megis y mae gwin wedi ei gymmyſcu a dwfr yn felus, ac yn hyfryd: felly goſodiad allan y matter, ſydd yn llaſus i glustiau y rhai a ddarllenant yr yſtori ac ymma y bydd diwedd.

*Terfyn ail llyfr y Machabæaid.*

# TESTAMENT NEWYDD EIN *Harglwydd* IESV GRIST.

*Rom. 1. 16.*

Nid cywilydd gennif Efengyl Griſt, o blegit gallu Duw yw hi er iechydwriaeth i bob vn a'r ſydd yn credu.

*Anno* 1588.

45
15
5
30
1650
blank yr code

~~Jesse~~
~~David~~
Matthew
See below +

Luc
Abram
Isaac
Jacob
Juda
Phares
Esrom
Aram
Aminadab
Naasson
Salmon
Booz
Obed
Jesse
David
~~Nathan~~

Nathan
Matthat
Mainan
Melea
Eliachim
Jonan
Joseph
Juda
Simeon
[illegible]
Eleazar
Jose
[illegible]
[illegible]
Udi
Melchi
Neri
Salathiel
Zorobabel
Rhesa
na
[illegible]
Joseph

Abram
Isaac
Jacob
Judas
Phares
Esrom
Aram
Aminadab
Naasson
Salmon
Booz
Obed
Jesse
David +
Solomon
Roboam
Abias
Asa
Josaphat
Joram
Ozias
Joathan
Achaz
Ezechias
Manasses
Amon

| Luc | Mathew |
|---|---|
| Maath | Jechonias |
| Naggai | Salathiel |
| Esli | Zorobabel |
| Naum | Abiud |
| Amos | Eliachim |
| Mattathias | Azor |
| Joseph | Sadoc |
| Janna | Achim |
| Melchi | Eliud |
| Levi | Eleazar |
| Matthat | Matthan |
| Eli | Jacob |
| Joseph | Joseph |

# Efengyl Ieſu Griſt yn ôl Sanct Mathew.

## PENNOD. I.

1 Achau Criſt yr hwn yw'r Meſſiah a addawſid i'r tadau. 18 Genedigaeth Ieſu Griſt.

Yr Efengyl y Sul cyntaf wedi dydd Natalic.
Luc.3.23.
Gene.21.2.
Gene.25.24.
Gene.29 35.

LLyfr * cenhedliad Ieſu Griſt fab Dafydd, fab Abraham.

2 *Abraham a genhedlodd Iſaac, * Iſaac a genhedlodd Iacob, * Iacob a genhedlodd Iudas a'i frodyr.

Gene.38.27.
1.Cron.2.5.
Ruth.4.18.

3 Ac * Iudas a genhedlodd Phares a Zara o Thamar, a Phares a genhedlodd Eſrom, ac Eſrom a genhedlodd Aram.

4 Ac Aram, a genhedlodd Aminadab, ac Aminadab a genhedlodd Naaſſon, ac Naaſſon a genhedlodd Salmon:

Ruth.4.21.

5 A * Salmon a genhedlodd Booz o Rachab, a Booz a genhedlodd Obed o Ruth, ac Obed a genhedlodd Ieſſe.

1.Sam.16.1.
17.12.
2.Sam.12.24.

6 Ac * Ieſſe a genhedlodd Dafydd frenin, a * Dafydd frenin a genhedlodd Salomon o'r hon (a fuaſe wraig) Urias.

1.Bren. 11.43.
1.Cro.3.10.11

7 A Salomon a genhedlodd Roboam, a Roboam a genhedlodd Abia, ac Abia a genhedlodd Aſa.

8 Ac Aſa a genhedlodd Ioſaphat, ac Ioſaphat a genhedlodd Ioram, ac Ioram a genhedlodd Ozias.

9 Ac Ozias a genhedlodd Ioatham, ac Ioatham a genhedlodd Achaz, ac Achaz a genhedlodd Ezechias.

2.Bren. 20.21.
&21.18.
1.Cron.3.13.

10 Ac * Ezechias a genhedlodd Manaſſes, a Manaſſes a genhedlodd Amon, ac Amon a genhedlodd Ioſias.

2.Bren. 23.34.
&24.1.

11 Ac * Ioſias a genhedlodd Iechonias a'i frodyr yng-hylch amſer y caeth-gludiad i Babilon.

1.Cro.n3.16.

12 Ac yn ôl y caeth-gludiad i Babilon * Iechonias a genhedlodd Salathiel, a * Salathiel a genhedlodd Zorobabel.

1,Cron.3.17.
1.Eſdr.3.2.
&5.2.

13 A Zorobabel a genhedlodd Abiud, ac Abiud a genhedlodd Eliacim, ac Eliacim a genhedlodd Azor.

14 Ac Azor a genhedlodd Sadoc, a Sadoc a genhedlodd Achim, ac Achim a genhedlodd Eliud.

15 Ac Eliud a genhedlodd Eleazar, ac Eleazar a genhedlodd Matthan, a Matthan a genhedlodd Iacob.

16 Ac Iacob a genhedlodd Ioſeph gŵr Mair, o'r hôn y ganed Ieſu yr hwn a elwir Criſt.

17 Yr holl oeſoedd gan hynny o Abraham i Ddafydd [ydynt] pedair cenhedlaeth ar ddêc: ac o Ddafydd hyd y caethgludiad i Babilon pedair cenhedlaeth ar ddêc: ac o'r caeth-gludiad i Babilon hyd Griſt, pedair cenhedlaeth ar ddêc.

18 A genedigaeth Ieſu Chriſt oedd fel hyn: wedi dyweddio Mair ei fam ef ag Ioſeph, cyn eu dyfod hwy yng-hyd, hi a gafwyd yn feichiog trwy yr Yſpryd glân.

19 Ac Ioſeph ei gŵr hi am ei fod efe yn gyfiawn ac heb ewyllyſio ei * hortio hi, a amcanodd ei rhoi hi ymmaith yn ddirgel.

Deut.24.1.

20 A thra 'r ydoedd efe yn bwriadu hyn, wele Angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo ef trwy [ei] hun gan ddywedyd, Ioſeph mab Dafydd nac ofna gymmeryd Mair dy wraig, o blegit yr hyn a genhedlwyd ynddi ſydd o'r Yſpryd glân.

21 A hi a eſcor ar fab, a thi a elwi * ei enw ef Ieſu: o blegit efe a achub ei bobl * rhag eu pechodau.

Luc.1.31.
Act.4.12.

22 A hyn oll a wnaethpwyd i gyflawni 'r hyn a ddywedodd yr Arglwydd trwy 'r prophwyd, gan ddywedyd:

23 * Wele, Morwyn a fydd feichiog, ac a ddwg fab, a hwy a alwant ei enw ef Emmanuel, yr hwn os cyfieithir a arwyddocâ, Duw gyd â ni.

Eſa.7.14.

24 Ac Ioſeph pan ddeffroes o gwſc a wnaeth megis y gorchymynnaſe Angel yr Arglwydd iddo ef, ac a gymmerodd ei wraig.

25 Ac nid adnabu efe hi hyd oni eſcorodd hi ar ei mab cyntaf-anedic, a galwodd ei henw ef Ieſu.

## PEN. II.

Y gwyr doethion y rhai ydynt flaenffrwyth y cenhedloedd yn addoli Criſt. 13 Ioſeph yn cilio i'r Aipht, a'r Ieſu a'i fam. 16 Herod yn lladd y rhai bychain. 22 Ioſeph yn troi i Galilæa.

*Yr Efengyl ar ddigwyl yſtwyll.* Luc.2.6.

☞ YNa pan anwyd yr Ieſu yn Bethlehem dinas o Iudæa yn nyddiau Herod frenin, wele, doethion a ddaethant o'r dwyrain i Ieruſalem,

2 Gan ddywedyd, pa le y mae Brenin yr Iddewon yr hwn a anwyd? canys gwelſom ei ſeren ef yn y dwyrain, a daethom iw addoli ef?

3 Pan glywodd Herod frenin [hyn,] efe a gyffroes, ac Ieruſalem oll gyd ag ef.

4 Wedi caſclu o honaw ef yr holl archoffeiriaid ac ſcrifēnyddion y bobl, efe a ymofynnodd â hwynt, pa le y genid Criſt.

5 Ac hwy a ddywedaſant wrtho ef, yn Bethlehem Iudæa: canys felly yr ſcrifennwyd trwy'r prophwyd,

Mich.5.2. Ioan.7.42. 6 Tithe * Bethlehem gwlad Iuda, nid lleiaf wyt ym mhlith tywyſogion Iuda: canys o honot ti y daw y tywyſog, yr hwn a fugeilia fy mhobl Iſrael,

7 Yna Herod wedi galw y doethion yn ddirgel a'i holodd hwynt yn fanwl am yr amſer yr ymddangoſaſe y ſeren,

8 Ac efe ai danfones hwynt i Bethlehem, gan ddywedyd, ewch ac ymofynwch yn fanwl am y bachgen, ac wedi i chwi ei gaffael ef, mynegwch i mi trachefn, fel y gallwyf finne ddyfod, ai addoli ef.

9 Hwythau wedi clywed y brenin a aethāt, ac wele y ſeren yr hon a welſent yn y dwyrain a aeth o'i blaen hwynt, hyd oni ddaeth hi a ſefyll goruwch y lle yr oedd y bachgen.

10 A phan welſant y ſeren, llawenhau a wnaethant â llawenydd mawr dros benn.

11 A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a gawſant y bachgen gyd â Mair ei fam, a chan ſyrthio i'r llawr hwy ai haddolaſant ef, ac a agoraſant eu tryſſorau, ac a offrymmaſant iddo anrhegion, ſef aur, thus, a myrr.

12 Ac wedi eu rhybuddio hwy gan Dduw trwy freuddwyd na ddychwelent at Herod, hwy a aethant drachefn iw gwlad ar hyd ffordd arall. ☜

*Yr Efengyl ar ddigwyl y gwirioniaid.*

☞ 13 Ac wedi iddynt ymado, wele Angel yr Arglwydd a ymddangoſodd i Ioſeph trwy ei hun, gan ddywedyd, cyfot, a chymmer y bachgen a'i fam, a ffo i'r Aipht, a bydd yno hyd oni ddywedwyf i ti, canys ceiſio a wna Herod y bachgen iw ddifetha.

14 Ac yntef pan gyfododd a gymmerth y bachgē a'i fam o hyd nos, ac a giliodd i'r Aipht.

15 Ac yno y bu hyd farwolaeth Herod, fel y cyflawnid yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd trwy'r prophwyd, gan ddywedyd: * o'r Aipht y gelwais fy Mab. Oſea.11.1.

16 Yna Herod pan weles ei ſiommi gan y doethion a ffrōmodd yn aruthr, ac efe a ddanfonodd ac a laddodd yr holl fechgin y rhai oeddynt yn Bethlehem ac yn ei holl gyffiniau o ddwyflwydd oed, a chann hynny, wrth yr amſer am yr hwn y gofynnaſe efe yn fanwl i'r doethion.

17 Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedaſid trwy Ieremias y prophwyd gan ddywedyd,

18 * Llef a glywyd yn Rama, galar ac wylofain, ac ochain mawr: Rachel yn wylo am ei phlāt ac ni fynne hi ei chyſſuro am nad oeddynt. Iere.31.15. ☜

19 Yna wedi marw Herod, wele, Angel yr Arglwydd a ymddangoſes i Ioſeph trwy ei hun yn yr Aipht,

20 Gan ddywedyd, cyfot a chymmer y bachgen a'i fam a dôs i dir Iſrael: canys y rhai oeddynt yn ceiſio einioes y bachgen a fuant feirw.

21 Ac wedi ei gyfodi efe a gymmerth y bachgen a'i fam, ac a ddaeth i dir Iſrael.

22 Eithr pan glybu efe fod Archelaus yn teyrnaſu yn Iudæa yn lle ei dâd Herod, efe a ofnodd fyned yno, ac wedi ei rybuddio gan Dduw trwy ei hun, efe a giliodd i duedhau Galilæa.

23 A phan ddaeth, efe a drigodd mewn dinas a elwid Nazareth, fel y cyflawnid yr hyn a ddywedaſid trwy y prophwydi, mai Nazaread, y gelwid ef.

## PEN. III.

Pregeth, ſwydd, a buchedd Ioan, efe yn ceryddu y Phariſæaid. 13 Ac yn bedyddio Criſt.

AC yn y dyddiau hynny * y daeth Ioan fedyddiwr gan bregethu yn niffaethwch Iudæa, Marc.1.4. Luc.3.3.

2 A chan ddywedyd, edifarhewch, canys daeth teyrnas nefoedd yn agos.

3 O blegit hwn yw efe, yr hwn y dywedwyd am dano trwy y prophwyd Eſaias, gan ddywedyd, * llef un yn llefain yn y diffaethwch, paratoiwch ffordd yr Arglwydd, uniawnwch ei lwybrau ef. Eſay.40.3. Marc.1.3. Luc.3.4.

4 A'r Ioan hwnnw oedd a'i * ddillad o flew camel, a gwregis o groē yng-hylch ei lwynau: a'i fwyd ef oedd locuſtiaid, a mêl gwyllt. Ioan.1.23. Marc.1.6.

5 Yna yr * aeth allan atto ef Ieruſalem ac holl Iudæa, a'r holl wlâd oddi amgylch yr Iorddonen. Marc.1.5. Luc.3.7.

6 Ac hwy a fedyddiwyd gāddo ef yn yr Iorddonen, gan gyffeſſu eu pechodau.

7 A phan welodd efe lawer o'r Phariſæaid ac o'r Saducæaid yn dyfod iw fedydd ef, efe a ddywedodd wrthynt hwy: ô genhedlaeth gwiberod, pwy a'ch racrybuddiodd i ffoi rhag y llid a fydd? Pen.12.34.

8 Am hynny dygwch ffrwythau addas i edifeirwch.

9 Ac na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, y mae * genym ni Abraham yn dad: canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y dichō Duw o'r meini hyn gyfodi i fynu blant i Abraham. Ioan.8.39. Act.13.26.

10 Ac yr awr hon y goſodwyd y fwyall ar wreiddin y prennau: am hynny * pob pren yr hwn ni ddwg ffrwyth da a dorrir i lawr, ac a deflir i'r tân. Pen.7.19.

11 Myfi yn ddiau ydwyf yn eich * bedyddio chwi â dwfr i edifeirwch, eithr yr hwn a ddaw ar fy ôl i ſydd gadarnach na myfi, eſcidiau yr hwn nid ydwyf deilwng iw dwyn: efe a'ch bedyddia â'r Yſpryd glân ac â thân. Marc.1.8. Luc.3.16. Ioan.1.26. Act.1.5. &2.4. & 8.17.& 19.4

12 Yr

Luc.3.17. 12* Yr hwn [y mae] ei wyntill yn ei law, ac efe a lwyr lanhâ ei lawr dyrnu, ac a gascl ei wenith iw yſcubor, eithr yr vs a lyſc efe â thân anniffoddadwy.

Marc.1.9. luc.3.21. 13 Yna y daeth *yr Ieſu o Galilæa i'r Iorddonen at Ioan iw fedyddio ganddo.

14 Eithr Ioan a warafunodd iddo ef, gan ddywedyd, y mae arnaf eiſieu fy medyddio genit ti, ac a ddeui di attafi?

15 Yna yr Ieſu gan atteb a ddywedodd wrtho ef, gad yr awrhon, canys fel hyn y gweddei i ni gyflawni pob cyfiawnder: yna efe a adawodd iddo ef.

16 A'r Ieſu wedi ei fedyddio a ddaeth yn y fan i fynu o'r dwfr, ac wele y nefoedd a agorwyd iddo, ac [Ioan] a welodd Yſpryd Duw yn deſcyn fel colomen, ac yn dyfod arno ef.

2.Pet 1,17. 17 Ac wele lef o'r nefoedd yn dywedyd, hwn *yw fy anwyl Fab yn yr hwn i'm bodlonwyd.

### P E N. IIII.

Criſt yn ymprydio, yn cael ei demptio, 4 Ac yn gorchfygu diafol â'r ſcrythyrau. 11 Yr Angelion yn gwaſanaethu iddo. 12 Efe yn dechreu pregethu edifeirwch. 18 Yn galw Petr, Andreas, Iaco, ac Ioan. 23 Yn pregethu yr Efengyl, ac yn iachau 'r holl gleifion.

*Yr Efengyl y Sul cyntaf o'r grawys.* Marc.1.12. luc.4.1. ☞ YNa yr arweinwyd yr Ieſu i'r anialwch drwy yr yſpryd iw demptio gan ddiafol.

2 Ac wedi iddo ymprydio ddeugain nhiwrnod a deugain nôs, yn ôl hynny efe a newynodd.

3 Yna y daeth y temptiwr atto ef, ac a ddywedodd, os ti yw Mab Duw, arch i'r cerric hyn fod yn fara.

4 Ac yntef a attebodd ac a ddywedodd, y mae yn ſcrifennedic, Deut.8.3. *nid trwy fara yn vnic y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw o enau Duw.

5 Yna y cymmerth diafol ef i'r ddinas ſanctaidd, ac ai goſodes ef ar binacl y deml,

6 Ac a ddywedodd wrtho, os Mab Duw wyt, bwrw dy hun i lawr: canys ſcrifennedic Psal.91.11. yw, *y rhydd efe orchymyn iw angelion amdanat, ac hwy a'th ddygant yn eu dwylo, rhag taro o honot dy droed wrth garec.

7 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, y mae yn Deut.6.16. ſcrifennedic trachefn, *na themptia 'r Arglwydd dy Dduw.

8 Trachefn y cymmerth diafol ef i fynydd tra vchel, ac a ddangoſodd iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant,

9 Ac a ddywedodd wrtho, hyn oll a roddaf i ti, os ſyrthi i lawr a'm haddoli.

10 Yna y dywedodd yr Ieſu wrtho, ymmaith Deut.6.13. & 10.20. Satan: canys ſcrifennedic yw, *yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn vnic a waſanaethi.

Marc.1.13. luc.4.13. 11 Yna y *gadawodd diafol ef, ac wele angelion a ddaethant, ac a weiniaſant iddo ef. ☜

Marc.1.14. luc.4.14. Ioan.4.43. 12 A phan glybu 'r Ieſu draddodi *Ioan, efe a ddychwelodd i Galilæa,

13 A chan adu Nazareth, efe a aeth, ac a arhoſodd yn Capernaum yr hon ſydd wrth y môr yn-hyffiniau Zabulon a Nephthalim:

14 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywetpwyd trwy Eſaias y prophwyd, gan ddywedyd,

Esai.9.1. 15 *Tir Zabulon a thîr Nephthalim [wrth] ffordd y môr o'r tu hwnt i'r Iorddonen, Galilæa y cenhedloedd:

16 Y bobl a oedd yn eiſtedd mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr: ac i'r rhai a eiſteddent ym mro a chyſcod angeu, y cyfododd goleuni.

17 O'r pryd hynny y dechreuodd yr Ieſu bregethu, a dywedyd, Marc.1.15. *edifarhewch o herwydd teyrnas nefoedd a neſſaodd.

18 ☞ Fel yr oedd yr Ieſu yn rhodio wrth *Yr Efengyl ai ddigwyl S. Andrew.* fôr Galilæa, efe a ganfu ddau frodyr, Simon yr hwn a elwir Petr, ac Andreas ei frawd yn Marc.1.16. bwrw rhwyd i'r môr, (canys pyſcod-wŷr oeddynt)

19 Ac efe a ddywedodd wrthynt, deuwch ar fy ôl i, ac mi a'ch gwnaf yn byſcod-wŷr dynion.

20 Ac hwy yn y fan gan adel y rhwydau a'i dilynaſant ef.

21 Ac wedi ei fyned ef oddi yno, efe a welodd Marc 1.19. ddau frodyr *eraill, Iaco [fab] Zebedeus, ac Ioan ei frawd mewn llong gyd â Zebedeus eu tad, yn cyweirio eu rhwydau, ac a'u galwodd hwy.

22 Ac hwy yn ebrwydd gan adel y llong a'u tâd a'i canlynaſant ef. ☜

23 Ac yna 'r aeth yr Ieſu o amgylch holl Galilæa gan ddyſcu yn eu ſynagogau, a phregethu Efengyl y deyrnas, ac iachau pob clefyd, a phob afiechyd ym mhlith y bobl.

24 Ac aeth ſôn am dano ef trwy holl [wlâd] Syria: ac hwy a ddugaſant atto yr holl rai drwg eu hwyl o amryw glefydau, ac wedi eu nychu gan gnofeydd, a'r rhai cythreulic, â'r rhai lloeric, a'r ſawl oeddynt a'r parlys arnynt, ac efe a'u hiachaodd hwynt.

25 A thyrfa ſawr ai canlynodd ef o Galilæa, a Decapolis, ac o Ieruſalem, ac o Iudæa, ac o'r gwledydd o'r tu hwnt i'r Iorddonen.

### P E N. V.

Criſt yn dangos dedwyddwch neu wynfyd dyn. 13 Bod Eglwyſwyr yn halen y ddaiar, yn oleuni y byd, ac yn ddinas wedi ei goſod ar fryn. 16 Am weithredoedd da. 17 Dyfod Criſt i gyflawni 'r gyfraith.

*Yr Efengyl ar ddydd calan gaiaf.* ☞ A Phan welodd [yr Ieſu] y tyrfaoedd, efe a eſcynnodd i'r mynydd: ac wedi iddo eiſtedd, ei ddiſcyblion a ddaethant atto:

2 Ac efe a agorodd ei enau, ac a'u dyſcodd gan ddywedyd,

Luc 6.20. 3 Gwyn eu byd y *tlodion yn yr yſpryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.

Esai.61.23. & 65.13. luc.6.21. 4 Gwyn eu byd *y rhai galarus, canys hwynt a ddiddenir.

Psal.37.11. 5 Gwyn eu byd *y rhai addfwyn: canys hwy a feddiannant y ddaiar.

Esai.65.13. 6 Gwyn eu byd y rhai ſy *arnynt newyn a ſyched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.

7 Gwyn eu byd y trugarogion: canys hwy a gânt drugaredd.

Psal.14.4. 8 Gwyn eu byd *y rhai glân o galon: canys

nys hwy a welant Dduw.

9 Gwyn eu bŷd y tangneddyf-wŷr: canys hwy a elwir yn blant Duw.

1,Pet.3.14. 10 Gwyn eu bŷd y rhai * a erlidir er mwyn cyfiawnder: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.

Act.5.41. 1.pet.4.14. 11 Gwyn eich bŷd * pan eich cablo dynion a'ch erlid, a dywedyd pob rhyw ddrŷg-air am danoch er fy mwyn i, ac hwy yn gelwyddog:

12 Byddwch lawen a hyfryd, canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd: o herwydd felly yr erlidiaſant hwy y prophwydi y rhai a [fuant] o'ch blaen chwi.

Marc.9.50. luc.14.34. 13 Chwi *ydych halen y ddaiar, eithr o diflaſodd yr halen, â * pha beth yr hellter ef? ni thâl efe mwy ddim, onid iw fwrw allan, a'i ſathru gan ddynion.

14 Chwi yw goleuni y byd, dinas a oſodir ar fryn ni ellir ei chuddio.

15 Ac ni oleuant ganwyll a'i dodi dan leſtr,

Marc,4.21. luc.8.16. & 11.33. *onid mewn canhwyllbren, a goleuo a wna hi i bawb a'r ſy yn y tŷ.

1.Pet.2.12. 16 Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelant eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddant eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

17 Na thybiwch fy nyfod i dorri'r gyfraith neu'r prophwydi, ni ddaethym i dorri onid i gyflawni.

Luc.16.17. 18 Canys yn wir meddaf i chwi, hyd oni * ddarfyddo nef a daiar, ni dderfydd vn iod, nac vn tippin o'r gyfraith hyd oni chwpleir oll.

19 Pwy bynnac can hynny a dorro'r vn o'r gorchymynnion lleiaf hyn, ac a ddyſc i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nef: ond pwy bynnac ai gwnelo, ac ai dyſco i eraill, hwnnw a elwir yn fawr yn nheyrnas nefoedd.

*Yr Efengyl ar y chwech-ed Sul wedi'r Drindod.* 20 ☞ Canys meddaf i chwi, oni bydd eich *cyfiawnder yn helaethach nâ[chyfiawnder] yr ſcrifennyddion a'r Phariſæaid, nid ewch i deyrnas nefoedd.

Luc.11.39. Exod.20.13. deut.5.17. 21 Clywſoch ddywedyd wrth y *rhai gynt, na ladd, canys pwy bynnac a laddo, euog fydd o farn.

22 Eythr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, mai pwy bynnac a ddigio wrth ei frawd heb yſtyr, a fydd euog o farn, a phwy bynnac a ddywedo wrth ei frawd, Raca, fydd euog o gyngor: a phwy bynnac a ddywedo, ô ynfyd, a fydd euog o dan vffern.

23 A chan hynny os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn:

24 Gâd ti yno dy offrwm ger bron yr allor, a dos ymmaith: yn gyntaf cymmod â'th frawd, ac yno tyret, ac offrwm dy rodd.

Luc.12.58. 25 Cytuna â'th wrthwynebwr yn gyflym, tra fyddech ar y ffordd gyd ag ef, *rhag i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw'r ynad, ac i'r ynad dy roddi at y rhingill, a'th daflu yng-harchar.

26 Yn wir meddaf i ti, na ddeui allan oddi yno hyd oni thelech yr hatling eithaf. ☙

27 Clywſoch ddywedyd wrth y rhai gynt,

Exod.20.14. * na wna odineb.

28 Eithr yr ydwyfi yn dywedyd i chwi, pwy bynnac a edrycho ar wraig iw chwennychu hi, iddo wneuthur euſus â hi odineb yn ei galon.

Pen.18.8. mar.9.47. 29 Os * dy lygad dehau diche a'th rwyſtra, tynn ef allan, a thafl oddi wrthit: canys gwell i ti golli vn o'th aelodau, nâ thaflu dy holl gorph i vffern.

30 Hefyd os dy law ddehau a'th rwyſtra, torr hi ymmaith, a bwrw oddi wrthit: canys gwell i ti golli vn o'th aelodau, nâ thaflu dy holl gorph i vffern.

Pen.19.7. deut.24.1. 31 Dywetpwyd hefyd, * pwy bynnac a ollyngo ymmaith ei wraig, rhoed iddi lythyr yſcar.

marc.10.4. luc.16.18. 1.cor,7.10. 32 Ond yr ydwyfi yn dywedyd i chwi, mai pwy bynnac a ollyngo ei wraig ymmaith onid o achos godineb, a wna iddi fod yn gwneuthur godineb, a phwy bynnac a brioddo yr hon a yſcarwyd, y mae efe yn gwneuthur godineb.

Exod.20.7. leuit.19.12. deut.5.11. 33 Trachefn chwi a glywſoch ddywedyd wrth y rhai o'r cynfyd, * na thwng anudon, eithr tâl dy lwon i'r Arglwydd.

34 Ond meddafi i chwi, na thwng ddim, nac i'r nef, canys goſeddfa Duw yw:

35 Nac i'r ddaiar, canys mainge ei draed ef ydyw: nac i Jeruſalem, canys dinas y Brenin mawr ydyw.

36 Ac na thwng i'th ben, am na elli wneuthur vn blewyn yn wynn nac yn ddu.

Iaco.5.12. 37 Eithr * bydded eich ymadrodd chwi, Ie, Ie, nag ê, nag ê, o blegit beth bynnac ſydd tros ben hyn, o ddrygioni y mae.

38 Clywſoch ddywedyd, * llygad am lygad, a daint am ddaint.

Exod.21.24. leuit.24.20. deut.19.21. Luc.6,29. rom.12.17. 1.cor.6.7. 39 Eithr yr ydwyfi yn dywedyd wrthych chwi, * na wrthwynebwch ddrwg, ond pwy bynnac a'th darawo ar dy rudd dehau, tro'r llall atto ef hefyd.

40 Ac i'r neb a fynno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd.

41 A phwy bynnac a'th gymhello vn filltir, dôs gyd ag ef ddwy.

Deut.15.8. 42 * Dyro i'r hwn a gais gennit, ac na thro oddi wrth yr hwn ſydd yn ewyllyſio echwyna gennit.

Leuit.19.18. 43 Clywſoch ddywedyd, * câr dy gymydog, a chaſâ dy elyn.

Luc.6.27. & 23-34. act.7.60. 44 Eithr yr ydwyfi yn dywedyd wrthych chwi, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r ſawl a'ch caſânt, * a gweddiwch tros y rhai a ymhêluſwed i chwi, ac a'ch erlidiāt,

1.Cor.4.13. luc.6.35. 45 Fel * y byddoch blant eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd: canys y mae efe yn peri iw haul godi ar y drwg a'r da, ac yn glawio ar y cyfiawn ac anghyfiawn.

46 O blegit os cerwch y ſawl a'ch caro, pa wobr ſydd i chwi? oni wna'r publicanod yr vn peth?

47 Os cyfarchwch eich brodyr yn vnic, pa ragoriaeth yr ydych chwi yn ei wneuthur, onid

ydyw y publicanod yn gwneuthur felly?

48 Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd yn berffaith.

## PEN. VI.

Am eluſeni, 5. gweddi, 16. ympryd: 25. Gwahardd gofalu am bethau bydol.

GOchelwch rhag gwneuthur eich eluſen yng-ŵydd dynion er mwyn cael eich gweled ganddynt, os amgen ni chewch dâl gan eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

Rom.12.8.

2 *Am hynny pan wnélech dy eluſen na phâr ganu udcorn o'th flaen, fel y gwna 'r rhagrithwŷr yn y Synagogau, ac ar yr heolydd iw moli gan ddynion, yn wir meddaf i chwi y maent yn derbyn eu gwobr.

3 Eithr pan wnélech ti eluſen, na wyped dy law aſſwy pa beth a wna dy law ddéhau,

4 Fel y byddo dy eluſen yn ddirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel a dâl i ti yn yr amlwg.

5 A phan weddiech na fydd fel y rhagrithwŷr, canys hwy a garant ſefyll, a gweddio yn y Synagogau, ac yng-honglau yr heolydd, er mwyn cael eu gweled gan ddynion: yn wîr meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr,

6 Tithe pan weddiech dos i'th ſtafell, ac wedi caeu dy ddrws, gweddia ar dy Dâd yr hwn [ſydd] yn ddirgel, a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel a'th obrwya di yn yr amlwg.

7 Hefyd pan weddioch na fyddwch ſiaradus fel y cenhedloedd, canys y maent yn tybied y gwrandewir hwy am eu haml eiriau.

8 Am hynny na thebygwch iddynt hwy, canys gŵyr eich Tâd pa bethau ſy arnoch eu heiſieu, cyn ceiſio o honoch ganddo.

Luc.11.2.

9 Am hynny gweddiwch chwi fel hyn, *Ein tâd yr hwn ydwyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy enw.

10 Deled dy deyrnas, bydded dy ewyllys ar y ddaiar, megis yn y nefoedd.

11 Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol,

12 A maddeu di i ni ein dyledion fel y maddeuom ninnau i'n dyled-wŷr.

Pen.13.19.

13 Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwaret ni * rhag drwg: canys eiddot ti yw 'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniāt yn oes oeſoedd, Amē.

Mar.11.25.
Eccleſ.28.2.

14 O *blegit os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tâd nefol a faddeu hefyd i chwithau.

15 Eithr oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tâd i chwithau eich camweddau.

*Yr Efengyl y dydd cyntaf o'r grawys.*

16 ☞ Hefyd pan ymprydioch, na fyddwch wyneb ſarric fel rhagrith-wŷr: canys anffurfio eu hwynebau y byddant, er ymddangos i ddynion fod yn ymprydio, yn wir meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr.

17 Eithr pan ymprydiech di, eneinia dy benn, a golch dy wyneb,

18 Rhag ymddangos i ddynion fod yn ymprydio, onid i'th Dâd 'r hwn ſydd yn ddirgel, a'th Dâd yr hwn a wêl yn ddirgel a dâl i ti yn ālwg.

19 Na chesclwch dryſſor i chwi ar y ddaiar, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta:

Luc.12.33.
1.timoth.6.19.

20 Eithr cesclwch i chwi dryſſorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle ni's cloddia 'r lladron trwodd, ac ni's lladratânt.

21 Canys lle y mae eich tryſſor, yno y bydd eich calon hefyd. ☜

Luc.11.34.

22 *Goleuni 'r corph yw 'r llygad, am hynny o bydd dy lygad yn ſyml, dy holl gorph fydd yn oleu.

23 Eithr os bydd dy lygad yn ddrwg, dy holl gorph fydd yn dywyll, am hynny os bydd y goleuni yr hwn ſydd ynot yn dywyllwch, pa faint [fydd] y tywyllwch?

Luc.16.13.
*Yr Efengyl y pymthecfed Sul wedi 'r Drindod.*

24 ☞ Ni ddichon neb waſanaethu dau arglwydd, canys naill ai efe a gaſâ 'r naill, ac a gâr y llall, ai efe a ymlyn wrth y naill, ac a eſceuluſa 'r llall: ni ellwch waſanaethu Duw a golud-bydol.

Luc.12.22.
phil.4.6.
1.timoth.6.8.
1.petr.5.7.
pſal.55.22.

25 *Am hynny meddaf i chwi, na ofelwch am eich bywyd pa beth a fwyttaoch, neu pa beth a yfoch: nac am eich corph, pa beth a wiſcoch: onid yw 'r bywyd yn fwy nâ'r bwyd? a'r corph yn fwy nâ'r dillad?

26 Edrychwch ar adar y nefoedd, o blegit nid ydynt nac yn medi, nac yn tywain i'r yſcuboriau, ac y mae eich Tâd nefol yn eu porthi hwynt, onid ydych chwi yn rhagori arnynt hwy?

27 A phwy o honoch gan ofalu a ddichon chwanegu un cufydd at ei faint?

28 A phaham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? dyſcwch pa wedd y mae lili 'r maes yn tyfu: nid ydynt yn llafurio, nac yn nyddu.

29 Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na bu Solomon yn ei holl ogoniant mor drwſiadus ag un o'r rhai hyn.

30 Am hynny os dillada Duw *lyſieun y maes, yr hwn ſydd heddyw, ac y foru a fwrir i'r ffwrn, oni [ddillada efe] chwi yn fwy o lawer, ô rai o ychydig ffydd?

31 Am hynny na ofelwch gan ddywedyd, beth a fwytawn? neu beth a yfwn? neu â pha beth yr ymddilladwn?

32 Canys am y pethau hyn oll yr ymofyn y cenhedloedd, o blegit eich Tâd nefol a ŵyr fod arnoch eiſieu yr holl bethau hyn.

33 Eithr yn gyntaf ceiſiwch deyrnas Dduw ai gyfiawnder, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn chwaneg.

34 Na ofelwch gan hynny dros drannoeth, canys trannoeth a ofala troſto ei hunan, digon i'r diwrnod ei ddrygaiaeth ei hun. ☜

## PEN. VII.

1 Criſt yn gwahardd barn ehud 6 a bwrw pethau ſanctaidd i gwn. 13. Am y porth cyfyng, a'r vn ehang. 15 Am y gau brophwydi. 18 Y pren a'i ffrwyth. 24 Am y ty ar y graig, a'r ty ar y tyfod.

Luc.6.37.
rhuf.2.1.
mar.4.24.
1.cor.4.3.

NA fernwch, fel na'ch barner.

2 Canys â * pha farn y barnoch, i'ch bernir: ac â pha feſur y meſuroch, y meſurir i

chwithau trachefn.

3 A pha ham y gweli di y brycheun ſydd yn llygad dy frawd, ac na ddealli di y trawſt ſydd yn dy lygad dy hun?

Luc.6.41.

4 Neu pa fodd y dywedi wrth dy frawd, gâd ti i mi fwrw allan y brycheun o'th lygad, ac wele drawſt yn dy lygad dy hun?

5 Oh ragrithiwr, bwrw allan yn gyntaf y trawſt o'th lygad, dy hun, ac yna y canfyddi fwrw allan y brycheun o lygad dy frawd.

6 Na roddwch y peth ſydd ſanctaidd i gŵn, ac na theflwch eich gemmau o flaen móch, rhag iddynt eu ſathru dan draed, a throi trachefn a'ch llarpio chwi.

Pen.21.21. marc.11.24. luc.11.9. iohn 14.13. iaco.1.5.

7 *Gofynnwch, a rhoddir i chwi, ceiſiwch, ac chwi a gewch: curwch ac fe agorir i chwi:

8 Canys pwy bynnac a ofynno, a dderbyn: a'r neb a gais a gaiff: ac i hwn a guro 'r agorir.

9 A oes vn dŷn o honoch yr hwn os gofyn ei fab iddo fara, a rydd iddo gareg?

10 Neu os gofyn efe byſcodyn, a ddyry efe ſarph iddo?

11 Os chwy-chwi gan hynny, a chwi yn ddrwg a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynnant iddo?

Luc.6.31. tob.4.15.

12 Am hynny,* beth bynnac a ewyllyſioch ei wneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy: canys hyn yw 'r gyfraith a'r prophwydi.

Luc.13.24.

13 * Ewch i mewn trwy 'r porth cyfyng: canys ehang [yw] 'r porth, a llydan [yw] y ffordd ſydd yn arwain i ddeſtruw, a llaweroedd ydynt yn myned i mewn yno.

14 O blegit cyfyng [yw 'r] porth, a chûl yw 'r ffordd yr hon ſydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig ſydd yn ei chael hi,

*Yr Efengyl yr wythfed ſul wedi'r Drindod.*

15 ☞Ymogelwch rhag y gau brophwydi y rhai a ddeuant attoch yng-wiſcoedd defaid, onid oddi mewn bleiddiaid rheipus ydynt hwy.

Luc.6.44.

16 Wrth eu ffrwyth yr adnabyddwch hwynt: * a gesclir grawn-win oddi ar ddrain, neu ffigus oddi ar yſcall?

17 Felly pob pren da a ddwg ffrwyth da, a phren drwg ffrwyth drwg.

18 Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren pwdr ddwyn ffrwythau da.

pen.3.10.

19 *Pob pren a'r ni ddwg ffrwyth da, a dorir i lawr, ac a deflir i'r tân.

20 O herwydd pa ham, wrth eu ffrwyth yr adnabyddwch hwynt.

Rom.2.13. Iam.1.22.

21 * Nid pwy bynnac a ddywed wrthif, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i deyrnas nefoedd, ond yr hwn a wna ewyllys fy-Nhâd yr hwn [ſydd] yn y nefoedd. ☜

22 Llaweroedd a ddywedant wrthif yn y dydd hwnnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydaſom yn dy enw di, ac oni fwriaſom allan gythreuliaid yn dy enw di, ac oni wnaethom weithredoedd mawrion trwy dy enw di?

Luc.13.27. pſal.6.8.

23 *Ac yna yr addefaf iddynt, ni's adnabum chwi er ioed, ewch ymmaith oddi wrthif, ô weithred-wŷr anwiredd.

24 Pwy bynnac gan hynny a glywo gennif y geiriau hyn, ac a'u gwna, mi ai cyffelybaf ef i ŵr doeth, yr hwn a adailadodd ei dŷ ar graig: Luc.6.47.

25 A'r glaw a ddeſcynnodd, a'r llifeiriant a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythaſant, ac a ruthraſant ar y tŷ hwnnw, ac ni ſyrthiodd, am ei ſylfaenu ar graig.

26 Ond pwy bynnac a glywo fyng-eiriau hyn, ac ni's gwna, a gyffelybir i ŵr ffôl, yr hwn a adailadodd ei dŷ ar dywod,

27 A'r glaw a ddeſcynnodd, a'r llif-ddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythaſant, ac a guraſant ar y tŷ hwnnw, ac efe a ſyrthiodd, a'i gwymp ef a fu fawr.

28 Ac fe ddarfu wedi i'r Ieſu orphen y geiriau hyn, * ſynnu ar y dyrfa gan ei ddyſc ef. Mar.1.22. luc.4.32.

29 Canys yr oedd efe yn eu dyſcu hwynt fel vn ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ſcrifennyddion.

## PEN. VIII.

Criſt yn iachau dyn gwahan-glwyfus. 5 Ffydd y capten, 11 Galwedigaeth y cenhedloedd, 14 Iachau chwegr Petr, ſef mam ei wraig ef. 19 Y gwr llên a ewyllyſie ddilyn Criſt. 23 Efe yn llonyddu yr mor a'r gwynt. 28 Ac yn gyrru cythreuliaid allan o ddau ddyn ddiefylic i'r genfaint foch.

☞ AC wedi ei ddyfod efe i waered o'r mynydd, llawer o bobloedd a'i dilynodd ef. *Yr Efengyl y trydydd ſul ar ôl yr yſtwyll.*

2 Ac* wele vn gwahan-glwyfus a aeth ac ai haddolodd ef, gan ddywedyd: Arglwydd, os mynni, ti a elli fyng-lanhau. Marc.1.49. luc.5.12.

3 A'r Ieſu a eſtynnodd ei law, ac a gyffyrddodd ag ef gan ddywedyd, mynnaf, glanhaer di: ac yn y fan ei wahan-glwyf ef a lanhauwyd.

4 Yna y dywedodd yr Ieſu wrtho, gwêl na ddywedech wrth neb, eithr dos, ac ymddangos i'r offeiriad, ac offrymma y rhodd a orchymynnodd * Moſes er teſtiolaeth iddynt. Leuit.14.4.

5 *Wedi dyfod yr Ieſu i Capernaum y daeth atto ef Canwriad gan ddeiſyfu arno, Luc.7.1.

6 A dywedyd, Arglwydd y mae fyng-wâs yn gorwedd gartref yn glaf o'r parlys, ac mewn poen ddirfawr.

7 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho ef, mi a'i hiachâf ef pan ddelwyf.

8 A'r Canwriad ai hattebodd ef gan ddywedyd, Arglwydd nid ydwyf deilwng i ddyfod o honot tann fyng-hronglwyd, eithr yn vnic dywet y gair, a'm gwâs a iacheir.

9 Canys [illegible] ydwyfi tann awdurdod, ac y mae gennif filwŷr tanaf, a dywedaf wrth hwn, cerdda, ac efe a aiff, ac wrth arall tyret, ac efe a ddaw, ac wrth fyng-wâs, gwna hyn, ac efe a'i gwna.

10 A'r Ieſu wrth glywed hyn a ryfeddodd, ac a ddywedodd wrth y rhai oeddynt yn canlyn, yn wir meddaf i chwi, ni chefais gymmaint ffydd yn yr Iſrael.

11 Ac yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewyn, ac a eiſteddant

ant gyd ag Abraham, Iſaac, ac Iacob yn nheyrnas nefoedd.

Pen.22.13.

12 A* phlant y deyrnas a deflir i'r tywyllwch eithaf, yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.

13 Yna y dywedodd yr Ieſu wrth y Canwriad, dos ymmaith, a megis y credaiſt bydded i ti, a'i wâs a iachauwyd yn yr awr honno. ☜

Mar.1.29.
Luc.4.38.

14 A phan ddaeth yr Ieſu i dŷ Petr, efe a welodd ei chwegr *ef yn gorwedd, ac yn glaf o'r crŷd.

15 Ac efe a gyffyrddodd â'i llaw, a'r crŷd a'i gadawodd hi, ac hi a gododd i fynu, ac a wnaeth waſanaeth iddynt hwy.

Mar.1.32.
Luc.4.40.

16 Wedi ei hwyrhau hi, hwy a ddugaſant atto *ef lawer o rai cythreulic, ac efe a fwriodd allan yr yſprydion â'i air, ac efe a iachaodd yr holl gleifion,

Eſa.53.4.
1.Pet.2.24.

17 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedaſid trwy Eſaias y prophwyd gan ddywedyd, *efe a gymmerodd ein gwendid ni, ac a ddug ein clefydau.

Luc.9.57.

18 A'r Ieſu yn gweled torfeydd lawer o'i amgylch a *orchymynodd [iddynt] fyned troſodd i'r lann arall.

19 A rhyw ſcryfennydd a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, Athro, mi a'th ganlynaf i ba le bynnac yr elech.

20 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, y mae ffauau gan y llwynogod, a'chan ehediaid y nefoedd nythod, onid gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr.

Luc.9.59.

21 Ac* vn arall o'i ddiſcyblion a ddywedodd wrtho, Arglwydd goddef i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhâd.

22 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, canlyn fi, a gâd ti i'r meirw gladdu eu meirw.

*Yr Efengyl y pedwerydd ſul ar ôl yr yſtwyll.*
Mar.4.35.
Luc.8.22.

23 ☞ *Ac wedi iddo fyned i'r llong, ei ddiſcyblion ai canlynaſant ef.

24 Ac wele, cynnwrf mawr a gyfodes yn y môr fel y cuddiwyd y llong gan y tonnau: eithr efe oedd yn cyſcu.

25 Yna y daeth ei ddiſcyblion atto, ac a'i deffroaſant, gan ddywedyd, ô Arglwydd, cadw ni, darfu am danom ni.

26 Ac efe a ddywedodd wrthynt, paham yr ydych yn ofnus ô chwi o ychydig ffydd? yna y cododd efe, ac y ceryddodd y gwyntoedd a'r môr, a bu dawelwch mawr.

27 A'r dynion a ryfeddaſant gan ddywedyd, pa ryw vn yw hwn, canys y gwyntoedd a'r môr ydynt yn vfuddhau iddo ef?

Mar.5.1.
Luc.8.26.

28 Ac wedi *ei ddyfod efe i'r lann arall i wlâd y Gergeſiaid, dau ddieſylic a gyfarfuant ag ef, y rhai a ddaethent o'r monwentau yn dra creulon, fel na alle neb fyned y ffordd honno.

29 Ac wele hwy a lefaſant, gan ddywedyd, Ieſu fâb Duw beth ſyddi ni (a wnelom) â thi? a ddaethoſt ti ymma i'n poeni cyn yr amſer?

30 Ac yr oedd ym mhell oddi wrthynt genfaint o fôch lawer yn pori.

31 A'r cythrealiaid a ddeiſyfaſant, gan ddywedyd, os bwri ni allan, gad ti i ni fyned i'r genfaint fôch.

32 Ac efe a ddywedodd, ewch, ac hwy gan fyned allan, a aethant i'r genfaint fôch: ac wele 'r holl genfaint fôch a ruthrodd tros y dibin i'r môr, ac a fuant feirw yn y dyfroedd.

33 Yna y ffoawdd y meichiaid, ac wedi eu dyfod hwy i'r ddinas, hwy a fynegaſant bob peth, a pha beth a ddarfuaſe i'r rhai yr oedd y cythreuliaid ynddynt.

34 Ac wele 'r holl ddinas a ddaeth allan i gyfarfod â'r Ieſu: a phan ei gwelſant, attolygaſant iddo ymadael o'i cyffiniau hwynt. ☜

## PEN. IX.

1 Criſt yn iachau 'r parlys, 9 yn galw Mathew, 18 yn cyfodi merch y capten, 20 yn iachau 'r wraig o'r haint gwaed, 28 yn rhoddi i ddau ddall eu golwg, 32 ac i fudan leferydd, 37 Ac yn yſtyried y cynhaiaf a'r cynhaiaf-wyr.

*Yr Efengyl y xix. Sul ar ôl y Drindod.*
Marc.2.3.
Luc.5.18.

☞ AC efe a aeth i mewn i'r llong, ac a aeth troſodd, ac a ddaeth i'w ddinas ei hun.

2 Ac* wele, hwy a ddugaſant atto wr claf o'r parlys, yn gorwedd mewn gwely: a'r Ieſu yn gweled eu ffydd hwy, a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, ha fâb cymmer gyſſur, maddeuwyd i ti dy bechodau.

3 Ac wele, rhai o'r ſcrifennyddion a ddywedaſant ynddynt eu hunain, y mae hwn yn cablu.

4 A phan welodd yr Ieſu eu meddyliau y dywedodd, pa ham y meddyliwch ddrwg yn eich calonnau?

5 Canys pa vn hawſaf ai dywedyd, maddeuwyd i ti dy bechodau, ai dywedyd, cyfod a rhodia?

6 Eithr fel y gwypoch fod meddiant i Fab y dŷn ar y ddaiar i faddeu pechodau, (yna y dywedodd efe wrth y claf o'r parlys) cyfod, cymmer dy wely, a dôs i'th dŷ.

7 Ac efe a gyfodes, ac a aeth ymmaith i'w dŷ ei hun.

8 Felly pan welodd y dyrfa, rhyfeddu a wnaethant, a gogoneddu Duw, yr hwn a roeſe gyfryw awdurdod i ddynion. ☜

*Yr Efengyl ar ddigwyl Fathew.*
Mar.2.14.
Luc.5.27.

9 ☞ Ac fel yr oedd yr Ieſu yn myned oddi yno, *efe a ganfu wr yn eiſtedd wrth y dollfa yr hwn a elwid Mathew, ac a ddywedodd wrtho, canlyn fi, ac efe a gyfodes, ac a'i canlynodd.

10 Ac fe ddarfu a'r [Ieſu] yn eiſtedd i fwytta yn nhŷ [hwnnw,] wele, publicanod lawer a phechaduriaid a ddaethant, ac a eiſteddaſant gyd â'r Ieſu a'i ddiſcyblion.

11 A phan welodd y Phariſeaid [hynny] hwy a ddywedaſant wrth ei ddiſcyblion ef: pa ham y bwyty eich Athro chwi gyd â'r Publicanod a phechaduriaid?

12 A phan glybu 'r Ieſu, efe a ddywedodd wrthynt, nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.

Oſe.6.7.
Pen.12.7.
1.Tim.1.15.

13 Ewch, a dyſcwch pa beth yw [hyn,] *trugaredd yr ydwyf yn ei ewyllyſio, ac nid aberth: canys ni ddaethym i alw y rhai cyfiawn, ond y *pechaduriaid i edifeirwch. ☜

Mar.2.18. Luc.5.33. 14 Yna * y daeth diſcyblion Ioan atto, gan ddywedyd, pa ham yr ydym ni a'r Phariſæaid yn ymprydio llawer, a'th ddiſcyblion di heb ymprydio?

15 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, a all plant priod-fab alaru tra fyddo y priod-fab gyd â hwynt? ond y dyddiau a ddeuant pan ddyger y priod-fab oddi arnynt, ac yna yr ymprydiant.

16 Hefyd ni rydd neb lain o frethyn cri mewn hên wiſc: canys yr angwhanegiad a dynn [beth] oddi wrth y wiſc, a'r rhwygfa fydd yn waeth.

17 Ac ni ddodant win newydd mewn coſtrelau hên: canys felly y torre y coſtrelau, ac y gollyngid y gwin allan, ac y collid y coſtrelau: eithr gwin newydd a ddodant mewn coſtrelau newydd, ac [felly] y cedwir y ddau.

*Yr Efengyl y pedwerydd ſul ar hugain ar ôl y Drindod.* Marc.5.22. Luc.8.41. 18 ☞ Tra yr oedd * efe yn dywedyd hyn wrthynt, wele, daeth rhyw bennaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, fe a fu farw fy merch yr awr hon, eithr tyret a goſot dy law arni, a byw fydd hi.

19 A'r Ieſu a godes, ac a'i canlynodd ef, a'i ddiſcyblion.

20 Ac wele wraig yr hon y buaſe gwaed-lif arni ddeuddeng mlynedd, a ddaeth o'r tu cefn iddo, ac a gyffyrddodd ag ymyl ei wiſc ef.

21 Canys hi a ddywedaſe ynddi ei hun, os gallaf gyffwrdd â'i wiſc ef yn unic, iach fyddaf.

22 Yna'r Ieſu a drôdd, a phan ei gwelodd hi, a ddywedodd, ha ferch bydd gyſſurus, dy ffydd a'th iachaodd, a'r wraig a iachauwyd o'r awr honno allan.

23 A phan ddaeth yr Ieſu i dŷ'r pennaeth, a gweled y cerddorion a'r dyrfa yn terfyſcu,

24 Efe a ddywedodd wrthynt, ewch ymmaith, can nad marw 'r llangces, onid cyſcu y mae hi: ac hwynt a'i gwatwaraſant ef.

25 Ac wedi bwrw y dyrfa allan, efe a aeth i mewn, ac a ymaflodd yn ei llaw hi, a'r llangces a gyfodes.

26 A'r gair o hyn a aeth tros yr holl dîr hwnnw. ☜

27 Ac fel yr oedd yr Ieſu yn myned oddi yno, dau ddeillion a'i canlynaſant ef gan lefain a dywedyd, Mâb Dafydd trugarhâ wrthym.

28 Ac wedi iddo ddyfod i'r tŷ, y deillion a ddaethant atto, a'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, a ydych chwi yn credu y gallaf wneuthur hyn? Ac hwy a ddywedaſant wrtho, ydym Arglwydd.

29 Yna y cyffyrddodd efe â'u llygaid, gan ddywedyd: yn ôl eich ffydd bydded i chwi.

30 A'u llygaid a agorwyd, a'r Ieſu a orchymynnodd iddynt [illegible] fygwth, gan ddywedyd, gwelwch na's gwypo neb.

31 Onid wedi iddynt ymado, hwy a'i clodforaſant ef trwy'r tîr hwnnw.

Math.12.22. Luc.11.14. 32 Ac hwynt yn myned allan, wele, [rai] * yn dwyn atto fudan a chythrael ynddo.

33 Ac wedi bwrw y cythrael o honaw, llefarodd y mudan, a rhyfeddodd y dyrfa, gan ddywedyd, ni welwyd y cyffelyb erioed yn Iſrael.

Pen.12.24. Mar.3.22. Luc 11.15. 34 A'r Phariſæaid a ddywedaſant, trwy * bennaeth y cythreuliaid y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

Mar.6.5. Luc.13.23. 35 A'r Ieſu a aeth o amgylch yr holl * ddinaſoedd, a'r trefydd gan ddyſcu yn eu Sinagogau, a chan bregethu Efengyl y deyrnas, a chan iachau pob clefyd, a phob afiechyd ym mhlith y bobloedd.

Mar.6.34. 36 A * phan welodd efe y dyrfa, efe a dosturiodd wrthynt, am eu bod wedi blino, a'u gwaſcaru fel defaid heb iddynt fugail.

37 Yna y dywedodd efe wrth ei ddiſcyblion, Luc.10.2. Ioh.4.36. y * cynhaiaf yn ddiau ſydd yn fawr, a'r gweith-wŷr yn anaml,

38 Am hynny attolygwch i Arglwydd y cynhaiaf, yrru gweith-wŷr iw gynhaiaf.

## PEN. X.

Criſt yn rhoddi iw Apoſtolion awdurdod i iachau clefydau, ac i bregethu yr Efengyl, 13 Gan rybuddio pa lwyddiant a pha flinder a gaent hwy, 22 a chan eu hannog i barhau yn ddioddefgar, 24 am i Griſt ddioddef yn gyntaf, 30 am fod Duw yn gofalu troſom fel na wnelo ein dioddefaint niwed, 37 am y dylem garu Duw yn fwy nâ dim bydol, 39 Ac am fod yn fuddiol dioddef hyd farwolaeth er mwyn Criſt, 40 Ac yn ddiweddaf y mae yn annog i dderbyn a mawrhau pregeth-wyr.

Ac efe a alwodd eu ddeuddec diſcybl atto, ac a * roddes iddynt allu yn erbyn yſprydion aflan, iw bwrw hwy allan, ac i iachau pob clefyd a phob afiechyd. Mar.3.13. Luc.9.1.

2 A henwau y deuddec Apoſtol yw y rhai hyn: y cyntaf, Simon yr hwn a elwir Petr, ac Andreas ei frawd, Iaco [mâb] Zebedeus, ac Ioan ei frawd.

3 Philip, a Bartholomeus: Thomas, a Mathew y publican: Iaco [mâb] Alpheus, a Lebbeus yr hwn a gyfenwid Thadeus:

4 Simon y Canaanead, ac Iudas Iſcariot yr hwn hefyd ai bradychodd ef.

5 Y deuddec hyn a yrrodd yr Ieſu ymmaith, ac a orchymynnodd iddynt, gan ddywedyd, nac ewch i ffordd y cenhedloedd, ac na ddeuwch i ddinaſoedd y Samariaid.

6 Eithr ewch yn hytrach * at gyfrgolledic ddefaid tŷ Iſrael. Act.13 46.

7 Ac wrth fyned pregethwch gan ddywedyd * fôd teyrnas nefoedd yn agos. Luc.10.9.

8 Iachewch y cleifion, glanhewch y rhai gwahan-glwyfus, cyfodwch y meirw, bwriwch allan gythreuliaid, derbyniaſoch yn rhâd, rhoddwch yn rhâd.

9 Na * feddwch aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrſau. Mar.6.8. Luc.9 3.

10 Nac yſcrepan i'r daith, na dwy bais, nac eſcidiau, na ffonn: canys * teilwng i'r gweithiwr ei fwyd. 1.Tim.5.18. Luc.10.7.

11 Ac * i ba ddinas bynnac, neu dref yr eloch, ymofynn- Luc.10.8.

ymofynnwch pwy ſydd addas ynddi, ac yno trigwch, hyd onid eloch ymmaith.

12 A phan ddeloch i dŷ, cyferchwch iddo gan ddywedyd, tangneddyf i'r tŷ hwn.

13 Ac os bydd y tŷ yn deilwng, deued eich tangneddyf arno: ac oni bydd yn deilwng, dychweled eich tangneddyf attoch.

Mar.6.11. Luc.9.5. Act.13.51. 14 A phwy * bynnac ni'ch derbynio chwi, ac ni wrandawo eich geiriau, pan ymadawoch o'r tŷ hwnnw, neu o'r ddinas honno, eſcytwch y llwch oddi wrth eich traed.

15 Yn wir meddaf i chwi, y bydd eſmwythach i dir y Sodomiaid, a Gomorriaid yn nydd y farn, nag i'r ddinas honno.

Luc.10.3. 16 Wele * yr ydwyfi yn eich danſon fel defaid ym myſc bleiddiaid: byddwch am hynny mor gall â ſeirph, ac mor ddiniwed a cholomennod.

17 Eithr ymogelwch rhag dynion, canys hwy a'ch rhoddant chwi i fynu i'r cyngor, ac a'ch ffrewyllant chwi yn eu Synagogau.

18 A chwi a ddygir at raglawiaid a brenhinoedd o'm hachos i, er teſtiolaeth iddynt, ac i'r cenhedloedd.

Marc.13.11. Luc.12.15. 19 Eithr pan * i'ch rhoddant chwi i fynu, na ofelwch pa fodd neu pa beth a lefaroch: canys rhoddir i chwi yn yr awr honno pa beth a lefaroch.

20 Canys nid chwy-chwi yw 'r rhai ſy yn llefaru, onid Yſpryd eich Tâd yr hwn ſydd yn llefaru ynoch.

Luc.21.16. 21 A'r * brawd a fradycha 'r brawd i farwolaeth, a'r tâd y mab, a'r plant a godant yn erbyn eu tâd a'u mam, ac a barant eu marwolaeth hwynt.

Mar.13.13. Luc.21.19. 22 A chás fyddwch gan bawb er mwyn fy enw: * ond yr hwn a barhao hyd y diwedd, efe fydd cadwedic.

23 A phan i'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffoiwch i vn arall: canys yn wîr y dywedaf wrthych, na orphennwch [holl] ddinaſoedd Iſrael nês dyfod Mâb y dŷn.

Luc.6.48. Ioh.13.16. 24 Nid * yw 'r diſcybl yn vwch nâ'i athro, na'r gwâs yn vwch na ei arglwydd.

Pen.12.24. 25 Digon i'r diſcybl fôd fel ei athro, a'r gwâs fel ei arglwydd: * os galwaſant berchen y tŷ yn Beelzebub, pa faint mwy [y galwant] ei dŷ-lwyth ef?

Mar.4.22. Luc.8.17.& 12.2. 26 Am hynny nac ofnwch hwy, * o blegit nid oes dim cuddiedic a'r nas datcuddir, na dim dirgel a'r na ddaw i ŵybodaeth.

27 Yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych chwi yn y tywyllwch, dywedwch yn y goleuni: a'r hyn a glywch yn eich cluſt pregethwch ar [ben] y tai.

28 Ac nac ofnwch y rhai a laddant y corph, ac ni allant ladd yr enaid, eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddeſtruwio yr enaid gyd â'r corph yn vffern.

29 Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling? ac ni ſyrth yr vn o honynt i'r llawr heb eich Tâd chwi.

30 Ac y mae hefyd eich * holl wallt wedi eu cyfrif. 2.Sam.14.11. Act.27.34.

31 Nac ofnwch gan hynny, chwi a dêlwch fwy nâ llawer o adar y tô.

32 Pwy * bynnac gan hynny a'm cyffeſa fi yng-ŵydd dynion, minnef ai cyffeſaf yntef yng-ŵydd fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd. Mar.8 38. Luc.9.26. 2.Tim.2.12.

33 A phwy bynnac a'm gwado i yng-ŵydd dynion, minnef ai gwadaf yntef yng-ŵydd fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

34 Na* thybygwch fy nyfod i ddanſon tangneddyf ar y ddaiar: ni ddaethym i ddanſon tangneddyf, onid cleddyf. Luc.12.51.

35 Canys mi * a ddaethym fel yr ymryſaelie dŷn yn erbyn ei dâd, a merch yn erbyn ei mam, a gwaudd yn erbyn ei chwegr. Miche.7.6.

36 A gelynnion dŷn fydd tŷ-lwyth ei dŷ ei hun.

37 Yr * hwn ſydd yn caru tâd neu fam yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honofi, a'r neb ſydd yn caru mâb neu ferch yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honofi. Luc.14.26.

38 A'r * hwn nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn canlyn ar fy ôl i, nid yw deilwng o honofi. Pen.16.24. Mar.8.34. Luc.9.23.

39 Y * neb ſydd yn cael ei einioes, a'i cyll: a'r neb a gollodd ei einioes o'm plegit i, a'i caiff hi. Ioh.12.25.

40 Y * neb ſydd yn eich derbyn chwi, ſydd yn fy nerbyn i: a'r neb ſydd yn fy nerbyn i, ſydd yn derbyn yr hwn a'm danſonodd i. Luc.10.16. Ioh.13.20.

41 Y neb ſydd yn derbyn prophwyd yn enw prophwyd, a dderbyn wobr prophwyd, a'r neb ſydd yn derbyn [vn] cyſtiawn yn enw [vn] cyſtiawn, a dderbyn wobr [vn] cyſtiawn.

42 A * phwy bynnac a roddo i'r vn o'r rhai bychain hyn phioled o [ddwfr] oer yn vnic yn enw diſcybl, yn wîr y dywedaf i chwi, ni chyll efe ei wobr. Mar.9.41.

## P E N. XI.

1 Criſt yn pregethu, 2 Ioan yn danſon ei ddiſcyblion at Griſt, 21 dialedd Duw yn erbyn gwrandawyr anniolchgar, 25 a'r diolch a roddodd Criſt am egluro o'r Tâd yr Efengyl i'r dynion gwirion.

ADarfu wedi gorphen o'r Ieſu orchymyn i'w ddeuddec Apoſtol, iddo ef fyned oddi yno i ddyſcu a phregethu yn eu dinaſoedd hwy.

2 ☞ A phan glybu Ioan yng-harchar [am] weithredoedd Criſt, efe a ddanſonodd ddau o'i ddiſcyblion, ac a ddywedodd wrtho, *Yr Efengyl y trydydd ſul yn Aduent.*

3 Ai tydi yw 'r hwn a ddaw, ai diſgwil yr ydym ni am arall? Luc.7.18.

4 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, ewch a mynegwch i Ioan y pethau a glywſoch, ac a welſoch.

5 Y mae 'r deilliion yn gweled eil-waith, a'r cloffion yn rhodio: a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed: y mae y meirw yn cyfodi, * a'r tlodion yn cael pregethu yr Efengyl iddynt. Eſai.61.1. Luc.4.18.

6 A dedwydd yw'r hwn ni rwyſtrir o'm plegit i.

7 A hwy yn myned ymmaith, yr Ieſu a ddechreuodd ddywedyd wrth y dyrfa am Ioan, pa beth yr aethoch allan i'r anialwch i edrych am dano? ai corſen yn eſcwyd gan y gwynt?

8 Eithr pa beth yr aethoch iw weled? ai dŷn wedi ei wiſco â dillad eſmwyth? wele y rhai ſy yn gwiſco dillad eſmwyth, mewn tai brenhinoedd y maent.

9 Eithr pa beth yr aethoch chwi iw weled? ai prophwyd? ie, meddaf i chwi, a mwy nâ phrophwyd.

10 Canys hwn ydyw y neb y mae yn ſcrifennedic am dano, * wele yr ydwyf yn anfon fyng-hennad o flaen dy wyneb, yr hwn a baratoa dy ffordd o'th flaen. ☜ Malac.3.1.

Luc.7.28. 11 Yn * wir meddaf i chwi, ym mhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nag Ioan fedyddi-wr, er hynny yr hwn ſydd leiaf yn nheyrnas nefoedd ſydd fwy nag ef.

Luc.16.16. 12 Ac o amſer Ioan fedyddi-wr hyd hyn, y treiſir teyrnas nefoedd, a'r treiſwŷr ſy yn myned â hi wrth nerth.

13 Canys yr holl brophwydi a'r gyfraith, a brophwydaſant hyd Ioan.

14 Ac os ewyllyſiwch ei dderbyn, efe yw * Elias yr hwn oedd ar ddyfod. Malac.4.5.

15 Y neb ſydd iddo gluſtiau i wrando gwrãndawed.

16 Eithr i ba beth y cyffelybaf i y genhedlaeth hon? * cyffelyb yw i blant yn eiſtedd yn y marchnadoedd, ac yn llefain wrth eu cyfeillion, Luc.7.31.

17 Ac yn dywedyd, canaſom bibell i chwi, ac ni ddawnſiaſoch: canaſom alar-nad i chwi, ac ni chwynfanaſoch.

18 Canys daeth Ioan heb na bwytta nac yfed, ac meddant, y mae cythrael ganddo.

19 Daeth Mâb y dŷn yn bwytta ac yn yfed, ac meddant, wele ddŷn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid: a doethineb a gyfiawnhauwyd gan ei phlant ei hun.

Luc.10.13. 20 Yna * y dechreuodd efe edliw i'r dinaſoedd, yn y rhai y gwnaethid y rhan fwyãf o'i weithredoedd mawrion ef, am nad edifarhauſent.

21 Gwae tydi Corazin: gwae tydi Bethſaida: canys pe gwnaethid yn Tirus a Sidon y gwrthiau a wnaethpwyd ynoch chwi, hwy a edifarhauſent er ys talm mewn lliain ſach a lludw.

22 Eithr dywedaf i chwi, mai eſmwythach fydd i Tirus a Sidon yn nydd y farn nag i chwi.

23 A thydi Capernaum yr hon a dderchefir hyd y nefoedd, a dynnir i lawr hyd yn vffern: canys pe gwnaethid yn Sodoma y gwrthiau a wnaethpwyd ynot ti, hwy a fuaſent yn aros hyd heddyw.

24 Eithr yr ydwyf yn dywedyd i chwi, mai eſmwythach fydd i dîr Sodoma yn-nydd y farn nag i ti.

☞ 25 Yn yr amſer hynny yr attebodd yr Ieſu, ac efe a ddywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch ô Dad, Arglwydd nef a ddaiar am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai call, ai dangos o honot i'r rhai bychain. *Yr efengyl ar ddydd S. Matthias.* Luc.10.22.

26 Diau ô Dâd, mai felly y rhyngodd bodd i ti.

27 * Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhâd: ac nid edwyn neb y Mâb, eithr y Tâd: ac nid edwyn neb y Tâd ond y Mâb: a'r hwn yr ewyllyſio 'r Mâb ei ddangos iddo. Ioan.3.35. & 6.46.

28 Dewch atta fi bawb a'r y ſydd yn flinderog ac yn llwythog, ac mi a eſmwythâf arnoch.

29 Cymmerwch fy iau arnoch, a dyſcwch gennif, am fy mod yn fwyn, ac yn oſtyngedic o galon: a chwi a * gewch orphywyſdra i'ch eneidiau. Ier.6.16.

30 Canys * fy iau ſydd eſmwyth a'm baich ſydd yſcafn. ☜ 1.Ioan.5.3.

## PEN. XII.

1 Y diſcyblion yn tynnu tywys yr yd. 10 Criſt yn iachau 'r llaw ddiffrwyth. 22 Efe yn gwared y dall, mud, cythreulic, 25 Ac yn amddeffyn ei waith. 31 Am gablaeth yn erbyn yr Ysbryd glân. 33 Y pren da, a'r drwg. 42 Y Ninifeaid a brenhines Sabalyn ſiampl i'r Iddewon. 48 Gwir fam a brodyr Criſt.

YR amſer hynny * yr aeth yr Ieſu ar y dydd Sabboth trwy 'r ŷd, ac yr oedd chwant bwyd ar ei ddiſcyblion ef, ac hwy a ddechreuaſant dynnu tywys yr ŷd, a bwytta. Marc.2.23. Luc.6.1.

2 A phan welodd y Phariſæaid, y dywedaſant wrtho, wele, dy ddiſcyblion yn gwneuthur yr hynn * nid yw gyfraithlawn ei wneuthur ar y Sabboth. Deut.23.25.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * oni ddarllenaſoch pa beth a wnaeth Dafydd pan oedd arno newyn, a'r rhai oeddynt gyd ag ef? 1.Sam.21.5.

4 Fel y daeth efe i mewn i dŷ Dduw, ac y bwyttaodd y bara goſod, yr * hwn nid oedd gyfraithlawn iddo ei fwytta, nac i'r rhai oeddynt gyd ag ef, onid yn vnic i'r offeiriaid? Exod.29.33: Leuit.8.31. & 24.9.

5 Neu, oni ddarllenaſoch yn y gyfraith fôd yr offeiriaid ar y Sabboth yn y Deml yn torri yr Sabboth, a'u bôd yn ddiargyoedd? Num.28.9.

6 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod ymma vn mwy nâ'r Deml.

7 Ond pe gwyddech pa beth yw hyn, * trugaredd a ewyllyſiaf, ac nid aberth, ni farnaſech chwi yn erbyn y rhai diniwed. Oſea.6.6.

8 Canys Arglwydd ar y Sabboth yw Mâb y dŷn.

9 Ac * efe a baſſiodd oddi yno, ac a aeth iw Synagog hwynt. Marc.3.1, Luc.6.6.

10 Ac wele, yr oedd yno ddŷn a'i law wedi diffrwytho: ac hwy a ofynnaſant iddo, gan ddywedyd, ai cyfraithlawn iachau ar y Sabboth? fel y gallent ei gyhuddo ef.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pa ddŷn o honoch fydd, ac iddo vn ddafad, ac o ſyrth honno mewn pwll ar y dydd Sabboth, nid ymeiſl ynddi a'i chodi allan?

12 Pa faint gwell gan hynny ydyw dŷn

nâ dafad? ac felly cyfraithlawn yw gwneuthur yn dda ar y dydd Sabboth.

13 Yna y dywedodd efe wrth y dŷn, eſtyn dy law, ac efe a'i heſtynnodd: a hi a wnaed yn iach fel y llall.

14 Yna 'r aeth y Phariſæaid allan, ac a ymgynghorasant yn ei erbyn ef, pa fodd y gallent ei ddifetha ef.

15 A phan wybu yr Ieſu hynny, efe a giliodd oddi yno, a thyrfa fawr a'i dilynodd ef, ac efe ai hiachâodd hwynt oll.

16 Ac a orchymynnodd iddynt na chyhoeddent ef.

17 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedaſid trwy Eſaias y prophwyd, gan ddywedyd:

Eſai.42.1. 18 *Wele fyng-waſanaeth-wr yr hwn a ddewiſais, fy annwylyd yn yr hwn y mae fy enaid yn fodlon: goſodaf fy Yſpryd arno, ac efe a ddengys farn i'r cenhedloedd.

19 Nid ymryſon efe, ac ni lefain, ac ni chlyw neb ei lais ef yn yr heolydd?

20 Ni thyr efe gorſen yſig, ac ni ddiffydd efe lîn yn mygu, hyd oni ddygo farn i fuddugoliaeth.

21 Ac yn ei enw ef y gobeithia y cenhedloedd.

Pen.9.32. Luc.11.14. 22 Yna * y ducpwyd atto vn cythraelic, dall a mud, ac efe ai iachaodd ef, fel y llefarodd, ac y gwelodd yr hwn [a fuaſe] ddall a mud.

23 A ſynnodd ar yr holl bobl, gan ddywedyd, onid hwn yw Mab Dafydd?

Pen.9.34. Mar.3.22. Luc.11.17. 24 Eithr pan glybu y Phariſæaid, hwy * a ddywedaſant, nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid onid trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid.

25 A'r Ieſu yn gŵybod eu meddyliau a ddywedodd wrthynt, pob teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, a aiff yn anghyfannedd, a phob dinas neu dŷ wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun ni ſaif.

26 Felly os Satan a fwrw allan Satan, y mae efe wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun: pa wedd gan hynny y ſaif ei deyrnas ef?

27 Ac os trwy Beelzebub yr ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan? ac am hynny y byddant hwy yn farn-wyr arnoch.

28 Eithr os ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid trwy Yſpryd Duw, yna y daeth teyrnas Duw attoch.

29 Canys pa fodd y dichon neb fyned i mewn i dŷ y cadarn, ac yſpeilio ei dŷ, oddieithr iddo yn gyntaf rwymo y cadarn: ac yna yr yſpeilia efe ei dŷ ef.

30 Y neb nid yw gyd â mi, ſydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn caſclu gyd â mi, ſydd yn gwaſcaru.

Mar.3.28. Luc.12.10. 1.Ioh.5.16. 31 Am hynny y dywedaf wrthych chwi, *pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion: onid cabledd yn erbyn yr Yſpryd ni faddeuir i ddynion.

32 A phwy bynnac a ddywedo air yn erbyn Mab y dŷn, fe a faddeuir iddo: ond pwy bynnac a ddywedo yn erbyn yr Yſpryd glân, ni's maddeuir iddo, nac yn y bŷd hwn, nac yn y byd a ddaw.

33 Naill ai gwnewch y prenn yn dda, a'i ffrwyth yn dda, ai gwnewch y pren yn ddrwg, a'i ffrwyth yn ddrwg: canys y pren a adweinir wrth ei ffrwyth.

Luc.6.45. 34 Oh genhedloedd gwiberod * pa wedd y gellwch ymadrodd pethau da a chwi yn ddrwg? canys o helaethrwydd y galon y lefara y genau.

35 Y dŷn da o dryſſor da ei galon a ddwg allan bethau da, a dŷn drwg o dryſſor drwg a ddwg allan bethau drwg.

36 Eithr yr ydwyf yn dywedyd wrthych mai am bob gair ſegur a ddywed dynion, y rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn.

37 Canys wrth dy eiriau i'th gyfiawnheir, ac wrth dy eiriau i'th gondemnir.

Pen.16.2. Luc.11.29. 1.Cor.1.22. 38 Yna 'r attebodd rhai o'r ſcrifennyddion, a'r Phariſæaid gan ddywedyd, * Athro, chwennychem weled arwydd gennit.

39 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, cenhedlaeth ddrwg odinebus ſydd yn ceiſio arwydd, eithr ni roddir iddi ond arwydd y prophwyd Ionas.

Ionas 1.17. 40 Canys fel y * bu Ionas dri-diau a thair nôs ym mol y morfil, felly y bydd Mab y dŷn dri-diau a thair nôs yng-halon y ddaiar.

Ionas 3.5. 41 Gwŷr Ninife a gyfodant yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant, * am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Ionas: ac wele vn mwy nag Ionas ymma.

1.Bren.10.1. 2.Chron.9.1. 42 Brenhines y dehau a gyfyd yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemnia hi: am iddi hi ddyfod o eithafon y ddaiar, i glywed doethineb Salomon, ac wele vn mwy nâ Salomon ymma.

Luc.11.24. 43 A * phan êl 'r yſpryd aflan allan o ddŷn, efe a rodia ar hŷd lleoedd ſychion, gan geiſio gorphywyſo, ac heb gael.

44 Yna medd efe, mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y daethym, ac wedi y delo, y mae yn ei gael yn wag, wedi ei yſcubo a'i drwſio.

Heb.6.4. 2.Pet.2.20. 45 Yna yr aiff efe, ac a gymmer atto ſaith yſpryd eraill ſcelerach nag ef ei hun, a hwy a ânt i mewn, ac a drigant yno, a * gwaeth fydd diwedd y dŷn hwnnw na'i ddechreuad: ac felly y bydd i'r genhedlaeth ddrwg hon.

Mar.3.31. Luc.8.20. 46 Tra * ydoedd efe yn llefaru wrth y dyrfa, wele ei fam a'i frodyr yn ſefyll allan, yn ceiſio ymddiddan ag ef.

47 Yna y dywedodd vn wrtho ef, wele dy fam a'th frodyr yn ſefyll allan, yn ceiſio ymddiddan â thi.

48 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrth hwn a ddywedaſe wrtho, pwy yw fy mam? a phwy yw fy mrodyr?

49 Ac wedi iddo eſtyn ei law tu ag at ei ddiſcyblion efe a ddywedodd, wele fy mam a'm brodyr.

50 Canys pwy bynnac a wnêl ewyllys fy Nhad yr hwn ſydd yn y nefoedd, efe yw fy

mrawd, fy chwaer, a'm mam.

## PEN. XIII.

1 Eglurdab am gyflwr teyrnas Dduw trwy ddammeg yr hâd, 34 yr achos yr ymddiddanodd Criſt trwy ddamhegion, 24 Damhegion eraill am yr efrau, 31 am yr hâd muſtard, 33 am y ſur-does, 44 am y tryſſor cuddiedig, 45 am y perl, 47 ac am y rhwyd, 53 Criſt yn cael ei eſceuluſo gan ei wlad-wyr ei hun.

Y Dydd hwnnw yr aeth yr Ieſu allan o'r tŷ, ac yr eiſteddodd efe wrth lann y môr.

Mar.4.1.
Luc.8.4.

2 A *phobl lawer a ymgynnullaſent atto ef, hyd oni [orfu] iddo ef fyned i'r llong, ac eiſtedd: a'r holl dyrfa a ſafodd ar y lann.

3 Yna y llefarodd efe wrthynt lawer o bethau drwy ddamhegion, gan ddywedyd, wele 'r hau-wr a aeth allan i hau.

4 Ac fel yr oedd efe yn hau, peth a ſyrthiodd ar hyd y ffordd, a'r adar a ddaethant, ac a'i difâſant.

5 Peth a ſyrthiodd ar dir carregog lle ni chawſant fawr ddaiar, ac yn y man y tyfaſant, can nad oedd iddynt ddyfnder daiar.

6 Ac wedi cyfodi 'r haul y poethaſant, ac o eiſieu gwreiddio y gwywâſant.

7 A pheth a ſyrthiodd ym mhlith drain, a'r drain a godaſant, ac a'u tagaſant hwy.

8 Peth hefyd a ſyrthiodd mewn tîr da, ac a ddugaſant ffrwyth, peth ar ei ganfed, arall ar ei drugeinfed, arall ar ei ddecfed ar hugain.

9 Y neb ſydd iddo gluſtiau i wrando, gwrãdawed.

10 Yna y daeth y diſcyblion, ac a ddywedaſant wrtho, pa ham yr wyt yn llefaru wrthynt trwy ddamhegion?

11 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, a'm roddi i chwi ŵybod dirgelwch teyrnas nefoedd, ac ni roddwyd iddynt hwy.

Pen.15.29.

12 O blegit *pwy bynnac ſydd ganddo, i hwnnw y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd: eithr pwy bynnac nid oes ganddo, oddi arno ef y dygir yr hyn ſydd ganddo.

13 Am hŷnny 'r ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddamhegion: canys hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled: ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall,

Eſai.6.9.
Mar.4.12.
Luc.8.10.
Ioan.12.40.
Act.28.26.
Rufe.11.8.

14 Felly ynddynt hwy y cyflawnwyd prophwydoliaeth Eſaias, *yr hon ſydd yn dywedyd: gan glywed y clywch, ac ni ddchellwch, ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.

15 Canys braſhawyd calon y bobl hyn, ac hwy a glywſant a'u cluſtiau yn drwm, ac a gaeâſant eu llygaid, rhag canfod â'r llygaid, a chlywed â'r cluſtiau a deall â'r galon, a throi fel yr iachawn i hwynt.

16 Eithr dedwydd yw eich llygaid chwi, am eu bod yn gweled, a'ch cluſtiau, am eu bod yn clywed.

Luc.10.24.

17 O blegit yn wîr y dywedaf i chwi, mai *llawer o brophwydi a rhai cyfiawn a ddeiſyfaſant weled y pethau a welwch chwi, ac ni welſant: a chlywed yr hyn a glywch chwi, ac ni chlywſant.

18 Gwrandewch chwithau ddammeg yr hau-wr,

Marc.4.15.
Luc.8.11.

19 Pa *bryd bynnac y clyw neb air y deyrnas, ac efe heb ei ddeall, y mae y drwg yn dyfod, ac yn cippio 'r hyn a hauwyd yn ei galon ef: ac dymma 'r hwn a hauwyd ar hŷd y ffordd.

20 A'r hwn a hauwyd yn y tîr carregog, yw 'r un ſydd yn gwrando y gair, ac yn ebrwydd drwy lawenydd yn ei dderbyn,

21 Ond nid oes wreiddin ynddo ei hun, a thros amſer y mae efe: a phan ddelo trallod neu erlid o blegit y gair, yn y fan efe a rwyſtrir.

22 A'r hwn a hauwyd ym mhlith y drain, yw 'r hwn ſydd yn gwrando y gair: onid gofal y bŷd hwn, a thwyll cyfoeth ſydd yn tagu y gair, ac yr ydys yn ei wneuthur ef yn ddiffrwyth.

23 Ond yr hwn a hauwyd yn y tîr da, yw yr hwn ſydd yn gwrando y gair, ac yn ei ddeall, ſef yr hwn ſydd yn dwyn, ac yn rhoddi ffrwyth, peth ar ei ganfed, arall ar ei drugeinfed, arall ar ei ddecfed ar hugain.

*Yr Efengyl y pummed Sul wedi'r Yſtwyll.*

24 Dammeg arall a oſodes efe iddynt, gan ddywedyd, ☞ Teyrnas nefoedd ſydd gyffelyb i ddŷn a hauodd hâd da yn ei faes.

25 A thra yr oedd y dynion yn cyſcu, y daeth ei elyn ef, ac a hauodd efrau ym mhlith y gwenith, ac a aeth ymmaith.

26 Ac wedi i'r egin dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangoſodd yr efrau hefyd.

27 A gweiſion gŵr y tŷ a ddaethant, ac a ddywedaſant wrtho: arglwydd, oni hauaiſt ti hâd da yn dy faes? o ba lê gan hynny y mae yr efrau ynddo?

28 Ac yntef a ddywedodd wrthynt, y gelyn ddŷn a wnaeth hyn: a'r gweiſion a ddywedaſant wrtho, a fynni di i ni fyned ai caſclu hwynt?

29 Ac efe a ddywedodd, na fynnaf, rhag i chwi wrth gaſclu 'r efrau, ddiwreiddio 'r gwenith gyd â hwynt.

30 Gadewch i'r ddau gŷd-tyfu hyd y cynhaiaf, ac yn amſer y cynhaiaf, mi a ddywedaf wrth y medel-wŷr, ceſclwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch yn yſcubau i'w lloſci, a cheſclwch y gwenith i'm yſcubor. ☜

Mar.4.30.
Luc.13.19.

31 Dammeg *arall a roddes efe iddynt, gan ddywedyd, cyffelyb yw teyrnas nefoedd, i ronyn o hâd muſtard, yr hwn a gymmer dŷn, ac a haua yn ei faes.

32 Yr hwn ſydd leiaf o'r holl hadau: ond wedi iddo dyfu, mwyaf un o'r llyſiau ydyw, ac efe a aiff yn brenn fel y delo adar yr awyr a nythu yn ei gangau ef.

Luc.13.21.

33 Dammeg *arall a ddywedodd efe wrthynt, gan ddywedyd, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i ſurdoes, yr hwn a gymmere gwraig, ac ai cuddie mewn tri phecced o flawd, oni ſure y cwbl.

Mar.4.33.

34 Hyn oll a ddywedodd yr Ieſu trwy *ddamhegion wrth y dyrfa, ac heb ddamhegion ni ddywedodd efe ddim wrthynt.

35 Fel y cyflawnid yr hyn a ddywetpwyd gan y prophwyd, gan ddywedyd, * agoraf fyngenau mewn damhegion, a mynegaf ddirgelion er pan ſeiliwyd y bŷd. Pſal.78.2.

36 Yna yr anfonodd yr Jeſu y dyrfa ymmaith, ac yr aeth i'r tŷ, a'i ddiſcyblion a ddaethant atto gan ddywedyd, eglura i ni ddammeg efrau y maes.

37 Yna yr attebodd efe, ac a ddywedodd wrthynt, yr hwn ſy yn hau yr hâd da, yw Mâb y dŷn:

38 A'r maes yw 'r bŷd, a'r hâd da, hwynt hwy yw plant y deyrnas, a'r efrau ydynt blant y drwg.

39 A'r gelyn yr hwn a'u hauodd hwynt hwy, yw diafol, * a'r cynhaiaf yw diwedd y bŷd, a'r medel-wŷr yw 'r angelion. Ioel.3.13. Gwel.14.15.

40 Megis ganhynny y cynhullir yr efrau, ac eu lloſcir yn tân, felly y bydd yn niwedd y bŷd.

41 Mâb y dŷn a ddenfyn ei angelion, ac hwy a gynhullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd.

42 Ac a'u bwriant hwynt i'r ffwrn dân, yno y bydd wylo a rhingcian dannedd.

43 Yna * y llewyrcha y rhai cyfiawn, fel yr haul yn nheyrnas eu Tâd: yr hwn ſydd iddo gluſtiau i wrando, gwrandawed. Daniel.12.3. Doeth.3.7.

44 Drachefn cyffelyb yw teyrnas nefoedd i dryſor cuddiedic mewn maes, yr hwn wedi i ddŷn ei gaffael, a guddie efe, ac o lawenydd am dano, efe a gilie, ac a werthe yr hyn oll a fedde, ac a bryne y maes hwnnw.

45 Drachefn cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farſiandwr, yr hwn a geiſie berlau da,

46 Ac wedi iddo gaffael un perl gwerthfawr, a âe, ac a werthe gymmaint oll ac a fedde, ac a'i pryne ef.

47 Trachefn cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwrid yn y môr, yr hon a gaſcle o bob rhyw beth.

48 Yr hôn wedi ei llenwi, a ddygent i'r lann, ac a eiſteddent, ac a gâſclent y rhai da mewn lleſtri, ac a fwrient heibio y rhai drwg.

49 Felly y bydd yn niwedd y bŷd, yr angelion a ânt allan, ac a ddidolant y rhai drwg o blith y rhai cyfiawn,

50 Ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân, yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.

51 A'r Jeſu a ddywedodd wrthynt, a ddarfu i chwi ddeall hyn oll? hwythau a ddywedaſant wrtho, do Arglwydd.

52 Yna y dywedodd efe wrthynt, am hynny pob ſcrifennydd wedi ei ddyſcu i deyrnas nefoedd, a gyffelybir i berchen tŷ, yr hwn a ddwg allan o'i dryſor [bethau] newydd a hên.

53 Ac wedi i'r Jeſu ddywedyd y damhegion hyn, efe a ymadawodd oddi yno,

54 Ac efe a ddaeth i'w wlâd ei hun, ac a'u dyſcodd hwynt yn eu Synagogau, * oni ſynnodd arnynt, gan ddywedyd, o ba le y daeth y doethineb hyn a'r gwrthiau i'r dŷn hwn? Marc.6,1. Luc.4.16.

55 Ond * hwn yw mab y ſaer? onid ei fam ef a elwit Mair? a'i frodyr Jaco, ac Joſes, a Simon, ac Judas? Ioan.6.42.

56 Ac onid yw ei chwiorydd oll gyd â ni? o ba le gan hynny y mae ganddo y pethau hyn oll?

57 Ac hwy a rwyſtrwyd o'i blegit ef, yna y dywedodd yr Jeſu wrthynt, nid yw prophwyd heb anrhydedd onid yn ei wlâd ei hun, ac yn ei dŷ ei hun. Marc.6.4. Luc.4.24. Ioan.4.42.

58 Ac ni wnaeth efe fawr wrthiau yno, o blegit eu hanghredumaeth hwynt.

## PEN. XIIII.

1 Tyb Herod am Griſt. 3 Carchar Ioan a'i ddihenydd. 23 Ieſu yn porthi pum mil o bobl, 23 Ac yn rhodio ar y môr.

Y* Pryd hynny y clybu Herod y Tetrarch ſôn am Jeſu, Marc.6.14. Luc.9.7.

2 Ac efe a ddywedodd wrth ei weiſion, hwn yw Joan fedyddiwr, efe a gyfodes o feirw, ac am hynny y mae gwrthiau yn gweithio ynddo ef.

3 Canys * Herod a ddaliaſe Joan, ac a'i rhwymaſe, ac a'i dodaſe yng-harchar o blegit Herodias gwraig Philip ei frawd ef. Marc.6.17. Luc.3.19.

4 Canys Joan a ddywedodd wrtho, * nid cyfraithlawn i ti ei chael hi. Leuit.18.16. & 20.21.

5 A phan oedd yn ei fryd ef ei roddi ef i farwolaeth, efe a ofnodd y bobl, canys * hwy a'i cymmerent ef fel prophwyd. Pen.21.26.

6 Eithr pan gadwyd dydd genedigaeth Herod, dawnſiodd merch Herodias ger eu bronn hwy, ac hi a ryngodd fodd Herod:

7 Fel yr addawodd efe trwy lw y rhodde efe iddi beth bynnac a geiſie hi.

8 Ac y hi wedi ei dyſcu gan ei mam, a ddywedodd, dyro i mi ymma ben Joan fedyddiwr mewn dyſcl,

9 A'r brenin a fu drîſt ganddo, eithr o herwydd y llw, a'r rhai a eiſteddent gyd ag ef wrth y ford, efe a orchymynnodd ei roi ef [iddi hi.]

10 Ac efe a anfonodd gennad, ac a dorrodd ben Joan yn y carchar.

11 A ducpwyd ei ben ef mewn dyſcl, ac a'i rhoddwyd i'r llangces, ac hi a'i dug i'w mam.

12 A'i ddiſcyblion ef a ddaethant, ac a gymmerâſant ei gorph ef, ac a'i claddâſant, ac a aethant, ac a ddywedâſant i'r Jeſu.

13 A phan glybu 'r Jeſu, * efe a giliodd oddi yno mewn llong i anghyfannedd-le o'r naillu, ac wedi clywed o'r dyrfa, hwy a'i dilynaſant ef ar draed allan o'r dinaſoedd. Marc.6.32. Luc.9.10.

14 A'r Jeſu a aeth ymmaith, ac a welodd fintai fawr, ac a doſturiodd wrthynt, ac efe a iachaodd eu cleifion hwynt.

15 Ac * wedi ei myned hi yn hwyr y daeth ei ddiſcyblion atto, gan ddywedyd: y lle ſydd anghyfannedd, a'r awr a aeth weithian heibio: gollwng y dyrfa ymmaith i fyned i'r dinaſoedd i brynu iddynt fwyd. Marc.6.35. Luc.9.12. Ioan.6.5.

16 A'r Jeſu a ddywedodd wrthynt, nid rhaid iddynt fyned ymmaith: rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwytta.

17 Yna y dywedaſant wrtho, nid oes gen-

nym ymma onid pum torth, a dau byſcodyn.

18 Ac efe a ddywedodd, dygwch hwynt ymma i mi.

19 Ac efe a orchymynnodd i'r dorf eiſtedd ar y gwellt glâs, ac a gymmerth y pum torth, a'r ddau byſcodyn, ac a edrychodd i fynu tu a'r nef, ac a fendithiodd, ac a dorrodd, ac a roddes y torthau iw ddiſcyblion, a'r diſcyblion i'r dyrfa.

20 A hwy oll a fwytâſant, ac a gawſant eu digon, ac a godâſant o'r briwſwyd yr hwn oedd yng-weddill ddeuddec baſcedaid.

21 A'r rhai a fwytâſent oeddynt yng-hylch pum mîl o wŷr heb law gwragedd a phlant.

22 Ac yn y fan y gyrrodd yr Ieſu ei ddiſcyblion i fyned i'r llong, ac i fyned i'r lan arall o'i flaen ef, tra y gollynge efe y dyrfa ymmaith.

Marc.6.46. Ioan.6.17. 23 Ac wedi iddo ddanfon y dyrfa ymmaith, efe a eſcynnodd i'r mynydd wrtho ei hun i weddio: *ac wedi ei hwyrhau hi, yr oedd efe yno yn vnic.

24 A'r llong oedd bellach yng-hanol y môr, ac a drallodit gan donnau, canys gwynt gwrthwyneb ydoedd.

25 Ac yn y bedwaredd wŷlfa o'r nos yr aeth yr Ieſu attynt, gan rodio ar y môr.

26 A phan welodd y diſcyblion ef yn rhodio ar y môr, y dychrynâſant hwy, gan ddywedyd, drychiolaeth ydyw, ac hwy a waeddaſant rhag ofn.

27 Ac yn y man y llefarodd yr Ieſu wrthynt, gan ddywedyd, cymmerwch gyſur, myfi ydwyf, nac ofnwch.

28 Yna yr attebodd Petr ef, ac a ddywedodd, ô Arglwydd, os ty di yw, arch i mi ddyfod attat ar y dwfr.

29 Ac efe a ddywedodd, tyret: ac wedi deſcyn o Petr o'r llong, efe a rodiodd ar y dwfr, i ddyfod at yr Ieſu.

30 Ond pan welodd efe wynt cadarn, efe a ofnodd: a phan ddechreuodd ſuddo, efe a lefodd, gan ddywedyd, Arglwydd cadw fi.

31 Ac yn y man yr eſtynnodd yr Ieſu ei law, ac a ymaflodd ynddo ef, ac a ddywedodd wrtho, ty di o ychydig ffydd, pa ham y petruſaiſt?

32 Ac er cynted yr aethant i'r llong y peidiodd y gwynt.

Marc.6.54. 33 Yna y daeth y rhai oeddynt yn y llong *ac a'i haddolaſant ef, gan ddywedyd, yn wir Mâb Duw ydwyt ti.

34 Ac wedi iddynt fyned troſodd, hwy a ddaethant i dîr Genezareth.

35 A phan adnabu gwŷr y fan honno ef, hwy a ddanfonaſant i'r wlâd honno o amgylch ogylch, ac a ddugaſant atto y rhai oll oeddynt mewn anhwyl,

36 Ac a attolygaſant iddo gael cyffwrdd yn vnic ag ymyl ei wiſc ef: a chynifer ag a gyffyrddodd â hi, a iachawyd.

## PEN. XV.

Criſt yn eſcuſodi ei ddyſcyblion am fwyta y tywys yd ar y Sabboth gan ddangos rhagrith y Phariſæaid, 15 A chan egluro iw ddiſcyblion nad yr hyn ſydd yn myned i'r corph ſydd yn halogi y corph, 32 Ac yn porthi llawer â phedair torth o fara.

YNa *yr ſcrifennyddion a'r Phariſæaid y rhai oeddynt o Ieruſalem a ddaethant at yr Ieſu gan ddywedyd, Marc.7.1.

2 Pa ham y mae dy ddiſcyblion di yn torri traddodiadau yr henaſiaid? canys nid ydynt yn golchi eu dwylo pan fwyttânt fara.

3 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, a pha ham yr ydych chwi yn torri gorchymyn Duw trwy eich traddodiad chwi?

4 Canys Duw a orchymynnodd, gan ddywedyd, *Anrhydedda dy dâd a'th fam: a'r hwn a felldithio dâd neu fam, lladder ef yn farw. Exod.20.12. Deut.5.16.

5 Eithr yr ydych chwi yn dywedyd, pwy bynnac a ddyweid wrth dâd neu fam, drwy y rhodd [a offrymmir] gennifi y daw lleſâd i ti, Ephes.6.2. Exo.21.17. Leuit.20.9. Prou.20.20.

6 Er nas anrhydedda efe ei dâd neu ei fam, [di-fai fydd:] ac fel hyn y gwnaethoch orchymyn Duw yn ofer trwy eich traddodiad eich hun.

7 O hragrithwŷr, da y prophwydodd Eſaias am danoch chwi, gan ddywedyd,

8 *Neſau y mae y bobl hyn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu a'u gweſuſau, a'u calon ſydd bell oddi wrthif. Eſai.29.13.

9 Eithr ofer i'm hanrhydeddant i gan ddyſcu gorchymynnion dynion yn ddyſceidiaeth.

10 Yna y galwodd efe y dyrfa atto gan ddywedyd wrthynt, clywch a deellwch.

11 Nid yr hyn ſydd yn myned i'r genau, ſydd yn halogi dŷn, ond yr hyn ſydd yn *dyfod allan o'r genau, hynny ſydd yn halogi dŷn. Marc.7.18.

12 Yna y daeth ei ddiſcyblion, ac a ddywedaſant wrtho, oni wŷddoſti rwyſtro y Phariſæaid wrth glywed yr ymadrodd hyn?

13 Ac yntef a attebodd, ac a ddywedodd, *pôb planhigin a'r ni's plannodd fy Nhâd nefol a ddiwreiddir. Ioan.15.2.

14 Gadewch iddynt, *tywyſogion deillion i'r deillion ydynt, ac os y dall a dywys y dall, y ddau a ſyrchiant yn y ffôs. Luc.6.39.

15 *Yna yr attebodd Petr ac a ddywedodd wrtho, eglura i ni y ddammeg hon. Marc.7.17.

16 Yna y dywedodd yr Ieſu, a ydych chwi etto heb ddeall?

17 Onid ydych chwi yn deall etto fôd yr hyn oll ſydd yn myned i'r genau, yn cilio i'r bola, ac y bwrir ef allan i'r gauddŷ?

18 Eithr y pethau a ddeuant allan o'r genau ſy yn dyfod o'r galon, a hwynt hwy a halogant ddŷn.

19 *Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod, llofruddiaeth, tor-priodas, godinebu, lledrat, cam deſtiolaeth, cableddau. Gene.6.5. Marc.7.21.

20 Dymma y pethau ſy yn halogi dŷn, eithr bwytta â dwylo heb olchi ni haloga ddŷn.

☞ 21 A'r Ieſu a aeth oddi yno, ac a giliodd i duedddau Tyrus a Sidon. *Yr Efengyl yr ail Sul o'r grawys*

22 Ac wele, gwraig o Canaan a ddaeth o'r parthau Mar.7.25.

parthau hynny, ac a lefodd, gan ddywedyd wrtho, trugarhâ wrthif, ô Arglwydd fâb Dafydd: y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythrael.

23 Eithr nid attebodd efe iddi vn gair, yna y daeth ei ddiſcyblion atto, ac yr atolygâſant iddo, gan ddywedyd, gollwng hi ymmaith, canys y mae hi yn llefain ar ein hôl.

Pen.10.6. 24 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd, *ni'm danfonwyd onid at ddefaid colledic tŷ Iſrael.

25 Er hynny hi a ddaeth, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, ô Arglwydd cymmorth fi.

26 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd, nid da cymmeryd bara y plât ai fwrw i'r cenawō cŵn.

27 Hithe a ddywedodd, gwîr yw ô Arglwydd, er hynny y mae'r cenawō cŵn yn bwytta 'r briwſion a ſyrth oddi ar fwrdd eu harglwyddi.

28 Yna yr attebodd yr Ieſu, ac a ddywedodd wrthi, ha wraig mawr yw dy ffydd., bydded i ti fel yr wyt yn ewyllyſio: a'i merch a iachawyd yn yr awr honno. ☜

Mar.7.31. 29 A'r *Ieſu gan fyned oddi yno, a ddaeth ger llaw môr Galilæa, ac efe a eſcynnodd i'r mynydd, ac a eiſteddodd yno.

Iſai.35.5. 30 A daeth atto dorfeudd mawrion, *a chanddynt gloffion, deillion, mudion, efrydion, ac eraill lawer: ac hwy a'u bwriaſant i lawr wrth draed yr Ieſu, ac efe a'u hiachaodd hwynt.

31 ☞ Fel y rhyfeddodd y dyrfa, wrth weled y mudion yn dywedyd, a'r rhai anafus yn iach, a'r cloffion yn rhodio, a'r deillion yn gweled: ac hwy a ogoneddâſant Dduw yr Iſrael.

Mar.8.1. 32 *Yna y galwodd yr Ieſu ei ddiſcyblion atto, ac a ddywedodd, yr ydwyf yn toſturio wrth y dyrfa, am iddynt aros gyd â mi er ys tri-diau bellach, ac nad oes ganddynt ddim iw fwytta: a'u gollwng hwy ar eu cythlwm ni's gwnaf, rhag eu llewygu ar y ffordd.

33 A'i ddiſcyblion a ddywedaſant wrtho, o ba le y caem ni gymmaint o fara yn y dyffaethwch, ag y diwellio tyrfa gymmaint;

34 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, pa ſawl torth ſydd gennych; a hwy a ddywedâſant, ſaith, ac ychydig byſcod bychein.

35 Yna y gorchymynnodd efe i'r dyrfa eiſtedd i lawr ar y ddaiar.

36 A chan gymmeryd y ſaith dorth, a'r pyſcod, a diolch, efe a'u torrodd, ac a'u rhoes iw ddiſcyblion, a'r diſcyblion i'r dyrfa.

37 Ac hwy oll a fwyttaſant, ac a gawſant ddigon: ac a godaſant o'r briwfwyd yr hwn oedd yng-weddill ſaith faſcedaid.

38 A'r rhai a fuaſent yn bwytta oeddynt bedeir-mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant.

39 Yna wedi iddo ollwng y dyrfa i ffordd, efe a aeth i long, ac a ddaeth i dueddau Magdala.

## PEN. XVI.

Arteb Criſt i'r rhai a geiſiâſant gâddo ef arwydd. 6 Cyngor i wrthod ſur a llefeinllyd athrawiaeth y Phariſæaid. 13 Tyb y bobl am Griſt. 17 Ffydd yn dyfod oddi wrth Dduw. 18 Craig yr Eglwys, ac agoriadau nef. 21 Criſt yn prophwydo am ei farwolaeth. 24 Cyflwr y gwir ddiſcybl. 27 A dyfodiad Criſt.

Pen.12.38. mar.8.11. luc.12.54. YNa y *Phariſæaid a'r Saducæaid, gan ddyfod a themtio a geiſiâſant ganddo ddangos iddynt arwydd o'r nef.

2 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, pan fyddo hi yn hwyr y dywedwch, hi a fydd tywydd têg, canys y mae'r wybr yn gôch.

3 A'r borau [y dywedwch] heddyw [y bydd] dryg-hin, am fod yr wybr yn gôch, ac yn drist: ô ragrith-wŷr, medrwch ddeall wyneb yr wybr, ac oni [fedrwch] farnu am arwyddiō yr amſerau?

Pen.12.34. 4 Y mae y *genhedlaeth ddrwg a godinebus yn ceiſio arwydd, ac arwydd ni's rhoddir iddi, onid arwydd y prophwyd *Ionas: ac felly efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymmaith. Ionas.1.17.

Marc.8.14. luc.12.1. 5 Ac *wedi dyfod ei ddiſcyblion ef i'r lann arall, hwy a ollyngaſent tros gof gymmeryd bara [gŷd ag hwynt.]

6 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, edrychwch, a mogelwch rhag ſur-does y Phariſæaid a'r Saducæaid.

7 Ac hwy a reſymmâſant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd, hyn ſydd am na ddugaſom fara.

8 A'r Ieſu yn gwybod [y peth,] a ddywedodd wrthynt, chwy-chwi o ffydd fechan, pa ham yr ydych yn meddwl ynoch eich hunain, na ddygaſoch fara;

Pen.14.17. iohn.6.9. 9 Ond *ydych chwi yn deall etto, nac yn cofio y pum torth, pan oedd bum mîl [o bobl] a pha ſawl baſcedaid a gymmeraſoch chwi?

Pen.15.34. 10 Na'r *ſaith torth pan oedd ſaith mîl [o bobl,] a pha ſawl cawellaid a gymmeraſoch chwi; pedwair mil

11 Pa hā nad ydych yn deall, mai nad am fara y dywedais wrthych, ar ymogelyd o honoch rhag ſur-does y Phariſæaid a'r Saducæaid;

12 Yna y dehallaſant hwy, na ddywedaſe efe am ymogelyd o honynt rhag ſur-does bara, ond rhac athrawiaeth y Phariſæaid a'r Saducæaid.

*Yr Efengyl ddigwyl Bedr.* Mar.8.27. luc.9.18. Ioan.6.69. 13 ☞ Ac wedi dyfod yr Ieſu i dueddau Cæſaria Philip, efe a ofynnodd iw ddiſcyblion, *pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i Mâb y dŷn.

14 Ac hwy a ddywedaſant, rhai ſy yn dywedyd mai Ioan fedyddiwr, a rhai mai Elias, ac eraill mai Ieremias, neu vn o'r prophwydi.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pwy meddwch chwi ydwyf fi;

16 Yna Simon Petr a attebodd, ac a ddywedodd, ti *ydwyt Criſt, Mâb y Duw byw. Ioan.1.23.

17 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, gwyn dy fŷd ti Simon mâb Ionas, canys nid cîg a gwaed a ddatcuddiodd [hyn] i ti, eithr fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

18 Yr ydwyf fi hefyd yn dywedyd i ti, mai ti ydwyt Petr, ac ar y graig hon yr adailadaf fy Eglwys, a phyrth vffern ni's gorchfygant hi.

Ioan.20.23. 19 Ac *mi a roddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd, a pha beth bynnag a rwymech ar y ddaiar, a fydd rwymedic yn y nefoedd: a pha beth bynnag a ryddhaech ar y ddaiar, fydd wedi ei ryddhau yn y nefoedd. ☞

20 Yna y gorchymynnodd efe iw ddiſcyblion na ddywedent i neb, mai efe oedd Ieſu Griſt.

21 O hynny allan y dechreuodd yr Ieſu fynegu iw ddiſcyblion fod yn anghenrhaid iddo fyned i Ieruſalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid, a chan yr arch-offeiriaid, a'r gwŷr llên, a'i ladd, a chyfodi y trydydd dydd.

22 Yna Petr a'i cymmerth ef o'r naillu, ac a ddechreuodd ei geryddu ef, gā ddywedyd, Arglwydd trugarhâ wrthit ty hun, ni's bydd hyn i ti.

23 Yna y tròdd efe, ac a ddywedodd wrth Petr, dôs ar fy ôl Satan, canys rhwyſtr ydwyt ti i mi, am nad ydwyt yn deall y pethau ſy o Dduw, ond y pethau ſy o ddynion.

Pen.10.38. mar.8.34. luc.9.23.

24 Yna y dywedodd yr Ieſu wrth ei ddiſcyblion, *os myn nêb ddyfod ar fy ôl i, gwaded ef ei hun, a chymmered ei groes, a dilyned fi.

Pen.10.39. mat.8.35. luc.9.24. iohn 12.25.

25 *Canys pwy bynnac a ewyllyſio gadw ei fywyd, a'i cyll, a phwy bynnac a gollo ei fywyd o'm plegit i, a'i caiff.

26 Canys pa leſâd i ddŷn er ennill yr holl fŷd, o chyll efe ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dŷn yn gyfnewid am ei enaid?

Pſal.62.12. rhuf.2.6.

27 Canys Mâb y dŷn a ddaw yng-ogoniant ei Dâd, gyd â'i angelion, ac* yna y rhydd efe i bob dŷn yn ôl ei weithredoedd.

Mar.9.1. luc.9.27.

28 *Yn wîr y dywedaf wrthych, fod rhai o'r sawl ſydd yn ſefyll ymma a'r ni phrofāt angeu, hyd oni welant Fâb y dŷn yn dyfod yn ei frenhiniaeth.

## PEN. XVII.

1 Ymrithiad Criſt ar fynydd Thabor. 11 Am Elias, ac Ioan fedyddiwr. 20 Grym ffydd, ympryd, a gweddi. 22 Criſt yn rhagfynegi am ei ddioddefaint. 24 Ac yn talu teyrn-ged.

Mar.9.2. luc.9.28.

AC* chwe diwrnod wedi [hynny] y cymmerodd yr Ieſu Petr, ac Iaco, ac Ioan ei frawd, ac ai dug hwynt i fynydd vchel o'r naillu

2 Ac efe a ymrithiodd ger eu bron hwy, a'i wyneb a ddiſcleiriodd fel yr haul, a'i ddillad oedd cyn wynned â'r goleuni.

3 Ac wele Moſes, ac Elias yn ymddangos iddynt, ac yn ymddiddan ag ef.

4 Yna yr attebodd Petr, ac a ddywedodd wrth yr Ieſu, ô Arglwydd, da ydyw i ni fod ymma: os ewyllyſi, gwnawn ymma dair pabell, vn i ti, ac vn i Moſes, ac vn i Elias,

Pen.3.17. 2.pet.1.17.

5 Ac efe etto yn llefaru, wele gwmwl goleu yn eu cyſcodi hwynt, ac wele lef o'r cwmwl yn dywedyd, *hwn yw fyng-haredig Fâb yn yr hwn i'm bodlonwid, gwrandewch arno ef.

6 A phan glybu y diſcyblion hynny, ſyrthiaſant ar eu hwynebau, ac hwy a ofnaſant yn ddirfawr.

7 Yna y daeth yr Ieſu, ac y cyffyrddodd â hwynt, ac a ddywedodd, cyfodwch, ac nac ofnwch.

8 Ac wedi iddynt dderchafu eu golwg, ni welſant neb onid yr Ieſu yn vnic.

9 Fel yr oeddynt yn deſcyn o'r mynydd y gorchymynnodd yr Ieſu iddynt gan ddywedyd, na ddywedwch y weledigaeth i neb, hyd oni chyfodo Mâb y dŷn o feirw.

Mar.9.11,12. mala.4.5. pen.11.14.

10 A'i ddiſcyblion a ofynnaſant iddo, gan ddywedyd, pa ham gan hynny y *mae'r ſcrifennyddion yn dywedyd fod yn rhaid i Elias ddyfod yn gyntaf.

11 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, Elias yn ddiau a ddaw yn gyntaf, ac a edfryd bôb peth.

12 Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, ddyfod o Elias yn barod, ac nad adnabuont hwy ef, a gwneuthur o honynt iddo ef beth bynnac a fynnaſant: felly y bydd i Fâb y dŷn ddioddef ganddynt hwy.

13 Yna y deallodd y diſcyblion, mai am Ioan fedyddiwr y dywedaſe efe wrthynt.

14 Ac wedi ei ddyfod at y dyrfa, y daeth rhyw ddŷn, ac a ofynnodd iddo ar ei liniau,

15 Ac a ddywedodd, ô Arglwydd trugarhâ wrth fy mâb: o blegit y mae efe yn lloeric, ac yn dioddef llawer, canys y mae efe yn ſyrthio yn y tân yn fynych, ac yn y dwfr lawer gwaith.

Marc.9.14. luc.9.37.

16 Ac mi *a'i dugym ef at dy ddiſcyblion di, ac ni allaſant hwy ei iachau ef.

17 Yna yr attebodd yr Ieſu, ac a ddywedodd, ôh genhedlaeth anffyddlon a gwrthnyſig, pa hŷd y byddaf gyd â chwi? pa hŷd y dioddefaf chwi? dygwch ef ymma attafi.

18 A'r Ieſu a geryddodd y cythrael, ac efe a aeth allan o honaw: a'r bachgen a iachawyd o'r awr honno.

19 Yna y daeth y diſcyblion at yr Ieſu o'r naillu, ac y dywedaſant, pa ham na allem ni ei fwrw ef allan?

Luc.17.6.

20 A'r Ieſu a ddywedodd, o blegit eich anghredyniaeth: canys yn wîr y dywedaf i chwi, *pe bydde genwych ffydd gymmaint a gronyn o hâd mwſtard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, ſymmut oddi ymma draw, ac efe a ſymmude, ac ni bydde dim amhoſſibl i chwi.

21 Eithr nid aiff y rhywogaeth hyn allan, onid trwy weddi ac ympryd.

Pen.20.17. mar.9.31. luc.9.44. & 24.7.

22 Ac* fel yr oeddynt hwy yn aros yn Galilæa, y dywedodd yr Ieſu wrthynt, Mab y dŷn a roddir yn nwylo dynion.

23 Ac hwy a'i lladdant, a'r trydydd dydd y cyfyd efe: ac hwy a aethant yn drist iawn.

24 Ac wedi dyfod o honynt i Capernaum, y rhai oeddynt yn derbyn arian y deyrn-ged a ddaethant at Petr, ac a ddywedaſant, onid yw eich Athro chwi yn talu teyrn-ged?

25 Yntef a ddywedodd, ydyw: ac wedi ei ddyfod ef i'r tŷ, yr Ieſu a achubodd ei flaen ef, gan ddywedyd, beth yr wyt ti yn ei dybied Simon? gan bwy y cymmer brenhinoedd y ddaiar deyrn-ged ne drethi? gan eu plāt, ai gā eſtroniaid?

26 Petr a ddywedodd wrtho, gan eſtroniaid, yna y dywedodd yr Ieſu wrtho, gan hynny y mae y plant yn rhyddion.

27 Er hynny, rhag i ni eu rhwyſtro hwynt, dos i'r môr, a bwrw fach, a chymmer y pyſcodyn

cyntaf a ddêl i fynu, ac wedi agoryd ei ſafn, ti a gai ddarn o vgain ceniog: cymmer hynny a dyro iddynt droſofi a thithe.

## PEN. XVIII.

1 Pwy ſydd fwyaf yn nheyrnas nef, 6 Am twyſtrau. 12 Y ddafad golledic. 15 Beth ſydd iw wneuthur pan gaffer cam. 23 Dammeg y brenin yn mynny cyfrif gan ei weiſſon.

*Yr Efengyl ddigwyl Mihangel.*

Marc.9.33. luc 9.46.

☞ A'r amſer hynny y daeth y diſcyblion at yr Ieſu gan ddywedyd, * pwy ſydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?

2 A'r Ieſu a alwodd atto fachgenyn, ac a'i goſodes yn eu canol hwynt,

Pen.19.14. 1.cor.14.20.

3 Ac a ddywedodd, yn wir y dywedaf i chwi o ddieithr troi o honoch, a bod fel plant bychain, nid ewch i deyrnas nefoedd.

4 Pwy bynnac gan hynny a ymoſtyngo fel y bachgenyn hwn, hwnnw yw'r mwyaf yn nheyrnas nefoedd.

5 A phwy bynnac a dderbyn gyfryw blentyn yn fy enw i, a'm derbyn fi.

Mar 9.42. luc.17.2.

6 A * phwy bynnac a rwyſtro vn o'r rhai bychain hyn a gredant ynofi, gwell oedd iddo pe crogid maen melin am ei wddf, a'i foddi yngwaelod y môr.

7 Gwae'r byd oblegit rhwyſtrau: canys angērhaid yw dyfod rhwyſtrau er hynny gwae'r dyn hwnnw o achos yr hwn y dêl y rhwyſtr.

Pen.5.30. mar.9.43.

8 Am hynny * os dy law, neu dy droed a'th rwyſtra, torr hwynt ymmaith a thafl oddi wrthit: gwell yw i ti fyned i fywyd yn gloff neu yn anafus, na'th daflu, ac i ti ddwy law, a dau droed i dân tragywyddol.

9 Ac os dy lygad a'th rwyſtra, tynn ef allan, a thafl oddi wrthit: gwell yw i ti fyned i fywyd ag vn llygad, nag â dau lygad dy daflu i dân vffern

Pſal.31.7.

10 Edrychwch na ddirmygoch yr vn o'r rhai bychain hyn: canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, * fod eu hangelion hwynt yn y nefoedd bôb amſer yn gweled wyneb fy Nhâd, yr hwn ſydd yn y nefoedd.

Luc.19.10.

11 Canys * daeth Mâb y dyn i gadw yr hyn a gollaſid.

Luc.15.4.

12 Beth dybygwch chwi, * os bydde i ddyn gant o ddefaid, a myned o vn o honynt ar ddiſperod, oni adawe efe yr am yn vn cant, a myned i'r mynyddoedd, a cheiſio'r hon a aeth ar ddiſperod?

13 Ac os bydde iddo ei chael hi, yn wir meddaf i chwi, mai llawenach ganddo am y ddafad honno, nag am yr am yn vn cant y rhai nid aethant ar ddiſperod.

14 Felly nid yw ewyllys eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd, gyfergolli'r vn o'r rhai bychain hyn.

Leuit.19.17. luc.17.3. iac.5.19.

15 Heb law hynny, * os pecha dy frawd i'th erbyn, dôs a dangos iddo ei fai rhyngot ag ef yn vnic, os efe a'th wrendu, ti a ennillaiſt dy frawd.

Deut.19.15. iohn 8.17. 2.cor.13.1. hebr.10.28.

16 Ac os efe ni'th wrendu, cymmer gyd â thi etto vn neu ddau, fel * o enau dau neu dri o dyſtion y ſafo pôb gair

17 Ac os diyſtyra efe hwynt, dywet i'r eglwys, ac os efe ni fynn wrando'r eglwys chwaith, bydded efe i ti megis yr ethnic a'r Publican.

1.Cor.5 4. 2.theſſ.3.14. iohn 20,23.

18 * Yn wir meddaf i chwi, pa beth bynnac a rwymoch ar y ddaiar, a rwymir yn y nef, a pha beth bynnac a ryddhaoch ar y ddaiar, a ryddheuir yn y nef.

19 Trachefn yn wir y dywedaf wrthych, os cȳdduna dau o honoch ar y ddaiar am ddim oll, beth bynnac a ddeiſyfant a roddir iddynt gan fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd.

20 Canys ym mha le bynnac yr ymgynhullo dau neu dri yn fy enw i, yno'r ydwyf yn eu myſc hwynt.

*Yr Efengyl yr ail ſul ar hugain wedi 'r Drindod.*

21 ☞ Yna y daeth Petr atto ef, ac a ddywedodd, Arglwydd, pa ſawl gwaith y pecha fy mrawd i'm herbyn, ac y maddeuaf iddo, * ai hyd ſaith-waith?

Luc.17.4.

22 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, nid ydwyf yn dywedyd wrthit, hyd ſaith waith, onid hyd ddeng-waith a thrugain ſaith waith.

23 Am hynny y mae yn gyffelyb teyrnas nefoedd i ddȳn [a oedd] yn frenin a fynne gael cyfrif gan ei weiſion,

24 A phan ddechreuodd gyfrif, fe a ddugpwyd atto vn a oedd yn ei ddylêd ef o ddengmil o dalentau.

25 A chan nad oedd ganddo ddim i dalu, fe a orchymynnodd ei arglwydd ei werthu ef a'i wraig, a'i blant, a chwbl a'r a fedde, a thalu['r ddylêd.]

26 A'r gwâs gan ſyrthio i lawr a attolygodd iddo gan ddywedyd, arglwydd bydd dda dy ymmaros wrthif, a mi a dalaf i ti y cwbl oll.

27 Yna arglwydd y gwâs hwnnw a drugarhaodd wrtho, ac a'i gollyngodd, ac a faddeuodd iddo y ddylêd.

28 Ac wedi myned o'r gwâs ymmaith, efe a gafodd vn o'i gyfeillion, yr hwn oedd yn ei ddylêd ef o gant ceiniog, ac efe a ymaflodd ynddo, ac ai llindagodd, gan ddywedyd, tâl i mi yr hyn ſydd ddyledus arnat.

29 Yna y ſyrthiodd ei gydwas wrth ei draed ef, ac a ymbiliodd ag ef gan ddywedyd, bydd ymarhous wrthif, a thalaf i ti y cwbl oll.

30 Ac ni's gwnai efe, onid myned ai fwrw ef yng-harchar, hyd oni dale efe'r hyn oedd ddyledus.

31 A phan weles ei gyd-weiſion y pethau a wnelſid, yr oedd yn ddrwg dros benn ganddynt, ac hwy a ddaethant, ac a fynegâſant iw harglwydd yr holl bethau a fuaſent.

32 Yna y galwodd ei arglwydd arno ef, ac a ddywedodd wrtho, ha wâs drwg, maddeuais i ti yr holl ddylêd honno, am i ti ymbil â mi.

33 Ac oni ddyleſit tithe doſturio wrth dy gȳdwas, megis, ac y toſturiais i wrthit ti?

34 A'i Arglwydd yn llidiog a'i rhoddes ef i'r poen-wŷr, hyd oni thale yr hyn oll oedd ddyledus iddo.

35 Ac felly yr vn modd y gwna fy nefol Dâd

i chwi'thau, oni faddeuwch o'ch calonnau bob vn i'w frawd eu camweddau. ☜

## PEN. XIX.

Am yſcariaeth, ac am rai diweir 13 Plant yn cael dyfod at Griſt. 16 Yr ymryſymmiad a fu rhwng y gwr ieuangc goludog â Chriſt. 25 a'r ymryſymmiad a dyfodd o hynny rhwng Criſt a'i ddyſcyblion.

Mar.10.1.

AC * wedi i'r Jeſu orphen yr ymmadroddion hynny, efe a ymadawodd â Galilæa, ac a ddaeth i dueddau Judæa tu hwnt i'r Jorddonen.

2 A thyrfeydd lawer a'i dilynaſant ef, ac efe a'u hiachâodd hwynt yno.

3 Yna y daeth y Phariſæaid atto, gan ei demtio a dywedyd wrtho, ai cyfraithlawn i ŵr yſcar â'i wraig am bob achos?

Gene.1.27.

4 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, oni ddarllẽaſoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechrau, * eu gwneuthur yn wryw a benyw?

Gene.2.24.
1.cor.6.16.
ephe.5.31.

5 Ac efe a ddywedodd, *o blegit hynny y gâd dŷn dâd a mam, ac y glŷn wrth ei wraig, a'r ddau fyddant vn cnawd.

6 Ac felly nid ydynt mwy yn ddau, onid yn vn cnawd, am hynny nac yſcared dŷn yr hyn a gyſylltodd Duw.

Deut.24.1.

7 Hwythau a ddywedâſant wrtho, pa ham gan hynny y gorchymynnodd * Moſes roddi llythyr yſcar, a'i gollwng hi ymmaith?

8 Yntef a ddywedodd wrthynt, Moſes o herwydd caledrwydd eich calonnau a oddefodd i chwi yſcar â'ch gwragedd: eithr o'r dechreu nid felly yr oedd.

Pen.5.32.
mar.10.11.
luc.16.18.
1.cor.7.11.

9 Ac meddaf i chwi, *pwy bynnac a wrthodo ei wraig, onid am odineb, a phriodi vn arall, ei fôd yn torri priodas, a bôd pwy bynnac a brioddo yr hon a yſcarwyd, yn torri priodas.

10 [Yna] y dywedodd ei ddyſcyblion wrtho, os felly y mae'r matter rhwng gŵr a gwraig, nid da gwreica.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, nid yw pawb yn derbyn y gair hwn, onid y rhai y rhoddwyd iddynt.

12 Canys y mae rhai diweir a aned felly o groth[eu]mam: ac y mae rhai diweir a wnaeth dyniõ yn rai diweir, ac y mae rhai diweir y rhai a'u gwnaethant eu hun yn ddiweir er mwyn teyrnas nefoedd: y neb a ddichon dderbyn [hyn,] derbynied.

Mar.10.13.
luc.18.5.
Pen.18.3.

13 Yna y *dygwyd atto blant, fel y rhodde ei ddwylo arnynt, ac y gweddie: a'r diſcyblion a'u ceryddodd hwynt.

14 A'r Jeſu a ddywedodd, gadewch i blant, ac na waherddwch iddynt ddyfod attafi: canys i'r cyfryw rai y mae teyrnas nefoedd.

15 Ac wedi iddo roddi ei ddwylo arnynt, efe a aeth ymmaith oddi yno.

Mar.10.17.
luc.18.18.

16 Ac * wele vn a ddaeth, ac a ddywedodd wrtho, Athro da, pa beth da a wnaf, fel y caffwyf fywyd tragywyddol?

17 Yntef a ddywedodd wrtho, pa ham y gelwi fi yn dda? nid da neb ond vn, ſef Duw: ond os ewyllyſi fyned i mewn i'r bywyd, cadw'r gorchymynnion.

Exod.20.13.
deut.5.16.
rom.13.9.

18 Efe a ddywedodd wrtho yntef, pa rai? a'r Jeſu a ddywedodd, y rhai hyn, *na ladd: na thor briodas: na ledrata: na ddwg gam deſtiolaeth.

19 Anrhydedda dy Dâd a'th fam: a châr dy gymydog fel ty hun.

20 Y gŵr ieuangc a ddywedodd wrtho, mi a gedwais hyn oll o'm hieuengtid, beth ſydd yn eiſieu i mi etto?

21 Yr Jeſu a ddywedodd wrtho, os ewyllyſi fôd yn berffaith, dos, gwerth yr hyn ſydd genit, a dyro i'r tlodion, a thi a gei dryſſor yn y nefoedd: a thyret dilyn fi.

22 A phan glybu y gŵr ieuangc yr ymmadrodd hyn, efe a aeth i ffordd yn drist: canys yr oedd yn berchen da lawer.

23 Yna y dywedodd yr Jeſu wrth ei ddiſcybliõ, yn wîr y dywedaf i chwi, mai yn anhawdd yr aiff y goludog i deyrnas nefoedd.

24 A thrachefn meddaf i chwi, haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas nef.

25 A phan glybu ei ddiſcyblion ef hyn, ſynnu a wnaethant yn aruthr, gan ddywedyd, pwy gan hynny a all fôd yn gadwedic?

26 A'r Jeſu a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, gyd â dynion ambossibl yw hyn, ond gyd â Duw pob peth ſydd yn boſſibl.

*Yr Efengyl ddigwyl Paul.*

Marc.10.21.
luc.18.28.
Luc.22.29.

27 ☞ Yna * Petr a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, wele nyni a adawſom bob peth, ac a'th ddilynaſom di: beth gan hynny fydd i ni?

28 A'r Jeſu a ddywedodd wrthynt, yn wir meddaf i chwi * pan eiſteddo Mâb y dŷn ar orſedd ei ogoniant, chwychwi y rhai a'm dilynaſoch i yn yr adenedigaeth, ie, chwychwi a eiſteddwch ar ddeuddec gorſedd, ac a fernwch ddeuddec-llwyth Iſrael.

29 A phwy bynnac a wrthodo dai, neu frodyr neu chwioryd, neu dâd, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er mwyn fy enw i, efe a dderbyn y cant cymmaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.

Pen.20.16.
mar.10.31.
luc.13.30.

30 * Ond llawer o'r rhai blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf. ☜

## PEN. XX.

Dammeg o gyflogi gwaith-wyr i'r win-llan, 17 Criſt yn eu rhybuddio hwynt i ddioddef. 20 Deiſyfiad mam meibion Zebedeus, ac atteb Criſt. 30 Dau ddeillion yn cael eu golwg.

*Yr Efengyl ary ſul Septuageſima.*

☞ CAnys teyrnas nefoedd ſydd debyg i berchen tŷ yr hwn a aeth allan a hi yn dyddhau i gyflogi gweith-wyr i'w win-llan.

2 Ac wedi cyttuno â'r gweith-wyr er ceiniog y dydd, efe a'u hanfonodd hwy i'w win-llan.

3 Ac efe a aeth allan yng-hylch y drydedd awr, ac a welodd eraill yn ſefyll yn ſegur yn y farchnadfa,

4 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ewch chwithau hefyd i'r win-llan, a pha beth bynnac a fydd cyfiawn mi a'i rhoddaf i chwi, ac hwy a aethant ymmaith.

5 A thrachefn efe a aeth allan yng-hylch

y chweched a'r nawfed awr, ac a wnaeth yr un modd.

6 Ac efe a aeth allan yng-hylch yr unfed awr ar ddêc, ac a gafas eraill yn sefyll yn segur, ac a ddywedodd wrthynt, pa ham yr ydych chwi yn sefyll ymma ar hŷd y dydd yn segur?

7 Dywedasant wrtho, am na chyflogodd neb nyni: yntef a ddywedodd wrthynt, ewch chwithau hefyd i'r win-llan, a pha beth bynnac fyddo cyfiawn, chwi a'i cewch.

8 A phan aeth hi yn hwyr, arglwydd y win-llan a ddywedodd wrth ei oruchwiliwr, galw'r gweith-wŷr, a dyro iddynt eu cyflog, gan ddechreu o'r rhai diwethaf hyd y rhai cyntaf.

9 A phan ddaeth y rhai [a gyflogasid] yng-hylch yr unfed awr ar ddêc, cafodd pob un geiniog.

10 A phan ddaeth y rhai cyntaf, hwy a dybiasant y caent fwy, eithr hwythau a gawsant bob un geiniog.

11 Ac wedi iddynt gael, grwgnach a wnaethant yn erbyn gŵr y tŷ,

12 Gan ddywedyd, mai un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn, a thi a'u gwnaethost hwynt yn gystal â ninnau, y rhai a ddugasom bwys y dydd a'r gwrês.

13 Yntef a attebodd i un o honynt, ac a ddywedodd, y cyfaill, nid ydwyf yn gwneuthur dim cam â thi: ond ar ceiniog y cytunaist â mi?

14 Cymmer yr hyn sydd eiddot ti, a dos ymmaith: yr ydwyf yn ewyllysio rhoddi i'r olaf hwn megis i tithe.

15 Neu, onid cyfreithlawn i mi wneuthur a fynnwyf am yr eiddo fi? a ydyw dy lygad di yn ddrwg am fy mod i yn dda?

Pen.19.30. Mar.10.31. Luc.13.30.

16 *Felly y bydd y rhai olaf yn flaenaf, a'r rhai blaenaf yn olaf: canys llawer a alwyd, ac ychydig a ddewiswyd. ☜

Mar.10.32. Luc.18.31.

17 A'r *Iesu a aeth i fynu i Jerusalem, ac a gymmerth y deuddec discybl o'r naillu ar y ffordd, ac a ddywedodd wrthynt,

18 Wele, nyni yn myned i fynu i Jerusalem, a Mâb y dŷn a draddodir i'r arch-offeiriaid, ac i'r scrifennyddion, a hwy ai condemniant ef i farwolaeth,

Ioan.18.32.

19 Ac *ai traddodant ef i'r cenhedloedd i'w watwar, ac i'w fflangellu, ac i'w groes-hoelio: a'r trydydd dydd yr adgyfŷd efe.

*Yr Efengyl ar ddigwyl Iaco.*

20 ☞ Yna y daeth mam meibion Zebedeus atto yng-hŷd a'i meibion, gan addoli a deisyf peth ganddo ef.

21 Ac efe a ddywedodd wrthi, pa beth a fynni? y hi a ddywedodd wrtho, dywet am gael o'm dau fâb hyn eistedd y naill ar dy law ddehau, a'r llall ar dy law asswy yn dy frenhiniaeth.

22 A'r Iesu a attebodd, ac a ddywedodd, ni wyddoch beth yr ydych yn ei geisio, a ellwch chwi yfed y cwppan yr ydwyf fi ar yfed o honaw? a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi? dywedasant wrtho, gallwn.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, diogel yr yfwch o'm cwppan, ac i'ch bedyddir â'r bedydd i'm bedyddir ag ef, eithr eistedd ar fy llaw ddehau, ac ar fy llaw asswy, nid i mi y mae rhoi, eithr i'r sawl y darparwyd gan fy Nhâd [y rhoddir.]

Mar.10.41. Luc.22.25.

24 A *phan glybu y dêc hyn, hwy a lidiasant wrth y ddau frodyr.

25 A'r Iesu a'u galwodd hwynt atto, ac a ddywedodd, gŵyddoch fôd pennaethiaid y cenhedloedd yn tra arglwyddiaethu arnynt hwy, a'r gwŷr mawrion yn arfer awdurdod arnynt hwy.

26 Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi, ond pwy bynnac a fynno fôd yn fawr yn eich plith chwi, bydded yn wenidog i chwi,

27 A phwy bynnac a fynno fod yn bennaf yn eich plith, bydded eich gwâs chwi,

Phil.2.7.

28 Megis *ni ddaeth Mab y dŷn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei enioes yn bridwerth tros lawer. ☜

Mar.10.46. Luc.18.35.

29 Ac a *hwynt hwy yn myned o Jericho y dilynodd tyrfa fawr ef.

30 Ac wele ddau ddeillion yn eistedd ar fin y ffordd, pan glywsant fod yr Iesu yn myned heibio, a lefasant, gan ddywedyd, Arglwydd fâb Dafydd trugarhâ wrthym.

31 A'r dyrfa a'u ceryddodd hwynt fel y tawent: hwythau a lefasant fwy-fwy, gan ddywedyd, Arglwydd fâb Dafydd trugarhâ wrthym.

32 Yna y safodd yr Iesu, ac a'u galwodd hwynt, ac a ddywedodd, pa beth a ewyllysiwch i mi ei wneuthur i chwi?

33 Dywedasant wrtho, ô Arglwydd agoryd ein llygaid.

34 A'r Iesu gan dosturio, a gyffyrddodd â'u llygaid, ac yn ebrwydd y cafodd eu llygaid olwg, ac hwy a'i dilynasant ef.

## PEN. XXI.

Crist yn marchogeth ar assyn i Ierusalem, 12 yn gyrru y pryn-wyr a'r gwerth-wyr allan o'r Deml, 19 y ffiguspren yn gwywo, 25 bedydd Ioan, 28 pwy sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, 33 y gwin-llan-wyr anghyfiawn yn arwyddocau anniolchgarwch yr Iddewon.

*Yr Efengyl y Sul cyntaf o'r Adfent.* Mar.11.1. Luc.19.29.

☞ A *Phan ddaethant yn gyfagos i Jerusalem, a'u dyfod hwy i Bethphage i fynydd yr Olewydd, yna yr anfonodd yr Iesu ddau ddiscybl,

2 Gan ddywedyd wrthynt, ewch i'r dref sydd ar eich cyfer chwi, ac yn y man chwi a gewch assyn yn rhwym, ac ebol gyd â hi: gollyngwch hwynt, a dygwch attafi.

3 Ac os dywed neb ddim wrthych, dywedwch fod yn rhaid i'r Arglwydd wrthynt: ac yn y man, efe a'u gollyng hwynt.

4 A hyn oll a wnaethpwyd i gyflawni yr hyn a ddywedasid trwy y prophwyd, gan ddywedyd,

Esai.[illegible] Zach.9.9. Ion.12.15.

5 *Dywedwch i ferch Sion, wele dy frenin yn dyfod attat yn fwyn, ac yn eistedd ar assyn, ac ebol, llwdn assyn arferol â'r iau.

6 Y discyblion a aethant, ac a wnaethant fel

y gorchymynnodd yr Iesu iddynt.

7 Ac hwy a ddugaſant yr aſſyn a'r ebol, ac a ddodâſant eu dillad arnynt, ac a'i goſodaſant ef ar hynny.

8 A chyrfa ddirfawr a danâſant eu dillad ar y ffordd: eraill a dorraſant gangau o'r gwŷdd, ac a'u tanâſant ar hyd y ffordd.

9 A'r dyrfa bobl y rhai oeddynt yn myned o'r blaen, a'r rhai oeddynt yn dyfod ar ôl a lefâſant, gan ddywedyd: Hoſanna i fâb Dafydd: bendigedic fyddo 'r hwn ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd, Hoſanna yn y goruchelder.

10 Ac wedi ei ddyfod i Ieruſalem, y ddinas oll a gynhyrfodd, gan ddywedyd, pwy yw hwn?

Marc.11.15. Luc.19.45. Ioan, 2.13. 11 A'r bobl a ddywedaſant, hwn yw 'r Iesu y prophwyd o Nazareth yn Galilæa.

12 * A'r Iesu a aeth i mewn i Deml Dduw, ac ai taflodd hwynt oll allan y rhai oeddynt yn gwerthu ac yn prynu yn y Deml, ac a ddymchwelodd i lawr fyrddau y newid-wŷr arian, a chadeiriau y rhai oeddynt yn gwerthu colomennod.

Esai.56.7. Iere.7.11. Marc.11.17. Luc.19.46. 13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, y * mae yn ſcrifennedic, tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ mau fi, eithr * chwi a'i gwnaethoch yn ogofladron.

14 Yna y daeth y deillion a'r cloffion atto yn y Deml, ac efe a'u hiachaodd hwynt.

15 A phan welodd yr arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion y rhyfeddodau a wnaethe efe, a'r plant yn llefain yn y Deml, ac yn dywedyd, Hoſanna i fâb Dafydd, hwy a lidiâſant,

Psal.8.2. 16 Ac hwy a ddywedâſant wrtho, a wyt ti yn clywed yr hyn a ddywed y rhai hyn? a'r Iesu a ddywedodd wrthynt, ydwyf, oni ddarllenâſoch er ioed, * o enau plant bychain, a rhai yn ſugno y perffeithiaiſt foliant?

17 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth o'r ddinas i Bethania, ac a letteuodd yno.

18 A'r borau fel yr oedd efe yn dychwelyd i'r ddinas, yr oedd arno newyn.

Marc.11.13. 19 A phan welodd efe ryw ffigus-bren ar y ffordd, efe a ddaeth atto, ac ni chafodd ddim arno ond dail yn unic, ac efe * a ddywedodd wrtho, na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach, ac yn ebrwydd y crinodd y ffigus-bren.

Pen.17.20. 20 A phan welodd y diſcyblion, hwy a ryfeddâſant gan ddywedyd, pa fodd y crinodd y ffigus-bren yn y fann?

21 A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, * yn wir meddaf i chwi, os bydd gennych ffydd, ac heb ammau dim, ni wnewch yn unic hyn [a wnaethym] i'r ffigus-bren, eithr hefyd os dywedwch wrth y mynydd hwn, ymgyfod, a bwrw dy hun i'r môr, hynny fydd.

Pen.7.7. Ioan.14.13. 1.Ioan.5.14. 22 A'r hyn * oll a ddymunoch mewn gweddi gan gredu, a dderbyniwch chwi.

Marc.11.27. Luc.20.1. 23 Ac wedi ei ddyfod efe i'r Deml, yr arch-offeiriaid a heneiriaid y bobl a ddaethant atto fel yr oedd efe yn athrawiaethu, gan ddywedyd, * wrth ba awdurdod yr wyt yn gwneuthur hyn? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hyn?

24 A'r Iesu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, minne a ofynnaf i chwithau vn gair, yr hwn os mynegwch i mi, minnef a fynegaf i chwithau, wrth pa awdurdod yr wyf yn gwneuthur hyn.

25 Bedydd Ioan, o ba le yr oedd? ai o'r nef, ai o ddynion? yna y rhyſymmâſant yn eu plith eu hunain, gan ddywedyd: os dywedwn mai o'r nef, efe a ddywed wrthym, yſpaham gan hynny na's credâſoch ef.

Pen.14.5. Marc.6.20. 26 Ac * os dywedwn mai o ddynion, y mae arnom ofn y bobl: canys y mae pawb oll yn cymmeryd Ioan fel prophwyd.

27 Yna yr attebâſant i'r Iesu gan ddywedyd, ni wyddom ni: ac yntef a ddywedodd wrthynt, nid wyf finne yn dywedyd i chwi wrth pa awdurdod yr wyf yn gwneuthur hyn.

28 Ond beth a dybygwch chwi? yr oedd i ŵr ddau fab, ac efe a ddaeth at yr hynaf, ac a ddywedodd, dôs fâb a gweithia heddyw yn fyng-winllan.

29 Ac yntef a attebodd, ac a ddywedodd, nid âf fi: ond wedi hynny yn edifarhau arno, efe a aeth.

30 A phan ddaeth efe at yr ail, efe a ddywedodd yr vn modd, ac efe a attebodd, ac a ddywedodd, mi a âf arglwydd: ac nid aeth efe.

31 Pa vn o'r ddau a wnaeth ewyllys y tad? dywedaſant wrtho, y cyntaf. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, yn wir meddaf i chwi, yr aiff y Publicanod a'r puteinied o'ch blaen chwi i deyrnas Dduw.

Math.3.4. 32 Canys * daeth Ioan attoch yn ffordd cyfiawnder, ac ni chredaſoch ef: ond y Publicanod a'r puteiniaid a'i credâſant ef: chwithau yn gweled nid edifarhauſoch wedi hynny fel y credech ef.

Esai.5.1. Iere.2.21. Marc.12.1. Luc.20.9. 33 Clywch ddammeg arall: * yr oedd rhyw ddŷn o berchen tŷ yr hwn a blannodd win-llan, ac ai caeodd hi o amgylch, ac a wnaeth ei win-wryf, ac a adeiladodd dŵr, ac a'i goſododd i lafur-wŷr, ac a aeth i bell.

34 A phan neſaodd amſer y ffrwythau, efe a ddanfonodd ei weiſion at y llafur-wŷr i dderbyn ei ffrwythau hi:

35 A'r llafurwŷr a ddaliaſant ei weiſion ef, ac a darawſant vn, ac arall a laddâſant, ac arall a labyddiâſant hwy.

36 Trachefn efe a anfonodd weiſion eraill mwy na'r rhai cyntaf: ac hwy a wnaethant iddynt hwythau yr vn modd.

37 Ac yn ddiwethaf oll efe a anfonodd attynt hwy ei fab ei hun, gan ddywedyd, hwy a barchant fy mâb i.

Pen.26.3. Ioan.11.53. 38 A phan welodd y llafur-wŷr y mab, hwy a ddywedaſant yn eu plith eu hun, * hwn yw yr etifedd: deuwch lladdwn ef, a chymmerwn ei etifeddiaeth ef.

39 Ac wedi iddynt ei ddal ef, hwy a'i cymmerâſant ef, ac a'i bwriâſant allan o'r win-llan, ac a'i lladdâſant ef.

40 Am hynny, pan ddel arglwydd y win-llan, pa beth a wna efe i'r llafur-wŷr hynny?

41 Hwy a ddywedaſant wrtho, efe a ddifetha yn llwyr y dynion drwg hynny, ac a eſyd ei win-llan i lafur-wŷr eraill, y rhai a roddant iddo ffrwyth yn eu hamſerau.

Pſal.118.22.
Act.4.11.
Rufein.9 33.
1.Pet.2.7.

42 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, oni ddarllenaſoch chwi erioed yn yr ſcrythyrau,* y maen yr hwn a wrthododd yr adeilad-wŷr, hwnnw a wnaethpwyd yn ben congl: yr Arglwydd a'i gwnaeth, a rhyfedd yw yn ein golwg ni.

Eſa.8.14.

43 Am hynny meddaf i chwi, y dygir teyrnas Duw oddi arnoch chwi, ac a'i rhoddir i genedl a ddygo ei ffrwyth.

44 A phwy * bynnac a ſyrthio ar y maen hwn efe a ddryllir: ac ar bwy bynnac y ſyrthio, efe a'i mâl ef yn chwilfriw.

45 A phan glybu'r arch-offeiriaid a'r Phariſæaid ei ddammegion, hwy a wybuant mai am danynt hwy y dywedaſe efe.

46 Ac hwy yn ceiſio ei ddala, a ofnaſant y bobl, am eu bod yn ei gymmeryd ef fel prophwyd.

## P E N. XXII.

1 Dammeg y briodas yn arwyddocau galwedigaeth y cenhedloedd, 11 a dialedd rhagrith-wyr, 16 ymryſymmiad am deyrn-ged, 31 am yr adgyfodiad 36 y gorchymyn mwyaf, a'r ail, 41 Ieſu yn ymreſymmu â'r Phariſæaid am y Meſſias.

Luc.14.16.
Gwelc.19.9.

*Yr Efengyl yr ugeinfed Sul wedi'r Drindod.*

A'R Ieſu * gan atteb a leſarodd wrthynt trachefn mewn dammegion, gan ddywedyd,

2 ☞ Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i ddyn a oedd frenin, yr hwn a wnaethe briodas iw fâb.

3 Ac a ddanfonodd ei weiſion i alw y rhai a wahoddaſid i'r briodas, ac ni fynnent hwy ddyfod.

4 Trachefn efe a anfonodd weiſion eraill, gan ddywedyd, dywedwch wrth y rhai a wahoddwyd, wele, paratoais fyng-hinio, fy ychen a'm paſcedigion a laddwyd, a phob peth ſydd barod, deuwch i'r briodas.

5 Ac hwy yn ddiyſtyr ganddynt, a aethant ymmaith, un iw faes, ac arall iw faſnach.

6 A'r lleill a ddaliaſant ei weiſion ef, a chan wneuthur yn drahaus â hwynt a'u lladdaſant.

7 A phan glybu y brenin, efe a lidiodd, ac a ddanfonodd allan ei luedd-wŷr, ac a ddiniſtriodd y lleiddiaid hynny, ac a loſcodd eu dinas hwynt.

8 Yna efe a ddywedodd wrth ei weiſion, yn wir y briodas ſydd barod, ond y rhai a wahoddaſit, nid oeddynt deilwng.

9 Ewch gan hynny allan i'r priffyrdd, a chynnifer ag a gaffoch gwahoddwch i'r briodas.

10 A'r gweiſion hynny a aethant allan i'r priffyrdd, ac a gaſclaſant yng-hŷd gynnifer oll ag a gawſant, drwg a da, a llanwyd y briodas o wahawddedigion.

11 A phan ddaeth y brenin i mewn i weled y gwahawddedigion, efe a ganfu yno ddyn heb wiſc priodas am dano.

12 Ac efe a ddywedodd wrtho, y cyfaill, pa fodd y daethoſt i mewn ymma heb fod gennit wiſc priodas? ac yntef a aeth yn fûd.

Pen.8.12.

13 Yna * y dywedodd y brenin wrth y gweiſion, rhwymwch ei draed a'i ddwylo: cymmerwch ef ymmaith, a theflwch i'r tywyllwch eithaf, yno y bydd ŵylofain a rhingcian dannedd.

Pen.20.16.
Mar.12.13.

14 * Canys llawer ſy wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis. ☜

*Yr Efengyl y trydydd Sul a'r hugain wedi'r Drindod.*

15 ☞ Yna * 'r aeth y Phariſæaid, ac a gymmeraſant gyngor pa fodd y dalient ef yn [ei] ymmadrodd.

Luc.20.20.

16 Ac hwy a ddanfonaſant atto eu diſcyblion yng-hŷd a'r Herodianiaid gan ddywedyd, Athro, gŵyddom dy fôd ti'n air-wîr, ac yn dyſcu ffordd Dduw mewn gwirionedd, ac nad oes arnat ofal rhag nêb: o blegit nid wyt yn edrych ar ŵyneb dynion.

17 Dywet i ni gan hynny, beth yr wyt ti yn ei dybied, ai cyfreithlawn talu teyrn-ged i Cæſar, ai nid yw?

18 A'r Ieſu yn gŵybod eu drygioni hwy, a ddywedodd, pa ham yr ydych yn fy nhemtio i, chwi ragrith-wŷr?

19 Dangoſwch i mi arian y deyrn-ged, ac hwy a roeſant atto geiniog.

20 Ac efe a ddywedodd wrthynt, eiddo pwy yw y ddelw hon a'r orgraph?

Mar.12.17.
Luc.20.25.
Rufein.13.7.

21 Dywedaſant wrtho, eiddo Cæſar, yna y dywedodd yntef wrthynt: * telwch chwithau yr hyn ſydd eiddo Cæſar i Cæſar, ar hyn ſydd eiddo Duw i Dduw.

22 A phan glywſant hwy hyn, rhyfeddu a wnaethant, a'i adel, a myned ymmaith. ☜

Mar.13.18.
Luc.20.27.
Act.23.8.

23 Y * dydd hwnnw y daeth y Saducæaid atto, y rhai ſy yn dywedyd, nad oes adgyfodiad, ac hwy a ofynnaſant iddo,

Deut.25.5.

24 Gan ddywedyd, ô Athro, fe a ddywedodd * Moſes, os bydd marw nêb, heb iddo blant, prioded ei frawd ei wraig ef, a chodded hâd iw frawd.

25 Ac yr oedd gyd â ni ſaith o frodyr, a'r cyntaf a briododd wraig, ac a fu farw, ac efe heb hiliogaeth iddo, ac a adawodd ei wraig iw frawd.

26 Yn yr un modd yr ail, a'r trydydd, hyd y ſeithfed.

27 Ac yn ddiweddaf oll y bu farw y wraig hefyd.

28 Yn yr adgyfodiad gan hynny, gwraig i bwy o'r ſaith fydd hi? canys hwynt-hwy oll a'i cawſant hi.

29 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, yr ydych mewn amryfuſedd am na ŵyddoch yr ſcrythyrau, na nerth Duw.

30 O blegit yn yr adgyfodiad nid ydynt yn gwreica, nac yn gŵra, eithr y maent fel angelion Duw yn y nefoedd.

31 Ac am adgyfodiad y meirw, oni ddarllenaſoch yr hyn a ddywetpwyd wrthych gan Dduw, yr hwn a ddywedodd,

Exod.3.6.

32 Myfi yw Duw Abraham, Duw Iſaac,

a Duw Jacob: nid yw Duw, Duw y rhai meirw, ond y rhai byw.

Marc.12.28. 33 A *phan glybu y bobl hynny rhyfeddu a wnaethant am ei athrawiaeth ef.

*Yr Efengyl y deunawfed Sul wedi'r Drindod.* ☞ 34 Ac wedi clywed o'r Phariſæaid ddarfod [i'r Jeſu] oſtegu y Saducæaid, hwythau a ymgynnullaſant i'r vn lle.

35 Ac vn o honynt yr hwn oedd gyfraithiwr a ofynnodd iddo gan ei demtio, a dywedyd,

36 Athro, pa vn yw'r gorchymyn mawr yn y gyfraith?

Deut.6.5. Luc.10.27. 37 Yr Jeſu a ddywedodd wrtho, *ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl.

38 Hwn yw'r cyntaf, a'r gorchymyn mawr.

Leuit.19.18. Mar.12.31. Rufe.13.9. Gala.5.14. Iac.2.8. 39 A'r *ail ſydd gyffelyb i hwn, ceri dy gymydog fel tydi dy hun.

40 Yn y ddau orchymyn hyn, y mae'r holl gyfraith a'r prophwydi yn ſefyll.

Marc.12.35. Luc.20.42. 41 Ac *wedi ymgaſclu o'r Phariſæaid ynghyd, yr Jeſu a ofynnodd iddynt,

42 Gan ddywedyd, beth a dybygwch chwi am Griſt? mâb i bwy ydyw? dywedaſant wrtho, Mâb Dafydd.

43 Yntef a ddywedodd wrthynt, pa fodd gan hynny y mae Dafydd yn yr yſpryd yn ei alw ef yn Arglwydd, gan ddywedyd,

Pſal.110.1. 44 *Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheulaw hyd oni oſodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th traed.

45 Am hynny os galwodd Dafydd ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn Fâb iddo?

46 Ac ni fedre nêb atteb gair iddo, ac ni feiddiodd nêb o'r dydd hwnnw allan ymofyn ag ef mwy. ☜

## PEN. XXIII.

Criſt yn dangos awdurdod a buchedd y Phariſæaid, 8 Yn dyſcu goſtyngeiddrwydd. 13 Criſt yn cyhoeddi gwae i'r Phariſæaid a'r ſcrifennyddion am eu hamryw amryfuſedd a'u rhagrith. 37 Criſt yn cwyno i Ieruſalem ei hanwybodaeth a'i dinistr.

YNa y dywedodd yr Jeſu wrth y bobl a'i ddiſcyblion,

Nehem.8.4. 2 Gan ddywedyd, yng-hadair Moſes y mae yr ſcrifennyddion a'r Phariſæaid yn eiſtedd.

3 Yr hyn oll gan hynny a ddywedant wrthych am eu cadw, cedwch, a gwnewch: eithr ar ôl eu gweithredoedd na wnewch, canys y maent yn dywedyd, ac heb wneuthur.

Luc.11.46. Act.15.10. 4 O blegit y maent *yn rhwymo beichiau trymmion, ac anhawdd eu dwyn, ac yn eu goſod ar yſcwyddau dynion: ac hwy eu hunain ni ſyflant hwynt ag vn o'u byſedd.

5 Y maent yn gwneuthur eu holl weithredoedd i'w gweled o ddynion: *canys y maent yn gwneuthur yn llydan eu Phylacterau, ac yn gwneuthur ymylwaith eu gwiſcoedd yn fawr.

Num.15.38. Deut.22.12.

Marc.12.38. Luc.11.43. & 20.26. 6 Caru y maent y lle vchaf mewn gwleddoedd, a'r prif eiſteddleoedd mewn cymmanfâu,

7 A chyfarch yn y marchnadoedd, a'u galw gan ddynion, Rabbi, Rabbi.

Iac.3.1. 8 Eithr *na'ch galwer chwi Rabbi: canys vn yw eich Athro, Criſt: chwithau oll brodyr ydych.

9 Ac na elwch nêb yn dâd i chwi ar y ddaiar: *canys vn Tâd ſydd i chwi, yr hwn [ſydd] yn y nefoedd. Malac.1.6.

10 Ac na'ch galwer yn athrawon: canys vn yw eich Athro chwi, [ſef] Criſt.

11 A'r mwyaf yn eich plith, bydded yn weinidog i chwi.

12 A *phwy bynnac a ymdderchaf a oſtyngir: a phwy bynnac a ymoſtyngo a ddercheſir. Luc.14.11. & 18.14.

13 Eithr gwae chwi ſcrifennyddion, a Phariſæaid ragrithwŷr, canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion: *canys chwi nid ydych yn myned i mewn, ac nid ydych yn gadel i'r rhai a aent i mewn, fyned i mewn. Luc.11.52.

14 Gwae chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid ragrith-wŷr, *canys yr ydych yn difa tai y gwragedd gweddwon, a [hynny] yn rhith hir weddio, am hynny y derbyniwch farn fwy. Marc.12.40. Luc.20.47.

15 Gwae chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid ragrithwŷr, canys amgylchu yr ydych y Môr a'r tir i wneuthur vn proſelit: ac wedi y gwneler, yr ydych yn ei wneuthur ef yn fâb vffern yn ddau mwy nâ chwi eich hunain.

16 Gwae chwi dywyſogion deillion, y rhai ydych yn dywedyd, pwy bynnac a dwng i'r Deml nid yw ddim: ond pwy bynnac a dwng i aur y Deml y mae efe mewn dylêd.

17 Chwychwi ffyliaid a deillion, pa vn fwyaf ai'r aur, ai'r Deml ſydd yn ſancteiddio'r aur?

18 A phwy bynnac a dwng i'r allor, nid yw ddim: ond pwy bynnac a dyngo i'r offrwm yr hwn ſydd arni, y mae efe mewn dylêd.

19 Chwy chwi ffyliaid a deillion, pwy vn fwyaf ai'r offrwm, ai'r allor yr hon ſydd yn ſancteiddio'r offrwm?

20 Pwy bynnac gan hynny a dwng i'r allor, ſydd yn tyngu i'r hyn oll ſydd arni.

21 A *phwy bynnac a dwng i'r Deml, ſydd yn tyngu iddi, ac i'r hwn ſydd yn preſſwylio ynddi. 1.Bren.8.13. 2.Cron.6.2.

22 A'r hwn a dwng i'r nefoedd, ſydd yn tyngu i orſedd-faingc Duw, ac i'r hwn ſydd yn eiſtedd arni.

23 Gwae *chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid ragrithwŷr: canys yr ydych yn degymmu y mintys, a'r anys, a'r cwmin, ac yn gadel pethau trymmach y gyfraith, ſef barn, a thrugaredd, a ffyddlondeb, y pethau hyn ſy raid eu gwneuthur, ac na adawer y lleill. Pen.5.34. Luc.11.42.

24 Chwychwi dywyſogion deillion, y rhai ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyncu camel.

25 Gwae *chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid rhagrithwŷr: canys yr ydych yn glanhau y tu allan i'r cwppan a'r ddyſcl, ac o'r tu mewn y maent yn llawn [illegible] a gormodedd. Luc.11.39.

26 Tydi Pearisæad dall, glanha yn gyntaf y tu mewn i'r cwppan a'r ddyſcl, fel y byddo y tu allan yn lân hefyd [illegible].

27 Gwae chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid.

aid rhagrith-wyr: canys tebyg ydych chwi i feddau wedi eu gwyn-galchu, y rhai a welir yn brydferch oddi allan, ac oddi mewn ydynt yn llawn o eſcyrn y meirw, a phob aflendid.

28 Ac felly yr ydych chwithau: oddi allan yr ydych yn ymddangos i ddynion yn gyfiawn, ac o fewn yr ydych yn llawn rhagrith, ac anwiredd.

29 Gwae chwi ſcrifennyddion a Phariſæaid rhagrith-wyr: canys yr ydych yn adailadu beddau'r prophwydi, ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn,

30 Ac yr ydych yn dywedyd, pe buaſem ni yn nyddiau ein tadau, ni buaſem ni gyfrannogion â hwynt o waed y prophwydi.

31 Ac felly yr ydych yn teſtiolaethu am danoch eich hunain, eich bod yn blant i'r rhai a laddaſant y prophwydi.

32 Cyflawnwch chwithau hefyd feſur eich tadau.

33 Oh ſeirph, hiliogaeth gwiberod, pa fodd y gellwch ddiangc rhag barn uffern?

*Yr Efengyl a'ddydd-gwyl Stephan.*

34 Am hynny ☞ Wele, yr ydwyf yn anfon attoch brophwydi, a doethion, ac ſcrifennyddion, a rhai o honynt a leddwch, ac a groeſ-hoeliwch, a rhai o honynt a ffrewylliwch yn eich Synagogau, ac a erlidiwch o dref i dref.

Gen.4.8.

2.Chro.24.22.

35 Fel y del arnoch chwi yr holl waed gwirion a'r a ollyngwyd ar y ddaiar, o* waed Abel gyfiawn, hyd waed Zacharias fab Barachias yr * hwn a laddaſoch rhwng y deml a'r allor.

36 Yn wir meddaf i chwi, daw hyn oll ar yr oes hon.

Luc.13.34.

37 *Ieruſalem, Ieruſalem, yr hon ydwyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat, pa ſawl gwaith y mynnaſwn gaſclu dy blant yng-hyd, megis y caſcl yr iâr ei chywion tan ei hadenydd, ac nis mynnech.

38 Wele yr ydys yn gadel eich tŷ chwi yn anghyfannedd.

39 Canys meddaf i chwi, ni'm gwelwch yn ôl hyn, hyd oni ddywedoch, bendigedic yw'r hwn ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd. ☜

## PEN. XXIIII.

2 Diniſtr y Deml, 11 rhybudd rhag gau athrawiaeth, 29 Arwyddion diwedd y byd, 32 cyffelybrwydd o'r ffigus-brenn, 45 yn rhybuddio i fod yn ofalus.

Marc.13.1.
Luc.21.5.

A'R* Ieſu a aeth allan, ac a aeth o'r deml, a'i ddiſcyblion a ddaethant atto i ddangos iddo adailadaeth y Deml.

Luc.19.44.

2 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, oni welwch chwi hyn oll? yn wir meddaf i chwi,* ni adewir ymma garreg ar garreg a'r ni ddattodir.

3 Ac wedi iddo eiſtedd ar fynydd yr Olewydd, ei ddiſcyblion a ddaethant atto o'r nailltu gan ddywedyd, mynega i ni pa bryd y bydd y pethau hyn, a pha arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd.

Ephe.5.6.
Coloſſ.2.18.

4 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt,* edrychwch rhag i nêb eich twyllo chwi.

5 Canys daw llawer yn fy enw i, gan ddywedyd, mi yw Criſt, ac a dwyllant lawer.

6 Ac chwi a gewch glywed am ryfeloedd, a ſôn am ryfeloedd: gwelwch na'ch trallodêr: canys rhaid yw bôd [hyn] oll, eithr nid yw y diwedd etto.

7 Canys cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas, ac fe a fydd newyn, a heintiau, a daiar-grynedigaethau mewn mannau.

8 A dechreuad gofidiau yw hyn oll.

Pen.10.17.
Luc.21.12.
Ioan.15.20.

9 Yna i'ch * rhoddant chwi i'ch gorthrymmu, ac a'ch lladdant, ac chwi a gaſeir gan yr holl genhedloedd er mwyn fy enw i.

10 Ac yna y rhwyſtrir llawer, ac y bradychant eu gilydd, ac y caſânt eu gilydd.

11 Ac fe a gyfyd gau brophwydi lawer, ac a dwyllant lawer.

12 Ac o herwydd yr amlheir anwiredd, fe a oera cariad llawer.

2.Theſ.3.13.
2.Tim.2.5.

13 *Eithr y nêb a barhâo hyd y diwedd, hwn a fydd cadwedic.

14 A'r Efengyl hon am y deyrnas, a bregethir trwy'r holl fŷd yn deſtiolaeth i'r holl genhedloedd: ac yna y daw y diwedd.

Mar.13.14.
Luc.21.20.
Daniel.12.11.

15 Am hynny pan weloch y * ffieidd-dra anrheithiol, (yr hyn a ddywedwyd trwy Ddaniel brophwyd) yn ſefyll yn y lle ſanctaidd, y nêb a'i darlleno, yſtyried:

16 Yna y rhai a fyddant yn Iudæa ciliant i'r mynyddoedd.

17 Y nêb a fyddo ar benn y tŷ, na ddeſcynned i gymmeryd dim allan o'i dŷ.

18 A'r hwn a fyddo yn y maes, na ddychweled yn ei ôl i gymmeryd ei ddillad.

19 A gwae y rhai beichiogion, a'r rhai yn rhoi bronnau yn y dyddiau hynny.

Act.1.12.

20 Eithr gweddiwch na byddo eich enciliad y gaiaf, nac * ar y dydd Sabboth.

21 Canys y pryd hynny y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu yr bŷd, hyd yr awr hon, ac ni bydd.

22 Ac oni buaſe byrrhau y dyddiau hynny, ni buaſe gadwedic un cnawd oll: eithr er mwyn y etholedigion fe a fyrheir y dyddiau hynny.

Mar.13.21.
Luc.17.23.

23 Yna os dywed nêb wrthych, wele *llymma Griſt, neu llymma, na chredwch.

24 Canys gau griſtiau a gyfodant, a gau brophwydi, ac hwy a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau, hyd oni thwyllant pe byddei boſſibl y rhai etholedig.

25 Wele, dywedais i chwi o'r blaen.

26 Am hynny os dywedant wrthych, wele, y mae efe yn y diffaethwch, nac ewch allan, wele y mae efe mewn ſtafelloedd, na chredwch.

27 O blegit fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywynna hyd y gorllewyn, felly hefyd y bydd dyfodiad Mâb y dŷn.

Luc.17.37.

28 Canys * pa le bynnac y byddo y gelain yno'r ymgaſcl yr eryrod.

Mar.13.24.

29 Ac yn * y fan wedi gorthrymderau y dy-

Luc 21.25. Esai.13.10. Ezech.32.7. Ioel 2.31. ddiau hynny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ſêr a ſyrthiant o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a gyffroir.

Gwel.1.7. Daniel 7.13. 30 *Ac yna yr ymddengys arwydd Mâb y dŷn yn y nef: ac yna y galara holl lwythau'r ddaiar, ac hwy a welant Fâb y dŷn yn dyfod yn wybrennau'r nef gyd â nerth a gogoniant mawr.

31 Ac efe * a ddenfyn ei angelion ag udcorn, ac â llef fawr, ac hwy a gaſclant yr etholedigion yng-hŷd o'r pedwar gwynt, ac o'r eithafoedd bwy-gilydd i'r nefoedd. 1.Cor.15.52. 1.Theſſ.4.16.

32 Dyſcwch chwithau ddammeg gan y ffigus-bren: pan yw ei gangeu yn dyner, a'i ddail yn blaguro, gwyddoch fôd yr hâf yn agos.

33 Ac felly chwithau, pan weloch hyn oll gwybyddwch fôd yn agos, wrth y drysau.

34 Yn wir meddaf i chwi, nid aiff yr oes hon heibio hyd oni wneler hyn oll.

Mar.13.32. 35 *Nef a daiar a ânt heibio, eithr fyng-eiriau i nid ânt heibio.

36 Ac am y dydd hwnnw a'r awr, ni's gŵyr neb, nac angelion y nef, onid fy Nhâd yn unic.

37 Ac fel yr oedd dyddiau Noe, felly hefyd y bydd dyfodiad Mâb y dŷn.

38 O blegit fel yr oeddynt yn y dyddiau * ym mlaen y diluw yn bwytta, ac yn yfed, yn gwreica, ac yn gwra, hyd y dydd yr aeth Noe i'r llong, Gen.7.5. Luc.17.26. 1.Pet.3.20.

39 Ac ni wybuont hyd oni ddaeth y diluw a'u cymmeryd hwy oll ymmaith: felly hefyd y bydd dyfodiad Mâb y dŷn.

Luc.17.36. 40 Yna * y bydd dau yn y maes, y naill a gymmerir a'r llall a adewir.

41 Dwy a fydd yn malu mewn melin, un a gymmerir, a'r llall a adewir.

Mar.13.35. Luc.12.39. 42 *Gwiliwch am hynny: am na wyddoch pa awr y daw eich Arglwydd.

43 A gwybyddwch hyn, pe gwyddiei gŵr y tŷ'r awr y dele'r lleidr, efe a wilie, ac ni adawe gloddio ei dŷ trwodd.

44 Am hynny byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni's tybioch y daw Mâb y dŷn.

Luc.12.42. 45 Pwy * gan hynny ſydd wâs ffyddlon a doeth, yr hwn a oſododd ei Arglwydd yn oruchwyliwr ar ei deulu, i roddi bwyd iddynt yn ei amſer.

46 Gwyn ei fŷd y gwâs hwnnw, 'r hwn pan ddel ei Arglwydd, a'i caiff yn gwneuthur felly.

47 Yn wir meddaf i chwi, ar ei holl dda y gesyd efe ef.

48 Ond os dywed y gwâs drwg hwnnw yn ei galon, y mae fy arglwydd yn oedi dyfod,

49 A dechreu curo ei gyd-weiſion, a bwytta, ac yfed gyd â'r meddwon:

50 Arglwydd y gwâs hwnnw a ddaw yn y dydd nid edrych efe am dano, ac mewn awr ni's gŵyr efe:

Pen.13.42. 51 Ac efe a'i gwahana ef, ac a rydd iddo ei rann gyd â'r rhagrith-wyr * yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.

## PEN. XXV.

Dammeg y dêc morwyn yn dangos na ddylid oedi edifeirwch, 14 y talentau yn arwyddocau fôd yn rhaid arfer donniau Duw yn dda, 30 y farn ddiwethaf.

YNa tebyg fydd teyrnas nefoedd i ddêc o forwynion, y rhai a gymmeraſant eu luſernau ac a aethant i gyfarfod â'r priod-fab.

2 A phump o honynt oedd yn gall, a phump yn angall.

3 Y rhai angall a gymmeraſant eu luſernau, ac ni chymmeraſant olew gŷd â hwynt.

4 A'r rhai call a gymmeraſant olew yn eu llestri gŷd â'u luſernau.

5 A thra'r oedd y priod-fab yn aros yn hir, yr hepiodd, ac yr hunodd pawb oll.

6 Ac ar hanner nôs y bu gwaedd, wele y priod-fab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef.

7 Yna y cyfododd yr holl forwynion, ac a drwſiaſant eu luſernau.

8 A'r rhai angall a ddywedaſant wrth y rhai call, rhoddwch i ni o'ch olew chwi: canys y mae ein luſernau yn diffoddi.

9 A'r rhai call a attebaſant, gan ddywedyd, rhag na byddo digon i ni, ac i chwithau, ewch yn hytrach at y rhai ſy yn gwerthu, a phrynwch i chwi eich-hunain.

10 A thra'r oeddynt yn myned i brynu, y daeth y priod-fab: a'r rhai oeddynt yn barod a aethant i mewn gŷd ag ef i'r briodas, ac fe a gauwyd y porth.

11 Wedi hynny y daeth y morwynion eraill gan ddywedyd, arglwydd, arglwydd, agor i ni.

12 Ac efe a attebodd, yn wir meddaf wrthych, nid adwaen chwi.

13 *Gwiliwch gan hynny: am na wyddoch na'r dydd, na'r awr y daw Mâb y dŷn. Pen:24.42. Mar.13.35.

14 Canys [teyrnas nefoedd ſydd] fel * dŷn yn myned i wlad bell, yr hwn a alwodd ei weiſion, ac a roddes ei dda attynt. Luc.19.12.

15 Ac i un y rhoddes efe bum talent, ac i arall ddwy, ac i arall un, i bôb un yn ôl ei allu: ac yn y fann efe a aeth oddi cartref.

16 A'r hwn a dderbyniaſe y pump talent, a aeth, ac a farchnadodd â hwynt, ac a ennillodd bump talent eraill.

17 A'r un modd yr hwn a dderbyniaſe ddwy dalent, a ennillodd yntef ddwy eraill.

18 Ond yr hwn a dderbyniaſe un, a aeth, ac a gloddiodd yn y ddaiar, ac a guddiodd arian ei arglwydd.

19 Ac wedi llawer o amſer y daeth arglwydd y gweiſiō hynny, ac efe a gyfrifodd â hwynt.

20 Ac yna y daeth yr hwn a dderbyniaſe bum talent, ac a ddug bum talent eraill, gan ddywedyd, arglwydd pump talent a roddaiſt i mi, wele mi a ennillais bum talent eraill.

21 Yna y dywedodd ei arglwydd wrtho, ya wâs da a ffyddlon, buost ffyddlon ar ychydig,

mi a'th oſodaf yn oruchaf ar lawer, dôs i mewn i lawenydd dy arglwydd.

22 A'r hwn a dderbyniaſe ddwy dalent, a ddaeth ac a ddywedodd, Arglwydd, dwy dalent a roddaiſt attaf: wele, dwy eraill a ennillais â hwynt.

23 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, da, wâs da a ffyddlon, buoſt ffyddlon ar ychydig, mi a'th oſodaf yn oruchaf ar lawer, dyret i mewn i lawenydd dy arglwydd.

24 A'r hwn a dderbyniaſe 'r vn talent, a ddaeth, ac a ddywedodd, arglwydd, gwyddwn mai gŵr caled oeddit, yn medi lle nis heuaiſt, ac yn caſclu lle ni waſceraiſt:

25 Am hynny mi a ofnais, ac a aethym ac a guddiais dy dalent yn y ddaiar: wele, yr wyt yn cael yr eiddot dy hun.

26 A'i arglwydd a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, ti wâs drwg a diog, gwyddit fy môd yn medi lle ni's hauaſi, ac yn caſclu lle nis gwaſcerais:

27 Am hynny y dyleſit ti roddi fy arian at y cyfnewid-wŷr, felly pan ddelwn y cawn dderbyn yr eiddo fy hun ag elw.

28 Cymmerwch am hynny y talent oddi wrtho, a rhoddwch i'r hwn ſydd ganddo ddêc talent.

29 Canys i bôb vn y ſydd ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd, ac oddi ar yr hwn nid oes ganddo, y dygir oddi arno yr hyn ſydd ganddo. Pen.13.12. Marc.4.25. Luc.8.18. & 19.26.

30 Am *hynny bwriwch y gwâs anfuddiol i'r tywyllwch eithaf, yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd. Pen.8.12. & 22.13.

31 A phan ddêl Mâb y dyn yn ei ogoniant a'i holl angelion ſanctaidd gŷd ag ef, yna yr eiſtedd ar orſedd-faingc ei ogoniant.

32 Ac ger ei fron ef y cynhullir yr holl genhedloedd, ac efe a'u didola hwynt oddi wrth eu gilydd, megis y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr.

33 Ac efe a eſyd y defaid ar ei ddeheu-law, a'r geifr a'r yr aſſwy.

34 Yna y dywed y Brenin wrth y rhai a fyddo ar ei ddeheu-law, dewch chwi fendigedigion fy Nhâd, meddiannwch y deyrnas yr hon a baratoiwyd i chwi er pan ſeiliwyd y bŷd.

35 Canys *bum yn newynog, a chwi a roeſoch i mi fwyd: bu arnaf ſyched, a rhoeſoch i mi ddiod: bum ddieithr, a lletteuaſoch fi. Esai 58.7. Ezech.18.7.

36 Bum noeth, a dilladaſoch fi: bum glaf, ac ymwelſoch â mi: bum yng-harchar, a daethoch attaf.

37 Yna yr etyb y rhai cyfiawn iddo gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd i'th welſom yn newynog, ac i'th borthaſom? neu yn ſychedig, ac y rhoeſom i ti ddiod?

38 A pha bryd i'th welſom yn ddieithr, ac i'th lletteuâſom? neu yn noeth, ac i'th ddilladâſom?

39 Neu pa bryd i'th welſom yn glaf, neu yng-harchar, ac y daethom attat?

40 A'r Brenin gan atteb a ddywed wrthynt, yn wir meddaf i chwi, yn gymaint a gwneuthur o honoch i'r vn lleiaf o'm brodyr hyn, i mi y gwnaethoch.

41 Yna y dywed efe wrth y rhai a fyddant ar y llaw aſſwy, *ewch oddi wrthif rai melldigedig i'r tân tragywyddol, yr hwn a baratoiwyd i ddiafol, ac i'w angelion. Psal.6.8. Pen.7.23. Luc.13.27.

42 Canys bum newynog, ac ni roeſoch i mi fwyd: bu arnaf ſyched, ac ni roeſoch i mi ddiod:

43 Bum ddieithr, ac ni'm lletteuaſoch: noeth, ac ni'm dilladaſoch: yn glaf, ac yng-harchar, ac ni ymwelſoch â mi.

44 Yna yr attebant hwythau iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd i'th welſom yn newynog, neu yn ſychedig, neu yn ddieithr, neu yn noeth, neu yn glaf, neu yng-harchar, ac ni weinaſom iti?

45 Yna yr etyb efe iddynt, gan ddywedyd, yn wir meddaf i chwi, yn gymaint na's gwnaethoch i'r vn o'r rhai lleiaf hyn, ni's gwnaethoch i minnau.

46 A'r rhai hyn a ânt *i boen tragywyddol: a'r rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol. Dan.12.3. Ioan.5.29.

## PEN. XXVI.

3 Bwriad yr offeiriaid yn erbyn Crist. 7 tywalltiad yr ennaint ar ei ben ef. 26 Swper yr Arglwydd. 34 Petr yn gwadu Crist. 47 Brâd Iudas. 57 Arwain Crist at Caiphas.

AC fe a ddarfu *wedi i'r Iesu orphen y geiriau hyn oll, efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, *Yr Efengyl y Sul neſaf o flaen y Paſc*

2 Chwi a wyddoch mai yn ôl deu-ddydd y mae 'r Paſc, a Mab y dyn a roddir i'w groes-hoelio. Marc.14.1. Luc.22.1.

3 Yna *yr ymgaſclodd yr arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion, a henuriaid y bobl i neuadd yr arch-offeiriad, yr hwn a elwid Caiphas. Ioan.11.47.

4 Ac hwy a ymgynghorasant, pa fodd y dalient yr Iesu trwy ddichell, ac y lladdent [ef.]

5 Eithr hwy a ddywedâſant, nid ar yr wyl, rhag bôd cynnwrf ym mhlith y bobl.

6 Ac *tra yr oedd yr Iesu yn Bethania yn nhŷ Simon wahan-glwyfus, Marc.14.3. Ioan.11.2.

7 Fe ddaeth atto wraig, a chŷd â hi flwch o ennaint gwerthfawr, ac a'i tywalltodd ar ei bên, ac efe yn eiſtedd wrth y fordd.

8 A phan weled ei ddiſcyblion, hwy a lidiaſant gan ddywedyd, pa raid yr afrad hwnn?

9 Canys fe a allaſid gwerthu yr ennaint hwn er llawer, a'i roddi i'r tlodion.

10 A'r Iesu a wybu, ac a ddywedodd wrthynt, pa ham yr ydych yn gwneuthur blinder i'r wraig: canys hi a weithiodd weithred dda arnaf.

11 *O blegit y tlodion a gewch bôb amſer gŷd â chwi, a minnau ni's cewch bôb amſer. Deut.15.11.

12 Canys hi yn tywallt yr ennaint hwn ar fyng-horph, a wnaeth hyn i'm claddu i.

13 Yn wir meddaf i chwi, pe le bynnac y pregethir yr Euengyl hon yn yr holl fŷd, hyn ymma hefyd a wnaeth hi a fynegir, er coffa am dani hi.

14 Yna yr aeth vn o'r deuddec yr hwn a elwyd Iudas Iſcariot at yr arch-offeiriaid,

15 Ac a ddywedodd wrthynt, pa beth a roddwch i mi, a mi a'i rhoddaf ef i chwi? a hwy a dalaſant iddo ddêc ar hugain o arian.

16 Ac o hynny allan y ceiſiodd efe amſer cyfaddas iw fradychu ef.

Mar.14.12. Luc.22.7. 17 Ac* ar [y dydd] cyntaf o wyl y bara croiw, ei ddiſcyblion a ddaethant at yr Ieſu gan ddywedyd wrtho, pa lê y mynni i ni baratoi i ti fwytta'r Paſc?

18 Ac yntef a ddywedodd, ewch i'r ddinas at y cyfryw vn, a dywedwch wrtho, y mae'r Athro yn dywedyd, fy amſer ſydd agos, gŷd â thi y cynhaliaf y Paſc, mi a'm diſcyblion.

19 A'r diſcyblion a wnaethant y modd y gorchymynnaſe'r Ieſu iddynt, ac a baratoeſant y Paſc.

Luc.22.14. 20 Ac* wedi ei myned hi yn hwyr, efe a eiſteddodd gŷd â'r deuddec.

Marc.14.18. Ioan.13.21. 21 Ac* fel yr oeddynt yn bwytta, efe a ddywedodd, yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, y bradycha vn o honoch fi.

22 Yna yr aethant yn drist dros ben, ac a ddechreuaſant bôb vn ddywedyd wrtho: ai myfi Arglwydd yw [hwnnw?]

Pſal.41.10. 23 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd, yr hwn ſydd yn trochi ei law gŷd â mi yn y ddyſcl, hwnnw a'm bradycha i.

24 Mâb y dŷn yn ddiau ſydd yn myned fel y mae yn ſcrifennedic am danaw, eithr gwae'r dyn hwnnw trwy'r hwn y bradychir Mâb y dŷn: da a fuaſe i'r dŷn hwnnw pe na's geneſid efe erioed.

25 Ac Iudas yr hwn a'i bradychodd ef, a attebodd ac a ddywedodd, ai myfi yw [efe] Athro? yntef a ddywedodd wrtho, ti a ddywedaiſt.

1.Cor.11.24. 26 Ac* fel yr oeddynt yn bwytta, yr Ieſu a gymmerth y bara, ac wedi iddo fendigo efe a'i torrodd, ac a'i rhoddes i'r diſcyblion, ac a ddywedodd, cymmerwch, bwyttewch, hwn yw fyng-horph.

27 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan a diolch, efe a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, yfwch bawb o hwn:

28 Canys hwn yw fyng-waed o'r Teſtament newydd, yr hwn a dywelltir tros lawer er maddeuant pechodau.

29 Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd y dydd hwnnw, pan yfwyf ef yn newydd gŷd â chwi yn nheyrnas fy Nhâd.

30 Ac wedi iddynt ganu mawl, hwy a aethant allan i fynydd yr Oliwŷdd.

Marc.14.27. Ioan.16.31. &18.8. Zachar.13.7. 31 Yna* y dywedodd yr Ieſu wrthynt, chwychwi oll a rwyſtrir heno o'm plegit i: canys ſcrifennedic yw, * tarawaf y bugail, a defaid y praidd a waſcerir.

Marc.14.28. &16.7. 32 Eithr * wedi fy adgyfodi, mi a âf o'ch blaen chwi i Galilæa.

33 Ac Petr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, pe rhwyſtrid pawb o'th plegit ti, etto ni'm rhwyſtrir fi byth.

Ioan.13.38. 34 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, yn wir yr wyf yn dywedyd i ti, mai'r nos hon cyn canu yr ceiliog i'm gwedi dair-gwaith.

35 Petr a ddywedodd wrtho, pe gorfydde i mi farw gŷd â thi, etto ni'th wadafi. Yr vn modd hefyd y dywedodd yr holl ddiſcyblion.

36 Yna y daeth yr Ieſu gŷd ag hwynt i fân a elwid Gethſemane, ac a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, eiſteddwch ymma tra'r elwyf, a gweddio accw.

37 Ac efe a gymmerth Petr a dau fâb Zebedeus, ac a ddechreuodd dristau ac ymofidio.

38 Yna efe a ddywedodd wrthynt, trist yw fy enaid hyd angeu, arhoſwch ymma, a gwiliwch gŷd â mi.

39 Ac efe a aeth ychydig pellach, ac a ſyrthiodd ar ei wyneb, ac a weddiodd gan ddywedyd, fy Nhâd, os gellir aed y cwppan hwn oddi wrthif, er hynny nid fel yr ewyllyſiwyf, onid fel yr [ewyllyſiech] di.

40 Ac efe a ddaeth at ei ddiſcyblion, ac ai cafas hwy yn cyſcu, ac efe a ddywedodd wrth Petr, pa ham? oni allech chwi wilio vn awr gŷd â mi?

41 Gwiliwch a gweddiwch rhac eich myned mewn profedigaeth, yr yſpryd yn ddiau ſydd yn barod, eithr y cnawd ſydd wann.

42 Efe a aeth trachefn yr ailwaith, ac a weddiodd, gan ddywedyd, fy Nhâd, oni's gall y cwppan hwn fyned oddi wrthif heb yfed i mi ef, gwneler dy ewyllys.

43 Ac efe a ddaeth, ac a'u cafas hwy yn cyſcu trachefn: canys eu llygaid hwy oeddynt trymion.

44 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth ymmaith trachefn, ac a weddiodd y drydedd waith, gan ddywedyd yr vn geiriau.

45 Yna y daeth efe at ei ddiſcyblion, ac a ddywedodd wrthynt, cyſcwch bellach a gorphywyſwch: wele y mae'r awr wedi neſſau, a Mâb y dŷn a roddir yn nwylo pechaduriaid.

46 Codwch, awn, wele, y mae gerllaw yr hwn a'm bradycha.

Marc.14.43. Luc.22.47. Ioan.18.3. 47 Ac* efe etto yn dywedyd hyn, wele Iudas, vn o'r deuddec, a thyrfa fawr gŷd ag ef â chleddyfau, a ffynn oddi wrth yr arch-offeiriaid a henuriaid y bobl.

48 A'r hwn ai bradychodd ef a roeſe arwydd iddynt, gan ddywedyd, pa vn bynnac â guſanwyf, hwnnw yw, deliwch ef.

49 Ac yn ebrwydd y daeth at yr Ieſu, ac a ddywedodd, henffych well Athro, ac a'i cuſanodd ef.

50 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, y cyfaill, i ba beth y daethoſt? yna y daethant, ac y rhoe-

ſant ddwylo ar yr Ieſu, ac a'i daliâſant.

51 Ac wele vn o'r rhai oeddynt gŷd â'r Ieſu a eſtynnodd ei law, ac a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd wâs yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ei gluſt ef.

Gene.9.6. Gwel.13.10.

52 Yna y dywedodd yr Ieſu wrtho, dôd ei dy gleddyf yn ei wain, * canys pawb ar a gymmerant gleddyf, a ddifethir â chleddyf.

53 A ydwyt ti yn tybied na's gallaf yr awr hon ddeiſyf ar fy Tad fel y rhodde efe fwy na deuddec lleng o angelion i mi?

Iſa.53.10.

54 Pa fodd ynte, y cyflawnir yr ſcrythyrau y rhai a ddywedant, * mai felly y gorfydd bod?

55 Yn yr awr honno, y dywedodd yr Ieſu wrth y dyrfa, chwi a ddaethoch allan megis at leidr â chleddyfau, ac â ffynn i'm dala i: yr oeddwn beunydd yn eiſtedd, ac yn dyſcu yn y Deml, ac ni'm daliaſoch.

56 A hyn oll a wnaethpwyd er cyflawni'r ſcrythyrau, a'r prophwydi: yna'r holl ddiſcyblion a'i gadawſant ef, ac a ffoeſant.

Mar.14.53. luc.22.54. ioan.18.14.

57 *Hwythau a ddaliaſāt yr Ieſu, ac a aethant ag ef at Caiphas yr arch-offeiriad, lle'r oedd yr ſcrifennyddion a'r henuriaid wedi ymgaſclu yng-hŷd.

58 Ac Petr a'i canlynodd ef o hir-bell hyd yn llŷs yr arch-offeiriad, ac a aeth i mewn, ac a eiſteddodd gŷd â'r gweiſion i weled y diwedd.

Marc.14.55.

59 *A'r arch-offeiriad a'r henuriaid, a'r holl gyngor a geiſiaſant gau deſtiolaeth yn erbyn yr Ieſu, iw roddi ef i farwolaeth.

60 Ac ni's cawſant, îe er dyfod yno gau-dyſtion lawer ni chawſant: eithr o'r diwedd fe a ddaeth dau gau dyſt:

Ioan.2.19.

61 Ac hwy a ddywedâſant, hwn a ddywedodd, mi a * allaf ddeſtrywio Teml Duw, a'i hadailadu mewn tri diwrnod.

62 Yna y cyfododd yr arch-offeiriad, ac a ddywedodd wrtho, a attebi di ddim? pa beth ſydd pan fyddo y rhai hyn yn teſtiolaethu yn dy erbyn?

63 A'r Ieſu a dawodd, yna yr attebodd yr arch-offeiriad, ac a ddywedodd wrtho, yr ydwyf yn dy dynghêdu di trwy 'r Duw byw, ddywedyd o honot i ni, os ty di yw Criſt Mâb Duw.

Pen.16.27. rhufein.14.10. 1.theſſ.4.14.

64 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, ti a ddywedaiſt: *eithr meddaf i chwi, ar ôl hyn y gwelwch Fâb y dyn yn eiſtedd ar ddeheu-law gallu [Duw,] ac yn dyfod yn wybrennau 'r nef.

65 Yna y rhwygodd 'r arch-offeiriad ei ddillad, gan ddywedyd, efe a gablodd: pa raid i ni wrth mwy o dyſtion: wele clywſoch ei gabledd ef.

66 Beth dybygwch chwi? hwy a attebâſant, gan ddywedyd, y mae efe yn euog i farwolaeth.

Eſa.50.6.

67 *Yna y poerâſāt yn ei wyneb, ac a'i boncluſtiaſant, eraill a'i cernodiaſant ef,

68 Gan ddywedyd, prophwyda i ni, ô Criſt, pwy yw'r hwn a'th darawodd?

Mar.14.66. luc.22.55. ioan.18.25.

69 Petr * oedd yn eiſtedd allan yn y neuadd, ac fe a ddaeth morwyn atto, ac a ddywedodd, yr oeddit titheu gŷd â'r Ieſu o Galilæa:

70 Ac efe a wadodd ger eu bron hwy oll, ac a ddywedodd, ni's gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd.

71 A phan aeth efe allan i'r porth, y gwelodd [morwyn] arall ef, ac hi a ddywedodd wrth y rhai oeddynt yno, yr oedd hwn hefyd gŷd â'r Ieſu o Nazareth.

72 A thrachefn efe a wadodd, gan dyngu, nid adwen i y dŷn.

73 Ac ychydig wedi hynny y daeth atto rai a oeddynt yn ſefyll ger llaw, ac a ddywedaſant wrth Petr, yn wir yr wyt ti yn vn o honynt, canys y mae dy leferydd yn dy gyhuddo.

74 Yna y dechreuodd efe ymrregu, a thyngu, gan ddywedyd, nid adwen i y dŷn, ac yn y man y cânodd y ceiliog.

75 Yna y cofiodd Petr eiriau'r Ieſu yr hwn a ddywedaſe wrtho, cyn canu 'r ceiliog ti a'm gwedi fi dair gwaith, yna yr aeth efe allan, ac yr wylodd yn doſt.

## PEN. XXVII.

Yr Iddewon yn rhoddi Criſt yn rhwym at Pilat. 34
Hwy yn ei roddi ef ar y groes, ac yn ei gablu, 50 Ac
yntef yn marw. 57 Ioſeph yn ei gladdu ef.

Mar.15.1. luc.22.66. ioan.18.28.

A Phan * ddaeth y borau, yr ymgynghorodd yr holl arch-offeiriaid a henuriaid y bobl yn erbyn yr Ieſu fel y rhoddent ef i farwolaeth.

2 Ac hwy a aethant ymmaith ag ef yn rhwym, ac a'i rhoeſant at Pontius Pilatus y rhaglaw.

3 Yna pan weles Iudas yr hwn a'i bradychodd ef ſyned barn yn ei erbyn ef, fe a fu edifar ganddo, ac a ddug trachefn y dêc ar hugain arian i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid,

4 Gan ddywedyd, pechais gan fradychu gwaed gwirion, hwytheu a ddywedaſāt, pa beth yw hynny i ni? edrych ti.

Act.1.18.

5 Ac wedi iddo daflu 'r arian yn y Deml, efe a ymadawodd, ac a aeth, * ac a ymgrogodd.

6 A'r arch-offeiriaid a gymmeraſant yr arian, ac a ddywedaſant, nid cyfreithlon i ni eu bwrw hwynt yn y tryſſor-dŷ, canys gwerth gwaed ydyw.

7 Ac wedi iddynt ymgynghori, hwy a brynnaſant ag hwynt faes y crochenydd, yn gladdfa dieithriaid.

Act.1.19.

8 Ac am hynny y gelwir y maes hwnnw, * maes y gwaed, hyd heddyw.

Zach.11.12.

9 (Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywetpwyd trwy Ieremias y prophwyd, gan ddywedyd, ac hwy a gymmeraſant * ddec ar hugain o arian, gwerth y gwerthedic, yr hwn a brynnaſant gan feibion Iſrael.

10 Ac hwy ai rhoeſāt am faes y crochenydd, megis y goſodes yr Arglwydd i mi)

Mar.15.2. luc.23.3. ioan.18.33.

11 A'r * Ieſu a ſafodd ger bron y rhaglaw, a'r rhaglaw a ofynnodd iddo, gan ddywedyd: a wyt ti yn frenin yr Iddewon? a'r Ieſu a ddywedodd wrtho, ti a'i dywedaiſt.

12 A phan gyhuddwyd ef gan yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, nid attebodd efe ddim.

13 Yna y dywedodd Pilatus wrtho, oni chlywi faint o bethau y maent hwy yn eu teſtiolaethu yn dy erbyn?

14 Ac nid attebodd efe iddo vn gair, fel y rhyfeddodd y rhaglaw yn fawr.

15 Ac ar yr wyl honno yr arfere y rhaglaw ollwng i'r bobl vn carcharor, yr hwn a ofynnent.

16 Yna yr oedd ganddynt garcharor hynod a elwyd Barrabas.

17 Ac wedi iddynt ymgaſclu yng-hyd, Pilatus a ddywedodd wrthynt, pa vn a fynnwch i mi ei ollwng i chwi? Barrabas, ai 'r Ieſu 'r hwn a elwir Criſt?

18 Canys efe a wydde yn dda, mai o genfigen y rhoddaſent ef.

19 Ac efe yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, ei wraig a ddanfonodd atto gan ddywedyd, na fydded i ti a wnelech â'r cyfiawn hwnnw, canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwydion o'i achos ef.

Mar.15.11. luc.23.18. ioan.15.40. act.3.14.

20 A'r *arch-offeiriaid a'r henuriaid a hudaſant bobl i ofyn Barrabas, a difetha 'r Ieſu.

21 A'r rhaglaw a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, pa vn o'r ddau a fynnwch i mi ei ollwng i chwi? hwythau a ddywedaſant, Barrabas.

22 Pilatus a ddywedodd wrthynt, pa beth a wnaf i Ieſu 'r hwn a elwir Criſt? hwy oll a ddywedâſant wrtho, croeſ-hoelier ef.

23 Yna y dywedodd y rhaglaw, ond pa ddrwg a wnaeth efe? yna y llefâſant yn fwy, gan ddywedyd, croſ-hoelier ef.

24 Pan welodd Pilatus na thyccie iddo, ond bôd mwy o gynnwrf yn codi, efe a gymmerth ddwfr, ac a olchodd ei ddwylo ger bron y bobl, gan ddywedyd, dieuog ydwyf oddi wrth waed y cyfiawn hwn, edrychwch chwi.

25 A'r holl bobl a attebodd, ac a ddywedodd, bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant.

26 Yna y gollyngodd efe Barrabas iddynt, ac efe a fflangellodd yr Ieſu, ac a'i rhoddes iw groeſ-hoelio.

Mar.15.16. ioan.19.2.

27 Yna* milwŷr y rhaglaw a gymmeraſant yr Ieſu i'r dadleudŷ, ac a gynhullaſant atto yr holl fyddin.

28 Ac hwy a'i dioſcaſant, ac a roeſant am dano fantell o ſcarlat,

29 Ac a blethâſant goron ddrain, ac a'i dodaſant ar ei benn, a chorſen yn ei law, ac a blygaſant eu gliniau ger ei fron ef, ac a'i gwatwarâſant, gan ddywedyd; henffych well, Brenin yr Iddewon.

30 Ac hwy a boerâſant arno, ac a gymmeraſant gorſen, ac a'i tarawſant ar ei benn.

31 Ac wedi iddynt ei watwar, hwy a'i dioſcaſant ef o'r fantell, ac a'i gwiſcaſant ef â'i ddillad ei hun, ac a aethant ag ef iw groeſ-hoelio.

Mar.15.21. luc.23.26.

32 *Ac fel yr oeddynt yn myned allan, hwy a gawſant ddŷn o Ciren a elwyd Simon: a hwn a gymhellhâſant hwy i ddwyn ei groes ef.

Mar.15.22. luc.23.20. ioan.19.17.

33 A *phan ddaethant i le a elwyd Golgatha, ſef yr hwn yw y benglogfa,

34 Hwy a roeſant iddo iw yfed finegr yn gymyſcedic â buſtl: ac wedi iddo ei brofi, ni fynnodd efe yfed.

Mar.15.24.

35 Ac *wedi iddynt ei groeſ-hoelief, hwy a rannaſant ei ddillad, ac a fwriaſant goel-brennau, er cyflawni y peth a ddywetpwyd trwy 'r prophwyd: *hwy a rannaſant fy nillad yn eu plith, ac ar fyng-wiſc y bwriaſant goel-brennau.

Pſal.22.18.

36 Ac hwy a eiſteddâſant, ac a'i gwiliâſant ef yno.

37 Ac hwy a oſodâſant hefyd vwch ei benn ef ei achos yn ſcrifennedic, HWN YW IESV BRENIN YR IDDEWON.

38 Yna y croeſ-hoeliwyd dau leidr gŷd ag ef, vn ar y llaw ddehau, ac arall ar yr aſſwy.

39 A'r rhai oeddynt yn myned heibio a'i cablaſant ef, gan eſcwyt eu pennau,

Ioan.2.19.

40 A dywedyd, ti'r hwn a *ddeſtruwi 'r Deml, ac a'i hadailedi mewn tri-diau, cadw dy hun, os ti yw Mâb Duw, deſcyn oddi ar y groes.

41 A'r vn modd yr arch-offeiriaid a'i gwatwaraſant ef, gŷd â'r ſcrifennyddion a'r henuriaid, gan ddywedyd,

42 Efe a waredodd eraill, nis gall efe ei ymwared ei hun: os Brenin yr Iſrael yw efe, deſcynned yr awr hon oddi ar y groes, ac ni a gredwn iddo.

Pſal.22.8.

43 Efe a *ymddyriedodd yn Nuw, rhyddhaed efe ef yr awr hon os myn ef: canys efe a ddywedodd, Mâb Duw ydwyf.

44 Yr vn peth hefyd a edliwiodd y lladron, y rhai a grogaſid gŷd ag ef, iddo ef.

45 Ac o'r chweched awr y bu tywyllwch mawr ar yr holl ddaiar, hyd y nawfed awr.

Pſal.22.2.

46 Ac yng-hylch y nawfed awr, y llefodd yr Ieſu â llef vchel, gan ddywedyd Eli, Eli, lama ſabachthani? hynny yw, fy Nuw, fy Nuw, pa ham i'm gwrthodaiſt?

47 A rhai o'r ſawl oeddynt yn ſefyll yno, pan glywſant, a ddywedâſant, y mae hwn yn galw ar Elias.

Pſal.69.20.

48 Ac yn y fan vn o honynt a redodd, ac a gymmerth *yſpwrn, ac a'i llanwodd o finegr, ac a'i rhoddes ar gorſen, ac a'i rhoes iddo, iw yfed.

49 Eraill a ddywedâſant, gad ti iddo: edrychwn a ddaw Elias iw waredu.

50 Yna y llefodd yr Ieſu trachefn â llef vchel, ac a ymadawodd â'r yſpryd.

2.Cron.3.14.

51 Ac wele, *llen y deml a rwygwyd yn ddau, o'r cwrr vchaf hyd yr iſaf, a'r ddaiar a grynodd, a'r main a holltwyd.

52 A'r beddau a ymagorâſant, a llawer o gyrph y ſainct y rhai a oeddynt yn huno, a godâſant,

53 Ac a ddaethant allan o'r beddau ar ôl ei gyfodiad ef, ac a aethant i mewn i'r ddinas ſanctaidd, ac a ymddangoſâſant i lawer.

54 Pan welodd y canwriad, a'r rhai oeddynt gyd ag ef yn gwilied yr Ieſu, y ddaiar yn crynu, a'r pethau a wnaethid, hwy a ofnaſant yn fawr, gan ddywedyd, yn wir Mâb Duw y doedd hwn.

55 Ac yr oedd yno lawer o wragedd yn edrych arno o hir-bell, y rhai a ganlynâſent yr Ieſu o'r Galilæa gan weiniddo ef.

56 Ym mhlith y rhai'r oedd Mair Magdalen, a Mair mam Iaco, ac Ioſes, a mam meibion Zebedeus. ☜

Yr Efengyl nos Baſc.
Mar.15.42.
luc.23.50.
ioan.19.38.

57 ☞ Ac wedi ei* myned hi yn hwyr fe a ddaeth gŵr goludog o Arimathia, a'i henw Ioſeph, yr hwn a fuaſe yntef yn ddiſcybl i'r Ieſu.

58 Hwn a aeth at Pilatus, ac a ofynnodd gorph yr Ieſu: yna y gorchymynnodd Pilatus roddi'r corph.

59 Ac felly y cymmerth Ioſeph y corph, ac a'i hamwdes â lliain main glân.

60 Ac a'i rhoddes yn ei fedd newydd, yr hwn a dorraſe efe mewn craig, ac a dreiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd, ac a aeth ymmaith.

61 Ac yr oedd yno Mair Magdalen, a Mair arall yn eiſtedd gyferbyn â'r bedd.

62 A thrannoeth yr hwn ſydd ar ôl y darparwyl, yr ymgynhullodd yr arch-offeiriaid a'r Phariſæaid at Pilatus,

63 Ac a ddywedaſant, O arglwydd y mae yn gof gennym ddywedyd o'r twyll-wr hwnnw, ac efe etto yn fyw, o fewn tri-diau y cyfodaf.

64 Gorchymyn gan hynny gadw y bedd yn ddiogel hyd y trydydd dydd, rhag dyfod ei ddiſcyblion o hyd nos a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, efe a gyfododd o feirw, ac felly y bydd yr amryfuſedd dyweddaf yn waeth na'r cyntaf.

65 Yna y dywedodd Pilatus wrthynt, y mae gennych wiliadwriaeth, ewch, gwnewch mor ddiogel ac y medrorch.

66 Ac hwy a aethant, ac a wnaethant y bedd yn ddiogel a'r wiliadwriaeth, ac a ſelaſant y maen. ☜

## PEN. XXVIII.

Adgyfodiad Criſt, 2 yr Angel yn cyſſuro y gwragedd. hwythau yn gweled Criſt. 18. Criſt yn anfon ei ddiſcyblion i bregethu.

Mat.16.1.
ioan.20.11.

YNa* yn niwedd y Sabbeth, a hi yn dyddhau yn y dydd cyntaf o'r wythnos, y daeth Mair Magdalen a Mair arall i edrych y bedd.

2 Ac wele bu ddaiar-gryn mawr: canys deſcynnodd Angel yr Arglwydd o'r nef, ac a ddaeth, ac a dreiglodd y garrec oddi wrth y drws, ac a eiſteddodd arni.

3 A'i wyneb-pryd oedd fel mellten, a'i wiſc yn wen fel eira.

4 A rhag ei ofn ef dychrynnodd y ceidwaid ac aethant megis yn feirw.

5 A'r Angel a atebodd, ac a ddywedodd wrth y gwragedd, nac ofnwch: canys mi a wn mai ceiſio'r ydych yr Ieſu'r hwn a groeſ-hoeliwyd.

6 Nid yw efe ymma, canys cyfododd megis y dywedodd, deuwch, a gwelwch y fann lle y rhoddwyd yr Arglwydd.

7 Ac ewch ar frwſt, a dywedwch i'w ddiſcyblion gyfodi o honaw o feirw: ac y mae efe yn myned o'ch blaen chwi i Galilæa: yno y gwelwch ef: wele dywedais i chwi.

8 Yna'r aethant yn ebrwydd o'r fonwent gan ofn a llawenydd mawr, ac a redâſant i fynegi i'w ddiſcyblion.

9 Ac fel yr oeddynt yn myned i fynegu i'w ddiſcyblion ef, yna wele cyfarfu'r Ieſu ag hwynt gan ddywedyd, henffych well, ac hwy a ddaethant, ac y ymafelâſant yn ei draed ef, ac a'i haddolâſant.

10 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt, nac ofnwch: ewch a dywedwch i'm brodyr, fel y delant i Galilæa, yno y gwelant fi.

11 Ac wedi eu myned hwy: wele rhai o'r wiliadwriaeth a ddaethant i'r ddinas, ac a fynegâſant i'r arch-offeiriaid yr hyn oll a wnaethid.

12 Ac wedi iddynt ymgaſclu yng-hyd a'r heniuriaid, hwy a ymgynghorâſant, ac a roeſant arian yn helaeth i'r milwyr,

13 Gan ddywedyd, dywedwch, ei ddiſcyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladratâſant ef, a ni yn cyſcu.

14 Ac os clyw y rhaglaw hyn, ni a'i dygwn ef i gredu, ac a'ch gwnawn chwi yn ddiofal.

15 Ac hwy a gymmeraſant yr arian, ac a wnaethant fel yr addyſcwyd hwynt: ac fe a gyhoeddwyd y gair hwn ym mhlith yr Iddewon hyd y dydd heddyw.

16 Yna'r aeth yr un diſcybl ar ddêc i Galilæa, i'r mynydd lle'r archaſe yr Ieſu iddynt.

17 A phan welſant ef, hwy a'i haddolâſant ef, a rhai a amheuâſant.

18 A'r Ieſu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt gan ddywedyd: *rhoddwyd i mi bôb awdurdod yn y nef, ac ar y ddaiar.

Pen 11.27.
ioan.17.2.
hebr.2.8.
Mar.16.15.

19 Ewch gan hynny a dyſcwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſpryd glân.

Ioan.14.16.

20 Gan ddyſcu iddynt gadw pôb peth a'r a orchymynnais i chwi: *ac wele'r ydwyf gyd â chwi bob amſer, hyd diwedd y byd, Amen.

# Efengyl Ieſu Griſt yn ôl S. Marc.

## PENNOD. I.

Swydd Ioan. 9 Bedydd. 13 Temtaſiwn. 14 Aphregethiaid Criſt.

DEchreu Efengyl Ieſu Griſt, Fâb Duw.

Mala.3.1. 2 Fel yr ſcrifennir yn y Prophwydi, * wele, yr ydwyf yn anfon fyng-hennad o flaen dy wyneb, yr hwn a drefna dy ffordd o'th flaen.

Eſai.40.3. luc.3.4. ioan.1.15. 3 * Llef vn yn llefain yn y diffaethwch, paratoiwch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn iniawn ei lwybrau ef.

Math.3.4. 4 *Ioan ydoedd yn bedyddio yn y diffaethwch, ac yn pregethu bedydd edifeirwch, er maddeuant pechodau.

Math.3.5. 5 Ac * holl wlâd Iudæa a aeth allan atto ef, ac hwy o Ieruſalem, ac a'u bedyddiwyd ôll ganddo yn afon yr Iorddonen, gan gyffeſſu eu pechodau.

6 Ac Ioan oedd wedi ei wiſco â blew Camel, a gwregis croen yng-hylch ei lwynau, a'i * fwyd oedd locuſt a mêl gwyllt. Lefit.11.22.

Math.3.11. luc.3.16. ioan.1.27. 7 Ac efe a bregethodd gan ddywedyd, y * mae yn dyfod ar fy ôl i vn cadarnach nâ myfi, yr hwn nid wyf deilwng i oſtwng i ddattod carrae ei eſcidiau.

8 Myfi a'ch bedyddiais chwi â dwfr: eithr efe a'ch bedyddia chwi â'r Yſpryd glân.

Act.1.5. & 2.4. & 11.16. & 19. 4. Math.3.13. luc.3.22. ioan.1.33. 9 A * bu yn y dyddiau hynny i'r Ieſu ddyfod o Nazareth yn Galilæa, ac efe a fedyddiwyd gan Ioan yn yr Iorddonen.

10 Ac yn ebrwydd yn codi i fynu o'r dwfr, efe a welodd y nefoedd yn agoryd, a'r Yſpryd glân yn deſcyn arno megis colomen.

11 A llef a ddaeth o'r nefoedd: ty-di yw fy annwyl Fâb yn yr hwn i'm bodlonwyd.

Math.4.1. luc.4.1. 12 Ac yn ebrwydd y gyrrodd yr yſpryd ef i'r diffaethwch.

13 Ac efe a fu yno yn y diffaethwch ddaugain nhiwrnod yn ei demtio gan Satan: ac yr oedd efe gyd â'r *gwyllt-filod, a'r angelion a weinaſant iddo.

14 Yn *ôl tradodi Ioan, yr Ieſu a ddaeth i Galilæa, gan bregethu Efengyl teyrnas Dduw, a dywedyd: Math.4.12. luc.4.14. ioan.4.43.

15 Yr amſer a gyflawnwyd, ac y mae teyrnas Dduw yn agos, edifarhewch, a chredwch yr Efengyl.

16 Ac fel yr oedd efe yn rhodio wrth fôr *Galilæa, efe a ganfu Simon, ac Andreas ei frawd, yn bwrw eu rhwyd yn y môr, (canys pyſcodwŷr oeddynt) Math.4.18. luc.5.2.

17 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt: canlynwch fi, a mi a'ch gwnaf yn byſcodwŷr dynion.

18 Ac yn ebrwydd gan adel eu rhwydau y canlynaſant ef.

19 Ac wedi iddo fyned rhagddo ychydig oddi yno, efe a ganfu Iaco fâb Zebedeus, ac Ioan ei frawd, a hwy yn y llong yn cyweirio y rhwydau.

20 Ac * yn y man efe a'u galwodd hwynt, ac hwy a adawſant eu tâd Zebedeus yn y llong, a'r cyflog-ddynion, ac a aethant ar ei ôl ef. Math.4.22.

21 * Yna 'r aethant i Capernaum, ac yn ebrwydd ar y dydd Sabboth wedi iddo fyned i mewn i'r Synagog, efe a'u dyſcodd [hwynt.] Math.4.13. luc.4.31.

22 A rhyfeddu a wnaethant wrth ei athrawiaeth ef, canys yr oedd efe yn eu dyſcu hwynt megis trwy * awdurdod, ac nid fel yr ſcrifennyddion. Luc.4.32.

23 Ac yr oedd gŵr yn eu Synagog hwynt, ac ynddo yſpryd aflan, yr hwn a lefodd gan ddywedyd:

24 Och, beth ſydd i ni [a wnelom] â thi Ieſu o Nazareth: a ddaethoſt ti i'n difetha ni: mi a wn pwy ydwyt ti ô Sanct Duw.

25 A'r Ieſu a'i ceryddodd ef, gan ddywedyd, taw, a dôs allan o honaw.

26 Yna wedi i'r yſpryd aflan ei rwygo ef, a gweiddi â llef vchel, efe a ddaeth allan o honaw.

27 Ac fe a aeth ar bawb fraw, fel yr ymofynnaſant yn eu myſc eu hun: beth yw hyn: pa athrawiaeth newydd yw hon: pa wedd trwy awdurdod y mae efe yn gorchymyn yr yſprydion aflan, a hwythau yn vfuddhau iddo:

28 Ac yn gyflym yr aeth y gair am dano ef tros yr holl wlâd o amgylch Galilæa.

29 Yna wedi iddynt fyned allan o'r Synagog, yr aethant i dŷ Simon ac Andreas, gyd ag Iaco, ac Ioan. Math.8.14. Luc.4.38.

30 Ac yr oedd chwegr Simon yn glaf o'r crŷd, ac yn ebrwydd y dywedaſant wrtho am dani hi.

31 Yna yr aeth efe atti hi, ac a'i cododd i fynu gan ymaflyd yn ei llaw, a'r crŷd a'i gadawodd hi yn y man, a hi a waſanaethodd arnynt hwy.

32 Ac wedi iddi hwyrhau, ac i'r haul fachludo, hwy a ddugaſant atto bawb oll a'r a oeddynt gleifion, a'r rhai cythreulig.

33 A'r holl ddinas a ymgaſclodd wrth y drŵs.

34 Ac efe a iachâodd lawer o gleifion o amryw heintiau, ac a fwriodd allan lawer o gythreuliaid, ac ni adawodd i'r cythreuliaid ddywedyd yr adwaenent ef.

35 Ac yn foreuol ar y cyfddydd wedi iddo godi, efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd, ac yno y gweddiodd.

36 A Simon a'r rhai oeddynt gyd ag ef a'i dilynaſant ef.

37 Ac wedi iddynt ei gael ef, hwy a ddywedaſant wrtho, y mae pawb yn dy geiſio.

38 Yna y dywedodd efe wrthynt, awn i'r trefydd neſaf, fel y gallwyf bregethu yno: canys i hynny y daethym allan.

39 Ac yr oedd efe yn pregethu yn eu Synagogau hwy trwy yr holl Galilæa, ac efe a fwriodd allan gythreuliaid.

40 A* daeth atto ef [un] gwahan-glwyfus, gan ymbil ag ef, a* neſau wrth ei liniau, a dywedyd wrtho: os mynni, ti a elli fyng-lanhau. Math.8.2. Luc.5.12.

41 A'r Ieſu a dosturiodd, a chan eſtyn ei law a gyffyrddodd ag ef, ac a ddywedodd wrtho, yr wyf yn mynnu, bydd yn lân.

42 Ac wedi iddo ddywedyd hynny, yr ymadawodd y gwahan-glwyf ag ef yn ebrwydd, ac y glanhawyd ef.

43 Yna wedi iddo ei orchymyn ef yn gaeth, efe a'i danfonodd ef ymmaith yn y man,

44 Ac efe a ddywedodd wrtho, gwel na ddywedech ddim wrth neb, eithr dos ymmaith a dangos dy hun i'r offeiriad, ac offrymma dros dy lanhâd y pethau a orchymynnodd *Moſes, er teſtiolaeth iddynt. Leuit.14.4.

45 Eithr efe wedi myned ymmaith a ddechreuodd fynegi llawer, a chyhoeddi'r chwedl, fel na alle'r Ieſu fyned mwy yn amlwg i'r ddinas, eithr yr oedd efe allan mewn lleoedd anghyfannedd, ac o bob parth y daethant atto ef. Luc.5.15.

## P E N. II.

Criſt yn iachau 'r claf o'r parlys, 14 yn galw Mathew, 19 yn amddeffyn ei ddiſcyblion am nad ymprydiaſent, 23 ac am iddynt dynnu y tywys yd ar y dydd Sabboth.

AC* efe a aeth eilchwel i Capernaum wedi [ychydig] ddyddiau, a chlywyd ei fod efe yn tŷ. Math.9.1. Luc.5.18.

2 Ac yn y man llawer a ymgaſclaſant yng-hŷd, hyd na annent mwy, nac yn y lleoedd yng-hylch y drŵs, ac efe a bregethodd y gair iddynt hwy.

3 Yna y daeth atto rai yn dwyn un claf o'r parlys, yr hwn a ddygid gan bedwar.

4 A chan na allent neſau atto gan y dyrfa, diddoi y tŷ a wnaethant, yn yr hwn yr oedd efe: ac wedi iddynt dorri twll, gollwng i lawr a wnaethant y gwely yn yr hwn y gorwedde'r claf o'r parlys.

5 A phan welodd yr Ieſu eu ffydd hwynt, efe a ddywedodd wrth y claf o'r parlys, ha fâb, maddeuwyd i ti dy bechodau.

6 Ac yr oedd yno rai o'r ſcrifennyddion yn eiſtedd, ac yn ymreſymmu yn eu calonnau,

7 Pa ham y mae hwn yn dywedyd y cyfryw gabledd? *pwy a all faddeu pechodau, onid Duw ei hun? Eſai.43.25. Iob.14.4.

8 Ac yn ebrwydd pan wybu 'r Ieſu yn ei yſpryd iddynt reſymmu felly ynddynt eu hunain, efe a ddywedodd wrthynt, pa ham yr ydych yn ymreſymmu am y pethau hyn yn eich calonnau?

9 Pa un hawſaf ai dywedyd wrth y claf o'r parlys, maddeuwyd i ti dy bechodau? ai dywedyd, cyfot, a chymmer ymmaith dy wely, a rhodia?

10 Eithr fel y gwypoch fod i Fab y dyn awdurdod i faddeu pechodau ar y ddaiar, (eb yr efe wrth y claf o'r parlys)

11 Wrthit ti yr wyf yn dywedyd, cyfot, a chymmer dy wely i fynu, a dos i'th dŷ.

12 Ac yn y man y cyfododd efe, ac y cymmerth ei wely i fynu, ac yr aeth allan yn eu gŵydd hwynt oll, hyd oni ſynnodd pawb, a gogoneddu Duw, gan ddywedyd: ni welſom ni er ioed y cyfryw beth.

13 Yna'r aeth efe eilchwel tu â'r môr, a'r holl dyrfa a ddaeth atto, ac efe a'u dyſcodd hwynt.

14 Ac efe yn myned heibio, efe a* ganfu Lefi [fâb] Alpheus yn eiſtedd wrth y dollfa, ac a ddywedodd wrtho, canlyn fi: ac efe a gododd, ac a'i canlynodd ef. Math.9.9. Luc.5.37.

15 Ac a'r Ieſu yn eiſtedd i fwytta yn ei dŷ ef, darfu i publicanod a phechaduriaid lawer gyd-eiſtedd â'r Ieſu a'i ddiſcyblion: canys llawer a'i dilynaſent ef.

16 A phan ganfu'r ſcrifennyddion a'r Phariſæaid ef yn bwytta gyd â'r Publicanod a'r pechaduriaid, hwy a ddywedaſant wrth ei ddiſcyblion ef, pa ham y mae efe yn bwytta, ac yn yfed gyd â'r publicanod a'r pechaduriaid?

17 A phan glybu'r Ieſu, efe a ddywedodd wrthynt, y rhai ſy iach nid rhaid iddynt wrth y meddyg, ond y rhai cleifion: *ni ddaethym i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch. 1.Tim.1.15.

Math.9.14. Luc.5.33.

18 A diſcyblion Ioan a'r Phariſæaid oe- ddynt yn ymprydio, am hynny y daethant, ac y dywedaſant wrtho, pa ham yr ymprydia diſcy- blion Ioan a'r Phariſæaid, a'th rai di heb ym- prydio?

19 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt, a all plant yr ſtafell briodas ymprydio tra fyddo 'r priodaſ-fâb gyd â hwynt? tra fyddo gyd â hwynt y priodaſ-fâb gyd â hwynt ni allant ymprydio.

20 Eithr y dyddiau a ddaw pan ddyger y pri- odaſ-fâb oddi arnynt, ac yna 'd ymprydiant y dy- ddiau hynny.

Math.9.16.

21 Hefyd * ni wnia nêb ddernyn o frethyn newydd mewn ddillhedyn hên: os amgen ei angwhanegiad a dyn beth o'r hên, a gwaeth fydd y rhwygiad.

22 Ac ni rydd nêb wîn newydd mewn hên goſtrelau, os amgen y gwîn newydd a ddryllia 'r coſtrelau, a'r gwîn a rêd allan, a'r coſtrelau a gollir: eithr gwîn newydd a roddir mewn co- ſtrelau newyddion.

Math.12.1. Luc.6.1.

23 A bu * iddo ef fyned trwy 'r ŷd ar y Sab- both, a'i ddiſcyblion a ddechreuaſant ymddaith tan dynnu 'r tywys.

24 A'r Phariſæaid a ddywedaſant wrtho: wele, pa ham y gwnânt ar y Sabboth yr hyn nid yw gyfraithlon?

1.Bren.21.6.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt: oni ddar- llenaſoch erioed beth a * wnaeth Dafydd pan oedd mewn eiſieu, a newyn arno, a'r rhai oe- ddynt gyd ag ef?

Exod.24.33. Leuit.24.33.

26 Pa fodd yr aeth efe i dŷ Dduw tann A- biathar yr arch-offeiriad, ac y bwyttaodd y bara * goſod, y * rhai nid cyfraithlon eu bwytta onid i'r offeiriaid yn unic, ac a'u rhoddes hefyd i'r rhai oeddynt gyd ag ef?

27 Ac efe a ddywedodd wrthynt, y Sab- both a wnaethpwyd er mwyn dŷn, ac nid dŷn er mwyn y Sabboth,

28 Am hynny Mâb y dŷn ſydd Arglwydd hefyd ar y Sabboth.

## PEN. III.

Criſt yn iachau y dyn diffrwyth ei law, 13 yn galw ei apoſtolion, 22 yn atteb cabledd yr Iddewon, 33 ac yn dangos pwy yw ei fam a'i frodyr ef.

Math.12.9. Luc.6.6.

AC efe * a aeth i mewn trachefn i'r Syna- gog, ac yr oedd yno ddŷn a'i law wedi di- ffrwytho.

2 A hwy a'i gwiliaſant ef, a iachae efe ar y dydd Sabboth, fel y gallent ei gyhuddo ef.

3 Yna y dywedodd efe wrth y dŷn yr hwn oedd a'r llaw ddiffrwyth ganddo, cyfot i'r ca- nol.

4 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ai rhydd gwneuthur da ar y dydd Sabboth, ynte gwneu- thur drwg? cadw einioes ai lladd? a hwy a daw- ſant.

5 Yna 'r edrychodd efe arnynt o amgylch yn ddigllon, gan ymoſidio o ran caledrwydd eu calonnau hwynt, ac efe a ddywedodd wrth y dŷn, eſtyn dy law, ac efe a'i heſtynnodd hi, a'i law ef a roddwyd trachefn yn iach fel y llall.

6 Yna 'r Phariſæaid gan fyned gyd â'r He- rodiaid yn ebrwydd a ymgyngoraſant yn ei erbyn ef, pa fodd y defethent ef.

7 A'r Ieſu gyd â'i ddiſcyblion a giliodd tu â'r môr, a lliaws mawr a'i dilynodd ef o Galilæa ac Iudæa,

8 Ac o Ieruſalem, ac o Idumæa, ac o'r tu hwnt i'r Iorddonen, a'r rhai a [illegible] ym- ylch Tyrus a Sidon, yn lliaws mawr, pan glywſant gymmaint a wnaethe efe, a ddae- thant atto.

9 Ac efe a archodd i'w ddiſcyblion fod llong yn barod iddo, o blegit y dyrfa, rhag iddynt ei waſcu ef.

10 Canys efe a iachaeſe lawer, fel yr ym- ddygnt yn y pwys arnaw, er mwyn cyffwrdd ag ef cynnifer ag oedd â phlaau arnynt.

11 A'r yſprydion aflân pan welſant ef, a ſyr- thiaſant i lawr ger ei fron ef, ac a waeddaſant gan ddywedyd, Ti yw Mâb Duw.

12 Yntef a'u cyhorddodd hwynt yn gaeth na chyhoeddent ef.

Marc.6.7. Math.10.1. Luc.9.1.

13 Yna y dringodd efe i'r mynydd, ac efe a alwodd atto y rhai a fynnodd efe, a hwynt hwy a ddaethant atto.

14 Ac efe a ordeiniodd ddeuddec, i fod gyd ag ef, ac i'w danfon i bregethu,

15 A bod iddynt feddiant i iachau clefydau, ac i fwrw allan gythreuliaid.

16 Ac i Simon y rhoddes enw Petr.

17 Ac Iaco [fab] Zebedeus, ac Ioan brawd Iaco, (ac efe a roddes iddynt yn henwau Boa- nerges, yr hyn yw meibion y daran)

18 Ac Andreas, a Philip, a Bartholomew, a Mathew, a Thomas, ac Iaco [fab] Alpheus, a Thadeus, a Simon y Canaanæad.

19 Ac Iudas Iſcariot yr hwn a'i bradych- odd ef, a hwy a ddaethant i dŷ.

20 A'r dyrfa a ymgynullodd trachefn, fel na allent gymmaint a bwytta bwyd.

21 A phan glybu yr eiddo ef, hwynt hwy a aethant i'w ddal ef, canys dywedaſant ei fod a- llan o'i bwyll.

Math.9.34. Luc.11.14.

22 A'r ſcrifennyddion y rhai a ddaethent o Ieruſalem a ddywedaſant fod * Beelzebub gan- ddo, ac mai trwy bennaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid.

23 Ac wedi iddo ef eu galw hwynt atto, efe a ddywedodd wrthynt ar ddammeg, pa fodd y gall Satan fwrw allan Satan?

24 Ac o bydd teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, ni ddichon y deyrnas honno bar- hau.

25 Ac os ymranna tŷ yn ei erbyn ei hun, ni ddichon y tŷ hwnnw ſefyll.

26 Felly, os cyfyd Satan ac ymrannu yn ei erbyn ei hun, ni all efe barhau, eithr y mae iddo ddiwedd.

27 Ni ddichon nêb fyned i mewn i dŷ gŵr ca-

darn, a dwyn ei ddodrefn, oni bydd iddo yn gyntaf rwymo 'r cadarn, ac yna anrheithio ei dŷ ef.

Math.12.31. Luc.12.10. 1.Ioan.5.16. 28 Yn wir meddaf i chwi, * maddeuir pôb rhyw bechodau i blant dynion, a pha gabledd bynnag a gablant:

29 Eithr pwy bynnag a gablo yn erbyn yr Yſpryd glân ni chaiff faddeuant yn dragywydd, ond y mae yn euog o farn dragywydd:

30 Am iddynt ddywedyd, y mae yſpryd aflan ganddo.

Math.12.46. Luc.8.19. 31 Yna ei * frodyr a'i fam a ddaethant, a chan ſeſyll allan hwy a anfonáſant atto i'w alw ef.

32 A'r bobl a eiſteddent o'i amgylch ef a ddywedaſant wrtho, wele, y mae dy fam a'th frodyr allan yn dy geiſio.

33 Yna efe a'u hattebodd hwynt gan ddywedyd, pwy yw fy mam a'm brodyr?

34 Ac wedi iddo edrych o'i amgylch ar y rhai oeddynt yn eiſtedd o'i ogylch, efe a ddywedodd, wele fy mam a'm brodyr.

35 Canys pwy bynnag a wnelo ewyllys Duw, hwnnw yw fy mrawd, a'm chwaer, a'm mam.

## PEN. IIII.

Dammeg yr hâd. 30 A'r gronyn mwſtard. 37 Criſt yn goſtegu y môr.

Math.13.1. Luc.8.4. AC *efe a ddechreuodd trachefn bregethu yn ymyl y môr, a thyrfa lawr a ymgaſclodd atto, hyd oni orfu iddo ddringo i long, ac eiſtedd ar y môr, a'r holl dyrfa oedd wrth y môr ar y tir.

2 Ac efe a ddyſcodd iddynt lawer ar ddamhegion, ac a ddywedodd wrthynt yn ei ddyſceidiaeth ef,

3 Gwrandewch, wele, hau-wr a aeth allan i hau:

4 A darfu wrth hau, i beth ſyrthio ar y ffordd, ac ehediaid yr awyr a ddaethant, ac a'i difáſant.

5 A pheth a ſyrthiodd ar le caregog, lle nid oedd iddo lawer ddaiar, ac yn y fan yr eginodd am nad oedd iddo ddyfnder daiar,

6 A phan gododd yr haul y poethwyd ef, ac am nad oedd gwreiddin efe a wywodd.

7 A pheth a ſyrthiodd ym mhlith drain, a'r drain a dyfáſant, ac a'i tagáſant ef fel na roddes ffrwyth.

8 A pheth arall a ſyrthiodd mewn tir da, ac a roddes ffrwyth tyfadwy a chynnyddol, ac a ddug, peth ei ddecfed ar hugain, a pheth ei drugeinfed, a pheth ei ganfed.

9 Yna y dywedodd efe wrthynt, y nêb ſydd ganddo glustiau i wrando gwrandawed.

10 A phan oedd efe ei hun, y rhai oeddynt yn ei gylch ef gyd â'r deuddec a ofynnaſant iddo am y dammeg.

Eſa.6.9. Math.13.14. Luc.8.10. Ioan.12.40. Act.28.26. Rhuf.11.8. 11 Ac efe a ddywedodd wrthynt, i chwi y rhoddwyd gwybod dirgelwch teyrnas Duw: eithr i'r rhai ſy allan, ar ddammegion y gwneir pôb peth,

12 Fel * yn gweled y gwelant, ac ni chanfyddant, ac yn clywed y clywant ac ni ddeallant: rhag iddynt ddychwelyd a maddeu iddynt eu pechodau.

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, oni wyddoch chwi y ddammeg honn? a pha fodd y gwybyddwch yr holl ddamhegion eraill?

14 Yr hau-wr ſydd yn hau y gair.

15 Y rhai yn ymyl y ffordd, yw y rhai lle 'r hauwyd y gair, ac wedi iddynt ei wrando, yn ebrwydd y daeth Satan, ac a ddug ymmaith o'u calonnau hwynt y gair a hauaſid.

16 Ac felly hwynt hwy yw y rhai a dderbyniant y gair ar le carregog, y rhai wedi iddynt wrando 'r gair ydynt yn ei dderbyn yn llawen,

17 Ac nid oes iddynt wreiddin ynddynt eu hunain, eithr tros amſer y maent: yna pan ddêl blinder ac erlid o achos y gair, yn y man y rhwyſtrir hwynt.

18 Hwynt hwy hefyd yw y rhai a hauwyd ym myſc y drain, y ſawl a wrandawant y gair:

19 Ac y mae gofalon y bŷd hwn, * a hûd cyfoeth, a chwant pethau eraill yn dyfod i mewn, ac yn tagu 'r gair, ac y mae efe yn myned yn ddiffrwyth. 1.Tim.6.17.

20 Ac hwynt hwy yw y rhai a hauwyd mewn tîr da, y rhai ydynt yn gwrando y gair, ac yn ei dderbyn, ac yn dwyn ffrwyth, un ddêc ar hugain, arall drugain, ac arall gant.

21 Ac efe a ddywedodd wrthynt, a * ddaw canwyll i'w goſod tan leſtr neu tan wely, ynte i'w goſod ar ganhwyll-bren? Math.5.15. Luc.8.16. & 11.33.

22 Canys * nid oes dim cuddiedig yr hwn nis amlygir, ac nid oes dim dirgel a'r nas daw i eglurdab. Math.10.26. Luc.8.17. & 12.2.

23 Od oes i neb glustiau i wrando, gwrandawed.

24 Ac efe a ddywedodd wrthynt: edrychwch * beth a wrandawoch, pa feſur y meſuroch y meſurir i chwichau: a chwanegir i chwi y rhai a wrandewch. Math.7.2. Luc.6.38.

25 Canys * y nêb y byddo ganddo y rhoddir iddo, a'r neb ni byddo ganddo, y dygir oddi arno yr hyn a fyddo ganddo. Math.13.12. & 25.29. Luc.8.18. & 19.26.

26 Hefyd efe a ddywedodd: felly y mae teyrnas Duw fel pe bwrie un hâd i'r ddaiar,

27 A chyſcu, a chodi nôs a dydd: a'r hâd yn egino, ac yn tyfu i fynu, ac yntef heb wybod pa fodd:

28 Canys y ddaiar a ddwg ffrwyth o honi ei hun, yn gyntaf yr eginin, yn ôl hynny y dwyſen, yna 'r ŷd yn llawn yn y dwyſen:

29 A phan ymddangoſo 'r ffrwyth, yn ebrwydd y rhydd efe y crymman ynddo, am ddyfod y cynhaiaf.

30 Ac efe a ddywedodd ym mhellach, i ba beth y * cyffelybwn i deyrnas Duw? neu ar ba ddammeg y gwnawn ni gyffelybrwydd o honi? Math.13.31. Luc.13.19.

31 [Y mae] fel gronyn muſtard, yr hwn pan hauer yn y ddaiar ſydd leiaf o'r holl hadau a'r ſydd ar y ddaiar:

32 Eithr wedi 'r hauer, y mae yn codi, ac yn myned yn fwy nâ'r holl lyſſiau, ac efe a ddwg

ganghennau mawrion, fel y gallo ehediaid yr awyr nythu tan ei gyſcod ef.

Math.13.34. 33 Ac â * chyfryw ddamhegion lawer y traethodd efe iddynt y gair, fel y gallent ei wrando.

34 Ac heb ddamhegion ni thraethodd efe iddynt [ddim:] eithr efe a eglurodd y cwbl oll i'w ddiſcyblion o'r nailltu.

35 Ac efe a ddywedodd wrthynt y dydd hwnnw ym min yr hwyr, awn troſodd i'r tu hwnt.

36 Ac wedi iddynt ollwng ymmaith y dyrfa, y cymmeraſant ef, fel yr oedd yn y llong, ac yr oedd hefyd longau eraill gyd ag ef.

37 Ac fe a gyfodes tymeſtl fawr o wynt, a'r tonnau a daflaſant i'r llong hyd onid oedd hi yn llawn weithian.

Math.8.23. Luc.8.22. 38 Ac yr oedd efe yn y pen ôl i'r llong yn * cyſcu ar obennydd, yna y deffroaſant ef, gan ddywedyd wrtho: ô Athro onid gwaeth gennit et ein colli ni?

39 Ac efe wedi codi i fynu a geryddodd y gwynt, gan ddywedyd wrth y môr, goſtega: yna y goſtyngodd y gwynt, ac y bu tawelwch mawr.

40 Ac efe a ddywedodd wrthynt: pa ham yr ydych mor ofnog? pa fodd nad oes gennych ffydd?

41 Eithr hwy a ofnaſant yn ddirfawr, ac a ddywedaſant wrth eu gilydd: pwy yw hwn, gan fod y gwynt a'r môr yn uſuddhau iddo?

## PEN. V.

Criſt yn bwrw cythrael allan o yn, 22 Yn iachau gwraig glaf o ddiferlif gwaed, 38 Ac yn cyfodi merch Iairus o farw i fyw.

Marc.8.28. Luc.8.26. AC * hwy a ddaethant troſodd i'r tu hwnt i'r môr i wlad y Gadareniaid.

2 Ac ar ei ddyfodiad ef allan o'r llong, yn y mann y cyfarfu ag ef o'r monwentau, ddyn ag yſpryd aflan:

3 Yr hwn oedd a'i drigfan yn y monwentau, ac ni alle neb â chadwynau ei rwymo ef:

4 O achos mynych y rhwymaſid ef â lleffetheiriau ac â chadwynau, eithr y cadwynau a ddarniaſe efe a'r lleffetheiriau a ddrylliaſe, ac ni alle neb ei ddofi ef.

5 Ac yn waſtad nôs a dydd yr oedd efe yn llefain yn y mynyddoedd, ac yn y monwentau, ac yn ei dorri ei hun â cherrig:

6 Pan ganfu efe yr Ieſu o hir-bell, efe a redodd, ac a'i haddolodd ef,

7 A chan weiddi â llef uchel efe a ddywedodd: beth ſydd i mi â thi, Ieſu fab Duw goruchaf: yr ydwyf yn dy dynghedu trwy Dduw, na phoenech fi.

8 (Canys efe a ddywedaſe wrtho, ty di yſpryd dos allan o'r dŷn)

9 Ac efe a ofynnodd iddo, beth yw dy enw? yntef a attebodd gan ddywedyd, * lleng yw fy enw, am fod llawer o honom. Math.26.53.

10 Ac efe a fawr ymbiliodd ag ef, na yrre hwynt allan o'r wlâd.

11 Ac yr oedd yno ar y mynyddoedd genfaint fawr o foch yn pori:

12 A'r holl gythreuliaid a attolygaſant iddo gan ddywedyd, danfon ni i'r moch, fel y gallom fyned i mewn iddynt.

13 Ac yn y man y caniattaodd yr Ieſu iddynt, yna wedi i'r yſprydion aflan fyned allan, yr aethant i mewn i'r moch: a'r holl genfaint honno a ruthrodd tros y dibin i'r môr, (yr oeddynt tua dwy-fil) ac a'u boddwyd yn y môr.

14 A'r meichiaid a ffoaſant ac a fynegaſant [y peth] yn y ddinas, ac yn y wlad: ac hwynt hwy a aethant allan i weled beth oedd hyn a wnaethid.

15 A hwynt a ddaethant at yr Ieſu, ac a welſant yr hwn a fuaſe yn gythreulig, yn eiſtedd â'i ddillad am dano, ac yn ei iawn bwyll: nid amgen yr un y buaſe'r lleng ynddo: ac hwy a ofnaſant.

16 A'r rhai a welſant a fynegaſant iddynt, pa fodd y buaſe i'r cythreulig, ac am y moch.

17 Ac hwy a ddechreuaſant ddymuno arno ef fyned ymmaith o'u goror hwynt.

18 Ac efe yn myned i long, yr hwn y buaſe y cythrael ynddo a ddymunodd arno gael bod gyd ag ef.

19 Onid yr Ieſu ni adawodd iddo, eithr dywedodd wrtho: dos i'th dŷ at yr eiddot, a mynega iddynt pa faint a wnaeth yr Arglwydd erot, ac fel y trugarhâodd wrthit.

20 Ac efe a aeth ymmaith, ac a ddechreuodd gyhoeddi trwy Ddecapolis pa bethau eu maint a wnaethe'r Ieſu iddo: a phawb a ryfeddaſant.

21 Ac wedi i'r Ieſu trachefn fyned mewn llong i'r lann arall, ymgaſclodd tyrfa fawr atto, ac yr oedd efe wrth y môr.

22 Wele un * o bennaethiaid y Synagog a ddaeth atto a'i enw Iairus, a phan ei gwelodd, efe a ſyrthiodd i lawr wrth ei draed ef, Math.9.18. Luc 8.41.

23 Ac efe a fawr ymbiliodd ag ef gan ddywedyd, y mae fy merch ar drangc, [attolwg i ti] ddyfod a dodi dy ddwylo arni, fel yr iachaer hi, a byw fydd.

24 Yna yr aeth [yr Ieſu] gyd ag ef, a thorf fawr a'i dilynodd ef, hyd oni waſcent ef.

25 (Yna rhyw wraig yr hon a fuaſe mewn difer-lif gwaed ddeuddeng mlynedd,

26 Ac a oddefaſe lawer gan lawer o feddygon, ac a dreuliaſe gymmaint ag oedd ar ei helw, ac ni chawſe ddim lleſâd, eithr yn hytrach myned waeth-waeth,

27 Pan glybu hi am yr Ieſu, hi a ddaeth yn y dyrfa o'r tu ôl, ac a gyffyrddodd â'i wiſc ef.

28 Canys hi a ddywedaſe, os cyffyrddaf â'i ddillad ef iach fyddaf.

29 Ac yn ebrwydd y ſychodd ffynnon ei gwaed hi, ac hi a wybu yn ei chorph ddarfod ei hiachau o'r pla.

30 Ac yn y fan pan wybu'r Ieſu ynddo ei hun fyned rhinwedd o honaw allan, efe a droes

yn y dyrfa, ac a ddywedodd, pwy a gyffyrddodd â'm dillad?

31 Ai ddiſcyblion a ddywedaſant wrtho: ti a weli'r dyrfa yn dy waſcu, ac a ddyweti di, pwy a'm cyffyrddodd?

32 Ac yntef a edrychodd o amgylch fel y caffe weled yr hon a wnaethe hyn.

33 A'r wraig gan ofni a chrynu, yn gwybod beth a wnaethid yndi, a ddaeth, ac a ſyrthiodd ger ei fron ef, ac a ddangoſodd iddo'r holl wirionedd.

34 Yna y dywedodd efe wrthi: ha ferch, dy ffydd a'th iachaodd, dos ymmaith yn heddychlawn, a bydd iach o'th bla.

35 Ac efe etto yn dywedyd, y daeth rhai oddi wrth dŷ pennaeth y Synagog, gan ddywedyd: bu farw dy ferch, i ba beth yr aflonyddi'r Athro mwyach?

36 Er cynted y clybu'r Iesu y gair a ddywedaſid, efe a ddywedodd wrth bennaeth y Synagog, nac ofna, crêd yn unic.

37 Ac ni adawodd efe nebun i ddilyn, ond Petr ac Iaco, ac Ioan brawd Iaco.

38 Yna y daeth efe i dŷ pennaeth y Synagog, ac a ganfu derfyſc, a rhai yn wylo, ac yn ochain llawer.

39 Ac wedi iddo fyned i mewn, efe a ddywedodd wrthynt, i pa ham yr ydych yn terfyſcu, ac yn wylofain? ni bu farw'r llangces, eithr cyſcu y mae hi.

40 Ac hwy a'i gwatwaraſant ef: ac yntef a'u bwriodd hwynt oll allan, ac a gymmerth dâd a mam y llangces, a'r rhai oeddynt gyd ag ef, ac a aeth i mewn lle yr oedd y llangces yn gorwedd.

41 Ac gan ymaflyd yn llaw'r llangces efe a ddywedodd wrthi, Talitha Cumi, yr hyn yw o'i gyfieithu, yrenaeth (yr wyf yn dywedyd wrthit) cyfot.

42 Ac yn y fan y cyfodes yr enaeth, ac a rodiodd, canys deuddeng mlwydd oed ydoedd hi: a ſynnu a wnaethant yn ddirfawr.

43 Ac efe a orchymynnodd llawer arnynt, na chae neb wybod hyn, ac efe a ddywedodd am roddi iddi fwyd.

## P E N. VI.

Pa wedd yr erbynir Crist a'r eiddo yn eu gwlad eu hun, 7 awdurdod yr apoſtolion, 15 amrafel farn am Grist, 25 lladd Ioan a'i gladdu, 31 Crist yn rhoddi gorphywyſfa iw ddiſcyblion, 38 y pump torth bara a'r ddau byſcodyn, 48 Crist yn gorymddaith ar y dwfr, 55 efe yn iachau llaweroedd.

Math.13.54. Luc.4.16. AC efe a aeth ymmaith oddi yno, ac a *ddaeth iw wlad ei hun, a'i ddiſcyblion a'i dilynaſant ef.

2 Ac wedi dyfod y Sabboth, y dechreuodd efe athrawiaethu yn y Synagog, a ſynnu a wnaeth ar lawer a'i clywſant, gan ddywedyd, o ba le y daeth y pethau hyn i hwn? a pha ryw ddoethineb yw hon a roed iddo fel y gwneid y cyfryw wyrthiau trwy ei ddwylo ef?

3 Onid hwn yw'r ſaer, mab Mair, brawd Iaco, ac Ioses, ac Iudas, a Simon? ond yw ei chwioredd ef ymma yn ein plith ni? ac hwy a rwyſtrwyd o'i blegit ef.

4 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, ni *bydd prophwyd mewn amharch ond yn ei wlad ei hun, ac ym mhlith ei genedl ei hun, ac yn ei dŷ ei hun. Math.13.57. Luc.4.24. Ioh.4.44.

5 Ac ni alle efe yno wneuthyd dim gwyrthiau, ond gan rhoddi ei ddwylo ar ychydig gleifion a'u hiachau hwynt.

6 A rhyfeddu a wnaeth efe wrth eu angrediniaeth hwynt, ac efe a aeth yng-hylch y trefi * o amgylch gan athrawiaethu. Luc.13.22.

7 *Ac efe a alwodd y deuddec, ac a ddechreuodd eu danfon hwynt bob yn ddau a dau, ac a roddes iddynt awdurdod ar yſprydion aflan. Math.10.1. Luc.9.1. Mar.3.14.

8 Ac a orchymynnodd iddynt na chymmerent ddim gyd â hwynt i'r daith, nac yſcrepan, na bara, nac arian yn eu pyrſau: ond llaw-ffon yn unic.

9 Eithr eu bod â ſandalau am eu traed, ac na wiſcent ddwy bais.

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, i ba le bynnac yr eloch i mewn i dŷ, arhoſwch yno hyd oni eloch ymmaith oddi yno.

11 A *pha rhai bynnac ni'ch derbyniant, ac ni'ch gwrandawant: pan eloch oddi yno, yſcydwch y *llwch yr hwn ſydd tan eich traed, yn deſtiolaeth iddynt: yn wir meddaf i chwi y bydd eſmwythach i Sodoma a Gomorra yn nydd y farn nag i'r ddinas honno. Math.10.14. Luc.9.5. Act.13.51.

12 Ac hwy a aethant ymmaith, ac a bregethaſant ar iddynt edifarhau.

13 Ac a fwriaſant allan lawer o gythreuliaid, ac a *eliaſant ag olew lawer o gleifion, ac a'u hiachaſant. Iac.5.14.

14 Yna *y clybu y brenin Herod [a honaw] (canys cyhoedd ydoedd ei enw ef) ac efe a ddywedodd: Ioan fedyddiwr a gyfodes o feirw, ac am hynny y gwneir gwyrthiau trwyddo ef. Math.14.1. Luc.9.7.

15 Eraill a ddywedaſant, Elias yw: ac eraill a ddywedaſant prophwyd yw: neu megis un o'r prophwydi.

16 A phan glybu Herod efe a ddywedodd*, hwn yw Ioan yr hwn y torrais i ei ben, efe a gododd o feirw. Luc.3.19.

17 Canys Herod hwn a ddanfonaſe, ac a ddaliaſe Ioan, ac a'i dodaſe ef yng-harchar, o achos Herodias gwraig Philip ei frawd, am iddo ei phriodi hi.

18 Canys Ioan a ddywedaſe wrth Herod: *nid cyfreithlawn i ti gael gwraig dy frawd. Leuit.18.16.

19 Am hynny y daliodd Herodias wg iddo, ac y mynne ei ladd ef, ac ni alle.

20 Canys *Herod oedd yn ofni Ioan (gan wybod ei fod efe yn wr cyfiawn, ac yn ſanctaidd) ac a'i parche ef: ac wedi ei glywed ef, efe a wnai lawer o bethau, ac a'i gwrandawe ef yn ewyllyſcar. Math.14.4.

21 A phan oedd diwrnod cyfaddas, a Herod ar ei ddydd genedigaeth yn gwneuthur gwledd

iw bennaethiaid ai flaenoriaid a goreug-wŷr Galilæa.

22 Ac wedi i ferch Herodias ddyfod i mewn, a dawnſio a boddhau Herod, a'r rhai oeddynt yn cyd eiſtedd ag ef, y brenin a ddywedodd wrth y llangces, gofyn i mi y peth bynnac a fynnych, a mi a'i rhoddaf i ti.

23 Ac efe a dyngodd iddi; beth bynnac a ofynnech i mi, mi a'i rhoddaf i ti, hyd hanner fy nheyrnas.

Mat.14.8. 24 A * hithe a aeth allan, ac a ddywedodd wrth ei mam, pa beth a ofynnaf? a hithe a ddywedodd, pen Ioan fedyddi-wr.

25 Ac yn y fan hi a ddaeth yn brysur at y brenin, ac a ofynnodd gan ddywedyd: mi a fynnwn it yr awran roddi i mi mewn dyſcl ben Ioan fedyddiwr.

26 A'r brenin er ei fod yn dra athriſt, er mwyn y llw, a'r rhai oeddynt yn cydeiſtedd ag ef, ni fynne ei bwrw hi heibio.

27 Ac yn y man yr anfones y brenin ddienyddwr, ac a orchymynnodd ddwyn ei ben ef.

28 Ac yntef a aeth ac a dorrodd ei benn ef yn y carchar, ac a ddug ei benn ef mewn dyſcl, ac a'i rhoddes i'r llangces, a'r llangces a'i rhoddes ef iw mam.

29 A phan glybu ei ddiſcyblion ef, hwy a ddaethant, ac a gymmeraſant ei gorph ef, ac a'i dodaſant mewn bedd.

Luc.9.10. 30 A'r*Apoſtolion a ymgaſclaſant at yr Ieſu, ac a ddangoſaſant iddo bob peth a'r a wnaethent, ac a athrawiaſent.

31 Ac efe a ddywedodd wrthynt, deuwch eich hunain i le anghyfannedd o'r neilltu, a gorphywyſwch encyd, canys yr oedd llawer yn dyfod, ac yn myned, fel na chaent yſpaid i fwytta.

Math.14.13. Luc.9.10. 32 Am * hynny yr aethant i le anghyfannedd, mewn llong o'r neilltu.

33 A'r bobl yn eu gweled hwynt yn myned ymmaith, llawer a'i hadnabuant ef, ac a redaſant yno ar draed o'r holl ddinaſoedd, ac a'i rhagflaenaſant hwynt, ac a ymgaſclaſant atto.

Math.9.36.& 14.14. Luc.9.11. 34 Yna wedi i'r * Ieſu fyned allan efe a welodd dyrfa fawr, ac a doſturiodd wrthynt, am eu bod fel defaid heb fugail, ac*a ddechreuodd ddyſcu iddynt lawer o bethau.

Math.14.15. 35 Ac yna * wedi ei myned yn llawer o'r dydd, y daeth ei ddiſcyblion atto ef, gan ddywedyd: y lle ſydd anial, ac weithian y mae yn llawer o'r dydd.

36 Gollwng hwynt ymmaith fel y gallant fyned i'r pentrefi, a'r trefi oddi amgylch, a phrynu iddynt fwyd, canys nid oes ganddynt ddim iw fwyta.

37 Yntef a attebodd gan ddywedyd wrthynt, rhoddwch chwi iddynt [beth] iw fwytta: yna y dywedaſant wrtho, a awn ni a phrynu bwyd er daucant ceiniog a'i roi iddynt iw fwyta?

Math.14 17. Luc.9.13. Ioan.6.9. 38 Ac efe * a ddywedodd wrthynt, pa ſawl torth ſydd gennwch? ewch ac edrychwch: ac wedi iddynt wybod, dywedaſant, pump a dau byſcodyn.

39 Yna y gorchymynnodd efe iddynt beri i bawb eiſtedd yn fyddeidiau, ar y glaſwellt.

40 A hwynt a eiſteddaſant yn finteioedd, o feſur cannoedd, a deg a daugeiniau.

41 Ac wedi cymmeryd y pump torth a'r ddau byſcodyn, gan edrych i fynu tu a'r nef, efe a fendigodd, ac a dorrodd y bara, ac a'i rhoddes at ei ddiſcyblion, iw goſod ger eu bronnau hwynt: a'r ddau byſcodyn a rannodd efe rhyngthynt oll.

42 Ac hwynt hwy oll a fwytaſant, ac a gawſant ddigon.

43 A hwynt a godaſant o'r briwfwyd ddeuddec baſcedaid yn llawn, ac o'r pyſcod.

44 A'r rhai a fwytaſent oeddynt yng-hylch pum mîl o wŷr.

45 Ac yn y man y parodd efe iw ddiſcyblion gymmeryd llong, a myned oi flaen ef tua Bethſaida i'r lann arall, tra fydde efe yn danfon ymmaith y bobl.

46 Ac wedi iddo eu danfon hwynt ymmaith, efe a aeth i'r mynydd i weddio.

Math.14.23. Ioan.6.15. 47 A * phan oedd hi yn hwyr, yr oedd y llong ar ganol y môr, ac yntef ei hun ar y tîr.

48 Ac efe a'i gwele hwynt yn [illegible] yn rhwyfo (canys y gwynt oedd yn eu herbyn) ac yng-hylch y bedwaredd wylfa o'r nos, efe a ddaeth attynt gan rodio ar y môr, ac a fynnaſe fyned heibio iddynt.

49 Pan welſant hwy ef yn rhodio ar y môr, tybiaſant mai drychiolaeth ydoedd efe, ac hwy a waeddaſant.

50 (Canys hwynt hwy oll ai gwelſant ef, ac a ddychrynaſant) ac yn y man yr ymddiddanodd â hwynt, ac y dywedodd wrthynt, cymmerwch gyſur mi fi ſydd [ymma,] nac ofnwch.

51 Yna yr aeth efe attynt i'r llong, a'r gwynt a dawelodd, ac aruthro ſwy-ſwy a wnaethant ynddynt eu hunain gan ryfeddu.

52 O blegit ni ddeallaſant, am y torthau hynny, am galedu eu calonneu hwynt.

Math.14.34. 53 Ac* wedi iddynt ddyfod troſodd, hwynt hwy a ddaethant i dir Genezareth, ac a lanniaſant.

54 A phan ddaethant o'r llong, hwynt hwy a'i hadnabuant ef yn ebrwydd.

55 Ac wedi iddynt fyned trwy gwbl o'r goror hwnnw, dechreuaſant ddwyn oddi amgylch mewn gwelâu rai cleifion, pa le bynnac y clywent ei fôd ef.

56 Ac i ba le bynnac yr ele efe i mewn i drefi, neu ddinaſoedd neu bentrefi, y dodent ei cleifion ar yr heolydd gan attolwg iddo gael o honynt gyffwrdd cynnimaint ag ymyl ei wiſc ef, a chynnifer ag a gyffyrddaſant ág ef a iachawyd.

## PEN. VII.

Criſt yn atteb tros ei ddiſcyblion y rhai afwyttaſent heb ymolchi. 24 Yn iachau merch y wraig o Syropheniſa. 32 A'r byddar mud.

Math.15.1. YNo * yr ymgaſclodd atto'r Phariſæaid, a rhai o'r ſcrifennyddion a ddaethe o Ieruſalē.

2 A phan welſant rai o'i ddiſcyblion ef â dwylaw cyffredin (hynny ydyw eb olchi) yn bwytta bwyd, hwy a argyoeddaſant.

3 (Canys y Phariſæaid a'r holl Iddewon oni bydd iddynt olchi eu dwylaw yn fynych ni fwytânt gan gadw traddodiad yr henafiaid.

4 A[phan ddelont] o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi ni fwyttânt: a llawer o bethau eraill a gymmeraſant iw cadw, nid amgen golchiadau cwppanau, ac yſtenau, ac efyddennau, a gwelâu.)

5 Yna y gofynnodd y Phariſæaid a'r ſcryfenyddion iddo: Paham na rodia dy ddiſcyblon yn ôl traddodiad yr henuriaid, ond bwyta eu bwyd â dwylo heb olchi?

Eſa.29.14.

6 Yntef a attebodd ac a ddywedodd wrthynt: am hynny da y prophwydodd Eſaias am danoch chwi ragrithwŷr fel y mae yn ſcrifennedig: *y mae y bobl hyn yn fy anrhydeddu i â'u gwefuſau, a'i calon ſydd bell oddi wrthif.

7 Yn ofer y maent yn fy anrhydeddu gan ddyſcu athrawiaethau [y rhai ydynt] orchymynnion dynion.

8 Canys yr ydych yn gadel gorchymyn Duw, ac yn cadw traddodiad dynion, megis golchi ſtenau, a chwppaneu: a llawer o bethau eraill o'r cyffelyb yr ydych yn eu gwneuthur.

9 Hefyd efe a ddywedodd wrthynt: gwych yr ydych yn gwrthod gorchymyn Duw, i gadw eich traddodiad eich hun.

Exod.20.12.
deut.5.16.
ephes.6.2.
Exod.21.17.
leſit.20.9.
dihar.20.20.

10 Canys Moſes a ddywedodd,* Anrhydedda dy dad a'th fam: a *phwy bynnag a felldithio ei dad neu ei fam lladder ef yn farw.

11 Ac meddwch chwithau, os dywed dŷn wrth ei dad neu ei fam, Corban: ſef trwy y rhodd [a offrymmir] gennifi, y daw llês i ti, [rhydd fydd efe.]

12 Ac nid ydych mwyach yn gadel iddo wneuthyd dim iw dâd neu iw fam,

13 Gan ddirymmu gair Duw â'ch traddodiad eich hunain yr hwn a draddodaſoch chwi, a llawer o gyffelyb bethau a hynny yr ydych yn eu gwneuthur.

Math.15.10.

14 Yna* efe a alwodd yr holl dyrfa atto, ac a ddywedodd wrthynt, gwrandewch chwi oll arnaf, a dehellwch.

15 Nid oes dim allan o ddŷn yn myned i mewn iddo yr hwn a ddichon ei halogi ef: eithr y pethau ſy yn dyfod allan o honaw, y rhai hynny yw y pethau ſy yn halogi dŷn.

16 Od oes gan neb gluſtiau i wrando gwrãdawed.

17 A phan ddaeth efe i mewn i'r tŷ oddi wrth y bobl, ei ddiſcyblion a ofynnaſant iddo am y ddammeg.

18 Yntef a ddywedodd wrthynt, a ydych chwithau hefyd yn ddi-ddeall: oni ŵyddoch, am bôb peth oddi allan a el i mewn i ddŷn, na all ei halogi ef:

19 Canys nid yw efe yn myned i'r galõ ond i'r bol, ac yn myned allan i'r geudŷ gan garthu yr holl fwydydd.

20 Ac efe a ddywedodd, mai yr hyn ſydd yn dyfod allan o ddŷn, hynny ſydd yn halogi dŷn.

Gen.6.5.
&8.21.

21 Canys * oddi mewn o galonneu dynion y daw drwg-feddyliau, torri priodaſau, putteindra, llofruddiaeth,

22 Lladratta, cribddeilio, drygioni, twyll, maſwedd, drwg lygad, cabledd, balchder, ynfydrwydd.

23 Y mae yr holl drygioni hyn yn dyfod oddi mewn, ac yn halogi dŷn.

Math.15.21.

24 Ac*efe a gyfodes oddi yno, ac a aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon, ac a aeth i mewn i dŷ, ac ni fynnaſe i nêb ŵybod, eithr ni alle efe fod yn guddiedig:

25 Canys pan glybu gwraig yr hõn yr oedd ei merch fechã ag yſpryd aflan ynddi ſôn am dano, hi a ddaeth, ac a ſyrthiodd wrth ei draed ef.

26 (A Groeges oedd y wraig o Syrophenissa o genedl) a hi a attolygodd fwrw 'r cythrael allan o'i merch.

27 A'r Ieſu a ddywedodd wrthi, gad yn gyntaf borthi 'r plant: Canys nid da yw cymmeryd bara 'r plant, a'i daflu i'r cenawon cwn.

28 A hithe a attebodd ac a ddywedodd wrtho, gwir ô Arglwydd, er hynny y cenawon a fwyttânt tann y bwrdd o friwſion y plant.

29 Yna y dywedodd efe wrthi, am y gair hwnnw, dos ymmaith, aeth y cythrael allan o'th ferch.

30 Ac wedi iddi ddyfod adref iw thŷ hi a gafodd fyned o'r cythrael allan, a'i merch wedi ei bwrw ar y gwely.

*Yr Efengyl y xii. Sul wedi 'r Drindod.*

☞31 Ac efe a aeth trachefn ymmaith o dueddau Tyrus a Sidon, ac a ddaeth hyd for Galilæa trwy ganol cyffiniau Decapolis.

32 A hwynt a ddugaſant atto vn byddar ac attal dywedyd arno, ac a attolygâſant iddo roi ei law arno ef.

33 Ac wedi iddo ei gymmeryd ef o'r naill du allan o'r dyrfa, efe a eſtynnodd ei fyſedd yn ei gluſtiau ef, ac wedi iddo boeri, efe a gyffyrddodd â'i dafod ef,

34 A chã edrych tu â'r nef efe a ocheneidiodd ac a ddywedodd wrtho, Ephphatha ſef ymagor.

35 Ac yn ebrwydd yr ymagorodd ei gluſtiau ef, ac yr ymollyngodd rhwym ei dafod ef, ac efe a lefarodd yn eglur.

36 Ac efe a waharddodd iddynt ddywedyd i neb. Ond pa mwyaf y gwaharddodd efe iddynt, mwy y cyhoeddaſant.

Gen.1.31.
ecclc.39.16.

37 A rhyfeddu a wnaethant yn ddirfawr gã ddywedyd,* da y gwnaeth efe bob peth: y mae efe yn gwneuthur i'r byddair glywed, ac i'r mudion ddywedyd. ☙

## PEN. VIII.

Criſt yn porthi pedair mil â ſaith dorth o fara. 11 Yn atteb y Phariſæaid am geiſio mwy o arwyddion gan erchi gochelyd eu ſurdoes hwynt, 22 Yn iachau golwg vn dall â'i boeryn, 27 Yn gofyn am bwy yr oeddid yn ei gymmeryd ef, 31 Yn prophwydo am ei ddioddefaint, gan annog eraill i ddioddef.

*Yr Efengyl y vii. Sul wedi 'r Drindot.* Math.15.32. ☞ YN * y dyddiau hynny, pan oedd y dyrfa yn fawr iawn ac heb ganddynt ddim iw fwytta, y galwodd yr Iesu ei ddiſcyblion, ac y dywedodd wrthynt.

2 Yr wyfi yn toſturio wrth y dyrfa, am iddynt aros gyd â mi er ys tridiau weithian, ac nid oes ganddynt ddim iw fwyta.

3 Ac os anfonafi hwynt ymmaith iw teieu eb fwyd, hwynt hwy a lewygant ar y ffordd, canys llawer o honynt a ddaethant o bell.

4 A'i ddiſcyblion ef ai hattebaſant, o ba le y gall neb ddigôni y rhai hyn â bwyd ymma yn yr anialwch?

5 Ac efe a ofynnodd iddynt, pa ſawl torth ſydd gennwch? a hwynt hwy a ddywedaſant, ſaith.

6 Yntef a orchymynnodd i'r dyrfa eiſtedd ar y llawr: a chan gymmeryd y ſaith dorth, wedi rhoi diolch efe a'u torrodd [hwynt,] ac a'u rhoddes iw ddiſcyblion iw goſod ger eu bronnau, a hwynt a'u goſodaſant ger bron y bobl.

7 Ac yr oedd ganddynt ychydig byſcod bychein: ac wedi iddo fendigo efe a barodd ddodi y rhai hynny hefyd ger eu bronnau [hwynt.]

8 A hwynt a fwyttaſant, ac a gawſant ddigon, ac hwy a godaſant o'r briwfwyd gweddill ſaith baſcedaid.

9 A'r rhai a fwyttaſant oeddynt yng-hylch pedair mil, ac efe a'u gollyngodd hwynt ymmaith. ☜

Math.15.39. 10 Ac * yn y man wedi iddo fyned i long gyd â'i ddiſcyblion, efe a ddaeth i barthau Dalmanutha.

Mâth.16.1. 11 A'r * Phariſæaid a ddaethant ac a ddechreuaſant ymholi ag ef, gan ofyn ganddo arwydd o'r nef gan ei demtio.

12 Yntef gan ddwys ocheneidio yn ei yſpryd a ddywedodd, Pa ham y mae y genhedlaeth honn yn ceiſio arwydd? yn wir meddaf i chwi, na roddir arwydd i'r genhedlaeth honn.

13 Ac efe a'u gadawodd hwynt, ac a aeth i'r llong trachefn, ac a dynnodd ymmaith i'r lann arall.

Math.16.5. 14 A'r [diſcyblion] * a adawſant yn angof ddwyn bara gyd â hwynt, ac nid oedd ganddynt onid un dorth yn y llong.

15 Yna y gorchymynnodd efe iddynt, gan ddywedyd, Gwiliwch ac ymogelwch rhag ſurdoes y Phariſæaid a ſurdoes Herod.

16 Ac ymreſymmu a wnaethant y naill wrth y llall, gan ddywedyd, nid oes genym mor bara.

17 A'r Iesu gan wybod hynny a ddywedodd wrthynt: pa ymryſymmu 'r ydych am nad oes gennwch fara? ond ydych chwi etto yn yſtyrried, nac yn deall? a ydyw eich calonneu chwi etto wedi caledu?

18 Gan fod gennwch lygaid oni welwch chwi? a chan fod genwch chwi gluſtiau oni chlywch chwi? ac onid ydych yn cofio?

Ioan.6.11. 19 Pan * dorrais y pump torth hynny ym mysc pum mil, pa ſawl baſcedaid o'r briwfwyd a godaſoch i fynu? a hwynt a ddywedaſant, deuddec.

20 A phan [dorrais] ſaith ym mhlith pedair mil, pa ſawl baſcedaid o'r briwfwyd a godaſoch i fynu? a hwynt a ddywedaſant, ſaith.

21 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pa fodd nad ydych yn deall?

22 Ac efe a ddaeth i Bethſaida, a hwy a ddugaſant atto un dall, ac a ddeiſyfiaſant arno ar iddo gyffwrdd ag ef.

23 Yna y cymmerth efe y dall erbyn ei law ac ai tywyſodd ef allan o'r dref: ac wedi iddo boeri yn ei lygaid ef, a rhoi ei law arno, efe a ofynnodd iddo, a oedd efe yn gweled dim.

24 Ac efe a gododd ei olwg ac a ddywedodd: yr wyfi yn gweled dynion yn rhodio fel coed.

25 Wedi hynny y goſodes efe ei ddwylo drachefn ar ei lygaid ef, ac a barodd iddo edrych eilwaith: ac yna y caſas ei olwg, ac efe a wele bawb o bell ac yn eglur.

26 Ac efe ai anfonodd ef adref iw dŷ gan ddywedyd, na ddos i'r dref ac na ddywedi neb yn y dref.

27 A'r * Iesu gyd â'i ddiſcyblion a aethant i mewn i drefydd Cæſaria Philippi: ac ar y ffordd efe a holodd ei ddiſcyblion gan ddywedyd: Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod i? Math.16.13. Luc.9.18.

28 A hwynt a attebaſant: Ioan fedyddiwr, a rhai Elias, ac eraill un o'r prophwydi.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, a phwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i? Petr a attebodd ac a ddywedodd wrtho, ti yw 'r Criſt.

30 Ac efe a waharddodd iddynt, ddywedyd i neb hynny am dano ef.

31 Ac efe a ddechreuodd eu dyſcu hwynt, fod yn rhaid i Fab y dŷn oddef llawer, ai wrthod gan yr henuriaid yr arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion, ai ladd, a thri-diau wedi [hynny] adgyfodi.

32 A'r ymadrodd hwnnw a ddywedodd efe yn oleu. Yna Petr a'i cymmerth ef, ac a ddechreuodd ei geryddu ef.

33 Eithr efe wedi iddo droi ac edrych ar ei ddiſcyblion, a geryddodd Petr gan ddywedyd, dos ymmaith ar fy ôl Satan am nad ydwyt yn ſynnied y pethau ſy o Dduw, ond y pethau ſy o ddynion.

34 Ac wedi iddo ef alw 'r dyrfa gyd â'i ddiſcyblion, efe a ddywedodd wrthynt: y * neb a fynno fy nilyn i, ymwrthoded ag ef ei hun, a chymmered ei groes a dilyned fi. Math.10.38. & 16.24. Luc.9.23. & 14.27.

35 Canys pwy bynnag a fynno gadw ei enioes a'i cyll hi: * a phwy bynnag a gyll ei enioes er fy mwyn i a'r Efengyl, efe ai ceidw hi. Math.10.39. & 16.25. Luc.9.24. & 17.33.

36 Canys pa leſaad i ddŷn ennill yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?

37 Neu pa gyfnewid a rydd dŷn am ei enaid?

38 Canys * pwy bynnag a fyddo cywilydd Math.10.33. Luc.9.26.

gandddo fi a'm geiriau, yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon: hydd cywilydd gan Fab y dŷn yntef hefyd, pan ddel yng-ogoniant ei Dad gyd â'r angelion ſanctaidd.

## PEN. IX.

Criſt yn ymrithio. 25 Yn bwrw allan y cythrael mud yr hwn ni ellid ei fwrw allan heb ympryd a gweddi. 31 Yn rhybuddio am ei ddioddefaint. 35 Yn dyſcu iw ddiſcyblion oſtyngeiddrwydd. 38 Yn erchi iddynt na luddient i neb orchfygu y cythrael yn ei enw ef. 42 Ac yn gwahardd traingwyddiadau.

Math.16.28. luc.9.27.

AC efe a ddywedodd wrthynt: yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi fod rhai o'r rhai ſydd yma yn ſefyll ni phrofant angeu, hyd pan welant deyrnas Dduw wedi dyfod mewn nerth.

Math.17.1. luc.9.28.

2 ☞ A *chwe diwrnod wedi [hynny] y cymmerth yr Iesu Petr, ac Iaco, ac Ioan, ac a'u dug hwynt i fynydd vchel o'r neilltu, ac efe a amrithiodd yn eu gŵydd hwynt.

3 A'i ddillad ef a ddiſclaeriaſant yn dra channaid fel yr eira: y fath ni fedr vn pannwr ar y ddaiar eu cannu.

4 Ac ymddangoſodd iddynt Elias gyd â Moſes, ac yr oeddynt yn ymddiddan â'r Iesu.

5 Yna'r attebodd Petr, ac y dywedodd wrth yr Iesu; Rabbi, da yw i ni fod ymma: gwnawn ninnau dair Pabell, vn i ti, ac vn i Moſes, ac vn i Elias.

6 Eithr ni wyddied efe beth yr oedd yn ei ddywedyd: canys yr oeddynt wedi dychrynu.

7 Ac fe a ddaeth cwmmwl yn eu cyſcodi hwynt: a llef a ddaeth allan o'r cwmmwl gan ddywedyd: *Hwn yw fy annwyl Fab gwrandewch ef.

Math.3.17. &17.5. luc.3.22.

8 Ac yn ddiſymmwth pan edrychaſant o amgylch, ni welſant neb mwy: ond yr Iesu yn vnic gyd â hwynt.

Math.17.9.

9 Pan *oeddent yn dyfod i wared o'r mynydd, efe a orchymynnodd iddynt na ddangoſent i neb y pethau a welſent, hyd pan adgyfode Mab y dŷn o feirw.

10 A hwynt a gadwaſant yr ymadrodd hwnnw iddynt eu hunain, gan ymofyn yn eu myſc, beth oedd, adgyfodi o feirw.

Mal.4.5.

11 A gofyn a wnaethant iddo, gan ddywedyd: Pa ham y dywed yr ſcrifennyddion, fod *yn rhaid i Elias ddyfod yn gyntaf?

12 Ac yntef gan atteb a ddywedodd wrthynt, Elias yn ddiau gan ddyfod yn gyntaf a êdfryd bôb peth yn eu lle: ac fel y mae yn ſcrifennedic am Fâb y dyn, [rhaid] iddo *oddef llawer a'i ddirmygu.

Esay.53.4.

13 Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi ddyfod Elias, a gwneuthur o honynt iddo'r hyn a fynnaſant, fel yr ſcrifennwyd am dano.

Math.17.14. luc 9.37.

14 A *phan ddaeth efe at ei ddiſcyblion, efe a welodd dyrfa fawr o'i ogylch a'r ſcrifennyddion yn ymddadleu â hwynt.

15 Ac yn ebrwydd yr holl dyrfa wedi ei ganfod ef, a ddychrynaſant, a chan redeg atto a gyfarchaſant iddo.

16 Ac efe a ofynnodd i'r ſcrifennyddion, pa ymddadleu yr ydych yn eich plith eich hunain?

17 Ac vn o'r dyrfa gan atteb a ddywedodd, yr Athro, mi a ddugym fy mab attat, ac yſpryd mud ynddo.

18 Yr hwn pa le bynnag y cymmero, a'i rhwyga, ac yntef a fwrw ewyn, ac a eſcyrnyga ddannedd, ac y mae yn dihoeni, ac mi a ddywedais wrth dy ddiſcyblion am ei fwrw ef allan, ond nid allent.

19 Yna yr attebodd efe iddo, ac a ddywedodd ô genhedlaeth anffyddlon, pa hyd y byddaf gyd â chwi? pa hyd y goddefaf chwi? dygwch ef attaf i.

20 Yna y dugaſant ef atto: a phan welodd ef, yn y man yr yſpryd a'i drylliodd ef, a chan ſyrthio ar y ddaiar, efe a ymdreiglodd tann falu ewyn.

21 A gofynnodd yr Iesu iw dad ef, beth ſydd o amſer er pan ddarfu fel hyn iddo? yntef a ddywedodd, er yn fachgen.

22 A mynych y taflodd ef yn tân, ac yn y dwfr iw ddifetha ef: ond os gelli di ddim, cymmorth ni gan doſturio wrthym.

23 A'r Iesu a ddywedodd wrtho, os gelli di gredu: pob peth a all bod i'r neb a gredo.

24 Ac yn y fan, tad y bachgen gan lefain, ac ŵylofain a ddywedodd, yr wyf i yn credu ô Arglwydd, cymmorth fy anghreduniaeth i.

25 Pan welodd yr Iesu y dyrfa hefyd yn rhedeg yng-hyd, efe a geryddodd yr yſpryd aflan gan ddywedyd wrtho, Ty di yſpryd mud a byddar, yr wyfi yn gorchymyn i ti, tyred allan o honaw, ac na ddos mwy iddo ef.

26 Ac wedi [i'r yſpryd] lefain a'i dryllio ef efe a aeth allan, ac yr oedd efe fel vn marw, fel y dywedodd llawer ei farw ef.

27 A'r Iesu gan ei gymmeryd ef erbyn ei law, a'i cyfododd, ac efe a ſafodd i fynu.

28 Ac wedi iddo fyned i mewn i'r tŷ, ei ddiſcyblion ef a ofynnaſant iddo yn gyfrinachol, Pa ham na allem ni ei fwrw ef allan?

29 Yntef a ddywedodd wrthynt, y rhyw hwn ni all er dim ddyfod allan: ond trwy weddi, ac ympryd.

30 A hwynt *a aethant oddiyno, ac a gydymdaithiaſant trwy Galilæa, ac ni fynne efe i neb ŵybod. Math.17.22. luc.9.22.

31 Canys yr oedd efe yn dyſcu ei ddiſcyblion, ac yn dywedyd wrthynt, y rhoddid Mab y dŷn i ddwylo dynion, a hwynt ai lladdent ef, ond wedi ei ladd yr adgyfode y trydydd dydd.

32 Eithr ni ŵyddent hwy yr ymadrodd hwnnw, ac ni feiddient ymofyn ag ef.

33 Ac *efe a ddaeth i Capernaum, ac wedi ei ddyfod i'r tŷ, efe a ofynnodd iddynt: am ba beth yr oeddech yn ymddadle yn eich plith, ar hŷd y ffordd? Math.18.1. luc.9.46.

34 Ac hwynt hwy a dawſant a ſon: canys ar hŷd y ffordd yr ymddadleuaſent âi gilydd,

pwy o honynt [fydde] fwyaf.

35 A phan eiſteddodd, efe a alwodd y deuddec, ac a ddywedodd wrthynt, os myn neb fod yn gyntaf, efe a fydd olaf a gwâs i bawb.

36 Ac efe a gymmerth fachgẽnyn, ac ai goſododd yn eu canol hwynt, ac wedi iddo ei gymmeryd ef ar ei fraich, efe a ddywedodd wrthynt,

37 Pwy bynnag a dderbynio vn o'r cyfryw fechgin yn fy enw i ſydd yn fy nerbyn i: a phwy bynnag am derbyn i, nid myfi y mae yn ei dderbyn onid yr hwn a'm danfonodd i.

Luc.9.49. 38 Ac* Ioan a'i hattebodd ef gan ddywedyd: athro ni a welſom vn yn bwrw allan gythreuliaid yn dy enw di yr hwn nid yw yn ein dilyn ni, ac ni a waharddaſom iddo am nad oedd yn ein dilyn.

39 A'r Ieſu a ddywedodd, na waherddwch ef: canys nid oes neb a wna wrthiau trwy fy enw i, ac a *all yn y fan roi dryg-air i mi. 1.Cor.12.3.

40 Canys y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae.

Math.10.42. 41 Pwy bynnag a roddo i chwi iw yfed gwpaneid o ddwfr yn fy enw i am eich bod yn perthyn i Griſt, yn wir meddaf i chwi, ni chyll efe ei obrwy.

Math.18.6. luc.17.1. 42 A phwy * bynnag a rwyſtro'r vn o rhai bychein hyn y rhai ydynt yn credu ynofi: gwell oedd iddo oſod maen melin o amgylch ei wddf, a'i daflu i'r môr.

Math.5.29. & 18.8. 43 Am hynny *os dy law a'th rwyſtra, tor hi ymmaith, gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn vnllawiog, na myned i vffern â dwy law i'r tân anniffoddadwy,

Esa.66.24. 44 Lle * ni bydd marw eu pryf hwynt, ac ni ddiffydd y tân.

45 Ac os dy droed a'th rwyſtra, tor ef ymmaith: gwell yw i ti fyned yn gloff i'r bywyd, nag â dau droed dy daflu i vffern, i'r tân anniffoddadwy,

46 Lle ni bydd marw eu pryf hwynt, ac ni ddiffydd y tân.

47 Ac os dy lygad a'th rwyſtra, bwrw ef ymmaith, gwell yw i ti fyned i deyrnas Dduw yn vnllygeidiog, nag â dau lygad gennit, dy daflu i dân vffern,

48 Lle ni bydd marw eu pryf hwynt, ac ni ddiffydd y tân.

Lefit.2.13. 49 Canys pawb a helldir â thân, a * phob aberth a helldir â halen.

Math.5.13. luc.14.34. 50 Da yw halen: ond os bydd yr halen yn ddiflas, â pha beth yr helltir ef? Bydded i chwi halen ynoch eich hunain, a byddwch heddychlawn â'i gylydd.

### PEN. X.

Criſt yn atteb y Phariſæaid am yſcar· 13 Yn derbyn plãt, yn atteb y golludog am etifeddu teyrnas nef, 28 Ai ddiſcyblion hefyd· 33 I ba rai y mae yn prophwydo am ei ddioddefaint. 35 Yn atteb meibion Zebedeus. 46 Ac yn rhoi ei olwg i Bartimæus.

Math.19.1. AC efe *a gyfododd oddi yno, ac a aeth i dueddau Iudæa trwy'r tu hwnt i'r Iorddonẽ, a'r dyrfa a dynnodd trachefn ato: ac yntef fel yr arfere a'u dyſcodd hwynt trachefn.

2 Yna y daeth y Phariſæaid, ac a ofynnaſant iddo: a oedd rydd i ŵr roi ymmaith ei wraig, gan ei demtio ef.

3 Yntef a attebodd gan ddywedyd wrthynt: beth a orchymynnodd Moſes i chwi?

4 A hwynt hwy a ddywedaſant, *Moſes a ganiataodd roi llythyr yſcar, a'i gollwng hi ymmaith. Deut.24.2.

5 Yna'r attebodd yr Ieſu, ac a ddywedodd wrthynt: o achos caledrwydd eich calõnau yr ſcrifennodd efe i chwi y gorchymyn hwnnw:

6 O ddechreuad creadigaeth, yn wryw a benyw y gwnaeth Duw hwynt. Gen.1.27. math.19.4.

7 Am hynny* y gâd dŷn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: Gen.2.24. 2.cor.6.16. ephe.5.31.

8 A hwynt ill dau fyddant vn cnawd, ac felly nid ynt mwy ddau, ond vn cnawd.

9 Am hynny y peth a gydiodd Duw, * na wahaned dŷn. 1.Cor'7.10.

10 Ac yn tŷ trachefn y gofynnodd ei ddiſcyblion iddo am yr vn peth.

11 Ac efe a ddywedodd wrthynt: pwy bynnag a ddyru ymmaith ei wraig, ac a brioda vn arall, y mae yn torri priôdas â hi. Math.5.32. & 19.9. mar.10.11. luc.16.18.

12 Ac os gwraig a ddyru ymmaith ei gŵr, a phriodi vn arall, y mae hi yn torri priodas.

13 Ac *hwy a ddugaſant blant atto, fel y cyffyrdde efe â hwynt: a'r diſcyblion a geryddent y rhai a'u dugaſe hwynt. Math.19.15. luc.18.13.

14 A'r Ieſu pan welodd hynny fu anfodlon, ac a ddywedodd wrthynt: gedwch i blãt ddyfod attafi, ac na waherddwch hwynt: canys i'r cyfryw y perthyn teyrnas nefoedd.

15 Yn wir meddaf i chwi: pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw fel plentyn nid aiff i mewn iddi.

16 Ac efe a'u cofleidiodd hwynt, ac a roddes [ei] ddwylo arnynt, ac a'u bendithiodd.

17 Ac wedi iddo fyned i'r ffordd, y * rhedodd vn ac a oſtyngodd iddo, ac a ofynnodd iddo: ô Athro da, beth a wnaf i gael meddiannu bywyd tragywyddol? Math.19.16. luc.18.18.

18 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho, pa ham y gelwi fi yn dda, nid oes neb da ond vn ſef Duw.

19 Ti a ŵyddoſt y gorchymynnion, *na odineba, na lâdd, Na ledrata, Na cham deſtiolaetha Na wna niwed: Anrhydedda dy dad a'th fam. Exod.20.13.

20 Yntef a attebodd, ac a ddywedodd wrtho: Athro, hyn oll a gedwais o'm hieuengtid.

21 Yr Ieſu gan edrych arno a'i hoffodd, ac a ddywedodd wrtho, vn peth ſydd ddiffygiol i ti: dos a gwerth yr eiddot oll, a dod i'r tlodion, a thi a gei dryſſor yn y nef, a thyret i'm dilyn i, a dwg dy groes·

22 Eithr efe a driſtaodd wrth yr ymadrodd hwn, ac a aeth ymmaith yn athriſt: canys yr oedd ganddo gyfoeth mawr.

23 A'r Ieſu wedi edrych o'i amgylch, a ddywedodd wrth ei ddiſcyblio͂: mor anhawdd yr aiff y rhai y mae golud ganddynt i deyrnas Dduw?

24 A'r diſcyblion a ofnaſant wrth ei eiriau ef: a'r Jeſu a attebodd drachefn, ac a ddywedodd wrthynt: fy mhlant: mor anhawdd yw i'r rhai ſy a'u hymddyried yn eu golud, fyned i deyrnas Duw?

25 Y mae yn haws i gamel fyned trwy grau nodwydd, nag i oludog fyned i deyrnas Duw.

26 A hwynteu a aruthraſant fwy-fwy, gan ddywedyd wrthynt eu hunain: Pwy gan hynny a all fod yn gadwedig?

27 A'r Jeſu a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd, gyd â dynion amhoſſibl yw: ac nid gyd â Duw: canys pob peth ſydd boſſibl gyd â Duw.

Math. 19.27. luc.18.28.

28 Yna y dechreuodd Petr ddywedyd wrtho, *wele ny ni a adawſom bôb peth, ac a'th ddilynaſom di.

29 Yr Jeſu a attebodd, ac a ddywedodd, yn wir meddaf i chwi, nid oes neb a'r adawodd dŷ, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd o'm hachos i a'r Efengyl,

30 A'r ni dderbyn y canfed: yr awran yn y pryd hwn, dai, a brodyr, a chwiorydd, a mãmau, a phlant, a thiroedd, gyd ag erlid, ac yn y byd a ddaw fywyd tragywyddol.

Math.19.30. luc.13.30.

31 *Llawer rhai cyntaf a fyddant ddiweddaf a'r diweddaf [fyddant] cyntaf.

32 Ac yr oeddynt ar y ffordd yn myned i fynu i Jeruſalem, ac yr oedd yr Jeſu yn myned oi blaen hwynt, a dychrynu a wnaethant, ac ofni yn canlyn. Ac wedi iddo trachefn gymmeryd y deuddec, efe a ddechreuodd fynegu iddynt y pethau a ddigwyddent iddo ef.

Math.20.17. luc.18.31.

33 Canys, wele, yr ydym ni yn myned i fynu i Jeruſalem, a Mâb y dŷn a draddodir i'r arch-offeriaid a'r ſcrifennyddion, a hwynt a'i barnant ef i farwolaeth, ac a'i rhoddant ef i'r cenhedloedd,

34 Y rhai a'i gwatwarant ef, ac a'i fflangellant, ac a boerant arno, ac a'i lladdant ef: a'r trydydd dydd yr adgyfyd.

Math.20.20.

35 Yna y *daeth atto Jaco, ac Joan meibion Zebedæus, gan ddywedyd, Athro ni a fynnem wneuthur o honot i ni yr hyn a ddymunem ni.

36 Yntef a ddywedodd wrthynt: beth a fynnech i mi ei wneuthur i chwi?

37 Hwythau a ddywedaſant wrtho: caniadhâ i ni, eiſtedd, un ar dy ddeheu-law, a'r llall ar dy aſſwy yn dy ogoniant.

38 A'r Jeſu a ddywedodd wrthynt: ni wŷddoch pa beth yr ydych yn ei ofyn, a ellwch chwi yfed o'r cwppan yr wyfi yn ei yfed, a'ch bedyddio â'r bedydd yr hwn i'm bedyddir i ag ef?

39 A hwynt a ddywedaſant wrtho, gallwn. a'r Jeſu a ddywedodd wrthynt: diau yr yfwch o'r cwppan yr yfwyf: ac i'ch bedyddir o'r un bedydd â'r hwn y bedyddir fi ag ef:

40 Ond eiſtedd ar fy neheu-law, a'm haſſwy, nid eiddofi yw rhoddi: eithr i'r rhai y darparwyd

41 A phan glybu'r dêc y pethau hyn, dechreuaſant ddigyſtyru Jaco, ac Joan.

42 A'r Jeſu wedi eu galw hwynt a ddywedodd wrthynt, chwi a wŷddoch *fod y rhai a dybir eu bod yn tra-llywodraethu ym mhlith y cenhedloedd, yn arglwyddiaethu arnynt: a'r ſawl ſy bennaethiaid yn eu myſc hwynt yn ymawdurdodi arnynt.

Luc.22.25.

43 Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynnag a ewyllyſſio fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi.

44 A phwy bynnag o honoch a fynno fod yn bennaf, bydded wâs i bawb.

45 Canys ni ddaeth Mab y dŷn iw waſanaethu, ond i waſanaethu, ac i roi ei enioes yn brid-werth tros lawer.

46 Yna y daethant i Jericho, ac efe yn myned allan o Jericho, gyd â'i ddiſcyblion, a thyrfa fawr, *Bartimæus mab Timæus, [un] dall a oedd yn eiſtedd ar fin y ffordd yn cardotta.

Math.20.29. luc.18.35.

47 A phan glybu, mai efe oedd yr Jeſu o Nazareth, efe a ddechreuodd lefain a dywedyd, Jeſu fab Dafydd trugarhâ wrthif.

48 A llawer a'i ceryddaſant ef, i geiſio ganddo dewi: eithr efe a lefodd fwy-fwy, Mab Dafydd trugarhâ wrthif.

49 Yna yr Jeſu a ſafodd, ac a archodd ei alw ef: ac hwynt a alwaſant y dall gan ddywedyd wrtho, cymmer galon, cyfot, y mae efe yn dy alw di.

50 Yntef a daflodd ei gochl ymmaith, ac a gododd, ac a ddaeth at yr Jeſu.

51 A'r Jeſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Beth a fynnit i mi ei wneuthur i ti? a'r dall a ddywedodd wrtho, ô Arglwydd caffael fyng-olwg.

52 A'r Jeſu a ddywedodd wrtho, dos ymmaith, dy ffydd a'th iachaodd: ac yn y man y cafodd efe ei olwg, ac efe a ddilynodd yr Jeſu ar hŷd y ffordd.

## PEN. XI.

Criſt yn marchogaeth i Ieruſalem. 14. yn melldithio y ffiguſ-bren 15 yn bwrw y pryn-wyr a'r gwerthwyr o'r deml, 22 yn annog i gredu a maddeu 27 Ac yn gofyn o ba le yr oedd bedydd Ioan.

Math.21.1. luc.19.29.

AC *wedi eu dyfod yn agos i Jeruſalem i Bhethphage a Bethania hyd fynydd yr Olewydd, efe a anfones ddau o'i ddiſcyblion,

2 Ac a ddywedodd wrthynt, ewch ymmaith i'r dref yr hon ſydd gyferbyn â chwi: ac er cynted y deloch yno, chwi a gewch ebol wedi ei rwymo, (ar yr hwn nid eiſteddodd neb) gollyngwch a dygwch ef.

3 Ac os dywed neb wrthych, pa ham y gwnewch hynny? dywedwch, am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho ef: ac heb oludd efe a'i denfyn ymma.

4 Ac hwy a aethant ymmaith, ac a gawſant yr ebol yn rhwym wrth y drws oddi allan, mewn croeſ-ffordd, ac a'i gollyngaſant ef.

5 A rhai o'r rhai oeddynt yn ſefyll yno a ddywedaſant wrthynt, beth a wnewch chwi yn gollwng yr ebol yn rhydd?

6 Hwythau a ddywedaſant fel y gorchymyn

naſe yr Ieſu iddynt, ac yna y gollyngaſant hwynt ymmaith.

Iohn.12.14. 7 Ac hwy a ddaethant â'r ebol at yr Ieſu, ac a fwriaſant eu dillad arno, ac efe a eiſteddodd arno.

8 A llawer a danaſant eu dillad ar hŷd y ffordd, eraill a dorraſant gangeu o'r prenni, ac a'u tanâſant ar y ffordd.

9 A'r rhai oeddent yn myned o'r blaen a'r rhai oeddent yn dyfod o'r ôl a lefâſant gan ddywedyd: *Hoſanna, bendigedîg [fyddo] 'r hwn ſydd yn dyfod yn enw 'r Arglwydd,
Pſal.118.26.

10 Bendigaid [fyddo] teyrnas ein tâd Dafyd, yr hon a ddaw yn enw 'r Arglwydd, Hoſanna yn y goruchelder.

11 A'r Ieſu a aeth i mewn i Ieruſalem, ac i'r Deml, ac wedi iddo edrych ar bôb peth o'i amgylch (a hi yr awran yn hwŷr) efe a aeth allan i Bethania gyd â'r deuddec.

Math.21.17. 12 A * thrannoeth wedi iddynt ddyfod o Bethania yr oedd arno chwant bwyd:

13 Ac wedi iddo ganfod o hirbell ffigusbrẽ, ac arno ddail, efe a aeth [i edrych] a gaffe ddim arno: a phan ddaeth atto, ni chafodd efe ddim ond dail, am nad oedd amſer ffigus.

14 Yna'r Ieſu gan atteb a ddywedodd wrth y ffigusbren: o hyn allan na fwyttaed neb o honot ffrwyth yn dragywydd, a'i ddiſcyblion ef a glywſant.

Math.21.12. luc.19.45. 15 A * hwynt a ddaethant i Ieruſalem: ac Ieſu wedi myned i'r Deml, a ddechreuodd daflu allan y rhai a werthent, ac a brynent yn y Deml, ac a ymchwelodd dreſteleu'r arianwŷr, a chadeirieu 'r gwerthwŷr colomennod.

16 Ac ni adawe efe i neb ddwyn lleſtr drwy 'r Deml.

17 Ac efe a'u dyſcodd gan ddywedyd wrthynt: onid yw yn ſcrifennedic, y * gelwir fy nhŷ mauſi, yn dŷ gweddi i bôb cenhedlaeth? a chwi a'i gwnaethoch ef yn ogof lladron.
Eſa.56.7. Ierem.7.11.

18 A'r ſcrifennyddion a'r arch-offeiriaid a glywſant hyn, ac a geiſſiaſant fodd iw ddifetha ef: canys oeddynt yn ei ofni ef, am fod yr holl dyrfa yn rhyfeddu o blegit ei athrawiaeth ef.

19 A phan aeth hi yn hwŷr, efe a aeth allan o'r ddinas.

Math.21.20. 20 A'r * boreu wrth fyned heibio, gwelſant y ffigusbren wedi crîno o'r gwraidd.

21 Yna'r argofiodd Petr, ac efe a ddywedodd wrtho, Athro, wele'r ffigusbren a felltithiaiſt wedi crîno.

22 A'r Ieſu a atebodd, ac a ddywedodd wrthynt: bydded gennych ffydd ar Dduw.

23 Canys yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, mai pwy bynnag a ddywedo wrth y mynydd hwn: tynner di ymmaith, a bwrier di i'r môr: ac nid amheuo yn ei galon, ond credu y daw i ben y pethau a ddywedo efe, beth bynnag a archo a fydd iddo.

Math.7.1. luc.11.9. 24 Am hynny meddaf i chwi, * Beth bynnag oll a geiſiwch wrth weddio, credwch y derbyniwch, ac fe fydd i chwi.

25 A phan ſafoch ar weddio, * maddeuwch o bydd gennych ddim yn erbyn neb, fel y maddeuo eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd i chwithau eich camweddau. Math.6.14.

26 Ac oni faddeuwch chwi: eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd ni faddeu i chwithau eich camweddau.

27 Yna y daethant trachefn i Ieruſalem, * ac fel yr oedd efe yn rhodio yn y Deml, yr arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion a'r henuriaid a ddaethant atto, Math.21.23. luc.20.2.

28 Ac a ddywedaſant wrtho: trwy ba awdurdod yr ydwyt yn gwneuthur y pethau hyn? a phwy a roddes i ti yr awdurdod hon i wneuthur y pethau hyn?

29 Yr Ieſu a atebodd, ac a ddywedodd wrthynt: minef a ofynnaf i chwithau un gair: attebwch fi, a dywedaf i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

30 Bedydd Ioan ai o'r nef yr oedd, ai o ddynion? attebwch fi.

31 Ac ymreſymmu a wnaethant ynddynt eu hunain gan ddywedyd. Os dywedwn o'r nef, efe a ddywed, pa ham gan hynny na chredech iddo.

32 Eithr os dywedwn, o ddynion, y mae arnom ofn y bobl: canys pawb oll a gymmerent Ioan yn wir brophwyd.

33 Yna yr attebaſant gan ddywedyd wrth yr Ieſu, ni wyddom ni, a'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt hwythau, ni ddywedaf finne i chwithau trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn.

## PEN. XII.

Criſt wrth ddammeg y win-llan yn dangos gwrthodiad y cenhedloedd. 14 Yn atteb yn rhagorol am y deyrn-ged. 18 Am yr adgyfodiad. 29 Ac am y gorchymyn cyntaf. 35 Yn gofyn pa ham y gelwid Criſt yn fab i Ddafydd, ac yn erchi gochelyd i hagrith yr ſcrifennyddion. 43 Ac yn canmol offrwm y weddw dlawd.

AC efe * a ddechreuodd ddywedyd wrthynt ar ddamhegion: gŵr a blannodd winllan, ac a roes gae o'i hamgylch, ac a gloddiodd lynn, ac a adailadodd dŵr, ac a'i llogodd hi i lafur-wŷr, ac a aeth ym mhell o'i wlad, Mat.21.33. luc.20.9. eſa.5.1. ierem.2.21.

2 Ac a anfonodd ei wâs mewn amſer at y llafur-wŷr fel y derbynie gan y llafur-wŷr o ffrwyth y win-llan.

3 A hwynt a'i daliaſant ef, ac a'i baeddaſant, ac a'i troeſant ymmaith yn wag-law.

4 A thrachefn yr anfonodd efe attynt wâs arall, a hwnnw wedi iddynt ei labyddio, a rhoddi briw pen iddo, a anfonaſãt mewn ammarch.

5 A thrachefn yr anfonodd efe un arall, a hwnnw a laddaſant, a llawer eraill: gan faeddu rhai, a lladd y lleill.

6 Ym mhellach pã oedd iddo etto un mab annwyl, efe a ddãfonodd hwnnw attynt, yn ddiwedaf, gan ddywedyd, hwynt hwy a barchant fy mab i.

7 Ond y llafur-wŷr hynny a ddywedaſant yn eu plith eu hunein: hwn yw 'r etifedd, deuwch lladdwn ef, a'r etifeddiaeth fydd eiddom ni.

8 Yna y cymmeraſant ef, ac a'i lladdaſant, ac a'i bwriaſant allan o'r win-llan.

9 Beth gan hynny a wna arglwydd y winllan? efe a ddaw, ac a ddiſetha 'r llafur-wŷr, ac a rydd y win-llan i eraill.

Psal.118.22. Eſa.28.16. Math.21.42. Act.4.11. Rom.9.33. 1.Pet.2.8.

10 Oni ddarllenaſoch yr Scrythr hon:* y maen yr hwn a wrthododd yr adeilad-wŷr, a wnaethpwyd yn ben y gongl?

11 Hyn a wnaethpwyd gan yr Arglwydd, a rhyfedd yw yn ein golwg ni.

12 A hwynt a gaiſiaſant ei ddala ef, ac yr oedd arnynt ofn y dyrfa: canys gŵyddent mai yn eu herbyn hwynt y dywedaſe efe y ddammeg honno: ac hwynt hwy a'i gadawſant ef, ac a aethant ymmaith.

Math.22.15. Luc.20.20.

13 A *hwynt a anfonaſant atto rai o'r Phariſæaid, ac o'r Herodiaid, fel y rhwydent ef yn [ei] ymadrodd.

14 Y rhai pan ddaethant a ddywedaſant wrtho: yr Athro, ni a ŵyddom dy fod yn airwir, ac nad gwaeth gennit ti am nêb, ac nad wyt yn edrych yn wyneb dynion, a'th fod yn dyſcu ffordd Dduw mewn gwirionedd: ai iawn rhoi teyrn-ged i Cæſar ai nid yw? a roddwn ai ni roddwn [hi?]

15 Ond efe gan ŵybod eu rhagrith hwynt, a ddywedodd wrthynt, paham y temtiwch fi? dygwch i mi geniog, fel y gwelwyf [hi].

16 A hwynt a ddygaſant, ac efe a ddywedodd wrthynt, pwy pieu 'r ddelw hon a'r orgraph? a hwynt hwy a ddywedaſant, Cæſar.

Rom.13.7.

17 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt *rhoddwch yr eiddo Cæſar i Cæſar, a'r eiddo Duw i Dduw: a rhyfeddu a wnaethant o'i blegit.

Math.22.23. Luc.20.27.

18 * Daeth y Saducæaid hefyd atto (y rhai a ddywedant nad oes adgyfodiad) a gofynnaſant iddo gan ddywedyd:

Deut.25.5.

19 Athro, *Moſes a ſcrifennodd i ni: o bydd marw brawd neb, a gadu [ei] wraig, ac heb adu plant: cymmered ei frawd ei wraig ef, a choded had iw frawd.

20 Yr oedd ſaith o frodyr, y cyntaf a gymmerth wraig, a phan fu farw ni adawodd hâd.

21 A'r ail a'i cymmerth hi, ac a fu farw, ac ni adawodd yntef hâd: a'r trydydd yr vn modd.

22 Ac hwy a'i cymmeraſant hi eill ſaith, ac ni adawſant hâd, yn ddiweddaf oll y bu farw 'r wraig.

23 Yn yr adgyfodiad gan hynny, pan adgyfodant, gwraig i bwy o honynt fydd hi? canys y ſaith a'i cawſant hi yn wraig.

24 Yna 'r attebodd yr Ieſu, ac a ddywedodd wrthynt, ond am hyn yr ydych yn cyfeiliorni, am nad ydych yn gŵybod yr ſcrythurau, na gallu Duw.

25 Canys wedi iddynt adgyfodi o feirw, ni wreighânt ac ni ŵrhânt, eithr y maent fel yr angelion y rhai ydynt yn y nefoedd.

Exod.3.6. Math.22.32.

26 Am y meirw, [ſef] yr adgyfodir hwynt trachefn: oni ddarllenaſoch chwi yn llyfr * Moſes, y modd y llefarodd Duw wrtho yn y berth gan ddywedyd, myfi yw Duw Abraham, a Duw Iſaac, a Duw Iacob?

27 Nid yw efe Dduw 'r meirw, ond Duw y rhai byw: am hynny eich mawr dwyllir chwi.

Math.22.35.

28 * Yna y daeth vn o'r ſcrifennyddion, yr hwn a'i clywſe hwynt yn ymddadleu, [ac] a ŵyddiad atteb o honaw iddynt yn gymmwys, ac a ofynnodd iddo beth oedd y gorchymyn cyntaf o'r cwbl.

Deut.6.4.

29 Yr Ieſu a attebodd iddo, mai'r gorchymyn cyntaf [yw,] Clyw Iſrael, * yr Arglwydd ein Duw vn Arglwydd yw.

30 Tithe a geri 'r Arglwydd dy Dduw, â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth, hwn yw 'r gorchymyn cyntaf.

Lefit.19.18. Math.22.39. Rom.13.9. Gal.5.21.

31 A'r ail [ſydd] yn gyffelyb iddo yntef: * ceri dy gymmydog fel ti dy hun, nid oes orchymyn arall mwy nâ'r rhai hyn.

32 Yna y dywedodd yr ſcrifennudd wrtho, da athro, mewn gwirionedd y dywedaiſt, mai vn Duw ſydd, ac nad oes neb arall ond efe.

33 Ai garu ef â'r holl galon, ac â'r holl ddeall, ac â'r holl enaid, ac â'r holl nerth: a charu [ei] gymmydog megis ei hûn, ſydd fwy na holl boeth offrymmau, ac aberthau.

34 Yna 'r Ieſu yn ei weled ef yn atteb yn ſynhwyrol a ddywedodd wrtho, nid wyt ti bell oddi wrth deyrnas Dduw, ac ni feiddiodd neb mwy ymofyn ag ef.

Math.22.42. Luc.20.41.

35 * A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd, wrth ddyſcu yn y Deml: pa fodd y dywed yr ſcrifennyddion fod Criſt yn fab Dafydd?

36 Canys Dafyd ei hun a ddywedodd trwy 'r Yſpryd glân: yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheulaw hyd oni roddwyf dy elynnion yn droedfaingc i ti.

Math.23.6. Luc.11.43.

37 Am hynny, a Dafydd yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn fab iddo? a llawer o bobl a'i gwrandawent ef yn ewyllyſcar.

38 Ac* efe a ddywedodd wrthynt yn ei ddyſceidiaeth, ymogelwch rhag yr ſcrifennyddion y rhai a fynnant fyned mewn gwiſcoedd lleiſion, a chael cyfarch yn y marchnadoedd,

39 A'r eiſteddfeudd cyntaf yn y cymmanfaoedd, a'r eiſteddleoedd cyntaf mewn ſwpperau.

Math.23.6. Luc.20.47.

40 Y * rhai ſy yn llyngcu tai gwragedd gweddwon, a [hynny] yn rhith hir weddio: y rhai hyn a dderbyniant farnedigaeth fwy.

Luc.21.1.

41 A phan * eiſteddodd yr Ieſu, gyferbyn a'r tryſſordŷ, efe a edrychodd pa fodd yr oedd y bobl yn bwrw arian i'r tryſſor dŷ: a chyfoethogion lawer a fwriaſant lawer.

42 A phan ddaeth rhyw wraig weddw

dlawd, [a] bwrw i mewn ddwy hatling, yr hyn yw ffyrlyng.

43 Yna wedi iddo alw ei ddiſcyblion, efe a ddywedodd wrthynt, yn wîr yr wyf yn dywedyd i chwi, fwrw o'r wraig weddw dlawd hon fwy i mewn, nâ'r rhai oll a fwriaſant i'r tryſſordŷ.

44 Canys hwynt hwy oll a fwriaſant o'u hamldra, hithe o'i phrinder a fwriodd i mewn yr hyn oll a fedde hi, nid amgen cwbl a'r oedd iddi i fyw.

## PEN. XIII.

Criſt yn dangos y difethid Ieruſalem, 9 yr erlidid y ffyddloniaid, 22 y deue gau athrawon, 24 pa arwyddion fyddant o flaen dydd farn. 32 na wyr neb yr awr, 35 ac y dylem ni am hynny wilied bob amſer.

Math.24.1. Luc.21.5. AC *fel yr aeth efe allan o'r Deml y dywedodd vn o'i ddiſcyblion wrtho: Athro, edrych pa ryw feini, a pha fath adeilad [yw hon.]

Luc.19.43. 2 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, a *weli di 'r adeilad fawr ymma? ni edir maen ar faen a'r ni's gwaſcerir.

3 Ac fel yr oedd efe yn eiſtedd ar fynydd Olewydd, gyferbyn a'r Deml, Petr, ac Iaco, ac Ioan, ac Andreas a ofynnaſant iddo yn ddirgel,

4 Dywet i ni, pa bryd y bydd y pethau hyn: a pha arwydd fydd pan orphenner y pethau hyn oll?

Eph.5.6. 2.Theſſ.2.3. 5 A'r Ieſu a attebodd iddynt, ac a ddechreuodd ddywedyd, *edrychwch rhag twyllo o neb chwi:

6 Canys llawer a ddeuant yn fy enw i, gan ddywedyd, myfi yw [Criſt:] ac a dwyllant lawer.

7 Pan glywoch hefyd am ryfeloedd a ſôn am ryfeloedd, nac ofnwch: canys rhaid i hynny fod, ac etto ni [bydd] y diwedd.

8 Canys cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas, a daiar-grynfâu fyddant mewn amryw leoedd, a drudaniaeth a thrallod fyddant.

9 Dechreuad blinder yw hyn: eithr diſgwiliwch chwi arnoch eich hunain: canys hwynt hwy a'ch traddodant i'r cyngor, ac i'r ſynagogau, chwi a faeddir, ac a ddygir ger bron rhaglawiaid a brenhinoedd o'm hachos i, er teſtiolaeth iddynt hwy.

10 Ac y mae yn rhaid yn gyntaf pregethu 'r Eſengyl ym myſc pob cenhedlaeth.

Math 10.19. Luc.12.11. 11 Pan *ddygant chwi a'ch traddodi, na ragofelwch, ac na ragfyfyriwch beth a ddywetoch eithr pa beth bynnac a rodder i chwi yn yr awr honno, hynny dywedwch: canys nid chwychwi ſy yn dywedyd, onid yr Yſpryd glân.

12 A'r brawd a ddyru 'r brawd i farwolaeth, a'r tâd y mab, a'r plant a gyfodant yn erbyn eu rhieni, ac a barant eu rhoi iw marwolaeth.

13 A chwi a fyddwch gâs gan bawb er mwyn fy enw i: eithr y neb a barhâo hyd y diwedd fydd cadwedig.

Math.24.15. Dan.9.27. 14 Pan *weloch chwi y ffieidd-dra anrheithiol, yr hwn a ddywedpwyd gan Ddaniel y prophwyd, wedi ei oſod lle ni's dylid (y neb a ddarlleno dealled) yna y rhai fyddant yn Iudæa *ciliant i'r mynyddoedd. Luc.21.20.

15 A'r neb fyddo ar ben y tŷ na ddeſcynned i'r tŷ, ac nac aed i mewn i gymmeryd dim o'i dŷ.

16 A'r neb a fyddo yn y maes na throed trach ei gefn yn ei ôl, i gymmeryd ei wiſc.

17 Gwae y rhai fyddant beichiogion a'r mamaethod yn y dyddiau hynny.

18 Gweddiwch na byddo eich ffoedigaeth yn y gaiaf.

19 Canys y dyddiau hynny a fyddant [y fath] orthrymder na bu 'r cyfryw o ddechreuad y creaduriaid a greodd Duw hyd y pryd hwn, ac ni bydd.

20 Ac oni bydde i'r Arglwydd fyrhau 'r dyddiau hynny, pob cnawd a gyfrgollid: eithr er mwyn ei etholedigion y rhai a etholodd efe, y byrhaodd efe y dyddiau hynny.

Math.24.23. Luc.21.8. 21 Ac yna os dywed neb wrthych, *wele Criſt ymma, neu wele accw, na chredwch.

22 Canys gau griſtiau, a gau brophwydi a gyfodant, ac a ddangoſant arwyddion a rhyfeddodau i dwyllo ie pe gellid yr etholedigion.

23 Eithr ymogelwch chwi, wele dywedais i chwi 'r cwbl oll.

Ezech.32.7. Eſa 13.10. Ioel.2.10. 24 A hefyd yn y dyddiau hynny wedi 'r gorthrymder hwnnw *y tywylla 'r haul, a'r lloer ni rydd ei goleuni.

25 A ſêr y nef a ſyrthiant, a'r nerthoedd y rhai ydynt yn y nefoedd a ſymmudir.

26 Ac yna y gwelant Fab y dŷn yn dyfod yn y cwmylau, â gallu mawr a gogoniant.

27 Ac yna yr enfyn efe ei angelion, ac y cynnull ei etholedigion oddi wrth y pedwar gwynt, o eithafoedd y ddaiar hyd eithafoedd y nef.

28 Gan y ffigus-bren dyſcwch gyffelybiaeth: pan fyddo ei gangeu ef yn dyner, ac yn blaguro dail, chwi a ŵyddoch fod yr haf yn agos:

29 Felly chwithau, pan weloch y pethau hyn wedi dyfod, gwybyddwch fod [teyrnas Dduw] yn agos wrth y drws.

30 Yn wîr yr wyf yn dywedyd i chwi nad aiff yr oes hon heibio, hyd oni wneler y pethau hyn oll.

31 Nef a daiar a ânt heibio, ond fyng-eiriau mauſi nid ânt heibio.

32 Eithr am y dydd hwnnw a'r awr, ni ŵyr neb, na'r angelion y rhai ydynt yn y nef, na'r Mab, ond y Tâd.

33 *Ymogelwch, gwiliwch a gweddiwch, canys ni ŵyddoch pa bryd y bydd yr amſer. Math.24.31.

34 [Canys Mab y dyn ſydd] fel gŵr yn ymdaith i bell, ac yn gadel ei dŷ, ac yn rhoi awdurdod iw weiſion, ac i bob vn ei waith, ac yn gorchymyn i'r porthor wilio.

35 Gwiliwch am hynny (gan na ŵyddoch pa

bryd

hyd y daw meiſtr y tŷ, yn yr hwyr, ai hanner nos, ai ar ganiad y ceiliog, ai'r boreu-ddydd.

36 Rhag pan ddel efe yn ddiſymmwth, eich cael o honaw yn cyſcu.

37 A'r hyn yr wyf yn eu dywedyd wrthych-chwi, yr wyf yn eu dywedyd wrth bawb, Gwiliwch.

## PEN. XIIII.

Yr Iddewon yn cydfwriadu yn erbyn Criſt. 3 Mair Magdalen yn ei eneinio ef. 12 Criſt yn bwyta'r oen Paſc. 18 Yn rhag-rybuddio y bradychid ef. 22 Ac yn ordeinio ei fendigedig ſwpper. 45 Yr Iddewon wedi i Iudas ei fradychu ef â chuſan yn ei ddal ef, ac yn ei gyſtuddio. 67 A Phetr yn ei wâdu ef deirgwaith.

*Yr Efengyl y llun neſaf cyn y Paſc.*
Math.26.1.
Luc.22.1.

☞ A'R ben deuddydd wedi yr oedd y Paſc a [gŵyl] y bara croiw: a'r arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion a geiſiaſant pa ffordd y dalient ef trwy dwyll iw ladd.

2 Eithr dywedaſant: nid ar yr ŵyl, rhac bod cynnwrf ym mhlith y bobl.

3 Pan oedd efe ym Bethania yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus, ac efe yn eiſtedd, daeth gwraig a chanddi flwch o ennaint o ſpicnard gwerthfawr, a hi a dorrodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef.

4 Am hynny yr oedd rhai yn anfodlòn ynddynt eu hunain gan ddywedyd: i ba beth y gwnaethbwyd y golled hon ar enaint?

5 O blegit fe a allaſid gwerthu hwn uwch-law trychan ceiniog, a'u rhoddi i'r tlodion, ac hwy a derfyſcaſant yn ei herbyn hi.

6 A'r Ieſu a ddywedodd, Gedwch iddi, pa ham yr ydych yn anheddychu arni? hi a wnaeth weithred dda arnafi:

7 Canys bob amſer y cewch y tlodion gyd â chwi, a phan fynnoch y gellwch wneuthur da iddynt: ond myfi ni chewch bob amſer.

8 Hon a wnaeth hynn a allodd, hi a eneiniodd fyng-horph ym mlaen llaw erbyn y claddedigaeth.

9 Yn wir meddaf i chwi, pa le bynnag y pregethir yr Efengyl hon yn yr holl fyd, yr hyn a wnaeth hon a adroddir er coffa am deni.

Math.26.14.
Luc.22.4.

10 Yna * Iudas Iſcariot un o'r deuddeg a aeth ymmaith at yr arch-offeiriaid iw fradychu ef iddynt.

11 A phan glywſant ef, llawen oedd ganddynt, ac hwy a addawſant roddi arian iddo: am hynny y ceiſiodd, pa fodd y galle yn gymmwys ei fradychu ef.

Math.26.17.
Luc.22.7.

12 A'r * dydd cyntaf o ŵyl y bara croiw, pan aberthâſant y Paſc, y dywedodd ei ddiſcyblion wrtho: I ba le yr wyt yn ewyllyſio i ni fyned i baratoi iti fwytta'r Paſc?

13 Ac efe a anfonodd ddau o'i ddiſcyblion gan ddywedyd wrthynt: Ewch i'r ddinas, ac fe a gyfarfydd dŷn â chwi yn dwyn ſtened o ddwfr, dilynwch ef:

14 A pha le bynnag yr êl i mewn, dywedwch wrth ŵr y tŷ: fod yr Athro yn dywedyd, Pa le y mae'r lletŷ, lle y gallwyf mi â'm diſcyblion fwytta'r Paſc?

15 Ac efe a ddengys i chwi ſtafell fawr wedi ei thânu yn barod, yna paratoiwch i ni.

16 A'r ddiſcyblion a aethant, ac a ddaethant i'r ddinas, ac a gawſant megis y dywedaſe efe wrthynt, ac a baratoâſant y Paſc.

17 Ac yn yr hwyr y daeth efe gyd â'r deuddeg.

Math.26.21.
Luc.22.21.
Iohn.13.21.

18 Pan eiſteddaſant a bwytta, * dywedodd yr Ieſu, yn wir meddaf i chwi, un o honoch a'm bradycha fi yr hwn ſydd yn bwytta gyd â mi.

19 Hwythau a ddechreuaſant driſtau, a dywedyd wrtho ol yn ol: ai myfi? ac arall, ai myfi?

20 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, un o'r deuddec yr hwn ſydd yn gwlychu gyd â mi yn y ddyſcl [yw efe.]

21 Mab y dŷn yn wir ſydd yn myned ymmaith fel y mae yn ſcrifennedic am dano: ond gwae'r dŷn hwnnw trwy'r hwnn y bradychir Mab y dŷn, da fuaſe i'r dŷn hwnnw pe buaſe heb ei eni.

Math.26.26.
Luc.22.19.
1.Cor.11.24.

22 Ac fel * yr oeddent yn bwytta, yr Ieſu a gymmerth fara, ac wedi iddo roi diolch, efe ai torres ac ai rhoddes iddynt, ac a ddywedodd, cymmerwch, bwyttewch, hwnn yw fyng-horph.

23 Ac efe a gymmerth y cwppan, ac wedi iddo ddiolch, efe a'i rhoddes iddynt, a hwynt oll a yfaſant o honaw.

24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, hwnn yw fyng-waedi o'r Teſtament newydd, yr hwnn a dywelldir tros lawer.

25 Yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych: nad yfaf mwy o ffrwyth y winwŷdden, hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef yn newydd yn nheyrnas Duw.

26 Ac wedi iddynt roi moliant, hwynt hwy a aethant allan i fynydd Olewydd.

Iohn.16.32.
Zach.13.7.

27 A dywedodd yr Ieſu wrthynt: * y nos hon i'ch rhwyſtrir chwi oll o'm hachos i. Canys ſcrifennedic yw, * Tarawaf y bugail, a'r defaid a waſcerir.

Marc.16.7.

28 Eithr wedi i mi adgyfodi * mi a âf o'ch blaen i Galilæa.

29 Petr a ddywedodd wrtho: pe rhwyſtrid pawb, ni [rwyſtrir] mo honofi.

30 Yna y dywedodd yr Ieſu wrtho: yn wir yr ydwyf yn dywedyd i ti: heddyw o fewn y nos hon cyn canu o'r ceiliog ddwy-waith, y gwedi fi dair-gwaith.

31 Ac efe a ddywedodd yn gadarnach o lawer, pe gorfydde i mi farw gyd â thi ni'th wadaf, yr un modd hefyd y dywedaſant oll.

Math.26.36.
Luc.22.39.

32 Ac * wedi iddynt ddyfod i'r lle a elwir Gethſemane, yna efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, eiſteddwch ymma tra fyddwyf yn gweddio.

33 Ac efe a gymmerth gyd ag efe Petr ac Iaco, ac Ioan, ac a ddechreuodd arſwydo, a thriſtau yn ddirfawr.

34 Ac efe a ddywedodd wrthynt: y mae fy enaid yn driſt hyd angeu, arhoſwch, a gwiliwch.

35 Ac efe a aeth ychydig pellach, ac a ſyrthiodd ar y ddaiar, ac a weddiodd, o bai boſſibl ar fyned yr awr honno oddi wrtho.

36 Ac efe a ddywedodd: Abba, Dad, pob peth a elli di, tro ymmaith y cwppan hwn oddi wrthif: eithr [bydded] nid yr hyn a fynnwyf fi, eithr yr hyn [a fynnech] di,

37 Ac efe a ddaeth ac a'u cafodd hwynt yn cyſcu, ac a ddywedodd wrth Petr: Simon, a'i cyſcu yr wyt? ani allit wilio vn awr?

38 Gwiliwch a gweddiwch, rhag eich myned mewn temtaſiwn: yr yſpryd yn ddiau ſydd ewyllyſcar, eithr y cnawd ſydd wann.

39 Ac wedi iddo fyned eil-waith, efe a weddiodd gan ddywedyd yr vn ymadrodd.

40 Ac wedi iddo ddychwelyd, efe ai cafodd hwynt eil-waith yn cyſcu, (canys yr oedd eu llygaid hwynt yn drymmion) ac ni wyddent beth a attebent iddo.

41 Ac efe a ddaeth y drydedd waith, ac a ddywedodd wrthynt, cyſcwch weithian a gorphywyſwch, digon yw: daeth yr awr: wele, yr ydys yn bradychu Mab y dŷn i ddwylo pechaduriaid.

42 Cyfodwch, awn: wele y mae yr hwn ſydd i'm bradychu yn agos.

Math.26.47. Luc.22. Ioan.18.3. 43 Ac* yn y man ag efe etto yn lleſaru daeth Iudas vn o'r deuddec, a chyd ag ef dyrfa fawr â chleddyfau, a ffynn, oddi wrth yr arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion a'r henuriaid.

44 A'r hwn a'i bradychodd ef a roddaſe arwydd iddynt gan ddywedyd: pwy bynnag a guſſanwyf, hwnnw yw, deliwch ef, a dygwch ymmaith yn ſiccr.

45 A phā ddaeth, yn ebrwydd yr aeth atto, ac a ddywedodd, Rabbi, Rabbi, ac a'i cuſanodd ef.

46 A hwynt a ymafaelaſant ynddo, ac a'i daliaſant.

47 Ac vn o'r rhai oeddynt yn ſefyll ger llaw a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd wâs yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymmaith ei gluſt ef.

48 A'r Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, chwi a ddaethoch allan fel at leidr, â chleddyfau, ac â ffynn i'm dala i.

49 Beunydd yr oeddwn gyd â chwi, yn athrawiaethu yn y Deml, ac ni'm daliaſoch, ond rhaid yw cyflawni'r ſcrythyrau.

50 Yna hwynt hwy oll a'i gadawſant ef, ac a ffoaſant.

51 Ac vn gwr ieuangc oedd yn ei ddilyn ef wedi ymwiſco â lliain ar [ei gorph] noeth, y gwŷr ieuaingc a ddaliaſant hwn.

52 Yr hwn a adawodd y lliain, ac a ddiangodd yn noeth-lwm oddi wrthynt.

Math.26.57. Luc.22.54. Ioan.18.24. 53 *Ac hwy a ddugaſant yr Ieſu at yr arch-offeiriad: a'r oll arch-offeiriaid a'r henuriaid, a'r ſcrifennyddion a ymgaſclaſant gyd ag ef.

54 A Phetr oedd yn ei ddilyn ef o hirbell, oni ddaeth efe i mewn i lŷs yr arch-offeiriad, ac yr oedd yn eiſtedd gyd â'r gwaſanaeth-wŷr, yn ymdwymno wrth y tân.

Math.26.59. 55 A'r* arch-offeiriaid a'r holl gyngor oedd yn ceiſio teſtiolaeth yn erbyn yr Ieſu, iw roi ef iw farwolaeth, ac ni chawſant.

56 Canys llawer a ddugaſant gau deſtiolaeth yn ei erbyn ef, eithr nid oedd eu teſtiolaethau hwynt yn gyſſon.

57 Yna y cyfodes rhai i gau deſtiolaethu yn ei erbyn ef gan ddywedyd:

58 Ni a'i clywſom ef yn dywedyd, *mi a ddiniſtriaf y deml hon o waith dwylo, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw. Ioan.1.19.

59 Ac etto nid oedd eu teſtiolaeth hwynt gymmwys.

60 Yna y cyfododd yr arch-offeiriad yn eu canol hwynt, ac a ofynnodd i'r Ieſu gan ddywedyd: Ond attebi di ddim? Beth y mae y rhai hyn yn ei deſtiolaethu yn dy erbyn?

61 Ac efe a dawodd, ac nid attebodd ddim. drachefn yr arch-offeiriad a ofynnodd iddo gan ddywedyd wrtho: ai ty di yw Chriſt Mab y Bendigedig?

62 Yr Ieſu a ddywedodd, Myfi yw, a* chwi a gewch weled Mab y dŷn yn eiſtedd ar ddehau gallu Duw, ac yn dyfod yng-hwmylau'r nef. Math.24.30.

63 Yna yr arch-offeiriad gan rwygo ei ddillad a ddywedodd: Pa raid i ni mwy wrth dyſtion?

64 Chwi a glywſoch gabledd, beth dybygwch chwi? a hwynt oll a'i barnaſant yn euog o farwolaeth.

65 Yna y dechreuodd rhai boeri arno a chuddio ei wyneb, a'i gernodio, a dywedyd wrtho, prophwyda, a'r gweinidogion a'i tarawſant â gwiail.

66 Ac fel* yr oedd Petr yn y neuadd i wared daeth vn o forwynion yr arch-offeiriad: Math.26.69. Luc.22.55. Ioan.18.25.

67 A phan ganfu hi Petr yn ymdwymno, hi a edrychodd arno, ac a ddywedodd: Tithe hefyd oeddit gyd ag Ieſu o Nazareth.

68 Ac efe a wadodd gan ddywedyd: Nid adwen i, ac ni wn, beth yr wyt yn ei ddywedyd, ac efe a aeth allan i'r porth, a'r ceiliog a gânodd.

69 Yna* 'r forwyn pan welodd hi ef trachefn, hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oeddynt yn ſefyll yno, y mae hwn o honynt. Math.27.71. Luc.22.56. Ioan.18.25.

70 Ac efe a wadodd trachefn: ac ychydig wedi y rhai oeddynt yn ſefyll gerllaw a ddywedaſant wrth Petr trachefn, yn wir yr wyt o honynt, canys Galilead wyt, a'th leferydd ſydd debyg.

71 Yna y dechreuodd efe regu a thyngu, nid adwen i mo'r dŷn yr hwn yr ydych yn ei ddywedyd.

72 *Yna y cânodd y ceiliog eilchwel: a Phedr a goſiodd y gair a ddywedaſe 'r Ieſu wrtho, cyn cânu o'r ceiliog ddwy-waith, ti a'm gwedi deir-gwaith: a chan ruthro allan efe a wylodd. Math.27.57. Ioan.13.38.

## PEN. XV.

Y Pharisæaid yn rhoddi Criſt i Pilat, 11 Ac yn annog y bobl i ddewis Barabbas, ac i wrthod Criſt. 15 Pilat yn peri ffrewyllu Criſt ai roddi i'r milwyr y rhai ai croeſ-hoc-

croeſ-hoeliaſant ef gan ei gyſtuddio cynt a chwedi,
43 Ioſeph yn ei gladdu ef.

*Yr Efengyl ddydd mawrth neſaf o ſlaen y Paſc.*
Math.27.1.
Luc.22.66.

☞ AC *yn y ſan y boreu yr ymgyngorodd yr arch-offeiriaid gyd a'r henuriaid a'r ſcrifennyddion a'r holl gyngor, ac a ddugaſant yr Ieſu yn rhwym, ac a'i rhoddaſant i Pilatus.

2 A gofynnodd Pilatus iddo, a'i ti wyt Frenin yr Iddewon? ac efe a atebodd gan ddywedyd wrtho, yr wyt ti yn dywedyd.

3 A'r arch-offeiriaid a'i cyhuddaſant ef o lawer o bethau.

Math.27.12.
Luc.23.3.
Ioh.18.35.

4 *Pilatus eilwaith a ofynnodd iddo gan ddywedyd, ond atebi di ddim? wele gymmaint ag y maent yn eu teſtiolaethu yn dy erbyn.

5 A'r Ieſu er hynny nid atebodd ddim, megis y rhyfeddodd Pilatus.

6 Ac yr wyl [honno] y gollynge efe yn rhydd iddynt vn carcharor yr hwn a fynnent.

7 Ac yr oedd vn a elwid Barabbas, yr hwn oedd yn rhwym gyd â therfyſc-wyr eraill, y rhai mewn terfyſc a wnaethent lofruddiaeth.

8 A'r dyrfa gan leſain a ddechreuodd ddeiſyf arno wneuthur fel y gwnaethe bob amſer iddynt.

9 Yna Pilatus a attebodd iddynt gan ddywedyd: a fynnwch chwi i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenin yr Iddewon?

10 (Canys efe a wydde mai o genfigen y traddodaſe yr arch-offeiriaid ef,

11 A'r arch-offeiriaid a annogaſent y bobl, [i geiſio] yn hytrach ollwng Barabbas iddynt.

12 Yna Pilatus gan atteb a ddywedodd eilwaith wrthynt: beth gan hynny a fynnwch i mi ei wneuthyd i'r hwn yr ydych yn ei alw Brenin yr Iddewon?

13 Hwyntau a leſaſant trachefn: croeſ-hoelia ef.

14 Yna Pilatus a ddywedodd wrthynt: pa ddrwg a wnaeth efe? hwythau a leſaſant fwy-fwy croeſ-hoelia ef.

15 Felly Pilatus yn chwennych bodloni'r bobl a ollyngodd iddynt Barabbas, ac a rhoddes yr Ieſu wedi iddo ei flangellu iw groeſ-hoelio.

Ioh.19.2.

16 *Yna'r milwyr a'i dugaſant ef i'r llys, yr hwn yw'r dadleudy, ac hwy a alwaſant yng-hyd yr holl fyddin.

17 Ac a'i gwiſcaſant ef â phorphor a chan blethu coron o ddrain, hwynt hwy a'i dodaſant arno,

18 Ac a ddechreuaſant gyfarch iddo: Hanphych well Brenin yr Iddewon.

19 A hwynt a guraſant ei ben ef â chorſen, ac a boeraſant arno, a chan blygu eu gliniau a'i haddolaſant ef.

20 Ac wedi iddynt ei watwar ef, hwy a ddioſcaſant y porphor oddi am dano, ac a'i gwiſcaſant ef â'i ddillad ei hun, ac a'i dugaſant allan fel y croeſ-hoelient ef.

Math.27.32.
Luc.23.26.

21 Ac hefyd hwynt *hwy a gymmellaſant vn a oedd yn myned heibio, [a'i enw] Simon o Cyren (yr hwn a ddaethe o'r wlad, ac oedd dad Alexander a Rufus) i ddwyn ei groes ef.

Math.27.33.
Luc.23.33.
Ioh.19.23.

22 A hwynt *a'i harweiniaſant ef i le [a elwid] Golgotha: yr hwn yw o'i gyfieithu y Benglogfa.

23 Ac a roeſſant iddo iw yfed win myrhllyd, eithr efe ni's cymmerth.

Math.27.35.
Luc.23.35.
Ioh.19.23.

24 Ac *wedi iddynt ei groeſ-hoelio ef, hwy a rannaſant ei ddillad ef, gan fwrw coel-brennau am danynt, beth a ddoe i bob vn.

25 Ar drydedd awr oedd hi pan groeſ-hoeliaſant ef.

26 Ac yr oedd ſcrifen ei achos ef wedi ei argraphu, BRENIN YR IDDEWON.

27 A hwynt hwy a groghaſant ddau leidr gyd ag ef, vn ar y llaw ddeheu, a'r llall ar yr aſſwy.

Eſa.53.12.

28 Ar ſcrythyr lan a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, *ac ef a gyfrifid gyd â rhai anwir.

Ioh.2.19.

29 A'r rhai oeddynt yn myned heibio a'i cablent ef gan yſcwyd eu pennau a dywedyd: *o'ch tydi yr hwn a ddiniſtrit y Deml, a'i adeiladu mewn tridiau,

30 Gwaret di dy hun, a deſcyn oddi ar y groes.

31 Yr vn ffunyd yr arch-offeiriaid a watwaraſant gan ddywedyd y naill wrth y llall, ac wrth yr ſcrifennyddion: ereill a achubodd efe, ac ni ddichon ef achub ei hun.

32 Deſcynned Criſt, Brenin yr Iſrael, yr awran oddi ar y groes, fel y gwelom, ac y credom: y rhai a groghaſid gyd ag ef a ddannodaſant iddo hefyd.

33 A phan ddaeth y chweched awr, y bu tywyllwch ar yr holl ddaiar hyd y nawfed awr.

Pſal.22.2.
Math.27.46.

34 Ac ar y nawfed awr y dolefodd yr Ieſu â llef vchel, gan ddywedyd: *Eloi, Eloi, lamma Sabachthani? yr hyn yw o'i gyfieithu, fy-Duw, fy-Duw, pa ham i'm gwrthodaiſt?

35 A rhai o'r ſefyll-wyr, pan glywſant, a ddywedaſant: wele, y mae yn galw ar Elias.

Pſal.69.22.
Math.27.48.
Ioh.19.29.

36 Ac vn a redodd, *ac a lanwodd yſpwng o finegr, ac ai dodes ar gorſen iddo i yfed: gan ddywedyd, gedwch iddo, edrychwn a ddaw Elias iw dynnu ef i lawr.

37 A'r Ieſu a leſodd â llef vchel, ac a ymadawodd â'r yſpryd.

38 A llen y Deml a rwygodd yn ddwy, o'r pen vchaf hyd yr iſaf.

39 A phan welodd y canwriad yr hwn oedd yn ſefyll gyferbyn ag ef ddarfod iddo yn llefain felly ymado â'r yſpryd, efe a ddywedodd: yn wir Mab Duw oedd y gwr hwn.

40 Yr oedd yno wragedd yn edrych o hirbell, ym mhlith y rhai hyn yr oedd Mair Magdalé, a Mair (mam Iaco leiaf ac Ioſe) a Salome.

Luc.8.2.

41 Y rhai hefyd pan oedd efe *yn Galilæa, a'i dilynaſant ef, ac a weinaſant iddo, a llawer eraill, y rhai a ddaethent ar vn waith gyd ag ef i fynu i Jeruſalem,

Math.27.57.

42 *Pan ydoedd hi weithian yn hwyr, am ei

Luc.23.50. Io.19.38. bod hi yn ddarparŵyl,ſef y dydd cyn y Sabboth,

43 Y daeth Ioſeph o Arimathæa cynghorwr pendefigaidd, (yr hwn oedd hefyd yn edrych am deyrnas Duw) ac a aeth yn hyf i mewn at Pilatus, ac a ofynnodd gorph yr Ieſu.

44 A rhyfedd oedd gan Pilatus, o buaſe efe farw cyn gynted, ac wedi iddo alw y canwriad gofynnodd iddo, a oedd efe wedi marw euſys?

45 A phan wŷbu efe [y gwirionedd] gan y canwriad, rhoddes y corph i Ioſeph:

46 Ac efe a brynodd liain main, ac a'i tynnodd ef i lawr, ac a'i amdôdd yn y lliain main, ac a'i rhoddes ef mewn bedd a naddaſid o'r graig, ac a dreiglodd faen ar ddrws y bedd.

47 A Mair Magdalen, a Mair [mam] Ioſe a edrychaſant pa le y rhoddid ef.

## PEN. XVI.

Angel Duw yn dywedyd i'r gwragedd gyfodi Criſt, ac yr ac efe i Galilæa, 9 yntef yn ymddangos i Mair Magdalen, 12 ac i ddau eraill, 14 yna i'r vn a'r ddec, 15 ac wedi iddo roddi iddynt awdurdod i bregethu, a bedyddio a gwneuthur gwrthiau yn eſcyn i'r nefoedd.

Luc.24.1. Io.20.1. AC * wedi darfod y dydd Sabboth, Mair Magdalen a Mair [mam] Iaco, a Salome a brynaſant ber-aroglau i ddyfod iw eneinio ef.

2 Felly yn forew iawn y dydd cyntaf o'r wythnos y daethant at y bedd, a'r haul wedi codi,

3 Ac hwy a ddywedaſant wrth ei gilydd, pwy a dreigla i ni y maen o ddrws y bedd?

4 A phan edrychaſant, hwynt hwy a ganfuant fod y maen wedi ei dreiglo (canys yr oedd efe yn fawr iawn)

Math.28.1. Ioh.20.12. 5 Ac * wedi iddynt fyned i mewn i'r bedd hwynt hwy a welſant fab ieuangc yn eiſtedd o'r tu dehau wedi ei ddilladu â gwiſc gannaid, ac a ofnaſant.

6 Ac efe a ddywedodd wrthynt, nac ofnwch, ceiſio yr ydych Ieſu o Nazareth, yr hwn a groeſ-hoeliwyd, efe a gyfodes, nid yw efe ymma, wele'r man y dodaſant ef.

7 Eithr ewch ymmaith, a dywedwch iw ddiſcyblion ef, ac i Petr, ei fod efe yn myned o'ch blaen i Galilæa, yno y cewch ei weled ef, * fel y dywedodd i chwi. Math.26.32. Marc.14.28.

8 Yna'r aethant ar ffrwſt, ac a ffoeſant oddi wrth y bedd: canys dychryn a ſyndod oedd arnynt, ac ni ddywedaſant ddim wrth neb am eu bod wedi ofni,

9 Pan adgyfododd yr Ieſu y boreu y dydd cyntaf o'r wythnos, efe a ymddangoſodd yn gyntaf i Mair Magdalen, o'r hon y bwriaſe efe allan ſaith gythrael.

10 Hithe a aeth, ac a fynegodd i'r rhai a fuaſent gyd ag ef, ac oeddynt mewn galar ac wylofain.

11 Eithr hwynt pan glywſant ei fod efe yn fyw, ac iddi ei weled ef, ni chredent.

12 Wedi hynny yr ymddangoſodd efe mewn gwedd arall i ddau o honynt yn ymdaithio, y rhai oeddynt yn myned i'r wlâd. Luc.14.13.

13 Ac hwynt hwy a aethant, ac a fynegaſant i'r lleill, ac ni chredent hwy.

14 ☞ Yn * ôl hynny efe a ymddangoſodd i'r vn ar ddec, a hwynt yn cyd-eiſtedd, ac a ddãnododd iddynt eu anghredyniaeth, a'u calon galedwch, am na chredent y rhai a'i gwelſent ef wedi adgyfodi. *Yr Efengyl ar ddigwyl y Derchafael.* Luc.24.36. Ioh.20.19.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt: * ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr Efengyl i bob creadur, Math.28.19.

16 Y neb a gredo, ac a fedyddier fydd cadwedig, * eithr y neb ni chredo a gondemnir. Ioh.12.48.

17 A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant: * yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid, a lleſarant * â thafodau newyddion. Act.16.18. Act 2.4.

18 * Seirph a godant hwy ymmaith, ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt niwed, * ar y cleifion y rhoddant eu dwylo, ac hwynt hwy a fyddant iach. Act.28.5. Act.28.8.

19 Wedi darfod i'r Arglwydd lefaru wrthynt, * cymmerwyd ef i fynu i'r nef, ac efe a eiſteddodd ar ddeheu-law Duw. Luc.24.51.

20 A hwynt a aethant allan, ac a bregethaſant ym mhob man, a'r * Arglwydd yn cydweithio, ac yn cadarnhau yr gair trwy arwyddion y rhai oeddynt yn canlyn. Amen. Heb.2.4.

## Terfyn y gyſſegr-lan Efengyl yn ôl S. Marc.

# Yr Efengyl ſanctaidd
## *yn ôl* S. Lvc.

### PENNOD. I.

Rhieni Ioan a'i genhedliad. 26 Mair wedi i'r Angel ei chyfarch yn beichiogi trwy 'r Yſpryd glân, yn ymweled ag Eliſabeth ei chares, ac yn canu mawl i Dduw. 57 Genedigaeth ac enw Ioan. 68 Zacharias yn canu mawl i Dduw.

GAN ddarfod i lawer gymmeryd arnynt drefnu ar-ddangoſiad o'r pethau ſy lawn hyſpys yn ein plith,

2 Fel y traddodwyd i ni y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair,

3 Mi a welais fod yn dda, wedi i mi ddilyn y cwbl yn ddyfal o'r dechreuad, ſcrifennu mewn trefn attat ô ardderchoccaf *Theophilus, Act.1.1.

4 Fel yr adnabyddit wirionedd y pethau i'th ddyſcwyd ynddynt.

5 YR oedd yn nyddiau Herod frenin Iudæa ryw offeiriad a'i enw Zacharias
1.Cron.24.10. o gylch *Abia, a'i wraig [oedd] o ferched Aaron
ai henw Eliſabeth.

6 Yr oeddynt ill dau yn gyfiawn ger bron Duw, ac yn rhodio yn holl orchymynnion a deddfau 'r Arglwydd yn ddifeius.

7 Ac nid oedd ddim plant iddynt, am fod Eliſabeth heb planta, ac yr oeddynt wedi myned ill dau mewn gwth o oedran.

8 A bu ag efe yn gwaſanaethu ſwydd offeiriad, yn ôl trefn ei gylch, ger bron Duw,

9 Yn ôl arfer ſwydd yr offeiriad, ddyfod o ran iddo arogl-darthu, yn ôl ei fyned i Deml yr Arglwydd.

Lefit.16.17. 10 A'r lliaws bobl oll oedd allã yn gweddio
Exod.30.7. ar awr yr arogl-darthiad.

11 Yna yr ymddangoſodd iddo angel yr Arglwydd yn ſefyll o'r tu dehau i allor yr arogl-darth.

12 A Zacharias pan ganfu, a gythruddodd, ac ofn a ſyrthiodd arno.

13 A'r angel a ddywedodd wrtho: nac ofna Zacharias: canys gwrandawyd dy weddi: a'th wraig Eliſabeth a ddwg i ti fab, a thi a elwi ei enw ef Ioan.

14 A bydd i ti lawenydd a gorfoledd, a llawer a lawenychant am ei enedigaeth ef.

15 Canys mawr fydd efe yng-olwg yr Arglwydd, ac nid yf na gwin na diod gadarn, ac efe a gyflawnir o'r Yſpryd glân o groth ei fam.

16 A *llawer o feibion Iſrael a dry efe at Malac.4.6.
yr Arglwydd eu Duw. Math.11.14.

17 Canys efe a rodia ger ei fron ef, yn yſpryd a nerth Elias, fel y trŷ calonnau 'r tadau at y plant, a'r rhai gwrthryfelgar i ddoethineb y cyfiawn: i ddarpar i'r Arglwydd bobl barod.

18 Yna y dywedodd Zacharias wrth yr angel: pa fodd y gwybyddaf hyn? Canys henaf-gwr wyf, am gwraig hefyd mewn gwth o oedran.

19 A'r angel gan atteb a ddywedodd wrtho, myfi yw Gabriel yr hwn wyf yn ſefyll yng-olwg Duw, ac a anfoned i lefaru wrthit, ac i efangylu i ti hyn.

20 Ac wele, ti a fyddi fud, ac ni elli lefaru hyd y dydd y gwneler y pethau hyn, am na chredit i'm geiriau i, y rhai a gyflawnir yn eu hamſer.

21 Ac yr oedd y bobl yn aros am Zacharias, ac yn rhyfeddu ei fod efe yn aros yn y Deml.

22 A phan ddaeth efe allan ni alle efe ddywedyd wrthynt: ac hwy a wybuant weled o honaw weledigaeth yn y Deml: canys efe a amneidiodd arnynt, ac a arhoſodd yn fud.

23 A phan ddarfu cyflawni dyddiau ei weinidogaeth, efe a aeth iw dŷ ei hun.

24 Ac yn ôl y dyddiau hynny y cafodd Eliſabeth ei wraig ef feichiogi, ac a ymguddiodd bum-mis gan ddywedyd:

25 Felly y gwnaeth yr Arglwydd i mi yn y

dyddiau 'r edrychodd i dynnu ymmaith fyng-hwradwydd ym mhlith dynion.

*Yr Efengyl ar ddydd cyfarchiad Mair.*

☞ 26 Ac yn y chweched mis yr anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw, i ddinas yn Galilæa a'i henw Nazareth,

Math.1.18.

27 At forwyn * wedi ei dyweddio i ŵr a'i enw Joſeph o dŷ Ddafydd, ac enw 'r forwyn oedd Mair.

28 A'r angel a aeth i mewn atti ac a ddywedodd: hanphych well yr hon a gefaiſt râs, yr Arglwydd ſydd gyd â thi: bendigaid wyt ym mhlith gwragedd.

29 Pan welodd hi [ef,] brawychu a wnaeth wrth ei ymadrodd ef: a meddwl pa fath gyfarch oedd hwn.

30 Yna y dywedodd yr angel wrthi, nac ofna Mair, canys ti a gefaiſt râs ger bron Duw.

Eſa.7.14.
Luc.2.21.
Math.1.21.

31 Ac * wele, ti a gei feichiogi, ac a eſcori ar fab, ac * a elwi ei enw ef Jeſu.

32 Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf, ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orſeddfa ei dad Dafydd:

Dan.7.27.
Mich.4 7.

33 * Ac efe a deyrnaſa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.

34 A Mair a ddywedodd wrth yr angel: pa fodd y bydd hynn, gan nad adwen i ŵr?

35 A'r angel a atebodd ac a ddywedodd wrthi, yr Yſpryd glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gyſcoda di: am hynny y peth ſanctaidd a aner o honot, a elwir yn Fab Duw.

36 Ac wele Eliſabeth dy gares yn feichiog o fab yn ei henaint, a hwn yw 'r chweched mis iddi hi, yr hon a elwid yn ammhlantadwy.

37 Canys gyd â Duw nid oes dim yn amhoſſibl.

38 Yna y dywedodd Mair, wele waſanaethyddes yr Arglwydd: bydded i mi yn ôl dy air di. A'r angel a aeth ymmaith oddi wrthi hi. ☜

39 A Mair a gyfododd yn y dyddiau hynny, ac aeth i'r mynydd-dir ar frys i ddinas o Judæa,

40 Ac hi a aeth i mewn i dŷ Zacharias, ac a gyfarchodd Eliſabeth.

41 A phan glybu Eliſabeth gyfarch Mair, y plentyn yn ei chroth hi a lammodd; ac Eliſabeth a lanwyd o'r Yſpryd glân.

42 A llefain a wnaeth â llef vchel, a dywedyd: bendigedig wyt ti ym mhlith gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth.

43 Ac o ba le y mae i mi hyn, ddyfod mam fy Arglwydd attafi?

44 Canys wele er cynted y daeth lleferydd dy gyfarch di i'm cluſtiau, y plentyn a lammodd o lawenydd yn fyng-hroth.

45 A bendigedig yw yr hon a gredodd: canys cyflawnir y pethau a ddywedpwyd wrthi gan yr Arglwydd.

46 Yna y dywedodd Mair, y mae fy enaid yn mawrhau yr Arglwydd.

47 A'm hyſpryd a lawenychodd yn Nuw fy iachawdr.

48 Canys efe a edrychodd ar waeledd ei waſanaethyddes: ac o hynn allan pob oes a'm geilw i yn wynfydedig.

49 Canys yr hwn ſydd alluog a wnaeth i mi fawredd: a ſanctaidd yw ei enw ef.

50 A'i drugaredd [ſydd] yn oes oeſoedd, i'r rhai a'i hofnant ef.

Eſa.51 9.
Pſal.33.10.
eſa 29.15.

51 * Efe a wnaeth gadernid â'i fraich, * efe a waſcarodd y rhai beilchion ym mwriadau eu calonnau.

52 Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'i gorſeddfeingciau, ac â dderchafodd y rhai gwael.

1.Sam.2.6.
Pſal 34 11.

53 Y * rhai newynog a lanwodd efe â phethau da: ac efe a anfonodd ymmaith y rhai goludog mewn eiſieu.

Eſa.30.18.
& 41.9.
& 54.5.
Gen.17.19.
& 22.17.
Pſal.132.11.

54 Efe * a dderbynniodd ei wâs Iſrael, gan gofio ei drugaredd

55 (Fel y dywedodd wrth ein tadau * Abraham a'i had) yn dragywydd.

56 A Mair a arhoſodd gyd â hi yng-hylch tri-mis, ac yna yr aeth hi i'w thŷ ei hun.

*Yr Efengyl ar ddigwyl Ioan fedyddiwr.*

☞ 57 Wedi cyflawni tymp Eliſabeth i eſcor, hi a eſcorodd ar fab.

Luc.1.14.

58 A phan glybu ei chymydogion a'i chenedl hi fawrhau o'r Arglwydd ei drugaredd arni, * hwynt hwy a gyd-lawenychaſant â hi.

59 A bu ar yr wythfed dydd, pan ddaethant i enwaedu ar y dŷn bychan, iddynt alw ei enw yn ôl enw ei dâd Zacharias.

60 A'i fam ef a atebodd ac a ddywedodd: nid felly, eithr ei enw ef fydd Joan.

61 Hwythau a ddywedaſant wrthi, nid oes neb o'ch cenedl a elwir ar yr henw hwn.

62 Yna yr amneidiaſant ar ei dad pa fodd y mynne efe ei henwi ef.

Luc.1.13.

63 Ac yntef wedi iddo alw am orgraph-lech a ſcrifennodd gan ddywedyd, * Joan yw ei enw ef, a rhyfeddu a wnaethant oll.

64 Ac agorwyd ei enau ef yn ebrwydd, a'i dafod ef a lefarodd, gan fendithio Duw.

65 Yna y daeth ofn ar eu holl gymydogion hwynt, a thrwy holl fynydd-dir Judæa y cyhoeddwyd y geiriau hynn oll.

66 A phawb ar a'u clywſant a'u goſodaſant yn eu calonneu gan ddywedyd, Beth fydd y bachgenyn hwn? canys llaw 'r Arglwydd oedd gyd ag ef.

67 Yna ei dad Zacharias, a gyflawnwyd o'r Yſpryd glân, ac a brophwydodd gan ddywedyd:

68 Bendigeid fyddo Arglwydd Dduw Iſrael, canys efe a ymwelodd, ac a brynodd ei bobl.

69 Ac efe a dderchafodd nerth iechydwriaeth i ni, yn nhŷ Ddafydd ei waſanaeth-wr,

Pſal.132.1.
Ier.23.6.

70 * Megis y dywedodd trwy enau ei ſanctaidd brophwydi, y rhai oedd [illegible],

71 [Yr anfone efe i ni] iechydwriaeth oddi wrth ein gelynion, ac o law ein holl gaſeion,

72 Gan wneuthur trugaredd â'n tadau, a chofio ei ſanctaidd gyfammod:

Gen.22 16. iere.31.33. heb.6.13. 73 A'r *llw a dyngodd efe i'n tâd Abraham, ar ei roddi i ni,

74 [Sef bod i ni] yn ddiofn wedi ein rhyddhau o ddwylo ein gelynion, ei wasanaethu ef

1.Pet.1.13. 75 Mewn *ſancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef holl ddyddiau ein bywyd.

76 A thithe fachgenyn a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf: *canys ti a ei o flaen wyneb yr Arglwydd i baratoi ei ffyrdd ef, Mal.3.5.

77 I roddi gwybodaeth iechydwriaeth iw bobl ef gan faddeu eu pechodeu,

78 O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw, trwy'r hon yr ymwelodd â ni *godiad haul o'r vchelder: Zach.3.8. malach.4.2.

79 I lewyrchu i'r rhai sy yn eiſtedd mewn tywyllwch a chyſcod angeu, i gyfeirio ein traed i ffordd tangneddyf,

80 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhawyd yn yr yſpryd, ac a fu yn y diffaethwch hyd y dydd yr ymddangoſodd efe i'r Iſrael. ☜

## P E N. II.

Genedigaeth Criſt. 21 Ai enwaediad. 25 Prophwydoliaeth Simeon, ac Anna am dano ef. 46 Yntef yn ymreſymmu â'r doctoriaid yn Ieruſalem yn ddeuddec oed.

BU hefyd yn y dyddiau hynny fyned gorchymyn allan oddi wrth Auguſtus Cæſar i drethu yr holl fyd.

2 (A'r trethiad ymma, a wnaethbwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhâglaw ar Syria)

3 A phawb a aethant iw trethu bob vn iw ddinas ei hun.

4 Ac aeth Ioseph o Galilæa o dref Nazareth i Iudæa, i dref Dafydd yr hon a elwir * Bethlehem (am ei fod o dŷ, a thŷlwyth Dafydd: Ioan.7.42.

5 Iw drethu gyd â Mair, yr hon a ddyweddieſid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog.

6 A bu tra'r oeddynt hwy yno, gyflawni ei dyddiau hi i eſcor.

7 Ac hi a eſcorodd ar ei mab cyntaf-anedic, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i rhoddes yn y preſeb, am nad oedd iddynt le yn y lletty.

8 Ac yr oedd yn y wlâd honno fugeiliaid yn gorwedd allã, ac yn gwilied eu praidd liw nos.

9 Ac wele angel yr Arglwydd a ſafodd ger llaw iddynt, a gogoniant yr Arglwydd a ddiſcleiriodd o'u hamgylch, ac ofni yn ddirfawr a wnaethant.

10 Yna yr angel a ddywedodd wrthynt, nac ofnwch, canys yr wyf yn mynegu i chwi lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl:

11 Geni i chwi heddyw geidwad, yn ninas Dafydd: yr hwn ydyw Cryſt yr Arglwydd.

12 A hyn [fydd] arwydd i chwi, chwi a gewch y dŷn bach wedi ei rwymo mewn cadachau a'i roddi yn y preſeb.

13 Ac yn ddiſymmwth yr oedd gyd â'r angel niferi mawr o luoedd nefol yn moliannu Duw gan ddywedyd,

14 Gogoniant i Dduw yn yr vchelder, a thangneddyf ar y ddaiar, ac i ddynion ewyllys da.

15 ☞ Ac wedi darfod i'r angelion fyned oddi wrthynt i'r nefoedd, yna y bugeiliaid a ddywedaſant wrth eu gilydd: awn hyd Bethlehem, a gwelwn y peth hyn a ddangoſodd yr Arglwydd i ni. *Yr Efengyl ar dyddy calan.*

16 A hwynt a ddaethant ar frys, ac a gawſant Mair, ac Ioſeph: a'r dŷn bach yn gorwedd yn y preſeb.

17 Pan welſant, hwynt hwy a gyhoeddaſant yr hyn a ddywedaſid wrthynt am y bachgen hwnnw.

18 A phawb a'r a'u clywſant, a ryfeddaſant am y pethau a ddywedaſe y bugeiliaid iddynt.

19 Eithr Mair a gadwodd y pethau hyn oll gan eu hyſtyried hwynt yn ei chalon.

20 A'r bugeiliaid a ddychwelaſant gan ogoneddu a moliannu Duw, am bôb peth a'r a glywſent, ac a welſent, fel y dywedaſid iddynt.

21 A phan ddaeth yr *wythfed dydd i enwaedu ar y bachgen, *galwyd ei enw ef Ieſu, yr hwn a henwaſid gan yr angel cyn ei genhedlu ef yn y groth. ☜ Gene.17.12. leſit.12.3. Luc.1.31. math.1.21. ioan.7.22.

22 ☞ Ac wedi cyflawni dyddiau puredigaeth [Mair,] yn ôl *deddf Moſes, hwynt a'i dugaſant ef i Ieruſalem iw gyflwyno i'r Arglwydd, *Yr Efengyl ar ddydd puredigaeth Mair.* Leſit.12.6.

23 (Fel yr ſcrifennir yn neddf yr Arglwydd: *pob gwryw cyntafanedic a elwir yn ſanctaidd i'r Arglwydd) Exod.13.2. num.8.18.

24 Ac i roddi offrwm, yn ôl yr hyn a ddywedir *yn neddf yr Arglwydd: *pâr o durturod neu ddau gyw colomen. Leſit.12.6.

25 Ac wele yr oedd gŵr yn Ieruſalem a'i enw Simeon, hwnnw oedd ŵr cyfiawn a duwiol, ac yn diſgwil am ddiddanwch yr Iſrael, a'r Yſpryd glân oedd arno.

26 Ac yr oeddid wedi ei rybuddio ef gan yr Yſpryd glân na wele efe angeu cyn iddo weled Criſt yr Arglwydd.

27 Efe a ddaeth trwy'r Yſpryd i'r Deml, a phan ddug ei rieni y bachgen Ieſu, i wneuthur troſto yn ôl defod y gyfraith:

28 Efe a'i cymmerth ef yn ei freichiau, ac a foliannodd Dduw gan ddywedyd:

29 Yr awran y gollyngi dy wâs mewn tangneddyf ô Arglwydd, yn ôl dy air,

30 Canys fy llygaid a welſant dy iechydwriaeth,

31 Yr hon a baratoaiſt yng-wydd yr holl bobloedd,

32 Goleuni i dywynnu i'r cenhedloedd, a gogoniant dy bobl Iſrael.

33 A rhyfeddu a wnaeth Ioſeph a'i fam ef, am y pethau a ddywedwyd am dano ef.

34 A Simeon a'i bendithiodd hwynt, ac a ddywedodd wrth Fair ei fam ef: *Wele hwn a oſodwyd yn gwymp, ac yn gyfodiad i lawer yn Iſrael, ac yn arwydd i ddywedyd yn ei erbyn. Eſa.8.14. rhuf.9.32. 1 pet.2.8.

35 (A thrwy dŷ enaid di dy hun yr aiff y cleddyf) i ddadcuddio meddyliau llawer o galonnau.

36 Ac yr oedd Anna brophwydes merch Phanuel o lwyth Aſer: hon oedd oedrannus iawn, wedi iddi fyw gyd â gŵr ſaith mlynedd, o'i morwyndod:

37 Ac yn weddw yng-hylch pedair a phedwar ugain mhlynedd: yr hon nid ae allan o'r Deml, gan waſaneuthu [Duw] mewn ympryddiau a gweddiau dydd a nos.

38 A hon hefyd yn yr awr honno gan ſefyll ger llaw a gyd-foliannodd yr Arglwydd, ac a lefarodd am dano ef wrth y rhai oll oeddynt yn Jeruſalem yn edrych am ymwared.

39 Ac wedi iddynt orphen pob peth yn ôl deddf yr Arglwydd, dychwelaſant i Galilæa iw dinas Nazareth.

40 A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhaodd yn yr Yſpryd, yn llawn doethineb: a grâs Duw oedd gyd ag ef.

41 A'i rieni ef a aent i Jeruſalem bôb blwyddyn *ar ŵyl y Paſc. Deut.16.1.

42 Pan oedd efe yn ddeuddeng-mlwydd oed, hwynt hwy a aethant i fynu i Jeruſalem yn ôl defod yr ŵyl,

43 Wedi gorphen y dyddiau, a hwynt yn dychwelyd, arhoſodd y bachgen Jeſu yn Jeruſalem: yr hwn beth ni wydde Joſeph na'i fam ef,

44 Eithr gan dybied ei fod efe yn y fintai, myned a wnaethant daith diwrnod, ac hwy a'i ceiſiaſant ef ym mhlith eu cenedl a'i cydnabod.

45 A phryd na chawſant ef, hwynt a ddychwelaſant i Jeruſalem, gan ei geiſio ef.

46 A bu yn ôl tri-diau gael o honynt hwy ef yn y Deml yn eiſtedd yng-hanol y doctoriaid yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt.

47 A ſynnu a wnaeth pawb ar a'i clywſant ef, am ei ddoethineb a'i attebion.

48 A phan welſant ef rhyfeddu a wnaethant, a'i fam a ddywedodd wrtho: fy mab pa ham y gwnaethoſt felly â ni? wele dy dad a minne yn ofidus a'th geiſiaſom di.

49 Ac efe a ddywedodd wrthynt: Pa ham y ceiſiech fi? oni ŵyddech fod yn rhaid i mi fod yng-hylch y pethau a berthynant i'm Tad?

50 Eithr hwynt ni ddeallaſant y geiriau a ddywedodd efe wrthynt.

51 Yna yr aeth efe i wared gyd â hwynt, ac y daeth i Nazareth, ac a fu ufudd iddynt.

52 A'i fam ef a gadwodd yr holl bethau hyn yn ei chalon.

53 A'r Jeſu a gynnyddodd mewn doethineb, a chorpholaeth, a ffafor, gyd â Duw a dynion.

## PEN. III.

Pregeth Ioan. 21 Bedyddiad Criſt a'i achau.

YN y bymthecfed flwyddyn o ymerodraeth Tiberius Cæſar, a Phontius Pilatus yn rhaglaw Judæa, a Herod yn Detrarch Galilæa, a'i frawd Philip yn Detrarch Ituræa a gwlad Trachonitis, a Lyſanas yn Detrarch Abilene,

2 Tan yr arch-offeiriaid Annas a Chaiphas y daeth gair Duw at Joan fab Zacharias yn y diffaethwch. Act.4.6.

3 Ac *efe a ddaeth i bôb goror yng-hylch yr Jorddonen gan bregethu bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau: Math.3.2. marc.1.4.

4 Fel y mae yn ſcrifennedic yn llyfr ymadroddion *Eſaias y prophwyd yr hwn ſydd yn dywedyd, llef un yn llefain yn y diffaeth, paratoiwch ffordd yr Arglwydd, inionwch ei llwybreu ef. Eſai 40.3. ioan.1.23.

5 Pôb pant a lenwir, a phôb mynydd a bryn a oſtyngir, a'r gŵyrgeimion a wneir yn iniawn a'r geirwon yn ffyrdd gwaſtad.

6 A phôb cnawd a wel iechydwriaeth Duw.

7 Ac efe a ddywedodd wrth y bobl a ddeuent iw bedyddio ganddo: Oh genhedlaethau gwiberod, pwy a'ch rhagrybuddiodd chwi i ffoi oddi wrth y digofaint ſydd ar ddyfod? Math.3.7.

8 Dygwch am hynny ffrwyth addas i edifeirwch: ac na ddechreuwch ddywedyd ynoch eich hunain, y mae Abraham yn dad i ni: canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y gall Duw o'r cerrig hyn godi plant i Abraham.

9 Yr awran y mae 'r fwyall wedi ei goſod ar wraidd y prennau: pôb pren am hynny a'r ni ddwg ffrwyth da a gymmynir i lawr, ac a fwrir yn tân.

10 Yna y gofynnodd y bobl iddo gan ddywedyd: pa beth gan hynny a wnawn ni?

11 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt: y *neb ſydd ganddo ddwy bais, rhodded i'r neb ſydd heb yr un: a'r neb ſydd ganddo fwyd gwnaed yr un modd: Iac.2.15. 1.ioan.3.17.

12 A'r Publicanod hefyd a ddaethant iw bedyddio, ac a ddywedaſant wrtho: yr Athro, beth a wnawn ni?

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, na ofynnwch ddim mwy nag ſydd wedi ei oſod i chwi.

14 A'r milwŷr hefyd a ofynnaſant iddo ef, gan ddywedyd: a pha beth a wnawn ninnau? ac efe a ddywedodd wrthynt: na fyddwch draws wrth neb, ac na cham-achwynwch ar neb, a byddwch fodlon i'ch cyflog.

15 Fel yr oedd y bobl yn diſgwil, a phawb yn meddylied yn eu calonneu am Joan, ai efe oedd y Criſt:

16 Yna 'r attebodd Joan gan ddywedyd wrthynt oll: myfi yn ddiau wyf yn eich bedyddio *chwi â dwfr, ond y mae un ſydd gryfach nâ myfi yn dyfod, yr hwn nid wyf deilwng i ddattod carrei ei eſcid: efe a'ch bedyddia chwi â'r Yſpryd glân ag â thân. Math.3.11. marc.1.8. ioan.1.26. act.1.15. & 2.4. & 11.16. & 19.4.

17 Yr hwn y mae ei wyntill yn ei law, ac efe a lanhâ ei lawr dyrnu, ac a gaſcl ei wenith iw ſcubor, a'r us a lyſc efe â thân anniffoddadwy.

18 A llawer o bethau ereill a gynghorodd efe, ac a bregethodd i'r bobl.

Math.14 3. marc.1.9. ioan.1.33.

19 Herod * y Tetrarch pan geryddwyd gandddo ef am Herodias gwraig Philip ei frawd, ac am yr holl ddrygioni a wnaethe efe,

20 A chwanegodd hefyd heb law 'r cwbl roi Ioan yng-harchar.

21 A bu, pan oeddyd yn bedyddio yr holl bobl a'r Ieſu yn ei fedyddio hefyd, ac yn gweddio, agoryd o'r nef,

22 A'r Yſpryd glân a ddeſcynnodd mewn rhith corphorawl megis colommen arno ef, a llef or nef yn dywedyd, Ti yw fy annwyl Fab: ynot ti i'm bodlonwyd.

23 A'r Ieſu ei hun oedd yng-hylch dechreu ei ddeng-mlwydd ar hugein oed, mab (fel y tybid) i Ioſeph [fab] Eli,

24 [Fab] Matthat [fab] Lefi, [fab] Melchi, [fab] Ianna, [fab] Ioſeph,

25 [Fab] Matthathias, [fab] Amos, [fab] Naum, [fab] Eſli, [fab] Naggai,

26 [Fab] Maath, [fab] Matthathias, [fab] Semei, [fab] Ioſeph, [fab] Iuda,

27 [Fab] Ioanna, [fab] Rheſa, [fab] Zorobabel, [fab] Salathiel, [fab] Neri,

28 [Fab] Melchi, [ fab] Adi, [fab] Coſam, [fab] Elmodam, [fab] Er,

29 [Fab] Ioſe, [fab] Eliazer, [fab] Iorim, [fab] Matthat, [fab] Lefi,

30 [Fab] Simeon, [fab] Iuda, [fab] Ioſeph, [fab] Ionan, [fab] Eliacim,

31 [Fab] Melea, [fab] Mainan, [ fab] Mattatha, [fab] Nathan, [fab] Dafydd,

32 [Fab] Ieſſe, [fab] Obed, [fab] Booz, [fab] Salmon, [fab Naaſſon,

33 [Fab] Aminadab, [fab] Aram, [ fab] Eſron, [fab] Phares, [fab] Iuda,

34 [Fab] Iacob, [fab] Iſaac, [fab] Abraham, [fab] Thara, [fab] Nachor,

35 [Fab] Seruch, [fab] Ragau, [fab] Phalec, [fab] Heber, [fab] Sala,

36 [Fab] Cainan, [fab] Arphaxad, [fab] Sem, [fab] Noe, [fab] Lamech,

37 [Fab] Mathuſala, [fab] Enoch, [fab] Iared, [fab] Maleleel, [fab] Cainan,

38 [Fab] Enos, [fab] Seth, [fab] Adda, [fab] Duw.

## PEN. IIII.

Criſt yn cael ei demtio. 14 Yn pregethu yn Galilæa. 16 Yn Nazareth. 30 Ac yn Capernaum yn iachau chwegr Petr. 41 Ac yn bwrw allan gythreuliaid heb adel iddynt ei gyfaddef ef.

Math.4.1. marc.1.12.

AR * Ieſu yn llawn o'r Yſpryd glân a ddychwelodd oddi wrth yr Iorddonen, ac a yrrwyd gan yr yſpryd i'r anialwch

2 Ddeugein nhiwrnod, a diafol yn ei demptio, ac ni fwytaodd ef ddim o fewn y dyddiau hynny: eithr wedi eu diweddu hwynt, daeth arno chwant bwyd.

3 Yna y dywedodd diafol wrtho: os Mab Duw ydwyt, dywet wrth y garreg hon am fyned yn fara.

4 A'r Ieſu a attebodd iddo gan ddywedyd: ſcrifennedic yw, nid *ar fara yn unic y bydd dŷn fyw, ond ar bôb gair Duw.

Deut.8.3. math.4.4.

5 Yna wedi i ddiafol ei ddwyn ef i fynydd uchel, efe a ddangoſodd iddo holl deyrnaſoedd y ddaiar, mewn munyd awr:

6 A diafol a ddywedodd wrtho, i ti y rhoddaf yr awdurdod hon oll, a'u gogoniant hwynt, canys i mi y rhoddwyd, ac i bwy bynnag y mynnwyf y rhoddaf finne hi.

7 Felly os ti a addoli o'm blaen, eiddo ti fyddant oll.

8 A'r Ieſu a attebodd gan ddywedyd, dos ymmaith Satan ar fy ôl: canys ſcrifennedic yw: * addoli yr Arglwydd dy Dduw, ac ef yn unic a waſanaethi.

Deut.6.13. & 10.20.

9 Yna y dug ef i Ierusalem, ac a'i goſodes ar binacl y Deml, ac a ddywedodd wrtho: os Mab Duw ydwyt bwrw dy hun i lawr oddi ymma.

10 Canys ſcrifennedic yw, y * gorchymyn efe iw angelion o'th achos di, a'r dy gadw di,

Pſal.91.12.

11 Ac yn eu dwylo y cyfodant di, fel na thrawech dy droed un amſer wrth garreg.

12 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, ddywedyd: * na themptia 'r Arglwydd dy Dduw.

Deut.6.16.

13 Ac wedi i ddiafol orphen yr holl demtaſiwn, efe a ymadawodd ag ef tros amſer.

14 A'r Ieſu a ddychwelodd trwy nerth yr Yſpryd i Galilæa, a ſon a aeth am dano ef, trwy 'r holl fro oddi amgylch.

15 Ac yr oedd efe yn dyſcu yn eu Synagogeu hwynt, ac yn cael anrhydedd gan bawb.

16 Ac * efe a ddaeth i Nazareth lle y mageſid ef, ac (yn ôl ei arfer) efe a aeth i'r Synagog ar y dydd Sabboth, ac a ſafodd i fynu i ddarllen.

Math.13.54. marc.6.1. ioan.4.43.

17 Yna y rhoed atto lyfr y prophwyd Eſaias, ac wedi iddo agoryd y llyfr, y cafodd y lle yr ſcrifennid,

18 *Yſpryd yr Arglwydd arnafi, o achos yr hwn yr eneiniodd fi: fel yr efangylwn i'r tlodion yr anfonodd fi i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, caffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai yſig mewn rhydd-deb,

Eſa.61.1.

19 I bregethu blwyddyn gymmeradwy 'r Arglwydd.

20 Ac wedi iddo gaeu 'r llyfr a'i roddi i'r gweinidog yr eiſteddodd: a llygaid pawb oll yn y Synagog oeddynt yn craffu arno.

21 Ac efe a ddechreuodd ddywedyd wrthynt: heddyw y cyflawnwyd yr ſcrythyr hon yn eich clustiau chwi.

22 Ac yr oedd pawb yn dwyn teſtiolaeth iddo: ac yr oeddynt yn rhyfeddu am y geiriau graſuſol a ddaent allan o'i enau ef, gan ddywedyd;

dyd: onid hwn yw mab Ioſeph:

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt: yn hollawl y dywedwch y ddihareb hon wrthif: y meddig iachâ di dy hun, y pethau a glywſom i ti eu gwneuthur yn Capernaum, gwna ymma yn dy wlâd dy hun.

Ioan.4.44. 24 *A dywedodd yntef, yn wir meddaf i chwi, nad yw vn prophwyd yn gymmeradwy yn ei wlad ei hun.

25 Eithr mewn gwirionedd meddaf i chwi, llawer o wragedd gweddwon yn nyddiau Elias oeddynt yn Iſrael, pan gaewyd y nef dair blynedd a chwe-mis, hyd pan oedd newyn mawr tros yr holl dir:

1.Bren.17.9. 26 Ac nid at yr vn o honynt yr anfonwyd Elias, ond i *Sarepta yn Sidon, at wraig weddw.

2.Bren.5.14. 27 A llawer o wahan-gleifion oeddynt yn Iſrael yn amſer *Eliſeus y prophwyd: ac ni lanhawyd yr vn o honynt ond Naaman y Syriad.

28 Yna y llanwyd hwynt oll o ddigofaint yn y Synagog, pan glywſant y pethau hyn.

29 A chan godi i fynu hwynt hwy a'i bwriaſant ef allan o'r ddinas, ac a'i dugaſant hyd ar ael y bryn yr adeiladaſid eu dinas arno, ar fedr ei fwrw ef bendro-mwnwgl i lawr.

30 Yntef gan fyned drwy eu canol hwynt a aeth ymmaith.

Math.4.13. marc.1.21. 31 Ac efe a ddaeth i wared i Capernaum dinas Galilæa, ac *yno y dyſcodd efe hwynt ar y dyddiau Sabboth.

Math.7.29. marc.2.22. 32 A rhyfeddu a wnaethant wrth ei athrawiaeth ef, canys ei ymadrodd *ef oedd gyd ag awdurdod.

Marc.1.23. 33 Ac *yr oedd yn y Synagog ddŷn a chanddo yſpryd cythreul aflan, yr hwn a waeddodd â llef vchel,

34 Gan ddywedyd, ô beth [ſydd] i ni â thi Ieſu o Nazareth? a ddaethoſt di i'n difetha ni: myfi a wn pwy ydwyt ti, [ſef] Sanct Duw.

35 A'r Ieſu a'i ceryddodd gan ddywedyd: diſtawa, a dos allan o honaw, yna y cythrael, wedi ei daflu ef yn y canol, a aeth allan o honaw, heb wneuthur dim niwed iddo.

36 A daeth ofn arnynt oll, a hwynt a ymddiddanent wrth eu gilydd gan ddywedyd: pa beth yw hyn, gan ei fod efe trwy awdurdod a nerth yn gorchymyn yr yſprydion aflan, a hwynt yn myned allan:

37 A ſôn a aeth am dano ym mhob man yn y wlâd o amgylch.

Math.8.14. marc.1.30. 38 Pan *gyfododd [yr Ieſu] o'r Synagog yr aeth i mewn i dŷ Simon, ac yr oedd chwegr Simon yn glaf o grŷd blin, a hwynt hwy a ymbiliaſant ag ef troſti hi.

39 Yna y ſafodd efe vwch ei phen hi, ac efe a geryddodd y crŷd, ac efe a'i gadawodd hi, ac yn y fan y cyfodes hi, ac a waſanaethodd arnynt hwy.

40 Pan fachludodd yr haul, pawb a'r oeddynt ganddynt rai cleifion o amryw glwyfau, a'u dygaſant hwynt atto ef, ac efe gan roi ei ddwylo ar bob vn o honynt a'u hiachaodd hwynt.

Marc.1.35. 41 A *chythreuliaid a aethant allan o lawer dann leſain a dywedyd: ti yw Criſt Mab Duw, eithr efe a'i ceryddodd hwynt, ac ni adawe iddynt ddywedyd, y gwyddent mai efe oedd Criſt.

42 A phan aeth hi yn ddydd yr aeth efe oddi yno ymmaith i'r diffaethwch a'r bobl a'i ceiſiaſant ef, ac hwy a ddaethant atto, ac ai hattaliaſāt ef rhag myned ymmaith oddi wrthynt hwy.

43 Yna y dywedodd efe wrthynt, yn wir y mae yn rhaid i mi bregethu teyrnas Dduw i ddinaſoedd eraill, canys i hyn i'm danfonwyd.

44 Ac efe a bregethodd yn Synagogau Galilæa.

## P E N. V.

Criſt wedi dyſcu'r bobl o'r llong yn peri helfa fawr o byſcod. 12 Yn iachau vn gwahanglwyfus. 18 Ac vn claf o'r parlys. 27 Yn galw Lefi. 35 Ac yn dangos pa ham nad ymprydiaſe ei ddyſcyblion efy pryd hynny.

*Yr Efengyl y pummed Sul wedi 'r Drindod.*

☞ BU *hefyd a'r bobl yn pwyſo atto i wrando gair Duw, ac efe yn ſefyll yn ymyl llynn Genezaret,

Math.4.18. marc.1.16. 2 Weled o honaw ddwy long yn ſefyll wrth y llynn, ar pyſcod-wŷr a aethant allan o honynt, ac oeddynt yn golchi eu rhwydau.

3 Wedi iddo fyned i mewn i vn o'r llongau, yr hon oedd eiddo Simon, efe a ddymunodd arno ei gyrru hi ychydig oddi wrth y tîr, wedi iddo eiſtedd, efe a ddyſcodd y bobl o'r llong.

4 Pan beidiodd â llefaru, efe a ddywedodd wrth Simon, gyrr i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau am helfa.

5 Yna yr attebodd Simon, ac a ddywedodd wrtho, ô feiſtr er i ni boeni ar hŷd y nos, ni ddaliaſom ni ddim: er hynny ar dy air di mi a fwriaf y rhwyd.

6 Ac wedi iddynt wneuthur hyn, hwynt hwy a ddalſaſant liaws mawr o byſcod, a rhwygodd eu rhwyd hwynt:

7 A hwynt a amneidiaſant ar eu cyfeilliō, y rhai oeddynt yn y llong arall, fel y gallent ddyfod iw cynnorthwyo hwynt: ac hwynt hwy a ddaethant, ac a lanwaſant y ddwy long onid oeddynt yn ſoddi.

8 Pan welodd Simon Petr hyn, efe a ſyrthiodd wrth liniau 'r Ieſu, gan ddywedyd: Arglwydd, dos ymmaith oddi wrthif, canys dŷn pechadurus wyf fi.

9 O blegit braw a ddaethe arno, ac ar y rhai oll oeddynt gyd ag ef, am yr helfa byſcod a ddaliaſent hwy.

10 Felly hefyd ar Iaco, ac Ioan meibion Zebedeus cymdeithion Simon. Yna y dywedodd yr Ieſu wrth Simon: nac ofna, o hyn allan y deli ddynion.

11 A phan ddugaſant y llongau i'r tir, hwynt hwy a adawſant bob peth, ac a'i dilynaſant ef.

Math.8.2. Mar.1.4. 12 Ac *fel yr oedd efe mewn rhyw ddinas, wele wr yn llawn o'r gwahanglwyf, a phan welodd efe yr Ieſu, efe a ſyrthiodd ar ei wyneb, ac a ymbiliodd ag ef gan ddywedyd, O Arglwydd os ewyllyſi di, ti a elli fy-ng-lanhau.

13 Ac yntef gan eſtyn ei law a'i cyffyrddodd ef gan ddywedyd, yr wyf yn ewyllyſio, bydd lân: ac yn ebrwydd y gwahan-glwyf a'i gadawodd ef.

14 Ac efe a orchymynnodd iddo na ddywede i neb: eithr dos (eb efe) ac ymddangos i'r offeiriad, ac offrwm tros dy lanhâu fel y gorchymynnodd *Moſes yn deſtiolaeth iddynt. Lefit.14 4.

15 A'r gair a aeth fwy-fwy am dano ar lêd, a llawer o bobl a ddaethant yng-hyd iw wrando, ac i gael iechyd o'u clefydau.

16 Yntef oedd yn cilio o'r naillitu yn y diffaethwch, ac yn gweddio.

17 A bu ar ddiwrnod fel yr oedd efe yn athrawiaethu, fod o'r Phariſæaid a doctoriaid y gyfraith yn eiſtedd yno, y rhai a ddaethent, o bob tref yn Galilæa, ac Iudæa, ac o Ieruſalem: ac yr oedd gallu'r Arglwydd iw hiachau hwynt.

Math.9.2. Mar.2.3. 18 Ac wele *rai yn dwyn dŷn mewn gwely, yr hwn oedd glaf o'r parlys: a hwynt a geiſiaſant ei ddwyn ef i mewn a'i ddodi ger ei fron ef.

19 A phryd na chawſant ffordd iw ddwyn ef i mewn gan y bobl, hwynt hwy a ddringaſant ar y tŷ, ac a'i gollyngaſant ef yn y gwely i'r llawr yn y canol trwy'r pridd-lechau ger bron yr Ieſu.

20 A phan weles efe eu ffydd hwynt, efe a ddywedodd, y dŷn maddeuwyd i ti dy bechodau.

21 Yna y dechreuodd yr ſcrifennyddion a'r Phariſæaid ymreſymmu gan ddywedyd, pwy yw hwn ſydd yn dywedyd cabledd? pwy a ddichon faddeu pechodeu, ond Duw yn unic?

22 Pan wybu'r Ieſu eu hymreſymmiad hwynt, efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt: pa reſymmu yn eich calonnau yr ydych?

23 Pa un hawſ a'i dywedyd, maddeuwyd i ti dy bechodau: a'i dywedyd, cyfot a rhodia?

24 Ac fel y gwybyddoch fod i Fab y dŷn awdurdod ar y ddaiar i faddeu pechodau, (eb efe wrth y claf o'r parlys) yr wyf yn dywedyd wrthit: cyfot cymmer dy wely, dos i'th dŷ.

25 Ac yn y man y cyfodes efe i fynu yn eu gŵydd hwynt, ac efe a gymmerth yr hyn y gorwedde arno, ac a aeth ymmaith iw dŷ ei hun, gan ogoneddu Duw.

26 A ſyndod a ddaeth ar bawb: a hwynt a foliannaſant Dduw: ac hwy a lanwyd o ofn, gan ddywedyd: gwelſom yn ddiau bethau anhygoel heddyw.

Math.9.9. Marc.2.14. 27 Yn *ôl hyn yr aeth efe allan, ac a welodd Publican a'i enw Lefi, yn eiſtedd yn y dollfa, ac efe a ddywedodd wrtho, dilyn fi.

28 Ac yntef gan adel y cwbl, a gyfodes i fynu, ac a'i dilynodd ef.

29 A gwnaeth Lefi iddo wledd fawr yn ei dŷ, lle yr oedd tyrfa fawr o Bublicanod, ac eraill y rhai oeddynt yn eiſtedd gyd â hwynt ar y bwrdd.

30 A'r ſawl o honynt oedd ſcrifennyddion a Phariſæaid a furmuraſant yn erbyn ei ddiſcyblion ef, gan ddywedyd: pa ham yr ydych chwi yn bwyta, ac yn yfed gyd â'r Publicanod a'r pechaduriaid?

31 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt: nid rhaid i'r rhai iach wrth feddig, ond i'r rhai cleifion:

32 Ni *ddaethum i alw'r cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch. 1.Tim.1.15.

33 Yna y dywedaſant wrtho: *pa ham y mae diſcyblion Ioan yn ymprydio yn fynych, ac yn gweddio, a diſcyblion y Phariſæaid hefyd, a'r eiddo ti yn bwytta, ac yn yfed? Math.9.14. Marc.2.18.

34 Yntef a ddywedodd wrthynt, a ellwch chwi beri i blant yr ſtafell briodas ymprydio, tra fyddo'r priodaſ-fab gyd â hwynt?

35 Y dyddiau a ddeuant hefyd pan dynner y priodaſ-fab oddi wrthynt, ac yna yr ymprydiant yn y dyddiau hynny.

36 Ac efe a ddywedodd wrthynt ar ddameg: ni rydd neb lain o wiſc newydd mewn hên wiſc: canys yna y newydd a'i rhwyg, a'r llain o'r newydd ni chyduna â'r hên.

37 Ac nid yw neb yn bwrw gwin newydd i hên goſtrelau, canys yna y dryllia'r gwin newydd y coſtrelau, ac y rhed efe allan, a'r coſtrelau a gollir.

38 Eithr gwin newydd ſydd iw fwrw mewn coſtrelau newyddion, a phob un a gedwir.

39 Hefyd nid oes neb a yf win hên, ac yn y fan a gais y newydd, canys dywed, gwell yw'r hên.

## PEN. VI.

Criſt yn eſcuſodi ei ddiſcyblion am dynnu y tywys yd ar y Sabboth, 12 yn gweddio mewn mynydd, ac yn dewis ei ddeuddec Apoſtl, 20 ac yn dangos gwynfyd y duwiol, a'r gwae a ddaw i'r annuwiol.

Math.12.1. Marc.2.23. A Bu ar *yr ail prif Sabboth, fyned o honaw trwy'r ŷd, a thynnu o'r diſcyblion y tywys a'i bwyta wedi eu rhwbio â'i dwylo.

2 A rhai o'r Phariſæaid a ddywedaſant wrthynt: pa ham yr ydych yn gwneuthur y peth nid yw gyfreithlawn ei wneuthur ar y Sabbothau?

3 Yna'r attebodd yr Ieſu iddynt gan ddywedyd: oni ddarllenaſoch chwi, y *peth a wnaeth Dafydd pan newynodd, a'r rhai oeddynt gyd ag ef? 1.Sam.21.6.

4 Fel yr aeth efe i dŷ Dduw, ac y cymmerth y bara goſod, ac a'i rhoddes hefyd i'r rhai oeddynt gyd ag ef, yr hwn *nid oedd gyfreithlawn i neb ei fwytta onid i'r offeiriaid yn unic? Exod.19.33. Lefit.8.31.

5 A hefyd efe a ddywedodd wrthynt: Mab y dŷn ſydd Arglwydd ar y Sabboth hefyd.

Math.12.9. Marc.3.1.

6 A * bu ar Sabboth arall iddo fyned i mewn i'r Synagog, ac athrawiaethu: ac yno yr oedd dŷn a'i law ddehau wedi diffrwytho.

7 A'r ſcrifennyddion a'r Phariſæaid a'i diſgwiliâſant ef, a iachâe efe ef ar y [dydd] Sabboth, fel y caffent achwyn yn ei erbyn ef.

8 Eithr efe a ŵybu eu meddyliau hwynt: ac a ddywedodd wrth y dŷn a'r llaw ddiffrwyth, cyfot, a ſaf i fynu yn y canol, ac efe a gyfododd i fynu, ac a ſafodd.

9 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt, mi a ofynnaf i chwi beth: a'i cyfreithlawn gwneuthur dâ ar y dydd Sabboth, ynte gwneuthur drwg? cadw enioes, ai lladd?

10 Ac efe a edrychodd arnynt oll oddi amgylch, ac a ddywedodd wrth y dŷn: eſtyn dy law, ac efe a wnaeth felly, a'i law ef a aeth eilwaith mor iach â'r llall.

11 Yna yr ymlanwaſant hwy o ynfydrwydd, ac yr ymddiddanaſant wrth eu gilydd, pa beth a wnaent i'r Ieſu.

12 A bu yn y dyddiau hynny fyned o honaw i'r mynydd i weddio, a bod yno ar hŷd y nôs yn gweddio Duw.

Luc.9.1. Math.10.1. Marc.3.13.

13 A phan * aeth hi yn ddydd efe a alwodd ei ddiſcyblion, ac o honynt efe a etholes ddeuddec, y rhai a alwodd efe Apoſtolion.

14 (Simon yr hwn hefyd a alwodd efe Petr, ac Andreas ei frawd, Iaco, ac Ioan, Philip, a Bartholomew,

15 Matthew a Thomas, Iaco [fab] Alpheus, a Simon a elwir Zelotes,

16 Iudas brawd Iaco, ac Iudas Iſcariot, yr hwn hefyd a aeth yn fradwr)

17 Yna yr aeth efe i wared gyd â hwynt, ac a ſafodd mewn gwaſtatir gyd â'r dorf oi' ddiſcyblion, a lliaws mawr o bobl o holl Iudæa, ac Ieruſalem, ac o duedd môr Tyrus a Sidon, y rhai a ddaethent iw glywed ef, ac iw hiachau o'u clefydau.

18 A'r rhai a flinaſid gan yſprydion aflan, ac a iachaueſid.

19 A'r holl dyrfa oedd yn ceiſio cyffwrdd ag ef: am fod rhinwedd yn myned o hanaw allan, ac yn iachau pawb.

Math.5.2.

20 Ac efe * gan dderchafu ei olygon ar ei ddiſcyblion a ddywedodd, gwyn eich byd y tlodion: canys chwi piau teyrnas Dduw.

Eſa.65.13. Eſa.61.3.

21 Gwyn * eich byd yr rhai ſy yn newynu yr awran, canys chwi a ddigonir. Gwyn eich byd * y rhai a ŵylwch yr awran, canys chwi a chwerddwch.

Math.5.11.

22 Gwynfydedig fyddwch pan eich caſâo dynion, a'ch didoli chwi oddi wrthynt, a'ch difenwi, * a bwrw allan i chwi megis drwg enw, er mwyn Mab y dŷn:

23 Byddwch lawen y dydd hwnnw a llemmwch, canys wele eich gobr ſydd fawr yn y nefoedd: o blegit yn yr un ffunyd y gwnaeth eu tadau hwynt i'r prophwydi.

Amos 6.1.

24 Eithr * gwae chwi 'r cyfoethogion, canys derbyniaſoch eich diddanwch.

Eſa.65.13.

25 Gwae * chwi y rhai llawn, canys chwi a newynwch, gwae chwi y rhai a chwerddwch yr awran, canys chwi a alerwch, ac a wylwch.

26 Gwae chwi pan ddywedo pob dŷn dda am danoch, canys felly y gwnaeth eu tadau hwynt i'r gau brophwydi.

Math.5.44.

27 * Ond yr wyf yn dywedyd wrthych chwi y rhai ydych yn gwrando, cerwch eich gelynion: gwnewch dda i'r rhai a'ch caſânt.

28 Bendithiwch y rhai a'ch melldithiant: a gweddiwch tros y rhai a'ch drygant.

Math.5.39. 1.Cor.6.7.

29 Ac * i'r hwn a'ch tarawo ar y [naill] gern, tro 'r llall hefyd: ac i * 'r hwn a ddwg ymmaith dy gochl, na wahardd dy bais.

30. Dod i bob un a'r a geiſio gennit, a chan y neb a fyddo yn dwyn na chais yr eiddot ti eilchwel.

Math.7.12. Tob.4.16.

31 Ac * fel y mynnech i ddynion wneuthur i chwi: felly gwnewch chwithau iddynt hwy.

Math.5.46.

32 * Canys os cerwch y rhai a'ch carant chwichau, pa ddiolch ſydd i chwi? o blegit y pechaduriaid a garant y rhai a'i carant hwythau.

33 Ac os gwnewch dda i'r rhai a wnânt dda i chwichau, pa ddiolch ſydd i chwi? o blegit y pechaduriaid a wnant yr un peth.

Math.5.42. Deut.15.8.

34 Ac * os rhoddwch echwyn i'r rhai yr ydych yn gobeithio y cewch chwithau ganddynt, pa ddiolch ſydd i chwi? o blegit pechaduriaid i bechaduriaid a roddant echwyn, er mwyn cael y cyffelyb.

Math.5.45.

35 Eithr, cerwch eich gelynion, gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, heb obeitho tâl trachefn, a'ch gobr a fydd mawr, a * phlant fyddwch i'r Goruchaf: canys daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drwg.

*Yr Efengyl y pedwerydd Sul wedi'r Drindod.*

36 ☞ Byddwch gan hynny drugarogion, megis y mae eich Tâd yn drugarog.

Math.7.1.

37 * Na fernwch ac ni'ch bernir: na chondemnwch, ac ni'ch condemnir, maddeuwch a maddeuir i chwithau.

Math.7.2. Marc.4.24.

38 Rhoddwch a rhoddir i chwi: * meſur da, dwyſedig, wedi ei eſcwyd, ac yn myned troſodd a roddant yn eich mynwes: canys â'r ûn meſur y meſuroch y meſurir i chwi trachefn.

Math.15.14.

39 Ac efe a ddywedodd ddammeg wrthynt: a * ddichon y dall dywyſo'r dall? oni ſyrthiant ill dau yn y clawdd?

Math.10.24. Ioh.13.16.

40 Nid * yw 'r dyſcybl uwch law ei athro: canys perffaith a fydd pob un a fyddo fel ei athro.

Math.7.3.

41 Pa ham * y gweli di frycheun yn llygad dy frawd, ac heb yſtyried y trawſt ſydd yn dy lygad dŷ hun?

42 Neu pa fodd y gelli di ddywedyd wrth dy frawd, fy mrawd, gad i mi dynnu allan y brycheun y ſydd yn dy lygad, a thydi heb weled y trawſt yr hwn ſydd yn dy lygad dy hun? ô ragrithiwr, bwrw allan y trawſt o'th lygad dy hun yn gyntaf, ac yna y gweli yn eglur dynnu allan y brycheun yr hwn ſydd yn llygad dy frawd.

Math.7.17.

43 * Nid yw pren da yn dwyn ffrwyth drwg,

ac nid yw y pren drwg yn dwyn ffrwyth da.

Math.7.16. Mar.12.13. 44 Pob * pren a adweinir wrth ei ffrwyth ei hun, canys nid o'r drain y casclant ffigus, nac o berth yr heliant rawn-win.

45 Y dŷn da o ddaionus dryssor ei galon a ddwg allan ddaioni: a'r dŷn drwg o ddrygionus dryssor ei galon a ddwg allan ddrygioni: canys o gyflawnder y galon y mae y geneu yn llefaru.

Math.7.21. Rhuf.13.2. 46 * Paham yr ydych yn fyng-alw i Arglwydd, Arglwydd, gan nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd?

47 Pwy bynnag a ddel attaf, ac a wrendu fyng-eiriau, ac a'u gwnelo hwynt, dangosaf i chwi i bwy y mae efe yn gyffelyb.

48 Cyffelyb yw i ddŷn yn adeiladu tŷ, yr hwn a gloddiodd ac a dyllodd, ac a osododd ei sail ar graig: a phan ddaeth rhyferthwy, y llifeiriant a gurodd ar y tŷ, ac ni alle ei syflyd am ei fod wedi sailio ar y graig.

49 A'r hwn a wrendu ac ni wna, cyffelyb yw i ddŷn a adeilade dŷ ar y ddaiar heb sail, ar yr hwn y curodd y llifeiriant, ac yn y fan y syrthiodd, a chwymp y tŷ hwnnw oedd fawr.

## PEN. VII.

Crist yn iachau gwâs y canwriad. 11 Yn codi o farw i fyw fab gwraig weddw. 20 Yn atteb ac yn cannol Ioan. 37 Ffydd, edifeirwch, a maddeuant Mair Magdâlen.

Math.8.5. WEdi * iddo orphen ei holl ymadroddion lle y clywe y bobl, efe a aeth i mewn i Capernaum.

2 A gwâs rhyw Ganwriad oedd yn glaf ym mron marw, yr hwn oedd annwyl ganddo ef.

3 Pan glybu efe am yr Iesu, efe a ddanfonodd atto henuriaid yr Iddewon gan attolwg iddo ddyfod, ac iachau ei wâs.

4 Y rhai pan ddaethant at yr Iesu a attolygâsant arno yn daer gan ddywedyd, o blegit y mae efe yn haeddu cael gwneuthur o honot hynn iddo.

5 Canys (eb hwynt) y mae yn hoff ganddo ein cenedl ni, ac efe a adeiladodd i ni Synagog.

6 A'r Iesu a aeth gyd â hwynt, ac efe heb fod yn bell oddi wrth y tŷ, y Canwriad a anfonodd gyfeillion atto gan ddywedyd wrtho, ô Arglwydd na phoena, canys nid wyf fi deilwng i ddyfod o honot tann fyng-hronglwyd.

7 Am hynny ni thybiais fy hun yn deilwng i ddyfod attat, eithr dywet ti 'r gair, ac iach fydd fyng-was.

8 O blegit dyn wyf finne wedi ei osod tann awdurdod, a chennif filwŷr tanaf, ac meddaf wrth hwn, dos, ac efe a aiff, ac wrth arall, tyret, ac efe a ddaw, ac wrth fyng-wâs, gwna hynn, ac efe a'i gwna.

9 Pan glybu'r Iesu y pethau hyn, rhyfeddu a wnaeth o'i blegit ef, a throi, a dywedyd wrth y bobl oedd yn ei ganlyn: yr ydwyf yn dywedyd i chwi, na chefais gymmaint o ffydd yn Israel.

10 A'r rhai a anfonasid wedi iddynt ddychwelyd adref a gawsant y gwâs a fuase yn glaf, yn holl-iach.

*Yr Efengyl yr vnfed Sul ar bymtheg wedi 'r Drindod.*

☞ 11 A bu drannoeth iddo fyned i ddinas a elwid Nain: a llawer o'i ddiscyblion a aethant gyd ag ef, a thyrfa fawr.

12 Pan ddaeth efe yn agos at borth y ddinas: wele un marw a ddygid allan, yr hwn oedd unic fab ei fam, a honno yn weddw, a llawer o bobl y ddinas oedd gyd â hi.

13 A phan welodd yr Arglwydd hi, efe a gymmerodd drugaredd arni, ac a ddywedodd wrthi, nac wyla.

14 A phan ddaeth yn nes, efe a gyffyrddodd â'r elor, (a'r rhai oedd yn ei dwyn a safasant) ac efe a ddywedodd, y mab ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthit cyfod.

15 Yna y cyfodes y marw yn ei eistedd, ac efe a ddechreuodd lefaru: ac efe a'i rhoddes iw fam.

16 Ac ofn a ddaeth arnynt oll, ac hwy a ogoneddasant Dduw gan ddywedyd: yn ddiau prophwyd mawr a gyfododd yn ein plith, ac ymwelodd Duw â'i bobl.

17 A'r gair hwn a aeth allan am danaw tros holl Iudæa, a thros gwbl o'r wlâd oddi amgylch. ☜

Math.11.2. 18 A * mynegodd ei ddiscyblion i Ioan am hyn oll.

19 Ac wedi i Ioan alw dau o'i ddiscyblion atto, efe a'u gyrrodd hwynt at yr Iesu, gan ddywedyd: ai tydi yw'r hwn sydd ar ddyfod, ai arall a ddysgwiliwn?

20 A phan ddaeth y gwŷr atto, hwynt hwy a ddywedasant: Ioan Fedyddiwr a'n anfonodd ni attat ti, gan ddywedyd: ai ti yw'r hwn sydd ar ddyfod, ai arall a ddisgwiliwn?

21 A'r awr honno efe a iachâodd lawer oddi wrth glefydau, a phlauau, ac yspyrydion drwg: ac i lawer o ddeillion y rhoddes efe eu golwg.

22 A'r Iesu a attebodd gan ddywedyd wrthynt: ewch ymmaith a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch, ac a glywsoch: fod y * deilliaid yn cael eu golwg, y cloffion yn rhodio: y gwahan-gleifion yn eu glanhau, y byddariaid yn clywed, y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn derbyn yr Efengyl. Esa.35.5. & 61.1. Math.11.5.

23 A gwyn ei fyd y neb ni rwystrir o'm plegit i.

Math.11.7. 24 Ac * wedi i gennadau Ioan fyned ymmaith, efe a ddechreuodd ddywedyd wrth y dyrfa am Ioan: beth yr aethoch allan i'r diffaethwch iw weled? ai corsen yn sigla gan wynt?

25 Ond pa beth yr aethoch iw weled? ai dŷn wedi ei ddilladu â gwiscoedd esmwyth? wele y rhai sy yn arferu dillad anrhydeddus a masswedd ydynt mewn palasoedd brenhinoedd.

26 Eithr beth yr aethoch iw weled? ai prophwyd? yn ddiau meddaf i chwi, a mwy nâ phrophwyd.

Mal.3.1. 27 Hwn yw efe o'r vn yr scrifennwyd: * wele le yr wyf yn anfon fyng-hennad o flaen dy wyneb, yr hwn a drefna dy ffordd o'th flaen.

28 Canys meddaf i chwi ym mhlith y rhai a aned o wragedd nid oes brophwyd mwy nag Ioan Fedyddiwr: eithr yr hwn ſydd leiaf yn nheyrnas Dduw ſydd fwy nag ef.

29 Yna yr holl bobl a'r oedd yn gwrando, a'r Publicanod a foliannaſant Dduw, y rhai a fedyddiaſid â bedydd Ioan.

30 Eithr y Phariſæaid a'r cyfreithwyr yn eu herbyn eu hunain a wrthodaſant gyngor Duw, heb eu bedyddio ganddo.

Math.11.16.

31 Yna yr Arglwydd a ddywedodd, i * bwy y cyffelybaf ddynion y genhedlaeth hon, ac i ba beth y maent tebyg?

32 Tebyg ydynt i blant yn eiſtedd yn y farchnad, ac yn llefain wrth eu gilydd, gan ddywedyd: canaſom bibau i chwi, ac ni ddawnſiaſoch, cwynfanaſom i chwi, ac ni wylaſoch.

33 Daeth Ioan Fedyddiwr heb fwytta bara, nac yfed gwin, ac meddwch chwi, y mae cythrael ganddo.

34 Daeth Mab y dŷn yn bwytta ac yn yfed, ac yr ydych yn dywedyd, wele dyn glwth, ac yfwr gwin, cyfaill Publicanod a phechaduriaid.

35 Doethineb a gyfiawnhawyd gan bawb o'i phlant.

36 Ac un o'r Phariſæaid a'i gwahoddodd ef i fwytta gyd ag ef, ac yntef a aeth i dŷ'r Phariſæad, ac a eiſteddodd.

37 Ac wele wraig, yr hon a fuaſe bechadures yn y ddinas, pan wybu hi fod yr Ieſu yn eiſtedd ar y bwrdd, yn nhŷ'r Phariſæaid, hi a ddug flwch o ennaint.

Marc.14.3.
Ioan.20.

38 A * chan ſefyll wrth ei draed ef o'r tu ôl, ac wylo, hi a ddechreuodd olchi ei draed ef â dagrau, a'u ſychu â gwallt ei phenn, a hi a guſanodd ei draed ef, ac a'u hirodd â'r ennaint.

39 Pan welodd y Phariſæad, yr hwn a'i gwahaddaſe, efe a ddywedodd wrtho ei hun: pe bydde hwn brophwyd, efe a wydde pwy, a pha fath wraig yw'r hon ſydd yn cyffwrdd ag ef: canys pechadures yw hi.

40 Yna'r attebodd yr Ieſu gan ddywedyd wrtho, Simon, y mae gennif beth i'm ddywedyd wrthit: yntef a ddywedodd, Athro dywet.

41 Dau ddyledwr oedd i'r un echwynwr, y naill oedd arno bum cant ceiniog o ddylêd, a'r llall ddêc a deugain.

42 A phryd nad oedd ganddynt ddim i dalu, efe a faddeuodd iddynt ill dau: dywet gan hynny pwy o'r rhai hyn a'i câr ef yn fwyaf?

43 Simon a attebodd, ac a ddywedodd: yr wyf yn tybied mae'r hwn y maddeuodd efe iddo fwyaf: yntef a ddywedodd wrtho, iniawn y bernaiſt.

44 Yna wedi troi at y wraig, efe a ddywedodd wrth Simon: a weli di'r wraig hon? daethym i'th dŷ, ac ni roddaiſt i mi ddwfr i'm traed: a hon a olchodd fy nhraed â dagrau, ac a'u ſychodd â gwallt ei phenn.

45 Ni roddaiſt i mi guſan, a hon er pan ddaethym i mewn, ni orphywyſodd yn cuſanu fy nhraed.

46 Nid iraiſt fy mhenn ag olew, a hi a irodd fy nhraed ag ennaint.

47 Am hynny meddaf i ti, maddeuwyd llawer o bechodau hi: canys e carodd yn llawn, o achos i'r neb y maddeuer ychydig, ychydig a gar efe.

48 Ac efe a ddywedodd wrthi: maddeuwyd i ti dy bechodau.

49 Yna y rhai oeddynt yn cyd-eiſtedd a ddechreuaſant ddywedyd ynddynt eu hunain, Pwy yw hwn ſydd yn maddeu pechodau hefyd?

50 Ac efe a ddywedodd wrth y wraig, Dy ffydd a'th gadwodd, dos mewn tangnefedd.

## PEN. VIII.

Criſt yn pregethu o dref i dref, 5 Yn goſod allan ddammeg yr hâd, 16 A'r gannwyll, 19 Yn dangos pwy ſydd geraint iddo, 23 Yn goſtegu y môr, 41 Wrth fyned gyd ag Iairus yn iachau y wraig glaf o'r diferlifgwaed, ac yn bywhau merch Iairus.

A Bu wedi hynny, iddo ef fyned trwy bob dinas, a thref, gan bregethu ac efangylu teyrnas Dduw, a'r deuddec [oeddynt] gyd ag ef:

2 A rhai gwragedd, a'r a iacheſid oddi wrth yſprydion drwg a chlefydau, Mair yr hon a elwid Magdalen, * o'r hon yr aethe ſaith gythrael allan,

Marc.16.9.

3 Ac Ioanna gwraig Chuza goruchwyliwr Herod, a Suſanna, a llawer eraill, y rhai oeddynt yn gweini iddo o'u golud.

*Yr Efengyl ar y Sul a elwir Sexageſima.*

☞ 4 Ac * wedi i lawer o bobl ymgynnull yng-hyd, a chyrchu atto o bob dinas, efe a ddywedodd ar ddammeg.

Math.13.3.
Marc.4.2.

5 Yr hauwr a aeth allan i hau ei hâd, ac wrth hau peth a ſyrthiodd ar ymyl y ffordd, ac a fathrwyd, ac ehediaid y nef a'i bwyttaodd.

6 A pheth arall a ſyrthiodd ar y graig, a phan eginodd y gwywodd, am nad oedd iddo wlybwr.

7 Ac arall a ſyrthiodd ym myſc drain, a'r drain a gyd-tyfaſant, ac a'i tagaſant ef.

8 Ac arall a ſyrthiodd ar dir da, ac a eginodd ac a ddug ffrwyth ar ei ganfed: wrth ddywedyd y pethau hyn efe a lefodd: y neb ſydd a chluſtieu iddo i wrando gwrandawed.

9 A'i ddiſcyblion a ofynnaſant iddo gan ddywedyd: pa ddammeg oedd hon?

Eſa.6.9.
Math.13.14.
Marc.4.12.
Ioan.12.40.
Act.28.26.

10 Yntef a ddywedodd: i chwi y rhoddwyd gwybod dirgeloedd teyrnas Dduw: eithr i eraill ar ddammegion, fel * yn gweled na welant, ac yn clywed na ddeallant.

11 Ac dymma'r *ddammeg, yr hâd yw gair Duw.

Math.13.18.
Marc.4.5.

12 A'r rhai ar ymyl y ffordd ydyw y rhai ſy yn gwrando, wedi hynny y mae diafol yn dyfod ac yn dwyn ymmaith y gair o'u calonnau hwynt, rhag iddynt gan gredu fod yn gadwedig.

13 Y rhai ar y graig [yw] y rhai pan glywant y gair a'i derbyniant yn llawen: eithr y rhain nid oes ganddynt wreiddin, y rhai ydynt

yn credu tros amſer, ac yn amſer profedigaeth yn cilio.

14 A'r hwn a ſyrthiodd ym‑myſc y drain, yw y rhai a wrandawſant, ac wedi iddynt fyned ymmaith, y maent yn tagu gan ofalon, a golud a melyſwedd buchedd, ac nid ydynt yn dwyn ffrwyth.

15 A'r hwn a [ſyrthiodd] ar y tir da, yw y rhai â chalon rywiog dda, ydynt yn gwrando y gair, ac yn ei gadw, ac ydynt yn ffrwytho trwy amynedd.

Luc.11.33.
Math.5.15.
Marc.4.22.

16 *Nid yw neb wedi goleu cannwyll yn ei chuddio hi â lleſtr, neu yn ei goſod tan wely: eithyr yn ei goſod ar ganhwyllbren, fel y caffo'r rhai a ddel i mewn weled goleuni.

Luc.12.2.
Math.10.26.
Marc.4.22.

17 *Canys nid oes dim dirgel, a'r ni bydd amlwg, na dim cuddiedig, a'r nis gwybydder, ac na ddaw i'r goleu.

Math.13.12.
Marc.4.25.
Luc.19.24.

11 Edrychwch am hynny pa fodd y clywoch: *canys pwy bynnac y mae ganddo, y hwnnw y rhoddir: a phwy bynnac nid oes ganddo, yr hyn y mae yn tybied ei fod ganddo a ddygir oddi arno.

Math.12.46.
Mar.3.31.

19 *Daeth hefyd atto ei fam a'i frodyr, ac ni allent ddyfod yn agos atto gan y dorf.

20 A mynegwyd iddo [gan rai] a ddywedaſant, y mae dy fam a'th frodyr yn ſefyll allan, yn ewyllyſio dy weled.

21 Ac efe a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt: fy mam i a'm brodyr yw y rhai ſy yn gwrando gair Duw, ac yn ei wneuthur.

Math.8.23.
Mar.4.36.

22 A bu *ar ryw ddiwrnod fyned o honaw i long gyd â'i ddiſcyblion, a dywedyd wrthynt: awn i'r tu hwnt i'r llynn, ac hwy a gychwynnaſãt

23 Ac fel yr oeddynt yn hwylio, efe a hunodd, a chafod o gorwynt a gododd ar y llynn, onid oeddynt yn llawn, ac mewn enbydrwydd.

24 Yna yr aethant atto, ac y deffroaſant ef gan ddywedyd, Feiſtr, ô feiſtr ddarfu am danom, ac efe wedi ei gyfodi, a geryddodd y gwynt a'r tonnau dwfr: a hwynt a beidiaſant, a hi aeth yn dawel.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pale y mae eich ffydd chwi? ac ofni a rhyfeddu a wnaethant, gan ddywedyd y naill wrth y llall: pwy yw hwn, ſydd yn gorchymyn y gwynt a'r dwfr, a hwynteu yn vfyddhau iddo?

Math.8.8.
Marc.5.1.

26 Ac *hwy a hwyliaſant i wlad y Gadareniaid yr hon ſydd o'r tu arall ar gyfer Galilæa.

27 Ac wedi iddo fyned allan i dîr, y cyfarfu ag ef ryw ŵr o'r ddinas, yr hwn oedd ganddo gythreuliaid er ys talm o amſer, ac ni wiſce ddillad, ac nid arhoſe mewn tŷ, ond yn y monwentydd.

28 Hwn pan welodd yr Ieſu wedi iddo ddolefain, a ddaeth atto, ac a ddywedodd â llef vchel, beth ſydd i mi â thi ô Ieſu fab Duw Goruchaf? yr wyf yn attolwg iti, na'm poenech.

29 Canys gorchymynaſe efe i'r yſpryd aflan ddyfod allan o'r dyn, canys llawer o amſerau y cymmeraſe ef, am hynny y cedwid ef yn rhwym â chadwynau, ac â llyffetheiriau, eithr wedi dryllio y rhwymeu, ef a yrrwyd gan y cythraul i'r diffaethwch.

30 A'r Ieſu a ofynnodd iddo gan ddywedyd, beth yw dy enw di? yntef a ddywedodd, Lleng: canys llawer o gythreuliaid a aethent iddo ef.

A hwy a attolygaſant iddo, na orchymynnei iddynt fyned i'r dyfnder.

32 Ac yr oedd yno genfaint o foch yn pori ar y mynydd, a hwynt hwy a attolygaſant iddo adel iddynt fyned i mewn i'r rhai hynny: ac efe a adawodd iddynt.

33 A'r cythreuliaid a aethant allan o'r dyn, ac a aethant i mewn i'r moch, a'r genfaint a ruthrodd yn ddi ar y dibyn i'r llynn] ac a foddwyd.

34 A phan welodd y meichiaid yr hyn a ddarfuaſe, hwynt hwy a ffoaſant, ac a aethant, ac a fynegaſant yn y ddinas a'r meuſydd.

35 Yna yr aethant hwy allan i weled yr hwn a wnelſid yn iach, ac a ddaethant at yr Ieſu, ac a gawſant y dyn o'r hwn yr aethe y cythreuliaid allan, yn ei ddillad a'i iawn bwyll, yn eiſtedd wrth draed yr Ieſu, ac hwy a ofnaſant.

36 A'r rhai a welſent a fynegaſant iddynt, pa fodd yr iachauſid y cythreulic.

37 A'r holl werin o gylch gwlad y Gaderenniaid, a ddymunaſant arno fyned ymaith oddi wrthynt: am eu bod mewn ofn mawr: ac efe wedi myned i'r llong a ddychwelodd.

38 A'r gŵr o'r hwn yr aethe y cythreuliaid allã, a ddeiſyfiodd arno ef gael bod gyd ag ef: eithr yr Ieſu a'i danfonodd ef ymmaith gã ddywedyd,

39 Dychwel i'th dŷ, a dangos faint a wnaeth Duw erot, felly yr aeth efe tan bregethu trwy gwbl o'r ddinas faint a wnaethe'r Ieſu iddo.

40 A bu pan ddychwelodd yr Ieſu trachefn, dderbyn o'r bobl ef, canys yr oedd pawb yn diſgwil am dano ef.

41 Ac *wele daeth gŵr a'i enw Iairus, ac efe oedd lywodraethwr y Synagog, ac efe a ſyrthiodd wrth draed yr Ieſu, ac a attolygodd iddo ddyfod i'w dŷ ef:

Math.9.18.
Marc.5.22.

42 O herwydd yr oedd iddo un ferch ynghylch deuddeng‑mlwydd o oed, yr hon oedd ar farw, ac fel yr oedd efe yn myned, y bobl a'i gwaſcodd ef.

43 A gwraig yr hon oedd mewn diferlif gwaed er ys deuddeng mhlynedd, ac a roeſe i fedygon gymmaint oll a fedde, ni alle gael gan neb ei hiachau,

44 Pan ddaeth hi o'r tu cefn iddo ef, hi a gyffyrddodd ag ymmyl ei wiſc ef, ac yn y fan y ſafodd diferlif ei gwaed hi.

45 Yna y dywedodd yr Ieſu, pwy yw yr hwn a gyffyrddodd â mi? ac a phawb yn gwadu, y dywedodd Petr a'r rhai oedd gyd ag ef, ô feiſtr y mae'r dorf yn dy waſgu, ac yn dy flino, ac a wyt ti yn dywedyd, pwy yw yr hwn a gyffyrddodd â mi?

46 A'r Ieſu a ddywedodd, rhyw un a gyffyrddodd â mi: canys mi a wnn fyned rhinwedd o

honof.

47 Pan welodd y wraig nad oedd hi yn guddiedig, hi a ddaeth dan grynu, ac a ſyrthiodd wrth ei draed ef, ac a fynegodd iddo yng-wydd yr holl bobl, am ba achos y cyffyrddaſe hi ag ef, ar modd yr iachauſid hi yn ebrwydd.

48 Ac yntef a ddywedodd wrthi, Cymmer gyſſur ferch, dy ffydd a'th iachâodd: dos mewn tangneddyf.

49 Ac efe etto yn lleſaru, fe a ddaeth un o dŷ llywodraethwr y Synagog, gan ddywedyd wrtho, bu farw dy ferch, na phoena mo'r Athro.

50 A'r Ieſu pan glybu hyn a'i attebodd ef: nac ofna, creda yn unic a hi a iacheir.

51 Wedi ei fyned ef i'r tŷ, ni ollyngodd efe neb i mewn gyd ag ef, ond Petr, ac Iaco, ac Ioan, a thâd a mam y llangces.

52 Ac wylo a griddfan am deni yr oeddynt oll, eithr efe a ddywedodd, nac wylwch: nid marw hi, eithr cyſcu y mae hi.

53 A hwynt ai gwatwaraſant ef, am iddynt wybod ei marw hi.

54 Yna y bwriodd efe hwynt oll allan, ac a'i cymmerth hi erbyn ei llaw, ac a lefodd gan ddywedyd, herlodes cyfot.

55 A'i hyſpryd hi a ddaeth trachefn, a hi a gyfododd yn ebrwydd, ac efe a orchymynnodd roi bwyd iddi.

56 A rhyfeddu a wnaeth ei rhieni hi: ac efe a orchymynnodd na ddywedent i neb y peth a wneithid.

## PEN. IX.

Criſt yn anſon y deuddec i bregethu, 12 yn porthi pum mil â phump torth 18 yn gofyn pwy yr oeddid yn tybied ei fod efe 29 yn ymrithio ar y mynydd, 3 yn bwrw allan y cythrael ni alle ei ddiſcyblion ei fwrw, 57 ac yn atteb tri math ar ddilynwyr.

Math.10.1.
Mar.3.13.

AC efe a * alwodd ei ddeuddec diſcybl, ac a roddes iddynt feddiant, ac awdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac i iachau cleſydau.

2 Ac efe a'u hanfonodd hwynt i bregethu teyrnas Duw, ac i iachau 'r clwyfus.

3 Ac efe a ddywedodd wrthynt, na chymmerwch ddim i'r daith, na ffyn, nac ſcrepan, na bara, nac arian, ac na fydded i chwi ddwy bais.

4 Ac i ba dŷ bynnac yr eloch i mewn arhoſwch yno, ac oddi yno yr ymadewch.

Math.10.14.
Marc.6.11.
Luc.10.11.
Act.13.51.

5 A* pha rai bynnac ni'ch derbyniant, pan eloch allan o'r ddinas honno, eſcydwch y llwch oddi wrth eich traed yn deſtiolaeth yn eu herbyn hwynt.

6 Ac wedi iddynt fyned allan hwynt hwy a aethant trwy bob tref gan bregethu yr Efengyl, ac iachau ym mhob lle.

Math.14.1.
Marc.6.14.

7 A*Herod y Tetrarch a glybu y cwbl oll a wnaethid ganddo: ac efe a betruſodd, am fod rhai yn dywedyd gyfodi Ioan o feirw.

8 A rhai eraill, ymddangos o Elias: a rhai eraill, mai un o'r hên brophwydi a adgyfodaſe.

9 Yna y dywedodd Herod, Ioan a dorreis i ei ben, pwy gan hynny ydyw hwn yr wyf yn clywed y cyfryw bethau am dano? ac yr oedd efe yn ceiſio ei weled ef.

10 Ac wedi dychwelyd yr Apoſtolion, hwy a fynegaſant iddo y cwbl a wnaethaſent, * ac efe a'u cymmerth hwynt, ac a aeth o'r naill-tu i ddiffeithwch y ddinas a elwir Bethſaida.

Math.14.13.
Marc.6.32.

11 A phan wybu 'r bobl hynny, hwynt hwy a'i dilynaſant ef, ac efe a'u derbyniodd hwynt, ac a ymddiddanodd â hwynt am deyrnas Duw: y rhai oedd arnynt eiſieu iechyd a iachaodd efe.

12 A'r * dydd a ddechreuodd hwyrhau, a'r deuddec a ddaethant atto, ac a ddywedaſant wrtho: gollwng y bobl ymmaith, fel y gallant fyned i'r trefi a'r meuſydd oddi amgylch i letteu, ac i geiſio bwyd, canys yr ydym ni yma mewn lle anghyfannedd.

Math.14.16.
Marc.6.35.
Ioh.6.5.

13 Ac efe a ddywedodd wrthynt, rhoddwch chwi iddynt [bwyd] iw fwytta: a hwyntau a ddywedaſant, nid oes genym ni fwy nâ phump torth a dau byſcodyn, oni byddi i ni fyned a phrynu bwyd i'r bobl hyn oll.

14 Canys yr oeddynt yng-hylch pum mil o wŷr, ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion: gwnewch iddynt eiſtedd yn finteioedd, bôb yn deng-wr a deugein.

15 Ac felly y gwnaethant, ac hwy a wnaethant iddynt oll eiſtedd.

16 Yna y cymmerth efe y pum torth a'r ddau byſcodyn, ac efe a edrychodd i fynu i'r nef, ac a'u bendigodd, ac a'u torrodd, ac a'u rhoddes iw ddiſcyblion iw goſod ger bron y bobl.

17 Ac hwynt hwy oll a fwyttaſant, ac a gawſant ddigon, ac fe godwyd o'r gweddillion, ddeuddec baſcedaid o friw-fwyd.

Math.16.13.
Marc.8.27.

18 Bu * hefyd fel yr oedd efe ei hun yn gweddio, fod ei ddiſcyblion gyd ag ef, ac efe a ofynnodd iddynt, gan ddywedyd: pwy y mae'r bobl yn dywedyd fy modi?

19 Ac hwynt hwy a attebaſant gan ddywedyd, Ioan fedyddiwr: a rhai Elias: eraill mai un o'r hên brophwydi a adgyfododd.

20 Ac efe a ddywedodd wrthynt: pwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i? yna Petr a ddywedodd, Criſt Duw.

21 Ac efe a'u gwahardodd hwynt, ac a orchymynnodd iddynt na ddywedent hyn i neb:

Math.17.22.
Marc.8 31.

22 Gan ddywedyd *y bydde raid i Fab y dŷn oddef llawer: a'i wrthod gan yr henuriaid, a chan yr arch-offeiriaid, a'r ſcrifennyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd adgyfodi.

Math.10.30.
Marc.8.35.
Luc.14.27.

23 Ac efe a ddywedodd wrth bawb, * os ewyllyſſia neb ddyfod ar fy ôl i, gwaded ef ei hun, a choded ei groes beunydd, a dilyned fi.

Luc.17.33.
Ioan.12.25.

24 Canys pwy * bynnac a ewyllyſio gadw ei fywyd a'i cyll ef: a phwy bynnac a gollo ei fywyd o'm hachos i a'i ceidw ef.

Math.16.26.
Mar.8.36.

25 Canys * pa leſâd i ddŷn er ennill yr oll fyd, a'i ddifetha ei hun, neu ei golli ei hun?

Math.10.33.
Marc.8.38.
Luc.12.9.
2.Tim.2.12.

26 Y neb y byddo yn gywilydd ganddo fyfi a'm geiriau, hwnnw fydd yn gywilydd gan Fab y dŷn pan ddelo yn ei ogoniant, ac [yng-ogoniant ei] Dad, a'r ſanctaidd angelion.

Math.16.28. Marc.9.1. 27 Yn wir *meddaf i chwi, y mae rhai o'r ſawl ſy yn ſefyll ymma ar ni archwaethant angeu, hyd oni welant deyrnas Duw.

Math.17.1. Marc.9.2. 28 *A bu yng-hylch wyth ddiwrnod wedi y geiriau hyn, gymmeryd o honaw ef Petr ac Ioan ac Iaco, a myned i fynu i'r mynydd i weddio.

29 Ac fel yr oedd efe yn gweddio, ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wiſc oedd yn wenn ddiſclaer.

30 Ac wele dau wr a ymddiddanâſant ag ef, y rhai oeddynt Moſes ac Elias.

31 Y rhai a ymddangoſent mewn gogoniant, ac a ddywedaſant am ei ddiweddiad ef, yr hwn a gyflawne efe yn Ieruſalem.

32 A Phetr a'r rhai oeddynt gyd ag ef, oeddynt yn ei trym-gwſc: a phan ddihunaſant, hwy a welſant ei ogoniant ef, a'r ddau wr y rhai oeddynt yn ſefyll gyd ag ef.

33 A bu pan aethant hwy ymmaith oddi wrtho ef, ddywedyd o Petr wrth yr Ieſu, ô feiſtr da yw i ni fod ymma: gwnawn dair pabell, un i ti, ac un i Moſes, ac un i Elias: eithr ni ŵydde beth yr oedd yn ei ddywedyd.

34 Ac fel yr oedd efe yn dywedyd hynn, fe a ddaeth cwmwl ac a'i cyſcododd hwynt, ac hwynt hwy a ofnaſant, pã aethant hwy i'r cwmwl.

35 A daeth llef allan o'r cwmwl gan ddywedyd, hwn yw fy annwyl Fab, gwrandewch ef.

36 Ac wedi bod y llef honno y caſwyd yr Ieſu yn unic: ac hwynt a gelaſant, ac ni fynegaſant i neb y dyddiau hynny ddim o'r pethau a welſent.

Math.17.14. Marc.9.17. 37 Ac *fe ddarfu drannoeth, a hwynt yn dyfod i wared o'r mynydd, i lawer o bobl ei gyfarfod ef:

38 Ac wele rhyw un o'r dyrfa a ddolefodd gan ddywedyd, ô Athro, yr wyf yn attolwg i ti edrych ar fy mab: canys fy unic-anedig yw.

39 Ac wele, y mae yr yſpryd yn ei gymmeryd ef, ac yntef yn ddiſymmwth yn gweiddi, ac y mae yn ei rwygo ef oni falo ewyn, a phrin yr ymedu ag ef wedi iddo ei yſigo ef.

40 A mi a ddeiſyfiais ar dy ddiſcyblion ei fwrw ef allan, ac nis gallent.

41 A'r Ieſu a attebodd gan ddywedyd, ô gẽhedlaeth anffyddlawn, ac anhydyn: pa hŷd y byddaf gyd â chwi, ac i'ch goddefaf: dwg dy fab yma.

42 Ac fel yr oedd efe yn dyfod, y cythrael a'i rhwygodd ef ac a'i drylliodd: a'r Ieſu a geryddodd yr yſpryd aflan, ac a iachaodd y bachgen, ac a'i rhoddes ef iw dad.

43 A brawychu a wnaethãt oll, gan fawredd Duw: ac fel yr oedd pawb yn rhyfeddu am yr holl bethau a wnaethe yr Ieſu, efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion,

Math.17.22. 44 Goſodwch chwi yn eich cluſtiau yr ymadroddion hynn: canys * rhoddir Mab y dyn yn nwylo dynion.

45 Eithr ni ddeallaſant mo'r gair hwn: canys cuddiedig oedd iddynt, fel na ddehallent ef: ac yr oedd arnynt arſwyd ymofyn ag ef am y gair hwn.

Math.18.1. Marc.9 33. 46 Ac fe a ddigwyddodd dadl yn eu plith: pwy o honynt oedd fwyaf.

47 A'r Ieſu wrth weled meddwl eu calonneu hwynt, a gymmerth fachgennyn, ac a'i goſododd yn ei ymyl,

48 Ac a ddywedodd wrthynt: pwy bynnag a dderbyn y bachgennyn hwn yn fy enw i ſydd yn fy nerbyn i: a phwy bynnag a'm derbyn i, ſydd yn derbyn yr hwn a'm anfonodd i: canys yr hwn ſydd leiaf yn eich plith oll, ſydd mawr.

Marc.9.38. 49 Ioan *a attebodd ac a ddywedodd, ô feiſtr ni a welſom ryw un yn dy enw di yn bwrw allan gythreuliaid, ac a waharddaſom iddo am nad oedd yn canlyn gyd â ni.

50 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt: na waherddwch: canys y neb nid yw i'n herbyn, ſydd gyd â ni.

51 A bu wedi cyflawni dyddiau ei gymmeriad ef i fynu, ymſycrhau o honaw ef i fyned i Ieruſalem.

52 Ac efe a ddanfonodd gennadau oi flaen, y rhai a gerddaſant, ac a aethant i dref y Samariaid i baratoi iddo ef.

53 Eithr hwynt ni dderbynient ef, am fod ei wyneb ef ar fyned tu ag Ieruſalem.

54 Pan weloedd ei ddiſcybliõ Iaco ac Ioan [hynny,] hwynt hwy a ddywedaſant, ô Arglwydd a fynni di i ni ddywedyd am ddyfod tân o'r nef a'u difa hwynt,* megis y gwnaeth Elias: 2.Bren.1.10.

55 A'r Ieſu a droes ac a'u ceryddodd hwynt, gan ddywedyd, ni ŵyddoch o ba yſpryd yr ydych chwi.

Math.8.19. 56 Ni* ddaeth Mab y dŷn i golli eneidiau dynion, onid iw cadw: yna yr aethant i dref arall.

57 A bu a hwynt yn myned ddywedyd o ryw un ar y ffordd wrtho ef: ô Arglwydd, mi a'th ganlynaf i ba le bynnag yr elych.

58 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho: y mae gan y llwynogod eu ffauau, a chan adar yr awyr eu nythod: eithr Mab y dŷn nid oes ganddo le i roi ei ben i lawr.

Math.8.22. 59 Ac efe a ddywedodd wrth un arall, *dilyn fi, ac yntef a ddywedodd: Arglwydd gad i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhad.

60 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, gad i'r meirw gladdu eu meirw: dos di a phregetha deyrnas Duw.

61 Ac arall a ddywedodd, mi a'th ddilynaf di ô Arglwydd, ond gad ti i mi yn gyntaf fyned a chanu yn iach i'r rhai ſy yn fy nhŷ.

62 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho: nid oes neb a'r a rydd ei law ar yr aradr, ac a edrycho ar ei ôl yn gymmwys i deyrnas Duw.

## PEN. X

Criſt yn anfon dec a thrugain i bregethu. 21 Yn diolch iw Dad tros ei ddiſcyblion. 25 Yn atteb y cyfreithiwr gan ddangos pwy yw ein cymydog. 38 A'r modd y dewiſodd Mair Fagdalen yn gallach nâ Martha.

*Yr Efengyl ar ddigwyl Luc.*

☞ VVEdi y pethau hynn yr ordeiniodd yr Arglwydd ddêc a thrugein eraill, ac a'u danfones hwynt bob yn ddau a dau o'i flaen, i bob dinas a lle, ar yr oedd efe ar ddyfod iddynt.

Math.9.37.

2 Am hynny efe a ddywedodd wrthynt * y cynhaiaf ſydd fawr, a'r gweithwŷr yn anaml: gweddiwch gan hynny ar Arglwydd y cynhaiaf, am ddanfon allan weithwŷr iw gynhaiaf.

Math.10.16.

3 Ewch, * wele yr wyf yn eich anfon fel ŵyn ym myſc bleiddiaid.

2.Bren.4.29.

4 Na ddygwch god, nac ſcrepan, nac eſcidiau, ac * na chyferchwch neb ar y ffordd.

Math.10.12.
Marc.6.10.

5 Ac * i ba dŷ bynnag yr eloch yn gyntaf dywedwch, Tangneddyf i'r tŷ hwn.

6 Ac o bydd yno fab tangneddyf eich tangneddyf a erys arno: os amgen hi a ddychwel attoch chwi.

Deut.24.14.
Math.10.10.
1.Tim.5.18.

7 Ac yn y tŷ hwnnw arhoſwch, gan fwytta ac yfed y cyfryw bethau [a gaffoch] ganddynt: canys * teilwng i'r gweithwr ei gyflog. ☜ Ac na threiglwch o dŷ i dŷ.

Math.10.18.

8 Ac i ba * ddinas bynnag yr eloch, os hwynt hwy a'ch derbyniant, bwyttewch y cyfryw bethau a rodder ger eich bronnau.

9 Ac iachewch y cleifion a fydd ynddi, a dywedwch wrthynt: daeth teyrnas Dduw yn agos attoch.

10 Eithr i ba ddinas bynnag yr eloch, ac nich derbynniant, ewch allan iw heolydd, a dywedwch,

Luc.9.5.
Act.13.51.
& 18.6.

11 Y * llwch yr hwn a lynodd wrthym o'ch dinas a ſychaſom ymmaith i chwi: er hynny gwybyddwch hynn, fod teyrnas Dduw wedi neſau attoch.

12 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, mai eſmwythach fydd i'r Sodomiaid yn y dydd hwnnw, nag i'r ddinas honno.

Math.11.21.

13 * Gwae di Chorazin, gwae di Bethſaida, canys pe buaſe y gwyrthiau a wnaethpwyd ynoch chwi, wedi eu gwneuthur yn Nhyrus a Sidon: er ys talm yr edifarhaſent mewn ſachlen a lludw.

14 Am hynny eſmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn y farn nag i chwi.

15 A thithe Capernaum yr hon i'th dderchafwyd hyd y nef, a dynnir i lawr hyd yn vffern.

Math.10.40.
Ioan.13.20.

16 Y neb * ſydd yn eich gwrando chwi ſydd yn fyng-wrando i, a'r neb ſydd yn eich dirmygu chwi ſy yn fy nirmygu i, a'r neb ſy yn fy nirmygu i ſydd yn dirmygu yr hwn a'm hanfonodd fi.

17 Ar dêc a thrugain a ddychwelaſant â llawenydd, gan ddywedyd: ô Arglwydd, y cythreuliaid a ddaroſtyngir i ni yn dy enw di.

18 Yna y dywedodd efe wrthynt: mi a welais Satan megis mellten yn ſyrthio o'r nef.

16 Wele, yr ydwyf yn rhoddi i chwi awdurdod i ſathru ar ſeirph, ac ſcorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn, ac ni wna ddim niwed i chwi.

20 Eithr yn hyn na lawenhewch, fod yſprydion wedi daroſtwng i chwi: llawenhewch yn hytrach am fod eich henwau yn ſcrifennedig yn y nefoedd,

21 A'r amſer hwnnw yr Ieſu a ymlawenychodd yn ei yſpryd, ac a ddywedodd: yr wyf yn diolch i ti ô Dad, Arglwydd nef a daiar: am i ti guddio y pethau hyn oddi wrth y doethion a'r rhai call, a'u agoryd hwynt i blant bychain yn wîr ô Dad, felly'r oedd dy ewyllys.

*Yr Efengyl y xiii. Sul ar ôl y Drindod.*

22 Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhâd: ac ni ŵyr neb pwy yw yr Mab ond y Tad: na phwy yw'r Tad ond y Mab, a'r neb y mynne'r Mab ei ddadcuddio ef.

Math.13.16.

☞ 23 Ac wedi iddo droi at ei ddiſcyblion o'r naillcu efe a ddywedodd: * Gwyn fyd y llygaid ſy yn gweled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled.

Math.22.35.
Marc.12.28.

24 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, ewyllyſio o lawer o brophwydi a brenhinoedd weled y pethau yr ydych chwi yn eu gweled, ac nis gwelſant, a chlywed y pethau yr ydych chwi yn eu clywed, ac nis clywſant.

Deut.6.1.
Lefit.19.18.

25 Ac * wele rhyw gyfreithiwr a gododd iw demtio ef, gan ddywedyd: Athro pa beth a wnaf i etifeddu bywyd tragywyddol?

26 Ac yntef a ddywedodd wrtho: pa beth ſydd ſcrifennedig yn y gyfraith? Pa fodd y darlleni?

27 Ac efe a attebodd gan ddywedyd: car dy Arglwydd Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl, a'th gymmydog fel dy hun,

28 Yntef a ddywedodd wrtho: da'r attebaiſt: gwna hyn a byw fyddi.

29 Eithr efe yn ewyllyſſio ei gyfiawnhau ei hun, a ddywedodd wrth yr Ieſu: a phwy yw fyng-hymmydog?

30 A'r Ieſu a attebodd ac a ddywedodd, rhyw ddyn a aeth i wared o Ieruſalem i Iericho, ac a ſyrthiodd ym myſc lladron, y rhai wedi ei ddioſc a'i archolli ef, a aethant ymmaith, gan ei adel ef yn hanner marw.

31 Ac fe a ddigwyddodd i offeiriad ddyfod i wared ar hŷd y ffordd honno, ac wedi iddo ei weled, efe a aeth o'r tu arall heibio.

32 A'r vn modd Lefiad, wedi dyfod i'r lle, a'i weled, efe a aeth heibio o'r tu arall.

33 Yna rhyw Samariad wrth ymdaith a ddaeth atto ef, a phan ei gwelodd a doſturiodd:

34 Ac wedi iddo ddyfod atto, efe a rwymodd ei archollion, ac a ddywalldodd ynddynt olew a gwîn: ac wedi ei roi ef ar ei anifail ei hun, efe a'i dug ef i'r llettŷ, ac a'i ymgeleddodd.

35 A thrannoeth wrth fyned ymmaith, efe a dynnodd allan ddwy geiniog, ac au rhoddes i'r lletteuwr gan ddywedyd wrtho: cymmer ofal troſto, a pha beth bynnag a dreuliech yn chwaneg, pan ddelwyf trachefn, mi a'i rhoddaf i ti.

36 Pwy gan hynny o'r tri hyn, i'th dyb di, oedd gymmydog i'r hwn a ſyrthiaſe ym mhlith y lladron?

37 Ac efe a ddywedodd: yr hwn a wnaeth

drugaredd ag ef. A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, dos, a gwna dithe yr vn modd. ☜

38 A bu wrth ymdaith ddyfod o honaw i ryw dref: a gwraig a'i henw Martha a'i derbyniodd ef iw thŷ.

39 Ac i hon yr oedd chwaer a elwid Mair yr hon a eiſteddodd wrth draed yr Ieſu i wrando ei ymadrodd ef.

40 A Martha oedd drafferthus yng-hylch llawer o waſanaeth, a chan ſefyll ger llaw hi a ddywedodd, Arglwydd, ond oes ofal gennit, am i'm chwaer fyng-adel i fy hun i waſanaethu; dywet wrthi am fy helpio.

41 A'r Ieſu a attebodd gan ddywedyd wrthi, Martha, Martha, trafferthus wyt a gofalus am lawer o bethau,

42 Eithr vn peth ſydd anghenrhaid, Mair a ddewiſodd y rhã dda, yr hon ni ddygiroddi arni.

### PEN. XI.

Criſt yn dyſcu iw ddiſcyblion weddio. 14 Yn bwrw cythrael allan, ac yn atteb cabledd y Phariſæaid. 29 Yn atteb y rhai a geiſiaſent arwyddion. 39 Ac yn argyoeddu rhagrith y Phariſæaid a'r ſcrifényddion.

Math.6.4.

A Bu, fel yr oedd efe mewn man yn gweddio, pan beidiodd, ddywedyd o vn o'i ddiſcyblion wrtho: dyſc i ni weddio megis y dyſcodd Ioan iw ddiſcyblion.

2 Ac efe a ddywedodd wrthynt: pan weddioch, dywedwch: * ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy enw: deued dy deyrnas, gwneler dy ewyllys ar y ddaiar fel yn y nef.

3 Ein bara beunyddol dyro i ni heddyw;

4 A maddeu i ni ein pechodau, canys yr ydym ninnau yn maddeu i bawb ſydd yn ein dyled, Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwaret ni rhag drwg.

5 Ac efe a ddywedodd wrthynt: pwy o honoch ſydd iddo gyfaill, ac a aiff atto hanner nos, ac a ddywed wrtho: ô gyfaill, moes i mi dair torth yn echwyn;

6 Canys cyfaill i mi a ddaeth (wrth ymdaith) attaf, ac nid oes gennif ddim iw ddodi ger ei fron ef.

7 Ac yntef oddi mewn, a ettyb gan ddywedyd: na flina fi, yn awr y mae'r drŵs yn gaead, a'm plant gyd â mi yn y gwely: ni allaf godi iw rhoddi i ti.

8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, er na chyfyd efe a rhoddi iddo, am ei fod yn gyfaill: etto yn ddiau rhag ei deirni, efe a gyfyd, ac a rydd iddo gymmaint ag a fyddo arno eu heiſieu.

Math.7.7.
marc.11.24.
ioan.14.13.
&16.22.
iac.1.5.

9 Ac yr * ydwyf yn dywedyd i chwi: gofynnwch, ac fe a roir i chwi, ceiſiwch, a chwi a gewch, curwch, ac fe a agorir i chwi.

10 Canys pwy bynnag a ofynno a dderbyn: a'r neb a geiſio a gaiff, ac i'r neb a guro yr agorir.

11 Pa dad o honoch, os gofyn ei fab iddo fara, a rydd iddo garreg; neu [os gofyn] byſcodyn, a rydd iddo ſarph yn lle pyſcodyn;

12 Neu os gofyn efe wy, a rydd yntef iddo ſcorpion;

13 Os chwy-chwi gan hynny y rhai ydych ddrwg, a fedrwch roi pethau da i'ch plant: pa faint mwy y rhydd eich Tad nefol ei Yſpryd glân i'r rhai a ofynno ganddo.

*Yr Efengyl y trydydd Sul o'r grawys.*
Math.9.34.
12.22.
mar.3.20.

14 ☞ Ac yr * oedd efe yn bwrw allan gythrael, yr hwn oedd fud: a bu wedi i'r cythrael fyned allan, i'r mud lefaru, a rhyfeddu a wnaeth y bobl.

15 A rhai o honynt a ddywedaſant: * trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid.

16 Ac eraill er ei brofi ef a geiſiaſant ganddo arwydd o'r nef.

Math.12.25.
mar.3.24.

17 Yntef yn gŵybod eu meddyliau hwynt a ddywedodd wrthynt: * pob teyrnas wedi ei rhannu ynddi ei hun a anrheithir: a thŷ [rhannedic] yn ei erbyn ei hun, a ſyrthia.

18 Os Satan hefyd ſy wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, pa fodd y ſaif ei deyrnas ef; gan eich bod yn dywedyd, mai trwy Beelzebub yr wyf i yn bwrw allan gythreuliaid;

19 Os trwy Beelzebub yr wyfi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan; am hynny y byddant hwy yn farn-wŷr arnoch chwi.

20 Eithr os myfi trwy fŷs Duw ydwyf yn bwrw allan gythreuliaid, diammau ddyfod teyrnas Duw attoch chwi.

21 Pan fyddo vn cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn oll ſydd ganddo mewn heddwch.

22 Ond pan ddel vn cryfach nag ef arno, a'i orchfygu, efe a ddwg ymmaith ei holl arfogaeth ef, yn yr hon yr oedd yn ymddyried, ac a ran ei anrhaith ef.

23 Y neb nid yw gyd â mi ſydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn caſclu gyd â mi, ſydd yn gwaſcaru.

Math.12.43.

24 Pan * el yr yſpryd aflan allan o ddŷn, efe a rodia mewn lleoedd ſychion gan geiſio eſmwythdra, a phryd na chaffo, efe a ddywed: mi a ddychwelaf i'm tŷ, o'r lle y daethum:

25 A phan ddêl, y mae yn ei gael wedi ei yſcubo a'i drefnu:

26 Yna yr aiff efe, ac y cymmer [gyd ag ef] ſaith yſpryd eraill gwaeth nag ef ei hun: a phan elont i mewn yno yr arhoſſant, a * diwedd y dŷn hwnnw fydd gwaeth nâ'i ddechreuad.

Heb.6.4.
2.pet.2.20.

27 A bu fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn godi o ryw wraig o'r dyrfa ei llef gan ddywedyd wrtho: gwyn fyd y groth a'th ddug di, a'r bronnau a ſugnaiſt.

Math.12.38.

28 Yntef a ddywedodd, yn hytrach gwynfyd y rhai ydynt yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw. ☜

Ionas.2.1.

29 A phan * ymgaſclodd y bobl atto, efe a ddechreuodd ddywedyd: y genedl ſydd ddrwg y mae hi yn ceiſio arwydd, ac arwydd ni roddir iddi * ond arwydd Ionas y prophwyd.

1.Bren.10.1.
2.cron 9.2.

30 Canys fel y bu Ionas yn arwydd i'r Ninifeaid, felly y bydd Mab y dŷn i'r genedl hon.

31 Brenhines y dehau a gyfyd yn y farn gyd â gwŷr y genhedlaeth hon, ac au condemna hwynt, am iddi ddyfod o eithafoedd y ddaiar i wrando doethineb Salomon, ac wele, [ vn ] mwy nâ Salomon ymma.

Iona.3.5. 32 Gwŷr Niniſe a godant yn y farn gyd â'r genhedlaeth hon, ac a'i condemna hi, am iddynt edifarhau wrth bregeth Ionas : ac wele, [ vn ] mwy nag Ionas ymma.

Math.5.15. marc 4.21. luc.8.16. 33 Ni * ddyru neb gannwyll wedi iddo ei goleu, ynghudd, na thān leſtr : eithr ar ganhwyllbren, fel y gallo y rhai a ddel i mewn weled y goleuni.

Luc.6.22. 34 * Cannwyll y corph yw 'r llygad : am hynny pan [fyddo] dy lygad yn ſyml, yna y mae dy holl gorph yn oleu : eithr pā fyddo dy lygad yn ddrwg, yna y bydd dy gorph yn dywyll.

35 Edrych am hynny rhag i'r goleuni ſydd ynot, fod yn dywyllwch.

36 Am hynny os dy holl gorph di ſydd oleu, ac heb vn rhan dywyll, yna y bydd y cwbl yn oleu, fel pe bydde gannwyll yn dy oleuo â'i llewyrch.

37 Ac fel yr oedd efe yn llefaru, rhyw Phariſæad a'i gwahoddodd ef i giniáwa gyd ag ef, ac efe a aeth, ac a eiſteddodd.

38 Ac Phariſæad pan welodd a ryfeddodd, nad ymolchaſe efe yn gyntaf, o flaen ciniaw,

39 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho : yn Math.23.25. * ddiau chwy-chwi 'r Phariſæaid ydych yn glânhau y tu allan i'r cwppan a'r ddyſcl, a'ch tu mewn ſydd yn llawn o drais a drygioni :

40 O ynfydion, ond yr hwn a wnaeth yr hyn ſydd o ddiallan, a wnaeth yr hyn ſydd oddi mewn hefyd ?

41 Yn hytrach, rhoddwch eluſen o'r pethau ſy : ac wele, pôb peth ſydd lân i chwi.

42 Eithr gwae chwi 'r Phariſæaid : canys yr ydych chwi yn degymmu y mintys, a'r ruw, a phob llyſſieun, ac yn gadel ymmaith farn a chariad Duw: y rhai hyn ſy raid eu gwneuthur, ac na adawer y lleill heb eu gwneuthur.

Math.23.6. marc.12.38. luc.20.46. 43 Gwae * chwi Phariſæiaid, canys yr ydych yn caru yr eiſteddleoedd cyntaf yn y Synagogau, a [chael] cyfarch yn y marchnadoedd.

Math.23.27. 44 * Gwae chwi 'r ſcrifennyddion a'r Phariſæaid y rhai ydych rhagrithwŷr : am eich bod fel beddau anamlwg, a'r dynion y rhai a rodiant arnynt heb eu hadnabod.

45 Yna yr attebodd vn o'r cyfreithwŷr, ac y dywedodd wrtho: Athro wrth ddywedyd hyn, yr wyt yn ein gwradwyddo ninnau hefyd.

Math.23.4. act.15.10. 46 Yntef a ddywedodd, * gwae chwithau hefyd y cyfreith-wŷr, canys yr ydych yn llwytho dynion â beichiau anhawdd eu dwyn : ac nid ydych chwi yn cyffwrdd â'r beichiau ag vn o'ch byſedd.

47 Gwae chwy-chwi, canys yr ydych yn adeiladu beddeu'r prophwydi, a'ch tadeu chwi a'u lladdodd hwynt.

48 Felly yr ydych yn teſtiolaethu eich bod yn fodlon i weithredoedd eich tadau, canys hwynt hwy a'u lladdâſāt hwynt, a chwitheu ydych yn adeiladu eu beddau hwynt.

49 Am hynny hefyd y dywedodd doethineb Duw, anfonaf attynt brophwydi, ac Apoſtolō, ac o honynt rhai a lladdant, a rhai, a erlidiant.

50 Fel y gofynnir i'r genhedlaeth hon waed yr holl brophwydi yr hwn a dywalltwyd o ddechreuad y bŷd :

51 O * waed Abel hyd waed * Zacharias yr Gene.4.1. hwn a laddwyd rhwng yr allor a'r Deml : diau 1.cron.24.21. meddaf i chwi y gofynnir ef i'r gēhedlaeth hon.

52 Gwae chwy-chwi y cyfreithwŷr, canys chwi a ddugaſoch ymmaith agoriad y gwybodaeth : nid aethoch i mewn eich hunain, a'r rhai oeddynt yn myned a waharddaſoch chwi.

53 Fel yr oedd efe yn dywedyd y pethau hyn wrthynt : y dechreuodd yr ſcrifennyddion a'r Phariſæaid fod yn daer arno, a'i annog i ſiarad am lawer o bethau.

54 Gan ei gynllwyn ef, ac yn ceiſio hela rhyw betho'i ben ef, i gael achwyn arno.

## PEN. XII.

Criſt yn gwahardd rhagrith y Phariſæaid. 4 A gofalu am y corph yn fwy nâ'r enaid, 13 Yn gwrthod rhannu tir. 22 Yn gwahardd gormod gofal, 33 Yn cynghori i fod yn eluſengar, 35 Yn wiliadwrus, 49 Yn ddioddefgar, 54 Yn adnabod amſer iechydwriaeth, 58 Ac yn gytun.

YN y cyfamſer pan ymgaſclodd yng-hyd liaws aneirif o bobl, hyd oni ymſathre 'r naill y llall, y dechreuodd efe ddywedyd wrth ei ddiſcyblion, yn gyntaf, * mogelwch rhag ſurdoes y Phariſæaid, yr hwn yw rhagrith. Math.16.6. marc 8.14.

2 Canys * nid oes dim cuddiedig a'r nas Math.10.26. dadcuddir, na dim dirgel a'r na's gwybyddir. marc.4.22. luc.8.17.

3 Am hynny y pethau a ddywedaſoch yn y tywyllwch a glywir yn y goleu, a'r peth a ddywedaſoch yn y gluſt mewn lleoedd dirgel a bregethir ar benneu 'r tai.

4 *Yr wyf yn dywedyd wrthych fyng-hyfeillion : nac ofnwch y rhai ſydd yn lladd y corph, ac wedi hynny nid oes ganddynt ddim a wnelant mwy. Math.10.28.

5 Rhagddangoſaf i chwi pwy a ofnwch, ofnwch ef, yr hwn, pan ddarffo iddo ladd, ſydd ag awdurdod ganddo i fwrw i vffern: yn ddiau meddaf i chwi, ofnwch hwnnw.

6 Oni * phrynir pump o adar y tô er dwy hatling ? ac etto nid oes vn o honynt mewn angof ger bron Duw. Math.10.29.

7 Hefyd y mae blew eich pennau chwi yn gyfrifedig oll, am hynny nac ofnwch, yr ydych chwi yn well nâ llawer o adar y tô.

8 *Ac meddaf i chwi, pwy bynnag a'm cydnabyddo i ger bron dynion : Mab y dŷn a'i cydnebydd yntef ger bron angelion Duw. Math.10.32. luc.9.26. 2.tim.1.12.

9 A'r hwn a'm gwado i ger bron dynion, a wedir ger bron angelion Duw.

10 A *phwy bynnag a ddywed air yn erbyn Mab y dŷn, fe a faddeuir iddo: eithr i'r neb a gablo 'r Yſpryd glân ni faddeuir. Math.12.31. marc.3.28. 1.ioan.5.18.

Math.10.19. marc.13.12.

11 A phan *i'ch dygant i'r ſynagogau, ger bron y llywiawdwŷr a gwŷr mewn awdurdod, na ofelwch pa fodd, neu beth a atteboch drosoch, neu beth a ddywedoch:

12 Canys yr Yſpryd glân a'ch dyſc chwi yn yr awr honno, beth ſydd raid ei ddywedyd.

13 Rhyw vn o'r dyrfa a ddywedodd wrtho: Athro, dywet wrth fy mrawd am rannu â myfi 'r etifeddiaeth.

14 Yntef a ddywedodd wrtho, y dŷn, pwy a'm gwnaeth i yn farn-wr neu yn rhann-wr arnoch?

15 Am hynny y dywedodd efe wrthynt, edrychwch a mogelwch rhac cybydd-dod, canys nid yw bywyd neb yn ſefyll ar amlder y pethau ydynt ganddo.

16 Ac efe a draethodd wrthynt ddammeg gã ddywedyd, tîr rhyw ŵr goludog fu ffrwythlon:

17 Am hynny yr ymreſymme efe ynddo ei hun, gan ddywedyd, beth a wnaf am nad oes gennif le i gaſclu fy ffrwythau iddo?

18 Ac efe a ddywedodd, hyn a wnaf; mi a dynnaf i lawr fy yſcuboriau, ac a adeiladaf rai mwy, ac yno y caſclaf fy holl ffrwythau da:

19 Ac mi a ddywedaf wrth fy enaid, ô enaid y mae i ti dda lawer wedi eu goſod [ i gadw ] tros lawer o flynyddoedd, gorphywyſa, bwytta, ŷf, bydd lawen,

20 Eithr Duw a ddywedodd wrtho, ôh ynfyd: y nos hon y mynnant dy enaid oddi wrthit: ac yna pwy piau y pethau a baratoaiſt?

21 Felly y mae 'r hwn a dryſſoro iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tu ag at Dduw.

Math.6.25. 1.pet.5.7. psal.55.22.

22 Ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, am hynny yr wyf yn dywedyd wrthych, * na chymmerwch ofal am eich bywyd, beth a fwyttaoch, neu am eich corph beth a wiſcoch.

23 Y bywyd ſydd fwy nâ'r ymborth, a'r corph ſydd fwy nâ'r dillad.

24 Yſtyriwch y brain: canys nid ydynt yn hau, ac nid ydynt yn medi, ac nid oes iddynt na chell, nac yſcubor, ac y mae Duw yn eu porthi hwynt, pa faint yr ydych chwi well nâ'r adar?

25 Pwy o honoch trwy ddirfawr ofalu, a ddichon chwanegu at ei faintioli vn cufydd?

26 Am hynny oni ellwch wneuthur y peth lleiaf, pa ham yr ydych yn gofalu am y lleill?

27 Yſtyriwch y lili y modd y maent yn tyfu, nid ydynt yn poeni, nac yn nyddu, ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, na bu Salomon yn ei holl ogoniant, wedi ei ddilladu fel vn o'r rhai hyn.

28 Os yw Duw felly yn gwiſco y llyſſieun yr hwn ſydd heddyw yn y maes, ac y foru a deflir i'r ffwrn, pa faint mwy chwy-chwi, ô rai bychan eich ffydd?

29 Am hynny nac ymofynnwch, pa beth a fwyttaoch, neu pa beth a yfoch, ac nac amheuwch.

30 Canys y mae cenhedloedd y byd yn ceiſio hyn oll, ac y mae eich Tad chwi yn gŵybod fod arnoch eiſieu'r pethau hyn.

31 Eithr yn hytrach, ceiſiwch deyrnas Dduw, a'r pethau hyn oll a roddir i chwi yn chwaneg.

32 Nac ofna, braidd bychan: canys rhyngodd bodd i'ch Tad roddi i chwi y deyrnas.

Math.6.22.

33 *Gwerthwch yr hyn ſydd gennych, a rhoddwch eluſen, gwnewch i chwi byrſau y rhai ni heneiddiãt, tryſſor yn y nefoedd yr hwn ni dderfydd: lle ni ddaw lleidr, ac ni lygra pryf.

34 Canys lle y mae eich tryſſor chwi, yno y bydd eich calon.

1.pet.1.13.

35 Byded *eich lwynau wedi eu gwregyſu, a'ch canhwyllau yn oleu:

36 A byddwch debyg i ddynion yn diſgwil pa bryd y daw eu harglwydd o'r neithior: megis pan ddelo efe a churo [ 'r drws, ] yr agorant iddo yn ebrwydd.

37 Gwyn eu byd y g'weiſion hynny, y rhai a gaiff eu harglwydd pan ddel yn neffro, yn wir meddaf i chwi: efe a ym-wregyſa, ac a wna iddynt eiſtedd i lawr, ac a ddaw, ac a waſanaetha arnynt hwy.

38 Ac os daw efe ar yr ail wylfa, neu os y drydedd wylfa y daw, a'i cael hwynt felly, gwyn eu byd y g'weiſion hynny.

Math.24.43. gwel.16.15.

39 A hyn gwybyddwch, pe * gwype gŵr y tŷ, pa awr y deue 'r lleidr, efe a wilie, ac ni adawe gloddio iw dŷ.

40 Am hynny byddwch chwithau barod, canys yr awr ni thybygech y daw Mab y dŷn.

41 Yna y dywedodd Petr wrtho, ô Arglwydd, ai i ni yr wyt yn dywedyd y ddammeg hon, ynte i bawb?

42 A'r Arglwydd a ddywedodd, pwy ſydd orchwiliwr ffyddlawn, a phwyllog, yr hwn y geſyd ei arglwydd ef ar ei deulu i roddi iddynt eu cyflynniaeth yn ei amſer?

43 Gwyn ei fyd y g'wâs hwnnw, yr hwn y caiff ei arglwydd ef pã ddel yn gwneuthur felly.

44 Yn wir meddaf i chwi, efe a eſyd hwnnw [yn llywodraethwr] ar gwbl ag ſydd eiddo.

45 Eithr os dywed y g'wâs hwnnw yn ei galon, fy arglwydd a oeda ddyfod, ac felly a ddechreu guro y g'weiſion, a'r morwynion, a bwytta, ac yfed, a meddwi:

46 Daw arglwydd y g'wâs hwnnw, mewn dydd nad yw efe yn meddwl, ac ar awr nid yw efe yn gŵybod, ac a'i tyrr ef ymmaith, ac a ddyru iddo ei rann gyd â'r anffyddloniaid.

47 Y g'wâs hwnnw yr hwn a ŵybu ewyllys ei arglwydd, ac nid ymbaratodd, ac ni wnaeth yn ôl ei ewyllys ef, a gurir â llawer [ffonod.]

48 Eithr yr hwn ni ŵybu, ac a wnaeth bethau yn heuddu ffonnodiau, a gurir ag ychydig [ffonnodiau:] yn enwedig i bwy bynnag y rhoddet llawer, llawer a ofynnir ganddo: a chyd â phwy bynnag y gadawſant lawer, y ceiſiant fwy ganddo.

49 Mi a ddaethym i yrru tân ar hŷd y ddaiar, a pheth a fynnaf i, od yw efe wedi cynneu euſys?

50 Eithr y mae i mi fedydd i'm bedyddio ag ef: ac mor flin yw arnaf nes darfod.

Math.10.34. 51 * A ydych chwi yn tybied fy nyfod i i roddi heddwch ar y ddaiar? naddo meddaf i chwi ond ymrafael.

52 Canys o hynn allan y bydd pump yn yr vn tŷ, wedi ymrannu, tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri.

53 Y tâd a ymranna yn erbyn y mâb, a'r mâb yn erbyn y tâd: y fam yn erbyn y ferch, a'r ferch yn erbyn y fam: y chwegr yn erbyn ei gwaudd, a'r waudd yn erbyn ei chwegr.

Math.16.2. 54 Yna efe a * ddywedodd wrth y dyrfa, pan weloch gwmwl yn codi o'r gorllewyn, yn y fan y dywedwch, y mae cafod yn dyfod, ac felly y mae.

55 A phan weloch y deheuwynt yn chwythu, y dywedwch y bydd hi gwreſoc, a hi a fydd.

56 Oh ragrithwŷr, medrwch farnu wynebpryd y ddaiar a'r wybr: a pha ham nad ydych yn deall y cyfamſer hwn?

57 Pa ham nad ydych o honoch eich hunain yn barnu beth ſydd gyfiawn?

Math.5.25. 58 * Pan fyddych yn myned gyd a'th wrthwynebwr at bennaeth, gwna dy oref ar y ffordd i gael myned yn rhydd oddi wrtho, rhac iddo dy ddwyn at y barnwr, ac i'r barnwr dy roddi at y rhingill, ac i'r rhingill dy fwrw i'r carchar.

59 Yr wyf yn dywedyd i ti, nad ai di ymmaith oddi yno, oni thelech yr hatling eithaf.

## PEN. XIII.

Criſt yn dangos nad y mwyaf ei adfyd ſydd fwyaf ei bechod 6 a bôd Duw yn ymarhous wrth bechaduriaid. 11 yn iachau y wraig grepach, ac yn atteb llywydd y Synagog am y Sabboth. 18 Dammeg yr hâd mwſtard a'r ſurdoes. 25 gwrthodiad yr Iddewon a derbynniad y cenhedloedd. 34 Criſt yn toſturio am ddiniſtr Ieruſalem.

AC yr oedd yn breſennol y cyfamſer hwnnw, rai yn mynegu iddo am y Galilæaid y rhai, y cymmyſcaſe Pilatus eu gwaed a'u haberthau.

2 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, a ydych chwi yn tybied fôd y Galilæaid hynn, yn fwy pechaduriaid n'âr holl Galilæaid [eraill] am iddynt oddef y cyfryw bethau?

3 Nac oeddynt meddaf i chwi: ac oni edifarhcuwch chwithau, chwi a gollir yn yr vn modd oll.

4 Neu yr daunaw hynny ar y rhai y syrthiodd y tŵr yn Siloe, ac ai lladdodd: a ydych chwi yn tybied eu bód hwynt yn bechaduriaid mwy nâ'r rhai oll a oeddynt yn cyfanneddu yn Ieruſalem?

5 Nac oeddynt meddaf i chwi, eithr onid edifarheuwch, derfydd am danoch chwi oll yn yr vn modd.

6 Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon: yr oedd gan vn ffiguſpren wedi ei blannu yn ei winllan, ac efe a ddaeth i geiſio ffrwyth arno, ac nis cafodd.

7 Yna y dywedodd wrth y gwinllannudd, wele, tair blynedd y daethym i geiſio ffrwyth ar y ffiguſpren hwn, ac nid ydwyf yn cael dim: torr ef i lawr: pa ham y mae efe yn diffrwytho 'r tir?

8 Yntef a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, o arglwydd, gâd iddo 'r flwyddyn hon, oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch a bwrw tail:

9 Ac os dwg efe ffrwyth [gâd ef,] onid 'ê gwedi hynny y torri ef i lawr.

10 Ac yr oedd efe yn dyſcu yn vn o'r Synagogau ar y dydd Sabboth.

11 Ac wele 'r oedd yno wraig, ac ynddi yſpryd gwendid er ys daunaw mlynedd, ac oedd wedi myned yn grom, ac ni alle hi mewn modd yn y bŷd iniawni.

12 Pan welodd yr Ieſu hon, efe a'i galwodd hi, ac a ddywedodd wrthi, y wraig, rhyddhauwyd ti oddi wrth dy wendid.

13 Ac efe a roddes ei ddwylaw arni, ac yn ebrwydd hi a iniawnwyd, ac a foliãnodd Dduw.

14 A'r archſynagogudd (yn ddicllon am i'r Ieſu iachau ar y Sabboth) a ddywedodd wrth y bobl: chwe diwrnod ſydd, yn y rhai y dylid gweithio: ar y rhai hynny deuwch, ac iachaer chwi, ac nid ar y dydd Sabboth.

15 A'r Arglwydd a'i attebodd ef, ac a ddywedodd, ô ragrithiwr, oni ollwng pawb o honoch chwi ei ŷch neu ei aſyn o'r preſeb, au dwyn i'r dwfr ar y dydd Sabboth?

16 A hon gan ei bod yn ferch Abraham, yr hon a rwymaſe Satan er ys daunaw mlynedd, oni ddylid ei gollwng oi rhwym ar y dydd Sabboth?

17 A phan ddywedodd efe y pethau hyn, ei holl wrthwynebwŷr ef a gywilyddiaſãt: ond yr holl bobl a lawenychaſant am yr holl weithredoedd gogoneddus a'r a wnaethe efe.

18 Yna * efe a ddywedodd, i ba beth y mae teyrnas Dduw yn debyg: neu i ba beth y cyffelybaf hi? Math.13.31. mar.4.31.

19 Tebyg yw i ronyn o hâd mwſtard, yr hwn a gymmerodd dŷn, ac a'i hauodd yn ei ardd, ac efe a dyfodd yn bren mawr, ac adar yr awŷr a nythaſant yn ei gangheniau.

20 Ac * eilwaith y dywedodd, i ba beth y cyffelybaf deyrnas Dduw?

21 Cyffelyb i ſurdoes, yr hwn a gymmerodd gwraig, ac ai cuddiodd mewn tri meſur o flawd hyd oni ſurodd y cwbl oll.

22 * Ac efe a dramwyodd drwy 'r holl ddinaſoedd a threfi gan ddyſcu [pawb] wrth ymdaith i Ieruſalem. Math.9.35. marc.6.6.

23 A dywedodd vn wrtho, Arglwydd, ai ychydig [ſydd] o'r rhai cadwedig? ac efe a ddywedodd wrthynt:

24 * Ymdrechwch am fyned i mewn i'r porth cyfing, canys llawer meddaf i chwi a geiſiant fyned i mewn, ac ni's gallant. Math 7.13.

25 Pã gyfodo gŵr y tŷ, a chaeu y drws, a dechreu o honoch ſefyll oddi allan, a churo 'r drws gan ddywedyd, arglwydd, arglwydd, agor i ni, ac atteb o honaw yntef, a dywedyd wrthych,

nid adwen ddim o honoch o ba le yr ydych.

26 Yna y dechreuwch ddywedyd, bwyttaſom, ac yfaſom yn dy ŵydd di, a dyſcaiſt yn ein heolydd ni.

Math.7.25.
Pſal.6.8.

27 Ac efe a ddywed, yr wyf yn dywedyd i chwi nid adwen chwi o ba le yr ydych: * ewch ymmaith oddi wrthif, chwy-chwi oll weithredwŷr anwiredd.

28 Yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd, pan weloch Abraham, ac Iſaac, ac Iacob, a'r holl brophwydi yn nheyrnas Dduw, a chwithau wedi eich bwrw allan.

29 Yna y daw [llawer] o'r dwyrain, a'r gorllewyn, a'r gogledd, a'r dehau, ac a eiſteddant yn nheyrnas Dduw.

30 Ac wele, y diweddaf fyddant gyntaf, o'r cyntaf fyddant ddiweddaf.

31 Ar y dydd hwnnw y daeth atto rai o'r Phariſæaid, ac a ddywedaſant wrtho, dos ymmaith, a cherdda oddi ymma, canys y mae Herod yn ewyllyſio dy ladd di.

32 Yna y dywedodd efe wrthynt: ewch, a dywedwch i'r cadnaw hwnnw, wele, bwriaf allan gythreuliaid, a gorphennaf iachâu heddyw, ac y foru, a'r trydydd dydd i'm perffeithir.

33 Er hynny rhaid i mi ymdaith heddyw, ac y foru, a thrennydd: canys ni all darfod am brophwyd allan o Ierusalem.

Math.23.37.

34 O* Ieruſalem, Ieruſalem, yr hon ydwyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat, pa ſawl gwaith y mynnaſwn i gasclu dy blant, fel y caſcl yr iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac ni's mynnit ti.

35 Wele eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd: yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, na welwch fi, hyd oni ddel yr amſer pan ddywettoch: bendigedic yw yr hwn ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.

## PEN. XIIII.

Criſt wrth giniawa gyd â Phariſæad yn iachau vn claf o'r dropſi ar y dydd Sabboth, 8 yn dyſcu i ni fod yn oſtyngedig a dangos ein haelioni ar y tlodion, 15 ar ddammeg o ſwpper yn dangos gwrthodiad yr Iddewon a galwedigaeth y cenhedloedd, ac yn goſod allan gyflwr ei ddiſcyblion ef yr rhai ydynt halen y ddaiar.

*Yr Efengyl y xvii. Sul wedi 'r Drindod.*

☞BU hefyd pan ddaeth efe i dŷ vn o'r Phariſæaid pennaf ar y Sabboth i fwytta bwyd: ddiſgwil o honynt ef.

2 Ac wele, 'r oedd ger ei fron ef ryw ddŷn yn glaf o'r dropſi.

3 A'r Ieſu gan atteb a lefarodd wrth y cyfraithwyr a'r Phariſæaid, gan ddywedyd: ai rhydd iachau ar y dydd Sabboth?

4 A thewi a wnaethant: yna y cymmerth efe [y claf,] ac a'i iachaodd ef, ac a'i gollyngodd ymmaith.

5 Ac a'i attebodd hwynt gan ddywedyd: pwy o honoch os ſyrth ei aſyn neu ei ŷch mewn pwll, ni thynn ef allan ar y dydd Sabboth?

6 Ac ni allent roi atteb yn ei erbyn ef am y pethau hyn.

7 Ac efe a ddywedodd ddammeg i'r gwahaddedigion, pan yſtyriodd fel yr oeddynt yn dewis yr eiſteddleoedd vchaf, gan ddywedyd wrthynt:

8 Pan i'th wahodder gan nêb i neithior, nac eiſtedd yn y lle vchaf, rhag bôd vn anrhydedduſach nâ thi wedi ei wahadd ganddo,

9 Ac i hwn a'th wahoddodd di, ac yntef ddyfod, a dywedyd wrthit, dôd le i hwn, ac yna dechreu o honot ti trwy gywilydd, gymmeryd y lle iſaf.

Dihareb.25.7.

10 * Eithr pan i'th wahodder, dôs, ac eiſtedd yn y lle iſaf, fel pan ddelo yr hwn a'th wahoddodd di, y gallo efe ddywedyd wrthit, ô gyfaill eiſtedd yn vwch i fynu: yna y bydd i ti glôd yngŵydd y rhai a eiſteddant gŷd â thi ar y bwrdd.

Pen.18.14.

11 *Canys y neb [illegible]rchafo ei hun, a oſtyngir: a'r neb ai goſtyngo ei hun a dderchefir. ☜

Tob.4.7.
Dihar.3 9.

12 Ac efe a ddywedodd hefyd wrth yr hwn ai gwahaddaſe ef: *pan wnelech ginio neu ſwper, na alw dy gyfeillion na'th frodyr, na'th geraint, na'th gymydogion goludog, rhag iddynt eilchwel dy wahadd dithe, a thalu i ti:

13 Eithr pan wnelech wledd galw 'r tlodion, a'r efryddion, a'r cloffion, a'r deillion.

14 A gwyn dy fŷd, am na allant dalu'r pwyth i ti: canys fe a delir i ti yn adgyfodiad y rhai cyfiawn.

15 A phan glywodd rhyw vn o'r rhai oedd yn eiſtedd, y pethau hyn, efe a ddywedodd wrtho, gwyn ei fŷd y nêb a fwytao fwyd yn nheyrnas Dduw.

Math.22.2.
Gwele.19.9.
*Yr Efengyl yr ail Sul wedi 'r Drindod.*

16 Ac yntef a ddywedodd wrtho, * ☞Rhyw ŵr a wnaeth ſwpper mawr, ac a wahoddodd lawer.

17 Ac a ddanfonodd ei wâs bryd ſwpper, i ddywedyd wrth y rhai a wahoddaſid, deuwch, canys yr awr hon y mae pôb peth yn barod.

18 A hwy oll a ddechreuaſant ymeſcuſodi: y cyntaf a ddywedodd wrtho, mi a brynais dyddyn, ac y mae yn rhaid i mi fyned iw weled, attolwg i ti eſcuſoda fi.

19 Ac arall a ddywedodd, mi a brynais bum iau o ychen, ac yr ydwyf i yn myned iw profi hwynt, attolwg i ti eſcuſoda fi.

20 Ac arall a ddywedodd, mi a briodais wraig, ac am hynny ni allaf i ddyfod.

21 A'r gwâs pan ddaeth [adref] a ddangoſodd y pethau hyn iw arglwydd, yna gŵr y tŷ yn ddigllon a ddywedodd wrth ei wâs: dôs allan ar frys i'r heolydd, ac yſtrydoedd y ddinas, a dwg i mewn ymma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion.

22 A'r gwâs a ddywedodd, arglwydd fe a ddarfu gwneuthyd fel y gorchymynnaiſt, ac etto y mae lle.

23 A'r arglwydd a ddywedodd wrth y gwâs, dôs i'r priffyrdd, a'r caeau a chymmell hwynt i ddyfod i mewn, fel y cyflawner fy nhŷ.

24 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, na chaiff yr vn o'r gwŷr hynny a wahoddwyd brofi

o'm ſwpper i.

25 A llawer o bobl a gŷd gerddodd ag ef, ac efe a droes, ac a ddywedodd wrthynt.

Math.16.24. 26 * Os daw nêb attafi, ac ni chaſao ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, îe, a'i enaid ei hun hefyd, ni all efe fôd yn ddiſcybl i mi.

27 A phwy bynnac ni ddycco ei groes, a'm canlyn i, ni all efe fôd yn ddiſcybl i mi.

28 Canys pwy o honoch chwi a'i frŷd ar adailadu tŵr, nid eiſtedd yn gyntaf, a bwrw 'r draul [i edrych] a oes ddigõ ganddo iw orphen,

29 Rhag wedi iddo oſod y ſail, ac heb allu ei orphen, dechreu o bawb ar a'i gwelant, ei watwar ef,

30 Gan ddywedyd, y dŷn hwn a ddechreuodd adailadu, ac ni a[illegible] ei orphen.

31 Neu pa frenin yn myned i ryfela yn erbyn brenin arall, nid eiſtedd yn gyntaf, ac ymgynghori a all efe â deng mil gyfarfod â'r hwn ſydd yn dyfod yn ei erbyn ef ag vgain mil?

32 Neu tra fyddo efe ym mhell oddi wrtho, efe a ddẽfyn genadŵr, ac a ddeiſyf gael heddwch

33 Felly hefyd, pwy bynnac o honoch nid ymwrthodo a chymmaint oll ag a feddo efe, ni all fôd yn ddiſcybl i mi.

Math.5.13. Mar.9.50. 34 * Da yw halen: eithr o bydd yr halen yn ddiflas, â pha beth yr helltir ef?

35 Nid yw efe gymmwys nac i'r tîr, nac i'r dommen, onid iw fwrw allan: y nêb ſydd iddo gluſtiau i wrando gwrandawed.

## PEN. XV.

Criſt yn atteb y Phariſæaid y rhai oeddynt yn grwgnach am ei fod efe yn derbyn pechaduriaid, 4 yn gyntaf trwy ddammeg yr vn ddafad a gollaſid o gant 11 a'r mab ieuangaf yr hwn a fuaſe afradlon, 28 a'r atteb a gafodd y mab hynaf am ei ſorriant.

*Yr Efengyl y trydydd Sul wedi'r Drindod.* ☞ AC yr oedd yr holl Publicanod a'r pechaduriaid yn dyfod atto ef, i wrando arno.

2 A'r Phariſæaid, a'r ſcrifennyddion, a wrwgnachaſant gan ddywedyd, y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwytta gŷd â hwynt.

3 Yna yr adroddodd efe y ddammeg hon wrthynt, gan ddywedyd:

Mar.18.12. 4 * Pa vn o honoch a chanddo gant o ddefaid, ac os cyll vn o honynt, oni âd yr amyn vn pum vgain yn yr anialwch, ac a gerdd ar ôl yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi?

5 Ac wedi iddo ei chael, efe a'i rhydd hi ar ei yſcwyddau trwy lawenydd.

6 A phan ddel adref, efe a eilw yng-hŷd ei gyfeillion a'i gymydogion, gan ddywedyd wrthynt, llawenhewch gŷd â mi, canys cefais fy nafad yr hon a gollaſe.

7 Yr wyf yn dywedyd i chwi, mai felly y bydd llawenydd yn y nêf am vn pechadur edifeiriol, mwy nag am onid vn pum vgain o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch.

8 Neu pa wraig ac iddi ddêc o ddrachmonau os cyll hi vn ddrachmon, ni oleu ganwyll, ac yſcubo 'r tŷ, a chwilio yn fanwl hyd onis caffo [hi?]

9 Ac wedi iddi ei chael, hi a eilw ei chyfeilleſau a'i chymydogeſau, gan ddywedyd, cŷd lawenychwch â mi, canys cefais fy nrachmon yr hon a gollaſwn.

10 Felly meddaf i chwi, y mae llawenydd yng-wydd angelion Duw am vn pechadur a edifarhao. ☜

11 Ac efe a ddywedodd, yr oedd i ryw ŵr ddau fâb.

12 A'r hynaf o honynt a ddywedodd wrth ei dâd, fy nhâd, dyro i mi y rhann a ddigwydd o'r da, ac efe a rannodd iddynt ei dda,

13 Ac yn ôl ychydic ddyddiau, wedi i'r mâb ieuangaf gaſclu y cwbl yng-hŷd, efe a gymmerth ei daith i wlad bell, ac yno efe a waſcarodd ei dda, gan fyw yn afradlon.

14 Ac wedi iddo dreulio 'r cwbl, y cododd newyn mawr trwy 'r wlâd honno, ac yntef a ddechreuodd fôd mewn eiſieu.

15 Yna efe a aeth, ac a lynodd wrth vn o ddinaſwŷr y wlad honno, yr hwn a'i danfonodd ef iw faer-dref i borthi ei foch.

16 Ac efe a chwennyche lenwi ei fol o'r cibau y rhai a fwyttae 'r môch: ac nis rhodde nêb iddo.

17 A phan ddaeth atto ei hun, efe a ddywedodd, pa ſawl gwâs cyflog o' eiddo fy nhâd ſydd yn cael eu gwala o fara? a minne yn marw o newyn.

18 Mi a godaf, ac a âf at fy nhâd, ac a ddywedaf wrtho, fy nhâd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithe.

19 Ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fâb i ti: gwna fi fel vn o'th weiſion cyflog.

20 Felly, efe a gododd, ac a aeth at ei dâd, a phan oedd efe etto ym mhell oddi wrtho, ei dâd a'i canfu ef, ac a doſturiodd, a chan redeg efe a ſyrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cuſanodd.

21 A'r mâb a ddywedodd wrtho, fy nhâd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithe, ac nid ydwyf mwy deilwng i'm galw yn fâb i ti.

22 A'r tâd a ddywedodd wrth ei weiſion, dygwch allan y wiſc oref, a gwiſcwch hi am dano ef, a rhoddwch fodrwy ar ei law, ac eſcidiau am ei draed.

23 A dygwch y llo paſcedig, a lleddwch ef, a bwyttawn, a byddwn lawen.

24 Canys fy mâb hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw trachefn: ac efe a golleſid, ac a gaed: a hwy a ddechreuaſant wneuthur yn llawen.

25 Ac yr oedd y mâb hynaf yn y maes, a phan ddaeth efe a neſau at y tŷ, efe a glywodd gerdd a dawnſio.

26 Ac wedi iddo alw vn o'r gweiſion, efe a ofynnodd beth oedd hynny.

27 A hwnnw a ddywedodd wrtho, dy frawd ti a ddaeth [adref,] a'th dâd a laddodd y llo paſcedig, am iddo ei dderbyn ef yn iach adref.

28 Yna y digiodd efe, ac nid ae i mewn: am

hynny y daeth ei dâd ef allan, ac a ymbiliodd ag ef.

29 Ac yntef a attebodd ac a ddywedodd wrth ei dâd, wele, er ys hynn o ſlynyddoedd yr ydwyf yn dy waſanaethu di, ac ni throſeddais i vn amſer dy orchymyn: ac er hynny ni roddaiſt i mi er ioed fynn i wneuthur yn llawen gŷd â'm cyfeillion.

30 Eithr pan ddaeth dy fâb hwn [adref] yr hwn a dreuliodd dy dda di gŷd â phuteiniaid, ti a leddaiſt iddo ef y llo paſcedig.

31 Ac efe a ddywedodd wrtho: fy mâb, yr ydwyt ti yn waſtadol gŷd â mi, a hynn a feddaf ſydd eiddot ti.

32 Rhaid oedd lawenychu a gorfoleddu o blegit dy frawd hwn a fu farw: ac a aeth yn fyw a fu golledig, ac a gafwyd.

## PEN. XVI.

Criſt trwy ſiampl y gorchwiliwr ang-hyfiawn yn annog i haelioni cyfiawn ac eluſen. 13 Gan ddangos na all neb waſanaethu dau feiſtr. 18 Ac na ddyle neb yſcar â'i wraig a phriodi arall. 19 Ac yn ddiwedaf yn goſod allan hanes y gwr goludog a Lazarus.

*Yr Efengyl y nawed Sul wedi y Drindod.*

☞ AC efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion: yr oedd rhyw ŵr goludog, ac iddo orchwiliwr, ac fe a gyhuddwyd wrtho ei fod efe yn afradloni ei dda ef.

2 Efe ai galwodd ef, ac a ddywedodd wrtho: pa beth yw hyn yr wyf yn ei glywed am danat? dyro gyfrif o'th orchwiliaeth, canys ni elli fôd mwy yn orchwiliwr.

3 A'r gorchwiliwr a ddywedodd wrtho ei hun, pa beth a wnaf canys y mae fy arglwydd yn dwyn yr orchwiliaeth oddi arnaf? ni fedraf gloddio, a chardotta ſydd gywilyddus gennif.

4 Gwnn beth a wnaf, fel pan i'm bwrier allan o'r orchwiliaeth, y derbyniant fi iw tai.

5 Ac wedi iddo alw pôb vn o ddyledwŷr ei arglwydd, efe a ddywedodd wrth y cyntaf, pa faint ſydd arnat o ddyled i'm harglwydd.

6 Ac efe a ddywedodd, can meſur o olew: ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer dy ſcrifẽ ac eiſtedd yn ebrwydd, ac yſcrifenna ddec a daugain.

7 Yna y dywedodd efe wrth vn arall, pa faint o ddylêd ſydd arnat ti? ac efe a ddywedodd, can meſur o wenith: yna y ddywedodd wrtho, cymmer dy ſcrifen ac yſcrifenna bedwar vgain.

8 A'r Arglwydd a ganmolodd y gorchwiliwr anghyfiawn, am iddo wneuthur yn gall, o blegit y mae plant y bŷd hwn yn gallach yn eu cenhedlaethau eu hun, nâ phlant y goleuni.

9 Ac yr wyfi yn dywedyd, gwnewch i chwi gyfeillion o'r golud twyllodrus, fel pan fo eiſieu arnoch, i'ch derbyñiant i'r tragywyddol bebyll. ☜

10 Y nêb ſydd ffyddlon yn y lleiaf, ſydd ffyddlon hefyd mewn llawer: a'r nêb ſydd anghyfiawn yn y lleiaf, ſydd anghyfiawn hefyd mewn llawer.

11 Am hynny, oni buoch ffyddlon yn y golud anghyfiawn, pwy a ymddyried i chwi am y gwir [olud?]

12 Ac oni buoch ffyddlon yn yr eiddo arall, pwy a rydd i chwi 'r eiddoch eich hun?

13 Ni ddichon * vn gwâs waſanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gaſâ vn, ac a gâr y llall: ai efe a lŷn wrth y naill, ac a ddirmyga 'r llall: ni ellwch chwi waſanaethu Duw a golud [byddol.] Math.6.24.

14 A'r Phariſæaid hefyd y rhai oeddynt gybyddion a glywſant y pethau hynn oll, ac a'i gwatwaraſant ef.

15 Yna efe a ddywedodd wrthynt: chwychwi yw y rhai ydych yn eich cyfiawnhau eich hun ger bronn dynion: eithr Duw a ŵyr eich calonnau: canys y peth ſydd vchel gŷd a dynion, ſydd ffiaidd ger bron Duw.

16 Y*gyfraith, a[illegible]phwydi [a barhaodd] hyd Ioan: ac er hynny o amſer y pregethwyd teyrnas Dduw, a phawb ſydd yn ymmwthio iddi. Math.11.12.

17 A* haws yw i nef a daiar fyned heibio, nag i vn tippin o'r gyfraith ballu. Math.5.18.

18 Y mae *pwy bynnag a ollyngo ymmaith ei wraig, ac a briodo vn arall, yn godinebu: a phwy bynnag a briodo hon a ollyngwyd ymmaith oddi wrth ei gŵr, y mae efe yn godinebu. Math 5 32. & 19.9. 1.Cor.7.11.

*Yr Efengyl y Sul cyntaf wedi y Drindod.*

☞ 19 Yr oedd rhyw ŵr goludog, ac yn gwiſco porphor a ſidan main, ac yn cymmeryd ei fyd yn ddainteithol ac yn fwythus beunydd.

20 Yr oedd hefyd ryw gardottyn a elwyd Lazarus, yr hwn a orwedde wrth ei borth ef yn gornwydlyd,

21 Ac yn chwẽnychu cael ei borthi â'r briwſion y rhai a ſyrthie oddi ar fwrdd y gŵr cyfoethog: ond y cŵn â ddaethant ac a lyfaſant ei gornwydydd ef.

22 A darfu i'r cardottyn farw, ac efe a dducpwyd gan yr angelion i fynwes Abraham, a'r gŵr goludog a fu farw hefyd, ac a gladdwyd.

23 Ac efe yn vffern mewn poenau wrth godi ei olwg, a ganfu Abraham o hirbell, a Lazarus yn ei fynwes.

24 Yna efe a lefodd, gan ddywedyd, y tâd Abraham, trugarhâ wrthif, a danfon Lazarus i drochi pen ei fŷs mewn dwfr, ac i oeri fy-nhafod: canys fe a'm poenir yn y fflam hon.

25 Ac Abraham a ddywedodd, hâ fâb, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd: ac felly Lazarus ei adfyd: ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir dithe.

26 Ac heb law hyn oll y mae gagendor wedi goſod rhyngom ni a chwi, fel na allo y rhai a fynnent dramwy oddi ymma attoch chwi, na dyfod oddi yna ymma.

27 [Yntef] a ddywedodd, attolwg i ti dâd, etto danfon ef i dŷ fy nhâd.

28 [Canys] y mae i mi bump o frodyr: fel y teſtiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn.

29 Abraham a ddywedodd wrtho, y mae ganddynt Moſes a'r prophwydi, gwrandawant

o'm ſwpper i.

25 A llawer o bobl a gyd gerddodd ag ef, ac efe a drôes, ac a ddywedodd wrthynt.

Math.16.24. 26 *Os daw neb attafi, ac ni chasao ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie, a'i enaid ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddiſcybl i mi.

27 A phwy bynnac ni ddycco ei groes, a'm canlyn i, ni all efe fod yn ddiſcybl i mi.

28 Canys pwy o honoch chwi a'i fryd ar adailadu twr, nid eiſtedd yn gyntaf, a bwrw'r draul [i edrych] a oes ddigô ganddo iw orphen,

29 Rhag wedi iddo ofod y ſail, a heb allu ei orphen, dechreu o bawb ar a'i gwelant, ei watwar ef,

30 Gan ddywedyd, y dŷn hwn a ddechreuodd adailadu, ac ni a[illegible] ei orphen.

31 Neu pa frenin yn myned i ryfela yn erbyn brenin arall, nid eiſtedd yn gyntaf, ac ymgynghori a all efe â deng mil gyfarfod â'r hwn ſydd yn dyfod yn ei erbyn ef ag vgain mil?

32 Neu tra fyddo efe ym mhell oddi wrtho, efe a ddenfyn genadwri, ac a ddeiſyf gael heddwch

33 Felly hefyd, pwy bynnac o honoch nid ymwrthodo a chymmaint oll ag a feddo efe, ni all fod yn ddiſcybl i mi.

Math.5.13. Mar.9.50. 34 *Da yw halen: eithr o bydd yr halen yn ddiflas, â pha beth yr helltir ef?

35 Nid yw efe gymmwys [illegible] i'r tir, nac i'r dommen, onid iw fwrw allan: y nêb ſydd iddo gluſtiau i wrando gwrandawed.

## PEN. XV.

Criſt yn atteb y Phariſeaid y rhai oeddynt yn grwgnach am ei fod efe yn derbyn pechaduriaid, 4 yn gyntaf trwy ddammeg yr vn ddafad a gollaſid o gant 11 a'r mab ieuangaf yr hwn a ſuaſe afradlon, 28 a'i atteb a gafodd y mab hynaf am ei ſorriant.

Yr Efengyl y trydydd Sul wedi'r Drindod.

AC yr oedd yr holl Publicanod a'r pechaduriaid yn dyfod atto ef, i wrando arno.

2 A'r Phariſeaid, a'r ſcrifennyddion, a wrwgnachaſant gan ddywedyd, y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwytta gŷd â hwynt

3 Yna yr adroddodd efe y ddammeg hon wrthynt, gan ddywedyd:

Mat.18.12. 4 *Pa vn o honoch a chanddo gant o ddefaid, ac os cyll vn o honynt, oni âd yr am yn vn pum vgain yn yr anialwch, ac a gerdd ar ôl yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo efe hi?

5 Ac wedi iddo ei chael, efe a'i rhydd hi ar ei yſcwyddau trwy lawenydd.

6 A phan ddel adref, efe a eilw yng-hyd ei gyfeillion a'i gymydogion, gan ddywedyd wrthynt, llawenhewch gŷd â mi, canys cefais fy nafad yr hon a gollaſe.

7 Yr wyf yn dywedyd i chwi, mai felly y bydd llawenydd yn y nêf am vn pechadur edifeiriol, mwy nag am onid vn pum vgain o rai cyfiawn, y rhai nid rhaid iddynt wrth edifeirwch.

8 Neu pa wraig ac iddi ddêc o ddrachmonau os cyll hi vn drachmon, ni oleu ganwyll, ac yſcubo'r tŷ, a chwilio yn fanwl hyd onis caffo [hi]:

9 Ac wedi iddi ei chael, hi a eilw ei chyfeilleſau a'i chymydogeſau, gan ddywedyd, cyd lawenychwch â mi, canys cefais fy nrachmon yr hon a gollaſwn.

10 Felly meddaf i chwi, y mae llawenydd yng-wydd angelion Duw am vn pechadur a edifarhao.

11 Ac efe a ddywedodd, yr oedd i ryw wr ddau fâb.

12 A'r hynaf o honynt a ddywedodd wrth ei dâd, fy nhâd, dyro i mi y rhann a ddigwydd o'r da, ac efe a rannodd iddynt ei dda,

13 Ac yn ôl ychydic ddyddiau, wedi i'r mâb ieuangaf gaſclu y cwbl yng-hyd, efe a gymmerth ei daith i wlad bell, ac yno efe a wasgarodd ei dda, gan fyw yn afradlon.

14 Ac wedi iddo dreulio'r cwbl, y cododd newyn mawr trwy'r wlâd honno, ac yntef a ddechreuodd fod mewn eiſieu.

15 Yna efe a aeth, ac a lynodd wrth vn o ddinaſwyr y wlad honno, yr hwn a'i danfonodd ef iw faer-dref i borthi ei foch.

16 Ac efe a chwennychei lenwi ei fol o'r cibau y rhai a fwyttae'r môch: ac nis rhoddei nêb iddo.

17 A phan ddaeth atto ei hun, efe a ddywedodd, pa ſawl gwâs cyflog o'eiddo fy nhâd ſydd yn cael eu gwala o fara? a minne yn marw o newyn.

18 Mi a godaf, ac a âf at fy nhâd, ac a ddywedaf wrtho, fy nhâd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithe.

19 Ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fâb i ti: gwna fi fel vn o'th weiſion cyflog.

20 Felly, efe a gododd, ac a aeth at ei dâd, a phan oedd efe etto ym mhell oddi wrtho, ei dâd a'i canfu ef, ac a dosturiodd, a chan redeg efe a ſyrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cuſanodd.

21 A'r mâb a ddywedodd wrtho, fy nhâd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithe, ac nid ydwyf mwy deilwng i'm galw yn fâb i ti.

22 A'r tâd a ddywedodd wrth ei weiſion, dygwch allan y wiſc oref, a gwiſcwch hi am dano ef, a rhoddwch fodrwy ar ei law, ac eſcidiau am ei draed.

23 A dygwch y llo paſcedig, a lleddwch ef, a bwyttawn, a byddwn lawen.

24 Canys fy mâb hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw trachefn: ac efe a golleſid, ac a gaed: a hwy a ddechreuaſant wneuthur yn llawen.

25 Ac yr oedd y mâb hynaf yn y maes, a phan ddaeth efe a neſau at y tŷ, efe a glywodd gerdd a dawnſio.

26 Ac wedi iddo alw vn o'r gweiſion, efe a ofynnodd beth oedd hynny.

27 A hwnnw a ddywedodd wrtho, dy frawd ti a ddaeth [adref,] a'th dâd a laddodd y llo paſcedig, am iddo ei dderbyn ef yn iach adref.

28 Yna y digiodd efe, ac nid ai i mewn: am

hynny y daeth ei dâd ef allan, ac a ymbiliodd ag ef.

29 Ac yntef a attebodd ac a ddywedodd wrth ei dâd, wele, er ys hynn o flynyddoedd yr ydwyf yn dy waſanaethu di, ac ni throſeddais i vn amſer dy orchymyn: ac er hynny ni roddaiſt i mi er ioed fynn i wneuthur yn llawen gŷd â'm cyfeillion.

30 Eithr pan ddaeth dy fâb hwn [adref] yr hwn a dreuliodd dy dda di gŷd â phuteiniaid, ti a leddaiſt iddo ef y llo paſcedig.

31 Ac efe a ddywedodd wrtho: fy mâb, yr ydwyt ti yn waſtadol gŷd â mi, a hynn a feddaf ſydd eiddot ti.

32 Rhaid oedd lawenychu a gorfoleddu o blegit dy frawd hwn a fu farw: ac a aeth yn fyw a fu golledig, ac a gafwyd.

## PEN. XVI.

Criſt trwy ſiampl y gorchwiliwr ang-hyfiawn yn annog i haelioni cyfiawn ac eluſen. 13 Gan ddangos na all neb waſanaethu dau feiſtr. 18 Ac na ddyle neb yſcar â'i wraig a phriodi arall. 19 Ac yn ddiwedaf yn goſod allan hanes y gwr goludog a Lazarus.

*Yr Efengyl y nawed Sul wedi y Drindod.*

☞ Ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion: yr oedd rhyw ŵr goludog, ac iddo orchwiliwr, ac fe a gyhuddwyd wrtho ei fod efe yn afradloni ei dda ef.

2 Efe ai galwodd ef, ac a ddywedodd wrtho: pa beth yw hyn yr wyf yn ei glywed am danat: dyro gyfrif o'th orchwiliaeth, canys ni elli fôd mwy yn orchwiliwr.

3 A'r gorchwiliwr a ddywedodd wrtho ei hun, pa beth a wnaf canys y mae fy arglwydd yn dwyn yr orchwiliaeth oddi arnaf: ni fedraf gloddio, a chardotta ſydd gywilyddus gennif.

4 Gwnn beth a wnaf, fel pan i'm bwrier allan o'r orchwiliaeth, y derbyniant fi iw tai.

5 Ac wedi iddo alw pôb vn o ddyledwŷr ei arglwydd, efe a ddywedodd wrth y cyntaf, pa faint ſydd arnat o ddyled i'm harglwydd.

6 Ac efe a ddywedodd, can meſur o olew: ac efe a ddywedodd wrtho, cymmer dy ſcrifẽ ac eiſtedd yn ebrwydd, ac yſcrifenna ddec a daugain.

7 Yna y dywedodd efe wrth vn arall, pa faint o ddylêd ſydd arnat ti: ac efe a ddywedodd, can meſur o wenith: yna y ddywedodd wrtho, cymmer dy ſcrifen ac yſcrifenna bedwar vgain.

8 A'r Arglwydd a ganmolodd y gorchwiliwr anghyfiawn, am iddo wneuthur yn gall, o blegit y mae plant y bŷd hwn yn gallach yn eu cenhedlaethau eu hun, nâ phlant y goleuni.

9 Ac yr wyfi yn dywedyd, gwnewch i chwi gyfeillion o'r golud twyllodrus, fel pan fo eiſieu arnoch, i'ch derbyniant i'r tragywyddol bebyll. ☜

10 Y nêb ſydd ffyddlon yn y lleiaf, ſydd ffyddlon hefyd mewn llawer: a'r nêb ſydd anghyfiawn yn y lleiaf, ſydd anghyfiawn hefyd mewn llawer.

11 Am hynny, oni buoch ffyddlon yn y golud anghyfiawn, pwy a ymddyried i chwi am y gwir [olud:]

12 Ac oni buoch ffyddlon yn yr eiddo arall, pwy a rydd i chwi 'r eiddoch eich hun:

13 Ni ddichon * vn gwâs waſanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gaſâ vn, ac a gâr y llall: ai efe a lŷn wrth y naill, ac a ddirmyga 'r llall: ni ellwch chwi waſanaethu Duw a golud [bydol.] Math.6.24.

14 A'r Phariſæaid hefyd y rhai oeddynt gybyddion a glywſant y pethau hynn oll, ac a'i gwatwaraſant ef.

15 Yna efe a ddywedodd wrthynt: chwychwi yw y rhai ydych yn eich cyfiawnhau eich hun ger bronn dynion: eithr Duw a ŵyr eich calonnau: canys y peth ſydd vchel gŷd a dynion, ſydd ffiaidd ger bron Duw.

16 Y*gyfraith, a[illegible]phwydi [a barhaodd] hyd Ioan: ac er hynny o amſer y pregethwyd teyrnas Dduw, a phawb ſydd yn ymwthio iddi. Math.11.12.

17 A* haws yw i nef a daiar fyned heibio, nag i vn tippin o'r gyfraith ballu. Math.5.18.

18 Y mae *pwy bynnag a ollyngo ymmaith ei wraig, ac a briodo vn arall, yn godinebu: a phwy bynnag a briodo hon a ollyngwyd ymmaith oddi wrth ei gŵr, y mae efe yn godinebu. Math 5.32. & 19.9. 1.Cor.7.11.

*Yr Efengyl y Sul cyntaf wedi y Drindod.*

☞ 19 Yr oedd rhyw ŵr goludog, ac yn gwiſco porphor a ſidan main, ac yn cymmeryd ei fyd yn ddainteithol ac yn fwythus beunydd.

20 Yr oedd hefyd ryw gardottyn a elwyd Lazarus, yr hwn a orwedde wrth ei borth ef yn gornwydlyd,

21 Ac yn chwẽnychu cael ei borthi â'r briwſion y rhai a ſyrthie oddi ar fwrdd y gŵr cyfoethog: ond y cŵn á ddaethant ac a lyfaſant ei gornwydydd ef.

22 A darfu i'r cardottyn farw, ac efe a ddugpwyd gan yr angelion i fynwes Abraham, a'r gŵr goludog a fu farw hefyd, ac a gladdwyd.

23 Ac efe yn vffern mewn poenau wrth godi ei olwg, a ganfu Abraham o hirbell, a Lazarus yn ei fynwes.

24 Yna efe a lefodd, gan ddywedyd, y tâd Abraham, trugarhâ wrthif, a danfon Lazarus i drochi pen ei fŷs mewn dwfr, ac i oeri fy-nhafod: canys fe a'm poenir yn y fflam hon.

25 Ac Abraham a ddywedodd, hâ fâb, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd: ac felly Lazarus ei adfyd: ac yn awr y diddenir ef, ac y poenir dithe.

26 Ac heblaw hyn oll y mae gagendor wedi goſod rhyngom ni a chwi, fel na allo y rhai a fynnent dramwy oddi ymma attoch chwi, na dyfod oddi yna ymma.

27 [Yntef] a ddywedodd, attolwg i ti dâd, etto danfon ef i dŷ fy nhâd.

28 [Canys] y mae i mi bump o frodyr: fel y teſtiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn.

29 Abraham a ddywedodd wrtho, y mae ganddynt Moſes a'r prophwydi, gwrandawant

arnynt hwy.

30 Yntef a ddywedodd, nâg e, y tâd Abraham, eithr os aiff vn o'r meirw attynt, hwy a edifarhânt.

31 [Yna Abraham] a ddywedodd wrtho: oni wrandawant ar Moſes a'r prophwydi, ni chredent yr code vn oddi wrth y meirw. ☜

## PEN. XVII.

Criſt yn erchi iw ddiſcyblion na rwyſtrent neu na thrãgwyddent y naill y llall 3 a maddeu o honynt iw gylidd 6 gan ddangos mor gref iw ffydd 10 ac mor wã yw dyn o honaw ei hun, Criſt yn iachau dêc o rai gwahan-gleifion, 20 ac yn mynegu am ddiwed y byd.

Math.18.7. Marc.9.42. YNa y dywedodd efe wrth ei ddiſcyblion, *ni all amgenach na dyfod rhwyſtrau, ond gwae ef trwy'r hwn y deuant.

2 Gwell fydde iddo pe rhoddid maen melin o amgylch ei wddf ef, a'i daflu i'r môr, nâg iddo rwyſtro vn o'r rhai bychain hynn,

Math.18.21. 3 Edrychwch arnoch eich hunain, *os gwna dy frawd yn dy erbyn, cerydda ef: ac os edifarhâ efe, maddeu iddo,

4 Ac er iddo wneuthur yn dy erbyn ſaithwaith yn y dydd, a throi attat ſaith-waith yn y dydd, a dywedyd, y mae yn edifar genif: madde iddo.

5 Yna'r Apoſtolion a ddywedaſant wrth yr Arglwydd, anghwanega i ni ffydd.

Math.17.20. 6 A'r Arglwydd a ddywedodd, * pe bydde gennych ffydd gymmaint a gronyn o hâd mwſtard, a dywedyd o honoch wrth y Sycamorwŷdden hon, ymddadwreiddia, ac ymblanna yn y môr: efe a vfuddhae i chwi.

7 Pwy o honoch chwi, ac iddo wâs yn aredig, neu yn porthi anifeiliaid, a ddywed wrtho yn y mã pã ddêl o'r maes, dôs, ac eiſtedd i lawr?

8 Ond yn hytrach a ddywed wrtho, arlwya i mi i ſwpperu, ac ymwregyſa, a gwaſanaetha fi nes i mi fwytta, ac yfed: ac wedi hynny y bwytei, ac yr ŷfi dithe.

9 A ddiolche efe i'r gwâs hwnnw am wneuthur o hôno y pethau a orchymynesid iddo? nid wyf yn tybied.

10 Felly chwithau hefyd, gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll a'r a orchymynwyd i chwi, dywedwch, gweiſion anfuddiol ydym: o blegit yr hynn a ddyleſem ei wneuthur a wnaethom.

*Yr Efengyl y xiiii. Sul wedi y Drindod.* ☞ 11 A digwyddodd, ac efe yn myned i Jeruſalem, fyned o honaw ef trwy ganol Samaria a Galilæa.

12 A phan oedd efe yn myned i mewn i ryw dref, y cyfarfu ag ef ddec o wŷr gwahan-gleifion: y rhai a ſafaſant o hirbell,

13 Ac a godaſant eu llef, gan ddywedyd, Jeſu y meiſtr, trugarha wrthym.

14 A phan welodd efe [hwynt] efe a ddywedodd wrthynt: ewch, *ymddangoſwch i'r offeiriaid. Ac fe a ddarfu a hwy yn myned eu gwneuthur yn iach. Lefit.14.2.

15 Ac vn o honynt, pan welodd ddarfod ei iachau, a ddychwelodd, gan foliannu Duw â llef vchel.

16 Ac efe a ſyrthiodd ar ei wyneb wrth ei draed ef, gan roddi diolch iddo, a hwnnw oedd Samariad.

17 Yna'r Jeſu a attebodd, ac a ddywedodd: oni lânhauwyd dég? a pha le y mae'r naw [eraill?]

18 Ni chaed nêb a ddaeth i roddi gogoniant i Dduw, ond yr eſtron hwn.

19 Ac efe a ddywedodd wrtho: cyfod, a dôs ymmaith, dy ffydd a'th iachaodd. ☜

20 A phan ofynnodd y Phariſæaid iddo, pa bryd y deue deyrnas Dduw, efe a attebodd iddynt, ac a ddywedodd: ni ddaw teyrnas Dduw wrth ei diſgwil,

21 Ac ni ddywedant, wele ymma, neu wele accw, canys wele, y mae genych deyrnas Dduw o'ch mewn,

22 Ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion: yr amſer a ddaw, pan ddymunoch weled vn o ddyddiau Mâb y dŷn: ac nis cewch eu gweled.

23 A hwy a *ddywedant wrthych, wele ymma, neu wele accw: [eithr] nac ewch, ac na chanlynwch [hwynt.] Math.24.23. Marc.13.21.

24 Canys megis y felluen yr hon a ddiſcleirio o'r naill fann dan y nef, a lewyrcha yn y fann arall dan y nef: felly y bydd Mâb y dŷn yn ei ddydd ef.

25 Eithr yn gyntaf rhaid iddo ef ddioddef llawer, a'i ddiyſtyru gan y genhedlaeth hon.

26 A megis y bu yn *nyddiau Noe, felly y bydd hefyd yn nyddiau Mâb y dŷn. Gene.7.5. Math.24 38. 1.Petr.3.20.

27 Bwyttaſant, yfaſant, gwreiccaſant, a gwrhaſant, hyd y dydd yr aeth Noe i'r arch: yna y daeth y dilyw, ac au difethodd hwynt oll.

28 Yn yr vn modd hefyd, fel y darfu yn nyddiau Lot: bwyttaſant, yfaſant, prynaſant, gwerthaſant, plannaſant, adeiladaſant.

29 A'r *dydd yr aeth Lot allan o Sodoma, y glawiodd tân, a brwmſtân o'r nef, ac au difethodd hwynt oll. Gene.19.24.

30 Fel hyn y bydd y dydd, y datcuddir Mâb y dŷn.

31 Yn y dydd hwnnw, y nêb a fyddo ar y tŷ, a'i ddodrefn o fewn y tŷ, na ddeſcynned iw cymmeryd hwynt: a'r vn modd, y nêb a fyddo yn y maes, na ddychweled yn ei ôl.

32 *Meddyliwch am wraig Lot. Gen.19 26.

33 *Pwy bynnag a geiſio gadw ei einioes, ai cyll: a phwy bynnag ai cyll, ai bywha hi. Pen.9 24. Math.10.39. Marc.8 35. Ioan.12.25.

34 Y nôs honno *meddaf i chwi y bydd dau yn yr vn gwely: vn a gymmerir, a'r llall a adewir. Mat.24.40.41.

35 Dwy a fyddant yn malu yn yr vn lle: vn a gymmerir, a'r llall a adewir.

36 Dau a fyddant yn y maes: vn a gymmerir, a'r llall a adewir.

37 Yna gan atteb y dywedaſant wrtho ef: pa le Arglwydd? ac efe a ddywedodd wrthynt: pa le bynnag y byddo'r corph, yno yr ymgaſcl yr eryrod.

## PEN. XVIII.

Criſt yn dyſcu i ni weddio trwy ſiampl y weddw orthrymmedig, 13 a'r Publican goſtyngedig, 13 yn dderbyn plant atto, 18 yn atteb y llywydd yr hwn a fynne gael nef ond ni fynne ymmadel ai olud 28 yn atteb Petr, 31 yn rhybuddio y ddeuddec am ei ddioddefaint, 35 ac yn roi ei olwg i vn dall.

Ac efe a ddywedodd hefyd ddammeg wrthynt, y bydde yn rhaid gweddio bôb amſer heb ddeffygio,

2 Gan ddywedyd, yr oedd rhyw farn-wr yn rhyw ddinas, yr hwn nid ofne Dduw, ac ni pharche ddyn.

3 Yr oedd hefyd yn y ddinas honno ryw wraig weddw, yr hon a ddaeth atto ef gan ddywedyd: dial fi ar fyng-wrthwynebwr.

4 Ac efe ni's gwnai dros amſer [hir:] eithr wedi hynny y dywedodd wrtho ei hun: er nad ofnaf Dduw, ac er na pharchaf ddyn:

5 Er hynny, am fôd y weddw hon yn fy mlino i, dialaf hi rhag iddi hi yn y diwedd ddyfod, a'm blino i.

6 A'r Arglwydd a ddywedodd, gwrandewch beth a ddywed y barn-wr anghyfiawn.

7 Ac oni ddial Duw ei etholedigion ſydd yn llefain arno ddydd a nôs, er iddo ymaros yn eu hachos hwynt?

8 Yr wyf yn dywedyd i chwi, y dial efe hwynt ar frŷs: ond pan ddêl Mâb y dŷn, a gaiff efe ffydd ar y ddaiar?

Yr Efengyl y xi. Sul wedi y Drindod.

9 ☞ Ac efe a ddywedodd y ddammeg hon, wrth y rhai oeddynt yn coelio eu bôd eu hunain yn gyfiawn, ac yn diyſtyru eraill.

10 Dau wr a aethant i fynu i'r Deml i weddio: vn yn Phariſæad, a'r llall yn Bublican.

11 Y Phariſæad o'i ſefyll a weddiodd ynddo ei hun fel hyn: ô Dduw yr wyf yn diolch i ti nad ydwyf fel dynion eraill [y rhai ydynt] drawſion, anghyfiawn, odineb-wŷr: neu fel y Publican hwn.

12 Yr ydwyf yn ymprydio ddwy-waith yn yr wythnos, yr ydwyf yn degymmu cymmaint oll a feddaf.

13 A'r Publican yn ſefyll o hirbell, ni chode ei olwg tu a'r nef, eithr curodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, ô Dduw, bydd drugarog wrthif bechadur.

14 Aeth meddaf i chwi, hwn i'w dŷ wedi ei gyfiawnhau yn fwy nâ'r llall, canys pwy bynnac a'i derchafo ei hun a oſtyngir, a'r nêb a'i goſtyngo ei hun, a dderchefir.

Math.19.13.

15 A hwy * a ddygaſant atto eu plant, fel y cyffyrdde efe â hwynt: pan welodd ei ddiſcyblion ef hyn, eu ceryddu a wnaethant.

16 Ac wedi i'r Ieſu eu galw hwynt atto, efe a ddywedodd: gadewch i'r plant ddyfod attaf, ac na waherddwch hwynt: canys i'r cyfryw y perthyn teyrnas Dduw.

17 Yn wir meddaf i chwi, pwy bynnac ni dderbynio deyrnas Dduw fel plentyn, ni chaiff efe fyned i mewn iddi.

Math.19.16.
Mar.10.17.

18 Yna rhyw vn o'r llywodraeth-wyr a ofynnodd iddo, gan ddywedyd, Athro da, gan wneuthur pa beth yr etifeddaf fywyd tragywyddol?

19 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, pa ham i'm gelwi yn dda? nid oes nêb yn dda ond vn, [hwnnw yw] Duw.

Exod.20.13.

20 Gwyddoſt y gorchymynnion: * na odineba: na ladd: na ladratta: na ddwg gam-deſtiolaeth: anrhydedda dy dâd a'th fam.

21 Ac efe a ddywedodd, hyn oll a gedwais o'm ieuengtid.

22 A phan glywodd yr Ieſu hyn, efe a ddywedodd wrtho: y mae vn peth etto yn ôl i ti: gwerth hyn oll ſydd eiddot, a dod i'r tlodion, a thydi a gei dryſſor yn y nef: a thyret, canlyn fi.

23 Ond pan glybu efe y pethau hyn, efe a aeth yn athriſt: canys yr oedd efe yn gyfoethog iawn.

24 Pan welodd yr Ieſu ei fyned ef yn athriſt, efe a ddywedodd: mor anhawdd yr aiff y rhai y mae golud ganddynt i deyrnas Dduw?

25 Canys haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur, nag i'r goludog fyned i deyrnas Dduw.

26 Yna y rhai a glybu [hyn] a ddywedaſant: pwy gan hynny a all fôd yn gadwedig?

27 Ac efe a ddywedodd, y pethau ſydd amhoſſibl gŷd â dynion, ſydd boſſibl gŷd â Duw.

Math.19.27.
Marc.10.28.

28 *Yna y dywedodd Petr, wele, ni a adawſom y cwbl oll, ac a'th ganlynaſom di.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt, yn wir meddaf i chwi, nid oes nêb a'r a adawodd dŷ, neu rieni, neu frodyr, neu wraig, neu blant, er mwyn teyrnas Dduw,

30 A'r ni's derbyn fwy o lawer y pryd hwn, ac yn y bŷd a ddaw fywyd tragywyddol.

Yr Efengyl ar y Sul a elwir Quinquageſima.
Math.20.17.
Marc.10.32.

31 ☞ A'r * Ieſu a gymmerth atto y deuddec, ac a ddywedodd wrthynt: wele, ni yn myned i Ieruſalem, a chyflawnir pob peth a'r ſydd yn ſcrifēnedic trwy yr prophwydi am fâb y dyn.

32 Canys efe a roddir i'r cenhedloedd, ac a watworir, ac a ddirmygir, ac a boerir arno.

33 Ac wedi iddynt ei ffrangellu y lladdant ef, eithr efe a gyfyd y trydydd dydd.

34 Ac ni ddeallaſant hwy ddim o'r pethau hyn, a'r gair hwn oedd guddiedig iddynt, ac ni wybuant y pethau a ddywetpwyd.

Math 20.29.
Mar.10.46.

35 *Ac fe a ddigwyddodd, ac efe yn neſau at Iericho, i ryw ddyn dall eiſtedd ger llaw yr ffordd, yn cardotta.

36 A phan glybu efe y dyrfa yn myned heibio, efe a ofynnodd, pa beth oedd hyn.

37 Ac hwy a ddywedaſant iddo mai Ieſu o Nazareth oedd yn myned heibio.

38 Yna y llefodd efe gan ddywedyd, Ieſu fâb Dafydd, trugarhâ wrthif.

39 A'r rhai a oeddynt yn myned o'r blaen a'i [illegible] ef i dewi, ynte a lefodd fwy-fwy, mâb Dafydd trugarhâ wrthif.

40 A'r Ieſu a ſafodd, ac a orchymynnodd ei ddwyn ef atto, a phan ddaeth yn agos, efe a ofynnodd iddo,

41 Gan ddywedyd, pa beth a fynni i mi ei wneuthyd i ti? yntef a ddywedodd, Arglwydd cael fyng-olwg.

42 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, cymmer dy olwg: dy ffydd a'th iachaodd.

43 Ac allan o law y cafodd efe ei olwg, ac a'i canlynodd ef, gan ogoneddu Duw, a'r holl bobl pan welſant [hyn] a roeſant foliant i Dduw.

## PEN. XIX.

Edifeirwch Zachæus, 12 y rhagor rhwng y dec gwâs y rhai a gawſant y dec darn arian, 28 Criſt yn marchogaeth i Ieruſalem, 45 yn bwrw allan y pryn-wyr a'r gwerth-wyr, 47 a'r Iddewon yn ceiſio ei ddifetha ef.

AC efe a ddaeth i mewn, ac a aeth trwy Iericho.

2 Ac wele, rhyw wr a'i enw Zacheus, a hwn oedd bennaf o'r Publicanod, ac yr oedd efe yn gyfoethog.

3 Ac efe a geiſiodd weled pwy oedd yr Ieſu, ac ni alle gan y dyrfa, am ei fôd efe yn fychan o gorpholaeth.

4 Am hynny efe a redodd o'r blaen, ac a ddringodd i ſicomorwydden, fel y galle ei weled ef: canys yr oedd efe i ddyfod y ffordd honno.

5 A phan ddaeth yr Ieſu i'r lle [hwnnw,] efe a edrychodd, ac a ddywedodd wrtho ef, Zacheus deſcyn ar frys, canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di.

6 Yna y deſcynnodd efe ar ffrwst, ac a'i derbynniodd ef yn llawen.

7 A phawb, pan welſant hyn a wrwgnachaſant gan ddywedyd, ei fôd efe wedi myned i mewn i letteua at ddŷn pechadurus.

8 A Zacheus a ſafodd, ac a ddywedodd wrth yr Arglwydd, wele Arglwydd, yr ydwyf yn rhoddi hanner fy da i'r tlodion: ac os dygum ddim oddi ar neb trwy dwyll, mi a'i talaf ar ei bedwerydd.

9 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, heddyw y daeth iechydwriaeth i'r tŷ hwn, am ei fôd yntef hefyd yn fâb i Abraham.

Math.18.11. 10 *Canys Mâb y dŷn a ddaeth i geiſio, ac i gadw yr hyn a gollaſid.

11 A hwy yn gwrando ar y pethau hyn, efe a aeth rhagddo, ac a ddywedodd ddammeg, am ei fôd efe yn agos at Ieruſalem, ac am iddynt dybied yr ymddangose teyrnas Dduw yn y fan.

Math.25.14. 12 Am hynny y dywedodd, *rhyw wr bonheddig a wnaeth daith i wlâd bell, i dderbyn iddo deyrnas, ac i ddyfod trachefn.

13 Ac wedi iddo alw ei ddêc gwâs, efe a roddes ddec punt, ac a ddywedodd wrthynt, marchnattewch hyd oni ddelwyf.

14 Eithr ei ddinas-wŷr a'i caſaſant ef, ac a anfonaſant gennadwriaeth ar ei ôl ef, gan ddywedyd: ni fynnwn ni mo hwn i deyrnasu arnom.

15 Ac fe a ddarfu pan ddaeth efe yn ei ôl wedi derbyn ei deyrnas, yna y gorchymynnodd efe alw y gweiſion hynny atto i'r rhai y rhoddaſe efe yr arian, fel y galle gael gwybod pa faint a elwaſe pôb vn wrth farchnatta.

16 Y cyntaf a ddaeth, gan ddywedyd, arglwydd, dy bunt a enillodd ddec punt.

17 Yntef a ddywedodd wrtho ef, wele ô wâs da, am i ti fôd yn ffyddlon yn ychydic, cymmer awdurdod ar ddêc dinas.

18 A'r ail a ddaeth gan ddywedyd, arglwydd dy bunt di a wnaeth bum punt.

19 Ac efe a ddywedodd wrth hwnnw, bydd dithe lywodraeth-wr ar bum dinas.

20 A'r llall a ddaeth, gan ddywedyd, arglwydd, wele dy bunt, yr hon a roddais i gadw mewn cadach.

21 Canys mi a'th ofnais, am dy fôd yn wr tost, yn cymmeryd y peth ni roddaiſt i lawr, ac yn medi y peth ni hauaiſt.

22 Yntef a ddywedodd wrtho ef, o'th enau dy hun y barnaf di, ty di wâs drwg, tydi a wyddit fy môd i yn wr tost, yn cymmeryd i fynu y peth ni roddais i lawr, ac yn medi y peth ni hauais,

23 Paham gan hynny na roddaiſt ti fy arian i'r bwrdd [cyfnewid,] fel y gallaſwn i eu cael hwynt pan ddelwn, gyd â mael?

24 Ac efe a ddywedodd wrth y rhai oedd yn ſefyll ger llaw: dygwch oddi arno ef y bunt, a rhoddwch hi i'r hwn ſydd a dêc punt ganddo.

25 (A hwy a ddywedaſant wrtho, arglwydd, y mae ganddo efe ddêc punt)

26 *Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, y rhoddir i bob vn y bydd ganddo: a dygir oddi ar yr hwn ni bydd ganddo yr hyn ſydd ganddo. Pen.8.18. Math.13.12. Mar.4.25.

27 A hefyd, dygwch ymma fyng-elynion hynny y rhai ni fynnent i mi deyrnasu arnynt, a lleddwch hwynt o'm blaen i.

28 Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, efe a aeth o'r blaen gan fyned i fynu i Ieruſalem.

29 A *digwyddodd, pan ddaeth efe yn agos at Bethphage a Bethania, i'r mynydd yr hwn a elwir Olewydd: efe a anfonodd ddau o'i ddiſcyblion, Math.21.1. Mar.11.1.

30 Gan ddywedyd, ewch i'r dref yr hon ſydd ar [eich] cyfer, a phan ddeloch iddi, chwi a gewch ebol yn rhwym, ar yr hwn ni eisteddodd dŷn er ioed: gollyngwch ef a dygwch ymma.

31 Ac os gofyn nêb i chwi, paham yr ydych yn ei ollwng ef? dywedwch wrtho fel hyn: am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho.

32 Yna y rhai a ddanfonaſid, a aethant ymaith, ac a gawſant fel y dywedaſe efe wrthynt.

33 Ac fel yr oeddynt yn gollwng yr ebol, ei berchennogion a ddywedaſant wrthynt, paham yr ydych yn gollwng yr ebol?

34 Ac hwy a ddywedaſant, am fôd yn rhaid i'r Arglwydd wrtho ef.

35 Ac *hwy a'e dugaſant at yr Ieſu, ac wedi iddynt fwrw eu dillad ar yr ebol, hwynt hwy a ddodaſant yr Ieſu arnaw. Math.21.7. Ioh.12.14.

36 Ac efe yn myned, taenaſant eu dillad ar

hŷd

ar hŷd y ffordd.

37 Ac weithian pan ddaeth efe yn agos at ddeſcynfa mynydd Oliwydd, y dechreuodd yr holl liaws ddiſcyblion gan lawenydd, glodfori Duw â llef vchel, am yr holl wrthiau a welſent,

38 Gan ddywedyd, bēdigedic yw yr Brenin hwnnw yr hwn ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: tangnheddyf yn y nef, a gogoniant yn yr vchelder.

39 Yna rhai o'r Phariſæaid o'r dyrfa a ddywedaſant wrtho ef, Athro, cerydda dy ddiſcyblion.

40 Ac efe a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, pe tawe y rhai hyn, y cerrig a leſent.

*Yr Efengyl y decfed Sul ar ol y Drindod.*
Pen.21.5.
Math.24.1.
Mar.13.1.

☞ 41 *Ac wedi iddo ef ddyfod yn agos, pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd troſti,

42 Gan ddywedyd, canys pe gwyppit ti o'r lleiaf yn dy ddydd hwn y pethau a berthynant i'th heddwch: eithr y maent yn awr yn guddiedic rhagot.

43 Canys fe a ddaw y dyddiau arnat, a'th elynion a fwriant glawdd o'ch amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaeant o bôb parth.

44 Ac a'th wnânt yn gŷdwaſtad â'r ddaiar a'th blant y rhai ydynt o'th fewn: ac ni adawant ynot faen ar faen, am nad adwaenit amſer dy ymweliad.

Math.21.13.
Mar.11.17.

45 Ac *efe a aeth i mewn i'r Deml, ac a ddechreuodd daflu allā y rhai oeddynt yn gwerthu, ac yn prynu ynddi,

Eſai.56.7.
Iere.7.11.

46 Gan ddywedyd wrthynt, y mae yn ſcrifennedig, *tŷ gweddi yw fy nhŷ i: a chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.

47 Ac yr oedd efe beunydd yn dyſcu yn y Deml, a'r arch-offeiriaid, a'r ſcrifennyddion, a phennaethiaid y bobl, a geiſiaſant ei ddifetha ef.

48 Ond ni fedrent wneuthur dim iddo ef, canys yr holl bobl a lŷnaſant [wrtho] pan glywſant ef.

## PEN. XX.

Criſt yn goſtegu yr arch-offeiriaid gan ofyn, o ba le yr oedd bedydd Ioan, 9 Yn dangos ar ddammeg y winllan ddiniſtr yr Iddewon. 21 Yn rhoi atteb doeth am y deyrn-ged, 27 Ac am yr adgyfodiad. 46 Ac yn dangos rhagrith yr ſcrifennyddion.

Math.21.23.
Mar.11.27.28.

A *digwyddodd ar vn o'r dyddiau hynny, ac efe yn dyſcu'r bobl yn y Deml, ac yn pregethu'r Efengyl, yr arch-offeiriaid, a'r ſcrifenyddion, gyd a'r pennaethiaid a ddaethant atto ef,

2 Ac a leſaraſant wrtho, gan ddywedyd, dywet i ni drwy ba awdurdod yr wyt yn gwneuthur y pethau hyn? neu pwy yw yr hwn a roddes i ti yr awdurdod hon?

3 A chan atteb efe a ddywedodd wrthynt, a minne a ofynnaf i chwithau vn peth: dywedwch chwithau i mi:

4 Bedydd Ioan ai o'r nef yr ydoedd, ai o ddynion?

5 A hwy a reſymmaſant yn eu plith eu hunain gan ddywedyd: os dywedwn mai o'r nef: efe a ddywed, pa ham gan hynny na chredech ef?

6 Ac os dywedwn mai o ddynion, yr holl bobl a'n llabyddiant ni, canys y mae yn ſiccr ganddynt fod Ioan yn brophwyd,

7 Ac am hynny hwy a attebaſant na's gwyddent o ba le [yr oedd.]

8 Yna'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, ac nid wyf finne yn dywedyd i chwithau trwy ba awdurdod y gwnaf fi y pethau hyn.

Eſai.5.1.
Iere.2.21.
Math.21.33.
Mar.12.1.

9 Ac *efe a ddechreuodd ddywedyd y ddammeg hon wrth y bobl. *Rhyw ŵr a blannodd winllan, ac a'i goſododd hi i lafur-wŷr,

10 Ac mewn amſer, efe a anfonodd ei wâs at y llafur-wŷr, fel y rhoddent [iddo] o ffrwyth y winllan: a'r llafur-wŷr a'i curaſant ef, ac a'i anfonaſant ymmaith yn wag-law.

11 Ac efe a anfonodd wâs arall: a hwy a guraſant, ac a ammharchaſant hwn hefyd, ac a'i hanfonaſant ymmaith yn wag-law.

12 A thrachefn efe a anfonodd y trydydd: ac wedi iddynt glwyfo hwn, hwy a'i bwriaſant ef allan.

13 Yna y dywedodd arglwydd y winllan, pa beth a wnaf? mi a anfonaf fy annwyl fâb, fe a alle pan welant, y parchant ef.

14 A phan welodd y llafur-wŷr ef, ymreſymmu a'u gilydd a wnaethant, gan ddywedyd: hwn yw yr etifedd: deuwch, lladdwn ef, fel y byddo yr etifeddiaeth yn eiddom ni.

15 A hwy a'i bwriaſant ef allan o'r winllan, ac a'i lladdaſant ef: pa beth gan hynny a wna Arglwydd y winllan iddynt?

16 Efe a ddaw, ac a ddifetha y llafur-wŷr hyn, ac a rydd ei winllan i eraill, a phan glywſant hwy hyn dywedaſant, na atto Duw.

17 Ac efe a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd: pa beth ynteu yw hyn a ſcrifennwyd: y *maen yr hwn a wrthododd yr adailad-wŷr a wnaethpwyd yn ben congl.

Pſal.118.22.
Eſai.28.16.
Act.4.11.
1.Petr.2.7.

18 Pwy bynnag a ſyrthio ar y maen hwnnw a ddryllir, ac ar bwy bynnag y ſyrthio, efe a'i mâleſ.

19 Yna yr arch-offeiriaid, a'r ſcrifennyddion a geiſiaſant roddi dwylo arno [illegible] pryd hynny: ond yr oeddynt arnynt ofn y bobl: canys gwybuant mai yn eu herbyn hwynt y dywedaſe efe y ddammeg honno.

Math.22.16.
Mar.12.13.

20 Ac am hynny hwy a *yraſant gynllwynwŷr y rhai a gymmerent arnynt eu bod yn gyfiawn iw ddiſgwil ef, fel y dalient ef yn ei ymadrodd, iw roddi yn meddiant ac awdurdod y rhaglaw.

21 A gofynnaſant iddo ef, gan ddywedyd, Athro, ni a wyddom y dywedi, ac y dyſcedi yn iniawn, ac nad ydwyt ti yn derbyn wyneb; ond yn dyſcu ffordd Duw yn iniawn.

22 Ai cyfraithlon i ni roddi teyrn-ged i Cæſar ai nid yw?

23 Ac efe yn deall eu cyfrwyſdra hwynt, a ddywedodd wrthynt, pa ham y temtiwch fi?

24 Dangoſwch i mi geiniog, pwy piau y

llun a'r ſcrifen ſydd arni? a chan atteb y dywedaſant Cæſar.

Rhuf.13.7. 25 Yna efe a ddywedodd wrthynt, * rhoddwch gan hynny 'r eiddo Cæſar i Cæſar, a'r eiddo Duw i Dduw.

26 Ac felly ni allaſant feio ar ei eiriau ef ger bron y bobl: a chan ryfeddu wrth ei attebion ef, hwynt hwy a dawſant.

Math.22.23. Marc.12,18. 27 Yna rhai o'r * Saducæaid (y rhai ſy yn gwadu bôd adgyfodiad) a ddaethant atto ef, ac a ofynnaſant iddo,

Deut.25.5. 28 Gan ddywedyd, Athro, * Moſes a ſcrifennodd i ni, os bydde farw brawd neb ag iddo wraig, a marw o honaw ef yn ddi-blant, fod iw frawd gymmeryd ei wraig ef, a chodi hâd iw frawd.

29 Felly, yr ydoedd ſaith o frodyr, a'r hynaf a gymmerth wraig, ac a fu farw yn ddi-blant.

30 A'r ail a gymmerth y wraig, ac a fu yntef farw yn ddi-blant.

31 Yna, y trydydd a'i cymmerth hi: ac felly y ſaith hynny a fuant feirw, ac ni adawſant blant, eithr buant feirw.

32 Yn ddiweddaf oll, y bu farw y wraig hefyd.

33 Felly, yn yr adgyfodiad, gwraig i bwy un o honynt fydd hi? canys y ſaith ai cawſant hi yn wraig.

34 Yna yr attebodd yr Ieſu gan ddywedyd wrthynt, plant y bŷd hwn ſy yn gwreica, ac yn gwra.

35 Eithr y rhai a fyddo teilwng i gael y bŷd hwnnw, a'r adgyfodiad oddi wrth y meirw, ni wreicâant ac ni wrant:

36 Ac hefyd ni allant feirw mwy: canys cydſtad ydynt a'r angelion, a phlant Duw ydynt, am eu bôd yn blant yr adgyfodiad.

Exod.3.6. 37 Ac y cyfid y meirw, * Moſes a ddangoſodd wrth y berth, lle y mae efe yn dywedyd: Arglwydd Dduw Abraham, a Duw Iſaac, a Duw Iacob.

38 Canys nid yw efe Dduw y meirw, ond y byw: canys pawb ſydd fyw iddo ef.

39 Yna rhai o'r ſcrifennyddion gan atteb a ddywedaſant: Athro, da y dywedaiſt.

40 Ac ni feiddiodd nêb mwyach ofyn dim iddo ef.

Math.22.44. Mar.12.35. 41 Ac * efe a ddywedodd wrthynt, pa fodd y maent yn dywedyd fôd Criſt yn fâb Dafydd?

Pſal.110.1. 42 Ac y mae Dafydd ei hun yn dywedyd yn llyfr y Pſalmau: * yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheu-law,

43 Hyd oni oſodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.

44 Am hynny a Dafydd yn ei alw ef yn Arglwydd, pa fodd y mae efe yn fâb iddo?

45 Ac efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, a'r holl bobl yn ei glywed,

Pen.11.43. Math.23,6. Mar.12.38. 46 Ymogelwch rhag yr ſcrifennyddion, y rhai a fynnant fyned mewn dillad lleiſion: ac a garant gyfarchiodynt yn y marchnadoedd: a'r eiſteddleoedd uchaf yn y Synagogau: a'r lleoedd pennaf yn y gwleddoedd.

47 Y rhai ydynt yn difa tai gwragedd gweddwon ac yn rhith hir weddio, y rhai hyn a dderbyniant farn fwy.

## PEN. XXI.

Criſt yn canmol offrwm y weddw dlawd. 5 Yn prophwydo am ddiniſtr Ieruſalem. 8 Am ddyfodiad gau athrawon. 9 Ac arwyddion blinder a diwedd y byd. 37 Ac arfer Criſt tra fu efe yn Ieruſalem.

AC * fel yr ydoedd efe yn edrych, efe o ganfu y rhai goludog yn bwrw eu rhoddion i'r tryſſor-dŷ. Mar.12.41.

2 Ac efe a ganfu hefyd ryw wraig weddw dlawd yn bwrw yno ddwy hatling.

3 Ac efe a ddywedodd, yn wir meddaf i chwi, y weddw dlawd hon a fwriodd fwy i mewn nâ hwynt oll.

4 Canys hwy oll o'u gweddillion a fwriaſant yr hyn a roddent i Dduw: a hon a fwriodd o'i phrinder hyn oll a fedde.

5 * Yna, a rhai yn dywedyd am y Deml fel yr addurnieſid hi â meini gwychiõ, a rhoddion, efe a ddywedodd, Math.24.1. Mar.13.1.

6 Ai ar y pethau hyn yr ydych chwi yn edrych? fe a ddaw y dyddiau pan na adawer maen ar faen a'r na fwrier i lawr.

7 Yna y gofynnaſant iddo gan ddywedyd, Athro, pa bryd y bydd y pethau hynn? a pha arwydd fydd pan ddêl y pethau hynn?

8 * Ac efe a ddywedodd, mogelwch rhac eich twyllo: canys llawer a ddaw yn fy enw i, gan ddywedyd, myfi yw [Criſt,] a'r amſer hwnnw ſydd yn neſau, am hynny na chanlynwch hwynt. Epheſ.5.6. 2.Theſſ.2.3.

9 A phan glywoch [ſôn] am ryfeloedd a therfyſcoedd, nac ofnwch: canys rhaid i'r pethau hynn fôd yn gyntaf: ond ni ddaw y diwedd yn y man.

10 Yna y dywedodd efe wrthynt, cenedl a gyfyd yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas.

11 A * daiar-grynfau mawrion a fyddant yn amryw leoedd, a newyn, a heintiau, a dychrynedigaethau, ac arwyddiõ mawrion o'r nef. Math.24.7. Mar.13.8.

12 Eithr o flaen hynn oll y rhoddant eu dwylo arnoch, ac [a'ch] erlidiant, gan eich rhoddi yn y Synagogau, ac mewn carcharau, a'ch dwyn ger bron brenhinoedd a llywodraethwŷr er mwyn fy enw i.

13 A hyn a dry i chwi yn deſtiolaeth.

14 Am hynny * rhoddwch eich bryd ar na fyfyrioch, pa beth a atteboch. Pen.12.12. Math.10.19. Mar.13.11.

15 Canys mi a roddaf i chwi enau a doethineb, y rhai nis gall eich holl wrthwynebwŷr na dywedyd yn eu herbyn, na'i gwrthwynebu.

16 Bradychir chwi hefyd gan eich rhieni a'ch brodyr, a'ch cenedl, a'ch cymdeithion; a [rhai] o honoch a laddant.

17 A châs fyddwch gan bawb er mwyn fy enw i.

Math.10.30.

18 Eithr* ni chyll blewyn o'ch pen chwi.

19 Meddiannwch eich eneidiau trwy eich amynedd.

Math,24.15. Marc.13.14. Dan.9.27.

20 A *phan weloch amgylchynu Jeruſalem â lluoedd, yna gwybyddwch fôd ei anghyfannedd-dra hi yn agos.

21 Yna ffoed y rhai ſy yn Judæa i'r mynyddoedd: ac elant y rhai a fyddo yn ei chanol hi ymmaith: a'r rhai a fyddo yn y meuſydd nac elont i mewn iddi.

22 Canys dyddiau 'r dial yw y rhai hyn fel y cyflawner cwbl ag ſydd ſcrifennedig.

23 Gwae y rhai beichiogiõ a'r mamhaethod yn y dyddiau hynny: canys angen mawr fydd yn y wlâd hon, a digofaint wrth y bobl hynn.

24 A hwy a ſyrthiant ar fîn y cleddyf, a chaethgludir hwynt at bôb cenhedlaeth: ac Jeruſalem a fethrir gan y cenhedloedd, hyd oni chyflawner amſer y cenhedloedd.

*Yr Efengyl yr ail Sul o Adfent.*
Eſai.13.10. Ezech.32.7. Math.24.29. Marc.13.24.

☞ 25 * Yna y bydd arwyddion yn yr haul, a'r ſêr, ac ar y ddaiar ing cenhedloedd gan gyfing gyngor, am fod y môr a'r rhyferthwy yn dadſeinio,

26 [A] bod dynion yn llewygu gan ofn a diſgwil am y pethau a ddeuant ar y bŷd, o blegit nerth y nefoedd a ſiglir.

27 Ac yna y gwelant Fab y dŷn yn dyfod yn y cwmwl mewn gallu a gogoniant mawr.

Rhuf.8.23.

28 A phan ddechreuo 'r pethau hynn ddyfod, edrychwch, a chodwch eich pennau i fynu: *canys y mae eich ymwared yn neſau.

29 Ac efe a ddywedodd wrthynt y ddammeg[hon:]edrychwch ar y ffiguſ-bren, a'r holl brennau,

30 Pan ddeiliant hwy weithian, chwychwi yn gweled a wyddoch o honoch eich hun fod y cynhaiaf yn agos.

31 Felly chwithau, pan weloch wneuthur y pethau hyn, gwybyddwch fod teyrnas Duw yn agos.

32 Yn wir meddaf i chwi, nid aiff yr oes hon heibio, nes gwneuthur y pethau [hyn] oll.

33 Y nef a'r ddaiar a ânt heibio, ond fyngeiriau mauſt nid ânt heibio. ☜

24 Edrychwch arnoch eich hunain, rhag gorchfygu eich calõnau â glothineb, â meddwdod, â gofalon y bŷd hwn, a dyfod y dydd hwnnw arnoch yn ddiſymmwth.

35 Canys efe a ddaw fel magl ar wartha pawb oll a'r ſydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaiar.

36 Gwiliwch gan hynny, a gweddiwch bôb amſer ar eich cyfrif yn deilwng i ddiangc rhag y pethau hyn oll y rhai a ddeuant, ac i ſefyll ger bron Mâb y dŷn.

37 A lliw dydd yr ydoedd efe yn athrawiaethu yn y Deml: a'r nôs gan fyned allan yr arhoſe efe yn y mynydd a elwyd[mynydd]Olewydd.

38 A'r holl bobl a ddeuent y boreu atto ef iw glywed yn y Deml.

## PEN. XXII.

Yr Iddewõ yn bwriadu pa fodd y difethent Griſt. 7 Yntef yn bwytta ei Baſc, ac yn ordeinio ei ſwpper. 24 Y diſcyblion yn ymryſon pwy a gaffe fod yn fwyaf. 42 Criſt yn gweddio ar y mynydd. 47 Y modd y y bradychwyd ef, y daliwyd ef, y dygwyd i dy yr arch-offeiriad, 66 Y gwadodd Petr ef, 67 Ac yr aed ag ef o flaen y cyngor.

*Yr Efengyl y mercher neſaf o flaen y Paſc.*
Math.26.1. Marc.14.1.

A *Gwyl y bara croiw oedd yn agos, yr hon a elwir y Paſc.

2 A'r arch-offeiriaid a'r ſcrifennyddion a geiſiaſant, pa fodd y difethent ef, o blegit yr oedd arnynt ofn y bobl.

3 A'r Satan a aeth i mewn Judas yr hwn a gyfenwid Iſcariot, yr hwn oedd o rifedi 'r deuddec.

4 Ac efe a aeth ymmaith, ac a ymddiddanodd â'r arch-offeiriaid a'r llywodraethwŷr, pa fodd y bradyche efe ef iddynt.

5 Ac yr oedd yn llawen ganddynt, a hwynt hwy a gydtunaſant ar roddi arian iddo.

6 Ac efe a addawodd, ac a geiſiodd amſer cyfaddas iw fradychu ef iddynt yn abſen y bobl.

Math.26.17. Marc.14.13.

7 Ac* yna y daeth dydd y bara croiw, ar yr hwn yr ydoedd rhaid offrwm y Paſc.

8 Ac efe a anfonodd Petr ac Joan, gan ddywedyd: ewch, paratoiwch i ni 'r Paſc, fel y gallom ei fwytta.

9 A hwy a ddywedaſant wrtho ef, pa le y mynni i ni ei baratoi [ef.]

10 Ac efe a ddywedodd wrthynt, wele, gwedi eich myned i mewn i'r ddinas, y cyferfydd â chwi ddŷn yn dwyn ſtened ddwfr, canlynwch ef i'r tŷ yr êl efe i mewn.

11 A dywedwch wrth ŵr y tŷ, y mae yr Athro yn dywedyd wrthit ti, pa le y mae yr ſtafell lle y bwyttawyf y Paſc gŷd â'm diſcybliõ:

12 Yna efe a ddengys i chwi ſtafell fawr wedi ei threfnu, paratoiwch yno.

13 Yna yr aethant, ac a gawſant fel y dywedaſe efe wrthynt, ac a baratoaſant y Paſc.

Math.26.20. Mar.14.17.18.

14 Ac * wedi dyfod yr awr, efe a eiſteddodd i lawr a'r deuddec Apoſtl gŷd ag ef.

15 Ac efe a ddywedodd wrthynt: mi a ddeiſyfais yn fawr fwytta 'r Paſc hwn gŷd â chwi, cyn dioddef o honof.

16 Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi na fwyttaf i mwy o honaw, hyd oni cyflawner yn nheyrnas Duw.

17 Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan a rhoddi diolch, efe a ddywedodd, cymmerwch hwn a rhennwch yn eich plith.

18 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi nad yfaf mwy o ffrwyth y winwydden, hyd oni ddêl teyrnas Duw.

Math.26.26. Marc.14.22. 1.Cor.11.24.

19 * Ac wedi iddo efe gymmeryd y bara, a diolch, efe [ai] torrodd, ac ai rhoddodd iddynt gan ddywedyd: hwn yw fyng-horph yr hwn yr ydys yn ei roddi troſoch gwnewch hyn er coffa am danaf.

20 Yn yr vn modd hefyd wedi iddo ſwpperu [y roddes efe] y cwppan, gan ddywedyd: y

cwppan hwnn yw'r teſtament newydd yn fyngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt troſoch.

Ioan.13.18. pſal.41 9. 21 Eithr wele, * llaw yr hwn a'm bradycha i ſydd gŷd â myfi ar y bwrdd.

22 Ac yn wir y mae Mâb y dŷn yn myned megis y mae yn derfynedig : eithr gwae yr dŷn hwnnw trwy'r hwn y bradychir ef.

23 Yna y dechreuaſāt ymofyn yn eu plith eu hun, pwy o honynt oedd yr hwn a wnai hynny.

*Yr Efengyl ddigwyl Sanct Bartholomew.* Math.20.25. mar.10.24. ☞ 24 Ac fe a * gyſododd cynnen yn eu plith, pwy o honynt a dybygid ei fôd yn fwyaf.

25 Ac efe a ddywedodd wrthynt, y mae brenhinoedd y cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai ſy mewn awdurdod arnynt a elwir yn bendefigion.

26 Ond na [byddwch] chwi felly : eithr y mwyaf yn eich plith bydded megis y lleiaf, a'r llywydd megis yr hwn a fydd yn gweini.

27 Canys pwy vn fwyaf, ai'r hwn ſydd yn eiſtedd ar y bwrdd, ai'r hwn ſydd yn gwaſanaethu : ond mwyaf yr hwn ſydd yn eiſtedd: eithr yr ydwyf fi yn eich myſc fel vn yn gwaſanaethu.

28 A chwy-chwi yw y rhai a arhoſaſoch gŷd â mi yn fy-mhrofedigaethau.

29 Ac yr wyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas megis yr ordeiniodd fy Nhâd i minne.

Math.19.28. 30 * Fel y bwyttaoch, ac yr yfoch ar fymwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eiſteddoch ar orſeddfeudd, a barnu deuddec-llwyth Iſrael. ☜

31 A'r Arglwydd a ddywedodd : Simon, Simon, wele * Satan a'ch ceiſiodd chwi i'ch nithio fel gwenith. 1.Petr.5.8.

32 Eithr mi a weddiais troſot na ddiffygie dy ffydd di : gan hynny, dithe, pan i'th droer cadarnhâ dy frodyr.

Math.26.34. Mar.14.29,31. ioan.13.38. 33 * Ac efe a ddywedodd wrtho, ô Arglwydd, yr ydwyf fi yn barod i fyned gŷd â thi i garchar ac i angeu.

34 Yntef a ddywedodd: yr wyf yn dywedyd i ti Petr, na chân y ceiliog heddyw, cyn i ti wadu dair gwaith yr adweini fi.

Math.10.9. 35 Ac efe a ddywedodd wrthynt, * pan eich anfonais heb bwrs, na chod nac eſcidiau, a fu arnoch eiſieu dim : a hwy a ddywedaſant, na ddo ddim.

36 Yna y dywedodd efe wrthynt : ond yn awr y nêb ſydd ganddo bwrs cymmered, a'r vn modd gôd, a'r nêb nid oes ganddo, gwerthed ei bais, a phryned gleddyf.

Eſay.53.12. 37 Canys yr wyf yn dywedyd i chwi fod yn rhaid cyflawni ynofi yr ſcrifen honno, a chŷd â'r anwir y cyfrifwyd ef: canys y mae diwedd i'r pethau [a ſcrifennwyd] o honofi.

38 A hwy a ddywedaſant, Arglwydd, wele ddau gleddyf ymma : ac efe a ddywedodd wrthynt, digon yw.

Math.26.36. mar.14.32. ioan.18.1. 39 Ac * wedi iddo fyned allan, efe a aeth (fel y bydde arferol) i fynydd Oliwydd, a'i ddiſcyblion a'i canlynaſant ef.

Math.26.41. mar.14.38. 40 A * phan ddaeth efe i'r man hwnnw, efe a ddywedodd wrthynt, gweddiwch nad eloch mewn profedigaeth.

41 Ac efe a dynnwyd oddi wrthynt tu ag ergid carreg : ac wedi iddo fyned ar ei liniau, efe a weddiodd,

42 Gan ddywedyd, fy Nhâd, os ewyllyſi gymmeryd y cwppan hwn oddi wrthif, er hynny, nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di a gyflawner.

43 Ac angel o'r nef a ymddangoſodd iddo ef, iw gadarnhau,

44 Eithr efe mewn ymdrech [meddwl] a weddiodd yn ddyfalach, a'i chwys ef oedd fel dagrau gwaed yn deſcyn i lawr ar y ddaiar.

45 A phan gododd efe o'i weddi, a dyfod at ei ddiſcyblion, efe a'u cafodd hwynt yn cyſcu gan driſtwch.

46 Ac efe a ddywedodd wrthynt, pa ham yr ydych yn cyſcu : codwch, a gweddiwch nad eloch mewn profedigaeth.

47 Ac * efe etto yn ymddiddan, wele'r dyrfa a hwn a elwyr Iudas vn o'r deuddec a aeth o'i blaen hwynt, ac a neſaodd at yr Ieſu iw guſanu ef. Math.26.47. mar.14.43. ioan.18.3.

48 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, Iudas, ai â chuſan y bradychi di Fâb y dŷn:

49 A phan welodd y rhai oedd yn ei gylch ef y peth oedd ar ddyfod, hwynt hwy a ddywedaſāt wrtho, ô Arglwydd, a darawn ni â chleddyf.

50 Ac vn o honynt a darawodd wâs yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymmaith ei gluſt ddehau ef.

51 Yna'r Ieſu a attebodd gan ddywedyd, goddefwch hyd hyn : ac efe gan gyffwrdd â'i gluſt a'i iachaodd ef.

52 A'r Ieſu a ddywedodd wrth y rhai a ddaethent atto ef [nid amgen na'r] arch-offeiriaid a phennaethiaid y Deml, a'r henuriaid, ai fel ac leidr y daethoch chwi allan â chleddyfau, ac â ffynn:

53 Pan oeddwn beunydd gŷd â chwi yn y Deml nid eſtynnaſoch ddwylo i'm herbyn, eithr hon yw eich awr chwi, a gallu'r tywyllwch.

54 Yna y * cymmeraſant ef, ac yr aethant ag ef : ac a'i dugaſant ef i dŷ'r arch-offeiriad, a Phetr a'i canlynodd ef o hir-bell.

55 *Ac wedi iddynt gynneu tân yng-hanol y llŷs a chŷd eiſtedd o honynt i lawr, yr eiſteddodd Petr hefyd yn eu plith. Math.26.69. mar.14.66. ioan.18.25.

56 A phan ganfu rhyw laugces ef yn eiſtedd wrth y tân, a dal ſylw arno, hi a ddywedodd, hwn hefyd oedd gŷd ag ef.

57 Ac yntef a wadodd gan ddywedyd, ô wraig nid adwen ef.

58 Ac ychydig wedi, vn arall a'i gwelodd [ef,] ac a ddywedodd, a thithe wyt [vn] o honynt, a Phetr a ddywedodd, ô ddŷn nid ydwyf.

59 Ac yng-hylch pen yr awr yn ôl hynny, vn arall a daerodd gan ddywedyd, yn wir yr ydoedd y dŷn hwn gŷd ag ef, canys Galilæad yw efe.

60 A Phetr a ddywedodd, y dyn ni's gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd: ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, y canodd y ceiliog.

61 Yna y troes yr Arglwydd, ac yr edrychodd ar Petr: a Phetr a feddyliodd am ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedaſe efe wrtho, *cyn Math.26.34. ioan.13.38. canu 'r ceiliog y gwedi fi dair gwaith.

62 Ac wedi i Petr fyned allan, efe a ŵylodd yn chwerw.

63 A'r rhai a ddaliaſant yr Ieſu, a'i gwatwaraſant [ef] gan ei daro.

64 Ac wedi iddynt guddio ei lygaid ef, tarawſant ef ar ei wyneb, gan ofyn iddo, a dywedyd, prophwyda pwy a'th darawodd.

65 A llawer eraill a ddywedaſant yn ei erbyn ef gan gablu.

Math.27.1. mar.15.1. ioan.18.28. 66 A *phan ddyddhâodd hi yr ymgynhullodd henuriaid y bobl a'r arch-offeiriaid, a'r ſcrifennyddion: ac a'i dugaſant ef iw cyngor,

67 Gan ddywedyd, ai ti yw Criſt? dywet i ni, ac efe a ddywedodd wrthynt: pe dywedwn i chwi, ni's credech:

68 Ac os gofynnaf [i chwi] nid attebwch fi, ac ni'm gollyngwch ymmaith.

69 Yn ôl hyn y bydd Mâb y dŷn yn eiſtedd ar ddeheu-law gallu Duw.

70 A hwy oll a ddywedaſant, a ydwyt ti gan hynny yn Fâb Duw? ac efe a ddywedodd wrthynt, yr ydych chwi yn dywedyd fy môd.

71 Yna y dywedaſant, pa raid i ni mwy wrth deſtiolaeth? canys clywſom ein hunain o'i enau ef.

## PEN. XXIII.

Y modd y dygwyd Criſt o flaen Pilat a Herod, 18 Y dewiſwyd Barabbas oi flaen ef. 26 Y gwnaed i Simon ddwyn ei groes ef, 27 Ac atteb Criſt i'r gwragedd galarus. 33 Y modd y dioddefodd Criſt gan weddio tros ei elynion, 35 Ac y claddwyd ef.

*Yr Efengyl ddydd Iau cyn y Paſc.* Math.27.1. ☞ YNa y *cyfododd yr holl liaws, ac a'i dugaſant ef at Pilatus.

Math.22.21. mar.12.17. 2 Ac a ddechreuaſant achwyn arno, gan ddywedyd, nyni a gawſom hwn yn *gŵyrdroi 'r bobl, ac yn gwahardd talu teyrn-ged i Cæſar, gan ddywedyd mai efe yw Criſt Frenin.

Math.27.11. marc.15.2. ioan.18.33. 3 Yna *Pilatus a ofynnodd iddo gan ddywedyd, ai ti yw Brenin yr Iddewon? ac efe a attebodd, ac a ddywedodd, yr wyt ti yn dywedyd.

4 Yna y dywedodd Pilatus wrth yr arch-offeiriaid, a'r bobl, nid ydwyfi yn cael dim bai ar y dŷn hwn.

5 Ac hwy a fuant daerach gan ddywedyd, y mae efe yn cyffroi 'r bobl, gan ddyſcu trwy holl Iudæa, wedi dechreu o Galilæa hyd ymma.

6 A phan glybu Pilatus ſon a'm Galilæa, efe a ofynnodd ai Galilæad ydoedd efe.

7 A phan ŵybu efe ei fod ef o lywodraeth Herod, efe a'i hanfonodd ef at Herod, yr hwn oedd y dyddiau hynny yn Ieruſalem.

8 A phan welodd Herod yr Ieſu, efe a lawenychodd yn fawr, am ei fôd yn ewyllyſio ei weled ef er yſtalm o amſer, o blegit iddo glywed llawer am dano ef, ac yr ydoedd efe yn gobeithio cael gweled rhyw ryfeddod ganddo.

9 Ac efe a ofynnodd iddo lawer o chwedlau, eithr nid attebodd efe ddim iddo ef.

10 A'r arch-offeiriaid, a'r ſcrifennyddion a ſafaſant, ac a achwynaſant arno ef yn haerllyg.

11 A Herod, a'i filwŷr, wedi iddo ei ddiyſtyru ef, a'i watwar, a'i wiſco â gwiſc glaerwen, a'i danfonodd ef trachefn at Pilatus.

12 A'r dydd hwnnw y cymmododd Herod â Philatus? canys gelynion oeddynt o'r blaen iw gilydd.

13 Yna Pilatus, wedi galw yng-hŷd yr arch-offeiriaid, a'r llywiawd-wŷr a'r bobl,

14 A *ddywedodd wrthynt, chwy-chwi a ddugaſoch y dŷn hwn attafi, fel vn a fydde yn Math.27.23. marc.15.14. gwyr-droi y bobl, ac wele, mi a'i holais ef yn eich gŵydd chwi,* ac ni chefais yn y dŷn hwn Ioan.18.38. & 19.4. yr vn o'r beiau yr ydych chwi yn ei gyhuddo ef am danynt:

15 Na Herod chwaith: canys anfonais chwi atto ef, ac wele ni wnaed iddo ef ddim yn haeddu marwolaeth.

16 Am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf ymmaith.

17 (Canys yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng vn yn rhydd iddynt ar yr ŵyl)

18 Yna'r holl dyrfa a lefodd ar vn-waith, gan ddywedyd, ymmaith ag ef, a gollwng i ni yn rhydd Barabbas:

19 Yr hwn am ryw derfyſc a llofruddiaeth a wneuthid yn y ddinas a fwriaſid yng-harchar.

20 A Philatus a ymddiddanodd â hwynt drachefn mewn ewyllys i ollwng yr Ieſu yn rhydd.

21 A hwy a wrth-lefaſant, gan ddywedyd, croeſ-hoelia, croeſ-hoelia ef.

22 Ac yntef a ddywedodd wrthynt y drydydd waith, eithr pa ddrwg a wnaeth efe? ni chefais i achos marwolaeth ynddo: am hynny wedi i mi ei goſpi ef, mi a'i gollyngaf ef.

23 Hwythau a fuant daerion â llefain vchel, gan erchi ei groeſ-hoelio ef: a'u llefain hwynt a'r arch-offeiriaid a orfuant.

24 Yna Pilatus a farnodd wneuthur eu dymuniad hwynt.

25 Ac ai gollyngodd ef yn rhydd iddynt, yr hwn am derfyſc a llofruddiaeth a fwriaſit yng-harchar, yr hwn a ofynnaſant: ac a roddodd yr Ieſu iw hewyllys hwynt.

26 *A phan oeddynt yn ei ddwyn ef ym- Math.27.31. mar.15.21. maith, daliaſant vn Simon o Cyrene, yn dyfod o'r wlâd, ac a ddodaſant y groes arno ef iw dwyn ar ôl yr Ieſu.

27 A thyrfa fawr o bobl, ac o wragedd oeddynt yn ei ganlyn ef, y rhai oeddynt yn cwynfan, ac yn galaru o'i blegit ef.

28 A'r Ieſu a droes attynt gan ddywedyd, merched Ieruſalem, nac ŵylwch o'm hachos i, eithr ŵylwch o'ch achos eich hunain a'ch plant.

29 Canys wele, fe a ddaw yꝛ dyddiau y dywedant, gwyn eu byd y rhai amhlantadwy a'r crothau y rhai ni heppiliaſant, a'r bꝛonnau y rhai ni roeſant ſugn.

Eſai 2.19.
Oſe.10.8.
Gwelc.6.16.
1.Petr.4.17.

30 Yna y dechꝛeuant ddywedyd wꝛth y mynyddoedd, * ſyꝛthiwch arnom: ac wꝛth y bꝛynniau cuddiwch ni.

31 Canys * os gwnant hyn i'r pꝛenn îr, pa beth a wnair i'r crin?

Math.27.38.
Marc.15.27.
Ioan.19.18.

32 Ac fe a * ddygwyd dau eraill, y rhai [oeddynt] ddꝛwg weithꝛedwŷꝛ iw rhoi iw marwolaeth gŷd ag ef.

33 A phan ddaethant i'r lle a elwir y Benglogſa, yna y croeſ-hoeliaſant ef a'r dꝛwgweithꝛedwŷꝛ: vn ar ei ddeheulaw, a'r llall ar ei law aſwy.

34 A'r Iesu a ddywedodd, o Dâd, maddeu iddynt: canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur. Ac hwynt hwy a rannaſant ei ddillad ef, ac a fwꝛiaſant goel-bꝛen.

35 A'r bobl a ſafaſant yn edꝛych: a'r pennaethiaid hefyd a'i gwatwaraſant ef, gan ddywedyd, efe a waredodd rai eraill, gwareded ei hun os hwn yw Criſt detholedig Duw.

36 A'r milwŷꝛ hefyd a'i gwatwaraſant ef gan ddyfod atto, a chynnig iddo finegr,

37 Gan ddywedyd, os ty di yw Bꝛenin yꝛ Iddewon, gwaret dy hun.

38 Ac yꝛ ydoedd ei ſcrifen ef wedi ei ſcrifennu vwch ei benn, a llythyꝛennau Gꝛoeg, Ladin, ac Ebꝛew: HWN YW BRENIN YR IDDEWON.

39 Ac vn o'ꝛ dꝛwg-ddynion a'r a groſ-hoeliaſid a'i cablodd ef, gan ddywedyd, os ty di yw Criſt, gwaeret ty hun a ninnau.

40 A'r llall a attebodd, ac a'i ceryddodd ef gan ddywedyd, ond ydwyt ti yn ofni Duw am dy fôd dan yꝛ vn farn?

41 A nyni yn ddiau [a goſpir] yn gyfiawn canys yꝛ ydym yn derbyn yꝛ hyn ſydd addas am yꝛ hyn a wnaethom, eithꝛ ni wnaeth hwn ddim anghymheſur.

42 Ac efe a ddywedodd wꝛth yꝛ Iesu, Arglwydd coffa fi pan ddelech i'th deyꝛnas.

43 A'r Iesu a ddywedodd wꝛtho, yn wîr meddaf i ti, heddyw y byddi di gŷd â mi ym mharadwys.

44 Ac yꝛ ydoedd hi yng-hylch y chweched awꝛ: a thywyllwch a fu ar yꝛ holl ddaiar hyd y nawfed awꝛ.

45 A'r haul a dywyllodd, a llenn y Deml a rwygodd yn ei chanol.

Pſal.31.5.

46 A'r Iesu gan lefain â llef vchel a ddywedodd, * fy-Nhâd, i'th ddwylo yꝛ wyf yn rhoddi fy yſpꝛyd: ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a dꝛengodd.

47 A phan welodd y Canwꝛiad y peth a fu, efe a ogoneddodd Dduw, gan ddywedyd, yn wîr, yꝛ oedd y gŵꝛ hwn yn gyfiawn.

48 A'r holl dyꝛfa y rhai a ddaethēt yng-hŷd i edꝛych, wꝛth weled y pethau a fu, a ddychwelaſant gan guro eu dwyfronnau.

49 Ai holl gydnabod ef a ſafaſant o hirbell, a'r gwꝛagedd y rhai ai canlynaſent ef o r Galilæa, oeddynt yn edꝛych ar y pethau hyn.

Math.27.57.
Marc.15.43.
Ioan.19.38.

50 Ac * wele gŵꝛ a elwid Ioseph, cynghôꝛwꝛ, gŵꝛ da a chyfiawn,

51 (Yꝛ hwn ni chyttunaſe ai cyngoꝛ, ac ai gweithꝛed hwynt) o Arimathea dinas yꝛ Iddewon: yꝛ hwn oedd hefyd yn diſgwil am deyꝛnas Dduw.

52 Hwn a ddaeth at Pilatus, ac a ofynnodd goꝛph yꝛ Iesu.

53 Ac wedi iddo ei dynnu ef i lawꝛ, efe ai amdôdd ef mewn lliain main, ac ai rhoddes mewn bedd wedi ei doꝛri o'ꝛ graig, yn yꝛ hwn ni roddaſid dŷn er ioed.

54 Ac dydd hwnnw oedd darparwyl, a'r Sabboth yn canlyn.

55 A'r gwꝛagedd hefyd y rhai a ddaethent gŷd ag ef o Galilæa, ac oeddynt yn canlyn a welſant y bedd, a pha fodd y rhodaſid ei goꝛph ef.

56 Ac wedi eu dychwelyd hwynt, hwy a baratoaſant bêr-aroglau, ac ennaint: ac a orphywyſaſant ar y Sabboth yn ôl y goꝛchymyn.

## PEN. XXIIII.

Dyfodiad y gwragedd i'r bedd. 13 Ymddangoſiad Criſt i'r ddau ddiſcybl y rhai oeddynt yn myned tu ag Emmaus. 36 Y modd yr ymddangoſodd efe yn ddiſymmwth ym myſc y diſcyblion. 44 Y gorchymyn a'r addewid a roddes efe iddynt hwy. 50 Y modd y derchafodd efe i'r nef. 53 Ac y bu ymwreddiad ei ddiſcyblion ef wedi hynny.

Math.28.1.
Marc.16.1.
Ioan.20.1.

Y Dydd * cyntaf o'ꝛ wythnos ar y cynddydd hwynt hwy a ddaethant i'r bedd gan ddwyn y pêr-aroglau y rhai a baratoeſent, a rhai gyd ag hwynt.

2 Ac hwy a gawſant y maen wedi ei dꝛeiglo ymmaith oddi wꝛth y bedd.

3 Ac wedi iddynt fyned i mewn, ni chawſant goꝛph yꝛ Arglwydd Iesu.

4 Ac fe a ddarfu a hwy wedi ſynnu am y peth hyn, wele, dau ŵꝛ a ſafaſant wꝛthynt hwy mewn gwiſcoedd diſclaer.

5 Ac wedi iddynt ofni yn goſtwng eu hwynebau tu a'r ddaiar, hwynt hwy a ddywedâſant wꝛthynt, pa ham y ceiſiwch chwi y byw ym myſc y meirw?

Pen.9.22.
Math.17.2.
Marc.9.31.

6 Nid ydyw efe ymma, ond efe a gododd: coſiwch * pa fodd y dywedodd wꝛthych, ac efe etto yn Galilæa,

7 Gan ddywedyd, rhaid yw rhoi Mâb y dŷn yn nwylo dynion pechadurus, a'i groeſ-hoelio, a'r trydydd dydd adgyfodi.

8 A chofiaſant ei eiriau ef.

9 Dychwelaſant hefyd oddi wꝛth y bedd, a mynegaſāt hyn oll i'r vn ar ddêc, ac i'r lleill oll.

10 A Mair Magdalen, ac Ioanna, a Mair [mam] Iaco, ac eraill gyd â hwynt, oedd y rhai a ddywedaſant y pethau hyn wꝛth yꝛ Apoſtolion.

11 Eithꝛ, fel gwegi oedd ganddynt eu gei-

ꝛiau hwy, ac ni's credaſant hwynt.

12 Yna Petr a gododd i fynu, ac a redodd i'r bedd, ac a edꝛychodd i mewn, ac a welodd y lliain wedi eu rhoddi o'ꝛ naill tu, ac a aeth i mewn gan ryfeddu rhyngddo ag ef ei hun am y peth a ddarfuaſe.

*Yr Efengyl a'r ddie llun Paſc.*
Mar.16.12.

13 ☞ Ac wele, *dau o honynt a aethant y dydd hwnnw i dꝛef a'i henw Emmaus, yꝛ hon oedd yng-hylch trugain ſtâd oddi wꝛth Ieruſalem.

14 Ac yꝛ oeddynt hwy yn ymddiddan â'i gilydd am yꝛ holl bethau a ddigwyddaſe.

15 Ac fel yꝛ oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn â'i gilydd, yꝛ Ieſu yntef a neſſaodd, ac a aeth gŷd â hwynt.

16 Eithꝛ eu llygaid hwynt a attaliwyd fel na's adwaenent ef.

17 Ac efe a ddywedodd wꝛthynt, pa ryw ymadꝛoddion yw y rhai hyn ſydd gennych wꝛth eu gilydd dan rodio? a [pha ham] yꝛ ydych yn dꝛiſt?

18 A'r naill (a'i enw Cleophas) a attebodd, ac a ddywedodd wꝛtho, a ydwyt ti yn unic yn ymdeithudd yn Ieruſalem, ac ni ŵyddoſt y pethau a ddarfu yn y dyddiau hyn ynddi hi?

19 Ac efe a ddywedodd wꝛthynt, pa bethau? hwythau a ddywedaſant wꝛtho: yꝛ hyn [a wnaethpwyd] i Ieſu o Nazareth yꝛ hwn oedd ŵꝛ a oedd bꝛophwyd galluoc mewn gweithꝛed a gair ger bꝛon Duw a'r holl bobl.

20 A'r modd y rhoddes yꝛ arch-offeiriaid a'n llywodꝛaeth-wyꝛ ni ef i farn marwolaeth, ac a'i croes-hoeliaſant ef.

21 Ond yꝛ oeddem ni yn gobeithio mai efe oedd yꝛ hwn a warede'r Iſrael: ac heb law hynny, hwn yw yꝛ trydydd dydd er pan wnaethpwyd y pethau hyn.

22 A hefyd rhai o'ꝛ gwꝛagedd o'n plith ni a'n dychꝛynaſant ni, y rhai a ddaethant yn foꝛeu at y bedd.

23 A phan na chawſant ei goꝛph ef hwynt hwy a ddaethant gan ddywedyd, weled o honynt weledigaeth o angelion, y rhai a ddywedaſant ei fôd efe yn fyw.

24 A rhai o'r rhai oedd gŷd â nyni a aethant at y bedd, ac a gawſant fel y dywedaſe yꝛ gwꝛagedd, ond ni welſant ef.

25 Yna y dywedodd efe wꝛthynt: ô ynfydion a hwyꝛfrydic o galon i gredu 'r holl bethau a ddywedodd y pꝛophwydi.

26 Ond oedd raid i Griſt ddioddef y pethau hyn, ac wedi hynny myned iw ogoniant?

27 A chan ddechꝛeu ar Moſes a'r holl bꝛophwydi efe a agoꝛodd iddynt yn yꝛ holl ſcrythꝛau y pethau oeddynt ſcrifennedig o honaw ef.

28 Ac yꝛ oeddynt yn neſſau i'r dꝛef i'r hon yꝛ oeddynt yn myned: ac yntef a gymmerth arno ei fôd yn myned ym-mhellach.

29 Ac hwy a'i cymmellaſant ef gan ddywedyd, aros gyd â ni, canys y mae hi yn hwyꝛhau, a'r dydd yn darfod: ac efe a aeth i mewn i aros gŷd ag hwynt.

30 A darfu ag efe yn eiſtedd gŷd ag hwynt, efe gan gymmeryd bara a'i toꝛrodd, ac a'i rhoddes iddynt.

31 Yna 'r agoꝛwyd eu llygaid hwynt, ac yꝛ adnabuant ef: ac efe a ddiſannodd allan o'u golwg hwynt.

32 A hwy a ddywedaſant wꝛth eu gilydd, onid oedd ein calonnau ni yn lloſci ynom tra ydoedd efe yn ymddiddan â nyni ar y ffoꝛdd: a thra'r ydoedd efe yn agoꝛyd i ni 'r ſcrythꝛau?

33 A hwy a godaſant yꝛ awꝛ honno, ac a ddychwelaſant i Ieruſalem, ac a gawſant yꝛ un ar ddêc wedi ymgaſclu yng-hŷd, a'r ſawl oedd gŷd â hwynt,

34 Ac a ddywedaſant, yꝛ Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangoſodd i Simon.

35 Yna y mynegaſant y pethau [a wnaethesid,] ar y ffoꝛdd, a pha fodd yꝛ adnabuant ef wꝛth doꝛiad y bara. ☜

*Yr Efengyl ddydd mawrth Paſc.*
Mar.16.14.
Ioh.20.19.

36 ☞ *Ac hwy yn dywedyd y pethau hyn, yꝛ Ieſu a ſafodd yn eu canol hwynt, ac a ddywedodd wꝛthynt: tangnheddyf i chwi.

37 Hwythau wedi bꝛawychu, ac ofni a dybiaſant weled o honynt yſpꝛyd.

38 Dywedodd yntef wꝛthynt, pa ham i'ch trallodir, a pha ham y mae traws-feddyliau yn codi yn eich calonnau?

39 Edꝛychwch fy nwylo a'm traed, mai myfi yw efe: teimlwch fi a gwelwch: canys nid oes i yſpꝛyd gnawd, ac eſcyꝛn fel y gwelwch fôd i mi.

40 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangoſodd iddynt ei ddwylo a'i dꝛaed.

41 Tra yꝛ oeddynt hwy etto heb gredu gan lawenydd, ac yn rhyfeddu, efe a ddywedodd wꝛthynt hwy: a oes gennych yma ddim bwyd?

42 A hwy a roeſant iddo ef ddarn o byſcodyn wedi ei roſtio, ac o ddil mêl.

43 Yntef a'i cymmerodd, ac a'i bwyttaodd yn eu gŵydd hwynt.

44 Ac efe a ddywedodd wꝛthynt: y rhai hyn ywyꝛ geiriau a ddywedais i wꝛthych chwi, pan oeddwn etto gŷd â chwi, bôd yn rhaid cyflawni pob peth ſydd yn ſcrifennedic am danaf yng-hyfraith Moſes, a'r pꝛophwydi, a'r Pſalmau.

45 Yna yꝛ agoꝛodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yꝛ ſcrythꝛau,

46 Ac efe a ddywedodd wꝛthynt, felly y mae yn ſcrifennedig, ac felly yꝛ oedd raid i Griſt ddioddef, a chyfodi o feirw y trydydd dydd:

47 A phꝛegethu edifeirwch, a maddeuant pechodau yn ei enw ef ym-mhlith y cenhedloedd oll, gan ddechꝛeu yn Ieruſalem.

48 Ac yꝛ ydych chwi yn dyſtion o'ꝛ pethau hyn. ☜

Ioh.15.26.
Act.1.4.

49 Ac wele, mi a anfonaf *addewid fy Nhad i chwi: arhoſwch yn ninas Ieruſalem, hyd oni wiſcer chwi â nerth o'ꝛ uchelder.

50 Ac efe a'u dug hwynt allan hyd Bethania,

nia, ac a gododd ei ddwylaw, ac a'i bendithiodd hwynt.

51 Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, * ymadel o honaw ef oddi wrthynt: ac efe a dducpwyd i fynu i'r nef.

Mar.16.9. Gwerth.9.

52 A hwy wedi iddynt ei addoli ef a ddychwelasant i Ieruſalem â llawenydd mawr.

53 Ac yr oeddynt yn oeſtadol yn y Deml, yn moli, ac yn clodfori Duw. Amen.

*Terfyn Efengyl yn ôl S. Luc.*

* * *

# Cyſſegr-lan Efengyl Ieſu Griſt yn ol S. Ioan.

## PENNOD. I.

Duwdab, dyndab, a ſwydd Ieſu Griſt, 15 Teſtiolaeth Ioan, 39 Galwedigaeth Andreas, Petr, Philip, a Nathanael.

*Yr Efengyl ar ddydd nadalic Criſt.*

☞ Yn y dechreuad yr oedd y gair, a'r gair oedd gyd â Duw, a Duw oedd y gair.

2 Hwn oedd yn y dechreuad gyd â Duw.

3 Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth, ac hebddo ef ni wnaed dim a'r a wnaethpwyd.

4 Yndo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion.

5 A'r goleuni a lewyrchodd yn y tywyllwch, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.

6 Yr ydoedd gŵr wedi ei anfon oddi wrth Duw, a'i enw Ioan.

7 Hwn a ddaeth yn deſtiolaeth, fel y teſtiolaethe efe am y goleuni, fel y crede pawb trwyddo ef.

8 Nid efe oedd y goleuni hwnnw, eithr i deſtiolaethu am y goleuni.

9 [Hwnnw] oedd y gwir oleuni, yr hwn ſydd yn goleuo pob dŷn a'r y ſydd yn dyfod i'r bŷd.

10 Yn y bŷd yr oedd efe, * a'r bŷd a wnaethpwyd trwyddo ef: a'r bŷd * nid adnabu ef.

Heb.11.3. Rhuf 1.21. Act.14.15.

11 At ei eiddo ei hun y daeth efe, a'i eiddo ei hun nis derbyniaſant ef.

12 Ond cynniſer a'r a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, [ſef] i'r ſawl a gredent yn ei enw ef,

13 Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw.

14 A'r * gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, (ac * ni a welſom ei ogoniant ef, megis gogoniant yr unic-ganedic [Fab yn dyfod] oddi wrth y Tad) * yn llawn grâs, a gwirionedd. ☜

Math.1.16. Luc.2.7. Math.17.2. 2.Pet.1.17. Col.1.19.& 2.9.

15 Ioan a deſtiolaethodd am danaw ef, ac a lefodd, gan ddywedyd: hwn oedd yr un a ddywedais am dano, * yr hwn ſydd yn dyfod ar fy ôl i, a aeth o'm blaen i, canys yr oedd efe o'm blaen i.

Iſod.g.30.

16 Ac o'i gyflawnder ef nyni oll a dderbyniaſom, a grâs am râs.

17 Canys y gyfraith a roddwyd trwy Moſes, [ond] grâs a gwirionedd a ddaeth trwy Ieſu Griſt.

18 * Ni welodd neb Dduw er ioed: yr unic-enedic Fab, yr hwn ſydd ym monwes y Tâd, hwnnw a'i hyſpyſodd [ef.]

1.Tit.6.16. 1.Ioh.4.12.

*Yr Efengyl y pedwerydd Sul o'r Adfent.*

19 ☞ A hyn yw teſtiolaeth Ioan, pan anfonodd yr Iddewon offeiriait, a Lefiaid o Ieruſalem i ofyn iddo, pwy ydwyt ti?

20 Yna efe a gyffeſſodd, ac ni wadodd, ac efe a addefodd, nid * myfi yw'r Criſt.

Act.13.25.

21 A hwyntau a ofynnaſant iddo, beth yntef? a'i Elias ydwyt ti? dywedodd yntef, Na-gê. A'i * prophwyd ydwyt ti? ac efe a attebodd, Na-gê.

Mal.4.5. Deut.18.15.

22 Yna y dywedaſant wrtho ef, pwy ydwyt ti, fel y rhoddom ni atteb i'r rhai a'n hanfonodd ni? beth meddi di am danat dy hun?

23 Eb yr efe, myfi [ydwyt] llef un yn gweiddi yn y diffaethwch, Iniawnwch ffordd yr Arglwydd, fel y dywedodd * Eſay y prophwyd.

Eſa.40.3. Math.3.3. Luc.3.4.

24 A'r rhai a anfonaſid oeddynt o'r Phariſeaid,

25 A hwynt a ofynnaſant iddo ef, ac a ddywedaſant wrtho, pa ham gan hynny yr ydwyt ti yn bedyddio, onid ydwyt ti y Criſt, nac Elias, na'r prophwyd?

26 Ioan a'u hattebodd hwynt, gā ddywedyd: Myfi ſy yn bedyddio â dwfr, ond y mae vn yn ſefyll yn eich plith chwi, yr hwn nid adwaenoch.

27 * Efe yw'r hwn ſydd yn dyfod ar fy ôl i, yr hwn a daeth o'm blaen i, yr hwn nid ydwyf deilwng i ddattod carre ei eſcid. Math.3.11.

28 Y pethau hyn a wnaed yn Bethabara y tu hwnt i'r Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio. ☞

29 Trannoeth Ioan a ganfu yr Ieſu yn dyfod atto ef, ac efe a ddywedodd, wele oen Duw yr hwn ſydd yn tynnu ymmaith bechodau yr bŷd.

30 Hwn yw efe, am yr hwn y dywedais, ar *fy ôl y mae gŵr yn dyfod, yr hwn a wnaed yn gynt nâ mi, canys yr oedd efe o'm blaen i. Vchod.g.15.

31 Ac nid adwaenwn i mohonaw ef: eithr fel yr amlygid ef i Iſrael, am hynny y daethum i, gan fedyddio â dwfr,

32 Ac Ioan a deſtiolaethodd, gan ddywedyd: yn ddiau* mi a welais yr Yſpryd yn deſcyn megis colommen o'r nêf, ac efe a arhoſodd arno ef. Math.3.16. Marc.1.10. Luc.3.22.

33 A nid adwaenwn i ef, ond yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio â dwfr, efe a ddywedaſſe wrthif: ar yr hwn y gwelech yr Yſpryd yn deſcyn, ac yn aros arno, hwnnw yw yr vn ſydd yn bedyddio â'r Yſpryd glân.

34 Ac mi a welais, ac a deſtiolaethais, mai hwn yw Mab Duw.

35 Trannoeth y ſafodd Ioan eil-waith, a dau o'i ddiſcyblion:

36 A phan welodd efe yr Ieſu yn rhodio, efe a ddywedodd, Wele'r oen Duw.

37 A'r ddau ddiſcybl a'i clywſant ef yn lleſaru, ac a ganlynaſant yr Ieſu.

38 Yna Ieſu a droes, a phan welodd hwynt yn ei ganlyn ef, efe a ddywedodd wrthynt, Beth yr ydych chwi yn ei geiſio? a hwynt a ddywedaſant wrtho ef, Rabbi (yr hwn o'i ddeongli yw Athro) pa le yr ydwyt ti yn trigo?

39 Efe a ddywedodd wrthynt, deuwch, a gwelwch, hwynteu a ddaethant, ac a welſant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arhoſaſant gyd ag ef y diwrnod hwnnw, ac yr oedd hi yng-hylch y ddecfed awr.

40 Andreas, brawd Simon Petr oedd vn o'r ddau a glywſent [hynny] gan Ioan, ac a'i dilynaſent ef.

41 Hwn yn gyntaf a gafodd ei frawd eihun Simon, ac a ddywedodd wrthaw: Nyni a gawſom y Meſſias, yr hwn o'i ddeongli yw Criſt.

42 Ac efe ai dug ef at yr Ieſu, a'r Ieſu a edrychodd arno ef [ac] a ddywedodd: Ti ydwyt Simon mab Iona, ti a elwir Cephas, yr hwn o'i ddeongli yw carreg.

43 Trannoeth yr ewyllyſiodd yr Ieſu fyned i Galilæa, ac efe a gafodd Philip, ac a ddywedodd wrtho, Dilyn fi.

44 A Philip oedd o Beth-ſaida, o ddinas Andreas, a Phetr.

45 Philip a gafodd Nathanael, ac a ddywedodd wrtho, nyni a gawſom Ieſu fab Ioſeph hwnnw o Nazareth, am yr hwn yr ſcrifennodd *Moſes yn y gyfraith,* a'r prophwydi. Geneſ.49.10. deut.18.18. Eſay.40.10. & 42.10. & 45.8. Iere.23.5. Ezec.34.23. & 37.24. Dan.9,24.

46 A Nathanael a ddywedodd wrtho ef, a ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Philip a ddywedodd wrtho ef, Tyret ti a gwêl.

47 Ieſu a ganfu Nathanael yn dyfod atto ef, ac a ddywedodd am dano: wele Iſraeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.

48 Nathanael a ddywedodd wrtho, pa fodd i'm hadwaenoſt? Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, Cyn i Philip dy alw di pan oeddit tann y ffigus-bren, mi a'th welais di.

49 Nathanael a attebodd, ac a ddywedodd wrtho ef: Rabbi, ti ydwyt Fab Duw, ti ydwyt Frenin Iſrael.

50 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho ef: o herwydd i mi ddywedyd wrthit ti, Mi a'th welais di tann y ffigus-bren, yr ydwyt ti yn credu, ti a gei weled pethau mwy nâ'r rhai hyn.

51 Ac efe a ddywedodd wrtho, yn wir, yn wir meddaf i chwi, ar ôl hyn y gwelwch y nêf yn agored, ac *angelion Duw yn eſcyn, ac yn deſcyn ar Fab y dŷn. Geneſ.28.12.

## PEN. II.

8 Criſt yn troi'r dwfr yn win. 14 Yn gyrru y pryn-wyr a'r gwerth-wyr o'r deml; 19 Ac yn ei rhac-rybuddio am ei farwolaeth, ai ail-gyfodiad mewn dammeg am ddiniſtrio y deml ai hadaliadu mewn tridiau.

*Yr Efengyl yr ail Sul ar ôl yr Ystwyll.*

☞ A'R trydydd dydd y gwnaed priodas yn Cana Galilæa: a mam yr Ieſu oedd yno.

2 Galwyd yr Ieſu hefyd, a'i ddiſcyblion i'r briodas.

3 A phan ballodd y gwin, mam yr Ieſu a ddywedodd wrtho ef, Nid oes ganddynt mo'r gwin.

4 Ieſu a ddywedodd wrthi hi, Beth ſydd i mi [a wnelwyf] â thi wraig? ni ddaeth fy awr i etto.

5 Ei fam ef a ddywedodd wrth y gwaſanaeth-wyr, Beth bynnac a ddywedo efe wrthych, gwnewch.

6 Ac yr oedd yno chwech o ddyfr-leſtri meini, wedi eu goſod yn ôl defod puredigaeth yr Iddewon, y rhai a ddalient bob vn ddau ffircyn, neu dri.

7 Ieſu a ddywedodd wrthynt, Llenwch y dyfr-leſtri o ddwfr, a hwynt a'u llanwaſant hyd yr ymyl.

8 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Gollyngwch yn awr, a dygwch at lywodraeth-wr y wledd: a hwy a'i dugaſant.

9 Pan brofodd llywodraeth-wr y wledd y dwfr yr hwn a wnaethid yn win, (canys ni

wydde efe o ba le y cawſid: onid y gwaſanaeth-wŷr y rhai a ollyngaſent y dwfr a wyddent) Llywodraeth-wr y wlêdd a alwodd ar y priod-fab,

10 Ac a ddywedodd wrtho ef, pob dyn a éſyd y gwin dâ yn gyntaf, a phan yfont yn dda, yna un a fyddo gwaeth: tithe a gedwaiſt y gwin dâ hyd yr awr hon.

11 Hyn o ddechreu gwrthiau a wnaeth yr Ieſu yn Cana Galilæa, ac a eglurodd ei ogoniant, a'i ddiſcyblion a gredaſant yndo. ☜

12 Wedi hynny efe a aeth i wared i Capernaum, efe a'i fam, a'i frodyr, a'i ddiſcyblion, ac nid arhoſaſant yno nemmawr o ddyddiau.

13 A Phaſc yr Iddewon oedd yn agos, am hynny 'r aeth yr Ieſu i fynu i Ieruſalem.

Math.21.12. Mar.11.15. Luc.19.45.

14 A efe *a gafodd yn y Deml rai yn gwerthu ychen, a defaid, a cholomennod, a newid-wŷr arian yn eiſtedd [yno.]

15 Pan wnaeth efe fflangell o reffynnau, efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r Deml, y defaid hefyd, a'r ychen, ac a dywalltodd arian y newid-wŷr, ac a ddymchwelodd y byrddau.

16 Ac efe a ddywedodd wrth y rhai oeddynt yn gwerthu colomennod, dygwch y rhai hyn oddi ymma: na wnewch dŷ fy Nhâd i yn dŷ marchnat.

Pſal.69.9.

17 A'i ddiſcyblion ef a gofiaſant fod yn ſcrifennedic, *Zel dy dŷ di a'm hyſſodd i.

18 Yna'r Iddewon a attebaſant, ac a ddywedaſant wrtho ef: pa arwydd a ddangoſi di i ni, gan i ti wneuthur y peth hyn?

Math.26.61. & 27.40. Mar.14.58. & 15.29.

19 Ieſu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, *diniſtriwch y Deml hō, ac mewn tri-diau y cyfodaf hi trachefn.

20 Yna'r Iddewon a ddywedaſant, chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y Deml hon: ac a gyfodi ti hi ymewn tri-diau?

21 Ond efe a ddywedaſe am deml ei gorph.

22 Am hynny pan gyfododd efe o feirw, ei ddiſcyblion ef a gofiaſant iddo ef ddywedyd hyn wrthynt hwy, a hwynt a gredaſant yr ſcrythur, a'r gair yr hwn a ddywedaſe yr Ieſu.

23 A phan oedd efe yn Ieruſalem ar y Paſc yn yr wyl, llawer a gredaſant yn ei enw ef, wrth weled y gwrthiau y rhai a wnaethe efe.

24 Ond nid ymddyriedodd yr Ieſu iddynt am dano ei hun, am yr adwaene efe hwynt oll,

25 Ac am nad oedd rhaid iddo wrth neb i deſtiolaethu am ddŷn, o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dŷn.

## PEN. III.

3 Criſt yn addyſcu Nicodemus yng-hylch yr adenedigaeth. 15 Am ffydd. 16 Am ſerch Duw er llês i'r byd. 23 Dyſceidiaeth, a bedydd Ioan. 28 A'r deſtiolaeth a ddug efe am Griſt.

*Yr Efengyl ar Sul y Drindod.*

☞ AC yr oedd dŷn o'r Phariſeaid, a'i enw Nicodemus, pennaeth yr Iddewon.

2 Hwn a ddaeth at yr Ieſu liw nos, ac a ddywedodd wrtho ef, Rabbi, nyni a wyddom mai dyſcawdwr ydwyt, ti wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys nid alle neb wneuthur y gwrthiau hyn y rhai yr ydwyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gyd ag ef.

3 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho ef, yn wir, yn wir meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn trachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.

4 Nicodemus a ddywedodd wrtho ef, pa fodd y dichon dŷn ei eni, ac efe yn hên? a ddichon efe fyned i groth ei fam trachefn a'i eni?

5 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd, yn wir yn wir meddaf i ti, oddi eithr geni dŷn o ddwfr, ac o'r Yſpryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.

6 Yr hyn a aned o'r cnawd ſydd gnawd, a'r hyn a aned o'r Yſpryd ſydd yſpryd.

7 Na ryfedda di ddywedyd o honof wrthit y bydd rhaid eich geni chwi trachefn.

8 Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno, a thi a glywi ei ſŵn ef, ond ni wyddoſt o ba lê y mae yn dyfod, nac i ba lê yr aiff: felly y mae pawb a'r a aned o'r Yſpryd.

9 Nicodemus a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, pa fodd y dichon y pethau hyn fod?

10 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, a wyt ti yn ddyſcawdur yn Iſrael, ac ni wyddoſt ti y pethau hyn?

11 Yn wîr, yn wir meddaf i ti, mai yr hyn a wyddom yr ydym yn ei ddywedyd, a'r hyn a welſom yr ydym yn ei deſtiolaethu, ond nid ydych yn derbyn ein teſtiolaeth ni.

12 Os dywedais i chwi bethau daiarol, a chwithau nid ydych yn credu, pa fodd y credech pe dywedwn i chwi bethau nefol?

13 Ac ni eſcynnodd neb i'r nêf, oddi eithr yr hwn a ddeſcynnodd o'r nef, [ſef] Mab y dŷn yr hwn ſydd yn y nef.

14 Ac *megis y derchafodd Moſes y ſarph yn y diffaethwch, felly y bydd rhaid derchafu Mâb y dŷn,

Num.21.9.

15 Fel na choller pwy bynnac a gredo yndo ef, onid caffael o honaw fywyd tragywyddol. ☜

*Yr Efengyl ddydd llun y Sulgwyn.*

1.Ioan.4.9.

☞ 16 Canys *felly y carodd Duw y bŷd, fel y rhoddodd efe ei uni-genedic fab, fel na choller nêb a'r y ſydd yn credu yndo ef, eithr caffael o honaw ef fywyd tragywyddol.

Pen.9.39. & 12.47.

17 O blegit *ni ddanfonodd Duw ei fab i'r bŷd i farnu yr bŷd, ond i iachau yr bŷd trwyddo ef.

18 Nid ydys yn barnu yr hwn a grêdo yndo ef, ond yr hwn nid yw yn credu a farnwyd euſus, am na chredodd yn enw uni-genedic fab Duw.

19 A hyn yw'r farnedigaeth, dyfod goleuni i'r bŷd, a charu o ddynion dywyllwch yn fwy na'r goleuni, o herwydd bod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

20 [illegible] a'r ſydd yn gwneuthur drwg [illegible] y goleuni, ac ni ddaw i'r goleuni, rhac argyoeddi ei weithredoedd.

22 Ond

21 Ond yr hwn ſydd yn gwneuthur gwirionedd a ddaw i'r goleuni, y fel yr eglurheuir ei weithredoedd ef, mai yn Duw y gwnaed hwynt.

22 Wedi hyn y daeth yr Ieſu a'i ddiſcyblion i wlad Iudæa, ac yno yr arhoſodd efe gyd a hwynt,* ac y bedyddiodd. Pen.4.1.

23 Ac yr oedd Ioan hefyd yn bedyddio yn Ainon ger llaw Salim, canys dyfroedd lawer oeddynt yno: a hwynt a ddaethant, ac fe a'u bedyddiwyd.

24 Canys ni fwriaſid Ioan etto yng-harchar.

25 Yna y bu ymofyn rhwng diſcyblion Ioan a'r Iddewon yng-hylch puredigaeth.

26 A hwy a ddaethant at Ioan, ac a ddywedaſant wrtho ef, Rabbi, yr hwn oedd gyd â thi y tu hwnt i'r Iorddonen, am yr hwn y teſtiolaethaiſt: wele y mae efe yn bedyddio, a phawb ſy yn dyfod atto ef.

27 Ioan a attebodd, ac a ddywedodd, ni ddichon dŷn dderbyn dim, oni roddir iddo ef o'r nefoedd.

28 Chwy-chwi eich hunain ydych ſy nhyſtion i, ddywedyd o honof,* nid myfi yw Criſt, eithr fy mod wedi fy anfon o'i flaen ef. Pen.1.20.

29 Yr hwn y mae iddo briod-ferch yw 'r priod-fab: ond cyfaill y priod-fab yr hwn ſydd yn ſefyll, ac yn ei glywed ef, ſydd yn llawenychu yn ddirfawr o blegit llef y priod-fab: fy llawenydd hwn mau ſi gan hynny a gyflawnwyd.

30 Rhaid ydyw iddo ef gynnyddu, ac i minne leihau.

31 Yr hwn a ddaeth oddi uchod ſydd goruwch pawb oll, yr hwn ſydd o'r ddaiar, ſydd o'r ddaiar, ac am ddaiar y mae yn ymadrodd: yr hwn a ddaeth o'r nef ſydd goruwch pawb.

32 A'r hyn a welodd efe, ac a glywodd, hynny y mae efe yn ei deſtiolaethu: ond nid yw neb yn derbyn ei deſtiolaeth ef.

33 Yr hwn a dderbynniodd ei deſtiolaeth ef a ſeliodd * fod Duw yn gywir. Rhuf.3.4.

34 Canys yr hwn a anfonodd Duw ſydd yn llefaru geiriau Duw: o blegit nid wrth feſur y mae Duw yn rhoddi [iddo ef] yr Yſpryd.

35 Y mae y Tâd yn caru y Mâb, * ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef. Math.11.27.

36 * Yr hwn ſydd yn credu yn y Mâb, y mae iddo fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd yn anghredu 'r Mâb ni wêl efe y bywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. Abacuc.2.4. Ioh.5.10.

## P E N. IIII.

3 Ymddiddan Criſt a'r wraig o Samaria, 34 Ei fawr ſerch ef ar ei Dâd a'i gynhaiaf, 39 troad y Samariaid, 45 A'r Galilæaid i'ffydd, 47 Efe yn iachâu mab y llywiawdur.

A Phan wybu 'r Arglwydd glywed o'r Phariſæaid ddarfod i'r Ieſu wneuthur a bedyddio mwy o ddiſcyblion nag Ioan,

2 (Er na fedyddiaſe efe ei hun: eithr ei ddiſcyblion)

3 Efe a adawodd Iuda, ac a aeth eil-waith i Galilæa.

4 Ac yr oedd yn rhaid iddo ef fyned trwy Samaria.

5 Yna efe a ddaeth i ddinas yn Samaria a elwid Sichar, ger llaw y rhan-dir * yr hon a roddaſe Iacob i w fâb Ioſeph. Gen.33.19.& 48.22. Ioſua 24.32.

6 Ac yno yr oedd ffynnon Iacob, yna 'r Ieſu yn ddeffygiol gan y daith a eiſteddodd felly ar y ffynnon yng-hylch y chweched awr ydoedd hi.

7 Daeth gwraig o Samaria i dynnu dwfr, a'r Ieſu a ddywedodd wrthi hi, dyro i mi ddiod,

8 Canys ei ddiſcyblion ef a aethent i'r ddinas i brynu bwyd.

9 Yna 'r wraig o Samaria a ddywedodd wrtho ef, pa fodd gan dy fod ti yn Iddew y gofynni di ddiod i mi yr hon ydwyf wraig o Samaria? o blegit nid yw yr Iddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid.

10 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthi, pes adwaenit ti ddawn Duw, a phwy yw yr hwn ſydd yn dywedyd wrthit, dyro i mi ddiod, ti a ofynnaſit iddo ef, ac efe a roddaſe iti ddwfr bywiol.

11 Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, nid oes gennit ti ddim i godi dwfr, a'r pydew ſydd ddwfn: o ba lê gan hynny y mae gennit ti ddwfr bywiol?

12 A'i mwy ydwyt ti na'n tâd Iacob, yr hwn a roddodd i ni y pydew, ac efe ei hun a yfodd o honaw, a'i feibion, a'i anifeiliaid?

13 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthi hi, pwy bynnac a yfo o'r dwfr hwn a ſycheda trachefn:

14 Ond pwy bynnac a yfo o'r dwfr yr hwn a roddwyf iddo, ni ſycheda yn dragywydd, eithr y dwfr yr hwn a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol.

15 Y wraig a ddywedodd wrtho, Arglwydd, moes i mi y dwfr hwnnw, fel na ſychedwyf, ac na ddelwyf ymma i dynnu [dwfr.]

16 Ieſu a ddywedodd wrthi hi, dos, galw dy wr, a thyret ymma.

17 Y wraig a attebodd, ac a ddywedodd, nid oes i mi ŵr. Ieſu a ddywedodd wrthi hi, dâ y dywedaiſt, nid oes gennif ŵr.

18 Canys bu i ti bump o wŷr, ac yn awr yr hwn ſydd eiddot ti, nid yw ŵr i ti: hyn a ddywedaiſt yn wir.

19 Y wraig a ddywedodd wrtho ef, Arglwydd, myfi a welaf mai prophwyd ydwyt ti.

20 Ein tadau a addolaſant yn y mynydd hwn, ac meddwch chwichau * yn Ieruſalem y mae 'r lle y dyler addoli. Deut.12.6.

21 Ieſu a ddywedodd wrthi hi, ô wraig, creda fi, fod yr awr yn dyfod, pryd nac addoloch y Tad yn y mynydd hwn, nac yn Ieruſalem.

22 Chwychwi ydych yn addoli * y peth ni wyddoch, ninnau ydym yn addoli y peth a wyddom, canys iechydwriaeth ſydd o'r Iddewon. 2.Bren.17.29.

23 Ond dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addol-wyr y Tâd mewn yſpryd, a gwirionedd: canys y Tad a fynn y cyfryw rai iw addoli ef.

2.Cor.3.17. 24 * Duw ſydd Yſpryd, a'r ſawl a'i haddolant ef, rhaid yw iddynt ei addoli ef mewn yſpryd, a gwirionedd.

25 Y wraig a ddywedodd wrtho ef, mi a wn y daw Meſſias yr hwn a elwir Criſt, pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni bob peth.

26 Jeſu a ddywedodd wrthi hi, myfi ydwyf [hwnnw] yr hwn ſydd yn ymddiddan â thi.

27 Ac ar hynny ei ddiſcyblion ef a ddaethant, ac a ryfeddaſant ei fod ef yn ymddiddan â gwraig: er hynny ni ddywedodd neb, beth a geiſi, neu pa ham yr ydwyt yn ymddiddan â hi?

28 Yna'r wraig a adawodd ei dwfr-leſtr, ac a aeth i'r ddinas, ac a ddywedodd wrth y dynion hynny,

29 Deuwch, gwelwch ddyn yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a'r a wneuthym, onid efe yw Criſt?

30 Yna hwynt a aethant o'r ddinas, ac a ddaethant atto ef.

31 Yn y cyfamſer, ei ddiſcyblion ef a attolygaſant iddo ef gan ddywedyd, Rabbi, bwyta.

32 Ac efe a ddywedodd wrthynt, y mae genifi fwyd iw fwyta, yr hwn ni wyddoch oddi wrtho.

33 Yna y diſcyblion a ddywedaſant wrth ei gilydd, a ddug neb fwyd iddo ef?

34 Jeſu a ddywedodd wrthynt, fy mwyd i iw gwneuthur o honofi ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef.

35 Onid ydych chwi yn dywedyd, y mae etto bedwar-mis, ac [yna] y daw'r cynhaiaf? wele yr ydwyfi yn dywedyd wrthych, derchefwch eich llygaid, a gwêlwch y gwledydd, * canys gwynnion ydynt euſus i'r cynhaiaf. Math.9.37. Luc.10.2.

36 A'r hwn a fedo a dderbyn gyflog, ac a gaſcl ffrwyth i fywyd tragywyddol, fel y cydlawenycho yr hwn a hauo, a'r hwn a fedo.

37 Canys yn hyn y mae'r gair yn wîr, mai un a haua, ac arall a feda.

38 Myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriaſoch: eraill a lafuriaſant, a chwithau a aethoch i mewn iw llafur hwynt.

39 Yna llawer o'r Samariaid, o'r ddinas honno a gredaſant ynddo ef, o herwydd gair y wraig yr hon oedd yn teſtiolaethu, efe a ddywedodd i mi'r hyn oll a'r a wneuthym.

40 A phan ddaeth y Samariaid atto ef, hwynt a attolygaſant iddo ef aros gyd â hwy: ac efe a arhoſodd yno ddeu-ddydd.

41 A mwy o lawer a gredaſant ynddo ef, o blegit ei air ei hun.

42 A hwy a ddywedaſant wrth y wraig, nid ydym ni weithian yn credu o blegit dy ymadrodd di, canys nyni a'i clywſom ef ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddiau yw Criſt Jachawdur y byd.

43 Felly ym mhen y ddeu-ddydd efe a aeth ymmaith oddi yno, ac a aeth i Galilæa.

44 Canys Jeſu ei hun * a deſtiolaethaſe, na chae prophwyd anrhydedd yn ei wlad ei hun. Math.13.57. Marc.6.4. Luc.4.24.

45 A phan ddaeth efe i Galilæa, y Galilæaid y rhai a welſent yr hyn oll a'r a wnaethe efe yn Jeruſalem ar yr wŷl a'i derbyniaſant ef, canys hwynt hwy a ddaethent i'r wŷl.

46 ☞ A'r Jeſu a ddaeth trachefn i * Cana Galilæa lle y gwnaethe efe y dwfr yn wîn: ac yr oedd rhyw bendefig, ac iddo fab yn glaf yn Capernaum. *Yr Efengyl y xxi. Sul ar ôl y Drindod.* Pen.2.1.

47 Pan glybu efe ddyfod Jeſu o Judæa yn Galilæa, efe a aeth atto ef, ac a attolygodd iddo ddyfod i wared, ac iachau ei fab ef: canys yr oedd efe ym mron marw.

48 Yna Jeſu a ddywedodd wrtho ef, oni welwch chwi arwyddion, a rhyfeddodau ni chredwch.

49 Y pendefig a ddywedodd wrtho ef, ô Arglwydd, tyret ti i wared cyn marw fy machgen.

50 Jeſu a ddywedodd wrtho ef, dos ymmaith, y mae dy fab yn fyw, a'r dyn a gredodd y gair yr hwn a ddywedaſe Jeſu wrtho ef, ac efe a aeth ymmaith.

51 Ac yn awr pan oedd efe yn myned i wared, ei weiſion ef a gyfarfuant ag ef, ac a fynegaſant gan ddywedyd: y mae dy fachgen yn fyw.

52 Yna efe a ofynnodd iddynt yr awr y gwellhaeſe arno: a hwy a ddywedaſant wrtho, mai doe y ſeithfed awr y gadawodd y cryd ef.

53 Yna y gwybu'r tad, mai yr awr honno oedd hi yn yr hon y dywedaſe Jeſu wrtho ef: y mae dy fab di'n fyw, ac efe a gredodd a'i holl dŷ.

54 Dymma'r ail arwydd yr hwn a wnaeth Jeſu trachefn, wedi iddo ef ddyfod o Judæa i Galilæa. ☜

## PEN. V.

8 Ieſu yn iachau y dyn a fuaſe glaf amyn dwy flynedd
deugain, 10 yr Iddewon yn ei gyhuddo ef, 19
Criſt yn atteb troſto ei hun, ac yn eu hargyoeddu
hwy, 32 yn dangos drwy deſtiolaeth ei Dad, 33
ac Ioan, 36 a'i weithredoedd ei hun, 39 a'r
Scruthyr lân, pwy yw efe.

VVEdi hyn * yr oedd gŵyl yr Iddewon, ac Jeſu a aeth i fynu i Jeruſalem. Lefit.23.3. Deut.16.1.

2 Ac y mae yn Jeruſalem wrth * [borth] y defaid lynn a elwir yn Hebræ-aec Bethesda, ac iddo bum porth. Nehem.3.1.& 32.& 12.39.

3 Yn y rhai hyn yr oedd lliaws mawr o gleifion, o ddeillion, o gloffion, a gwywedigion yn gorwedd, [ac] yn diſgwil am gynhyrfiad y dwfr.

4 Canys angel a ddeſcynne ar amſerau i'r llyn, a'r dwfr a gynhyrfe: yna pwy bynnac yn gyntaf ar ôl cynhyrfiad y dwfr a ddeſcynne i mewn, a iachaid o ba ryw glefyd bynnac a fydde arno.

5 Ac yr oedd yno ryw ddyn yr hwn a fuaſe yn glaf am yn dwy deugain o flynyddoedd.

6 Pan welodd yr Jeſu ef yn gorwedd, a gwybod gael o honaw ef lawer o amſer bellach,

efe a ddywedodd wrtho, a fynni di dy wneuthur yn iach?

7 A'r claf a attebodd iddo, Arglwydd, nid oes gennif neb pan gynhyrfer y dwfr a'm bwrio fi i'r llynn: onid tra fyddwyf yn dyfod, arall a ddeſcyn o'm blaen.

8 Ieſu a ddywedodd wrtho ef, cyfot, cyfot dy wely, a rhodia.

9 Ac yn ebrwydd y gwnaed y dŷn yn iach, ac efe a gododd ei wely, ac a rodiodd, a'r Sabboth oedd y diwrnod hwnnw.

10 Am hynny 'r Iddewon a ddywedaſant wrth yr hwn a wnaethyd yn iach, [dydd] Sabboth yw hi,* ni ddylit ti godi dy wely.

11 Efe a attebodd iddynt, yr hwn a'm hiachâodd fi, efe a ddywedodd wrthif: cyfot dy wely, a rhodia.

12 Yna hwynt a ofynnaſant iddo ef, pwy ydyw'r dŷn yr hwn a ddywedodd wrthit ti cyfot dy wely, a rhodia?

13 A'r hwn a iachauſid ni ŵydde pwy oedd efe: canys yr Ieſu a giliaſe o'r dyrfa yr hon oedd yn y fann [honno.]

14 Wedi hynny Ieſu a'i cafodd ef yn y Deml, ac a ddywedodd wrtho, wele ti a iachauwyd: na phecha mwyach rhac digwyddo peth a fyddo gwaeth i ti.

15 Y dŷn a áeth ymmaith, ac a fynegodd i'r Iddewon, mai Ieſu oedd efe yr hwn a'i gwnaethe ef yn iach.

16 Am hynny 'r Iddewon a erlidiaſant Ieſu, ac a geiſiaſant ei ladd ef, o blegit iddo ef wneuthur hyn ar y Sabboth.

17 Ond Ieſu ai hattebodd hwynt, y mae fy Nhâd yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finne yn gweithio.

18 O herwydd hynny'r Iddewon a geiſiaſant yn fwy ei ladd ef, nid yn vnic o blegit iddo ef dorri'r Sabboth, ond am iddo ef ddywedyd mai Duw oedd ei Dâd, gan ei wneuthur ei hun yn gyſtal â Duw.

19 Yna Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, yn wîr, yn wîr meddaf i chwi, ni ddichon y Mab wneuthur dim o honaw ei hunan, eithr yr hyn a welo efe y Tâd yn ei wneuthur, canys beth bynnac y mae efe yn ei wneuthur hynny y mae y Mab hefyd yn ei wneuthur.

20 Canys y Tâd ſydd yn caru y Mâb, ac yn dangos iddo'r hyn oll y mae efe yn ei wneuthur, ac efe a ddengis iddo ef weithredoedd mwy nâ'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi.

21 O blegit megis y mae y Tâd yn cyfodi y rhai meirw, ac yn bywhâu: felly y mae'r Mâb hefyd yn bywhau y neb a fynno.

22 Canys y Tâd nid yw yn barnu neb: eithr efe a roddes bob barn i'r Mab.

23 Fel yr anrhydedde pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tâd, yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad, yr hwn a'i hanfonodd ef.

24 Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi, y neb ſydd yn gwrando fyng-air, ac yn crêdu i'r hwn a'm hanfonodd i a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

25 Yn wir, yn wîr meddaf i chwi, yr awr a ddaw ac y mae hi euſus pan glywo y meirw lef Mab Duw, a'r rhai a glywant a fyddant byw.

26 Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mâb hefyd, fod ganddo fywyd ynddo ei hun.

27 Ac efe a roddes iddo efallu i wneuthur barn, o herwydd ei fod efe yn Fab dŷn,

28 Na ryfeddwch er hyn, canys yr awr a ddaw yn yr hon y caiff pawb oll a'r a ydynt yn y beddau glywed ei lefef.

29 A'r rhai a wnaethant ddaioni a ddeuant allan i adgyfodiad y bywyd: ond y rhai a wnaethant ddrygioni i adgyfodiad barn. Math.25.41.

30 Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan, fel y clywyf y barnaf, a'm barn ſydd gyfiawn: canys nid ydwyf yn ceiſio fy ewyllys fy hunan, onid ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

31 Os myfi a deſtiolaethwn am danaf fy hunan, ni bydde fy nheſtiolaeth i yn wîr.

32 Arall ſydd yn teſtiolaethu o honofi, ac mi a wn mai gwir yw y deſtiolaeth yr hon y mae efe yn ei deſtiolaethu o honofi.

33 Chwy chwi * a anfonaſoch at Ioan, ac efe a deſtiolaethodd o'r gwirionedd. Pen.1.27.

34 Ond nid ydwyfi yn derbyn teſtiolaeth oddi wrth ddŷn: eithr dywedyd yr ydwyf y pethau hyn, fel i'ch gwaredid chwi.

35 Efe oedd gannwyll yn lloſci, ac yn goleuo: ac ennyd awr y mynnech chwi lawenychu yn ei oleuni ef.

36 Ond y mae gennifi deſtiolaeth fwy nag Ioan: canys y gweithredoedd y rhai a roddes y Tâd i mi iw gorphen, y gweithredoedd hynny y rhai'r ydwyfi yn eu gwneuthur ſy 'n teſtiolaethu o honofi, mai'r Tâd a'm hanfonodd i.

37 A'r Tâd yr hwn a'm hanfonodd i, efe a deſtiolaethodd am danafi: ond ni wrandawſoch chwi ar ei lais ef vn amſer, ac * ni welſoch ei wedd ef. Math.3.17. & 17.5.

38 Ac nid oes gennych chwi mo'i air ef yn aros ynoch: canys nid ydych chwi yn credu yn yr hwn a anfonodd efe.

39 *Chwiliwch yr ſcrythyrau, canys yr ydych chwi yn tybied gael ynddynt fywyd tragywyddol, a hwynt hwy ydynt yn teſtiolaethu o honofi. Act.17.11.

40 Ond ni fynnwch chwi ddyfod attafi, fel y caffech chwi fywyd.

41 Nid ydwyfi yn derbyn gogoniant oddi wrth ddynion.

42 Ond myfi a'ch adwen chwi, nad oes gariad Duw ynoch.

43 Myfi a ddaethym yn enw fy Nhâd, ac ni dderbynniaſoch chwi mo honof: os daw arall yn ei enw ei hun, ef a dderbyniwch chwi.

44 Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan ei gilydd, ac heb geiſio y gogoniant yr hwn ſydd oddi wrth Dduw yn vnic?

45 Na thybiwch y cyhuddaf i chwi wrth y Tâd: y mae a'ch cyhudda chwi, [ſef] Moſes: yn yr hwn yr ydych yn gobeithio.

46 Canys pe chredaſech chwi i Moſes, chwi a gredaſech i minne: o blegit am danaf i yr ſcrifennodd efe.

47 Ond os chwi ni chredwch iw ſcrifennadau ef, pa fodd y credwch i'm geiriau mau fi?

## PEN. VI.

10 Ieſu yn porthi pum mîl o ddynion â phum torth, ac â dau byſcodyn. 15 Efe yn myned ymmaith, rhag iddynt ei wneuthur ef yn frenyn. 26 Efe yn argyoeddi cnawdol wrandawyr ei air ef. 41 Bod y rhai cnawdol yn ymrwyſtro wrtho ef. 63 Nad yw y cnawd yn leſſau dim.

WEdi y pethau hyn yr aeth Ieſu tros fôr Galilæa [hwnnw yw] Tiberias.

2 A thyrfa fawr a'i canlynodd ef, o blegit hwynt a welſent ei arwyddion y rhai a wnaethe efe ar y cleifion.

3 Yna Ieſu a aeth i fynu i'r mynydd, ac efe a eiſteddodd yno gyd â'i ddyſcyblion.

Lefit.23.5.
Deut.16.1.

4 A'r Paſc, gŵyl yr Iddewō, oedd yn agos.

*Yr Efengyl y xxv. Sul ar ol y Drindod.*
Math.14.16.
Marc.6.37.
Luc.9.13.

☞ 5 Yna Ieſu * a dderchafodd [ei] lygaid, ac a ganfu fod tyrfa fawr yn dyfod atto ef, efe a ddywedodd wrth Philip, o ba lê y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta?

6 (Ac efe a ddywedaſe hyn iw brofi ef, canys efe a ŵydded beth a wnai efe)

7 Philip ai hattebodd ef, gwerth dau cant ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob vn o honynt gymmeryd ychydig.

8 Yna vn oi ddiſcyblion a ddywedodd wrtho ef, Andreas brawd Simon Petr,

9 Y mae yma ryw fachgennyn, yr hwn ſydd ganddo bump torth o haidd, a dau byſcodyn: ond beth yw hyn rhwng cynnifer?

10 A'r Ieſu a ddywedodd, perwch i'r dynion eiſtedd i lawer: (ac yr oedd glaſ-wellt lawer yn y fann honno) yna'r gwŷr a eiſteddaſant i lawr yng-hylch pum mil o nifer.

11 Yna'r Ieſu a gymmerth y bara ac a ddiolchodd, [ac] ai rhannodd i'r diſcybliō, a'r diſcyblion i'r rhai oeddynt yn eiſtedd: felly hefyd o'r pyſcod cymmaint ac a fynnent.

12 Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddiſcyblion, ceſclwch y briw-fwyd yr hwn ſydd yng-weddill, fel na choller dim.

13 Yna hwynt ai caſclaſant, ac a lawnaſant ddeuddec baſced o'r briw-fwyd o'r pump torth haidd, y rhai a weddillaſid gan y ſawl a fwytawſent.

14 Yna y dynion pan welſant hwy yr arwydd a wnaethe'r Ieſu a ddywedaſant, diau mai hwn yw'r prophwyd yr hwn oedd ar ddyfod i'r bŷd. ☜

15 Pan ŵybu'r Ieſu eu bod hwy ar fedr dyfod, ai gymmeryd ef, fel y gwnaent ef yn frenin, efe a giliodd eil-waith i'r mynydd ei hunan.

16 A phan hwyrhaodd hi, ei ddiſcyblion ef a aethant i waered at y môr,

Math.14.25.
Marc.6.47.

17 Ac a * aethant i fynu i long, [ac] a ddaethant tros y môr i Capernaum: ac yn awr yr oedd hi wedi tywyllu, ac ni ddaethe'r Ieſu attynt hwy.

18 A'r môr gan wynt mawr yn chwythu a ymgododd.

19 Wedi iddynt rwyfo yng-hylch pump ar hugain, neu ddêc ar hugain o ſtadiau, hwynt a welſant yr Ieſu yn rhodio ar y môr, ac yn neſſau at y llong, yna hwynt a ofnaſant.

20 Ond efe a ddywedodd wrthynt, myfi ydwyf, nac ofnwch.

21 Yna hwynt a fynnent ei dderbyn ef i'r llong, ac yn ebrwydd yr oedd y llong wrth y tîr i'r hwn yr oeddynt yn myned.

22 Trannoeth y dyrfa yr hon oedd yn ſefyll ar y tu hwnt i'r môr a welodd nad oedd yno long, onid yr vn honno i'r hon yr aethe ei ddiſcyblion ef, ac nad aethe'r Ieſu gyd a'i ddiſcyblion i'r llong, eithr darfod iw ddiſcyblion ef fyned eu hunain.

23 Eithr llongau eraill a ddaethent troſodd o Tiberias yn gyfagos i'r fann lle y bwytawſent hwy fara, wedi i'r Arglwydd roddi diolch.

24 A phā welodd y dyrfa nad oedd Ieſu yno, nai ddiſcyblion, hwy a gymmeraſant longau, ac a ddaethant i Capernaum, dann geiſio'r Ieſu.

25 Pan gawſant hwy ef ar tu hwnt i'r môr, hwynt a ddywedaſant wrtho ef, Rabbi, pa bryd y daethoſt ti yma?

26 Ieſu a'u hattebodd hwynt, ac a ddywedodd, yn wir, yn wir meddaf i chwi, yr ydych chwi yn fyng-heiſio i, nid o herwydd i chwi wêled y gwrthiau, eithr bwyta o honoch o'r bara, a'ch digoni.

Pen.1.32.
Math.3.17. & 17.5.

27 Na lafuriwch am y bwyd'r hwn a dderfydd, eithr am y bwyd yr hwn a bêru i fywyd tragywyddol, yr hwn a ddyru Mab y dŷn i chwi, canys * hwn a ſeliodd Duw Tad.

28 Yna y dywedaſant wrtho ef, pa beth a wnawn ni, fel y gallom wneuthur gweithredoedd Duw?

29 Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt, dyma waith Duw, ſef credu o honoch chwi yn yr hwn a anfonodd efe.

30 Am hynny hwynt a ddywedaſant wrtho ef, pa arwydd yr ydwyt ti yn ei wneuthur, fel y gwelom, ac y credom i ti? pa beth yr wyt ti yn ei weithredu?

1.Ioan.3.24
Exod.16.14
Num.11.7.
Pſal.78.25.
Doeth.16.

31 Ein tadau ni a fwytawſant Manna yn yr anialwch, fel y mae * yn ſcrifennedic: efe a roddodd iddynt fara o'r nefoedd i fwytta.

32 Yna Ieſu a ddywedodd wrthynt, yn wir, yn wir meddaf i chwi, nid Moſes a roddodd i chwi fara o'r nêf, eithr fy Nhad ſydd yn rhoddi i chwi y gwîr fara o'r nêf.

33 Canys bara Duw ydyw, yr hwn ſydd yn dyfod i waered o'r nef, ac yn rhoddi bywyd i'r bŷd.

34 Yna hwynt a ddywedasant wrtho ef, Arglwydd, dyro ddi i ni y bara hwnnw yn oestadol.

35 A'r Ieſu a ddywedodd wrthynt hwy, myfi ydwyf bara y bywyd, yr hwn ſydd yn dyfod attafi ni newyna, a'r hwn ſydd yn credu ynofi ni ſycheda byth.

36 Ond mi a ddywedais wrthych, i chwi fyng-weled i hefyd, ac na chredasach.

37 Yr hyn oll y mae'r Tad yn ei roddi i mi, a ddaw attafi, a'r hwn a ddelo attafi ni fwriaf ymmaith.

38 Canys myfi a ddeſcynnais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, onid ewyllys yr hwn a'm hanfonodd.

39 Dymma ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd, ſef na chollwn ddim o'r hyn oll a roddodd efe i mi, eithr ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf.

40 Ac dymma ewyllys yr hwn a'm hanfonodd fi, ſef cael o bawb a'r y ſydd yn gweled y Mab, ac yn credu yndo ef fywyd tragywyddol: ac myfi ai hadgyfodaf ef yn yn dydd diweddaf.

41 Yr Iddewon a furmuriaſant yna yn ei erbyn ef, o herwydd iddo ef ddywedyd, myfi ydwyf y bara yr hwn a ddaeth i wared o'r nef.

42 Ac hwy a ddywedaſant, ond hwn yw'r Ieſu mab Ioſeph, tad a mam yr hwn a adwaenom ni? pa fodd gan hynny y mae hwn yn dywedyd, o'r nef y deſcynnais?

43 Yna'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt: na furmuriwch wrth ei gilydd.

44 Ni ddichon neb ddyfod attafi, oddieithr i'r Tad yr hwn a'm hanfonodd ei luſco ef: a minne a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.

Eſay.54.13. iere.31.33. 45 Y *mae yn ſcrifennedic yn y prophwydi, a phawb fyddant wedi eu dyſcu gan Dduw: pawb gan hynny a'r a glywodd, ac a addyſced gan y Tad ſydd yn dyfod attafi,

Math.11.27. 46 *Nid o herwydd i neb weled y Tad, eithr yr hwn ſydd o Dduw: efe a welodd y Tad.

47 Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi, yr hwn ſydd yn credu ynofi ſydd ganddo fywyd tragywyddol.

48 Myfi ydwyf bara y bywyd.

Exod.16.15. 49 * Eich tadau chwi a fwytawſant y Manna yn yr anialwch, ac a fuant feirw.

50 Hwn yw'r bara yr hwn ſydd yn dyfod i wared o'r nef: os bwytu neb o honaw, ni bydd efe farw.

51 Myfi ydwyf y bara bywiol yr hwn a ddaeth i wared o'r nef: os bwytu neb o'r bara hwn, efe fydd byw yn dragywydd: a'r bara yr hwn a roddafi yw, fyng-hnawd i yr hwn a roddaf tros fywyd y bŷd.

52 Yna'r Iddewon a ymryſonaſant bôb vn â'i gilydd gan ddywedyd: pa fodd y dichon hwn roddi i ni [ei] gnawd iw fwyta?

53 Yna'r Ieſu a ddywedodd wrthynt, yn wîr, yn wîr meddaf i chwi, oni fwytewch gnawd Mab y dŷn, ac [oni] yfwch ei waed ef, ni chewch fywyd ynoch.

54 Yr hwn ſydd yn bwyta fyng-hnawd, ac yn yfed fyng-waed a gaiff fywyd tragywyddol: ac myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf.

55 Canys fyng-hnawd i ſydd fwyd yn ddiau, a'm gwaed i ſydd ddiod yn wir.

56 Yr hwn ſydd yn bwyta fyng-hnawd i, ac yn yfed fyng-waed, ſydd yn aros ynofi, a minne yndo yntef.

57 Fel yr anfonodd y Tad byw fi, felly'r ydwyf inne yn byw drwy'r Tad: a'r hwn a'm bwytu fi, yntef ſydd byw trwofi:

58 Dymma'r bara'r hwn ſydd yn dyfod i wared o'r nefoedd: nid megis y bwytaodd eich tadau chwi Manna, ac y buant feirw, y neb a fwyttu y bara hwn a fydd byw yn dragywydd.

59 Hyn a ddywedodd efe yn y ſynagog wrth ddyſcu yn Capernaum.

60 Yna llawer o'i ddiſcyblion ef y rhai oeddynt yn clywed a ddywedaſant: caled yw'r ymadrodd hyn, pwy a ddichon wrando arno ef?

61 Pan wybu'r Ieſu yndo ei hunan iw ddiſcyblion furmurio o herwydd y peth hyn, efe a ddywedodd wrthynt, a ydyw hyn yn eich rhwyſtro chwi?

62 Beth os gwelwch * Fab y dyn yn derchafu lle yr oedd efe o'r blaen? Ioan.3.13.

63 Yr Yſpryd ſydd yn bywhau, y cnawd nid yw yn lleſſau dim, y geiriau y rhai'r ydwyf fi yn eu llefaru wrthych ydynt yſpryd, a bywyd.

64 Ond y mae rhai o honoch y rhai nid ydynt yn credu, canys Ieſu a wyddyd o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oeddynt yn credu, a phwy [oedd] yr hwn a'i bradychei ef.

65 Ac efe a ddywedodd, am hynny y dywedais wrthych, na ddichon neb ddyfod attafi, oddieithr rhoddi iddo ef [hynny] oddi wrth fy Nhâd.

66 Wedi hyn llawer o'i ddiſcyblion ef a aethant yn eu hôl, ac ni rodiaſant mwyach gyd ag ef.

67 Am hynny'r Ieſu a ddywedodd wrth y deuddec, a fynnwch chwithau hefyd fyned ymmaith?

68 Yna Simon Petr a'i hattebodd ef, ô Arglwydd at bwy'r awn ni? gennit ti y mae geiriau bywyd tragywyddol.

69 Ac yr ydym ni yn credu,* ac yn gwybod mai tydi ydwyt Criſt Mab y Duw byw. Mat.16.16.

70 Ieſu a'u hattebodd hwynt, onid chwychwi y deuddec a ddewiſais, ac o honoch chwi y mae vn yn ddiafol?

71 Ac efe a ddywedaſe am Iudas Iſcariot [mab] Simon: canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef, er ei fod efe yn vn o'r deuddec.

## PEN VII.

6 Ieſu yn argyoeddu ymgymmeriad ei geraint. 12 Amryw dyb am Griſt ym mhlith y bobl. 17 Efe yn dangos pa ddelw'r adweinir y gwirionedd. 20 Y camwedd a wnaent ag ef. 47 Y Phariſæaid yn ceryddu y ſwyddogion am na ddalient ef, 52 Ac yn rhoddi ſenn i Nicodemus am ddadleu gyd ag ef.

AC ar ôl y pethau hyn, Ieſu a rodiodd i Galilæa, canys ni fynne efe orymddaith yn

Iudæa: o blegit yr Iddewon a geiſient ei ladd ef.

Lefit.23.34. 2 A gŵyl yr Iddewon [ſef] gŵyl y *pebyll oedd yn agos.

3 Am hynny ei frodyr ef a ddywedâſant wrtho, cerdda ymmaith oddi yma, a dos di i Iudæa, fel y gwelo dy ddiſcyblion dy weithredoedd di y rhai yr ydwyt yn eu gwneuthur.

4 Gan nad oes neb a wnâ ddim yn y dirgel, ac yntef yn ceiſio bod yn enwoc: od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn eglura dy hun i'r byd.

5 Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.

6 Yna'r Ieſu a ddywedodd wrthynt hwy, ni ddaeth fy amſer i etto: ond eich amſer chwi ſydd yn waſtat yn barod.

7 Ni ddichon y byd eich caſâu chwi, ond efe a'm caſâ i: o herwydd fy mod i yn teſtiolaethu am dano, am fod ei weithredoedd ef yn ddrwg.

8 Ewch chwi i fynu i'r ŵyl hon, nid âfi i fyny etto i'r ŵyl hon: o blegit ni *chyflawnwyd fy amſer i etto. Ioan,8,20.

9 Pan ddywedodd efe y pethau hyn wrthynt hwy, efe a arhoſodd yn Galilæa.

10 A chyn-gynted, ac yr aeth ei frodyr ef i fynu, yna yntef a aeth i fynu i'r ŵyl, nid yn oleu, ond megis yn ddirgel.

11 Yna'r Iddewon a'i ceiſiâſant ef yn yr ŵyl, ac a ddywedâſant, pa le y mae efe?

12 A murmur mawr oedd a'm dano ef ym myſc y dyrfa: rhai a ddywedent mai gŵr da oedd efe, eraill a ddywedent, nâdê, eithr y mae efe yn twyllo'r bobl.

13 Er hynny ni lefarodd neb yn eglur am dano ef rhag ofn yr Iddewon.

14 Ac yn awr pan ddarfu hanner yr ŵyl, Ieſu a aeth i fynu i'r Deml, ac a ddyſcodd [y bobl].

15 A'r Iddewon a ryfeddâſant gan ddywedyd: pa fodd y gŵyr hwn yr Scrythurau, [ac yntef er ioed] heb ddyſcu?

16 Gan hynny'r Ieſu a'u hattebodd hwynt, ac a ddywedodd: fy nyſceidiaeth nid yw eiddo mau fi, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd fi.

17 Os ewyllyſia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddyſceidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun ſydd yn llefaru.

18 Y mae yr hwn ſydd yn llefaru o honaw ei hun yn ceiſio ei ogoniant ei hun, ond yr hwn ſydd yn ceiſio gogoniant yr hwn a'i hanfonodd, hwnnw ſydd gywir, ac anghyfiawnder nid oes ynddo ef.

Exod.24.3. 19 Oni roddes *Moſes i chwi gyfraith, ac nid oes neb o honoch yn gwneuthur y gyfraith, a phaham yr ydych yn ceiſio fy lladd i?

20 Y bobl a attebodd, ac a ddywedodd, y mae gennit ti gythrael: pwy ſydd yn ceiſio dy ladd di?

21 Yr Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt hwy, un weithred a wneuthym i, ac y mae yn rhyfedd gennych oll.

22 Moſes am hynny a roddes i chwi *enwaediad, (nid o herwydd ei fod o Moſes eithr o'r *tadau,) ac yr ydych chwi yn enwaedu ar ddyn ar y Sabboth. Lefit.12.3. gen.17.10.

23 Os yw dyn yn derbyn enwaediad ar y Sabboth heb dorri y Sabboth, a ydych chwi yn llidiog wrthifi am wneuthur dyn ei gyd yn iach ar y Sabboth?

24 Na *fernwch wrth y golwg, eithr bernwch farn gyfiawn. Deut.1.16.

25 Yna y dywedodd rhai o'r Ieruſalomitaniaid: onid hwn yw yr hwn y maen hwy yn ceiſio ei ladd?

26 Ac wele y mae yn llefaru ar gyhoedd, ac nid ydynt yn dywedyd dim wrtho ef: a wybu y pennaethiaid mewn gwirionedd mai hwn ſydd Griſt yn wir?

27 Eithr nyni a wyddom o ba le y mae hwn, a phan ddel Criſt ni ŵyr neb o ba le y mae.

28 Am hynny yr Ieſu yn athrawiaethu yn y deml a lefodd, ac a ddywedodd, chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf, ac ni ddaethym i o honof fy hun, eithr y mae yn gywir yr hwn am hanfonodd i, yr hwn nid adwaenoch chwi.

29 Ond myfi a'i hadwen: o blegit o honaw ef yr ydwyf, ac efe am hanfonodd i.

30 Am hynny hwynt hwy a geiſiaſant ei ddal, ond ni oſododd neb law arno ef, am na ddaethe ei awr ef etto.

31 A llawer o'r bobl a gredaſant ynddo ef, ac a ddywedâſant: pan ddelo Chriſt a wna efe fwy o arwyddion nâ'r rhai hyn y rhai a wnaeth hwn?

32 Y Phariſæaid a glywſant y bobl yn grwgnach hyn am dano ef, a'r Phariſæaid a'r arch-offeiriaid a anfonaſant ſwyddogion iw ddal ef.

33 Am hynny y dywedodd yr Ieſu wrthynt hwy, yr wyfi ychydig o amſer gyd â chwi, yna yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd.

34 Chwi *a'm ceiſiwch, ac ni'm cewch, ac lle yr ydwyfi ni ellwch chwi ddyfod. Ioan.13.33.

35 Am hynny y dywedodd yr Iddewon yn eu myſc eu hun: i ba le yr aiff hwn fel na chaffom ni ef? a aiff efe at y rhai a waſcarwyd ym myſc y Groegiaid, ac a ddyſc efe y Groegiaid?

36 Pa ymadrodd yw hwn a ddywedodd efe? chwi a'm ceiſiwch, ac ni'm cewch, ac lle yr ydwyfi ni ellwch chwi ddyfod.

37 Ac ar y *dydd mawr diwethaf o'r ŵyl yr Ieſu a ſafodd, ac a lefodd gan ddywedyd, od oes ar neb ſyched, deued attafi, ac yfed. Lefit.23.36.

38 Yr hwn ſydd yn credu ynofi (megis y dywedodd yr ſcrythyr) afonydd o ddwfr bywiol a ddiliſant o'i groth ef.

39 (A hyn a ddywedodd efe am yr *Yſpryd, Iocl.2.28. act.2.17.

yr hwn a gaeu y rhai a gredent yndo ef ei dderbyn: canys etto ni buase yr Yspryd glan, am na ogoneddasid yr Iesu etto.)

40 Am hynny llawer o'r bobl wedi clywed yr ymadrodd [hwn] a ddywedasant, yn wir

Deut.18.15. hwn yw yr *prophwyd.

41 Eraill a ddywedasant, hwn yw Crist, ac eraill a ddywedasant, ai o'r Galilaea y daw Crist?

Mich.5.2. math.2.5. 42 Ond ydyw yr *scrythyr yn dywedyd, mai o hâd Dafydd, ac o dref Bethlehem lle y bu Dafydd, y daw Crist?

43 Felly yr aeth ymbleidio ym mysc y bobl o'i blegit ef.

44 A rhai o honynt a fynnesent ei ddal ef, ond ni osododd neb ddwylo arno ef.

45 Felly y daeth y swyddogion at yr archoffeiriaid a'r Phariseaid, ac hwynt hwy a ddywedasant wrthynt hwy: pa ham na ddugasoch chwi ef?

46 A'r swyddogion a attebasant, ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.

47 Yna y Phariseaid a attebasant, a hudwyd chwithau?

48 A gredodd neb o'r pennaethiaid yndo ef, neu o'r Phariseaid?

49 Eithr y gwerin hyn y rhai ni wyddant y gyfraith sydd felldigedig.

Ioan.3.2. 50 Nicodemus a ddywedodd wrthynt, (yr hwn a ddaethe at yr Iesu [liw] nos, ac oedd vn o honynt hwy.)

Deut.17.8. &19.15. 51 A ydyw ein *cyfraith ni yn barnu neb oddieithr clywed ganddo ef yn gyntaf, a gwybod beth a wnaeth efe?

52 Hwythau a attebasant, ac a ddywedasant wrtho ef; a ydwyt tithe o Galilaea? chwilia a gwêl na chododd prophwyd o Galilaea.

53 Ac fe aeth pob vn iw dŷ.

## PEN. VIII.

Y wraig a ddaliwyd mewn godineb yn cael barn drugarog gan Grist, yr hwn yw goleuad y byd. 14 O ba le yr oedd Crist, i ba le yr ae efe, a pha destiolaeth a barn oedd iddo ef. 32 Pwy sydd rydd, a phwy sydd gaeth, a pha beth a ddigwydd i bôb vn o'r ddau. 46 puredd a gwybodaeth Crist. 59 Yr hwn hefyd sydd yn cilio rhag niwed corphorol.

A'R Iesu a aeth i fynydd yr Oliwydd:

2 Ac a ddaeth trachefn y borau i'r Deml, a'r holl bobl a ddaethant atto ef: yntef gan eistedd a'u dyscodd hwynt.

3 Yna'r scrifennyddion a'r Phariseaid a ddugasant atto ef wraig yr hon a ddaliasid mewn godineb: ac wedi ei gosod hi yn y canol,

4 Hwynt hwy a ddywedasant wrtho ef: ô Athro, y wraig hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu:

Lefit.20.10. 5 A *Moses yn y gyfraith a orchymynnodd i ni labyddio y cyfryw: beth gan hynny yr wyt ti yn ei ddywedyd?

6 A hyn a ddywedasant hwy gan ei demptio ef, fel y caent hwy [fodd] i'w gyhuddo ef.

7 Ond fel yr oeddynt hwy yn parhau yn gofyn iddo ef, efe gan ymuniawnu a ddywedodd wrthynt hwy, yr hwn sydd *yn ddibechod o honoch chwi tafled y garreg atti hi yn gyntaf. Deut.17.6.

8 Ac efe a ymgrymmodd eilwaith, ac a scrifennodd ar y ddaiar.

9 Hwythau pan glywsant hyn, wedi hefyd eu hargyoeddi gan eu cydwybod, a aethant allan y naill ar ôl y llall, gan ddechreu o'r hynaf hyd yr olaf: a gadawyd yr Iesu yn vnig a'r wraig yn sefyll yn y canol.

10 A phan ymuniawnodd yr Iesu, ac na welodd efe neb, ond y wraig, efe a ddywedodd wrthi hi: mae y rhai a'th gyhuddasant di? oni chondemnodd neb di?

11 Hithe a ddywedodd, neb ô Arglwydd: a dywedodd yr Iesu wrthi hi: nid wyf finne yn dy gondemnio di, dôs ac na phecha mwy rhach.

12 Yna y llefarodd yr Iesu wrthynt trachefn gan ddywedyd, *goleuni y byd ydwyf fi, yr hwn a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr efe a gaiff oleuni y bywyd. Ioan.1.5. &9.5.

13 Am hynny y Phariseaid a ddywedasant wrtho ef, tydi ydwyt yn testiolaethu am danat dy hun, nid gwir yw dy destiolaeth.

14 Yr Iesu a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt hwy, er i mi destiolaethu am danaf fy hun gwir yw fy nhestiolaeth: o blegit mi a wn o ba le y daethym, ac i ba le yr ydwyf yn myned, chwithau ni's gwyddoch o ba le yr wyf yn dyfod, nac i ba le yr wyf yn myned.

15 Yr ydych chwi yn barnu yn ôl y cnawd nid ydwyf fi yn barnu neb.

16 Ac os wyf fi yn barnu, y mae fy marn i yn gywir: o blegit nid wyf fi yn vnic, ond myfi a'r Tad yr hwn a'm hanfonodd i.

17 Y mae hefyd yn scrifennedig yn eich *cyfraith chwi, mai gwir yw testiolaeth dau ddyn. Deut.17.6. &19.15. math.18.16. 2.cor.13.1. heb.10.28.

18 Myfi yw yr hwn sydd yn testiolaethu am danaf, ac y mae y Tad yr hwn a'm hanfonodd i yn testiolaethu am danaf.

19 Am hynny hwynt hwy a ddywedasant wrtho ef: pa le y mae dy Dad? yr Iesu a attebodd nid adwaenoch na myfi, na'm Tâd, ped adwaenech chwi fi, chwi a adwaenech fy Nhad hefyd.

20 Y geiriau hyn a lefarodd yr Iesu yn y tryssor-dŷ wrth athrawiaethu yn y Deml, ac ni ddaliodd neb ef, am na ddaethe ei awr ef etto.

21 Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy trachefn, yr wyf fi yn myned ymmaith, ac chwi am ceisiwch i, ac a fyddwch feirw yn eich pechod: lle yr wyf fi yn myned ni ellwch chwi ddyfod.

22 Am hynny y dywedodd yr Iddewon a ladd efe ef ei hun? gan ei fod yn dywedyd, lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod.

23 Yntef a ddywedodd wrthynt hwy, chwy-

chwi ydych oddi iſod, minne wyf oddi vchod, chwy-chwi ydych o'r byd hwn, minne nid wyf o'r byd hwn.

24 Am hynny y dywedais wrthych, y byddwch chwi feirw yn eich pechodau: o blegit oni chredwch chwi mai myfi ydwyf [efe,] chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.

25 Yna y dywedaſant wrtho ef, pwy wyt ti? a'r Ieſu a ddywedodd wrthynt hwy: yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych o'r dechreuad.

26 Y mae gennyfi lawer i'w dywedyd a'i barnu am danoch chwi, eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i, a'r hyn a glywais inne gandho ef, hynny yr wyfi yn eu mynegu i'r byd.

27 Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy.

28 Am hynny, dywedodd yr Ieſu wrthynt hwy, pan dderchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch chwi wybod mai myfi ydwyf [efe,] ac nad wyfi yn gwneuthur dim o hanof fy hun, ond megis i'm dyſcodd fy Nhad, [felly] yr wyf yn llefaru.

29 Ac y mae yr hwn a'm hanfonodd i gyd â'm fi, ni'm gadawodd y Tad fi yn unic: o blegit yr wyfi yn gwneuthur bob amser yr hyn ſydd foddlon gandho ef.

30 Fel yr oedd efe yn llefaru hyn, llawer a gredaſant ynddo ef.

31 Yna dywedodd yr Ieſu wrth yr Iddewō, y rhai oeddynt yn credu ynddo ef: os arhoſwch chwi yn fyng-air mau fi, chwi a fyddwch yn wir ddyſcyblion i mi:

32 Ac chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi:

33 Hwythau a attebaſant iddo ef, hâd Abraham ydym ni, ac ni waſanaethaſom ni neb er ioed: pa fodd yr wyt ti yn dywedyd, chwi a wneir yn rhyddion?

Rom.6.16.
2.pet.2.19.

34 Yr Ieſu a attebodd iddynt hwy, yn wir, yn wir meddaf i chwi, pwy * bynnag ſydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn wâs i bechod.

35 Ac nid yw y gwâs yn parhau yn tŷ byth, y mab ſydd yn parhau byth.

36 Os y mab gan hynny a'ch rhyddhâ chwi, gwir ryddion fyddwch chwi.

37 Mi a wn mai hâd Abraham ydych chwi, ond yr ydych chwi yn ceiſio fy lladd i am nad yw fyng-air i yn genni ynoch chwi.

38 Yr wyfi yn traethu yr hyn a welais gyd â'm Tad i, ac yr ydych chwithau yn gwneuthur yr hyn a welſoch gyd â'ch tad chwi.

39 Hwythau a attebaſant, ac a ddywedaſant wrtho ef: ein tad ni yw Abraham. Dywedodd yr Ieſu wrthynt hwythau, pe plant Abraham fyddech chwi, gweithredoedd Abraham hefyd a wnaech chwi.

40 Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceiſio fy lladd i, dyn a ddywedais i chwi y gwirionedd yr hwn a glywais i gan fy Nhad: hyn ni wnaeth Abraham.

41 Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi, hwythau a ddywedaſant wrtho ef: nid trwy buttendra y genhedlwyd ni, vn Tad ſydd gennym [ſef] Duw.

42 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt hwy, pe Duw fydde eich Tad, chwi a'm carech i: canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y daethym i: o blegit nid o hanof fy hun y daethym i, ond efe a'm hanfonodd i.

43 Pa ham nad adwaenoch fy lleferydd i? am na ellwch wrando fy ymadrodd i.

1.Ioan.3.8.

44 O'r * tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur: llofrudd oedd efe o'r dechreuad, ac ni ſafodd yn y gwirionedd, o blegit nid oes gwirionedd ynddo ef: pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo hefyd.

45 Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi.

*Yr Efengyl y pummed Sul o'r grawys.*

46 ☞ Pwy o hanoch chwi a'm argyoedda i o bechod, od wyfi yn dywedyd y gwir, pa ham nad ydych chwi yn credu i mi?

1.Ioan.4.6.

47 Y * mae yr hwn ſydd o Dduw yn gwrando geiriau Duw, am hynny nid ydych chwi yn gwrando, am nad ydych o Dduw.

48 Yna'r attebodd yr Iddewon, ac y dywedaſant wrtho ef, ond da yr ydym ni yn dywedyd mai Samaritan wyt ti, a bod gennit gythrael?

49 Yr Ieſu a attebodd, nid oes gennif gythrael, ond yr wyf yn perchi fy Nhad, ac yr ydych chwithau yn fy amherchi inne.

50 Ac nid wyfi yn ceiſio fyng-ogoniant fy hun, y mae a gais, ac a farn.

51 Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, os ceidw neb fy ymadrodd mau fi, ni wel efe farwolaeth byth.

52 Yna y dywedodd yr Iddewon wrtho ef, yr awron y gwybuom fod gennit gythrael: bu Abraham farw a'r prophwydi, ac meddi di, os ceidw neb fy ymadrodd i nid archwaetha efe farwolaeth byth.

53 A'i mwy wyt ti na'n tad Abraham? yr hwn fu farw, a'r prophwydi fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun?

54 Attebodd yr Ieſu, os myfi ſydd yn fyng-ogoneddu fy hun nid yw fyng-ogoniant ddim: fy Nhad yw yr hwn ſydd yn fyng-ogoneddu i, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd mai eich Duw chwi yw efe.

55 Ond nid adnabuoch chwi ef, eithr myfi a'i hadwen ef, ac os dywedaf nad adwen ef, mi a fyddaf fel chwithau yn gelwyddog, ond mi a'i hadwen ef, ac yr wyf yn cadw ei air ef.

56 Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd mau fi, ac efe a welodd, ac a lawenychodd.

57 Yna y dywedodd yr Iddewon wrtho ef, nid wyt ti ddêc a deugain etto, ac a welaiſt ti Abraham?

58 Dywedodd yr Ieſu wrthynt, yn wir yn wir meddaf i chwi, cyn bod Abraham yr wyfi.

59 Yna hwynt hwy a godaſant gerrig iw taflu atto ef, a'r Ieſu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r Deml, [illegible] gan ddyfod trwy eu canol hwynt, ac felly yr aeth efe heibio.

## PEN IX,

Criſt ar y Sabboth yn rhoddi ei olwg i vn a aneſid yn ddall, 13 y Phariſæaid wedi holi hwn a'i rieni yn ei eſcymuno ef allan o'r Synagog, 35 Criſt yn ei dderbyn ef, ac yn ei ddyſcu, 39 gan ddangos peth o'r achos y daeth efe i'r byd.

AC wrth fyned heibio efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth.

2 A'i ddiſcyblion a ofynnaſant iddo ef gan ddywedyd, Rabbi: pwy a bechodd ai hwn, ai ei rieni ef, iw eni ef yn ddall?

3 Yr Ieſu a attebodd, nid hwn a bechodd nai rieni chwaith, ond fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.

4 Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn am hanfonodd tra ydyw hi yn ddydd, y mae y nos yn dyfod pan ni ddichon neb weithio.

Ioan.1.9.

5 Tra yr ydwyfi yn y byd, *goleuni y byd ydwyfi.

6 Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall.

7 Ac efe a ddywedodd wrtho ef, dos ac ymolch yn llyn Siloe, (yr hwn a gyfieithir anfonedig) felly yr aeth efe, ac a ymolchodd, ac a ddaeth yn gweled.

8 Yna y cymydogion, a'r rhai a'i gwelſent ef o'r blaen mai dall oedd efe, a ddywedaſant: onid hwn yw yr hwn oedd yn eiſtedd, ac yn cardotta?

9 Rhai a ddywedaſant, hwn yw [efe,] ac eraill, y mae efe yn debyg iddo ef: yntef a ddywedodd, myfi yw [efe.]

10 Yna y dywedaſant wrtho ef: pa fodd yr agorwyd dy lygaid?

11 Yntef a ddywedodd, dŷn a elwir Ieſu a wnaeth glai, ac a irodd fy llygaid i, ac a ddywedodd wrthyfi: dos i'r llyn Siloe, ac ymolch, ac wedi i mi fyned ac ymolchi, mi a gefais fyngolwg eil-waith.

12 Yna y dywedaſant wrtho ef, pa le y mae efe? dywedodd yntef, ni wn i.

13 Hwynt hwy a'i dugaſant ef at y Phariſæaid yr hwn gynt a fuaſe yn ddall.

14 A Sabboth oedd hi pan wnaethe yr Ieſu y clai, ac agoryd ei lygaid ef.

15 Am hynny y gofynnodd y Phariſæaid iddo ef trachefn, pa fodd y cawſe efe ei olwg eilwaith: yntef a ddywedodd wrthynt hwy, clai a oſododd efe ar fy llygaid, ac mi a ymolchais, ac yr wyfi yn gweled.

16 Yna rhai o'r Phariſæaid a ddywedaſant, nid yw y dŷn hwn o Dduw gan nad yw yn cadw y Sabboth: eraill a ddywedaſant, pa fodd y gall dŷn pechadurus wneuthur y cyfryw arwyddion? ac yr oedd ymbleidio yn eu myſc hwynt.

17 Dywedaſant drachefn wrth y dall: beth yr wyt ti yn ei ddywedyd am dano ef, am agoryd o honaw ef dy lygaid di? yntef a ddywedodd, mai prophwyd yw efe.

18 Am hynny ni chrede yr Iddewon am dano ef ei fod efe yn ddall, a chael o honaw ef ei olwg drachefn, nes galw o honynt ei rieni ef yr hwn a gawſe ei olwg drachefn.

19 Ac hwynt hwy a ofynnaſant iddynt hwy gan ddywedyd, a'i hwn yw eich mab chwi yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd ei eni yn ddall? pa fodd gan hynny y mae efe yn gweled yn awr?

20 Ei rieni ef a attebaſant iddynt hwy, ac a ddywedaſant: nyni a wyddom mai hwn yw ein mab ni, a'i eni ef yn ddall.

21 Ond pa fodd y mae efe yn gweled yr awron, ni's gwyddom ni: neu pwy a agorodd ei lygaid ef ni's gwyddom ni: y mae efe mewn oedran, gofynnwch iddo ef, efe a ddywed am dano ei hun.

22 Hyn a ddywedodd ei rieni ef am eu bod yn ofni yr Iddewon: o blegit yr Iddewon a ordeiniaſent euſys os cyfaddefe neb ef yn Griſt, yr eſcymunid ef allan o'r Synagog.

23 Am hynny y dywedodd ei rieni ef, y mae efe mewn oedran, gofynnwch iddo ef.

24 Am hynny hwynt hwy a alwaſant eilwaith y dŷn yr hwn a fuaſe ddall, ac a ddywedaſant wrtho ef: dod y gogoniant i Dduw, nyni a wyddom mai pechadur yw y dŷn hwn.

25 Yna yntef a attebodd, ac a ddywedodd, ni wn i a ydyw efe bechadur, vn peth a wn i, lle yr oeddwn i yn ddall, yr wyfi yn awr yn gweled.

26 Hwythau a ddywedaſant wrtho ef drachefn, beth a wnaeth efe i ti? pa fodd yr agorodd efe dy lygaid ti?

27 Efe a attebodd iddynt hwy, myfi a ddywedais i chwi euſys, ac ni wrandawſoch: paham yr ydych yn ewyllyſio clywed trachefn? a ydych chwithau yn ewyllyſio myned yn ddiſcyblion iddo ef?

28 Hwythau a'i difenwaſant ef, ac a ddywedaſant, bydd di ddiſcybl iddo ef, diſcyblion Moſes ydym ni.

29 Nyni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moſes, ond ni wyddom ni o ba le y mae hwn.

30 Y dŷn a attebodd, ac a ddywedodd wrthynt hwy: yn hyn y mae rhyfeddod, na wyddoch o ba le y mae efe, ac efe a agorodd fy llygaid i.

31 Ac nyni a wyddom nad yw Duw yn gwrando pechaduriaid, ond os ydyw neb yn dduwiol, ac yn gwneuthur ei ewyllys ef, hwnnw y mae efe yn ei wrando.

32 Ni chlywyd erioed agoryd o neb lygaid vn a enid yn ddall.

33 Pe hwn ni bydde o Dduw, ni alle efe wneuthur dim.

34 Hwythau a attebaſant, ac a ddywedaſant wrtho ef: mewn pechodau y ganwyd ti oll, ac a wytti yn ein dyſcu ni? ac hwynt hwy a'i bwriaſant ef allan.

35 Clybu yr Ieſu fwrw o honynt hwy ef allan, a phan ei cafodd ef, efe a ddywedodd wrtho ef: a wytti yn credu ym Mab Duw?

36 Yntef a attebodd, ac a ddywedodd: pwy yw efe ô Arglwydd, fel y credwyf ynddo ef?

37 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho ef, ti a'i gwelaiſt ef, a'r hwn ſydd yn llefaru wrthit yw efe.

38 Yntef a ddywedodd, yr wyfi yn credu (ô Arglwydd,) ac efe a'i addolodd ef.

39 A'r Ieſu a ddywedodd, i farnedigaeth y daethym i i'r byd hwn, fel y gwele y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr ele y rhai ſydd yn gweled yn ddeillion.

40 A rhai o'r Phariſæaid y rhai oeddynt gyd ag ef a glywſant hyn, ac a ddywedaſant wrtho ef: ai deillion ydym ninnau?

41 Dywedodd yr Ieſu wrthynt hwy, pe deillion fyddech, ni bydde arnoch bechod: eithr yn awr (meddwch chwi) yr ydym ni yn gweled: am hynny y mae eich pechod yn parhau.

## PEN. X.

Am y bugail, 7 a'r drws, 13 a'r gwâs cyflog, 19 ymryſon yng-hylch Criſt, 31 amcanu ei labyddio, 39 a'i ddal.

*Yr Efengyl ar ddie Mawrth y Sul-gwyn.*

☞ YN wir yn wir meddaf i chwi yr hwn nid yw yn myned i mewn drwy yr drws i gorlan y defaid, eithr ſydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yſpailiwr yw efe.

2 Ond yr hwn ſydd yn myned i mewn drwy 'r drws, yw bugail y defaid.

3 I hwn y mae y dryſſor yn agoryd, ac y mae yr defaid yn gwrando ar ei lais ef: ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan.

4 Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, efe a aiff o'u blaen hwynt, a'r defaid a'i canlynant ef, am iddynt adnabod ei lais ef.

5 A dŷn dieithr ni's canlynant, eithr ciliant oddi wrtho, am nad adwaenant lais y dieithriaid.

6 Y ddammeg hon a ddywedodd yr Ieſu wrthynt, ond hwy ni wybuant, pa bethau oedd y rhai hyn a ddywedaſe efe wrthynt.

7 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt eilwaith, yn wir yn wir meddaf i chwi, myfi yw drws y defaid.

8 Cynifer oll, ac a ddaethant o'm blaen i, lladron ac yſpail-wŷr ynt, eithr ni wrandawodd y defaid arnynt.

9 Myfi yw'r drws, os aiff neb i mewn drwofi, efe a fydd gadwedic: ac efe a aiff i mewn, ac allan, ac a gaiff borfa.

10 Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddeſtrywio, myfi a ddaethym er mwyn cael o honynt fywyd, a'i gael yn helaethach. ☜

*Yr Efengyl yr ail Sul ar ôl y Paſc.*

11 ☞ *Myfi yw'r bugail da: bugail da a rydd ei enioes dros ei ddefaid. Eſa.40.11. Ezec.34.23.

12 Eithr gwâs cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid, ſydd yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadel y defaid, ac yn cilio, a'r blaidd ſydd yn ſclyfio, ac yn tarfu y defaid.

13 Y mae y gwâs cyflog yn ffoi, am ei fod yn wâs cyflog, ac heb ofalu am y defaid.

14 Myfi yw y bugail da, ac mi a adwen fy mau fi, ac am adwaenir gan fy mau fi, fel yr edwyn y Tad fy fi, felly yr adwaen i y Tâd.

15 Ac yr ydwyf fi yn rhoddi fy enioes dros [fy] nefaid.

16 Y mae gennifi hefyd ddefaid eraill, y rhai nid ynt o'r gorlan hon, rhaid i mi areilio y rhai hynny, a hwy a wrandawant fy llais, *ac fe fydd vn gorlan, ac vn bugail. ☜ Ezec.37.22.

17 Am hynny y mae y Tâd yn fyng-haru i, *am fy mod i yn dodi fy enioes, fel y cymmerwyf eil-waith hi: Phil.2.7.

18 Nid yw neb yn ei dwyn oddi arnaf, ond ei rhoddi hi yr ydwyfi o honof fy hun: ac y mae i mi feddiant iw rhoddi hi, ac y mae i mi feddiant iw chymmeryd trachefn,* y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan y Tâd. Act.2.24.

19 Yna y bu eil-waith ymrafael rhwng yr Iddewon am yr ymadroddion hyn.

20 A llawer o honynt a ddywedâſant, y mae cythrael ganddo, ac y mae yn ynfydu: pa ham y gwrandewch chwi ef?

21 Eraill a ddywedâſant: nid yw y rhain eiriau vn a chythrael ynddo, a all y cythrael agoryd llygaid y deillion?

22 Ac yna yr oedd y gyſſegr-ŵyl yn Ieruſalem, a'r gaiaf oedd hi.

23 A'r Ieſu a rodie yn y Deml ym mhorth Salomon.

24 Am hynny y daeth yr Iddewon yn ei gylch ef, ac y dywedâſant wrtho, pa hŷd y peri i ni ammau? os dy di yw Criſt, dywet i ni yn eglur.

25 A'r Ieſu a attebodd: dywedais i chwi, ac nid ydych yn credu y gweithredoedd yr wyfi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhâd, y mae y rhai hyn yn teſtiolaethu o honofi.

26 Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i, fel y dywedais i chwi.

27 Y mae fy nefaid i yn gwrando fy llais i, a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i.

28 Ac yr ydwyf finne yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol, ac ni chyfyrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt o'm llaw i.

29 Fy Nhâd i yr hwn a'u roddes hwynt i mi ſydd fwy nâ neb oll: ac ni's gall neb eu dwyn hwy o law fy Nhâd.

30 Myfi a'r Tâd vn ydym.

31 Am hynny, y cododd yr Iddewon eilwaith gerrig iw labyddio ef.

32 A'r Ieſu a attebodd iddynt: llawer o weithredoedd da a ddangoſais i chwi oddi wrth fy Nhâd: am ba vn o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio?

33 A'r Iddewon a attebaſant iddo gan ddywedyd, nid ydym yn dy labyddio am weithred dda, eithr am gabledigaeth: ac am dy fod ti yr hwn wyt ddŷn yn dy wneuthur dy hun yn Dduw.

34 A'r Ieſu a attebodd iddynt: onid yw yn ſcrifennedic yn eich deddf chwi? * mi a ddywedais, duwiau ydych.

Pſal.82.6.

35 Os galwodd efe hwynt yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw, ac ni ellir ddatod yr ſcrythur:

36 A ddywedwch chwi mai cablu yr ydwyf fi, (yr hwn a ſancteiddiodd y Tad, ac a ddanfonodd i'r byd) am i mi ddywedyd, Mab Duw ydwyf?

37 Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi.

38 Ond os myfi ſydd yn gwneuthur, er na chredwch i mi, credwch i'r gweithredoedd: fel y gwybyddoch ac y credoch, fod y Tad ynof fi a minne ynddo yntef.

39 Am hynny y ceiſiaſant ei ddala ef eil-waith, ac efe a aeth allan o'u dwylo hwynt.

40 Ac efe a aeth trachefn tros yr Iorddonen i'r lle y buaſe Ioan yn gyntaf yn bedyddio, ac a arhoſodd yno.

41 A llawer a ddaethant atto, ac a ddywedâſant: ni wnaeth Ioan ddim gwyrthiau, ond pob peth a'r a ddywedodd efe am hwn, oeddynt wîr.

42 A llawer yno a gredâſant ynddo.

## PEN. XI.

Marwolaeth Lazarus, a'i ail-gyfodiad. 50 Prophwydoliaeth Caiphas.

AC yr oedd vn yn glaf, a'i enw oedd Lazarus o Bethania, tref Mair a'i chwaer Martha,

2 Mair [hon] ydoedd, * yr hon a eneiniodd yr Arglwydd ag olew, ac a ſychodd ei draed ef â'i gwallt yr hon yr oedd ei brawd Lazarus yn glaf.

Pen.12.3.
Math.26.7.

3 Am hynny y danfonodd ei chwiorydd ef at [yr Ieſu] gan ddywedyd: Arglwydd, wele, y mae yr hwn ſydd hoff gennit yn glaf.

4 A'r Ieſu pan glybu [hyn] a ddywedodd, nid yw y clefyd hwnnw i farwolaeth, eithr er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw drwy hynny.

5 A hoff oedd gan yr Ieſu Fartha, a'i chwaer, a Lazarus.

6 Am hynny, er cynted y clybu ei fod ef yn glaf, yna yr arhoſodd efe ddau ddydd yn y lle yr oedd efe.

7 Wedi hynny y dywedodd wrth ei ddiſcyblion: awn eil-waith i Iudæa.

8 Yna ei ddiſcyblion a ddywedaſant wrtho. Rabbi, yn awr y * ceiſiodd yr Iddewon dy labyddio, ac a wyt ti yn myned yno drachefn?

Pen.7.30.
&8.59.
&10 31.

9 A'r Ieſu a attebodd: onid oes deuddec awr o ddydd? os rhodia neb y dydd ni thramgwydda, am ei fod yn gweled goleuad y byd hwn.

10 Ond os rhodia neb y nos efe a dramgwydda am nad oes goleuad ynddo.

11 Hyn a lefarodd efe, ac wedi hyn efe a ddywedodd wrthynt, y mae ein cyfaill Lazarus yn huno, ond yr wyf fi yn myned iw ddeffroi ef.

12 Y diſcyblion yna a ddywedaſant wrtho, Arglwydd os huno y mae, efe a fydd gwych.

13 Ond yr Ieſu a ddywedaſe hyn am ei farwolaeth ef, a hwy a dybiaſent mai am hun cwſc yr oedd efe yn dywedyd.

14 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt yn eglur, bu farw Lazarus.

15 Ac y mae yn llawen gennif nad oeddwn i yno, fel y credoch, ond awn atto ef.

16 Yna y dywedodd Thomas yr hwn a elwir Didimus wrth ei gyd-ddiſcyblion, awn ninnau hefyd i farw gyd ag ef.

17 Yna y daeth yr Ieſu, ac a'i cafodd ef wedi gorwedd bellach bedwar diwrnod yn y bedd.

18 (A Bethania oedd yn agos i Ieruſalem, yng-hylch pymthec ſtad oddi wrthi)

19 A llawer o'r Iddewon a ddaethant at Martha a Mair i iw cyſuro am eu brawd.

20 Ac er cynted y clybu Martha ddyfod o'r Ieſu, hi a aeth iw gyfarfod: ond Mair a eiſteddodd gartref.

21 Yna y dywedodd Martha wrth yr Ieſu: Arglwydd, pe buaſit ti ymma, ni fuaſe farw mo'm brawd:

22 Eithr mi a wn hefyd yr awron: pa beth bynnac a ddymunech gan Dduw, y dyry Duw i ti.

23 A'r Ieſu a ddywedodd wrthi: fe gyfyd dy frawd di eil-waith.

24 Dywedodd Martha wrtho: mi a wn y cyfyd efe eil-waith yn yr adgyfodiad y dydd diweddaf.

25 Dywedodd yr Ieſu wrthi: myfi yw 'r cyfodiad a'r bywyd: y neb a gredo ynof, er iddo farw ſydd byw.

26 A phwy bynnac ſydd yn fyw ac yn credu ynofi ni bydd marw byth: a ydwyt ti yn credu hyn?

27 Hi a ddywedodd: ydwyf Arglwydd, yr wyf fi yn credu mai ti yw y Criſt Mab Duw, yr hwn oedd i ddyfod i'r byd.

28 Ac wedi iddi ddywedyd hynny, hi a aeth ymmaith, ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair gan ddywedyd, fe ddaeth yr Athro, ac y mae yn galw am danat.

29 Pan glybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth atto ef.

30 Canys ni ddaethe yr Ieſu etto i'r dref, ond yr oedd efe yn y lle yr aethe Martha i gyfarfod ag ef.

31 Yna yr Iddewon, y rhai oeddynt gyd â hi yn y tŷ yn ei chyſſuro hi, pan welſant Mair

yn codi yn ebrwydd, ac yn myned allan, a'i canlynâſant hi, gan ddywedyd: y mae hi yn myned at y bedd i wylo yno.

32 Yna wedi dyfod Mair lle yr oedd yr Ieſu, pan welodd hi ef, hi a ſyrthiodd i lawr wrth ei draed ef, gan ddywedyd wrtho: Arglwydd pe buaſit ti ymma, ni buaſe fy mrawd farw.

33 A phan welodd yr Ieſu hi yn wylo, a'r Iddewon [hefyd] y rhai a ddaethent gyd â hi yn wylo, efe a riddfanodd yn yr yſpryd, ac a ymgynhyrfodd, ac a ddywedodd:

34 Pa le y rhoeſoch chwi ef? yna y dywedâſant wrtho: Arglwydd, tyret, a gwêl.

35 Y'r Ieſu a wylodd.

36 Am hynny y dywedodd yr Iddewon, wele, fel yr oedd efe yn ei garu ef.

37 Eithr rhai o honynt a ddywedâſant: oni allaſe hwn, yr hwn a agorodd lygaid y dall beri na buaſe hwn farw?

38 Yna yr Ieſu a riddfannodd eilwaith ynddo ei hun, ac a ddaeth at y bedd, ac ogof oedd, a charreg a ddodaſid arno.

39 Dywedodd yr Ieſu: codwch y garreg a Martha chwaer yr hwn a fuaſe farw, a ddywedodd wrtho: Arglwydd, y mae efe weithian yn drewi, herwydd y mae [yn farw] er ys pedwar diwrnod.

40 A'r Ieſu a ddywedodd wrthi: oni ddywedais i ti, pes credit, y ceit ti weled gogoniant Duw?

41 Yna y codâſant y garreg lle yr oedd y marw wedi ei oſod: a'r Ieſu gan godi ei olwg i fynu a ddywedodd, y Tad, yr wyf yn diolch i ti, am wrando o honot arnaf.

42 Ond mi a wyddwn dy fod ti yn fyngwrando bob amſer, eithr er mwyn y bobl y rhai ydynt yn ſefyll o'm hamgylch, y dywedais, fel y credant mai ty di a'm hanfonaiſt i.

43 Ac wedi iddo ddywedyd hyn: efe a lefodd â llef uchel: Lazarus, tyret allan.

44 Yna yr hwn a fuaſe farw a ddaeth allan, yn rhwym ei draed a'i ddwylo mewn amdo, a'i wyneb a rwymaſid â napcyn, a dywedodd yr Ieſu wrthynt, gollyngwch ef, a gedwch iddo fyned ymmaith.

45 Yna llawer o'r Iddewon y rhai a ddaethent at Mair, ac a welſent y pethau a wnaethe yr Ieſu, a gredâſant ynddo ef.

46 Eithr rhai o honynt a aethant ymmaith at y Phariſæaid, ac a ddywedâſant iddynt y pethau a wnaethe yr Ieſu.

47 Yna yr arch-offeiriaid, a'r Phariſæaid a gaſclaſant gyngor, ac a ddywedaſant, Pa beth a wnawn? Canys y mae y dŷn ymma yn gwneuthur llawer o arwyddion.

48 Os gadawn ni ef felly, pawb a gredant iddo, ac fe a ddaw y Rhufeiniaid, ac a ddifethant ein lle ni a'n cenedl.

49 Yna Caiphas un o honynt, yr hwn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno, a ddywedodd wrthynt: nid ydych chwi yn gŵybod dim:

50 Nac yn yſtyried, mai buddiol yw i ni farw o un dŷn dros y bobl: ac na chyfyrgoller y genedl oll.

51 Hyn a ddywedodd efe, nid o honaw ei hun, eithr am ei fod yn arch-offeiriad y flwyddyn honno, efe a brophwydodd y bydde yr Ieſu farw dros y genedl:

52 Ac nid tros y genedl honno yn unic, eithr hefyd er caſclu yng-hyd blant Duw, y rhai a waſcaraſid.

53 Yna o'r dydd hwnnw allan y cyd-ymgynghoraſant am ei ladd ef.

54 Am hynny ni rodiodd yr Ieſu mwy yn amlwg ym myſc yr Iddewon, ond efe a aeth oddi yno i'r wlad yr hon ſydd yn agos i'r anialwch, i ddinas a elwir Ephraim, ac a arhôdd yno gyd â'i ddiſcyblion.

55 A Phaſc yr Iddewon oedd yn agos, a llawer a aethant o'r wlâd honno i fynu i Ieruſalem o flaen y Paſc, i'w hymlanhau eu hunain.

56 Yna y ceiſiâſant yr Ieſu, a dywedodd y naill wrth y llall yn ſefyll yn y Deml, beth a dybiwch chwi, gan na ddaeth efe i'r wyl?

57 A'r arch-offeiriaid a'r Phariſæaid a roeſent orchymyn os gwydde neb pa le yr oedd efe, ar fynegu, i gael ei ddal ef.

## PEN. XII.

Mair yn eneinio traed yr Ieſu ag enaint. 4 Iudas yn grwgnach. 10 Yr Iddewon yn ceiſio dal Criſt a Lazarus. 14 Ieſu yn marchogeth yr aſſyn. 28 Gogonedd Criſt o'r nef. 42 Rhai yn credu ac heb gyffeſu.

YNa * yr Ieſu chwe diwrnod cyn y Paſc a ddaeth i Bethania lle yr oedd Lazarus yr hwn a fuaſe farw, yr hwn a godaſe efe o farw. Math.26.6. Marc.14.3.

2 Yno y gwnaethant iddo ef ſwpper, a Martha oedd yn gwaſanaethu: a Lazarus oedd un o'r rhai a eiſteddent gyd ag ef.

3 Yna y cymmerth Mair bwys o enaint nard gwlyb, gwerthfawr, ac a eneiniodd draed yr Ieſu, ac a ſychodd eu draed ef â'i gwalt, a'r tŷ a lanwyd gan aroglau yr enaint.

4 Am hynny y dywedodd un o'i ddiſcyblion ef [ſef] Iudas [mab] Simon Iſcariotes yr hwn oedd ar ei fradychu ef,

5 Pa ham na werthid yr enaint hwn er trychant ceiniog, ai roddi i'r tlodion?

6 Ac efe a ddywedodd hyn, nid o herwydd ei fod yn gofalu dros y tlodion, ond am ei fod efe yn lleidr, ac yn cadw yr * pwrs, ac yn arwain yr hyn a roddid ynddo. Ioan.13.29.

7 A'r Ieſu a ddywedodd: gedwch iddi, erbyn dydd fyng-hladdedigaeth y cadwodd hi hyn.

8 Canys yr ydych chwi yn cael y tlodion bob amſer gyd â chwi, ond ni'm cewch fi bob amſer.

9 Felly tyrfa fawr o'r Iddewon a wybu ei fod efe yno, ac a ddaethant nid er mwyn yr Ieſu yn unic, ond er mwyn gweled Lazarus hefyd, yr hwn a godaſe efe o feirw.

10 Yna yr ymgynghorodd yr arch-offeiriaid am ladd Lazarus hefyd:

11 Am fyned o lawer o'r Iddewon ymmaith o'i achos ef, a chredu yn yr Iesu.

12 *Trannoeth tyrfa fawr, yr hon a ddaethe i'r ŵyl, pan glywſant ddyfod o Iesu i Ieruſalem, Math.21.8. Marc.11.8. Luc.19.35.

13 Hwy a gymmeraſant geingciau o'r palmwydd, ac a aethant allan i gyfarfod ag ef, ac a leſaſant, Hoſanna, *bendigedic yw'r neb ſydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd, yn Frenin ar Iſrael. Pſal.118.26.

14 A'r Iesu a gafodd aſſynnan, ac a eiſteddodd arni, megis y mae yn ſcrifennedic:

15 Nac ofnaô ferch Sion: *wele, dy Frenin yn dyfod gan eiſtedd ar ebol aſſyn. Zach.9.9.

16 Ac ni ŵybu ei ddiſcyblion ef beth oedd hyn ar y cyntaf, eithr wedi gogoneddu yr Iesu, yna y cofiâſant fod y pethau hyn yn ſcrifennedic am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo.

17 A'r dyrfa yr hon oedd gyd ag ef pan alwodd efe Lazarus o'r bedd, a'i godi ef o farw, a ddug deſtiolaeth.

18 Am hynny, y daeth y dyrfa hefyd i gyfarfod ag ef, am glywed o honynt iddo wneuthur yr arwydd hwn.

19 A'r Phariſæaid a ddywedâſant yn eu plith eu hunain, a welwchi nad ydych chwi yn tyccio dim? wele y mae y byd [oll] yn myned ar ei ôl ef.

20 Ac yr oedd rhai Groegiaid o'r rhai a ddaethent i fynu i addoli ar yr ŵyl.

21 A'r rhai hynny a ddaethant at Philip yr hwn oedd o Bethſaida yn Galilæa, ac a ofynnâſant iddo, gan ddywedyd, arglwydd: ni a ewyllyſiem weled yr Iesu.

22 Ac Philip a ddaeth, ac a ddywedodd i Andreas, Andreas hefyd a Philip a ddywedâſant i'r Iesu.

23 A'r Iesu a attebodd iddynt, fe ddaeth yr awr y gogoneddir Mab y dŷn.

24 Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi: oni ſyrth y gronyn gwenith i'r ddaiar a marw, hwnnw a erys yn vnic, eithr os bydd efe marw, efe a ddwg lawer o ffrwyth.

25 Y* neb a garo ei enioes a'i cyll hi, a'r neb a gaſâo ei enioes yn y byd hwn, a'i ceidw hi i fywyd tragywyddol. Math.10.39. Marc.8.35. Luc.9.24.

26 Os gwaſanaetha neb fi, dilyned fi, *a pha le bynnac y byddwyf fi, yna y bydd fyng-weinidog i hefyd: ac os gwaſanaetha neb fi, y Tad a'i hanrhydedda ef. Ioan.17.24.

27 Y mae fy enaid yr awr hon yn drallodus, a pha beth a ddywedaf, ô Dad gwaret fi rhag yr awr hon, eithr er mwyn hyn y daethym i'r awr hon.

28 Oh Dad gogonedda dy enw; yna y daeth llef o'r nef: [ſef] mi a'i gogoneddais, ac a'i gogoneddaf eil-waith.

29 A'r dyrfa yr hon oedd yn ſefyll, ac yn clywed, a ddywedodd mai taran oedd: eraill a ddywedâſant, Angel a ymddiddanodd ag ef.

30 A'r Iesu a attebodd, ac a ddywedodd, nid o'm hachos i y bu y llais hwn: ond o'ch achos chwi.

31 Yn awr y mae barn y byd hwn: yn awr y bwrir allan dywyſog y byd hwn.

32 A minne os dercheſir fi oddi ar y ddaiar, a dynnaf bawb attaf fy hun.

33 A hyn a ddywedodd efe, gan arwyddo, o ba angeu y bydde farw.

34 A'r dyrfa a attebodd iddo, ni a glywſom* o'r ddeddf fod Criſt yn aros yn dragywyddol: pa wedd wrth hynny y dywedi di fod yn rhaid derchafu Mab y dŷn? pwy ydyw hwnnw, Mab y dyn? Pſal.89.36. Ezech.37.25.

35 A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, etto ychydig ennyd y mae y *goleuni gyd â chwi: rhodiwch tra fyddo i chwi oleuni, rhag i'r tywyllwch eich goddiwes, a'r hwn ſydd yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr i ba le yr êl. Ioan.1.9.

36 Tra fyddo gennych oleuni credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni, hyn a ddywedodd yr Iesu, ac efe a ymadawodd, ac a ymguddiodd rhagddynt.

37 Ac er gwneuthur o honaw ef gymmaint o wyrthiau yn eu gwydd hwynt, ni chredâſant ynddo.

38 Fel y cyflawnid ymadrodd *Eſaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe: ô Arglwydd pwy a gred ein ymadrodd ni? ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd? Eſai.53.1.

39 Am hynny ni allent gredu, am i Eſaias ddywedyd eil-waith.

40 *Efe a ddallodd eu llygaid, ac a galedodd eu calon, fel na's gwelent â'u llygaid, na deall â'u calon, nac ymchwelyd, ac i mi eu hiachâu hwynt. Eſai.6.9. Math.13.14. Marc.4.12. Luc.8.10. Act.28.26. Rom.11.8.

41 Y pethau hyn a ddywedodd Eſaias, pan welodd ei ogoniant ef, a phan leſarodd am dano ef.

42 Er hynny llawer o'r pennaduriaid a gredaſant ynddo, ond o blegit y Phariſæaid, ni chyffeſaſant rhag eu rhoi allan o'r Synagog.

43 *Canys hwy a garent foliant dynion yn fwy nâ moliant Duw. Ioan.5.41.

44 A'r Iesu a leſodd, ac a ddywedodd: yr hwn ſydd yn credu ynof fi, nid ynof fi y mae efe yn credu, ond yn yr hwn a'm danfonodd i.

45 A'r hwn ſydd yn fyng-weled i ſydd yn gweled yr hwn a'm anfonodd i.

46 Mi a ddaethym *yn oleuni i'r byd, fel na'd arhoſe neb mewn tywyllwch a'r y ſydd yn credu ynof fi. Ioan.3.19.

47 Ac os clyw neb fyng-eiriau, ac ni chred, nid ydwyf fi yn ei farnu ef, am na ddaethym i farnu y byd, eithr i achub y byd.

48 Y ſawl a'm dirmygo i, ac ni dderbyn fyng-eiriau, y mae iddo ef un a'i barn: y *gair a ddywedais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf. Marc.16.16.

49 Canys ni leferais i o honof fy hun, ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a orchymyn-

nodd i mi beth a ddywedwn, a pheth a leſarwn.

50 A mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol, am hynny y pethau yr wyfi yn eu lleſaru, felly yr wyf yn lleſaru, fel y dywedodd y Tâd wrthif.

## PEN XIII.

Criſt yn golchi traed yr Apoſtolion, 6 yr ymddiddan a fu rhyngddo â Phetr, 18 bradychiad Criſt, 35 drwy gariad perffaith yr adwaenir diſcyblion Criſt, 37 hyder Petr a'i wendid.

Math.26.1. Marc.14.1. Luc.22.1. CYn * gŵyl y Paſc, yr Ieſu yn gŵybod dyfod ei awr i fyned o'r byd ymma at y Tad, [ac] yn caru yr eiddo y rhai oeddynt yn y bŷd, hyd y diwedd y carodd efe hwynt.

2 A hwynt ar ſwpper (wedi i ddiafol euſus yrru yng-halon Iudas [fab] Simon Iſcariotes, ei fradychu ef)

3 Yr Ieſu yn gŵybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei ddwylo ef, a'i fod wedi dyfod oddi wrth Dduw, ac yn myned at Dduw,

4 Efe a gyfododd oddi a'r ei ſwpper, ac a fwriodd heibio ei gochl-wiſc, a chan gymmeryd tywel, efe a ymwregyſodd.

5 Wedi hynny efe a dywalltodd ddwfr i'r cawg, ac a ddechreuodd olchi traed y diſcyblion, a'u ſychu â'r lliain, â'r hwn y gwregyſaſid ef.

6 Yna y daeth efe at Simon Petr, ac yntef a ddywedodd wrtho, ô Arglwydd, a'i ty di a olchi fy nrhaed i?

7 A'r Ieſu a attebodd, ac a ddywedodd wrtho, y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddoſt di yr awron: eithr ti a gei ŵybod yn ôl hyn.

8 Petr a ddywedodd wrtho: ni chei olchi fy nrhaed i byth, ac attebodd yr Ieſu iddo: oni olchaf dy di, nid oes i ti gyfran gyd â myfi.

9 Simon Petr a ddywedodd wrtho: ô Arglwydd, nid fy nrhaed i yn vnic, ond fy nwylaw, am pen hefyd.

10 A'r Ieſu a ddywedodd wrtho, yr hwn a olchwyd, nid rhaid iddo ond golchi ei draed, eithr y mae yn lân oll: a * chwichau ydych yn lân, ond nid bob vn. Ioan.15.3.

11 Canys efe a ŵydde pwy a'i bradyche ef, ac am hynny y dywedodd: nid ydych chwi yn lân bob vn.

12 Felly wedi iddo olchi eu traed hwy, a chymmeryd ei gochl-wiſc am dano, gan eiſtedd ail-waith y dywedodd wrthynt, a ŵyddoch chwi pa beth a wnaethum i chwi?

13 Yr ydych chwi yn fy ng-alwi, yr Athro, yr Arglwydd: a da y dywedwch: o herwydd, yr wyfi [felly.]

14 Am hynny, os myfi yn Arglwydd, ac yn Athro, a olchais eich traed chwi, chwichau a ddylech hefyd olchi traed eu gilydd.

15 Canys mi a ddodais ſiampl i chwi i wneuthur o honoch fel y gwneuthum i chwi.

Ioan.15.20. Math.10.24. Luc.6.40. 16 Yn * wir, yn wîr meddaf i chwi: nid yw 'r gwâs yn fwy nâ'i arglwydd, na'r cennadwr yn fwy nâ'r hwn a'i danfonodd ef.

17 Os gŵyddoch y pethau hyn, gwyn eich bŷd, os chwi a'u gwnewch hwynt.

18 Nid wyfi yn dywedyd am danoch oll, mi a wn pwy a etholais, ond er cyflawni yr ſcrythur, [ſef:] * hwn ſydd yn bwyta bara gyd â mi, a gododd ei ſodl yn fy erbyn. Pſal.40.9.

19 Bellach yr wyf yn dywedyd wrthych, cyn ei ddyfod, fel gwedi y dêl y credoch mai myfi yw efe.

20 * Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi: yr hwn ſydd yn derbyn y neb a ddanfonwyfi, ſydd yn fy nerbyn i, a'r hwn ſydd yn fy nerbyn i, ſydd yn derbyn y neb am danfonodd. Math.10.40. Luc.10.16.

21 Wedi i'r Ieſu ddywedyd hyn, efe a gyffroiwyd yn yr yſpryd, ac a deſtiolaethodd, ac a ddywedodd, yn wîr, yn wîr, meddaf i chwi, mai vn o honoch a'm bradycha fi.

22 * Am hynny yr edrychodd y diſcyblion ar ei gilydd, gan ammau am bwy y dywedaſe efe. Math.26.21. Marc.14.18. Luc.22.21.

23 Yna vn o'i ddiſcyblion ef, oedd yn pwyſo ar fonwes yr Ieſu, [ſef] yr hwn yr oedd Ieſu yn ei garu.

24 Ac fe a amneidiodd Simon Petr ar hwn, i ofyn, pwy oedd yr hwn a ddywedaſe efe am dano.

25 Ac yntef yn pwyſo ar fynwes Ieſu, a ddywedodd wrtho, ô Arglwydd, pwy yw efe.

26 A'r Ieſu a attebodd, hwnnw yw efe i'r hwn y rhoddaf fi dammaid wedi ei wlychu, ac wedi iddo wlychu y tammaid efe a'i rhoddodd i Iudas [fab] Simon Iſcariotes.

27 Ac ar ôl y tammaid yr aeth Satan i mewn iddo, ac yna y dywedodd yr Ieſu wrtho: a wnelech, gwna ar frys.

28 Ac ni wydde neb o'r rhai oeddynt yn eiſtedd, am ba beth y dywedaſe efe hynny wrtho.

29 Canys rhai oedd yn tybied, mai am fod y gôd gyd ag Iudas, y dywedaſe Ieſu wrtho: pryn y pethau ſydd angenrhaid i ni erbyn yr ŵyl, neu ar ddodi o honaw ef beth i'r tlodion.

30 Ac yntef wedi derbyn y tammaid, a aeth allan yn ebrwydd: ac yr oedd hi yn nos.

31 Ac wedi iddo fyned allan, yr Ieſu a ddywedodd, yn awr y gogoneddwyd Mab y dŷn, a Duw a ogoneddwyd ynddo ef.

32 Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, Duw hefyd a'i gogonedda ef ynddo ei hun, ac yn ebrwydd y gogonedda efe ef.

33 O blant bychain etto yr wyf ennyd fechan gyd â chwi, chwi a'm ceiſiwch, ac fel * y dywedais wrth yr Iddewon, yr ydwyf yn dywedyd wrthych chwi hefyd yr awron: i'r lle yr ydwyf fi yn myned ni ellwch chwi ddyfod. Ioan.7.34.

34 * Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu o honoch ei gilydd, fel y cerais i chwi, ar garu o honoch ei gilydd felly. Lef.19.18. Math.22.39. Ioan.4.21.

35 Wrth hyn yr adnebydd pawb eich bod yn ddiſcyblion i mi, os bydd cariad rhwng pawb o honoch a'i gilydd.

36 A Simon Petr a ddywedodd wrtho: ô Arglwydd i ba le yr ydwyt ti yn myned, yr Ieſu a attebodd iddo, * lle yr ydwyfi yn myned ni elli Math.26.33. Marc.14.29.

di yr awron fyng-hanlyn: eithr yn ôl hyn i'm canlyni,

37 Petr a ddywedodd wrtho: ô Arglwydd, pa ham na allaf fi dy ganlyn yr awron? mi a roddaf fy einioes drosot.

38 Yr Jeſu a'i hattebodd, a roddi di dy einioes droſof fi? yn wir, yn wir meddaf i ti: ni chân y ceiliog nes i ti fyng-wadu dair gwaith.

## PEN. XIIII.

Ieſu yn cyſſuro ei ddiſcyblion erbyn blinder. 6 Yn dangos mai efe yw'r ffordd at y Tad. 16 Yn addo yr Yſpryd glân iddynt. 21 Ac yn eu rhybuddio am ei fynediad at y Tad.

*Yr Efyngil ar ddigwyl Philip ac Iaco.*

☞ NA thralloder eich calon: yr ydych yn credu yn Duw, credwch ynof fi hefyd.

2 Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau, a phe amgen mi a ddywedaſwn i chwi, yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi.

3 A phan elwyf, a pharatoi lle i chwi, mi a ddeuaf eilwaith ac a'ch cymmeraf attaf fy hun: fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd.

4 A chwi a ŵyddoch i ba le yr wyf fi yn myned, a'r ffordd a ŵyddoch.

5 Dywedodd Thomas wrtho: ô Arglwydd, ni ŵyddom ni i ba le yr aei di, am hynny pa wedd y gallwn ni ŵybod y ffordd?

6 A'r Jeſu a ddywedodd wrtho ef. Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.

7 Pes adnabaſech fi, fy Nhad hefyd a adnabaſech: ac weithian yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelſoch ef.

8 Dywedodd Philip wrtho: ô Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon i ni [hynny.]

9 Yr Jeſu a ddywedodd, a ydwyf gyhyd o amſer gyd â chwi, ac ni adnabuoch fi? Philip, y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad, pa wedd wrth hynny y dywedi di? dangos i ni y Tad.

10 Onid wyt yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof-inne? y geiriau y rhai yr wyf fi yn eu traethu wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu traethu, ond y Tad yr hwn ſydd yn aros ynof, efe ſydd yn gwneuthur y gweithredoedd.

11 Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof-inne: ond ê, credwch fi er mwyn y gweithredoedd.

12 Yn wir yn wir meddaf i chwi yr hwn a gredo ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntef a'u gwna, a mwy nâ'r rhai hynny a wna efe: canys at y Tad yr wyf yn myned.

Math.7.7.
Marc.11.14.
Ioa.16.23.

13 * A pha beth bynnac a ofynnoch yn fy enw, hynny a wnaf, fel y gogonedder y Tad yn y Mab.

14 Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf. ☜

*Yr Efengyl ar ddydd y Sulgwyn.*

☞ 15 O cherwch fi, cedwch fyng-orchymynnion.

16 A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddiddanwr arall, i aros gyd â chwi yn dragywyddol:

17 Yſpryd y gwirionedd yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, ac am nad yw yn ei adnabod ef. Ond chwi a'i hadwaenoch ef, o herwydd y mae yn aros gyd â chwi, ac ynoch y bydd efe,

18 Nis gadawaf chwi yn ymddifaid, mi a ddeuaf attoch chwi.

19 Etto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy: eithr chwi a'm gwelwch: canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau.

20 Y dydd hwnnw y gŵybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwi ynof fi, a minne ynoch chwithau.

21 Y neb ſydd a'm gorchymynnion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn ſydd yn fyng-haru i: a'r ſawl ſydd yn fyng-haru i a gerir gan fy Nhad i, a minne a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo ef.

22 Dywedodd Judas wrtho: (nid yr Iſcariotes) ô Arglwydd, pa beth yw'r achos yr egluri dy hun i ni, ac nid i'r bŷd?

23 A'r Jeſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho: os câr neb fi, efe a geidw fyng-air, a'm Tâd ai câr yntef: a nyni a ddeuwn atto, ac a arhoſwn gyd ag ef.

24 Y neb ni'm câr i, ni cheidw mo'm geiriau, a'r gair a glywſoch, nid eiddo fi ydyw, ond eiddo y Tâd yr hwn a'm hanfonodd i.

25 Hyn a ddywedais wrthych yn aros gyd â chwi.

26 *Eithr y diddanudd [ſef] yr Yſpryd glân, yr hwn a enfyn y Tâd yn fy enw i, hwnnw a ddyſc i chwi bob peth, ac a eilw bob peth yn eich cof chwi, a'r a ddywedais i wrthych. Ioan.15.26.

27 Yr wyf yn gadel i chwi dangnheddyf, fy nhangnheddyf yr ydwyf yn ei rhoddi i chwi, nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi, na thralloder eich calon, ac nac ofned.

28 Clywſoch fel y dywedais wrthych: yr wyf yn myned ymmaith, a deuaf attoch, pe caraſech fi, llawenaſech, am i mi ddywedyd: yr wyf yn myned at y Tâd: canys y mae fy Nhâd yn fwy nâ myfi.

29 Ac yr awr hon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, fel y credoch pan ddelo.

30 Yn ôl hyn ni ddywedaf nemmawr wrthych; canys tywyſog y byd hwn ſydd yn dyfod, ond nid yw efe yn cael dim ynof fi.

31 Ond fel y gwyppo yr bŷd fy mod i yn caru y Tad, ac megis y gorchymynnodd y Tâd i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. ☜ Codwch, awn oddi ymma.

## PEN. XV.

Parabl Criſt am y win-wydden a'i changhenhau. 9 Am gariad perffaith. 17 Am y byd hwn. 24 Am weithredoedd Criſt.

*Yr Efengyl ar ddigwyl Marc.*

☞ MYfi yw'r wîr win-wydden, a'm Tad yw'r llafurwr.

2 Pob * cangen heb ddwyn ffrwyth ynof fi, y mae efe yn ei thymmu ymmaith: a phob un a ddygo ffrwyth, efe a'i glânhâ, fel y dygo fwy o ffrwyth, Math.15.13.

3 Yn * awr yr ydych chwi yn lân gan y Ioan.13.10.

gair a lefarais i wꝛthych.

4 Arhoſwch ynof, a mi ynoch, fel na all cangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, [ſef] onid erys yn y win-wydden, felly ni [ellwch] chwithau, onid arhoſwch ynof.

5 Myfi yw 'r win-wydden, chwithau yw 'r canghennau: yꝛ hwn a arhoſo ynof, a minne ynddo yntef, hwnnw a ddŵg ffrwyth lawer. Canys hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.

Coloſſ.1.23.

6 Os * neb nid erys ynof fi, efe a deflir allan fel cangen, ac a wywa: a [rhai] a'i caſclant, ac a'i bwꝛiant yn tân, ac a loſcir.

Ioan.3.22.

7 O's arhoſwch ynof, ac os erys fyng-eiriau ynoch, * beth bynnac a ewyllyſioch gofynnwch, ac fe a'i gwneir i chwi.

8 Yn hyn y gogoneddir fy Nhâd ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer: a'ch gwneuthur yn ddiſcyblion i mi.

9 Fel y carodd y Tâd fi, felly y cerais chwithau, arhoſwch yn fyng-hariad.

10 Os cedwch fyng-oꝛchymynnion, chwi a arhoſwch yn fyng-hariad: fel y cedwais i oꝛchymynnion fy Nhâd, ac yꝛ wyf yn aros yn ei gariad ef.

11 Hyn a ddywedais wꝛthych, fel yꝛ arhôſo fy llawenydd ynoch, a bod eich llawenydd yn gyflawn. ☜

*Yr Efengyl ar ddigwyl S.Barnabe.*
Ioan.13.34.
1.theſſ.4.9.
1.Ioan.3.1.

☞ 12 * Dymma fyng-oꝛchymyn i, ar i chwi garu eu gilydd, fel y cerais chwi.

13 * Cariad mwy nâ hyn nid oes gan neb, na rhoi o vn ei einioes dꝛos ei gyfeillion.

14 Chwy chwi fyddwch fyng-hyfeillion, os gwnewch pa bethau bynnac yꝛ wyf yn eu goꝛchymyn i chwi.

15 Nid ydwyf yn eich galw yn weiſiō mwy, am nas gŵyꝛ gwâs beth y mae ei Arglwydd yn ei wneuthur, ond mi a'ch gelwais chwi 'n gyfeillion, canys pob peth a'r a glywais gā fy Nhâd, a hyſpyſais i chwi.

16 Nid chwy chwi am dewiſâſoch i, ond myfi a'ch dewiſais chwi, ac a'ch oꝛdeiniais i fyned i ddwyn ffrwyth, a bod i'ch ffrwyth aros: a pha beth bynnac ar a ofynnoch i'r Tâd yn fy enw, efe a'i rhydd i chwi. ☜

*Yr Efengyl ar ddigwyl Simon a ac Iudas.*

☞ 17 Hyn yꝛ wyf yn ei oꝛchymyn i chwi, garu o honoch eu gilydd.

18 Os y bŷd a'ch caſâ, gŵybyddwch gaſhau o honaw fy fi o'ch blaen chwi.

19 Pe buaſech o'ꝛ bŷd, y bŷd a garaſe yꝛ eiddo, eithꝛ am nad ydych o'ꝛ bŷd, ond i mi eich dewis o'ꝛ byd, am hynny y mae y byd yn eich caſau chwi.

Ioan.13.16.
Math.24.
& 24.9.
Luc.6.40.

20 Cofiwch yꝛ * ymadꝛodd a ddywedais i wꝛthych, nad yw gwâs yn fwy nâi arglwydd, os erlidiâſant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau: os cadwâſant fyng-oꝛchymyn i, hwy a gadwant yꝛ eiddoch chwithau.

Ioan.16.4.

21 Eithꝛ * hyn oll a wnânt i chwi er mwyn fy enw i, am nad adwaenant yꝛ hwn a'm hanfonodd i.

22 Oni bai ddarfod i mi ddyfod ac ymddiddan â hwynt, ni bydde arnynt bechod: ond yꝛ awꝛ hon nid oes ganddynt ddim i eſcuſodi eu pechod.

23 Y ſawl ſydd yn fyng-haſau i, ſydd yn caſau fy Nhâd hefyd.

24 Pe buaſwn heb wneuthur gweithꝛedoedd yn eu plith hwy, y rhai ni wnaeth neb arall, ni buaſe arnynt bechod, ond yꝛ awꝛ hon, hwy a welſant, ac a'm caſâſant i, a'm Tâd.

Pſal.35.19.

25 Eithꝛ fel y cyflawnid yꝛ gair yꝛ hwn ſydd ſcrifennedic yn eu cyfraith hwynt: * hwy a'm caſâſant yn ddi-achos.

Luc.24.
Ioan.14.

26 Ond pan ddêl * y diddanwꝛ yꝛ hwn a anfonaf i chwi oddi wꝛth y Tâd, [ſef] Yſpꝛyd y gwirionedd yꝛ hwn a ddeillia oddi wꝛth y Tâd, hwnnw a deſtiolaetha o honofi.

27 A chwithau hefyd a deſtiolaethwch, a'm eich bod o'ꝛ dechꝛeuad gyd â mi. ☜

## PEN. XVI.

Am yr Yſpryd glân, a'i rinwedd mewn pregethwyr yn erbyn pechod. 17 Am dderchafiad Criſt. 23 Am weddio yn enw Criſt.

Y Pethau hyn a ddywedais i chwi, rhag i chwi ymrwyſtro.

2 Hwy a'ch bwꝛiant chwi allan o'u ſynagogau, ac fe a ddaw 'r amſer i bwy bynnac a'ch lladdo, dybied ei fod yn gwneuthur gwaſanaeth i Dduw.

3 Hyn a wnant i chwi, am na's adnabuant y Tâd, na mi.

4 Eithꝛ hyn a ddywedais wꝛthych, fel pan ddêl yꝛ awꝛ, y cofioch ddarfod i mi ddywedyd i chwi: hyn [o bethau] ni ddywedais i yn y dechꝛeu, am fy mod gyd â chwi.

*Yr Efengyl y pedwerydd Sul ar ol y Paſc.*

☞ 5 Ac yn awꝛ yꝛ wyf yn myned at y neb a'm anfonodd, ac nid yw neb o honoch yn gofyn i mi, I ba le yꝛ aei di?

6 Eithꝛ am i mi ddywedyd hyn wꝛthych, triſtwch a lanwodd eich calon.

7 Ond yꝛ wyfi yn dywedyd gwirionedd i chwi, buddiol yw i chwi fy myned i ymmaith. Canys onid âfi, ni ddaw y diddanudd hwnnw attoch, eithꝛ os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch.

8 A phan ddêl, efe a argyoedda y bŷd o bechod, o gyfiawnder a barn.

9 O bechod: am nad ydynt yn credu ynofi.

10 O gyfiawnder, am fy môd yn myned at y Tâd, ac ni'm gwelwch fi mwyach.

11 O farn, am ddarfod barnu pennaeth y bŷd hwn.

12 Y mae gennif etto lawer o bethau iw dywedyd wꝛthych, ond yn awꝛ ni ellwch eu dwyn hwynt.

13 Ond pan ddêl efe [ſef] Yſpꝛyd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd oll, canys ni lefara o honaw ei hun, ond pa bethau bynnac a glyw efe a lefara, ac a ddengys i chwi y pethau ſydd i ddyfod.

14 Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymmer o'ꝛ eiddof, ac a'i mynega i chwi.

15 Y pethau oll ſy yn eiddo 'r Tâd, ydynt

eiddof finne, am hynny y dywedais: y cymmere o'r eiddof, ac a'i mynege i chwi. ☜

*Yr Efengyl y trydydd Sul ar ôl y Paſc.*

16 ☞ Ychydig o ennyd, ac ni'm gwelwch, ac eilwaith ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch, am fy mod yn myned at y Tâd.

17 A rhai o'i ddiſcyblion ef a ddywedaſant wrth eu gilydd, beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym: ychydig o ennyd, ac ni'm gwelwch, ac eil-waith ychydig o ennyd, a chwi a'm gwelwch, ac, am fy mod i yn myned at y Tâd.

18 Ac hwy a ddywedâſant, beth ydyw hyn, mae efe yn ei ddywedyd, ychydig o ennyd: Ni wyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd.

19 A gwybu yr Jeſu fod yn eu bryd hwy ofyn iddo, ac efe a ddywedodd wrthynt: ymofyn yr ydych â'u gilydd, am ddywedyd o honof hyn, ychydig o ennyd, ac ni'm gwelwch, ac eilwaith ychydig o ennyd, a chwi a'm gwelwch:

20 Yn wir yn wir meddaf i chwi, chwi a ŵylwch, ac a alêrwch, a'r bŷd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch driſtion, ond eich triſtwch a droir yn llawenydd.

21 Gwraig wrth eſcor plentyn a fydd mewn triſtyd am ddyfod ei hawr, eithr wedi geni iddi y plentyn, ni chofia ei gofid mwyach, gan lawenydd geni dyn i'r bŷd.

22 Chwithau hefyd ydych mewn triſtwch yn awr, eithr mi a ymwelaf â chwi eil-waith, a'ch calon a lawenycha, a'ch llawênydd ni ddŵg neb oddi arnoch. ☜

*Yr Efengyl y pummed Sul ar ôl y Paſc.*
Math.7.7.
& 21.22.
marc.11.24.
luc.11.9.
ioan.14.13.
iaco.1.15.

23 Y dydd hwnnw nid ymofynnwch ddim â myfi: ☞ Yn wîr, yn wîr meddaf i chwi,* pa bethau bynnac a ofynnoch i'm Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi.

24 Ni ofynnaſoch ddim hyd yn hyn yn fy enw i, gofynnwch a chwi a gewch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

25 Y pethau hyn a draethais wrthych mewn damhegion, fe ddaw yr awr pan na adroddwyf mewn damhegion wrthych, eithr y mynegwyf yn eglur i chwi am y Tad.

26 Y dydd hwnnw y gofynnwch yn fy enw, ac nid wyf yn dywedyd i chwi y gweddiaf ar y Tad troſoch.

Ioan.17.8.

27 Canys y Tâd a'ch câr chwi, am i chwi fyng-haru i, a chredu fy * nyfod oddi wrth Dduw.

28 Daethum allan oddi wrth y Tad, a daethym i'r bŷd: trachefn yr wyf yn gadel y bŷd, ac yn myned at y Tâd.

29 Ei ddiſcyblion a ddywedaſant wrtho wele, yr wyt yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid ydwyt yn dywedyd un ddammeg.

30 Yn awr y gwyddom, y gwyddoſt bôb peth oll, ac nad rhaid i ti, ymofyn o neb a thi: trwy hyn y credwn ddyfod o honot oddi wrth Dduw.

31 A'r Jeſu a'u hattebodd hwynt, a ydych chwi yn credu yn awr.

32 Wele yr awr yn dyfod, ac hi a ddaeth euſus, pã i'ch gwaſcerir bawb at yr eiddo, ac chwi a'm gadewch fi yn unic, ac etto nid unic wyf, am fod y Tad gyd â mi.

33 Y pethau hyn a ddywedais wrthych i gael o honoch dangneddyf ynof, gorthrymder a gewch yn y bŷd, eithr cymmerwch gyſur, myfi a orchfygais y byd. ☜

## PEN. XVII.

Gweddi Criſt at Dduw Tad yn gyntaf am ogoniant iw ehw. 9 Yna drôs ei ddiſcyblion. 20 A thros yr holl eglwys.

Y Pethau hyn a lefarodd yr Jeſu, ac efe a gododd ei lygaid i'r nef, ac a ddywedodd, Y Tâd, daeth yr awr, gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithe.

2 Fel y rhoddaiſt iddo feddiãt ar bôb cnawd, i roddi o honaw ef fywyd tragywyddol i bôb un a'r a roddaiſt iddo.

3 A hyn yw'r bywyd tragywyddol, dy adnabod ti yn unic wîr Dduw, a'r hwn a anfonaiſt ti, Jeſu Criſt.

4 Mi a'th ogoneddais di ar y ddaiar, mi a gwblheais y gwaith a roddaiſt i'm iw wneuthur.

5 Ac yr awrhon gogonedda fi (ô Dâd) gyd â thi dy hun, â'r gogoniant yr hwn oedd i mi gyd â thi cyn bôd y bŷd.

6 Eglurais dy enw i'r dynion, a ddodaiſt i mi o'r bŷd: eiddot ti oeddynt, ac i mi y dodaiſt hwynt, a hwy a gadwaſant dy air di.

7 Yr awr hon y gwyddant, fod y pethau oll a roddaiſt i mi oddi wrthit ti.

Ioan.16.27.

8 Canys y geiriau a roddaiſt i mi a roddais iddynt, y rhai a gymmeraſant hwy, ac a ŵyddant yn wîr ddyfod * o honof oddi wrthit ti, ac a gredâſant mai tydi a'm hanfonodd.

9 Troſtynt hwy yr ŵyf fi yn gweddio, nid tros y bŷd yr wyf yn gweddio, ond tros y rhai a roddaiſt i mi, canys eiddot ydynt.

10 A'r eiddofi oll ſydd eiddot ti, a'r eidot ti ſydd eiddofi, ac mi a ogoneddwyd ynddynt.

11 Ac nid ŵyf mwyach yn y bŷd, ond y rhai hyn ſydd yn y bŷd, a myfi ſydd yn dyfot attat y Tâd ſancteiddiol, cadw drwy dy enw, y rhai a roddaiſt i mi, fel y byddont un megis ninnau.

Ioan.18.9.
Pſal.109.8.
act.1.1.16.

12 Tra fum gyd â hwynt yn y bŷd, mi a'u cedwais yn dy enw: y rhaî a roddaiſt i mi a gedwais, *ac ni chollwyd un o honynt, ond mab y cyfyrgoll, er cyflawni yr ſcrythur.

13 Yr awr hon yr ydwyf yn dyfod attat, a'r pethau hyn yr wyf yn eu llefaru yn y byd, i gael o honynt fy llawenydd yn gyflawn ynddynt.

14 Dodais iddynt dy air, a'r bŷd ai caſâodd, am nad ydynt o'r bŷd, fel nad wyf finne o'r bŷd.

15 Nid wyf yn gweddio ar i ti eu tynnu hwynt o'r bŷd, eithr ar i ti eu cadw hwynt rhag y Drwg.

16 Nid ynt hwy o'r bŷd, megis ac nid wyf finne o'r byd.

17 Sancteiddia hwynt â'th wirionedd, dy air yw'r gwirionedd.

18 Fel yr anfonaiſt fi i'r bŷd, felly yr anfonais i hwythau i'r bŷd.

19 Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy ſancteiddo fy hun, fel y byddo hwynt wedi eu ſancteiddio yn y gwirionedd.

20 Nid troſtynt hwy yn vnic yr wyf yn gweddio, eithr tros y rhai hefyd a gredant ynof trwy eu hymmadrodd hwynt.

21 Fel y byddant oll yn vn, fel yr wyt ti y Tâd ynof fi a minne ynot ti, fel y byddont hwythau yn vn ynom ni, fel y credo y bŷd mai dy di a'm hanfonodd i.

22 Ac mi a roddais iddynt hwy y gogoniant a roddaiſt i mi, fel y byddont vn megis yr ydym ni vn.

23 Myfi ynddynt hwy, a'thithe ynof fi, fel y bônt berffaith yn vn: fel y gŵybyddo y bŷd mai tydi a'm hanfonodd: a'th fod ti yn eu caru hwynt, megis y ceraiſt fi.

24 Y Tâd, ewyllyſio yr wyf, am y rhai a roddaiſt ti i mi, eu bôd hwy gyd â mi lle y bwyf fi, fel y gwelant fyng-ogoniant a roddaiſt i mi, canys ceraiſt fi cyn ſeiliad y bŷd.

25 Tâd cyfiawn, nid adnabu y bŷd mo honot, eithr mi a'th adnabum, a'r rhai hyn a ŵybuant mai dy di a'm hanfonodd i.

26 Mi a yſpyſais iddynt dy enw, ac a'i yſpyſaf: fel y byddo y cariad â'r hwn y ceraiſt fi ynddynt hwy, a minne ynddynt hwy.

## PEN XVIII.

Bradychiad Criſt. 10 Cleddyf Petr. 17 Petr yn gwadu Griſt, Pilat yn ymreſymmu â'r Iddewon, ac â Criſt.

*Yr Efengyl y dydd gwener neſaf o flaen y Paſc.*
Math.26.36. marc.14.32. luc.22.39.

☞ GWedi * i'r Ieſu ddywedyd y geiriau hyn, efe a aeth allan a'i ddiſcyblion tros afon Cedron, lle yr oedd gardd, i'r hon yr aeth efe a'i ddiſcyblion.

2 Ac Iudas hefyd yr hwn a'i bradychodd ef a adwaene y lle hwnnw, canys mynych y cynniweraſe yr Ieſu a'i ddiſcyblion yno.

3 Ac Iudas (wedi iddo gael byddin [atto,] a ſwyddogion gan yr arch-offeiriaid a'r Phariſæaid) a ddaeth yno â * lanternau, â ffaglau, ac arfau. Math.26.47. mar.14.43. luc.22.47.

4 A'r Ieſu yn gŵybod pob peth a ddele iddo, a aeth allan, ac a ddywedodd wrthynt: pwy yr ydych yn ei geiſio?

5 Hwy a attebaſant iddo, Ieſu o Nazareth yr Ieſu a ddywedodd wrthynt: myfi yw [hwnnw,] ac yr oedd Iudas hefyd yr hwn a'i bradychodd ef yn ſefyll gyd â hwynt.

6 A chyn-gynted, ac y dywedodd efe wrthynt, myfi yw [hwnnw,] hwy a aethant yn ŵyſc eu cefnau, ac a ſyrthiaſant i lawr.

7 Yr ail waith efe a ofynnodd iddynt, pwy yr ydych yn ei geiſio? hwythau a ddywedaſant, Ieſu o Nazareth.

8 Yr Ieſu a attebodd, dywedais wrthych mai fy fi yw [hwnnw,] gan hynny, os myfi a geiſiwch, gedwch i'r rhain fyned ymmaith.

9 Er cyflawni y gair yr hwn a ddywedaſe efe, o'r rhai hyn a roddaiſt i mi, ni chollais vn. Ioan 17.12.

10 Eithr Simon Petr yr hwn oedd a chleddyf ganddo, a'i tynnodd, ac a darawodd wâs yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ei gluſt ddehau ef. ac enw y gwâs oedd Malchus.

11 A'r Ieſu a ddywedodd wrth Petr, dôd dy gleddyf yn y wain, y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yfaf o hwnnw?

12 Yna y fyddin, a'r penciwdod, a ſwyddogion yr Iddewon a ddaliâſant yr Ieſu, ac a'i rhwymâſant ef:

13 Ac hwy a'i dugaſant at Annas, canys (chwegrwn Caiphas yr hwn oedd arch-offeiriad y flwyddyn honno) ydoedd efe.

14 * Caiphas hefyd oedd yr hwn a gynghoraſe i'r Iddewon, mai angenrheidiol oedd farw vn dŷn tros y bobl. Ioan.11.50.

15 A *Simon Petr a diſcybl arall oedd yn canlyn yr Ieſu: a'r arch-offeiriad a adwaene y diſcybl hwnnw, ac efe a aeth i mewn gyd â'r Ieſu i neuadd yr arch-offeiriad. Math.26.57. marc.14.54. luc.22.54.

16 A Phetr a ſafodd allan wrth y drws, a'r diſcybl arall a aeth allan yr hwn oedd adnabyddus i'r arch-offeiriad, ac a ymddiddanodd â'r dryſores, ac a ddug Petr i mewn.

17 Yna y dywedodd y llangces yr hon oedd borthores wrth Petr, onid wyt tithe yn vn o ddiſcyblion y dŷn ymma? ac efe a ddywedodd: nac wyf.

18 A'r gweiſion a'r gweinidogion oeddynt yn ſefyll yno wedi gwneuthur tân glô, ac yn ymdwymno, canys oer ydoedd hi, ac yr oedd Petr yn ſefyll yn ymdwymno gyd â hwynt hefyd.

19 A'r arch-offeiriad a ofynnodd i'r Ieſu am ei ddiſcyblion, ac am ei athrawiaeth.

20 A'r Ieſu a attebodd iddo: myfi a leferais ar oſteg yn y bŷd, myfi a athrawiaethais yn oeſtadol yn y ſynagog, ac yn y Deml, lle y dele yr Iddewon oll yng-hŷd, ac ni ddywedais ddim yn guddiedig,

21 Paham yr ydwyt yn gofyn i mi? gofyn i'r rhai a'm clywſāt, beth a ddywedais wrthynt, wele hwy a ŵyddant beth a ddywedais i.

22 Wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, vn o'r gweinidogion a'r a oedd yn ſefyll ger llaw a gernodiodd yr Ieſu, gan ddywedyd: ai felly yr wyt ti yn atteb yr arch-offeiriad?

23 A'r Ieſu a attebodd iddo, os dywedais yn ddrŵg, teſtiolaetha o'r drŵg, ac os da, paham yr wyt yn fy nharo i?

24 Ac Annas a'i hanfonaſe ef yn rhwym at Caiphas yr arch-offeiriad.

25 A * Simon Petr oedd yn ſefyll, ac yn ymdwymno, ac hwy a ddywedaſant wrtho, onid wyt tithe vn o'i ddiſcyblion ef? yntef a wadodd, ac a ddywedodd: nag wyf. Math.26.66. marc.14.54. luc.22.55.

26 Yna vn o weiſion yr arch-offeiriad câr i'r hwn y torraſe Petr ei gluſt a ddywedodd, oni welais i di gyd ag ef yn yr ardd?

27 A Phetr a wadodd trachefn, ac yn y man y canodd y ceiliog.

28 Yna y * dugâſant yr Ieſu oddi wrth Math 27.1. marc.15.1. luc.23.1.

Caiphas i'r dadleu-dŷ, a'r boreu ydoedd, ac nid aethant hwy i mewn i'r dadleu-dŷ rhag eu hologi, fel y gellent fwytta y Paſc.

29 Yna Pilat a aeth allan attynt, ac a ddywedodd: pa achwyn ſydd gennwch yn erbyn y dŷn hwn?

30 Hwy a attebaſant, ac a ddywedaſant wrtho, oni bai ei fod efe yn ddrwg-weithudd, ni ddodaſem ni ef attat ti.

31 Am hynny y dywedodd Pilat wrthynt, cymmerwch chwi ef, a bernwch ef wrth eich cyfraith chwi, yna yr Iddewon a ddywedaſant wrtho, nid rhydd i ni ladd neb.

Math.20.19. 32 Fel y cyflawnid gair yr Ieſu, yr hwn a ddywedaſe, i arwyddo o ba angeu y bydde efe farw.

Math.27.11. marc.15.2. luc.23.3. 33 A * Philat a aeth eil-waith i'r dadleu-dŷ, ac a alwodd yr Ieſu, ac a ddywedodd wrtho: ai ti yw Brenin yr Iddewon?

34 Yr Ieſu a attebodd iddo: ai o honot dy hun yr ydwyt yn dywedyd hyn? ai eraill a'i mynagaſant i ti am danafi?

35 Pilat a attebodd, ai Iddew wyfi? dy genedl dy hun, a'r arch-offeiriaid a'th ddodaſant i mi: beth a wnaethoſt di?

36 Yr Ieſu a attebodd: nid yw fy mrenhiniaeth o'r bŷd hwn, pette fy mrehiniaeth i o'r byd hwn, fyng-waſanaethwŷr i a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iddewon. Ond yn awr nid yw fy mrenhiniaeth oddi ymma.

37 Yna y dywedodd Pilat, wrth hynny ai brenin wyt ti? yr Ieſu a attebodd, tydi ydwyt yn dywedyd mai brenin wyfi: er mwyn hyn i'm ganed, ac er mwyn hyn y daethym i'r bŷd i ddwyn teſtiolaeth i'r gwirionedd: pwy bynnac ſydd o'r gwirionedd ſydd yn gwrando fy lleferydd.

38 Pilat a ddywedodd wrtho, beth yw gwirionedd? ac wedi iddo ddywedyd hyn efe a aeth allan eil-waith at yr Iddewon, ac a ddywedodd wrthynt: nid wyfi yn cael dim achos ynddo ef.

Math.27.15. marc.15.6. luc.23.17. 39 Y * mae gennwch chwi ddefod, i mi ollwng i chwi vn yn rhydd y Paſc, felly a ewyllyſiwch i mi ollwng yn rhydd i chwi Frenin yr Iddewon?

40 Yna y llefaſant eil-waith oll gan ddywedyd, nid hwn, ond Barabbas: a'r Barabbas hwnnw oedd leidr.

## PEN. XIX.

Curo, a gwatwar yr Ieſu. 9 Wedi i Pilàt holi Criſt, a'r Iddêwon, efe a ddododd Criſt iddynt iw groeſ-hoelio, 24 Bwrw coel-brennau am ei wiſc ef. 26 Efe yn cynghori Mair ei fam ac Ioan efangylwr. 30 Dioddefaint Criſt, 38 A'i gladdedigaeth.

Math.27.27. mar,15.17. YNa y cymmerodd * Pilat yr Ieſu, ac a'i fflanghellodd ef.

2 A'r mil-wŷr a blethaſant goron o ddrain, ac a'i goſodaſant ar ei ben, ac a roeſant gochlwiſc o borphor am dano,

3 Ac a ddywedâſant: henffych well, Brenin yr Iddewon, ac a roeſant iddo gernodiau.

4 A Philat a aeth allan trachefn attynt, ac a ddywedodd wrthynt: wele, yr wyfi yn ei ddwyn ef allan i chwi, fel y gwypoch nad wyfi yn cael ynddo ef vn bai.

5 Yna yr aeth yr Ieſu allan, yn arwain coron o ddrain a'r wiſc borphor, a [Philat] a ddywedodd wrthynt, wele y dŷn.

6 Yna yr arch-offeiriaid a'r ſwyddogiō pan welſant ef, a lefâſant gan ddywedyd: croeſ-hoelia, croeſ-hoelia ef: Pilat a ddywedodd wrthynt: cymmerwch chwi ef, a chroeſ-hoeliwch canys nid wyfi yn cael ynddo vn bai.

7 Yr Iddewon a attebaſant iddo, y mae gennym ni gyfraith, ac wrth ein cyfraith ni efe a ddyle farw, am iddo ei wneuthur ei hun yn Fab Duw.

8 A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, efe a ofnodd yn fwy:

9 Ac a aeth trachefn i'r dadleu-dŷ, ac a ddywedodd wrth yr Ieſu: o ba le yr wyt ti: ond ni roes yr Ieſu atteb iddo.

10 Yna Pilat a ddywedodd wrtho, oni ddywedi di wrthif fi? oni wyddoſt di fod i mi awdurdod i'th groeſ-hoelio di, ac awdurdod i'th ollwng?

11 Yr Ieſu a attebodd, ni bydde i ti ddim awdurdod arnafi oni bai ei ddodi i ti oddi vchod: am hynny y neb a'm rhoddes i ti, ſydd yn fwy ei bechod.

12 O hynny allan y ceiſiodd Pilat ei ollwng ef yn rhydd: a'r Iddewon a lefaſant gan ddywedyd, os gollyngi di hwn, nid wyt ti yn garedig i Cæſar: pwy bynnac a'i gwnel ei hun yn frenin, y mae efe yn dywedyd yn erbyn Cæſar.

13 Pan glybu Pilat yr ymadrodd hwn, efe a ddug allan yr Ieſu, ac a eiſteddodd ar yr orſedd-faingc yn y lle a elwir Lithoſtrotos, ac yn Hebriw Gabbatha.

14 A darparwyl y Paſc oedd hi, yng-hylch y chweched awr, ac efe a ddywedodd wrth yr Iddewon, wele eich Brenin.

15 Hwythau a lefâſant, ymmaith ag ef, ymmaith ag ef, croeſ-hoelia ef, Pilat a ddywedodd wrthynt: a groeſ-holiaf fi eich Brenin chwi? a'r arch-offeiriaid a attebaſant, nid oes i ni vn brenin ond Cæſar.

16 Yna efe a'i dodes ef iddynt iw groes-hoelio, ac * hwy a gymmeraſant yr Ieſu, ac a'i dugaſant ymmaith. Math.27.31. marc.15.20. luc.23.26.

17 Ac efe gan ddwyn ei groes a ddaeth i le a elwid y Benglogfa, ac a elwir yn Hebriw Golgatha.

18 Lle y croeſ-hoeliaſant ef a dau eraill, vn o bôb tu, a'r Ieſu yn y canol.

19 A Philat a ſcrifennodd y titl, ac a'i dododd ar y groes, a'r hyn a ſcrifennaſid oedd, IESV O NAZARETH, BRENIN YR IDDEWON.

20 A llawer o'r Iddewon a ddarllenaſant y titl hwn, canys agos i'r ddinas oedd y lle y croeſ-hoeliaſid Ieſu: ac yr oedd wedi ei ſcrifennu yn Hebriw, Groeg a Lladin.

21 Yno arch-offeiriaid yr Iddewon a ddywedâſant wrth Pilat, na ſcrifenna, Brenin yr

Iddewon, eithr ei fod yn dywedyd, Brenin yr Iddewon ydwyfi.

22 Pilat a attebodd, yr hyn a ſcrifennais a ſcrifennais.

Math.27.35. marc.15.24. luc.23.33.

23 A'r * mil-wŷr pan ddarfu iddynt groeſhoelio yr Ieſu, a gymmeraſant ei ddillad (ac a'i gwnaethant yn bedair rhann i bôb milwr) a'i bais ef: a'i bais oedd ddi-wnïad, wedi ei gwëu o'r cwr vchaf oll.

24 Ac hwy a ddywedâſant yn eu plith eu hun: na thorrwn hi, ond bwriwn goel-brennau pwy a'i caiff hi: i gyflawni yr ſcrythur gan ddywedyd, * Hwy a rannâſant fy nillad iddynt, a'm fy mhais y bwriâſant goelbrennau: a'r mil-wŷr a wnaethant hyn.

Pſal.22.18.

25 Ac yr oedd yn ſefyll wrth groes yr Ieſu, ei fam ef, a chwaer ei fam, a Mair Cleophas, a Mair Fagdalen.

26 A phan welodd Ieſu ei fam a'r diſcybl yr hwn a gare efe yn ſefyll ger llaw, efe a ddywedodd wrth ei fam, ô wraig, wele dy fab.

27 Ac wedi hynny y dywedodd wrth y diſcybl: wele dy fam, ac o'r awr honno y cymmerodd y diſcybl hi iw gartref.

28 Yn ôl hynny pan ŵybu yr Ieſu fod pob peth wedi ei derfynu: er cyflawni * yr ſcrythyrau, efe a ddywedodd, y mae ſyched arnaf.

Pſal.69.22.

29 Ac yr oedd lleſtr wedi ei oſod yn llawn o finegr, a hwy a lanwâſant ſpong o finegr, ac a'i rhoddaſant yng-hylch Yſop, ac a'i dodaſant wrth ei enau ef.

30 Ac wedi i'r Ieſu gymmeryd y finegr efe a ddywedodd, gorphennwyd, a chan ogwyddo ei ben efe a rhoddes i fynu yr yſpryd.

31 A'r Iddewon, rhag aros o'r cyrph ar y groes drôs y Sabboth, (canys darpar-ŵyl y Paſc ydoedd hi, a mawr oedd y Sabboth hwnnw) a ddeiſyfiaſant ar Pilat gael torri eu heſcciriau hwynt, a'i tynnu i lawr.

32 Yna y mil-wŷr a ddaethant, ac a dorraſant eſceiriau y cyntaf, a'r llall yr hwn a groeſhoeliaſid gyd ag ef.

33 Eithr pan ddaethant at yr Ieſu a'i weled wedi marw euſys, ni thorraſant ei eſceiriau ef.

34 Ond vn o'r mil-wŷr a frathodd ei yſtlys ef â gwaiw-ffon, ac yn y fan gwaed a dwfr a ddaeth allan.

35 A'r hwn a'i gwelodd ſydd yn teſtiolaethu, a gwir yw ei deſtiolaeth ef, ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwithau.

Exod.12.46. num.9.12.

36 Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr ſcrythur. * Ni ddryllir aſcwrn o honaw ef.

Zach.12.10.

37 Ac eil-waith ſcrythnr arall ſydd yn dywedyd. * Hwy a edrychant ar yr hwn a wanâſant.

Math.27.57. marc.15.42. luc.23.50.

38 Ac * yn ôl hyn Ioſeph o Arimathæa, (yr hwn oedd ddiſcybl i'r Ieſu, eithr yn guddiedic rhag ofn yr Iddewon, a ddeiſyfiodd ar Pilat gael tynnu i lawr gorph yr Ieſu: a Philat a gennadhâodd iddo. Yna y daeth efe, ac a ddug ymmaith gorph yr Ieſu.

Ioan.3.2.

39 Ac fe ddaeth Nicodemus hefyd yr hwn yn gyntaf a * ddaethe at yr Ieſu o hŷd nos, ac a ddug Myrr, ac Aloes yng-hymmyſc, tu a chan-pwys.

40 Yna y cymmeraſant gorph yr Ieſn, ac a'i rhwymaſant mewn llieiniau gyd ag aroglau, fel y mae arfer yr Iddewon i gladdu.

41 Ac yn y fangre lle y croeſ-hoeliaſid ef yr oedd gardd, a bedd newydd yn yr ardd, yn yr hwn ni ddodaſid dŷn er ioed.

42 Ac yno, rhag neſed oedd darpar-ŵyl yr Iddewon, (am fod y bedd hwnnw yn agos,) y rhoddaſant yr Ieſu. ☜

## PEN. XX.

Mair Magdalen, ac Ioan a Phetr yn dyfod ar y bedd. 12 Cyſur yr angelion iddynt. 14 Ieſu yn ymddangos i Fair Fagdalen. 19 Ac i'r diſcyblion ddwy-waith, gan gadarnhau ffydd Thomas y waith olaf.

*Yr Efengyl ddydd y Paſc.*

Marc.16.1. luc.24.11.

☞ AR * dydd cyntaf o'r Sabboth, Mair Magdalen a ddaeth y borau, ac hi eto yn dywyll at y bedd, ac a weles y maen wedi ei dreiglo oddi ar y bedd.

2 Yna y rhedodd hi, ac a ddaeth at Simon Petr, a'r diſcybl arall yr hwn yr oedd yr Ieſu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, hwy a ddygâſant yr Arglwydd o'r bedd, ac mi ŵyddom ni pa le y goſodaſant ef.

3 Yna Petr a aeth allan, a'r diſcybl arall, ac hwy a ddaethant at y bedd.

4 Ac a redâſant ill dau ar vn-waith, a'r diſcibl arall a redodd o flaen Petr, ac a ddaeth yn gyntaf at y bedd.

5 A phan grymmodd, efe a ganfu y llieiniau wedi eu goſod, ac er hynny nid aeth efe i mewn.

6 Yna y daeth Simon Petr gan ei ganlyn ef, ac a aeth i mewn i'r bedd, ac a ganfu y lliain wedi ei oſod [yno,]

7 A'r foled yr hon oedd am ei ben ef, heb fod gyd â'r lliain, ond o'r naill-du wedi ei phlygu mewn lle arall.

8 Yna yr aeth y diſcybl arall i mewn hefyd, yr hwn a ddaethe yn gyntaf at y bedd, ac a welodd, ac a gredodd.

9 Canys hyd yn hyn ni ŵyddent yr ſcrythur, ſef bod yn rhaid iddo gyfodi i fynu oddi wrth y meirw.

10 A'r diſcyblion a aethant eil-waith adref. ☜

Math.28.1. marc.16.5.

11 Ond Mair a ſafodd yn ŵylo wrth y bedd oddi allan, ac fel yr oedd hi yn ŵylo hi a ymoſtyngodd i'r bedd:

12 Ac a welodd ddau angel mewn [gwiſcoedd] gwynnion yn eiſtedd, vn wrth ben, a'r llall wrth draed, lle y dodaſid corph yr Ieſu.

13 Hwy a ddywedaſant wrthi, ô wraig, pa ham yr ŵyli? a hi a ddywedodd wrthynt: am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd, ac ni wn pa le y dodaſant ef.

14 Ac wedi dywedyd o honi hyn, hi a droes

drach ei chefn, ac a welodd yr Ieſu yn ſefyll, ac ni ŵydde hi mai yr Ieſu oedd efe.

15 Yr Ieſu a ddywedodd wrthi, ô wraig pa ham yr ŵyli? pwy yr wyt yn ei geiſio? hithe yn tybied mai gardd-wr oedd efe, a ddywedodd wrtho: arglwydd os dy di a aethoſt ag ef ymmaith, dywet i mi pa le y dodaiſt ef, a mi a'i codaf ef ymmaith.

16 Yr Ieſu a ddywedodd wrthi, Mair: hithe a droes, ac a ddywedodd wrtho, Rabboni yr hyn ſydd gymmaint a phe dywedid, Athro.

17 Yr Ieſu a ddywedodd wrthi: na chyffwrdd â mi, o blegit na dderchefais etto at fy Nhâd, eithr dos at fy mrodyr a dywet wrthynt, yr wyf yn derchafu at fy Nhâd i a'ch Tâd chwithau, a'm Duw i, a'ch Duw chwithau.

18 Mair Magdalen a ddaeth gan fynegu i'r diſcyblion, weled o honi hi yr Arglwydd, a dywedyd o honaw ef hyn wrthi hi.

*Yr Efengyl y Sul cyntaf ar ôl y Paſc.*
Mar.16.14.
Luc.24.36.
1.Cor.15.5.

19 ☞ Yna *pan aeth hi yn hwyr y dydd cyntaf hwnnw o'r Sabboth, yr oedd y diſcyblion wedi ymgaſclu yng-hŷd a'r drysau yn gaead rhag ofn yr Iddewon, yr Ieſu a ddaeth, ac a ſafodd yn eu plith, ac a ddywedodd wrthynt: Tangneddyf i chwi.

20 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangoſodd iddynt ei ddwylaw, a'i yſtlys, yna wrth weled yr Arglwydd, y diſcyblion a lawenhychâſant.

21 Yna y dywedodd yr Ieſu wrthynt eil-waith, Tangneddyf i chwi, megis y danfonodd fy Nhâd fi, felly yr ydwyf finne yn eich anfon chwithau.

22 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anhedlodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt. Cymmerwch yr Yſpryd glân.

Math.18.18.

23 I bwy bynnac y *maddeuoch eu pechodau, maddeuwyd iddynt, i bwy bynnac yr attalioch, hwy a attaliwyd.☜

*Yr Efengyl ar ddie-gwyl Thomas.*

24 ☞Eithr Thomas vn o'r deuddec yr hwn a elwir Didimus nid oedd gyd â hwynt, pan ddaethe yr Ieſu.

25 A'r diſcyblion eraill a ddywedaſant wrtho: ni a welſom yr Arglwydd: yntef a ddywedodd wrthynt, oni welwyf yn ei ddwylaw ôl yr hoelion, a dodi fy mŷs yn ôl yr hoelion, a dodi fy llaw yn ei yſtlys ef, ni chredaf fi.

26 Ac ar ben yr wyth niwrnod, yr oedd ei ddiſcyblion ef i mewn eil-waith, a Thomas gyd â hwynt, yr Ieſu a ddaeth a'r drysau yn gaead, ac a ſafodd yn eu canol, ac a ddywedodd, Tangneddyf i chwi.

27 Wedi hynny y dywedodd efe wrth Thomas, moes ymma dy fŷs, a gwêl fy nwylaw, ac eſtyn dy law, a dôd yn fy yſtlys, ac na fydd anghredadyn, ond credâdyn.

28 A Thomas a attebodd, ac a ddywedodd wrtho: fy Arglwydd a'm Duw.

29 Yr Ieſu a ddywedodd wrtho: Thomas, am i ti weled y credaiſt: bendigedic yw y rhai ni welſant, ac a gredâſant.

Ioan.21.25.

30 A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Ieſu yng-ŵydd ei ddiſcyblion, y rhai nid ynt ſcrifennedic yn y llyfr hwn.

31 Eithr y pethau hyn a ſcrifennwyd fel y credech fod Ieſu Griſt yn Fab Duw, ac i chwi gan gredu, gael bywyd trwy ei enw ef.☜

## PEN. XXI.

Y diſcyblion yn pyſcotta yn ofer nes ymddangos o Griſt iddynt, ac yn pyſcotta wrth archiad Criſt, ac yn ffynnu, 13 yr Ieſu yn torri y bara a'r pyſcod, 15 Ieſu yn gorchymyn porthi ei ddefaid, 18 ac yn dangos i Betr y bydde raid iddo ddioddef hefyd, 20 Geiriau Criſt a Phetr yng-hylch Ioan Efengyl-wr.

GWedi hynny yr ymddangoſodd yr Ieſu eil-waith iw ddiſcyblion wrth fôr Tiberias: ac fel hyn yr ymddangoſodd.

2 Simon Petr a Thomas, hwn a elwir Didymus, a Nathanael yr hwn oedd o Cana yn Galilæa, a [meibion] Zebedêus a dau eraill o'i ddiſcyblion ef oeddynt yng-hŷd.

3 A dywedodd Simon Petr wrthynt, mi a âf i byſcotta: hwythau a ddywedaſant, ninnau a awn gyd â thi, ac hwy a aethant, ac yn y man hwy a ddringâſant i'r llong, ac ni ddaliaſant hwy ddim y nôs honno.

4 Ac yn awr wedi dyfod y borev, yr Ieſu a ſafodd ar y lann: ond ni ŵydde y diſcyblion mai Ieſu ydoedd.

5 Yna Ieſu a ddywedodd wrthynt, ô blant a oes gennwch ddim bwyd? attebaſant iddo, nac oes.

6 Yntef a ddywedodd wrthynt, bwriwch allan y rhwyd i'r tu dehau i'r llong, a chwi a gewch, felly y bwriaſant allan, ac ni allent ei thynnu rhag maint lliaws y pyſcod.

7 Yna y dywedodd y diſcybl yr hwn yr oedd Ieſu yn ei garu wrth Petr: yr Arglwydd yw efe, yna Simon Petr pan glybu mai yr Arglwydd oedd, a wregyſodd ei amwiſc (canys noeth oedd efe,) ac a'i bwriodd ei hun i'r môr.

8 Eithr y diſcyblion eraill a ddaethant mewn llong, (o blegit nid oeddynt bell oddi wrth dir ond yng-hylch dau-cant cufydd) dan dynnu y rhwyd [yn llawn] pyſcot,

9 A chyn gynted y daethant i dir, hwy a welent farwar a phyſcod wedi eu dodi arnynt, a bara.

10 Yr Ieſu a ddywedodd wrthynt, Moeſwch ymma [rai] o'r pyſcod a ddaliaſoch yr awron.

11 Simon Petr a eſcynnodd, ac a dynnodd y rhwyd i dir yn llawn o byſcod mawrion, cant a thri ar ddêc a deugain, ac er bod cymmaint, ni thorodd y rhwyd.

12 Yr Ieſu a ddywedodd wrthynt, dewch ciniewch, ac ni feiddie vn o'r diſcyblion ofyn iddo, pwy wyt ti? am eu bod yn gŵybod mai yr Arglwydd oedd efe.

13 Yna y daeth yr Ieſu, ac a gymmerth fara, ac a'i dodes iddynt, a'r pyſcod yr vn modd.

14 Dymma yr awr hon y drydedd waith yr ymddangoſod Ieſu iw ddiſcyblion, wedi iddo

adgyfodi o feirw.

15 Ac wedi iddynt giniâwa, Jeſu a ddywedodd wꝛth Simon Petr, Simon [Mab] Jona, a wyt ti yn fyng-haru i, yn fwy nag y[mae] y rhai hyn? efe a ddywedodd, ydwyf, Arglwydd: ti a ŵyddoſt y caraf di: yna y dywedodd wꝛtho, poꝛtha fy ŵyn.

16 Ac efe a ddywedodd wꝛtho eil-waith, Simon [Mab] Jona, a wyt ti yn fyng-haru i? yntef a ddywedodd wꝛtho, ydwyf Arglwydd, ti a ŵyddoſt fy môd yn dy garu: efe a ddywedodd wꝛtho, poꝛtha fy nefaid.

17 Ac efe a ddywedodd wꝛtho y drydedd waith, Simon [Mab] Jona, a wyt ti yn fyng-haru i? [a] Phetr a dꝛiſtâodd, am iddo ddywedyd wꝛtho y drydedd waith, a wyt ti yn fyng-haru i? ac efe a ddywedodd wꝛtho: Arglwydd ti a ŵyddoſt bob peth, ti a ŵyddoſt y caraf di, Jeſu a ddywedodd wꝛtho: poꝛtha fy nefaid.

18 Yn wir, yn wir meddaf i ti, pan oeddit iangach, ti a ymwꝛegyſit, ac a rodiit lle mynnit, eithꝛ pan fych hên, ti a eſtynni dy ddwylaw, ac arall a'th wꝛegyſa, ac a'th arwain lle ni byddo ewyllys gennit.

19 A hyn a ddywedodd efe gan arwyddo, dꝛwy ba fath angeu y gogonedde efe Dduw, ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddywedodd wꝛtho, canlyn fi.

20 Yna y troes Petr, ac y gwelodd y diſcybl yꝛ hwn yꝛ oedd yꝛ Jeſu yn ei garu yn canlyn, yꝛ hwn hefyd *, a bwyſaſe ar ei fron ef ar ſwpper, ac a ddywedaſe: Arglwydd pwy yw hwnnw a'th fradycha di? Ioan.13.23.

21 Gan hynny pan welodd Petr hwn, efe a ddywedodd wꝛth Jeſu, Arglwydd, beth [am] hwn?

22 ☞ Yꝛ Jeſu a ddywedodd wꝛtho: os ewyllyſiaf iddo aros oni ddelwyf, beth [yw hynny] i ti? canlyn di fy-fi.

*Yr Efengyl ar ddigwy Ioan Efangyl-wr.*

23 Yna yꝛ aeth y gair hwn ym mhlith y bꝛodyꝛ, na fydde y diſcybl hwnnw farw: eithꝛ ni ddywedaſe Jeſu wꝛtho na fydde efe farw, ond, os ewyllyſiaf iddo aros oni ddelwyf, beth [yw hynny] i ti?

24 Dymma y diſcybl hwnnw, yꝛ hwn ſydd yn teſtiolaethu am y pethau hyn, ac a ſcrifennodd y pethau hyn, ac ni a ŵyddom fod ei deſtiolaeth ef yn wir.

25 Ac y mae hefyd lawer o bethau eraill a wnaeth yꝛ Jeſu, y rhai pe ſcrifennid bob yn vn, ac vn, nid wyf yn tybied y cynhwyſe y bŷd y llyfrau a ſcrifennid, Amen. ☜ Ioan.20.30.

*Terfyn y ſanctaidd Efengyl yn ôl S. Ioan.*

# Actau neu vveithredoedd yr Apoſtolion.

## PENNOD. I.

Geiriau Criſt a'i angelion wrth yr Apoſtolion, 9 derchafiad Criſt, 15 dewis Matthias.

*Yr Epyſtol ar ddigwyl y Derchafel.*

MI ☞ a orphennais y traethawd cyntaf ô Theophilus am yr holl bethau y rhai a ddechreuodd yr Jeſu eu gwneuthur a'u dyſcu,

2 Hyd y dydd y derbyniwyd ef i fyny, wedi iddo trwy yr Yſpꝛyd glân roddi gorchymyn i'r Apoſtolion y rhai a etholaſe efe.

3 I'r rhai, wedi iddo ef ddioddef yꝛ ymddāgoſodd efe yn fyw trwy lawer o arwyddion ſicer, gan fod yn weledig iddynt tros ddeugain nhiwꝛnod, ac yn ymddiddan yng-hylch pethau o deyꝛnas Dduw.

4 *Ac wꝛth gyttal â hwynt, efe a orchymynodd iddynt, nad elent ymmaith o Jeruſalem, eithꝛ diſgwil am addewid y Tâd, *yꝛ hwn (eb efe) a glywſoch gennifi. Luc.24.49. Ioan.14.25.

5 *Canys Ioan yn ddiau a fedyddiodd â dwfr, ond chwi a fedyddir â'r Yſpꝛyd glân cyn nemmawꝛ o ddyddiau. Pen.2.2. Math.3.11. Mar.1.8. Luc.3.16.

8 Am hynny wedi dyfod o honynt yng-hyd,

y gofynnaſant iddo gan ddywedyd: Arglwydd ai'r pryd hyn y rhoddi trachefn y frenhiniaeth i Iſrael?

7 Ac efe a ddywedodd wrthynt, ni pherthyn i chwi ẃybod yr amſeroedd na'r prydiau y rhai a oſodes y Tad yn ei feddiant ei hun.

Pen.2.2. 8 *Eithr chwi a dderbynniwch rinwedd yr Yſpryd glân, wedi y delo efe arnoch: a chwi a fyddwch dyſtion i mi yn Ieruſalem, ac yn holl Iudæa, a Samaria ac hyd eithafoedd y ddaiar.

Luc.24.51. 9 Ac *wedi iddo ddywedyd hyn, a hwynt wy yn edrych, y cyfodwyd ef i fynu, ac wybren a'i cymmerodd ef i fynu o'u golwg hwy.

10 Ac fel yr oeddynt yn tremmu yn graff tu a'r nef, ac efe yn myned, wele, dau ŵr a ſafaſant ger llaw iddynt mewn gwiſc wenn.

11 Y rhai a ddywedaſant: chwi wŷr o Galilæa, pa ham y ſefwch yn edrych tu a'r nef? yr Ieſu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fynu oddi wrthych i'r nef, a ddaw yr vn modd ac y gwelſoch ef yn myned i'r nef. ☜

12 Yna y troeſant i Ieruſalem o'r mynydd a elwir [mynydd] Olewydd yr hwn ſydd yn agos i Ieruſalem, ſef taith [diwrnod] Sabboth.

13 Ac wedi dyfod i mewn, yr aethant i'r lloft lle yr oeddynt hwy yn aros, ſef Petr, ac Iaco, ac Ioan, ac Andreas, Philip a Thomas, Bartholomew a Mathew, Iaco [mab] Alpheus, a Simon Zelotes, ac Iudas [brawd] Iaco.

14 A'r rhai hyn oll yn gytunol oeddynt yn parhau mewn gweddi ac ymbil, yng-hyd â'r gwragedd, ac â Mair mam Ieſu, a chyd â'i frodyr ef.

*Yr Epyſtol ar ddigwyl Matthias.* ☞ 15 A'r dyddiau hynny Petr yn cyfodi i fynu yng-hanol y diſcyblion a ddywedodd (ac yr oedd o rifedi pobl yn yr vn lle yng-hylch vgain [a] chant)

Pſal.41.9. Ioan.13.17. 16 Ha wŷr; frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni yr ſcrythur ymma, yr hon y rhagddywedodd *yr Yſpryd glân trwy enau Dafydd am Iudas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliaſant yr Ieſu,

17 Canys cyfrifwyd ef yn ein plith ni, ac efe a gawſe rann o'r weinidogaeth hon.

Math.27.5. 18 Ac efe a feddiannodd faes gobrwy anwiredd, ac *wedi ymgrogi efe a dorrodd yn ddwyran yn ei ganol, a'i holl ymyſcaroedd a dywalltwyd allan.

19 Ac y mae hyn yn eglur i holl breſſwylwŷr Ieruſalem, hyd oni elwir y maes hwn, â'u tafod priodol hwy, Aceldama, hyn yw, maes y gwaed.

Pſal.69.25. & 109.7. 20 Canys ſcrifennedic yw yn llyfr y Pſalmau, bydded ei drigfan ef yn ddiffaethwch, ac na *bydded a drigo ynddi, a chymmered arall ei eſcobaeth ef.

21 Am hynny y mae yn rhaid (o'r gwŷr a fu yn ein cymdeithas ni yr holl amſer yr aeth yr Arglwydd Ieſu i mewn ac allan yn ein plith ni,

22 Gan ddechreu o fedydd Ioan, hyd y dydd yn yr hwn y cymmerwyd ef i fynu oddi wrthym ni) bod vn gyd â ni yn dyſt o'i ailgyfodiad ef,

23 Ac hwy a oſodaſant ddau ger bron, Ioſeph yr hwn a henwid Berſabas ac a gyfenwid Iuſtus, a Matthias.

24 A chan weddio hwy a ddywedaſant: Tydi Arglwydd yr hwn a ẃyddoſt galônau pawb, dangos pa vn o'r ddau hyn a etholaiſt,

25 I dderbyn ſwydd y weinidogaeth hon, a'r Apoſtoliaeth o'r hon y cyfeiliornodd Iudas, i fyned iw le ei hun.

26 Ac hwy a fwriaſant goel-brennau, ac ar Matthias y ſyrthiodd y coel-bren, ac efe a gyfrifwyd gyd â'r vn Apoſtl ar ddêc. ☜

## PEN. II.

Yr Yſpryd glân yn dyfod ar ddull tafodau, 7 Gwelthred yr Yſpryd glân. 14 Petr yn atteb yn erbyn cabl-wyr yr Yſpryd. 41 Cynnydd yr eglwys: buchedd, ac ymddygiad y ffyddloniad.

☞ WEdi dyfod dydd y Pentecoſt yr oeddynt hwy oll yn gytun yn yr vn-lle. *Yr Epyſtol ar y Sulgwyn.*

2 Ac yn ddiſymmwth fe ddaeth ſwn o'r nef, fel gwth gwynt yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eiſtedd.

3 A thafodau gwahannedic a ymddangoſaſant iddynt fel tân, ac efe a eiſteddodd ar bob vn o honynt.

4 A hwy a gyflawnwyd oll â'r Yſpryd glân, ac a ddechreuaſant lefaru â thafodau eraill megis y rhoddes yr Yſpryd iddynt lefaru.

5 Ac yr oedd yn trigo yn Ieruſalem Iddewon bucheddol, o bob cenedl dann y nef.

6 Wedi myned y gair o hynn, y daeth lliaws yng-hyd, ac a ſynnodd, o blegit bod pawb yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei dafod-iaith ei hun.

7 Synnodd hefyd ar bawb, a rhyfeddu a wnaethant gan ddywedyd wrth ei gilydd, wele onid yw y rhai hyn oll ſy yn llefaru o Galilæa?

8 Pa wedd gan hynny yr ydym ni yn eu clywed hwynt, pawb yn ein tafod-iaith ein hunain yn yr hon ein ganed ni?

9 Pârthiaid, Mediaid, Elamidiad, a thrigolion Meſopotamia, ac Iudæa, a Chappadocia, a Phontus, ac Aſia,

10 Phrygia, a Phamphilia, yr Aipht, a rhannau Libya yr hon ſydd ger-llaw Cyrene, a dieithriaid o Rufein-wŷr, yn Iddewon, ac yn broſelytiaid,

11 Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym ni yn eu clywed hwynt yn traethu mawrion weithredoedd Duw, yn ein tafod-iaith ein hun. ☜

12 A hwy a ryfeddâſant eu gyd oll, ac a ſynnaſant gan ddywedyd y naill wrth y llall: beth a all hyn fod?

13 Ac eraill yn gwatwar a ddywedâſant, mai llawn o win mêlus oeddynt hwy.

14 Eithr Petr yn ſefyll gyd â'r vn ar ddêc, a gyfododd ei leferydd, ac a ddywedodd wrthynt, ô wŷr, Iddewon, a chwi oll ſydd yn trigo yn Ieruſalem bydded yſpyſol hyn i chwi, a chluſtymwrandewch â'm geiriau:

15 Canys nid yw y rhai hyn yn feddwon fel yr ydych chwi yn tybied, o blegit y drydedd awr o'r dydd yw hi.

16 Eithr dymma y peth a ddywetpwyd trwy y prophwyd * Ioel:

Ioel.2.18.
Eſai.24.3.

17 Ac fe fydd yn y dyddiau diweddaf (medd Duw) y tywalltaf o'm Hyſpryd ar bob cnawd, a'ch meibion a'ch merched a brophwydant, a'ch gwŷr ieuaingc a welant weledigaethau, a'ch hynaf-gwŷr a freuddwydiant freuddwydion.

18 Ac ar fyng-weiſion, ac ar fy llaw-forwynion y tywalltaf o'm Hyſpryd yn y dyddiau hynny, a hwy a brophwydant.

19 Ac mi a roddaf ryfeddodau yn y nef vchod, ac arwyddion yn y ddaiar iſod, gwaed, a thân, a tharth mwg.

20 Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed, cyn i ddydd mawr ac eglur yr Arglwydd ddyfod.

21 A bydd: pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd fydd yn gadwedic.

22 Ha wŷr Iſrael, clywch y geiriau hyn, Ieſu hwnnw o Nazareth gŵr profedic gan Dduw yn eich plith trwy weithredoedd nerthol, a rhyfeddodau, ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich myſc chwi, fel y gwyddoch chwi,

23 Hwn wedi ei roddi trwy derfynedic gyngor a rhagŵybodaeth Duw, a gymmeraſoch chwi: ac wedi i chwi trwy ddwylo anwir ei hoelio, a laddaſoch chwi.

24 Yr hwn a gyfodes Duw i fynu gan ryddhau gofidiau angeu, canys ammhoſſibl oedd i hwnnw ei attal ef.

25 O blegit Dafydd a ddywed am dano: *yr Arglwydd a welais ger fy mron yn oeſtad: ſef ar fy nehaulaw y mae fel na'm yſcoger.

Pſal.16.9.

26 Am hynny y llawenhâodd fyng-halon, ac y gorfoleddodd fy nhafod, ac y gorphywys fyng-nhawd hefyd mewn gobaith:

27 Am na adewi fy enaid yn vffern, ac na oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth.

28 Gwnaethoſt yn hyſpys i mi ffyrdd y bywyd: Ti a'm cyflawni o lawenydd â'th wyneb[pryd.]

29 Ha wŷr frodyr, mi a gaf yn hyf ddywedyd wrthych am y patriarch Dafydd, * ei farw ef, a'i gladdu, a bod ei feddrod gyd â ni hyd y dydd heddyw.

Pen.13.36.
1.Bren.2.10.

30 Am hynny ac efe yn brophwyd, ac yn gŵybod dyngu o Dduw * lw, mai o ffrwyth ei lwyn ef o herwydd y cnawd y cyfode efe Griſt i eiſtedd ar ei orſeddfa ef,

Pſal.132.11.

31 Ac efe yn gŵybod o'r blaen a ddywedodd am gyfodiad Criſt: na adawſid ei * enaid yn vffern, ac na welſe ei gnawd lygredigaeth:

Pen.13.55.
Pſal.16.10.

32 Yr Ieſu hwn a gyfododd Duw i fynu, i'r hyn yr ydym ni oll yn dyſtion.

33 Gan ei gyfodi ef fel hyn drwy ddehaulaw Dduw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid am yr Yſpryd glân, efe a dywalltodd yr hyn ymma a welwch, ac a glywch y pryd hyn.

34 O blegit ni dderchafodd Dafydd i'r nefoedd, ond y mae efe yn dywedyd ei hun, * yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheu-law,

Pſal.110.1.

35 Oni oſodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed.

36 Am hynny gwybydded holl dŷ Iſrael yn ddiogel ddarfod i Dduw ei wneuthur ef yn Arglwydd, ac yn Griſt, ſef yr Ieſu hwn a groeſhoeliaſoch chwi.

37 Wedi clywed y geiriau hyn y cydbigid hwy yn eu calonnau, ac y dywedâſant wrth Petr, a'r apoſtolion eraill, ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?

38 Yna y dywedodd Petr wrthynt: edifarhewch, a bedyddier pawb o honoch yn enw yr Ieſu Griſt er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Yſpryd glân.

39 Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant, i bawb ym mhell, pa rai bynnac a alwo yr Arglwydd ein Duw ni.

40 Ac â llawer o ymadroddion eraill y teſtiolaethodd ac y cynghorodd, gan ddywedyd, ymgedwch rhag y genhedlaeth anhydyn hon.

41 Am hynny y rhai a dderbyniaſant yn ewyllyſcar ei air ef, a fedyddiwyd, a chwannegwyd at [yr Eglwys] y dydd hwnnw ynghylch tair mil o eneidiau.

42 Ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth yr apoſtolion, â chymdeithas, ac yn torri bara, ac mewn gweddiau.

43 Ac ofn a gyfodes ar bawb, a llawer o ryfeddodau ac arwyddion a wnaethpwyd gan yr apoſtolion.

44 A phawb a'r a gredâſant oeddynt yn vn lle, a phob peth ganddynt yn gyffredin.

45 Ac hwy a werthâſant eu meddiannau, a'u da, ac a'u rhannaſant i bawb, fel yr oedd yr eiſieu ar neb.

46 Ac yr oeddynt yn parhau beunydd yn y Deml yn gytun, gan dorri bara o dŷ i dŷ, a chan gymmeryd bwyd mewn llawenydd, a ſymledd calon:

47 Gan foli Duw, a chael ffafor gan yr holl bobl, a'r Arglwydd a chwanegodd at yr Eglwys beunydd y rhai fyddent gadwedig.

## PEN. III.

Iachâad y cloff efrydd, 12 Petr yn pregethu Criſt.

PEtr hefyd ac Ioan a aethant i fynu i'r Deml yng-hyd, ar yr awr weddi, [ſef] y nawfed.

2 A rhyw ŵr, yr hwn oedd gloff o groth ei fam, a ddygid, yr hwn a ddodent beunydd wrth borth y Deml yr hwn a elwid [y porth] prydferth, i ofyn eluſen gan y rhai a elent i mewn i'r Deml.

3 A phan welodd efe Petr ac Ioan ar fyned i'r Deml, efe a ddeiſyfodd gael eluſen.

4 A Phetr yn dal ſulw arno gyd ag Ioan a ddywedodd: edrych arnom ni,

5 Ac efe a graffodd arnynt, gan obeithio derbyn rhyw beth ganddynt.

6 Yna y dywedodd Petr, arian ac aur nid oes gennif, eithr yr hyn ſydd gennif, hynny yr wyf yn ei roddi i ti: yn enw yr Ieſu Griſt o Nazareth, cyfot a rhodia.

7 A chan ei gymmeryd erbyn ei ddehaulaw efe a'i cyfododd ef i fynu, ac yn ebrwydd ei draed ef a'i fferau a gadarnhawyd.

8 A chan neidio i fynu efe a ſafodd, ac a rodiodd, ac a aeth gyd â hwy i'r Deml, gan rodio, a neidio, a moli Duw.

9 A'r holl bobl a'i gwelodd ef yn rhodio, ac yn moli Duw.

10 Ac yr oeddynt yn ei adnabod ef, mai efe oedd y neb a eiſteddaſe wrth borth prydferth y Deml am eluſen, ac hwy a lanwyd o ofn a ſynnedigaeth, am y peth a ddigwyddaſe iddo.

11 Ac fel yr oedd yr efrydd hwnnw a iachauſid, yn atal Petr ac Ioan, y rhedodd yr holl bobl yn ſynnedig attynt i'r porth a elwir [porth] Salomon.

12 A phan welodd Petr hyn, efe a attebodd y bobl, ô wŷr o Iſrael, paham yr ydych yn rhyfeddu am hyn? a phaham yr ydych yn hulldremmu arnom ni, fel pe trwy ein nerth neu ein duwioldeb ni y gwnaethem i hwn gerdded?

13 Duw Abraham, ac Iſaac, ac Iacob, * Duw ein tadau ni, a ogoneddodd ei Fab Ieſu, yr hwn a fradychaſoch chwi, ac a wadaſoch ger bron Pilat, pan farnodd efe ef iw ryddhau.

Pen.5.30.

14 Eithr chwi a wadaſoch y Sanct, a'r cyfiawn, ac a ddeiſyfiaſoch roddi i chwi wr [a oedd] yn llofrudd.

15 A chwi a laddaſoch dywyſog y bywyd, yr hwn a godes Duw o feirw, o'r hyn yr ydym ni yn dyſtion.

16 A thrwy ffydd yn ei enw ef, y nerthodd ei enw ef hwn, yr hwn a welwch, ac a adwaenoch: ſef y ffydd yr hon [ſydd] drwyddo ef, a roes iddo ef yr iechyd hwn yn eich gŵydd chwi oll.

17 Ac yn awr frodyr mi a wn i chwi wneuthur [hynny] trwy anwybod: fel y [gwnaeth] eich pendefigion chwi hefyd.

18 Eithr y pethau a ragfynegodd Duw trwy enau ei brophwydi oll, y dioddefe Criſt, a gyflawnodd efe fel hyn.

19 Am hynny edifarhewch, a dychwelwch, fel y deleuer eich pechodau, pan ddelo yr amſeroedd i orphywys o olwg yr Arglwydd,

20 A phan anfono efe Ieſu Griſt yr hwn a bregethwyd o'r blaen i chwi.

21 Yr hwn ſydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd yr amſeroedd yr adnewyddir pob peth, y rhai a ddywedodd Duw o'r blaen drwy enau ei holl ſanctaidd brophwydi ef er ioed.

22 * Canys Moſes a ddywedodd wrth y tadau, yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi brophwyd o'ch brodyr fel myfi: arno ef y gwrandewch ym mhob peth a ddyweto wrthych.

Pen.7.37.
Deut.18.15.

23 Canys bydd, pa enaid bynnac ni wrandawo ar y prophwyd hwnnw, efe a ddeſtruwir o blith y bobl.

24 A'r holl brophwydi hefyd o Samuel, ac o hynny allan, cynnifer ac a lefaraſant, a fynegaſant o'r blaen am y dyddiau hyn.

25 Chwy-chwi ydych blant y prophwydi a'r cyfammod, yr hwn a wnaeth Duw a'n tadau ni, gan ddywedyd wrth Abraham: * yn dy had ti hefyd y bẽdithir holl dylwythau y ddaiar.

Gen.12.3.
Gal.3.8.

26 Duw gan gyfodi ei Fab Ieſu, a'i gyrrodd ef i chwi yn gyntaf i'ch bendithio fel y troech bob vn o honoch oddi wrth eich drygioni.

## PEN. IIII.

Carchar yr Apoſtolion, 8 pregeth Petr, 19 atteb yr Apoſtolion i'r ſwyddogion, 24 gweddi, ac vndeb yr eglwys.

AC fel yr oeddynt yn llefaru wrth y bobl, yr offeiriaid a llywydd y Deml, a'r Saducæaid a ddaethant arnynt hwy,

2 Ac yr oedd yn flin ganddynt eu bod yn dyſcu y bobl, ac yn pregethu yn [enw] yr Ieſu yr adgyfodiad o feirw.

3 Ac hwy a oſodaſant ddwylo arnynt hwy, ac a'u dodaſant mewn dalfa hyd trannoeth, herwydd hwyr oedd erbyn hynny.

4 Eithr llawer o'r rhai a glywſent y gair a gredaſant, a rhifedi y gwŷr a wnaed yng-hylch pum mil.

5 A digwyddodd drannoeth ddarfod iw llywodraeth-wŷr hwy, a'r henuriaid, a'r ſcrifennyddion, ymgynnull i Ierusalem,

6 Ac Annas yr arch-offeiriad, a Chaiphas, ac Ioan, ac Alexander a chymaint oll ac oeddynt o genedl yr arch-offeiriaid.

7 Ac wedi iddynt eu goſod yn y canol, hwy a ofynnaſant: trwy ba awdurdod, neu ym mha enw y gwnaethoch chwi hyn?

8 Yna Petr yn gyflawn o'r Yſpryd glân a ddywedodd wrthynt, [chwy-chwi] bennaethiaid y bobl, a henuriaid Iſrael,

9 Od ydys yn ein holi ni heddyw, am [y] weithred dda i'r dyn claf, [ſef] pa wedd yr iachawyd ef,

10 Bydded yſpyſol i chwi oll, ac i bawb o bobl Iſrael, mai trwy enw Ieſu Griſt o Nazareth yr hwn a groes-hoeliaſoch chwi, a'r hwn a gyfodes Duw o feirw: trwy hwn y ſafodd hwn ger eich bron chwi.

11 * Dymma y maen hwnnw a lyſwyd gẽnych chwi yr adeilad-wŷr, ac a wnaed yn ben i'r gongl.

Pſal.118.22.
Eſai.28.16.
Math.21.42.
Mar.12.10.
Luc.20.17.
Rufein.9.33.
1.Pet.2.7.

12 Ac nid oes iechydwriaeth yn neb arall, o blegit ni roddwyd enw arall dã y nef ym mhlith dynion drwy yr hwn y mae yn rhaid ein hiachau

13 A phan welſant hyder Petr ac Ioan, a gŵybod eu bod yn anllythrennoc, ac yn annyſcedig, rhyfeddu a wnaethant, ac hwy a ŵyddent eu bod hwy gyd â'r Ieſu.

13 Ac wrth weled hefyd y dŷn a iachauſid yn ſefyll gyd â hwynt, ni allent ddywedyd dim yn [eu] herbyn:

15 Eithr wedi gorchymyn iddynt fyned a-

llan o'r gynghorfa, hwy a ymgynghorâſant yn eu plith eu hunain,

16 Gan ddywedyd, beth a wnawn ni i'r dynion hyn? canys arwydd eglur a wnaed trwyddynt hwy, yr hwn ſydd hyſpys i bawb a'r ſydd yn preſſwylio yn Ieruſalẽ, ac ni allwn ni wadu.

17 Eithr rhag ei danu ym mhellach ym myſc y bobl, bygythiwn hwynt yn doſt, na lefarant mwy wrth neb yn yr enw hwn.

18 Ac hwy a'u galwaſant hwy, ac a orchymynnaſant na lefarent, ac na ddyſcent ddim oll yn enw yr Ieſu.

19 Eithr Petr ac Ioan a'u hattebaſant, ac a ddywedaſant wrthynt, pa vn ſydd gyfiawn ger bron Duw, ai gwrando arnoch chwi, ynte yn hytrach ar Dduw? bernwch chwi.

20 Canys ni allwn na ddywedom y pethau a welſom, ac a glywſom.

21 Ac hwythau gan eu bygwth a'u gollyngaſant heb gael neb iw coſpi hwynt, o blegit y bobl, am fod pawb oll yn gogoneddu Duw am yr hyn a wnaethid.

22 Canys yr oedd y dyn vwch-law deugain oed, ar yr hwn y gwnaethid yr arwydd iechydwriaeth.

23 A hwynt wedi eu gollwng ymmaith a ddaethant at yr eiddynt, ac a ddangoſaſant y pethau a ddywedaſe yr arch-offeiriaid a'r henuriaid wrthynt,

24 Hwythau pan glywſant, a gyfodaſant eu lleferydd o vn-fryd at Dduw, ac a ddywedaſant ô Arglwydd ty di yw y Duw yr hwn a wnaethoſt nef a daiar, y môr ac oll y ſydd ynddynt,

25 Yr hwn trwy yr Yſpryd glân yng-enau dy wâs Dafydd, a ddywedaiſt, *paham y terfyſcodd y cenhedloedd, ac y myfyriodd y bobl oferedd? Pſal.2.1.

26 Yſafodd brenhinoedd y ddaiar i fynu, ac yr ymgaſclodd y pennaethiaid yng-hyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Griſt ef:

27 Canys mewn gwirionedd yn y ddinas hon yr ymgynhullodd yn erbyn dy Sanct Fab Ieſu, yr hwn a eneiniaiſt, Herod, a Phontius Pilat gyd â'r cenhedloedd, a phobl Iſrael,

28 I wneuthur beth bynnac a ddarfu i'th law di, a'th gyngor eu rhagderfynu iw gwneuthur.

29 Ac yn awr Arglwydd, edrych ar eu bygythion hwy, a chaniadhâ i'th weiſion draethu dy air di, â phob hyder.

30 Trwy eſtyn o honot dy law i iachau, ac fel y gwneler arwyddion a rhyfeddodau trwy enw dy ſanctaidd Fab Ieſu.

31 Ac wedi iddynt weddio, y lle yr oeddent wedi ymgynnull ynddo a ſymmudodd, ac hwy a lanwyd oll o'r Yſpryd glân, ac hwy a draethaſant air Duw yn hyderus.

32 Ac i'r lliaws a oedd yn credu yr oedd vn galon, ac vn enaid, ac ni ddywedodd yr vn o honynt am yr hyn a fedde, ei fod yn ei eiddo ei hun, ond pob peth oedd rhyngddynt yn *gyffredin. Pen.2.44.

33 A'r Apoſtolion trwy nerth mawr a roddaſant deſtiolaeth o adgyfodiad yr Arglwydd Ieſu, a grâs mawr oedd arnynt hwy oll.

34 Canys nid oedd neb yn eu plith, ac eiſieu arno, ſef pob vn a'r a oedd yn perchennogi tiroedd neu dai, a'u gwerthaſant, ac a ddugaſant werth y pethau a werthaſid,

35 Ac a'i goſodaſant wrth draed yr Apoſtolion: a rhannwyd beunydd i bawb yn ôl ei eiſieu.

36 Yna Ioſeph yr hwn a gyfenwid Barnabas gan yr Apoſtolion (yr hyn yw o'i gyfieithu mab y diddanwch) yn Lefiad, ac o genedl yn Cypriad,

37 Ac efe yn berchen tir a'i gwerthodd, ac a ddug yr arian, ac a'i goſodes wrth draed yr Apoſtolion.

## PEN. V.

Coſp am gelwydd, 1, 2 a chyſſegr-ledrad Ananias a'i wraig, 14 Cynnydd yr eglwis, 17 Carchar yr Apoſtolion, 19 yr angel yn eu gwaredu, 20 hwyntau yn pregethu, 34 cyngor Gamaliel.

YR oedd rhyw wr a'i enw Ananias gyd â Sapphira ei wraig a werthaſe dir,

2 Ac a ddarn-guddiodd [ran] o'r gwerth, a'i wraig yn gwybod, ac a ddug y rhan arall, ac a'i goſododd wrth draed yr Apoſtolion.

3 Yna y dywedodd Petr, Ananias, paham y llanwodd Satan dy galon i beri i ti ddywedyd celwydd wrth yr Yſpryd glân, a darn-guddio [rhan] o werth y tir?

4 Tra ydoedd yn aros, onid i ti yr oedd yn aros? ac wedi ei werthu, onid oedd yn dy feddiant di: a pha ham y goſodaiſt dy feddwl ar y peth hyn? ni ddywedaiſt di gelwydd wrth ddynion, ond wrth Dduw.

5 Pan glybu Ananias y geiriau hyn, efe a ſyrthiodd i lawr, ac a drengodd: a daeth ofn mawr ar bawb a glybu hyn.

6 Ar gwŷr ieuaingc a gyfodaſant, ac a'i cymmeraſant ef, ac a'i dugaſant, ac a'i claddaſant.

7 Yna y bu megis yſpaid tair awr, a'i wraig a ddaeth i mewn, heb wybod dim a'r a wnaethid.

8 Yna y dywedodd Petr wrthi: dywet i mi, ai er hyn a hyn y gwerthaſoch chwi y tîr? hithe a ddywedodd, ie er hynny.

9 A Phetr a ddywedodd wrthi pa ham y darfu i chwi gytuno rhyngoch i demtio Yſpryd yr Arglwydd? edrych wrth y drws [ôl] traed y rhai a gladdaſant dy ŵr di, a hwy a'th ddygant dithe allan.

10 Ac yna yn y man hi a ſyrthiodd wrth ei draed ef, ac a drengodd, a'r gwŷr ieuaingc a ddaethant i mewn, ac a'i cawſant hi yn farw, ac a'i cyfodaſant, ac a'i claddaſant yn ymyl ei gŵr.

11 Ac ofn mawr a gyfodes ar yr holl eglwys, ac ar bawb oll a glybu hyn.

12 ☞ Eithr drwy ddwylaw yr Apoſtolion y gwnaed arwyddion, a llawer o ryfeddodau ym mhlith y bobl, ac yr oeddynt oll yn gytun ym mhorth Salomon. *Yr Epyſtol ar ddigwyl Sanct Bartholomew.*

13 Ond ni feiddie neb o'r lleill ymgyſſylltu â hwynt, eithr y bobl oedd yn eu mawrhau.

14 A lliaws o'r rhai a gredaſãt yn yr Arglwydd

yn wŷr a gwragedd a gynnyddaſant fwy-fwy.

15 Hyd oni ddygent y cleifion i'r heolydd au goſod mewn gwelyau a glythau, fel y cyſcode cyſcod Petr rai o honynt pan ddele efe [heibio.]

16 A lliaws a ddaeth hefyd yng-hyd o'r dinaſoedd cyſagos i Ieruſalem gan ddwyn rhai cleifion, a rhai a drallodid gan yſprydion aflan, y rhai a iachauwyd oll. ☜

17 Yna y cyfodes yr arch-offeiriad, a phawb oll a'r a oedd gyd ag ef, (yr hon yw hereſi y Sadducæaid) ac yr oeddynt yn llawn llid.

18 Ac hwy a ddodaſant eu dwylo ar yr Apoſtolion, ac a'u rhoeſant yn y carchar cyffredin.

19 Eithr angel yr Arglwydd o hŷd nos, a agorodd ddryſau y carchar, ac a'u dug hwynt allan: ac a ddywedodd,

20 Ewch a ſefwch yn y deml, a lleferwch wrth y bobl oll, eiriau y fuchedd hon.

21 Pan glywſant hwy y pethau hyn, hwy a aethant yn fore i'r Deml, ac a ddyſcaſant, a'r arch-offeiriad a ddaeth, a'r rhai oeddynt gyd ag ef a alwaſant yng-hyd y cyngor, a holl henuriaid plant yr Iſrael, ac a ddanfonaſant i'r carchar i beri eu dwyn hwy [ger bron.]

22 A phan ddaeth y ſwyddogion, ni chawſant hwy yn y carchar, eithr hwy a ddychwelaſant, ac a fynegaſant,

23 Gan ddywedyd: yn wir ni a gawſom y carchar wedi ei gaeu o'r fath ſiccraf, a'r ceidwaid yn ſefyll allan gyferbyn â'r dryſau, eithr pan agoraſom, ni chawſom neb i mewn.

24 Pan glybu yr arch-offeiriad, a llywodraethwŷr y Deml, a'r offeiriaid pennaf yr ymadroddion hyn, ammau a wnaethant yn eu cylch hwy, beth a ddoe o hyn.

25 Yna y daeth un ac a fynegodd iddynt, gan ddywedyd: wele, y mae y gwŷr a ddodaſoch yng-harchar yn ſefyll yn y Deml, ac yn dyſcu y bobl.

26 Yna yr aeth y penſwyddog, efe a'i ſwyddwŷr, ac a'u dug hwy yn ddi anfodd (o blegit yr oedd arnynt ofn y bobl rhag eu llabyddio)

27 Ac wedi eu dwyn hwy, y goſodwyd hwy o flaen y cyngor, a'r arch-offeiriad a ofynnodd iddynt,

28 Gan ddywedyd: oni rybuddiaſom chwychwi yn fynych na phregethech yn yr enw hwnnw? ac wele, chwi a lanwaſoch Ieruſalem â'ch athrawiaeth, ac a fynnwch ddwyn arnom ni waed y dŷn hwnnw.

29 Yna Petr a'r Apoſtolion gan atteb a ddywedaſant: rhaid yw ufyddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.

Pen 3.13. 30 * Duw ein tadau ni a gyfododd i fynu Ieſu yr hwn a laddaſoch chwi, ac a groeſ-hoeliaſoch ar bren.

31 Hwn a dderchafodd Duw â'i ddehaulaw, yn dywyſog, ac yn iachawdur i roddi edifeirwch i Iſrael, a maddeuant pechodau.

32 A nyni ydym dyſtion iddo o'r pethau hyn, a'r Yſpryd glân hefyd, yr hwn a roddes Duw i'r rhai a ufuddhânt iddo ef.

33 Pan glywſāt hwythau hyn, hwy a ffrommaſant, ac a ymgynghoraſant am eu lladd hwynt.

34 Yna y cyfododd yn y cyngor un Phariſæad, ai enw Gamaliel, doctor o'r gyfraith, parchedig gan yr holl bobl, ac a archodd fyned allā â'r Apoſtolion dros ennyd fechan.

35 Ac efe a ddywedodd wrthynt: ha-wŷr, o Iſrael, edrychwch arnoch eich hunain, pa beth a wneloch am y dynion hyn.

36 Canys cyn hynn o amſer y cyfodes un Theudas yn dywedyd ei fod yntef yn rhyw un mawr, ac at hwn yr ymgaſclodd rhifedi o wŷr yng-hylch pedwar cant, ac ef a laddwyd, a hwynt oll a oeddynt yn coelio iddo a waſcarwyd, ac a wnaed yn ddiddim.

37 Yn ôl hwn y cyfodes Iudas o Galilæa yn amſer y deyrn-ged, ac efe a droes lawer o bobl ar ei ôl, efe hefyd a ddarfu am dano, a chymmaint oll ac a gytunaſant ag ef a waſcarwyd.

38 Am hynny yn awr meddaf wrthych: peidiwch â'r dynion hyn, a gadewch iddynt: canys os o ddynion y mae hyn o gyngor neu weithred, efe a ddiflanna:

39 Ac os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddattod ef rhag eich cael yn rhyfelwŷr yn erbyn Duw.

40 A chytuno ag ef a wnaethant, ac wedi iddynt alw yr Apoſtolion attynt, au curo, hwy a orchymynnaſant iddynt na leſarent yn enw yr Ieſu, ac a'u gollyngaſant ymmaith.

41 Hwythâu a aethant allan o olwg y cyngor yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddwyn ammarch er mwyn enw yr Ieſu.

42 A beunydd yn y Deml, ac o dŷ i dŷ ni pheidiaſant â dyſcu, ac â phregethu Ieſu Griſt.

## PEN. VI.

Vrddiad ſaith o ddiaconiaid yn yr Eglwys, dyſc Stephan. 11 A'i gyhuddiad.

YN y dyddiau hynny pan amlhaodd y diſcyblion y cyfodes murmur gan y Groegiaid yn erbyn yr Hebræaid, am ddirmygu eu gwragedd gweddwon hwy, yn y weinidogaeth feunyddol.

2 Yna'r deuddêc a alwaſant yng-hyd y lliaws diſcyblion, ac a ddywedaſant: nid yw gymheſur i ni adel gair Duw, a gwaſanaethu byrddau.

3 Am hynny frodyr, edrychwch yn eich plith am ſaith o wŷr o air da, llawn o'r Yſpryd glân, a doethineb, y rhai a oſodom yn hyn o orchwyl.

4 Eithr nyni a barhawn mewn gweddi, a gweinidogaeth y gair.

5 A bodlō fu gan yr holl dyrfa yr ymadrodd ymma, a hwy a etholaſant Stephan gŵr llawn o ffydd ac o'r Yſpryd glân, a * Philip, a Phrochorus, Nicanor, a Thimon, a Pharmenas, a Nicholas y proſelyt o Antiochia. Pen.21.8.

6 Y rhai a oſodaſant hwy ger bron yr Apoſtolion, ac wedi iddynt weddio, hwy a oſodaſant eu dwylo arnynt hwy.

7 Yna y cynnyddodd gair Duw, ac yr amlhaodd rhifedi y diſcyblion yn ddirfawr yn Ieruſalem, a llawer o'r offeiriaid a vfuddhaſant i'r ffydd.

8 Eithr Stephan yn llawn ffydd, a nerth, a wnaeth refeddodau a gwyrthiau mawr ym myſc y bobl.

9 Yna y cyfodes rhai o'r ſynagog a elwir Libertiniaid, a Cyreniaid, ac o Alexandria, ac o'r rhai ſy o Cilicia, ac Aſia, ac a ymddadleuaſant á Stephan.

10 Ac ni allent wrthwynebu y doethineb, na'r Yſpryd, drwy yr hwn yr ymadroddodd efe.

11 Yna y goſodaſant wŷr i ddywedyd, nyni a'i clywſom ef yn dywedyd geiriau cablaidd yn erbyn Moſes a Duw.

12 Ac hwy a gyffroaſant y bobl, a'r henuriaid, a'r ſcrifennyddion, ac a ruthrâſant iddo, ac a'i cippiaſant ef, ac a'i dugaſant at y cyngor.

13 A hwy a oſodâſant gau dyſtion y rhai a ddywedent: nid yw y dyn hwn yn peidio a dywedyd cabl eiriau yn erbyn y lle ſanctaidd hwn, a'r gyfraith:

14 Canys nyni a'i clywſom ef yn dywedyd, yr Ieſu hwn o Nazareth a ddeſtrywia y lle ymma, ac a newidia y defodau a roddes Moſes i ni.

15 A phan edrychodd y rhai oeddynt yn eiſtedd yn y cyngor arno ef oll, hwy a welent ei wyneb fel wyneb angel.

## PEN. VII.

Atteb Stephan. 58 A'i labyddiad.

YNa y dywedodd yr arch-offeiriad, A ydyw y pethau hyn felly?

2 Yntef a ddywedodd: ha-wŷr, frodyr, a thadau, gwrandewch: * Duw y gogoniant á ymddangoſodd i'n tad Abraham pan oedd ym Meſopotamia, cyn iddo drigo yn Charran, Gene.12.4.

3 Ac a ddywedodd wrtho: dôs allan o'th wlâd, ac oddi wrth dy dŷlwyth, a thyret i'r tir yr hwn a ddangoſwyf i ti.

4 Yna y daeth efe allan o dir y Caldeaid, ac y preſſwyliodd yn Charran: yn ôl hynny wedi marw ei dad, efe a'i dug ef oddi yno i'r tir ymma yn yr hwn yr ydych chwi yn preſſwylio yr awr hon.

5 Ac ni roes iddo etifeddiaeth ynddo, na ddo led troed, ac efe a addawodd ei ddodi iddo iw feddiannu, ac iw hâd yn ei ôl, pryd nad oedd plentyn iddo.

6 A Duw a lefarodd fel hyn, dŷ * hâd ti a fydd drigiannol mewn tir eſtron, lle y caethiwir, ac y drygir ef bedwar cant mhlynedd. Gene.15.13.

7 Eithr y genhedlaeth yr hon a waſanaethant a goſpaf fi (medd Duw,) ac wedi hynny yr ânt allan, ac a'm gwaſanaethant i yn y lle hwn.

8 * Ac efe a roddes iddo gyfammod yr enwaediad, ac felly [Abraham] a genhedlodd * Iſaac, ac a'i henwaedodd ef yn yr wythfed dydd: ac Iſaac a genhedlodd * Iacob, ac Iacob a genhedlodd y deuddec * Patriarch. Gene.17.9. & 21.3. Gene.25.24. Gen.29.33. Gen.30.5.

9 A'r Patrieirch gan genfigennu a werthâſant * Ioſeph i'r Aipht: ond yr oedd Duw gyd ag ef,

10 Ac a'i hachubodd ef o'i holl gyfyngderau, ac a * roes iddo hawddgarwch a doethineb yng-olwg Pharao brenin yr Aipht, ac efe a'i gwnaeth ef yn llywodraethwr ar yr Aipht, ac ar ei holl dŷ. Gen.35.23. gen.37.28. gen.41.37.

11 Ac fe ddaeth newyn dros holl dir yr Aipht a Chanaan, a gorthrymder mawr, a'n tadau ni chaent lynniaeth.

12 Ond pan * glybu Iacob fod ŷd yn yr Aipht, yn gyntaf efe a ddanfonodd ein tadau ni: Gene.42.1.

13 * A'r ail waith yr adnabuwyd Ioſeph gan ei frodyr, a chenedl Ioſeph a aeth yn hyſpys i Pharao. Gen.45.4.

14 Yna yr anfonodd Ioſeph, ac a gyrchodd ei dad Iacob a'i holl genedl, pymthec enaid a thrugain.

15 Yna y daeth * Iacob i wared i'r Aipht, ac efe a fu farw a'n tadau hefyd. Gen.46.5. gen.49.33.

16 Ac hwy a ſymmudwyd i Sichem, ac a ddodwyd yn y bedd yr hwn a brynaſe Abraham * er arian gan feibion Emor [tad] Sichem. Gen.23.16.

17 A phan neſaodd amſer yr addewid yr hwn a dyngaſe Duw i Abraham, y bobl a * gynnyddodd, ac a amlhâodd yn yr Aipht: Exod.1.7.

18 Hyd oni gyfodes brenin arall, yr hwn nid adwaene m'o Ioſeph.

19 Hwn a fu ddichellgar wrth ein cenedl ni, ac a ddrygodd ein tadau, gan beri iddynt fwrw allan eu plant fel na heppilient.

20 * Y pryd hyn y ganwyd Moſes yr hwn oedd hawddgar gan Dduw, ac a fagwyd dri mîs yn nhŷ ei dâd. Exod.2.2.

21 Ac wedi ei fwrw allan, merch Pharao a'i cyfodes ef i fynu, ac a'i magodd ef yn fab iddi ei hun.

22 A Moſes oedd ddyſcedic yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid, ac oedd nerthol mewn geiriau a gweithredoedd.

23 A phan oedd efe yn ddeugain mlwydd llawn o oed, daeth yn ei feddwl ef ymweled â'i frodyr plant yr Iſrael.

24 A phan welodd efe vn yn cael cam, efe a'i hamddeffynnodd, ac a ddialodd gam yr hwn a orthrymmaſid, gan daro yr Aipht-wr. Exod.2.11.

25 Ac efe a dybiaſe fod ei frodyr yn deall, fod Duw yn dodi iechydwriaeth iddynt trwy ei law ef, eithr hwynt ni ddeallaſant.

26 * A'r dydd neſaf yr ymddangoſodd efe iddynt, a hwynt yn cynhennu, ac a fynnaſe wneuthur cymmod rhyngddynt, gan ddywedyd, ha wŷr, brodyr ydych chwi, pa ham y gwnewch gam â'i gylydd? Exod.2.13.

27 Eithr yr hwn oedd yn gwneuthur cam â'i gymmydog, a'i cilgwthiodd ef gan ddywedyd, pwy a'th oſododd di yn dywyſog, ac yn farn-wr arnom ni?

28 A leddi di fyfi, fel y lleddaiſt yr Aipht-wr ddoe?

29 Yna y ffoes Moſes ar y gair hwnnw, ac y bu ddieithr yn nhir Madian: lle y cenhedlodd efe ddau o feibion.

30 Ac wedi cyflawni daugain mlynedd yr ymddangoſodd Angel yr Arglwydd iddo mewn fflam dân [mewn] perth yn * anialwch mynydd Sina.

Exo.3.2.

31 A Moſes pan welodd, a fu ryfedd gantho y golwg, a phan neſſaodd efe i yſtyried, fe a ddaeth llef yr Arglwydd atto ef [gan ddywedyd]

32 Myfi yw Duw dy dadau, Duw Abrahã, Duw Iſaac, a Duw Iacob, a Moſes a ddychrynnwyd, ac ni feiddie ei yſtyried.

33 Yna y dywedodd yr Arglwydd wrtho, dattot dy eſcidiau oddi am dy draed, canys y lle yn yr hwn yr wyt yn ſefyll ſydd dir ſanctaidd.

34 Gan weled y gwelais ddrwg-fyd fy mhobl y rhai ſy yn yr Aipht, ac mi a glywais eu griddfan, ac mi a ddiſcynnais i'w gwared hwy, tyret tithe yn awr mi a'th anfonaf di i'r Aipht.

35 Y Moſes ymma yr hwn a wrthodaſant gan ddywedyd, pwy a'th goſodes di yn dywyſog, ac yn farn-wr? hwn a anfonodd Duw yn dywyſog, ac yn waredwr trwy law yr angel, yr hwn a ymddangoſodd iddo yn y berth.

36 Hwn a'i harweiniodd hwynt allan, gan wneuthur rhyfeddodau a gwyrthiau yn nhir yr Aipht, ac yn y môr coch, ac yn y diffaethwch* ddeugain mlynedd.

Exo. 7.8,9,10, 11,14.pen.

37 Dymma y Moſes, yr hwn a ddywedodd wrth feibion yr Iſrael: Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi brophwyd o'ch brodyr, fel myfi, gwrandewch hwnnw.

Pen.3.22. deut.18.15.

38 *Hwn yw efe a fu yn y gynulleidfa yn y diffaethwch, gyd a'r angel yr hwn a ymddiddanodd ag ef yn mynydd Sina, ac a'n tadau ni, yr hwn a dderbyniodd ymadroddion bywiol i'w rhoddi i ni.

Exod.19.2.

39 Yr hwn ni fynne ein tadau fod yn ufydd iddo, eithr gwrthodaſant [ef,] a throiſant yn eu calonnau i'r Aipht:

40 Gan ddywedyd wrth Aaron: gwna i ni dduwiau i'n blaenori, o blegit ni wyddom ni beth a ddarfu i'r Moſes ymma yr hwn a'n dug ni allan o wlad yr Aipht.

Exod.32.1.

41 Ac hwy a wnaethant llo yn y dyddiau hynny, ac a offrymmaſant aberth i'r delw, ac a ymlawenhaſant yng-weithredoedd eu dwylo.

42 Yna y trôdd Duw, ac a'u rhoddes hwy i fynu i waſanaethu llu y nef: fel y mae yn yſcrifennedic yn-llyfr y prophwyti. A offrymmaſoch chwi i mi ebyrth, ac offrymmau yn yr anialwch ddeugain mlynedd, [chwi] tŷ Iſrael?

Amos.5.25.

43 A chwy-chwi a gymmeraſoch babell Moloch, a ſeren eich Duw Remphan, lluniau y rhai a wnaethoch i'w haddoli, minne a'ch ſymmudaf chwi tu hwnt i Babilon.

44 Yr oedd Tabernacl y testiolaeth ym-mhlith ein tadau yn yr anialwch, fel y gorchymynnaſe yr hwn a ddywedaſe wrth *Moſes am ei wneuthur ef yn ôl y portreiad a welſe.

Exod.25.40. heb.8.5.

45 Yr hwn a ddarfu i'n tadau ni ei gymmeryd, a'i ddwyn i mewn gyd ag Ieſu i berchennogaeth y cenhedloedd, y rhai a ddarfu i Dduw eu taflu allan o flaen ein tadau, hyd yn nyddiau Dafydd,

Ioſua.3.14.

46 *Yr hwn a gafodd ffafor ger bron Duw, ac a ddymunodd gael tabernacl i Dduw Iacob.

2.Sam.7.2. pſal.132.5. 1.cron.17.12.

47 Eithr Salomon a adailadodd dŷ iddo ef.

1.bren.6.1.

48 Ond nid yw y Goruchaf yn trigo mewn temlau o waith dwylo, fel y dywed y prophwyd:

49 Y nef [yw] fyng-orſeddfaingc, a'r ddaiar yw troedfaingc fy-nhraed. Pa dŷ a adeiledwch i mi, medd yr Arglwydd, neu pa le ſydd i'm gorphwyſfa i?

Pen.17.24. iſai.66.1.

50 Ond fy llaw i a wnaeth hyn oll?

51 *Chwi a'r gwarrau ſythion, a'r galon, ac a'r cluſtiau dienwaededic, yr ydych chwi yn weſtad yn gwrthwynebu yr Yſpryd glân, megis eich tadau, felly chwithau.

Iere.9.26. ezech.44.9.

52 Pa vn o'r prophwyti ni ddarfu i'ch tadau chwi ei erlid? ac hwy a laddaſant y rhai a ddywedynt yn rhagfynegu dyfodiad y Cyfiawn, i'r hwn y buoch chwithe yn fradwyr a llofruddion.

53 Y rhai a gymmeraſoch y gyfraith drwy ordinhâd angelion, ac ni's cadwaſoch.

Exod.19.16. galat.3.19.

54 A phan glywſant y pethau hyn, ffrommaſant yn eu calonnau, ac eſcyrnygaſant ddannedd arno.

55 ☞ Ac efe yn gyflawn o'r Yſpryd glân, a edrychodd yn ddyfal tu ac i'r nef, ac a welodd ogoniant Duw, ac Ieſu yn ſefyll ar ddeheu-law Duw,

*Yr Epyſtol ar ddigwyl Stephan.*

56 Ac efe a ddywedodd: wele, mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y dyn yn eiſtedd ar ddeheu-law Duw,

57 Yna y gwaeddaſant â llef fawr, ac y caeaſant eu cluſtiau, ac y rhuthraſant ar vn-waith arno.

58 Ac a'i bwriaſant allan o'r dinas, ac a'i labyddiaſant: a'r tyſtion a roddaſant eu dillad wrth draed dyn ieuangc a elwid Saul.

59 A hwy a labyddiaſant Stephan, ac efe yn galw ar [Dduw,] ac yn dywedyd, Arglwydd Ieſu derbyn fy yſpryd.

60 Ac efe a ddyngodd ar ei liniau, ac a leſodd â llef uchel, *Arglwydd na ddod y pechod hyn yn eu herbyn, ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd.

Math.5.45. luc.23.34. 1.cor.4.12.

## PEN. VIII.

Creulondeb Saul. 4 Gwaſcaru yr Apoſtolion. 15
Dodi yr Yſpryd glân, 18 Am Simon Magus. 38
Philip yn bedyddio yr Eſnuch.

A Saul oedd yn cyduno i'w ladd ef, a'r pryd hwnnw y bu erlid mawr ar yr Eglwys yr hon oedd yn Ieruſalem: a phawb a waſcarwyd trwy wlâd Iudæa a Samaria, eithr yr Apoſtolion.

2 A gwŷr bucheddol a gyd-ddugaſant Stephan, ac a wnaethant alar mawr am dano ef.

3 Eithr Saul oedd yn anrheithio yr eglwys, gan fyned i mewn i bôb tŷ, a chan dynnu allan wŷr, a gwragedd, efe a'u rhoddes yngharchar.

4 A'r rhai a waſcaraſid, a dramwyaſant gan bregethu y gair.

5 Yna yr aeth Philip i ddinas Samaria, ac a bregethodd Griſt iddynt.

6 A'r bobl yn gytuwol a ddaliodd ar y pethau a ddywede Philip wrthynt, gan glywed a gweled yr arwyddion a wnaethe efe.

7 Canys yr yſprydion aflan a aethant allan o lawer o'r rhai yr oeddent yn eu perchennogi, gan leſain â llef uchel: a llawer yn gleifion o'r parlys, ac yn gloffion a iachawyd.

8 Ac yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas honno.

9 Yna yr oedd rhyw wr a'i enw Simon, yr hwn a arferaſe o'r blaen ſwyno yn y ddinas honno, ac a hudaſe bobl Samaria: gan ddywedyd ei [fod] ei hun yn rhyw un mawr.

10 Ac yr hwn yr oedd pawb o'r lleiaf i'r mwyaf yn gwrando, gan ddywedyd: mawr rinwedd Duw yw hwn.

11 Ac yr oeddynt a'u coel arno, o herwydd iddo yn hir o amſer eu hudo hwy â ſwynion.

12 Eithr, cyn gyflymmed ac y credâſant i Philip yn pregethu y pethau a berthynent i deyrnas nef, ac i enw Ieſu Griſt, hwy a fedyddiwyd yn wŷr, ac yn wragedd.

13 Ac yntef Simon a gredodd hefyd, ac a fedyddiwyd; ac a ddilynodd Philip, ac fe ſynnodd arno wrth weled gwneuthur rhyfeddodau a gwyrthiau mawrion.

*Yr Epyſtol ar ddydd Mawrth y Sulgwyn.*

14 ☞ A phan glybu yr Apoſtolion y rhai oeddynt yn Ieruſalem dderbyn o Samaria air Duw, hwy a anfonâſant attynt Petr ac Ioan.

15 Y rhai wedi iddynt ddyfod a weddiaſant troſtynt, ar dderbyn o honynt yr Yſpryd glân.

16 O blegit ni ddaethe efe eto ar yr vn o honynt, ond hwy a fedyddiaſid yn unic yn enw yr Arglwydd Ieſu.

17 Yna y dodaſant eu dwylaw arnynt, ac hwy a dderbyniaſant yr Yſpryd glân. ☜

18 A phan ganfu Simon mai trwy oſodiad dwylaw'r Apoſtoliō y rhoddid yr Yſpryd glân, efe a gynnygiodd iddynt arian:

19 Gan ddywedyd, rhoddwch i minne hefyd yr awdurdod hon, fel ar bwy bynnac y goſodwyf fy nwylo y derbynio efe yr Yſpryd glân.

20 Eithr Petr a ddywedodd wrtho, Bydded dy arian gyd â thi, i ddeſtriw, am i ti dybied y meddiennir dawn Duw trwy arian.

21 Nid oes i ti na rhan, na chyfran yn y gorchwyl hyn: o blegit nid yw dy galon di yn iniawn ger bron Duw.

22 Edifarhâ gan hynny am dy ddrygioni hyn, a gweddia Dduw, ac fe faddeuir, ond odid i ti feddyl-fryd dy galon.

23 Canys mi a'th welaf mewn buſtl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd.

24 A Simon gan atteb a ddywedodd, gweddiwch chwi droſof fi ar yr Arglwydd, na ddelo dim arnaf o'r hyn a ddywedâſoch.

25 Eithr hwynt hwy wedi iddynt dyſtio a lleſaru gair yr Arglwydd, a ddychwelaſant i Ieruſalem, ac a bregethâſant yr Efengyl yn llawer o drefi Samaria.

26 Ac angel yr Arglwydd a leſarodd wrth Philip gan ddywedyd: cyfot, a dos tu a'r deau, i'r ffordd yr hon ſydd yn myned i waered o Ieruſalem i Gaza: yr hon ſydd anghyfannedd.

27 Ac efe a gyfododd ac a âeth, ac wele ryw eſnuch o Ethiopia, rhaglaw Candaces brenhines yr Ethiopiaid, yr hwn oedd yn llywodraethu ei holl dryſſor hi: ac a ddaethe i Ieruſalem i addoli.

28 Ac fel yr oedd efe yn dychwelyd gan eiſtedd yn ei gerbyd, efe a ddarllennodd Eſay y prophwyd.

29 Yna y dywedodd yr Yſpryd wrth Philip, dos yn nês, ac ymwaſc â'r cerbyd yma.

30 A Philip a redodd atto, ac a'i clybu yn darllen y prophwyd Eſay, ac a ddywedodd, a wyt ti yn deall yr hyn yr wyt yn ei ddarllen?

31 Ac efe a ddywedodd, pa wedd y gallaf oni bydd rhyw vn i'm cyfarwyddo? ac efe a ddymunodd ar Philip ddyfod i fynu, ac eiſtedd gyd ag ef.

32 A'r lle o'r Scrythur yr oedd efe yn ei ddarllen oedd hwn. *Efe a arweinid, fel dafad i'r lladdfa, ac fel oen mud ger bron ei gneifiwr, felly nid agorodd efe ei enau.

Eſai 53.7.

33 Yn ei oſtyngiad y dyrchafwyd ei farn, a phwy a draetha ei oes ef, canys dygir ei fywyd oddi ar y ddaiar.

34 Yna yr attebodd yr eſnuch wrth Philip, ac a ddywedodd, am bwy attolwg i ti y dywed y prophwyd hyn, ai am dano ei hun, ai am ryw vn arall?

35 Yna yr agores Philip ei enau, ac a ddechreuodd ar y ſcrythur honno, ac a bregethodd iddo yr Ieſu.

36 Ac fel yr oeddynt yn myned ar hŷd y ffordd hwy a ddaethāt at ryw ddwfr, a'r eſnuch a ddywedodd, wele ddwfr, beth ſydd yn lluddio fy medyddio?

37 A Philip a ddywedodd, os wyt yn credu o'th holl galon, fe a ellir: a chan atteb y dywedodd: yr wyf yn credu fod Ieſu Griſt yn Fab Duw.

38 Ac efe a orchymynnodd attal y cerbyd, ac hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr, Philip a'r eſnuch, ac efe a'i bedyddiodd ef.

39 Ac wedi iddynt ddyfod i fynu o'r dwfr, Yſpryd yr Arglwydd a gymmerth Philip ymmaith, ac ni welodd yr eſnuch mo hono mwy: ond efe a aeth ar hŷd ei ffordd yn llawen.

40 A Philip a gaed [eil-waith] yn Azotus, ac efe a aeth drwy y wlâd, ac a bregethodd ym mhob dinas oni ddaeth i Cæſarea.

## PEN. IX.

Saul yn troi i'r ffydd. 33 Petr yn iachau Aeneas. 40 Ac yn cyfodi Tabitha.

*Yr Epiſtol ar ddygwyl Pawl.*
Rufei.9.5.
gala.1.33.

A *Saul etto yn chwythu bygythiadau a chelanedd yn erbyn dyſcyblion yr Arglwydd, a aeth at yr arch-offeiriad:

2 Ac a ddeiſyfiodd lythyrau ganddo i Ddamaſcus at y Synagogau, fel o chae efe na gwŷr na gwragedd yn bôd o'r ffydd hon, y galle efe eu dwyn yn rhwym i Ieruſalem.

Pen.22.6.
1.cor.15.18.

3 Ac fe ddarfu (fel yr oedd efe ar ei daith) iddo ddyfod yn gyfagos i Ddamaſcus, ac fe a lewyrchodd o'i amgylch yn * ddiſymmwth oleuni o'r nef.

4 Ac efe a ſyrthiodd ar y ddaiar, ac a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, pa ham yr ydwyt yn fy erlid i?

5 Yntef a ddywedodd, pwy wyt ti Arglwydd? a'r Arglwydd a ddywedodd: myfi yw Ieſu yr hwn yr wyt ti yn ei erlid, anhawdd yw i ti wingo yn erbyn y ſwmbwl.

6 Yntef yn crynu, ac yn ofni a ddywedodd, Arglwydd beth a fynni di i mi ei wneuthur? a'r Arglwydd a ddywedodd, cyfot dos i'r ddinas, ac fe a ddywedir i ti pa beth a fydd rhaid i ti ei wneuthur.

7 A'r gwŷr y rhai oeddynt yn cyd-teithio ag ef, a ſafaſant yn ſynn, gan glywed y llais, ac heb weled neb.

8 A Saul a gyfododd oddi ar y ddaiar, a phan agorodd efe ei lygaid, ni wele efe neb: eithr hwy a'i tywyſaſant ef erbyn ei law, ac a'i dugaſant ef i mewn i Ddamaſcus.

9 Ac efe a fu dri-diau heb weled, ac ni wnaeth na bwyta nac yfed.

10 Ac yr oedd yn Damaſcus ryw ddiſcybl a'i enw Ananias, wrth yr hwn y dywedodd yr Arglwydd mewn gweledigaeth: Ananias, ac yntef a ddywedodd, wele fi Arglwydd.

11 A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, cyfot a dos i'r heol a elwir Iniawn, a chais yn nhŷ Iudas vn ai enw Saul o Tharſus: canys wele, y mae yn gweddio.

12 Ac yntef a wele drwy weledigaeth ŵr a'i enw Ananias yn dyfod i mewn, ac yn dodi ei ddwylaw arno, fel y gwele eil-waith.

13 Yna yr attebodd Ananias, ô Arglwydd, clywais gan lawer am y gŵr hwnnw, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th ſainct di yn Ieruſalē.

14 Hefyd y mae ganddo ymma awdurdod oddi wrth yr arch-offeiriaid i rwymo pawb a alwo ar dy enw.

15 A dywedodd yr Arglwydd wrtho: dos ymmaith, canys y mae hwn yn lleſtr etholedic i mi, i ddwyn fy enw ger bron y cenhedloedd, a brenhinoedd, a phlant Iſrael.

16 Canys mi a ddangoſaf iddo, pa bethau eu maint y bydd rhaid iddo ef eu dioddef er mwyn fy enw i.

17 Yna Ananias a aeth ymmaith, ac a aeth i mewn i'r tŷ, ac a oſododd ei ddwylo arno, ac a ddywedodd, y brawd Saul, yr Arglwydd Ieſu am hanfonodd (yr hwn a ymddangoſodd i ti ar y ffordd wrth ddyfod) fel y gwelech eil-waith ac i'th lanwer â'r Yſpryd glân.

18 Ac yn ebrwydd y deſcynnodd oddi wrth ei olwg megis cenn, ac efe a gafodd ei olwg yn y man, ac efe a gyfododd, ac a fedyddiwyd.

19 Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, efe a gryfhâodd, yna y bu Saul ennyd o ddyddiau gyd â'r diſcyblō y rhai oeddynt yn Damaſcus.

20 Ac efe yn ebrwydd a bregethodd Griſt yn y Synagogau, mai Mab Duw ydoedd efe.

21 A phawb a'r a'i clybu ef a ſynnaſant, ac a ddywedaſant, ond dymma efe yr hwn oedd yn difetha y rhai a alwent ar yr enw hwn yn Ieruſalem, ac a ddaeth ymma er mwyn hyn [ſef] iw dwyn hwynt yn rhwym at yr arch-offeiriaid?

22 Eithr Saul a gynnyddodd fwy-fwy o nerth, ac a orchfygodd yr Iddewon y rhai oeddynt yn preſſwylio yn Damaſcus, gan gadarnhau mai hwn yw Criſt.

23 Ac wedi cyflawni llawer o ddyddiau, y cyd-ymgyngorodd yr Iddewon am ei ladd ef:

24 Eithr eu cydfwriad hwy a wybu Saul, a hwy a * ddiſgwiliaſant y pyrth ddydd a nôs iw ladd ef.

25 Yna y diſcyblion a'i cymmeraſant ef o hŷd nôs, ac a'i danfonaſant dros y mur gan ei ollwng i wared mewn baſced.

26 A phan ddaeth Saul i Ieruſalem, efe a geiſiodd ymwaſcu â'r diſcyblion, ac yr oeddynt oll yn ei ofni ef, heb gredu ei fod efe yn ddiſcybl.

27 Eithr Barnabas a'i cymmerodd ef, ac ai dug at yr Apoſtolion, ac a fynegodd iddynt pa fodd y gwelſe efe yr Arglwydd ar y ffordd, ac ymddiddan o honaw ag ef: ac mor hyderus fuaſe efe yn Damaſcus yn enw yr Ieſu.

28 Ac yr oedd efe yn myned i mewn, ac allan gyd â hwynt yn Ieruſalem:

29 Ac a lefarodd yn eofn yn enw yr Arglwydd Ieſu, ac efe a ymddiddanodd, ac a ymddadleuodd yn erbyn y Grog-wŷr, a hwynt a geiſiaſant ei ladd ef:

30 Yr hwn beth pan wybu y brodyr, hwy a'i dugaſant ef i Cæſarea, ac a'i gyraſant ef i Tharſus.

31 Yna yr oedd yr eglwyſi yn cael heddwch trwy holl Iudæa, Galilæa, a Samaria, a hwy a adeiladwyd gan rodio yn yr Arglwydd, ac a amlhawyd hwy drwy ddiddanwch yr Yſpryd glân.

32 Bu hefyd i Petr, fel yr oedd yn trammwy trwy bob [gwlâd] iddo ef ddyfod hefyd at y ſainct y rhai oeddynt yn trigo yn Lyda.

33 Ac yno y cafodd efe ryw ŵr a'i enw Aeneas, yr hwn a fuaſe wyth mlynedd yn gorwedd yn ei wely, ac oedd yn glaf o'r parlys.

34 A Phetr a ddywedodd wrtho, Ananias: Ieſu Griſt ſydd i'th iachau, cyfot, a gwna dy wely, ac efe a gyfododd yn ebrwydd.

35 A phawb a'i gwelodd o'r rhai a breſſwylient yn Lyda a Saron, ac a ymchwelaſant at yr Arglwydd.

36 Heſyd yr oedd yn Ioppa ryw ddiſcybles a'i henw Tabitha, (yr hon os cyfieithir a elwir Dorcas) yr hon oedd gyfoethog o weithredoedd da, ac eluſenau y rhai a wnaethe hi.

37 Ac fe a ddarfu y dyddiau hynny iddi hi o gleſyd farw, ac wedi iddynt ei golchi, hwy a'i dodaſant mewn lloft.

38 Ac o herwydd bod Lyda yn agos i Ioppa, y diſcyblion (yn clywed fod Petr yno) a anfonaſant ddau ŵr atto ef, i ddeiſyf, nad oede efe ddyfod hyd attynt hwy.

39 A Phetr a gyfodes, ac a ddaeth gyd â hwynt, ac wedi iddo ddyfod, hwy a'i dugaſant i'r lloft, ac yr oedd yr holl wragedd gweddwon yn ſefyll o'i amgylch yn ŵylo, ac yn dangos y peiſiau a'r gwiſcoedd a wnaethe Dorcas tra ydoedd hi gyd â hwynt.

40 Yna Petr a'u bwriodd hwy allan oll, ac a oſtyngodd ar ei liniau, ac a weddiodd: ac a droes at y corph, ac a ddywedodd, Tabitha, cyfot, ac hi a agorodd ei llygaid, a phan welodd hi Petr, hi a eiſteddodd i fynu.

41 Ac efe a roddodd ei law iddi, ac a'i cyfododd hi i fynu, ac efe a alwodd y ſainct, a'r gwragedd gweddwon, ac efe a'i dangoſodd hi yn fyw,

42 A [hyn] fu hyſpys dros holl Ioppa, a llawer a gredaſant yn yr Arglwydd.

43 A bu i Petr aros yn Ioppa lawer o ddyddiau gyd ag un Simon barcer.

## PEN. X.

Gweledigaeth Cornelius. 11 Gweledigaeth Petr. 18 Petr yn myned at Gornelius. 34 Yn pregethu i'r cenhedloedd, ac am ddeſcyn o'r Yſpryd glân arnynt. 44 Yn eu bedyddio hwynt.

YR oedd rhyw ŵr yn Cæſarea a'i enw Cornelius canwriad o'r hon a elwid yr Italaidd fyddin.

2 [Gŵr] ſanctaidd, yn ofni Duw yng-hyd a'i holl dŷ, ac yn rhoddi llawer o eluſenau i'r bobl:

3 Ac efe yn gweddio Duw yn oeſtadol, a welodd yn eglur mewn gweledigaeth yng-hylch y nawfed awr o'r dydd, Angel Duw yn dyfod i mewn, ac yn dywedyd wrtho, Cornelius.

4 Ac yntef yn craffu arno ef, ac wedi ei ofni a ddywedodd: beth yw [hynny] Arglwydd, ac efe a ddywedodd wrtho, dy weddiau, a'th eluſenau a dderchafaſant yn goffadwriaeth ger bron Duw.

5 Ac yn awr anfon di wŷr i Ioppa, a galw am Simon yr hwn a gyfenwir Petr.

6 Efe ſydd yn lleteua gyd ag un Simon barcer, tŷ 'r hwn ſydd wrth y môr: efe a ddywed i ti pa beth a ddylit ti ei wneuthur.

7 A phan ymadawodd yr angel yr hwn oedd yn ymddiddan â Chornelius, efe a alwodd ar ddau o'i weiſion, a milwr duwiol o'r rhai oeddynt yn ei waſanaethu ef.

8 Pan fynegodd efe iddynt hwy bôb peth, efe a'u hanfonodd hwynt i Ioppa.

9 A thrannoeth fel yr oeddynt hwy yn ymdeithio, ac yn neſſau i'r ddinas, Petr a aeth i fynu ar y tŷ i weddio yng-hylch y chweched awr.

10 Ac fe a ddaeth arno ef newyn mawr, ac efe a chwennyche gael bwyd, ac a hwynt yn paratoi iddo, fe ſyrthiodd arno ef lewyg.

11 Ac efe a wele y nef yn agored, a rhyw leſtr yn deſcyn atno fel llen-lliain fawr, wedi rhwymo ei phedair congl, ac wedi ei ollwng hyd y ddaiar:

12 Yn yr hon yr oedd holl anifeiliaid pedwar carnol y ddaiar, a'r bwyſt-filod, a'r ymluſciaid, ac ehediaid y nef.

13 Ac fe ddaeth llef atto: cyfot Petr, lladd, a bwyta.

14 A Phetr a ddywedodd: nid felly Arglwydd: canys ni fwyteais i er ioed ddim cyffredin nac aflan.

15 A'r llef [a ddywedodd] wrtho yr ail waith: y peth a lanhâodd Duw na alw di yn gyffredin.

16 A hyn a wnaed dair gwaith, a derbynniwyd y lleſtr eil-waith i'r nef.

17 Ac yna yr oedd Petr yn ammau ynddo ei hun, pa beth oedd y weledigaeth yr hon a welſe: wele y gwŷr a anfonaſid atto oddi wrth Cornelius, a ddaethant hyd y porth, gan ymofyn am dŷ Simon:

18 Ac wedi iddynt alw, hwy a ofynnaſant, a oedd Simon yr hwn a gyfenwyd Petr yn lleteua yno?

19 Fel yr oedd Petr yn meddwl am y weledigaeth, y dywedodd yr Yſpryd wrtho: wele dry-wŷr yn dy geiſio:

20 Am hynny cyfot, dos i wared, ac yn ddiammau cerdda gyd â hwynt, am i mi eu hanfon hwynt.

21 Yna y deſcynnodd Petr at y gwŷr a anfonaſid atto oddi wrth Cornelius, ac a ddywedodd: wele, myfi yw yr hwn yr ydych chwi yn ei geiſio, beth yw yr achos am yr hon y daethoch?

22 Hwythau a ddywedaſant: Cornelius y canwriad, gŵr cyfiawn, yn ofni Duw, ac a gair da iddo gan holl genedl yr Iddewon, a rybuddiwyd gan yr angel ſanctaidd, i ddanfon am danat iw dŷ, ac i wrando geirſiau gennit ti.

23 Am hynny efe a'u galwodd hwynt i mewn, ac a'u lletteuodd: a thrannoeth yr aeth Petr ymmaith gyd â hwy, a rhai o'r brodyr o Ioppa a aethant gyd ag ef.

24 A thrannoeth yr aethant i mewn i Cæſarea, ac yr oedd Cornelius yn diſgwyl am danynt, ac efe a alwaſe ei geraint a'i anwyl gyfeillion.

25 Ac fe ddarfu fel yr oedd Petr yn dyfod i mewn, ddyfod o Cornelius i gyfarfod ag ef, ac efe a ſyrthiodd wrth ei draed ef, ac a addolodd.

26 Eithr Petr a'i cyfododd ef i fynu, gan ddywedyd: cyfod, dŷn wyf finne hefyd.

27 A thann ymddiddan ag ef, efe a ddaeth i mewn, ac a gafodd lawer wedi ymgynnull yng-hyd.

28 Ac efe a ddywedodd wrthynt: chwy-chwi a wyddoch nad yw gyfreithlon i Iddew ymwaſcu, neu neſau at alltud: eithr Duw a ddangoſodd i mi, na alwn neb yn gyffredin neu yn aflan.

29 Am hynny y daethym attoch yn ddi-nag, o herwydd pa ham y gofynnaf, am ba achos y danfonaſoch am danaf?

30 A dywedodd Cornelius: er ys pedwar diwrnod hyd yr awr hon o'r dydd yr oeddwn yn ymprydio, ac y nawfed awr y gweddiais yn fy nhŷ: ac wele, fe a ſafodd gŵr ger fy mron â gwiſc ddiſclaer,

31 Ac a ddywedodd: Cornelius, dy weddiau di a wrandawyd, a'th eluſenau ŷnt mewn coffa ger bron Duw.

32 Am hynny danfon i Ioppa, a galw yma Simon yr hwn a gyfenwir Petr, y mae hwn yn lleteua yn nhŷ Simon y barcer yng-lann y môr, yr hwn pan ddelo attat, a lefara i ti.

33 Yna y danfonais yn ebrwydd attat, a thi a wnaethoſt yn dda am ddyfod, ac yr awr hon yr ydym ni oll ger bron Duw, i wrando o honom bob peth a'r a orchymynnwyd i ti gan Dduw.

*Yr Epyſtol ar ddydd llun y Sulgwyn.*

Deut.10.17.
2.Cro.19.7.
Rufein.2.11.
Gala.2.6.
Ephes.6.9.
Coll 3.25.
1.Pet.1.17.

34 ☞ Yna yr agorodd Petr ei enau, ac a ddywedodd, yn wir yr wyf yn deall, nad yw Duw yn *derbyn wyneb neb.

35 Eithr ym mhob cenhedlaeth y neb a'i hofno ef, ac a wnelo gyfiawnder, ſydd gymmeradwy ganddo ef.

36 Yr hwn ymadrodd a ddanfonodd Duw i feibion yr Iſrael, gan bregethu tangneddyf yn Ieſu Griſt, yr hwn ſydd Arglwydd pawb oll.

Luc.4.14.

37 Chwy-chwi a wyddoch y peth a fu yn holl Iudæa, gan *ddechreu yn Galilæa, wedi y bedydd a bregethodd Ioan,

38 Y modd y darfu i Dduw eneinio Ieſu o Nazareth â'r Yſpryd glân, ac â nerth, yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur gweithredoedd da, ac iachau pawb a'r a oeddynt wedi eu dwyn tann feddiant diafol: canys Duw oedd gyd ag ef.

39 Ac yr ydym ni yn dyſtion o'r pethau oll a wnaeth efe yng-wlad yr Iddewon, ac yn Ieruſalem, yr hwn a laddaſant hwy, ac a grogâſant ar bren.

40 Hwnnw a ddarfu i Dduw ei gyfodi y trydydd dydd, ac a wnaeth ei fod yn amlwg,

41 Nid i'r bobl oll, eithr i'r tyſtion etholedig o'r blaen gan Dduw, [ſef] i ni y rhai a fwytaſom, ac a yfaſom gyd ag ef, wedi ei gyfodi oddiwrth y meirw.

42 Ac efe a orchymynnodd i ni bregethu i'r bobl, a dwyn teſtiolaeth mai efe yw hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn farn-wr byw a meirw.

Pen.15.9.
Ierem.31.34.
Mich.7.18.

43 Gyd â hwn mae yr holl *brophwydi yn teſtiolaethu, fod i bawb a gredo ynddo ef gael maddeuant am eu pechodau yn ei enw ef.

44 Tra fu Petr yn dywedyd y geiriau hyn, deſcynnodd yr Yſpryd glân ar bawb a glywſant y gair.

45 A'r rhai o'r enwaediad a oeddent yn credu, ac a ddaethent gyd â Phetr, a ſynnaſant, am dywallt yr Yſpryd glân ar y cenhedloedd hefyd.

46 Canys hwy a'u clywſant hwynt yn ymadrodd â thafodau, ac yn mawrhygu Duw, yna yr attebodd Petr,

47 A all neb luddio dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniaſant yr Yſpryd glân fel ninnau?

48 Ac efe a orchymynnodd eu bedyddio hwynt yn enw yr Arglwydd: yna y deiſyfiaſant arno aros tros enyd o ddyddiau. ☜

## PEN. XI.

Petr yn bodloni y rhai o'r enwaediad, 22 Barnabas a Phaul yn pregethu yn Antiochia, 28 Agabus yn dangos y doe drudaniaeth.

YR Apoſtolion a'r brodyr oeddynt yn Iudæa a glywſant ddarfod i'r cenhedloedd hefyd dderbyn gair Duw.

2 Wedi dyfod Petr i fynu i Ieruſalem, y rhai o'r enwaediad a ymryſonaſant yn ei erbyn ef,

3 Gan ddywedyd: ti a aethoſt i mewn at wŷr dienwaediol, ac a fwytêaiſt gyd â hwynt.

4 A Phetr a ddechreuodd, ac a eglurodd [bob peth] mewn trefn iddynt, gan ddywedyd:

5 Myfi oeddwn yn gweddio yn ninas Ioppa, ac mewn llewyg y gwelais weledigaeth, [ſef] rhyw leſtr vnwedd a llen-lliain fawr yn deſcyn, wedi ei gollwng o'r nef erbyn ei phedair congl, ac hi a ddaeth hyd attaf fi:

6 Yn yr hwn pan edrychais, yr yſtyriais, ac mi a welais, bedwar carnolion y ddaiar, a bwyſt-filod, ac ymlusciaid, ac ehediaid y nef.

7 Ac mi a glywais lef yn dywedyd wrthif, cyfod Petr, lladd, a bwyta.

8 Ac mi a ddywedais, na [wnaf] Arglwydd: canys dim cyffredin nac aflan nid aeth er ioed yn fyng-enau.

9 Eithr y llais a'm hattebodd i eil-waith o'r nef: yr hyn a lanhaodd Duw, na alw di yn gyffredin.

10 A hynny a wnaed dair gwaith, a'r holl bethau a gymmerwyd i fynu i'r nef trachefn.

11 Ac wele yn y man, y daeth tri-wŷr i'r tŷ (lle yr oeddwn) wedi eu gyrru o Cæſarea attaf.

12 Ac a archodd yr Yſpryd i mi fyned gyd â hwynt heb ammeu dim, a'r chwe brodyr hyn a ddaethant gyd â mi, ac ni a ddaethom i dŷ y gŵr.

13 Yr hwn a ddangoſodd i ni y modd y gwel-

ſe yntef angel yn ei dŷ, yr hwn a ſafodd, ac a ddywedodd wrtho: Anfon ryw rai i Ioppa, a galw am Simon a gyfenwir Petr.

14 Efe a draetha eiriau wrthit trwy y rhai i'th iachauir di a'th holl dŷ.

15 Ac a myfi yn dechreu lleſaru, y daeth yr Yſpryd glân arnynt, *megis arnom ninnau yn y dechreuad.

*Pen.2.4.

16 Yna y cofiais air yr Arglwydd, y modd y dywedaſe efe: *Ioan a fedyddiodd â dwfr, eithr chwi a fedyddir â'r Yſpryd glân.

*Pen.1.5. Math.3.11. Mar.1.8. Luc.3.16. Ioan.1.26.

17 Yn gymmaint gan hynny a rhoddi o Dduw iddynt y cyfryw ddawn, ac a roddes i ninnau pan gredaſom yn yr Arglwydd Ieſu Griſt: pwy oeddwn i, i luddio Duw?

18 Pan glywſant hwy hyn, diſtawi a wnaethant, a gogoneddu Duw, gan ddywedyd, rhoddes Duw gan hynny i'r cenhedloedd hefyd edifeirwch i fywyd.

19 Hefyd y rhai a * waſcaraſid o herwydd y blinder a godaſe yng-hylch Stephan, a ddaethant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb pregethu y gair i neb, ond i'r Iddewon yn unic.

*Pen.8.1.

20 A rhai o honynt yn wŷr o Cyprus, ac ô Cirene, pan ddaethant i Antiochia, a leſaraſant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Ieſu.

21 A llaw yr Arglwydd oedd gyd â hwynt, a nifer mawr a gredodd, ac a drôdd at yr Arglwydd.

*Yr Epyſtol ar ddigwyl Barnabe.*

22 ☞ Ac felly y daeth y gair o'r pethau i gluſtiau yr eglwys yr hon oedd yn Ieruſalem, a hwy a anfonaſant Barnabas, i fyned hyd Antiochia.

23 Yr hwn pan ddaeth, a gweled grâs Duw, a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyr-fryd calon i barhau yn yr Arglwydd.

24 Canys gŵr da oedd efe, yn llawn o'r Yſpryd glân, a ffydd: a llawer o bobl a chwanegwyd i'r Arglwydd.

25 Yna yr aeth Barnabas i Tharſus i geiſio Saul, ac wedi iddo ei gael, efe a'i dug i Antiochia.

26 A darfu hefyd iddynt flwyddyn gyfan gynniwer yn yr eglwys [honno,] ac yr oeddynt yn dyſcu tyrfa fawr: a'r diſcyblion yn Antiochia a alwyd yn Griſtianogion yn gyntaf.

*Yr Epyſtol ar ddigwyl Iaco.*

27 ❡ Ac yn yr amſer hwnnw y daeth prophwydi o Ieruſalem i Antiochia.

28 Ac un o honynt a gyfododd a'i enw Agabus, ac a arwyddocâodd drwy yr Yſpryd, y bydde newyn mawr dros yr holl fyd, yr hyn a fu tann Claudius Cæſar.

29 Yna pob un o'r diſcyblion yn ôl ei allu, a fwriadaſant anfon cymmorth i'r brodyr, y rhai oeddynt yn preſſwylio yn Iudæa.

30 Yr hyn beth a wnaethant, gan ddanfon at yr henuriaid drwy law Barnabas a Saul.

## PEN XII.

Herod yn erlid y Chriſtianogion, yn lladd Iacob, ac yn carcharu Petr, 7 yr angel yn gwared Petr, 20 dig, gwagedd, ac angeu Herod.

*Yr Epyſtol ddigwyl Petr.*

‡ YPryd hynny yr eſtynnodd Herod Frenin [ei] ddwylo i orthrymmu rhai o'r eglwys.

2 Canys efe a laddodd Iacob brawd Ioan â'r cleddyf.

3 A phan welodd fod yn dda gan yr Iddewon hyn, efe a chwanegodd ddala Petr hefyd ◗ (a dyddiau y bara croiw ydoedd hi)

4 Yr hwn a ddaliodd efe, ac a oſododd yng-harchar, ac a'i rhoddodd at bedwar pedwar o filwŷr iw gadw, gan feddwl ar ôl y Paſc ei ddwyn ef allan i'r bobl.

5 Felly y cadwyd Petr yn y carchar, a gweddi ddyfal a wnaeth yr eglwys at Dduw droſto ef.

6 A phan oedd Herod a'i fryd ar ei ddwyn ef allan, y nos hon y cyſcodd Petr rhwng dau filwr, wedi ei rwymo â dwy gadwyn, a'r gwilwyr oeddynt yn cadw y carchar gyferbyn â'r drws.

7 * Ac wele, Angel yr Arglwydd a ddaeth ar eu huchaf, a llewyrch a oleuodd yn y carchar: ac efe a darawodd Petr ar ei yſtlys, ac a'i cyfododd ef, gan ddywedyd: cyfod yn fuan, a'r cadwyni a ſyrthiaſant oddi am ei ddwylo ef.

*Pen.5.19.

8 A dywedodd yr Angel wrtho, ymwregyſa, a chae dy eſcidiau: ac felly y gwnaeth efe, yna y dywedodd, gwiſc dy ddillad am danat, a chanlyn fi.

9 A Phetr a ddaeth allan, ac a'i canlynodd ef, ac ni's gwybu mai gwir oedd y peth a wnaéthid gan yr Angel, onid efe a dybiodd mai gweled gweledigaeth ydoedd efe.

10 Eithr wedi myned o honynt heb law y gyntaf a'r ail wiliadwriaeth, hwy a ddaethāt i'r porth haiarn, yr hwn ſydd yn arwain i'r ddinas, yr hwn a ymagorodd iddynt o'i waith ei hun: ac wedi eu myned allan, hwy a aethant ar hŷd un heol, a'r Angel a aeth yn ebrwydd oddi wrtho.

11 Yna Petr wedi dyfod atto ei hun a ddywedodd, yn awr y gwn yn wir, i'r Arglwydd anfon ei Angel, a'm gwared fi allan o law Herod, ac oddi wrth diſgwiliad holl bobl yr Iddewon. ‡

12 Ac wedi iddo gymmeryd pwyll, efe a ddaeth i dŷ Mair, mam Ioan yr hwn oedd a'i gyfenw Marcus, lle yr oedd llawer wedi ymgaſclu, ac yn gweddio.

13 Ac wedi i Petr guro drws y porth, morwyn a ddaeth allan i wrando, a'i henw Rhode.

14 Yr hon pan adnabu lais Petr, nid agorodd y drws gan lawenydd, eithr hi a redodd i mewn, ac a ddywedodd fod Petr yn ſefyll o flaen y porth.

15 Hwythau a ddywedaſant wrthi, yr wyt ti wedi ynfydu, a hithe a daerodd mai felly yr oedd, eithr hwy a ddywedaſant, ei Angel ef yw.

16 A Phetr a barhâodd yn curo, ac wedi iddynt agori, hwy a'i gwelſant ef, ac a ſynnaſant.

17 Ac efe a amneidiodd arnynt â'i law am dewi, ac a ddangoſodd iddynt pa wedd y dugaſe yr Arglwydd ef allan o'r carchar; ac efe a ddywedodd, dangoſwch hyn i Iaco, ac i'r brodyr, ac efe a aeth allan, ac a aeth i le arall.

18 A phan ddyddhâodd hi, yr oedd trallod nid bychan ym mhlith y mil-wŷr, pa beth a ddaethe o Betr.

19 Eithr Herod, pan geiſiodd ef, ac na's cafodd, efe a holodd y ceidwaid, ac a orchymynnodd eu cymmeryd hwy ymmaith: yntef a aeth i wared o Iudæa i Cæſarea, ac a arhoſodd yno.

20 Eithr Herod oedd lidiog yn erbyn gwŷr Tyrus a Sidon, a hwynt a ddaethant yn gytun atto, ac wedi ennill Blaſtus yr hwn oedd ſtafellydd y brenin, hwy a ddeiſyfiaſant dangneddyf, am fod eu gwlâd hwynt yn cael ei chynhaliaeth o dir y brenin.

21 Ac ar y dydd nodedic yr ymwiſcodd Herod yn ei ddillad brenhinol, ac yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc efe a ymadroddodd wrthynt.

22 A'r bobl a roeſant waedd, lleferydd Duw, ac nid dŷn.

23 Ac allan o law y tarawodd angel yr Arglwydd ef, am na roeſe y gogonedd i Dduw, a chan bryfed yn ei yſu, efe a drengodd.

22 A gair Duw a gynnyddodd, ac a amlhâodd.

25 Yna Barnabas, a Saul a ddychwelâſant o Ieruſalem, wedi cyflawni eu ſwydd, a chan gymmeryd gyd â hwynt Ioan hefyd yr hwn a gyfenwid Marc.

## PEN. XIII.

Am Sergius Paulus: am Elymas a Barieſu. 16 Pregeth Paul. 46 Hyder Paul a Barnabas.

YR oedd hefyd yn yr eglwys yr hon ydoedd yn Antiochia rai prophwydi a doctoriaid ſef Barnabas, a Simon yr hwn a elwid Niger, a Lucius o Cyrene, a Manahen brawd-maeth Herod y Tetrarch, a Saul.

2 Fel yr oeddynt hwy yn gwaſanaethu yr Arglwydd, ac yn ymprydio, y dywedodd yr Yſpryd glân, Neillduwch i mi Barnabas a Saul i'r gwaith y gelwais hwynt.

3 Yna wedi iddynt ymprydio, a gweddio, a dodi eu dwylo arnynt, y gollyngaſant hwy ymmaith.

4 A hwythau wedi eu danfon ymmaith gan yr Yſpryd glân a ddaethant i wared i Seleucia, ac oddi yno y mordwyaſant i Cyprus.

5 A phan ddaethant i Salamis y pregethaſant air Duw yn ſynagogau yr Iddewon: ac yr oedd Ioan hefyd yn weinidog iddynt.

6 Ac wedi iddynt gerdded yr ynys hyd Paphus, hwy a gawſant ryw ſwyn-wr, gau brophwyd o Iddew, a i enw Barieſu:

7 Yr hwn oedd gyd â'r rhaglaw Sergius Paulus [yr hwn oedd] ŵr call: ac efe a alwodd atto Barnabas a Saul, ac a ddeiſyfiodd gael clywed gair Duw.

8 Ac Elymas y ſwyn-wr (ſef felly y deonglir ei enw) ai lluddiodd hwynt, gan geiſio troi y rhaglaw o'r ffydd.

9 Yna Saul (yr hwn hefyd a elwir Paul) yn llawn o'r Yſpryd glân, ac yn edrych yn graff arno ef,

10 A ddywedodd: ô [vn] llawn o bob dichell a phob dryg-waith, mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder, oni pheidi a gŵyro iniawn ffydd yr Arglwydd?

11 Ac yn awr, wele law yr Arglwydd arnat, a thi a fyddi ddall heb weled yr haul dros amſer ac yn ddiattreg y ſyrthiodd arno niwlen, a thywyllwch, ac a aeth o amgylch i geiſio a'i harweinie mewn llaw.

12 Yna y rhaglaw pan welodd yr hyn a wnaethid a gredodd, gan ryfeddu wrth ddyſceidiaeth yr Arglwydd.

13 A Phaul a'r rhai oeddynt gyd ag ef, wedi myned ymmaith o Paphus, a ddaethant i Perga yn Pamphylia, eithr Ioan a ymadawodd â hwynt, ac a ddychwelodd i Ieruſalem.

14 Ac wedi iddynt fyned allan o Perga, y daethant i Antiochia [dinas] o Piſidia, ac hwy a aethant i mewn i'r Synagog ar y dydd Sabboth, ac a eiſteddaſant:

15 Ac yn ôl llitho'r ddeddf, a'r prophwydi, rheolwŷr y Synagog a anfonaſant attynt, gan ddywedyd, ha wŷr frodyr, od oes gennych air o gyngor i'r bobl: traethwch.

16 Yna y cyfododd Paul i fynu gan amnaidio â'i law am oſteg ac a ddywedodd: ô wŷr o Iſrael, a'r ſawl ſydd yn ofni Duw, gwrãdewch.

17 Duw y bobl hyn o Iſrael, a etholodd ein tadau, ac a dderchafodd y bobl pan oeddynt yn preſwylio yng-wlad yr * Aipht, ac â * braich uchel y dug efe hwynt oddi yno allan. Exod.1.9. & 13.14. & 16.1.

18 Ac yng-hylch [yſpaid] deugain mhlynedd, y goddefodd efe eu harferau hwynt yn yr anialwch.

19 Ac wedi iddo ddiniſtrio ſaith genedl yn nhir Canaan, â choel-bren y * parthodd efe dir y rhai hynny iddynt hwy. Ioſua.14.1. barn.3.9.

20 Ac wedi hynny yng-hylch pen pedwar cant a dêc a deugain o flynyddoedd y rhoddes efe farn-wŷr iddynt hyd yn amſer Samuel y prophwyd.

21 Ac yn ôl hynny * y dymunaſant frenin, ac fe roddes Duw iddynt Saul fab Cis, gŵr o lwyth Beniamin, ddeugain mhlynedd. 1.Sam.8.5. & 9.15.& 10.1.

22 Ac wedi ei ddiſwyddo ef y cyfododd *efe Dafydd yn frenin iddynt, am ba vn y tyſtiodd efe gan ddywedyd: Ceſais Ddafydd fab Ieſſe, gŵr wrth [fodd] fyng-halon, yr hwn a gyflawna fy holl ewyllys. 1.Sam.16.13. Pſal.89.21.

23 O * hâd hwn y cyfodes Duw yn ôl ei addewid i Iſrael yr iachawdr Ieſu: eſai.11.1. Mala.3.1. math.3.1. mar.1.2.

24 A phan bregethodd * Ioan yn gyntaf o flaen ei ddyfodiad ef fedydd edifeirwch i holl bobl Iſrael, luc.3.2. math.3.11. marc.1.7. ioan.1.20.

25 Ac wedi i Ioan gyflawni ei redfa efe a ddywedodd, pwy yr ydych yn tybied fy mod i? nid myfi yw [efe,] eithr wele y mae yn dyfod ar fy ôl yr hwn nid wyf deilwng i ddattod eſcidiau ei draed.

26 Ha-wŷr frodyr, plant o genhedlaeth Abraham, a phâ rai bynnac yn eich plith ſydd yn ofni Duw, i chwi y danfonwyd gair yr iechydwriaeth hyn.

27 O blegit preſwylwŷr Ieruſalem a'u tywyſogion heb adnabod hwn, na lleferydd y prophwydi y rhai a ddarllenid bob Sabboth [ai] cyflawnaſant gan farnu [hwn.]

Math.27.22. 28 Ac heb gael ynddo ddim achos angeu a *ddymunaſant ar Pilat ei ladd ef.

marc.15.13. luc.23.23. ion.19.6 29 Ac wedi iddynt gwblhau pob peth a'r a ſcrifennaſid am dano ef y deſcynnaſant ef oddi ar y pren, ac y dodwyd ef mewn monwent.

Math.28.2. marc.16.6. luc.24.6. ioan.20.13. 30 (Eithr Duw a'i* cyfododd ef i fynu oddi wrth y meirw)

31 Yr hwn a welwyd lawer dydd gan y rhai a ddaethe yng-hyd gyd âg ef o Galilæa i Ieruſalem, ac ſydd in dyſtion o honaw i lawer o bobl:

32 A nyni ydym yn pregethu i chwi yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarfod i Dduw ei gyflawni iw plant hwy, ſef nyni, gan iddo gyfodi Ieſu:

33 Megis yr ſcrifennir yn yr ail pſalm, *Ti yw fy Mab i, myfi heddyw a'th genhedlais. Pſal 2.7. hebr.1.5.& 5.5

34 Ac am iddo ef ei gyfodi ef o'r meirw, nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y dywedodd fel hyn:* Dodaf i chwi ſanctaidd ddiſigl [drugareddau] Dafydd. Eſa.55.3. pen.2.31.

Pſal.16.11. 35 Ac am hynny y mae yn dywedyd mewn lle arall.*Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth.

36 Canys Dafydd, wedi iddo waſanaethu trwy ewyllys Duw yn ei oes, a* hunodd, ac a oſodwyd gyd âi dadau, ac a welodd lygredigaeth: Pen.2.29. 1.bren.2.10.

37 Eithr yr hwn a gyfodes Duw, ni welodd lygredigaeth.

38 Am hynny bydded hyſpys i chwi, ha wŷr frodyr, mai trwy hwnnw yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant am bechodau.

39 A thrwy hwn y cyfiawnheir pob vn a'r ſydd yn credu ynddo oddi wrth y pethau oll y rhai nis gallent gael eu cyfiawni drwy gyfraith Moſes.

40 Gwiliwch am hynny rhag dyfod arnoch y peth a ddywedir yn y prophwydi.

Haba.1.5. 41 * Edrychwch ô ddirmyg-wŷr a rhyfeddwch, a diflennwch ymmaith: canys yr wyf yn gwneuthur gweithred yn eich dyddiau, gwaith nis credwch er i neb ei ddangos i chwi.

42 Ac wedi eu dyfod hwy allan o Synagog yr Iddewon, yr attolygodd y cenhedloedd bregethu o honynt y geiriau hyn iddynt y Sabboth neſaf.

43 Ac wedi gollwng y gynnulleidfa, llawer o'r Iddewon ac o'r proſelytiaid bucheddol a ganlynaſant Paul a Barnabas, y rhai gan lefaru wrthynt a gynghôraſant iddynt aros yng-râs Duw.

44 A'r ail Sabboth y daeth yr holl ddinas agos i wrando gair Duw.

45 Eithr pan welwyd y bobl, yr Iddewon a lanwyd o genfigen, ac a wrthwynebâſant y geiriau a lefaraſe Paul, gan ddywedyd yn eu herbyn a'u cablu.

46 Yna y llefarodd Paul a Barnabas yn hyf, ac hwy a ddywedâſant, rhaid oedd egluro i chwi air Duw yn gyntaf, eithr gan i chwi ei wrthod, a'ch barnu eich hunain yn anheilwng o fywyd tragywyddol: wele, nyni yn troi at y cenhedloedd.

47 Canys felly y gorchymynnodd yr Arglwydd i ni [gan ddywedyd,]* Goſodais di yn oleuad i'r cenhedloedd i fod o honaw yn iechydwriaeth hyd eithaf y ddaiar. Eſai.49.6.

48 A phan glybu y cenhedloedd, llawenhau a wnaethant, a gogoneddu gair yr Arglwydd, ac fe a gredodd pob cyfryw vn ac a ordeiniaſid i fywyd tragywyddol.

49 Felly, gair Duw a ddygwyd drwy gwbl o'r wlâd honno.

50 A'r Iddewon a annogâſant rai o'r gwragedd bucheddol anrhydeddus, a phennaethiaid y ddinas, ac a godaſant erlid yn erbyn Paul a Barnabas, ac hwy a'u gyraſant allan o'u terfynau hwynt.

51 Hwyntau a* eſcydwaſant y llwch oddi wrth eu traed yn eu herbyn hwy, ac a ddaethant i Iconium. Pen.18.6. math.10.14. mar.6.11. luc.9.5.

52 A'r diſcyblion a gyflawnwyd o lawenydd, ac o'r Yſpryd glân.

## PEN. XIIII.

Rhwyddeb gair Duw. 6 Erlid yr Apoſtolion. 10 Iachau y cloff efrydd. 12 Cam addoli yr Apoſtolion. 19 Llabyddio Paul agos hyd angeu. 21 Trafel yr Apoſtoliō.

AC fe ddarfu iddynt ill dau yn Iconium fyned yng-hyd i Synagog yr Iddewon, a llefaru fel y credodd lliaws mawr o'r Iddewon, ac o'r Groeg-wŷr hefyd.

2 Ond yr Iddewon anghredadwy a gyffroeſant, ac a lygrâſant feddyliau y cenhedloedd yn erbyn y brodyr.

3 Am hynny yr arhoſaſant [yno] amſer mawr, gan lefaru yn hyderus yn yr Arglwydd, yr hwn a roddes deſtiolaeth i air ei râd ef, ac a roddes wneuthur arwyddion a rhyfeddodau trwy eu dwylo hwynt.

4 Yna y rhannwyd cynnulleidfa y ddinas, rhai oedd gyd â'r Iddewon, a rhai gyd â'r Apoſtolion.

5 A phan wnaethpwyd rhuthr gan y cenhedloedd, a'r Iddewon a'r llywodraethwŷr iw hamherchi hwynt, ac iw llabyddio:

6 Deall hynny a wnaethant, a chilio i Lyſtra, a Derba, dinaſoedd o Lycaonia, ac i'r wlad o bob tu.

7 Ac yno y pregethaſant yr Efengyl.

8 Ac yr oedd rhyw wr yn eiſtedd yn Lyſtra yn ddiffrwyth ei draed, yr hwn oedd yn efrydd o groth ei fam, ac ni cherddaſai erioed.

9 Hwn a glybu Paul yn pregethu, yr hwn wrth edrych arno, a gweled fod ganddo ffydd i gael iechyd:

10 A dywedodd â llef uchel, ſaf yn uniawn ſefyll ar dy draed, ac efe a neidiodd i fyny, ac a rodiodd.

11 Yna pan welodd y dyrfa yr hyn a wnaethe Paul, hwy a godaſant eu llef gan ddywedyd yn iaith Lycaonia: Duwiau a ddeſcynnaſant attom yn rhith dynion.

12 Ac hwy a alwaſant Barnabas yn Iupiter, a Phaul yn Mercurius, o blegit efe oedd yr ymadroddwr pennaf.

13 Yna offeiriad Iupiter yr hwn oedd o flaen eu dinas, a ddug deirw a garlantau [illegible] y pyrth, ac a fynnaſe gyd â'r bobl aberthu.

14 Yr hwn beth pan glybu yr Apoſtolion Barnabas a Phaul hwy a rwygaſant eu dillad, ac a neidiaſant ym mhlith y bobl gan leſain,

15 A dywedyd, ha wŷr, paham y gwnewch chwi hynny? dynion hefyd ydym ninnau, yn gorfod goddef fel chwithau, ac yn pregethu i chwi ar i chwi droi oddi wrth y pethau gweigion ymma at Dduw byw, yr hwn a *wnaeth nef a daiar, a'r môr, a phob peth oll a'r ſydd ynddynt.

Gen.1.1.
Pſal.146.5.
Gwele.14.7.
Pſal.81.13.
Rufein.1.14.

16 Yr hwn a *adawodd yn yr oeſoedd gynt i'r holl genhedlaethau gerdded eu ffyrdd eu hunain.

17 Er hynny, ni adawodd efe mo honaw ei hun yn ddi-dyſt, gan wneuthur daioni, a rhoddi glaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlon, a llenwi ein calonnau ni â llyniaeth, ac â llawenydd.

18 A thra fuant yn traethu y pethau hyn, braidd yr attaliaſant y bobl rhag aberthu iddynt.

19 Yna y daeth Iddewon o Antiochia, ac Iconium, y rhai wedi iddynt gynghori y dyrfa, a *llabyddio Paul a'i lluſgaſant allan o'r ddinas gan tybied ei fod efe yn farw.

Mar.11.25.

20 Ac fel yr oedd y diſcyblion yn ſefyll o'i amgylch, efe a gyfododd, ac a aeth i'r ddinas, a thrannoeth efe a aeth allan, ac a ddaeth i Derbe efe a Barnabas.

21 A phan bregethaſant i'r ddinas honno, ac ennill llawer o ddiſcyblion, hwy a ddychwelaſant i Lyſtra, ac Iconium, ac Antiochia,

22 Gan gadarnhau calonnau y diſcyblion, a'u cynghori i aros yn y ffydd: ac mai trwy lawer o gyſtudd y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw.

23 Ac wedi ordeinio o honynt henuriaid iddynt ym mhob eglwys trwy etholedigaeth, a gweddio, ac ymprydio, hwy a'i gorchymynnaſant i'r Arglwydd yr hwn y credent ynddo.

24 Ac wedi iddynt fyned tros Piſidia, y daethant i Pamphylia.

25 Ac wedi pregethu y gair yn Perga, y daethant i waered i Attalia.

26 Ac oddi yno y mordwyaſant i Antiochia, o'r lle y gorchymynnaſid hwynt i râs Duw er mwyn y gorchwyl a gyflawnaſent hwy. Pen.13.3.

27 Ac wedi iddynt ddyfod a chaſclu yr eglwys yng-hyd, hwy a fynegaſant faint y gweithredoedd a wnaethe Duw gyd â hwynt, ac iddo agoryd i'r cenhedloedd ddrws y ffydd.

28 Ac yno yr arhoſaſant hwy ennyd hir o amſer gyd â'r diſcyblion.

## PEN. XV.

Ymryſon yng-hylch enwaediad, 30 Paul a Barnabas yn pregethu yn Antiochia, 39 Paul a Barnabas yn ymadael.

1 Yna y daeth rhai i waered o Iudea, ac a ddyſcaſant y brodyr, [gan ddywedyd] Oni enwaedir chwi yn ôl defod Moſes, ni ellwch fod yn gadwedic.

2 A phan ydoedd ymryſon a dadlau nid bychan gan Paul a Barnabas yn eu herbyn hwy, fe gytunwyd fyned o Paul a Barnabas, ac eraill o honynt hwy i fynu i Ieruſalem at yr Apoſtolion a'r henuriaid yng-hylch y cweſtiwn ymma.

3 Yna wedi eu danfon hwy ymmaith gan yr eglwys, teithiaſant trwy Phœnice a Samaria gan fynegu troad y cenhedloedd: ac hwy a wnaethant lawenydd mawr i'r brodyr oll.

4 A phan ddaethant i Ieruſalem, â'u derbyn gan yr eglwys, a'r Apoſtolion, a'r henuriaid, hwy a adroddaſant y pethau oll a wnaethe Duw trwyddynt hwy.

5 Ond fe gyfododd [ebr hwy] rhai o ſect y Phariſæaid y rhai oeddynt yn credu, gan ddywedyd: mai rhaid iddynt eu henwaedu, a gorchymyn cadw deddf Moſes.

6 Yna y daeth yr Apoſtolion a'r henuriaid i edrych ar yr ymadrodd hwn.

7 Ac wedi bod ymddadlau mawr, y cyfododd Petr, ac y dywedodd wrthynt, *ha-wŷr frodyr, chwi a wyddoch ddarfod i Dduw er ys talm yn ein plith ni fy ethol i, fel y cae y cenhedloedd drwy fyng-enau i glywed gair yr Efengyl, a chredu. Pen.10.20.

8 A Duw adnabydd-wr calon, a deſtiolaethodd gyd â hwynt gan roddi iddynt yr Yſpryd glân fel i ninnau.

9 Ac ni wnaeth efe ddim gwahaniad rhyngom ni ag hwynt, gan iddo * trwy ffydd lanhau eu calonnau hwynt.

Pen.10.45.
1.Cor.1.2.
Math.23.4.

10 Ac yn awr paham yr ydych chwi yn temtio Duw, gan ddodi iau ar warrau y diſcyblion, yr hon ni allodd na'n tadau, na ninnau ei dwyn?

11 Eithr credu yr ydym, trwy râs yr Arglwydd Ieſu Griſt ein bod ni yn gadwedic fel hwythau.

12 Yna y diſtawodd yr holl dyrfa, ac y gwrandawſant Barnabas, a Phaul yn mynegu pa arwyddion a rhyfeddodau eu maint a wnaethe Duw ym mhlith y cenhedloedd trwyddynt hwy.

13 Ac wedi iddynt oſtegu, attebodd Iaco a

dywedodd: ha-wŷr frodyr gwrandewch fi.

14 Mynegodd Simon i chwi pa fodd yr ymwelodd Duw gyntaf, i gymmeryd pobl i'w enw ef o'r cenhedloedd.

15 Ac â hyn y cytuna geiriau y prophwydi: megis y mae yn scrifennedic;

16 *Wedi hyn y dychwelaf, ac yr adnewyddaf Tabernacl Dafydd yr hwn a syrthiase, ac a gyweiriaf ei adwyau, ac a'i cyfodaf ail-waith.

Amos.9.11.

17 Fel y ceisio dynion eraill yr Arglwydd a'r holl genhedloedd ar ba rai y galwyd fy enw, medd yr Arglwydd yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn.

18 Hyspys i Dduw yw ei weithredoedd oll, er cyn yr oesoedd.

19 O herwydd paham, yr wyf fi yn barnu na ddylid cyffroi y rhai o'r cenhedloedd a droesant at Dduw:

20 Eithr scrifennu o honom ni atynt ar ymgadw o honynt oddi wrth halogrwydd delwau, a godineb, a'r peth a dagwyd, a gwaed.

21 Canys y mae i Moses yn mhob dinas, er yr hen amseroedd rhai a'i pregethant ef, yn y Synagogau [lle] y darllennir ef bob Sabbath.

22 Yna y gwelodd yr Apostolion yn dda a'r henuriaid, yng-hyd a'r holl eglwys anfon gwŷr etholedic o honynt i Antiochia gyd â Phaul a Barnabas, [sef] Judas a gyfenwir Barsabas, a Silas, y gwŷr rhagorafyn mysc y brodyr:

23 Gan scrifennu gyd â hwynt fel hyn, yr Apostolion a'r henuriaid a'r brodyr, at y brodyr y rhai sy o'r cenhedloedd yn Antiochia, a Syria, a Cilicia yn danfon annerch.

24 Yn gymmaint a chlywed o honom ni rai a aethant allan oddi wrthym ni eich cyffroi chwi â geiriau, gan rwystro eich meddyliau, a dywedyd: rhaid i chwi eich enwaedu, a chadw y ddeddf, i'r rhai ni orchymynnasem ni [hynny]

25 Ni a welsom yn dda wedi i ni ymgasclu yng-hyd, anfon trwy gytundeb attoch wŷr etholedic gyd â'n hannwyl Barnabas a Phaul:

26 Gwŷr a roesant eu heinioes er mwyn enw ein Harglwydd Jesu Grist.

27 Ni a anfonasom Judas a Silas y rhai a fynegant i chwi yr un rhyw bethau ar eu [tafod] leferydd.

28 Canys gwelwyd yn dda a'r Yspryd glân a ninnau, na ddodem arnoch faich amgenach na'r pethau angenrheidiol hyn.

29 Bod i chwi ymgadw oddi wrth y pethau a offrymmir i ddelwau, a gwaed, a'r peth a dagwyd, a godineb, oddi wrth y pethau hyn, os chwi a ymgedwch, da y gwnewch: byddwch iach.

30 Ac wedi eu gollwng ymmaith, y daethant i Antiochia, ac yn ôl casclu y dyrfa yng-hyd, hwy a roesant y llythyr [iddynt.]

31 Ac wedi iddynt ddarllen, llawenychu a wnaethant am y cyngor.

32 Judas hefyd a Silas y rhai oeddynt hwythau yn brophwydi, a'i cynghorasant a llawer o ymadroddion, ac a gadarnhâsant y brodyr.

33 Ac wedi iddynt aros yno ennyd o amser, hwy a ollyngwyd mewn heddwch gan y brodyr at yr Apostolion.

34 Er hynny Silas a welodd yn dda aros [yno.]

35 A Phaul a Barnabas a arhosasant yn Antiochia, gan ddyscu, ac efengylu gair yr Arglwydd gyd â llawer eraill.

36 Ac wedi ennyd o ddyddiau y dywedodd Paul wrth Barnabas, dychwelwn, ac ymwelwn a'n brodyr ym mhob dinas yn y rhai y pregethasom air yr Arglwydd [i weled] pa fodd y maent hwy.

37 A Barnabas a gynghorodd gymmeryd gyd â hwynt Ioan yr hwn a elwir Marcus.

38 Ond ni wele Paul yn addas ei gymmeryd ef yn eu cymdeithas, yr hwn a dynnasai oddi wrthynt o Pamphylia, ac nid aethe gyd â hwynt i'r gwaith.

39 Ac yna yr aeth cymmaint o ddigter rhyngddynt hyd oni ymadawodd y naill â'r llall; a Barnabas a gymmerth Marcus gyd ag ef, ac a foriodd i Cyprus.

40 Eithr Paul a ddewisodd Silas, ac a aeth ymmaith wedi ei orchymyn o'r brodyr i râs Duw.

41 Ac efe a dramwyodd trwy Syria a Cilicia, gan gadarnhau yr eglwys.

## PEN. XVI.

Paul yn enwaedu Timotheus, 9 gweledigaeth Paul, 14 Troad Lydia i'r ffydd. 18 Paul yn bwrw allan yspryd drwg, 22 curo, a charcharu Paul a Silas, a'u rhyfedd ryddhaad.

YNa y daeth efe i Derbe, ac i Lystra, ac wele, yr oedd yno ryw ddiscybl a'i enw *Timotheus mab i ryw wraig yr hon oedd yn credu o Judea, ac o dad yr hwn oedd Roeg-wr.

Rufein.16.21.
Phil.2.19.
1.Thess.3.2.

2 Hwn oedd yn cael gair da gan y brodyr y rhai oeddynt yn Lystra ac Iconium.

3 Paul a fynne iddo ef ddyfod gyd ag ef, ac a'i cymmerth, ac o achos yr Iddewon y rhai oeddynt yn y lleoedd hynny, efe a'i henwaedodd ef, canys pawb a wydde mai Groeg-wr oedd ei dad ef.

4 Ac fel yr oeddynt yn ymdaith trwy y dinasoedd, hwy a roesant arnynt gadw y pyngciau a ordeiniase yr Apostolion a'r henuriaid, y rhai oeddynt yn Jerusalem.

5 Felly y cadarnhawyd yr eglwysi yn y ffydd, ac hwy a amlhawyd o rifedi beunydd.

6 Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia, gwahardd wyd iddynt gan yr Yspryd glân bregethu y gair yn Asia:

7 Pan ddaethant i Misia hwy a geisiasant fyned i Bithinia, eithr ni adawodd Yspryd yr Jesu iddynt.

8 A myned a wnaethant heb law Misia i wared i Troas.

9 Ac fe a ymddangosodd i Paul weledigaeth liw nos, rhyw ŵr o Macedonia a safe, ac a weddie arno, gan ddywedyd: tyret trosodd i

Macedonia, a chymmorth ni.

10 Er cynted y gwelodd efe y weledigaeth, ni a geiſiaſom fyned i Macedonia, gan weled arwyddion diogel, mai yr Arglwydd a'n galwaſe ni, i bregethu yr éfengyl [yno.]

11 Ac ni a aethom ymmaith o Troas, ac a gyrchaſom yn iniawn i Samothracia, a thrannoeth i Neapolis.

12 Ac oddi yno i Philippi yr hon ſydd brif ddinas ym mharthau Macedonia, dinas rydd, ac ni a arhoſaſom yn y ddinas honno dalm o ddyddiau.

13 A'r dydd Sabboth yr aethom allan o'r ddinas i lan yr afon, lle byddid arferol o weddio, lle yr eiſteddaſom gyd â rhai gwragedd a ddaethent yng-hyd.

14 A rhyw wraig a elwid Lydia, yr hon oedd yn gwerthu porphor o ddinas y Thiatiriaid, yr hon oedd yn gwaſanaethu Duw, a wrandawodd arnom, yr hon a agoraſe yr Arglwydd ei chalon i yſtyrio ar y pethau a ddywedaſe Paul.

15 Ac wedi ei bedyddio hi a'i theulu, hi a ddymunodd, gan ddywedyd : os ydych yn fy marnu i yn ffyddlawn i'r Arglwydd, dewch i mewn i'm tŷ, ac arhoſwch : a hi a'n daliodd ni [yno.]

16 Ac fel yr oeddem ni yn myned i weddio, fe ddaeth llangces ac ynddi yſpryd dewindeb i gyfarfod â ni, yr hon oedd yn peri llawer o elw iw meiſtriaid wrth ddewiniaeth.

17 Hon yn dilyn Paul a ninne, gan ddywedyd : y dynion hyn yw gweiſion y Duw goruchaf, y rhai ſy yn dangos i chwi ffordd iechydwriaeth.

18 A hynny a wnaeth hi lawer o ddyddiau; a Phaul yn flin ganddo hyn, a ddychwelodd ac a ddywedodd wrth yr yſpryd: gorchymyn yr wyf i ti drwy enw Ieſu Grist fyned allan o honi : ac efe a aeth allan yr awr honno.

19 Yna pan welodd ei meſtred hi fyned heibio obaith eu helw, hwy a ddaliaſant Paul a Silas, ac au llusgaſant hwy i'r farchnadfa at y ſwyddogion :

20 Ac hwy ai rhoeſant hwy at y llywodraethwŷr, ac a ddywedaſant : y mae y dynion hyn yn blino ein dinas ni, a hwythau yn Iddewon;

21 Ac yn pregethu defodau y rhai nid ydynt rydd i nyni eu derbyn, na'u harfer, y rhai ydym Rufain-wŷr.

22 Yna y cyfododd y dyrfa yng-hyd yn eu herbyn hwy, a'r llywodraeth-wŷr a ddrylliaſant eu dillad hwy, ac a orchymynnaſant eu curo â gwiail.

23 Ac wedi dodi llawer gwialēnod iddynt, hwy a'u taflaſant i garchar; gã orchymyn i geidwad y carchar, eu cadw hwynt yn ddiogel.

24 Yr hwn pan gafodd y fath orchymyn au bwriodd hwy i'r carchar neſaf i mewn, ac a wnaeth eu traed yn ſiccr yn y cyffion,

25 Ac fel yr óedd Paul a Silas ganol nos yn gweddio, hwy a ganaſant hymnau i Dduw, a'r carcharorion a'u clywſant hwy,

26 Ac yn ddyſymmwth y bu daiar-gryn mawr, hyd oni ſiglodd ſeiliau y carchar, ac yn ebrwydd yr agorodd y drysau oll, a rhwymau pawb a aethant yn rhyddion.

27 A phan ddeffrôdd ceidwad y carchar a chanfod drysau y carchar yn agored, efe a dynnodd ei gleddyf, ac a amcanodd ei ladd ei hun : gan dybied ddiangc y carcharorion.

28 Yna y llefodd Paul â llef uchel, gan ddywedyd, na wna niwed i ti dy hun, canys yr ydym ni ymma oll.

29 Felly y galwodd efe am oleuad, ac y rhuthrodd i mewn, ac a ſyrthiodd yn ddychrynnedic o flaen Paul a Silas.

30 Ac efe au dug hwynt allan, ac a ddywedodd, o feiſtred beth ſydd raid i mi ei wneuthur i fod yn gadwedig?

31 Yna y dywedâſant hwy, cred yn yr Arglwydd Ieſu Grist, a chadwedig fyddi di a'th deulu.

32 A hwy a leſaraſant iddo air yr Arglwydd, ac i bawb oll a'r a oedd yn ei dŷ ef.

33 Ac efe a'u cymmerth hwy yr awr honno o'r nôs, ac a olchodd eu briwiau, ac efe yn y man a fedyddwyd a'i holl deulu.

34 Ac wedi iddo fyned â hwynt iw dŷ, efe a huliodd ford, ac efe a lawenychodd yn Nuw wedi credu yn Nuw a'i holl dŷ.

35 Wedi dyddhau, y llywodraethwŷr a anfonaſant gennadau, gan ddywedyd : gollwng ymmaith y dynion yna.

36 Yna yr adroddodd ceidwad y carchar y geiriau hyn i Paul : y llywodraeth-wŷr a anfonaſant i'ch gollwng chwi, yn awr gan hynny cerddwch ymmaith : ewch mewn heddwch.

37 Yna y dywedodd Paul wrthynt : wedi darfod iddynt ein curo yn amlwg heb ein barnu, a ninnau yn Rhufeinwŷr, hwy a'n bwriaſãt ni i garchar, ac yr awr hon a fynnant hwy ein bwrw ni allan yn ddirgel : nid felly : ond deuant eu hunain a dygant ni allan.

38 A'r cennadon a fynegâſant y geiriau hyn i'r llywodraeth-wŷr, ac hwy a ofnaſant pan glywſant mai Rhufeiniaid oeddynt.

39 Yna y daethant, ac yr attolygaſant arnynt, ac a'u dodaſant allan, ac a ddeiſyfiaſant arnynt fyned allan o'r ddinas.

40 Ac wedi iddynt ddyfod allan o'r carchar, hwy a aethant i mewn at Lydia, a phã gawſant weled y brodyr, diddanaſant hwynt, ac aethant ymmaith.

## PEN. XVII.

Paul yn myned i Theſſalonica, 15 Ac i Athen, ac yn ymreſymmu yno : ac yn pregethu i'r Atheniaid.

AC fel yr oeddynt yn trammwy trwy Amphipolis ac Apollonia, hwy a ddaethant i Theſſalonica, lle yr oedd Synagog i'r Iddewon.

2 A Phaul yn ôl ei arfer a aeth i mewn atynt, ac a ymreſymmodd â hwynt (tros dri Sabboth) o'r ſcrythurau,

3 Gan egluro a dangos o flaen eu llygaid

hwy mai rhaid oedd i Griſt ddioddef, a chyfodi oddi wrth y meirw, ac mai hwn yw y Criſt Ieſu yr vn yr wyfi yn ei bregethu i chwi [eb efe.]

4 A rhai o honynt a gredaſant, ac a ymwaſcaſant â Phaul a Silas, ac o'r Groeg-wŷr bucheddol lliaws mawr, ac o'r gwragedd goref nid ychydig.

5 Eithr yr Iddewon anghredadwy, yn cenſigennu, a gymmeraſant attynt ryw ddynion ſceler o gyrwydriaid, a chan gaſclu tyrfa hwy a wnaethant flinder i'r ddinas, ac a oſodaſant ar dŷ Iaſon, ac a geiſiaſant eu dwyn hwynt allan at y bobl.

6 A phan na chawſant hwynt, hwy a luſcaſant Iaſon, a rhai o'r brodyr, at bennaethiaid y ddinas, gan lefain: dymma y rhai ſy yn dymchwelyd llywodraeth y bŷd, wele, ac ymma y maent hwy.

7 Y rhai hyn a ddarfu i Iaſon eu derbyn, ac y maent oll yn gwneuthur yn erbyn cyfraith Cæſar: gan ddywedyd fod brenin arall ·[ſef] Ieſu.

8 Ac hwy a gyffroeſant y dyrfa, a llywodraeth-wŷr y ddinas hefyd, wrth glywed hyn ymma.

9 Ac wedi iddynt gael ſiccrwydd gan Iaſon a'r llaill, hwynt a'u gollyngaſant hwy.

10 A'r brodyr yn ebrwydd a anfonaſant Paul a Silas hefyd o hŷd nôs i Beræa: y rhai wedi eu dyfod a aethant i Synagog yr Iddewon.

Ioan.5.39. 11 Boneddigeiddiach nâ'r rhai oeddynt yn Theſſalonica oedd y rhai hyn: y rhai a gymmeraſant y gair trwy bob parodrwydd oll, * gan chwilio beunydd yr ſcrythyrau, ai felly yr oedd y pethâu hyn.

12 Felly llawer o honynt a gredaſant: ac o'r gwragedd oneſt, o'r Groegiaid, a'r gwŷr hefyd nid ychydig.

13 A chyn gynted ag y clybu yr Iddewon o Theſſalonica, fod pregethu gair Duw gan Paul yn Beræa hefyd, hwy a ddaethant yno hefyd gan gyffroi y dyrfa.

14 Ac yn bryſur y brodyr a ddanfonaſant Paul ymmaith i fyned [fel pette] i'r môr, ond Silas a Thimotheus a arhoſaſant yno yn oeſtad.

15 A chyfarwyddwŷr Paul a'i dugaſant ef hyd Athen: ac wedi derbyn gorchymyn at Silas a Thimotheus ar iddynt ddyfod ar ffrwſt atto, hwy a aethant ymmaith.

16 A thra fu Paul yn aros am danynt yn Athen, ei yſpryd a ennynnodd ynddo wrth weled y ddinas wedi ymroi i eulynnod.

17 O herwydd hyn yr ymddadleuodd efe â'r Iddewon, ac â'r rhai defoſſionol yn y Synagogau, a beunydd yn y farchnad, â phwy bynnac a gyfarfydde ag ef.

18 A rhyw Philoſophyddion o'r Epicuræaid, ac o'r Stoiciaid a ymryſonâſant ag ef: a rhai a ddywedent: pa beth a fynn y ſiarad-wr hwn ei ddywedyd? ac eraill [a ddywedent,] cyffelyb ei fod efe yn pregethu cythreiliaid dieithr am bregethu o honaw ef iddynt Ieſu, a'r adgyfodiad.

19 Ac hwy a'i daliaſant ef, ac a'i dugaſant i Areopagus gan ddywedyd: a allwn ni gael gŵybod beth yw y ddyſc newydd yna, a draethir gennit?

20 O blegit yr wyt ti yn dwyn rhyw bethau dieithr i'n cluſtiau ni: am hynny ni a fynnwn ŵybod beth a fyn y pethau hyn?

21 (Canys yr holl Atheniaid, a'r dieithred y rhai oeddynt yn ymdaith yno, nid oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim arall, ond y naill ai i ddywedyd, ai i glywed rhyw newydd)

22 Yna y ſafodd Paul yng-hanol Areopagus, ac a ddywedodd: ha wŷr Atheniaid mi a'ch gwelaf chwi ym mhob peth yn goel-fucheddol:

23 Canys wrth ddyfod heibio ac edrych ar eich addoliaeth, mi a gefais allor yn yr hon yr ſcrifennaſid: I'R DVW YR HWN NID ADWAENIR: yr hwn yr ydych chwi yn ei addoli heb ei adnabod, hwnnw yr wyf fi yn ei ddangos i chwi.

24 Duw yr hwn a wnaeth y byd a'r hyn ſydd ynddo oll, efe yn Arglwydd nef a ddaiar * nid yw yn aros mewn temlau o waith dwylo: Pen.7.48.

25 * Ac ni waſanaethir ef â dwylo dyniõ, fel pe bai arno eiſieu dim, gan ei fod efe yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll: Pſal.5.8.

26 Ac efe a wnaeth holl genhedlaeth dynion o vn gwaed i breſſwylio ar wyneb y ddaiar oll, wedi iddo bennu yr amſeroedd goſodedig, a dodi terfynau iw preſſwylfod hwynt:

27 Fel y ceiſient yr Arglwydd, os bydde iddynt gan balfalu ei gael, er nad yw efe yn ddiau neppell oddi wrth bob vn o honom.

28 O blegit ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn ſymmud, ac yn bod, megis y dywedodd rhai o'ch Poetau chwi eich hunain: canys ei genhedlaeth hefyd ydym ni.

29 *Can hynny, am ein bod yn genhedlaeth i Dduw, ni ddylem ni dybied fod duwdod yn debyg i aur, ac arian, neu i faen, [ſef] cerfiad celfyddyd a dychymmyg dŷn. Eſai.40.19.

30 Ac yn amſeroedd yr anŵybod hyn, nid oedd Duw yn cymmeryd arno weled, [eithr] yn awr y mae efe yn dangos i bob dyn ym mhob man, er mwyn edifarhau.

31 O herwydd iddo ef oſod dydd yn yr hwn y barna efe y byd yn gyfiawn, drwy y gŵr yr hwn a ordeiniodd efe, gan ddodi ffydd i bawb trwy ei adgyfodi ef o feirw.

32 A phan glywſant ſôn am adgyfodiad y meirw, rhai a watwâraſant, ac eraill a ddywedâſant, ni a'th wrandâwn trachefn am hyn.

33 Felly Paul a aeth ymmaith o'u plith hwynt.

34 Er hynny rhai a lynâſant wrtho, ac a gredaſant, ym mhlith pa rai yr oedd Dioni-

ſius Areopagita, a gwraig a enwid Dâmaris, ac eraill gyd â hwynt.

## PEN XVIII.

Paul yn gweithio â'i ddwylo. 4 Yn Pregethu yn Corynth, ac yn ymreſymmu. 24 Clôd Apollos, Aquila a Phriſcilla.

YN ôl hyn, Paul a ymadawodd ag Athen, ac a ddaeth i Corynth.

Rufein.16.3. 2 Ac wedi cael gafael ar Iddew a'i enw *Aquila yr hwn a hanoedd o Pontus wedi dyfod yn hwyr o'r Ital a'i wraig Priſcilla (am orchymmyn o Claudius i'r Iddewon oll fyned allan o Rufain) efe a ddaeth attynt:

3 A chan ei fod o'r vn gelfyddyd, efe a arhoes, ac a weithiodd gyd â hwynt: a'u celfyddyd ydoedd gwneuthur pebyll.

4 Ac efe a ymreſymmodd yn y Synagog bôb Sabboth, ac efe a gynghorodd yr Iddewon a'r Groegiaid.

5 Ac wedi dyfod Silas a Thimotheus o Macedonia, Paul a gyrwyd gan yr Yſpryd i deſtiolaethu i'r Iddewon, mai Ieſu oedd Criſt.

6 A hwyntau yn gwrthwynebu, ac yn cablu, efe a *eſcydwodd ei ddillad, ac a ddywedodd wrthynt, bydded eich gwaed ar eich pen eich hunain: yr wyf fi yn lân, yn ôl hyn yr af at y cenhedloedd. Pen.13.51. math.10,14.

7 Ac efe a aeth oddi yno, ac a aeth i mewn i dŷ vn a enwid Iuſtus yr hwn oedd yn gwaſanaethu Duw, tŷ yr hwn oedd yn gyfagos i'r Synagog.

1.Cor.1.14. 8 Ac [vn] *Criſpus pen-ſynagogydd a gredodd yn yr Arglwydd, a'i holl dŷ: a llawer o'r Corinthiaid wrth ei wrando a gredâſant, ac a fedyddiwyd.

9 A'r Arglwydd a ddywedodd liw nos wrth Paul trwy weledigaeth, nac ofna, eithr traetha, ac na thaw.

10 Canys yr wyf fi gyd â thi, ac ni eſyd neb arnat i wneuthur niwed i ti: herwydd y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon.

11 Ac efe a arhoes flwyddyn a chwe-mis yno, yn dyſcu iddynt air Duw.

12 Eithr pan oedd Gal-lio yn rhaglaw o Achaia, y cyfododd yr Iddewon yn vnfryd yn erbyn Paul, ac a'i dugaſant ef i'r frawdle:

13 Gan ddywedyd: y mae hwn yn annog dynion i addoli Duw yn erbyn y ddeddf.

14 Ac fel yr oedd Paul yn amcanu agoryd ei enau, y dywedodd Gal-lio wrth yr Iddewon: pe buaſe gam, neu ddrwg weithred (ô Iddewon,) mi a gyd ddygwn â chwi wrth reſwm.

15 Eithr os yw'r ymrafael am ymadrodd, ac enwau, ac am eich deddf chwi, edrychwch eich hunain: canys ni byddaf fi farn-wr am y pethau hynny.

16 Ac efe a'u gyrrodd hwynt o'r frawdle.

17 Yna y Groeg-wŷr oll a gymmeraſant Soſthenes y pen-ſynagogydd, ac a'i tarawſant o flaen y frawdle, ac nid oedd Gal-lio yn gofalu am ddim o'r pethau hynny.

18 Ac wedi i Paul aros yn chwaneg lawer o ddyddiau, efe a gymmerodd ei gennad gan y brodyr, ac a fordwyodd i Syria, a Phriſcilla, ac Aquila gyd ag ef, gwedi iddo eillio ei ben yn Cenchrea: canys efe a wnaethe *addunned. Pen.21.24. num.6.18.

19 Ac efe a ddaeth i Ephesus, ac a'u gadawodd hwynt yno, eithr efe a aeth i'r Synagog, ac a ymreſymmodd â'r Iddewon.

20 A phan geiſiaſant ganddo aros yn hwy gyd â hwynt, ni chaniattae efe [hynny:]

21 Eithr efe a gymmerodd ei gennad ganddynt gan ddywedyd, y mae yn angenrhaid i mi gadw yr ŵyl hon ſydd yn agos yn Ieruſalem, ond *os myn Duw mi a ddeuaf yn fy ôl atoch chwi eil-waith: ac efe a aeth ymmaith o Ephesus. 1.Cor.4.19. iaco.4.15.

22 Ac wedi iddo ddyfod i wared i Caeſarea, efe a aeth i fynu i [Ieruſalem,] ac a gyfarchodd yr eglwys, ac a ddaeth i wared i Antiochia.

23 Ac wedi iddo aros yno ennyd, efe a aeth ymmaith, gan dramwy trwy wlâd Galatia, a Phrygia, a chadarnhau yr holl ddiſcyblion.

24 Eithr rhyw Iddew, a'i enw *Apollos yr hwn a aned yn Alexandria, gŵr ymadroddus, cadarn yn yr yſcrythyrau a ddaeth i Ephesus: 1.Cor.1.12.

25 Hwn oedd wedi dechreu dyſcu iddo ffordd yr Arglwydd, ac yn boeth ei yſpryd, efe a draethodd, ac a athrawodd yn ddiwyd bethau yr Arglwydd, ac ni wydde ond bedydd Ioan.

26 A hwn a ddechreuodd draethu yn hyderus yn y Synagog: a phan glybu *Aquila a Phryſcilla hwn, hwy a'i cymmeraſant ef attynt, ac a agoraſant ffordd Duw yn fanylach. Rufe.16.3.

27 A phan ewyllyſiodd efe fyned i Achaia, y brodyr gan ei annog ef, a ſcrifennaſant at y diſcyblion iw dderbyn ef, ac wedi iddo fyned yno, efe a wnaeth lawer o leſâd i'r rhai a gredâſent trwy râs.

28 Canys efe a geryddodd yr Iddewon ar oſteg yn ddirfing, gan ddangos trwy yr ſcrythyrau mai Ieſu yw Criſt.

## PEN. XIX.

Am fedydd a derbyniad yr Yſpryd glân, 9 Yr Iddewon yn cablu dyſceidiaith Paul. 13 Rhai yn conſurio yn enw 'r Ieſu. 24 Am Ddemetrius y gof arian, a Diana. 35 Yſcolhaig y ddinas yn goſtegu y bobl.

AC fe ddarfu tra fu Apollos yn Corinth, drãmwy o Paul drwy y parthau vchaf a'i ddyfod i Ephesus, ac wedi cael rhyw ddiſcybliõ efe a ddywedodd wrthynt,

2 A dderbyniaſoch chwi 'r Yſpryd glân gan i chwi gredu, a hwy a ddywedâſant wrtho: ni chlywſom ni chwaith, a oes Yſpryd glân.

3 Yna y dywedodd wrthynt, I ba ryw beth gan hynny y bedyddiwyd chwi: hwythau a ddywedâſant: i fedydd Ioan.

4 A dywedodd Paul, *Ioan yn ddiau a fedyddiodd â bedydd edifeirwch: gan ddywedyd wrth y bobl am gredu o honynt yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ôl ef, ſef yn Criſt Ieſu. Pen.1.5. &2.2.11.16. math.3.11. mar.1.8. luc.3.16. ioan.1.26.

5 A phan glywſant hwy [hyn,] hwy a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Ieſu.

6 Ac wedi i Paul ddodi ei ddwylaw arnynt, yr Yſpryd glân a ddaeth arnynt, ac hwy a draethâſant â thafodau, ac a brophwydaſant.

7 A'r gwŷr hyn oll oeddynt yng-hylch deuddec.

8 Hefyd efe a aeth i mewn i'r Synagog, ac a draethodd yn eofn gan ymreſymmu â chynghori dros dri mis, bethau a [berthynent] i deyrnas Duw.

9 Eithr pan oedd rhai wedi caledu, fel na chredent, gan ddywedyd drwg am ffordd [yr Arglwydd] wrth y gynnulleidfa, efe a dynnodd ymmaith oddi wrthynt, ac efe a ddoſparthodd y diſcyblion gan ymreſymmu beunydd yn yſcol vn Tyrannus.

10 A hyn a fu dros ddwy flynedd, oni ddarfu i bawb a oedd yn trigo yn Aſia yn Iddewon a Groegiaid glywed gair yr Arglwydd Ieſu.

11 A Duw a wnaeth wyrthiau rhyfedd trwy ddwylo Paul,

12 Hyd oni ddygid cadachau a chwyſiau oddi wrth ei gorph ef at y cleifion, a'r clefydau a ymadawent â hwynt, a'r yſprydion drwg a aent allan o honynt.

13 Yna rhai o'r Iddewon cyrwydriaid [y rhai oeddynt] gonſur-wŷr a gymmeraſant arnynt henwi vwch ben y rhai a feddiannid gan yſprydion drwg enw yr Arglwydd Ieſu, gan ddywedyd, yr ydym ni yn eich conſurio trwy yr Ieſu yr hwn y mae Paul yn ei bregethu.

14 (Ac yr oedd ſaith o rai yn feibion i Scefa arch-offeiriad [yr hwn oedd] Iddew yn gwneuthur hyn)

15 A'r yſpryd drwg a attebodd, ac a ddywedodd, yr Ieſu a adwen, a Phaul a adwen: ond pwy ydych chwi?

18 Ar dyn yr hwn yr oedd yr yſpryd drwg ynddo a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwin yn eu herbyn hyd oni ffoeſant hwy allan o'r tŷ hwnnw yn noethion, ac yn archolledig.

17 A hynny a fu hynod gan yr holl Iddewon a'r Groegiaid y rhai oeddynt yn preſſwylio yn Ephesus, ac ofn a ſyrthiodd arnynt oll, ac enw yr Arglwydd Ieſu a fawrygwyd.

18 A llawer o'r rhai oeddynt yn credu, a ddaethant gan gyffeſſu, a chan fynegu eu gweithredoedd.

19 Llawer hefyd o'r rhai oeddynt yn arferu y manwl gelfyddodau hynny, a ddygâſāt eu llyfrau, ac a'u lloſcaſant yng-ŵydd yr holl [bobl:] pris y rhain wedi ei gyfryf a gaed yn ddeng-mil a deugain o geinhiogau.

20 Felly mor gadarn y tyfodd gair yr Arglwydd, ac y nerthodd.

21 Gwedi cyflawni hyn, Paul a arfaethodd yn yr Yſpryd, gan dramwy trwy Macedonia, ac Achaia fyned i Ieruſalē: gan ddywedyd, pan ddelwyf fi yno, rhaid i mi hefyd weled Rhufain.

22 Ac wedi anfon i Macedonia ddau o'r rhai oeddynt yn gweini iddo [ſef] Timotheus ac Eraſtus, efe a arhoes yn Aſia dros amſer.

23 Ac yn yr amſer hynny, y cyfodes trallod nid bychan o blegit ffordd [yr Arglwydd]

24 Canys rhyw wr a'i enw Demetrius, gof arian yr hwn a wnaethe demlau arian Diana, ac oedd yn peri elw nid bychan i'r crefftwŷr:

25 Y rhai wedi iddo eu galw yng-hyd, a'r rhai fydde yn gweithio y cyfryw bethau hefyd, efe a ddywedodd wrthynt, ha-wŷr, chwi a wyddoch mai wrth y gwaith hwn y mae ein golud ni.

26 Chwi a welwch hefyd, ac a glywch, ddarfod i'r Paul hwn nid yn vnic yn Ephesus, onid tros Aſia oll gynghori a throi lliaws mawr, gan ddywedyd: nad duwiau yw y rhai a wnair â dwylo:

27 Ac nid i ni yn vnic y mae hyn yn enbyd rhag dyfod y rhan hon mewn dirmyg, eithr rhag diyſtyru teml y dduwies fawr Diana, a rhag deſtrywio ei mawrhydi hi, yr hon y mae Aſia oll, a'r byd yn ei haddoli.

28 A phan glywſant hwy hyn, a'u gwneuthur yn llawn digofaint: hwy a lefaſant gan ddywedyd, mawr yw Diana yr Epheſiaid.

29 A llanwyd yr holl ddinas o wradwydd, ac ar vn-waith y rhuthrâſant i'r orſeddfa, ac a ddaliaſant * Gaius, ac * Ariſtarchus Macedoniaid cydymdeithion Paul.

Rufein.16.23.
1.cor.1.1.14.
Col.4.10.

30 A phan oedd Paul yn ewyllyſio myned i mewn ym myſc y bobl, ni adawodd y diſcyblion iddo.

31 Rhai hefyd o bennaethiaid Aſia y rhai oeddynt gyfeillion iddo a yrrâſant atto i ddeiſyf arno, nad ymrodde efe i fyned i'r orſedd.

32 Ac eraill a lefâſant beth arall: canys y gynnulleidfa oedd yn gymmyſc, â'r rhan fwyaf ni ŵyddent pa ham y daethent yng-hŷd.

33 Ac hwy a dynnaſanat allan o'r dyrfa vn Alexander, a'r Iddewō yn ei yrru ef ym mlaen) yr hwn Alexander gan amneidio â'i law am oſteg, a fynnaſe ymeſcuſodi wrth y bobl.

34 Eithr pan wybuant mai Iddew oedd efe, rhoddaſant oll vn llef megis dros ddwy awr, gan lefain, mawr yw Diana yr Epheſiaid.

35 Ac yna yſcolhaig [y ddinas] wedi iddo lonyddu y bobl, a ddywedodd: ha-wŷr yr Epheſiaid, pa ddyn ſydd ni's gŵyr fod dinas yr Epheſiaid yn cadw teml y dduwies fawr Diana, a'r [ddelw] yr hon a ddeſcynnodd oddi wrth Iupiter?

36 A chan na ellir dywedyd yn erbyn hyn, rhaid i chwi fod yn llonydd, ac na wnelcch ddim yn ddibwyll.

37 Canys chwi a ddugaſoch ymma y gwŷr hyn, y rhai nid ydynt, nac yn yſpeilwŷr temlau, nac yn cablu eich duwies.

38 O achos pa ham od oes gan Demetrius, na chan y crefft-wŷr y rhai ſy gyd ag ef, vn ha-

wl yn erbyn neb, y mae cyfraith yw chael, ac y mae rhaglawiaid, rhodded pawb yn erbyn ei gilydd.

39 Ac os gofynnwch ddim am bethau eraill, mewn cynnulleidfa gyfreithlawn y terfynir [hynny.]

40 O herwydd enbyd yw rhag ein cyhuddo am y derfyſc heddyw, can nad oes vn achos i ni iw rhoi rheſwm am yr ymgyſcedfa hon.

41 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ollyngodd y dyrfa ymmaith.

## P E N. XX.

Paul yn myned i Macedonia, ac i dir Groec, 7 Arlwy ſwpper yr Arglwydd. 9 Cwymp Eutichus, a'i ddadebriad i fywyd. 13 Teithiau yr Apoſtolion o le i le. 18 Paul yn dangos ei gyflwr yn ei ſwydd, a'i ddiniweidrwydd. 28 Cyngor i eglwyſ-wyr. 36 Paul yn gweddio, ac yn cymmeryd ei gennad.

AC wedi darfod y derfyſc, y galwodd Paul y diſcyblion atto, ac y cyfarchodd iddynt, ac efe a aeth ymmaith i fyned i Macedonia.

2 Ac wedi iddo fyned trwy y parthau hynny, a'i cynghori hwynt â llawer o ymadrodd, yr aeth efe i [dir] Groec.

3 Ac yn ôl darfod iddo aros tri-mis yno, wedi i'r Iddewon gynllwyn iddo, ac efe yn myned i Syria, efe a welodd yn dda ddychwelyd trwy Macedonia.

4 A chydymddeithiodd ag ef hyd yn Aſia, Sopater o Berea: ac Ariſtarchus, a Secundus, o Theſſalonia, a Gaius o Derbea, a Thimotheus, a Tychicus, a Trophimus hefyd o Aſia.

5 Y rhai hyn a aethant o'r blaen, ac a arhoſaſant am danom yn Troas.

6 A ninnau a fordwyaſom ymmaith oddi wrth Philippi yn ôl dyddiau y bara croyw, ac a ddaethom i Troas o fewn pum diwrnod, lle yr arhoſaſom ſaith niwrnod.

7 A'r dydd cyntaf o'r Sabboth wedi i'r diſcyblion ddyfod yng-hyd i dorri bara, Paul a bregethodd iddynt, ac am ei fod ar fedr myned ymmaith drannoeth, efe a barhâodd yn llefaru hyd hanner nôs.

8 Ac yr oedd llawer o ganhwyllau yn y lloft lle yr oeddynt wedi ymgaſclu.

9 Ac fel yr oedd rhyw wr ieuangc a'i enw Eutichus yn eiſtedd mewn ffeneſtr, wedi ei orchfygu â thrymgwſc, tra yr oedd Paul yn ymreſymmu yn hir, wedi ei yrru gan gwſc efe a ſyrthiodd i lawr o'r drydedd lofft, ac efe a gyfodwyd i fynu yn farw.

10 Pan ddaeth Paul i wared, efe â ſyrthiodd arno ef, ac a'i coſleidiodd, gan ddywedyd: na chyffroed arnoch: canys y mae ei enaid ynddo ef.

11 Felly wedi iddo fyned i fynu a thorri bara, a chymmeryd bwyd, efe a leſarodd hyd y boreu, ac felly yr aeth ymmaith.

12 Ac hwy a ddugâſant y bachgen yn fyw, ac hwy a gyſſurwyd yn ddirfawr.

13 Ond nyni a aethom i'r llong, ac a hwyliaſom i Aſſos, oddi yno i dderbyn Paul: canys felly yr ordeiniaſe efe ar fedr myned ei hun ar ei draed.

14 A phan ddaeth efe attom ni i Aſſos, ei dderbyn a wnaethom, a myned i Mitylene.

15 A [illegible] a wnaethom oddi yno, a dyfod trannoeth gyferbyn â Chios, a thrannoeth y tiriaſom yn Samos, ac a arhoſaſom yn Trogilium, a'r ail dydd yr aethom i Miletum.

16 O blegit Paul a amcanaſe hwylio heb law Epheſus, fel na byddei iddo dreulio amſer yn Aſia, canys bryſſio yr oedd [illegible] a alle efe fod yn Ieruſalem erbyn dydd y Sul-gwyn.

17 O herwydd pa achos, efe a ddanfonodd o Miletum i Epheſus, ac a alwodd yng-hyd henuriaid yr eglwys.

18 Y rhai, pan ddaethant atto ef, efe a ddywedodd wrthynt: Chwi a wyddoch er y dydd cyntaf y daethym i Aſia, pa fodd y bum i gyd â chwi dros yr holl amſer,

19 Yn gwaſanaethu yr Arglwydd mewn pôb goſtyngeiddrwydd, a llawer o ddagrau a phrofedigaethau: y rhai a ddigwyddaſant i mi trwy gynllwynion yr Iddewon.

20 Ac na chelais ddim o'r pethau oeddynt fuddiol i chwi, na's mynegais i chwi, ac na's dyſcais i chwi yn oleu, ac o dŷ i dŷ:

21 Gan deſtiolaethu i'r Iddewon, ac i'r Groegiaid hefyd, yr ediſeirwch yr hwn ſydd yn Nuw, a'r ffydd yn ein Harglwydd Ieſu Griſt.

22 Ac yn awr, wele fi yn rhwym yn yr Yſpryd yn myned i Ieruſalem, heb wybod beth a ddervydd i mi yno:

23 Eithr bod yr Yſpryd glân yn tyſtio i mi ym mhob tref, gan ddywedyd, fod rhwymau a blinderoedd yn fy aros.

24 Ond nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid cu gennif fy einioes fy hun, os gallaf orphen fyng-yrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth yr hon a dderbyniais gan yr Arglwydd Ieſu, i deſtiolaethu am Efengyl grâs Duw.

25 Ac yr awr hon, wele mi a wn na chewch chwi oll (ym myſc y rhai y bum i yn trammwy, i bregethu teyrnas Dduw) weled fy wyneb i mwy ond hyn.

26 Am hynny heddyw yr ydwyf yn eich cymmeryd chwi yn dyſtion, mae glân ydwyf oddi wrth waed pawb oll.

27 Canys nid arbedais fynegu i chwi holl gyngor Duw.

28 Edrychwch gan hynny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, i'r hwn y gwnaeth yr Yſpryd glân chwi yn olyg-wŷr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a brynodd efe â'i briod waed.

29 Myfi a wn hyn, yn ôl i mi ymadel, y daw bleiddiau trymmion yn eich plith, nid eiriêchant y praidd,

30 Ac o'ch myſc chwi eich hunain y cyfyd

gwŷr, y rhai a draethant bethau gŵyr-draws, i dynnu diſcyblion ar eu hôl.

31 Am hynny gwiliwch, a meddyliwch na pheidiais ddydd a nôs dros dair blynedd a rhybuddio pôb un [o honoch] â dagrau.

32 A'r awr hon frodyr, yr ydwyf yn eich gorchymyn i Dduw, ac i air ei ras ef, yr hwn a all adeiladu chwaneg, a rhoddi i chwi etifeddiaeth gyd â'r rhai a ſancteiddiwyd oll.

33 Ni chwennychais nac arian, nac aur, na gwiſc neb.

1 Cor.4.12.
1.theſſ.2.9.
2 theſſ.3.8.

34 Ie chwi a wyddoch eich hunain, [illegible] o'r dwylo hyn waſanaeth am yr hyn oedd raid i mi, a'r rhai oeddynt gyd â mi.

35 Mi a ddangoſais i chwi bôb peth, fod yn rhaid cynnal y gweiniaid trwy lafurio fel hyn: a chofia geiriau yr Ieſu, ddywedyd o honaw ef, mai dedwyddach yw rhoddi nâ derbyn.

36 Ac wedi iddo draethu y [geiriau] hyn, gan roddi ei liniau ar lawr, efe a weddiodd gyd â hwynt oll.

37 Yna pawb a wylaſant yn ddirfawr, a hwy a ruthraſant yng-wddf Paul, ac a'i cuſanaſant ef:

38 Gan ofidio yn bennaf am y gair a ddywedaſe efe, na chaent weled ei wyneb ef mwy: ac hwy a'i hebryngaſant ef i'r llong.

## PEN. XXI.

1 Taith Paul. 8 Merched Philip yn brophwydeſſau. 10 Agabus yn prophwydo o garchar Paul. 13 Paul er hynny yn myned rhagddo yn hyf. 18 Cyngor y brodyr i Paul. 30 Yr Iddewon yn bwrw Paul allan o Deml Ieruſalem, yn ei guro, ac yn ei garcharu. 39 Paul yn dangos ei hanes.

AC yn ôl i ni oſod allan, wedi ymadel â hwynt, ni a ddaethom ag uniawn-gyrch i Coos, a thrannoeth i Rodos, ac oddi yno i Patara.

2 A phan gawſom long yn hwylio i Phenice, ni a ddringaſom iddi, ac a aethom ymmaith.

3 Ac wedi ymddangos o Cyprus i nyni, ni a'i gadawſom ar y llaw aſſwy, ac a hwyliaſom tu â Syria, ac a diriaſom yn Tyrus, canys yno yr oeddid yn dadlwytho y llong.

4 Ac ni a arhoſaſom yno ſaith niwrnod, gan gael diſcyblion, y rhai a ddangoſodd i Paul trwy yr Yſpryd, nad ele i Jeruſalem.

5 Ac wedi gorphen y dyddiau hynny, ni a aethom ymmaith, a hwynt-wy oll, a'u gwragedd a'u plant a'n hebryngaſant, onid aethom allan o'r ddinas, ac ni a oſtyngaſom ar ein gliniau ar y traeth, ac a weddiaſom.

6 Ac wedi cyfarch ei gilydd, ni a ddringaſom i'r llong: a hwynteu a ddychwelaſant adref.

7 Ac wedi i ni hwylio, ni a ddaethom i waered o Tyrus i Ptolemais, ac a gyfarchaſom i'r brodyr, ac a drigaſom un diwrnod gyd â hwynt.

8 A thrannoeth Paul a ninnau y rhai oeddem gyd ag ef, a ddaethom i Cæſarea, ac a aethom i mewn i dŷ *Philip yr efengylwr, yr hwn oedd un o'r ſaith; ac a arhoſaſom gyd ag ef. Pen.6.5.

9 Ac iddo ef yr oedd pedair merched o forwynion yn prophwydo.

10 Ac fel yr oeddem ni yn aros yno lawer o ddyddiau, fe ddaeth o Judæa i wared brophwyd a elwid Agabus:

11 A phan ddaeth efe attom, wedi cymmeryd gwregys Paul, a rhwymo [ei] ddwylaw [a'i] draed, efe a ddywedodd, Hyn a ddywed yr Yſpryd glân, fel hyn y rhwym yr Iddewon yn Jeruſalem y gŵr yr hwn a biau y gwregys hwn, ac a'i dodant i ddwylo y cenhedloedd.

12 Ac wedi clywed o honom hyn, nyni a'r rhai oeddynt yn yr un fan a ddeiſyfiaſom nad ele efe i fynu i Jeruſalem.

13 Yna yr attebodd Paul, pa beth a wnewch chwi yn wylo, ac yn doluriaw fyng-halon? canys parod wyf, nid i'm rhwymo yn unic, ond i farw hefyd yn Jeruſalem er mwyn enw yr Arglwydd Ieſu.

14 A phan nad oedd yn cydſynio â ni, ni a beidiaſom, gan ddywedyd, Gwneler ewyllys yr Arglwydd.

15 Hefyd yn ôl y dyddiau hynny, nyni a gymmeraſom ein beichiau, ac a ddaethom i fynu i Jeruſalem.

16 A rhai o'r diſcyblion o Cæſarea a ddaethant gyd â ni, ac a ddugaſant gyd â hwynt un Mnaſon o Cyprus hên ddiſcybl, gyd â'r hwn y lletyem.

17 A phan ddaethom i Jeruſalem, y brodyr a'n derbyniaſant yn llawen.

18 A'r dydd neſaf yr aeth Paul i mewn ac Iaco gyd â ni, a'r holl henuriaid oeddynt wedi ymgaſclu.

19 Ac wedi iddo gofleidio y rhai hyn, efe a fynegodd iddynt o feſur un, ac un bôb peth a'r a wnaethe Duw trwy ei weinidogaeth ef ym mhlith y cenhedloedd.

20 A phan glywſant, hwy a roeſant ogoniant i'r Arglwydd, ac a ddywedaſant wrtho: Ti a weli frawd, pa ſawl myrddiwn o'r Iddewon a gredaſant; ac y maent oll yn dwyn zel i'r ddeddf.

21 Eithr hwy a glywſant am danat ti, dy fod yn dyſcu yr Iddewon oll y rhai ſydd ym myſc y cenhedloedd i ymwrthod â Moſes: ac yn dywedyd, na ddylent hwy enwaedu ar eu plant, na rhodio yn ôl y defodau.

22 Pa beth wrth hynny? rhaid yw i'r dyrfa ddyfod yng-hyd: canys hwy a glywant dy ddyfod ymma.

23 Can hynny gwna y peth a ddywedom wrthit, y mae ymma bedwar-gwŷr a wnaethant addunedi:

24 Cymmer hwynt a glanhâ dy hun gyd â hwynt, gwna draul arnynt, fel yr *eilliant eu pênau, ac y gŵypo pawb am y pethau a glywſant am danat ti, nad ydynt ddim, ond dy fod ti yn rhodio gan gadw y ddeddf.

Pen.28.18.
num.6.18.

25 Ac am y cenhedloedd ſy yn credu, ni a ſcrifennaſom, ac a gwbl gytunâſom, na byddo iddynt gadw y cyfryw beth: eithr ymochel o honynt rhag y peth a offrymmwyd i'r eulynnod, a rhag gwaed, a rhag peth tagedig, a rhag puteindra.

26 Yna Paul a gymmerth y gwŷr hynny, a thrannoeth yr ymlanhâodd gyd â hwynt, ac efe a aeth i mewn i'r Deml: gan yſpyſu cyflawni dyddiau y glanhâd, hyd oni offrymmid offrwm dros bob un o honynt. Num.6.18.

27 Ac wedi gorphen y ſaith niwrnod, rhyw Iddewon o Aſia pan welſant ef yn y Deml, a gyffroeſant yr holl bobl, ac a roeſant eu dwylaw arno,

28 Gan lefain, ha-wŷr o Iſrael, cymhorthwch: dymma y dŷn yr hwn ſydd yn dyſcu ym mhob man yn erbyn y bobl, a'r gyfraith, a'r lle ymma: hefyd y mae efe wedi dwyn Groegiaid i mewn i'r Deml, ac wedi halogi y lle ſanctaidd hwn.

29 Canys hwy a welſent o'r blaen Trophimus o Epheſus gyd ag ef yn y ddinas, yr hwn yr oeddynt hwy yn tybied ddarfod i Paul ei ddwyn i mewn i'r Deml.

30 A'r holl ddinas a gyffrôdd, a'r bobl a redodd yng-hyd, ac hwy a ymafelaſant yn Paul, ac a'i tynnaſant allan o'r Deml, ac ar frŷs y caewyd y dryſau.

31 Ac fel yr oeddynt hwy yn ceiſio ei ladd ef, y daeth y gair at ben-capten y llu, fod holl Jeruſalem wedi cyffroi.

32 Ac yn y fan efe a gymmerodd filwŷr, a chanwriaid, ac a redodd i wared attynt: a hwythau pan welſant y pencapten a'r mil-wŷr a beidiaſant â tharo Paul.

33 Yna y daeth y pẽcapten, ac a'i daliodd ef, ac a archodd ei rwymo ef â dwy gadwyn, ac a ofynnodd, pwy oedd efe, a pha beth a wnaethe efe?

34 A rhai o'r dyrfa a lefent hyn, eraill beth arall, ac am na's galle gael ſiccrwydd gan y derfyſc, efe a orchymynnodd fyned ag ef i'r caſtell.

35 Ac wedi ei ddyfod ef i'r griſiau, fe orfu i'r milwŷr ei ddwyn ef, rhag trais y dyrfa.

36 Canys llu o bobl a ganlynodd, gan floeddio, ymmaith ag ef.

37 A phan oeddyd ar ddwyn Paul i'r caſtell, efe a ddywedodd wrth y pen-capten: a gaf fi ymddiddan dim â chi? yntef a ddywedodd; a fedri di Roeg?

38 Ond ty-di ydyw yr Aiphti-wr yr hwn (er ys dyddiau) a gyfodaiſt derfyſc, ac a dywyſaiſt bedair mil o wŷr llofruddioc i'r diffaethwch?

39 Yna y dywedodd Paul: yn wîr, Iddew wyf, dineſydd o Tharſus, nid dinas anenwoc o Cilicia: ac yr wyf yn deiſyf arnat ti, dod gennad i mi, i lefaru wrth y bobl.

40 Ac wedi iddo ef roi cennad, fe ſafodd Paul ar y griſiau, ac a amneidiodd â llaw ar y bobl, ac wedi gwneuthur diſtawrwydd mawr, efe a lefarodd wrthynt yn Hebraeaec, gan ddywedyd,

## PEN. XXII.

Paul yn dangos ei hânes, 25 yn diangc rhag ei fflangellu am ei fod yn Rhufeiniad.

HA wŷr, frodyr a thadau, gwrandewch fy amddeffyn wrthych yr awr hon.

2 A phan glywſant mai yn Hebraeaec yr oedd efe yn llefaru wrthynt, hwy a roeſant iddo oſteg gwell, ac efe a ddywedodd:

3 Gŵr wyf fi yn wîr o Iddew, yr hwn a aned yn Tharſus yn Cilicia, ac wedi fy meithrin yn y ddinas hon wrth draed Gamaliel, ac wedi fy athrawu yn ôl dull perffaith ddeddf y tadau, yn dwyn zêl i Dduw, fel yr ydych chwithau oll heddyw.

4 A mi a erlidiais ffordd y fuchedd hon hyd angeu, gan rwymo a bwrw yng-harchar wŷr a gwragedd: Pen.8.3.

5 Fel y mae yr arch-offeiriad yn dyſt i mi, a'r holl henaduriaeth, gan y rhai hefyd y derbyniais lythyrau at y brodyr, ac yr aethym i Ddamaſcus, i ddwyn y rhai oeddynt yno, yn rhwym i Jeruſalem iw poeni.

6 Eithr fel yr oeddwn yn myned yn agos i Ddamaſcus yng-hylch hanner dydd, mawr oleuni o'r nef a ddiſcleiriodd yn ddiſymmwth o'm hamgylch.

7 A mi a ſyrthiais ar y ddaiar, ac a glywais lais yn dywedyd wrthif fi: Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid?

8 A minnau a attebais: pwy wyt ti ô Arglwydd? yntef a ddywedodd wrthif: myfi yw Ieſu o Nazareth yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.

9 Hefyd, y rhai oeddynt gyd â myfi a welſant y goleuad yn ddiau, ac a ofnaſant, ond ni chlywſant hwy mo lais yr hwn oedd yn ymddiddan â mi.

10 Yna y dywedais: beth a wnaf ô Arglwydd? a'r Arglwydd a ddywedodd wrthif: cyfot, a dos i Ddamaſcus, ac yno y mynegir i ti bob peth a'r a ordeiniwyd i ti ei wneuthur.

11 A phan na allwn weled gan ogoniant y goleuad hwnnw, mi a dywyſwyd erbyn fy llaw, [ac] mi a ddaethym i Ddamaſcus.

12 Ac un Ananias gŵr duwiol yn ôl y ddeddf, ac iddo air da gan yr Iddewon oll ar oeddynt yn preſwylio [yno,]

13 A ddaeth attaf, ac a ſafodd ger llaw gan ddywedyd: y brawd Saul, gwêl, ac mi a edrychais arno yn yr awr honno.

14 Ac yntef a ddywedodd: Duw ein tadau ni a'th ddewiſodd di i wybod ei ewyllys ef, ac i weled y cyfiawn hwnnw, ac i glywed lleferydd ei enau ef.

15 Canys ti a fyddi dyſt iddo wrth bob dyn, o'r [pethau] a welaiſt, ac a glywaiſt.

16 Ac yr awr hon, beth yr wyt yn ei aros? cyfot, ymmerſydda, a golch ymmaith dy bechodau gan alw ar enw yr Arglwydd.

17 A darfu wedi i mi ddyfod yn fy ôl i Jeruſalem,

ſalem, fel yr oeddwn yn gweddio yn y Deml, imi ſyrthio mewn llewyg:

18 A gweled o honof ef yn dywedyd wrthif: bryſia, a dos yn fuan ymmaith o Jeruſalem: o herwydd ni chymmerant dy deſtiolaeth am danaf fi.

19 A minne a ddywedais, ô Arglwydd, hwy a wyddant fy mod i yn carcharu, ac yn baeddu ym mhob Synagog y rhai a gredâſant ynot ti:

20 A phan dywalltwyd gwaed Stephan dy ferthyr di, yr oeddwn i yn ſefyll ger llaw, ac yn cytuno iw ladd ef, a mi a gedwais ddillad y rhai a'i lladdaſant ef.

21 Ac efe a ddywedodd wrthif, dos ymmaith, canys mi a'th anfonaf ym mhell at y cenhedloedd.

22 A hwy a'i gwrandawſant ef hyd y gair hwn: yna y cyfodaſant eu llef, ac a ddywedâſant, ymmaith a'r cyfryw vn oddi ar y ddaiar, canys nid iawn ei fôd efe yn fyw.

23 Ac fel yr oeddynt yn llefain, ac yn bwrw eu dillad, ac yn taflu llwch yn yr awyr,

24 Y pen-capten a orchymynnodd ei ddwyn ef i'r caſtell, ac a archodd ei fflangellu ef, a'i holi, fel y gwyddie am ba achos y llefent arno ef.

25 A phan rwymaſant ef â llinynnau, y dywedodd Paul wrth y canwriad yr hwn oedd yn ſefyll ger ei law, a'i rhydd i chwi fflangellu Rhufein-wr, ac heb ei farnu hefyd?

26 A phan glybu y canwriad, efe a aeth, ac a fynegodd i'r pen-capten gan ddywedyd: edrych beth a wnelych, canys Rufeiniad yw y dŷn hwn.

27 Yna y daeth y pen-capten, ac a ddywedodd wrtho, dywed i mi, ai Rhufeiniad wyt ti? ac efe a ddywedodd, ie.

28 A'r pen-capten a atebodd, â ſwm mawr o arian y prynais i y ddinaſ-fraint hon, Paul a ddywedodd: a minne hefyd a aned felly.

29 A'r holwŷr a ymadawſant ag ef yn y man, a'r pen-capten hefyd a ofnodd pan wybu efe, ei fod ef yn Rhufeiniad, am ddarfod iddo ei rwymo ef.

30 A thrannoeth o herwydd ei fod efe yn ceiſio gwybodaeth ddiogel pa ham y cyhuddid ef gan yr Iddewon, efe a'i gollyngodd o'r rhwymau, ac a archodd i'r arch-offeiriaid a'u cyngor oll ddyfod [yno,] ac efe a ddug Paul, ac a'i goſododd ger eu bron hwy.

## PEN. XXIII.

1 Yr arch-offeiriad yn peri taro Paul, a'r atteb yntef am ei daro, 7 Ymryſael rhwng y Phariſæaid a'r Saducæaid, 11 yr angel yn cyſſuro Paul i fyned i Rufain, 12 adduned greulon yn erbyn Paul. 16 Nai Paul yn dangos iddo ei berigl, ac i'r capten hefyd, 24 Paul yn myned at Phelix â gwyr arfog, â llythyrau.

PAul yn edrych yn graff ar y cynghoriaid, a ddywedodd: Ha wŷr frodyr, mi a waſanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda hyd y dydd heddyw.

2 Yna Ananias yr arch-offeiriad a archodd i'r rhai oedd yn ſefyll yn ei ymmyl, ei daro ef ar ei enau.

3 Yna y dywedodd Paul wrtho: Duw a'th deru di bared gorwyn: canys a ydwyt ti yn eiſtedd yn fy marnu yn ôl y ddeddf, ac yn gorchymyn fy nharo yn erbyn y ddeddf?

4 Yna y dywedodd y ſefyll-wŷr wrtho, a gebli di arch-offeiriad Duw?

5 A dywedodd Paul, ô frodyr, ni wybûm mai arch-offeiriad oedd efe: canys ſcrifennedic yw: * na felldithia bennaeth dy bobl. Exod.22.28.

6 A phan wybu Paul fod y naill ran o'r Saducæaid, a'r parth arall o'r Phariſæaid, efe a lefodd yn y cyngor, Ha wŷr frodyr, * Phariſæad wyf fi, a mab i Phariſæad, ac am obaith adgyfodiad y meirw, yr ydis yn fy marnu. Pen.24.21. Phil.3.51.

7 A phan ddywedodd efe hyn, y cyfodes ymryſon mawr rhwng y Phariſæaid, a'r Saducæaid, a'r dyrfa a aeth yn ddwy-ran.

8 * Canys y Saducæaid a ddywedant na'd oes adgyfodiad, nac angel, nac yſpryd: a'r Phariſæaid ſy yn addef pob vn. Math.22,23.

9 Yna y bu llefain mawr, a'r ſcrifennyddion o du y Phariſæaid a gyfodaſant i fynu, ac a ymryſonaſant gan ddywedyd: nid ydym ni yn cael dim drwg yn y dŷn hwn, ac os bu i yſpryd neu angel ymddiddan ag ef, nac ymryſonwn â Duw.

10 Ac wedi cyfodi terfyſc mawr, y pen-capten a ofnodd rhag tynnu Paul yn ddrylliau ganddynt, ac a archodd i'r mil-wŷr fyned i waered a'i ddwyn ef o'u plith hwynt, a'i ddwyn i'r caſtell.

11 Yr ail nos yr Arglwydd yn ſefyll gyd ag ef a ddywedodd, Paul, cymmer gyſſur: canys fel y darfu i ti ddwyn teſtiolaeth o honof yn Jeruſalem, felly y mae yn rhaid i ti deſtiolaethu yn Rhufain hefyd.

12 A phan aeth hi yn ddydd: rhai o'r Iddewon a gyfarfuant, ac a wnaethant ddiofryd, gan ddywedyd: na fwytâent, ac nac yfent, nes lladd o honynt Paul.

13 Ac yr oedd mwy nâ deugain o'r rhai a wnaethent y cyd-fwriad hwn.

14 A hwy a aethant at yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, ac a ddywedaſant: darfu i ni ein diofrydu ein hunain i ddiofrydedd na archwaethom ddim nes i ni ladd Paul.

15 Yn awr gan hynny yſpyſwch gyd â'r cyngor i'r pen-capten, fod iddo ei ddwyn ef y forau attoch, fel pe byddech chwi ar fedr cael gwybod yn fanylach ei hanes ef, a ninnau cyn y delo efe yn agos, ydym barod iw ladd ef.

16 Eithr pan glybu mab chwaer Paul y cynllwyn ymma, efe gan ddyfod i mewn i'r caſtell a fynegodd i Paul.

17 A Phaul a alwodd vn o'r canwriaid atto, ac a ddywedodd: dwg y gŵr ieuangc hwn at y pen-capten: canys y mae ganddo beth iw fynegi iddo.

18 Ac efe a'i cymmerth, ac a'i dug at y pen-

capten, ac a ddywedodd : Paul y carcharwr a'm galwodd ataw, ac a ddymunodd arnaf ddwyn y gŵr ieuangc hwnn attad, yr hwn ſydd ganddo beth i'w ddywedyd wrthyt.

19 Yna y pen-capten a'i cymerth erbyn ei law, ac a aeth ag efe o'r neilltu, ac a ofynnodd iddo, Beth ſydd gennyt i'w ddywedyd i mi?

20 Ac efe a ddywedodd, Yr Iddewon a gyd-duniaſant ddeiſyf arnat ddwyn i waered Paul y foru i'r cyngor, fal pe byddent yn mynny hwy ymofyn yn fanylach yn i gylch ef.

21 Ond na choelia di hwynt, canys y mae mwy na deugain wŷr o honynt yn cynllwyn am dano, wedi rhwymo eu hunain na bwytaont nac yfont nes lladd ef: ac yn awr y maent hwy yn barod, yn diſgwil ya [illegible] [a gân] gennit ti.

22 Yna y pen-capten a ollyngodd y gŵr ieuangc ymaith, ac a orchymynodd iddo na fynyge i neb, ddywedyd o honaw y cyfryw bethau wrtho.

23 Ac efe a alwodd atto ddau o ganwriaid, ac a orchymynodd iddynt baratoi dau cât o filwyr i fyned hyd yn Cæſarea, a dêc a thrugain o wŷr meirch, a deu-cât o ffynwewyr, wedi y dryded awr o'r nos.

24 A pheri yſtrodliad yn barod i gael o Paul farchogaeth, i fyned ag ef at Phelix y rhaglaw yn ddiogel.

25 Gan ſcrifennu llythyr ar yr yſtyriaeth ymma.

26 Claudius Lyſias yn anfon annerch at yr arddercoccaf rhaglaw Phelix.

27 Mysi yn dyfod gyd â byddin a achubais y gŵr hwn, yr hwn a ddaliaſid gan yr Iddewon, ac ydoedd debyg i'w ladd gandynt; gan ddeall ei fod ef yn Rhufeiniad.

28 A chan ewyllyſio gŵybod am ba achos yr achwynent arno ef, mi ai dygym ef i'w cyngor hwynt.

29 Yna y deallais achwyn arno am amholion o'u cyfraith hwy, ac nad oedd arno ef un bai a haeddei nac angeu, na charchar.

30 A phan ddangoſwyd i mi fod yr Iddewon yn cynllwyn i'r gŵr, mi a'i gyrrais ef attat ar frys, ac a rybuddiais ei gyhudd-wŷr ef, os oedd gandynt ddim yn ei erbyn ef, ei ddywedyd ger dy fron di: bydd iach.

31 Yna y milwŷr megis y gorchymynaſid iddynt a gymmeraſant Paul, ac a'i dugaſant o hŷd nos i Antipatris.

32 A thrannoeth gan adel i'r gwŷr meirch fyned gyd ag ef, hwy a ddychwelaſant i'r caſtell.

33 Y rhai pan ddaethant i Cæſarea, a dodi y llythyr at y rhaglaw, a oſodaſant Paul hefyd ger ei fron ef.

34 Felly wedi darfod i'r rhaglaw ddarllen, ac ymofyn o ba wlad yr oedd, a gŵybod ei fod ef o Cilicia,

35 Efe a ddywedodd : mi a'th wrandawaf di pan ddelo dy gyhuddwyr : ac efe a orchymynnodd ei gadw ef yn nadleu-dŷ Herod.

## P E N. XXIIII.

Areithi Tertulus [illegible]. 10 Atteb Paul iddynt, Phelix yn oedi gwrando y cwbl, ac yn rhoddi Paul yn y carchar.

AC yn ôl [illegible] y daeth Ananias yr arch-offeiriad i waered, a'r henuriaid, ac un Tertulus areithiwr gyd ag ef, a'r ymddangoſaſant ger bron y rhaglaw yn erbyn Paul.

2 Ac wedi ei alw ef, Tertulus a ddechreuodd achwyn rhagddo ef, gan ddywedyd,

3 Gan ein bod ni yn cael trwy ti heddwch mawr (o arddercoccaf Phelix) a gwneuthur llawer o ddaioni i'r genhedlaeth hon trwy dy ragweliad di, yr ydym ni yn cwbl gydnabod hynny ym mhob man, gyd â phob diolch.

4 A rhac i mi dy attal yn rhy-hir, yr ydwyf yn deiſyf arnat o'th hynawſedd, wrando arnom ychydig.

5 Oblegid ni a gawſom y gŵr hwn yn blâ, ac yn cyfodi terfysc ym myſc yr holl Iddewon drwy y byd, ac yn bennaeth ar ſect y Nazareniaid,

6 Yr hwn a fynnaſei halogi y Deml hefyd, ac a ddaliaſom ni, ac a fynnaſem ei farnu yn ôl ein cyfraith,

7 Eithr Lyſias y pen-capten a ddaeth rhyngom ni ag ef, â thrais mawr a'i dug ef allan o'n dwylo ni:

8 Ac a erchodd i'w gyhudd-wŷr ddyfod ger dy fron di, gan yr hwn (os mynni ymofyn) y gellyd gael gwybod dy hun yr holl bethau hyn o'r rhai yr ydym ni yn achwyn rhagddo ef.

9 A'r Iddewon a gydſyniaſant hefyd, gan ddywedyd, fod y pethau y modd hynny.

10 Ac yna yr attebodd Paul wedi i'r rhaglaw amneidio arno i ddywedyd, gan i mi wybod dy fod ti yn farnwr er llawer o flynyddoedd i'r genedl hon, mi am handdeffynnaf fy hun yn hyfach.

11 Canys ti a elli wybod nad oes etto deuddec diwarnod er pan aethym i fynu i addoli yn Ieruſalem.

12 Ac ni chawſant fi yn y Deml yn ymddadleu â neb, nac yn gwneuthur cyffro ar y dyrfa yn y Synagogau, nac yn y ddinas.

13 Ac ni allant brofi y pethau y maent yn achwyn arnaf am danynt.

14 Ond hyn yr ydwyf yn ei gyffeſſu i ti, mai (yn ôl y ffordd a alwant yn hereſi) felly yr wyf yn addoli Duw fy nhadau, gan gredu yn yr holl bethau ſy ſcrifennedic yn y ddeddf a'r prophwydi:

15 Ac yn gobeithio ar Dduw, y bydd adgyfodiad y meirw (yr hyn y maent hwy hefyd yn edrych am dano) i'r cyfiawnion, ac i'r angyfiawnion.

16 Ac am hyn yr wyf fi yn ymegnio, cael o honof gydwybod lân yn oeſtad tu ag at Dduw a dynion.

17 Ac yn ôl llawer o flynyddoedd y daethym i roddi eluſenni i'm cenhedlaeth, ac offrymau:

18 Yn hyn rhai o'r Iddewon o Aſia a'm cawſant wedi vyng-lanhau yn y Deml, nid gyd â thorf na therfyſc.

19 Y rhai hyn a ddylaſent fod o'th flaen di i achwyn, pe buaſe ganddynt ddim i'm herbyn.

20 Neu dywedet y rhain ymma, a gawſant hwy ddim anghyfiawn ynof, tra yddwyf yn ſefyll o flaen y cyngor,

21 Eithr yr vn llef hon, a leſais pan oeddwn yn ſefyll yn eu myſc hwynt: am adgyfodiat y meirw i'm gelwir heddyw gennwch i farn.

22 Pan glybu Phelix y pethau hyn, efe a'u hoedodd hwynt heibio: gan ddywedyd: pan gaffwyf fi wybod yn well berthynaſau y ffordd hon, wedi i Lyſias y pencapten ddyfod i wared, mi a fynnaf wybod eich matter chwi.

23 Ac efe a archodd i'r Canwriad gadw Paul, a gadel iddo gael eſmwythdra, ac na leſteirie neb o'r eiddo ef iw waſanaethu, ac i ddyfod atto ef.

24 Ac yn ôl talm o ddyddiau, y daeth Phelix gyd â'i wraig Druſilla yr hō ydoedd Iddewes, ac a alwodd am Paul, ac a'i gwrandawodd ef yng-hylch y ffydd yr hon [ſydd] yng-Hriſt.

25 Ac fel yr oedd efe yn traethu, am gyfiawnder, a diweirdeb, a'r farn a fydd, Phelix a ofnodd ac a attebodd: dos ymmaith tros hyn: eithr pan gaffwyf fi amſer cyfaddas, mi a alwaf am danat.

26 Ac yr oedd efe yn gobeithio hefyd y cae efe arian gan Paul er ei ollwng, o herwydd yn hyn efe a anfonodd am dano yn fynychach, ac a chwedleuodd ag ef.

27 Ac wedi darfod dwy flynedd y daeth Porcius Ffeſtus yn lle Phelix: a Phelix yn ceiſio ennill bodd yr Iddewon a adawodd Paul yn rhwym.

## PEN. XXV.

Achwyn ar Paul ger bron Ffeſtus. 8 Efe yn atteb drosto ei hun. 11 Ac yn appelio at Cæſar. 13 Ffeſtus yn adrodd wrth frenin Agrippa gyflwr Paul. 24 A Phaul yn dyfod ger bron Agrippa.

YNa pan ddaeth Ffeſtus i'r dalaith, y trydydd dydd, efe a aeth i fynu o Cæſarea i Ieruſalem.

2 Yna yr ymddangoſodd yr arch-offeiriaid a phennaethiaid yr Iddewon ger ei fron ef yn erbyn Paul, ac a ymbiliaſant ag ef,

3 Gan geiſio ffafr yn ei erbyn ef, fel y cyrche efe ef i Ieruſalem: gan wneuthur cynllwyn iw ladd ef ar y ffordd.

4 A Ffeſtus a attebodd, y cedwid Paul yn Cæſarea, ac yr ae efe ei hun yno ar fyder.

5 Y neb a allo yn eich myſc chwi (eb efe) deued gyd â ni, ac os bydd dim drwg yn y gŵr hwnnw, cyhudded ef.

6 Ac efe a aeth i wared i Cæſarea, pryd na thrigaſe efe gyd â hwynt vwch-law dêng-niwrnod, a thrannoeth efe a eiſteddodd yn yr orſedd ac a archodd ddwyn Paul atto.

7 A phan ddaeth efe, yr Iddewon y rhai a ddaethēt o Ieruſalem i wared, a ſafaſant o amgylch, ac a ddygaſant lawer o achwynion trymion yn erbyn Paul, y rhai nis gallent eu profi.

8 Ac yntef yn atteb, na phechaſe efe ddim nac yn erbyn cyfraith yr Iddewon, nac yn erbyn y deml, nac yn erbyn Cæſar.

9 Eithr Ffeſtus yn chwennych ddangos ffafr i'r Iddewon a attebodd, ac a ddywedodd wrth Paul, a fynni di ddyfod i fynu i Ieruſalem [illegible] farnu yno ger fy mron i am y pethau hyn?

10 A Phaul a ddywedodd, o flaen gorſedd-faingc Cæſar yr wyfi yn ſefyll, lle y mae yn rhaid fy marnu: ni wneuthum i ddim cam â'r Iddewon, megis y gwyddoſt di yn dda.

11 Canys os gwneuthum ddim cam, na dim yn haeddu angeu, ni wrthodaf farw: eithr onid oes dim o'r pethau y maent i'm cyhuddo, ni ddichō neb fy rhoddi iddynt, i appelio yr wyf at Cæſar.

12 Yna Ffeſtus wedi darfod iddo ymddiddan â'r cyngor a attebodd: a appeliaiſt di at Cæſar? at Cæſar y cei di fyned.

13 Ac wedi darfod talm o ddyddiau, Agrippa frenin, a Bernice a ddaethant i Cæſarea i gyfarch Ffeſtus.

14 Ac wedi iddynt aros yno lawer o ddyddiau, Ffeſtus a fynegodd i'r brenin hanes Paul, gan ddywedyd: y mae [ymma] ryw wr wedi ei adel yng-harchar gan Phelix,

15 Am yr hwn pan ddaethym i Ieruſalem yr yſpyſodd yr arch-offeiriaid a henuriaid yr Iddewon i mi, gan ddeiſyf cael barn yn ei erbyn ef.

16 I'r rhain yr attebais, nad oedd arferol i Rufein-wŷr roddi neb iw ddifetha, nes cael o'r cyhuddol ei gyhudd-wŷr yn ei wyneb, a chael lle iw amddeffyn ei hun rhag y cwyn.

17 O blegit hynny, pan ddaethant ymma, yr ail dydd heb wneuthur ymaros pan eiſteddais ar y faingc, mi a erchais ddyfod â'r gŵr ger fy mron.

18 Ar ba vn (pan ſafodd y cyhudd-wŷr i fynu) ni roeſant ddim achwyn o'r pethau yr oeddwn i yn tybied.

19 Ond yr oedd ganddynt rai ymofynion o'i coelfuchedd ei hunain, ac am vn Ieſu a fu farw, yr hwn a daere Paul ei fod yn fyw.

20 A minne o herwydd fy mod yn ammau y fath gweſtiwn, a ofynnais iddo ef, a fynne efe fyned i Ieruſalem a'i farnu yno am y pethau hyn.

21 Ond gan i Paul appelio iw gadw i wybyddiaeth Auguſtus, mi a erchais ei gadw ef hyd oni anfonwn ef at Cæſar.

22 Yna Agrippa a ddywedodd wrth Ffeſtus, minne a ewyllyſiwn glywed y dŷn, yntef a ddywedodd, ti a gei ei glywed ef y fory.

23 A thrannoeth pan ddaeth Agrippa a Bernice a rhwyſc fawr, a myned i mewn i'r orſedd â'r pen-capteniaid, a phendefigion y ddinas wrth orchymyn Ffeſtus, fe a gyrchwyd Paul.

24 A Ffeſtus a ddywedodd: ô frenin Agrippa, a chwithau oll ſydd gyd â ni yn bresennol, chwi a welwch y dŷn hwnn o blegit pa vn y galwodd holl dyrfa yr Iddewon arnaf, yn Ieruſalem ac ymma, gan lefain, na ddyle efe fyw yn hwy.

25 Eithr myfi heb gael ynddo ddim a haedde angeu, ac yntef wedi appelio at Auguſtus, a fernais [yn o'ref] ei ddanfon ef.

26 Am yr hwn [wr] nid oes gennif ddim ſiccrwydd yw ſcrifennu at [fy] arglwydd, o herwydd pa ham mi â'i ducym ef attoch chwi, ac yn henwedic attat ti ô frenin Agrippa, fel y caffwyf wedi ei holi ef bethiw ſcrifennu.

27 Canys allan o reſwm y gwelaf fi anfon carcharor, ac heb yſpyſu y matterion [ſy] yn ei erbyn ef.

## P E N. XXVI.

Paul yn dangos i Agrippa ddull ei alwedigaeth, 24 barn ehud Ffeſtus, ac atteb Paul iddi, 28 Agrippa ym mron credu.

YNa y dywedodd Agrippa wrth Paul, y mae cennad i ti i ddywedyd troſot dy hunan, yna Paul, gan eſtyn ei law, a'i amddeffynnodd ei hun:

2 Dedwydd yr wyf fi yn barnu fy mod fy hun (ô frenin Agrippa) am gael o honof heddyw fy amddeffyn fy hun ger dy fron di, am yr holl bethau i'm cyhuddir gan yr Iddewon:

3 Ac yn benddifaddeu, am dy fod ti yn gwybod oddi wrth yr holl ddefodau a'r holion ſydd ym mhlith yr Iddewon: am hynny yr ydwyf yn attolygu i ti fyng-wrando yn ddioddefgar.

4 Ac am fy muchedd o'm mebyd, yr hon a ddechreuwyd ym myſc fyng-henedl yn Ieruſalem, yr Iddewon oll a wyddant oddi wrthi.

5 Y rhai a'm hadwaenent i o'r cyntaf (os mynnant deſtiolaethu) fy mod i yn byw yn ol y ſecte fanylaf o'n crefydd ni, yn Phariſæad.

6 Ac yn awr yr wyf fi yn ſefyll i'm barnu am obaith yr addewid, yr hwn a wnaed gan Dduw i'n tadau ni.

7 I'r hwn y mae ein deuddec llwyth ni gan waſanaethu Duw eb dorr ddydd â nos, yn gobeithio dyfod, o achos yr hon obaith yr ydwyf fi wedi i'r Iddewon (ô frenin Agrippa) achwyn arnaf.

8 Pa ham? ai anghredadwy yw gennych chwi, y cyfyd Duw y meirw eil-waith?

9 A minne yn wir a dybiaſwn fod yn rhaid i mi wneuthur llawer yn erbyn enw Ieſu o Nazareth.

10 *Yr hwn beth a wnaethym yn Ieruſalem, a llawer o'r ſainct a gaeais i mewn carcharau, wedi cael awdurdod gan yr arch-offeiriaid, ac wrth eu difetha, mi a roddais farn. Pen.8.3.

11 Ac myfi yn eu coſpi yn fynych ym mhob Synagog, a'u cymhellais i gablu, a chan ynfydu yn eu herbyn yn fwy, mi a'u herlidiais hyd y dinaſoedd dieithr.

12 Ac yn hyn, fel yr oeddwn yn myned *i Ddamaſcus, ac awdurdod, a chennad yr arch-offeiriaid, Pen.9.2.

13 Ar hanner dydd (ô frenin) ar y ffordd y gwelais oleuni o'r nef yn ddiſclaerach nâ'r haul yn tywynnu o'm hamgylch, a'r rhai oeddynt yn myned gyd â mi.

14 Ac wedi i ni oll ſyrthio ar y ddaiar, mi a glywais leferydd yn llefaru wrthif, ac yn dywedyd yn Hebræ-aec, Saul, Saul, pa ham yr ydwyt yn fy erlid i? caled yw i ti wingo yn erbyn y ſwmbylau.

15 Yna y dywedais inne, pwy wyt ti, ô Arglwydd? ac efe a ddywedodd: myfi yw Ieſu yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.

16 Eithr cyfot, a ſaf ar dy draed: canys o achos hyn yr ymddangoſais i ti, er mwyn dy oſod ti yn weinidog, ac yn dyſt o'r pethau a welaiſt, ac o'r pethau yr ymddangoſaf i ti ynddynt:

17 Gan dy wared di oddi wrth y bobl a'r cenhedloedd, at ba rai yr ydwyf yn dy anfon di yr awron:

18 Fel yr agorech eu llygaid, i droi oddi wrth y tywyllwch i'r goleuad, ac o feddiant Satan at Dduw, er mwyn cael o honynt faddeuant am bechodau, a chyfran ym myſc y rhai a ſancteiddiwyd trwy ffydd, yr hon ſydd ynof fi.

19 Am ba achos (ô frenin Agrippa) ni bum anufydd i'r weledigaeth nefol:

20 *Eithr mi a bregethais yn gyntaf i'r rhai yn Damaſcus, ac yn Ieruſalem, a thros wlad Iudæa oll, ac i'r cenhedloedd i edifarhau, a dychwelyd at Dduw, gan wneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch. Pen.9.22.

21 O achos y pethau hyny yr Iddewon wedi fyngafael yn y Deml, a geiſiaſant fy-lladd i â'u dwylo [eu hun.] Pen.21.30.

22 Er hyn, a Duw i'm cymmorth, yr wyf fi etto yn aros hyd y dydd hwn, gan deſtiolaethu i fychan a mawr, ac heb ddywedyd dim ond a ddywedaſe y prophwydi a Moſes o'r blaen, y delei.

23 Y dioddefe Criſt, ac y bydde yn gyntaf o adgyfodiad y meirw, ac y dangoſe oleuad i'r bobl hyn, ac i'r cenhedloedd.

24 A' fel yr oedd efe yn rhoddi troſto fel hyn, Ffeſtus a ddywedodd â llef vchel, Paul yr wyt ti yn ynfydu, llawer o ddyſc ſydd yn dy yrru di yn ynfyd.

25 Yna y dywedodd yntef, o arddercoccaf Ffeſtus, nid wyf fi ynfyd, eithr geiriau gwirionedd a ſobrwydd yr wyf fi yn eu hadrodd.

26 Canys y brenin a wyr hyn, ger bron yr hwn wyf yn ymadrodd yn hyf, o herwydd yr wyf yn tybied na'd oes dim o hyn yn guddiedic iddo: o blegit ni wnaethpwyd hyn mewn congl.

27 Oh frenin Agrippa, a wyt ti yn credu i'r prophwydi? mi a wn dy fod yn credu.

28 Agrippa a ddywedodd wrth Paul, yr wyt o fewn ychydig i'm hennill i fod yn Griſtion.

29 A Phaul a ddywedodd: mi a ddymunwn gan Dduw o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod nid tydi yn vnic, onid pawb a'r ſydd yn fyng-

wrando heddyw, yn gyſcryw ag wyſt i, ond y rhwymau hyn.

30 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, y brenin, a'r rhaglaw, a Bernice a gyfodâſant, a'r rhai oeddynt yn eiſtedd gyd â hwynt.

31 Ac wedi iddynt fyned o'r neillu, hwy a ddywedaſant wrth eu gilydd: nid yw 'r dyn hwn yn gwneuthur dim i haeddu angeu na charchar.

32 Yna y dywedodd Agrippa wrth Ffeſtus, fe allaſid gollwng y dŷn ymma ymmaith, oni buaſe iddo appelio at Cæſar.

## PEN. XXVII.

Taith Paul a'i gyfeillion tu a Rhufain, a'u peryglon.

GWedi darfod cytuno i forio o honom i'r Ital, hwy a roeſant Paul a rhyw garcharorion eraill at Ganwriad yr hwn a enwid Julius, o fyddin Auguſtus,

1.Côr.11.25.

2 A *dringo a wnaethom i long o Adramyttium, ar fedr hwylio i duedd Aſia, ac ni a gychwynnaſom, a chyd â ni yr oedd Ariſtarchus o Macedonia o [wlad] Theſſalonia.

3 A thrannoeth ni a diriaſom yn Sydon, ac Julius gan fod yn gymmwynaſcar wrth Paul, a roddes iddo gennad i fyned at ei gyfeillion, i gael ymgeledd.

4 Ac yn myned oddi yno, nyni a hwyliaſom tann Cyprus, am fod y gwynt i'n herbyn.

5 Ac wedi hwylio o honom tros y môr ger llaw Cilicia a Pamphilia, nyni a ddaethom i Myra [dinas] o Lycia.

6 Ac yno y canwriad yn cael llong o Alexandria yn myned i'r Ital, a'n goſodes ni yndddi.

7 Ac wedi i ni hwylio yn anniben lawer o ddyddiau, a dyfod yn brin ger llaw Gnidum, am na adawe y gwynt i ni: ni a hwyliaſom is law Creta, ger llaw Salmóne,

8 A braidd yr hwyliaſom heibio iddi, ac ni a ddaethō i ryw le a alwāt y porth laddoedd prydferth, ac ba rai yr oedd dinas Laſæa yn gyfagos.

9 Ac yn ôl hir o amſer, pan oedd yn enbyd morwriaeth, a darfod hefyd yr ympryd, Paul a'u cyngorodd hwynt, gan ddywedyd wrthynt:

10 O'ch wŷr, mi a welaf y bydd yr hynt hon drwy niwed a cholled fawr, nid am y llwyth a'r llong yn vnic, eithr ein heinioes ni hefyd.

11 Er hynny ei gyd, mwy y credodd y canwriad i lywydd y llong, ac i'r meiſtr, nag i'r pethau a ddywedaſe Paul.

12 A phan nad oedd y porthladd yn dda i aiâfu, yr rhan fwyaf o honynt a ymgyngorasant, forio oddi yno os byddei fodd i allu dyfod i Phænice, a gaiâfu yno, yr hwn ſydd borthladd yn Creta, ar gyfer y deau-orllewin a gogledd-orllewin.

13 A phan chwythodd y deheu-wynt, hwynt hwy a dybiaſant gaffael eu meddwl, ac wedi iddynt gychwyn, hwy a hwyliaſant yn agos i Creta.

14 Ond cyn nemmawr y cyfododd yn ei herbyn hi dymheſtl-wynt yr hwn a elwir Euroclydon.

15 A phan ddaliwyd y llong, ac na allei wrthladd y gwynt, nyni a ymroeſom, ac ni a ddygwyd [gyd â'r gwynt.]

16 A phan daſlwyd ni goris ynys fach a elwir Clauda, braidd y gallaſom gael y bâd:

17 Yr hwn a godaſant i fynu, ac hwy a gydgynhorthwyaſant gan gylchu y llong, ac ofni a wnaethant rhag taro ar ſugn-draeth: ac hwy a oſtyngaſant yr hwyl, ac felly y dygwyd hwynt.

18 A phan gyfododd garw-for tymeſtlog drānoeth arnom ni, hwy a yſcafnhauſant y llōg.

19 A'r trydydd dydd y bwriaſom â'n dwylo ein hunain daclau y llong allan.

20 A phan na'd ymddangoſodd na haul, na ſêr, dros lawer o ddyddiau, a chymeſtl nid bychan ar ein gwartha, dygwyd pob gobaith oddi arnom y byddem ni gadwedig.

21 A phan fuaſe bellach hir ympryd, yna y ſafodd Paul yn eu canol hwy, ac a ddywedodd, ôch wŷr, chwi a ddylaſech wrando arnafi a pheidio a chychwyn o Creta, a diangc rhag y pericl a'r golled ymma.

22 Ac yr awr hon yr wyf i yn eich rhybuddio chwi ar fod yn dda eich cyſſur, can na chollir bywyd vn o honoch ond y llong yn vnic.

23 Canys angel Duw yr hwn a'm pian, a'r hwn yr wyf yn ei addoli, a ſafodd yn fy ymyl y nôs hon,

24 Gan ddywedyd: nac ofna Paul, rhaid i ti ſefyll ger bron Cæſar, ac wele, fe roddes Duw i ti y rhai oll y ſydd yn morio gyd â thi.

25 Am hynny cymmerwch gyſur (ô wŷr) canys yr wyf fi yn credu i Dduw y bydd fel y traethodd efe wrthif:

26 Ond y mae yn rhaid i ni ddyfod i ryw ynys.

27 Ac wedi dyfod y bedwaredd nos ar ddec, fel yr oeddem yn morio yn Adria yng-hylch hanner nos, y morwŷr a dybiaſant eu bod yn neſhau i ryw dir.

28 Ac hwy a blymiaſant, ac a'i cawſant yn vgain gwryd, ac wedi myned ychydig pellach hwy a blymiaſant eilwaith, ac a gawſant bymthec gwryd.

29 Ac hwy yn ofni rhag ſyrthio mewn lleoedd geirwō, hwy a fwriaſant allan bedair angor o'r llyw, ac a ddeiſyfiaſant ei myned hi yn ddydd

30 Ac fel yr oedd y llong-wŷr yn amcanu ymadel â'r llong, wedi bwrw y bad i wared i'r môr, fel pe buaſe yn eu bryd fwrw allan angorau o'r pen blaen hefyd,

31 Dywedodd Paul wrth y canwriad, a'r milwŷr, onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig.

32 Yna y torrodd y milwŷr raffau y bâd, ac a adawſant iddo fyned ymmaith.

33 A thra fu hi yn dyddhau, Paul a eiriolodd ar bawb gymmeryd bwyd, gan ddywedyd: dymma y pedwerydd dydd ar ddeç gan ddiſgwil, yr arhoeſoch ar eich cythlwng heb gymme-

ryd ddim [bwyd.]

34 Am hynny fyng-hyngor i i chwi yw cymmeryd bwyd: o blegit hynny fydd eich iechydwriaeth chwi: canys ni ſyrth blewyn o ben vn o honoch chwi.

35 Ac wedi iddo ddywedyd hyn, gan gymmeryd bara, efe a ddiolchodd i Dduw yn eu gŵydd hwynt oll, ac a'i torodd, ac a ddechreuodd fwyta.

36 A phawb oll wedi myned yn gyſſurol, a gymmeraſant fwyd hwythau.

37 Ac yr oedd o honom ni oll yn y llong, ddau cant, ac vn ar bymthec a thrugain o eneidiau.

38 Ac wedi cael digon o fwyd, hwy a yſcafnhauſant y llong, gan fwrw y gwenith i'r môr.

39 Ac wedi ei myned hi yn ddydd, ni adnabuant hwy y tir, ond hwy a ganfuaſant ryw gilfach, ac iddi dorlan, lle y meddyliaſant (os gallent) wthio y llong i mewn.

40 Ac wedi iddynt godi yr angorau, yr ymroeſant i'r mor, ac a ollyngaſant yn rhydd rwymau y llyw, ac a godaſant yr hwyl i'r gwynt, ac a geiſiaſant y lann.

41 Ac wedi i ni ſyrthio ar draethell dau-for, a gwthio y llong, y pen blaen a lynodd heb allu ſymudo, eithr y pen ôl a ddrylliodd gan nerth y tonnau.

42 A chyngor y milwŷr oedd lladd y carcharorion, rhag i vn o honynt wedi nofio allan ddiangc ymmaith.

43 Ond y Canwriad yn ewyllyſio cadw Paul a rwyſtrodd iddynt eu hamcan, ac a archodd i bawb a'r a fedre nofio, gan ymfwrw yn gyntaf i'r môr, ddiangc i dir.

44 A'r lleill [a aethant] rai ar pyſtyllod, ac eraill o'r ryw ddrylliau o'r llong, ac felly y daeth pawb i dir yn ddiangol.

## PEN. XXVIII.

Y wiber yn brathu Paul, a barn yr eſtroniaid am hynny. 7 Paul yn iachau tad Publius ac eraill. 16 Paul yn dyfod i mewn i Rufain. 17 Yn dywedyd ei hanes wrth yr Iddewon yno. 23 Yn pregethu y gair i mewn ac allan.

AC wedi iddynt ddiangc yn iach i'r lân, yna y gwybuant mai Melita y gelwid yr ynys.

2 Ar Barbariaid a ddangoſaſant i ni fwyneidd-dra nid bychan, o blegit hwy a gynneuaſant dân, ac a'n derbynniaſant ni oll rhag y gafod gynnyrchiol, a rhag yr oerni.

3 Ac wedi cynnull o Paul ddyrnaid o friwydd, ai dodi ar y tân, gwiber a ddaeth allan rhag y gwres, ac a ruthrodd iw law ef.

4 A phan welodd y Barbariaid y pryf yn crogi wrth ei law ef: hwy a ddywedaſant wrth eu gilydd, yn ſiccr llawrudd iog yw y dyn ymma, yr hwn er ei ddiangc ar y môr nis gad dialedd i fyw.

5 Eithr efe a eſcydwodd y pryf yn tân, ac ni oddefodd ddim niwed.

6 Ond yr oeddynt hwy yn diſgwil iddo ef chwyddo, a ſyrthio yn ddiſymmwth yn farw, ac wedi darfod iddynt hir ddiſgwil, ac heb weled niwed yn digwyddo iddo ef, hwy a newidiaſant, ac a ddywedaſant, ei fod efe yn Dduw.

7 Yng-hylch y man hwnnw yr oedd tyddyn i bennaeth yr ynys, ei enw oedd Publius, yr hwn a'n cymmerth ni dri-diau, ac a'n lleteuodd yn garedig.

8 Ac fe a ddigwyddodd, fod tad Publius yn glaf o gryd a gwaedlif, at yr hwn pan aeth Paul i mewn a gweddio, a dodi ei ddwylo arno, efe a'i iachaodd ef.

9 Ac wedi gwneuthur hyn, eraill hefyd o'r ynys y rhai yr oedd heintiau arnynt a ddaethant atto, ac hwy a iachawyd.

10 Y rhai a'n parchaſant ni ag vrddas mawr, ac wrth longi o honom, hwy a'n llwythaſant â pethau angenrheidiol.

11 Ac ar ben y tri-mis yr aethom mewn llong o Alexandria, yr hon a aiafaſe yn yr ynys, a'i harwydd hi oedd Caſtor a Pholux.

12 Ac wedi ein dyfod ni i Syracuſa y trigaſom [yno] dri-diau.

13 Ac oddi yno y cyrchaſom o amgylch, ac a ddaethom i Rhegium, ac yn ôl vn dydd y chwythodd y dehau-wynt, ac y daethom yr ail dydd i Puteol.

14 Yna y cawſom frodyr, ac fe a ddymuned arnom aros gyd â hwynt ſaith niwrnod, ac felly ni a ddaethom tu a Rhufain.

15 Ac oddi yno pan glybu 'r brodyr oddi wrthym, hwy a ddaethant i gyfarfod â ni hyd ym marchnad Appiphorum, a'r tair Tafarn, y rhai pan welodd Paul, efe a ddiolchodd i Duw, ac a gymmerodd gyſſur.

16 Eithr pan ddaethom i Rufain, y Canwriad a roddes y carcharorion at y capten vchaf, ond fe adawyd Paul i aros o'r neilldu gyd â milwr yr hwn oedd yn ei gadw ef.

17 Ar ben y trydydd dydd fe ddarfu i Paul alw yng-hyd bennaethiaid yr Iddewon, ac wedi eu hymgynnull y dywedodd efe wrthynt (ô wŷr frodyr) myfi, er na wnaethym ddim yn erbyn y bobl, na defodau y tadau, a roddwyd yn garcharor o Ieruſalem i ddwylo y Rhufein-wŷr.

18 Y rhai wedi darfod fy holi, a fynnaſent fyng-ollwng ymmaith, am nad oedd dim achos angeu ynof.

19 Eithr am fod yr Iddewō yn dywedyd yn erbyn hyn, mi a yrrwyd i appelio at Cæſar, nid am fod gennif ddim i achwyn ar fyng-henedl.

20 Ac am yr achos ymma y gelwais am danoch chwi, i'ch gweled, ac i ymddiddan â chwi, canys am obaith yr Iſrael i'm rhwymwyd â'r gadwyn hon.

21 A hwythau a ddywedaſant wrtho, ni chawſom ni na llythyrau o Iudæa am danat, ac ni ddaeth neb o'r brodyr i ddywedyd nac lefaru dim drwg am danat.

22 Ond ni a fynnem glywed gennit ti, beth yw dy feddwl, o blegit mae yn yſpys gan bawb am y ſect hon, fod ym mhob man yn dywedyd yn ei herbyn hi.

23 Ac wedi iddynt nodi diwrnod iddo,

llawer a ddaeth atto ef iw lettŷ, i'r rhai yr eglurodd ac y teſtiolaethodd efe am deyrnas Dduw, gan gynghori iddynt y pethau a berthynent am Jeſu Griſt, o gyfraith Moſes, a'r prophwydi, o'r boreu hyd yr hwyr.

24 A rhai a gredaſant i'r pethau a ddywedaſid, ac eraill ni chredâſant.

25 A phryd nad oeddynt yn cydgordio yn eu plith eu hunain, ymadel a wnaethant, wedi i Paul ddywedyd y gair hwn, Da yn wir y llefarodd yr Yſpryd glân wrth ein tadau drwy Eſaias brophwyd:

Eſai.6.9. math.13.14. marc.4.12. luc.8.10. ion.12.40. rufein.11.8.

26 Gan ddywedyd,* dos at y bobl ymma, a dywet, yn clywed y clywch, ac ni ddeallwch, ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.

27 Canys brâſ-hawyd calon y bobl hyn, a thrwm y clywſant â'u cluſtiau, a'u llygaid a gaeaſant, rhag iddynt weled â'u llygaid, na chlywed â'u cluſtiau, na deall â'u calonnau, a dychwelyd fel yr iachawn hwynt.

28 Bydded hyſpys i chwi, ddanfon iechydwriaeth Dduw i'r cenhedloedd, ac hwy ai gwrãdawant.

29 A phan ddarfu iddo ddywedyd hyn, yr Iddewon a aethant allan, a llawer o ymrafaelion ganddynt.

30 A Phaul a arhoes gwbl o ddwy flynedd yn ei dŷ ardrethol, ac a dderbynniodd bawb a'r a ddaeth i mewn atto,

31 Gan bregethu teyrnas Dduw, a dyſcu y pethau a berthynent am yr Arglwydd Jeſu Griſt â phob hyder, heb ei wahardd.

*Diwedd Gweithredoedd yr Apoſtolion.*

# Epiſtol Paul yr Apoſtol at y RHUFEINIAID.

## PENNOD. I.

2 Y mae Paul yn dangos gan bwy, ac i ba beth y galwyd ef. 13 Ei barawd ewyllys ef i ymweled â hwynt. 16 Pa beth yw 'r Efengyl. 20 Mwyniant y creaduriaid, ac i ba beth y gwnaethpwyd hwy. 21. 24 Angharedigrwydd, drygioni, a phoen yr annuwiol.

Act.13.2.

PAUL gwaſanaethwr Jeſu Griſt, yr hwn a alwyd yn Apoſtol, *ac* a naillcuwyd i Efengyl Dduw,

Deut.18.15. act.3.22.

2 (Yr hon a ragaddawſe efe trwy ei brophwydi yn yr * ſcrythurau ſanctaidd)

3 Am ei Fab Jeſu Griſt ein Arglwydd ni (yr hwn a ddaeth o hâd Dafydd o ran y cnawd:

4 Ac a eglurwyd yn nerthol yn Fab Duw, yn ôl Yſpryd ſancteiddiad, trwy adgyfodiad y meirw)

5 Trwy 'r hwn y derbynniaſom ni râs ac Apoſtoliaeth (fel y bydde ufydd-dod i'r ffydd) yn ei enw ef ym mhlith yr holl genhedloedd,

6 Ym myſc y rhai yr ydych chwi hefyd yn alwedigion Jeſu Griſt:

7 Attoch oll y rhai ſy yn Rhufein yn annwyl gã Dduw wedi eich galw [i fod] yn ſainct: * Grâs fyddo i chwi, a thangneddyf gan Dduw ein Tad, a chan yr Arglwydd Jeſu Griſt. 1.Cor.1.2. galath.1.3. 2.tim.1.2.

8 Ac yn gyntaf yr wyf yn diolch i'm Duw trwy Jeſu Griſt troſoch-chwi oll, o blegit bod eich ffydd chwi yn gyhoeddus tros yr holl fyd.

9 Canys Duw ſydd yn dyſt i mi (yr hwn yr ydwyf yn ei waſanaethu yn fy yſpryd yn Efengyl ei Fab ef) ſy mod yn ddibaid yn gwneuthur coffa am danoch

10 Yn oeſtadol yn fyng-weddiau, gan ddeiſyf cael o honof ryw amſer weithian rwyddhynt ryw fodd trwy ewyllys Duw, i ddyfod attoch.

11 * Canys y mae yn hir gennif nes eich gweled, fel y gallwyf gyfrannu i chwi ryw ddawn yſprydol, i'ch cadarnhau: Pen 15.23.

12 Hynny yw, i ymgyſſuro gyd â chwi trwy ffydd ei gilydd: [ſef] yr eiddoch chwi a minne.

13 Ac ni fynnwn i ô frodyr na's gwyddech arfaethu o honof yn fynych ddyfod attoch, (eithr mi a luddiwyd hyd yn hyn) fel y caffwn beth ffrwyth hefyd yn eich plith chwithau, megis y mae i mi ym-mhlith y cenhedloedd eraill.

14 Dyled-ŵr ydwyf i'r Groegiaid, ac i'r Barbariaid hefyd, i'r doethion, ac i'r annoethion hefyd.

15 Am hynny, hyd y gallwyf, parod ydwyf i bregethu yr Efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain.

16 Canys nid cywilyddus gennif Efengyl Grist, oblegit * gallu Duw yw hi i iechydwriaeth, i bob un ar ſydd yn credu, i'r Iddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groeg-ŵr. 1.Co.1.18.

17 Canys trwyddi hi y datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd: megis y mae yn ſcrifennedig, * y cyfiawn fydd byw trwy ffydd. Habac.2.4. galat.3.11. heb.10.38.

18 Canys digofaint Duw a ddatcuddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb, ac ang-hyfiawnder dynion, y rhai ydynt yn attal y gwirionedd mewn ang-hyfiawnder.

19 Canys cymmaint ac a ellir ei wybod am Dduw ſydd amlwg ynddynt hwy: canys Duw a'i hamlygodd iddynt.

20 Oblegit ei anweledigion bethau ef, [nid amgen] ei allu tragywyddol a'i dduwdod y rhai a ddehellir wrth y pethau a wnaed o greddwriaeth y byd, megis y byddent hwy yn ddieſcus.

21 * Oblegit hwynt hwy yn adnabod Duw, ni roeſant ogoniāt iddo megis i Dduw, ac ni ddiolchaſant iddo, eithr ofer fuant yn eu rheſymmau, a'u calon anneallgar ydoedd yn llawn tywyllwch. Ephe.4.18.)

22 Pan dybient eu bod eu hunain yn ddoethion, ffyliaid oeddent.

23 Canys hwynt hwy a newidiaſant ogoniant yr anllygredic Dduw, i lun delw lygredic ddyn, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymluſciaid.

24 O herwydd pa ham y rhoes Duw hwy i fynu yn nhrachwantau eu calonnau, i aflendid, i amherchi eu cyrph eu hun yn eu plith eu hunain:

25 Y rhai a droaſant wirionedd Duw yn gelwydd, ac a addolaſant, ac a waſanaethaſāt y creadur yn fwy nâ'r Creawdr yr hwn ſydd fendigedic yn oes oeſoedd, Amen.

26 Oblegit hynny y rhoddes Duw hwynt i fynu i wyniau gwarthus: canys eu gwragedd hwy a newidiaſant yr arfer anianol i'r hon ſydd yn erbyn anian.

27 Ac yn gyffelyb hefyd y gwŷr gan adel yr arfer naturiol o'r wraig, a ymloſcent yn eu hawydd iw gilydd, gan i'r gwrywaid wneuthur yr hyn oedd warthus â gwrywaid, a derbyn ynddynt eu hunain y cyfryw dâl tros eu cyfeiliorni, ac ydoedd raid.

28 Canys megis ni bu wiw ganddynt hwy adnabod Duw, felly y rhoddes Duw hwynt i fynu i feddwl anghymmeradwy i wneuthur y pethau nid oeddynt weddaidd,

29 Yn llawn o bob anghyfiawnder, godineb anwiredd, cribddeiliaeth, drygioni: yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll, drwg-anwydau:

30 Yn hyſtingwŷr, yn athrodwŷr, yn gâs ganddynt Dduw, yn drahaus, yn feilchion, yn ffroſtwŷr yn ddychymmygwŷr drygioni, yn anufydd iw rhieni,

31 Yn angall, yn rhai yn torri ammod, yn angharedig, yn anghymmodlon, yn anhrugarogion.

32 Y rhai yn gwybod cyfraith Dduw (fod y rhai ſy yn gwneuthur y cyfryw bethau, yn haeddu marwolaeth) [ydynt] nid yn unic yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cydſynnio â'r rhai ſy yn eu gwneuthur hwynt.

## P E N. II.

Y mae yn gyrru ofn ar ragrithwyr a barn Duw. 7 Yn cyſſuro y ffyddloniaid. 12 Ac er mwyn curo i lawr pob eſcus, y mae efe yn profi bod pawb yn bechaduriaid. 15 Y cenhedloedd wrth gydwybod, 17 A'r Iddewon wrth y ddeddf ſcrifennedic.

AM hynny dieſcus wyt ti ô ddyn, pwy bynnac wyt yn barnu: * canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun: canys ti yr hwn wyt yn barnu arall, wyt yn gwneuthur yr un pethau. Math.7.1. 1.cor.4.5.

2 Eithr gwyddom fod barn Duw yn ôl gwirionedd yn erbyn y rhai a wnânt gyfryw bethau.

3 Ac a wyt ti yn tybied hyn, ô ddyn yr hwn wyt yn barnu y rhai ſy yn gwneuthur y cyfryw bethau, a[thi] yn gwneuthur yr un rhyw, y diengi di rhag barn Duw?

4 Neu a wyt ti yn diyſtyru golud ei ddaioni ef, a'i * ddioddefgarwch, a'i ymaros, heb gydnabod fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch? 2.Pet.3.9.

5 Eithr ty-di yn ôl dy galedrwydd, a'th galon ddiedifeiriol, * wyt yn tyrru i ti dy hũ ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datcuddiad cyfiawn farn Dduw, Iac.5.3.

6 * Yr hwn a rydd i bawb yn ôl ei weithredoedd: Pſal 62.12. gwel.22.11. math.16.26.

7 Sef, bywyd tragywyddol i'r rhai gan barhau yn gwneuthur daioni, a geiſiant ogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth,

8 Eithr i'r rhai ſy yn gynhennus, ac nid ydynt yn ufyddhau y gwirionedd, eithr ydynt yn ufyddhau anwiredd, [y bydd] llid a digofaint.

9 Trallod ac ing fydd ar bôb enaid a wna ddrwg, i'r Iddew yn gyntaf, ac hefyd i'r Groeg-ŵr.

10 Eithr i bôb un a wna ddaioni y bydd gogoniant, ac anrhydedd, a thangneddyf, i'r Iddew yn gyntaf, ac hefyd i'r Groeg-ŵr.

11 Canys nid oes * dderbyn wyneb ger bron Duw. Deut.10.17. 2.chron. 19.7. iob.34.19. act.10.34.

12 Oblegit pa ſawl bynnac a bechaſant yn ddi-ddeddf a gyfrgollir hefyd yn ddi-ddeddf a pha ſawl bynnac a bechaſant yn y ddeddf, hwy a fernir wrth y ddeddf.

13 *(Canys nid gwrandawŷr y ddeddf ydynt gyfiawn ger bron Duw: eithr gwneuthurwŷr y ddeddf a gyfiawnheuir. Math.7 21. iac.1.21.

14 O blegit pan wnelo y cenhedloedd, y rhai nid yw'r ddeddf ganddynt wrth natturiaeth y pethau ſy yn y ddeddf, hwynt hwy heb fod deddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain:

15 Y rhai ydynt yn dangos gweithred y ddeddf yn ſcrifennedig yn eu calonnau, a'u cydwybod hefyd yn cyd-teſtiolaethu, a'u meddyliau yn cyhuddo eu gilydd, neu yn eſcuſodi)

16 Yn y dydd pan farno Duw ddirgeloedd dyniō trwy Ieſu Griſt, yn ôl fy Euengyl mau i.

17 Wele, Iddew i'th elwir di, ac yr wyt yn gorphywys yn y ddeddf, ac yn ymlawenhau yn-Nuw,

18 Ac yn gŵybod ei ewyllys ef, ac yn darbod pethau rhagorol, o herwydd dy addyſcu gan y ddeddf.

19 Ac yr wyt yn coelio dy fod yn dywyſog i'r deillion, yn llewyrch i'r rhai ydynt mewn tywyllwch,

20 Yn athro i'r ambwyllogion, yn ddyſcawdwr i'r rhai annyſcedig, a chẽnit ffurf gwybodaeth, a gwirionedd yn y ddeddf.

21 Ty di gan hynny yr hwn wyt yn addyſcu arall oni'th ddyſci dy hun? ti yr hwn wyt yn dywedyd, na ledratter, a ledretti di?

22 Yr hwn wyt yn dywedyd, na odineber, a odinebi di? ti yr hwn ſydd gâs gennit ddelwau, a gyſſegr-yſpeili di?

23 Ti yr hwn wyt yn ymhoffi yn y ddeddf, trwy dorri'r ddeddf a ddianrhydeddi di Dduw?

24 Canys enw Duw ym mhlith y cenhedloedd a geblir o'ch plegit chwi, * megis y mae yn ſcrifennedic. Eſa.52.5. ezech.36.20.

25 Canys enwaediad yn wir a wna lês os cedwi y ddeddf: eithr os troſſeddwr y ddeddf ſyddi, aeth dy enwaediad yn ddienwaediad.

26 Am hynny os y dienwaediad a geidw gyfreithiau y ddeddf, oni chyfrifir ei ddienwaediad ef yn enwaediad?

27 Ac oni bydd i'r dienwaediad, yr un ſydd wrth naturiaeth (os ceidw y ddeddf) dy farnu di yr hwn wrth y llythyren, a'r enwaediad, wyt yn droſſeddwr y ddeddf?

28 Canys nid yw efe yn Iddew, yr hwn ſydd yn [unic] yn yr amlwg: ac nid enwaediad yw yr hyn ſydd yn [unic] yn yr amlwg yn y cnawd:

29 Eithr efe ſydd Iddew yr hwn ſydd [felly] yn y dirgel, (ac enwaediad y galon [ſydd] yn yr yſpryd, nid yn y llythyren) yr hwn [y mae] ei glod nid o ddynion, ond o Dduw,

## PEN III.

1 Wedi i Paul addef fod peth rhagorfraint i'r Iddewon. o blegit rhydd a dianwadal addewid Duw. 9 Y mae efe yn profi wrth yr ſcrythurau fôd yr Iddewon a'r cenhedloedd yn bechaduriaid. 21 A bôd eu cyfiawrhad hwy trwy râs, nid trwy weithredoedd. 31 Ac er hynny na ddidymmwyd y ddeddf a'r gyfraith.

PA ragoriaeth gan hynny ſydd i'r Iddew? neu pa fudd ſydd o'r enwaediad?

2 Llawer ym mhôb rhyw fodd: canys yn gyntaf ymddyriedwyd iddynt hwy am eiriau Duw. Rom.9.4.

3 O blegit beth os anghredodd rhai, a wna eu anghredyniaeth hwy ffydd Duw yn ddifrym?

4 Na atto Duw, eithr bydded Duw yn * gywir, * a phôb dyn yn gelwyddoc: megis yr ſcrifennwyd, fel i'th gyfiawnhaer yn dy eiriau, ac y gorfyddech pan i'th farner. Iohn.3.33. pſal.116.11. pſal.51.4.

5 Eithr os ein anwiredd ni chanmyl wirionedd Duw, pa beth a ddywedwn? a ydyw Duw yn anghyfiawn, yr hwn ſydd yn dwyn digofaint? (dywedyd yr ydwyf fel dyn.)

6 Na atto Duw: pe amgen, pa fodd y barna Duw y byd?

7 Canys os bu gwirionedd Duw helaethach trwy fyng-helwydd i'w ogoniant ef, pa ham mwyach i'm bernir inne fel pechadur?

8 Ac nid (megis ein cablir, ac megis y dywed rhai ein bôd yn dywedyd) gwnawn ddrwg, fel y dêl da o honaw, y rhai ſy gyfiawn eu barnedigaeth.

9 Beth am hynny? a ydym ni fwy rhagorol? nac [ydym] ddim: canys profaſom euſus fôd pawb, yr Iddewon a'r Groeg-wŷr tann bechod.

10 Megis y mae yn ſcrifennedig, * nid oes yn gyfiawn gymmaint ag un. Pſal.14.2. & 53.2.

11 Nid oes nêb yn deall, nid oes nêb yn ymgais â Duw.

12 Gwyrâſant oll, hwy a aethant oll yn anfuddiol, nid oes nêb yn gwneuthur daioni, nac oes nêb.

13 * Bedd agored yw eu gwddf: * twyllaſant â'u tafodau, * gwenwyn lindis ſydd tann eu gwefuſau hwynt. Pſal.5.10. pſal.14.15. pſal.140.3.

14 * Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd. pſal.10.7,

15 * Buan yw eu traed i ollwng gwaed. Eſai.59.7.

16 Deſtruw, ac aflwydd ſydd ar eu ffyrdd. diha.1.16.

17 Ac nid adnabuont ffordd tangneddyf.

18 Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid. Pſal.36.1.

19 Gwyddom hefyd mai pa bethau bynnac a ddywed y ddeddf, mai wrth y rhai ſy tann y ddeddf y dywed hi: fel y caeêr pôb genau, ac fel y byddo yr holl fyd tann [farn] Duw.

20 * Am hynny gan weithredoedd y cnawd ni chyfiawnheuir un cnawd yn ei olwg ef, o blegit gan y ddeddf y [mae] adnabod pechod. Gal.2.16.

21 Ac yr awrhon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, gan gael teſtiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi.

22 Sef cyfiawnder Duw trwy ffydd Ieſu Griſt i bawb, ac ar bawb a gredant: canys nid oes gwahaniaeth.

23 O blegit pawb a bechaſant, ac a ydynt yn ôl am ogoniant Duw.

24 A hwy a gyfiawnheuir yn rhâd trwy ei râs ef, trwy'r prynnedigaeth ſydd yng-Hriſt Ieſu.

25 Yr hwn a oſodes Duw yn iawn trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef trwy faddeuant y pechodau a oeddent gynt,

26 Trwy ddioddefiad Duw i ddangos y prŷd hynny ei gyfiawnder, fel y bydde efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb ſydd o ffydd Ieſu.

27 Pa le gan hynny [y mae] yr gorfoledd? ef a gaewyd allan. Trwy pa ddeddf ai [deddf] y gweithredoedd: na-ge, eithr trwy ddeddf ffydd.

28 Yr ydym ni yn meddwl gan hyn, fod yn cyfiawnhau dŷn trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf.

29 Ai i'r Iddewon y mae Duw yn unic, onid i'r cenhedloedd hefyd? yn wir [y mae] efe i'r cenhedloedd hefyd.

30 Canys un Duw ydyw yr hwn a gyfiawnhâ yr enwaediad o'r ffydd, a dienwaediad trwy ffydd.

31 Am hynny a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy'r ffydd? na atto Duw: yr ydym yn hytrach yn cadarnhau y ddeddf.

## PEN. IIII.

1. 7. Y mae efe yn dangos fôd cyfiawnhâd yn ddawn grâs trwy ſiampl Abraham, a theſtiolaeth Dafydd. 15 a hefyd wrth naturiaeth y ddeddf a ffydd.

PA beth gan hynny a ddywedwn gael o Abraham ein tâd yn ôl y cnawd?

2 Canys os Abraham a gyfiawnhawyd trwy weithredoedd, y mae iddo orfoledd, eithr nid ger bron Duw.

Gen.15.6. gal.3.6. 3 Canys pa beth a ddywed yr Scrythur *Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.

4 Ac i'r nêb a weithia ni chyfrifir y gwobr o râs, onid o ddyled.

5 Eithr i'r nêb ni weithia, onid credu yn yr hwn ſydd yn cyfiawnhau yr anwir, ei ffydd ef a gyfrifir yn gyfiawnder.

6 Megis y mae Dafydd yn datcã dedwyddwch y dŷn, yr hwn y mae Duw yn cyfrif iddo gyfiawnder, heb weithredoedd [gan ddywedyd]

Psal.32.1. 7 *Dedwydd [yw] y rhai, y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau.

*Yr Epyſtl ar ddydd calan neu yr enwaediad.* 8 ☞Dedwydd [yw] y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.

9 [A ddaeth] y dedwyddwch hyn ar yr enwaediad hefyd: canys yr ydym yn dywedyd, [ddarfod] cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder.

10 Pa fodd y cyfrifwyd hi: ai pan oedd yn yr enwaediad, ynte yn y dienwaediad: nid yn yr enwaediad, onid yn y dienwaediad.

Gen.17.11. 11 *Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaediad yn inſel cyfiawnder y ffydd, yr hon [oedd ganddo] yn y dienwaediad, fel y bydde efe yn dâd pawb a grêdent yn y dienwaediad, fel y cyfrifid yn gyfiawnder iddynt hwy hefyd,

12 Ac yn dâd yr enwaediad, nid iddynt hwy yn unic, y rhai [ydynt] o'r enwaediad, onid i'r ſawl hefyd a gerddant lwybrau ffydd ein tâd Abraham, yr hon oedd yn y dienwaediad.

13 Canys nid trwy y gyfraith [y daeth] yr addewid i Abraham, neu i'w hâd y bydde efe yn etifedd y byd, eithr trwy gyfiawnder ffydd.

14 Canys os y rhai ſydd o'r ddeddf, yw'r etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym. ☞

15 O blegit y mae y ddeddf yn peri digofaint, canys lle nid oes deddf, nid oes gamwedd.

16 Am hynny o ffydd [y mae yr etifeddiaeth] fel y dêl trwy râs, a bod yr addewid yn ſiccr i'r holl hâd: ſef nid yn unic i'r hwn ſydd o'r ddeddf, onid hefyd i'r hwn ſydd o ffydd Abraham yr hwn yw ein tâd ni oll,

Gen.17.4. 17 (Megis y mae yn ſcrifennedic, *mi a'th wnaethym yn dâd llawer o genhedloedd) ger bron y neb y credodd efe iddo [ſef] Duw yr hwn ſydd yn bywhau y meirw, ac ſydd yn galw y pethau nid ydynt, fel pe byddent.

Gen.15.5. 18 Yr hwn yn erbyn gobaith, a gredodd tan obaith, fel y bydde yn dâd cenhedloedd lawer, yn ôl yr hyn a ddywedaſid, felly y bydd dy hâd di.

19 Ac efe yn ddiegwan o ffydd nid yſtyriodd ei gorph ei hunan yr hwn oedd weithian wedi marweiddio, ac yng-hylch can-mlwydd oed, na marweidd-dra bru Sara.

20 Ac nid amheuodd efe addewid Duw drwy ang-hredyniaeth, eithr ef a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw.

21 Ac yn gwbl ſiccr ganddo, ei fod yn abl i wneuthur yr hyn a addawſe.

22 Ac am hynny y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder,

23 Ac nid ſcrifennwyd hynny er ei fwyn ef yn unic, i gyfrif hyn iddo yn gyfiawnder,

24 Eithr hefyd erom ninnau, i'r rhai y cyfrifir [yn gyfiawnder,] y rhai ydym yn credu yn yr hwn a gyfodes Ieſu ein Harglwydd o feirw.

25 Yr hwn a draddodwyd tros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd er ein cyfiawnhâd.

## PEN. V.

1 Mae efe yn mynegu ffrwyth ffydd. 7 Y mae efe yn yſpyſu cariad, ac vfydd-dod Criſt, yr hwn yw ſail a ſylfaen ffydd.

AM hynny gan ein cyfiawnhau trwy ffydd y mae gennym heddwch tu ag at Dduw trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt.

Ephe.2.18. 2 *Trwy'r hwn hefyd y mae i ni ddyfodfa trwy ffydd i'r grâs hyn, yn yr hwn yr ydym yn ſefyll, ac yn ymlawenychu tann obaith gogoniant Duw.

Iac.1.2. 3 Ac nid [hynny] yn unic, eithr hefyd *yr ydym yn ymlawenychu mewn gorthrymderau gan wybod fod gorthrymder yn peri dioddefgarwch,

4 A dioddefgarwch brofiad, a phrofiad obaith:

5 A gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau, trwy yr Yſprŷd glân yr hwn a roddwyd i ni.

6 Canys Criſt pan oeddem ni yn ddinerth, yn yr amſer a fu farw tros * rai annuwiol.

Heb.9.15.
1.pet.3.18.

7 Diau mai braidd y bydd nêb farw tros vn cyfiawn, er hynny tros [vn] da fe alle y bydde vn farw.

8 Eithr y mae Duw yn eglurhau ei gariad tu ag attom, (o blegit a nyni etto yn bechaduriaid) marw o Griſt troſom.

9 Mwy ynte o lawer gan ein cyfiawnhau ni trwy ei waed ef, i'n hachubir rhag digofaint trwyddo ef.

10 Canys os pan oeddem elynion, i'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fâb ef, mwy o lawer wedi ein heddychu, i'n achubir trwy ei fywyd ef.

11 Ac nid [hynny] yn vnic, eithr ymlawenychu yr ydym hefyd yn Nuw trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, gan yr hwn yr awr hon y derbyniaſom y cymmod.

12 Am hynny megis trwy vn dŷn y daeth pechod i'r bŷd, a marwolaeth trwy bechod, ac felly yr aeth marwolaeth ar bôb dŷn, yn gymmaint a phechu o bawb.

13 Canys hyd amſer y ddeddf yr oedd pechod yn y byd: eithr ni chyfrifir pechod, pryd nad oes ddeddf.

14 Eithr teyrnaſodd marwolaeth o Adda hyd Moſes, arnynt hwy hefyd y rhai ni phechaſant yn ôl cyffelybiaeth camwedd Adda, yr hwn yw ffurf yr vn a ddeue.

15 Eithr nid yw'r dawn felly megis y mae'r camwedd: o blegit os trwy gamwedd vn y bu feirw llawer, mwy o lawer yr amlhaodd grâs Duw, a'r dawn trwy râs yr vn dŷn Ieſu Griſt i laweroedd.

16 Ac nid yw'r dawn [fel yr hyn a ddaeth] trwy'r vn a bechodd: canys y farn a [ddaeth] o'r vn [camwedd] i gondemniad: eithr y dawn ſydd o gamweddau lawer i gyfiawnhâd.

17 Canys os trwy gamwedd vn y teyrnaſodd angeu trwy vn, mwy o lawer y teyrnaſa y rhai a dderbyniaſant y llioſogrwydd o râs, ac o ddawn y cyfiawnder, ym mywyd, trwy yr vn, Ieſu Griſt.

18 Canys yr vn modd megis trwy gamwedd vn [y daeth y bai] ar bob dŷn i gondemniad, felly trwy gyfiawnhâd vn, [y rhodded grâs] i bôb dŷn, er cyfiawnhâd bywyd.

19 O blegit megis trwy anufydd-dod vn dŷn, y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid: felly trwy vfydd-dod vn y gwneir llawer yn gyfiawn.

20 Eithr y ddeddf a ddaeth i mewn, fel yr amlhaue y camwedd: eithr lle yr amlhawyd pechod [yno] yr amlhaodd grâs yn fwy o lawer

21 Fel megis y teyrnaſſodd pechod i angeu, felly hefyd y teyrnaſe grâs trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

## PEN. VI.

1 Er mwyn na bydde i nêb orfoleddu yn y cnawd, eithr yn hytrach ei ddaroſtwng ef i'r yſpryd. 3 Y mae efe yn dangos wrth rinwedd a diwedd bedydd. 5 Bod ail-enedigaeth yn gyſſylltiedig â chyfiawnder, ac am hynny y mae yn annog i fuchedd dduwiol, 21 Gan oſod yng-wydd dyn obr pechod a chyfiawnder.

BEth wrth hynny a ddywedwn? a drigwn ni yn waſtad mewn pechod, fel yr amlhaue grâs?

2 Na atto Duw: y rhai [ydym yn] feirw i bechod, pa wedd y byddwn fyw etto ynddo ef?

3 ☞ Oni wyddoch am danom [ni] oll y rhai a fedyddiwyd i Ieſu Griſt, ddarfod ein bedyddio i'w farwolaeth ef?

*Yr Epyſtl y chwechod Sul ar ôl y Drindod.*

4 * Claddwyd ni gan hynny gyd ag ef trwy fedydd i farwolaeth: fel megis y cyfodwyd Criſt o feirw trwy ogoniant y Tâd, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd.

Gal.3.27.
coloſ.2.12.

5 Canys os gwnaed ni yn gyd blanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, felly y byddwn [i gyffelybiaeth ei] adgyfodiad [ef,]

6 Gan wybod hyn ddarfod croeſ-hoelio ein hên ddyn ni gyd ag ef, er mwyn dirymmu corph pechod, fel rhag llaw na waſanaethom bechod.

7 Canys y mae yr hwn fu farw yn rhydd oddi wrth bechod.

8 Am hynny os ydym ni yn feirw gyd â Chriſt, yr ydym ni yn credu y byddwn fyw hefyd gyd ag ef.

9 Gan wybod na bydd Criſt yr hwn a gyfodwyd, farw mwyach: ac nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach.

10 Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw vn-waith i bechod, ac fel [y mae yn] fyw, byw y mae i Dduw.

11 Felly meddyliwch chwithau hefyd, eich meirw chwi i bechod, a'ch bôd yn fyw i Dduw yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd. ☜

12 Na theyrnaſed gan hynny bechod yn eich corph marwol, fel yr vfuddhaoch iddo yn ei chwantau.

13 Ac na roddwch eich aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod, eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, megis rhai o feirw yn fyw, a [rhoddwch] eich aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw.

14 Canys nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi, o blegit nid ydych tann y ddeddf eithr tann râs.

15 Beth am hynny? a bechwn ni o herwydd nad ydym ni tann y ddeddf eithr tann râs? na atto Duw.

16 Oni wyddoch, mai i * bwy bynnac y rhoddwch eich hunain yn weiſion i vfyddhau, eich bod yn weiſion i'r hwn yr vfyddhaoch iddo, pwy bynnac ai [yn weiſion] pechod i farwolaeth, ynte vfydd-dod i gyfiawnder?

Ioan.8.34.
2.pet.2.19.

17 Ond i Dduw bo'r diolch, gan eich bod [chwi gynt] yn weiſion pechod, etto vfyddhau o honoch o'ch calonnau i'r ffurf honno o athrawiaeth i'r hon i'ch traddodwyd.

18 A chan eich rhyddhau [chwi] oddi wrth bechod, chwi a wnaethpwyd yn weiſion cyfiawnder.

*Yr Epyſtol y ſeithfed Sul ar ôl y Drindod.* 19 ☞ Yn ôl dull dynol yr ydwyf yn dywedyd o blegit gwendid eich cnawd chwi: canys megis ac y rhoddaſoch eich aelodau yn weiſion i aflendid ac anwiredd, i [wneuthur] anwiredd, felly yr awr hon rhoddwch eich aelodau yn weiſion i gyfiawnder i ſancteiddrwydd.

20 Canys pan oeddech yn weiſion pechod, yr oeddech yn rhyddion oddi wrth gyfiawnder.

21 Pa ffrwyth oedd i chwi y pryd hynny yn y cyfryw bethau y mae arnoch gywilydd o'u plegit yr awr hon? canys diwedd y pethau hynny yw marwolaeth.

22 Ac yr awr hon wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, a'ch gwneuthur yn weiſion i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn ſancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol.

23 Canys cyflog pechod yw marwolaeth: eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. ☜

## PEN. VII.

1 Ffrwyth y ddeddf, 6 a'r modd y gwaredodd Griſt ni rhagddi, 16 gwendid y ffyddlonnion, 23 a'r ymladd peryglus rhwng y cnawd a'r yſpryd.

ONi wyddoch chwi frodyr (wrth y rhai ſy yn gwybod y ddeddf yr wyf yn dywedyd) yr arglwyddiaetha y ddeddf ar ddŷn tra fyddo efe byw?

1.Cor.7.39. 2 *Canys y wraig yr hon ſydd tann lywodraeth gŵr ſydd yn rhwym wrth y ddeddf i'r gŵr tra fyddo efe byw: ond o bydd marw y gŵr, hi a ryddhawyd oddi wrth ddeddf y gŵr.

3 Ac felly os a'r gŵr yn fyw y bydd hi yn eiddo gŵr arall, hi a elwir yn *odinebus: eithr os marw fydd y gŵr, y mae hi yn rhydd oddi wrth y ddeddf, fel nad yw hi yn odinebus, er bod yn eiddo gŵr arall.

Math.5.32.

4 Ac felly chwithau fy-mrodyr ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy gorph Criſt, fel y byddech eiddo un arall, [ſef] eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, fel y dygem ffrwyth i Dduw.

5 Canys pan oeddem yn y cnawd, gwyniau pechodau y rhai oeddynt trwy [nerth] y ddeddf oeddynt mewn grym yn ein aelodau i ddwyn ffrwyth i farwolaeth.

6 Eithr yn awr y rhyddhawyd ni oddi wrth y ddeddf wedi ein meirw i'r peth i'n attalit, fel y gwaſanaethem yn newydd-deb yſpryd, ac nid yn hender y llythyren.

7 Beth gan hynny a ddywedwn? ai pechod yw'r ddeddf? ymbell oedd: eithr nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf: canys nid adnabaſwn i drachwant, oni ddywedaſe'r ddeddf,* na chwennych.

Exod.20.17. Deut.5.21.

8 Eithr fe a gymmerth pechod achlyſur wrth y gorchymyn, ac a weithiodd ynof bob trachwant.

9 Canys marw yw pechod heb y ddeddf, eithr myfi a fum gynt yn fyw heb y ddeddf: ond pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a minne fum farw.

10 A'r gorchymyn hwn a [arlwyaſit] i fywyd, a gafwyd i mi yn farwolaeth.

11 Canys pechod a gymmerth achlyſur trwy'r gorchymyn, ac a'm twyllodd, ac wrth hynny a'm lladdodd i.

12 Ac felly * ſanctaidd yw'r ddeddf, a ſanctaidd yw'r gorchymyn, a chyfiawn, a da. 1.Tim.1.8.

13 Gan hynny a wnaethpwyd y peth oedd dda yn farwolaeth i mi? na atto Duw: eithr pechod fel yr ymddangoſe yn bechod, a weithiodd farwolaeth ynof trwy'r hyn ſydd yn dda, fel y bydde pechod yn dra phechadurus trwy'r gorchymyn.

14 Canys gwyddom fod y ddeddf yn yſprydol, a minnef yn gnawdol wedi fyng-werthu tann bechod.

15 Canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur nid yw foddlon gennif: canys nid yr hyn yr wyf yn ei ewyllyſio yr wyf yn ei wneuthur: eithr yr hyn ſydd gâs gennif, hyn yr ydwyf yn ei wneuthur.

16 Ac od wyf yn gwneuthur yr hyn nid wyf yn ei ewyllyſio, yr ydwyf yn cydſynnio â'r ddeddf ei bod hi yn dda.

17 Felly yr awron nid myfi ſydd mwy yn gwneuthur hynny, eithr y pechod yr hwn ſydd yn trigo ynofi.

18 Canys gwn nad oes ynofi, [ſef] yn fyngnhawd i ddaioni yn trigo: o blegit yr ewyllyſio ſydd yn barod gennif, eithr nid wyf yn medru gwneuthur yr hyn ſydd dda.

19 Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr hwn yr wyf yn ei ewyllyſio, onid y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllyſio: hynny yr wyf yn ei wneuthur.

20 Felly os yr hyn nid wyf yn ei ewyllyſio hynny yr wyf yn ei wneuthur: nid myfi ſydd yn ei wneuthur, ond y pechod yr hwn ſydd yn trigo ynofi.

21 Felly yr wyf yn cael y ddeddf, i mi yr hwn wyf yn ewyllyſio gwneuthur da, mai drwg ſydd breſennol gyd â mi.

22 Canys digrif gennif gyfraith Dduw, o herwydd y dŷn oddi mewn:

23 Eithr yr wyf yn gweled deddf arall yn fy aelodau yn gwrthwynebu deddf fy meddwl, ac i'm caethiwo i ddeddf pechod, yr hon ſydd yn fy aelodau.

24 Ys truan o ddyn wyfi: pwy am gwared oddi wrth gorph y farwolaeth hon?

25 Yr wyf yn diolch i Dduw trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd: canys felly yr wyfi yn fy meddwl yn gwaſanaethu deddf cyfraith Dduw, ond yn fyng-nhawd cyfraith pechod.

## PEN. VIII.

1 Diogelwch y ffyddloniaid, a ffrwyth yr Yſpryd glân ynddynt hwy, 3 gwendit y ddeddf, a phwy a'i cwplaodd hi, ac i ba beth, 5 O ba ryw wedd y dyle y ffyddloniaid fôd, 6 ffrwyth yr yſpryd ynddynt hwy,

17 am obaith. 18 am ddioddefgarwch tann y groes, ſef tan adfyd er mwyn Criſt, 28 am y cyd-gariad rhwng Duw a'i blant, 29 am ei ragwybodaeth a'i ragluniaeth ef.

GAn hynny nid oes weithian ddamnedigaeth i'r rhai ſy yng-Hꝛiſt Ieſu, [ſef] y ſawl nid ydynt yn rhodio yn ôl y cnawd, eithꝛ ar ôl yꝛ Yſpꝛyd.

2 Canys deddf Yſpꝛyd y bywyt yng-Hꝛiſt Ieſu a'm rhyddhaodd i oddi wꝛth ddeddf pechod a marwolaeth.

3 Canys (yꝛ hyn a ydoedd yn amhoſſibl i'r ddeddf pan ydoedd hi yn egwan o blegit y cnawd) Duw gan ddanfon ei Fâb ei hun yng-hyffelybiaeth cnawd pechadurus, a [hynny] am bechod, a gondemnodd bechod yn y cnawd,

4 Fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio nid yn ôl y cnawd: eithꝛ yn ôl yꝛ Yſpꝛyd.

5 Canys y rhai ydynt gnawdol, am bethau 'r cnawd yꝛ ymſynhwyꝛant: eithꝛ y rhai ſy yn ôl yꝛ Yſpꝛyd, am bethau 'r Yſpꝛyd.

6 Canys y mae ſynnwyꝛ y cnawd yn farwolaeth, a ſynnwyꝛ yꝛ Yſpꝛyd yn fywyd a thangneddyf.

7 O blegit ſynnwyꝛ y cnawd ſydd elyniaeth yn erbyn Duw: am nad yw ddaroſtyngedic i ddeddf Duw: ac ni's dichon [fod.]

8 Am hynny y ſawl ydynt yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw.

9 Weithian chwy-chwi nid ydych yn y cnawd, eithꝛ yn yꝛ Yſpꝛyd, gan fod Yſpꝛyd Duw yn trigo ynoch: ac od oes nêb heb Yſpꝛyd Criſt ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef.

10 Ac os yw Criſt ynoch, y mae 'r coꝛph wedi marw, o blegit pechod: eithꝛ yꝛ Yſpꝛyd yn fywyd er mwyn cyfiawnder.

11 Ac os Yſpꝛyd yꝛ hwn a gyfododd Ieſu o feirw ſydd yn trigo ynoch, yꝛ hwn a gyfododd Griſt o feirw, a fywocâ hefyd eich cyꝛph marwol chwi, trwy ei Yſpꝛyd yꝛ hwn ſydd yn trigo ynoch.

*Yr Epyſtol yr wythfed Sul ar ôl y Drindod.*

12 Am hynny ☞ frodyꝛ yꝛ ydym [ni] yn ddyled-wŷꝛ, nid i'r cnawd, i fyw yn ôl y cnawd:

13 Canys os byw fyddwch yn ôl y cnawd, meirw fyddwch: eithꝛ os marwhewch weithꝛedoedd y cnawd trwy 'r Yſpꝛyd, byw fyddwch.

14 Canys cynnifer [ac] a dywyſer gan Yſpꝛyd Duw, y rhai hyn ſy blant i Dduw.

15 Canys ni dderbyniaſoch yſpꝛyt caethiwet i [beri] ofn trachefn, eithꝛ derbyniaſoch Yſpꝛyd mabwyſiad trwy 'r hwn yꝛ ydym yn llefain (Abba) Dâd.

16 Y mae yꝛ Yſpꝛyd hwn yn cyd-teſtiolaethu â'n hyſpꝛyd ni, ein bod ni yn blant i Dduw.

17 Os ydym ni yn blant, [yꝛ ydym] ni hefyd yn etifeddion, os yn etifeddion i Dduw, yna yn gyd-etifeddion â Chꝛiſt: ac os cyd-ddioddefwn ag ef, fe a'n cyd-ogoneddir hefyd gyd ag ef. ☜

*Yr Epyſtol y pedwerydd Sul ar ôl y Drindod.*

18 ☞ O blegit yꝛ ydwyf yn bwꝛw nad yw goſidiau yꝛ amſer yꝛ awꝛon yn cydſtadlu y gogoniant a ddangoſir i ni.

19 Canys awydd-fryd y creatur ſydd yn diſgwil am ddadcuddiad meibion Duw.

20 Canys y mae y creatur yn ddaroſtyngedic i wagedd nid o'i fodd, eithꝛ o blegit yꝛ hwn a'i daroſtyngodd,

21 Tann obaith y rhyddheir y creatur hefyd o gaethiwed llygredigaeth i rydd-did gogoniant meibion Duw.

22 Canys gwyddom fod pôb creatur yn cyd-ocheneidio â ni, ac yn cyd-oſidio hyd y pꝛŷd hyn.

23 Ac nid yn unic y [creatur] ond ninnau hefyd y ſawl a gawſom flaen-ffrwyth yꝛ Yſpꝛyd, yꝛ ydym ninnau yn ocheneidio ynom ein hunain gan ddiſgwil y mabwyſiad, [nid amgen] * pꝛynnedigaeth ein coꝛph. ☜

Luc.21.28.

24 Canys wꝛth obaith i'n iachauwyd: eithꝛ yꝛ hon a welir nid yw obaith: o blegit pa obeithio a wna un am y peth a wêl?

25 Ond os ydym yn gobeithio yꝛ hyn ni welwn, yꝛ ydym dꝛwy ammynedd yn diſgwil am dano.

26 Felly hefyd y mae 'r Yſpꝛyd yn cynnoꝛthwyo ein gwendid ni: canys ni wyddom pa beth a weddiwn fel y dylem, eithꝛ y mae yꝛ Yſpꝛyd ei hun yn eiriol troſom ag ocheneidiau annhꝛaethadwy.

27 A'r hwn ſydd yn chwilio y calonnau, a ŵyꝛ beth yw meddwl yꝛ Yſpꝛyd, canys y mae efe yn ôl [ewyllys] Duw yn eiriol tros y ſainct.

28 A gwyddom fod pob peth yn gweithio i'r hyn goꝛef i'r ſawl a garant Dduw, ſef i'r rhai a alwyd wꝛth ei arfaeth ef.

29 Canys y rhai a ragŵybu, a ragluniodd efe hefyd i fod yn un ffurf â delw ei Fâb ef, fel y bydde efe yn gyntafanedig ym mhlith bꝛodyꝛ lawer.

30 A'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hynny a alwodd efe, a'r rhai a alwodd, y rhai hynny hefyd a gyfiawnhaodd efe, a'r rhai a gyfiawnhaodd efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd efe.

31 Beth ynte a ddywedwn ni wꝛth y pethau hyn? os [yw] Duw gyd â ni, pwy a all fod i'n herbyn?

32 Yꝛ hwn nid arbedodd ei bꝛiod Fâb, ond ei roddi ef dꝛoſom ni oll i farwolaeth, pa wedd gyd ag ef na rydd efe i ni bob peth hefyd?

33 Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw, Duw yw 'r hwn * a gyfiawnhâ.

Eſai 50.8.

34 Pwy a ddamna? Criſt yw 'r hwn a fu farw, îe yn hytrach, yꝛ [un] a gyfodwyd trachefn, yꝛ hwn hefyd ſydd ar ddeheu-law Duw, yꝛ hwn hefyd ſydd yn eiriol troſom ni.

35 Pwy a'n gwahana ni oddi wꝛth gariad Criſt? a'i goꝛthꝛymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni neu enbydꝛwydd, neu gleddyf?

36 Megis y mae yn ſcrifennedic: er dy fwyn di yꝛ ydys yn ein lladd ni trwy 'r dydd: yꝛ ydys yn ein cymmeryd ni fel defaid [iw] lladdfa

37 Eithꝛ yn y pethau hyn oll yꝛ ydym ni yn

fwy na chwncwerwyr trwy 'r hwn a'n carodd ni.

38 Canys y mae yn ddiogel gennif nad oes nac angeu, nac einioes, nac Angelion, na thywyſogaethau, na meddiannau, na phethau preſennol, na phethau i ddyfod,

39 Nac vchter, na dyfnder, nac vn creatur arall a all ein yſcar ni oddi wrth gariad Duw yr hwn ſydd yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd.

## PEN. IX.

Serch ſanct Paul ar wyr ei wlad. 11 Y modd y mae Duw yn dewis rhai, ac yn gwrthod eraill. 24 Galwedigaeth y cenhedloedd. 30 A gwrthodiad yr Iddewon.

GWir yr wyf yn ei ddywedyd yng-Hriſt, nid wyf yn dywedyd celwydd (am cydwybod yn cydteſtiolaethu â mi yn yr Yſpryd glân)

2 Fod triſtid mawr a dolur dibaid yn fyng-halon.

3 Canys mi a ddymunwn fod yn anathema oddi wrth Griſt dros fy mrodyr, ſef fyng-henedl yn ôl y cnawd:

4 Y rhai ydynt yr Iſraeliaid, i ba rai [y perthyn] y mabwyſiad, a'r gogoniãt, a'r cyfammodau, a dodiad y ddeddf, a gwaſanaeth [Duw,] a'r addewidion.

5 O ba rai yr hanoedd y tadau, ac o ba rai o herwydd y cnawd [yr hanoedd] Criſt yr hwn ſydd yn Dduw vwch law oll yn fendigedic yn oes oeſoedd, Amen.

6 Er hynny amhoſſibl yw myned gair Duw yn ddi-rym, canys nid [ydynt] hwy oll yn Iſraeliaid, a'r a [hanoedd] o Iſrael,

7 Ac nid ydynt hwy oll yn blant, o blegit eu bod o hâd Abraham: eithr yn Iſaac y gelwir dy hâd di.

8 Hynny yw, nid y rhai ſy yn blant y cnawd ydynt blant Duw: eithr plant yr addewid a gyfrifir yn hâd.

Gen.18.10.
9 Canys gair addewid yw *hwn, yn yr amſer hwn y deuaf, ac y bydd mâb i Sara.

Gen.25.21.
10 Ac nid efe yn vnic a [wybu hyn] ond hefyd *Rebecca wedi iddi feichiogi o vn [ſef] o'n tâd Iſaac.

11 Canys etto cyn geni 'r [plant,] a phryd na wnaethent na drwg na da, (megis wrth etholedigaeth Duw y parhaue yr arfaeth nid o weithredoedd, eithr o'r hwn ſydd yn galw)

Gen.25.23.
12 Y dywedwyd wrthi, * yr hynaf a waſanaetha yr ieuangaf.

Mala.1.2.
13 Megis yr ſcrifennwyd, *Iacob a gerais, ac Eſau a gaſeais.

14 Beth a ddywedwn wrth hynny? a oes anghyfiawnder gan Dduw? ymbell oedd.

Exod.33.19.
15 Canys y mae yn dywedyd wrth Moſes, *mi a drugarhaf wrth yr hwn y trugarhawyf, ac a doſturiaf wrth yr hwn y toſturiaf.

16 Ac felly nid yw ['r etholedigaeth ar law] yr hwn a ewyllyſio, nac ar law yr hwn a redo, eithr ar law Duw yr hwn ſydd yn trugarhau.

17 Canys y mae yr ſcrythur yn dywedyd wrth Pharao: I hyn ymma i'th gyffroais di, fel y dangoſwn fy meddiant ynot ti, ac fel y datcenid fy enw trwy 'r holl ddaiar.

18 Am hynny wrth yr hwn y mynno y trugarhâ efe, a'r hwn a fynno, efe a'i caleda.

19 Dywedi gan hynny wrthif, pa ham y mae efe etto yn beio? canys pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef?

Eſai.45.9.
ierem.18.6.
dorth,15.7.
20 Yn hytrachô ddyn pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? a ddywed y * peth ffurfedic wrth yr hwn a'i ffurfiodd, pa ham i'm gwnaethoſt fel hyn.

21 Onid oes awdurdod i'r crochênydd ar y priddgiſt, i wneuthur o'r vn telpyn pridd vn lleſtr i barch, ac arall i amharch?

22 Beth os Duw yn ewyllyſio dangos ei ddigofaint, a pheri adnabod ei feddiant, a ddioddef drwy hir ymaros lleſtri 'r digofaint y rhai a arlwywyd i golledigaeth?

23 Ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar leſtri trugaredd, y rhai a arlwyodd efe i ogoniant?

24 [Sef] nyni y rhai a alwodd efe, nid o'r Iddewon yn vnic, eithr hefyd o'r cenhedloedd.

Oſe.2.23.
25 Megis hefyd y mae efe yn dywedyd yn Hoſea, *mi a alwaf yr hwn nid yw bobl i mi, yn bobl i mi: ar hon nid yw annwyl yn annwyl.

Oſe.1.10.
1.pet.2.10.
26 A bydd yn y lle y dywedwyd wrthynt *nid ydych yn bobl i mi, yno y gelwir hwy yn plant y Duw byw.

Eſa.10.21.
27 Hefyd y mae Eſaias yn llefain am yr Iſrael, *cyd bydde niſer plant Iſrael fel tywod y môr, gweddill a achubir.

28 Canys efe a orphen ac a fyrhâ air mewn cyfiawnder: canys yr Arglwydd a fyrhâ air ar y ddaiar.

29 A megis y dywedodd Eſaias yn y blaen, oni buaſe i Arglwydd y lluoedd adel i ni hâd, gwnaethid ni fel Sodoma, a chyffelyb fuaſem i Gomorra.

30 Beth gan hynny a ddywedwn? cael o'r cenhedloedd gyfiawnder y rhai ni ddilynaſant gyfiawnder, ſef y cyfiawnder [yr hwn ſydd] o ffydd.

31 Ac Iſrael yr hwn a ddilynodd ddeddf cyfiawnder, ni chyrhaeddodd ddeddf cyfiawnder.

32 Pa ham? am nas ceiſient â ffydd, eithr megis o weithredoedd y ddeddf: canys tramgwyddaſant wrth faen y tramgwydd,

Eſa.8.14.
& 28.16.
& 118.22.
33 Megis y mae yn ſcrifennedic: *wele fi yn goſod yn Sion faen tramgwydd, a chraig rhwyſtr: a phôp vn a gredo ynddo ni chywilyddir.

## PEN. X.

Achos cwymp yr Iddewon. 5 Y rhagor rhwng y cyfiawnder ſydd o'r ddeddf neu yr gyfraith a'r hon ſydd o ffydd. 17 Bod ein ffydd ni yn dyfod o wrando gair Duw. 19 Dewiſiad y cenhedloedd a gwrthodiad yr Iddewon.

OFrodyr y mae gwir ewyllys fyng-halon a'm gweddi at Dduw dros yr Iſraeliaid, am iechydwriaeth.

2 Canys yr wyf yn dyſt iddynt fod ganddynt zêl Duw, eithr nid ar ôl gwybodaeth.

3 Canys hwynt hwy heb wybod cyfiawnder Duw, ac yn ceiſio goſod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymoſtyngaſant i gyfiawnder Duw.

Gala.3.24. 4 *Canys Criſt yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob vn a grêdo.

Leuit.18.5. ezech.20.11. gal.3.12. 5 Canys y mae Moſes yn doſpârthu y cyfiawnder ſydd o'r ddeddf, *mai y dŷn a wnêl y pethau hyn a fydd byw wrthynt.

6 Eithr y mae y cyfiawnder ſydd o ffydd yn dywedyd fel hynn, na ddywed yn dy galon, pwy a eſcynn i'r nêf: hynny yw dwyn Criſt oddi vchod

7 Neu pwy a ddeſcyn i'r dyfnder: hynny yw dwyn Criſt trachefn oddi wrth y meirw.

Deut.30.12. deut.30.14. 8 Eithr pa beth y mae efe yn ei ddywedyd? *mae 'r gair yn agos attat, yn dy enau, ac yn dy galon, hwn yw gair y ffydd yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu,

*Yr Epyſtol ar ddigwyl S. Andreas.* 9 Mai ☞ os cyffeſſi â'th enau yr Arglwydd Ieſu a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, iach fyddi.

10 Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffeſſir i iechydwriaeth.

Eſai.28.16. 11 O blegit y mae'r ſcrythur yn dywedyd, *pwy bynnac a grêdo ynddo ef ni chywilyddir ef.

12 Can nad oes gwahaniaeth rhwng Iddew, a Groeg-wr, o blegit yr hwn ſydd Arglwydd ar bawb, ſydd oludog i bawb a'r a alwant arno ef.

Ioel.2.32. act.2.21. 13 *Canys pwy bynnac a eilw ar enw yr Arglwydd cadwedig fydd.

14 Eithr pa fodd y galwant ar yr hwn ni chredaſant ynddo: a pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywſant am dano: a pha fodd y clywant heb bregeth-wr:

Eſai.52.7. naum.1.15. 15 A pha fodd y pregethant, oddieithr eu dāfon: megis y mae yn ſcrifennedic: *mor brydferth yw traed y rhai ſy yn efangelu tangneddyf, ac yn efangelu pethau daionus:

Eſai.53.1. ioan.11.38. 16 Eithr, nid vfyddhauſant hwy oll i'r Efengyl, *canys y mae Eſaias yn dywedyd: ô Arglwydd pwy a gredodd i'r hyn a glywyd genym ni?

17 Am hynny ffydd ſydd o glywed, a chlywed [ſydd] gan air Duw.

Pſal.19.4. 18 Eithr meddaf: oni chlywſant hwy: eu ſwn *yn ddiau a aeth tros yr oll ddaiar, a'u geiriau hyd derfynau y byd.

Deut.32.21. 19 Eithr meddaf: oni adnabu Iſrael Dduw? yn gyntaf y mae Moſes yn dywedyd, *mi a baraf i chwi wynfydu wrth genedl nid yw gênedl, ac â chenedl angall i'ch digiaf.

Eſai.65.1. 20 *Ac Eſaias ſydd yn llyfaſu, ac yn dywedyd, cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fyng-heiſio, a gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf.

Eſai.65.2. 21 Ac wrth Iſrael y mae yn dywedyd, *yn hŷd y dydd yr eſtynnais fy nwylo at bobl anufydd, ac yn gwrth-ddywedyd.

## PEN. XI.

Y mae yn dangos na lwyr wrthododd Duw yr Iſraeliaid. 29 Am fod donniau Duw yn ddianwadal. 33 A bod barnedigaeth Dduw morr anchwiliadwy, ac morr ddirgel ag na ddichon neb ddyfod iddi hi.

AM hynny meddaf, a wrthododd Duw ei bobl: na atto Duw: canys minne hefyd wyf Iſraeliad o hâd Abraham, o lwyth Beniamin.

2 Ni wrthododd Duw ei bobl y rhai a adnabu efe yn y blaen, oni wyddoch pa beth y mae yr ſcrythur yn ei ddywedyd am Elias: pa fodd y mae efe yn eiriol ar Dduw yn erbyn yr Iſrael, gan ddywedyd?

3 *Oh Arglwydd, hwy a laddaſant dy brophwydi, ac a gloddiaſant i'r llawr dy allorau: ac myfi a adawyd yn vnic, ac y maent yn ceiſio fy einioes inne. 1.Bren.19.10.

4 Eithr pa beth y mae atteb Duw yn ei ddywedyd wrtho: *gadewais i mi fy hun ſaith mil o wŷr, y rhai ni phlygaſant eu gliniau i Baal. 1.Bren.19.18.

5 Felly y pryd hyn y mae gweddill trwy'r etholedigaeth o râs.

6 Ac os o râs nid o weithredoedd: os amgen nid yw grâs yn râs mwyach, ac os o weithredoedd, nid yw yn râs mwyach: pe amgen ni byddei gweithred mwy yn weithred.

7 Beth ynte: ni chafas Iſrael yr hyn y mae yn ei geiſio: eithr yr etholedigaeth a'i cafas, a'r lleill a galedwyd.

8 Megis y mae yn ſcrifennedic: *rhoddes Duw iddynt yſpryd trym-gwſc: llygaid fel na welant, a chluſtiau fel na chlywant, hyd y dydd heddyw. Eſai.6.9. math.13-14. ioan.12.40. act.28.26.

9 Ac y mae Dauydd yn dywedyd: *Bydded eu bord hwy yn fagl ac yn rhwyd, ac yn rhwyſtr, ac yn daledigaeth iddynt. Pſal.69.22.

10 Tywyller eu llygaid hwy fel na welant, a chrymma di eu cefnau bob amſer.

11 Gan hynny meddaf, a dramgwyddaſant hwy fel y cwympent ymmaith? na atto Duw: eithr trwy eu cwymp hwy y daeth iechydwriaeth i'r cenhedloedd i beri eiddigedd iddynt.

12 O herwydd pa ham os ydyw eu cwymp hwy yn olud i'r byd, a'u lleihâd hwy yn gyfoeth cenhedloedd, pa faint mwy y bydd eu cyflawnder hwy?

13 Canys meddaf i chwi y cenhedloedd, yn gymmeint a'm bôd i yn Apoſtol y cenhedloedd yr wyf yn mawrhau fy ſwydd:

14 [Er ceiſio] yn rhyw fodd peri eiddigedd os [fyng-hig a'm gwaed] fy hun ac achub rai o honynt.

15 Canys os eu gwrthodiad hwy yw cymmod y byd, beth fydd eu derbyniad, onid bywyd o feirw?

16 Canys os y blaen-ffrwyth ſydd ſanctaidd [ſanctaidd] hefyd [yw] y clamp toes: ac os yw'r gwreiddyn yn ſanctaidd, y canghennau

hefyd ydynt [ſanctaidd.]

17 Ac os torrwyd rhai o'r canghennan ymmaith, a'th impio dithe yr hwn oeddit yn olew-wydden wyllt arnynt yn eu lle hwynt, a'th wneuthur yn gyfrannog o'r gwreiddin, ac o fraſder yr olew-wydden,

18 Na orfoledda yn erbyn y canghennau: ac os gorfoleddi, nid wyt ti yn dwyn y gwreiddin, eithr y gwreiddin dy di.

19 Tithe a ddywedi, fe a dorrwyd ymmaith y canghennau fel yr impid fi i mewn.

20 Da: trwy anghredyniaeth y torrwyd hwynt ymmaith, a thithe ſydd yn ſefyll trwy ffydd, na fydd vchel-fryd, eithr ofna.

21 Canys os Duw nid arbedodd y canghennau naturiol, [gwilia] rhag nad arbedo dithe chwaith.

22 Gwêl am hynny gymmwynas, a thoſter Duw i'r rhai a gwympaſant, toſter: onid cymmwynas i ti os arhoſſi yn ei gymmwynas ef: os amgen, torrir dithe hefyd ymmaith.

23 A hwyntau, oni arhoſant yn anghredyniaeth, a impir i mewn: canys gall Duw eu himpio hwynt i mewn trachefn.

24 Canys os torrwyd ty-di allan o'r olew-wydden yr hon oedd wyllt wrth naturiaeth, a'th impio yn erbyn naturiaeth mewn gwir olew-wydden, pa gymmaint mwy y caiff y rhai ſy wrth naturiaeth, wedi eu himpio yn eu holew-wydden eu hunain?

25 Canys ni ewyllyſiwn frodyr na ŵyddech chwi y dirgelwch hyn, (rhag eich bod yn rhŷ ddoethion ynoch eich hunain) mai o ran y daeth cyndynrwydd i Iſrael, hyd oni ddêle cyflawnder y cenhedloedd i mewn.

26 Ac felly y bydd yr holl Iſrael yn gadwedig fel y mae yn ſcrifennedic, * y gwared-wr a ddaw allan o Sion, ac a drŷ ymmaith yr anwiredd oddi wrth Iacob. Eſai 59.20. Eſai 27.9.

27 A hyn yw 'r ammod ſydd iddynt gennifi, * pan ddugwyf ymmaith eu pechodau. Ierem.31.34. Heb.8.8.

28 Felly tu ag at am yr Efengyl, y maent hwy yn elynnion o'ch plegit chwi: onid o herwydd yr etholedigaeth, hwy a gerir er mwyn y tadau.

29 Canys diedifarus yw doniau, a galwedigaeth Dduw.

30 Canys megis yr anghredaſoch chwi gynt i Dduw, ac yr ydych yn awr wedi cael trugaredd trwy eu anghrediniaeth hwy:

31 Felly yr awr hon hwythau a anghredaſant y drugaredd [a ddangoſwyd] i chwi, fel y caent hwythau hefyd drugaredd.

32 Canys Duw a gaeuodd bawb mewn anghredyniaeth, fel y trugarhae wrth bawb oll.

33 O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw, mor anchwiliadwy yw ei farnau ef, ac [mor] anfeidrol [yw] ei ffyrdd ef?

34 Canys * pwy a ŵybu feddwl yr Arglwydd? neu pwy a fu yn gyngor-wr iddo? Eſai 40.13. 1.Cor.2.16.

35 Neu pwy a roddes iddo ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo ef.

36 Canys o honaw [ef,] a thrwyddo ef, ac ynddo ef y mae pob dim oll: iddo ef [y byddo] gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

## PEN. XII.

Y modd y mae i amryw ddynion fyw yn eu hamryw alwedigaethau.

☞ AM hynny yr wyf yn attolwg i chwi frodyr er trugareddau Duw roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw ſanctaidd cymmeradwy i Dduw, [yr hwn yw] eich rheſymmol waſanaeth. *Yr Epyſtol y Sul cyntaf ar ôl yr Yſtwyll.*

2 Ac na chyd ymffurfiwch â'r byd hwn, eithr ymnewidiwch gan adnewyddiad eich meddwl, fel y galloch * brofi beth yw ewyllys Duw, [yr hon ſydd] dda, a chymmeradwy, a pherffaith. Epheſ.5.17.

3 Canys yr wyf yn dywedyd trwy y grâs a roddwyd i mi wrth bob vn ſydd yn eich plith, na byddo i nêb ddeall vwch-law y dyler deall, onid deall o honaw i fod yn ſobr, fel y rhannodd Duw i bob vn * feſur ffydd. Epheſ 4.7.

4 * Canys megis y mae i ni lawer o aelodau mewn vn corph, ac nad oes i'r holl aelodau yr vn ſwydd: 1.Cor.12.11.

5 Felly [ninneu er ein bod] yn llawer, ydym vn corph yng-Hriſt, a phôb vn yn aelod iw gilydd. ☜

6 ☞ * A chan fod i ni amryw ddoniau yn ôl y grâs a roddwydd i ni, os prophwydoliaeth [bydded] yn ôl cyſſondeb y ffydd. *Yr Epyſtol yr ail Sul ar ôl yr Yſtwyll.* 1.Pet.4.10.

7 Neu os ſwydd, [dilynwn] y ſwydd: neu os athro [rhodded] athrawiaeth,

8 Neu os cynghorwr, [edryched ar] y cyngor, yr hwn a gyfranno, [cyfranned] mewn ſymlrwydd, a lywodraetha, [gwnaed] yn ddieſcaelus: a drugarhâo, [gwnaed] yn llawen. Math.6.2. 2 Cor.9.7.

9 Bydded cariad heb ragrith: * caſewch yr hyn ſydd ddrwg, a glynwch wrth yr hyn ſydd dda. Amos 5.15.

10 * Mewn cariad brawdol byddwch garedig iw gilydd, gã flaenori eu gilydd yn rhoddi parch. Epheſ.4.2. 1.Pet.2.17.

11 Heb fod yn ddiog mewn aſtudrwydd, yn frydion yn yr Yſpryd, yn gwaſanaethu yr Arglwydd.

12 Yn llawen mewn gobaith, yn ddioddefgar mewn cyſtudd, * yn barhaus mewn gweddi. Luc.18.1.

13 * Yn cyfrannu wrth gyfreidiau 'r ſainct, * ac yn dilyn rhoddi lletŷ. 1.Cor.16.1. Heb.13.2.

14 * Bendithiwch y rhai ſy yn eich ymlit, bendithiwch meddaf, ac na felldithiwch. 1.Pet.4.9. Math.5 44.

15 Byddwch lawen gyd â'r llawen, ac yn ŵylo gyd â'r ŵylofus.

16 Byddwch yn vn fryd â'i gilydd * na fyddwch vchel feddwl: eithr yn gydoſtyngedig â'r rhai iſelradd, ☞ na fyddwch ddoethion ym eich tŷb eich hunain. Dihar.3.7. *Yr y Epyſtol y trydydd Sul ar ôl yr Yſtwyll.*

17 * Na thelwch i neb ddrwg am ddrwg: darperwch bethau oneſt yng-olwg pôb dŷn. Dihar.20.22. Math.5.39. 1.Pet.3.9.

18 * Os [yw] boſſibl hyd y mae ynoch chwi, byddwch heddychlawn â phôb dŷn. 1.Cor.6.7. Heb.12.14. Math.5.39.

19 Nac ymddielwch rai annwyl, onid rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae yn ſcrifēnedic: *i mi y mae dial, mi a'i talaf, medd yꝛ Arglwydd.

Deut.32.35.
Heb.10.30.
Dihar.25.21.

20 *Am hynny os dy elyn a newyna, poꝛtha ef: os ſycheda, dod iddo ddiod, canys os gwnei hyn ti a bentyꝛri farwoꝛ am ei ben ef.

21 Na oꝛchfyger di gan ddꝛygioni, eithꝛ goꝛchfyga di ddꝛygioni trwy ddaioni.

## PEN. XIII.

Y mae yn annog i vfuddhau ſwyddogion, 8 gan ddilyn cariad perffaith, 11 a buchedd ſancteiddiol.

*Yr Epyſtol y pedwerydd Sul ai ôl yr yſtwyll.*
Tit.3.1.
1.Pet.2.13.
Doeth.6.3.

☞ *YMddaroſtynged pob [perchen] enaid i'r awdurdodau goꝛuchel, am nad oes awdurdod onid oddi wꝛth Dduw, a'r awdurdodau ſydd, gan Dduw y maent wedi eu hoꝛdeinio.

2 Am hynny pwy bynnac ſydd yn ymoſod yn erbyn yꝛ awdurdod, ſydd yn gwꝛthwynebu oꝛdeinhâd Duw: a'r rhai a wꝛthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain.

3 Canys tywyſogion nid ydynt ofn i weithꝛedoedd da, eithꝛ i'r rhai dꝛwg: a fynni nad ofnech y gallu? gwna'r hyn ſydd dda: ac ti a gei glod ganddo.

4 Canys gwaſanaeth-wŵꝛ Duw ydyw er llês i ti, eithꝛ os gwnei'r hyn ſydd ddꝛwg, ofna am nad yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: canys gweinidog Duw yw efe, i ddial llid ar yꝛ hwn a wnêlo ddꝛwg.

5 Herwydd pa ham angenraid yw ymddaroſtwng nid yn vnic o herwydd llid, eithꝛ er mwyn cydwybod.

6 Canys am hynny y telwch deyꝛn-gêd: o blegit gwaſanaeth-wŷꝛ Duw ydynt, yn ymroi i'r peth ymma.

Math.22.21.

7 *Telwch gan hynny i bawb [eu] dyledion: teyꝛn-ged i'r nêb [y byddo arnoch] deyꝛnged, toll i'r hwn [y byddo arnoch] doll: ofn i'r hwn [y byddo iawn] bod ofn, parch i'r hwn [a ddyle] barch. ☜

*Yr Epyſtol ar y Sul cyntaf o'r Adfent.*
Exod.20.14.
Deut.5.18.

8 ☞ Na fyddwch yn nylêd neb: oddi eithꝛ o garu pawb ei gilydd: canys yꝛ hwn ſydd yn caru arall, a gyflawnodd y gyfraith.

9 *Canys hyn, na odineba, na ladd, na ledꝛatta, na ddwg gam deſtiolaeth: na chꝛachwanta, ac os oes [vn] goꝛchymyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn grynno yn yꝛ ymadꝛodd hwn, *câr dy gymydog fel ti dy hun.

Leuit.19.18.
Math.22.39.
Marc.12.31.
Gal.5.14.
Iago.2.8.
1.Tim.1.5.

10 Cariad ni wna ddꝛwg i'r cymydog, *am hynny cariad yw cyflawnder y ddeddf.

11 A hynny gan weled yꝛ amſer, [ei bod] hi weithian yn bꝛyd i ddeffroi o gyſcu: canys yꝛ awꝛ hon y mae ein iechydwꝛiaeth yn nês nâ phan gredaſom.

12 Y nôs a aeth heibio, a'r dydd ſydd yn neſau, am hynny bwꝛiwn ymmaith weithꝛedoedd y tywyllwch, a gwiſcwn arfau y goleuni.

Luc.21.34.

13 Rhodiwn yn weddus [megis wꝛth] liw dydd: *nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydoꝛwedd ac anlladꝛwydd, nid mewn cynnenn, a chenfigen:

Gal.5.16.
1.Pet.2.11.

14 *Eithꝛ gwiſcwch am danoch yꝛ Arglwydd Ieſu Griſt, ac na fydded eich gofal tros y cnawd er mwyn poꝛthi ei chwantau. ☜

## PEN. XIIII.

Y mae yn cynghori na ddirmyger y gweiniaid o ffydd, 10 na farner neb am ei gydwybod mewn pethau cyffredin, 15 ond cyd-ddwyn o honom â'i gilydd.

YR vn ſydd wann o ffydd derbynniwch atoch, [ond] nid i ymryſonnion dadleugar.

2 Canys y mae vn yn credu y gall fwyta pôb peth: ac y mae arall yꝛ hwn ſydd wann [ei ffydd] yn bwyta dail.

3 Na ddirmyged yꝛ hwn ſydd yn bwyta, yꝛ hwn nid yw yn bwyta: ac na farned yꝛ vn ni fwyta, yꝛ hwn ſydd yn bwyta: canys Duw a'i derbynniodd ef.

Iac.4.12.

4 *Pwy wyt ti yꝛ hwn wyt yn barnu gwâs gŵꝛ arall? y mae efe yn ſefyll neu yn cwympo iw arglwydd ei hun: ac efe a gynhelir, canys dichon Duw ei gynnal ef.

5 Y mae vn yn barnu fod dydd vwch law dydd, ac arall yn barnu fod pôb dydd yn [ogyfuwch,] bydded pôb vn yn ſiccr yn ei feddwl.

6 Yꝛ hwn ſydd yn yſtyꝛied dydd, i'r Arglwydd y mae yn yſtyꝛied, a'r hwn nid yw yn yſtyꝛied dydd, i'r Arglwydd y mae heb yſtyꝛied, yꝛ hwn ſydd yn bwyta i'r Arglwydd y mae yn bwyta, canys y mae yn diolch i Dduw, a'r hwn nid yw yn bwyta i'r Arglwydd y mae heb fwyta, ac y mae yn diolch i Dduw.

7 Canys nid yw yꝛ vn o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yꝛ vn yn marw iddo ei hun.

8 Canys os byw yꝛ ydym, byw yꝛ ydym i'r Arglwydd, os marw yꝛ ydym, marw yꝛ ydym i'r Arglwydd, am hynny pa vn bynnac yꝛ ydym a'i byw a'i marw, eiddo yꝛ Arglwydd ydym ni.

9 O blegit er mwyn hyn y bu farw Criſt, ac yꝛ adgyfodes, ac y bu fyw trachefn, fel yꝛ arglwyddiaethe ar y meirw a'r byw.

10 Pa ham gan hynny yꝛ wyt ti yn barnu dy frawd? neu pa ham yꝛ wyt yn dirmygu dy frawd? o herwydd ni a ymddangoſwn oll ger bꝛon goꝛſedd-faingc Criſt.

Eſay 45.23.
Phil.2.10.

11 Canys y mae yn ſcrifennedig, byw *wyfi medd yꝛ Arglwydd: o blegit pob glin a blyga i mi, a phob tafod a gyffeſſa i Dduw.

12 Felly ynte pob vn o honom a rydd gyfrif am dano ei hun i Dduw.

13 Am hynny na farnwn mwyach nêb ei gilydd, onid yn hytrach yſtyꝛiwch hyn: na roddo nêb iw frawd achos trāgwydd, neu rwyſtr.

14 Mi a wn, ac y mae yn ſiccr gennif trwy'r Arglwydd Ieſu, nad oes dim yn aflan o honaw ei hunan: onid yꝛ vn ſydd yn tybied fod peth yn aflan, iddo ef y mae yn aflan.

1.Cor.8.

15 Eithꝛ os triſteuir dy frawd o blegit bwyd nid wyt yꝛ awꝛ hon yn rhodio yn ôl cariad, *na choll ef â'th fwyd, yꝛ hwn y bu Criſt farw troſto.

16 Na chabler eich daioni chwi.

17 Canys nid yw teyꝛnas Dduw fwyd a diod,

od, onid cyfiawnder, a thangnedyf, a llawenydd yn yr Yſpryd glân.

18 Pwy bynnac gan hynny a waſanaetho Griſt yn y pethau hyn, ſydd gymmeradwy gan Dduw, a chanmoladwy gan ddynion.

19 Felly dilynwn ni y pethau ſy o blegit tangnedyf: a'r pethau ſy yn adeiliadu eu gilydd.

Tit.1.15.

20 Na ddiniſtria waith Duw er mwyn bwyd: * diau yw fod pob peth yn lân: eithr drwg yw i'r dyn a fwyta drwy dramgwydd.

1.Cor.8.13.

21 * Da yw na fwytaer cig, ac nad ŷfer gwîn, na dim drwy 'r hyn y tramgwydder, neu y rhwyſtrer, neu y gwanhaer dy frawd.

22 A oes ffydd gennit ti? bydded hi gyd â thi dy hun ger bron Duw: gwyn ei fyd yr vn nis barna ei hunan yn yr hyn y mae yn foddlawn iddo.

23 Canys yr vn a betruſa, os bwyty y mae yn farnedic, am nad yw efe yn bwyta o ffydd: pa beth bynnac nid yw o ffydd, pechod yw.

## PEN. XV.

1 Paul yn eu cyng-hori i gynnal ac i garu pawb ei gilydd wrth ſiampl Criſt. 9 A thrwy vnic drugaredd Dduw yr hon ſydd achos iechydwriaeth i'r ddwyblaid. 14 Y mae efe yn dangos ei ſerch iddynt hwy a'r eglwys. 30 Ac yn dymuno yr vn rhyw ganddynt hwy.

NYni y rhai cedyrn a ddylêm ddwyn gwẽdid yr ang-hedyrn, ac nid ein boddhau ein hunain.

2 Am hynny boddhaed pawb o honom ei gymydog yn yr hyn ſydd dda i adeilad.

Pſal.69.10.

3 Canys Criſt nis boddhâodd ei hunan, eithr megis y mae yn ſcrifennedic: * gwradwyddiad y rhai a'th wradwyddaſant di, a ſyrthiodd arnafi.

*Yr Epiſtol ar yr ail Sul o'r Adfent.*

4 ☞ Canys y pethau a ſcrifennwyd ym mlaen llaw, er addyſc i ni yr ſcrifennwyd hwy, fel y gallem trwy ammynedd a chyſſur yr ſcrythurau gael gobaith.

1.Cor.1.10.

5 A Duw yr ammynedd a'r cyſſur a roddo i chwi * ſynnied yr vn peth [bawb] â'i gilydd yn ôl Criſt Ieſu.

6 Megis o gytundeb, ac o vn genau y galloch foliannu Duw, a Thad ein Harglwydd Ieſu Griſt.

7 O herwydd pa ham derbynniwch bawb eu gilydd, megis y derbynniodd Criſt ninnau i ogoniant Duw.

8 Ac yr wyf yn dywedyd wneuthur Ieſu Griſt yn weinidog i'r enwaediad er mwyn gwirionedd Duw, er cadarnhau yr addewidion a [wnaethpwyd] i'r tadau.

9 Ac fel y rhodde y cenhedloedd ogoniant i Dduw am ei drugaredd, fel y mae yn ſcrifennedig: am hyn i'th gyffeſſaf ym mhlith y cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

Deut.32.43.

10 A thrachefn y dywed: * ymlawenhewch genhedloedd gyd â'i bobl ef.

Pſal.117.1.

11 A thrachefn, * molwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd, a chydfolwch ef yr holl bobloedd.

Eſai.11.10.

12 A thrachefn Eſaias a ddywed, * fe fydd gwreiddin Ieſſe, a'r hwn a gyfyd i lywodraethu yr cenhedloedd, yn hwnnw y gobeitha y cenhedloedd.

13 A Duw 'r gobaith a'ch cyflawno o bôb llawenydd a thangnedyf, gan gredu fel eich amlhaer yng-obaith trwy nerth yr Yſpryd glân. ☜

14 Ac y mae yn ſiccr gennif fi fy hun am danoch chwi fy mrodyr, eich bod chwi yn llawn daioni ac yn gyflawn o bob gwybodaeth, ac y medrwch gynghori eu gilydd.

15 Er hynny frodyr mi a ſcrifennais attoch yn hŷfach, fel vn yn dwyn ar gof i chwi, trwy y grâs a roddwyd i mi gan Dduw,

16 I fod o honof yn waſanaethwr Ieſu Griſt ym myſc cenhedloedd, gã weithio trwy Efengyl Dduw, fel y bydde offrymmiad y cenhedloedd yn gymmeradwy, wedi ei ſancteiddio gan yr Yſpryd glân.

17 Y mae i mi gan hynny a ymlawenychwyf yng-Hriſt Ieſu, yng-hyfryw bethau, ac a [berthyn] i Dduw.

18 Am na feiddiaf yngen am ddim, a'r nis gwnaeth Criſt trwofi i [wneuthur] y cenhedloed yn vfydd ar air a gweithred.

19 Trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau gan nerth Yſpryd Duw: hyd pan o Ieruſalem ac o amgylch hyd Illyricum, y llenwais Efengyl Criſt.

20 Ac felly gan amgylchu i bregethu 'r Efengyl nid lle yr henwid Criſt, rhag bod i mi adailad ar ſail nêb arall.

Eſai.52.14.

21 Eithr megis y mae yn ſcrifennedic: * y neb ni fynegwyd iddynt am dano ef, a i gwelant ef, a'r rhai ni chlywſant a ddeallant.

Cap.1.13.
1.theſſ.2.17.

22 Am hynny hefyd im * lluddiwyd i yn fynych i ddyfod attoch chwi.

Cap.1.10.

23 Eithr yr awr hon (am nad oes i mi le mwy yn yr ardalau hyn, * a hefyd bod arnaf chwant er ys llawer o flynyddoedd i ddyfod attoch chwi)

24 Pan elwyf i Hiſpaen, y deuaf attoch chwi: canys yr wyf yn gobeithio wrth fyned heibio y caf eich gweled, a'm hebrwng gennych yno, wedi i mi yn gyntaf gael fyng-wala o honoch.

25 Ac yr awr hon yr wyf yn myned i Ieruſalem i weini i'r ſainct.

26 Canys rhyngodd bodd i'r [rhai o] Macedonia ac Achaia, wneuthur rhyw gymmorth i'r ſainct tlodion y rai ydynt yn Ieruſalem.

1.Cor 9.11.

27 Canys rhyngodd bodd iddynt, a'u dyledwŷr ydynt: * o blegit os y cenhedloedd a gawſant ran o'u pethau yſprydol hwynt, hwythau hefyd a ddylent weini iddynt bethau cnawdol.

28 Yna wedi i mi orphen hyn, a ſelio iddynt y ffrwyth hwn, mi a ddeuaf heboch i'r Hiſpaen.

29 Ac mi a wn pan ddelwyf attoch, y deuaf â chyflawnder bendith Efengyl Griſt.

30 Hefyd frodyr yr wyf yn attolwg er mwyn ein Harglwydd Ieſu Griſt, ac er cariad

2.Cor.1.11. yr Yſpryd, * ymegnio o honoch, gyd â mi mewn gweddiau at Dduw troſof,

31 A'r fy rhyddhau oddi wrth y rhai ſydd yn anufydd yn Iudæa, ac i'm gweinidogaeth yr hō ſydd iw [gwneuthur] yn Ieruſalem, fod yn gymmeradwy gan y ſainct.

32 Fel y gallwyf ddyfod attoch mewn llawenydd trwy ewyllys Duw, ac ymlonni gyd â chwi.

33 A Duw'r heddwch [fyddo] gyd â chwi oll. Amen.

## PEN. XVI.

Wedi annerch llawer, 17 Y mae yn eu rhybyddio i ochelud gau frodyr. 20 Gan weddio a diolch i Dduw troſtynt hwy.

YR wyf yn gorchymyn i chwi Phœbe ein chwaer, yr hon ſydd wenidog i eglwys Cenchrea:

2 Dderbyn o honoch hi yn yr Arglwydd megis y mae yn addas i ſainct, a'i chynnorthwyo ym mhob neges y byddo rhaid iddi wrth eich help: canys hi a gynnorthwyodd lawer, a minne hefyd.

Act.18.2. 3 Anherchwch * Pryſcilla ac Aquila fyng-hydweith-wŷr yng-Hriſt Ieſu:

4 (Y rhai a ddodaſant i lawr eu gyddfau eu hunain tros fy mywyd i, i'r rhai nid wyfi yn unic yn diolch, onid hefyd holl eglwyſydd y cenhedloedd)

5 [Anherchwch] hefyd yr eglwys yr hō ſydd yn eu tŷ hwy, anherchwch fy annwyl Epenetus yr hwn yw blaen-ffrwyth Achaia yng-Hriſt.

6 Anherchwch Mair yr hon a gymmerodd boen lawer droſom ni.

7 Anherchwch Andronicus, ac Iunia fyng-heraint a'm cydgarcharoriō, y rhai ſy hynod ym mhlith yr Apoſtolion, y rhai oeddynt yng-Hriſt cyn nâ myfi.

8 Anherchwch Amplias fy annwylyd yn yr Arglwydd.

9 Anherchwch Urbanus ein cydweith-wr ac Stachys fy annwylyd.

10 Anherchwch Appelles y profedic yng-Hriſt, anherchwch y rhai ſy o [dŷlwyth] Ariſtobulus.

11 Anherchwch Herodian fyng-hâr: anherchwch y rhai ſy o [dŷlwyth] Narciſſus, y rhai ydynt yn yr Arglwydd.

12 Anherchwch Triphania a Thriphoſa, y rhai a gymmeraſant boen yn yr Arglwydd: anherchwch yr annwyl Perſis, yr hon a gymmerodd boen lawer yn yr Arglwydd.

13 Anherchwch Rufus etholedig yn yr Arglwydd, a'i fam ef a minne.

14 Anherchwch Aſyncritus, Phlegontes, Herma, Patrobas, Mercurius, a'r brodyr y rhai [ſy] gyd ag hwy.

15 Anherchwch Philologus ac Iulia, Nereus a'i chwaer, ac Olympa, a'r holl ſainct y rhai ydynt gyd â hwynt.

1.Cor.16.20. 2.cor.13.12. 1.per.5.14. 16 * Anherchwch y naill y llall â chuſan ſanctaidd: y mae eglwys Griſt yn eich annerch.

2.Ioan.10. 17 Ac yr wyf yn attolwg i chwi frodyr edrych yn graff ar y rhai ſy yn peri ang-hydfod a rhwyſtrau yn erbyn yr athrawiaeth a ddyſcaſoch * ac ymogelwch rhagddynt.

18 Canys y rhai ſy gyfryw nid ydynt yn gwaſanaethu yr Arglwydd Ieſu Griſt, eithr eu boliau eu hunain, a thrwy eiriau têg, a gweniaith yn twyllo calonnau y rhai diddrwg.

19 Canys eich ufydd-dod chwi a ddaeth ar lêd at bawb ôll: yr wyf yn llawen gan hynny am danoch, ac etto mi a ewyllyſiaf eich bod yn ddoethion tu ag at ddaioni, ac yn ddiniwed tu ag at ddrygioni.

20 A Duw y tangneddyf a ſathr Satan tann eich traed heb o hir: Gras ein Harglwydd Ieſu Griſt fyddo gyd â chwi.

Act.16.1. 21 Y mae * Timotheus fyng-hydweith-wr a Lucius, ac Iaſon, a Soſipater fyng-heraint yn eich annerch.

22 Yr ydwyfi Tertius yn eich annerch yn yr Arglwydd, yr hwn a ſcrifēnodd yr Epiſtol hwn.

23 Y mae Gaius fy lletteu-wr a'r holl eglwys yn eich annerch: y mae Eraſtus gorchwiliwr y ddinas yn eich annerch, a'r brawd Quartus.

24 Grâs ein Harglwydd Ieſu Griſt a fyddo gyd â chwi oll. Amen.

Epheſ.3.20. Epheſ.3 9. coloſſ.1.26. 25 Iddo ef yr hwn a ddichon eich cadarnhau, yn ôl fy Efengyl a phregethiad Ieſu Griſt, * gan ymddadcuddiad y dirgelwch, yr hwn oedd gyfrinachol er yn oes oeſoedd:

26 (Ac ar yr awr hon a eglurhawyd, ac a gyhoeddwyd ym mhlith yr holl gēhedloedd trwy ſcrythurau'r prophwydi, wrth orchymyn y tragywyddol Dduw er mwyn ufydd-dod ffydd)

27 I Dduw [meddaf] yr unic ddoeth, bydded y gogoniant trwy Ieſu Griſt yn oes oeſoedd. Amen.

*Terſyn Epiſtol* Paul *at y Rhufeiniaid, yr hwn a ſcrifennwyd o*
*Corinth,* ac a anfonwyd *gyd â Phœbe, yr hon oedd*
*wenidog yr eglwys yn Cenchrea.*

# Yr Epiſtol cyntaf i Sanct Paul at y Corinthiaid.

## PENNOD. I.

Paul yn annerch y Corinthiaid, ac yn diolch am y grâs a roddaſe Duw iddynt. 10 Yn dymuno vndeb. 14 Yn dangos y rhai a fedyddiaſe efe. 18 Beth yw ſynnwyr bydol i'r Efengyl.

PAul yr hwn a alwyd [i fod] yn Apoſtol Ieſu Griſt, trwy ewyllys Duw, a'r brawd Soſthenes:

2 At eglwys Dduw yr hon ſydd yn Corinth, * at y rhai a ſancteiddiwyd yng-Hriſt Ieſu, * y rhai a elwir yn ſainct gyd â phawb a alwo ar enw yr Arglwydd Ieſu Griſt, ym mhob man o'r eiddynt hwy a ninnau, 1.Theſ.4.7. ruf.1.7. ephe.1.1. coloſ.1.22. 2.tim.1.9.

3 Grâs [fyddo] gyd â chwi, a thangnefedd gan Dduw ein Tad, a chan yr Arglwydd Ieſu Griſt.

4 ☞ I'm Duw yr wyf yn diolch droſoch chwi yn oeſtad, am y grâs Duw a roddwyd i chwi yn Ieſu Griſt, *Yr Epiſtol yr 18. Sul ar ôl y Drindod.*

5 Am eich cyfoethogi ym mhob peth ynddo ef, mewn pob ymadrodd, a phob gwybodaeth:

6 Megis y cadarnhawyd teſtiolaeth Criſt ynoch,

7 Fel nad ydych chwi yn ddiffygiol o vn dawn * gan ddiſgwil am ymddangoſiad ein Harglwydd Ieſu Griſt. Tit.2.11. philip.3.20.

8 Yr hwn hefyd a'ch cadarnhâ chwi hyd y diwedd yn ddiargyoeddus yn nydd ein Harglwydd Ieſu Griſt. ☜

9 * Ffyddlawn yw Duw trwy yr hwn i'ch galwyd i gymdeithas ei Fab ef Ieſu Griſt ein Harglwydd ni. 1.Theſſ.5.24.

10 Ac yr wyf yn atolwg i chwi frodyr, trwy enw ein Harglwydd Ieſu Griſt, ar ddywedyd o bawb o honoch chwi yr vn peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith, eithr bod o honoch wedi ymgyſſylltu yng-hyd, yn vn feddwl, ac yn vn farn.

11 Canys fe ddangoſwyd i mi am danoch chwi fy mrodyr, gan y rhai [ſy o dŷ] Cloe, fod cynhennau yn eich myſc chwi.

12 Hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob vn o honoch yn dywedyd, yr ydwyf fi yn eiddo Paul, minne yn eiddo Apollos, minne yn eiddo Cephas, minne yn eiddo Criſt. Act.18.24.

13 A rannwyd Criſt? ai Paul a groes-hoeliwyd troſoch? neu ai yn enw Paul i'ch bedyddiwyd chwi?

14 Yr ydwyf yn diolch i Dduw, na fedyddiais i neb o honoch, * ond Criſpus a Gaius; Act.18.8.

15 Rhag i neb ddywedyd i mi fedyddio yn fy enw fy hunan.

16 A mi a fedyddiais hefyd dylwyth Stephanas, ac ni wn a fedyddiais i neb arall.

17 Canys ni anfonodd Criſt fi i fedyddio, onid i efengylu, * nid mewn doethineb ymadrodd, rhag gwneuthur croes Criſt yn ofer: Gal.5.4. 2.pet.1.16.

18 O herwydd pregethu y groes, nid yw ond ynfydrwydd gan y rhai colledig, eithr * nerth Duw ydyw i ni y rhai ſy gadwedig. Rom.1.16.

19 Canys ſcrifennedic yw, mi a ddeleaf ddoethineb y doethion, ac a ſwriaf ymmaith ddeall y rhai deallus. Eſai.29.14.

20 Pa le y mae'r doeth? mae'r ſcrifennydd? mae ymholydd y byd hwn? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd?

21 O blegit gan yn noethineb Duw nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethiad, gadw y rhai ſy yn credu.

22 O blegit y mae yr Iddewon yn gofyn arwydd, a'r Groeg-wŷr yn ceiſio doethineb, Mat.12.38.

23 Eithr yr ydym ni yn pregethu Criſt wedi ei groeſ-hoelio, i'r Iddewon yn dramgwydd, ac i'r Groeg-wŷr yn ffolineb,

24 Ond i'r Iddewon a'r Groeg-wŷr y rhai a alwyd, yn Griſt, yn nerth Duw, ac yn ddoethineb Duw.

25 Canys ffolineb Duw ſydd ddoethach na dynion: a gwendid Duw ſydd gryfach nâ dynion.

26 Chwi a welwch eich galwedigaeth (frodyr) nad llawer o ddoethion yn ôl y cnawd, nad llawer o gedyrn, nad llawer o fonheddigion,

27 Eithr Duw a etholodd ffol bethau y byd i wradwyddo y doethion, a gwael bethau y byd a etholodd Duw i wradwyddo y cedyrn.

28 A Duw a ddewiſodd y pethau diſtadl yn y byd, a'r pethau dirmygus, a'r pethau nid ydynt [ddim] er dilëu y pethau ydynt [beth,]

29 Fel na orfoleddo vn cnawd ger ei fron ef.

30 Eithr yr ydych chwi ô honaw ef yng-Hriſt Ieſu, yr hwn a ddarfu i Dduw ei wneuthur yn ddoethineb i ni, ac yn gyfiawnder, ac yn ſancteiddrwydd, ac yn ymwared.

31 Fel y mae yn ſcrifennedig, yr hwn a ymorfoleddo, ymorfoledded yn yr Arglwydd. Iere.9.23.

## PEN. II.

Am ddull ei bregeth ef. 10 Am waith Yſpryd Duw yn y duwiol. 14 Am wr naturiol, beth a all efe: heb yr Yſprydhwn.

A Mynfi (frodyr) pan ddaethym attoch ni ddaethym â * godidawgrwydd ymadrodd neu ddoethineb, gan fynegi i chwi deſtiolaeth Duw. Cap.1.17.

2 Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Ieſu Griſt, a hwnnw wedi ei groes-hoelio.

Act.18.1. 3 *A mi a fum yn eich myſc mewn gwendid, ac ofn, a dychryn mawr.

2.Pet.1.16. 4 Ac ni bu fy ymadrodd na'm pregeth *mewn geiriau i ddenu â doethineb ddynawl, ond yn eglurhâd yr Yſpryd a nerth.

5 Fel na bydde eich ffydd mewn doethineb dynion, ond mewn nerth Duw.

6 A doethineb yr ydym ni yn ei thraethu ym myſc rhai perffaith, nid doethineb y byd hwn, na thywyſogion y byd hwn y rhai ſy yn diflannu:

7 Eithr yr ydym ni yn traethu doethineb Duw mewn dirgeledigaeth yr hon oedd guddiedic, ac a ragordeiniodd Duw i'n gogoniant ni cyn bod y byd.

8 Yr hon ni adnabu neb o dywyſogion y byd hwn, o herwydd pes adwaenasent ni chroeſ-hoeliasent Arglwydd y gogoniant.

Eſai.64.4. 9 Eithr fel y mae yn ſcrifennedic: y pethau ni welodd llygad, ac ni chlywodd cluſt, ac ni ddaeth i galon dyn: yr hyn a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.

10 Eithr Duw a'u heglurodd i ni trwy ei Yſpryd, canys yr Yſpryd ſydd yn chwilio pob peth, ie dyfnion bethau Duw hefyd.

11 Canys pa ddŷn a edwyn bethau dŷn, ond yſpryd dŷn yr hwn ſydd ynddo ef? felly yr unwedd, nid edwyn neb bethau Duw, ond Yſpryd Duw.

12 Ac nyni a dderbyniaſom nid yſpryd y byd, ond yr Yſpryd yr hwn [ſydd] o Dduw, fel y gwypom y pethau a roddes Duw i ni.

Cap.1.17. 13 Yr hyn yr ydym ni hefyd yn eu traethu nid â'r *geiriau a ddyſcir gan ddoethineb dynol, ond a ddyſcir gan yr Yſpryd glân, gan gyffelybu pethau yſprydol â phethau yſprydol.

14 Eithr dyn anianol nid yw yn deall y pethau ſydd o Yſpryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef, ac ni wyr beth ydynt, o blegit yn yſprydol y bernir hwynt.

15 Ond yr hwn ſydd yſprydol, a wyr farnu pob peth, ac ni fernir ef gan neb.

Eſai.40.13. doeth.9.13. Ruf.11.34. 16 *Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd fel y cyfarwydde efe ef? ond y mae genym ni feddwl Criſt.

## PEN. III.

Paul yn ceryddu anghytundeb. 8 Yn cyffelybu yr Apostolion i lafurwyr. 11 A phregethiad yr Efengyl i adailadaeth.

A Myfi (frodyr) ni allwn lefaru wrthych megis wrth rai yſprydol, ond megis wrth rai cnawdol, ac megis plant bychain yng-Hriſt.

2 Rhoddais laeth i chwi i'w yfed, ac nid bwyd, am nas gallech [amgen,] ac nis gellwch etto.

3 Canys cnawdol ydych chwi etto: canys tra fyddo yn eich plith chwi genfigen, ac ymryſon a chynhennau, ond ydych chwi yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol?

4 Canys tra dywedo un, myfi ydwyf eiddo Paul, ac arall, myfi wyf eiddo Apollos, ond ydych chwi yn gnawdol?

5 Canys, pwy yw Paul? pwy yw Apollos? ond gweinidogion trwy y rhai y credaſoch, a [hynny] fel y rhoddes yr Arglwydd i bawb?

6 Myfi a blennais, Apollos a ddyfrhaodd, ond Duw a roddes y cynnydd.

7 Felly nid yw yr hwn ſydd yn plânu ddim, na'r hwn ſydd yn dyfrhau, ond Duw yr hwn ſydd yn rhoi y cynnydd.

Pſal.62.12. gal.6.5. 8 Eithr yr hwn ſydd yn plannu, a'r hwn ſydd yn dyfrhau ydynt un, *a phob un a dderbyn ei briod wobr ei hun yn ôl ei lafur ei hun.

9 Canys cyd-weithwyr i Dduw ydym ni, chwithau ydych lafur-waith, ac adeiladaeth Duw.

10 Yn ôl grâs Duw, yr hwn a ddodwyd i mi, megis pen-ſaer celfydd, goſodais i y ſail, ac y mae arall yn goruwch-adailadu, ond edryched pawb, pa wedd y mae yn goruwch-adailadu.

11 Canys ni all neb oſod ſail arall, amgen na'r hwn a oſodwyd, yr hwn yw Ieſu Griſt.

12 Os adailada neb ar y ſeiliad hwn, aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair [neu] ſofl,

13 Gwaith pawb a amlygir: canys y dydd a'i dengys: o blegit gan y tân y datcuddir, a'r tân a brawf waith pawb, pa ſeth ſydd arno.

14 Os gwaith neb yr hwn a oruwch-adailadodd efe a erys, efe a dderbyn wobr.

15 Os llyſc gwaith neb, efe a gaiff golled, eithr efe a fydd cadwedic, ond er hynny megis trwy dân.

2.Cor.6.16. 16 *Oni wyddoch chwi, mai teml Dduw ydych, a bod Yſpryd Duw yn aros ynoch?

17 Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw: canys ſanctaidd yw teml Dduw yr hon ydych chwi.

18 Na thwylled neb ei hunan, od oes neb yn eich myſc yn tybied ei fod ei hun yn ddoeth yn y byd hwn: bydded ffol fel y byddo ddoeth.

Iob.5.13. 19 Canys doethineb y byd hwn [ſydd] ffolineb gyd â Duw, o herwydd ſcrifennedic yw, *y mae efe yn dal y doethion yn eu cyfrwyſtra.

Pſal.94.11. 20 Ac eil-waith: *y mae yr Arglwydd yn adnabod meddyliau y doethion mai ofer ydynt.

21 Am hynny, na ymfoledded neb mewn dynion, canys pob peth oll ſydd eiddoch chwi.

22 Os Paul, os Apollos, os Cephas, os y byd, os bywyd, os angeu, os pethau preſennol, os pethau a ddaw, y maent yn eiddoch chwi oll,

23 A chwithau yn eiddo Criſt, a Chriſt yn eiddo Duw.

## PEN. IIII.

Swydd gwenidog eglwyſig. 7 Nailldueth rhai yn y ſwydd. 9 Dirmyg y gweinidogion, a'u bucheddau poen. 15 Paul yn [illegible] dyfod ei hun.

*Yr Epiſtol ar y trydydd Sul o'r Adfent.*

☞ Cynimered dyn nyni fal hyn, megis gweinidogion i Griſt, a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw.

2 Am hen hyn, y gofynnir gan y goruchwylwyr gael un yn ffyddlon.

3 Eithr am danaf fi, lleiaf [illegible] gennif, fy

marnu gennych chwi, neu gan farn dyn: ac nid wyf chwaith yn fy marnu fy hunan.

4 Canys ni wn i fy mod yn euog o ddim, ond er hynny ni'm cyfiawnheuir, eithr yr Arglwydd ydyw yr hwn ſydd yn fy marnu.

Math.7.1. ruf.2.1. 5 * Er mwyn hynny na fernwch ddim cyn yr amſer, oni ddelo yr Arglwydd yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura feddyliau y galon, ac yna y bydd y glod i bawb gan Dduw.

6 A'r pethau hyn frodyr, a fwriais attaf fy hun, ac at Apollos yn ſiampl, er eich mwyn chwi, fel y gallech ddyſcu gennym ni, na byddo i neb fod yn ddoethach nag y mae yn ſcrifennedic, fel na ymchwyddo y naill yn erbyn y llall er mwyn neb.

7 Pwy a'th naillduodd di? beth hefyd ſydd gennit ar nas derbyniaiſt? ac os derbyniaiſt pa ham yr wyt ti yn ymorfoleddu megis na's derbyniaſit?

8 Yr awr hon yr ydych chwi yn llawn, yn awr yr aethoch yn gyfoethogion, teyrnaſaſoch hebom ni: ac ôch Dduw na baech yn teyrnaſit, fel y teyrnaſem ninnau gyd â chwi.

9 Canys tybied yr wyf, ddarfod i Dduw ein dangos ni yr Apoſtolion diweddaf, fel rhai wedi eu bwrw i angeu, am ein gwneuthur ni yn ddrych i'r byd, ac i'r angelion, ac i ddynion.

10 Nyni [ydym] ffyliaid er mwyn Criſt, a chwithau yn ddoethion yng-Hriſt, nyni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion, chwy-chwi yn anrhydeddus, a ninnau yn ddirmygus.

11 Hyd yr awr hon yr ydym ni yn dwyn newyn a ſyched, ac yr ydym ni yn noethion, ac yn cael cernodiau, ac yn gyrwydrus.

Act.20.34. 1.theſſ.2.9. 2.theſſ.3.8. 12 * Ac yr ydym yn llafurio gan weithio â'n dwylo ein hunain, pan i'n difenwir yr ydym yn bendithio, pan i'n herlidir yr ydym yn dioddef.

Math.5.44. luc.23.34. act.7.60. 13 *Pan i'n ceblir yr ydym yn gweddio, fel yſcubion y byd y gwnaethpwyd ni, [a] ſorod pob dim hyd yn hyn.

14 Nid wyf fi yn ſcrifennu hyn i'ch gwradwyddo chwi, ond i'ch rhybuddio yr wyf fel fy mhlant annwyl.

15 Canys pe bydde i chwi ddeng-mil o athrawon yng-Hriſt, er hynny nid oes nemmawr o dadau: canys myfi a'ch cenhedlais yng-Hriſt Ieſu trwy yr Efengyl.

16 Am hynny yr wyf yn attolwg i chwi, byddwch ddilynwyr i mi.

17 O blegit hyn yr anfonais attoch Timotheus yr hwn yw fy annwyl fab a ffyddlawn yn yr Arglwydd, yr hwn a goffa i chwi fy ffyrdd i yng-Hriſt, megis yr wyf ym-mhob man yn athrawiaethu yn yr eglwyſydd oll.

18 Y mae rhai wedi chwyddo megis na ddelwn i mwy attoch.

Act.18.21. Iac.4:15. 19 Eithr mi a ddeuaf attoch ar fyrder, * os ewyllyſia yr Arglwydd, ac a fynnaf wybod nid [yn unic] geiriau y rhai ſy yn chwyddo eithr [eu] gallu.

20 Canys nid yw teyrnas Dduw mewn gair, eithr mewn gallu.

21 Beth a ewyllyſiwch? ai â gwialen y deuaf attoch, ynte â chariad, ac yſpryd addfwynder.

## PEN. V.

Am loſc-ach, ſef godineb o fewn cyfagos achau, ac am eſcymmundod. 8 Am gyfeillach â rhai drwg.

MAe yr gair yn hollawl, fod yn eich plith odineb, a chyfryw odineb, ac na henwir un-waith ym myſc y cenhedloedd: [ſef] *cael o un wraig ei dâd. Lefit.18.8.

2 Ac yr ydych chwi wedi ymchwyddo, ac ni alaraſoch yn hytrach, fel y tynnid o'ch myſc chwi y neb a wnaeth y weithred hon.

3 Canys myfi yn ddiau fel abſennol yn y corph etto yn breſennol yn yr yſpryd, a fernais fel pe byddwn breſennol am yr hwn a wnaeth y peth hyn,

4 Gwedi i chwi ymgynnull, a'm hyſpryd inne, yn enw ein Harglwydd Ieſu Griſt, gyd ag awdurdod ein Harglwydd Ieſu Griſt,

5 Ddodi y fath ddyn i Satan, er dinistr ar y cnawd, fel y byddo yr yſpryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Ieſu.

6 Nid da yw eich gorfoledd: * oni wyddoch y ſura ychydig lefain yr holl does? Gal.5.9.

7 Am hynny glanheuwch yr hên lefein, fel y byddoch chwi does newydd, megis yr ydych ddilefeinllyd: canys Criſt ein Paſc ni a aberthwyd troſom ni.

8 Am hynny cadwn wyl, nid â'r hên lefein, na lefein drygioni, ac anwiredd, ond â bara croiw purdeb a gwirionedd.

9 Mi a ſcrifennais attoch mewn llythyr, nad ymgymmyſcech â godinebwyr:

10 Ac nid yn hollawl â godinebwŷr y byd hwn, neu â'r cybyddion, neu â'r cribddeil-wŷr, neu ag eulyn addolwŷr, pe felly rhaid fydde i chwi fyned allan o'r byd:

11 Ond yn awr mi a ſcrifennais attoch, na wneloch ymgyfeillach: os bydd neb a henwir yn frawd yn odineb-wr, neu yn feddw, neu yn eulyn addolwr, neu yn gabl-ŵr, neu yn feddw, neu yn gribddeilwr, gyd â'r cyfryw un ni [ddylech] fwyta:

12 Canys beth ſydd i mi a farnwyf ar y rhai ſy oddi allan? onid y rhai ſy i mewn yr ydych chwi yn eu barnu?

13 Eithr Duw ſydd yn barnu y rhai oddi allan, bwriwch ymmaith gan hynny o'ch plith [y dyn] drygionus hwn.

## PEN. VI.

Paul yn cerryddu y Criſtianogion y rhai oeddynt yn ymgyfreithio o flaen yr Ang-hriſtianogion. 12 Am rydd-did Criſtianogion, 16 ac am waſanaeth Duw.

AFeiddia un o honoch yr hwn y mae iddo fatter ar y llall, ymgyfreithio o flaen y rhai anghyfiawn, ac nid yn hytrach o flaen y ſainct?

2 Oni wyddoch chwi y barna y ſainct y byd?

os trwoch chwi y bernir y byd, ai anaddas ydych chwi i farnu y pethau lleiaf?

3 Oni ŵyddoch chwi y barnwn ni yr angelion, ac oni [farnwn ni] bethau bydol?

4 Os oes gennwch gan hynny farnau bydol, dodwch ar y faingc y rhai gwaelaf yn yr eglwys.

5 Er cywilydd i chwi yr ydwyf yn dywedyd wrthych, onid oes un gŵr doeth yn eich plith: nac un a fedro farnu rhwng [un] a'i frawd?

6 Ond bod y brawd yn ymgyfreithio â'r brawd, a hynny ger bron y rhai angrhedadwy.

7 Am hynny y mae diffyg mawr yn eich plith gan eich bod yn ymgyfreithio âi gilydd,* pa ham yn gynt, nad ydych chwi yn dioddef cam? pa ham nad ydych yn gynt yn cymmeryd colled? Math.5.39. luc.6.29. ruf.12.19. 1.theſſ.4.6.

8 Eithr chwy-chwi ſydd yn gwneuthur cam, ac yn gwneuthur colled, a hynny i'r brodyr.

9 Oni ŵyddoch chwi, na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwŷr, nac eulyn addolwŷr, na thorwŷr pryodas, na drychyll-wŷr, na'r rhai Sodomiaidd,

10 Na lladron, na chybyddion, na meddwō, na difen-wŷr, na chribddeil-wŷr feddiannu teyrnas Dduw.

11 A* hyn fu rhai o honoch chwi, eithr yr ydych chwi wedi eich golchi, eithr wedi eich ſancteiddio, eithr wedi eich cyfiawnhau yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Yſpryd ein Duw ni. Tit.3.3.

12 Pob peth ſydd gyfreithlon i mi, ond nid yw pob peth yn lles-hau, pob peth ſydd gyfreithlon i mi, ond ni byddaf fi gaeth i ddim.

13 Y bwyd i'r bol, a'r bol i'r bwyd, a Duw a ddiniſtria bôb un o'r ddau, ac nid yw y corph i odineb, ond i'r Arglwydd, a'r Arglwydd i'r corph.

14 Canys Duw a gyfododd yr Arglwydd, * ac a'n cyfyd ninnau trwy ei nerth ef. Ruf.6.5.

15 Oni ŵyddoch chwi fod eich cyrph yn aelodau Criſt? gan hynny a gymmeraf fi aelodau Criſt a'u gwneuthur yn aelodau puttain? na atto Duw.

16 Oni ŵyddoch chwi fod yr hwn ſydd yn cydio â phuttain yn un corph? * canys y ddau (eb efe) fyddant un cnawd: Gene.2.24. math.19.5. marc.10.8. epheſ.5.31.

17 Ond yr hwn a gyſylltir â'r Arglwydd un yſpryd yw.

18 Gochelwch odineb, pob pechod a wnelo dŷn, oddi allā ei gorph y mae: ond yr hwn a wna odineb ſydd yn pechu yn erbyn ei gorph ei hun.

19 Oni ŵyddoch chwi * fod eich corph yn deml i'r Yſpryt glân ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, ac nad ydych yn eiddoch chwi eich hunain?

20 * Canys er gwerth y prynwyd chwi: gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich yſpryd y rhai ydynt eiddo Duw. 1.Pet.1.15.

## PEN. VII.

Y mae ſanct Paul yn y bennod ymma oll, yn atteb i'r Corinthiaid yng-hylch priodas, ac yn dangos pa les, a pha afles y mae priodas yn ei beri.

AC am y pethau yr ſcrifennaſoch attaf: da i ddyn na chyffyrddo â gwraig.

2 Ond rhag godineb cymmered pob dŷn ei wraig ei hun, a phob [gwraig] ei gŵr ei hun.

3 *Rhodded y gŵr i'r wraig ddyledus ewyllys dâ, a'r un wedd y wraig i'r gŵr. 1.Pet.3.7.

4 Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorph ei hun, ond i'r gŵr: ac yr un-ffunyd nid oes i'r gŵr feddiant ar ei gorph ei hun, ond i'r wraig.

5 Na ſiommwch ei gilydd, oni bydd peth trwy gydundeb tros amſer, i gael hamdden i ymprydio, ac i weddio: ac eil-waith deuwch yng-hyd rhag i Satan eich temptio, o blegit eich anlladrwydd.

6 A hyn yr wyf yn ei ddywedyd o ymgeledd nid o orchymyn.

7 Canys mynnwn fod pawb fel [yr wyf] finne, eithr y mae i bawb ei ddawn ei hun gan Dduw, i un fel hyn, i arall modd arall.

8 Dywedyd yr wyf wrth y rhai heb eu prioei, a'r gweddwon, mai da iddynt pes arhoent megis fy-fi.

9 Eithr oni allant ymgynnal, priodant, canys gwell yw priodi nag ymloſci.

10 Ac am y rhai ſy wedi eu clymmu trwy briodas nid myfi ſydd yn gorchymyn, ond yr Arglwydd, *nac ymadawed y wraig oddi wrth ei gŵr. Math.5.32. & 19.9. marc.10.11. luc.16.18.

11 Ac os ymedu hi, arhoed heb priodi, neu cymmoder hi â'i gŵr: ac na ollynged y gŵr ei wraig ymmaith.

12 Ac wrth y llall dywedyd yr wyfi, ac nid yr Arglwydd: os bydd i un brawd wraig angrhedadwy, na wrthoded efe mo honi hi, a hithau yn fodlon i aros gyd ag ef.

13 A'r wraig, yr hon y mae iddi ŵr heb gredu, ac yntef yn fodlon i aros gyd â hi, na wrthoded hi ef.

14 Canys y gŵr di-gred a ſancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddi-gred a ſancteiddir trwy y gŵr: pe amgen aflan yn ddiau fydde eich plant, eithr yn awr ſanctaidd ydynt.

15 Eithr os yr angrhedadyn a ymedu, ymadawed, nid yw y brawd neu y chwaer gaeth yn y cyfryw [bethau,] eithr Duw a'n galwodd ni mewn heddwch.

16 O herwydd beth a wyddoſt ti (ô wraig) a gedwi di dy ŵr? a pheth a wyddoſt ti (ô ŵr) a gedwi di dy wraig?

17 Ond megis y darfu i Dduw rannu i bawb, megis y darfu i'r Arglwydd alw pawb, felly rhodied, ac fel hyn yr wyf fi yn ordeinio yn yr eglwyſi oll.

18 Os galwyd neb wedi ei enwaedu: nac ad-gelied [ddienwaediad:] os galwyd neb mewn dienwaediad: nac enwaeder arno.

19 Enwaediad nid yw ddim, a dienwaediad nid yw ddim, ond cadwedigaeth gorchymynnion Duw.

Ephes.4.1. 20 * Arhoſed pob vn yn yr alwedigaeth i'r hon y galwyd ef.

21 Ai yn wâs i'th alwyd: na ſydded gwaeth gennit, etto os gelli gael bod yn rhydd, mwynha [hynny] yn hytrach.

22 Canys y neb a alwyd yn wâs yn yr Arglwydd ſydd rydd i'r Arglwydd: hefyd yr hwn a alwyd yn rhydd, gwâs yw i Griſt.

Pen.6.20. 1.Pet.1.18. 23 * Er gwerth i'ch prynwyd, na ſyddwch weiſion dynion.

24 Y brodyr, arhoſed pob dŷn yn y [cyflwr] y galwyd ef gyd â Duw.

25 Tu ag at am weryſon, nid oes gennif vn gorchymyn gã yr Arglwydd: eithr yr ydwyf yn rhoddi cyngor, fel vn a gafas drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlon.

26 Am hynny tybied yr wyf mai da ydyw, [ie] mai da ydyw tros yr angenrhaid preſennol, i ddŷn fod felly.

27 A wyt ti yn rhwym i wraig? na chais dy ollwng yn rhydd, a wyt ti yn rhydd oddi wrth wraig? na chais wraig.

28 Hefyd os priodaiſt, ni phechaiſt, ac os prioda gweryf, ni phechodd: er hynny y cyfryw a gânt flinder yn y cnawd, eithr yr wyf yn eich arbed chwi.

29 Dywedyd yr wyfi hyn frodyr, am fod yr amſer yn fyrr, y mae yn ôl fod y rhai ſy a gwragedd iddynt megis pe byddent hebddynt,

30 A'r rhai a ŵylant megis heb ŵylo, a'r rhai a lawenhânt fel heb lawenhau, a'r rhai a brynant fel heb feddu,

31 A'r rhai a arferant y byd hwn, megis heb ei gamarfer: canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.

32 Eithr mynnwn eich bod yn ddiofal, yr hwn ſydd heb priodi ſydd yn gofalu am bethau yr Arglwydd: pa wedd y gall fodloni yr Arglwydd:

33 Ond y neb a wreicâodd ſydd yn gofalu am bethau y bŷd, pa wedd y bodlona ei wraig.

34 Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwraig [gŵr] a morwyn, y mae yr hon ſydd heb briodi yn gofalu am y pethau ſydd yn perthyn i'r Arglwydd, fel y byddo hi ſanctaidd mewn corph, ac yſpryd, ac y mae yr hon ſydd wedi priodi yn gofalu am bethau bydol, pa fodd y rhynga hi fodd i'r gŵr.

35 Hyn yr wyf yn ei ddywedyd er lleſâd i chwi, nid i fwrw o honof fagl i chwi, eithr fel y glynoch yn weddus, ac yn dda wrth yr Arglwydd yn ddiwahan.

36 Ond os bydd neb yn tybied fod yn beth anweddaidd yn erbyn ei weryf, od aiff hi tros flodau ei hoedran, a bod yn angenrhaid hynny, gwnaed a fynno, nid yw yn pechu, priodant.

37 Ond yr hwn a ſafo yn ſiccr yn ei galon, ac yn afraid iddo, ac a meddiant ganddo ar ei ewyllys ei hun, ac a fwriadodd hyn yn ei galon, ar gadw o honaw ei weryf, da y mae yn gwneuthur.

38 Ac am hynny, yr hwn ſydd yn [ei] rhoddi yn briod ſydd yn gwneuthur yn dda, a'r hwn nid yw yn ei rhoddi yn briod ſydd yn gwneuthur yn well.

39 * Y mae gwraig yn rhwym trwy y gyfraith tra fyddo byw ei gŵr; ond o bydd marw ei gŵr, y mae hi yn rhydd i briodi y neb a fynno, yn vnic yn yr Arglwydd. Ruf.7.2.

40 Eithr dedwyddach yw hi er hynny os erys hi felly yn fy marn i, * ac yr wyfi yn tybied fod gennif Yſpryd Duw. 1.Theſ.4.8.

## PEN. VIII.

Am aberth i'r eulynnod neu y gau-dduwiau, 9 am gydwybod wan.

AC am y pethau a offrymmer i eulynnod, ni a ŵyddom fod gan bawb o honom ŵybodaeth, gwybodaeth ſydd yn chwyddo, a chariad ſydd yn adailadu.

2 Eithr os yw neb yn tybied ei fod yn gwybod dim, ni ŵyr efe etto ddim fel y dyle ŵybod.

3 Ond od oes neb yn caru Duw, fe a adweinir hwn ganddo ef.

4 Am fwyta yr hyn a aberthir i eulynnodd: ni a ŵyddom nad yw eulyn ddim yn y byd, ac nad oes vn Duw onid vn.

5 Canys er bod rhai a elwir yn dduwiau, yn y nef, ac yn y ddaiar (megis y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer)

6 Er hynny, nid oes i ni ond vn Duw, [ſef] y Tad, o ba vn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef: * ac vn Arglwydd Jeſu Griſt trwy yr hwn [y mae] pob peth, a ninnau trwyddo ef. Ioan.13.13. Iſo.12.3.

7 Ond nid yw yr ŵybodaeth [hon] gan bawb, canys rhai a chanddynt gyd-ŵybod o'r eulyn hyd y pryd hyn, ſydd yn bwyta fel peth a aberthwyd i'r eulyn, ac felly gan fod eu cydwybod yn wan yr halogir hi.

8 Eithr nid yw bwyd yn ein gwneuthur yn gymmeradwy gan Dduw, canys os bytâwn nid ydym ni ddim helaethach, ac onis bytâwn nid ydym ni ddim prinnach.

9 Ond gochelwch rhag i'ch rhydd-did chwi fod yn dramgwydd i'r rhai ſy weiniaid.

10 Canys os gwêl neb dydi yr hwn wyt â gwybodaeth cennit yn eiſtedd i fwyta yn nheml yr eulynnod, onid ydys yn cadarnhau ei gydwybod ef, ac yntef yn wan, i fwyta y pethau a aberthwyd i eulynnod:

11 * Ac a ddifethir trwy dy wybodaeth di y brawd gwan, tros yr hwn y bu Criſt farw: Ruf.14.15.

12 Felly trwy bechu yn erbyn y brodyr, a chan guro eu gwan gydwybod hwynt, yr ydych chwi yn pechu yn erbyn Criſt.

13 * Ac am hynny os fy mrawd a ymrwyſtra er bwyd, ni fwytâf fi gig fyth, rhag i mi beri i'm brawd ymrwyſtro. Ruf.14.21.

## PEN. IX.

Y mae yn ſôn am ei alwedigaeth ei hun, a'i frodyr yr Apoſtolion,

poſtolion, 7 bod i'r gweinidog eglwyſic gael ei fywyd wrth ei wenidogaeth, 16 bod yn rhaid pregethu, 24 dammeg o redeg gyrfa.

ONid wyfi yn Apoſtl? onid wyfi yn rhydd? oni welais i Ieſu Griſt ein Arglwydd? onid fyng-waith i ydych chwi yn yr Arglwydd?

2 Pe byddwn i heb fod yn Apoſtol i eraill, etto yr wyfi i chwi: canys ſêl fy apoſtoliaeth i ydych yn yr Arglwydd.

3 Fy atteb i i'r rhai a'm holant, yw hyn:

4 Onid oes i ni awdurdod i fwyta ac i yfed?

5 Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch wraig [a fydde] chwaer, fel yr Apoſtolion eraill, a brodyr yr Arglwydd, a Chephas?

6 Ai myfi yn unic a Barnabas ſy heb fod gennym rydd-did na weithiom?

7 Pwy erioed a ryfelodd ar ei draul ei hun? pwy ſydd yn plannu gwinllan, ac heb fwyta o'i ffrwyth hi? neu pwy ſydd yn porthi praidd, ac heb fwyta o laeth y praidd?

8 A'i yn ddynol yr wyfi yn dywedyd hyn? onid yw y ddeddf hefyd yn dywedyd hyn?

9 Canys ſcrifennedic yw yn neddf Moſes: * na rwym ſafn yr ŷch yr hwn ſydd yn dyrnu, a'i tros ychen y mae Duw yn gofalu?

Deut.25.4.
1.Tim.5.18.

10 A'i ynte yn hollawl er ein mwyn ni, y mae efe yn dywedyd hyn? er ein mwyn ni yn ddiau yr ſcrifennwyd, y dyle yr ardd-wr aredig mewn gobaith, ac y bydd yr hwn ſydd yn dyrnu tann obaith, yn gyfrannog o'i obaith.

Ruf.15.27.

11 * Os hauaſom i chwi bethau yſprydol, a'i mawr yw, os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?

12 Os yw eraill yn cael awdurdod arnoch, oni [ddylem] ni yn hytrach? er hynny nid arferaſom ni mo'r awdurdod hon: ond goddef yr ydym i bob peth, rhag i ni roddi dim rhwyſtr i Efengyl Griſt.

Deut.18.1.

13 * Oni ẃyddoch chwi fod y rhai y ſy yn gwneuthur pethau cyſſygredic, yn bwyta [pethau] o'r cyſſegr: ac y mae y rhai ſy yn gwaſanaethu yr allor, yn gyfrannogion o'r allor?

14 Yr un wedd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai a bregethant yr Efengyl, fyw wrth yr Efengyl.

15 Ond nid arferais i ddim o hyn: ac nid ſcrifennais y pethau hyn, i gael gwneuthur hyn i mi: canys gwell fydde i mi farw nâ gwneuthur o neb fyng-orfoledd yn ofer.

16 O blegit os pregethaf, nid oes i mi [achos] i orfoleddu, o herwydd anghenrhaid yw i mi, a gwae fyfi oni phregethaf.

17 Canys os gwnaf fi hyn o'm bodd, y mae i mi wobr: ond os o'm hanfodd, ymddyriedwyd i mi am orchwyl.

18 Pa wobr ſydd i mi gan hynny? [cael] pan bregethwyf oſod o honof Efengyl Griſt yn rhâd, fel na cham-arferwyf fy awdurdod yn yr Efengyl.

19 Canys er fy mod yn rhydd oddi wrth bawb, mi a'm gwneuthym fy hun yn weinidog i bawb, fel yr ennillwn fwy.

Act.16.3.

20* Ac i'r Iddewon mi a aethym fel Iddew i ennill yr Iddewon, i'r rhai ſy tann y ddeddf, fel [un] tann y ddeddf, fel yr ennillwn y rhai ſy tann y ddeddf:

21 I'r rhai di-ddeddf, fel [un] di-ddeddf (a minne heb fod yn ddi-ddeddf i Dduw, ond tann y ddeddf i Griſt) fel yr ennillwn y rhai di-ddeddf.

22 I'r rhai gweiniaid yr aethym yn wann, fel yr ennillwn y gweiniaid: mi a ymwneuthym yn bob peth i bawb, fel y gallwn yn hollawl gadw rhai.

23 A hyn yr wyfi yn ei wneuthur er mwyn yr Efengyl: fel i'm gwneler yn gyfrannog o honi.

*Yr Epyſtol ar y Sul a elwir Septuageſima.*

24 ☞ Oni ŵyddoch chwi am y rhai ſy yn rhedeg mewn gyrfa, fod pawb yn rhedeg, ond bod un yn myned â'r gamp? felly rhedwch fel yr ennilloch.

25 Hefyd y mae pob un a ymdrecho am gamp, yn ymgadw rhag pob dim, ac hwynt oll er mwyn cael coron ddarfodedic, a ninnau un annarfodedic.

26 Am hynny yr wyfi felly yn rhedeg, nid ar amcan, felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr.

27 Ond yr wyfi yn coſpi fyng-horph, ac yn ei ddaroſtwng i waſanaeth, rhag mewn un modd wedi i mi bregethu i eraill, fy mod fy hunan yn anghymmeradwy. ☜

## PEN. X.

Y mae efe gan eu hofni hwynt â ſiamplau eu henafiaid gynt, 14 yn eu hannog i ochelud gan-dduwiaeth, 23 a rhoddi rhwyſtr neu dramgwydd.

*Yr Epyſtol ar y ix. Sul yn ôl y Drindod.*

☞ HEfyd frodyr ni fynnwn na's gwyddech * fod ein tadau tann y cwmwl * a'u myned oll trwy y môr,

2 A'u bedyddio hwy oll i Moſes yn y cwmwl a'r môr:

Exod.13.21.
Num.9.19.
Exod.14.22.
Exod.17.6.
Num.20.10.

3 A bwyta o bawb yr un bwyd yſprydol,

4 * Ac yfed o bawb yr un ddiod yſprydol (canys hwy a yfaſant o'r graig yſprydol a oedd yn canlyn a'r graig oedd Criſt)

5 Eithr ni bu fodlon gan Dduw y rhan fwyaf o honynt: * canys cwympwyd hwynt yn y diffaethwch.

Num.26.65.

6 A hyn a wnaed yn ſiampl i ni, fel na * chwennychem ddrygioni, fel y chwennychaſant hwy.

Num.11.5.
Pſal.106.14.

7 Na fyddwch chwithau addol-wŷr culynnod, fel rhai o honynt hwy, megis y mae yn ſcrifennedic: * eiſteddodd y bobl i fwyta, ac i yfed, ac a gyfodaſant i chwareu.

Exod.32.6.

8 Ac na odinebwn ni, * fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y ſyrthiodd yn un dydd dair mîl ar hugain.

Num.25.9.

9 * Ac na themtiwn Griſt megis y temtiodd rhai o honynt hwy, ac eu deſtruwiwyd gã ſeirph

Num.21.6.
Pſal.106.14.

10 Ac na rwgnechwch megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac e'u deſtruwiwyd

Num.24.37.

gan y diniſtrydd.

11 A'r pethau hyn oll a ddigwyddaſant yn ſiampl iddynt hwy, ac a ſcrifennwyd yn rhybudd i ninnau, ar ba rai y daeth terfynau yr oeſoedd.

12 Am hynny yr hwn ſydd yn tybied ei fod yn ſefyll, edryched na ſyrthio.

13 Nid ymaflodd ynoch demtaſiwn, onid un dynol, eithr ffyddlon yw Duw yr hwn ~~ni âd~~ eich temtio uwch-law yr hyn a alloch, eithr gyd â'r temptaſiwn y gwna efe ddiangfa fel y galloch ei ddwyn. ☜

14 Am hynny fy annwylyd gochelwch addoliad eulynod.

15 Dywedyd yr wyf fel wrth rai pwyllog: bernwch chwi beth yr wyf fi yn ei ddywedyd.

16 Phiol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Criſt yw? y bara yr hwn a dorrwn, onid cymmu corph Criſt yw?

17 O blegit nyni yn llawer ydym un bara [ac] un corph, canys yr ydym ni oll yn gyfrannogion o'r un bara.

18 Edrychwch ar Iſrael yr hwn ſydd o herwydd y cnawd, onid yw y rhai-ſy yn bwyta yr ebyrth yn gyfrannogion o'r allor?

19 Beth yr ydwyf yn ei ddywedyd wrth hynny? ai bod yr eulyn yn ddim, neu'r peth a aberthwyd i'r eulyn yn ddim?

20 Ond y pethau y mae y cenhedloedd yn eu haberthu i'r cythreuliaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw: ni fynnwn i chwi fod yn gyfrannogion o'r cythreuliaid.

21 Ni ellwch yfed o phiol yr Arglwydd, a phiol y cythreuliaid: ni ellwch fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd, a bord y cythreuliaid.

22 A-ydym ni yn annog yr Arglwydd i ddig? a ydym ni yn gadarnach nag ef?

Eccleſ'37.27. 23 *Pôb peth ſydd gyfreithlawn i mi eithr nid yw pôb peth yn gwneuthur lleſâd: pob peth ſydd gyfreithlon i mi, eithr nid yw pob peth yn adeiladu.

24 Na cheiſied neb ei fudd ei hun: ond pawb yr eiddo arall.

25 Beth bynnag a werthir yn y gigfâ bwytewch heb ofyn dim er mwyn cydwybod.

Pſal.24.1. 26 *Canys yr Arglwydd piau y ddaiar a'i chyflawnder oll.

27 Os bydd i neb o'r anffyddlonion eich gwahodd, a chwi yn myned, bwytewch beth bynnag a rodder ger eich bron, heb ymofyn dim er cydwybod.

28 Eithr os dywed neb wrthych: peth wedi ei offrymmu i eulyn yw hwn, na fwyta er mwyn y neb a ddangoſodd, ac er mwyn cydwybod: canys yr Arglwydd piau y ddaiar a'i chyflawnder.

29 Cydwybod meddaf nid yr eiddot ti, ond arall: canys pa ham y bernir fy rhydd-did i gan gydwybod arall?

30 Ac os myfi trwy ddiolch a gymmeraf gyfran, pa ham i'm ceblir am y peth yr wyf yn ddiolchgar. Coloſſ.3.17.

31 *Am hynny pa un bynnag a wneloch ai bwyta, ai yfed, ai peth arall, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.

32 Byddwch ddiachos tramgwydd i'r Iddewon, ac i'r cenhedloedd, ac i eglwys Dduw:

33 Megis yr wyf fi yn rhyngu bodd i bawb ym mhôb pêth, heb geiſio fy lleſâd fy hunan, ond lleſâd llaweroedd, fel y byddant gadwedig.

## PEN. XI.

Beiau y Corinthiaid wrth weddio, pregethu, a dyfod i ſwpper yr Arglwydd: 23 Ordeinhâd cyntaf y ſwpper hwn.

2.Theſſ.3.9. Byddwch *ddilyn-wŷr i mi, megis yr wyf fi i Griſt.

2 Eich clodfori yr wyf (frodyr) o herwydd i chwi gofio fy holl [athrawiaeth] a chadw y traddodiadiau fel y traddodais i chwi.

Epheſ.5.23. 3 Hefyd mi a ewyllyſiwn i chwi ŵybod *fod Criſt yn ben pob gŵr, a'r gŵr yn ben i'r wraig, a Duw yn ben i Griſt.

4 Pob gŵr yn gweddio neu yn prophwydo â gwiſc am ei ben, ſydd yn amherchi ei ben.

5 Eithr pob gwraig yn gweddio neu yn prophwydo yn bennoeth, ſydd yn amherchi ei phen: canys un wedd yw, a phe bydde wedi ei heillio.

6 Canys oni wiſc gwraig am ei phen cneiſier hi, ac os brwnt i wraig ei chneiſio, neu ei heillio, gwiſced.

Gen.5.1. &9.6. 7 Canys ni ddyle gŵr wiſco am ei ben am ei fod *yn ddelw a gogonedd Duw, a'r wraig yw gogoniant ei gŵr.

8 Canys nid yw y gŵr o'r wraig, eithr y wraig ſydd o'r gŵr.

Gen.2.22. 9 *Ac ni wnaed y gŵr er mwyn y wraig, eithr y wraig er mwyn y gŵr.

10 Am hynny y dyle y wraig fod ganddi awdurdod ar ei phen er mwyn yr angelion.

11 Er hynny nid [yw] y gŵr heb y wraig, na'r wraig heb y gŵr yn yr Arglwydd.

12 Canys un wedd ac [y mae] y wraig o'r gŵr, felly [y mae] y gŵr drwy y wraig a phob peth [ſydd] o Dduw.

13 Bernwch ynoch eich hunain, ai hardd yw i wraig weddio Duw yn bennoeth?

14 Ond yw naturiaeth yn dyſcu hyn i chwi, os gwalltlaes a fydd gŵr mai anhardd yw iddo.

15 Ac o'r gwrthwyneb, gogonedd yw i wraig fod yn wallt-laes: canys ei gwallt a ddodwyd yn orchgudd iddi.

16 Od oes neb a fyn fod yn ymryſongar, nid oes gennym ni gyfryw ddefod, na chan eglwyſi Duw.

☞ 17 Hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd heb eich canmol, eich bôd yn ymgynnull nid i wellhau ond i waethygu. *Yr Epiſtol ar ddydd Iau cyny Paſc.*

18 Canys yn gyntaf pann ymgynhulloch yn yr eglwys, yr ydwyf yn clywed fod anghydfod yn eich myſc chwi, ac o rann yr wyf fi yn credu.

19 O herwydd rhaid yw bod yn eich mysc trawſ-opinionau, megis y byddo yn eglur y rhai cymmeradwy yn eich plith chwi.

20 Am hynny pan ddeloch yng-hyd, ni cheir bwytta ſwpper yꝛ Arglwydd.

21 Canys pawb a fwyttu ei ſwpper ei hun o'ꝛ blaen, ac vn ſydd a newyn arno, ac arall ſydd yn feddw.

22 Onid oes gennych dai i fwytta ac i yfed ynddynt ; ai dyꝛmygu yꝛ ydych chwi eglwys Dduw ? ac a ydych chwi yn gwꝛadwyddo y rhai nid oes ganddynt ; pa beth a ddywedaf wꝛthych ; a ganmolaf i chwi yn hyn ; na chanmolaf.

23 Canys gan yꝛ Arglwydd y derbyniais y peth a dꝛaddodais i chwi, bod i'r Arglwydd Ieſu y nos y bꝛadychwyd ef, gymmeryd bara,

Math.26.26.
marc.14.22.
luc.22.19.

24 * A chan ddiolch efe a'i toꝛrodd, ac a ddywedodd: cymmerwch bwytewch hwn yw fyng-hoꝛph yꝛ hwn a doꝛrwyd troſoch, gwnewch hynn er coffa am danaf.

25 A'r vn modd [y cymmerodd efe] y cwppan wedi ſwpper, gan ddywedyd, y cwppan hwn yw 'r teſtament newydd yn fyng-waed, gwnewch hynn cynifer gwaith bynnac yꝛ yfoch er coffa am danaf.

26 Canys cynifer gwaith bynnac y bwytaoch y bara hwn, ac yꝛ yfoch y cwppan hwn y dangoſwch farwolaeth yꝛ Arglwydd hyd oni ddelo.

27 Am hynny pwy bynnac a fwytâo y bara hwn, ac a yfo gwppan yꝛ Arglwydd yn anheilwng, euog fydd o goꝛph a gwaed yꝛ Arglwydd.

2.Cor.13.5.

28 * Eithꝛ pꝛofed dŷn ef ei hun, ac felly bwytaed o'ꝛ bara, ac yfed o'ꝛ cwppan.

29 Canys yꝛ hwn ſydd yn bwytta, ac yn yfed yn anheilwng, ſydd yn bwyta, ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu coꝛph yꝛ Arglwydd.

30 O blegit hyn y mae llawer yn weiniaid ac yn lleſc yn eich mysc, a llawer yn huno.

31 Canys pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bernid.

32 Eithꝛ pan ein bernir ein coſpir gan yꝛ Arglwydd, rhag ein damnio gyd â'r bŷd.

33 Am hynny fy mrodyꝛ, pan ddeloch yng-hyd i fwytta, arhoſwch eu gylydd.

34 Eithꝛ os bydd newyn ar neb, bwytaed gartref, rhag i chwi ymgaſclu i farnedigaeth : ac am bethau eraill mi a'u trefnaf pan ddelwyf.

## PEN. XII.

Bod amryw ddnoniau yn yr eglwys er lleſâd cyffredinol fel y mae amryw aelodau yn y corph.

*Yr Epiſtol y decfed Sul ar ol y Drindod.*

☞ EIthꝛ am yſpꝛydol ddõniau (frodyꝛ) ni fynnwn i chwi na's gŵyddech.

2 Chwi a ŵyddoch mai cenhedloedd oeddech, y rhai a ddygid at eulynnod mudion, fel eich tywysid.

Marc.9.39.
ioan.13,13.
philip.2.11.

3 Am hynny yꝛ wyf yn yſpyſu i chwi, nad oes neb * yn lleſaru trwy Yſpꝛyd Duw, yn galw yꝛ Ieſu yn eſcymmun-beth : ac nad oes neb a all ddywedyd yꝛ Arglwydd Ieſu, eithꝛ yn yꝛ Yſpꝛyd glân.

4 Ac y mae amryw ddonniau, eithꝛ yꝛ vn Yſpꝛyd.

5 Ac y mae amryw weinidogaethau, eithꝛ yꝛ vn Arglwydd.

6 Ac y mae amryw weithꝛediadau, ond yꝛ vn Duw ſydd yn gweithꝛedu pob peth ym mhawb.

7 Eithꝛ eglurhad yꝛ Yſpꝛyd a roddir i bob vn er lleſ-hâd.

8 Sef i vn y rhoddir trwy yꝛ Yſpꝛyd ymadꝛodd doethineb, ac i arall ymadꝛodd gŵybodaeth trwy yꝛ vn Yſpꝛyd.

9 Ac i arall ffydd trwy yꝛ vn Yſpꝛyd, ac i arall donniau i iachau trwy yꝛ vn Yſpꝛyd.

10 Ac i arall wneuthur gwꝛthiau, i arall pꝛophwydoliaeth, ac i arall iawn wahaniaeth yſpꝛydoedd, ac i arall amryw dafodau, ac i arall gyfieithiad tafodau.

Ruf.12.4.
ephes.4.8.

11 * A'r holl bethau hyn a weithꝛeda yꝛ vn rhyw Yſpꝛyd can rannu i bob vn ar naillou megis yꝛ ewyllyſia efe. ☞

12 Canys megis y mae vn coꝛph ac iddo lawer o aelodau, a holl aelodau vn coꝛph cyd baent lawer, ydynt vn coꝛph, felly [y mae] Criſt hefyd.

13 O herwydd trwy yꝛ vn Yſpꝛyd i'n bedyddiwyd yn vn coꝛph, pa vn bynnag ai Iddewon ai Gꝛoegwyꝛ, ai caethion, ai rhyddion, ac ni a wnaethbwyd i fod yn yꝛ vn Yſpꝛyd.

14 Canys nid yw y coꝛph vn aelod, eithꝛ llawer,

15 O dywed y troed, can nad wyf y llaw, nid wyf o'ꝛ coꝛph, ai am hynny nid yw efe o'ꝛ coꝛph;

16 Os dywed y gluſt, can nad wyf lygad, nid wyf o'ꝛ coꝛph, ai am hynny nid yw hi o'ꝛ coꝛph;

17 Os yꝛ holl goꝛph fydde lygad, pa le y bydde y clywed ; neu os y cwbl fydde clywed, pa le [y bydde] yꝛ arogliad;

18 Eithꝛ yꝛ awꝛ hon Duw a oſododd yꝛ aelodau, pob vn o honynt yn y coꝛph wꝛth ei ewyllys ef,

19 Canys pe baent oll vn aelod, pa le y bydde y coꝛph;

20 Yꝛ awꝛ hon y mae aelodau lawer, eithꝛ vn coꝛph.

21 Ac ni all y llygad ddywedyd wꝛth y llaw, nid rhaid i mi wꝛthit, nac eil-waith y pen wꝛth y traed, nid rhaid i mi wꝛthych:

22 Eithꝛ yn fwy hytrach oll, yꝛ aelodau hynny a dybir eu bod yn waelaf, ydynt yn angenrheidiaf.

23 A'r [aelodau] i'r coꝛph y rhai a dybiwn yn amharchedicaf y goſodwn fwy o barch yn eu cylch, a'n haelodau anhardd ſy â mwy harddwch ganddynt.

24 Sef afraid yw [hynny] i'n [haelodau] hardd ni, eithꝛ Duw a gyd-dymherodd y coꝛph, can roddi mwy o barch i'r [lle] yꝛ oedd yn ddeffygiol:

25 Rhag bod anghydfod yn y coꝛph, eithꝛ

bod i'r aelodau ofalu tros eu gilydd yr vn peth.

26 Ac os doluria vn aelod, yr holl aelodau a gyd-ddoluriant, os anrhydeddir vn aelod, yr holl aelodau a gyd-lawenhânt.

27 Ac chwi ydych yn gorph Criſt, ac yn aelodau mewn rhann.

Ephes.4.11. 28 *A Duw a oſododd rai yn yr eglwys, yn gyntaf Apoſtolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon, yna y rhai a wnaant wyrthiau, wedi hynny doniau i iachâu, cynhorthwy-wŷr, llywodraeth-wŷr, rhywiogaethau ieithoedd.

29 Ai Apoſtolion pawb? ai prophwydi pawb? ai athrawō pawb? a wna pawb wyrthiau?

30 A oes gan bawb ddonniau i iachau? a yw pawb yn llefaru â thafodau? a yw pawb yn cyfieithu?

31 Eithr deiſyfiwch y donniau goref, ac etto yr wyf yn dangos i chwi ffordd dra rhagorol.

## P E N. XIII.

Naturiaeth, grym, a mawl cariad perffaith.

☞ PE llefarwn â thafodau dynion, ac angelion, a mi heb gariad gennif, yr wyf fel efydd yn ſeinio, neu cymbal yn tingcian.

2 A phe bydde gennif brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth, a phe bae gennif yr holl ffydd, fel y gallwn
Math.17.20. Luc.17.6. ſymmudo * mynyddoedd, ac heb fod gennif gariad, nid wyfi ddim.

3 A phe porthwn y tlodion â'm holl dda, a phe rhoddwn fyng-horph i'm lloſci, a heb gariad gennif, ni wnai [hyn] ddim lleſâd imi.

4 Cariad ſydd ddioddefus, cariad ſydd gymwynaſcar, cariad ni chenfigenna, cariad nid yw anhydyn, nid yw yn ymchwyddo:

5 Nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceiſio yr eiddi ei hunan, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg:

6 Nid yw lawen am anghyfiawnder, onid cydlawenhau y mae â'r gwirionedd.

7 Y mae yn goddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim.

8 Cariad byth ni chwymp ymmaith, er pallu prophwydoliaethau, a pheidio tafodau, a diflannu gŵybodaeth.

9 Canys o rann y gwyddom, ac o rann yr ydym yn prophwydo,

10 Eithr pan ddelo yr hyn ſydd berffaith, yna yr hyn ſydd o rann a ddeleuir.

11 Pan oeddwn yn fachgen, fel bachgen yr ymodiddanwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddyliwn: ond pan aethym yn ŵr, mi a rois heibio fachgeneiddrwydd.

12 Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych mewn dammeg, ac yna y gwelwn ŵyneb yn ŵyneb: yn awr yr adwaen o ran, ond yna yr adnabyddaf megis i'm hadwaenir.

13 Yr awr hon y mae yn aros, ffydd, gobaith, a chariad, y tri hyn, a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.

## P E N. XIIII.

Yng-hylch traethu iaith anheallgar, a phrophwydo mewn iaith eglur, er lleſ-hâd i'r gynnulleidfa, a'r rhagoriaeth rhwng dieithr ieithoedd, a phrophwydoliaeth, 30 trefn yng-hylch pregethu.

DIlynwch gariad, a deiſyfiwch [ddonniau] yſprydol, ac yn fwyaf fel y prophwydoch.

2 Canys yr hwn a lefaro â thafod [dieithr] nid wrth ddynion y mae yn llefaru, onid wrth Dduw: canys nid oes neb yn gwrando, er hynny yn yr yſpryd y mae efe yn dywedyd dirgeledigaethau.

3 Eithr yr hwn ſydd yn prophwydo, ſydd yn llefaru wrth ddynion er adailad, ac er cyngor a chyſſur.

4 Yr hwn ſydd yn llefaru mewn tafod [dieithr] ſydd yn ei adailadu ei hunan, eithr yr hwn a brophwydo ſydd yn adailadu yr eglwys.

5 Mi a fynnwn ye llefarech chwi oll â thafodau [dieithr,] ond yn fwy ye prophwydech: canys mwy yw yr hwn ſydd yn prophwydo, nâ'r hwn ſydd yn llefaru â thafodau, oddi eithr iddo [ei] gyfieithu, fel y gallo y gynnulleidfa dderbyn adailadaeth.

6 Ac yr awr hon frodyr, os deuaf attoch gan lefaru amrafael dafodau, pa leſâd a wnaf i chwi, oni ymddiddanaf â chwi trwy weledigaeth, neu trwy ŵybodaeth, neu trwy brophwydoliaeth, neu trwy athrawiaeth?

7 Hefyd pethau dianadl pan roddant ſain, pa vn bynnac ai chwibanogl, ai telyn, oni roddant wahaniaeth yn y ſain, pa wedd y gwyddir beth a genir ar y chwibanogl, neu ar y delyn?

8 Canys os yr vdcorn a rydd lais anhynod, pwy a ymbaratoa i ryfel?

9 Felly chwithau oni ymddiddenwch trwy dafodiaith gydnabyddus, pa wedd y deal'ir y peth a ddywedir, canys chwi a fyddwch yn ſiarad i'r awyr?

10 Y mae cymmaint o leiſiau (fel y digwydd) yn y byd, ac nid oes vn yn [aflafar.]

11 Am hynny oni wn i rym y llais, myfi a fyddaf eſtron-iaithus i'r vn a fyddo yn ymddiddan: a'r neb a ymddiddano [a fydd] ddieithr-iaithus i minne.

12 A chwithau gan eich bod mewn awydd i yſprydoliaethau, ceiſiwch ragori tu ag at adailadaeth yr eglwys.

13 Am hynny gweddied y tafod-wr ar allu o honaw ef [ei] gyfieithu.

14 Os myfi a weddiaf â thafod, y mae fy yſpryd yn gweddio, ond y mae fy neall heb ffrwyth

15 Beth gan hynny yw'r [peth?] gweddiaf â'r Yſpryd, a gweddiaf â'r deall hefyd: canaf â'r Yſpryd, a chanaf â'r deall hefyd.

16 Canys pan fendigech trwy yr Yſpryd, pa wedd y dywed yr hwn ſydd yn lle yr annyſcedic amên, ar dy ddodiad diolch, gan na's gŵyr beth a ddywedi?

17 Canys da yr wyt ti yn diolch, onid nid yw y llall yn cael ei adailadu.

18 Yr ydwyf yn diolch i'm Duw fy mod yn

llefaru â thafodau [dieithr] yn fwy nâ chwi oll.

19 Ond er hynny gwell gennif ddywedyd yn yr eglwys bump gair a'm deall, er mwyn dyſcu eraill, na dêc mil o eiriau mewn tafod [dieithr.]

Math.18.3.

20 O frodyr, na fyddwch * fechgyn mewn deall, eithr mewn drygioni byddwch blant, ond mewn deall byddwch berffaith.

Eſay 28.11.
Ierem.5.15.
Ezech.3.6.

21 Yn y ddeddf y mae yn ſcrifennedic, o herwydd * trwy rai o ddieithr dafodiaeth, ac â gweſuſau eſtronol yr ymddiddanaf â'r bobl hyn, ac er hynny ni'm gwrandawant felly, medd yr Arglwydd.

22 Am hynny tafodau ydynt yn arwydd nid i'r rhai ſy yn credu, ond i'r rhai anghredadwy: eithr prophwydoliaeth nid i'r angredadwy, eithr i'r rhai ſydd yn credu.

23 Am hynny pan ddêl yr eglwys yng-hyd oll, a phawb yn llefaru â thafodau, a dyfod i mewn rai annyſcedic neu anghredadwy, oni ddywedant mai ynfydu yr ydych?

24 Eithr pe prophwyde pawb, a dyfod i mewn o anghredadyn ne annyſcedic, efe a argyoeddid gan bawb, [ac] a fernid gan bawb.

25 Ac felly yr amlygid dirgeloedd ei galon, ac felly y ſyrthie ar ei wyneb, ac yr addole Dduw, ac y dywede mai Duw ſydd ynoch yn ddiau.

26 Beth gan hynny yw [hyn] frodyr? pan ddeloch yng-hyd, pob vn ſydd ganddo pſalm, ſydd ganddo athrawiaeth, ſydd ganddo dafodiaeth, ſydd ganddo weledigaeth, ſydd ganddo gyfieithiad, gwneler pob peth er adailadaeth.

27 Os llefara neb â thafod [dieithr gwneler] bob yn ddau, neu o'r mwyaf [bob] yn dri, a [hynny] ar gylch, a chyfieithed vn.

28 Oni bydd lladmerudd, tawed yn yr eglwys, dyweded rhyngddo ag ef ei hun, ac â Duw

29 Llefared y prophwydi [bob yn] ddau neu dri, a barned y llaill.

30 Ac os datguddir [dim i arall] yn eiſtedd [yno,] tawed y cyntaf.

31 Canys chwi a ellwch oll brophwydo bob vn ac vn, fel y dyſco pawb, ac y cyſſurer pawb.

32 Ac yſprydoedd y prophwydi ſy ddaroſtyngedic i'r prophwydi.

33 Canys nid ydyw [Duw yn awdur] ymryſon, eithr tangneddyf: fel yn holl eglwyſydd y ſainct [yr ydwyf yn dyſcu.]

1.Tim.2.11.

34 * Tawed eich gwragedd yn yr eglwyſi, am na chanihadwyd iddynt lefaru, ond ymddaroſtwng, * megis ac y mae y gyfraith yn dywedyd.

Gen.3.16.

35 Ac os mynnant ddyſcu dim, ymofynnant â'u gwŷr gartref, o blegit brwnt yw i wragedd lefaru yn yr eglwys.

36 A'i oddi wrthych chwi yr aeth gair Duw [allan?] neu a'i attoch chwi yn vnic y daeth efe?

37 Os ydyw neb yn tybied ei fod yn brophwyd, ne yn yſprydol, cydnabydded y pethau yr wyf yn eu ſcrifennu attoch, eu bod yn orchymynnion yr Arglwydd.

38 Eithr od yw neb heb wŷbod, bydded heb wŷbod.

39 Am hynny frodyr, byddwch awyddus i brophwydo, ac na waherddwch lefaru â thafodau [dieithr.]

40 Gwneler pob beth yn weddaidd, ac mewn trefn.

## PEN. XV.

Ailgyfodiad y meirw, 4 ailgyfodiaid Criſt, 24 gorchfygiad angeu, 34 dull yr ail gyfodiad cyffredin, 57 diolch am ein goruchafiaeth yſprydol.

*Yr Epyſtol y ar yr vnfed Sul ar ddeg yn ôl y Drindod.*

Gal.1.11.

☞ * HEfyd yr ydwyf yn yſpyſu i chwi (frodyr) yr Efengyl yr hon a bregethais i chwi, yr hon hefyd a dderbyniaſoch, ac yn yr hon yr ydych yn ſefyll,

2 Trwy yr hon i'ch cedwir os ydych yn dal [yn eich cof] pa ymadrodd a bregethais i chwi, oddi eithr darfod i chwi gredu yn ofer.

3 Canys yn gyntaf mi a draddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: farw o Griſt tros ein pechodau, * yn ôl yr ſcrythyrau,

Eſay 53.5.
1.Pet.2.24.

4 A'i gladdu ef, a'i gyfodi ef y trydydd dydd yn ôl yr ſcrythyrau,

Ioan.20.19.
Act.9.4.

5 * A'i weled ef gan Cephas, yna gan y deuddec.

6 Wedi hynny y gwelwyd ef gan fwy nâ phum-cant brodyr [ar] vn-waith, o ba rai y mae rhai yn aros hyd yn hyn, eithr rhai a hunaſant.

7 Wedi hynny y gwelwyd gan Iacob, yna gan yr holl Apoſtolion.

8 * Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd gennif finne hefyd, fel vn anhymic.

9 Canys myfi ydwyf y lleiaf o'r Apoſtolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn Apoſtol, am i mi erlid eglwys Dduw.

10 Eithr trwy râs Duw yr wyf yr hyn ydwyf, a'i râs ef yr hwn ſydd ynof ni bu yn ofer, ond mi a lafuriais yn helaethach nâ hwynt oll, ac nid myfi chwaith, ond grâs Duw yr hwn ſydd gyd â mi.

11 Am hynny pa vn bynnac, ai myfi, ai hwynt hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credaſoch chwi. ☜

12 Ac os pregethir cyfodi Criſt o feirw, pa fodd y dywed rhai o'ch plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw.

13 Canys onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Criſt chwaith.

14 Ac os Criſt ni chyfodwyd, ofer yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau.

15 Yna ein ceffir ni yn gaudyſtion yn erbyn Duw: canys tyſtiaſom am Dduw, ddarfod iddo gyfodi Criſt i fynu, yr hwn ni's cyfododd, oni chyfodir y meirw.

16 Canys os y meirw ni chyfodir, Criſt hefyd ne chyfodwyd.

17 Ac os Criſt ni chyfodwyd, ofer yw eich ffydd chwi: yr ydych [yn aros] etto yn eich pechodau.

18 Ac felly y rhai ſy wedi huno yng-Hriſt a gyfrgollwyd.

19 Os yn y byd yma yn unic y gobeithiwn yng-Hriſt, truanaf o'r holl ddyniõ ydym ni.

20 Eithr yn awr Criſt a gyfodwyd o'r meirw, [ac] a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunaſant.

21 O herwydd gan [fod] marwolaeth trwy ddŷn, trwy ddyn hefyd y [mae] adgyfodiad y meirw.

22 O blegit, megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly yng-Hriſt y bywheir pawb.

23 Eithr pob un yn ei drefn ei hunan y blaenffrwyth yw Criſt, wedi hynny y rhai ydynt eiddo Criſt yn ei ddyfodiad ef.

24 Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad, wedi iddo ddeleu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.

25 Canys rhaid iddo deyrnasu * oni oſtyngo ei elynion oll tann ei draed.

Pſal.110.1.
act.2.34.
heb.1.13.

26 Y gelyn diweddaf a ddiniſtrir ſydd angeu.

27 * Canys efe a ddaroſtyngodd bob dim tãn ei draed ef, eithr pan yw yn dywedyd ddarfod goſtwng pob peth [iddo ef,] y mae yn amlwg ei fod efe wedi ei ddieithro, yr hwn a ddaroſtyngodd bob peth tano.

Pſal.8.6.
heb.2.8.

28 Ac wedi daroſtwng pob dim iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddaroſtyngir i'r hwn a ddaroſtyngodd bob dim tano ef, fel y byddo Duw oll yn oll.

29 Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir tros y meirw, os y meirw ni chyfodir? a pha ham y bedyddir hwynt tros y meirw?

30 A pha ham ein peryglir bob awr?

31 Yr wyf yn marw beunydd, gan eich gorfoledd yr hon ſydd gennif yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd.

32 Os yn-ol dull dŷn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Ephesus, pa leſ-hâd ſydd i mi oni chyfodir y meirw? bwytawn ac yfwn, canys y foru ni a fyddwn feirw.

Eſai.22.13.
doeth.2.6.

33 Na cham-gymmerwch, ymadroddion drwg a lygrant foeſau da.

34 Deffroiwch yn gyfiawn, ac na phechwch, canys y mae rhai ni adwaenant Dduw: er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd [hyn.]

35 Eithr rhyw un a ddywed: pa fodd y cyfodir y meirw? â pha ryw gorph y deuant?

36 Oh ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheuir oni bydd efe marw.

37 A'r peth yr wyt yn ei hau: nid wyt yn hau y corph a fydd, eithr y gronyn noeth, fel y digwyddo o wenith, neu o ryw rawn eraill.

38 Eithr Duw a rydd iddo gorph, fel y byddo da gandddo ef, ac i bob hedyn ei gorph ei hun.

39 Nid pob cnawd ſydd un rhyw gnawd, eithr un [cnawd ſydd] i ddynion, arall i anifeiliaid, arall i byſcod, ac arall i adar.

40 Y mae hefyd cyrph nefol, a chyrph daiarol, ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daiarol.

41 Arall [yw] gogoniant yr haul, arall [yw] gogoniant y lloer, arall [yw] gogoniant y ſêr: canys y mae rhagor rhwng ſeren a ſeren mewn gogoniant.

42 Felly y mae adgyfodiad y meirw: y corph a hauir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth.

43 Efe a hauir mewn ammarch, ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a hauir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth: efe a hauir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph yſprydol.

44 Y mae corph anianol, ac y mae corph yſprydol.

45 Felly y mae yn ſcrifennedic, y dŷn cyntaf * Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diwethaf yn yſpryd yn bywhau.

Gen.2.7.

46 Er hynny, nid yr yſprydol ſydd yn gyntaf eithr yr anianol, ac wedi hynny yr yſprydol.

47 Y dŷn cyntaf o'r ddaiar yn ddaiarol, yr ail dŷn yr Arglwydd o'r nef.

48 Fel y mae y daiarol, felly y mae y rhai daiarol: a fel y mae y nefol, felly mae y rhai nefol.

49 A megis y dugaſom ddelw y daiarol, felly y dygwn ddelw y nefol hefyd.

50 Eithr hyn meddaf (ô frodyr) na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Duw: na llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth.

51 Wele yr wyf yn dangos i chwi ddirgelwch, ni hunwn ni oll, eithr mewn moment y newidir ni oll, ac ar drawiad yr amrant wrth yr * udcorn diweddaf.

Math.24.31.
1.theſſ.4.16.

52 Canys yr udcorn a gan, a'r meirw a gyfodir yn anllygredic, a ninnau a newidir.

53 O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wiſco anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wiſco ammarwolaeth.

54 Felly wedi i'r llygradwy hwn wiſco anllygredigaeth, a'r marwol hwn wiſco ammarwolaeth, yna y bydd yr ymadrodd yr hwn a ſcrifennwyd, * Angeu a lyngcwyd mewn buddygoliaeth.

Eſai 25.8.

55 * O angeu, pa le y mae dy golyn? o uffern pa le mae dy fuddygoliaeth?

Hoſe.13.14.

56 Colyn angeu yw pechod, a grym pechod [yw] y gyfraith.

57 Ond i Dduw y byddo'r * diolch yr hwn ſydd yn rhoddi i ni fuddygoliaeth trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

1.Ioan.5.5.

58 Am hynny fy annwyl frodyr byddwch ſicer, diſigl, a helaethion yn oeſtadol yng-waith yr Arglwydd, gan wybod nad yw ofer eich llafur yn yr Arglwydd.

## PEN. XVI.

Yng-hylch caſcl i'r brodyr o Ieruſalem, 10 Yng-hylch Timotheus, Apollo, ac eraill, ac anherchion caredic.

HEfyd am y * gaſcl i'r ſainct megis yr ordeinſais yn eglwyſi * Galatia, felly gwnewch chwithau.

Act.11.29.
& 12.25.
ruf.12.13.
act.18.23.

2 Pob dydd cyntaf o'r wythnos rhodded pob

un o honoch heibio wrtho ei hun, gan roi ynghadw yn ôl y llwyddiant a fyddo iddo, fel na byddo caſcl pan ddelwyfi.

3 Ac wedi y delwyf pa rai bynnac a ddangoſwch chwi yn gymmeradwy trwy lythyrau, y rhai hynny a ddanfonaf i ddwyn eich cardod i Ieruſalem.

4 Ac os bydd y peth yn haeddu i minne fy hun fyned, hwy a gânt fyned gyd â mi.

5 Eithr mi a ddeuaf attoch pen elwyf trwy Macedonia, (canys trwy Macedonia yr âf)

6 Ac nid hwyrach yr arhosaf neu y gaiâfaf gyd â chwi, fel i'm hebryngoch i ba le bynnac yr elwyf.

7 Canys nid ymwelaf â chwi yr awr hon ar fy hynt, ond yr wyf yn gobeithio 'r arhoaf ennyd gyd â chwi os canhiada yr Arglwydd.

8 Mi a arhôf yn Epheſus hyd y Sul-gwin.

9 Canys agorwyd i mi ddrws mawr a grymmus, ac [y mae] gwrthwynebwŷr lawer.

10 Ac os Timotheus a ddaw, edrychwch am ei fod yn ddiogel gyd â chwi: canys y mae yn gweithio gwaith yr Arglwydd fel finne.

11 Am hynny na ddiystyred neb ef, ond hebryngwch ef mewn heddwch i ddyfod attafi: canys yr wyf yn ei ddiſgwil gyd â'r brodyr.

12 Hefyd am y brawd Apollos, mi a ymbiliais yn fawr ag ef am ddyfod attoch gyd â'r brodyr, eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awrhon, ond efe a ddaw pan gaffo ennyd.

13 Gwiliwch, ſefwch yn y ffydd, ymwrolwch, ymgryfhewch.

14 Bydded eich holl bethau chwi mewn cariad.

15 Ond yr ydwyf yn attolwg i chwi frodyr (chwi a ŵyddoch am deulu Stephanas eu bod yn flaen-ffrwyth Achaia, a darfod iddynt ymroi i weini i'r ſainct)

16 Fod o honoch yn ymddarostyngedig i'r cyfryw, ac i bawb o'n cydweith-wŷr a'n cydlafur-wŷr.

17 Llawen ydyw gennif ddyfodiad Stephanas, a Ffortunatus, ac Achaicus, canys hwy a gyflawnaſant eich diffyg chwi.

18 Canys diddanâſant fy yſpryd i, a'r eiddoch chwithau: cydnabyddwch gan hynny y cyfryw rai.

19 Y mae yr eglwyſi o Aſia yn eich annerch chwi: y mae Aquila a Phryſcilla gyd â'r eglwys yr hon ſydd yn eu tŷ yn eich annerch chwi yn fawr yn yr Arglwydd.

20 Y mae y brodyr oll yn eich annerch, * annerchwch ei gilydd â chuſau ſancteiddiol. Ruf.16.16. 2.cor.13.12. 1.pet.5.14.

21 Annerch, â'm llaw i Paul.

22 O'd oes neb heb garu yr Arglwydd Ieſu Griſt: bydded ef Anathema maranatha.

23 Grâs ein Harglwydd Ieſu Griſt gŷd â chwi.

24 Bydded fy ſerch inne gyd â chwi oll yn Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol *cyntaf at y Corinthiaid a ſcrifennwyd o Philippos, gyd â Stephanas, Ffortunatus, ac Achaicus, a Thimothus.*

# Ail Epiſtol Paul at y CORINTHIAID.

## PENNOD. I.

Y mae yn dangos fod ei gyſtudd yn Aſia yn ddiddanwch iddynt hwy. 17 Ac yn dangos nad o yſcafnder meddwl yr oedâſe efe ddyfod attynt pan addawſe.

PAUL Apoſtol Ieſu Griſt, a'r brawd Timotheus trwy ewyllys Duw at eglwys Dduw yr hon ſydd yn Corinth, gyd â'r holl ſeinctiau y rhai ſy yn holl Achaia:

2 Grâs fyddo gyd â chwi, a thangneddyf gan Dduw ein Tâd, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

Ephes.1.3. 1.pet.1.3. 3 Bendigedic fyddo Duw Tâd ein Harglwydd ni Ieſu Ghriſt, Tâd y trugareddau, a Duw holl ddiddanwch,

4 Yr hwn ſydd yn ein diddânu ni yn ein holl orthrymder, fel y gallom ddiddânu y rhai ſy mewn dim gorthrymder, trwy y diddanwch ein diddenir ninnau gan Dduw.

5 O blegit fel yr amlheir dioddefiadau Criſt ynom, felly yr amlheir ein diddanwch ni trwy Griſt.

6 Hefyd os cyſtuddir ni [y mae hynny] er diddanwch, ac iechydwriaeth i chwi, yr hon a weithir gan ymaros yn yr un rhyw ddioddefiadau, y rhai yr ydym ni hefyd yn eu dioddef: ac os diddenir ni, er diddanwch ac iechydwriaeth i chwi [y mae hynny.]

7 Ac y mae ein gobaith yn ſicer am danoch, gan i ni ŵybod, mai megis yr ydych yn gyfrannogion o'r dioddefiadau, felly [y byddwch] hefyd o'r diddanwch.

8 Canys frodyr ni fynnem i chwi fod heb ŵybod, am ein cyſtudd a ddaeth i ni yn Aſia, bwyſo arnom yn anfeidrol uwch ben [ein] gallu, hyd onid oeddem yn ammeu na allem fyw.

9 Ond ni a dderbyniaſom farn angeu ynom,

fel na obeithiom ynom ein hunain, onid yn Duw yr hwn ſydd yn cyfodi i fynu y meirw.

10 Yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth gyfryw ddirfawr angeu, ac ſy yn ein gwaredu: yn yr hwn yr ydym yn gobeitho y gwared efe rhag llaw.

Rhuf.15 30. 11 *Os chwy-chwi a gydweithiwch mewn gweddi troſom, fel, am y rhoddiad a rodded i ni o herwydd llawer, y rhodder diolch gan lawer troſom,

12 Canys ein gorfoledd ni yw hyn, [ſef,] teſtiolaeth ein cydwybod ni, o blegit mewn diſymlrwydd a duwiol burdeb, ac nid yn doethineb cnawdol, ond trwy râs Duw, y bu i ni ein ymddwyn ein hunain yn y bŷd, ac yn enwedic yn eich myſc chwi.

13 Canys nid ydym yn ſcrifennu amgen bethau attoch, nac yr ydych yn eu darllen, neu yr ydych yn eu cydnabod, ac yr ydwyf yn gobeithio y cydnabyddwch hyd y diwedd.

14 Ac megis y cydnabuoch ni, o rann ein bôd yn orfolaeth i chwi, fel yr ydych chwithau i ninnau yn nŷdd yr Arglwydd Ieſu Griſt.

15 Ac yn y gobaith hyn yr oeddwn yn ewyllyſio dyfod attoch y waith gyntaf, fel y caffech âil grâs.

16 A myned (heb eich llaw chwi i Macedonia, a dyfod trachefn o Macedonia attoch, a chael fy hebrwng gennwch i Iudæa.

17 Gan hynny pan oeddwn yn amcanu fel hyn, a arferais i o yſcafnder? neu a wyf fi yn amcanu y petheu yr wyf yn amcanu, ar ôl y cnawd, fel y bydde gyd â mi îe, îe, ac nag ê, nag ê?

18 Ond Duw ſydd ffyddlon, canys nid îe, ac nagê ydoedd ein ymadrodd wrthych chwi.

19 Canys Mab Duw Ieſu Griſt yr hwn a bregethwyd yn eich plith genym ni, ſef myfi a Silfanus a Timotheus, nid ydoedd, îe, ac nagé eithr ynddo ef ie ydoedd.

20 O blegit holl addewidion Duw ynddo ef ydynt, îe, ac ynddo ef [ydynt] Amen, er gogoniant Duw trwyddom ni.

21 A Duw [yw]'r hwn a'n cadarnhâ ni gyd â chwi yng-Hriſt, ac a'n enêiniodd ni.

Ephe.1.13. 22 Yr hwn hefyd a'n ſeliodd, *ac a roes wyſtleidiaeth yr yſpryd yn ein calonnau.

23 Ac yr ŵyf fi yn galw Duw yn dŷſt i'm henaid, mai er eich arbed chwi na ddaethym etto i Corinth.

24 Nid am ein bôd yn arglwyddiaethu ar eich ffydd chwi, ond yr ydym yn gyd-weithwŷr i'ch llawenydd: o blegit trwy ffydd yr ydych yn ſefyll.

## PEN II.

Y mae yn dangos fod yr hwn a yſcymunaſid am loſcach neu inſeſt yn beth achos na ddaethe efe attynt hwy. 6 Yn maddeu i hwnnw, gan ewyllyſio eu cydundeb hwythau i hynny. 14 Yn diolch am ffynniant yr Efengyl. 17 Ac yn amddeffyn ei athrawiaeth yn erbyn y gau athrawon.

EIthr mi a fwriadais hyn ynof fy hunan, na ddelwn attoch trachefn mewn triſtwch.

2 O blegit os myfi a'ch triſtâf chwi, pwy yw'r hwn a'm llawenhâ fi, ond yr hwn a driſtawyd gennifi?

3 A mi a ſcrifennais hyn ymma attoch, rhag (pan ddelwn) cael o honof driſtwch ar driſtwch gan y rhai y dylwn ymlawenhau: gan obeitho am danoch oll, fôd fy llawenydd i yn llawenydd i chwi oll.

4 Canys mewn gorthrymder mawr, a chyfyngder calon yr ſcrifennais attoch â dagrau lawer, nid fel i'ch triſtaid chwi, eithr fel y gwybyddech y cariad ſy gennif yn enwedig i chwi.

5 Os gwnaeth nêb driſtau, ni wnaeth efe i mi driſtau, ond o rann, rhag i mi bwyſo arnoch chwi oll.

6 Digon [yw] i'r cyfryw [ddŷn] y cerydd ymma yr hwn a rodded iddo gan lawer.

7 Megis yn hytrach yng-wrthwynêb, y dylech chwi faddeu iddo a'i ddiddânu, rhag llyngcu y cyfryw gan ormod triſtwch.

8 Am hynny yr ydwyf yn attolwg i chwi, gadarnhau eich cariad arno.

9 Canys er mwyn hyn hefyd yr ſcrifennais, fel y cawn ŵybod profedigaeth am danoch, a fyddech ufydd ym mhob peth.

10 I'r hwn yr ydych yn maddeu dim iddo, [yr wyf] finne: canys os maddeuais i ddim, i'r hwn y maddeuais er eich mwyn chwi [y maddeuais] yng-olwg Criſt.

11 Rhag ein ſiommi gan Satan: canys nid ydym heb ŵybod ei amcanion ef.

12 Pan ddaethym i Troas i [bregethu] Efengyl Griſt, ac agoryd drŵs i mi gan yr Arglwydd,

13 Ni chefais lonydd yn fy yſpryd am na chefais Titus fy mrawd, eithr gan ganu yn iach iddynt, mi a euthym ymmaith i Macedonia.

14 Ond i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn, yn oeſtad ſydd yn peri i ni orfoledd yng-Hriſt, ac ſydd yn eglurhau arogledd ei ŵybodaeth trwyddom ni ym mhôb lle.

15 Canys per-arogl Criſt ydym ni i Dduw, yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig.

16 I'r naill yr [ydym] yn arogl marwolaeth i farwolaeth, ac i'r lleill yn arogl bywyd i fywyd, a phwy ſydd ddigonol i hyn?

17 Canys nid ydym ni fel y mae llawer, yn gwneuthur twyll am air Duw, eithr megis o burdeb, eithr megis o Dduw, yng-wydd Duw yr ydym yn lleſaru yng-Hriſt.

## PEN. III.

I beidio ai ganmol ei hun y mae efe yn dangos fod ei glôd ef iw gweled yn y Corinthiaid. 6 A bod yr Efengyl yn fwy gogoneddus nâ'r gyfraith.

AI dechreu yr ydym ni ein canmol ein hunain trachefn? ai rhaid i ni fel i eraill wrth lythyrau canmoliaeth attoch chwi, neu canmoliaeth oddi wrthych chwi?

2 Ein llythyr ni ydych chwi yn ſcrifennedig yn ein calonnau, yr hwn a ddeallir, ac a ddarllenir gan bôb dŷn.

3 Gan fod yn eglur eich bôd chwi yn llythr Criſt, yr hwn a roddwyd allan trwy ein gweinidogaeth ni, ac a ſcrifennwyd, nid ag ingc, ond ag Yſpryd Duw byw, nid mewn llechau cerrig, eithr mewn cnawdol lechau y galon.

*Yr Epiſtol ar y deuddecfed Sul yn ôl y Drindod.*

4 ☞ A chyfryw obaith ſydd gennym trwy Griſt ar Dduw.

5 Nid o herwydd ein bôd yn ddigonol o honom ein hunain i feddylio dim megis o honom ein hunain, eithr ein digonedd ni ſydd o Dduw.

6 Yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn weinidogion y Teſtament newydd, nid i'r llythyren, ond i'r Yſpryd: canys y mae y llythyren yn lladd, a'r Yſpryd ſydd yn bywhau.

7 Ac os oedd gweinidogaeth angeu yr hon a argraphwyd â llythyrennau ar lechau yn ogoneddus, fel na alle plant yr Iſrael edrych yn wyneb Moſes gan ogoniant ei wyneb-pryd, yr hwn [ogoniant] a ddeleuwyd,

8 Pa fodd nad mwy y bydd gweinidogaeth yr Yſpryd mewn gogoniant?

9 Canys os bu gweinidogaeth colledigaeth yn ogoneddus, mwy o lawer y rhagora gweinidogaeth cyfiawnder mewn gogoniant. ☜

10 Canys yr hyn a ogoneddwyd, ni ogoneddwyd yn y rhan hon, [ſef] hyd y perthyn i'r gogoniant ardderchog.

11 O blegit os yr hyn a ddeleuid ymmaith oedd yn ogoneddus, mwy o lawer [fydd] yr hyn a erys, yn ogoneddus.

12 Felly gan fôd gēnym gyfryw obaith, yr ydym yn arfer hyfder.

13 Ac nid ydym ni fel Moſes, yr hwn a roddes orchudd ar ei wyneb, rhag i blant Iſrael edrych ar ddiwedd yr hyn a ddeleuid.

14 Am hynny y caledwyd eu meddwl hwy: canys hyd y dydd heddyw y mae y gorchudd hwnnw yn aros heb ei dadguddio wrth ddarllen yr hên Deſtament, yr hwn yng-Hriſt a dynnir ymmaith.

15 Eithr hyd y dydd heddyw pan ddarllenir Moſes, y rhoddir y gorchudd ar eu calonnau hwynt.

16 Er hynny pan ymchweler at yr Arglwydd, y tynnir y gorchudd.

17 Yr awron yr Arglwydd yw'r Yſpryd, a lle mae Yſpryd yr Arglwydd, yno y mae rhydd-did.

18 Eithr edrych yr ydym ni oll, megis mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ag wyneb agored, ac i'n newidir ni i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Yſpryd yr Arglwydd.

## PEN. IIII.

Dywydrwydd Paul yn ei ſwydd. 13 A'r achoſion y rhai ſy yn peri.

*Yr Epiſtol ar ddydd gwyl Mathew'r Apoſtol.*

☞ AM hynny gan fôd i ni y weinidogaeth hon, megis y cawſom drugaredd, nid ydym yn pallu.

2 Eithr ni a wrthodaſom ddirgelwch gwradwydd, heb rodio yn ddichellgar, nac arfer twyll am air Duw: eithr trwy eglurhâd y gwirionedd yr ydym yn ein canmol ein hun wrth bôb cydwybod dŷn ger bron Duw.

3 Ac os yw ein Efengyl ni yn guddiedic, yn y rhai colledig y mae yn guddiedic.

4 Ym mha rai y dallodd Duw y bŷd hwn feddyliau yr anffyddlonion, rhag tywynnu iddynt lewyrch Efengyl gogoniant Criſt, yr hwn yw delw Dduw.

5 Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Criſt Ieſu yr Arglwydd, a ninneu yn weiſion i chwi er mwyn Ieſu.

6 Canys Duw yr hwn a orchymynnodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, [yw] yr hwn a lewyrchodd yn ein calonnau, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Ieſu Griſt. ☜

7 Eithr y tryſſor hwn ſydd gennym mewn lleſtri pridd, fel y bydde ardderchogrwydd y meddiant hwnnw o Dduw, ac nid o honom ni.

8 Ym mhôb man ein cyſtuddir, er hynny nid ydym mewn ing: y mae yn gaeth arnom, ond nid ydym gwbl heb obaith.

9 Wedi ein herlid, ond heb ein gwrthod, wedi ein taflu i lawr eithr heb ein difetha.

10 Gan arwain bob amſer o amgylch yn y corph, farwolaeth yr Arglwydd Ieſu, fel yr eglurer hefyd fywyd Ieſu yn ein corph.

11 Canys yr ydys yn ein rhoddi ni y rhai ydym yn oeſtad i farwolaeth er mwyn Ieſu, fel yr eglurhaer hefyd fywyd Ieſu yn ein marwol gnawd ni.

12 Ac felly y mae angeu yn gweithio ynom ni, ac enioes ynoch chwithau.

13 A chan fôd i ni yr un yſpryd ffydd, megis ac y mae yn ſcrifennedic, credais, ac am hynny y dywedais, ninnau hefyd ydym yn credu, ac am hynny y dywedwn,

14 Gan wybod y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd Ieſu, ein cyfodi ninnau hefyd trwy Ieſu, a'n goſod gyd â chwi.

15 Canys pôb peth ſydd er eich mwyn chwi, fel yr amlhâo yr helaethaf râs trwy ddiolch llawer er gogoniant i Dduw.

16 Am hynny nid ydym ni yn ymollwng, eithr er llygru ein dŷn oddi allan, er hynny y dŷn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd.

17 O blegit y mae yſcafnder ein cyſtudd yr hwn ni pheru ond munyd, yn peri i ni yn rhagorol [gael] rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant.

18 Tra nid ydym yn yſtyried y pethau a welir ond y pethau ni welir: canys y pethau a welir ſy amſerol, a'r pethau ni welir ſy dragywyddol.

## PEN. V.

Mor fuddiol yw marwolaeth dduwiol i'r duwiol. 14 Mawredd grâs Duw. 20 Swydd a braint eglwyſ-wyr.

CAnys ni a wyddom os daiarol dŷ ein preſſwylfod a ddatodir, fôd i ni adeilad gan Dduw, [ſef] tŷ, nid o waith llaw, [ond] tragywyddol yn y nefoedd. ‡

2 Canys yn hynny yr ydym yn ochenaid gan ddeiſyfio cael ein gwiſco â'n tŷ yr hwn ſydd o'r nef.

Gwel.16.15. 3 O blegit os gwiſcir ni, ni'n cair yn noethion.

4 Canys yn ddiau [yr ydym] ni'r rhai ſydd yn y babell hon ydym yn ochenaid, ac yn llwythog am nad ewyllyſiem ein dioſc, ond ymwiſco, fel y llyngcid yr hyn ſydd farwol gan y bywyd.

5 A'r hwn a'n creawdd ni i hyn yw Duw, yr hwn hefyd a roddodd i ni wyſtleidiaeth yr Yſpryd.

6 Am hynny yr ydym bob amſer yn hyderus, ac yn gwybod tra fôm gartref yn y corph, ein bôd oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd.

7 Canys wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth y golwg.

8 Er hynny yr ydym yn hyderus, ac y mae yn fodlonach gennym fod oddi cartref o'r corph a chartrefu gyd â'r Arglwydd.

9 Am hynny hefyd yr ydym yn chwennychu pa vn bynnag ai gartref y byddom, ai oddi cartref, fôd yn gymmeradwy ganddo ef.

Rhuf.14.10. 10 *Canys rhaid yw i ni oll ymddangos ger bron brawdle Criſt, fel y derbynio pob vn y pethau a [wnaethpwyd] yn y corph, yn ôl yr hyn a wnaeth, pa vn bynnag ai da ai drwg.

11 Felly gan i ni wybod ofn yr Arglwydd, yr ydym ni yn peri i ddynion gredu, ac ni a wnaed yn hyſpus i Dduw, ac yr ydwyf yn gobeithio hefyd ddarfod ein gwneuthur yn hyſpus yn eich cydwybodau chwi.

12 Canys nid ydym yn ymganmol trachefn wrthych, ond yn rhoddi i chwi achos gorfoledd o'n plegit ni, fel y caffoch [beth i atteb] yn erbyn y rhai ſy a'u gorfoledd yn yr wyneb, ac nid yn y galon.

13 Canys os amhwyllo yr ydym, i Dduw yr ydym, ac os bôd yn ein pwyll, i chwi [yr ydym]

14 Canys y mae cariad Criſt yn ein cymhell, ni, gan i ni farnu hyn, os bu vn farw tros bawb, yna mai meirw oedd pawb.

15 Ac efe a fu farw tros bawb, fel y bydde i'r rhai byw, na fyddent fyw rhag-llaw iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw troſtynt, ac a adgyfododd.

16 Am hynny o hyn allan, nid ydym yn adnabod nêb yn ôl y cnawd, ac os buom ni hefyd yn adnabod Criſt yn ôl y cnawd, er hynny o hyn allan nid ydym yn ei adnabod ef mwy [felly.]

Gwel.21.5. 17 *Gan hynny od oes nêb yng-Hriſt [y mae efe] yn greadur newydd, yr hên bethau a aethant heibio, wele, gwnaethbwyd pob, peth yn newydd.

18 A'r cwbl ſydd o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni ag ef ei hun trwy Jeſu Griſt, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod.

19 Canys Duw oedd yng-Hriſt, yn cymmodi y bŷd ag ef ei hun, heb adliwio iddynt eu pechodau, ac a oſododd ynom ni air y cymmod.

20 Am hynny yr ydym ni yn gennadau tros Griſt, megis pe bydde Duw yn ymbil a chwi trwyddom ni: yr ydym yn attolwg i chwi tros Griſt, cymmodwch â Duw.

21 Canys efe a wnaeth yn bechod troſom ni, yr hwn ni adnabu bechod, fel ein gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.

## PEN. VI.

Y mae efe yn eu hannog hwynt i fuchedd rhagorol. 14 Ac yn annog iddynt ochelyd ymgyfathrachu a'r rhai anghredadwy.

Felly ninnau gan gydweithio ydym yn attolwg i chwi na dderbynioch râs Duw yn ofer. Yr Epyſtol ar y Sul cyntaf o'r grawys.

Eſai.49.8. 2 (Canys medd efe, * yn amſer cymmeradwy i'th wrandewais, ac yn nydd iechydwriaeth i'th gynorthwyais: wele yn awr yr amſer cymmeradwy, wele yn awr ddydd yr iechydwriaeth)

3 Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, rhag beio ar y weinidogaeth.

4 Eithr gan ein goſod ein hun allan ym mhob peth * fel gweinidogion Duw, mewn ammynedd mawr, mewn cyſtudd, mewn angen, ac mewn cyfyngder,

5 Mewn gwialennodau, mewn carcharau, mewn terfyſcau, mewn poen, mewn gwiliadwriaethau, mewn ympryddiau,

6 Mewn purdeb, mewn gwybodaeth, mewn ymaros, mewn tiriondeb yn yr Yſpryd glân, mewn cariad diragrith,

7 Yng-air gwirionedd, yn nerth Duw, mewn arfau cyfiawnder ar y llaw ddeheu, ac ar y llaw aſſwy,

8 Mewn parch ac ammarch, mewn clôd, ac anglod, megis twyllwŷr, ac er hynny yn gywir,

9 Megis anadnabyddus, ac [er hynny] yn adnabyddus, megis yn meirw, ac wele ni yn fyw, megis wedi ein coſpi, ac heb ein lladd,

10 Megis yn driſtion, ac etto yn oeſtad yn llawen: megis yn dlodion, ac etto yn cyfoethogi llawer: megis heb ddim gennym, ac etto yn meddiannu pob peth. ☜

11 Oh y Corinthiaid, ein genau a agorwyd i chwi, ein calon a ehangwyd.

12 Ni chyfyngwyd arnoch ynom ni, eithr chwi a gyfyngwyd arnoch yn eich ymyſcaroedd eich hunain.

13 Am yr vn gwobr, megis wrth fy mhlant yr wyf yn dywedyd, ymehengwch chwithau.

14 Nac iauer chwi yn anghymharus gyd â'r anffyddlonion, canys pa gymdeithas ſydd rhwng cyfiawnder, ac anghyfiawnder? a pha gyfeillach rhwng goleuni a thywyllwch?

15 A pha gyſſondeb ſydd rhwng Criſt a Belial? neu pa ran ſydd i'r credadwy, ac i'r anghredadwy.

16 A pha gydfod ſydd rhwng teml Dduw, ac eulynnod? *canys chwi yw teml Duw byw: 1.Cor.3.16. &6.19
fel y dywedodd Duw, * mi a breſwyliaf, ac a rodiaf yn eu myſc hwynt: a mi a fyddaf eu Duw hwynt, ac hwy a fyddant yn bobl i mi. Leuit.26.11.

17 *Am hynny deuwch allan o'u plith hwy, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd: ac na chyffyrddwch Eſay 52.11.

ffyrddwch ddim aflā, yna mi a'ch derbyniaf chwi

18 *A mi a fyddaf yn Dâd i chwi, a chwi a fyddwch yn feibion, ac yn ferched i mi: medd yr Arglwydd holl-alluoc.

## PEN. VII.

Y mae yn eu hannog i ſancteiddrwydd gan goffo iddynt addewidion Duw. 8 Yn ymeſcuſodi am eu triſtau hwynt. 13 Ac yn ddiolchgar yn coffau eu caredigrwydd hwynt i Titus.

AM hynny, gan fod i ni yr addewidion hyn (annwylyd) ymlânhawn oddi wrth bob halogrwydd cnawd, ac yſpryd, gan berffeithio ſancteiddrwydd yn ofn Duw.

2 Derbyniwch ni, ni wnaethom gam i nêb, ni lygraſom nêb, nid yſpeiliaſom nêb.

3 Nid i'ch condemnio yr wyf yn dywedyd, canys mi a ddywedais o'r blaen eich bôd yn ein calonnau ni, i gyd-farw, ac i gyd-fyw.

4 Y mae hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych: y mae gennif orfoledd mawr ynoch: yr wyf yn llawn o ddiddanwch, ac yn dra-llawen yn ein holl orthrymder.

5 Canys wedi ein dyfod i Macedonia ni chai ein cnawd ni ddim llonydd, eithr ni a orthrymmid o bôb parth, rhyfeloedd oddi allan, ac ofn oddi mewn.

6 Eithr Duw, yr hwn a ddiddâna y rhai cyſtuddiedig, a'n diddanodd ni wrth ddyfodiad Titus

7 Ac nid âi ddyfodiad ef yn vnic, ond hefyd â'r diddanwch y diddanwyd ef gennych chwi, pan fynegodd efe i ni eich awydd chwi, eich galar, eich annwyl-ſerch i mi, fel y llawenheais i yn fwy.

8 Canys er i mi eich triſtau chwi mewn lythyr, nid yw edifar gennif, er bôd yn edifar gennif: canys yr wyf yn gweled driſtau o'r llythr hunnw chwi, er [bôd hynny] tros amſer.

9 Yn awr yr ydwyf yn llawen, nid am eich triſtau, ond am eich triſtau i edifeirwch, canys triſtau a wnaethoch yn dduwiol, fel na chawſoch niwed mewn dim gennym ni. 1.Pet.2.15.

10 *Canys duwiol driſtwch a bair edifeirwch er iechydwriaeth diedifarus: eithr bydol driſtwch a bair angeu.

11 Canys wele, pa ofal ei faint a weithiodd hyn ynoch chwi: [ſef] triſtau o honoch yn dduwiol, îe pa amddeffyn, îe, pa ddigofaint, ie, pa ofn, îe, pa chwant, îe, pa wŷnfydiaid, îe, pa ddial: ym mhôb peth yr ymddangoſaſoch i fod yn bur yn y peth hyn.

12 Oherwydd pa ham, er ſcrifennu attoch, ni [ſcrifennais] o'i blegit ef a wnaethoedd y cam, nac o blegit yr hwn a gafodd y cam, ond er bôd yn eglur i chwi, ein gofal am danoch ger bron Duw.

13 Am hynny ni a ddiddanwyd o achos eich diddanwch chwi, eithr llawenach o lawer oeddem am lawenydd Titus, am lonni ei yſpryd ef gennych oll.

14 Canys os gorfoleddais ddim wrtho am danoch, ni'm cywilyddiwyd: eithr megis y dywedaſom wrthych bôb dim mewn gwirionedd, felly hefyd yr oedd ein gorfoleddiad ni wrth Titus yn gywir.

15 Ac y mae ei galondid ef yn helaethach tu ag attoch, wrth gofio eich vfydd-dod chwi oll, pa fôdd trwy ofn a dychryn, y derbyniaſoch ef.

16 Am hynny llawen wyf, am fod i mi hyder arnoch ym mhôb dim.

## PEN. VIII.

Y mae efe yn eu hannog hwynt i fod yn hael i'r brodyr tlodion, gan ddwyn iddynt ſiampl y Macedoniad, 9 A Chriſt ei hun: 24 Gan ddangos hefyd y galle fod ar y Corinthiaid eu heiſieu hwythau.

YR ydym hefyd yn yſpyſu i chwi, (frodyr) y grâs Duw a roddwyd yn eglwyſi Macedonia:

2 Canys mewn mawr brofedigaeth cyſtudd yr amlhaodd eu llawenydd hwynt, ai llwyreithaf dlodi a amlhaodd iw helaeth gymmwynaſcarwch hwynt.

3 Canys yn eu gallu (yr wyf fi yn teſtiolaethu) ac vwch-law eu gallu yr oeddent yn ewyllyſcar.

4 Gan ddeiſyfu arnom trwy lawer o ymbil, ar dderbyn o honom ni yr haelioni a'r cyfranniad [a roddent] i waſanaethu'r ſeinctiau.

5 A [hyn a wnaethant] nid fel yr oeddem yn gobeitho, ond hwynt hwy ai rhoddaſant eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i ninnau, trwy ewyllys Duw:

6 Fel y dymunaſom ni a'r Titus, (megis y dechreuaſe efe o'r blaen) felly hefyd orphen yr vn-rhyw haelioni yn eich plith chwi.

7 Am hynny fel yr ydych yn amlhau ym mhôb dim, mewn ffydd a gair, a gwybodaeth, ac ym mhôb aſtudrwydd, ac yn eich cariad tu ag attom ni, [ceiſiwch] amlhau hefyd yn y grâs hyn.

8 Nid o rann gorchymyn yr ydwyf yn dywedyd, ond o blegit diwydrwydd rhai eraill, a chan brofi gwirionedd eich cariad chwi.

9 Canys chwi a adwaenoch râs ein Harglwydd Ieſu Griſt, ac efe yn gyfoethog, ei fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.

10 Ac yr ydwyf yn rhoddi cyngor yn hyn, canys da fydde hyn i chwi, y rhai a ddechreuſoch, nid yn vnic wneuthur, ond hefyd ewyllyſio er y llynedd.

11 Ac yn awr gorphennwch wneuthur hynny hefyd, fel, megis yr oedd y parodrwydd i ewyllſio, felly y byddo hefyd i gwblau o'r hyn ſydd gennych.

12 Canys os bydd yn gyntaf ewyllyſcarwch, cymmeradwy yw, yn ôl yr hyn ſydd gan ddŷn, nid yn ôl yr hyn nid yw ganddo.

13 Ac nid i fod eſmwythdra i eraill, a chyſtudd i chwithau.

14 Eithr mewn cymhwyſdra y mae eich helaethrwydd chwi y pryd hyn, yn [diwallu] eu diffig hwy, fel y gallo hefyd eu helaethrwydd hwynt ddiwallu eich diffig chwithau, fel y byddo * cymhwyſdra. *

15 Megis

Exod.16.18. 15 Megis y mae yn ſcrifennedic, * yr hwn a gaſclodd lawer, nid oedd ganddo weddill, a'r hwn a gaſclodd ychydig, nid oedd arno eiſieu.

16 Ac i Dduw y byddo 'r diolch, yr hwn a roddodd yng-halon Titus yr vn-rhyw ofal troſoch.

17 Am iddo gymmeryd y dymuniad, a chan fod yn fwy gofalus, ddyſod attoch chwi oi waith ei hun.

18 Ac ni a ddanfonaſom hefyd gyd ag ef y brawd yr hwn y mae ei glôd yn yr Efengyl, trwy 'r holl eglwyſi,

19 (Ac nid [hynny] yn vnic, eithr hefyd efe a ddewiſwyd gan yr eglwyſi i gydymdeithio â ni a'r grâs hyn, yr hwn yr ydym ni yn ei waſanaethu, o herwydd gogoniant yr Arglwydd, ac [amlygiad] eich ewyllyſcarwch chwichau)

20 Gan ymochelyd hyn, rhag i nêb feio arnom yn yr helaethrwydd ymma, yr hwn yr ydym ni yn ei waſanaethu.

Ruf.12.17. 21 *Y rhai ydym yn rhagddarpar pethau oneſt, nid yn vnic ger bron yr Arglwydd, ond hefyd o flaen dynion.

22 Ac ni a anfonaſom gyd â hwynt ein brawd, yr hwn a brofaſom yn fynych o amſer, ei fôd yn ddyfal yn llawer o bethau, ac yn awr yn ddyfalach o lawer, am y mawr ymddyried [ſydd gennif] ynoch.

23 Os [gofynnir] am Titus fyng-hydymaeth [yw,] a chydweithydd tu ag attoch chwi: neu [am] ein brodyr, cennadau yr eglwyſi [ydynt,] a gogoniant Criſt.

24 Am hynny dangoſwch tu ag attynt hwy ger bron yr eglwyſi, brofedigaeth o'ch cariad, ac o'n hymffroſt ni am danoch chwi.

## PEN. IX.

Y mae efe yn dangos yrru o honaw ef Titus, ac eraill attynt, fel y ceid hwynt yn barod, ac yn ewyllyſcar i gyfrannu. 7 yr hwn both ſydd dda gan Dduw, 13 a moliannus iddo ef.

CAnys, tu ag at am y weinidogaeth i'r ſainct, afraid yw i mi ſcrifennu attoch.

2 O herwydd mi a adwen eich ewyllyſcarwch chwi, [am] yr hwn yr wyf yn gorfoleddu am danoch wrth y Macedoniaid, fôd Achaia yn barod er y llynedd, a'r zêl [a ddaeth] oddi wrthych chwi a annogodd lawer.

3 A mi a ddanfonais y brodyr, rhag i'n gorfoledd ni am danoch fôd yn ofer, yn y rhann hon, fel (megis y dywedais) y byddoch barod:

4 Rhag, os y Macedoniaid a ddeuant gyd â mi, a'ch cael chwi yn ambarod, bôd i ni (ni ddywedaf i chwi) gael cywilydd yn hyn o ſylwedd gorfoledd.

5 O herwydd paham, mi a dybiais fôd yn angenrhaid attolwg i'r brodyr ddyfod o'r blaen attoch, ac i gwplau o'r blaen eich bendith yr hon a ragfynegwyd, fel y byddo yn barod, megis fel bendith, nid fel o gymmell.

6 A hyn [a ddywedaf,] a hauo yn brin a fêd hefyd yn brin, ac a hauo yn helaeth a fêd hefyd yn helaeth.

7 Pob vn megis y mae yn amcanu yn ei galon, felly gwnaed nid yn *athriſt, neu wrth gymmell, canys y mae yn hoff gan Dduw roddwr llawen. Dihar.11.25. Ruf.12.8. Eccle.35.10.

8 Ac y mae Duw yn abl i beri i bob grâs amlhau tu ag attoch, fel y galloch chwi (â phôb digonolrwydd gennych, ym mhôb dim, bôb amſer) amlhau pôb gweithred dda,

9 *Megis y mae yn ſcrifennedic, efe a waſcarodd, [ac] a roddodd i'r tlodion, y mae ei gyfiawnder yn parhau yn dragywydd. Pſal.112.9.

10 Hefyd yr hwn ſydd yn rhoddi hâd i'r hauwr, rhodded hefyd fara yn ymborth, ac amlhaued eich hâd, a chwaneged ffrwyth eich cyfiawnder,

11 Fel ym mhôb ffordd i'ch cyfoethoger i bôb cymmwynaſcarwch, yr hyn a weithia trwyddom ni ddiolch i Dduw.

12 Canys y mae gweinidogaeth y ſwydd hon, nid yn vnic yn cyflawni angenrhaid y ſainct, ond hefyd yn amlhau, gan lawer diolch i Dduw, trwy brofiad y weinidogaeth hon,

13 [Y rhai ſy] yn moliannu Duw am eich cydſynniol ymoſtwng i Efengyl Griſt, ac am eich cymmwynaſcar gyfrannad iddynt hwy, ac i bawb oll,

14 A thrwy eu gweddi hwythau y rhai ydynt yn hiraethu am danoch chwi, am yr arddercħawg râs Duw [yr hwn ſydd] ynoch.

15 Ac i Dduw y byddo 'r diolch am ei anrhaethol roddiad.

## PEN. X.

Y mae efe yn ei amddeffyn ei hun a'i hyder yn erbyn y gau-athrawon, 12 y rhai oeddynt yn eu canmol eu hun am lafur a phoen eraill.

ONd myfi Paul ydwyf yn attolwg i chwi er addfwynder a chymmeſurdeb Criſt, yr hwn wydd yng-wydd [wyf] ddiyſtyr yn eich plith, ac yn abſennol ydwyf yn hyderus arnoch.

2 A hyn yr ydwyf yn ei ddymuno, na orfyddo i mi fod yn hyderus pan fyddwyf bresennol a'r vnrhyw hyder, ac yr ydys yn meddwl fy-mod yn hyderus ar rai, y ſawl ſy yn meddwl ein bod ni yn rhodio megis ar ôl y cnawd.

3 O blegit er ein bôd yn rhodio yn y cnawd, etto nid ydym yn rhyfela ar ôl y cnawd.

4 Canys arfau ein rhyfel ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw ceſtill i'r llawr,

5 Gan fwrw i lawr ddychymmygion, a phôb vchel-beth a ddercheſir yn erbyn gwybodaeth Duw, a chan gaethiwo pob meddwl i vfydd-dod Criſt.

6 A chênym yn barod ddial ar bob annufydd-dod, wedi y cyflawner eich vfydd-dod chwi.

7 Ai edrych yr ydych chwi ar bethau o herwydd golwg? os ymddyried nêb ynddo ei hun ei fôd efe yn perthyn i Griſt, meddylied hyn trachefn o honaw ei hun, fel y mae efe yn perthyn i Griſt, felly yr ydym ninnau yn perthyn i Griſt.

8 O blegit pe gorfoleddwn beth mwŷ am ein awdurdod, yr hon a roddodd yr Arglwydd i ni er adailad, ac nid er diniſtr i chwi, ni chywilyddiwn,

9 Rhag tybied fy mod, megis yn eich ofni chwi â llythyrau.

10 Canys y llythyrau (meddant hwy) ſy drymmion a chedyrn, eithr preſennoldeb y corph ſydd wan, a'i ymadrodd yn ddibris.

11 Meddylied y cyfryw un hyn, mai fel yr ydym ar air drwy lythyrau yn abſennol, felly [yr ydym] hefyd mewn gweithred yn breſennol.

12 Canys ni feiddiwn ni ymyrryd neu ymgyffelybu â'r rhai ſy yn eu canmol eu hunain: eithr nid ydynt yn deall eu bôd yn meſuro eu hunain wrthynt eu hunain, ac yn cyffelybu eu hunain ag hwynt eu hunain.

13 Eithr ni orfoleddwn ni yn anghymmeſurol, *ond yn ôl meſur y rheol trwy yr hon y rhannodd Duw i ni feſur i gyrhaeddyd hyd attoch chwithau. Epheſ.4.7.

14 Canys nid ydym yn tra ymeſtyn, megis pe na chyrhaeddaſem hyd attoch chwi: canys hyd attoch chwi hefyd y daethom ag Efengyl Griſt.

15 Nid gan orfoleddu yn anghymmeſur, ſef am boen rhai eraill: eithr gan obeithio wedi y cynnyddo eich ffydd, gael ein mawrygu yn eich plith yn ôl ein meſur yn helaeth.

16 Fel y gallwyf bregethu yr Efengyl tu hwynt i chwi: [ac] nid gorfoleddu am y pethau a baratoiwyd trwy reol neb arall.

17 *Eithr yr hwn a orfoleddo, gorfoledded yn yr Arglwydd. Ierem.9.24. 1.Cor.1.31.

18 Canys nid yr hwn ſydd yn ei ganmol ei hun ſydd gymmeradwy, ond yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ganmol.

## PEN. XI.

Ei ſerch ef i'r Corinthiaid, 5 ardderchogrwydd ei ſwydd ef, 9 a'r boen a gafodd efe ynddi hi.

OCh na oddefech ychydig fy anghallineb, eithr hefyd goddefwch fi.

2 Canys eiddigus wyf am danoch, ag eiddigedd duwiol: o blegit darperais chwi i un gŵr, i'ch rhoddi chwi megis morwyn bûr i Griſt.

3 Ac yr wyf yn ofni rhag megis y twyllodd y *ſarph Efa trwy ei chyfrwyſdra, felly bôd llygru eich meddyliau chwithau i fyned oddi wrth y ſymlrwydd ſydd yng-Hriſt. Gen.3.4.

4 O blegit, os yr hwn a ddaw a bregetha Ieſu arall, [amgen] nâ'r un a bregethaſom ni, neu os derbynniwch amgen Yſpryd nac a dderbynniaſoch, neu amgen Efengyl nac a dderbynniaſoch, têg y gallaſech ei ddioddef.

5 Canys yr ydwyf yn meddwl, na bum yn ôl i'r Apoſtolion pennaf.

6 Ac er fy môd yn anghymmen o ymadrodd, etto nid wyf felly mewn gwybodaeth, eithr yn eich plith chwi ynni a eglurhawyd yn hollawl ym mhôb dim.

7 A wneuthum i fai am i mi ymoſtwng fy hun fel y derchefid chwi? ac am i mi bregethu i chwi Efengyl Griſt yn rhâd?

8 Eglwyſi eraill a yſpeiliais gan gymmeryd cyflog [ganddynt] i'ch gwaſanaethu chwi.

9 A phan oeddwn yn-breſennol gyd â chwi, ac arnaf eiſieu, ni ormeſais ar neb, canys yr hyn oedd arnaf ei eiſieu, a gyflawnodd y brodyr a ddaethant o Macedonia, ac ym mhôb dim yr ymgedwais, ac yr ymgadwaf *heb bwyſo arnoch. Act.20.34.

10 Y mae gwirionedd Criſt ynof, na argaeir y gorfoledd hyn yn fy erbyn yng-wledydd Achaia.

11 Pa ham? ai am na charaf chwi? Duw a'i gŵyr.

12 Eithr yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, hynny a wnaf: fel y torwyf ymmaith achlyſur oddi wrth y rhai ſy yn ewyllyſio cael achlyſur, fel y ceffid hwy yn gyffelyb i ni, yn yr hyn yn maent yn gorfoleddu ynddo.

13 Canys y cyfryw gau Apoſtolion ſy weithwyr twyllodrus, wedi ymrithio yn Apoſtolion Criſt.

14 Ac nid rhyfedd, o blegit y mae Satan yntef yn ymrithio yn angel goleuni.

15 Gan hynny nid mawr yw, er ymrithio ei weinidogion ef, fel gweinidogion cyfiawnder, y rhai y bydd eu diwedd yn ôl eu gweithredoedd.

16 Trachefn meddaf, na thybied neb fy môd yn ffôl: os amgen cymmerwch fi fel ffôl, fel y gallwyf finne hefyd orfoleddu ychydig.

17 Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd nid ydwyf yn ei ddywedyd yn ôl yr Arglwydd, eithr megis o anghallineb yn hyn o ſylwedd gorfoledd.

18 Gan fôd llawer yn gorfoleddu o herwydd y cnawd, minne a orfoleddaf hefyd.

19 ☞ Canys yr ydych yn diodef ffyliaid yn llawen, gan fod eich hun yn ſynhwyrol. *Yr Epiſtol ar y Sul a elwir Sexageſima.*

20 Canys goddefwch pe caethiwe un chwi, pe bai un i'ch llyngcu, pe bai un yn dwyn oddi arnoch, pe bai un yn ymddyrchafu, pe tarawe un chwi ar eich wyneb.

21 Am amharch yr ydwyf yn dywedyd, megis ein bod yn weiniaid: eithr ym mha beth bynnac y byddo neb hyf (yr wyf yn dywedyd yn ffôl) hyf wyf inne hefyd.

22 *Hebræaid ydynt, felly finne: Iſraeliaid ydynt, felly finne: had Abrahã ydynt, felly finne: Phil.3.6.

23 Gweinidogion Criſt ydynt (yr ydwyf yn dywedyd yn ffôl) mwy wyfi: mewn poen yn amlach: mewn archollion dros feſur: yng-harchar yn amlach, ym [mron] angeu yn fynych.

24 Gan yr Iddewon bum-waith y derbynniais ddeugain gwialennod ond un.

25 *Tair gwaith i'm curwyd â gwiail, *un waith i'm llabyddiwyd, tair gwaith y torrodd llong arnaf, nôs a dydd y bum yn y dyfn-for. Act.16.23. Act.14.19.

26 Mewn teithiau y bum yn fynych, ym mheryglon llif-ddyfroedd, ym mheryglon lladron, ym mheryglon fyng-henedl [fy hun,] ym mheryglon gan y cenhedloedd, ym mheryglon yn y ddinas, ym mheryglon yn yr anialwch, ym

mherylon ar y môr, ym mherylon ym mhlith brodyr gau,

27 Mewn blinder a lludded, mewn anhunedd yn fynych, mewn newyn a ſyched, mewn ympryd yn fynech, mewn annwyd a noethni.

28 Heb law y pethau [ſy yn digwydd] oddi allan, y mae yr ymoſod beunyddol arnaf, [ſef] y gofal tros yr hôll eglwyſi.

29 Pwy ſy wann, nad wyf finne wann? pwy a dramgwyddir, na loſcwyf finne?

30 Os rhaid i mi orfoleddu, mi a orfoleddaf yn y pethau ſy yn perthyn i'm gwendid.

31 Duw, a Thâd ein Harglwydd ni Ieſu Griſt yr hwn ſydd fendigedig yn oes oeſoedd a ŵyr nad wyf yn dywedyd celwydd. ☜

Act.9.24. 32 *Yn Damaſcus llywiawdr y bobl dann frenin Aretas a barodd wilio dinas y Damaſciaid, gan ewyllyſio fy nal i.

33 A thrwy ffeneſtr i'm gollyngwyd ar hyd y mur mewn baſced, ac y diengais o'i ddwylaw ef.

### PEN. XII.

Y mae efe yn dadcan ei ardderchog weledigaethau. 5 Yn gorfoleddu yn fwyaf yn ei wendid. 11 Yn dangos pa ham y dywedodd gymmaint iw glod. 20 Gan ofni y bydde rhaid iddo fod yn llymmach wrth rai o honynt.

NId cymmwys i mi yn ddiau orfoleddu: eithr mi a ddeuaf at weledigaethau, a datcuddiedigaethau yr Arglwydd.

Act.9.3. 2 *Mi a adwaenwn ddyn yng-Hriſt, er ys rhagor i bedair blynedd ar ddêc, (pa vn ai yn y corph, ni wn, ai allan o'r corph, ni wn: Duw a ŵyr) yr hwn a gymmerwyd i fynu hyd y drydedd nef.

3 Ie mi a adwaenwn y cyfryw ddyn (pa vn ai yn y corph, ai allan o'r corph ni wn: Duw a ŵyr)

4 Ei gymmeryd ef i fynu i baradwys, ac iddo glywed geiriau anhraethadwy, y rhai nid yw gyfreithlon i ddŷn eu hadrodd.

5 Am hynny o beth y gorfoleddaf: ynof fy hun ni orfoleddaf, oddi eithr a'm fyng-gwendid.

6 Canys pe gorfoleddwn, ni fyddwn ffôl: canys dywedaf y gwir, eithr mi a arbedaf, rhac i neb fyddylied am danaf vwch law y mae yn gweled fy mod, neu yn clywed gennif.

7 A rhac tra-ymdderchafu o honof gan odidogrwydd y datguddiedigaethau, y rhoddwyd i mi ſwmbwl yn y cnawd, cennad Satan im cernodio, rhac tra-ymdderchafu o honof.

8 Am y peth hwn mi a attolygais i'r Arglwydd dair gwaith, ar fod iddo ymadael a mi.

9 Ac yntef a ddywedodd wrthif, digon i ti fyng-râs i: canys fy nerth i a berffeithir trwy wendid: yn llawen iawn gan hynny y gorfoleddaf fi yn hytrach yn fyng-wendid, fel y trigo nerth Chriſt ynof.

10 Am hynny yr ymddigrifhâf fi, mewn gwendid, mewn ammarch, mewn angen, mewn erlid, [ac] mewn ing er mwyn Criſt: canys pan wyf wan, yna yr wyf gadarn.

11 Ffôl oeddwn orfoleddu: chwychwi a'm gyrrasoch: canys dylaſwn gael fyng-hanmol gẽnych chwi: canys mewn dim nid oeddwn yn ôl i'r Apoſtolion pennaf, er nad wyf ddim.

12 Argoelion Apoſtol a weuthredwyd yn eich plith chwi gan fawr ddioddefgarwch, gan arwyddion, a rhyfeddodau, a gwyrthieu.

13 Canys ym mha beth yr oeddech chwi yn is nag eglwyſi eraill, oddi eithr na fum i ormeſol arnoch? maddeuwch i mi hyn o gam.

14 Wele, y drydedd waith yr wyſi yn barod i ddyfod attoch, ac etto ni byddaf ormeſol arnoch, canys ni cheiſiaf y pethau ſydd eiddoch, ond chwychwi: gan na ddyle y plant gaſclu tryſſor i'r tadau ond y tadau i'r plant.

15 A myſi yn llawenaf oll a dreuliaf, ac a ymdreuliaf dros eich eneidiau: er pa fwyaf i'ch caraf, lleiaf i'm cerir.

16 Eithr bydded na phwyſais arnoch, ond gan fôd yn gyfrwys, mi a'ch deliais trwy dwyll.

17 A gribddeiliais i chwi drwy neb o'r rhai a ddanfonais attoch?

18 Mi a ymbiliais a Titus, [am ddyfod] a chyd ag ef y danfonais y brawd arall: a eſpeiliodd Titus chwi am ddim o'ch da? oni rodiaſant yn yr vnrhyw yſpryd, oni cherddaſant yn yr vnrhyw lwybrau?

19 Drachefn a ydych chwi yn tybied mai ymeſcuſodi yr ydym ni wrthych? yr ydym yn dywedyd ger bron Duw yng-Hriſt: a'r cwbl (ô annwylyd) er adeiladaeth i chwi.

20 Canys ofni yr wyf rhag pan ddelwyf na'ch caffwyf yn gyfryw rai ac a fynnwn: ac im ceffir finne i chwithau yn gyfryw vn ac ni fynnech: a rhac bôd yn eich plith ymryſon, cenfigen, llid, cynhẽnau, abſennau, athrod, ymchwyddo, terfyſc:

21 Rhac pan ddelwyf drachefn fôd i'm Duw fy naroſtwng yn eich plith, a dwyn galar dros lawer, y rhai a bechaſant euſus, ac ni chymmeraſant edifeirwch am yr aflendid a'r godineb a'r anlladrwydd a wnaethant.

### PEN. XIII.

1 Y mae efe yn bygwth y rhai anhydyn, 5 Ac yn datcan beth yw ei feddiant ef wrth eu teſtiolaeth hwy eu hunain. 10 Hefyd y mae yn dangos beth yw effect yr epiſtol hwn. 11 Wedi darfod iddo eu hannog hwy i wneuthur a ddylent, y mae yn dymuno iddynt lwyddiant yn gwbl.

YDrydedd waith hon yr ydwyf yn dyfod attoch, *yng-enau dau neu dri o tyſtion y bydd ſafadwy pob gair. Deut.19.15. math.18.16. ioan.8.17. heb.10.28.

2 Rhagddywedais i chwi, a rhagddywedaf i chwi yr ail waith, megis pe bawn breſennol felly yr ydwyf yn ſcrifennu yn abſennol at y rhai ym mlaen llaw a bechaſant, ac at bawb eraill, os deuaf trachefn, nad arbedaf.

3 Gan i chwi geiſio profiad o Griſt yr hwn ſydd yn lleſaru ynof, yr hwn tu ag attoch chwi nid yw wann, eithr ſydd nerthol ynoch.

4 Canys er ei groeſ-hoelio o ran gwendid, etto byw ydyw drwy nerth Duw: yr ydym ninnau hefyd yn weiniaid ynddo ef, eithr byw fyddwn gyd ag ef trwy nerth Duw tu ag attoch chwi.

1.Cor.11.28. 5 Profwch eich hunain, a ydych yn y ffydd, chwiliwch eich hunain, oni adwaenwch eich hunain, [ſef] bôd Ieſu Griſt ynoch, oddi eithr i chwi fôd yn wrthodedig?:

6 Ond yr wyf yn gobeithio y gwybyddwch nad ydym ni yn ang-hymmeradwy.

7 Ac yr wyf yn attolwg i Dduw na wneloch ddim drwg: nid er ein dangos ni yn gymmeradwy, ond er i chwi wneuthur yr hyn ſydd oneſt, a'n bod ninnau megis yn rhai anghymmeradwy.

8 Canys ni allwn ni wneuthur dim yn erbyn y gwirionedd, ond tros y gwirionedd.

9 Canys llawen ydym ein bod ni yn weiniaid, a'ch bod chwithau yn gryſion: hyn hefyd a ddymunem, [ſef] eich perffeithrwydd chwi.

10 Am hynny yr wyf yn abſen yn ſcrifennu y pethau hyn, rhag i mi pen fyddwyf breſennol arfer o fod yn dôſt, o herwydd yr awdurdod a roes yr Arglwydd i mi er adeilad, nid er diniſtr.

11 Bellach (frodyr) ewch yn iach, byddwch berffaith, ymgyſſurwch, ſynniwch yr un peth, byddwch heddychol: a Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyd â chwi.

12 Anherchwch eu gilydd â * chuſan ſanctaidd: y mae'r holl ſeincctiau yn erchi eich annerch. Ruf.16.16. 1.cor.16.28. 1.pet.5.14.

13 Grâs ein Harglwydd Ieſu Griſt, a chariad Duw, a chymmundeb yr Yſpryd glân fyddo gyd â chwi oll. Amen.

*Fe a ſcrifennwyd yr ail at y Corinthiaid o Philippi ym*
*Macedonia, gyd â Thitus a Lucas.*

# Epiſtol Paul at y Galatiad.

## PENNOD. I.

Paul yn ceryddu y Galatiad am gynnwys Apoſtolion gau. 13 Yn dangos y modd y troes efe at Dduw, ai ymwreddiad yn ei ſwydd.

Tit.1.1. Paul* Apoſtol, nid o ddyniō, na thrwy ddyn, eithr trwy Ieſu Griſt, a Duw Tâd, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw

2 A'r brodyr oll y rhai ſy gyd â mi, at eglwyſi Galatia,

3 Grâs [fyddo] gyd â chwi, a heddwch gan Dduw Tâd, a'n Harglwydd Ieſu Griſt:

Luc.1.74. 4 Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau er ein gwared * oddi wrth y byd drwg preſennol yn ôl ewyllys Duw a'n Tâd ni:

5 I'r hwn y byddo gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.

6 Rhyfedd yw gennif mor fuan (gan ymadel â Chriſt yr hwn a'ch galwaſe i râs) i'ch ſymmudwyd i Efengyl arall,

7 Yr hon nid yw arall, eithr bod rhai yn eich blino chwi, ac yn ceiſio dattroi Efengyl Griſt.

8 Eithr pa un bynnac ai nyni, ai angel o'r nef a bregetho i chwi amgen nâ hyn a efengylaſom i chwi, bydded anathema.

9 Megis y dywedaſom o'r blaen felly yr ydwyf yn dywedyd etto yr awron, os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniaſoch, bydded anathema.

10 Yr awron ai annog [derbyn] dynion, ynte Duw yr wyfi?: neu ai ceiſio yr wyfi ryngu bodd dynion?: canys os etto y rhyngwn fodd dynion, ni fyddwn wâs i Griſt.

1.Cor.15.1. 11 * Weithian frodyr, yr wyf yn yſpyſu i chwi, am yr Efengyl a bregethais, nad dynol oedd hi.

12 Canys nid gā ddŷn y derbyniais hi, nac i'm dyſcwyd, eithr trwy ddadguddiad Ieſu Griſt.

13 O herwydd chwi a glywſoch pa wedd yr ymddugym i gynt yn y ddeddf Iddewig, * fel yr erlidiais i eglwys Dduw yn dra rhagorol, ac yr anrheithiais hi: Act.9.1.

14 Ac y llwyddais yn yr Iddewig ddeddf yn fwy nâ llawer o'm cyfoedion yn fyng-henedl fy hun, gan fod yn dwyn mwy zêl i draddodiadau fy nhadau.

15 Ond er cynted ag y gwelodd Duw yn dda, yr hwn a'm dewiſodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i drwy ei râs ef,

16 I ddadguddio ei Fab ef trwof fi, fel y pregethwn ef * ym mhlith y cenhedloedd, yn gyſlym nid ymgynghorais â chig a gwaed: Ephe.3.8.

17 Ac nid aethym yn fy ôl i Jeruſalem at y rhai oeddynt o'm blaen i yn Apoſtolion, ond mi a aethym i Arabia, ac a ddychwelais eil-waith i Ddamaſcus.

18 Ac wedi tair blynedd y daethym yn fy ôl i Jeruſalem i ymweled â Phetr, ac a arhôais gyd ag ef bymthec diwrnod.

19 Ac ni welais yr un arall o'r Apoſtolion, ond Iaco brawd yr Arglwydd.

20 Ac am y pethau yr wyf yn eu ſcrifennu attoch, wele, ger bron Duw, nid wyf yn dywedyd celwydd.

21 Yna y deuthym i derfynau Syria, a Cilicia,

22 Canys ni'm adwaenid wrth [fy] wyneb yn eglwyſi yr Iddewon, y rhai oeddynt yng-Hriſt.

23 Dim

23 Ond yn vnic hwy a glywſent yr vn oedd gynt yn ein herlid, yr awron y mae yn pregethu y ffydd, yr hon y bu o'r blaen yn ei hanrheithio.

24 Ac a ogoneddaſent Dduw o'm plegit i.

## PEN. II.

Yng-hylch ſwydd yr Apoſtoliaeth, ac enwaediad, 11 yr ymryſon rhwng Paul a Phetr, 16 Athrawiaeth am ffydd, a gweithredoedd da, a'r ddeddf.

YNa wedi pedair blynedd ar ddêc, yr aethym i fynu eil-waith i Ieruſalem, gyd â Barnabas, gan gymmeryd Titus hefyd.

2 A thrwy weledigaeth yr euthym i fynu, ac mi a eglurais iddynt yr Efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ym mhlith y cenhedloedd: * ond yn ddirgel i'r rhai cymmeradwy, rhag mewn vn modd y rhedwn neu y rhedaſwn yn ofer.

3 Eithr Titus yr hwn oedd gyd â mi, er ei fod yn Roeg-wr, ni yrrwyd iw enwaedu:

4 A [hynny] o herwydd y gau frodyr, y rhai a ymſangaſent i mewn, y rhai a ddaethent i ſpio ein rhydd-did ni, yr hon ſydd gennym yng-Hriſt Ieſu, fel ein harweinient i gaethiwed:

5 I ba rai nid ymroeſom trwy ddaroſtyngiad [ennyd] awr, fel yr arhoe gwirionedd yr Efengyl gyd â chwi:

6 A chan y rhai a dybid eu bod yn rhyw beth (beth bynnag oeddynt nid gwaeth gennif, *nid yw Duw yn derbyn wyneb dŷn) canys y rhai a'u gwelent [eu hun yn bennaf] ni chwanegaſant ddim i mi.

Deut.10.17.
.Chron.19.7.
ob.34.19.
Doeth.6.8.
Act.10.34.
Ruf.2.11.
Ephes.6.9.
Colos.3.25.
.Pet.1.17.

7 Eithr yng-wrthwyneb, pan welſant ymddyried i mi am Efengyl y dienwaediad, megis yr enwaediad i Petr:

8 (Canys yr hwn oedd rymmus trwy Petr yn apoſtoliaeth yr enwaediad, oedd rymmus hefyd drwof fi yng-hyfer y cenhedloedd)

9 A phan wybu Iaco, a Chephas, ac Ioan y grâs a roddwyd i mi, y rhai yr ydys yn eu cymmeryd yn golofnau, hwy a roeſant i mi, ac i Barnabas ddehau ddwylo cymdeithas, i [bregethu] o honom ni i'r cenhedloedd, a hwythau i'r enwaediad:

10 * Ac i ni feddwl am y tlodion yn vnic, yr hyn yr ymroddais iw wneuthur. Act.11.30. .Cor.9.3.

11 A phan ddaeth Petr i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb, am ei fod iw feio.

12 O blegit cyn dyfod rhai oddi wrth Iaco, efe a fwytâodd gyd â'r cenhedloedd, ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliodd, ac a ymneillduodd oddi wrthynt, gan ofni y rhai oeddynt o'r enwaediad.

13 A'r Iddewon eraill a gyd-ragrithiaſant ag ef, hyd oni hudwyd Barnabas iw lledrith hwy hefyd.

14 Eithr pan welais nad oeddynt hwy yn troedio yn iniawn at wirionedd yr Efengyl, mi a ddywedais wrth Petr yn eu gŵydd oll, os tydi, a thi yn Iddew wyt yn byw fel y cenhedloedd, ac nid fel yr Iddewon, pa ham yr wyt yn peri i'r cenhedloedd fyw yn Iddewaidd?

15 Ny-ni yn Iddewon o naturiaeth, ac nid yn bechaduriaid o'r cenhedloedd, yn gŵybod na chyfiawnheuir dŷn trwy weithredoedd y ddeddf, ond drwy ffydd yn Ieſu Griſt:

16 Ie, nyni a gredaſom yn Ieſu Griſt, fel i'n cyfiawnid trwy ffydd Griſt, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf; o blegit na chyfiawnheuir vn cnawd trwy weithredoedd y ddeddf.

17 * Ac os wrth geiſio ein cyfiawnhau trwy Griſt em cair ni yn bechaduriaid, a ydyw Criſt am hynny yn weinidog pechod? nac ydyw. Ruf.3.19. Phil.3 9.

18 Canys os adeiladaf eil-waith y pethau a ddeſtruwiais, yr wyf yn fyng-wneuthur fy hun yn droſedd-wr.

19 O herwydd myfi trwy y ddeddf, wyf farw i'r ddeddf, i fyw o honof i Dduw.

20 Mi a groeſ-hoeliwyd gyd â Chriſt: etto byw ydwyf, ac nid myfi bellach, ond Criſt ſydd fyw ynofi, a'r bywyd yr hwn yr wyf yn byw yr awr hon yn y cnawd, yr wyf yn [ei] fyw trwy ffydd ym Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun droſofi.

21 Ni ddirymmaf râs Duw: canys os trwy y ddeddf y mae cyfiawnder, yna y bu Criſt farw yn ofer.

## PEN. III.

Paul yn dangos drwy reſymmau fod cyfiawnder enaid drwy ffydd.

OH y Galatiaid angall, pwy a'ch rheibiodd, fel nad vfuddhaech i'r gwirionedd, i ba rai y portreiadwyd Ieſu Griſt o flaen eich llygaid, [ac] a'i croeſ-hoelwyd yn eich plith?

2 Hyn yn vnic a ewyllyſiaf ddyſcu gennwch, ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbyniaſoch yr Yſpryd, ynte trwy wrandawiad y ffydd?

3 A ydych chwi mor angall, wedi dechreu yn yr Yſpryd, a diweddu yr awron yn y cnawd?

4 A ddioddefaſoch chwi gymmaint yn ofer? (os yw ofer hefyd)

5 Gan hynny, yr hwn ſydd yn trefnu i chwi yr Yſpryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith, ai o weithredoedd y ddeddf [y mae efe,] ynte o wrandawiad ffydd?

6 * Megis y credodd Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder. Gen.15.6. Ruf.4 3. Iac.2.23.

7 Felly gwybyddwch mai y rhai ſy o'r ffydd, y rhai hyn yw plant Abraham.

8 Canys yr Scrythur yn gweled o'r blaen y cyfiawnhaue Duw y cenhedloedd drwy ffydd, a ddywedodd o'r blaen i Abraham [fel hyn,] * ynot ti y bendithir y cenhedloedd oll. Gen.12.3. Eccle.44.21. Act.3.25.

9 Ac felly, y rhai ſy o'r ffydd a fendithir gyd ag Abraham ffyddlawn.

10 Canys cynnifer bynnac ſydd o weithredoedd y ddeddf, y maent dan y felldith, canys ſcrifennedic yw, * melldigedic yw pob vn nid erys yn yr holl bethau a ſcrifennir yn llyfr y ddeddf, iw gwneuthur hwynt. Deut.27.26.

11 Ac eglur yw, na chyfiawnheuir neb

Habac.2.4. Ruf.1.17. Heb.10.38. Leuit.18.5.

trwy y ddeddf yng-olwg Duw, *canys y cyfiawn ſydd byw trwy ffydd.

12 A'r ddeddf nid yw o ffydd, * eithr y dŷn a wnêl y pethau hynny a ſydd byw ynddynt.

13 Ond Criſt a'n prynodd rhag melldith y ddeddf, pan wnaed ef yn felldith troſom, canys y mae yn ſcrifennedic: *melldigedic yw pob vn ſydd yng-hrog ar bren:

Deut.21.23.

14 Fel y dele bendith Abraham i'r cenhedloedd trwy Griſt Ieſu, ac y derbyniem addewid yr Yſpryd drwy ffydd.

15 Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol, cŷd na byddo ond ammod dŷn, wedi y cadarnhauir, ni ddirymma neb ef, ac ni ddyry [ddim] wrtho.

*Yr Epiſtol y trydydd Sul ar ddec yn ôl y Drindod.*
Gen.17.7.

16 ☞ *I Abraham y gwnaethbwyd yr addewidion, ac iw hâd ef: ni ddywedodd, ac *ith* hadau, megis am lawer, ond i'th hâd megis am vn yr hwn yw Criſt.

17 Hyn yr wyf yn ei ddywedyd, am y ddeddf yr hon oedd bedwar-cãt a deng-mhlynedd ar hugain wedi, na ddichon ddiddymmu yr ammod a ſiccrhauſe Duw o'r blaen o herwydd Criſt, fel y dirymme yr addewid.

18 Canys os o'r ddeddf [y mae] etifeddiaeth, nid yw haiach o'r addewid, ond Duw a'i rhoddes yn rhâd i Abraham drwy'r addewid.

19 Beth gan hynny [yw'r] ddeddf? o blegit camweddau y doded hi, oni ddele yr hâd i'r hwn y gwnaethid yr addewid: ac hi a drefnwyd gan angelion drwy law cyfryng-wr.

20 Sef cyfryng-wr nid yw i vn, ond Duw ſydd vn.

21 Gan hynny a ydyw y ddeddf yn erbyn addewidion Duw? na atto Duw: canys pe rhoeſid deddf a allaſe roddi bywyd, yn wir fe fuaſe cyfiawnder o'r ddeddf.

Ruf.3 9.

22 *Eithr yr ſcrythur a gaeodd bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd yn Ieſu Griſt i'r rhai a gredent. ☜

23 Eithr cyn dyfod ffydd, ein cadwid yn rhwym dan y ddeddf, i'r ffydd yr hon oedd iw dadcuddio.

Ruf.10.4.

24 *Y ddeddf wrth hynny oedd ein athro ni at Griſt, fel ein cyfiawnid drwy ffydd.

25 Eithr wedi dyfod ffydd, nid ydym ni mwy haiach tann athro.

26 Canys chwi oll ydych blant i Dduw drwy ffydd yn Ieſu Griſt.

Ruf.6.3.

27 *O herwydd pa rai bynnac ydych a'r a fedyddiwyd yng-Hriſt, chwi a wiſcaſoch Griſt.

28 Nid oes nac Iddew na Groeg-wr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwryw na benyw, canys vn ydych oll yng-Hriſt Ieſu.

29 Ac os eiddo Criſt ydych, yna yr ydych yn hâd i Abraham, ac yn etifeddion i'r addewid.

## PEN. IIII.

Cyſcodion ac arwyddion yn terfynu pan ddaeth Criſt, 9 cyngor i ymadel â hên goelion, 15 rheſymmu am anwadalwch y Galatiaid, 22 dammeg o'r wraig rydd a'r wraig gaeth.

*Epyſtol a*
*Sul wedi*
*Natalic.*

☞ HYn yr wyf yn ei ddywedyd, tra fyddo yr etifedd yn fachgen nid oes gwahaniaeth rhyngddo a gwâs, er ei fod yn arglwydd pob dim:

2 Eithr y mae efe tann ymgeledd-wŷr, a llywodraeth-wŷr hyd yr amſer a oſodes y tad.

3 Ac felly ninnau, tra fuom fechgyn yr oeddym gaethion tann wyddorion y byd.

4 Eithr wedi dyfod cyflawnder yr amſer yr anfonodd Duw ei Fab wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur tann y ddeddf,

5 Fel y galle brynu y rhai oeddynt tann y ddeddf, *fel y caem dderbyn mabwriaeth.

Ruf.8.14.

6 Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Yſpryd ei Fab i'ch calonnau, gan leſain, Abba, y Tâd.

7 Ac felly nid wyt mwy yn wâs ond yn fab, ac os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Griſt. ☜

8 Ond tra fuoch heb adnabod Duw, y gwaſanaethaſoch y pethau nid ydynt dduwiau wrth naturiaeth.

9 Ac yn awr a chwi yn adnabod Duw, îe yn hytrach yn gydnabyddus gan Dduw, pa wedd yr ydych yn troi eil-waith at leſc wyddorion tlodion, y rhai y mynnwch trachefn ymgaethiwo iddynt o newydd.

10 Cadw yr ydych ddiwrnodau, a miſoedd, ac amſeroedd, a blynyddoedd.

11 Y mae arnaf ofn am danoch, rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer.

12 Byddwch fel fy-fi, canys yr wyf fel chwi, y brodyr, attolwg i chwi: ni wnaethoch i mi ddim cam.

13 A chwi a ŵyddoch mai trwy wendid y cnawd, yr efengylais i chwi y waith gyntaf.

14 A'r profiad o honof yr hyn oedd yn fyng-hnawd ni ddirmygaſoch, ac ni wrthodaſoch: eithr chwi a'm derbyniaſoch fel angel Duw, fel Criſt Ieſu.

15 Beth (wrth hynny) yw eich dedwyddwch chwi? canys tyſtio yr wyf i chwi, pe buaſe boſſibl y tynnaſech eich llygaid, ac y rhoeſech i mi.

16 A aethym i gan hynny yn elyn i chwi wrth ddywedyd i chwi y gwir?

17 Y maent hwy ar gam yn eiddigus droſoch, hwy a fynnent ein caeu ni allan, fel y dygech ſerch iddynt hwy.

18 Eithr peth da yw, dwyn ſerch yn oeſtadol mewn peth da, ac nid yn vnic pan fwyf ŵydd yng-wydd â chwi,

19 Fy mhlant bychain y rhai yr wyf fi yn eu hail eſcor, hyd oni ffurfier Criſt ynoch:

20 Ac mi a fynnwn pe bawn yn awr gyd â chwi, a newidio fy llais, o herwydd yr wyf yn ammau o honoch.

*Yr Epyſt*
*y pedwery*
*Sul o'r Gr*
*wys.*

21 ☞ Dywedwch i mi y rhai a fynnwch fod dan y ddeddf, oni chlywch y ddeddf?

Gen.16.15. Gen.21.1.

22 Canys y mae yn ſcrifennedic fôd i Abraham ddau fab, *vn o'r waſanaeth-wraig, *ac vn o'r [wraig] rydd.

23 Eithr hwn oedd o'r waſanaeth-wraig a

aned yn ôl y cnawd: a hwn oedd o'r wraig rydd [a aned] o herwydd yr addewid.

24 Y pethau hyn a arwyddocânt beth arall: ſef y rhai hyn ynt y ddau deſtamẽt: vn yn ddiau, hon yw Agar o fynydd Sina ſydd yn cenhedlu i gaethiwed:

25 Canys Agar yw Sina mynydd yn Arabia, ac y mae yn cyfatteb i Jeruſalem yr hon ſydd yn awr, ac y mae yn gaeth hi a'i phlant.

Eſa.45.2. 26 Eithr Jeruſalem honno vchod ſydd rydd, hon yw ein mam ni oll.

Eſa.54.1. 27 Canys ſcrifennedic yw, * llawenhâ di y ddieppil yr hon nid wyt yn planta: torr allan a llefa, yr hõ nid wyt yn eſcor, canys i'r ddiſwriog y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi ŵr.

Ruf.9.8. 28 Minneu frodyr ydym yn blant yr addewid * vn wedd ac Iſaac.

29 Eithr megis y pryd hynny, hwn a aned yn ôl y cnawd a erlidie'r hwn [a aned] yn ôl yr Yſpryd, felly y mae yr awrhon.

30 Ond pa beth a ddywed yr ſcrythur? Gen.21.10. * Bwriwch allan y waſanaeth-wraig a'i mab, canys ni bydd mab y waſanaeth-wraig yn etifedd gyd â mab y wraig rydd.

31 Felly frodyr, nid ydym ni blant i'r waſanaeth-wraig, ond i'r wraig rydd.

## PEN. V.

Yng-hylch enwaedîad. 13 Cariad perffaith. 19 Gweithredoedd y cnawd. 22 A gweithredoedd yr Yſpryd.

SEfwch yn y rhydd-did y rhyddhaodd Criſt ni, ac na rwyder chwi eil-waith dann iau caethiwed.

Act.15.1. 2 * Wele, myfi Paul wyf yn dywedyd wrthych, os enwaedir chwi, ni leſ-hâ Criſt ddim i chwi.

3 Canys yr ydwyf yn tyſtio trachefn i bob dŷn a'r a enwaedir, ei fod ef yn rhwymedic i gadw yr holl ddeddf.

4 Chwi a aethoch yn ofer oddi wrth Griſt, pwy bynnac ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf a ſyrthiaſoch oddi wrth y grâs.

5 Canys nyni yn yr Yſpryd drwy ffydd ydym yn diſgwil gobaith cyfiawnder,

6 O herwydd yng-Hriſt Jeſu ni fuddie enwaedîad ddim, na dienwaedîad, ond ffydd yn gweithio trwy gariad.

7 Rhedaſoch yn dda: pwy a'ch rhwyſtrodd, fel nad vfuddhaechi i'r gwirionedd?

8 Nid yw y cyngor hyn o'r neb ſydd yn eich galw.

1.Cor.5.6. 9 * Ychydig lefein a ſura yr holl does.

10 Y mae gennif obaith o honoch drwy yr Arglwydd, na ſydd ynoch ddim meddwl amgẽ, eithr y neb ſydd i'ch trallodi chwi, a ddwg farnedigaeth, pwy bynnac fyddo.

11 Os myfi (frodyr) ſydd yn pregethu'r enwaedîad, pa ham yr ydys etto i'm herlid? felly y tynnwyd ymmaith tramgwydd y groes.

12 Och [Dduw] na thorrid ymmaith y rhai a'ch aflonyddant.

13 Canys chwi a alwyd i rydd-did frodyr, yn vnic nac [arferwch eich] rhydd-dyd yn achlyſur i'r cnawd, ond gwaſanaethwch ei gilydd trwy gariad.

14 Canys y ddeddf oll a gyflawnir yn yr vn gair hwn: * Cari dy gymmydog fel ti dy hun. Math.22.39. marc.12.31. leuit.19.18. iac.2.8.

15 Os cnoi a wnewch, a thraflyngcu ei gilydd, mogelwch rhag eich difa gan ei gilydd.

16 ☞ Hyn meddaf: rhodiwch yn yr Yſpryd, ac na chyflawnwch a chwennycho y cnawd. *Yr Epiſtol y pedwerydd Sul ar ddec yn ôl y Drindod.*

17 Canys y mae y cnawd yn chwennych yn erbyn yr Yſpryd, a'r Yſpryd hefyd yn erbyn y cnawd, a'r rhai hyn a wrthwynebãt ei gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynnac a ewyllyſioch.

18 Os gan yr Yſpryd i'ch arweinir, nid ydych tann y ddeddf.

19 Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai ŷnt, torri priodas, godineb, aflendid, digywilydd-dra,

20 Addoliad eulynnod, ſwyn-gyfaredd, caſineb, llid, gelyniaeth, digofaint, ymryſonau, terfyſcau, hereſi,

21 Cenfigennau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfedach, a'r cyffelyb pethau hyn, y rhai yr wyf yn rhacddywedyd wrthych fel y dywedais yn y blaen, y rhai a wnânt y fath bethau nad etifeddant deyrnas Duw.

22 Eithr ffrwyth yr Yſpryd yw cariad, llawenydd, tangnheddyf, ymaros, cymwynaſcarwch, daioni, ffydd, mwynedd-dra, dirweſt.

23 Yn erbyn y cyfryw, nid oes deddf.

24 Canys y rhai ſydd eiddo Criſt, a groeſhoeliaſant y cnawd, a'i wyniau, a'i chwantau.

25 Os byw yr ydym i'r Yſpryd, rhodiwn hefyd yn yr Yſpryd.

26 Nac awn yn wag orfoleddus gan ymannog ei gilydd, ac ymgenfigẽnu wrth ei gilydd.

## PEN. VI.

Cyngor i gyd-ddwyn â'i gilydd, i gydnabod o bob vn ei fai ei hun, ac i wneuthur daioni. 11 Ac addyſc am yr enwaedîad, ac am ddioddefaint Criſt.

YBrodyr, er dala dŷn ar ryw fai, chwychwi y rhai ſy yſprydol cymhwyſwch y cyfryw ddŷn ag yſpryd mwyneidd-dra, gan yſtyried rhag dy demtio dy hunan hefyd.

2 Dygwch feichiau ei gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Griſt.

3 O blegit os tybia neb ei fod yn rhyw beth, ac yntef heb fod yn ddim, y mae efe yn ei ddwyn ei hun i gam-feddwl.

4 Eithr profed pob vn ei waith ei hun, ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun, ac nid mewn arall.

5 * Canys pawb a ddŵg ei faich ei hun. 1.Cor.3.8.

6 A'r neb a ddyſcwyd yn y gair, cyfranned o'i dda oll, a'r hwn a'i dyſcodd ef.

7 Na thwyller chwi, ni watwarir Duw: canys pa beth bynnac a haua dŷn, hynny a fêd efe.

8 Canys yr hwn a haua iw gnawd ei hun o'r cnawd y mêdal ygredigaeth: eithr hwn a hauo i'r

yſpryd, o'r yſpryd y mêd fywyd tragywyddol.

9 Hefyd na ddiogwn yn gwneuthur daioni: canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddeffygiwn.

10 Am hynny tra fyddo i ni amſer, gwnawn dda i bob dyn, ac yn enwedic i'r rhai ſy o deulu y ffydd.

*Yr Epiſtol ar y pymthecfed Sul yn ol y Drindod.*

11 ☞ Gwelwch cyhŷd y llythr a ſcrifennais attoch â'm llaw fy hun.

12 Cynnifer a ewyllyſiant ymdeghau yn y cnawd, ſydd yn eich cymmell i'ch enwaedu, yn vnic fel nad erlidier hwy oblegit croes Criſt.

13 Canys nid ydynt hwy eu hunain y rhai a enwaedir, yn cadw y ddeddf: ond hwy a ewyllyſient eich enwaedu chwi, fel y gorfoleddent yn eich cnawd chwi.

14 Na atto Duw i mi orfoleddu ond yng-hroes ein Harglwydd Ieſu Griſt, drwy yr hwn y croeſ-hoeliwyd y byd i mi, a minne i'r byd.

15 Canys ni thâl enwaediad ddim yng-Hriſt Ieſu, na dienwaediad, ond creadur newydd

16 A phwy bynnac a rodiant ar ôl y rheol hon, tagneddyf arnynt a thrugaredd, ac ar Iſrael Duw.

17 O hyn allan na flined neb fi: canys dwyn yr wyf yn fyng-horph nodau'r Arglwydd Ieſu.

18 Y brodyr, grâs ein Harglwydd Ieſu Griſt gyd â'ch yſpryd. Amen.

Y llythr hwn *a ſcrifennwyd at y Galatiaid o Rufain.*

# Epiſtol Paul at yr Epheſiaid.

## PENNOD. I.

Paul yn annerch yr eglwys. 3 Yn bendithio Duw am ei râd yng-Hriſt Ieſu, ac yn bennaf am weithredoedd ein iechydwriaeth. 15 Ac am eu ffydd hwy. 19 Gan ddangos godidogrwydd gallu Duw.

1.Cor.1.2.

PAul Apoſtol Ieſu Griſt, trwy ewyllys Duw, at * y ſainct y rhai ſy yn Epheſus, a'r ffyddloniaid yng-Hriſt Ieſu,

2 Grâs [fyddo] i chwi, a thangneddyf gan Dduw ein Tâd, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

2.Cor.1.3.
1.pet.1.3.

3 * Bendigedic [fyddo] Duw, a Thâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn a'n bendithiodd mewn nefolion [bethau] yng-Hriſt, â phob bendith yſprydol,

2.Tim.1.9.
Coloſſ.1.22.

4 * Megis yr etholodd nyni ynddo ef, cyn ſeiliad y byd, fel y byddem * yn ſanctaidd, ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad:

5 Yr hwn a'n rhagluniaethodd ni i fabwyſiad iddo ei hun trwy Ieſu Griſt yn ôl bodlonrwydd ei ewyllys,

6 Er mawl i ogoniant ei râs ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymmeradwy iddo yn yr [hwn ſydd] annwyl,

7 Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef: [ſef] maddeuant pechodau yn ôl cyfoeth ei râs ef:

8 Trwy yr hyn y bu efe helaeth i ni ym mhob doethineb, a deall,

9 Gan yſpyſu i ni ddirgelwch ei ewyllys yn ôl ei fodlonrwyd ei hun, yr hon a arfaethaſe ynddo ei hun:

10 I grynhoi yng-Hriſt yng-orchwyliaeth cyflawnder yr amſeroedd y pethau oll y rhai ydynt nac yn y nefoedd, nac ar y ddaiar.

11 Ynddo ef yn yr hwn ein dewiſwyd pan ein rhagluniaethwyd yn ôl arfaeth yr hwn ſydd yn gweithio pob dim oll wrth gyngor ei ewyllys ei hunan:

12 Fel y byddo i ni (y rhai a obeithiaſom yn gyntaf yng-Hriſt) gael bod yn fawl iw ogoniant ef:

13 Yn yr hwn [y gobeithiaſoch] chwithau hefyd, drwy glywed gair y gwirionedd, Efengyl eich iechydwriaeth, yn yr hwn hefyd wedi i chwi gredu eich ſeliwyd trwy lân Yſpryd yr addewid:

14 Yr hwn yw gwyſtl ein etifeddiaeth, i oreſcyn rhydd-did er mawl iw ogoniant ef.

15 O herwydd paham minne hefyd, wedi i mi glywed am y ffydd yr hon [ſydd] gennwch yn yr Arglwydd Ieſu a'r cariad ar yr holl ſainct,

16 Nid wyf yn peidio a diolch troſoch gan eich coffa yn fyng-weddiau,

17 Ar i Dduw ein Arglwydd Ieſu Criſt, Tâd y gogoniant, roddi i chwi Yſpryd doethineb a dadcuddiad iw gydnabod ef.

18 Trwy oleuo golwg eich calon fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwedigaeth ef, a pheth yw golud ei etifeddiaeth ef yn y ſainct,

19 A pheth yw rhagorol fawredd ei nerth ef ynom ni y rhai ydym yn credu, * o herwydd gweithrediad nerth ei gadernid ef. Coloſſ.2.12.

20 Yr hon a weithiodd efe yng-Hriſt pan ei cyfododd ef o feirw, ac ai dododd ar ei ddeheulaw yn y nefoedd,

21 Goruwch pob tywyſogaeth, ac awdurdod a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a'r a enwir, nid yn y byd hwn yn vnic, ond yn yr hwn ſydd ar ddyfod hefyd:

Pſal.8.6.
heb.2.8.

22 * Ac a ddaroſtyngodd bob peth tan ei draed ef, ac a'i goſodes ef yn ben a'r bob dim iw eglwys,

23 Yr hon yw ei gorph ef, ei gyflawnder ef, yr hwn ſydd yn cyflawni oll yn oll.

PEN.

## PEN. II.

Yr ydys yn mawrhau grâs Criſt gan ddangos beth ydym ni hebddi, a pha beth ydym ni trwyddi hi.

Coloſ.2.13.

A Chwithau * pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau, [a fywhaodd efe,]

Epheſ.6.12.

2 Yn y rhai y rhodiaſoch gynt * yn ôl helynt y byd hwn, ac yn ôl y tywyſog yr hwn y mae iddo lywodraeth yn yr awyr [ſef] yr yſpryd ſydd yr awron yn gweithio ym mhlant anufudd-dod,

3 Ym myſc parai y rhodiaſom ni gynt oll hefyd mewn trachwantau ein cnawd, gan wneuthur deiſyfiadau y cnawd, a'r meddyliau, ac oeddym wrth naturiaeth yn blant digofaint fel eraill:

4 Eithr Duw yr hwn ſydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn ein hoffodd ni,.

5 Ie, pan oeddem feirw mewn pechodau, a'n cydfywhaodd ni â Chriſt, trwy ras [yr hwn] yr ydych yn gadwedig,

6 Efe a'n cyd-gyfododd, ac a wnaeth i ni gyd-eiſtedd yn y nefoedd, yng-Hriſt Ieſu,

7 Fel y galle ddangos yn yr oeſoedd a ddeuent ragorol olud ei râs ef, trwy ei gymmwynaſcarwch i nyni yng-Hriſt Ieſu.

8 Canys a râs yr ydych yn gadwedig trwy ffydd, a hynny nid o honoch chwi, rhodd Duw ydyw,

9 Nid o weithredoedd, rhag i neb orfoleddu.

10 Canys ei waith ef ydym, wedi ein crêu yng-Hriſt Ieſu i weithredoedd da, y rhai a ddarparodd Duw i ni i rodio ynddynt.

11 Am hynny cofiwch eich bod gynt yn genhedloedd yn y cnawd, y rhai a elwid yn ddienwaediad, gan yr hyn a elwir enwaediad yn y cnawd o waith llaw,

12 Eich bod chwi y pryd hynny heb Griſt, ac yn ddieithriaid i wladwriaeth Iſrael, ac yn eſtroniaid i ammodau yr addewid, heb obaith gennych, ac heb Dduw yn y byd.

1.Sam.17.26.
ezech.44.7.
ruf.9.4.

13 Eithr yr awron yng-Hriſt Ieſu y rhai oeddych gynt yn bell, a wnaethwyd yn agos trwy waed Criſt.

14 Canys efe yw ein tangneddyf ni, yr hwn a wnaeth y ddwy-blaid yn vn, ac a ddatododd y canol-gae terfyn.

15 Gan ddirymmio drwy ei gnawd ef y gelyniaeth, [ſef] deddf y gorchymynnion yn yr ordeiniadau, i wneuthur y ddau yn vn dyn newydd ynddo ei hun, * gan wneuthur heddwch,

16 Ac fel y cymmode y ddau â Duw yn yr vn corph drwy ei groes gan ladd y gelyniaeth â hi.

17 A phan ddaeth, efe a bregethodd dangneddyf i chwi, y rhai oeddych yn bell, ac i'r rhai oeddynt yn agos:

Ruf.5.2.

18 * Oblegit trwyddo ef y mae i ni ein dau gan yr vn Yſpryd ddyfodfa at y Tâd,

*Yr Epiſtol ar ddydd gwyl S.Thomas Apoſtol.*

19 ☞ Weithian gan hynny nid ydych chwi mwy yn ddieithriaid na dyfodiaid, ond yn gyd-ddinaſyddion a'r ſainct, ac yn deulu Duw,

20 Wedi eich adailadu ar ſail yr Apoſtolion, a'r prophwydi, o'r hyn y mae Ieſu Griſt ei hun yn ben congl-faen.

21 Yn yr hwn y mae yr holl adeilad wedi ei chydgyſylltu yn cynnyddu yn deml ſanctaidd i'r Arglwydd.

22 Yn yr hwn eich cyd-adailadwyd chwithau yn breſſwylfa i Dduw trwy yr Yſpryd. ☜

## PEN. III.

Yng-hylch ei garchar, a'i weinidogaeth. 14 Gweddi Paul tros yr Epheſiaid.

*Yr Epiſtol ar ddydd gwyl-Yſtwyll.*

☞ ER mwyn hyn yr wyf fi Paul yn garcharor Ieſu Griſt troſoch chwi y cenhedloedd,

2 Os clywſoch am orchwiliaeth grâs Duw yr hon a roddwyd i mi tu ag attoch chwi:

3 Canys trwy weledigaeth yr yſpyſodd efe y dirgelwch hwnnw i mi (megis yr ſcrifennais o'r blaen ar ychydig [eiriau,]

4 Wrth yr hyn pan ddarllenoch y gellwch wybod fy neall yn nirgelwch Criſt)

5 Yr hwn yn oeſoedd eraill ni's eglurwyd i feibion dynion, fel y mae yr awron wedi ei ddadcuddio iw ſanctaidd Apoſtolion a phrophwydi trwy'r Yſpryd glân,

6 Bod y cenhedloedd yn gyd-etifeddion hefyd, ac yn gyd-gorph, ac yn gyfrannogion o'i addewid ef yng-Hriſt trwy yr Efengyl,

Pen.1.19.

7 I'r hon i'm gwnaed i yn weinidog trwy roddiad grâs Duw, yr hwn a roddwyd i mi * trwy nerth ei feddiant ef.

1.Cor.15.9.
Gal.1.16.

8 * I mi, y lleiaf i gyd o'r holl ſainct y doddwyd y grâs hyn, i efengylu ym myſc y * cenhedloedd anchwiliadwy olud Criſt,

Ruf.16.25.
coloſ.1.26.
tit.1.2.

9 Ac i egluro i bawb beth yw cymdeithas y * dirgêlwch yr hwn oedd guddiedic, o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a wnaeth bôb peth trwy Ieſu Griſt.

10 Fel y bydd yr awron yn hyſpyſol trwy yr eglwys i'r tywyſogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion [bethau] amryw fath wybodaeth Duw,

11 Yn ôl yr arfaeth dragywyddol yr hon a weithiodd efe yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd,

12 Yn yr hwn y mae i ni rydd-did, a dyfodfa mewn hyder trwy ei ffydd ef. ☜

*Yr Epiſtol yr vnfed Sul ar bymthec ar ôl y Drindod*

13 ☞ Achos pa ham yr wyf yn dymuno na lwfrhaoch, o blegit fy mlinderau i er eich mwyn chwi, yr hyn yw eich gogoniant.

14 O herwydd y peth hyn y plygaf fyng-liniau at Dâd ein Harglwydd Ieſu Griſt,

15 O hawn yr henwir yr holl deulu yn y nefoedd, ac ar y ddaiar,

16 Ar roddi o honnaw ef i chwi yn ôl cyfoeth ei ogoniant, ymgadarnhau mewn nerth trwy ei Yſpryd ef yn y dyn oddi mewn,

17 Fel y trigo Criſt yn eich calonnau trwy ffydd.

18 Fel y galloch wedi eich gwreiddio, a'ch ſeilio

lio mewn cariad, ymgyffred gyd â'r holl ſainct, beth yw'r llêd a'r hŷd, a'r dyfnder a'r vchder,

19 Ac adnabod cariad Criſt, yr hwn ſydd yn rhagori pôb gŵybodaeth, fel eich llanwer yn hollawl â holl gyflawnder Duw.

Ruf.16.25.

20 *Iddo ef, yr hwn a ddichon wneuthur pôb peth yn fwy tra-rhagorol nac yr ydym ni yn dymuno, nac yn deall, o herwydd y nerth ſydd yn gweithio ynom,

21 Y bydd gogoniant yn yr eglwys trwy Griſt Ieſu, tros yr holl genhedlaethau hyd yn oes oeſoedd, Amen. ☜

## P E N. IIII.

Cyngor rhagorol, ac yſprydol am ymwreddiad at ddyn, a ffydd i Dduw, i ochel gau-ddyſc, ac i adnewyddu buchedd.

*Yr Epiſtol ar y ddaufed Sul ar bymthec yn ôl y Drindod.*
Phil.1.27.
col.1.10.
1.theſſ.2.12.

☞ AM hynny myfi yr hwn ydwyf garcharor yn yr Arglwydd, *wyf yn attolwg i chwi rodio o honoch yn deilwng o'r alwedigaeth i'ch galwyd iddi,

2 Ym mhob lledneiſrwydd, ac addfwyndra ynghyd ag ymaros, gan oddef eu gilydd mewn cariad,

3 Gan ymroi i gadw vndeb yr Yſpryd ynghwlwm tangneddyf,

4 Vn corph, ac vn yſpryd, megis i'ch galwyd i vn gobaith eich galwedigaeth:

5 Vn Arglwydd, vn ffydd, vn bedydd,

Mal.2.10.

6 * Vn Duw a Thâd oll, yr hwn ſydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll. ☜

*Yr Epiſtol ar ddydd S. Marc.*
Ruf.12.3.
1.cor.12.11.
2.cor.10.13.
pſal.68.18.

7 ☞ *Eithr i bob vn o honom y rhoed grâs yn ôl meſur dawn Criſt,

8 Am hynny y mae yn dywedyd: *pan dderchafodd i'r vchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion.

9 Eithr, efe a dderchafodd, beth yw hynny ond darfod iddo ef ddeſcyn yn gyntaf i barthau iſaf y ddaiar:

10 Yr vn a ddeſcynnodd yw'r hwn a eſcynnodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawne efe bob peth.

1.Cor.12.27.

11 Efe gan hynny a roddes * rai i fod yn Apoſtolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengyl-wŷr, a rhai yn fugeiliaid, a rhai yn athrawon,

12 I grynhoi y ſainct i waith y weinidogaeth, i adailadaeth corph Criſt.

13 Hyd oni ymgyfarfyddom oll (yn vndeb ffydd a gŵybodaeth Mab Duw) yn ŵr perffaith at feſur oedran cyflawnder Criſt,

14 Fel na byddom yn blant mwy rhagllaw, yn bwhwman, ac yn ein harwain o amgylch â phob awel dyſceidiaeth mewn cyfrwyſtra dynion a hocced, er cynllwyn twyll,

15 Eithr gan ddilyn gwirionedd mewn cariad, cynnyddwn iddo ef ym mhob peth, yr hwn ſydd ben, [ſef] Criſt.

16 O'r hwn, y mae yr holl gorph (wedi iddo gyd-ymgynnull, a chyd-ymgyſylltu trwy bob cymmal, yr hwn ſydd yn gweini llyniaeth yn ôl y gweithrediad y ſydd ym meſur pob rhan, yn peri cynnydd y corph, iw adailadaeth ei hun mewn cariad. ☜

*Yr Epiſtol*
*yr xix. Sul y*
*ôl Drindod.*
Ruf.1.21.

17 ☞ Hyn gan hynny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei deſtiolaethu yn yr Arglwydd, na rodioch chwi mwy haiach *fel y mae y cenhedloedd eraill yn rhodio mewn gwagedd eu meddwl.

18 Wedi tywyllu yn eu meddwl, ac yn ddieithr oddiwrth fuchedd Dduw, drwy yr anwybod y ſydd ynddynt, trwy galedrwydd eu calonnau.

19 Y rhai wedi iddynt ddiddarbodi a ymroeſant i drythyllwch yn odiech, i wneuthur pob aflendid.

20 Eithr chwy-chwi, nid felly y dyſcaſoch [am] Griſt.

21 Os bu i chwi ei glywed ef, ac o's dyſcwyd chwi ganddo megis y mae'r gwirionedd yn Ieſu,

22 [Sef] dodi heibio yr hyn a berthyn i'r hên ymddygiad gynt, yr hên ddyn 'hwnnw' yr hwn y ſydd lygredig drwy chwantau twyllodrus,

23 Ac ymadnewyddu yn yſpryd eich meddyliau,

24 A gwiſco y dŷn newydd, yr hwn a grêwyd yn ôl Duw mewn cyfiawnder, a gwîr ſancteiddrwydd.

25 O herwydd paham gan fwrw ymmaith gelwydd, dyweded pawb y gwîr wrth ei gymmydog: canys aelodau ydym iw gilydd.

26 Digiwch, ac na phechwch, na fachluded yr haul ar eich dîg chwi.

27 Ac na ddodwch le i ddiafol.

28 Yr hwn a ledrataodd na ledrated mwy, eithr cymmered boen yn hytrach yn gweithio â'i ddwylaw y peth ſydd dda, fel y byddo ganddo [beth] iw gyfrannu i'r anghênog.

29 Na ddeued vn ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi, ond cyfryw vn a fyddo da i adailadaeth pan fyddo rhaid, fel y paro râs i'r gwrandawŷr.

30 Ac na thriſtewch lân Yſpryd Duw, gan yr hwn eich ſeliwyd i ddydd y prynedigaeth.

31 Tynner ymmaith oddiwrthych bôb chwerwedd, a llid, a dîg, a llefain, a chabledd gyd â phôb drygioni:

32 A byddwch gymmwynaſcar iw gilydd, a thrugarogion, gan faddeu iw gilydd, fel y maddeuodd Duw er mwyn Criſt i chwithau. ☜

## P E N. V.

Y mae Paul yn annog i gariad perffaith, ac i ochel amryw bechodau tan eu henwau, 19 I fod yn ddiolchgar i Dduw. 22 Ac yn cynghori pawb, ac yn anad neb gwr â'i wraig i dduwiol oſtyngeiddrwydd.

*Yr Epiſtol ar y trydydd Sul o'r grawys.*
Ioan.13.34.
& 15.12.
1.Ioan.3.23.
Coloſ.3.5.

GAn hynny byddwn ddylin-wŷr Duw, fel plant annwyl,

2 * A rhodiwch mewn cariad, fel y carodd Criſt ninnau, ac y dododd efe ei hun troſom yn offrwm, ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd

3 * Eithr godineb, a phob aflendid neu gy-

budd-dra na henwer chwaith yn eich plith, megis y gwêddei i ſainct,

4 Na ſerthedd, na geiriau ffol, na choegddigrifwch, yr hyn nid ydynt weddus, eithr yn hytrach diolchgarwch.

5 Canys yr ydych yn gwybod hyn, am bôb puttein-wr, neu aflan, neu gybydd (yr hwn ſydd ddelw-addolwr) nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Griſt, a Duw.

Math.24.4. marc.13.5. luc.21.8. 6 *Na thwylled neb chwi â geiriau ofer, canys, o blegit y pethau hyn y daw digofaint Duw ar blant yr anufudd-dod.

7 Gan hynny na fyddwch gyfeillion iddynt.

8 Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, ac yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd rhodiwch chwithau fel plant y goleuni,

9 (Canys ffrwyth yr Yſpryd [ſydd] ym mhob daioni, a chyfiawnder a gwirionedd)

10 Gan brofi yr hyn ſydd gymmeradwy gan yr Arglwydd.

11 Ac na fydded i chwi gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch, eithr yn hytrach argyoeddwch [hwynt.]

12 Canys brwnt yw adrodd y pethau a wnânt hwy yn ddirgel.

13 Eithr pob peth wedi'r argyoedder, a eglurir gan y goleuad: canys beth bynnag ſydd yn egluro, goleuad yw.

14 O herwydd hynny y mae efe yn dywedyd: deffro di yr hwn wyt yn cyſcu, a chyfot oddi wrth y meirw, a Chriſt a oleua i ti. ☜

*Yr Epyſtol yr vgainfed Sul yn ôl y Drindod.*

15 ☞ Gwelwch gan hynny, pa fodd y rhodioch yn ddiyſcaelus, nid fel annoethion, ond fel doethion,

16 Gan waredu yr amſer: canys y dyddiau ſy ddrwg.

Coloſ.4.5. ruf.12.2. 1.theſſ.4.2. 17 Am hynny na fyddwch * amhwyllogion, eithr deallwch beth yw ewyllys yr Arglwydd.

18 Ac na feddwer chwi gan win, yn yr hwn y mae gormodedd: eithr llanwer chwi o'r Yſpryd:

19 Gan ymddiddan âi gilydd mewn pſalmau, a hymnau, ac odlau yſprydol, gan ganu a phyngcio i'r arglwydd yn eich calonnau:

20 Gan ddiolch yn oeſtad i Dduw a'r Tâd am bôb peth yn enw ein hArglwydd Ieſu Griſt

21 Gan ymddaroſtwng iw gilydd yn ofn Duw. ☜

Coloſ.3.15. tit.2.5. 1.pet.3.1. 1.Cor.11.3. 22 *Y gwragedd, ymoſtyngwch i'ch gwŷr priod, megis i'r Arglwydd.

23 *O blegit y gŵr yw pen y wraig, megis y mae Criſt yn ben i'r eglwys, ac yntef yw iachawdwr y corph.

24 Can hynny fel y mae yr eglwys yn ddaroſtyngedic i Griſt, felly hefyd [bydded] y gwragedd iw gwŷr priod ym mhob peth.

1.Coloſſ.3.18. 25 Y gwŷr, cerwch eich gwragedd megis y carodd Criſt yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun troſti,

26 Fel y ſancteiddie efe hi, wedi ei glanhau mewn golchfa ddwfr trwy 'r gair,

27 Fel y gwnele efe hi yn eglwys ogoneddus iddo ei hun, heb arni na brycheun, na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond ei bod yn ſanctaidd, ac yn ddifai.

28 Felly y dyle y gwŷr garu eu gwragedd megis eu cyrph eu hunain, yr hwn a garo ei wraig y mae yn ei garu ei hun.

29 Can na chaſſodd neb er ioed ei gnawd ei hun, eithr ei fagu a'i faethu, megis y mae yr Arglwydd am yr eglwys.

30 Canys aelodau ydym ei gorph ef, ac o'i gnawd, ac o'i eſcyrn.

31 *O blegit hyn, dŷn a ymêdu â'i dad, ac â'i fam, ac a lŷn wrth ei wraig, ac hwynt hwy a fyddant ill dau yn vn cnawd. Gen 2.24. math.19.5. marc.10.7. 1.cor.6.16.

32 Dirgelwch mawr yw hyn: eithr dywedyd yr wyf am Griſt, ac am yr eglwys.

33 Am hynny, chwithau bawb, cared pôb vn ei wraig megis ei hunan, a pharched y wraig ei gŵr. ☜

## PEN. VI.

Plant, a'u rhieni, gweiſion a'u meiſtred, a phawb yn cael cyngor. 12 A dangos ein peryglon, a'n gelynion, a'r mòdd y mae i ni gymmeryd iawn arfogaethau at ryfel Chriſtionogaidd.

Y *Plant gwrandewch eich rhieni yn yr Arglwydd, canys hynny ſydd gyfiawn. Coloſ.3.20.

2 *Anrhydedda dy dâd a'th fam, (yr hwn yw y gorchymyn cyntaf mewn addewid) Exod.20.12. deut.5.16. math.15.4. marc.7.10.

3 Fel y byddo yn dda i ti, ac fel y byddech hir hoedlog ar y ddaiar.

4 Chwithau dadau, na chyffroiwch eich plant i ddigio, ond maethwch hwynt mewn addyſc, ac athrawaeth yr Arglwydd.

5 *Y gweiſion vfuddhewch i'r rhai ſy arglwyddi i chwi yn ôl y cnawd, trwy ofn, ac arſwyd megis i Griſt, yng-wiriondeb eich calonnau. Coloſ.3.22. tit.2.9. 1.pet.2.18.

6 Nid â gwaſanaeth yn y gôlwg, megis rhai yn ceiſio bodloni dynion, ond fel gweinidogion Criſt, gan wneuthur ewyllys Duw o'r galon,

7 Gan wneuthur gwaſanaeth trwy ewyllys da, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion.

8 Gan ŵybod mai y daioni a wnelo pob vn, hynny a dderbyn efe gan yr Arglwydd, pa vn bynnag ai caeth ai rhydd [fyddo efe.]

9 A'r meiſtred gwnewch chwithau 'r vn rhyw bethau iddynt hwy, gan roddi bygwth heibio, gan ŵybod fod eich Arglwydd chwi, a hwythau yn y nefoedd, * ac nad oes dderbyn wyneb gyd ag ef. Act.10.34. col.3.25. 1.pet.1.19. Ruf.2.11.

10 ☞ Am ben hyn fy mrodyr ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yng-hadernid ei allu ef:

*Yr Epiſtol yr xxi. Sul ar ôl y Drindod.*

11 Gwiſcwch oll arfogaeth Dduw, fel y galloch ſefyll yn erbyn cynllwynion diafol.

12 Am nad yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, eithr yn erbyn tywyſogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol gedyrn tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau yſprydol yn y nefol [leoedd.]

13 Am hynny cymmerwch attoch holl ar-

ſogaeth Dduw, fel y galloch wrthladd yn y dydd blin, a ſeſyll wedi gorphen y cwbl.

14 Seſwch gan hynny wedi gwregyſu eich lwynau â gwirionedd, a gwiſco dwyfronneg cyfiawnder,

15 A gwiſco am eich traed eſcidiau paratoad Efengyl tangneddyf.

16 Uwchben pôb dim cymmerwch darian y ffydd, â'r hwn y galloch ddiffoddi holl biccellau tanllyd y fall,

17 Cymmerwch hefyd helm yr iechydwriaeth, a chleddyf yr Yſpryd, hwn yw gair Duw.

Coloſ.4.3.
2.theſ.2.17.

18 A gweddiwch bób amſer â phob rhyw weddi a deiſyfiad yn yr Yſpryd, * gan fod yn wiliadurus at hyn trwy bôb dyfalwch, ac ymbil tros yr holl ſainct,

2.theſ.3.1.

19 * A throſof finne, ar roddi i mi ymadrodd iagôryd ſyng-enau mewn rhydd-did, i wneuthur yn eglur ddirgelwch yr Efengyl,

20 Er mwyn yr hon yr wyf yn gennad mewn cadwyn, fel y traethwyf yn hyderus am deni, megis y perthyn i mi draethu. ☜

21 Ac fel y gwypoch chwithau hefyd ſyng-hyflwr, a pha beth yr wyf yn ei wneuthur, Tychicus a'u dengys hwy oll i chwi, ſy annwyl frawd a gweinidog ffyddlon yn yr Arglwydd:

22 Yr hwn o'r achos honno a ddanfonais attoch, fel y gwypoch ſyng-hyflwr, ac fel y cyſſure efe eich calonnau chwi.

23 Tangneddyf gyd â [chwi] frodyr, a chariad, a ffydd oddi wrth Dduw Tad, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

24 Gras gyd â'r rhai oll a garant ein Harglwydd Ieſu Griſt, yn anllygredig. Amen.

Y llythyr hwn *a ſcrifennwyd o Rufein*
*gyd â Tychicus.*

# Epiſtol Paul at y Philippiaid.

## PENNOD. I.

S. Paul yn dinoethi ei galon tu ag attynt, 3 Gan roddi diolch, 4 A gweddio dros eu ffydd a'u hiechydwriaeth. 7 Y mae yn dangos ffrwyth ei adfyd. 25 Ac yn eu hannog i gytundeb, 28 A dioddefgarwch.

PAUL a Timotheus gweiſion Ieſu Griſt at yr holl Sainct yng-Hriſt Ieſu y rhai ſy yn Philippos gyd â'r eſcobion, a'r diaconiaid:

2 Rhâd fydd gyd â chwi a thangneddyf gan Dduw ein Tâd, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

*Yr Epiſtol ar y 22. Sul yn ól y Drindod wrth.*

3 ☞ I'm Duw yr ydwyf yn diolch ym mhob coffa am danoch,

4 (Gan weddio bôb amſer yn ſy holl weddiau troſoch oll yn llawen)

1, Theſſ.1.2.

5 O blegit y gyfran yr hon ſydd i chwi yn yr Efengyl, o'r dydd cyntaf hyd yr awr hon.

6 Gan fod yn ſiccr gennif hyn, y gorphen yr hwn a ddechreuodd waith da ynoch, hyd yn nydd Ieſu Griſt,

7 Megis y mae yn iawn i mi ſynnied am danoch oll, am eich bôd gennif yn ſyng-halon yn gyſtal yn ſy rhwymau, ac yn ſy amddeffyn i, a chadarnhâd yr Efengyl, [nid amgen] eich bôd chwi oll yn gyfrannogion â mi o râs.

8 Canys Duw ſydd dyſt i mi mor hoff gennif chwy-chwi oll yn ymyſcaroedd Ieſu Griſt.

9 A hyn yr ydwyf yn ei weddio, [ſef] ar amlhau o'ch cariad etto fwy-fwy mewn gwyb[illegible]aeth a phob ſynnwyr:

10 I fedru doſparthu y pethau y bydd gwahaniaeth rhyngddynt, fel y byddoch bur a didramgwydd, hyd ddydd Criſt,

11 Wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai [ydynt] trwy Ieſu Griſt er gogoniant a moliant i Dduw. ☜

12 Ac mi a ewyllyſiwn i chwi wybod frodyr, am y pethau a ddigwyddodd i mi, ddyfod o honynt yn hytrach er llwyddiant i'r Efengyl.

13 Yn gymmaint a bod ſy rhwymau i yn eglur yng-Hriſt yn yr holl lŷs, ac ym mhob [lle] arall,

14 Ac i lawer o'r brodyr yn yr Arglwydd fôd yn hyderuſach, o blegit ſy rhwymau i, i draethu y gair yn ddiofn.

15 Y mae rhai yn pregethu Criſt trwy genfigen, ac ymryſon, a rhai hefyd o ewyllys da.

16 Y naill blaid yn pregethu Criſt o gynnen, ac nid yn burol, gan dybied dwyn mwy o flinder i'm rhwymau.

17 A'r blaid arall o gariad, gan wybod ſyng-oſod i yn amddeffyn i'r Efengyl.

18 Beth er hynny? etto Criſt a bregethir ym mhob modd, pa vn bynnag ai o [ryw] liw, ai yn gywir: ac am hyn yr ydwyf yn llawen, ac mi a fyddaf llawen hefyd.

19 Canys gwn y ſyrth hyn yn iechydwriaeth i mi, trwy eich gweddi chwi, a thrwy gymhorthwy Yſpryd Ieſu Griſt,

20 Yn ôl ſy hiraeth am gobaith na'm gwradwyddir mewn dim, eithr ô gwbl hyder fel pôb amſer, felly yr awr hon hefyd y mawrygir Criſt yn ſyng-horph [pa vn bynnag] ai trwy fywyd, ai trwy farwolaeth.

21 Canys byw i mi [yw] Criſt, ac elw yw marw.

22 Eithr a'i buddiol ſydde i mi fyw yn y cnawd, a pha beth a ddewiſaf ni's gwn.

23 Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddautu, gan ddeiſyfu fy-nattod, a bôd gyd a Chriſt yr hyn ſydd oref dim.

24 Eithr aros yn y cnawd ſydd yn fwy angenrheidiol o'ch plegit chwi.

25 A hyn a wn yn ſiccr, yr arhoſaf, ac y cydtrigaf gyd â chwi ôll er ffynniant i chwi, a llawenydd i'r ffydd,

26 Fel y byddo yn lluoſog eich gorfoledd yn Ieſu Griſt trwofi, gan fy-nyfodiad attoch drachefn.

Epheſ.4.1. Coloſ.1.10. 1.Theſ.2.12.

27 *Yn vnic ymddygwch fel y mae addas i Efengyl Griſt, fel pa vn bynnac ai gan ddyfod a'ch gweled, *ai* gan fod yn abſennol y gallwyf glywed oddi wrth eich cyflwr, eich bôd yn ſefyll yn vn Yſpryd, ac yn vn enaid, yn cyd-ymdrech trwy ffydd yr Efengyl.

28 Ac yn-nim na ddychrynnwch [gan] eich gwrthwyneb-wŷr, yr hyn ſydd iddynt hwy yn arwydd ſiccr o ddiniſtr, ac i chwithau o iechydwriaeth, a hynny gan Dduw.

29 Canys i chwi y rhoddwyd er Criſt nid yn vnic fôd i chwi gredu ynddo ef, ond hefyd ddioddef erddo ef,

30 Gan fôd i chwi yr vn ymdrin, ag a welſoch ynofi, ac yr awr hon a glywch [fôd] ynofi.

## PEN. II.

Y mae efe yn eu cynghori vwch ben dim i vfydd-dod, wrth yr hyn yn bennaf y cynhelir y ddyſc bûr, 19 gan addo y bydd iddo ef a Timotheus ddyfod ar frys attynt hwy, 27 ac hefyd y mae efe yn eſcuſodi hîr drigiad Epaphroditus.

OD oes gan hynny ddim diddanwch yng-Hriſt, od oes cyſſur cariad, od [oes] dim cymdeithas a'r Yſpryd, od [oes] dim toſturi a thrugaredd,

2 Cyflawnwch fy llawenydd, ar i chwi fôd yn vn fryd, a chennych yr vn rhyw gariad, ac yn vn galon, ac yn meddwl yr vn peth.

Ruſei.12.10. 1.Cor.12.11.

3 Fel na wneler dim drwy gynnen, neu wâg ogoniant, eithr yng-oſtyngeiddrwydd gan *dybied ei gilydd yn well na chwi eich hunain.

4 Nac *edrychwch bôb vn ar yr eiddoch eich hunain, eithr [edryched] pôb vn hefyd ar yr eiddo eraill.

*Yr Epyſtol ar y Sul neſaf cyn y Paſc.*

5 ☞ Bydded yr vn meddwl ynoch ag oedd yng-Hriſt Ieſu,

6 Yr hwn pan oedd yn ffurf Duw ni thybiodd drais fôd yn ogyfuwch â Duw:

Math.20.28.

7 Eithr efe a'i *diddymmodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwâs, a'i wneuthur yn gyffelyb i ddynion.

Heb.2.9.

8 *Efe a ymoſtyngodd yn vfydd i angeu ſef angeu y groes.

9 O herwydd pa ham Duw a'i tra-dderchafodd yntef, ac a roddes iddo enw, vwch pen pôb enw,

Eſai 45.33. Ruſei.14.11.

10 *Fel y bydde yn enw yr Ieſu i bôb glin blygu, [yn gyſtal] i'r nefolion â daiarolion, a'r pethau tan y ddaiar.

Ioan.13.13. 1.Cor.8.6.

11 *Ac i bob tafod gyffeſu mai Ieſu Griſt yw 'r Arglwydd, er gogoniant Duw Tâd. ☙

12 Am hynny fy annwylyd, megis pôb amſer yr vfyddhaeſoch, nid megis yn fyng-wydd yn vnic, eithr yr awr hon yn fwy o lawer yn fy abſen, felly gorphennwch eich iechydwriaeth eich hunain drwy ofn a dychryn.

13 Canys Duw yw 'r hwn ſydd yn gweithio ynoch, ewyllyſio a gweithredu o'i ewyllys da.

1.Pet.4.9.

14 Gwnewch bôb dim yn *ddiſurmur, ac heb ymddadle:

Math.5.16. 1.Pet.4.9.

15 *Fel y byddoch yn ddiargyoedd, ac yn bur, ac yn ddiſeius feibion i Dduw ym myſc cenhedlaeth ddrygionus drofaus, ym mhlith y rhai yr ydych yn diſclaerio megis goleuadau yn y byd.

16 Yn cynnal gair y bywyd, er gorfoledd i mi yn-nydd Criſt, na redais i yn ofer, ac na chymmerais boen yn ofer.

17 Ie pe i'm offrymmid ar aberth a gwaſanaeth eich ffydd, llawen yw gennif, a chydlawen a chwi ôll ydwyfi.

18 O blegit hyn hefyd byddwch chwithau lawen, a chyd-lawenhewch â minne.

Act.16.1.

19 Ac yr ydwyf yn gobeitho yn yr Arglwydd Ieſu y danfonaf *Timotheus ar fyrder attoch, megis i'm cyſſurer inne hefyd wrth wybod oddi wrthych.

20 Canys nid oes i mi nêb o gyffelyb feddwl, yr hwn a wir ofala am eich cyflwr chwi.

1.Cor.10.24.

21 Canys *pawb ſydd yn ceiſio yr eiddynt eu hunain, ac nid yr hyn ſydd eiddo Criſt Ieſu.

22 Eithr chwi a adwaenoch y profiad ſydd am dano ef, canys fel mâb gyd a thâd y gwaſanaethodd efe gyd â myfi yn yr Efengyl.

23 Hwn gan hynny yr ydwyf yn gobeithio ei ddanfon cyn gynted ag y gwelwyf yr hyn ſydd i mi.

24 Ac yr ydwyf yn gobeithio yn yr Arglwydd y deuaf fi fy hun hefyd ar fyrder.

25 Eithr tybiais fôd yn anghenrheidiol ddanfon Epaphroditus fy-mrawd, fyng-hyd weithiwr am cydfilwr, ſef eich Apoſtol chwi, a'r hwn fu yn fyng-waſanaethu [inne] o gyfryw bethau, ag oedd arnafi eiſieu.

26 Canys yr oedd arno hiraeth am danoch chwi oll, ac athriſt iawn ydoedd am i chwi glywed ei fôd ef yn glaf.

27 A diau ei fôd ef yn glaf, [ac] ym-mron marw, ond bôd i Dduw drugarhau wrtho, ac nid wrtho ef yn vnic, ond wrthifi hefyd, rhag i mi gael triſtit ar driſtit.

28 Mi a'i danfonais ef gan hynny yn ddieſcaeluſach, fel pan weloch ef drachefn y llawenhaech, ac y byddwn [inne] yn ddi-driſtach.

29 Derbynniwch ef gan hynny yn yr Arglwydd â phob llawenydd, a mawrhewch y cy-

fryw[rai.]

30 Canys er mwyn gwaith Criſt y bu efe yn agos i angeu, ac ni ddarbododd am ei einioes, i gwplau deffig eich gwaſanaeth i mi.

## PEN. III.

2 Y mae efe yn eu rhybuddio hwy i ymogelyd rhag gau ddyſcawdwyr, 3 yn erbyn pa rai y mae efe yn goſod Criſt, 4 a'r vn modd ei hunain, ai ddyſc, 12 ac yn diddymmu cyfiawnder dyn ei hun.

VVEithian fy-mrodyr byddwch lawen yn yr Arglwydd, nid blin gennif fi ſcrifennu yr vn pethau attoch, ac i chwichau i mae yn [beth] diogel.

2 Gochelwch gŵn: gochelwch ddrwg-weithwŷr: gochelwch rhag cydtoriad.

3 Canys enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn addoli Duw yn yr Yſpryd, ac yn gorfoleddu yng-Hriſt Ieſu, ac nid yn ymddyried yn y cnawd.

4 Ac er bod gennif achos i ymddyried yn y cnawd: o thybia nêb arall y gall ymddyried yn y cnawd, mwy [y gallaf] fi:

2.Cor.11.22.
Act.23.6.

5 Wedi fy enwaedu yr wythfed dydd, o genedl Iſrael, o lwyth Beniamin, yn *Hebræwr o'r Hebræaid, * wrth y ddeddf yn Phariſæad:

6 O herwydd zêl yn erlid yr eglwys: o herwydd y cyfiawnder ſydd yn y ddeddf, yn ddiargyoedd.

7 Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hynny a gyfrifwn i yn golled er mwyn Criſt,

8 Ac yn ddiau cyfrif yr wyf bôb dim yn golled er mwyn rhagorawl wybodaeth [am] Griſt Ieſu fy Arglwydd, er mwyn yr hwn y cyfrifais bôb dim yn golled, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel y gallwn ennill Criſt,

9 A'm caffael ynddo ef nid a'm cyfiawnder fy hun gennif, yr hwn ſydd o'r gyfraith, onid yr vn ſydd trwy ffydd Griſt, [ſef] y cyfiawnder ſydd o Dduw trwy ffydd.

10 Fel yr adwaenwyf ef, a rhinwedd ei ailgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefaint fel y byddwyf wedi fyng-wneuthur yn vn wedd ai farwolaeth ef.

11 [I edrych] a gyrhaeddwn ryw fodd ailgyfodedigaeth y meirw.

12 Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd euſus, neu fod euſus yn berffaith: eithr dilyn yr wyf i [geiſio] ymaflyd er mwyn yr hyn yr ymaflir ynof gan Griſt Ieſu.

13 Nid wyf 'n tybied frodyr i mi gael gafael, eithr vn peth [yr wyf arno:] gan ollwng dros gof 'r hyn ſydd o'r tu cefn, a cheiſio tynnu at yr hyn ſydd o'r blaen

14 Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd am gynglwyſt vchod alwedigaeth Duw yng-Hriſt Ieſu

15 Cynnifer gan hynny o honom, ac ydym berffaith, ſynniwn fel hyn: ac od ydych yn-ſynnio yn amgenach, Duw a ddatcuddia hyn hefyd i chwi.

Rufen.15.5.
1.Cor.1.10.

16 Er hynny [yn y peth] y daethom atto cerddwn wrth yr vnrheol, * fel y ſynniom yr vn peth.

Yr Epiſtol a
y trydydd
Sul ar hugain yn ôl y
Drindod.

17 ☞ Y frodyr, dilynwch fi, ac edrychwch ar y rhai ſy yn rhodio felly, megis yr ydym ni yn ſiampl i chwi.

Rufei.16.17.

18 * Canys llawer a rodiant am ba rai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr awrhon yr ydwyf yn dywedyd i chwi dan wylo [eu] bod yn elynion croes Criſt.

19 Y rhai y mae eu diwedd yn gyfrgoll, bol y rhai ſydd yn dduw [iddynt,] a'u gogoniant yn wradwydd iddynt, y rhai y mae eu meddwl am bethau daiarol.

1.Cor.1.7.
Tit.2.11.

20 Canys ein gwlâdwriaeth [ni] ſydd yn y nefoedd, o'r lle yr ydym yn edrych am yr * Iachawdr [ſef] yr Arglwydd Ieſu Griſt.

21 Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael [ni] fel y gwnêler yn vn ffurf a'i gorph gogoneddus ef, o herwydd y grym, trwy yr hwn y dichon efe ddaroſtwng pôb dim iddo ei hun. ☜

## PEN. IIII.

1 Y mae yn eu hannog i fôd o ymwreddiad da. 15 Ac yn diolch iddynt am yr ymgeledd a wnaethent iddo ef yng-harchar. 21 Ac felly y mae yn dibennu gan gânu yn iach.

GAn hynny fy mrodyr annwyl a hoff, fy llawenydd a'm coron, felly ſefwch yn yr Arglwydd, annwylyd.

2 Yr ydwyf yn attolwg i Efodias, ac yn deiſyf ar Syntyche fod o'r vn feddwl yn yr Arglwydd.

Pſal.69.28.
Luc.10.20.
Act.3.5.

3 Ac yr ydwyf yn dymuno arnat tithe fyng-wir gymmar, cymmorth [y gwragedd] hynny y rhai a lafuriaſant gyd â mi yn yr Efengyl, yng-hyd a Chlement hefyd, a chyd ag eraill o'm cydweithwŷr, y rhai y mae eu henwau yn * llyfr y bywyd.

Yr Epyſtol y
iiij. Sul o'r
Adfent.

4 ☞ Llawenhewch yn yr Arglwydd yn oeſtadol, a thrachefn meddaf, llawenhewch.

5 Bydded eich arafwch yn hyſpus i bôb dyn y mae'r Arglwydd yn agos.

Math.6.25.

6 * Na ofelwch [am] ddim: eithr ym mhôb dim dangoſer eich dymuniad i Dduw mewn gweddi a deiſyfiad gyd â diolch.

7 A thangneddyf Duw yr hwn ſydd vwchlaw pôb deall a geidw eich calonnau a'ch meddyliau yng-Hriſt Ieſu. ☜

8 Heb law hyn frodyr, pa bethau bynnag ſydd wîr, pa bethau bynnag ſydd oneſt, pa bethau bynnag ſydd gyfiawn, pa bethau bynnag ſydd bur, pa bethau bynnag ſydd hawddgâr, pa bethau bynnag ſydd ô enw da, od oes vn rhinwedd, ac od oes dim clôd, meddyliwch am y pethau hyn,

9 Y rhai a ddyſcaſoch, ac a dderbyniaſoch, ac a glywſoch, ac a welſoch ynof fi: y pethau hynny gwnewch, a Duw yr heddwch a fydd gyd â chwi.

10 Llawenychais hefyd yn yr Arglwydd yn ddirfawr, am i chwi yr awr hon o'r diwedd ymadnewyddu i ofalu am danaf am yr hyn beth yr oeddych yn gofalu, ond nid oeddech yn cael ennyd.

11 Nid wyf yn dywedyd o herwydd eiſieu, canys dyſcais ym-mha gyflwr bynnag y bwyf, fôd yn fodlon iddo.

12 Ac mi a fedraf ymoſtwng, a medraf amlhau: ym mhôb lle, ac ym mhôb dim im haddyſcwyd i fôd yn llawn, a bôd yn newynog, a bod mewn helaethrwydd, a bôd mewn eiſieu.

13 Pôb dim a allaf trwy Griſt, yr hwn ſydd yn fy nerthu.

14 Er hynny da y g'wnaethoch ar gyfrannu i'm gorthrymder i.

15 A chwi Philippiaid a ŵyddoch y modd yn nechreuad yr Efengyl pan aethym i ymmaith o Macedonia: na chyfrannodd vn eglwys â mi o ran rhoddi a derbyn, ond chwychwi yn vnic.

16 Chwi a anfonaſoch i mi i Theſſalonica, vn-waith, ac eilwaith wrth fy rhaid,

17 Nid o herwydd fy mod i yn ceiſio rhodd: eithr yr ydwyf yn ceiſio ffrwyth yn amlhau erbyn eich cyfrif chwi.

18 Mi a gefais bob dim, ac y mae gennif helaethrwydd, mi a lawnwyd pan dderbyniais gan Epaphroditus y pethau [a ddaethant] oddi wrthych chwi, [ſef] arogl peraidd, aberth cymmeradwy [a] boddlon gan Dduw.

19 A'm Duw a gyflawna eich ôll anghenraid [chwi] yn ôl ei olud ef, yn ogoneddus yng-Hriſt Ieſu.

20 I Dduw ſef ein Tâd [y byddo] gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.

21 Anherchwch yr hôll Sainct yng-Hriſt Ieſu: y mae'r brodyr ſydd gyd â mi yn eich annerch.

22 Y mae y Sainct oll yn eich annerch chwi, ac yn bennaf y rhai ydynt o deulu Cæſar.

23 Rhâd ein Harglwydd Ieſu Griſt [fyddo] gyd â chwi ôll. Amen.

*O Rufain yr ſcrifennwyd at y Philippiaid gyd ag Epaphroditus.*

# Epiſtol Paul at y Coloſsiaid.

## PENNOD. I.

3 Paul yn diolch i Dduw am eu ffydd hwynt. 7 Yn cadarnhau dyſceidiaeth Epaphroditus. 9 Yn gweddio am angwanegiad eu ffydd hwy. 13 Yn dangos iddynt y gwir Griſt, ac yn dinoethi gau Griſt y gau Apoſtolion. 25 Yn canmol ei awdurdod a'i ſwydd.

PAul Apoſtol Ieſu Griſt trwy ewyllys Duw, a Thimotheus [ein] brawd at y Sainct a ffyddlon frodyr yng-Hriſt Ieſu y rhai [ydynt] yn Coloſſa,

2 Grâs gyd â chwi a thangneddyf gan Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

*Yr Epiſtol y pedweryd Sul ar hugain ar ol y Drindod.*

3 ☞ Yr ydym [ni] yn diolch i Dduw, ſef Tad ein Arglwydd Ieſu Griſt yn oeſtadol troſoch gan weddio,

4 Er pan glywſom eich ffydd yng-Hriſt Ieſu, a'ch cariad i'r hôll ſainct,

5 Er [mwyn] y gobaith yr hon ſydd wedi ei rhoddi i chwi yn y nefoedd, am yr hon y clywſoch yn y blaen gan air gwirionedd yr Efengyl,

6 Yr hon wedi dyfod attoch chwi, megis i'r holl fyd, ac yn ffrwythlon fel [y mae] yn eich plith chwithe hefyd, o'r dydd y clywſoch, ac y gwybuoch râs Duw mewn gwirionedd.

7 Fel y dyſcaſoch gan Epaphras ein annwyl gydwas, yr hwn ſydd troſoch chwi yn ffyddlon wenidog Criſt.

8 Yr hwn hefyd a amlygodd i ni eich cariad chwi yn yr Yſpryd.

9 Am hynny ninnau hefyd, er y dydd y clywſom, nid ydym yn peidio a gweddio troſoch, a deiſyf eich cyflawni â gŵybyddiaeth ei ewyllys ef ym mhôb doethineb, a deall yſprydol.

10 Fel y rhodioch yn deilwng gan yr Arglwydd, gan rygluddu bodd ym mhôb dim, gan *ddwyn ffrwyth ym mhôb gweithred dda, a thyfu yng-wybodaeth [am] Dduw.
Epheſ.4.1.
phil,1.27.

11 Wedi ymnerthu â hôll nerth trwy ei ogoneddus gadernid ef i bôb dioddefgarwch, ac ymaros gyd ag hyfrydwch.

12 Gan ddiolch i'r Tad yr hwn a'n gwnaeth yn gymmwys i [gael] rhan o etifeddiaeth y ſainct yn y goleuni. ☜

13 Yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth feddiant y tywyllwch, ac a'n yſmudodd ni i *deyrnas ei annwyl Fâb,
Math.3.17.
& 17.5.
2.pet.1.17.

14 Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, [ſef] maddeuant pechodau.

15 Yr hwn yw gwir *ddelw yr anweledig Dduw, cyntafanedic pôb creadur.
Heb.1.3.

16 Canys *trwyddo ef y creawyd pôb dim a'r [ſydd] yn y nefoedd, ac [ſydd] yn y ddaiar, yn weledig ac yn anweledig: pa vn bynnag ai Thronau, ai Arglwyddiaethau, ai Tywyſogaethau, ai Meddiannau, pôb dim a greawyd trwyddo ef, ac erddo ef.
Ioan.1.3.

17 Ac y mae efe cyn pop dim, ac ynddo ef y mae pôb dim yn cyd-ſefyll.

18 Ac efe yw pen corph yr eglwys: efe yr hwn yw'r dechreuad a'r *cyntafanedic o'r meirw, fel ym mhôb dim y cae efe flaenori.
1.Cor.15.20.
gwele.1.5.

19 Canys *rhyngodd bodd, trigo o bôb cy-
Ioan.1.14.
pen.2.9.

flawnedd ynddo ef,

20 A thrwyddo ef gymmodi pôb dim ag ef ei hun, pa vn bynnag, ai pethau yn y ddaiar, ai pethau yn y nefoedd, gan wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef.

21 A chwithau y rhai oeddech gynt ddieithraid a gelynnion, gan fôd eich meddyliau ar weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododd efe,

22 Yng-horph ei gnawd trwy farwolaeth fel eich goſodid chwi yn * ſanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddigerydd ger ei fron ef. Luc.1.75. 1.cor.1.2. ephes.1.4. tit.2.12.

23 * Os parhewch wedi eich ſeilio a'ch ſicrhau yn y ffydd, heb ſiglo oddi wrth obaith yr Efengyl yr hon a glywſoch, [ac] a'bregethwyd ym myſc pob creadur a'r ſydd tan y nef, i'r hon yr euthym i Paul yn weinidog. Ion.15.6.

24 Yr hwn ydwyf ynawr yn llawenychu yn fy nioddefaint troſoch, ac yn cyflawni yr hyn oedd yn ôl o gyſtudd Criſt yn fyng-hnawd i, er mwyn ei gorph ef, yr hwn yw'r eglwys,

25 I'r hon yr euthym i yn weinidog, yn ôl gorchwiliaeth Dduw, yr hon a roddwyd i mi o'ch plegit chwi i gyflawni gair Duw.

26 [Sef] y * dirgelwch yr hwn oedd guddiedig er yn oes oeſoedd ac yr awr hon a eglurwyd iw ſainct ef. Ruf.16.25. ephes.3.9. 2.tim.1.10. 1.pet.1.20.

27 I ba rai y mynnaſe Duw yſpyſu beth'yw golud gogoniant y dirgelwch hyn ym mhlith y cenhedloedd, yr hwn [olud] yw Chriſt yr hwn ſydd ynoch chwi, * gobaith y gogoniant. 1.Tim.1.1.

28 Yr hwn yr ydym [ni] yn [ei] bregethu, gan rybuddio pôb dŷn, a dyſcu pôb dŷn ym mhôb doethineb, fel y goſodom bôb dŷn yn berffaith yng-Hriſt Ieſu.

29 Am yr hwn beth yr ydwyf fi hefyd yn ymboeni, gan ymegnio yn ôl ei weithrediad ef yr hon ſydd yn gweithio ynofi yn nerthol.

## PEN. II.

1 Gwedi iddo deſtiolaethu ddaed ei ewyllys ef iddynt, 4 Y mae efe yn eu rhybuddio, na ddychwelent yn eu hôl oddi wrth Griſt, 8 I waſanaeth Angelion, ne ddychymmyg arall neu Ceremoniau y gyfraith, 17 Y rhai a derfynwyd yng-Hriſt.

CAnys ewyllyſiwn i chwi wybod pa faint ymdrech ſydd arnaf er eich mwyn [chwi] a'r rhai o Laodicia, a phwy bynnag ni welſant fy wyneb yn y cnawd,

2 Fel y cyſſurid eu calonnau, wedi eu cyſſyltu hwy yng-hariad, ac ym mhob golud cwbl gredadwy ddeall, i adnabod dirgelwch Duw y Tâd, a Chriſt.

3 Yn yr hwn y mae yn guddiedig oll dryſorau doethineb a gwybodaeth.

4 A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd rhag i nêb eich twyllo â geiriau hygoel.

5 Canys * er fy mod yn abſennol yn y cnawd, er hynny yr ydwyf gyd â chwi yn yr yſpryd yn llawenychu, ac yn gweled eich trefn a chadernid eich ffydd chwi, yr hon [ſydd] yng-Hriſt. 1.Cor.5.3.

6 Megis gan hynny y derbyniaſoch Griſt Ieſu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo,

7 Wedi eich gwreiddio a'ch adailadu ynddo ef, ac wedi ymgadarnhau yn y ffydd, * fel i'ch diſcwyd, gan ymamlhau ynddi drwy ddiolch. 1.Cor.1.9.

8 Edrychwch rhac bod neb yn eich anrheithio trwy Philoſophi a gwâg dwyll wrth draddodiad dynion, yn ôl gwyddorion y byd, ac nid yn ôl Criſt.

9 * Canys ynddo ef y mae cyflawnder y Duwdod yn preſſwylio yn gorphorol. Pen.1.19. ion.1.14.

10 Ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef, yr hwn yw pen holl dywyſogaeth ac awdurdod.

21 Yn yr hwn hefyd, i'ch enwaedwyd ag * enwaediad nid o waith llaw, gan ymddioſc pechadurus gorph y cnawd trwy enwaediad Criſt. Ruf.2.29.

12 Wedi eich * cyd-gladdu gyd ag ef trwy fedydd yn yr hwn hefyd i'ch cyd-gyfodwyd trwy * ffydd gweithrediad Duw, yr hwn a'i cyfodes ef o feirw. Ruf.6.4. Ephes.1.19.

13 * A chwithau y rhai oeddech feirw ym mhechodau, ac yn nienwaediad eich cnawd, a gyd-fywhaodd efe gyd ag ef, gan faddeu i chwi eich holl gamweddau, Ephes.2.1.

14 Gan ddileu * ſcrifen-law yr ordeiniadau yr hon [oedd yn] ein herbyn, yr hon oedd yng-wrthwyneb i ni, efe a'i cymmerodd oddi ar y ffordd, gan ei hoelio wrth ei groes, Ephes.2.15.

15 Ac a ſpeiliodd y Tywyſogaethau a'r Nerthoedd, ac ai herddangoſodd hwy yn gyhoeddus, gan orfoleddu arnynt ynddo ei hun.

16 Am hynny na farned nêb arnoch chwi am fwyd a diod, neu o ran dydd gwyl, ne leuad-newydd ne Sabbothau,

17 Y rhai nid ydynt onid cyſcod pethau ar ddyfod, eithr y corph ſydd o Griſt.

18 * Na thwylled neb chwi yn ewyllyſcar, am y gynglwyſt trwy oſtyngeiddrwydd, ac addoliad angelion, gan ruthro i bethau nis gwelodd wedi ymchwyddo yn ofer gan ei feddwl cnawdol ei hun, Mach.24.4.

19 Heb gyfattal y pen o'r hwn y mae'r holl gorph wedi ei ymgoleddu ai gyfāſoddi â chymmalau, ac â rhwymau, yn cynnyddu gan gynnydd Duw.

20 Am hynny os ydych feirw gyd â Chriſt oddi wrth wyddorion y byd, pa ham, fel pe baech byw yn y byd eich arwenir wrth draddodiadau?

21 Na chyffwrdd na archwaetha, na theimla:

22 Yr hyn oll ydynt mewn llygredigaeth wrth eu harfer, yn ôl gorchymynnion, ac athrawiaeth dynion.

23 Gan yr hyn bethau y mae cyffelybrwydd doethineb mewn amcan waſanaeth a goſtyngeiddrwydd meddwl, a bod heb arbed y corph, ac nid mewn parch i gyflawni y cnawd.

PEN.

## PEN. III.

1 Dangos y mae pa le y mae i ni geiſio Chriſt, 5 yn cynghori i ymfarwhau gan ddioſc yr hên ddyn, a gwyſco Criſt, 12 gan rodio mewn cariad a goſtyngeiddrwydd.

Yr Epyſtol ar ddydd Paſc.

☞ AM hynny os chwi a gyd gyfodaſoch gyd â Chriſt, ceiſiwch y pethau oddi uchod, lle y mae Criſt yn eiſtedd ar ddehenlaw Duw.

2 Rhoddwch eich bryd ar bethau [ſydd] uchod, ac nid ar bethau [ſydd] ar y ddaiar.

3 Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyd â Chriſt yn-Duw.

4 Pan ymddangoſo Criſt yr hwn yw ein bywyd, yna hefyd yr ymddangoſwch chwithau gyd ag ef mewn gogoniant.

Ephes.5.3.

5 * Marwhewch gan hynny eich aelodau y rhai ſydd ar y ddaiar, godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chubydd-dod yr hon ſydd yn gaudduwiaeth:

6 O Achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr annufydd-dod.

7 Yn mha rai y rhodiaſoch chwi gynt, pan oeddech yn byw ynddynt. ☜

Rufe.6.4.
Ephes.4.25.
Hebr.12.1.
1.Pet.2.1.

8 * Ond yr awr hon rhoddwch chwi ymmaith y cwbl, dicter, llid, drygioni, difenwi [a] ſerthedd [allan] o'ch genau.

9 Na ddywedwch gelwydd wrth eu gilydd, gan i chwi ymddioſc yr hên ddŷn yng-hyd a'i ymarferion:

Gen.1.26.

10 A gwiſco'r newydd, yr hwn a adnewyddir i wybodaeth * yn ôl delw yr hwn a'i creawdd.

11 Lle nid oes na Groegwr nac Iddew, enwaediad, na dienwadiad Barbariad, Scythiad, caeth, rhydd: eithr Criſt ſydd bôb dim, ac ymmhôb dim.

*Yr Epyſtol ar yv.Sul ar ôl yr Yſtwyll.*
Epheſ.4.32.

12 ☞ Am hynny * megis etholedigion Duw, ſanctaidd, ac annwyl, gwiſcwch ymyſcaroedd toſturiaeth, goſtyngeiddrwydd addfwynder, ac ymaros:

13 Gan gyd-ddwyn ai gilydd, a maddeu iw gilydd os bydd gan un gweryl yn erbyn neb: megis y maddeûodd Criſt i chwi: felly [gwnewch] chwithau.

14 Ac uwch ben hyn oll gwiſcwch gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd.

15 A llywodraethed tangneddyf Duw yn eich calonnau i'r hwn i'ch galwyd yn un corph, a byddwch ddiolchgar.

16 Preſwylied gair Criſt ynoch yn helaeth ym-mhob doethineb, gan eich dyſcu a'ch cynghori eich hunain mewn Pſalmau, a hymnau, ac odlau yſprydawl, gan ganu * yn eich calonnau i'r Arglwydd mewn grâs.

Epheſ.4.29.
1.Cor.10.31.

17 * A pha beth bynnag a wneloch ar air ne weithred gwnewch bôb dim yn enw'r arglwydd Ieſu gan ddiolch i Dduw a'r tad trwyddo ef. ☜

Epheſ.5.22.

18 Y * gwragedd byddwch oſtyngedic i'ch gwŷr priod megis y mae yn weddaidd yn yr Arglwydd.

1.Pet.3.7.
Epheſ.5.25.

19 Y * gwŷr cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt.

Epheſ.6.1.

20 Y * plant ufyddhewch eich rhieni ym-mhob dim, canys hynny ſydd dda iawn gan yr Arglwydd.

21 Y tadau na chyffroiwch eich plant rhag iddynt ddigalonni.

Epheſ.6.5.
Tit.2.9.
1.Pet.2.18.

22 Y * gweiſion ufyddhewch i'ch miſtred o herwydd y cnawd ym-mhob dim, nid a llygad-waſanaeth fel rhyngwŷr bodd dynion, eithr mewn ſymlrwydd calon gan ofni Duw.

23 A pha beth bynnag a wneloch gwnewch yn galonnog, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion,

24 Gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbynniwch daledigaeth yr etifeddiaeth, canys yr Arglwydd Criſt yr ydych yn ei waſanaethu.

2.Chro.19.7.
Iob 34 19.
Deut.10.17.
Doeth.6.7.
Eccleſ.35.12.
Gala.2.6.
Epheſ.6.9.
Act.10.34.
Rufei.2.10.
1.Pet.1.17.

25 Eithr hwn a wna gamwedd, a dderbyn am y camwedd a wnaeth efe, ac nid oes * derbyn wyneb.

## PEN. IIII.

2 Y mae efe yn eu hannog i fod yn wreſog yng-weddi, 5 i rodio yn ddoeth ym myſc y rhai ni ddaethant i wir wybyddiaeth Criſt, 10 y mae yn eu hannerch.

CHwithau feiſtred gwnewch i'ch gweiſion, hyn ſydd gyfiawn, ac iniawn, gan wybod fod i chwi feiſtr yn y nefoedd.

Luc.18.1.
1.Theſſ.5.17.

2 * Parhewch mewn gweddiau gan wilied ynddynt, gyd â diolch,

Epheſ.6.8.
2.Theſſ.3.1.

3 * Gan weddio hefyd droſom ni ar i Dduw agori i ni ddrws yr ymadrodd i adrodd dirgelwch Criſt: am yr hwn yr ydwyf hefyd yn rhwym,

4 Fel yr eglurhawyf ef, megis y mae yn rhaid i mi [ei] draethu.

Epheſ.5.15.

5 * Rhodiwch yn ddoeth tu ag at y rhai ſydd allan gan brynu yr amſer.

6 Bydded eich ymadrodd yn raſlon bob amſer wedi ei dymheru â halen, fel y gwypoch pa fodd y mae yn rhaid i chwi atteb pob dŷn.

7 Tychicus yr annwyl frawd, a'r ffyddlon wenidog, a'r cydwas yn yr Arglwydd a fynega i chwi fy holl gyflwr i.

8 Yr hwn a ddanfonais i attoch er mwyn hyn, fel y gwybydde efe eich cyflwr, ac y diddane eich calonnau,

Phile.10.

9 * Gyd ag Oneſimus y ffyddlon ar annwyl frawd, yr hwn ſydd o honoch, hwy a yſpyſant i chwi am bob peth ſydd ymma.

10 Y mae Ariſtarchus fyng-hyd garcharor yn eich annerch, a Marcus nai fab chwaer Barnabas (o blegit yr hwn y derbynniaſoch orchymynnion, os daw efe attoch, derbynniwch ef)

11 Ac Ieſus yr hwn a elwir Iuſtus, y rhai ydynt o'r enwaediad, y rhai hyn yn unic ynt fyng-hydweith-wŷr i yn nheyrnas Dduw, y rhai a fuant yn gyſſur i mi.

12 Epaphras gwâs Criſt yr hwn ſydd o honoch, ſydd yn eich annerch, ac yn orſtadol yn ymdrechu droſoch mewn gweddiau, ar i chwi ſefyll yn berffaith, ac yn gyflawn yn oll ewyllys Duw.

13 Canys yr ydwyf fi yn teſtiolaethu fod ganddo zêl mawr droſoch, a thros y rhai o Laodicia a'r hai o Hierapolis.

2.Tim.4 11. 14 *Y mae Lucas y meddig annwyl yn i'ch annerch a Demas.

15 Annerchwch y brodyr, y rhai ydynt yn Laodicia a Nymphas, a'r eglwys ſydd yn ei dŷ ef.

16 A phan ddarllener yr Epyſtol hwn gyd â chwi, perwch hefyd ei ddarllen yn eglwys y Laodiciaid, a bod i chwi hefyd ddarllen yr Epyſtol [a eſcrifennwyd] o Laodicia.

17 A dywedwch wrth Archippus, edrych a'r y wenidogaeth a dderbyniaiſt yn yr Arglwydd, fel ei cyflawnech hi.

18 Yr annerchiad a'm llaw mau fi Paul, cofiwch fy rhwymau. Grâs fyddo gyd â chwi. Amē.

*O Rufain yr ſcrifennwyd hwn at y Colloſsiaid, gyd â Tychicus ac Oneſimus.*

# Yr Epyſtol cyntaf i S. Paul at y Theſſaloniaid.

## PENNOD. I.

Y mae efe yn diolch i Dduw droſtynt, am eu bod hwy mor ddiyſcog mewn ffydd a gweithredoedd da, 6 Ag yn derbyn yr Efengyl mor ddifrif, 7 fel y maent yn ſiampl i bawb eraill.

PAUL a Sylfanus a Thimotheus, at eglwys y Theſſaloniaid yn-Nuw Tad, ac yn yr Arglwydd Ieſu Criſt: Grâs [fyddo] i chwi a thangneddyf gan Dduw ein Tad a chan yr Arglwydd Ieſu Griſt.

2.Theſſ.1.3. Philip.1.34. 2 *Yr ydym yn diolch i Dduw yn oeſtadol troſoch chwi oll, gan *wneuthur coffa am danoch yn ein gweddiau,

3 Yn ddibaid gan goffau gwaith eich ffydd, a'r poenus gariad, ac ymaros gobaith yn ein Harglwydd Ieſu Griſt ger bron Duw ſef ein Tad,

4 Gan wybod, frodyr annwyl, fod eich etholedigaeth chwi o Dduw.

5 Canys ni bu ein Efengyl ni mewn gair yn vnic, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Yſpryd glân, ac mewn llawn hyder mawr megis y gwyddoch pa ryw fodd yr oeddem yn eich plith er eich mwyn chwi.

6 A chwi a aethoch yn ddilyn-wŷr i ni, ac i'r Arglwydd, ac a dderbyniaſoch y gair mewn gorthrymder mawr gyd â llawenydd yr Yſpryd glân.

7 Fel yr oeddech yn ſiamplau i'r rhai oll a ydynt yn credu ym Macedonia ac Achaia.

8 Canys oddi wrthych chwi y ſeiniodd gair yr Arglwydd, nid ym Macedonia, ac [yn] Achaia yn vnic, eithr ym mhob man yr aeth eich ffydd [chwi] allan hefyd, yr hon ſydd ar Dduw, fel nad rhaid i ni ddywedyd dim.

9 Canys y maent yn mynegu am danom ni pa ryw ddyfodiad i mewn a gawſom ni attoch chwi, a pha wedd yr troaſoch at Dduw oddi wrth eulynnod, i waſanaethu'r bywiol a'r gwir Dduw,

10 Ac i edrych am ei Fab ef o'r nefoedd, yr hwn a gyfodes efe o feirw, ſef Ieſu ein gwaredudd ni oddi wrth y digofaint ſydd ar ddyfod.

## PEN. II.

Er mwyn na ddeffygient dan y groes, 2 y mae efe yn canmol ei aſtudrwydd ei hun yn pregethu, 13 a'r eiddynt hwythau, yn vfyddhau, 18 y mae efe yn ymeſcuſodi am ei fod ymmaith, ac na alle ddyfod, ac egluro ei galon iddynt.

CAnys chwi eich hunain a wyddoch frodyr, ein dyfodiad ni i mewn attoch, nad ofer fu.

2 Eithr wedi i ni ragddioddef, a chael dir draha yn *Philippi (fel y gwyddwch) bûom hyderus yn ein Duw i draethu i chwi Efengyl Duw trwy fawr ymdrech. Act.16.12.

3 Canys ein annog ni nid ydoedd o hud, nac o aflendid, nac o dwyll.

4 Eithr fel yr oeddem yn gymmeradwy gan Dduw fel i'r ymddyriedid i ni am yr Efengyl, felly yr ydym yn lleſaru, nid fel rhai yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn ſydd yn profi ein calonnau.

5 O blegit ni buom ni er ioed mewn ymadrodd gweniaithus fel y gwyddoch chwi, nac yn achlyſur i gubydd-dod, Duw yn dyſt.

6 Nac yn ceiſio moliant gan ddynion, na chennych chwi, na chan eraill.

7 Pan allaſem fod yn drwm fel Apoſtolion Criſt, eithr yr oeddem yn dyner yn eich myſc, megis mammaeth yn cynheſu ei phlant.

8 Felly mewn awydd i chwi y gwelſom yn dda gyfrannu i chwi, nid yn vnic Efengyl Dduw, ond hefyd ein heneidiau ein hunain, am eich bod yn annwyl gennym.

9 Canys cof gennych frodyr *ein llafur a'n poen, canys nyni yn gweithio ddydd a nos rhag pwyſo ar yr vn o honoch, a bregethaſom i chwi Efengyl Dduw. Act 20.34. 2.Cor.1.12. 2.Theſſ.3.8.

10 Tyſtion ydych chwi, a Duw [hefyd] mor ſanctaidd, ac mor gyfiawn, ac mor ddiargyoedd yr ymddugaſom ni tu ag attoch chwi y rhai

ydych yn credu.

11 Megis y gŵyddoch pa fodd y cynghoraſom chwi, ac y cyſſuraſom bób vn o honoch (megis tad ei blant ei hun)

Epheſ.4.1. philip.1.27. col.1.10.

12 Ac yr ymbiliaſom ar *rodio o honoch yn deilwng i Dduw yr hwn a'ch galwodd iw deyrnas a'i ogoniant.

13 O blegit hyn hefyd yr ydym ni yn diolch i Dduw yn ddibaid o herwydd pan dderbyniaſoch gennym air pregeth Duw, na's derbyniaſoch fel gair dŷn, eithr fel y mae yn ddilys yn air Duw, yr hwn hefyd ſydd yn gweithio ynoch y rhai ydych yn credu.

14 Canys, frodyr, chwi a aethoch yn ddilyn-wŷr eglwyſi Duw y rhai yn Iudæa ydynt yng-Hriſt Ieſu, am i chwi hefyd ddioddef yr vn rhyw bethau gan wŷr eich gwlad, a hwythau gan yr Iddewon.

15 Y rhai a laddaſant yr Arglwydd Ieſu, a'i prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiaſant ninneu, nid ydynt chwaith yn rhyglyddu bodd Duw, ac y maent yn gwrthwynebu pôb dŷn,

16 Gan wahardd i ni bregethu i'r cenhedloedd (fel yr iacheid hwy) i gyflawni eu pechodau yn oeſtadol, canys digofaint Duw a ddaeth arnynt hyd yr eithaf.

17 Am ein gwneuthur frodyr yn ymddifaid am danoch dros ychydig amſer yngolwg ac nid yng-halon, * y buom fwy aſtud i[geiſio] gweled eich wyneb, gan fawr awydd.

Ruf.1.11.

18 Am hynny 'r ewyllyſiaſom ddyfod attoch (myfi Paul yn ddiau vn-waith a dwywaith hefyd) eithr lluddiodd Satan nyni.

19 Canys beth yw ein gobaith, neu llawenydd neu goron [ein] gorfoledd ? ond chwychwi yng-ŵydd ein Harglwydd Ieſu Griſt yn ei ddyfodiad ef?

20 Canys chwi ydych ein gogoniant a'n llawenydd.

## PEN. III.

2 Dangos y mae faint ei ſerch iddynt, ac iddo ddanfon Timotheus attynt, 10 A hefyd ei fod yn gweddio troſtynt.

AM hynny gan na allem ymmatal yn hwy, y tybiaſom fod yn oref aros yn Athen ein hunain,

Act.16.1.

2 A hebrwng * Timotheus ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cydweithwr yn Efengyl Griſt i'ch cadarnhau, ac i'ch diddanu yng-hylch eich ffydd,

3 Fel na chynhyrfid neb yn y gorthrymderau hyn : canys chwychwi eich hunain a ŵyddoch ein darparu ni i hyn.

4 Canys yn wîr pan oeddem gyd â chwi, rhag-ddywedaſom i chwi y bydde i ni gael gorthrymderau, megis y darfu, ac y gŵyddoch.

5 O blegit hyn, pryd na allwn ymattal yn hwy, mi a ddanfonais i gael gŵybod eich ffydd, rhag temtio o'r temtiwr chwi, a myned ein llafur yn ofer.

Act.18.5.

6 Eithr yn * hwyr yr awrhon wedi dyfod Timotheus oddi wrthych chwi attom ni, a mynegu i ni ddaioni am eich ffydd, a'ch cariad a bod gennych gof da am danom yn oeſtadol, gan ddeiſyfio cael ein gweled, megis [yr ydym] ninneu hefyd am danoch chwithau.

7 Am hynny frodyr, yr ydym ni yn cael cyſſur o honoch chwi yn ein hôll gorthrymder, a'n anghenoctid trwy eich ffydd chwi,

8 Am ein bod ni yr awron yn byw os ydych chwi yn ſefyll yn yr Arglwydd.

9 Canys pa ddiolch a allwn ni ei ad-talu i Dduw troſoch chwi, am yr holl lawenydd yr ydym ni yn ei gael o'ch achos chwi ger bron ein Duw?

Ruf.1.10. & 1.23.

10 *Gan weddio yn dra rhagorol ddydd a nos ar weled o honom eich wyneb, a chyflawni yr hyn ſydd yn eiſieu i'ch ffydd.

11 A Duw ei hun, ſef ein Tad a'r Arglwydd Ieſu Griſt, a gyfarwyddo ein ffordd attoch chwi.

12 A'r Arglwydd a'ch lluoſogo, ac a'ch amlhâo mewn cariad iw gilydd, ac i bawb, megis yr ydym ni i chwi,

Pen.5.23. 1.cor.1.8.

13 *I gadarnhau eich calonnau yn ddiargyoedd mewn ſancteiddrwydd ger bron Duw, ſef ein Tad yn nyfodiad ein Harglwydd Ieſu Griſt gyd â'i hôll Sainct.

## PEN. IIII.

1 Y mae efe yn eu hannog i ſancteiddrwydd, 6 Gwiriondeb, 9 Cariad, 11 Llafur, 13 A chymmedrol alar am y meirw. 17 Gan ddoſparthu diwead yr adgyfodiad.

*Yr Epiſtol ar yr ail Sul o'r grawys.*

☞ AC heb law hynny yr ydym yn attolwg i chwi frodyr, ac yn deiſyf yn yr Arglwydd Ieſu, ar i chwi gynnyddu fwy-fwy, megis y derbyniaſoch gennym, pa fodd y dylech rodio, a bodloni Duw.

2 Canys gŵyddoch pa orchymynnion a roddaſom i chwi trwy yr Arglwydd Ieſu.

Ruf.12.2. ephe.5.17.

3 * Canys hyn yw ewyllys Duw [ſef] eich ſancteiddiad chwi, ac ymgynnal o honoch oddi wrth odineb,

4 [A] gwybod o bôb vn o honoch pa fodd y meddianna ei leſtr mewn ſancteiddrwydd, ac anrhydedd,

5 Nid mewn gwŷn trachwant megis y cenhedloedd, y rhai nid adwaenant Dduw.

1.Cor.6.8.

6 * Na fydded i neb orthrymmu na thwyllo ei frawd mewn maſnach : canys yr Arglwydd ſydd ddialwdd ym mhôb cyfryw beth, megis y rhag-ddywedaſom i chwi, ac y tyſtiaſom.

1.Cor.1.2.

7 * O blegit nas galwodd Duw nyni i aflendid, onid i ſancteiddrwydd.

8 Am hynny y neb a eſcaeluſo [y pethau hyn] nid dŷn y mae yn eſcaeluſo, onid Duw yr hwn a roddes ei Yſpryd glân ynom. ☜

9 A thu ag at am frawdgarwch nid rhaid i chwi ſcrifennu [o honof] attoch : canys dyſcwyd chwi gan Dduw i garu eu gilydd.

Ion.13.34. & 15.12. 1.ioan.2.8. & 4.21.

10 O blegit yr ydych yn gwneuthur hyn i bawb o'r brodyr, y rhai ſy trwy hôll Macedonia

ac yr ydym yn attolwg i chwi frodyr gynnyddu o honoch fwy-fwy,

2,Theſſ.3.7.

11 A rhoddi o honoch eich bryd * ar fod yn llonydd, a gwneuthur y pethau ſy eiddoch eich hunain, a gweithio â'ch dwylo eich hunain megis y gorchymynnaſom i chwi:

12 Fel yr ymddygoch yn weddaidd tu ag at y rhai ſydd oddi allan, ac na byddo arnoch eiſieu dim.

13 Nid ewyllyſiwn frodyr eich bod yn anwybod am y rhai ſy yn huno, fel na chymmeroch drymder, megis eraill y rhai nid oes ganddynt obaith.

14 Canys os ydym yn credu farw Jeſu, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunaſãt yn Jeſu a ddwg Duw gyd ag ef.

1.Cor.15.23.

15 Canys hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych yng-air yr Arglwydd, * na bydd i ni y rhai fyddwn yn fyw, ac wedi ein gadel yn nyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunaſant.

Math.24.31.
1.cor.15.52.

16 Canys yr Arglwydd ei hun a ddeſcyn o'r nef gyd â gawr, a llef yr Arch-angel, ac ag udcorn Duw, a'r meirw yng-Hriſt a gyfodant yn gyntaf.

17 Yna ninnau y rhai fyddwn byw, ac wedi ein gado a gymmerir yn y man gyd â hwynt yn yr wybrennau i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr: ac felly yn oeſtadol y byddwn gyd â'r Arglwydd.

18 Am hynny diddenwch eu gilydd â'r ymadroddion hyn.

## PEN. V.

Y mae yn yſpyſſu iddynt am ddydd brawd, ac am ddyfodiad yr Arglwydd, 6 Gan eu hannog i wilied, 12 A ſynnied ar y rhai ſy yn pregethu gair Duw yn eu plith hwy.

AC am yr amſerau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i chwi ſcrifennu o honof attoch.

Math.24.44.
2.pet.3.10.
gwelc.3.3.
& 16.15.

2 O blegit chwi eich hunain a ŵyddoch yn hyſpys y daw * dydd yr Arglwydd fel lleidr o hyd nôs.

3 Canys pan ddywedant, tangneddyf a diogelwch, yna y daw arnynt ddeſtruwiad diſymmwth megis gofid gwraig feichiog wrth eſcor, ac ni ddiangant.

4 Ond chwychwi frodyr, nid ydych mewn tywyllwch fel y goddiweddo y dydd hwnnw chwi megis lleidr.

5 Eithr chwychwi oll plant y goleuni ydych, a phlãt y dydd: nid ydym ni yn eiddo'r nôs na'r tywyllwch,

6 Am hynny na chyſcwn fel eraill, eithr gwiliwn a byddwn ſobr.

7 Canys y rhai a gyſcant, y nôs y cyſcant, a'r rhai a feddwant, y nôs y meddwant:

Eſai.59.17.
ephe.6.17.

8 Eithr nyni y rhai ydym o'r dydd, byddwn ſobr * wedi ymwiſco â dwyfronneg ffydd, â chariad, a gobaith yr iechydwriaeth yn lle helm.

9 Canys ni ddarparodd Duw nyni i ddigllonedd: ond i gaffael iechydwriaeth trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt.

10 Yr hwn a fu farw troſom, fel pa un bynnag a wnelom ai gwilied ai cyſcu, y byddom fyw gyd ag ef.

11 O herwydd pa ham cynghorwch bawb ei gilydd ac adeiledwch bob un ei gilydd, megis yr ydych yn gwneuthur.

12 Ac yr ydym ni yn attolwg i chwi frodyr, adnabod y rhai ſy yn llafurio yn eich myſc, ac ydynt i'ch llywodraethu yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio.

13 A rhoddwch eich traſerch arnynt er mwyn eu gwaith hwy: Byddwch dangneddefus yn eich plith eich hunain.

14 Ac yr ydym yn deiſyf arnoch frodyr, rhybuddiwch y rhai anllywodraethus: diddenwch y rhai gwan feddwl: cynheliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb.

Dihar.17.13.
& 20.22.
math.5.39.
ruf.12.17.
1.pet.3.9.
Luc.18.1.

15 * Gwelwch na thalo neb ddrwg dros ddrwg i neb: eithr yn oeſtadol dilynwch yr hyn ſydd dda i chwi eich hunain, ac i bawb.

16 Byddwch lawen yn oeſtadol.

17 * Gweddiwch yn ddibaid.

18 Ym mhôb dim diolchwch: canys hyn yw ewyllys Duw yng-Hriſt Jeſu tu ag attoch

19 Na ddiffoddwch yr Yſpryd.

20 Na ddirmygwch brophwydoliaeth.

21 Profwch bôb dim, ac attaliwch yr hyn ſydd dda.

22 Ymgedwch rhag pôb rhith drygioni.

23 A Duw y tangneddyf a'ch ſancteiddio yn gwbl oll, a chadwer eich yſpryd oll, a'ch enaid, a'ch corph yn ddiargyoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Jeſu Ghriſt.

1.Cor.1.9.

24 * Ffyddlon yw'r hwn a'ch galwodd, yr hwn hefyd ai gwna.

25 O frodyr, gweddiwch droſom.

26 Anherchwch yr hôll frodyr â chuſã ſancteiddiol.

27 Yr ydwyf yn eich tyngbedu yn yr Arglwydd ar ddarllen y llythyr hwn i'r oll Sainct y brodyr.

28 Grâs ein Harglwydd Jeſu Ghriſt fyddo gyd â chwi. Amen.

*Cyntaf at y Theſſaloniaid a ſcrifennwyd o Athen.*

# Ail Epiſtol S. Paul at y THESSALONIAID.

## PENNOD. I.

Diolch i Dduw y mae am eu ffydd hwy, a'u cariad, a'u dioddefgarwch. 11 Y mae yn gweddio ar chwanegu y cynneddfau hynny. 12 Ac yn dangos pa ffrwyth fydd oddi wrth hynny.

PAul a Sylfanus, a Thimotheus at eglwys y Theſſaloniaid, yn-Nuw ein Tad, a'r Arglwydd Ieſu Griſt,

2 Grâs i chwi a thangnedyf oddi wrth Dduw ein Tad a'n Harglwydd Ieſu Griſt.

1.Theſſ.1.2. 3 *Diolch a ddylem i Dduw yn oeſtadol droſoch frodyr, fel y mae yn addas, am fod eich ffydd yn tyfu yn ddirfawr, a bod cariad pob vn o honoch chwi oll yn cynnyddu tu ag eu gilydd.

4 Fel yr ydym ninnau yn gorfoleddu o'ch plegit yn eglwyſi Duw, o herwydd eich ammynedd a'ch ffydd yn eich holl erlid, a'r cyſtudd y rhai yr ydych yn eu goddef,

Iud.6. 5 [Yr hyn] ſydd argoel [goleu] o gyfiawn farn Dduw, fel i'ch cyfrifer yn deilwng i deyrnas Dduw, er mwyn yr hon yr ydych hefyd yn goddef.

6 Canys cyfiawn yw gan Dduw, dalu cyſtudd i'r ſawl ſydd yn eich cyſtuddio chwi.

1.Theſ.4.16. 7 Ac i chwithau y rhai a gyſtuddir lonyddwch gyd â ni * yn ymddangoſiad yr Arglwydd Ieſu o'r nef gyd ag angelion ei nerth,

8 Yn dân fflamllyd gan roddi dial i'r ſawl nid adwaenant Dduw, ac nid vfyddhânt i Efengyl ein Harglwydd Ieſu Griſt.

9 Y rhai a ddioddefant yn goſpedigaeth ddiniſtr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef.

10 Pan ddêl efe iw ogoneddu yn ei ſainct, ac iw wneuthur yn rhyfedd yn y rhai oll a gredant, o herwydd credu ein teſtiolaeth ni tu ag attoch yn y dydd hwnnw.

11 Am ba achos yr ydym hefyd yn gweddio yn oeſtadol troſoch ar fod i'n Duw eich gwneuthur yn deilwng [ iw ] alwedigaeth, a chyflawni pob ewyllys da am [ ei ] ddaioni, a gwaith ffydd yn nerthol,

12 Fel y gogonedder enw ein Harglwydd Ieſu Griſt ynoch chwi, a chwithau ynddo yntef, yn ôl grâs ein Duw a'n Harglwydd Ieſu Griſt

## PEN II.

3 Dangos y mae iddynt na ddaw dydd yr Arglwydd nes dyfod ymadel â'r ffydd yn gyntaf. 9 A theyrnas ang-hriſt. 15 Ac am hynny y mae yn eu rhybuddio rhag eu hudo, eithr ſefyll o honynt yn ddiyſcog yn y pethau a ddyſcodd efe iddynt.

ACyr ydym yn attolwg i chwi frodyr, er dyfodiad ein Harglwydd Ieſu Griſt, a'n cydgynhulliad atto ef,

2 Na'ch ſyfler yn fuan o'r [vn] meddwl, ac na'ch cynhyrfer, na chan yſpryd, na chan air, na chan lythyr, megis oddi wrthym ni, fel pe bai ddydd Criſt yn gyfagos.

3 * Na thwylled nêb chwi trwy vn modd am [na ddaw'r dydd hwnnw] nes dyfod ymadawiad yn gyntaf, a datguddio y dyn pechadurus mâb deſtruw. Epheſ.5.6.

4 Yr hwn ſydd yn gwrthwynebu, ac yn ymdderchafu yn erbyn pôb dim a elwir yn Dduw, neu a addolir: hyd onid eiſtedd megis Duw yn nheml Dduw, gan ei ddangos ei hun mai efe yw Duw.

5 Ond cof gennych chwi pan oeddwn etto gyd â chwi, ddywedyd o honof y pethau hyn?

6 Ac yr awr hon y gwyddoch y rhwyſtr ſydd, iw ddatcuddio ef yn ei amſer.

7 Canys dirgelwch yr anwiredd ſydd yn gweithio euſus, yn vnic yr hwn ſydd yn awr yn rhwyſtro, a rwyſtra nes myned a'i dynnu ymmaith. Eſai.11.4.

8 Ac yna y datcuddir yr anwir hwnnw, * yr hwn a ddifetha'r Arglwydd ag Yſpryd ei enau, ac a ddileua â diſclaerdeb ei ddyfodiad.

9 [Sef] yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ôl gweithrediad Satan mewn pob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau,

10 Ac mewn pob twyll anghyfiawnder yn y rhai colledig, gan na dderbyniaſant gariad y gwirionedd, fel y cedwid hwynt.

11 Am hynny y denfyn Duw iddynt amryfuſedd cadarn, fel y credant gelwyddau,

12 Fel y barner yr holl rai ni chredaſant i'r gwirionedd, ond a fuāt fodlō i anghyfiawnder.

13 Eithr nyni a ddylem ddiolch yn oeſtad i Dduw troſoch, frodyr annwyl gan yr Arglwydd, o blegit i Dduw o'r dechreuad eich dethol chwi i iechydwriaeth, trwy ſancteiddiad yr Yſpryd, a ffydd i'r gwirionedd.

14 I'r hyn y galwodd efe chwi trwy ein Efengyl i feddiannu gogoniant ein Harglwydd Ieſu Griſt.

15 Am hynny frodyr, byddwch ſafadwy, a chynheliwch y traddodiadau y rhai a ddyſcaſoch [pan vn bynnag] ai trwy ymadrodd, ai trwy ein Epiſtol ni.

16 Ac yntef ein Harglwydd Ieſu Griſt a'n Duw, ſef ein Tad yr hwn a'n carodd, ac a roddes i ni ddiddanwch tragywyddol a gobaith da trwy râs,

17 A ddiddâno eich calonnau, ac a'ch ſicrhao ym mhob gair a gweithred dda.

## PEN. III.

Deiſyf y mae arnynt weddio troſto, ar ffynnu ganddo bregethu'r Efengyl. 6 ai rhybuddio i geryddu y rhai ſegur. 16 A dymuno iddynt dangnedyf.

BEllach, frodyr, * gweddiwch troſom ar redeg o air yr Arglwydd rhagddo ai ogone- Epheſ.6.19. colloſ.4.3.

ddu, megis gyd â chwithau,

2 Ac ar ein gwaredu ninnau oddi wrth ddynion anhywaith a drygionus, canys nid oes ffydd gan bawb.

3 Eithr y mae yr Arglwydd yn ffyddlon, yr hwn a'ch ſiccrhâ, ac a'ch ceidw rhag drwg.

4 Ac yr ydym yn gobeithio am danoch trwy 'r Arglwydd, eich bod chwi yn gwneuthur, ac y gwnewch rhag llaw yr hyn yr ydym yn eu gorchymyn i chwi.

5 A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonnau i garu Duw, ac i ymaros am Griſt.

6 Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi frodyr yn enw 'r Arglwydd Jeſu Griſt dynnu o honoch ymmaith oddi wrth bob brawd, a'r ſydd yn rhodio yn anllywodraethus, ac nid yn ôl y traddodiad a dderbyniodd [efe] gennym ni.

1.Cor.11.1.
1.theſ.4.11.
gweith. 20.34.
1.cor.4.12.
1.theſ.2.9.

7 Canys chwy-chwi eich hunain â ŵyddoch pa fodd * y dylech ein dilyn ni: *canys nid ymddugaſom yn anllywodraethus yn eich myſc chwi.

8 Ac ni fwytaſom fara gan neb yn rhâd, onid gan weithio trwy lafur a lludded nôs a dydd, er mwyn na phwyſem ar neb o honoch.

9 Nid o herwydd nad ydoedd gennym awdurdod, * namyn fel y rhoddem ein hunain yn ſiampl i chwi i'n dilyn.

10 Canys pan oeddym gyd â chwi, o hyn i'ch rhybuddiaſom, fel os bydde neb ni weithie, na chai fwyta ychwaith.

11 Canys clywſom fod rhai yn rhodio yn eich plith yn anllywodraethus heb weithio dim, onid bod yn rhodreſcar.

12 Y cyfryw yr ydym ni yn eu rhybuddio, ac yn attolwg er ein Harglwydd Jeſu Griſt, ac iddynt gan weithio yn llonydd fwyta eu bara eu hunain.

13 *A chwithau frodyr na ddeffygiwch yn gwneuthur daioni.

14 Od oes neb nid ufuddhao ei'n hymadrodd yſpyſwch ef trwy lythyr, * ac na fydded i chwi gymdeithas ag ef, megis y cywilyddio efe.

15 Er hynny na chymmerwch ef fel gelyn, eithr cynghorwch ef fel brawd,

16 Ac Arglwydd y tangnheddyf ei hun a roddo i chwi dangnheddyf yn oeſtadol ym mhob modd: yr Arglwydd fyddo gyd â chwi oll.

17 Y cyfarch am llaw mau fy Paul yr hyn ſydd arwydd ym mhob Epiſtol: fel hyn yr ydwyf yn ſcrifennu,

18 Grâs ein Harglwydd Jeſu Griſt, gyd â chwi oll, Amen,

*Yr ail at y Theſſaloniaid a ſcrifennwyd o Athen.*

# Yr Epiſtol cyntaf i Paul at Timotheus.

### PENNOD. I.

3 Y mae efe yn annog Timotheus i wilio ar ei ſwydd, yn enwedig ar iddo edrych na ddyſcer dim i'r bobl onid gair Duw. 5 Gan fynegu diwedd y gorchymyn. 20 A rhybuddio am Hymeneus ac Alexander.

Coloſ.1.27.
Gwerth.16.1.

Paul Apoſtl Jeſu Griſt trwy ordeinhâd Duw ein Iachawdwr, a'r Arglwydd Jeſu Griſt *ein gobaith,

2 *At Timotheus fy mab naturiol yn y ffydd: grâs, trugaredd, a heddwch gan Dduw ein Tad, a Chriſt Jeſu ein Harglwydd.

3 Megis y deiſyfiais arnat aros yn Epheſus pan aethym i Macedonia, [gwna felly] fel y gellych rybuddio rhai, na ddyſcant amryw ddyſceidiaeth,

Pen.4.7.
titus. 1.14.
Pen.6.4.

4 Ac nad yſtyriant * chwedlau, ac achau * annorphen, y rhai ſy yn peri cweſtiwnau yn fwy nag adeiladaeth dduwiol yr hon ſydd trwy ffydd

Ruſei.13.10.

5 Eithr * diwedd y gorchymyn ydyw cariad o galō bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiau.

6 Oddi wrth ba rai y gŵyrodd rhai, ac y troâſant at ofer ymadrodd.

7 Y rhai a fynnent fod yn ddoctoriaid y gyfraith heb na deall yr hyn a ddywedent, na'r hyn a daerent.

Ruſei.7.12.

8 * Eithr nyni a ŵyddom mai da yw 'r gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlon,

9 Gan ŵybod hyn, na roddwyd y gyfraith i'r cyfiawn, eithr i'r rhai anwir ac anufudd, i'r rhai annuwiol a'r pechaduriaid, i'r rhai anghyfiawn a'r rhai aflan, i leiddiaid tad, a lleiddiaid mam, ac i leiddiaid dynion,

10 I butein-wŷr, i rai Sodomiaidd, i ladron dynion, i rai celwyddog, i anudon-wŷr, ac od oes dim arall yr hwn ſydd wrthwyneb i athrawiaeth iachus,

11 [Yr hon ſydd] ar ôl gogoneddus Efengyl y *bendigedig Dduw, yr hon a ymddyriedwyd i mi. Pen.6.15.

12 Ac yr ydwyf yn diolch i'r hwn a roes i mi allu, ſef Criſt Jeſu ein Harglwydd: am iddo fyng-hyfrif yn ffyddlon, gan fyng-oſod yn y weinidogaeth,

13 A mine o'r blaen yn gabl-wr, ac yn erlidi-wr, ac yn drahaus: eithr mi a gefais drugaredd, mewn annwybod y gwneuthum drwy ang-hredyniaeth.

14 A grâs ein Harglwydd a ym-amlhaodd gyd â ffydd a chariad, yr hwn ſydd yng-Hriſt Jeſu.

15 Gair gwir, ac ym mhob modd yn heuddu ei dderbyn [yw,] dyfod *Criſt Jeſu i'r byd i gadw pechaduriaid, o ba rai pennaf ydwyf fi.

16 Eithr o achos hyn y cefais drugaredd fel y dangoſe Ieſu Griſt ynofi yn gyntaf bôb hir oddef, er ſiampl i'r rhai a gredant rhag-llaw yndo ef, i fywyd tragywyddol.

17 Ac i'r Brenin tragywyddol, anfarwol, anweledig, vnic ſynhwyrol Dduw, y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.

18 Y gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi i ti [fy] mab Timotheus: yn ôl y prophwydoliaethau a gerddaſant o'r blaen am danat, *filwrio o honot filwriaeth dda Pen.6.12.

19 Gan fod gennit ffydd a chydwybod dda yr hon a wrthododd rhai, ac a wnaethant long-ddrylliad am y ffydd.

20 O ba rai y mae Hymeneus, ac Alexander, *y rhai a roddais i Satan, fel y dyſcent na chablent. 1.Cor.5.5.

## PEN. II.

Y mae yn annog i weddio dros bob dyn. 4 Am ymwreddiad, a dillad gwragedd.

CYnghori yr ydwyf am hynny, ym mlaen pôb peth, fod ymbil, gweddiau, deiſyfiadau a thalu diolch dros bôb dŷn.

2 Dros frenhinoedd, a phawb a oſodwyd mewn awdurdod, fel y gallom ni fyw yn llonydd, ac yn heddychol trwy bob duwioldeb, ac honeſtrwydd.

3 Canys hyn ſydd dda a chymmeradwy ger bron Duw ein ceidwad:

1.Pet.3.9. 4 *Yr hwn a fynn fod pôb dŷn yn gadwedig, a'u dyfod i ŵybodaeth y gwirionedd.

5 Canys vn Duw ſydd, an vn cyfryng-ŵr rhwng Duw a dŷn, [ſef] y dŷn Criſt Ieſu,

6 Yr hwn a'i rhoddes ei hunan yn brid-werth dros bawb, [ac] yn deſtiolaeth yn ei iawn brŷd.

2.Tim.1.11. 7 O'r hyn i'm goſodwyd yn bregeth-ŵr, (ac yn Apoſtol, gwir yr wyf yn ei ddywedyd yng-Hriſt heb gelwydd) [ſef] athro y cenhedloedd mewn ffydd a gwirionedd.

8 Am hynny mi a fynnwn i wŷr weddio ym mhob man gan dderchafu dwylo purion, heb ddigter nac ymryſon:

1.Petr.3.3. 9 *Felly hefyd i wragedd ymwiſco mewn dillad gweddus, gyd â lledneiſrwydd, a chymmeſurwydd, nid â gwallt plethedig neu aur, neu gemmau, neu wyſc werthfawr.

10 Eithr (megis y gwedde i wragedd yn addo duwioldeb, a gweithredoedd da.

11 Dyſced gwraig mewn diſtawrwydd, yng-hyd â phob goſtyngeiddrwydd.

1.Cor.14.34. 12 Ond *nid ydwyf yn dioddef i wraig draethu dyſc, nac arfer awdurdod ar y gŵr: eithr bod mewn diſtawrwydd.

Gene.1.27. & 2.7.21. 13 Canys *Adda a luniwyd yn gyntaf: yna Efa.

Gene.3.6. 14 Ac nid *Adda a dwyllwyd, eithr y wraig wedi ei thwyllo a aeth yn [achos] camwedd.

15 Etto hi a fydd cadwedig gan ddwyn plãt os hwy a arhoſant yn y ffydd, a chariad, a ſancteiddrwydd yng-hyd â chymmeſurwydd.

## PEN. III.

Iawn gynneddfau eglwyſ-wyr a thylwyth eu ty, neu eu teuly. 15 Braint yr eglwys.

YMadrodd gwir yw hwn, od yw neb yn *ewyllyſio ſwydd eſcob, y mae yn chwennychu gwaith da. Titus.1.6.

2 Rhaid gan hynny i'r eſcob fod yn ddiargyoedd, yn ŵr vn wraig, yn wiliadwrus, yn gymheſur, yn weddaidd, yn lletteugar, yn athrawaidd,

3 Nid yn wîn-gar, nid yn darawudd, nid yn chwannog i fydr-elw, eithr yn llariaidd, nid yn ymladdgar, yn ddi-gybudd,

4 Yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn cynnal ei blant dan vfydd-dod, yng-hyd â phob oneſtrwydd.

5 Canys oni fedr vn lywodraethu ei dŷ ei hun: pa fodd y gofala efe tros eglwys Dduw?

6 Nid yn yſcolhaig ieuangc, rhag iddo wedi ymchwyddo ſyrthio i farn diafol.

7 Ac y mae yn rhaid iddo ef hefyd gael gair da gan ddieithriaid, rhag digwydd mewn gwarth a magl diafol.

8 Felly hefyd y diaconiaid yn oneſt, nid â thafodau dau-ddyblyg, nid wedi ymroi i lawer o win, nid yn budr-elwa,

9 Yn dala *dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur. Pen.1.1.9.

10 Profer y rhai hyn hefyd yn gyntaf, ac yna gwaſanaethant, os byddant ddiargyoedd.

11 Felly hefyd [bod eu] gwragedd yn oneſt nid â thafodau drwg, eithr yn ſobr, [a] ffyddlon ym mhob peth.

12 Bod y diaconiaid yn wŷr vn wraig, ac yn llywodraethu yn dda eu plant a'u tai eu hun.

13 Canys y rhai a waſanaethãt yn iawn a ennilllant iddynt eu hunain radd dda, a rhydd-did mawr trwy'r ffydd, yr hon ſydd yng-Hriſt Ieſu.

14 Hyn yr ydwyf yn ei ſcrifennu attat, gan obeithio y deuaf attat ar fyrder.

15 Ond os tariaf yn hir, fod i ti ŵybod pa fodd y bydd rhaid i ti ymddwyn yn nhŷ Dduw, yr hwn ydyw eglwys y Duw byw, colofn, a ſylfaen y gwirionedd.

16 Ac yn ddi-ddadl, mawr ydyw dirgelwch duwioldeb Duw a ymddangoſodd mewn cnawd, a gyfiawnwyd yn yr Yſpryd, a welwyd gan angelion, a bregethwyd i'r cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, ac a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant.

## PEN. IIII.

2 Rhubydd pa ddyſc a ddylid gilio rhagddi. 6 A pha vn ei chanlyn. 15 Ac ym mha orchwyl y dyle eglwyſ-wr ymarfer beunydd.

A'R Yſpryd ſydd yn dywedyd yn eglur yr ymedu rhai yn yr amſeroedd *diweddaf o'r ffydd, gan roddi coel i yſprydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau cythreuliaid, 2.Tim.3.1. 2.pet.3.4. iud.19.

2 Y rhai ydynt yn dywedyd celwydd mewn rhagrith, a'u cydwybod wedi ei lloſci â haiarn brŵd,

3 Yn gwahardd priodas, [ac yn erchi] ymattal oddi wrth fwydydd y rhai a greawdd Duw

iw mwynhau trwy dalu diolch i'r ffyddloniaid, ac i'r rhai a adwaenant y gwirionedd.

4 Canys pa beth bynnag a greawdd Duw da ydyw, ac nid oes dim iw wrthod, os cymmerir trwy dalu diolch.

5 O herwydd ei ſancteiddio trwy air Duw a gweddi.

6 Os goſodi hyn o flaen y brodyr, byddi weinidog da i Jeſu Griſt, yr hwn i'th fagwyd mewn geiriau'r ffydd, ac athrawiaeth dda, yr hon a ddilynaiſt.

7 Eithr *gad heibio halogedic, a gwrachiaidd chwedlau, ac ymarfer di dy hun i dduwioldeb. Pen.1 4. & 6.20. 2.tim.2 16. titus 3.9.

8 Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol, eithr duwioldeb ſydd fuddiol i bôb peth a chenddi addewid o'r bywyd ſydd, ac o'r hwn fydd.

9 Y gair hwn ſydd wîr, ac ym mhob modd yn heuddu ei dderbyn:

10 O blegit er mwyn hyn yr ydym yn poeni, ac yn cael ein gwradwyddo, o herwydd ein bod yn gobeitho yn Nuw byw yr hwn ydyw achubudd pob dŷn, yn enwedig y ffyddloniaid.

11 Y pethau hyn gorchymyn, a dyſc.

12 Na ddiyſtyred neb dy ieuengtid ti, eithr bydd i'r ffyddloniaid yn ſiampl mewn gair, mewn ymddygiad, mewn cariad, mewn yſpryd, mewn ffydd, a diweirdeb.

13 Hyd oni ddelwyfi, ymoſot ti i ddarllen, i gynghori, ac i athrawiaethu.

14 Nac yſcaeluſa y dawn ſydd ynot ti, yr hwn a rodded i ti trwy brophwydoliaeth, gan arddodiad dwylo yr henuriaeth.

15 Arfer y pethau hyn, a pharhâ yn hyn, fel y byddo dy gynnydd yn eglur ym mhlith pawb.

16 Gwilia arnat dy hun, ac ar athrawiaeth, parhâ yn hyn: canys o gwnei di hyn, ti a'th gedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat,

## PEN. V.

Pa wedd y mae ceryddu pob gradd. 3 Trefn o blegit gwragedd-gweddwon. 17 A gwenidogion eglwyſic. 24 Amryw farn am bechodau.

NA cherydda henaf-gwr, eithr cynghora megis tad, y rhai ieuaingc megis brodyr.

2 Yr hên wragedd megis mammau, y rhai ieuaingc megis chwiorydd, â phob diweirdeb.

3 Anrhydedda 'r gwragedd-gweddwon y rhai ſy wir weddwon.

4 Eithr o bydd vn weddw, ac iddi blant neu ŵyrion, dyſcant yn gyntaf lywodraethu yn dduwiol eu tŷ eu hun, a thalu 'r pwyth iw rhieni, canys hynny ſydd dda a chymmeradwy ger bron Duw.

5 Eithr yr hon ſydd wir weddw, ac vnic, ſydd yn gobeithio yn Nuw, ac yn parhau mewn ymbil, a gweddion nôs a dydd.

6 Ond y ddrythyll, er ei bod yn fyw fu farw.

7 Gorchymyn y pethau hyn, fel y byddant ddiargyoedd.

8 Ac o bydd neb nid ymgeleddo yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw nag vn di-ffydd.

9 Na ddewiſer gwraig weddw tân driugain-mlwydd oed, yr hon fu wraig vn gŵr:

10 Ai yn dda ei gair am weithredoedd da, os magodd hi ei phlant, os bu letteugar, o golchodd hi draed y ſainct, o chynhorthwyodd hi y rhai cyſtuddiol, o dilynodd hi bob gorchwyl da.

11 Eithr gwrthod y gweddwon ieuaingc: canys pan ddechreuant ymddrythyllu yn erbyn Criſt, priodi a fynnant:

12 Yn cael colledigaeth am iddynt dorri y ffydd gyntaf.

13 Ac felly hefyd y dyſcant rodio 'r tai oddi amgylch yn ſegur, ac nid yn ſegur yn vnic: eithr hefyd ac yn ofer-ieithus, ac yn rhodreſcar, yn adrodd pethau anweddaidd.

14 Myfi a fynnwn am hynny i'r rhai ieuaingc briodi, planta, gwarchod y tŷ, ac na roddant ddim achos i'r gwrthwyneb-ŵr i oganu.

15 Canys rhai euſus a ymchwelaſant ar ôl Satan.

16 O bydd gŵr ffyddlon, ne wraig ffyddlon, a gwragedd gweddwon ganddynt cynhorthwyant hwy, ac na ormeſer ar yr eglwys, fel y byddo digonedd i'r rhai ſy wîr weddwon.

17 Yr henuriaid y rhai ſy yn llywodraethu yn dda, ydynt yn haeddu * parch dau-ddyblyg, yn enwedig y rhai ſy yn poeni yn y gair, ac mewn athrawiaeth. Deut.5.16.

18 Canys y mae yr ſcrythur yn dywedyd,* na chae ſafn yr ŷch yr hwn ſydd yn dyrnu yr ŷd: hefyd y mae'r *gweithiŵr yn heuddu ei gyflog. Deut.25.4. 1.cor.9.9.

19 Na dderbyn achwyn yn erbyn henuriad, oddieithr tann ddau neu dri o dyſtion.

20 Y rhai a bechant, cerydda hwy yn gyhoeddus, fel y gallo'r lleill ofni.

21 *Gorchymyn yr ydwyf ger bron Duw a'r Arglwydd Jeſu Griſt, a'r etholedig angelion, gadw o honot y pethau hyn yn ddi-duedd, na gwneuthur dim o gyd-partiaeth. Math.10.10. luc.10.7.

22 Na ddod dy ddwylo yn ebrwydd ar neb, ac na fydd gyfrannog o bechodau rhai eraill: cadw dy hun yn bur.

23 Nac ŷf ddwfr yn hwy, eithr arfer ychydig wîn, er mwyn dy gylla a'ch fynych wendid.

24 Pechodau rhyw rai ydynt amlwg o'r blaen yn rhagymddwyn i'r farn: a'r eiddo eraill yn dyfod ar yr ôl.

25 Ac felly hefyd gweithredoedd da ydynt amlwg o'r blaen, a'r rhai ſyddant amgenach ni's gellir eu cuddio.

## PEN. VI.

Rhan gwaſanaeth-ddynion iw meiſtred. 3 Yn erbyn gau athrawon. 6 Am wir dduwioldeb, a bodlondeb meddwl. 9 Yn erbyn cubydd-dod. 11 Ei gyngor ef i Timotheus.

*CYnnifer ac ſydd waſanaeth-wŷr tann yr iau, barnant eu meiſtred yn deilwng o bob anrhydedd, rhac cablu enw Duw a'i athrawiaeth. Ephe.6.5. col.3.22. 1.pet.2.18.

2 A'r rhai ſy a meiſtred iddynt yn credu, na

gyduno

ddiyſtyrant hwynt, o herwydd eu bod yn frodyr,
eithr yn hytrach eu gwaſanaethu am eu bod yn
credu, ac yn annwyl, ac yn gyfrannogion o'r
lleſâd: dyſc a chynghora y pethau hyn.

3 Od yw neb yn dyſcu yn amgenach, ac heb
gyduno ag iachus eiriau ein Harglwydd Ieſu
Griſt, ac a'r athrawiaeth yr hon ſydd ar ôl duwioldeb,

4 Chwyddo y mae heb ŵybod dim, eithr am-
Pen.1.4. hwyllo yng-hylch * cweſtiwnau a dadl-eiriau
o'r hyn y mâga cenfigen, ymryſon, cabledd [a]
drwg dyb,

5 Ofer ddadlau dynion llygredig eu me-
ddwl wedi cyfrgolli y gwir, yn tybied mai elw
yw duwioldeb: ymochel oddi wrth y cyfryw.

6 Elw mawr eusus yw duwioldeb drwy ym-
fodloni o ddŷn â'r hyn fyddo ganddo.

Dihar.27.24. 7 Canys * ni ddugaſom ni ddim i'r byd, a di-
Eccle.5.14. ogel yw, na allwn ddwyn dim ymmaith.

8 Am hynny o chawn ymborth â dillad, ni a
ymfodlonwn ar hynny.

9 Canys y mae y rhai a fynnant ymgyfoe-
thogi yn ſyrthio i brofedigaeth, ac i fagleu, ac i
lawer o drachwantau angall a niweidus, y rhai
ſy yn boddi dynion i golledigaeth, ac i ddeſtruw

10 Canys chwant arian yw gwreiddin pob
drwg, o ba rai tra fu rhai yn awyddus, hwy a
gyfeiliornaſant o'r ffydd, ac a'u gwanaſant eu
hunain â llawer o ofidiau.

11 Eithr ti gŵr Duw, gochel y pethau
hyn, a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad,
ammynedd, ac addfwyndra.

12 Ymdrecha orcheſtol ymdrechiad y ffydd:
cymmer afael ar y bywyd tragywyddol, i'r hwn
heſyd i'th alwyd, ac y proffeſſaiſt broffes dda ger
bron llawer o dyſtion.

13 Dy * orchymyn yr ydwyf ger bron Duw Pen.5.21.
yr hwn ſydd yn bywhau pob peth, a cher bron
Ieſu Griſt, yr hwn tann Pontius Pilatus a* Math.27.11.
dyſtiodd broffes dda, Ioh.18.37.

14 Cadw o honot y gorchymyn yn ddifry-
cheulyd, [ac] yn ddifai hyd ymddangoſiad ein
Harglwydd Ieſu Griſt.

15 Yr hwn yn y dyledus amſer a ddengys
efe, yr hwn ſydd *fendigedic, ac vnic bennaeth, Pen.1.11.
* Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi. Act.17.14.

16 I'r hwn yn vnic y mae anfarwoldeb, ac
ſydd yn trigo yn y goleuni, yr hwn ni ellir dy-
fod atto, yr hwn er ioed * ni's gwelodd vn dŷn, Ioh.1.18.
ac ni's dichon ei weled, i'r hwn y byddo anrhy- 1.Ioh.4.12.
dedd a gallu yn dragywyddol. Amen.

17 Gorchymmyn i'r rhai ſy oludog yn y
byd ymma, na byddant vchel eu meddwl, ac na
*obeithiant mewn golud anwadal, eithr yn y Mar.4.19.
Duw byw, (yr hwn ſydd yn rhoddi i ni bôb peth Luc.12.15.
yn ddigonol iw mwynhau)

18 Ar wneuthur o honynt ddaioni, ac ym-
gyfoethogi mewn gweithredoedd da, ac yn
hawdd ganddynt roddi, ac yn hawdd eu cydfod,

19 Yn *tryſſoru iddynt eu hunain ſail dda Math.6.20.
rhag llaw fel y gallont afaelu yn y bywyd tra- Luc.12.33.
gywyddol.

20 O Timotheus, cadw yr hyn a roddwyt
iw gadw attat, gan * droi oddi wrth haloge- Pen.1.4.
dig ofer-ſain a gwrthwynebiad yr hyn a gam
elwir yn ŵybodaeth.

21 Yr hon tra yw rhai yn ymhonni o honi,
hwy a wyraſant oddi wrth nod y ffydd, Grâs
gyd â thi. Amen.

*Yr* Epyſtol *cyntaf at Timotheus, a ſcrifennwyd o Laodicia, yr hon*
*yw prif ddinas Phrygia Pacatiana.*

# Yr ail Epyſtol i Paul at Timotheus.

## PENNOD. I.

Paul yn annog Timotheus i fod yn ddianwadal, ac yn ddioddefus wrth ei erlid, a pharhau yn yr athrawiaeth a ddyſcaſe efe iddo, 12 dros yr hon yr ýdoedd ei rwymau ef a'i gyſtuddion, 16 canmoliaeth Oneſiphorus.

PAUL Apoſtol Ieſu Griſt, trwy ewyllys Duw, yn ôl addewyd y bywyd, yr hwn ſydd yn Ieſu Griſt,

2 At Timotheus [fy] mab annwyl, grâs trugaredd a thangneddyf gan Dduw y Tad, a chan Ieſu Griſt ein Harglwydd.

3 Y mae gennif ddiolch i Dduw yr hwn * Act.22.3.
yr ydwyf yn ei waſanaethu o'm rhieni â chyd-
wybod bur, megis y mae gennif gof dibaid am
danat ti yn fyng-weddiau nôs a dydd,

4 Gan ddeiſyfu dy weled, [a] chan goffio dy ddagrau, fel i'm llanwer o lawenydd,

5 Gan gymmeryd ail cof o'r ffydd heb ragrith, yr hon ſydd ynot ti, yr hon a drigodd yn gyntaf yn dy nain Lois, ac yn dy fam Efnica, ac y mae yn ddiogel gennif y [trig] ynot [tithe] heſyd.

6 O Achos pa ham, yr ydwyf yn dy goffau i ail gynneu dawn Duw yr hwn ſydd ynot, trwy arddodiad fy nwylo mau fi.

7 Canys ni roddes Duw i ni Yſpryd ofn, onid Yſpryd nerth, a chariad, a phwyll.

8 Am hynny na fydd arnat gywilydd o de-

ſtiolaeth yr Arglwydd, nac o honof finne ei garchar-wr ef: eithr cyd-oddef di gyſtudd â'r Efengyl, yn ôl nerth Duw.

1.Cor.1.2. Epheſ.1.3. Tit.3.5.

9 Yr hwn a'n achubodd, ac a'n galwodd â * galwedigaeth ſanctaidd, nid wrth * ein gweithredoedd [ni,] ond wrth ei arfaeth ei hun, a'i râs yr hwn a roddwyd i ni trwy Griſt Ieſu cyn amſeroedd * tragywyddol:

Rufei.16.25. Epheſ.3.9. Coloſſ.1.26. Tit.1.2. 1.Pet.1.20.

10 Eithr efe a eglurwyd yr awron trwy ymddangoſiad ein Iachawdwr Ieſu Griſt, yr hwn a ddeleodd angeu, ac a ddug fywyd, ac anfarwolaeth i oleuni trwy 'r Efengyl.

1.Tim.2.7.

11 * I'r hon i'm goſodwyd i yn bregeth-wr, ac yn Apoſtol, ac yn athro y cenhedloedd.

12 Am ba achos yr ydwyf yn dioddef hefyd y pethau hyn, ac nid oes arnaf gywilydd: canys gwn pwy a gredais, ac y mae yn ddiammeu gennif ei fod efe yn abl i gadw yr hyn a roddais atto iw gadw, erbyn y dydd hwnnw.

13 Bydded gennit ffurf yr iachus ymadroddion, y rhai a glywaiſt gennif fi mewn ffydd a chariad yng-Hriſt Ieſu.

14 Y peth prydferth a roed iw gadw attat, cadw trwy'r Yſpryd glân, yr hwn ſydd yn preſſwylio ynom.

15 Ti a wyddoſt hyn, ddarfod i'r rhai oll ſy yn Aſia droi oddi wrthifi: o'r ſawl y mae Phigelus, ac Hermogenes.

16 Rhodded yr Arglwydd drugaredd i dŷ Oneſiphorus: canys efe yn fynych am llonnodd fi, ac nid ydoedd gywilydd ganddo fynghadwyn i.

17 Eithr pan ydoedd yn Rhufain, efe a'm ceiſiodd yn ddiwyd iawn, ac a'm cafodd.

18 Rhodded yr Arglwydd iddo gael trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnnw, a pha faint o bethau a waſanaethodd efe yn Epheſus, goref y gwyddoſt ti.

PEN. II.

Y mae efe yn annog i fod yn ddianwadal, ac yn ddioddef gar, 11 gan ddangos ffyddlon amcan Duw yng-hylch cadwedigaeth y rhai ſy eiddo ef, 21 a nod y rhai hynny.

Tithe gan hynny fy mâb ymnertha yn y grâs ſydd yng-Hriſt Ieſu,

2 A'r pethau a glywaiſt gennif trwy lawer o dyſtion, traddoda hynny i ddynion y rhai fyddant gymmwys i ddyſcu eraill hefyd.

3 Tithe goddef gyſtudd, megis mil-wr da i Ieſu Griſt.

4 Nid oes neb yn milwrio yr hwn a ymrwyda â negeſeuau y fuchedd hon, er mwyn [bod] iddo ryngu bodd i'r hwn a'i dewiſodd yn filwr.

5 Ac od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef oddi eithr iddo ymdrech yn gyfreithlon.

6 Rhaid yw i'r llafurwr gan lafurio yn gyntaf dderbyn y ffrwythau.

7 Yſtyria yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, a'r Arglwydd a roddo it ddeall ym mhob dim.

8 Coſia [am] Ieſu Griſt o hâd Dafydd, ei gyfodi ef o feirw yn ôl fy Efengyl i.

9 Yn yr hon yr ydwyf yn goddef cyſtudd fel gweithred-wr drwg hyd rwymau, eithr gair Duw ni rwymir.

2.Cor.1.4. Col.1.24.

10 Am hynny yr ydwyf yn goddef pob peth er mwyn y * detholedigion, fel y gallent hwythau gael yr iechydwriaeth yr hon ſydd yng-Hriſt Ieſu gyd â gogoniant tragywyddol.

Rufei.6.5.

11 Gwir yw'r gair, * os meirw ydym gyd ag ef, y byddwn hefyd fyw gyd ag ef.

Math.10.33. Mar.8.38.

12 Os dioddefwn, ni a gyd deyrnaſwn, * os gwadwn [ef,] yntef hefyd a'n gwada ninnau.

Rufei.3.3.

13 Os nyni * ni chredwn [er hynny] efe a erys yn ffyddlon: ni all efe ei wadu ei hun.

14 Dwg hyn ar gof gan deſtiolaethu ger bron yr Arglwydd, na byddo iddynt ymryſon yng-hylch geiriau, yr hyn nid yw fuddiol i ddim, [onid] i ddadymchwelyd y gwrandawŷr.

15 Ymddyro i'th oſod dy hun yn brofedig i Dduw, yn weithiwr difeſl, yn iawn barthu gair y gwirionedd.

1.Tim.4.7. Tit.3.9.

16 * Gwilia halogedic ofer-ſain, canys cynnyddu a wnânt i fwy o annuwioldeb.

17 A'u hymadrodd hwy a yſa fel cancr: ac o'r cyfryw rai y mae Hymeneus, a Philetus.

18 Y rhai hyn am y gwirionedd a wyrasant oddi wrth y nôd, gan ddywedyd ddarfod eiſus y cyfodedigaeth, ac y maent yn dadymchwel ffydd rhai.

19 Eithr y mae ſail Duw yn ſefyll yn ddiogel, ac iddo y ſêl hon, yr Arglwydd a ŵyr pwy ſydd eiddo ef, ac ymadawed ag anghyfiawnder y neb a henwo henw Criſt.

20 Eithr mewn tŷ mawr ni bydd yn unic lleſtri o aur, ac arian, ond hefyd o bren a phridd, a rhai i barch, a rhai i ammarch.

21 Os neb gan hynny a'i glanhâ ei hunan oddi wrth y pethau hyn, efe fydd leſtr i barch, wedi ei ſancteiddio, ac yn fuddiol i'r Arglwydd, wedi ei ddarparu i bob gweithred dda.

1.Cor.1.2.

22 Ffo di hefyd oddi wrth chwantau ieuengtid, a dilyn gyfiawnder, ffydd, cariad, a thangnefedd gyd â'r rhai ſy yn * galw ar yr Arglwydd o galon bur.

1.Tim.1.4. Titus 3.9.

23 * A dod ymmaith ynfyd, ac annyſcedig gweſtiwnau, gan wybod mai magu ymryſon y maent.

24 Ac ni ddyle gwâs yr Arglwydd ymryſon, ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawus, ac yn ddioddefgar,

25 Gan addyſcu yn addfwyn y rhai gwrthwynebus, [i edrych] a roddo Duw ryw amſer iddynt hwy edifeirwch i gydnabod y gwirionedd,

26 A bod iddynt hwy ddyfod i'r iawn allan o fagl diafol, y rhai a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef.

PEN. III.

Y mae yn prophwydo o'r amſerau peryglus, 2 yn amlygu 'r annuwiolion tann eu lliw a'u harwydd, 12 yn dangos cyflwr y Criſtianogion, 14 a pha wedd yr ymogelir peryglon, 16 hefyd pa fudd a ddaw oddi wrth yr ſcrythyrau.

* Gwy-

1.Tim.4.1. 2.pet.3.3. iud.18. GWybydd hyn hefyd y daw amſerau enbyd yn y dyddiau diweddaf.

2 Canys bydd dynion a'u ſerch arnynt eu hunain [yn] gubyddion [yn] ymffroſt-wŷr, [yn] feilchion, yn gabl-wŷr, yn anufyddion iw rhieni, yn anniolchgar, yn annuwiol,

3 Yn angharedic, yn torri cyfammod yn hortwŷr yn anghymheſur, yn anfwyn; heb ſerch ganddynt i'r rhai da.

4 Yn frad-wŷr, yn waed-wyllt, yn ymchwyddic, yn caru meluſ-chwant yn fwy nag yn caru Duw,

5 A chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym: a'r cyfryw gochel di,

6 Canys o'r rhai hynny y mae y ſawl ſydd yn ymluſco i deiau, ac yn dwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau, y rhai a arweinir gan amrafael chwantau,

7 Yn dyſcu bob amſer ac heb allu un amſer ddyfod i ŵybodaeth y gwirionedd.

8 Eithr megis y gwrth-ſafodd *Iames ac Iambres Moſes, felly y mae y rhai hyn yn gwrthwynebu y gwirionedd, dynion o feddwl llygredig yn anghymmeradwy o herwydd y ffydd. Exod.7.11.12.

9 Eithr ni ffynna ganddynt mwyach: canys eu hynfydrwydd ſydd amlwg i bawb, megis y bu i'r eiddynt hwythau.

10 Eithr ti a lwyr adwaenoſt fy-nyſceidiaeth i, helynt fy-muchedd, fy arfaeth, ffydd, ammynedd, cariad, dioddefgarwch.

11 Yr erlid, a'r cyſtudd, y rhai a ddaethant i mi yn *Antiochia yn Iconium, ac yn Lyſtri, pa erlid a ddioddefais: eithr oddi wrthynt oll i'm gwaredodd yr Arglwydd. Gweith.13.14.

12 Pawb hefyd a'r a ewyllyſiant fyw yn dduwiol yng-Hriſt Ieſu, a erlidir.

13 Eithr y drwg ddynion a'r twyll-wŷr a ffynnant waeth-waeth, gan dwyllo, a chael eu twyllo.

14 Eithr aros di yn y pethau a ddyſcaiſt, ac a ymddyriedwyd i ti, gan ŵybod gan bwy y dyſcaiſt,

15 Ac i ti er yn fachgen wybod yr ſcrythur lan yr hon ſydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth, trwy 'r ffydd yr hon ſydd yng-Hriſt Ieſu.

16 Canys *yr hôll ſcrythur [ſydd] wedi ei rhoddi gan yſpyrydoliaeth Dduw, ac [ſydd] fuddiol i athrawiaethu, i argyoeddu, i goſpi ac i addyſcu mewn cyfiawnder, 2.Petr.1.20.

17 Fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda.

### PEN. IIII.

Y mae efe yn annog Timotheus i fod yn frwd yn y gair, ac i ddioddef. 6 Y mae efe yn gwneuthur coffa am ei farwolaeth ei hun. 9 Ac yn erchi i Timotheus ddyfod atto.

AM hynny yr ydwyf yn teſtiolaethu ger bron Duw, a cher bron yr Arglwydd Ieſu Ghriſt, yr hwn a farn y byw a'r meirw, yn ei ymddangoſiad, ac yn ei deyrnas:

2 Pregetha 'r gair: bydd daer yn amſer, ac allan o amſer: argyoedda, cerydda, annog drwy bob ammynedd ac athrawiaeth.

3 Canys daw 'r amſer pryd na ddioddefant athrawiaeth iachus: eithr gan ferwino o'u cluſtiau wrth eu chwantau eu hunain y pentyrrāt iddynt ddyſcawd-wŷr.

4 ☞ Hefyd oddi wrth y gwirionedd yn ddiau y troant eu cluſtiau, ac at chwedlau y trôant. *Yr Epiſtol ar dydd gwyl Luc Efengylwr.*

5 Eithr gwylia di ym mhob dim: dioddef adfyd: gwna waith Efengylwr: cyflawna dy weinidogaeth.

6 Canys bellach i'm haberthir, ac amſer fy ymddattodiad ſydd yn agos.

7 Myfi a ymdrechais ymdrech têg, a orphennais fyng-yrfa, [ac] a gedwais y ffydd.

8 Weithian y rhoddwyd coron cyfiawnder iw chadw i mi, yr hon a ryd yr Arglwydd y barnwr cyfiawn i mi yn y dydd hwnnw: ac nid i mi yn unic, onid i'r holl rai a gârant ei ymddangoſiad ef.

9 Ymddyro i ddyfod attaf yn ebrwydd.

10 Canys Demas a'm gadawodd, gan garu y byd preſennol, ac a aeth ymmaith i Theſſalonica. Creſcens i Galatia, Titus i Dalmatia.

11 *Lucas yn unic ſydd gyd â mi, cymmer Marc a dwg gyd â chi, canys buddiol yw efe i mi i'r weinidogaeth. Colo.4.10.14.

12 Tychicus hefyd a ddanfonais i Epheſus.

13 Y cochl a adewais i yn Troas gyd â Charpus, pã ddelych dwg gyd â chi, a'r llyfrau yn enwedig y membrwn.

14 Alexander y gof-copr a wnaeth i mi lawer o ddrwg: taled yr Arglwydd iddo yn ôl ei weithredoedd.

15 Rhac yr hwn ymgadw dithe hefyd: canys efe a wrth-ſafodd ein pregaeth [ni] yn ddirfawr. ☜

16 Yn fy atteb cyntaf nid oedd neb yn ſefyll gyd â mi: eithr pawb a'm gadawſant: [mi a archaf i Dduw] na's cyfrifer iddynt.

17 Er hynny 'r Arglwydd a ſafodd gyd â mi, ac a'm nerthodd, fel trwoſi y cwbl gyflawnid y pregethiad, ac fel y clywe yr holl genhedloedd, ac mi a waredwyd o enau y llew.

18 A'r Arglwydd a'm gwared fi rhag pob gweithred ddrwg, ac am ceidw iw deyrnas nefol: i'r hwn y byddo gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.

19 Annerch Priſca, ac Aquila, *a thy-lwyth Oneſiphorius. Pen.1.16.

20 Eraſtus a arhoſodd yn Corinth: Trophimus a adewais yn Miletum yn glaf.

21 Cais di ddyfod cyn y gaiaf, y mae Eubulus, a Phrudens, ac Linus, a Chlaudia, a'r holl frodyr yn dy annerch.

22 Yr Arglwydd Ieſu Griſt fyddo gyd â'th yſpryd: Grâs fyddo gyd â chwi. Amen.

*Yr ail* Epiſtol *a ſcrifennwyd o Rufain at Timotheus yr Eſcob cyntaf a ddewiſwyd i eglwys Epheſus, pan oſodid Paul yr ail waith ger bron Caeſar Nero.*

# Epiſtol Paul at Titus.

## PENNOD. I.

5 Y mae efe yn athrawy Titus oblegit llywodraeth yr eglwys. 7 Ordinhâd a ſwydd gweinidogion eglwyſig. 12 Cynneddfau y Cretiaid, ac am y rhai a heuant chwedlau Iddewig, a dychymmygion dynnion.

Paul gwâs Duw, ac Apoſtol Ieſu Griſt yn ôl ffydd etholedigion Duw, a gŵybodaeth y gwirionedd, yr hon ſydd yn ôl duwioldeb,

Ruf.16.25. epheſ.3.9. coloſſ.1.26. 2.tim.1.9.10. 1.petr.1.20. 2 Iobaith bywyd tragywyddol, yr hwn a addawodd y digelwyddog Dduw, *cyn amſeroedd tragywyddol:

Gala.1.1. 3 Eithr efe a eglurhaodd ei air yn ei brŷd drwy bregethu, am yr hyn * yr ymddyrriedwyd i mi wrth orchymyn Duw ein Iachawdur:

4 At Titus fy anianol fâb wrth y ffydd gyffredin, grâs, trugaredd, a thangneddyf gan Dduw y Tad, a'r Arglwydd Ieſu Griſt ein Iachawdur.

5 Er mwyn hyn i'th adewais yn Creta i wneuthur iawn drefn am yr hyn ſydd yn ôl, ac i oſod henuriaid ym mhôb dinas megis yr ordeiniais i ti.

1.Tim.3.2. 6 *Os bydd neb diargyoedd, yn ŵr un wraig, ac iddo blant ffyddlon, nid enllibus o lothineb, neu yn anufudd.

7 Canys rhaid yw i eſcob fod yn ddiargyoedd fel gorchwyliwr Duw, nid yn gyndyn, nid yn ddigllon, nid yn win-gar, nid yn darawudd nid yn budr-elwa,

8 Eithr yn lletteugar, yn caru daioni, yn bwyllog, yn gyfiawn, yn ſanctaidd, yn ddianllad,

9 Yn dal yn lew y gair ffyddlon yr hwn ſydd wrth yr athrawiaeth, fel y gallo hefyd gynghori á dyſceidiaeth iachus, ac argyoeddu y rhai a wrth-ddywedant.

10 Canys y mae llawer o rai anufydd, a gwag-ſiarad-wŷr, a thwyll-wŷr meddyliau, yn bennaf y rhai ſy o'r enwaediad,

11 Y rhai y mae yn rhaid eu goſtegu, y rhai ſy yn dymchwelyd tai cyfan, gan ddyſcu i rai bethau ni ddylid, er mwyn budr-elw.

12 Un o'honynt hwy [eu hunain, ſef] un o'u prophwydi eu hunain a ddywedodd, y Cretiaid bob amſer ydynt gelwyddog, drwg fwyſt-filod, boliau gor-ddiog.

13 Y deſtiolaeth hon ſydd wír, am ba achos argyoedda hwy yn llym, fel y byddant iach yn y ffydd,

1.Tim.1.4. 14 Heb ddarbod chwedlau, *Iddewaidd, a gorchymynnion dynion, yn troi oddi wrth y gwirionedd.

Ruf.14.20. 15 I'r rhai pur *y mae pob peth yn bur, eithr i'r rhai halogedig, ac i'r rhai anghredadwy nid oes dim yn bur, eithr halogedig yw eu meddwl a'u cydwybod.

16 Y maent yn cyfaddef yr adwaenant Dduw, eithr ar weithredoedd y maent yn ei wadu ef, am eu bod yn ffiaidd, ac yn anufydd, ac i bob gweithred dda yn anghymmeradwy.

## PEN. II.

Y mae efe yn gorchymyn iddo y ddyſceidiaeth iach, ac yn mynegi iddo, pa wedd y dyſc efe i bob gradd ymddwyn, 11 Trwy râs Criſt.

Eithr adrodd di yr hyn ſydd weddus i athrawiaeth iachus.

2 Bod o'r henaf-gwŷr yn ſobr, yn honeſt, yn gymbeſur, yn iach yn y ffydd, yng-hariad, ac ammynedd,

3 Bod o'r henaf-gwragedd yr un modd mewn cyfryw ymwreddiad ac a wedde i ſancteiddrwydd, nid yn enllibiaidd, nid wedi ymroi i win lawer, eithr yn rhoi athrawiaeth o ddaioni,

4 (Fel y gallant wneuthur y gwragedd ieuaingc yn bwyllog i garu eu gwŷr, i garu eu plant)

Epheſ.5.22. 23.24. 5 Yn bwyllog, yn ddiwair, yn aros gartref, yn dda, [ac] yn *ddaroſtyngedig iw gwŷr, fel na chabler gair Duw.

6 Cynghora wŷr ieuaingc yr un modd i fod yn bwyllog.

7 Ym mhob dim dangos dy hun yn ſiampl o weithredoedd da, [ac] yn yr athrawiaeth puredd gweddeidd-dra, ac anllygredigaeth,

8 Ac ymadrodd iachus, yr hwn ni ellir ei feio, fel y cywilyddio yr hwn a ſafo yn erbyn heb ganddo ddim drwg iw ddywedyd am danoch chwi.

Epheſ.6.5. col.3.22. 1.pet.2.18. 9 [Cynghora] * weiſion i fod yn ddaroſtyngedig iw meiſtred, ac [iw] boddhau ym mhob dim, heb ddywedyd yn eu herbyn,

10 Heb wneuthur twyll, eithr gan ddangos pob ffyddlondeb, fel yr harddant athrawiaeth Dduw ein Iachawdur ym mhob peth.

1.Cor.1.2. coloſſ.1.22. 11 Canys * grâs Duw yr hwn a ddwg iechid i bob dŷn a ymddangoſodd,

12 Ac ſydd yn ein dyſcu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a bod i ni fyw yn ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd ſydd yr awron,

13 Gan edrych am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangoſiad gogoniant y Duw mawr, a'n Iachawdur Ieſu Griſt,

14 Yr hwn ai rhoddes ei hun troſom, fel i'n pryne ni yn rhydd oddi wrth bob anwiredd, ac y glânhae ni yn bobl briod iddo ei hun, yn awyddus i weithredoedd da.

15 Llefara a chynghôra hyn, ac argyoedda ag holl awdurdod: na fydded i neb dy ddirmygu.

PEN.

### PEN. III.

1 Vfydd-dod i'r rhai a fyddant mewn awdurdod, 9 rhybudd Titus i ymogelyd rhag cweſtiwnau ynfydion a difudd, 12 am negeſau naillduol, 15 ac anherchion.

Rufein.13.1. 1.Pet.2.13. COffa iddynt fod yn *ddaroſtyngedic i'r tywyſogaethau, ac awdurdodau, a bod yn vfydd, ac yn barod i bob gweithred dda,

2 Bod heb gablu neb, yn anymladdgar, yn lledneis, gan ddangos pob addfwynder i bob dŷn.

1.Cor.6.11. 3 *Ydoeddem ni hefyd yn annoethion, yn anufydd mewn amryfuſedd, yn gwaſanaethu chwātau, ac amryw feluſwedd, gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn llidiog; [ac] yn caſau eu gilydd.

4 Eithr wedi i ddaioni Duw ein Iachawdur a'i garedigrwydd i ddŷn ymddangos,

2.Tim.1.9. 5 *Nid o weithred cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni, eithr yn ôl ei drugaredd yr iachâodd efe nyni, trwy olchiad yr ad-enedigaeth, ac adnewyddiad yr Yſpryd glân,

6 Yr hwn a dywalltodd efe arnom yn helaeth trwy Ieſu Griſt ein Iachawdur.

7 Fel y bydde i ni wedi ein cyfiawnhau trwy ei râs ef, gael ein gwneuthur yn etifeddion yn ôl gobaith y bywyd tragywyddol.

8 Ffyddlon yw'r ymadrodd hyn, ac am y pethau hyn y mynnwn i ti fod yn daer, ac i'r ſawl a gredaſant yn-Nuw, ofalu am ragori mewn gweithredoedd da: dymma y pethau ſydd yn dda, ac yn fuddiol i ddynion.

9 Eithr *gochel gweſtiwnau ffôl, ac achau, 1.Tim.1.4.
a chynhennau, ac ymryſonnion o blegit y ddeddf, canys anfuddiol ydynt, ac ofer.

10 Gochel ddŷn [a fyddo] heretic wedi vn rhybydd, neu ddau,

11 Gan wybod fethu y cyfryw, a'i fod yn pechu wedi ei ddamnio ei hunan.

12 Pan ddanfonwyf Artemas attat, neu Tichicus, ymddyro i ddyfod attaf i Nicopolis: 2.Tim.1.4.
canys yno yr arfaethais aiafu. 2.Tim.2.16.

13 Danfon Zenas y cyfreithiwr, ac Apollos yn ddiwyd, fel na byddo arnynt eiſieu dim.

14 Dyſced hefyd ein [pobl] ni ragori mewn gweithredoedd da, er mwyniant angenrheidiol: fel na byddant yn anffrwythlon.

15 Y mae y rhai oll ſy gyd â mi yn dy annerch y rhai a'n carant yn y ffydd. Grâs [Duw fyddo] gyd â chwi oll Amen.

*At Titus a ddewiſwyd yn Eſcob cyntaf i eglwys y Cretiaid, yr*
*ſcrifennwyd hwn o Nicopolis ym Macedonia.*

# Epyſtol Sanct Paul at
## PHILEMON.

### PENNOD. I.

Y mae efe yn llawenychu glywed ffydd a chariad Philemon, 9 yr hwn y mae efe yn deiſyfu arno faddeu iw wâs Oneſimus, a'i dderbyn yn garedigol trachefn.

PAUL carcharor Ieſu Griſt a'r brawd Timotheus, at Philemon ein annwylyd a'n cydweith-wr,

2 Ac at ein hannwyl [chwaer] Apphia, ac at Archippus ein cyd-filwr, ac at yr eglwys yr hon ſydd yn dy dŷ di:

3 Grâs gyd â chwi a thangneddyf gan Dduw Tâd, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

1.Theſſ.1.2. 2.Theſſ.1.3. 4 *Yr wyf yn diolch i'm Duw gan dy goffio yn oeſtadol yn fyng-weddiau,

5 (Wrth glywed dy gariad a'th ffydd yr hon ſydd gennit yn yr Arglwydd Ieſu, a thu ag at yr holl ſeinctiau)

6 Fel y gwneler cyfranniad dy ffydd yn ffrwythlon, trwy adnabod y daioni yr hwn ſydd ynoch trwy Griſt Ieſu.

7 Canys y mae gennym lawenydd mawr a diddanwch yn dy gariad di, canys trwot ti frawd, y llonnwyd calonnau y ſeinctiau.

8 O herwydd pa ham er bod gennif fawr hyder yng-Hriſt i orchymyn i ti y peth ſydd weddus,

9 Er hynny o rann cariad, gwell gennif attolwg i ti, cyd bwyf fel yr ydwyf, ſef Paul yr hen-wr, ac yr awr hon hefyd yn garcharor [er mwyn] Ieſu Griſt.

10 Yr ydwyf yn attolwg i ti dros fy mab * Colloſſ.4.9.
Oneſimus yr hwn a gēhedlais yn fy rhwymau,

11 Yr hwn ryw amſer a fu i ti yn anfuddiol, eithr yr awr hon yn fuddiol i ti, ac i minne.

12 Yr hwn a ddanfonais trachefn, a chymmer dithe ef, ſef fy ymyſcaroedd mau fi.

13 Yr hwn a ewyllyſiwn ei attal gyd â mi, fel troſot ti y gwaſanaethe fi yn rhwymau yr Efengyl.

14 Eithr heb dy feddwl di ni wnawn i ddim fel na bydde dy ddaioni di megis o angen, onid o fodd.

15 Ond odit er mwyn hyn yr ymadawodd tros amſer, fel y derbynit ef yn dragywydd.

# Epiſtol Paul at Titus.

## PENNOD. I.

5 Y mae efe yn athrawy Titus oblegit llywodraeth yr eglwys. 7 Ordinhâd a ſwydd gweinidogion eglwyſig. 12 Cynneddfau y Cretiaid, ac am y rhai a heuant chwedlau Iddewig, a dychymmygion dynnion.

Paul gwâs Duw, ac Apoſtol Ieſu Griſt yn ôl ffydd etholedigion Duw, a gŵybodaeth y gwirionedd, yr hon ſydd yn ôl duwioldeb,

Ruf.16.25. ephes.3.9. coloſſ.1.26. 2.tim.1.9.10. 1.petr.1.20.

2 I obaith bywyd tragywyddol, yr hwn a addawodd y digelwyddog Dduw, *cyn amſeroedd tragywyddol:

Gala.1.1.

3 Eithr efe a eglurhaodd ei air yn ei brŷd drwy bregethu, am yr hyn *yr ymddyriedwyd i mi wrth orchymyn Duw ein Iachawdur:

4 At Titus fy anianol fâb wrth y ffydd gyffredin, grâs, trugaredd, a thangneddyf gan Dduw y Tad, a'r Arglwydd Ieſu Griſt ein Iachawdur.

5 Er mwyn hyn i'th adewais yn Creta i wneuthur iawn drefn am yr hyn ſydd yn ôl, ac i oſod henuriaid ym mhôb dinas megis yr ordeiniais i ti.

1.Tim.3.2. 6 *Os bydd neb diargyoedd, yn ŵr un wraig, ac iddo blant ffyddlon, nid enllibus o lothineb, neu yn anufudd.

7 Canys rhaid yw i eſcob fod yn ddiargyoedd fel gorchwiliwr Duw, nid yn gyndyn, nid yn ddigllon, nid yn win-gar, nid yn darawudd nid yn budr-elwa,

8 Eithr yn lletteugar, yn caru daioni, yn bwyllog, yn gyfiawn, yn ſanctaidd, yn ddianllad,

9 Yn dal yn lew y gair ffyddlon yr hwn ſydd wrth yr athrawiaeth, fel y gallo hefyd gynghori â dyſceidiaeth iachus, ac argyoeddu y rhai a wrth-ddywedant.

10 Canys y mae llawer o rai anufydd, a gwag-ſiarad-wŷr, a thwyll-wŷr meddyliau, yn bennaf y rhai ſy o'r enwaediad,

11 Y rhai y mae yn rhaid eu goſtegu, y rhai ſy yn dymchwelyd tai cyfan, gan ddyſcu i rai bethau ni ddylid, er mwyn budr-elw.

12 Un o'honynt hwy [eu hunain, ſef] un o'u prophwydi eu hunain a ddywedodd, y Cretiaid bob amſer ydynt gelwyddog, drwg fwyſt-filod, boliau gor-ddiog.

13 Y deſtiolaeth hon ſydd wir, am ba achos argyoedda hwy yn llym, fel y byddant iach yn y ffydd,

1.Tim.1.4. 14 Heb ddarbod chwedlau *Iddewaidd, a gorchymynnion dynnion, yn troi oddi wrth y gwirionedd.

Ruf.14.20. 15 I'r rhai pur *y mae pob peth yn bur, eithr i'r rhai halogedig, ac i'r rhai anghredadwy nid oes dim yn bur, eithr halogedig yw eu meddwl a'u cydwybod.

16 Y maent yn cyfaddef yr adwaenant Dduw, eithr ar weithredoedd y maent yn ei wadu ef, am eu bod yn ffiaidd, ac yn anufydd, ac i bob gweithred dda yn anghymmeradwy.

## PEN. II.

Y mae efe yn gorchymyn iddo y ddyſceidiaeth iach, ac yn mynegi iddo, pa wedd y dyſc efe i bob gradd ymddwyn, 11 Trwy râs Criſt.

Eithr adrodd di yr hyn ſydd weddus i athrawiaeth iachus.

2 Bod o'r henaf-gwŷr yn ſobr, yn honeſt, yn gymheſur, yn iach yn y ffydd, 'yng-hariad, ac ammynedd,

3 Bod o'r henaf-gwragedd yr un modd mewn cyfryw ymwreddiad ac a wedde i ſancteiddrwydd, nid yn enllibiaidd, nid wedi ymroi i win lawer, eithr yn rhoi athrawiaeth o ddaioni,

4 (Fel y gallant wneuthur y gwragedd ieuaingc yn bwyllog i garu eu gwŷr, i garu eu plant)

5 Yn bwyllog, yn ddiwair, yn aros gartref, yn dda, [ac] yn *ddaroſtyngedig iw gwŷr, fel na chabler gair Duw. Ephes.5.22. 23.24.

6 Cynghora wŷr ieuaingc yr un modd i fod yn bwyllog.

7 Ym mhob dim dangos dy hun yn ſiampl o weithredoedd da, [ac] yn yr athrawiaeth puredd gweddeidd-dra, ac anllygredigaeth,

8 Ac ymadrodd iachus, yr hwn ni ellir ei feio, fel y cywilyddio yr hwn a ſafo yn erbyn heb ganddo ddim drwg iw ddywedyd am danoch chwi.

9 [Cynghora] *weiſion i fod yn ddaroſtyngedig iw meiſtred, ac [iw] boddhau ym mhob dim, heb ddywedyd yn eu herbyn, Ephes.6.5. col.3.22. 1.pet.2.18.

10 Heb wneuthur twyll, eithr gan ddangos pob ffyddlondeb, fel yr harddant athrawiaeth Duw ein Iachawdur ym mhob peth.

11 Canys *grâs Duw yr hwn a ddwg iechid i bob dŷn a ymddangoſodd, 1.Cor.1.2. coloſſ.1.22.

12 Ac ſydd yn ein dyſcu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a bod i ni fyw yn ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd ſydd yr awron,

13 Gan edrych am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangoſiad gogoniant y Duw mawr, a'n Iachawdur Ieſu Griſt,

14 Yr hwn ai rhoddes ei hun troſom, fel i'n prynei ni yn rhydd oddi wrth bob anwiredd, ac y glânhae ni yn bobl briod iddo ei hun, yn awyddus i weithredoedd da.

15 Llefara a chynghôra hyn, ac argyoedda ag holl awdurdod: na fydded i neb dy ddirmygu.

PEN.

## PEN. III.

1 Vfydd-dod i'r rhai a fyddant mewn awdurdod, 9 rhybudd Titus i ymogelyd rhag cweſtiwnau ynfydion a difudd, 12 am negeſau naillduoll, 15 ac anherchion.

Rufein.13.1. 1.Pet.2.13. COffa iddynt fod yn *ddaroſtyngedic i'r tywyſogaethau, ac awdurdodau, a bod yn vfydd, ac yn barod i bob gweithred dda,

2 Bod heb gablu neb, yn anymladdgar, yn llednais, gan ddangos pob addfwynder i bob dŷn.

1.Cor.6.11. 3 *Yr oeddem ni hefyd yn annoethion, yn anufydd mewn amryfuſedd, yn gwaſanaethu chwātau, ac amryw feluſwedd, gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn lidiog, [ac] yn caſau eu gilydd.

4 Eithr wedi i ddaioni Duw ein Iachawdur a'i garedigrwydd i ddŷn ymddangos,

2.Tim.1.9. 5 *Nid o weithred cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni, eithr yn ôl ei drugaredd yr iachâodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yſpryd glân,

6 Yr hwn a dywalltodd efe arnom yn helaeth trwy Ieſu Griſt ein Iachawdur.

7 Fel y bydde i ni wedi ein cyfiawnhau trwy ei râs ef, gael ein gwneuthur yn etifeddion yn ôl gobaith y bywyd tragywyddol.

8 Ffyddlon yw'r ymadrodd hyn, ac am y pethau hyn y mynnwn i ti fod yn daer, ac i'r ſawl a gredaſant yn-Nuw, ofalu am ragori mewn gweithredoedd da: dymma y pethau ſydd yn dda, ac yn fuddiol i ddynion.

9 Eithr *gochel gweſtiwnau ffôl, ac achau, a chynhennau, ac ymryſonnion o blegit y ddeddf, canys anfuddiol ydynt, ac ofer. 1.Tim.1.4.

10 Gochel ddŷn [a fyddo] heretic wedi vn rhybydd, neu ddau,

11 Gan wybod fethu y cyfryw, a'i fod yn pechu wedi ei ddamnio ei hunan.

12 Pan ddanfonwyf Artemas attat, neu Tichicus, ymddyrro i ddyfod attaf i Nicopolis: canys yno yr arfaethais aiafu. 2.Tim.1.4. 2.Tim.2.16.

13 Danfon Zenas y cyfreithiwr, ac Apollos yn ddiwyd, fel na byddo arnynt eiſieu dim.

14 Dyſced hefyd ein [pobl] ni ragori mewn gweithredoedd da, er mwyniant angenrheidiol: fel na byddant yn anffrwythlon.

15 Y mae y rhai oll ſy gŷd â mi yn dy annerch y rhai a'n carant yn y ffydd. Grâs [Duw fyddo] gyd â chwi oll Amen.

*At Titus a ddewiſwyd yn Eſcob cyntaf i eglwys y Cretiaid, yr ſcrifennwyd hwn o Nicopolis ym Macedonia.*

# Epyſtol Sanct Paul at
## PHILEMON.

## PENNOD. I.

Y mae efe yn llawenychu glywed ffydd a chariad Philemon, 9 yr hwn y mae efe yn deiſyfu arno faddeu iw wâs Oneſimus, a'i dderbyn yn garedigol trachefn.

PAUL carcharor Ieſu Griſt a'r brawd Timotheus, at Philemon ein annwylyd a'n cydweith-wr,

2 Ac at ein hannwyl [chwaer] Apphia, ac at Archippus ein cyd-filwr, ac at yr eglwys yr hon ſydd yn dy dŷ di:

3 Grâs gyd â chwi a thangneddyf gan Dduw Tâd, a'r Arglwydd Ieſu Griſt.

1.Theſſ.1.2. 2.Theſſ.1.3. 4 *Yr wyf yn diolch i'm Duw gan dy gofio yn oeſtadol yn fyng-weddiau,

5 (Wrth glywed dy gariad a'th ffydd yr hon ſydd gennit yn yr Arglwydd Ieſu, a thu ag at yr holl ſeinctiau)

6 Fel y gwneler cyfranniad dy ffydd yn ffrwythlon, trwy adnabod y daioni yr hwn ſydd ynoch trwy Griſt Ieſu.

7 Canys y mae gennym lawenydd mawr a diddanwch yn dy gariad di, canys trwot ti frawd, y llonnwyd calonnau y ſeinctiau.

8 O herwydd pa ham er bod gennif fawr hyder yng-Hriſt i orchymyn i ti y pech ſydd weddus,

9 Er hynny o rann cariad, gwell gennif attolwg i ti, cyd bwyf fel yr ydwyf, ſef Paul yr hen-wr, ac yr awr hon hefyd yn garcharor [er mwyn] Ieſu Griſt.

10 Yr ydwyf yn attolwg i ti dros fy mab *Oneſimus yr hwn a gēhedlais yn fy rhwymau, Colloſſ.4.9.

11 Yr hwn rhyw amſer a fu i ti yn anfuddiol, eithr yr awr hon yn fuddiol i ti, ac i minne.

12 Yr hwn a ddanfonais trachefn, a chymmer dithe ef, ſef fy ymyſcaroedd mau fi.

13 Yr hwn a ewyllyſiwn ei attal gyd â mi, fel troſot ti y gwaſanaethe fi yn rhwymau yr Efengyl.

14 Eithr heb dy feddwl di ni wnawn i ddim fel na bydde dy ddaioni di megis o angen, onid o fodd.

15 Ond odid er mwyn hyn yr ymadawodd tros amſer, fel y derbynit ef yn dragywydd.

16 Bellach nid fel gwâs, eithr vwch-law gwâs,[ſef fel] brawd annwyl yn henwedig i mi: pa faint mwy i ti yn y cnawd, ac yn yr Arglwydd hefyd?

17 Os wyt gan hynny yn fyng-hymmeryd i yn gydymmaith, derbyn ef fel fy hun.

18 Os gwnaeth efe niwed i ti, neu fod yn dy ddyled, cyfrif hynny arnaf.

19 Myfi Paul a ſcrifennais [hyn] â'm llaw fy hun, myfi a dalaf, megis ni ddywedaf wrthit, dy fod yn fy-nyled i am danat ty hun.

20 Ie frawd, myfi a'th fwynhaf di yn yr Arglwydd: llonna fy ymyſcaroedd yn yr Arglwydd.

21 Gan ymddyried yn dy vfydd-dod yr yſcrifennais attat, gan wybod y gwnei fwy nag a ddywedaſt.

22 Heb law hyn hefyd paratoai mi letŷ: canys yr ydwyf yn gobeithio trwy eich gweddiau chwi i'm rhoddir i chwi.

23 Y mae yn dy annerch Epaphras fyng-hyd garcharor yng-Hriſt Ieſu,

24 Marcus, Ariſtarchus, Demas, [a] Lucas fyng-hyd weith-wŷr.

25 Grâs ein Harglwydd Ieſu Griſt [fyddo] gyd â'ch yſpryd chwi. Amen.

*O Rufain yr ſcrifennwyd* hwn *at Philemon gyd â'r gwâs Oneſimus.*

# Epyſtol Sanct Paul at yr Hebræaid

## PENNOD. I.

Dangos y mae efe rhagor-fraint Criſt goruwch yr angelion, 7 ac am eu ſwydd hwythau.

*Yr Epyſtol ar ddydd Natalic.*

☞ DUW lawer gwaith a llawer modd gynt a ymddiddanodd â'r tadau trwy'r prophwydi:

2 Y dyddiau diweddaf hyn efe a ymddiddanodd â nyni trwy ei Fab, yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy'r hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd,

Doeth.4.26.
Coloſſ.1.15.

3 * Yr hwn (am ei fod yn llewyrch y gogoniant, a gwir lun ei berſon ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, wedi golchi ein pechodau ni trwyddo ef ei hun) a eiſteddodd ar ddeheu-law y mawredd yn y goruchelder,

4 Yr hwn a wnaethbwyd yn well nâ'r angelion, o gymmaint ac yr etifeddodd efe enw rhagorach nag hwynt hwy.

Pſal.2.7.
Pen.5.5.
Act.13.33.
2.Sam.7.14.
1.Chro.22.10.

5 Canys wrth bwy o'r angelion er ioed y dywedodd efe,* fy Mab ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlais di⁖ ac eil-waith,* myfi a fyddaf yn Dad iddo ef, ac yntef fydd yn Fab i minne.

6 A thrachefn pan ydyw yn dwyn ei Fab cyntaf-anedic i'r byd, y mae yn dywedyd: addoled hefyd * holl angelion Duw ef: Pſal.97.7.

7 Ac am yr angelion hefyd y mae yn dywedyd: yr hwn ſydd yn * gwneuthur yſprydion yn gēnadon iddo: a'i weinidogion yn fflam dân. Pſal.104.4.

8 Ac wrth y Mab, dy orſeddfaingc *ô Dduw [ſydd] yn oes oeſoedd: teyrn-wialen iniondeb yw teyrn-wialen dy deyrnas di. Pſal.45.6.

9 Ti a geraiſt gyfiawnder, ac a gaſeaiſt anwiredd: am hynny Duw, ſef dy Dduw di a'th eneiniodd ag olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion.

10 Ac * tydi yn y dechreuad ô Arglwydd a ſeiliaiſt y ddaiar, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Pſal.102.25.

11 Hwynt hwy a ddarfyddant tithe a barheui: ie hwynt hwy oll a heneiddiant fel dilledyn

12 Megis gwiſc hefyd y plygi di hwynt, ac hwy a newidiant: eithr yr vn ydwyt ti, a'th flynyddoedd ni phallant. ☜

Pſal.110.1.
Math.22.44.
2.Cor.15.25.
Pen.10.12.

13 Wrth bwy o'r angelion er ioed y dywedodd efe*: eiſtedd ar fy llaw ddehau hyd oni ddodwyf dy elynion yn droed-faingc i'th draed?

14 Onid yſprydion gwaſanaethgar ydynt hwy oll, y rhai a ddanfonir i waſanaethu, er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwriaeth⁖

## PEN. II.

Eiriol arnom y mae efe fod yn vfydd i'r ddeddf newydd, yr hon a roes Criſt i ni, 9 ac na rwyſtrer ni o herwydd gwendid, ac iſel-radd Criſt, 10 can fod yn anghenrheidiol iddo er ein mwyn ni gymmeryd y cyfryw ddiſtadl gyflwr arno, fel y bydde debyg iw frodyr.

AM hynny rhaid i ni yſtyried yn well y pethau a glywſom, fel na ollyngom ni hwynt vn amſer i golli.

2 Canys os cadarn oedd y gair a ddodwyd trwy angelion, ac os derbyniodd pob camwedd, ac anufydd-dod gyfiawn daledigaeth,

3 Pa fodd y diangwn ni, os eſceuluſwn iechydwriaeth gymmaint, yr hon wedi dechreu ei thraethu trwy'r Arglwydd ei hun, a ſiccrhâwyd i ni gan y rhai a fuaſent yn gwrando:

4 Trwy fod * Duw yn teſtiolaethu gyd â hwynt drwy arwyddion, a rhyfeddodau, ac ymrafael rinweddau, a chyfranniad yr Yſpryd glan, yn ôl ei ewyllys ei hun. Mar.16.20.

5 Canys nid i'r angelion y daroſtyngodd efe y byd a ddaw, yr hwn yr ydym yn lleſaru am dano

6 Eithr vn * mewn rhyw fan a ddwg deſtiolaeth gan ddywedyd, beth yw dŷn, i ti iw goffau⁖ neu fab dŷn i ti i ymweled ag ef⁖ Pſal.8.4.

7 Ti a'i gwnaethoſt ef ychydig yn îs nâ'r angelion: â gogoniant ac anrhydedd y coronaiſt ef, ac a'i goſodaiſt ef yn llywydd ar weithredoedd dy ddwylo.

Math.28.18. 1.cor.15.27. phil.2.9.10.11.

8 *Pob peth a ddaroſtyngaiſt tann ei draed ef, am hyn, gan ddaroſtwng o honaw bob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ei ddaroſtwng iddo, eithr etto nid ydym yn gweled pob peth yn oſtyngedic iddo.

9 Eithr yr ydym ni yn gweled yr Ieſu wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd, yr hwn a wnaed ychydig is nâ'r angelion, o herwydd dioddefaint marwolaeth fel y bydde iddo ef trwy râs Duw, brofi marwolaeth tros bawb.

10 Canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd pwy y mae pob peth, a thrwy'r hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn llawer o feibion i ogoniant, berffeithio pẽnadur eu hiechydwriaeth hwynt trwy ddioddefaint.

11 Canys y ſancteiddudd a'r rhai ſancteiddiedic o'r vn y maent oll, am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwynt yn frodyr,

Psal.22.22.

12 Gan ddywedyd, myfi a ddangoſaf dy enw di i'm brodyr, yng-hanol yr eglwys i'th folafdi.

Pſal.18.2. 1.cor.15.55.

13 A thrachefn, *mi a ddodaf fy ymddyried ynddo, a thrachefn wele fi, a'r plant a roddes Duw i mi.

14 Am hynny gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed, yntef hefyd yr vn modd a wnaethbwyd yn gyfrannog o'r vn rhyw, fel y galle efe trwy farwolaeth ddiniſtrio y neb yr ydoedd iddo lywodraeth ar farwolaeth ſef diafol,

15 Ac fel y galle efe eu gwared hwynt oll, y rhai gan ofn marwolaeth tros eu holl fywyd ydynt tann gaethiwed.

16 Nid yr angelion euſus a gymmerodd efe ddim: eithr hâd Abraham a gymmerodd efe.

17 Am ba achos y dyle efe ym mhob peth fod yn gyffelyb iw frodyr, fel y galle fod yn arch-offeiriad trugarog a ffyddlon am y pethau a berthynent i Dduw, i ryglyddu bodd am bechodau y bobl.

18 O blegit yn gymmaint a dioddef o honaw ef, pan ei temptiwyd, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir.

## PEN. III.

Y mae efe yn eu cynghori i fod yn vfydd i air Criſt, 3 Yr hwn ſydd ragorach nâ Moſes. 12 Poenedigaeth y cyfryw ag a galedant eu calonnau, ac ni chredant, fel y caffent orphwyſſa dragywyddol.

AM hyn fy mrodyr ſanctaidd, cyfrannogion o'r galwedigaeth nefol, yſtyriwch Ieſu Griſt, Apoſtol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni yng-Hriſt Ieſu,

Num.12.7.

2 Yr hwn ſydd ffyddlon i'r hwn a'i hordeiniodd, megis *Moſes yn ei holl dŷ,

3 Oblegit hwn a gyfrifwyd ei fod yn haeddu mwy o ogoniant nâ Moſes, o gymmaint, ac y mae yr hwn ſydd yn gwneuthur tŷ yn cael mwy o barch nâ'r tŷ.

4 Canys pob tŷ a adeilir gan ryw vn, a'r neb a wnaeth bob peth ydyw Duw.

5 A Moſes yn wir a fu ffyddlon yn ei holl dŷ ef megis gwaſanaeth-ŵr, er teſtiolaeth i'r pethau a draethid.

6 Eithr Criſt megis mab ar ei dŷ ei hun, tŷ yr hwn ydym ni, os nyni a geidw ein hyfder a gorfoledd ein gobaith yn ſiccr hyd y diwedd.

Pſal.95.8. pen.4.7.

7 Am hynny megis y dywed yr Yſpryd glân, *heddyw o gwrandewch ei leferydd ef,

8 Na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymryſonfa, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch,

9 Lle y temtiodd eich tadau chwi fi, y profaſant fi, ac y gwelſant fyng-weithredoedd ddeugain mlynedd,

10 Am hynny y ſorrais wrth y genhedlaeth honno, a dywedais, y maent hwy yn cyfeiliornt yn [eu] calonnau, ac nid adnabuant fy ffyrdd mau fi.

11 Hyd oni thyngais yn fy nigllonedd, na chaent hwy ddyfod i mewn i'm gorphywyſfa.

12 Edrychwch frodyr, rhag bod vn amſer yn neb o honoch ddrwg galon anffyddlon i beri ymadel â Duw byw.

13 Eithr cynghorwch bawb eu gilydd beunydd tra y gelwyr hi heddyw, rhag i neb o honoch ymgaledu trwy dwyll pechod.

14 Canys nyni a wnaed yn gyfrannogion o Griſt, os nyni a gadwn y dechreuad trwy'r hwn ein cynhelir i fynu yn ſiccr hyd y diwedd.

15 Tra y dywedir, heddyw os gwrandewch ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymryſonfa.

16 Canys rhai ar ôl gwrando, [a'i] digiaſant [ef,] ac etto, nid pawb a'r a ddaethant o'r Aipht trwy Moſes.

Num.14.37.

17 Ac wrth bwy y bu efe ſorredic ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechaſent, y rhai y ſyrthiodd *eu cyrph yn y diffaethwch?

18 Ac wrth bwy y tyngodd na chaent hwy fyned i mewn iw orphywyſfa ef? onid wrth y rhai, nid vfyddhaent?

19 Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghredyniaeth.

## PEN. IIII.

Bod y gair heb ffydd yn anfuddiol. 3 Sabboth neu orphywyſfa y Chriſtianogion, 6 Dialedd y rhai ni chredant. 12 Anian gair Duw.

OFnwn gan hynny, rhag vn amſer trwy wrthod yr addewid i fyned i mewn iw orphywyſfa ef, weled neb o honoch chwi yn gyffelyb iw ſiommi.

2 Canys i ni y pregethwyd yr Efengyl fel iddynt hwythau, eithr ni thycciodd iddynt hwy y gair a glywyd, am nad oedd wedi ei gyd-waſcu â ffydd yn y rhai a'i clywſant.

Pſal.95.11.

3 Canys yr ydym ni y rhai a gredâſom yn myned i mewn i'r orphywyſfa, megis y dywedodd efe, fel *y tyngais yn fy llid, na ddeuẽt hwy

i mewn i'm gorphwyſfa: cyd bai 'r gwaith wedi ei berffeithio o amſer goſodiad ſail y byd.

Geneſ.2.2. deut.5.14. 4 Canys am y ſeithfed dydd mewn man y dywedodd efe fel hyn: a * gorphywyſawdd Duw y ſeithfed dydd oddi wrth ei holl waith.

5 Ac ymma trachefn, na ddeuent hwy i mewn i'm gorphwyſfa.

6 Gan fod hyn wedi ei adel yn ôl, fod rhai yn cael myned i mewn, a bod y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt heb fyned o herwydd anghredyniaeth:

7 Trachefn y mae efe yn pennu diwrnod gan ddywedyd trwy Ddafydd, heddyw, ar ôl cymaint o amſer, megis y dywedwyd,* heddyw o gwrandewch ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau. Pen.3.7.

8 Canys pe Joſua a'i dugaſe hwynt i orphywyſfa, ni ſonniaſe efe am ddydd arall ar ôl hynny.

9 Ac am hynny y mae rhyw orphywyſfa wedi ei gadael yn ôl i bobl Dduw.

10 Canys yr hwn a aeth i mewn iw orphywyſfa, gorphwyſodd hwnnw oddi wrth ei waith megis [y gorphwyſodd] Duw oddi wrth yr eiddo yntef.

11 Ymroddiwn gan hynny i fyned i mewn i'r un rhyw orphywyſfa rhag ſyrthio o neb yn ôl yr un ſiampl o anufudd-dod.

12 Canys bywiol yw gair Duw, a nerthol ei waith, a llymmach nag un cleddyf daufinioc, ac yn cyrhaeddyd hyd wahaniad yr enaid a'r yſpryd, a'r cymmalau, a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon.

13 Ac nid oes un creadur anamlwg yn ei olwg ef, eithr pob peth ſydd yn noeth ac yn agored iw lygaid ef, am yr hwn yr ydym ni yn ſôn.

14 Am fod gan hynny i ni Arch-offeiriad mawr yr hwn a aeth i'r nefoedd, ſef Jeſu Mab Duw, daliwn [ein gafel] ar ein proffes.

15 Canys nid oes i ni Arch-offeiriad, yr hwn nis dichon doſturio wrth ein gwendid ni, namyn a demptiwyd ym mhob peth yr un modd, [eithr] heb pechod.

16 Am hynny awn yn hydêrus at orſeddfaingc y grâs fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yn gymorth cyf-amſerol.

## PEN. V.

Y cyffelybiaeth a'r anghyffelybiaeth ſydd rhwng Criſt a'r Lefiaid. 11 A chyhuddiad diweddarwch yr Iddewō.

CAnys pob arch-offeiriad yr hwn a gymmerer o blith dynion a oſodir tros ddynion yn y pethau ſy tu ag at Dduw, i offrymmu rhoddion, ac aberthau tros bechodau,

2 Yr hwn a ddichon yn gymmeruſol doſturio tros y rhai ſy mewn anwybodaeth neu amryfuſedd, am ei fod yntef hefyd wedi ei amgylchu â gwendid,

3 Ac er mwyn hynny y dyle megis tros y bobl felly troſto ei hũ offrymmu tros bechodau.

1.Cor.13.10. 4 Ac * nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd iddo ei hun, ond a alwer gan Dduw, megis Aaron.

5 Felly Criſt hefyd ni chymmerodd iddo ei hun yr anrhydedd i fod yn arch-offeiriad, namyn yr hwn a ddywedodd wrtho ef, * ty di yw fy Mab i, myfi heddyw a'th genhedlais di [ai rhoes iddo.] Pſal.2.7. Pen.1.5.

6 Megis y mae efe hefyd mewn man arall yn dywedyd,* offeiriad wyt ti yn dragywydd ar ôl urdd Melchi-ſedec. Pſal.110.4

7 Yr hwn yn nyddiau ei gnawd a offrymmodd trwy lefain cryf a dagrau, weddiau ac ymbil at yr hwn ydoedd abl iw achub ef oddi wrth farwolaeth: ac efe a wrandawyd am y peth yr oedd yn ei ofni.

8 Ac er ei fod yn fab, efe a ddyſcodd ufudddod trwy yr hyn a ddioddefodd,

9 Ac wedi ei berffeithio, ef a wnaethbwyd yn awdur iechyd tragywyddol i'r rhai oll a ufuddhânt:

10 Wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Arch-offeiriad ar ôl urdd Melchi-ſedec.

11 Am yr hwn y mae i ni lawer iw ddywedyd, yr hyn ſydd anhawdd ei fynegi, o achos eich bod chwi yn fuſcrell eich cluſtiau.

12 Canys lle y dylech chwi o herwydd amſer fod yn athrawon, rhaid yw trachefn ddyſcu i chwi beth ydyw gwyddorion dechreuad ymadroddion Duw, ac chwi a aethoch yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd ffyrf.

13 O blegit pawb a ymarfero â llaeth, anghyneſin yw â gair cyfiawnder: canys mabã yw.

14 Eithr y bwyd ffyrf a berthyn i'r rhai perffaith y rhai o herwydd cynnefindra y mae ganddynt ſynnwyr wedi ymarfer i ddoſparthu rhwng da a drwg.

## PEN. VI.

Cyngor i gynnyddu yn ddianwadal, 18 Am fod Duw yn ſiccr yn ei addewid.

AM hynny gan roddi heibio yr ymmadroddion ſydd yn dechreu rhai yng-Hriſt, awn rhagom at berffeithrwydd, ac na oſſodwn eil-waith ſail edifeirwch oddi wrth weithredoedd meirwon, a ffydd tu ag at Dduw.

2 [Ac] am athrawiaeth bedyddiadau, a goſodiad dwylo, ac adgyfodiad y meirw, a'r farn dragywyddol.

3 A hynny a wnawn ni, os cenniadhâ Duw.

4 Canys * amhoſſibl yw i'r rhai a oleuwyd un-waith, ac a broſaſant y rhodd nefol, ac a wnaethbwyd yn gyfrannogion o'r Yſpryd glân, Mat.12.31.32. 2.pet.2.20. pen.10.26.

5 Ac a broſaſant o ddaianus air Duw, a rhinweddau y bŷd a ddaw:

6 Os llwyr-ſyrthiant, adnewyddu trwy edifeirwch, gan eu bod hwynt drachefn yn croeſhoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei oſod ar watwar.

7 Canys y ddaiar yr hon a yfo y glaw a ſyddo yn mynych ddyfod arni, ac a ddygo lyſſiau addas i'r neb drwy y rhai yr ydys yn ei llafurio hi, ſydd yn derbyn bendith gan Dduw.

8 Eithr yr hon a ddygo ddrain ac yſcall,

amharchus ſydd, a chyfagos i felldith, a'i diwedd ſydd ei lloſci.

9 Eithr ô (rai annwyl) yr ydym yn coelio am danoch chwi, bethau ſy well nâ hyn, ac [ſydd] yng-lŷn ag iechydwriaeth er ein bod ni yn dywedyd fel hyn.

10 Canys nid anghyfiawn yw Duw, fel y gollyngo tros gof eich gwaith a'r llafurus gariad a ddangoſaſoch tu ag at ei enw ef, y rhai a waſanaethaſoch, ac ydych yn gwaſanaethu y Sainct.

11 Ac yr ydym yn chwennych dangos o bob vn o honoch yr vn fath ddiwydrwydd er mwyn ſiccrhau gobaith hyd y diwedd.

12 Fel na byddoch fuſcrell, eithr yn ddilynwŷr y rhai trwy ffydd, ac ammynedd ſy yn meddiannu yr addewidion.

13 Canys Duw wrth wneuthur yr addewid i Abraham, lle ni alle efe dyngu i neb a fai fwy, a dyngodd iddo ei hun,

Gene.12.2. & 17.4. & 22.17. 14 Gan ddywedyd, * yn ŵ'r gan fendithio mi a'th fendithiaf, a chan amlhau mi a'th amlhâf

15 Ac felly wedi iddo hir ymaros, efe a gafodd yr addewid.

16 Canys dynion yn ddiau ydynt yn tyngu i vn mwy, [nâ hwynt eu hun] a diwedd pob ymryſon ydyw llw iddynt er ſiccrwydd.

17 Yn yr hwn beth Duw yn chwennychu yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid, ddianwadalwch ei gyngor ef, a ymrwymodd trwy lw.

18 Megis trwy ddau beth diſigl yn y rhai y mae yn amhoſſibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gellem gael cyſſur cryf, y rhai a ffoaſom i gael gafael yn y gobaith rhag-oſodedic.

19 Yr hwn ſydd genym ni megis angor yr enaid yn ddiogel, ac yn ſiccr, ac yn myned hyd at yr hyn ſydd o'r tu fewn i'r llen.

20 I'r man yr aeth y rhagflaenor troſom ni [ſef] Ieſu yr hwn a wnaethbwyd yn Arch offeiriad yn dragywyddol ar ôl vrdd Melchi-ſedec.

## PEN. VII.

Cyffelybiaeth rhwng offeiriadaeth Criſt a Melchiſedec.

Gen.14.18. CAnys y * Melchi-ſedec hwn brenin Salem [ydoedd] offeiriad Duw goruchaf, yr hwn a ddaeth i gyfarfod ag Abraham wrth ddychwelyd o ladd y brenhinoedd, ac a'i bendigodd ef:

2 I ba vn y cyfrannodd Abraham ddegwm o bob peth: yr hwn yn gyntaf yn wir wrth gyfieithiad [yw] brenin cyfiawnder: wedi hynny hefyd brenin Salem, yr hyn yw brenin heddwch,

3 Heb dâd, heb fam, heb genedl heb fod idt o na dechreu dyddiau na diwedd einioes: eithr yn gyffelyb i Fab Duw, y mae yn aros yn offeiriad yn dragywydd.

4 Edrychwch chwithau faint oedd hwn i'r hwn y rhoddodd Abraham y patriarch ddegwm o'r anrhaith.

Num.18.21. deut.18,1,2. ioſua.14.4. 5 A'r rhai yn wir ſy o feibion Lefi yn derbyn ſwydd yr offeiriadaeth, y mae ganddynt * orchymyn i gymmeryd degwm gan y bobl, ar ôl y gyfraith (ſef gan eu brodyr) er eu bod wedi dyfod o lwynau Abraham.

6 Eithr yr hwn ni hanoedd ei genhedlaeth o honynt hwy, a gymmerodd ddegwm gan Abraham,) ac a fendigodd yr hwn yr oedd yr addewid iddo.

7 Ac yn ddiddadl y lleiafa fendithir gan [ei] well.

8 Ac ymma dynion y rhai ſy yn meirw, ſy yn cymmeryd degwm: eithr yno yr hwn y teſtiolaethwyd am dano ei fod efe yn fyw.

9 Ac (o ddywedyd fellŷ) yn Abraham y talodd Lefi yntef hefyd ddegwm, yr hwn [oedd] dderbyn-wr degwm,

10 O blegit yr ydoedd efe etto yn llwynau ei dad, pan gyfarfu Melchi-ſedec ag ef.

11 Os ydoedd gan hynny berffeithrwydd trwy offeiriadaeth Lefi (o blegit tann honno y rhoddwyd y gyfraith i'r bobl) pa ham [yr oedd] yn rhaid mwyach godi offeiriad arall, ar ôl vrdd Melchi-ſedec, ac nas gelwid ef ar ôl vrdd Aaron?

12 O blegit yn wir wedi newidio yr offeiriadaeth, rhaid oedd fod newidiad ar y gyfraith hefyd.

13 O blegit am yr hwn y dywedir hyn, efe a berthyn i lwyth arall, o'r hwn nid oes neb yn gwaſaneuthu yr allor.

14 Canys hyſpus yw mai o Iuda y mae ein Harglwydd ni yn dyfod, am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moſes ddim tu ag at offeiriadaeth,

15 Ac etto y mae hyn yn eglurach o lawer, os ydyw offeiriad arall yn codi ar ôl cyffelybrwydd Melchi-ſedec,

16 Yr hwn nid wrth gyfraith y gorchymyn cnawdol ei gwnaethbwyd [yn offeiriad,] eithr wrth rym y bywyd didrangedic.

17 O blegit y mae efe yn teſtiolaethu fel hyn, canys * offeiriad wyt ti yn dragywydd ar ôl vrdd Melchi-ſedec. Pſal.110.4. pen 5.6.

18 Canys yn ddiau fe a wnaed diddymmiad ar y gorchymyn, yr hwn oedd o'r blaen o herwydd ei leſcedd a'i afles.

19 O blegit ni pherffeithiodd y gyfraith ddim namyn dyfodiad gobaith gwell, trwy yr hwn yr ydym ni yn neſau at Dduw.

20 Ac yn gymmaint nad heb lw:

21 (O blegit hwynt hwy a wnaethbwyd yn offeiriaid heb lw, a hwn, a wnaethbwyd â llw gan yr hwn a ddywedodd wrtho, * yr Arglwydd a dyngodd, ac ni bydd edifar ganddo, ti wyt offeiriad yn dragywydd, yn ôl vrdd Melchi-ſedec) Pſal.110.7.

22 Ar deſtament gwell o hynny y gwnaethbwyd Ieſu yn fachniudd.

23 A mwy o honynt hwy a wneid yn offeiriaid am i farwolaeth luddio iddynt barhau.

24 Eithr hwn am ei fod yn perhau yn dragywydd y mae iddo ef offeiriadaeth dragywyddol.

25 Am hynny efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef ſy yn dyfod at Dduw

am ei fod efe yn byw bob amſer i eiriol troſtynt hwy.

26 O blegit y cyfryw Archoffeiriad ſanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn vwch nâ'r nefoedd oedd weddus i ni:

Leuit.16.6.

27 Yr hwn nid oedd raid iddo beunydd, megis i'r offeiriaid [ hynny ] * yn gyntaf tros ei bechodau ei hun offrymmu aberthau, wedy hynny tros [bechodeu ] y bobl: canys hynny a wnaeth efe vn-waith gan ei offrymmu ei hun.

28 Canys y gyfraith ſydd yn goſod dyniõ yn arch-offeiriaid a gwendid ynddynt: eithr gair y llw yr hwn fu wedi y gyfraith, ſy'n gwneuthur y Mab yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd.

## P E N. VIII.

Bod offeiriadaeth Criſt a'r cyfammod newydd yn dangos diddymmu yr offeiriadaeth Lefiaidd, a'r hên gyfammod.

EIthr ſwm yr hyn a ddywedwyd yw hyn, fod i ni gyfryw Arch-offeiriad, yr hwn a eiſteddodd ar ddehau law gorſedd-faingc y mawredd yn y nefoedd,

2 Yn weinidog y cyſſegrfa, a'r gwîr dabernacl yr hwn a oſodes yr Arglwydd, ac nid dŷn.

3 Canys pob arch-offeiriad a oſodir i offrymmu rhoddion ac aberthau: ac am hynny yr ydoedd yn rhaid bod gan hwn hefyd bethiw offrymmu.

4 O blegit, pe bydde efe ar y ddaiar, ni bydde yn offeiriad y chwaith, tra fydde offeiriaid yn offrymmu rhoddion yn ôl y ddeddyf.

Exod.25.40.
Act.7.44.

5 Y rhai ſy yn gwaſaneuthu portreiad, a chyſcod pethau nefol, megis o'r nefoedd yr atebwyd Moſes pan oedd ar orphen y tabernacl: edrych eb efe, ar wneuthur o honot bôb peth ar ôl y portreiad a ddangoſwyd i ti yn y mynydd.

6 Eithr yn awr y cafodd efe ſwydd mwy rhagorol, o gymmaint ac y mae yn gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn ſydd wedi ei oſod ar addewidion gwell.

7 O blegit yn wir pe buaſe y cyntaf hwnnw yn ddifai, ni cheiſiaſid lle i'r ail.

Iere.31.31.
rufei.11.27.
pen.10.16.

8 Canys yn beio arnynt hwy y dywed efe, *wele y dyddiau a ddeuant, medd yr Arglwydd, pan wnelwyf â thŷ Iſrael, ac â thŷ Iuda gyfammod newydd:

9 Nid fel y cyfammod yr hwn a wneuthum âu tadau hwynt yn y dydd yr ymafelais yn eu llaw hwynt iw dwyn o dîr yr Aipht: canys ni thrigaſant hwy yn fyng-hyfammod mau fi, a minne a'u yſceuluſais hwythau, medd yr Arglwydd,

10 O blegit hwn yw'r cyfammod a wneuthum i â thŷ Iſrael, ar ôl y dyddiau hynny medd yr Arglwydd, myfi a ddodaf fyng-hyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonnau yr ſcrifennaf [hwynt] a mi a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, ac hwythau a fyddant bobl i minne.

11 Ac ni ddyſc pob vn ei gymydog, a phob vn ei frawd, gan ddywedyd, adnebydd yr Arglwydd: o blegit hwynt a'm hadwaenant i oll, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt.

12 Canys trugarog fyddaf am eu anghyfiawnder, ac ni chofiaf eu pechodau nai hanwiredd hwynt mwy.

13 Wrth ddywedyd newydd, y mae efe yn barnu y cyntaf yn henaidd, a'r hyn ſydd henaidd ac oedrannus ſydd agos i ddiflannu.

## P E N. IX.

Y modd y deleuir ceremoniau, ac ebyrth y ddeddf, gan dragywyddoldeb a pherffeithrwydd aberth Criſt.

AM hynny yn wîr yr ydoedd hefyd i'r tabernacl cyntaf ceremoniau crefydd a chyſſegr bydol.

Exod.26.1.
36.1.

2 O blegit y * tabernacl oedd wedi ei wneuthur, y cyntaf, yn yr hwn yr oedd y canwyllbren, a'r bwrdd, a'r bara goſod yr hwn [dabernacl ]a elwid y cyſſegr.

3 Yn ôl yr ail llen yr oedd y tabernacl yr hwn a elwid y cyſſegr ſancteiddiolaf,

Num.17.10.
1.Brenhi.8 9.
2.Chro.5.10.
Exod.25.22.

4 Lle yr oedd y thuſſer aur, ac Arch y cyfammod wedi ei goreuro o'i hamgylch, yn yr hon yr oedd y crochan aur a'r manna ynddo, a*gwialen Aaron, yr hon a flaguraſe, a*llechau y cyfãmod.

5 A goruwch honno Cerubiaid y gogoniant yn cyſcodi y drugareddfa, am y rhai ni ellir yn awr dywedyd yn nailltuol.

6 Wedi trefnu hyn felly, i'r tabernacl cyntaf yn ddiau yr ai bob amſer yr offeiriaid y rhai oeddynt yn cyflawni y gwaſanaeth.

Exod.30.10.
Leuit.16.2.

7 Ac i'r ail vnwaith bôb blwyddyn * yr ai yr arch-offeiriad yn vnic, nid heb waed yr hwn a offrymme efe troſto ei hun, a thros annwybodaeth y bobl.

8 Trwy fod yr Yſpryd glân yn arddangos hyn, nad oedd y ffordd i'r cyſſegr yn agored etto tra fydde y tabernacl cyntaf yn ſefyll.

9 Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth tros yr amſer preſennol, yn yr hwn yr offrymmid rhoddion, ac aberthau, y rhai ni allent berffeithio yr addoludd ar ran cydwybod,

10 Yn vnic mewn bwydydd a diodydd, ac amryw olchiadau, a deddfau cnawdol, y rhai a oſodaſid hyd amſer y diwygiad.

*Yr Epyſtol ar y pummed Sul o'r grawys.*

11 ☞ Eithr Criſt yn dyfod yn Arch-offeiriad y daioni a fyddent rhag llaw, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith dwylo, hynny yw, nid o'r adailadaeth ymma,

12 Nid chwaith trwy waed geifr a lloi: eithr trwy ei waed ei hun yr aeth efe vn waith i mewn i'r cyſſegr, ac a gafas dragywyddol ollyngdod o gaethiwed.

Leuit.16.14.
Numb.19.4.

13 * O blegit os ydyw gwaed teirw, a geifr a lludw anner wedi ei danu ar y rhai halogedig yn ſancteiddio puredd y cnawd,

1.Pet.1.19.
1.Ioh.1.7.
Gwele.1.5.
Luc.1.74.

14 O ba faint mwy, y pura * gwaed Criſt (yr hwn trwy yr Yſpryd tragywyddol a'i offrymmodd ei hun yn ddifai i Dduw) eich cydwybod chwi * oddi wrth feirwon weithredoedd, i waſanaethu y Duw byw?

15 Ac am hynny y mae efe yn gyfryng-wr,

Ruf.5. 1.Pet.3.18. y cyfammod newydd, megis trwy fod* marwolaeth yn ymwared oddi wrth y camweddau y rhai oeddent tan y cyfammod cyntaf, y derbynie y rhai a alwyd yr etifeddiaeth dragywyddol. ☜

*Yr Epiſtol ar ddydd mercher cyn y paſc.* 16 ☞O blegit lle bydd teſtament, rhaid yw digwydda marwolaeth y teſtament-wr.

17 *Canys o'r meirw y caiff y teſtament ei rym: o blegit nid oes nerth ynddo tra fyddo byw y teſtament-wr. Gala.3.15.

18 O ba achos ni chyſſegrwyd y cyntaf heb waed.

19 Canys wedi traethu o Moſes y gorchymyn oll i'r bobl yn ôl y gyfraith, efe a gymmerodd waed lloi a geifr, gyd â gwlân porphor, ac Yſop, ac ai taenellodd ar y llyfr, a'r bobl oll,

Exo.24.8. 20 *Gan ddywedyd, hwn yw gwaed y teſtament, yr hwn a orchymynnodd Duw i chwi.

21 Y tabernacl hefyd a holl leſtri y gwaſanaeth a daenellodd efe â gwaed yr vn modd,

22 A phob peth gan mwyaf wrth y gyfraith a burid trwy waed, ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.

23 Am hynny angenrheidiol ydoedd i bortreiadau y pethau ſy yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn: a'r pethau nefol eu hunain ag aberthau gwell nâ'r rhai hyn.

24 Canys nid i gyſſegr o waith llaw yr aeth Criſt yr hwn ſydd bortreiad i'r gwir gyſſegr: eithr efe a aeth i'r nefoedd i ymddangos yn awr ger bron Duw troſom ni.

25 Ac nid iw offrymmu ei hun yn fynych fel y mae yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyſſegr bob blwyddyn a chanddo waed dieithr.

26 Pe amgen rhaid fuaſe iddo ddioddef yn fynych o ddechreuad y byd, eithr yn awr vn-waith yn niwedd y byd yr ymddangoſes efe i ddeleu pechod trwy ei aberthu ei hun.

27 Ac megis y goſodwyd i ddynion farw vnwaith, ac yn ôl hynny bod barn,

Rufei.5.8. 1.pet.3.18. 28 Felly* Criſt hefyd a aberthwyd vn-waith i ddwyn pechodau llawer, yr ail waith heb pechod yr ymddengys efe i'r rhai ſy yn ei ddiſgwil er iechydwriaeth. ☜

## PEN. X.

Na alle y gyfraith a'i haberthau ddeleu pechod, ac am hynny bod yn rhaid yr aberth arall a wnaeth Criſt.

*Yr Epiſtol ar ddydd gwener cyn y Paſc.* Leuit.16.14.21 OBlegit y* gyfraith yr hon ſydd ganddi gyſcod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwîr ddelw y pethau, ni alle byth berffeithio y dyfodiaid drwy yr aberthau hynny, y rhai bob blwyddyn a offrymment yn oeſtadol.

2 Pe amgen hwy a beidiaſent a'u hoffrymmu, am na buaſe cydwybod pechod mwy gan y rhai a offrymmaſent wedi eu glanhau vn-waith

3 Eithr yn yr rhai hynny y bydd bôb blwyddyn adcoffa pechodau.

Leuit.16.21. 4 Canys ni ddichon gwaed teirw a geifr * dynnu ymmaith bechodau.

5 O ba achos y mae efe wrth ddyfod i'r byd yn dywedyd, aberth, ac offrwm ni's mynnaiſt: Pſal.40.6.7. eithr corph a gymhwyſaiſt i mi.

6 Offrymmau poeth a thros bechod ni buoſt fodlon iddynt.

7 Yna dywedais, wele fi yn dyfod, (y mae yn ſcrifennedig yn nechreu y llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di ô Dduw.

8 Wedi iddo ddywedyd uchod, aberth ac offrwm, ac offrymmau poeth, a thros bechod ni's mynnaiſt, ac ni's derbyniaiſt (y rhai a offrymmir wrth y gyfraith)

9 Yna y dywedodd, wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di ô Dduw, y mae yn tynnu ymmaith y cyntaf, er mwyn goſod y diweddaf.

10 Trwy yr hwn ewyllys yr ydym wedi ein ſancteiddio, trwy offrymmiad corph Ieſu Griſt vn-waith.

11 Am hynny pob offeiriad ſydd yn ſefyll beunydd ger bron, gan waſanaethu, ac offrymmu yn fynych yr vn aberthau, y rhai ni allant fyth ddeleu pechodau.

12 Eithr hwn wedi iddo vn-waith offrymmu aberth tros bechodau, ſydd yn dragywyddol *yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw: Pen.1.13.

13 Gan aros yr hyn ſydd yn ôl, * hyd oni oſoder ei elynion ef yn droedfaingc iw draed ef. Pſal.110.1. 1.cor.15.25.

14 Canys ag vn offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai ſy wedi eu ſancteiddio, pen.1.13.

15 Y mae yr Yſpryd glân hefyd yn teſtiolaethu i ni hyn: canys ar ôl iddo ef ddywedyd ymlaen-llaw,

16 Dymma 'r cyfammod yr hwn a amodaf â hwynt ar ôl y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd, myfi a oſodaf fyng-hyfreithiau yn eu calonnau, ac a'u ſcrifennaf yn eu meddyliau, Iere.31.33. rufei.11.27. pen.8.8.10.

17 Ac ni chofiaf mwy eu pechodau nau hanwiredd hwynt.

18 Felly lle bydd maddeuant am y rhai hyn ni bydd mwy offrwm tros bechod.

19 Am hyn frodyr, gan fod i ni rydd-did i fyned i mewn i'r cyſſegr trwy waed Ieſu,

20 Ar hyd y ffordd a gyſegrodd efe i ni yn newydd, ac yn fyw, trwy 'r llen, ſef ei gnawd,

21 A[bod i ni] Arch-offeiriad ar dŷ Dduw,

22 Neſſawn â chalon gywir mewn llawn hyder ffydd, wedi puro ein calonneu oddi wrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân.

23 Cadwn gyffes ein gobaith, yn ddiſigl: canys ffyddlon yw 'r hwn a addawodd.

24 A chydyſtyriwn bawb ei gilydd, i ymannog i gariad, a gweithredoedd da.

25 Ac na wrthodwn ein cydgynhulliad ein hun, megis y mae arfer rhai: eithr ymgynghorwn, a hynny yn fwy, o achos eich bod yn gweled y dydd yn neſſau. ☜

26 Canys os *o'r gwaith ddioddef y pechwn ar ôl derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes mwy aberth wedi ei adel tros bechodau, Pen.6.4.

27 Eithr aruthrol ddiſgwiliad barn, ac angerth tân yr hwn a ddifa y gwrthwyneb-wŷr.

28 Yr hwn a dorro gyfraith Moſes a roddir i farwolaeth heb drugaredd * tann ddau, neu dri o dyſtion.
Deut 19.15. math 18.17. ioan.8.16. 2.cor.13.1.

29 Pa faint mwy dialedd dybygwch chwi y bernir heuddu o'r hwn a ſathr Fab Duw, ac a farno yn aflan waed y cyfãmod, trwy'r hwn y ſancteiddiwyd ef, ac a ddiſenwo yſpryd y grâs?

30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd,* myfi pieu dial : myfi a dalaf medd yr Arglwydd: a thrachefn, yr Arglwydd a farna ei bobl.
Deut.32.35. rufei.12.29.

31 Peth aruthrol yw ſyrthio yn llaw y Duw byw.

32 Gelwch bellach i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai wedi eich llewyrchu y dioddefaſoch ymdrech mawr ag adfyd.

33 Tra dygyd chwi allã weithiau trwy wradwydd a chyſtudd i fod yn watwargerdd, ac i fod yn ddrychiolaeth, weithiau tra gwnelid chwi yn gymdeithiõ i'r rhai a fyddent yn ymdrino felly.

34 Canys am fy rhwymau mauſt yr oeddych yn cyd-ddolurio â mi, ac chwi a gymmeraſoch yn llawen yſpeilio eich golud, gan wybod fod gennych olud gwell yn y nefoedd, yr hwn hefyd ſydd barhaus.

35 Am hynny na fwriwch ymmaith eich hyder yr hon ſydd iddi fawr wobr.

36 Canys rhaid ydyw i chwi wrth ammynedd, fel wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.

37 O blegit ychydigyn bach etto, a'r hwn ſydd ar ddyfod a ddaw, ac nid oeda.

38 *A'r cyfiawn fydd byw trwy ffydd, eithr o chilia [neb] nid yw fy enaid fodlon iddo.
Habac.2.4. rufei.1.17. gal.3.11.

39 Eithr nid ydym ni ar encil i golledigaeth, namyn o ffydd i gadwedigaeth yr enaid.

## PEN. XI.

Am ffydd a'i hamryw ffrwythau.

FFydd yn wir yw ſail y pethau a obeithir, a ſiccrwydd y pethau ni's gwelir.

2 O blegit trwyddi hi yr ennillodd yr henafiaid air da.

3 *Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y byd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwaed y pethau a welir.
Gene.1.1. io.1.10.

4 Trwy ffydd yr offrymmodd *Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain, trwy'r hon yr ennillodd efe deſtiolaeth ei fod yn gyfiawn, trwy fod Duw yn teſtiolaethu am ei roddion ef a thrwy'r [ffydd] hon wedi marw, y mae etto yn lefaru.
Gene.4.4. math.23.35.

5 *Trwy ffydd y cymmerwyd Enoch ymmaith, rhag gweled marwolaeth: ac ni chaed ef: am ddarfod i Dduw ei gymmeryd ef ymmaith, eithr cyn ei gymmeryd ef ymmaith, efe a gawſe'r gair o fod yn bodloni Duw.
Gene.5.24.

6 Eithr heb ffydd ni ellir bodloni, o blegit credu ſydd raid i'r neb a ddel at Dduw, ei fod ef a'i fod yn obrwy-wr y rhai a ymgais ag ef.

7 *Noe trwy ffydd (wedi i Dduw ei rybuddio am y pethau ni's gwelſid etto) yn llawn o ofn parchedig, a ddarparodd long, i achub ei deulu, trwy'r hon long y condemnodd efe y byd, ac efe a wnaethbwyd yn etifedd y cyfiawnder yr hwn ſydd o ffydd.
Gene.6.13. eccle.44 17.

8 Trwy ffydd gwedi galw * Abraham, yr vfyddhaodd i fyned i'r man a gaffe efe ryw amſer yn etifeddiaeth, ac yr aeth, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.
Gene.12.4.

9 Trwy ffydd yr arhoſodd efe yn nhir yr addewid, megis mewn [tîr] dieithr, ac y preſwyliodd mewn llueſtau gyd ag Iſaac, ac Iacob cydetifeddion yr vn addewid.

10 Canys diſgwil yr ydoedd am y ddinas, ac iddi ſail, ſaer ac adailadudd yr hon yw Duw.

11 Trwy ffydd * Sara hithe yn amhlantadwy a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd, ac a eſcorodd wedi amſer oedran, am ei bod hi yn barnu yn ffyddlon yr hwn a addawſe.
Gene.17.19. & 21.2.

12 Ac o herwydd hynny o vn a hwnnw wedi marweiddio y cẽhedlwyd cynifer* a ſêr yr wybr mewn rhifedi, ac megis y tywod aneirif ar lan y môr.
Eccle.44.21.

13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef eu bod yn ddieithr, ac yn ymdeithiaid ar y ddaiar.

14 Canys y mae y rhai ſy yn dywedyd hyn yn dangos yn eglur eu bod yn ceiſio gwlad

15 Pe buaſent hwy yn meddwl am y wlad y daethant allan o honi, hwynt hwy a gawſent amſer i ddychwelyd.

16 Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwennychu, ſef y nefol: o achos pa ham nid cywilydd gan Dduw ei alw eu Duw hwynt hwy, o blegit efe a baratodd ddinas iddynt.

17 Trwy ffydd yr offrymmodd * Abraham, Iſaac, pan fu profedigaeth arno, ai vnic fab a offrymmodd yr hwn a gawſe yr addewidion.
Gene.22.10.

18 Wrth yr hwn y dywedaſid, yn * Iſaac y gelwir i ti hâd.
Gene.21.12. rufei 9.7.

19 Gan yſtyried y galle Duw gyfodi [rhai] o feirw: o ba herwydd efe ai derbyniodd ef mewn cyffelybrwydd.

20 Trwy ffydd y bendithiodd *Iſaac ei fab Iacob, ac Eſau, am y pethau a ddelẽt rhag llaw
Gen.27.28.29.

21 Trwy ffydd pan oedd * Iacob yn marw y rhoes fendith i bob vn o feibion Ioſeph,* ac [ai bwys] ar ben ei ffon, yr addolodd efe.
Gene.48.15. Gene.47.31.

22 Trwy ffydd pan oedd*Ioſeph yn marw, y coffaodd am ymadawiad plant Iſrael, ac y rhoddodd orchymyn am ei eſcyrn.
Gene.50.25.

23 Trwy ffydd pan anwyd * Moſes, y cuddiwyd ef dri-mis gan ei rieni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws, ac nid ofnaſant* orchymyn y brenin.
Exod.2.2. gweith.7.23. Exod.1.16.

24 Trwy ffydd * Moſes wedi myned yn fawr, a wrthodes ei alw yn fab merch Pharao,
Exod 2.11.

25 Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod tros amſer,

26 Gan farnu yn fwy golud dirmig Criſt

na thryſſor yr Aipht-wŷr: canys edrych yr oedd efe am daledigaeth y gobrwy.

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht heb ofni llid y brenin: Canys efe a ymwrolodd fel [un] yn gweled y neb ſydd anweledig.

Exod.12.22. 28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y *Paſc, a gollyngiad y gwaed, rhac i'r hwn ydoedd yn diniſtrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd â hwynt.

Exod.14.22. 29 Trwy ffydd yr *aethant trwy'r môr coch, megis trwy 'r tir ſych, yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.

Ioſua 6.20. 30 Trwy ffydd y * ſyrthiodd caerau Jericho wedi eu hamgylchu tros ſaith niwrnod.

Ioſua 6.23. 31 Trwy ffydd ni ddifethwyd * Rahab y butain gyd a'r rhai annufydd, pan dderbyniodd hi yr ſpiwŷr yn heddychol.

Barn.6.11. Barn.4.6. Barn.13.24. Barn.11.1. 1.Sam.1.20. 32 A pheth mwy a ddywedaf ? canys yr amſer a balle i mi i fynegu am * Gedeon, am * Barac, a* Samſon, ac* Jephte, am * Ddafydd hefyd a Samuel, a'r prophwydi:

33 Y rhai trwy ffydd a oreſcynnaſant deyrnaſoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawſant yr addewidion, a gaeaſant ſafnau'r llewod,

34 A ddiffoddaſant angerth y tân, a ddiangaſant gan fin y cleddyf, o wendid a ymnerthaſant, ac a aethant yn gedyrn mewn rhyfel, ac a yrraſant fyddinoedd yr eſtroniaid ar encil.

35 Gwragedd a dderbyniaſant eu meirw wedi eu codi yn fyw eil-waith: eraill a ddirdynnwyd heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

36 Eraill o gawſant brofedigaeth trwy watwar a fflangellau, trwy rwymau hefyd a charchar.

37 Hwynt hwy a labyddiwyd, a dorrwyd yn ddryllau, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf, a gyrwydraſāt mewn crwyn defaid a geifr, yn ddiddym, yn gyſtuddiol, ac yn ddrwg eu cyflwr.

38 Y rhai ni haedde y byd eu cael: cyrwydro yr oeddent yn y diffaethwch, ac yn y mynyddoedd, mewn tyllau, ac ogfeudd y ddaiar.

39 A'r rhai hyn oll wedi heuddu teſtiolaeth trwy ffydd, ni chawſant yr addewid,

40 Am fod Duw yn rhag-weled peth gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt heb o'm ninnau.

## PEN. XII.

Cyngor i fod yn ddioddeſgar, yn ddianwadal, 25 a'r rhagor ſydd rhwng y ddau Deſtament.

Rufei.6.4. Epheſ.14.24. Coll.3.8. 1.Pet.2.1. OBlegit hynny, *ninnau hefyd gan fod cymmaint cwmwl o dyſtiō wedi ein hamgylchu ni, bwriwn heibio bob pwys, a'r pechod yr hwn ſydd barod i'n hamgylchu, a rhedwn mewn ammynedd yr yrfa a oſodwyd i ni:

2 Gan edrych ar Jeſu pen tywyſog a pherffeithudd ein ffydd ni, yr hwn yn lle y llawenydd a oſodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gā ddiyſturu gwradwydd, [ac] a eiſteddodd ar ddeheulaw gorſedd-faingc Duw.

3 Yſtyriwch am hynny pwy yw 'r neb a ddioddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid: rhag eich blino wedi deffygio yn eich meddyliau.

4 Ni wrthwynebaſoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

Dihar.3.11. Act.3.19. 5 Ac chwi a ollyngaſoch tros gof y cyngor yr hwn ſydd yn dywedyd wrthych, megis wrth blant: fy mab, nac eſceulyſa goſpedigaeth yr Arglwydd, ac na laeſa pan gerydder di ganddo.

6 Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae efe yn ei goſpi, ac y mae efe yn fflangellu pob mab a dderbynio.

7 Os goddefwch goſpedigaeth, y mae Duw yn ymgynig i chwi, megis i feibion: canys pa fab fydd na's coſpo ei dâd ef ?

8 Eithr os heb goſpedigaeth yr ydych, o'r hon y mai pawb yn gyfrannog, yna baſtardiaid ydych, ac nid meibion [o briod.]

9 Heb law hynny cawſom dadau ein cyrph yn goſpedig-wŷr, ac ni [a'u] parchaſom: onid mwy o lawer y mae i ni ymoſtwng i Dad yr yſprydau, a chael byw ?

10 Canys hwynt hwy yn wir tros ychydic ddyddiau a'n coſpent ni, fel y bydde dda ganddynt: eithr hwn a'n coſpa er lleſâd i ni, fel y byddem gyfrannogion o'i ſancteiddrwydd ef.

11 Ni welir chwaith yn hyfryd un goſpedigaeth tros yr amſer preſennol, eithr yn anhyfryd: etto wedi hynny, heddychol ffrwyth cyfiawnder a rydd hi i'r rhai a fyddant wedi eu cynneſino â hi.

12 Am hynny gwnewch yn ſythion eich dwylo llaeſedig, a'r gliniau diffrwyth:

13 A gwnewch lwybrau iniawn i'ch traed, fel nad elo y cloff tros ei ffordd, namyn yn hytrach cael ei iachau.

Rufei.12.18. 14 * Dilynwch heddwch a phawb, a ſancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.

15 Gan ddiſgwil rhag na phallo neb oddi wrth râs Duw: rhag blaguro o ryw wreiddin chwerw a pheri blinder, a thrwy hwnnw llygru llawer.

Geneſ.25.33. 16 Na fydded un putteiniwr, neu aflan megis * Eſau, yr hwn am un ſaig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

Geneſ.27.38. 17 Canys * chwi a wyddoch y modd wedi hynny hefyd pan fynaſe efe etifeddu y fendith y gwrthodwyd ef: o blegit ni chafas efe gyfle i edifarhau, er ei fod trwy ddagreu yn ei cheiſio hi.

Exod.19.16. 18 O blegit ni ddaethoch chwi at y * mynydd teimladwy, a'r tân poeth, a'r cwmwl, a'r tywyllwg, a'r dymeſtl,

19 A ſain yr udcorn, a llef y geiriau, yr hon y rhai a'i clywſant, a ymeſcuſodaſant i gael na bydde mwy o'r ymadrodd wrthynt hwy.

Exod 19.13. 20 O blegit ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynnaſid, os cyffyrdde * bwyſt-fil âr mynydd, efe a labyddid [neu a wenid â phiccell.]

28 Yr hwn a dorro gyfraith Moſes a roddir i farwolaeth heb drugaredd * tann ddau, neu dri o dyſtion. Deut 19.15. math 18.17. ioan.8.16. 2.cor.13.1.

29 Pa faint mwy dialedd dybygwch chwi y bernir heuddu o'r hwn a ſathr Fab Duw, ac a farno yn aflan waed y cyfāmod, trwy'r hwn y ſancteiddiwyd ef, ac a ddifenwo yſpryd y grâs:

30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd,* myfi piau dial: myfi a dalaf medd yr Arglwydd: a thrachefn, yr Arglwydd a farna ei bobl. Deut.32.35. rufei.12.29.

31 Peth aruthrol yw ſyrthio yn llaw y Duw byw.

32 Gelwch bellach i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai wedi eich llewyrchu y dioddefaſoch ymdrech mawr ag adfyd.

33 Tra dygyd chwi allā weithiau trwy wradwydd a chyſtudd i fod yn watwargerdd, ac i fod yn ddrychiolaeth, weithiau tra gwnelid chwi yn gymdeithiō i'r rhai a fyddent yn ymdrino felly.

34 Canys am fy rhwymau mauſi yr oeddych yn cyd-ddolurio â mi, ac chwi a gymmeraſoch yn llawen yſpeilio eich golud, gan wybod fod gennych olud gwell yn y nefoedd, yr hwn hefyd ſydd barhaus.

35 Am hynny na fwriwch ymmaith eich hyder yr hon ſydd iddi fawrwobr.

36 Canys rhaid ydyw i chwi wrth ammynedd, fel wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.

37 O blegit ychydigyn bach etto, a'r hwn ſydd ar ddyfod a ddaw, ac nid oeda.

38 *A'r cyfiawn fydd byw trwy ffydd, eithr o chilia [neb] nid yw fy enaid fodlon iddo. Habac.2.4. rufei.1.17. gal.3.11.

39 Eithr nid ydym ni ar encil i golledigaeth, namyn o ffydd i gadwedigaeth yr enaid.

## PEN. XI.

Am ffydd a'i hamryw ffrwythau.

FFydd yn wir yw ſail y pethau a obeithir, a ſiccrwydd y pethau ni's gwelir.

2 O blegit trwyddi hi yr ennillodd yr henaſiaid air da.

3 *Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y byd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir. Gene.1.1. io.1.10.

4 Trwy ffydd yr offrymmodd *Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain, trwy'r hon yr ennillodd efe deſtiolaeth ei fod yn gyfiawn, trwy fod Duw yn teſtiolaethu am ei roddion ef a thrwy'r [ffydd] hon wedi marw, y mae etto yn lefaru. Gene.4.4. math.23.35.

5 *Trwy ffydd y cymmerwyd Enoch ymmaith, rhag gweled marwolaeth: ac ni chaed ef: am ddarfod i Dduw ei gymmeryd ef ymmaith, eithr cyn ei gymmeryd ef ymmaith, efe a gawſe'r gair o fod yn bodloni Duw. Gene.5.24.

6 Eithr heb ffydd ni ellir bodloni, o blegit credu ſydd raid i'r neb a ddel at Dduw, ei fod ef a'i fod yn obrwy-wr y rhai a ymgais ag ef.

7 *Noe trwy ffydd (wedi i Dduw ei rybuddio am y pethau ni's gwelſid etto) yn llawn o ofn parchedig, a ddarparodd long, i achub ei deulu, trwy'r hon long y condemnodd efe y byd, ac efe a wnaethbwyd yn etifedd y cyfiawnder yr hwn ſydd o ffydd. Gene.6.13. eccle.44 17.

8 Trwy ffydd gwedi galw * Abraham, yr vfyddhaodd i fyned i'r man a gaffe efe ryw amſer yn etifeddiaeth, ac yr aeth, heb wybod i ba le yr oedd yn myned. Gene.12.4.

9 Trwy ffydd yr arhoſodd efe yn nhir yr addewid, megis mewn [tîr] dieithr, ac y preſwylodd mewn llueſtau gyd ag Iſaac, ac Iacob cyd-etifeddion yr vn addewid.

10 Canys diſgwil yr ydoedd am y ddinas, ac iddi ſail, ſaer ac adailadudd yr hon yw Duw.

11 Trwy ffydd *Sara hithe yn amhlantadwy a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd, ac a eſcorodd wedi amſer oedran, am ei bod hi yn barnu yn ffyddlon yr hwn a addawſe. Gene.17.19. & 21.2.

12 Ac o herwydd hynny o vn a hwnnw wedi marweiddio y cēhedlwyd cynifer* a ſêr yr wybr mewn rhifedi, ac megis y tywod aneirif ar lan y môr. Eccle.44.21.

13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef eu bod yn ddieithr, ac yn ymdeithiaid ar y ddaiar.

14 Canys y mae y rhai ſy yn dywedyd hyn yn dangos yn eglur eu bod yn ceiſio gwlad

15 Pe buaſent hwy yn meddwl am y wlad y daethant allan o honi, hwynt hwy a gawſent amſer i ddychwelyd.

16 Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwennychu, ſef y nefol: o achos pa ham nid cywilydd gan Dduw ei alw eu Duw hwynt hwy, o blegit efe a baratodd ddinas iddynt.

17 Trwy ffydd yr offrymmodd *Abraham, Iſaac, pan fu profedigaeth arno, ai vnic fab a offrymmodd yr hwn a gawſe yr addewidion. Gene.22.10.

18 Wrth yr hwn y dywedaſid, yn * Iſaac y gelwir i ti hâd. Gene.21.12. rufei 9.7.

19 Gan yſtyried y galle Duw gyfodi [rhai] o feirw: o ba herwydd efe ai derbyniodd ef mewn cyffelybrwydd.

20 Trwy ffydd y bendithiodd *Iſaac ei fab Iacob, ac Eſau, am y pethau a ddelēt rhag llaw Gen.27.28.29.

21 Trwy ffydd pan oedd * Iacob yn marw y rhoes fendith i bob vn o feibion Ioſeph,* ac [ai bwys] ar ben ei ffon, yr addolodd efe. Gene.48.15. Gene.47.31.

22 Trwy ffydd pan oedd*Ioſeph yn marw, y coffaodd am ymadawiad plant Iſrael, ac y rhoddodd orchymyn am ei eſcyrn. Gene.50.25.

23 Trwy ffydd pan anwyd *Moſes, y cuddiwyd ef dri-mis gan ei rieni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws, ac nid ofnaſant*orchymyn y brenin. Exod.2.2. gweith.7.23. Exod.1.16.

24 Trwy ffydd * Moſes wedi myned yn fawr, a wrthodes ei alw yn fab merch Pharao, Exod 2.11.

25 Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod tros amſer,

26 Gan farnu yn fwy golud dirmig Criſt

na thryſſor yr Aipht-wŷr: canys edrych yr oedd efe am daledigaeth y gobrwy.

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht heb ofni llid y brenin: Canys efe a ymwrolodd fel [un] yn gweled y neb ſydd anweledig.

Exod.12.22.
28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y*Paſc, a gollyngiad y gwaed, rhac i'r hwn ydoedd yn diniſtrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd â hwynt.

Exod.14.22.
29 Trwy ffydd yr*aethant trwyr môr coch, megis trwy 'r tir ſych, yr hyn pan brofodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.

Ioſua 6.20.
30 Trwy ffydd y * ſyrthiodd caerau Iericho wedi eu hamgylchu tros ſaith niwrnod.

Ioſua 6.23.
31 Trwy ffydd ni ddifethwyd * Rahab y butain gyd a'r rhai annufydd, pan dderbyniodd hi yr ſpiwŷr yn heddychol.

Barn.6.11.
Barn.4.6.
Barn.13.24.
Barn.11.1.
1.Sam.1.20.
32 A pheth mwy a ddywedaf ? canys yr amſer a balle i mi i fynegu am * Gedeon, am * Barac, a* Samſon, ac* Iephte, am * Ddafydd hefyd a Samuel, a'r prophwydi:

33 Y rhai trwy ffydd a oreſcynnaſant deyrnaſoedd, a wnaethant cyfiawnder, a gawſant yr addewidion, a gaeaſant ſafnau 'r llewod,

34 A ddiffoddaſant angerth y tân, a ddiangaſant gan fin y cleddyf, o wendid a ymnerthaſant, ac a aethant yn gedyrn mewn rhyfel, ac a yrraſant fyddinoedd yr eſtroniaid ar encil.

35 Gwragedd a dderbyniaſant eu meirw wedi eu codi yn fyw eil-waith: eraill a ddirdynnwyd heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

36 Eraill o gawſant brofedigaeth trwy watwar a fflangellau, trwy rwymau hefyd a charchar.

37 Hwynt hwy a labyddiwyd, a dorrwyd yn ddrylliau, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf, a grwydraſāt mewn crwyn defaid a geifr, yn ddiddym, yn gyſtuddiol, ac yn ddrwg eu cyflwr.

38 Y rhai ni haedde y byd eu cael: crwydro yr oeddent yn y diffaethwch, ac yn y mynyddoedd, mewn tyllau, ac ogfeudd y ddaiar.

39 A'r rhai hyn oll wedi heuddu teſtiolaeth trwy ffydd, ni chawſant yr addewid,

40 Am fod Duw yn rhag-weled peth gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt heb o'm ninnau.

## PEN. XII.

Cyngor i fod yn ddioddefgar, yn ddianwadal, 25 a'r rhagor ſydd rhwng y ddau Deſtament.

Rufei.6.4.
Epheſ.14.24.
Coll.3.8.
1.Pet.2.1.
OBlegit hynny, *ninnau hefyd gan fod cymmaint cwmwl o dyſtiō wedi ein hamgylchu ni, bwriwn heibio bob pwys, a'r pechod yr hwn ſydd barod i'n hamgylchu, a rhedwn mewn ammynedd yr yrfa a oſodwyd i ni:

2 Gan edrych ar Ieſu pen tywyſog a pherffeithydd ein ffydd ni, yr hwn yn lle y llawenydd a oſodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gā ddiyſturu gwradwydd, [ac] a eiſteddodd ar ddehenlaw gorſedd-faingc Duw.

3 Yſtyriwch am hynny pwy yw 'r neb a ddioddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid: rhag eich blino wedi deffygio yn eich meddyliau.

4 Ni wrthwynebaſoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

Dihar.3.11:
Act.3.19.
5 Ac chwi a ollyngaſoch tros gof y cyngor yr hwn ſydd yn dywedyd wrthych, megis wrth blant: fy mab, nac eſceulyſa goſpedigaeth yr Arglwydd, ac na laeſa pan gerydder di ganddo.

6 Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae efe yn ei goſpi, ac y mae efe yn fflangellu pob mab a dderbynio.

7 Os goddefwch goſpedigaeth, y mae Duw yn ymgynig i chwi, megis i feibion: canys pa fab fydd na's coſpo ei dâd ef?

8 Eithr os heb goſpedigaeth yr ydych, o'r hon y mai pawb yn gyfrannog, yna baſtardiaid ydych, ac nid meibion [o briod.]

9 Heb law hynny cawſom dadau ein cyrph yn goſpedig-wŷr, ac ni [a'u] parchaſom: onid mwy o lawer y mae i ni ymoſtwng i Dad yr yſprydau, a chael byw?

10 Canys hwynt hwy yn wir tros ychydic ddyddiau a'n coſpent ni, fel y bydde dda ganddynt: eithr hwn a'n coſpa er lleſâd i ni, fel y byddem gyfrannogion o'i ſancteiddrwydd ef.

11 Ni welir chwaith yn hyfryd un goſpedigaeth tros yr amſer preſennol, eithr yn anhyfryd: etto wedi hynny, heddychol ffrwyth cyfiawnder a rydd hi i'r rhai a fyddant wedi eu cynnefino â hi.

12 Am hynny gwnewch yn ſythion eich dwylo llaeſedig, a'r gliniau diffrwyth:

13 A gwnewch lwybrau iniawn i'ch traed, fel nad elo y cloff tros ei ffordd, namyn yn hytrach cael ei iachau.

Rufei.12.18.
14 * Dilynwch heddwch a phawb, a ſancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.

15 Gan ddiſgwil rhag na phallo neb oddi wrth râs Duw: rhag blaguro o ryw wreiddin chwerw a pheri blinder, a thrwy hwnnw llygru llawer.

Geneſ.25.33.
16 Na fydded un putteiniwr, neu aflan megis * Eſau, yr hwn am un ſaig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

Geneſ.27.38.
17 Canys * chwi a wyddoch y modd wedi hynny hefyd pan fynaſe efe etifeddu y fendith y gwrthodwyd ef: o blegit ni chafas efe gyfle i edifarhau, er ei fod trwy ddagreu yn ei cheiſio hi.

Exod.19.16.
18 O blegit ni ddaethoch chwi at y * mynydd teimladwy, a'r tân poeth, a'r cwmwl, a'r tywyllwg, a'r dymeſtl,

19 A ſain yr udcorn, a llef y geiriau, yr hon y rhai ai clywſant, a ymeſcuſodaſant i gael na bydde mwy o'r ymadrodd wrthynt hwy.

Exod 19.13.
20 O blegit ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynnaſid, os cyffyrdde * bwyſt-fil âr mynydd, efe a labyddid [neu a wenid â phiccell.]

21 Ac

Deut 19.15. math 18.17. ioan.8.16. 2.cor.13.1.

28 Yr hwn a dorro gyfraith Moſes a roddir i farwolaeth heb drugaredd * tann ddau, neu dri o dyſtion.

29 Pa faint mwy dialedd dybygwch chwi y bernir heuddu o'r hwn a ſathr Fab Duw, ac a farno yn aflan waed y cyfãmod, trwy'r hwn y ſancteiddiwyd ef, ac a ddifenwo yſpryd y grâs:

Deut.32.35. rufei.12.29.

30 Canys nyni a adwaenom y neb a ddywedodd,* myfi pieu dial: myfi a dalaf medd yr Arglwydd: a thrachefn, yr Arglwydd a farna ei bobl.

31 Peth aruthrol yw ſyrthio yn llaw y Duw byw.

32 Gelwch bellach i'ch cof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai wedi eich llewyrchu y dioddefaſoch ymdrech mawr ag adfyd.

33 Tra dygyd chwi allã weithiau trwy wradwydd a chyſtudd i fod yn watwargerdd, ac i fod yn ddrychiolaeth, weithiau tra gwnelid chwi yn gymdeithiõ i'r rhai a fyddent yn ymdrino felly.

34 Canys am fy rhwymau mau fi yr oeddych yn cyd-ddolurio â mi, ac chwi a gymmeraſoch yn llawen yſpeilio eich golud, gan wybod fod gennych olud gwell yn y nefoedd, yr hwn hefyd ſydd barhaus.

35 Am hynny na fwriwch ymmaith eich hyder yr hon ſydd iddi fawr wobr.

36 Canys rhaid ydyw i chwi wrth ammynedd, fel wedi i chwi wneuthur ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid.

37 O blegit ychydigyn bach etto, a'r hwn ſydd ar ddyfod a ddaw, ac nid oeda.

Habac.2.4. rufei.1.17. gal.3.11.

38 *A'r cyfiawn fydd byw trwy ffydd, eithr o chilia [neb] nid yw fy enaid fodlon iddo.

39 Eithr nid ydym ni ar encil i golledigaeth, namyn o ffydd i gadwedigaeth yr enaid.

## PEN. XI.

Am ffydd a'i hamryw ffrwythau.

Ffydd yn wir yw ſail y pethau a obeithir, a ſiccrwydd y pethau ni's gwelir.

2 O blegit trwyddi hi yr ennillodd yr henafiaid air da.

Gene.1.1. io.1.10.

3 *Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y byd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwaed y pethau a welir.

Gene.4.4. math.23.35.

4 Trwy ffydd yr offrymmodd *Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain, trwy'r hon yr ennillodd efe deſtiolaeth ei fod yn gyfiawn, trwy fod Duw yn teſtiolaethu am ei roddion ef a thrwy'r [ffydd] hon wedi marw, y mae etto yn lefaru.

Gene.5.24.

5 *Trwy ffydd y cymmerwyd Enoch ymmaith, rhag gweled marwolaeth: ac ni chaed ef: am ddarfod i Dduw ei gymmeryd ef ymmaith, eithr cyn ei gymmeryd ef ymmaith, efe a gawſe'r gair o fod yn bodloni Duw.

6 Eithr heb ffydd ni ellir bodloni, o blegit credu ſydd raid i'r neb a ddel at Dduw, ei fod ef a'i fod yn obrwy-wr y rhai a ymgais ag ef.

Gene.6.13. eccle.44 17.

7 *Noe trwy ffydd (wedi i Dduw ei rybuddio am y pethau ni's gwelſid etto) yn llawn o ofn parchedig, a ddarparodd long, i achub ei deulu, trwy'r hon long y condemnodd efe y byd, ac efe a wnaethbwyd yn etifedd y cyfiawnder yr hwn ſydd o ffydd.

Gene.12.4.

8 Trwy ffydd gwedi galw * Abraham, yr vfyddhaodd i fyned i'r man a gaffe efe ryw amſer yn etifeddiaeth, ac yr aeth, heb wybod i ba le yr oedd yn myned.

9 Trwy ffydd yr arhoſodd efe yn nhir yr addewid, megis mewn [tîr] dieithr, ac y preſwylodd mewn llueſtau gyd ag Iſaac, ac Iacob cyd-etifeddion yr vn addewid.

10 Canys diſgwil yr ydoedd am y ddinas, ac iddi ſail, ſaer ac adailadudd yr hon yw Duw.

Gene.17.19. & 21.2.

11 Trwy ffydd * Sara hithe yn amhlantadawy a dderbyniodd nerth i ymddwyn hâd, ac a eſcorodd wedi amſer oedran, am ei bod hi yn barnu yn ffyddlon yr hwn a addawſe.

Eccle.44.21.

12 Ac o herwydd hynny o vn a hwnnw wedi marweiddio y cẽhedlwyd cynifer* a ſêr yr wybr mewn rhifedi, ac megis y tywod aneirif ar lan y môr.

13 Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef eu bod yn ddieithr, ac yn ymdeithiaid ar y ddaiar.

14 Canys y mae y rhai ſy yn dywedyd hyn yn dangos yn eglur eu bod yn ceiſio gwlad

15 Pe buaſent hwy yn meddwl am y wlad y daethant allan o honi, hwynt hwy a gawſent amſer i ddychwelyd.

16 Eithr yn awr gwlad well y maent hwy yn ei chwennychu, ſef y nefol: o achos pa ham nid cywilydd gan Dduw ei alw eu Duw hwynt hwy, o blegit efe a baratodd ddinas iddynt.

Gene.22.10.

17 Trwy ffydd yr offrymmodd * Abraham, Iſaac, pan fu profedigaeth arno, ai vnic fab a offrymmodd yr hwn a gawſe yr addewidion.

Gene.21.12. rufei 9.7.

18 Wrth yr hwn y dywedaſid, yn * Iſaac y gelwir i ti hâd.

19 Gan yſtyried y galle Duw gyfodi [rhai] o feirw: o ba herwydd efe ai derbyniodd ef mewn cyffelybrwydd.

Gen.27.28.29.

20 Trwy ffydd y bendithiodd *Iſaac ei fab Iacob, ac Eſau, am y pethau a ddelẽt rhag llaw

Gene.48.15. Gene.47.31.

21 Trwy ffydd pan oedd * Iacob yn marw y rhoes fendith i bob vn o feibion Ioſeph,* ac [ai bwys] ar ben ei ffon, yr addolodd efe.

Gene.50.25.

22 Trwy ffydd pan oedd*Ioſeph yn marw, y coffaodd am ymadawiad plant Iſrael, ac y rhoddodd orchymyn am ei eſcyrn.

Exod.2.2. gweith.7.23. Exod.1.16.

23 Trwy ffydd pan anwyd * Moſes, y cuddiwyd ef dri-mis gan ei rieni, o achos eu bod yn ei weled yn fachgen tlws, ac nid ofnaſant* orchymyn y brenin.

Exod 2.11.

24 Trwy ffydd * Moſes wedi myned yn fawr, a wrthodes ei alw yn fab merch Pharao,

25 Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyd â phobl Dduw, na chael mwyniant pechod tros amſer,

26 Gan farnu yn fwy golud dirmig Criſt

na thryſſor yr Aipht-wŷr: canys edrych yr oedd efe am daledigaeth y gobrwy.

27 Trwy ffydd y gadawodd efe yr Aipht heb ofni llid y brenin: Canys efe a ymwrolodd fel [un] yn gweled y neb ſydd anweledig.

Exod.12.22. 28 Trwy ffydd y gwnaeth efe y *Paſc, a gollyngiad y gwaed, rhac i'r hwn ydoedd yn diniſtrio y rhai cyntaf-anedig gyffwrdd â hwynt.

Exod.14.22. 29 Trwy ffydd yr *aethant trwyr môr coch, megis trwy 'r tir ſych, yr hyn pan broſodd yr Aiphtiaid, boddi a wnaethant.

Ioſua 6.20. 30 Trwy ffydd y * ſyrthiodd caerau Iericho wedi eu hamgylchu tros ſaith niwrnod.

Ioſua 6.23. 31 Trwy ffydd ni ddifethwyd * Rahab y butain gyd a'r rhai annufydd, pan dderbyniodd hi yr ſpiwŷr yn heddychol.

32 A pheth mwy a ddywedaf ? canys yr amſer a balle i mi i fynegu am * Gedeon, am * Barac, a* Samſon, ac* Iephte, am * Ddafydd hefyd a Samuel, a'r prophwydi:

Barn.6.11. Barn.4.6. Barn.13.24. Barn.11.1. 1.Sam.1.20.

33 Y rhai trwy ffydd a oreſcynnaſant deyrnaſoedd, a wnaethant cyfiawnder, a gawſant yr addewidion, a gaeaſant ſafnau'r llewod,

34 A ddiffoddaſant angerth y tân, a ddiangaſant gan fin y cleddyf, o wendid a ymnerthaſant, ac a aethant yn gedyrn mewn rhyfel, ac a yrraſant fyddinoedd yr eſtroniaid ar encil.

35 Gwragedd a dderbyniaſant eu meirw wedi eu codi yn fyw eil-waith: eraill a ddirdynnwyd heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.

36 Eraill o gawſant broſedigaeth trwy watwar a fflangellau, trwy rwymau hefyd a charchar.

37 Hwynt hwy a labyddiwyd, a dorrwyd yn ddrylliau, a demtiwyd, a laddwyd yn feirw â'r cleddyf, a gyrwydraſāt mewn crwyn defaid a geifr, yn ddiddym, yn gyſtuddiol, ac yn ddrwg eu cyflwr.

38 Y rhai ni haedde y byd eu cael: crwydro yr oeddent yn y diffaethwch, ac yn y mynyddoedd, mewn tyllau, ac ogfeudd y ddaiar.

39 A'r rhai hyn oll wedi heuddu teſtiolaeth trwy ffydd, ni chawſant yr addewid,

40 Am fod Duw yn rhag-weled peth gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt heb o'm ninnau.

## PEN. XII.

Cyngor i fod yn ddioddeſgar, yn ddianwadal, 25 a'r rhagor ſydd rhwng y ddau Deſtament.

Rufei.6.4. Epheſ.14.24. Coll.3.8. 1.Pet.2.1.

OBlegit hynny, *ninnau hefyd gan fod cymmaint cwmwl o dyſtiō wedi ein hamgylchu ni, bwriwn heibio bob pwys, a'r pechod yr hwn ſydd barod i'n hamgylchu, a rhedwn mewn ammynedd yr yrfa a oſodwyd i ni:

2 Gan edrych ar Ieſu pen tywyſog a pherffeithudd ein ffydd ni, yr hwn yn lle y llawenydd a oſodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gā ddiyſturu gwradwydd, [ac] a eiſteddodd ar ddeheulaw gorſedd-faingc Duw.

3 Yſtyriwch am hynny pwy yw 'r neb a ddioddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid: rhag eich blino wedi deffygio yn eich meddyliau.

4 Ni wrthwynebaſoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod.

Dihar.3.11: Act.3.19. 5 Ac chwi a ollyngaſoch tros gof y cyngor yr hwn ſydd yn dywedyd wrthych, megis wrth blant: fy mab, nac eſceulyſa goſpedigaeth yr Arglwydd, ac na laeſa pan gerydder di ganddo.

6 Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae efe yn ei goſpi, ac y mae efe yn fflangellu pob mab a dderbynio.

7 Os goddefwch goſpedigaeth, y mae Duw yn ymgynig i chwi, megis i feibion: canys pa fab ſydd na's coſpo ei dâd ef ?

8 Eithr os heb goſpedigaeth yr ydych, o'r hon y mai pawb yn gyfrannog, yna baſtardiaid ydych, ac nid meibion [o briod.]

9 Heb law hynny cawſom dadau ein cyrph yn goſpedig-wŷr, ac ni [a'u] parchaſom: onid mwy o lawer y mae i ni ymoſtwng i Dad yr yſprydau, a chael byw ?

10 Canys hwynt hwy yn wir tros ychydic ddyddiau a'n coſpent ni, fel y bydde dda ganddynt: eithr hwn a'n coſpa er lleſâd i ni, fel y byddem gyfrannogion o'i ſancteiddrwydd ef.

11 Ni welir chwaith yn hyfryd un goſpedigaeth tros yr amſer preſennol, eithr yn anhyfryd: etto wedi hynny, heddychol ffrwyth cyfiawnder a rydd hi i'r rhai a ſyddant wedi eu cynnefino â hi.

12 Am hynny gwnewch yn ſythion eich dwylo llaeſedig, a'r gliniau diffrwyth:

13 A gwnewch lwybrau iniawn i'ch traed, fel nad elo y cloff tros ei ffordd, namyn yn hytrach cael ei iachau.

Rufei.12.18. 14 * Dilynwch heddwch a phawb, a ſancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.

15 Gan ddiſgwil rhag na phallo neb oddi wrth râs Duw: rhag blaguro o ryw wreiddin chwerw a pheri blinder, a thrwy hwnnw llygru llawer.

Geneſ.25.33. 16 Na fydded un putteiniwr, neu aflan megis * Eſau, yr hwn am un ſaig o fwyd a werthodd ei enedigaeth-fraint.

Geneſ.27.38. 17 Canys * chwi a wyddoch y modd wedi hynny hefyd pan fynaſe efe etifeddu y fendith y gwrthodwyd ef: o blegit ni chafas efe gyfle i edifarhau, er ei fod trwy ddagreu yn ei cheiſio hi.

Exod.19.16. 18 O blegit ni ddaethoch chwi at y * mynydd teimladwy, a'r tân poeth, a'r cwmwl, a'r tywyllwg, a'r dymeſtl,

19 A ſain yr udcorn, a llef y geiriau, yr hon y rhai ai clywſant, a ymeſcuſodaſant i gael na bydde mwy o'r ymadrodd wrthynt hwy.

Exod 19.13. 20 O blegit ni allent hwy oddef yr hyn a orchymynnaſid, os cyffyrdde * bwyſt-fil âr mynydd, efe a labyddid [neu a wenid â phiccell.]

21 Ac moꝛ aruthꝛ ydoedd y golwg yꝛ hwn oedd yn ymddangos, ag y dywedodd Moſes, yꝛ ydwyf yn ofni, ac yn crynnu.

22 Eithꝛ chwi a ddaethoch i fynydd Sion, a dinas y Duw byw, i Ieruſalem nefol â llawer myꝛddiwn o angelion.

23 I gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ſcrifēnwyd yn y nefoedd, ac [at] Dduw barnwꝛ pawb, ac [at] yſpꝛydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd,

24 Ac [at] Iesu cyfryng-wꝛ y Teſtament newydd, a gwaed y taenelliad, yꝛ hwn ſydd yn dywedyd pethau gwell nâ [gwaed] * Abel. Gen.4.10.

25 Edꝛychwch nad yſceuluſoch y neb ſydd yn dywedyd: o blegit oni ddiangodd y rhai ai gwꝛthwynebaſant ef, yꝛ hwn ydoedd yn llefaru yn enw Duw ar y ddaiar: nyni yn hytrach o lawer [ni ddiangwn] os gwꝛthwynebwn y neb ſydd [yn dywedyd] o'ꝛ nefoedd.

26 Llef yꝛ hwn yna a eſcydwodd y ddaiar, yn awꝛ hefyd y mynegodd, gan ddywedyd, * etto vnwaith yꝛ eſcydwaf nid yn vnic y ddaiar, eithꝛ y nefoedd hefyd. Haggeus 2.7.

27 Yꝛ etto vnwaith hynny, ſydd yn arwyddocau treigliad y pethau anſafadwy, megis pethau wedi eu gwneuthur, fel y parhao y pethau ſafadwy.

28 Am hynny gan ein bod ni yn derbyn teyꝛnas ddiſigl, meddiannwn y grás, dꝛwy'r hwn y gallom waſaneuthu Duw wꝛth ei fodd ef trwy wyldꝛa a pharchedig ofn.

29 O blegit * ein Duw ni ſydd dân yſſol. Deut.4.24.

## PEN. XIII.

Cyngor i ddilyn gweithredoedd cariad, 4 I berchi priodas, 5 I ochelyd cubydd-dod, 13 I ddioddef gyd â Chriſt, 17 ac i vfyddhau.

Rufei.12.10. 1.Pet.4.9. Gen.18.3. * PArhaued cariad bꝛawdol.

2 Nac * anghofiwch fod yn lletteugar: canys felly y * lletteuodd rhai angelion heb wybod.

3 Meddyliwch am y rhai ſy mewn rhwymau, fel pe baech yn rhwym gyd ag hwynt: [a'r] rhai cyſtuddiol, fel rhai yn bod yn y coꝛph [yn gyſtuddiol.]

4 Anrhydeddus yw pꝛiodas ym mhawb, ar gwelŷ dihalogedic: eithꝛ y putteinwŷꝛ a'r rhai godinebus a farna Duw.

5 Bydded eich ymwꝛeddiad yn ddi ſerch i arian, gan fod yn fodlon i'r hyn ſydd gennych yn bꝛeſennol, canys efe a ddywedodd, ni * phallaf i ti, ac ni's gadawaf di chwaith: Ioſua 1.9.

6 Fel y gallom ddywedyd yn hyf, * yꝛ Arglwydd ſydd gymmoꝛth i mi, ac nid ofnaf beth a wnel dŷn i mi. Pſal.118.6.

7 Meddyliwch am eich pꝛeladiaid, y rhai a dꝛaethaſant i chwi air Duw: calynwch eu ffydd hwynt, gan yſtyꝛ beth yw diwedd eu hymwꝛeddiad hwynt.

8 Iesu Griſt ddoe a heddyw: yꝛ vn hefyd yn dꝛagywydd,

9 Nedwch eich dwyn o amgylch ag athꝛawiaethau amryw, a dieithꝛ: canys da ydyw cadarnhau yꝛ galon â grâs, ac nid â bwydydd, y rhai ni thycciaſant i'r rhai a rodiaſant ynddynt.

10 Y mae gennym ni alloꝛ o'ꝛ hon nid oes awdurdod i'r rhai ſydd yn gwaſaneuthu yn y tabernacl i fwyta.

11 * Canys yꝛ anifeiliaid y rhai a ddwg yꝛ archoffeiriad i'r cyſſegr tros bechod, cyꝛph y rhai hynny a loſcir o'ꝛ tu allan i'r gwerſyll. Leuit.4.12.

12 Ac am hynny yꝛ Iesu hefyd i ſancteiddio'r bobl trwy ei waed ei hun, a ddioddefodd o'ꝛ tu allan i'r poꝛth.

13 Am hynny awn atto ef o'ꝛ tu allan i'r gwerſyll, gan ddwyn ei wꝛadwydd ef.

14 * O blegit nid oes i ni ymma ddinas barhaus, eithꝛ yꝛ ydym ni yn ceiſio yꝛ hon a fydd. Micheas 2.10.

15 Offrymmwn o blegit hynny yn oeſtadol trwyddo ef aberth moliant i Dduw, hynny yw, * ffrwyth gwefuſau, yn cyffeſſu ei enw ef. Hoſ.14.2.

16 Nac anghofiwch gyweithaſrwydd a chyfranniad, canys â chyfryw ebyꝛth y bodlonir Duw.

17 Vfuddhewch eich pꝛeladiaid, ac ymddaꝛoſtyngwch: o blegit gwilio y maent tros eich eneidiau chwi, megis rhai ſydd rhaid iddynt roddi cyfrif, fel y gallant wneuthur hynny yn llawen, ac nid yn dꝛiſt: canys difudd [fydde] hynny i chwi.

18 Gweddiwch troſom ni: canys yꝛ ydym yn hyderus fod gennym ni gydwybod dda ym mhob peth, gan chwennychu byw yn oneſt.

19 Ond yꝛ ydwyf yn helaethach yn dymuno gwneuthur o honoch hyn, i gael fy rhoddi i chwi trachefn yn gynt.

20 Duw yꝛ heddwch yꝛ hwn a ddug trachefn oddi wꝛth y meirw ein Harglwydd Iesu, bugail mawꝛ y defaid, trwy waed cyfammod tragywyddol,

21 A'ch gwnelo yn berffaith ym mhob gweithꝛed dda, i wneuthur ei ewyllys ef, trwy weithio ynoch yꝛ hyn ſydd gymmeradwy yn ei olwg ef trwy Iesu Gꝛiſt, i'r hwn y byddo gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.

22 Ac yꝛ ydwyf yn attolwg i chwi ô frodyꝛ goddefwch air y cyngoꝛ, o blegit ag ychydig [eiriau] yꝛ ſcrifennais attoch.

23 Gwybyddwch ollwng ein bꝛawd Timotheus yn rhydd, gyd â'r hwn, o daw efe ar fyꝛder yꝛ ymwelaf â chwi.

24 Anerchwch eich pꝛeladiaid oll, a phawb o'ꝛ ſainct, y mae yꝛ Italiaid yn eich cyfarch chwi.

25 Grâs fyddo gyd â chwi oll. Amen.

*O'r Idal yr ſcrifennwyd* hwn *at yr Hebræaid*
*gyd â Thimotheus.*

# Epiſtol Iaco.

### PENNOD. I.

2 Y mae Iaco ymma yn rhoddi cyngor i fod yn llawen mewn blinder. 6 I fod yn yſtic mewn gweddi trwy ffydd gadarn. 17 I ddiſgwil am bôb daioni oddi vchod. 21 I ymwrthod ag oll gamweddau, ac yn ddiolchus i dderbyn gair Duw. 22 Nid yn vnic trwy ei wrando, neu ſon am dano, eithr hefyd gan fucheddu yn gytun ag ef. 27 Ac y mae yn dangos beth yw gwir grefydd.

*Yr Epiſtol ar ddydd Philip ac Iaco.*

IACO gwaſanaethwr Duw ar Arglwydd Ieſu Griſt at y deuddecllwyth gwaſcaredic, annerch.

2 Cymmerwch yn lle dirfawr lawenydd fy-mrodyr pan ſyrthioch mewn amryw brofedigaethau:

Rhuf.5.3.

3 *Gan ŵybod y pair profedigaeth eich ffydd chwi ammynedd.

4 Ammynedd hefyd caffed ei pherffaith waith, fel y galloch fod yn berffaith ac yn gyfan, heb ddim diffig.

5 O bydd ar nêb eiſieu doethineb, ceiſied gan Dduw, yr hwn ſydd yn rhoddi yn haelionus i bawb, ac nis dannod i nêb, ac fe a'i rhoddir iddo ef.

Math.7.7. mar.11.24. luc.11.9. ioan.14.13.

6 Eithr *ceiſied mewn ffydd heb ammeu dim: canys y nêb a amheuo, cyffelyb yw i donn o'r môr, a chwelir, ac a deflir gan y gwynt.

7 Ac na feddylied y dŷn hwnnw y caiff ddim gan yr Arglwydd.

8 Gwr dau-ddyblig [ei] feddwl, anwadal yw yng-hwbl o'i ffyrdd.

9 Y brawd a fyddo o radd iſel, llawenyched yn ei oruchafiaeth:

Preg.14.18. a.40.6. pet.1.24.

10 Ac elchwyl, y nêb a fyddo gyfoethog, yn ei oſtyngedigaeth: *canys megis blodeun y llyſieun y diflanna efe.

11 O blegit [fel pan] gyfyd yr haul yn y gwrês, yna y gŵywa'r llyſieun, ac y cwympa ei flodeun, ac y cyll tegwch ei bryd ef: felly hefyd y diflanna'r cyfoethoc yng-hwbl o'i ffyrdd.

12 Happus yw'r gwr a oddef brofedigaeth, canys pan fyddo profedic, efe a gaiff goron y bywyd yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai ai carant ef. ☜

13 Na ddyweded nêb pan demtier ef ei demtio gan Dduw, canys ni ellir temtio Duw â drwg, ac nid yw efe yn temtio nêb.

14 Eithr pôb rhyw un a demtir, pan ei tynner gan ei chwant ei hun, ac y llithier ef.

15 Ac yna gwedi i drachwant ymddwyn, eſcor ar bechod a wna: pechod hefyd pan orphenner a eſcor ar farwolaeth.

16 Na chyfeiliornwch fy annwyl frodyr.

*Yr Epiſtol y iiij. Sûl ar ôl Paſc.*

17 ☞ Pôb dawn daionus a phôb rhodd berffaith oddi vchod y mae yn deſcyn oddi wrth dâd y goleuni, gyd a'r hwn nid oes traſymydigaeth, na chyſcodiad troêdigaeth.

18 O'i wir ewyllys yr enillodd efe nyni trwy air y gwirionedd, fel y gallem fod megis blaen-ffrwyth ei greaduriaid ef.

Dihar.17.27.

19 O achos hyn fy-mrodyr annwyl, bydded pôb dyn eſcud i wrando, diog i lefaru, a diog i ddigofaint.

20 Canys digofaint gwr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw.

21 Am hynny rhoddwch heibio bôb budreddi, a phob amldra malis, a thrwy addfwyndra derbyniwch yr impiedic air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau. ☜

*Yr Epiſtol y v. Sul wedi'r Paſc.*

22 A byddwch wneuthur-wŷr y gair, ac nid gwrandawŷr yn vnic, gan eich twyllo eich hunain.

Math.7.21. rhuf.2.13.

23 Canys o gwrendu nêb y gair, ac heb ei wneuthur, tebyg yw hwnnw i ŵr yn edrych ei wyneb-pryd naturiol mewn drych.

24 Canys yſtyrriodd ef ei hun ac aeth ymmaith, ac yn y man anghofiodd pa ſut ydoedd.

25 Eithr y neb a edrycho ar yr hon ſydd berffaith gyfraith rhydd-did, ac a erys ynddi, am nad ydyw efe wrandawr anghofus, eithr gwneuthurwr y weithred, happus fydd yn ei weithred.

26 Os tybir fod neb yn eich myſc yn grefyddol, yr hwn nid attalio ei dafod, eithr ſydd yn twyllo ei galō ei hun, crefydd hwnnw ofer yw.

27 Crefydd pur a difrycheulyd ger bron Duw a'r Tâd yw hyn, ymweled â'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, ac ymgadw ei hun yn ddihalogedig oddi wrth y byd. ☜

### PEN. II.

1 Ymma y mae yn gwahardd derbyn wyneb, ſef yſtyried mewn neb yr hyn ſydd fydol, megis cyfoeth cenedl a'r cyfryw. 8 Ac y mae yn erchi bod yn garedigol,

ac yn drugarog. 14 Ac na ymhonner ffydd lle ni bo gweithredoedd. 17 Canys ffydd, farw yw yr hon ſydd heb weithredoedd da.

Leuit. 19. 15. dihar. 24. 24. FY-mrodyr * na fydded gennych chwi ffydd ein Harglwydd ni Ieſu Griſt gogoneddus yng-hyd â derbyn wyneb.

2 O blegit os daw i mewn i'ch cynnulleidfa chwi ŵr yn arwen modrwy aur ac mewn dillad gwychion, a dyfod gŵr tlawd hefyd mewn dillad gwaelion,

3 Ac edrych o honoch ar y nêb ſydd yn arwen dillad gwychion, a dywedyd wrtho: eiſtedd di ymma mewn lle da: a dywedyd wrth y tlawd, eiſtedd di yna, neu eiſtedd ymma iſlaw fy ſtôl droedi.

4 Ond ydych chwi ynoch eich hunain yn barnu, ac [oni] waethwyd chwi yn farnwŷr meddyliau drwg?

5 Gwrandewch fy mrodyr annwyl, oni ddewiſodd Duw dlodion y byd hwn, i fôd yn gyfoethogion mewn ffydd, ac i fôd yn etifeddion i'r deyrnas, yr hon a addawodd efe i'r rhai ai carant ef?

6 Chwithau ydych yn amherchi y tlawd, onid yw y cyfoethogion yn gwneuthur yn drahaus â chwi, ac ond ydynt hwy yn eich lluſco chwi ger bron y gorſedd-feingciau?

7 Ond ydynt hwy yn cablu yr enw rhagorol trwy yr hwn y cyfenwir chwi?

8 Os cyflawnwch chwi y frenhinol gyfraith ar ôl yr ſcrythur: câr dy gymydog fel ty di dy hun, da y gwnewch. Math. 22. 39.

9 Eithr os derbyniwch chwi wyneb [dŷn] yr ydych yn gwneuthur pechod, ac yr ydych yn cael cerydd gan y gyfraith fel troſedd-wŷr.

Leuit. 15. 19. 10 Canys * pwy bynnag a gatwo 'r gyfraith ei gyd, ac a ballo mewn vn [pwngc] y mae efe yn euog o'r cwbl.

11 O blegit y neb a ddywedodd, na odineba, a ddywedodd hefyd, na ladd: os ti ni odinebi, ac etto a leddi, yr wyt yn droſeddudd y gyfraith.

12 Felly dywedwch, ac felly gwnewch, megis rhai a fernir wrth gyfraith rhydd-did.

13 Canys barn heb drugaredd fydd i'r nêb ni wnêl drugaredd, ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn.

14 Pa fudd fy mrodyr o dywed nêb fod ganddo ffydd, ac hêb fod ganddo weithredoedd? a ddichon y ffydd honno ei gadw ef?

Luc. 3. 11. 1. ioan. 3. 17. 15 O blegit * os bydd brawd ne chwaer yn noeth, ac eiſieu beunyddol ymborth,

16 A dywedyd o vn o honoch wrthynt, ewch mewn hedd, ymdwymnwch, ac ymlenwch, ac etto heb roddi iddynt angenrheidiau 'r corph, pa lês fydd?

17 Felly ffydd oni bydd iddi weithredoedd marw ydyw ynddi ei hun.

18 Eithr rhyw vn a ddywed: ty di, ffydd ſydd gennit, minneu gweithredoedd ſy gennif: dangos i mi dy ffydd wrth dy weithredoedd, ac myfi a ddangoſaf i ti fy ffydd wrth fyng-weithroedd.

19 Credu yr wyt ti mai vn Duw ſydd: da yr wyt yn gwneuthur, y mae y cythreuliaid hefyd yn credu ac yn crynu.

20 Eithr a fynni di wybod, ô dy di ofer-ddŷn, mai marw yw 'r ffydd yr hon ſydd heb weithredoedd.

21 Onid trwy ffydd y cyfiawnwyd Abraham ein tâd ni, pan offrymmodd efe * Iſaac ei fab ar yr allor? Gen. 22. 10.

22 Ti a weli fod ffydd yn cydweithio â'i weithredoedd ef, a thrwy weithredoedd y perffeithiwyd y ffydd.

23 A'r ſcrythur a gyflawnwyd yr hon a ddywed: * credodd Abraham i Dduw, a chyfrifed iddo yn lle cyfiawnder: a galwyd ef yn gyfaill i Dduw. Gen. 15. 6. rhuf. 4. 3. galath. 3, 6.

24 Chwi a welwch gan hynny mai o weithredoedd y cyfiawnheir dŷn, ac nid o ffydd yn vnic.

25 Yr vn ffunyd * Rahab y buttain, onid o weithredoedd y cyfiawnhawyd hi, pan dderbyniodd hi y cênadau, a'u danfon ymmaith ffordd arall? Ioſua. 2. 1.

26 Canys megis y mae 'r corph heb yr yſpryd yn farw: felly ffydd heb weithredoedd marw ydynt.

## PEN. III.

2 Y mae yn gwahardd chwennychu anrhydedd tu hwnt ein brodyr. 3 Ac yn dangos cynneddfau 'r tafod. 15 16 A pha wahan ſydd rhwng doethineb Duw a doethineb y byd.

NA cheiſiwch fod yn feiſtred lawer, fy mrodyr, gan wybod y cawn ni farnedigaeth fwy.

2 Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro: o bydd i nêb na lithro ar air hwnnw ſydd ŵr perffaith, ac a ddichon ffrwyno 'r hôll gorph.

3 Wele, yr ydym ni yn rhoddi ffrwynau ym mhennau 'r meirch iw gwneuthur yn vfydd i ni, ac yr ydym ni yn troi eu holl gyrph hwynt oddi amgylch,

4 Wele hefyd y llongau, y rhai er eu bod cymmaint, a gwynt creulon iw gyrru, etto troir hwynt oddi amgylch â llyw bychan, lle y mynno 'r llywudd.

5 Felly y tafod hefyd aelod bychan yw, yn boſtio pethau mawrion, wele faint y defnydd a ynnynna ychydic dân.

6 A'r tafod tân ydyw, ie byd o anwiredd: felly y goſoded y tafod ym myſc ein haelodau, fel y llygra efe yr holl gorph, yn fflammau troell naturiaeth, ac yn fflammedig gan vffern.

7 Canys hôll natur anifeiliaid, ac adar ac ymluſciaid, a'r pethau yn y môr a ddofir, ac a ddofwyd gan natur ddynol:

8 Eithr y tafod ni ddichon nêb rhyw ddŷn ei

ddofi, drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol.

9 Trwyddo ef y bendithiwn ni Dduw a'r Tâd, a thrwyddo ef y melldithiwn ni ddynion a wnaethwyd ar lun Duw.

10 O'r un genau y daw allan fendith a melldith: fy mrodyr ni ddyle y pethau hyn fod felly.

11 A rydd ffynnon o'r un man ddwfr melus a chwerw?

12 A ddichon y pren ffygus fy mrodyr ddwyn olifaid, ne wînwydden ffigus? felly ni ddichon un ffynnon roddi dwfr hallt a chroiw.

13 Pwy ſydd wr doeth a gwybodaeth ganddo yn eich myſc chwi? dangoſed drwy ymwreddiad da ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra doethineb.

14 Eithr o bydd gennych chwi genfigen chwerw, ac ymryſon yn eich calonnau, nac ymlawenhewch, ac na fyddwch gelwyddoc yn erbyn y gwirionedd.

15 Y doethineb hyn nid oddi vchod y mae yn deſcyn, eithr daiarol, anifeilaidd, a chythreulic [yw.]

16 Canys lle y byddo cenfigen, ac ymryſon, yno y bydd terfyſc, a phob gweithred ddrwg.

17 Eithr y doethineb ſydd oddi vchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hynny heddychol, boneddigaidd, hawdd ei thrino, llawn trugaredd, a ffrwythau dâ, yn ddidueddol, ac yn ddi-ragrith.

18 A ffrwyth cyfiawnder a heüir mewn heddwch i'r rhai heddychol.

## PEN. IIII.

1 Wedi iddo ddangos achos pob anghyfiawnder, ac anwiredd, a hefyd achos pob grâs a daioni, 4 y mae yn cynghori caru Duw, 7 ac ymroi iddo ef, 11 bod yn dda ein habſen am ein cymydogion, 13 ac yn ddioddefus yn ymddyried i ymgeledd Duw.

OBa le y mae y rhyfeloedd a'r ymladdau yn eich myſc chwi? onid oddi wrth hyn, ſef eich trachwantau, y rhai ydynt yn rhyfela yn eich aelodau?

2 Chwennychu yr ydych, ac heb gaffael, cenfigennu yr ydych, ac eiddigedd ſydd arnoch, ac heb allu ymoddiwes: ymladd a rhyfela yr ydych heb gael dim, am nad ydych yn gofyn.

3 Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y gallech eu treulio ar eich trachwantau.

4 Chwi odinebwyr, a godineb-wragedd, oni wyddoch fod cyfeillach y byd yn elyniaeth gan Dduw? am hynny pwy bynnag a fynno fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn ymwneuthur yn elyn i Dduw.

5 A ydych chwi yn tybied fod yr Scrythur yn dywedyd yn ofer: yr Yſpryd yr hwn ſydd yn trigo ynom ni, at genfigen y mae ei chwant?

6 Eithr y mae'r Scrythur yn cynnic mwy o râs, ac am hynny yn dywedyd: Duw ſydd yn gwrthwynebu'r beilchion, ac yn rhoddi grâs i'r rhai vfydd.

7 Ymoſtyngwch gan hynny i Dduw, gwrthwynebwch ddiafol, ac efe a gilia oddi wrthych.

8 Neſſewch at Dduw, ac efe a neſſa attoch chwi, glanhewch eich dwylo chwi bechaduriaid, a phurwch eich calonnau, chwi a'r meddwl dau ddyblyg.

9 Ymgoſpwch, a galerwch, ac wylwch, troer eich chwerthin yn alar, a'ch llawenydd yn driſtwch.

10 *Ymddaroſtyngwch ger bron yr Arglwydd, ac efe a'ch cyfyd i fynu. 1.Pet.5.6.

11 Na ddywedwch yn erbyn eu gilydd, fy mrodyr, y nêb a ddywedo yn erbyn ei frawd, a'r hwn a farno ei frawd, y mae efe yn dywedyd yn erbyn y gyfraith, ac yn barnu'r gyfraith, ac od wyt ti yn barnu'r gyfraith, nid wyt ti yn gyflawn-wr y gyfraith, eithr yn farn-wr.

12 Un goſodwr cyfraith ſydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli, *pwy ydwyt ti yr hwn wyt yn barnu arall? Rhuf.14.4.

13 Iddo yn awr, y rhai a ddywedwch, heddyw neu foru ni a awn i gyfryw ddinas, ac a arhoſwn yno flwyddyn: ac a farchnatawn, ac a enillwn.

14 (Y rhai ni wyddoch beth a fydd y foru: canys beth ydyw eich einioes chwi? tarth yn wir ydyw yr hwn a ymddengys ychydig [amſer] ac wedi hynny a ddiflanna.

15 Yn lle hyn a ddylech ei ddywedyd: *os yr Arglwydd a'i mynn, ac os byddwn byw, ni a wnawn hynny, neu hynny.) 1.Cor.4.19.

16 Eithr chwi yn awr ydych yn gorfoleddu yn eich gwâg-fôſt: pob cyfryw orfoledd drwg yw.

17 Am hynny y nêb a ŵyr wneuthur yn dda, ac ni's gwnêl, mewn pechod y mae.

## PEN. V.

2 Bygwth y mae efe y cyfoethogion anwir, 7 cynghori ammynedd, 12 a gochelud tyngu, 16 bod iddynt gyfaddef eu beiau iw gilydd, a gweddio tros eu gilydd.

IDdo yn awr, chwi gyfoethogion wylwch, ac vdwch am eich trueni a ddêl arnoch.

2 Eich cyfoeth a bydrodd, a'ch gwiſcoedd bwyd pryfed ydynt.

3 Eich aur a'ch arian a rŷdodd, a'u rhŵd hwynt a fydd tyſt yn eich erbyn [chwi,] ac a yſſa eich cnawd fel tân: caſclaſoch dryſſor yn y dyddiau diweddaf.

4 Wele, y mae cyflog y gweith-wŷr y rhai a fedaſant eich meuſydd (yr hwn a attaliaſoch trwy dwyll) yn llefain: a llef y rhai a fedaſant, a ddaethant i gluſtiau Arglwydd y lluoedd.

7 Moethus fuoch ar y ddaiar, a thrythyll, meithrin eich calonnau a wnaethoch, megis mewn dydd lladdedigaeth.

6 Condemnaſoch, a lladdaſoch y cyfiawn yr hwn ni's gwrthwynebodd chwi.

7 Am hynny fy mrodyr, byddwch ymarhous hyd ddyfodiad yr Arglwydd, wele, y llafur-wr a ddiſgwyl am werth-fawr ffrwyth y ddaiar yn dda ei ammŷnedd am dano, nes caffel

o honaw y glaw cynnar, a'r diweddar.

8 O blegit hynny byddwch chwithau hefyd yn dda eich ammŷnedd, a chadarnhewch eich calonnau, canys y mae dyfodiad yr Arglwydd yn neſſau.

9 Na wnewch ddim tuchan yn erbyn eu gilydd fy-mrodyr, fel na'ch condemner chwi: wele y mae y barn-wr yn ſefyll wrth y drŵs.

10 Cymmerwch yn ſiampl, fy-mrodyr, am oddef blinder, ac am hir ammynedd y prophwydi, y rhai a lefaraſant yn enw 'r Arglwydd.

11 Wele, dedwydd yr ydym yn gadel y rhai a ymoddefant, chwi a glywſoch am ammynedd Iob, ac a welſoch y diwedd a wnaeth yr Arglwydd: o blegit tra-thoſturiol yw 'r Arglwydd, a thrugarog.

Math.5.34. 12 Eithr o flaen pob peth fy mrodyr, * na thyngwch, nac i'r nef, nac i'r ddaiar, na llw arall: eithr bydded eich ie, yn îe, a'ch nag-ê, yn nag-ê, rhag ſyrthio o honoch mewn barn.

13 A oes nêb yn eich plith mewn adfyd? gweddied: a oes nêb yn eſmwyth arno? caned Pſalmau.

14 A oes nêb yn eich plith yn glaf? galwed am henaduriaid yr eglwys, a gweddiant hwy troſto, ac * eneiniant ef ag olew yn enw 'r Arglwydd. Mar.6.13.

15 A gweddi 'r ffydd a iacha 'r claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fynu: ac o gwnaeth efe bechodau, hwy a faddeuir iddo.

16 Cyfaddefwch eich beiau y naill i'r llall, a gweddiwch tros eu gilydd, fel eich iacheuir: canys llawer a ddichon gweddi 'r cyfiawn, os ffrwythlon fydd hi.

17 * Elias dŷn ydoedd o'r vn ſut a ninneu, ac yn ei weddi y gofynnodd na bydde law, ac ni 1.Bren.17.1
bu law dair blynedd a chwe-mis. Luc.4.25.

18 Ac efe a weddiodd trachefn, ac fe a roddes y nef y glaw, ac fe a ddug y ddaiar ei ffrwyth.

19 Fy mrodyr od * aeth nêb o honoch ar gyfeiliorn oddi wrth y gwirionedd, a throi o ryw Math.18.1.
vn ef,

20 Gwybydded efe am y nêb a droes y pechadur rhag myned ar gyfeiliorn oddiar y ffordd, ei fod efe yn cadw enaid rhag angeu, ac yn cyſcodi lluoſogrwydd o bechodau.

*Terfyn Epyſtol Iacob.*

# Yr Epyſtol cyntaf cyffredinol
# i Sanct Petr.

## PENNOD. I.

2 Dangos y mae efe mai trwy aml drugaredd Duw i'n
detholwyd, ac i'n adgenhedlwyd i obaith bywiol, 7
a'r modd y treir ffydd, 10 nad yw 'r iechydwriaeth
yng-Hriſt beth newydd, eithr peth wedi ei brophwydo
gynt, 13 y mae efe yn eu hannog hwy i ymwreddiad
duwiol, yn gymmeint a'u geni hwy yn awr
o newydd gan air Duw.

PETR Apoſtol Ieſu Griſt, at y dieithriaid y rhai ſy ar waſcar rhyd Pontus, Galatia, Cappadocia, Aſia, a Bithinia,

2 Y rhai a ddetholwyd trwy ragwybodaeth Duw y Tâd i ſancteiddrwydd yr Yſpryd, trwy vfydd-dod a thaenelliad gwaed Ieſu Griſt, grâs i chwi a heddwch a amlhauer.

3 Bendigedic fyddo Duw a Thâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn o'i fawr drugaredd a'n ad-enillodd ni i obaith bywiol, trwy ail-gyfodiad Ieſu Griſt oddi wrth y meirw,

4 I gael etifeddiaeth ddiddiwedd, a dilwgr, a diddiflannedig, yr hon a rodded i gadw yn y nef i chwi,

5 Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i gael y diogelwch a ddarparwyd, iw arddangos yn yr amſer diweddaf:

6 Yn yr hwn beth yr ydych yn llawenhau, cyd byddech ennyd bach (o bae raid) mewn triſtwch, herwydd amryw brofedigaethau,

7 Fel y caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn ſydd werthfawrusach nâ'r aur colladwy (cyd profer ef trwy dân) er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant i chwi pan ymddangoſo Ieſu Griſt:

8 Yr hwn heb ei weled yr ydych yn ei garu, yn yr hwn, er nas gwelwch ef yr awr hon, yr ydych er hynny yn credu, ac yn llawenhau â llawenydd anhraethadwy, a gogoneddus:

9 Gan dderbyn terfyn eich ffydd [ſef] iechydwriaeth yr eneidiau.

10 Am yr hon iechydwriaeth yr ymofynnodd, ac y chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydaſant am y grâs yr hwn [a ddeue] i chwi,

11 Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amſer y bydde i Yſpryd Criſt yr hwn oedd ynddynt hwy yn teſtiolaethu yn y blaen, yſpyſu y dioddefaint [a gaffe] Criſt, a'r gogoniant au cyd ganlyne hwynt.

12 I'r rhai y dangoſwyd nad iddynt hwy, eithr i nyni y gwaſanaethe y pethau a fynegwyd i chwi, trwy y rhai a bregethaſant i chwi yr Efengyl trwy 'r Yſpryd glân, yr hwn a ddanfoned o'r nefoedd, ac ar y rhai y mae yr angelion yn chwennych cael edrych.

13 O blegit hyn gwregyſwch lwynau-eich meddwl: byddwch ſobr: a gobeithiwch yn ber-

ffaith ar y grâs a dducpwyd attoch, trwy ymddangoſiad Ieſu Griſt,

14 Megis plāt vfydd, y rhai ni chyd-ymgyffelybwch eich hunain â hên drachwantau eich anwybodaeth.

Luc.1.75.

15 Eithr megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn ſanctaidd, * byddwch chwithau hefyd ſanctaidd ym mhôb ymwreddiad,

Lefit.11.44.

16 Am hynny yr ſcrifennir, *byddwch ſanctaidd, canys ſanctaidd ydwyf fi.

Deut 10.17.
rhuf.2.11.
gal 2.6

17 Ac os gelwch ef yn Dâd, yr hwn * heb dderbyn ẃyneb neb a farna ar ôl gweithred pawb, ymddygwch trôs amſer eich preſwylfod [ymma] mewn ofn,

18 Gan ẃybod nad â phethau llygredig [megis] arian neu aur i'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymwreddiad, yr hon a gawſoch o draddodiadau y tadau:

1.Cor.6.20.
&7.23.
heb.9.14.
1.ioa.1.7.
gwele.1.5.
Rhuf.16.25.
ephe.3.9.
col.2.26.
2.tim.1.19.
tit.2.2,

19 Eithr â * gwerthfawr waed Criſt, megis oen difrychenlyd, dihalogedig.

20 Yr * hwn a ddarparwyd yn y blaen cyn goſod ſylfaenau'r bŷd, eithr a yſpyſwyd yn yr amſer diweddaf er eich mwyn chwi,

21 Y rhai ydych trwyddo ef yn credu i Dduw, yr hwn a'i cyfodes ef oddi wrth y meirw, ac a roddes iddo ef ogoniant, fel y bydde eich ffydd chwi a'ch gobaith ar Dduw.

Rom.12.10.
epheſ.4.3.

22 A chwi wedi puro eich eneidiau gan vfyddhau i'r gwirionedd trwy'r Yſpryd, *mewn cariad brawdol diledrith, cerwch bawb ei gilydd â chalon bûr yn rymmus,

23 Chwi a aned o newydd, nid o had marwol, eithr anfarwol trwy air Duw, yr hwn ſydd yn byw, ac yn parhau yn dragywydd.

Eſdr.40.6.
eccleſ.14.18.
iac.1.10.

24 * Canys pob cnawd fel y glaſ-welltyn yw, a phôb rhyſyg dyn fel blodeun y glaſ-wellt: gwywo a wna'r glaſ-wellt, a'r blodeun a ſyrth i lawr.

25 Eithr gair yr Arglwydd a erys yn dragywydd, a hwn ydyw y gair a bregethwyd i chwi.

## PEN. II.

Eu hannog y mae efe i roddi heibio bob camwedd, 4 Gan ddangos mai Criſt yw'r ſail y maent yn adailad arno. 9 Rhagorfraint y Criſtianogion. 11 Y mae efe yn attolwg iddynt ymgadw oddi wrth chwātau cnawdol. 13 Vfyddhau 'r llywiawdwyr. 18 Y mae yn dangos pa fodd y dyle 'r gwaſanaeth-ddynion ymddwyn wrth eu perchen. 20 Gan annog i ddioddef yn ôl ſiampl Criſt.

Rhuf.6.4.
eph.4.22.
col.3.18.
heb.12.1.

O Herwydd hyn rhoddwch heibio * bôb drygioni, a phôb twyll, a phôb rhagrith, a chēfigen, a phôb enllibiad,

2 Fel rhai bychain newydd eni byddwch awyddus i ddidwyll laeth y gair, fel y galloch trwy hwnnw gynnyddu,

3 Os profaſoch chwi fod yr Arglwydd yn dirion,

4 At yr hwn yr ydych yn dyfod, megis at faen byw anghymmeradwy gan ddynion, eithr gan Dduw etholedig a gwerth-fawr.

Gwele.1.8.

5 A chwithau hefyd megis main bywiol, a adeiladwyd yn dŷ yſprydol, ac * yn offeiriadaeth ſanctaidd i offrymmu aberthau yſprydol cymmeradwy gan Dduw trwy Ieſu Griſt.

Eſa.28.16.
rhuf9.33.

6 Am hynny y cynhwyſir yn yr ſcrythur: wele, * yr wyf yn rhoddi yn Sion ſylfaen arbennic, etholedic, a gwerth-fawr: a'r nêb a gredo ynddo nis gwradwyddir ef.

Pſal.118.
math.21.42.
act.4.12.

7 O blegit hyn i chwi y rhai ydych yn credu vrddas yw: eithr i'r anufyddion y * maen a wrthododd yr adeilad-wŷr hwn a wnaed yn ben y gongl,

8 Ac yn faen tramgwydd, a chraig rhwyſtr i'r rhai ſy yn tramgwyddo wrth y gair gan anufyddhau, i'r hwn beth yr ordeiniwyd hwyntwy.

Exod.19.6.

9 Eithr chwychwi * genhedloedd etholedic ydych, brenhinol offeiriadaeth, pobl ſydd yn briodoriaeth [i Dduw,] fel y gallech fynegu rhinweddau y nêb a'ch galwodd o dywyllwch i'w ryfedd oleuni ef.

Oſe.2.23.
rhuf.2.25.

10 Y * rhai gynt nid oeddech bobl, yn awr ydych bobl i Dduw: y rhai gynt nid oedd i chwi drugaredd, yr awr hon a gawſoch drugaredd.

*Yr Epiſtol y trydydd Sul ar ol y Paſc.*

11 Fy annwylyd, yr wyf yn attolwg i chwi megis dieithriaid a phererinio͂, ymgedwch oddi wrth drachwantau'r cnawd, y rhai ſy yn rhyfela yn erbyn y cnawd. yr yſpryd

Rhuf.13.14.
gal.5.17.
1.pet.3.16.

12 * A bydded eich ymwreddiad yn honeſt ym myſc y cenhedloedd, fel y gallo y rhai ſy yn eich gogânu fel pe byddech ddrwg weithredwŷr, o herwydd eich gweithredoedd da a welant, foliannu Duw yn y dydd yr ymweler ag hwynt.

Rhuf.13.1.

13 * Ymddaroſtyngwch oblegit hyn i bôb dynol ordinhâd er mwyn yr Arglwydd, ac i'r brenin fel i'r Goruchaf,

14 Ac i'r llywiawdwŷr fel i'r rhai trwyddo ef a ddanfonir, er dialedd i'r rhai drwg, ac er mawl i'r rhai da.

15 Canys felly y mae ewyllys Duw, fel y galloch trwy wneuthur yn dda oſtegu anwybodaeth dynion ffolion.

16 Megis yn rhyddion, ac nid fel rhai yn cymmeryd rydd-did yn lle cochl malis, eithr fel gwaſanaethwŷr Duw.

Rhuf.12.10.
1.petr.1.22.

17 Perchwch bawb: * cerwch gymdeithas brawdol, ofnwch Dduw: anrhydeddwch y brenin.

Eph.6.5.
col.3.22.

18 * Gweinidogion, ymoſtyngwch mewn pob ofn i'ch meiſtred, nid yn vnic i'r rhai da cyweithas, eithr i'r rhai anghyweithas hefyd.

*Yr Epiſtol yr ail Sul ar ol y Paſc.*

19 Canys hyn ſydd raſol, os o herwydd cydwybod i Dduw y bydd i neb ddwyn cuſtydd, gan ddioddef yn ddiachos.

20 O blegit pa glôd yw, er bod yn dda eich ammynedd pan gernodier chwi am eich beiau: eithr pan wneloch dda, ac er hynny yn dda eich ammynedd yn goddef, hyn ſydd raſol ger bron Duw.

21 Canys i hyn y galwyd chwi: o blegit Criſt hefyd a ddioddefodd troſom ni, gan adel i ni ſiampl, fel y gallech chwi ganlyn ei ôl ef.

Eſa 51.9. 1.ioa.3.6.

22 Yr * hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau.

23 Yr hwn pan ddirmygwyd ef, ni ddirmygodd eil-waith: pan ddioddefodd, ni fygythiodd, eithr rhoddodd ar y nêb ſydd yn barnu yn gyfiawn.

Eſa.53.5. math.8.17.

24 Yr * hwn ei hun a ddûg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, fel y gallem ni wedi ein gwared oddi wrth bechod, fyw i gyfiawnder, trwy gleiſiau yr hwn yr iachawyd chwi.

25 Canys yr oeddech megis defaid yn myned ar gyfeiliorn, eithr yn awr chwi a droeſoch at Fugail, ac Eſcob eich eneidiau. ☜

## PEN. III.

Pa wedd y dyle fod ymwreddiad gwragedd iw gwyr a'u gwiſcad. 7 Dyled gwyr iw gwragedd. 8 Y mae efe yn annog pawb i vndeb a chariad. 14 Ac yn ymarhous i ddioddef adfyd, wrth ſiampl Criſt.

Col.3 18. eph.5.22.

FEl hynny hefyd, * bydded y gwragedd oſtyngedig iw gwŷr priod, fel y galler os bydde rhai yn anufyddi'r gair, trwy ymwreddiad y gwragedd eu hennill hwynt heb y gair,

2 Pan welant eich ymwreddiad diwair, gyd ag ofn.

1.Tim.2.9.

3 * Trwſiad y rhai bydded nid oddi allan, megis o blethiadau gwallt, ac amgylch oſodiad aur, neu wiſcad dillad [gwychion,]

4 Eithr bydded dirgel ddŷn y galon mewn anllygredigaeth yſpryd addfwyn, a llonydd, yr hwn ſydd ger bron Duw yn werth-fawr.

5 Canys felly gynt yr ymdrwſſie'r gwragedd ſanctaidd, y rhai oeddynt yn gobeithio ar Dduw, yn ddaroſtyngedig iw gwŷr priod.

Gen.18.12.

6 Megis yr vfyddhâodd * Sara i Abraham, gan ei alw ef yn arglwydd: merched yr hon ſyddwch chwi, o wneuthur yn dda, heb arnoch ofn dim dychryn.

1.Cor.7 3.

7 * Chwithau y gwŷr, cydgyfanneddwch ag hwynt fel y gwedde i rai gwybodol, gan roddi anrhydedd i'r wraig, megis i'r lleſtr gwannaf, fel rhai ſy gyd-etifeddion grâs y bywyd, rhag rhwyſtro eich gweddiau chwi.

*Yr Epiſtol y v. Sul ar ol y Drindod.*

8 ☞ Am ben hyn byddwch bawb o'r vn meddwl yn cyddoddef pawb gyd â'i gilydd: cerwch fel brodyr, [byddwch] yn drugarog, [byddwch] yn fwynaidd,

Dihar.17.11. & 20.22. math.5.39. rom.12.17. 1.theſſ.5.15. Pſal.34.13.

9 * Nid yn talu drwg am ddrwg, neu ddirmyg am ddirmyg: eithr yng-wrthwyneb, bendithiwch, gan wybod eich galw i hyn, ſef i etifeddu y fendith.

10 Canys * y neb a ewyllyſio hoffi bywyd, a gweled dyddiau da, attalied ei dafod oddi wrth ddrwg, a'i wefuſau rhag adrodd twyll.

Eſa.1.16.

11 * Gocheled y drwg, a gwnaed y da: ceiſied heddwch, a dilyned ef.

12 Canys y mae llygaid yr Arglwydd ar y rhai cyfiawn, a'i gluſtiau ef tu ag at eu gweddi hwynt: ac y mae wyneb yr Arglwydd yn erbyn y rhai a wnêlo ddrwg.

13 A phwy a'ch drwga chwi os byddwch yn dilyn yr [hyn ſydd] dda?

Math.5.10.

14 Eithr * o bydd i chwi ddioddef o herwydd cyfiawnder, dedwydd ydych: ond am eu brawychiad hwynt, nac * ofnwch, ac na chynhyrfwch rhag eu hofn hwynt.

Eſa.8.12.

15 Eithr ſancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonnau: a byddwch barod bob amſer i atteb i bawb a ofynno i chwi reſwm am y gobaith ſydd ynoch, ☜

16 A hynny trwy fwyneidd-dra a pharch, a chennych gydwybod dda, fel yn y peth yr enllibiant chwi megis drwg-weithredwŷr, y cywilyddio y rhai ydynt yn beio ar eich ymwreddiad da chwi yng-Hriſt.

*Yr Epiſtol nos Paſc.*

17 ☞ Canys gwell ydyw (os ewyllys Duw ai mynn) i chwi ddioddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni.

Rom.5.6. heb.9.15.

18 Gan * i Griſt hefyd vn-waith ddioddef tros bechodau, y cyfiawn tros yr ang-hyfiawn, fel y galle ein dwyn ni at Dduw, yr hwn hefyd a laddwyd yn y cnawd, eithr a fywhawyd yn yr Yſpryd.

19 Trwy'r hwn yr aeth efe, ac a bregethodd i'r yſprydion yng-harchar,

Gene.6.14. math.14.38.

20 Y rhai oeddynt gynt yn anufyddion, pan vnwaith yr oedd hir ammynedd Duw yn diſgwil * yn nyddiau Noe, pan ddarperit yr Arch: yn yr hon ychydigion, ſef, wyth enaid a achubwyd yn y dwfr.

21 I'r hwn y mae'r ſiampl yr hwn ſydd yn awr yn ein hachub ni, ſef y bedydd, yn atteb (nid trwy yr hwn y tynnir i ffordd fudreddi yr corph, eithr trwy'r hwn y gwna cydwybod dda ymofyn â Duw) trwy gyfodedigaeth Ieſu Griſt.

22 Yr hwn ſydd ar ddehau-law Duw, wedi myned i'r nef, a'r angeliō a'r awdurdodau, a'r galluoedd wedi ymddaroſtwng iddo ef. ☜

## PEN. IIII.

Cynghor i ymado â phechod, ac na threuliom mwy o amſer mewn camwedd. 7 I fod yn ſobr, ac yn hywaith i weddio, 8 I garu ei gilydd. 12 I ddioddef trallod, 15 I ymogelyd rhag bod i neb ddioddef fel dryg-ddyn, 16 Eithr fel Criſtion.

AM hynny gan ddioddef o Griſt troſom ni yn y cnawd, chwithau hefyd arfogwch eich hunain â'r vn rhyw feddwl, ſef peidio o hwn a ddioddefodd yn y cnawd â phechod,

2 Fel na byddo iddo o hyn allan (tros yr hyn ſydd yng-weddill o'r amſer y cnawd) fyw ar ôl trachwantau dynnion, eithr ar ôl ewyllys Duw.

Ephes.4.22.

3 Canys * digon yw i ni dreulio o honom yr amſer a aeth heibio o'r einioes, ar ôl trachwant y cenhedloedd, gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau, meddwdod, glothineb, ymŷfed, a ffiaidd eulyn-addoliad.

4 O achos paham y mae yn ddieithr ganddynt, na byddech yn cyd-redeg gyd â hwynt, i'r vn rhyw ormod rhyſedd, gan [eich] goganu chwi:

5 Y rhai y bydd rhaid iddynt roddi cyfrif i'r nêb ſydd barod i farnu y byw a'r meirw.

6 Canys er mwyn hynny y pꝛegethwyd yꝛ Efengyl i'r meirw hefyd, fel y condemnid hwynt, o rann dynion yn y cnawd, eithꝛ y gallent fyw o rann Duw yn yꝛ yſpꝛyd.

*Yr Epiſtol y Sul ar ôl y derchafel.*

7 ☞ Diwedd pôb peth ſydd yn neſau: am hynny byddwch ſobꝛ, a gwiliadwꝛus i weddio.

Dihar.10.12.

8 Ym mlaen pob peth bydded cariad twymn yn eich plith: * canys cariad a guddia liaws o bechodau.

Ruf.12.13. heb.13.2.

9 * Byddwch leteugar bawb iw gilydd yn ddirwgnach.

Ruf.12.6. phil.2.14.

10 Pawb * megis ac y cafodd rodd bydded iddo gyfrannu â'i gilydd, fel daionus oꝛchwylwŷꝛ amryw râs Duw.

11 Os dywed neb,[dyweded] megis gair Duw, os gweini a wna neb,[gwnaed] hynny megis o'ꝛ gallu y mae Duw yn ei roddi, fel y molianner Duw ym mhôb peth trwy Ieſu Griſt, i'r hwn y mae gogoniant, ac arglwyddiaeth yn oes oeſoedd. Amen. ☜

12 Oh rai annwyl, na fydded dieithꝛ gennwch y pꝛawf ſydd arnoch trwy dân, yꝛ hwn a wneir er pꝛofedigaeth i chwi, fel pe digwydde iwch ryw beth dieithꝛ:

13 Eithꝛ llawenhewch, gan eich bod chwi yn gyfrannog o ddioddefaint Criſt, fel y galloch pan eglurer ei ogoniant ef, fod yn llawen, ac yn hyfryd.

Math.5.10.

14 Os * dirmygir chwi er mwyn enw Criſt, dedwydd ydych, canys Yſpꝛyd y gogoniant, ac Yſpꝛyd Duw a oꝛphywys arnoch: yꝛ hwn ar eu rhan hwynt a geblir, ac ar eich rhan chwi a folienir.

15 Eithꝛ na fydded i neb o honoch oddef, fel llofrudd, neu leidꝛ, neu dꝛwy ddꝛwg-weithꝛedwꝛ, neu fel vn a fyddo yn ymmyꝛryd â materion rhai eraill:

16 Eithꝛ os fel Criſtion, na fydded gywilydd ganddo, eithꝛ molianned Dduw yn hynny o ran.

17 Canys yꝛ amſer a ddaeth y bydd rhaid i'r farn ddechꝛeu ar dŷ Dduw: ac os ydyw yn gyntaf yn dechꝛeu arnom ni, pa ryw ddiwedd [a fydd] i'r rhai ni chꝛedant Efengyl Dduw?

Dihar.2.21.

18 Ac * os pꝛin y bydd y cyfiawn gadwedig pa le yꝛ ymddengys yꝛ anwir a'r pechadur?

19 Ac am hynny y rhai ſy yn goddef ar ôl ewyllys Duw, ymroant eu heneidiau trwy wneuthur yn dda, megis i'r creawdydd ffyddlon.

## PEN. V.

2 Dylêd y bugelydd eglwyſic yw porthi defaid Criſt, a pha obr a gânt os gwnânt hynny yn ddiwyd. 5 Cynghori y mae y rhai ieuaingc i ymddaroſtwng i'r henafiaid. 8 Bod yn ſobr, a gwilied i allu o honynt wrthladd y gelyn.

YR henaduriaid y rhai ſy yn eich plith, yꝛ atolygaf finne yꝛ hwn [wyf] hefyd henadur a thŷſt dioddefiadau Criſt, a chyfrannog hefyd o'ꝛ gogoniant a eglurir rhag llaw,

2 Poꝛthwch bꝛaidd Duw yꝛ hwn ſydd tann eich llaw, ac ymgeleddwch hwynt nid trwy gymmell, eithꝛ yn ewyllyſcar, nid er chwant budꝛ-elw, eithꝛ o barodꝛwydd meddwl:

3 Nid fel rhai a fynnant fod yn arglwyddi ar etifeddiaeth[Dduw,] eithꝛ fel y galloch fod yn ſiampl i'r pꝛaidd.

4 A phan ymddangoſo y Pen bugail, cewch anllygradwy goꝛon y gogoniant.

*Yr Epiſtol y trydydd Sul ar ôl y Drindod.*

5 Yꝛ vn ffunyd yꝛ ieuaingc byddwch oſtyngedic i'r henuriaid ☞ a * chyd-ymoſtyngwch bawb iw gilydd: ac ymdꝛwſiwch oddifewn ag vfydd-dꝛa meddwl, canys Duw a wꝛthladd y beilchion, ac a rydd râs i'r rhai vfydd.

Iaco.4.6.

6 Ymoſtyngwch o achos hyn tann alluog law Dduw, fel y gallo eich derchafu pan ddêl amſer.

Pſal.55.23. doeth.12.13. math.6.25. luc.12.22. luc.22 31.

7 * Bwꝛiwch gwbl o'ch gofal arno ef: canys y mae efe yn gofalu troſoch,

8 Byddwch ſobꝛ, a gwiliwch, canys eich gwꝛthwyneb-wꝛ diafol ſydd megis llew rhuadwy yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y nêb a allo ei lyngcu.

9 Yꝛ hwn, gwꝛthwynebwch yn gadarn yn y ffydd, gan ŵybod fod yn cyflawni yꝛ vn rhyw ddioddefaint yn eich bꝛodyꝛ, y rhai ydynt yn y byd.

10 A Duw[awdur] pob grâs, yꝛ hwn a'n galwodd ni iw dꝛagywyddol ogoniant trwy Ieſu Griſt, wedi i chwi oddef ychydig, a'ch cryfhâo, ac a'ch ſiccrhâo.

11 Iddo ef y byddo gogoniant ac emerodꝛaeth yn oes oeſoedd. Amen. ☜

12 Gyd â Sylfanus bꝛawd ffyddlon i chwi, i'm tŷbi, yꝛ ſcrifennais at ychydig, gan eich cynghoꝛi, a theſtiolaethu, mai gwir râs Duw ydyw hwn yꝛ ydych yn ſefyll ynddo.

13 Y mae'r [eglwys] yꝛ hon ſydd yn Babylon yn gyd-etholedig â chwi yn eich annerch a Marcus fy mâb i.

Ruf.16.16. 2.cor.16.20. 2.cor.13.12.

14 Anherchwch bawb ei gilydd â chuſan cariad, tangneddyf i chwi oll y rhai ydych yng-Hꝛiſt Ieſu, Amen.

# Yr ail Epiſtol cyffredinol o eiddo Petr Apoſtol.

### PENNOD I.

Yn gymmeint a darfod i feddiant Duw roddi iddynt bob peth yn perthyn i fuchedd, y mae efe yn eu hannog i ffoi rhag llygredigaeth chwantau y byd. 10 Ac i wneuthur eu galwedigaeth yn ddiogel trwy weithredoedd da, a ffrwythau ffydd. 14 Y mae efe yn coffau am ei farwolaeth ei hun, 17 Gan yſpyſu bod yr Arglwydd Ieſu Griſt yn wir Fab Duw, megis ac y gwelſe efe ei hun ar y mynydd.

Symon Petr gwaſanaethwr, ac Apoſtl Ieſu Griſt, i'r rhai a freiniaſant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau, trwy gyfiawnder ein Duw a'n achubwr Ieſu Griſt

2 Grâs i chwi, a thangneddyf a amlhaer, trwy adnabyddiaeth Duw, ac Ieſu ein Harglwydd,

3 Megis y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bôb peth a berthynant i fywyd, a duwioldeb, trwy ei adnabyddiaeth ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd.

4 Gan hyn;[ſef]rhoddi i ni addewidion rhagor-fawr [a] gwerth fawr, fel y gallech trwy y rhai hynny fod yn gyfrannogion o dduwiol anian, wedi diangc o'r llwgr yr hwn ſydd yn y byd trwy drachwant.

5 Ac am hyn rhoddwch g'wbl o'ch diwydrwydd, cyſſylltwch yng-hŷd â'ch ffydd rinwedd ac yng-hyd, â rhinwedd gŵybodaeth:

6 Ac yng-hŷd â gwybodaeth, gymmedrolder, ac yng-hyd â chymmedrolder, ammynedd, ac yng-hyd ag ammynedd duwioldeb,

7 Ac yng-hŷd a duwioldeb, caredigrwydd brawdol: ac yng-hŷd â charedigrwydd brawdol, cariad.

8 Canys os byddwch âr pethau hyn cennych, ac yn aml hwynt, peri a wnânt na bych na ſegur na diffrwyth yng-wybodaeth ein Harglwydd Ieſu Griſt.

9 O blegit y nêb ni byddo y rhai hyn ganddo, dall ydyw, ac ni wel ddim o bell, yn gollwng tros gof ei lanhau o'i hên bechodau.

10 Am hynny, fy-mrodyr byddwch yn fwy diwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn ſiccr: canys o gŵnewch chwi hyn ni lithrwch chwi byth.

11 Canys felly y trefnir i chwi fforddiad yn helaeth i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Achubwr Ieſu Griſt.

12 Am hynny nid eſceuluſafi eich coffhau chwi byth am y pethau hyn, er eich bod chwi yn gyfarwydd, ac yn ſiccr yn y gwirionedd preſennol.

13 Canys yr ydwyf yn tybied fod yn iawn i mi, tra fyddwyf yn y tabernacl hwn, eich cyffroi gan ddwyn ar gôf i chwi,

14 Gan ŵybod fod yn gyfagos yr amſer y rhoddaf heibio y tabernacl hwn, * megis ac y dangoſes ein Harglwydd Ieſu Griſt i mi. Ioan.21.17.

15 Diwyd fyddaf hefyd ar allu o honoch wneuthur coffa am y pethau hyn, wedi fy ymadawiad i.

16 Canys nid * chwedlau dichellgar a ganlynhaſom ni, pan oeddem yn mynegi i chwi rinwedd, a dyfodiad ein Harglwydd Ieſu Griſt, eithr â'n llygaid y gwelſom ei fawredd ef: 1.Cor.1.17.

17 Canys efe a dderbyniaſe gan Dduw Tâd, anrhydedd a gogoniant, pan ddaeth cyfryw lêf atto oddi wrth y dirfawr ogoniant, * Hwn yw 'r annwyl Fâb maufi, yn yr hwn i'm boddlonir. Math.17.5.

18 A'r llef hon a glywſom ni pan ddaeth o'r nêf, a ni gyd ag ef yn y mynydd ſanctaidd.

19 Yr ydym ni hefyd â gair cadarnaf y prophwydi cennym, i'r hwn da y gweithiwch, o ddarbod am dano, megis am oleuni yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio 'r dydd, ac oni chodo 'r ſeren-ddydd yn eich calonnau.

20 Os *gwybyddwch chwi hynny yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth yn yr Scrythur o briod awenydd[dyn.] 2.Timot.3.16.

21 Canys nid trwy ewyllys dŷn y daeth gynt brophwydoliaeth: eithr dynnion ſanctaidd Duw a ddywedaſant megis y cynhyrfwyd gan yr Yſpryd glân.

### PEN. II.

Prophwydo y mae efe o ddyſcawd-wyr gauog, a dangos eu poenedigaeth hwy.

Eithr bu gau brophwydi ym mhlith y bobl, fel y bydd yn eich plith chwithau athrawon ffeilſion, y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn hereſioedd diniſtriol, a[hynny]gan wadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt, a chan dynnu arnynt eu hunain ebrwydd ddiniſtr.

2 A llawer a ganlynant eu deſtruw hwynt, trwy 'r rhai y ceblir ffordd y gwirionedd.

3 A thrwy gribddeiliaeth wrth eiriau dychymygus y marchnattant chwi, barnedigaeth y rhai er yſtalm nid yw yn ſegur, a'u colledigaeth hwy nid yw yn cyſcu.

4 Canys onid * arbedodd Duw'r angelion, y rhai a bechaſent, eithr eu taflu i wared i vffern, a'u rhoddi mewn cadwynau tywyllwch, iw cadw i ddamnedigaeth: Iob.4.18. iud.6.

5 Ac nid arbedodd yr hên fŷd, eithr Noe yr Gen.7.2.

wythfed, pregeth-wr cyfiawnder, a waredodd efe, ac a ddug y diluw ar fŷd yr anwiriaid,

Gene.19.13. 6 Ac a* droes ddinaſoedd Sodoma a Gomorha yn lludw, a'u dymchwelodd, ac a'u cyfrgollodd hwynt, ac a'u gwnaeth hwynt yn ſiampl i'r rhai rhag-llaw a fucheddent yn annuwiol,

7 Ac a achubodd Lot gyfiawn yr hwn oedd mewn gofid trwy aniwair ymwreddiad yr anwiriaid.

8 (Canys ag efe yn gyfiawn, ac yn trigo yn eu myſc hwynt, yn gweled, ac yn clywed, ydoedd yn poeni ei enaid cyfiawn o ddydd i ddydd, trwy eu anghyfreithlon weithredoedd hwynt)

9 Yr Arglwydd a fedr achub y gwirioniaid oddi wrth brofedigaeth, a chadw y rhai anghyfiawn i ddydd y farn iw poeni.

10 Ac yn bennaf y rhai ſy yn rhodio ar ôl y cnawd, mewn trachwant aflân, ac yn diyſtyru awdurdod, ac hwynt yn rhyfygus, ac yn gyndyn, nid ydynt yn arſwydo cablu y rhai anrhydeddus.

11 Lle nid yw yr angelion y rhai ſy fwy mewn cadernid a gallu, yn rhoddi dirmygus farn yn eu herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd.

12 Eithr y rhai hyn megis anifeiliaid, anrheſymmol anianol, y rhai a wnaed iw dal a'u difetha, yn cablu y pethau ni ŵyddant oddi wrthynt, a ddifethir trwy eu llygredigaeth eu hunain.

13 Y rhai a dderbyniant gyflog anghyfiawnder fel y rhai ſy yn cyfrif yn lle gwynfyd gael byw mewn moethe tros amſer: brychau ydynt, a charyſclynau, yn ymddigrifo yn eu twyll, gan gyd-wlêdda gyd â chwi,

14 A llygaid ganddynt yn llawn godineb ni's gallant chwaith beidio â phechod, yn abwydo eneidiau anwadal, a chanddynt galon wedi ymgynnefino â chubydd-dra, plant y felldith,

15 Y rhai wedi ymadael â'r ffordd iawn, a aethant ar gyrwydr, gan ganlyn ffordd Balaam [mab] Bosor, yr hwn a garodd obr anghyfiawnder.

Num.22.23. iud.11. 16 Eithr ef a geryddwyd am ei gamwedd, canys * aſſyn fud arferol â'r iau gan ddywedyd â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd.

Iud.22. 17 * Y rhai hyn, ffynhonau ydynt heb ddwfr, niwlennau a chwale'r dymeſtl, i ba rai y mae niwl tywyllwch yng-hadw yn dragywydd.

18 Canys gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd trwy drachwantau a thrythyllwch y cnawd, y maent yn abwydo y rhai a ymdroeſent mewn cyrwydr,

Ioan.8.34. ruf.6.20. 19 * Gan addo iddynt ryddid, ac hwynt eu hunain yn waſanaeth-wŷr llwgr: canys gan bwy bynnag y gorchfyger nêb, efe a aeth yn ŵr caeth i hwnnw.

Math.12.45. heb.6.4. 20 O blegit* os wedi eu diangc oddi wrth halogedigrwydd y bŷd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Griſt, y ceffir hwynt eil-waith wedi ymrwyſtro â'r un pethau, ac wedi eu gorchfygu, diwedd y rhai hynny a aeth yn waeth nâ'u dechreuad:

21 Canys gwell fuaſe iddynt na ŵybaſſent ffordd y cyfiawnder, nag wedi ei gwybod, cilio oddi wrth y gorchymyn ſanctaidd a roddet iddynt.

22 Eithr iddynt hwy y digwydd yr hyn [a ddywed] y wir ddihareb, y ci a ymchwelodd at ei chwdiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi iw ymdreiglfa yn y dom.

## P E N. III.

Y mae efe yn dangos ſcelerder y rhai ſy yn gwatwar addewidion Duw. 7 A'r modd y diweddir y byd. 16 A phwy ſydd yn cam arfer yr ſcrythurau. 18 Gan roddi mawr ddiolch i Griſt.

YR ail epiſtol hwn yr ydwyf yn awr yn ei ſcrifennu attoch fy annwylyd, yn yr hwn yr ydwyf yn dadebru eich meddwl puraidd trwy adgoffau [i chwi,]

2 Fel y byddo cofus gennych y geiriau a ragddywedodd y prophwydi ſanctaidd, a'n gorchymyn ninnau y rhai ydym Apoſtolion yr Arglwydd a'n Achubwr.

1.Timoth.4.1. 2.timoth.2.1. iud.18. 3 Yn gyntaf dehellwch hyn, *y daw yn y dyddiau diweddaf watwar-wŷr, y rhai a rodiant ar ôl eu trachwantau eu hunain,

4 Ac a ddywedant, pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? canys er pan fu farw y tadau pob peth ſydd yn parhau yn yr un modd, o ddechreuad y creaduriaeth.

5 Canys hyn o'u bodd ni's gŵyddant, fod y nefoedd er yſtalm bŷd trwy air Duw, a'r ddaiar hefyd ſydd o'r dwfr, ac yn y dŵfr.

6 O herwydd pa ham y bŷd yr hwn a ydoedd y pryd hynny a gollwyd trwy ddwfr diluw.

7 Eithr y nefoedd a'r ddaiar ſy yr awr hon, trwy yr un gair a roddwyd i gadw i dân erbyn dydd farn, a deſtruw yr anwir ddynion.

Psal.94.4. 8 Fy annwylyd, na fydded yr un peth hyn yn ddirgel i chwi: * fod un dydd gyd â'r Arglwydd megis mîl o flynyddoedd, a mîl o flynyddoedd megis un dydd.

Ezech.18 32. &33.11. 1.theſſ.2.4. gwele.3.3. &16.15. 9 Nid ydyw'r Arglwydd yn oedi ei addewid (megis y tybia rhai am oed,) eithr ymarhous ydyw efe tu ag attom ni, ac *ni fynn efe fôd neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch.

10 Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr y nôs, yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio mewn trwſt, a'r defnyddiau yn wir o wrês a doddant, a'r ddaiar a'r gwaith a fyddo ynddi a loſcir.

11 A chan fôd yn rhaid i hyn eu gŷd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fôd mewn ſanctaidd ymwreddiad a duwioldeb?

12 Yn diſgwil, ac yn bryſſio at ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y llyſc y nefoedd, ac yr ymollwng: a'r defnyddiau gan wrês a doddant.

Eſay.65.17. & 69.22. gweled.21.1.

13 Eithr yr ydym ni yn diſgwil am * nefoedd newydd, a daiar newydd, ar ôl ei addewid ef, yn y rhai y cyfannedda cyfiawnder.

14 Am hynny fy annwylyd, gan eich bôd yn gwilied am gyfryw bethau, rhoddwch eich bryd ar allu o honaw ef eich cael yn ddifrychau, ac yn ddilwgr mewn tangnheddyf.

Rom.2.4.

4 Ac am * hir ammynedd ein Harglwydd, cyfrifwch mai iechyd yw, megis yr ſcrifennodd ein caredic frawd Paul attoch chwi yn ôl y doethineb a rodded iddo ef.

16 Megis yr hwn ſydd yn ſôn ym mhôb epiſtol am y fath hyn: ym myſc y rhai y mae rhyw bethau anhawdd eu deall, y rhai a ŵyra y ſaul ſydd annyſcedig, ac anwadal, fel yr ſcrythurau eraill er deſtruw iddynt eu hunain.

17 Chwy-chwi am hynny fy ãnwylyd, gan eich bôd yn gwybod y pethau hyn ym mlaen llaw, gochelwch rhag eich tynnu chwithau hefyd ar gyrwydr yr anwiriaid, a chwympo oddi wrth eich ſicrwydd eich hunain.

18 Eithr cynnyddwch mewn grâs, ac adnabyddiaeth ein Harglwydd a'n Ceidwad Ieſu Griſt: i'r hwn y byddo gogoniant yr awr hon, ac yn dragywyddol byth. Amen.

# Yr Epiſtol cyntaf cyffredinol

## i Ioan Apoſtol.

### PENNOD. I.

2 Teſtiolaeth wir am dragywyddol air Duw. 7 Bod gwaed Criſt yn glânhau oddi wrth bechod. 10 Ac nad oes neb heb pechod.

☞ *Yr Epiſtol ar ddigwyl Ioan Efangylwr.*

YR hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywſom, yr hyn a welſom â'n llygaid, yr hyn a edrychaſom arno, ac a deimlodd ein dwylo o air y bywyd,

2 (Canys y bywyd a ymddangoſodd, a gwelſom, ac yr ydym yn teſtiolaethu, ac yn dangos i chwi y bywyd tragywyddol, yr hwn oedd gyd â'r Tâd, ac a ymddangoſodd i ni,)

3 Yr hyn [meddaf] a welſom, ac a glywſom yr ydym yn ei fynegu i chwi, fel y byddo i chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni, ac fel y byddo ein cymdeithas ni hefyd gyd â'r Tâd a'i Fâb Ieſu Griſt.

4 A'r pethau hyn yr ydym yn eu ſcrifennu attoch fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn.

1.Io.1.12.

5 Hyn yw'r genadwri a glywſom ganddo ef, ac yr ydym yn ei adrodd i chwi, mai * goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.

6 Os dywedwn fod i ni gymdeithas ag ef, a rhodio yn y tywyllwch, celwyddog ydym, ac nid ydym ar y gwir.

Heb.9.28. 1.pet.1.19. gwelc.1.5. 1.Bre.8.46. 2.chron. 6.36. dihar.20.9.

7 Eithr os rhodiwn yn y goleuni, megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'i gilydd, a * gwaed Ieſu Griſt ei Fab ef ſydd yn ein glanhau oddi wrth bob pechod.

8 Os * dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, ar gwirionedd nid yw ynom.

9 Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe, a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac ein glânhâo ni oddi wrth bob anwiredd.

10 Os dywedwn na phechaſom, yr ydym yn ei wneuthur ef yn gelwyddog, a'i air nid yw ynom. ☜

### PEN. II.

Y mae yn dangos fod Criſt yn eiriolwr troſom ni, 10 Fod yn rhaid i ni ddilyn cariad perffaith, 18 A gochelyd rhag ang-hriſt.

FY mhlant bychain y pethau hyn yr wyf yn eu ſcrifennu attoch, fel na phechoch: ac o phecha neb y mae i ni eiriolwr gyd a'r Tâd, Ieſu Griſt y cyfiawn.

2 Ac efe yw'r iawn tros ein pechodau: ac nid tros yr eiddom ni yn unic, eithr tros bechodau yr holl fyd.

3 Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, os cadwn ni ei orchymynnion ef.

4 Yr hwn a ddywed, mi ai hadwen ef, ac ni cheidw ei orchymynnion, celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo.

5 Eithr yr hwn a geidw ei air ef, yn wir yn hwnnw y mae cariad Duw yn berffaith: wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef.

6 Yr hwn a ddywed ei fod yn aros ynddo ef, a ddyle felly rodio megis y rhodiodd yntef.

7 Frodyr nid wyf yn ſcrifennu gorchymyn newydd attoch, eithr gorchymyn hên yr hwn a fu i chwi o'r dechreuad: yr hên orchymyn yw'r gair, yr hwn a glywſoch o'r dechreuad.

8 Trachefn gorchymyn newydd yr wyf yn ei ſcrifennu attoch, yr hwn ſydd wir ynddo ef, ac ynoch chwithau [hefyd:] canys y tywyllwch a aeth heibio, a'r gwir oleuni ſydd yr awr hon yn tywynnu.

9 Yr hwn a ddywed ei fôd yn y goleuni, ac yn caſau ei frawd, yn y tywyllwch y mae hyd y pryd hyn.

10 Yr hwn a gâr ei frawd ſydd yn aros yn Pen. 3.14.

y

y goleuni,ac nid oes rhwyſtr ynddo.

11 Eithr hwn a gaſâo ei frawd, yn y tywyllwch y mae,ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio, ac ni ŵyr i ba le y mae yn myned,am ddarfod i'r tywyllwch ddallu ei lygaid.

12 Ha blant bychain,yr wyf yn ſcrifennu attoch o blegit maddeu i chwi eich pechodau er mwyn ei enw ef.

13 Scrifennu yr wyf attoch dadau, am i chwi adnabod yr hwn ſydd o'r dechreuad, ſcrifennu yr wyf attoch chwi wŷr ieuaingc, am ddarfod i chwi orchfygu y drwg.

14 Scrifennu yr wyf attoch chwi y rhai bychain am i chwi adnabod y Tad, ſcrifennais attoch chwi dadau, gan i chwi adnabod yr hwn ſydd o'r dechreuad: ſcrifennais attoch chwi wŷr ieuaingc am eich bod yn gedyrn; a bod gair Duw yn aros ynoch, a gorchfygu o honoch y drwg.

15 Na cherwch y byd na'r pethau ſy yn y byd,o châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.

16 Canys beth bynuag ſydd yn y byd [megis] chwant y cnawd,a chwant y llygaid,a balchder y bywyd, nid yw o'r Tâd, eithr o'r byd y mae.

17 A'r byd a'i chwant ſydd yn myned heibio, a'r hwn a wna ewyllys Duw a erys yn dragywydd.

18 Ha blant bychain yr amſer diweddaf ydyw,a megis y clywſoch y deue anghriſt, felly yr awr hon y mae anghriſtiau lawer: wrth yr hyn y gŵyddom mai'r amſer diweddaf ydyw.

19 Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddent o honom ni; canys pe buaſent o honom ni,arhoſaſēt gyd â ni,eithr[hyn a ddarfu] fel yr egluro nad ydynt oll o honom ni.

20 Eithr y mae i chwi ennaint oddi wrth yr hwn [ſydd] ſanctaidd,a [chwi] a ŵyddoch bob peth.

21 Nid ſcrifennais attoch, o blegit na ŵyddoch y gwirionedd: eithr am i chwi ei wybod, ac am nad oes dim celwydd o'r gwirionedd.

22 Pwy yw'r celwyddog, onid yr hwn a wâdo, mai Ieſu yw'r Criſt? hwn yw'r anghriſt yr hwn a wâd y Tad a'r Mab.

23 Pwy bynnac a wâdo y Mab, nid yw y Tad gan hwnnw ychwaith.

24 Arhoſed gan hynny ynoch chwi yr hyn a glywſoch o'r dechreuad: od erys ynoch yr hyn a glywſoch o'r dechreuad, chwithau hefyd a arhoſwch yn y Mab,ac yn y Tad.

25 A hwn yw'r addewid, a addawodd efe i ni,[ſef] bywyd tragywyddol.

26 Y pethau hyn a ſcrifennais attoch o herwydd y rhai ſy i'ch twyllo.

27 Eithr yr ennaint a dderbyniaſoch ganddo ef ſydd yn aros ynoch, ac nid rhaid i chwi fod neb i'ch dyſcu, ond fel eich dyſc yr ennaint hwnnw am bob peth: ac y mae yn gywir, ac nid yw yn gelwyddog, ac megis eich dyſcodd yr arhoſwch ynddo.

28 Ac yr awr hon blant bychain arhoſwch ynddo, fel pan ymddangoſo efe, y byddo hyder genym,ac na chywilyddiom ger ei fron ef, yn ei ddyfodiad.

29 Os gŵyddoch ei fod ef yn gyfiawn,gwybyddwch mai pwy bynnag a wna gyfiawnder a aned o honaw ef.

## PEN. III.

4 Dirfawr gariad Duw arnom, 7 a pha fodd y dylem ninnau garu eu gilydd.

GWelwch pa gariad a roes y Tad arnom, fel i'n gelwid yn feibion Duw: o blegit hyn nid edwyn y byd chwi gan nad adnabu efe ef.

2 Oh anwylyd yr awr hon yr ydym yn feibion Duw, eithr nid ymddangoſodd etto pa beth a fyddwn,eithr gŵyddom pan ymddangoſo, y byddwn gyffelyb iddo ef: canys gwelwn ef megis ag y mae.

3 A phob vn ſydd ganddo y gobaith hyn ynddo,a'i purha ei hun,megis y mae yntef yn bur.

4 Pwy bynnac a wna bechod, y mae efe hefyd yn gwneuthur anghyfraith: canys anghyfraith yw pechod.

Eſai 53.6.
1.Pet.2.22.

5 A gŵyddoch ymddangos o honaw ef er * deleu ein pechodau ni,ac ynddo [ef] nid oes pechod.

6 Pwy bynnag ſydd yn aros ynddo [ef] ni phecha: pwy bynnag a becha ni welodd [ddim] o honaw ef,ac ni's adnabu ef.

7 Oh blant bychain na thwylled neb chwi: yr hwn ſydd yn gwneuthur cyfiawnder ſydd gyfiawn,megis y mae yntef yn gyfiawn.

Ioan.8.44.

8 Yr hwn a * wna bechod o ddiafol y mae, canys y mae diafol yn pechu o'r dechreu: er [mwyn] hyn yr ymddangoſodd Mab Duw fel y datode weithredoedd diafol.

9 Pob vn a aned o Dduw ni phecha: canys ei hâd ef ſydd yn aros ynddo, ac ni all efe bechu, am ei eni ef o Dduw.

10 Yn hyn yr adweinir plant Duw,a phlant diafol: pwy bynnac nid yw yn gwneuthur cyfiawnder; nid iw o Dduw, na'r hwn ni charo ei frawd.

Ioan.13.34.
Gen.4.8.

11 Canys hyn yw'r genadwri a glywſoch o'r dechreuad,bod i ni * garu ei gilydd.

12 Nid fel * Cain [yr hwn] oedd o'r drwg, ac a laddodd ei frawd: ac am ba beth y lladdodd efe ef? am fod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a rhai ei frawd yn dda.

*Yr Epyſtol yr ail Sul ar ôl y Drindod.*

13 ☞ Na ryfeddwch fy mrodyr os caſa'r byd chwi.

Pen.2.10.
Lefit.19.17.

14 Nyni a ŵyddom ddarfod ein ſymmudo o farwolaeth i fywyd, gan ein bod yn caru y brodyr: * yr hwn ni charo [ei] frawd ſydd yn aros yn marwolaeth.

Ioan.15.13.
Ephe[illegible]

15 Pwy bynnac a gaſâo ei frawd lleiddiad dyn yw: a gŵyddoch nad oes i vn lleiddiad dyn fywyd tragywyddol yn aros ynddo.

16 * Yn hyn yr adnabuom gariad, gan iddo

ef

Luc.3.11. ef roddi ei enioes droſom ni, a ninnau a ddylem roddi ein henioes tros ein brodyr.

17 *A phwy bynnac ſydd ganddo olud y byd hwn, ac a wêl ei frawd mewn eiſieu, ac a geidw ei doſturi oddi wrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo?

18 Fy mhlant bychain na charwn ar air, nac ar dafod [yn vnic,] eithr mewn gweithred a gwirionedd.

19 Ac wrth hynny y gŵyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y bydd i ni ger ei fron ef ddiogelu ein calonnau.

20 Os ein calonnau a'n condemna, mwy yw Duw nâ'n calonnau, ac efe a ŵyr bob peth.

21 Oh rai annwyl, os ein calon ni'n condemna, y mae i ni hyder ar Dduw.

Pen.5.14. Math.21.22. Ion.15.7. 22 A *pha beth bynnag a ofynnom, [nyni a'i] derbynniwn ganddo, gan i ni gadw ei orchymynnion, a gwneuthur y pethau ſy fodlon yn ei olwg ef.

Ion.5.24. 23 *Hwn gan hynny yw ei orchymyn ef, fod i ni gredu yn enw ei Fab Ieſu Griſt, a charu eu gilydd, fel y rhoes efe orchymyn i ni.

Ion.13.34. 24 Canys yr hwn a geidw ei orchymynnion ef, a drig ynddo ef, ac efe a drig ynddo yntef: ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, [ſef] o'r Yſpryd yr hwn a roddes efe i ni.

## PEN. IIII.

1 Gwahaniaeth yſprydion, 2 pa fodd yr adweinir Yſpryd Duw rhag yſbryd cyfeiliorni, 7 am gariad Duw a'n cymydogion.

Oh rai annwyl na chredwch bob Yſpryd, eithr profwch yr yſprydion ai o Dduw y maent: canys gau brophwydi lawer a aethant allan i'r byd.

2 Wrth hyn yr adwaenwch Yſpryd Duw: pob Yſpryd yn cyffeſſu dyfod o Ieſu Griſt yng-hnawd, ſydd o Dduw.

3 A phob Yſpryd ni chyffeſſa ddyfod Ieſu Griſt yng-hnawd, nid yw o Dduw: eithr hwn yw [Yſpryd] anghriſt, am yr hwn y clywſoch y deue, ac y mae efe yr awr hon yn y byd.

4 Oh blant bychain yr ydych chwi o Dduw, ac chwi a'u gorchfygaſoch hwy: canys mwy yw'r hwn ſydd ynoch chwi, nâ'r hwn ſydd yn y byd.

5 Hwynt hwy o'r byd y maent, am hynny y llefarant am y byd, a'r byd a wrendu arnynt:

Ion.8.47. 6 Nyni o Dduw yr ydym, yr hwn a *edwyn Dduw ſydd yn ein gwrando ni: yr hwn nid yw o Dduw ni'n gwrendu ni, wrth hyn yr adwaenom Yſpryd y gwirionedd, ac Yſpryd y cyfeiliorni.

*Yr Epyſtol ar y Sul cyntaf ar ôl y Drindod.* 7 ☞ Oh annwylyd, carwn eu gilydd: canys cariad o Dduw y mae, a phob vn a gâr, o Dduw y ganed ef, ac efe a edwyn Dduw.

8 Yr hwn ni châr, nid edwyn Dduw: canys cariad yw Duw.

Ion.3.16. 9 *Yn hyn y mae cariad Duw yn ymddangos arnom ni, gan i Dduw ddanfon ei vnic genhedledig Fab i'r byd, fel y byddom fyw trwyddo ef.

10 Yn hyn y mae cariad, nid am [ddarfod] i ni garu Duw: eithr am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab [i fod] yn iawn dros ein pechodau.

11 Oh annwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau a ddylem garu eu gilydd.

Ion.1.18. 1.Tim.6.16. 12 Ni welodd neb Dduw er ioed: os carwn ni eu gilydd y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad yn berffaith ynom.

13 Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo [ef,] ac yntef ynom ninneu: gan [ddarfod] iddo roddi i ni o'i Yſpryd [ef.]

14 A ninnau a welſom, ac a deſtiolaethwn [ddarfod] i'r Tâd ddanfon y Mab [i fod] yn Iachawdr i'r byd.

15 Pwy bynnag a gyffeſo fod Ieſu yn Fab Duw, ynddo ef y mae Duw yn trigo, ac yntef yn-Nuw.

16 A nyni a adnabuom, ac a gredaſom y cariad yr hun ſydd gan Dduw ynom: Duw cariad yw, a'r hwn ſydd yn aros yng-hariad ſydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntef.

17 Yn hyn y cwplheir y cariad ynom, fel y byddo i ni hyder ddydd farn: canys fel y mae efe, felly yr ydym ninnau yn y byd hwn.

18 Nid oes ofn yng-hariad, eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn: o blegit y mae i ofn boenedigaeth: a'r hwn a ofna, nid yw berffaith mewn cariad.

19 Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef ein caru ni yn gyntaf.

20 Os dywed neb yr wyf yn caru Duw, ac yntef yn caſau ei frawd, celwyddog yw: canys pa fodd y gall efe yr hwn nid yw yn caru ei frawd a welodd, garu Duw yr hwn ni welodd?

Ion.13.34. 21 Ar *gorchymyn hwn ſydd i ni ganddo ef, bod i'r hwn a garo Dduw, garu ei frawd hefyd.

## PEN. V.

1 Am ffrwythau ffydd, 14 ſwydd awdurdod a dyndab Criſt, 21 addyſc yn erbyn eulynnod.

Pwy bynnag ſydd yn credu mai Ieſu yw 'r Criſt, o Dduw y ganed, a phob vn ſydd yn caru yr hwn a genhedlodd, ſydd hefyd [yn caru] yr hwn a genhedlwyd o honaw.

2 Yn hyn y gŵyddom y carwn blant Duw, pan ydym yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynnion.

Math.11.30. 3 Canys hyn yw cariad Duw, bod i ni gadw ei orchymynnion: a'i *orchymynnion nid ynt drymion.

*Yr Epyſtol y Sul cyntaf ar ôl y Paſc.* 4 Canys ☞ y mae pob vn a'r a aned o Dduw yn gorchfygu 'r byd, a hon yw yr oruchafiaeth yr hon ſydd yn gorchfygu y byd, [ſef] ein ffydd ni.

1.Cor.15.57. 5 *Pwy ſydd yn gorchfygu yr byd, onid yr hwn ſydd yn credu mai Ieſu yw Mab Duw?

6 Hwn yw 'r Ieſu Griſt a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, nid trwy ddwfr yn vnic, onid

trwy ddwfr a gwaed: a'r Yſpryd yw'r hwn ſydd yn teſtiolaethu: canys yr Yſpryd ſydd wirionedd.

7 Canys y mae tri yn teſtiolaethu yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Yſpryd glân: a'r tri hyn vn ydynt.

8 Ac y mae tri yn teſtiolaethu ar y ddaiar, yr Yſpryd a'r dwfr a'r gwaed: a'r tri hyn yn vn y maent [yn cyduno.]

9 Os teſtiolaeth dynnion a dderbyniwn y mae teſtiolaeth Duw yn fwy: canys hyn yw teſtiolaeth Duw, yr hon a deſtiolaethodd efe am ei Fab.

10 Yr hwn ſydd yn credu * ym Mab Duw y mae iddo y deſtiolaeth ynddo ei hun: hwn nid yw yn credu i Dduw, ai gwnaeth ef yn gelwyddog, gan na chredodd y deſtiolaeth yr hon a deſtiolaethodd Duw am ei Fab. Io.3.36.

11 A hon yw'r deſtiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol: a'r bywyd hwn ſydd yn ei Fab ef.

12 Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo: a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd. ☞

13 Y pethau hyn a ſcrifennais attoch chwi y rhai ydych yn credu yn enw Mab Duw, fel y gwypoch fod i chwi fywyd tragywyddol, ac fel y credoch yn enw Mab Duw.

14 * A hyn yw'r hyfder ſydd genym ynddo ef, canys o gofynnwn ddim yn ôl ei ewyllys ef, efe a'n gwrendu. Pen.3.22.

15 Ac os gwyddom ei fod ef yn ein gwrando, pa [beth] bynnag a ofynnom, gwyddom fod i ni ein gofynniad a ofynnom iddo ef.

16 Os gwêl neb ei frawd yn pechu pechod, [yr hwn] nid [yw] i farwolaeth, gofynned, ac efe a rydd iddo fywyd, ſef i'r rhai ni phechant i farwolaeth: y mae pechod i farwolaeth, nid wyf yn dywedyd y dylid gweddio tros hwnnw.

17 Pob anghyfiawnder ſydd bechod: ac y mae pechod [yr hwn] nid [yw] i farwolaeth.

18 Pwy bynnag a aned o Dduw, gwyddom nad yw yn pechu, eithr hwn a genhedlwyd o Dduw a'i ceidw ei hun, a'r drwg ni chyffwrdd ag ef.

19 Gwyddom ein bod o Dduw, ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni.

20 Ac [ni] a ŵyddom * ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl i adnabod yr hwn ſydd gywir, ac yr ydym yn y cywir hwnnw [ſef] yn ei Fab ef, Ieſu Griſt: yr hwn ſydd wir Dduw, a bywyd tragywyddol. Luc.24.45.

21 [Fy] rhai bychain ymgedwch oddi wrth eulynnod. Amen.

# Yr ail Epiſtol Ioan.

Y mae efe yn ſcrifennu at arglwyddes gan lawenychu am dduwioldeb ei phlant hi. 5 A'u hannog hwythau i ddilyn cariad, ac i ochelyd gau athrawon.

YR henuriad at yr etholedig arglwyddes, a'i phlāt, y rhai ſy hoff gennif yn y gwirionedd, ac nid myfi yn vnic, eithr y rhai oll a adnabuant y gwirionedd:

2 Er mwyn y gwirionedd yr hwn ſydd yn aros ynom ni, ac a fydd gyd â ni yn dragywydd.

3 Bydded grâs gyd â chwi, trugaredd a thangnheddyf gan Dduw Tâd, ac oddi wrth yr Arglwydd Ieſu Griſt Fab y Tâd, gyd â gwirionedd, a chariad.

4 Llawen iawn oedd gennif gael o honot dy blant yn rhodio mewn gwirionedd, fel y derbyniaſom orchymyn gan y Tâd.

5 Ac yn awr yr wyf yn attolwg i ti, ô arglwyddes, (nid fel vn yn ſcrifennu gorchymyn newydd i ti, eithr yr hwn oedd i ni o'r dechreu) bod i ni * garu eu gilydd.

6 A hwn yw'r cariad, bôd i ni rodio yn ôl ei orchymynnion ef, hwn yw'r gorchymyn, bôd i chwi fel y clywſoch o'r dechreu rodio ynddo.

7 Canys llawer o dwyllwŷr a ddaethant i mewn i'r bŷd, y rhai ni chyffeſant ddyfod Ieſu Griſt yn y cnawd: yr hwn ſydd gyfryw, twyllwr yw, ac anghriſt.

8 Edrychwch arnoch eich hunain, na chollom y pethau a wnaethom, eithr fel y derbyniom lawn wobr.

9 Pwy bynnag ſydd yn troſſeddu, ac nid yw yn aros yn nyſceidiaeth Criſt, nid yw Duw ynddo: yr hwn ſydd yn aros yn nyſceidiaeth Criſt, y mae ynddo y Tâd a'r Mâb.

10 Os daw nêb attoch ac heb ddwyn y ddyſceidieth hon, * na dderbynnwch ef i'r tŷ, ac na chyfarchwch ef: Ruf.16.17.

11 Canys y mae yr hwn ai cyfarcho yn gyfrannog o'i weithredoedd drwg ef. Er bôd gennif lawer o bethau iw ſcrifennu attoch, er hynny nid ſcrifennaf â phappyr ac ingc, eithr gobeithio'r ydwyf ddyfod attoch, a llefaru enau yng-enau, fel y cyflawner ein llawenydd.

12 Y mae meibion dy etholedig chwaer i'th annerch. Amen.

# Y trydydd Epiſtoli Sanct Ioan.

Duwiol fuchedd Gaius. 9 Anglod Diotrephes. 12 A chlod Demetrius.

YR henuriad at yr annwyl Gaius, yr hwn yr wyf yn ei garu mewn gwirionedd.

2 Yr annwyl, yr ydwyf yn dymuno yn bennaf dy fôd yn llwyddo, ac yn dda'r bŷd arnat, fel y mae dy enaid yn llwyddo.

3 Canys llawenychais yn fawr, pan ddaeth dy frodyr a theſtiolaethu am y gwirionedd ſydd ynot, fel yr ydwyt yn rhodio mewn gwirionedd.

4 Nid oes gennif lawenydd mwy nâ hyn [nid amgen,] clywed bôd fy meibion yn rhodio mewn gwirionedd.

5 Yr annwyl, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlon yr hyn yr wyt yn ei wneuthur i'r brodyr, ac i eſtroniaid,

6 Y rhai a deſtiolaethaſant am dy gariad ger bron yr eglwyſi, y rhai os hebryngi rhagddynt megis y gwedde o herwydd Duw, da y gwnei.

7 Canys er mwyn ei enw ef yr aethant allã, heb gymmeryd dim gan y cenhedloedd.

8 Nyni a ddylêm gan hynny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gynhorthwy-wŷr i'r gwirionedd.

9 Scrifennais at yr eglwys: eithr Dictrephes yr hwn ſydd yn chwennych cael blaenori yn eu plith hwy, ni dderbyn ddim o honom.

10 O herwydd pa ham, os deuaf, mi a fynegaf ei weithredoedd y rhai y mae yn eu gwneuthur, gan ſiarad yn ein herbyn ni â geiriau drygionus: ac nid yn fodlon i hynny, hefyd nid yw efe ei hun yn derbyn y brodyr, eithr y mae yn gwahardd y rhai a ewyllyſient, ac yn eu gyrru o'r eglwys.

11 Fy annwylyd, na ddilyn yr hyn ſydd ddrwg, ond yr hyn ſydd dda: yr hwn ſydd yn gwneuthur daioni o Dduw y mae: a'r hwn a wna ddrygioni, ni welodd Dduw.

12 Y mae i Demetrius air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hunan: a nyni hefyd ein hunain ydym yn teſtiolaethu, a gwyddoch fôd ein teſtiolaeth ni yn wîr.

53 Y mae i mi lawer o bethau iw ſcrifennu: eithr nid a phen ac ingc yr eſcrifennaf i attat.

14 Gobeithio yr ydwyf gael dy weled ar fyrder, ac y cawn ymddiddan enau yng-enau.

15 Tangnheddyf i ti, y mae y cyfeillion i'th annerch: annerch y cyfeillion wrth eu henwau.

# Epiſtol cyffredinol Sanct

## IUDAS.

Y mae yn cynghori pawb i ymgadw oddi wrth y gau athrawon gã ddangos eu drwg cynneddfau a'u mawr ddialedd, ac yna yn annog i barhau yn y gwirionedd.

*Yr Epiſtol ar ddydd Symõ ac Iudas.*

IUdas gwaſanaethwr Ieſu Griſt, a brawd Iaco at y rhai a alwyd, ac a ſancteiddiwyd gan Dduw Tâd, ac ydynt gadwedig i Ieſu Griſt:

2 Trugaredd i chwi, a thangnheddyf, a chariad a luoſoger.

3 Fy annwylyd, pan roddais fyng-hwbl ddiwydrwydd ar ſcrifennu attoch, am yr iechydwriaeth gyffredinol, anghenrhaid oedd i mi ſcrifēnu attoch i'ch annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd, yr hon a rodded vn-waith i'r ſainct.

2.Pet.2.1.

4 Canys y mae rhyw ddynion wedi ymluſco i mewn, y rhai oeddynt gynt wedi eu rhagordeinio i'r farnedigaeth hon: annuwolion ydynt, y rhai ſy yn dymchwelyd grâs Duw yn drythyllwch, ac yn *gwadu Duw yr vnic Arglwydd, a'n Harglwydd Ieſu Griſt.

Num.14.37.

5 Ewyllyſio gan hynny yr ydwyf eich coffa, yn gymmaint, ac i chwi vn-waith wybod hyn, pa wedd y bu i'r Arglwydd, wedi darfod iddo waredu y bobl allan o'r Aipht, *ddeſtruwio eilwaith y rhai ni chredent.

2.Pet.2.4.

6 Yr *angelion hefyd y rhai ni chadwaſant eu dechreuad eithr gadel eu trigfa eu hun, a gadwodd efe mewn cadwynau tragywyddol i dân tywyllwch, hyd farn y dydd mawr.

Gen.19.24.

7 Megis *Sodoma, a Gomorha, a'r dinaſoedd o'u hamgylch, y rhai yn gyffelyb fodd ag hwynt a wnaethant odineb, ac a ddilynaſant gnawd arall, a oſodwyd yn ſiampl, gan ddioddef dialedd tân tragywyddol.

8 Yn gyffelyb i hynn y mae y breuddwydwŷr hyn yn halogi'r cnawd, ac yn dirmygu llywodraeth, ac yn cablu y rhai ſy mewn awdurdod.

9 Eithr Mihangel yr arch-angel, pan ymryſonodd efe yn erbyn diafol, ac ymddadle am gorph Moſes, ni feiddiodd feio arno â chablau, onid dywedyd, cerydded yr Arglwydd di.

y rhai hyn a gablant y pethau ni pha beth bynnag a ŵyddant yn na-gis anifeiliaid y rhai ſy yn ddireſ-

pethau hynny y maent yn ymly-

ae hwyntwy, canys cerddaſant yn Cain, ac a'u ddifethwyd gan dwyll Balaam, ac a'u cyfrgollwyd yng-wrth

ad* Core.

rhai hyn ydynt frychau yn eich cari-

oedd pan fyddant yn cyd-wledda â yn ddiofn, yn eu peſci eu hunain:*

lau ydynt diddwfr, wedi eu cylch-ar-gan wyntoedd: prennau llygredic heb

ych, dwy waith yn feirw, ac wedi eu diwrei-

d.

13 Tonnau cynddeiriog y môr ydynt, yn ewynnu allan eu cywilydd eu hunain: ſêr gwibiog, i'r rhai y cadwyd niwl y tywyllwch yn ragywydd.

14 Ac Enoc hefyd y ſeithfed o Adda, a bro-phwydodd am y cyfryw rai, gan ddywedyd:* wele, y mae'r Arglwydd yn dyfod gyd â myrddiwn o'i ſeinctiau,

15 I roi barn yn erbyn pawb, ac i argyhoeddu'r holl annuwolion yn eu plith hwynt am eu holl annuwiol weithredoedd, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, ac am eu holl ymadroddion caled, y rhai a ddywede pechaduriaid annuwiol yn eu herbyn.

16 Y rhai hyn ydynt grwgnach-wŷr, achwynwyr, [a] rhai yn cerdded yn ôl eu chwantau eu hunain:* genau y rhai a ddywed falch bethau: yn mawrygu [dynion] er mwyn budd. Pſal.17.10.

17 Eithr (oh rai annwyl) cofiwch y geiriau a ragddywetpwyd gan Apoſtolion Ieſu Griſt.

18 Gan iddynt ddywedyd wrthych, y bydde gwatworwŷr yn yr* amſer diweddaf, y rhai a gerddent yn ôl eu hannuwiol chwantau eu hunain. 1.Tim.1.4. 2.Tim.3.1. 2.Pet.2.3.

19 Y rhai hyn ydynt yn ymnailltuo yn gnawdol, heb fôd yr Yſpryd ganddynt.

20 Eithr chwy-chwi annwylyd, ymadeiledwch yn eich ſanteiddiaf ffydd, gan weddio yn yr Yſpryd glân,

21 Am ymgedwch yng-hariad Duw, gan edrych am drugaredd Ieſu Griſt i fywyd tragywyddol.

22 A thrugarhewch wrth rai, gan ymraſael farnu.

23 Ac eraill cedwch ag ofn, gan eu tynnu allan o'r tân, gan gaſau y wiſc a halogwyd gan y cnawd.

24 Ac i hwn a ddichon eich cadw yn ddigwymp, a'ch goſod yn ddifeius yng-ŵydd ei ogoniant trwy orfoledd,

25 Sef, i Dduw yr unic ddoeth, ein Iachawdur [y byddo] gogoniant, a mawredd, ac arglwyddiaeth, a meddiant, yr awr hon, ac yn yr holl oeſoedd; Amen.

*Terfyn.*

# Gvveledigaeth Ioan y Difinydd.

PENNOD I.

1 Achos y weledigaeth hon, 3 am y rhai a'i darllenant, 4 Ioan yn ſcrifennu at y ſaith eglwys, 13 mawredd a ſwydd Mab Duw, 20 gweledigaeth y canhwyll-brennau a'r ſêr.

GWELedigaeth Ieſu Griſt, yr hon a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w waſanaeth-wŷr y pethau a orfydd yn fuan eu dyfod i ben, ac a ddanfonodd, ac a ddangoſodd efe trwy ei Angel i'w waſanaeth-wr Ioan:

2 Yr hwn a deſtiolaethodd am air Duw, ac am deſtiolaeth Ieſu Griſt, ac am bôb pêth a welodd efe.

3 Dedwydd yw'r nêb a ddarlleno, a'r rhai a wrandawant eiriau y brophwydoliaeth hon, ac a gadwant y pethau ſy yn ſcrifennedig ynddi hi, canys y mae'r amſer yn agos.

4 Ioan at y ſaith eglwys y rhai [ydynt] yn Aſia: Grâs fyddo gyd â chwi, a heddwch oddi wrth yr hwn * ſydd, yr hwn a fu, a'r hwn a fydd rhag-llaw, ac oddi wrth y ſaith Yſpryd y rhai ydynt ger bron ei orſedd-faingc ef, Exod.3.14.

l.89.37.
or.15.20.
l.1.18.
.9.14.
ct.1.19.
ıoan.1.9.
.Pet.2.5.

5 Ac oddi wrth Ieſu Griſt yr hwn ſydd dyſt *ffyddlon y * cyntaf-anedic o'r meirw, a thywyſog brenhinoedd y ddaiar, iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau *yn ei waed ei hun,

6 Ac a'n gwnaeth ni yn * frenhinoedd, ac yn offeiriaid i Dduw ei Dâd ef, iddo ef y byddo gogoniant, ac emherodraeth yn oes oeſoedd, Amen.

Eſa.3.14.
Math.24.30.
Iud.14.

7 Wele, y mae efe yn dyfod gyd â'r * wybrennau, a phob llygad a'i gwel ef, a'r rhai hefyd a'i gwanaſant ef: ac wylofain a wna ger ei fron ef holl dylwythau y ddaiar, felly y mae, Amen.

Pen.21.6.
& 22.13.

8 Mi ŵyf Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, mêdd yr Arglwydd, yr hwn ſydd, a'r hwn fu, ac yr hwn a ddaw, [ſef] yr Holl-alluog.

9 Myfi Ioan eich brawd chwi, a'th cydymmaith mewn cyſtudd, ac yn y deyrnas, ac mewn dioddefgarwch Ieſu Griſt, oeddwn mewn ynys a elwir Patmos am air Duw, ac am deſtiolaeth Ieſu Griſt,

10 Yr oeddwn yn yr Yſpryd yn nŷdd yr Arglwydd, ac mi a glywais yn fy ôl lais uchel fel udcorn

11 Yn dywedyd, mi ŵyf Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf, a'r peth yr hwn ŵyt ti yn ei weled, ſcrifenna mewn llyfr, a danfon i'r ſaith eglwys y rhai ſy yn Aſia, i Epheſus, ac i Smyrna, ac i Pergamus, ac i Thyatira, ac i Sardis, ac i Philadelphia, ac i Laodicia.

12 A mi a droais yn fy ôl i weled y llais a ddywedaſe wrthifi, a phan droais, mi a welwn ſaith ganhwyll-bren o aur,

13 Ac yng-hanol y ſaith ganhwyll-bren aur un yn debyg i Fab y dŷn, wedi ymwiſco â gwiſc laes hyd ei draed, ac wedi gwiſco gwregys aur yng-hylch ei fronnau.

14 Ei benn a'i walt oeddynt wynnion, fel gwlân gwyn, ac fel eira, a'i lygaid oeddent fel fflam dân.

15 A'i draed oeddent fel prês coeth, megis yn lloſci mewn ffwrn, a'i lais fel ſwn llawer o ddyfroedd.

16 Ac yr oedd yn ei law ddehau ſaith ſeren, o'i ênau yr ydoedd cleddyf yn myned allan llym dau-finiog, a diſcleiriodd ei ŵyneb ef fel yr haul yn ei nerth.

Dan.10.9.
Eſai.41.4.
& 44.6.

17 A phan welais ef, mi a 'ſyrthiais wrth ei draed fel marw, ac efe a roddodd ei law ddehau arnaf, gan ddywedyd wrthif, nac ofna mi ŵyf y cyntaf a'r diweddaf,

18 Ac yr ŵyf yn fyw, ac a fum farw, ac wele, yr ŵyf yn fyw yn oes oeſoedd, Amen, ac y mae gennif agoriadau uffern, â marwolaeth.

19 Scrifenna y pethau a welaiſt, a'r pethau ydynt, a'r pethau a orfydd fod rhag llaw.

20 Dirgelwch y ſaith ſeren a
llaw-ddehau, a'r ſaith ganhwyll-
hyn:] y ſaith ſeren, angelion y ſai
dynt, a'r ſaith ganhwyll-bren a wel
eglwys ydynt.

PEN. II.

*1 Y mae efe yn cyng-hori pedair eglwys i*
*i barhau, i ddioddef, ac i wellhau, trwy fygw*
*widion.*

SCrifenna at angel eglwys Epheſ
y mae yr hwn ſydd yn dal y ſaith ſe
ei law ddehau, ac ſydd yn rhodio y
nol y ſaith ganhwyll-bren aur, yn ei d
dyd:

2 Mi a adwen dy weithredoedd, a'th l
en, a'th ddioddefgarwch, ac na elli gyd-ddwy
â'r rhai drwg, a phrofi o honot y rhai ſy yn d
wedyd eu bôd yn Apoſtolion, ac nid ydynt, a c
a'u cefaiſt hwynt yn gelwyddoc.

3 A thi a oddefaiſt, ac yr ŵyt yn oddefgar, a
a gymmeraiſt boen er mwyn fy enw i, ac ni
ddeffygiaiſt.

4 Ac er hynny, y mae gennif [beth] yn
dy erbyn, am i ti ymadel â'th gariad cyn
taf.

5 Meddylia am hynny o ba le y ſyrthiaiſt, a
edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf, ac onid ê, mi a ddeuaf ar frŷs yn dy erbyn, ac a ſymmudaf dy ganhwyll-bren allan o'i le, oni edifarhei di.

6 Ond hyn ſydd gennif, dy fôd ti yn caſâu gweithredoedd y Nicolaiaid, y rhai yr wyf i hefyd yn eu caſâu.

7 Y neb ſydd â chluſt ganddo gwrandawed, pa beth y mae yr Yſpryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwyſi, i'r gorchfygwr y rhoddaf fwyta o bren y bywyd, yr hwn ſydd yng-hanol paradwys Duw.

8 Ac ſcrifenna at Angel eglwys yr Smyrniaid, hyn a ddywed yr hwn ſydd gyntaf a diweddaf, yr hwn a fu farw, ac ſydd yn fyw,

9 Mi a adwen dy weithredoedd, a'th gyſtudd, a'th dlodi, (eithr yr ŵyt yn gyfoethog) ac [mi a adwen] gabledd y rhai ſy yn dywedyd eu bod yn Iddewon, ac nid ydynt, ond y maent yn Synagog Satan.

10 Nac ofna ddim o'r pethau a orfydd i ti eu goddef, wele, y cythrael a fwrw rai o honoch chwi i garchar, fel y gellir eich profi chwi: a chwi a gewch gyſtudd ddeng-nhiwrnod, bydd ffyddlon hyd farwolaeth, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.

11 Y neb ſydd â chluſt ganddo, gwrandawed pa beth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi, ni niweidir y gorchfygwr gan yr ail farwolaeth.

12 Ac ſcrifenna at angel eglwys Pergamus, hyn y mae efe yn ei ddywedyd yr hwn ſydd â'r cleddyf llym dau finiog ganddo.

13 Mi a adwen dy weithredoedd, a'th drig-le [ſef] lle mae gorſeddfaingc Satan, a thi a gedwaiſt fy enw i, a'm ffydd i ni's gwedaiſt, ie yn y dyddiau pan laddwyd fy ffyddlon ferthyr Antipas yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo.

Num.23.14. hefyd.25.1.

14 Eithr y mae gennif ychydig bethau yn dy erbyn, canys y mae yno gennit rai yn dal dyſc *Balam, yr hwn a ddyſcodd i Balac fwrw rhwyſtr ger bron meibion Iſrael, i beri iddynt fwytta o'r pethau a aberthaſid i eulynnod, a godinebu,

15 Felly hefyd y mae gennit rai yn dal dyſc y Nicolaiaid, yr hyn bêth yr wyfi yn ei gaſau.

16 Edifarhâ, ac os amgen, mi a ddeuaf attat ar frys, ac a ryfelaf yn eu herbyn hwynt â chleddyf fyng-enau.

17 Y nêb ſydd â chluſt ganddo gwrandawed pa bêth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi, i hwn a orchfygo, mi a roddaf iddo ef fwytta o'r Manna, yr hwn ſydd guddiedic, ac mi a roddaf iddo ef gareg wen, ac yn y gareg henw newydd yn ſcrifennedic, yr hwn nid edwyn nêb, ond a'i derbynio,

18 Scrifenna hefyd at angel Eglwys Thyatira, hyn y mae Mâb Duw yn ei ddywedyd, yr hwn ſydd a'i lygaid fel fflam dân, a'i draed, fel prês coeth:

19 Mi a adwen dy weithredoedd, a'th gariad, a'th waſanaeth, a'th ffydd, a'th ddioddefgarwch, a'th weithredoedd, a bôd yr hyn diweddaf yn fwy nâ'r cyntaf:

1.Bren. 16.13.

20 Eithr y mae gennif ychydig bethau yn dy erbyn, a'm i ti oddef y wraig honno Iezabel, yr hon ſydd yn ei galw ei hun yn brophwydes i ddyſcu, ac i dwyllo fyng-waſanaethwŷr i odinebu, ac i fwytta bwydydd wedi eu haberthu i eulynnod,

21 A mi a roddais amſer iddi i edifarhâu am ei godineb, ac ni chymmerth hi edifeirwch.

22 Wele, mi ai bwriaf hi i wely, a'r ſawl a wnant odineb gyd â hi i gyſtudd mawr, onid edifarhânt a'm eu gweithredoedd,

1.Sam.16.7. pſal.7.10. iere.11.20. hefyd.17.10.

23 Ac mi a laddaf ei phlant hi â marwolaeth, a'r holl eglwyſi a gydnabyddant mai myfi ŵyf yr hwn ſydd yn chwilio yr arennau, a'r calonnau, ac mi a roddaf i bôb vn o honoch yn ôl eich gweithredoedd.

24 Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, ac i'r lleill yn Thyatira, pa ſawl bynnac nid oes ganddynt y ddyſc hon, ac ni adnabuant ddyfnder Satan, fel y dywedant) ni roddaf arnoch faich arall,

25 Ond y pêth ſydd gennwch euſus, deliwch yn dda hyd oni ddelwyf.

Pſal.2.9.

26 Canys yr vn a orfyddo, ac a gadwo fyng-weithredoedd hyd y diwedd, mi a roddaf iddo ef, awdurdod ar genhedloedd, ac efe a'u bugeilia hwynt â gwialen haiarn, a hwynt a ddryllir fel lleſtri pridd.

27 Ac yn y môdd y derbynniais gã fy Nhâd, felly y rhoddaffi iddo ef y ſeren forew.

28 Y neb ſydd â chlûſt ganddo, gwrandawed pa bêth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi.

## PEN. III.

Y mae efe yn annog yr eglwyſi a'u gweinidigion i wir broffeſu ffydd, ac i wilio. 12 Gan wneuthur addewidion i'r rhai a barhânt.

SCrifenna hefyd at angel yr eglwys yr hon ſydd yn Sardis, hyn a ddywedodd yr hwn ſydd â ſaith Yſpryd Duw ganddo, ac a'r ſaith ſeren, mi a adwen dy weithredoedd, canys y mae enw i ti dy fôd yn fyw, ond yr ŵyt yn farw,

2 Deffro, a chadarnhâ y lleill, y rhai ydynt yn barod i feirw, canys ni chefais i dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw.

3 Am hynny coffa pa bêth a dderbynniaiſt, ac a glywaiſt, a dal yn ſiccr, ac edifarhâ am hynny oni wili, mi a ddeuaf attat fel lleidr, ac ni chei ŵybod pa awr y deuaf attat,

4 Eithr y mae gennit ychydig o henwau etto yn Sardis, y rhai ni halogaſant eu dillad, a'r rhai hynny a rodiant gyd â mi mewn dillad gwynion, canys teilwng ydynt.

5 Yr hwn a orfyddo, a ddilladir mewn dillad gwynion, ac ni ddeleuaf ei henw ef allan o lyfr y bywyd, ond mi a gyffeſaf ei henw ef ger bron fy Nhâd, a cher bron ei angelion.

6 Y nêb ſydd â chluſt ganddo, gwrandawed, pa bêth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi.

Eſa.22.22. iob.12.14.

7 Scrifenna hefyd at angel yr eglwys yr hõ ſydd yn Philadelphia, hyn a ddywed yr hwn ſydd ſanctaidd a chywir, yr hwn y mae ganddo agoriad Dafydd, yr hwn a egyr, ac ni chaea nêb, ac a gaea, ac ni egyr nêb,

8 Mi a adwen dy weithredoedd, wele, mi a roddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon nêb ei gaeu, canys y mae gennit ychydig nerth, a thi a gedwaiſt fyng-air, ac ni wedaiſt fy henw.

9 Wele, mi a wnaf iddynt hwy o Synagog Satan, y rhai a'u galwant eu hûn yn Iddewon, ac nid ydynt, ond y maent yn gelwyddog, wele meddaf, mi a wnaf iddynt ddyfod, ac anrhydêddu ger bron dy draed, a chydnâbod fy môd i yn dy gâru di,

10 O achos i ti gadw gair fy nioddefgarwch i, am hynny mi a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr hôll fŷd, iw profi hwynt y rhai ydynt yn trigo ar y ddaiar.

11 Wele, yr ŵyf yn dyfod ar frŷs, dal yr hyn ſydd gennit rhag i nêb ddwyn dy goron,

12 Mi a wnaf yr hwn a orfyddo yn goloſn yn nheml fy Nuw i, ac nid aiff efe allan mwyach, ac mi a ſcrifennaf arno ef henw fy-Nuw i, a henw dinas fy Nuw i, yr hon ydyw Ieruſa-

lem newydd, yr hon ſydd yn deſcyn o'r nêf, oddi wrth fy Nuw i, ac [mi a ſcrifennaf arno ef] fy henw newydd i,

13 Y nêb ſydd â chlûſt ganddo, gwrandawed pa beth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi.

14 Scrifenna hefyd at angel eglwys y Laodiciaid, hyn y mae Amen yn ei ddywedyd, y tŷſt ffyddlon a chywir, dechreuad creaduriaid Duw,

15 Mi a adwen dy weithredoedd, nid ydŵyt na thwymn, nac oer, mi a fynnwn pe bait naill ai twymn ai oer.

16 Ac am hynny gan dy fôd yn glaiar, heb fôd nac yn oer, nac yn dwymn, mi a'th chwdaf di allan o'm genau,

17 Canys yr ŵyt yn dywedyd, yr ŵyf i yn gyfoethog, a chennif amlder o dda, ac nid oes arnaf i eiſieu dim, ac ni ŵyddoſt dy fôd yn druan, ac yn reſynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth,

18 Yr wyf yn dy gynghori i brynu gennifi aur wedi ei buro trwy dân fel i'th gyfoethoger, a dillad gwynion fel i'th wiſcer, ac fel nad ymddangôſo gwarth dy noethder di, îra hefyd dy lygaid ag eli llygaid, fel y gwelech,

19 Yr ŵyf yn ceryddu, ac yn coſpi y ſawl yr ŵyf yn eu caru, am hynny cymmer zêl, ac edifarhâ.

20 Wele, yr ŵyf yn ſefyll wrth y drŵs, ac yn curo, o chlyw vn dŷn fy llais, ac agoryd y drŵs, mi a âf i mewn atto ef, ac a ſwperaf gyd ag ef, ac yntef gyd â minne.

21 Yr hwn a orfyddo mi a roddaf iddo ef eiſtedd gyd â mi ar fyng-orſeddfaingc, fel y gorfum i, ac yr eiſteddais gyd â fy Nhad ar ei orſedd-faingc ef.

22 Y nêb ſydd â chlûſt ganddo, gwrandawedd pa beth a ddywed yr Yſpryd wrth yr eglwyſi.

## PEN. IIII.

1 Gweledigaeth mawredd Duw yn ymddangos ar orſeddfaingc lle y gwele Ioan vn yn eiſtedd, 8 A phedair ar hugain o orſeddfeudd oi amgylch, a phedwar ar hugain henafgwyr yn eiſtedd arnynt, a phedwar anifail yn moli Duw ddydd a nôs.

*Yr Epiſtol ar ddie Sul y Drindod.*

GWedi hyn mi a edrychais, ac wele yr ydoedd drŵs yn agored yn y nef, a'r llais cyntaf a glywais oedd fel llais vdcorn yn chwedleua â mi, gan ddywedyd, dring i fynu ymma, a mi a ddangoſaf i ti y pethau a orfydd eu gwneuthur wedi hyn.

2 Ac yn y man yr oeddwn yn yr yſpryd, ac wele fe a roddwyd gorſedd-faingc yn y nef, ac eiſteddodd vn ar yr orſedd-faingc.

3 A'r hwn a eiſteddodd, oedd iw weled yn debyg i garreg Jaſpis, a Sardon, ac enfys oedd o amgylch yr orſeddfaingc yn debyg yr olwg arni i Smaragdus.

4 Ac yng-hylch yr orſeddfaingc yr oedd pedair gorſeddfaingc ar hugain, ac mi a welwn ar y gorſeddfeingciau bedwar ar hugain o henuriaid yn eiſtedd, a dillad gwynnion am danynt, a choronau o aur ar eu pennau.

5 A mellt, a' tharanau, a lleiſiau, a ddaethant allan o'r orſeddfaingc, a ſaith ffagl o dân oeddēt yn lloſci ger bron yr orſeddfaingc, y rhai ydynt ſaith Yſpryd Duw,

6 Ac o flaen yr orſeddfaingc yr ydoedd môr o wydr yn debyg i [faen] cryſtal, ac yng-hanol yr orſeddfaingc, ac yng-hylch yr orſeddfaingc yr oedd pedwar anifail yn llawn o lygaid ym mlaen ac yn ôl.

7 A'r anifail cyntaf oedd debyg i lew, a'r ail anifail yn debyg i lô, a'r trydydd oedd ag wyneb ganddo fel wyneb dŷn, a'r pedwerydd anifail oedd yn debyg i eryr yn ehedeg.

8 Ac yr oedd i bôb vn o'r pedwar anifail chwech o adenydd o amgylch iddynt, a'r rhai hynny yn llawn llygaid o'r tu fewn, ac nid oeddent yn gorphywys ddydd na nôs, gan ddywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw, Hollalluog, yr hwn a fu, ac y ſydd, ac yw ar ddyfod. Eſa.6.3.

9 A phan roddodd yr anifeiliaid hynny ogoniant ac anrhydedd, a diolch i'r hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, yr hwn ſydd yn byw yn oes oeſoedd:

10 Y pedwar henuriad ar hugain a ſyrthiaſant ger bron yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſedd-fainge, ac a addolaſant yr hwn ſydd yn byw yn dragywydd, ac a fwriaſant eu coronau ger bron yr orſedd-faingc gan ddywedyd,

11 Teilwng ŵyt ò Arglwydd i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, canys ti a greaiſt bôb pêth, ac er mwyn dy ewyllys di y maent, ac y crewyd hwynt. ☜ Pen. 5.11.

## PEN. V.

Y mae Ioan yn gweled yr oen yn agoryd y llyfr. 8.14 Ac am hynny y mae y pedwar anifail, y pedwar ar hugain henafgwyr, a'r angelion yn moli yr Oen, ac yn ei addoli, 9 Am eu prynedigaeth, a'u donniau eraill.

AC mi a welais mewn llaw ddehau yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, lyfr wedi ei ſcrifennu o'r tu fewn, ac o'r tu allan, [ac] wedi ei ſelio â ſaith ſêl.

2 Ac mi a welais angel cadarn yn pregethu â llais vchel, pwy ſy deilwng i agoryd y llyfr, ac i ddattod ei ſeliau ef?

3 Ac nid oedd nêb yn y nef, nac yn y ddaiar, na than y ddaiar, yn abl i agoryd y llyfr, nac i edrych arno.

4 Ac mi a ŵylais lawer, o achos na châed nêb yn deilwng i agoryd, ac i ddarllen y llyfr, nac i edrych arno.

5 Ac vn o'r henuriaid a ddywedodd wrthif fi, nac ŵyla, wele, y *llew yr hwn ſydd o lwyth Juda, gwreiddin Dafydd a orchfygodd i agoru y llyfr, ac i ddattod ei ſaith ſêl ef.

6 Yna mi a edrychais, ac wele, yng-hanol yr orſeddfaingc a'r pedwar anifail, ac yng-hanol

yr henuriaid, yr ydoedd oen yn ſefyll fel pebuaſe wedi ei lâdd, yr hwn oedd a ſaith gorn, ac a ſaith lygad iddo, y rhai ydynt ſaith Yſpryd Duw, y rhai a ddanfonwyd i'r holl fŷd.

7 Ac efe a ddaeth, ac a gymmerth y llyfr o law ddehau yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc.

8 A phan gymmerth efe y llyfr, y pedwar anifail, a'r pedwar henuriad ar hugain, a ſyrthiaſant ger bron yr oen, ac yr ydoedd gan bôb vn o honynt delynau a chrythau aur yn llawn o arogl-darth, y rhai ydynt weddiau'r ſainct.

9 Ac hwynt hwy a ganâſant ganiad newydd, gan ddywedyd, teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i dattod ei ſeliau ef: canys ti a laddwyd, a thi a'n prynaiſt ni i Dduw, trwy dy waed, allan o bôb llwyth, a thafod, a phobl, a chenhedlaeth,

10 Ac a'n gwnaethoſt yn frenhinoedd, ac yn offeiriaid i'n Duw ni, a ni a deyrnaſwn ar y ddaiar.

11 Yna mi a edrychais, ac a glywais lais llawer o angelion yng-hylch yr orſeddfaingc a'r anifeiliaid a'r henuriaid, ac yr oeddynt yn fil ô filoedd,

12 Yn dywedyd â llais vchel, teilwng yw'r oen yr hwn a laddwyd i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a moliant.

13 Ac mi a glywais yr holl greaduriaid y rhai ydynt yn y nef, ac ar y ddaiar, a than y ddaiar, ac yn y môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt hwy, yn dywedyd, moliant, ac anrhydedd, a gogoniant a gallu fyddo iddo ef yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, ac i'r Oen yn dragywydd.

14 A'r pedwar anifail a ddywedaſant, Amen, a'r pedwar henuriad ar hugain a ſyrthiaſant i lawr, ac ai anrhydeddaſant ef, yr hwn ſydd yn byw yn dragywydd.

## PEN. VI.

1 Yr oen yn agoryd y chwech ſêl, a llawer o bethau yn dyfod ar ôl eu hagoryd, fel y mae hyn yn cynnwys prophwydoliaeth gyffredin hyd ddiwedd y byd.

YN ôl hyn, mi a edrychais pan agorodd yr Oen vn o'r ſeliau, ac mi a glywais vn o'r pedwar anifail yn dywedyd, fel trŵſt tarân, tyret ac edrych.

2 Ac mi a edrychais, ac wele farch gwyn, ac yr ydoedd bŵa gan yr vn oedd yn eiſtedd arno, a choron a roddwyd iddo ef, ac efe a aeth allan yn gorchfygu, ac i orchfygu.

3 A phan agorodd efe yr ail ſêl, mi a glywais yr ail anifail yn dywedyd, tyret, ac edrych.

4 A march arall a aeth allan yn gôch, â gallu a roed i'r vn oedd yn eiſtedd arno i gymmeryd heddwch oddi ar y ddaiar, ac i beri iddynt lâdd eu gilydd, a rhoddwyd iddo ef gleddyf mawr.

5 A phan agorodd efe y drydedd ſêl, mi a glywais y trydydd anifail yn dywedyd, tyret, ac edrych, a mi a edrychais, ac wele farch dû, a'r hwn oedd yn eiſtedd arno ef â chlôrian pwys ganddo yn ei law.

6 Ac mi a glywais lais yng-hanol y pedwar anifail yn dywedyd, Chænix o wenith er ceniog, a thri Chænix o haidd er ceniog, a'r olew, a'r gwin na wna niwed iddynt,

7 A phan agorodd efe y bedwaredd ſêl, mi a glywais y pedwerydd anifail yn dywedyd, tyret, ac edrych.

8 Ac mi a edrychais, ac wele farch glâs, a marwolaeth oedd henw yr vn oedd yn eiſtedd arno, ac yr oedd vffern yn ei ddilyn ef, a gallu a roed iddynt hwy ar y bedwaredd ran o'r ddaiar, i lâdd â chleddyf, ac â newyn, ac â marwolaeth, ac â bwyſt-filod y ddaiar.

9 A phan agorodd efe y bummed ſêl, mi a welais tann yr allor eneidiau y rhai a laddaſid am air Duw, ac am y deſtiolaeth yr hon oedd ganddynt.

10 Ac hwy a lefaſant â llef vchel, gan ddywedyd, pa hŷd Arglwydd, ſanctaidd a chywir nâd ydwyt yn barnu, ac yn dîal ein gwaed ni, ar y rhai ſy yn trigo ar y ddaiar?

11 A gynau gwynion a roed i bôb vn o honynt, a dywedwyd wrthynt, am iddynt orphywys tros y chydig o amſer, nes cyflawni rhif, eu cydwaſanaeth-wŷr, a'u brodyr y rhai oeddynt iw lladd fel hwythau.

12 Ac mi a edrychais pan agorodd efe y chweched ſêl, ac wele, yr oedd daiar-gryn mawr, a'r haul a aeth cyn ddued â ſachlen flew, a'r lleuad a aeth fel y gwaed.

13 A'r ſêr o'r nêf a ſyrthiaſant i'r ddaiar, fel pren ffigus yn bwrw ffigus-gleiſion pan eſcydwer ef â gwynt mawr.

14 A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu yng-hyd: a phôb mynydd, ac ynys a ſymmudwyd allan o'u lleoedd.

15 A Brenhinoedd y ddaiar, a'r gwŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pen-capteniaid, a'r gwŷr cedyrn, a phôb gwr caeth, a phôb gwr rhydd a ymguddiaſant mewn ogfeudd, ac yng-hreigiau y mynyddoedd.

16 Ac hwy a ddywedaſant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, ſyrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o ŵydd yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, ac oddi wrth lîd yr Oen.

Eſay.2.19.
oſe.10.8.
luc.23.30.

17 Canys y mae dydd mawr ei ddigter ef wedi dyfod, a phwy a ddichon ſefyll?

## PEN. VII.

4.9. Gweled y mae efe waſanaethwyr Duw wedi eu ſêlio yn eu talau o bôb cenhedlaeth a phobloedd. 25 Y rhai er eu bôd yn dioddef trallod er hynny y mae'r oen yn eu bwydo hwynt, ac yn eu harwain i ffynhonnau dwfr byw.

AC yn ôl hyn, mi a welais bedwar angel yn ſefyll ar bedair congl y ddaiar, yn dal pedwar gwynt y ddaiar, rhag i'r gwynt chwythu ar y ddaiar, nac ar y môr, nac ar vn pren.

*Yr Epiſtol ar ddydd gwyl yr holl Sainct*

2 ☞ Ac mi a welais angel arall yn dyfod i

ſynu oddi wrth godiad haul, ac yr ydoedd ſêl Duw byw ganddo, ac efe a leſodd â llais vchel ar y pedwar angel i'r rhai y rhoddaſid [gallu] i ddrygu 'r ddaiar a'r môr,

3 Gan ddywedyd, na ddrygwch y ddaiar, na'r môr, na'r coedydd hyd om ſeliom waſanaethwyr ein Duw ni yn eu talcennau.

4 Ac mi a glywais rîf y rhai a ſeliwyd, [yr oedd] wedi eu ſelio bedwar a ſaith vgain mil o holl lwythau meibion Iſrael.

5 O lwyth Iuda [yr oedd] yn ſeliedig ddeuddeng-mil, o lwyth Ruben [yr oedd] yn ſeliedig deuddeng-mil, o lwyth Gad y ſelieſid deuddeng-mil.

6 O lwyth Aſer y ſeliaſid deuddeng-mil, o lwyth Nephthalim y ſeliaſid deuddeng-mil, o lwyth Manaſſes y ſeliaſid deuddeng-mil.

7 O lwyth Simeon y ſeliaſid deuddeng-mil, o lwyth Lefi y ſeliaſid deuddeng-mil, o lwyth Iſſachar y ſeliaſid denddeng-mil, o lwyth Zabulon y ſeliaſid deuddeng-mil.

8 O lwyth Ioſeph y ſeliaſid deuddeng-mil, o lwyth Beniamin y ſeliaſid deuddeng-mil.

9 Wedi hyn mi a edrychais, ac wele dyrfa fawr, yr hon ni alle neb ei rhifo, o'r hôll genhedlaethau a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd, yn ſefyll ger bron yr orſeddfaingc, a cher bron yr Oen, a gynau gwynion am danynt, a phalmwydd yn eu dwylo,

10 Ac hwy a leſaſant â llais vchel, gan ddywedyd, [cyfrifer] iechydwriaeth i'n Duw ni, yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, ac i'r Oen.

11 A'r hôll angelion a ſaſaſant o amgylch yr orſeddfa, ac o amgylch yr henuriaid, a'r pedwar anifail, ac hwy a ſyrthiaſant ger bron yr orſeddfaingc ar eu hwynebau, ac a anrhydeddaſant Dduw,

12 Gan ddywedyd, Amen, moliant, a gogoniant, a doethineb, a diolch, ac anrhydedd a gallu, a nerth fyddo i'n Duw ni yn dragywydd, Amen.

13 Ac vn o'r henuriaid, a attebodd, gan ddywedyd wrthif, pwy ydyw y rhai hyn ſy â gŷnau gwynion am danynt: ac o ba le y daethant?

14 Ac mi a ddywedais wrtho ef, ô Arglwydd, ti a wyddoſt: ac yntef a ddywedodd wrthif i: y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cyſtudd mawr, ac a olchaſant eu gynnu, ac a wnaethant eu gŷnau yn wynion yng-waed yr oen.

15 Am hynny y maent ger bron gorſeddfaingc Dduw, ac yn ei waſanaethu ef yn ei deml ddydd a nôs, a'r vn ſydd yn eiſtedd ar yr orſeddfaingc, a drig yn eu plith hwynt.

16 Ni fydd arnynt *newyn mwy, na ſyched mwy, ac ni ſyrth yr haul arnynt, na dim gwrês. Eſay.49.10.

17 Canys yr oen, yr hwn ſydd yng-hanol yr orſeddfaingc a'u bugeilia hwynt, ac a'u tywys hwynt at y ffynhonnau byw o ddyfroedd, * a Duw a ſych bôb deigr oddi wrth eu llygaid hwynt. Eſay.25.8. iſod.24.4.

## PEN. VIII.

1 Agoryd y ſeithfed ſêl, bôd goyſteg yn y nêf. 6 Y pedwar angel yn cânu eu hudcyrn, a phlâau dirfawr ar ôl hynny yn dyfod ar y ddaiar,

A Phan agorodd efe y ſeithfed ſêl, yr ydoedd goſteg yn y nêf yng-hylch hanner awr.

2 Ac mi a welais y ſaith angel y rhai oeddynt yn ſefyll ger bron Duw, a ſaith vdcorn a roddwyd iddynt.

3 Yna angel arall a ddaeth, ac a ſafodd ger bron yr allor a thuſſer o aur ganddo, a llawer o arogl-darth a roed iddo ef, i offrymmu gyd â gweddiau yr holl ſainct, ar yr allor aur, yr hon ſydd ger bron yr orſedd-faingc.

4 A mwg yr arogl-darth yng-hyd â gweddiau 'r ſainct, a aethant i fynu ger bron Duw, o law'r angel.

5 A'r angel a gymmerth y thuſſer, ac ai llanwodd hi â thân o'r allor, ac ai bwriodd i'r ddaiar, ac yr oedd lleiſiau, a tharânau, a mellt, a daiar-gryn.

6 Yna y ſaith angel y rhai oeddynt a'r ſaith vdcorn ganddynt, a wnaethant eu hunain yn barod i ganu 'r vdcyrn.

7 A'r angel cyntaf a ganodd yr vdcorn, ac yr ydoedd cenllyſc a than wedi cymmyſcu â gwaed, ac hwy a fwriwyd i'r ddaiar, a thraian y coed a loſcwyd, a'r holl laſ-wellt a loſcwyd.

8 A'r ail angel a ganodd yr vdcorn, a bwriſwyd i'r môr megis mynydd mawr yn lloſci â thân, a thraian y môr a aeth yn waed,

9 A thraian y creaduriaid y rhai oeddynt yn fyw yn y môr, a fuant feirw, a thraian y llongau a ddiniſtriwyd.

10 A'r trydydd angel a ganodd yr vdcorn, a ſêren fawr a ſyrthiodd o'r nêf, yn lloſci fel ffagl, ac hi a ſyrthiodd i draian yr afonydd, ac i ffynhonnau y dyfroedd,

11 A henw'r ſeren a elwir y wermod, am hynny trydedd ran y dyfroedd a aethant yn wermod, a llawer o ddynion a fuant feirw, o waith y dyfroedd hynny, o blegit eu gwneuthur hwynt yn chwerw.

12 A'r pedwerydd angel a gânodd yr vdcorn, a tharawyd traian yr haul, a thraian y lleuad, a thraian y ſêr, nes tywyllu eu traian hwynt, [a tharawyd] y dydd, fel na lewyrche ei draian ef, ac yn yr vn môdd y nôs.

13 Ac mi a edrychais, ac a glywais angel yn ehedeg trwy ganol y nêf, gan dywedyd â llais vchel, Gwae, gwae, gwae i'r rhai ſy yn trigo ar y ddaiar, rhac y lleiſiau eraill i vdcorn y tri angel, y rhai yddynt etto i vdcânu.

## PEN. IX.

1 Y pummed a'r chweched angel yn cânu eu y hudcyrn y ſeren yn ſyrthio o'r nêf. 3 Y locuſtau yn dyfod allan o'r mwg. 11 Bôd y Gwae cyntaf wedi myned heibio,

heibio. 14 Darfod gollwng yn rhydd y pedwar angel a oeddynt yn rhwym. 18 A llâdd traian y dynion.

A'R pummed angel a ganodd vdcorn, ac mi a welais ſeren yn ſyrthio o'r nêf i'r ddaiar, ac iddo ef y rhoddwyd agoriad y pwll heb waelod.

2 Ac efe a agorodd y pwll heb waelod, a mwg a gyfododd o'r pwll, fel mŵg ffwrn fawr, a'r haul, a'r awyr a dywyllwyd gan fŵg y pwll.

3 A locuſtiaid a ddaethant ar y ddaiar o'r mŵg allan, a rhoddwyd awdurdod iddynt, fel y mae gan ſcorpionau 'r ddaiar awdurdod.

4 A dywedwyd wrthynt, na wnaent niwed i wellt y ddaiar, na dim glâs, nac i vn pren, ond yn vnic i'r dynion y rhai oeddynt heb ſêl Duw yn eu talcennau.

5 A [gorchymyn] a roed iddynt na laddent y rhai hynny, ond iddynt eu blino hwynt bummîs, a bôd goſid iddynt fel y goſid a fydde o waith ſcorpion, pan ddarfydde iddi frathu dŷn.

Eſay.2,19. hoſe.10.8. luc.23.30. 6.16. doethin.16.9.

6 Ac yn y dyddiau hynny * dynion a geiſiant farwolaeth, ac ni chaffant, ac a chwênychant feirw, a marwolaeth a gilia oddi wrthynt.

7 A llun y locuſtiaid oedd debyg i feirch wedi eu paratôi i ryfel, ac yr oedd ar eu pennau megis coronau yn debyg i aur, a'u hwynebau oeddynt debyg i ddynion.

8 A gwallt oedd ganddynt, fel gwallt gwragedd, a'u dannedd oeddynt fel dannedd llewod.

9 Ac yr oedd ganddynt lurigau, fel llurigau haiarn, a llais eu hadenydd oedd debyg i lais cerbydau pan rede llawer o feirch i ryfel.

10 A chynffonnau oedd iddynt fel i ſcorpionau, ac yn eu cynffonnau yr oedd conynau, a'u hawdurdod hwynt oedd i ddrygu dynion bummis.

11 Ac y mae ganddynt frenin arnynt yr hwn ydyw angel y pwll heb waelod, a'i henw ef yn Ebriw ydyw Abad-don, ac yn Roeg efe a henwir Apolyon [ſef diniſtrudd.]

12 Vn gwae a aeth heibio, ac wele, y mae dwy-wae yn dyfod wedi hyn.

13 A'r chweched angel a ganodd yr vdcorn, ac mi a glywais lais oddi wrth bedair congl yr allor aur, yr hon ſydd ger bron Duw,

14 Yn dywedyd wrth y chweched angel, yr hwn oedd a'r vdcorn ganddo, gollwng y pedwar angel, y rhai ydynt yn rhwym yn yr âfon Euphrates.

15 A'r pedwar angel a ollyngwyd, y rhai a baratoaſid erbyn awr, erbyn diwrnod, erbyn mis, ac erbyn blwyddyn, i lâdd traian y dynion.

16 A rhif gwŷr meirch y rhyfel, oedd dwy fyrddiwn, canys mi a glywais eu rhîf hwynt.

17 Ac fel hyn y gwelais i y meirch mewn gweledigaeth, ac yr ydoedd gan y rhai oeddynt yn eiſtedd arnynt, lurigau tanllyd, a rhuddion, ac o liw brwmſtan, a phennau 'r meirch oeddent megis pennau llewod, ac yr oedd yn myned allan o'u genau, dân a mŵg a brwmſtan.

18 A thraian y dynion a lâs gan y tri hyn, ſef gan y tân, a'r mŵg, a'r brwmſtan, y rhai a ddaethant allan o'u genau hwynt.

19 Canys eu gallu hwynt ſydd yn eu genau, ac yn eu cyffonnau, canys eu cynffonnau hwynt oeddent debyg i ſeirph, a phennan ganddynt, â rhai hyn yr oeddent yn drygu.

20 A'r dynion eraill y rhai ni laddwyd gan y plâuau hyn, ni chymmeraſant edifeirwch am weithredoedd eu dwylo, i beidio ac addoli cythreuliaid, a delwau aur, ac arian, a phrês, a main, a phrennau, y rhai ni allant weled, na chlywed, na cherdded.

21 Ac ni chymmeraſant hefyd edifeirwch, am eu llofruddiaeth, na'u cyfareddion, na'u godineb, na'u lledrad,

## PEN. X.

Yr angel yr hwn yr oedd y llyfr agoredd ganddo yn tyngu na bydde amſer mwy, ac yn rhoi y llyfr i Ioan, ac yntef yn ei fwytta ef.

AC mi a welais angel cadarn arall yn deſcyn o'r nef, wedi ei ddilladu ag wybren, ac enfys ar ei ben, a'i wyneb ef ydoedd fel yr haul, a'i draed ef oeddent fel colofnau tân,

2 A llyfr bychan oedd yn agored yn ei law ef, ac efe a roddodd ei droed dehau ar y môr, a'i droed aſwy ar y ddaiar.

3 Ac efe a lefodd â lef vchel, fel y rhûa llêw, ac wedi darfod iddo lefain, ſaith daran a leiſiaſant eu lleiſiau.

4 Ac wedi darfod i'r ſaith daran wneuthur eu lleiſiau, yr oeddwn ar fedr ſcrifennu, ac mi a glywais lais o'r nêf yn dywedyd wrthif, ſelia y pethau a leiſiodd y ſaith daran, ac na ſcrifenna hwynt.

5 A'r angel yr hwn a welais i yn ſefyll ar y môr, ac ar y tîr, a gododd ei law i'r nêf,

6 Ac a dyngodd i'r hwn ſydd yn byw yn dragywydd, yr hwn a greodd y nêf, a'r pethau ydynt ynddi a'r ddaiar, a'r pethau ydynt ynddi hi, a'r môr, a'r pethau ſy ynddo ef, na fydde amſer mwy.

7 Ond yn nyddiau llais y ſeithfed angel, pan ddechreuo efe ganu yr vdcorn, diweddu a wneir dirgelwch Duw, fel y mynegodd efe iw waſanaeth-wŷr y prophwydi.

8 A'r llais a glywais o'r nêf, a lefarodd eilwaith wrthif, ac a ddywedodd, dôs, cymmer y llyfr bychan, yr hwn ſydd yn llaw 'r angel, yr hwn ſydd yn ſefyll ar y môr, ac ar y tîr.

9 Ac mi a aethym at yr angel, gan ddywedyd wrtho, dyro i mi y llyfr bychan: ac yntef a ddywedodd wrthif ti, cymmer, a llyngca ef, ac efe a wna dy fol di yn chwerw, ond efe a fydd melys yn dy enau di, fel mêl,

10 Ac mi a gymmerais y llyfran o law 'r angel, ac a'i llyngcais ef, ac yr ydoedd efe yn felys yn fyng-enau megis mèl, ac wedi i mi ei lyngcu ef, fy mol a aeth yn chwerw.

11 Ac efe a ddywedodd wrthif, rhaid i ti brophwydo eil-waith ym myſc y bobloedd, a'r cenhedloedd, a'r tafodau, ac i lawèr o frenhinoedd.

## PEN. XI.

1 Ioan yn gweled meſuro 'r deml, cyfodi dau dyſt gan yr Arglwydd, a'u llâd gan y bwyſt-fil. 11 Eithr wedi hyn eu derbyn i ogoniant, 15 Derchafel Criſt. 16 A moli Duw gan y pedwar henuriad ar hugain.

YNa y rhoed corſen i mi debyg i wialen, a'r angel a ſafodd wrthif, ac a ddywedodd, cyfot a meſur deml Dduw, a'r allor, a'r rhai ſy yn addoli ynddi hi,

2 Ond y cyntedd yr hwn ſydd o'r tu allan 'r deml, bwrw allan, ac na feſur ef, canys efe a roed i'r cenhedloedd, ac hwy a ſathrant tann draed y ddinas ſantaidd ddeu-fis a deugain.

3 Ac mi a roddaf [allu] i'm dau dyſt, a hwy a brophwydant fîl a thrugain a deu-cant o ddyddiau, wedi eu hymwiſco â ſach-liain.

4 Dwy olewydden yw y rhai hyn, â dau ganhwyll-bren yn ſefyll ger bron Duw 'r ddaiar.

5 Ac os ewyllyſia nêb wneuthur niwed iddynt, y mae tân yn myned allan o'u genau, ac a ddiniſtra eu gelynion, ac os ewyllyſia nêb eu drygu hwynt, fel hyn y lleddir ef.

6 Audurdod ſydd gan y rhai hyn i gaeu y nêf, rhag iddi lawio yn nyddiau eu prophwydoliaeth hwynt, ac awdurdod ſydd ganddynt ar y dyfroedd iw troi hwynt yn waed, ac i daro 'r ddaiar â phôb plâ, cyn fynyched ac y mynnant.

7 A phan ddarfyddo iddynt orphen eu teſtiolaeth, y bwyſt-fil, yr hwn a ddaw allan o'r pwll heb waelod, a ryfela yn eu herbyn hwy, ac a'u gorchfyga hwynt, ac a'u llâd hwynt.

8 A'u cyrph hwynt a orwedd ar heòlydd y ddinas fawr, yr hon a elwir yn yſprŷdol Sodoma, a'r Aipht, lle y croeſ-hoeliwyd ein Harglwydd ni.

9 Ac hwy o'r bobloedd, a'r llwythau, a'r ieithoedd, a'r cenhedloedd a welant eu cyrph hwynt dri-diau a hanner, ac ni ddioddefant roi eu cyrph hwynt mewn beddau.

10 A'r rhai ydynt yn trigo ar y ddaiar a llawenhânt arnynt hwy, ac a fyddant gyſſurus, ac a ddanfonant roddion vn at y llall, canys y ddau brophwyd hyn oeddynt oſidus i'r rhai oeddent yn trigo ar y ddaiar.

11 Ac yn ôl tri-diau a hanner, yſpryd y bywyd yn dyfod oddi wrth Dduw a aiſt i mewn ynddynt hwy, ac hwy a ſafant ar eu traed, ac ofn mawr a ſyrth ar y rhai ai gwelant hwy.

12 Ac hwy a glywſant lais mawr o'r nêf, yn dywedyd wrthynt, dewch i fynu ymma, ac hwy a aethant i fynu i'r nêf mewn ŵybren, a'u gelynnion hwy a'u gwelſant hwy.

13 Ac yn yr awr honno, yr ydoedd daiar-gryn mawr, a decfed ran o'r dinas a ſyrthiodd i lawr, a ſeith-mil o wŷr a laddwyd yn y ddaiar-gryn, a'r lleill a ofnaſant, ac a roddaſant ogoniant i Dduw 'r nêf.

14 Yr ail gwae a aeth heibio, ac wele, y trydydd gwae a ddaw ar frŷs.

15 A'r ſeithfed angel a gânodd ar vdcorn, a lleiſiau mawr a wnaethbwyd yn y nêf, gan ddywedyd, ein Harglwydd ni, a'i Griſt piau teyrnaſoedd y bŷd hwn, ac efe a deyrnaſa yn oes oſoedd.

16 A'r pedwar henuriad ar hugain, y rhai oeddent yn eiſtedd ar eu cadeiriau ger bron Duw, a ſyrthiaſant ar eu hwynebau, ac a addolaſant Dduw:

17 Gan ddywedyd, yr ydym yn diolch i ti, ô Arglwydd Dduw holl-alluog, yr hwn ŵyt, yr hwn oeddit, a'r hwn ŵyt ar ddyfod, am dderbyn o honot dy allu mawr, a theyrnaſu o honot.

18 A'r cenhedloedd a lidiaſant, a'th lîd ti a ddaeth hefyd, ac amſer i farnu 'r meirw, ac i roi gwobr i'th waſanaeth-wŷr y prophwydi, a'r ſainct, ac i'r rhai ydynt yn ofni dy enw, bychain a mawr, ac i ddifetha o honot ti y rhai ydynt yn diniſtrio y ddaiar.

19 A theml Dduw oedd yn agored yn y nêf, ac Arch ei gyfammod ef a welwyd yn ei deml, ac yr oedd mellt, a lleiſiau, a tharanau, a daiar-gryn, a chenllyſc mawr.

## PEN. XII.

1 Ioan yn gweled gwraig yn ymddangos yn y nef oedd wedi ei gwiſco â'r haul. 7 Mihangel yn ymladd â'r ddraig, yr hon oedd yn ymlid y wraig. 11 Yr oruchafiaeth a gafwyd i gyſſur y ffyddloniaid.

A' rhyfeddod mawr a ymddangoſodd yn y nêf, gwraig wedi ei gwiſco â'r haul, a'r lleuad [oedd] tann ei thraed, ac ar ei phen [yr oedd] coron o ddeuddec ſeren,

2 Ac yr ydoedd hi yn feichiog, ac hi a lefodd gan drafaelu ar ei thymp, a hi a ddoluriodd yn barod i eſcor.

3 A rhyfeddod arall a ymddangoſodd yn y nêf, ac wele, draig goch fawr â ſaith ben iddi, a dêc corn, a ſaith goron ar ei phennau.

4 A'i chynffon hi a dynnod draian ſêr y nêf, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaiar, a'r ddraig a ſafodd ger bron y wraig, yr hon ydoedd yn barod i eſcor, i ddifa ei phlentyn hi, pan eſcore hi,

5 Ac hi a eſcorodd ar fab gwryw, yr hwn a fugeilie yr holl genhedloedd â gwialen haiarn, a'i mâb a gymmerwyd i fynu at Dduw ai orſeddfaingc,

6 A'r wraig a giliodd i'r diffaethwch, lle y mae man wedi i Dduw ei baratôi iddi, fel y gallent ei phorthi hi yno fîl a thrugain â deu-cant o ddyddiau.

7 ☞ A rhyfel oedd yn y nêf, Mihangel a'i angelion a ryfelaſant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd â'i angelion ef.

*Yr Epyſtol ar ddydd Michael.*

8 Ond ni orchfygaſant, ac ni chafwyd eu lle hwynt o hynny allan yn y nêf.

9 A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hên ſarph, yr hon a elwir diafol, a Satan, yr hwn ſydd yn tywyllo'r holl fŷd, efe a fwriŵyd i'r ddaiar, a'i angelion a fwriŵyd allan gyd ag ef.

10 Ac mi a glywais lais vchel yn dywedyd yn y nef, yr awr hon y mae iechyd, a nerth a theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Griſt ef, canys cyhuddŵr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn ydoedd yn eu cyhuddo hwynt ger bron ein Duw ddydd a nós.

11 Ac hwy a'i gorchfygaſant ef trwy waed yr Oen, a thrwy air eu teſtiolaeth hwynt, ac ni charaſant eu bywyd hyd farwolaeth.

12 Am hynny llawenhêwch y nefoedd, a'r ſawl ſy yn trigo ynddynt hwy: gwae y rhai ſy yn trigo ar y ddaiar, a'r môr, canys diafol a ddeſcynnodd attoch chwi, yr hwn ſydd a llîd mawr ganddo, o herwydd gŵybod mai ychydig amſer ſydd iddo ef. ☞

13 A phan welodd y ddraig ei bwrw i'r ddaiar, ymlid a wnaeth hi y wraig a eſcorodd ar y mâb.

14 A dwy aden eryr mawr a roddwyd i'r wraig, fel yr ehede hi i'r diffaethwch, i'w lle ei hun, lle yr ydys yn ei magu hi tros amſer, ac amſeroedd, a hanner amſer, rhag ŵyneb y ſarph.

15 A'r ſarph a fwriodd o'i ſafn allan ar ôl y wraig ddwfr fel afon, ar fedr cael ei dwyn hi ffwrdd gyd â'r afon.

16 A'r ddaiar a helpiodd y wraig, a'r tîr a agorodd ei enau, ac a lyngcodd yr afon, yr hon a fwriodd y ddraig allan o'i ſafn.

17 A llidio a wnaeth y ddraig wrth y wraig, a myned i ryfela yn erbyn gweddillion ei hiliogaeth hi, y rhai ydynt yn cadw gorchymynnion Duw, ac ſy â theſtiolaeth Jeſu Griſt ganddynt.

18 Ac hi a ſafodd ar dywod y môr.

## PEN. XIII.

Bwyſt-fil arall trwy help y cyntaf, 24 yn twyllo y rhai gwrthodedig, 17 braint a nôd y bwyſt-fil.

Ac mi a welais fwyſtfil yn codi o'r môr, a ſaith ben ganddo, a dêc corn, ac ar ei gyrn ef ddêc coron, ac ar ei bennau ef henw cabledd.

2 A'r bwyſtfil yr hwn a welais i oedd debyg i lewpard, a'i draed yn debyg i draed arth, a'i ſafn yn debyg i ſafn llew, a'r ddraig a roddodd iddo ef ei gallu a'i orſedd-faingc, ac awdurdod mawr.

3 Ac mi a welais vn o'i bennau ef megis wedi ei ladd yn farw, a'i glwyf marwol ef a iachawyd, a'r holl fŷd a ryfeddodd ar ôl y bwyſtfil.

4 A hwy a addolaſant y ddraig yr hon a roes allu i'r bwyſt-fil, ac a addolaſant y bwyſt-fil, gan ddywedyd, pwy ſydd debyg i'r bwyſt-fil? pwy a ddichon ryfela ag ef?

5 A genau a roddwyd iddo ef i ddywedyd mawreiriau, a chabledd, ac awdurdod a roddwyd iddo ef, i weithio ddau fis a deugain.

6 Ac efe a agorodd ei enau mewn cabledd yn erbyn Duw, i gablu ei henw ef, a'i dabernacl a'r rhai trigadwy yn y nêf.

7 A rhoddwyd hefyd iddo ef ryfela â'r ſainct, a'u gorchfygu hwynt, a rhoddwyd iddo ef awdurdod ar bôb llwyth, ac iaith, a chenedl.

8 A holl drigolion y ddaiar a'i haddolant ef, y rhai nid yw eu henwau yn ſcrifennedig yn llyfr bywyd yr Oen, yr hwn a laddwyd er dechreuad y bŷd.

9 Y neb ſydd â chlûſt ganddo, gwrandawed.

10 Os tywys nêb i gaethiwed, efe a aiff i gaethiwed, o's llâdd nêb â chleddyf,* â chleddyf y lleddir yntef: dymma amynedd, a ffŷdd y ſainct.

Gen.13.10.
Math.26.1.

11 Ac mi a welais fwyſt-fil arall yn codi o'r ddaiar, a dau gorn oedd ganddo yn debyg i oen, ond yr oedd yn dywedyd fel draig.

12 Ac efe a wnaeth yr hyn a alle y bwyſt-fil cyntaf oll o'i flaen ef, ac efe a wnaeth i'r ddaiar, ac i'r rhai oeddent yn trigo ynddi, addoli y bwyſt-fil cyntaf, yr hwn yr iachauſid ei glwyf marwolaethus.

13 Ac efe a wnaeth ryfeddodau mawrion, yn gymmeint ag y pare efe i dân ddeſcyn o'r nêf i'r ddaiar, yng-olwg dynion.

14 Ac efe a dwyllodd drigolion y ddaiar gan yr arwyddion y rhai a ddioddefwyd iddo ef eu gwneuthur ger bron y bwyſt-fil, gan ddywedyd wrth drigolion y ddaiar, am iddynt wneuthur delw y bwyſt-fil, yr hwn a glwyfwyd â chleddyf, ac a aeth yn fyw.

15 Cyniatawyd hefyd iddo ef roddi anadl i ddelw y bwyſt-fil, fel y galle delw y bwyſt-fil lefaru, a pheri llâdd cynnifer vn nad addole ddelw y bwyſt-fil.

16 Ac efe a wnaeth i bawb, bychain a mawr, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn nôd yn eu dwylo dehau, neu yn eu talcennau,

17 Ac na alle nêb na phrynu na gwerthu, ond yr hwn a gymmere nôd, neu henw y bwyſt-fil, neu rif ei henw ef.

18 Dymma ddoethineb, y ſawl ſydd ganddo ſynnwyr, cyfrifed rîf y bwyſt-fil, canys rhif dŷn ydyw, a'i rif ydyw chwe-chant, a chwech a thrugain.

## PEN. XIIII.

1 Rhagorol fintai'r Oen, 6 vn Angel yn mynegu'r Efengyl, 8 vn arall yn mynegu am gwymp Babylon, 9 a'r trydydd yn rhybuddio ffoi rhag y bwyſt-fil. 13 am ddedwyddwch y ſawl ſy yn meirw yn yr Arglwydd, 18 ac am gynhaiaf yr Arglwydd.

☞ Ac mi a edrychais, ac wele Oen yn ſefyll ar fynydd Sion, a chyd ag ef bedair mil a ſaith vgein-mîl, a chanddynt henw ei Dâd ef yn ſcrifennedig yn eu talcennau hwynt.

*Yr Epiſtol ar ddydd gwyl y Gwirioniaid.*

2 Ac mi a glywais lais o'r nêf, fel llais llawer o ddyfroedd, ac fel llais taran fawr, ac mi a glywais lais telynorion yn canu ar eu telynau,

3 Ac hwy a ganâſant fel caniad newydd ger bron yr orſedd-faingc, a cher bron y pedwar anifail, a'r henuriaid, ac ni alle nêb ddyſcu y caniad

hwnnw, ond y pedair mil, a'r ſaith vgein mil, y rhai a brynaſſid o'r ddaiar.

4 Y rhai hyn ydynt y ſawl ni halogwyd â gwragedd, canys gweryſon ydynt, y rhai ſy yn dilyn yr Oen pa le bynnag yr aiff, y rhai a brynwyd oddi wrth ddynion, yn flaen-ffrwyth i Dduw, ac i'r Oen.

5 Ac ni chaed twyll yn eu genau hwynt, canys y maent yn ddifai ger bron gorſedd-faingc Duw.

6 Ac mi a welais angel arall yn ehedeg trwy ganol y nêf, ac Efengyl dragywyddol ganddo i bregethu i'r rhai oeddent yn trigo ar y ddaiar, ac i bôb cenhedlaeth, a llwyth, ac iaith, a phobl,

7 Gan ddywedyd â llais vchel, ofnwch Dduw, a rhoddwch anrhydedd iddo ef, canys awr ei farn ef a ddaeth, ac addolwch yr hwn a wnaeth nêf a daiar, a'r môr, a ffynhonnau y dyfroedd.

8 Ac Angel arall a ddilynodd gan ddywedyd, ſyrthiodd, ſyrthiodd Babylon y ddinas fawr, canys hi a wnaeth i'r holl genhedloedd ŷfed o win llîd ei godineb hi.

9 A'r trydydd angel a'i dilynodd hwynt, gan ddywedyd â llef vchel, os addola nêb y bwyſt-fil a'i ddelw ef, ac os derbyn ei nôd ef yn ei dalcen, neu yn ei law,

10 Hwnnw a ŷf o win digofaint Duw, yr hwn a gymmyſcwyd o win pûr mewn phiol ei ddigofaint ef, ac ef a boenir mewn tân a brwmſtan yng-olwg yr angelion ſanctaidd, ac yng-olwg yr Oen.

11 A mŵg eu poenedigaeth hwynt a aiff i fynu yn dragywydd, ac ni chânt orphywyſfa na dŷdd na nôs, y rhai a addolant y bwyſt-fil, a'i ddelw ef, a phwy bynnag a dderbynnio brint ei henw ef.

12 Dymma amynedd y ſainct, dymma y rhai ſy yn cadw gorchymynion Duw, a ffydd Ieſu.

13 Ac mi a glywais lais o'r nef yn dywedyd wrthif, ſcrifenna, gwyn eu byd weithiã y meirw, y rhai ſy yn meirw yn yr Arglwydd, felly y dywed yr Yſpryd, canys y maent yn gorphywyſo oddi wrth eu poen, ac y mae eu gweithredoedd yn eu dilyn hwynt.

14 Ac mi a edrychais, ac wele gwmwl gwyn, ac ar y cwmwl vn yn eiſtedd yn debyg i Fâb y dŷn, ac ar ei ben goron o aur, ac yn ei law grymman llym.

15 Ac angel arall a ddaeth allan o'r Deml, gan lefain â llef vchel wrth yr hwn oedd yn eiſtedd ar y cwmwl, dôd ti i mewn dy grymman, a meda, canys daeth amſer medi, am fôd cynhaiaf y ddaiar yn addfed.

16 A'r hwn oedd yn eiſtedd ar y cwmwl, a fwriodd ei grymman ar y ddaiar, a'r ddaiar a fedwyd.

17 Ac angel arall a ddaeth allan o'r Deml, yr hon ſydd yn y nef, a chanddo hefyd grymman llym.

18 Ac angel arall a ddaeth allan oddi wrth yr allor, yr hwn oedd a gallu ganddo ar y tân, ac a lefodd â llef vchel ar yr hwn oedd a'r crymman llym ganddo, gan ddywedyd, bwrw i mewn dy grymman llym, a chaſcl ganghennau gwinllan y ddaiar, canys y mae ei grawn hi yn addfed.

19 A'r angel a fwriodd ei grymman llym ar y ddaiar, ac a dorrodd i lawr win-ŵydd gwinllan y ddaiar, ac a'u bwriodd hwynt i gerwyn fawr digofaint Duw.

20 A'r gerwyn a waſcwyd allan o'r ddinas, a gwaed a ddaeth allan o'r gerwyn, cyfuwch â ffrwynau y meirch, ar hyd mîl a chwe-chant ſtâd.

## PEN. XV.

1 Ioan yn gweled ſaith Angel a chanddynt y ſaith blâ diweddaf. 3 Caniad y rhai a orchfygaſant y bwyſt-fil. 7 y ſaith phiol yn llawn o ddigofaint Duw.

AC mi a welais arwydd arall mawr yn y nef a rhyfedd, ſaith angel a chanddynt y ſaith blâ diweddaf, canys llîd Duw a gyflawnwyd trwyddynt hwy.

2 Ac mi a welais megis môr o ŵydr, wedi ei gymmyſcu â thân, a'r ſawl a orchfygaſant yn y bwyſtfil, a'i ddelw, ai nôd, a rhîf ei henw ef, yn ſefyll ar lann y môr o ŵydr, â thelynau Duw ganddynt,

3 Ac hwy a ganaſant ganniad Moſes gwaſanaethŵr Duw, a channiad yr Oen, gan ddywedyd, mawr, a rhyfedd yw dy weithredoedd, ô Arglwydd Dduw holl-alluog, cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di Brenin y ſainct.

4 Pwy ni'th ofna di ô Arglwydd, ac ni ogonedda dy enw? canys ti yn vnic ŵyt ſanctaidd, a'r holl genhedloedd a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di, canys dy farnau di ydynt gyhoeddus.

5 Ac yn ôl hyn mi a edrychais, ac wele, yr ydoedd Teml pabell y deſtiolaeth yn agored yn y nêf.

6 A'r ſaith angel a ddaethant allan o'r Deml, y rhai oeddent a'r ſaith blâ ganddynt, a'u dillad oedd liain pûr loiw, ac wedi eu gwregyſu ynghylch eu bronnau â gwregyſau o aur.

7 Ac vn o'r pedwar anifail a roddodd i'r ſaith angel ſaith phiol aur yn llawn o ddigofaint Duw, yr hwn ſydd yn byw yn dragywydd.

8 Ac yr ydoedd y Deml yn llawn o fŵg gogoniant Duw, a'i allu, ac nid oedd neb yn abl i fyned i mewn i'r Deml, nês dar fod cyflawni ſaith blâ y ſaith angel.

## PEN. XVI.

1 Yr angelion yn tywallt eu phiolau yn llawn digofaint, 6 a pha blâ ſy yn dyfod o hynny, 15 rhybudd i ymochelyd, a gwilied.

AC mi a glywais lef vchel allan o'r Deml yn dywedyd wrth y ſaith angel, ewch i ffordd, a thywelltwch allan ſaith phiol digter Duw ar y ddaiar.

2 A'r cyntaf a aeth, ac a dywalltodd ei phiol

ar y ddaiar, a choꝛnwyd dꝛŵg â dolurus a ſyꝛthiodd ar y gwŷꝛ y rhai oeddynt â nôd y bwyſtfil arnynt, ac ar y rhai a addolâſent ei ddelw ef.

3 A'r ail angel a dywalltodd ei phiol ar y môꝛ, ac efe a aeth fel gwaed celain, a phôb peth byw yn y môꝛ a fu farw.

4 A'r trydydd angel a dywalltodd ei phiol allan ar yꝛ afonydd, a ffynhonnau 'r dyfroedd, ac hwy a aethant yn waed.

5 Ac mi a glywais angel y dyfroedd yn dywedyd, ô Arglwydd yꝛ ŵyt yn gyfiawn, yꝛ hwn ŵyt, ac yꝛ hwn a fuoſt y Sanctaidd, o herwydd i ti farnu y pethau hyn.

6 Canys hwy a dywalltaſant waed y ſainct, a'r pꝛophwydi, ac am hynny y rhoddaiſt iddynt waed i ŷfed: [felly] y maent yn heuddu.

7 Ac mi a glywais vn arall o'ꝛ alloꝛ yn dywedyd, ie Arglwydd Dduw holl-alluog, cywir a chyfiawn yw dy farnau di.

8 A'r pedwerydd angel a dywalltodd allan ei phiol ar yꝛ haul, a gallu a roed iddo i boethi dynion trwy dân.

9 A'r dynion a boethaſant gan wꝛês mawꝛ, ac a gablâſant henw Duw, yꝛ hwn ſydd ag awdurdod gando ar y plâuau hyn, ac ni chymmeraſant edifeirwch i roi gogoniant iddo ef.

10 A'r pummed angel a dywalltodd allan ei phiol ar oꝛſeddfaingc y bwyſt-fil, a'i deyꝛnas ef a aeth yn dywyll, ac hwy a gnoaſant eu tafodau gan ddolur.

11 Ac hwy a gablaſant Dduw y nêf, gan eu poenau, a chan eu coꝛnwydydd, ac ni chymmeraſant edifeirwch am eu gweithꝛedoedd.

12 A'r chweched angel a dywalltodd allan ei phiol ar yꝛ afon fawꝛ Euphꝛates, a'i dwfr hi a ſychodd, fel y gellid paratoi ffoꝛdd i frenhinoedd y dwyꝛain.

13 A mi a welais dꝛi yſpꝛyd aflan yn debyg i lyffaint, yn dyfod allan o enau 'r ddꝛaig, ac allan o enau y bwyſt-fil, ac allan o enau 'r pꝛophwydi ffeilſion.

14 Canys yſpꝛydion cythꝛeuliaid ydynt, yn gwneuthur gwꝛthiau, i fyned at frenhinoedd y ddaiar, a'r hôll fŷd, iw caſclu hwynt i ryfel y dŷdd mawꝛ hwnnw y Duw holl-alluog.

15 Wele yꝛ wyf i yn dyfod fel lleidꝛ, gwŷn ei fyd yꝛ hwn a wilio, ac a gadwo ei ddillad, rhag iddo rodio yn noeth, a rhag gweled ei warth ef.

16 Ac efe a'u caſclodd hwynt yng-hŷd i le a elwir yn Ebꝛyw, Arma-gedon.

17 A'r ſeithfed angel a dywalltodd allan ei phiol i'r awyꝛ, a llef vchel a ddaeth allan o deml y nêf, oddi wꝛth yꝛ oꝛſeddfaingc yn dywedyd, fe a ddarfu.

18 Ac yꝛ oedd lleiſiau, a tharânau, a mellt, ac yꝛ oedd daiargryn mawꝛ ar y ddaiar, cyfryw na bu er pan y maê dynnion ar y ddaiar, crynfa yꝛ ddaiar oedd gymmaint.

19 A rhannu a wnaethwyd y ddinas fawꝛ yn dair rhã, a ſyꝛthio a wnaeth dinaſoedd y cenhedloedd, a Babylon fawꝛ a ddaeth mewn côf ger bꝛon Duw, i róddi iddi gwppan gwin digofaint ei lid ef.

20 A phôb ynys a ffôdd ymmaith, ac ni chafwyd y mynyddoedd,

21 A ſyꝛthio a wnaeth cenllyſc mawꝛ fel talentau o'ꝛ nêf ar y dynion, a'r dynion a gablaſant Dduw am blâ 'r cenllyſc; canys mawꝛ dꝛos ben oedd eu plâ hwynt.

## PEN. XVII.

3 Ioan yn gweled diniſtr y buttain fawr, 8 Ei phechodau a'i phoenedigaeth, 14 A goruchafiaeth yr oen.

AC vn o'ꝛ ſaith angel oedd a'r ſaith phiol ganddo a ddaeth, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd wꝛthif, tyꝛet, mi a ddangôſaf i ti farnedigaeth y buttain fawꝛ, yꝛ hon ſydd yn eiſtedd ar lawer o ddyfroedd.

2 Gyd â'r hon y mae bꝛenhinoedd y ddaiar wedi godinebu, a phꝛeſſwyl-wŷꝛ y ddaiar wedi meddwi ar win ei godîneb hi.

3 Ac efe am dygodd i yn yꝛ yſpꝛyd i'r diffaethwch, ac mi a welais wꝛaig yn eiſtedd ar fwyſt-fil vn lliw ag ſcarlad, yn llawn o henwau cabledd, â ſaith pen ganddo, a dêc coꝛn.

4 A gwiſc y wꝛaig oedd boꝛphoꝛ, ac ſcarlat, ac wedi ei goꝛeuro âg aur, a main gwerthfawꝛ, ac â pherlau, a cwppan o aur oedd ganddi yn ei llaw yn llawn o ffiaidd-dꝛa, a bꝛynti ei godineb hi.

5 Ac yn ei thalcen yꝛ ydoedd henw yn ſcrifennedig, dirgelwch, Babylon fawꝛ, mam puteindꝛa, a ffieidd-dꝛa 'r ddaiar.

6 Ac mi a welais y wꝛaig yn feddw gan waed y ſainct, a chan waed merthyꝛon Jeſu, a phan welais i hi, mi a ryfeddais â rhyfeddod mawꝛ.

7 A'r angel a ddywedodd wꝛthif, pa ham yꝛ wyt yn rhyfeddu? mi a ddangoſaf i ti ddirgelwch y wꝛaig, a'r bwyſt-fil yꝛ hwn ſydd yn ei dwyn hi, yꝛ hwn ſydd â ſaith ben ganddo, ac â dêc coꝛn.

8 Y bwyſt-fil a welaiſt, a fu ac nid ydyw, ac efe a ddaw i fynu o'ꝛ pwll heb waelod, ac efe a aiff i golledigaeth, a rhai ſy'n trigo ar y ddaiar, a ryfêddãt (y rhai nid yw eu henwau yn ſcrifennedig yn llyfr y bywyd er dechꝛeu 'r bŷd) pan edꝛychant ar y bwyſt-fil yꝛ hwn ydoedd, ac nid ydyw, ac etto y mae.

9 Dymma 'r meddwl, yꝛ hwn ſydd a doethineb gãddo: y ſaith ben ſaith mynydd ydynt, ar y rhai y mae'r wꝛaig yn eiſtedd, y maent hefyd yn ſaith frenin.

10 Pump a ſyꝛthiaſant, ac vn ſydd, ac vn arall heb ddyfod etto: a phan ddêl efe, rhaid iddo barhâu ychydig o amſer.

11 A'r bwyſt-fil yꝛ hwn a fu, ac nid ydyw, efe yw'r ŵythfed, ac y mae yn vn o'ꝛ ſaith, ac yn myned i ddeſtruw.

12 A'r dêc coꝛn a welaiſt, dêc bꝛenin ydynt, y rhai ni chawſant etto frenhiniaeth, ond hwy a gâant awdurdod fel bꝛenhinoedd mewn vn awꝛ gyd â'r bwyſt-fil.

13 Yr vn cyngor ſydd i'r rhai hyn, ac hwy a roddant eu nerth au hawdurdod i'r bwyſt-fil,

14 Y rhai hyn a ryfelãt â'r Oen, a'r Oen a'u gorchfyga hwynt, canys efe ydyw Arglwydd arglwyddi, a Brenin brenhinoedd, a'r rhai ſy ar ei blaid ef, hwy a alwyd, ac a ddetholwyd, a ffyddlon ydynt.

15 Ac efe a ddywedodd wrthif, y dyfroedd y rhai a welaiſt ti, lle y mae 'r buttain yn eiſtedd, pobl ydynt, a gwerin, a chenhedloedd, ac ieithoedd.

16 A'r dêc corn a welaiſt ti ar y bwyſt-fil, yw y rhai a gaſhânt y buttain, ac ai gwnânt hi yn vnic, ac yn noeth, ac a fwyttânt ei chig hi, ac a'i lloſcant hi â thân.

17 Canys Duw a roddodd yn eu calonnau gyflawni ei ewyllys ef, a gwneuthur trwy gyd vndeb, a rhoddi eu teyrnas i'r bwyſt-fil, hyd oni gyflawnir geiriau Duw.

18 A'r wraig a welaiſt, dinas fawr ydyw, yr hon ſydd yn teyrnaſu ar frenhinoedd y ddaiar.

## PEN. XVIII.

Ioan yn gweled fod y rhai ſy yn caru 'r byd yn driſtion am gwymp y buttain o Babylon, 4 Rhybydd i bobl Dduw i gilio allan o'i harglwyddiaeth hi, 20 Eithr y rhai ſy o Dduw, ſydd ag achos iddynt i lawenychu am ei diniſtr hi.

AC yn ôl hyn, mi a welais angel arall yn dyfod i lawr o'r nêf, ac awdurdod mawr ganddo, a goleuodd y ddaiar gan ei ogoniant ef.

2 A llefain a wnaeth efe yn gryf a llais vchel, gan ddywedyd, * ſyrthiodd, ſyrthiodd Babylon fawr honno, ac y mae hi yn drigle i'r cythreuliaid, a chadwriaeth pôb yſpryd aflân, a chadwriaeth pôb adêryn aflân ac atcas.

Vch.14.8.
eſai.21.9.
ierem.51.8.

3 Canys yr hôll genhedloedd a yfaſant o wîn digofaint ei godineb hi, a brenhinoedd y ddaiar a wnaethant odîneb â hi, a marſiandwŷr y ddaiar a aethant yn gofoethogion gan amlder ei moethe hi.

4 Ac mi a glywais lais arall o'r nêf yn dywedyd, ewch allan o honi hi fy mhôbl, rhag i chwi fôd yn gyfrânnog o'i phechodau, ac rhag i chwi dderbyn cyfran o'i phlâuau hi.

5 Canys ei phechodau hi a gyrhaeddaeſant hyd y nêf, a Duw a gofiodd ei hanwiredd hi.

6 Telwch iddi fel y talodd hi i chwi, a rhoddwch iddi y dau-cymmaint yn ôl ei gweithredoedd hi, yn y cwppan y llanwodd hi i chwi, llenwch iddi hi yn ddwbl,

7 Cymmeint ac y gogoneddodd hi ei hun, ac y bu hi mewn moethe, yn yr vn-modd rhoddwch iddi ofid a thriſtwch, canys y mae hi yn dywedyd yn ei chalon, * yr ŵyf yn eiſtedd yn frenhînes, ac nid ŵyf yn weddw, ac ni welaf ddim galar:

Eſai.47.8.

8 Am hynny yn yr vn dŷdd y daw ei phlâuau hi, ſef marwolaeth, a thriſtwch, a newyn, a hi a loſcir â thân, canys cadarn yw'r Arglwydd Dduw, yr hwn a'i barna hi.

9 A brenhinoedd y ddaiar a ŵylant am dâni hi, ac a alarant, y rhai a wnaethant odîneb, ac a fuant fyw yn foethus gyd â hi, pan welant fwg ei loſciad hi.

10 Ac hwy a ſafant ym mhell oddi wrthi gan ofn ei gofid hi, gan ddywedyd, Gwae, gwae y ddinas fawr honno Babylon, y gaer gadarn, canys mewn vn awr y daeth dy farn di.

11 A marſiandwŷr y ddaiar a ŵylant, ac a driſtânt am deni hi, canys nid oes nêb yn prynu eu marchnadaeth hwynt mwyach.

12 Marſiandiaeth o aur, ac arian, a meini gwerthfawr, a pherlau, a lliain main, a phorphor, a ſidan, ac ſcarlat, a phôb rhyw goed Thynon, a phob lleſtr o ddaint yr elephant, a phôb lleſtr o goed gwerthfawr, ac o brês, ac o haiarn, ac o faen marmor,

13 Ac o ſinamon, ac aroglau, ac ennaint, a thus, a gwin, ac olew, a pheillied, a gwenith, ac yſcrybliaid, a defaid, a meirch, a cherbydau, a gwaſanaethwŷr, ac eneidiau dynion.

14 A'r aeron a ddeſŷfiodd dy enaid ti, a ymadawſant â thi, a'r hôll bethau breiſion, a gwychion a aethant i ffordd oddi wrthit, ac ni chei hwynt mwyach.

15 Marſiand-wŷr y pethau hyn, y rhai a ymgyfoethogaſant, a ſafant ym mhell oddi wrthi, rhag ofn ei gofid hi, gan ŵylo ac ochain.

16 A chan ddywedyd, Gwae, gwae y ddinas fawr yr hon a ddilladwyd mewn lliain main, a phorphor, ac ſcarlat, ac wedi ei goreuro ag aur, a meini gwerth-fawr, a pherlau.

17 Canys mewn vn awr cymmeint o gyfoeth a anrheithiwyd, a phôb llywydd, a hôll werin llongau, a llongwŷr, a phwy bynnag ydynt yn gweithio ar y môr, a ſafaſant o bell,

18 Ac a lefaſant, pan welſant fwg ei lloſciad hi, gan ddywedyd, pa vn oedd debyg i'r ddinas fawr hon?

19 Ac hwy a fwriaſant lwch ar eu pennau, ac a lefaſant gan ŵylo, ac ochain, a dywedyd, Gwae, gwae y ddinas fawr, yn yr hon y cyfoethogwyd y rhai oeddynt â llongau ganddynt ar y môr, trwy ei chôſt hi, canys mewn vn awr, hi a anrheithiwyd.

20 Y nêf, llawenhâ o'i phlegit, a'r Apoſtolion ſanctaidd, a'r prophwydi, canys dialodd Duw troſoch chwi arni hi.

21 Ac yna vn angel cadarn a gododd faen megis maen melin, ac a'i bwriodd i'r môr, gan ddywedyd, a'r fâth ruthr a hyn y bwrir y ddinas fawr Babylon, ac ni cheir y hi mwy.

22 Ac ni chlywir ynot ti mwy lais telynorion, a cherddorion, a phibyddion, ac vdcanwŷr, ac ni cheir vn crefftwr o ba grefft bynnag fyddo ynot ti mwy, ac ni chlywir llais maen melin ynot ti mwy.

23 Ac ni welir goleuad cannwyll ynot ti mwy, ac ni chlywir llais priodaſ-fâb, a phriodaſ-ferch ynot ti mwy, canys dy farſiand-wŷr di oeddent bendefigion y ddaiar, ac â'th gyfareddion y twyllwyd yr hôll genhedloedd.

24 Ac ynddi hi y câed gwaed y prophwydi, a'r ſainct, a phawb a'r a laddwyd ar y ddaiar,

### PEN. XIX.

Ioan yn clywed rhoi moliant i Dduw am farnu 'r buttain, ac am ddial gwaed ei weiſion. 10 Ni fyn yr angel ei addoli, 17 Yr ydys yn galw 'r ehediaid a'r adar i'r lladdfa.

AC yn ôl hyn, mi a glywais lef vchel gan dyrfa fawr yn y nêf yn dywedyd, Halelu-Jah, iechyd a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu a fyddo i'r Arglwydd ein Duw ni,

2 Canys cywir a chyfiawn ydyw ei farnau ef, canys efe a farnodd y buttain fawr, yr hon a lygrodd y ddaiar â'i godineb, ac a ddiâlodd waed ei weiſion ar ei llaw hi,

3 Ac eil-waith hwy a ddywedaſant, Halelu-Jah, a'i mŵg hi a gododd yn dragywydd.

4 A'r pedwar henuriad ar hugain, a'r pedwar anifail a ſyrthiaſant i lawr, ac a addolaſant Dduw, yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſedd-faingc, gan ddywedyd, Amen, Halelu-Jah.

5 A llais a ddaeth allan o'r orſedd-faingc yn dywedyd moliennwch ein Duw ni ei holl weiſion ef, a'r rhai ydych yn ei ofni ef, bychain a mawrion hefyd.

6 Ac mi a glywais lais fel tyrfa fawr, ac fel llais llawer o ddyfroedd, ac fel llais tarânau cedyrn yn dywedyd, Halelu-Jah, canys ein Arglwydd Dduw holl-alluog a aeth yn Frenin.

7 Llawenychwn a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo ef, o blegit dyfod priodas yr Oen, a'i wraig ef a ymbarattôdd.

8 A canniattawyd iddi ymwyſco â lliain main pur a diſclaer, canys y lliain main ydyw cyfiawnder y ſainct.

9 Ac efe a ddywedodd wrthif, ſcrifenna,* Bendigedig yw y rhai a elwir i ſwpper neithior yr Oen, ac efe a ddywedodd wrthif, y geiriau hyn i Dduw ydynt wîr. ath.22 2.

10 Ac mi a ſyrthiais ger bron ei draed ef, iw addoli ef, ac efe a ddywedodd wrthif, ymôgel rhag gwneuthur hynny, cydwaſanaethŵr wyſt i ti, ac i'th frodyr, y rhai y mae ganddynt deſtiolaeth Jeſu, addola Dduw, canys teſtiolaeth Jeſu ydyw Yſpryd y brophwydoliaeth.

11 Ac mi a welais y nêf yn agored, ac wele farch gwyn, a'r hwn a eiſteddodd arno a elwid Ffyddlon a chywir, ac y mae efe yn barnu, ac yn rhyfela yn gyfiawn.

12 A'i lygaid ef oeddent fel fflam dân, ac ar ei ben ef yr oedd llawer o goronau: ac yr ydoedd ganddo henw yn ſcrifennedig, yr hwn nid adnabu nêb, ond efe ei hun.

13 Ac ef a ddilladwyd â gwiſc wedi ei throchi mewn gwaed, a'i henw ef a elwir Gair Duw,

14 A'r rhyfelwŷr oeddent yn y nêf, ai dilynaſant ef ar feirch gwynion, wedi ymwiſco â lliain main gwyn â glân.

15 Ac o'i enau ef yr aeth allan gleddyf llym, i daro âg ef y cenhedloedd, * canys efe a'u rheola hwynt â gwialen haiarn, ac efe yw yr hwn ſydd yn ſathru cerwyn win digofaint a llîd Duw holl-alluog. ſal.2.9.

16 Ac y mae ganddo yn ei wîſc, ac ar ei forddwyd henw ſcrifennedig,* Brenhin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi: 1.Tim.6.15.

17 Ac mi a welais angel yn ſefyll yn yr haul, yn llefain â llef vchel, gan ddywedyd wrth yr hôll adar y rhai oeddent yn ehedeg trwy ganol y nêf, deuwch, ac ymgynhullwch yng-hŷd i ſwpper y Duw mawr,

18 Fel y galloch fwytta cîg brenhinoedd, a chîg pen-captenniaid, a chîg gwŷr cedyrn, a chig meirch, a'r rhai ydynt yn eiſtedd arnynt, a chîg gwŷr rhyddion a chaethion, a bychain a mawrion oll.

12 Ac mi a welais y bwyſt-fil, a brenhinoedd y ddaiar, a'u rhyfel-wŷr wedi ymgynnull ynghŷd i ryfêla yn erbyn yr hwn oedd yn eiſtedd ar y march, ac yn erbyn ei fil-wŷr.

20 Ond y bwyſt-fil a ddaliwyd, a'r prophwyd ffals gyd ag ef yr hwn a wnaeth wyrthiau ger ei fron ef, trwy y rhai y twyllodd efe y rhai a dderbynniaſent nôd y bwyſt-fil, a'r rhai a addolâſent ei ddelw ef, y ddau hyn a fwriwyd yn fŷw i'r pwll tân yr hwn ſydd yn lloſci â brwmſtan.

21 A'r lleill a laddwyd â chleddyf yr hwn ſydd yn eiſtedd a'r y march, yr hwn [ gleddyf ] ſydd yn dyfod allan o'i enau ef, a'r hôll adar a lanwyd o'u cîg hwynt.

### PEN. XX.

2 Bôd Satan yn rhwym tros dalm o amſer, 7 Ac wedi ei ollwng yn rhydd, yn poeni yr eglwys yn dôſt. 10. 14 Ac yn ôl barnu 'r byd, ei fwrw ef a rhai oeddent eiddo i'r pwll tân.

AC mi a welais angel yn deſcyn o'r nêf, a chanddo agoriad y pwll heb waelod, a chadwyn fawr yn ei law.

2 Ac efe a ddaliodd y ddraig yr hên ſarph, yr hon ydyw diafol a Satan, ac a'i rhwymmodd ef tros fîl o flynyddoedd,

3 Ac a'i bwriodd ef i'r pwll heb waelod, ac ai gwarchâodd ef, ac a ſeliodd y drws arno, megis na alle efe dwyllo y bobl mwy, nês cyflawni 'r mîl o flynyddoedd, canys yn ôl hynny rhaid yw ei ollwng ef dros ychydig o amſer.

4 Ac mi a welais orſedd-feingciau, ac hwy a eiſteddaſant arnynt, a barn a roed iddynt hwy, ac mi a welais eneidiau y rhai a dorrwyd eu pennau am deſtiolaeth Jeſu, ac am air Duw, y rhai ni addolâſent y bwyſt-fil na'i ddelw ef, ac ni chymmeraſent ei nôd ef yn eu talcennau, neu ar eu dwylo: ac hwy a fuant fŷw, ac a deyrnâſaſant gyd â Chriſt fîl o flynyddoedd.

5 Ond y gweddill o'r gwŷr meirw ni fuant fyw eil-waith, nes diweddu y mil o flynyddoedd: dymma yr adgyfodiad cyntaf.

6 Bendigedig a ſanctaidd yw 'r vn ſydd a rhan iddo yn y cyfodiad cyntaf, canys nid oes gan yr ail fârwolaeth awdurdod ar y rhai hyn, ond hwy a fyddant offeiriaid Duw a Chriſt, ac a deyrnaſant gyd ag ef fîl o flynyddoedd.

7 Ac wedi darfod y mil o flynyddoedd, Satan a ollyngir allan o'i garchar:

8 Ac efe a aiff allan i dwyllo 'r bobl y rhai
ydynt ym mhedair congl y ddaiar, nid amgen
Ezec.39.1. *Gog a Magog, iw caſclu hwynt yng-hyd i ryfel, rhif y rhai ſy fel tywod y môr.

9 Ac hwy a aethant i fynu i waſtad y ddaiar, y rhai a amgylchâſant babellau y ſainct, a'r ddinas annwyl, eithr tân a ddeſcynnodd oddi wrth Dduw o'r nêf, ac a'u hŷſodd hwynt.

10 A diafol yr hwn a'u twyllodd hŵynt, a fwriwyd i bwll o dân a brwmſtan, lle y poenir y bwyſt-fil, a'r prophwyd gau ddŷdd a nôs yn dragywydd.

11 Ac mi a welais orſeddfaingc fawr wen, ac vn yn eiſtedd arni, oddi wrth ŵyneb yr hwn y ffôdd y ddaiar a'r nêf, ac ni chaed moi lle hwynt mwy.

12 Ac mi a welais y meirw, fawr a bychan
yn ſefyll ger bron Duw, a'r llyfrau a agorwyd,
Vchod.3.5. a *llyfr arall a agorwyd, yr hwn ydyw [llyfr] y
iſod.21.27. bywyd, a'r meirw a farnwyd wrth y pethau a
philip.4 3. oeddent yn ſcrifennedig yn y llyfrau, yn ôl eu
gweithredoedd hwynt.

13 A'r môr a fwriodd i fynu y meirw y rhai oeddent ynddo, a marwolaeth, ac vffern a roddaſant i fynu y meirw a oeddent ynddynt hwy, a barnwyd pawb yn ôl eu gweithredoedd.

14 A marwolaeth, ac vffern a fwriwyd i bwll tân, hon ydyw'r ail farwolaeth.

15 A phwy bynnag ni chafwyd yn ſcrifennedig mewn llyfr y bywyd, efe a fwriwyd i bwll y tân.

## PEN. XXI.

3 24 Gwynfydedig gyflwr y rhai duwiol. 8 37 A thruan helynt y rhai annuwiol. 11 A gwedd yr Ieruſalem nefol, ac am wraig yr Oen.

Eſai.65.17. AC mi * a welais nêf newydd, a daiar ne-
& 66.22. wydd, canys y nef gyntaf a'r ddaiar gyn-
2.pet.3.13. taf a aethant heibio, ac nid oedd môr mwyach.

2 A myfi Ioan a welais y ddinas ſanctaidd Ieruſalem newydd yn deſcyn o'r nêf oddi wrth Dduw, wedi ei pharatoi fel prîodaſ-ferch wedi ei thrwſſio iw gŵr.

3 Ac mi a glywais lef vchel allan o'r nêf yn dywedyd, wele, [y mae] pabell Dduw gyd â dynion, ac efe a drig gyd â hwynt, ac hwy a fyddant bobl iddo ef, a Duw ei hun a fydd gyd ag hwynt yn Dduw iddynt.

Vchod.7.17. 4 * Duw a ſych ymmaith yr holl ddagrau o-
Eſay 25.8. ddi wrth eu llygaid, ac ni bŷdd dim marwolaeth
mwy, na thriſtwch, na llefain, ac ni bydd dim poen mwy, canys y pethau cyntaf a aethant heibio.

5 A'r vn a eiſteddodd ar yr orſedd-faingc a ddywedodd, wele, yr wŷf yn gwneuthur pôb peth yn newydd, ac efe a ddywedodd wrthif, ſcrifenna, canys y mae y geiriau hyn yn ffyddlon, ac yn gywir.

Vchod.1.8. 6 Ac efe a ddywedodd wrthif, * fe a ddarfu,
Iſod 22.13. myfi wŷf Alpha ac Omega, y dechreuad a'r diwedd, mi a roddaf i'r vn ſydd ſychedig o ffynnon dwfr y bywyd yn rhâd.

7 Yr vn a orchfyga a gaiff etifeddu y cwbl, ac mi a fyddaf Dduw iddo ef, ac yntef fŷdd fâb i minne.

8 Ond yr ofnog a'r anghredyniaid, a'r rhai ſceler, a'r lloſruddion, a'r putteinwŷr, a'r cyfaredd-wŷr, a'r delw-addolwŷr, a phôb celwyddog, eu rhan hwynt a fŷdd yn y pwll yr hwn ſydd yn lloſci o dân a brwmſtan, yr hwn ydyw yr ail farwolaeth.

9 Ac vn o'r ſaith angel, y rhai oeddent â'r ſaith phiol ganddynt yn llawn o'r ſaith blâ diweddaf a ddaeth attaf, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd, tyred, mi a ddangoſaf i ti y brîodaſ-ferch gwraig yr Oen.

10 Ac efe am dygodd i ymmaith yn yr Yſpryd i fynydd mawr, ac vchel, ac a ddangoſodd i mi y ddinas fawr Ieruſalem ſanctaidd, yn deſcyn allan o'r nef oddi wrth Dduw.

11 A gogoniant Duw ganddi, a'i diſcleiriad hi oedd debyg i faen gwerthfawrŷſaf, megis maen Iaſpis eglur fel griſtal.

12 Ac yr ydoedd iddi fûr mawr vchel, a deuddec porth iddi, ac wrth y pyrth deuddec angel, ac henwau yn ſcrifennedig, y rhai ydynt deuddec-llwyth meibion Iſrael.

13 O du y dwyrain yr oedd tri phorth, o du y gogledd tri phorth, o du y dehau tri phorth, o du y gorllewyn tri phorth.

14 A chaer y ddinas oedd â deuddec ſylfaen iddi, ac ynddynt hwy henwau deuddec Apoſtol yr Oen.

15 Ac yr ydoedd gan yr vn a ymddiddanodd â mi gorſen o aur i feſuro y ddinas, ai phyrth hi, a'i chaer hi.

16 A'r ddinas a oſodwyd yn bedwar ochrog, a'i hŷd oedd gymmaint a'i llêd, ac efe a feſurodd y ddinas â'r gorſen, yn ddeuddeng-mîl ſtâd, a'i llêd a'i huchter ſŷdd yn ogymmaint.

17 Ac efe a feſurodd ei chaer hi, yn bedwar cufydd a ſaith vgain, wrth feſur dŷn, ſef meſur yr angel,

18 Ac adeilad ei chaer hi oedd o faen Iaſpis, a'r ddinas oedd aur pûr, yn debyg i wŷdr gloiw

19 A ſeiliau caer y ddinas oeddynt wedi eu harddu â phôb rhyw faen gwerthfawr, y ſail cyntaf oedd maen Iaſpis, yr ail o Saphyr, y trydydd oedd o faen Calcedon, y pedwêrydd o Smaragdus.

20 Y pummed Sardonix, y chweched Sardius, y ſeithfed Cryſolithus, yr ŵythfed Beryl, y nawfed Topazius, y decfed Cryſopraſus, yr vnfed ar ddêc Hyacinthus, y deuddecfed, Amethyſtus.

21 A'r deuddec porth deuddec perl oddent, a phôb porth ſydd o vn perl, a heol y ddinas ſydd o aur pûr, fel gŵydr diſclair.

22 Ac ni welais i vn deml ynddi, canys yr Arglwydd Dduw holl-alluog, a'r Oen yw ei theml hi.

Esai.60.19. 23 * Ac nid rhaid i'r ddinas wrth yr haul, na'r lleuad i oleuo ynddi, canys y mae gogoniant Duw yn ei goleuo hi, a'r Oen yw ei goleuni hi.

Esai.60.3. 24 * A'r bobl gadwedig a rodiant yn ei goleuni hi, a brenhinoedd y ddaiar a ddygant eu gogoniant a'u hanrhŷdedd iddi hi.

Esai.60.11. 25 * Ac ni cheuir ei phyrth hi liw dŷdd, o blegit ni bŷdd dim nôs yno.

26 A gogoniant ac anrhydedd y cenhedloedd a ddygir iddi hi.

27 Ac nid aiff i mewn iddi ddim aflan, neu bêth bynnag a weithio ffieiddra, neu gelwyddau, ond y rhai a ſcrifennwyd mewn llyfr bywyd yr Oen.

PEN. XXII.

1 Afon dwfr y bywyd, 2 Ffrwythlondeb a goleuni dinas Dduw. 6 Yr Arglwydd byth yn rhybuddio ei weiſion am bethau a ddaw, 9 Yr angel heb fynnu ei addoli, 18 Gair Duw nid iawn ynghwanegu dim arno, na thynnu dim oddi wrtho.

AC efe a ddangoſodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd yn diſcleirio fel griſial, yn dyfod allan o orſedd-faingc Duw, a'r Oen.

2 Ac yng-hanol ei heol hi, ar ddau tu'r afon, yr ydoedd pren y bywyd, yr hwn oedd yn dwyn deuddec rhyw ffrwythau, a rodde ffrwyth bôb mis, a dail y pren a waſanaethe i iachau yr cenhedloedd.

3 Ac ni fŷdd dim melldith mwy, ond gorſedd-faingc Duw a'r Oen a fŷdd ynddi hi, a'i waſanaeth-wŷr a waſanaethant iddo ef.

4 Ac hwy a welant ei wyneb ef, a'i henw ef a fŷdd yn eu talcennau hwynt.

5 * Ac ni bŷdd yno ddim nôs, ac nid rhaid iddynt ddim canwyll, na goleuad yr haul, canys yr Arglwydd Dduw ſydd yn rhoi iddynt oleuni, ac hwy a deyrnaſant yn dragywydd.

6 Ac efe a ddywedodd wrthifi, y eiriau hyn ſydd ffyddlon a chywir, ac Arglwydd Dduw y prophwydi ſanctaidd a ddanfonodd ei angel i ddangos i'w waſanaeth-wŷr y petha ſy raid eu cyflawni ar frŷs,

7 Wele, yr wyf yn dyfod ar frŷs, gwyn ei fyd yr vn a gadwo eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn.

8 Ac myfi wyf Ioan, yr hwn a welais, ac a glywais y pethau hyn, a phan ddarfu i mi glywed, a gweled, * mi a ſyrthiais i lawr i addôli ger bron traed yr angel, yr hwn a ddangôſodd i mi y pethau hyn.

Pen.19.10.

9 Ac efe a ddywedodd wrthifi, gwêl na [wnelych] canys cŷd waſanaeth-wr wyfi i ti, ac i'th frodyr y prophwydi, a'r rhai ſy yn cadw geiriau y llyfr hwn, addola Dduw.

10 Ac efe a ddywedodd wrthifi, na ſelia eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn, canys y mae'r amſer yn agos.

11 Yr hwn ſydd anghyfiawn bŷdded anghyfiawn etto, a'r hwn ſydd frwnt bydded frwnt etto, a'r hwn ſydd gyfiawn bydded gyfiawn etto, a'r hwn ſydd ſanctaidd, bydded ſanctaidd etto.

12 Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frŷs, a'm gwobr ſydd gyd â mi, * i roddi i bôb dŷn yn ôl y byddo ei waith ef. Rhuf.2.6.

13 Myfi wyf Alpha ac Omega, * y dechreuad a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf. Esai.41.4.

14 Gwyn eu byd y rhai a wnelo ei orchymynnion ef, fel y byddo iddynt awdurdod ar bren y bywyd, ac y gallant ddyfod i mewn, trwy yr pyrth i'r ddinas.

15 Canys o'r tu allan y bŷdd y cŵn, a'r cyfaredd-wŷr, a'r putteinwŷr, a'r lloſruddiaid a'r delw-addolwŷr, a phôb vn a garo, neu a wnelo gelwydd.

16 Myfi Ieſu a ddanfonais fy angel i deſtiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr eglwyſi, myfi yw gwreiddin, a hiliogaeth Dafydd, a'r ſeren foreu eglur.

17 Ac y mae yr Yſpryd a'r briodaſ-ferch yn dywedyd tyret, a'r vn a wrandawo, dyweded, tyret, * a'r vn ſydd ſychêdig, deued: a'r vn a fynno cymmered ddwfr y bywyd yn rhâd, Esai.55.1.

18 Canys yr wyfi yn dangos i bôb vn a wrandawo eiriau prophwydoliaeth y llyfr hwn os rhydd nêb ddim at y pethau hyn, Duw a rŷdd atto ef y plâau ſcrifennedig yn y llyfr hwn. Deut.4.2. & 12.32. dihar.30.6.

19 Ac o thynn nêb ymmaith ddim o eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, Duw a gymmer ymmaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas ſanctaidd, ac oddi wrth y pethau a ſcrifennir yn y llyfr hwn.

20 Yr hwn ſydd yn teſtiolaethu y pethau hyn, ſydd yn dywedyd, yn ſiccr yr wyf yn dyfod ar frŷs: Amen, tyret tithe ô Arglwydd Ieſu.

21 Grâs ein Harglwydd ni Ieſu Grist fyddo gyd â chwi oll. Amen.

*I'r vnic Dduw y byddo'r gogoniant.*

7 Ac wedi darfod y mil o flynyddoedd, Satan a ollyngir allan o'i garchar:

8 Ac efe a aiff allan i dwyllo'r bobl y rhai ydynt yn mhedair congl y ddaiar, nid amgen
Ezec.39.1. *Gog a Magog, iw caſclu hwynt yng-hyd i ryfel, rhif y rhai ſy fel tywod y môꝛ.

9 Ac hwy a aethant i fynu i waſtad y ddaiar, y rhai a amgylchâſant babellau y ſainct, a'r ddinas annwyl, eithꝛ tân a ddeſcynnodd oddi wꝛth Dduw o'ꝛ nêf, ac a'u hŷſodd hwynt.

10 A diafol yꝛ hwn a'u twyllodd hwynt, a fwꝛiwyd i bwll o dân a bꝛwmſtan, lle y poenir y bwyſt-fil, a'r pꝛophwyd gau ddŷdd a nôs yn dꝛagywydd.

11 Ac mi a welais oꝛſeddfaingc fawꝛ wen, ac vn yn eiſtedd arni, oddi wꝛth ŵyneb yꝛ hwn y ffôdd y ddaiar a'r nêf, ac ni chaed moi lle hwynt mwy.

12 Ac mi a welais y meirw, fawꝛ a bychan yn ſefyll ger bꝛon Duw, a'r llyfrau a agoꝛwyd,
Vchod.3.5. iſod.21.27. philip.4 3. a *llyfr arall a âgoꝛwyd, yꝛ hwn ydyw [llyfr] y bywyd, a'r meirw a farnwyd wꝛth y pethau a oeddent yn ſcrifennedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithꝛedoedd hwynt.

13 A'r môꝛ a fwꝛiodd i fynu y meirw y rhai oeddent ynddo, a marwolaeth, ac vffern a roddaſant i fynu y meirw a oeddent ynddynt hwy, a barnwyd pawb yn ôl eu gweithꝛedoedd.

14 A marwolaeth, ac vffern a fwꝛiwyd i bwll tân, hon ydyw'r ail farwolaeth.

15 A phwy bynnag ni chafwyd yn ſcrifennedig mewn llyfr y bywyd, efe a fwꝛiwyd i bwll y tân.

## PEN. XXI.

3, 24 Gwynfydedig gyflwr y rhai duwiol. 8 37 A thruan helynt y rhai annuwiol. 11 A gwedd yr Ieruſalem nefol, ac am wraig yr Oen.

Eſai.65.17. & 66.22. 2.pet.3.13. Ac mi *a welais nêf newydd, a daiar newydd, canys y nef gyntaf a'r ddaiar gyntaf a aethant heibio, ac nid oedd môꝛ mwyach.

2 A myfi Ioan a welais y ddinas ſanctaidd Ieruſalem newydd yn deſcyn o'ꝛ nêf oddi wꝛth Dduw, wedi ei pharatoi fel pꝛiodaſ-ferch wedi ei thꝛwſſio iw gŵꝛ.

3 Ac mi a glywais lef vchel allan o'ꝛ nêf yn dywedyd, wele, [y mae] pabell Dduw gyd â dynion, ac efe a dꝛig gyd â hwynt, ac hwy a fyddant bobl iddo ef, a Duw ei hun a fydd gyd ag hwynt yn Dduw iddynt.

Vchod.7.17. Eſay 25.8. 4 *Duw a ſych ymmaith yꝛ holl ddagrau oddi wꝛth eu llygaid, ac ni bŷdd dim marwolaeth mwy, na thꝛiſtwch, na llefain, ac ni bydd dim poen mwy, canys y pethau cyntaf a aethant heibio.

5 A'r vn a eiſteddodd ar yꝛ oꝛſedd-faingc a ddywedodd, wele, yꝛ wŷf yn gwneuthur pôb beth yn newydd, ac efe a ddywedodd wꝛthif, ſcrifenna, canys y mae y geiriau hyn yn ffyddlon, ac yn gywir.

Vchod.1.8. Iſod 22.13. 6 Ac efe a ddywedodd wꝛthifi,* fe a ddarfu, myfi ŵyf Alpha ac Omega, y dechꝛeuad a'r diwedd, mi a roddaf i'r vn ſydd ſychedig o ffynnon dwfr y bywyd yn rhâd.

7 Yꝛ vn a oꝛchfyga a gaiff etifeddu y cwbl, ac mi a fyddaf Dduw iddo ef, ac yntef fŷdd fâb i minne.

8 Ond yꝛ ofnog a'r anghꝛedyniaid, a'r rhai ſceler, a'r llofruddion, a'r putteinwŷꝛ, a'r cyfaredd-wŷꝛ, a'r delw-addolwŷꝛ, a phôb celwyddog, eu rhan hwynt a fŷdd yn y pwll yꝛ hwn ſydd yn llosci o dân a bꝛwmſtan, yꝛ hwn ydyw yꝛ ail farwolaeth.

9 Ac vn o'ꝛ ſaith angel, y rhai oeddent â'r ſaith phiol gandynt yn llawn o'ꝛ ſaith blâ diwedaf a ddaeth attaf, ac a ymddiddanodd â mi, gan ddywedyd, tyꝛet, mi a ddangoſaf i ti y bꝛiodaſ-ferch gwꝛaig yꝛ Oen.

10 Ac efe am dygodd i ymmaith yn yꝛ Yſpꝛyd i fynydd mawꝛ, ac vchel, ac a ddangoſodd i mi y ddinas fawꝛ Ieruſalem ſanctaidd, yn deſcyn allan o'ꝛ nef oddi wꝛth Dduw.

11 A gogoniant Duw ganddi, a'i diſcleiriad hi oedd debyg i faen gwerthfawꝛŷſaf, megis maen Iaſpis eglur fel griſial.

12 Ac yꝛ ydoedd iddi fûr mawꝛ vchel, a deuddec poꝛth iddi, ac wꝛth y pyꝛth deuddec angel, ac henwau yn ſcrifennedig, y rhai ydynt deuddec-llwyth meibion Iſrael.

13 O du y dwyꝛain yꝛ oedd tri phoꝛth, o du y gogledd tri phoꝛth, o du y dehau tri phoꝛth, o du y goꝛllewyn tri phoꝛth.

14 A chaer y ddinas oedd â deuddec ſylfaen iddi, ac ynddynt hwy henwau deuddec Apoſtol yꝛ Oen.

15 Ac yꝛ ydoedd gan yꝛ vn a ymddiddanodd â mi goꝛſen o aur i feſuro y ddinas, ai phyꝛth hi, a'i chaer hi.

16 A'r ddinas a oſodwyd yn bedwar ochꝛog, a'i hŷd oedd gymmaint a'i llêd, ac efe a feſurodd y ddinas â'r goꝛſen, yn ddeuddeng-mîl ſtâd, a'i llêd a'i huchter ſŷdd yn ogymmaint.

17 Ac efe a feſurodd ei chaer hi, yn bedwar cufydd a ſaith vgain, wꝛth feſur dŷn, ſef meſur yꝛ angel,

18 Ac adeilad ei chaer hi oedd o faen Iaſpis, a'r ddinas oedd aur pûr, yn debyg i ŵydꝛ gloiw

19 A ſeiliau caer y ddinas oeddynt wedi eu harddu â phôb rhyw faen gwerthfawꝛ, y ſail cyntaf oedd maen Iaſpis, yꝛ ail o Saphyr, y trydydd oedd o faen Calcedon, y pedwêrydd o Smaragdus.

20 Y pummed Sardonix, y chweched Sardius, y ſeithfed Cryſolithus, yꝛ ŵythfed Beryl, y nawfed Topazius, y decfed Cryſopꝛaſus, yꝛ vnfed ar ddêc Hyacinthus, y deuddecfed, Amethyſtus.

21 A'r deuddec poꝛth deuddec perl oddent, a phôb poꝛth ſŷdd o vn perl, a heol y ddinas ſydd o aur pûr, fel gŵydꝛ diſclair.

22 Ac ni welais i vn deml ynddi, canys yꝛ Arglwydd Dduw holl-alluog, a'r Oen yw ei theml hi.

Eſai.60.19. 23 * Ac nid rhaid i'r ddinas wꝛth yꝛ haul, na'r lleuad i oleuo ynddi, canys y mae gogoniant Duw yn ei goleuo hi, a'r Oen yw ei goleuni hi.

Eſai.60.3. 24 * A'r bobl gadwedig a rodiant yn ei goleuni hi, a bꝛenhinoedd y ddiar a ddygant eu gogoniant a'u hanrhŷdedd iddi hi.

Eſai.60.11. 25 * Ac ni cheuir ei phyꝛth hi liw dŷdd, o blegit ni bŷdd dim nôs yno.

26 A gogoniant ac anrhyedd y cenhedloedd a ddygir iddi hi.

27 Ac nid aiff i mewn iddi i ddim aſlan, neu bêth bynnag a weithio ffieidwꝛa, neu gelwyddau, ond y rhai a ſcrifennwyd mewn llyfr bywyd yꝛ Oen.

## PEN. XXII.

1 Afon dwfr y bywyd, 2 Ffrwythlondeb a goleuni dinas Dduw. 6 Yr Arglwydd byth yn rhybuddio ei weiſion am bethau a ddaw, 9 Yr angel heb fynnu ei addoli. 18 Gair Duw nid iawn anghwanegu dim arno, na thynnu dim oddi wrtho.

AC efe a ddangoſodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd yn diſcleirio fel griſial, yn dyfod allan o oꝛſedd-faingc Duw, a'r Oen.

2 Ac yng-hanol ei heol hi, ac o ddau tu'r afon, yꝛ ydoedd pꝛen y bywyd, yꝛ hwn oedd yn dwyn deuddec rhyw ffrwythau, a rodde ffrwyth bôb mis, a dail y pꝛen a waſanaethe i iachau yꝛ cenhedloedd.

3 Ac ni fŷdd dim melldith mwy, ond goꝛſedd-faingc Duw a'r Oen a fŷdd ynddi hi, a'i waſanaeth-wŷꝛ a waſanaethant iddo ef.

4 Ac hwy a welant ei wyneb ef, a'i henw ef a fŷdd yn eu talcennau hwynt.

5 * Ac ni bŷdd yno ddim nôs, anid rhaid iddynt ddim canwyll, na goleuad yꝛ haul, canys yꝛ Arglwydd Dduw ſydd yn rhoi iddynt oleuni, ac hwy a deyꝛnâſant yn dꝛagywydd.

6 Ac efe a ddywedodd wꝛthifi, y eiriau hyn ſydd ffyddlon a chywir, ac Arglwydd Dduw y pꝛophwydi ſanctaidd a ddanfonodd ei angel i ddangos iw waſanaeth-wŷꝛ y petha ſy raid eu cyflawni ar frŷs,

7 Wele, yꝛ wyf yn dyfod ar frŷs gwyn ei fyd yꝛ vn a gadwo eiriau pꝛophwydoliaeth y llyfr hwn.

8 Ac myfi wyf Ioan, yꝛ hwn a welais, ac a glywais y pethau hyn, a phan ddarfu mi glywed, a gweled, * mi a ſyꝛthiais i lawr i addôli ger bꝛon traed yꝛ angel, yꝛ hwn a ddangôſodd i mi y pethau hyn. Pen.19.10.

9 Ac efe a ddywedodd wꝛthifi, gwèl na [wnelych] canys cŷd waſanaeth-wꝛ wyfi i ti, ac i'th frodyꝛ y pꝛophwydi, a'r rhai ſy yn cadw geiriau y llyfr hwn, addola Dduw.

10 Ac efe a ddywedodd wꝛthifi, na ſelia eiriau pꝛophwydoliaeth y llyfr hwn, canys y mae'r amſer yn agos.

11 Yꝛ hwn ſydd anghyfiawn bŷdded anghyfiawn etto, a'r hwn ſydd frwnt bydded frwnt etto, a'r hwn ſydd gyfiawn bydded gyfiawn etto, a'r hwn ſydd ſanctaidd, bydded ſanctaidd etto.

12 Ac wele, yꝛ wyf yn dyfod ar frŷs, a'm gwobꝛ ſydd gyd â mi, * i roddi i bôb dŷn yn ôl y byddo ei waith ef. Rhuf.2.6.

13 Myfi wyf Alpha ac Omega, * y dechꝛeuad a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf. Eſai.41.4.

14 Gwyn eu byd y rhai a wnelo ei oꝛchymynnion ef, fel y byddo iddynt awdurdod ar bꝛen y bywyd, ac y gallant ddyfod i mewn, trwy yꝛ pyꝛth i'r ddinas.

15 Canys o'ꝛ tu allan y bŷdd y cŵn, a'r cyfaredd-wŷꝛ, a'r putteinwŷꝛ, a'r llofruddiaid a'r delw-addolwŷꝛ, a phôb vn a garo, neu a wnelo gelwydd.

16 Myfi Ieſu a ddanfonais fy angel i deſtiolaethu i chwi y pethau hyn yn yꝛ eglwyſi, myfi yw gwꝛeiddin, a hiliogaeth Dafydd, a'r ſeren foreu eglur.

17 Ac y mae yꝛ Yſpꝛyd a'r bꝛiodaſ-ferch yn dywedyd tyꝛet, a'r vn a wꝛandawo, dyweded, tyꝛet, * a'r vn ſydd ſychêdig, deued: a'r vn a fynno cymmered ddwfr y bywyd yn rhâd, Eſai.55.1.

18 Canys yꝛ wyf yn dangos i bôb vn a wꝛandawo eiriau pꝛophwydoliaeth y llyfr hwn os rhydd nêb ddim at y pethau hyn, Duw a rŷdd atto ef y plâau ſcrifennedig yn y llyfr hwn. Deut.4.2. & 12.32. dihar.30.6.

19 Ac o thynn nêb ymmaith ddim o eiriau llyfr y bꝛophwydoliaeth hon, Duw a gymmer ymmaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, ac allan o'ꝛ ddinas ſanctaidd, ac oddi wꝛth y pethau a ſcrifennir yn y llyfr hwn.

20 Yꝛ hwn ſydd yn teſtiolaethu y pethau hyn, ſydd yn dywedyd, yn ſiccr yꝛ wyf yn dyfod ar frŷs: Amen, tyꝛet tithe ô Arglwydd Ieſu.

21 Gꝛâs ein Harglwydd ni Ieſu Gꝛiſt fyddo gyd â chwi oll. Amen.

*I'r vnic Dduw y byddo'r gogoniant.*

# Yſpyſrwydd i gael yr Epyſtolau, a'r Efengylon ar bob Sul, a gwyl: lle y mae y rhif neu y ffigur cyntaf ar ôl henw y *llyfr yn arwyddocau y bennod, a'r llall yr adnod, neu y wers lle y maent yn dechreu, ac y mae llun llaw yn dangos y* diwedd fel hyn ☞

¶ *O Adſent y Sul.*

1

YR Epyſtol 1.Rhuf.13.8
yr Efengyl Math.21.1

2

Yr Epyſtol Rhuf.15.4
yr Efengyl Luc.21 25

3

Yr Epyſtol 1.Cor.4 1
yr Efengyl Math.11.2

4

Yr Epyſtol Phil.4.4
yr Efengyl Ioa.1.19

¶ *Dydd Natalic.*

Yr Epyſtol Heb.1.1
yr Efengyl Ioa.1.1

¶ *Dygwyl Stephan.*

Yr Epyſtol Act.7.55
yr Efengyl Math.23.34

¶ *Dygwyl Ioan Efengylwr.*

Yr Epyſtol 1.Ioa.1.1
yr Efengyl Ioa.21.19

¶ *Digwyl y gwirioniaid.*

Yr Epyſtol Gwele.14 1
yr Efengyl Math.2.13

¶ *Ar y Sul gwedi y Natalic.*

Yr Epyſtol Gal.4.1
yr Efengyl Math.1.1

¶ *Dydd yr enwaediad.*

Yr Epyſtol Rhuf.4.8
yr Efengyl Luc.2.15

¶ *Digwyl yſtwyll.*

Yr Epyſtol Epheſ.3.1
yr Efengyl Math. 2.1

¶ *Gwedi yr yſtwyll y Sul.*

1

Yr Epyſtol Rhuf.12.1
yr Efengyl Luc.2.42

2

Yr Epyſtol Rhuf.12.6
yr Efengyl Ioh.2.2

3

Yr Epyſtol Rhuf.12 16
yr Efengyl Math.8.1

4

Yr Epyſtol Rhuf.13.1
yr Efengyl Math.8.23

5

Yr Epyſtol Coloſ.3.12
yr Efengyl Math.13.24

¶ *Septuageſima.*

Yr Epyſtol 1.Cor.9.24
yr Efengyl Math.20.1

¶ *Sexageſima.*

Yr Epyſtol 2.Cor.11.19
yr Efengyl Luc.8.4

¶ *Quinquageſima.*

Yr Epyſtol 1.Cor.13.1
yr Efengyl Luc.18.31

¶ *Y Dydd cyntaf o'r Grawys.*

Yr Epyſtol Ioel.2.12.
yr Efengyl Math. 6.16

¶ *O'r Grawys y Sul.*

1

Yr Epyſtol 2.Cor.6.1
yr Efengyl Math.4.1

2

Yr Epyſtol 1.Th[illegible]al.4.1
yr Efengyl Math.[illegible]21

3

Yr Epyſtol Eph.5.1
yr Efengyl Luc.11.14

4

Yr Epyſtol Gal.4 21
yr Efengyl Ioan.6.1

5

Yr Epyſtol Heb.9.11
yr Efengyl Ioa.8.46

6

Yr Epyſtol Phil.2.5.
yr Efengyl Math.26.1

¶ *Dydd llun cyn y Paſc.*

Yr Epyſtol Eſa.63.1
yr Efengyl Marc.14. 1

¶ *Dydd Mawrth.*

Yr Epyſtol Eſa.50.5
yr Efengyl Marc.15.1

¶ *Dydd Mercher.*

Yr Epyſtol Heb.9.16
yr Efengyl Luc.22.1

¶ *Dydd Iau.*

Yr Epyſtol 1.Cor.11.17
yr Efengyl Luc.23.1

¶ *Dydd Gwener.*

Yr Epyſtol Heb.10.1
yr Efengyl Ioa.18.1

¶ *Nos Paſc.*

Yr Epyſtol 1.Pet.3.17
yr Efengyl Math.27.57

¶ *Dydd y Paſc.*

Yr Epyſtol Col.3.1
yr Efengyl Ioa.20.1

¶ *Dydd Llun Paſc.*

Yr Epyſtol Act.10.34
yr Efengyl Luc.24.13

¶ *Dydd Mawrth Paſc.*

Yr Epyſtol Act.13.26
yr Efengyl Luc.24.36

¶ *Gwedi y Paſc y Sul.*

1

Yr Epyſtol 1.Ioa.5.4
yr Efengyl Ioa.20.19

2

Yr Epyſtol 1.Pet.2. 19
yr Efengyl Ioa.10.11

3

Yr Epyſtol 1.Pet.2.11
yr Efengyl Ioa.16.16

4

Yr Epyſtol Iac.1.17
yr Efengyl Ioa.16 5

5

Yr Epyſtol Iac.1 22
yr Efengyl Ioa.16.23

¶ *Dydd y Derchafel.*

Yr Epyſtol Act.1.1
yr Efengyl Marc.16.14

¶ *Y Sul gwedi y Derchafel.*

Yr Epyſtol 1.Pet.4.7
yr Efengyl Ioa.15.26

¶ *Y Sul Gwyn.*

Yr Epyſtol Act.2.1
yr Efengyl Ioa.14.15

¶ *Dydd llun y Sulgwyn.*

Yr Epyſtol Act.10.34
yr Efengyl Ioa.3.16

¶ *Dydd Mawrth y Sulgwyn.*

Yr Epyſtol Act.8.14
yr Efengyl Ia.10.1

¶ *Sul y Drindo*

Yr Epyſtol Gwe. .4.1
yr Efengyl Ioa 3.1

¶ *Gwedi y Drindod Sul cyntaf.*

1

Yr Epyſtol Ioa.4.7
yr Efengyl Ic 16.19

2

Yr Epyſtol Ioa.3.13
yr Efengyl Luc.14.16

3

Yr Epyſtol 1.Pet.5.5
yr Efengyl Luc.15.1

4

Yr Epyſtol Rhuf.8.18
yr Efengyl Luc.6.36

5

Yr Epyſtol 1.Pet.3.8
yr Efengyl Luc.5.1

6

Yr Epyſtol Rhuf.6.3
yr Efengyl Math.5.20

7

Yr Epyſtol Rhuf.6.19
yr Efengyl Marc.8.1

Yr Epyſtol Rhuf.8.12
yr Efengyl Math.7.15

9

Yr Epyſtol 1.Cor.10.1.
yr Efengel Luc.16.1.

10

Yr Epyſtol 1.Cor.12.1
yr Efengyl Luc.19.41

11

Yr Epyſtol 1.Cor.15.1
yr Efengyl Luc.18.9

12

Yr Epyſtol 2.Cor.3.4.
yr Efengyl Marc.7.31

13

Yr Epyſtol Gal.3.16
yr Efengyl Luc.10.23

14

Yr Epyſtol Gal.5.16
yr Efengyl Luc.17.11

15

Yr Epyſtol Gal.6.11
yr Efengyl Math.6.24

16

Yr Epyſtol Epheſ.3.13
yr Efengyl Luc.7.11

17

Yr Epyſtol Epheſ.4.1
yr Efengyl Luc.14 1

18

Yr Epyſtol 1.Cor.1.4
yr Efengyl Math.22.34

19

Yr Epyſtol Epheſ.4.17
yr Efengyl Math.9.1

20

Yr Epyſtol Epheſ.5.15.
yr Efengyl Math.22.2

21

Yr Epyſtol Epheſ.6.10
yr Efengyl Ioa.4.46.

22

Yr Epyſtol Phil. 1.3
yr Efengyl Math.18.21

23

Yr Epyſtol Phil.3.37
yr Efengyl Math.22.15

24

Yr Epyſtol Coloſ.1.3
yr Efengyl Math.9.18

25

Yr Epyſtol Ierem.23.5
yr Efengyl Ioh.6.5

¶ *Sanct Andreas.*

Yr Epyſtol Rhuf.10.9
yr Efengyl Math.4.18

¶ *Sanct Thomas Apoſt.*

Yr Epyſtol Epheſ.2.19
yr Efengyl Ioa.20.24

¶ *Troad Sanct Paul.*

Yr Epyſtol Act.9.1
yr Efengyl Math.19.27

¶ *Puredigaeth Mair.*

Yr vn Epyſt. a'r Sul o'r blaẽ
yr Efengyl Luc.2.22

¶ *S. Mathias.*

Yr Epyſtol Act.1.15
yr Efengyl Math. 11.25

¶ *Cenadwriaeth Mair neu cyfarchiad.*

Yr Epyſtol Eſa.7.10
yr Efengyl Luc.1.26

¶ *S. Marc.*

Yr Epyſtol Epheſ.4.7
yr Efengyl Ioh.15.1

¶ *S. Philip ac Iaco.*

Yr Epyſtol Iac.1.1
yr Efengyl Ioa.14.1

¶ *S. Barnabe.*

Yr Epyſtol Act.11.22
yr Efengyl Ioa.15.12

¶ *Ioan Fedyddwr.*

Yr Epyſtol Eſa.40.1
yr Efengyl Luc.1.57

¶ *S. Petr.*

Yr Epyſtol Act.12.1
yr Efengyl Math. 16.13

¶ *S. Iaco.*

Yr Epyſtol Act.11.27
yr Efengyl Math.20.20

¶ *S. Bartholomew.*

Yr Epyſtol Act.5.12
yr Efengyl Luc.22.24

¶ *S. Mathew.*

Yr Epyſtol 2 Cor.4.1
yr Efengyl Math.9.9

¶ *Mihangel.*

Yr Epyſtol Gwele. 12.7
yr Efengyl Math.18.1

¶ *S. Luc.*

Yr Epyſtol 2.Tim.4.5
yr Efengyl Luc.10.1

¶ *S. Simon ac Iud.*

Yr Epyſtol Iud.1.1
yr Efengyl Ioa.15.17

¶ *Digwyl yr holl ſainct.*

Yr Epyſtol Gwele.7.2
yr Efengyl Math.5.1

**TERFYN.**